NEDL TRANSFER
HN 6SLB K

Digitized by Google

Eye 210
KH26

Harvard College Library

BOUGHT WITH INCOME

FROM THE BEQUEST OF

HENRY LILLIE PIERCE,

OF BOSTON.

Under a vote of the President and Fellows,
October 24, 1898.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Y

GWYDDONIADUR CYMREIG.

Y GWAITH CENEDLAETHOL PWYSICAF

YN YR

Iaith Gymraeg.

Y RHAGYMADRODD, GYDA HANES BYWYD DR. PARRY, A SYLWADAU AR EI YSGRIFENIADAU,

GAN Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Digitized by Google

LLYTHYRAU O GANMOLIAETH I'R GWAITH.

It seems to me a Work of great promise.....I can conscientiously bid you good speed in the work, which seems to me as sound in doctrine as it is unsectarian in principle.

JOHN WILLIAMS,
Bognor, Sussex. *Archdeacon of Cardigan, &c.*

Y mae y gwaith yn dra theilwng o gefnogaeth oddi wrth bawb sydd yn dymuno yn dda i'w gwlad a'u cenedl.

Llundain. THOMAS PHILLIPS.

Llyfr tra rhagorol, yn debyg o fod o werth ac anrhydedd mawr i lenyddiaeth Gymreig, o ran ei gynnwysiad, a'r gwaith celfyddgar sydd arno.

Llanfyllin. DAVID MORGAN.

Y mae yn ymddangos i mi y bydd, pan ei gorphener, yn drysor ammhrisiadwy i Gymru. Y mae yn cyflenwi yn hollol ddiffyg mawr oedd, hyd yma, yn aros yn ein llenyddiaeth.

Llundain. OWEN THOMAS.

Dylai pob dyn ieuangc, gyda'r meddwl cyntaf am gael tŷ a theulu, feddwl hefyd am gael '*Y Gwyddoniadur*' i'w deulu, os bydd ynddo ddim awydd am iddynt 'weithio eu ffordd' yn anrhydeddus mewn unrhyw gylch o ddefnyddioldeb.

Llanbrynmair. SAMUEL ROBERTS.

Y mae y '*Gwyddoniadur*' yn llyfr sydd yn debyg o dynu sylw cyffredinol. Yr wyf yn penderfynu gwneyd unrhyw beth yn fy ngallu i hwyluso ei gyhoeddiad a'i gylchrediad.

Llandeilo. JOHN JONES, *Gwein. Wesleyaidd.*

Yr oedd yn llawen iawn genyf weled yr hysbysiad cyntaf am y '*Gwyddoniadur Cymreig*,' a da genyf chwanegu fod y llawenydd hyny wedi cynnyddu yn fawr iawn wrth ganfod y dull a'r modd y mae y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen. Yr wyf o galon yn dymuno i chwi bob llwyddiant gyda y fath anturiaeth bwysig.

Aberdâr. THOMAS PRICE.

Y mae y gwaith hwn yn ddigon *capable* i siarad drosto ei hun wrth bawb a'i darlleno. Gobeithiaf y cewch chwi a Mr. Parry estyniad oes i orphen y gwaith; yr hyn a fyddai i ni yn 'fywyd o feirw.'

Amlwch. WILLIAM ROBERTS.

Y fantais benaf a gynnygiwyd erioed yn ein hiaith, hyd yn hyn, i gyrhaedd trwyddi gydnabyddiaeth â phob cangen o wybodaeth gyffredinol, ydyw y '*Gwyddoniadur*'.....Daeth allan fel cawr grymus.

Liverpool. WILLIAM REES.

Bydd pob Cymro, a fedr, ond a esgeulusa ei dderbyn, yn ymddwyn yn eithaf anwladgarol, ac yn euog o daflu diystyrwch pechadurus ar y wybodaeth deilyngaf o sylw dyn.

Cendl. THOMAS REES.

Gallaf ddyweyd yn hyderus a chydwybodol fy mod yn edrych ar y gwaith hwn, os ä yn mlaen fel y mae wedi dechreu, fel y rhagoraf yn yr iaith Gymraeg.

Athrofa Pont-y-pool. T. THOMAS.

Y mae y rhanau sydd wedi dyfod allan yn cynnwys digon o brofion y gallwn gymmeryd yn ganiataol, pan y cwblheir ef, y bydd ei gronfa o wybodaethau y fath na chafodd y Cymry o'r blaen.

Bangor. JOHN PHILLIPS.

Hyderaf y bydd gan y dyn a feddianno '*Y Gwyddoniadur*' gyfaill gwybodus a pharod yn ei ymyl i ymgynghori âg ef, ac i gael hysbysrwydd a chyfarwyddyd ganddo bron ar bob mater ag y gall dyn feddwl am dano.

Liverpool. HENRY REES.

It appears to me, after having perused the two first parts, that the work is *exceedingly* well executed. When finished, it will be an *invaluable* treasure to the Welsh people.

Thrussington. JOHN OWEN, *Rural Dean.*

CYMMERADWYAETHAU Y WASG.

Yr Amserau.—'Nid oes yr un Cymro nad ydyw yn gwybod fod y fath lyfr heb ei gyhoeddi. Nid oes ond ambell Ddic-Sion-Dafydd o Gymro, chwaith, nad ydyw yn teimlo fod eisieu y fath lyfr.'

Y Bedyddiwr.—'Y mae yn un o'r llyfrau mwyaf pwysig, os nid y pwysicaf oll, a gyhoeddwyd erioed yn yr iaith Gymraeg.'

The Carnarvon Herald.—'We beg to recommend the Work to the most cordial support of all lovers of '*Cymru, Cymry, a Chymraeg.*'

Y Cronicl.—'Trysor o werth ammhrisiadwy—nid yn unig i Gymry yr oes yma, ond i Gymry yr oes a ddaw.'

Y Cylchgrawn Cymreig.—'Y mae yr hwn sydd wedi derbyn y '*Drysorfa*' o'r dechreuad wedi gwneyd cymmaint o orchest a derbyn '*Y Gwyddoniadur.*'

Y Diwygiwr.—'Y mae yn ddiau y gwna llyfr fel hwn les i'r Cymry.'

Y Drysorfa.—'Gellir disgwyl y bydd '*Y Gwyddoniadur*,' pan wedi ei gwbleiddio, yn goron gogoniant i lenyddiaeth Cymru. Y mae enw Mr. Parry, fel golygydd, yn sicrhâd i ni am deilyngdod yr holl erthyglau.'

Y Dysgedydd.—'Bydd yn drysorfa gyflawn o wybodaeth gyffredinol yn ei holl ranau a'i changhenau; yr hyn a wna y Gymraeg, fel cyfrwng gwybodaeth, mor gyflawn a chyfoethog a'r Saesneg. Bydd yr erthyglau ar ei brif faterion yn wreiddiol—nid yn gyfieithiadau.'

Yr Eurgrawn.—'Yr ydym yn cymmhell pob dyn ieuangc i fynu y llyfr hwn. Yna bydd ganddo lyfrfa gwerth ei dangos, pe na byddai ganddo un llyfr arall.'

Y Gwron.—'Daw y gweithwyr, drwy y llyfr hwn, yn gydnabyddus â syniadau gwŷr dysgedicaf yr oesoedd.'

Y Seren Gomer.—'Wele '*Wyddoniadur*' yn cael ei gynnyg gan gyhoeddwr anturiaethus—dysgedigion penaf Cymru yn ysgrifenu iddo—dan olygiaeth gŵr sydd yn deilwng o ymddiried y genedl; a phaham na chefnogwn y Gwaith?'

Y Traethodydd.—'Yn wir, y mae yr holl waith, o ran cynnwys, ymddangosiad, a phris—cyfansoddiad, pupur, argraphwaith, ffurf, a rhadlonrwydd—yn gyfryw ag yr ydym yn llawenychu ynddo, ac y teimlem ein hunain yn pechu yn erbyn llenyddiaeth, a chrefydd, ac anrhydedd ein cenedl, pe na byddai i ni wneyd a allem er ei argymmhell i'w sylw, a rhoddi ein holl ddylanwad yn mhlaid ei lwyddiant.'

Y Wasg.—'Erioed ni huliwyd y fath wledd o ddanteithion llenyddol ger bron ein cydgenedl ag a gynnygir yn awr yn '*Y Gwyddoniadur.*'

Digitized by Google

Digitized by Google

IDRISON.

1831.

W. Owen Pughe, D.C.L. — F.A.S.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

The Encyclopædia Cambrensis.

Y

GWYDDONIADUR CYMREIG:

GAN

YSGRIFENWYR ENWOCAF Y GENEDL.

DAN OLYGIAD

Y PARCHEDIG JOHN PARRY, D.D.,

BALA.

YR AIL ARGRAPHIAD,

YN CYNNWYS

ERTHYGLAU NEWYDDION, A'R MANYLION DIWEDDARAF AR Y TESTYNAU AMRYWIOL SYDD YN Y GWAITH.

DAN OLYGIAD

THOMAS GEE.

Cyf. EE.

DINBYCH:

ARGRAPHWYD A CHYHOEDDWYD GAN T. GEE A'I FAB.

MDCCCXC.

Digitized by Google

Cyc 210

HARVARD COLLEGE
OCT 4 1902
LIBRARY.

Pierce Fund

Digitized by Google

CYNNWYSIAD YR AIL GYFROL.

Ymddengys Erthyglau yn y tudalenau hyn ar wahanol Wledydd y Byd, &c., gyda ffigyrau â llythyrenau o'u blaen. Wrth ddefnyddio y cynllun hwn, yr ydym yn galiu rhoddi y manylion diweddaf am danynt ynglŷn â'r Mapiau sydd yn perthyn iddynt.

Yn tudal. viii., ceir Erthyglau o'r un natur, sydd yn syrthio dan lythyrenau pellach o'r wyddor, megys *Labrador*, D 190; *Manchooria*, C 337; y rhai a roddir yn y gyfrol hon o herwydd eu perthynas â'r mapiau.

Yn y gyfrol ddiweddaf, bydd *Taflen lawn* o'r holl Erthyglau fydd yn y Gwaith, wedi eu trefnu yn ol y wyddor, fel y bydd yn hawdd cael pob Erthygl fydd ynddo, yn mha gyfrol bynag yr ymddengys.

	Tudal.
Baxter, William	B 48
Beli	B 48
Benlli Gawr	B 48
Bevan, Thomas	B 48
Blair, Hugh	1
Blas	1
Blastus	2
Bleddyn ab Cynfyn	B 48
Bleddyn Ddu	B 48
Bleddyn Fardd	B 48
Bleiddyd	B 48
Blinder—au—og	2
Blino—fyd	3
Blodeu—yn	3
Bloesg—i—ni	3
Bloneg	3
Blwyddolion	3
Blwyddolion Eglwysig	4
Blwyddyn	4
Blwyddyn Sabbothol	6
Blys—iau—io	7
Boadicea, Boodicea, Bondicea	8
Boanerges	8
Boaz, neu Booz	8
Bocs, Bocys	9
Bochgern	9
Bochim	10
Bod, Boda	10
Bodleian Gwel Llyfrgell	10
Bodofyddiaeth Gwel Uchanianaeth	10
Boddhau	10
Boddi	10
Bœotia, neu Baetica	10
Boglyn—au	10
Bogomiliaid *Bogomili*, neu *Bogarmitæ*	11
Bohan	11
Bollandiaid *Bollandists*	12
Bol-lefariaeth *Ventriloquism*	12
Bolton, Robert, B.D.	12
Bolton, Samuel, D.D.	12
Bolltad—eidiau	12
Bona Dea	12
Bonaventura	29
Boncyff—ion	12
Bonedd y Saint	12
Boneddigaidd—eiddrwydd	30
Boniface, y Cyntaf	30
Boniface, Sant	30
Bonosiaid Gwel Photiniaid	30
Booth, Abraham	30
Boothroyd, Benjamin, D.D., LL.D.	31
Bord	31
Bore, Boreu	31
Boreas	32
Borith	32
Borreliaid *Borrelists*	32
Bosciaid *Bosci*	32
Bossuet, Jacques Benigne	32
Bost	34
Boston, Thomas	34
Bourignoniaid *Bourignonites*	34
Bourneaid *Bourneans*	34
Boyle, Robert	34
Boyle, Darlithiau *The Boylean Lectures*	36
Bozrah	36
Brad—wriaeth—au	37
Bradlofruddion Gwel Assassiniaid	37
Bradwardine, Thomas	37
Brahm	38
Brahma	39
Brahminiaeth Gwel Hindostan	39
Brahminiaid Gwel Hindostan	39
Braich	39
Brainerd, David	40
Braint	41
Brân, Brain	41
Brân Fendigaid	42
Brân nos	42
Brâs, Breision	45
Brasder	45
Brat—iau	45
Brawd, Brodyr	45
Brawdgarwch	46
Brawdle—oedd	46
Brawdoliaeth Duw	47
Brawdwr—wyr	47
Brazil	47
Breichled	49
Breiniol	49
Brenin, Brenhiniaeth	49
Brenhinoedd, Llyfrau y	51
Brethyn—au	53
Breuddwyd—io—ion	54
Bridge, William, A.C.	56
Bridgetiaid, neu Birgittiaid *Bridgetians*	56
Brochwel Ysgythrog	56
Brodyr Gwel Brawd	56
Brodyr a Chwiorydd yr Ysbryd Rhydd *Brethren and Sisters of the Free Spirit*	56
Brodyr a Llenorion y Bywyd Cyffredin *Brethren and Clerks of the Common Life*	57
Brodyr Angelaidd *Angelic Brothers*, neu *Gichtelians*, neu *Gichtellites*	57
Brodyr Bohemiaidd *Bohemian Brethren*	57
Brodyr Bychain *Fratricelli*	57
Brodyr Cycyllog *Capuchins*	57
Brodyr Duon *Black Friars*	57
Brodyr Gwynion *White Brethren*, neu *Fratres Albati*	57
Brodyr Lleiaf *Minimi*, neu *Minims*	57
Brodyr Llëyg	57
Brodyr Plymouth Gwel Plymouth, Brodyr	57
Brodyr Unedig *United Brethren*, neu *Unitas Fratum.*	57
Bron—au	59
Bronwen	59
Brothersiaid *Brothers, Richard, disciples of*	59
Brown, Thomas	60
Browne, Browniaid *Brownists*	62
Browne, Syr Thomas	63
Brud, Brudiaeth, Brudwyr Gwel Dewiniaeth	65
Brugleriaid *Brugglerians*	65
Brunswick Newydd	A 190
Brwmstan	65
Brwydr—au	65
Brwyn	66
Bryaniaid *Bryanites*	67
Brychan Brycheiniog	67
Brychan II.	67
Brychan III.	68
Brycheuyn—au—ni	68
Bryn Mawrth Gwel Areopagus	68
Bual—ail	69
Buchaniaid *Buchanites*	69
Buchedd—ol	69
Bucheddau y Saint Cymreig	70
Budhistiaeth—iaid *Buddhists*	71
Budneaid *Budneians*	73
Budr-elw	73
Buddug Gwel Boadicea	73
Buddugoliaeth—u	73
Bugail, Bugeiliaeth	73
Bugraphyddiaeth *Biography*	75
Bul	76
Bulwg	76
Bunyan, John	76
Burmah	80
Busiris	80
Butler, Joseph	80
Bŵa	86
Bŵa: yr Enfys *The Rainbow*	87
Bŵa Saethau Gwel Arfau	87
Bwcled	87
Bwch, Bychod *He-Goats*	87
Bwch Diangol *Scapegoat, Azazel*	88
Bwth, Bythod	89
Bwyd—ydd	89
Bwyd-offrwm	92
Bwycll—eill	92
Bwystfil—od	93
Bwyta	93
Byd	93
Bydoedd, lliosogrwydd *Plurality of Worlds*	95
Byddar—iaid	101
Byddin—oedd, Byddindrefniad	101
Bywhau	103

Digitized by Google

Tudal.
Bywoliaeth Eglwysig ... 103
Bywyd, Byw, Bywiol ... 106
Bywyd 106
Byzantium Gwel Constantinople 110

Cab Gwel Pwysau a Mesurau 111
Cabbalistiaid ... *Cabbalists* 111
Cabidwl 112
Cabledd yn erbyn yr Ysbryd Glân Gwel Ysbryd Glân 112
Cabol—i—wr 112
Cacwn, Cacynen *Hornets* 112
Cadach—au 112
Cadben 113
Cades 113
Cades-Barnea 113
Cadfan 114
Cadfridog 114
Cadmiel 114
Cadmoniaid 114
Cadmus 115
Cadnaw ... *Fox* 115
Cadwadogion ...Gwel Phylacterau 117
Cadwaladr ... 117
Cadwedigaeth Babanod Gw. Bedydd, Iachawdwriaeth.. 120
Cadwen 120
Cac—au 120
Caenen—au Gwel Gwlith, Manna 121
Caer—au—og 121
Caer-Arba, Ciriath-Arba ... 121
Caergaint *Canterbury* 121
Caergrawnt ...*Cambridge* 122
Caergrawnt, Prifysgol *Cambridge University* 122, ac o 420
Caergrawnt, Ysgrifyfr *Cambridge MSS.* 124
Caer-Husoth, Ciriath-Huzoth 121
Caersalem Gwel Ierusalem 124
Caeth—iwed, Cacthwas, a Cacthwasanaeth *Slavery* 124
Cacthgludiadau Israel ac Iudah 130
Cæsar 132
Cæsar Borgia, neu Cesare Borgia 133
Cæsar, Caius Julius ... 134
Cafell—au 141
Canghell 141
Canghellwr ... *Chancellor* 142
Canghellwr Eglwys neu Esgob *Bishop's Chancellor* 142
Canghellwr Eglwys Gadeiriol *Chancellor of a Cathedral*.. 142
Canghellwr y Brifysgol *Chancellor of the University* 142
Caiaphas 142
Caib 143
Cain 143
Cainan 145
Calamus 145
Calcedon 145
Caldea, Caldeaid ... 146
Caldea, Athroniaeth *Chaldean Philosophy* ... 148
Caleb 149
Caleb-Ephratah... ... 150
Calendar 150
Calendar Eglwysig ... 152
Calfaria 153
Calixtiniaid *Calixtins* 157
Calmet, Augustine ... 157
Calneh 157
Calno 158
Caloieriaid 158
Calon—au 158

Tudal.
Calvin, John 159
Calviniaeth ... *Calvinism* 165
Calypso 169
Call—ineb 169
Callestr 170
Cam 170
Camaldoliaid *Camaldolites* 170
Cambyses 170
Camel ... *Camel* 170
Cameleon ... *Chameleon* 173
Cameroniaid *Cameronians* 173
Cameroniaid *Cameronites* 174
Camisariaid ... *Camisars* 175
Campau *Olympic Games*, &c. 176
Campbell, George, D.D. ... 182
Campbelliaid Gwel Dysgyblion Crist 184
Camphor ... *Camphire* 184
Camphor yr Apothecari ... 184
Cân, Caniad—au ... 185
Cana 185
Canaan 186
Canaan, Gwlad ... Gwel Palestina 186
Canaaneaid 186
Canada 187
Caner ... D 190
Candace ... D 190
Caniad y Graddau ... 191
Caniadau Solomon ... 191
Canig 195
Canolfor, Môr y Canoldir ... 196
Canolfur 197
Canol-oesoedd ... Gwel Oesoedd Canol ... 198
Canon 198
Canon, Canonwr, 1. ... 208
Canon (rheol), 2. ... 208
Canones 209
Canonesau St. Awstin ... 209
Canonwr 209
Canrifau Magdeburg *Centuries of Magdeburg* ... 210
Canten=Cannen ... 210
Cantorion 210
Canu Marwnad 211
Canu Maswedd 211
Canwriad 212
Canwyll—au 212
Canwyllbren 212
Capel 214
Capernaum 215
Capiaid *Capmen, Caputiati* 216
Capitolium 216
Caplan 216
Cappadocia 216
Capuchiaid ... *Capuchins* 217
Caphtor 217
Cär, Ceraint 218
Caradog 218
Carai 222
Carbonariaid ... *Carbonari* 222
Carbwncl 222
Carchar—au—u... ... 222
Carchemis 223
Cardota—yn 223
Caregl ... *Chalice* 224
Carey, William, D.D. ... 224
Carfan 227
Cargiliaid ... *Cargillites* 227
Caria 228
Cariad 228
Cariad Brawdol... Gwel Brawdgarwch... ... 233
Cariad-wledd—oedd ... 233
Caritiaid ... *Karaites* 234
Carmel 235
Carmeliaid, neu Brodyr Gwynion *Carmelites, or White Friars* 263

Tudal.
Carmi 236
Carn, Carnedd 236
Carnaim Gwel Astaroth-Carnaim 238
Carnol—ion 238
Carog 238
Carol—au 238
Carolostadiaid *Carolostadians* 238
Carpocratiaid *Carpocratians* 238
Carpus 238
Cartesiaid ... *Cartesians* 238
Carthusiaid *Carthusians* 239
Carw 239
Cas—au—eion—ineb ... 241
Casidim, Chasidim, neu Dduwioliaid 241
Casiphia 241
Cassandra 241
Cassia, Casia 241
Cassius, Caius Longinus ... 242
Castalia *Castalius Fons* 242
Castell—u 242
Caste 242
Castor a Polux 243
Catabaptistiaid *Catabaptists* 243
Cataphrygiaid *Cataphrygians* 243
Cataw=Cado 243
Catecism Gw. Holwyddoreg 243
Cato, "y Doeth" Cato Fawr 244
Cattah, neu Cattath ... 244
Catwg (Ddoeth)... ... 244
Catyrfa 248
Cath—od 248
Cathari, neu Cathariaid *Catharists* 250
Cathl—au 250
Catholigiaid ... *Catholics* 250
Cawell—aid 251
Cawg—iau 251
Cawl—ion 251
Cawr—i 253
Caws 253
Cebar, neu Chebar ... 254
Cecrops 254
Cedar 254
Cedemah 254
Cedemoth 254
Cedes 254
Cedorlaomer 254
Cedron, neu Cidron ... 254
Cedrwydd 255
Ceffyl Gwel March 257
Ceg—au 257
Cegin—au 257
Cehelatha 257
Ceidwad—aid 257
Ceilah 258
Ceiliog—od 258
Ceiliog, Caniad y ... 259
Ceiliog Rhedyn *Grasshopper* 260
Ceiniog 261
Ceisiad—iaid 262
Ceithiaid ... *Keithians* 262
Celaiah, neu Celitah ... 262
Celain 262
Celestiniaid ... *Celestins* 262
Celfi 263
Celfydd—yd—au ... 263
Celfyddydau, Graddau yn y 268
Celtiaid *Celtæ*, neu *Celtes* 268
Celu... 273
Celubia Gwel Caleb 273
Celwrn—yrnau—aid ... 273
Celwydd—wr 273
Cellitiaid ... *Cellites* 274
Cemariaid, Chemariaid ... 274
Cen 274
Cenad—wr—aeth Gwel Cymdeithasau Cenhadol... 274
Cenan Gwel Cainan 274

Digitized by Google

Tudal.
Cenaniah 274
Cenath 274
Cenawon 274
Cenaz 274
Cenchrea 274
Ceneaid 274
Cenedl 275
Cenedlaeth—au, Achyddiaeth *Genealogy* 275
Cenedldraith Gwel Dyn ... 281
Cenedloedd 281
Cenedloedd, Gwasgariad y *Dispersion of Nations* ... 281
Cenedlu, Cenedliad ... 288
Ceneziaid 290
Cenfaint 291
Cenfigen—au 291
Ceni 292
Cenin 292
Cenllysg 292
Cephas 292
Cerbyd 292
Cerdoniaid ...*Cerdonians* 295
Cerddoriaeth 295
Attodiad cyntaf ... 308
Ail Attodiad ... . F 308
Trydydd Attodiad . I 308
Pedwerydd Attodiad . K 308
Cerethiaid ... . M 308
Cerfio, Cerflunio . M 308
Cerinthus, Cerinthiaid *Cerinthians* ... M 308
Cerith 309
Cern, Cernwst, Cernodio ... 309
Cerub—iaid ... *Cherubim* 309
Cerwyn—i 315
Cerydd—u 315
Cesail, Ceseiliau ... 315
Cesair Gwel Cenllysg 315
Cesarea 315
Cesis... 318
Ceturah 318
Ceudod—au 318
Ceuffos—ydd 318
Ceulo 318
Chalmers, Thomas ... 318
Charles, David 324
Charles, Thomas ... 327
Charnock, Stephen, B.D. ... 332
China 323
Chrysostom, John . D 337
Ci, Cŵn 341
Cibau 348
Cibroth-Hattaafah ... 349
Cibsaim 349
Cicaion 349
Cicaion Gwyllt 350
Cicero 350
Ciconia ... *Stork* 354
Cig 356
Cigfran 356
Cigwain—ciniau ... 356
Cilddant—ddannedd ... 356
Cilgwthio 357
Cilhamiaid 357
Cilicia 357
Cilmad 357
Cinah 357
Cniaw 357
Cinnereth, neu Chinnereth, neu Chinneroth ... 357
Cir 357
Ciriath 357
Ciriathaim 358
Ciriath-Arbah, neu Caer-Arbah 358
Ciriath-Arim 358
Ciriath-Baal 358
Ciriath-Husoth, neu Caer-Husoth 358

Tudal.
Ciriath-Jearim 358
Ciriath-Sannath ... 358
Cis 358
Cison 358
Cision 359
Cist 359
Cistertiaid ... *Cistertians* 360
Citron 360
Cittim, Chittim... ... 360
Ciwdawd—dodau .. 360
Ciwn 363
Cladded igaeth, Cladd u ... 364
Cladd fa—le ...Gwel Bedd 366
Cladd ogof *Catacomb*... 366
Clafr—llyd 367
Clai 367
Clarke, Adam, LL. D. ... 367
Clarke, Dr. Samuel ... 369
Claudia, a hanes Cristionogaeth yn Mhrydain am y ganrif gyntaf *Claudia, and the History of Christianity in Britain in the first Century* 371
Claudius Lysias... ... 385
Clawdd, Cloddiau ... 385
Clawdd Offa 386
Cleddyf 388
Clefyd—au 389
Clement, Romanus ... 389
Clement, o Alexandria ... 392
Clementiniaid *Clementines* 393
Cleopatra 393
Cleophas 394
Cleophas, neu Cleopas ... 394
Clindarddach 394
Clô 394
Cloch 395
Cloch Babaidd 399
Cloe 399
Cluder, Cludeiriau ... 399
Cludydd Arfau 400
Clun—iau 400
Clust 400
Clust-dlws 402
Clustog—au 402
Clwyf y Marchogion ... 402
Clyd—wr 402
Clynin, Celynin... ... 403
Cnaif—eifio-wyr ... 403
Cnap—iau 403
Cnau 403
Cnawd—ol—rwydd ... 403
Cnidus 405
Cnipperdolingiaid ... 405
Cnoi 405
Cnu 405
Cnwd—ydau 405
Coch—ion—i 405
Cochl 405
Cod 405
Coed—ydd 406
Coedwig 406
Coegion 407
Coelbren 407
Coelbren y Beirdd *Bardic Alphabet* 408
Coelgrefydd *Superstition* 525
Coelicolæ Gw. Nefaddolwyr 413
Cŏf 414
Cofiadur—on 416
Cofiaid—eidio 416
Coflech 416
Coflyfr 416
Cog—au—esau 417
Cogail, Cogel—eiliau ... 417
Cogfran 417
Coginiaeth 418
Cogwrn 417
Congl 418

Tudal.
Conglfaen 418
Cohath 418
Col—ion 418
Colaiah 419
Colchis, neu Colchos ... 419
Coleg ... *College* 419
COLEGAU CENEDLAETHOL CYMRU:
Coleg Aberystwyth ... 420
Coleg Bangor ... . C 420
Coleg Caerdydd... . C 420
COLEGAU ENWADOL CYMRU:—
Coleg Coffadwriaethol Annibynol Aberhonddu . D 420
Coleg Annibynol y Bala . E 420
Coleg yr Annibynwyr yn Mangor ... . F 420
Coleg y Bedyddwyr yn Hwlffordd ... . G 420
Coleg y Bedyddwyr yn Llangollen ... . G 420
Coleg y Bedyddwyr yn Mhont-y-pool... . H 420
Coleg y Methodistiaid yn y Bala .. . I 420
Coleg y Methodistiaid yn Nhrefecca ... . K 420
Coleg Dewi Sant, Llanbedr H 420
Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin ... . L 420
COLEGAU NORMALAIDD CYMRU:—
Coleg Abertawe... . L 420
Coleg Bangor ... . M 420
COLEGAU LLOEGR:—
Colegau Rhydychain . N 420
Colegau Caergrawnt . N 420
Colegau amrywiol . O 420
Colegau Duwinyddol Eglwys Loegr ... . O 420
Colegau Annibynwyr Lloegr O 420
Colegau Bedyddwyr Lloegr O 420
Colegau y Methodistiaid Wesleyaidd yn Lloegr . O 420
Colegau Presbyteriaid Lloegr O 420
Coleg yr Undodwyr . O 420
Coleg yr Iuddewon . O 420
Colegau Prifysgolion y Boneddigesau .. . O 420
Colegau Boneddigesau . O 420
Coleridge, Samuel Taylor . O 420
Colofn—au 430
Colomen 432
Colossa 435
Coludd—ion 440
Columbia Brydeinig . C 190
Colyn—au 440
Collen 441
Colladwy, Colledigaeth ... 441
Complutensian Polyglott Gw. Adgyweiriad, Beibl, &c. 441
Concordia 441
Concwerwr—wyr ... 442
Condemnio—iad ... 442
Cononiaid ... *Cononites* 443
Constantinople 443
Consuriaeth—wyr *Exorcism* 446
Copi 447
Copyn, y Pryf 447
Cor—au—awl ... *Choir* 449
Cŏr-gantoraeth *Choral service* 449
Cŏr-ganu Gw. Cŏr-gantoraeth 450
Corah 451
Coran Gwel Alcoran 451
Coraniaid 451
Corazin 451
Corban 451
Corbys 452
Cordelieriaid, Cortynwyr ... 452
Corddi 452

Digitized by Google

Tudal.
Cordicoliaid *Cordicoles*, neu *Cordia-Latras* ... 452
Core ... Gwel Corah 452
Corea ... D 337
Coresgob ... 452
Corph ... 453
Coriander ... 457
Corinth ... 458
Corinth, Culdir ... *Isthmus of Corinth* ... 458
Corinth, Sinus ... 458
Corinthiaid, yr Epistol Cyntaf at y *First Epistle to the Corinthians* ... 460
Corinthiaid, yr Ail Epistol at y *Second Epistle to the Corinthians* ... 465
Coriolanus, Cnæus (neu Caius) Martius ... 466
Corlan ... 467
Corn, Cornucopia ... 467
Cornaristiaid ... *Cornarists* 468
Cornchwiglen ... *Lapwing, Peewit, Green Plover* ... 468
Cornelius ... 469
Cornelu ... 471
Cornet ... 471
Cornwyd, Pla y ... *Pestilence, Plague* ... 472
Coron—au ... 478
Coroniad, Coronedigaeth ... 481
Coronig ... 481
Corpus Christi ... 483
Corpus Juris Civilis ... 485
Corsen—au, Cyrs ... 485
Corsydd ... 489
Cortynau, Corteni ... 489
Corus ... 489
Corwynt—oedd ... 489
Corynfoeledd ... 495
Cos, Coos ... 495
Cosp ... Gwel Cyfraith 496
Costrel ... 496
Cotwm, Cotwn ... 497
Cozbi ... 503
Cragen, Cregyn, Cregyniaeth Gwel Pysg ... 503
Craig, Creigiau Gw. Daiareg 503
Craig, John, D.D. ... 503
Crair, Creiriau ... *Relics* 503
Creadigaeth, Cread ... 506
Credo yr Apostolion *Apostles' Creed* ... 518
Credo Nicaia *Nicene Creed* 520
Credo Sant Athanasius ... 519
Crefydd ... 520
Crefyddau y Byd Gwel dan eu gwahanol enwau ... 525
Crefydd-dy Gwel Mynachdy 525
Crescens ... 525
Creta ... 525
Cretiaid ... 527
Creulawn ... 529
Creulondeb ... 529
Creyr ... 529
Cribddeiliwr ... 530
Crimea, neu Crim Tartary ... 530
Crin—o ... 531
Crisial—u ... 532
Crisialu ... 532
Crispus ... 533
Crist ... 533
Crist, yr Athrawiaeth am ei Berson, a'i waith ... 538
Cristionogaeth ... 546
Cristionogion, neu y "Cymmundeb Cristionogol" ... 556
Cristionogion St. Ioan *The Christians of St. John* ... 556
Cristionogion St. Thomas ... 556

Tudal.
Crocodil ... 557
Crochan—au ... 559
Crochenydd ... 559
Croen ... 560
Croes ... 561
Croesgad, Crwysgawd *Crusades* ... 565
Croesiaid, Crwysiaid *Croisers* 572
Crôg, Gŵyl, Gŵyl y Grôg, Dyrchafiad y Grôg *Holy Cross Day* ... 572
Cronglwyd ... 572
Crombil, Cromil ... 572
Cromlech ... 572
Cromwell, Thomas ... 576
Cromwell, Oliver ... 577
Croniel, Llyfrau y *The Books of Chronicles* ... 589
Croth.. ... 592
Cruden, Alexander ... 592
Crwybr Gwel Dil mêl 595
Crwysydd, Croesiedydd ... 595
Crychneidio ... 596
Crychni ... 596
Crynwyr, Cyfeillion *Quakers* 596
Crysolithus, Chrysolithus ... 602
Crysoprasus, Chrysoprasus ... 602
Cucumer ... 602
Cudd-Galviniaid ... 603
Cuddlofruddion ... Gwel Assassiniaid ... 603
Cufydd ... *Cubit* 603
Culdwys, Culdeaid *Culdees* 604
Culni ... 604
Curad ... 604
Curad parhaus ... 604
Cus ... 605
Cusan—au—u ... 607
Cusan-Risathaim ... 608
Cusi 608
Cuwsan ... Gwel Cus; Ethiopia ... 608
Cudworth, Ralph ... 609
Culverwel, Nathaniel ... 609
Cwartus ... 612
Cwcwll, Cycyllau ... 612
Cwhwfan, Cyhwfan ... 612
Cwinin ... 612
Cwmwl, Cymmylau *Cloud* 613
Cwningen, Cwningod ... 614
Cwrel, Gwylar ... *Coral* 615
Cwpan ... 615
Cwsg ... 616
Cwymp, Y ... 618
Cŵyr ... 626
Cŵys ... 626
Cybydd-dod ... 626
Cyd-doriad ... 628
Cyd-ddinasyddion ... 628
Cydfwyta ... 628
Cydgynnulliad ... 629
Cydorwedd ... 629
Cydwybod ... *Conscience* 629
Cyfaddasiad, 1 a 2 *Accommodation* ... 636
Cyfaill—eillion—garwch ... 640
Cyfaint ... 641
Cyfammod ... *Covenant* 641
Cyfammodau, Hanes Athrawiaeth y *History of the Doctrine of the Covenants* 648
Cyfammodwyr *Covenanters* 649
Cyfarch—iad—au ... 653
Cyfattebiad ... *Analogy* 703
Cyfattebiaeth Ieithoedd ... 655
Cyfattal ... 655
Cyfathrach—u—wr—wraig .. 655
Cyfddydd ... 655
Cyfeddach ... 655
Cyfeiliorn—i—us—ad ... 656

Tudal.
Cyfeillion Gwel Crynwyr 656
Cyfiawn *Just, Righteous* 656
Cyfiawnder *Justice, Righteousness* ... 657
Cyfiawn, Cyfiawnder, Cyfiawnhâd, Cyfiawnhau ... 661
Cyfieithiad—au *Translations, Versions* ... 674
I. Y Deg a Thrigain *Septuagint*=LXX. ... 675
II. Y Syriaidd *Syriac Version* ... 679
III. Yr Ethiopaidd *Ethiopic Version* ... 681
IV. Yr Arabaidd *Arabic Version* ... 681
Cyflawnder ... 683
Cyflwr—yrau ... 685
Cyfnesaf—iad ... 686
Cyfnewid—iad—wyr ... 686
Cyfnos ... 686
Cyfoedion ... 686
Cyfoeth ... 686
Cyfoethog—ion ... 687
Cyfraid—eidiau ... 687
Cyfraith *Law* 691
Cyfraith Wladol—ei Natur a'i Hegwyddorion ... 692
Cyfraith Moses ... 697
Cyfran—au ... 702
Cyfranog—ion ... 702
Cyfranu—iad ... 702
Cyfreithiwr—wyr ... 702
Cyfrif—Cyfrifiad *Imputation* 703
Cyfriniaeth ... *Mysticism* 713
Cyfryngiad Augsburg *Augsburg Interim* ... 710
Cyfryngwr ... *Mediator* 719
Cyffes, Cyffesiad ... 724
Cyffes Augsburg ... 725
Cyffes Brandenburg ... 730
Cyffes Ddirgel *Auricular Confession* ... 730
Cyffes Ffydd Gwel Ffydd 730
Cyffesgell ... 730
Cyffion ... 730
Cyffredin, Pob peth yn *Socialism* ... 731
Cyffredniaeth *Catholicism* 732
Cyffredinolwyr *Universalists* 740
Cynghor—ion—wr—wyr ... 744
Cynghorwr—iaid ... 746
Cynghor—fa—au *Councils, Synods* ... 747
Cynghrair a Chyfammod Difrifol *Solemn League and Covenant* ... 687
Cynghrair Efengylaidd *Evangelical Alliance* ... 688
Cynghrair Sanctaidd *Holy Alliance* ... 690

Labrador ... D 190

Manchooria ... C 337
Manitoba ... C 190
Mongolia ... D 337

Newfoundland ... D 190
Nova Scotia ... B 190

Ontario a Quebec ... A 190

Tibet ... D 337
Tiriogaethau y Gogledd-Orllewin ... C 190
Turkestan Orllewinol, neu Tartary ... D 337

Ynys y Tywysog Edward ... B 190

Digitized by Google

Y GWYDDONIADUR.

BLAIR, HUGH: pregethwr enwog yn perthyn i Eglwys Sefydledig Scotland. Ganwyd ef yn Edinburgh yn 1718, a threuliodd un mlynedd ar ddeg yn mhrifysgol y ddinas hono. Tra y bu yno, mabwysiadodd gynllun o ddarllen ac efrydu y derbyniodd fawr les trwyddi, yr hon a ddilynai, i fesur, trwy ei oes; sef gwneyd crynodeb o bob llyfr pwysig a ddarllenai, yn enwedig o lyfrau hanesyddol. Gwnaeth daflenau amseryddol manwl, yn nodi holl ddygwyddiadau pwysig hanesiaeth. Eangwyd y rhai hyn, a chyhoeddwyd hwynt dan arolygiad ei gyfaill, Dr. John Blair, yn ei waith ar *Amseryddiaeth a Hanesiaeth y Byd.* Derbyniodd drwydded i bregethu yn 1741; ac yn fuan wedi hyn, dechreuodd yn Colessie, yn Fifeshire; ond dychwelodd yn ol i Edinburgh, a bu yn gweinidogaethu yn eglwys y Canongate. ac yn eglwys Lady Yester; ac oddi yno symmudwyd ef i'r High Church, yr hyn a ystyrir y dyrchafiad uchaf a allasai gael yn yr Eglwys Bresbyteraidd. Yn yr eglwys hon y bu hyd ei farwolaeth. Yn 1757, gwnaed ef yn ddoctor duwinyddiaeth; ac yn 1762, yn gadeirdraw areitheg a cheinddysg; ond rhoddodd y swydd hon i fyny, ar gyfrif gwendid corfforol, yn 1783. Ennillodd boblogrwydd mawr trwy ei bregethau, yn Mhrydain ac ar y Cyfandir. Cyhoeddwyd pum cyfrol o'i bregethau, y rhai a gyfieithwyd i amryw o ieithoedd y Cyfandir. Anfynych y mae cyfrol o bregethau yn cyrhaedd cylchrediad eang; ond yr oedd pregethau Blair yn eithriad, a bron os nad yr unig eithriad yn llenyddiaeth Scotland, heb law pregethau Dr. Chalmers. Y mae y darllenydd deallgar, wrth agor y tudalenau hyn, yn awr yn teimlo syndod fod cyfansoddiadau mor amddifaid o athrylith a nerth meddyliol wedi cael derbyniad a phoblogrwydd mor anghyffredin ar eu dyfodiad o'r wasg. Yn ei feirniadaeth arnynt, dywed John Foster, fel rheswm dros hyn, eu bod yn meddu rhyw ragoriaethau. Y cyntaf ydyw, nad ydynt yn rhy hir: a rhoddir y rheswm hwn ganddo yn gyntaf o herwydd fod pob darllenydd yn dueddol i edrych pa beth ydyw hyd pregeth cyn dechreu ei darllen. Yr ail ydyw, fod y rhagymadrodd yn gyffredin yn bur briodol, os nad dim yn hynod, ac yn arwain rhag blaen at raniad naturiol o'r testyn. Chwanega hefyd fod yr iaith yn gywir ac yn eglur; a bod y drychfeddyliau yn gyffredin yn perthyn i'r mater. Ond pa beth sydd yn yr ansoddau hyn, y rhai y gall pob dyn o synwyr a chwaeth eu cyrhaedd, a'r cyntaf heb chwaeth, i esbonio y fath boblogrwydd ag a gafodd y pregethau hyn yn eu dydd byr, ydyw y dirgelwch. Diau eu bod yn ddyledus am hyn, nid ychydig, i'w cyfaddasrwydd i'r amseroedd. Yr ydoedd yn oes o deimlad bas a ffydd wan, ac o amaethiad llenyddol nid bychan, ond arwynebol. Ni chawsai arddangosiad nerthol o wirioneddau hanfodol Cristionogaeth ond ychydig o ddarllenwyr; ac nid allasai dim yn ffurf pregeth, mor wrthwynebol oedd yr archwaeth cyffredinol, gael derbyniad yn mhlith dosbarth dysgedig y wlad, oddi eithr iddo gael ei arganmawl trwy swyn iaith archwaethus. Yr oedd y pregethau hyn yn meddu y ddau beth angenrheidiol i ennill derbyniad iddynt. Mae gwirioneddau yr efengyl yn cael eu harddangos ynddynt mewn dull mor gynnil a theneu, fel nad oeddynt mewn perygl i wrthdaro yn erbyn syniadau crefyddol y lluaws; ac heb law hyny y mae y cyfansoddiad yn llyfn a choeth, yr hyn oedd yn beth anghyffredin i'w glywed o'r pulpud. Nid oes ddiffyg difrifoldeb yn y pregethau hyn, ac nid ydynt weithiau heb ddadgan mewn geiriau eglur brif egwyddorion trefn y prynedigaeth. Ond yn fynych iawn mae yr awdwr yn traethu fel pe byddai wedi eu hanghofio. Yr oedd Blair yn gynnrychiolwr y blaid gymmedrol (*moderate party*) yn Eglwys Scotland, yr hon a gyhuddid gan y blaid efengylaidd o fod heb roddi digon o arbenigrwydd i athrawiaethau gwahaniaethol trefn yr efengyl, ac yr un pryd o fod heb eu gwadu. Ar brydiau, fe ymddengys fel yn sylfaenu gobaith a chysur yn angeu ar iawn Crist; ond bryd arall, pan yn cyfeirio at yr amgylchiad hwnw, a'r teimladau priodol iddo, y mae yn osgoi y gwirionedd hwn, ac yn sylfaenu y cyfan ar fywyd rhinweddol. Nid ydyw egwyddorion moesol Cristionogaeth ychwaith yn cael eu cadw yn ddilwgr ganddo bob amser, heb eu cymmysgu âg ysbryd y byd.

Ffrwyth ei lafur fel cadeirdraw ydyw ei ddarlithiau [*Lectures on Rhetoric and Belles Lettres*]. Mae y rhai hyn wedi cael derbyniad mor gyffredinol bron a'i bregethau, ac ystyrid hwy yn hir fel y prif waith ar egwyddorion cyfansoddiad a beirniadaeth yn y Seisoneg. Ond nid ydynt yn uwch fel cynnyrchion meddwl na'i bregethau; ni ddangosant gydnabyddiaeth eang a manwl gydag ysgrifenwyr hen na diweddar ar yr un materion, ac ni chynnwysant ond ychydig o eglurhad ar yr egwyddorion ymarferol sydd yn dyfod o fewn cylch ei drafodaeth. Dywed Dr. Whately, archesgob Dublin, wrth gyfeirio at *Philosophy of Rhetoric* Dr. Campbell—"nid yw mor boblogaidd ag ydyw gwaith Dr. Blair, ond y mae yn annhraethol ragorach nag ef, nid yn unig mewn dyfnder meddwl ac ymchwiliad gwreiddiol a chywrain, ond hefyd mewn defnyddioldeb ymarferol i'r efrydydd."—(*Hill's Life of Dr. Blair.*)

BLAS, [Saes., *taste*]. Y tafod ydyw prif, ond nid unig, offeryn blas. Y mae ei gyfansoddiad

Digitized by Google

yn gywrain, a'i swyddau yn amrywiol. Y mae yn gynnwysedig o dair haen o fân edafedd cyhyrol (*muscular fibre*), y rhai sydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir y cyhyrau *tufewnol*, i'w gwahaniaethu oddi wrth y cyhyrau *allanol*, y rhai sydd yn gweithredu ar y tafod, ac mewn cyssylltiad âg ef, er nad yn rhan uniongyrchol o'i sylwedd, fel y cyhyrau tufewnol. Y mae mân edafedd yr haen uchaf ac isaf yn rhedeg ar eu hyd (*longitudinally*), o flaen y tafod hyd ei wreiddyn; rhwng y rhai hyn y mae yr haen arall sydd yn ffurfio prif sylwedd y tafod, yn gynnwysedig o fân edafedd sydd yn rhedeg ar draws ac yn wyrog. Y mae asgwrn bychan yn gynnwysedig o bum rhan wahanol, y rhai a elwir *hyoid*, oddi wrth eu cyffelybrwydd i'r lythyren *v* (Groeg), yn gorwedd dan groen yr arwyneb uchaf, a thua ei wreiddyn:—rhydd hwn gadernid a chynnaliaeth iddo, a hefyd bwyntiau i gyssylltu y cyhyrau allanol wrthynt.

Gorchuddir yr holl dafod â philen lysnafeddog (*mucous membrane*). Dan y tafod y mae y bilen hon yn rhydd, ac yn ymffurfio yn blygion, ac felly yn cyssylltu y tafod â chig y dannedd ac â'r llyncfa (*gums and fauces*). Ar yr ochr uchaf y mae y bilen hon wedi ei gorchuddio â didenau (*papillæ*), neu fân fronau o wahanol ffurf a llun. Y mae rhwydwaith cywrain o fân lestri teneuon, ac o fân-edafedd (*nerve fibres*), yn gwasgaru gwaed dros yr holl arwyneb, ac yn galluogi y tafod i deimlo ac *archwaethu blas*. Y mae gewynau ereill i lywodraethu ysgogiadau y tafod, yr hyn yw eu swydd benodol.

Heb law bod yn brif offeryn i brofi blas, y mae y tafod yn gynnorthwy i gnoi, llyncu, a chwarem y llais.

Fel nas gall yr arogliad gael effeithio arno ond trwy gyfrwng yr awyr, felly nis gall yr archwaethiad dderbyn blas os na bydd y gwrthddrych mewn cyflwr *llaith*. Felly, nid yw sylweddau sych, er i'r tafod fod yn llaith—na sylweddau gwlyb, os bydd y tafod yn sych, yn effeithio arno trwy y synwyr o deimlad fel yr effeithiant ar ranau ereill y croen. O herwydd hyn y parotöir cyflawnder digonol o aliw neu boer trwy lestri priodol a elwir chwarenau (*glands*), a thrwy yr aliw hwn y teneuir neu y toddir y sylwedd er mwyn cael ei flas. Nid yw pob rhan o'r tafod mor deimladwy o flas pethau a'u gilydd. Pe dodid brws bychan o flew camel mewn halen, gwinegr, a sylweddau ereill, gan ei gymhwyso at wahanol ranau y tafod, ceid gwybod yn fanwl pa ranau sydd fwyaf a lleiaf teimladwy o flas peth. Yn y modd hwn yr ydys wedi cael fod y gwefusau, y tu fewn i'r bochau, cig y dannedd, croen y taflod caled, a thua hanner blaen y tafod, i fesur mawr, os nad yn gwbl amddifad o archwaeth; a bod y teimlad bywiocaf o flas yn y rhan bellaf o'r tafod, ar y wyneb uchaf, ac ar y wyneb isaf, yn enwedig y tu blaen.

Os cymmysgir sylweddau blasus â gormod o ddwfr, ni chynnyrchant ddim effaith. Nis gellir profi blas sugr, os bydd wedi ei doddi mewn ychwaneg na 100, neu o hyny i 140, o ranau o'i swm ei hun. Y mae halen cyffredin yn gofyn cymmaint arall. Cymmer *sulphuric acid* 3,000 neu 4,000 o weithiau ei swm ei hun; *aloes*, 3,000; *quinine*, 4,000. Ond y mae gwahanol bersonau yn fwy teimladwy o flas na'u gilydd, a'r un person mewn gwahanol ansoddau o iechyd. Y mae ymarferiad ac addysg yn bywiogi yr archwaeth at flas. Cenfydd y rhai sydd yn profi gwinoedd a thê, i ddybenion masnachol, wahaniaethau sydd yn hollol annheimladwy i creill. Y mae arferiad a rhagfarn yn effeithio yn fawr ar yr archwaeth; ac mewn llawer o amgylchiadau, cyfnewidiant neu dileant yr hyn sydd yn ymddangos yn archwaeth naturiol, trwy beri teimlad o hyfrydwch mewn blas pethau afuont unwaith yn hollol wrthwynebol. Y mae sylweddau llygredig a drygsawrus yn flasus gan rai, er yn wrthodedig gan y lluaws. Arferai George I. achwyn fod "wystrys Lloegr yn rhy ffres."

Y mae ychydig o bethau ereill nodedig yn y teimlad o flas. Os rhoddir dau sylwedd o flas gwahanol, ond o nerth cyfatebol, at ddwy ran gyfartal y tafod, profir y naill yn hytrach na'r llall; ond os cymmysgir hwynt, bydd y blas yn gymmysg yn mhob rhan o'r tafod. Y mae i rai sylweddau adflas sydd yn gwahaniaethu oddi wrth y blas cyntaf.

Y mae y gallu i ddewis o drysorau natur yr hyn sydd yn ofynol i'w tyfiant, ac i wneyd i fyny am ddifrod angenrheidiol bywyd, yn perthyn i lysiau ac anifeiliaid; ac y mae hyn yn un o'r nodweddau sydd yn eu gwahaniaethu oddi wrth sylweddau ereill. Nid yw yn amlwg pa fodd y gwneir hyn mewn llysiau. Y mae y dylanwad dirgelaidd sydd yn llywodraethu eu hegnïon at hyn yn ymddangos mor wahanol oddi wrth attyniad fferyllaidd ag ydyw oddi wrth reddf anifeilaidd; er mewn rhai amgylchiadau, ymddengys fel yn cyfranogi o'r ddau. Gwneir y gwahaniaethiad angenrheidiol gan anifeiliaid o'r graddau isaf trwy deimlad; ond nid yw yn ymddangos fod adar, pysg, nac ymlusgiaid, yn cael fawr o gymhorth trwy deimlad at *flas*; o herwydd yn y cyffredin o honynt y mae y tafod wedi ei orchuddio â chroen tew o natur corn.

Mewn pedwar-carnolion y mae y pleser a geir mewn bwyta yn cael ei gyfyngu at foddhau chwant bwyd ac angenrheidiau natur. Y mae llawer o honynt yn llyncu eu hymborth yn gyfan: teifl y ci ef i lawr heb ei brofi; ac er fod yr ych yn cnoi y cil, eto nid cymmaint er ei adbrofi, ond er ei ailgnoi.

Cyfyngir yr hyfrydwch o deimlo blas bron yn hollol i ddyn; ond y mae wedi ei gyfranu i greadur rhesymol, er mwyn ei ddefnyddio yn rhesymol. Y mae y terfynau o fewn pa rai y cyfyngir y pleser a'r boen a weinyddir trwy gyfrwng y synwyr o archwaethiad ac arogliad yn gul iawn i'n dysgu i beidio gosod ein dedwyddwch ynddynt; gan nad oes bron unrhyw flas nac arogliad mor wrthwynebol na wna arferiad ef yn ddyoddefol, os nad yn hyfryd. Y mae ambell flas ac arogliad yn symbylu y gewynau, ac yn codi yr ysbrydoedd; ond y mae pob dyrchafiad annaturiol o'r fath yn cael ei ddilyn yn ol deddfau natur âg iselder cyfatebol, nas gellir ei symmud ond mewn amser, neu trwy fynychu yr un symbyliad. Trwy arferiad â'r fath bethau, yr ydys yn ereu awydd iddynt, sydd yn debyg i, ac yn meddu grym, chwant naturiol. Yn y modd hwn y mae dynion yn creu awydd at dreflwch, myglys, gwirodydd poethion, *laudanum*, a'r cyffelyb.

BLASTUS: ystafellydd y brenin Herod Agrippa, ar yr hwn yr oedd gofal ei ystafell wely: *Act.* xii. 20. Mae y cyfryw ddynion yn meddu dylanwad mawr gyda'u harglwyddi yn aml; ac am hyny yr oedd o'r fath bwys i wŷr Tyrus a Sidon ennill Blastus i gymmeryd eu plaid gyda'r brenin.

BLINDER—AU—OG: lludded, trallod, gorthrymder; lluddedig, diffygiol. Yr hwn a eilw

Digitized by Google

Marc yn "flinder neu erlid o achos y gair" (*pen.* iv. 17) a eilw Matthew "gorthrymder neu erlid o blegid y gair;" *pen.* xiii. 21. Mae yr un gair yn cael ei gyfieithu *gofid*, ac yn cael ei briodoli i wewyr a thristwch gwraig wrth esgor: *Ioan* xvi. 21. "Trallod;" *Rhuf.* ii. 9. "Adfyd;" *Iago* i. 27. Gwahoddir pechaduriaid fel rhai "blinderog a llwythog" i ddyfod at Grist am ymwared oddi wrth bechod—yr achos o'u holl drueni.

BLINO—FYD: trafferthus, gofidus; gorthrymder, trallod; gofidio, gorthrymu, diffygio. Cwynai Duw fod yr Iuddewon annuwiol, trwy eu cyflawniadau crefyddol rhagrithiol, yn ei flino ef;—"Y maent yn faich arnaf, blinais yn eu dwyn;" *Esa.* i. 14. Nid ydym i ddeall wrth ymadrodd fel hwn fod unrhyw wendid, neu anmherffeithrwydd yn yr Arglwydd; canys yn yr ystyr hwnw "Ni ddiffygia ac ni flina Duw tragwyddoldeb;" *Esa.* xl. 28. Ond y mae yr ymadrodd yn arwyddo fod y cyfryw ymddygiad rhagrithiol yn dra fflaidd yn ei olwg, a'i fod yn penderfynu ymweled â hwy yn ei farn o'r herwydd.

BLODEU—YN: yr oedd amrywiaeth a chyflawnder mawr o flodau yn Mhalestina; ac, fel y sylwa Dr. Hamilton, nis gallwn ddarllen yr Ysgrythyrau Sanctaidd, heb gael ein hargyhoeddi fod yr Hebreaid yn bobl a gymmerent hyfrydwch mawr mewn meusydd gwyrddion a blodau, mewn coedwigoedd, perllanau, a gerddi. Ceir dau gant a hanner o enwau llysieuaidd yn nhestyn gwreiddiol yr Hen Destament, y rhai a grybwyllir yn achlysurol, nid mewn traethawd neilldiol ar wyddoniaeth lysieuaidd; ond yn ei barddoniaeth, eu hanesiaeth, a'u cyfreithiau—yr hyn sydd brawf digonol o'r haeriad blaenorol. Er mor wrthwynebol oeddynt i bob rhyw gerfiaeth ac eiluniaeth, yr hyn a allasai mewn un modd gael ei ddefnyddio yn achlysur i eilunaddoliaeth, gwnaent eithriad gyda golwg ar hyn; canys yr oedd blodau, yn unigol ac yn blethiadau, a ffrwyth y pren pomgranad, wedi eu cerfio, yn gwneyd i fyny ran arbenig o addurniadau eurfaidd y deml. Gardd yr Arglwydd ydoedd Gwlad Canaan unwaith, ac o dan ei fendith ef yr ydoedd yn dra chynnyrchiol a phrydferth. "Gwlad dda" ydoedd, "gwlad afonydd dyfroedd, ffynnonau, a dyfnderau, yn tarddu allan yn y dyffryn, ac yn y mynydd; gwlad gwenith, haidd, a gwinwydd, a ffigyswydd, a phomgranadwydd; gwlad olew olewydden, a mel; gwlad, yr hon y bwytei fara ynddi heb brinder, ac ni bydd eisieu dim arnat ynddi;" *Deut.* viii. 7, 8, 9. Nid rhyfedd, gan hyny, fod blodau a phlanwydd yn cael eu defnyddio yn gyffelybiaethol mor fynych yn nghyfansoddiadau ei hawduron. Ac er fod anwireddau y trigolion wedi tynu barn ddwyfol hyd yn oed ar y wlad, fel y mae llawer o'r ffynnonau wedi sychu, a'i gwinwydd a'i ffigyswydd wedi eu diffrwytho mewn cymhariaeth, eto clywir suad y wenynen ddiwyd ar lethrau peraroglaidd Carmel, ac y mae y sypiau duon o olewydd yn Gethsemane yn dyferu gan frasder: ac er cymmaint o anrheithio a fu ar y wlad, nid yw holl gedrwydd Libanus wedi eu dyfetha eto. Gwelir y pren almon yn blodeuo ar lan yr Iorddonen yn awr, ac fel nenlen arianaidd yn dysgleirio yn mhelydr haul gwanwyn digymylau, megys pan y darfu i ymddangosiad ei flodau canaid ar geinciau diddail gymhell i feddwl Solomon gyffelybiaeth gymhwys i ddysgrifio dynesiad henaint. Mae Iericho eto yn enwog fel "dinas y palmwydd," fel yn yr hen amser: 2 *Cron.* xxviii. 15. Nid yw Saron yn awr heb ei rosynau ysblenydd; ac yn agos i fynydd y Gwynfydau, gwelir yr un rhywogaeth o lili gorwych ag y galwai yr Athraw mawr sylw ei ddysgyblion atynt ddeunaw can mlynedd yn ol, fel yn harddach eu gwisgoedd na Solomon yn ei holl ogoniant.

BLOESG—I—NI: attal-dywedyd, siarad âg attal arno; heb siarad yn eglur. Yn *Esa.* xxviii. 11, cawn yr Arglwydd yn bygwth llefaru wrth yr Iuddewon "â bloesgni gwefusau, ac â thafodiaeth ddyeithr." Yr oedd yr Arglwydd wedi arfer y tiriondeb mwyaf atynt fel cenedl, gan anfon ei weision atynt i gyfranu addysg iddynt bob yn ychydig ac ychydig, fel pe buasent fabanod; ond ymgaledu yr oeddynt yn eu hannuwioldeb, gan watwar cenadau y Goruchaf, a diystyru eu cenadwri. Yn *adn.* 9, y mae y prophwyd yn eu dwyn i fewn, ac yn dysgrifio eu gwatwaredd ar Dduw a'i addysg. "I bwy y dysg efe wybodaeth? ac i bwy y pâr efe ddeall yr hyn a glywo? i'r rhai a ddiddyfnwyd oddi wrth laeth, y rhai a dynwyd oddi wrth y bronau. Canys rhoddir gorchymyn ar orchymyn, gorchymyn ar orchymyn; llin ar lin, llin ar lin; ychydig yma ac ychydig acw. Canys â bloesgni gwefusau, ac â thafodiaeth dyeithr y llefara efe wrth y bobl hyn." Cyfieithir y geiriau uchod fel y canlyn gan y Parch. J. Jones, blaengeiniad Eglwys Crist, Rhydychain:—"Pwy (meddynt) y dysgai efe wybodaeth iddynt? ac i bwy y mynai efe gyfranu addysg? Ai babanod diddyfnedig oddi wrth laeth ydym? prin wedi eu tynu oddi wrth y bronau? Canys y mae yn orchymyn ar orchymyn, gorchymyn ar orchymyn; llinell ar linell, llinell ar linell; ychydig yma ac ychydig acw. Ie, yn ddiau, trwy lefarwyr mewn iaith ddyeithr, ac mewn tafod estronol y llefara efe wrth y bobl hyn."

Esa. xxxii. 4; "Calon y rhai ehud hefyd a ddeall wybodaeth, a thafod y rhai *bloesg* a brysura lefaru yn eglur." Cyflawnid y brophwydoliaeth yma mewn rhan dan deyrnasiad Hezeciah, yr hwn oedd yn dra gofalus am i'w ddeiliaid gael addysg gyfaddas yn mawrion bethau Duw; ond megys nad oedd Hezeciah fel brenin namyn cysgod o Grist, gwir frenin cyflawnder, y mae yr hyn a ragfynegid am effeithiau daionus ei deyrnasiad ef i gael cyflawniad helaethach a pherffeithiach dan deyrnasiad Crist; ac fel y sylwai Lowth,—"Cyfrana Duw oleuni ei wirionedd yn helaeth i ddynion, gan roddi gras iddynt i wneyd defnydd da o'r addysg a fwynhânt. Y rhai ydynt wan yn y ffydd a gynnyddant i raddau perffeithiach o wybodaeth. Y mwyaf anwar ac anllythyrenog, y rhai nis gallent lefaru yn ddealladwy, a draethant yn eglur a synwyrol am Dduw a'u dyledswydd." Gellir cymhwyso y geiriau yn briodol at ddychweliad cenedloedd anwaraidd, a'u gwaith yn moliannu Duw yn eu hamrywiol ieithoedd.

BLONEG: brasder, brasder mochyn, brasder dyn, &c.; *Salm* cxix. 70. "Cyn frased a'r bloneg yw eu calon;" neu, yn ol darlleniad Boothroyd, yr hwn a ddilynai Michaelis, gan roddi y synwyr allan yn hytrach na chyfieithiad llythyrenol o'r geiriau,—"Eu calon sydd amddifad o bob teimlad."

BLWYDDOLION, y gelwid mynegiadau hanesyddol, wedi eu trefnu yn ol y blyneddoedd, yn hytrach nag yn ol yr amgylchiadau eu hunain.

Digitized by Google

BLWYDDOLION EGLWYSIG. Mae yr enwog Cicero yn un o'i lyfrau yn crybwyll defod oedd mewn arferiad yn mysg y Rhufeiniaid, o seiliad y wladwriaeth hono hyd amser Publius Marius; sef, y byddai yr archoffeiriad yn flyneddol yn arfer ysgrifenu adroddiad o helyntion y flwyddyn, a gosod yr adroddiad ysgrifenedig ar ryw lech yn gyhoeddus yn ei dŷ, lle y gallai y bobl ei ddarllen. Yr oedd y Marius uchod yn archoffeiriad yn nechreu y seithfed canrif o seiliad Rhufain. "Dyma," medd Cicero, "y coflyfrau, y rhai a alwn ni yn bresennol, yr *Armales Maximi*"=y blwyddolion mawrion. Y mae yn debyg mai at y blwyddolion hyn y cyfeiria Livy yn fynych dan yr enw *Commentarii Pontificum*, neu "Arnodiadau yr archoffeiriad;" ac mai hwynthwy a olygai Dionysius, dan yr enw "Coflechau cyssegredig." Oddi wrth bob crybwylliadau a feddwn am danynt, gallwn gasglu nad oeddynt namyn crybwyllion byrion iawn o brif helyntion y flwyddyn: ac yn ol y cyffelyb gynllun, dybygid, yr arferai yr haneswyr Groegaidd a Rhufeinig, ar y cyntaf, gyfansoddi eu hadroddiad o helyntion cyhoeddus.

Y blwyddolion eglwysig enwocaf ydynt yr eiddo Cæsar Baronius, yr hwn oedd yn gardinal dysgedig yn Eglwys Rhufain. Y gwr hwn a anwyd yn Sora, tref esgobawl yn nheyrnas Naples, ar yr 31ain o Hydref, 1538. Ei dad, Camillo Baronio, a'i fam, Porzia Febonia, oeddynt yn hanu o deuluoedd pendefigaidd. Cyrhaeddodd Baronius enwogrwydd mawr fel llenor llafurus a dysgedig, ac yn enwedig fel ymchwiliwr llwyddiannus i henafiaethau eglwysig. Dechreuodd ar ei brif waith, *Y Blwyddolion Eglwysig*, pan yn ddeng mlwydd ar ugain oed, a pharhaodd i gasglu a threfnu ei ddefnyddiau dros ddeng mlynedd ar ugain. Cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r gwaith hwn, yr hon a gynnwysai flwyddolion y canrif cyntaf wedi Crist, yn y flwyddyn 1588; a'r ddeuddegfed, a'r olaf, yr hon a derfynai gyda'r flwyddyn 1198, a argreffid yn y flwyddyn 1607, pan oedd Paul v. yn y gadair Babaidd. Mae y deuddeg cyfrol yma yn cynnwys hanesiaeth deuddeng oes gyntaf yr eglwys. Gadawai Baronius ddefnyddiau tri chyfrol yn chwaneg ar ei ol, y rhai a ddefnyddid gan Raynaldus [*Odorico Rinaldi*] yn ei barhad o *Flwyddolion Baronius*. Gwnaed chwanegiad arall at y *Blwyddolion* uchod, i fyny hyd y flwyddyn 1572, gan un Bzovius, yr hwn a gyhoeddid mewn naw cyfrol unplyg, rhwng y blyneddoedd 1616 a 1672. Ac yn y flwyddyn 1639, cyhoeddwyd dwy gyfrol unplyg ereill yn Paris, yn y rhai y dygid y blwyddolion eglwysig hyd y flwyddyn hono.

BLWYDDYN, [*bal—gwydd; bal*=toriad allan, *gwydd*=prenau; *the budding of trees*]:

> Blwyddyn a blwyddynedd ydyw llawer o flyneddoedd.
> *Welsh Laws.*

> Y naill flwyddyn a fydd mam i ddyn, ac y llall a fydd ei elltrewyn.—*Diar. Cym.*

> One year is a man's mother, and the other will be his step mother.—*Cyf. Dr. Pughe.*

Llad., *annus* (cylch); Gr., ενιαυτος (*eniautos*= rhyw beth sydd *yn dychwelyd iddo ei hun* yn gyffelyb i gylch). Yn yr ieithoedd Teutonaidd, o ba rai y tardd y Seisoneg, *year*, er anghraifft, dywedir fod y gair yn tarddu o *yra*, sydd yn arwyddo cylch neu fodrwy yn y Swedaeg, ac a gyssylltir fe ddichon â'r Llad. *gyrus*, o gyffelyb ystyr. Y cyfnod o amser yw a benderfynir gan y ddaiar yn ei chylchred (*orbit*), neu y cyfnod a gymmerir i fyny gan yr haul i gyflawnu un cylch cyflawn yn mhlith y ser, ac yn cynnwys y pedwar tymmor. Hon ydyw *blwyddyn yr haul*, neu y flwyddyn mewn ystyr priodol. Os cyfrifir yr ysgogiad blyneddol hwn o'r amser y mae yr haul yn gadael rhyw seren benodol hyd nes y dychwel drachefn at yr un seren, gelwir y cyfnod hwn yn *flwyddyn seryddol*, a'i hyd ydyw 365*d.* 6*a.* 9*m.* 9·6*eil.* Ond os dechreuir cyfrif o'r amser y mae yr haul yn gadael cyhydedd y gwanwyn (*vernal equinox*), neu y pwynt pan y mae yr haul yn union yn y canol rhwng pegwn y gogledd a phegwn y de, ac felly y dydd a'r nos yr un hyd, hyd nes y dychwelo i'r pwynt hwnw drachefn, gelwir yr ysbaid hwn yn *flwyddyn y cyhydedd* (*tropical year*), a'i hyd ydyw 365*d.* 5*a.* 48*m.* 49·7*eil.* Mae blwyddyn y cyhydedd felly ychydig fynydau yn llai na'r flwyddyn seryddol; a'r rheswm am hyn ydyw, nad yw albanau y gwanwyn a'r cynauaf (sef y pwynt a grybwyllir uchod, pryd y mae yr haul yn croesi y cyhydedd) yn sefydlog fel y ser, ond yn symmud yn *ol* neu i'r *gwrthwyneb* i ysgogiad yr haul, ac felly y mae yr haul yn eu cyfarfod ychydig yn gynt na phan y cyfarfyddodd hwynt ddiweddaf. Os cyfrifir cylchdro yr haul o'r amser y mae agosaf at y ddaiar, hyd nes y daw yno eilwaith, gelwir y flwyddyn yn *anghytartal* (*anomalistic*); ac yn ol y dull yma o'i chyfrif, y mae yn hwy na'r flwyddyn seryddol, o herwydd fod y pwynt (*perigee*=daiar-nesafiant) lle y mae yr haul yn dyfod agosaf at y ddaiar yn ei gylchdro yn symmud yn *mlaen* neu yn yr un cyfeiriad a'r haul, ac felly y mae yr haul ychydig yn hwy yn ei ddal. Hyd y flwyddyn hon ydyw 365*d.* 6*a.* 13*m.* 49*eil.* Gan fod y tymmorau yn *ymddibynu* ar symmudiad yr haul o'r ochr ddeheuol i'r ochr ogleddol o'r cyhydedd, ac yn croesi y cyhydedd yn y gwanwyn a'r hydref, fel y dywedwyd, *blwyddyn y cyhydedd* a feddylir, pan na ddefnyddir ond y gair *blwyddyn*, heb un ansoddair yn nglyn âg ef.

Yr Aiphtiaid, yn ol Herodotus, a honent yr anrhydedd o fod wedi cael allan gyntaf fod y flwyddyn yn gynnwysedig o 365 o ddyddiau, neu yn agos. Dosbarthent hi i ddeuddeg rhan cyfartal, o 30 niwrnod bob un, a chwanegent bum niwrnod yn niwedd y flwyddyn, "ac felly y mae cylch y tymmorau yn dyfod o gwmpas."—*Herod.*, ii. 4. Ymddengys fod gan yr Iuddewon hefyd ddull cyffelyb o gyfrif amser yn bur fore; o herwydd dywedir fod y dylif, yr hwn a barhaodd am gant a hanner o ddyddiau (*Gen.* vii. 24), wedi parhau o'r 17eg o'r ail fis (*Gen.* vii. 11), hyd yr 17eg o'r seithfed mis (*Gen.* viii. 4); ac y mae hyn yn bum mis o ddeg ar ugain o ddyddiau bob un.

Blwyddyn wedi ei phenderfynu fel yn gynnwysedig o nifer penodedig o ddyddiau a elwir yn *flwyddyn wladol* (*civil year*), neu flwyddyn yr amseroni neu y calaniadur. Ac un o'r ymdrechiadau cyntaf mewn gwledydd sydd yn gwneyd unrhyw ymhoniad i sefyllfa wareiddiedig, ydyw ceisio penderfynu hyd y flwyddyn wladol, fel ag i'w chyssoni â'r flwyddyn naturiol, neu flwyddyn y tymmorau. Ond yn ol y drefn uchod o gyfrif, ni ddeuai cylch y tymmorau o gwmpas yn rheoladdd. Y mae hyd y flwyddyn yn agos i 365 a *chwarter* o ddyddiau. Pe defnyddid 365 o ddyddiau, mewn pedair blynedd dechreuai y flwyddyn ddiwrnod yn rhy fuan, wrth ei chymharu â'r haul a'r lleuad; ac mewn trigain o flyneddoedd, dechreuai bymtheng niwrnod yn rhy fuan; yr hyn nid allai lai na thynu sylw. Ni chytunai y

Digitized by Google

flwyddyn wladol felly â blwyddyn y tymmorau:—*cre-pirai* dechreuad y flaenaf i wahanol dymmorau yr olaf, yn lle parhau yn sefydlog.

Nid yw yn hysbys pwy yn gyntaf a ddeallodd fod blwyddyn o 365 o ddyddiau yn rhy fyr; ond yr oedd y wybodaeth o hyn yn bur gyffredinol yn mysg cenedloedd gwareiddiedig, a defnyddiwyd amryw ddyfeisiau i'w gywiro. Yn fwyaf cyffredin, cyflawnwyd y diffyg, fel y gwneir genym ni, trwy chwanegu diwrnod at Chwefror bob pedwaredd flwyddyn, neu y flwyddyn *naid*. Y mae hyn yn anghraiffi o'r dull o gyfarfod y diffyg, trwy ddyddiau chwanegol (*intercalary days*). Chwanegai y Mexiciaid 13 o ddyddiau yn niwedd 52 o flyneddoedd. Caniatâai yr Aiphtiaid i'r flwyddyn wladol grwydro, o leiaf, mor bell ag y perthynai i'w defodau crefyddol. Ni ddewisent i'r un aberthau gael eu hoffrymu i'r duwiau yn wastadol ar yr un amser o'r flwyddyn, ond yn hytrach i'r un ŵyl ddygwydd haf a gauaf, gwanwyn a chynauaf. Yr ysbaid yn mha un y rhedai yr un ŵyl trwy holl dymmorau y flwyddyn ydyw 1461 o flyneddoedd; o herwydd y mae 1460 o flyneddoedd cynnwysedig o 365¼ o ddyddiau yn gyfartal â 1461 o flyneddoedd yn cynnwys 365 o ddyddiau. Y mae yr ysbaid hwn o 1461 o flyneddoedd yn cael ei alw y *cylnod Sothiac* (*Sothiac*), oddi wrth Sothis, enw Seren y Ci (*Sirius*) yn ol yr hon y penderfynwyd eu blwyddyn *sefydlog*.

Ni ddefnyddiai cenedloedd ereill ddyddiau chwanegol ar ol ysbeidiau byr, ond gwnaent *dawygiadau*, pan fyddai hyny yn angenrheidiol. Dywedir i'r Persiaid chwanegu mis o 30 o ddyddiau bob 120 o flyneddoedd. Diwygiwyd y cyfrif Rhufeinig gan Numa, a rhoddai gyfarwyddiadau i hyn gael ei wneyd gan yr offeiriaid pan yn angenrheidiol; ond ar ryw gyfrifon neu gilydd, ni wnaed hyny yn iawn, a'r canlyniad fu i'r cyfan syrthio i annhrefn erbyn amser Julius Cæsar. Yn ol cyfarwyddyd Sosigenes, gorchymynodd ef chwanegu un diwrnod mewn pedair blynedd—y dull sydd wedi cael ei gadw genym ni hyd yn bresennol. Ac er mwyn cywiro yr annhrefn blaenorol, chwanegodd 90 o ddyddiau at flwyddyn o'r hyd cyffredin, yr hyn a fu yn achlysur o'r hyn a elwir *blwyddyn y gymmysgedd*. Daeth y *Calaniadur Juliaidd*, neu y diwygiad uchod, i ymarferiad Ionawr 1af, c. c. 45. Y mae y flwyddyn Juliaidd yn cynnwys 365*d.* 6*a.*: ond rhaid i'r flwyddyn wladol, er mwyn cyflenadra, dechreu gyda diwrnod, a chynnwys nifer penodol o ddyddiau cyfain; felly y mae hon, sef y flwyddyn wladol, neu flwyddyn y calaniadur, yn cynnwys 365*d.*, a phob pedwaredd flwyddyn 366*d.*, a hon a elwir yn *flwyddyn naid*.

Y mae y crefyddau Iuddewig, Cristionogol, a Mahometaidd yn trefnu eu gwyliau fwy neu lai yn ol y lleuad. Ac yn neenreuad ymgais dynion i gyrhaedd gwybodaeth gywir ar y materion hyn, y mae yn haws cyfrif amser wrth y lleuad nag wrth yr haul, am fod ei hymddangosiadau hi yn fwy tarawiadol, a'i chylch yn llai, ac felly yn haws i'w cymharu â'u gilydd. Ond nid yw y mis yn cynnwys nifer penodol o ddyddiau, gan fod ynddo fwy na 29 o ddyddiau, a llai na 30. Y mae naw ar ugain a deg ar ugain, bob yn ail fis, yn cadw dyddiau y mis i gytuno yn hir âg ymddangosiadau y lleuad. Mabwysiadodd y Groegiaid y cyfrif hwn, gan ystyried dyddiau y mis yn ddangosiad o gyfnewidiadau y lleuad: a'r diwrnod olaf o'r mis a alwent *ενη και νεα*—"yr hen a'r newydd;" fel yn perthyn i'r lleuad oedd yn diflanu, ac i'r un oedd ar ymddangos. Ystyrient eu gwyliau a'u haberthau fel i fod dan lywodraeth yr haul a'r lleuad, ac felly ei bod yn ddyledswydd grefyddol i'w cyssoni â'u gilydd. Nid yw y rheol uchod o naw a deg ar ugain o ddyddiau, bob yn ail, neu bob mis yn cynnwys 29½, yn hollol gywir. Y canlyniad fu, i'r misoedd a'r lleuad fod yn anghysson â'u gilydd. Gwnai Aristophanes i'r lleuad gwyno yn dost o herwydd yr annhrefn yn y calaniadur.[1]

Cynnwysa y flwyddyn *leuadol* ddeuddeg cylchdro o'r lleuad oddi amgylch y ddaiar—yr hyn, yn ol y rheol uchod, a wnai 354 o ddyddiau; gan adael deuddeg a chwarter o ddyddiau o wahaniaeth rhwng blwyddyn yr haul a blwyddyn y lleuad. Y ddyfais gyntaf a ddygodd ryw gyssondeb gweddol rhwng cyfrif yr haul a'r lleuad, oedd yr *octa-eteris*, neu gylch o 8 mlynedd. Y mae 8 mlynedd o 354 o ddyddiau, gyda 3 mis o 30 o ddyddiau yr un, yn gwneyd i fyny mewn 99 o leuadau, 2922 o ddyddiau; yr hyn sydd yn cyfateb i 8 mlynedd yn cynnwys 365¼ o ddyddiau. Yn ol y cylch hwn, yr oedd tri mis i'w chwanegu mewn wyth mlynedd; yr hyn a wnaed yn niwedd y drydedd, y bumned, a'r wythfed flwyddyn o'r cylch.

Ond yr oedd y cylch hwn yn anmherffaith. Mewn 16 o flyneddoedd yr oedd diffyg o dri diwrnod gyda golwg ar y lleuad. Ond cylch llawer mwy cywir a ddarganfyddwyd, ac a ddygwyd i sylw, gan Meton, c. c. 432. Mae y cylch hwn yn gynnwysedig o 19 o flyneddoedd, ac y mae mor gywir ac mor fanteisiol fel y mae mewn arferiad hyd y dydd hwn. Y mae yr ysbaid o 19 o flyneddoedd, a 235 o leuadau, bron yn hollol yr un (y mae y blaenaf yn llai o *naw awr a hanner* na 6940 o ddyddiau, a'r olaf yn llai o *saith awr a hanner*); o ganlyniad, os rhenir y 19 o flyneddoedd i 235 o fisoedd, fel ag i gytuno â chyfnewidiadau y lleuad yn niwedd yr ysbaid hwn, gall yr un cyfnewidiadau gyd-ddechreu eilwaith gyda gradd mawr o gywirdeb. Y mae y cylch Metonig (*Metonic cycle*) mor gywir, fel mai yn ol hwn y penderfynir amser y Pasc, ac nid yw y Rhif Auraidd (*Golden Number*), a ddefnyddir yn y cyfrifon hyn, ond y rhif o'r cylch hwn sydd yn cyfateb i'r flwyddyn dan sylw.

Gwnai rheol Julius Cæsar bob bedwaredd flwyddyn yn ddieithriad yn flwyddyn naid. Y mae hyn yn tybied fod blwyddyn y cyhydedd yn gynnwysedig o 365¼ o ddyddiau; ond y mae hyn yn ormod, ac yn achosi camgymmeriad o 7 niwrnod mewn 900 o flyneddoedd. Yn unol â hyn, mor fore a'r flwyddyn 1414, canfyddwyd fod Alban y gwanwyn a'r cynauaf (sef y pwynt pan y bydd yr haul yn union ar y cyhydedd) yn crwydro ymaith yn raddol oddi wrth yr 21ain o Fawrth, a Medi, pryd y dylasent ddygwydd pe buasai y flwyddyn Juliaidd yn gywir. Yn ol Amseroni Julius, disgynai canol yr haf mewn 24,000 o flyneddoedd, yn mis Rhagfyr. Yr oedd galw uchel am ddiwygiad eto yn y calaniadur, yn benaf, efallai, er mwyn cadw y gwyliau ar yr un amserau o'r flwyddyn. Rhoddwyd y diwygiad mewn gweithrediad, yn mhabaeth Gregory XIII.,

[1] CHORUS OF CLOUDS.

The Moon by us to you her greeting sends,
And bids us say that she's an ill-used Moon,
And takes it much amiss that you should still
Shuffle her days, and turn them topsy-turvy;
And that the gods (who know their feast-days well)
By your false count are sent home supperless,
And scold and storm at her for your neglect.
Cyf. o'r Nubes, 615—19.

Digitized by Google

yr hyn oedd yn gynnwysedig mewn gadael allan ddeg o ddyddiau (mewn enw) ar ol y 4ydd o Hydref, 1582, fel y galwyd y diwrnod canlynol y 15fed, ac nid y 5ed. Mabwysiadwyd y cyfnewidiad yn uniongyrchol mewn gwledydd Pabaidd; ond yn fwy graddol mewn gwledydd Protestanaidd. Yn Lloegr, newidiwyd y dull o *gyfrif* (*style*) ar ol yr 2il o Fedi, 1752, trwy adael allan 11 o ddyddiau; ac felly yr olaf o'r hen gyfrif (*old style*) oedd yr 2il dydd, a'r cyntaf o'r cyfrif newydd (*new style*), sef y dydd canlynol oedd y 14eg, yn lle y 3ydd. Er mwyn cadw yr amseroni rhagllaw yn gysson â'r tymmorau, y rheol ydyw—fod pob blwyddyn y gellir rhanu ei rhif â 4 yn flwyddyn naid, oddi eithr pan y mae ei rhif yn diweddu â 00; y pryd hwn nid yw yn flwyddyn naid; os nad yw y ffugyrau blaenorol yn gyfryw ag y gellir eu rhanu â 4. Fel hyn, y mae 1600 yn flwyddyn naid, ond nid yw 1900.

Dechreuai y flwyddyn wladol yn Lloegr, gynt, ar Mawrth 25ain; er y dechreuai y flwyddyn hanesyddol ar Ionawr 1af. Rhwng y ddau gyfnod hyn, yr oedd yn beth arferol dyddio y flwyddyn mewn dwy ffordd, er esampl, 1747—8, neu 1747. Trwy weithred seneddol yn 1751, newidiwyd dechreuad y flwyddyn i'r cyntaf o Ionawr. Ac y mae yn angenrheidiol cadw yr amgylchiad yma mewn cof wrth gyfeirio at hen ddyddiadau.

Yr oedd y flwyddyn Iuddewig yn gynnwysedig o ddeuddeg o fisoedd anghyfartal, y rhai, oyn y caethgludiad, oeddynt yn fisoedd lleuadawl, fel y mae enwau Hebrëig y lleuad (ירח חדש) yn dangos. Nifer ei dyddiau oedd 354. Gan fod y flwyddyn hon yn llai o un ar ddeg o ddyddiau na blwyddyn yr haul, buasai eu misoedd a'u gwyliau gosodedig yn crwydro, mewn 32 o flynyddoedd, trwy yr holl dymmorau. Ond gan fod y defodau oedd gan yr Israeliaid i'w cyflawnu ar rai o'n gwyliau yn dal cyssylltiad angenrheidiol â thymmorau neillduol y flwyddyn, megys offrymiad blaenffrwyth y cynauaf gwenith ar Wyl y Pentecost, yr hyn oedd raid ei wneyd yn yr haf; a thrigo mewn pebyll ar yr wyl a elwir felly, yr hyn a fuasai yn dra anghyfleus yn y gauaf; yr oedd yn angenrheidiol gwneyd y flwyddyn leuadawl yr un hyd a blwyddyn yr haul, fel y byddai i'w misoedd, ac felly eu gwyliau, ddisgyn yn wastadol ar yr un tymmor. Gwnaethant hyn trwy chwanegu mis cyfan at yr amseroni, mor fynych ag y byddai yn angenrheidiol, yn gyffredin unwaith mewn tair, ac weithiau unwaith mewn dwy, flynedd. Gelwid y mis chwanegol hwn, yr hwn a gyssylltid â'r flwyddyn yn ei diwedd, ar ol mis Adar, yn Fe-Adar, neu yn Ail-Adar.

Dosberthid y flwyddyn Iuddewig yn wladol a chyssegredig, y rhai a feddent bob un ddechreuad gwahanol. Dechreuai y flwyddyn wladol gyda'r newydd loer yn y cynauaf,—y gyssegredig, neu yr eglwysig, gyda'r newydd-loer yn y gwanwyn.

Yr oedd y wladol, y mae yn debyg, yn henach na'r eglwysig; ac efallai, yr un a'r flwyddyn batriarchaidd, ag oedd, fel y tybir, yn bod er dechreuad amser. Gan fod y flwyddyn hon, felly, yn dechreu yn y cynauaf, barnodd rhai ei bod yn debygol mai ar y tymmor hwnw y crewyd y byd; neu, yn hytrach, fod y byd yn ei ystad gynauafol pan grewyd ef.

Dechreuai y flwyddyn eglwysig ar fis Nisan, y seithfed o'r flwyddyn wladol. Trefnid yr holl ddefodau crefyddol yn ol y flwyddyn hon. Tra yr arosodd yr Israeliaid yn Ngwlad Canaan, sefydlid dechreuad eu misoedd a'u blyneddoedd gan y lleuad, ac nid gan ddeddfau neu gyfrifiadau seryddol. Pan y gwelent y newydd loer, dechreuent y mis. Appwyntid dynion, gan hyny, i wylio ar benau mynyddoedd am ymddangosiad cyntaf y lleuad wedi ei newidiad. Mor gynted ag y gwelent hi, rhoddent hysbysrwydd i'r llywodraethwyr; a mynegid y peth yn gyhoeddus trwy gynneu tanau drwy yr holl dir. Eto, am nad oedd ganddynt fisoedd hwy na deng niwrnod ar ugain, os na welent y lleuad ar y noswaith gyntaf ar ol y degfed diwrnod ar ugain, cymmerent yn ganiatael fod ymddangosiad y lleuad yn cael ei luddias gan y cymylau; ac heb wylio dim yn ychwaneg, gwnaent y dydd canlynol yn ddydd cyntaf o'r mis. Ond ar ol gwasgaru y genedl yn mysg y Cenedloedd, lle nid oedd ganddynt gyfleusdra i gael yr hysbysrwydd am ymddangosiad y newydd loer, fel cynt, yr oeddynt dan rwymau i wneyd defnydd o gyfrifiadau seryddol, er penodi amser dechreuad eu misoedd a'u blyneddoedd. Y cyfrifiaeth cyntaf a arferasant a gynnwysai 84 o flyneddoedd. Ond wedi gweled fod hon yn wallus, daethant i arferyd y oylch Metonig. Hwn sydd mewn arferiad ganddynt yn awr; a dywedant ei fod i'w arfer hyd ddyfodiad y Messiah. Yr Iuddewon a gyfrifent eu blynedd oedd o brifnodau gwahanol; megys o enedigaeth y patrieirch (*Gen.* vii. 11; viii. 13); wedi hyny, o amser eu hymadawiad o'r Aipht (*Num* xxxiii. 38; 1 *Bren.* vi. 1); yna, o gyfodiad teml Solomon (2 *Cron.* viii. 1); ac o deyrnasiad brenineoedd Iudah ac Israel. Yn fwy diweddar, daeth y caethgludiad Babilonaidd yn brifnod newydd (*Ezec.* xxxiii. 21; xl. 1). Ond oddi ar amser rabbiniaid y Talmud, arferasant yn ddieithriad brifnod y cread, yr hwn yn ol eu cyfrifiad, ydyw 5616 o. B. yn y flwyddyn bresennol, ac 1856 o'r prifnod Cristionogol. Gwel AMSERYDDIAETH; MIS.

BLWYDDYN SABBATHOL. Ceir hanes sefydliad y flwyddyn hon yn *Exod.* xxiii. 10, 11; *Lef.* xxv. 2—7; *Deut.* xv. 1—18; xxxi. 10, 13. Gelwir hi wrth enwau Hebrëig, a arwyddant "y seithfed flwyddyn," "y Sabbath neu gorphwysdra y tir," a "rhyddhad Iehofah." Y mae yn gwestiwn o ddadl pa mor fuan y dechreuwyd cadw y flwyddyn Sabbathol gan yr Israeliaid. Derbyniasant y gorchymyn am ei chadw yn y geiriau hyn; "Pan ddeloch i'r tir yr hwn a roddaf i chwi; yna gorphwysed y tir Sabbath i'r Arglwydd;" *Lef.* xxv. 2. Barna yr archesgob Usher [*Annales*], mai y seithfed flwyddyn ar ol i'r manna beidio ydoedd; neu o'r pryd y dechreuodd yr Israeliaid fyw ar gynnyrch y wlad (*Ios.* v. 12); ac ar ol iddynt dreulio chwe blynedd i oresgyn a rhanu y tir, eu bod wedi cael y seithfed yn flwyddyn o orphwysdra, fel ffrwyth eu buddugoliaethau. Barna ereill, oddi wrth fod y flwyddyn Sabbathol yn cael ei gorchymyn i'w chadw ar ol chwe blynedd o arddwriaeth (*Lef.* xxv. 3, 4), nad oedd y chwe blynedd blaenorol yn dechreu hyd oresgyniad a rhaniad y wlad. O blegid nid yw yn debygol yr ymroddent i drin y tir hyd oni orchfygent y trigolion; nac y mynent wneyd hyd oni chaffai pob un ei ran briodol o hono. A thybir, felly, gan amryw, ac yn benaf gan Maimonides [*De Anno Sabbatico et Jubilæo*, pen. x., adran 11], na chadwyd y flwyddyn Sabbathol gyntaf hyd y bedwaredd flwyddyn ar ddeg wedi mynyd yr Israeliaid i Ganaan.

Dechreuid cadw y flwyddyn Sabbathol ar ol "tori y winllan, a chasglu y cnwd" (*Lef.* xxv. 3);

Digitized by Google

felly, dechreuid ei chadw ar fis Tisri, ac yn nhymmor Hydref.

Yr oedd y deddfau perthynol i gadwraeth y flwyddyn hon yn gynnwysedig yn y pethau canlynol:—

1. Ymattaliad oddi wrth bob math o arddwriaeth: *Lef.* xxv. 4. Os gofynir, ar ba beth yr oeddynt i fyw am y flwyddyn hono; gellir ateb, mai yr hyn a dyfai o hono ei hun, heb nac âr na medi. Bernir fod cynnyrch yn cyfodi y flwyddyn hon oddi wrth y grawn a gollwyd yn y cynnaf blaenorol, a'r hyn a wasgarwyd wrth nithio yn y meusydd. Ond yr atebiad goreu ydyw gair yr Arglwydd ei hun; "Mi a archaf fy mendith arnoch y ehweched flwyddyn; a hi a ddwg ei ffrwyth i wasanaethu dros dair blynedd;" *Lef.* xxv. 21. Y mae yr addewid hon am fendith i'w deall yn ammodol, ar y dybiaeth y byddent hwy yn rhoddi ufudd-dod i ddeddfau Duw. Pan esgeulusasant hwy, gan hyny, eu rhwymedigaeth eu hunain, ac y troisant at eilunaddoliaeth, y mae yn debygol fod yr Arglwydd yn attal rhan fawr o'r fendith. Ac fel y mae un pechod yn arwain i un arall, daeth y genedl, mewn amser, yn dra esgeulus o gadwraeth y seithfed flwyddyn. Ac am hyny, "Mwynhaodd y tir ei Sabbathau," yn ol y bygythiad (*Lef.* xxvi. 34; cymharer 2 *Cron.* xxxvi. 21), pan gaethgludwyd y genedl i Babilon, am ddeng mlynedd a thrigain, hyd oni chyflawnwyd y blyneddoedd Sabbathol a esgeuluswyd ganddynt hwy.

Mewn canlyniad i gospau Duw arnynt am eu hanufudd-dod, daethant i gadw y flwyddyn Sabbathol gyda mwy o fanylwch ofergoelus, nag o wir ufudd-dod. Ond nid ymddengys fod Duw wedi adnewyddu ei fendith ar y chweched flwyddyn, o blegid yr oedd y seithfed flwyddyn, mewn ocsoedd diweddarach, yn dymmor o brinder mawr. Crybwylla Josephus [*Hen.*, xi. 8] am yr Iuddewon, pan gawsant ffafr Alexander Fawr, eu bod yn ymbil am eu rhyddhau bob seithfed flwyddyn oddi wrth dalu treth, am nad oeddynt, yn ol eu cyfraith, yn hau nac yn medi y flwyddyn hono. Tybir hefyd mai at y flwyddyn hon y cyfeiria ein Harglwydd, pan y mae yn annog ei ddysgyblion i weddio na byddai eu ffoedigaeth ar y Sabbath (*Mat.* xxiv. 20), pan, o herwydd prinder ymborth, y byddai yn hynod anghyfleus i deithio ac i aros yn mysg dyeithriaid.

2. Yr oedd cynnyrch y meusydd a'r gwinllanoedd ar y flwyddyn Sabbathol yn eiddo cyffredin: *Exod.* xxiii. 11. Ond er ei fod yn eiddo cyffredin i'r tlodion ac anifeiliaid y maes, nid oedd yn cael ei attal oddi wrth berchenogion y tir, ond caent hwy ei fwynhau fel ereill: *Lef.* xxv. 6, 7. Am y gosodir yr anifeiliaid, gyda golwg ar gynnyrch y flwyddyn hon, ar yr un tir a dynion, arferai yr Iuddewon ofal mawr, medd Maimonides, ar fod iddynt gael rhan gyfartal â hwy eu hunain. A phe na buasai ganddynt fwyd i'r anifeiliaid, ni fwytasent yr hyn a fuasai ganddynt iddynt eu hunain, ond taflasent ef allan o'u tai.

3. Rhyddhad oddi wrth echwyn a dyled: *Deut.* xv. 1, 3. Gwnaeth y rabbiniaid gynnifer o eithradau i'r gyfraith hon, fel ag i'w gwneyd yn gwbl ddirym. Ac y mae rhai o honynt yn haeru nad oedd y rhyddhad oddi wrth ddyledion yn cynnwys mwy na rhyddhad oddi wrth eu talu y flwyddyn hono; ond y gellid, ar ol ei diwedd, eu hawlio fel o'r blaen. Ond y mae yn eglur fod y ddeddf yn rhoddi rhyddhad hollol oddi wrth bob dyledion oddi wrth "frawd i frawd"—oddi wrth y naill Israeliad i'r llall—er nad oedd yn cyrhaedd mor bell a dyledion dyeithriaid iddynt. Yr unig bwnc mewn dadl yn y ddeddf hon ydyw, pa amser o'r flwyddyn y rhyddhëid y dyledwr. Dealla Maimonides, oddi wrth *Deut.* xv. 1, na wneid hyny hyd ddiwedd y flwyddyn. Ond y mae ereill yn tybied, ac efallai ar seiliau cryfach, y gweinyddid y gollyngdod ar ddechreu y flwyddyn.

4. Darllenid y gyfraith yn gyhoeddus ar Wyl y Pebyll ar flwyddyn y gollyngdod: *Deut.* xxxi. 10, 11. Gan fod meddyliau y bobl yn rhydd oddi wrth ofalon, mewn canlyniad i'w gollyngdod oddi wrth eu dyledion, gellid dysgwyl iddynt roddi gwrandawiad mwy astud i gyfraith Duw. Ac yr oedd y flwyddyn hon, yn mhob golygiad, yn gyfleusdra priodol i wneyd darlleniad cyhoeddus o'r gyfraith iddynt.

Yr oedd y rhesymau o herwydd pa rai y sefydlwyd y flwyddyn Sabbathol yn amrywiol—rhai o natur wladol, a rhai o natur grefyddol. Y mae yr un nodwedd yn rhedeg drwy y gosodiad hwn a gosodiadau ereill Duw yn y wladwriaeth Israelaidd:—arddengys ei ddaioni a'i dynerwch at ei greaduriaid, a'r gofal mawr a ddangosai at ddynion a chreaduriaid direswm. Yr oedd gosodiad blwyddyn y gollyngdod yn meddu yr un amcanion a gosodiad y dydd Sabbath—fel y caffai dyn ac anifail eu hanadl atynt. "Fel na byddo e honot ti gardotyn" (*Deut.* xv. 4), a ddynodir fel un o amcanion y sefydliad hwn; gwasanaethai i gadw mesur o gydraddoldeb yn amgylchiadau cymdeithasol y genedl; i attal trachwant gormodol am feddiannau; a chau allan bob trïawdurdod teuluaidd: a thrwy y pethau hyn, i gadw nodwedd neillduol y genedl fel duwlywiadaeth heb ei hanmharu. Y mae y tlawd a'r cyfoethog yn cael eu hadgofio o'u cydraddoldeb ger bron Duw, a'u hymddibyniad hollol arno. Nid yw yn annhebyg fod y seithfed flwyddyn, yn gystal a'r seithfed dydd, yn gysgod o'r orphwysdra y mae y gwir Israel yn ei chael yn Nghrist. Y mae rhai Iuddewon a Christionogion yn barnu fod y flwyddyn Sabbathol yn gysgod o'r milflwyddiant. O blegid fel y mae y gyfraith yn cyssegru y seithfed dydd a'r seithfed flwyddyn, casglant y pery y byd chwe mil o flyneddoedd yn y cyflwr presennol; neu fel y mae Rabbi Elias yn sylwi yn y *Talmud*, "fod y byd ddwy fil o flyneddoedd heb y gyfraith, ddwy fil dan y gyfraith, a dwy fil dan y Messïah. Ar ol hyn y daw y Sabbath mawr o fil o flyneddoedd." Gwel IWBILI.

BLYS—IAU—IO, [*bal—ys*]: awydd, hiraeth, nwyf, trachwant. "A themtiasant Dduw yn eu calon, gan ofyn bwyd wrth eu blys;" *Salm* lxxviii. 18. Yn llythyrenol, "gan ofyn bwyd i'w heneidiau." Y mae temtio Duw, yma, yn gynnwysedig yn hyn, eu bod yn *galw* yn anghrediniol a hyf, yn lle erfyn yn ostyngedig mewn ffydd. Mynent brofi Duw, a phenderfynent ei wrthod os na roddai iddynt yr hyn a geisient; yn lle hyny, dylasent gredu ei fod ef yn abl ac ewyllysgar i roddi; ac y rhoddai iddynt yn yr amser priodol. Y mae yr hanes am y temtiad hwn yn *Exod.* xvii. 7, a *Num.* xx. 13, yn dangos mai yn hyn yr oedd y pechod. Y mae gan yr Arglwydd hawl i brofi dyn, am fod dyn yn greadur o gymmeriad anmhëus ac ansicr; ond nis gall dyn brofi Duw, heb fod yn euog o drosedd dirfawr. Dywed Duw ein bod yn ei brofi pan yr ammheuwn a ydyw yn Dduw, ai nad yw. [*Hengstenberg*, ar y lle.]

"A blysiodd Dafydd, a dywedodd, Pwy a'm

Digitized by Google

dioda i â dwfr o bydew Bethlehem, yr hwn sydd wrth y porth;" 2 *Sam.* xxiii. 15. Tybia rhai fod Dafydd, trwy y dymuniad hwn, yn dangos awydd i ennill Bethlehem o law y Philistiaid; ereill, mai teimlo syched yr oedd am gyfraith Duw; ac ereill, ei fod yn mynegu ei ddymuniad hiraethlawn am ddyfodiad y Messïah o Bethlehem. Ond y mae yn fwy tebygol ei fod yn meddwl fel y deallwyd ef gan ei wŷr. Adlonodd ei hun â'r dyfroedd hyny pan yn ieuanc, ac nid oes dim a'i boddlonai ond yfed o hono, er fod rhwystrau mawrion ar ffordd ei gael. "Y mae yn ffolineb mawr coleddu y cyfryw flysiau yn ein meddwl," medd Henry, "ac yn ffolineb mwy mynu digoni y blysiau hyny trwy anfanteision."

BOADICEA, BOODICEA, BONDICEA, [Βουδουικα]: a elwir yn Gymraeg Buddug, oedd frenines Brydeinig yn amser Nero. Yr oedd yn wraig i Prasutagus, brenin yr Iceniaid, llwyth o Frydeiniaid a breswyliai ar derfynau dwyreiniol Lloegr, a adwaenir yn awr wrth yr enwau Norfolk a Suffolk. Darfu i'r brenin ar ei farwolaeth, er mwyn sicrhau diogelwch ei deulu, wneyd yr ymherawdwr yn gydetifedd â'i ferched: ond cymmerodd y swyddogion Rhufeinig feddiant trwy drais o'r palas a'r eiddo, fflangellasant y weddw yn gyhoeddus, ac anmharchasant y merched. Gwnaed hyn trwy annogiad Catus, casglydd y cyllid, ar yr un amser ag yr oedd Suetonius yn goresgyn ynys Môn. Nid yw yr achos a barodd yr anmharch a'r creulonder yma yn wybyddus. Ond i ddial y camwri, cynhyrfodd Boadicea, yr hon oedd fenyw o ysbryd tra gwrol, y Prydeiniaid i wrthryfel yn erbyn eu gorthrymwyr; ac arweiniodd fyddin o 120,000 o wyr, a gwnaeth ymosodiad ar drefedigaeth Rufeinig Camalodunum (Colchester), a lladdodd 80,000 o'r trefedigion Rhufeinig. Gwnaeth annhraith fawr hefyd ar y Rhufeiniaid yn Saint Albans a Llundain. Ffodd Catus i Gâl. O'r diwedd daeth y llywydd Suetonius yn mlaen yn erbyn y gwrthryfelwyr, a chyda 10,000 o wŷr, wedi eu dysgyblu yn dda, ennillodd fuddugoliaeth gyflawn ar y Prydeiniaid. Gosododd ei fyddin mewn bwlch cul, yr hyn oedd yn dra manteisiol iddo. Yr oedd gwroldeb y Prydeiniaid o'r radd uchaf; ond ofer oedd iddynt geisio sefyll yn ngwyneb byddin mor drefnus, ac wedi ei dysgyblu mor dda, ag eiddo y Rhufeiniaid. Yr oedd Boadicea a'i dwy ferch yn ystod y brwydrau mewn cerbyd, ac äent oddi wrth y naill lwyth at y llall i'w hannog i ymladd yn ddewr. Ond dyoddefasant yr un dynged ag y mae byddinoedd anwaraidd yn eu dyoddef bob amser. Dywed Tacitus y lladdwyd o'r Prydeiniaid 80,000; ac nad oedd y Rhufeiniaid yn arbed na gwragedd, na phlant, nac anifeiliaid. Ymladdwyd y frwydr hon yn y flwyddyn B. A. 61. Bu farw Boadicea yn lled fuan ar ei hol, naill ai trwy gymmeryd gwenwyn, fel y dywed Tacitus; neu mewn clefyd, yn ol yr hanes a rydd Dion Cassius.

BOANERGES, [*meibion y daran*]: cyfenw a roddai Crist i Iago ac Ioan, dau o'i ddysgyblion. Y mae esbonwyr yn amrywio yn eu barn am y rheswm dros roddi y cyfryw gyfenw arnynt. Barna rhai, mai yr amcan oedd dynodi eu pregethu o arwedd gyffrous a grymus. Meddylia ereill, mai yr amcan oedd rhagddangos yr effeithiau rhyfeddol a ddilynent eu llatur. Theophylact a dybiai ei fod yn arwyddocau bod eu dysgeidiaeth mewn arddull ddyfnach na'r eiddo ŷr apostolion ereill. Ereill, fod yr enw yn ddynodawl o'u brwdfrydedd. Ond, efallai, mai y cyfan a fwriedid ei arwyddocau trwy yr enw, oedd, y byddent yn dra enwog a llwyddiannus fel gweinidogion y Testament Newydd.

BOAZ, neu BOOZ, [בעז, *nerth*, neu *gryfder*]: un o dywysogion Israel, o lwyth Iudah, yn cyfanneddu yn Bethlehem, yn nghylch wyth milltir o Ierusalem. Mab oedd Boaz i Salmon, fab Nahson: *Ruth* iv. 18—21. Yn *Mat.* i. 5, yr ydym yn cael i Salmon genedlu Boaz o Rachab (neu Rahab), yr hon yn ddiau oedd yr un a dderbyniodd yr ysbiwyr i'w thy yn Iericho, ac a'u cuddiodd rhag swyddogion y brenin, pan eu danfonwyd i'w dal, yn nghylch c. c. 1451. Gyda'r priodoldeb mwyaf gellir penderfynu mai un o'r ddau a anfonodd Iosuah o'r gwersyll i ysbio Iericho oedd Salmon, gan ei fod yn fab i un o'r tywysogion yn y llwyth mwyaf lluosog ac anrhydeddus yn Israel; canys nid gwehilion y bobl a arferid gynt i'r gorchwyl o ysbio, neu wybod ansawdd gwlad neu le. Yr ydym yn gweled mai goreuon y bobl a ddetholodd Moses; un o bob llwyth, oedd y rhai a fuont ddeugain niwrnod yn ysbio Gwlad Canaan: *Num.* xiii. 3. Deallir i Iesse genedlu Dafydd yn nghylch y flwyddyn 1080 c.c.; fel hyn yr oedd rhwng Salmon a Dafydd yn nghylch 371 o flyneddoedd. Wrth hyn gellir meddwl fod Salmon tuag 20 oed ar oresgyniad Canaan, a'i fod mewn gwth o oedran pan anwyd Boaz. Oddi wrth *Ruth* iii. 10, y deallwn fod Boaz mewn oedran henafgwr, pan y mae yn bendithio Ruth, gan ei galw yn ferch; ac iddi ddangos mwy o garedigrwydd tuag at ei gwr cyntaf (Mahlon) nag yn y dechreu, gan nad aeth ar ol gwyr ieuainc, na thlawd na chyfoethog, ond ato ef fel cyfathrachwr, i gyfodi had i'r trancedig. Deallwn, oddi wrth 1 *Sam.* xvii. 2, fod Iesse yn henafgwr pan nad oedd Dafydd ond llanc, "A'r gwr yn nyddiau Saul a äi yn henafgwr yn mysg gwyr." Mae yn anhawdd gwybod yn iawn, gan fod cymmaint o orthrymderau wedi syrthio ar Israel yn nyddiau y barnwyr, yn amser pa un o honynt yr oedd Boaz yn byw. Mae Josephus, yr hanesydd Iuddewig, yn gosod ei adeg yn nyddiau Eli yr archoffeiriad; ond gan nad ydym yn darllen am newyn yn y wlad yn ei amser ef, ni welwn un achos i Elimelech ffoi o Bethlehem i dir Moab; ac mae amser Eli yn rhy agos at ddyddiau Dafydd i Obed a Iesse fyw ynddo. Y mae ereill, gyda mwy o debygoldeb i eirwiredd, yn gosod y newyn yma yn amser Gedeon, ereill yn amser Barac a Deborah—yn yr oes hono y mae L. Clark, yn ei *Hanes Ysgrythyrol* yn ei osod. Mae awdwr y nodiadau yn y *Pictorial Bible* yn dywedyd mai yn amser Ierubaal yn unig yr ydym yn clywed am newyn yn ngwlad Israel yn amser y barnwyr, pan yr oedd y Midianiaid a meibion y dwyrain wedi goresgyn y wlad, ac wedi ysbeilio holl ffrwyth y tir, nes yr oeddid yn gorfod cuddio yr ychydig oedd i'w gael, a'i ddyrnu ar hyd y nos rhag ofn y gormeswyr. Mae rhai Iuddewon yn dywedyd mai yr un ag Ibsan ydyw Boaz, ond nid oes ganddynt un math o reswm i brofi hyn, ond fod y ddau o Bethlehem (*Barn.* xii. 8—10), oddeutu 1137 c.c. Cydweddai hyn â'r amser o'r goreu, ond nid yn iawn â'r personau; ni ddywedir gair am briodas Ibsan a Ruth, ac yn mhlith ei deulu lluosog nid oes air o son am Obed fel mab iddo. Oddi yma y gallwn gasglu nad oes dim nes perthynas rhwng y ddau farnwr na'u bod o'r un lle, ac yn gwasan-

Digitized by Google

aethu yr un swydd: y cwbl arall sydd seiliedig ar uchelgais yr Iuddewon i anrhydeddu teulu brenin-ol Iudah. Mae hyn oll heb ei eisieu. Yr ydym yn cael fod teulu Boaz yn rhes o dywysogion yn llwyth Iudah, a Nahson fab Aminadab, yr hwn a offrymodd wrth gyssegru y tabernacl yn yr anialwch. Efe oedd y cyntaf o'r tywysogion a offrymodd,—"A'i offrwm ef ydoedd un ddysgl arian o ddeg ar ugain a chant o siclau ei phwys, un phiol arian o ddeg sicl a thrigain, yn ol sicl y cyssegr, yn llawn ill dwyoedd o beilliaid wedi ei gymmysgu trwy olew, yn fwyd-offrwm: un llwy aur o ddeg sicl, yn llawn arogldarth: un bustach ieuanc, un hwrdd, un oen blwydd, yn offrwm poeth: un bwch geifr yn bech-aberth: ac yn aberth hedd, dau ych, pum hwrdd, pum bwch, pum hespwrn blwyddiaid. Dyma offrwm Nahson mab Aminadab;" *Num.* vii. 12—17. Nid oes eisieu dywedyd chwaneg am gyfoeth y tywysog hwn. Mae digon o le i gasglu nad oedd Boaz yn ŵr cyffredin yn Iudah, ond ei fod yn "gwneuthur grymusder yn Ephratah, ac yn enwog yn Bethlehem."

Am garedigrwydd Boaz i'r tlawd a'r amddifad, mae Llyfr Ruth yn ei osod tu hwnt i bob ammheuaeth. A chan nad efe oedd cyfathrachwr agosaf gweddw a mam Mahlon, nid oes genym le i'w feio am na chymmerodd hwynt i'w dŷ pan ddaethant o dir Moab; canys yr oedd un arall o'i flaen, dyledswydd pa un oedd eu derbyn, yn enwedig gan ei fod wedi cymmeryd meddiant o'r etifeddiaeth. Meddylia rhai fod Ruth o deulu urddasol, os nad breninol, o Moab, oddi wrth fod Dafydd, yn ei orthrymder rhag ofn Saul—rhag iddo yn ei gynddeiriogrwydd yn erbyn Dafydd niweidio ei rieni ef—yn eu danfon hwynt at frenin Moab i'w cadw, hyd nes y gwelai beth a wnelai Duw iddo: 1 *Sam.* xxii. 3.

Am yr hyn y mae Naomi yn cyfarwyddo Ruth ei gwaedd i'w gyflawnu mewn ffordd o hôni ei chyfathrach â Boaz, nid allwn mewn un modd ei osod yn esampl yn ein dyddiau ni; ond y mae yn gosod allan arferion patriarchaidd yr amser-oedd hyny pan nad oedd pechod nac enllib mor rwysgfawr ag yn y dyddiau celyd a phechadurus yr ydym ni yn byw ynddynt. Ni ddylem ni wneuthur drwg, na thebyg i ddrwg, fel na feier ar y weinidogaeth nac ar broffes o grefydd Crist. Am yr hyn a wnaed yn nhrosglwyddiad y tir, a gweddw Mahlon, gwel RUTH.

Mae rhai yn gweled yn Boaz a Ruth gysgodau o Grist a'i eglwys; ac yn sicr, ar lawer o olygiadau, y mae y gymhariaeth yn addysgiadol. Mae efe yn gyfoethog a hithau yn dlawd; hi yn lloffa yn ei faes ef ac yn estron, yntau yn dywysog ar ei etifeddiaeth ei hun; trwy ei phriodas âg ef y mae hi yn dyfod yn gyfoethog—ac y mae breninoedd wedi hanu o honi.

Pan yr adeiladodd Solomon ei deml, mae yn dangos mwy o barch i Boaz nag i un o'i gyndadau, trwy osod ei enw ar un o'r colofnau a osododd er harddwch o flaen ei phyrth: 1 *Bren.* vii. 21; 2 *Cron.* iii. 17.

BOCS, BOCYS: mae y gair *teashur*, a gyfieithir *bocs*, yn *Esa.* xli. 19; a lx. 13, yn arwyddo *blodeuog*, neu *irfyth*. Mae y pren hwn yn cael ei feithrin mewn gerddi celfyddgar yn ein gwlad ni, er prydferthu eu gwrychoedd, ac addurno eu rhodfeydd. Mae y pren o liw melyn, yn hynod galed, ac o raen mân iawn; yn rhy drwm i nofio, ac agos yn rhy galed i fraenu, ac i'r pryfed ei fwyta; a chan y gellir ei lathru a'i gaboli yn hynod o dda yr olwg arno mewn gwaith, gwelwn y priodoldeb o'i addaw i harddu lle cyssegr Duw; *Esa.* lx. 13. Yn mysg addewidion Duw i'w eglwys, dywedir (*Esa.* xli. 19), "Gosodaf yn yr anialwch y cedrwydd, sittah, myrtwydd, ac olewydd; gosodaf yn y diffaethwch ffynidwydd, ffawydd, a'r pren *bocs* yn nghyd."

Dar. 133.

brenau hyn yn fredorion mynydd Libanus; a thrwy y gyffelybiaeth hon, o wisgo yr anialwch a phrydferthu y diffaethwch â gogoniant Libanus, y rhagddangosir y cyfnewidiad daionus a wnelid ar anialwch diffaeth y byd Cenedlig trwy yr efengyl.

BOCHGERN: grudd, oehr y wyneb, o'r ên i fyny. *Hes.* xi. 4; "Ac yr oeddwn iddynt megys y rhai a godant yr iau ar en bochgernau." Dodid yr iau ar ysgwyddau neu warau yr ychain llafurus, ac nid mewn un modd ar eu bochgernau: am hyny y mae amryw feirniaid craffus wedi cael eu tueddu i feddwl fod y geiryn Hebraeg *ol*, yr hwn a ddynoda *iau* yn gyffredin, yn cael ei ddefnyddio yma yn hytrach i ddynodi ffrwyn, neu enfa; symmudiad caredig yr hwn a alluogai yr anifail i adnewyddu ei natur, trwy gymmeryd ei ymborth, at yr hyn yr awgrymir yn y rhan olaf o'r adnod, dybygid,—"A bwriais atynt fwyd." Ond, nid yw yn yn annhebyg fod y gair a gyfieithir *bochgern* yma yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr ammhenderfynol am ben blaen yr anifail, ac felly mai yr *iau* a olygir mewn gwirionedd; ac os felly, y mae yn debyg fod yma gyfeiriad at yr arferiad o godi yr iau yn mlaen yn achlysurol, er esmwythau ac oeri gwddf yr ych llafurus. Eglura Pocock y golygiad yna trwy ddyfynu hen reol gyssylltiedig âg amaethyddiaeth Rufeinig, o Columella;—"Pan y deuont i drofa, bydded iddo daflu yr iau yn mlaen, ac attal yr ychain, fel yr oero eu gyddfau; canys y maent yn poethi yn fuan; ac oddieithr esmwythau arnynt fel hyn, cwyd chwyddiadau, y rhai a ddilynir â briwiau." Gellid meddwl fod y *Targum* wedi cymmeryd y ddau ddeongliad uchod i fewn

Digitized by Google

yn ei aralleiriad,—"Ac yr oedd fy ngair iddynt fel llafurwr tirion, yr hwn a esmwytha war yr ych, ac a ollwng y ffrwyn yn ei fochgernau."

BOCHIM, [*y wylofwyr*, neu *lle y wylofain*]: a elwid felly o herwydd y wylofain a'r galaru a gymmerodd le yno, fel ein hysbysir yn *Barn.* ii. 1—5. Ni'n hysbysir yn un man arall pa le y gorweddai y llanerch hon, na pha beth ei gelwid cyn yr amgylchiad a barodd roddi yr enw hwn iddi. Yr hyn sydd fwyaf tebygol yw, mai yr un ydoedd a Siloh, lle yr oedd y bobl yn gynnulledig ar un o'u gwyliau arbenig; canys fe ymddengys, oddi wrth *adn.* 5, fod aberthau wedi eu hoffrymu ar yr achlysur: ond nyni a wyddom ei bod yn rheol gyffredin, nad offrymid aberthau oddi eithr lle y byddai y tabernacl, a'r allor wedi eu sefydlu, a Siloh oedd y lle hwnw ar y pryd hwn.

Yr achos o'r wylo mawr y cyfeirir ato yn y geiriau dan sylw, oedd bod angel yr Arglwydd wedi ceryddu cynnulleidfa meibion Israel am eu hanufudd-dod i air yr Arglwydd, yn eu gwaith yn ymgyfathrachu â thrigolion y tir, a'u hesgeulusdra i feddiannu gwlad eu hetifeddiaeth. Y mae llawer yn meddwl fod y gair *angel* i'w gymmeryd yma yn ei ystyr cyffredinol o *genad;* ac mai prophwyd ydoedd, yn gymmaint ag y dywedir ei ddyfod o Gilgal, canys nid arferid dywedyd fod angel yn dyfod o le arall, ac yr oedd Gilgal yn nodedig fel cyrchle dynion sanctaidd. Y mae y rhan fwyaf o'r esbonwyr Iuddewig yn tybied mai Phîneas oedd y genad hon, yr hwn oedd yn archoffeiriad yn y cyfamser. Ond y mae llawer nas mynant mai dyn nac angel crëedig a olygir yma; ond Angel Mawr y Cyfammod ei hunan—yr unrhyw angel ag a ymddangosodd i Moses yn y berth, ac i Iosuah yn Dywysog llu yr Arglwydd. Seilir y dyb yma yn benaf ar y ffaith fod yr angel hwn yn llefaru yn ei enw ei hun,—"Dygais chwi i fyny o'r Aipht," &c.; ac heb ddefnyddio y ffurf genadwriaethol arferol,—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd."

BOD, BODA. Rhywogaeth o farcud, yr hwn a alwai yr Hebreaid weithiau yn *daah*, er dynodi ei gyflymedd ar ei adenydd; ac weithiau yn *raah*, er arwyddocau craffder ei olygon. Y mae i'r bod adenydd hirion mewn cymhariaeth i faintioli ei gorff, a chynffon fforchog hir, trwy yr hyn ei galluogir i ehedeg gyda chyflymder mawr. Esgyn yn dra uchel tua'r ffurfafen, a saif i ymddangosiad yn llonydd dros ysbaid yn y ffurfafen; yna disgyn i'r ddaiar gyda chyflymder rhyfeddol: ond gan fod ei aelodau a'i grafangau yn weiniaid, nid ymosoda ar greaduriaid mawr on a chryfion, fel y gwna rhai rhywogaethau o dar ysglyfaethus; eithr ymbortha ar furgunod, ysgod, ednod, llygod, ac adar mân. Y mae elaethrwydd mawr o farcudiaid tua Chairo, yn mgymmysgu â'r fwlturiaid ysglyfaethus yn eu hediadau trofäus, ac yn dyfod beunydd i dderbyn o'r ymborth a gyfrenir iddynt. Ond nid dys eto wedi penderfynu, pa un a ydyw boda yr Aipht, a barcut Ewrop, o'r un rhywogaeth, er nad oes ddiffyg o enwau gwyddorol ar y ddau rywogaeth yn nyffryn y Nilus, un o ba rai yn ddiammheu sydd rywogaeth wahanol i'r un Ewropaidd, ac y mae y llall yn gwahaniaethu cryn lawer oddi wrtho, os nad yw yn rhywogaeth wahanol. Y naill rywogaeth, yr hwn a elwir *Milvus ictinus*, neu *Milvus vulgaris*, sydd â'i big yn dywyll, ei ben a'i wddf yn wynaidd, wedi eu rhesu â gwineu; y corff oddi arnodd yn frychlwyd tywyll, ac yn gochddu oddi tanodd; y gynffon yn fforchogi ychydig, a'r coesau yn felynion. Y rhywogaeth arall, a elwir *Milvus ater*, yw y *bod du:* y mae ei ben, ei wddf, a'i gefn yn frychlwyd tywyll, ei balfeisiau wedi eu hymylu â llwyd, yr adenydd yn dduon, a blaenau ei brif blu yn wynion, y gynffon yn rhuddlwyd oddi arnodd, ac yn wen oddi tanodd, y pig yn dywyll, a'r coesau yn felynion. Gwel BARCUD.

BODLEIAN. Gwel LLYFRGELL.

BODOFYDDIAETH. Gwel UCHANIANAETH.

BODDHAU: gwneuthur yr hyn a roddo foddlonrwydd, neu a fyddo yn gymmeradwy:—*Rhuf.* xv. 2, 3; "Boddhaed pob un o honom ei gymmydog yn yr hyn sydd dda iddo er adeiladaeth: canys Crist nis boddhaodd ef ei hun." Yn y geiriau hyn fe'n dysgir am ein rhwymedigaeth i ddwyn ein holl ymddygiadau dan reolaeth cyfraith cariad, gan ymofyn, nid yn unig pa beth sydd gyflawn ynddo ei hunan, a pha beth a all fod esmwythaf i ni ein hunain; ond hefyd, pa beth sydd garedig tuag at ein brodyr, a dymunol ganddynt. Eto, nis dylem foddhau ein cymmydogion i'w dinystr, eithr i'w hadeiladaeth neu eu llesâd. Y mae esampl Crist, yr hwn sydd anfeidrol goruwch pob Cristion, yn ei hunan-ymwadiad, a'i ostyngeiddrwydd, yn cael ei ddal o'n blaen, nid yn unig fel cynllun, ond hefyd fel cymhelliad i ni.

BODDI: marw mewn dwfr; megys y dinystrwyd yr hen fyd yn y dylif (*Gen.* vii. 17—24); ac y dyfethwyd Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch (*Exod.* xv. 4); a'r genfaint foch a feddiannwyd gan gythreuliaid, wedi rhuthro o honynt dros y dibyn i'r môr: *Marc* v. 13. Mewn iaith farddonol, dywedir fod gwlad yn cael ei boddi, pan fyddo Duw yn ymweled yn ei farnedigaethau â phob dosbarth o gymdeithas o'i mewn; megys y gorlifid Gwlad yr Aipht yn flyneddol gan ymchwyddiad yr afon: *Amos* viii. 8; a ix. 5. Dywedir fod chwantau niweidiol yn *boddi* dynion i ddinystr a cholledigaeth: 1 *Tim.* vi. 9. Y meddwl yw, fod dynion, pan wedi eu meddiannu â'r fath drachwant i ymgyfoethogi, fel y maent yn barod i wneuthur unrhyw anturiaeth er mwyn hyny, yn syrthio i lawer o brofedigaethau peryglus, a maglau niweidiol, ac yn cael eu llenwi â'r fath chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd nid yn unig yn eu suddo is law urddas eu natur, ond yn fynych yn eu boddi mewn dinystr a choll-edigaeth anadferadwy; yn yr hwn y maent yn colli eu holl feddiannau bydol, a'r hyn sydd annhraethol werthfawrocach, eu heneidiau hefyd.

BŒOTIA, neu BAETICA: hen enw rhan o diriogaeth Groeg, a elwid wedi hyny Livadia; yr hon a ffinid ar y gorllewin gan Phocis, ar y gogledd a'r dwyrain gan Locris a'r Môr Euboicaidd ac ar y tu deheuol gan Attica a'r Môr Halcyonaidd. Bu y wlad yma unwaith yn un o'r saith dalaeth Roegaidd; ac fe'i gelwid ar un adeg Aonia a Messapia, oddi wrth Aon a Messapus, meibion Neifion (*Neptune*); yna Hyantis, oddi wrth y brenin Hyas; Ogygia, oddi wrth y brenin Ogyges; Cadmeis, oddi wrth Gadmus; a chaf-odd yr enw Bœotia, oddi wrth Bœotus, fab Neifion; neu oddi wrth yr ych, yr hwn, meddir, a arweiniodd Cadmus i'r llanerch lle yr adeiladodd efe

Digitized by Google

brif ddinas ei freniniaeth newydd; yr hon, mewn oesoedd diweddarach a adwaenid yn well wrth yr enw Thebes.

Yn ol Dicæarchus, yr oedd hyd Bœotia yn 500 o ystadau, a'i lled yn 270. Ei harwyneb sydd 1080 o filltiroedd ysgwâr; a'i phoblogaeth, yn amser Thucydides, a Xenophon, yn ol tybiaeth Mr. Clinton, oedd tua 130,500; ond prin y gellir penderfynu fod y cyfrifon uchod yn gywir. Pe caniataem fod y wyneb-fesur yn agos i gywir, yr hyn sydd dra ammheus, y mae y nifer uchod o boblogaeth yn afresymol o deneu i wlad mor gynnyrchiol, ac mewn cyflwr o ddiwylliant da hefyd, dybygid. Dywed Xenophon, fod yr Atheniaid a'r Bœotiaid yn lled gyfartal o ran poblogaeth; ond, y mae yn debyg nad oedd cynnifer o gaethion yn Bœotia ag oedd yn Attica.

Efallai nad oes un randir arall o Groeg ag y mae cynnifer o draddodiadau dyrus ar gael mewn cyssylltiad â'i chynfrodorion. Gallem ranu y traddodiadau boreuol hyn yn ddau ddosbarth: y naill yn cyfeirio at yr Aiphtiaid fel cynfrodorion Bœotia; a'r llall yn cynnwys y traddodiadau a roddasant sail i'r chwedl, fod yma drefedigaeth o Phœniciaid wedi ymsefydlu yn fore: ac y mae yn dra anhawdd gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd wirioneddol a'r hyn sydd ffugiol yn yr adroddiadau hyn. O barth i'r dosbarth cyntaf, fe'n tueddir i ymwrthod â hwy yn llwyr, gan fod y rhesymau drostynt wedi eu cymmeryd yn benaf oddi wrth y tebygolrwydd a ffynai mewn amryw bethau rhwng yr Aipht a Bœotia. Arferai y Melas orlifo ei glanau fel y Nilus; gorchuddid y llyn Copais âg ynysoedd nofiadwy, megys y rhai yn agos i Buto; yr oedd y ddwy wlad fel eu gilydd yn cynnyrchu pompiynau, ac yn enwog am eu lleiniau, a thelid y cyffelyb barch i'r llysïen yn y naill wlad a'r llall. Ond nid yw y tebygolrwydd a ffynai rhyngddynt yn y pethau a nodwyd, a'u cyffelyb, yn un prawf teilwng i seilio casgliad arno, mai yr un bobl oeddynt gynfrodorion y ddwy wlad.

Y mae traddodiadau yr ail ddosbarth lawer yn henach; o ganlyniad, yn fwy cymmysglyd a dyrys fyth. Ynddynt hwy fe ein hysbysir i Thebes gael ei seilio gan dywysog Phœniciaidd o'r enw Cadmus, tra ar ei ymchwiliad am ei chwaer Europa, yr hon a gipiasid ymaith gan Iou; ond gellir rhoddi yr eglurhad canlynol ar y ffugchwedl yma:—Arferai y Groegiaid briodoli holl weithrediadau y Phœniciaid, yn Groeg a'r Ynys-fôr Groegaidd, i Cadmus, yr hwn a ddarlunid yn eu chwedlonaeth fel math o dywysog Phœniciaidd. Er anghraifft, y Phœniciaid a fuant yn gweithio y mwngloddiau aur gyntaf yn Thasos; am hyny cyfrifent Thasos megys brawd Cadmus; yr hwn, meddynt, a ymsefydlodd ar yr ynys, gan roddi ei enw arni, wedi anobeithio dyfod o hyd i'w chwaer Europa. Felly hefyd, gan mai y Phœniciaid a ddysgasant lythyrenau y wyddor i'r Groegiaid, fe briodolir y weithred hono hefyd i Cadmus—y Phœniciad dychymygol hwn. Ond nid yw yn debyg y buasai Thebes, yr hon oedd dref yn y berfeddwlad, ac heb drafnidiaeth yn perthyn iddi, yn cael ei hadeiladu gan y Phœniciaid, y rhai yn gyffredin nid adeiladent unrhyw ddinasoedd ond a fyddent yn brif orsafoedd machnadyddiaeth iddynt. Gan hyny, yr ydym yn gorfod barnu, nad yw yr holl hanes namyn ffugchwedl, a achosid trwy gamddeall yr enw Groegaidd Phœnix; ac nad oedd Cadmus, fel y mae llawer o resymau i farnu, namyn enw Thebaidd brodorig. Gelwid hen frodorion Thebes yn Cadmeaid, a'u dinas Cadmeia; a hwy a ddygasant yr enw yma gyda hwy i'w trefedigaethau. Y mwyaf tebyg yw, mai enw un o dduwiau y Pelasgiaid Tyrrhenaidd oedd Cadmus; am y rhai y dadleua Müller, eu bod ar y dechreu o'r un gwehelyth a'r Cadmeaid. Heb law hyny y mae y cyffelybrwydd a hanfoda rhwng y ffugchwedl Phœniciaidd am yr effaith a gynnyrchid drwy waith Cadmus yn hau dannedd y ddraig, â'r hyn a ddywedir am Jason y Pelasgiaid, yn tueddu i gadarnhau y dyb mai Pelasgiaid oedd Cadmus a'r Cadmeaid. Y mae yn amlwg mai cyfriniaeth bur ydyw y teyrnllwyth Cadmeaidd, y sonir cymmaint am danynt gan yr hen feirdd Groegaidd; ac nad yw yr holl ach-draith yn ddim amgen nag eglurhad o'r meddylrith o ryw allu cyssefin wedi ei ddigio, a dysgrifiad o'r puredigaethau angenrheidiol i fyned trwyddynt er ei ddyhuddiant.

Yr oedd y Cadmeaid, a'r llwyth cystlynaidd, y Minyaid, yn meddiannu Bœotia hyd o ddeutu trigain mlynedd wedi cymmeriad Troy, pan eu gyrwyd allan gan y Bœotiaid Æoliaidd, pobl o Thessalia. Yn ol un traddodiad, darfu i'r Bœotiaid, nid yn unig yru y Cadmeaid o'r wlad, ond llwyth Thraciaidd hefyd, y rhai a ymsefydlasent yn Ascra, a threfydd ereill ar odrau mynydd Helicon. Y Thraciaid hyn oeddynt o wehelyth Groegaidd, ac yn dwyn perthynas â'r Thraciaid Pieriaidd, fel y gellir profi oddi wrth gydrhywiaeth eu defodau crefyddol. Fel hyn y dywed Thucydides,—"Y Bœotiaid, y rhai ydynt yn cyfanneddu y wlad yn awr, a yrwyd o Arne gan y Thessaliaid, yn mhen trigain mlynedd wedi cymmeryd Troy, ac a wladychasant yn y tir a elwir yn awr Bœotia, ond a adwaenid gynt wrth yr enw Cadmeis." Ac efe a chwanega, "Yr oedd cyfran o honynt yn y wlad hono cyn yr adeg uchod, ac i'r rhai hyny y perthynai y Bœotiaid a gymmerasant ran yn y cadgyrchiad yn erbyn Troy."

Yr oedd rhai o brif ysgrifenwyr Groeg yn frodorion o'r wlad hon,—Hesiod, a anwyd yn Ascra; Corinna, yn Tanagra; Pindar, yn Cynoscephalæ; a Plutarch, yn Chæroneia.

BOGLYN—AU; boglwm, bogeil-glwm, cnap, cnwc. Defnyddir y gair yn *Exod.* xxviii. 11, 13; a xxxix. 6, am said-dyllau o aur, wedi eu darparu i roddi meini gwerthfawr dwyfroneg yr archoffeiriad ynddynt, er eu diogelu. Cyfleithir yr un gair, "gem-waith aur," yn *Salm* xlv. 13, drwy yr hyn y dynodid fod gemau mewn boglynau aur ar hyd gwisg merch y brenin—trwy yr hyn y dangosid addurniant yr Eglwys Gristionogol, a doniau yr Ysbryd.

BOGOMILIAID: plaid o gyfeiliornwyr a gyfododd tua'r flwyddyn 1179. Yr oeddynt yn dal allan fod arfer eglwysi, ymarfer â Swper yr Arglwydd, a defnyddio unrhyw weddïau heb law Gweddi yr Arglwydd, yn bethau i ymwrthod â hwy mewn crefydd; fod bedydd y Pabyddion yn anmherffaith; nad yw personau y Drindod yn ogyfuwch, a'u bod yn ymddangos i rai o'u sect hwy yn fynych.

BOHAN: Reubeniad, er anrhydedd yr hwn y cyfodid maen, yr hwn, wedi hyny, a fu yn nodi y terfyn rhwng Iudah a Beniamin: *Ios.* xv. 6; xviii. 17. Nid yw yn ymddangos oddi wrth y crybwylliadau ysgrythyrol, pa un ai fel beddfaen y gosodasid y gareg hon i fyny, ynte er cof am

Digitized by Google

ryw wrhydri o eiddo Bohan yn ngoresgyniad Canaan.

BOL-LEFARIAETH, [*Ventriloquism*]: y dull o drin y llais, fel pe y deuai o fol y llefarydd. Llenwir yr ysgyfaint âg awyr, a defnyddir y peiriannau lleisiol hyny ag y gellir eu harfer heb gymhorth y gwefusau. Y mae llawer, trwy ymarferiad, wedi cyrhaedd gradd mawr o fedrusrwydd yn y gelfyddyd hon; a phan ddygir ymddyddan yn mlaen mewn lleisiau gwahanol gan yr un dyn, y mae y rhai sydd yn gwrandaw yn tybied eu bod yn dyfod oddi wrth bersonau ereill, neu hyd yn oed oddi wrth sylweddau difywyd. Tybir fod cyfeiriad at hyn yn *Esa.* xxix. 4; "O'r ddaiar y lleferi, ac o'r llwch y bydd isel dy leferydd; dy lais hefyd fydd o'r ddaiar fel llais swynwr, a'th ymadrodd a hustyng o'r llwch."

"Bod eneidiau y meirw yn lleisio yn wan a thrydanus, yn dra gwahanol i lais naturiol dyn, oedd yn dyb gyffredin yn mysg y paganiaid, yn gystal ag yn mhlith yr Iuddewon. Cadarnheir y dyb yma gan amryw ymadroddion o eiddo eu beirdd, Homer, Virgil, a Horace. Yr oedd gan y rhai a honent fedrusrwydd mewn swynyddiaeth, y rhai oeddynt ferched yn y cyffredin, allu i siarad mewn amryw leisiau heb law eu llais naturiol; fel ag i dwyllo y rhai a elent atynt, ac i beri iddynt feddwl mai rhyw ysbryd fyddai yn llefaru. Ac oddi wrth hyn y cyfododd y dyb fod llais ysbryd yn llais gwan, trydanus, ac anghroew, yn gwbl wahanol i leferydd y byw." —*Esgob Lowth.*

BOLLANDIAID: cymdeithas o Jesuitiaid yn Antwerp, a gyhoeddodd, dan y teitl, *Acta Sanctorum*, y traddodiadau am y seintiau. Derbyniasant yr enw oddi wrth un John Bollandus, brodor o'r Iseldiroedd, a anwyd yn 1596. Dewiswyd ef gan y frawdoliaeth Jesuitaidd i barotoi *Actau y Saint* i'r wasg, at yr hwn y casglwyd defnyddiau gan Heribert Rosweida. Cwblhaodd bump o gyfrolau unplyg; ac wedi ei farwolaeth (1665), cariwyd y gwaith yn mlaen gan Henschenius, ac ereill, hyd oni chyrhaeddodd y drydedd gyfrol ar ddeg a deugain; ac er mor helaeth ydyw, y mae eto heb ei gwblhau.

BOLTON, ROBERT, B. D.: duwinydd Puritanaidd enwog, a anwyd yn Blackburn, yn swydd Lancaster, yn y flwyddyn 1572, ac a addysgwyd yn mhrif athrofa Rhydychain. Hynododd ei nun yn mysg ei gydfyfyrwyr fel ysgolhaig, fel y cafodd ar orpheniad ei amser yn yr athrofa ei ethol yn gynmrawd coleg Brasenose. Ond er ei fod yn rhagori ar y rhan fwyaf o'i gyfoedion fel ysgolhaig, bu am dymmor ei ieuenctyd, ac yn hir wedi hyny, yn hollol amddifad o'r "un peth angenrheidiol." Parhaodd yn ddyn annuwiol iawn hyd nes yr oedd yn bymtheg mlwydd ar ugain oed, pryd yr ymwelodd yr Arglwydd âg ef yn ffordd ei ras, trwy offerynoliaeth addysgiadau yr enwog Thomas Peacock. Yr oedd ei argyhoeddiad mor nerthol fel y bu am amryw fisoedd yn y trallod meddwl mwyaf, heb archwaeth at ei ymborth, ac yn methu rhoddi cwsg i'w lygaid na hun i'w amrantau. Or diwedd, llewyrchodd gras ar ei enaid trwmlwythog, a chafodd brofi y tangnefedd sydd uwch law pob deall. Yn fuan ar ol hyn penderfynodd ymgyflwyno i waith y weinidogaeth; ac yn y flwyddyn 1609, anrhegwyd ef â pherigloriaeth Broughton, yn swydd Northampton, gan Syr Augustin Nichols, lle y bu yn llafurio am yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes, gyda derbyniad a llwyddiant anghyffredin. Bu farw yn orfoleddus yn yr Arglwydd ar yr 17eg o Ragfyr, yn y flwyddyn 1631. Mae pob hanesydd sydd yn crybwyll am ei enw yn darlunio Mr. Bolton fel ysgolhaig rhagorol, duwinydd nodedig, ac un o'r pregethwyr galluocaf yn ei oes. Mae ei weithiau, y rhai a gyhoeddwyd gan mwyaf o'i lawysgrifau, ar ol ei farwolaeth, gan ei gyfaill, Mr. E. Bagshaw, yn gwneyd i fyny tuag un ar bymtheg o gyfrolau bychain. Pregethau a thraethodau ar dduwinyddiaeth ymarferol a phrofiadol ydynt; y mae un ar *Y pedwar peth olaf—Angeu, Barn, Nefoedd, ac Uffern.* Y mae Dr. Doddridge a Mr. Bickersteth yn rhoddi cymmeradwyaeth uchel iawn iddo fel ysgrifenydd.—(*Brook's Lives of the Puritans*; cyf. ii., td. 390—394.)

BOLTON, SAMUEL, D.D.: un o'r duwinyddion Puritanaidd, a anwyd yn y flwyddyn 1606. Cafodd ei addysg yn mhrifysgol Caergrawnt. Wedi bod am rai blyneddoedd yn olynol yn weinidog plwyfau St. Martin, Ludgate street, Llundain; St. Saviour's, Southwark; a St. Andrew's, Holborn; dewiswyd ef, ar farwolaeth y Dr. Bainbrigge, yn brif athraw coleg Crist, Caergrawnt. Cyflawnodd ddyledswyddau y swydd bwysig hono gyda doethineb ac effeithiolrwydd mawr hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ar y 15ed o Hydref, 1654, yn 48 mlwydd oed. Mae ei weithiau yn gynnwysedig o saith neu wyth o gyfrolau; ond gan eu bod mor anghyffredin o brin a drud, y maent agos yn hollol anadnabyddus, er eu bod yn dra gwerthfawr.—(*Brook's Lives of the Puritans*; cyf. iii. td. 223, &c.)

BOLLTAD—EIDIAU, [*bollt*]: corsen, callodden, paladr. "Ac a'u cuddiasai hwynt mewn bollteidiau llin;" *Ios.* ii. 6. Y rhai hyn oeddynt goed llin, neu lin heb ei drin, yr hwn a roddasid i'w sychu ar nen y tŷ.

BONA DEA: oedd dduwies Rufeinig, o barth i'r hon y mae cryn wahaniaeth barn, hyd yn oed yn mysg ysgrifenwyr yr hen amseroedd. Dywed C. Labeo fod Macrobius yn ei gosod allan yr un a Rhea y Groegiaid. Dywedir fod yr enw yn cael ei roddi hefyd ar Ops a Vesta gan y Groegiaid, ac ar Fauna gan y Rhufeiniaid. Yr oedd y ddawies hon mor ddiwair, fel na welwyd mo honi ar ol ei phriodas gan un dyn ond ei gŵr; o ba herwydd ni chymmelid ei gŵyliau gan neb ond y gwragedd. Mewn amser, pa fodd bynag, cyflawnid ei defodau gan wrywaid yn gystal, ac arferid yr affendid mwyaf gwarthus yn ei gwasanaeth.

BONCYFF—ION, [*bon—cyff*]: rhan isaf pren; ystwmp, bonyn. *Iob* xiv. 8; *Esa.* xl. 24; xliv. 19. Y mae y gair Hebraeg, yn y manau hyn, yn arwyddo, *yr hyn sydd wedi ei dori allan.* Y mae breiniaeth Nebuchodonozor, ar ol ei dwyn oddi arno, a'i anfon yntau at fwystfilod y maes, yn cael ei chyffelybu i foncyff gwraidd pren (*Dan.* iv. 15, 26), i ddangos fod gobaith iddo am adferiad, wedi ei ddwyn i gydnabod fod Duw yn llywodraethu yn mreiniaeth dynion.

BONEDD Y SAINT: achau saint Ynys Prydain, neu achau a gwelygorddau saint Ynys Prydain; sydd fân gofion achyddol am gannoedd o bersonau, a seintiwyd, o bryd i bryd, yn ddiau,

Digitized by Google

gan rai o babau Rhufain. Y mae y mân gofion hyn yn coffa "seintiau" saith neu wyth o ganrifoedd; sef o'r amser cyntaf y daeth Cristionogaeth i Brydain, hyd oni ddarfu y ddefod o seintio yn yr ynys hon. Ystyrir y mân gofion achyddol hyn o werth mawr gan henafiaethwyr eglwysig Ynys Prydain, am y taflant lawer o oleuni ar hanes eglwysig henafol y Cymry.

Y mae yn hawdd gwybod wrth *Fonedd y Saint*, gystal a *Bucheddau y Saint*, iddynt gael eu hysgrifenu gan fynachod coel-grefyddol yr "oesoedd tywyll." Gellid meddwl oddi wrth y cofion hyn, nad oedd neb o'r werin yn "saint" yn yr oesoedd hyny—neb, o leiaf, gwerth son am danynt—ond tywysogion neu hiliogaeth tywysogion; canys y mae achau y rhan fwyaf o lawer o honynt yn terfynu mewn rhyw *frenin* neu *dywysog* arbenig ac adnabyddus.

Y mae amryw gofresau o'r "bonedd" neu yr "achau" hyn weithion yn argraffedig. Y gofres henaf, efallai, ydyw yr hon sydd yn *Henafiant Cymru* [*Archaiology of Wales*], llyfr ii., td. 24. Casglwyd y gofres hon, gyda'r gofal mwyaf, gan yr henafiaethydd gwladgar a diflin, Lewis Morris (*Llywelyn Ddu o Fon*), yn y flwyddyn 1760, o amryw hen ysgriflyfrau, am y rhai y rhydd yr hanes canlynol:—

1. Gwaith Thomas Wyn ab Edmwnt, ab Rhys ab Rhobert, ab Ieuan Fychan, B. A. 1577. Gelwir y gwaith yma yn gyffredin yn Llyfr Watcin Owain, am iddo fod yn meddiant y gwr hwnw, yr hwn a breswyliai ger Gwydir, wrth Lanrwst. Casglodd Thomas Wyn ei gofres o'r ysgriflyfrau hyn:—Llyfr a fu gyntaf gan Gwilym Salbri o'r Plas isaf, ger Llanrwst, ac wedi hyny gan Mr. Wyn o Fod Ysgallen: Llyfr Ioan Brwc o Fawddwy; a Llyfr Rhobert Dafis o Lanerch, yr hwn oedd bur hen, ac a ysgrifenwyd ar femrwn, y rhan fwyaf o'r hwn oedd Brut y Breninoedd.

2. Llyfr Bod Deulwyn, Llanfechell, Mon, yr hwn a fu yn meddiant Ieuan ab Sion Wyn, ac a ysgrifenwyd yn y flwyddyn 1579.

3. Llyfr Henri Rowland.

4. Llyfr Llywelyn Offeiriad.

5. Llyfr Coch o Hergest, yn Ngholeg Iesu, Rhydychain.

6. Llyfr Achau, gan Robert Fychan o Hengwrt.

7. Llyfr Llywelyn ab Meredydd, neu'r Llelo Gwta.

8. Achau y Saint, perthynol i'r Dr. Thomas Williams, a ysgrifenwyd rhwng 1578 a 1609, wedi ei adysgrifenu o Lyfr Thomas ab Llywelyn ab Ithel o sir Fflint, yr hwn oedd adysgrifeniad o Lyfr Llanerch, gydag ychwanegiadau o gopïau ereill.

9. Llyfr a gasglwyd gan y Dr. T. Williams ei hun allan o luaws o ysgriflyfrau, gydag amryw nodiadau gwerthfawr.

Hefyd, y mae tair cofres o'r "bonedd" yn Ysgriflyfrau Iolo, td. 100, 115, 135.

1. "Achau Saint Ynys Prydain, o Lyfr Thomas Hopcin, o Langrallo, a hwnnw yn un o Lyfrau Thomas ab Ifan o Dre Brynn, yn yr un plwyf, a ysgrifenwyd gantho yn nghylch y flwyddyn 1670."

2. "Achau a Gwelygorddau Saint Ynys Prydain, o Lyfr Hir Thomas Truman o Bant Lliwydd, plwyf Llansannwr, ym Morganwg."

3. "Achau Saint Ynys Prydain, o Lyfr Mr. Cobb, o Gaer Dydd."

Heb law hyn, y mae yn ysgriflyfrau Iolo (td. 147) gofres o "Fân Gofion am rai o Saint Ynys Prydain, o wahanol fân ysgrifau anghyssylltiedig;" a chofres o "Wyliau Saint Cymru, &c., allan o hen 'Galender' mewn ysgriflyfr a ysgrifenwyd yn nghylch 1500, ym meddiant Mr. Thomas Davies o Ddolgellau," td. 152.

Hefyd, y mae yn y *Cambro-Briton*. llyfr iii., td. 7, gyfleithiad crynoawl, heb yr amryw ddarlleniadau, o'r gofres sydd yn *Henafiant Cymru;* ac y mae dwy gofres fechan, anghyflawn, o'r "bonedd" hyn, yn *Mucheddau y Saint*, td. 264, 269. Y gyntaf, "allan o ysgrifau Harl, yn y Llyfrfa Brydeinaidd, 4181, a gymmerwyd allan o hen ysgrif a ysgrifenwyd yn y trydydd canrif ar ddeg. Yr oedd yr ysgrif hon ym meddiant Mr. Edward Llwyd, awdwr dysgedig yr *Archæologia Britannica*, o ddeutu y flwyddyn 1707." Yr ail gofres, "allan o ysgrifau Harl, yn y Llyfrgell Brydeinaidd, 4181, a gymmerwyd allan o hen ysgrif. Yr ysgrif hon oedd ym meddiant John Lewis, Ysw., o Llynweny, yn sir Faesyfed, o ddeutu amser y Frenhines Elsbeth."

Y mae cofres dra chyflawn o'r "saint," yn nghyd â sylwadau godidog arnynt, yn nhraethawd y proffeswr Rees ar y *Saint Cymreig;* ac y mae y *Mona Antiqua Restaurata* yn cynnwys rhestr led helaeth o'r "saint" y gelwir eglwysi Môn ar eu henwau. Hefyd, y mae enwau a "bonedd" y rhan fwyaf o "Saint Ynys Prydain" i'w cael yn ol yr egwyddor yn y *Cambrian Biography*, ac yn *Enwogion Cymru*. A dichon fod chwaneg o gofresau dibwys o "fonedd y saint" hefyd yn argraffedig.

Efallai mai yr amlygiad mewnol cryfaf o blaid awdurdod neu gywirdeb "bonedd y saint," ydyw cyssondeb cyffredinol yr holl luaws hen ysgriflyfrau sydd o honynt ar gof a chadw â'u gilydd. Mewn gwirionedd, y mae y cyssondeb yma y fath, ar y cyfan, fel nad ydys yn gwybod i gymmaint ag un o henafiaethwyr y Dywysogaeth erioed ammheu eu hawdurdod. Y mae Rowlands [*Mon. Ant.*, td. 142] yn cymharu eu hawdurdod âg eiddo yr esgob Usher, ac yn tueddu o blaid y "bonedd;" ac ar awdurdod y "bonedd" y mae efe yn seilio amseryddiaeth adeilad gwahanol eglwysi Mon, &c. [*Mon. Ant.*, td. 188, &c.]; ac nid oes neb, hyd y gwyddys, wedi cynnyg gwrthbrofi eu hawdurdod.

Y mae hyn yn ein harwain at yr amlygiadau allanol sydd o blaid awdurdod y "bonedd;" ac, yn wir, y mae cydnabyddiad unfryd henafiaethwyr yn un ddolen o'r amlygiadau hyny, er nad ydyw, ynddo ei hun, bid sicr, brawf o'u hawdurdod. Pe twyll noeth a fuasai y "bonedd" hyn, y mae yn ddilys ddiammheu y buasai rhai o henafiaethwyr Cymru, o'r seithfed canrif hyd yn bresennol, wedi cael hyny allan, ac wedi ei ddynoethi. Ond yn lle hyny, y maent oll yn cyfeirio at "fonedd y saint" fel cofion diammheuol.

Heb law hyn, y mae y "bonedd" yn cytuno, pan yn cofnodi yr un personau, â ben gofion ereill, a ystyrir gan bawb yn awdurdodol; megys gwaith Gildas, Nennius, Asser, Geoffrey of Monmouth Richard of Cirencester, Bede, William of Malmesbury, Roger of Wendover (*Matthew Paris?*), Richard of Devizes, &c.

Prawf arall pur gadarn o wirionedd ac awdurdod "bonedd y saint" ydyw, fod yr eglwysi a briodolir i wahanol bersonau yn y "bonedd" yn dwyn enwau y personau hyny hyd y dydd hwn, yn hollol gysson â thystiolaeth y "bonedd" ar y mater. Y mae hyn i'w weled yn y rhan fwyaf o'r holl gofion dan sylw; am hyny, afreidiol fyddai cymmeryd lle yn y fan yma i brofi y pwnc.

Digitized by Google

Hefyd, y mae y cerfiadau (*inscriptions*) a gafwyd ar geryg a meteloedd, mewn gwahanol fanau, yn cofnodi gwahanol bersonau yn gwbl gysson â'r cofion a geir yn "monedd y saint" am yr un personau, yn brawf diammheuol o awdurdod a gwirionedd cofion y "bonedd." Cafwyd y cerfiad nodedig canlynol yn Llaniestin, Mon:—

HIC JACET SANCTUS YESTINUS CUI GWENLLIAN FILIA MADOC ET GRYFFYT AP GWILYM, OPTULIT IN OBLACŒM ISTAM IMAGINEM P. SALUTE ANIMARUM S.

Cafwyd cerfiad yn Llangadwaladr yn cynnwys enw Catamanus Rex (Cadfan Frenin), &c., yn meddle yr hwn yr archodd Cadwaladr, ei ŵyr, fel y dengys y "bonedd," i eglwys Llangadwaladr gael ei hadeiladu. Cafwyd cerfiad hefyd yn Mhenrhos Llugwy, yn cynnwys enw Mechyll ab Echwydd (*Maccvq Ecceti*), yr un fath ag y cofnodir ef yn y "bonedd." Gellid nodi lluaws cyffelyb; ond y mae hyn yn ddigon i ddangos fod y cerfiadau a ganfyddwyd, yn gyffredinol, yn hollol gysson â chofion "bonedd y saint;" yr hyn sydd brawf nodedig o'u hawdurdod a'u cywirdeb. —(*Chron. of Gildas; Nennius; Asser; Geoff. of Mon.; Rich. of Ciren.; Bede; Wil. of Mal.; Roger of Wend.; Rich. of Dev.; Myf. Arch.; Mon. Ant.; Humf. Lhwyd Com. Brit. Descr.; Pont. Virun. Brit. Historia, et Catal. Reg. per Dav. Powelum; Lhwyd's Brev. of Brit., by Zwine; Rich. Llwyd's Hist.; Ed. Lhwyd's Arch. Brit.; Giraldi Itiner. Cambr.; Jones' Breckn.; Jones' Relicks & Bard. Museum; Iolo MSS.; Lib. Landav.; Lives of the Cam. Brit. Saints; Rees' Welsh Saints; Cambr. Biog.; Cambro-Briton; Cambr. Reg.; Hanes Cym. Carnhu.; Han. Cref. D. Peter; Parry's Cam. Plut.; Parry's Roy. Vis.; Arch. Cambr.; Cambrian Journ.; Williams' Biog. Dict., &c. &c.*)

Rhoddir yma gofres egwyddorol o'r saint a gofnodir yn y "bonedd." Ceir hanes ac achau y rhai mwyaf pwysig dan eu henwau yn nghorff y gwaith, at y rhai y cyfeirir yn y gofres yma; am hyny, ni fydd achos i'r gofres hon gynnwys dim ond enwau y cyfryw rai. Am y lleill, na ffurflant erthyglau gwahanredol, rhoddir eu hachau a'u hamserau yma, mor fyr ag y gellir:—

Aidan=Aeddan y Coed Aur, ab Caw Cawlwyd, ab Geraint ab Erbyn, arglwydd Cwm Cawlwyd:—5ed canrif.

Aidan ab Gwrfyw, ŵyr Urien Rheged:—5ed canrif. Ni wyddys ai enw un o'r ddau yma, ai Nidan sant, sydd ar eglwys Llanidan.

Aelgyfarch ab Helig ab Glanog, o Dyno Helig:—7fed canrif.

Aelhaiarn ab Hygarfael ab Cyndrwyn o Lystynwenan yn Nghaer Einion yn Mhowys:—6ed canrif. Ei eglwysi, Llan Aelhaiarn yn Arfon, a Chegidfa yn Mhowys. Ei gofwyl, Tachwedd 1af.

Afan Buallt ab Cedig, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig. Ei fam ef, Tegwedd ferch Tegid Foel o Benllyn, ab Cadell Deyrnllwg, brenin Powys:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanafan Fawr a Llanafan Fach yn Muallt, a Llanafan Trawsgoed yn Ngheredigion. Claddwyd ef yn Llanafan Fawr, lle y mae y cerfiad canlynol, er cof am dano:—

HIC JACET SANTOS AVANVS EPISCOPVS.

Ei gofwyl, Tachwedd 16eg

Afarwy ab Caw Cawlwyd, sef y Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd:—6ed canrif.

Afrogwy ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Ailfyw ab Dirdan; a'i fam Danadlwen ferch Gynyr=Ynyr o Gaer Gawch; a'i wraig, Mechell ferch Brychan Brycheiniog:—6ed canrif.

Alan ab Emyr Llydaw:—6ed canrif.

Amaethlu=*Maethlu* ab Caradog Freichfras. Ei fam, Tegau Eurfron, ferch Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanfaethlu yn Mon; a'i gofwyl, Rhagfyr 26ain.

Amo=*Anno*. Ei eglwysydd, Llananno yn Maesyfed, a Llananno, neu Amo, yn Mon, sef eglwys Rhosyr=Niwbwrch. A mwy ni wyddys am dano.

Amwn Ddu, brenin Graweg, ab Emyr Llydaw. Ei wraig, Anna ferch Uthr Bendragon, ab Cystenyn, ab Selyf, ab Greidiol, ab Cynan Meiriadog:—6ed canrif.

Andras ab Rhun Dremrydd, ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys, Llanandras yn mhlwyf Teilo yn Morganwg.

Ane, Aneu, neu Anef ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys, Coedane yn Mon.

Aneurin Gwawdrydd, a elwid hefyd yn Aneurin Mychdeyrn (tywysog) Beirdd, Aneurin y Coed Aur, ac Aur y Coed Aur, ydoedd fab Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd, ab Geraint, ab Erbin, ab Cystenyn Gorneu (Cernyw), ab Cynfar (Cynfor), ab Tudwal Mwynfawr, ab Cadfan (Cadan), ab Cynan Meiriadog, ab Eudaf, ab Caradog, ab Bran Fendigaid, ab Llyr Llediaith. Yna, yr oedd Aneurin yn dywysog, wedi disgyn yn union-gyrchol o brif freninoedd Ynys Prydain. Tywysog neu "arglwydd" ydoedd ei dad, Caw, ar y llwyth Cymreig a elwid gan y Rhufeiniaid *Ottadini*, oddi wrth yr enw Cymraeg *Gododini*, *Gododinwys*—gair yn arwyddo rhai yn preswylio *gororau yn terfynu ar y cuddleoedd*, neu y *celyddon*; a'r gororau hyn a elwid *Gododin*, yn cynnwys y lleoedd a elwir yn awr *Northumberland*, *Lothian* oll (=*Linlithgow*, *Edinburgh*, *Haddington*), *Mers*=*Berwick*, a hanner *Tweedale*=*Peebles*. Am hyny gelwid Caw, weithiau, yn "Caw o Brydyn"=Alban.

Ganwyd Aneurin yn gynnar yn y 6ed canrif, os nad tua diwedd y 5ed canrif; ac yr oedd iddo luaws o frodyr—15, yn ol y cofresau yn gyffredin; ac yn eu plith, Gildas, ysgrifenydd hysbys o'r amser hwnw, gwaith yr hwn, ebai Charles Edwards, yw yr "hynaf lyfr o waith Cymro a'r sydd i'w gael yn argraffedig." Y mae rhai yn barnu yn sicr mai yr un person oedd Aneurin a Gildas, a dygant ddau reswm penodol i brofi hyny; sef, yn gyntaf, nad yw Aneurin a Gildas, er y crybwyllir am y ddau fel plant Caw, yn dygwydd un amser yn yr un cofresau; ond, pan roddir Gildas i mewn, y gadewir Aneurin allan, ac yn y gwrthwyneb. Yn ail, nad yw Gildas ddim ond cyfleithiad o Aneurin, megys y mae Pelagius o Morgan, a rhai anghreifftiau ereill. Y gwyr a ddygasant y rhesymau hyn yn mlaen gyntaf oedd Iolo Morganwg a'r Dr. Pughe, dau henafiaethydd Cymreig o'r radd uchaf; ac nid oes neb, hyd yn oed y rhai sy'n methu credu undodaeth Aneurin a Gildas, wedi cynnyg gwadu y rhesymau crybwylledig: pa fodd bynag, beiddiwn ddywedyd nad yw y rheswm cyntaf gywir; canys y mae y *ddau* enw, Gildas ac Aneurin, yn y gofres a gymmerodd Iolo ei hunan o "Blant Caw o Brydyn o lyfr Mr. Davies, Bangor." Dyma y gofres,—"Dirinic, Cilydd, Bangawr, Ustic, Cynwric, Gwydion, Samson Cyngar, Huail, *Gildas*,

Digitized by Google

Cyhelyn, Gallgof, Gwrddelw, Eigrawn, *Aneurin*, Caen."—*Iolo MSS.*, td. 143.

Am y rheswm arall, y mae yn wir fod Gildas ac Aneurin yn arwyddo yr un peth. "sef rhyw beth perthynol i *aur* neu *euraw*," fel y dywed Carnhuanawc; eto, y mae y chwerwder chwerw a ddengys Gildas at y beirdd, pe na buasai dim arall, yn gryn brawf nad yr un person oedd Gildas ac Aneurin; ond y mae rhesymau Carnhuanawc yn erbyn eu hundodaeth, fel y tybir, yn benderfynol:—"Pan edrychom ar anianawd a chymmeriad y ddau ddyn," ebai yr hanesydd "nid oes dim a all fod yn llawer mwy gwahanol. Gildas, sydd fonach ceintachlyd, yn grwgnach yn agos wrth bob peth a ddaw dan ei sylw; yn difrio ei genedl, ac yn dywedyd na allodd gael gafael ar ddim perthynol idd ei hanes. Aneurin, ar y llaw arall, a glodfora ei gydryfelwyr, ac a ddadgana eu dewrder, gan gyfeirio at amrywiol amgylchiadau, y rhai a arwyddocânt ei fod yn berchenog ar helaethrwydd o ddefnyddiau hanesyddol. Sylwadau Gildas a gyfyngir, gan mwyaf, i bendefigion, ac amgylchiadau deheudir yr ynys. Ac yn mhlith yr holl enwau a geir yn ngwaith Gildas, nid oes braidd un ag a arferir gan Aneurin. Heb law hyn, Aneurin a laddwyd gan ergyd bwyall; ond er dim a ddeallwn, Gildas a fu farw yn dawel yn ei fonachdy. Felly, nis gallaf mewn un modd gredu mai i'r un gwr y perthyn y ddau enw."

Nid oes dim cofion penodol am ddyddiau boreuaf Aneurin, ond gellir casglu oddi wrth ansawdd yr amseroedd, a'i sefyllfa yntau fel pendefig, iddo ymgyflwyno yn fore i'r filwriaeth; canys yr hanes sicr cyntaf a geir am dano ydyw, ei ymuniad â'i gydwladwyr yn erbyn gelynion ei genedl, yn y rhyfelawd trychinebus hwnw i'r Gododiniaid a ymladdwyd ganddynt yn erbyn Catraeth, tref o gryn faint, fel y dengys T. Stephens yn foddhaol, ar oror y rhandir a elwir yn awr *York* (Efrog), yr hon dref a alwai y Rhufeiniaid *Cataracton*, ac a elwir yn bresennol *Catterick;* ac a breswylid y pryd hyny, yn ol pob tebygoldeb, gan y Brigantwys (*Brigantes*)—llwyth Cymreig cymmydogol y Gododinwys—y rhai (sef y Brigantwys) oeddynt erbyn hyn wedi ymuno, o'u bodd neu o'u hanfodd, â gelynion eu cenedl. Y rhyfelgyrch ofnadwy yma, a lwyr ddileodd lwyth y Gododinwys o'r Gogledd, yw testyn cân oddiog Aneurin, a elwir *Y Gododin*—y gân Gymreig hwyaf a goreu o'r 6ed canrif, yr hon sydd 920 o linellau; ac er hyny, tybia y beirniaid yn gyffredin nad ydyw ond darniog yn y dull y cyrhaeddodd yr oes bresennol. O ran ei harddull, tybir mai *telynol* (*lyric*) ydyw y *Gododin*, yn hytrach nag arwrol (*epic*), fel y barna amryw; a meddylia Lewis Morris iddi gael ei chyfansoddi yn odlau gwahanol, yn hytrach nag yn un darn cyfanwaith.

Yn ol y *Gododin*, aeth 363 o bendefigion y Gododinwys, heb law Aneurin ei hun—oll yn gwisgo eurdorchau, yn ol defod yr oes—i frwydr Catraeth, dan arweiniad cadlywydd dewr, a elwid Urien Rheged=Mynyddawg Eiddin; o'r sawl ni ddiangodd ond pedwar yn unig, ac yn eu plith y bardd ei hun, o'r gyflafan gyffredinol: a dengys y gân yn amlwg mai y prif achos o'r holl drychineb dinystriol oedd, fod y Gododinwys yn feddwon pan yn myned i faes y frwydr! Dyma fel y dywed y bardd:—

"Trywyr a thriugaint a thrichant eurdorchawd,
O'r sawl yd grysiasant uch gormawt wirawd,
Ni diengai namyn tri o wrhydri fosawd,
Dau gatgi Aeron a Chynon daerawd,
A minnau o'm gwaedfreu gwerth vy ngwenwawd."

Hyny yw,

Trichant a thrigain a thri [o wyr] eurdorchog,
A gymhellwyd i'r gad gan orlawnder o wirod [medd];
Ni ddiangodd ond tri [o'r gwroniaid hyn] rhag brath y cleddyf—
Dau gadgi [rhyfelgwn] Aeron, a Chynon hyf,
A minnau a achubwyd gan fy awen gyssegredig.

Ond er na chafodd Aneurin ei ladd yn y frwydr, eto cymmerwyd ef yn garcharor; a thaflwyd ef i ddaiardy yn rhwym mewn cadwyni haiarn; ac oni buasai i un o feibion dewr Llywarch Hen, a elwid Ceneu, ruthro i'r carchar, a'i gymmeryd ymaith, arwydda y gân y dygesid ef allan yn fuan i'w ddienyddio. Tybia haneswyr yn gyffredin mai y Seison oedd y gelynion yn mrwydr Catraeth, ond ni wyddant pwy oedd y cadlywydd. Meddylia un mai Ida ydoedd; ond ymddengys yn dra amlwg yn yr *Achau*, fel y tybir, mai y Gwyddyl Ffichti (*Picts*) oedd y prif, os nad yr unig, elynion yn nghyflafan Catraeth; canys dywedir yn bendant,—"Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd yn y Gogledd, a yrwyd o'i gyfoeth gan y Gwyddyl Ffichti; a dyfod, efe a'i blant, i Gymru a wnaethant; rhai at Arthur, ac efe a roddes iddynt diroedd; a rhai o honynt a aethant yn saint yn Nghôr Illdud, ac yn Nghôr Teiliaw, ac yn Nghôr Catwg: ereill a aethant at Faelgwn Gwynedd, ac efe a roddes diroedd iddynt yn Môn, nid amgen na Thwr Celyn, ac o'r lle hwn ydd hanoedd ei fam, a hawl a chyflawnder iddaw ar dir a daiar yno; a gwedi hyny Caw o Dwr Celyn a'i gelwid ef; ac efe a elwir hefyd Caw o Brydyn, a Chaw Cawlwyd."

Aneurin, medd yr *Achau*, "a aeth yn sant o Gôr Catwg," prif nawddle "saint" a dysgedigion yr oes. Yma, yn ol pob tebygoldeb, y cyfansoddodd efe ei *Ôdodin;* ac yma hefyd, fel y crybwylla yn ei gân, y daeth yn gydnabyddus â Thaliesin Ben Beirdd, yr hyn hefyd, yn wir, a gydnebydd Taliesin ei hunan. Ymddengys hefyd fod gan Taliesin ryw law yn nghyfansoddiad y gân; yn amgen, beth sydd i'w ddeall oddi wrth y llinellau canlynol, sydd yn y *Gododin?*—

"O ved o vuelin,
O Gatraeth wnin,
Mi a na, vi Aneurin,
Ys gwyr Taliesin,
Ovrg cyvrenin
Cyn gwawr dydd dilin."

Sef,

Am y medd ac am y corn,
Ac am gadgyrchfa Catraeth,
Mi a wnaf fi, Aneurin,
Fel y gwyr Taliesin,
Gân o gyfranogaeth,
A gynnygir yn y *Gododin*
Cyn gwawr dydd ilafur.

Nid ydys yn gwybod am ddim a wnaeth Aneurin fel "sant;" nac am un eglwys wedi ei chyflwyno iddo. Fe briodolir amryw fân ganau iddo heb law y *Gododin*, yn enwedig *Englynion y Misoedd;* ond sicrha T. Stephens, yn briodol, y rhaid i glod Aneurin ymddibynu yn hollol ar y *Gododin* yn unig, gan fod yr holl ganau ereill a briodolir iddo yn llawer tebycach i gynnyrchion yr unfed canrif ar bymtheg nag i'r chweched.

Gallesid dysgwyl yn rhesymol, wedi i'r gwladgarol Aneurin gael gwaredigaeth mor ryfeddol o gyflafan erchyll Catraeth, a'i chanlyniadau; ac ymneillduo i fysg cyfeillion dysgedig a chrefyddol yn Nghôr Catwg Ddoeth, y buasai yn sicr o gael marw yn naturiol, os nad yn hen ac yn llawn o ddyddiau. Ond, ysywaeth, nid felly fu: daeth bradwr heibio iddo, a llofruddiodd ef trwy ergyd bwyall, fel y dywed y *Trioedd*:—"Tair anfad

Digitized by Google

fwyellawd Ynys Prydain: bwyellawd Eiddyn ab Einygan yn mhen Aneurin Gwawdrydd," &c. Bernir i'r llofruddiad ysgeler yma gael ei gyflawnu o gylch 570 B. A., yn mhen tua deng mlynedd ar ugain ar ol cyflafan Catraeth, yr hon a gymmerodd le o gylch 540 B. A.

Anhun=Annyn Santes, llawforwyn Madryn, ferch Gwrthefyr Fendigaid, ab Gwrtheyrn Gwrthenau:—5ed canrif.

Anna Santes, ferch Uthr Bendragon, a gwraig Amwn Ddu:—5ed canrif.

Anna ferch Gwrthefyr Fendigaid:—5ed canrif.

Anna ferch Brychan Brycheiniog:—6ed canrif.

Arddun Banasgell ferch Pabo Post Prydain; gwraig Brochwel Ysgythrog, brenin Pen-gwern Bowys:—6ed canrif. Ar enw hon, fel y tybir, y gelwir "Dol Arddun," yn mhlwyf Castell Caereinion, yn Mhowys.

Arianwen. Gwel ARIANWEN.

Arthan ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys yn Ngwynllwg, a dored gan y paganiaid Seison.

Arthfal ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif.

Arthne. Ei eglwys, Llanarthne yn Nyfed; a hyny a wyddys am dano.

Arwystl ab Cunedda Wledig, a roddes ei enw i'r wlad a elwir Arwystli; a'i alw yntau Arwystl Arwystli:—4ydd canrif.

Arwystli Gloff. Gwel ARWYSTLI GLOFF.

Arwystli Hen. Gwel ARWYSTLI HEN.

Asaf. Gwel ASAF; BANGOR ASAF.

Aurdeyrn=*Aerdeyrn* ab Gwrtheyrn Gwrthenau o'i ferch ei hun:—6ed canrif. Ei eglwys, Llanedeyrn yn Nghibwyr.

Bach ab Carwyd, ab Pabo Post Prydain:—7fed canrif. Ei eglwys, Eglwys Fach yn Ngwynedd is Conwy.

Baglan ab Ithel Hael o Lydaw: diwedd y 4ydd canrif. Ei eglwys ef, Llanfaglan yn Arfon.

Baglan ab Dingad, ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig. Ei fam, Tenen=Perferen ferch Llewddyn Luyddog o Ddinas Eiddyn yn y Gogledd:—6ed canrif. Ei eglwys, Llanfaglan yn Morganwg; Llanfaglan yn Arfon, medd rhai.

Bangawr ab Caw o Brydyn:—6ed canrif.

Banhadlen ferch Ynyr (Gynyr) Caer Gawch, a gwraig Dirdan, pendefig o'r Eidal:—6ed canrif.

Bedwas ab Helig, ab Glanog, o Dyno Helig. Ac yn amser Rhun ab Maelgwn y bu, yn y 6ed canrif.

Bedwini, archesgob y Gelli Wig yn Nghernyw, yn amser Arthur frenin:—6ed canrif.

Berys. Ei eglwys ef, Llanferys yn Ngwynedd is Conwy.

Beuno ab Huwgi. Gwel BEUNO.

Bleiddian (*Lupus*), sant ac esgob o dir Gâl, a ddaeth i'r ynys hon gyda Garmon Sant, yn amser Cystenyn Fendigaid=Cystenyn o Lydaw, yn y 5ed canrif. Ei eglwysi, Llanfleiddian Fawr, a Llanfleiddian Fach, yn Morganwg. Ei gofwyl, Gorphenaf 29ain.

Blenwyd ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Boda ab Helig ab Glanog o Dyno Helig:—7fed canrif.

Bodfan=Bodwan ab Helig ab Glanog:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Aber Gwyn Gregyn yn Arllechwedd Arfon. Ei gofwyl, Mehefin 21ii.

Bran Fendigaid ab Llyr Lediaith. Gwel BRAN.

Brenda=Brendaf ab Helig ab Glanog:—7fed canrif.

Brochwel Ysgythrog. Gwel BROCHWEL.

Brothan ab Seirioel, ab Ussa, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Brothan ab Seiriol, ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Brothen ab Helig, ab Glanog, o Dyno Helig:—7fed canrif. Ei eglwys, Llanfrothen yn Meirion. Ei gofwyl, Hydref 15fed.

Brychan Brycheiniog. Gwel BRYCHAN.

Brynach Wyddel o Ddinas Ffaraon, a ddaeth i'r ynys hon gyda Brychan, ac a fu yn beriglawr iddo. Ei wraig, Cymmorth=Corth ferch Brychan: y pummed canrif. Ei eglwysi, Llanfrynach neu Penllin yn Morganwg, Llanboidy yn Nghaerfyrddin; a Llanfrynach, Dinas, a Nanhyfer (*Nevern*) yn Mhenfro. Ei gofwyl, Ebrill 7fed.

Buan ab Ysgwn, ab Llywarch Hen: y seithfed canrif. Ei eglwys, Bodfuan yn Nghaerfyrddin. Ei gofwyl, Awst 4ydd.

Bugel=*Bigel.* Ei eglwys, Llanfigel yn Mon.

Cadell Deyrnllwg, brenin Powys, ab Pasgen, ab Rheiddwy, ab Rhuddfedel Frych, ab Cyndeyrn, ab Gwrtheyrn Gwrtheneu, ab Rhydeyrn, ab Deheufraint, ab Euddigant, ab Aurdeyrn, ab Ennydd, ab Ennos, ab Enddolau, ab Afallach, ab Aflech, ab Beli Mawr:—5ed canrif. Yr oedd efe yn gyff llawer o saint, ac yn noddwr cymmwynasgar i Garmon Sant.

Cadell ab Cawrdaf, ab Caradog Freichfras:—6ed canrif.

Cadell ab Urien Rion, ab Llywarch Hen:—7fed canrif. Ei eglwys, Llangadell yn Morganwg. Tybia rhai mai yr un oedd hwn a'r ddau ganlynol, a geir yn y "bonedd."

Cadell ab Buan, ab Ysgwyn, ab Llywarch Hen.

Cadell ab Urien Foeddog, ab Rhun Rhion, ab Llywarch Hen.

Cadfan. Gwel CADFAN.

Cadfarch ab Caradog Freichfras, ab Llyr Merini; a'i fam Tegau Eurfron:—6ed canrif. Ei eglwys, Abererch yn Lleyn, a Phenegoes yn Mhowys. Ei gofwyl, Hydref 24ain.

Cadfrawd Esgob, ab Cadfan, ab Cynan, ab Eudaf, ab Caradawg, ab Bran, ab Llyr Lediaith. O fodd arall—Cadfrawd ab Cadfan, ab Eudaf, ab Coel, ab Cyllin, ab Caradawg, ab Bran Fendigaid:—4ydd canrif. Ei eglwys ef, Caerllion ar Wysg. Yr oedd efe yn un o'r tri esgob o Brydain oedd yn Nghynghor Arles, yn Ngâl, B A. 314.

Cadgyfarch Esgob, ab Cadfrawd, &c.:—4ydd canrif. Ei eglwys ef, y Bryn Buga.

Cado=Cataw ab Geraint, ab Erbin, brenin Dyfed:—6ed canrif. Efe yw Cado Hen y *Trioedd*; sef un o'r "tri dyn a gafas ddoethineb Addaf."

Cadog=Catawg ab Brychan:—5ed canrif. Yn Llangadawg yn Ystrad Tywi, y mae ei eglwys ef, ac efe a wnaethpwyd yn esgob gan Ddyfrig ei frawd, ac a aeth i Ffrainc, lle y gorwedd. Gwel DYFRIG.

Cadrod Calchfynydd (Calchwynydd) ab Cynwyd Cynwydion, ab Cynfelyn, ab Garthwys, ab Morydd, ab Mor, ab Cenen, ab Coel Godhebawg. Ei wraig, Gwrgon ferch Brychan:—5ed canrif.

Cadwaladr Fendigaid. Gwel CADWALADR

Cadwr ab Ednyfed, ab Macsen Wledig, a fu esgob yn Ynys Prydain; a brawd Dyfnwal Hen ydoedd; ac yn byw yn Nghaerllion ar Wysg:—5ed canrif.

Caffo=Caffaw ab Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd, ab Geraint, ab Erbin:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llangaffo yn Môn.

Cai ab Brychan:—5ed canrif. Yn Aber Cai ei eglwys ef, lle a'i tored gan y genedl ddu.

Digitized by Google

Caian ab Brychan:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Tregaian yn Mon. Ei gofwyl, Medi 25ain.

Cain Santes, ferch y Caw o Dwr Celyn yn Mon, sef y Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei heglwys, Llan-gain yn Ystrad Tywi yn Nyfed.

Callwen Santes, o deulu Brychan:—5ed canrif. Ei heglwys, Llan Gallwen yn Nefynog. Ei chofwyl, Tachwedd 1af.

Cammarch ab Gwynlliw Filwr, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif. Ei eglwys, Llan-gammarch yn Muallt.

Canna=Cannau ferch Caw:—6ed canrif.

Canna ferch Dewdwr ab Emyr Llydaw, a mam Elian Ceimiad a Chrallo:—6ed canrif. Ei heglwys hi, Llan-ganna yn Morganwg.

Canneu=Cannen ab Gwyddlyw, ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif. Ei heglwys, Llan-ganneu yn Morganwg; neu, medd rhai, Llan-ganten yn Mrycheiniog.

Caradawg Freichfras ab Llyr Merini, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig. O fodd arall, Caradawg Freichfras, ab Llyr Myryni, ab Meirchion Gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Cenau, ab Coel Godhebawg, o Dyfanwedd ferch Amlawdd Wledig. Dywed Williams yn *Enwogion Cymru*, dan yr enw, mai Gwen ferch Brychan oedd ei fam:—6ed canrif. Y mae Caradawg Freichfras yn gyff i luaws o saint.

Caradog Fonach, a sefydlwyd gan esgob Tŷ Ddewi yn Sant Ismael, yn Mhenfro, lle y bu farw B. A. 1124. Ef a seintiwyd gan y pab trwy ymdrech Gerallt o Gymru.

Caranog ab Corwn=Corun, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-garanog yn Ngheredigion. Ei gofwyl, Mai 16eg.

Carfan. Ei eglwys ef, Llan-garfan yn Morganwg.

Caron Esgob. Ei eglwys ef, Tregaron yn Ngheredigion. Ei gofwyl, Mawrth 5ed.

Carwyd ab Pabo Post Prydain:—6ed canrif. Sant ef o Fangor Dynawd.

Caswallawn Law Hir, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—5ed canrif. Ef a wnaeth eglwys i Dduw yn y lle y cafas ef y fuddugoliaeth ar ei elynion, ac a'i gelwis Llan y Gwyddyl; ac yn Mon y mae hono; ac yn awr ei gelwir Ceryg y Gwyddyl=Caergybi. Efe a roddes diroedd a da hefyd i Elian Sant, lle y mae eglwys Llanelian yn Mon; ac yno y cynnaliai Caswallon ei lys, mewn lle a elwir hyd y dydd hwn, "Llys Caswallawn."

Catrin Santes, ferch Alecsander, brenin Constantinobyl. Ei heglwysi, Sant Catrin yn Nhir Dewi, a Llaniestin yn Mynwy.

Catwg Ddoeth. Gwel CATWG.

Cathan=Cathen ab Cawrdaf, ab Caradog Freichfras:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gathan yn Nyfed. Ei gofwyl, Mai 17eg.

Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd, ab Geraint, ab Erbin, ab Cystenyn Gorneu, ab Cynfar=Cynfor, ab Tudwal Mwynfawr, ab Cadan=Cadfan, ab Cynan Meiriadog, ab Eudaf, ab Caradog, ab Brân, ab Llyr Llediaith. Efe a yrwyd o'i gyfoeth gan y Gwyddyl Ffichti; ac efe a ddaeth i Gymru, lle cafas efe a'i feibion diroedd gan yr ymherawdwr Arthur a chan Faelgwn Gwynedd yn Mon; sef lle a gafas yno, Twr Celyn; ac o'r lle hwnw ydd hanoedd ei fam, a hawl a chyfiawnder iddaw ar dir a daiar yno; ac efe a elwir hefyd Caw o Brydyn, a Chaw Cawlwyd, a Chaw o Dwr Celyn:—6ed canrif. Efe yw cyff lluaws o saint Ynys Prydain, a'i deulu ef oedd un o dri gwelygordd Saint Ynys Prydain. Y lleill oedd teulu Brychan Brycheiniog a Chunedda Wledig.

Cawrdaf ab Caradog Freichfras, yn Ngallt Cawrdaf yn Ngwent; sant oedd o Fangor Illtyd:—6ed canrif. Ei eglwysi, Abererch yn Arfon, a Llan-goed yn Mon. Ei gofwyl, Rhagfyr 5ed.

Cedol. Ei eglwys, Llan-gedol, neu Bentir yn Arfon. Ei gofwyl, Tachwedd 1af.

Cedwyn ab Gwron Meigwron=Gwgon Gwron, ab Peredur, ab Elifer Gosgorddfawr, ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog; ei fam, Madryn ferch Gwrthefyr Fendigaid:—6ed canrif. Ei eglwys, Llan-gedwyn yn Maelor.

Ceidiaw ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebawg:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Rhodwydd Ceidio yn Mon.

Ceidiaw ab Ynyr Gwent, a Madryn ferch Gwrthefyr Fendigaid ei fam:—6ed canrif. Sant ef o Gôr Catwg.

Ceidiaw ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-geidio yn Arfon.

Ceindrych ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwys yn Nghaer Golawn [lle anhysbys].

Ceinwen ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwysi, Llan-geinwen a Cheryg Ceinwen yn Mon. Ei chofwyl, Hydref 8fed.

Ceinwr ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—5ed canrif. Ei eglwys, Llan-geinwr.

Ceinydr=Cynidr o Faelienydd, ab Rhiengar ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwysi ef, Llan-gynidr ac Abersycir yn Mrycheiniog.

Ceithiaw ab Tudur, ab Arwystl Gloff:—6ed canrif. Yn Ngheredigion ei eglwys ef.

Ceitho ab Cynyr Farfdrwch, ab Gwron, ab Cunedda Wledig. Ei eglwys ef, Llan-geitho:—6ed canrif. Ei gofwyl, Awst 5ed.

Celer, sant a merthyr. Ei eglwys ef, Llan-geler yn Arfon.

Celynin ab Cynyr Farfdrwch, ab Gwron, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Celynin ab Helig, ab Glanog, o Dyno Helig:—7fed canrif. Ei eglwysi, Llan-gelynin Aberconwy, a Llan-gelynin yn Meirion. Ei gofwyl, Tachwedd 22ain.

Cenedlon ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Yn Mynydd y Cymmod (Cymhorth), yn Emlyn.

Ceneu ab Coel Godhebog:—4ydd canrif. Sant ef yn Ngarth Mathrin—Llan-geneu?

Ceneu, pedwerydd archesgob Ty Ddewi:—6ed canrif. Ei eglwys, Llan-geneu yn Mhenfro, a dored gan y paganiaid.

Cennych. Ei eglwys, Llan-gennych yn Nyfed.

Cennydd ab Gildas y Coed Aur, ab y Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwysi, Sainghenydd yn Morganwg, a Llan-genydd yn Ngwyr.

Cenwyn. Ei eglwys ef, Ceredigion. Sant ef o Bangor Padarn.

Ceredig ab Cunedda Wledig:—4ydd canrif. Ef a yrawdd yr estroniaid o Gantref y Tyno Coch, ac a'i cafas yn etifeddiaeth, ac a'i gelwis Ceredigiawn arni o'i enw ei hun; ac efe a elwir Ceredig Ceredigiawn.

Cewydd ab y Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan gewydd, Morganwg.

Cian:—6ed canrif. Ei eglwys, Llan-gian yn Arfon.

Cilydd ab y Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Nyfed.

Digitized by Google

Ciwa:—6ed canrif. Ei eglwys, Llan-giwa (Llangua) yn Ngwent.

Ciwg ab Arawn, ab Cynfarch:—6ed canrif. Llan-giwg (Languke) yn Ngwyr ei eglwys ef.

Cledog ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Caercledog (Llydor) yn Euas (yr un, efallai, a Longtown) a elwir ar ei enw ef.

Cledwyn ab Brychan, brenin Ceredigion a Dyfed:—5ed canrif. Ei eglwys, Llan-gledwyn yn Nyfed.

Cler y Normaniad. Ei eglwys ef, Llangler (St. Clare), yn Nyfed.

Cloffan, o wehelyth Bran ab Llur Llediaith, a fu yn esgob yn amser Cystenyn Fendigaid:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llangloffan, yn Nyfed.

Clwyd ab Cynedd Wledig, a gafas Ddyffryn Clwyd:—4ydd canrif.

Clydai=Clydei ferch Brychan:—5ed canrif. Ei heglwys, Clydai yn Emlyn.

Clydawc=Clydog ab Brychan:—5ed canrif. Ei eglwys ef yn Euas, lle a'i llas (lladdwyd) gan y paganiaid Seison.

Clydno Eiddin, ab Cynwyd Cynwydion, ab Cynfelyn, ab Garthrwys, ab Morydd, ab Mor, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif.

Coel Godhebawc (Coedhebog) o Gaercoelin, ab Tegfan, ab Deheufraint, ab Tudbwyll, ab Eurben, ab Gradd, ab Rhuddfedel, ab Rhydeyrn, ab Eiddigant, ab Eurdeyrn, ab Einydd, ab Ennos, ab Enddolau, ab Afallech, ab Aflech, ab Lludd, ab Beli mawr:—3ydd canrif. Efe a wnaeth eglwys yn Llandaf; ac yr oedd yn gyff llawer o saint.

Cof ab Ceidiaw, ab Arthrwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebawc:—6ed canrif.

Cofen:—7fed canrif. Ei eglwysi, Llan-gofen yn Ngwent, a Chapel Gofen yn Nyfed.

Colman Wyddel, neu Colman Hen:—5ed canrif. Ei eglwysi ef, Llangolman, a Chapel Colman yn Nyfed.

Collen ab Gwynnawc, ab Cadell, ab Cawrdaf, ab Caradawc Freichfras: neu, o fodd arall—ab Petrwn, ab Coledawc, ab Gwyn, ab Cadell, &c.:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llangollen yn Ngwynedd.

Crallo ab Sadwrn, nai mab brawd Illtud, ac efe a wnaeth eglwys a chôr yn Llangrallo, lle y gorwedd. Ei fam ef, Canna Santes, ferch Dewdwr Mawr o Lydaw:—6ed canrif.

Cristiolus ab Hywel Fychan, ab Hywel Faig, a elwir Hywel Farchawg, ab Emyr Llydaw:—7fed canrif. Ei eglwysi ef, Llangristiolus, yn Môn, ac eglwys Wrw a Phenrydd, yn Nyfed. Ei gofwyl, Tachwedd 3ydd.

Cunedda=Cynedda Wledig ab Edeyrn, ab Padarn Beisrydd, ab Tegid, ab Iagof, ab Genedawc, ab Cain, ab Gwrgain, ab Doli, ab Gwrldoli, ab Dwfn, ab Gorddwfn, ab Enwerydd, ab Onnwedd, ab Dwywc, ab Rhychwain, ab Owain, ab Afallech, ab Aflech, ab Lludd, ab Beli Mawr, ymherawdwr Ynys Prydain. Mam Cynedda Wledig, Gwawl ferch Coel Godhebawc:—4ydd canrif. Cynedda ydoedd un o naw gwehelydd saint Ynys Prydain, ac o genedl y Cymry yr hanoeddynt oll.

Curig Lwyd=Fendigaid, ab Urien, ab Cynfarch:—7fed canrif. Mae amryw eglwysi ar ei enw ef neu Gurig ab Ilid; sef Llan-gurig yn Mhowys, Eglwys Porth Curig yn Ngwent, a Chapel Curig a'i fam Ilid yn Arfon.

Cwyan Sant. Llan-gwyan Gwladforgant ei gôr ef, lle a'i llas gan baganiaid o Seison:—6ed canrif.

Cwyfan=*Cwyfen* ab Brwyno, ab Corth Cadeir o Gwm Dyfynawc, ab Medrawd, ab Cawrdaf, ab Caradawc Freichfras; a'i fam Camell o Fod Angharad yn Ngholeion:—7fed canrif. Ei eglwysi, Llan-gwyfan yn Mon, Tudweiliog yn Arfon, a Llan-gwyfan yn Maelor. Ei gofwyl, Mehefin 3ydd.

Cwyfyn ab Arthalun, Glyn Achlach yn y Werddon.

Cwyllog ferch Caw o Dwr Celyn:—6ed canrif. Ei heglwys, Llan-gwyllog yn Mon.

Cwynran Sant. (Anhysbys.)

Cybi. Gwel CYBI.

Cyfelach Sant a fu esgob yn Llandaf, ac a las gan y paganiaid:—8fed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gyfelach yng Ngwyr, arall yn Euas.

Cyflefyr=*Cyflewyr* ab Brychan, a las gan y paganiaid Seison yn Ngheredigiawn, yn y lle a elwir o'i enw ef Merthyr Cyflefyr:—5ed canrif.

Cyflewyr ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif. Brawd i Gatwg Ddoeth a sant o'i gôr ef.

Cyfyw=Cynfyw=Cynyw ab Gwynlliw, brawd eto i Gatwg:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Llan-gyfyw yn Ngwent, a Llan-gynyw yn Mhowys.

Cyffyloc ab Garmon, ab Goronwy o Wareddawg:—6ed canrif. Sant ef o Gôr Beuno.

Cyhelyn=Cuhelyn Fardd, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Cyhylyn ab Tewdric, ab Teithfach, ab Nyniaw, o wehelyth Bran ab Llur Llediaith, a fu yn esgob yn Llundain yn amser Cystenyn Llydaw:—5ed canrif.

Cyllin ab Caradawc ab Bran, ab Llur Llediaith:—canrif 1af.

Cymmorth=Corth ferch Brychan Brycheiniog, a gwraig Brynach Wyddel:—5ed canrif.

Cynan ab Eudaf, ab Caradog, ab Bran, a fu yn esgob yn Llundain yn amser Macsen Wledig:—4ydd canrif.

Cynan Genir, ab Cynwyd Cynwydion, ab Cynfelyn, ab Garthrwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebawc:—6ed canrif.

Cynan Garwyn ab Brochwel Ysgythrog:—7fed canrif.

Cynbryd ab Brychan Brycheiniog, a las gan y Seison digred yn Mwlch Cynbryd:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanddulas yn Maelor.

Cyndaf Sant, gwr o'r Israel a ddaeth gyda Garmon i'r ynys hon: ereill a wedant gyda Chadfan. Gwel CADFAN; GARMON.

Cyndeyrn ab Gwrtheyrn Gwrtheneu:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gyndeyrn yn Nghydweli.

Cyndeyrn ab Cyngar, ab Garthwg=Arthog, ab Ceredig, ab Cynedda Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gyndeyrn yn Nyfed. Ei gofwyl, Gorphenaf 25ain.

Cyndeyrn Garthwys. Gwel CYNDEYRN.

Cynddilic ab Nwython, ab Gildas, ab y Caw o Gwm Cawlwyd:—6ed canrif. Sant ef yn Ngwlad yr Haf.

Cynddylan ab Gildas ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Cyneddaf Hen, gwr o'r Israel a ddaeth yn esgob at Leurwg Sant ab Coel, ab Cyllin, ab Caradawc ab Bran Fendigaid:—2il canrif.

Cynfab. Efe a wnaeth Gapel Cynfab yn Nyfed. Ei gofwyl, Tachwedd 15fed.

Cynfaran=Cynfran ab Brychan:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llysfaen, Arfon, lle y mae *Ffynnon Gynfran*.

Cynfarch Oer, ab Meirchion Gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebawc:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gynfarch yn Maelor, ac arall (*St. Kinemark's*) yn Ngwent.

Digitized by Google

Cynfarwy ab Awy, ab Llenawg, tywysog Cernyw:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llechgynfarwy yn Mon. Ei gofwyl, Tachwedd 7fed.

Cynfelyn ab Bleiddyd, ab Meirion, ab Tybiawn, ab Cynedda Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gynfelyn yn Ngheredigion; arall yn y Trallwng yn Ngwent.

Cynfelyn Drwsgl, ab Cynwyd Cynwydion, ab Cynfelyn, ab Garthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebawg:—6ed canrif. Sant ef, Bangor Catwg.

Cynhafal=Cynhawal ab Elgud, ab Cadfarch, ab Caradawc Freichfras, a'i fam Tubrawst ferch Tuthlwyniad:—7fed canrif. Ei eglwys, Llan-gynhafal yn Ngwynedd. Ei gofwyl, Hydref 5ed.

Cynhaiarn ab Hygarn=Hygarfael, ab Cyndrwyn o Lystynwennan, Caereinion Powys:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Cynhaiarn yn Arfon.

Cynheiddon ferch Brychan:—5ed canrif. Hi a wnaeth gapel Llan-gynheiddon ar Fynydd Cyfor yn Nyfed.

Cynhyiddan=Cynheiddan ab Ynyr Gwent, a Madryn ferch Gwrthefyr Fendigaid ei fam:—6ed canrif.

Cynidr o Faelienydd, ab Rhiengar ferch Brychan:—5ed canrif. Ei eglwysi ef, Llan-gynidr ac Abersycir yn Nyfed.

Cynin ab Brychan:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gynin yn Nyfed.

Cynir ab Gwron ab Cynedda Wledig, cefnder Caswallawn Lawhir:—5ed canrif.

Cyniw ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg, brawd Catwg:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gyniw yn Mhowys.

Cynllo ab Mor, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—5ed canrif. Ei eglwysi ef, Llan-gynllo yn Esyllwg, a Llan-goedmor yn Ngheredigion, lle y mae *Cerwynau Cynllo*, *Ol traed march Cynllo*, ac *Ol glinau Cynllo*. Y mae *Pistyll Cynllo* hefyd yn Esyllwg.

Cynnen ferch Gwyddlew, ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif.

Cynnwr. Ei eglwys ef, Llangynnwr yn Nyfed.

Cynog=Cynawc ab Brychan, a'i fam Banadlwedd ferch Banadle o Fanadla yn Mhowys:—5ed canrif. Efe a las gan y paganiaid Seison yn Merthyr Cynog, ei eglwys ef. Eglwysi ereill iddo, Dyfynog, Penderin, Battel, a Llan-gynog yn Mrycheiniog, a Llan-gynog yn Mhowys.

Cynon a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon:—6ed canrif. Canghellwr Cadfan yn Mangor Enlli ydoedd.

Cynwyd Cynwydion ab Cynfelyn, ab Garthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gynwyd yn Morganwg.

Cynwyl ab Dunawd Fawr (Ffur), ab Pabo Post Prydain; a'i fam Dwywe ferch Gwallawg ab Llenawg:—6ed canrif. Ei eglwysi, Cynwyl Gaio, Cynwyl Elfed, ac Aberporth yn Nyfed, ac eglwys Penrhos yn Arfon. Ei gofwyl, Ebrill 30ain.

Cyngar ab Geraint, ab Erbin, ab Cystenyn Fendigaid (Gorneu):—6ed canrif. Efe a wnaeth Fangor Gyngar, a hi a dored gan y paganiaid o Seison; a gwedi hyny a wnaethpwyd o'r newydd gan Dochen Sant o Gôr Illtyd, a nai iddaw.

Cyngar ab Garthwg=Arthwg, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ei gôr ef, Morganwg, Llan-genys heddyw.

Cyngen ab Cadell Deyrnllwg:—5ed canrif. Ei eglwys yn y Mwythig.

Cystenyn Gorneu, neu Cystenyn Fendigaid. Gwel Cystenyn.

Darawc o Gydweli: anhysbys.

Dathan, sant o Gôr Illtud, a nai iddaw:—6ed canrif. Ei Fangor ef yn Nghaer Went.

Degwy, a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon:—6ed canrif.

Deiniol Wyn ab Dunawd Fawr (Ffur), ab Pabo Post Prydain, a'i fam Dwywe ferch Gwallawc ab Llenawc:—6ed canrif. Ei eglwysi, Bangor Deiniol (Bangor Fawr) yn Ngwynedd, Llanddeiniol yn Ngheredigion, a Llanddeiniol (Itton) yn Ngwent; ac efe a wnaeth Fangor Maelawr yn Nglan Dyfrdwy, lle bu 'n ogoneddus o'r holl Fangorau cyn ei thori gan y Seison di gred yn ngwaith Perllan Fangor. Ei gofwyl, Rhagfyr 10fed.

Deiniol ab Deiniol Ail=Deiniolen, ab Deiniol Wyn, ab Pabo Post Prydain, sant o Fangor Maelor; a gwedi tori hono, efe a aeth i Wynedd uwch Conwy, lle y bu yn arllwybraw Côr Bangor Fawr yn Arllechwedd, a elwir Bangor Deiniol, yn amser Cadwaladr Fendigaid:—7ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanddeiniolen yn Arfon, a Llanddeiniol Fab yn Mon. Ei gofwyl, Tachwedd 23ain.

Derfael=Derfel Gadarn ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llandderfel yn Edeyrnion.

Deunawc ab Cawrdaf, ab Caradawc Freichfras:—6ed canrif.

Dewi Sant. Gwel Dewi.

Dier=Dihaer, ab Arwystl Gloff:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Bodfari yn Nhegeingl.

Digain ab Cystenyn Gorneu:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llan-gernyw yn Rhufoniawg.

Diheufyr ab Arwystl Gloff. Yr un, efallai, a Dier.

Dingad, arglwydd Gwent uwch Coed, ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys ef yn Mryn Buga yn Ngwent uwch Coed.

Dingad ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Ei wraig ef Tefriain, ferch Llewddyn Luyddawg, o ddinas Eiddin yn y Gogledd.

Dirynig=Dirinic ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Nghaerefrawg, ac efe a las gan y paganiaid Seison.

Dochdwy=Docheu, a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon, ag a fu yn Enlli; a gwedi hyny y bu'n esgob yn eglwys Deiliaw yn Llandaf, tra bu Deilaw yn Enlli gyda'r saint yno yn arllwybraw y gôr wedi marw Cadfan:—6ed canrif. Ei eglwysi, Llandocheu yn Ngwent.

Doewan ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif.

Doged ab Cedig, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanddoged yn sir Ddinbych.

Dogfael ab Ithel Hael, ab Cedig, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig, a gafas y wlad a elwir o'i enw ef, Dogweilyng:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Dyfed a chapel Dogfael yn Môn, a chapel Dogfael yn Mhebidiog.

Doqfan=Dogwan ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Efe a las gan y Seison paganiaid yn Merthyr Dogwan yn Nyfed, lle y mae ei eglwys ef.

Dolgain ferch Gildas y Coed Aur, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Efallai mai yr un oedd a Dolgar ferch Gildas, os nad Dolgan hefyd.

Dolor ab Deini o Ddeifr a Brynaich:—6ed canrif.

Dona ab Selyf, ab Cynan Garwyn, ab Brochwel Ysgythrog:—7ed canrif. Ei eglwys e.,

Digitized by Google

Llanddona, yn Nghrafgoed, Môn. Ei gofwyl, Tachwedd 1af.

Dunawd ab Cunedda Wledig, a waredodd gwmmwd Ardudwy yn Eiflonydd, ac a'i cafas yn etifeddiaeth; a'i galw Dunodyng o'i enw ei hun; ac efe a elwir Dunawd Dunodyng:—4ydd canrif.

Dunawd Fawr (Ffyr) ab Pabo Post Prydain: —6ed canrif. Ei eglwys ef, Bangor Iscoed yn Maelawr. Ei gofwyl, Medi 7ed.

Durdan, a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon, ac a fu sant yn Enlli:—6ed canrif.

Dwna=Dona. Gwel uchod.

Dwyfan Sant, a Ffagan, ac Ilid, a Mawan, a ddaethant i'r ynys hon yn athrawon cred a bedydd, gyda Bran Fendigaid o Rufain:—canrif 1af.

Dwynwen ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwysi, Llanddwyn, yn Môn; a Llanddwynwen yn Ngheredigion. Ei chofwyl, Ionawr 25.

Dwywan ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanddwywan, yn Meirion.

Dwywe ab Llywarch Hen:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Euas.

Dwywe ferch Gwallawc ab Llenawc, ab Llur Merini, ab Meirchion gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Hi a fu wraig Dunawd Fawr, ab Pabo Post Prydain.

Dyfan Sant, gwr o Rufain, ab Alawn Afferw, ab Yspwyth, ab Manawydan, ab Llur Llediaith: —2il canrif. Efe a wnaethpwyd yn esgob yn Rhufain fal y gallai fedyddiaw a gredynt i Grist o genedl y Cymry; ag a ddaeth i'r ynys hon yn amser Lleirwg sant. Ei eglwys ef, Caer Dyf a'r Merthyr Dyfan, lle a'i llas gan y paganiaid.

Dyfnan ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanddyfnan, yn Mon: yn y Werddon y gorwedd.

Dyfnawc ab Medrawd, ab Caradawc Freichfras: 6ed canrif.

Dyfnig Sant a ddaeth i'r ynys hon gyda Chadfan:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanwrin, yn Mhowys.

Dyfnwal Hen, brenin Gwent, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn y Gaer yn Arfon.

Dyfrig Beneurog. Gwel Dyfrig.

Dylwyf Sant o Ddyfed: anhysbys.

Edeyrn ab Gwrtheyrn Gwrthenau:—5ed canrif. Llanedeyrn, yn ngwlad Forgan, ei eglwys; yno hefyd ei gôr ef, trichansant.

Edeyrn ab Nudd, ab Beli, ab Rhun, ab Maelgwn Gwynedd, ab Caswallawn Lawhir, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Bodedeyrn, yn Mon. Ei gofwyl, Ionawr 6ed.

Edeyrn ab Gwrhydr Drwm, ab Gwrhydrawc, ab Geraint, ab Caranawc, ab Cleddyfgar, ab Cynan Glodrydd, ab Cadell Deyrnllwg:—7fed canrif. Sant o gôr Illtyd.

Ednyfed Frenin Gwent, ab Macsen Wledig, o Elen ferch Eudaf, ab Caradog, ab Bran, ab Llyr Llediaith:—5ed canrif.

Edwen Santes, ferch neu nith Edwin, brenin y Seison, a feithrinwyd yn llys Cadfan frenin Gwynedd, yn Nghaer Seiont, yn Arfon:—7fed canrif. Ei heglwys, Llanedwen, yn Mon. Ei chofwyl, Tachwedd 6ed.

Egryn ab Gwrhydr Drwm (gwel *Edeyrn ab Gwrhydr* yn y gyfres hon):—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llanegryn, yn Meirion.

Egwad ab Cynddilic, ab Gildas y Coed Aur, ab Caw Cawlwyd:—7ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanegwad a Llanfynydd, yn Ystrad Tywi.

Eigen ferch Caradawc, ab Bran, ab Llur Llediaith, gwraig Sallawc (Sarllog), arglwydd Garth Mathrin:—canrif 1af.

Eigrad ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llaneigrad yn Mon.

Eigrawn ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Nghernyw.

Einion Frenin, ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llaneinion, yn Lleyn; a brenin Gwlad Lleyn ydoedd.

Eithras, câr i Gadfan Llydaw, a ddaeth gydag ef i Wynedd i wrthladd yr anffyddlonion, ag a fu sant yn Enlli:—6ed canrif.

Elaeth Frenin, ab Meiryc, ab Idno, ab Meirchion Gul, ab Gorwyst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebog, o Onen Greg, ferch Gwallawg ab Llenawg:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Amlwch, Mon. Ei gofwyl, Tachwedd 10.

Eldad ab Arth, ab Arthwg Frych, ab Cystenyn Goronawg (Gorneu), ab Cynfar, ab Tudwal Mwynfawr, ab Cadfan (Cadan), ab Cynan, ab Eudaf, ab Caradawc, ab Bran, ab Llur Llediaith: —7fed canrif. Esgob ef o gôr Illtyd.

Eldad ab Geraint, ab Caranawc, ab Cleddyfgar, ab Cynan Glodrydd, ab Cadell Deyrnllwg:—7fed canrif. Sant ef o gôr Illtyd, ac archesgob Caerloew: efe a las gan y paganiaid Seison.

Elen ferch Coel Godhebog, a gafas y Grog fendigaid lle ydd oedd wedi ei chuddiaw dan garnedd gan yr Iuddewon digred; a hi a fu wraig [mam, medd ereill], yr ymherawdwr Cystenyn, yr hwn a wnaeth ddinas Constinobl, er cynnal y rhai a gredant yn Nuw a Christ ei fab:—4ydd canrif.

Elenog Santes: anhysbys.

Eleri ferch Brychan Brycheiniog, gwraig Ceredig ab Cunedda Wledig, a mam Sandde, tad Dewi Sant:—5ed canrif.

Eleri ferch Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig: —6ed canrif. Yn Mhenant Gwytherin y gorwedd.

Elfan Sant a fu yn genad dros Leurwg ab Coel, ab Cyllin, at y Pab Elidur, ag a wnaethpwyd yn esgob yn Rhufain:—2il canrif. Ei eglwys ef, Ynys y Fallon. Ei gofwyl, Medi 26.

Elfod=Elbod, sant ac esgob o gôr Cybi, ac archesgob Gwynedd, ab Galendrem, ab Glasar, ab Geraint, ab Nyniaw, ab Cynddilic, ab Nwython, ab Gildas Brophwyd, ab Caw o Gwm Cawlwyd, a elwir Caw o Dwr Celyn, yn Mon:—8fed canrif.

Elfyw ab Dirdan, o Banhadlen=Danadlwen, ferch Gynyr o Gaer Gawch ei fam:—6ed canrif.

Elffin ab Gwyddno, ab Garboniawn=Gerfynion, ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Sant ef yn Mangor Illtyd.

Elgud ab Cadfarch, ab Caradawc Freichfras:—6ed canrif.

Elgyfarch ab Helic, ab Glanawc o Dyno Helig yn y gogledd:—6ed canrif.

Elian Geimiad. Gwel Elian.

Elidr=Elidir Mwynfawr, ab Gorwst Briodawr, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig: —6ed canrif.

Elifer Gosgorddfawr ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebawc:—5ed canrif.

Elined=Eluned ferch Brychan Brycheiniog, yn y Wyddgrug yn Ystrad Alwn:—5ed canrif.

Elwy ab Brychan:—5ed canrif. Ar ei enw ef y gelwir Llanelwy yn Nghedweli.

Digitized by Google

Elldeyrn, brawd [mab, medd ercill] Gwrtheyrn Gwrtheneu:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanelldeyrn, yn Morganwg.

Elltud=Illtyd. Gwel ILLTYD.

Ellyw=Elyw, wyres Brychan:—5ed canrif. Ei heglwysi, Llanelien a Llanelli, yn Nyfed.

Emyr Llydaw, a hanoeddawdd parth ach a gwehelyth y Ynys Prydain, nid amgen nag o Gynan Meiriadog, ab Cyllin, ab Caradog, ab Bran, ab Llur Llediaith; a'i wehelyth ef a ddaethant yn saint i Ynys Prydain, ac a fuant yn ynys Enlli, yn gyff saint Gwynedd, lle y mae llawer o'u heglwysi:—5ed canrif.

Endwy ab Hywel Farchawc, ab Hywel Feic, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif.

Enddwyn:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llanynddwyn, yn Meirion.

Enfael=Enfail ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwys yn Merthyr Enfail yn Nyfed, lle a'i llas gan y paganiaid Seison.

Enllech Goronawc oedd frenin y Werddon; ac efe a briodes Marchell ferch Dewdric, a elwir Tewdwr Mawr mewn rhai llyfrau; a mab yr Enllech hwnw oedd Brychan, yr hwn a gafas gyfoeth ei fam, nid amgen Garth Mathrin, a elwir o'i enw ef Brycheiniawc:—5ed canrif. Gwel BRYCHAN.

Enghenedl ab Cynan Garwyn, ab Brochwel Ysgythrog:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llanenghenedl yn Mon.

Erbin ab Cystenyn Gorneu:—5ed canrif.

Euddog. Ei eglwys, Llaneuddog yn Mon.

Eurful Santes. Ei heglwys, Llaneurful yn Mhowys. Ei chofwyl, Gorphenaf 6ed.

Eurgain ferch Maelgwn Gwynedd, ab Caswallawn Lawhir, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ei heglwys, Llaneurgain yn Ngwynedd.

Euryn y Coed Helic, ab Helic, ab Glanawc, ab Gwgan Gleddyfrudd, ab Caradawc Freichfras:—6ed canrif.

Euryn y Coed Aur. Gwel GILDAS.

Ffagan Sant, gwr o'r Eidal, a ddaeth yn esgob i Gymru o anfoniad y pab Elidir:—2il canrif. Ei eglwys, Llansantffagan yn Morganwg.

Ffili ab Cenydd, ab Gildas, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwysi, Rhosffili a Chaerffili yn Ngwyr.

Ffinan Sant o'r Werddon:—6ed canrif. Ei eglwys, Llanfflinan yn Mon.

Fflewyn ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Ei eglwys, Llanfflewyn yn Mon.

Ffraid Leian. Gwel FFRAID.

Gafran ab Aeddan Fradawc, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif.

Gallgo ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys, Llanallgo yn Mon. Ei gofwyl, Taehwedd 27ain.

Garhai=Garrai ab Cewydd, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanarrai yn Morganwg.

Garmon Sant. Gwel GARMON.

Geraint ab Erbin, ab Cystenyn Gorneu:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Nghaer Ffawydd yn Henffordd.

Gerwyn ab Brynach Wyddel a Chorth ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Efe a las yn Ynys Gerwyn, ac eglwys iddaw yn Nghernyw.

Gildas y Coed Aur ab Caw Cawlwyd. Gwel GILDAS.

Glassawc ab Coedwallawn, ab Coel, ab Cyllin, ab Caradawc, ab Bran Fendigaid:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanynglassaw yn Ngwynedd.

Glassawc ab Glassar, ab Geraint, ab Nyniaw, ab Cynddilic, ab Nwython, ab Gildas Brophwyd, ab Caw o Gwm Cawlwyd:—7ed canrif. Ei eglwys ef yn Arllechwedd: efe a fu yn esgob yn Nghaer Gybi, ac a ddodes diroedd at Fangor Deiniol yn Ngwynedd uwch Conwy.

Gleddigar ab Cynfarch, ab Rhychwain: an hysbys.

Glywys ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg, a gafas Glywyseg, ac a'i gelwis felly o'i enw ei hun, lle y mae gwelygordd Elystan Glodrydd:—5ed canrif. Ef a wnaeth eglwys Machen.

Glywys Cernyw, ab Gwynlliw, ab Glywys, ab Tegid, brawd Catwg Llan-garfan:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Coed Cernyw yn Ngwynllwg.

Gofor Sant yn Ngwent, ac yno ei eglwys ef, Llanofor=Llanofer. Ei gofwyl, Mai 9fed.

Goleuddydd ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwys yn Llanysgin yn Ngwent.

Gorfyw Sant. Anhysbys, oddi gerth fod capel yn Mangor uwch Conwy yn dwyn ei enw.

Gredfyn Sant. Yn Llanllyfni yn Arfon y gorwedd.

Gredifel ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Bu ef a'i frawd Fflewyn yn arllwybraw Bangor Pawl Hen yn Nhy Gwyn ar Daf, yn Nyfed. Ei eglwys ef, Penmynydd yn Mon. Ei gofwyl, Taehwedd 13eg.

Grwst ab Gwaith Hengaer, ab Elffin, ab Urien Rheged, ab Cynfarch, ab Meirchion Gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebawc:—7fed canrif. Mam Grwst, Euronwy ferch Cludno Eiddin ab Cynwyd Cynwydion. Ei eglwys ef, Llanrwst yn Ngwynedd. Ei gofwyl, Rhagfyr 1af.

Gwallawg ab Llenawg, ab Llyr Merini, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig, o Dyfanwedd ferch Amlawdd Wledig ei fam:—6ed canrif. Efe oedd gyff llawer o saint Ynys Prydain.

Gwarthan ab Dunawd Fawr (Ffyr), ab Pabo Post Prydain:—6ed canrif. Efe a fu beriglawr Catwg yn Nghôr Garmon; a Chatwg a'i danfones ef a'i frodyr, Deiniol a Chynwyl, i arllwybraw Bangor yn Maelor yn Nglan Dyfrdwy; ac o ddoethineb a dwyfoldeb y tri brodyr hyn ydd aeth hono yn urddasolaf ac amlaf ei saint o holl Fangorau Ynys Prydain; a hi a dorwyd gan y Seison paganiaid yn ngwaith Perllan Fangor.

Gwawl ferch Coel Godhebog, oedd gwraig Edeyrn ab Padarn Beisrudd, a mam Cunedda Wledig:—4ydd canrif.

Gwawr=Gwennan ferch Brychan Brycheiniog, oedd gwraig Elidir Lydanwyn, a mam Llywarch Hen:—5ed canrif.

Gwawrddydd ferch Brychan Brycheiniog, gwraig Cadell Deyrnllwg, a mam Cyngen ab Cadell Deyrnllwg:—5ed canrif.

Gwen ferch Frychan, a gwraig Llur Merini, a mam Caradawc Freichfras:—5ed canrif. Ei heglwys yn Nhalgarth, lle a'i llas gan y paganiaid Seison.

Gwen Teirbron ferch Emyr Llydaw, oedd mam Cadfan Enlli:—6ed canrif.

Gwenafwy=Gwenabwy ferch Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Eglwys iddi yn Mon (?).

Gwenan ferch Brynach Wyddel a Chorth merch Brychan:—5ed canrif.

Gwenaseth ferch Rhufon Rhufoniawc, ab Cunedda Wledig, gwraig Pabo Post Prydain:—6ed canrif.

Gwenddolau ab Ceidiaw, ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Sant ef o Fangor Illtyd.

Gwenddydd ferch Brychan (yr un a Gwawr-

Digitized by Google

ddydd, medd rhai):—5ed canrif. Ei heglwys yn y Tywyn yn y Cantref.

Gwenfaen ferch Pawl Hen o Fanaw, a'i mam Angad Coleion:—6ed canrif. Ei heglwys yn Rhosgolyn yn Mon, lle y mae Ffynnon Gwenfaen.

Gwenfrewi. Gwel GWENFREWI.

Gwenfyl, wyres Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwys, Capel Gwenfyl yn Llanddewibrefi yn Ngheredigion:—ei chofwyl, Tachwedd 1af.

Gwenlliw ferch Brynach Wyddel, a Chorth ferch Frychan ei mam:—5ed canrif.

Gwenllwyfo. Ei heglwys, Llanwenllwyfo yn Mon. Ei hamser a'i hach yn anhysbys.

Gwenog Santes. Ei heglwys, Llanwenog yn Ngheredigion. Ni wyddys ei hachau na'i hamser.

Gwerudd ab Cadwn (Cadfan), ab Cenau, ab Eudaf, ab Caradawc, ab Bran Fendigaid:—4ydd canrif. Ei eglwys ef, Llanwerydd, heno yw Sant Dunawd yn Ngwent.

Gwladys ferch Brychan Brycheiniog, a gwraig Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid; mam Catwg Sant o Gôr Garmon:—5ed canrif.

Gwodloyw ab Glywis Cernyw, ab Gwynlliw Filwr, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg, a fu'n esgob yn Llandaf; a chyn no hyny periglawr i'r saint yn Nghôr Catwg:—6ed canrif.

Gwrai=Gwrhai ab Caw Cawlwyd, o Benystrawd yn Arwystli. Sant o Fangor Deiniol yn Ngwynedd:—6ed canrif.

Gwrddelw=Gwrddyly ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Nghaerllion ar Wysg.

Gwrddwdw ab Caw Cawlyd:—6ed canrif.

Gwrfyw ab Pasgen, ab Urien Rheged:—6ed canrif. Yn Mon ei eglwys ef: arall, Capelwrfyw yn Mangor uwch Conwy, yr hwn a dored.

Gwrgi ab Elifer Gosgorddfawr, ab Arthrwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—5ed canrif. Sant ef yn Mangor Illtud.

Gwrgon ferch Brychan a gwraig Cadrawd Calchfynydd, arglwydd Calchfynydd, sef Dwnstabl yn Lloegr:—5ed canrif. Hi a sarhaed gan Tynwedd Faglog yn Rhydau Tynwedd.

Gwrhir bardd (gwas) Teilaw yn Mangor Catwg:—6ed canrif. Ei eglwys ef Llysfaen yn Ngwaenllwg.

Gwrin ab Cynddylig, ab Nwython, ab Gildas, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanwrin, yn Mhowys.

Gwrmael ab Cadfrawd, ab Cadfan, ab Eudaf, ab Coel, ab Cyllin, ab Caradawc, ab Bran Fendigaid:—4ydd canrif. Ei eglwys ef Caerbyw.

Gwrnerth ab Llywelyn, ab Tegonwy, ab Teon, ab Gwineu dda'i freuddwyd, ab Byrlew, ab Bywdeg, ab Rhun Rhuddbaladr, ab Llary, ab Casnar Wledig, ab Glowy Gwladlydan, ab Lludd, ab Beli Mawr:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Trallwng yn Mhowys. Ei gofwyl, Ebrill 7.

Gwrthefyr Fendigaid. Gwel GWRTHEFYR.

Gwrtheli=Gartheli=Gwrthili ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Efe a wnaeth Capel Gwrtheli yn Llanddewibrefi.

Gwrthwl. Ei ach a'i amser yn anhysbys: ei eglwysi, Llanwrthwl a Maes Llanwrthwl yn Nyfed.

Gwyar ab Helig, ab Glanawc, ab Gwgan Gleddyfrudd, ab Caradawc Freichfras:—7fed canrif. Sant o Gôr Cadfan.

Gwydion ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Gwyddelan: ei ach a'i amser yn anhysbys. Ei eglwysi ef, Llanwyddelan yn Mhowys, a Dolwyddelen yn Arfon. Ei gofwyl, Awst 22.

Gwyddelw ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif. Brawd i Gatwg Llancarfan, a sant o'i gôr ef.

Gwyddfarch ab Llywelyn o'r Trallwng (gwel *Gwrnerth* o'r gyfres hon):—6ed canrif. Sant ef o Gôr Cybi yn Mon.

Gwyddfarch ab Amalarus, tywysog o'r Pwyl. Ei eglwys ef yn Meifod.

Gwyddno Garanir ab Gorfyniawn, ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig. O fodd arall—*Gwyddo Garanir* ab Caranawc, ab Cleddyfgar, ab Cynan Glodrydd, ab Cadell Deyrnllwg, a oresgynes y môr ei dir. Cyff llawer o saint.

Gwyn ab Nudd, ab Llyr Merini, ab Meirchion Gul, ab Gorwst Ledlwm, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Cyff llawer o saint.

Gwyndaf Hen, ab Emyr Llydaw, a fu yn beriglawr yn Nghôr Illtud; ac wedi hyny efe a wnaethpwyd yn Benrhaith ar Gôr Dyfrig yn Nghaerllion ar Wysg; ac yn ei henaint myned i Enlli lle y gorwedd:—6ed canrif. Eglwys iddo, Llanwyndaf (Llanwnda) yn Arfon.

Gwyndeg ab Seithenin, ab Seithin frenin, o Faes Gwyddno:—6ed canrif. Sant yn Mangor Fawr yn Maelor.

Gwynen Santes: ei hach a'i hamser yn anhysbys dan yr enw hwn; efallai mai yr un ydoedd â *Gwenan* (gwel *Gwenan* o'r gyfres hon) Ei heglwys, Llanwnen yn Ngheredigion.

Gwyn-gawr ab Gildas, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Gwyn-geneu ab Pawl Hen o'r Gogledd (Manaw):—6ed canrif. Efe a wnaeth Capel Gwyn-geneu yn Nghaergybi, Mon.

Gwynhoedl=Gwynodl ab Seithenin, ab Seithin frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir:—6ed canrif. Ei eglwys ef Llanwynodl yn Lleyn.

Gwynio=Gwynnaw=Gwynno ab Gildas, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Ei eglwys yn Llanwynio yn Nyfed. Ei gofwyl, Mai 2.

Gwynlleu=Gwynllef ab Cyngar, ab Arthwg (Garthwg), ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Efe a wnaeth Nantgwnlle yn Ngheredigion.

Gwynlliw=Gwynllyw Filwr, arglwydd Gwynllwg yn Morganwg, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—5ed canrif. Efe a roddes ei dir i Dduw a'i fab Catwg, ac a aeth yn sant yn ei gôr ef.

Gwynnin=Gwynyn ab Helig, ab Glanog, o Dyno Helig, a oresgynes y môr ei dir:—7fed canrif. Ei eglwys ef Llandegwynnin yn Lleyn. Ei gofwyl, Rhagfyr 31.

Gwynnawc=Gwynog ab Gildas y Coed Aur, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Efe a wnaeth y Faenor yn Mrycheiniog; ac efe a'i frodyr a wnaethant Llantrisant yn Morganwg, a Llanwynno, a Chapel Llantrisant; a'i eglwys ef yw Llanwynnog yn Mhowys. Ei gofwyl, Hydref 26.

Gwynnoro ab Cynyr Farfdrwch, ab Gwron, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Gwynnwn ab Helig ab Glanog:—7fed canrif. Sant ef o Gôr Cadfan.

Gwynnws o hil Frychan:—5ed canrif. Ei eglwys ef Llanwnnws yn Ngheredigion. Ei gofwyl, Rhagfyr 13.

Gwytherin ab Dingad, ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef Gwytherin yn Ngwynedd.

Gwythyr ab Macsen Wledig:—4ydd canrif.

Digitized by Google

Gynyr Gwent, o Gaer Gawch yn Mynwy, ab Gwyndeg, ab Seithenin frenin, a oresgynes y mor ei dir, ab Seithenin Hen (Seithin Saidi), ab Plaws Hen, brenin Dyfed, ab Gwrtherin, tywysog o Rufain. Mam Gynyr oedd Anna ferch Gwrthefyr Fendigaid, brenin Prydain:—5ed canrif. Cyff llawer o saint. Efe a wnaeth eglwys y Fenni.

Hawystl ferch Brychan:—5ed canrif. Ei heglwys Llanhawystl=Caerhawystl (Awst) yn Ngwlad yr Haf=Caerloyw.

Hefin = Hefnyn, Henyn, Henen, Henwyn, Hewnin ab Gwyndaf Hen, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Sant o gôr Illtud, ac wedi hyny Periglawr Cadfan a'i saint yn Enlli. Efe a wnaeth eglwys Aberdaron yn Arfon.

Helig Foel ab Glanog, o Dyno Helig, ab Gwgan Gleddyfrudd, ab Caradawc Freichfras, ab Llyr Merini, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig; a'i wehelyth a fuant yn saint yn Ngwynedd, lle y mae llawer o'u heglwysi:—7fed canrif.

Huail ab Caw Cawlwyd, o Gôr Catwg:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Euas. Efallai nid yr un Huail ydoedd a'r hwn y tores Arthur ei ben am ddrygfuchedd, ar faen yn Rhuthyn, yr hwn faen a elwir Maen Huail hyd y dydd hwn.

Hychan ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanhychan yn Nyffryn Clwyd.

Hywel ab Emyr Llydaw, a elwir Hywel Faig, a Hywel Farchog:—6ed canrif. Yn Nghôr Illtud y gorwedd.

Hywgi=Bugi ab Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg; a roddes ei diroedd i Dduw a Chatwg yn dragywydd; ac a fu sant gyda Chatwg:—6ed canrif. Mab iddaw ef oedd Beuno Sant.

Iago, sant yn Morganwg; a mwy ni wyddys am dano.

Idloes ab Gwyddnabi, ab Llawfrodedd Farfog (Farchog) Goch, buelydd gosgordd Nudd Hael:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llanidloes yn Mhowys.

Idwal Dirinic ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Iddew ab Cawrdaf, ab Caradawc Freichfras:—6ed canrif.

Iddon ab Ynyr Gwent, a roddes dir i Dduw a'r saint yn Llandaf, am y fuddugoliaeth a gafas ar y paganiaid Seison:—5ed canrif.

Iestyn ab Cadfan, ab Cynan, ab Eudaf, ab Caradawc, ab Bran, ab Llyr Lledlaith:—4ydd canrif.

Iestyn ab Geraint, ab Erbin, ab Cystenyn Gorneu, ab Cynfar, ab Tudwal Mwynfawr, ab Cadfan, ab Cynan, ab Eudaf, &c.:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Llaniestin yn Lleyn, a Llaniestin yn Mon, lle y mae cerfiad er cof am dano.

Ifor ab Tudwal, ab Corinwr, ab Cadfan, ab Eudaf, ab Caradawc, ab Bran Fendigaid:—5ed canrif. Yn Lloegr y mae ei eglwys ef.

Ilar Sant a ddaeth i'r ynys hon gyda Chadfan:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanilar yn Ngheredigion, a Llanilar yn Ngwlad Forgan.

Ilar ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif.

Ilid Sant, gwr o'r Israel, a ddaeth gyda Bran ab Llur o Rufain i ddysgu 'r ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry: mewn man arall, dywedir,—A ddaeth i'r ynys hon gydag Eurgen Santes, ferch Caradawc ab Bran; ac efe oedd y cyntaf yn dwyn Ynys Prydain i'r ffydd yn Nghrist:—yn y canrif 1af.

Ilid Santes (*Julitta*), mam Curig, santes o Darsus yn Nghilicia, a ferthyrwyd, hi a'i maban:—7fed canrif. Eu heglwysi, Capel Curig a'i fam Ilid, yn Arfon, a Llanilid yn Mrycheiniog. Eu cofwyl, Mehefin 16eg.

Illtyd=Elltud, Illtud, Ylltud. Gwel ILLTYD.

Isan, sant Bangor Illtud:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanisan Gwaenllwg.

Ismael ab Budig o Lydaw. Ei wraig ef Arianwedd ferch Enlleu, a chwaer Teilo Sant:—6ed canrif. Efe a fu esgob yn Nhy Ddewi, ac a wnaeth Gapel Ismael yn Nghydweli, ac eglwysi ereill yn Nyfed.

Llawdden Sant o Ynys Eiddin, yn y gogledd. Ychwaneg ni wyddys am dano.

Llechau ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanllechau, yn Euas. Yn Nhregaian, yn Mon, y gorwedd.

Llechid ferch Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Ei heglwys, Llanllechid, yn Arllechwedd, Arfon. Ei chofwyl, Rhagfyr 2.

Lleian, ferch Brychan Brycheiniog, gwraig Garfan ab Aeddan Fradawc, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—5ed canrif. Hi a wnaeth gapel Llanlleian, yn Arfon.

Lleminod Angel, ab Pasgen, ab Urien Rheged:—6ed canrif.

Lleuddad ab Alan, ab Emyr Llydaw, a fu yn nghôr Illtyd, a gwedi hyny esgob yn Enlli, a Lleuddad Llydaw a'i gelwir:—6ed canrif. Y mae amryw leoedd yn dwyn ei enw hyd y dydd hwn; megys Gardd Lleuddad yn Enlli, Ogof Lleuddad yn Aberdaron, a Ffynnon Lleuddad, yn mhlwyf Bryncroes.

Lleuddad ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Yr un, efallai, a'r Lleuddad blaenorol.

Lleuddad ab Dingad, ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig, o Athefai, ferch Llawdden, o Ynys Eiddin, yn y gogledd, ei fam:—o Tonwy=Tefriog, ferch Llewddyn Luyddawg, o Ddinas Eiddin, medd ereill:—7ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanllawddog, a Chenarth, a Phenboir, a Chilgeran, yn Nyfed. Ei gofwyl, Ionawr 15.

Lleurwg=Lleirwg, Lleufer Mawr, neu Lles ab Coel. Gwel LLEURWG.

Llewin, o Emyr Llydaw ydd hanoedd, a char i Gadfan, a ddaeth gydag ef i Wynedd i wrthladd yr anffyddlonion, ag a fu sant yn Mangor Enlli:—6ed canrif.

Lliana=Llian. Hi a wnaeth gapel Llanlliana yn Môn; a hyn a wyddys am dani.

Llibio ab Seithenin, ab Seithin frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir; a myned a wnaeth yn Sant yn Mangor Maelawr yn Nglan Dyfrdwy:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanllibio, yn Môn. Ei gofwyl, Chwefror 28ain.

Llidnerth ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig, a brawd Lleuddad:—7fed canrif.

Lloniaw Lawhir, ab Alan Fergam=Firgain, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Sant o gôr Illtud, a pheriglor Padarn esgob, yn Llanbadarn Fawr. Efe a wnaeth Llanddinam, yn Mhowys, a Llanllwni, yn Nyfed. Yn Enlli y gorwedd.

Llwchaiarn ab Hygarn=Hygarfael, ab Caerfael=Cynfael ab Cyndrwyn, o Lystynwenan:—6ed canrif. Efe a wnaeth Llanllwchaiarn a Llanmerwig, yn Mhowys, a Llanychaiarn a Llanllwchaiarn yn Nyfed. Ei gofwyl, Ionawr 11.

Llwydian:—7ed canrif. Efe a wnaeth eglwys yr Heneglwys, yn Mon. Ei gofwyl, Tachwedd 19.

Llwyfo. Ei enw yn unig sydd ar gof a chadw.

Llynab=Llyfab, ab Alan, ab Emyr Llydaw, câr i Gadfan a ddaeth gydag ef i'r ynys hon, ac

Digitized by Google

a fu yn esgob yn nghôr Illtyd, ac archesgob yn Llandaf:—6ed canrif. Yn Enlli y gorwedd.

Llur Llediaith, tad Bran Fendigaid, oedd fab Baran, ab Ceri, ab Caid, ab Arch, ab Meirion, ab Ceraint, ab Greidiol, &c. Gwel Bran. Canrif cyntaf. Efe a ymladdodd yn gadarn â llawer cenedl o elynion; efe a yrodd y Rhufeiniaid o Ddeheubarth, a'r Gwyddelod o Wynedd, a'r Llydawiaid o Gernyw; ac a wnaeth freniniaeth Gernyw yn un a Chymru; a myned i Gernyw i fyw a wnaeth ef, a rhoddi gwlad Esyllwg, sef fal hyny y gelwid Morganwg y pryd hyny, idd ei fab hynaf, a elwid Bran=Bran Fendigaid. Efe, fel tad Bran Fendigaid, oedd gyff y rhan fwyaf o saint Ynys Prydain.

Llur Merini ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanllur, Gwerthrynion; arall yn Nyfed; arall, Ceredigion.

Llywarch Hen. Gwel Llywarch Hen.

Llywelyn o'r Trallwng, ab Tegonwy, ab Teon, ab Gwineu Daifreuddwyd (Daufreuddwyd) ab Byrlew, ab Bywdeg, ab Rhun Rhuddbaladr, ab Llary, ab Casnar Wledig, ab Gloyw Gwlad Lydan, ab Lludd, ab Beli Mawr:—6ed canrif. Sant ef o Bangor Enlli. Ei gofwyl, Ebrill 7fed.

Llywyn, un o'r saint a dysgedigion a ddaethant gyda Chadfan i'r ynys hon, ac a fuant saint yn Mangor Illtyd, ac yn Mangor Catwg, ac yn Mangor Enlli:—6ed canrif.

Mabon Wyn, a elwir Mabon Hen ab Enllech, ab Hydwn, o wehelyth Bran ab Llur:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanfabon, yn Ngwlad Forgan a Rhiwfabon, yn Maelor. Brawd Teilo ef; ac yn Llandeilo Fawr y mae dwy faenor, a elwir Maenor Deilo a Maenor Fabon.

Mabon ab Tegonwy, ab Teon, brawd Llywelyn o'r Trallwng:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Morganwg.

Mabon Wyn ab Glas, ab Glassawc, ab Coedwallawn, ab Coel, ab Cyllin, ab Caradawc, ab Bran Fendigaid:—6ed canrif.

Macsen Wledig ab Llywelyn, Iarll Cernyw, ab Tegfan, ab Deheufraint, ab Tudbwyll, ab Eurben, ab Gradd, ab Rhydeyrn, ab Eurdeyrn, ab Cyndeyrn, ab Euddas, ab Afallech, ab Afllech, ab Lludd, ab Beli Mawr:—4ydd canrif. Macsen Wledig a fu yn frenin unben Ynys Prydain, ac ymherawdwr Rhufain; a'i lys ef yn Nghaerllion ar Wysg; ac efe oedd y cyntaf er yn amser Dyfnwal Moelmud a gynnaliawdd lys unben yno; a chyntaf oedd ef a ddodes escyb a dyledogion yn Ynys Prydain, a thiroedd a chyfoethau iddynt. O fodd arall:—Macsen Wledig ab Llwybrawd; a'i wehelyth ef a fuant yn saint; a gwyddys hyd heddyw y lleoedd y buant, a'u heglwysi. Ac eto, —Macsen ab Llwydrod, brawd Trahaiarn; sef Trahaiarn ab Coel Godhebog.

Maches ferch Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid; a chwaer Catwg Llancarfan:—6ed canrif. Maches santes a roddai gardodau i bob tlawd a'i gofynai; a Sais o bagan a elai yn rhith cardotyn, lle y gwypai ei bod yn rhoi cardawd, ac a'i gwanai dan ei bron â chyllell, ac a'i llas yn Merthyr Maches, neu Lanfaches yn Ngwent.

Machraith, a wnaeth eglwys Llanfachraith yn Meirion, a Llanfachraith yn Mon:—7fed canrif. Ei gofwyl, Ionawr 1af.

Machutus ab Caradawc, ab Ynyr Gwent, o Derwela, chwaer Amwn Ddu, ei fam:—6ed canrif. Aeth i Ffrainc, i Aletum, lle y mae ei eglwys ef.

Madawc Morfryn, ab Morydd, ab Mor, ab Cenau, ab Coel Godhebog:—5ed canrif. Sant o gôr Illtyd, a thad Merddin Wyllt.

Madawc ab Owain Finddu, ab Macsen Wledig:—5ed canrif.

Madawc ab Gildas y Coed Aur, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Sant ef o gôr Cenydd, yn Ngwyr; a'i eglwys ef, Llanfadog, yn Llangenydd. Efe a elwid Madawc Fardd.

Madryn ferch Gwrthefyr Fendigaid, a gwraig Ynyr Gwent:—5ed canrif. Hi, a'i llawforwyn Anhun, a wnaethant eglwys Trawsfynydd, yn Meirion.

Mael Maelienydd ab Cunedda Wledig:—4ydd canrif. Efe a gafas Maelienydd, a elwis ef ar ol hyny, o alwad ei enw ei hun; a Mael Maelienydd, ei gelwir ef, yn gof am a wnaeth er gwared y wlad hono.

Mael o Lydaw, câr i Gadfan, ac o Emyr Llydaw; a chyda Chadfan y daeth i'r ynys hon:—6ed canrif. Sant ef gôr Illtyd; ac efe a Sulien a wnaethant eglwysi Corwen yn Meirion, a'r Cwm yn Maelor.

Maeleric ab Gwyddno, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Cefnder i Gadfan, ac yn Enlli y ddau yma yn saint.

Maelgwn Gwynedd ab Caswallon Lawhir, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Efe a wnaeth Fangor Fawr, yn Arllechwedd Arfon yn esgobawd, ac a roddes diroedd a daoedd lawer ati; ac efe a wnaeth Fangor Penmon, a Bangor Cybi, yn Mon.

Maelog=Maelawc ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Efe wnaeth Lanfaelog, yn Mon; a Llandyfaelog, a Llandyfaelog Fach, a Llandyfaelog Tref y Graig, yn Nyfed. Ei gofwyl, Rhagfyr 21ain.

Maelon ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Maelryd ab Gwyddnaw, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Yr un a Maelrys, fel yr ymddengys, a wnaeth Lanfaelrys, yn Arfon; ac efe a elwir hefyd Maelerw.

Maenarch, iarll Henffordd, a wnaeth eglwys Gelli Gaer, ac un Llanfabon, er cof anrhydeddus am Fabon Sant.

Maethlu. Gwel *Amaethlu* yn y gofres hon.

Maglorus=Maelgwn ab Umbrafel, brawd Amwn Ddu, ac Arfella, chwaer Ami a:—6ed canrif. Sant ef o gôr Illtyd; ac efe a aeth i Ffrainge, ac a fu abad yn Nol, ac esgob Llydaw. Efe a wnaeth Fangor yn ynys Serys (Jersey), lle y bu farw, Hydref, B. A. 575.

Marchell ferch Dewdric=Tewdwr, ab Teithfalch=Teithfall, brenin Morganwg, gwraig Anllech Goronawg, brenin y Werddon, a mam Brychan Brycheiniog:—4ydd canrif.

Marchell ferch Arwystl Gloff, ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Hi a wnaeth Ystrad Marchell, yn Mhowys, a Chapel Marchell yn Llanrwst, yr hwn a dored.

Mathaiarn ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Yn Ngheredigion y gorwedd.

Mawan Sant, gwr o'r Israel, a ddaeth i'r ynys hon gyda Bran ab Llyr Llediaith, B. A. 70, er dwyn y Cymry i'r ffydd yn Nghrist, gydag Ilid, Cyndaf, ag Arwystli Hen.

Mawan ab Cyngen, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif.

Mechell ferch Brychan Brycheiniog, a gwraig Gynyr Farfdrwch:—5ed canrif.

Mechell=Mechyll, neu Machydd ab Echwys=Arthwys ab Gwyn Gohoyw:—7ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llanfechell, yn Môn. Yn Mhenrhos Llugwy, yn Môn, y gorwedd, lle mae cerfiad er cof am dano.

Digitized by Google

Mechydd ab Sanddef Bryd Angel, ab Llywarch Hen:—6ed canrif.

Medrawd ab Caradawc Freichfras:—6ed canrif.

Medwy Sant, a fu yn genad dros Leurwg ab Coel, ab Cyllin, at y Pab Elidir; ac efe a wnaethpwyd yn esgob yn Rhufain:—2il canrif. Ei eglwys ef, Llanfedwy, yn Morganwg, a dored yn amser rhyfeloedd Iestyn.

Meigan ab Patric, ab Cyffyloc, ab Garmon, ab Goronwy o Wareddawg:—6ed canrif. Sant ef o gôr Beuno.

Meigant Hen=Meugan ab Cyndaf Sant gwr o'r Israel—yr un, fel y dywed rhai, a Mawan:—canrif 1af. Efe a wnaeth gapel Meugan Hen, yn Mhorthwygyr (Beaumaris), yn Mon.

Meigant ab Gwyndaf Hen, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Sant o gôr Eltyd; a gwedi hyny o gôr Dyfrig, yn Nghaerllion ar Wysg, a aeth yn ei henaint i Enlli, lle y gorwedd mam Meigant, Gwenonwy ferch Meyric ab Tewdric, brenin Morganwg a Garth Mathrin. Efe a wnaeth Lanfeugan yn Nyfed, a chapel Meugan (*St. Moughan's*) yn Ngwent.

Meigyr=Meigir ab Gwron, ab Cunedda Wledig, efe a'i frodyr, Cynir a Meilir, a aethant gyda Chaswallon Lawhir, eu cefnder, i ddeol y Gwyddyl a'r Ffichtiaid o Ynys Môn. lle ydd oeddynt wedi myned ar ffo rhag meibion Cunedda; a gwedi ymgyfnertholi yn yr ynys, a gwedi brwydraw creulawn, hwy a'u gyrasant y Gwyddyl o Fon; a Chaswallawn Lawhir a laddawdd Syrigi Wyddel yno a'i law ei hun. sef y Syrigi hwnw ydoedd tywysawc y Gwyddyl a'r Ffichtiaid, a oresgynasant Wynedd er yn amser yr ymherawdwr Macsen Wledig: a gwedi gyru yr estroniaid o Fon, y Cymry a ymwrolasant, ac a'u gyrasant o bob man arall yn Ngwynedd; ac nid arhoses yn y wlad o honynt, namyn a wnaed yn gaethion, a hyny yn dragywydd:—5ed canrif.

Meilig ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Efe a roddes enw i Groes Meilig, yn Essyliwg.

Meilyr=Meilir ab Gwron, ab Cunedda Wledig, brawd Meigyr:—5ed canrif. Gwel uchod.

Meilyr ab Gwyddno, ab Emyr Llydaw, cefnderw i Gadfan:—6ed canrif.

Meirig, brenin Dyfed, ab Gwrthelin, ab Eudef, ab Plaws Hen, brenin Dyfed, ab Gwrtherin, tywysog o Rufain, a yrodd y Gwyddyl o dir Gŵyr a Dyfed:—6ed canrif.

Meirion ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llanfeirion, yn Mon (?). Ei gofwyl, Chwefror 3ydd.

Melangell, ferch Cyfwlch Addwyn, ab Tudwal, ab Ceredig, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig. O fodd arall—ferch Cyfwlch Addwyn, ab Tudwal Tudclut, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Ei mam, Ethni Wyddeles. Ei chofwyl, Mai 27ain; ac yn Mhenant Melangell y gorwedd.

Melldeyrn, yn Llŷn, a hyn a wyddys am dano.

Merin=Meirin ab Merini, ab Seithenin o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir:—6ed canrif. Efe a wnaeth Lanferin=Lanfetherin, yn Ngwaenllwg, a Bodferin, yn Lleyn. Ei gofwyl, Ionawr 6ed.

Merini ab Seithenin, ab Seithin frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir, ab Plaws Hen, brenin Dyfed, ab Gwrtherin, tywysog o Rufain:—6ed canrif. Sant ef yn Mangor Fawr yn Maelor.

Mor ab Ceneu=Mor ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—5ed canrif. Efe a wnaeth Lanfor=Llannor yn Lleyn, a Llanfor yn Mhenllyn.

Mor ab Morien:—5ed canrif. Efe a ddug fedydd a chred; ac ni ddygai fedydd ar dir Gwynedd; sef y cyntaf oedd Gwdion ab Don, brenin Llychlyn. a fu yn frenin ar wlad Wynedd, amser y bu y Gwyddelod yn gwladychu tir Gwynedd. Ac wedi hyny aeth Mor i Rufain a Chaersalem.

Mordaf Hael ab Serfan, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanforda yn Mhowys.

Mordeyrn. Efe a wnaeth Gapel Mordeyrn yn Maelor. Ei gofwyl, Gorphenaf 25ain.

Morfael. Anhysbys.

Morgan Mwynfawr=Morgan Morganwg, ab Adras=Arthwys, ab Meiryg, ab Tewdrig, ab Teithfallt, ab Nyniaw, ab Brân, ab Trahaiarn, ab Edric, ab Crair, ab Meiryg, ab Meirchion, ab Gwrgan, ab Arthfael, ab Einydd, ab Gorddyfwn, ab Gorwg, ab Eirchion, ab Owain, ab Cyllin, ab Caradawc, ab Brân, ab Llyr Lledlaith:—6ed canrif. Efe a gafas gantref Gwent, ac Essyllt, a Gorwenydd, a Rheged, ac a'i gelwis o'i enw ei hunan, Morganwg. Efe oedd gefnderw i Arthur, ac a fu frenin enwog a thrugarog iawn; ag o hyn y gelwid ef *Morgan Mwynfawr*.

Mwrog. Efe a wnaeth eglwys Llanfwrog yn Mon. A hyn a wyddys am dano. Ei gofwyl, Ionawr 6ed.

Mwynen ferch Brynach Wyddel, a Chorth ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif.

Mydan ab Pasgen, ab Urien Rheged:—6ed canrif. Sant ef o Gôr Catwg.

Mygnach ab Mydnaw o Gaer Leon, ab Gwron, ab Arch, ab Gwrddyled, ab Eginir, ab Owain Finddu, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Cofedydd Côr Cybi, sant ef yn Nghaergybi, Mon; a gwedi hyny, pen rhaith y gôr hono ef.

Myllin: efe a wnaeth eglwys Llanfyllin yn Mhowys. Ei gofwyl, Mehefin 17eg.

Nefai=Neffei ab Brychan Brycheiniog. Sant ef yn Ysbain, o'r lle ydd hanoedd ei fam, sef oedd hono, Prysori trydydd wraig Brychan:—5ed canrif.

Nefydd ab Brychan:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llannefydd yn ngorthir Rhufoniawc; a gwedi hyny efe a fu yn esgob yn y Gogledd, lle a'i llas gan y Seison paganiaid, a'r Ffichti.

Nefydd ab Nefydd ail, ab Rhun Dremrudd, ab Brychan Brycheiniog:—6ed canrif. Efe oedd dad Tewdwr Brycheiniog.

Nefyn ferch Brychan Brycheiniog, a fu wraig Cynfarch ab Meirchion, a mam Urien Rheged, brenin Rheged, sef hyny, Gŵyr, a Chydweli, a Charnwyllion, a'r Cantref Bychan, ac Is Cennen:—5ed canrif. Ei heglwys, Nefyn yn Lleyn.

Nidan ab Gwrfyw, ab Pasgen, ab Cynfarch, ab Meirchion, ab Grwst, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—7fed canrif. Efe a fu beriglawr y saint yn Mangor Benmon. Ei eglwys ef, Llannidan yn Mon. Ei gofwyl, Medi 30ain.

Noethan=Nwython ab Gildas y Coed Aur, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Efe a wnaeth Gapel Nwython a fu gynt yn Maelor.

Non Fendigaid ferch Ynyr Caer Gawch ac Anna ferch Uthyr Bendragon, a mam Dewi Sant:—5ed canrif. Ei heglwysi, Llan Uwch Aeron a Llannon yn Ngheredigion, a Llannon a Chapel Non yn Nyfed. Ei chofwyl, Mawrth 3ydd.

Nudd ab Ceidiaw, ab Arthrwys=Arthwys, ab Myr, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Sant ef yn Mangor Illtyd.

Nudd Hael ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal

Digitized by Google

Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Sant ef o Gôr Illtud; ac efe a wnaeth eglwys Llysfronnudd.

Nyniaw, sant ac esgob, brenin Garth Mathrin. Ei eglwys ef yn y Gogledd. Mwy ni wyddys.

Onen Greg ferch Gwallawg ab Llenawg:—6ed canrif. Gwraig oedd hi i Meiryg ab Idno, ab Meirchion Gul; a mam Elaeth Sant.

Oswal ab Cunedda Wledig:—5ed canrif. Efe a gafas y wlad a elwid Osweilyng; ac efe a elwir Oswal Osweiliawn; sef y wlad hono, Tref Croes Oswallt a'i hamgylched.

Owain Finddu ab Macsen Wledig, o Elen Luyddawg, ferch Eudaf ab Caradawc, ab Bran, ab Llyr Lledlaith:—4ydd canrif.

Owain ab Uri n Rheged, o Madron ferch Afallech:—6ed canrif Efe a wnaeth eglwys a Chastell Aberllychwr.

Pabiali ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Sant ef yn Ysbain.

Pabo Post Prydain, ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—5ed canrif. Efe oedd frenin yn y Gogledd, ac a yrwyd o'i wlad gan y Gwyddyl Ffichti, ac a ddaeth i Gymru, lle y cafas diroedd gan Gyngen Deyrnllwg, mab Cadell Deyrnllwg, a chan ei fab ef, Brochwel Ysgythrawc. Efe a wnaeth eglwys Llanbabo yn Mon, lle y mae cerfiad er cof am dano. Ei gofwyl, Tachwedd 9fed.

Padarn ab Pedrwn. Gwel PADARN.

Padarn ab Corwn, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Padrig ab Mawon. Gwel PADRIG.

Padrig ab Gwyndeg, ab Seithenin, ab Seithin frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir:—5ed canrif. Sant ef yn Mangor Fawr yn Maelor.

Padrig ab Alfryd, ab Goronwy, ab Gwdion, ab Don, o Wareddawc yn Arfon:—7fed canrif. Sant ef o Gôr Cybi yn Mon; ac efe a wnaeth eglwys Llanbadrig yn Mon.

Padrig ab Cyffylog, ab Garmon, ab Goronwy, ab Gwdion, ab Don:—6ed canrif. Sant ef o Gôr Beuno.

Pasgen ab Brychan Brycheiniog, o Brysori o Ysbain:—5ed canrif. Efe a aeth yn esgob yn Ysbain.

Pawl Hen o Fanaw, ab Meiryg, ab Tewdric:—5ed canrif. Esgob ef o Gôr Illtud; ac ef a wnaeth gôr lle mae'r Ty Gwyn ar Daf yn Nyfed; a Chapel Penlin yn Llanddewi Brefi. Ei gofwyl ef, dan yr enw Polin Esgob, a gynnelid Tachwedd 22ain. Dysgyblion iddo ef oedd Dewi a Theilaw.

Peblig ab Owain Finddu, ab Macsen Wledig: o fodd arall,—Peblig ab Macsen Wledig, ymherawdwr Rhufain:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanbeblig yn Arfon. Ei gofwyl, Gorphenaf 3ydd.

Pedrog ab Clement, tywysog Cernyw:—6ed canrif. Ei eglwysi, Llanbedrog yn Arfon, Llanbedrog yn Nyfed, Llanbedrog yn Nhranofant, a Bodbedrog yn Nyfnaint. Y mae Bodbedrog (*Pedstow=Pedroc-stow*) hefyd yn Nghernyw, lle y tybir iddo sefydlu esgobawd.

Pedrwn=Pedyr ab Corwn, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Ni wyddys ai iddo ef ai i'r apostol Pedr y mae y gwahanol Lanbedrau sydd yn Nghymru wedi eu cyflwyno.

Pedrwn=Pedryn, neu Pedredin ab Emyr Llydaw:—5ed canrif. Efe oedd dad Padarn, a sant o Gôr Illtud.

Peithan ferch Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Eglwys iddi yn Mon (?).

Peirio ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Sant o Gôr Illtud, lle ydd aeth yn Ben rhaith. Eglwys iddo yn Mon, Rhosbeirio.

Peithian ferch Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Yn sir Fon y mae yn gorwedd.

Peithini ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Peredur ab Elifer Gosgorddfawr, ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—5ed canrif. Sant yn Mangor Illtud, a Phen rhaith yno.

Peris ab Helig, ab Glanog, o Dyno Helig yn y Gogledd, a oresgynes y môr ei dir:—7fed canrif. Sant ef o Fangor Fawr yn Maelawr, a gwedi hyny o Fangor Gadfan yn Enlli. Efe a wnaeth eglwys Llanberis yn Arfon. Ei gofwyl, Rhagfyr 11eg.

Peugan. Yn Nyffryn Clwyd y gorwedd. A hyn a wyddys am dano.

Peulan ab Pawl Hen o Fanaw:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanbeulan yn Mon.

Prawst, gwraig gyntaf Brychan Brycheiniog:—5ed canrif.

Rhain Dremrudd ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei eglwys ef yn Manaw. Yr un, fel yr ymddengys, a Rhiant, a las yn Lloegr gan y paganiaid Seison.

Rhawin ab Brychan:—5ed canrif. Efe a las ar Bont Run, yn Merthyr Tydfil.

Rhediw. Efe a wnaeth eglwys Llanllyfni yn Arfon, ac yno y gorwedd. Ei gofwyl, Tachwedd 11eg.

Rheithion yn Nyfed. Anhysbys.

Rhiallu ab Tudwal Carnau, tywysog Cernyw, o Ddyfanwedd, merch Amlawdd Wledig:—6ed canrif.

Rhian. Efe a wnaeth eglwys Llanrian yn Nyfed. Ei gofwyl, Mawrth 8fed.

Rhidian, sant o gôr Cenydd yn Ngŵyr. Efe wnaeth eglwys Llanrhidian yn y wlad hono.

Rhiengar=Rhiengan ferch Brychan:—5ed canrif. Ei heglwys yn Maelienydd.

Rhuddlad ferch brenin Lleinsder yn y Werddon:—7fed canrif. Ei heglwys, Llanrhuddlad yn Mon.

Rhufawn ab Cunedda Wledig:—4ydd canrif. Efe a gafas y cantref a elwir o'i enw ef Rhufoniawc; a Rhufawn Rhufoniawc a'i gelwir ef, a Rhun=Rhufawn Hael o Rufoniawc; canys hacla gwr yn Nghymru ydoedd ef yn yr amseroedd y bu efe.

Rhun ab Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Efe a las gan y paganiaid Seison, wrth Bont Run, lle ydd oedd efe yn cadw y bont yn eu herbyn.

Rhun ab Euryn y Coed Aur, a elwir Gildas ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Sant ef yn Ystum Llwynarth.

Rhwydrys ab Rhwydrim, brenin Conacht yn y Werddon:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Llanrhwydrys yn Mon. Ei gofwyl, Tachwedd 1af.

Rhychwyn ab Helig, ab Glanog yn y gogledd, a oresgynes y môr ei dir:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llanrhychwyn yn Arfon.

Rhydderch Hael ab Tudwal Tudclud, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig: 6ed canrif. Efe oedd frenin Ystrad Clwyd a Manaw. Yn Abererch yn Arfon y gorwedd. Yr oedd yn gyff amryw saint.

Rhystyd Hen, ab Hywel Fychan, ab Hywel Faig=Hywel Farchog, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Efe a fu yn esgob yn Nghaerllion ar Wysg; ac efe a wnaeth eglwys Llanrhystyd yn Ngheredigion. Ei gofwyl, dydd Mawrth cyn y Nadolig.

Sadwrn Hen ab Ynyr o Gaer Gawch:—6ed

Digitized by Google

canrif. Sant ef Bangor Asaf, o beriglawr. Eglwys iddo ef (Llansadwrn) yn Mon a Dyfed; ac efe a wnaeth eglwys Henllan.

Sadwrn Farchog, ab Bicanys Farchog, a brawd Illtyd, a nai Emyr Llydaw, a ddaeth yn ei henaint gyda Chadfan:—6ed canrif. Eglwys iddo (Llansadwrn) yn Emlyn; arall yn Ystrad Tywi.

Sadyrnin ab Sadwrn Hen, ab Ynyr Caer Gawch:—6ed canrif. Yn Nyfed ef.

Saeran ab Geraint Saer o'r Werddon:—6ed canrif. Yn Llanynys yn Nyffryn Clwyd.

Sandel Sant:—7fed canrif. Ei eglwys ef, Cilfai, yn Ngorwenydd, a elwir Llansamled.

Samson=Samson ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Sant ac esgob o gôr Illtud. Ei eglwys ef, Caerefrawc.

Samson ab Amwn Ddu. Gwel SAMSON.

Sanddle=Sanddef, neu Sant ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—5ed canrif. Tad Dewi Sant oedd ef; a'i wraig, Non Fendigaid, ferch Ynyr o Gaer Gawch.

Sannan, sant ac esgob o'r Werddon:—6ed canrif. Ei eglwys, Llansannan yn Ngwynedd; arall yn Ngwent.

Sawyl Benuchel, ab Pabo Post Prydain, ab Arthwys, ab Mor, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebawc:—6ed canrif. Sant ef Bangor Dunawd.

Sawyl Felyn ab Bledri Hir, ab Meiryg, brenin Dyfed:—8fed canrif. Ei eglwys ef, Llansawyl yn Emlyn uwch Cuch.

Seiriol Wyn. Gwel SEIRIOL.

Seithenin frenin, o faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir, ab Seithin Hen, ab Plaws Hen, brenin Dyfed, ab Gwrtherin, pendefig o Rufain, a ddaeth i yru y Gwyddyl o dir Gŵyr a Dyfed:—5ed canrif.

Seluf ab Geraint, ab Erbin, brawd y Caw Cawlwyd:—6ed canrif. Sant o gôr Garmon.

Selyf ab Cynan Garwyn, ab Brochwel Ysgythrog:—6ed canrif.

Seowyr ab Seithenin frenin, a oresgynes y môr ei dir:—6ed canrif. Sant ef Bangor Dunawd.

Siad Rebynfre ab Cadfan Lwydgoed. A hyn a wyddys am dano.

Silwen, ferch Geraint ab Erbin:—6ed canrif.

Sinaf o Elian Ceimiad, ab Allwn Ddu, ab Cyngu, ab Ysbwys, ab Cadrod Calchfynydd, o Wen ferch Tewdwr Mawr:—6ed canrif.

Sulien=Silin, ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llansilin a chapel Silin yn Ngwynedd; ac eglwys Sulien a chapel Silin yn Nyfed.

Talhaiarn Fardd o Gaerllion ar Wysg, ab Garthwysg, ab Morydd, ab Ceneu, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Periglawr Emrys Wledig oedd Talhaiarn; a gwedi lladd Emrys ydd aeth ef yn meudwyaeth, yn y lle y mae ei eglwys ef, Llanfair Talhaiarn, yn Rhufoniawc.

Tanglwst ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Gwraig oedd hi i Wynawc, ab Cadell, ab Cawrdaf, ab Caradawc Freichfras; a mam Brochwel Ysgythrog. O fodd arall,—gwraig Cyngen ab Cadell Deyrnllwg.

Tangwn ab Caradawc Freichfras:—5ed canrif. Brenin ef rhwng Gwy'a Hafren. Ei eglwys ef, Llangoed, Mon.

Tangwn ab Talhaiarn Caerllion:—6ed canrif. Ei eglwys ef yn Ngwlad yr Haf, a'i henw yn Seisoneg Tangyntwn=*Taunton*.

Tanwg ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Sant yn Mangor Enlli: efe a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon. Ei eglwys ef, Llandanwg yn Ardudwy.

Tathan ab Amwn Ddu, brenin Grawec, ac Anna ferch Meirig ab Tewdrig ei fam:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llandathan yn Morganwg; ac oddi yno ydd aeth at Ynyr Gwent i arllwybraw Bangor Went, lle y bu ef yn Ben rhaith; ac yn ei henaint efe a ddaeth yn ei ol i'r eglwys a rywnaethoedd ef yn Llandathan, lle y gorwedd.

Tecwyn ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Efe a ddaeth drwodd gyda Chadfan, yn amser Gwrthefyr, yr hwn a gyrchwys wyr doethion a dwyfolion o Gâl, a elwir Ffrainc, i adnewyddu'r ffydd yn Nghrist yn yr ynys hon, lle ydd oedd wedi myned ar gil a phall.

Tefriog ab Dingad, ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—5ed canrif.

Tegai ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Efe a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon. Ei eglwys ef, Llandegai, yn Maes Llanglasawc, yn Arllechwedd Arfon.

Tegfan ab Cardydwg, ab Cyngu, ab Ysbwys, ab Cadrawd Calchfynydd, a Thenai ferch Dewdwr Mawr ei fam:—6ed canrif. Periglawr ef yn Mangor Cybi; ac efe a wnaeth eglwys Llandegfan, yn Mon.

Tegfedd ferch Amwn Ddu, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif.

Tegiwg ferch Ynyr Gwent, a Madryn ferch Gwrthefyr Fendigaid ei mam:—6ed canrif.

Tegonwy ab Teon, ab Gwineu Daufreuddwyd, ab Byrlew, ab Bywdeg, ab Rhun Rhuddbaladr, ab Casnar Wledig, ab Gloyw Gwlad Lydan, ab Lludd, ab Beli Mawr:—6ed canrif. Sant ef yn Mangor Illtud, ac a aeth wedi hyny gyda Chadfan i arllwybraw Bangor Enlli.

Tegwedd ferch Tegid Foel, ab Cadell Deyrnllwg:—5ed canrif. Gwraig oedd hi i Gedig ab Ceredig, ab Cunedda Wledig, a mam Afan Buallt; a gwedi hyny y bu hi wraig i Enlleu ab Hydwn Dwn, ab Ceredig, a mam Teilo Sant, esgob Llandaf. Hi a wnaeth eglwys Llandegwedd yn Ngwent, lle a'i llas gan y paganiaid Seison yn y lle a elwir Merthyr Tegwedd.

Tegwen ferch Tewdrig ab Teithfallt, brenin Morganwg; a gwraig Gallgu Rieddawc:—5ed canrif.

Tegwy ab Dingad, ab Nudd Hael:—6ed canrif. Ei eglwys ef Llandegwy = Llandygwydd yn Ngheredigion.

Tegwyn=Tecwyn. Gwel uchod.

Teilaw ab Enlleu. Gwel TEILO.

Teilaw Fyrwallt, ab Nwython, ab Gildas, ab y Caw o Gwm Cawlwyd:—7fed canrif.

Teithfallt=Teithfalch, a elwir hefyd Tudfwlch ab Nyniaw, ab Bran, ab Edric, ab Crair, ab Meiryg, ab Meirchion, ab Gwrgan, ab Arthfal, ab Einydd, ab Gorddyfwn, ab Gorwg, ab Eirchion, ab Owain, ab Cyllin, ab Caradawc, ab Bran, ab Llur Lledlaith:—4ydd canrif. Ei eglwys ef, Llandudfwlch yn Ngŵyr.

Teon ab Gwineu Daufreuddwyd, &c. (Gwel *Tegonwy* yn y gyfres hon):—5ed canrif. Sant oedd ef, ac esgob, yn Nghôr Illtud; a gwedi hyny esgob yn Nghaerloyw; a gwedi hyny archesgob yn Llundain; ac oddi yno y gyrwyd ef gan y Seison paganiaid; yna ydd aeth efe i Lydaw.

Teulydog:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys a elwid gynt Llandeulydog, yn Nyfed, a rodded gan Rydderch ab Iestyn at esgobawd Llandaf. Teulydog a fu gydymaith i Deilaw Sant ar ol ei ddychwelyd o Lydaw.

Tewdric ab Teithfallt, brenin Gwent a Garth

Digitized by Google

Mathrin, a las gan y Gwyddyl yn Merthyr Tewdric yn Ngwent, lle mae ei eglwys ef, a elwir yn awr *Mathern*, wrth Aber Pwll Meiryg. Efe a wnaeth hefyd eglwys Bedwas. ac un Merthyr Tudfyl:—4ydd canrif.

Tewdwr Brycheiniog, ab Nefydd, ab Nefydd Ail, ab Rhun Dremrudd, ab Brychan Brycheiniog:—6ed canrif.

Teyrnog ab Corwn=Corun, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Teyrnog ab Arwystl Gloff:—6ed canrif. Dyffryn Clwyd ef; a sant yn Mangor Dunawd.

Trillo ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Efe a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon; a sant yn Enlli ef. Efe a wnaeth eglwys Llandrillo yn Rhos, yn Rhufoniog; a Llandrillo yn Edeyrnion, yn Meirion. Ei gofwyl, Mehefin 15.

Trinio ab Diwng=Difwng, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Cefnder ef i Gadfan, ac aeth yn sant gydag ef yn Enlli. Efe a wnaeth eglwys Llandrinio, yn Mhowys.

Trysdan. Nid oes ond ei enw yn y "Bonedd." Efallai mai *Trysdan Tallwch* a feddylir:—6ed canrif.

Tudfyl ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Ei heglwys, Merthyr Tudfyl yn Morganwg, lle a'i llas gan y paganiaid Seison pan oedd yno yn ymgyflwyn â'i thad, ac yntau yn hen wr; a brodyr iddi yno gyda hi yn ymgais â'u tad; a rhuthraw am y lle ydd oeddynt a'r Seison digred, a'r Gwyddyl Ffichti paganiaid; a Rhun Dremrudd, mab Brychan, a las yno; a Nefydd ab Rhun, ei fab, yn lanc cyn barf, a ymwroles o weled lladd ei dad; a galw gwyr attaw, a gyru ffo ar ei elynion. Tudfyl oedd wraig Cyngen ab Cadell Deyrnllwg, a mam Brochwel Ysgythrog. Ereill eisoes a wedant mai Tanglwst oedd wraig Cyngen, gan gymmeryd y naill enw am y llall. Tebyg yw mai gwraig Gwynawc ab Cadell oedd Danglwst. Cofwyl Tudfyl, Awst 23ain.

Tudglyd ab Seithenin o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir:—6ed canrif. Sant ef yn Mangor Dunawd. Ei gofwyl, Mai 30ain.

Tudno ab Seithenin o Faes Gwyddno:—6ed canrif. Sant yntau o Fangor Dunawd. Efe a wnaeth eglwys Llandudno yn Arfon.

Tudwal Befr, ab Corinwr, ab Cadfan, ab Cynan, ab Eudaf, ab Caradawc, ab Bran, ab Llyr Lledlaith:—5ed canrif. Sant ac esgob. Yr un, y mae yn debyg, ag a elwir mewn lle arall, *Tudwal Mwynfawr*, ab Cadfan, &c. Efe a wnaeth Gapel Cadfan, yn Ynys Tudwal Sant, ar oror Arfon.

Tudwen:—7fed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llandudwen yn Arfon; a hyn a wyddys am dano.

Tudwg ab Tyfodwg, ab Gwilfyw, ab Marchan, ab Bran, ab Pill, ab Cerfyr, ab Meilyr Meilyriawn, ab Gwron, ab Coel Godhebawc:—6ed canrif. Sant ef o Gôr Cennydd yn Ngwyr. Ei eglwys, Llandudwg (*Tythegston*) yn Morganwg.

Tudyr ab Arwystl Gloff, ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig. O fodd arall,—Tudyr ab Seithenin, ab Seithin frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynes y môr ei dir:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Darowain yn Mhowys, ac eglwys Mynyslwyn yn Ngwent. Ei gofwyl, Hydref 15fed.

Twrnog. Gwel *Teyrnog.*

Twrog ab Ithel Hael o Lydaw:—6ed canrif. Efe a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon; ac a wnaeth eglwys Llandwrog yn Arfon, a Maentwrog yn Meirion. Ei gofwyl, Mehefin 26ain. Efallai nad yr un ydoedd a'r un a elwir mewn man arall—

Twrog ab Arwystl Gloff, ab Owain Danwyn, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif.

Tybiawn ab Cunedda Wledig:—4ydd canrif. Efe a ddynillwys y Cantref, gan yru y Gwyddyl ar ffo; ac yn y frwydr hono efe a las; a goreugwyr y wlad a roddasant oresgynaeth a'r bendefigaeth ar Feirionwn ei fab; ac o'i enw ef y gelwir y wlad hono, Meirionydd; a'i alw yntau, Meirion Meirionydd.

Tybie=Tybieu ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Santes hi yn Ystrad Tywi, lle a'i llas gan y paganiaid; ac yno ei heglwys hi, Llandybie. Ei chofwyl, Ionawr 20fed.

Tydecho ab Amwn Ddu, brenin Graweg, ab Emyr Llydaw, cefnder oedd ef i Gadfan:—6ed canrif. Efe a'i chwaer Tegfedd a wnaethant eglwys Llanymawddwy, ac un Mallwyd, a Garthbeibio, a Chemmaes yn Mhowys; a Chapel Tydecho yn Llandegfan yn Mon. Ei gofwyl, Rhagfyr 17eg.

Tydecho ab Gildas, ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Tydiaw ab Arwystl Gloff, ab Seithenin frenin:—6ed canrif. Sant yn Mangor Maelor; a gwedi tori 'r gôr hono a aeth yn Mangor Gadfan yn Enlli. Efe a wnaeth eglwys Derwen yn Nhyfeiliog.

Tydien=Tyden ferch Brychan Brycheiniog:—5ed canrif. Hi yn Nghapel Ogwr yn Morganwg.

Tydwallt ab Tydeyrn, ab Teithall:—4ydd canrif. Efe a wnaeth eglwys Dyneio yn Arfon.

Tyfaelawc ab Euryn y Coed Aur=Gildas ab Caw Cawlwyd:—6ed canrif.

Tyfei ab Budic ac Arianwedd, chwaer Teilo Sant:—6ed canrif. Efe a las yn ei faboed. Ei eglwysi ef, Llandyfei a Llandyfeisant yn Nyfed.

Tyfodwg ab Gwilfyw, ab Marchan, ab Brân, ab Pill, ab Cerfyr, ab Meilyr Meilyriawn, ab Gwron, ab Coel Godhebog:—6ed canrif. Sant o Gôr Illtud, a wnaeth eglwys Llandyfodwg, ac un Ystrad Dyfodwg yn Morganwg.

Tyfriog ab Dingad, ab Nudd Hael, ab Senyllt, ab Cedig, ab Dyfnwal Hen, ab Ednyfed, ab Macsen Wledig:—6ed canrif. Ei eglwys ef, Llandyfriog=Llandyfrydog yn Ngheredigion.

Tyfrydog ab Arwystl Gloff, a Dyf ferch Amlawdd Wledig ei fam:—6ed canrif. Sant ef o Enlli. Ei eglwys, Llandyfrydog yn Mon. Ei gofwyl, Ionawr 1af.

Tyneio ab Arwystl Gloff, brawd Tyfrydog:—6ed canrif. Sant yntau o Enlli. Y mae eglwys Dyneio (Pwllheli) yn Arfon yn dwyn ei enw.

Tysilio ab Brochwel. Gwel TYSILIO.

Tysul ab Corwn, ab Ceredig, ab Cunedda Wledig:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llandysul yn Ngheredigion, a Llandysul yn Mhowys. Ei gofwyl, Ionawr 31ain.

Tywynwedd ferch Amlawdd Wledig:—6ed canrif. Hi oedd wraig Llyr Merini, a mam Caradog Freichfras, Gwyn ab Nudd, a Gwallawg ab Llenawg. A gwedi hyny bu wraig Arwystl Gloff, a mam Tyfrydog, Teyrnog, Tudyr, Twrog, &c., oll yn saint Ynys Prydain.

Ufelwyn ab Cenydd, ab Aneuryn y Coed Aur =Aneuryn Gwawdrydd, ab Caw Cawlwyd, ab Geraint, ab Erbin, ab Cystenyn Gorneu, ab Tudwal Mwynfawr, ab Cadfan, ab Cynan, ab Eudaf, ab Caradawc, ab Brân Fendigaid, ab Llur Lledlaith:—6ed canrif. Efe a fu 'n esgob yn Llandaf; ac efe a wnaeth eglwys Llanufelwyn yn Morganwg.

Ulched. Ei eglwys ef, Llanulched yn Mon. Ei gofwyl, Ionawr 6ed. A hyn a wyddys am dano.

Digitized by Google

Umbraffel ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Ei wraig oedd Afrella ferch Meiryg. Esgob ef yn y Werddon.

Urien Rheged. Gwel URIEN.

Ust, a ddaeth i'r ynys hon gyda Chadfan o Lydaw:—6ed canrif. Efe a Dyfnig a wnaethant eglwys Llanwrin yn Nghyfeiliog.

Ustig=Usteg ab Geraint, ab Caranawc, ab Cleddyfgar, ab Cynan Glodrydd, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif. Efe a Dyfrig a fuant beriglorion Garmon Sant yn Nghôr Garmon.

Ynyr Gwent o Gaer Gawch. Gwel *Gynyr* yn y gofres hon.

Ysgin ab Erbin, ab Cystenyn Gorneu:—5ed canrif. Ei eglwys ef, Llanysgin yn Ngwent.

Ysgwn ab Llywarch Hen:—6ed canrif. A hyn a wyddys am dano.

Ystinan (*Justinian*). Sant o Lydaw a ddaeth i'r ynys hon:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llanystinan, a hefyd Gapel Ystinan yn Nyfed. Efallai mai yr un ydoedd ag Ystinau.

Ystudwal, sant yn Nyfed. Ychwaneg ni wyddys am dano.

Ystyffan ab Mawan, ab Cyngen, ab Cadell Deyrnllwg:—6ed canrif. Ei eglwysi ef, Llanystyffan yn Nyfed, a Llanystyffan yn Maelienydd. Yr oedd efe yn fardd da; a noddid ef gan Deilo Sant. Efe a wnaeth "Englynion Cain Cynnwyre," sydd yn *Henafiant Cymru.*

BONAVENTURA: ydoedd un o'r goleuadau dysgleiriaf yn mysg yr Ysgolwyr (*Scholastics*); yr hwn a aned yn Bagnorea, Tuscany, yn y flwyddyn 1221. Yn ddwy ar ugain oed, ymunodd âg urdd St. Francis. Wedi treulio amryw flyneddoedd yn Paris, dan yr enwog Alexander o Holes, derbyniodd y radd o ddoctor yr un diwrnod a'i gydoeswr enwog, Thomas Aquinas. Y flwyddyn ganlynol, dewiswyd ef yn llywydd ei urdd—swydd a gyflawnodd hyd ei farwolaeth gyda grym a doethineb. Cynnygiodd Clement IV. iddo archesgobaeth Caerefrog, anrhydedd a wrthododd. Ar ol marwolaeth y pab hwn, dywedir fod y cardinaliaid, yn eu hanghytundeb i ddewis ei ganlynwr, wedi ethol Gregory X. ar gymeradwyaeth Bonaventura; a chan Gregory y gwnaed ef yn esgob Albano, ac wedi hyny yn gardinal.

Yn Mehefin 15eg, 1274, y bu farw yn Lyons, tra y bu yno fel cynnrychiolydd y pab mewn cymmanfa. Hebryngwyd ei weddillion i'r bedd gan y pab a'r holl gynghor; a chodwyd hwynt yn yr unfed canrif ar bymtheg, ac wedi eu llosgi tafiwyd y llwch i afon Saône. Safai ei nodweddiad am sancteiddrwydd yn uchel, a gosodir ef gan Dante, yr hwn a ysgrifenodd yn fuan ar ol ei farwolaeth, yn mhlith y saint (*Paradiso*). Seintiwyd ef gan yr eglwys ar ol hyny, a chyfrifid ef fel y chweched dysgawdwr mawr a berthynai i'r eglwys. Gosodwyd ef gan Luther uwch yr holl dduwinyddion ysgoloraidd. Cyfenwyd ef gan ei gydoeswyr, *Y Doctor Seraphaidd.* Rhagorai ar yr Ysgolwyr yn ei bellder oddi wrth gywreinrwydd plentynaidd, yn ngwresogrwydd ei deimlad, ei gariad at yr Ysgrythyrau, a'i allu i dderbyn ac uno gwahanol elfenau ei oes heb aberthu y naill i'r llall. Yn ol egwyddor yr Ysgolwyr ysgrifenodd draethawd [*Reductio artium in Theologiam*] i ddangos mai duwinyddiaeth ydyw perffeithiad y gwyddorau a'r celfyddydau. Gyda'r amcan hwn y rhydd ddosbarthiad o wahanol gangenau gwybodaeth:—yn gyntaf, i'r saith celfau breiniol fel cynnyrch goleuni *allanol;* yn ail, i ymchwiliadau i weithiadau natur, trwy yr hyn a eilw yn *is* oleuni; yn drydydd, i wirioneddau meddyliol a moesol, trwy oleuni *tufewnol.* Ac felly y ffurfia gyfundraeth o wyddoregau, o ramadeg hyd at uchanianaeth, a llywodraeth dynion, yn eu gwahanol berthynasau.

Yna y daw i fewn y *goleuni oddi uchod*, yr Ysgrythyrau, yr hwn sydd yn ffynnonell pob gwirionedd achubol. Prif gynnwysiad yr Ysgrythyr ydyw ymgnawdoliad y Gair, y drefn i uno yr enaid â Duw, ac i lywodraethu yr ymarweddiad. Y mae ei ddylanwad yn cyrhaedd y rheswm, y dymuniadau, a'r serch; yn goleuo y deall, yn ysgogi yr ewyllys, ac yn rheoli y bywyd; yn dangos pa beth sydd yn sanctaidd, yn gyflawn, ac yn dda. A chan ei fod yn cyrhaedd yr holl ddyn, ac yn perffeithio ei holl gynneddfau, y mae yn rhaid fod y gwyddoregau sydd yn tarddu o'r cynneddfau hyn yn derbyn eu perffeithiad mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau neu dduwinyddiaeth. Mewn cyssylltiad â'i gwrthddrychau, gellir edrych ar dduwinyddiaeth yn wyddoreg (*science*); ond yn ei pherthynas â'i dyben, yr hyn ydyw adferu dyn, y mae hi yn ymarferol o ran ei natur. Y mae hi yn sylfaenedig yn hollol ar ddadguddiad, ond yn y fath fodd ag i ganiatäu lle i reswm ac athroniaeth, fel cyfrwng prawf o fod ac unoliaeth Duw, ac o anfarwoldeb yr enaid. Cynnwysa gorff o dduwinyddiaeth a elwir *Breviloquium* (yn ol rhai, y goreu a gyfansoddwyd yn y canoloesoedd) y penau canlynol:—1. Y Drindod. 2. Creadigaeth y byd. 3. Llygredigaeth pechod. 4. Ymgnawdoliad y Gair. 5 Gras yr Ysbryd Glân. 6. Rhinwedd y Sacramentau. 7. Y farn ddiweddaf. Am ymgnawdoliad y Cyfryngwr, nid yw yn myned mor bell a dywedyd ei fod yn hollol anhebgorol, ond mai y llwybr teilyngaf o Dduw ydyw i adferu dyn. Dywed fod gras yn cydweithio âg ewyllys dyn, ac yn gyfatebol i'r derbyniad a roddir iddo; ond fod yn rhaid i ras weithio yn gyntaf mewn dyn pechadurus. Y mae yn lliniaru hefyd syniadau Awstin am bechod gwreiddiol. Er mwyn sicrhau dibyniad dyn ar Dduw, ac ar yr un pryd ei ryddid personol a'i gyfrifoldeb, y mae yn ceisio egluro y berthynas sydd rhwng y meidrol a'r anfeidrol, y dibynol a'r annibynol. Ond prif ddedwyddwch dyn ydyw undeb â Duw; ac nid yw hyn yn gyrhaeddadwy, medd Bonaventura, trwy y dealltwriaeth eangaf a chywiraf, heb i'r teimlad a'r serch fod yn sefydlog arno. Tair gris sydd yn arwain at y daioni penaf, ac i fwynhad o hapusrwydd:—gweled Duw fel mewn drych yn y greadigaeth weledig, ydyw y gyntaf; troi i ni ein hunain, a'i ganfod yno mewn myfyrdod, ydyw yr ail; a'r olaf ydyw, ehedeg ato ef ei hun, ac ymgolli ynddo mewn myfyrdod digyfrwng ar ei briodoliaethau. Ond dosberthir y tair hyn i chwe gris; ac ar hyd yr ysgol hon y mae dyn i ymgodi i fwynhad uchaf ei natur. Gelwir hwynt yn gynneddfau, i ba rai, efallai, y mae yn anhawdd eael enwau gwahaniaethol yn y Gymraeg. Synwyrau (*sensus*); dychymyg (*imaginatio*); rheswm (*ratio*); deall (*intellectus*); deall pur (*intellegentia*); cydwybod (*synderesis*). Mae y ddau gyntaf—y synwyrau a'r dychymyg—yn casglu holl gyfoeth y greadigaeth i'r enaid, a thrwy hyny yn dadguddio prydferthwch a threfn a daioni y Creawdwr. Trwy y rheswm a'r deall y dadguddir i ddyn ynddo ef ei hun (y *microcosm*) rhyw ddelw o drindod yn y tair cyn neddf—cof, rheswm, ac ewyllys. Y mae hyn mewn dynion anianol; ond y mae y rhyfeddod yn cael ei fwyhau yn yr enaid ailanedig, trwy fod gwirionedd yr efengyl yn cynnyrchu yn yr

Digitized by Google

ysbryd drindod o rasusau—ffydd, gobaith, cariad—yn gyfatebol i'r trindod o gynneddfau. Trwy y *deall puraf neu uchaf (intelligentia)*, yr ymgodir i syllu ar y Duwdod pur, yn ngweithrediadau uniongyrchol ei natur; a thrwy y *gydwybod* y dygir yr enaid i fyfyrio ar y daioni tragwyddol yn cyfranu o hono ei hun, yn Drindod mewn Undod, a hyny yn ddiddiwedd. Ond at y chwe gris hyn sydd yn arwain at orsedd y gwir Solomon, y mae yr uchaf i'w enwi eto, sef y Sabbath o fwynhâd ar ol gwaith y chwe diwrnod.

Er mwyn egluro yr un syniadau cyfriniol [gwel CYFRINIAETH], ysgrifenodd luaws o fân draethodau. Argraffwyd ei holl weithiau, mewn saith cyfrol unplyg, yn Rhufain, 1588—96. Heb law y rhai a enwyd, cynnwysa y casgliad hwn esboniadau ar wahanol ranau o'r Ysgrythyr; traethodau ymarferol i ddangos pa fodd i gyrhaedd cymdeithas â Christ trwy fyfyrdod, &c. (*De Septem itineribus Æternitatis*); ac i egluro gweithrediadau cariad, o'r graddau isaf hyd at berlewygfeydd seraphaidd y nefoedd (*Stimulus Amoris, Incendium Amoris*, &c). Hefyd, *Ar y Pedwar Prif Rinwedd, Y Bywyd Cristionogol, Llywodraethiad y Meddwl, Saith Gradd Myfyrdod*, &c.

Cyhoeddwyd *Summa Theologica*, o gasgliad P. Trigosus, yn 1616. Ceir hanes ei syniadau yn *Brucker's Hist. Phil.*, cyf. iii., td. 373; *Tennemann's Hist. of Phil.*; *Athroniaeth Gristionogol Ritter* yn Germanaeg; *Real Ency., gan Hertzog.*

BONEDDIGAIDD—RWYDD, [*bon*]: ach, tylwyth; urddas haniad. "Dwyn plant ar fonedd;" hyny yw, rhoddi iddynt addysg uchel.

"Gweddwa un peth yw bonedd,
Oni chanlyn rhyw rinwedd."—*Llywarch Hen.*

Arferir y gair "bonedd" am ddosbarth uchel mewn cymdeithas, yr hwn sydd i'w gael yn mhob gwlad wareiddiedig, oddi eithr Norway a'r Taleithiau Unedig. Nid oedd neb yn cael ei ystyried yn ŵr o fonedd yn Rhufain, yn yr hen amseroedd, ar gyfrif genedigaeth, ond mewn canlyniad i waith ei henafiaid yn cynnal swyddau cyhoeddus—y rhai yn unig a feddent hawl i gymunroddi eu harluniau (*jus imaginum*) i'w disgynyddion. Gelwid y cyntaf o deulu a gyfodid i urddas, yn *novus homo*=dyn newydd.

Yr oedd Iuddewon Berea yn "foneddigeiddiach na'r rhai oedd yn Thessalonica, medd Luc: *Act.* xvii. 11. Arwydda y gair *ευγενης*, yn ei ystyr cyntaf, ddyn o fonedd neu darddiad urddasol, megys yn *Luc* xix. 12; 1 *Cor.* i. 26: ond yma arwydda, ddyn rhyddfrydig, syberw, tirion; yr hyn a ddangosir yn y ffaith fod y Bereaid yn derbyn y gair gyda phob parodrwydd meddwl, ac yn ei chwilio beunydd. "Nid llawer o rai boneddigion a alwyd." Yma, arwydda y gair, ddynion o dras uchel.

Y mae y "ddoethineb sydd oddi uchod yn foneddigaidd:" *Iago* iii. 17. Y gair Groeg yma ydyw *επιεικης*, yr hwn a arwydda, gweddusrwydd, cymmesuredd, tiriondeb. Y mae yr ansawdd hwn, medd Macknight, yn cynnwys addfwynder yn ngwyneb gwrthwynebiad, parodrwydd i faddeu pob camwri, uniondeb yn nygiad yn mlaen pob gorchwyl, tegwch wrth farnu ar gymmeriad a gweithrediadau ereill, hynawsedd mewn tuedd a thymmer, a pherffaith feistrolaeth ar y nwydau.

BONIFACE: y *cyntaf*, pab o Rufain, 418—422: yr *ail*, 530—532: y *trydydd*, 606: y *pedwerydd*, 607—614: y *pummed*, 617—625: y *chweched*, 896: y *seithfed*, 974—984: yr *wythfed*, 1389—1404.

BONIFACE, sant. Efe oedd y cyntaf a bregethodd yr efengyl yn mhlith yr Ellmyn. Yr oedd yn frodor o swydd Devon, yn Lloegr; ganwyd ef yn y flwyddyn 680; a'i enw gwreiddiol oedd Winfrid. Gwnaed ef yn offeiriad pan yn ddeg ar ugain oed; a chan fod nifer mawr o breswylwyr Ewrop y pryd hyny yn baganiaid, aeth llawer o genadau o Loegr i'w dychwelyd at Gristionogaeth. Yn 716, meddyliodd Boniface am bregethu yr efengyl yn Friesland; ond fe'i lluddiwyd gan y rhyfel rhwng Charles Martel a brenin y wlad hono. Yn 718, aeth i Rufain, lle yr awdurdodwyd ef gan Gregory II., i bregethu i holl genedloedd yr Almaen. Dechreuodd ei lafur yn Thuringia a Bavaria; treuliodd dair blynedd yn Friesland; teithiodd drwy Hesse yn Saxony, gan fedyddio yn mhob lle, a throi y temlau paganaidd yn eglwysydd Cristionogol. Yn 732, gwnaeth Gregory III. ef yn archesgob ar yr holl Almaen, ac awdurdododd ef i sefydlu esgobaethau. Cynnaliodd wyth o gynghorau yn yr Almaen; sylfaenodd abatty enwog Fulda; ac yn 754, anturiodd fyned ar deithiau i ddychwelyd y paganiaid. Ond yn 755, lladdwyd ef yn Dockum, yn ngorllewin Friesland, gan ryw farbariaid, yn y bymthegfed flwydd a thrigain o'i oedran. Y mae copi o'r Efengylau wedi ei ysgrifenu ganddo ar gael yn abatty Fulda; a chofadail wedi ei chyfodi iddo yn ymyl yr eglwys gyntaf a adeiladodd yn ngogledd yr Almaen.

BONOSIAID: canlynwyr Bonosus, esgob Sardica, y rhai a ddalient yr un opiniynau a'r Photiniaid. Gwel PHOTINIAID.

BOOTH, ABRAHAM: gweinidog enwog yn nghyfundeb y Bedyddwyr Neillduol, a anwyd yn Blackwell, yn swydd Derby, ar yr 20fed o Fai, 1734. Amaethwr bychan oedd ei dad; a chan fod ei deulu yn lluosog, a'i amgylchiadau mewn cymhariaeth yn isel, ni chafodd ei fab fanteision addysg yn more ei oes, ond y gwersi a gawsai gan ei dad gartref, trwy yr hyn y dysgodd ddarllen yr iaith Seisoneg. Pan yn un ar bymtheg oed, gadawodd weithio ar y tir gyda ei dad, ac ymroddodd i ddysgu y gelfyddyd o wau, am y barnai y cawsai well cyfleusdra felly i gasglu gwybodaeth nag wrth ddilyn gwaith amaethwr. Buasai ei feddwl dan radd o argraffiadau crefyddol er pan yr oedd yn ddeng mlwydd oed; a phan yn ei unfed flwydd ar ugain, ymunodd âg eglwys y Bedyddwyr Cyffredinol neu Arminaidd, yn Barton. Yn fuan wedi iddo ymuno â'r eglwys, annogwyd ef i arfer ei ddawn fel pregethwr, ac aeth yn fuan yn dra phoblogaidd. Yn mhen ychydig o flyneddoedd cyfnewidiodd ei farn am rai o athrawiaethau yr efengyl, ac felly ymadawodd â'r Bedyddwyr Arminaidd, a chasgl odd eglwys fechan o Fedyddwyr Calvinaidd yn Sutton Ashfield. Yn ysbaid yr amser y bu yn gweinidogaethu yno, er y byddai yn gorfod gweithio bob dydd o'r wythnos i gynnal ei deulu, yr hwn oedd yn awr yn dechreu myned yn lluosog, cyfansoddodd ei lyfr enwog ar *Deyrnasiad Gras*. Cyhoeddwyd y gwaith anfarwol hwn dan nawdd y Parch. Henry Venn, gweinidog efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig. Cafodd dderbyniad croesawus gan y cyhoedd, a dygodd ei awdwr i sylw, yr hwn oedd o'r blaen yn anadnabyddus hyd yn oed i'r rhan fwyaf o'i enwad ei hun. Yn mhen ychydig fisoedd wedi cyhoeddiad y gwaith hwn, derbyniodd alwad unfrydol oddi wrth eglwys y Bedyddwyr Neillduol, yn Little

Digitized by Google

Prescot street, Goodman's Fields, Llundain; â'r hon y cydsyniodd, a sefydlwyd ef yn y weinidogaeth yno yn mis Chwefror, 1769. Ar ol ei symudiad i Lundain, ymroddodd â'i holl egni i gyflawnu gwahanol ddyledswyddau ei swydd, ac i gyfoethogi ei feddwl â gwybodaeth. Daeth yn fuan yn feistr ar yr ieithoedd Groeg a Lladin, ac i feddu mesur helaeth o wybodaeth o'r Hebraeg. Yn y flwyddyn 1784, cyhoeddodd lyfr ar fedydd, ailargraffiad o ba un, gyda chwanegiadau helaeth, a ymddangosodd yn y flwyddyn 1787. Cafodd y gwaith dysgedig a galluog hwn ei ateb yn alluog iawn gan yr enwog Dr. Edward Williams, o Rotherham; a chyhoeddodd y ddwyblaid atebiad drachefn i'w gilydd. Ystyrir gweithiau Mr. Booth yn mysg y rhai galluocaf a ymddangosodd yn yr iaith Seisoneg o du y Bedyddwyr i'r ddadl. Cyhoeddodd hefyd gyfrol fechan o amddiffyniad i gymmundeb caeth. Ar ol bywyd o lafur dibaid, a llwyddiant nodedig, gorphenodd ei yrfa ar y 27ain o Ionawr, 1806, yn 72ain ml. oed. Yr oedd Mr. Booth yn Gristion gloew, yn weinidog da i Iesu Grist, wedi dyfod trwy ei lafur ei hun i fod yn un o'r ysgolheigion rhagoraf yn ei oes, a chyfrifir ef gan bawb cyfarwydd â'i weithiau fel duwinydd gwir alluog. Yr oedd o ran ei syniadau yn Galvinaidd uchel, ond yn wrthwynebwr selog i benrhyddid Antinomaidd. Cyhoeddodd ei holl weithiau athrawiaethol ac ymarferol, yn nghyd â hanes helaeth o'i fywyd, yn dair cyfrol wythplyg, yn y flwyddyn 1813.

BOOTHROYD, BENJAMIN, D.D., LL.D.: a anwyd yn Warley, yn mhlwyf Halifax, ar y 10fed o Hydref, 1768. Crydd oedd ei dad wrth ei alwedigaeth, ac ymddengys ei fod yn lled isel ei amgylchiadau, neu yn waradwyddus o ddiofal am roddi addysg i'w fab; canys ni fedrai ddim ar rifyddiaeth nac ysgrifenu pan yn ddeuddeg neu bymtheg mlwydd oed. Un o'r gwŷr ieuainc a arferai fyned gydag ef i'r ysgol a'i dysgodd gyntaf i adnabod y rhifnodau ac ysgrifenu. Mae yn ymddangos hefyd fod ei rieni mor ddiofal am foesau eu mab ag am ei addysg; o blegid dywedir ei fod mor ddrygionus ac anwaraidd fel yr oedd yn ddychryn i'r gymmydogaeth. Wedi iddo ddysgu celfyddyd ei dad, gwnaeth i fyny ei feddwl i fyned oddi cartref, heb yn wybod i'w rieni, i edrych am waith. Nid oedd ganddo ond ychydig geiniogau yn ei logell pan yr ymadawodd. Ar ol teithio cryn lawer, tarawodd wrth grydd ar gyffiniau swydd Lancaster, yr hwn a roddodd waith ac addysg dda iddo, a chymhelliadau i arwain bywyd moesol a chrefyddol. Wedi bod am ddigon o amser yn ngwasanaeth y gwr hwnw i gasglu ychydig o arian, a dilladu ei hun yn weddus, dychwelodd at ei rieni. Bu am ysbaid o amser ar ol hyn yn arolygu galwedigaeth ei dad, ac yn gymhorth mawr iddo. Yr oedd yr addysg a gawsai gan ei hen feistr wedi ei ddwyn i raddau i ymadael â'i ddull gwyllt ac anwaraidd o fyw, ac i ymhyfrydu mewn chwilio am wybodaeth fuddiol. Eisteddai i fyny nosweithiau cyfain i ddarllen a myfyrio, ond nid ymddengys ei fod hyd yn hyn wedi dyfod i deimlo dim yn effeithiol am achos ei enaid. Byddai yn arfer myned ar y Sabbathau i'r hen eglwys blwyfol yn Halifax i ganu; ac arferai hefyd, fel y cantorion ereill, fyned o'r llan i'r dafarn, i gyfeddachu yn annuwiol. Ar un noson, pan yr oedd ef a'i gydgantorion yn y dafarn yn cydyfed ac yn ymddyddan yn halogedig a phechadurus, tarawyd ei feddwl yn ddisymwth gan deimladau o euogrwydd a braw yn nghylch ei gyflwr fel pechadur. Cyfodedd yn y fan ac aeth allan, heb ddyweyd dim wrth ei gyfeillion. Methai gerdded oddi yno adref heb syrthio ar ei liniau amryw weithiau i weddïo am drugaredd. O'r pryd hwnw allan, daeth yn ŵr ieuanc difrifol a chrefyddol iawn. Ymunodd â'r Eglwys Ymneillduol yn Warley, dan ofal y Parch. Richard Simpson, ac annogwyd ef yn fuan i arfer ei ddawn fel pregethwr. Aeth i athrofa Annibynol a gynnelid y pryd hwnw yn North-howram, ger haw Halifax; ac wedi gorphen ei amser yno, derbyniodd alwad oddi wrth yr Eglwys Annibynol yn Pontefract, lle y dechreuodd ei weinidogaeth yn y flwyddyn 1790. O herwydd nad oedd yr eglwys yn alluog i gyfranu digon at ei gynnaliaeth, agorodd fasnachdy fel llyfrwerthydd; ac yn fuan wedi hyny prynodd argraffwasg, a chyhoeddodd argraffiadau tlws o amryw lyfrau gwerthfawr, yn nghyd â rhai pregethau a thraethodau o'i waith ei hun.

Gan nad oedd, yn ysbaid ei arosiad yn yr athrofa, wedi dysgu yr Hebraeg, ymroddodd yn awr â'i holl egni i ddysgu yr iaith hono, a daeth mewn ychydig flyneddoedd yn feistr hollol arni. O'r diwedd penderfynodd gyhoeddi argraffiad o'r Beibl Hebraeg, gydag amrywiol ddarlleniadau, a nodiadau beirniadol ac eglurhaol, yn y Seisoneg. Cyhoeddwyd y rhan gyntaf o'r gwaith dysgedig a champus hwn yn y flwyddyn 1810. Cyfododd y gorchestwaith hwn Mr. Boothroyd i sylw prif ddysgedigion y deyrnas, yn mysg pa rai gellid enwi y Dr. Zouch, prebendur Durham; y Dr. Barrington, esgob Durham; a'r Dr. Burgess, esgob Ty Ddewi. Yn fuan ar ol cyhoeddiad ei Feibl Hebraeg, annogwyd ef gan amryw wyr dysgedig i gyhoeddi cyfieithiad diwygiedig o'r holl Feibl, gyda sylwadau beirniadol ac eglurhaol. Ymroddodd at y gorchwyl pwysig hwn, ac ymddangosodd y gwaith mewn tair cyfrol pedwarplyg, yn y flwyddyn 1823. Yn y flwyddyn 1835, cyhoeddwyd ailargraffiad o hono mewn llythyren fanach, ac heb y sylwadau ymarferol ar ddiwedd pob pennod, yn un gyfrol; ac ymddangosodd amryw argraffiadau o hono wedi hyny. Yn 1818, symmudodd Mr. Boothroyd o Pontefract i Huddersfield, i gydweinidogaethu â Mr. Moorhouse. Yn 1824, cafodd ei raddio yn D.D., gan brif athrofa Glasgow. Yr oedd cyn hyny wedi ei raddio yn LL.D. Ar ol bywyd o lafur a llwyddiant digyffelyb, fel gweinidog ac awdwr, gorphenodd y dyn gwir fawr yma ei yrfa ar y 10fed o Ionawr, 1836.

BORD: bwrdd, lle i fwyta. "Arlwyi ford ger fy mron yn ngwydd fy ngwrthwynebwyr;" *Salm* xxiii. 5. Nid yn unig y mae Duw yn cynnorthwyo ei bobl *mewn* poenau a dyoddefiadau, ac yn eu dwyn *allan* o honynt, ond y mae yn cyfranu iddynt gyflawnder o lawenydd—yn digoni ei blant â daionus bethau ei dŷ. Y mae gweinyddu porthiant a dwfr i'r praidd gan y bugail tymmorol yn cyfateb i'r bendithion hyn. Ond buasai y gymhariaeth yma yn rhy gyffredin. Y mae y Salmydd, gan hyny, yn dysgrifio gofal Duw fel bugail, yn y peth hwn, trwy gyfnewid ychydig ar y gymhariaeth. Y mae y bendithion â pha rai y mae Duw yn diwallu dymuniadau ei bobl yn cael eu cymharu i wledd ddanteithiol. Y mae y gair Hebraeg yn arwyddo, nid bwrdd noeth, ond bwrdd wedi ei hilio—bord wedi ei harlwyo. —(*Hengstenberg*, d.g.; 1 *Cor.* x. 21.)

BORE, BOREU, [*bor*]: y wawr. Arwydda, yn gyffredin, y rhan gyntaf o'r dydd. "A'r

Digitized by Google

hwyr a fu, a'r bore a fu y dydd cyntaf;" *Gen.* i. 5. Y mae y gair Hebraeg, בקר, yn y ferf, yn arwyddo, ymchwilio i beth—gwneyd yn amlwg; ac y mae yr un gair yn dynodi "bore," am ei fod yn gwneyd pob peth yn eglur. Enwir yr hwyr o flaen y bore yn Genesis (*pen.* i.), am fod y tywyllwch yn bod o flaen y goleuni; neu, efallai, am fod yr Iuddewon yn dechreu eu diwrnod yn yr hwyr. Y mae "cyfodi yn fore" yn ymadrodd ffugrol, yn dynodi dyfalwch gyda rhyw orchwyl; dywed yr Arglwydd ei fod yn cyfodi yn fore i alw ei bobl i ddychwelyd ato: *Ier.* vii. 13; xi. 7. "O'r bore hyd yr hwyr," a ddynoda, adeg fer: *Iob* iv. 20. Y mae y gair Groeg, πρωι, yn arwyddo y wyliadwriaeth fore: *Marc* xiii. 35.

BOREAS: duwdodyn yn chwedloniaeth Groeg, mab Astræus ac Aurora, a addolid fel duw y gogleddwynt. Priodolir mwy o orchestion iddo nag i un o'r duwiau israddol. A gellir rhoddi cyfrif am hyny oddi wrth ryw ddygwyddiadau ffodus i'r Groegiaid a gymmerasant le trwy wynt y gogledd. Dinystriodd lynges y Persiaid unwaith, pan oeddynt yn bwriadu goresgyn Attica. Amgylchiad cyffelyb a barodd i drigolion Megalopolis gymmeryd Boreas yn dduw diffynol iddynt, a sefydlu gŵyl flyneddol er anrhydedd iddo. Y mae Milton, gyda'i hoffder arferol at gyfeiriadau chwedlonol, yn rhoddi lle i'r duwdodyn hwn yn ei *Goll Gwynfa*:—

> "*Boreas* and Cæcias and Argestes loud,
> And Thracias rend the woods and seas upturn."

Arddangosid Boreas gyda thraed sarff, ei edyn yn dyferu eur-wlith, a godreuon ei wisgoedd yn llusgo y llawr.

BORITH, [בריח], a ddygwydda mewn dau o leoedd yn y Beibl (*Ier.* ii. 22; yn Gymraeg, *sebon; Mal.* iii. 2, *sebon*). Rhyw gymmysgedd neu lysieuyn i buro neu lanhau ydyw, medd Parkhurst. Yn Ieremiah, y mae y Deg a Thrigain yn cyfieithu ποιαν=y llysieuyn; Jerome a'r Vulgate, *herbam borith*=y llysieuyn borith. Yn Malachi, cyfieithir ef gan y Deg a Thrigain, ποια πλυνοντων=llysieuyn y golchyddion; a chan y Vulgate, *herba fullorum*=llysieuyn y panwyr. "Yr wyf yn meddwl mai y *saltwort* ydyw y llysieuyn hwn," medd Monsieur Gagnet. Y mae hwn yn llysieuyn tra chyffredin yn Syria, Iudea, yr Aipht, ac Arabia. Llosgent ef, a thywallteut ddwfr ar y lludw; a deuai y dwfr yn llawn halen trwythol (*lixivial salt*), yr hwn a fyddai yn dra gwasanaethgar i godi brychau o lieiniau a brethynau. Meddylia Michaelis mai nid enw y llysieuyn ei hun ydyw *borith*, ond yn hytrach, yr halen a dynir o lwch y llysieuyn hwn a llysiau ereill; ac mai sebon wedi ei wneyd o'r halen, a feddylir yn Ieremiah. Barna mai yr halen ei hun a feddylir yn Malachi, y cyfryw ag a ddefnyddid gan banwyr; ond a grybwyllir yno ar gyfrif y defnydd a wneid o hono i buro meteloedd.

BORRELIAID: dysgyblion Adam Borrel, pregethwr Ellmynaidd, o'r ail canrif ar bymtheg. Addefir ei fod yn ysgolhaig rhagorol, ac yn dra chyfarwydd â'r ieithoedd Hebraeg, Groeg, a Lladin. Yr oedd ei frawd yn negesydd yr Is-Ellmyn yn ninas Paris. Myntumiai y Borreliaid ddaliadau y Mennoniaid, neu, o leiaf, y nifer mwyaf o honynt. Dywedir fod "eu bucheddau yn ddiargyhoedd, eu tueddiad yn haelfrydig, a'u bod yn ymddwyn yn mhob peth yn deilwng i'r alwedigaeth Gristionogol." Cwynant fod yr holl eglwysi, Protestanaidd yn gystal a Phabaidd, wedi ymlygru oddi wrth burdeb athrawiaeth yr efengyl, am eu bod wedi goddef i'r Ysgrythyrau gael eu difwyno a'u llygru â'u catechismau, eu ffurfweddiau, a'u homiliau. Barnant hwy y dylai gair Duw gael ei dderbyn a'i ddarllen heb na sylw nac esboniad. Teimlant wrthwynebiad cryf i eglwysydd neu gapelau, i gyfranogiad a gweinyddiad y sacramentau, gweddiau cyhoeddus, a phob gwasanaeth crefyddol sydd yn ddarostyngedig i unrhyw ffurf allanol. O herwydd hyn, nid ydynt yn myned i addoliadau y Mennoniaid, er eu bod yn credu llawer o'u daliadau. Nid annhebyg ydynt, yn eu gwrthwynebiad i bob ffurfiau, i'r Cyfeillion, neu y Crynwyr.

BOSCIAID: math o fynachod gwledig yn Syria a Mesopotamia, y rhai a ymborthent ar lysiau, a ddilynent y bywyd bugeiliol, ac a gymmysgent eu holl lafur â mawl a gweddi.

BOSSUET, JACQUES BENIGNE: un o brif dduwinyddion a phregethwyr Pabaidd Ffrainc; a aned yn Dijon, yn 1627. Dechreuodd ei efrydiau yn ngholeg y Jesuitiaid, yn ei dref enedigol; ac oddi yno, yn 1642, aeth i Paris i fyned trwy y cylch angenrheidiol i gymhwyso ei hun i fod yn offeiriad. Enwogodd ei hun trwy ei gydnabyddiaeth manwl âg awduron clasurol, ac â gweithiau y tadau eglwysig—y ddwy gangen o wybodaeth o bwysigrwydd anhebgorol yn Eglwys Rhufain. Dechreuai pan yn un ar bymtheg oed, roddi amlygiadau o'i alluoedd anghyffredin i areithio ar faterion duwinyddol; ac wedi gorphen ei efrydiau rhagbarotoawl, penodwyd ef yn offeiriad i Eglwys Metz, lle yn fuan y sefydlodd ei gymmeriad fel un o bregethwyr enwocaf Ffrainc. Ennillodd ei boblogrwydd taleithiol sylw Louis XIV., brenin Ffrainc; a derbyniodd wahoddiad i Paris i bregethu o flaen ei fawrhydi a'r llys; ac fel canlyniad y cymmeradwyaeth a dderbyniodd yno, cafodd ei osod i arolygu dysgeidiaeth etifedd y goron (*dauphin*). Ymwrthododd Bossuet â'r dyrchafiadau eglwysig a dderbyniodd yn flaenorol, er mwyn cyssegru ei hun gyda mwy o ymroddiad i'w alwedigaeth newydd. I'r dyben hwn, cyfansoddodd grynodeb o *Hanesiaeth Cyffredinol*, un o'i weithiau mwyaf derbyniol a defnyddiol; yr ymdrech uchaf, medd Hallam, o'i athrylith rhyfeddol. Defnyddir ef hyd yn bresennol yn ysgolion Ffrainc. Parotodd hefyd, *Arweiniad i Athroniaeth, neu Draethawd ar wybodaeth o Dduw, ac am danom ein hunain:* yn yr hwn yr eglura elfenau meddyleg, a'r athrawiaeth am fôd Duw, yn unol âg egwyddorion Descartes. Yr oedd y ddadl rhwng Protestaniaeth a Phabyddiaeth yn cael ei dwyn yn mlaen gyda gallu a sel mawr yn yr hanner canrif o 1650 hyd 1700. Y tri amddiffynwr galluocaf a feddai Eglwys Babaidd Ffrainc, oedd Nicole, Arnauld, a Bossuet; ond cyrhaeddodd Bossuet enwogrwydd a llwyddiant na chyrhaeddodd un amddiffynwr arall o'r Babaeth. Yn 1668, ysgrifenodd ei *Esboniad o'r Ffydd Gatholig*, er mwyn dau frawd o deulu uchel. Bu y traethawd hwn yn foddion i sefydlu llawer yn yr Eglwys Babaidd, ac hefyd i ennill rhai Protestaniaid drosodd. Yr oedd lluaws o Brotestaniaid, y pryd hwnw fel yn awr, yn addef awdurdod eglwys yr oesoedd boreuol, ac nid y Beibl *yn unig;* ac felly yn rhoddi mantais i'r Pabyddion, gan eu bod eisoes wedi derbyn rhai o'u hegwyddorion. Felly y mae Bossuet yn cadw awdurdod yr eglwys henafol yn unig yn y golwg.

Digitized by Google

Cydnabyddwyd ef yn awr yn brif amddiffynydd Pabyddiaeth yn Ffrainc, tra yr oedd Claude mor enwog yr ochr arall. Gwahoddwyd y ddau brif wrthwynebwr hyn i ddadl â'u gilydd, yn 1678, gan foneddiges yn proffesu Protestaniaeth, ond yn teimlo petrusder yn nghylch y wir eglwys. Dygwyd y ddadl yn mlaen yn ei phresennoldeb; a dibenodd fel dadleuon o'r fath yn gyffredin, trwy fod y ddwy ochr yn hôni y fuddugoliaeth iddynt eu hunain; ac ymunodd M. de Duras â'r Eglwys Babaidd, gan fod yr eglwys yn ymgymmeryd â'r cyfrifoldeb o farnu drosti, ac felly yn gadael iddi hi fwynhau tangnefedd. Ei brif waith o blaid Pabyddiaeth, ydyw y traethawd ar *Amrywiaeth yn mysg Protestaniaid*, a ymddangosodd yn 1688. Prif amcan y traethawd hwn yw dangos fod yr Eglwysi Protestanaidd, yn nghyd â'u prif ysgrifenwyr yn yr unfed canrif ar bymtheg, yn amrywio mewn barn. Ei ymgais ydyw dangos gwendidau ac anghyssonderau Luther, Zwingle, Calvin, a Beza. Dywed Hallam, ei fod yn ammheu yn fawr gywirdeb ei ddyfyniadau o'r ysgrifenwyr hyn; ond nid yw yn rhoddi mantais i'w ddarllenwyr ei brofi, trwy roddi eu geiriau eu hunain, nac ychwaith yn cyfeirio at argraffiadau penodol o'u hysgrifeniadau. Rhoddodd archesgob Wake ddigon o brofion nad oedd dim ymddiried i'w roddi yn nghywirdeb Bossuet pan yn dadleu o blaid ei eglwys, cyn i *Hanes yr Amrywiaethau* ymddangos. Ac er fod Pabyddion yn parhau hyd yn awr i ymffrostio fod y llyfr hwn yn anatebadwy, cyhoeddwyd dau ateb yn fuan iddo; un gan Jurieu [*Anerchiadau at Ffyddbmiaid Ffrainc*], a'r llall gan Basnage [*Hanes Crefydd yr Eglwysi Diwygiadol*]. Y mae Protestaniaid yn teimlo fod ateb Basnage, yn enwedig, yn hollol benderfynol, mor bell ag y mae ymresymiad yn myned.

Ymresymiad Bossuet ydyw hyn,—Y mae amrywiaeth mewn athrawiaeth yn brawf o gyfeiliornad; y mae Protestaniaid o'r dechreu yn amrywio; ac o ganlyniad y mae eu golygiadau yn gyfeiliornus. Mewn atebiad i hyn, fe ddangosir —1. Nad ydyw yn wirionedd, fod amrywiaeth mewn golygiadau yn profi cyfeiliornad yn yr ystyr a all wasanaethu pwrpas y Pabydd. 2. Fod yr anghyssonderau a ddywed Bossuet sydd yn ysgrifeniadau y Diwygwyr, yn tarddu neu yn cael eu chwyddo gan ei gamddarluniadau ef o honynt. 3. Mor bell ag y mae unrhyw rym yn yr ymresymiad, y mae yn gryfach yn erbyn Pabyddiaeth nag yn erbyn Protestaniaeth.

Barn archddiacon Hare [*Vindication of Luther*] am y llyfr hwn ydyw, "nad yw Bossuet fel yn dymuno nac yn ceisio dyweyd y gwir ynddo. Nid yw unwaith, yn fy marn i, o'r tudalen cyntaf hyd yr olaf, yn gwneyd ymdrech i gael allan y gwirionedd. Ei ymgais ydyw dyweyd pob drwg am y Diwygwyr, i ddangos eu bod wedi gwyro bob cam, yn mhob gweithred, gair, a meddwl—i brofi mai tywyllwch ydyw y cyfan, heb ddim goleuni."

Meddyliai rhai o'r Lutheriaid, fod yn bosibl cael allan rhyw ammodau, a allasent wasanaethu yn sail undeb rhyngddynt a'r Eglwys Babaidd; ac yn 1691, gwnaeth Leibnitz yr athronydd, a Molanus, duwinydd Lutheraidd, o blaid y Protestaniaid, a Bossuet, yr ochr arall, ymdrech i ddwyn hyny oddi amgylch. Ond ymddygai Bossuet tuag atynt fel buddugoliaethwr balch tuag at ddinas orchfygedig. Nid oedd dim telerau i'w cael ond mewn ymostyngiad. Ac er fod ar hen ysbryd Lutheraidd wedi gwisgo allan i fesur mawr, eto ni dderbyniwyd telerau mor anghyfartal.

Dygwyddodd dadl o natur wahanol, a rhoddodd waith iddo am y blyneddoedd olaf o'i oes. Dysgai un Molinos, offeiriad o Spaen, fod perffeithrwydd Cristionogol yn gynnwysedig mewn caru Duw, heb obaith am wobr nac ofn cosb. Am y trosedd hwn, bu raid iddo dreulio saith mlynedd yn ngharchar y Chwilys. Mabwysiadwyd ei syniadau gan foneddiges o Ffrainc, o'r enw Madame Guyon [gwel GUYON], ac ymroddodd i'w dadgan a'u dysgu gyda brwdfrydedd a barodd iddi anghoflo pob peth arall: ac yn ei thro, carcharwyd hithau am lawer o flyneddoedd. Ond cymmerwyd ei hachos i fyny gan Fenelon, archesgob Cambray, ac amddiffynodd ei chymmeriad, ac i fesur ei golygiadau, yn y *Maximes des Saints*. Cymmerodd Bossuet, yr hwn oedd yn oracl ac ymddiffynydd yr eglwys, arfau i fyny yn ei erbyn. Appeliwyd at Rufain, a phenodwyd deg o gardinaliaid i gyhoeddi barn rhyngddynt; a phan ydoedd y rhai hyn wedi ymranu yn gyfartal, a Fenelon ar gael ei ryddhau, llwyddodd Bossuet, trwy ei ddylanwad gyda Louis x., i sicrhau ei gondemniad. Yr oedd ymddygiad Bossuet yn drahäus a gerwin, fel y dywedodd y pab Innocent XII.—hen ŵr o dymmer heddychlawn, yr hwn ni fynasai fyned i'r fath eithafion—"fod Fenelon, o bosibl, wedi gwyro trwy fyned yn rhy bell mewn cariad at Dduw; ond fod Bossuet wedi pechu trwy ddiffyg cariad at ei gymmydog." Un o'r gosodiadau o eiddo Fenelon a gondemniwyd, oedd, "Fod y fath gariad tuag at Dduw yn gyrhaeddadwy, ag sydd yn rhydd oddi wrth bob cymhelliad o hunan les, heb fod ofn cosp na gobaith gwobr yn gymmysgedig âg ef."

Rhesymau Bossuet yn y ddadl, heb law traddodiad ac awdurdod yr eglwys, oedd—fod yn rhaid i ddyn ddymuno ei ddedwyddwch ei hun, ac nas gall ddymuno dim arall ond fel moddion tuag at hyny. [Gwel MOESEG.]

Yn 1682, cynnäliwyd cynghor yn Ffrainc, yr hwn a alwyd gan y brenin i benderfynu dadl rhwng y pab ac yntau, mewn perthynas i awdurdod y pab. Agorwyd y cynghor gan Bossuet, ac efe a dynodd i fyny yr ammodau a sicrhaodd annibyniaeth Eglwys Ffrainc [gwel erthygl] mewn pethau allanol. Yn y cynghor, a gynnaliwyd 1700, nid oedd ei ddylanwad ddim llai nag yn yr un blaenorol. Bu farw, Ebrill 12, 1704.

Cyrhaeddodd Bossuet yr enwogrwydd uchaf fel pregethwr, hanesydd, duwinydd, a dadleuwr. Cyfrifir ei bregethau anghladdol yn mhlith y cynnyrchion rhagoraf o'r fath. Ond y mae eu rhagoriaeth penaf o natur llenyddol: ac er mawreddigrwydd y syniadau, a dyfnder y teimlad a geir ynddynt, yn fynych dangosant fwy o weniaith gweinidog llys ymherawdwr Louis XIV., nag o ffyddlondeb gweinidog gair Duw. Er ei fod yn un o'r dynion mwyaf ei enwogrwydd a'i ddylanwad yn y canrif y perthynai iddi, yr ydoedd felly am ei fod yn cynnrychioli ac yn gweithio allan yn fwy egniol na neb arall duedd ei oes yn Ffrainc. Yr oedd y duedd hon yn personoli ei hun yn Louis XIV.; yr hwn a ddywedai, gydag eithaf gwirionedd, "mai efe oedd yr oes" (*l'etat c'est moi*). A'i amcan ef oedd gwneyd ei ewyllys ei hun yn rheol hollol ac annibynol yn mhob dim, mewn crefydd yn gystal ag yn mhob peth arall; er ei fod, heb yn wybod iddo ei hun, dan lywodraeth ei gyffeswyr a'i ordderchadon. Ymgyssegrodd Bossuet i fod yn weinidog ac yn offeryn ei dräarglwyddiaeth. Defnyddiai ei

Digitized by Google

dalentau ysblenydd i gyflawnhau holl greulonderau ei feistr yn erbyn Protestaniaid, ar un llaw, o herwydd eu bod yn beiddio meddwl drostynt eu hunain; ac i wrthsefyll hyd yn oed y pab, ar y llaw arall, gan fod ei honiadau ymffrostgar ef yn anghysson â'r uchafiaeth unbenol a hawliai Louis iddo ei hun. Yn ol Bossuet, yr oedd y brenin wedi ei osod yn uniongyrchol gan Dduw, ac yn gyfrifol yn unig iddo ef. Dwyflywyddiaeth ydyw perffeithrwydd llywodraeth; ac ni welai yn ngweithrediadau Louis ond cynhyrfiadau Ysbryd Duw.

BOST, [*awst—Dr. Pughe*]: ymffrost, gorfoledd (2 *Cor.* viii. 24; ix. 3, 4; x. 8, 13, 15). Y geiriau Groeg yn y manau hyn ydynt, *καυχημα* a *καυχησις*; y rhai a arwyddant, weithiau, y fost ei hun; ac weithiau, gwrthddrych y fost.

BOSTON, THOMAS: duwinydd ac ysgolhaig enwog a anwyd yn Dunse, yn Scotland, ar y 17eg o fis Mawrth, yn y flwyddyn 1676. Cafodd ei droi at yr Arglwydd yn y ddegfed flwyddyn o'i oed, trwy weinidogaeth nerthol y Parch. Henry Erskine, tad yr enwogion Ebenezer a Ralph Erskine. Wedi treulio rhai blyneddoedd mewn ysgol ramadegol, derbyniwyd ef i brif ysgol Edinburgh yn y flwyddyn 1694. Dechreuodd bregethu yn y flwyddyn 1697, ac urddwyd ef yn weinidog plwyf Simprin ar yr 21ain o Fedi, 1699. Symmudodd oddi yno i Ettrick, yn mis Medi, 1707, lle y bu yn llafurio gyda diwydrwydd mawr hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymmerodd le ar yr 20fed o Fai, 1732. "Yr oedd Mr. Boston," medd un o'i gydoeswyr, "o ran corffolaeth, yn fwy na'r cyffredin; o ran ei feddwl, yn alluog a threiddgar; o ran ei ymddangosiad, yn urddasol a hawddgar; ac o ran ei dymmer, yn hynaws a mwynaidd; ond yn benderfynol a diysgog iawn dros yr hyn a olygai yn dda, ac yn erbyn yr hyn a olygai yn ddrwg." Fel ysgolhaig, rhagorai ar y cyffredin o'i gydoeswyr. Yr oedd yn feistr hollol ar yr Hebraeg, y Groeg, y Lladin, y Ffrancaeg, a'r Is-Ellmynaeg. Fel pregethwr, yr oedd yn boblogaidd iawn; ac fel gweinidog, yn ddiwyd a llafurus i borthi praidd Duw. Mae poblogrwydd anghyffredin amryw o'i weithiau, megys *Corff o Dduwinyddiaeth; Pedwar Cyflwr Dyn;* a'r *Crook in the Lot;* yn dangos er's oesoedd fod y byd crefyddol yn cydnabod ei ragoriaeth fel duwinydd; ac y mae rhai o honynt wedi eu cyhoeddi yn Gymraeg. O ran ei olygiadau, Calviniad, o'r un ysgol a'r Dr. John Owen, ydoedd. Cyhoeddwyd argraffiad cyflawn o'i holl weithiau dan olygiaeth y Parch. Samuel M'Millan yn 1853, mewn deuddeg o gyfrolau wythplyg. Y mae y ddeuddegfed gyfrol yn cael ei gwneyd i fyny o hanes ei fywyd, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun. Yr oedd i Mr. Boston fab o'r un enw a chyfenw a'i dad, yr hwn, wedi bod am rai blyneddoedd yn weinidog enwog yn Eglwys Sefydledig Scotland, yn y flwyddyn 1752 a ymneilduodd, mewn cyssylltiad â'r Parch. Thomas Gillespie, sylfaenydd y cyfundeb a adwaenid wedi hyny dan yr enw *Relief Synod.* Y mae yntau hefyd yn awdwr amryw draethodau ar wahanol bynciau duwinyddol.

BOURIGNONIAID: canlynwyr Mad. Antoinette Bourignon, brodor o Flanders, a anwyd yn Lisle, yn 1616. Yr oedd mor anffurfiol ar ei genedigaeth, fel yr oedd yn gwestiwn pa un a ddylasid ei magu ai peidio. Fel y tyfodd i fyny, lleihaodd ei hanffurfiad i raddau mawr, a dangosodd hithau ei bod wedi ei chynnysgaethu â meddwl cryf, a chrebwyll bywiog, ac ysbryd tra chrefyddol. Yr oedd, pa fodd bynag, yn llawn o benboethni. Tybiodd ei bod dan ddylanwad ysbrydoliaeth, ac wedi ei nodi allan gan Raglunaeth i adnewyddu ysbryd Cristionogaeth, oedd bron wedi ei lethu gan ddadleuon ymbleidgar. Proffesa, yn ei chyffes ffydd, grediniaeth yn nwyfoldeb yr Ysgrythyrau, ac athrawiaethau Duwdod ac aberth Crist. Cyhoeddodd nifer mawr o lyfrau, y rhai a gynnwysant y syniadau rhyfeddaf. Gelwir y mwyaf o'i chynnyrchion yn *Oleuni y byd.* Prif egwyddorion ei hysgrifeniadau ydynt y rhai canlynol:—Bod dyn yn gwbl rydd i wrthod neu ddewis dwyfol ras; fod Duw yn anghyfnewidiol yn ei gariad tuag at ei holl greaduriaid, ac nad yw byth yn cospi fel Penarglwydd; ond mai canlyniad naturiol pechod yw pob drwg a thrueni; fod gwir grefydd yn gynnwysedig, nid mewn un ffurf allanol, nac mewn cyfundraethau o athrawiaeth, ond mewn cymundeb digyfrwng â'r Duwdod, trwy deimladau tumewnol, a chynhyrfiadau dwysion, ac mewn ymostyngiad hollol i'w ewyllys ef. Daliai amryw olygiadau tra afresymol; ac yn mysg pa rai—fod Adda, cyn y cwymp, yn feddiannol ar elfenau y ddwy ystlen; a'i bod hithau, mewn perlewyg, wedi gweled Adda fel yr oedd yn ei sefyllfa gyntaf; a phryderthwch y byd ar ol gorphen gwaith y creaq, a'r modd y dygwyd ef i'w ffurf berffaith allan o'r tryblith: fod gan Grist ddynoliaeth ddeublyg—y naill wedi ei ffurfio o Adda cyn creadigaeth Efa, a'r llall wedi ei chymmeryd o'r forwyn Fair; a bod ei natur ddynol wedi ei llygru: a'r cyffelyb.

Dygwyd y fenyw hon i fyny yn nghymundeb Eglwys Rhufain; ond ymosodai gyda'r un diduedd rwydd ar lygredigaethau Eglwys Rhufain a'r eglwysi diwygiedig; ac am hyny, cafodd ei herlid gan Babyddion a Phrotestaniaid fel eu gilydd; ac ar ol cael ei hymlid o le i le, bu farw yn Franeker, Hydref 30ain, 1680. Ymwisgai fel meudwy; a theithiodd drwy Ffrainc, Holland, Lloegr, a Scotland. Darfu i Poinet ddwyn dychymygion afreolaidd y fenyw hon i fwy o drefn yn ei *Divine Economy;* a cheisiodd y Dr. Garden o Aberdeen eu dwyn i Scotland, ac ysgrifenodd draethawd o'u plaid. Bu i raddau helaeth yn llwyddiannus; o blegid dywed Dr. Kippis, y bu ganddi fwy o ddysgyblion yn Scotland nag mewn un wlad arall.

BOURNEAID: math o Gyffredinolwyr (*Universalists*); dilynwyr Samuel Bourne, awdwr traethawd ar *Gospedigaeth Ddyfodol.*

BOYLE, ROBERT: un o'r enwau uchaf yn mysg athronwyr Prydain; yr hwn, fel y mae ei holl fywgraffwyr yn sylwi, a aned yr un flwyddyn ag y bu farw Bacon—deddfroddwr athroniaeth brawfladol; sef Ionawr 25ain, 1626. Efe oedd y cyntaf a roddodd mewn ymarferiad reolau y *Novum Organum;* ac yn mhlith holl ddysgyblion Bacon, nid oedd un yn fwy ffyddlawn, yn fwy amyneddgar, nac yn fwy llwyddiannus yn ei ymdrechiadau i ddwyn i oleuni ddirgeledigaethau natur. Yn mhlith sylfaenwyr cyntaf y Royal Society, ennillodd tri enwogrwydd mawr ar gyfrif y chwanegiadau a wnaethant at wybodaeth neu athroniaeth naturiol; sef Isaac Newton, Robert Hooke, a Robert Boyle. Boyle, y mae yn wir, oedd y lleiaf ei athrylith o'r tri; ond yn oedd bod y lleiaf yn y fath dri yn enwogrwydd mawr yn mysg dynion cyffredin. Yr oedd Boyle

Digitized by Google

yn henach na Newton o bymtheng mlynedd, ac na Hooke o naw. Ysgrifenai Newton at Boyle fel at henafgwr o barch ac awdurdod mawr; a llefarai Hooke—yr hwn, yn more ei oes, a fu yn gynnorthwywr iddo i wneyd ei brawfladau—am dano gyda chariad a pharch, y fath na ddangosai at un athronydd arall. Felly, o ran amser, y mae Boyle yn cymmeryd y blaen ar Newton. Ond nid fel ymchwiliwr i ddirgeledigaethau natur yn unig yr enwogodd ei hun: yr oedd ei glod y fath fel Cristion a duwinydd, fel y buasai arglwydd Clarendon yn ei wneuthur yn esgob, pe gallesid ei berswadio i gymmeryd urddau.

Mab ydoedd i Richard Boyle, iarll Cork, yr hwn a adnabyddid yn ei ddydd fel yr Iarll Mawr, gan mor hynod yr oedd wedi dyrchafu ei hun o sefyllfa ganolig i fod yn un o brif dir feddiannwyr y deyrnas. Yr ydoedd yr iarll yn ddyn uniawn a pharchus; yn dad tyner; ac iddo yr oedd Robert yn ddyledus am fanteision dysgeidiaeth foreuol, ac am gyfoeth a'i galluogodd i gyflwyno ei hun i ymchwiliadau gwyddoregol, ac hefyd i wasanaethu crefydd trwy haelioni a chynllunian Cristionogol. Ganed ef yn mhalas ei dad yn Lismore, Munster, yr Iwerddon. Yr ydoedd, tra yn blentyn, o duedd fyfyrgar a phruddaidd; a dywed nad allai dim ei demtio i gellwair â'r gwirionedd; ac na ddywedodd gelwydd erioed. Collodd ei fam pan yn ieuanc, yr hyn a ystyriai yn "anffawd fawr." Dysgodd siarad Ffrancaeg a Lladin cyn bod yn wyth oed; ac yn ei nawfed flwydd, anfonwyd ef i goleg Eton, Rhydychain, gyda'i frawd. Yma, trwy ddylanwad athraw tirion, deffröwyd yn ei feddwl syched cryf am lytrau a dysgeidiaeth. Daeth ei dad i Loegr i fyw, i Stalbridge, yn Dorsetshire; a chymmerwyd Robert adref o Eton, a gosodwyd ef dan ofal personoy plwyf. Yn 1638, anfonwyd ef gyda brawd henach nag ef i deithio ar y Cyfandir, dan ofal athraw ac arweinydd. Teithiodd drwy Ffrainc, ac ymsefydlodd am dymmor yn Geneva, er mwyn dilyn ei efrydiau. Tra y bu yn Geneva y cyfarfyddodd â'r hyn a eilw yn "ddygwyddiad pwysicaf ei oes." Yn ei hanes, yr hwn a ysgrifenodd ei hun, fe ddywed—er fod ei dueddiadau hyd yn hyn yn rhinweddol, a'i fywyd yn rhydd oddi wrth unrhyw fai y gallasai neb ei gyhuddo o hono, eto fod y grefydd oedd ganddo yn ei attal rhag ymofyn am chwaneg; a bod yn rhaid i Grist, yr hwn oedd wedi gorwedd yn hir yn cysgu yn ei gydwybod, fel yn y llong, gael ei ddeffro trwy ystorm yn awr fel cynt. Pan ydoedd yn cysgu yn drwm un noswaith, deffröwyd ef gan ystorm o fellt a tharanau. Yr ydoedd ei ddychryn yn fawr; tybiai fod y mellt oedd yn fflamio mor ddibaid trwy ei ystafell, "fel wedi eu hawdurdodi i roddi y byd ar dân." Yr oedd twrf disgyniad y gwlaw, a rhuad y gwynt, yn cadarnhau ei feddwl fod dydd y farn wedi dyfod. Yr oedd ei ddychryn mor fawr, wrth feddwl ei gyfarfod yn anmharod, fel y penderfynodd, os cai ei siomi yn ei ofnau y noswaith hono, y treuliai ei fywyd yn fwy crefyddol nag y gwnaeth o'r blaen. Nid yw Boyle yn gwadu "mai ei ofn oedd yr achlysur iddo benderfynu arwain buchedd well; ac fe gywilyddiai ei fod felly." Ond fe ddywed "i'r bore ddyfod, a chydag ef awyrgylch tawel, clir; pan y cadarnhaodd ei benderfyniad gyda'r fath ddifrifoldeb, fel yr ystyriai y dydd hwnw yn ddiwrnod ei ddychweliad." Cymmerodd hyn le pan ydoedd yn bedair ar ddeg oed. Yr oedd crefydd Boyle, ar ol hyny, yn hynod rydd oddi wrth ofn cosp, a dysgwyliad am wobr, fel seiliau cariad ac ufuddod. "Y mae duwioldeb," meddai, "i'w chofleidio, nid yn gymmaint er mwyn ennill y nefoedd, ag i wasanaethu Duw â hi." Dygodd hyn ef i benderfynu peidio esgeuluso dim moddion i gael deall meddwl Duw yn ei air. Ymroddodd i ddysgu Hebraeg a Groeg, ac hefyd i astudio duwinyddiaeth. Ar hyn fe sylwa, "Pan aethym i ysgolion Iuddewig, a gweled y plant na fwriedid i fod yn amgen na marsiandwyr yn dysgu yr iaith a gyssegrodd Duw pan yn llefaru wrth ddynion trwyddi, yn gystal ag iaith eu mamau, ni allwn lai na chywilyddio wrth feddwl pa gynnifer o'r rhai sydd yn proffesu bod yn Israeliaid yn wir sydd yn hollol anwybodus o iaith Canaan. Yr wyf yn penderfynu ei dysgu fy hunan, pe na byddai ond i dalu yr un parch i Dduw ag y mae swyddogion yn ei dalu i dywysogion, sef siarad wrthynt yn eu hiaith eu hunain. Nid wyf chwaith yn dysgwyl cael adnabyddiaeth o air Duw ar delerau mor hawdd ag y cafodd Adda ei wraig, trwy syrthio i gwsg trwm, a'i chael yn gyflwynedig iddo erbyn iddo ddeffro." Ymadawodd o Geneva yn 1641; ac aeth i ymweled âg amryw fanau ereill ar y Cyfandir, yn enwedig Florence, lle yr arosodd am y gauaf i gasglu gwybodaeth o ddarganfyddiadau yr enwog Galileo, yr hwn a fu farw tra y bu Boyle a'i frawd yno. Bwriadai ddychwelyd i Loegr; ond yn y cyfamser, torodd gwrthryfel cyffredinol 1641 allan yn yr Iwerddon, yr hyn a barodd y fath ddyryswch ar bob peth yn Mhrydain, fel nad allai y dynion ieuainc gael yr arian a anfonid atynt gan eu tad i ddychwelyd a bu orfod iddynt droi i Geneva yn ol. O'r diwedd, wedi aros yno am yn agos i ddwy flynedd, gan ddysgwyl am ymwared, gwerthasant ryw berlau oedd ganddynt yn eu meddiant i gael modd i ddwyn eu traul adref; yr hyn oedd tua chanol 1644—pryd y deallodd Boyle fod ei dad wedi marw, ac wedi ei adael ef, Robert, yn etifedd yr hyn a drodd allan yn ystad helaeth, er nad oedd ei gwerth ond ychydig ar y pryd, o herwydd y terfysg cyffredinol. Nis gwyddai pa beth i'w wneyd: yr oedd ar fin ymuno â byddin y brenin yn erbyn y senedd, ond aeth yn hytrach i aros am ysbaid gyda'i chwaer, Lady Ranelagh, yn Llundain. Parhaodd yr ymlyniad mwyaf rhwng y brawd a'r chwaer tra y buont byw. Yr ydoedd hi yn foneddiges o athrylith, yn nodedig hefyd am ei dewrder a'i duwioldeb, ac yn barchus gan bawb oedd yn hoffi llenyddiaeth—fel un a weinyddodd i gysuron Milton yn ei hen ddyddiau. Yr ydoedd ddeuddeng mlynedd henach na Boyle; gofalai am dano yn y modd tirionaf, a bu o les mawr iddo yn ei amgylchiadau bydol. Yr oedd y nifer mwyaf o'i pherthynasau yn perthyn i ochr y brenin, ond yr oedd hi ei hun wedi ymgyssylltu trwy briodas â rhai o benaethiaid plaid y senedd; a thra y parhaodd y rhyfel cartrefol, yr oedd ei dylanwad hi yn ddigon i ddiogelu ei etifeddiaethau ef yn yr Iwerddon a Lloegr rhag cael eu trawsfeddiannu.

O'r pryd hwn hyd ddiwedd ei oes, ymroddodd bron yn hollol i'w efrydiau; ac y mae hanes ei fywyd cyhoeddus yn gynnwysedig yn hanes ei weithiau argraffedig. Y maent yn gynnwysedig mewn chwe chyfrol fawr deublyg (*folio*); o'r rhai hyn, y mae hanes ei ymchwiliadau anianyddol yn llenwi tair; ac y mae y tair ereill yn cynnwys ysgrifeniadau duwinyddol ac athronyddol. Yn mhlith ei draethodau y mae y rhai canlynol:—*Traethawd am bethau uwch law Rheswm; Ystyriaethau am gyssondeb Rheswm a Chrefydd; Rhagoriaeth Duwinyddiaeth; Ystyriaethau o barth i*

Digitized by Google

gyfansoddiad yr Ysgrythyrau; Rhydd ymofyniad i ystyr y gair Natur; Traethawd am Ddybenion (final causes) *Pethau Naturiol.* Yn y traethodau hyn, y mae yn dadgan ei syniadau yn eglur, yn rhydd oddi wrth lyffetheiriau cyfundrefn, ac fel un yn caru y gwirionedd.

Yn y *Traethawd am Ddybenion Pethau*, ei amcan oedd cyfarfod gwrthwynebiad Descartes, a'i ganlynwyr, y rhai a dybient nas gallwn gasglu oddi wrth gyfaddasrwydd moddion i ddybenion fod Creawdwr a Llywodraethwr doeth a da i'r cyfan. Y mae yn enwi yr Epicuriaid fel rhai yn gwadu dybenion pethau: ond gwnaent hwy felly o herwydd y credent fod y byd wedi dyfod i fod trwy ddamwain, ac felly nid allasai fod dybenion i ddim. Ond nid oddi ar y tir atheistaidd hwn yr ymresymai Descartes. Ei farn ef oedd, fod chwilio allan ddybenion y Creawdwr yn beth rhy uchel i reswm dyn, a'i fod yn rhyfyg iddo geisio gwneyd hyny. Y mae Boyle yn cymmeryd golwg mwy cywir ar ddybenion pethau nag a wnaeth llawer o dduwinyddion o'i flaen, y rhai a wanhaent yr ymresymiad trwy y dybiaeth ryfygus mai dyn yw unig wrthddrych rhagluniaeth yn y greadigaeth. Dosberthir dybenion pethau ganddo ef i bedwar math:—*Yn gyntaf*, dybenion cyffredinol Duw yn y cyfan a wnaeth, sef amlygu ei briodoliaethau. *Yn ail*, y dybenion sydd yn nghyfaddasiad y naill ran o'r greadigaeth i'r llall (*cosmical*). *Yn drydydd*, cyfaddasiad rhanau anifeiliaid i'w gilydd. *Yn bedwerydd*, cyfaddasiad cynnyrchion natur i wasanaeth dyn. Y mae yn addef ei bod yn rhyfyg i ddyn ymgeisio at wybod holl ddybenion y Creawdwr; ond ar y llaw arall, ei bod yn ddyledswydd arno sylwi ar yr amlygiadau o honynt yn y gweithredoedd sydd o'i amgylch.

Yr oedd y prawfiadau a wnaeth Boyle mewn gwybodaeth naturiol neu anianyddol yn aneirif. Er nad efe oedd dyfeisiwr cyntaf yr awyr sugnedydd (*air pump*), gwnaeth welliadau ynddo; ac efe oedd y cyntaf a ddangosodd ei wasanaethgarwch i wyddoreg a chelfyddyd. Y mae lluaws o'r gwyddorau yn ddyledus i'r offeryn hwn. Ei ddyben ydyw gwaghau llestr cyfaddas o'r awyr fyddo ynddo. Trwyddo, fe brofodd Boyle fod awyr yn angenrheidiol i sŵn—nas gellir cynnyrchu sŵn mewn lle hollol amddifad o awyr. Crogodd oriawr (*watch*) yn llestr y sugnedydd, ac yna gwaghaodd ef o'r awyr. Tra yr oedd yn gwneyd, yr oedd sŵn y tipian yn myned yn llai lai nes y diflanodd yn llwyr; ond yr oedd yr oriawr yn parhau i fyned o hyd, fel y gwelid wrth symmudiad y bysedd. Ail ollyngwyd yr awyr i mewn, yna fe glywid y tipian fel o'r blaen. Gwnaeth luaws o brawfiadau hefyd i ddangos fod awyr yn anhebgorol i losgiad, ac i fywyd. Efe oedd y cyntaf a gyssegrodd ran fawr o'i amser at ymchwiliadau fferyllaidd yn unig er mwyn leangu ein gwybodaeth am elfenau natur. Efe a ddarganfyddodd ddeddf gwrthneidiolrwydd yr awyr; ac a ddygodd i'r deyrnas yma yn gyntaf hin-wydrau (*weather glasses*). Ond heb law y pethau hyn, gwnaeth Boyle ymchwiliadau i luaws o bethau ereill, fuasent yn ennill cymmeriad uchel i ddyn cyffredin. Rhoddai ei wybodaeth o gyfferi i weithrediad trwy actio fel meddyg, a thrwy hyny ennillodd glod mawr. Antonodd William Penn, sylfaenydd talaeth Pennsylvania, yn America, iddo hanes gwelliadau yr Indiaid; casglai Locke lysiau iddo yn eu tymmor; ac o'r diwedd fe ddaeth yn *gonsulting physician* rhan fawr o Loegr—a'r cyfan yn rhad. Ni phetrusai coleg breninol y meddygon ofyn ei farn.

Ar ol esgyniad Charles II., cymmerodd ei gartref yn Llundain, gyda Lady Ranelagh. Cymmerai y brenin sylw neillduol o hono. Annogai y gweinidog, arglwydd Clarendon, iddo gymmeryd urddau. Ond gwrthodai Boyle, am y meddyliai y gallai wasanaethu crefydd yn fwy effeithiol, gan nad allai dynion ddyweyd am dano fel yr oeddynt yn dyweyd am yr offeiriaid, "mai eu galwedigaeth ydoedd, a'u bod yn cael tâl am hyny." Cynnygiwyd ei wneuthur yn un o bendefigion Lloegr—yr oedd ei frodyr i gyd felly—ond gwrthodai pob anrhydedd.

Defnyddiodd ei ddylanwad o blaid lleddaenu yr efengyl yn y dwyrain; a mynodd gyfieithiad o'r Efengylau a'r Actau i iaith Malay ar ei draul ei hun. Cynnorthwyodd i gael cyfieithiad Gwyddelaeg. Rhoddodd wobr fawr i gyfieithydd traethawd Grotius *Am Wirionedd Cristionogaeth* (*De Veritate*, &c.) i'r Arabaeg; a chynnygiodd ddwyn holl draul cyfieithiad o'r Testament Newydd i iaith y Tyrciaid, ond fel y rhyddhawyd ef o ran o hono gan yr East India Company. Etholwyd ef yn llywydd y Royal Society; ond gwrthododd yr anrhydedd, ar gyfrif y llwon angenrheidiol i'w cymmeryd. Yr ydoedd yn adnabyddus i dri o freninoedd—Charles II., James II., a William III., a mwynhaent yn fynych ei gyfeillach; ond ni ofynodd ffafr erioed oddi ar law un o honynt. Llafuriai yn ddiwyd yn ei weithfa a'i lyfrgell, heb gyfarfod â nemawr o ddygwyddiadau i dori ar lonyddwch bywyd athronydd ac ysgolhaig, hyd y 23ain o Ragfyr, 1691, pryd y collodd ei chwaer, Lady Ranelagh. Ni chafodd amser i deimlo maint ei golled cyn iddi fwy na chael ei gwneyd i fyny iddo. Cyn pen wythnos, yr oedd yntau wedi ei adferu at ei chwaer. Bu farw ar y 30ain o Ragfyr, 1691, yn y bummed flwyddyn a thrigain o'i oed.

BOYLE, DARLITHIAU = THE BOYLEAN LECTURES = a sefydlwyd ganddo yn ei ewyllys diweddaf, trwy adael cymynrodd i wobrwyo "gweinidog yr efengyl neu dduwinydd" am draddodi wyth o bregethau neu ddarlithiau yn y flwyddyn i brofi gwirionedd y grefydd Gristionogol yn erbyn anffyddwyr, atheistiaid, deistiaid, paganiaid, Iuddewon, a Mahometiaid. Y mae y darlithwyr i ymgadw oddi wrth gyffwrdd â'r gwahaniaethau duwinyddol sydd yn ffynu yn mysg Cristionogion eu hunain. Nid yw yr un pregethwr i gael ei ddewis yn hwy nag am dair blynedd. Mae amryw o brif amddiffynwyr Cristionogaeth wedi cael eu penodi o bryd i bryd i draddodi y pregethau hyn, megys Bentley, Clark, Denham. Nid argraffwyd yr oll o honynt. Gwnaed casgliad o'r rhai a bregethwyd rhwng 1691 a 1731, a chyhoeddwyd hwynt yn dair cyfrol yn 1739, a thalfyriad o honynt drachefn yn 1746.

1. BOZRAH, BOSRAH: dinas yn yr anialwch, y tu hwnt i'r Iorddonen, yr un a Bezer. Gwel BEZER.

2. BOZRAH, [בצרה, *lle cadarn*]: dinas arall, a adnabyddid gan y Groegiaid a'r Rhufeiniaid wrth yr enw Bostra, ac a safai tua 24 o filltiroedd i'r deheu-ddwyrain o Edrei, un o brif-ddinasoedd Basan. Crybwyllir am dani fynychaf yn yr Hen Destament fel prif ddinas Edom: *Esa.* xxxiv. 6; lxiii. 1; *Amos* i. 12; *Ier.* xlix. 13, 22. Yn *Ier.* xlviii. 24, enwir Bozrah yn mysg dinasoedd Moab.

Digitized by Google

Y mae hyn, yn nghyd â'r ffaith nad oedd Bozrah yn gorwedd yn nhiriogaeth wreiddiol yr Edomiaid, sef y deheu-ddwyrain i Iudah, ond yn y gogledd i dir yr Ammoniaid, yn rhoddi sail i dybied mai ei meddiannu a gafodd gan yr Edomiaid trwy fuddugoliaeth, a'i bod drachefn wedi ei chymmeryd oddi arnynt gan y Moabiaid. Gan ei bod yn gorwedd ar derfynau amryw o wledydd, y rhai oeddynt yn fynych mewn rhyfel â'u gilydd, yr oedd i'r cyfnewidiadau hyn gymmeryd lle yn beth tebygol. Tybia Dr. Robinson, pa fodd bynag, mai lle arall o'r un enw, yn gorwedd o fewn terfynau priodol Edom, oedd prif ddinas yr Edomiaid. "Y mae y dybiaeth hon yn cael ei chadarhau gan y ffaith, fod Bozrah mor fynych yn y Beibl yn cael ei chyssylltu â thir Edom ei hunan; tra y mae y prophwyd Amos yn siarad am dani yn benodol mewn cyssylltiad â thir Teman, neu y Deheu. Yn mhellach, y mae Eusebius a Jerome yn crybwyll am Bozrah yn bod yn eu hamser hwy yn mynyddoedd Idumea, wahanol i'r Bozrah ogleddol. Yn y dull yma, fel yr ymddengys i mi, ein rhyddheir oddi wrth yr anghyssondeb o dybied fod prif ddinas yr Edomiaid mewn pellder o daith amryw ddyddiau oddi wrth eu tiriogaethau."—*Biblical Researches*, cyf. ii., td. 570.

Rhydd y teithiwr Burckhardt ddysgrifiad tra manwl o'r lle hwn. Dywed fod y ddinas yn yr amser gynt yn cael ei hamgylchu â mur cadarn, trwy yr hyn yr ennillodd y cymmeriad o fod yn lle anorchfygadwy. Yr oedd yn hynod am ei gwinwryfoedd hefyd. Ceir cyfeiriadau prydferth at y naill a'r llall o'r pethau hyn yn *Esa.* lxiii. Yr oedd lluaws o'i thrigolion yn fugeiliaid: *Micah* ii. 12.

Dar. 134.

Y mae y prophwydoliaethau rhyfedd ac arddunol a lefarwyd am y lle hwn, a fu gynt mewn cymmaint o fri ac enwogrwydd, wedi eu cyflawnu mewn modd nodedig. Mae ei sefyllfa bresennol yn cael ei darlunio gan arglwydd Lindsay fel y canlyn:—"Nid yw Bozrah yn awr nemawr ddim ond pentwr o adfeilion, yn ffurflo golygfa o'r fath fwyaf truenus; y mae cyfeiriad heol yn ganfyddadwy yma a thraw, ond dyna y cyfan; y mae y trigolion diweddar—nid oes ond dyrnaid—bron wedi eu colli yn nyryswch yr adfeilion. Dywedent wrthym fod yma goed olewydd yn tyfu ychydig flyneddoedd yn ol; ond nid oes dim o honynt yn awr mwy nag o'r gwinwydd, am y rhai yr oedd Bostra y Rhufeiniaid mor enwog. A dyma, yn y pedwerydd canrif ar bymtheg, ac o dan lywodraeth Fahometaidd, ydyw sefyllfa dinas, yr hon, hyd yn oed mor ddiweddar a'r seithfed canrif, yn amser ei chymmeriad gan y Saraceniaid, a elwid gan Caled, yn 'Farchnadfa Syria, Irak, a'r Hedjaz.' 'Canys i mi fy hun y tyngais, medd yr Arglwydd, mai yn anghyfannedd, yn warth, yn anialwch, ac yn felldith, y bydd Bozrah; a'i holl ddinasoedd yn ddiffaethwch tragwyddol;' *Ier.* xlix. 13: ac felly y mae." Ond pe golygiad y Dr. Robinson am sefyllfa y lle a gymmerid, buasai y brophwydoliaeth wedi ei chyflawnu yr un mor llwyr.

BRAD—WRIAETH—AU, [*brad;* Seis., *treachery, perfidy, treason*].

Iawn gloi dewrion ein gwladwriaeth
Rhag bradwriaeth, rhwyg bryderus.

It is just to secure the gallant ones of our commonwealth from treachery, a sad event.

Dichellwaith, ystryw gelyn i niweidio dan rith cyfeillgarwch; gwaith bradwr: 2 *Bren.* ix. 23; xi. 14; 2 *Cron.* xxiii. 13; xxiv. 26. Mewn *cyfraith*, bradwriaeth (*treason*) sydd weithred amlwg i gwmpasu neu ddwyn o amgylch farwolaeth y brenin; ymgais eglur at ei fywyd. Ond y mae y gair yn cynnwys llawer o weithredoedd neu amgylchiadau sydd yn cael eu cyfeirio yn erbyn diogelwch person y brenin, er nad yn uniongyrchol; megys halogi rhai o ryw fenywaidd y teulu breninol, codi rhyfel yn ei erbyn yn ei deyrnas, ymlynu wrth elynion y brenin, ffugio y seliau breninol, lladd y canghellydd neu y barnwyr; hefyd, ysgrifeniadau sydd yn amlygu y fath fwriad, neu ymgais neu ddyfais i gymmeryd ymaith ei fywyd, os cyhoeddir hwynt neu os dangosir hwynt i arall; annogaethau hefyd a chynghoriori ŕr un perygl. Mewn bradwriaeth, y mae pawb a geir yn euog yn agored i lawn gosp y gyfraith; nid oes dim gwahaniaeth rhwng *accessories* a *principals*=y rhai sydd yn gyfranog, a'r rhai sydd brif yn y trosedd. Y gosb ydyw, fod i'r troseddwr gael ei ddwyn ar glwyd i'r dienyddle, ac yno i gael ei grogi; fod i'w ben gael ei dori ymaith, a'i gorff ei ddarnio yn bedwar darn: ond fe all y brenin hebgor, os myn, amgylchiadau dibwys y gosb. Y mae y neb a geir yn euog o fradwriaeth yn fforffedu pob eiddo a thiroedd, ac nid oes i'w etifeddion hawl i etifeddu trwy rinwedd eu hundeb âg ef. Dosbarthid bradwriaeth gynt i uchelfrad, teyrn-frad (*high-treason*), mewn cyferbyniad i isel-frad (*petty-treason*), yr hyn oedd yn gynnwysedig mewn gwaith gwas yn lladd ei feistr, neu wraig ei gŵr; ond y mae pob trosedd a ystyrid yn isel-frad gynt yn llofruddiaeth yn awr, ac nid bradwriaeth. Yn yr Unol Daleithiau, cyfyngir bradwriaeth i wneuthur rhyfel yn erbyn y Taleithiau, ymlynu wrth eu gelynion, neu mewn rhoddi unrhyw gymhorth iddynt.

BRADLOFRUDDION. Gwel ASSASSINIAID

BRADWARDINE, THOMAS: a adnabyddid yn mysg ei gydoeswyr fel y doctor dwfndreiddgar (*the profound doctor*) a aned yn Bradwardine, oddeutu y flwyddyn 1290, ac a dderbyniodd ei ddysg yn ngholeg Merton, Rhydychain. Ymroddai i astudio yr athroniaeth Blatonaidd ac Aristotelaidd, ac enwogodd ei hun mewn rhifyddiaeth a meintoniaeth [yn mhlith ei weithiau y mae *Arithmetica Speculativa* a *Geometria Speculativa*]. Ond ei brif hyfrydwch oedd duwinyddiaeth, ac enwogodd ei hun fel y cyfryw trwy ei ymosodiadau yn erbyn Pelagiaeth. Ar ol bod yn gadeirdraw duwinyddol am ychydig yn Rhyd-

Digitized by Google

ychain, gwnaed ef yn ganghellydd Eglwys St. Paul, Llundain, a chyffeswr Edward III.; ac ychydig cyn ei farwolaeth, dewiswyd ef i fod yn archesgob Caergaint, ond ni chafodd fyw i gymmeryd meddiant o'r anrhydedd. Bu farw, Awst 22ain, 1349. Y gwaith duwinyddol yn mha un y mae yn ymosod ar Pelagiaeth yr oes, ac yn amddiffyn syniadau Awstin o barth i arfaethau tragywyddol Duw, a elwir *Achos Duw yn erbyn Pelagius* (*De causa Dei contra Pelagium*). Cyfansoddwyd ef yn y flwyddyn 1344, pan ydoedd yn Llundain; ond nid argraffwyd ef hyd y flwyddyn 1618, ar gais archesgob Abbot, ac nid ymddangosodd ond yr argraffiad hwnw o hono. Cyfeiria Dr. Gill ato fwy nag unwaith, gan ei alw yn ail Awstin. Ei ddull o ymresymu ydyw mewn cyfres o osodiadau, y naill yn dibynu ar y llall, gan ddechreu gyda hanfod ac anghyfnewidioldeb Duw: ac oddi wrth hyn y mae yn casglu angenrheidrwydd pob peth a gymmerai le. Nid yw efe yn gwneyd y gwahaniaeth cyffredin rhwng rhagwybodaeth a rhagordeiniad Duw; o herwydd, yn ol Bradwardine, nid yw Duw yn rhagwybod dim ond a ragordeiniodd, ac felly nad oes gwahaniaeth rhyngddynt (*quod nulla scientia Dei causatur a posterioribus rebus scitis*); ond y mae pob peth wedi ei ragarfaethu: ac mewn rhyw ystyr y mae pechod felly, hyny yw, yn nacaol, ond nid yn gadarnhaol (*privative* ac nid *propriepositive*). Mae rhyddid dyn yn ymddibynu ar angenrheidrwydd perffaith ewyllys Duw.[1] Mae ewyllys Duw fel arglwyddes, ac ewyllys dyn yn llawforwyn yn ei dilyn.

BRAHM: a arwydda, yn ol crefydd yr Hindwaid, hanfod y Bod Goruchaf. Ysgrifenir y gair weithiau *Brahmă*, a *Brahme*. Enw arall a roddir arno yw Om; ac y mae y gair hwn drachefn yn ei ffurf wreiddiol yn gyfansoddedig o'r tair llythyren A, U, M, yn gwneyd y gair Aum, ac wrth ei fyrhau, Om. Dywedir wrthym hefyd gan esbonwyr Hindwaidd, fod y tair llythyren hyn yn cynnrychioli y tri Duw yn y *Trimurti*, neu y Drindod Hindwaidd. Tybia Syr William Jones, y gallai fod Om=yr Un Mawr, yn golygu yr un un ag On yr Aiphtiaid, sef yr haul. Y mae Brahm neu Om yn golygu pob duw; efe yw y Bod Goruchaf, anweledig, ac anamgyffredadwy, ac y mae pob duw arall yn hanfodi ynddo, ac yn rhan o hono. Nid yw y grefydd Hindwaidd yn amgen nag Oll-dduwiaeth, na Brahm ei hunan ond dansoddiad (*abstraction*). Yn ol athrawiaeth y *Vedas*, neu y llyfrau cyssegredig a'r esboniadau arnynt, y mae heb ddechreu na diwedd, yn anfeidrol ac yn hollalluog; ac er hyny nid yw yn meddu personoliaeth, ymwybyddiaeth, meddwl, nac ewyllys. Yn ol y gyfundrefn hon, Duw yw pob peth, ac y mae pob peth yn Dduw;—ysbryd a defnydd, nefoedd a daiar, amser a thragwyddoldeb, goleuni a thywyllwch, cariad a chas, tad a mam, sant a phechadur. Fel hyn, Brahm ydyw ffynnonell fawr yr holl greadigaeth, a hanfod holl dduwiau chwedloniaeth; ac yn y diwedd fe fydd i'r cyfan gael eu llyneu i fyny ynddo eilwaith. "Fel y mae llaeth yn troi yn gaws, a dwfr yn rhew, felly y mae Brahma yn trawsffurfio ac yn amrywio ei hun, heb gymhorth arfau na moddion allanol o un math; yn gyffelyb fel y mae y pryf copyn yn nyddu ei wê o'i sylwedd ei hunan, ysbrydion yn ymgymmeryd âg amrywiol agweddau, a'r *lotus* yn myned o lyn i lyn heb aelodau i ymsymmud." Trwy draws-ymffurfio yn y modd yma y mae yn greawdwr pob peth—awyr, tân, dwfr, daiar, a'r hyn oll sydd ynddynt. Nid yw enaid dyn chwaith ond rhan o hono, fel y mae y wreichionen o'r tân, ac y mae i ddychwelyd yn ol i'w ganolbwynt o wres a phrydferthwch. "Nid yw y berthynas fel yr eiddo y meistr a'r gwas, a'r llywodraethwr a'r neb sydd yn cael ei lywodraethu—ond fel yr eiddo yr oll a'r rhan."

Ceir weithiau, yn y llyfrau Hindwaidd, yn nghanol pentwr o'r pethau mwyaf paganaidd ac ynfyd, ambell syniad lled glir. Cydnabyddir mewn rhai o'u gweddïau a'u hymnau nad yw Brahm yn wrthddrych i'w ganfod, ac nas gellir ei ddirnad—fod ei fawredd a'i ogoniant y fath nas gellir gwneyd delw o hono. "Efe yw y Duw yr hwn sydd yn treiddio trwy bob lle; efe yw y cyntafanedig; efe yw yr hwn sydd yn y groth; efe yr hwn sydd yn cael ei eni; ac efe yr hwn a gynnyrchir:—y mae efe yn neilduol ac yn gyffredinol yn aros gyda phawb. Efe, o flaen yr hwn ni anwyd dim, a'r hwn a ddaeth yn bob peth; ei hunan yn arglwydd creaduriaid, a chorff ganddo yn cynnwys un ar bymtheg o aelodau, ac yn ymhyfrydu mewn creadigaeth; efe a gynnyrchodd y tri goleuad, yr haul, y lleuad, a'r tân. I ba Dduw y dylem offrymu rhoddion, ond iddo ef yr hwn a wnaeth yr awyr hylifol, a'r ddaiar galed; yr hwn a sefydlodd y rhod heulog a'r breswylfa nefol; a'r hwn a ffurfiodd y defnynau gwlaw yn yr awyrgylch? I ba Dduw y dylem gyflwyno offrymau, ond i'r hwn y mae y nefoedd a'r ddaiar yn myfyrio arno, tra y maent yn cael eu nerthu a'u haddurno gan offrymau, a'u goleuo gan yr haul sydd yn codi goruwch iddynt? Y mae y dyn doeth yn tremio ar y Bod dirgeledig hwnw, yn yr hwn y mae yr holl fyd yn hanfodi yn wastadol, gan ymorphwys ar yr atteg hwnw yn unig. Ynddo ef y mae y byd hwn yn cael ei lyncu; o hono ef y tardd; mewn creaduriaid y mae yn gyfrodeddedig, ac yn gydweuedig âg amrywiol ffurfiau o hanfodiad.....Y Brahm hwnw, yn yr hwn y mae y duwiau yn cyrhaedd anfarwoldeb, tra y maent yn preswylio yn y drydedd, neu y fro nefol, ydyw ein hybarch riant, a'r rhagluniaeth sydd yn llywodraethu yr holl fydoedd." Yn ol yr athrawiaeth hon, Brahm yw yr Un Mawr, yr hwn yw enaid yr holl greadigaeth, o'r hwn y mae pob peth crëedig wedi deilliaw, ac i'r hwn, wedi hofran dros ysbaid yn y gwagle, y dychwelant yn ol. Pa fodd y daeth yr Indiaid o hyd i'r syniad hwn am Dduw? Pa un ai trwy reswm y daethant i feddu drychfeddwl am ei "dragwyddol allu ef a'i Dduwdod, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed," neu ynte trwy draddodiad—nid yw yn hawdd penderfynu. Y mae yn eithaf amlwg ei fod yn eu mysg er yn fore iawn; mor fore, yn ol tyb rhai, a dyddiau Abraham. Pa fodd bynag, ymddengys fod syniad gwanaidd am un gwir Dduw, o dan ryw enw neu gilydd, yn mhlith braidd pob hen genedl. Ond er mor gysson â rheswm ydyw, ac er mor gryf yr argymhellir ef i sylw yn y greadigaeth, eto suddo yn ddyfnach i dywyllwch a ddarfu pob cenedl, y naill oes ar ol y llall; fel nad yw erbyn hyn, hyd yn oed yn India, yn hysbys ond i ychydig, ïe ychydig iawn, o'u hoffeiriaid, y rhai a gyfrifir yn ddysgedig mewn crefydd, a hyny hefyd i raddau mor gymmysglyd fel o'r braidd y gellir ei ganfod.

Nid yw Brahm yn cael ei ystyried yn wrthddrych un math o wasanaeth allanol mewn ffurf yn y byd, ond yn hytrach o fyfyrdod duwiol. Y

[1] Quod omnis actio voluntatis creatæ secundum essentiam sive substantiam ipsam actus, fit ab ipsa et a Deo eandem pariter coagente.

Digitized by Google

dyb gyffredin yw, a dywed Ward yn benderfynol, nad adeiladwyd erioed un deml iddo yn India. Ac nid yw hyny yn angenrheidiol, gan nad yw dyhewyd yn gyfyngedig i un lle na gwlad benodol. "Yn mha le bynag y teimla y meddwl dawelwch," medd y *Vedant*, "dylai dynion addoli Duw: nid oes unrhyw awdurdod neillduol am ddewisiad o un lle penodol i'w ganfod yn y *Vedas;* ond ar y llaw arall, mynega y *Vedas*, 'y dylai dyn addoli Duw mewn unrhyw le a roddo lonyddwch i'w feddwl.'" Nid oes ond ychydig, er hyny, yn meddu y wybodaeth a'r crefyddolder sydd yn angenrheidiol i'w cymhwyso i addoli yr Om Mawr —y Bod Goruchaf—yn uniongyrchol. A chan nad yw y rhan luosocaf o ddynion yn ddigon doeth a sanctaidd i neüu at y Bod Dwyfol ei hunan, a'i addoli, caniatâ y *Vedas* iddynt addoli duwiau israddol, a'r pethau y mae Duw wedi amlygu ei hun ynddynt, ac i ddewis y peth a fynont i'w gynnrychioli. Gwel HINDWAETH.

BRAHMA: y person cyntaf yn y *Trimurti*, neu y Drindod Hindwaidd. Ystyrir y tri duw hyn, Brahmâ, Vishnw, a Siva, sef *y Creawdwr, yr Amddiffynydd neu y Noddwr, a'r Dinystrydd*, yn dduwiau neillduol ac annibynol, wedi deilliaw neu hanu o Brahm. Tybia rhai nad oeddynt ar y cyntaf ond enwau yn dynodi ei briodoliaethau. Dywed y deddfroddwr Hindwaidd, Menu, fod y tair llythyren A, U, M, sydd yn cyfansoddi AUM—talfyredig i OM—enw y Bod Goruchaf, yn golygu, "Efe yr hwn sydd yn creu, yn noddi, ac yn dinystrio." Pa fodd bynag, cydnabyddir hwynt, a thelir gwarogaeth iddynt gan yr Hindwaid yn gyffredinol fel duwiau annibynol. Am VISHNW a SIVA, gwel dan y geiriau hyny.

Cyn i'r greadigaeth ddyfod i fod, nid oedd neb yn hanfodi ond y Brahm Mawr ei hunan, wedi ymwisgo mewn perffaith dawelwch, ac yn ymddigrifo ynddo ei hunan: a'r cyntaf a hanodd o hono oedd Brahmâ, creawdwr y byd. Yn ol athrawiaeth Menu, "Yr oedd y byd y pryd hwnw oll yn dywyllwch—yn anghanfyddadwy—yn hollol fel mewn trymgwsg. Ond darfu i'r hunanhanfodol, anweledig, Dduw, trwy ei wneuthur yn amlwg â phum elfen, a ffurfiau gogoneddus ereill, wasgaru y caddug yn hollol. Efe a ddymunodd gyfodi amrywiol greaduriaid trwy darddiad o'i ogoniant ef ei hunan; creodd y dyfroedd yn gyntaf, a rhoddodd iddynt allu i ysgogi; trwy y gallu hwnw y cynnyrchwyd ŵy aur, yn flamio fel mil o hauliau, yn yr hwn y ganwyd Brahmâ hunanhanfodol, rhïant mawr holl fodau rhesymol." "Wedi i'r duw Brahmâ," meddai drachefn, "fod yn preswylio yn yr ŵy mawr am oesoedd meithion ei hunan, yn myfyrio arno ei hunan, o'r diwedd efe a dorodd yr ŵy yn ddwy ran gyfartal; ac o'r rhai hyn y ffurfiodd y nefoedd a'r ddaiar, gan osod yn y canol yr awyr bur, deneu, wyth bwynt y byd, a'r eangfor maith." Yn awr, dyma Brahmâ, yn ol y chwedloniaeth Hindwaidd, yn grëedig ei hunan, ac yn dyfod yn greawdwr pob peth arall. I'w ddiofalwch ef yn syrthio i gwsg y priodolir y dinystr cyffredinol fu ar greaduriaid yn y bydoedd trwy ddwfr,—yr hyn sydd yn draddodiad yn cyfeirio yn ddiammheu at y dylif ysgrythyrol—a thrwy ei gymhorth ef y dygwyd pethau i drefn eilwaith. [Gwel VISHNW.]

Defnyddir amrywiol eiriau fel cyfenwau mewn ysgrifeniadau Hindwaidd i osod allan ei ragoriaethau, megys *Swayambhu*=yr hunan-hanfodol; *Paramêshthi*=yr hwn sydd yn preswylio yn y lle mwyaf dyrchafedig; *Pitâmaha*=y tad mawr; *Prajâpati*=arglwydd creaduriaid; *Lôkêsa*=llywydd y byd; *Dhâtri*=y creawdwr. I Vishnw y perthyn noddi ac amddiffyn pob peth; ac yn meddiant Siva y mae yr awdurdod i ddinystrio; o ganlyniad, nid yw Brahmâ erbyn hyn, mewn gwirionedd, ond duw ag y mae ei oes wedi myned heibio, ei allu a'i gymhorth yn ddiangenrhaid; a thrwy hyny nid ystyrir y rhwymedigaeth iddo mor benodol, na gwasanaeth iddo yn rhan mor arbenig o grefydd. Nid yw yn ymddangos fod temlau cyssegredig i Brahmâ yn neillduol i'w cael yn bresennol yn un parth o India; ond addolir ef mewn cyssylltiad â'r duwiau ereill, a chyfeirir ato gan y Brahminiaid yn eu gweddïau hwyr a boreu. Ni byddai aberthau gwaedlyd yn cael eu cyflwyno byth i'r duw hwn; o blegid, gan ei fod yn greawdwr nis dichon iddo ymhyfrydu yn ninystr ei greaduriaid. Offrymir un blodeuyn iddo fel gweithred o addoliad; a chyflwynir ychydig o ymenyn puredig iddo ar adeg y poethoffrwm. Cynnelir gŵyl flyneddol iddo yn mis Mâgha (Ionawr—Chwefror), ar y llawn-loer, pan y dygir delw bridd o hono, gyda Siva ar ei law ddeheu, a Vishnw ar ei law aswy, i'w foliannu â chaniadau, dawnsiau, a pheroriaeth: wedi hyny, dranoeth, teflir y tri duw i'r afon Ganges. Telir addoliad neillduol i Brahmâ yn Pushkara neu Pokher yn Ajmere, ac yn Bithore yn y Dooab, lle y dywedir iddo wneuthur aberth arbenig ar orpheniad y greadigaeth, a thelir parch mawr yno i bin ei lopan yr hon a adawodd ar ei ol. Cynnelir ffair fawr yno yn flyneddol er anrhydedd iddo. Ond er fod Brahmâ wedi ei adael o'r neilldu mewn cymhariaeth i Vishnw a Siva, anrhydeddir ef yn eu caneuon, a thynir darluniau o hono yn fynych. Yn y rhai hyny, gosodir ef allan wedi ei oreuro, yn eistedd, ac yn meddu pedwar o benau a phedair o freichiau, ac yn dal yn mhob un o'i ddwylaw lawysgrif yn cynnwys rhanau o'r *Vedas*, llestr i ddal dwfr, pader-gadwen (*rosary*), a llwy aberthawl. Yr oedd ganddo bump o benau ar y cyntaf, yn ol y chwedloniaeth Hindwaidd; ond darfu i un o honynt gael ei dori ymaith gan y dinystrydd Siva tuag amser y greadigaeth. Gwel HINDWAETH.—(*Lib. of Enter. Know.*, *The Hindoos; Asiatic Researches; Ward. View of the History, &c. of the Hindoos; Hindoo Superstitions.*)

BRAHMINIAETH. Gwel HINDWAETH.

BRAHMINIAID. Gwel HINDWSTAN.

BRAICH, [Ll., *brachium;* Gr., βραχιων]. Dosberthir y fraich yn dair rhan; o'r ysgwydd i'r penelin, o'r penelin i'r arddwrn, a'r llaw. Nid oes ond un asgwrn yn y rhan o'r ysgwydd i'r penelin, yr hwn a elwir *humerus;* y mae iddo ben mawr crwn yn myned i mewn i le crwngeuol yn yr ysgwydd, ac y mae y pen arall yn terfynu yn nghyssylltiad y penelin. Ysgogir ef gan amrywiol ewynau; y rhai penaf a elwir *pectoralis major*, yr hwn sydd yn gyssylltiedig âg asgwrn y fynwes a madruddyn yr asenau, ac a wasanaetha i symmud y fraich yn mlaen, i mewn, ac i lawr;—*latissimus dorsi*, yr hwn sydd yn gyssylltiedig â madruddyn y cefn a'r rhan ol o'r asenau, ac a ysgoga y fraich yn ol, i mewn, ac i lawr;—*deltoid*, yr hwn sydd yn gyssylltiedig âg ymyl uchaf trybedd yr ysgwydd, ac a ysgoga y fraich i fyny. O'r penelin i'r arddwrn y mae dau asgwrn, braidd yn gyfochrog, a elwir *radius* ac *ulna*. Y *radius* sydd yn ochr y fawd, a'r *ulna* y tu arall. Cyssylltir hwynt â'u gilydd nid yn

Digitized by Google

unig â gewynau yn y ddau ben, ond hefyd á philionen fân-edafeddog o'u hymylau ar eu hyd. Yr *ulna* sydd yn ffurfio y penelin mewn cyssylltiad â'r *humerus*, a'r *radius* drachefn sydd yn ffurfio cymmal yr arddwrn mewn cyssylltiad á'r llaw; a thrwy hyny gellir troi' cledr y llaw i lawr neu i fyny yn ol fel y byddys yn dewis, yr hyn sydd yn peri ei bod yn wasanaethgar i ateb lluaws o ddybenion pwysig ag y buasai yn hollol anaddas iddynt oni bai hyny. Llywodraethir gwahanol ysgogiadau y rhan yma o'r fraich gan ewynau sydd yn gyssylltiedig â'r ysgwydd i'w hestyn a'i phlygu, ac y mae rhai ereill cyssylltiedig â'r *humerus* yn y penelin i beri gwahanol droadau ynddi.—*Carpenter's Animal Physiology.*

Defnyddir y gair *braich* yn fynych yn yr Ysgrythyrau i arwyddo gallu Duw yn achub ei bobl, ac yn eu gwaredu o'u cyfyngderau, ac o afael eu gelynion: *Exod.* vi. 6; *Deut.* iv. 34; xxvi. 8; 1 *Bren.* viii. 42; *Act.* xiii. 17:—ei anfeidrol allu yn creu, yn cynnal, ac yn llywodraethu ei greaduriaid: *Salm* lxxxix. 13; *Esa.* xl. 10, 11; li. 5; *Ier.* xxvii. 5; xxxii. 17. Gwneuthur cnawd yn fraich yw ymddiried mewn dynnerth creadur: 2 *Cron.* xxxii. 8; *Ier.* xvii. 5. Tori braich yr annuwiol yw ei wneuthur yn ddiymadferth: *Salm* x. 15; *Ier.* lxviii. 25; *Ezec.* xxx. 21, 22. Pan y mae yr Arglwydd yn tyngu "i'w ddeheulaw ac i'w fraich nerthol," mae yn gwystlo anrhydedd ei hollalluogrwydd o blaid ei bobl: *Esa.* lxii. 8. "Braich estynedig," a "diosg braich ei sancteiddrwydd" (*Deut.* vii. 19; *Esa.* lii. 10), a gyfeiria at y modd y byddai rhyfelwyr yn ymbarotoi i'r frwydr. Bwytant bawb gig ei fraich ei hun: *Esa.* ix. 20="Every man shall devour the flesh of his neighbour.=Pob dyn a fwyty gnawd ei gymmydog (hyny yw, hwy a anrheithiant ac a ddistrywiant y naill y llall): Manasseh a fwyty Ephraim, ac Ephraim Manasseh (y ddau lwyth ag oedd wedi eu cyssylltu yn fwyaf agos â'u gilydd o ran gwaed a chyflead, fel brodyr a chymmydogion); a bydd i'r naill a'r llall yn nghanol eu hanghydfyddiaethau eu hunain gytuno i anrheithio Iudah.' Y mae y darlleniad cyffredin 'bwytânt bawb gig ei fraich ei hun,' yn ei gyssylltiad â'r hyn a ganlyn yn ymddangos yn gwneyd anghyssondeb neu ddisgyneb (*anticlimax*); tra y mae yr adnod ganlynol, yn ol y diwygiad hwn, yn dyfod yn eglurhad brydferth ar yr un flaenorol."—*Lowth.* Cyfeirir hefyd at ymadrodd cyffelyb yn *Ier.* xix. 9.

BRAINERD, DAVID: pregethwr enwog, a chenadwr yn mysg yr Indiaid. Ganwyd ef yn Haddam, Connecticut, Ebrill 20fed, 1718. Gan fod gwirioneddau crefydd wedi rhoddi argraff ar ei feddwl er yn ieuanc, ymhyfrydai mewn darllen y llyfrau hyny a gyfranent addysg grefyddol; gweddïai ar Dduw yn y dirgel; myfyriai yr Ysgrythyrau gyda dyfalwch mawr; a chymdeithasai âg amryw wŷr ieuainc i'r dyben o roddi a derbyn cymhorth a chefnogaeth yn llwybrau doethineb. Ond yn hyn oll, yn mhen rhyw ysbaid, daeth i'w ystyried ei hun fel yn hunan-gyflawn, yn hollol amddifad o wir grefydd, yn cael ei reoli gan ofn cosp ddyfodol yn hytrach na chan gariad at Dduw, ac fel yn ymddiried am iachawdwriaeth ar ei deimladau da a'i fywyd moesol, heb ganfod y gwerth a'r angenrheidrwydd am gyfryngdod Iesu Grist. Tra yr oedd yn rhodio mewn lle unig un prydnawn (Gorphenaf 12fed, 1739), gan fyfyrio ar bynciau crefyddol, goleuwyd ei feddwl gan olygiadau newyddion hollol am y perffeithiau dwyfol; canfyddodd ogoniant yn nghymmeriad Duw, ac yn ffordd iachawdwriaeth trwy Fab croeshoeliedig y Goruchaf, na welodd mo hono o'r blaen; ac arweiniwyd ef i ymddiried yn Iesu Grist am gyflawnder, ac i wneuthur gogoniant Duw fel ei ddyben penaf.

Yn y flwyddyn 1739, aeth i athrofa Yale, lle yr hynododd ei hun am ddiwydrwydd a chywirdeb ei ymddygiad cyffredin. Diarddelwyd ef o'r athrofa yn 1742, am iddo ddywedyd, yn ei frwdfrydedd crefyddol, fod un o'r athrawon mor amddifad o ras a chadair. Yn ngwanwyn 1742, dechreuodd astudio duwinyddiaeth, a chafodd drwydded i bregethu yn niwedd Gorphenaf. Wedi iddo gael ei benodi yn genadwr i'r Indiaid, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, dechreuodd ar ei waith yn Kaunameek, pentref yn Massachusetts, rhwng Stockbridge ac Albany. Arosodd yno tua deuddeng mis, ac ar ymfudiad y Kaunameekiaid i Stockbridge, trodd ei sylw at Indiaid Delaware. Yn 1744, ordeiniwyd ef yn Newark, New Jersey, a sefydlodd ei drigfan yn agos i'r lle y mae yr afon Delaware yn fforchogi yn Pennsylvania, lle yr arosodd tua blwyddyn. O'r lle hwn, symmudodd i Crosweeksung, yn New Jersey, lle y coronwyd ei ymdrechion yn mysg yr Indiaid â llwyddiant mawr. Dygai Ysbryd Duw y gwirioneddau a draddodid yn wresog ganddo gartref yn effeithiol i galonau y paganiaid tywyll. Cydweithiai ei gyfleithydd Indiaidd âg ef yn y gwaith yn selog, yr hwn a gafodd dröedigaeth o dan ei weinidogaeth. Nid peth anghyffredin oedd gweled yr holl gynnulleidfa yn wylo o herwydd pechod. Mewn llai na blwyddyn, bedyddiodd Mr. Brainerd ddau ar bymtheg a thrigain o bersonau; o ba rai yr oedd deunaw ar ugain yn bobl mewn oed, ac yn rhoddi profion boddhaol eu bod wedi eu haileni trwy allu Duw; a chafodd weled, er ei fawr lawenydd, o ugain i ddeg ar ugain o'r dychweledigion yn eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd. Yr oedd yr Indiaid ar y pryd wedi diwygio yn hollol yn eu bywydau. Yr oeddynt yn dra gostyngedig a chrefyddol, ac yn unol mewn serchogrwydd Cristionogol. Yr oedd bywydau yr Indiaid dychweledig hyn mewn blyneddoedd dilynol, o dan weinidogaeth John Brainerd a William Tennent, yn gyffredin yn sanctaidd a difrycheulyd, yn rhoddi prawf o wirionedd eu ffydd yn yr efengyl.

Yn haf 1746, ymwelodd Mr. Brainerd â'r Indiaid ar y Susquehannah; ac ar ei ddychweliad yn Medi, yr oedd wedi llwyr ddiffygio gan enbydrwydd y daith. Yr oedd ei iechyd wedi ei anmharu gymmaint, fel nad oedd yn alluog i bregethu ond ychydig yn rhagor. Wedi ei gynghori yn ngwanwyn 1747 i deithio i Loegr Newydd, aeth mor bell a Boston, a dychwelodd i Northampton yn Gorphenaf; yn mha le, yn nhŷ Jonathan Edwards, y treuliodd y gweddill o'i ddyddiau.

Yr oedd Brainerd yn ddyn o alluoedd meddwl cryfion. Tra yr oedd wedi ei gynnysgaethu â dirnadaeth cyflym a chrebwyll bywiog, a chyda chof cryf a hyawdledd naturiol, meddai hefyd, i raddau anarferol, yr hydreiddrwydd, y manylder, y nerth meddwl, a'r farn gywir, a wahaniaethant y dyn talentog oddi wrth yr hwn sydd yn ymddibynu yn hollol ar wybodaeth ereill.

Yr oedd ei wybodaeth mewn duwinyddiaeth yn helaeth a chywir anarferol. Dywed Jonathan Edwards, yr hwn oedd yn dra chydnabyddus â Brainerd, "na welodd ei gyffelyb, o'i oed a'i sef-

Digitized by Google

yllfa, am olygiadau eglur a chywir am natur a hanfod gwir grefydd, a'i nodau gwahaniaethol oddi wrth ei hamrywiol ffug ymddangosiadau." Nis gallai Brainerd oddef crefydd y rhai hyny a goleddant y gobaith fod ganddynt ran yn y drugaredd ddwyfol, ac a orphwysant mewn diogelwch a diofalwch. Credai ef fod y dyn duwiol yn symmud yn mlaen yn barhaus tuag at berffeithrwydd; a bod ailenedigaeth, nid yn unig yn gyfnewidiad yn ngolygiadau y meddwl a serch y galon, wedi ei gynnyrchu gan Ysbryd Duw, ond ei fod yn ddechreuad gyrfa o sancteiddrwydd, yr hon, dan ddwyfol oruchwyliaethau, a deithir trwy ystod y bywyd. Yn ei gymmeriad ei hun, yr oedd yn ymgyfarfod y cariad gwresocaf a phuraf at Dduw; yr haelfrydedd mwyaf diragrith at ddyn; ymddidoliad oddi wrth arferion ofer a darfodedig y byd; yr ymsyniad mwyaf gostyngedig a pharhaus o'i bechadurusrwydd, yr hyn oedd yn fwy o faich arno na'i holl ofidiau; calon ddrylliog ger bron Duw o blegid oerder ei gariad ac anmherffeithrwydd ei rinweddau Cristionogol; y dymuniadau difrifolaf am sancteiddrwydd; pleser gwirioneddol yn efengyl Iesu Grist; hyfrydwch melus yn nghymdeithas ei ddysgyblion; dymuniadau parhaus a gweddïau taerion ar fod i ddynion gael eu dwyn i wybodaeth o'r gwirionedd, ac i ufuddhau iddo, fel y byddo i Dduw gael ei ogoneddu, a theyrnas Crist ymeangu; ymostyngiad mawr i ewyllys ei Dad nefol; anymddiried cyflawn yn ei galon ei hun, ac ymddibyniad hollol ar Dduw; ymwrthodiad llwyr â phob peth er mwyn ei Waredwr; y golygiadau egluraf a mwyaf parhaol ar bethau y byd tragwyddol; rhyfel parhaus â phechod; ac ymegniad diflino ei holl alluoedd yn ngwasanaeth ac mewn ufudd-dod i orchymynion y Goruchaf. Carai ei Iachawdwr, ac ewyllysiai wneyd ei enw gwerthfawr yn hysbys yn mysg y paganiaid.

Cyhoeddwyd argraffiad newydd o'i *Gofiant* yn 1822, gan Sereno Edwards Dwight, yn cynnwys ei *Goflyfr*. Gadawodd y llywydd Edwards, ei fywgraffydd, allan o'i *Gofiant* y coflyfrau ag oedd wedi eu hargraffu yn flaenorol, y rhai a gyhoeddwyd yn ddwy ran; y cyntaf, o Mehefin 19eg hyd Tachwedd 4ydd, 1745, ac a elwid *Mirabilia Dei inter Indicos*; yr ail, o Tachwedd 24ain, 1745, hyd Mehefin 19eg, 1746, ac a elwid, *Dwyfol Ras yn cael ei arddangos*, &c. Y mae *Cofiant* Mr. Dwight yn cynnwys y coflyfrau hyn.—(*Brainerd's Life; his Journal; Edwards' Fun. Serm.; Middleton's Biog. Evang.*, iv. 262—264; *Assembly's Miss. Mag.*, ii. 449—452; *Boston Record*, 1824, td. 196; *Brown's Ency. of Rel. Know.*)

BRAINT; llu., *breintiau*, a *breiniau* [*brai*; Scis., *privilege*; LL, *privilegium*, oddi wrth *privus*=neilldduedig, gwahanedig, a *lex*=cyfraith; ac felly yn wreiddiol yn arwyddo, deddf yn dwyn perthynas â pheth neu berson neilldduol]: mantais neu fudd a fwynheir gan berson, cymdeithas, neu frawdoliaeth, uwch law manteision cyffredin ereill. Gall braint fod yn rhyw hawl a ganiateir gan gyfraith neu ddefod, neu ryddhad oddi wrth faich ag y mae ereill yn ddarostyngedig iddo. Perthynai i bendefigion Prydain Fawr y fraint o gael eu barnu gan eu cydradd (*peers*) yn unig. Braint aelodau seneddol ydyw peidio cael eu carcharu mewn rhai amgylchiadau. Unrhyw fantais, neu hawl, neu ryddid neilldduol sydd heb fod yn perthyn i ereill o'r hil ddynol. Yn yr ystyr hwn y sonir am *freintiau* gwladwriaethol neu boliticaidd, i ddynodi rhyw fanteision nad ydynt yn perthyn i wledydd ereill. Yn y cyfreithiau Cymreig, arwydda sefyllfa, neu urdd; a dywedid am y pendefigion eu bod yn *unfraint*, o un urddas.

BRAN, BRAIN, [Heb. ערב; Gr. κοραξ; Llad. *corvus*]. Cyfarfyddir a'r gair *oreb* yn *Gen.* viii. 7; *Lef.* xi. 15; *Deut.* xiv. 14; 1 *Bren.* xvii. 4—6; *Iob* xxviii. 41, &c. Y mae y fran mor adnabyddus fel ar un olwg y mae dysgrifiad o honi yn afreidiol; ond mor debyg yw yr amrywiaethau fel y mae rhai naturiaethwyr wedi bod mor esgeulus a chymmeryd y naill yn lle y llall. Dan y dosdrefniad Linnæaidd *corvus*, nodwn y rhai canlynol fel y mathau mwyaf cyffredin;—y gigfran (*raven*), yr ysglyf-fran (*carrion crow*), yr ydfran (*rook*), a'r goegfran (*daw*). Y fwyaf o'r rhai hyn yw y gigfran; pwysa oddeutu tri phwys; y mae ei phen yn gymmesurol lai, a'i phig yn llawnach ac yn fwy bachog yn ei flaen. Yr ysglyf-fran a'r ydfran ydynt mor debyg yn eu maint a'u ffurf fel nad yw yn hawdd eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Y mae pig yr olaf, pa fodd bynag, yn fwy llwyd-oleu, a i phlu o liw mwy dysglaer a phrydferth. Dyma yr holl wahaniaeth sydd rhwng yr aderyn diniwed hwn a'r un ysglyfgar; o herwydd hyny y mae yn cael ei ddistrywio yn fynych yn ei le.

Yn eu dull o fyw y mae y gigfran a'r ysglyffran (yr hon a elwir mewn rhai manau yn *fran dyddyn*) yn hollol yr un fath; ehedant bob yn ddwy; ymborthant ar ysglyfaeth, a distrywiant bob ehediaid ereill pa bryd bynag y byddo hyny yn eu gallu. Yr ydfran a'r goegfran, i'r gwrthwyneb, ydynt gymdeithasgar a diniwed; yn byw ar drychfilod a mân ronynau; ac yn hytrach na distrywio, gwasanaethant fel gwyliedyddion y côr adeiniog i gyd. Gan fod yr un tebygrwydd cyffredinol rhwng yr holl amrywiaethau yn eu ffurf a'u lliw, dilynir y llinell hon fel y prif wahannodiad rhyngddynt a'u gilydd—a rhydd hyn i ni ddau ddosbarth—sef y rhai a ymborthant ar gig, a'r rhai a ymborthant ar rawn.

Yn y dosbarth blaenaf, y gigfran yw y benaf. Y mae yr aderyn hwn o wneuthuriad cadarn, ac yn alluog i ddal pob math o dywydd. Nid yw gwres deifiol y trofanau, na rhew oesol y pegynau iddo ef ond yr un peth. Ceir ef mae'n wir yn y gogledd weithiau yn hollol wyn; ond y mae hyn yn dygwydd i bob creadur arall yn y parthau hyny yr un fath. Un hynodrwydd neilldduol a berthyn iddo yw ei hyddysgedd (*docility*). Y mae ei alluoedd dynwaredol mor gryfion fel y gellir eu dwyn at unrhyw wasanaeth yn mron sydd yn alluadwy i aderyn. Gydag ychydig iawn o drafferth gellir ei ddysgu i hela fel y gwalch; i gyrchu a chludo fel yr adargi; i siarad fel y parrot; a'r hyn sydd ryfeddach fyth, i ganu fel dyn. Dywed y Dr. Cope iddo glywed cigfran yn canu y "Black joke," gyda chywirdeb a boddineb mawr.

Y mae y gigfran, wedi ei dofi, yn meddu ar lawer o hynodion sydd yn ei gwneyd yn dra difyrus. Y mae yn brysur, yn ymchwilgar, ac yn ddigywilydd; nid oes neb na dim a gaiff lonydd ganddi; a rhaid i'r cwn, y cathod, a'r ieir, pob un yn ei dro, ymfoddloni i ymostwng i'w hawdurdod. Nid yw yn gofalu am ffafr neb (ond y goges), ac eto, rywfodd, y mae yn ffafr pawb. Ond tra yn achlysuro llawer o ddigrifwch, y mae weithiau yn achosi cryn lawer o ddrwg. Y mae yn rheibus wrth natur, ac yn ysbeilydd wrth ei harfer. Nid yw yn foddlawn ar y mân ddrygau a gyflawna yn y fwydgell, ond ysbeilia luaws o

Digitized by Google

bethau ereill nas gall gael yr un mwynhad oddi wrthynt. Darnau arian, llwyau, modrwyau, a'r cyffelyb, a ganfyddir yn aml wedi eu cuddio yn ofalus yn ei lloches.

Yn ei chyfrwr gwyllt, y mae y gigfran yn ysbeilydd galluog a rheibus iawn. Y mae ei gwanc i ysglyfaeth mor fawr fel na waeth ganddi pa un ai marw ai byw fyddo. Gwna ei nyth yn gyffredin ar goed uchel, ac mewn tyrau a chlogwyni. Y mae yn greulawn hyd yn oed wrth ei chywion. Ni eddefa iddynt aros yn ei chymmydogaeth yn hwy nag y gallant ryw lun ymdaro drostynt eu hunain; ac felly, er ei bod yn adnabyddus yn mhob parth o'r byd, nid yw yn lluosog yn un man. I'r defaid a'r ŵyn y mae yn gydymaith tra pheryglus, gan ei fod yn bleser ganddi dynu llygaid y rhai fyddo yn analluog i amddiffyn eu hunain. Y mae pob math o adar llai hefyd yn sefyll mewn perygl oddi wrthi. Dywed Martin, yn ei *Western Isles*, am dair o fân ynysoedd wedi eu meddiannu gan bâr o gigfrain bob un, a ymlidiant bob aderyn arall a ryfyga ddyfod i'w cyffiniau. Haera Hesiod fod oes y gigfran naw gwaith yn hwy nag oes dyn; ac er nad yw hyn ond chwedl, y mae yn ffaith brofedig ei bod yn dra hirhoedlog. Cafwyd profion sicr o rai wedi byw dros drigain mlynedd. Nid oes ond yr un peth i'w ddyweyd am arferion yr ysglyf-fran, ond yn unig nad yw mor hyf ac anturiaethus.

Y mae y dosbarth nesaf yn fwy diniweid, gan eu bod yn ymborthi ar fân bryfaid a grawn, ac nid ar ysglyfaeth. Yr yd-frain a adeiladant eu nhyth bob amser mewn llwyni, yn gyfagos i drigfan dyn. Yn y gwanwyn, ymgasglant yn lluaws mawr at eu gilydd, ac ymffurfiant yn fath o gorfforiaeth gyfreithiol, trwy ba un y bydd i bob estron gael ei gadw draw. Y mae y goegfran (*jack daw*), yr hon sydd ychydig yn llai, ac yn fwy craff a thafodog, yn gwneyd ei nhyth mewn oestyll a chlochdai, a chreigiau, ac yn tebygu yn ei harferion i'r ydfran. Yn perthyn i'r un dosbarth y mae y fran Roystaidd (*Royston crow*), a choeg-fran Cernyw (*Cornish chough*). Y mae y flaenaf yn agos o'r un faint a'r gigfran, ond heb fod mor ddu. Y mae hefyd yn aderyn ymfudol, yn ymweled â'n gwlad ni tua deshreu y gauaf, ac yn ei gadael yn y gwanwyn. Cyfarfyddir â'i nhyth yn fynych mewn coed yn yr Ynys Werdd. Yr olaf sydd o faintioli yr ydfran; y traed a'r coesau yn hirion fel y goegfran, ond o liw coch; a'r pluf i gyd yn dduon. Gwelir yr aderyn hwn ar lanau gorllewinol Lloegr yn unig. Y mae yr holl amrywiaethau hyn yn gyffelyb yn eu dull o fyw, yn ymborthi ar rawn, ac yn hollol ddiniweid.

Yn chwanegol at yr amrywiaethau hyn, gellid enwi rhai mathau tramor. Nodir un yn unig, sef y *calav*, neu y fran Indiaidd gorniog, yr hon sydd ychydig yn fwy na'r gigfran, ac yn llawer mwy rheibus ac ysglyfgar. Heb law fod ei phig yn llawer iawn hwy, ac yn fwy bachog yn ei flaen, y mae i'r aderyn hwn fath o gorn llydan yn ymestyn o'r talcen, heb fod yn annhebyg i eiddo y rhinoceros, ond ei fod yn fwy blaengam—yr hyn sydd yn rhoddi iddo edrychiad tra brawychus. Pe buasai y corff yn ateb i'r pen, buasai yr aderyn hwn yn fwy na'r fwltur neu yr eryr; ond fel yr adar sydd yn dyfod drosodd o ynysoedd Malacca, nid oes dim cyfartaledd rhyngddynt a'u gilydd. Y mae gwasanaeth y corn hyd yn hyn yn anhysbys.

Nid ydys yn gwbl benderfynol pa un o'r amrywiaethau hyn a adnabyddid yn Ngwlad Canaan—pa un ai y rhywogaeth gyffredin yn ein gwlad ni, ai y *corvus montanus* [Temminck]. Ond pa un bynag, yr oedd yr holl gyfanryw (fel yr arwydda y gair *oreb*) yn aflan o dan y gyfraith. Y lle cyntaf y sonir am yr aderyn hwn yn y Beibl ydyw *Gen.* viii. 7, lle y dywedir i Noah "anfon allan gigfran" o'r arch, yr hon na ddychwelodd "hyd oni sychodd y dyfroedd oddi ar wyneb y ddaiar." Am y cigfrain a anfonwyd i borthi Elias (1 *Bren.* xvii. 4), haerodd rhai beirniaid mai dynion o bentref Aorabi, neu Orba oeddynt; ond y mae y gair *orebim* yn brawf digonol i'r gwrthwyneb. Wrth gyfeirio at ofal y Tad nefol am ei blant, dywed Iesu Grist, yn *Luc* xii. 24, ei fod yn gofalu am y brain (κοράκας): a dyma'r unig fan y ceir y gair yn y Testament Newydd.

Dichon mai i'r ffaith fod Elias wedi ei borthi gan gigfrain wrth afon Cherith yr ydys i olrhain y parch coelgrefyddol sydd wedi ei dalu i'r aderyn hwn yn mhob oes a gwlad. Chwedlonau y paganiaid ydynt lawn o'r cyfeiriadau hyn; ac yr oedd yn eu plith urdd adeiniol o offeiriaid a adnabyddid wrth yr enw. Gwasanaethai yr offeiriaid hyn yn nhemlau Ammon yn yr Aipht. Chwareuent ar eu telynau yn y claddgelloedd (*catacombs*), ac yr oeddynt wedi eu gwisgo mewn du. Yr oedd mwy nag un deml yn ngwlad Groeg ac wasanaethid gan offeiriaid o'r un urdd. Y Rhufeiniaid a ystyrient y gigfran yn argoelus (*ominous*), ac a dalent iddi lawer o bareh. Y mae gan Pliny chwedl am gigfran, a gedwid yn nheml Castor, yn arfer galw yn ngweithfa dilledydd, yr hwn a ddysgodd iddi lawer o branciau, ac yn mhlith pethau ereill i adrodd enw yr ymherawdwr Tiberius a'r holl deulu. Gan y Scandinaviaid yr oedd yn arwyddlun cyflafan, ac yr oedd ei llun ar fanerau y Daniaid, y Saxoniaid, a'r Normaniaid.

BRAN NOS, [Heb., אחיה; Gr., γλαυκα; Scis., *night hawk*]: *Lef.* xi. 16; "A'r fran nos: *Deut.* xiv. 15. Bochart a Schleusner a dybient mai yr un yw yr aderyn hwn a'r estrys a ddysgrifir yn *Iob* xxxix. 16—18: ond y dyb fwyaf cyffredin yw mai math o ddylluan ddwyreiniol (*strix orientalis*) a ddarlunir gan Hasselquist yn ei *Deithiau* ydyw. Dysgrifir hi fel un o faintioli y ddylluan gyffredin, yn byw mewn murddunod a thai annhrigiannol yn yr Aipht. Geilw yr Arabiaid hi *massasa*; a'r Syriaid, *bana*. Yn Syria, y mae yn dra pheryglus; gan ei bod, os caiff y ffenestri yn agored, yn ehedeg i'r tai, ac yn lladd babanod yn eu gwelyau. Y mae y gair *tachmas* yn arwyddo ei bod yn aflan; ac nid rhyfedd, os hwn yw yr aderyn a feddylir.

BRAN FENDIGAID: ydoedd gyff penaf prif welygordd saint Ynys Prydain, am yr hwn y traetha yr hen *Gofion* fel y canlyn:—"Tair prif welygordd saint Ynys Prydain:—*Cyntaf*, gwelygordd Bran ab Llyr Lledaiith; ac o'r wehelyth hono y mae gwelygordd y Caw o Brydyn, a elwir y Caw Cawlwyd, a'r Caw o Dŵr Celyn yn Môn. *Ail*, yw gwehelyth Coel Godhebog; ac o hono y mae gwelygordd Cunedda Wledig. *Trydydd*, yw gwehelyth Brychan Brycheiniog, a ddaeth i'r ynys hon i ddysgu cred a bedydd yn amser Tewdrig (Tewdwr) ab Teithfall, brenin Morganwg, a Gwent, a Garth Mathrin, ag Ergin, ag Euas, a Gwent Goch yn y Ddenau; a Marchell ferch y Tewdrig hwnw oedd fam Brychan Brycheiniog."

Deillia pob un o'r gwelygorddau hyn, yn uniongyrchol, o hen freninoedd Ynys Prydain. Fel hyn y treiglir gwelygordd Bran Fendigaid i'r bodau

Digitized by Google

henafol hyny: — Bran ab Llyr Llediaith, ab Baran, ab Ceri Hir Lyngwyn, ab Caid, ab Arch, ab Meirion, ab Ceraint, ab Greidiol, ab Dingad, ab Annyn, ab Alafon, ab Brywlais, ab Ceraint Feddw, ab Berwyn, ab Morgan, ab Bleddyn, ab Rhun, ab Idwal, ab Llywarch, ab Calchwynydd, ab Enir Fardd, ab Ithel, ab Llariau, ab Tegwedd, ab Llyfeinydd, ab Peredur, ab Gweirydd, ab Ithon, ab Cymryw, ab Brwth, ab Selys Hen, ab Annyn Dro, ab Prydain, ab Aedd Mawr, brenin unben cyntaf Ynys Prydain.

Bran Fendigaid, yn ol hen hanesion y Cymry, o ba rai y rhoddwn yma aralleiriad, a fu y cyntaf o genedl y Cymry a drosed i'r ffydd yn Nghrist, yr hon ffydd a ddug efe gyntaf i'r ynys hon o Rufain; achos hyny y'i gelwid Bran Fendigaid. A chydag ef y daeth Ilid Sant, gŵr o'r Israel (a thri ereill a enwir yn ebrwydd), yr hwn a droses lawer i'r ffydd yn Nghrist. Gesyd y *Trioedd*, Bran, a Lleurwg ab Coel, a Chadwaladr, fel tri menwedigion (bendigediglion); sef noddwyr crefydd Ynys Prydain. *Y cyntaf*, a ddug y grefydd Gristionogol gyntaf i'r wlad; *yr ail*, a wnaeth eglwys (addoldy) gyntaf ynddi; *a'r trydydd*, a roddes nawdd o'i diroedd a'i ddaoedd i'r ffyddloniaid. Bran oedd dad yr enwog Caradog; a phan draddoded Caradog i'r gelynion Rhufeinig drwy hud, a thwyll, a chynllwyn Aregwedd Foeddawg, bu Bran ei dad saith mlynedd yn ngharchar gan wŷr Rhufain, yn ngwystl ei fab Caradog. Yn y cyfamser, trosed Bran i'r ffydd yn Nghrist; ac o gylch o. c. 58, dychweles i Brydain, a dug gydag ef Ilid, a Chyndaf, ac Arwystli Hen, a Mawan i ddysgu cred a bedydd i'r Prydeiniaid [*Myv. Arch.*, cyf. ii., "Trioedd" 35]. Y mae Dion Cassius yn amryfaelu oddi wrth y *Trioedd*, yn enwedig parth Caradog. Dywed ef mai mab i Cynfelyn oedd Caradog, ac i Cynfelyn farw cyn gormes Rhufain, a chael ei ddilyn yn ei deyrnas gan ei ddau fab, Caradog a Thegid (*Caractacus & Tegodumus*). Ond profa Carnhuanawc yn helaeth a boddhaol fod Dion Cassius yn gyfeiliornus gyda golwg ar achau Caradog; a bod y *Trioedd* a *Bonedd y Saint* yn gywbl gywir yn hyn, heb law eu bod yn gysson, mewn pethau ereill am Caradog, â hanes Tacitus, yr hwn a ysgrifenai yn oes Caradog, tra nad ysgrifenai Cassius hyd yn mhen dau can mlynedd ar ei ol. Dengys hefyd mai yr achos i Cassius wneyd y camsyniad ydoedd, fod deiliaid y diweddar Cynfelyn, dan dywysiad ei feibion, yn ymladd dan faner Caradog, yr hyn a barodd i'r hanesydd estronol feddwl ac awgrymu fod Caradog yn frawd iddynt, pan y dengys y *Trioedd* mai cynnorthwywyr iddo oeddynt:—"Tair gosgordd addwyn Ynys Prydain: gosgordd Belyn ab Cynfelyn yng nghadfel Caradawc ab Bran," &c. Fel hyn, cydnebydd y *Trioedd* wasanaeth un o feibion Cynfelyn; ond dangosant yn eglur mai dan arweiniad Caradog ab Bran yr oedd. Y mae cael allan y gwirionedd ar y mater yma o'r pwys mwyaf gyda golwg ar ddygiad yr efengyl i Ynys Prydain gan Bran Fendigaid; a thybir fod Carnhuanawc yn sefydlu y pwnc yn dra chadarn. Y mae efe yn egluro un peth arall hefyd, sydd o bwys dirfawr, yn nglŷn â'r mater; sef, yr achos na buasai Tacitus yn son am Bran yn mysg y carcharorion, pan y mae yn enwi Caradog, a'i wraig, a'i ferch, a'i frodyr, yn benodol. Gan fod yr hanesydd (Tacitus) yn cymmeryd y fath sylw o'r carcharor breninol, Caradog, ac yn enwi ei holl deulu caethgludedig mor fanwl, pe buasai Bran ei *dad* yn eu plith, buasai yn sicr o'i enwi ef yn anad un o honynt; ond dengys y *Trioedd* yn ddigon amlwg nad oedd Bran yn mysg y carcharorion pan ddygwyd Caradog ger bron Claudius yn Rhufain, ond mai *yn ngwystl* ei fab Caradog yr aeth efe yno; "sef, megys meichiau drosto, yr hyn nid allasai fod, pe buasai eisoes mewn gafael, fel carcharor. Am hyny," meddai Carnhuanawc, "ni allaf lai na meddwl mai carcharor gwirfoddol oedd Bran, wedi rhoddi ei hun i fyny yn wystl." Dyma fel y dywed y *Trioedd* (y rhodded alleiriad eisoes o hono) ar y pwnc:—"Tri menwedigion Teyrnedd Ynys Prydain: Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yng ngwystl ei fab Caradawc, a ddug gwyr Rhufain yng ngharchar, gwedi ei fradychu trwy hud, a thwyll, a chynllwyn Aregwedd Foeddawg," &c.

Fe ddywed Tertullian, yr hwn a ysgrifenodd o blaid Cristionogion yn yr ail oes ar ol Crist:—"Y mae 'r manau," eb efe, "o eiddo'r Prydeiniaid sydd anhygyrch i'r Rhufeiniaid, wedi ymroddi i Grist." Origen hefyd, yr hwn a ysgrifenodd yn nghylch pedair blynedd a deugain ar ol Tertullian, a ddywed, "fod rhinwedd yr Arglwydd ein Hiachawdwr gyda 'r rhai hyny yn Mhrydain, a wahanwyd oddi wrth ein byd ni [sef oddi wrth y Cyfandir], a chyda phawb dan haul ar a gredasant yn ei enw ef." "Ein pysgotwyr ni," meddai Theodoret, hefyd, "a'n publicanod, a ddygasant y cyfreithiau efengylaidd i'r holl genedloedd, ac a ennillasant, nid y Rhufeiniaid yn unig, ond yr Ysgythiaid hefyd, yr Indiaid, yr Ethiopiaid, y Persiaid, y Prydeiniaid, y Cimbriaid, a'r Germaniaid, i dderbyn deddfau y Croeshoeliedig." A dywed Gildas, "i Grist, y gwir Haul, ddangos ei belydrau, sef ei orchymynion, yn Mhrydain yn amser Tiberius Cæsar (B. A. 37), ac y derbyniwyd hwynt gan rai eneidiau yn llygoer, a chan eraill yn galonog. Ac yn yr erlid yn amser Diocletian" (o gylch B. A. 300), eb efe, "goleuodd lampau y merthyron ynddi, y rhai a safasant yn y maes yn ddewr gyda Christ, yn wryw ac yn fenyw."

Y mae y tystiolaethau hyn yn dangos fod "y ffydd yn Nghrist" wedi ei dwyn i'r ynys hon yn fore; a'i bod wedi gwreiddio yma i'r fath raddau godidog, cyn diwedd y trydydd canrif—oes y creulawn Diocletian (o 284 i 304)—fel nas gallasai erlidigaeth a merthyrdod, yn eu hagweddau mwyaf ofnadwy, mo'i dadwreiddio o'r tir. Bernir fod lluaws mawr wedi eu merthyru yma yn yr ysbaid trychinebus hwn, er na throsglwyddodd hanes enwau ond pedwar i ni; sef Alban, Amphibalus, Aron, ac Ilid (*Julius*). Ond er fod yr haneswyr a grybwyllwyd, a lluaws gyda hwy, yn cyd-dystiolaethu fod yr efengyl wedi ei dwyn yma yn bur fore, eto, nid oes neb, ond ein hen *Gofion* ni ein hunain—y *Trioedd* a *Bonedd y Saint* —yn dangos yn benodol pa mor fore, na pha beth oedd enw y gŵr neu y gwŷr a wnaethant i ni y fath oruchel gymmwynas. Y mae rhai yn dychymygu mai Ioseph o Arimathea oedd cenadwr cyntaf y Prydeiniaid; ereill, mai Simon Zelotes, neu Pedr, &c.; a dywed Eusebius, mor fore a'r flwyddyn B. A. 342, "fyned rhai o'r apostolion i'r ynysoedd a elwir Brytanaidd." Dengys hyn, ar unwaith, er bod llwyr sicrwydd fod yr efengyl wedi ei chludo yma yn bur fore, nad oedd neb estroniaid yn gwybod yn fanwl, hyd yn oed yr enwog Eusebius, mor gynnar a dechreu y 4ydd canrif, pa mor fore, nac ond amcan yn unig pwy oedd y cenadon. Y mae Gildas, bid sicr (yr hwn,

Digitized by Google

gyda llaw, nid oedd estron, namyn Cymro cynnwynol), yn nodi yr amser, er mewn modd anghyfeiriol; sef, "yn amser Tiberius Cæsar." A chan y gwyddys i hwnw farw B. A. 37 [*Amser-yddiaeth Llwyd*, td. 433], y casgliad anocheladwy ydyw, os yw Gildas yn gywir, y rhaid ddyfod yr efengyl yma ryw bryd cyn hyny. Er nas gall un credadyn wadu y gallasai yr Hollalluog anfon yr efengyl cyn belled ag Ynys Prydain, hyd yn oed yn nghorff y pedair blynedd cyntaf ar ol y croeshoeliad, fel yn wir y gwnaeth, yn llawer pellach hefyd, er nad yn yr un cyfeiriad efallai, trwy gyfrwng yr apostol Paul; eto, gan nad oes dim ond haeriad anmhenodol Gildas ar y pwnc, ac nad yw efe yn hysbysu, nac yn awgrymu, pwy a'i dug yma, y mae yn lled anhawdd credu (er nas gellir gwadu yn benderfynol, chwaith) iddi ddyfod yma yn llawn mor fore a hyny.

Ond os oedd estroniaid a Gildas (yr hwn, ysywaeth, fel rhai o'i frodyr eto, nid oedd fymryn mwy ffafriol i'w genedl nag estron, nac mor ffafriol chwaith ag ambell un)—os oedd y gwŷr hyn dan eu dwylaw am y cenadon a ddygasant yr efengyl i Brydain, ac am yr amser penodol y cymmerodd hyny le, nid felly y *Trioedd* a *Bonedd y Saint:* a dylem fod yn ddiolchgar am hyny hefyd; canys, er nad yw gwybod y pethau hyn, bid sicr, yn hanfodol angenrheidiol i ni (yn amgen, cawsem hwynt yn bendant yn Actau yr Apostolion, neu rai o'r llyfrau ysbrydoledig), eto, gan fod pob gwybodaeth sydd gyssylltiol â phethau cyssegredig yn gweini hyfrydwch i'r meddwl crefyddol, y mae hyd yn oed y pethau hyn yn deilwng o'n sylw a'n hymchwiliad—heb son fod ansawdd meddwl dyn y fath, fel mai po mwyaf o drafferth a gaffo gydag unrhyw beth, mai gwerthfawrocaf oll a fydd y peth hwnw ganddo, pan allo ei fwynhau.

O barth y cenadon a ddygasant yr efengyl gyntaf i Brydain, dywed y *Trioedd* a'r *Achau* yn bendant, mai Bran Fendigaid, ac Ilid, a Chyndaf ac Arwystli Hen, a Mawan oeddynt. Dywedir hefyd, mai "gwŷr o'r Israel," sef Iuddewon, oedd Ilid a Chyndaf; ac mai gwŷr o'r Eidal oedd y ddau arall. "Am Arwystli," ebai Carnhuanawc, "y mae rhai yn barnu mai Aristobulus oedd efe, yr hwn a enwir yn *Rhuf.* xvi. 10:—'Anerchwch y rhai sydd o dylwyth Aristobulus.' Ac y mae yr archesgob Usher, yn ailadrodd hen gyfansoddiad Groeg, yr hwn a fynega i Aristobulus gael ei ordeinio gan Paul i fod yn esgob i'r Brytaniaid." Efallai nas ceir byth, yn y byd hwn, fwy o eglurhâd, os oes mwy yn angenrheidiol na hyn, gyda golwg ar y cenadon a ddygasant y "newyddion da o lawenydd mawr" gyntaf i Ynys Prydain.

Y mae y *Trioedd* a'r *Achau*, eto, mewn cyssondeb â hanesion anwadadwy ereill, yn ein harwain yr un mor unionsyth a phenderfynol at yr amser y cludwyd bendithion yr efengyl gyntaf i'n cenedl ni. Dywed y *Trioedd* yn bendant, fel yr *Achau*, mai "Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith, a ddygwys gyntaf ffydd yng Nghrist i genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe *saith mlynedd* yn ngwystl ei fab Caradawc." Y mae hanesion y Rhufeiniaid eu hunain yn dangos i Garadog gael ei draddodi, yn rhwym mewn cadwynau, mewn modd ysgeler, i'r gelynion, gan y fradwres Aregwedd Foeddog, at yr hon yr oedd efe wedi ffoi am nodded ar ol colli y frwydr ofnadwy yn erbyn Ostorius, yn y flwyddyn B. A. 51. Yn awr, rhodder y "saith mlynedd" y bu Bran yn Rhufain "yn ngwystl ei fab Caradawc," at y 51, a cheir mai B. A. 58 oedd y wir flwyddyn y "dygwys Bran gyntaf ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry o Rufain." Y mae yr amser yma yn cytuno mor gywir â dyfaliadau haneswyr yn gyffredinol yn nghylch y pryd y dygwyd yr efengyl i Ynys Prydain, fel y deheig ddengys Carnhuanawc a rhai ereill, fel nad oes achos i neb diragfarn at hen *Gofion* cenedl y Cymry ammheu ei gywirdeb. Yn awr, terfynir y pwnc dyddorol yma yn ngeiriau

Ein hynaws Garnhuanoc.

"Mewn perthynas i ddyfodiad yr efengyl yma trwy offeryndod teulu Bran ab Llyr, fy marn i ydyw, na ddangoswyd eto ddim idd ei wrthbrofi. Ac oddeithr dwyn yn mlaen yn ei erbyn ryw awdurdod, llawer cadarnach nag un ag a ddangoswyd hyd yn hyn, ni welaf un achos i gynnal ammheuaeth o'i blegid."

Hynododd Bran ei hun yn odidog yn nechreu ei oes mewn cad a theyrnedd; a molianna y beirdd ef yn wresog am ei weithredoedd nerthol a'i ddoethineb wladol [*Myv. Arch.*, i. td. 212, 248]. Cyssyllta y *Trioedd* ef gyda Phrydain ab Aedd Mawr, a Dyfnwal Moelmud, fel "tri bancewyddion (cydgorfforwyr) teyrnedd Ynys Prydain; sef goreu trefn eu trefn hwy ar deyrnedd Ynys Prydain hyd onis beirnid hwy'n benorawl ar bob trefnau eraill a wnaed yn holl Ynys Prydain."

Hefyd, y mae Bran Fendigaid yn arwr un o'r ffugebau *(fictions)* Cymreig nodedig a elwir *Mabinogion.* Dyma sylwedd y chwedl:—Daeth Matholwch, pen teyrn y Werddon, gyda llynges i Harlech, lle yr oedd Bran yn cynnal ei lys, i erchi Bronwen, chwaer Bran, yn wraig. Llwyddodd yn ei gais, a dychwelodd i'r Werddon. Yn mhen amser, sarhaodd Matholwch Fronwen ei wraig, drwy roddi palfawd (dyrnod) iddi ar ei chlust, yr hwn balfawd a elwir yn y *Trioedd* yn un o "dair engir (anfad) balfawd Ynys Prydain." Yna aeth Bran i'r Werddon, gyda llu afrifed i ddial cam ei chwaer. Saith yn unig a ddychwelasant o'r gyflafan hono, ar ol yn agos lwyr ddiboblogi y Werddon. Cafodd Bran yntau glwyf marwol yn y gad; ac arches i'w gyfeillion diangol gyrchu ei ben i'r Tŵr Gwyn, yn Llundain; yr hwn, tra cedwid ef yno, a fyddai yn nawdd rhag gormesiadau dyfodol. Yna mynegir am gludiad y pen i Lundain. Yn Harlech, cadwyd y cludwyr am saith mlynedd i wrandaw ar yr adar Rhianon yn canu yn yr awyr; a thariasant am bedwar ugain mlynedd mewn neuadd ysblenydd yn Nyfed, yn mwynhau pob difyrwch meibion dynion, heb gofio unwaith am eu neges gyda 'r pen. Ond o'r diwedd, ar agoriad rhyw ddrws yn nghyfer Cernyw, daeth amcan eu taith gyda grym i'w cof, fel y gorfu arnynt gyrchu i'w taith gyda brys. [*Pughe's Pref. to Gunn's Nennius.*] Bu y pen yn y "Gwynfryn" hyd amser Arthur, yr hwn a arches ei symmud, gan nas mynai efe noddi yr ynys â dim ond trwy wroldeb. Mynegir hyn yn y *Trioedd:*—"Tri chudd a dadgudd Ynys Prydain: un o naddynt, pen Bendigeidfran (Bran Fendigaid) fab Llyr a gladdwyd yn y Gwynfryn yn Llundain; a hyd dra fu yn yr ansawdd honno, ni ddôi ormes i'r ynys hon fyth." * * * * "Arthur a ddadguddiodd ben Bendigeidfran o'r Gwynfryn yn Llundain, gan ny oedd ofer ganthaw gadw yr ynys o gadernid neb namyn yr eiddaw ei hun." Er nad yw y rhan fwyaf, os nad yr oll, o chwedl y pen ond rhamant (*romance*) noeth; eto, y mae cryn sail i sarhâd Bronwen, a dial ei brawd ar y sarhäwr. Wedi i Fronwen gael y fonclust sarhäus gan Fatholwch, gadawodd y Werddon ar

Digitized by Google

rys; a thra ar ei thaith i Hariech, mewn rhandir yn Ynys Mon a elwir Glan Alaw, trodd drach ei chefn, gan edrych, mewn digofaint llidiog, tua'r Werddon o blegid y sarhâd, torodd ei chalon, a bu farw yn y fan. Yna, llosgwyd ei chorff yn barchus, yn ol arfer yr oes; rhoddwyd y lludw mewn gwrn pridd, a chladdwyd ef dan garnedd fawr o geryg, mewn llanerch ger llaw yr afon Alaw, a elwir hyd y dydd hwn yn "Ynys Bronwen." "Y garnedd fwyaf nodedig yn Ynys Prydain," ebai Angharad Llwyd, "ydyw cofadail Bronwen, ferch Llyr, yn Ynys Mon: cell fechan grom ydyw, yn agos i'r Alaw; ac ar y tu gorllewin y mae 'Bedd Petrual a wnaed i Fronwen, ferch Llyr, ar lan Alaw, ac yno y claddwyd hi.' * * * * Yn y flwyddyn 1813, yr oedd ar amaethwr eisieu ceryg ar ryw achlysur, ac yn ddamweiniol canfu wrn [darlun o'r hwn sydd yn *A. Llwyd's Mona*, td. 45] yn cynnwys lludw Bronwen, dan dwr o geryg, neu garnedd. Y mae yn awr (1833) yn meddiant un o brif feirdd Môn, sydd yn preswylio yn Nghaer. Yr oedd y garnedd o gryn arwynebedd, ond ei bod yn isel, ac wedi ei chrynhau yn ddestlus; ac y mae o gylch deuddeg llam oddi wrth yr afon Alaw; yr hon a elwir fyth yn 'Ynys Bronwen.' Y mae y gwrn wedi ei gadw yn gyfan, oddi gerth dernyn o'r pen uchaf iddo. Y mae o wneuthuriad garw a syml, heb ddim addurniadau ond ychydig bigyrnau bychain, ac y mae o gylch 14 modfedd o uchder. Cedwir ychydig o'r lludw a'r esgyrn hanner calchedig yn y gwrn yn dra gofalus. * * * * Yr oedd dadguddiad y gwrn yma yn ddygwyddiad tra ffodus, am y tuedda i gadarnhau awdurdod yr ysgrifau (y *Mabinogion*), y rhai, er nas golygir hwynt ond fel rhamant, eto a dueddant i benderfynu, o fewn ychydig flyneddoedd, pa bryd y cymmerodd y gladdedigaeth dan sylw le —pwnc na chawsid byth foddlonrwydd arno. Cyfeirir at yr amgylchiad yma yn ddestlus ar derfyn *Barrow Poem* Mr. Bowles."

Nid yw y pethau hyn, bid sier, yn dal perthynas uniongyrchol â phrif bwnc yr erthygl yma —dygiad yr efengyl i Ynys Prydain, gan Fran Fendigaid: ond cyd-duedda y cyfan i brofi fod y fath ŵr wedi bod yn Nghymru, a hyny yn bur agos at yr amser y cyfeirir ato yn y *Trioedd* a'r *Achau;* a'i fod yn ŵr mawr, mewn llawer ystyr, yn mysg ei genedl, fel yr adrodda yr hen *Gofion* Cymreig am dano—yr hyn sydd yn gryn gadarnhâd o'u gwirionedd.—(*Myv. Arch.; Iolo MSS.; Lives of the Saints; Lib. Land.; Han. y Ffydd. C. Ed.; Han. Cref., D. Peter; Greal; Han. Cym. Carnh.; Cambro-Brit.; Cambr. Reg.; Cambr. Biog.; Mona Antiq.; Llwyd's Mona; Lewis's Hist. Trans.; Hor. Brit.; Enwog. Cymru; Usser. Brit. Eccl. Ant.; Stilling. Ant.; Tacit.; Dion. Cas.; Gildas, &c.*)

BRAS, BREISION, [*bar*]: tew, gwerog, blonegog, mawr, hir, garw. Mollt bras; ŷd bras; blawd bras; pwythi breision; gwlan bras. "Yr uniawn a aeth yn fras ac a wingodd" (*Deut.* xxxii. 15): "Y genedl ag yr oedd ei henafiaid yn uniawn a ddaeth yn llygredig."—*Williams.* "A aeth yn fras"=a aeth yn gyfoethog.—*Owkelos.* Y mae "bod yn fras," yn arwyddo bod yn gyfoethog, yn meddu cyflawnder a helaethrwydd: *Gen.* xlix. 20; *Deut.* xxxi. 20; *Diar.* xiii. 4; xxviii. 25; *Hab.* i. 16.

BRASDER: rhanau gwerog, blonegog, creaduriaid. Yr oedd yn waharddedig dan y gyfraith i fwyta brasder y creaduriaid a leddid yn aberthau i'r Arglwydd. Yr oedd yn ddeddf dragwyddol, na fwytaent ddim gwaed, na dim gwer, neu frasder: *Lef.* iii. 17. Yr oedd y naill fel y llall yr un mor waharddedig, am eu bod yn rhanau yr honai yr Arglwydd hawl ynddynt o bob aberth. Yfai y paganiaid waed eu hebyrth; a darllenwn, yn *Salm* xvi. 4, am "eu diodoffrwm o waed:" ond ni oddefai Duw i'r gwaed a wnai gymmod gael ei ddefnyddio fel peth cyffredin: bwytäai y paganiaid frasder eu hoffrymau yr un modd.—*Henry*, a *Sutcliffe.* Nid yw y brasder yn iachus i'w fwyta yn y gwledydd hyny; ac ystyria rhai mai y prif achos o'r gwaharddiad ydoedd hyn. Ond y mae yn fwy tebygol mai rhyw ystyr seremoniol oedd prif reswm y "ddeddf dragwyddol" hon, fel y deddfau ereill, er fod eu cadwraeth, ar yr un pryd, yn fanteisiol i iechyd a chysuron tymmorol y genedl. Y mae "brasder," yn yr Hebraeg, yn dynodi, nid yn unig y rhan flonegog o'r anifail, ond hefyd y goreuon o bethau ereill; megys, er anghraifft, "brasder gwenith," "brasder y ddaiar," a "brasder dy dŷ." Dynoda gyflawnder a digonolrwydd o ddaioni— "A mi a ddiwallaf enaid yr offeiriaid â brasder;" *Ier.* xxxi. 14: "Megys â mer ac â brasder y digonir fy enaid;" *Salm* lxiii. 5.

BRAT—IAU: clwt; cadach; carpiau. "Brat-iau budron yw ein holl gyfiawnderau;" *Esa.* lxiv. 6. Darllena Lowth a Boothroyd, "megys gwisg wrthodedig."

BRAWD, BRODYR, [Heb. אח; Gr. *αδελφος*]: brawd un-dad; brawd un-fam; brawd-maeth; brawd yn nghyfraith; brawd cwccyllawg; brawd ffydd; a brawd crefydd.—*Dr. Pughe.*

Brodyr pob cerddorion.—*Diar.*

Arwydda—1. Brawd yn yr ystyr naturiol, pa un bynag ai o'r un tad (*Mat.* i. 2; *Luc* iii. 1, 19), neu o'r un tad a mam: *Luc* vi. 14. 2. Mewn ystyr gyffelybol—un sydd yn gyssylltiedig âg arall mewn cyfeiligarwch, cymdeithas, neu berthynas. (1.) Perthynas agos, neu gâr: *Gen.* xiii. 8; xiv. 16; *Mat.* xii. 46; *Ioan* vii. 3; *Act.* i. 14; *Gal.* i. 19. (2.) Un wedi ei eni yn yr un wlad, a disgyn o'r un aeh=cydwladwr: *Mat.* v. 47; *Act.* iii. 22; *Heb.* vii. 5; *Exod.* ii. 11. (3.) Un o radd ac urddas cyffelyb: *Iob* xxx. 29; *Diar.* xviii. 9; *Mat.* xxiii. 8. (4.) Dysgyblion, canlynwyr: *Mat.* xxv. 40; *Heb.* ii. 11, 12. (5.) Un o'r un ffydd a chred: *Amos* i. 9; *Act.* ix. 30; xi. 29; 1 *Cor.* v. 11. (6.) Cydymaith mewn swydd neu anrhydedd: *Ezra* iii. 2; 1 *Cor.* i. 1; 2 *Cor.* i. 1. (7.) Un o'r un natur: *Gen.* xiii. 8; xlvi. 31; *Mat.* v. 22, 23, 24. (8.) Un hoff ac anwyl, fel brawd: *Act.* ii. 29; vi. 3; 1 *Thes.* v. 1. Yn *Mat.* xiii. 55, 56, crybwyllir am Iago, Ioses, a Simon, fel brodyr yr Iesu; a sonir hefyd am chwiorydd iddo. Addefir yn gyffredin fod cryn ddyryswch yn perthyn i'r cwestiwn hwn—pa un ai brodyr un-dad un-fam, ynte plant Ioseph, ynte ceraint i'r Iesu oeddynt. Y mae gwrthwynebiad y Protestaniaid i'r syniad Pabaidd am "wyryfdod parhaus y Forwyn" wedi arwain rhai esbonwyr i gymmeryd y gair "brodyr" yn yr ystyr mwyaf llythyrenol, ac mai plant a anwyd iddi o Ioseph ar ol genedigaeth yr Iesu oeddynt. Y mae Kitto, Neander, ac ereill, o'r dyb hon. "Y mae y gair *εως*, yn *Mat.* i. 25, mewn cyssylltiad â'r mynegiad mai yr Iesu oedd cyntafanedig Mair, yn ein harwain i feddwl fod Matthew yn gwybod am blant

Digitized by Google

iddi ar ol hyn; yr hyn a gadarnheir gan y ffaith fod yr un efengylwr yn crybwyll am frodyr a chwiorydd i'r Iesu, yn nghyd â'i fam. Y golygiad hwn ydyw y mwyaf naturiol yn yr adranau yr enwir hwynt yn nghyd; megys *Luc* viii. 21; *Marc* iii. 31; *Ioan* ii. 12; vii. 3. Byddai yn drais â'r rhanau uchod, i dybied fod αδελφοι, ynddynt oll, yn cael ei osod yn lle ανεψιοι."—*Neander's Life of Christ.* Y mae Olshausen yn ymwrthod yn hollol â'r dyb mai plant Ioseph o wraig arall oeddynt, am nad oes dim yn ymddangos o blaid hyny ond traddodiad y buasai mewn adeg foreuach yn briod â gwraig o'r enw Salomne. Addefa hefyd fod yn anhawdd penderfynu rhwng y ddau olygiad arall. Dywed ei fod yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, yn dybiaeth ffafriol y bu gan Mair blant ar ol yr Iesu, am fod eu henwau hwy a'r eiddo hithau yn gyssylltiedig â'u gilydd—am mai nid priodas mewn ymddangosiad oedd yr eiddo Ioseph a Mair. Eto, gorphwysa Olshausen yn y farn nad oeddynt amgen na cheraint i'r Iesu; gan y gellir profi nad oedd un o'r pedwar brodyr hyn o nifer y deuddeg, er fod yn eu plith rai yn dwyn yr un enwau a dau o honynt. Dywed *Ioan* vii. 5, nad oeddynt yn credu i'r Iesu: ac yn *Act.* i. 14, sonir am danynt fel ar wahân oddi wrth yr apostolion, tra yr ymddengys eu bod, erbyn hyn, yn gredinwyr. Nis gall *Ioan* xix. 26, gytuno â'r dybiaeth fod gan Mair blant ei hunan. Diammheu y buasai yn cael ei chyflwyno i'w gofal hwy, ac nid i ofal un nad oedd yn y cylch teuluaidd. Pan ystyrir fod אמא, yn Hebraeg, yr enw arferol ar geraint, a bod dau o'r rhai a elwir yn frodyr yr Iesu yn amlwg yn ddim ond ceraint iddo, y mae y nerth mwyaf o brawf yn gogwyddo at y casgliad nad oedd gan yr Iesu un brawd yn ol y cnawd. Os bu Ioseph farw yn ieuanc, gellir tybied fod Mair a'r Iesu yn trigo yn nhŷ ei chwaer, Mair gwraig Cleophas, a mam Iago a Ioses (*Ioan* xix. 25; *Mat.* xxvii. 56)—fod yr Iesu wedi ei fagu a thyfu i fyny gyda'i phlant hi. Ac y mae yr amgylchiad hwn yn egluro pa fodd y mae Mair mam yr Iesu, a phlant ei chwaer, yn cael eu henwi weithiau yn nghyd. — *Olshausen on the Gospels.*

BRAWDGARWCH, [Gr. φιλαδελφια: 1 *Thes.* iv. 9; *Heb.* xiii. 1; 1 *Pedr* i. 22]: ydyw y cariad neillduol sydd rhwng credinwyr a'u gilydd. Heb law yr haelfrydedd a'r ewyllys da a deimlant at bawb yn gyffredin, ac a ddangosant at y da a'r drwg yn ddiwahaniaeth, y mae ynddynt hefyd gariad o natur arbenig tuag at y rhai a ystyriant yn blant Duw; trwy yr hwn y mae yr enaid yn teimlo, ar amserau, yn un—"o un galon ac un enaid" (*Act.* iv. 32)—â hwynt. Y mae yr hoffder a'r ymlyniad sanctaidd hwn yn gweithredu tuag at ereill oddi ar adnabyddiaeth o ddelw Duw ynddynt, a'r berthynas a fernir sydd rhyngddynt â Duw fel ei blant, â Christ fel ei aelodau, ac â hwythau fel eu brodyr ysbrydol yn Nghrist. Y mae yn arwydd neillduol o wir ras, ac yn cael llefaru am dano fel y cyfryw yn yr Ysgrythyrau: *Mat.* x. 41, 42; *Marc* ix. 41; *Ioan* xiii. 34; xv. 13, 14, 15. Mae yn arddangosiad neillduol o'r undeb sydd rhwng Crist ei hun a'i bobl: *Ioan* xvii. 20, &c. Yr apostolion a annogent y Cristionogion i ddangos y cariad hwn at eu cydaelodau o'r eglwys weledig; "Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd;" *Rhuf.* xii. 10. Dywed Jonathan Edwards fod ystyr y geiriau hyn yn llawer dwysach yn y Groeg, ac yn arddangos yn fwy bywiog yr ymlyniad cryf sydd yn hanfodi rhwng credinwyr a'u gilydd; "Byddwch ymlyngar y naill wrth y llall gyda serchogrwydd cryf, brawdol, a naturiol;" 1 *Pedr* i. 22; iii. 8; *Col.* i. 4; 1 *Thes.* iv. 9; *Philem.* 5.

Y brawdgarwch hwn ydyw y rhinwedd ag yr ymdrinia yr apostol Ioan gymmaint arno yn ei epistol cyntaf, ac yr argymhella fel un o arwyddion penaf gwir ras, ac fel prawf eglur fod "Duw yn aros ynom, a ninnau yn aros ynddo yntau." Rhaid golygu y cariad hwn yn gariad at y saint *fel* saint, a gynnyrchir gan y ddelw sanctaidd o Dduw a adnabyddir ynddynt. Yr un yw a'r cariad a argymhella Crist ar ei ddysgyblion yn y gorchymyn a eilw, mewn ffordd o hynodrwydd a rhagoriaeth, "ei orchymyn," a "gorchymyn newydd."

Addysgir ni i feithrin y cariad hwn at holl aelodau eglwys weledig Duw. Yn 2 *Cor.* ix. 14 llefara yr apostol am aelodau eglwysi ereill yn caru yr eglwys yn Corinth ar gyfrif y rhagorol ras Duw, yr hwn oedd ynddynt. Mae yr ystyriaeth fod y cariad hwn yn cael ei ddynodi yn *frawd*garwch, ac yn gariad brawdol, yn dangos ei fod yn gorphwys ar sail perthynas â'r frawdoliaeth; "o blegid yr hwn sydd yn caru yr hwn a genedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genedlwyd o hono;" 1 *Ioan* v. 1. Mae yn seiliedig ar fabwysiad y saint (*Mat.* xxiii. 9, 10); am mai trwy y weithred rasol hon y maent yn cael eu gwneyd yn frodyr i'w gilydd, ac yn aelodau o "dadogaeth Duw." Y mae yn un o rasau yr Ysbryd Glân—yn un o ffrwythau yr Ysbryd; o ba herwydd y mae yn fynych yn cael llefaru am dano yn gyssylltiedig â'r gras o ffydd yn Nghrist: *Philem.* 5; 1 *Ioan* iii. 23. Mae yn cael ei wahaniaethu oddi wrth gariad cyffredin—oddi wrth y cariad a orchymyn y ddeddf yn mhawb at ei gymydog—yn ei esampl a'i gynllun; "Cerwch eich gilydd megys y cerais i chwi;" *Ioan* xiii. 35.

Arddengys y cariad hwn ei hun mewn gweddïo dros ein gilydd (*Eph.* vi. 18); dwyn beichiau ein gilydd (*Gal.* vi. 2); cyd-ddwyn âg ereill (*Col.* iii. 13); ac annog a cheryddu mewn ysbryd addfwyn-der (*Diar.* xxvii. 5, 6). Cynnyrcha yn y meddwl y teimladau o dosturi a chydymdeimlad; llawenycha yn llwyddiant ereill; a chenedla amynedd, hiroddefgarwch, ymhyfrydiad, a pharodrwydd i ddyoddef tros y brodyr.

Mae y cariad hwn yn cael ei wanychu gan hunan-gariad anghymmedrol, ymlyniad gormodol wrth y byd presennol, cynnydd chwantau yn y galon, a diofalwch o barth i'w sail—sef ein hawl yn y mabwysiad.

Rhai o achlysuron ei ddirywiad ydynt—wahaniaethau mewn barn ac ymarferiad mewn pethau crefyddol; annhebygrwydd mewn tymmer a thueddiadau naturiol; parodrwydd i roddi a derbyn tramgwydd; camarferiad o ddoniau ysbrydol, trwy falchder ar y naill law, ac eiddigedd a chenfigen ar y llaw arall; ac ymgais am drärglwyddiaeth—yr hyn sydd yn dra anghydweddol â'r drychfeddwl am eglwys Dduw fel brawdoliaeth. Gwel GORCHYMYN NEWYDD.

BRAWDLE—OEDD, [*brawd—lle*]: lle i chwilio i achos, ac i weinyddu barn. Y mae yn gyfieithiad o *bema*, yr hwn a arwydda yn gyntaf, cam, lle troed; *Act.* vii. 5: gris, neu unrhyw le uchel, megys pulpud, esgynlawr; *Nehem.* viii. 4: eisteddle dyrchafedig, megys gorsedd; *Act.* xii. 21: yn fwy mynych, gorseddfainc i weinyddu barn oddiarni; *Mat.* xxvii. 19; *Ioan* xix. 13; *Act.* xviii. 12, 16, 17; xxv. 6, 10, 17; *Rhuf.* xiv. 10;

Digitized by Google

2 *Cor.* v. 10. Y mae *brawdleoedd* yn gyfleithiad hefyd o'r gair *kriterion*=rheol barn, gorseddfainc barn, neu lys barn: *Iago* ii. 6.

BRAWDOLIAETH DUW: plaid grefyddol o benboethiaid, a sefydlwyd yn y deuddegfed canrif, gan frodor o Guienne, yr hwn a honai ei fod wedi derbyn dadguddiadau gan Grist a'r Forwyn Fair. Eu hamcan addefedig oedd, sefydlu cydraddoldeb yn mhlith dynion, diddymu pob llywodraeth, ac adferu y rhyddid cyntaf a fwynhäai dynolryw. Ymgynnullodd llawer o offeiriaid a baroniaid yn Pug, a gwnaethant lw, nid yn unig y gwnaent gymmod â'u holl elynion, ond hefyd y gwnaent ymosodiad ar bawb a ommeddent roddi eu harfau i lawr, ac ymheddychu â'u caseion. Mynent adferu heddwch cyffredinol, felly, trwy rym arfau. Gelwid y blaid hon, hefyd, wrth yr enw *Caputiati* (Capwyr), am y gwisgai yr aelodau gap gwyn, âg arno ddelw blwm o'r Forwyn. Ni pharhaodd ond dros dymmor byr; ond arferwyd yr enw *Caputiati* am ganlynwyr Wicliff, am y gwnaent dynu eu capiau o anrhydedd i orymdaith yr offeren.

BRAWDWR—WYR, [*brawd—gwr*]: barnwr =un yn barnu achosion rhwng brodyr. Yn *Ruth* i. 1, arwydda "brawdwyr" yr un peth a barnwyr Israel: *Esa.* iii. 2. Gwel BARNWYR.

BRAZIL. Gwlad eang iawn yn America Ddeheuol, yn cynnwys yr oll o'r gwastadedd anhysbys a ddyfrheir gan yr afonydd mawrion Amazon a'i changenau, yn mesur dros 2,700,000 o filltiroedd ysgwâr, ac felly tri ar ddeg o weithiau gymmaint a Ffrainc, neu ddwy ran o dair o holl Ewrop, ac yn cynnwys saith miliwn o drigolion. Y mae ei helaethrwydd yn ei dwyn i gyffyrddiad â holl wledydd y cyfandir hwnw, ond Patagonia a Chili, ac yn cael ei hamgylchu ganddynt o bob tu ond y dwyreiniol, yr hwn a derfynir gan Fôr y Werydd. Nid yw un hanner o honi yn amgen na choedwig anferth o filiwn a hanner o filltiroedd o faintioli, yn cael ei phreswylio yn gwbl, oddi eithr glanau yr afonydd, gan seirff a gwyllt-filod ereill. Y wlad hon, fel gwledydd ereill America, hyd tua'r flwyddyn 1500, a breswylid yn unig gan ei chynfrodorion Indiaidd; pan, mewn canlyniad i ddarganfyddiadau Columbus yn Ngogledd America, a Vasco de Gama yn India y Dwyrain, y danfonodd brenin Portugal lynges fawr allan, dan ofal Pedro Alvares de Cabral, ar fordaith o ymchwiliad. Wedi hwylio am ysbaid tua'r de-orllewin, yn dra annysgwyliadwy, yn y degfed lledred deheuol, canfuasant dir—y tir hwn oedd Brazil; a chymmerasant feddiant o hono yn enw brenin Portugal; yr hwn, mewn canlyniad, a anfonodd Amerigo Vespucci i wneuthur ymchwiliad manylach o'r wlad newydd. Wedi iddo ddychwelyd, cyhoeddodd ddysgrifiad yn nghyd â darlun o honi, yr hyn a fu'n achlysur i'r holl gyfandir gael ei alw ar ei enw ef *America*. Dygodd gydag ef lwythi o goed lliwio gwerthfawr, o liw coch; y Portugeaid a'i galwent *coed Brazil*=coed coch; a'r canlyniad a fu, galwasant y wlad *Brazil*, oddi wrth liw y coed. Rhanodd brenin Portugal y wlad rhwng deg neu ddeuddeg o bendefigion, tua 50,000 o filltiroedd ysgwâr i bob un, y rhai, trwy orchest a phrygl mawr, a adeiladasant amryw drefydd, a chychwynasant amryw sefydliadau; ond buan y cawsant allan fod eu cyfoeth personol hwy yn rhy fychan i'r fath orchwyl. Yn y flwyddyn 1549, gosododd lywydd ar y wlad, fel trefedigaeth yn perthyn i Portugal; a thrwy greulondeb annysgrifiadwy y dyfethwyd y cynfrodorion, neu eu gyrwyd i'r coedwigoedd mewnol. Yn y flwyddyn 1555, ymsefydlodd trefedigaeth o Brotestaniaid o Ffrainc ar ynys ger llaw cilfach Janeiro, y rhai, trwy gryn orchest, a ymlidiwyd ymaith gan y Portugeaid yn 1565; ac mewn canlyniad, sylfaenwyd y dref Rio Janeiro. Ond tua diwedd yr unfed canrif ar bymtheg, a dechreu yr eilfed ar bymtheg, bu agos iddynt golli eu hawl o honi yn llwyr. Pan yr unwyd Portugal âg Yspaen, gelynion y wlad olaf, yn benaf y Prydeiniaid a'r Isellmyn, a orchfygasant ei galluoedd milwraidd, ac a gymmerasant y rhan fwyaf o'i threfydd. Ond pan wahanwyd Portugal ac Yspaen (1660), gwnaed heddwch rhwng y gwledydd hyn, a rhoddwyd yn ôl ol ffrwyth y buddugoliaethau. Yn nechreu y deunawfed canrif, cafwyd fod y wlad mewn amryw fanau yn gyfoethog o fwngloddiau aur—diamwnt, topez, haiarn, &c.—yr hyn a barodd i'r llywodraeth symmud y weinyddiaeth o Bahia i Rio Janeiro (1773). Nid yw y wlad fras hon hyd yma wedi cyrhaedd yr amaethyddiaeth a'r boblogaeth ag a allesid ddysgwyl i drefedigaeth wedi ei sefydlu er's dau cant a hanner o flyneddoedd. Nid oes yn bresennol un ran o hanner cant o honi dan driniaeth. Y prif rwystrau ydynt, fod cyfranau rhy fawrion—100, ac weithiau 200, o filltiroedd ysgwâr—yn cael eu penodi i bob un, a rhy ychydig o weithwyr wedi ymfudo ar gyfer y tirfeddiannwyr, yn nghyd â bod rheolau ei thrafnidiaeth wedi cyfyngu y fasnach â Phortugal yn unig. Dygodd hyn, fel y gellid dysgwyl, anfoddlonrwydd mawr yn mhlith y masnachwyr; a phan ennillodd yr Unol Daleithiau eu hannibyniaeth, dechreuodd preswylwyr Brazil amcanu at yr unrhyw gyfnewidiad; yr hwn a gyrhaeddasant yn mron heb ryfel na thywallt gwaed. Gwrthryfelasant yn erbyn y llywodraeth, ac mewn canlyniad, cyhoeddwyd Brazil yn wlad annibynol, a dewiswyd Pedro, mab brenin Portugal, yn ymherawdwr (1822). Sefydlwyd y goron yn etifeddol; — y gallu llywodraethol i fod mewn dau dŷ o senedd; y naill i gael ei ddewis gan y brenin, a'r llall gan y bobl;—Pabyddiaeth yn grefydd y wladwriaeth, a bod *goddefiad* i Gristionogion ereill, ond nid i adeiladu addoldai na chynnal gwasanaeth cyhoeddus. Cydnabyddwyd annibyniaeth Brazil gan frenin Portugal yn 1825. Dosbarthwyd y wlad i ddeunaw o daleithiau: y rhai dwyreiniol yw y mwyaf poblogaidd, eithr y mae yr Indiaid yn dra lluosog yno; ond y maent yn meddiannu canolbarth y wlad yn ddiwrthwynebiad. Tyfir yno goffi, sugr, cotwm, tybaco, cocoa, a manioc, yn nghyd â'r coed mahogany, logwood, Brazil wood, a rosewood, i helaethrwydd; ac yn y gwastad-diroedd digoed ceir gyrau aruthrol o anifeiliaid, lluoedd o ba rai a leddir er mwyn eu crwyn yn unig. Y mae Brazil yn danfon allan chwaneg o'i chynnyrch nag un wlad arall Americanaidd, oddi eithr yr Unol Daleithiau. Gwna fwy na hanner ei masnach yn Rio Janeiro, yr hon a gynnwys dros 200,000 o drigolion. Er pob cynghrair â'r wlad hon, bernir fod tua 80,000 o negroaid yn cael eu dwyn iddi yn gaethion yn flyneddol; ac ni chynnwys lai, o gwbl, na thair miliwn a hanner o honynt. O ran manteision naturiol, gallasai y wlad hon fod, yn mhob ystyr yn mron, yn un o brif wledydd y byd; a thebyg y buasai hefyd, oni bai iddi hi, fel llawer o wledydd ereill, syrthio yn ysglyfaeth i Babyddiaeth. Yn yr oll o'r cyf-

Digitized by Google

andir mawr deheuol, Guiana, Patagonia, a Tierra del Fuego, yn unig sydd yn agored fel maes cenadol. Y Feibl Gymdeithas yn unig sydd yn amcanu efengyleiddio y gwledydd ereill, drwy ymdrechu taenu yr Ysgrythyrau ynddynt. Yn y flwyddyn 1550, am y tro cyntaf, tiriodd rhyw nifer o Jesuitiaid yn y wlad; ac yn 1568 y ffurfiwyd yn Lisbon, Y Gymdeithas i Ddychwelyd yr Anwariaid. Y Jesuitiaid a dramwyasant y coedwigoedd i chwilio am yr Indiaid a yrwyd yno gan y trefedigion, i'r dyben i'w cyrchu yn ol i'r meusydd, yn yr hwn amcan y buont yn dra llwyddiannus; a than arolygiaeth y blaenaf, dechreuasant lanhau a gwrteithio y tir, a dysgasant weithio amrywiol fathau o gelfyddydau. Llwyddodd y Jesuitiaid i'w cadw rhag ymgymmysgu â'u gorthrymwyr creulawn, y trefedigion, yn nghyd âg i gyfryngu rhyngddynt a'r llywodraeth; a llwyddasant i gael ganddi gydnabod y dalaeth Jesuitaidd yn dalaeth eglwysig (*ecclesiastical state*). Fel hyn y cyfododd yno dalaeth flodeuog, a chyrhaeddodd radd hynod o berffeithrwydd mewn amaethyddiaeth a chelfyddyd; yn gymmaint felly fel ag i'w galluogi i ddwyn yn mlaen drafnidiaeth eang mewn cynnyrch naturiol a gweithfaol o bob math. Safai y dalaeth hon rhwng y ddwy afon, Parana a Paraguay; a chafodd ei galw wrth yr enw, "Paradwys y Byd Newydd." Mewn ysbaid ychydig o flyneddoedd, casglwyd 150,000 o'r Guaraniaid (*Guaranis*), pobl naturiol a dyoddefgar, o fod yn grwydriaid dros holl Brazil i ugain o bentrefydd mawrion; yn nghyd â 75,000 o'r Tapes i saith o'r cyfryw bentrefydd. Yr holl boblogaeth hon, yn nghyd â'r holl lwythi a ymostyngent i'r llywodraeth Jesuitaidd, a orfodid i siarad yr un iaith, sef y Guaranaidd; ond nid oedd y dychweliadau crefyddol hyn ddim yn amgen na darostyngiadau gwladol; canys yr oedd gan y goresgynwyr hyn lu mawr o Indiaid milwraidd, nid llai medd hanesion na 300,000, i'w cynnorthwyo i ddwyn yn mlaen "ryfeloedd Duw." Yr oedd ganddynt weithfaoedd arfau a magnelau. Pan fyddai eisieu chwaneg o filwyr, neu weithwyr, danfonent allan eu byddinoedd i *ddal eneidiau;* hyny yw, i wneyd caethion, y rhai a osodent i wneuthur y gorchwylion angenrheidiol. Mewn amser, daeth träarglwyddiaeth y Jesuitiaid yn annyoddefol hyd yn oed i'r trefedigion a'r llywodraeth, ond yn enwedig i'r Indiaid; a'r genadaeth hon, yn y diwedd, a fu yn un o'r prif achosion i'r pab lwyr ddifodi yr urdd Jesuitaidd (1767). Penodwyd llywyddion ar y sefydliadau yn eu lle; ond nis gallai pob math o addewidion a wnaed iddynt eu hudo i aros yn y sefydliad—gadawsant y pentrefydd oll ar unwaith. Y mae chwyldroadau diweddarach wedi bod yn foddion i ddifodi y Guaraniaid yn llwyr o fod yn genedl. Yn nhalaeth Matto Grossa=y goedwig gyntefig fawr—y wlad lle y tardd y Paraguay, yr oedd tri ar ddeg a deugain o lwythi ac ieithoedd Indiaidd wedi eu darostwng ganddynt. Y Cabreaid oedd y llwyth mwyaf gogleddol yr amcanodd y Jesuitiaid eu gwareiddio; ond buont yn hollol aflwyddiannus, a pharhánt hyd y dydd hwn hyd yn oed yn fwytawyr dynion. Y mae yn nghanolbarth Brazil eto lawer o lwythi anwaraidd a chreulawn, megys y Potokudiaid, Koroadiaid, Koragiaid, a'r Puriaid, i gyd o liw cinnamon, o faintioli bychan, â thrwynau llydain a gwefusau tewion, yn cael eu cau i fyny mewn tywyllwch a barbareidd-dra gan gyfreithiau Pabyddol y wlad. Y mae y cwbl a ellir ei ddychymygu am fywyd anwaraidd, ac am eithafoedd darostyngiad y natur ddynol, i'w ganfod yn y trueiniaid annedwydd hyn. Anffurfiant eu hwynebau trwy wisgo darn o bren o fodfeddi o dryfesur yn y glust a'r wefus isaf. Ond er yr holl ddifrod a wnaed arnynt, yn filoedd a miliynau, ac yn llwythi cyfain, gan yr Yspaeniaid a'r Portugeaid, trwy bob math o greulonderau, cawn eto fod yn y wlad eang hon rifedi dirfawr o honynt, yn ngafael y fath waethaf o gaethiwed moesol a gwladol, yn galw yn uchel ar wledydd cred, "Deuwch drosodd, a chynnorthwywch ni." Gan nad oes, fel y crybwyllwyd, sefydliadau nac ymdrechion cenadol diweddar yn y wlad hon i'w cofnodi, rhoddwn dalfyriad byr o'r amcaniaeth a wnaed yn yr unfed canrif ar bymtheg i ddanfon cenadau iddi: ac er na bu yr ymdrech hwnw yn un llwyddiannus, dyddorol fydd sylwi ar symmudiadau yr anturiaeth; ac yn fwy arbenig, gan mai hon oedd y genadaeth gyntaf o eiddo y Protestaniaid. Cyfeiriwyd eisoes at sefydliad o eiddo y Ffrancod ar ynys ger liaw Rio Janeiro: cawn yn awr roddi hanes manylach o sefydliad a dygiad yn mlaen y drefedigaeth yn ei chyssylltiad â'r mater dan sylw. Tua chanol yr unfed canrif ar bymtheg, Nicholas Durand de Villegagnon, islyngesydd o Lydaw, yn Ffrainc, a benderfynodd ymfudo i Brazil, gan gymmeryd arno ei fod am sefydlu trefedigaeth Ffrengig, yn benaf er mwyn parotoi noddfa i Brotestaniaid, y rhai, y pryd hwnw, oeddynt dan erlidigaeth dost. Tiriodd, yn nghyd â'r ymfudwyr a'i canlynent, yn Brazil yn 1555. Cymmerodd feddiant o'r ynys grybwylledig, ac a adeiladodd amddiffynfa arni. Danfonodd lythyr at eglwys a gweinidogion Geneva, i erfyn arnynt ddanfon iddo genadau a allent ddysgu i'r Indiaid ffordd iachawdwriaeth, y rhai yn llawen a ddanfonasant Richer a Chartier, yn nghyd â deuddeg o grefftwyr. Cyrhaeddasant yno yn Mawrth, 1556, a derbyniwyd hwy gan Villegagnon yn siriol. Ond efe a ddechreuodd drawdurdodi arnynt yn fuan, a chyfodi gwrthddadleuon yn nghylch yr athrawiaeth Brotestanaidd. Danfonodd genad i Ewrop, ac yn benodol at Calvin, i ofyn eglurhad chwanegol ar y pynciau dadleuol; ond y diwedd fu, i'r cenadau, ar ol dyoddef llawer o greulonder oddi wrtho, ei adael, a myned i drigo, neu yn hytrach i ymguddio ar y Cyfandir; a phan gawsant gyfle, cymmerasant long i ddychwelyd i'w gwlad enedigol. Ond ni feiddiai y llywydd eu cymmeryd yn ol i Ffrainc, heb genad Villegagnon, yr hwn oedd yn cymmeryd arno yr awdurdod o raglywydd (*viceroy*). Caniataodd iddynt fyned, ar yr ammod i'r cadben gymmeryd gydag ef lythyrgod glöedig, a'i chyflwyno yn glöedig i'r ustus heddwch cyntaf a gaffai ar gyffiniau Ffrainc; ond cyn hwylio 50 milltir oddi wrth y tir, cafwyd allan fod y llong yn y fath sefyllfa, mai prin yr oedd yn ddiogel iddynt fentro croesi y môr ynddi. Mewn canlyniad, pump o'r Protestaniaid a ddychwelasant mewn cwch; ac yn mhen pum niwrnod cyrhaeddasant y lan, a chawsant dderbyniad croesawus gan yr Indiaid anwaraidd. Ond tybiasant mai doethach iddynt oedd myned yn eu hol at y rhaglaw Ffrengig; yr hwn, gan gymmeryd arno iddynt ddychwelyd i ddybenion drwg, a ddechreuodd feddwl am eu rhoddi i farwolaeth. Tynodd allan restr o erthyglau y grefydd Babaidd, a gorchymynodd iddynt ysgrifenu eu syniadau arnynt mewn ysgrifen. Tri o'r brodyr a wnaethant felly; ond cymmerwyd hwy i ddaiardŷ dan y cyhuddiad o fod yn hereticiaid, a thaflwyd hwy gan

Digitized by Google

y dienyddwr dros graig i'r môr. Y llong, beth bynag, ar ol dyfod trwy beryglon mawr, a dirioddd yn ddiogel yn Ffraingc, yn Mai, 1558. Y llythyr-gôd a gynnwysai gofnodiad o archwiliad barnol; yr hwn a gondemniai y Protestaniaid, druain, i'w llosgi fel hereticiaid. Fel yr oedd goreu y modd, syrthiodd y llythyr-gôd i ddwylaw swyddog; yr hwn, yn lle gwneyd sylw o hono, a gynnorthwyodd y teithwyr, hyd y medrai, i gyrhaedd adref yn ddiogel. Fel hyn y diweddodd ymdrechion cenhadol cyntaf yr eglwys genhadol.

Ni a roddwn yma fanylion pellach a diweddarach am y wlad gyfoethog hon.

Y mae y deyrnas fawr hon yn mesur yn awr (1890) 3,287,964 mill. pet., a'i phoblogaeth tua 14,000,000. Yn ol hyn, nid ydyw y Deyrnas Gyfunol yn llawn un ran o chwech-ar-hugain o honi; tra yr oedd ein poblogaeth ni (35,241,482) yn 1881 agos gymmaint deirgwaith a'i phoblogaeth hi. Ychydig dros 4 o bersonau sydd yno ar bob milldir petryal; tra yr oedd yma (yn 1881) 290 ar bob un; yn Germany, 217; yn Italy, 247; Ffraingc, 180; India Brydeinig, 210; Holland, 312; Belgium, 480; yr Unol Dalaethau, 14; Canada, 1; Awstralia, 1; ac America Ddeheuol, 3.

Ei Rhaniadau.—Rhenir y wlad, yn ol rhai haneswyr, i ugain o dalaethau, fel y gwelir isod. Rhenir hi i un-ar-hugain yn ol eraill:—y rhai a gyfrifant Porto Seguro fel talaeth ar ei phen ei hun. Dosberthir y cwbl i dair adran:—7 yn y Gogledd, 9 ar y tu dwyreiniol, a 4 yn rhan lewnol y wlad. Ni a roddwn yma eu henwau, eu mesurau, a'u prif drefi:—

Taleithau.	Mill. Pet	Prif drefi.
Amazonas ...	753,439 ...	Manaos.
Para	412,441 ...	Parà, *neu* Belem.
Maranhäo.. ...	141,645 ...	Maranhäo.
Piauhy	81,776 ...	Oeiras.
Cearà	50,260 ...	Aracati.
Rio Grande do Norte	20,129 ...	Natal.
Parahyba... ...	20,341 ...	Parahyba.
Pernambuco ...	46,255 ...	Recife, Per'buco.
Alagoas	11,641 ...	Porto Calvo.
Sergipe	12,038 ...	Sergipe.
Bahia	204,794 ...	Bahia.
Espirito Santo ...	17,029 ...	Victoria.
Rio de Janeiro ...	18,489 ...	Rio de Janeiro.
Santa Catharina ...	18,923 ...	Desterro.
Rio Grande do Sul..	110,211 ...	Porto Alegre.
Minas Geraes ...	237,472 ...	Ouro Preto.
Matto Grosso ...	668,625 ...	Cuyaba.
Goyaz	263,362 ...	Goyaz.
Paranà	108,556 ...	Curitiba.
San Paulo.. ...	90,537 ...	San Paulo.

Arwynebedd.—Y mae y wlad wedi ei rhanu bron yn gyfartal rhwng ucheldiroedd ac iseldiroedd. Yn ffurfio yr iseldiroedd y mae yr holl wastadedd anferth sydd o bobtu y ddwy afon fawr, yr Amazon a'r Paranà: ac y maent yn ymestyn dros y rhanau gogleddol a gorllewinol o'r ymherodraeth. Y mae yr ucheldiroedd yn ymestyn dros yr hanner dwyreiniol yn mron. Y prif fynyddoedd ydynt Sierra do Espinhaco, Sierra da Tabatinga, a'r Cordillera Grande—uchder mwyaf pa rai sydd o 6,000 i 7,000 troedfedd.

Hinsawdd.—Haf parhaus, yn mron, sydd yn teyrnasu yno. Ar yr arfordir gogledd-ddwyreiniol, ac ar hyd dyffryn yr Amazon, y mae ni yn hynod o boeth, a'r awyr yn llaith. Er hyny, nid ydyw mor anhawdd dygymmod â hwynt ag yn yr un lledredau yn nghyfandir Affrica. Yn Maranhäo, y mae 280 modfedd o wlaw yn disgyn yn flynyddol. Ar y tiroedd uchel, y mae hi gryn lawer yn oerach; ac y mae swm y gwlaw a ddisgyna yno gryn lawer yn llai. Mewn rhai rhanau o honynt, nid oes dim gwlaw, o'r braidd un amser, yn disgyn.

Cynnyrchion.—Y mae Brazil yn hynod am ei mŵnau gwerthfawr. Yn nesaf at Peru a Mexico, y mae mwy o aur wedi ei gael oddi yno nag o unrhyw wlad arall. Yn nhywod yr afonydd, yn enwedig yn ngwely y San Francisco, y ceir ef fwyaf. Y mae yno hefyd arian, efydd, haiarn, halen, creig-risial ardderchog, a meini gwerthfawr eraill; a dywedir fod mwngloddiau adamant y talaethau mewnol yn fwy cyfoethog nag unrhyw fwngloddiau o'r fath sydd o fewn y byd. Y mae fforestydd Brazil, yn marn llawer, y tu hwnt i eiddo unrhyw wlad arall sydd ar wyneb y ddaear. Y maent yn cynnyrchu y coed mwyaf gwerthfawr a hardd, a phlanhigion meddygol, gludiau, &c. Tyfir yno hefyd ŷd India, gwenith, reis, ffa, sugr, coffi, cotwm, a thybaco.

Amaethyddiaeth.—Y gelfyddyd amaethyddol, nid ydyw ond yn ei babandod yno. Nid oes ond tuag un ran o bob cant a hanner o'r wlad dan driniaeth; a hyny yn unig ar yr arfordiroedd, glanau yr afonydd, a'r ardaloedd a elwir Minas Geraes a Matto Grosso, lle y codir mŵnau. Y mae y porfeydd yn helaeth, a gyroedd anferth o wartheg gwylltion yn crwydro dros y tiroedd; y rhai a leddir er mwyn eu crwyn a'u cyrn yn unig: a gadewir eu cig i'r bwystfilod a'r adar ysglyfaethus. Y mae yn y wlad nifer anferth o anifeiliaid adnabyddus i ni yn y wlad hon—yn benaf gwartheg corniog, a cheffylau.

Hanesiaeth.—Darganfyddwyd Brazil yn gwbl ddamweiniol gan ŵr o'r enw Pedro Alvarez Cabral, yn y fl. 1501; a threfedigaethau o Bortugiaid a aethant iddi yn gyntaf. Yn y fl. 1808, gwnaeth y brenin Ioan VI., o Portugal, ei drigfa yn y wlad; ac yn 1815, cyfansoddodd hi yn deyrnas mewn cyssylltiad â Phortugal. Ond yn 1822, cyhoeddodd y wlad hono ei hun yn Ymherodraeth Annibynol o dan Dom Pedro—yr hwn a ffurfiodd gyfansoddiad iddi gyda dau dŷ o senedd.

Y 15fed o Dachwedd diweddaf (1889), cymmerodd chwyldröad le; a chyhoeddwyd y wlad yn weriniaeth. Ar y dydd hwnw cyflwynwyd rhybudd i'r ymherawdwr i ymadael o'r wlad; a chafodd ei arwain ar fwrdd agerlong, a'i anfon oddi yno i Ewrop. Gwnaeth ei gartref yn Portugal. A'r dydd uchod, cyhoeddwyd fod y ffurf flaenorol o lywodraeth yn terfynu y pryd hwnw; a bod y wlad yn ymffurfio yn Weriniaeth, o dan yr enw 'Gweriniaeth Unol Dalaethau Brazil.' Ni chollwyd dyferyn o waed ar y pryd; ac y mae'n debygol mai dyma y chwyldroad mawr mwyaf heddychol y ceir ei hanes yn mysg gwledydd y byd. Yr oedd yr arweinwyr yn llwyr argyhoeddedig fod 'brenhiniaeth' yn anghymmhwys i'r byd newydd: a chan fod y ffurf werinol o lywodraeth wedi bod mor lwyddiannus ar y rhan ogleddol o'r cyfandir, y gallai fod lawn mor lwyddiannus yn y rhanau deheuol. Ac os bernir yr ymherawdwr oddi wrth ei barodrwydd i dderbyn y cyfnewidiad, yr oedd yntau o'r un farn. Ffurfiwyd llywodraeth yn ddioed ar gynllun Unol Dalaethau yr America, o dan lywydd o'r enw Deodoro da Fonseca; ac aeth pob peth yn mlaen drwy yr holl wlad o hyny allan fel o'r blaen.

Digitized by Google

Aeth y swyddogion ymherodrol yn werinwyr; a pharhaodd cenhadon y deyrnas mewn gwledydd tramor i wasanaethu y weriniaeth. Derbyniodd y galluoedd tramor y cyfnewidiad heb unrhyw wrthwynebiad; ac y mae yn dra thebygol y bydd y wlad yn fwy llwyddiannus dan y drefn newydd nag y bu erioed cyn hyn.

Poblogaeth.—Nid yw ei phoblogaeth ond tua 14,000,000; a'r rhan fwyaf ydynt o waedoliaeth gymmysgedig. Y mae tua 1,000,000 o Indiaid gwylltion, a thylwythau anwareiddiedig eraill, yn rhanau mewnol y wlad.

Masnach, &c.—Yn 1888, yr oedd 5,281 o filldiroedd o ffyrdd haiarn yn agored, ac 869 o filldiroedd yn cael eu gwneyd. Derbyniadau y llywodraeth oddi wrth y trethi, yn 1889, oedd tua 15,052,900*p.*, a'r treuliadau tua 16,679,800*p.* Holl ddadforion y wlad, yn y flwyddyn yn diweddu 1886, oedd 20,738,248*p.*; a'r allforion yn yr un flwyddyn yn 23,246,520*p.* Derbyniwyd o'r Deyrnas Gyfunol, yn 1888, werth 6,565,661*p.*; ac allforiwyd oddi yno yma, yn yr un flwyddyn, werth 5,206,899*p.*

Prifddinas y wlad ydyw Rio de Janeiro, poblogaeth yr hon sydd tua 350,000.

BAXTER, WILLIAM. Ieithyddwr galluog ydoedd; a dywedir ei fod yn nai ac yn etifedd i Richard Baxter, yr Anghydffurfiwr a'r duwinydd enwog. Yn Llanllugan, yn Maldwyn, yr oedd ei rïeni yn preswylio. Pobl barchus, ond tlodion, oeddynt. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1650. Pan yn ddeunaw oed, cafodd ei anfon i ysgol Harrow; ac nid oedd, meddir, yn deall gair o unrhyw iaith y pryd hyny ond y Gymraeg. Gwnaeth y goreu o'r manteision oedd ganddo, a daeth yn ŵr enwog fel ieithydd, ac fel llenor. Hynafiaethau ac ieithoedd oedd ei feusydd neilluol ef. Ysgrifenodd amryw o lyfrau yn y cylchoedd hyn o lenyddiaeth. Heb law amryw o weithiau o'i eiddo ei hun, golygodd a gwnaeth nodiadau ar amryw o lyfrau clasurol eraill. Yr oedd efe yn deall cyfansoddiad y Gymraeg a'r Wyddelaeg yn rhagorol; a'r Groeg a'r Lladin hefyd; ac amryw ieithoedd eraill. Byddai yn gohebu â gwŷr dysgedicaf ei oes—yn enwedig gyda'i gydwladwr Edward Llwyd. Bu yn cadw ysgol yn Tottenham, yn Middlesex; a chafodd ei ddewis ar ol hyny yn athraw ar y *Mercers' School* yn Llundain. Bu farw yn Mai, 1723, yn 73ain mlwydd oed.

BELI, mab hynaf Dyfnwal Moelmud. Ar farwolaeth ei dad, bu cryn ymryson rhwng Beli a Brân, ei frawd, ynghylch y frenhiniaeth. Trwy gynghorion y pendefigion, daethant i heddwch â'u gilydd, a rhanwyd y deyrnas rhyngddynt.

BENLLI GAWR. Yr oedd efe yn arglwydd ar dalaeth eang sydd yn cyfansoddi rhanau o siroedd Fflint a Dinbych yn bresennol. O ddeutu canol y bummed ganrif y bu fyw. Ychydig o flynyddoedd yn ol, darganfyddwyd gwasgrwym aur yn agos i'r Wyddgrug, o dan garnedd geryg a elwir Bryn yr Ellyllon. Wrth gloddio yn ddyfnach, cafodd y gweithwyr benglog o faintioli mawr, ac esgyrn morddwydydd dyn a ymddangosai yn anferthol o gryf. Ar ei fynwes yr oedd gwasgrwym, wedi ei oreuro drosto â dau neu dri chant o baderau, wedi eu gweithio yn arddechog, yn cael eu croesi â math o waith ysnodenog o aur pur, tua thair troedfedd a saith modfedd o hyd; yr hwn a osodid, dybygid, o amgylch y breichiau, ac yna i gyfarfod ar ganol y cefn. Yr oedd yn pwyso dwy wns ar bymtheg, ac yn werth tua thrigain punt. Y mae yn awr yn yr Amgueddfa Frytanaidd.

Yn ol Dr. Owen Pughe, gweddillion Benlli Gawr oeddynt. Dywed efe fod yn rhaid ei fod yn byw wedi i'r Rhufeiniaid adael y wlad; neu, y buasai y corph yn debyg o gael ei losgi. A phe buasai fyw yn nechreu y seithfed ganrif, neu ar ol hyny, y buasai wedi ei gladdu o fewn rhyw eglwys neu gilydd. Tybir, gan hyny, ei fod yn byw tua'r flwyddyn 500.

Yr oedd efe yn preswylio mewn lle a elwid Moel Benlli, yn ngolwg yr Wyddgrug ar un tu, ac yn ngolwg Dyffryn Clwyd ar y tu arall. Y mae beddrod ei fab, Benlli, yn mynwent Llanarmon-yn-Iâl.

BEVAN, THOMAS. Ganwyd ef yn ardal y Neuaddlwyd, yn sir Aberteifi. Cafodd yr ardal hon yr anrhydedd o anfon y ddau genad Protestanaidd cyntaf i Madagascar. Dafydd Jones oedd enw y llall. Cawsant eu hanfon ar draul Cymdeithas Genhadol Llundain. Gadawsant y wlad hon am faes eu llafur yn niwedd 1817; a chyrhaeddasant y Mauritius yn gynnar yn y gwanwyn canlynol. Yr oedd y ddau yn briod; ond pan gychwynasant allan, gadawsant eu gwragedd, a phlentyn bob un, ar ol yn y wlad hon. Cawsant dderbyniad croesawus gan frenin y wlad—enw yr hwn oedd Fisatra; a chawsant yr anrhydedd hefyd o fod yn athrawon i fab y brenin, a nifer o blant eraill. Bu Mr. Bevan farw, a'i deulu, a gwraig a theulu Mr. David Jones, yn y flwyddyn 1818; ac efe yn unig a adawyd, a'i iechyd wedi ei ammharu yn fawr.

BLEDDYN AB CYNFYN. Tywysog Gwynedd, ar farwolaeth ei hanner brawd, Gruffydd ab Llywelyn; yr hyn a ddigwyddodd tua 1066 B. A. Cafodd Rhiwallawn, ei frawd, dywysogaeth Powys yr un amser. Lladdwyd Rhiwallawn mewn brwydr; a daeth Powys ar ol hyny i feddiant Bleddyn. Dywedir fod Bleddyn yn dywysog rhinweddol, cyfiawn, ac uniawn; a'i fod yn hael a chymmwynasgar. Amddiffynai gyfreithiau y wlad, ac adgyweiriai ddefodau y beirdd. Cafodd ei lofruddio, yn 1073 B. A., gan Rhys ab Owain ab Edwin o Fanaw, yn cael ei gynnorthwyo gan liaws o bendefigion Ystrad Tywi a Brycheiniog. Digwyddodd hyn trwy gweryl cyfrinachol a gymmerodd le yn Nghastell Powys.

BLEDDYN DDU. Bardd a flodeuai tua 1090 B. A. Yn y 'Llyfr Coch o Hergest,' ceir dau gywydd o'i eiddo:—'I Dduw,' ac i 'Abad Aberconwy.' Gwel y *Myfyrian Archaiology.*

BLEDDYN FARDD. Blagurai rhwng 1250 a 1290 B. A. Yr oedd yn fardd gorchestol; ac, wrth ei swydd, yn fardd i 'Llywelyn ein Llyw Olaf.' Ceir tri ar ddeg o'i gyfansoddiadau yn y *Myfyrian Archaiology.*

BLEIDDYD, brenin Prydain, yr hwn a ddilynodd ei dad, Rhun Paladfras. Dechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 839 c.c., a theyrnasodd am ugain mlynedd. Efe oedd y gŵr a adeiladodd Caerfaddon (*Bath*). Y mae amryw o hanesion digrifol am dano; sef, iddo, trwy aberthu i'r dduwies Minerva, gynneu tân ammifioddadwy

Digitized by Google

yno; yr hwn, pan yr ymddangosai fel ar ddiffodd, a ail gynneuai yn belleni o dân; a thrwy hyny, iddo wneyd dwfr cynhes i fod yn feddyginiaeth barhaus i gleifion! Yr oedd efe yn hynod hefyd am ei ymchwiliadau gwyddonol; a dywedir iddo gario ei ddyfeisiau celfyddydol allan mor bell nes ceisio ehedeg, â phâr o adenydd o'i gynlluniad ei hun; ond iddo syrthio ar deml Apollo, yn Llundain, a chael ei ddryllio yn gant o ddarnau! Cafodd ei ddilyn gan ei fab Llyr—neu Lear, fel y ceir ei enw yn ngwaith Shakespeare.

BREICHLED, [*braich—lled*]: breichwisg—addurn neu dlws am y fraich neu y goes. Arferir y gair i ddynodi addurn y rhan uchaf o'r fraich, ac addurn yr arddwrn. Gwisgir yr addurniadau hyn yn ngwledydd y dwyrain; sef, addurn yr arddwrn yn gyffredin gan ferched; ac addurn y fraich gan ddynion yn unig. Ond ni wisgir ef gan ddynion, ond fel un o arwyddion awdurdod. Mae y gair *breichled* yn cael ei arfer am dri o eiriau Hebraeg gwahanol—1. אצעדה=*etsadah*, yr hwn a ddygwydda yn *Num.* xxxi. 50; 2 *Sam.* i. 10: a chan yr arferir y gair mewn cyfeiriad at wrywaid yn unig, gellir casglu mai addurn y fraich y mae yn ddynodi. 2. צמיד=*tsamid*, a ddygwydda yn *Gen.* xxiv. 22; *Num.* xxxi. 50; *Ezec.* xvi. 11. Pan y mae y ddau air hyn yn dygwydd yn yr un fan, cyfleithir y cyntaf, "cadwyn," a'r diweddaf, "breichled:" *Num.* xxxi. 50. 3. שריה=*shiryah*, a geir yn *Esa.* iii. 19.

Barna Kitto mai breichled a wisgid gan wrywaid yn unig ydyw y cyntaf; mai addurn a arferid gan fenywod, ac weithiau gan wrywaid, ydyw yr ail; ac mai rhyw addurndlws cadwynog, heb fod mewn arferiad cyffredin, a wisgid yn unig gan fenywod, ydyw y diweddaf. Y mae "cadwynau a breichledau," yn *Num.* xxxi. 50, yn arwyddo rhai y ddau ryw, ac yn rhoddi lle i dybied fod y gwŷr yn offrymu eu breichledau eu hunain, ac eiddo eu gwragedd. Yn yr unig le arall y ceir y gair cyntaf o'r tri, arwydda yr addurn breninol a gymmerodd yr Amaleciad oddi ar fraich corff marw Saul; ac y mae yn lled sicr mai addurn tebyg ydoedd i'r un a wisgir yn bresennol gan freninoedd yn y dwyrain. Y breichledau mwyaf drudfawr ac addurnedig, ydyw y rhai a wisgir gan freninoedd Persia ac India; gemau y rhai ydynt mor fawrion a gwerthfawr, fel y cyfrifir fod pâr o'r breichledau hyn yn werth miliwn o'n harian ni.

Y mae gwerth y breichledau cyffredin yn amrywio yn fawr yn ol sefyllfa y rhai a'u gwisgant; ond ystyrir fod rhai o ryw fath yn well na bod



Dar. 135.

heb un. Yn mysg y dosbarth uchaf, byddent wedi eu gwneyd o berlau, neu aur, neu arian; ond gwisgai y tlodion rai o ddefnyddiau llawer mwy cyffredin, megys pres, neu ddur. Diammheu eu bod yn fawrion a thrymion, fel y gellir gweled oddi wrth y breichledau a roddodd Eliazar, gwas Abraham, i Rebecca, y rhai a bwysent ddeg sicl.

BREINIOL [*braint*]: bod yn feddiannol ar fraint; rhydd. Tir breiniol = tir diardreth. *Act.* xxii. 28.

BRENIN, BRENINIAETH. Ni pherthynai breninoedd i gyfansoddiad gwladwriaethol yr Hebreaid hyd nes y terfynodd llywodraeth y barnwyr gyda Samuel. Yn ol cyfansoddiad Moses, yr oedd yr Israeliaid yn meddu llywodraeth rydd dan Iehofah fel eu pen, yr hyn a elwir Dwyf-lywodraeth (*Theocracy*). Yr anghraifft cyntaf o gyfansoddiad cymmysg ydyw—yn cynnwys y ffurf unbenol, yn yr Arglwydd fel eu hunig frenin; yr elfen bendefigaidd, yn mhenau y llwythau a theuluoedd; a'r un werinol, yn nghydraddoldeb cyffredin rhagorfreintiau gwladol a chymdeithasol holl "gynnulleidfa Israel." Yn ei chyssylltiad â'r Arglwydd yr oedd yn hollol unbenol:—efe oedd unig ffynnonell cyfraith, rhwymedigaeth, a rhagorfraint; yn ol ei awdurdod ef y gosodid pob swyddog, ac iddo ef y cyflawnid pob dyledswydd. Ond yn eu perthynas â'u gilydd, yr oedd cyfartaledd cyffredinol. Nid ydym yn cael y syniad am frenin daiarol yn nghyfreithiau cyntaf Moses; ond rhoddir caniatâd ammodol yn ail adroddiad y gyfraith (*Deut.* xvii. 14, &c.) i'r bobl ddewis brenin—ond yn ol rheolau gosodedig. Yr ydoedd i gael ei ddewis gan Dduw, i fod yn Hebrëwr cynhenid, yn annibynol ar yr Aipht, ac i fod yn efrydydd manwl o'r gyfraith; gwaherddid ef hefyd i gasglu byddin sefydlog, yn enwedig o wyr meirch, yr hyn a'i temtiai i anymddiried yn yr Arglwydd, ac a allai fod yn foddion i ddarostwng rhyddid y deiliaid; ac ni chaniatëid iddo chwaith amlhau gwragedd yn ol arferiad y dwyrain. Diffyg cydymffurfiad â'r rheolau hyn a ddygodd drychineb ar frenin a deiliaid.

Achlysurodd y terfysg a'r annhrefn a ffynai yn fynych yn amser y barnwyr, ac a godai mewn rhan o'u hawdurdod anmhenderfynol hwy, yn nghyd â'r manteision a darddai o swyddogaeth Samuel, i'r bobl ddymuno brenin. Er fod Samuel yn wrthwynebol i'r dymuniad cyffredinol, am ei fod yn groes i egwyddor sylfaenol y llywodraeth, yr hon a gydnabyddai yr Arglwydd yn unig yn frenin, ac am yr ofnai y byddai hyny yn foddion i ddwyn llawer o ddrygau ar y bobl, trwy roddi gormod o awdurdod yn llaw yr un un, eto efe a gydsyniodd â'r cais, ac a drefnodd y parotoadau angenrheidiol i ethol canlynydd etifeddol iddo ei hun, yn ol ammodau y gyfraith: 1 *Sam.* viii, ix, x. Felly Saul a ddewiswyd yn frenin cyntaf ar Israel, wedi ei benodi gan yr Arglwydd, ac wedi ei ethol gan y bobl. Tynodd Samuel i fyny gyfraith neu ffurf y llywodraeth, yr hon a fabwysiadwyd, ac a gadwyd "ger bron yr Arglwydd," neu yn ysgrifdy y genedl: 1 *Sam.* x. 25. Nid oedd awdurdod y brenin ond gwan yn y dechreu; ymddibynai Saul i fesur mawr ar Samuel, i'r hwn yr oedd yn ddyledus fel offeryn am yr orsedd; a chyn bo hir, dan gyfarwyddyd y barnwr a'r prophwyd mawr hwn diswyddwyd ef drachefn, a gosodwyd Dafydd, yr hwn fuasai yn was yn ei lys, yn frenin yn ei le. Yr oedd yr anhawsderau ar ffordd Dafydd i gyrhaedd yr orsedd, er cael ei ethol—ymosodiadau gelynion oddi amgylch, ac ymraniadau yn ei deulu ei hun—yn attalfa ar ei ffordd i roddi yr egwyddor unbenol mewn gweithrediad cyflawn. Yn amser

Digitized by Google

Solomon ei fab a'i olynwr y cyrhaeddodd yr awdurdod breninol i'w fawredd a'i ogoniant uchaf yn ngwlad Palestina. Mor anghysson yr oedd â phurdeb a chydraddoldeb sefydliadau Moses sydd amlwg oddi wrth ddiweddiad tywyll teyrnasiad y brenin Solomon, yr hwn oedd yn wreiddyn llinach o freninoedd, y rhai, gyda breninoedd Israel, a lygrasant grefydd, a ranasant y bobl, ac yn ddiweddaf a ddygasant ddeng mlynedd a thrigain o gaethrglud ar yr holl genedl. Gyda Solomon y dechreuodd ac y diweddodd gogoniant breniniaeth Israel. Dan ei olynwr Rehoboam y cododd y deg llwyth mewn gwrthryfel, a gwnaethant Ieroboam yn frenin, gan adael i etifedd y goron ond llwythau Iudah a Beniamin gyda Ierusalem y brif ddinas. Yr oedd y gwrthwynebiad a'r casineb a gododd rhwng Israel yn y gogledd, a Iudah yn y deheu, yn caei eu trosglwyddo trwy ryfeloedd, hyd nes, trwy ddylanwad dyoddefiadau a chaethgludiad, y gwisgwyd ymaith achosion eu hymrafaelion, ac yr unwyd hwynt yn un genedl Iuddewig. Er nad oedd tiriogaeth a nifer Iudah ond bach, eto, gan ei bod yn meddu y brif ddinas, sef canolbwynt eu crefydd, a rhyw fanteision daiaryddol, a hefyd yn llai llygredig, cadwai uchafiaeth gyffredinol ar Israel: ond trwy ymrafaelion annaturiol parhaus, gwanhäent nerth eu gilydd, nes temtio cenedloedd gelynol i ymosod arnynt, ac o'r diwedd eu cymmeryd i gaethiwed. Yn Iudah yr oedd y goron yn parhau yn nheulu Dafydd, tra yr oedd yr olyniad breninol yn newid yn barhaus yn Israel, ac yn dwyn ei ganlyniadau chwerw gydag ef. Ni bu ond tri brenin ar deyrnas unedig Iudah ac Israel, sef Saul (*Act.* xiii. 21), Dafydd (1 *Bren.* ii. 11), a Solomon (1 *Bren.* ii. 12; xi. 42). Ni chydnabyddai Iudah Isboseth: 2 *Sam.* ii. 10. Tra y bu y deyrnas yn rhanedig, am ysbaid 250 o flyneddoedd, bu i Israel ugain o freninoedd—y rhan fwyaf o ba rai oeddynt yn ddrygionus. Ar Iudah, am ysbaid 400 o flyneddoedd, teyrnasodd ugain o freninoedd, y mwyafrif o ba rai oeddynt yn llai llygredig na breninoedd Israel.

Os edrychwn ar yr awdurdod freninol mewn gweithrediad yn mysg yr Hebreaid, ni a welwn fod yr hawl i'r orsedd yn cael ei benodi trwy brophwyd, yn ol ordeiniad dwyfol (1 *Sam.* ix. 17; x. 17—25; xiii. 14), ond nid fel ag i gau allan olyniad etifeddawl, er fod gan yr hwn fyddai yn teyrnasu ar y pryd ryw lais yn newisiad yr un oedd i'w ddilyn (1 *Bren.* ii. 2). Yn achlysurol gwnai y bobl eu hunain ddewisiad: 2 *Bren.* xxi. 24; xxiii. 30. Yn newisiad brenin yr oedd maintioli corff o bwys gan yr henafiaid (1 *Sam.* x. 23). Edrychent hefyd ar degwch pryd: 1 *Sam.* xvi. 12; *Ezec.* xxviii. 12; *Salm* xlv. 4:—hefyd yn *Homer* [*Iliad.* iii. 166; *Herod.* iii. 20, &c.]. Yn fynych, byddai sylfaenydd llinach breninol newydd yn rhoddi i farwolaeth aelodau yr hen deulu (1 *Bren.* xvi. 11; 2 *Bren.* x. 11, 17; xi. 1). Enciniwyd y breninoedd cyntaf—Saul (1 *Sam.* ix. 16; x. 1; xv. 1); Dafydd (1 *Sam.* xvi. 12; 2 *Sam.* ii. 4; v. 3); Solomon hefyd (1 *Bren.* i. 34, 39); Absalom yn anghyfreithlawn (2 *Sam.* xix. 10). Gwnaed hyn gan brophwydi, neu archoffeiriaid, neu benaethiaid y bobl. Darllenir hefyd am eneiniad Ioas, yr hwn a osododd yr offeiriaid ar yr orsedd yn lle Athaliah, gan yr hon nid oedd hawl i'r orsedd (2 *Bren.* xi. 12); am Ioahaz, yr hwn a ddyrchafwyd i'r orsedd gan y bobl (2 *Bren.* xxiii. 30); yn Iezreel hefyd, eneiniwyd Iehu, yr hwn oedd y cyntaf o'i linach ef (2 *Bren.* ix. 1—6). Felly nid oes genym hanes am eneiniad fel rheol gyffredin ond pan nad oedd yr hawl blaenorol i'r orsedd yn eglur neu yn rhydd oddi wrth ammheuaeth. Eto yr oedd "eneiniog yr Arglwydd," neu "eneiniog" yn ddynodiad cyffredin am lywydd cyfreithlawn, mewn iaith ddyrchafedig (1 *Sam.* ii. 10, 35; xvi. 6; xxiv. 6, 10; xxvi. 16, 23; 2 *Sam.* xxii. 51; *Salm* ii. 2; *Galar.* iv. 20, ac ereill). Nid oes dim yn benderfynol o barth i arferion ereill ar adeg esgyniad brenin i'w orsedd. Yr ydym yn cael, heblaw bloeddiadau y bobl (1 *Sam.* x. 24; 1 *Bren.* i. 25, 39; 2 *Bren.* ix. 13; xi. 12; 2 *Cron.* xxiii. 11), fod coroni (2 *Bren.* xi. 12); canu âg offer cerdd (1 *Bren.* i. 40); gwledda (1 *Bren.* i. 25); a marchogaeth ar anifail (1 *Bren.* i. 38), yn cael eu cryhwyll. Heb law gwisgoedd breninol o wychder mawr (*Act.* xii. 21), perthynai iddynt *goron* (2 *Sam.* i. 10; xii. 30; *Ezec.* xxi. 26), *teyrnwialen*, a *gorseddfainc*. Gwel y geiriau hyn. Ar y cyntaf, yr oedd arferion breninoedd Israel yn dra syml (1 *Sam.* xi. 5; 2 *Sam.* vi. 14); ac o ganlyniad yr oedd yn hawdd nesäu atynt (2 *Sam.* xviii. 4). Cospid bradwriaeth yn drwm âg alltudiaeth o'r llys, os byddai aelod o'r teulu breninol yn euog (2 *Sam.* xiv. 24); ond cospid ereill â marwolaeth (1 *Bren.* xxi. 10). Telid parch mawr iddynt; ymgrymai dynion hyd lawr yn eu presennoldeb (1 *Sam.* xxiv. 8; xxv. 23; 2 *Sam.* ix. 6; xviii. 28); gwnai gwraig y brenin felly (1 *Bren.* i. 16); disgynai dynion oddi ar eu hanifeiliaid wrth eu cyfarfod (1 *Sam.* xxv. 23); a chyfarchent hwy â'r geiriau, "bydd fyw frenin yn dragywydd" (*Dan.* 4; iii. 9). Dangosai breninoedd eu ffafr trwy roddion o arfau a gwisgoedd [gwel GWISGOEDD], a thrwy adael i'w deiliaid eistedd wrth eu byrddau (2 *Sam.* ix. 7; 1 *Bren.* ii. 7). Dangosent barch i'w gilydd trwy gyfnewid rhoddion (1 *Bren.* x. 2, 13; 2 *Bren.* xx. 12). Perthynai i ragorfreintiau y brenin gyhoeddi rhyfel a heddwch (1 *Sam.* xi. 7; xiv. 36); i arwain eu byddinoedd (1 *Sam.* viii. 20); gweinyddu barn (2 *Sam.* xv. 2); ac awdurdod i faddeu (2 *Sam.* xiv. 21, 33). Yr oedd terfynau eu hawdurdod yn codi o'u perthynas â'r henuriaid neu benau y llwythau (1 *Bren.* xii. 1, 4, 7; 2 *Bren.* xi. 17). Nid oedd ganddynt awdurdod i ymaflyd yn y swydd offeiriadol (2 *Cron.* xxvi. 16—18) ond gallent ffurfio mesurau o blaid crefydd (1 *Bren.* viii. 1; 2 *Bren.* xii. 4). Tarddai y cyllidau breninol, â pha rai y dygid ei costau, ac y cyfarfyddent bob gofynion angenrheidiol, o roddion y deiliaid yn Palestina, ac fel cydnabyddiaeth o ddibyniad o wledydd darostyngedig (1 *Sam.* x. 27; xvi. 20; 2 *Sam.* viii. 2, 10; 1 *Bren.* x. 25); oddi wrth ddegymau (1 *Sam.* viii. 15, 17); oddi wrth diriogaethau breninol, meusydd, gwinllanoedd, ac olewyddlanoedd (1 *Sam.* viii. 14; 1 *Cron.* xxvii. 25—31); trwy eiddo attafaeledig (1 *Bren.* xxi. 16; *Ezec.* xlvi. 18); oddi wrth ysbail rhyfel (2 *Sam.* iii. 22; viii. 7); oddi wrth deyrnged (2 *Sam.* viii. 2, 6; 1 *Bren.* iv. 21; 2 *Cron.* xvii. 11; 1 *Bren.* v. 13); ac oddi wrth dreth gyffredinol mewn amgylchiadau o gyfyngder (2 *Bren.* xxiii. 35). Oddi wrth y gwahanol ffyrdd hyn yr oedd cyllid blyneddol Solomon yn fawr dros ben (1 *Bren.* x. 14, 15); yr hwn a chwanegwyd trwy drafnidiaeth (*adn.* 22, 28), a thrwy wasanaeth y deiliaid (1 *Bren.* ix. 23). Amrywiai y cynnd a gwychder y llys ar wahanol adegau.

Fel yn perthyn i'r llys breninol, crybwyllir am y cofiadur (2 *Sam.* viii. 16; 2 *Bren.* xviii. 18), yr hwn oedd i gadw hanes am ddygwyddiadau y

Digitized by Google

deyrnas; am ysgrifenydd y deyrnas (2 *Sam.* viii. 17; xx. 15); y penllywydd neu y prif weinidog (2 *Sam.* xx. 26); y penteulu, neu yr hwn oedd ar y deyrnged (1 *Bren.* iv. 6; xviii. 3); ceidwad y dillad (2 *Bren.* x. 22); a'r pentrysorydd (1 *Cron.* xxvii. 25). Yn ddiweddarach yn hanes breniniaeth Israel, yr oedd i'r swyddogion, neu y dynion blaenaf yn y wladwriaeth, ddylanwad mawr. Yr oedd llys o ordderchadon (*harem*) yn perthyn i'r brenin, fel i freninoedd y dwyrain yn gyffredinol (2 *Sam.* v. 13; 1 *Bren.* xi. 1; 2 *Cron.* xi. 18, &c.), yr hwn a drosglwyddwyd i'w olynydd (2 *Sam.* xii. 8). Cedwid dydd genedigaeth y brenin, neu ddydd ei esgyniad i'r orsedd (*Hos.* vii. 5; *Mat.* xiv. 6; *Gen.* xl. 20). Yr oedd breninoedd Israel yn ymgymmysgu yn fwy yn mysg y bobl nag y byddai breninoedd ereill y dwyrain (*Esth.* i. 14; 2 *Sam.* xix. 8; 1 *Bren.* xx. 39; xxii. 10; 2 *Bren.* vi. 26; vii. 17); a siaradent yn bersonol â hwynt (1 *Bren.* xxi. 2). Ar ol eu marwolaeth claddwyd hwynt yn meddrod eu tadau—breninoedd Iudah yn Ierusalem (1 *Bren.* ii. 10; xi. 43; xiv. 31); ond y rhai drygionus o honynt a amddifadwyd o'r anrhydedd hwn (2 *Cron.* xxviii. 27). Yr oedd gwraig y brenin yn cael anrhydedd brenines; ac ar ol ei farwolaeth, parhäai i dderbyn yr un anrhydedd (1 *Bren.* xv. 13; 2 *Bren.* x. 13; *Ier.* xiii. 18; xxix. 2).

BRENINOEDD, LLYFRAU Y, (1af ac 2il). Y mae y llyfrau hyn yn cael eu henwi oddi wrth freninoedd Iudah ac Israel; hanes pa rai a adroddir ynddynt, o'r flwyddyn 1016 c. c. hyd 563 c. c.: neu o ddiwedd oes Dafydd hyd yr eilfed flwyddyn ar bymtheg ar ugain o'r caethgludiad i Babilon: 2 *Bren.* xxv. 27. Yr oedd dau Lyfr y Breninoedd, yn nghyd â'r ddau sydd ar enw Samuel, yn un llyfr ar y cyntaf. Y Deg a Thrigain a'u rhanasant, ac a alwasant lyfrau Samuel yn *gyntaf ac ail lyfr y freniniaeth* (*των Βασιλειων*; yn Hebraeg, *Malachim*), a'r ddau ereill yn *drydydd* a *phedwerydd*; ac felly y derbyniasant yr enw *Breninoedd.* Mae yr hanes yn y cyntaf yn ymestyn o ddiwedd teyrnasiad Dafydd hyd amser Iehoram ac Ahazïah—ysbaid 117 o flyneddoedd. Ei gynnwysiad ydyw, 1. Marwolaeth Dafydd a llywodraeth Solomon (*pen.* i.—xii.): hefyd penderfyniad doeth Solomon rhwng y ddwy fam (*pen.* iii.); gwychder a doethineb Solomon (*pen.* iv.); adeiladiad y deml (*pen.* vi.); trafnidiaeth (*pen.* ix., x.); brenines Seba (*pen.* x.); eilunaddoliaeth Solomon (*pen.* xi.); a rhaniad y deyrnas (*pen.* xii.). 2. Yna ceir hanes teyrnas Iudah ac Israel, yn enwedig yr olaf, hyd farwolaeth Ahab (*pen.* xiii.—xxii.); eilunaddoliaeth Israel, a'r prophwyd Elias (*pen.* xvii.—xix.); gwinllan Naboth, a drygioni Iezebel (*pen.* xxi.).

Cynnwysa yr ail lyfr ysbaid oddeutu 400 o flyneddoedd; hyny yw, o deyrnasiad Iehoram ac Ahazïah hyd yr amser y derbyniodd Iehoiachim well triniaeth yn Babilon. Yn 1af, ceir hanes y ddwy deyrnas, yn enwedig Israel, hyd amser ei chwymp (*pen.* i.—xvii.); gelwir sylw at Elias (*pen.* i. a ii.); gweithredoedd Eliseus (*pen.* iii.—viii.); y frenines Athaliah (*pen.* xi.); marwolaeth Eliseus (*pen.* xiii.); caethgludiad Samaria, a Hosea (*pen.* xvii.). 2il. Hanes Iudah yn unig hyd ddinystr Ierusalem, a'r eilfed flwyddyn ar bymtheg ar ugain o'r gaethglud (*pen.* xviii.—xxv.); dyfodiad Senacherib yn erbyn Iudah (*pen.* xviii. a xix.); aflechyd Hezeciah (*pen.* xx.); cael llyfr y gyfraith dan Iosïah (*pen.* xxii.); Nebuchodonozor yn ennill Ierusalem, ac yn caethgludo y bobl i Babilon dan Ioachim (*pen.* xxiv.); a dinystr Ierusalem a chaethgludiad y gweddill dan Nebuchodonozor (*pen.* xxv.).

Mae yr ysgrifeniadau hyn yn dilyn, o ran cynnwysiad, yr hanes a geir yn nau Lyfr Samuel; i ba rai y maent yn debyg o ran cynllun, amcan, a dull. Wrth y dangosiad uchod, gwelir eu bod yn cynnwys hanes cyfnod tra phwysig. Dilynir yr egwyddor amseryddol yn yr adroddiadau; a threfnir y defnyddiau o gwmpas y breninoedd fel prif wrthddrychau yr hanes. Y prif amcan mewn golwg ydyw dangos llaw Duw mewn rhagluniaeth, yn enwedig yn ei ofal am hiliogaeth Dafydd; a diwedda yr ail lyfr gyda marwolaeth Ioachin, yr olaf o dŷ Dafydd. Po fwyaf y dirywiai y breninoedd, y llygrai y bobl, ac y ffynai eilunaddoliaeth a choelgrefydd, amlaf oll yr ymddangosai y prophwydi, a mwyaf egniol eu hymdrechiadau, yn enwedig yn mreniniaeth Israel; o herwydd hyn y mae gweithrediadau y prophwydi yn ffurfio rhan fawr o gynnwysiad y llyfrau hyn: 1 *Cron.* xxix. 29; 2 *Cron.* xii. 15; xiii. 22. Rhoddir hefyd adroddiadau manwl o ddrygioni ystyfnig y bobl yn y deyrnas ogleddol, a chyfiawnder Duw yn eu cospi, yn benaf trwy y gaethglud i Babilon: 2 *Bren.* xvii. 13, &c. Mae y cyfan yn esboniad cywir a phriodol ar y prophwydoliaethau a draddodwyd i'r genedl gan Moses a Iosuah (*Lef.* xxiv.; *Deut.* iv. xxviii. xxix. xxx. xxxi. xxxii.; *Ios.* xxiii. 15, 16), ac yn arddangosiad amlwg o wirionedd y ddiareb, "cyflawnder a ddyrchafa genedl, a phechod pobl yw eu gwarth."

Yn yr hanesion hyn, edrychir ar y brenin, y wladwriaeth, a'r eglwys, yn eu perthynas â Duw fel eu llywydd, yn ol egwyddor y cyfansoddiad (dwyf-lywodraeth) a osodwyd i lawr gan Moses. Gosodir allan gymmeriad y brenin yn ol ei ffyddlondeb i ddyledswyddau crefyddol ei swydd; a gwneir hyn yn fynych trwy ddangos ei debygolrwydd i Dafydd, neu i Ieroboam fab Nebat, "yr hwn a wnaeth i Israel bechu." Dygir i mewn ddygwyddiadau gwladwriaethol neu genedlaethol i ddangos dylanwad ffyddlondeb i Dduw ar lwyddiant a chysur tymmorol. Y mae hyn yn gysson â'r dylanwad mawr a briodolai i'r prophwydi yn yr hanesion; o herwydd trwyddynt hwy yr oedd yr Arglwydd yn llefaru—weithiau i newid yr olyniad breniniol, i gyffroi y bobl, i wrthwynebu y breninoedd, neu i amddiffyn anrhydedd Iehofah.

Mai gyda yr amcan o osod allan lywodraeth Duw arnynt fel eu brenin yr ysgrifenwyd y llyfrau hyn, sydd amlwg oddi wrth—

1. Y lle mawr a roddir i hanes codiad y deml—preswylfa yr Arglwydd yn eu mysg. Ar y drugareddfa rhwng y cerubiaid yr oedd ei orseddfainc: hysbysir yn benodol am ei ddisgyniad i'w mysg: 1 *Bren.* v.—viii.

2. Y cyfeiriadau mynych sydd ynddynt at ddeddf Moses, a'u hanesion boreuol: 1 *Bren.* ii. 3; iii. 14; vi. 11, 12; viii. 58; 2 *Bren.* x. 31; xiv. 6; xvii. 13, 15, 37; xviii. 4—6; xxi. 1—8.

3. Defnyddir ymadroddion yn fynych sydd yn dangos llywodraeth yr Arglwydd: 1 *Bren.* xi. 31; xii. 15; xiii. 1, 2, 9; xx. 13, &c.

4. Cydnabyddir dylanwad dwyfol yn niswyddiad ac olyniad y breninoedd; 1 *Bren.* xiii. 34; xv. 4, 5, 29, 30; 2 *Bren.* xi. 17.

5. Canfyddir yn fynych gyfryngiad prophwydi yn enw yr Arglwydd ar rai amgylchiadau:—Nathan; 1 *Bren.* i. 45: Semaiah; 1 *Bren.* xii. 22. Ahïah; 1 *Bren.* xiv. 5—8: Iehu y prophwyd; 1 *Bren.* xvi. 1. Y mae cyfryngiad Elias i'w

Digitized by Google

ganfod trwy holl deyrnasiad Ahab ac Ahazīah: Micheah; 1 *Bren.* xxii. 8: Elisëus, dan deyrnasiad amryw o freninoedd: canfyddir dylanwad y prophwyd Esaiah; 2 *Bren.* xix. 20; xx. 16: a Huldah y brophwydes, dan lywodraeth Iosīah; 2 *Bren.* xxii. 14.

Y mae geiriau olaf yr ail lyfr, "holl ddyddiau ei einioes ef," sef Ioachin, yn gosod cyfansoddiad y llyfr, yn ei ffurf bresennol, o leiaf, ar ol marwolaeth y brenin hwnw. O ganlyniad, nis gallai diwedd Llyfr y Breninoedd gael ei gyfansoddi yn foreuach nag oddeutu 550 c. c. Dengys y geiriau sydd yn fynych yn nghorff y llyfrau, sef "hyd y dydd hwn," eu bod wedi eu rhoddi yn eu ffurf bresennol yn mhell ar ol y dygwyddiadau a adroddir (1 *Bren.* viii. 8; xii. 19; 2 *Bren.* ii. 22; viii. 22; xiv. 7; xvi. 6; xvii. 23, 34, 41). Ond ymddengys oddi wrth y dull y cymhwysir y geiriau hyn mewn gwahanol adnodau, iddynt gael eu hysgrifenu mewn amseroedd gwahanol. Rhaid fod 1 *Bren.* viii. 8, wedi ei ysgrifenu pan oedd y deml yn sefyll; ond nis gallesid ysgrifenu 2 *Bren.* xvii. 23, hyd yn mhell ar ol i Israel gael ei chaethgludo. Yn mhen pa faint o amser ar ol marwolaeth Ioachin, neu gan bwy, y gorphenwyd hwynt yn eu ffurf bresennol, nid oes seiliau digonol i benderfynu. Oddi wrth eu tebygolrwydd i Lyfrau Samuel, y mae rhai wedi meddwl y gallasent ddyfod i'w trefn orphenedig trwy offerynoliaeth yr un un. Yn 2 *Bren.* xxiv. 18—xxv. 21, 27—30, ceir geiriau bron yn hollol yr un fath ag yn *Ier.* lii; oddi wrth yr hyn y mae rhai wedi casglu mai y prophwyd hwnw oedd awdwr neu arolygwr y llyfr. Ond gallasai fod y ddau yn adysgrif o gopi blaenorol.

Fod y defnyddiau wedi eu cymmeryd o ysgrifeniadau helaethach a gasglwyd ac a gadwyd gan brophwydi blaenorol sydd amlwg (1 *Bren.* xi. 41; xiv. 19; xv. 31; xvi. 5, &c; 2 *Bren.* xv. 11, 21; xvi. 19, &c.). Yr oedd lluaws o ddynion cymhwys yn perthyn i lwyth Lefi, ac i ysgolion y prophwydi, i ysgrifenu hanesion cywir neu anffaeledig dan arweiniad dwyfol, o bob dygwyddiadau a gymmerent le. Fod Samuel a Nathan a Gad felly, fe ddywedir yn bendant: "Ac am weithredoedd cyntaf a diweddaf y brenin Dafydd, wele y maent yn ysgrifenedig yn ngeiriau Samuel y gweledydd, ac yn ngeiriau Nathan y prophwyd, ac yn ngeiriau Gad y gweledydd;" 1 *Cron.* xxix. 29. Yma fe grybwyllir am dri o haneswyr Iuddewig: am ddau o ba rai nid yw eu henwau wrth un o'r llyfrau sanctaidd sydd genym ni. Y mae anghreifftiau ereill cyffelyb (2 *Cron.* xii. 15; xiii. 22; xx. 34; xxvi. 22); lle y crybwyllir am Esaiah fel ysgrifenydd hanesion. Yn 2 *Cron.* xxxiii. 19, crybwyllir am eiriau ysgrifenedig y gweledyddion. Gwneir cyfeiriadau hefyd at lyfrau nad oeddynt, mae yn ddiau, yn llyfrau ysgrythyrol, megys "cronicl breninoedd Israel;" 1 *Bren.* xiv. 19. Ymddengys fod ysgrifeniadau amseryddol a gwladwriaethol ar gael heb law y rhai sydd yn y Beibl, eto yn ysgrifeniadau gwerthfawr. Ac mor bell ag y cyfeirir atynt yn yr Ysgrythyrau, rhaid eu hystyried yn adroddiadau cywir: yn y modd hyn y cyfeirir atynt yn 1 *Bren.* xv. 7; 2 *Cron.* xvi. 11; xxiv. 27; xxv. 26; xxvii. 7; xxviii. 26; xxxii. 32; xxxv. 27. Yr oedd Solomon ac Ezra hefyd yn ysgrifenwyr: yr oedd adysgrifwyr hefyd yn gystal ag ysgrifenwyr gwreiddiol—y cyfryw, er anghraifft, ag a ddefnyddiodd Hezecīah i gopīo Diarebion Solomon. Felly, er nas gellir dyweyd yn bendant pwy oedd awdwr Llyfrau y Breninoedd, gwelir fod digon o offerynoldeb cymhwys wrth law i'w hysgrifenu. Bod yr hanesion a gynnwysant wedi eu hysgrifenu yn wreiddiol gan rai oedd yn gydnabyddus â hwynt yn bersonol, sydd amlwg, oddi wrth y manylwch gyda pha un yr adroddir hwynt—hyd yn nod y geiriau a ddefnyddid; megys geiriau Nathan i Dafydd a Bathseba (1 *Bren.* i. 11—14; 24—27); geiriau Bathseba wrth Dafydd a Solomon (1 *Bren.* i. 17—21; ii. 19—24; gwel hefyd 2 *Bren.* xviii. 19—25; a xix. 15—19, &c). Rhoddir hefyd lythyrau (1 *Bren.* xxi. 8—11; 2 *Bren.* v. 6, 7; x. 2, 3, 6), ac areithiau prophwydol meithion (1 *Bren.* xi. 31—39; xiv. 6—16).

Y mae nodwedd y llyfrau hyn yn cyfateb i'r amseroedd a ddysgrifir ynddynt. Cymmerir yn ganiataol ynddynt fod ansawdd naturiol y wlad yn gyffelyb i'r hyn a ddysgrifir mewn hanesion boreuach. Y mae agwedd gymdeithasol y wlad yn gyffelyb, gydag ychydig o wahaniaeth graddau, yr hyn y buasai cyfnewidiad amgylchiad yn ei achosi. Yn amser Dafydd, ennillwyd cymmaint o diriogaethau newyddion ag a'i cododd i fawredd cyfateboli'r teyrnasoedd mwyaf. Dyrchafwyd hi yn amser teyrnasiad Solomon i lwyddiant a gwychder, fel y daeth yn wrthddrych parch cenedloedd cymmydogaethol. Yr oedd hyn oll yn codi yn naturiol o agwedd pethau fel y dysgrifir hwynt yn Samuel; ac mor naturiol trwy ddylanwad breninoedd drygionus, cynnyddodd eilunaddoliaeth a llygredigaeth, ymosodiad gelynion, a chaethgludiad y genedl. Y mae yr hanesion oll yn gwisgo gwedd o debygolrwydd; o herwydd rhaid fod y genedl wedi myned trwy gyfnewidiadau cyffelyb i'r rhai a ddysgrifir. Y mae y dôn o eirwiredd a gonestrwydd sydd yn rhedeg trwy y cwbl yn magu hyder. Yr oedd moddion gwybodaeth o fewn cyrhaedd yr ysgrifenydd, ac nid oedd yntau yn dymuno adrodd ond y gwirionedd. Y mae hyn oll yn amlwg yn ei ddidueddrwydd. Er y codir rhinweddau Solomon yn uchel, eto adroddir ei wrthgiliad a'i gwymp. Y mae gwrthryfel y deg llwyth yn cael ei ddangos yn drosedd yn erbyn tŷ Dafydd; ond ar yr un pryd yn cael ei achlysuro trwy ystyfnigrwydd Rehoboam.

Y mae cywirdeb hanesion y llyfrau hyn yn cael eu cadarnhau, gan Ail Lyfr Samuel, dau Lyfr Cronicl, y crynodeb a geir yn fynych o brif ffeithiau yr hanes Iuddewig, megys y nawfed bennod o Nehemīah, ac amryw Salmau hanesyddol—y ddeunawfed a thrigain, y bummed ar ol y ganfed, a'r chweched ar ol y ganfed—amddiffyniad Stephan, yn y seithfed bennod o'r Actau, ac araeth Paul yn y drydedd bennod ar ddeg; heb law y rhestr a rydd yn yr unfed bennod ar ddeg o'r Hebreaid o seintiau yr Hen Destament.

Nid yw eu nodweddiad yn ymddibynu ar ein gwybodaeth ni o'r offerynau dynol a'u cyfansoddodd, ond ar eu dwyfol awduriaeth. Profir hyn trwy y parch uchel oedd iddynt yn mysg yr Iuddewon—trwy gydsyniad Crist a'i apostolion, y rhai, y mae yn ddiau, a wnaethent yn hysbys i'w dysgyblion pe buasai y parch hwnw yn ddisail—trwy ardystiad pendant amryw ranau o'r Hen Destament, ac yn enwedig y Newydd—trwy gydsyniad Iuddewon a Christionogion ar hyn—a thrwy yr holl resymau a ddefnyddir i brofi fod yr Hen Destament yn ganonaidd [gwel CANON; BEIRNIADAETH Y BEIBL]. Rhoddir yma ychydig o'r profion hyn. Y mae ffeithiau y llyfrau hyn yn cael eu cymmeryd yn ganiataol yn holl lyfrau y prophwydi. Adroddir rhan fawr o honynt mewn cyssylltiad â phrophwydoliaethau Esaiah,

Digitized by Google

Ieremīah, ac Ezeciel. "A phan glybu brenines Seba glod Solomon, am enw yr Arglwydd, hi a ddaeth i'w brofi ef â chwestiynau caled;" 1 *Bren.* x. 1. "Brenines y deheu a gyfyd yn y farn..... am iddi hi ddyfod o eithafoedd y ddaiar i glywed doethineb Solomon;" *Mat.* xii. 42. "Ac Elias y Thesbiad, un o breswylwyr Gilead, a ddywedodd wrth Ahab, Fel y mae byw Arglwydd Dduw Israel, yr hwn yr ydwyf yn sefyll ger ei fron, ni bydd y blyneddoedd hyn na gwlith na gwlaw, ond yn ol fy ngair i;" 1 *Bren.* xvii. 1. "Elias oedd ddyn yn rhaid iddo ddyoddef fel ninnau, ac mewn gweddi efe a weddiodd na byddai wlaw: ac ni bu gwlaw ar y ddaiar dair blynedd a chwe mis. Ac efe a weddiodd drachefn; a'r nef a roddes wlaw;" *Iago* v. 17, 18. Y mae y rhai canlynol yn priodoli awdurdod Ysgrythyrol, mewn modd hollol benderfynol, i'r hanesion hyn. "O herwydd i feibion Israel wrthod dy gyfammod di, a distrywio dy allorau di, a lladd dy brophwydi â'r cleddyf: a mi fy hun a adawyd; a cheisio y maent ddwyn fy einioes innau." "A mi a adewais yn Israel saith o filoedd, y gliniau oll ni phlygasant i Baal, a phob genau ar nis cusanodd ef;" 1 *Bren.* xix. 10, 18. "Oni wyddoch chwi pa beth y mae yr Ysgrythyr yn ei ddywedyd am Elias? pa fodd y mae efe yn erfyn ar Dduw yn erbyn Israel, gan ddywedyd, O Arglwydd, hwy a laddasant dy brophwydi.....Eithr pa beth y mae ateb Duw yn ei ddywedyd wrtho? Mi a adewais i mi fy hun saith mil o wŷr, y rhai ni phlygasant eu gliniau i Baal;" *Rhuf.* xi. 2—4. "A'i gnawd a ddychwelodd fel cnawd dyn bach, ac efe a lanhawyd;" 2 *Bren.* v. 14. "A llawer o wahangleifion oedd yn Israel yn amser Eliseus y prophwyd; ac ni lanhawyd un o honynt, ond Naaman y Syriad;" *Luc* iv. 27. Gwel yn mhellach:—

1 *Bren.*	ii. 10	*Act.* ii. 29.
„	ii. 11	1 *Cron.* xxix. 26, 27.
„	ii. 12	„ xxix. 23.
„	ii. 46	2 *Cron.* i. 1.
„	iii. 9	„ i. 10.
„	iv. 26	„ ix. 25.
„	v. 2	„ ii. 3.
„	v. 5	1 *Cron.* xxii. 10.
„	vii. 21	2 *Cron.* iii. 17.
„	viii. 12	„ vi. 1.
„	viii. 22	„ vi. 12.
„	viii. 46	„ vi. 36.
		Preg. vii. 20.
		1 *Ioan* i. 8, 10.
„	viii. 62	2 *Cron.* vii. 4.
„	viii. 64	„ vii. 7.
„	ix. 1	„ vii. 11.
„	ix. 5	1 *Cron.* xxii. 10.
„	ix. 7	*Ier.* vii. 14.
„	ix. 8	„ xxii. 8.
„	ix. 10	2 *Cron.* viii. 1.
„	ix. 24	„ viii. 11.
„	x. 1	„ ix. 1.
		Luc xi. 31.
„	x. 12	2 *Cron.* ix. 10.
„	xi. 26	„ xiii. 6.
„	xi. 42	„ ix. 30.
„	xi. 43	*Mat.* i. 7.
„	xii. 1	2 *Cron.* x. 1.
„	xii. 22	„ xi. 2.
„	xiv. 10	2 *Bren.* ix. 8.
„	xiv. 21	2 *Cron.* xii. 13.
„	xv. 1	„ xiii. 1.
„	xv. 7	„ xiii. 3.
„	xv. 8	„ xiv. 1.
1 *Bren.*	xv. 13	2 *Cron.* xv. 16.
„	xv. 17	„ xvi. 1, &c.
„	xv. 18	„ xvi. 2.
„	xv. 24	*Mat.* i. 8.
„	xvii. 1	*Luc* iv. 25.
„	xvii. 9	„ iv. 26.
„	xix. 16	2 *Bren.* ix. 1, 2, 3.
		Luc iv. 27.
„	xxi. 21	2 *Bren.* ix. 8.
„	xxi. 23	„ ix. 36.
„	xxii. 2	2 *Cron.* xviii. 2.
„	xxii. 4	2 *Bren.* iii. 7.
„	xxii. 41	2 *Cron.* xx. 31.
2 *Bren.*	i. 10—12	*Luc* ix. 54.
„	iv. 1—8	„ iv. 25, 26.
„	vi. 16	2 *Cron.* xxxii. 7
„	viii. 16	„ xxi. 4.
„	viii. 24	„ xxii. 1.
„	xi. 1	„ xxii. 10.
„	xi. 4	„ xxiii. 1.
„	xii. 1	„ xxiv. 1.
„	xiv. 1	„ xxv. 1.
„	xiv. 6	*Ezec.* xviii. 20.
„	xiv. 19	2 *Cron.* xxv. 27.
„	xiv. 21	„ xxvi. 1.
„	xiv. 25	*Ionah* i. 1.
„	xv. 10	*Amos* vii. 9.
„	xv. 13	*Mat.* i. 8, 9.
„	xv. 19	1 *Cron.* v. 26, 27.
„	xvi. 1	2 *Cron.* xxviii. 1, &c.
„	xvii. 33	*Seph.* i. 5.
„	xviii. 1	2 *Cron.* xxviii. 27
		„ xxix. 1
		Mat. i. 9.
„	xviii. 13	2 *Cron.* xxxii. 1.
		Esa. xxxvi. 1.
„	xix. 1	„ xxxvii. 1.
„	xix. 35	„ xxxvii. 36.
„	xx. 1	2 *Cron.* xxxii. 24.
		Esa. xxxviii. 1.
„	xx. 11	„ xxxviii. 8.
„	xx. 12	„ xxxix. 1.
„	xx. 17	*Ier.* xxvii. 34.
„	xxi. 1	2 *Cron.* xxxiii. 1.
„	xxi. 4	*Ier.* xxxii. 34.
„	xxi. 9	„ xv. 4.
„	xxi. 18	2 *Cron.* xxxiii. 1.
„	xxi. 26	*Mat.* i. 10.
„	xxii. 1	2 *Cron.* xxxiv. 1.
„	xxiii. 1	„ xxxiv. 29.
„	xxiii. 21	„ xxxv. 1.
„	xxiii. 29	„ xxxv. 20.
„	xxiii. 30	„ xxxvi. 1.
„	xxiii. 34	*Mat.* i. 11.
„	xxiv. 10	*Dan.* i. 1.
„	xxiv. 13	*Esa.* xxxix. 6.
„	xxiv. 15	2 *Cron.* xxxvi. 10
		Esth. ii. 6.
„	xxiv. 17	*Ier.* xxxvii. 1.
„	xxiv. 18	„ lii. 1.
„	xxv. 1	„ xxxix. 1.
		„ lii. 4.
„	xxv. 3	„ lii. 6.
„	xxv. 13	„ xxvii. 22.
„	xxv. 17	„ lii. 21.
„	xxv. 22	„ xl. 7, &c.
„	xxv. 26	„ xli. 1, 2.

BRETHYN—AU, [*rhath*]: defnydd gwisgoedd, o wlan yn unig: *Num.* iv. 7. "Ni ddyd neb lain o frethyn newydd ar hen ddilledyn;" *Mat.* ix. 16. Nis gellir adnewyddu y natur ddynol trwy ddirgymhell arni ryw ymarferiadau.

Digitized by Google

Y mae rhyw ymddygiadau neillduol—megys ymprydiau, ymattaliad oddi wrth bleserau cyfreithlawn — yn derbyn eu holl bwysigrwydd a'u gwerth yn ol fel y byddont yn cyfodi oddi ar y tuedd dumewnol, ac yn gydweddol â holl fywyd y dyn. Gellir yn wir ddirgymhell diwygiadau ar ddynion, tra y mae nodwedd eu calon a'u buchedd yn aros heb ei chyfnewid. Ac ni wna rhan o'r bywyd ysbrydol, wedi ei wahanu megys oddi wrth yr holl fywyd, wedi dattod y cyssylltiad rhyngddo âg egwyddor y galon, effeithio yr un gwelliant gwirioneddol a pharhäus; ond yn hytrach, trwy ddiffyg cyfaddasder, fel llain o frethyn newydd ar hen ddilledyn, gwna y rhwyg yn fwy yn yr hen natur. Ac nis gall yr adnewyddiad a osodir ar natur, gan ryw gyfraith oddi allan fod yn amgen na rhagrithiol ac arwynebol.—(*Neander's Life of Christ.*)

BREUDDWYD—IO—ION, [*braidd*]: gweledigaeth mewn hûn; y delweddau a ffurfir gan y dychymyg pan y mae y synwyrau yn glöedig mewn cwsg; coeg-beth, gwael-beth, ffug, dychymygiad disail. Ychydig o bethau, y mae yn debyg, sydd â mwy o wahaniaeth barn wedi bod yn eu cylch nag athroniaeth breuddwydion. Y mae y dirgelwch sydd bob amser yn gyssylltiedig â gweithrediadau meddwl mewn undeb â chorff yn cael ei chwanegu yn fawr gan y neillduolrwydd o dan ba un y mae y naill a'r llall yn gweithredu mewn sefyllfa o gwsg. Yr oedd lluaws o wahanol farnau ar hyn yn mhlith yr henafiaid: tybiai Aristotle fod pob gwrthddrych o eiddo y synwyrau yn cynnyrchu argraff benodol ar yr enaid, yr hon sydd yn aros am beth amser wedi i'r gwrthddrych a'i cynnyrchodd gael ei symmud; ac mai yr argraff hon, trwy gael ei chanfod gan y gallu dirnadol (*perceptive*) mewn cwsg, sydd yn achlysuro y gwahanol ddelweddau a gyflwynant eu hunain i'r meddwl. Yn mhlith ysgrifenwyr Seisonig, y mae Baxter, yr hwn a ysgrifenodd yn helaeth ar hyn, yn barnu fod breuddwydion yn cael eu cymhell gan *ysbrydion gwahanol.* Dyma y farn a goleddid yn gyffredin yn y byd paganaidd, ac un a fu yn achlysur, y mae yn ddiau, mewn gwahanol oesoedd a gwleddydd, i lawer o dwyll ac ofergoeledd. [*Baxter's Essay on the Phenomenon of Dreaming;* cyf. ii., trydydd argraffiad, 1745.]

Y mae Dugald Stewart, wrth geisio egluro y pwnc o freuddwydion oddi ar ryw egwyddorion sefydlog, yn sylwi mai y gweithrediadau hyny o eiddo y meddwl ydynt sydd yn cael eu hattal mewn cwsg, ag ydynt yn dibynu ar yr *ewyllys:* nid am fod y gallu o ewyllysio yn cael ei attal, ond am fod yr ewyllys yn colli ei ddylanwad ar y galluoedd hyny o eiddo y meddwl, ac ar yr aelodau hyny o eiddo y corff, y rhai, pan yr ydym yn effro, sydd yn ddarostyngedig i'w hawdurdod. Cesglir oddi wrth hyn y gall ein holl weithrediadau meddyliol, y rhai ydynt yn annibynol ar yr ewyllys, barhau mewn cwsg; ac mai y gweithrediadau hyn—yn cael eu hamrywio yn ddiderfyn o herwydd attaliad gweithrediad yr ewyllys, —sydd yn cyfansoddi breuddwydion. Y mae yn canlyn oddi wrth hyn, yn 1af. Y gall olyniad ein meddyliau, mor bell ag y mae yn dibynu ar y cymdeithasiad, gael ei ddwyn yn mlaen mewn cwsg, trwy weithrediad yr un achosion anadnabyddus ag sydd yn ei gynnyrchu pan yr ydym yn effro: ac yn 2il. Fod yn rhaid i drefn ein meddyliau yn y ddwy ystâd hyn fod yn dra gwahanol, yn gymmaint a'i bod yn y naill yn ymddibynu yn hollol ac yn unig ar ddeddfau cymdeithasiad, ac yn y llall ar y deddfau hyny wedi eu cyssylltu â'n gweithrediadau gwirfoddol ein hunain. Os yw olyniad ein meddyliau gan hyny mewn cwsg yn cael ei reoli gan yr un deddfau cyffredinol o gymdeithasiad, i ba rai y mae yn ddarostyngedig pan yr ydym yn effro, ac os mai yr amgylchiadau sydd yn gwahaniaethu ein meddyliau pan yn cysgu oddi wrth ein meddyliau pan yn effro ydynt y rhai ag sydd o angenrheidrwydd yn cyfodi oddi ar attaliad gweithrediad yr *ewyllys*, gall hyn roddi cyfrif am y mesur anghywir a roddir genym ar *amser* pan yn breuddwydio. Y mae cyflymder meddwl yn gyfryw fel y gall llu o syniadau fyned heibio o'n blaen mewn tarawiad amrant, y rhai a gymmerant amser maith i'w traethu; a gellir dychymygu am amgylchiadau mewn ychydig eiliadau, y rhai a gymmerant ddyddiau i'w cyflawnu. Ond mewn cwsg y mae syniadau y meddwl yn cael eu camgymmeryd am sylweddau, ac felly gwelir ein bod yn mesur amser, nid yn ol y proflad sydd genym o gyflymder meddwl, ond yn ol ein proflad o'r amser gofynol i sylweddoli yr hyn a ddychymygir genym. [*Stewart's Elements of the Philosophy of the Human Mind;* td. 328—348.]

Ymddengys fod cyfatebiaeth cryf rhwng gwallgofrwydd a breuddwydio. Y mae Abercrombie yn sylwi mai y gwahaniaeth rhwng y ddwy ystâd ydyw, fod yr argraff gyfeiliornus yn y gyntaf, am ei bod yn barhaus, yn effeithio ar yr ymddygiad; tra, mewn breuddwyd, nad oes un dylanwad ar yr ymddygiad yn cael ei achosi, am fod y weledigaeth yn cael ei chwalu pan yr ydym yn deffro.

Y mae breuddwydion, dybygid, y rhan fynychaf, yn adymgorfforiad o feddyliau y rhai, mewn rhyw ffurf neu gilydd, ydynt wedi bod o'r blaen yn y meddwl. Darnau toredig ydynt o'n syniadau blaenorol, wedi eu hadgyfodi a'u dwyn yn annhrefnus at ein gilydd. Os torir hwynt ymaith oddi wrth y llinyn sydd yn eu cyssylltu, a'u cydio yn gymmysglyd â'u gilydd, y maent yn arddangos yn fynych gyssylltiadau hollol afresymol, ond y mae yr elfenau yn aros o hyd. Os, er anghraifft, y bydd unrhyw gynhyrfiad, megys poen, llycheden, &c., gyffroi peiriannau y golwg, tra y mae y rhai adfyfyriadol dan ddylanwad cwsg, y mae genym ymwybyddiaeth o wrthddrychau, lliwiau, neu seiniau yn cael eu cyflwyno i ni, fel pe byddai y peiriannau blaenaf yn cael eu cynhyrfu yn weithredol, trwy i'r cyfryw argraffiadau gael eu gwneuthur arnynt trwy gyfrwng y synwyrau allanol; tra yr ydym yn analluog i gywiro y twyll, am fod y gallu adfyfyriadol mewn ystad o gwsg, ac yr ydym yn tybied fod y golygfeydd a gyflwynir ger ein bron, neu y seiniau a glywir genym, yn bod yn wirioneddol. Y mae y diffyg hwn o gydweithrediad cyffredin rhwng gwahanol alluoedd y meddwl yn rhoddi cyfrif am nodwedd ysgaredig breuddwydion. Y mae y golygiad yma yn cael ei gadarnhau gan ffeithiau. Sonia Dr. Beattie am ddyn, yr hwn y gellid gwneuthur iddo freuddwydio unrhyw beth trwy sibrwd yn ei glust. Dywed Dr. Gregory am dano ei hun, ei fod unwaith, pan yn gorfod rhoddi potelaid o ddwfr poeth wrth ei draed wrth fyned i'r gwely, wedi breuddwydio ei fod yn dringo ar hyd ochr Mynydd Ætna, a'i fod yn teimlo gwres y ddaiar bron yn annyoddefol. Ceir hanes am bersonau ag yr oedd pothell (*blister*) wrth eu penau, yn breuddwydio fod nifer o Indiaid Gogledd America yn blingo eu penau. Mae

Digitized by Google

cysgu mewn ystafell fyglyd weithiau yn achosi breuddwydion am dŷ neu dref ar dân. Gall rhoddi blodeuyn peraroglus wrth ffroenau un pan yn cysgu beri iddo freuddwydio am rodio mewn gardd; gall sŵn pib (*flute*) gynnyrchu yn yr un a fyddo yn cysgu y gweledigaethau mwyaf pleserus.

Yr unig allu, dybygid, o eiddo y meddwl nad yw yn cael ei attal yn ei weithrediadau mewn breuddwydio, ydyw y dychymyg. Yr ydym yn fynych yn canfod y cof a'r farn weithiau yn gweithredu, ac weithiau heb fod. Rai prydiau, yr ydym yn cael ein hunain yn cydoesi gyda phersonau oeddynt yn byw oesoedd o'n blaen: yma y mae y cof yn gweithredu, ond y farn wedi ei dodi o'r neilldu. Yr ydym weithiau yn breuddwydio ein bod yn dwyn yn mlaen ymddyddan rheolaidd â chyfaill trancedig, ac nid ydym yn ymwybodol ei fod wedi marw; yma y mae y farn yn effro, ond y cof heb weithredu. Y mae yn bosibl fod y diffyg achlysurol hwn o gydweithrediad cysson a pharhaus holl alluoedd yr enaid yn angenrheidiol, ac yn ateb rhyw ddyben pwysig, er cadw y meddwl, ar y cyfan, yn y mantoledd hwnw rhwng ei wahanol gynneddfau ag sydd yn angenrheidiol tuag at eu gweithrediad grymus ac iachusol.

Telid sylw manwl ac ofergoelus i freuddwydion er oesoedd boreuaf y byd. Yr oedd y dwyreinwyr, ac yn enwedig yr Iuddewon, yn gwneuthur cyfrif mawr o honynt, ac yn arfer cyrchu am eglurhad arnynt at y rhai a gymmerent arnynt eu deongli. Gwelodd yr Arglwydd yn dda eu defnyddio i amlygu ei fwriadau, ac i ddangos i bersonau unigol yr hyn a ofynai oddi ar eu llaw, a rhoddodd hefyd allu i'w deongli: *Gen.* xx. 3—6; xxviii. 12—14; 1 *Sam.* xxviii. 6; *Dan.* ii; *Ioel* ii. 28. Ac os byddai i rywun freuddwydio breuddwyd hynod o darawiadol, ac un a ymddangosai yn llawn o ystyr, caniatëid iddo fyned at yr archoffeiriad i ymofyn am ei arwyddocâd. Ond y mae gwaharddiadau mynych yn cael eu rhoddi i dalu sylw i freuddwydion cyffredin, ac i ymgynghori â'r rhai a gymmerant arnynt allu eu deongli: *Deut.* xiii. 1—5; xviii. 9—14.

Defnyddiai yr Arglwydd freuddwydion yn fynych dan yr oruchwyliaeth gyntaf ar grefydd, pryd nad ydoedd dadguddiad ysgrifenedig, i amlygu ei ewyllys drwyddynt: *Iob* xxxiii. 14—16. Cwynai Saul am nad oedd Duw yn ei ateb "trwy freuddwydion." Ceisiai y gau brophwydi, weithiau, ddynwared hyn, ac y mae yr Arglwydd, drwy y prophwyd Ieremiah, yn eu condemnio am hyny; "Mi a glywais beth a ddywedodd y prophwydi sydd yn prophwydo celwydd yn fy enw, gan ddywedyd, Breuddwydiais, breuddwydiais. Pa hyd y bydd hyn yn nghalon y prophwydi sydd yn prophwydo celwydd? ïe, prophwydi hudoliaeth eu calon eu hunain ydynt. Y rhai sydd yn meddwl peri i'm pobl anghofio fy enw trwy eu breuddwydion a fynegant bob un i'w gymmydog; fel yr anghofiodd eu tadau fy enw, er mwyn Baal. Y prophwyd sydd â breuddwyd ganddo, myneged freuddwyd; a'r hwn y mae ganddo fy ngair, llefared fy ngair mewn gwirionedd: beth yw yr ûs wrth y gwenith? medd yr Arglwydd;" *Ier.* xxiii. 25—28.

Y mae y geiriau *breuddwyd* a *gweledigaeth* yn cael eu defnyddio, weithiau, yn ddiwahaniaeth (*Gen.* xlvi. 2; *Num.* xii. 6; *Iob* xx. 8; xxxiii. 14, 15; *Dan.* ii. 28; vii. 1); er eu bod mewn manau ereill yn ymddangos fel yn cael eu gwahaniaethu (*Ioel* ii. 28). Pan y defnyddir y geiriau mewn cyssylltiad â dadguddiad o'r ewyllys dwyfol, gall mai y gwahaniaeth yw, fod y wybodaeth yn y naill amgylchiad yn cael ei rhoddi i'r person pan yn cysgu, ac yn y llall pan yn effro. Mewn perthynas i weledigaeth yr apostol Paul (2 *Cor.* xii. 1, 2, 4), tybia rhai ei fod yn ammhëus ai nid oedd ei ysbryd wedi ei ryddhau o'r corff, a'i oddef i ymgymmysgu am ychydig â bodau nefol; canys rhaid i ni gofio nad yw ein holl syniadau ni am yr eangder a'r pellder rhwng y byd hwn a byd yr ysbrydoedd ond tra egwan ac anmherffaith. Weithiau, y mae dadguddiedigaethau gwyrthiol o ewyllys Duw yn cael eu galw yn weledigaethau: *Luc* i. 22; 1 *Sam.* iii. 15. Gwel GWELEDIGAETH.

Cyfeirir at freuddwydion yn fynych yn yr Ysgrythyrau fel pethau cyffredin. Dywed Iob, "Yna y'm brawychi â breuddwydion, ac y'm dychryni â gweledigaethau;" *Iob* vii. 14. Y mae y gŵr doeth yn egluro ffynnonell lluaws o honynt pan y dywed, "Canys breuddwyd a ddaw o drallod lawer;" *Preg.* v. 3: ac y mae yn darlunio nodweddiad y rhan fwyaf o honynt pan y chwanega,—"Canys mewn llaweroedd o freuddwydion y mae gwagedd;" *Preg.* v. 7.

Y mae yn ddiau fod y gallu i ddeongli breuddwydion yn ddawn oruchnaturiol, mor bell ag yr oedd y breuddwydion yn dwyn perthynas âg amgylchiadau dyfodol; o blegid y mae y rhai hyn o angenrheidrwydd yn anwybyddus i bawb ond i'r Trefnwr Goruchaf o honynt. Yr oedd Ioseph wedi ei ddysgu gan Dduw, fel y mae yn amlwg: *Gen.* xl. 5, 8; xli. 16: a Daniel yr un modd.

Yr oedd yn beth cysson â dybenion cyffredinol llenyddiaeth, yn gystal ag â'r eiddo ofergoeledd a thwyll, i freuddwydion, y rhai a roddasid yn wirioneddol i weision Duw, gael eu hefelychu mewn ffugweithiau gan ysgrifenwyr hen a diweddar. Fel hyn yr oedd breuddwydion dwyfol yn cael eu cyssylltu yn wastad â'r ffug-chwedlaeth (*mythology*) paganaidd; ac yr oedd hanesion, gwirioneddol a ffugiol, am ddadguddiadau mewn gweledigaethau, yn cael eu cydwâu â phob cyfansoddiad. Pa wybodaeth bynag ydoedd uwch law athroniaeth gyffredin yr amser, a ymhonai o fod wedi cael ei chyfranu trwy ysbrydoliaeth. Os rhybudd oedd i gael ei weinyddu, pa gyfrwng mor effeithiol a chyfarchiad cyfaill ymadawedig! Yr oedd y cyfryw beirianwaith yn hynod gyfaddas i weithiau o eiddo y dychymyg. Ac y mae barddoniaeth henafol, yn gystal a'r eiddo amserau diweddar, yn cael ei gwisgo i raddau helaeth â'i haddurniadau.

Ar ol y dadguddiad cyflawn sydd wedi ei wneuthur i ni o ewyllys Duw yn yr efengyl, y mae yn ddiau y gellir dywedyd, *fel rheol gyffredinol*, fod pob ymddiried mewn breuddwydion, fel mynegiadau o bethau dyfodol, yn rhyfygus a siomedig; a bod pob ymhoniad i'w deongli yn afresymol ac yn annuwiol. Ond er fod hyn yn gywir fel rheol, ymddengys nad yw pob math o freuddwydion eto yn bethau hollol ddiystyr a diamcan. Myn rhai fod y brophwydoliaeth yn *Ioel* ii. 28, lle y dywedir y byddai i'r "henuriaid weled breuddwydion"—yr hon, yn ol eglurhad yr apostol Pedr yn *Act.* ii. 17, sydd yn cyfeirio at ddylanwadau yr Ysbryd Glân—yn awgrymu nad oedd y dull hwn o ddadguddio meddwl Duw i ddynion i ddarfod *yn hollol* gyda'r oruchwyliaeth Iuddewig; ond y byddai iddo gael ei ddefnyddio yn achlysurol, ac i ateb rhyw ddybenion neilldaol o dan oruchwyliaeth yr efengyl. Defnyddir, i'r un dyben, freuddwyd Ioseph mewn perthynas i Mair (*Mat.* i. 20): a'r eiddo y doethion, gyda

Digitized by Google

golwg ar ddychwelyd at Herod (*Mat.* ii.): hefyd, yn *adn.* 13 a 19, y mae Ioseph yn cael ei gyfarwyddo i ffoi i'r Aipht gyda'r mab bychan. Nis gellir penderfynu a oedd rhyw awgrymiad dwyfol yn mreuddwyd gwraig Pilat, ai peidio. Pa fodd bynag, mae lluaws o ffeithiau ar gael mewn perthynas i freuddwydion pobl dduwiol mewn amseroedd diweddar; y rhai, wrth eu hystyried yn eu perthynas â'r amgylchiadau a'u dilynent bron yn uniongyrchol, sydd yn rhoddi sail gref i ni dybied, fod yr Arglwydd eto yn eu defnyddio pan y gwelo yn dda, fel moddion i gyflawnu trwyddynt amcanion ei ragluniaeth neillduol tuag at ei blant, ac i fod hefyd yn rhyw ddolen o gyssylltiad dirgelaidd rhwng yr anianol a'r ysbrydol, rhwng y byd hwn a'r byd anweledig.

Y mae dynion drygionus, a llu yr Assyriaid yn neillduol, yn cael eu cyffelybu i *freuddwyd;* y maent hwy a'u hiliogaeth yn y diwedd yn cael eu tori ymaith yn llwyr a disymmwth: *Iob* xx. 8; *Salm* lxxiii. 20; *Esa.* xxix. 7; xxxvii. 26. Yr oedd y genedl Iuddewig, pan y darfu i'r Arglwydd droi yn ol eu caethiwed, "fel rhai yn breuddwydio;" yr oedd y waredigaeth mor fawr ac annysgwyliadwy, fel mai prin yr oeddynt yn gallu perswadio eu hunain nad breuddwyd ydoedd: *Salm* cxxvi. 1. Yn *Iudas* viii, sonir am "freuddwydwyr yn halogi y cnawd;"—naill ai dynion halogedig yn byw mewn aflendid, neu gau athrawon yn bwrw allan eu daliadau fflaidd ac adgas.—(*Calmet, Brown, Kitto,* ac *Eadie's Bib. Dic.; Encycl. of Rel. Knowledge, &c.*)

BRIDGE, WILLIAM, A.C. Nid oes nemawr iawn o hanes y duwinydd galluog hwn ar gael. Bernir iddo gael ei eni yn rhywle yn swydd Caergrawnt, o ddeutu y flwyddyn 1600. Pan yn un mlwydd ar bymtheg oed, derbyniwyd ef i goleg Emmanuel, Caergrawnt; ac yn y chweched flwyddyn ar ugain o'i oed, graddiodd yn athraw yn y celfyddydau. Bu am rai blyneddoedd yn gymmrawd y coleg hwn, ac yn gweinidogaethu fel offeiriad mewn amryw fanau yn olynol. Tua'r flwyddyn 1636, gwaharddwyd ef i bregethu gan yr erlidiwr rhagfarnllyd hwnw, yr esgob Wren, o herwydd ei anghydffurfiaeth; ac er mwyn ei ddiogelwch, ffodd i Holland. Wedi sefydlu yn y wlad hono, bu am rai blyneddoedd yn gweinidogaethu yn Rotterdam, i'r eglwys annibynol Seisonig, mewn cyssylltiad â'r enwog Jeremiah Burroughs. Yn ysbaid ei arosiad yn Rotterdam, ymwrthododd â'i urddau esgobol, a neillduwyd ef i'r weinidogaeth yn ol trefn yr Annibynwyr, gan y Parch. Samuel Ward, B. D. Dychwelodd i Loegr yn 1642, yn amser y "senedd hir;" a bu yn traddodi amryw bregethau ar achlysuron nodedig o flaen y senedd hono. Yn mis Gorphenaf, 1650, pleidleisiodd y senedd gan punt y flwyddyn iddo at ei gynnaliaeth o drysorfa y llywodraeth. Ar adferiad Charles II., cafodd efe, fel miloedd ereill o'i frodyr anghydffurfiol, ei droi o'i fywoliaeth yn Yarmouth. Treuliodd weddill ei oes yn Clapham, ger llaw Llundain; a bernir mai efe ddarfu gasglu yr eglwys Annibynol yn y lle hwnw. Bu farw ar y 12fed o Fawrth, 1670. Yr oedd Mr. Bridge yn weinidog enwog a dylanwadol iawn, ac mewn parch mawr gan Oliver Cromwell, a llawer o brif ddynion y deyrnas, yn amser y werinlywodraeth. Cyhoeddwyd argraffiad cryno o'i holl weithiau yn 1845, mewn chwe chyfrol wythplyg, a gellir ei brynu yn rhad iawn. Y mae ei iaith yn drwsgl iawn, ond y mae ei dudalenau wedi eu britho â'r drychfeddyliau mwyaf efengylaidd, tarawiadol, a thlws. Y mae yr oll a ysgrifenodd yn wir deilwng o'r darlleniad mwyaf ystyriol.

BRIDGETIAID, neu BRIGITTIAID: ydoedd enw a roddid ar urdd grefyddol, oddi wrth St. Bridgit, neu Birgit, boneddiges o Sweden, yr hon oedd yn byw yn y pedwerydd canrif ar ddeg. Yr oedd eu rheolau yn lled debyg i'r eiddo Awstin. Proffesent hunan-ymwadiad mawr, marweiddiad y corff, a thlodi; nid oeddynt i feddiannu dim a allent ei alw yn eiddo iddynt eu hunain—dim cymmaint a dimai; nac i gyffwrdd âg arian mewn un modd. Ymledaenodd y blaid hon gryn lawer yn Sweden, yr Almaen, a'r Iseldiroedd. Nid ydym yn darllen ond am un mynachdy o Fridgetiaid yn Lloegr, yr hwn a adeiladwyd gan Harri v. yn y flwyddyn 1415, ar gyfer Richmond, yr hwn a elwir yn awr yn *Zion House.* Ymsefydlodd trigolion cyntaf y lle hwn, wedi y chwaliad, yn Lisbon.

BROCHWEL YSGYTHROG ab Cyngen, ab Cadell Deyrnllwg, brenin Teyrnllwg, sef y wlad tra Dyfrdwy a Hafren: efe a las (laddwyd) yn ngwaith Perllan Fangor (Bangor is y Coed), pan dored y gôr hono gan y paganiaid Seison. Tudfyl ferch Brychan Brycheiniog oedd gwraig Cyngen ab Cadell, a mam Brochwel. Nid yw Brochwel yn cael ei alw yn sant yn yr *Achau,* er y cyfarfyddir âg ef ynddynt yn bur fynych. Ystyrir ef yn hytrach fel cyff amryw o'r saint, ac fel cymmwynaswr hael a dewr iddynt, yn enwedig yn ngwaith Perllan Fangor. Pan aeth Aetholfryd (Ethelfrith), brenin y gogledd, trwy annogaeth Edelffled (Edelbert), brenin Caint, ac Awstin Fynach, yn erbyn Bangor Dunawd=Bangor is y Coed, i'w dinystrio, cyfarfu Brochwel Ysgythrog hwynt â chynnifer o'r Cymry ag a allodd gasglu yn nghyd ar rybudd mor fyr; ond o blegid bychander ei lu mewn cymhariaeth i nifer y gelynion, gorfu ar Frochwel gilio o'r maes, a gadael y mynachdy godidog, a'r holl saint oedd ynddo, yn ysglyfaeth i'r rhuthrgyrchwyr creulawn. Pa fodd bynag, nid hir y bu y gelynion heb eu tâl cyfiawn am eu creulondeb yn llofruddio cynnifer a "dau gant a mil o grefyddwyr" Bangor; canys daeth tywysogion Cymreig ereill yn gynnorthwy i Frochwel, cyn i'r gelyn fyned neppell o lanerch y gyflafan; ac efe a ymosododd ar Aetholfryd a'i lu, gan ladd dros fil o'r "paganiaid Seison" tra yn croesi yr afon Dyfrdwy yn agos i Fangor, lle y llofruddiasant hwythau y crefyddwyr diniweid ac anarfog. A chafodd Aetholfryd ei hun ei glwyfo; a phrin y gallodd ddianc â'i fywyd ganddo o afael ei orchfygwyr. Dygwyddodd hyn o gylch 607 B. A. Gwel BANGOR DUNAWD, dg. BANGOR; BRYCHAN.

BRODYR. Gwel BRAWD.

BRODYR A CHWIORYDD YR YSBRYD RHYDD: enw ar blaid luosog yn y trydydd canrif ar ddeg. Cymmerodd yr enw hwn oddi wrth eiriau Paul (*Rhuf.* viii. 2, 14), a myntumiai fod plant Duw yn gwbl ryddion oddi wrth y ddeddf—fod hyny yn gynnwysedig yn yr ymadrodd, "rhyddid meibion Duw." Gelwid hwy gan yr Ellmyn, Beghardiaid [gwel yr erthygl]; gan ereill, wrth yr enw dirmygus *Bicorni;* a chan y lluaws, *Turlipiaid.* Yr oedd eu hymddygiadau o'r fath fwyaf afreolaidd a gorwyllt. Rhedent o fan i fan, wedi ymwisgo yn y modd hynotaf,

Digitized by Google

gan gardota eu lluniaeth, gan lefain, a gwneyd yr oernadau mwyaf anhyfryd. Ymwrthodent gyda diystyrwch â phob math o lafur bydol, gan ei ystyried yn rhwystr i fyfyrdod duwiol. Dilynid hwy yn eu teithiau gan fenywod, â'r rhai yr oeddynt yn byw yn y modd mwyaf aflan. Dosbarthent draethodau yn mysg y bobl i argymhell eu hathrawiaeth iddynt; a chynnalient gyfarfoddydd yn y lleoedd mwyaf neillduedig. Yr oedd eu duwinyddiaeth o duedd gyfriniol ac Antinomaidd. Yr oedd eu golygiadau am Dduw yn cyfranogi o ysbryd Oldduwiaeth; barnent fod pob peth yn deilliaw o'r Duwdod, ac wedi eu bwriadu i ddychwelyd yn y diwedd i'w ffynnonell ddwyfol; mai rhanau o Dduw ydyw eneidiau rhesymol; ac mai Duw ydyw y bydysawd; y gall dyn trwy fyfyrdod ddyfod i'r fath undeb â'r Duwdod, fel y gellir ei ystyried yn fab Duw yn yr un ystyr a Christ. Oddi ar y diystyrwch a deimlent at bob peth allanol a gweledig, daethant i ddibrisio y sacramentau, ac ordinhadau yr efengyl, gan dybied nad oeddynt yn gymhwys i neb ymarfer â hwynt ond i blant yn unig. Dywed Mosheim, fod yn eu plith, ar y cwbl, rai dynion o dduwioldeb diammheuol. Yr oeddynt oll yn wrthwyneb i ofergoelion a chreulonderau Pabyddiaeth.

BRODYR A LLENORION Y BYWYD CYFFREDIN: cangen o urdd St. Awstin, y rhai a arganmolir am eu hymroddiad dros grefydd ac addysg, o ddeutu amser y Diwygiad Protestanaidd. Yr oeddynt yn cael eu parchu yn fawr yn Holland, a'r Almaen; ac yn cael eu rhanu yn ddau ddosbarth,—y Brodyr Anllythyrenog, a'r Brodyr Dysgedig neu Lenorion. Ymroddai y dosbarth cyntaf i lafur bydol; a'r diweddaf, i lenyddiaeth, ac addysgu yr ieuenctyd. Gelwid hwy yn fynych wrth yr enwau Beghardiaid a Lollardiaid.

BRODYR ANGELAIDD: a elwir hefyd yn Gichteliaid, oddi wrth John George Gichtel; a fu farw yn 1710. Yr oedd yn ddysgybl gwresog i Jacob Behmen, ac yn dra hoff o'i ysgrifeniadau. Argymhellai ei ganlynwyr i ymestyn yn y fuchedd hon at y perffeithrwydd na chyrhaeddir ond mewn ystâd ysbrydol—sef, bod "fel angelion Duw, heb wreica na gwra;" o herwydd pa ham y cymmerasant yr enw "brodyr angelaidd." Ni buont erioed ond distadl, ac ychydig o rifedi.

BRODYR BOHEMIAIDD: enw plaid Gristionogol a gyfododd yn Bohemia, yn nghylch canol y pymthegfed canrif, o weddill canlynwyr John Huss. Gan deimlo yn anfoddlawn ar y nesâd a wneid at Babyddiaeth, gwrthodasant yr erthyglau o gytundeb a dynwyd rhwng y Calixtiniaid a Chynghor Basle, yn Tach. 30, 1433; a dechreuasant, yn 1457, ffurflo eu hunain yn blwyfydd, cadw cyfarfodydd eu hunain, a gwahaniaethu eu hunain oddi wrth y rhelyw o'r Hussiaid, wrth yr enw "Brodyr," neu "Undeb y brodyr." Yn nghanol y blinderau a oddefasant oddi wrth y Calixtiniaid a'r Pabyddion, cynnyddasant mor fawr, trwy eu hymlyniad wrth eu hegwyddorion, a phurdeb eu hymddygiadau, fel yn y flwyddyn 1500 yr oedd eu plwyfydd yn ddau cant, yn y rhai yr oedd addoldai wedi eu hadeiladu. Gwelir neillduolion eu daliadau athrawiaethol yn nghyffes eu ffydd. Ymwrthodent âg athrawiaeth trawssylweddiad; ac ni chaniatâent fod dim mwy na phresennoldeb ysbrydol dirgelaidd yn y sacrament. Ni dderbynient ddim fel sail eu ffydd ond yr Ysgrythyrau; o ba herwydd y derbyniasant gymmeradwyaeth y diwygwyr yn y canrif canlynol. Gwnaethant lawer i wella dysgyblaeth eglwysig; nid oedd eu hamcan yn is nag adferu purdeb Cristionogaeth yn ei gwedd gynteflg. Diarddelent y drygionus o'u cymundeb, gwahanent y ddau ryw oddi wrth eu gilydd, a rhanent yr aelodau yn dri dosbarth,—y newyddian, y gwybodus, a'r perffaith. I ddwyn yn mlaen eu trefn eglwysig, yr oedd ganddynt luaws o wahanol swyddogaethau. Ordeiniwyd eu hesgob cyntaf gan un o esgobion y Waldensiaid; ond nid oedd undeb rhwng y ddwy blaid a'u gilydd. Tyngedwyd hwy, pa fodd bynag, i flinderau cyffelyb i'r blaid hono. Gan ei fod yn benderfyniad ganddynt peidio ymgymmeryd â'r bywyd milwraidd, gwrthodasant gymmeryd arfau yn y rhyfel yn erbyn y Protestaniaid, a dygodd Frederic eu haddoldai oddi arnynt. Ac yn y flwyddyn 1548, ymadawodd mil o honynt i Poland a Prwssia. Yn Poland, ymunasant â'r Calviniaid; ac y mae yr undeb yn parhau hyd yn awr. Adferwyd gradd o ryddid i'r rhai a arosasant yn Bohemia, dan Maximilian II.; a'u prif sefydliad oedd yn Moravia.

BRODYR BYCHAIN, [*Fratricelli*]. Rhoddwyd yr enw hwn ar y cyntaf ar y Franciscaiid diwygiedig, o'r rhai y llosgwyd dwy fil gan y Chwilys. Wedi hyny, adnabyddid lluaws o sectau, a heidient trwy Ewrop yn y trydydd canrif ar ddeg, wrtho; ac yn benaf yn eu mysg, y Cathariaid a'r Waldensiaid.

BRODYR CYCCYLLOG, [*Capuchins*]: oeddynt gangen o urdd St. Francis; ac a elwid felly, am y gwisgent gwccwll, yn chwanegol at wisgoedd cyffredin yr urdd.

BRODYR DUON, [*Black Friars*]: a elwir felly oddi wrth liw eu dillad. Yr enw mwyaf cyffredin arnynt ydyw Dominiciaid [gwel dan y gair].

BRODYR GWYNION, [*Fratres Albati*]: dilynwyr rhyw offeiriad penboeth o'r Alps; yr hwn, trwy sel fawr, a honiadau uchel o sancteiddrwydd, a geisiodd gynhyrfu Ewrop i adnewyddu rhyfeloedd y groes, ond a losgwyd fel heretic. Gwisgent ddillad gwynion, a llaesion, fel eu blaenor, yr hwn hefyd a gariai groes fel lluman. Y mae enw y penboethyn hwn yn anhysbys, ac y mae gwahanol farnau o barth i'w wir gymmeriad; ond gan fod Boniface IX. yn ofni fod ganddo rhyw fwriadau dirgelaidd am y gadair Babaidd, barnodd mai y ffordd ddiogelaf oedd ei roddi i farwolaeth; yr hyn a fu yn foddion effeithiol i wasgaru ei ganlynwyr.

BRODYR LLEIAF, [*Minimi*]: meudwyaid St. Francis de Paula; galwent eu hunain "Minimi"=y lleiaf o'r meudwyaid.

BRODYR LLEYG: dynion annysgedig, a ymroddent i wasanaethu y llenorion. Gwel LOLLARDIAID; oddi wrth y rhai y tybir y cawsant eu dechreuad.

BRODYR PLYMOUTH. Gwel PLYMOUTH, BRODYR.

BRODYR UNEDIG, [*Unitas Fratrum*]: cymdeithas o Gristionogion a elwir hefyd *Moraviaid*,

Digitized by Google

oddi wrth Moravia, y dalaeth y sefydlwyd y blaid ynddi; a *Herrnhutiaid*, oddi wrth Herrnhut, un o'r lleoedd yr ymsefydlodd. Gelwid hwy gynt hefyd *Fratres Legis Christi*=Brodyr yn ol cyfraith Crist. Galwant eu hunain *Y Brodyr*.

Yn eu hanes gan Crantz, rhenir hwy yn ddau ddosbarth—yr hen a'r diweddar. Cyfeiria y cyntaf atynt yn flaenorol i'w sefydliad yn Herrnhut, yn Lusatia Uchaf, yn 1722; a'r diweddaf atynt ar ol hyny.

Mewn cyfarchiad a anfonwyd o'u plaid at Gyfrin Gynghor Prydain, yn 1715, y maent yn cael eu galw fel hyn;—*Yr Eglwysi Esgobyddol Diwygiedig, a ymsefydlasant gyntaf yn Bohemia, ac wedi hyny a orfodwyd gan erlidiau eu gelynion i ymofyn nawdd yn Poland Fwyaf, a Phrwssia Bwylaidd.* Mewn anerchiad hefyd at Eglwys Loegr, yn amser Charles II., honant eu bod wedi mwynhau rhyddid am yn agos i saith gant o flyneddoedd oddi wrth ormes Eglwys Rhufain; a llefarant am Huss, a Jerome o Prague, fel eu merthyron enwog, trwy waed pa rai y dyfrhawyd ac y cyfoethogwyd Eglwys Bohemia. Wrth yr Eglwys Fohemiaidd, fodd bynag, y meddylir y Cristionogion a breswylient yn y wlad hono; o blegid y mae Crantz yn cadarnhau mai yn 1457 y cyfododd y Brodyr Unedig, o weddillion gwasgaredig canlynwyr Huss. Yn y flwyddyn ddywedodd, cymmerasant yr enw *Unitas Fratrum*= Brodyr Unedig, a phenderfynasant ar reolau o ddysgyblaeth hynod fanwl, gan ymrwymo i ddyoddef pob peth er mwyn cydwybod; ac yn lle amddiffyn eu hunain trwy rym arfau, fel y gwnaethai eu henafiaid yn Bohemia, ni wnaent ddim mewn ffordd o wrthwynebiad i gynddaredd eu gelynion ond gweddio a gwrthdystio.

O'r cyfnod hwn hyd y Diwygiad, yr oeddynt yn dyoddef erlidiau trymion; ond cadwent eu hundeb heb ei anmharu. Ffurfiasant gyssylltiad â rhai o'r Waldensiaid; y rhai, fel hwythau, a ddygasant dros amryw ganrifoedd dystiolaeth dda i'r gwirionedd. Cynnalient gynnadleddau â'r Diwygwyr, yn y rhai y gwnaed rhai ceisiadau am undeb, gan eu bod yn cymmeradwyo *Cyffes Augsburg;* ond o herwydd eu hanghydweledigaeth mewn materion o ddysgyblaeth, parhasant yn gorff ar eu penau eu hunain.

Ar ol dyoddef llawer o flinderau ac erlidiau, yn ystod yr ail canrif ar bymtheg, darfyddasant bron yn llwyr; ond yn 1720, bu adfywiad rhyfeddol yn mysg eu hiliogaeth yn Bohemia; a chan na chaniatëid rhyddid iddynt yn y wlad hono, cytunasant i ymfudo. Cawsant ganiatâd gan Count Zinzendorf i ymsefydlu ar ei diroedd ef yn Lusatia Uchaf. Yma y ffurfiasant wladychfa Herrnhut. Goddefasant lawer yn y blyneddoedd cyntaf o'u harosiad yn y lle hwn oddi wrth ymraniadau a achlysurid gan bersonau a berthynent i'r Lutheriaid a'r Eglwysi Diwygiedig a ymsefydlasant yn eu plith. Ond trwy ymdrechion canmoladwy Zinzendorf, iachawyd eu briwiau, ac adferwyd undeb a brawdgarwch i'w mysg. Ymunodd y pendefig hwn o'r diwedd â hwynt; ac yn 1735, dewiswyd ef yn esgob arnynt.

O barth i'w golygiadau athrawiaethol, derbyniasant *Gyffes Ffydd Augsburg* fel eu credo, yr hwn a ystyrient yn seiliedig ar yr Ysgrythyrau, *unig* reol eu ffydd a'u hymarweddiad. Yn 1784, cyhoeddasant *Esboniad ar yr Athrawiaeth Gristionogol*, mewn cydffurfiad â'r cyffes hwn. Yn y *Crynodeb o Athrawiaeth Iesu Grist*, a gyhoeddwyd yn 1797, ni ddywedir dim o barth i athrawiaeth y Drindod, oddi gerth yn unig y rhanau o'r Ysgrythyr perthynol iddi. Ond yn y bennod ar yr Ysbryd Glân, dywedir, "Y mae yn wir Dduw gyda'r Tad a'r Mab." Credant brynedigaeth gyffredinol, ac ymwrthodant yn gwbl âg etholedigaeth ddiammodol; ac ni charant dalu nemawr o sylw i'r pynciau nad ystyrir yn mysg yr hanfodolion. Ar yr un pryd, tra yn ymwrthod â'r pynciau uchod, llefarant yn ddifloesgni am ras a phenarglwyddiaeth Iehofah fel unig achos iachawdwriaeth dyn. "Nid ydym," meddant, "yn dyfod yn sanctaidd trwy ein nerth ein hunain; ond gwaith y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân ydyw." Nid oes un mater ag yr ymhyfrydant gymmaint ynddo ag athrawiaeth marwolaeth Crist, a'i gariad anfeidrol; a'r arbenigrwydd a roddant i'r pethau hyn yn eu gweinidogaeth a gyfrifir yn achos o'u llwyddiant yn mysg y paganiaid.

Y mae Eglwys y Brodyr Unedig o ffurf esgobyddol. Y mae trefn olyniaeth eu hesgobion yn cael eu holrhain gyda manylder mawr yn eu hanes. Nid ydynt yn caniatäu uchafiaeth ac awdurdod mawr iddynt; gan fod eu heglwys, er y dechreuad, yn cael ei llywodraethu gan gymmanfaoedd, yn cynnwys cynnrychiolwyr yr holl gynnulleidfaoedd, a chan gynnadleddau ereill, y rhai ydynt yn ddarostyngedig i'r gymmanfa. Cedwir y gymmanfa unwaith bob saith mlynedd. Caniatëir i wragedd o gymmeriad a gradd dda, fod yn bresennol yn y gymmanfa; a gelwir arnynt weithiau i roddi cynghor a chyfarwyddyd yn yr hyn a berthyna i lafur gweinidogaethol gyda eu rhyw eu hunain; ond nid oes ganddynt un pleidlais. Yn yr achosion mwyaf pwysig, dygir hwy i benderfyniad pa fodd i weithredu trwy fwrw coelbren. Barnant fod y deall dynol, er dan lywodraeth y dybenion puraf, yn annigonol i chwilio allan y llwybr goreu i hyrwyddo teyrnas Crist; ac ymddiriedant y bydd i Ben yr Eglwys yn awr fel cynt eu cyfarwyddo yn y ffordd uniawn. Ni ddefnyddiant y coelbren, fodd bynag, ond gyda'r achosion pwysicaf, ac ar ol maith a manwl ystyriaeth, a gweddiau taerion; ac ni roddir dim i'w benderfynu ganddi, ond yr hyn a ymddengys i'r gymmanfa ynddo ac er ei fwyn ei hun yn ddewisadwy.

Yn mhob cymmanfa, y mae "bwrdd gweithiol" yn cael ei ddewis; yr hwn a elwir "Cynnadledd Henadurol yr Undeb;" ac a renir i bedwar dosbarth.—1. Dosbarth y Genadaeth; gwaith pa un ydyw arolygu yr achos cenadol mewn gwledydd tramor. 2. Dosbarth y Cynnorthwywyr; yr hwn sydd i wylied dros yr athrawiaeth, ac ymarweddiad yr aelodau yn y gwahanol gynnulleidfaoedd. 3. Dosbarth y Gwasanaethwyr; i'r hwn y mae achosion amgylchiadol yr undeb yn cael ei ymddiried. 4. Dosbarth yr Arolygwyr; gwaith yr hwn ydyw gofalu ar fod cyfansoddiad a threfn ddysgyblaethol yr undeb yn cael eu myntumio yn mhob lle. Ond nid oes gan yr un o'r dosbeirth hyn hawl i ddwyn dim i weithrediad hyd oni chaiff ei gymmeradwyo gan y Gynnadledd Henadurol.

Y mae gan bob cynnulleidfa hefyd ddosbarth cyffelyb: y rhai ydynt,—y gweinidog; yr hwn sydd i ofalu am achosion ysbrydol y gynnulleidfa:—y warden, neu ddiacon; yr hwn sydd i drefnu yr achosion allanol:—gŵr a gwraig briod; y rhai ydynt i arolygu gwŷr a gwragedd y gynnulleidfa:—pregethwr dibriod; i ofal yr hwn y mae y gwŷr ieuainc yn cael eu hymddiried:—a gwragedd; y rhai ydynt fath o ddiaconesau ar ferched y gynnulleidfa.

Digitized by Google

Y mae ffurf eu gwasanaeth cyhoeddus yn dra syml; canant mewn dull araf a difrifol, gyda chynnorthwy organ. Ar fore Sabbath, darllenant eu ffurf-weddïau; ac wedi hyny, pregethant bregeth, a rhoddant annogaeth i'r plant. Yn y prydnawn, cadwant gyfarfodydd neillduol; ac yn yr hwyr, addoliad cyhoeddus. Cyfranogant o'r sacrament unwaith yn y mis. Y mae eu cyfranogiad o'r cymun yn cael ei flaenori gan gariad-wledd: a chyn y cymun, ar ddydd Iau o flaen y Pasc, golchant draed eu gilydd; yr hyn a ddilynir gan y "cusan cariad." Ystyriant y defodau hyn yn rhwymedig ar yr eglwys yn mhob oes. Ar fore Sabbath y Pasc, yn y capel neu y fynwent, darllenant ffurf-weddi neillduol, a galwant enwau yr holl aelodau a fuant feirw yn y flwyddyn flaenorol. A phob bore yn wythnos y Pasc, ymgynnullant am saith o'r gloch i ddarllen cyssondeb yr efengylau ar hanes y croeshoeliad.

Prif nodwedd a rhagoriaeth y blaid hon, ydyw, eu llafur egnïol yn nychweliad y paganiaid. Ymddengys fel pe bai yn ei hystyried ei hun yn eglwys o genadau. Rhagora yn hyn ar un eglwys yn y byd. "Y mae eu cenadau oll," medd un gŵr, "yn wirfoddolion; o blegid y mae yn rheol ganddynt i beidio perswadio neb i ymgymmeryd â'r genadaeth. Y mae eu sel yn dawel, sefydlog, a phenderfynol. Dymunant ddiwygio y byd, ond gofalant pa fodd yr ymrysonant ag ef. Ennillant eu pwnc trwy dynerwch a lledneisrwydd; trwy yr hyn y canmolant eu hunain wrth bob dyn, ac y peidiant a thramgwyddo neb. Y mae eu cymmeriad yn cael ei nodweddu gan arferion dystaw a thawel. Os torir rhai o'r cenadau ymaith gan afiechyd neu ddamwain anffodus, y mae digon o'r cyffelyb feddwl yn barod i lanw eu lle."—(*Crantz's Ancient and Modern History of the Church of the United Brethren; Milner's Eccl. History; Haweis' Church History; Encycl. of Rel. Knowledge.*)

BRON—AU, [*bar*]: oddf, diden, teth. Yn 1. Llaethlestri y fenyw: *Salm* xxii. 9. 2. Llonyddwch a bendithion tymmorol,—"Bronau brenineedd a sūgni;" *Esa.* lx. 16. 3. Bendithion ysbrydol,—"Bronau ei dyddanwch hi;" *Esa.* lxvi. 11.

"A'm bronau fel tyrau;" *Can.* viii. 10. Mae benywod yn y dwyrain yn dra hoff o fronau mawrion a llawnion. Yr hyn a ystyrir yn Ewrop yn ffurf addfain hardd mewn benyw, a fernid ganddynt hwy yn anolygus a theneu. Ystyriant lawnder cnawd yn hanfodol i harddwch, yn enwedig mewn benywod; ac y mae cadw hyn mewn cof yn angenrheidiol er deall amryw o ganmoliaethau yn Nghaniadau Solomon. Y mae "curo dwyfron" yn arwydd o dristwch meddwl: *Luc* xxiii. 48. Tynu ymaith ei fronau ei hun sydd ddangosiad o wallgofrwydd, neu yn hytrach, y gofid meddwl eithaf: *Ezec.* xxiii. 34.

"Wedi ymwregysu yn nghylch ei fronau â gwregys aur;" *Dad.* i. 13. "Y mae yr hwn sydd yn brysur yn ymwregysu yn nghylch ei lwynau (*Esa.* xi. 5); ond rhaid i'r hwn sydd yn ymwregysu yn nghylch ei fronau fod mewn ystâd o orphwysdra fawreddig."—*Bengel.*

BRONWEN, [חלר]: *Lef.* xi. 29. Gwenci; creadur bychan hir, pedwar-troediog, chwimmwth, drewllyd, ysglyfgar, a hynod ddinystriol i'r wadd, a'r llygod, yn nghyd â lluaws o greaduriaid ereill. Tra mae y fronwen yn dwyn tebygrwydd i'r gath mewn rhai pethau, ac i'r ci mewn pethau ereill, nid yw yn porthyn yn briodol i un o honynt, ac am hyny y mae yn ffurfio dosbarth neillduol iddi ei hun. Yn y dosbarth hwn y mae llawer iawn o amrywiaethau; megys, y pali (*ermine*); y ffured (*ferret*); a'r ffwlbart (*pole cat*), &c.; y rhai a wahaniaethir yn fwy yn ol eu maint nag yn ol eu ffurf a'u harferion. Y fronwen yw y leiaf yn yr holl ddosbarth. Ei hydo'r gynffon i flaen y trwyn ydyw saith modfedd, ac y mae hyn yn llawer pan ystyrir nad yw ond tua modfedd a hanner o uchder. Mae y gynffon hefyd, yr hon sydd gudynog, ac o gylch dwy fodfedd a hanner o hyd, yn gwneyd i'r creadur bychan hwn ymddangos yn dra hir. Y lliw oddi arnodd sydd goch ddysglaer, ac oddi tanodd yn wyn claer; y llygaid ydynt fychain a duon; y clustiau yn fyrion, llydain, a chrynion; a'r holl gorff sydd mor ystwyth fel y gall ddilyn ar ol yr ysglyfaeth i dyllau hynod o fychain. Tra nad yw y fronwen ond creadur bychan, y mae yn elyn brawychus i greaduriaid llawer mwy. Gwna lawer o ddifrod yn fynych yn mhlith yr ieir; ond yn yr ydlanau y mae ei phresennoldeb yn dra gwasanaethgar. Er fod y gair *choled* yn fwy nodweddiadol o'r twrch, nid yw yn hollol anmhriodol i'r fronwen. Yr oedd y *mustelidæ* yn adnabyddus yn Ngwlad Canaan; ac er fod llawer o fathau o honynt, nid oes ond ychydig o wahaniaeth yn eu harferion. Y mae rhai o honynt yn nofwyr da, yn neillduol y *thela ælan* a ddysgrifir gan Bochart fel o liw cymmysg, ac yn frith fel y pard. Yn Syria gelwir ef *sephka;* yn Arabia, *zebzeb:* ac y mae yn byw fel yr holl rywogaeth ar ysglyfaeth. Y *paradoxurus* yn Arabia sydd debyg i'r *paradoxurus typus*, ac i'w gael yn mhob man lle y tyf palmwydd. Y mae rhai amrywiaethau tramor, pa fodd bynag, hyd yn hyn yn anmhenderfynol.

BROTHERSIAID: dysgyblion Richard Brothers. Nid oes dim o hanes boreuol y dyn rhyfedd hwn ar gael. Bu am rai blyneddoedd yn îs-gadben, yn y llynges Brydeinig; â'r hon yr ymadawodd, yn y flwyddyn 1789, mewn canlyniad i ddadl a gymmerodd le rhyngddo ag arglwyddi y morlys, o berthynas i'w hanner-tâl. Ysgrifenodd lythyr, Medi 9fed, 1790, at Philip Stephens, Ysw., o'r llys hwnw, i ddadleu mor annheg oedd gorfodi dyn i dyngu ei fod yn cymmeryd ei lw yn *wirfoddol*, pan yr oedd ganddo wrthwynebiad cydwybodol ar y pryd i hyny. Effeithiodd y llythyr hwn ar iarll Chatham, nes iddo lwyddo i dynu y gair "*voluntarily*" allan o'r llw. Ond ymddengys fod gan Brothers wrthwynebiad i gymmeryd y llw o gwbl; ac ar ei waith yn nacau, goddefodd lawer yn ei amgylchiadau—yr hyn, mor bell, a brawf ei fod yn onest, pa fodd bynag. Fel un yn dyoddef yn achos yr hyn a ystyriai efe yn ddyledswydd, daeth yn fuan i feddwl ei fod yn rhyw un mawr—ei fod yn anfonedig oddi wrth Dduw—a bod ganddo rywbeth i'w wneyd yn y byd.

Ysgrifenodd lyfr yn y flwyddyn 1794, yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain, dan yr enw, *A Revealed Knowledge of the Prophecies and Times*, yn yr hwn y dywed—"Yr wyf yn ysgrifenu y llyfr hwn oddi wrth weledigaethau a dadguddiedigaethau, a thrwy yr Ysbryd Glân, er lles i bob dyn; gan hyny, y mae dywedyd ei fod yn ffug—fy mod i yn wallgof neu yn dwyllwr—fod genyf gythraul, neu fy mod wedi colli fy synwyrau—yn gwneyd i fyny y pechod erchyll ac ofnadwy o

Digitized by Google

gabledd." Y mae yn dyddio ei alwad ddwyfol yn y flwyddyn 1790. Ar y 12fed o Fai, 1792, ysgrifenodd lythyr at y brenin, ac ereill at weinidogion y goron, a llefarydd Tŷ y Cyffredin, yn eu hysbysu un ac oll ei fod ef wedi cael ei orchymyn gan Dduw i ddyfod i'r senedd, ar yr 17eg o'r mis hwnw, i rybuddio yr holl aelodau, er eu diogelwch, fod yr amser wedi dyfod i gyflawnu y seithfed bennod yn Llyfr Daniel. Ar y diwrnod crybwylledig, bu cystal a'i air; ond y mae efe ei hun yn cwyno fod y derbyniad a gafodd yn un pur oeraidd. Wedi iddo am ysbaid ragfynegu marwolaeth y brenin, dymchweliad yr orsedd, a disgyniad y goron iddo ef, cafodd, o'r diwedd, ei gyflwyno i garchar Newgate; yn mha le, os yw efe ei hun i'w goelio, y cafodd ei drin yn lled arw. Ond nid oedd ei sel yn lleihau dim er hyn; ac wedi iddo gael ei ollwng yn rhydd, ymroddodd i'w "weinidogaeth" yn fwy egnïol nag o'r blaen, ac ennillodd iddo ei hun lawer o ganlynwyr.

Yn mhlith ei ganlynwyr, yr oedd rhai dynion o sefyllfa a dysg. Nathaniel Brassey Halhed, Ysw., A. S. dros Lymington, a ysgrifenodd amryw lyfrau a thystiolaethau yn ei ffafr, a gwnaeth lawer o enwau lled gyhoeddus ereill yr un peth. Cafodd yr ymdrechion hyn o'i blaid ddylanwad ar feddwl lluaws o ddynion gwirion ac ofergoelus—fel yn achos Southcotiaeth, a Mormoniaeth yn fwy diweddar—nes peri i lawer o honynt werthu eu heiddo, ac ymbarotoi i ganlyn y prophwyd i Ierusalem, lle yr oedd i fyned yn y flwyddyn 1795, ac i eistedd yno ar orsedd y byd. Dywedai fod Duw wedi cynnyg iddo fod yn llywydd y cynghor, neu yn ganghellydd y drysorfa, ond yr oedd yn fwy dewisol ganddo fod yn frenin Yr oedd dychweliad yr Iuddewon i gymmeryd lle yn ol ei gyfrif ef, yn y flwyddyn 1798.

Mewn perthynas i ysgrifeniadau y penboeth hwn, y maent, fel eiddo ereill o'r un dosbarth, yn gymmysgedd rhyfedd o reswm a gwallgofrwydd—yn cynnwys peth gwir, a llawer iawn o wrthddywediadau. Yr oedd ei brophwydoliaethau, y rhan fwyaf o honynt, am ddygwyddiadau gwladwriaethol—nad oedd eisieu llawer o graffder, heb son am ysbrydoliaeth, i'w rhagfynegu. Cyflawnwyd rhai o honynt yn llythyrenol, ereill mewn rhan, a gwrthbrofwyd y lleill. Gan iddo brophwydo cymmaint, a bod yr oll o'i brophwydoliaethau mor benagored, buassai yn syndod iddynt gael eu gwrthbrofi i gyd.

Preswyliai Richard Brothers, pan yn Llundain, ar y cyntaf, yn 5, Beaufort-buildings, Strand; ac wedi hyny, yn 57, Paddington street, lle yr ysgrifenodd ei brophwydoliaethau. Fel dyn, yr oedd yn ostyngedig, yn foesgar, ac yn caru neillduedd yn fwy na chyhoeddusrwydd. Credai yn ddiysgog yn nghyflawniad amserol ei holl brophwydoliaethau. Bu farw, ond nid oes genym sicrwydd pa bryd.—(*Williams' All Rel.; Penny Cyc.*)

BROWN, THOMAS: athronydd enwog, a anwyd yn 1778, yn agos i Edinburgh, ac a fu farw, yn nghanol ei ddyddiau, yn 1820. Yr ydoedd o archwaeth lenyddol, ac ymhyfrydai yn fawr mewn dadleuon athronyddol. Cyfeiriwyd ei sylw gyntaf at yr ymchwiliadau hyn gan fywgraffydd Burns, Dr. Currie, Liverpool, yr hwn a roddodd yn ei law gyfrol o elfenau Dugald Stewart ar *Athroniaeth y Meddwl.* Tarawyd Brown gan anghyssonder a ganfyddai yn athrawiaethau Stewart, yr hyn a hysbysai ar y pryd i Dr. Currie; a'r gauaf canlynol gwnaeth yr un modd wrth Stewart ei hun. Yr oedd Stewart yn dal fod gweithrediadau y meddwl sydd yn ymddibynu ar yr ewyllys yn cael eu hattal mewn cwsg; ac hefyd fod yn angenrheidiol rhoi y sylw ar beth er mwyn ei gofio, ac mai gwaith yr ewyllys ydyw troi y sylw at beth. Yr anghyssondeb gan hyny ydyw, pa fodd yr ydym yn cofio ein breuddwydion, os ydyw cof yn ymddibynu ar yr ewyllys, a gweithrediadau yr ewyllys yn cael eu hattal mewn cwsg? Treuliodd Brown amryw flyneddoedd yn mhrifysgol Edinburgh, yn gwrandaw ar Stewart, Robinson, Playfair, a Black. Pan yn ddeunaw oed, cyhoeddodd sylwadau ar *Zoonomia* Dr. Darwin, y rhai a gynnwysent hadau yr athrawiaethau a ddysgai yn ddiweddarach ar feddyleg neu athroniaeth y meddwl.

Yn 1797, ymffurfiodd nifer o ddynion ieuainc athrylithgar yn y brifysgol yn gymdeithas, dan yr enw Academy of Physics, i chwilio i ddeddfau natur. Cyrhaeddodd amryw o'r dynion ieuainc hyn enwogrwydd mawr yn y blyneddoedd canlynol, megys Erskine, Brougham, Brown, Horner, Jeffrey, &c. &c.: a'r gymdeithas hon a roddodd fod i'r *Edinburgh Review*, sydd wedi dylanwadu mor nerthol ar lenyddiaeth a gwladeiddiaeth yr hanner canrif diweddaf. Nid ysgrifenodd Brown ond dwy neu dair o erthyglau yn y dechreu. Ychydig flsoedd ar ol iddo orphen ei efrydiau, a chymmeryd y gradd o M.D., cyhoeddodd ddwy gyfrol o gyfansoddiadau barddonol, pa rai ni chawsant nemawr o sylw y pryd hwnw, ac ydynt wedi eu hanghofio yn llwyr erbyn hyn. Ei gyhoeddiad nesaf oedd *Ymchwiliad i natur y berthynas sydd rhwng Achos ac Effaith.* Ar yr achlysur o etholiad Mr. Leslie i fod yn gadeirdraw yn y brifysgol, penderfynodd plaid yn Eglwys Scotland i'w wrthsefyll, o herwydd ei fod wedi cymmeradwyo syniadau David Hume o barth i achosiaeth, yr hyn a arweiniai, meddent hwy, i anffyddiaeth. Cyhoeddodd Brown draethodyn ar yr achlysur, yn gwadu fod y fath ganlyniadau yn deilliaw o'r cyfryw olygiadau am natur achos. Yn yr argraffiadau a ddaeth allan yn ddiweddarach yr ydoedd wedi chwyddo yn llyfr. Sylwedd y syniadau hyn am achosiaeth ydyw,—"fod achos yn beth sydd yn rhagflaenu unrhyw gyfnewidiad a phob amser yn cael ei gyssylltu âg ef. A bod y gair *gallu* yn arwyddo yn unig fod yr hyn a elwir yn *achos* a'r hyn a elwir yn *effaith* bob amser yn cydfyned, ac nid fod yr achos yn cynnyrchu yr effaith, yn ol y syniad cyffredin." Sylw Reid ar y gosodiad hwn ydyw,—"y gŵyr pob un sydd yn deall ystyr y gair nad yw fod un peth yn rhagflaenu peth arall, nac yn cydfyned bob amser âg ef, na'r ddau yn nghyd, yn cynnwys effeithioldeb." Am y golygiad hwn, medd Syr W. Hamilton, y mae ei amddiffynwyr yn myned heibio i wir hanfod yr ymofyniad, sef, pa fodd yr ydym yn teimlo ein hunain dan *angenrheidrwydd* i gyssylltu achos ac effaith; *h.y., nis gallwn* eu hysgaru yn y meddwl pe mynem. Ond ar y mater hwn gwel yr erthygl ACHOS; GWYBODAETH.

Yn 1810, trwy ymdrechiadau D. Stewart, dewiswyd Brown i fod yn gyd-ddarlithydd neu gadeirdraw âg ef yn y brifysgol. Ei brif waith ydyw y *Darlithiau* a draddododd yn nghyflawniad y swydd hon. Cawsant dderbyniad gwresog ar eu traddodiad, ac y mae lluaws mawr o argraffiadau o honynt wedi ymddangos yn Mhrydain ac America.

Dangosir yn yr erthygl ATHRONIAETH fod i wahanol gyfundraethau eu nodweddau neillduol eu hunain; ac yn yr ystyr hwn y lleferir am

Digitized by Google

athróniaeth yr Alban (*Scotch Philosophy*):—yn mhlith prif ddysgawdwyr pa un y rhestrir Dr. Reid, Dugald Stewart, a Syr W. Hamilton, yr hwn sydd yn awr yn fyw. Ond er fod Brown yn perthyn i'r Alban o ran ei enedigaeth a chylch ei lafurwaith athronyddol, eto ni restrir ef fel yn perthyn i'r un ysgol o feddylwyr a'r rhai uchod. Yn hytrach cododd Brown i fyny mewn gwrthryfel yn erbyn y dysgawdwyr hyn ac athrawiaethau yr ysgol Albanaidd. Heb gyfeirio yma yn neilldued at ysgrifeniadau Reid, tad yr ysgol Albanaidd o athroniaeth, yr hyn a wneir dan ei enw ei hun, y mae yn angenrheidiol defnyddio ychydig frawddegau er mwyn gwneyd yn eglur y cyssylltiad rhyngddo ef a Brown. Rhoddodd cyfundrefn anmherffaith neu unochrog Locke fantais i Hume wneyd ymosodiad ar holl egwyddorion gwybodaeth a chrediniaeth, a gorchuddio holl diriogaeth athroniaeth a chrefydd â niwl o ammheuyddiaeth. Ar unwaith cododd i fyny mewn amddiffyniad y ddau feddyliwr sydd wedi dylanwadu gryfaf o neb dau ar athronwyr y ganrif ddiweddaf; sef, Thomas Reid yn yr Alban, ac Immanuel Kant yn yr Almaen. Nodwedd gwahaniaethol cyfnod Reid a Kant ydyw, gwneuthur *cyfansoddiad gwreiddiol y meddwl dynol* yn brif wrthddrych sylw ac ymchwiliad. Ac y mae mynyd o ystyriaeth yn ddigon i ddangos fod yn rhaid i ddyn orphwys yn hyn fel eithafnod ei ymchwiliadau athronyddol. Y duedd athronyddol, mewn geiriau cyffredin, ydyw y duedd i ofyn cwestiynau, i chwilio am esboniad. Y mae yr ateb diweddaf a geir ar bob pwnc yn dyfod â rhyw ymofyniad newydd i'r meddwl. Yr ydym yn esbonio llawer o bethau, megys disgyniad y gareg, a chylchdroad y blaned, trwy eu olrhain at ddeddf attyniad; ond y mae attyniad ei hun yn sefyll mewn angen am esboniad, ac felly nid yw un ateb ond yn ein harwain yn ol at ofynion ereill. Yn mha le, gan hyny, y ceir y pwynt lle y gellir terfynu ein hymchwiliadau—o herwydd nis gall creadur terfynol fyned yn ol yn ddiddiwedd? Rhaid addef mai y pwynt eithaf hwnw ydyw, *cyfansoddiad gwreiddiol y meddwl.* Un o brif ddybenion Reid oedd casglu a dosbarthu egwyddorion cyntefig neu gynneddfau bywiol y meddwl, y rhai nas gallwn ymgodi yn uwch na hwynt, ac nas gallwn lai na'u derbyn a'u credu.

Y mae y ddadl âg ammheuwyr diweddar wedi troi ar yr ymofyniad—Pa beth ydyw gwrthddrych *uniongyrchol* gwybodaeth? Addefid yn gyffredinol fod gan y meddwl wybodaeth uniongyrchol o'i weithrediadau ei hun: ymddangosai hyn yn hawdd i'w ddeall a'i dderbyn. Ond prif anhawsdra athroniaeth y meddwl oedd, esbonio pa fodd y gallai y meddwl gyrhaedd gwybodaeth o'r hyn oedd *y tu allan iddo ei hun:* ac i gyfarfod yr anhawsdra hwn, dewiswyd math o wybodaeth gynnrychiol (*representative*). Yn unol â'r syniad oedd yn ffynu am y wybodaeth hon, tybid fod y meddwl yn cael gwybodaeth am bethau allanol trwy gyfrwng rhyw feddyl*ddrychau; h.y.*, drychau, neu gynlluniau, neu ddelweddau yn y meddwl o'r gwrthddrychau allanol. Nid oedd unffurfiaeth barn am natur y meddylddrychau neu y delfrydau hyn; ond tybid yn lled gyffredinol, cyn amser Reid, eu bod yn rhywbeth gwahanol oddi wrth y meddwl sydd yn canfod, ac hefyd oddi wrth y gwrthddrych a ganfyddir. Nid oedd Descartes, a llawer o'i ganlynwyr—sef Arnauld, Leibnitz, ac efallai Locke—yn meddwl dim chwaneg wrth y delfrydau hyn, na ffurflau y meddwl ei hun, yn cynnrychioli y gwrthddrychau dan sylw. Ond gwybodaeth gynnrychiol, gydag ychydig wahaniaeth yn y ffurf, oedd gan y naill a'r llall. Ac ar y sylfaen hon yr oedd holl ammheuyddiaeth Hume wedi ei chodi: a dattroi y farn neu y dybiaeth gyffredin hon oedd prif wasanaeth Reid i athroniaeth. Dadleuai ef mai *crediniaeth wreiddiol y meddwl* ydyw ein bod yn canfod gwrthddrychau yn *uniongyrchol*, wyneb yn wyneb, ac nid trwy gyfrwng dim; a'n bod dan angenrheidrwydd natur—yr hyn a osodir arnom gan ein Creawdwr, Duw y gwirionedd—i dderbyn pob egwyddor neu crediniaeth wreiddiol.

Amcan cyntaf Brown yw gwneuthur ymgais egniol i ddangos mai dychymyg o eiddo Reid ei hun yn unig oedd dyweyd fod athronwyr blaenorol yn rhoddi meddylddrychau neu ddelfrydau rhwng gwrthddrychau a'r meddwl, ac nad oedd un ysgrifenydd o bwys, oddigerth Berkeley a Malebranche, yn dal dim o'r fath syniad. Am gywirdeb hanesyddol y pwnc hwn, sylwir yn yr erthygl Reid. Ond gellir sylwi yma fod Brown wedi hollol fethu yn ei ymosodiad; ac heb law hyny, wedi dangos anwybodaeth o wir natur y cwestiwn, sydd yn hynod mewn dyn o'r fath dreiddgarwch meddwl. Y mae delfrydau ar wahân oddi wrth y meddwl, a'r cyfryw ag oedd yn gwneuthur i fyny holl fyd defnyddiol Berkeley, wedi ei hollol alltudio o athroniaeth yn bresennol; ond y mae ffurf mwy dirgelaidd o wybodaeth gynnrychiol neu gyfryngol eto yn cael ei dal gan lawer o athronwyr Prydain a'r Cyfandir. Dros y ffurf hon hefyd y dadleuai Brown. Egluro hyn, a thaflu goleu ar y gwahaniaeth rhwng gwybodaeth uniongyrchol, a chynnrychiol neu gyfryngol, ydyw un o brif nodweddau ymchwiliadau cywrain Syr W. Hamilton. Yn ol y Dr. Brown, y mae genym wybodaeth uniongyrchol o holl weithrediadau y meddwl; ond y mae gwrthddrychau allanol yn dyfod i'n gwybodaeth trwy *gyfrwng ein teimladau* (corfforol neu allanol). Yn ol y farn hon, y mae y meddwl yn gwneuthur gwrthddrychau o'i weithrediadau neu ei ansoddau ei hun—megys teimlad, barn, dymuniad—ac y mae hefyd yn sefyll mewn cyssylltiad nes â'r gwrthddrychau mewnol hyn nag y mae âg ansoddau defnydd oddi allan; a thrwy yr olaf yr adnabyddir y blaenaf. Felly, y mae dyn yn cael ei gau *ynddo ei hun*, yn ol y dybiaeth hon; a chyda hyny, yn cael ei gau i fyny i holl ganlyniadau ammheuyddiaeth fel o'r blaen.

Y rhai canlynol ydynt y golygiadau pwysicaf o'r rhai sydd yn neilldued ac yn briodol i Brown:—Y mae i bob ymchwiliad anianyddol (*physical inquiry*) un o ddau ddyben mewn golwg—naill ai cael allan yr elfenau sydd yn cyfansoddi sylweddau corfforol, neu ddarganfod y cyfnewidiadau y maent yn ddarostyngedig iddynt. Ac nis gallwn byth wybod chwaneg am unrhyw sylwedd na'r ddau beth hyn.

Wrth gymmeryd meddwl yn wrthddrych ymchwiliad, gellir ymofyn yn gyffelyb i'r cyfnewidiadau y mae yn myned trwyddo, ac hefyd i'r elfenau sydd yn cyfansoddi y gwahanol amlygiadau o feddwl. Gwel pawb ar unwaith y posiblrwydd o ymofyn i gyfnewidiadau meddwl; ond nid mor hawdd, pa fodd y gellir chwilio i ranau elfenol sylwedd syml ac anrhanadwy. Ond nid am ranau na chyfnewidiadau y meddwl fel sylwedd y mae yr ymofyniad, ond i weithrediadau y meddwl (*thought*), y rhai sydd yn gyfnewidiol, ac hefyd yn gyfansawdd; o ganlyniad, gellir ymofyn i'r achos o'u cyfnewidiadau, ac i'r rhanau elfenol sydd yn eu cyfansoddi.

Digitized by Google

Y mae yn ymwrthod â dysgrifiad Reid o *gynneddfau* yr enaid, ac yn ymwrthod hefyd â'r gair, gan ddosbarthu amlygiadau (*phenomena*) meddwl, nid dan wahanol *gynneddfau*, ond i'r hyn a dybiai ef yn ddosbarthiad mwy syml—*external and internal states*=agweddau allanol a mewnol y meddwl. Wrth y cyntaf y meddyliai yr holl deimladau a gynnyrchir trwy gyfrwng synwyrau y corff; ac wrth yr olaf, holl gynnwys y meddwl sydd yn annibynol ar synwyriaeth, o'r hyn lleiaf yn uniongyrchol. Byddai yn hawdd dangos nad yw Brown yn llwyddo i daflu dim goleu newydd ar weithrediadau y meddwl, na'u cyssylltiadau â'u gilydd, trwy y dosbarthiad hwn. Yn hytrach, y mae yn eu camddeall, ac yn eu camddarlunio. Y mae eilwaith yn dosbarthu yr *agweddau mewnol* i ddau ddosbarth—*deallawl* a *theimladol* (*intellectual and emotional*). Y mae gweithrediadau neu agweddau deallawl y meddwl yn gynnwysedig, naill ai mewn ail bresennoli gwrthddrychau absennol, trwy yr hyn a eilw efe yn *simple suggestion*, neu y canfyddiad o berthynasau y gwrthddrychau hyn, trwy yr hyn a eilw yn *relative suggestion*. Y mae gweled afon yn dwyn i'n cof y cyfaill a foddodd ynddi lawer o flyneddoedd yn ol; ac y mae teithio ar hyd ffordd y teithiasom ar hyd-ddi o'r blaen gyda chyfaill, yn dwyn i'n meddwl yr ymddyddan a fu rhyngom ar y pryd. I'r gwrthddrychau neu y meddyliau a ddygir i'r cof fel hyn y rhoddir yr enw *simple suggestion*. Y prif ddeddfau, yn ol pa rai y mae y tuedd sydd mewn meddwl i ddilyn meddwl yn gweithredu ydynt,—tebygolrwydd (*resemblance*), gwrthgyferbyniad (*contrast*), ac agosrwydd mewn amser a lle (*nearness in time and place*): hyny yw, y mae gwrthddrychau cyffelyb, cyferbyniol, ac agos o ran lle neu amser, yn dwyn eu gilydd i'r meddwl. Y mae gwahanol amgylchiadau ereill yn effeithio i ddwyn pethau i'r meddwl, ac i gymmedroli yr ystyriaethau blaenorol.

1. Y mae y meddyliau neu y teimladau a gydhanfodent hwyaf yn y meddwl.
2. Y rhai oeddynt fwyaf bywiog pan y teimlwyd hwynt gyntaf.
3. Y rhai a fu yn cydhanfodi yn y meddwl amlaf.
4. Y rhai a brofwyd ddiweddaraf.
5. Y rhai sydd wedi cydhanfodi fwyaf gyda lleiaf o gymmysgedd gan deimladau ereill.
6. Dylanwad tymmerau naturiol.
7. Gwahaniaeth mewn teimladau achlysurol.
8. Cyfnewidiadau yn sefyllfa y corff.
9. Arferion blaenorol.

Wrth *relative suggestion* y meddylir y teimladau a gynnyrchir ar ganfyddiad dau neu chwaneg o wrthddrychau, ac a ddosberthir i berthynasau o gydhanfodiad ac olyniad; heb law ychydig o rai ereill, nas gellir eu dwyn dan y penau hyn; megys perthynas (1.) cyflead (*position*); (2.) cyffelybrwydd neu wahaniaeth; (3.) perthynas graddau; (4.) cyfartaledd; (5.) cynnwysedd (*comprehensiveness*), neu berthynas y cyfan â'r rhanau sydd yn ei wneyd i fyny.

Wedi chwanegu dosbarthiad Brown o'r teimladau mewnol (*emotions*) i yn (1.) uniongyrchol; (2.) adolygol (*retrospective*); (3.) a rhagolygol (*prospective*); yr ydys wedi rhoddi ei holl gyfundrefn ef ger bron y darllenydd.

Yn y dysgrifiad uchod, nid oes dim son am gof, a dychymyg, fel cynneddfau: nid ydynt, yn ol Brown, ond gweithrediad *simple suggestion*:—nac ychwaith am farn, rheswm, &c.: nid ydynt ond *relative suggestions*. Ond prif ddiffyg golygiadau Brown ydyw, ei fod yn gwneuthur *ewyllys* a *dymuniad* yr un peth. Amcanai Reid a Stewart roddi arbenigrwydd neillduol i'r *ewyllys* fel cynneddf gyfuwch yn ei gweithrediad a synwyriaeth a deall, ac fel ffynnonell rhyddid a chyfrifoldeb dyn. Nid yw *ewyllys*, medd Brown, ond *dymuniad* wedi ei gyssylltu â'r grediniaeth y dilynir ef â gwrthddrych y dymuniad fel effaith. Nid yw hyn amgen na gwadu fod gan ddyn ewyllys: ac felly y mae ei gyfundrefn, yn ol yr hyn a ddangoswyd yn y dechreu, yn myned dan sylfeini sicrwydd, ac yn arwain i ammheuyddiaeth—yn difodi sail cyfrifoldeb, gan gadwyno dyn mewn gefynau haiarnaidd tyngedfen.

BROWNE, BROWNIAID. Robert Browne ydoedd sylfaenydd y sect a gododd yn mhlith y Puritaniaid, tua diwedd yr unfed canrif ar bymtheg, ac a gyfenwyd ar ei enw. Hanai o deulu uchel; ac yr ydoedd yn berthynas i arglwydd Burleigh, ysgrifenydd y frenines Elizabeth. Ganwyd ef yn 1550, yn Northampton; a derbyniodd ei ddysg yn Nghaergrawnt, lle yr hynododd ei hun yn fuan drwy ei ymosodiadau ar gyfansoddiad a gwasanaeth yr Eglwys Sefydledig. Ar ol treulio amryw flyneddoedd yn Islington fel pregethwr, aeth i Norwich, lle y casglodd eglwys yn nghyd; a pharhaodd yn ei wrthwynebiad i'r Eglwys Sefydledig, gan wadu ei bod yn eglwys i Grist o gwbl, o gymmaint a'i bod wedi ymwrthod âg athrawiaethau yr apostolion, ac yn dal i fyny drefn eglwysig nad oedd un sail iddi yn yr Ysgrythyrau. Trwy y clod a ennillodd am sancteiddrwydd—er nad oedd ei rodiad mewn un modd yn ddifrycheulyd—ei ymosodiadau ar yr eglwys, a'i sel yn gwneuthur proselytiaid, chwanegodd nifer ei ganlynwyr. Yr oedd yr erlidigaethau a ddyoddefodd, hefyd, yn ei wneuthur yn fwy poblogaidd. Carcharwyd ef gyntaf yn 1580, gan esgob Norwich. Credai llawer ei fod dan arweiniad ysbrydoliaeth, ac mai efe oedd yr unig arweinydd diogel i'r nefoedd. Wedi derbyn ei ryddhad trwy ddylanwad arglwydd Burleigh, aeth gyda lluaws o'i ganlynwyr—yn mhlith pa rai, yr un mwyaf adnabyddus ydoedd Richard Harrison, yr hwn a fuasai yn ysgolfeistr—i'r Iseldiroedd (*Netherlands*); ac yno y planodd eglwys yn Middleburgh, Zealand, yn ol yr egwyddorion a osodir i lawr yn ei waith ei hun [*The Life and Manners of true Christians*, gyda rhagymadrodd; *A Treatise of Reformation without tarrying for one*]. Wedi cael rhyddhâd oddi wrth orthrwm esgobawl, dechreuodd eglwys Browne anghytuno ac ymranu; yr hyn a barodd iddo ef ddychwelyd yn fuan i'w wlad enedigol. Yn y flwyddyn 1585, gwysiwyd ef o flaen yr archesgob Whitgift, pryd yr ymddygodd gyda mwy o bwyll a doethineb nag a wnai yn flaenorol: derbyniodd ei ryddhâd, a bu am bedair blynedd yn llonydd yn nhŷ ei dad. Ond yn fuan, deffrodd ei ciddigedd dadleuol drachefn; yr hyn a barodd i'w dad ei droi allan o'i gartref. Ar ol hyn, teithiai Browne, yn fynych mewn eisieu a newyn, i gasglu proselytiaid, ac i areithio a dadleu yn erbyn yr eglwys; yr hyn a barodd iddo gael ei wysio, yn 1590, o flaen esgob Peterborough; ac o herwydd anufudd-dod i'r alwad, cyhoeddwyd ef yn esgymunedig. Effeithiodd y gosp edigaeth hon yn ddwys arno, ac a'i dygodd i agwedd edifeiriol, fel y bu iddo, yn mhen ychydig, dderbyn bywoliaeth eglwysig yn sir Northampton. Ond yn niwedd ei oes, yr ydym yn ei gael ef drachefn yn sefyll o flaen brawdleoedd, ac yn

Digitized by Google

cael ei dafu i garchar, lle y bu farw yn 1630, yn hedwar ugain oed. Ychydig cyn marw, ymfroztiai ei fod wedi bod yn ngharchar ddeuddeg ar ugain o weithiau, a llawer o honynt mor dywyll, nad allai weled ei law ganol dydd. Er ei fod ef ei hun wedi ymuno â'r eglwys eilwaith yn niwedd ei oes, eto efe oedd sylfaenydd y Browniaid, y rhai a gynnyddent mewn rhifedi bob blwyddyn. Erlidiwyd a charcharwyd hwynt, ie, rhoddwyd llawer o honynt i farwolaeth, fel y penderfynasant ymadael â'u gwlad. Planasant eglwysi yn Amsterdam, Middleburgh, a Leyden: dewisasant Mr. Johnson yn weinidog arnynt yn Amsterdam; ac ar ei ol ef, Mr. Ainsworth, awdwr yr esboniad dysgedig ar Bum Llyfr Moses. Blodeuodd yr eglwys hon am o ddeutu can mlynedd. Yr Browniaid, hefyd, y perthynai John Robinson; enw adnabyddus, o herwydd i ran o'i gynnulleidfa ef yn Leyden, adael Holland, a symmud i Ogledd America, lle y gwnaethant y sefydliad parhaus cyntaf yn y byd newydd. Yr oedd Canne, hefyd, awdwr llafurus y Cyfeiriadau Ysgrythyrol, yn un o honynt. Ymwrthodai y Browniaid, nid yn unig â'r gyfundrefn esgobawl, ond hefyd â chymmanfaoedd henaduriaethol o bob natur. Nid oedd un math o unffurflaeth allanol a gosodedig i gaethiwo yr egwyddor wirfoddol a pherffaith gydraddoldeb yr holl aelodau. Yr oedd pob eglwys i fod yn gymdeithas annibynol o Gristionogion. A phob cynnulleidfa o Gristionogion a ymgasglai i'r un man i addoli, a ffurflai eglwys, yn yr hon y mae hawliau cyfartal yn perthyn i'r holl aelodau, a llais y mwyafrif sydd i benderfynu pob achos. Dewiswyd eu swyddogion o'u plith eu hunain, trwy ympryd, gweddi, a gosodiad dwylaw. Gan mai llais y mwyafrif oedd yn gwneyd gweinidog, galiasai gael ei amddifadu o'i swydd yr un modd, ac yna ni buasai ond fel aelod cyffredin. A chan nad addefent fod y gair *eglwys* yn perthyn ond i'r frawdoliaeth a ymgyfarfyddai mewn un man, fel yr oedd awdurdod y swyddogion yn cael ei gyfyngu o fewn yr un terfynau, nid allasai gweinidog un eglwys weinyddu y sacramentau mewn eglwys arall. Nid oes i un eglwys awdurdod ar un arall. Yn unig os bydd i aelodau un eglwys rodio yn afreolaidd, neu wadu gwirioneddau sylfaenol yr efengyl, gall eglwys arall weithredu ei hawl i rybuddio a chynghori; ond os na wrandawant, ni chydnabyddir hwynt yn frodyr crefyddol yn hwy. Mewn gair, yr oedd pob cynnulliad rheolaidd o Gristionogion yn frawdoliaeth gorfforedig, yn gwbl annibynol ar bob awdurdod y tu allan iddi ei hun. Gwel ANYMDDIBYNWYR.

BROWNE, SYR THOMAS: awdwr o gryn enwogrwydd yn hanes llenyddiaeth Lloegr. Gwnaeth ei ysgrifeniadau argraff ddwys ar ei oes ei hun: y maent wedi ennill sylw neilldduol y beirniaid uchaf, megys Coleridge a Hazlitt, a'u hawdwr wedi cael Johnson yn fywgraffydd; a pharhânt hyd yn awr i roddi boddhâd i bawb sydd yn troi at yr hen awduron Seisonig. Cyhoeddwyd argraffiad o'i holl waith yn 1836, ac yn ddiweddarach gan Bohn; ar yr hwn y treuliodd y golygydd, Simon Wilkin, ddeuddeng mlynedd i'w barotoi i'r wasg. Y mae hanes personol Browne yn amddifad o bob hynodrwydd amgylchiadol, a gellir ei grynhoi mewn ychydig eiriau. Perthynai i hen deulu yn sir Gaer; ganed ef yn 1605; derbyniodd ei ddysg yn Rhydychain; a daeth, o ran ei alwedigaeth, yn feddyg. Teithiodd yn yr Iwerddon, ac ar y Cyfandir; ac ymsefydlodd yn agos i Halifax, i ddilyn ei alwedigaeth. Ysgrifenodd lyfr a elwir. *Religio Medici* (Crefydd Meddyg), ac yne y dechreuodd ei wir hanes. Pedair blynedd yn ddiweddarach, cyhoeddodd *Enquiries into Vulgar and Common Errors*=Ymchwiliad i Gyfeiliornadau Cyffredin. Mewn canlyniad, tywalltai ysgolheigion a beirniaid ganmoliaethau ar ei ben, a derbyniodd urddas marchog oddi wrth Charles II. Ar y ddau draethawd hyn y gorphwys, yn benaf, ei gymmeriad fel awdwr o alluoedd anghyffredin i feddwl ac ysgrifenu.

Cyhoeddodd amryw o draethodau ereill sydd fwy neu lai yn amlygu yr un eangder dysgeidiaeth, yr un ffrwythlonedd dychymyg, a'r un gallu i wisgo y meddyliau mwyaf barddonol ac athronyddol mewn iaith sydd yn fynych yn uno nerth a phrydferthwch. Ymddengys Browne, yn ei ysgrifeniadau, fel ysgolhaig, fel athronydd, ac fel un yn meddu gradd helaeth o'r ysbryd barddonol, er ei fod yn ysgrifenu mewn rhyddiaith. Fel ei gyfoeswyr, Milton a Jeremy Taylor, nid yw ei feddyliau yn dilyn eu gilydd yn ol rheolau rhesymeg, ond ymffurfiant yn arlun byw-liwiedig o ffaen y meddwl.

Er mwyn rhoi ar ddeall ei bod yn myned yn hwyr, fe ddywed—"Y mae yr Hyades yn rhedeg yn isel—byddai cadw ein llygaid yn agored yn hwy yn ein gwneuthur fel ein gwrthdroedwyr—fod corn yr heliwr wedi deffro yn America—a bod eu cwsg cyntaf drosodd yn Persia." Teimlai Browne ei fod yn fynych yn dyweyd pethau fel bardd, nas gallasai eu hamddiffyn fel athronydd. Oddi ar y teimlad hwn, fe ddywed yn y Rhagymadrodd i'r *Religio Medici*, fel rhybudd i'r darllenydd—"Y mae llawer o bethau yn cael eu traddodi yn rhetoraidd—ac y mae llawer o ymadroddion nad ydynt ond ffugrol, ac o ganlyniad nid ydynt i'w deall yn ol rheolau rhesymeg neu reswm." Y mae y gocheliad hwn yn un priodol i'w gofio, er mewn gradd llai, wrth ddarllen ei holl weithiau.

Gwelir oddi wrth y dyfyniadau canlynol, er ei fod wedi ysgrifenu traethawd er dynoethi cyfeiliornadau cyffredin, nad oedd ef ei hun o duedd ammhëus.

"O'r braidd y meddyliwyf fod digon o anhawsderau mewn crefydd i ffydd fywiog; y mae y dirgeledigaethau dyfnaf yn nghrefydd Crist, nid yn unig wedi cael eu hegluro, ond hefyd eu profi yn ol rheolau rhesymeg. Yr ydwyf yn caru colli fy hun mewn dirgelwch, a dilyn fy rheswm nes cyrhaedd rhyw O Ddyfnder (*O Altitudo*)! Fy nigrifwch ar fy mhen fy hun ydyw dyrysu fy rheswm â dirgeledigaethau y Drindod, yr ymgnawdoliad, a'r adgyfodiad. Gallaf ateb holl wrthwynebiadau Satan a fy rheswm gwrthryfelgar fy hun â'r hen benderfyniad a ddysgais gan Tertullian—*y mae yn sicr am ei fod yn anmhosibl* (*h. y.*, am ei fod yn ymddangos yn anmhosibl). Dymunwn weithredu fy ffydd yn y pethau anhawddaf. Y mae rhai yn credu yn well o fod wedi gweled bedd Crist; ac wedi gweled y Môr Coch, nis gallant ammheu y wyrth; ond i'r gwrthwyneb, yr wyf fi yn teimlo yn ddiolchgar nad oeddwn yn byw yn oes y gwyrthiau..... Ni fynaswn i fod yn un o'r Israeliaid a aethant trwy y môr, nac yn un o'r cleifion a deimlasant rinwedd iachaol Crist; o herwydd felly, buasai ffydd fel yn cael ei gwthio arnaf, ac ni buaswn yn cael mwynhau y fendith fwy hono sydd yn perthyn i'r rhai sydd yn credu heb weled. Yr

Digitized by Google

oedd y rhai oedd yn byw cyn ymddangosiad Crist, yn cael y fantais o weithredu ffydd ddyrchafedig ac eofn, trwy fyw ar brophwydoliaethau yn unig, a chysgodau tywyll, a dysgwyl am bethau a ymddangosant yn anmhosibl. Er pan ddysgais ddeall nad ydym yn deall dim, y mae fy rheswm yn llawer mwy ufudd i arweiniad ffydd.

DOETHINEB A THRAGWYDDOLDEB DUW.

Mewn unigrwydd yr wyf yn cofio nad wyf unig, ac yr wyf yn myfyrio am dano Ef a'i briodoliaethau sydd bob amser gyda mi, yn enwedig ei ddoethineb a'i dragwyddoldeb. Trwy y naill yr wyf yn difyru, a thrwy y llall yr wyf yn dyrysu fy neall. Pwy a all lefaru am dragwyddoldeb heb anghyssonder, a phwy a all feddwl am dano heb fyned i lewyg? Gallwn ddeall amser—nid yw ond pum niwrnod hŷn na ni ein hunain, ac y mae iddo yr un ffurfafen (*horoscope*) a'r byd; ond y mae cilio mor bell yn ol ag i ddychymygu dechreuad—a rhoddi y fath naid yn mlaen ag i amgyffred diwedd—mewn hanfod na pherthyn iddi y naill na'r llall, yn peri i fy rheswm i gilio i'r un cysgod a St. Paul—(O Ddyfnder!). Ni wnaeth y Creawdwr un creadur i allu ei amgyffred—ei ragorfraint ef ei hun ydyw hyn: "Ydwyf yr hwn ydwyf," oedd ei ateb ef i Moses—ateb digon byr i daflu cywilydd ar farwolion sydd yn beiddio gofyn i Dduw pa beth ydyw.

NATUR A CHELFYDDYD.

Nid yw natur yn anghysson â chelfyddyd, na chelfyddyd yn anghysson â natur—y mae y ddwy yn wasanaethyddion ei ragluniaeth. Celfyddyd ydyw perffeithrwydd natur. Pe byddai y byd yn awr fel yr ydoedd ar y chweched dydd, byddai yn *gaos*. Y mae natur wedi gwneuthur un byd, a chelfyddyd wedi gwneuthur un arall. Yn fyr, y mae pob peth yn gelfyddydol, o herwydd natur ydyw celfyddyd Duw.

FFYDD, RHESWM, A NWYD.

Fel y mae rheswm yn gwrthryfela yn erbyn ffydd, felly y mae nwyd yn gwrthryfela yn erbyn rheswm: eto, y mae yn bosibl trefnu eu tiriogaethau yn y fath fodd ag iddynt oll fod yn freninoedd, ac eto, heb ond un unbenaeth rhyngddynt—pob un yn llywodraethu yn ei amser a'i le ei hun. Mewn duwinyddiaeth, fel mewn athroniaeth, y mae dyrys-bethau ystyfnig, ac nid oes neb yn gwybod yn well am danynt trwy broflad na mi fy hun; ac yr wyf yn cyfaddef i mi eu gorchfygu, nid ar agwedd milwr buddugoliaethus, ond ar fy ngliniau.

Y NEFOEDD.

Nid yw yr apostol, yr hwn a gafodd gip ar y nefoedd, wedi gadael ond dysgriflad nacaol o honi. Cipiwyd ef megys allan o hono ei hun i'w gweled; ond wedi dychwelyd iddo ei hun, nis gallai ei dysgriflo. Y mae dysgriflad Ioan yr un modd hefyd yn syrthio yn fyr o ddysgleirdeb y nefoedd weledig. Yn fyr, gan hyny, lle y mae yr enaid yn cael ei gyflawnu o hapusrwydd, lle y mae syched diderfyn yr ysbryd yn cael ei dori, fel nas gall ddymuno chwanegiad na chyfnewidiad—yno y mae y nefoedd. Ac nis gall hyn fod ond yn y mwynhâd o'r hanfod hwnw sydd â'i berffeithrwydd yn ddigon iddo ei hun, ac yn ddigon i lenwi ein holl ddymuniadau ni. Pa le bynag y mae Duw yn dadguddio ei hun felly, yno y mae y nefoedd, pe o fewn cylch y byd gweledig hwn. Felly, fe all enaid dyn fod yn y nefoedd yn rhywle, hyd yn oed o fewn terfynau ei gorff ei hun; ac wedi iddo ddarfod â'r corff, fe ddichon aros yn ei enaid priodol ei hun—hyny yw, ei Greawdwr. Felly, gellir dyweyd fod St. Paul, pa un ai yn y corff, ai allan o'r corff, eto yn y nefoedd. Wrth ofyn yn mha le y mae y nefoedd, yr ydym yn gofyn yn mha le y mae presennoldeb Duw, neu yn mha le y mae mwynhau yr olwg ar ei ogoniant. Gosodir poenau uffern allan yn fynych trwy dân ac ing corfforol, fel y mae Mahomet yn dysgriflo dedwyddwch y nefoedd. Ond os hyn ydyw perffeithrwydd trueni uffern, nid yw yn deilwng o'i chyferbynu â'r nefoedd—hapusrwydd yr hon sydd yn gynnwysedig yn y rhan hono sydd gymhwysaf i'w amgyffred, sef yr hanfod anfarwol, preswylfa Duw yn yr enaid.

Yr wyf yn diolch i Dduw na bu arnaf erioed ofn uffern. Yr wyf mor sefydlog fy myfyrdodau am y nefoedd, fel ag i anghoflo, o'r bron, fod y fath le ag uffern; a byddaf yn teimlo mwy o ofn colli dedwyddwch y naill, na dyoddef trueni y llall. Y mae amddifadrwydd o fwynderau y nefoedd yn ddigon o uffern ei hun. Yr wyf yn ofni Duw, eto nid wyf yn ei arswydo; ac y mae ei drugaredd yn peri i mi gywilyddio o blegid fy mhechodau, yn gynt nag y mae ei farnau yn fy nychrynu rhagddynt. Y rhai hyny sydd yn myned fwyaf diogel i'r nefoedd, a fynent ei wasanaethu pe na byddai uffern.

Nid yw fy mywyd ond gwyrth o ddeng mlynedd ar ugain; byddai yr adroddiad o hono yn hytrach yn ddarn o farddoniaeth nag yn hanes, a seiniai i glustiau cyffredin yn debyg i chwedl. Nis gallaf edrych ar y byd gymmaint yn westty (*inn*), ond ymddengys i mi yn hytrach yn glafdy (*hospital*). Nid lle i fyw, ond i farw ynddo. Y byd a gyfrifaf fi yn rhywbeth, ydyw byd bychan (*microcosm*) fy nghyfansoddiad fy hun: am y byd sydd o fy nghwmpas, yr wyf yn ei ddefnyddio yn debyg fel y defnyddiwyf fy *nglôb*, i'w droi o gwmpas weithiau er fy nifyrwch. .....Nid yw y ddaiar ond pwynt, o'i chymharu nid yn unig â'r nefoedd uwch ben, ond â'r rhan nefol a dwyfol sydd o'n mewn. Nid yw y cnawd sydd yn fy amgylchynu yn cynnwys fy meddwl. .....Tra yr wyf yn chwilio pa fodd yr ydwyf yn fyd bychan, yr wyf yn cael fy mod yn fwy na'r byd mawr. Y mae yn bur wreichionen o Dduwdod, rhywbeth a wnaed o flaen y nefoedd, ac heb fod dan rwymau i dalu gwarogaeth i'r haul. Dywed natur yn gystal ag Ysgrythyr wrthyf, fy mod ar ddelw Duw. Mae yr hwn sydd heb ddeall cymmaint a hyn heb ddysgu eto wyddor dyn (*alphabet of man*)."

Yn ei *Ymchwiliadau i Gyfeiliornadau Cyffredin*, yr hwn, oddi wrth ei hyd a'i ddysgeidiaeth, ydyw, efallai, ei draethawd pwysicaf, nid oes ond ychydig o ehediadau uchel y bardd yn ymddangos, ac yr ydym yn cael ein hunain gyda'r ysgolhaig llafurus a difrifol. Amcan y llyfr hwn ydyw olrhain, yn gyntaf, y cyfeiliornadau a'r camsyniadau y mae dyn yn syrthio iddynt i'w hachosion cyffredinol; megys gwendid cyffredin y natur ddynol—gau ymresymiadau—hygoeledd a difaterwch—ymlyniad cyndyn wrth henaflaeth—parch gormodol i awdurdod—ac ymdrechiadau Satan, prif ledaenwr pob cyfeiliornad. Ond y mae y rhan fwyaf o lawer o'r traethawd yn cael ei gymmeryd i fyny trwy nodi a chywiro camsyniadau mewn fferylliaeth ac anianaeth, y cyfryw ag y cyfarfyddai â hwynt yn ei alwedigaeth fel meddyg; ac yn ail, esamplau a gyfarfyddai â hwynt fel efrydydd cyffredinol. Ond yr oedd holl efrydiau Browne yn gorwedd yn ddigon pell oddi wrth y cwestiynau sydd o bwys i ddyn, yn ei gyssylltiadau tymmorol, a'i ddysgwyliada-

Digitized by Google

dyfodol. Os myn neb gael ymchwiliadau dysgedig a chywrain i gyfres o'r cwestiynau mwyaf annysgwyliadwy, caiff ei foddio ond odid yn y llyfr hwn. Gellir casglu eu natur oddi wrth un neu ddau. Yn llyfr iv, am syniadau cyffredin o barth dyn, y mae wedi dewis "Fod Iuddewon yn drewi;" "Am gorachod." Yn llyfr v, "Am ddarlun y Dolphin;" "Am ddarlun Haman wedi ei grogi." Mae ganddo rai testynau ysgrythyrol,—"Am Methuselah;" "Fod gan ddyn un asen yn llai na gwraig:"—ac mae ambell un o bwysigrwydd henafiaethol, &c. Yr oedd Browne yn treulio ei amser gyda chwestiynau o'r natur hwn yn nghanol helyntion ofnadwy y rhyfel rhwng Charles I. a'r senedd. Yn y flwyddyn y bu farw Cromwell, 1658, cyhoeddodd Browne draethawd bychan ar erddi henafol, dan yr enwad *Gardd Cyrus*. Yn ei ddiwedd, ceir y paragraph prydferth a barddonol a ganlyn:—"Y mae y goleuni sydd yn dadguddio pethau yn gwneuthur rhai pethau yn anweledig. Oni buasai tywyllwch a chysgod y ddaiar, buasai y rhan ardderchocaf o'r greadigaeth heb ei chanfod, a ser y nefoedd mor anweledig ag ar y pedwerydd dydd pan grewyd hwynt, a phan nad oedd llygaid i'w gweled. Mae dirgeledigaethau mwyaf crefydd yn cael eu harddangos trwy gysgodau, ac yn y rhan ardderchocaf o'r addoliad Iuddewig ni gawn fod y drugareddfa wedi ei gorchuddio â'r cerubiaid. Nid yw bywyd ei hun ond cysgod marwolaeth, ac eneidiau ymadawedig ond cysgod o'r byw. Mae pob peth yn syrthio dan yr enw hwn. Nid yw yr haul ei hun ond delw (*simulachrum*) tywyll, a'r goleuni ond cysgod o Dduw."

BRUD, BRUDIAETH, BRUDWYR. Gwel DEWINIAETH.

BRUGGLERIAID: plaid ddistadl o benboethiaid, a dderbyniodd ei henw oddi wrth Bruggler, pentref yn nghantref Berne, yn 1746. Sylfaenwyd y blaid gan ddau frawd, Christian a Jerome Robler, y rhai a honent mai hwy oeddynt ddau dyst Llyfr y Dadguddiad. Casglasant nifer o bersonau, yn feibion a merched, i'w canlyn, y rhai oeddynt ddigon gweiniaid i roddi crediniaeth i'w gwag honiadau. Un diwrnod, addawodd Christian Robler ymddyrchafu i'r nef, a chymmeryd ei ganlynwyr, y rhai oeddynt i gydio yn ei ddillad, yno gydag ef. Ond pan ddaeth y diwrnod, yr oedd nifer y rhai a ddymunent fyned gydag ef mor fawr, fel y rhoddes i fyny yr anturiaeth. Cafodd y ddau frawd eu dienyddio yn 1753, a diflanodd y blaid yn llwyr yn mhen ychydig amser.

BRWMSTAN, [Heb. נפרית; Gr. θειον]: sydd fath o ddefnydd melyn brau, i'w gael mewn llawer o barthau o'r byd, ond mewn mwy o helaethrwydd mewn cymmydogaethau llosgfalus (*volcanic*). Digonir Ewrop âg ef o ddeheudir Italy, ac o Sicily.

Ceir amryw grybwylliadau yn yr Ysgrythyr am y defnydd hwn: *Gen.* xix. 24; *Deut.* xxix. 23; *Iob* xviii. 15; *Salm* xi. 6; *Esa.* xxx. 33; xxxiv. 9; *Exec.* xxxviii. 22. Llefara yr Ysgrythyr am dân a brwmstan fel yr elfenau â'r rhai y cospa yr Arglwydd y drygionus yn y byd hwn a'r hwn a ddaw. Bernir yn gyffredin fod yn yr ymadroddion ffugrol hyn gyfeiriad at ddinystr dinasoedd y gwastadedd â than a brwmstan, yr hwn ddinystr a ellir ei olygu fel arddangosiad o ddinystr tragwyddol yr annuwiol. Yn *Iob* xviii. 15, dysgrifia Bildad drueni yr annuwiol trwy ddywedyd, yn mysg pethau ereill, "Brwmstan a wasgerir ar ei drigfa ef." Y mae brwmstan bob amser, medd Barnes, yn cael ei ystyried yn arwyddlun o anghyfannedd-dra (cymh. *Deut.* xxix. 23). Ni thyfa dim ar dir wedi ei orchuddio â brwmstan; a'r meddwl yn y fan hon yw, y bydd ei dŷ yn gwbl anghyfannedd ac anrheithiedig. Tybia Rosenmüller a Noyes, y cyfeirir yn y frawddeg hon at ddinystr disymmwth, fel yr oedd dinystr Sodom a Gomorrah. Petrusa Grotius yn nghylch pa un a gyfeiria at hyny, ynte at fellt. Barna ereill mai at ystorm o fellt y mae y cyfeiriad yma, ac yn *Gen.* xix. 24, a *Deut.* xxix. 23. Barn Barnes ei hun ydyw, nad oes un golwg gan Bildad ar ddinystr y dinasoedd, nac ar yr anrhaith a wneir gan ystorm o fellt. Pe buasai cyfeiriad at y cyntaf buasai yn fwy llawn ac eglur. Tybia ef, felly, mai arwyddlun o anrheithiad ac anghyfannedd-dra ydyw yr ymadrodd.

Diammheu fod "tân a brwmstan," yn *Salm* xi. 6, yn cyfeirio at ddymchweliad y dinasoedd. Arwydda yr ymadrodd, "y gwlawia efe," helaethrwydd barnau cospawl yr Arglwydd; dynoda, medd Luther, "amrywiaeth a lluosogrwydd y drygau a fygythir." Golyga Scheuchser [*Physic. Sacr.*] y cyfeirir, yn *Iob* xviii. 15, at yr arferiad o buro tai â brwmstan, er ymlid ymaith ysbrydion drwg o honynt, a'u gwneyd yn gymhwys i drigo ynddynt; tra y tybia ereill ei fod i'w ddeall am yr arferiad o losgi brwmstan mewn tai ar angladdau fel arwydd o ofid a galar. Crybwylla Livy am hyn fel arferiad gyffredin yn mysg y Rhufeiniaid [*lib.* 30, *cap.* 15]. Ond ymddengys nad oes dim yn yr ymadroddion eu hunain yn ffafrio y ddwy dybiaeth ddiweddaf.

BRWYDR—AU, [*brwyd*]: ymladdfa, cadorfod.

Nid brwydr ond gwewyr. *Diar.*
There is no piercing battle but with spears. *Dr. Pughe.*

Brwydr ydyw ymladdfa rhwng dwy fyddin elyniaethol, er mwyn ennill rhyw amcan a ystyrir yn bwysig. Y frwydr ydyw y rhan bwysicaf o'r rhyfelawd; hi ydyw y nod at ba un y mae yr holl weithrediadau a'r darpariadau blaenorol yn cyfeirio—y dygwyddiad mawr sydd yn fynych yn penderfynu tynged teyrnasoedd a chenedloedd, yn gystal a'r byddinoedd eu hunain. Yn oesoedd boreuaf y byd, nid oedd brwydr yn amgen nag ymladdfa greulawn a gwaedlyd, a ymddibynai yn fwy am ei chanlyniad ar nerth ac yni corfforol yr ymladdwyr, nag ar drefniad deallgar o eiddo y cadlywydd; ond fel yr oedd gwybodaeth yn y gwyddorion a'r celfau yn cynnyddu, yr oedd gwelliadau mawrion yn cael eu gwneyd ar drefniadau milwraidd; a dangosai brwydr Marathon, yr hon oedd y gyntaf a ddygid yn mlaen gyda threfn a dysgyblaeth dda, pa mor bell y gellir gwneyd i fyny am ddiffyg nerth anianyddol trwy wybodaeth a medrusrwydd yn y llywiadaeth. Arddangosir yr un peth hefyd yn mrwydrau dilynol Platæa, Mantinea, a Leuctra, yn mysg y Groegiaid; a choffeir am fryniau Ticinus, llyn Trasymenus, a gwastattir Cannæ, fel lleoedd yr ymladdwyd brwydrau ynddynt, y rhai, ar gyfrif medrusrwydd eu cynlluniad a'r deheurwydd y gweithredwyd wrthynt, a arganmolir gan filwyr yn yr holl oesoedd canlynol. Er fod yr arfau [gwel erthygl] a arferid yn y oesoedd gynt yn dra gwahanol i'r rhai a ddefnyddir yn yr oesoedd diweddar, a bod amryw o amgylchiadau wedi peri fod gwedd wahanol ar

Digitized by Google

drefniadau milwraidd y ddau gyfnod—yr hen a'r diweddar—eto addefir fod tebygrwydd mawr yn eu materion pwysicaf—yn y pethau y gellir eu hystyried fel eu seilwaith: a gellir gweled wrth chwilio iddynt fod yr egwyddorion mawrion y gweithredid arnynt gan Napoleon a Wellington yn y canrif hwn, yn cael eu harfer, yn anmherffaith y mae yn wir, gan Epaminondas ar faes Leuctra. Y mae yn deilwng o ystyriaeth nad yw y cyfnewidiadau pwysig sydd wedi cymmeryd lle yn mhob oes yn arferion cenedloedd, ac yn eu hoffer rhyfel, wedi effeithio ond i'r graddau lleiaf ar brif egwyddorion trefniad milwraidd.

Ystyrir fod tri math o frwydrau. 1af. Brwydr ymosodol, yn yr hon y ceisir gorchfygu y gelyn yn mhob pwynt, ac ar bob achlysur. 2il. Brwydr ddiffynol, yr hon a gynnwys fod y naill fyddin yn cymmeryd ei safle, ac yn ei amddiffyn yn wyneb y gelyn. 3ydd. Brwydr hefyd rhwng y ddwy ddywededig, pryd y mae y cadlywydd yn meddu ar ddigon o ddoethineb a gwybodaeth i ddeall pa bryd i wneyd yr ymosodiad, a pha bryd i actio ar yr amddiffynol. Y mae yn anhawdd mynegu yn fanwl pa rai ydynt yr egwyddorion y dylai y cadlywydd ddewis un o'r tri math uchod wrthynt: ar yr un pryd, mae hanesiaeth yn dangos mai nid damweiniol ydyw llwyddiant y naill blaid, a'i goruchafiaeth ar y llall, ond ei fod yn ffrwyth gofal, medrusrwydd, ac ystyriaeth o'r fath fwyaf pwyllus.

Mae dynion deallus mewn trefniadau milwraidd yn dosbarthu brwydr yn dair rhan, neu dri chyfnod,—cyfnod y trefniad, cyfnod yr ymladdfa, a'r adeg benderfynol. Y mae y cadlywydd yn gwneyd ymchwiliad i nerth y gelyn, yn craffu ar ei safle, ac yn ceisio deall ei amcan. Os yw y gelyn yn cuddio ei gynllun a'i safle, gwneir aml ysgarmes ac ymosodiadau cynnil, er mwyn ei gynhyrfu, fel y galler cael golwg ar ei symmudiadau, neu er mwyn ennill carcharorion, trwy ba rai y gellir dyfod i wybodaeth o amcanion y gelyn. Yn ol y wybodaeth a geir yn y modd yma, neu mewn rhyw fodd arall, ac yn ol ystâd y milwyr, y mae y trefniad neu cynllun y frwydr yn cael ei wneyd; ac yma y mae lle i athrylith filwraidd ddangos ei hun. Yn hyn y dywedir fod Napoleon yn rhagori; fel arlywydd enwog, yr oedd, gydag ychydig gyffyrddiadau, yn rhagdrefnu pob brwydr gyda deheurwydd digyffelyb.

Yn mrwydrau yr Israeliaid yr oedd yn rheol i arbed y milwyr rhag pob llafur diangenrhaid yn flaenorol i'r frwydr, ac i'w digoni â'r lluniaeth mwyaf cynnaliaethol. Yr oedd eu harfau o'r fath oreu. Pan nesaent i'r frwydr, ymddangosai y brenin, neu ei gynnrychiolydd, yn ei wisg swyddol (*hadri radesh*="prydferthwch sancteiddrwydd" yn y testyn Cymreig), oddi eithr pan yr ewyllysiai fod yn guddiedig, fel yn Megido (2 *Cron.* iii. 22); ac ai rhagddo i wneyd y trefniadau olaf yn mysg ei gedyrn neu dywysogion. Canlynid ef gan offeiriaid, y rhai, wrth gymhell y bobl, a lefarent y geiriau hyn,—"Clyw, Israel: Yr ydych chwi yn nesäu heddyw i'r frwydr yn erbyn eich gelynion: na feddalhaed eich calon, nac ofnwch, na synwch, ac na ddychrynwch rhagddynt. Canys yr Arglwydd eich Duw sydd yn myned gyda chwi, i ryfela â'ch gelynion trosoch chwi, ac i'ch achub chwi;" *Deut.* xx. 3, 4. Pan fyddai y gelyn yn ymyl, rhoddid gorchymyn i'r ffyn-daflwyr fyned rhwng llinellau y fyddin, y rhai, yn gyntaf, a daflent geryg âg arfau tafl; ond ar ddynesâd y byddinoedd gelynol, cilient hwy i ol neu i ystlys eu byddin. Yn awr, y mae poethder y frwydr yn dechreu; mae y byddinoedd wyneb yn wyneb â'u gilydd; mae y milwyr yn y rhes flaenaf yn gorchuddio eu hunain â tharianau, ac yn ymosod ar y gelyn â gwaewffyn, a'r rhai sydd o'u hol yn taflu picellau, a'r saethyddion eu saethau dros y rhes flaenaf o'u milwyr eu hunain i fysg y gelynion. Safai y brenin yn y cyfamser, a'i dywysogion gydag ef, yn agos i gynffon y fyddin, o'r lle y gwyliai y gelyn, ac y gwellhäai bob annhrefn. Yr oedd yn fawr ei berygl yn y fan hon oddi wrth arfau tafl a saethau y gelyn: 2 *Cron.* xviii. 33; xxxv. 23. Byddai rhan o fyddin yn cael ei gosod weithiau i gynllwyn; ond arferid hyn yn fwyaf cyffredin yn erbyn gwylwyr dinasoedd: *Ios.* viii. 12; *Barn.* xx. 38. Gwel BYDDIN; RHYFEL.

BRWYN, [*rhwyn*].

"Gnawd lle bo dwfr y bydd brwyn." *Diar.*
It is usual where there is water to find rushes. *Dr. Pughe.*

Y mae *brwyn* yn gyfleithiad o ddau air Hebreig—אגמון, *agmon* (*Iob* xl. 21; xli. 2; *Esa.* ix. 14; xix. 15; lviii. 5); a גמא, *goma* (*Exod.* ii. 3; *Iob* viii. 11; *Esa.* xviii. 2; xxxv. 7). Cyfleithir *agmon* yn *Iob* xl. 21, *corsen*; yn *Iob* xli. 2, *bach*; yn *Esa.* ix. 14; xix. 15; lviii. 5, *brwynen*. Gan nad oes un planigyn yn adnabyddus wrth yr enw hwn yn Hebraeg, a'r ieithoedd perthynol iddi, ceisiwyd dyfod o hyd i'r ystyr trwy olrhain yr enw i'w wraidd, a sylwi ar y lleoedd y dygwydda y gair ynddynt. Y mae *agom* yn arwyddo llyn o ddwfr, a chorsen; ac y mae yr un gair yn yr Arabaeg yn arwyddo, cyrs-wely. Bernir ei fod o'r un gwreiddair a *goma*, y gair arall am frwynen. Tybiodd rhai mai dau enw ydynt ar yr un peth, a chyfleithasant hwy i'r un geiriau, *juncus* yn Lladin, *rush* yn Seisoneg, a *brwynen* yn Gymraeg. Dywed Celsius, y dylasai *agmon* gael ei gyfleithu yn yr holl fanau ag y ceir ef ynddynt yn *arundo* =corsen. Cadarnha Dr. Harris y dylesid darllen *Iob* xli. 2, "A fedri di rwymo ei enau â rhaff o gorsen?"

Cyfleithir y gair *goma*, yn *Exod.* ii. 3, *llafrwyn*; yn *Iob* viii. 11; *Esa.* xviii. 2; xxxv. 7, *brwyn*, *brwynen*. Arwydda, yn briodol, y *papyrus* Aiphtaidd—*papyrus Nilotica*. Tardda y gair *goma* o ferf sydd yn arwyddo *ysfed i mewn*; a chymhwysir ef at y planigyn hwn am ei fod yn ysfed y gwlybaniaeth. Defnyddiai yr Aiphtiaid ef i wneyd dillad, esgidiau, basgedi, a chychod, fel y gwelir oddi wrth *Esa.* xviii. 2; "Yr hwn a hebrwng genadau hyd y môr, mewn llestri brwyn." Defnyddid ef hefyd i ysgrifenu arno: o'r hyn y tarddodd y gair *papyr*. Y mae yn dra thebyg mai y *papyrus* a olygir yn *Iob* xl. 21, wrth y gair *agmon*, pan ddywedir am y behemoth ei fod yn gorwedd "mewn lloches o gyrs (*agmon*) a siglenydd." Y mae y frwynen Aiphtaidd dros dair llath o hyd, heb law fod un llath o honi dan ddwfr. Y gorsen sydd dair onglog, ac ar ei phen y mae capan o fân edafedd, tebyg i wallt. Gwasanaethai y pabwyryn, neu y mwydyn, yn fwyd i'r Aiphtiaid. Crybwyllir am y llongau a wneid o'r brwyn hyn gan amryw haneswyr cyffredin. "Nid oeddynt," medd Dr. Shaw, "ond adeiladau mawrion o'r un math a'r cawell y cuddiwyd Moses ynddo." Ond gan fod defnyddiau llawer rhagorach i'w cael yn awr, y mae yr arferiad o honynt wedi peidio. Sylwa Pliny ar *naves papyraceas Nili*=llestri brwyn yr afon Nile: a dywed Lucan yn un o'i ganeuon; "*Conseritur bibulâ Memphitis cymba*

Digitized by Google

papyro"=y cwch Aiphtaidd a wneir o'r frwynen sychedig: gan gyfeirio at natur y planigyn, ac ystyr ei enw Hebraeg. Yr oedd y brwyn hyn yn gofyn llawer o ddwfr i'w tyfu; a phan y byddai dwfr yr afon y tyfent ar ei glanau yn llaesu,



Dar. 136.

gwywent yn gynt na phlaniglon ereill. Teifl hyn oleuni ar *Iob* viii. 11; "A gyfyd brwynen heb wlybaniaeth? Tra fyddo hi eto yn wyrddlas heb ei thori, hi a wywa o flaen pob glaswelltyn." Y mae y dysgrifiad yn arddangos y rhagrithiwr—cyfodiad a chynnydd yr hwn sydd yn dwyn cyffelybrwydd mawr i'r eiddo y frwynen. Nid oes dim yn sylweddol yn ei grefydd; ond y mae fel y frwynen feddal, yr hon a ymddibyna am ei chynnaliaeth ar wlybaniaeth. Nid oes ynddo nerth i sefyll fel y gedrwydden; ond cynnelir ei broffes o grefydd gan lwyddiant allanol; a phan atteiir ei lwyddiant, y mae ei grefydd yn diflanu, fel y gwywa y frwynen heb wlybaniaeth.

BRYANIAID: plaid a ymneillduodd oddi wrth y Trefnyddion Wesleyaidd; a dilynwyr William O'Bryan, yr hwn oedd yn dra phleidgar i ferched bregethu.

1. **BRYCHAN BRYCHEINIOG** ab Enllech (Anllech Goronog=*Aulach Mac Gormuc*), ab Hyfwn (*Cormach Mac Carbery*), brenin y Werddon. Mam Brychan, Marchell ferch Dewdric (Tewdwr) Fendigaid, brenin Morganwg, a Gwent, a Garth Mathrin, ab Teithfall (Teithfallt), ab Teithrin, ab Nyniaw, brenin Graweg a Garth Mathrin, ab Eurben, ab Edrig, ab Casnar Draig Gwent, ab Ceiriawn Draig Gwent, ab Maran Wledig, ab Meirchion, ab Gwrgan (Gwrgant) Frych, ab Arthfael, ab Einydd, ab Gwrddyf, ab Gorddwfn, ab Gorwg, ab Meirchion Fawdfilwr, ab Owain, ab Cyllin, ab Caradog, ab Bran, ab Llyr Llediaith. Cyssylltir Brychan mewn un triad yn yr *Achau* gyda Bran ab Llyr Llediaith a Choel Godhebog, fel cyffion tair prif welygordd saint Ynys Prydain; ac mewn triad arall, gyda'r Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd, a Chunedda Wledig. Y mae Brychan, gan hyny, yn cael ei ystyried yn wastad yn un o gyffion y gwelygorddau seintiol. Brychan Brycheiniog a briodes dair gwragedd, nid amgen Prawst (Prosori), ac Eurbrawst, a Rhybrawst; a u plant hwynt a aethant yn saint ar Ynys Prydain, ac achos hyny y gelwir gwehelyth Brychan Brycheiniog yn un o dair gwelygordd saint Ynys Prydain. Dengys yr *Achau* fod i Frychan bedwar ar ugain o feibion, a chwech ar ugain o ferched, y rhai y sylwir arnynt yn eu priodol leoedd yn MONEDD Y SAINT. Y mae hanesion ereill yn gwahaniaethu gyda golwg ar y rhif, ond ni chyfrif neb lai na pedwar ar ugain rhwng meibion a merched. Bernir fod y rhif sydd yn yr *Achau* yn cynnwys amryw o ŵyrion Brychan, cystal a'i blant. "Brychan Brycheiniog," ebai y *Trioedd*, "a ddug ei blant a'i wyron ar ddysg a bonedd, fel y gallent ddangos y ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry, lle ydd oeddynt yn ddiffydd" [*Myv. Arch.* II. *ser.* ii. *tri.* 18]. Dygodd ei rieni Frychan i'r ynys hon o'r Werddon tra yr oedd efe eto yn ieuane; a chymmerasant eu trigfod yn y Gaer (Benni) ger llaw yr afon Isgaer, yn Mrycheiniog. Gwedi arwain bywyd milwrol yn more ei oes, llwyddodd, o gylch 400 B. A., yn hawl ei fam, Marchell ferch Tewdrig, i gael talaeth Garth Mathrin, a alwyd wedi hyny ar ei enw ef—Brycheiniog, yr hwn yw enw Cymreig y dalaeth hyd y dydd hwn, ac nid yw yr enw Seisoneg, Brecknock, ond llygriad o'r un Cymraeg. Gwedi i Frychan droi i'r ffydd yn Nghrist, treuliodd weddill ei oes yn arwain buchedd sanctaidd, ac yn dwyn ei blant a'i ŵyrion, fel y dywed y *Trioedd*, ar ddysg a bonedd yn y ffydd hono; a bu farw o gylch B. A. 450. Gwel BRAN FENDIGAID.

2. BRYCHAN II. Ymddengys, ebai golygydd dysgedig *Bucheddau y Saint*, na ddaeth erioed i feddwl casglyddion *Achau y Saint* y gallasai fod mwy nag un person o'r enw Brychan. Ar ymchwiliad, fe ymddengys fod dau ereill o leiaf o'r un enw, yn bucheddu ar wahanol amserau ar ol rheolydd Brycheiniog; yr hwn—yn ol hanesydd y wlad hono (Jones), a ddyfyna o lawysgrif yn Ngholeg yr Iesu—a ddechreuodd deyrnasu yn y flwyddyn 500, ac a fu farw yn y flwyddyn 550 (can mlynedd union diweddarach na'r amser a rydd Williams ac ereill i Frychan Brycheiniog): ac ymddengys oddi wrth briodasau rhai o'i blant fod yr amseriadau hyn yn lled agos i'r gwirioneedd. Y nesaf o ran amser (Brychan II.), fel y dywedir, oedd frodor o Went, a chár agos i Cathonen, un o dywysogion bychain y wlad hono. Crybwyllir am bentref Cathonen yn *Llyfr Llandaf*, td. 451. Ymddengys mai hwn ydyw y lle a elwir yn awr, o blegid yr arfer ffol o geisio cyfieithu enwau lleol, yn Cat's ash, yn agos i Eglwys Crist (Christchurch). Y Brychan, Brachan, neu Frachan, hwn, canys gelwir ef bob ffordd, a aeth i Lydaw gyda'i wraig Gwen, lle y cyfrifwyd y naill a'r llall yn saint; y rhai, yn ol yr hanes sydd genym am eu plant, a fuant feirw, fel yr ymddengys, tua dechreu y chweched canrif. Y mae enwau tri o'u plant yn nghofres saint Llydaw,—Winvaloc, enw yr hwn a ysgrifenir mewn gwahanol ffyrdd, sef Wingaloc, Vinguvally, Waloway, Gwiguoleu, Venole, Gwingalais, Gweuno, Gwenny, a Gwarog, ac enwau ereill efallai. Sylfaenodd y sant amlenwog yma fynachdy ar dir a rodded iddo gan Grallo, iarll Cornualis, yn Llydaw; a elwid oddi wrtho ef, Llan-de-venech, lle y bu farw Mawrth 3ydd, 529. Efe yw sant gwarcheidiol Llan Gwarog (Wonastow) yn Mynwy, a Llandevenni ger Magor, a Llanwinny. Y mae y ddau

Digitized by Google

gapel olaf yn awr wedi eu distrywio. Ni wyddys fod i'w frodyr, Gwythenog ac Iago, unrhyw eglwysi yn Ngwent. Cofwyl Winwaloc yw Mawrth 3ydd; Gwythenog, Tachwedd 5ed; a Iago, Chwefror 8fed. Yr oedd i Winwaloc ddysgybl a elwid Pallay, a aeth gydag ef i Lydaw; yr hwn, fel y tybiwn yn ddiau oedd Pablai, neu Pabiali, a nodir yn y cofresau fel un o feibion Brychan Brycheiniog. Yr oedd iddo ef areithfa neu gapel yn Ngwent, a elwir yn *Llyfr Llandaf* yn Llantypallai, yn rhyw le yn Llangadoc Fibonafel, fel yr ymddengys, er fod ei safle weithian yn anadnabyddus. Pa fodd bynag, y mae ei gyssylltiad â Winwaloc yn dangos y camsyniad o'i gyfrif yn un o deulu Brychan Brycheiniog. Nid yw hysbys pwy oedd plant ereill Brychan, tad Winwaloc; ond nid annhebyg, oddi wrth ei amser a lle ei enedigaeth, fod Gwladus, gwraig Gwynllyw, mam Cadog Sant, ac ereill, yn ferch i'r tywysog yma, yn hytrach na Brychan Brycheiniog. Gwel BUCHEDDAU Y SAINT.

3. BRYCHAN III. Mab ydoedd y trydydd Brychan i Gwyngon, neu Gwyddgon (=Gwyddon?), a goffëir yn *Llyfr Llandaf*, td. 456, fel un a roddes dir i'r esgob Frychan, a fucheddai, y mae yn debyg, o gylch diwedd y 7fed canrif. Nid yw y darluniad a geir o'r rhodd yn ein galluogi i'w hadnabod yn bresennol, ond yr oedd Dingad a Chlydog yn mysg y tystion clerigol oedd wrthi; a chanfyddir enwau y ddau hyny yn mhlith teulu Brycheiniog; a'r cyntaf o'r ddau, yn ol fy marn i, yw sant gwarcheidiol Merthyr Dingad (*Dingadstow*), yr hwn y crybwyllir gyntaf am dano yn amser yr esgob Nudd, yn y 9fed canrif. Yn sel-warantau y pabau (*popes' bulls*) gelwir y lle hwn yn Ferthyr Dingad. Y mae eglwys yn Llanymddyfri wedi ei chyflwyno i fab Brychan Brycheiniog; ac ni ddywedir mewn un man ei fod ef yn ferthyr. Am Brychan ab Gwyngon, ymddengys iddo ef roddi ei enw i le a elwir Llys Brychan, yn agos i eglwys adfeiliedig Llangynog, ger Llansoy; yr hon a briodolwyd, bid sicr, i Gynog ab Brychan Brycheiniog, a gellid tybied gan nad yw'r llys bell oddi wrth yr eglwys ei fod yn cadarnhau hyn. Pa fodd bynag, y Cynog y mae ei enw yn gyssylltiedig â'r eglwys, os nad wyf fi yn mawr gamsynied, oedd y gwr a roddes y plwyf cyssylltiedig, Llansoy, i'r esgob Berthgwyn [*Llyfr Llanda.*, td. 437], ac a nodir fel ei dreftadaeth ef ei hun, yr hwn, fel yr ymddengys mewn lle arall, ydoedd fab i Cynwyl ab Gwyngenau, neu Gwyngon, a nai i Frychan o lys Brychan, megys yn yr achau canlynol, a'n dwg at sant arall a gyfrifir o deulu Brychan Brycheiniog:—



"Rhoddir Cenhedlon yn y rhestr o ferched Brychan Brycheiniog, gan sylwi yn unig mai santes hi ar fynydd Cymmorth, sefyllfa yr hwn sydd anhysbys. Hon yw gwarcheidwad eglwys Corn Cenhedlon (*Rockfield*). * * Gwraig oedd y Genhedlon santes yma i Arthfael ab Ithel, tywysog neu frenin bychan yn Ngwent, a chefnder i Frychan ab Gwyngon." Dywed awdwr dysgedig y nodiadau uchod ar y Brychanod—yr ymddengys yn llawer tebycach iddo ef fod y gwahanol eglwysi a chapeli sydd yn Ngwent wedi cael eu sefydlu gan feibion a merched un o'r ddau Frychan olaf, na chan blant Brychan Brycheiniog. Dywed hefyd fod yn llwyr debyg fod amryw heb law y rhai a nodwyd yn y llinach uchod, a ystyrir yn blant Brychan Brycheiniog, mewn gwirionedd yn blant i un o'r ddau Frychan olaf; megys Arthen ab Brychan; Gerwyn neu Gerin; Gwladus wraig Gwynlliw; Gwawr=Gwenddydd, Goleuddydd; Hawystl santes; Nefyn; Ceina santes, modryb Catwg sant, a'i chwaer Gwladus, y ddwy, fel y tybia efe, yn ferched yr ail Frychan. Dyfrig hefyd, a gamsynir am Ddyfrig, esgob Llandaf, ydoedd fab, y mae yn dra thebyg, i Frychan o Lys Brychan, ac nid ŵyr Brychan Brycheiniog, fel y tybia rhai. Ymddengys ei enw ef fel tyst clerigol wrth y rhoddion i'r esgob Cadwared, yn niwedd y 7fed canrif, neu ddechreu yr 8fed canrif. Dywed yr awdwr fod y cymmysgiadau a'r camsyniadau a nodir yma wedi peri i rai ammheu hanfod Brychan Brycheiniog, pan y byddai ymchwiliad priodol yn debyg iawn o ddwyn teulu y pendefig hwnw i derfynau rhif rhesymol, heb law y gosodid yntau yn ei le a'i amser priodol. Efallai y rhydd y byr sylwadau hyn rywfaint o gymhorth i gyssoni rhai pethau a ymddangosant yn ddyryslyd i'r craffus yn hanes y prif Frychan a'i deulu.—(*Myv. Arch.; Iolo's MSS.; Lives of the Saints; Lib. Land*, &c.)

BRYCHEUYN—AU—NI, [*brych*]: mymryn; gronyn; ysbrych; amryliw, cymmysgliw· *Can.* iv. 7; *Esa.* xl. 15; *Mat.* vii. 3, 5; *Eph.* v. 27; 2 *Pedr* ii. 13. "Pa ham yr wyt yn edrych ar y brycheuyn sydd yn llygad dy frawd," &c.; *Mat.* vii. 3, 4, 5. Dysgrifir dau ddyn yn dyoddef oddi wrth anhwylder yn y llygad; ond y mae llygad y naill yn llawer gwaeth na'r llall. Ac y mae graddau yr anhwylder yn gyfatebol i'r achosion. Y mae gan y naill "frycheuyn" (καρφος=*carphos*), neu yn hytrach ysglodyn bychan o bren yn ei lygad; y mae gan y llall ddarn llawer mwy, yr hwn o'i gymharu â'r llall, a ellir ei alw yn "drawst" (δοκος=*docos*). Y mae llygad y naill wedi ei anmharu; ond y mae llygad y llall bron wedi ei ddinystrio. Ond y mae yr hwn sydd bron wedi colli golwg ei lygad, yn lle ceisio ei wella, yn ei ddefnyddio i ysbio i lygad ei frawd, er mwyn gwneyd yr hyn sydd yn gofyn llygad perffaith i'w gyflawnu, sef tynu ymaith y brych-

Digitized by Google

euyn sydd yn llygad ei frawd. Nis gall fod dim yn fwy afresymol. Hyn ydyw cymhariaeth yr Iachawdwr. Pa beth ydyw y cymhwysiad? Tybir fod yn dim ddarostyngedig i ryw fai lled ddibwys—megys tymmer gyffrous, neu duedd ormodol i siarad: y mae un arall yn gaeth gan ryw arferiad hollol bechadurus—megys anghymmedroldeb, anghyfiawnder, neu anwiredd. Y mae yr olaf o'r rhai hyn yn gosod ei hun i fyny i farnu ac i ddiwygio y llall. A all dim fod yn fwy afresymol nag iddo ef wneyd sylw arbenig o *wendid* ei gymmydog, tra y mae yn anghofio ei *bechod* ei hun? Mor anghymhwys fyddai i lofrudd neu leidr eistedd mewn brawdlys ar achos un wedi ei gyhuddo o ryw fân drosedd yn erbyn cyfreithiau y wlad? Mor anghymhwys fyddai i Satan fel angel y goleuni ddechreu argyhoeddi y byd o bechod! Nid yn unig y y mae y cyfryw yn anghymhwys, ond hefyd nis gall fod yn llwyddiannus. Pa fodd y gall dyn sydd bron yn ddall symmud ymaith y brycheuyn o lygad un arall? Er mwyn ceryddu yn effeithiol am bechod, rhaid i'r ceryddwr fod mor glir ei hun, fel nas gall y ceryddedig ddywedyd, "Y meddyg, iacha dy hun." Y mae golwg ysbrydol y meddwl sydd dan ddylanwad pechod yn cael ei ddallu, a'i deimlad ysbrydol ei bylu. Nid yw yn debyg y bydd ei farn yn gywir; a phe byddai, ni dderbynid hi, am mai ei farn ef ydyw. Y cymhwysder i geryddu ydyw ymadael â phechod: gwel *Rhuf.* ii. 17—23. Ni ddylid casglu oddi wrth y geiriau, nad yw yn ddyledswydd i geryddu pechod, ond fod byw mewn pechod yn anghymhwysder i ddyn wneyd hyny. Defnyddid y geiriau fel diareb yn mhlith yr Iuddewon.—*Dr. Brown.*

Y gair Groeg yn y nifer mwyaf o'r lleoedd am *frycheuyn* ydyw σπιλος=*spilos*: *Eph.* v. 27; 2 *Pedr* ii. 13, &c. "Brychni yw hyny yn tarddu yn y croen;" *Lef.* xiii. 39. Y gair Hebraeg yma ydyw בהק (*bohac*). Dywed Niebuhr, yn ei *Description de l' Arabie*, fod un math o'r gwahanglwyf yn cael ei alw gan yr Arabiaid yn bresennol yn *bohac*, ond nad yw y math hwn yn heintus nac yn farwol. Dywed Forskal hefyd fod yr Arabiaid yn galw un math o wahanglwyf, yn yr hwn y mae brychau bychain yn ymddangos yn y corff, yn *behag*; ac mai yr un yn ddiddadl yw a'r peth a enwir yn *Lef.* xiii. 39.

BRYN MAWRTH. Gwel AREOPAGUS.

BUAL—AIL, [*bu*]: ych gwyllt; y buffalo.

"Ys mau y deliadau,
Medd o fualau."

To me these are delicacies, mead from the buffalo horns.
Taliesin.

Ni ddygwydda y gair ond unwaith yn yr Ysgrythyrau (1 *Bren.* iv. 23); ond y mae "ych gwyllt," yn *Deut.* xiv. 5, yn gyfleithiad o'r un gair Hebraeg—יחמור (*ihmor*). Y mae yr enw hwn yn dyfod o ferf sydd yn arwyddo *cynhyrfu*, ac felly yn cyfeirio at duedd gynhyrfus ac afiywodraethus y creadur. Cyfleitha y *Vulgate* ef yn y ddau le uchod, *bubalus*; a bernir yn gyffredin mai yr ych gwyllt, neu y buffalo, ydyw yr anifail a olygir. Dywed Buffon [*Natur. Hist.*], fod yr ych gwyllt o duedd erwin ac anhydrin; ei arferion yn dra aflan a bwystfilaidd; a'r olwg arno yn hynod greulawn. Ac y mae yr holl naturiaethwyr yn cytuno fod yr enw Hebraeg yn dra phriodol i'w natur a'i dueddiadau.

Gwrthddadleua Bochart, fodd bynag, i hyn, am nad yw βουβαλος y Deg a Thrigain, na *bubalus* y *Vulgate*, yn golygu yr ych, ond yn hytrach, yr iwrch gwyllt; a phrofa i foddlonrwydd mai anifail o rywogaeth yr iwrch a feddylir wrth y gair Groeg. Yn ngwyneb yr wrthddadl hon, dywedir nad yw y gair βουβαλος yn un o'r ddau le yn y Deg a Thrigain, yn llawysgrif y Vatican; a'i fod wedi ei roddi i mewn mewn copïau ereill allan o'r *Vulgate.*

Dadleuir hefyd nad oedd yr ych gwyllt yn rhan o luniaeth Solomon, am nad yw yn gymhwys i'w fwyta; ond atebir i hyn ei fod yn feddiannol ar nodweddau yr anifeiliaid glân, fel y ceir yn *Lef.* xi. 3; ac er nad yw ei gig mor dyner a blasus a chig eidionau cyffredin, eto fod personau o radd uchel, a marsiandwyr Ewropaidd yn ymborthi arno yn y gwledydd y mae cyflawnder o'r anifeiliaid.—(*Parkhurst's Heb. Lex.*)

BUCHANIAID: plaid o benboethiaid a gyfododd yn Irvine, yn ngorllewin Scotland, o ddeutu 1783. Pan oedd Mr. White, gweinidog cynnulleidfa yn Irvine, yn pregethu yn nghymmydogaeth Glasgow, parodd ei ddoniau y fath effaith ar feddwl menyw o'r enw Elizabeth Buchan, gwraig i baentiwr, fel yr ysgrifenodd ato i ddywedyd mai efe oedd y cyntaf a lefarodd wrth ei chalon; ac yn y llythyr a ysgrifenodd ato, gofynodd ganiatâd i dalu ymweliad âg ef yn Irvine, fel y gallai ei thröedigaeth gael ei ddwyn yn mlaen yn llwyddiannus. Ar ei dyfodiad, derbyniwyd hi yn llawen gan ddeiliaid y gynnulleidfa; ëi o dŷ i dŷ i gynnal addoliad teuluaidd, i addysgu yr anwybodus, a dad-ddyrysu ammheuon. O'r diwedd, ceisiodd berswadio y bobl fod diwedd y byd wrth y drws, ac mai dyledswydd pob Cristion oedd ymadael â phob gorchwyl bydol, ac ymbarotoi erbyn dyfodiad Crist. Am fod Mr. White yn ei phleidio hi a'i golygiadau, achwynwyd arno wrth yr henaduriaeth; a'r canlyniad fu ei ddiswyddo. Yn ganlynol, ffurfiwyd plaid ganddi hi ac yntau: cadwent eu cyfarfodydd yn y nos, yn y rhai y gwnai y brophwydes ymddangosiad a honiadau mawrion; ac yn mhlith pethau ereill, mai hi oedd y wraig y sonir am dani yn *Dad.* xii., ac mai White oedd ei chyntafanedig. Cynhyrfwyd y bobl yn eu herbyn gan y fath gabledd ynfyd; a rhag iddynt wneyd dim niwed iddynt, anfonwyd hwynt ymaith gan yr ynadon. Wedi hyn, aeth hi a'i chyfaill, a deugain o ganlynwyr, ar grwydr trwy y wlad, gan roddi eu hunain allan fel pererinion i'r Ierusalem Newydd, a rhai yn dysgwyl am ddyfodiad dioed yr Arglwydd Iesu. Bu farw Mrs. Buchan yn 1792, a diflanodd y blaid yn fuan.

BUCHEDD—OL, [*buch*]: bywyd; dull o fyw; ymarweddiad; yr hyn a berthyn i fywyd; moesol, duwiol. "Geiriau y fuchedd (ζωης) hon" (*Act.* v. 20), a arwydda "eiriau y bywyd nefol," medd Olshausen—yr hyn a ymddengys wrth ystyried mai angel oedd yn llefaru.

Y mae y credinwyr, trwy adgyfodiad Crist oddi wrth y meirw, yn "rhodio mewn newyddbeb buchedd"=καινοτητι ζωης (*Rhuf.* vi. 4). Y mae "buchedd," yma, yn sefyllfa mewn cyferbyniad, nid i'r ymarweddiad allanol blaenorol, ond i ystâd o farwolaeth—maent yn rhodio yn awr mewn bywyd, nid mewn marwolaeth.

"Gwŷr bucheddol"=ανδρες ευλαβεις. "Gwŷr â'u goglyt ar Dduw."—*W. Salisbury.* "Gwŷr crefyddol."—*Bloomfield.* Y mae ευλαβεις, yma (a hefyd yn *Luc* ii. 25—"duwiol" yn y testyn

Digitized by Google

Cymreig), yn gyfystyr â ευσεβης; er fod ychydig wahaniaeth, ar yr un pryd, rhyngddynt. Y mae y diweddaf, medd Tittman, yn golygu y parch hwnw i Dduw a ddangosir mewn ymddygiadau, tra y mae y cyntaf yn cyfeirio at ansawdd y meddwl. Ystyr ευλαβεις ydyw *defosiynol;* ystyr ευσεβης ydyw *un yn ofni Duw.*

"Wedi ymddyeithroddi wrth *fuchedd* Dduw;" *Eph.* iv. 18. "Arwydda buchedd neu fywyd Duw, yn y fan hon," medd Calvin, "naill ai yr hyn a gyfrifir yn fywyd yn ngolwg Duw, neu y bywyd y mae yn ei roddi i'w etholedigion trwy Grist. Y mae yr ystyr yr un yn y naill a'r llall." Y mae tri math o fywyd yn ein byd ni. Y cyntaf ydyw y bywyd an-feilaidd, yr hwn sydd genym ni fel yr anifeiliaid; yr ail ydyw y bywyd dynol, yr hwn sydd genym fel hiliogaeth Adda; a'r trydydd ydyw y bywyd ysbrydol a goruchnaturiol, yr hwn a dderbynir trwy ffydd. Y mae yr holl fywydau hyn o Dduw, fel y gellid galw pob un o honynt yn fuchedd neu fywyd Duw. Crybwylla Paul am y cyntaf (*Act.* xvii. 28); sonia Iob am yr ail (*Iob* x. 12). Ond yma, gelwir y bywyd newydd mewn credinwyr yn "fywyd Duw," mewn ffordd o ragoriaeth; o blegid mai y pryd hyny y mae Duw yn byw mewn gwirioned ynom, ac yr ydym ninnau yn mwynhau ei fywyd ef.

BUCHEDDAU Y SAINT CYMREIG, y gelwir yr hen ffugchwedlau bugraphyddol sydd yn dwyn enwau amryw o enwogion yr hen Eglwys Brydeinig fel eu harwyr neu eu gwroniaid (*heroes*). Yr amcan o gasglu y "bucheddau" hyn, a'u cyffelyb, ebai eu golygydd enwog, y Parch. W. J. Rees, oedd dangos pa fodd y bu y gwŷr sanctaidd a gofnodant fyw, er mwyn i'w hymddygiadau fod yn esampl i ereill i'w dilyn; am hyny, trefnwyd iddynt gael eu darllen ar amser y gwasanaeth dwyfol, ac fel rhan o hono, fel y gallai y gwrandawyr gael gwybodaeth o fanylion eu bucheddau, a'u cynnhyrfu i'w hefelychu. A chan mai i'w *darllen* yr oedd y rhai hyn, er mwyn cyfranu hyfforddiad crefyddol, a chyffroi i fuchedd dduwiol, fe'u galwyd hwynt yn *Llithlyfrau*, mewn cyferbyniad i'r *Homiliau*, y rhai oedd i gael eu *llefaru*, ac a fwriedid i weinyddu addysg grefyddol trwy gyfarwyddiadau, megys ag yr amcenid i'r "bucheddau" hyn atteb yr un dyben trwy esamplau.

Y mae yn hollol anhysbys, efallai, pa resymau a ddichon fod, hyd yn oed gan athrawon Pabaidd coelgrefyddol y dyddiau tywyll hyny, dros ddisgwyl i'r fath ffugchwedlau cwbl anhygoel, sy'n llawn o'r gwyrthiau mwyaf anghredadwy a'r a ellid byth eu dychymygu, fod yn "esamplau" i'r werin bobl, fel y tybiai Mr. Rees am danynt. Y mae yn sicr ddiammheu, nad oedd y mynachod yn disgwyl i'r werin "efelychu y saint" oedd arwyr y ffugebau rhamantol hyn, trwy droi y dwfr yn win, rhoi llygaid i ddeillion, a hyd yn oed codi y meirw! Ac os nad oeddynt yn disgwyl i'r gwrandawyr wneyd y "gweithredoedd enrhyfeddawl" hyn, a'u cyffelyb, nis gallwn ni gredu mewn un modd eu bod yn *amcanu* i'r "bucheddau" dan sylw fod yn "esamplau" i'r gwrandawyr "i'w dilyn," fel y barnai Mr. Rees. Tebycach o lawer ydyw, fel y credir yn ddilys, mai prif amcan yr offeiriaid Pabaidd, a'r mynachod, yn gwneyd y bucheddau ffugiol hyn "yn rhan o'r gwasanaeth dwyfol," oedd creu parch ofergoelus yn meddyliau y werin anwybodus at eu hathrawon, y rhai a gymmerent arnynt fod yn "olynwyr" y "saint" a gofnodid yn y bucheddau, ac a honent fod yn gyfartal iddynt, y mae yn bur debyg, mewn "gweithredoedd nerthol."

Y dyddiau o'r flwyddyn a appwyntiwyd i ddarllen y "bucheddau" hyn yn gyhoeddus, ebai Mr. Rees, oedd dyddiau cofwyliau y "saint" a gofnodir ynddynt, sef dyddiau eu marwolaeth; y rhai a ystyrid hefyd yn ddyddiau eu genedigaeth, a'r pryd yr aethant i "gylch y gwynfyd." Ar y dyddiau hyny, cofnodid eu gweithredoedd da, trwy ddarllen y cyfryw "fucheddau;" ac y mae yr iaith dra ddifrifol yn yr hon yr ysgrifenwyd y "bucheddau" hyn, ac yn neilduol y terfyniad, sef y colectau cyssylltiedig â hwynt, yn dangos y bwriedid gwneyd argraff ddofn ar y gwrandawyr. Ceir anghraifft o'r cyfryw golectau mewn cyssylltiad â Dewi Sant, a Churig Sant; a chyffelyb oedd y rhai a adroddid ar ol y darllenïad cyhoeddus o fucheddau yr holl saint ereill.

Nid ydys yn ammheu dim "y bwriedid gwneyd argraff ddofn ar y gwrandawyr" trwy ddarllen y "bucheddau" hyn iddynt; ond credir yn gadarn mai y prif, os nad yr unig, amcan mewn golwg trwy hyny, fel yr awgrymwyd eisoes, oedd peri i'r werin feddwl fod y "saint" a gofnodid ynddynt, cystal ag ereill o'r un urdd, yn rhyw fodau tra gwahanol i ddynolryw yn gyffredin; a'u bod yn gwbl gyfartal, fel cyfryngwyr rhwng y bobl a Duw, i Iesu Grist ei hunan! Am hyny, y mae y "bucheddau" gorofergoelus yma yn priodoli yr un gwyrthiau yn hollol i'r "saint" a gofnodant, ag a briodola yr Ysgrythyrau i Iesu Grist; ac yn chwanegu lliaws o rai llawer mwy anhygoel atynt; ac yn y colectau cyssylltiedig â hwynt, delir y "saint" allan yn llwyr gyfartal i Iesu Grist fel gwrthddrychau gweddi ac addoliad.

Nid yw yr amser y casglwyd y "bucheddau" hyn yn adnabyddus, meddai Mr. Rees; ond tybir i hyny gymmeryd lle o gylch y 12fed ganrif, pan y dymunai hiliogaeth y gorchfygwyr Normanaidd wneyd y cyssylltiad oedd rhwng Eglwys Cymru ac Eglwys Rhufain yn agosach; a cheisient gymmodi y Cymry â hyny, trwy ysgrifenu cofion ffafriol am eu saint cenedlaethol, a berchid mor fawr ganddynt. Gellir casglu i'r holl "fucheddau" gael eu hysgrifenu ar y cyntaf yn Lladin, yr iaith gyffredinol ydoedd adnabyddus i'r gwŷr llên; ac wedi hyny, ddarfod iddynt eu talfyru, a'u cyfieithu i'r Gymraeg i'w darllen yn yr eglwysydd. Ceir anghraifft nodedig o'r dull y gwnaed hyn yn "Muchedd Dewi Sant," lle y gwelir yn amlwg nad yw yr un Cymraeg ond talfyriad o'r un Lladin, sydd lawer helaethach.

Gan fod *Bucheddau y Saint* wedi bod o'r fath bwys, ac yn cael eu harfer yn rheolaidd yn yr addoliad cyhoeddus, gellir tybied i gopiau o honynt fod gynt yn dra lliosog; ond gan nad oes ond ychydig o honynt yn awr ar gael, bernir iddynt gael eu distrywio ar newidiad crefydd y wlad, pan y cymmerid trafferth i ddifa pob peth a dybid yn bleidiol i'r hen gyfundrefn. Nid ydym yn gwybod fod un hen gasgliad o *Fucheddau y Saint Cymreig* ar gael yn awr, ond y rhai sydd yn y British Museum, ac ychydig o rai unigol, ar wahân, sydd gan Iarll Macclesfield, ac yn llyfrfa Coleg yr Iesu yn Rhydychain. Yn y flwyddyn 1366, ysgrifenwyd casgliad o honynt gan Ioan o Dinmouth (*John of Tinmouth*), mynach o St. Alban's, o'r hwn y mae copi yn y llyfrfa Gottonaidd ("*Sanctilogium Johannis Tinmouthensis; Tiberius E.* 1. 18 *f.*") Ond y mae y copi hwnw yn annarllenadwy, o blegid effeithiau tân

Digitized by Google

arno, ac nis gellir gwybod ai yr un yw y "bucheddau" a gofnodir ynddo a'r rhai a grybwyllwyd uchod, y rhai a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, dan yr enw *Lives of the Cambro-British Saints*, dan olygiad y Parch. W. J. Rees, 1853. Cyhoeddwyd casgliad o *Fucheddau y Saint Seisonig*, wedi eu cymmeryd o waith Ioan o Dinmouth, gan John Capgrave, mynach Awstinaidd, yn 1516; a rhoddodd Jesuitiaid dysgedig Antwerp, Bolandus a'i olynwyr, amryw nodiadau am y saint Cymreig yn eu gwaith mawr, a ddechreuwyd yn y flwyddyn 1643 [*Acta Sanctorum collecta, digesta, notis illustrata, J. Bolando et aliis; Antwerp*, cyf. 50, td. 1643—1736]; ond wrth gymharu yr hyn a ddywedir am y saint Cymreig yn y ddau waith yna, canfyddir nad ydynt ond talfyriadau o'r "bucheddau," a gyhoeddwyd gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig.

Am y defnyddiau o'r sawl yr ysgrifenwyd y "bucheddau" hyn, dywed ysgrifenydd buchedd Dewi Sant, iddo eu cael yn ysgrifeniadau henaf y wlad, y rhai, er iddynt gael eu hysu gan bryfed, a'u hanmharu gan feithder hir flyneddoedd, eto a gadwyd heb fyned ar lwyr ddifancoll. A gellir casglu i awdwyr y bucheddau ereill dynu eu defnyddiau o hen ysgrifau cyffelyb; canys y maent oll wedi eu cyfansoddi yn yr un arddull a buchedd Dewi; ac y maent o'r un nodwedd yn gymhwys yn mhob ystyr. Hefyd, y mae yr hysbysrwydd a geir ynddynt o ddefodau ac arferion Cymry yr hen oesoedd, yn enwedig eu defodau crefyddol, y fath, meddai eu golygydd dysgedig, Mr. Rees, fel nas ceir y cyffelyb mewn un man arall. Y mae bucheddau yr holl "saint Cymreig," yn nghyd â'r estroniaid a fuant yn llafurio yn mysg yr hen Gymry, a gafwyd yn y British Museum, a manau ereill, wedi eu cyhoeddi, gyda chyfleithiad Seisoneg o honynt, yn y llyfr y cyfeiriwyd ato eisoes—*Lives of the Cambro-British Saints*—ac yn *The Liber Landavensis*, LLYFR TELLO—y ddau dan olygiad y Parch. W. J. Rees.

O barth awdurdod yr amrywiol wyrthiau y dywedir yn y bucheddau i'r saint eu cyflawnu, meddai eu golygydd, bydd i bob darllenydd, wrth gwrs, ffurfio ei farn ei hun. Pa fodd bynag, gellir sylwi nad ydyw hyd yn oed yr ysgrifenwyr Pabyddol eu hunain gyfunfarn yn eu cylch; canys, tra y dywed un nad oes dim rheswm o blaid eu gwrthod fel gwirioneddau, ac nad oes ynddynt ddim gwrthwynebus i feddwl wedi ei iawn hyfforddi, ac o duedd grefyddol—dywed un arall, nad yw *Bucheddau y Saint* i'w hystyried fel bugrafflladau manwl, ond megys chwedlau addysgiadol, wedi eu cyfansoddi o draddodiadau, ac wedi eu bwriadu, nid i adrodd ffeithiau, ond yn hytrach i gynnyrchu argraff grefyddol ar feddwl y gwrandawr. Dywed Butler, yn ei *Fucheddau y Saint Seisonig*, y byddai llwyr esgeuluso crybwyll gwyrthiau yn anffyddiaeth hanesyddol; eto y mae efe yn bur gynnil yn ei hanes am danynt, gan y tybiai, fel y gellir casglu, mai digon yw cyfeirio y darllenydd at y coflon cyntaf; ond mewn argrafflad diweddar o'r un llyfr, rhoddir mynegiad lled fanwl am y gwyrthiau, yn ol eu pwysigrwydd tybiedig.

Yr ydym wedi mynegu ein barn eisoes, mewn rhan, gyda golwg ar y "gwyrthiau" hyn, cystal ag ar y prif ddyben a dybir oedd mewn golwg gan awdwyr *Bucheddau y Saint* o'r dechreu; a gellir chwanegu yma, nad yw y rhan fwyaf o'r gwyrthiau a briodolir i'r "saint" yn y bucheddau hyn ond aralleiriad manwl o'r hanes Ysgrythyrol am wyrthiau Crist: ac am y lleill a briodolir iddynt, nas ceir yn yr Ysgrythyrau, nid ydynt ond y dychymygion mwyaf disail ac anhygoel, fel y cenfydd y darllenydd ar unwaith yn mucheddau Dewi Sant.

Prif werth y bucheddau hyn, a hen ysgrifeniadau cyffelyb, i'r oes hon, yn sicr ddiau, ydyw yr hyfforddiad a geir ynddynt am foes a defod, ac arferion, a theimladau pobl yr oesoedd y cyfansoddwyd hwy ynddynt. Dywed adolygydd galluog yn yr *Athenæum*, fod darllen y fath gofion "yn anhebgorol angenrheidiol i bawb a fynont ddeall sefyllfa yr hen Eglwys Brydeinig, a hen gymdeithas Brydeinig." Awgryma efe yn mhellach, "y byddai llyfr ar Eglwys Cymru, yn cynnwys bucheddau y saint henaf yn gyflawn, ac olrheiniad i sefyllfa llenoriaeth a moesau, o'r amseroedd boreuaf hyd oes Gerallt o Gymru, pe eu cesglid nid yn unig o gofion Cymreig, ond o lawysgrifau ereill hefyd, sydd ar wasgar mewn llyfrgellau trwy y wlad, o werth ac o ddyddordeb anghyffredinol." Fe wel y darllenydd, gan hyny, nad peth cwbl ddibwys i'r hanesydd eglwysig yw cael gradd o wybodaeth am yr hen ffugchwedlau a elwir *Bucheddau y Saint*.—(*Lives of the Cambro-British Saints; Lib. Land.; Mon. Hist. Brit.; Butler's Lives; Iolo MSS.; Rees's Welsh Saints; Williams's* (Ab Ithel) *Eccl. Ant. of the Cymry; Camd. Brit., &c.*)

BUDHISTIAETH—IAID. Y mae pob crefydd, pa un ai gwir ai gau, yn rhagdybio dadguddiad dwyfol fel ei sylfaen. Y mae crediniaeth yn yr angenrheidrwydd am ddadguddiad dwyfol i addysgu dyn am ei ddyledswydd tuag at Dduw, ac i'w gyfarwyddo am y ffordd i ddedwyddwch, yn un o egwyddorion cyntaf crefydd yn y meddwl dynol—mor gyffredinol, gellir tybied, ac yn nesaf mewn pwysigrwydd, i grediniaeth yn y bod o Dduw. Yn unol â hyn, y mae pob crefydd yn proffesu bod wedi ei sylfaenu ar ddadguddiad oddi uchod, naill ai yn cael ei roddi trwy ysbryddoliaeth ei gweinidogion, neu wedi ei groniclo yn ei llyfrau cyssegredig; a gellid rhifo crefyddau y byd wrth nifer y dadguddiadau sydd yn y byd, gwirioneddol neu dybiedig. Y ddau ddadguddiad, a'r ddwy grefydd sylfaenedig arnynt, sydd yn rhanu y byd paganaidd rhyngddynt yn bresennol, ydynt yr eiddo Vishnu a Boodh; sef Brahminiaeth, neu grefydd y ffugchwedlaeth Hindwaidd, yr hon sydd yn aml-dduwiaeth (*polytheism*) trwyadl; a Budhistiaeth, yr hon, er fod ei gwasanaeth yn un eilunaddolgar, sydd yn dwyn nes perthynas âg oll-dduwiaeth (*pantheism*)—y gyfundraeth sydd yn ystyried Duw fel enaid y greadigaeth, yr unig wir hanfodiad, yr Elfen Anfeidrol yn mha un y mae pob bodolaeth yn y pen draw yn terfynu. Y mae y ddwy grefydd hyn wedi bod yn teyrnasu yn yr India er cyn cof, ac wedi dyfod i gyfarfyddiad gelynol â'u gilydd. Y mae y naill a'r llall erbyn hyn wedi cael eu dosranu i nifer mawr o fân-grefyddau; ond y mae yn bosibl dwyn i mewn holl wahanol agweddau eilunaddoliaeth o dan y ddau ddosbarth cyffredinol hyn.

Maes priodol Brahminiaeth ydyw Hindwstan; a'r eiddo Budhistiaeth, yw ymherodraeth Burmah, Siam, Ceylon, Japan, Cochin China, a'r rhan fwyaf o China Briodol. Cwestiwn sydd wedi achlysuro nid ychydig o ddadl ydyw, pa un o'r ddwy grefydd ydyw yr henaf? Myn rhai mai Budhistiaeth ydoedd crefydd gyntaf Hindwstan ei hunan, ac nad yw yr ofergoelion Brahminaidd a ffynant

Digitized by Google

yno yn bresennol ond dyfeisiau amseroedd diweddarach. Y mae yn ddiau yn debygol fod yr holl wahanol gyfundraethau eilunaddolgar o grefydd a fuont yn y byd erioed wedi hanu o'r un gwreiddyn cyffredin, ac wedi cael eu hagweddu a'u cyfnewid gan wahanol ddychymygion a llygredigaethau gwahanol genedloedd. Y mae hanfod eilunaddoliaeth yn mhob man yr un; y mae yn "ffleidd-dra" yn ei egwyddorion a'i ddefodau, ac yn cynnyrchu yr un effeithiau truenus.

Dywed Mr. Ward, yn ei *History, Literature, and Religion of the Hindoos*, fod dwy o'r chwe ysgol o athroniaeth a fuant unwaith yn blodeuo yn mysg yr Hindwaid yn dysgu yr un egwyddorion atheistaidd ag y mae dysgyblion Boodh yn awr yn eu dal; ac y mae yn ddiddadl fod y ddwy sect hon yn dra lluosog cyn ymdangosiad Boodh. Dywedir yn y llyfrau Burmaidd, fod Boodh yn fab i frenin Benares, a'i fod wedi ei eni tua chwe chan mlynedd cyn Crist. Tybir iddo fabwysiadu cyfundraeth atheistaidd y pleidiau hyn, a darfu i'w egwyddorion gael eu cymmeryd i fyny a'u hamddiffyn gan ei olynwyr yn y freniniaeth, y rhai a gyhuddid gan y Brahminiaid o fod wedi dinystrio eu crefydd hwy, a dwyn atheistiaeth i mewn yn ei lle. O'r diwedd, pa fodd bynag, ennillodd y Brahminiaid yr oruchafiaeth; a chan arfogi eu hunain â'r gallu gwladwriaethol, darfu iddynt ysgubo Hindwstan mor llwyr oddi wrth yr heresi wrthwynebus, fel nad oes yn awr braidd ddim o weddillion y goelgrefydd Fudhistaidd i'w cael yn y wlad hono. Cafodd noddfa yn Ceylon, a'r gwledydd cymmydogaethol; ac y mae y Burmäaid mwyaf dysgedig yn sicrhau ei bod wedi ei dwyn i mewn i'r ymherodraeth hono tua phedwar cant a hanner o flyneddoedd ar ol marwolaeth Boodh, neu fel y gelwir ef ganddynt hwy yn fwyaf cyffredin, Gaudama.

Y mae y Budhistiaid yn credu fod Boodh, fel y Vishnu Hindwaidd, wedi ymgnawdoli ddeg o weithiau, y rhai a ddysgrifir yn y Jatus; yr hwn, meddir, sydd yn gwneyd i fyny bum cant a deg a deugain o lyfrau. Nid ydynt yn credu mewn Achos Cyntaf—ystyriant fater neu ddefnydd yn dragwyddol—fod pob rhan o fodolaeth fywydol yn meddu ynddi ei hunan ei hachos, ei thuedd, a'i thynged—fod sefyllfa creaduriaid ar y ddaiar yn cael ei rheoli gan weithredoedd o deilyngdod neu annheilyngdod—fod gweithredoedd o deilyngdod nid yn unig yn cyfodi personau unigol i ddedwyddwch, ond, i'r graddau y maent yn llwyddo, eu bod yn cyfodi y byd yn gyffredinol i hapusrwydd a llwyddiant; tra, ar y llaw arall, pan y mae drygioni yn cael yr oruchafiaeth, y mae y byd yn gwaethygu, nes y bydd i'r greadigaeth oll yn y diwedd ymollwng. Y maent yn tybied, pa fodd bynag, fod bob amser rhyw dduw uwch law yr holl dduwiau ereill, a'i fod wedi cyrhaedd yr uchder hwn trwy ei grefyddolrwydd; ond nid ydynt yn ei ystyried yn llywodraethwr y byd. Y maent yn priodoli pump o dduwiau i lawr i'r prif adeg presennol, yn cynnwys yr holl amser a olygir mewn *kulpu:* y mae pedwar o'r rhai hyn wedi ymddangos eisoes, yn cynnwys Gaudama, neu Boodh, dyrchafiad yr hwn sydd yn parhau 5000 o flyneddoedd, o'r rhai yr oedd 2356 wedi myned heibio yn y flwyddyn B. A. 1814. Wedi i'r pum mil o flyneddoedd ddyfod i ben, bydd i sant arall gael yr oruchafiaeth, a'i ddwyfoli. Dywedir fod chwe chan miliwn o saint yn cael eu canoni gyda phob duw, er yr addefir na ddarfu i Boodh gymmeryd ond pedair mil ar ugain o ymgyflwynwyr (*devotees*) i'r nefoedd gydag ef.

Y sefyllfa isaf o hanfodiad sydd yn uffern; y nesaf yw yr un ar ddull bwystfilod. Y mae y ddwy sefyllfa hon yn rhai o gosp. Yr esgyniad nesaf ydyw i sefyllfa dyn, yr hon sydd yn un o brawf. Y mae y nesaf yn cynnwys amryw raddau o anrhydedd a dedwyddwch, i fyny at hanner-duwiau, &c., y rhai ydynt yn sefyllfaoedd o wobr am weithredoedd o deilyngdod. Y mae yr esgyniad i fod yn dduw goruchaf o sefyllfa dyn.

Dysgir y Budhistiaid fod pedair nefoedd goruchaf, y rhai ni ddistrywir yn niwedd *kulpu;* islaw i'r rhai hyn, fod deuddeg o rai ereill, yn cael eu dilyn gan chwech ereill israddol drachefn; wedi hyny y ddaiar, wedi hyny y byd o nadroedd, ac yna deuddeg ar ugain o brif uffernau; at y rhai y chwanegir cant ac ugain o uffernau o boenau llai.

Y sefyllfa uchaf o ogoniant ydyw ymgolliant (*absorption*). Yr un sydd yn ddigyfnewid yn ei fwriad, yr hwn sydd wedi cyrhaedd gwybodaeth o'r hyn a fu, y sydd, ac a ddaw, trwy un *kulpu*, yr hwn a all wneyd ei hunan yn anweledig, myned i'r lle y myno, a'r hwn sydd wedi cyrhaedd dansoddiaeth cyflawn, a fwynha ymgolliant.

Y syniad Hindwaidd am ymgolliant ydyw, fod yr enaid yn cael ei dderbyn i'r hanfod ddwyfol; ond gan fod y Budhistiaid yn gwrthod yr athrawiaeth o Ysbryd Goruchaf gwahanedig, y mae yn anhawdd dyweyd beth yw eu syniad hwy am ymgolliant. Dywed Dr. Buchanan [*A. Researches*, cyf. vi. td. 180], fod Nighan "yn arwyddo (hyny yw, yn mysg y Burmahaid) ryddhâd oddi wrth yr holl ddrygau y mae y ddynoliaeth yn ddarostyngedig iddynt, ond nid diddymiad mewn un modd."

Y rhai a gyflawnant weithredoedd o deilyngdod a dderbynir i nefoedd y gwahanol dduwiau, neu a wneir yn freninoedd neu ddynion mawr ar y ddaiar; a'r rhai drygionus a enir ar ddull gwahanol anifeiliaid, neu a drosglwyddir i wahanol uffernau. Y mae dedwyddwch y nefoedd hyn yn un hollol anianol.

Creda y Budhistiaid fod y greadigaeth yn cael ei dinystrio ar ddiwedd pob *kulpu*. I drosglwyddo rhyw syniad am hyd y cyfnod hwn, y mae y Cingaliaid anllythyrenog yn arfer defnyddio y gymhariaeth hon: Pe byddai i ddyn ddringo i ben mynydd naw milltir o uchder, ac adnewyddu y daith unwaith bob can mlynedd, hyd nes y gwisgid y mynydd gan ei draed i ronyn (*atom*), ni byddai yr amser gofynol i wneyd hyn ond dim o'i gymharu a'r bedwaredd ran o *kulpu*. Cyn ei ddyrchafiad, dysgodd Boodh ei ganlynwyr y byddai, ar ol iddo esgyn, gweddillion ei gorff, ei athrawiaeth, neu gynnulliad o'i ddysgyblion, i gael yn hollol yr un parch ag ef ei hunan. Pan y mae Cingaliad gan hyny yn nesau at ddelw o Boodh, dywed, "Yr ydwyf yn cymmeryd noddfa yn Boodh; yr ydwyf yn cymmeryd noddfa yn ei athrawiaeth; yr ydwyf yn cymmeryd noddfa yn ei ganlynwyr."

Y mae pump o orchymynion yn cael eu rhoddi i'r Budhistiaid cyffredin. Y mae y cyntaf yn gwahardd dinystr ar fywyd anifeilaidd; y mae yr ail yn gwahardd lladrad; y trydydd, odineb; y pedwerydd, gelwydd; a'r pummed, yr arferiad o wirodydd. Y mae gorchymynion ereill i'r dosbeirth uchaf, y rhai ydynt yn gwahardd dawnsio, caniadau, cerddoriaeth, gwleddoedd, peraroglau, gwisgoedd gwychion, eisteddleoedd uchel, &c. Yn mhlith y gweithredoedd o'r teilyngdod uchaf,

Digitized by Google

y mae i un borthi teigr newynog a gwael â'i gnawd ei hunan.

Y mae y temlau a gyfodir er anrhydedd i Boodh, yn ymherodraeth Burmah, o wahanol ffurfiau a maintioli; codir hwynt hyd y gellir ar sefyllfan uchel. Y mae yr offeiriaid yn gweinyddu yn y temlau hyn bob dydd, neu dylent wneyd felly. Y mae yr addoliad yn gynnwysedig mewn cyflwyno blodau, arogl-darth, rice, cnau, &c., gan adrodd gweddïau penodol. Y mae yr offeiriaid yn glanhau y deml, yn cadw y goleuni, ac yn derbyn yr offrymau. Gall yr addolydd gyflwyno ei offrymau ei hunan ond iddo fod yn gydnabyddus â'r ffurfiau. Adroddir y pum gorchymyn gan offeiriad ddwywaith yn y dydd i'r bobl—rhai a safant i fyny, ac a'i hadroddent ar ei ol. Y mae delw Boodh, yn y rhan fwyaf o'r temlau, yn ei arddangos yn eistedd ar orsedd wedi ei gosod ar elephantiaid, neu yn amgylchynedig gan *hydra*, neu yn ngwisg brenin, yn cael ei amgylchu gan ei weinidogion. Ond yn y lluniau mwyaf diweddar y mae yn cael ei osod allan fel yn eistedd, ei liniau yn blygedig dros eu gilydd, ei law ddeheu yn gorphwys ar ei forddwyd ddeheu, a'i law aswy ar ei lin: teflir brethyn melyn ar ei ysgwydd chwith, yr hwn sydd yn gorchuddio ei fraich ddeheu. Y mae ei wallt yn gyffredin yn troelli, fel yr eiddo Affricaniad; a'i glustiau yn hirion, fel pe yr estynid hwy gan glust-dlysau trymion. Gosodir y ddelw yn gyffredin yn nghanol y deml, o dan fwa bychan wedi ei barotoi i'r pwrpas, neu o dan borth bychan coed wedi ei oreuro yn brydferth. Gosodir yn fynych o flaen y ddelw luniau gweinidogion nefol—gwryw a benyw.

Ymddengys yn amlwg oddi wrth eu hysgrifeniadau fod hen grefydd y Burmahaid yn gynnwysedig gan mwyaf mewn hunan-gyssegredigaethau crefyddol. Pan y derbynir un i'r offeiriadaeth, y mae yn y fan yn ymwrthod â'i sefyllfa fydol, yn byw ar elusenau, ac yn ymattal oddi wrth fwyd wedi i'r haul groesi y cyhydedd. Gwaherddir yr offeiriaid i briodi; y maent i fyw trwy gardota; nid ydynt i feddu ond tri dilledyn, a dysgl gardota, ellyn, nodwydd, a llian i hidlo y dwfr a yfant, rhag iddynt lyncu gwybed. Trigant mewn tai a adeiledir ac a roddir iddynt fel gweithredoedd o deilyngdod. Y mae amryw athrofeydd, y rhai a adeiledir yn ffurf palasau, gan ddynion cyfoethog, yn y rhai y mae bechgyn yn cael eu dysgu. Yr offeiriaid ydynt yr ysgolfeistri, ac y maent yn addysgu yn rhad fel gwaith o deilyngdod; y plant yn cael eu cadw gartref gan eu rhieni. Os gwel offeiriad fachgen o alluoedd cyflym, y mae yn perswadio ei rieni i'w wneyd yn offeiriad; ond os bydd y bachgen, wedi bod beth amser yn yr athrofa, yn dewis gorchwyliaeth fydol yn well, y mae at ei ryddid i wneyd hyny.

Cynnelir y gwyliau Burmahaidd pan y mae y lleuad yn llawn ac yn newid. Ar yr achlysuron hyn y mae pob masnach gyhoeddus yn cael ei hattal; y mae y bobl yn ymroddi i addoli Gaudama yn y temlau, ac i offrymu iddo rice, ffrwythydd, blodau, canwyllau, &c. Y mae hen bobl yn fynych yn ymprydio trwy y dydd. Ereill a ânt i'r athrofeydd, i wrandaw ar yr offeiriaid yn darllen rhanau o'r ysgrifeniadau Budhistaidd. Yn ol crefydd Boodh, nid oes wahaniaethau mewn *cast*. Llosgant eu meirw gyda llawer o ddefodau, yn enwedig gyrff yr offeiriaid.—(*Encyc. of Rel. Know.; Conder's View of all Religions*, &c.)

BUDNEAID: plaid grefyddol yn Poland, yr hon a flodeuai tua diwedd yr unfed canrif ar bymtheg. Yr oeddynt yn gwadu Duwdod Crist, yn haeru iddo gael ei genedlu fel dynion ereill, ac yn rhedeg i luaws o ddychymygion ynfyd ereill. Cafodd Budnæus, ei sylfaenydd, ei esgymuno yn gyhoeddus yn y flwyddyn 1584, yn nghyd â'i holl ddysgyblion; ond derbyniwyd ef wedi hyny i gymundeb y Sociniaid.

BUDR-ELW, [*αισχροκέρδος*]: elw gwael, budr, dirmygus; ennill a gyrhaeddir trwy ffyrdd pechadurus a gwaradwyddus—trwy orthrwm, twyll, ac anghyflawnder, neu trwy ffyrdd cyfreithlawn, ond oddi ar ddybenion isel a llygredig. Y cyfryw ydyw llwgr-obrwyon, a phob elw ag y mae yn rhaid aberthu gwirionedd a chydwybod er mwyn ei ennill. Ceir anghraifft o hyn yn hanes Gehazi: 2 *Bren.* v. 20—27. Gelwir ef gan y prophwyd Habacuc yn "elw drwg," a chyhoeddir "gwae" uwch ben y neb a'i helwo i'w dŷ: *Hab.* ii. 9. Cymhwysir y gair at weinidogion yr efengyl pan y maent yn ymgymmeryd â'r swydd er mwyn yr elw, ac nid oddi ar gariad at Dduw ac at eneidiau dynion (1 *Tim.* iii. 3, 8; 1 *Pedr* v. 2); neu ynte, pan y maent yn ngweinyddiad eu swydd yn gŵyrdroi y gwirionedd er mwyn boddhau dynion llygredig, ac ennill iddynt eu hunain elw trwy hyny,—yn "athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn budr-elw;" *Tit.* i. 11. Ceir darluniad bywiog o'r dosbarth yma yn 2 *Pedr* ii. 12—15.

BUDDUG. Gwel BOADICEA.

BUDDUGOLIAETH—U, [*budd*]: gorchafiaeth, ennill brwydr, gorchfygiad gelyn: 2 *Sam.* xix. 2; *Salm* xcviii. 1. Darfu i'r Arglwydd Iesu "lyncu angeu mewn buddugoliaeth" drwy adgyfodi ei hunan o'r bedd, a thrwy gyflawnu gwaith y prynedigaeth, yn rhinwedd yr hwn y gwaredir y saint yn awr rhag angeu tragwyddol, ac y gwaredir hwynt yn llwyr yn y dydd diweddaf o afaelion angeu naturiol, ac oddi wrth holl effeithiau pechod ar eu natur: *Esa.* xxv. 8; 1 *Cor.* xv. 54. Trwy hyn y mae "buddugoliaeth uffern" yn cael ei chymmeryd oddi arni, am fod amcanion y diafol i ddianrhydeddu Duw yn ninystr yr hil ddynol yn cael eu dyrysu (1 *Cor.* xv. 55); a'r "fuddugoliaeth" yn cael ei rhoddi i'r saint, "trwy ein Harglwydd Iesu Grist;" 1 *Cor.* xv. 57. Y mae yr Arglwydd Iesu, fel Cyfryngwr, yn "dwyn allan farn i fuddugoliaeth" trwy berffeithio ei nerth yn ngwendid ei bobl—trwy beidio tori y "gorsen ysig, na diffodd y llin yn mygu," nes y bydd i'w hiachawdwriaeth gael ei gorphen a'i pherffeithio; ac hefyd, fel y mae yn "Ben uwch law pob peth i'r eglwys," trwy lwyddo yr efengyl yn y byd, a meddiannu y ddaiar iddo ei hunan; canys "yn ei enw ef y gobeithia y Cenedloedd;" *Mat.* xii. 20, 21.

BUGAIL, BUGEILIAETH, [*bu—cail*]. Y mae y gair Hebraeg—רעה, a'r Groeg—*ποιμην*, yn tarddu o ferfau sydd yn arwyddo *porthi*. Arwyddant, 1. Y bugail, mewn ystyr priodol, sef yr hwn sydd yn gofalu am ac yn porthi y praidd: *Gen.* iv. 2; *Num.* xxvii. 17; *Mat.* ix. 36; xxv. 32; *Marc* vi. 34; *Luc* ii. 8. 2. Cymhwysir y geiriau mewn ystyr trawsenwol at Iesu Grist, Bugail mawr y defaid; *Zech.* xiii. 7; *Ioan* x. 2, 11; 1 *Pedr* ii. 25; *Heb.* xiii. 20. 3. At weinidog neu ddysgawdwr unrhyw eglwys: *Ier.* ii. 8; iii. 15; *Eph.* iv. 11.

Digitized by Google

Bugeiliaeth oedd llafur cyntaf dynoiryw ar ol y cwymp. Mor gynted ag y dedfrydwyd y dyn cyntaf i ennill ei luniaeth trwy chwys ei wyneb, dechreuodd wneyd y creaduriaid dofion yn wasanaethgar iddo; gwnaeth hyny mor lwyddiannus fel mai swydd briodol Abel oedd bugeilio defaid: *Gen.* iv. 2. Ond yn Iabal, mab Lamech, y ceir yr anghraifft cyntaf o fugail dwyreiniol: *Gen.* iv. 20. Nid oes grybwylliad mwyach am y bywyd bugeilaidd cyn y dylif; ond diammheu fod hiliogaeth Iabal yn dilyn yr un fywoliaeth a'u tad. Gellir tybied fod Noah yn llafurio y ddaiar cyn y dylif; o blegid sylwa Moses, ei fod yn ebrwydd ar ol dyfod o'r arch "yn dechreu bod yn llafurwr." A diammheu fod gofal y praidd wedi ei ymddiried i Sem, ac iddo gael ei drosglwyddo ganddo i Abraham, â'r hwn y bu yn cydoesi am fwy na chant o flyneddoedd. Parhaodd hiliogaeth Abraham gyda'r un gwasanaeth yn nhiroedd breision Canaan am amryw oesoedd: *Gen.* xlvi. 32. Nid oedd y bugeiliaid patriarchaidd yn cydnabod uchafiaeth neb arnynt. Dalient urddasrwydd a hawliau tywysogion, a llunient gynghreiriau â'r breninoedd y bugeilient eu praidd yn eu tiriogaethau; aent i ryfel, neu gwnaent heddwch, â'r breniniaethau amgylchynol; ac nid oedd dim breninol yn ddiffygiol ynddynt ond yn unig yr enw. Trigent mewn pebyll, ac arweinient fywyd crwydrol; ymsefydlent am ysbaid yn y gymmydogaeth ag y byddai porfa dda i'w praidd ynddi. Gan eu bod yn ddyeithriaid yn y gwledydd yr ymdeithient, nid ymgymmysgent â'r trigolion, ni phreswylient yn y dinasoedd, ac ni ffurfient eu hunain yn un bobl â hwynt. Yr oeddynt yn ymwybodol o'u nerth, ac yn eiddigeddus o'u hannibyniaeth; ac er eu bod yn amyneddus a dyoddefgar, eto ymddengys oddi wrth eu hymddygiadau ar amryw achlysuron, nad oeddynt yn ddiffygiol mewn medrusrwydd a gwroldeb i amddiffyn eu hiawnderau ac i ddial eu cam. Yn nghyfoeth a gallu y bugeiliaid patriarchaidd y gwelir elfenau y mawredd a'r awdurdod breninol. Oddi yma y cyfododd yr arferiad yn mhlith yr henafiaid o ddynodi swydd a dyledswyddau brenin â geiriau wedi eu benthyca oddi wrth y bywyd bugeilaidd. Ceir y frawddeg—Αγαμεμνονα ποιμενα λαων=Agamemnon, bugail y bobl—bron ar bob dalen yn Homer; a llefara ysgrifenwyr y Beibl yn fynych am freninoedd wrth yr un enw.

Ni ymddiriedai y patrieirch eu praidd i ofal eu gweision cyflog yn gwbl; ond gwylient hwy eu hunain, neu gosodent hwy dan arolygiaeth eu meibion a'u merched. Profir hyn yn eglur yn hanes Rebecca, Rahel, Iacob, ac ereill. Cadwyd yr arfer hon am oesoedd gan y Groegiaid. Y mae Homer yn fynych yn ei *Iliad* yn anfon merched y tywysogion i borthi y praidd, i olchi dillad y teulu i'r afon, ac i gyflawnu amryw swyddau cyffredin ereill. Yr oedd Adonis, mab brenin Cyprus, "yn porthi praidd ei dad ger llaw yr afonydd llifeiriol"—"*Et formosus oves ad flumina pavit Adonis.*"—*Vir. Ecl.* 10.

Yr oedd praidd y patrieirch yn dra lluosog. Yr oedd eiddo Abraham a Iob mor fawr fel "nad oedd y wlad yn abl i'w cynnal;" *Gen.* xiii. 6. Ymddengys oddi wrth faint yr anrheg a roddes Iacob i Esau, fod y praidd a ennillodd gyda Laban braidd yn afrifed. Ac mewn amseroedd diweddar, y mae nifer y defaid a borant ar wastad-diroedd Syria yn anghredadwy. Gwelodd Chardin lwyth o fugeiliaid Tyrcaidd ar eu hymdaith, yn nghylch taith deuddydd o Aleppo; a dywed fod yr anifeiliaid yn gorchuddio yr holl wlad; a bod rhai o'r meddianwyr wedi sicrhau wrtho fod yno bedwar cant o anifeiliaid clud, a thair miliwn o ddefaid a geifr. Cadarnheir yr un peth gan Dr. Shaw, yr hwn a ddywed fod llawer o'r llwythau Arabaidd, nas gallant ddwyn mwy na thri neu bedwar cant o feirch i'r maes, yn meddiannu mwy na phedair mil o gamelod, a thros filiwn o ddefaid ac ychain.

Yr oedd yn angenrheidiol wrth lawer o fugeiliaid i ofalu am ddeadellau mor fawrion; ac yr oedd y rhai hyn o amryw fathau; sef perchenog y deadellau, a'i blant, yn nghyd â bugeiliaid cyflogedig (*Ioan* x. 12), y rhai yn gyffredin ni theimlent y gofal priodol i'w hymddiried. Ni wahaniaethid y bugeiliaid hyn yn yr Hebraeg gan enwau priodol; adnabyddid y meistr, y caethwas, a'r gwas cyflog, wrth yr enw cyffredin o *fugail.* Yr unig anghraifft sydd yn gwahaniaethu y gwas cyflog oddi wrth y meistr, neu un o'r teulu, sydd yn 1 *Sam.* xvii. 20, lle y dywedir fod Dafydd wedi "gadael y defaid gyda cheidwad." Y mae y gair hwn yn cytuno â'r Lladin, *custos*, yr hwn a arfera Virgil [*Ecl.* 10] i ddynodi gwas cyflog—"*Aut custos gregis, aut maturæ vinitor uvæ.*" Yr oedd gofal a bywiogrwydd y meistr yn annigonol yn fynych gyda deadellau mawrion, gan y byddent yn aml yn wasgaredig dros ran helaeth o wlad. O herwydd hyny, gosodid gwas uchaf, i arolygu y gweision, ac i ofalu am iawnderau y meistr. Cynnaliai Eliezer o Ddamascus y swydd gyfrifol hon yn nheulu Abraham; yr oedd gan Pharaoh hefyd "wŷr grymus yn benbugeiliaid" (*Gen.* xlvii. 6); Doeg yr Edomiad oedd y penaf o fugeiliaid Saul (1 *Sam.* xxi. 7). Ond ymddengys (1 *Cron.* xxvii. 29) fod y swydd o benbugail wedi ei diddymu yn amser Dafydd, a bod amryw arolygwyr wedi eu gosod; a bod anifeiliaid o'r un rhywogaeth yn ddeadellau gwahanol o dan eu golygwyr eu hunain. Gelwid y swyddogion hyn yn "dywysogion y deadellau" yn yr Hebraeg, a thrinid hwy gyda pharch mawr; ac yn nheyrnasiad Dafydd, perthynent i dywysogion ei lys. Crybwyllir am swydd y penbugail gan yr hen haneswyr clasurol; sonir am Simma, golygwr praidd Ninus, brenin Syria; am Samo, penbugail deadellau Neoptolomus, brenin y Molossiaid. Yr oedd y swydd yn adnabyddus hefyd yn mysg yr hen Rufeiniaid; crybwylla Virgil am Syrrhus, penbugail praidd y brenin; a dywed Livy fod Faustulus yn dal yr un swydd o dan y brenin Numitor. Felly, gan fod bugeiliaeth, ac yn enwedig swydd y penbugail, yn swydd o ymddiried a chyfrifoldeb uchel, ac o anrhydedd mawr, y mae yn cael ei chymhwyso gyda llawer o briodoldeb at Iesu Grist: 1 *Pedr* ii. 25; *Heb.* xiii. 20.

Un o ddyledswyddau pwysicaf bugeiliaeth yn ngwledydd y dwyrain oedd gofalu am ddwfr i'r praidd. Pan na cheid afonydd o ddwfr, byddai y bugail dan angenrheidrwydd o gloddio ffynnon; a byddai caffaeliad dwfr yn cael ei ystyried yn ddygwyddiad mor bwysig, fel y dygid y newydd i'r meistr, ac y rhoddai yntau enw priodol ar y lle: *Gen.* xxvi. 17, 33. Gwel Ffynnon. Arweinid y deadellau at y ffynnon ddwy waith yn y dydd, sef ar hanner dydd, ac ar fachlud haul. Yr oedd dyfrhau y praidd yn orchwyl llafurus iawn, ac yn gofyn llawer o amser; yr hyn a ddengys ei bod yn weithred dra charedig yn Iacob i dynu dwfr i'r deadellau oedd dan ofal Rahel.

Cyfeirir at wisg y bugail dwyreiniol yn *Ier.*

Digitized by Google

xliii. 12; "Ac efe a ymwisg â gwlad yr Aipht, fel y gwisg bugail ei ddillad," neu, fel y mae yn arwyddo yn y gwreiddiol, "fel y mae y bugail yn gwisgo ei ddillad yn dŷn a gofalus am dano," er mwyn cadw ei hun rhag gerwinder y tywydd. Yn y gôd (1 *Sam.* xvii. 40) a wisgai y bugail, y cedwid ei luniaeth a'i angenrheidiau. Cariai yn ei law ffon hir, â'r hon y cadwai y praidd mewn trefn. At y ffon hon y cyfeiria y Salmydd (*Salm* xxiii. 4), ac Ezeciel (*Ezec.* xx. 37), a Micah (*Micah* vii. 14). At waith y bugail yn rhifo y praidd gyda'r wialen y cyfeirir yn *Lef.* xxvii. 32; "Yr hyn oll a elo dan y wialen:"—yn ol y Deg a Thrigain, "Pa beth bynag wrth rifo a elo dan y wialen." Arferai rhai meistriaid rifo y praidd ddwy waith yn y dydd, sef wrth fyned i'r borfa, ac wrth ddychwelyd i'r gorlan; ond ni wnai y meistriaid tyneraf hyny ond unwaith, sef yn yr hwyr; "Yr holl ddeadellau a rifir yn y prydnawn," medd Theocritus. Heb law y ffon, cariai y bugail arfau amddiffynol; yr irai ychain, i ymladd law yn llaw; a'r bicell, y bwa, a'r ffon dail, i ymosod o bellder. Sonia Virgil am y rhai diweddaf; ac yr oeddynt mewn arferiad cyffredin gan fugeiliaid mor fore a dyddiau y patrieirch: *Gen.* xxvii. 3.

Ar ol i'r Hebreaid ymsefydlu yn Nghanaan, newidiwyd eu dull o fyw, o fywyd bugeilaidd i fywyd amaethyddol; am fod y cyntaf yn anghydweddol âg arferion sefydlog. Yr un pryd, er mai amaethyddiaeth oedd y priforchwyl, ni esgeulusid bugeiliaeth, fel y dangoswyd yn yr anghreifftiau am braidd y breninoedd Dafydd a Saul.

Gelwid y bugeiliaid a symmudent eu praidd o un borfa i un arall, *nomades*=bugeiliaid erwydrol: porthent eu deadellau ar dir heb ei feddiannu gan neb, neu dir cyffredin; ond mewn canlyniad i ffynnon gael ei chloddio ynddo, ac i'r bugeiliaid aros yno am faith amser, ystyrid y tir yn eiddo cyfreithlawn iddynt. Ar ol i Canaan gael ei meddiannu gan y llwythau, byddai perchenogion deadellau yn eu hanfon dan ofal bugeiliaid i'r amalwch, neu diroedd cyffredin: 1 *Sam.* xvii. 28; xxv. 4, 15. Gwel PRAIDD; DEFAID.—(*Paxton's Illustrations of Scripture; Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

BUGRAFFYDDIAETH, [*Biography*]:—bu, bod, creadur byw; βιος (*bios*)=bywyd, a γραφη (*graphe*)=ysgrifen; dysgrifiad o fywyd neu hanes bywyd. Y dosbarth hwnw o lenyddiaeth sydd yn ymdrin â gweithredoedd a dygwyddiadau bywyd personau unigol. Gwahaniaethir bugraffyddiaeth oddi wrth hanesyddiaeth trwy fod yr olaf yn ddysgrifiad nid o ddygwyddiadau personau unigol, ond casgliadau mawr o ddynion mewn cymdeithasau gwladwriaethol neu genedlaethol. Eto, mewn ystyr priodol, nid yw bugraffyddiaeth ond dosbarth o hanesiaeth. Y deyrnas neu y genedl ydyw gwrthddrych hanesiaeth; ond dynion neilldiol sydd wedi codi i enwogrwydd yn mysg eu cyd-ddynion ydyw gwrthddrych bugraffyddiaeth. Mae y cyssylltiad agos sydd rhyngddynt yn ei wneuthur yn anhawdd i gadw y ddau ddosbarth hyn o lenyddiaeth yn hollol ar wahân. Wrth roddi hanes teyrnas, mae yn naturiol rhoddi bras ddarluniadau o'i phrif enwogion, o herwydd trwyddynt hwy y mae hi wedi dyfod yr hyn ydyw. Mae hanesion o helyntion gwladwriaethol yn cynnwys yn fynych restr o ysgrifenwyr enwog, prif noddwyr y gwyddorion, llenyddiaeth, ac athronwyr, heb law y dynion a hynodent eu hunain trwy eu dylanwad fel seneddwyr a llywodraethwyr.

Mewn gwledydd gwareiddiedig yn gyffredin cymmerir dyddordeb mawr mewn bugraffyddiaeth. Ac y mae hyn yn naturiol hefyd, o herwydd y mae pleser a budd i'w gael trwy gael ein dwyn i gyfeillach dynion sydd wedi enwogi eu hunain yn eu gwahanol gylchoedd. Os oeddynt yn ddynion mawr a da, yr ydym yn hoffi cael gwybod pa beth oedd eu cymhelliadau, dilyn eu crwydriadau, sylwi ar yr anhawsderau a'r gwrthwynebiadau oedd yn eu cyfarfod yn eu hymdrechiadau clodwiw, a'r egni a'r ymroddiad gyda pha rai y gorchfygent y rhai hyny. Os bydd i'r awdwr ddangos gwendidau yn gystal a rhagoriaethau ei wrthddrych, rhoddir y darllenydd ar ei ocheliad rhag temtasiynau a pheryglon bywyd; ac os llwydda i roddi arbenigrwydd dyladwy i brif ragoriaethau bywyd rhinweddol, bydd hyny yn foddion i gyffroi awydd yn meddwl y darllenydd i gyrhaedd y rhagoriaethau hyny. Mae tuedd yn y meddwl i ymdebygoli i'r rhai y cyfeillachwn â hwynt; ac y mae darllen bugraffyddiaeth dynion doeth a da yn ein cadw am y pryd yn eu cyfeillach.

Mae i bob dyn, yn ei gylch, ddylanwad, er drwg neu dda, ar y gymdeithas sydd o'i amgylch, ac y mae y neb a roddo i'r byd hanes dyn teilwng o efelychiad yn ailfywhau i raddau y dylanwad oedd wedi cael ei ddiffodd yn angeu. Ac nid yn unig y mae y bugraffydd yn adgynnyrchu y dylanwad a gollwyd, ond hefyd trwy ei hanes y mae yn cangu cylch ei weithrediad.

Pan y mae y prif ddyddordeb yn gynnwysedig yn nodweddau personol, ac arferion y gwrthddrych, nis gellir dysgwyl cael gwir ddarlun ond oddi wrth un a fwynhaodd fanteision cyfeillach, fel ag i allu sylwi arnynt; o herwydd y mae un amddifad o'r manteision hyn yn sefyll yn rhy bell i allu rhoi amliw cywir, na lliwiad ffyddlawn. Y mae yn wir nad oes neb yn adnabod dyn gystal ag ef ei hun mewn ystyr; eto, nid oes nemawr, os dim, mantais ar hanes a ysgrifena dyn am dano ei hun (hunan-fugraffyddiaeth=*autobiography*), os na bydd ganddo rywbeth neillduol i'w ddyweyd mewn ffordd o gyffes neu esboniad oedd heb fod yn wybyddus i neb arall. Y mae bron yn anmhosibl, os yw yn ddymunol, i hunan-fugraffydd dynu y llen oddi ar holl amgylchiadau ei fywyd, a nodi allan gyda pherffaith ddiduedd-rwydd ei holl gymhelliadau. Er hyny, mewn bugraffyddiaeth a ysgrifeno dyn ei hun, y mae dystawrwydd yn amlygu ei nodweddiad. Pan ddechreua dyn lefaru am dano ei hun, pa mor wyliadwrus bynag y bo, ni bydd yn anhawdd adnabod ei nodwedd personol ac ansawdd ei weithredoedd. Bradycha ei hun pan leiaf y meddylia hyny: a phan dybia ei fod yn gosod allan ei holl nerth, daw ei wendid amlycaf i'r golwg. Y mae yr ymwybyddiaeth ein bod yn eistedd i gael tynu ein llun gan arall yn newid ein holl ymddygiad; ond pan yn ceisio tynu darlun o honom ein hunain, y mae hyn yn peri fod y cyfnewidiad yn fwy.

Y mae anghreifftiau o'r math hwn o gyfansoddiadau llenyddol yn mysg ysgrifeniadau henaf y byd. Y mae rhan fawr o'r Beibl yn fugraffyddol: ynddo ceir hanesion Abraham, Ioseph, Dafydd, &c. Un o'r llyfrau sydd wedi gweinyddu y difyrwch mwyaf yn llenyddiaeth Groeg ydyw *Bywydau Plutarch*, yr hwn sydd yn cynnwys bugraffyddiaeth chwech a deugain o'r dynion hynotaf yn mhlith y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ochr yn ochr, neu mewn cyferbyniad i'w gilydd. Ysgrifenwyd *Bywydau yr Athronwyr* gan Diogenes

Digitized by Google

Laertius; *Bywydau yr Athronwyr a'r Sophistiaid* gan Eutropius a Philostratus. Prif fugraffyddwyr y Rhufeiniaid oedd Cornelius Nepos; allan o dudalenau difyrus yr hwn y mae bechgyn mewn ysgolion gramadegol yn cael eu gwybodaeth gyntaf am brif wroniaid Groeg a Rhufain: a hefyd Suetonius, yr hwn a ysgrifenodd hanes *Bywydau y deuddeg Cæsar.* Y mae enwau lluaws mawr o ysgrifenwyr bugraffyddol yn mysg yr henaflaid ar gael, er nad oes dim o'u gwaith wedi dyfod i lawr i'n hoes ni. Y mae *Bywyd Homer* ar gael, yr hwn a briodolir i Herodotus; ac hefyd *Plato*, yr hwn a briodolir i Olympiodorus.

Mae gweithiau bugraffyddol wedi ymddangos yn holl wledydd Ewrop ar ol adferiad llenyddiaeth. Y mae lluaws mawr o ferthyrdraethau wedi ymddangos, yn cynnwys hanes bywyd a marwolaeth Cristionogion y cynoesoedd, bywydau y tadau eglwysig, y pabau, y gwahanol urddau mynachol; ac hefyd lyfrau, fel *Merthyrdraeth Fox*, sydd yn Gymraeg, &c. Yr un modd y mae bugraffyddiaeth gwladeiddwyr, llywyddion milwraidd, morwyr, teithwyr, &c., yn lluosog. Y dosbarth cyfoethocaf mewn bugraffyddiaeth ydyw yr un sydd yn cynnwys bywydau ysgrifenwyr o bob math, sef y dosbarth llenyddol; o ba un y mae *Johnson's Lives of the English Poets*, yn anghraifft. Byddai yn afreidiol rhoddi cyfres o'r holl eiriaduron bugraffyddol sydd wedi eu cyhoeddi, pe byddai yn bosibl. Y *Geiriadur Seisoneg o Fugraffyddiaeth Cyffredinol*, a ymddangosodd yn Lloegr, yn 1762, mewn un ar ddeg o gyfrolau; ac ar ol amryw argraffiadau yn cynnwys chwanegiadau, y mae yn myned dan yr enw *Chalmer's Biographical Dictionary*, a gyhoeddwyd mewn deuddeg ar ugain o gyfrolau. Nid yw y gwaith hwn yn amlygu dim ymchwiliad nac archwaeth; ac o ganlyniad, y mae yn hollol ddiwerth fel awdurdod. Ond fel y mae, ystyrir ef yn well llyfr na'r *General Biographical Dictionary*, a gyhoeddwyd gan Dr. Aikin ac Enfield, mewn deg o gyfrolau; yr hwn a ddechreuodd ddyfod allan yn 1799, ac a orphenwyd yn 1815. Y mae amryw fân weithiau o'r fath yn Seisoneg; megys un John Gorton, mewn dwy gyfrol, yn 1828; yr hwn sydd yn llyfr rhagorol. Y mae gweithiau ereill o'r un natur; megys, *Literary Anecdotes of the Eighteenth Century*, mewn naw o gyfrolau (1812—1816); *Portraits of Illustrious Personages of Great Britain, with Biographical and Historical Memoirs*, gan Edmund Lodge, mewn deuddeg o gyfrolau (1823—35): ond eto, nid oes dim yn Seisoneg i'w gymharu â'r *Biographie Universelle*, yn y Ffrencaeg; a ddechreuwyd yn 1810, ac a orphenwyd, mewn deuddeg a deugain o gyfrolau, yn 1828.

BUL, [*henaint; darfyddawl*]: yr wythfed mis yn yr amseroni Hebraeg, a alwyd yn ddiweddarach, *Marshevan.* Y mae yn cyfateb mewn rhan i fis Hydref. Yr ail mis o'r flwyddyn wladol, a'r wythfed o'r flwyddyn eglwysig neu gyssegredig ydyw. Y mae ynddo naw ur ugain o ddiwrnodau; 1 *Bren.* vi. 38.

BULWG, [*bul*]: ller, gith, ydig; "Tyfed ysgall yn lle gwenith, a *bulwg* yn lle haidd." Y gair Hebraeg yma ydyw בֹּשֶׁת (*besha*). Dygwydda yn y rhif luosog yn *Esa.* v. 2, y lle y cyfleithir ef "grawn gwylltion." Addefir fod cryn anhawsder i benderfynu pa lysieuyn a feddylir; ond y mae pawb o'r farn mai rhyw lysieuyn diddefnydd, os nad niweidiol, ydyw. Tybia rhai fod ei arogl yn annymunol, am fod yr enw Hebraeg yn arwyddo "drygsawr;" barna ereill ei fod yn blanigyn o natur y fieren. Y mae yn debyg mai rhyw chwyn niweidiol a feddylir; felly y mae Herder a Noyes yn golygu. Cyfleitha y Deg a Thrigain y gair Hebraeg, *βατος*=*mieren*; y *Vulgate*, *spina*=draenen; y proffeswr Lee, *prunus sylvestris*=mieren yn tebygu i'r ddraenen wen; a Schultens, *labrusca*=gwinwydden wyllt.

BUNYAN, JOHN: yr ysgrifenydd crefyddol mwyaf poblogaidd yn yr iaith Seisoneg, a aned yn Elston, o ddeutu milltir oddi wrth Bedford, yn y flwyddyn 1628. Tincer oedd ei dad, a gellir dywedyd iddo yntau gael ei eni felly. Yr oedd y tinceriaid yn ddosbarth o ddynion crwydraidd a digymmeriad, yn debyg i'r *Sipsiwns*, a chymmerwyd y naill yn fynych yn lle y llall. Yr oedd tad Bunyan yn fwy parchus na'r cyffredin o'r epil. Yr oedd ganddo gartref sefydlog, ac yr oedd yn gallu anfon ei fab i ysgol y pentref i ddysgu darllen ac ysgrifenu.

Yn ystod blyneddoedd bachgenaidd John, yr oedd yr ysbryd Puritanaidd yn ei gyflawn nerth trwy y deyrnas i gyd, ac yn enwedig felly yn swydd Bedford. Nid rhyfedd gan hyny fod bachgen o ddychymyg a theimladau bywiog anarferol yn ddarostyngedig er yn ieuanc i ddychrynfeydd crefyddol. Cyn bod yn ddeg oed, torai ffitiau o gnofeydd cydwybod ac anobaith ar ddigrifwch ei chwareuon, ac aflonyddid ei gwsg gan freuddwydion am gythreuliaid yn ceisio ehedeg ymaith âg ef. Fel yr heneiddiai yr oedd y rhuthradau hyn yn myned yn gryfach. Mae ei fywgraffwyr yn gwahaniaethu yn eu hesboniadau o'r iaith gref a ddefnyddiai Bunyan wrth ddysgrifio yr ymrysonfeydd mewnol hyn Cyfeirir at Bunyan gan ysgrifenwyr crefyddol yn lled gyffredinol fel esampl nodedig o allu gras dwyfol yn achub pechadur o ddyfnderoedd isaf llygredigaeth. Yr ochr arall, y mae Southey, a Macaulay (yr hwn a ddilynwn yn benafyn y braslun hwn), yn cymmeryd golwg arall arno Mae yn wir fod Bunyan yn dysgrifio ei hun fel y pechadur mwyaf; ond nis gall fod camgymmeriad mwy na defnyddio yr iaith, yn mha un y mae dyn yn ymofidio o herwydd ei bechadurusrwydd, i'w ddysgrifio fel un sydd yn arwain bywyd llawer gwaeth na'i gymmydogion. Mae llawer o ddynion da, sydd wedi byw yn ddiargyhoedd o'u mebyd hyd henaint, o ran dim sydd gan eu cyd-ddynion i'w roi yn eu herbyn, wedi llefaru am danynt eu hunain, a hyny yn hollol ddiddwyll, mewn iaith a fuasai yn gweddu i'r dynion gwaethaf. Pan yn cael ei gyhuddo o anniweirdeb, y mae yn amddiffyn ei hun yn y modd mwyaf penderfynol gan appelio at Dduw a'r angelion i ddwyn tystiolaeth o'i blaid Nid ymddengys chwaith oddi wrth ei gyfaddefiadau ei hun, na chwaith oddi wrth gyhuddiadau ei elynion, ei fod erioed wedi bod yn feddw Dengys yr hanesyn canlynol, fodd bynag, fod wedi dysgu defnyddio iaith halogedig, a hyny i raddau arswydlawn; ac hefyd y modd y diwygiwyd ei oddi wrth hyny. Dygwyddodd un diwrnod ei fod yn sefyll o flaen ffenestr cymmydog yn tyngu a rhegu, ac, fel y dywed ei hun, "yn chware y gwallgofddyn, yn ol ei ddull arferol, haerai gwraig y tŷ, yr hon oedd o gymmeriad isel, ei fod yn peri iddi hi grymu, ac mai efe yn sicr oedd y creadur mwyaf annuwiol am dyngu a rhegu a glywodd hi erioed, a'i fod yn ddigon i ddinystrio holl ieuenctyd y dref. Cafodd cerydd fel hyn

Digitized by Google

gan wraig annuwiol argraff ddwys a pharhaol ar feddwl Bunyan, o blegid gadawodd yr arferiad o hyny allan, a pharodd y fath gyfnewidiad syndod nid bychan i'w gydnabod.

Heb law tyngu a rhegu, y pedwar prif bechod yr oedd yn euog o honynt oedd, dawnsio, chwareu clychau yr eglwys, chwareu *tipcat*, a darllen hanes Syr Bevis o Southampton. Yn nghyfrif yr archesgob Laud a'i ysgol, buasai y fath ddyn ieuanc yn esampl teilwng i'w efelychu gan yr holl blwyf. Ond yr oedd Bunyan wedi dysgu ei syniadau am dda a drwg mewn ysgol dra gwahanol, ac yr oedd yr ymryson oedd rhwng ei flysiau a'i gydwybod yn ei wneuthur yn druenus.

Tua dwy ar bymtheg oed, ymunodd â byddin y senedd yn erbyn y brenin Charles I., yr hyn a roddodd liw parhaus i'w feddyliau. Y cyfan a wyddys am ei yrfa milwraidd, ydyw, fod un o'i gymdeithion, yn ngwarchae Leicester, wedi cael ei saethu gan fwled o'r dref, yn union wedi newid dau le a Bunyan. Ystyriai ei hun byth wedi hyny fel un wedi ei achub trwy gyfryngiad neillduol Rhagluniaeth. Effeithiodd yr olwg a gafodd ar rwysg rhyfel yn ddwys ar ei ddychymyg. Hyd y diwedd, ymhoffai mewn tynu ei gymhariaethau, i osod allan bethau cyssegredig, oddi wrth wersyllfëydd, amddiffynfëydd, magnelau, udgyrn, tabyrddau, llumanau, a rhengau o filwyr yn dilyn eu llumanau. Yr oedd Bunyan wedi gweled yn mhlith gweddiwyr byddin Fairfax, rhywrai oedd yn cyfateb i'r dysgrifiadau a roddodd ar ol hyny o Fawrgalon, cadben Boanerges, a chadben Cred.

Yn mhen ychydig flsoedd, dychwelodd adref, a phriododd. Yr oedd gan ei wraig berthynasau crefyddol, a chafodd yn gynnysgaeth gyda hi ychydig o lyfrau crefyddol. Yn awr y profodd gurfeydd ac ymrysoniadau chwerw. Daeth yn Pharisead manwl mewn pethau allanol. Gwrandawai, pregethai, a gweddiai yn gysson. Gadawai ei hoff chwarëyddiaethau, y naill ar ol y llall. Yn nghanol un o'i gampau chwareugar, safai yn sydyn, ac edrychai yn wyllt tuag i fyny, a'i ffon yn ei law; clywai lais yn gofyn iddo, A adawai efe ei bechodau, a myned i'r nef; ynte glynu wrthynt a wnai, a myned i uffern? a gwelai wynebpryd digofus yn gwgu arno o'r nefoedd. Penderfynodd ymadael â'r pechod o ganu clychau ar y Sabbath; eto cyrchai yno i edrych ar ereill yn tynu yn y rhaffau. Ond ofnai, o'r diwedd, rhag i'r clochdy ddyfod i lawr am ei ben, a'i ladd; a diangodd, mewn dychryn am ei einioes. Yr oedd rhoddi i fyny ddawnsio ar *green* y pentre yn anhawddach fyth; ac ar ol misoedd o ymdrech caled yn unig y cafodd oruchafiaeth ar y pechod hwn. Wedi gwneyd yr aberth hwn, cyfrifid ef hyd yn oed gan y Puritaniaid eu hunain yn ddiargyhoedd. Siaradai holl Elstow am dano fel gŵr ieuanc tra chrefyddol. Gan nad oedd ganddo mwy i'w wneyd i'w ddiwygio ei hun yn allanol, a chan nad oedd ganddo hyfrydwch mewn crefydd i lanw diffyg y difyrwch yr ymwrthodasai âg ef, dechreuai feddwl ei fod dan felldith; a phoenydiwyd ef gan ddychymygion oedd bron yn peri iddo wneyd am dano ei hun.

Unwaith, cymmerodd i'w feddwl, mai rhai o waed Iuddewig yn unig a achubid, a cheisiai wneyd allan ei fod ef yn sefyll yn y berthynas hono; ond chwalwyd ei obeithion gan ei dad, yr hwn nid oedd yn awyddus i gael ei ystyried yn Iuddew.

Pryd arall, aflonyddwyd ei feddwl yn fawr gan y rheswm dwybig canlynol: — "Os nad oes genyf ffydd, yr wyf yn golledig; ac os oes genyf ffydd, gallaf gyflawnu gwyrthiau." Temtiwyd ef i ddywedyd wrth y corbyllau, oedd rhwng Elstow a Bedford, "Byddwch sych!" ac i fentro gobaith tragwyddol ei enaid ar ei lwyddiant. Yna blinwyd ef gan ammheuon ai nid y Tyrciaid oedd yn iawn, a Christionogion yn gyfeiliornus. Daeth arno, yn nesaf, ryw gynhyrfiad cythreulig i weddio ar goed, ïe, ar darw y plwyf. Nid ydoedd eto, fodd bynag, ond yn y fynedfa i "lyn cysgod angeu." Yn fuan casglai y cymylau yn fwy fwy. Nofiai ffurfiau hagr o flaen ei lygaid. Yr oedd sŵn rhegfeydd a wylofain yn ei glustiau. Yr oedd ei lwybr yn rhedeg trwy dân a drygsawr, heibio i safn y pwll diwaelod. Ymrithiai y pechod anfaddeuol o flaen ei feddwl, a theimlai ryw ennynfa i'w gyflawnu. Ond y mwyaf dychrynllyd o'r holl ffurfiau yr ymwisgai trallod ac aflechyd ei feddwl ynddo oedd, tuedd i arfer iaith gableddus, ac i ymwrthod â bendithion yr iachawdwriaeth. Nos a dydd, yn ei wely, wrth y bwrdd, a chyda ei waith, dychymygai fod ysbrydion drwg yn sisial wrth ei glust, "Gwerthwch ef, gwerthwch ef!" Ceisiai darawo yr ellyllon, gwthiai hwynt oddi wrtho; ond eto yr oeddynt wrth ei ochr. Gwaeddai allan mewn atebiad iddynt awr ar ol awr, "Byth, byth! nid am floedd o fydoedd—nid am floedd." O'r diwedd, wedi ei wisgo allan gan ei ing hirfaith, goddefodd i'r geiriau ofnadwy ei ddianc—"Gadawer iddo fyned, os myn." Yna cynnyddodd ei drueni yn fwy ofnadwy nag erioed; yr oedd wedi cyflawnu yr hyn nid allesid ei faddeu. Yr oedd wedi fforffetio ei hawl i'r Aberth Mawr. Fel Esau, yr oedd wedi gwerthu ei enedigaethfraint, ac nid oedd mwyach le i edifeirwch. Ar ol hyny, ysgrifenai, "Nid oes neb yn gwybod dychrynfeydd y dyddiau hyny, ond fy hunan." Y mae wedi dysgrifio ei ddyoddefiadau gyda symledd, grym, a theimlad. Cenfigenai wrth yr anifeiliaid direswm, wrth y ceryg ar yr heol, ac wrth y priddlechau ar y tô. Ymddangosai yr haul fel pe buasai yn attal ei oleuni a'i wres oddi wrtho. Er ei fod yn bybyr o gorff, ac eto ireiddra ieuenctyd heb ei adael, crynai am ddyddiau cyfain gan ofn angeu a barn. Dychymygai fod y cryndod hwn yn nod rhai wedi eu rhoddi i fyny—y nod a osodai Duw ar Cain. Yr oedd chwant bwyd yn cilio oddi wrtho. Yr oedd yn y fath ddoluriau, fel y dysgwyliai ymdori yn ei ganol fel Iudas, yr hwn a ystyriai fel ei gyngysgod. Darllenai lyfrau, ymgynghorai â chyfeillion; ond o'r diwedd, yn benaf trwy ddarllen Luther ar y Galatiaid, y torodd y cymylau, y daeth y goleuni yn gryfach gryfach, nes y daeth yr hwn a fu yn tybied ei hun yn dwyn nod y llofrudd cyntaf, ac wedi ei fwriadu i ddiwedd yr archfradwr, i fwynhau tangnefedd a hyder siriol yn nhrugaredd Duw. Am y traethawd a fu yn brif foddion i roddi y fath waredigaeth iddo, dywedai, "Yr wyf yn dewis llyfr Martin Luther ar y Galatiaid o flaen un llyfr a welais erioed ond y Beibl, fel y mwyaf cymhwys i gydwybod glwyfedig." Teimlai yn awr gariad at Grist yn llosgi yn ei fynwes fel tân, a dymunai farw a myned ato.

Ond nid ar unwaith yr ennillodd yn ol ei nerth corfforol; bu am rai blyneddoedd yn teimlo oddi wrth yr ymosodiadau dychrynllyd hyn. Ni byddai ei feddwl chwaith yn hollol rydd oddi wrth yr hen demtasiynau. Wedi iddo ymuno âg eglwys y Bedyddwyr yn Bedford, y tro cyntaf y caniatawyd iddo gyfranogi o Swper yr Arglwydd

Digitized by Google

[illegible] anhawsder mawr i beidio erfyn dinystr ar ben ei frodyr tra yr oedd y cwpan yn pasio o law i law.

Wedi bod am beth amser yn aelod, dechreuodd bregethu; a chynnyrchai ei bregethau effeithiau mawr. Yr ydoedd yn ddiddysg; ond yr ydoedd yn llefaru wrth rai diddysg. Yr oedd y profiad chwerw yr aeth trwyddo wedi rhoddi iddo gymhwysder i lefaru wrth ddynion mewn trallod nad allasai byth ei gael oddi wrth lyfrau. Ond yr oedd ei athrylith gref, wedi ei bywiogi gan danbeidrwydd teimlad, yn ei alluogi i ddylanwadu nid yn unig ar y cyffredin, ond i beri i'r dysgedig wrandaw gyda syndod. Teimlai gynhyrfiad weithiau i ddefnyddio geiriau cableddus hyd yn oed yn y pulpud.

Ond fel y mae cymhwysiadau gwrthweithiol yn fuddiol yn fynych mewn aflechyd i'r corff, felly hefyd i'r meddwl. Ymddengys fod Bunyan wedi cael ei waredu yn hollol oddi wrth y dyoddefiadau mewnol hyn trwy erlidigaethau chwerw oddi allan. Yr ydoedd wedi bod bum mlynedd yn bregethwr pan y rhoddes yr Adferiad (*Restoration*) yn ngallu dilynwyr Charles II. ac offeiriaid yr Eglwys Wladol i orthrymu Ymneilldu-wyr; ac o'r holl Ymneilldu-wyr y mae eu hanes yn wybyddus i ni, efe a ddyoddefodd fwyaf. Yn mis Tachwedd, 1660, taflwyd ef i garchar Bedford, ac yno y bu am ddeuddeng mlynedd, oddi eithr am ryw ysbeidiau byr ac ansicr. Ceisiai ei erlidwyr ganddo roddi addewid i ymattal oddi wrth bregethu; ond credai ef ei fod wedi ei ddwyfol awdurdodi i gyhoeddi gair y bywyd, ac yr oedd yn penderfynu ufuddhau i Dduw yn hytrach nag i ddyn. Gwysiwyd ef yn fynych o flaen gwahanol frawdleoedd; gwnaed ef yn wrthddrych chwerthiniad, gwawd, a bygythion;—ond y cwbl yn ofer. Dywedent mewn gwawd wrtho fod yn iawn iddo beidio cuddio ei dalent, ond fod ei wir dalent ef mewn trwsio crochanau. Cymharent ef i Alexander y gof copr. Cafodd addewid, os peidiai a phregethu, y cai ei ryddid yn ddioed. Ei ateb oedd, "Os gollyngwch fi yn rhydd heddyw, pregethaf drachefn yfory." Blwyddyn ar ol blwyddyn, gorweddai mewn *dungeon* o'i gymharu â pha un y mae y carchar gwaethaf yn y deyrnas yn awr yn balas. Yr oedd ei wroldeb yn ymddangos yn fwy, o gymmaint a'i fod yn ddyn teimladwy iawn. Yr oedd ganddo amryw blant mân, ac yn eu plith eneth fach dywell, yr hon oedd yn wrthddrych neilldu-ol ei hoffder. Ni allai oddef, dywedai, i'r gwynt chwythu arni; ond yn awr y mae yn rhaid iddi ddyoddef anwyd a newyn, rhaid iddi gardota, a chael ei churo; "eto," chwanegai, "rhaid i mi ei wneyd." Tra yr ydoedd yn ngharchar, nid allai wneyd dim gyda'i grefft i gynnorthwyo ei deulu. Penderfynodd ddysgu crefft newydd. Dysgodd wneuthur *laces* edafedd gyda phwyntyl, a gwerthai filoedd o honynt. Tra yr oedd ei ddwylaw yn brysur yn cordeddu edafedd, yr oedd ei feddwl a'i wefusau yn brysur yn cyfranu addysg grefyddol i'w gydgarcharorion, a ffurfio yn eu mysg eglwys fechan, i'r hon yr oedd efe ei hun yn weinidog. Astudiai yn ddiflino yr ychydig lyfrau oedd ganddo. Ei ddau brif gydymaith oedd y Beibl, a *Llyfr y Merthyron*. Yr oedd ei wybodaeth o'r Beibl mor fanwl, fel y gallesid ei alw yn *Fynegair Ysgrythyrol* byw; ac ar ymyl y dalenau yn *Llyfr y Merthyron* y mae i'w gweled yn awr y rhimynau anghelfydd, yn mha rai y dadganai ei barch i'r dyoddefwyr gwrol, a'i elyniaeth anghymmodlawn i Babilon gyfriniol.

O'r diwedd, dechreuodd ysgrifenu; ac er ei fod am ysbaid cyn cael allan yn mha le yr oedd cuddiad ei gryfder, nid oedd ei ysgrifeniadau yn anmhoblogaidd o'r dechreu. Nid oedd ynddynt ddim ceinder llenyddol, ond dangosent graffder gwreiddiol, medrusrwydd parod yn nefnyddiad iaith gyffredin y bobl, gwybodaeth eang o'r Beibl Seisoneg, a phrofiad ysbrydol eang a bwrcaswyd yn ddrud. Ar ol i'r llythyraeth a'r cystrawen gael eu cywiro gan yr argraffydd, derbyniwyd hwynt yn llawen gan ddosbarth isaf yr Ymneilldu-wyr.

Treuliodd Bunyan lawer o'i amser mewn dadleuon. Ysgrifenodd yn llym yn erbyn y Crynwyr; ac eto mabwysiadodd un o'u harferion neilldu-ol hwy. Ei arferiad ef oedd ysgrifenu, nid Tachwedd, Rhagfyr, &c., ond yr unfed mis ar ddeg, y deuddegfed mis, &c.

Ysgrifenodd yn erbyn ffurf-weddïau Eglwys Loegr. Nid all fod dim yn fwy anghysson, medd ef, na ffurf gweddi ac ysbryd gweddi. Dywedai, yn seliad, fod y rhai hyny sydd yn meddu fwyaf o ysbryd gweddi i gyd yn y carchar, a'r rhai hyny sydd yn eiddigeddus dros ffurf gweddi i gyd i'w cael yn y dafarn. Ei herthyglau athrawiaethol, yr ochr arall, a ganmolai yn fawr, ac a amddiffynai yn erbyn rhai offeiriaid Arminaidd oedd wedi eu tanysgrifio. Y gerwinaf o'i holl waith ydyw ei ateb i Edward Fowler, ar ol hyny esgob Gloucester, yr hwn a ddadleuai dros syniadau Pelagiaidd.

Er fod Bunyan yn dal gyda pherffaith ddidwylledd bwnc gwahaniaethol y sect y perthynai iddi, eto, yr oedd efe yn foddlawn i ymuno mewn cymundeb â Phresbyteriaid ac Annibynwyr duwiol. Achlysurodd hyn ddadl rhyngddo ef a rhai o flaenoriaid y Bedyddwyr. Amddiffynai Bunyan, yn erbyn Kiffin a Danvers, yr un egwyddorion o barth i gymundeb rhydd, ag a amddiffynwyd gan Robert Hall gyda 'r fath fedrusrwydd a hyawdledd.

Yr oedd carchariad Bunyan yn gaeth am y blyneddoedd cyntaf ar ol yr Adferiad; ond mewn amser, effeithiodd tlodi ei deulu, ei amynedd, ei wrolder, a'i ddawioldeb yntau, ar galonau ei erlidwyr. Fel ei Gristion ei hun yn y *cage*, cafodd noddwyr yn mhlith lluaws ffair gwagedd. Dywedir i'r esgob Barlow eiriol drosto, ac iddo gael rhyddid i dreulio y rhan fwyaf o'i amser y tu allan i furiau y carchar, ar yr ammod yr arosai o fewn tref Bedford.

Yr oedd yn ddyledus am ei hollol ryddhad i un o'r deddfau gwaethaf a wnaeth un o'r llywodraethau gwaethaf a fu erioed yn Lloegr. Yn 1671, y cytunodd Charles II. i osod i fyny y grefydd Babaidd yn Lloegr. Er mwyn cyrhaedd ei amcan, diddymodd, trwy weithrediad o'i ewyllys bersonol yn unig, yr holl ddeddfau oedd wedi eu gwneuthur o dro i dro yn erbyn y Pabyddion. Ac er mwyn twyllo dynion am ei wir ddyben yn hyny, diddymodd hefyd y deddfau gorthrymus a wnaed yn erbyn yr Anghydffurfwyr. Y canlyniad oedd, i Bunyan gael ei ryddhau. Yn ngwres cyntaf ei ddiolchgarwch, cyhoeddodd draethodyn, yn yr hwn y cymharai Charles i frenin Persia, yr hwn, o haelfrydedd ei galon, er nad oedd wedi ei fendithio â goleuni gwir grefydd ei hun, a estynodd ei ffafr i'r genedl ddewisedig; ac a ganiataodd iddynt, ar ol blyneddoedd o gaethiwed, i ddychwelyd yn ol i'w gwlad. Fe wyddai Bunyan yn well am chwerwder ei garchariad, nag y gwyddai am fwriadau dirgelaidd y llys. Cyn iddo adael ei garchar, yr ydoedd

Digitized by Google

wedi dechreu ysgrifenu y llyfr sydd wedi gwneyd ei enw yn anfarwol. Yr oedd yr awdwr, fel y dywed, yn ysgrifenu traethawd, yn yr hwn y llefarai am fynediad y Cristion trwy 'r byd i yrfa neu daith; yr hyn yr oedd llawer wedi ei wneyd o'i flaen. Ond yn fuan, canfyddodd ei ddychymyg bywiog ef luaws o gymhariaethau nad oeddynt wedi presennoli eu hunain i feddwl neb o'r blaen. Ymrithiai o flaen ei feddwl, yn gyflymach nag y gallai eu rhoddi mewn geiriau, ddelweddau o gorsydd, a phyllau lleidiog, brynian serth, glynoedd tywyll ac arswydlawn, a dyffrynoedd hyfryd a phorfeydd gwelltog; castell sarug, o flaen yr hwn yr oedd yn wasgaredig esgyrn ac ymenyddiau carcharorion llofruddiedig; tref lawn o brysurdeb a gwychder, fel Llundain ar Ddydd yr Arglwydd Faer; a'r llwybr cul mor union ag y gallasai rheol ei gwneuthur, yn rhedeg yn mlaen i fyny y goriwaered, ac i lawr y goriwaered, trwy y ddinas, a thrwy yr anialwch at yr Afon Ddu a'r Porth Dysglaer. Cafodd allan fel hyn, trwy ddamwain, fel y dywedai llawer, ond trwy arweiniad Rhagluniaeth, fel y dywedai ef ei hun, yn mha le yr oedd ei nerth. Nid oedd ganddo ef un dychymyg ei fod yn cyfansoddi campwaith. Ac am ei safle yn llenyddiaeth ei wlad, nid allasai erioed ddyfod i'w feddwl; o herwydd ni wyddai ddim am lenyddiaeth. Yn y mynydau a allasai hebgor oddi wrth yr hyn a ystyriai efe ei orchwylion mwy pwysig — ei esboniadau, ei ddadleuon, ei bregethau, a'i *lace tags*—dychwelai at y Tŷ Prydferth, *Delectable Mountains*, a'r *Enchanted Grounds*. Ni chafodd ddim cynnorthwy. Ni welodd neb ond ef ei hun linell o hono nes ei orphen. Yna ymgynghorodd â rhai o'i gyfeillion. Boddiai rai, ac anfoddiai ereill. Chwedl ofer, meddent, ydoedd am gawri, a llewod, ac ellyllon, a milwyr—weithiau yn ymladd âg anghenfilod, ac weithiau yn cael eu difyru gan foneddigesau prydferth mewn palasau gwychion:—gallasai y fath orchwyl weddu i arebwyr atheistaidd i ddifyru puteiniaid lliwiedig y llys; ond a ydoedd yn weddus i weinidog yr efengyl ddilyn arferion llygredig yr oes? Bu amser pan y gwnaethai y fath druth Bunyan yn druenus. Ond yr oedd yr amser hwnw wedi pasio; yr oedd ei feddwl yn awr yn gryf ac yn iachus. Gwelai nad oedd, wrth ddefnyddio ffugchwedl i daflu goleu ar y gwirionedd, ac i wneuthur daioni yn swyngar, yn gwneyd dim yn amgen na'r hyn a ddylai pob Cristion ei wneuthur; a phenderfynodd ar roddi ei waith yn y wasg.

Daeth *Taith y Pererin* yn ddystaw i'r byd. Nid yw yn hysbys a oes un copi o'r argraffiad cyntaf ar gael. Nid oes sicrwydd chwaith am flwyddyn ei gyhoeddiad. Y mae yn debygol nad oedd neb am rai misoedd yn gwneyd sylw o'r gyfrol fechan, ond rhai o'r tlodion yn mhlith y sectariaid. Ond yn fuan, dechreuodd weithio ei ffordd, trwy swyno y dychymyg â bywiogrwydd a golygfeydd gwyllchwedl—trwy roddi y meddwl ar waith i ddarganfod y tebygolrwydd sydd yn gorwedd yn ddirgelaidd yn yr hanes—trwy ennill ein teimladau o blaid dynion tebyg i ni ein hunain, wedi eu hamgylchu â gwendid, yn ymladd â themtasiynau oddi fewn ac oddi allan —a thrwy ambell darawiad o ddigrifwch syml a phert, a adawai, er hyny, ar feddwl y darllenydd, deimlad o barch i Iduw, ac o gydymdeimlad at ddyn. Yr oedd yr effaith yn mhlith y Puritaniaid yn arbenig effeithiol, y rhai a ymwrthodent yn hollol â chwarëyddiaethau a *novels*. Yn 1678, daeth allan ail argraffiad o hono, gyda chwanegiadau; ac ar ol hyny daeth y gofyn am dano yn anferth. Yn y pedair blynedd canlynol, argraffwyd y llyfr chwe gwaith. Yr wythfed argraffiad, sef yr olaf a gynnwysai welliadau gan yr awdwr, a gyhoeddwyd yn 1682; y nawfed, yn 1684; a'r degfed, yn 1685. Yn fuan chwanegwyd yn fawr at ddifyrwch y llyfr, yn mhlith plant, trwy arluniau, y rhai a ddysgriflent Cristion yn brathu ei waewffon i Apollyon, neu yn ymgreinio yn ngafael Cawr Anobaith. Yn Scotland, a rhai o'r trefedigaethau, yr ydoedd yn fwy poblogaidd nag yn Lloegr. Yr oedd ei gymmeradwyaeth yn fawr yn mhlith Protestaniaid y Cyfandir. Yn 1684, cyhoeddodd yr ail ran o *Daith y Pererin*. Yn fuan, canlynwyd ef gan y *Rhyfel Sanctaidd*, yr hwn a fuasai yr alegori goreu a ysgrifenwyd erioed, oni buasai *Taith y Pererin* mewn bod.

Yr oedd lle Bunyan mewn cymdeithas yn awr yn wahanol iawn i'r hyn a fu. Bu amser pan yr edrychid i lawr arno gyda diystyrwch gan rai gweinidogion Ymneillduol oedd wedi dysgu siarad Lladin a darllen Groeg. Ond yr oedd ei glod a'i ddylanwad yn awr yn fwy na'r eiddynt hwy. Yr oedd ei awdurdod mor fawr yn mhlith y Bedyddwyr, fel yr adnabyddid ef yn gyffredin fel *yr esgob Bunyan*.

Talai ymweliadau blyneddol â Llundain, ac â lluaws o fanau ereill. Ni roddai yr ynadon yn gyffredin iddo ond ychydig o boen. Yn 1685, yr oedd mewn perygl o gael ei garcharu drachefn. Yn y flwyddyn hono rhoddodd anturiaeth ddrygionus a disynwyr Monmouth esgus i erlid yr Anghydffurfwyr; ac o'r braidd y diangodd un duwinydd o enwogrwydd yn mhlith y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, na'r Bedyddwyr, heb eu haflonyddu. Carcharwyd Baxter; gyrwyd Howe i alltudiaeth; cymmerwyd Philip Henry i fyny. Yr oedd Danvers mewn perygl o gael ei grogi, ac fe grogwyd dau o wyrion Kiffin. Y traddodiad am Bunyan ydyw, y bu raid iddo yn ystod y tymmor hwnw ymwisgo fel *waggoner*, a phregethu i'w gynnulleidfa yn Bedford, yn ei *smock-frock*, â'i chwip yn ei law. Ond yn fuan cyfnewidiodd gwedd pethau yn fawr. Yr oedd James II. mewn rhyfel cyhoeddus â'r Eglwys, a thybiai yn angenrheidiol i gael yr Ymneillduwyr yn ffafriol iddo. Gwnaed ymdrech i ennill Bunyan, ond yr oedd ef wedi dysgu llawer yn ystod y pymtheng mlynedd er pan dwyllwyd ef gan ymddygiadau Charles, gyda'r un bwriad, sef gosod i fyny y grefydd Babaidd. Nid oedd yr amgylchiadau yn hollol yr un, chwaith. Yr oedd Charles yn Brotestant proffesedig; yr oedd James yn Babydd proffesedig. Yr oedd amcan Charles yn cael ei gelu, ond addefai James ei amcan ef. Ni thwyllwyd Bunyan. Annogai ei wrandawyr, trwy weddi ac ympryd, i ymbarotoi ar gyfer y perygl oedd yn bygwth eu hiawnderau gwladol.

Ni bu Bunyan fyw i weled y Chwyldroad (*Revolution*); cymmerodd anwyd wrth deithio trwy y gwlaw, yn 1688, i ddadleu achos mab oedd wedi digio ei dad. Llwyddodd gyda'r hen ŵr i beidio difeddiannu ei fab, ond costiodd y weithred dda hon ei fywyd i'r eiriolwr cymmwynasgar. Claddwyd ef yn Bunhill Fields, ac edrychir ar yr ysmotyn hyd heddyw gan yr Anghydffurfwyr gyda theimlad o barchedigaeth mawr. Erfyniai llawer o Buritaniaid, â'u hanadl olaf, i'w heirch gael eu rhoi mor agos ag y byddai modd i arch awdwr *Taith y Pererin*.

Yr oedd clod Bunyan yn ystod ei fywyd, ac

Digitized by Google

hefyd y canrif dilynol, yn cael ei gyfyngu bron yn hollol i ddarllenwyr crefyddol yn mhlith dosbarthiadau canol ac isaf y wlad. Anfynych y pryd hwnw y crybwyllwyd ei enw gyda pharch gan un ysgrifenydd o enwogrwydd llenyddol. Mentrodd Cowper ei ganmawl, ond heb ei enwi. Hyd yn ddiweddar yr oedd yr holl argraffiadau o hono yn cael eu parotoi ar gyfer y tlodion. Byddai y papyr, yr argraffwaith, a'r arluniau, y mwyaf cyffredin. Yn ystod yr amser a grybwyllwyd, yr oedd y lleiafrif dysgedig a'r mwyafrif cyffredin yn gwahaniaethu o barth i deilyngdod y llyfr. Yn y cyfryw amgylchiad barn y lleiafrif sydd yn ennill. A *Thaith y Pererin*, medd Macaulay, ydyw, efallai, yr unig lyfr o barth i ba un y mae dysgedigion wedi dyfod trosodd i farn y cyffredin bobl. Mae Dr. Johnson, Southey, Walter Scott, a Lord Byron, Coleridge a Macaulay, Franklin a Mackintosh, wedi cydnabod cywirdeb y farn, ac wedi defnyddio eu hathroniaeth a'u beirniadaeth i'w chyflawnhau, ac i egluro dirgelwch y swyn sydd yn ei ysgrifeniadau.

Y mae gweithiau Bunyan yn lluosog—y rhai a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol unplyg yn 1692 a 1767, ac mewn chwe chyfrol wythplyg yn Edinburgh yn 1717, ac yn Llundain yn 1784. Heb law hyny, y mae lluaws o argraffiadau o wahanol draethodau. Gellir enwi ychydig o'i draethodau. Y mae y cyntaf oll a ysgrifenodd—*Gospel Truths opened*—wedi cael ei gymharu o ran grymusder ymresymiad i Dr. Pye Smith's *Scripture Testimony*. *Y Ddau Gyfammod*—yr hwn sydd heb fod yn annhebyg o ran ei nodwedd cyffredinol i Witsius neu Boston ar y cyfammodau—nid yw mor glir a gwaith Dr. Russell; ond y mae yn llawn mor rymus, ac yn llawer mwy bywiog a gafaelgar. *Y Ddinas Sanctaidd, y Ierusalem Newydd*, neu *Draethawd ar y Milflwyddiant;*—nid oedd Bunyan yn dal egwyddorion y Milflwyddwyr; nid yw chwaith yn ymgais at esboniadau cywrain o'r ffiolau, y seliau, &c. Y mae dwy gyfrol wythplyg o weithiau Bunyan wedi eu cyhoeddi yn y gyfres, *Works of the English Puritan Divines*, yn cynnwys hanes ei fywyd gan Dr. Hamilton, Llundain, yn un; a *Chronological Critique on Bunyan's Genius and Writings*, gan Robert Philip, yn y llall. Cyhoeddodd Thomas Scott, yr esboniwr, argraffiad o *Daith y Pererin*, gyda ei fywyd, a nodiadau. Y mae argraffiad hefyd gan Robert Southey yn cynnwys bywyd Bunyan. Y mae yn yr *Edinburgh Review* adolygiad ar yr argraffiad hwn gan Macaulay, cyf. liv. td. 450. Yr un beirniad a hanesydd enwog ydyw awdwr yr erthygl yn yr *Encyclopædia Britanniea*, wythfed argraffiad yr hon a roddir yn benaf yma, gan fod ei liwiad braidd yn wahanol i'r hanesion am Bunyan sydd fwyaf cyffredin. Cynnwysa y *Traethodydd*, cyf. v., dair erthygl ar wrthddrych y cofiant hwn. Yn yr olaf, ceir rhestr werthfawr o'i weithiau a gyfieithwyd o bryd i bryd i'r Gymraeg. Cynnwysa bedwar ar ddeg o argraffiadau o *Daith y Pererin*, y cyntaf yn Llundain yn 1688—y flwyddyn y bu yr awdwr ei hun farw: pump o argraffiadau o'r *Rhedegwr Ysbrydol*, y cyntaf yn Llundain yn 1737: dau argraffiad o *Y Rhyfel Ysbrydol a wnaethpwyd gan Shaddai ar Diabolus, er ennill yn ol Fam-ddinas y Byd; neu golli ac ennill drachefn dref Mansoul*, a gyfieithwyd gan Daniel Rowlands—neb llai nag enwog efengylydd Llangeitho; argraffwyd yn y Mwythig, yn 1744. Y gwahanol draethodau a drowyd i'r Gymraeg, heb gyfrif y gwahanol argraffiadau, nid ydynt lai nag *un ar ddeg ar ugain.*

Yr esboniwr goreu ar *Daith y Pererin* ydyw Dr. Cheever, o'r America.

BURMAH: ymherodraeth sydd yn ymestyn dros fwy nag un ran o bedair o arwyneb yr orynys tu hwnt i'r Ganges: lled. 9° a 27° gogleddol, a hyd. 93° a 99° dwyreiniol; ond y mae ei therfynau yn fwy cyfyng yn bresennol nag oeddynt gynt. Bernir fod ei phoblogaeth tua 4,000,000. Crefydd y Burmahiaid yw Budhistiaeth, o'r fath ag a ganfyddir yn Ceylon neu Siam. Gwrthddrych eu haddoliad yw Gaudama Boodh, a chanfyddir delw o hono yn eu holl demlau. Gwel BUDHISTIAETH.

BUSIRIS: brenin yn yr Aipht. Gelwid amryw o'r tywysogion Aiphtaidd ar yr enw hwn. Adeiladodd un o honynt dref yn nghanol y Delta, yr hon a alwodd Busiris, yn yr hon yr oedd teml enwog i Isis.—(*Lemp.'s Class. Dict.*)

BUTLER, JOSEPH: un o'r athronwyr Cristionogol mwyaf a welodd Prydain; ac un o'r goleuadau dysgleiriaf yn yr Eglwys Sefydledig. Ganwyd ef yn Wantage, swydd Berk, ar y 18fed o Fai, 1692. Ei dad, Thomas Butler, oedd lieiniwr parchus yn y lle crybwylledig, ac a berthynai i'r Ymneilldüwyr. Dechreuodd Butler ar ei addysgiaeth yn ysgol ramadegol Wantage, dan arolygiaeth y Parch. Philip Barton. Ar ol gweled ei fod yn feddiannol ar alluoedd o'r radd uchaf, ac ar chwaeth gref at wybodaeth, penderfynodd ei dad ar ei ddwyn i fyny i'r weinidogaeth yn mysg y Presbyteriaid. Ac i'r dyben yma, anfonodd ef i athrofa, a gedwid y pryd hyny yn Gloucester, ac wedi hyny yn Tewkesbury, gan Mr. Samuel Jones. Yr oedd yn mysg ysgolorion y gŵr hwn amryw a droisant allan yn ddynion tra enwog. Yn eu mysg, gellir crybwyll, heblaw Butler,—Jeremiah Jones, awdwr y traethawd rhagorol ar y *Canon;* Dr. Lardner, awdwr *Credibility of the Gospels;* Dr. Maddox, esgob Worcester; Samuel Chandler; a Secker, wedi hyny archesgob Caergaint.

Meithrinai Butler er yn ieuanc chwaeth at dduwinyddiaeth ac uchanianaeth. Pan heb fod uwchlaw un mlwydd ar ugain oed, rhoddes brawf arbenig o nerth a manyledd ei feddwl yn yr ohebiaeth a fu rhyngddo a Dr. Samuel Clarke. Yr oedd *Yr Eglurhad ar Fod a Phriodoliaethau Duw* bron newydd ymddangos, ac ar y pryd yn ennill sylw cyffredinol. Teimlai Butler ammheuaeth o barth y chweched a'r seithfed o osodiadau Clarke, sef y gosodiadau ar "Hollbresenoldeb ac Undod Duw;" ac arddangosodd y fath foneddigeiddrwydd a medrusrwydd ag a ennillodd sylw ebrwydd y doctor; ac y mae y dull yr atebai lythyrau Butler, a'r ffaith ei fod wedi cyhoeddi yr ohebiaeth mewn argraffiadau dilynol i'r traethawd, yn brawf ei fod yn teimlo gwerth a phwysigrwydd yn sylwadau ei ohebydd ieuanc. "Cynnwysa y llythyrau," medd Syr James Mackintosh, "wrthddadleuon anmhosibl eu hateb; ac amlygant y fath dreiddgarwch na ragorwyd arno ganddo ef na neb arall."

O ddeutu yr amser hwn, daeth Butler i deimlo gradd o betrusder o barth i resymoldeb ei anghydffurfiaeth; a chynnyddodd ei betrusder fwyfwy, fel mai y canlyniad a fu iddo ymuno â'r Eglwys Sefydledig. Gallesid dysgwyl nad oedd hyn yn unol â dymuniadau a phenderfyniad ei dad; ond wrth ganfod sefydlogrwydd bwriad Butler, rhodd-

Digitized by Google

es heibio geisio ei ddarbwyllo. Mawrth 17eg, 1714, aeth i mewn i Goleg Oriel, Rhydychain; ffurfiodd yma gyfeillgarwch âg Edward Talbot, mab y Dr. Talbot, wedi hyny esgob Durham. Trwy ddylanwad Mr. Talbot a Dr. Clarke, gwnaed ef gan Syr Joseph Jekyll yn bregethwr yn Nghapel y Rolls, Llundain. Nid oedd yn awr uwchlaw 26 oed, ac nis gallasai fod ond ychydig amser er pan gawsai ei ordeinio. Yn y cyfamser, yr oedd meddwl Secker wedi myned dan gyfnewidiad cyffelyb o barth ei anghydffurfiaeth; ac ar ei wely angeu, darfu i Mr. Talbot gyflwyno y ddau i ffafr ei dad; a'r canlyniad fu, i'r esgob roddi bywoliaeth Haughton i Butler, a Haughton-le-Spring i Secker. Cafodd Butler fywoliaeth gyfoethog Stanhope yn lle Haughton; lle, am saith mlynedd, yr ymroddodd i lafur ei swydd, ac i astudio ei *Gyfatebiaeth*. Yn 1726, rhoddodd ei swydd fel pregethwr yn y Rolls i fyny, pan y cyhoeddodd ei *Bymtheg Pregeth*, y rhai a draddodasai yn y capel hwnw; a chyflwynodd y gyfrol i Syr Joseph Jekyll, "fel arwydd cyhoeddus o ddiolchgarwch am y ffafrau a dderbyniodd yn ystod ei gyssylltiad â'r gymdeithas hono." Dewiswyd y pregethau hyn o fysg llawer ereill, y rhai, fel y tybir, a weithiwyd i mewn i'w draethawd ar *Gyfatebiaeth Crefydd*. Cyhoeddwyd y *Cyfatebiaeth* yn 1736. Diammheu fod meddwl Butler yn meddu hyfrydwch a chwaeth naturiol at destyn y traethawd hwn; ond chwanegwyd ei aidd i feistroli y mater gan duedd anffyddol a digrefydd yr oes. Nid oes dim yn amlycach na bod crefydd efengylaidd y pryd hwnw yn isel yn mysg pob dosbarth o Gristionogion trwy y deyrnas;—yr Eglwys Sefydledig a'r Ymneilldüwyr, fel eu gilydd. "Ymddengys," medd Butler, "fod lluaws o ddynion fel pe baent wedi cymmeryd yn ganiataol nad yw Cristionogaeth mwyach yn gymmaint a phwnc o ymchwiliad, ond ei fod yn ddigon amlwg erbyn hyn mai ffug ydyw. Ymddygant tuag ati yn yr oes bresennol fel pe bai y gred hon wedi cael ei chyd-dderbyn gan bawb o goethder a gwybodaeth; a gosodir hi i fyny fel testyn penaf gwawd a dirmyg, megys mewn ffordd o attreisiad, am ei bod am amser mor faith wedi tori ar draws a lluddias pleserau y byd." "Yr ydwyf," medd Warburton, pan yn llefaru am yr un adeg, "wedi cael byw i weled yr argyfwng dinystriol hwnw, pan y mae crefydd wedi colli ei gafael ar feddyliau y bobl." Gwaethygwyd y sefyllfa alarus hon yn fwy fyth trwy ymosodiadau yr anffyddwyr Woolston, Tyndal, a Collins. Ymosodent hwy arni o safleoedd gwahanol. Ysgrifenai Woolston yn erbyn gwyrthiau yr Ysgrythyrau; Tyndal, yn erbyn yr angenrheidrwydd am ddadguddiad; a Collins, yn erbyn y prawf oddi wrth brophwydoliaeth. Ymddangosodd llu o amddiffynwyr i grefydd yn ddiattreg, ac yn eu mysg flaenion yr oes—Chandler, Sherlock, Lardner, a Bentley. Cyhoeddwyd ugeiniau o gyfrolau ar y ddadl; ond diammheu y rhaid ystyried *Cyfatebiaeth Butler*, y mwyaf pwysig, galluog, a llwyddiannus o honynt oll. Y mae yn cadw gwrthddadleuon yr anffyddwyr ger bron ei feddwl yn wastadol; ar yr un pryd, y mae ei draethawd yn mhell o fod yn gwisgo gwedd ddadleuol. Y mae math o fawredd arddunol yn perthyn i'w holl symmudiadau. "Ac yn nesaf mewn grym i'r cerydd ymarferol a roddwyd gan adfywiad crefydd i ysbryd ansanctaidd yr amser-oedd hyn, y saif y traethawd ar *Gyfatebiaeth Crefydd*." Cyhoeddwyd pedwar o argraffiadau o hono yn oes yr awdwr; yn nghyd âg amryw draethodau gan ereill fel adolygiadau arno, neu helaethiad ar ei ymresymiad; ond nid ystyrir fod nemawr o'r rhai hyn yn meddu teilyngdod mawr. Cyhoeddwyd lluaws o argraffiadau o'r traethawd yn y blyneddoedd diweddaf, yn mysg y rhai y mae yr eiddo Fitzgerald, Duke, ac Angus, yn teilyngu y prif ganmoliaeth; a hyny ar gyfrif cywirdeb a phriodoldeb eu nodiadau, a'r dosbarthiad cryno a roddant o gynnwysiad y pennodau. Y mae y prif ymresymiad yn aros hyd yma heb ei ateb—a hyny am ei fod yn anatebadwy: er fod ymchwiliadau diweddar mewn athroniaeth wedi dangos gwendid rhai sylwadau, nid ydynt yn effeithio ond ychydig, os dim, ar gorff yr ymresymiad.

Yn 1733, llwyddodd Secker, gyda'r canghellydd, i'w wneyd yn gaplan iddo ei hun; ac yn lled fuan yn brebendur Rochester. Dygwyd ef hefyd ganddo i sylw y frenines. Pan grybwylloddam ei enw wrth Caroline, dywedodd ei mawrhydi ei bod yn tybied ei fod wedi marw; ac heb gael ei llwyr foddloni gan gadarnhâd Secker i'r gwrthwyneb, ymofynodd ei hunan a'r archesgob Blackburne, yr hwn a atebodd, "Nid ydyw wedi marw, ond y mae wedi ei gladdu,"—gan gyfeirio at ei unigedd a'i anghyhoeddusrwydd. Yn ganlynol, gwnaed Butler yn gaplan iddi; a chan ei bod yn feddiannol ar chwaeth at athroniaeth, gofynai am ei bresennoldeb am ddwy awr bob dydd. Ar ei marwolaeth, cyflwynodd Butler i sylw a ffafr ei phriod, Sior II.; ac yn 1738, rhoddwyd iddo esgobaeth Bristol, ac yn fuan wedi hyny ddeoniaeth St. Paul, Llundain. Yn 1746, gwnaed ef yn gell-gaplan i'r brenin, a chynnygiwyd yr archesgobaeth iddo; ond gwrthododd hi gyda'r sylw, fod yn rhy ddiweddar iddo ef geisio cynnal i fyny eglwys oedd yn syrthio. Yn 1750, fodd bynag, ymgymmerodd âg esgobaeth Durham; yn yr hon y bu hyd y 16eg o Fehefin, 1752, pryd y bu farw yn Bath, yn y 60fed flwyddyn o'i oedran. Claddwyd ef yn eglwys gadeiriol Caerodor (Bristol), lle y dodwyd maen marmor uwch ben ei weddillion, gydag arysgrifen gan y Dr. W. Forster, ei gaplan. Yn 1834, gwnaed cofadail hardd iddo yn yr un eglwys, ac arni arysgrifen o gyfansoddiad Southey.

Y mae genym amryw gofnodau am dano gan rai a gawsant yr anrhydedd o fod yn gyfeillion iddo. "Er pan wyf yn cofio," medd Miss Talbot, "adnabyddwn ef fel cyfaill tyner a serchus, fel cynghorwr ffyddlawn i mi pan oeddwn yn blentyn—fel y cydymaith mwyaf hyfryd, ar gyfrif lledneisrwydd ei feddwl, ei foneddigeiddrwydd perffaith, ei adnabyddiaeth helaeth o'r byd, a rhywbeth neillduol nas gellir ei weled yn neb arall. Ac yr oedd yr holl bethau hyn mewn dyn ag yr oedd sancteiddrwydd a glendid ei ymddygiadau, ac addurniant ei athrylith, yn ei ddyrchafu i'r dosbarth uchaf yn mysg dynion." Gallesid chwanegu lluaws o ddysgrifiadau cyffelyb.

Yr oedd o duedd naturiol i fod yn bruddglwyfus. Ymddifyrai yn fawr mewn cerddoriaeth. Ni siaradodd erioed yn y senedd, ac ni chymmerodd un ran mewn gwladyddiaeth. Ac am hyn y dywedodd Horace Walpole am dano, "ei fod wedi ei gludo i esgobaeth Durham mewn cwmwl o athroniaeth, ac wedi aros o'r golwg ynddo." Ni bu erioed yn briod, ac nid oedd aelodau ei dŷ yn llawer; ond mor ddiderfyn oedd ei haelioni at achosion crefyddol, megys adeiladu ac adgyweirio eglwysi, a'i garedigrwydd i'r tlawd, fel, pan fu farw, nad oedd yn werth cymmaint a hanner cyflog blyneddol yr esgobaeth.

Digitized by Google

Coffèir hanesyn am dano yn ei oriau olaf, sydd yn eithaf cydweddol â'i gymmeriad cyffredin. Pan ar ei glaf wely, galwodd am ei gaplan, a dywedodd wrtho, "Er fy mod wedi ymdrechu fy ngoreu i ymgadw rhag pechod, ac i foddloni Duw, eto, oddi ar ymwybyddiaeth o wendidau parhaus, y mae arnaf gryn ofn marw." "Fy arglwydd," ebe'r caplan, "yr ydych wedi anghofio fod Iesu Grist yn Waredwr." "Gwir," ebe yntau, "ond pa fodd y gallaf wybod ei fod yn Waredwr i mi?" "Fy arglwydd, y mae yn ysgrifenedig, 'Pwy bynag a ddel, nis bwriaf ef allan ddim.'" "Gwir," medd yr esgob; "ac yr wyf yn rhyfeddu fy mod, er wedi darllen yr Ysgrythyr yna fil o weithiau drosodd, erioed heb deimlo ei rhinwedd hyd y fynyd hon: ac yn awr, yr wyf yn marw yn ddedwydd."

Ar gyfrif rhyw sylwadau a wnaeth Butler mewn cynghor i offeiriaid ei esgobaeth, cyhuddwyd ef tra yn fyw, ac adgyfodwyd y cyhuddiad yn mhen pymtheng mlynedd ar ol ei farwolaeth, ei fod yn gogwyddo at Babyddiaeth. Aeth rhai o'i wrthwynebwyr mor bell a haeru ei fod wedi marw yn nghymundeb yr Eglwys Babaidd. Ond dangosodd ei gyfaill Secker nad oedd un rhith o sail i'r cyhuddiadau hyn.

Hynodid meddwl Butler gan dreiddgarwch ei weledigaeth, ac hefyd gan eangder ei amgyffrediad. Yr oedd ei allu i ganfod gwahaniaethau cywrain, ac i ddadgyfansoddi, fel ag i ddangos elfenau cyntaf unrhyw gyfundrefn, o'r radd uchaf (*analysis*). Ond yn gyssylltiedig â hyn, yr oedd ganddo allu arall mor, os nad mwy, gwerthfawr; sef y gallu i adeiladu, i gasglu yr elfenau cyntaf, i fesur eu cyfartaledd, ac i'w huno yn un cyfanwaith ymresymiadol (*synthesis*). Y mae yn bosibl fod y naill o'r galluoedd hyn yn meddiant dyn, heb fod y llall. Nid pob un a all dynu oriawr oddi wrth ei gilydd, a all hefyd roddi gwahanol ranau y peiriant yn eu lle priodol drachefn. Trwy y gallu dadgyfansoddol, canfyddai *wahaniaethau* pethau; a thrwy y gallu cyfansoddol, canfyddai *debygrwydd* neu *gyfatebiaeth* pethau. Yn ei *Bregethau ar y Natur Ddynol*, y mae yn edrych arni, yn gyntaf, fel *cyfundrefn* neu *gyfansoddiad*; yna, y mae yn ei dadgyfansoddi i'w hegwyddorion, ei theimladau, a'i nwydau, cyntaf. Ar ol ei dadgyfansoddi, er mwyn canfod y gwahaniaethau sydd rhwng yr egwyddorion cyntaf hyn, edrycha arnynt yn eu hunder â'u gilydd, olrheinia bob rhan i'w lle, rhydd iddi ei phwysigrwydd priodol, a dengys ddibyniad y naill ar y llall, a darostyngiad y cyfan i'r hyn—y mae yn cael allan yn y modd hwn—ydyw y gynneddf lywodraethol mewn dyn, sef ei GYDWYBOD. Y mae yn tynu peiriant y meddwl megys oddi wrth ei gilydd, i astudio ei elfenau cyntaf bob yn un ac un, er mwyn gallu rhoddi eu lle a'u pwysigrwydd i bob rhan; ac yna rhydd y cyfan yn nghyd drachefn, gyda'r dadganiad pwysig mai y GYDWYBOD sydd yn meddu hawl yn ol ei natur i lywodraethu yr holl deimladau ereill, heb gymmeryd ei llywodraethu gan un.

Yn ei *Gyfatebiaeth*, canfyddir yn ei rym mwyaf y gallu i gasglu ffeithiau gwasgaredig at eu gilydd, i sylwi ar eu tebygrwydd a'u perthynasau â'u gilydd, a'u ffurfio yn gyfanwaith o ymresymiad; yr hwn, am wreiddiolder a chydgyssylltiad ei wahanol ranau, ydyw un o gynnyrchion uchaf meddwl dyn.

ATHRONIAETH NATUR FOESOL DYN

Ydyw prif wrthddrych sylwadaeth ac efrydiaeth Butler. Ni threiddiodd neb erioed yn ddyfnach i'w hanghyssonderau, ac ni sylwodd neb gyda llygad mwy craff a sefydlog ar amrywiaeth ei gweithrediadau mewn gwahanol amgylchiadau, a than lywodraeth gwahanol egwyddorion. Wrth ddarllen ei ysgrifeniadau, yn enwedig ei bregethau, yr ydym yn teimlo ein hunain yn cyfarfod â dysgrifiadau o ffeithiau a deddfau moesol sydd ar unwaith yn ein synu gan eu newydd-deb a'u gwirionedd. Yr ydym yn teimlo ar unwaith ein bod wedi bod yn byw yn eu presennoldeb, a than eu dylanwad, megys heb yn wybod i ni o'r blaen; ond erbyn eu gweled wyneb yn wyneb, nis gallwn lai na'u cydnabod yn rhan o honom ein hunain.

Dywed Syr James Mackintosh, fod Butler, yn ei bregethau, wedi dysgu mwy o wirioneddau nad ceddynt wedi ennill sylw ei gynoeswyr, ac wedi eu cyssylltu â'u gilydd yn fwy boddhaol, a'u cymhwyso at amgylchiadau unigol, nag un ysgrifenydd arall a wyddys am dano; ac felly, fod ei ymchwiliadau i natur dyn yn deilyngach o gael eu hystyried yn *ddarganfyddiadau* na ffrwyth llafur un ysgrifenydd arall yn holl gylch moeseg

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd am gyfansoddiad meddwl Butler, gellir dysgwyl i'w holl ymchwiliadau gael eu dwyn yn mlaen yn unol âg egwyddorion yr athroniaeth y rhoddai Bacon y fath arbenigrwydd arni. Ac felly y maent. Yr oedd ansoddau naturiol ei feddwl yn ei arwain yn mlaen gyda'r gofal a'r gwyliadwriaeth y mae rheolau y *Novum Organum* wedi eu rhoddi i'w sicrhau. Canfyddir hyn yn enwedigol yn y *llwybr* neu y *dull* (*method*) y mae yn ei ddewis i gyrhaedd ei amcan drwyddo. O'r ddwy ffordd sydd yn bosibl i'w dewis tuag at chwilio am wirionedd—naill ai trwy ddechreu gyda'r egwyddorion pellaf, ac uchaf, a mwyaf cyffredinol, a chasglu oddi wrthynt hwy pa fodd y mae yn *rhaid* i bethau fod; ai ynte dechreu gyda'r ffeithiau mwyaf adnabyddus, agosaf atom, ac felly ymgodi yn raddol ar sail yr hyn sydd yn adnabyddus at yr anadnabyddus—fel y gallesid dysgwyl, y mae Butler yn dewis yr olaf fel y ffordd ddiogelaf, fwyaf cydweddol â gwendid ein cynneddfau, a bychandra ein cyrhaeddiadau.

Y mae yr *ysbryd* sydd yn rhedeg trwy holl ysgrifeniadau Butler yn eu cyfaddasu mewn modd arbenig i fod yn ddysgyblaeth o werth anmhrisiadwy i bob meddwl ieuanc. Yn nghanol ei holl ymresymiadau prydferth a gwreiddiol, dengys yr argyhoeddiad dwysaf o wendid a byrdra cynneddfau dyn—yr ychydig a wyr, mewn cymhariaeth i'r hyn nas gwyr. Wrth gymharu deddfau cyfundrefn foesol y greadigaeth, ac olrhain gweithredoedd y Creawdwr tuag at ei greaduriaid i'r deddfau hyn, dengys Butler yr un ysbryd ag a wnai Syr Isaac Newton, pan, yn niwedd oes a hynodid gan y darganfyddiadau eangaf a mwyaf goruchel i ryfeddodau y gyfundrefn naturiol a ganiatawyd erioed i un dyn eu gwneuthur, y cymharai ei hun i blentyn yn chwareu â chregyn ar fin y môr, tra y mae dyfnderoedd doethineb a gwybodaeth Duw yn anfesuradwy o'i flaen.

Teimlir yn gyffredin fod Butler yn awdwr *anhawdd* i'w ddeall. Ac y mae yn un o'r ysgrifenwyr anhawddaf. Y mae hyn yn codi, nid oddi wrth unrhyw amwysedd yn ei iaith, ond oddi wrth eangder a chyffredinolrwydd ei feddyliau—eu hymgyssylltiad tŷn â'u gilydd—gorlawnder ei frawddegau o feddyliau—a'r atebion a rydd i wrthwynebiadau sydd yn ymgodi o'i gwmpas, heb eu rhoi mewn geiriau. Y cyfan sydd yn angenrheidiol mewn trefn i'w ddeall, i ddyn yn meddu ar gymhwysder naturiol, ydyw ei ddarllen

Digitized by Google

yn ddigon mynych, aros uwch ei ben nes dyfod i weled holl gyssylltiadau y meddyliau â'u gilydd, nerth a chyfanrwydd pob cadwen o ymresymiad ar ei phen ei hun, peidio dysgwyl un gair llanw nac un frawddeg y gellir ei hebgor, ond yn hytrach cymmeryd pwyll i ddadgyfansoddi yr holl frawddegau, yn enwedig y rhai sydd âg ychydig o hyd ynddynt, nes eu holrhain i'w helfenau gwreiddiol o gyntaf, ail, trydydd, &c.

Gellir casglu CYFUNDRAETH FOESOL Butler allan o'i *Draethawd ar Natur Rhinwedd*, a'i dair pregeth ar y *Natur Ddynol*. Mae a ganlyn yn grynoad o'i *Draethawd ar Natur Rhinwedd*:—Y mae llywodraeth foesol yn tybied natur a galluoedd moesol; gwrthddrych y gallu moesol ydyw actau mewn cyssylltiad âg egwyddorion; y mae y syniad sydd genym am weithredoedd fel yn dda neu ddrwg yn cynnwys syniad am haeddiant neu ddrwghaeddiant, yr hyn, drachefn, a gynnwys y syniadau am wobr neu gosp; y maent yn haeddu y naill neu y llall yn annibynol ar un niwed neu fantais i gymdeithas, o blegid edrychid yn wahanol ar weithred ddiniwed, er iddi droi yn anfanteisiol; y mae drwghaeddiant yn tybied euogrwydd, ac yn ymddangos yn angenrheidiol gyssylltiedig â thrueni; mewn gweithredoedd rhinweddol cyffredin, nid edrychir ar yr haeddiant yn fawr a phwysig, am y gall tuedd rinweddol led wan ddwyn dynion i ymddwyn yn iawn mewn llawer o amgylchiadau; a'r un modd gyda drygioni, y mae y drwghaeddiant yn cael ei leihau yn gyfatebol i nerth y demtasiwn. Y mae ein syniad am ddrygioni a drwghaeddiant yn cyfodi oddi ar ein gwaith yn cymharu y gweithredoedd â natur a galluoedd y gweithredydd; teimla pawb yn wahanol gyda golwg ar y niwed a gyflawnir gan blentyn neu hurtyn, ragor dyn mewn oed a synwyr. Y mae callineb, sef dymuniad rhesymol i sicrhau hapusrwydd, yn cael ei gymmeradwyo, a ffolineb ei gondemnio; ac y mae y teimlad hwn yn gwbl annibynol ar duedd ffolineb i leihau hapusrwydd, o blegid yr ydym yn condemnio yr ymddygiad, tra yn tosturio wrth y sefyllfa—eto ni chondemnir ffolineb mor drwm a thwyll neu greulondeb, o blegid fod y cyntaf yn dwyn ei gosp arno ei hun yn ebrwydd, ac yna y mae y gosp yn cynhyrfu tosturi, yr hyn sydd yn lleihau yr anfoddhad a deimlid at yr hyn a ddygodd y gosp. Er hyny, y mae profiad yn dangos ein bod wedi ein ffurfio yn y fath fodd fel ag i gondemnio ymddygiadau ffol a byrbwyll ynom ein hunain ac yn ereill; yr hyn a ddengys fod callineb yn fath o rinwedd, a ffolineb a byrbwylldra yn ddrwg. Ac nid caredigrwydd yw yr oll o rinwedd, na'r gwrthwyneb yr oll o ddrygioni; pe hyny fyddent, cymmeradwyid caredigrwydd yn gyfartal i bwy bynag y dangosid ef, ac ni chondemnid twyll ond yn unig fel y mae yn niweidiol; ni byddai anghyfiawnder yn ddrwg pe chwanegai at swm hapusrwydd, pe byddai y dyb hon yn gywir. Ond y mae ein natur yn gyfryw fel ag yr ydym yn condemnio twyll ac anghyfiawnder, heb un golwg genym ar hapusrwydd. Felly, y mae llywodraeth foesol yn gynnwysedig, nid yn gwbl mewn ymarfer caredigrwydd, ond mewn ymdrin â dynion yn ol eu natur foesol.

Y mae y *Pregethau ar y Natur Ddynol* wedi derbyn y canmoliaethau uchaf. Dengys ynddynt, fel y crybwyllwyd eisoes, fod dyn wedi ei ffurfio i fod yn greadur rhinweddol, a bod drygioni yn ymadawiad oddi wrth y sefyllfa y bwriadwyd ef iddi; fod crefydd a rhinwedd yn naturiol i ddyn yn ei gyflwr cynhenid—eu bod yn cyfansoddi trefn, fel y mae y gwrthwyneb yn dwyn ei natur i annhrefn a dyryswch. Dengys fod dyn wedi ei ffurfio i fod mewn cymdeithas. Y mae gwahanol ranau ei gorff yn arddangos dibyniaeth ar eu gilydd: ac nid yw yn anhawdd dangos fod dynolryw yn gyffredinol yn un corff; ac fel mai swydd aelodau dyn ydyw cynnorthwyo a gwasanaethu eu gilydd, felly dyledswydd pob aelod mewn cymdeithas ydyw hyrwyddo y llwyddiant cyffredinol.

Cadarnha yr awdwr hyn â thri o brofion. *Yn gyntaf*, Fod mewn dyn egwyddor naturiol o garedigrwydd, yr hon sydd yr un peth i gymdeithas ag ydyw hunan-gariad i ddyn ei hun. Y mae y teimladau neu y serchiadau yn ddigon o brawf fod dyn yn feddiannol ar y cyfryw egwyddor. Y mae y ffaith ein bod i *ryw* raddau yn meddu tuedd i garu a thosturio yn ateb pwrpas yr awdwr i brofi ei fater. Os ydynt yn bod o gwbl, er yn wan ac aneglur, y maent yn profi yr haeriad, ac yn cyfeirio at yr amcan y bwriadwyd ni iddo. *Yn ail*, Yr ydym yn feddiannol ar amryw serchiadau, y rhai ydynt yn wahanol oddi wrth hunangariad ar un llaw, a charedigrwydd ar y llaw arall, ac ydynt yn ein harwain i wasanaethu ein daioni personol, a'r daioni cyffredinol yn gystal. "Y mae gan ddynion," medd yr awdwr, "amrywiol flysiau, nwydau, a serchiadau neillduol, cwbl wahanol oddi wrth hunan-gariad a charedigrwydd hefyd; ac y mae gan yr oll o honynt duedd i hyrwyddo y llesâd cyffredinol a phersonol, ac fe ellir eu hystyried fel yn golygu ereill a'u hunain yn gyfartal a diwahaniaeth; ond ymddengys rhai o honynt fel yn golygu ereill yn fwy uniongyrchol, ac yn tueddu at y lles cyffredinol; ereill o honynt yn cyfeirio yn fwyaf uniongyrchol at y dyn ei hun, neu yn tueddu at les personol. Fel mai nid caredigrwydd yw y rhai cyntaf, felly nid hunan-gariad yw y rhai diweddaf: nid yw y naill na'r llall yn esamplau o'n cariad atom ein hunain, nac o'n cariad at ereill; ond yn unig yn esamplau o ofal a chariad ein Gwneuthurwr tuag at y dyn yn bersonol, a'r rhywogaeth fel eu gilydd, ac yn brofion ei fod wedi bwriadu i ni fod yn offerynau i drosglwyddo daioni y naill i'r llall, yn gystal ag i ni ein hunain." Y mae Butler, yn mhellach, er mwyn gwneyd y gosodiad yn eglurach, yn cyfeirio at ddau flys neu chwant, fel anghreifftiau—awydd am ymborth, a dymuniad am barch. "Gellir ystyried awydd ymborth fel blys personol; o blegid mai yr amcan y rhoddwyd ef i ni ydyw cynnaliaeth y dyn ei hun. Y mae awydd am barch yn nwyd gyhoeddus, gan mai ei hamcan ydyw rheoleiddio ein hymddygiadau tuag at gymdeithas. Y mae y berthynas sydd rhwng y diweddaf a daioni personol mor bell ag ydyw perthynas y cyntaf a daioni cyffredinol; ac nid yw yr awydd am ymborth yn fwy o hunan-gariad, nag yw y dymuniad am barch o garedigrwydd. Gwrthddrych a dyben y blaenaf ydyw ymborth yn unig; gwrthddrych a dyben y diweddaf ydyw parch a chyfrifiad yn unig; ond ar yr un pryd, nis gellir boddhau y naill heb i hyny fod yn wasanaethgar i ddaioni cymdeithas, mwy nag y gellir boddhau y llall heb fod hyny yn gwasanaethu i gadwraeth y dyn ei hun." *Yn drydydd*, Yr ydym wedi ein cynnysgaethu âg egwyddor adfyfyriol, trwy yr hon yr ydym yn cymmeradwyo neu yn condemnio ein gweithredoedd. Yr egwyddor hon ydyw CYDWYBOD. Ac nid yw y ffaith fod gan ddyn dueddiadau drygionus yn un wrthddadl yn

Digitized by Google

erbyn hyn. Y mae gwir natur dyn yn tueddu i'w arwain at y rhinweddol. Er mwyn dyfod i ddeall amcan unrhyw fod, mae yn rhaid adnabod gogwydd ei *wir* natur, yn yr hyn nid oes nemawr anhawsder. Fel y mae y llygad wedi ei fwriadu i weled, ac nad ydym i farnu am y bwriad cyntaf oddi wrth unrhyw anmhariaeth neu ddiffyg a all ddygwydd iddo, felly nid ydym chwaith i farnu am wir natur dyn oddi wrth unrhyw ŵyrdroad ar ei dueddiad. Os gwrthddadleuir mai natur ydyw yr hyn y mae dyn yn fwyaf tueddol iddo, ac mai dilyn y duedd gryfaf ydyw dilyn natur: dengys Butler yn eglur fod y darnodiad hwn, neu unrhyw un arall o natur, heb law y gydwybod—neu yn hytrach, yr hyn a fernid, wrth gymmeryd golwg ar yr holl ddyn, oedd amcan y Crëwr yn ei ffurflad—yn rhwym o arwain i anghyssonderau. Dengys y gall dyn weithredu yn ol y duedd a fyddo ar y pryd yn gryfaf yn y meddwl, ac eto ymddwyn "mewn modd anghydweddol â, neu droseddu yn erbyn ei *wir* natur." "Pan y mae creadur direswm yn cael ei ddenu i rwyd, yn yr hon y mae yn cael ei ddinystrio, y mae yn amlwg ei fod wedi dilyn tuedd ei natur, yr hon a'i harweiniodd i foddhau ei flys. Y mae cydweddiad hollol rhwng ei holl natur a'r cyfryw weithred; ac y mae y cyfryw weithred, gan hyny, yn naturiol. Ond meddylier am ddyn yn rhagweled y perygl, ac yn rhuthro iddo, er mwyn boddhâd presennol; mae yn wir ei fod ef yn dilyn ei ddymuniad cryfaf yr un modd a'r creadur direswm, ond byddai anghydweddiad neu anghyfartaledd mor amlwg rhwng natur dyn a'r cyfryw weithred ag sydd rhwng y gwaith gwaelaf o eiddo celfyddyd a medrusrwydd y meistr goreu yn y gelfyddyd hono; ac y mae yr anghyfartaledd yn cyfodi nid oddi ar ystyriaeth o'r weithred noeth, neu ei chanlyniadau, ond oddi ar gymhariaeth o honi â natur y gweithredydd. A chan fod y cyfryw weithred yn gwbl anghydweddol â natur dyn, y mae yn yr ystyr mwyaf cyfyng a phriodol yn weithred annaturiol."

Mae Syr James Mackintosh yn barnu am gyfundraeth foesol Butler, "ei bod yn rhydd oddi wrth gyfeiliornadau, ond nid oddi wrth ddiffygion" [*Prel. Diss. to the Encyc. Brit.*]; ac y mae yn nodi fel y mwyaf o honynt, nad yw yn rhoddi un atebiad i'r cwestiwn, Pa beth yw yr ansawdd neillduol sydd yn mhob gweithred dda fel eu gilydd? Pa beth yw yr ansawdd sydd yn peri i ddynion ei galw yn weithred rinweddol? "Os atebir (ebe y beirniad) mai ei safon ydyw, ei bod yn cael ei chymmeradwyo a'i gorchymyn gan y gydwybod, gwelai yr atebydd ei fod yn ymresymu mewn cylch; o blegid nis gellid darnodi y gydwybod ei hun yn amgen nag fel y gallu sydd yn cymmeradwyo ac yn argymhell gweithredoedd da." Mae rhai yn barnu nad yw Syr James yn gwneyd cyfiawnder â Butler; o blegid cadarnha yr esgob drosodd a throsodd, mai ansawdd neillduol gweithred foesol ydyw, nid ei buddioldeb, er ei bod bob amser yn fuddiol; ond yn hytrach ei chydweddiad â'r perthynasau ag y mae dyn yn sefyll ynddynt—fel pan ddywedir fod diolchgarwch yn ddyledus i gymmwynaswr; neu ei chyfaddasrwydd i natur dyn; neu uniondeb y weithred ynddi ei hun; neu ei chydsafiad âg ewyllys a chymmeriad Duw. Os dywedir nad yw Butler wedi darnodi yr ansawdd hwnw gydag eglurder, gellid dyweyd nad yw yr ymchwilwyr diweddar i'r pwnc wedi gwneyd mwy nag yntau; a bod rhai o honynt yn tueddu i edrych ar yr ansawdd yma yn anmhosibl i roddi darnodiad o honi [*Dr. Wayland's Intell. Philos.*]; ac uwch law y cwbl, fod Butler yn rhoddi pwys mawr ar yr ansawdd hwn yn mhob gweithredoedd moesol, a hyny yn gwbl annibynol ar eu tueddiadau.

Gwrthddadleua Dr. Wardlaw, yn ei *Christian Ethics*, i gyfundraeth Butler, am ei fod yn talu rhy ychydig o sylw i sefyllfa dyn fel y mae yn greadur llygredig. Dichon fod hyn, i ryw raddau, yn wir: ar yr un pryd arddengys Butler gydnabyddiaeth ddofn o'r gwirionedd fod dyn yn greadur dirywiedig. Heb law hyny, ni theimlai fod yn angenrheidiol iddo ddwyn y gwirionedd hwn ger bron yn barhaus, gan fod yn ddigon ganddo gael rhyw syniadau a theimladau yn y natur, pa mor dywyll ac aneglur ac afreolaidd bynag ydynt, er hyny yn cyfeirio yn ddigon pendant at amcan y Creawdwr yn ffurflad y natur. Y mae bwriad yr Adeiladydd i'w adnabod oddi wrth adfeilion arddunol teml y ddynoliaeth.

EI GYFATEBIAETH (ANALOGY).

Teitlir y traethawd anfarwol hwn, *Cyfatebiaeth Crefydd naturiol a dadguddiedig i gyfansoddiad a chwrs natur.* Wrth sylwi ar y traethawd hwn, dywed Morell [*Hist. of Phil.*], "fod yr esgob dysgedig wedi myned rhagddo i ymdrin â chyfansoddiad crefyddol dyn, yn gystal a'i gymmeriad moesol, yn ei ymresymiad. Yn y *Pregethau*, agorir a dysgrifir cymmeriad moesol dyn fel yn addasedig i gymdeithas yn y byd hwn: yn y *Cyfatebiaeth* dadblygir ei gymmeriad ysbrydol, fel y mae wedi ei gyfaddasu i berffeithrwydd ac anfarwoldeb yn y byd a ddaw: ac y mae y ddau yn nghyd yn ffurfio, efallai, yr arddangosiad mwyaf cyflawn o fywyd a thynged dyn, wedi ei seilio ar egwyddorion athronaidd, sydd wedi ei gyhoeddi yn yr iaith Seisonig." Y mae yr *Analogy* wedi gwneyd mwy efallai i ddystewi gwrthddadleuon anffyddwyr nag un traethawd arall a ysgrifenwyd erioed mewn amddiffyniad i Gristionogaeth. Nid yn unig yr ydoedd wedi ei gyfaddasu i gyfarfod y ffurf neillduol a wisgai anffyddiaeth yn yr oes yr ysgrifenwyd ef, ond y mae yn gyfaddas i gyfarfod ysbryd a phrif amlygiadau anffyddiaeth pob oes. Y mae prif wrthddadl anffyddiaeth pob oes wedi tarddu o *ragdybiau* dynion am yr hyn yr oedd y Duw mawr dan *angenrheidrwydd* i fod ac i'w wneyd, ac anghyssondeb y rhagdybiau hyn â'r athrawiaethau a'r goruchwyliaethau a gynnwysir yn y Beibl. Tybia yr anffyddiwr y *dylasai* awdwr y Dadguddiad dwyfol lefaru a gweithredu yn wahanol i'r hyn y dywedir yn y gyfrol sanctaidd iddo wneyd. Y mae medru dangos iddo fod anhawsderau cyffelyb yn nghyfansoddiad y greadigaeth a gweinyddiad cyffredin Rhagluniaeth, ag y cwynai ef o'u herwydd yn y Beibl, yn ei amddifadu o bob gwrthddadl o'r fath, os ydyw yn ymresymwr teg. ac yn parhau i gredu yn y bod o Dduw. Y mae yn rhwym i ddangos *nad oes* y fath anhawsderau mewn Rhagluniaeth, neu i ddangos pa fodd y mae efe yn gallu eu hesbonio a'u derbyn, tra *nas gall* esbonio a derbyn yr un anhawsderau yn y Beibl. Os nad all wneyd y naill neu y llall o'r ddau beth hyn, dylai ymwrthod â'r *cyfryw* wrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth, neu wadu yn hollol y bod o Dduw.

Y mae Butler yn dangos fod y fath gyfatebiaeth neu debygolrwydd, rhwng natur a rhagluniaeth, a'r dadguddiad sydd yn y Beibl, fel os addefir awdwr i'r blaenaf, nis gall fod gwrthddadl yn erbyn yr *un* awdwr i'r olaf; o herwydd y mae yr un nodau yn rhedeg drwy y cyfan. Nid ei amcan oedd ysgrifenu yn erbyn atheistiaeth, o herwydd nid atheistiaid oedd yr

Digitized by Google

anffyddwyr a wrthwynebai, ond rhai yn addef yr egwyddorion cyffredinol a gesglir oddi wrth natur a rhagluniaeth, ac a ymfoddlonent ar grefydd natur. A'i amcan oedd dangos nas gallesid gwneyd hyny ar dir ymresymiad cysson, nad oes un lle canol rhwng derbyniad o Gristionogaeth ac ymwrthodiad â holl egwyddorion prawf a gwirionedd naturiol. Ie, y mae Butler yn myned yn mhellach na hyn, ac yn dangos, ne mabwysiadai dyn atheistiaeth, nas gall gyrhaedd sicrwydd felly nad oes byd ar ol hwn, ac nad oes dedwyddwch a thrueni yn y byd hwnw. O herwydd, gan fod dynion yn bod unwaith, hyd yn oed ar egwyddorion atheistiaeth, gallant ddyfod i fod eilwaith; ac os ydynt yn druenus yma, gallant fod yn fwy truenus ar ol hyn. Nid yw parhâd tragwyddol yn fwy anghysson â'r dybiaeth atheistaidd nag ydyw dechreuad amserol. Felly, nid oes dim yn fwy afresymol nag i ddyn fabwysiadu atheistiaeth gyda y meddwl y gall trwy hyny gyrhaedd sicrwydd nad oes byd ar ol hwn.

Nid amcan y *Cyfatebiaeth* ydyw egluro a symmud ymaith yr anhawsderau sydd yn perthyn i ragluniaeth a dadguddiad: y mae Butler yn ymfoddloni ar hyn trwy ddyweyd, nad ydym ni yn gymhwys i eistedd mewn barn ar holl gynlluniau yr Anfeidrol—mai rhanau o'i ffyrdd yn unig sydd yn adnabyddus i ni—nad ydym yn alluog i ddeall, llawer llai i gael allan, holl feddyliau Duw—nad oes sicrwydd na byddai gwybodaeth helaethach yn hytrach yn niwed i ni—gall yr anhawsderau sydd yn ein cyfarfod yn ngweithredoedd a gair Duw fod yn rhan hanfodol o'r addysg sydd yn angenrheidiol i ni fel deiliaid llywodraeth foesol.

Oddi wrth y sylwadau blaenorol, canfyddir fod defnydd *deublyg* i ymresymiadau y traethawd hwn. Yn *gyntaf*, eu gwasanaethgarwch mwyaf arbenig ydyw dinystrio gwrthddadleuon yn erbyn Cristionogaeth; ac nid mewn modd uniongyrchol sefydlu profion cadarnhaol o'i phlaid. Y mae yn eglur mai y ffordd gyffredin o gyfarfod gwrthddadleuon anffyddwyr yn erbyn crefydd a Christionogaeth ydyw dwyn yn mlaen y profion penderfynol o'u bod yn ddadguddiadau dwyfol; a dyma y ffordd a gymmerwyd gan eu hamddiffynwyr yn oes Butler ei hun. Torodd Butler lwybr newydd iddo ei hun. Cyferfydd â'r gwrthwynebydd, sydd yn haeru na wnai Duw byth mo'r peth yma neu y peth arall a briodolir iddo yn y Beibl, trwy ddangos ei fod mewn gwirionedd wedi gwneyd yr un pethau; bod yr hyn a wrthodir yn yr Ysgrythyrau yn cael ei brofi a'i arddangos mewn natur a phrofiad. Y mae yn symmud ymaith wrthddadleuon yr anffyddiwr, nid yn unig ar dir ei anwybodaeth, ond ä yn mhellach na hyny—profa ef yn euog o anghyssondeb mawr.

Cyfeiria Butler at un frawddeg, yn nghanol anialwch o chwedlau, yn ngweithiau Origen, fel yn cynnwys hanfod yr ymresymiad. Yno y gorweddai am gannoedd o flyneddoedd—yn wirionedd cynnwysfawr, cyffredinol—nes iddo, fel pelydr o'r nefoedd, ddisgyn i feddwl awdwr y *Cyfatebiaeth*, yr hwn ni feddai ond ychydig o debygolrwydd meddyliol i Origen, ac yno rhoi holl elfenau ei feddwl a'i ymresymiad ar waith, nes iddo orphen y traethawd sydd yn ddihafal am ei gyfanrwydd perffaith. Y mae y frawddeg yn ngwaith yr athraw Alexandriaidd, a roes gynhyrfiad a chyfeiriad i'r gwaith mawr hwn, heb leihau ei wreiddioldeb, yn rhoddi arbenigrwydd i'r gwasanaeth y mae y *Cyfatebiaeth* yn ei wneyd trwy gyfarfod âg anhawsderau. Fel y canlyn y mae:—"*Gall yr hwn sydd yn credu fod yr Ysgrythyrau wedi dyfod oddi wrth yr hwn sydd yn awdwr natur, ddysgwyl canfod yr un math o anhawsderau ynddynt ag a ganfyddir yn nghyfansoddiad natur.*" Ond yn *ail*, y mae ymresymiad y *Cyfatebiaeth* yn myned yn mhellach nag ateb gwrthddadleuon: y mae ynddo hefyd rym cadarnhaol yn erbyn ei wir wrthddrych, sef yr hwn sydd yn addef y bod o Dduw. I'r cyfryw, y mae naill ai yn *braw*, o wirionedd Cristionogaeth, neu y mae yn ei orfodi i newid ei dir, a chymmeryd i fyny ei safle yn nghanol tywyllwch digysur ac annhrefn diobaith atheistiaeth. Os bydd y gwrthddadleuwr yn llwyr argyhoeddedig o fod Duw, ac mai yr unig rwystr ar ei ffordd i dderbyn y Beibl fel gair Duw ydyw yr anhawsderau sydd ynddo—pan ddangosir iddo nad oes ond yr un anhawsderau mewn crefydd ddadguddiedig ag sydd mewn crefydd naturiol, os pery i ddal ei afael yn ei egwyddorion blaenorol, y mae hyn fel chwanegiad pendant at y proflon o ddwyfolder y Beibl. Y mae yn brawf tebygol fod peth wedi dyfod oddi wrth Dduw, os bydd yn dwyn y nodau eglur sydd yn argraffedig ar ei weithredoedd addefedig. "Y mae hyn *hefyd* yn dyfod oddi wrth Arglwydd y Lluoedd." Y mae Dr. Chalmers yn iselu gwerth yr ymresymiad yn y golygiad hwn.

Yn y rhagymadrodd i'r traethawd, ymchwilia yr awdwr i natur a chymhwysiad yr ymresymiad oddi wrth gyfatebiaeth. Dosbartha y traethawd i ddwy ran:—y gyntaf, ar Grefydd Naturiol; yr ail, ar Grefydd Ddadguddiedig. Rhenir y pennodau fel y canlyn:—RHAN I. *Pen.* i. Am sefyllfa ddyfodol. *Pen.* ii. Am lywodraeth Duw trwy wobrau a chospau. *Pen.* iii. Am lywodraeth foesol Duw. *Pen.* iv. Am sefyllfa prawf, fel yn cynnwys anhawsderau a pheryglon. *Pen.* v. Am sefyllfa prawf, fel wedi ei bwriadu er dysgyblaeth foesol. *Pen.* vi. Am y dyb am angenrheidrwydd, yn cael ei ystyried fel yn dylanwadu ar ymarferiad. *Pen.* vii. Am lywodraeth Duw, yn cael ei hystyried fel trefn neu gyfansoddiad, yn cael ei dirnad yn anmherffaith. RHAN II. *Pen.* i. Am bwysigrwydd Cristionogaeth. *Pen.* ii. Am y dybiaeth yn erbyn dadguddiad, yn cael ei ystyried yn wyrthiol. *Pen.* iii. Am ein hanallu i farnu pa beth a ddysgwylid mewn dadguddiad, a'r tebygolrwydd oddi ar gyfatebiaeth, y rhaid iddo gynnwys pethau yn ymddangos yn agored i wrthddadleuon. *Pen.* iv. Am Gristionogaeth, yn cael ei hystyried yn gyfansoddiad yn cael ei ddirnad yn anmherffaith. *Pen.* v. Am gyfundraeth neillduol Cristionogaeth; sef, gosodiad Cyfryngwr, a phrynedigaeth y byd trwyddo ef. *Pen.* vi. Am y diffyg o gyffredinolrwydd mewn dadguddiad; a'r diffyg a dybir yn y prawf o'i blaid. *Pen.* vii. Am y prawf neillduol dros Gristionogaeth. *Pen.* viii. Am y gwrthddadleuon a ellir eu gwneyd yn erbyn ymresymu oddi wrth gyfatebiaeth natur, at grefydd.[1]

Y mae yr argraffiadau o Butler wedi bod yn dra lluosog yn Seisoneg, a'r llenyddiaeth sydd wedi cael ei achosi gan ei ysgrifeniadau wedi bod yn eang iawn. Anfynych y mae dyn a ysgrifenodd cyn lleied wedi cael cynnifer o ddynion enwog i egluro ac i alw sylw at ei ymchwiliadau.

[1] Barnasom mai mwy priodol oedd peidio rhoddi crynodeb o ymresymiad y traethawd, gan y buasai hyny, o angenrheidrwydd, yn ein harwain i ormod meithder; ond yn benaf, am fod cyfleithiad o hono yn cael ei barotoi i'r laith Gymreig.

Digitized by Google

Yn eu plith gellir enwi Syr James Mackintosh, yn y *Prelim. Diss.* i'r *Encyclop. Brittanica*; Henry Rogers, yn nghorff yr un gwaith yn yr wyth-ed argraffiad; *Dr. Chalmers' Prelections on the Analogy*; *Dr. Hampden's Essay on the Philosophical Evidence of Christianity*; yn nghyd â'r argraffiadau o'r *Analogy* y cyfeiriwyd atynt o'r blaen.

Y mae y meddylwyr mwyaf a ddaethant ar ei ol yn ddyledus iddo yn fwy bron nag i un awdwr; a chydnabyddant eu rhwymedigaeth iddo gyda'r parodrwydd mwyaf. Addefa Dr. Chalmers ei fod wedi derbyn mwy o gynnorthwy oddi wrth ymresymiadau Butler nag oddi wrth neb arall. Addefa Dr. M'Crie yr un peth. Dywed Dr. Wayland, un o brif athronwyr America, ei fod yntau yn fwy dyledus i Butler a'i weithiau, er nad ydynt yn lluosog, nag i eiddo neb arall. Ac nid gormod gan Syr James Mackintosh oedd galw y *Cyfatebiaeth* "y gwaith mwyaf gwreiddiol a dwfn-feddylgar mewn unrhyw iaith ar athroniaeth crefydd." Ac nid ydym yn tueddu i ammheu y canmoliaethau hyn, nac i ryfeddu wrthynt, pan goflom fod y traethawd yn gynnyrch ugain mlynedd o feddwl caled i'w awdwr.

BWA, [*bw* = *gwrthddrych brawychus*]: bwa saeth; bwa maen; bwa gwlaw; bwa cyfammod= yr enfys.

Gwell gwaith cryman na bwa. *Diar.*
Nid hyder ond bwa. *Diar.*

1. BWA [Seis., *arch*]. Nid ydys yn sicr o barth i ddechreuad bwäau. Barna rhai eu bod yn anhysbys i'r Groegiaid yn yr amser yr adeiladwyd eu temlau gwychaf—yn y pummed, y pedwerydd, a'r trydydd canrif cyn y cyfnod Cristionogol. Sicrheir, fodd bynag, gan rai, fod bwäau o briddfaen yn Thebes, yn yr Aipht, y rhai a berthynent i gyfnod pur fore, yn mhell cyn i'r Groegiaid breswylio yn y wlad hono. Mae Minutoli wedi rhoddi dwy gynddrych o fwäau Aiphtaidd, y naill yn un gywir, a'r llall yn anghywir. Mae yr un anghywir o adfeilion yn yr Abydos, yn yr Aipht. Y mae y rhai cywir i'w cael yn Thebes, ar lan orllewinol yr afon. Ac os caniatëir fod y rhai hyn yn hen fwäau Aiphtaidd, y mae yn anhawdd deall pa ham na ddaethent i arferiad mwy cyffredinol. Ymddengys [*Penny Cyc.*] oddi wrth y proflon goreu, mai Etruria oedd y man y dechreuodd y ddyfais hon.

Mae bwäau ac ystafelloedd cromenog yn bethau mor arbenig yn adeiladyddiaeth ddiweddar y dwyreinwyr, fel, os nad oedd y dull hwn mewn arferiad yn mhlith yr hen Iuddewon, nas gallasai eu trefi a'u tai feddu y graddau lleiaf o debygrwydd i'r tai a'r trefydd presennol; ac os yw yn bod fel hyn, y mae rhan fawr o'r egluriadau Ysgrythyrol a roddir gan deithwyr diweddar ac esbonwyr yn rhwym o syrthio i'r llawr. Y mae, gan hyny, o bwys cael allan a oedd y bwa, a'r adeiladau cromenog neu fwaog yn adnabyddus yn y cynamseroedd, ai nid oeddynt. Dywedir nad yw y ffaith nad oes un gair yn arwyddo "bwa maen" i'w gael yn yr Ysgrythyrau Hebrëig o un pwys (mae y gair "bwäau meini" yn *Ezec.* xl. 16, yn golygu cynteddau, neu orielau), gan fod y cyfeiriadau adeiladyddol yn ychydig ac anmhenodol ynddo; ac y mae genym lyfrau mwy eu swm na'r Beibl, o awduriaeth diweddar, heb fod y gair hwn ynddynt.

Nis gellir cael prawf fod yr Israeliaid yn arfer bwäau yn eu hadeiladau: ond os gellir dangos, fel y crybwyllwyd, fod bwäau mewn arferiad yn yr Aipht mewn amserau bore iawn, byddai yn naturiol casglu na buasai dyfais mor fuddiol yn anadnabyddus yn Palestina.



Dar. 137.

Crybwyllasom fod rhai, ac yn eu plith awdwr yr erthygl ar y gair hwn yn y *Penny Cyclopædia*, yn tueddu i edrych ar ddechreuad y bwa yn ddiweddar mewn cymmhariaeth; ond y mae ymchwiliadau diweddar yn taflu eu henafiaeth mor bell a'r amser yr oedd Joseph yn yr Aipht. Arweiniwyd Rosellini, Syr J. G. Wilkinson, a Mr. Cockerell, ynghyd âg amryw adeiladwyr, trwy eu sylwadaeth, a'u hymchwiliadau, i gofleidio y dybiaeth hon.

Dar. 138.

Dengys Wilkinson fod bwäau priddfaen yn bod mor fore a theyrnasiad Amenoph I., o ddeutu 1540 c.c.; a bwäau meini yn amser Psamaticus II., 600 c. c. Y mae y wybodaeth hon wedi ei chael allan oddi wrth ddyddiad rhai bwäau sydd yn awr mewn bod; ond y mae y darluniau yn Beni-Hassan yn rhoddi sail i gasglu fod adeiladau cromenog yn bod mor fore yn yr Aipht a theyrn-

Digitized by Google

asiad Osirtasen I., yr hwn a dybir oedd yn cydoesi â Ioseph. Barna Wilkinson fod yn debyg fod dyfeisiad y bwa i'w briodoli i brinder coed yn yr Aipht, yr hyn a barai fod toi y tai â choed yn dra chostus.

Y mae Kitto yn trefnu y profion o henafiaeth pell y bwa yn y modd a ganlyn:—

Ceir prawf fod bwäau yn adnabyddus yn amser Osirtasen I., oddi wrth y darluniau yn Beni-Hassan.

Yn nyffryn neilldnedig Dayr el Medeeneh, yn Thebes, y mae lluaws o feddrodau er amser Amenoph I. Yn mysg y rhai y mae un âg arno enw yr un Pharaoh; yr hyn sydd yn profi fod y bedd cromenog hwnw yn bod mor foreu a 1540 c. c. Y mae hefyd yn Thebes fwa priddfaen, âg arni enw Thothmes III., yr hwn a deyrnasai o ddeutu amser ymadawiad Israel o'r Aipht.

I'r un cyfnod y perthynai yr ystafelloedd cromenog a'r drysau bwäog [gwel dar. 137, rhif 4], sydd yn aros hyd heddyw yn y pyramidiau priddfaen yn Thebes.



Dar. 139.

Mewn hen dai Aiphtaidd, ymddengys fod y nenfwd yn fynych yn gromenog, ac o briddfaen, a gellir tybied fod rhai o'r ystafelloedd yn nghromadail Rameses III. (c. c. 1245) yn Medeenet Haboo, wedi eu gwneyd yn fwäog, o blegid y mae cynllun y rhan uchaf o'r muriau yn dangos fod gan y nenfydau sydd wedi syrthio y ffurf yma [dar. 137, rhif 3]. Er mai i amser Psamaticus, fel y sylwyd, y perthyn y bwa maen henaf, hyd y gwyddys, eto y mae yn dra thebyg yr arferid meini gan yr Aiphtiaid cyn hyny.

Mae yn dra naturiol casglu, felly, fod y bwa yn adnabyddus i'r Hebreaid, ac yn arferol yn eu hadeiladau. Diammheu fod mwy o goed yn Palestina nag yn yr Aipht; ond y mae y ffaith y dygid llawer o goed o Libanus (2 *Sam.* vii. 2; 1 *Bren.* v. 6; 1 *Cron.* xxii. 4, &c.) yn dangos fod yno brinder o goed cymmhwys at adeiladu.

Yr oedd bwäau buddugol mewn arferiad neillduol yn mhlith y Rhufeiniaid, y rhai a gyfodid ganddynt ar ffyrdd neu bontydd, neu ar y mynedfeydd i'r dinasoedd, er anrhydedd i orchfygwyr neu ymherawdwyr. Yr oeddynt o ddau fath; sef bwäau am yr adeg, wedi eu gwneyd o goed, ar achlysur buddugoliaeth, pan yr äi yr orymdaith o dani, ac y byddai gan y concwerwr y goron fuddugol ar ei ben. Symmudid y rhai hyn ymaith ar ol y seremoni. Y lleill oeddynt adeiladau parhaus, wedi eu gwneyd yn gyntaf o briddfaen, wed'yn o faen naddedig wedi ei gaesu â marmor. Cyfodid y rhai hyn yn amser y werin-lywodraeth. Crybwylla Livy am un a wnaed i Scipio Africanus ar y Clivus Capitolinus. Sonir am un arall i Fabius, a elwir gan Seneca, *Fabianus arcus*=bwa Fabius. Dan yr ymherawdwyr daeth y bwäau yn dra lliosog ac addurniadol. Y bwa triphlyg, er anrhydedd i Cystenyn, a gyfrifir yr hagoraf o holl fwäau Rhufain; saif yn y dyffryn wrth droed bryn y Palatine, yn agos i'r Colosseum.

2. BWA: yr enfys. Yr oedd yr henafiaid yn gwbl anwybodus am ddeddfau yr ymddangosiad hwn mewn natur; ond ar ol darganfod fod goleuni yn sylwedd cyfansawdd, ac y gellir gwahanu ei liwiau, daeth yn hawdd ei esbonio. Gwel ENFYS; GOLEUNI.

Rhoddodd yr Arglwydd y bwa i Noa yn arwydd cyfammod—i gadarnhau ei ymddiried yn yr addewid a wnaethai iddo, na ddygai ddylif mwyach i ddyfetha y ddaiar: *Gen.* ix. 8—17.

Tybia rhai nad ymddangosodd y bwa cyn y dylif, am, medd Burnet, y tybir gan rai nad oedd yn gwlawio cyn hyny; neu, medd Whiston, nad oedd cawodydd trymion i'w achosi. Y mae yr ysgrifenwyr Iuddewig yn cymmeryd y naill ochr a'r llall i'r cwestiwn. Y farn fwyaf naturiol ydyw ei fod yn adnabyddus o'r blaen, ac mor adnabyddus, ond mai yn bresennol y gwnaed ef yn arwydd cyfammod. Y mae yn ddiammheu fod y dduwies Iris, yn chwedloniaeth Groeg, yr hon oedd yn arddangos y "bwa," ac yn ferch Rhyfeddod, yn dwyn rhyw gyssylltiad â'r hyn a adroddir gan Moses am dano fel arwydd cyfammod.

3. BWA SAETHAU. Gwel ARFAU. Arferir y gair mewn ystyr arwyddol yn yr Ysgrythyrau. Yn *Salm* vii. 12, y mae "annelu a pharotoi" y bwa yn golygu, barnau Duw yn barod i ddisgyn ar droseddwyr. Yn *Ier.* ix. 3, dynoda gelwydd a thwyll, ar gyfrif amryw o bethau ag a wnaent y bwa yn aneffeithiol, yn enwedig yn nwylaw dynion anghyfarwydd. Oddi wrth hyn y mae y geiriau "bwa twyllodrus;" *Salm* lxxviii. 57; *Hos.* vii. 16. Weithiau y mae yn colli ei nerth, ac yn niweidio yr hwn sydd yn ei drin. Dywedir am fwa Ionathan, "na throdd yn ol;" 2 *Sam.* i. 22. Bwa twyllodrus yw yr un sydd yn siomi yr ymddiried a osodwyd ynddo, fel y mae ffynnonau dyfroedd, y rhai a sychant yn yr haf, pan y mae mwyaf eu heisieu, yn cael eu galw yn dwyllodrus: *Iob* vi. 15; *Esa.* lviii. 11. Y mae yr Israeliaid yma (*Salm* lxxviii. 57), yn lle cael eu cyffelybu i filwyr annewr, fel yn *adn.* 9, yn cael eu cyffelybu i arfau diwerth.

Arwydda y bwa hefyd ryw fath o arfau. Crybwyllir am y bwa a'r waewffon yn fwy mynych nag arfau ereill, am mai hwy a arferid fwyaf gan yr henafiaid: *Salm* xliv. 6; xlvi. 9; *Zech.* x. 4; *Ios.* xxiv. 12. Yn *Hab.* iii. 9, y mae "llwyr noethni y bwa" yn cyfeirio at ddull y dwyreinwyr yn eu cludo mewn wain yn crogi wrth eu gwregysau. Yn 2 *Sam.* i. 18, dywedir fod Dafydd wedi gorchymyn "am ddysgu meibion Iudah *i saethu* â bwa." Y mae yn hawdd gweled nad yw y geiriau "i saethu" yn yr Hebraeg. Gellir, felly, ei darllen, "Dywedodd hefyd am ddysgu y bwa i feibion Iudah;" hyny yw, "caniad y bwa," oddi wrth y crybwylliad am yr arf hwn yn *adn.* 22.

BWCCLED, [*bwg—cled*]: math o darian neu astalch: 1 *Bren.* x. 17; 2 *Cron.* ix. 15, 16. Y gair Hebraeg am bwccled, ydyw מגן=*magin*. Bernir ei fod yn llai na'r darian. Gwel ARFAU.

BWCH, BYCHOD, [*bu*]: y gwryw o'r geifr. Yr oedd y bwch geifr, yn ngweledigaeth Daniel, yn arwyddlun o frenin Groeg; a'r corn hynod rhwng ei ddau lygad yn arwyddo y brenin cyntaf, sef Alexander Fawr. Yr oedd priodoldeb mawr yn yr arwyddlun hwn, gan mai llun gafr oedd ar baisarfau a llumanau Macedon, am fod Caranus, trwy ddilyn deadell o eifr, wedi cael ei arwain i Edessa, dinas yn Macedonia, yr hon a orchfygodd. Y mae y rhanau eraill o'r dysgrifiad yn dra nodweddiadol o freniniaeth Groeg, ac Alexander.

Deuai y bwch, "heb gyffwrdd â'r ddaiar"—yr

Digitized by Google

hyn a ddynoda gyflymder; y mae *Dan.* viii. 6, 7, yn dra dysgrifiadol o ymosodiad Alexander ar deyrnas y Mediaid a'r Persiaid, a'i fuddugoliaeth arni. Dealla rhai y geiriau, "sefyll wrth yr afon," yn cyfeirio at brif ymosodiad Alexander ar y Persiaid, yr hyn a gymmerodd le wrth yr afon Granicus, yn Phrygia. "Ac wedi ei gryfhau, torodd y corn mawr;"—yr oedd yr ymherodraeth yn ei llawn nerth a'i gogoniant pan fu farw Alexander yn Babilon.

Yn *Zech.* x. 3, arwydda "bychod" y werin ddrygionus. Y mae y "bugeiliaid," yn arwyddo swyddogion gwladol ac eglwysig anffyddlawn; a'u bychod, o angenrheidrwydd, yn golygu yr Iuddewon cyffredin a redent i'r unrhyw ormod rhysedd a'u blaenoriaid. Yn *Ier.* l. 8, annogir meibion Israel i fod, ar eu dychweliad o Babilon, "fel bychod o flaen y praidd;" am iddynt fod yn wrol, parod, a blaenllaw am flaenori mewn gwaith mor dda. Am fod y bwch yn arwain y praidd, medd Henry, y dywedir (*Diar.* xxx. 31) ei fod yn un o'r pedwar peth a rodiant yn weddus. Gwel GAFR; HWRDD.

BWCH DIANGOL, [*Azazel*]. Ar ddydd mawr y cymmod yr oedd yr archoffeiriad i ddewis dau fwch yn bechaberth dros gynnulleidfa meibion Israel (*Lef.* xvi. 5). Gosodai y ddau ger bron yr Arglwydd wrth ddrws pabell y cyfarfod; yna rhoddai goelbrenau ar y ddau fwch, un coelbren "dros yr Arglwydd," a'r coelbren arall "dros *Azazel.*" Offrymid y bwch y syrthiodd coelbren yr Arglwydd arno yn bechaberth, a gosodid y bwch y syrthiodd y coelbren dros Azazel arno yn fyw ger bron yr Arglwydd "i wneuthur cymmod âg ef." Yna yr oedd Aaron i osod ei ddwylaw ar ben y bwch byw, a chyffesu arno holl anwiredd meibion Israel, a rhoddid ef wedi hyny yn llaw gwr cymhwys i'w hebrwng i'r anialwch.

Mae Calvin, yn ei gyfleithiad Lladinaidd o'r bennod, wedi gadael y gair *Azazel*, fel uchod, heb ei gyfleithu, o herwydd y gwahaniaeth barn sydd o barth i'w ystyr. Mae y gair wedi achosi llawer o ddadleuon, ac y mae mor anmhenderfynol yn awr ag erioed.

I. Tybia rhai fod y gair yn enw ar y lle yr oedd y bwch byw i gael ei hebrwng iddo, sef mynydd uchel, serth, ysgythrog (*mons altus et proclivis, præruptus*), yr hwn yn ol barn Aben Ezra, oedd yn agos i Sinai. Hyn oedd barn llawer o'r rabbiniaid Iuddewig, yr hon a dderbyniwyd hefyd gan rai esbonwyr Cristionogol, megys Calvin. Ond nid yw efe yn meddwl mai enw ar le yn agos i Sinai ydoedd, ond ar ryw le anial, lle y gyrid y bwch, rhag i ddigofaint Duw aros ar y bobl. Yn erbyn y farn hon, dywed Witsius, yn 1af, nad yw Moses mewn un man yn enwi mynydd Azazel fel y crybwylla am fynyddoedd ereill: ac yn 2il, nad yw teithwyr diweddar wedi enwi un lle o'r fath. Tybia rhai fod y gair yn cyfateb i'r gair Arabaidd am *fynydd garw*, sef *jil-azaz.* Ond yn erbyn y dybiaeth ei fod yn arwyddo lle o gwbl, y mae y gwrthgyferbyniad (*adn.* 8) "dros yr Arglwydd," a "thros Azazel;" ac hefyd yn *adn.* 10. Byddai felly yr un peth yn cael ei ddyweyd ddwywaith drosodd yn afreidiol. Yn chwanegol at hyn, mae y lle yn cael ei nodi allan dan eiriau ereill, "anialwch," a "thir neillduaeth;" *adn.* 10 a 22.

II. Mae ereill wedi meddwl fod y gair *Azazel* yn arwyddo *ysbryd drwg*, neu y diafol. Y golygiad hwn a amddiffynir gan esbonwyr Germany yn fwyaf cyffredinol. Mae erthygl faith gan Hengstenberg, yn ei *Draethawd ar yr Aipht a Llyfrau Moses*, o blaid y golygiad hwn. Rhoddir crynodeb o'r erthygl yn *Kitto's Cyclopædia*, dan y gair *Scapegoat.* Yr un ystyr hefyd a amddiffynir yn *Encyclopadie Hertzog.* Y rhesymau dros yr esboniad hwn ydynt, 1af. Fod y cyferbyniad rhwng Iehofah ac Azazel (*adn.* 8) yn ein harwain i feddwl am yr olaf fel *person:* fod un bwch i'r Arglwydd, a'r llall i Azazel. Nid oes dim yn anghysson â hyn yn *adn.* 10 a 22. A chan fod y gwrthgyferbyniad yn gofyn fod Azazel yn berson, y mae yr un angenrheidrwydd iddo fod o natur *ysbrydol*, ac hefyd o dan lywodraeth egwyddorion *drwg.* Felly y diafol a feddylir. 2il. Fod ystyr y gair yn gysson â hyn. Mae y gair (עזאל) *Azal* yn perthyn i'r gair Arabaidd *Azala;* ac yn arwyddo neillduo, symmud oddi wrth, gwahanu; ac mewn ffurfiau ereill, gwahanedig, neillduedig, esgymmunedig (*semotus, remotus, abdicatus*)—felly yn enw priodol ar y diafol fel un enciliedig oddi wrth Dduw. 3ydd. Fod y gair *azazel* yn un na ddefnyddir ond yn hanes dydd y cymmod; ac yn ol pob esboniad arall gellir gofyn pa ham y defnyddir ef ar yr achlysur hwn yn unig? 4ydd. Fod hyn yn gysson â'r awgrymiadau a geir o breswyliad ysbrydion aflan mewn lleoedd sychion (*Mat.* xii. 43), ac yn "mhlith y beddau" (*Luc* viii. 27). 5ed. Fod y Deg a Thrigain wedi gwneyd Azazel yn berson unwaith neu ddwy, er eu bod drachefn yn newid y cyfleithiad mewn adnod arall. Mae rhesymau ereill yn cael eu defnyddio, megys, y byddai yr Iuddewon yn rhoddi yr enw Azazel weithiau ar Satan. Hwn ydyw yr enw sydd arno yn Llyfr Enoch.

Nid yw y rhai sydd yn cytuno mai Satan a feddylir wrth Azazel, yn cytuno yn hollol yn eu hesboniadau o'r seremoni o anfon y bwch byw i'r anialwch i Azazel. Esboniad Hengstenberg ydyw, fod y bwch byw yn cael ei gymmeryd i'r anialwch; nid i wneuthur iawn i Azazel—ond i fuddugoliaethu arno, i'w wrthwynebu, ac ymffrostio arno yn ei wyneb. Esboniad Witsius ydyw, fod y ddau fwch yn gosod allan berthynas ddeublyg Crist fel Cyfryngwr: un i Dduw fel barnwr—gwnaeth iawn iddo ef trwy rinwedd ei angeu: a'r berthynas arall ydyw i'r diafol, yr hwn a orchfygodd trwy rinwedd ei fywyd. Yr oedd marwolaeth y bwch y syrthiodd coelbren yr Arglwydd arno yn dangos fod cospedigaeth pechod wedi ei ddyoddef, ac iawn wedi ei wneyd drosto. Dangosai y bwch byw effaith yr iawn yn symmud ymaith bechod mor bell fel na ddaw byth yn erbyn yr hwn a gred yn Nghrist. Esboniad Baihinger ydyw, fod anfoniad ymaith y bwch byw yn dangos (1.) Nad yw pechod i'w oddef yn nghynnulleidfa yr Arglwydd: *Lef.* xi. 44. (2.) Mai unig drigfa priodol pechod ydyw yn yr anialwch gydag ysbrydion aflan, gan ei fod yn wreiddiol yn wrthwynebol i natur dyn a chymdeithas dynion â'u gilydd. (3.) Ar ol i iawn a chymmod gael ei wneyd am bechod, fod yn ddyledswydd ar ddyn i ymwrthod â phechod, a'i roddi yn ol megys, trwy ffleiddiad o hono, i'r diafol (Azazel), yr hwn sydd yn bechadur o'r dechreuad, ac oddi wrth yr hwn y deifliodd ar y cyntaf. (4.) Nad yw yr hwn sydd heb dderbyn y cymmod, nac yn ymwrthod â phechod, yn aelod yn eglwys Dduw (*Lef.* xxiii. 27—30); ond y mae efe a'i bechod yn perthyn i Azazel, a thorir ef oddi wrth etifeddiaeth yr Arglwydd. Yn ol yr esboniad hwn, yr amcan oedd dangos natur ffiaidd a chanlyniadau dinystriol pechod, yn

Digitized by Google

nghyd â'r gras mawr oedd i'w ganfod mewn parotoi cymmod.

III. Mae ychydig o esbonwyr wedi amddiffyn y golygiad dyeithrol mai wrth y bwch diangol y meddylir y genedl Iuddewig yn eu hanghrediniaeth a'u gwrthgiliad oddi wrth Dduw. Yn mblith ysgrifenwyr diweddar, Bush o'r America sydd wedi gwneyd ymdrech i amddiffyn y syniad hwn. Ei brif reswm ydyw, nas gellir, medd efe, gyfleithu yr ymadrodd yn *Lef.* xvi. 10, "i wneuthur cymmod *âg ef*," heb fod yn rhaid iddo arwyddo *drosto ef*, fel gwrthddrych. Ond nid oes dim grym yn hyn, o herwydd ymadrodd arall a ddefnyddir (בעדו) trwy yr holl hanes i osod allan y syniad *drosto ef*. Mae yn debygol gan hyny pe y meddwl fuasai *drosto ef*, mai y gair hwn a ddefnyddiasid yn y ddegfed adnod. Ond heb law hyny y mae holl amcan gwasanaeth dydd y cymmod, yn nghyd â'r defodau gorchymynedig, yn anghysson â hyn.

IV. Y syniad mwyaf cyffredin ydyw, fod y cyfleithiad Cymreig, "bwch diangol," yn cyfleu yr ystyr gwirioneddol. Mae hyn yn cyfateb i *scape-goat*, yn Seisoneg; a *lediger Bock*, cyfleithiad Luther; ac yn cyfateb i gyfleithiad Groeg Symmachus (ἀπερχομενος), ac Aquila (ἀπολελυμενος) = *myned ymaith, myned yn rhydd.* Ac er mwyn cyfarfod yr anhawsder a nodwyd yn y dechreu, sydd yn y cyferbyniad rhwng "i Iehofah" ac "i Azazel," dywedir, nad yw yr ymadroddion hyn yn arwyddo cyssegriad i (*to*) berson, ond i (*for*) wasanaeth. Fod yr hwn y syrthiai coelbren yr Arglwydd arno yn cael ei nodi allan i'w ladd ar *allor yr Arglwydd*; a'r llall yn cael ei nodi allan *i'w anfon ymaith i'r anialwch.*

Ond y mae y rhai sydd yn cytuno yn y cyfleithiad hwn yn gwahaniaethu yn eu dull o esbonio yr hyn a osodir allan drwy y bwch diangol. Y dull mwyaf cyffredin o'i ddeall yw—fod cyfiawnder yn dangos drwg pechod, a'r felldith y mae yn ei haeddu yn marwolaeth un bwch; a thrugaredd yn ymorfoleddu mewn maddeuant trwy iawn yn ngollyngiad yn rhydd y bwch arall. Ni allasai yr un anifail ddangos y ddau; o herwydd y mae y bwch cyntaf yn marw, heb ddyfod yn fyw drachefn. Nid yw hyn yn dangos ond cosp pechod. Er mwyn dangos rhyddhâd hefyd, y mae yn rhaid cael bwch arall, a'i ystyried yr un â'r hwn a aberthwyd, yr hyn a wnaed, trwy ei ystyried fel yn "gwneuthur cymmod" (*adn.* 10), ac hefyd trwy ei fod yn agored i goelbren yr Arglwydd syrthio arno, ac felly ei roddi i farwolaeth; ond er hyny, caniatëir iddo ddianc marwolaeth, a chael ei ryddid yn eangder yr anialwch. Tybir, gan fod y ddau fwch i'w golygu yn "gymmod" (*adn.* 10, 16), fod hyn yn profi eu bod i'w ystyried yn *un*; a bod dau yn angenrheidiol, o herwydd anmherffeithrwydd y cysgod i osod allan y sylwedd:—un yn dangos allan ei ddyoddefaint a'i aberth, a'r llall yn cysgodi rhyddhâd drwyddo; neu, fel y dywedir yn fynych, marwolaeth ac adgyfodiad Crist. Mae cyfraith glanhâd y gwahanglwyfus yn myned yn mhell i gadarnhau yr esboniad hwn.

Ond dadleuir gan Bonar, nad yw fod y bwch diangol yn cael ei anfon yn llaw "gŵr cymhwys" i'r anialwch, yn arwyddo rhyddhâd neu adgyfodiad Crist, nac ychwaith rhyddhâd pechadur trwyddo, ond dyoddefiadau anweledig y Meichiau wrth wneuthur iawn. Y mae Aaron yn gosod ei ddwylaw ar ben y bwch byw, yn cyffesu arno holl anwiredd meibion Israel (*adn.* 21); ac yna anfonir ef ymaith yn llaw un cymhwys, yn mhreseunoldeb yr holl bobl, nes iddo fyned o'r golwg i anialdir diffaeth ysgythrog. Y mae y gŵr yn dychwelyd, ac yn tystio iddo gael ei adael yno; ac y mae Israel yn teimlo gorfoledd maddeuant; o herwydd fe ddisgyna cosp am y pechodau yn awr, nid arnynt hwy, ond yn yr anialwch ar y bwch. Gadewid ef yno yn unig, yn ddiamddiffyn. Y mae y creigiau yn adsain ei gri, a chreaduriaid ysglyfaethgar yn ei ddychrynu â'u rhuadau; ac, efallai mai nid anfynych y byddai Iehofah yn peri i saeth y fellten ei drywanu yn nghanol rhuad y dymmestl. Neu yn nghanol yr arteithiau corfforol mwyaf ofnadwy, crwydrai yn yr anialwch, gan frefu am ychydig ddwfr i dori ei syched, ond yn ofer, nes o'r diwedd y cyrhaeddai y Môr Marw; ac yna, yn ei gyfyngder, fe ŷf o'i ddyfroedd heilltion. Hwn yw y syniad a osodir allan yn yr arlun gan W. H. Hunt, yn yr *Exhibition* diweddaf yn y Royal Academy.—Gwel *Witsius on the Covenants; Dr. Pye Smith on the Sacrifice; Winer's R. W. B.; Hertzog's Real. Encycl.; Kitto; Bonar on Leviticus; Journal of Sacred Literature*, cyf. i.; *Bush's Notes on Lev.* xvi.

BWTH, BYTHOD, [*wth*]: lluestty, caban. Y gair Hebraeg ydyw בית=*bith*; yr hyn a arwydda dŷ i ddyn, neu drigfa i anifail, a lle i adar nythu: *Gen.* xxxiii. 17; *Iob* xxvii. 18; xxxix. 6; *Salm* lxxxiv. 4. Dywedir am y rhagrithiwr (*Iob* xxvii. 18), "ei fod yn adeiladu ei dŷ fel gwyfyn, ac fel bwth a wna gwyliwr;" sef y bwth a wna y rhai a warchodant winllanoedd neu erddi, fel cysgod, ar y pryd, rhag ystorm neu oerni y nos. Nid oedd y cyfryw adeiladau ond hynod wael a brau, ac ni fwriedid hwynt ond dros amser byr. Dywed Niebuhr, yn y dysgrifiad a rydd o Arabia, —"Yn mynyddoedd Yemen, y mae ganddynt fath o nythod yn y coed, lle y mae yr Arabiaid yn aros i wylio y meusydd ar ol cael eu planu. Ond yn Kehama, lle y mae prinder coed, adeiladant luesttai ysgeifn i'r perwyl hwn."

BWYD—YDD, [*byw*]: Heb., פת=*peth*; Gr., βρωσις; ymborth, maeth, lluniaeth. Y mae sylw mawr yn cael ei roddi yn yr Ysgrythyrau ar fwydydd a diodydd; ac nid yn unig arnynt fel pethau naturiol, ond hefyd yn eu cyssylltiad â chrefydd. Ac nid yw yn rhyfedd fod yr ymarferiad angenrheidiol o fwyta ac yfed yn gyssylltiedig yn mhob oes â chrefydd, gan ei fod yn beth tra naturiol a phriodol rhoddi i'r Arglwydd ryw gydnabyddiaeth am ein lluniaeth a'n llawenydd: *Act.* xiv. 17. Y mae hefyd y ffaith fod bwyta ac yfed, nid yn unig yn fwyniant personol, ond hefyd yn fwyniant cymdeithasol, yn un achos pa ham y byddai crefydd yn cael ei chyssylltu âg ef.

Er mwyn cael golwg ar wedd ysgrythyrol y testyn, edrychwn ar yr amrywiol osodiadau o barth ymborth i Adda, i Noah, a Moses, yn nghyd âg egwyddorion y Testament Newydd arno.

Oddi wrth y caniatâd a roddwyd i Adda (*Gen.* i. 29), gellid tybied na fwriadwyd dyn nac anifail ar y cyntaf i ymborthi ar gig. Rhoddwyd i ddyn "bob llysieuyn yn hadu had, a phob pren yr hwn y mae ynddo ffrwyth pren yn hadu had i fod yn fwyd;" ac i bob anifail, bwystfil, ac ehediad, y rhoddwyd "pob llysieuyn gwyrdd." A pha beth bynag ni chynnwysir yn yr ordeiniad hwn, rhaid ystyried ei fod yn cael ei gau allan o hono. Ni feddai y dyn cyntaf brofiad am gymhwysder dim i fod yn ymborth, ond yn unig yr hyn a ganiatëid

Digitized by Google

iddo gan y Creawdwr; a diammheu, felly, yr ystyriai bob peth yn anmhriodol, oddi eithr a oddefwyd yn benodol ganddo ef. Yr oedd y rhodd gyntaf a grybwyllir yn hanes creadigaeth dyn yn ddigonol er ateb i angenion y cenedlaethau boreuaf o ddynolryw, ac yn ddigonol er meithriniaeth iddynt mewn hinsawdd dyner, a chyda'r mesur cymmedrol o lafur yr oedd yn angenrheidiol iddynt fyned dano. Tybir y buasai lladd anifeiliaid yn beth anghydweddol â sefyllfa o ddiniweidrwydd. Y mae blinder a marwolaeth creaduriaid direswm yn agos gyssylltiedig âg ystâd bechadurus. Ni oddefai hyd yn oed y Groegiaid i anifeiliaid gael eu defnyddio yn eu hoes auraidd. "Yn ystod teyrnasiad Sadwrn, sef yn yr oes auraidd," medd Dicæarchus, "pan yr oedd y tyfiant yn rhagorol, ni fwytëid cig, ond ymborthai pawb ar lysiau a glaswellt, y rhai a ddygai y ddaiar o honi ei hun." Ceir tystiolaethau o'r un natur yn nghaneuon Ovid, ac yn ysgrifeniadau Plato. Y mae yn anhawdd penderfynu o'r Ysgrythyrau pa un a arferai y cynddyliflaid gig ai peidio: ond os gwnaent, hwy a wnaent heb oddefiad, fel yr ymddengys oddi wrth y cyfammod a wnaeth yr Arglwydd â Noah ar ol y dylif. I Noah (*Gen.* ix. 3, 4) y rhoddwyd anifeiliaid gyntaf i fod yn ymborth. Lleddid hwynt yn aberthau cyn hyny, ond nid i fod yn fwyd. Barna Bochart a Grotius yr ymborthid ar gig anifeiliaid cyn y dylif; ond nid ystyrir eu rhesymau dros hyny yn benderfynol. Ac y mae y cyfeiriad a wneir (*Gen.* ix. 3) at y caniatâd blaenorol yn anhawdd ei ddeall, ar y dybiaeth y defnyddid cig anifeiliaid cyn hyny; "Pob ymsymmudydd yr hwn sydd fyw, fydd i chwi yn fwyd: fel y gwyrdd lysieuyn y rhoddais i chwi bob dim." O blegid pe rhoddasid pob ymsymmudydd byw i Adda yn fwyd, buasai rhoddi y caniatâd yma i Noah yn beth afreidiol. Caniatawyd hyn i Noah, y mae yn debygol, ar gyfrif y cyfnewidiadau elfenol a achoswyd gan y dylif ar y ddaiar, a'r cyfansoddiad dynol. Y mae dynolryw byth wedi y cyfnod hwnw dan angenrheidrwydd i fyned o dan fwy o lafur corfforol, ac o herwydd hyny yn gofyn mwy o faeth nag sydd mewn llysiau; a dichon fod y llysiau eu hunain yn llai meithrinol na chynt; ac mewn llawer o barthau o'r byd, nis gellid cael digonedd o fwyd llysieuol. A thrwy gael ein dewis luniaeth, yr ydym yn gallu ei gyfaddasu at ein iechyd a'n hamgylchiadau, a gwrthweithio effeithiau gwanychol hinsoddau anffafriol. Fel yr oedd un eithrad yn perthyn i'r caniatâd cyntaf (*Gen.* ii. 16, 17; "O bob pren o'r ardd gan fwyta y gelli fwyta; ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwyta o hono"), felly hefyd yn yr ail, "Na fwytewch gig yn nghyd â'i einioes, sef ei waed." Cynnwysa y gwaharddiad hwn ddau beth; sef peidio bwyta cig anifail byw; a pheidio bwyta y gwaed ei hunan. Y mae y cyntaf yn gwrthdaro pob teimlad; ond y mae y diweddaf wedi bod yn fater o ddadl. Gwel ANIFAIL; GWAED.

Ymddengys fod y gwahaniaeth rhwng anifeiliaid glân a rhai aflan—anifeiliaid y gellid, a'r rhai nis gellid, eu bwyta—yn adnabyddus i raddau helaeth yn yr Aipht yn yr hen amseroedd. Yr oedd amryw bysg yn cael eu hystyried yn gyssegredig, a gwaherddid hyd yn oed gyffwrdd â hwynt. Pan farnai yr Aiphtiaid fod rhai pysg yn aflachus i'w bwyta, y ffordd a gymmerent i wahardd yr arferiad o honynt oedd eu gwneyd yn gyssegredig, a rhoddi lle iddynt yn mysg y creaduriaid a addolid ganddynt.

Nid oedd yr afonfarch na'r afanc yn cael eu bwyta chwaith gan yr hen Aiphtiaid. Ystyriai rhai yr afanc (*crocodile*) yn gyssegredig, tra yr ymlidid ef gan eraill. Mewn rhai lleoedd, trinid ef gyda'r parch mwyaf; byddai yn cael ei borthi, ei addurno, ac ar ol ei farwolaeth ei berarogli; ond edrychai trigolion parthau ereill arno gyda'r casineb mwyaf; fel y gwelir yn Juvenal [*Sat.* 15].

Parchai yr Aiphtiaid gŵn a chathod—y rhai diweddaf, yn enwedig—â pharch yn ymylu ar addoliad. Pan fyddai cath farw mewn tŷ, byddai arwyl cyffredinol yn mysg y perthynasau yn canlyn; ac ystyrid lladd un o'r creaduriaid hyn yn drosedd marwol.

Ar y llaw arall, yr oedd moch yn ffieidd-dra yn eu golwg. Dywed Herodotus [2. 47], pe buasai i ddyn wrth fyned heibio gyffwrdd â mochyn, y buasai raid iddo ymdrochi a golchi ei ddillad. Yr oedd eu celdwaid hefyd yr un mor ddirmygedig a hwythau. Mae arferion cyffelyb yn bod yn mhob gwlad; ac felly yn Mhrydain. Yr ydys yn ymgadw rhag rhai anifeiliaid, ac yn ymborthi ar y lleill; pan y mae cryn anhawsder dwyn rheswm boddlonol dros y naill na'r llall.

Ceir y ddeddf Foesenaidd o barth i gigfwyd yn *Lef.* xi.; a *Deut.* xiv. "Beth bynag a hollto yr ewin, ac a fforchogo hollt yr ewinedd, ac a gno ei gil, o'r anifeiliaid; hwnw a fwytewch," &c. Y mae yn bossibl dyfod o hyd i seiliau a rhesymau y ddeddf hon, trwy ymchwilio i ansawdd ac ysbryd y wladwriaeth Hebreaidd. Y mae yn gorphwys ar ystyriaethau wedi eu tynu oddi wrth arferion eilunaddolgar, gofal am iechyd, hyrwyddiad amaethyddiaeth, chwaeth y bobl, &c. "Wrth feddu ymborth priodol iddynt eu hunain," medd Henry, "cedwid hwy rhag ymgyfeillachu â'u cymmydogion eilunaddolgar, ac adgofid hwynt o'u neillduad oddi wrth eraill. Yr oedd y nifer mwyaf o'r creaduriaid a ystyrid yn y gyfraith hon yn aflan, yn gyfryw ag a berchid yn fawr, ac a fernid yn gyssegredig, gan eilunaddolwyr, nid yn gymmaint fel rhan o ymborth, ag fel aberthau a chyfryngau dewiniaeth; o ba herwydd y mae y rhai hyny yn cael eu nodi yma fel yn aflan a ffieiddbethau. Yr oedd y moch yn mysg cenedloedd diweddarach yn gyssegredig i Gwener, y ddylluan i Minerva, yr eryr i Iau, y ci i Hecate, &c.; ac y mae yr holl rai hyn yn cael eu nodi yn greaduriaid aflan." Gwel CYFRAITH MOSES.

Yn nhir Groeg, a gwledydd ereill, y boreubryd a fwytëid oedd bara a gwin; ond ystyrid bwyta ac yfed yn y bore gan yr Hebreaid yn ymddygiad anghymmedrol. Efallai fod yr Iuddewon yn cymmeryd ychydig fwyd yn nghylch codiad haul, er nad yw hyn yn sicr; ond nid eisteddent i fwyta, ac nid yfent win, hyd ar ol yr aberth boreuol. Y mae y Syriaid yn bresennol yn bwyta mor gynted ag y cyfodant yn y bore, yr hyn sydd yn gyfnewidiad oddi wrth eu harferion boreuol. Ni fwytäai y dwyreinwyr yn gyffredin ond ychydig o fwyd ysgafn yn nghorff y dydd; ond wedi darfod eu llafur, adfywient eu hunain â llawnder o ddanteithion. Ac mewn lluaws o fanau yn y Testament Newydd, crybwyllir am y swper fel y prif bryd.

Yr oedd yr ych a'r ddafad yn rhan arbenig o fwyd y dwyreinwyr, er pan roddwyd hwy i Noah; ond arbedent yr ŵyn a'r lloi. Mor ddiweddar a dyddiau Amos, yr oedd "bwyta yr ŵyn o'r praidd, a'r lioi o ganol y cut" (*Amos* vi. 4) yn cael ei geryddu gan y prophwyd fel prawf o nwyfiant a blys anghymmedrol. Ac yn *Iliad Homer*, ni a

Digitized by Google

gawn fod Priam, hen frenin Caerdroia, yn ymliwio â'i feibion, am iddynt wledda ar ŵyn ieuainc. Ac yr oedd y ffaith fod Abraham yn parotoi llo tyner i'r tri wŷr, yn brawf, nid yn unig o lettygarwch cyffredin, ond o barch ac edmygedd arbenig i'r ymwelwyr.

Ystyrid mel yn rhan neillduol o ddanteithion y dwyreinwyr. Am hyny, y mae ymenyn a mel yn ymadroddion allegawl am lwyddiant ac esmwythyd daiarol. Yr oedd y beirdd paganaidd hefyd yn golygu ymenyn a mel yn mysg breintiau gwladwriaeth lwyddiannus. Fel hyn, darlunia Callimachus fel yr oedd Iau yn cael ei feithrin â mel a llaeth geifr; a chana Homer am ofal tyner Gwener, yn magu babanod Pandareus â mel, llaeth, a gwin.

Y ddiod gyffredin yn yr amseroedd boreuaf oedd dwfr. Bod gwin o natur feddwol yn cael ei ddefnyddio yn dra bore, sydd eglur oddi wrth *Gen.* ix. 20. Lleferir am fara a gwin yn *Gen.* xiv. 18, yn cael ei roddi gan Melchisedec i Abraham, i'w adloni. Weithiau, cymmysgid y gwin â dwfr, ac â phethau ereill: *Salm* lxxv. 8; *Esa.* v. 22. Arferai y bobl gyffredin fath o win sur, a elwir yn ein cyfleithiad ni, "finegr;" *Ruth* ii. 14; *Mat.* xxvii. 48. Yr oedd y dwyreinwyr, fel y gwélir oddi wrth amryw ranau o'r Beibl, yn dra thueddol i yfed i ormodedd. Yr oedd y gwinoedd a gynnyrchid yn Syria a Palestina o amryw fathau; rhai o'r fath oreu, megys yr un a wneid o rawnwin Escol a Lebanon. Dysgrifia Ioel sefyllfa o lwyddiant â'r ffugr, "fod y mynyddoedd yn defnynu meluswin."

Arferid fel llestri i yfed o honynt y gwpan neu y phiol, a'r badell; *Ier.* xxxv. 5; *Amos* vi. 6. Yr oedd y phiol wedi ei gwneyd o bres, a'i gwisgo â thin—o ran ei ffurf yn debyg i'r lili, weithiau yn gron. Arferir hi yn barhaus gan deithwyr, a

Dar. 140. Cwpanau gwin. (Persepolis.)

gellir ei gweled yn mhob un o'r ffurfiau yn adfeilion Persepolis: 1 *Bren.* vii. 6. Yr oedd i'r badell amryw ffurfiau, ac arni amryw enwau. Ymddengys oddi wrth y rhoddion a wneid gan dywysogion Israel (*Num.* vii.), fod rhai o'r pedyll



Dar. 141. Bwrdd Aiphtaidd gyda dysglau.

neu y dysglau hyn yn fawrion a drudfawr: yr oedd rhai o honynt yn arian, a rhai yn aur: 1 *Bren.* x. 21.

Y prif bryd, fel y sylwyd, yn ngwledydd y dwyrain, oedd y swper; ond ymddengys, oddi wrth *Gen.* xliii. 16, 25, ei bod yn arferiad yn amser y patrieirch i giniawa ar hanner dydd; ac felly yr oedd yn Palestina mewn amseroedd mwy diweddar: 1 *Bren.* xx. 16. Cedwid gwleddoedd, fodd bynag, hyd y prydnawn, ac estynid hwy weithiau hyd y bore dranoeth: *Esa.* v. 11; *Luc* xiv. 24. Cyn myned i wledd, ymolchai y Groegiaid, ac ymeneinient; a'r un modd y dwyreinwyr yn gyffredin. Ond y rhai a ddeuent o ffordd bell a wisgid ac a olchid yn nhŷ y wledd. Pan gyrhaeddodd Telemachus a Pisistratus balas Menelaus, rhoddwyd iddynt, medd Homer [*Odys.* iv. 48], ddwfr i ymolchi, ac olew i ymiro, cyn iddynt gymmeryd eu heisteddfa wrth ochr y brenin. Golchent eu dwylaw hefyd cyn yr eisteddent i fwyta, yr hyn oedd yn angenrheidiol ar gyfrif y dull o fwyta. Gofynid hefyd am fendith Duw (1 *Sam.* ix. 13, ברכה; yn y Testament Newydd, *εὐλογία*, *εὐχαριστία* = rhoddi diolch). Yr oedd hyn yn bod hefyd yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Dechreuent hwy eu gwleddoedd trwy weddïau, a diodoffrymau. Yr oedd eu syniad hwy am ragluniaeth ddwyfol mor gywir a bywiog, ac am eu rhwymedigaeth i'r Bod mawr, fel yr edrychent arno yn beth anmhriodol bwyta dim heb offrymu rhan o hono, fel math o gydnabyddiaeth diolchus i'w duwiau. Yr oedd yr arferiad hon yn cael ei chadw mor gydwybodol ganddynt, fel pan aflonyddwyd ar Achilles gan genadau Agamemnon ar hanner nos, y gwrthododd brofi bwyd hyd oni wneid offrymiad yn gyntaf. Nid anghoflodd Ulysses a'i gydfilwyr y ddyledswydd hon yn ffau Polyphemus. Ac yr oedd ei hesgeuluso yn cael ei ystyried yn annuwioldeb mawr gan baganiaid, yn gystal a chan yr Hebreaid. Y mae Jahn [*Bibl. Antiq.*] yn rhoddi y weddi fer a arferai yr Iuddewon cyn bwyta,—"Bendigedig fyddo ti, O Arglwydd ein Duw, yr hwn a gynnyrchaist y bwyd hwn (neu y ddiod hon) o'r ddaiar (neu o'r winwydden)."

Yr hen Roegiaid a Rhufeiniaid a eisteddent wrth fwyta. Yr oedd arwyr Homer wedi eu rhesu ar gadeiriau wrth y pared, gyda bwrdd bychan o flaen pob un, ar yr hwn y gosodid y bwyd a'r ddiod. Yr un oedd agwedd yr hen Hebreaid wrth fwyta: *Gen.* xxvii. 19; *Barn.* xix. 6; 1 *Sam.* xx. 25. Ond pan ddaethant yn fwy masw a menywaidd, newidiasant eu heisteddfaau am lythau, ar y rhai y lled-orweddent (*Luc* vii. 37, *ἀνέκλιθη*). Dygwyd yr agweddiad yma wrth y bwrdd o Persia, yn yr hon wlad yr oedd yn hen arferiad. Cyfeirir at y dull hwn yn Ysgrythyrau yr Hen Destament (*Esth.* i. 6; *Amos* vi. 4); ond yr agweddiad boreuaf oedd eistedd: *Gen.* xxvii. 19; xliii. 33. A chan mai dyma yr agweddiad mwyaf naturiol a dynol, yr ydoedd mewn arferiad, y mae yn ddiammheu, a hi yn unig, gan y cenedlaethau boreuaf.

Ymddengys fod rhoddi y flaenoriaeth—y lleoedd uchaf—i bersonau yn ol eu trâs a'u hawdurdod yn meddu henaflaeth pell. Yr oedd yn arferiad yn y gwleddoedd Groegaidd. Yn *Iliad Homer*, rhoddir yr eisteddleoedd uchaf i'r prif arwyr; ac mewn oesoedd diweddarach, yr oedd dyn wedi ei appwyntio, a elwid yr *ονομακλητωρ*; gwaith yr hwn oedd galw y gwahoddedigion wrth eu henwau i'w lleoedd priodol. Gwneid y gwaith hwn, weithiau, yn mysg yr Iuddewon, gan feistr y wledd: *Luc* xiv. 7, 8. Dywed Eustathius, ei bod yn hen arferiad yn Lacedæmon, i'r henaf o'r gwahoddedigion flaenori y lleill, os na byddai i feistr y wledd alw arall wrth ei enw. Gellir olrhain yr arferiad hon yn bur bell; o blegid yn

Digitized by Google

y drefn hon, sef yn ol eu hoedran, y gosododd Ioseph ei frodyr wrth y bwrdd: *Gen.* xliii. 33. Ni oddefid i ferched fwyta gyda dynion, ond gwleddent mewn ystafelloedd ar eu penau eu hunain: *Esth.* i. 6, 9. Ymgymmysgent, pa fodd bynag, â'r gwrywaid mewn gwleddoedd cyhoeddus yn Babilon a Phersia: *Dan.* v. 2. Gwel GWLEDD. Ar osodiadau y Testament Newydd o barth i fwydydd, gwel CYNGHORFA IERUSALEM; EILUNOD; GWAED.

BWYD-OFFRWM, [*Lef.* ii. 1; vi. 14; ix. 17; *Num.* xv. 4], a arwydda offrwm o bethau difywyd, megys peilliad, teisenau, ffrwythau y ddaiar, a'r cyffelyb. Galwai yr Iuddewon offrwm yn gyffredinol קרבן (*corban*), ond yr offrymau neillduol, o fara, gwin, ac olew, neu y bwyd-offrwm, a alwent מנחה (*mincha*). Yr oedd amryw fathau o fwyd-offrwm: *Lef.* ii; *Num.* xv. Yr oedd y nifer mwyaf o'r offrymau hyn yn wirfoddol. Ond pan offrymid anifail i'w aberthu, nid oedd yn rhydd iddynt ommedd yr offrymau hyn hefyd. Yr oeddynt yn rhwym i ddwyn pob peth yn mlaen a berthynai i'r aberth.

Y math henaf o offrymau ag y gwyddom am danynt oedd bara, gwin, olew, halen, a ffrwyth y ddaiar. Dygodd Cain i'r Arglwydd o ffrwyth y ddaiar: *Gen.* iv. 3. Offrymodd Abel flaenffrwyth ei ddefaid. Yr oedd y bwyd-offrymau hyn yn adnabyddus yn yr oesoedd boreuaf yn mysg y paganiaid. Offryment wenith, peilliad, bara, &c. [*Ovid. Tast.* 11]. Addysgwyd y Rhufeiniaid gan Numa Pompilius, eu deddfwr, i offrymu i'r duwiau ffrwythau, yd, briwsion bara, a gwenith wedi ei rostio [*Pliny*, xviii. 2]. Ond yn flaenorol i aberthu anifail, ni offryment ond yd yn unig.

Y gwahaniaeth, medd Calmet, rhwng bwyd-offrymau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid ag eiddo yr Hebreaid oedd, fod yr Hebreaid yn rhoddi yr halen, neu yn tywallt y gwin, neu pa beth bynag a offryment, ar guawd yr aberth pan weithian wedi ei ladd a'i ddodi ar y tân ar yr allor; tra y rhoddai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hwynt ar ben yr anifail tra yn fyw, cyn ei aberthu. Gwel OFFRWM.

BWYELL—EILL, [*pwy*]: bwyell lydan=bwyell weithio; bwyell hir, a bwyell gynnud=bwyell i gymynu coed; bwyell arf, a bwyell ennilleg=bwyell rhyfel.

Bwyell ennilleg dwy geiniawg a dâl.
Cyfr. Cymreig.

Yr oedd bwyeill yr Hebreaid o amrywiol ffurfiau, ac yn ateb gwahanol ddybenion, fel y gwelir oddi wrth y gwahanol enwau a roddir arnynt.

1. גרזן (*garzen*); *Deut.* xix. 5; xx. 19; 1 *Bren.* vi. 7; *Esa.* x. 15. Oddi wrth y manau hyn, ymddengys fod y math hwn yn cael ei arfer i gymynu a naddu coed, yn nghyd â gorchwylion ereill. Tybia Gesenius fod y fwyell yn 1 *Bren.* vi. 7, yn dynodi bwyell y saer maen; ond dadleua Kitto nad yw y dybiaeth yn gywir. Yn *Deut.* xix. 5, tybir y gallai y pen, neu yr haiarn, synthio o'r menybr wrth gymynu coed; a bernir y gallai y fwyell hon fod yn debyg i rif 3, ac yn gyffelyb i'n bwyell gyffredin ni; a'i bod yn cael ei defnyddio gan yr Aiphtiaid i'r un gwasanaeth ag yn y wlad hon. Yn y bwyeill ereill, fel y gwelir oddi wrth y darlun nesaf, y mae yr haiarn wedi ei sicrhau wrth y menybr â chareiau.

2. מעצד (*maatzad*); *Esa.* xliv. 13; *Ier.* x. 3. Yr oedd hon, fel y tybir, yn offeryn llai ac ysgafnach na'r llall—yn fath o neddyf, ac yn cael ei defnyddio i lunio a chymhwyso pren. Ai gyntaf i gymynu a naddu prenau mawrion y ddiweddaf i wneyd gwaith mwy medrus gofalus, fel y gwelir oddi wrth *Esa.* xliv. 1 y mae yn cael ei defnyddio i gerfio delwau oedd hon yn debyg rif 4, 5, 6, 7.

Dar. 142.

3. קרדם (*gardom*), yr hwn yw yr enw mwy cyffredin; *Barn.* ix. 48; *Salm* lxxiv. 5; 1 *Sam* xiii. 20, 21; *Ier.* xlvi. 22. Arferid hon yn fw neillduol na'r gyntaf i gymynu coed, ac yr oed ei phen yn drymach. Yn un o'r cerfiadau Aipht aidd, arddangosir trigolion Lebanon yn cymyn pinwydd â bwyeill tebyg i rif 1; a chan ma hon a arferid gan yr Aiphtiaid i'r un perwyl, nid oes nemawr ammheuaeth ei bod mewn arferiad hefyd gan yr Hebreaid.

Y mae ystyr allegawl i'r fwyell yn yr Ysgrythyrau; megys am allu gwladol, neu berson, yn cael ei ddefnyddio fel offeryn llaw Duw i gospi cenedloedd pechadurus. Fel y maent hwy yn cael eu cyffelybu i brenau mewn coedwig, felly y mae y gallu, neu y person a gymmer yr Arglwydd yn offeryn i'w cospi yn cael ei gyffelybu i fwyell: *Esa.* x. 15; *Ier.* xlvi. 22. Yn y lleoedd hyn, dynoda y fwyell y Caldeaid a'r Assyriaid. "Yr awr hon y mae y fwyell wedi ei gosod ar wreiddyn y prenau;" *Mat.* iii. 10. Yma y mae y fwyell, nid yn cymynu cangenau, ond wedi ei gosod ar wreiddyn y pren; yr hyn a ddynoda ddinystr llwyr ac anadferadwy. Y Rhufeiniaid oedd y fwyell, a'r Iuddewon y prenau.

Yr oedd y fwyell ennilleg, neu yr arf-fwyell, yn cael ei harfer mewn amryw wledydd er yr oesoedd boreuaf. Dygwydda yn yr un linell yn *Homer* ddau enw Groeg am dani, sef *αξινη* (*acsine*), a *πελεκυς* (*pelecus*). Dichon mai y gwahaniaeth rhyngddynt oedd, fod yr *acsine* yn debyg i'n bwyell ni; tra yr oedd gan y *pelecus*, yr hon a elwir yn gyffredin yn Lladin *bipennis*, ddau ben. Gelwid y *pelecus* hefyd *securis Amazonica*=y fwyell Amazonaidd, am y tybir mai hi a ddefnyddid gan y benywod milwraidd hyny. Yn mysg y cenedloedd a ymunasant â Xerxes yn ei ryfelgyrch, yr ydys yn cael fod arf-fwyeill gan y Saciaid a'r Aiphtiaid [*Herodotus*]. Crybwylla Horace a Tacitus am amryw genedloedd yn eu harfer mewn brwydrau. Ond nid ymddengys eu bod mewn arferiad cyffredin yn myddinoedd y Rhufeiniaid. Ystyrid hi yn perthyn yn hytrach i lwythau anwaraidd.

Oddi wrth adfeilion Derwyddol a gafwyd yn

Digitized by Google

Digitized by Google

Y BYD,

FEL YR OEDD YN ADNABYDDUS I'R HYNAFIAID.

Cyfrwir yr hydred yn awr o Greenwich—ac at hyny y cyfeiria y ffigyrau sydd ar ben uchaf y map hwn. Ond yr oedd yr hynafiaid yn cyfrif yr hydred o ynys a elwir Ferro—y fwy af gorllewinol o Ynysoedd y Canary. At eu hydred hwy y cyfeiria y ffigyrau sydd ar waelod y ddalen. Ymae Ferro tua deunaw gradd ir gorllewin o Greenwich.

THE WORLD

AS KNOWN TO THE ANCIENTS.

The meridian of Ferro (the westernmost of the Canary Islands) from which the ancients reckoned their longitude, is used in this Map as a first meridian. The corresponding longitudes from Greenwich (from which Ferro is 18° distant, to the westward) are shown by the figures along the upper border-line.



Digitized by Google

Y BYD,

FEL YR OEDD YN ADNABYDDUS I'R HYNAFIAID.

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

Ægyptus... ...	Yr Aipht.
Arabicus Sinus ...	Y Môr Coch.
Aurea Chersonesus ...	Y Penrhyn Malayaidd.
Babylonia ...	Babilon.
Britannia... ...	Prydain, neu Lloegr a Chymru.
Britannicæ Ins. ...	Ynysoedd Prydeinig.
Caledonia ...	Yr Alban, neu Ysgotland.
Chersonesus Cimbrica	Gorynys Jutland, neu Denmarc.
Cyrenaica ...	Cyrene.
Dacia	Yn cynnwys Transylvania, Roumania, a rhan o Hungary.
Europa	Ewrop.
Gallia	Ffraingc.
Gangeticus Sinus ...	Morgaingc y Ganges.
Gedrosia	Y dalaeth bellaf o Ymherodraeth Persia.
Germania... ...	Germany, neu yr Almaen.
Græcia	Gwlad Groeg.
Hibernia	Yr Iwerddon.
Hispania	Yspaen.
Hyperboræi ...	Y Gogledd pell.
Imausm	Y gyfran orllewinol o'r Himalaya.
India extra Gangem . .	India tu hwnt i'r Ganges.
India intra Gangem ...	India o fewn i'r Ganges.
Indicus Oceanus ...	Cefnfor India.
Libya ... *neu*	Affrica.
Libya Palus ...	Llyn Libya.
Libyan Desert ...	Anialwch Libya.
M. Ægæum ...	Y Môr Ægeaidd.
Magnus Sinus ...	Y Morgaingc Mawr.
Mare Erythræum ...	Y Môr Erythræaidd.
Mare Caspium or Hyrcanum ..	Y Môr Caspiaidd.
Mare Hadriaticum ...	Môr yr Adriatic.
Mare Atlanticum ...	Môr y Werydd.
Mare Internum ...	Môr y Canoldir.
Massagetæ ...	Tartaria Kirghiz.
Mauritania ...	Morocco.
Norícum	Rhanau o Awstria, Bavaria, a Salzburg.
Oceanus Britannicus...	Y Sianel Brydeinig.
Oceanus Cantabrius ...	Môr Cantabria, neu Machwy Biscay.
Oceanus Germanicus ..	Môr y Gogledd
OceanusSeptentrionalis	Y Sianel Germanaidd.
Persicus Sinus ...	Morganigc Persia.
Persis	Persia.
Phazania	Fezzan.
Pontus Euxinus ...	Y Môr Du.
Rhætia	Rhanau o Switzerland a'r Tyrol.
Sarmatia	Rhanau o Poland a Rwssia yn Ewrop.
Sarmatia Asiatica ...	Sarmatia yn Asia.
Sarmaticus Oceanus ...	Môr y Baltic.
Scandinavia ...	Norway a Denmarc.
Serica	Rhanau o China, Thibet, a Tartary.
Sogdiana	Rhanau o Turkestan a Bokhara.
Scythia extra Imaum...	ScythiaDe-ddwyreiniol
Scythia intra Imaum...	Scythia Gogledd-orllewinol.
Taurica Chersonesus...	Y Crimea.

Ni byddai yn ammhriodol i ni, mewn cyssylltiad â'r map hwn, i gyfeirio yn fyr at sefyllfa y wybodaeth ddaearyddol yn mysg yr hynafiaid, ynghyd â'r cynnydd sydd wedi ei wneyd ynddi. Y mae daearyddiaeth yn gydoesol â hanesyddiaeth. Herodotus, yr hwn a elwir yn dad hanesyddiaeth, oedd tad daearyddiaeth hefyd. Yr oedd ei ddisgrifiadau daearyddol ef yn wastad yn fyr a chyffredinol—ond bob amser yn glir a digonol, i ddangos pa mor bell yr oedd hynodion pob gwlad yn dylanwadu ar y cyfnewidiadau a'r digwyddiadau yr ymgymmerai efe â'u disgrifio. Yr oedd rhywbeth yn ammhennodol, pa fodd bynag, yn nisgrifiadau Herodotus; a hyny o ddiffyg cyfleusderau i gyfeirio at safleoedd y manau fel y penderfynir hwynt gan sylwadau astronomyddol.

Gyda chynnorthwy y fath sylwadau seryddol ag a wnaed gan ei ragflaenwyr, neu ganddo ef ei hun, ffurfiodd Erastosthenes y gyfundrefn gyntaf o ddaearyddiaeth oedd yn sylfaenedig i ryw raddau ar seiliau cywir. Penderfynodd safle ddaearyddol nifer mawr o leoedd—llawer o ba rai nid oeddynt bron yn wybyddus i Ewropiaid. Ond yr oedd hyn yn cael ei wneuthur yn fynych heb wybodaeth sicr a phennodol; ac o blegid hyny yr oedd yn rhwym o fod yn seiliedig ar dybiaethau, i raddau pell. Etto yr oedd ei fap ef yn rhoddi darlun gwell o'r byd nag yr oedd neb o'r athronwyr wedi ei ffurfio o'i flaen ef, gan ei fod yn ffrwyth ymchwiliad gofalus.

Tra yr oedd ei ddilynwyr yn araf wellhau ar ei waith ef, yr oedd yr haneswyr, gan ddilyn y cynllun a dynwyd allan gan Herodotus, yn cyfoethogi daearyddiaeth â disgrifiadau o'r gwledydd hyny nad oeddynt yn adnabyddus yn nyddiau Halicarnassus; neu o leiaf, nad oedd yr adnabyddiaeth o honynt gan y Groegwyr ond yn ammherffaith iawn. Teilynga Polybius i gael ei grybwyll yn arbenig yn mysg yr haneswyr hyn. Y mae ei ddisgrifiadau daearyddol ef o'r gwledydd oedd ar du gorllewinol Môr y Canoldir yn llawn cystal, os nad ydynt yn rhagori, ar y disgrifiadau a roddwyd gan Herodotus o'r gwledydd rhwng Môr Caspia a Morgaingc Persia a'r Mor Coch.

Tua'r pryd hwnw, neu yn fuan wedi hyny, ymddengys fod amryw bersonau wedi bod yn teithio mewn gwledydd pellenig, gyda'r amcan o'u harchwilio er cael allan eu nodweddion anianyddol, ac er gwybod a oeddynt yn meddu gwybodaeth gywir am danynt.

Yr enwocaf o'r anturiaethwyr hyn oedd Posidonius. Fel Alexander von Humboldt, ef a aeth i'r wlad bellaf yn y byd oedd yn adnabyddus ar y pryd; sef, Iberia—yr hon oedd mor hynod gynt am ei mwngloddiau o'r metteloedd gwerthfawr ag a fu Mexico a Deheubarth America erioed.

Yr oedd y wybodaeth ddaearyddol a gasglwyd gan y teithwyr enwog hyn, ac craill llai enwog, wedi ei gwasgaru mewn nifer mawr o ysgrif-lyfrau, ac yr oedd amgylchiadau yr amseroedd hyny yn peri fod yn anhawdd cael gafael arnynt. Ymgymmerodd Strabo, brodor o Asia Leiaf, a ysgrifenai yn amser Augustus neu Tiberius, â chorphori mewn un gwaith y defnyddiau gwasanaethgar

Digitized by Google

hyny—at yr hyn y chwanegai y wybodaeth a gasglwyd ganddo ef ei hun pan ar ei deithiau. Ei amcan, yn ol y dystiolaeth a roddodd, oedd cyfansoddi gwaith a fuasai o ddefnydd i rai oedd yn llywodraethu y gwahanol wledydd. Gan hyny, gadawai heibio y pethau nad oeddynt yn meddu ond pwysigrwydd amserol, a rhoddai ddisgrifiad o bob gwlad yn ol ei nodweddion anianyddol parhaol. Hysbysa ei ddarllenydd mewn ychydig eiriau am eangder a maintioli pob gwlad a ddarlunia, a'i phrif raniadau gwleidyddol a hanesyddol. Yna, y mae yn myned yn mlaen i roddi darluniad manylach o'r rhaniadau hyny, gan ddilyn llwybr tebycach i'r hwn a ddilynir gan deithwyr diweddar na daearyddwyr yn gyffredin. Ystyria llawer fod y cynllun a fabwysiadodd efe i ysgrifenu ar ddaearyddiaeth yr un mwyaf priodol; a dilynir ef gan rai o'r prif ddaearyddwyr.

Tra yr oedd daearyddiaeth Strabo yn cael ei ddefnyddio yn helaeth trwy y byd Rhufeinaidd, yr oedd ysgol seryddol Alexandria yn parhau i gasglu defnyddiau, i'r dyben o gwblhau a pherffeithio y gyfundrefn ddaearyddol a ffurfiwyd gan Erastosthenes. Galluogwyd Ptolemy, drwy y casgliadau hyn, i ffurfio ei ddaearyddiaeth; yr hwn nid oedd yn amgen yn mron na rhestr o enwau lleoedd wedi eu trefnu yn ol eu safle ddaearyddol, sicr neu dybiedig. Yr oedd yr eiddo ef yn ddiammheuol yn waith defnyddiol iawn yn ei amser; ond y mae ei werth i ni yn gynnwysedig yn benaf mewn dangos pa mor bell yr oedd y Groegiaid wedi meddu gwybodaeth am arwyneb y ddaear. O amser Ptolemy hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg, ni chwanegwyd nemawr ddim at yr hyn a adawodd efe ar ei ol.

Wedi dymchweliad yr Ymherodraeth Rufeinig, ac i Ewrop Orllewinol gael ei meddiannu gan y cenhedloedd barbaraidd nad oeddynt o'r bron yn gyfarwydd âg elfenau cyntaf bywyd gwareiddiedig, rhoddwyd terfyn dioedi ar bob ymchwiliad gwyddonol. Yna, aeth rhai canrifoedd heibio cyn i'r cenhedloedd hyn wneyd y fath gynnydd mewn gwareiddiad fel ag i'w galluogi i droi eu sylw at wyddoniaeth. Cyfranogodd daearyddiaeth o'r un dynged a'r gwyddorau eraill; ond hi a ymadfywiodd braidd yn gynt na'r lleill. Yr amgylchiad a arweiniodd yn benaf i hyny oedd teithiau y Venetiad enwog, Marco Polo. Gwrthodid yr hanesion a adroddai gan ei gydwladwyr fel ffug-chwedlau disail; neu o leiaf, tybid ei fod yn arfer gormodiaeth. Ond yr oedd rhyw ysgolheigion Almaenaidd yn Nürnberg yn cymmeryd golwg wahanol i'r cyffredin ar hyn. Gan fod Nürnberg, y pryd hwnw, yn un o'r manau lle yr oedd masnach yn fwyaf blodeuog ynddo ar y Cyfandir, yr oedd cyssylltiad agos rhyngddi a'r tai masnachol penaf yn Venice; a chafodd y gwŷr dysgedig hyny gopi o deithiau Marco Polo.

Am wledydd eraill y byd, hwy a gymmerasant Ptolemy fel eu hawdurdod, ac a ddygasant i mewn i'w mapiau a'u cronenau (*globes*) y prif ffeithiau daearyddol a gynnwysid yn nheithiau Polo, fel chwanegiad at y wybodaeth a drosglwyddwyd iddynt gan seryddwyr Alexandria. Ond nid oedd Marco Polo wedi gwneuthur unrhyw sylwadau astronomyddol; ac nid oedd efe hyd yn oed wedi crybwyll pa beth oedd hyd y dydd hwyaf mewn unrhyw le yr ymwelodd âg ef. Yr oedd y daearyddwyr Almaenaidd, gan hyny, dan angenrheidrwydd i benderfynu eangder y gwledydd yn ol yr amcangyfrifon sicr a wnaeth efe o'i deithiau dyddiol; ond mwyhawyd hyd y teithiau hyny yn ddirfawr ganddynt, gan nad oeddynt yn gyfarwydd â nodweddion neillduol Asia Ddwyreiniol. Y canlyniad o hyn oedd, fod Asia, ar eu mapiau a'u cronenau hwy, yn ymestyn dros yr holl Gefnfor Tawelog; ac yr oedd glenydd dwyreiniol y cyfandir hwnw wedi eu gosod yn agos iawn i'r man lle y mae yr Antilles yn sefyll. Dilynwyd y camgymmeriad hwn o eiddo ysgol ddaearyddol Nürnberg â chanlyniadau pwysig. Dyma a barodd i Columbus dybied mai y ffordd fyraf iddo ef i ranau dwyreiniol Asia oedd hwylio ei lestr tua'r gorllewin:—a thrwy hyn y darfu iddo ddarganfod America. Ond darfu i'r un ysgol o ddaearyddwyr, ag yr oedd eu camsyniadau wedi ei arwain i anturio y fath fordaith, ei ysbeilio mewn rhan o'r anrhydedd dyledus iddo am y fath ddarganfyddiad mawr.

Y mae y Barwn Von Humboldt wedi profi mai i'r dull araf ac anniogel o ymgyfathrachu oedd yn bodoli rhwng Yspaen a'r Almaen y mae yn rhaid priodoli y ffaith fod y newyddion am ddarganfyddiad y byd newydd gan Columbus ac Americo Vespucci wedi cyrhaedd daearyddwyr yr Almaen ar yr un pryd. O herwydd hyn, tybiodd yr Almaeniaid mai Americo oedd gwir ddarganfyddwr y cyfandir newydd; ac oddi wrth hyny y cafodd y rhan hwnw o'r byd ei alw yn AMERICA—enw sydd erbyn hyn wedi ei fabwysiadu yn gyffredinol.

Defnyddiwyd yr hanner cyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg yn hollol i ddarganfod gororau eang yr America, a'r gwledydd a'r ynysoedd a orweddent yno, ac yn Nghefnfor yr India; ac yr oedd daearyddwyr mewn llawn gwaith yn dwyn y darganfyddiadau newyddion a wnaed i mewn i'w mapiau, yn ol fel yr oedd safleoedd gwahanol fanau yn cael eu penderfynu. Y mae hyn i'w ganfod yn amlwg yn y gweithiau daearyddol a ysgrifenwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg:—ac y maent yn debycach i ddaearyddiaeth Plotemy nag i'r eiddo Strabo.

Yn y cyfamser, yr oedd y gwyddorau eraill yn ymadfywio—a chyda hwynt yr efrydiaeth o hynafiaethau; yr hyn a barodd i ddaearyddiaeth gael ei hefrydu yn yr eilfed ganrif ar bymtheg o gyfeiriad newydd. Ymwelodd llawer o ddynion cyfarwydd mewn hanesiaeth hynafol â Groeg, a gwledydd Asia Orllewinol, gyda'r amcan o archwilio y rhanau eang hyny o'r byd y cymmerodd digwyddiadau mawr a dyddorol yr amseroedd a aethant heibio le ynddynt. Yr oedd y cyfryw deithwyr hanesyddol yn dra lliosog yn yr hanner olaf o'r eilfed ganrif ar bymtheg, a'r hanner cyntaf o'r ddeunawfed; ac er eu bod ar y cyntaf yn cyfyngu eu hymchwiliadau yn benaf at y lleoedd oedd yn enwog mewn hanesyddiaeth, talasant sylw ar ol hyny i nodwedd anianyddol y gwledydd yr oedd y cyfryw leoedd ynddynt, gan roddi disgrifiadau rhagorol o honynt—fel y ceir yn nheithiau Chardin, Shaw, Pococke, Chandler, a Carsten Niebühr. Bu y teithwyr hyn yn foddion i chwanegu llawer at drysorau daearyddiaeth fel gwyddor. Dygasant hanesyddiaeth a daearyddiaeth hefyd i gyssylltiad agos â'u gilydd. Cyn hyny, nid oedd gweithiau daearyddol yn cynnwys o'r bron ddim amgen na rhestr sych o enwau lleoedd, afonydd, a rhaniadau gwladol. Ond wrth ddarlunio adfeilion y lleoedd oedd yn enwog mewn hen hanesiaeth, yr oedd daearyddwyr yn rhwym o fyned yn ol at yr awduron hynafol hyny a fuont yn ymdrin â'r cyfryw leoedd; ac felly, trosglwyddwyd rhan o leiaf o wybodaeth ddaearyddol Herodotus, Polybius, a Strabo i'n llyfrau ni ar ddaearyddiaeth.

Digitized by Google

Cumberland, bernir fod yr hen Dderwyddon yn eu harfer Y mae yn gwbl sicr, fodd bynag, eu bod yn adnabyddus yn Lloegr yn amser y Saxoniaid. Bernir mai gyda'r Normaniaid y daeth y ffon-fwyell (*pole-axe*) i'r deyrnas hon. Bu yr arf-fwyell o gryn wasanaeth i'r milwyr Cymreig yn mrwydr Agincourt, yn 1415, i orphen lladd y rhai a glwyfwyd â'r saethau. Aeth yr arf hwn allan o arferiad erbyn diwedd yr unfed canrif ar bymtheg.

BWYSTFIL—OD, [*bwyst—mil*]: milyn. Yn y testyn Seisoneg, y mae y gair *beast* yn fwy eang ei ystyr na "bwystfil" yn y Cymraeg. Y cyfleithiad Cymraeg cyffredin yn cyfateb i *beast* ydyw "anifail;" *Salm* xxxvi. 6; *Lef.* xi. 2, 7. Ar ol y crybwyllion byrion am greadigaeth yr anifeiliaid yn Genesis, y mae yr hanes ysgrythyrol am danynt yn cael ei gyfyngu i'r creaduriaid oeddynt yn adnabyddus yn yr Aipht, Arabia, Palestina, Syria, a'r gwledydd a orweddent yn y dwyrain iddynt. Dywed Kitto [*Cycl. Bib.*, dg. Beast], fod dosbarthiad yr Ysgrythyr o lysieuaeth a mildraeth yn tebygu i athroniaeth y cenedloedd boreuaf, yn yr hon y rhenid gwrthddrychau naturiol i drioedd. Trinir llysieuaeth dan y rhaniadau o laswellt, llysiau, a phrenau. Y mae yr un modd gyda'r pysg. Ac yn mysg yr anifeiliaid yr ydys yn cael tri dosbarth:—1. Yr anifeiliaid, בהמה, *behemah*, yn cynnwys y rhai sydd yn ymborthi ar laswellt—yr *herbivora*, yn ddeadellog a theuluol. 2. Anifeiliaid gwylltion, חיה, *chayah* —y *carnivora*, y rhai cig-ysglyfaethus, a elwir genym bwystfilod. 3. Ymlusgiaid, רמש, *remes*, pedwarcarnolion bychain, a'r rhai a ymlusgant â llawer o draed, neu a lithrant ar hyd y ddaiar; megys nadroedd, llithrwyogion (*annelides*). Y mae dosbarthiad Moses, fel y gellir ei gasglu o Deuteronomium, yn gyfyngedig i anifeiliaid yn meddu asgwrn cefn ac asenau, y *vertebrata*:—1. Anifeiliaid; 2. Adar; 3. Ymlusgiaid; 4. Pysgod. Y mae y gair "bwystfilod," fel yr arferir ef yn y testyn Cymraeg, yn dynodi—1af. Anifeiliaid gwylltion, ysglyfaethus, annhringar: *Gen.* ii. 20. Yma y mae "bwystfilod y maes" yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth yr anifeiliaid. Dynoda y rhai cyntaf greaduriaid gwylltion, ysglyfaethus; a'r diweddaf, rai doflon a thringar. 2il. Yn allegawl, am ddynion erlidus, gwaedlyd: *Salm* lxxx. 13; *Dan.* vii. 3, 17, 21.

BWYTA, [*bwyd*]; ymborthi, llewa, ysu, dyfetha: *Gen.* xxvii. 4; *Preg.* v. 11. Yr hen Hebreaid ni fwytaent gyda phawb yn ddiwahaniaeth; am yr ystyrient y buasai bwyta â phobl o grefydd arall yn eu halogi. Ni fwytaent, mor fore ag amser Ioseph, gyda'r Aiphtiaid, na'r Aiphtiaid gyda hwythau: *Gen.* xliii. 32. Nac yn amser ein Iachawdwr gyda'r Samariaid: *Ioan* iv. 9. Tramgwyddent wrth yr Iesu am ei fod yn bwyta gyda'r publicanod a'r pechaduriaid: *Mat.* ix. 11. Gan fod amryw fathau o fwydydd yn waharddedig iddynt, nis gallasent yn hawdd gydfwyta â'r rhai a gyfranogent o honynt, rhag iddynt gael eu halogi trwy gyffyrddiad â'r cyfryw fwydydd. Am yr agweddiad wrth fwyta, gwel Bwyd.

"Y rhai sydd yn bwyta fy mhobl fel y bwytaent fara;" *Salm* xiv. 4. "Y rhai hyny," medd Awstin, "sydd yn bwyta y bobl, sydd yn tynu manteision oddi wrthynt, ac nid ydynt yn defnyddio eu cyfleusderau er gogoniant Duw, ac iachawdwriaeth y rhai sydd dan eu gofal." Y mae yr ymadrodd, "fel bara," yn dynodi dideimladrwydd y bwytäwr: nid yw yr hwn sydd yn bwyta bara yn meddwl ei fod yn gwneyd dim niwed a chamwri trwy hyny.

"Bwyta y maent bechod fy mhobl" (*Hos.* iv. 8); yn hytrach, "bechaberth" (חטאת) fy mhobl. Yn hytrach na diwygio moesau y bobl, ni wna yr offeiriaid ond gwledda ar eu hebyrth.

"Oni fwytewch gnawd mab y dyn," &c.; *Ioan* vi. 53, 56. Y mae Alford yn casglu y gwahanol olygiadau ar y geiriau dyfnion hyn, dan dri phen: —1. Y rhai'a farnant nad oes ynddynt un cyfeiriad at y cymun sanctaidd. Yn mysg y rhai, y mae o'r henafiaid, Origen a Basil; o'r diwygwyr, Zuinglius i raddau, a Calvin, Luther, a Melancthon. 2. Y rhai sydd yn dadleu fod yr holl adran yn cyfeirio yn unig a hollol at y sacrament. Yn mysg y rhai y mae Chrysostom, Cyril, Theophylact, Euthymius, yr ysgolwyr a'r esbonwyr Pabaidd, oddi gerth ychydig eithradau. 3. Y rhai a farnant mai at destyn a drychfeddwl y sacrament y mae y cyfeiriad, ac nid at yr ordinhâd ei hun. I'r dosbarth yma y perthyn Sucke, Tholuck, Olshausen, Stier, &c. Y mae nodiadau Bengel yn dyfod i'r un peth.

Y mae yr Arglwydd Iesu, nid yn unig yn dyweyd wrth yr Iuddewon y rhaid iddynt, mewn trefn i gael bywyd, fwyta ei gnawd, ond hefyd yfed ei waed; yr hyn a ymddangosai iddynt yn fwy dyeithr a rhyfedd, am y gosodai arnynt ymarferiad oedd yn waharddedig er amser Noah i lawr. Ond sylwa Alford, nad yw y ffugr yn debyg i hyny. Y gwaharddiad oedd bwyta cig yn nghyd â'r gwaed (*Gen.* ix. 4; *Lef.* xvii. 10—16): ond yma y mae y gwaed i'w yfed ar wahan oddi wrth y cnawd; yr hyn, felly, sydd yn rhagdybied marwolaeth y person. Arwydda ei gnawd ei gorff adgyfodedig, a'i waed y bywyd a roddes drosom: ac wrth fwyta y cnawd, y meddylir, "sylweddoli yn ein bywyd tufewnol ddirgelwch ei gorff yn awr yn y nef; yfed ei waed ydyw sylweddoli yn ein bywyd mewnol, ddirgelwch ei iawn am bechod:—gwneyd yn eiddo i ni ein hunain, a defnyddio yn ysbrydol y ddau wirionedd am Grist wedi marw, a Christ wedi adgyfodi. Ac o'r sylweddiad a'r cyfranogiad hwn trwy ffydd, y mae wedi rhoddi arwyddion i ni yn y sacrament, a gorchymyn i ni eu derbyn; er mwyn arddangos i ni y cyfranogiad ysbrydol, a'n cynnorthwyo i'w ymarfer. "Daeth Mab y dyn yn bwyta ac yn yfed" (*Mat.* xi. 18); gan gyfeirio at ei ddull cyffredin o fyw: nid fel Ioan Fedyddiwr; yr hwn, yn wahanol i bobl ereill, a drigai mewn anialwch, ac a ymborthai ar locustiaid a mel gwyllt; ond arferion cyffredin oedd arferion Iesu Grist; nid oedd ryw hynodion ynddo fel ei ragflaenor, ond yr oedd yn bwyta, yn yfed, ac yn gwisgo, fel dynion ereill. Efallai y cyfeirir yma at arferiad Iesu Grist o fynychu gwleddoedd; megys y briodas yn Cana Galilea, a'r wledd yn nhŷ Lefi.

BYD: mewn iaith gyffredin, yn fynych, mae yn gyfystyr â "y ddaiar." Wrth lefaru am "y ddaiar," golygir yn hytrach y rhan alianol a defnyddiol; ond wrth "y byd," golygir y rhan foesol. Yn yr ystyr hwn, "y byd" ydyw "y ddaiar" gyda golwg ar ei *thrigolion*. Dywedir "llywodraeth foesol y byd," ac nid y ddaiar. Nid yn unig, defnyddir "y byd" yn hytrach na'r "ddaiar" wrth lefaru am ei thrigolion, ond hefyd am y trigolion fel creaduriaid rhesymol, mewn gwrthgyferbyniad i greaduriaid yn meddu cyrff. Dywedir, "y gwahanol rywiau o greaduriaid sydd

Digitized by Google

yn poblogi y *ddaiar*," ond "*y byd* gwareiddiedig." Gelwir America, "Y *Byd* Newydd," o'i hystyrried fel lle i'w breswylio. Wrth siarad am ddynion mewn cymdeithas, "byd" a ddefnyddir, megys y byd deallawl, y byd politicaidd, y byd duwinyddol, *the gay world*, &c. Cyfyngir y gair "daiar" i'n planed ein hunain; ond siaradwn am "fydoedd" ereill. Tybir fod y planedau yn "fydoedd." Gall y ffurfafen serenog fod yn llawn o gyfundraethau o *fydoedd*. Er mwyn gosod allan yr OLL o bethau crëedig, defnyddir y gair *bydysawd* (*universe*). Cyn cael allan nad oedd y ddaiar ond un o luaws o blanedau, a phan y tybiwyd ei bod hi y rhan bwysicaf o'r greadigaeth, ac nad oedd goleuadau y nefoedd ond er mwyn ei gwasanaethu hi, yr oedd y gair "byd" yn arwyddo yr holl gread, ond yn benaf y ddaiar. Ond er pan y mae dynion wedi dyfod i ystyried y planedau a'r ser yn fydoedd, y mae *universe* yn Seisoneg, a *bydysawd* yn Gymraeg wedi dyfod yn raddol i ymarferiad.

Y mae tri gair yn y Testament Groeg yn cael eu cyfleithu "byd:"—

1. *Oicoumene* (οἰκουμένη, *sc.* γῆ)=y ddaiar wedi ei phreswylio: wedi ei phreswylio gan y Groegiaid; gan y Rhufeiniaid: *Act.* xvii. 6; xxiv. 5. Palestina, a'r gwledydd cyfagos: *Luc* ii. 1; *Act.* xi. 28. Y ddaiar, y byd adnabyddus y pryd hwnw: *Mat.* xxiv. 14; *Rhuf.* x. 18; *Heb.* i. 6; *Dad.* xvi. 14. Trigolion y byd: *Act.* xvii. 31; xix. 27. "Y byd a ddaw;" *Heb.* ii. 5. "Y nefoedd newydd a'r ddaiar;" *Esa.* lxvi. 22.

2. *Aiôn* (αἰών); Llad., *seculum*; Seis., *age*; oes. Yr oedd yr ymadroddion canlynol yn gyffredin yn mhlith yr Iuddewon:—"Y byd sydd yr awr hon;" *Tit.* ii. 12. "Y byd presennol;" 2 *Tim.* iv. 10. "Helynt (*h. y.*, arferion, ysbryd) y byd hwn;" *Eph.* ii. 2. "Y byd.....presennol;" *Gal.* i. 4. "Y byd a ddaw;" *Marc* x. 30. "Y byd hwn," a'r "byd hwnw;" *Luc* xx. 34, 35. "Yr oesoedd a ddeuai;" *Eph.* ii. 7. Deallent wrth ymadroddion o'r fath, yr amseroedd cyn ac ar ol dyfodiad y Messiah. Yr oruchwyliaeth Iuddewig: 1 *Cor.* x. 11; "terfynau yr oesoedd:" a'r oruchwyliaeth Gristionogol—teyrnas y Messiah: *Eph.* ii. 7; *Heb.* vi. 5. Defnyddir y gair hwn, *aiôn*, (2il.) am y byd presennol a'i ofalon, ei demtasiynau, a'i flysiau; gyda'r dybiaeth o ddrwg moesol a naturiol yn bresennol: *Mat.* xiii. 22; *Luc* xvi. 8; xx. 34; *Rhuf.* xii. 2; 1 *Cor.* i. 20; ii. 6; am hyny, gelwir ef y "byd drwg;" *Gal.* i. 4. Gelwir Satan "yn dduw y byd hwn;" 2 *Cor.* iv. 4. (3.) Y byd ei hun fel peth wedi ei greu, ac yn hanfodi: *Heb.* i. 2; xi. 3; *Mat.* xiii. 40; xxiv. 3; 1 *Tim.* i. 17.

3. *Cosmos* (κοσμος), a arwydda y byd ar gyfrif ei *drefn* a'i brydferthwch, yr un ystyr a'r Lladin, *mundus*; arwydda, y byd, y bydysawd—y nefoedd a'r ddaiar: *Mat.* xiii. 35; xxiv. 21; *Luc* xi. 50; *Ioan* v. 24; *Act.* xvii. 24; *Rhuf.* i. 20; *Heb.* iv. 3. Trigolion y byd: 1 *Cor.* iv. 9. Casgliad o unrhyw beth: "byd o anghyflawnder;" *Iago* iii. 6. Y ddaiar fel trigle dyn: *Marc* xvi. 15; *Ioan* xvi. 21, 28; xxi. 25; 1 *Tim.* iii. 16. "Dyfod i'r byd"—cael ei eni: *Ioan* i. 9: neu ymddangos ger bron dynion: *Ioan* iii. 19; vi. 14; 1 *Tim.* i. 15, &c. &c. Trigolion y byd—dynolryw; "goleuni y byd;" "felly y carodd Duw y byd;" y byd paganaidd; *Rhuf.* xi. 12. Yn ol syniadau yr Iuddewon, *y byd presennol, trefn bresennol pethau*, yn wrthgyferbyniol i deyrnas Crist, ac yn cyfleu y drychfeddwl o freuolder, drwg moesol a naturiol, eisteddle gofalon a themtasiynau: *Ioan* xii. 25; xviii. 36; 1 *Cor.* v. 10; *Eph.* ii. 2; 1 *Ioan* iv. 17. Cyfoeth a mwynhad y byd: *Mat.* xvi. 26; *Marc* viii. 36; *Luc* ix. 25; *Gal.* iv. 14; 1 *Ioan* ii. 17, &c. Dynion y byd hwn, yn wrthgyferbyniol i'r rhai sydd yn ceisio teyrnas Dduw: *Ioan* xii. 13; 1 *Cor.* i. 20; *Gal.* iv. 3; 1 *Cor.* i. 21; 2 *Cor.* vii. 10; *Phil.* ii. 15; *Iago* i. 27.

"Y prif wahaniaeth rhwng *aiôn* a *cosmos* ydyw, fod y blaenaf yn llywodraethu ac yn ffurfio yr olaf. *Cosmos* ydyw rhywbeth allanol; *aiôn*, rhywbeth mwy tu mewnol a dirgelaidd. *Cosmos*, y byd o ran lle; *aiôn*, yr oes bresennol, ei duedd, ei helynt, a'i ysbryd: *Eph.* ii. 2; vi. 12." —*Bengel.*

Ystyr cyntaf y gair "byd" yn yr Ysgrythyrau ydyw, gan hyny, y ddaiar, a'r oll a gynnwysa, fel trefn reolaidd a phrydferth o bethau. Yn yr ystyr hwn y dywedir fod Crist wedi gwneuthur y byd, a'i fod yn y byd a greodd. Defnyddir ef hoïyd fel enw cyffredin am drigolion rhesymol y ddaiar. Pan ddaeth Crist, y Gair, i'r *byd*, "y byd," *h. y.*, dynolryw, nid adnabu ef. Y mae y ddau ystyr yn yr adnod, "Ni anfonodd Duw ei Fab i'r byd i ddamnio y byd, ond fel yr achubid y byd trwyddo ef;" *Ioan* iii. 17; a i. 10. Gan fod *holl* ddynolryw, wrth natur, yn euog ac yn llygredig, a chan fod y rhan fwyaf o ddynolryw yn mhob oes yn y cyflwr hwn yn wirioneddol a gweithredol, defnyddir y gair "byd" yn fynych i ddynodi y rhan hono o'r hil ddynol sydd yn y cyflwr hwn, mewn gwrthgyferbyniad i'r rhai hyny a ddewisodd Crist allan o'r byd—a ddygwyd i gyflwr newydd—a wnaethpwyd yn greaduriaid newydd, ac a osodwyd megys mewn byd newydd. Felly enw ar ddynolryw yn eu cyflwr cwympedig, heb eu cyfnewid gan Ysbryd Duw, yn fynych ydyw y gair "byd." Y mae nodwedd cyffredinol yn perthyn i ddyn fel y cyfryw; mae "dull y byd hwn"—rhyw *fold*, yn unol â pha un y mae dynion, wedi eu geni yn unig yn ol y cnawd—wedi ei ffurfio. Y mae "helynt y byd hwn"—y ffordd lydan sydd yn arwain i ddistryw, ar hyd pa un y mae pawb sydd heb fyned trwy y porth cyfyng yn rhodio. Mae pawb sydd heb eu cyfnewid yn ysbryd eu meddwl yn "cydymffurfio â'r byd hwn." Effaith naturiol dylanwad y pethau "a welir ac sydd dros amser" ar ddeall a theimlad dyn ydyw y nodweddiad cyffredinol hwn. Y mae y dylanwad hwn yn fwy dinystriol trwy weithgarwch "tywysog," "duw y byd hwn," "yr ysbryd sydd yn gweithio yn mhlant anufudd-dod." Gwrthwynebiad i Dduw ydyw prif elfen y nodweddiad hwn. Mae bod "yn y byd," yn yr ystyr hwn, a bod "heb Dduw," wedi eu cyssylltu â'u gilydd (*αθεοι, εν τῷ κοσμῳ*=heb Dduw yn y byd). "Nid adnabu y byd Dduw," ac nid yw "yn gymmeradwy ganddo gadw Duw yn ei wybodaeth." "Nid yw y dyn anianol," anifeilaidd, bydol, "yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw." "Mae y byd yn caru yr eiddo," ac nis gall cariad Duw a chariad y byd lywodraethu yr un galon ar unwaith. "Mae syniad y cnawd," *h. y.*, tueddfryd bydol, "yn elyniaeth yn erbyn Duw," &c. Yn ei gyssylltiad â dynion y mae yr ysbryd bydol yn cymmeryd gwahanol ffurfiau, balchder, uchelgais, cybydd-dod, cariad at felus-chwant, neu yr holl bethau hyn yn un—ceisio ei foddhâd mewn pethau gweledig, heb olwg ar hapusrwydd ereill os bydd hyny ar ffordd ei ddedwyddwch ei hun. Maent "â'u serch arnynt eu hunain;" ac am eu bod felly y maent yn "ddigasog ac yn casau eu gilydd." 1 *Ioan* v. 19; *Eph.* ii. 2, 12; *Ioan* xvii. 25; *Rhuf.* i. 28; 1 *Cor.* ii. 14; *Ioan* xv. 19; *Rhuf.* viii. 7; 2 *Tim.* iii. 2; *Tit.* iii. 3.

Digitized by Google

BYDOEDD, LLUOSOGRWYDD. Mae yn anhawdd cael cwestiwn o ddyddordeb mwy cyffredinol yn holl gylch gwybodaeth na hwn:—A oes chwaneg na'n byd ni yn cael ei bobloi? O'r amseroedd boreuaf, cyn cael allan faintioli ac ysgogiadau y planedau, a chyn y gellid profi fod pellderau y ser oddi wrth ein byd ni yn annirnadwy, dysgrifia beirdd ac athronwyr y bydoedd wybrenol fel trigle bodau gwynfydedig; ond ni allesid cael dim mewn ffurf o resymau dros y grediniaeth hon cyn i lun a maintioli ac ysgogiadau y ddaiar gael eu darganfod, ac i ansoddau y planedau ereill gael eu profi i fod rywbeth yn gyffelyb. Er y ceir fod y farn hon yn cael ei dal gan seryddwyr ac ysgrifenwyr ereill mewn cyfeiriadau achlysurol, eto y traethawd cyntaf a ysgrifenwyd yn broffesedig ar y testyn oedd gan M. Fontenelle, ysgrifenydd Athrofa y Celfyddydau yn Paris. Cyhoeddwyd y traethawd hwn yn 1686, dan yr enw *Ymddyddanion ar Luosogrwydd Bydoedd.* Yr oedd hyn y flwyddyn cyn i Syr Isaac Newton gyhoeddi y *Principia*—y gwaith sydd yn cynnwys ei ddarganfyddiadau anfarwol o barth i gyfundrefn y bydoedd. Amcanai Fontenelle brofi fod trigolion yn y lleuad a'r planedau, a bod y ser sefydlog yn heuliau, a phob un yn goleuo rhyw fyd. Parodd cywreinrwydd ac arabedd yr ymddyddanion hyn iddynt gael eu cyfieithu i holl ieithoedd y cyfandir, a'u darllen yn gyffredinol, a'u derbyn mor gyffredinol, os gellir barnu oddi wrth absennoldeb pob gwrthwynebiad iddynt. Yn mhên ychydig flyneddoedd ar ol cyhoeddiad yr ymddyddanion hyn, ymddangosodd gwaith arall yn amddiffyn yr un syniadau gan yr athronydd Cristionogol enwog, Huygens. Mabwysiadwyd yr un golygiadau gan yr holl brif seryddwyr ac ysgrifenwyr er pan ddarganfyddwyd llun ac ysgogiadau y ddaiar; sef Kepler, Tycho, Syr Isaac Newton, a Dr. Bentley, yn ei bregeth yn erbyn atheistiaeth oddi wrth gyfansoddiad a tharddiad y byd; hefyd yn ddiweddarach, ac hyd yr amser presennol, gan Laplace, Syr William a Syr John Herschel, Dr. Chalmers, Isaac Taylor, ac M. Arago. Yn ddiweddar ymddangosodd gwaith dienw ar luosogrwydd bydoedd [*Of the Plurality of Worlds*] gyda'r amcan o brofi mai ein daiar ni ydyw yr unig fyd yn y bydysawd sydd yn gartrefle trigolion. Achosodd y traethawd hwn, trwy ei hyawdledd a'i gywreinrwydd, lawer o ysgrifenu mewn adolygiadau, a chan mwyaf yn wrthwynebol iddo. Cyhoeddwyd hefyd un traethawd yn ei erbyn gan un o athronwyr Cristionogol penaf yr oes, Syr David Brewster [*More Worlds than One; the Creed of the Philosopher, and the Hope of the Christian*]. Oddi wrth gyfansoddiad a chyfundrefn y planedau a'u lleuadau y mae Dr. Lardner, athronydd tra adnabyddus arall, wedi ysgrifenu pennod faith a manwl i brofi eu bod yn drigle bywyd llysieuol, anifeilaidd, a rhesymol [*The Museum of Science and Art;* cyf. i.].

Ond cyn gosod ger bron rai o'r rhesymau hyn, gellir ymofyn a oes rhyw awgrymiadau ysgrythyrol i'n cyfarwyddo ar y mater dan sylw; ac os oes, pa rai ydynt? Yn gyntaf oll, gellir sylwi nad yw y dybiaeth fod trigolion mewn bydoedd ereill yn anghysson â dim sydd yn y Beibl. Yr oedd rhai o wirioneddau seryddiaeth, megys ysgoriad y ddaiar o gwmpas yr haul; ac y mae rhai o athrawiaethau creigyddiaeth, megys henafiaeth y ddaiar—mewn gwrthwynebiad ymddangosiadol i ychydig o ymadroddion yn y Beibl: ond nid oes anghyssondeb ymddangosiadol rhwng y dybiaeth fod bydoedd ereill wedi eu poblogi âg un ymadrodd ysgrythyrol. Ond i'r gwrthwyneb, ymddengys amryw yn ffafriol i hyn, os nad mewn geiriau pendant yn ei gynnwys. Onid yw y dybiaeth hon yn llawer mwy cysson â geiriau Dafydd,—"Pan edrychwyf ar y nefoedd, gwaith dy fysedd; y lloer a'r ser, y rhai a ordeiniaist; pa beth yw dyn, i ti yw gofio? a mab dyn, i ti ymweled âg ef;" *Salm* viii. 3, 4. Os oedd y Salmydd yn eu golygu yn fydoedd gweigion o fywyd, wedi eu creu yn unig i oleuo i ddyn, onid mwy naturiol fuasai gweled hyny yn brawf o fawredd dyn, yn hytrach na'i fychandra, gan mai efe oedd yr unig greadur a allasai syllu arnynt, ac mai er ei fwyn ef y crewyd hwynt? Ond os golygai hwynt yn drigfan creaduriaid rhesymol, yn meddu galluoedd, ac yn gallu mwynhau dedwyddwch ysbrydol, yna nid rhyfedd ei fod yn synu fod yr Arglwydd yn gofalu am greadur sydd mewn cymhariaeth mor ddistadl a dyn. Mae yn amlwg oddi wrth y gair *nefoedd* yn yr adnod uchod, ac mewn lluaws o fanau ereill, mai creadigaeth weledig a feddylir, ac nid rhyw le anweledig, yn gymhwys yn unig i fodau ysbrydol. Mae y rhai canlynol yn anghreifftiau chwanegol:—"Myfi a wnaethym y ddaiar, ac a greais ddyn arni: myfi, ïe, fy nwylaw i a estynasant y nefoedd, ac a orchymynais *eu holl luoedd;*" *Esa.* xlv. 12. "Yr hwn yn unig sydd yn taenu y nefoedd...yn gwneuthur Arcturus, Orion, a Phleiades, ac ystafelloedd y deheu;" *Iob* ix. 8, 9. "Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, ereawdydd y nefoedd, y Duw ei hun a luniodd y ddaiar, ac a'i gwnaeth; efe a'i sicrhaodd hi, ni chreodd hi *yn ofer, i'w phreswylio* y lluniodd hi;" *Esa.* xlv. 18. Gellid casglu, gan mai nid yn ofer y crewyd y planedau, a'r ser, eu bod wedi eu creu *i'w preswylio.* Mae yn y Testament Newydd hefyd nid yn unig ymadroddion sydd yn gysson â hyn, ond y cyfryw ag y mae y syniad hwn yn chwanegu at eu pwysigrwydd.

Ond edrychwn yn nesaf, pa beth sydd gan y rhai sydd fwyaf cydnabyddus â'r ser a'r planedau i ddyweyd wrthym o barth i'w preswyliad neu eu cymhwysder i dderbyn trigolion.

Nis gall y *telescope* mwyaf roddi un cymhorth i ni i benderfynu y cwestiwn hwn. Pe byddai genym chwyddwydr o allu i fwyhau gwrthddrychau fil o weithiau, pa wasanaeth a allem gael oddi wrth y fath offeryn? gosodai ni megys fil o weithiau nes at y gwrthddrych a ddymunem syllu arno, ac fe'n galluogai i'w weled megys y gwnaem o'r pellder hwnw heb wydr. Hyn ydyw yr unig wasanaeth a dderbyniem oddi wrtho. Pe defnyddid ef i syllu ar y lleuad, yr agosaf o'r cyrff wybrenol, yr hon sydd 240,000 o filltiroedd oddi wrthym, galluogid ni i'w gweled megys y gwnaem o bellder 240 o filltiroedd â'r llygad noeth. Ni byddai hyn o un gwasanaeth i ni i gael golwg ar ddyn, nac ar ddim a allai dyn nac un creadur tebyg iddo ei wneyd. Pe syllem ar Mawrth, un o'r planedau, trwyddo, yr un peth fyddai a phed edrychem arni â'r llygad noeth o bellder o 50,000 o filltiroedd. Mae y planedau ereill yn mhellach na hyn, ond y mae y ser o bellder annirnadwy fwy na'r blaned bellaf. Gwelir gan hyny nad yw y *telescope* o un gwasanaeth yn yr ymchwiliad presennol.

Ond er fod prawf *uniongyrchol* yn anghyrhaeddadwy, eto y mae y ffeithiau sydd yn awr yn wybyddus am gyflead, ysgogiadau, ansoddau anianyddol, a gwasanaethgarwch y gwahanol fydoedd neu belenau sydd yn gwneyd i fyny y gyfundrefn heulog, yn ffurfio corff o brofion anunion-

Digitized by Google

gyrchol neu amgylchiadol, sydd yn fwy grymus ac argyhoeddiadol, medd Dr. Lardner, na'r profion ar ba rai yr ydym yn fynych yn amddifadu ein cyd-ddynion o'u meddiannau a'u bywydau, ac yn peryglu ein bywydau ein hunain.

Er mwyn rhoddi mantais i'r darllenydd i ffurfio barn drosto ei hun, rhoddir yma rai o'r prif ffeithiau ar sail pa rai y credir fod y planedau yn drigleoedd bywyd. Wrth ystyried y ddaiar fel cartrefle i ddyn a'r creaduriaid sydd wedi eu darostwng iddo, canfyddir ei bod wedi ei chyfaddasu yn mhob dim i'w hangenion a'u cysur. Y mae maintioli, llun, a phwysedd y ddaiar, hyd y flwyddyn, hyd y dydd a'r nos, cyfeiriad echel y ddaiar, y gwres a'r goleuni, yr awyr a'r dyfroedd, llysiau ac anifeiliaid, wedi eu cyfaddasu yn y modd cywreiniaf i gyfansoddiad corfforol dyn, fel nas gall neb deimlo petrusder na wnaed y cyfan er mwyn bod yn gartref cysurus iddo. Nid yw y cyfaddasiadau hyn yn effaith gweithrediad unrhyw ddeddfau sydd mewn bod; ond trefniadau pendant a doeth ydynt i ddyben penodol. Os ydyw y planedau, gan hyny, sydd, fel ein daiar ni, yn amgylchynu yr haul mewn ysbeidiau penodedig o amser, yn meddu ar yr un cyflensderau, wedi eu gwneuthur, eu goleuo, a'u cynhesu yn gyffelyb, yn cael dydd a nos, olyniad tymmorau, amrywiaeth hinsoddau, trwy yr unrhyw ddyfeisiau ag a ddefnyddir i'w cyflawnu ar y ddaiar, onid yw y casgliad yn naturiol, os nad yn anocheladwy, eu bod wedi eu cyfaddasu yn drigleoedd creaduriaid cyffelyb i ni ein hunain? Mae y tebygolrwydd cryf hwn yn cael ei droi bron yn sicrwydd wrth ystyried fod rhesymau anwrthwynebol dros gredu fod y cyfan yn waith yr un Llaw greadigol. Y cyfryw ydyw yr ymresymiad a godir ar ffeithiau seryddol o blaid y cwestiwn dyddorol dan sylw.

Y GYFUNDREFN HEULOG.

Teimlir grym yr ymresymiad hwn yn well yn ngwyneb dysgriflad byr o'r gyfundrefn y mae yr HAUL yn ganolbwynt iddi. Efe ydyw ffynnonell goleuni a gwres, ei ddylanwad ef sydd yn llywodraethu ysgogiadau y bydoedd sydd yn troelli o'i amgylch, ac yn rhoddi ei lesni tyner i'r ffurfafen uwch ben, a'i lesni dyfnach i'r meusydd, ac yn prydferthu y blodau yn holl liwiau yr enfys. Mae y byd mawr hwn—efallai o awyr neu nwy (*gas*) llosgedig, yn amgylchu corff sylweddol tywyll—yn 880,000 o filltiroedd ar ei draws, yn fwy na chant o weithiau yn fwy nag arwyneb y ddaiar, ac yn cynnwys mwy o ddefnydd o bum cant o weithiau na'r holl blanedau yn un. Y mae yn troi ar ei echel unwaith mewn pum niwrnod ar ugain, ac yn taflu ymaith ei oleuni gyda'r cyflymdra o 192,000 o filltiroedd mewn eiliad o amser. Canfyddir ysmotiau mawr duon ar ei wyneb, weithiau â'r llygad noeth; y rhai ydynt yn amlwg yn agoriadau yn yr awyrgylch goleu, trwy ba rai yr ydym yn gweled gwir gorff yr haul.

O amgylch, ac yn nesaf at yr haul, y mae y blaned MERCHER (*Mercury*) yn troi, yn y pellder o 36,000,000 o filltiroedd. Hyd ei dydd ydyw pedair awr ar hugain, a'i blwyddyn yn wyth a phedwar ugain o ddyddiau.

Yn nesaf at Mercher y mae y blaned GWENER (*Venus*), gyda diwrnod yn agos i bedair awr ar ugain, a blwyddyn o ddau cant a phump ar ugain o ddyddiau. Ei thrawsfesur ydyw 7,700 o filltiroedd, yr hyn sydd ychydig yn llai na thrawsfesur y ddaiar. Y mae y blaned hon yn newid ei gwyneb fel y lleuad; arno y mae ysmotiau i'w canfod, a dywed rhai seryddwyr fod iddi awyrgylch a mynyddoedd. Y mae ei goleuni a'i gwres yn gymmaint arall ag ydyw eiddo y ddaiar.

Y corff nesaf yn nghyfundrefn yr haul ydyw y DDAIAR. Ei phellder oddi wrth yr haul ydyw 96,000,000 o filltiroedd, ei thrawsfesur yn 7,926 o filltiroedd. Hyd ei blwyddyn yw 365 o ddyddiau a chwe awr, a'i diwrnod yn bedair awr ar ugain. Ei llun ydyw cylch wedi ei wastatäu wrth y pegynau, yn debyg i *orange*. Y gwahaniaeth rhwng y trawsfesur mwyaf a lleiaf ydyw 26½ o filltiroedd. Mae ei harwyneb wedi ei ddosbarthu i dir a môr—y tir yn cynnwys y *drydedd* ran o'r holl arwyneb, a'r môr *ddwy ran o dair* Mae y tir weithiau yn ymgodi i fynyddoedd, o ba rai nid yw yr uchaf yn uwch na phum milltir. Amgylchynir hi âg awyrgylch o bum milltir a deugain o uchder, er nad yw y cymylau yn ymgyrhaedd yn llawer uwch na'r mynyddoedd uchaf. O ddeutu y ddaiar y mae y LLEUAD yn troi yn y pellder o 237,000 o filltiroedd; ei thrawsfesur ydyw 2,160 o filltiroedd; ysbaid ei chylchdro o gwmpas y ddaiar ydyw wyth niwrnod ar ugain. Y mae ei harwyneb yn amrywiedig gan ddyffrynoedd a mynyddoedd o ddwy filltir o uchder; sylwir hefyd fod agoriadau ceuol o bum milltir o ddyfnder, a deugain ar draws, yn nghorff y lleuad, y rhai a gredir ydynt olion mynyddoedd llosgadwy wedi diffodd. Ni chanfyddir ynddi ddim tebyg i lynoedd na moroedd. Wrth edrych ar y ddaiar fel y drydedd blaned oddi wrth yr haul, yn troi yn ei chylch o'i ddeutu fel y lleill, y mae yn anhawdd peidio meddwl nad yw yn gorff cyffelyb i'r lleill.

Yn nesaf at y ddaiar, yn mhellach na hi, y mae MAWRTH (*Mars*), o liw coch, yn meddu diwrnod o ddeutu pum awr ar ugain, ac yn troi o ddeutu yr haul mewn 687 o ddyddiau, yn y pellder o 142,000,000 o filltiroedd. Ei thrawsfesur ydyw 4,100 o filltiroedd, ac ar ei hwyneb y mae ysmotiau o wahanol liwiau:—y môr, yn ol Syr John Herschell yn *wyrdd*, a'r tir yn *goch*. Nid yw yr ysmotiau hyn i'w canfod bob amser mor eglur a'u gilydd: y mae yr amrywiaeth ynddynt, medd Syr John Herschell, yn debyg fel pe achlysurid hwynt gan awyrgylch a chymylau. A'r hyn sydd yn chwanegu at y tebygolrwydd o hyn ydyw, ymddangosiad o ysmotiau gwynion wrth ei begynau, pa rai sydd wedi cael eu dychymygu eu bod yn eira, o herwydd eu bod yn cilio wedi bod yn hir yn ngwyneb yr haul, ac y maent fwyaf pan yn ymddangos fel yn ymgodi o noswaith hir gauaf y blaned.

Yn nesaf y mae IAU (*Jupiter*)—byd o faintioli 1,320 o weithiau fwy na'r ddaiar, yn troi ar ei echel mewn deng awr, ac o gwmpas yr haul mewn 4,333 o ddyddiau (ychydig llai na deuddeng mlynedd), a'i bellder ydyw 485,000,000 o filltiroedd. Ei drawsfesur ydyw, 90,000 o filltiroedd, ac amgylchynir ef â phedair o leuadau, y rhai ydynt bob un ychydig yn fwy na'n lleuad ni. Y mae ar ei wyneb ysmotiau dysglaer, a rhwymau neu wregysau tywyll yn amrywio mewn lled ac hefyd mewn cyfeiriad. Mae Syr John Herschell o'r farn fod y rhai hyn yn wregysau o ffurfafen glir yn awyrgylch y blaned, sydd yn dangos ei gorff tywyllach ef ei hun; a'u bod yn cael eu hachlysuro yn gyffelyb i'r *trade winds*, ond yn unig eu bod yn fwy sefydlog a phendant, o herwydd fod cyflymdra y blaned yn ei chylchdro dyddiol yn llawer mwy nag eiddo y ddaiar.

Yn nesaf at Iau y mae SADWRN (*Saturn*), planed yn meddu ar lawer o hynodrwydd, gan fod iddi

Digitized by Google

wyth o leuadau a *chylch*. Pellder Sadwrn oddi wrth yr haul ydyw 890,000,000 o filltiroedd—ei chylch blyneddol yn cyfateb i naw ar ugain a hanner o'n blyneddoedd ni: hyd ei diwrnod ydyw deng awr a hanner, a'i thrawsfesur yn 79,000 o filltiroedd.

Heibio i Sadwrn, ac 1,800,000,000 o filltiroedd oddi wrth yr haul, y mae y blaned URANUS, a ddarganfyddwyd gan Syr W. Herschell. Hyd ei blwyddyn ydyw pedwar a phedwar ugain o'n blyneddoedd ni, a naw awr a hanner ydyw hyd ei diwrnod. Mae ei thrawsfesur yn 34,500 o filltiroedd, ac y mae iddi *wyth* o leuadau.

Y blaned bellaf, yn perthyn i gyfundrefn yr haul, sydd yn adnabyddus, ydyw NEIFION (*Neptune*). Ei phellder oddi wrth yr haul ydyw 3,000,000,000 o filltiroedd, a chyflawna ei chylch blyneddol mewn oddeutu 165 o flyneddoedd. Mae iddi un, ac nid yw yn annhebyg fod iddi ddwy, leuad; ac y mae lle i gasglu fod iddi gylch fel Sadwrn.

Wrth deithio oddi wrth yr haul—y goleuad mawr, yr hwn a osodwyd i oleuo y dydd—yr ydym yn cael yn gyntaf, Mercher a Gwener, gyda thymmorau a dyddiau cyffelyb i eiddo y ddaiar. Wedi cyrhaedd ein planed ein hunain, yr ydym yn cyfarfod yr un ymddangosiadau cyffredinol, ond ei bod o faint mwy, ac yn meddu lleuad, a thrigolion i ymhyfrydu yn y rhagorfraint. O'i chymharu â Mawrth, hefyd, y mae ein daiar ni yn cadw ei rhagoriaeth mewn maintioli a manteision lleuadau. Wrth fyned rhagom, yr ydym yn cyfarfod â'r hyn sydd â thuedd i ddarostwng ein balchder ac i ddeffro ein hofn, sef deg ar ugain o orser (*asteroids*)—gweddillion yr hyn fu unwaith yn blaned ardderchog. Yn mhellach yn yr eangder yr ydym yn cyfarfod âg Iau, wedi ei orseddu yn nghanol ei bedair lloer. Wrth gymharu y ddaiar â'r fath greadigaeth ogoneddus a hon, y mae hi yn colli ei huchafiaeth ar y troellenau planedawl. Ac mae yr ystyriaeth yn ddigon i godi gwrid yn ein gwynebau wrth gofio fod ymherawdwyr, pabau, ac athronwyr, wedi gwneyd y ddaiar yn ganolbwynt o gwmpas pa un y troellai yn eu cylchoedd yr haul, y lleuad, y planedau, a'r ser. Yn mhellach, yr ydym yn cyfarfod â rhyfeddod newydd yn Sadwrn, gyda darpariaeth gyfoethog yn ei chylchoedd a'i lleuadau ar gyfer cyfleusderau creaduriaid byw. Mae i Uranus wyth o wystlau cyffelyb: ac erbyn myned heibio i Uranus, sydd hefyd yn meddu darpariaeth ar gyfer tywyllwch ei nosweithiau, yr ydym yn cyrhaedd terfynau ein cyfundrefn—goror, yr hwn y gellir ei ystyried fel cartref y cometau.

Yn wyneb y ffeithiau blaenorol, os edrychwn ar *sefyllfa* y ddaiar yn y gyfundrefn heulog, gwelir nad hi yw y blaned *ganol*, nac ychwaith y blaned *agosaf* at yr haul, na'r *bellaf* oddi wrtho: gyda golwg ar *oleuni* a *gwres*, nid hi ydyw y gynhesaf na'r oeraf, nac ychwaith y *ganol* o ran tymmerusrwydd. O ran nifer y lleuadau—yr unig ddybenion i ba rai sydd yn hysbys i ni yw rhoddi goleuni i'r blaned, ac achosi llanw a thrai—gan y ddaiar y mae y nifer leiaf: mae i'r holl blanedau y tu allan iddi fwy o nifer. Nid oes un neilluolrwydd yn perthyn i'r ddaiar o ran maintioli, llun, hyd ei blwyddyn a'i diwrnod, na ffurf ei chylchdro. O ganlyniad, gellir casglu nad oes un rhagoriaeth yn perthyn i'r ddaiar fel planed ar y planedau ereill i'n harwain i gredu mai ein byd ni yn unig sydd wedi cael ei ddyrchafu mor fawr gan y Creawdwr ag i fod yn unig gartref creaduriaid cymhwys i'w adnabod ac i addoli.

CYFADDASRWYDD Y PLANEDAU I DRIGOLION.

Ond y mae ystyriaeth fwy manwl o'r trefniadau trwy ba rai y mae cysuron creaduriaid wedi eu sicrhau ar y ddaiar, ar unwaith yn brawf o ddoethineb y Creawdwr, a hefyd yn cadarnhau y casgliad a dynir oddi wrth y ffeithiau blaenorol. Y mae graddau goleuni a gwres, yn nghyd â'r rheoleidd-dra gyda pha un y gweinyddir hwynt, yn hanfodol gyssylltiedig â nerth ac iechyd anifeiliaid a llysiau ar y ddaiar. Pe yr amrywid y rhai hyn, neu un o honynt, dros ryw derfynau penodol, byddai hyny yn anghysson â phob math o fywyd. Oerfel gormodol, neu wres gormodol, fyddai yn angeu i bob creadur. Ond y mae y graddau cymhwys i berffeithrwydd nerth ac iechyd o fewn terfynau llai eto. Y mae yn naturiol gofyn, Trwy ba ddyfais y mae y graddau cymhwys o'r elfenau angenrheidiol hyn yn cael eu gweinyddu i angenion y ddaiar? Pe byddem yn nghymmydogaeth tân a wasanaethai i roddi yr hyn fyddai yn angenrheidiol i'n cysur o oleuni a gwres, ac eto fod amgylchiadau yn ein gorfodi i symmud ein safle yn ein perthynas âg ef, pa fodd y symmudem fel ag i dderbyn yn barhaus y graddau angenrheidiol o'r ddau? A fyddai un llwybr arall yn bosibl heb law mewn cylch o gwmpas y tân, fel canolbwynt, gan ymgadw yr un pellder oddi wrtho? Mewn cylch cyffelyb y mae y ddaiar yn symmud, a'r un modd y planedau ereill, gan gadw yr un pellder oddi wrth ffynnonell gyffredin goleuni a gwres. A chan fod yr ysgogiad hwn yn y ddaiar yn gwasanaethu amcan pwysig, y casgliad ydyw, fod yr un ddyfais yn y planedau ereill yn ateb cyffelyb ddybenion.

Yn mhellach, wrth ystyried nerth anifeiliaid, a'u gallu i ymsymmud, canfyddwn fod terfynau penodedig iddo. Ar ol iddynt arfer eu nerth am ysbaid byr, y mae gorphwysdra yn angenrheidiol. Y mae gweithgarwch a gorphwysdra, deffroad a chwsg, yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd. Mae yr ysbaid angenrheidiol i'r naill a'r llall yn mhlith gwahanol greaduriaid ar y cyfan yn cyfateb i olyniad goleuni a thywyllwch. Yr un modd y mae llysiau yn myned trwy ryw gyfnewidiadau sydd yn ymddibynu ar bresennoldeb ac absennoldeb goleuni yr haul; ac y mae y cyfnewidiadau hyn yn anhebgorol i'w llawn dyfiant.

Mae ysbaid penodol parhad goleuni a thywyllwch yn angenrheidiol, yn gystal a'u cyfnewidiadau rheolaidd. Rhaid i'r goleuni fod yn bresennol am amser penodol, a'r un modd y tywyllwch, onid e fe wywa y llysieuyn. Mae yn amlwg gan hyny fod cyssylltiad hanfodol rhwng gweithrediadau ac ansoddau llysiau, ac hefyd rhwng gweithgarwch, iechyd, a mwynhad anifeiliaid, â'r ysbaid sydd yn gwahaniaethu goleuni oddi wrth dywyllwch. Ond pa beth ydyw y ddyfais a ddefnyddiodd yr Hwn a wahanodd y goleuni oddi wrth y tywyllwch, ac *"a welodd mai da ydoedd"* i sicrhau yr amcan. Nis gall fod dim yn fwy syml—dim yn fwy prydferth a pherffaith. Tra y mae pelen y ddaiar yn troi yn ei chylch blyneddol o gwmpas yr haul, y mae yn troi gyda hyny ar ei hechel ei hun unwaith bob pedair awr ar ugain, gan osod pob rhan o'i harwyneb ar gyfer goleuni a gwres yr haul. Mae un hanner o'r ddaiar yn mwynhau y goleuni, tra y mae yr hanner arall yn y tywyllwch, yn cael mantais gorphwysdra a chwsg. A chan fod y ddaiar yn troi ar ei hechel mewn pedair awr ar ugain, y mae pob man yn cael goleuni a

Digitized by Google

thywyllwch am ddeuddeg awr gyda'u gilydd. Fel eglurhad cyffredin o hyn, gellir cyfeirio at gig yn troi o flaen y tân i'w rostio.

Yn awr, pan sylwir ar y cyfatebolrwydd sydd rhwng yr ysbeidiau hyn o barhad ac olyniad goleuni a thywyllwch, ac angenion anhebgorol pob math o greaduriaid llysieuol ac anifeilaidd, a oes lle i betruso am fynyd fod y ddaiar wedi cael ei gwneyd i droi ar ei hechel yn yr amser crybwylledig, yn hytrach nag un arall, am fod hyny yn fwy cyfatebol i lesâd y creaduriaid er mwyn pa rai y gwnaed y ddaiar? Pe buasai ysbaid troad y ddaiar ar ei hechel yn llawer llai, ni buasai llafur a gweithgarwch wedi ein haddfedu i gwsg erbyn y daethai y tywyllwch: a phe buasai yn llawer hwy, daliesid ni gan gwsg cyn i'w dymmor priodol ddyfod. Ac er mor gywrain ydyw y cyfaddasiad hwn, nid oes un cyssylltiad, fel achos ac effaith, rhwng cyfansoddiad dyn a throad y ddaiar ar ei hechel:—mae yn rhaid gan hyny ei fod yn drefniad bwriadol. Mae hyn eto yn brawf arall o gyfatebolrwydd rhwng y ddaiar fel preswylfa, a dyn fel preswylydd, a'u bod wedi eu trefnu y naill i'r llall.

Nid oes un ddeddf anianyddol mewn bod i attal ysgogiad y ddaiar ar ei hechel i fod yn fwy chwyrn neu yn fwy araf: gallasai roi ond un tro mewn blwyddyn yn lle mewn pedair awr ar ugain, ac yna buasai y dydd a'r nos yn chwe mis bob un; neu hi allasai chwyrndroelli ar ei hechel mewn awr, ac felly gwneuthur olyniad goleuni a thywyllwch i gymmeryd lle bob hanner awr. Er nad oes dim galluoedd na deddfau yn y greadigaeth yn anghysson â'r tybiau hyn, eto ni allasai bywyd anifeilaidd na llysieuol hanfodi fel yn awr dan y fath ammodau. Nis gallwn lai gan hyny nag edrych ar yr ysbaid yn mha un y mae y ddaiar yn cyflwyno cylch cyfan ei harwyneb i'r haul yn drefniad doeth a da o eiddo yr Hwn a roes y ddaiar i droelli yn yr eangder, er mwyn sicrhau cysuron ei greaduriaid. Gan fod y ddyfais o wneyd i'r ddaiar droi ar ei hechel mewn pedair awr ar ugain yn gynnyrchiol o gynnifer o effeithiau daionus, ac y byddai i ryw gyfnewidiad gynnyrchu annhrefn cyffredinol, y mae yn gwestiwn o ddyddordeb mawr, A ydyw y ddyfais hon i'w chanfod yn y planedau ereill? ac os ydyw i ba raddau y mae ei chymhwysiad yn gyffelyb i'r hyn sydd yn cymmeryd lle ar y ddaiar? Mewn atebiad i hyn, yr ydym yn cael fod y planedau yn troi yn eu cylchoedd o gwmpas yr haul, ac ar yr un pryd eu bod yn troi ar eu hechelau, a hyny yn y fath fodd ag i sicrhau iddynt olyniad rheolaidd o ddydd a nos. Ond pa beth ydyw hyd eu dydd a'u nos? O herwydd y mae hyn yn bwysig yn ei gyssylltiad â chymhwysder y planedau i fod yn drigfa bywyd y fath ag sydd yn adnabyddus i ni. Wrth sylwi yn fanwl trwy y *telescope* ar y planedau, gwelir ar eu gwynebau ysmotiau goleu a thywyll—rhai yn gyfnewidiol, ac ereill yn barhaus, fel yn y lleuad: os syllir am rai oriau arnynt, canfyddir eu bod yn ysgogi yn raddol o'r naill ochr i'r llall. Diflanant un ochr, a daw rhai ereill i'r amlwg yr ochr arall; ac ar ol oddeutu deuddeg awr, y mae y marciau sydd yn diflanu un ochr yn ymddangos yr ochr arall, ac felly yn dilyn eu gilydd yn rheolaidd. Mae yn amlwg mai effaith cylchdro y blaned ar ei hechel ydyw hyn: a chan fod yr un ymddangosiadau o oleuni a chysgod yn dyfod y naill ar ol y llall i'r un pwynt ar ol 24*h.* 37*m.* 22 *eil.* yn Mawrth; 23*h.* 21*m.* 21*eil.* yn Gwener; ac yn mhen 24*h.* 5*m.* yn Mercury: mae yn rhaid fod y planedau hyn yn troi ar eu hechelau yn yr ysbeidiau hyn.

Felly, fe ymddengys, nid yn unig fod gan y tair planed hyn ddydd a nos, ond hefyd eu bod o ran hyd yr un i bob dyben ymarferol ag a fwynheir gan y ddaiar. Os ydyw hyd y dydd a'r nos wedi ei drefnu er llesâd y creaduriaid sydd ar y ddaiar, onid ellir ymresymu ar sail cyfatebiad fod yr un dyfeisiau yn y planedau ereill wedi eu cyfeirio at yr un amcanion, a bod y creaduriaid sydd arnynt hwy wedi eu cyfansoddi yn y fath fodd ag i ofyn am yr un ysbaid o weithgarwch a gorphwysdra, deffroad a chwsg, ag sydd yn angenrheidiol ar y ddaiar?

Mae tymmorau y ddaiar yn ymddibynu ar *gyfeiriad penodol* ei hechel. Ymddibyna dydd a nos, fel y dywedwyd, ar y ffaith ei bod yn troi ar ei hechel; ond y tymmorau a ddibynant ar yr osgo neu y cyfeiriad sydd i'w hechel. Nid yw ei hechel yn unionsyth i fyny ac i lawr (*vertical*), na chwaith yn rhedeg yn gydwastad â'r llawr o ochr i ochr (*horizontally*=llorlinol). Pe buasai yn unionsyth, yr un hyd fuasai y dydd a'r nos trwy y flwyddyn, ac yn mhob rhan o'r ddaiar. Pe buasai yn rhedeg gyda'r llorlin, sef yn gydwastad â'r llawr, buasai yr haul yn y golwg yn barhaus am amryw wythnosau yn yr haf, ac yn anweledig am amryw wythnosau yn y gauaf; ac ni byddai dim olyniad dyddiol o oleuni a thywyllwch, ond ychydig yn y gwanwyn a'r cynauaf (yr Albanau). Mae yn hawdd gweled mor niweidiol, os nad hollol ddinystriol, i'r manteision sydd yn tarddu o'r trefniad presennol, fuasai gosod yr echel yn y naill neu'r llall o'r ddau gyfeiriad uchod. Ond rhwng y ddau uchod yr oedd llawer o gyfeiriadau ereill yn bosibl—a phob un o honynt bron mor niweidiol i'n cysuron presennol. Pa beth ydyw cyfeiriad echel y ddaiar gan hyny? Ychydig ar osgo oddi wrth y llinell unionsyth (23° 28′): a thrwy rinwedd yr osgo hwn y mae hanner gogleddol y ddaiar yn gogwyddo tua'r haul am chwe mis, a'r hanner deheuol yn gogwyddo am chwe mis arall. I'r ddyfais hon yr ydym yn ddyledus am olyniad hyfryd y tymmorau. Mae yr osgo neu y gogwydd hwn sydd yn ei hechel y fath ag sydd yn cadw eithafion oerfel a gwres o fewn terfynau cymmedrol.

Mae echel Mawrth yn gogwyddo rhywbeth yn gyffelyb (28° 27′) i echel y ddaiar i wastadlawr ei chylchdaith, ac o ganlyniad y mae ei hinsoddau a'i thymmorau yn lled debyg i eiddo y ddaiar. Nid ydys wedi penderfynu eto pa beth ydyw gogwyddiad echelau Gwener a Mercury: ond nid yw yn debygol eu bod yn wahanol iawn i echel y ddaiar.

Yn yr erthygl Awyr, yr ydys wedi nodi llawer o'r manteision mae y ddaiar a'i thrigolion yn eu mwynhau trwy wasanaethgarwch yr hylif awyrawl sydd yn ei hamgylchu. Hebddo, nid allai anifeiliaid anadlu; ac amddifadid llysiau o un ran bwysig o'u hymborth. Hebddo, er meddu peiriannau llafar a chlyw yn gyflawn, byddem yn fud a byddar. Yr awyr sydd yn gwasgaru ac yn lliniaru goleuni a gwres. Hebddo, byddai pob man heb fod yn wyneb yr haul yn ddu-nos, a goleuni gorddysglaer yn tywynu ar bob man arall. Ni byddai dim cysgod na graddau goleuni. Yr ystafell, heb fod â ffenestr yn wynebu yr haul —byddai mor dywyll ganol dydd a chanol nos. Ni byddai dim cymylau â'u cawodydd maethlawn i adlewyrchu y goleuni. Yn lle glesni y ffurfafen, yr hyn nid yw amgen na lliw naturiol yr awyr wedi ei adlewyrchu i'r llygad, tywyllwch

Digitized by Google

dudew fyddai, a'r ser yn gwreichioni yma ac acw ynddo. Yn lle yr awelon hyfryd sydd yn cymmedroli tymmerusrwydd y ddaiar, byddai holl ddyfroedd y moroedd i gyd wedi rhewi. Nid yw gwres uniongyrchol yr haul yn ddigon i attal dyfroedd rhag rhewi, os bydd yr awyr yn rhy deneu; fel y mae yn mhenau y mynyddoedd uchaf, y rhai sydd wedi eu gwisgo âg eira oesol. Hyd yn oed rhwng y trofanau, lle mae y gwres mwyaf, y mae dyfroedd yn rhewi pan uwch law pedair mil ar ddeg o droedfeddi o uchder: byddai yr uchder hwn yn llawer llai pe na byddai awyr o gwbl.

Gan fod yr awyr yn cyflawnu y dybenion hyn, yn mhlith lluaws o rai ereill, mae yn rhaid i'r ateb i'r cwestiwn, A ydyw y planedau yn cynnwys creaduriaid cyffelyb i'r rhai sydd ar y ddaiar? ymddibynu, i fesur mawr, ar yr ymofyniad nesaf; sef, A oes ganddynt bob un ei awyrgylch? I hyn y mae y *telescope* wedi rhoddi ateb boddhaol. Y mae awyrgylch y planedau mor amlwg i'r golwg ag ydyw y cymylau yn ein hawyrgylch ein hunain. Amgylchynir Gwener a Mercury âg awyrgylchoedd tewion; yn y blaenaf, yn enwedig, y mae gwyll y bore a'r hwyr i'w canfod yn amlwg. Mae awyrgylch Mawrth hefyd yn amlwg: gwelir y cymylau yn nofio ynddo.

Mân ronynau o ddwfr ydyw y cymylau, yn cael effeithio arnynt mewn gwahanol ffyrdd gan wefryddiaeth. Felly, lle bynag y canfyddir cymylau, mae yno *ddwfr*, a dwfr yn esgyn i'r awyr yn darth; mae yno *wefryddiaeth* a'i ganlyniadau lluosog; mae yno *wlaw* yn disgyn; ac *eira* a *chenllusg* hefyd. Ond y mae yr elfenau hyn oll yn gyssylltiedig â thymmorau a hinsoddau ffrwythlawn, tir a môr, dyffryn a bryn, a phob cyfleusdra i greaduriaid cyffelyb i ni ein hunain gael cyflawnu eu hangenion corfforol, a sicrhau manteision cymdeithasol.

Y mae y cyfaddasiad rhwng *maintioli* a *dwysder* (*density*) planed, a maintioli a nerth y creaduriaid sydd yn preswylio arni, yn ystyriaeth bwysig a dyddorol wrth ymofyn i gymhwysder y planedau i gynnal y trigolion. Mae i bob creadur, anifeilaidd a llysieuol, gyfartaledd penodedig o nerth corfforol. Rhaid i'r nerth hwn fod yn ddigonol i gynnal eu pwysau eu hunain, i gyflawnu eu gorchwylion angenrheidiol, ac i wrthsefyll gweithrediad cyffredin yr elfenau; megys chwythiad y gwynt, disgyniad y gwlaw, &c. Rhaid i bob creadur feddu ar nerth cyfartal i'w bwysau. Ond ar beth y mae pwysau corff yn dibynu? Ar ddau beth:—yn gyntaf, ar faintioli a dwysder y blaned y mae y corff arni; neu mewn geiriau ereill, ar bwysau y blaned; neu mewn geiriau ereill eto, ar ei hattyniad; o herwydd y mae y pethau hyn yn dibynu y naill ar y llall, ac yn gyfartal y naill i'r llall: ac yn ail, ar agosrwydd y corff at ganolbwynt y blaned, neu y byd y mae arno. Pe gwesgid defnyddiau y ddaiar at eu gilydd, nes iddi fod hanner ei maintioli presennol, byddai pwysau pethau ar ei gwyneb yn fwy, o herwydd y byddai ei hattyniad hi arnynt yn gryfach. Yr ochr arall, pe chwyddid y ddaiar i faintioli cymmaint arall a'i maintioli presennol, byddai pwysau pethau ar ei gwyneb yn llai am yr un rheswm. Gwelir gan hyny fod y cyfaddasiad a ganfyddir yn gyffredin rhwng nerth a phwysau anifeiliaid a llysiau yn tarddu o'r cyfaddasiad sydd rhwng pwysau y ddaiar a nerth y creaduriaid sydd arni. Mae maintioli a dwysder defnyddiau y gwahanol blanedau wedi eu cael allan gyda'r manylwch mwyaf. Ar Gwener, y mae pwysau cyrff agos yn gyffelyb i'r hyn ydynt ar y ddaiar. Ar Mercher a Mawrth o ddeutu yr hanner ydynt o ran pwysau i'r hyn fyddent pe gosodid hwynt ar y ddaiar. Y casgliad ydyw—fod yn rhaid i greaduriaid ar Gwener feddu o ddeutu yr un nerth corfforol ag ar y ddaiar, ond y byddai hanner y nerth hwnw yn ddigon ar Mercher a Mawrth. "Mae y cyfatebiadau lluosog sydd rhwng y tair planed hyn a'r ddaiar yn rhoddi tebygrwydd mawr, os nad hollol sicrwydd, o'r natur sydd yn gyrhaeddadwy ar y fath bwnc, i'r dybiaeth fod y Creawdwr Hollalluog wedi eu preswylio â thrigolion, sydd yn dra thebyg, os nad yn hollol yr un fath a thrigolion y ddaiar."—*Dr. Lardner.*

Ond ymddengys ar yr olwg gyntaf y gall attyniad planed mor fawr a Iau fod yn anghysson â'r dybiaeth fod bywyd llysieuol ac anifeilaidd yno. Gellid meddwl, pe trosglwyddid corff dyn, neu lysiau cyffredin, i'r blaned hono, y byddai eu pwysau dirfawr eu hunain yn ddinystr iddynt. Ond erbyn cyfrif yn gywir pa beth ydyw nerth attyniad ar ei gwyneb, neu pa beth fyddai pwysau corff dyn yno, symmudir ymaith rym yr wrthddadl hon. Mae Iau yn 1,300 o weithiau yn fwy na'r ddaiar: a phe byddai defnyddiau y ddwy blaned o'r un natur, pwysai dyn, na fyddai ond 150 o bwysau ar y ddaiar, dri chant ar ddeg o weithiau 150 ar Iau, neu 195,000 o bwysau—a golygu ei fod yr un pellder oddi wrth ganolbwynt Iau ag ydyw pan ar wyneb y ddaiar oddi wrth ei chanolbwynt hithau. Ond gan fod arwyneb Iau yn mhellach o un ar ddeg o weithiau oddi wrth ei chanolbwynt, lleiheir pwysau ar ei harwyneb hi yn y cyfartaledd o 121 (11×11 yn ol deddf attyniad) i 1. O ganlyniad, os rhenir 195,000 âg 121, cawn 1,611 fel pwysau dyn ar Iau sydd yn 150 ar y ddaiar; hyny yw, y mae yn ddeg o weithiau trymach nag ar y ddaiar. Ond y mae defnyddiau Iau yn ysgafnach na defnyddiau y ddaiar yn y cyfartaledd o 24 i 100: felly, wrth leihau 1,611 yn y cyfartaledd hwn (*h. y.*, ei ranu â 4·17) ni gawn nad yw dyn sydd yn pwyso 150 o bwysau ar y ddaiar yn pwyso ond 393 o bwysau ar Iau; hyny yw, y mae ddwy waith a hanner (2½) trymach yno nag ar y ddaiar. Ond y mae y gwahaniaeth hwn i'w ganfod yn ddigon mynych ar ein planed ni ein hunain. Gallai dyn fel y mae ar y ddaiar fyw heb anghyfleusdra ar Iau; yr un modd gallai planigion, coed, ac adeiladau, sefyll yno mor ddiogel ag yma, o ran dim anghyfleusdra a darddai oddi wrth eu pwysau neu attyniad y blaned.

Gellid dangos yr un modd am y planedau ereill, fod yr oll a berthyn iddynt yn gysson â'r dybiaeth eu bod yn drigleoedd creaduriaid byw. 'Mae Dr. Lardner, yr hwn sydd wedi astudio y cyfatebiadau hyn yn fanylach nag un seryddwr neu athronydd arall, yn dybenu ei draethawd trwy ddyweyd, "fod y tebygrwydd neu y cyfatebiad sydd rhwng y ddaiar a'r planedau ereill mor fawr, fel, o'u cymmeryd oll gyda'u gilydd, y maent yn ffurfio prawf sicr (*demonstration*) fod y planedau ereill yn gwasanaethu yr un dyben yn y greadigaeth a'r ddaiar, a'u bod yn drigleoedd creaduriaid sydd yn meddu gradd cyfatebol o debygrwydd i'r creaduriaid sydd yn preswylio y ddaiar. Ni byddai raid i'r gwahaniaeth yn nghyfansoddiad a nodweddiad cyffredinol y gwahanol blanedau amrywio yn fwy i'w cymhwyso i'r gwahanol fydoedd hyn, nag y mae llysiau ac anifeiliaid gwahanol barthau o'r ddaiar yn amrywio oddi wrth eu gilydd."

Wrth sylwi ar hyn, dywed y proffeswr Owen

Digitized by Google

—y naturiaethwr enwocaf sydd yn fyw yn bresennol—"nad yw yn bosibl i'r naturiaethwr a'r difynwr, wrth ystyried y ffeithiau y mae y seryddwr yn eu gosod ger bron o barth i'r planedau a'r lleuadau sydd wedi eu trefnu i'n goleuo yn y nos, lai na dyfalu pa beth *all*, a pha beth *raid fod* peirianwaith y synwyrau sydd yn gyfaddas i dderbyn a defnyddio y goleuni hwnw, os cyflawnir yr unig amcan a *ellir ei ddychymygu* sydd i'r fath ddarpariaeth i gyfranu goleuni. Gan fod deddfau y goleuni fel deddfau attyniad—yr un ar lau ag ydynt ar y ddaiar—rhaid fod llygaid y creaduriaid a allant fod yn ei fwynhau, wedi eu cyfansoddi ar yr un egwyddorion a llygaid creaduriaid ar y ddaiar."—[*On the Nature of Limbs.*] Dywed yr un darganfyddwr enwog. "fod yn rhydd i'n meddyliau ymgodi mor uchel ag y gall *cyfatebiaeth gyfreithiawn* ein harwain yn ein hymchwiliadau i fôr diderfyn gwirionedd anadnabyddus." Drachefn—"gan fod y fath wahaniaeth rhwng corff dyn a lluaws o wahanol rywiau o greaduriaid sydd yn meddu greddf dra thebyg yn ei gweithrediad i reswm dyn, a hyny ar *un* bianed, er mwyn dangos cyfoeth gallu creadigol; a chan fod dyn hefyd wedi dyfod i ddeall nad oes un arbenigrwydd naturiol yn perthyn i'r ddaiar, yn mhlith ser y nef; nis gellir llai na meddwl fod bydoedd cyfatebol yn drigleoedd creaduriaid cyfatebol yn eu holl amrywiaeth. Y mae seiliau crediniaeth yn amrywio gyda thebygolrwydd y gosodiad: ac os na bydd dim gwell na chyfatebiaeth i'w gael, fe ymsefydla crediniaeth ar gyfatebiaeth."

CANOLBWYNT CYFFREDIN GWAHANOL GYFUNDREFNAU.

Arweinia yr ystyriaeth fod yr holl gylch heulog—sef yr haul, y planedau a'u gwahanol leuadau, yn nghyd â'r cometau sydd yn adnabyddus i ni—yn troi o gwmpas canolbwynt pellenig, yn gyffelyb fel y gwna y planedau o gwmpas yr haul, i'r un penderfyniad; sef mai nid ein daiar ni ydyw yr unig fyd a boblogir. Pe buasai yr haul a'r planedau yn sefydlog yn y greadigaeth, ni buasai dim cyssylltiad rhyngddo a chyfundrefnau ereill. Buasai y gagendor fawr sydd rhwng y gyfundrefn heulog a'r ser sefydlog yn cael ei ystyried fel terfyn i'r gyfundrefn hono. Ond y mae seryddwyr wedi ei osod tu hwnt i ammheuaeth, nid yn unig fod y gyfundrefn heulog yn symmud i gyd gyda'i gilydd tua rhyw gwr arall o'r greadigaeth, ond y maent wedi penderfynu cyfeiriad, ac i raddau cyflymdra y symmudiad hwnw. Y mae y gwirionedd hwn, y goruchelaf mewn seryddiaeth, yn dangos nad cyfundrefn yr haul ydyw canolbwynt y greadigaeth, a gellir ei ddefnyddio fel prawf pellach o luosogrwydd bydoedd. Fel y gwelir isod, y mae yr ysgogiad hwn allan o ammheuaeth; a chan nad oes dim yn debyg i ysgogiadau unionsyth yn y nefoedd, y mae yn rhaid fod yr haul gyda'i blanedau a'i gometau yn troi o gwmpas rhyw ganolbwynt anweledig. Nis gall fod ammheuaeth nad yw y canolbwynt hwn, sydd yn awr yn dywyll ac yn ddirgelaidd i ni, yn haul o faintioli mor fawr, nad yw ein haul ni ond planed fechan o'i gymharu âg ef; ac o gwmpas pa un y mae, nid yn unig y gyfundrefn heulog, ond cyfundrefnau ereill, yn aneirif, am a wyddom ni, yn cyflawnu eu cylchoedd eangfaith.

Mewn atebiad i'r gofyniad, Pa fodd y mae hyn yn dwyn cyssylltiad â thestyn yr erthygl hon? gellir ateb,—Fel y mae pob pwynt o debygolrwydd neu gyfatebiaeth rhwng y ddaiar a'r planedau ereill yn brawf tebygol fod y planedau hyny yn cynnwys trigolion fel y ddaiar, yr un modd y mae pob pwynt o debygolrwydd rhwng y gyfundrefn heulog ac unrhyw gyfundrefn arall o ser yn gwasanaethu y dyben o sefydlu y tebygolrwydd fod ynddynt hwythau drigolion. Gan fod pob seren sefydlog yn haul, ac yn cael ei hamgylchynu gan blanedau, yn gyffelyb i'n haul ni, a chan fod trigolion yn y gyfundrefn heulog mewn un blaned—y ddaiar yn sicr—onid yw cyfatebiaeth yn ein harwain i gredu fod trigolion mewn cyfundrefnau ereill sydd yn gyffelyb i'n cyfundrefn ni, ac yn troi o gwmpas un canolbwynt cyffredin.

Y mae meddwl fod yr holl fydoedd a'r cyfundrefnau ardderchog hyn wedi eu creu heb i ond un o honynt yn unig gael ei wneyd yn gartref creaduriaid byw, a hwnw yn un o'r rhai lleiaf o'r cwbl, yn gyffelyb fel pe meddyliem fod palas gorwych, gydag ystafelloedd a chyfleusderau aneirif, yn cael ei godi, heb feddwl i un o honynt gael eu preswylio, ond un o'r lleiaf a distadlaf. Neu, gallem newid y gymhariaeth;—Pa beth a feddyliem am ryw frenin galluog, yr hwn a wnai ffordd haiarn i amgylchu Ewrop ac Asia, a gosod arni *drain* o'r cerbydau cyflymaf, i gael eu gyru, blwyddyn ar ol blwyddyn, gan nerth mawr o agerdd, heb fod ynddynt ond troseddwr ac athronydd mewn un cerbydan allan o'r cannoedd lawer o gerbydau gwag?

Y mae amryw ysgrifenwyr wedi galw sylw at ANHAWSDER CREFYDDOL y grediniaeth mewn lluosogrwydd o fydoedd.

Sylwa y Dr. Bentley—"Os bydd i ryw un goleddu y grediniaeth hon, nid rhaid iddo gweryla â'r Dadguddiad Dwyfol ar gyfrif hyny Nid yw yr Ysgrythyrau yn ein gwahardd i gredu mewn lluosogrwydd o fydoedd, a'r rhai hyny mor lawn o drigolion ag y mynom. Y mae yn wir nad yw Moses yn rhoddi hanes am greadigaeth trigolion yn y planedau ereill ond ei amcan ef, y mae yn amlwg, oedd rhoddi hanes y ddaiar a'i thrigolion; nid yw yn rhoddi hanes creadigaeth angelion, eto wrth fyned yn mlaen yn ei hanes y mae yn eu crybwyll yn fynych. Nid rhaid i ni fod yn bryderus, chwaith, yn nghylch sefyllfa foesol trigolion y planedau, na dadleu pa mor bell y maent yn cyfranogi yn nghwymp Adda, nac yn mendithion ymgnawdoliad Crist." Yna ä yn mlaen i ddyweyd—"Ni ddylem gasglu, os oes trigolion rhesymol yn y lleuad, neu yn Mawrth, eu bod o ganlyniad yn meddu y natur ddynol, neu eu bod mewn amgylchiadau cyffelyb i eiddo ein byd ni."—[*On the Confutation of Atheism*, 1693.]

Ond nid oes neb wedi gwisgo y mater hwn gyda'r fath hyawdledd a Dr. Chalmers, yn ei *Bregethau Seryddol.* Ar ol cyffwrdd yn fyr âg amryw resymau dros gredu fod y cyrff wybrenol wedi eu poblogi â bywyd, fe ddywed fod yr ystyriaeth wedi cael ei defnyddio gan yr anffyddiwr, fel rheswm yn erbyn gwirionedd y Beibl. "A yw yn debygol (medd yr anffyddiwr) y buasai Duw yn anfon ei dragwyddol Fab i farw dros breswylwyr bychain talaeth mor ddistadl yn maes eang ei greadigaeth? A ydym ni yn wrthddrychau addas i'r fath gyfryngiad mawr ac arbenig? Onid yw eangder y maes ag y mae seryddiaeth yn ei agor o flaen golwg gwyddoriaeth ddiweddar yn taflu ammheuaeth dros wirionedd yr Efengylau? A pha fodd y gallwn gymmodi mawredd y symmudiad rhyfeddol hwnw a wnaed yn y nef, er prynedigaeth dyn syrthiedig, gyda bychandra a distadlrwydd ein rhyw?" Wrth gyfarfod yr wrthddadl hon, y mae Chalmers yn

Digitized by Google

dyweyd ei bod yn gynnwysedig yn gyntaf o *haeriad*, ac yn ail o *gasgliad*. Yr haeriad ydyw —Fod Cristionogaeth wedi ei gosod i fyny yn unig er lleśâd ein byd bychan ni. Mae Chalmers yn gwadu yr haeriad hwn, ond ar yr un pryd yn honi fod yn bosibl nad yw trigolion bydoedd ereill mewn cyflwr ag sydd yn gwneyd Ceidwad yn angenrheidiol iddynt. Yn yr hôniad hwn, y mae Chalmers yn ysgoi yr anhawsdra yn hytrach nag yn ei gyfarfod. Os gwedir fod trigolion mewn bydoedd ereill, fel y gwna awdwr y traethawd *Of a Plurality of Worlds*; neu os myntumir, fel Chalmers, nad ydynt yn sefyll mewn angen am Geidwad, nid oes un anhawsder i'w symmud. Mae yr haeriad sydd yn ngwrthddadl yr anffyddiwr wedi cael ei dderbyn gan lawer Cristion; ond nid y casgliad, sef—na fuasai Duw byth yn dangos cymmaint o gymmwynasgarwch, a rhoi cymmaint o sylw ar fyd mor fychan a'n byd ni. Y mae Chalmers, wrth wadu fod euogrwydd a thrueni mewn bydoedd ereill, yn ymwrthod yn hytrach â'r dull o ymresymu sydd yn ei arwain i'r penderfyniad fod trigolion ynddynt. O herwydd, os dywedir fod Iau yn meddu lleuadau a gwahanol gyfleusderau cyffelyb i'r ddaiar, ac o ganlyniad fod arni drigolion cyffelyb i'r ddaiar, onid ellir myned yn mlaen yr un modd, a dyweyd, gan fod trigolion y ddaiar wedi pechu, y mae yn bosibl y gall fod trigolion Iau wedi pechu, a'u bod yn sefyll mewn angen am Geidwad. Ond y mae ysgrifenwyr Cristionogol wedi myned yn mhellach na hyn. Y mae dynion o dduwioldeb diammheuol, ac o dreiddgarwch meddwl anghyffredin, wedi dal fod hanfodiad drwg moesol yn angenrheidiol i gynllun cyffredinol y bydysawd; ac o ganlyniad, yn effeithio, fwy neu lai, ar ei holl drigolion rhesymol. Gwyddom fod pechod wedi llygru yr holl hil ddynol, a'i fod hefyd wedi dinystrio rhan fawr o'r hil angelaidd. Y mae hyn yn rhoddi tebygolrwydd i'r dybiaeth, os oes trigolion mewn bydoedd ereill, eu bod hwythau hefyd, neu luaws o honynt, wedi myned ar gyfeiliorn. Nid yw Huygens, y seryddwr enwog y cyfeiriwyd ato yn nechreu yr erthygl hon, yn petruso dyweyd, pe buasai gan ddyn gyflawnder o bob daioni naturiol a rhagluniaethol, na buasai na gwyddoriaeth na chelfyddyd, ac yn fuan y buasai dyn yn byw fel yr anifail; ac nad oes le i farnu yn amgen am drigolion bydoedd ereill. Y mae rhai o awdwyr galluocaf yr oes bresennol, —megys Hugh Miller, a Syr D. Brewster—wedi dadgan syniadau cyffelyb. Dywed y blaenaf, fod "yr oruchwyliaeth yn mha un y mae Duw wedi dyfod yn ddyn, ac wedi dyoddef, yn *ymddangos*, fel y mae yn ddiau ei *fod*, yn ddolen angenrheidiol yn nghadwen perffeithiad dyn. Ond nid oes genyf un esboniad newydd o'r dirgelwch. Nis gwn pa ham y mae drwg moesol yn hanfodi yn nghreadigaeth Creawdwr Hollalluog, ac o ddoethineb anfeidrol, na thrwy ba ddeddf ddirgelaidd o eiddo y Duwdod y mae fod 'perffeithiad yn dyfod trwy ddyoddefiadau.'" Gyda'r syniad canlynol y mae Syr D. Brewster yn ceisio cyfarfod yr anhawsder sydd yn ngwrthddadl yr anffyddiwr, ac sydd hefyd yn dyrysu y Cristion. "Pa fodd y gallwn gredu," medd y Cristion sydd yn ofni yn ngwynneb pob anhawsder, "fod trigolion yn y planedau, pan nad oes gan Dduw ond un Mab, yr hwn a allai anfon i'w hachub?" Mewn atebiad i hyn, dywed Syr David, "Mae angeu Crist yn ymestyn yn ol o ran ei ddylanwad i filiynau na chlywsant erioed mo'i enw, ac yn mlaen i filiynau na chlywant mo'i enw Ac er mai yn Ierusalem y bu farw, mae ei angeu yn ffynnonell bywyd i filiynau cyrau eithaf y ddaiar. A chan fod y Gwaredwr wedi marw ar blaned ganol y gyfundrefn, o herwydd, fe ddichon, ei bod hi yn ddyfnaf mewn trueni, pa ham nas gall teilyngdod a rhinwedd ei angeu gyrhaedd i drigolion yr holl blanedau?" Ac yna chwanega y dybiaeth ganlynol,—"Pe buasai y ddaiar, ar ol marwolaeth y Cyfryngwr, yn ymhollti yn ddwy, i'r hen fyd a'r newydd, fel y tybir i gomet Biela wneyd yn 1846, oni buasai y byd Americanaidd a'r byd Ewropaidd er hyny yn cyfranogi o fendithion yr angeu ar Galfaria? Pe gallasai pelydr 'Haul Cyfiawnder, â meddyginiaeth yn ei esgyll,' saethu dros y gwagle rhwng y ddau hyn, onid all ei ddylanwad gyrhaedd yr holl blanedau—bydoedd a wnaed gan y Gwaredwr ei hun o'r un defnyddiau elfenol, ac yn mwynhau yr un goleuni—a hwythau fod yn gydgyfranogion o'r un ddawn nefol?"

Cyhoeddwyd gan y Dr. Edward Nares, yn 1801, draethawd a elwir *Un Duw, un Cyfryngwr; neu ymgais i ddangos pa mor bell y mae y dyb athronyddol am luosogrwydd bydoedd yn gysson neu anghysson âg iaith yr Ysgrythyrau Sanctaidd.* Ceisia ef ddangos fod y geiriau Οικουμενη, Ουρανος, Κοσμος =*Mundus*, *Orbis*, &c., a gyfleithir *byd*, yn cyfeirio at gyfundrefn o fydoedd neu y bydysawd, a bod yr iawn wedi ei wneyd dros *greadur* yn gyffredinol. Myntumir yr un farn gan yr esgob Porteus, yr hwn sydd yn dadleu, ar dir rheswm ac ysgrythyr, nad dynion ydyw yr unig greaduriaid sydd yn cyfranogi o aberth Crist.—[Gwel ei waith, cyf. iii, td. 70.]

Y mae gan Andrew Fuller, yn ei waith a deitlir *The Gospel its own Witness*, bennod gyfan i ddangos "Cyssondeb athrawiaeth yr Ysgrythyrau am y prynedigaeth â'r farn ddiweddar am eangder y greadigaeth;" neu y farn am luosogrwydd o fydoedd. Ei osodiad ef ydyw—"Nad yw hyn yn gwanhau, ond yn hytrach yn cadarnhau a mwyhau hanes y prynedigaeth." Heb law y gweithiau hyn, y mae ambell ddarlith wedi ei chyhoeddi ar y mater; megys, *The Astronomical Doctrine of a Plurality of Worlds in harmony with the true Christian Religion, by the Rev. S. Noble. The Christian Bearings of Astronomy, with a review of Dr. Chalmers' Argument, by George Gilfillan.*

BYDDAR—IAID, [*dar*=swn]: trwm ei glyw.

Byddar a gaiff gyffelyb. *Diar.*

Y gair Hebraeg am "fyddar," ydyw חרש (*charats*): ei ystyr cyntaf yw, dyfeisio, bwriadu, myfyrio; ac arferir ef i ddynodi byddardod a mudandod, am fod y byddar a'r mudan yn ymddangos fel mewn myfyrdod dwfn. Iachawyd mudion a byddariaid gan Iesu Grist: *Esa.* xxix. 18; xxxv. 5; *Mat.* xi. 5.

BYDDIN—OEDD, BYDDIN-DREFNIAD, [*bydd*]: llu o filwyr: *Exod.* xiv. 19; *Barn.* ix. 37; *Salm* xviii. 29. Yr oedd pob un yn Israel, o ugain oed ac uchod, yn ol y gyfraith, yn filwr; ac nid oedd yr offeiriaid a'r Leflaid yn eithradau i'r gyfraith hon. Corff o gartreflu oedd byddin y wladwriaeth; ac, fel lluoedd cyffelyb mewn gwledydd ereill, yr oeddynt yn barod i ymgynnull ar yr alwad gyntaf. Pan yn ddeg a deugain oed, gallent hawlio eu rhyddhad; ond os ewyllysient, caent aros yn hwy yn perthyn i'r fyddin. Yr oedd y byddinoedd yn Groeg hefyd yn cael eu gwneyd i fyny o rydd-ddinasyddion; y rhai oeddynt yn rhwymedig, yn ol cyfraith y wlad, i

Digitized by Google

ymddangos mewn arfau ar ol cyrhaedd oedran penodol, pan wysid hwy gan ynad, neu swyddwr awdurdodedig. Yn Athen, fel yn Palestina, ni arweinid yr ieuenctyd i faes y rhyfel hyd oni byddent yn ugain oed, er eu bod pan yn ddeunaw yn cael eu happwyntio i amddiffyn y ddinas a'i hamddiffynfeydd. Ond ni ryddhëid hwynt o'r gwasanaeth hyd drigain oed.

Pan y byddai yr Hebreaid yn cynnull byddin, gelwid y bobl yn nghyd; ac wrth gael eu dwyn ger bron y swyddogion, dewisid y rhai a fernid gymhwysaf i wasanaeth. Dyma y rheswm pa ham y galwai yr Hebreaid eu milwyr, *bahurim*= dewisedig.

Nid oes dim mewn hanesyddiaeth yn fwy hynod na rhifedi mawr y byddinoedd dwyreiniol. Yr oedd byddinoedd Israel yn dra lluosog. Yr oedd chwe chan mil o wŷr parod i ryfel yn Israel yn yr ymadawiad o'r Aipht. Ac ar ol eu sefydliad yn Nghanaan, yr oedd rhifedi eu byddinoedd bron yn anghredadwy. Oddi ar anallu i ddirnad pa fodd y gallai y terfynau cyfyng a benodwyd i'r llwythau gynnwys cynnifer o fllwyr, y mae rhai wedi ammheu purdeb y testyn, ac ereill wedi gwadu ysbrydoliaeth a gwirionedd yr hanes. Ond, heb law amryw bethau ereill a ellir eu dwyn yn erbyn yr ammheuaeth yma, gellir crybwyll fod yn annheg cymhwyso y cyfartaledd cyffredin sydd rhwng milwyr a'r boblogaeth yn Ewrop yn yr oesoedd diweddaf, gan fod y naill a'r llall yn gwbl wahanol; ac hefyd, nad oedd byddinoedd yr Hebreaid yn fwy, nac mor luosog, ag eiddo Darius, a Xerxes, a breninoedd dwyreiniol ereill. Dywed Knolles am fyddinoedd Bagazet a Tamerlane, fod yn y gyntaf, yn ol rhai haneswyr, dri chan mil o farchogion, a dau can mil o wyr traed; ac yn y ddiweddaf, bedwar can mil o farchogion, a chwe chan mil o wyr traed. A chan mai cartreflu i'w rhoddi ar waith pan fyddai achlysuron yn galw am eu gwasanaeth, a bod pawb uwch law ugain oed yn perthyn iddo, nid ymddengys dim anghredadwy yn rhifedi aruthrol byddinoedd yr Hebreaid. Cadarnheir hyn gan sylwadau o eiddo Baron de Tott o barth i'r byddinoedd a gesglid gan dywysog Crim Tartary. "Gellid meddwl fod dull cynnil a gwledig y bobl hyn o fyw yn ffafrio cynnydd poblogaeth; tra y mae afradlonedd a nwyfiant cenedloedd mwy gwareiddiedig yn cyffwrdd â gwreiddyn hyny. Mewn gwirionedd, y mae yn ffaith anwadadwy fod y bobl yn llai mewn rhifedi sydd yn byw mewn tai yn y Crimea na'r rhai sydd yn preswylio mewn pebyll yn Noguais. Y cyfriflaeth goreu a allwn wneyd ydyw, oddi ar y sylw am y galluoedd milwraidd y mae y tywysog yn gallu eu casglu. Gallwn weled y tywysog hwn yn ebrwydd yn cynnull tair byddin ar yr un amser; un yn cynnwys can mil o wyr, yr hon a flaenorai ef ei hun; un arall yn drigain mil, yn cael ei llywyddu gan y *calga*; ac un arall yn ddeugain mil, yn cael ei llywyddu gan y *nooradin*. A buasai yn gallu cyfodi dwywaith y nifer yma, heb beri un anfantais i lafur angenrheidiol y wladwriaeth."

Yn Israel, pan y byddai arwyddion fod rhyfel ar dori allan, cynnullid y bobl gan "y llywiawdwyr:" *Deut.* xx. 5—9. Yn amser y breninoedd, yr oedd un yn ben ar y llywiawdwyr hyn, yr hwn a gadwai gyfrif o'r milwyr; ond nid yr un oedd hwn a thywysog y llu, neu y cadfridog: 2 *Cron.* xxvi. 11; 2 *Sam.* viii. 17; xx. 25; cymh. 1 *Cron.* xviii. 16. Ar ol cynnull y fyddin, rhoddai y llywiawdwyr hysbysiad cyhoeddus y gallai y rhai canlynol gael eu hesgusodi oddi wrth y gwasanaeth milwraidd: y gwr a adeiladodd dŷ newydd, ac nis cyssegrodd, neu na bu yn byw ynddo; yr hwn a blanodd winllan, ac nis mwynhaodd hi—yr hyn a barhâai yn eithrad neu ryddhad am bum mlynedd; yr hwn a ymgredodd â gwraig, ac ni chymmerodd hi; yr hwn ni bu yn cydfyw â'i wraig am un flwyddyn; a'r ofnus a'r meddal galon, rhag iddo lwfrhau calonau ereill—yr hwn, pe buasai yn myned i ryfel, pan yr oedd y cwbl yn dibynu ar wroldeb personol, a fuasai yn sicr o syrthio ynddi.

Ar ben pob rhenc o ddeg a deugain, yr oedd y cadben ar ddeg a deugain. Yr oedd y rhaniadau ereill yn gynnwysedig o gannoedd, a miloedd, a degau o filoedd; ac ar bob un o honynt ei gadben. Yr oedd y dosbarthiadau hyn wedi eu trefnu yn ol eu teuluoedd, ac yn ddarostyngedig i awdurdod penau y teuluoedd hyny: 2 *Cron.* xxv. 5; xxvi. 12, 13. Yr oedd cadbeniaid y miloedd a'r cannoedd yn cael derbyniad i gynghor y rhyfel: 1 *Cron.* xiii. 1. Gelwid arweinydd neu lywydd yr holl fyddin yn "dywysog y llu." Gan y "llywiawdwyr" (*Deut.* xx. 9) yr oedd yr hawl i appwyntio swyddogion y fyddin: a diammheu y gwnaent hi yn rheol, yn eu dewisiad, i benodi y rhai oeddynt yn benau teuluoedd. Darfyddodd yr arferiad hwn yn amser y breninoedd. Dewisid rhai gan y breninoedd eu hunain; ac mewn anghreifftiau ereill, deuai y swydd yn barhaus ac etifeddol yn y penau teuluoedd. Yr oedd gan y breninoedd a thywysogion y llu rai yn dwyn eu harfau, y rhai a ddewisid o fysg y rhai mwyaf gwrol o'r milwyr; a hwy a garient arfau eu meistriaid, ac a osodid ar waith i roddi gorchymynion y tywysog i'r cadbeniaid o dano, pa rai oeddynt yn ei ymyl, yn barod i'w gynnorthwyo ar adeg o berygl: 1 *Sam.* xiv. 6; xvii. 7. Yr oedd y gwŷr traed, y marchogion, a'r cerbydau, wedi eu trefnu yn y fath fodd ag i wneyd dosbarthiadau neu raniadau gwahanol yn y fyddin: *Exod.* xiv. 6. 7. Rhenid y gwyr traed hefyd i luoedd ysgefin a ffynwewyr: 1 *Sam.* xxx. 8, 15, 23; 2 *Sam.* iii. 22; vi. 2; *Salm* xviii. 34; *Hos.* vii. 1. Gelwir y cyntaf yn y testyn Cymraeg, "torf," a'r diweddaf, "mintai." Arfogid y gwŷr traed ysgeifn â ffon-dafl, picell, a bwa a saethau; ac mewn amseroedd diweddarach â bwccled—math o darian. Ymladdent â'r gelyn oddi draw. Y ffynwewyr, y rhai a arfogid â gwaewffyn, cleddyfau, a tharianau, a ymladdent law yn llaw â'r gelyn: 1 *Cron.* xii. 24, 34; 2 *Cron.* xiv. 8; xvii. 17. Cymmerid y lluoedd ysgeifn yn gyffredin allan o lwythau Ephraim a Beniamin: 2 *Cron.* xiv. 8; xvii. 17. Cymharer *Gen.* xlix. 27; *Salm* lxxviii. 9.

Ymddengys fod y dull o wersyllu yn cael ei wneyd yn rhagorol yn yr Aipht yn mhell cyn mynediad yr Israeliaid oddi yno. Yno y cafodd Moses adnabyddiaeth o'r dull o wersyllu ag y mae yn *Num.* ii. yn ei roddi i'r Hebreaid. Yn ngwersyll Israel, safai y tabernacl yn y canol; ac yn unol â hyn, y mae yn arferiad yn y dwyrain i babell y tywysog gael ei dodi yn nghanol y pebyll ereill. Am sefyllfa y llwythau, gwel GWERSYLL.

O'r llumanau, yr oedd un a elwid *degel*; un o ba rai a berthynai i bob un o'r pedwar rhaniad neu ddosbarthiad cyffredinol. Yr oedd y pedair lluman o'r enw hwn yn fawrion, ac wedi eu haddurno â lliwiau gwyn, porphor, rhudd, a dulas. Y lluman arall a elwid *aoth*. Perthynai hon i ddosbarthiadau teuluaidd. Gelwid un arall *nes*. Nid oedd hon fel y lleill, yn cael ei chario o le i le. Ymddengys, oddi wrth *Num.* xxi. 8, 9, mai

Digitized by Google

pawl wedi ei ddodi yn y ddaiar ydoedd; a sicrhëid baner wrth ei ben, yr hon a welid o gryn bellder: *Ier.* iv. 6; li. 12; *Ezec.* xxvii. 7. Rhoddid hi ar leoedd uchel, ac edrychid arni fel arwydd i'r milwyr i ymgynnull. Morgynted ag y gwelid hi, rhoddid y floedd i'r rhyfel, a chwythid yr udgyrn. Gwel BRWYDR; MILWR.

BYWHAU, [*byw*]: rhoddi bywyd; bywhau sydd ymadrodd cyffredin yn yr Ysgrythyrau. Arferir ef am roddi bywyd mewn ystyr naturiol; "Yr hwn sydd yn bywhau y meirw" (*Rhuf.* iv. 17); am blanu tueddiad ysbrydol yn yr enaid (*Eph.* ii. 1, 5); am weinyddu cysur a gwaredigaeth ac adgyfnerthiad i'r meddwl: *Salm* cxix. 50. Gelwir yr "Ail Ddyn" yn "ysbryd yn bywhau" (1 *Cor.* xv. 45); ac fe'i "gwnaed" yn gyfryw, medd yr apostol. Yn undeb y ddwy natur, gwnaed yr Ail Ddyn yn ysbryd i gyfranu bywyd. Gofynir, medd Alford, pa bryd y *gwnaed* ef felly: a dywedir gan rai mai yn ei gnawdoliad; gan ereill, yn ei adgyfodiad; gan ereill, yn ei esgyniad. Ond nid ymddengys ei fod yn gwestiwn o amser. Yr oedd ar y ddaiar, ac y mae yn bresennol yn y nef, yn "ysbryd yn bywhau." Yr oedd felly pan mewn corff anianol, ac y mae felly pan mewn corff ysbrydol. Wrth y bywyd y mae yn gyfranu, y meddylir bywyd yr adgyfodiad.

BYWOLIAETH EGLWYSIG. Yn yr hen amser, gelwid y rhandiroedd, a phethau sefydlog ereill, y rhai a roddai yr arglwyddi i'w canlynwyr, er eu bywoliaeth, ar yr enw *munera, h. y., rhoddion*, tra y gellid eu galw yn ol wrth ewyllys yr arglwydd; wedi hyny gelwid hwy yn *beneficia*, neu *budd*, pan y daethant i gael eu dal am ryw amser penodol, yr hyn yn gyffredin oedd am un flwyddyn. Ond pan yn raddol y daethant i fod yn barhaus ac etifeddol, yna gadawsant eu henw *beneficia* i fywoliaethau yr Eglwyswyr, gan fod y rhai hyny yn cael eu dal am ysbaid o amser, a chymmerasant iddynt eu hunain yr enw *feuds*. [Gwel *Spelman on Feuds*; pen. 2.] *Beneficium*, gan hyny, yw yr enw Lladin a briodolir yn awr i fywoliaeth eglwysig, a *benefice* yr enw Seisoneg; ond yn y Gymraeg arferir yr hen enw *bywoliaeth*, gyda golwg ar brif ddyben y rhodd, sef er galluogi y rhai fyddo yn ei dal i fyw. "Ordeiniodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl i fyw wrth yr efengyl;" 1 *Cor.* ix. 14.

Y mae bywoliaeth eglwysig yn cael ei dosbarthu, yn ol cyfraith y wlad [*Anno* XIII, *R.* 2, cyf. 2, pen. 8.] yn gystal a chyfraith y ganon [*Duarenius de Beneficiis*; ll. 2, pen. 3.], yn ddwy ran; sef bywoliaeth etholiadol, a bywoliaeth o rodd. Ac y mae y rhai hyn yn cymmeryd i mewn y swyddi a'r awdurdodau uchaf yn yr eglwysi, oddi gerth esgobaethau, gystal a'r plwyfi i ba rai y penodir personiaid. Hyny yw, cynnwysant ddeoniaethau, archddiaconiaethau, prebendau, rectoriaethau, a ficeriaethau.

Etholir yr hen ddeoniaid gan y cabidwl, trwy *congé d'eslire* oddi wrth y brenin, a llythyrau cenadol o gymmeradwyaeth, yr un modd a'r esgobion. Ond yn y cabidylau a sylfaenwyd gan Harri VIII. gydag yspail y mynachlogydd, y mae y ddeoniaeth o rodd, a'r gorseddiad (*installation*) yn cymmeryd lle trwy rinwedd braint-lythyrau y brenin yn unig. Y cabidwl, yn gynnwysedig o ganonwyr a phrebendwyr, a benodir weithiau gan y brenin, weithiau gan yr esgob, ac weithiau etholant eu gilydd. Y mae deoniaethau newyddion i hen esgobaethau, gystal ag i rai newydd; y blaenaf ydyw Caergaint, Caercynan, Caerwynt, Deifr, Eli, Rochester, Caerwrangon, Caerliwelydd; yr olaf ydyw rhai Peterborough, Caerlleon Gawr, Caerloew, Caerodor, a Rhydychain. Sylwa Gibson o barth y rhai hyn, bod penodiad gan yr esgob yn gam angenrheidiol yn y gwaith o'u creu, cyn y gorseddiad. Heb law etholiad mewn enw, a rhoddiad gwirioneddol, y mae Mr. Hargrave [*Co. Litt.*, 95. *a. n.* 1] yn sylwi fod modd arall yn mha rai y derbynia rhai ddeoniaethau, sef fel chwanegiadau at swydd arall: megys y mae esgob Llundain fel y cyfryw yn ddeon Caergaint, ac esgob Tŷ Ddewi yn ddeon yr esgobaeth.

Pan y dygwydda i ddeon, prebendur, neu ryw eglwyswr arall, gael ei wneyd yn esgob, y mae yr holl fywoliaethau oedd ganddynt o'r blaen yn dyfod yn wag; a gall y brenin, drwy ei fraint freninol, gyflwyno ereill i'w llenwi. Nid ydynt, beth bynag, yn wag, trwy yr etholiad, eithr yn unig trwy y cyssegriad.

Penodir archddiacon yn gyffredin gan yr esgob, ac y mae ganddo fath o awdurdod esgobawl, yr hwn o ran ei ddechreuad sydd yn deilliaw oddi wrth yr esgob, er ei fod yn awr yn anymddibynol ar yr eiddo ef, ac ar wahân oddi wrtho.

Ond yr hyn a olygir yn fwy neilldnol wrth son am fywoliaeth ydyw *plwyf*, neu ardal eglwysig. Enw cyffredin ar offeiriad ydyw *person*; ond y mae ei wir ystyr yn llai helaeth. Person=*persona ecclesiæ*, ydyw un ag sydd ganddo lawn feddiant o holl iawnderau eglwys y plwyf. Gelwid ef yn berson (*persona*), o herwydd yn ei berson ef y cynnrychiolid yr eglwys, yr hon sydd gorff anweledig. Y mae efe ynddo ei hun yn gorfforaeth, i'r dyben o noddi ac amddiffyn iawnderau yr eglwys (yr hon a bersonola efe) trwy olyniad parhaus [*Co. Litt.*, 300]. Weithiau gelwir ef yn *rector* neu lywydd yr eglwys: eithr yr enwad *person* ydyw y teitl mwyaf cyfreithlawn, mwyaf llesol, a'r mwyaf anrhydeddus a ddichon offeiriad y plwyf ei fwynhau; oblegid dywedir i'r cyfryw un (fel y sylwa Syr Edward Coke) a hwnw yn unig *vicem seu personam ecclesiæ gerere*. Y mae gan y person, tra byddo byw, ryddfeddiant ynddo ei hun o'r persondy, y clasdir, y degwm, a dyledion ereill. Ond y mae y rhai hyn weithiau yn cael eu priodoli; hyny yw, cyssylltir y fywoliaeth yn barhaus wrth ryw gorfforaeth ysbrydol, naill ai unig neu gymdeithasol, yr hon yw tadog y fywoliaeth; a'r hon, yn ngolwg y gyfraith, sydd mor alluog o ddarparu gogyfer a gwasanaeth yr eglwys ag unrhyw eglwyswr neilldnol. Pan y sefydlwyd offeiriaid plwyfol gyntaf, rhanwyd degwm y plwyf yn bedair rhan; un rhan at wasanaeth yr esgob, un arall tuag at gadw adeilad yr eglwys mewn cywair, y drydedd ran i'r tlodion, a'r bedwaredd i'r person. Pan gafodd yr esgobaethau eu cynnysgaethu ddigon mewn ffordd arall, gwaharddwyd yr esgobion rhag ceisio eu rhan arferol o'r degwm, a daeth hwn i fod yn dair rhan yn unig. Tybiodd y mynachdai bod rhan fechan yn ddigon i'r gweinidog, ac y gellid cymhwyso y gweddill i'w brawdoliaethau eu hunain, ond iddynt hwy adgyweirio yr eglwys, a darparu gogyfer a'i gwasanaeth. Felly archasant a phrynasant bob glwysfuddiaeth o fewn eu cyrhaedd, a phriodolasant y bywoliaethau at wasanaeth eu corfforaeth eu hunain. Ond er mwyn gwneyd y cyfryw briodoliad yn gyflawn ac effeithiol, rhaid yn gyntaf gael trwydded y brenin, a chydsyniad yr esgob; o blegid dichon y bydd a wnelo y brenin a'r esgob, ryw dro neu gilydd, drwy

Digitized by Google

ddygwyddiad, â'r gwaith o gyflwyno i'r fywoliaeth, yr hyn ni ddichon gymmeryd lle byth os priodolir hi at wasanaeth corfforaeth, yr hwn nid yw byth yn marw: ac hefyd o herwydd bod y gyfraith yn hyderu ynddynt hwy, na oddefant hwy i ddim gymmeryd lle er niwed i'r eglwys. Y mae cydsyniad y tadog hefyd o angenrheidrwydd yn cael ei arwyddo; o blegid nid ellir gwneuthur priodoliad i neb ond i'r cyfryw gorfforaeth ysbrydol ag sydd hefyd yn dadog neu noddwr i'r eglwys. Nid yw y cwbl yn wir ond caniatâd i'r tadogion ddal y degwm a'r clasdir yn eu dwylaw eu hunain, heb gyflwyno unrhyw glerigwr, gan eu bod hwy eu hunain yn ymrwymo i ddarparu gogyfer a gwasanaeth yr eglwys. [*Plowd.* 496—500.] Pan wneir y priodoliad fel hyn, y mae y priodolwyr a'u holynwyr yn bersoniaid parhaus yr eglwys; a rhaid iddynt erlyn a chael eu herlyn mewn pob peth perthynol i iawnderau yr eglwys, dan yr enw personiaid. [*Hob.* 307.]

Gellir dadgyssylltu y priodoliad hwn, a dyfod o'r eglwys yn ddibriodol mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, trwy i'r tadog neu briodolwr gyflwyno clerigwr, yr hwn a osodir mewn meddiant o'r personoliaeth; o blegid y mae y clerigwr a benodir felly yn berson cyflawn: ac wedi unwaith ddadgyssylltu y priodoliad, nid ellir byth ei hail uno, ond trwy gael yr unrhyw ddefodau drosodd drachefn. A phan fyddo y clerigwr a gyflwynir felly yn wahanol oddi wrth y ficer, y mae y berigloriaeth a roddir iddo ef yn dyfod yr hyn a elwir yn *sinecure;* o blegid nid oes ganddo ofal eneidiau, gan fod ganddo ficer dano, i'r hwn yr ymddiriedir y gofal hwnw. Hefyd, os daduniir y corfforaeth a biau y priodoliad, y mae y personoliaeth yn dyfod yn ddibriodol wrth y gyfraith gyffredin; o blegid y mae parhauder y person wedi darfod, yr hwn sydd yn hanfodol er cynnal y priodoliad. Yn y dull yma, ac mewn darostyngiad i'r telerau hyn y gellir gwneyd priodoliadau y dydd heddyw; ac fel hyn y gwnaethpwyd ar y dechreu y rhan fwyaf, os nad y cwbl, o'r priodoliadau sydd yn awr: cyssylltwyd hwy wrth esgobaethau, prebendau, crefydd-dai, ïe, hyd yn oed wrth leiandai, a rhai urddau milwrol, y rhai oeddynt i gyd yn gorfforaethau ysbrydol. Ar ddadgyssoddiad y mynachdai drwy ddeddfau 27 Harri VIII., pen. 28, a 31 Harri VIII., pen. 13, buasai priodoliadau y gwahanol bersonoliaethau, y rhai a berthynent i'r tai crefyddol hyny, yn dyfod wrth reol y gyfraith gyffredin yn ddibriodol, oni bai gosod bannod yn y deddfau hyny yn darparu ar iddynt gael eu rhoddi i'r brenin. Er nad ellir amddiffyn hyn, eto yr oedd yr un peth wedi cymmeryd lle o'r blaen, pan y dadgyssoddwyd y priordai ag oedd wedi cael eu llenwi âg estroniaid, ac y rhoddwyd hwynt i'r goron. O'r ddau wreiddyn hyn y tarddodd holl briodoliadau lleygol y personoliaethau a welwn yn awr yn y deyrnas; gan iddynt gael eu rhoddi drachefn o bryd i bryd gan y goron yn anrhegion i foneddion neillduol.

Byddai y corfforaethau priodolawl, neu y tai crefyddol hyn, arferol o ddirprwyo un o'u brawdoliaeth i gyflawnu y gwasanaeth dwyfol, ac i weinyddu y sacramentau yn y plwyfydd hyny, person pa rai fyddai y gymdeithas. Ni fyddai y gweinidog hwn mewn gwirionedd ond curad dirprwy, neu raglaw. Trefnid ei gyflog wrth bwyll y priodolwr, yr hwn, beth bynag, oedd yn rhwym yn ol deddf gyffredin i gael rhyw un *qui illi de temporalibus, episcopo de spiritualibus, debeat respondere.* [*Seld. tith.*, c. 11. 1.] Ond gwneid hyn mewn dull mor warthus, a dyoddefodd y plwyfydd gymmaint trwy esgeulusdra y priodolwyr, fel ag y gorfu ar y llywodraeth ymyraeth â'r mater. O ganlyniad, trefnwyd, trwy ddeddf 15 Ric. II., pen. 6, gyda golwg ar holl briodoliadau eglwysi, ar fod i esgob yr esgobaeth benodi (mewn cyfartalwch i werth yr eglwys) ar i swm cymhwys gael ei ranu yn flyneddol rhwng y plwyfolion tlodion; ac ar i'r ficeriaeth gael ei gwaddoli *yn ddigonol.* Ymddengys i'r plwyfydd yn aml ddyoddef, nid yn unig trwy ddiffyg gwasanaeth dwyfol, eithr hefyd trwy attal yr eluseni, er mwyn pa un, yn mhlith dybenion ereill, y penodwyd talu degwm ar y dechreu; am hyny, yn ol y ddeddf hon, cyfarwyddir ar i arian gael eu rhanu yn mhlith y plwyfolion tlodion, gystal ag i gyflog digonol gael ei roddi i'r ficer. Ond yn gymmaint a'i fod ef yn ddarostyngedig i gael ei symmud yn ol ewyllys y priodolwr, nid oedd efe yn debyg o sefyll yn rhy dŷn ar ddigonolrwydd cyfreithlawn y cyflog; ac am hyny, yn ol deddf 4 Harri IV., pen. 12, ordeinir ar i'r ficer fod yn berson o'r byd, ac nid yn aelod o unrhyw dŷ crefyddol; ac iddo fod yn ficer parhäus, ac heb fod yn agored i gael ei symmud yn ol mympwy y fynachlog; ac iddo gael ei benodi a'i roi mewn meddiant o'i fywoliaeth mewn modd canonaidd, a chael digon o waddoliad, yn ol barn yr ordinari, i dri o ddybenion; sef, i gyflawnu y gwasanaeth dwyfol, i addysgu y bobl, ac i ddilyn llettygarwch. Mewn canlyniad i'r gosodedigaethau hyn, talwyd y gwaddoliad yn gyffredin allan o gyfran o'r tir perthynol i'r bersonoliaeth, a rhan o'r degwm ag oedd fwyaf anhawdd gan y priodolwyr ei gasglu, sef y degwm mân; a chadwasant y degwm bras iddynt eu hunain. Ond ni chadwyd at yr un fath reol wrth waddoli pob ficeriaeth: felly y mae degwm llawer o bethau, megys gwlan yn neillduol, mewn rhai plwyfydd yn rectoraidd, ac mewn ereill yn ficeraidd.

Y gwahaniaeth, gan hyny, rhwng person a ficer yw hyn:—y mae gan y person, gan mwyaf, yr hawl gyfan i'r holl ddyledion eglwysig o fewn ei blwyf: eithr y ficer yn gyffredin sydd ganddo briodolwr uwch ei ben, yn hŏni hawl i'r rhan oreu o'r elw; ac i hwnw mewn effaith y mae efe yn gurad. Mewn rhai manau, beth bynag, y mae y ficeriaeth wedi cael ei helaethu gyda chyfran fawr o'r degwm bras, a derbyniodd hyn gynnorthwy nid bychan gan y ddeddf 29 Car. II., pen. 8, yr hon a ffurflwyd yn mhlaid ficeriaid a churadiaid tlodion, a'r hon a wnaeth y cyfryw chwanegiadau yn barhäus.

Y mae y dull o ddyfod yn berson neu ficer yn gyffelyb. I'r ddau fel eu gilydd y mae pedwar o gymhwysderau yn angenrheidiol; sef urddau cyssegredig (*holy orders*), cyflwyniad (*appointment*), penodiad (*presentation*), a gosodiad mewn meddiant (*induction*). Wrth y gyfraith gyffredin, gallai diacon o unrhyw oedran gael ei benodi a'i roi mewn meddiant o bersonoliaeth neu ficeriaeth; eithr ordeiniwyd, yn ol statut 13 Eliz., pen. 12, na chyflwyner neb dan dair ar ugain oed, ac mewn urddau diacon, i unrhyw berigloriaeth; ac os na urddid ef yn offeiriad o fewn un flwyddyn ar ol cymmeryd meddiant, fod iddo gael ei amddifadu o honi *ipso facto.* Ac yn awr, yn ol statut 13 a 14 Car. II., pen. 4, ni fedr neb dderbyn unrhyw fywoliaeth eglwysig nes iddo yn gyntaf gael ei urddo yn offeiriad; ac yna y mae efe, yn iaith y gyfraith, yn glerigwr mewn urddau. Eithr os derbynia efe urddau, neu drwydded i bregethu, am arian neu trwy foddion llygredig, yr hyn

Digitized by Google

sydd Simoniaeth, yna, y mae yr hwn a rydd y cyfryw urddau yn fforffetio 40*p.*, a'r hwn a'u derbyn 10*p.*, ac yn dyfod yn analluog i ddal unrhyw fywoliaeth eglwysig am saith mlynedd wedi hyny.—[Stat. 31 Eliz., pen. 6.]

Gall unrhyw glerigwr gael ei gyflwyno i bersonoliaeth neu ficeriaeth; hyny yw, gall y noddwr, i'r hwn y perthyn y glwysfuddiaeth, gynnyg ei glerigwr i esgob yr esgobaeth i gael ei benodi. Yn yr un modd gall llëygwr gael ei gyflwyno; ond rhaid iddo gymmeryd urddau offeiriad cyn y derbynir ef. Pan y cyflwynir y clerigwr, gall yr esgob ei wrthod am amryw achosion. Megys,—1. Os bydd y noddwr yn esgymun, ac yn aros yn ei ystyfnigrwydd am ddeugain niwrnod. 2. Os bydd y clerigwr yn anaddas: ac y mae yr anaddasrwydd yma o wahanol rywiau. Yn gyntaf, gyda golwg ar ei berson; megys, os bydd efe yn fasterddyn, yn herwr, yn esgymun, yn alldud, dan oed, a'r cyffelyb. Yn nesaf, gyda golwg ar ei ffydd a'i foesau; megys am ryw heresi neillduol, neu ddrwg a fyddo *malum in se.* Ond os gwrthwynebo yr esgob mewn dull cyffredin yn unig, megys ei fod yn *schismaticus inveteratus;* neu fod arno fai, yr hwn sydd yn *malum prohibitum* yn unig, megys cyrchu i dafarndai, chwareu campau anghyfreithlawn, neu y cyffelyb; nid ystyrir hyny yn achos da o wrthodiad. Neu, yn olaf, dichon y bydd y clerigwr yn anaddas i gyflawnu y swydd fugeiliawl, o ddiffyg dysg. Am un o'r achosion hyn, gall yr esgob wrthod y clerigwr. Pan y gwrthoder ef o herwydd heresi, sism, diffyg dysg, neu ryw fater o berthynas eglwysig, yna rhaid i'r esgob roi rhybudd i'r noddwr o'r achos ei fod yn gwrthod; yr hwn, gan ei fod yn gyffredin yn ŵr lleyg, nid ystyrir fel yn gwybod am dano: ond os tymmorol fyddo yr achos, nid yw yn rhwym o roddi rhybudd. Os na fyddo y noddwr yn ŵr lleyg, nid yw yr esgob yn rhwym o roddi rhybudd, er i'r achos fod yn un o nodweddiad ysbrydol. Byddai y rhybudd yn wir yn ddifudd, o blegid ni feiddia y cyfryw noddwr, yr hwn a ddylai wybod a ydyw y cyflwynedig yn addas ai peidio, a'r hwn, trwy gyflwyno dyn anaddas, ni olygir fel wedi camsynied yn anfwriadol. ddim galw yn ol ei gyflwyniad, a chyflwyno clerigwr cymhwysach, heb gydsyniad yr esgob. [1 *Burn. Eccl. Law*, 157.]

Os rhydd y noddwr gyfraith ar yr esgob am wrthod ei glerigwr ef, rhaid i'r esgob hysbysu yr achos am hyny. Os tymmorol fydd nodweddiad yr achos, ac os addefir y ffaith (er anghraifft, herwriaeth), rhaid i farnwyr llysoedd y brenin benderfynu a ydyw yn ddigonol; ond os gwedir y ffaith rhaid ei benderfynu gan reithwyr. Os bydd yr achos o natur ysbrydol (megys rhyw heresi neillduol), ac os gwedir y ffaith, rhaid i hwnw hefyd gael ei benderfynu gan reithwyr; ac os addefir, neu os ceir allan y ffaith, y llys wrth bwyll a chynghor duwinyddion dysgedig a farna a ydyw efe yn achos digonol ai peidio. Os diffyg dysg fydd yr achos, nid yw yr esgob yn rhwym i ddangos yn mha ryw bynciau y mae y clerigwr yn ddiffygiol, eithr yn unig mynegu ei fod ef yn ddiffygiol: o blegid y mae deddf 9 Ior. II., st. 1, pen. 13, yn bendant bod y gwaith o holi yn nghylch addasrwydd y dyn a gyflwynir i fywoliaeth yn perthyn i'r barnwr eglwysig. Os haera yr esgob fod y clerigwr yn *minus sufficiens in literaturâ*, rhaid i'r llys ysgrifenu at yr archesgob i'w ail holi ef, ac i hysbysu ei gymhwysderau; a bydd sicrwydd yr archesgob yn benderfynol.

Os na wrthwyneba yr esgob, ac os derbynia efe gyflwyniad y noddwr, rhaid i'r clerigwr a dderbynier felly gael, yn nesaf, ei benodi ganddo, yr hyn sydd fath o arwisgiad â rhan ysbrydol y fywoliaeth; o blegid trwy benodiad y mae y gofal am eneidiau y plwyf yn cael ei roddi dan law y clerigwr. Pan y byddo yr ordinari yn noddwr hefyd, ac yn *rhoddi* bywoliaeth, yna un ac unrhyw yw y cyflwyniad a'r penodiad, a gelwir hwy yn rhoddiad personoliaeth. Trwy benodiad neu roddiad y mae yr eglwys yn llawn, ac felly nid all bod cyflwyniad newydd, nes y daw y lle yn wag eilwaith, o leiaf, gyda golwg ar noddwr cyffredin; ond nid yw yr eglwys yn llawn yn erbyn y brenin hyd nes y rhodder meddiant: ie, hyd yn oed os penodir clerigwr mewn canlyniad i gyflwyniad y brenin, gall y goron ei alw yn ol cyn cymmeryd meddiant, a chyflwyno clerigwr arall —[*Co. Litt.*, 344.] Ar ei benodiad hefyd, gall y clerigwr afael yn ei bersondy a'i glasdir, a chymmeryd y degwm; ond ni fedr efe eu hanrhegu, neu eu gosod, neu fyned i gyfraith yn eu cylch, nes ei roddi mewn meddiant.

Gosodir mewn meddiant trwy waith yr esgob yn anfon gorchymyn at yr archddiacon, yr hwn sydd arferol o beri i eglwyswyr ereill wneyd hyny drosto ef. Cymmer le drwy roddi i'r clerigwr feddiant corfforol o'r eglwys, megys trwy afael yn nolen y drws, canu y gloch, neu y cyffelyb. Gofynir y ffurf hon gan y gyfraith, er mwyn rhoddi rhybudd dyladwy, a sicrwydd digonol, i'r holl blwyfolion o barth eu gweinidog newydd, i'r hwn y dylent dalu eu degymau. Dyma, gan hyny, yw arwisgiad â rhan dymmorol y fywoliaeth, megys ag y mae penodiad yn arwisgiad â'r rhan ysbrydol. A phan y cyflwynir, y penodir, ac y gosodir clerigwr fel hyn mewn meddiant o berigloriaeth, yna, ac nid cyn hyny, y mae efe mewn meddiant llawn a hollol, a gelwir ef yn y gyfraith *persona impersonata;* sef yw hyny, person personoledig.

Yn ol 57 Geo. III., pen. 99, trefnir, os bydd gŵr eglwysig yn absennol o'i fywoliaeth dros fwy na thri mis yn y flwyddyn, ar iddo fforffetio un rhan o dair o'r gwerth blyneddol, heb dynu allan gyflog curad; os bydd yn absennol dros chwe mis, fforffetia yr hanner; os dros wyth, dwy ran o dair; os am flwyddyn gyfan, tair rhan o bedair. Rhaid anneddu yn y persondy, os oes un; os nad oes, rhaid byw yn y plwyf, oddi gerth drwy genad yr esgob, neu lle byddo tŷ wedi cael ei brynu gan lywyddion haelioni y frenines Anne i fod yn breswylfa i'r gweinidog, ac wedi cael ei gymmeradwyo gan yr esgob yn mlaen llaw. Y mae y gallu i roddi trwyddeb i offeiriad i fod yn absennol o'i fywoliaeth yn nwylaw yr esgob; a nodir achosion neillduol fel yn sail digonol am ymofyn am y drwyddeb.

Gwelsom nad oes ond un ffordd i ddyfod yn berson neu ficer; y mae llawer o ffyrdd i beidio a bod. 1. Trwy farwolaeth. 2. Trwy enciliad, wrth gymmeryd bywoliaeth arall. O blegid yn ol deddf 21 Harri VIII., pen. 13, os bydd i neb, a chanddo fywoliaeth yn werth 8*p.* neu uchod yn y flwyddyn, yn ol y cyfrifiad presennol yn llyfrau y brenin, dderbyn unrhyw un arall, bernir y gyntaf yn wag, os na chaiff efe oddeflad, yr hwn nid oes gan neb hawl i'w gael ond caplanau y brenin, ac ereill a enwir ynddo, sef brodyr a meibion arglwyddi a marchogion, doctoriaid a mebyddion duwinyddiaeth a chyfraith, a wneir felly gan brifysgolion y deyrnas hon. 3. Trwy gyssegriad; o blegid pan ddyrchafer clerigwr i

Digitized by Google

esgobaeth, y mae ei holl fywoliaethau ereill yn dyfod yn wag y fynyd y cyssegrir ef. 4. Trwy roddi y fywoliaeth i fyny. Ond difudd yw hyn nes i'r ordinari ei dderbyn, i ddwylaw pa un y dylid ei rhoddi i fyny. 5. Trwy ddifeddiad, mewn canlyniad i ddedfryd yn y llys eglwysig yn dadgan achosion digonol am hyny wrth y gyfraith gyffredin: megys euogfarniad am deyrnfradwriaeth neu gyflafan, neu am ryw drosedd brwnt arall yn llysoedd y brenin; am heresi, anffyddiaeth, anfoesoldeb gwarthus, a'r cyffelyb; neu yn unol âg amryw ddeddfau cospedigol, y rhai a ddadganant y fywoliaeth yn wag am ryw esgeulusdod neu ddrwg weithred, megys, am simoniaeth; am ddal unrhyw athrawiaeth yn erbyn uchafiaeth y brenin, neu yn groes i'r namyn un deugain erthyglau crefydd, neu y *Llyfr Gweddi Gyffredin;* am esgeuluso, ar ol cael ei benodi, darllen y liturgi a'r erthyglau yn yr eglwys, neu wneuthur y dadganiadau yn erbyn Pabyddiaeth, neu gymmeryd y llw o ymwrthodiad; am ddefnyddio unrhyw ffurf o weddi heb law liturgi Eglwys Loegr; neu am absennoli ei hun am dri ugain niwrnod yn y flwyddyn o fywoliaeth yn perthyn i noddwr Pabaidd, i ba un y cyflwynwyd ef gan un o'r ddwy brifysgol. Dan yr amgylchiadau hyn i gyd, y mae y fywoliaeth *ipso facto* yn wag, heb unrhyw ddedfryd ffurfiol o amddifadiad.

BYWYD, BYW, BYWIOL. 1. Priodolir bywyd i Dduw: "Myfi a fyddaf fyw byth;" *Deut.* xxxii. 40. Gelwir ef "Duw byw;" *Ios.* iii. 10; *Salm* xlii. 2; *Esa.* xxxvii. 4; *Mat.* xvi. 16; *Ioan* vi. 69. I'r Tad, "y Tad byw;" *Ioan* vi. 57: "Bywyd ynddo ei hun;" *Ioan* v. 26. I'r Mab: "Prynwr byw;" *Iob* xix. 25. "Byw wyf fi;" *Ioan* xiv. 19. "Byw trwy y Tad:" *Ioan* vi. 57 (yr wyf fi yn y Tad). "Rhoddodd y Tad i'r Mab fod ganddo fywyd ynddo ei hun:" *Ioan* v. 26: o herwydd hyny, gelwir ef "Tywysog y Bywyd" (y mae ganddo fywyd ynddo ei hun, ac yn awdwr bywyd i ni): *Act.* iii. 15. "Ynddo yr oedd bywyd" (nid ysbrydol yn unig, ond pob bywyd); *Ioan* i. 4: "Ein hachubir trwy ei fywyd;" *Rhuf.* v. 10: "Byw ydyw trwy nerth Duw;" 2 *Cor.* xiii. 4: "Ac fel y mae yn byw, byw y mae i Dduw;" *Rhuf.* vi. 10. "A wnaed yn ol nerth bywyd annherfynol;" *Heb.* vii. 16: "Byw bob amser;" *Heb.* vii. 25: "Byw yn oes oesoedd;" *Dad.* i. 18.

2. Priodolir bywyd i sylweddau corfforol, anifeilaidd; i lysiau, creaduriaid direswm, a dynion. Bywyd naturiol yn wrthgyferbyniol i farwolaeth, a chyda chyfeiriad mwy enwedigol at fywyd dyn: *Luc* xvi. 25; *Act.* xvii. 25; 1 *Cor.* iii. 22; xv. 19; *Heb.* vii. 3; *Iago* iv. 14; *Dad.* xi. 11; xvi. 3. Am fywyd neu hanfodiad ar ol adgyfodi oddi wrth y meirw. Defnyddir ef am Grist: *Rhuf.* v. 10; 2 *Cor.* iv. 10, 11, 12: yn gymhariaethol am y genedl Iuddewig; *Rhuf.* xi. 15.

3. Am fywyd neu hanfodiad diddiwedd, "annherfynol;" *Heb.* vii. 16: "Pren y bywyd" sydd yn cadw rhag marwolaeth; *Dad.* ii. 7; xxii. 1, 17: "Ffynnonau bywiol o ddyfroedd;" *Dad.* vii. 17: "Bara y Bywyd;" *Ioan* vi. 35.

4. Dull o fyw, ymddygiad, yn ei ystyr foesol. "Newydd-deb buchedd," neu fywyd; *Rhuf.* vi. 4: "Buchedd (neu fywyd) Duw;" *Eph.* iv. 18: "Bywyd a duwioldeb;" 2 *Pedr* i. 3.

5. Bywyd dedwydd, hapusrwydd, mewn ystyr cyffredinol; *Luc* xii. 15: "Dros fywyd y byd;" *Iôan* vi. 51: "Arogl bywyd," *h. y.*, iachusol; 2 *Cor.* ii. 16: "Ffyrdd y bywyd," a dedwyddwch; *Act.* ii. 28, oddi wrth *Salm* xvi. 11: 1 *Pedr* iii. 10, oddi wrth *Salm* xxxiv. 12.

6. Bywyd tragwyddol, *h. y.* bywyd o ddedwyddwch a gogoniant yn nheyrnas nefoedd: "Bywyd tragwyddol;" *Mat.* xix. 16, 17; *Ioan* iii. 15, 16: "Y bywyd a fydd;" 1 *Tim.* iv. 8; vi. 19: "Bywyd;" *Mat.* vii. 14; xviii. 8, 9; *Ioan* v. 40; vi. 33, 53: "Y fuchedd hon," y bywyd hwn; *Act.* v. 20: "Teyrnasu mewn bywyd;" *Rhuf.* v. 17: "Cyflawnhâd bywyd;" *Rhuf.* v. 18; viii. 10, viii. 2, 6. 10; *Phil.* ii. 16; 2 *Tim.* i. 1; 1 *Ioan* v. 12, 13, 16: "Llyfr y bywyd;" *Phil.* iv. 3: "Coron y bywyd;" *Iago* i. 12; *Dad.* ii. 10: "Gras y bywyd;" 1 *Pedr* iii. 7. Yn drawsenwol am *awdwr a rhoddwr bywyd tragwyddol: Ioan* xi. 25; xiv. 6; *Col.* iii. 4; 1 *Ioan* i. 2; v. 20.

BYWYD. Y mae llawer o wahaniaeth barn wedi bod o barth i'r drychfeddwl cywir am *fywyd naturiol*, neu *fywyd corfforol*. Y mae yr ymchwiliad i hyn yn cael ei ddynodi yn y Seisoneg gan y gair *Biology=gwyddoreg bywyd*. Yn raddol y mae drychfeddyliau sylfaenol pob gwyddoreg wedi eu cael allan. Yr oedd drychfeddwl sylfaenol gallofyddiaeth, sef *gallu* (*force*), yn dyfod yn fwy clir i feddyliau dynion o amser Aristotle hyd Newton, pan y sefydlwyd y drychfeddwl mewn darganfyddiadau pwysig. Nid oedd y drychfeddwl am *sylwedd* yn ddigon clir a sefydlog i arwain meddyliau fferyllwyr yn gywir at eu hymchwiliadau, hyd amser Lavoisier yn niwedd y canrif diweddaf. Yn gyffelyb y mae syniadau dynion am *fywyd* wedi amrywio mewn gwahanol oesoedd, ond yn barhaus yn ennill rhyw gymmaint mewn eglurder, er fod llawer o ddirgelwch a gwahaniaeth barn yn perthyn iddynt hyd yn awr. Priodolai yr henafiaid y gair *bywyd* i'r hyn a dybient yn *achos* y gweithrediadau bywydol; a golygent ef yn sylwedd gwahaniaethol, corfforol neu ysbrydol, yn preswylio mewn gwahanol ffurfiau o ddefnydd, ac yn achos o'u cyfansoddiad corfforol (*organization*). Yr oedd gan bob sect athronyddol eu syniad neillduol am darddiad a natur y sylwedd hwn. Golygid ef gan rai yn fath o dân, gan ereill yn fath o awyr (*ether*), neu fath o ysbryd; a thrachefn, gan ereill, yn fath o ddwfr. Rhoddir gwisg farddonol i'r un athrawiaeth yn y chwedl am Prometheus: dysgrifir y celfyddwr yn bywiocau ei ddelwau cleilyd â thân a ladrataodd o gerbyd yr haul. Ond pa faint bynag yr amrywient yn eu golygiadau am natur y sylwedd bywydol, cytunent i'w olygu fel yn llenwi y byd, ac yn ysgogi ei holl weithrediadau fel math o fywyd neu enaid; tra yr ystyrient fod pob corff dynol yn cael ei fywhau gan ryw gyfran neillduol o hono (*divinæ particula auræ*).

Mae syniadau cyfriniol a dychymygol iawn am natur bywyd wedi cael eu dal, yn enwedig yn nechreuad yr unfed canrif ar bymtheg, pan yr oedd llenyddiaeth a gwyddoriaeth yn dadebru o gwsg y canoloesoedd. Tybiai Paracelsus a'i ganlynwyr, fod, heb law bodau corfforol ac ysbrydol, ryw ysbrydion elfenol rhyngddynt; sef chwibleianod (*sylvans and nymphs*), tudelfodau (*gnomes*), a thânbryfed (*salamanders*), trwy weithrediad pa rai y gellid esbonio pethau a ymddangosent yn oruchnaturiol. Un o'i syniadau mwyaf dychymygol oedd fod treuliad (*digestion*) yr ymborth yn cael ei gyflawnu gan ellyll o'r fath, a alwai ef *Archæus*, a bod iddo ei drigfa yn y cylla.

Y dybiaeth nesaf y bu dynion, yn ceisio ei holrhain a'i hamddiffyn oedd—fod bywyd yn

Digitized by Google

dibynu ar *weithrediad fferyllaidd* yn y corff, ac nad oedd bywyd ond y cyfryw weithred; ac felly nad oedd dim gwahaniaeth hanfodol rhwng creaduriaid byw a sylweddau difywyd (*organized and unorganized*), gan fod y cyfan yn alluog i fyned trwy weithrediadau fferyllaidd. Hon oedd y farn gyffredin yn Ewrop yr eilfed canrif ar bymtheg; ac yn unol â hon yr oedd meddygon yn trin gwahanol anhwylderau.

Wedi i'r syniadau hyn gael eu hammheu, eu gwrthwynebu, a'u gwrthod, yr ymgais nesaf oedd ceisio esbonio gweithrediadau bywyd ar egwyddorion *gallofyddol*, trwy ddangos fod ysgogiadau yr aelodau a rhediad yr hylifau yn cymmeryd lle ar yr un egwyddorion ag ysgogiadau olwynion mewn peiriant a throsglwyddiad dwfr trwy bibellau. Er fod dynion o gymmeriad Descartes a Syr Isaac Newton yn edrych yn ffafriol ar y dybiaeth hon, eto yn fuan yr oedd dynion yn barod i ymwrthod â syniad oedd yn darostwng bywyd i radd peiriant cyffredin, megys olwyn ddwfr neu felin wynt.

Y cynnyg nesaf oedd, ceisio esbonio holl amlygiadau bywyd, trwy dybied fod *hylif bywydol* (*vital fluid*) yn rhedeg trwy y corff byw. Nid sylwedd ysbrydol o natur enaid oedd hwn; ond defnyddiol fel y corff, ac yn ddarostyngedig fel yntau i ddeddfau corfforol. Barthez oedd y cyntaf a ddefnyddiodd yr ymadrodd hwn i ddynodi rhyw sylwedd heb fod yn gorff nac ysbryd, ac eto yn alluog i hanfodi ei hunan. Yr un syniad a gynnwysir mewn gwahanol ymadroddion ereill, megys "gallu iachaol natur" (*the healing power of nature=vis medicatrix naturæ*); yr hyn sydd yn gosod allan y duedd sydd mewn corff byw i ymiachäu pan yn dyoddef oddi wrth unrhyw anhwylder neu unrhyw niwed. Mae ymadroddion ereill hefyd mewn arferiad sydd yn arwyddo yr un peth, os defnyddir hwynt am sylweddau gwahaniaethol oddi wrth gorff ac enaid; megys *organic agent* gan Dr. Prout, ac *organic force* gan Müller, a rhai Ellmyn ereill; ac hefyd y *nisus formativus*, neu *bildungstrieb*="y duedd ymffurfiol," gan Blumenbach.

Y mae egwyddorion gallofyddiaeth yn esbonio pa fodd y mae ysgogiadau *wedi dechreu* yn cael eu trosglwyddo a'u hamrywio; ond ymddengys fod yn y corff allu i ddechreu ysgogiad, a hyn a arweiniodd i'r dyb fod rhyw egwyddor uwch yn bod, ond eto un ddefnyddiol (*material*). Ar ol y darganfyddiadau a wnaed yn y deunawfed canrif, mewn cyssylltiad â gwefriaeth, yr oedd meddyliau dynion yn cael eu cynnefino â hylif anweledig, annheimladwy, ond o nerth mawr; yr hyn a barotodd feddyliau llawer i gredu fod y fath beth a hylif bywydol, a'i fod yr un a'r hylif gwefrol. Y mae ymadroddion John Hunter yn anmhenderfynol ar hyn. Weithiau llefara am yr ymenydd fel *y sylwedd bywydol* (*materia vitæ*), a dywed, "fod rhywbeth cyffelyb yn rhedeg trwy yr holl gorff, ac hefyd yn gynnwysedig yn y gwaed." Ond bryd arall dywed, fod yr egwyddor o fywyd yn annibynol ar, ac yn chwanegol at, y cyfansoddiad organaidd (*organic structure*) fel y mae *magnetism* i haiarn, a gwefriaeth i sylweddau ereill. Dadleuai Abernethy hefyd dros y golygiad hwn—"Os nad yw yr egwyddor fywydol, a amddiffynid gan Mr. Hunter, yr un peth a gwefriaeth, y mae lle i feddwl ei fod o'r un natur." Yn mysg ysgrifenwyr diweddar, Dr. Prout sydd wedi geirio ei hun egluraf am natur yr *hylif bywydol*, neu y *gweithredydd organaidd*. Ei eiriau ydynt,—"Rhaid ei ystyried fel yr egwyddor eithaf mewn natur, wedi ei gynnysgaethu gan y Creawdwr â gallu sydd o fewn ychydig yn meddu priodoliaethau trwy ba rai y mae yn alluog i ffurfio corff allan o sylweddau naturiol, a darostwng yr elfe nau naturiol i'w ddybenion ei hun."

Trwy gynnorthwy y dybiaeth hon yr eglurid y gweithrediadau bywydol hyny nad ellid eu hesbonio ar egwyddorion fferyllaidd a gallofyddol; megys didoliad y dagrau, y llaeth, y *bile*, &c., oddi wrth y gwaed. Dywedai John Hunter fod yr hylif hwn yn rhedeg yn y gwaed fel trwy bob rhan arall o'r corff, a bod y gwaed wedi ei ollwng o'r gwythïenau i lestr yn para yn fyw am amser cyn i'r hylif bywydol ddianc. Fel gwrthddadl i'r dybiaeth fod gweithrediadau bywyd i'w priodoli i hylif o'r natur hwn, gofynir pa fodd y mae y dydoliadau (*secretions*) oddi wrth y gwaed mor amrywiol, os yr *un* hylif bywydol sydd yn rhedeg trwy yr holl gorff? Dylid sylwi yma, nad yw y rhai sydd yn dadleu dros nac yn erbyn yr egwyddor o *hylif bywydol* yn golygu fod hyn yn effeithio ar eu barn mewn perthynas i ran ysbrydol ac anfarwol dyn. Os addefir fod y fath sylwedd, caniatëir nad yw hyn yn effeithio dim ar ein barn o berthynas i hanfodiad enaid, o herwydd fod natur a phriodoliaethau y ddau yn hollol wahanol. Ni ddylid, medd Abernethy [*Exposition on Hunter's Theory of Life*], wrth ddadleu dros hanfodiad annibynol yr hylif hwn, ddarostwng y meddwl a'r deall trwy eu priodoli i ddim llai nag ysbryd. Geiriau Dr. Pritchard [*Review of the Doctrine of a Vital Principle*], yr hwn sydd yn wrthwynebydd cryf i'r dybiaeth o hylif, ydynt,—"Tybier am fynyd fod y ddau yn hanfodi, y maent yn hollol wahanol o ran eu natur a'u priodoliaethau." Dywed Dr. Alison [*Outlines of Physiology*], yr hwn sydd yn cymmeryd i fyny le canol,—"Pa beth bynag ydyw ein barn am hanfodiad annibynol egwyddor fywydol, nid oes dim cyssylltiad rhyngddo a'n syniad am hanfodiad meddwl."

Yr ymgais nesaf oedd ceisio esbonio gweithrediadau bywyd, trwy ddyweyd fod *enaid anifeilaidd* (*animal soul*) yn y corff. Y mae yr athrawiaeth am yr enaid, fel egwyddor fywydol y corff, yn wahaniaethol oddi wrth ac yn annibynol ar yr athrawiaeth am yr enaid, fel y rhan ddeallol, moesol, a chyfrifol o ddyn. Y mae y golygiad hwn yn hen. Yn nhraethawd Aristotle *Ar yr Enaid*, priodolir tair *rhan* i'r enaid;—*maethiannol* (*nutritive or vegetative*), *teimladwy*, a *rhesymol*. Defnyddiai y Groegiaid y gair *nous* am gynneddfau rhesymol dyn; a chredai Aristotle, y gallai hanfodi ar wahan oddi wrth y corff, ac hefyd oddi wrth y rhan arall o'r *psyche* (enaid)—gair a gynnwysai yr hyn a elwir *yn awr* yr egwyddor fywydol, ac hefyd y cynneddfau anianyddol a deallawl. I'r gyfres o weithrediadau bywydol, a elwir *bywyd* gan anianyddwyr diweddar, priodolid y gair *zoe* gan y Groegiaid. Gwnai yr athronwyr Rhufeinig wahaniaeth cyffelyb; y rhai a gynnwysent yr egwyddorion bywydol ac anianyddol dan y gair *anima*, ac a ddefnyddient *animus* i ddynodi yr egwyddorion rhesymol.

Ond mewn oesoedd diweddar, Stahl a roddodd arbenigrwydd i'r farn hon mewn gwrthwynebiad i'r tybiau blaenorol. Cyfundraeth Stahl ydyw—nad oes gan y corff, fel corff, ddim gallu i ymsymmud, a bod yn rhaid ei roddi mewn ysgogiad gan sylweddau ysbrydol. Y mae pob ysgogiad yn weithred o eiddo ysbryd. Yn ol ei farn ef, enaid neu egwyddor ysbrydol yn unig

Digitized by Google

a all fod yn ffynnonell gweithgarwch, neu fywiogrwydd corfforol. Fel y canlyn y dywed Sprengel [*History of Medicine*] — anianydd o farn a gwybodaeth addefedig—am yr esboniad hwn ar weithrediadau bywydol:—"Pan y llefara gwrthwynebwyr Stahl am yr anmhriodoldeb o ddwyn i mewn egwyddor uchanianol i egluro gweithrediadau anianyddol, nid oes rym yn eu gwrthwynebiad. Y mae agweddau yr enaid yn rhy bwysig yn eu gweithrediad ar y corff i'r meddyg allu edrych drostynt. Y mae cyssylltiad ein gwybodaeth am yr enaid, yn ei wahanol nwydau a'i dueddiadau, â'n gwybodaeth am y corff, yn llawer nes nag y mae y rhai hyny yn ei ddychymygu sydd heb ymgodi yn uwch nag egwyddorion fferyllaidd a gallofyddol.

"Ond yr hyn sydd yn wrthddadl yn erbyn yr esboniad hwn ydyw, Pa fodd y gellir priodoli gweithrediadau bywydol llysiau i enaid, heb gellwair â'r gair *enaid?* Nis gellir chwaith tynu llinyn tyn rhwng llysiau ac anifeiliaid, er mwyn ysgoi yr wrthddadl, a phriodoli gweithrediadau y llysiau i beirianwaith, a gweithrediadau yr anifail i egwyddor feddyliol. Heb law hyny, y mae y fath wahaniaeth yn anmhosibl; o herwydd nis geliir esbonio esgyniad y sudd (*sap*), a chyfnewidiadau yr hylifau (*fluids*), mewn llysiau, ar egwyddorion defnyddiol (fferyllaidd a gallofyddol)."

Y mae Whewell [*Philosophy of the Inductive Sciences*] yn dadgan ei farn am yr egwyddor o *enaid anifeilaidd* fel y canlyn.—"Pa mor anhawdd bynag y dichon fod symmud ymaith yr holl anhawsderau i'r esboniad hwn o weithrediadau bywydol, y mae yn cynnwys gwirioneddau pwysig sydd yn cael eu cau allan gan y tybiau blaenorol. Rhydd unoliaeth i'r corff byw; ac heb law hyny, dengys yn eglur fod bywyd yn beth uwch o lawer na gweithrediadau fferyllaidd a gallofyddol, ac yn meddu ar briodoliaethau hollol wahaniaethol. Nid yn unig, dengys i ni fod bywyd yn uwch na deddfau adnabyddus y byd defnyddiol, ond hefyd ei fod yn agos gyssylltiedig â meddwl a theimlad, ewyllys a rheswm; a rhydd syniad i ni am fod yn meddu bywyd, ymwybyddiaeth, teimlad, a gallu, i weithredu.

"Ar yr un pryd, rhaid addef fod bywyd llysiau, a'r graddau isaf o anifeiliaid, yn dangos i ni fod yn rhaid i ni adael allan o'n syniad am fywyd yr ansoddau uwch sydd yn gynnwysedig mewn 'enaid,' mewn trefn i gael drychfeddwl sydd yn gymhwysiadwy at bob math o fywyd. Felly, nis gallwn lai na dyfod i'r penderfyniad fod yr esboniad diweddaf hwn yn gywir, mor bell a hyn:—ei fod, wrth briodoli gweithrediadau bywyd i *enaid*, yn dangos allan mewn modd grymus yr anmhosiblrwydd i'w priodoli i ddim ansoddau *corfforol* sydd yn adnabyddus."

Y mae yr holl ymdrechiadau hyn i gyrhaedd drychfeddwl clir am natur bywyd wedi methu; o herwydd nis gallant ein harwain ond i ryw benderfyniadau *nacaol*. Y mae hyn wedi achlysuro dull arall o astudio y cwestiwn. Yn lle edrych ar fywyd fel un drychfeddwl, y mae ymdrechiadau wedi eu gwneyd i'w ranu i wahanol syniadau neu ddrychfeddyliau: yn lle edrych am un achos o'r holl weithrediadau bywydol, cymmerir y gweithrediadau hyn bob yn un ac un, i chwilio am eu hachosion hwythau. Nis gellir gwneyd yn well yma na rhoddi amryw o'r *deffiniadau* (*definitions*) sydd wedi cael eu rhoddi o fywyd o bryd i bryd, er mwyn i'r darllenydd gael gweled pa fodd y mae y dynion mwyaf cydnabyddus â'r ymchwiliadau hyn wedi rhoddi eu syniadau am fywyd mewn ychydig eiriau.

Deffiniad Stahl am fywyd yw—"Y cyflwr, trwy ba un y mae y corff yn gwrthsefyll y duedd i gyfnewidiadau fferyllaidd, megys llygriad neu ddadgyfansoddiad." Yn gyffelyb y mae M. Von Humboldt yn geirio ei syniad yntau am gorff byw. Y mae y darllenydd wedi sylwi yn flaenorol mai â bywyd yn ei ystyr eangaf, fel yn gymhwysiadwy at anifeiliaid a llysiau, y mae a wnelo y sylwadau hyn. Geiriau Humboldt ydynt—"Y mae y cyrff hyny sydd, er gwaethaf dylanwad achosion allanol i newid eu ffurf, er hyny, trwy rym gallu tufewnol, yn gwrthsefyll y cyfryw gyfnewidiadau, yn fyw." Y mae y deffiniadau hyn yn nacaol hefyd, ac yn ymfoddloni ar ddyweyd fod bywyd yn rhywbeth uwch law gallu fferyllaidd:—os na ddywedir mai wrth yr egwyddor *dumewnol* y meddylir egwyddor o ba un yr ydym yn *ymwybyddol* ynom ein hunain; ac wrth hyn eto yr ydym yn priodoli enaid i bob peth byw. Nid annhebyg chwaith yw deffiniad Kant, fod "bywyd yn allu tumewnol, sydd yn cynnyrchu cyfnewidiad, ysgogiad, a gweithrediad." Y mae deffiniadau ereill o'r drychfeddwl o fywyd yn ein cyfeirio at organyddiaeth (*organization*). "Bywyd ydyw gweithgarwch defnydd yn unol â deddfau organyddiaeth." Ond yma, fe ofynir, Pa beth ydyw organyddiaeth? I hyn y mae Kant yn rhoddi yr atebiad canlynol—"Cynnyrch organyddol (*organic product*) ydyw yr hyn y mae ei holl ranau yn foddion ac yn ddybenion."[1]

Ond sylwyd o'r blaen y gallai yr ymchwiliad fod yn fwy llwyddiannus wrth beidio edrych am *un* math o weithrediad fel yn gwneyd i fyny fywyd, ond edrych am *wahanol* achosion mewn gweithrediad yn mhob corff byw. Mae amryw weithrediadau wedi eu cylymu mewn undeb â'u gilydd, a bywyd ydyw yr oll o'r rhai hyn; mewn gair, nid un gweithrediad, ond cyfundraith o

1 "We conceive animal life as a vortex or cycle of moving matter, in which the form of the vortex determines the motions, and these motions again support the form of the vortex; the stationary parts circulate the fluids, and the fluids nourish the permanent parts. Each portion ministers to the others; each depends upon the other; the parts make up the whole, but the existence of the whole is essential to the preservation of the parts. But parts existing under such conditions are *organs*, and the whole is *organized*. This is the fundamental conception of organization. Organized beings are composed of a number of essential and mutually dependent parts."—*Muller.*

"An organized product of nature is that in which all the parts are mutually means and ends."—*Kant.*

"We do not content ourselves that in such a whole all the parts are *mutually dependent*. This might be true even of a mechanical structure; it would be easy to imagine a framework, in which each part should be necessary to the support of each of the others; for example, an arch of several stones. But in such a structure the parts have no properties which they derive from the whole. They are beams or stones when separate—they are no more when joined. But the same is not the case in an organized whole. The limb of an animal separated from the body loses the properties of a limb, and soon ceases to retain it even in form.

"Nor do we say that the parts are mutually causes and effects. This is the case in machinery. In a clock, the pendulum by means of the escapement causes the descent of the weight, the weight by the same escapement keeps up the motion of the pendulum. But things of this kind may happen by accident; stones slide from a rock down the side of a hill and cause it to be smooth; the smoothness of the slope causes stones still to slide; yet no one would call such a slide an organized system. The system is organized when the effects which take place among the parts are *essential to our conception of the whole*, when the whole would not be a whole, nor the parts parts, except these effects were produced—when instead of being *causes and effects* they are *means and ends*."—*Whewell's Philosophy of the Inductive Sciences.*

Digitized by Google

weithrediadau ydyw bywyd. Y mae hyn yn ein dwyn at ddeffiniad Bichat,—"Bywyd ydyw swm y gweithrediadau trwy ba rai y mae angeu yn cael ei wrthsefyll." Neu yn ol cyfnewidiad Whewell, "*Bywyd ydyw cyfundraith o weithrediadau bywydol.*" Y mae ei ddysgriflo yn *gyfundraith* yn well na defnyddio y gair *swm*, o herwydd y mae y gair cyfundraith yn dangos eu dibyniad a'u dylanwad ar eu gilydd, yr hyn nid yw y gair swm yn ei wneuthur.

Ond y mae yn bosibl gwrthddadleu yma eto, a dyweyd nad yw y fath ddeffiniad yn esbonio dim; oherwydd y mae gweithrediadau *bywydol* yn cynnwys fod *bywyd*, ac felly yn ein dwyn yn ol i'r man y cychwynasom. Ac y mae mor angenrheidiol esbonio y naill a'r llall. Ond gellir ateb nad oes un llwybr arall yn bosibl; nis gellir cyrhaedd un egwyddor gyffredinol ac ymresymu oddi wrth hono at wahanol ansoddau bywyd, megys treuliad, anadliad, cylchrediad y gwaed, &c. Rhaid eu hastudio yn wahanredol, ac ymdrechu cael allan eu deddfau bob yn un ac un. A hwn ydyw y llwybr y mae yr anianydd mwyaf athronyddol, ac uchaf ei awdurdod, mewn amseroedd diweddar, sef Cuvier, wedi ei nodi allan fel yr unig un a all arwain i gynnydd o wybodaeth ffiddiol ar y mater dan sylw.

Ni chynnygir yma wneyd unrhyw ddosbarthiad o'r gweithrediadau bywydol hyn. Y maent yn adnabyddus wrth yr enwau synwyryddiaeth (*sensation*), ysgogiad (*locomotion*), a llais (*voice*), fel yn perthyn yn neilldual i anifeiliaid. Ac ymdreuliaid (*digestion*), sychiant (*absorption*), a thebygoliad (*assimilation*), fel yn perthyn yn gyffredin i anifeiliaid a llysiau.

Er mwyn i'r darllenydd gael syniad o'r dull y mae anianyddwyr yn ymdrechu cyrhaedd drychfeddyliau sefydlog am y gwahanol alluoedd bywydol (*vital forces*), rhoddir yma eu golygiadau ar un neu ddau o'r gweithrediadau hyn. A chymmerwn yn benaf y gweithrediad drwy ba un y mae yr ymborth yn cael ei droi yn waed, cnawd, a'r gwahanol ddefnyddiau sydd yn y corff (*assimilation* a *secretion*). Bod anifeiliaid a llysiau yn cynnyddu wrth dderbyn i'w cyfansoddiad ddefnyddiau nad oedd o'r blaen yn rhan o honynt sydd amlwg i bawb. Ond erbyn ymchwilio iddo ychydig, ymddengys nad yw hyn yn rhydd oddi wrth ddirgelwch sydd yn anhawdd ei egluro. Pa fodd y mae yr un ymborth yn myned yn waed a chnawd, asgwrn, a gwallt? Yr ymgais cyntaf i ateb hyn oedd, trwy ddyweyd fod yr ymborth yn cynnwys y gwahanol ddefnyddiau hyn. Ond i hyn gellir dyweyd nad ydym yn cael fod llaeth mewn llysiau, na gwaed mewn ffrwythau, er fod y cyfryw ymborth yn rhoddi llaeth a gwaed i anifeiliaid a dynion. Y syniad y mae y ffeithiau yn ei gorfodi arnom ydyw, fod y corff byw nid yn *cael* ond yn *gwneyd* y defnyddiau sydd yn ffurfio ei gyfansoddiad. Nis gellir yma ond dangos mewn ychydig eiriau pa fodd y mae anianyddwyr yn dysgrifio y gweithrediad bywiol hwnw sydd yn troi yr ymborth i'r gwahanol sylweddau angenrheidiol i'r corff.

I gael golwg clir ar hyn, rhaid edrych ar ymborthiad anifeilaidd a llysieuol yn fath o ysgogiad parhaus mewn cylch. Y mae y corff yr un, ond y mae ei ranau yn newid; y maent yn myned ac yn dyfod. Am amser, y mae y defnydd sydd yn perthyn i'r corff byw yn nglŷn âg ef yn ol deddfau penodol; ond cyn iddo ddyfod i undeb âg ef, ac wedi ei ryddhau oddi wrth yr undeb hwnw, y mae y defnydd yn rhydd i grwydro trwy y byd mewn rhyw ffurf arall. Mae bywyd yn ddylanwad parhaus ar ddefnyddiau cyfnewidiol.

Y mae yr anianydd enwog, Cuvier, yn rhoi yr un syniad fel y canlyn:—"Mewn trefn i gyrhaedd drychfeddwl eglur am hanfod bywyd, rhaid i ni edrych arno yn ei effeithiau symlaf; a chawn weled yn fuan ei fod yn gynnwysedig yn y gynneddf sydd yn perthyn i wahanol gyfansoddiadau corfforol i barhau am ryw dymmor mewn ffurf benodol; gan dynu i mewn i'w cyfansoddiad ryw gymmaint o'r defnyddiau cylchynol, ac ymwrthod yn eu tro â rhyw gymmaint o'u sylwedd eu hunain.

"Y mae bywyd yn *gylchdro*—weithiau yn fwy cyflym ac weithiau yn fwy dyrus i'w olrhain, yn troi yn wastadol mewn cyfeiriad pendant, ac yn cario yn ei ffrwd ddefnyddiau priodol; ond y mae y defnyddiau yn myned i mewn ac yn dyfod allan yn barhaus; fel y mae *ffurf* y corff byw yn fwy hanfodol iddo na'r defnydd.

"Tra y parhao yr ysgogiad hwn, y mae y corff yn mha un y cymmer le yn *fyw*. Pan y derfydd yr ysgogiad, y mae y corff yn *marw*. Ac ar ol marwolaeth, y mae yr elfenau, oedd yn cyfansoddi y corff mewn ufudd-dod i ddeddfau ffeylliaeth, yn ymadael â'u gilydd, ac y mae y corff oedd yn fyw wedi ymddattod."

Ond y mae y syniad hwn yn annigonol i egluro yr holl ffeithiau; o herwydd y mae defnyddiau nid yn unig yn cael eu cymmeryd i'r gyfundraith, ac am amser yn rhedeg trwy y cylch, ond y maent yn cael eu cyfnewid mewn dull anadnabyddus i ni ar eu mynediad cyntaf i'r corff, ac hefyd yn barhaus ar eu mynediad trwyddo. Nid yw yn ddigon, gan hyny, edrych ar fywyd yn fath o gylch neu drobwll, o'r un defnyddiau, megys dwfr. Y mae y defnyddiau yn cael eu cyfnewid i sylweddau ereill wrth redeg eu cylch. Ac y mae y galluoedd sydd yn effeithio y cyfnewidiadau hyn gymmaint yn uwch na galluoedd fferyllaidd ag ydyw cyfnewidiadau fferyllaidd yn uwch na chyfnewidiadau meintonaidd (*geometrical*). Oddi wrth hyn fe ymddengys fod bywyd yn cynnwys rhyw alluoedd sydd yn gweithredu yn barhaus ar y defnyddiau sydd yn dyfod i gylch eu dylanwad. Y mae y galluoedd hyn yn alluoedd bywydol. Gallwn weled i fesur hefyd, oddi wrth a ddywedwyd, y gwahaniaeth rhwng y rhai hyn a galluoedd fferyllaidd a gallofyddol:—y mae y rhai olaf yn tueddu i gynnyrchu sefyllfa o dawelwch, ar ol pa un nid oes un achos o gyfnewidiad mwy; tuedd galluoedd gallofyddol ydyw cynnyrchu cydbwysedd (*equilibrium*): galluoedd fferyllaidd a gynnyrchant gyfansoddiad a dadgyfansoddiad; ac ar ol i'r amcan hwn gael ei gyrhaedd, y mae y defnyddiau y gweithredid arnynt yn hollol farw. Ond mewn corff byw, y mae ysgogiad parhaus. Y mae graddau galluoedd gallofyddol a fferyllaidd yn gyfartal i raddau y defnyddiau; ond mewn galluoedd bywydol, nid yw eu heffaith yn dibynu ar y defnydd, ond ar *ffurf* y bywyd. Y mae y defnyddiau yn colli eu galluoedd neu briodoliaethau eu hunain, i gyfranogi o nerth y bywyd.

Er fod y gallu bywydol, sydd yn troi yr ymborth yn waed, &c., ac yn didoli gwahanol ddefnyddiau o'r gwaed, megys dagrau, &c., yn anadnabyddus yn ei natur, eto yr ydym yn cael golwg ar rai o'i briodoliaethau. Y mae yn cynnyrchu effeithiau gallofyddol, gan beri *ysgogiad* yn ngwahanol hylifau y corff; ond y mae yn attynu defnyddiau ar un ochr, ac yn eu gwrthod ar yr

Digitized by Google

ochr arall—y mae yn attynu ac yn gwrthweithio ar unwaith; ac yn hyn y mae yn hollol wahanol i nerth gallofyddol. Y mae y gallu bywydol, nid yn unig yn cynnyrchu effeithiau gallofyddol, ond hefyd fferyllaidd, gan hollol newid natur y sylwedd y gweithreda arno; ac y mae yr effeithiau fferyllaidd hyn y cyfryw, yn y cyffredin, nas gall fferyllwyr eu hefelychu. Mae y gallu bywydol, yn ei weithrediad, yn myned yn mhellach na hyn hefyd, ac nid yn unig yn rhoi yr hylifau mewn ysgogiad, gan eu cyfnewid o ran eu cyfansoddiad, ond y mae yn dal i fyny ac yn cryfhau y peiriant bywydol ei hun, ac yn rhoi bywyd yn y defnydd y gweithreda arno, gan roddi gallu iddo i gynnyrchu cyfnewidiadau cyffelyb mewn defnyddiau ereill, a hyny yn barhaus.

BYZANTIUM. Gwel CONSTANTINOPLE.

Digitized by Google

C.

CAB. Gwel MESURAU.

CABBALISTIAID, [*Cabbalists*] : doctoriaid Iuddewig, a broffesent efrydiaeth ar y *Cabbala* (קבה, pethau derbyniedig, traddodiadau); credent fod pob gair, llythyren, ac acen, yn yr Hen Destament yn cynnwys ryw ystyr dirgelaidd; a'u hymgais oruchel, yn ol eu tyb hwy, oedd cael allan y cyfryw ddirgelwch. Honent fod y wyddiant a ddilynent, a'r ystyron a roddent i air Duw, wedi eu derbyn ar y dechreu gan Dduw, a'u trosglwyddo iddynt hwy gan henafiaid eu cenedl trwy *draddodiad*. Ar hyn dywed Maimonides —"Darfu i Dduw roddi, nid yn unig y gyfraith i Moses ar fynydd Sinai, ond eglurhad o honi hefyd. Wedi i Moses ddyfod i waered o'r mynydd, a myned i'w babell, aeth Aaron i ymweled âg ef, a hysbysodd Moses y deddfau a dderbyniodd efe gan Dduw i Aaron, yn nghyd â'r eglurhadau o honynt. Wedi hyny gosododd Aaron ei hun ar ddeheulaw Moses, a derbyniwyd Eleazar ac Ithamar, meibion Aaron, i mewn, i barai yr ailadroddodd Moses yr hyn a hysbysasai efe o'r blaen i Aaron. Wedi i'r rhai hyn eistedd, un ar y llaw ddeheu a'r llall ar yr aswy i Moses, daeth deg a thrigain henuriaid Israel, pa rai a gyfansoddent y gynghorfa, i mewn. Traethodd Moses drachefn y deddfau iddynt, yn nghyd â'r eglurhadau, fel y gwnaeth o'r blaen i Aaron a'i feibion. Yn ddiweddaf, gwahoddwyd pwy bynag a ewyllysiai o'r bobl gyffredin i ddyfod i mewn, a dysgodd Moses hwynt hefyd, fel y gwnaeth â'r lleill. Felly, clywodd Aaron yr hyn a hysbyswyd gan Dduw i Moses ar fynydd Sinai bedair gwaith; Eleazar ac Ithamar deirgwaith; y deg henuriad a thrigain ddwywaith; a'r bobl unwaith. Wedi hyny ysgrifenodd Moses y deddfau a dderbyniodd, ond nid yr eglurhadau: meddyliodd fod yn ddigon ymddiried y rhai hyny i gof y personau a enwyd; pa rai, gan eu bod wedi eu dysgu yn berffaith ynddynt, a'u traddodasant i'w plant, a'r rhai hyny i'w plant hwythau, o oes i oes."

Hona rhai o'r rabbiniaid fod tarddiad y Cabbala i'w briodoli i'r angelion; fod yr angel Raziel wedi eiddysgu i Adda, yr angel Iaphial i Sem, a'r angel Zedekiel i Abraham. Yr amcan mewn golwg wrth roddi tarddiad mor uchel iddynt, oedd eu gwisgo â mawredd a phwysigrwydd, er mwyn cael gwell gwrandawiad gan y bobl; o blegid nis gall fod ammheuaeth nad yw y Cabbala ddim amgen na'r deddfau geneuol neu draddodiadol a goleddid yn mhlith yr Iuddewon, ac a ffynent mor fawr yn nyddiau ein Hiachawdwr nes dymchwelyd deddfau yr Arglwydd. Gwel *Mat.* xv. 1—9. Y mae yr un mor ddilys mai i'r rabbiniaid Iuddewig y maent i'w tadogi: nad ydynt amgen na'u hesboniadau a'u penderfyniadau hwy ar gyfraith Moses, &c. Y mae y traddodiadau hyn yn dra lluosog, ond yn bur ddiwerth. Er hyny, ystyrid hwy yn fwy pwysig na Moses na'r prophwydi, yn enwedig gan y Phariseaid; yr hyn, yn mhlith pethau ereill, oedd yn eu gwahaniaethu hwynt oddi wrth y Saduceaid.

Casglwyd y traddodiadau yn nghyd yn yr ail canrif, neu yn ddiweddarach, gan y rabbiniaid, ac yn enwedig gan R. Iudah, o deulu Gamaliel, yn ol Lightfoot, a dewis-ddyn un o'r Antoniniaid. Gelwir y casgliad hwn *Mishna* (*ailadroddiad*). Ychwanegwyd ato amrywiol eglurhadau gan rabbiniaid ereill yn ddiweddarach, o dan yr enw *Gemara* (*gorpheniad*); a galwyd y ddau yn nghyd, *Y Talmud*. Gelwir y Mishna, yn nghyd â'r esboniadau a gasglwyd gan rabbiniaid Ierusalem yn y pedwerydd a'r pummed canrif, *Talmud Ierusalem*. Casglwyd yr esboniadau sydd yn *Nhalmud Babilon* yn y chweched canrif gan y rabbiniaid oedd yn byw yn Babilon. Y mae y Mishna yr un fath yn y ddau. Cyfododd y traddodiadau a gynnwysir ynddo, fel y bernir, o ddeutu tri chant o flyneddoedd cyn Crist. Cynnwysa y *Talmud* lawer o sylwadau beirniadol ac eglurhaol, y fath ag ydynt, ar destyn yr Ysgrythyrau; pa rai, yn benaf, ydynt gynnyrch ymchwiliadau y Cabbalistiaid.

Yr awdwr Cabbalistaidd cyntaf y gwyddys am dano ydoedd Simon, mab Ioachai, yr hwn oedd yn byw ychydig cyn y dinystriwyd Ierusalem gan Titus. Mae ei lyfr, a elwir *Zobar*, ar gael etto; ond bernir fod llawer o chwanegiadau wedi eu gwneuthur ato. Y ffyrdd a fabwysiadai y Cabbalistiaid diweddar, yn eu hesboniadau, oedd chwilio allan gyssylltiadau geiriau, llythyrenau, a rhifau neillduol; a thrwy hyny proffesent gael allan wir ystyr ysgrythyrau dyrus a thywyll. Gelwir hyn y Cabbala celfyddydol, i'w wahaniaethu oddi wrth draddodiadau syml. Rhanent y Cabbala celfyddydol yn dri math. Yn ol un math, dygent allan ystyr gair tywyll oddi wrth werth rhifyddol y llythyrenau a'i cyfansoddent. Nid oedd gan yr Hebraeg arwyddluniau am rifau, ond defnyddiai ei llythyrenau i'r perwyl hwn—y llythyren gyntaf am un, yr ail am ddau, &c. Pan y cyfarfyddai y Cabbalistiaid â gair tywyll yn yr Ysgrythyrau, penderfynent yn gyntaf werth rhifyddol y llythyrenau a'i cyfansoddent; yna chwilient am air dealladwy, wedi ei gyfansoddi o lythyrenau yn cynnrychioli yr un gwerth rhifyddol; ac os caent un, eu casgliad oedd fod y gair dealledig yn cyfleu ystyr y gair tywyll. Er anghraifft, y mae y geiriau יבא שילה (=*ddel y Siloh*;) *Gen.* xlix. 10, yr un o ran eu gwerth rhifyddol a משיח (*Messiah*). Fel hyn, י=10, ב=2, א=1, ש=300, י=10, ל=30, ה=5; y cyfan 358. Eto, מ=40, ש=300, י=10, ח=8; y cyfan, 358. Y casgliad gan hyny yw, mai Messiah yw ystyr yr

Digitized by Google

ymadrodd blaenaf. Dygwydda y lythyren א yn *Gen.* i. 1 chwe gwaith; a chan fod א yn cynnrychioli 1,000, tybiant fod dygwyddiad y lythyren hon chwe gwaith yn yr adnod sydd yn traethu am y greadigaeth yn brawf y parha bodolaeth y ddaiar am chwe mil o flynedd-oedd.

Mae yr ail math o'r Cabbala, weithiau, yn gynnwysedig mewn rhoddi ystyr i bob llythyren, neu, mewn geiriau ereill, mewn gwneuthur i bob llythyren mewn gair gynnrychioli geiriau ereill. Y gair cyntaf yn y Beibl yw בראשית (*Brashith*). O hwn gwneir,—Bara Racia Arets Shamaim Iam Tehomoth = "Efe a greodd y ffurfafen, y ddaiar, y nefoedd, y môr, a'r dyfnderau." Yn y gair ברא (*creu*) yn *Gen.* i. 1, y maent yn cael y llythyrenau cyntaf yn בן, ריח, אב, Mab, Ysbryd, Tad; ac oddi wrth hyn profant athrawiaeth y Drindod. Pryd arall, ffurfiant un gair allan o ymadrodd (*phrase*), trwy gymmeryd y lythyren gyntaf o bob gair sydd yn cyfansoddi yr ymadrodd, a gwneuthur un gair o honynt. O'r llythyrenau cyntaf yn y geiriau אתה נכר לצלם אדני ("Tithau, Arglwydd, wyt ddyrchafedig yn dragywydd;" *Salm* xcii. 8), gwneir אנלא ("Myfi a ddadguddiaf)," enw Cabbalistaidd Duw.

Y trydydd math o Gabbala a gynnwysir mewn newid sefyllfa llythyrenau mewn geiriau, a thrwy hyny ffurfio geiriau newyddion o honynt. O בראשית ("yn y dechreuad"), gwnant air arall yn golygu "y cyntaf o Tisri;" a'r casgliad yw, mai ar y dydd cyntaf o fis Tisri y crewyd y byd. Trwy drawsosod y lythyren sydd yn y gair יצמה ("llawenychu") yn *Salm* xxi. 1, gwnant y gair Messiah; ac am hyny haerant mai ato ef y mae cyfeiriad y Salm.

Er mor ynfyd a gwrthun yr ymddengys y dull hwn o drin gair Duw, eto ystyrid y wyddiant ddychymygol o bwys mawr gan yr Iuddewon, yn arwain at wirioneddau pwysig, ond dirgelaidd, yr Ysgrythyrau. Hebddi, meddant, buasai yr Ysgrythyrau yn debyg i lyfrau cyffredin, pa rai a gynnwysent foesoldeb mor bur ag sydd yn y gyfraith, oni bai eu bod, trwy y wyddiant grybwylledig, yn gallu treiddio i mewn a chloddio allan y gwirioneddau sydd wedi eu cuddio o dan yr ystyr llythyrenol. Ond wedi eu holl ymffrost, amlwg yw nad ydyw y wyddiant, os priodol ei galw felly, ond dychymygol drwyddi, yn dwyn ar ei gwyneb arwyddion amlwg nad ydyw amgen na chreadigaeth ymddyddan rhyw rabbiniaid, wedi ei ffurfio ganddynt er mwyn dangos cywreinrwydd; ac mai ei hunig duedd ydyw camarwain yr efrydydd Beiblaidd. Dengys yr angrheifftiau a osodwyd ger bron, y gellir, yn ol y Cabbala, gwneuthur yr hyn a fynir, a phob peth braidd, o'r Ysgrythyrau Sanctaidd.

CABIDWL: yn ol y gyfraith gyffredin, gystal a chyfraith yr Eglwys Sefydledig, y mae cabidwl yn arwyddo "cynnulleidfa o wŷr llen mewn eglwys gadeiriol, fynachlogaidd, reolaidd, neu golegol." Gair yn tarddu o'r Lladin ydyw *cabidwl*, a'i ystyr yw *pen bychan*; a gelwir cynnulleidfa neu gorfforaeth o'r fath uchod ar y cyfryw enw, o herwydd ei bod yn fath o ben, nid yn unig i reoli a llywio yr esgobaeth pan fyddo hono yn wag, eithr hefyd mewn llawer o bethau i gynghori yr esgob pan fyddo yr esgobaeth yn llawn.

CABLEDD YN ERBYN YR YSBRYD GLAN. Gwel YSBRYD GLAN.

CABOL—I—WR, [*pol*]: llyfn, gwastad, gloew—llyfnhau—llyfnhawr. *Cabol-feini*, ceryg llyfnion, ceryg yr afon. "Yn *nghabol-feini* yr afon y mae dy ran, hwynt hwy yw dy gwttws;" *Esa.* lvii. 6. Cyhuddir y genedl Iuddewig o fod wedi dewis yn rhan iddi yr eilunod—naill ai y rhai a wneid o'r ceryg llyfnion a fwrid i fyny gan orlifiant yr afonydd, neu y rhai a addolid ar allorau wedi eu gwneuthur o'r cyfryw geryg, neu ynte y rhai a addolid ar lanau yr afonydd, lle yn gyffredin y gorweddai y cyfryw geryg llyfnion.

CACWN, CACYNEN, [*cwn*]: math o wenyn mawrion, cryfion, a gwenwynig, hynod am ffyrnigrwydd eu tuedd a llymder eu colyniad. Y gair a ddefnyddir i'w dynodi yn nghyfleithiad y Deg a Thrigain ydyw, σφηκίας; ac yn y *Vulgate*, *crabrones*: ac y mae cywirdeb y cyfleithiadau hyn yn cael ei gadarnhau gan y cyd-darawiad sydd rhwng nodweddau adnabyddus y cacwn a'r dysgrifiad a roddir gan Aristotle o'r σφηξ, a chan Pliny o'r *crabro*. Y mae amrywiol fathau o'r creaduriaid hyn, ac y mae eu brathiadau yn hynod o lymdost. Ymddengys mai dyma y creaduriaid a ddefnyddiodd yr Arglwydd gynt i ymlid gelynion Israel o Wlad Canaan (*Exod.* xxiii. 28; *Deut.* vii. 20; *Ios.* xxiv. 12); er fod rhai yn tybied nad yw y gair "cacwn," yn yr amgylchiad uchod, i'w ddeall yn llythyrenol, ond yn ffugrol, am glefydau, a dychrynfeydd goruchnaturiol, &c., trwy ba rai yr oedd yr Arglwydd yn gwneuthur i'r Canaancaid ffoi o flaen cenedl Israel. Yn mhlith awdwyr diweddar, y mae Michaelis yn dadleu dros yr ystyr allegawl. Yn mysg pethau ereill, y mae efe yn ammheu y *posiblrwydd* o ymlidiad y Canaaneaid trwy offerynoliaeth heidiau o gacwn; ac yn olrhain y gair Hebraeg i wreiddyn yn arwyddo, fflangellau, pläau, &c.; ond y mae ei resymau yn cael eu gwrthateb yn foddhaol gan Rosenmüller, ac ereill. Y mae Ælian yn rhoddi hanes am ymlidiad y Phaselitiaid o'u gwlad trwy y moddion hyn; ac y mae Bochart yn dangos mai Phœniciaid oedd y bobl hyny. Nid ymddengys nemawr o reswm dros ammheu y posiblrwydd o hyn yn achos y cenedloedd a breswylient Wlad Canaan, pan y cymmerir i ystyriaeth allu anorchfygol heidiau mawrion o wenyn a chacwn, fel y mae yn cael ei brofi gan luaws o anghreifftiau diweddar, ac hefyd wrth ystyried mor ysgeifn a theneuon oedd gwisgoedd y Canaaneaid. Os oedd y cacwn mewn un modd, fel y *gwybed*, yn cael eu cyssylltu â'u heilunaddoliaeth, buasai hyn yn gerydd ac yn ddynoethiad nodedig o'r twyll [gwel BAALZEBUB; BEELZEBUB]. Y mae y creaduriaid hyn yn blino anifeiliaid yn fawr, trwy ymosod arnynt i'w colynu. Ond gellir sylwi fod y dosbarth hwn, fel pob dosbarth arall o greaduriaid, yn wasanaethgar a defnyddiol, fel y maent yn rhoddi attalfa ar luosogiad gwybed a mân bryfed, y rhai, heb ryw attalfa fel hyn, a ddeuent yn annioddefol i ddyn, a chyda golwg ar eu dull o wneyd eu nythod, ac yn neilldiol eu greddfau a'u harferion, nid ydynt yn ol mewn un modd i'r wenynen; ond mewn rhai pethau, y maent yn rhagori arni yn fawr.

CADACH—AU, [*tach*]: clwt, cerpyn, brat: *Num.* xix. 15; 2 *Sam.* xx. 12. Pethau ffiaidd a diwerth a elwir felly weithiau: *Esa.* xxx. 22. "A hi a esgorodd ar ei mab cyntafanedig, ac a'i rhwymodd ef mewn *cadachau*;" *Luc* ii. 7. Nid yw y gair εσπαργάνωσεν yn golygu ond y rhwymynau cyffredin a roddir o amgylch y baban yn y

Digitized by Google

cyfryw amgylchiad, ac nid yw mewn un modd yn arwyddo tlodi. Seis.,—"*wrapped him in swaddling clothes.*" Dr. Campbell,—"*and swathed him.*"

CADBEN, [*cad—pen*]: arweinydd byddin; llywydd, blaenor, neu dywysog llu; penaeth milwyr; distain. Llygriad o'r gair hwn yw y gair cyffredin, *capten.* "*Videtur corrupte dici ad imitationem Lat. Capitaneus pro* Cadpen, *b. e.* Pen y gâd, *caput & præfectus aciei.*"—*Dr. Davies. Num.* ii. 3, &c.; *Deut.* i. 15; 2 *Bren.* xviii. 24; 1 *Cron.* xix. 16. Y gair a gyfleithir "pen-capten," yn *Act.* xxi. 31, a arwydda lywydd ar fil o wŷr. "Milwriad;" *Ioan* xviii. 12. Seis., *captain.*

CADES, [קדש, *sanctaidd*, neu *sancteiddrwydd*]: 1. Enw anialwch yn y deheu o Wlad Canaan (*Gen.* xx. 1; xvi. 14; *Salm* xxix. 8); yr un, dybygid, ag anialwch Paran, neu yr oedd yn rhan o hono: *Num.* xiii. 26. Dinas yn yr anialwch hwn oedd Cades-Barnea: *Num.* xxxiv. 4; *Deut.* i. 2, 19; ii. 14; *Iudith* i. 9; v. 14. Gwel CADES-BARNEA. Gelwir yr un anialwch, neu ran arall o hono, Anialwch Sin [Zin, neu Tzin] yn *Num.* xxxiii. 36. Yno yr oedd dinas Cades, ar gwr gwlad Edom, a gwersyllfa Israel pan y bu farw Miriam, a'r lle y claddwyd hi. Yno hefyd y bu amryfusedd "dyfroedd cynhen Cades," ac oddi yno yr anfonwyd cenadau at frenin Edom, yr hwn a nacaodd i Israel fyned trwy ei wlad: *Num.* xx. 1, 14; *Deut.* xxxii. 51; *Barn.* xi. 16, 17. Tybia rhai fod y dinasoedd o'r enw hwn yn cael eu hystyried yn lleoedd cyssegredig, neu fath o noddfeydd.

CADES-BARNEA, [קדש ברנע, *sancteiddrwydd, purdeb*]: mangre a dinas ar derfyn deheu-ddwyrain Gwlad yr Addewid, yn nghyfeiriad tir Edom, lle y gwersyllodd yr Israeliaid, gyda bwriad i fyned oddi yno yn uniongyrchol i Palestina. Oddi yma yr anfonwyd yr ysbiwyr i chwilio y wlad; y rhai oll, onid dau, Caleb a Iosuah, a roddasant anair iddi, ac a barasant wrthryfel yn mhlith y bobl, am yr hyn eu dedfrydwyd i grwydro yn yr anialwch ddeugain mlynedd—blwyddyn am bob diwrnod y buasai yr ysbiwyr yn chwilio y wlad—hyd nes marw y genedlaeth hono. Oddi yma, er hyny, y rhyfygodd y bobl ddringo i ben y mynydd i oresgyn y wlad ar ffrwst, yn groes i air yr Arglwydd trwy Moses, ac y curwyd hwy yn ol gan yr Amaleciaid a'r Canaaneaid, gan eu taro a'u dyfetha hyd Hormah: *Num.* xiii. 17; xiv. 40—45; *Deut.* i. 41—44; cymh. *Barn.* i. 17. Yn mhen deunaw mlynedd ar ugain wedi hyny, cafodd yr Israeliaid gyfleusdra i ddial eu cam, pan y daeth brenin Arad y Canaanead, preswylydd y deheu, yn eu herbyn, ac y rhoddodd yr Arglwydd ef, a'i bobl, a'u dinasoedd, i'w difrodi gan yr Israeliaid, a galwyd y lle hwnw eilwaith Hormah, *h. y.*, difrod: *Num.* xxi. 1—3. Ymddengys mai o fynydd Hor y gwnaeth Israel y rhyfelgyrch hwn; ac er iddynt ddifrodi dinasoedd Arad, na feddiannasant mo honynt y pryd hwnw, gan fod gelynion ereill iddynt i'w gorchfygu o'r tu hwnt i'r Iorddonen, cyn myned trosodd i feddiannu Gwlad Canaan: *Num.* xxxiii. 40, 41. Gelwid Cades ar y cyntaf Enmispat, oddi wrth ffynnon oedd yn y lle; *Gen.* xiv. 7. Gwel ENMISPAT. Ceir yr enw Cades ar ol hyn, yn y dysgriflad o derfyn deheuol rhandir llwyth Iudah: ac fel hyn y mae y llinell yn cael ei thynu:—"o gwr y môr Heli, o'r graig [neu *gilfach*, neu *dafod*, fel y mae y gair yn cael ei gyfleithu] sydd yn wynebu tua'r deheu. Ac yr oedd yn myned allan o'r deheu hyd riw Acrabbim, ac yr oedd yn myned rhagddo i Sin, ac yn myned i fyny o du y deheu i Cades-Barnea," &c.; *Ios.* xv. 1—3; cymh. *Num.* xxxiv. 3, 4. Perthynai y ddinas i lwyth Iudah, ac yr oedd yn sefyll tua phedair milltir ar ugain i'r deheu o Hebron: *Ios.* xv. 23.

Mae yr hyn a ddywedwyd uchod yn unol â'r farn gyffredin, fod dau le o'r enw Cades, yn y rhai y bu yr Israeliaid yn gwersyllu ar eu taith o'r Aipht i Ganaan, sef Cades-Barnea yn Paran, a Cades yn Zin neu Sin, fel eu dangosir ar amryw ddarluniau o'r gororau hyn. Tebygol hefyd fod y cyfenwad Barnea, a gyssylltir wrth y blaenaf fel i'w wahaniaethu oddi wrth yr olaf, yn cadarnhau y golygiad hwn. Er hyny iawn yw addef ei fod yn beth rhy anhawdd cael allan i foddlonrwydd sefyllfaoedd y cyfryw leoedd, mewn gwlad anhygyrch ac anrheithiedig er ys oesoedd; ac y mae beirniaid a theithwyr dysgedig yn amrywio yn fynych yn eu tybiau am danynt. Mae rhai yn barnu yn gryf mai yr un lle a feddylir wrth yr enw Cades, yn hanes yr Israeliaid yn yr anialwch, a'u bod wedi gwersyllu yno ddwywaith; y waith gyntaf yn yr ail flwyddyn ar ol eu dyfod o'r Aipht, a'r olaf yn nechreu y ddeugeinfed flwyddyn o'u hymdaith, yn y mis cyntaf.

Mae eu hymresymiad yn troi ar yr hyn a ganlyn:—Fod Cades-Barnea yn cael ei gosod yn y darluniau cyffredin o fewn neu yn gyfagos i derfyn deheuol Gwlad Canaan, a bod yn anhawdd meddwl y buasai yr Israeliaid yn beiddio aros cyhyd yno, o flaen wyneb eu gelynion, ag yr ymddengys ddarfod iddynt wneyd cyn ac ar ol anfon yr ysbiwyr:—hefyd, os yma, tua hanner y ffordd rhwng y Môr Marw a Môr y Canoldir, y cyflëir Cades, pa fodd y gallasai fod ar derfyn Edom? gan nad oedd Edom wedi ymestyn mor bell yn y cyfeiriad hwnw yn yr oes hono:—tybir hefyd fod y sefyllfa hon yn rhy ogleddol i roddi achos iddynt ofyn cenad brenin Edom i fyned trwy ei wlad, ac y buasai hyn yn hytrach yn eu gorfodi i gyfeirio yn y ffordd y bu raid iddynt fyned ar hyd-ddi wrth amgylchu tir Edom, gwedi cael nacâd i fyned trwyddo:—fod gwir sefyllfa Cades yn fwy i'r deheu-ddwyrain, ac yn cyfateb yn lled agos i'r lle a roddir uchod i'r ail Cades, yn anialwch Sin, nid yn mhell o fynydd Hor; ac y mae hyn yn cael ei gadarnhau wrth yr hyn a ddywed Eusebius, fod beddrod Miriam, yn ei amser ef (yn y pedwerydd canrif), yn cael ei ddangos yn Cades, ger llaw Petra, prif ddinas Arabia Garegog; yr hyn a wna y pellder yn llai o Esion-Gaber, ar lychlyn Acabah, neu dafod dwyreiniol y Môr Coch, o ba le y mudasant i Cades—yr hyn a fernir yn nghylch 120 o filltiroedd.

Dr. Robinson, wrth deithio yr anialwch hwn, a ddarganfu ffynnon, a elwir Ain-el-Weibeh, ar du gogleddol dyffryn mawr Arabah—y brif gynniweirfa am ddwfr yn yr holl ddyffryn hyd y dydd hwn—lle yn cyfateb yn hyned i hanes yr Ysgrythyr am helynt yr Israeliaid yn eu hail wersylliad yn Cades. "Gyferbyn â ni," medd efe, "gorweddai tir Edom; yr oeddym ar ei gwr eithaf; a'r Wady-el-Ghuweir eang, yn gwneyd mynedfa hawdd ac uniawn i fynyddoedd yr ucheldir fry, oedd yn deg o'n blaen; a mynydd Hor yn mhellach i'r deheu, yn wrthddrych amlwg o nodedig, tua thaith deuddydd da i gyfryw lu." [*Bib. Researches*, ii. 538]. Yn mhellach yn mlaen [td. 610] chwanega,—"Yno yr oedd mynydd Hor gan yr Israeliaid i'r de-dde-ddwyrain, yn ymddyrchafu yn uniawn o'u blaen. * * Yn

Digitized by Google

y gogledd-orllewin, ymgyfyd y mynvdd y ceisiasant ei esgyn i fyned i Palestina, a'r bwlch a elwir eto Sufah [Sephath neu Hormah; *Barn.* i. 17]; ac yn mhellach i'r gogledd yr ydym yn cael Tell Arad, yn dynodi sefyllfa yr hen Arad. Yna, at hyn oll, daw cymmydogaeth llychlyn deheuol y Môr Marw, a'r clogwyni serth sydd yn estyn allan ac yn gwahanu rhwng Ghôr ac Arabah, yn cyfateb i riw Acrabbim; ac anialwch Zin, a'r lle o'r un enw rhwng Acrabbim a Cades, nid annhebygol wrth ddwfr Hasb, yn yr Arabah. Yn y modd yma mae yr oll yn dyfod yn hawdd a naturiol, a'r hanes ysgrythyrol yn hollol gyfateb i nodweddiad y wlad." Ystyried y darllenydd y golygiadau hyn, a barned drosto ei hun.—(*Dr. Kitto; Rel. Cyc.; H. Horne*, &c. &c.)

CADFAN: un o saint Ynys Prydain, a anwyd yn Llydaw, yn Gâl, ac am yr hwn y ceir y crybwylliad canlynol yn yr *Iolo MSS.*:—"Cadfan Sant ab Eneas Ledwic o Lydaw, a Gwen Teirbron, ferch Emyr Llydaw: yn oes Gwrtheyrn Gwrthenau y daeth ef i'r ynys hon, gyda Garmon ab Rhiddigwys o Dir Gâl, lle 'r hanoedd i adnewyddu Cred a Bedydd yn yr ynys hon." Wrth hyn, yr oedd Cadfan wedi disgyn yn uniongyrch o âch freninol, o herwydd yr oedd Gwen Teirbron yn dywysoges yn Llydaw.

Nid oes dim o gofion boreuol y sant hwn ar gael, ac ni wyddys yn sicr o ba oed yr oedd pan y daeth trosodd gyntaf i'r ynys hon. Ond modd bynag, tybir i'r amgylchiad hwn gymmeryd lle tua 'r flwyddyn B. A. 516, pan oedd y Ffrancod wedi llwyddo i ddarostwng Gâl tan eu hawdurdod. Yr oedd yn dyfod trosodd gydag ef y pryd hwn luaws mawr o wŷr o fonedd, y rhai, fel yntau, a ymadawent yn llawen â'u gwlad a'u meddiannau er mwyn eu crefydd. Yn mhlith ereill, Cynon, Ilar, Dochdwy, Padarn, Cristiolus, Rhystyd, Sulien, Sanwg, Trillo, Tegai, Llechyd, Twrog, Trinia, Sadwrn, Canna, Tydecho, Hewyn, Eithras, Llywan, Llynab, Lleuadad, a Maelerw, a enwir fel rhai a ddaethant gydag ef i Gymru, ac a drigasant mewn gwahanol barthau o'r wlad, lle mae eglwysi wedi eu cyssegru i'r rhan fwyaf o honynt ar eu henwau.

Tybir i Cadfan ei hun, ar ol iddo ddyfod yma, ymsefydlu am ryw hyd yn Llangadfan, yn sir Drefaldwyn, lle y sefydlodd eglwys, yr hon a elwir ar ei enw hyd heddyw. Sefydlodd un arall hefyd, o gylch yr un pryd, yn Tywyn, yn Meirionydd. Ni wyddys yn iawn pa hyd yr arosodd yn y lleoedd hyn, ond gellir meddwl na bu yn hir beb symmud oddi yma i Ynys Enlli. O gylch y pryd hwn, dybygid, y sefydlwyd y fynachlog yn Enlli, yr hyn y wnaed gan Einion Frenin, a daeth Cadfan yno yn brif abad.[1] Ystyrid Cadfan yn nawdd-sant i'r rhyfelwyr; yr hyn sydd ryw arwydd o'i fedrusrwydd i drin arfau mewn amddiffyniad i'w wlad yn erbyn ei geiynion. Ond yn benaf, edrychid arno fel dyn o dduwioldeb a dysg, yr hyn oedd yn ei gymhwyso yn fawr i'r swydd a gymmerodd arno fel pen athraw yn Enlli. Ceir y crybwylliad canlynol yn yr hen *Gofion* Cymreig am ddechreuad y côr yn y lle hwn:—"Cadfan Sant o Lydaw a Dewi a wnaeth Fangor Enlli, a mwyaf rhif saint yn hono." Pa ran a fu gan Dewi Sant yn sefydliad yr athrofa yn Enlli, neu yn ei threfniad, nid yw yn hysbys; ond yr oedd Cynon, un o'r gwŷr a ddaeth gyda Chadfan o Lydaw, yn ganghellwr ynddi. Y mae eglwys wedi ei chyssegru i'r sant hwn yn sir Drefaldwyn, ac fe fu un iddo yn sir Aberteifi. Capel Cynon y gelwir y lle hwnw hyd y dydd hwn. Sulien a Trinio hefyd a aethant gyda Chadfan i Enlli; ac y mae eglwys i'r diweddaf yn Mhowys. Dochdwy a aeth gydag ef, ac a wnaed yn esgob yno. Pan fu farw Cadfan, erfyniwyd ar Deilo, esgob Llandaf, i fyned yno i osod yr athrofa mewn trefn; yr hyn a wnaeth. A thra bu Teilo yn Enlli, Dochdwy a wasanaethodd yn ei le ef yn Llandaf.

Cyhyd ag y bu "Cadfan Sant yn ben rhaith Bangor Cadfan yn Enlli," ymddengys oddi wrth yr ychydig gofion sydd ar gof a chadw, fod yr athrofa yno yn hynod o lwyddiannus. Cymmerer y crybwylliad canlynol o'r *Iolo MSS.*:—"Côr Cadfan yn Enlli i ugainmil saint, ag nid oedd yno gelloedd, eithr pob un fal y mynai; a gwedi ugainmil saint, e fu Enlli yn gôr o gell i bum cant saint." Ystyr y dernyn hwn wedi ei aralleirio, fe ddichon, ydyw hyn—Yr oedd côr Cadfan yn Enlli mor eang fel yr oedd yno gelloedd wedi eu darparu i ugain mil o saint; ond y fath gyrchiad oedd iddo ar un adeg fel nad oedd yno gell i neb, "ond pob un fal y mynai"—yr oedd pob cell yn gyffredin i bawb, heb un yn neillduol i neb. Ond wedi hyn, ar adeg arall, daeth y rhif i lawr i bum cant o saint; ac erbyn hyny, yr oedd yno gell drefnus i bob un ar ei ben ei hun. Os nad hyn yw meddwl y dyfyniad uchod, dyfaled y darllenydd. Dichon ei fod yn cynnwys gormodiaith; ond pa un bynag, dengys yn ddigon amlwg fod Cadfan Sant yn dra enwog yn ei ddydd, a bod yr athrofa dan ei ofal yn dra llewyrchus.

Cofwyl Cadfan a gynnelir ar y cyntaf o Dachwedd. Y mae yn mynwent y Tywyn, meddir, ddwy gareg, un o ba rai sydd yn saith troedfedd o uchder, ac a elwir gan y trigolion yn gareg neu faen Cadfan. Ar un wyneb iddi y mae llun croes, ac ar y wyneb arall y mae arysgrifen mewn hen lythyrenau. Ond nid oes ond y gair *Catamanus* yn unig yn ddarllenadwy. Tybir mai colofn ydyw a gyfodwyd ryw bryd i goffadwriaeth Cadfan. Y mae traddodiad ar gael mai yn Nhywyn y claddwyd ef; ond y mae un arall yn dywedyd fod ei lwch yn gorwedd yn Ynys Enlli. Yr oedd ei gapel yn sefyll yn mynwent Tywyn mor ddiweddar a'r flwyddyn 1620.—(*Achau Saint Ynys Pryd.; Camb. Biog.; Williams' Bioq. Dict.; Iolo MSS.; Hanes Cym. Carnhu.; Hanes Cref. D. Peter.*)

CADFRIDOG: pen llŷddwr, neu gadflaenor.

CADMIEL: enw un o benaethiaid y Lefiaid, ar ddychweliad yr Iuddewon o gaethiwed Babilon: *Ezra* ii. 40; *Neh.* vii. 43.

CADMONIAID: un o'r tair cenedl a enwir yn mysg cynfrodorion Canaan, pan wnelai Duw gyfammod âg Abraham, i roddi eu tiroedd yn etifeddiaeth i'w hâd ef (*Gen.* xv. 19), ond nas enwir yn y dysgrifiad a ddyry Moses o honynt ychydig o amser cyn goresgyniad y wlad gan feibion Israel: *Deut.* vii. 1. Y ddwy ereill oeddynt y Ceneaid a'r Ceneziaid. Nis meddwn unrhyw wybodaeth am danynt, na pha lanerchau o Dir yr Addewid a feddiennid ganddynt; a'r unig gasgliad rhesymol a allwn ni ei wneyd mewn perthynas iddynt, ydyw, bod y tair cenedl crybwylledig yn meddu bodolaeth annibynol a gwahaniaethol yn nyddiau Abraham; ond eu bod

[1] Dyma fel y dywed Dr. Pughe yn y *Camb. Biog.*; ond y mae ereill yn ammheu hyn, am fod yr *Achau* yn priodoli yr anrhydedd hwn i Cadfan.

Digitized by Google

wedi eu cydgorffori â rhai o'r saith genedl ereill erbyn adeg y goresgyniad dan Iosuah.

CADMUS: mab Agenor, brenin Phœnicia, o Telephassa, neu Agriope; ei wraig oedd y brydweddol Hermione, neu Harmonia; o'r hon y bu mab iddo, a elwid Polydorus, a phedair merch, Ino, Agave, Autonöe, a Semele. Dywedir fod ei dad wedi ei yru i ymofyn am ei chwaer Europa, yr hon a ddygasid ymaith, yn ol yr hen ffugchwedlau, gan Iau yn rhith tarw; a'i dad a'i rhybuddiai, na ddychwelai i Phœnicia heb fod ei chwaer ganddo. Gan iddo fod yn aflwyddiannus yn ei ymchwil, efe a aeth i ymgynghori âg oracl Apollo, a gorchymynwyd iddo ddilyn anner ieuanc, ac adeiladu dinas lle y gorweddai wedi diffygio, a galw y wlad Bœotia. Efe a ganfu yr anner yn ol cyfarwyddiadau yr oracl; a chan y dymunai gyflwyno diolch-offrwm i'r duw, efe a anfonodd ei gymdeithion i gyrchu dwfr o ffynnon gyfagos. Yr oedd y dyfroedd hyny yn gyssegredig i Mawrth, ac yn cael eu gwarchadw gan ddraig, yr hon a ddifaodd ei holl gymdeithion Phœnicaidd: o'r diwedd, Cadmus, wedi blino yn dysgwyl eu dychweliad, a aeth i edrych am danynt, ac a ganfu yr anghenfil yn ymborthi arnynt. Efe a ymosododd ar y ddraig, a thrwy gynnorthwy Minerva, efe a'i gorchfygodd, ac a hauodd ei dannedd yn y dyffryn, ar yr hyn y cyfodai mintai o arfogion o'r ddaiar. Efe a daflodd gareg i'w canol, ac yn y fan hwy a droisant eu harfau, y naill yn erbyn y llall, nes eu lladdwyd oll oddi eithr pump (saith, yn ol rhai awdwyr), y rhai a'i cynnorthwyasant i adeiladu ei ddinas, a elwid ar ei enw, Cadmea, wedi hyny amddiffynfa Thebæ. Yn fuan ar ol hyn, efe a briodedd Harmonia, merch Venus; gyda yr hon y bu fyw mewn serchogrwydd; ac o'r hon y bu iddo bump o blant—un mab, a phedair merch, fel y crybwyllwyd uchod. Erlidiai Juno y plant hyny; a'u haflwydd blin a barent y fath ofid i Cadmus a Harmonia, fel yr enciliasant i Illyricum—yn llesg gan oedran, a llwrf gan flinder calon. Yno, dymunent ar y duwiau eu symmud ymaith o gyrhaedd anffodion einioes; ac fe'u troed yn seirff yn y fan.

Y mae rhai wedi ceisio esbonio y ffugchwedlau hyn. Barnant fod yr anturiaethau a'r gorchestion a briodolir i Cadmus, i'w priodoli i bobl yn hytrach; sef i drigolion trefedigaeth ddyblyg o'r Aipht a Syria, y rhai a elwid yn gyffredin, Cadmiaid, Arabiaid, Phœniciaid, Ethiopiaid, a bugeiliaid. Tybia rhai fod chwedl y ddraig yn arwyddo fod brenin y wlad wedi ei orchfygu gan Cadmus mewn rhyfel; ac y maent yn haeru mai camddeongliad o air Phœniciaidd amwys yw y dysgrifiad o arfogion yn cyfodi o'r maes; ac mai dynion wedi ymarfogi â phres yw arwyddocâd priodol y gair. Y mae yr unrhyw esbonwyr, hefyd, yn barnu nad yw y chwedl am dröedigaeth Cadmus a'i wraig yn seirff, yn ddim amgen na dynodiad o'u bod, wedi eu marwolaeth, yn cael eu haddoli mewn teml dan yr arwyddlun o seirff.

Dywedir mai Cadmus oedd y cyntaf a ddug lythyrenau i arferiad yn Groeg: ond y mae rhai yn haeru nad oedd y wyddor a ddug efe o Phœnicia namyn un a wahaniaethai ychydig oddi wrth hen un oedd mewn arferiad yn mysg hen drigolion Groeg, cyn ei ddyddiau ef. Ni chynnwysai y wyddor hono namyn un ar bymtheg o lythyrenau ar y dechreu; at y rhai chwanegai Palamedes, bedair; a Simonides, o Melos, yr un nifer drachefn. Dygid hefyd addoliad amryw o'r duwiau Aiphtaidd a Phœniciaidd i Groeg gan Cadmus hefyd; yr hwn, fel y tybir, a ddaeth i Groeg 1493 o flyneddoedd cyn y cyfnod Cristionogol; a dywedir iddo farw yn mhen 61 mlynedd wedi hyny. Nid yw yn annhebyg mai enw ar un o hen dduwiau y Pelasgiaid, cynfrodorion Groeg, oedd Cadmus; a dygir rhesymau tra chedyrn, er profi mai yr un ydoedd a Chadmillus, tad y Cabiri, a bod ei wraig Harmonia hefyd yn gyssylltiedig â defodau y Samothraciaid.—(Gwel *Smith' Classical Dict.; Class. Manual; Penny Cyclopædia*, &c.)

CADNAW, [Heb., שׁוּעָל; Gr., ἀλώπηξ; Llad., *vulpes*]: llwynog. Gwel *Barn.* xv. 4; *Nehem.* iv. 3; *Salm* lxiii. 10; *Can.* ii. 15; *Galar.* v. 18; *Ezec.* xiii. 4; *Mat.* viii. 20; *Luc* ix. 58; xiii. 32. Er fod y geiriau *cadnaw* a *llwynog* yn arwyddo yr un peth, ac o ystyr digon penodol, nid ydys yn gwbl sicr ai y creadur a adnabyddir wrthynt yn ein gwlad ni a feddylir wrth *shual* ac *alopex* yr Ysgrythyrau. Ymddengys hyn, efallai, yn eglurach wrth fyned yn mlaen.

Y cadnaw sydd greadur ysglyfaethus, a thra niweidiol a pheryglus, o rywogaeth y ci. O ran llun, y mae y ci, y blaidd, a'r cadnaw, yn dra thebyg; ond sylwer yn fanylach, a gellir yn hawdd eu gwahaniaethu. O gymharu y cadnaw â'r blaidd, y mae gryn lawer yn llai;—tra y mae y naill yn dair troedfedd a hanner o hyd, nid yw y llall ond tua dwy droedfedd a thair modfedd. Y mae y gynffon yn hwy ac yn fwy cudynog, y trwyn yn feinach, a'r blew yn llyfnach. Y prif beth sydd yn ei wahaniaethu i'r golwg oddi wrth y ci ydyw y llygaid; pa rai sydd yn agor yn gyfochrol i fyny fel eiddo y blaidd. Y mae y glust hefyd yn ferach, ac yn fwy syth; a'i arogl mor ddrewedig, fel y tybir ei fod, weithiau, yn achos marwolaeth iddo ei hun. Bu llawer, er hyny, yn ddigon ofergoelus i gredu fod presennoldeb y creadur hwn yn agos i'w trigfanau yn gyfaredd effeithiol rhag aflechyd.

Y mae synwyrau y cadnaw yn mhob peth mor graff ag eiddo y blaidd, ac y mae yr arogliad a'r llais yn rhagori. Nid oes gan y blaidd ond yr un udiad brawychus ar bob achlysur, pan y mae y cadnaw yn amrywio y llais i amlygu ei wahanol deimladau. Y mae ganddo un swn i arwyddo dymuniad; un arall i arwyddo anfoddlonrwydd; un arall i arwyddo tristwch; ac un arall i arwyddo poen; er na bydd byth yn defnyddio hwn ond pan y bydd wedi ei glwyfo gan yr heliwr, neu trwy ryw anffawd arall wedi cael ei ddifuddio o un o'i aelodau. Y mae ei frathiad bob amser yn beryglus, ac mor greulawn fel y rhaid ei orthrechu cyn y gollynga ei afael.

Tra y mae y cadnaw, ar lawer ystyriaeth, yn debyg i'r ci, y mae gwahaniaeth amlwg yr un pryd yn eu natur; yr hyn sydd brawf digonol fod y ddau fath i'w cadw ar wahân. Er na ddengys yr un gwrthnawsedd tuag at y ci ag a ddengys tuag at y blaidd, nid yw byth yn cyfarfod âg ef yn heddychol, ac nid yw y naill un amser yn epilio gyda'r llall. Yn adgynnyrchiad eu rhyw, y mae llai o rifedi gan y cadnaw ar y pryd; ac nid yw hyn yn dygwydd ond un waith yn y flwyddyn. Rhif y torllwyth, yn gyffredin, ydyw o bedwar i chwech, ac anfynych y mae yn llai na thri. Bydd y llwynoges yn dorog am tua chwech wythnos, ac anaml y pryd hyny y mae yn mynod allan o'i ffau: ond dengys y gofal penaf am gysur a diogelwch ei chenawon; a phan wel y perygl

Digitized by Google

lleiaf, y mae yn eu symmud bob yn un, gan eu cymmeryd yn ei safn i le arall mwy cuddiedig.

Fel y mae rhyw hynodrwydd yn perthyn agos i bob creadur, y mae y cadnaw yntau yn ddiareb am ei gyfrwysdra. Nid yw ond yn anfynych yn peryglu ei hun mewn anturiaeth, ond y mae ganddo ryw gynllun bob amser i sicrhau ei amcan. Y mae ganddo ddigon o amynedd i ddysgwyl am ei adeg; ac wedi ei chael, ni fydd byth yn fyr o wneyd y defnydd goreu o honi. Newidia ei ddichell fel y byddo amgylchiadau yn gofyn, ac ymddirieda i'w ddeheurwydd yn fwy nag i'w nerth. Dengys hyn yn amlwg yn ngwneuthuriad ei ffau. Fel yr ystyrir y dyn sydd yn gwneyd iddo ei hun annedd i drigo ynddi yn uwch yn ngraddfa gwareiddiad na'r crwydryn digartref, felly y dengys y creadur direswm yn fynych ragoriaeth greddf yn ngwneuthuriad ei loches yntau. Gwna y cadnaw ei ffau yn gyffredin yn nghwr coedwig, heb fod yn rhy bell boed sicr o gymmydogaeth yr ieir a'r gwyddau. Wedi dewis y lle mwyaf cyfleus, a'i wneyd mor guddiedig ag y bydd modd, erys yn dawel yn ei ffau i ddysgwyl am ganiad y ceiliog sydd ar y buarth ger llaw, yr hyn sydd arwydd iddo ef i droi allan i'r anrhaith. Wedi iddo arogli ei ysglyfaeth, yr hyn a wna o gryn bellder, ymlwybra yn llechwraidd tuag ato, ac anfynych y dychwel heb ei sicrhau. Os llwydda i ddyfod unwaith i blith y plufogion, efe a ruthra arnynt yn ddiarbed, gan eu lladd un ar ol y llall, ac nid ychydig fydd y gyflafan. Ar ol myned trwy hyn o orchwyl, cymmer ran o'r ysbail i ffordd, ac wedi ei guddio mewn pellder cyfleus, daw yn ei ol am ran arall; cuddia hwnw drachefn, ond nid yn yr un man. Gwna hyn lawer gwaith yn olynol hyd oni wawrio y dydd, neu y caffo ryw arwydd arall i gadw draw. Yr un modd y gwna a'r "adar a ddelir yn y delm" a osodir iddynt gan yr adarwr; ac ar ol eu cuddio, gŵyr yn dda pa le a pha bryd i fyned i'w ceisio. Cwningod, ysgyfarnogod, petrus, soffieir, a llawer o greaduriaid ereill, a ddyfethir ganddo yr un mor ddiarbed. Nid yw y draenog, nac hyd yn oed y gwenyn, yn ddiogel rhagddo. Ac o blegid ystranciau fel hyn, y mae yr holl greaduriaid ereill mewn cynghrair llidiog yn ei erbyn yntau—y rhai gwanaf yn ei ofni, a'r rhai cryfaf yn ymlid ar ei ol. Y mae yr adar yn ei adnabod fel eu gelyn marwol, ac yn ei ddilyn yn ei grwydriadau i rybuddio eu gilydd o'r perygl. Y mae cyffro y fran, y biogen, neu y fwyalchen, yn aml yn ddigon i osod yr holl ednod ar eu gwyliadwriaeth; ac nid anfynych y maent yn cyfarwyddo yr heliwr yn ei ymchwil ar ei ol.

I hela cadnaw, nid oes gymmaint o ragddarpariaeth yn angenrheidiol ag sydd yn eisieu i hela blaidd; ac y mae yr helwriaeth, meddir, yn llawer mwy difyrus. Y cwn a arferir yn yr helfa ydynt fath o fytheuaid cryfion, yn cael eu cynnorthwyo gan ddaiargwn, y rhai a'i dilynant i ymosod arno yn ei ffau. Pan wel y cadnaw fod y cwn ar ei ol, y mae yn gwneyd am ei ffau yn ddioedi; ac yno dros dro y mae yn ddiogel allan o'u swn. Ond nid hir y bydd yr holl haid heb dalu ymweliad iddo ar ei dir ei hun; a thra bydd y bytheuaid yn cyfarth o'r tu allan, bydd y daiargi dewr wedi ymwthio i mewn. Gorchest, er hyny, fydd cael y cadnaw allan o'i ffau. Ond os llwyddir, y ffordd gyffredin ydyw i'r heliwr ei roddi mewn cwd, a'i gario i wastadedd teg, lle y gollyngir ef eilwaith o flaen y cwn; a chan nad all fyned yn ol i'w ffau, dyma y pryd y mae yr helfa mewn gwirionedd yn dechreu. Cyfarwyddir y cwn yn yr hynt yma gan y sawr sydd yn cael ei adael ganddo ar ei lwybr, yr hwn sydd lawer cryfach, er nad mor barhaus, ag un yr ysgyfarnog. Yn yr adeg hon, y mae pob ystryw a fedd yn cael eu rhoddi ar waith. Rhed yn unionsyth drwy gorsydd lleidiog, drain, a dyrysni; ac os delir ef, diffyna ei hun gyda'r creulondeb mwyaf beiddgar. Nid yw byth yn rhoddi i fyny nes y bydd wedi cael ei lwyr orthrechu. Yn ol y "gyfraith hely" yn mhlith yr hen Gymry, yr oedd "tair helfa ddolef; sef llwynog, ysgyfarnog, ac iwrch:" a'r rheswm dros resu y llwynog yn yr helfa hon a roddir i ni yn y geiriau canlynol:—

"Y cadnaw fydd helfa ddolef; o blegid er maint fo'r gwaeddi a'r canu cyrn ar ei ol, ef a gynnal ei helynt oni flino."—*Geir. Rich.*, td. 475.

Y mae y cadnaw yn un o'r creaduriaid hyny sydd dra agored i ddylanwad hinsawdd, a thrwy hyny ceir llawer o amrywiaethau o hono mewn gwahanol wledydd. Y lliw yn gyffredin, fel y gwyddys, sydd goch; ond y mae rhai o honynt, er nad yn y deyrnas hon, o liw llwyd-wyn: a haera Buffon fod blaen y gynffon yn wyn yn yr holl rywogaeth; ond nid yw hyn yn wir am dano yn ein gwlad ni. Y mae tri amrywiaeth, meddir, yn Mhrydain, pa rai a wahaniaethir yn fwy wrth eu maint nag wrth eu lliw a'u llun. Y lleiaf o'r tri yw y mwyaf cyffredin, yn gystal a'r mwyaf peryglus a niweidiol. Mewn gwledydd oerion, ceir pob amrywiaeth yn mron yn y lliw;—du, glas, llwyd, gwyn; gwyn, â choesau eochion; gwyn, â phenau duon; coch, â gyddfau a boliau cochion; a choch, gyda llinell ddu ar hyd y cefn, ac yn groes ar draws yr ysgwyddau. Yn ynysoedd y Môr Rhewllyd a'r Môr Dwyreiniol, y mae y lliw ar un tymmor o'r flwyddyn yn wineu, ac ar y tymmor arall yn hollol wyn. Ni roddir ond ychydig o bris ar y gwyn, gan fod y blew yn fuan yn colli; y mae y glas yn dra marchnadol, o herwydd ei brinder; ond y du, meddai Goldsmith, yw y goreu oll. Gwerthir un croen o'r lliw hwn weithiau am ddeugain neu hanner cant o goronau. Y rhagoriaeth a berthyn iddo, medd efe, ydyw fod y ffwrw (*fur*) wedi ei drefnu yn y fath fodd nad ellir dyweyd pa ffordd y bydd y graen. Ceir y cadnaw agos yn mhob man yn hinsoddau tymmerus Ewrop, Asia, ac America; ond anfynych yn Affrica, a'r gwledydd a orweddant dan y poethgylch.

Fel yr awgrymwyd yn barod, nid hawdd ydyw penderfynu unrhywdeb y creadur a ddysgrifir genym a'r creadur a olygir wrth yr un enw yn yr Ysgrythyrau. Yr achos o hyn ydyw, fod yr enwau a arferid gan yr henafiaid o ystyr mor wag ac anmhenodol. Y mae yr un enw yn arwyddo weithiau gwahanol fathau, a phryd arall gwahanol rywogaethau. Yr oedd y pedwar math canlynol, o leiaf, yn cael eu hadnabod ganddynt wrth yr un enw cyffredin. 1. Y cadnaw Syriaidd; math o gi gwyllt, a elwid gan yr Arabiaid yn *taaleb*, a chan naturiaethwyr diweddar yn *vulpes thaleb*, yr hwn yn sicr oedd yn adnabyddus yn Ngwlad Canaan, a'r unig un oedd yn gynhenid yno. 2. Y cadnaw Tyrcaidd, neu y *cynalopex Tyrcicus*, o Asia Leiaf, yr hwn oedd adnabyddus yn y de mor bell a'r Orontes, ac felly yn ymwelydd achlysurol â choedwigoedd Libanus o leiaf. 3. Y *thous anthus*, neu *deeb* yr Arabiaid; yr hwn, fel y tybiwyd gan rai, ydyw blaidd yr Ysgrythyrau. Y mae ynddo debygrwydd, ond ei fod yn llai, ac yn fwy diberygl. Y mae hwn weithiau yn udo, a thybir mai oddi wrth hyn y cymmer ei enw. 4. Y mae un arall

Digitized by Google

(*Canis Syriacus*, Ehrenb), is a llai na'r cadnaw Ewropaidd, gyda chynffon hir afluniaidd, clustiau byrion, lliw llwyd-ddu, ac y mae yn udo. Dichon mai hwn ydyw y *canis aureus*, neu *jackal* Palestina, er na fyn naturiaethwyr o'r ysgol Almaenaidd et ystyried ond fel un o amrywiaethau isaf y *sacalius aureus*. neu y *jackal* cyffredin.

Heb law y mathau uchod, sonia Emprich ac Ehrenberg am bedwar math o *canidæ*, neu gŵn gwylltion, yn Libanus, y rhai, fel y cadnaw, ydynt o dueddiadau crwydrol; ac felly, nid annhebyg eu bod yn ymweled â Gwlad Canaan. Fel hyn, gwelir, nas gallwn fod yn hollol sicr mai y cadnaw a adnabyddir genym ni, a olygir wrth *shual*, *aye* neu *ije*, ac *alopex* yr ysgrifenwyr sanctaidd. Yn wir nid ellir bod yn sicr a fu cadnaw ein gwlad ni yn adnabyddus yn Ngwlad Canaan erioed, ai naddo; ac os bu, y mae yr enwau a ddefnyddir mor eang a chyffredin yn eu hystyr, fel y gallant olygu y naill neu y llall o'r amrywiaethau a nodwyd. Y cadnaw Syriaidd [gwel LLWYNOG], yw y tebycaf o'r holl amrywiaethau dwyreiniol i'r cadnaw yn Ewrop. Nid yw y gwahaniaeth rhyngddynt ond ychydig, ac y maent yn eu holl arferion yn gwbl yr un fath. At y rhai hyn y cyfeiria Solomon yn *Can.* ii. 15; er, efallai, fod yn rhaid i ni olygu creadur tebyg i'r *jackal*, cyn y deallir *Salm* lxiii. 10: y mae y creadur hwn yn ymborthi ar gyrff dynol; turia am danynt i iselderau y ddaiar. Y maent yn erwydro yn fyddinoedd gyda eu gilydd, ac y maent bob amser yn frawychus a dinystriol.

Dichon mai y *taaleb* a feddylir wrth y *shualim*, a ddefnyddiwyd gan Samson (*Barn.* xv. 4, 5) i losgi ydau a gwinllanoedd ac olew-wydd y Philistiaid. Nid oes un rheswm, hyd y gwyddys, yn erbyn hyn; ond nid ellir bod yn sicr, gan fod mathau ereill dan yr un enw yn y wlad. Y mae y geiriau hyn, fodd bynag, wedi achlysuro llawer o wahanol farnau yn mysg dysgedigion. Rhoddir golwg ddamcanol ar y cwestiwn gan ysgrifenydd yn y *Biblical Cyclopædia*, dan y gair *shual*, sylwedd pa un a osodir ger bron.—Cyfeiria yr ysgrifenydd at farn y Dr. Kennicott, yr hwn sydd wedi ceisio osgoi y dyryswch trwy newid ychydig ar y cyfleithiad, fel hyn:—Darllena "ysgubau" yn lle "llwynogod," a "phenau" yn lle "cynffonau;" ac felly, yr ystyr fydd, fod Samson wedi rhwymo tri chant o *ysgubau* (nid llwynogod) â *rhwymau* (nid wrth eu cynffonau), a'u llosgi. Cytartyddir â'r esboniad hwn trwy ddangos nad oedd llosgi tri chant o ysgafnau ŷd yn fath yn y byd o ddial oddi wrth un fel Samson ar genedl fel y Philistiaid. Ac hwyrach y dylid chwanegu, y gellid, ar y tir hwn, esbonio y Beibl *ymaith* i gyd. Ond cwyna ein hawdwr fod yr esiamplwyr oll wedi dilyn cyfleithiad y Deg a Thrigain, a deall drwy hyny bod y llwynogod wedi eu rhwymo bob yn ddau wrth eu cynffonau, a bod y ffagl wedi ei gosod rhyngddynt, yr hyn yn ei dyb ef sydd gamsyniad; a'i reswm dros hyny ydyw, ei fod o leiaf yn ammheus a fuasai dau llwynog wedi eu rhwymo felly yn cydredeg—ei bod yn fwy tebyg y buasai y naill yn tynu yn groes i'r llall, a myned yn y diwedd i ymladd. Yr esboniad, pa fodd bynag, a rydd efe ei hun ar yr hanes, ydyw, fod ffagl wedi ei rhwymo wrth gynffon pob llwynog ar ei ben ei hun; ac wrth y geiriau "cynffon at gynffon," y dylid deall fod cynffon y ffagl wedi ei rhwymo wrth gynffon y llwynog; ac felly fod pob un yn rhedeg ar ei gyfer trwy yr ydau a'r gwinllanau am ei ffau, nes goddeithio y wlad o'u blaen. Gresyn i'r awdwr hwn beidio a dyweyd pa fodd yr ydym i ddeall y geiriau—"Ac a osododd un ffagl rhwng dwy gynffon yn y canol." Yr oedd hyn, efallai, yn fwy anhawdd. Mewn perthynas i'r wrthddadl, fod rhwymo tri chant o lwynogod yn ormod o waith i Samson mewn diwrnod, dywedir nad oedd Samson ond cyfarwyddwr yn y weithred, ac mai ereill oedd ganddo yn gweithredu drosto. Gall hyn fod yn wir; ond tybir ei fod yn agored i lawn cymmaint o wrthddadleuon, os nad mwy. Yn mhlith ereill, gellid gofyn, Pwy a wnai hyn? Nid y Philistiaid yn sicr. Nid yw yn debyg y buasai yr Israeliaid yn gwneyd chwaith; canys yr oeddynt dan orthrwm y Philistiaid ar y pryd, ac yn eu hofni. Yr oedd Samson hefyd wedi eu digio trwy gymmeryd gwraig o ferched y Philistiaid, ac nid oedd eto wedi gwneyd dim i'w cymmodi. Ni welir dim yn y tybiau hyn yn rhagori ar yr hen dyb a'r dyb gyffredin. Os ydynt yn ein tynu o un dyryswch, y maent yn ein harwain i un arall gwaeth yn ei le.

Gwneir defnydd cymhariaethol o'r cadnaw yn y Beibl i osod allan ddynion o amcanion cyfrwys a dichellgar. "Dy brophwydi, Israel, ydynt fel llwynogod yn yr anialwch." "Dywedwch i'r cadnaw hwnw." Geiriau dysgrifiadol o sefyllfa y Gwaredwr yn nyddiau ei gnawd, ydynt—"Y mae gan y llwynogod ffauau, a chan adar y nefoedd nythod, ond gan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr."—(*Buffon's Nat. Hist.; Dr. Cope's Hist.; Kitto's Bib. Cycl.; Gold's Anim. Nat.; Penny Cycl.; Rich. Dic., &c.*)

CADWADOGION. Gwel PHYLACTERAU.

CADWALADR: a gyfenwir "Cadwaladr Fendigaid," oedd y diweddaf o freninoedd unbenaethol y Cymry, ac un o saint Ynys Prydain. Yr oedd Cadwaladr yn fab i Cadwallawn frenin, ab Cadfan, ab Iago, ab Beli, ab Rhun, ab Maelgwn Gwynedd, ab Caswallawn Law Hir, ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig. Cadwallawn ydoedd y brenin a ymladdodd yn erbyn y Seison yn Neifr a Bryneich, ac a'u trechodd; ac ar ei farwolaeth ef, daeth Cadwaladr i'r orsedd yn ei le. Enwir Cadwaladr fel un o'r tri phenadur a gawsant yr anrhydedd o fod yn benllywyddion cenedl y Cymry, neu yn freninoedd Prydain; ac yn ol yr hen *Drioedd Cymreig* [*Myv. Arch.*, ii. 62] yn un o'r "tri aur-hualogion Ynys Prydain," neu y tri brenin a wisgent hualau aur. Yr oedd yr hualau hyn yn cael eu gwisgo am y gwddf, y breichiau, a'r cluniau, ac yn arwydd o awdurdod oruchaf ar yr holl ynys; er y tybir fod eu llywodraeth yn gyfyngedig i'r rhan ddeheuol o honi yn unig, ac nid yn ymestyn i'r Alban; canys yr oedd y pryd hyny amryw fân dywysogion ereill yn y wlad, a phob un o honynt yn fath o frenin yn ei dalaeth fechan ei hun.

Daeth Cadwaladr i'r orsedd, fel y tybir, o gylch y flwyddyn B. A. 660, a theyrnasodd am rywnifer o flyneddoedd mewn tawelwch a llwyddiant. Nid ydys yn penderfynu pa hyd y bu ar ei orsedd, canys gwelir wrth fyned yn mlaen fod hyny yn anhawdd, gan ei fod yn dibynu ar bethau ereill sydd eto yn dywyll ac yn ammheus yn ei hanes. Meddylir ei fod yn ddyledus am yr heddwch a fwynhaodd tra y bu, i'r ffaith fod ei fam yn ehwaer i Pendda, brenin Mercia; a thybia Carnhuanawc na fuasai ei enw wedi dyfod byth i'r fath enwogrwydd oni bai mai efe oedd y

Digitized by Google

brenin diweddaf ar genedl y Cymry: ac felly yr oedd Cadwaladr yn fwy dyledus am ei glod i amserau ac amgylchiadau nag i ddim teilyngdod oedd ynddo ei hun.

Mewn perthynas i'r amser, y lle, a'r modd, y bu farw Cadwaladr, y mae haneswyr yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddi wrth eu gilydd; ac nid gorchwyl hawdd i neb ydyw penderfynu rhyngddynt. Ond pa fodd bynag rhoddir y gwahanol olygiadau ger bron y darllenydd, a'r rhesymau drostynt; gan ymdrechu hyd y mae yn bosibl i roddi ei bwys a'i le priodol i bob un.

Tybia Woodward [*Hist. of Wales*, td. 129], fod y *Trioedd* yn awgrymu i Cadwaladr farw dan y balfawd a rodded iddo gan Golyddan fardd; ond ni welir yn y *Trioedd* un sail i'r fath dyb. Dyma y geiriau at ba rai y mae yr hanesydd yn cyfeirio,—"Tair engir balfawd Ynys Prydain; Palfawd Matholwch Wyddel ar Fronwen ferch Llyr; a Phalfawd a roddes Wenhwyfach i Wenhwyfar, a hono a beris y Gad Gamlan; a phalfawd Golyddan Fardd ar Gadwaladr Fendigaid." [*Myv. Arch.* i. 65—*Tri.* 49.] Ni wyddys pa beth a arweiniodd neb i feddwl fod y balfawd hon yn farwol (*fatal palmstroke*), nac i ddywedyd fod awdwr y triad crybwylledig yn awgrymu hyny. Gwir i Golyddan gael ei ladd o achos y balfawd hon, ond crybwyllir hyny mewn geiriau mor eglur nas gellir eu camddeall. Cyferbyner y triad canlynol â'r un uchod. "Tair anfad fwyellawd Ynys Prydain: bwyellawd Eiddyn ab Eirygain ym mhen Aneurin Gwawdrydd; a bwyellawd a roddes Gadafael Wyllt ym mhen Iago ab Beli; a'r bwyellawd a rodded ym mhen Golyddan Fardd, achaws y balfawd a roddes efe ar Gadwaladr Fendigaid." [*Myv. Arch.*, i. 65—*Tri.* 48.] Nid oes un awdurdod gan hyny yn y *Trioedd* dros ddyweyd i Gadwaladr farw trwy law Golyddan, nac un sail i'r golygiad fod y Cymry erioed wedi meddwl hyny.

Edrychir ar y cyfrifiad uchod am farwolaeth Cadwaladr fel camgymmeriad o eiddo yr hanesydd Seisoneg; ac felly y golygiad cyntaf a ddaw dan sylw ydyw yr un a geir yn *Nennius*, yr hwn a ddywed, fel y tybir, iddo farw o'r haint a ddaeth i Brydain tra yr oedd efe yn teyrnasu. Y mae yr hanes a rydd Nennius yn fyr ac yn ddigon aneglur; ond dyma ei eiriau ef ei hun:—"Osquid filius Eldfred regnavit xxviii. annis et sex mensibus; dum ipse regnabat venit mortalitas hominum, Catgualat regnante apud Britones post patrum suum, et in ea periit. Et ipse occidit Pantha in Campa Gai, et nunc facta est strages Giti Campi, et Reges Britonum interfecerunt, qui exierunt cum Rege Pantha, in expeditione usque ad urbem quæ vocatur Judeu." Cyfleithir y dernyn hwn fel hyn:—"Oswy mab Eldfred a deyrnasodd wyth mlynedd ar ugain a chwe mis; tra yr oedd efe yn teyrnasu daeth marwolaeth dynion (haint)—Cadwaladr yn teyrnasu yn mhlith y Brython ar ol ei dad, ac ynddi y trengodd. Ac efe a laddodd Pendda yn Maes Gai, a'r pryd hwn y bu cyflafan Maes Giti, a breninoedd y Brython a ymladdasant, y rhai a aethant gyda'r brenin Pendda ar ymgyrch hyd y ddinas a elwir Iwda."

Nid oes neb nad yw yn addef fod y cyfeiriad hwn yn dra thywyll, a'r holiad cyntaf a'r unig un o bwys yn yr achos presennol sydd yn ymgynnyg i'r meddwl ydyw, pwy a drengodd yn y *mortalitas* hon? A phwy y mae yr *ea periit* yn dwyn perthynas? Ai Cadwaladr ai ynte Oswy? Fe dybia Carnhuanawc mai Cadwaladr a feddylir, ond ni fyn gredu y chwedl; a haera mai camgymmeryd a wnaeth Nennius wrth ddyweyd hyny. Y mae Woodward [*Hist. of Wales*, td. 128] yn dyweyd yn sicr mai Cadwaladr a olygir; am y dywedir ychydig yn mlaen fod Oswy mewn rhyfel wedi hyn â brenin arall yn Ngwynedd, o'r enw Catgubail: ond yn hyn, modd bynag, y mae yr hanesydd hwn yn ei wrthddyweyd ei hun, canys dywed [td. 140] mai yr un yw Catgubail a Chadwaladr, ac felly yr oedd yr un mor anmhosibl i Cadwaladr fod wedi marw ag oedd i Oswy. Nid ydys am fod yn rhy benderfynol; ond tybir fod yr ymadrodd, *in ea periit*, yn llawn mor berthynol i Osquid ag ydyw i Catgualat, os nad mwy. Ac os yw Woodward yn ei le pan yn dyweyd mai yr un yw Catgubail a Catgualat, y mae y frawddeg ganlynol, yr hon sydd yn dyfod yn fuan ar ol yr ymadrodd uchod, yn gefnogaeth i'r dyb:—"Solus autem Catgubail Rex Guenedotæ Regionis, cum exercitu suo evasit de nocte, consergens qua proptu vocatus est Catgubail Catguommedd." Ystyr y frawddeg hon sydd debyg i hyn:—Catgubail, brenin Gwynedd, gan gyfodi i fyny liw nos, a ddiangodd, efe a'i fyddin; ac o achos hyny y gelwid ef Catgubail Catgommedd.

Fel hyn gwelir nad oes un sicrwydd, a dyweyd y lleiaf, ddarfod i Nennius erioed haeru fod Cadwaladr wedi marw o'r haint; a phe byddai, ni welir un rheswm dros goelio Nennius ar ei air noeth, a hyny pan y mae yn rhaid ymwrthod â lluaws o dystiolaethau ereill wrth wneyd.

Ond y golygiad nesaf, a'r un sydd wedi cael y derbyniad mwyaf cyffredinol, yw yr un a roddir yn *Mrut y Tywysogion*, yn nghyd â chyfysgrifau ereill, y rhai a fynegant ddarfod i Cadwaladr ddianc rhag yr haint i'r Cyfandir, a myned i Rufain, yn mha le y diweddodd ei oes. Mae yr hanes fel y canlyn:—Wedi i Gadwaladr deyrnasu am rai blyneddoedd ar genedl y Cymry, cododd rhyfel cartrefol yn eu mysg, ac ar ei ol newyn a haint dinystriol, yr hwn a barhaodd, meddir, am un mlynedd ar ddeg. Yr oedd hyn, yn ol Nennius, yn amser Oswy, ac felly o gylch y flwyddyn 664; ond y mae Bede, yr hanesydd Seisoneg, yn dywedyd na thorodd yr haint hwn allan hyd y flwyddyn 678—yr hyn sydd yn ei gwneyd yn anhawdd bod yn sicr, fel y crybwyllwyd o'r blaen, pa hyd y bu Cadwaladr yn teyrnasu. Ond pa bryd bynag y bu hyn, fe barodd i Cadwaladr, a lluaws ereill—pawb ar a allent—adael eu gwlad a myned i Lydaw, lle y cawsant dderbyniad croesawgar gan Alan, brenin Llydaw. A chan nad oedd ond ychydig o wehilion y genedl wedi aros yn Mhrydain, daeth lluoedd o'r Saxoniaid yma o'r newydd i gymmeryd cwbl feddiant o'r ynys. Cadwaladr, gan hyny, wedi bod yn Llydaw amser maith, a deall o hono fod yr haint wedi myned heibio, a ofynodd i Alan am ei gymhorth i adfeddiannu ei wlad a'i freiniau. Ond tra yr oedd Alan yn darparu i gydsynio â'i gais, angel a ymddangosodd i Cadwaladr mewn gweledigaeth, gan ei rybuddio nad elai yn ol, gan nad oedd y Brython i deyrnasu yn hwy yn yr ynys nes y delai yr amser a ddaroganid gan Myrddin, ger bron Uthr Bendragon, a cher bron Arthur. Ychwanegai yr angel wrtho fod yn rhaid iddo fyned i Rufain at y pab Sergius; yn mha le, wedi iddo ddwyn ei benyd, y cofresid ef yn mhlith y seintiau; ac y byddai i'r Bryteiniaid felly, trwy ei haeddiant ef, gael eu goruchafiaeth yn yr ynys yn ol, ond nid cyn y dychwelid ei esgyrn ef yma yn gyntaf, ac yr arddangosid hwy, yn nghyd â gweddillion saint

Digitized by Google

ereill a enhuddwyd yn amser y rhuthrgyrchœdd paganaidd. Wedi hyn, Cadwaladr a aeth at Alan, ac a fynegodd iddo yr hyn a welsai ac a glywsai. Ac Alan a chwiliodd mewn amryw lyfrau, megys *Prophwydoliaeth yr Eryr* yn Nghaer Baladr (Shaftesbury), a chathlau Sibyll, a daroganau Myrddin. i weled a oedd y dadganiad i Cadwaladr yn cytuno â'r daroganau hyny: a phan na chafodd ddim yn anghysson, efe a'i cymhellodd i ufuddhau i gyfarwyddyd yr angel. Anfonodd Alan hefyd ei fab Ifor, ac Ynyr ei nai, drosodd i Brydain i gynnorthwyo y Cymry, yn absennoldeb eu brenin, i gadw meddiant ou gwlad yn erbyn y Seison. Felly Cadwaladr a aeth i Rufain, "ac e cadarnhaodd Sergius ef yn mhlith seint gleinion," ac efe a fu farw yno ar y deuddegfed *calend*, yn Mai, yn y flwyddyn B. A. 689. Y mae croniclau ereill yn dyweyd 688 687, a 683.

Dyna chwedl ag y mae Woodward [*Hist.*, td. 128, 129] yn ei throi yn wawd i gyd, gan ei chyfrif yn un cruglwyth o ddychymyg ffol o un pen i'r llall; ac efallai nad yn gwbl ddiachos. Un rheswm a rydd, pa fodd bynag, dros hyny ydyw, fod y chwedl hon am Cadwaladr yn groes i'r hanes a rydd Nennius am dano. Ond yr ydys wedi dangos yn barod pa faint o bwys a ellir ei roddi ar hyn. Cyn y byddo grym ynddo fel prawf, rhaid bod yn *sicr*, yn y lle cyntaf, o'r hyn y mae Nennius yn ei ddyweyd; a dangos, wedi hyny, wrth ba reol y mae ef i'w gredu, yn erbyn y lluaws sydd yn dyweyd yn groes iddo. Noda yr awdwr hwn un rheswm arall, ac ymddengys ei fod yn rhoddi cryn bwys arno; sef, y tebygrwydd sydd rhwng yr enw Cadwaladr a Ceadwala, a bod Bede yn dyweyd i Ceadwala, brenin Wessex, adaw ei orsedd yn nghylch y pryd hwn, a myned i Rufain, a marw yno ar yr 20fed dydd o Ebrill, 689; a thrwy hyny, y gallai mai camgymmeriad rhyw haneswyr fu defnyddio y naill enw yn lle y llall. Ymddengys fod y rheswm hwn yn brawf tebygol, cryf, fod ein chwedl yn anghywir mewn rhan o leiaf. Ac yn yr un goleuni y mae Carnhuanawc yn edrych arno. [*Hanes Cymru*, td. 317.] Nid yw yn debyg y gallasai Bede fod yn camgymmeryd am ei frenin, a'r hwn yr oedd yn cydoesi; a mwy annhebyg na hyny, i'r ddau frenin fod yn Rhufain ar yr un pryd, a marw yno yr un dydd. Y mae y *Cronicl Saxonaidd* hefyd yn gwneyd yr un noddiad a Bede am Ceadwala.

Yn awr, os cymmerir trafferth i gyferbynu yr hanesion gwahanol yma â'u gilydd, yr ydys yn rhwym o addef fod rhyw gamgymmeriad wedi dywydd. Digon tebyg i awdwr y *Brut*, ac ereill, fod wedi cymhwyso rhai o weithredoedd Ceadwala, a'u priodoli i Cadwaladr: ond nid ellir yn hawdd credu fod yr holl chwedl am fynediad yr olaf i Lydaw yn ffug a thwyll; canys, fel y dywed Carnhuanawc, heb ganiatäu rhyw sylwedd i'r hanes hwnw, nid ellir dirnad pa fodd y daeth y chwedl hono i gael ei chredu mor gyffredinol yn mysg y Cymry, a'i throsglwyddo yn ddidor o un oes i'r llall, a hyny hyd yn awr. Y mae yr oll o'r hen feirdd yn enwi Cadwaladr fel yn nglŷn â rhyw amgylchiadau llwyddiannus oedd i fod ar genedl y Cymry. Yr ateb parod sydd gan Woodward ac ereill i hyn ydyw, mai Sieffre, o Fynwy, oedd awdwr y chwedl, ac mai cyhoeddiad ei lyfr ef a wnaeth yr hanes mor hysbys. Ond y mae gwrthateb mor barod gan Carnhuanawc, yn yr hyn a ddywed Sieffre am brophwydoliaeth yr eryr; ac y mae hyn yn ddigon o brawf nad efe oedd ei hawdwr. Dyma eiriau Sieffre pan yn crybwyll am *Hudibras*, a chyfieithiad o honynt yn ei dilyn:—

"Condidit etiam Kaerguen, hoc est Guintoniam atque oppidum Montes Paladur quod Sophonia dicitur. Ibi tune aquila locuta est dum murus œdificaretur; cujus sermones si veros esse arbitrarer sicut cœtera non memoria tradere diffugerum."

"Adeiladodd hefyd Caerwynt, yr hon yw Gwintonia, a thref Mynydd Paladr, yr hon a elwir Sophonia. Yno Eryr a lefarodd tra yr oedd y mur yn cael ei adeiladu; geiriau pa un, pe eu barnwn yn wir, megys y pethau ereill, nis gwrthodwn eu traddodi i goffadwriaeth."

Nid yw Carnhuanawc yn gallu penderfynu pwy a gyfansoddodd Brophwydoliaeth yr Eryr, nac yn mha iaith; ond tybia nas gall yn ei dull presennol fod yn henach na dyfodiad y Normaniaid, gan ei bod yn cyfeirio at y *Normanli*. Gwel debygrwydd yn y cyfansoddiad i eiddo Myrddin Emrys, am y Ddwy Ddraig, yr hwn a welir yn *Mrut y Tywysogion*, ac nad yw Prophwydoliaeth yr Eryr ond parhâd o'r cyfansoddiad hwnw. Tybia hefyd mai y chwedl yn nghylch Cadwaladr a achlysurodd gyfansoddiad y rhan olaf o'r *Awdl Fraith*, yr hon a gyfrifir i Taliesin; ond gan ei bod yn cyfeirio at Cadwaladr, nas gall fod o waith y bardd hwnw. Dyma y rhan o honi sydd yn perthyn i'r achos :—

"Mawr gefais innau,
Yn-fy Mardd-lyfrau,
Holl gelfyddadau
Gwlad Ewropa.

Och! Duw! mor druan
Y daw'r ddarogan,
Drwy'r ddirfawr gwynfan.
I lin troea.

Sarffes gadwynawg,
Falch annhrugarawg,
A'i hesgyll yn arfawg,
O Germania.

Honno a oresgyn
Holl Loegr a Phrydyn,
O lan môr Llychlyn,
Hyd Sabrina.

Yna bydd Brython
Yn garcharorion,
Yn mraint alltudion,
O Saxonia.

Eu Nêr a folant,
A'u hiaith a gadwant,
Eu tir a gollant,
Ond gwyllt Walia.

Oni ddel rhyw fyd,
Ar ol hyd benyd,
Pan fo gogyhyd
Y ddau draha.

Yno caiff Brython
Eu tir a'u coron,
A'r bobl estronion
A ddiflana.

Geiriau yr Angel,
Am hedd a rhyfel,
A fydd diogel
I Brytania.

Mi wn eu cerdded,
A'u twng a'u tynged,
A'u tra a'u trwydded,
Hyd Ultima."

Y mae cathlau ereill o'r un cyfnod, a briodolir i Myrddin, yn cynnwys prophwydoliaethau am Cadwaladr i'r un perwyl. [*Myv. Arch.*, cyf. i. td. 145.] Ac wrth gymharu yr ysgrif yn y *Brut* â'r gân uchod, tybir i Caradawc, o Langarfan, gymmeryd ei eiriad o'r "Awdl Fraith;" ac felly,

Digitized by Google

fod yr awdl hon ar gael tua chanol y 12fed canrif, o leiaf. Fel hyn y mae geiriau yr ysgrif,—

"Cadwaladr—a aeth i Rufain wrth gyngor Angel a welsei efe yn ei lesmair, ac yno y bu efe bum mlynedd ac y bu farw yno; a phan ddel ei esgyrn ef oddiyno yn ol i Ynys Prydain y cant y Bryttaniaid eu braint a'u coron yn ol y dywed yr Angel wrth Gadwaladr."

Mewn perthynas i'r hanes am Ceadwala a Chadwaladr, ceir y sylw tra phriodol a ganlyn ar yr effaith wahanol a gafodd yr un chwedl ar y ddwy genedl, yn ngwaith Carnhuanawc:—"Yr hanesiad Seisnigaidd yn ol ei adrodd a syrthiodd i'r llawr yn farw a dieffaith. Ond y chwedl Gymreig a effeithiodd ar y genedl, ac a fu yn fynych yn foddion o'u dyddanu a'u cysuro mewn amgylchiadau o gyfyngder." Ac am nad oedd ar y Seison achos o'r fath chwedlau, gan eu bod yn fuddugoliaethus, chwanega—"Ond gwelwyd y Seison mewn cyfyngder mawr, yn griddfan dan ormesau y Daeniaid a'r Normaniaid; eithr ni welwyd yn eu plith un arwyddnod o hanfodiad y cyfryw ddawn awenyddol, o ffurfio traethiadau o'r fath. A'r ychydig ffurfiadau o'r anian yma, y rhai a hanfodant yn eu plith, ydynt mor ddiegin a gwag, ag nad effeithiant lawer hyd nod ar eu cenedl eu hunain, heb son am ymdaenu i wledydd dyeithr; ond ffugiadau y Cymry ydynt adnabyddus i'r byd yn gyffredinol, ac yn dra mynych wedi cilgwthio i'r neilldu, nid yn unig draddodiadau genedig y cyfryw wledydd, ond hefyd wedi cymmeryd y flaenoriaeth hyd nod ar eu hanesion gwirioneddol."—[*Han. Cym.*, td. 320.]

Am y dyb mai Cadwaladr a ddechreuodd yr eisteddfodau gyntaf yn mhlith y Cymry, digon ydyw dyweyd ei bod yn gwbl ddisail. Y mae digon o brofion ar gael fod eisteddfodau yn cael eu cynnal mor fore ag amser Arthur—o gylch B. A. 512,—o leiaf. Crybwyllir yn *Ngramadeg Sion Dafydd Rhys*, td. 303, am enw Cadwaladr mewn cyssylltiad âg un eisteddfod, i'r hon y daeth "gŵr ger eu bronn i ganu Isgyweir arr y Bragod Danneu; yr honn Isgyweir a fu seml a drwg ganthynt ei chlywed, o achaws ei bod ynn dyfod o lais Pibeu Morfydd. Ac yna y gorchmynnasant iddaw dann fawr boen (par bryd bynnac y delei geirr bronn gwyr dyscidic) ganu o honaw Mwynen Gwynedd; yr hon a ddaroedd i Frenhin Penbeirdd ac i Gadwaladr Frenhin yn gyntaf ei dodi i maes yn eu hamser hwy, a'i cydgynghorion," &c. Ni wyddys am ddim arall a allasai achlysuro y dyb; a gwelir nad oes yma ddim cefnogaeth iddi.

Ar ol y cwbl, y mae llawer o dywyllwch yn gorwedd ar hanes Cadwaladr. Ond pa ammheuon bynag a gyfodir o berthynas i'r hanes chwedlonaidd ac ofergoelus am dano, cytuna pawb i'w rifo gyda saint Ynys Prydain. Yn y *Trioedd* [*Myv. Arch.*, cyf. ii. td. 63], nodir ef fel un o'r tri brenin Canonaidd—"tri menwedigion teyrnedd"—am yr amddiffyniad a roddai i Gristionogion a orthrymid gan y Saxoniaid. Ac hyd yn oed Woodward, pan yn ei ddifrio fel rhyfelwr, am iddo ennill iddo ei hun yr enw "Catgubail Catguommedd" (=y dyn na fynai ymladd), a rydd iddo yr anrhydedd hwn fel sant,—ei fod yn fwy cyfarwydd âg adeiladu eglwysi, a gwaddoli mynachdai, nag ydoedd â rhyfela.—[*Hist.*, td. 140.] Cadwaladr, meddir, a adeiladodd eglwys Ael, yn Môn; yn yr hon y claddwyd ei daid Cadfan, a'r hon a elwir yn bresennol yn Llangadwaladr. Y mae yn nawdd sant hefyd i ddwy o eglwysi ereill, sef Llangadwaladr yn sir Ddinbych, a Llangadwaladr (*Bishopston*) yn sir Fynwy. Ei gofwyl a gynnelir ar y 9fed dydd o Hydref.—(*Myv. Arch.*; *Iolo MSS.*; *Hanes Cref.*, *D. Peter*; *Hanes Cym.*, *Carnhuanawc*; *Woodward's Hist.*; *Camb. Biog.*; *Hor. Brit.*; *Cambro Brit.*; *Nen. Hist. Brit.*; *Steph. Lit. Kym.*; *Wolt. Leg. Wall.*)

CADWEDIGAETH BABANOD. Gwel BEDYDD; IACHAWDWRIAETH.

CADWEN, [*cadw*]: tid. Ymddengys fod cadwynau aur mor arferedig yn mysg yr Iuddewon ag yn ein plith ninnau yn bresennol. Arferid hwy er mwyn addurn, ac fel arwydd swyddawl. Gosododd Pharaoh gadwen aur am wddf Ioseph, fel arwydd o urddas a dyrchafiad: *Gen.* xli. 42. Gorchymynodd Belsassar wisgo Daniel â chadwen aur am ei wddf: *Dan.* v. 29. Yn yr Aipht, gwisgai y barnwyr gadwen aur, ac yn nglŷn wrthi arlun o'r dduwies Thmei, neu Gwirionedd; a gwisgid yno hefyd gadwynau cyffelyb er mwyn addurn gan wragedd. Nid yw yn angenrheidiol tybied, medd Kitto, mai oddi wrth yr Aiphtiaid y cafodd yr Hebreaid yr arferiad hon; o blegid y mae y ffaith fod cadwynau yn cael eu crybwyll yn mysg anrhaith y Midianiaid yn dangos eu bod mewn arferiad yn mysg cenedloedd, y rhai yr oedd eu dull o fyw yn fwy tebyg i eiddo yr Israeliaid cyn iddynt ddyfod i feddiant o Wlad Canaan. Ymddengys fod cadwynau yn cael eu gwisgo gan y ddau ryw (*Diur.* i. 9; *Ezec.* xvi. 11); a sonir am danynt yn mysg addurniadau y briodferch (*Can.* i. 10; iv. 9); "Dygaist fy nghalon âg un gadwen wrth dy wddf." Cyfeirir yma at y gadwen a wisgai y briodferch, medd Kitto; ond yn ol y *Vulgate*, ac amryw esbonwyr, y meddwl yw, "un o gudynau gwallt dy wddf:"—"âg un o droadau dy wddf," medd Boothroyd:—cyfeirir, medd A. Clarke, at symmudiad cyhyrau y gwddf.

Yr oedd yn arferiad yn mhlith y Rhufeiniaid i sicrhau y carcharor â chadwen ysgafn wrth y milwr a fyddai yn ei wylio. Cylymid hi wrth ddeheulaw y carcharor, a llaw aswy y milwr. At y gadwen hon y cyfeiriai Paul mor fynych: *Act.* xxviii. 20; *Eph.* vi. 20; 2 *Tim.* i. 16. Pan ddymunent roddi y sicrhâd mwyaf ar y carcharor, cyssylltid ef â dwy gadwen wrth ddau o filwyr, fel y gwnaed â Phedr: *Act.* xii. 6. Cedwid y delwau yn eu creirgelloedd wrth gadwyni: *Esa.* xl. 19. Yn *Salm* lxxiii. 6, lleferir am falchder fel cadwen, "Am hyny y cadwynodd balchder hwynt." Seis.,—"Therefore pride compasseth them about as a chain." *Hengstenberg*,—"Therefore pride encompasses their neck." "Rhwymant falchder am danynt fel cadwen, gan dybied ei fod yn addurn."—*Gill.* "Gall fod yma gyfeiriad at y swyddau a ddaliai rhai o honynt, gan fod cadwynau yn arwyddion o allu gwladol."—*Clarke.*

"And so with pride they fondly deck,
As with a chain of gold their neck." *Mant.*

"Yr achos a arweinodd y Salmydd," medd Hengstenberg, "i lefaru am falchder fel gwddf-addurn y drygionus, oedd, mai eu dull o addurno eu gyddfau a ddangosai eu balchder yn fwyaf." Cymh. *Esa.* iii. 16, a *Iob* xv. 26.

CAE—AU, [*cau*]: gwrych, bid, gwyddi; peth mewn ystyr trawsenwol am faes, megys cae o ŷd, cae o wair. Addurnbleth hefyd a elwir "cae," megys cae bedw=*a birchen garland.* "Gwraig yn mron y cae"=gwraig yn agos i'w thymp.

Digitized by Google

March a wyl yr yd, ac ni wyl y cae. *Diar.*

Cae da rhawg, pe celd a'i rhoes.

A good lasting wreath, ah! could I obtain her who gave it.
D. ab Gwilym.

Gwrych i amddiffyn meusydd, gerddi, a gwinllanoedd: 1 *Cron.* iv. 23. Y mae rhagluniaeth ddiffynol Duw, swyddogion gwladol, llywodraeth, neu pa beth bynag sydd yn amddiffyn yn ngwyneb perygl, yn cael eu galw yn gae:" *Iob* i. 10; *Esa.* v. 2; *Ezec.* xiii. 5 Y mae blinderau ac anhawsderau, am eu bod yn ein lluddias i wneuthur a mwynhau fel y mynem, yn cael eu galw yn "gau i fyny y ffordd â drain;" *Hos.* ii. 6. "Y mae ffordd y diog fel cae drain" (*Diar.* xv. 19), am ei fod yn dychymygu fod anhawsderau mawr yn ei lwybr, ac yn fynych yn ymddyrysu mewn anhawsderau afrcidiol.

CAENEN—AU, [*caen*]: gorchuddiad, toad, arwyneb. "A'r bore yr oedd caenen o wlith o amgylch y gwersyll:" *Exod.* xvi. 13. Gwel GWLITH; MANNA.

CAER—AU—OG, [*cae*]: mur, clawdd; caerau dinas; amddiffynfa, twr. Caer y fynwent= mur y fynwent; Caergwydion=y llwybr llaethog, ac a elwid felly oddi wrth Gwydion ab Don, yr hwn a fernid yn ddewin, am ei fod yn ddeallus mewn seryddiaeth; haul dan gaerau=machlud haul. Y lleoedd a alwyd gan y Cymry *Caer*, a alwyd gan y Seison *Caester*, *Cester*, *Cister*, *Chester*; a chan y Rhufeiniaid *Castrum*. "Coron gaerawg," a "brethyn caerawg," a elwir felly, o herwydd cyffelybrwydd eu gwneuthuriad i waith mur.—*Dr. Pughe.* Mewn ystyr trawsenwol, arwydda iachawdwriaeth yr Arglwydd, yr hon sydd fel caer yn amddiffynfa ddiogel i'w bobl: *Esa.* xxvi. 1; xxxvii. 26; lx. 14, 18. Lleferir am eglwys y Cenedloedd dan y gymhariaeth o gaer (*Can.* viii. 9, 10); "Os caer yw hi...caer ydwyf fi." Arddengys y gymhariaeth hon, medd Williams, ei chymhwysder i gyfodi a magu teulu. Gwel AMDDIFFYNFA; DINAS; MURIAU.

CAER-ARBA, CIRIATH-ARBA, [*dinas pedair*]: dinas Arba, yr hwn oedd dad neu ŵr mawr yn mysg yr Anaciaid: *Ios.* xiv. 13—15; xv. 13, 14. Cyfrifid hi o henafiaeth mawr yn amser Moses, gwedi ei hadeiladu saith mlynedd o flaen Soan yn yr Aipht (*Num.* xiii. 22); ac enwir hi hyd yn oed o flaen Damascus: *Gen.* xiii. 18: cymharer *Gen.* xv. 2. Yr oedd yn enwog yn amser Abraham, ac yno y bu farw Sarah: *Gen.* xxiii. 2. Ymddengys, oddi wrth *Ios.* xiv. 15, mai pan y rhoddwyd hi, neu y tir o'i hamgylch, yn etifeddiaeth i Caleb, yn wobr am ei ffyddlondeb, y galwyd hi Hebron, ar enw un o'i geraint, efallai (1 *Cron.* ii. 42); ond tybia rhai y gelwid hi felly yn mhell cyn hyny. Yr oedd hefyd yn cael yr enw Mamre yn amser Abraham, efallai oddi wrth un o'i gynghreirwyr: *Gen.* xxiii. 19; xxxv. 27; cymharer *Gen.* xiv. 13, 24. Yr oedd ei henw cyntefig, er hyny, yn arferedig mor ddiweddar ag amser Nehemiah: *Neh.* xi. 25. Gwel HEBRON.

CAER-HUSOTH, CIRIATH-HUZOTH, [*caer-heolydd*]: prif ddinas Balac, brenin Moab: *Num.* xxii. 39.

CAERGAINT, [*Canterbury*]: dinas ydyw yn Nghaint, a phrif esgobaeth Lloegr. Saif ar lan yr afon Stour, ar y brif-ffordd rhwng Llundain a Dover, yn lledred gogleddol 51° 17′, a 1° 15′ o hydred dwyreiniol, oddi wrth y Greenwich Observatory. Yr oedd yn llo o hynodrwydd arbenig yn amser llywodraeth y Rhufeiniaid, fel y gwelir yn amlwg oddi wrth y ddwy ffordd filwraidd Rufeinig i Dover a Lympne—eu dau brif borthladd. Ymddengys mai ei hen enw Prydeinig oedd Durwhern (Dwfr chwyrn?), yr hwn a newidiwyd i Durovernum (=afon fywiog) yn yr iaith Ladin; yr hwn enw a roddwyd iddi oddi wrth y ffaith fod y Stour yn rhedeg drwy y ddinas yn lled gyflym. Gelwid hi Caer-Cant, neu ddinas Cant, gan y Saxoniaid; oddi wrth hyn daeth Cantuaria a Canterbury. Nid oes unrhyw dystiolaeth hanesol yn rhoddi i ni ei chymmeriad o dan y Prydeiniaid na'r Rhufeiniaid: ond nid oes ammheuaeth nad oedd yn lle o enwogrwydd; canys cyfrifid hi yn brif ddinas swydd Caint yn nechreu y llywodraeth Saxonaidd, ac ynddi hi y preswyliai y brenin.

Dyoddefodd Caergaint, mewn oesoedd boreuol, amryw ymosodiadau dilynol, ond yn fwyaf neillduol oddi wrth y Daeniaid, yn 1011, pryd y llosgwyd rhan fawr o'r ddinas. Niweidiwyd hi hefyd yn fynych gan dân: dygwyddodd y rhai mwyaf gofidus o honynt yn ystod teyrnasiad Harri II. a Harri VIII.; ond o herwydd ei phwysigrwydd fel prif ddinas esgobawl, byddai yn fuan yn cael ei hadferu; a byddai ymgyrchiadau mynych pererinion yn tueddu i'w chyfoethogi.

Yn Nghaergaint y gwnaed y sefydliad Cristionogol rheolaidd cyntaf, gan Awstin; yr hwn a fedyddiodd Ethelbert, brenin Caint, a 10,000 o'r Saxoniaid, yn afon Swale, yn y flwyddyn 597. Awstin oedd ei harchesgob cyntaf, a bu farw yno yn 604. Claddwyd ef yn mynachdy St. Awstin yn gyntaf; ac wedi hyny, yn 1091, symmudwyd ei gorff i'r eglwys gadeiriol. Yn mysg yr archesgobion mwyaf enwog, gellir enwi Thomas à Becket, yr hwn a lofruddiwyd ger bron yr allor gan bedwar o ddilynwyr Harri II., yn 1171; a Thomas Cranmer, yr hwn a losgwyd yn Rhydychain yn nheyrnasiad y frenines Mary. Y mae yr eglwys gadeiriol, un o'r adeiladau ardderchocaf yn Lloegr, o henafiaeth mawr. Ond dywedir mai eglwys St. Martin, yn agos i Caergaint, yw yr eglwys Gristionogol henaf yn Lloegr; yr hyn a addefir yn gyffredin. Tybir mai Awstin a ddechreuodd yr eglwys gadeiriol ar sylfeini eglwys a adeiladwyd i'r milwyr Cristionogol yn amser llywodraeth y Rhufeiniaid yn Mhrydain. Gan fod gwahanol ranau yr eglwys gadeiriol wedi eu hadeiladu ar wahanol amserau, y mae ei nodweddau adeilyddol yn wahanol iawn i'w gilydd; ond er hyny y mae yr holl ranau wedi eu cyfaddasu er rhoddi golygfa foddhaol. Y mae yr ochr ddeheuol yn nodedig am yr amrywiaeth hwn. Y mae y pen dwyreiniol, a elwir Becket's Crown, am ei fod wedi ei orphen yn ystod ei archesgobaeth ef, ar lun cylch; ac y mae y pen gogleddol yn dwyn rhyw debygrwydd i'r deheuol. Y mae y porth deheuol yn ddarn canllawiog ardderchog, gyda nen o geryg. Cyfrifir y tŵr yn un o'r cynlluniau mwyaf chwaethedig a hardd o'r dull hwn o adeiladu o fewn holl Loegr. Y mae yno amryw o ffenestri o wydr lliwiedig; y fwyaf hynod o ba rai yw y ffenestr orllewinol. Y mae yr eglwys yn cynnwys amryw feddadeiliau o frenhinoedd, ac enwogion ereill. Y mae y corgafell yn un o'r rhai mwyaf yn y deyrnas; y mae yn agos i 200 troedfedd o hyd o'r drws gorllewinol at yr allor, a deunaw troedfedd ar ugain o led rhwng y ddau ddrws o bob tu. Y mae hyd

Digitized by Google

eithaf yr adeilad, o ddwyrain i orllewin, yn 514 troedfedd, a'i lled eithaf yn 71 troedfedd. Uchder y tŵr ydyw 235 troedfedd. Y mae y sefydliad presennol yn gynnwysedig o ddeon, deuddeg prebendur, chwe phregethwr, chwe is ganon, a'r swyddogion arferol. Y mae yr ysgol ramadegol, yr hon sydd o fewn y terfynau, ac a gynnelir gan y cabidwl, yn cael ei galw yn King's School, o herwydd ei hail-drefnu gan Harri VIII. Sefydlwyd yr ysgol hon gyntaf gan Theodore, archesgob Caergaint, yr hwn a fu farw o ddeutu 690.

Yn mysg adfeilion hen adeiladau yno, gellir gweled muriau y castell, yr hwn, fel y dywedir, a adeiladwyd gan William y Concwerwr; hefyd adfeilion palas, yr hwn a adeiladwyd gyntaf gan yr archesgob Lanfranc; hefyd, adfeilion mynachdy St. Awstin, yr hwn a elwir felly, naill ai o herwydd ei adeiladu ganddo, neu ei neillduo iddo. Y mynachdy hwn, a'i fuarthau, &c., a orweddent ar un erw ar bymtheg o dir, y rhai a amgylchynid gan fur.

Y mae yn Nghaergaint bedair ar ddeg o eglwysi plwyfol, ac amryw gapeli ymneillduol.

CAERGRAWNT [*Cambridge*]: pen tref sir Caergrawnt, yn nghantref Flendish, oddeutu 48 milltir (uniongyrchol) i'r gogledd-ddwyrain o Lundain. Tardda ei henw oddi wrth enw arferedig yr afon sydd yn myned heibio iddi: ei hen enw oedd Granta, yr hwn a arferir eto y tu uchaf i'r ddinas. Gelwir y dref yn Grentebrige yn nghofion Domesday: y mae Grantchester yn awr yn enw pentref yn agos i Gaergrawnt. Y crybwylliad sicr cyntaf am y lle ydyw pan losgwyd ef gan y Daeniaid yn 871, a chrybwyllir iddo gael ei ddinystrio eilwaith ganddynt yn 1010. Pan wrthsafwyd William y Concwerwr gan y pendefigion Seisonig yn ynys Ely, adeiladodd gastell yn Nghaergrawnt, yn ol Grose, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad; ond yn y flwyddyn 1088, medd Ordericus Vitalis. Y mae yn amlwg, oddi wrth ddarluniad y lle yn y *Domesday Surrey*, fod y dref wedi cyrhaedd hynodrwydd arbenig y pryd hyny.

Cawn, yn 1249, grybwylliad am anghytundeb mawr rhwng preswylwyr Caergrawnt ac ysgolorion y brifysgol: yr hyn a ddygwyddodd lawer gwaith wedi hyny.

Cawn fod prifysgol Caergrawnt, yn ystod y rhyfel rhwng Charles I. a'r senedd, yn ffyddlawn i'r brenin hwnw; eithr yn 1643, darfu i Cromwell, yr hwn a fu ddwywaith dros y fwrdeisdref yn y senedd, gymmeryd meddiant o'r dref yn enw y senedd, a rhoddi ynddi fil o wyr yn warchodlu.

Y mae y dref yn cynnwys pedwar ar ddeg o blwyfydd:—All Saints, St. Andrew the Great, St. Andrew the Less neu Barnwell, St. Benet. St. Botolph, St. Clement, St. Edward, St. Giles a St. Pedr yn un, St. Mary the Great, St. Mary the Less, St. Michael, St. Sepulchre, a'r Trinity. Dywedir fod yno mewn amseroedd yn ol eglwysi i St. Ioan, St. Nicholas, St. Zachary, St. Pedr without Trumpington Gate, All Saints in the Jewry, a Chapel St. Edmunds. Nid oes dim yn brydferth yn yr adeiladau hyn. Y mae eglwys St. Sepulchre yn un o'r ychydig eglwysi yn Lloegr sydd ganddynt dŵr crwn. Adeiladwyd hi fel efelychiad o Eglwys y Bedd Sanctaidd yn Ierusalem.

Yn mysg y sefydliadau crefyddol oedd yn bodoli yn Nghaergrawnt ar wahân yn eu dechreuad oddi wrth y brifysgol, yr oedd tŷ y Canoniaid Awstinaidd, wedi ei sefydlu yn 1092, yn neu yn agos i eglwys St. Giles; lleiandy Benedictaidd St. Rhadegund, yn awr yn ffurfio rhan o Goleg yr Iesu, wedi ei sefydlu yn 1130; y Brodyr Llwydion, neu y Ffrancisciaid, wedi eu sefydlu yn fuan ar ol 1224; y Brodyr Bethlehemaidd, yn 1257; y Brodyr de Sacco, yn 1258; y Brodyr Duon, neu Dominicaidd, wedi eu sefydlu cyn 1275; tŷ Brodyr Mair, yn mhlwyf All Saints, yn y dreydedd flwyddyn o deyrnasiad Edward I.; y Brodyr Awstinaidd, wedi eu sefydlu yn neu yn agos i'r Fishmarket, mewn lle o'r enw Easehill, o ddeutu 1290; y Brodyr Gwynion, y rhai a ddaethant o Newenham, yn 1291; y Canoniaid Gilbertine, wedi eu sefydlu o ddeutu yr un amser; Meudwydy St. Anne, a'r Ysbytty i Wahangleifion, wedi eu sefydlu gan Henry Tangmer, cyn 1397; ac Ysbytty henafol Mair Magdalen i Wahangleifion yn Stourbridge.

CAERGRAWNT, PRIFYSGOL. Y mae hanes sefydliad cyntaf y brifysgol hon yn aneglur. Er fod rhai ysgrifenwyr wedi dyddio ei sefydliad yn mhellach yn ol, mae yn ymddangos yn debygol mai yn y seithfed canrif y daeth Caergrawnt yn eisteddle dysgeidiaeth; pan, fel y dywed Bede [*Hist. Eccl.*, llyfr iii. pen. 18], y darfu i Sigebert, brenin yr Angles dwyreiniol, trwy gynghor Felix yr esgob, sefydlu o fewn ei deyrnas ysgol er dysgeidiaeth, yn gyffelyb i'r un a ganfu yn Ffrainc. Tybir i'r ysgol hon gael ei sefydlu yn Nghaergrawnt. Y mae yn sicr fod Caergrawnt, er amser bore, yn drigle llawer o fyfyrwyr—pa rai a drigent gyntaf mewn ystafelloedd o eiddo y trigolion, ac wedi hyny mewn gwesttai—yn mha fan y ffurfiasant gymdeithas o dan ofal penaeth, ar eu traul eu hunain. Dywed rhai, ddarfod i Edward yr Henaf, pan yn adgyweirio anrheithiadau y Daeniaid yn Nghaergrawnt, adeiladu neuadd i fyfyrwyr, a phenodi proffeswyr; ereill a ddywedant na ddygwyd trefn reolaidd ar ddysgeidiaeth academaidd yno hyd y flwyddyn 1109; pan y darfu i abad Croyland anfon rhai mynachod dysgedig, wedi eu trwytho mewn athroniaeth a chelfyddydau, i'w breswylfod yn Cottenham. Hwythau a aethant i dref yn y gymmydogaeth (Caergrawnt), i ba le y deuai llawer o ysgoleigion i wrandaw eu darlithiau, pa rai a drefnid yn ol dull prifysgol Orleans.

Y freinlen gyntaf y gwybyddir ei chaniatäu i Gaergrawnt fel prifysgol, oedd un a wnaed yn 15 Harry III., yr hon a ganiatäai yr hawl o nodi personau, a elwid *taxors*, i reoleiddio ardreth llettyau y myfyrwyr—pa rai a godwyd i brisiau anferth gan y preswylwyr. Yr oedd hyn yn agos i hanner cant o flyneddoedd cyn sylfaeniad Peter-house—y coleg gwaddoledig cyntaf. Caniataodd Edward III. rai rhagorfreintiau pwysig i'r brifysgol yn y flwyddyn 1333. Bu y ffafrau nodedig hyn yn achos i'r preswylwyr fod yn fwy cenfigenllyd nag erioed wrth awdurdod y brifysgol; a darfu i'w hanfoddlonrwydd dori allan mewn gwrthryfel yn y teyrnasiad dilynol, pan yr ymhyfhasant o herwydd llwyddiant byrbarhaol Wat Tyler a'i gynghreirwyr, ac y lladradasant ac y llosgasant freinlenau y brifysgol.

Darfu i'r pab Martin V., benderfynu, oddi wrth dystiolaethau henafol, fod gan y brifysgol feddiant ar bob llywodraeth, eglwysig ac ysbrydol, ar ei hysgoleigion ei hun.

Caniataodd y frenines Elizabeth, yn y dryde-

flwyddyn o'i theyrnasiad, freinlen gynnwysfawr i'r brifysgol hon; a thrwy y weithred seneddol, 13 Elizabeth, pen. 29, er ymgorffori prifysgolion Lloegr, cadarnhawyd hyn a phob gwaddoliad blaenorol, a chyhoeddwyd fod prifysgol Caergrawnt wedi ei chorffori yn enw y canghellydd, y meistriaid, a'r ysgolheigion. Yr oedd swydd y canghellydd, fel prif ynad y brifysgol, yn bod er amser pur fore: penodiad blyneddol oedd hyd 1504, pan y dewiswyd yr esgob Fisher yn ganghellydd am ei oes: yn awr y mae y swydd yn parhau am ddwy flynedd, neu am gyhyd o amser dros ddwy flynedd ag y bydd y brifysgol yn dawel iddo. Y swyddogion ereill ydynt yr uchel oruchwyliwr, yr is-ganghellydd, a dirprwywr, yr hwn sydd yn cynnal coflys (*court of record*) i bersonau breintiedig islaw urdd A. C. (=M. A.); hefyd areithydd cyhoeddus; cyfeisteddwr, i gynnorthwyo yr is-ganghellydd yn ei lys; dau broctor, swydd pa rai ydyw rheoleiddio y ddysgyblaeth, a chadw heddwch y brifysgol; llyfrgellydd; cofladur (*registrar*); dau *taxor*, pa rai a reoleiddiant y farchnad, a ymchwiliant i drefniad pwys bara, ac a brofant y pwysau a'r mesurau; dau gymmedroiwr (*moderators*), y rhai sydd yn arolygu yr ymarferiadau yn yr ysgolion, a'r arholiadau am urddau yn y celfyddydau; dau ymchwilydd (*scrutators*), y rhai a reoleiddiant orchwylion y cynnulleidfaoedd; dau *proproctor*; tri *esquire-bedel*; a rhai swyddogion israddol.

Y rhai canlynol ydynt golegau y brifysgol hon, gydag amser eu sefydliad:—Peter-house, 1257; Clare Hall, 1326; Coleg Pembroke, 1343; Gonville a Caius, 1348; Trinity Hall, 1350; Corpus Christi, neu Benet, 1351; King's, 1441; Queen's, 1446; Catharine Hall, 1475; Jesus, 1496; Christ's, 1505; St. John's, 1511; Magdalen, 1519; Trinity, 1546; Emmanuel, 1584; Sidney Sussex, 1598; Downing, 1800.

Yr adeiladau cyhoeddus ereill perthynol i'r brifysgol ydynt, y senedd-dŷ (*senate-house*), y llyfrgell a'r ysgolion, y gerddi llysieuol, argraffwasg Pitt, a'r arsyllfa (*observatory*). Adeiladwyd y senedd-dŷ, adeilad o'r ffurf Gorinthaidd, yn 1722, oddi wrth gynllun gan Syr James Burrell. Adeiladwyd yr ysgolion yn 1443, ar draul y brifysgol, a thrwy gynnorthwy rhoddion haelionus. Y mae y gerddi llysieuol yn cynnwys arwyneb o dair neu bedair erw o dir. Yr oedd y tir, yn nghyd âg adeilad henafol, gynt yn eiddo y Brodyr Awstinaidd: prynwyd y lle gan y diweddar Dr. Richard Walker, isfeistr Coleg Trinity, am 1600*p*. Y mae yr hen ysgolion eto mewn bod, ac yn perthyn i'r proffeswr Jacksonaidd am y pryd: ac adeiladwyd lle newydd, er mwyn rhoddi darlithiau ar fferylliaeth, llysieuaeth, a difyniaeth. Dechreuwyd adeiladu yr argraffdŷ yn 1831, a gorphenwyd ef yn 1833. Adeiladwyd yr arsyllfa rhwng 1822 ac 1824, yn ol cynllun Mr. J. C. Mead, gyda thraul o fwy na 18,115*p*.

Sefydlwyd y meddygdŷ, yr hwn a elwir Addenbrooke's Hospital, gyntaf, yn ol ewyllys y Dr. J. Addenbrooke: dechreuwyd yr adeilad yn 1753, ond ar ei orpheniad, yn 1766, pan welwyd nad oedd y drysorfa yn ddigon er ei gynnal, pasiwyd gweithred seneddol i'w wneyd yn yspytty. Cynnaliwyd ef wedi hyny drwy roddion gwirfoddol. Helaethwyd yr adeilad yn fawr yn ddiweddar, yn ol llythyr cymun Mr. Bowtell.

Rhoddodd Richard Iarll Fitzwilliam, yr hwn a fu farw yn 1816, ei gasgliad o lyfrau, paentiadau, a darluniadau, &c., at wasanaeth y brifysgol, yn ei ewyllys, yn nghyd â llog 100,000*p*., i adeiladu a gwaddoli creirfa. Y mae y casgliad hwn, yr hwn a elwir y Fitzwilliam Museum, yn awr wedi ei sefydlu yn yr hen ysgol rad, y tu cefn i Goleg Corpus Christi. Y mae creirfa arall, yn gynnwysedig yn benaf o ddarluniau, wedi ei rhoddi i'r brifysgol gan y diweddar Mr. Mesman: ond y maent yn awr mewn ystafell yn yr argraffdy.

Y mae pob coleg yn gorfforaeth lëygol, yn rhwym i'w chyfreithiau ei hun; ond y mae aelodau pob coleg yn rhwym hefyd i gyfreithiau cyffredin y brifysgol. Rhoddwyd statutau presennol y brifysgol gan Elizabeth, yn y ddeuddegfed flwyddyn o'i theyrnasiad, ac arnynt hwy y seilid pob deddf newydd yn y lle. Y mae pob un o'r dau goleg ar bymtheg yn penodi aelodau i lywodraethu ac i wneuthur deddfau i'r brifysgol. Lle y gymmanfa yw y senedd-dŷ. Y mae gan y rhai canlynol bleidlais yn y gymmanfa:—pob athraw yn y celfyddydau; doctoriaid duwinyddiaeth, cyfraith leyg, neu feddyginiaeth, y rhai sydd â'u henwau ar lyfrau y colegau, yn dal unrhyw swydd yn y brifysgol, neu yn preswylio yn nhref Caergrawnt. Y mae y senedd-dŷ yn rhanedig i ddau dŷ, y rhai a elwir y Regent House a'r Non-Regent House: y mae y blaenaf yn gynnwysedig o ddoctoriaid dan ddwy flynedd, ac o A. C. dan bum mlynedd; a'r diweddaf o A. C. dros bum mlynedd. Y mae doctoriaid sydd dros ddwy flynedd yn pleidleisio yn un o'r ddau dŷ, yn ol eu hewyllys. Y mae yno hefyd gynghorfa o'r enw Caput, yr hon a ddewisir yn flyneddol ar y 12fed o Hydref; a rhaid cymmeradwyo yn hon bob cynnygiad cyn y gellir ei gyflwyno i'r senedd-dŷ. Y mae y Caput yn gynnwysedig o'r is-ganghellydd, doctor yn mhob gradd (*faculty*), a dau A. C., y rhai ydynt gynnrychiolwyr y Regent a'r Non-Regent House. Mae gan bob aelod unigol o'r Caput hawl i roddi pleidlais ar unrhyw weithred a gynnygir.

Y mae cyllid blyneddol y brifysgol yn deilliaw o wahanol fanau. Y mae perigloriaeth Burwell, a thyddyn yn Barton, yn dwyn i mewn o ddeutu 1000*p*., yn flyneddol; tybir fod yr elw deilliedig oddi wrth urdd-aelodiadau (*matriculations*), a graddau, &c., a'r elw oddi wrth wasg y brifysgol, o ddeutu 2,000*p*. bob un. Credir fod yr holl gyllid oddi wrth bob peth ychydig yn rhagor na 5,500*p*. yn flyneddol. Arolygir y drysorfa gan yr is-ganghellydd, neu ymddiriedolwyr penododig; a chwilir y cyfrifon yn flyneddol gan dri pherson penododig gan y senedd-dŷ.

Y mae proffeswyr cyhoeddus y brifysgol yn derbyn eu tâl o wahanol fanau: rhai o gist y brifysgol; ereill oddi wrth y llywodraeth wladol, neu oddi wrth etifeddiaethau a adawyd i'r perwyl. Y rhai hyn ydynt Proffeswr Duwinyddiaeth yr arglwyddes Margaret; Proffeswyr breiniol Duwinyddiaeth, Cyfraith Leyg, Meddyginiaeth, Hebraeg, a Groeg; dau Broffeswr Arabaeg, un o ba rai a elwir Darllenydd yr Arglwydd Elusenwr; y Proffeswr Lucasaidd Rhif a Mesur; Proffeswyr Cydwybodiant (*Casuistry*); Fferylliaeth; Athroniaeth Brawfiadol; Difyniaeth; Hanesiaeth Ddiweddar; Llysieuaeth; Daiareg; a Seryddiaeth; Proffeswr Norrisiaidd Duwinyddiaeth; Athroniaeth Naturiol a Phrawfiadol; Proffeswyr Downingaidd Deddfau Lloegr, a Meddyginiaeth; Proffeswyr Mwnyddiaeth, Gwleidiadaeth, a Cherddoriaeth: heb law y rhai hyn, y mae amryw ddarlithiau gwaddoledig. Sefydlwyd Cymdeithas Philosophaidd Caergrawnt yn 1819, a chorfforwyd hi gan freinlen Awst 3ydd, 1832. Y mae

Digitized by Google

yn cynnwys y rhan fwyaf o raddogion (*graduates*) trigiannol y brifysgol.

Rhoddwyd yr hawl i anfon dau gynnrychiolwr i'r senedd, drwy freinlen gan 1 James I. Y mae y fraint i bleidleisio yn gyfyngedig i aelodau y senedd-dŷ, o ddeutu 1,900 o rifedi. Yr isganghellydd yw y swyddog sydd yn gweithredu. Gwel ATHROFA; COLEG; PRIFYSGOL.

CAERGRAWNT, YSGRIFLYFR: copi o'r Efengylau a'r Actau yn Groeg a Ladin. Canfuwyd ef gan Beza yn mynachdy Irenæus, yn Lyons, yn 1562, a rhoddodd efe i brifysgol Caergrawnt yn 1582. Ei faint yw pedwarplyg (*quarto*), ac wedi ei argraffu ar groen (*vellum*). Gwel BEZA.

CAERSALEM. Gwel IERUSALEM.

CAETH—IWED, CAETHWAS, CAETHWASANAETH, [עבד; Deg a Thrigain, *παῖς, δοῦλος, οἰκέτης;* Vulgate, *servus;* Seis., *servant* a *bondman;* benywaidd, אמה a שפחה; *δοῦλη. παιδίσκη, οἰκέτις; ancilla*]. Nid yw y gair *caethwasanaeth* yn gwbl addas i osod allan gyfundrefn wasanaethyddol yr Iuddewon, er ei fod yn cael ei ddefnyddio yn fynych felly. Yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, golygai yn briodol sefyllfa y carcharion a gymmerid mewn rhyfel, neu drueiniaid y gaethfasnach, yn nghyd â'u hepil. Ystyrid y caethion hyn yn eiddo hollol i'w meistriaid, ac ystyrid eu caethiwed yn barhaol a throsglwyddol. Nid oes debygrwydd chwaith rhwng y gwasanaeth Iuddewig a'r caethwasanaeth diweddar, yr hwn, er iddo wahaniaethu oddi wrth eiddo y Groegiaid a'r Rhufeiniaid mewn pethau dibwys, eto sydd yn gyffelyb iddo yn ei egwyddorion hanfodol. Os cyfrifid caethion o dan y ddeddf Rufeinaidd yn "*pro nullis, pro mortuis, pro quadrupedibus,*" felly hefyd o dan ddeddf yr Unol Daleithiau, ystyrir hwynt yn eiddo personol i'w meddianwyr, i'w defnyddio at unrhyw ddybenion; ac y mae eu caethwasanaeth, fel eiddo y Rhufeiniaid gynt, o angenrheidrwydd yn barhaol a throsglwyddol.

Y mae yn anhawdd olrhain dechreuad caethwasanaeth. Gall ei fod yn bodoli cyn y dylif, pan "lanwasid y ddaiar â thrawsedd," ac y tynwyd arni ddialedd Duw. Ond y crybwylliad uniongyrchol cyntaf yn y Beibl am gaethwasanaeth, neu gaethfasnach, a geir yn hanes Ioseph, yr hwn a werthwyd gan ei frodyr i'r Ismaeliaid: *Gen.* xxxvii. 27, 28. Yn *Ezec.* xxvii. 12, 13, canfyddir cyfeiriad at y gaethfasnach a gerid yn mlaen â Tarsis gan Iafan, Tubal, a Mesech. Ac yn y Dadguddiad, rhestrir yn mysg marsiandïaeth Rhufain baganaidd (Babilon gyfriniol), "*caethweision* (*σωμάτα*) ac eneidiau dynion;" *Dad.* xviii. 13.

Cyfeiria yr haneswyr sanctaidd at wahanol fathau o wasanaeth:—

1. *Y Gwasanaeth Patriarchaidd.* Nid ellir rhoddi darnodiad cywir o natur y gwasanaeth hwn: nis gall ammheuaeth fod, pa fodd bynag, nad oedd yn cael ei reoli gan egwyddorion cyfiawn, teg, a hynaws. Yr oedd gwasanaethwyr y patriarchiaid o ddau fath—y rhai "a aner yn y tŷ," a'r rhai "a brynir âg arian;" *Gen.* xvii. 13. Ymddengys fod gan Abraham lawer iawn o weision. Ar un adeg, arfogodd dri chant a deunaw o wŷr ieuainc, "a anesid yn ei dŷ ef;" gyda pha rai yr ymlidiodd ar ol y breninoedd a gymmerasant Lot, a'i gyfoeth, a'r gwragedd, a'r bobl, ac a'u dygodd yn ol drachefn: *Gen.* xiv. 1—16. Yr oedd y gweision a enid yn y tŷ yn mwynhau mwy o freintiau, efallai, na'r lleill. Eliezer o Damascus, gwas wedi ei eni gartref, oedd goruchwyliwr Abraham; ac os na byddai iddo had, efe oedd i fod yn etifedd iddo: *Gen.* xv. 2—4. Anrhydeddid y dosbarth hwn o weision âg ymddiriedaeth lwyraf eu meistriaid, a defnyddid hwynt i wneyd y gwasanaeth mwyaf pwysig. Ceir anghraifft o hyn yn *Gen.* xxiv. 1—9, lle y mae gwas henaf neu uchaf tŷ Abraham, "yr hwn oedd yn llywodraethu ar yr hyn oll a'r a oedd ganddo," yn cael ei anfon i Mesopotamia i ddewis gwraig i Isaac, er ei fod yn ddeugain oed y pryd hyn. Awdurdod tywysog neu benaeth oedd awdurdod Abraham ar ei deulu, yn cael ei reoli gan arferiad a chydsyniad ei ddibynwyr. Nis gallasai fod yn amgen yn yr amgylchiadau yr oedd efe ynddynt; ac oddi wrth y cymmeriad a roddir iddo yn yr Ysgrythyr, ni chymmerasai fantais ar unrhyw amgylchiadau i'w gorthrymu neu i'w diraddio: "Canys mi a'i hadwaen ef, y gorchymyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyflawnder a barn; fel y dygo yr Arglwydd ar Abraham yr hyn a lefarodd efe am dano;" *Gen.* xviii. 19. Yr oedd gweision Abraham yn cael mwynhau yr un breintiau crefyddol a'u meistr, a rhoddid arnynt arwydd y cyfammod: *Gen.* xvii. 9, 14, 24, 27.

Y mae gwahaniaeth eglur yn cael ei wneyd rhwng "gweision" Abraham a'r pethau a wnaent i fyny ei eiddo neu ei gyfoeth. Yr oedd Abraham yn meddu llawer iawn o anifeiliaid, arian, ac aur: *Gen.* xiii. 2, 5. Ond pan y sonir am allu a mawredd y patriarch, yna crybwyllir am ei weision yn gystal a'r pethau a gyfansoddent ei gyfoeth: *Gen.* xxiv. 34, 35. Dywedir am Isaac, "A'r gŵr a gynnyddodd, ac a aeth rhagddo, ac a dyfodd, hyd onid aeth *yn fawr iawn;* ac yr oedd ganddo ef gyfoeth o ddefaid, a chyfoeth o wartheg, a *gweision* lawer," &c.; *Gen.* xxvi. 13, 14, 16, 26, 28, 29. Pan y soniai Hemor a Sichem wrth yr Hefiaid am gyfoeth Iacob a'i feibion, dywedent, "Eu hanifeiliaid hwynt, a'u cyfoeth hwynt, a'u holl ysgrubliaid hwynt, onid eiddo ni fyddant hwy?" *Gen.* xxxiv. 23. Dywed gwragedd Iacob wrtho, "Canys yr holl *olud* yr hwn a ddug Duw oddi ar ein tad ni, nyni a'n plant a'i pïau;" *Gen.* xxxi. 16. Yna rhoddir rhestr o'r eiddo: "ei holl anifeiliaid, a'i holl gyfoeth yr hwn a ennillasai, sef ei anifeiliaid meddiannol." Ni chynnwysir ei weision lluosog yn mysg ei feddiannau:—cymh. *Gen.* xxxi. 43, â 16, 18. Pan y danfonodd Iacob genadau at Esau, gan ddymuno argraffu ar ei feddwl ei rwysg a'i allu, gorchymynodd iddynt ei hysbysu nid yn unig o'i *gyfoeth*, ond hefyd o'i *faweredd*, a bod ganddo "eidionau, ac asynod, defaid, a gweision a morwynion;" *Gen.* xxxii. 4, 5. Eto, nid oedd gweision yn yr anrheg a anfonodd, er fod yn amlwg ei fod wedi dethol y pethau mwyaf gwerthfawr o'i feddiannau: *Gen.* xxxii. 14, 15; xxxiv. 23; xxxvi. 6, 7. Nid oes genym un anghraifft fod y patriarchiaid yn rhoddi nac yn gwerthu eu gweision, nac yn eu prynu gan *drydydd* person. Yr oedd gan Abraham weision wedi eu prynu "âg arian." Fe gymmerwyd yn ganiataol eu bod wedi eu prynu gan drydydd person, pryd nad oes un prawf mai felly yr oedd. Y tebygolrwydd yw, eu bod wedi eu gwerthu eu hunain i'r patriarch am werth cyfatebol; hyny yw, ymrwymasant i'w wasanaethu am ysbaid mwy neu lai, yn gyfnewid am yr arian a roddid iddynt yn mlaen llaw. Twyll i gyd yw tybio

Digitized by Google

fod unrhyw beth a *gyst* arian *yn* arian neu eiddo. Fe ofynid i blant Israel brynu eu cyntafanedig: *Num.* xviii. 15, 16; iii. 45, 51; *Exod.* xiii. 13; xxxiv. 20. Yr oeddynt hefyd i dalu arian am eu heneidiau eu hunain: a phan y neilldueut eu hunain neu eu plant trwy adduned i'r Arglwydd, yr oedd pris eu rhyddhad wedi ei benderfynu drwy gyfraith: *Lef.* xxvii. 2—8. Prynodd Boaz Ruth: *Ruth.* iv. 10. Prynodd Hosea ei wraig: *Hos.* iii. 2. Prynodd Iacob ei ddwy wraig, Rahel a Leah; a chan na feddai arian, gwasanaethodd am danynt saith mlynedd yr un: *Gen.* xxix. 16—23. Gwelir yn amlwg mai prynu gwragedd, naill ai âg arian neu drwy wasanaeth, oedd yr arferiad cyffredin, oddi wrth adnodau cyffelyb i *Exod.* xxii. 17; a 1 *Sam.* xviii. 25. Ond nid yw y drychfeddwl o eiddo i'w ganfod yn un o'r prynladau hyn. Am y gwahanol ffyrdd yn mha rai yr arferir y geiriau, "prynwyd," "prynu," a "prynwyd âg arian," edrycher i *Neh.* v. 8; *Gen.* xlvii. 18—26, &c. Yn *Lef.* xxv. 47, gwelir amgylchiad yr Israeliad a elai yn was i'r dyeithr. Y geiriau ydynt, "a'i *werthu ei hun* i'r dyeithr." Er hyny dywedir, yn *adn.* 51, fod y gwas hwn wedi ei brynu, a bod "arian ei brynedigaeth" wedi eu talu *iddo cf ei hunan.* Am agoriad pellach i'r arferiad Ysgrythyrol, cyfeiriwn y darllenydd at 1 *Bren.* xxi. 20, 25; 2 *Bren.* xvii. 17; *Esa.* iv. 1; lii. 3: gweler hefyd *Ier* xxxiv. 14; *Rhuf.* vi. 16; vii. 14; *Ioan* viii. 34. Mae yn debygol fod gan Iob fwy o weision nag un o'r patriarchiaid y cyfeiriwyd atynt: *Iob.* i. 2, 3. Gellir casglu yn mha oleuni yr edrychai efe ar ei weision, a pha fodd yr ymddygai tuag atynt, oddi wrth *Iob* xxxi. 13—23. A chawn dystiolaeth ddwyfol fod Abraham wedi gweithredu oddi ar yr un ysbryd yn *Ier.* xxii. 15, 16, lle y mae ei ymddygiad yn cael ei roddi yn wrthgyferbyniol i eiddo rhai o'i hiliogaeth. y rhai a wnaent i'w cymmydog eu gwasanaethu yn rhad, "ac heb roddi iddo am ei waith;" *adn.* 13.

2. *Y Gwasanaeth Aiphtaidd.* Dygid ar gof yn fynych i'r Israeliaid, ar ol eu hymadawiad o'r Aipht, y gorthrwm ag yr oeddynt dano "yn nhŷ y caethiwed" hwnw, o ba un y dygwyd hwynt trwy gyfryngiad uniongyrchol Duw. Amean hyn oedd eu dysgu i fod yn gyflawn a hynaws tuag at eu gweision pan y byddent wedi ymsefydlu yn Nghanaan (*Deut.* v. 15; viii. 14; x. 19; xv. 15; xxiii. 7, &c.), yn gystal ag i argraffu ar eu meddwl eu rhwymedigaeth i'r Arglwydd am eu gwaredu. Yr oedd gan yr Aiphtiaid weision teuluaidd, y rhai a allent fod yn gaethion. *Exod.* ix. 14, 20, 21; xi. 5. Ond nid oedd yr Israeliaid wedi eu gwasgaru i blith teuluoedd yr Aipht; ffurfient drefedigaeth neilldiol *Gen* xlvi. 34; *Exod.* viii. 22, 24; ix. 26; x. 23; xi. 7, iv. 29; ii. 9; xvi. 22; xvii. 5; vi. 14 Yr oedd ganddynt feddiant hollol yn ngwlad Gosen, "y man goreu" yn ngwlad yr Aipht. Yr oeddynt yn byw mewn tai parhaol, tai o'u heiddo eu hunain, ac nid mewn pebyll. *Exod.* xii. 22. Ymddengys fod gan bob teulu dŷ iddynt eu hunain (*Exod.* xii. 4; cymh. *Act.* vii. 20): a barnu oddi wrth y cyfarwyddiadau i fwyta y Pasc, nis gallent, o'r braidd, fod yn dai bychain chwaith: *Exod.* xii., &c. Ymddengys eu bod yn cael eu gwisgo yn dda: *Exod.* xii. 11. Yr oeddynt yn meddu "defaid hefyd a gwartheg, sef da lawer iawn;" *Exod.* xii. 4, 6, 32, 37, 38. Yr oeddynt yn meddu hefyd eu llywodraeth eu hunain; ac er eu bod yn trigo mewn talaeth o'r Aipht, ac yn talu teyrnged iddi, cadwasant derfynau eu tylwythau a'u teuluoedd, a'u sefydliadau mewnol, hyd y diwedd: *Exod.* ii. 1; xii. 19, 21; vi. 14, 25; v. 19; iii. 16, 18. Yr oeddynt yn meddu, i raddau helaeth, hawl i drefnu eu hamser: *Exod.* iii. 16, 18; xii. 6; ii. 9; iv. 27, 29, 31. Nid oeddynt yn anhysbys yn y celfyddydau breiniol (*fine arts*): *Exod.* xxxii 4; xxxv. 22, 35. Yr oeddynt oll wedi eu harfogi: *Exod.* xxxii. 27. Ymddengys fod y gwragedd yn gwybod rhyw gymmaint am goethiad teuluaidd. Yr oeddynt yn gydnabyddus âg offerynau cerdd, ac yn fedrus mewn gweithio defnyddiau meinwych (*Exod.* xv. 20; xxxv. 25, 26); ac yr oedd y gwrywaid a'r benywaid yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu: *Deut.* xi. 18, 20; xvii. 19; xxvii. 3. Yr oedd ganddynt ddigonedd o ymborth, a hwnw o amrywiol fathau: *Exod.* xvi. 3; *Num.* xi 4, 5; xx. 5. Ymddengys fod y gwasanaeth a ddysgwylid oddi wrth yr Israeliaid gan eu meistriaid gwaith yn cael ei ofyn gan y gwrywaid yn unig, ac y mae yn debygol mai rhan o'r bobl yn unig a orfodid i weithio ar yr un adeg. Fel rhai yn talu teyrnged, y mae yn debyg eu bod yr anfon gwŷr i'r fyddin Aiphtaidd; ond ymddengys fod y cyfoethogion yn cael eu hesgusodi oddi wrth hyn: *Exod.* iii. 16; iv. 29; v. 20. Y tlodion oedd yn cael eu gorthrymu; "a'u holl wasanaeth y gwnaent iddynt wasanaethu ynddo, oedd galed," *Exod.* i. 11—14. Ond gwelodd Iehofah eu hadfyd, a chlywodd eu hocheneidiau, a gwaredodd hwynt wedi rhoddi y pläau mwyaf ofnadwy ar eu gorthrymwyr.

3. *Y Gwasanaeth Iuddewig.* Pa anhawsderau bynag sydd ar ffordd nodi yn gywir natur y gwasanaeth patriarchaidd, nid oes dim rhwystr gyda golwg ar yr un oedd yn cael ei reoli a'i awdurdodi gan y sefydliad Moesenaidd.

Dadguddiad o egwyddorion mawrion ydyw y ddeddf foesol. Y mae yn gofyn y cariad uchaf tuag at Dduw, a chariad cyffredinol at ddynion: a pha beth bynag sydd yn anghysson â'r arferiad o'r cariad hwn a waherddir yn benodol, ac a gondemnir. Felly, yn uniongyrchol ar ol rhoddiad y ddeddf ar Sinai, fel i attal pob caethwasanaeth a chaethfasnach yn mhlith yr Israeliaid, cyhoeddodd Duw y ddeddf hon: "Yr hwn a ladratao ddyn, ac a'i gwertho, neu os cair ef yn ei law ef, rhodder ef i farwolaeth;" *Exod.* xxi. 16; *Deut.* xxiv. 7. Y mae y trosedd yn cael ei nodi yn ei ffurf driphlyg, dyn-*ladrad*, dyn-*werthiad*, a dyn-*attaliad*; a'r gosp am unrhyw un o honynt oedd MARWOLAETH. Yr oedd y ddeddf yn cospi lladrata eiddo trwy fynu ad-daliad, mewn rhai amgylchiadau, deublyg; brydiau ereill, bumplyg: *Exod.* xxii. 14. Pan ladratëid eiddo, y gosp wladol oedd digolledu y person a niweidiwyd; ond pan ladratëid dyn, nid oedd ad-daliad yn cael ei ganiatau; ond rhoddid y troseddwr i farwolaeth, gan iddo fforffedu ei fywyd trwy ei drosedd: ac y mae Duw, drwy hyn, yn dangos anfeidrol urddas a gwerth dyn, ac anllygredigaeth ei berson. Gwelir y rheswm am hyn yn y ffaith i Dduw greu dyn ar ei ddelw ei hun (*Gen.* i. 26—28)—anrhydedd uchel, a adroddir fwy nag unwaith gyda rhwysgfawredd: *Gen.* v. 1; a ix. 6. Y fath oedd gweinyddiad y ddeddf hon, a'r ufuddodd a delid iddi, fel nad oes genym yr awgrymiad lleiaf fod gwerthiad a phryniad caethion erioed wedi dygwydd yn mysg yr Israeliaid. Nid oedd dinasoedd Iudea, fel dinasoedd Groeg a Rhufain, yn farchnadleoedd caethion, ac nid oedd caethweision i'w cael o fewn eu holl derfynau. Gyda yr Israeliaid, yr oedd gwasanaeth yn wirfoddol, neu yn cael ei ofyn yn fanwl gan gyfraith Duw;

Digitized by Google

Lef. xxv. 39, 47, 48; *Exod.* xxi. 7; xxii. 3, 4; *Deut.* xx. 14. Dyeithriaid yn unig, a hiliogaeth dyeithriaid, a ddeuent yn feddiant iddynt trwy brynedigaeth (*Lef.* xxv. 44—46); ond, pa fodd bynag y meddiennid hwynt, yr oedd y gyfraith yn rhoddi i'r gweision Iuddewig lawer o freintiau:—caniatëid iddynt fyned i gyfammod â Duw (*Deut.* xxix. 10, 13): yr oeddynt yn cael uno yn y gwleddoedd cenedlaethol a theuluol (*Exod.* xii. 43, 44; *Deut.* xii. 18; xvi. 10—16): yr oeddynt yn cael eu haddysgu ar amserau gosodedig mewn moesau a chrefydd (*Deut.* xxxi. 10—13; *Ios.* viii. 33—35; 2 *Cron.* xvii. 8, 9; xxxv. 3; xxxiv. 30; *Neh.* viii. 7, 8): byddent yn cael eu rhyddhau oddi wrth eu llafur am agos i hanner tymmor eu gwasanaeth; sef, bob seithfed flwyddyn (*Lef.* xxv. 3—6), bob seithfed dydd (*Exod.* xx.), yn amser y tair gŵyl flyneddol (*Exod.* xxiii. 17; xxxiv. 23), sef y Pasc, a Gŵyl yr Wythnosau, y rhai a barhaent saith niwrnod, a Gŵyl y Pebyll, yr hon a barhäai wyth niwrnod; ar y Newydd Loerau hefyd, a Gŵyl yr Udgyrn, a Dydd y Cymmod. Gellid chwanegu at y rhai hyn y gŵyliau lleol (*Barn.* xxi. 19; 1 *Sam.* ix. 12, 22, &c.), a'i amrywiol wleddoedd teuluaidd, megys diddyfniad plant, priodasau, cneifiad defaid, a'r enwaediad; gwneuthuriad cyfammodau, &c.: 1 *Sam.* xx. 6, 28, 29. Y mae yn rhaid chwanegu atynt hefyd Wyl y Pwrim, yr hon a gynnelid am dri diwrnod; a'r Gyssegr-ŵyl, yr hon a barhäai wyth niwrnod. Yr oedd y gyfraith yn noddi gweision yr Israeliaid yn gystal a'u meistriaid (*Deut.* i. 16, 17; xxvii. 19; *Lef.* xix. 15; xxiv. 22; *Num.* xv. 29); ac yr oedd eu hiawnderau gwladol a chrefyddol yn gyfartal: *Num.* xv. 15, 16, 29; ix. 14; *Deut.* i. 16, 17; *Lef.* xxiv. 22. Gellir chwanegu at y rhai hyn amryw adnodau, yn mha rai y gwelir fod y Duwdod yn edrych ar iawnderau naturiol pob dyn yn gyfartal, ac yn darparu gogyfer a phawb yn gyffelyb: 2 *Cron.* xix. 7; *Diar.* xxiv. 23; xxviii. 21; *Iob* xxxiv. 19; 2 *Sam.* xiv. 14; *Eph.* vi. 9. Yn ddiweddaf, yr oedd gan y gweision hyn awdurdod i newid eu meistriaid, ac i ymofyn am nawdd y lle y mynent (*Deut.* xxiii. 15, 16); ac os byddai i'w meistriaid, trwy ryw greulondeb, niweidio eu personau, rhyddhëid hwynt oddi wrth eu hymrwymiad: *Exod.* xxi. 26, 27. Ysbaid tymmor y gwasanaeth Hebreaidd oedd chwe blynedd; ac nid ellid eu cadw yn hwy, oddi eithr iddynt wneyd ymrwymiadau newyddion (*Exod.* xxi. 1—11; *Deut.* xv. 12): tra yr oedd tymmor gwasanaeth dyeithriaid, ar y rhai yr oedd gan y meistr lywodraeth hollol mewn cymhariaeth (*Lef.* xxv. 44—46), yn terfynu yn mhob amgylchiad ar ddychweliad blwyddyn y Iubili, pan y cyhoeddid rhyddid i bawb: *Lef.* xxv. 8, 10, 54. Ar un achlysur, troseddwyd y ddeddf gyda golwg ar dymmor y gwasanaeth, ac yr oedd y canlyniadau yn ddychrynllyd: *Ier.* xxxiv. 8—22. Gwel hefyd *Exod.* xxi. 20; *Lef.* xix. 20—22; *Tob.* x. 10 (*σώματα*); *Eccles.* vii. 20, 21; x. 25; xxxiii. 24—31.

4. *Y Gwasanaeth Gibeonaidd.* Nid sefyllfa o gaethwasanaeth oedd sefyllfa trigolion Gibeon, Chephirah, Beeroth, a Chiriath-iearim, o dan y werinlywodraeth Hebreaidd; ond gwasanaeth gwirfoddol ydoedd: *Ios.* ix. 8—11. Nid oeddynt yn gwasanaethu yn nhai yr Israeliaid; ond yr oeddynt yn trigo yn eu dinasoedd eu hunain, yn bugeilio eu praidd eu hunain, ac yn gwneuthur pob peth fel gwladwriaeth neilduol, er nad oeddynt yn annibynol: *Ios.* x. 6—18. Dialodd yr Hollalluog y drygau a wnaeth Saul iddynt ar ei hiliogaeth: 2 *Sam.* xxi. 1—9. Ymddengys en bod wedi eu neilduo yn hollol at wasanaeth "tŷ Dduw," neu y tabernacl; ac ychydig o honynt, mewn cymhariaeth, a allasai fod yn gwasanaethu ar yr un amser. Trigai y gweddill yn eu dinasoedd; un o ba rai oedd ddinas fawr, megys un o'r dinasoedd breninol. Gellir ystyried y gwasanaeth a wnaent fel teyrnged naturiol am y nawdd a dderbynient. Ymddengys na ofynid un gwasanaeth oddi ar law eu gwragedd na'u merched. Ar y dychweliad o'r caethiwed Babilonaidd, trigent yn Ophel: *Neh.* iii. 26. Gwel hefyd 1 *Cron.* ix. 2; *Ezra.* ii. 43; *Neh.* vii. 46; viii. 17; x. 28; xi. 21. Gwel NETHINIAID.

5. *Y Caethwasanaeth Groegaidd.* Yr oedd caethwasanaeth yn bodoli yn mysg y Groegiaid er yr oesoedd arwraidd, a chrybwyllir yn fynych gan Homer am brynu a defnyddio caethion.

Nid oedd yn nhaleithiau Dorisaidd Groeg ond ychydig o gaethion wedi eu prynu ganddynt; ond yr oedd yn Athen a Chorinth, a thaleithiau trafnidiol ereill, rifedi mawr, y rhai oeddynt gan mwyaf yn frodorion gwledydd anwareiddiedig. Gwnaed amcan-gyfrif mynych ar boblogaeth caethion Attica, yr hwn a amrywiai ychydig yn y gwahanol adegau; ond ymddengys fod yn Athen yn amser ei phomp uchaf, lawer mwy o gaethion nag o rydd-ddinaswyr. Canfyddwyd oddi wrth ddernyn o Hyperides, yr hwn a ddiogelwyd gan Suidas (v. *ἀπεψηφίσατο*), fod nifer y caethweision ar un adeg yn 150,000, y rhai a weithient yn meusydd a mwngloddiau Attica yn unig. Yr oedd hyd yn oed y dinesydd tlotaf yn dal caethwas at gyflawnu gorchwylion teuluaidd. Yr oedd gan y dinesydd cyfoethocach gynnifer a 50 o gaethweision yn perthyn i'w deulu, ac weithiau fwy. Darllenwn am athronwyr yn cadw deg o gaethion. Yr oedd caethweision neilduol yn perthyn i deuluoedd, a rhai cyffredinol yn perthyn i'r wladwriaeth neu dalaeth. Yr oedd y rhai olaf yn gwasanaethu yn y llynges, y llongbyrth, a'r arfdai, ac hefyd yn gwneyd ffyrdd newyddion ac adeiladau cyhoeddus. Yr oedd nifer mawr o gaethion yn llynges Athen yn mrwydr Arginusæ, pa rai a ryddfreiniwyd ar derfyniad y rhyfel. Hefyd, yn Cheronæa, caniataodd yr Atheniaid ryddid i'w caethion a wasanaethent yn y fyddin.

Edrychid ar gaethwasanaeth mor gyffredin yn mhlith yr henafiaid fel nad oedd yr athronwyr Groegaidd yn gwneyd un gwrthwynebiad iddo. Nid oedd Plato, yn ei *Perfect State*, yn dymuno ond yn unig na byddai i'r Groegiaid fod yn gaethweision.

6. *Y Caethwasanaeth Rhufeinaidd.* Hwn yw yr unig gaethwasanaeth y cyfeirir ato yn y Testament Newydd, o blegid nid oes un awgrymiad fod yr Iuddewon yn feddiannol ar gaethion yn amser Crist. Perthynai i gaethwasanaeth Rhufain ansoddau mor neilduol fel y gwahaniaethai yn fawr oddi wrth yr eiddo Groeg. Ystyriai y Groegiaid fod caethwasanaeth yn sylfaenedig ar yr amrywiaeth sefydlog oedd yn bod mewn gwahanol lwythau o ddynion. [*Aristotle Polit.*, i. 5.] Addefai y Rhufeiniaid fod dynion yn wreiddiol yn rhydd [*Instit.* i., *tit.* ii.] trwy ddeddf natur (*jure naturali*), ac yr oeddynt yn priodoli yr awdurdod a feddai y meistr ar y caethwas yn hollol i ddewisiad cymdeithas. Rheol y gyfraith oedd fod i hiliogaeth caethwraig ddilyn yr un sefyllfa a'u mam. Yr oedd rhyddfreiniad yn llawer mwy cyffredin yn Rhufain nag yn Groeg.

Byddai symiau mawrion yn gyffredin yn cael

Digitized by Google

eu talu am gaethion a dybid fod yn meddu rhyw ragoriaethau neilduol, llawer o ba rai a ystyriwn ni yn hollol ddiwerth. Yr oedd eunuchiaid bob amser yn cyrhaedd pris uchel: derbyniodd y Rhufeiniaid yr arferiad o ysbaddu bechgyn oddi wrth drigolion Asia, yn mhlith pa rai yr oedd yn fasnach mor fore a dyddiau Herodotus [viii. 105]: a pharhaodd yr arferiad hyd amser Domitian, yr hwn a roddodd derfyn arni; ond arferid cludo eunuchiaid yn barhaus o'r dwyrain. Gwerthid *morio*, neu ynfydyn, weithiau am 20,000 o *nummi*, neu oddeutu 160*p*. o'n harian ni. Yr oedd corod (*dwarfs*) a chawri mewn galwad uchel. Talodd Marcus Antonius am ddau ieuanc prydferth a golygus y swm uchel o 200 o *sestertia*, neu 1,600*p*. Yr oedd chwareuwyr, chwarëyddesau, a dawnswyr yn cyrhaedd pris uchel, yn gystal a benywod glân a deniadol, y rhai oeddynt yn debyg o ddwyn elw mawr i'w meistriaid trwy buteindra. Yr oedd cogyddes dda yn cael ei phrisio i bedair talent, neu 772*p*. Meddygon, gramadegwyr, ysgrifweision, darllenwyr, ac ysgrifenwyr llaw fer, oeddynt mewn galwad mawr. Yr oedd prisiau caethweision cyffredin yn amrywio o ugain i ddeg punt a deugain, yn ol eu galluoedd a nodweddau ereill oedd yn chwanegu at eu teilyngdod. Ar ol brwydr fuddugoliaethus, pan yr oedd miloedd o garcharorion rhyfel yn cael eu dwyn i'w gwerthu i'r caethfasnachwyr oeddynt yn dilyn y fyddin, yr oedd y prisiau yn disgyn yn dra isel. Yn ngwersyll Lucullus, yn Pontus [*Plutarch's Lucullus*, pen. 14], gwerthwyd caethion am bedwar drachmæ, neu 2*s*. 7*c*. yr un; ond pe dygasid y cyfryw i un o'r marchnadoedd Rhufeinig buasent yn cyrhaedd prisiau llawer uwch.

Yr oedd rhifedi y caethion a feddiannai y cyfoethogion Rhufeinaidd yn ddirfawr. Dywedir fod rhai yn meddu cynnifer a 10,000. Meddiannai Scaurus dros 4,000 o gaethweision tŷ, a chynnifer a hyny o gaethweision ereill. Yn nheyrnasiad Augustus, yr oedd rhydd-ddinesydd, yr hwn a gafodd golledion dirfawr yn ystod y rhyfeloedd cartrefol, a adawodd 4,116 o gaethweision, heblaw eiddo ereill, ar ei ol.

Yn oesoedd boreuaf y werin-lywodraeth, nid oedd caethweision yn lluosog; a defnyddid hwynt yn fwyaf neilduol i wasanaethu yn y tai, neu ynte fel crefftwyr yn y dinasoedd. Ond wedi i fuddugoliaethau Rhufain ymledu tu hwnt i derfynau Italy, cynnyddodd y caethion i'r fath raddau, a disgynodd eu prisiau mor isel, fel y daethpwyd i edrych arnynt fel pethau diwerth, ac i ymddwyn tuag atynt fel y cyfryw. Daeth sefyllfa y caethweision Rhufeinaidd, a chymmeryd golwg cyffredinol arnynt, yn fwy truenus yn oesoedd diweddaf y werinlywodraeth. Ni feddent y pryd hyny un amddiffyn o gwbl rhag cynddaredd, trachwant, a gorawydd eu meistriaid am gyfoeth. Edrychid ar y caethwas yn fwy fel anifail, yn dibynu yn hollol ar ewyllys ei feistr, nag fel bod dynol, yn ddarostyngedig i lywodraeth arbenig. Yr oedd ganddo awdurdod gyflawn a hollol ar ei fywyd. Gallai (a byddai yn gwneyd yn aml) ladd, anafu, a phoenydio ei gaethion, am unrhyw drosedd, neu heb drosedd o gwbl, fel y croeshoelid hwynt weithiau oddi ar fympwy hollol. Gallai orfodi y benywod i fyned yn buteiniaid, a'r gwrywaid yn gleddyfwyr; ac yn lle rhwymau parhaol yr undeb priodasol, yr oedd eu cyssylltiadau amserol (gordderchwreigiaeth) yn cael eu ffurfio a'u difodi wrth ei ewyllys—teuluoedd a chyfeillion a wahenid, ac nid oedd dim parotoadau gogyfer a'u heisiau mewn iechyd nac aflechyd. Gwnaeth llawer o'r ymherawdwyr, ac hyd yn oed amryw o'r rhai gwaethaf a chreulonaf o honynt, lawer ymgais at wella eu sefyllfa. Sefydlodd Augustus frawdleoedd i brofi caethweision a gyhuddid o droseddau pwysig, gan fwriadu trwy hyn roddi attalfa i'r meistriaid i'w cospi; ond nid oedd y gyfraith yn gorfodi y meistriaid i ddwyn eu caethion i'r frawdle, ac felly osgoid hwynt yn aml. Trwy gyfraith a wnaed yn amser Claudius, collai y meistr a orfodai ei gaethwas i weithio, ac yntau yn fethiant neu yn afiach, bob hawl ynddo os byddai iddo wella. Domitian a waharddodd anafiad caethion. Difododd Hadrian y carcharau dirgel yn mha rai y rhoddid caethion; attaliodd feistriaid hefyd i werthu eu caethion i rai fyddo yn cadw cleddyfwyr (*gladiators*), neu i rai yn cadw puteindai, oddi eithr yn gospedigaeth; yn mha amgylchiad yr oedd yn angenrheidiol cael caniatâd y barnwr. Mabwysiadodd Antonius Pius hen ddeddf Athenaidd, yr hon a drefnai fod gan farnwr, os boddlonid ef fod caethwas wedi ei drin yn greulawn gan ei feistr, hawl i'w orfodi i'w werthu i berson arall. Septimius Severus a waharddodd i'r benywod gael eu gorfodi i fyned yn buteiniaid. Aeth yr ymherawdwyr Cristionogol yn mhellach i amddiffyn personau y caethion. Rhoddodd Cystenyn lofruddiad gwirfoddol caethwas ar yr un tir a llofruddiad gŵr rhydd; cadarnhaodd Justinian y ddeddf hon, gan chwanegu ati yr amgylchiadau pan fyddai i gaethion farw mewn canlyniad i gospedigaethau creulawn. Gwnaeth Cystenyn ddwy ddeddf arall hefyd, a'r ddwy o'r bron yn yr un geiriau, i waharddd gwahaniad gorfodol teuluoedd y caethion oddi wrth eu gilydd, trwy werthiad na thrwy ddosbarthiad meddiannau. Gwnai yr eglwys ei goreu hefyd i noddi y caethion, trwy fygwth esgymundod ar y sawl a roddent eu caethweision i farwolaeth heb ganiatâd y barnwr; a thrwy roddi noddfa mewn lleoedd cyssegredig i gaethion rhag dialedd meistriaid annhrugarog. Yr oedd deddf a wnaeth Theodosius I. yn rhoddi hawl i gaethwas a gymmerai noddfa mewn eglwys, i ofyn am amddiffyniad y barnwr, fel y gallai fyned yn ddiogel i'r frawdle, mewn trefn i'w achos gael ei chwilio. Wedi i Gristionogaeth fyned yn brif grefydd y byd Rhufeinaidd, effeithiodd, mewn amrywiol ffyrdd, yn ddaionus ar sefyllfa y caethion, heb ymyryd, o'r hyn lleiaf am ganrifoedd, â'r sefydliad o gaethwasanaeth ei hunan.

Meddai y caethwasanaeth Rhufeinaidd, yn yr adeg waethaf a chreulonaf arni, un fantais ar y caethwasanaeth a ddygwyd i drefedigaethau Ewropaidd mewn amseroedd diweddarach:—yr oedd y gyfraith a'r arferion yn dra ffafriol i ryddhad y caethion. [*Inquiry into the State of Slavery among the Romans*, gan W. Blair, Ysw., 1833.] Y mae y ddeddf Fahometaidd hefyd, gyda golwg ar y pwnc hwn, yn tra rhagori ar eiddo y sefydliadau Ewropaidd.

Er fod sefyllfa y caethweision, yn ddiammheu, wedi gwellhau o dan yr ymherawdwyr, er hyny yr oedd effeithiau boreuol yr egwyddorion Cristionogol yn amlwg yn lliniariad creulonderau caethwasanaeth, ac yn nygiad o gwmpas ei diddymiad graddol. Rhyddhawyd Onesimus, yn ol tystiolaeth cyfamserol henafiaeth, gan Philemon (*Philem.* 21); ac yn chwanegol at y tystiolaethau a nodir yn *Wright's Slavery* [td. 60], gwel ragymadrodd Euthalius i'r epistol hwnw. Nid oedd y sefyllfa wasaidd yn un rhwystr i neb i

Digitized by Google

ymddyrchafu i swyddi mwyaf anrhydeddus Cristionogaeth.

Y deddfau a roddwyd gan Waredwr a Phrynwr mawr dynolryw i lywodraethu ei deyrnas, ydynt gyflawnder cyffredinol a chymwynasgarwch; ac fel y cyfryw, y maent yn amcanu at ddymchwel pob cyfundrefn o orthrwm a thrais. Anmharchu Crist a'i apostolion, gan hyny, ydyw haeru, fel y gwnaed gan rai, eu bod wedi rhoddi cefnogaeth i'r caethwasanaeth Groegaidd a Rhufeinaidd oedd yn bodoli yn eu hamser. Nid oes ammheuaeth nad oedd dyledswydd meistriaid a gweision (δοῦλοι) tuag at eu gilydd yn cael eu dirgymhell: *Col.* iii. 22; iv. 1; *Tit.* ii. 9; 1 *Pedr* ii. 18; *Eph.* vi. 5—9. Ond bussai cyflawnu y dyledswyddau hyn o du y meistriaid, ar y dybiaeth eu bod yn gaethfeistriaid, yn gyfartal i ddymchweliad hollol y berthynas. Nid oes ammheuaeth, ychwaith, nad oedd "gwasanaethwyr dan yr iau," neu y caethweision paganaidd, yn cael eu hannog i roddi ufudd-dod i'w meistriaid: 1 *Tim.* vi. 1. Ond ni ddengys hyn eu bod yn bleidiol i'r pwnc; o blegid, 1. Y mae Crist, mewn achos cyffelyb, yn appelio at awdurdod uchel deddf natur fel yn diddymu y fath sefydliadau tymmorol ag a wneid yn angenrheidiol gan "galedrwydd calonau dynion" [gwel *Slavery at the Cape of Good Hope*, gan y Parch. W. Wright, A. C., 1831, td. 58]. Ac 2. Y mae Paul, tra yn annog i ymostyngiad ac i foddlonrwydd o dan gaethiwed anocheladwy, yn dirgymhell y caethwas, ar yr un pryd, i arfer pob moddion cyfreithlawn er cael ei ryddid: 1 *Cor.* vii. 20, 21. Yr ydym yn wybyddus fod y golygiad hwn ar yr adnod wedi ei wrthod gan Chrysostom, Photius, Theodoret, a Theophylact, y rhai a ddaliant fod Paul, yma, yn annog y caethwas i ddewis y sefyllfa o gaethiwed. Ond er y goddef y cyfadnodau y deongliad hwn, eto, yr ystyr a dderbynir rwyddaf, neu yr un a gefnoga ryddid, sydd hawddaf ei gyssylltu â'r ymadrodd blaenorol, "os gelli gael bod yn *rhydd*, mwynha *hyny* yn hytrach;" ac y mae, fel y dywed Neander, "yn fwy cytunol â golygiadau rhyddfrydig meddwl eang Paul." [*Esboniad Bilroth ar y Corinthiaid*, yn y *Bib. Cabinet.*] Heb law hyn, yr oedd nodwedd y caethwasanaeth oedd yn bodoli ar y pryd, at y rhai y cyfeiriwyd yn flaenorol, yn hollol wrthwynebol i ansawdd egwyddorion moesol a hynaws gorchymynion Iesu.

7. *Y Caethwasanaeth Rwssiaidd a Phwylaidd.* Y mae ffurf tynerach o gaethwasiaeth yn bodoli yn mhlith y *serfs* yn Rwssia a Pholand, ac yn mysg dosbarth cyffelyb yn India, a pharthau ereill o Asia. Y mae y *serf*, neu gaethwas Rwssia a Pholand, yn rhwym o aros ar y tir y genir ef arno: gellir ei werthu neu ei osod gyda y tyddyn, ond nis gellir ei werthu ymaith heb ei gydsyniad; gorfodir ef i weithio dri neu bedwar diwrnod yn yr wythnos i'w feistr, yr hwn a ganiatâ iddo ddernyn o dir i'w amaethu a'i lafurio. Caniatëir iddo briodi; ac y mae ei wraig a'i blant yn hollol dan ei awdurdod hyd nes y deuant i oed. Gall adael ei eiddo, a'r hyn a gynnilwyd ganddo yn ei fywyd, i'r neb a ddewiso ar ei farwolaeth. Ac amddiffynir ei fywyd gan y gyfraith. Nid oedd y caethwas Groegaidd na'r Rhufeinaidd yn mwynhau y manteision hyn, mwy nag y mae y caethion negroaidd yn y dyddiau presennol. Prynid a gwerthid ef yn y farchnad, ac yr oedd yn cael ei drosglwyddo o'r naill i'r llall wrth ewyllys ei feddiannydd; nis gallai feddiannu dim eiddo; yr hyn oll oedd dan ei ofal, yn nghyd â holl gynnyrch ei lafur oeddynt eiddo ei feistr, yr hwn a allai ei gospi yn llym, os ewyllysiai; nis gallai chwaith briodi, a phan y dygwyddai iddo gydfyw gyda gwraig, gellid ei wahanu oddi wrthi, a gwerthu ei wraig a'i blant yn gyhoeddus yn y farchnad. Y mae y gwahaniaeth yn amlwg, gan hyny, rhwng caethwas a *serf*. Math o *serfs* oedd *villeins* (*villani*) y canoloesoedd; ond fod eu hamgylchiadau yn amrywio yn fawr yn ol yr amseroedd a lleoedd eu preswylfod.

Y mae yr amrywiol ffyrdd trwy ba rai yr adgyflenwid y galwadau am gaethion wedi bod yn gyffelyb yn mhob oes. Yn yr oesoedd boreuaf, yr oedd pob carcharorion rhyfel yn cael eu darostwng i gaethwasaeth; y rhai, naill ai a renid yn mhlith y swyddogion neu filwyr cyffredin y fyddin, neu a werthid. Pan sefydlodd yr Æoliaid a'r Ioniaid boreuol yn ynysoedd Môr Ægea, ac ar dueddau Asia Leiaf, yr oedd yn arferiad cyffredin yn eu mysg i ladd y gwrywaid oedranus o'r boblogaeth gyssefin, a chadw y gwragedd a'r plant yn fyw. Ond gan fod masnachu mewn caethion yn dyfod yn alwedigaeth ennillfawr, yr oedd y rhai a orchfygwyd, yn lle cael eu lladd fel cynt, yn cael eu gwerthu; ac yr oedd, cybelled a hyny, yn wellhâd. Ffordd arall i gyflenwi galwadau am gaethion oedd yr arferiad o ladrata; pa rai a gymmerid oddiar y glanau, neu a ddenid ar fwrdd y llongau gan y môr-ladron. Cafodd y Phœniciaid, a'r Etrusciaid neu y Tyrrheniaid, y cymmeriad o fod yn ladratwyr dynion, yn nghyd â'r Cretiaid, y Ciliciaid, a'r Rhodiaid, yn nghyd âg amryw drigolion arforawl ereill. Dull arall oedd gwerthu dynion—naill ai ganddynt eu hunain, o herwydd tlodi; neu gan eu perthynasau, neu eu huchafiaid, fel y gwneir yn awr gan rai o benaethiaid Affrica, y rhai a werthant nid yn unig eu carcharorion, ond eu deiliaid, ac hyd yn oed eu plant eu hunain. Crybwylla Herodotus [v. 6.] fod rhai o'r llwythau Thraciaidd yn gwerthu eu plant i fasnachwyr tramor.

8. *Y Caethwasanaeth Americanaidd.* Pan y darganfyddwyd America, daeth dull newydd o gaethwasanaeth a chaethfasnach i fodolaeth. Prynid negroaid Affricanaidd gan genedloedd Cristionogol, i'r dyben i'w defnyddio yn mân-gloddiau a phlanigfeydd y Byd Newydd. Yr oedd brodorion America yn rhy egwan ac yn rhy ddiog i wneyd y gwaith caled a ofynid oddi wrthynt gan eu meistriaid Yspaenaidd; ac yr oeddynt yn meirw yn lluoedd. Dadleuodd Las Casas gydag egni diflino yn llys Yspaen achos y brodorion Americanaidd, a gwrthwynebai y gyfundrefn drwy ba un yr oeddynt yn cael eu dosbarthu, megys anifeiliaid, rhwng eu meistriaid newyddion. Ond yr oedd yn angenrheidiol gwneyd i'r sefydliad dalu yn dda, er mwyn boddloni y buddugoliaethwyr; am hyny, awgrymwyd y gellid cael negroaid o Affrica, y rhai oeddynt genedl gryfach a mwy gweithgar na brodorion America, yn lle y rhai hyny. Dywedid y gallai negro galluog wneyd cymmaint o waith a phedwar Indiad. Y Portugeaid, y pryd hyny, oeddynt yn meddu rhan helaeth o Affrica, lle yr oeddynt yn gallu cael nifer lluosog o gaethweision, trwy drais neu drwy eu prynu. Yr oedd caethfasnach rhwng cenedloedd Affrica yn bodoli er cyn cof. Yr oedd yn cael ei chario yn mlaen yn yr hen amseroedd: y Garamantiaid oeddynt yn arfer diwallu caethfasnachwyr Caerdroia, Cyrene, a'r Aipht, gyda chaethion duon, y rhai a ddygid ganddynt o ganolbarth y wlad. Rhoddodd awydd y Portugeaid am gaethion yn mhorthladdoedd Môr y Werydd, gyfeiriad newydd i'r fasnach.

Digitized by Google

Byddai mân-dywysogion canolbarth y wlad yn gwneyd rhuthriadau i diriogaethau eu gilydd; a thrachefn, gwerthent eu carcharorion, ac weithiau eu deiliaid eu hunain, i'r masnachwyr Ewropaidd. Anfonwyd y caethion cyntaf yn y flwyddyn 1503, gan y Portugeaid, o Affrica i'r India Orllewinol: caniataodd Ferdinand, y Pabydd, wedi hyny, i nifer fwy gael eu hanfon yn 1511. Charles v. hefyd a roddodd ganiatâd i un o wyr ei lys i drosglwyddo 4000 o negroaid i'r India Orllewinol. Gwerthodd hwn ei ganiatâd i ryw farsiandwyr Genoaidd am 25,000 o *ducats*, y rhai a sefydlasant gaethfasnach reolaidd rhwng Affrica ac America. Fel yr oedd y sefydliadau Ewropaidd yn cynnyddu yn America, yr oedd yr archiadau am gaethion yn cynnyddu hefyd; ac yr oedd yr holl genedloedd Ewropaidd, a feddent drefedigaethau yn America, yn gyfranogion yn y gaethfasnach. Yr oedd caethweision yr America, yn gyffredin, yn yr un sefyllfa yn hollol a'r caethweision Rhufeinaidd gynt. Nid ellir yn rhwydd roddi cyfrif cywir o rifedi y caethion sydd yno yn bresennol. Yn ol cyfrifiaeth 1835, yr oedd Brazil yn cynnwys 2,100,000. Nifer caethion Cuba, yn 1826, yn ol Humboldt, oedd o ddeutu 260,000. Yn yr Unol Daleithiau, yn ol cyfrifiaeth 1840, nifer y caethion oedd 2,487,355; yr hyn sydd fwy o 478,324 nag oedd yno yn 1830.

DIDDYMIAD Y GAETHFASNACH.

Y cyntaf a ddygodd sylw dynion yn effeithiol at greulonderau y gaethfasnach ydoedd Thomas Clarkson. Parotodd ei lafur ef, ac amryw ereill, gan mwyaf o gymundeb y Cyfeillion, y rhai a ymunasant âg ef yn fore, y ffordd i Wilberforce, yr hwn a ddygodd y pwnc o dan sylw y senedd yn 1788; ond er mai Mr. Pitt a'i dygodd o flaen y tŷ gyntaf, yn absennoldeb y cynnygydd o herwydd afiechyd, eto Mr. Wilberforce oedd yr arweinydd seneddol yn yr achos hyd y diwedd, tra yr oedd yn cael ei gynnorthwyo yn effeithiol yn y wlad gan Thomas Clarkson, ac ereill, megys Richard Phillips, George Harrison, a William Allen—y rhai oeddynt o gymundeb y Cyfeillion; Mr. Stephen, yr hwn oedd wedi bod yn fargyfreithiwr yn yr India Orllewinol; a Mr. Z. Macaulay, yr hwn oedd wedi bod yn llywodraethwr yn Sierra Leone, ac yn trigo hefyd yn Jamaica. Pasiwyd cyfraith i ddechreu, a ddygwyd i mewn gan Syr W. Dolben, i reoleiddio y fasnach hyd nes y diddymid hi; a lleihaodd hyn, i ryw raddau, erchylldra y fasnach. Ond gwrthodwyd ysgrif y diddymiad y naill flwyddyn ar ol y llall hyd 1804, pan y cariodd Mr. Wilberforce hi y tro cyntaf trwy Dŷ y Cyffredin:—gwrthodwyd hi yn Nhŷ yr Arglwyddi: a chollwyd hi drachefn y flwyddyn ganlynol hyd yn oed yn Nhŷ y Cyffredin. Yn y cyfamser, cangodd y fasnach ei therfynau yn fawr, trwy gymmeriad rhai o daleithiau tramor yr Is-Ellmyn yn ystod y rhyfel, y rhai a agorwyd i gaethfasnachwyr Prydain. Ar un adeg, trosglwyddid yn flyneddol gan y llongau Prydeinig 60,000 o negroaid—y drydedd ran o ba rai oedd i ddiwallu ein hen drefedigaethau. O'r diwedd, yn 1805, rhoddwyd gorchymyn allan i wahardd dygiad yn mlaen y fasnach yn y trefedigaethau a ennillwyd. Y flwyddyn ganlynol, pasiwyd ysgrif gan weinyddiaeth arglwydd Grenville a Mr. Fox, yn gwahardd i ddeiliaid Prydeinaidd ddwyn y fasnach yn mlaen i ddiwallu sefydliadau tramor, neu y trefedigaethau ennilledig. Pasiwyd penderfyniad hefyd, a gynnygiwyd gan Mr. Fox yn 1806, y tro diweddaf y cymmerodd efe unrhyw ran mewn dadl seneddol, trwy yr hwn yr ymrwymodd Tŷ y Cyffredin i ddiddymu y fasnach yn hollol yn gynnar yn yr eisteddiad nesaf; a mabwysiadwyd yr un penderfyniad yn Nhŷ yr Arglwyddi, yn ol cynnygiad arglwydd Grenville. Gan hyny, y flwyddyn ganlynol, dygwyd ysgrif y diddymiad cyffredinol i mewn gan arglwydd Howick (wedi hyny iarll Grey); pasiwyd hi yn y ddau dŷ, a derbyniodd y gymmeradwyaeth freninol Mawrth 25ain, 1807. Gwaharddai y ddeddf hon gaethfasnach ar ol Ionawr 1af, 1808: ond gan mai cospau arianol a roddid ar droseddwyr y ddeddf, canfyddwyd fod angen am rywbeth yn chwanegol cyn y gellid rhoddi pen ar fasnach, ennill pa un oedd yn ddigon i orbwyso pob colledion. Yn 1810, pasiwyd ysgrif, a gynnygiwyd gan Mr. Brougham, yr hon a ystyriai gaethfasnach yn lladrad, ac yn gospadwy âg alltudiaeth am bedair blynedd ar ddeg, neu garchariad gyda llafur caled. Yn 1824, corfforwyd y deddfau a berthynent i gaethfasnach, a chyhoeddwyd yn bellach ei bod yn fôr-ladrad, ac yn gospadwy â marwolaeth, os cyflawnid y trosedd o fewn cylch awdurdod y môr-lys. Yn 1837, newidiwyd y gosp hon i alltudiaeth dros ystod bywyd. Ond o'r flwyddyn 1811, nid oes a fyno y taleithiau Prydeinig mewn modd yn y byd â'r fasnach.

Er diddymu y fasnach fel hyn, yr oedd caethwasanaeth yn parhau yn y trefedigaethau Prydeinig. Ond yn 1834, gwnaed deddf yn diddymu caethwasanaeth ynddynt oll, a thalwyd ugain miliwn o bunnau gan Brydain i'r perchenogion fel iawn am ryddhad eu caethion.

Dywed M. Guizot, "Fod Cristionogaeth, trwy roddi pen ar y sefydliad creulawn o gaethwasanaeth, yn eangu ei dylanwad tyner ar y gelfyddyd o ryfela; a bod yr arferiad greulawn hono, trwy ddylanwad ei hysbryd addfwyn, wedi dyfod yn llai dinystriol" [*Milman's Gibbon*, i. 61]. "Nid awdurdod unrhyw reol benodol yn yr efengyl," medd Robertson, "ond ysbryd a thueddu y grefydd Gristionogol, yr hyn sydd yn fwy nerthol nag unrhyw orchymyn arbenigol, ydyw yr hyn a ddiddymodd yr arferiad o gaethwasanaeth drwy y byd." Er fod gweithrediad yr egwyddorion Cristionogol, hyd yn oed yn y tymmor mwyaf llygredig a fu ar yr eglwys, yn tueddu at y dyben dyngarol hwn, ni attaliasant, fel y mae gwaethaf, adfywiad caethwasanaeth yn y sefydliadau Ewropaidd yn yr unfed a'r eilfed canrif ar bymthag, yn nghyd â'r fasnach ysgeler hono, diddymiad yr hon sydd wedi bytholi enw Wilberforce. Yr oedd y caethwasanaeth diweddar yn meddu holl nodweddau drygionus y Rhufeinaidd, oddi eithr, efallai, yr awdurdod gyflawn ar fywyd y caethwas: ond yr ydoedd yn amddiffad o'r ansawdd ryddhaol y cyfeiriwyd ato gyntaf: gan fod ei duedd i fytholi sefyllfa y caethwas. Fe dybir hefyd mai y sefydliad hwn a roes fywyd i'r rhagfarn annedwydd oedd yn erbyn lliw yr Affricaniad, yr hwn oedd yn anhysbys i'n henafiaid [*Linstant's Essay*, 1841]. Dymuniad dyngarol yr athronydd Herder [*History of Man*, 1788] oedd, ar fod i'r amser ddyfod, "pan yr edrychir yn ol gyda'r un gofid ar ein masnach annynol mewn negroaid, ag yr edrychir ar y caethwasanaeth Rhufeinaidd neu yr helotiaid Spartaidd gynt." Nid peth i obeithio am dano ydyw hyn mwyach, mor bell ag y mae a fyno Lloegr âg ef, yn gymmaint ag iddi hi, nid yn unig roddi yr esampl yn niddymiad y fasnach; ond arddangosodd hefyd iachusrwydd ei hegwyddorion Cristionogol, trwy y weithred odidocaf o gyflawnder gwladol sydd

Digitized by Google

wedi ei chofnodi mewn hanesyddiaeth, yn niddymiad caethwasanaeth trwy ei holl daleithiau.

Y ddeddf gyntaf a wnaed yn Ffrainc tuag at ddiddymu y gaethfasnach, oedd y gorchymyn a gyhoeddwyd gan Napoleon, Mawrth 29ain, 1815, yn ystod y can niwrnod y bu ar ei orsedd wedi dychwelyd o Elba. Gwaharddai i unrhyw long gael ei pharotoi i'r fasnach yn mhorthladdoedd Ffrainc, nag yn eiddo ei thaleithiau; ac ni oddefai i un negro gael ei ddwyn i mewn i'w thaleithiau, na'i werthu, os byddai wedi ei gael drwy y fasnach, gan bwy bynag y dygid hi yn mlaen, pa un bynag ai Ffrancod ai estroniaid. Arferodd Prydain ei dylanwad drachefn, yn heddwch 1815, i gael cydsyniad y galluoedd tramor i ddiddymu y fasnach: ac y mae y dyben hwn wedi ei gadw mewn golwg yn barhaus gan y wlad hon, a defnyddiwyd bob cyfleusdra i'w ddwyn oddi amgylch hyd y dydd hwn. Y canlyniad yw, fod braidd holl alluoedd Ewrop ac America yn awr wedi gwneyd deddfau, neu wedi ymgyfammodi, i wahardd y fasnach.

Y mae cymdeithasau er diddymiad cyffredinol caethwasanaeth yn bodoli yn Lloegr, Ffrainc, a'r Unol Daleithiau, ac y maent yn cyhoeddi eu hadroddiadau; a chynnaliwyd cynnadledd yn Llundain, yn Mehefin, 1840, o gynnrychiolwyr o wahanol wledydd, i ymgynghori ar y moddion mwyaf effeithiol i gyrhaedd yr amcan. Y mae y gymdeithas Americanaidd wedi ffurfio talaeth, a elwir Liberia, yn agos i Cape Mesurado, ar arfordir gorllewinol Affrica, lle yr anfonir caethion fyddont wedi derbyn eu rhyddid yn yr Unol Daleithiau, os byddant yn foddlawn. Y mae gan lywodraeth Prydain dalaeth i ddyben cyffelyb yn Sierra Leone, lle yr anfonir y negroaid a ddygir gan y gwiblongau Prydeinig oddi ar y caethlongau.

Ceir hanes cyflawn am ddiddymiad y fasnach mewn gwaith o'r enw *History of the Abolition*, gan T. Clarkson [argraffiad 1834]:—hefyd y gyfraith ar y pwnc, yn nghyd â thriniaeth y caethion yn y trefedigaethau, mewn gwaith gan Mr. Stephen. Y mae ysgrifeniadau Syr John Jeremie hefyd yn cynnwys llawer o wybodaeth fuddiol am sefyllfa caethwasanaeth yn y trefedigaethau Prydeinig ychydig cyn gwneuthuriad deddf y rhyddhâd. Cyhoeddwyd gweithiau T. Clarkson ar y fasnach, yr hwn a'i dynoethodd gyntaf i bobl y wlad hon, yn 1787. —(*Kitto's Cycl.; Cycl. Pol. Knowl.*)

CAETHGLUDIADAU ISRAEL A IUDAH.

Ceryddodd yr Arglwydd y genedl Iuddewig lawer gwaith am ei phechodau, trwy dynu ei amddiffyn oddi wrthi, goddef iddi gael ei gorchfygu, a'i chaethgludo yn mhell i diroedd ei gelynion. Yr oedd Moses wedi dyweyd wrthynt, cyn ei ymadawiad, mai hyn a ddygwyddai iddynt os byddai iddynt ymlygru gyda'r Cenedloedd, cofleidio eilunod, a gwrthod yr Arglwydd eu Duw: *Deut.* xxviii. Dywedodd hyn lawer gwaith wrthynt, fel nad oedd modd iddynt gamgymmeryd. "Diwreiddir chwi o'r tir yr wyt yn myned iddo i'w feddiannu;" *adn.* 63. "A thi a fyddi ar wasgar dros holl deyrnasoedd y ddaiar;" *adn.* 25, &c. Ond er mor eglur a phrydlawn y rhybuddion, ymlygru ddarfu Israel, a chyflawnwyd y prophwydoliaethau bygythiol.

Cafodd y genedl ei chaethiwo yn ddirfawr yn Ngwlad yr Aipht am flyneddoedd lawer, a gwaredwyd hwynt yn wyrthiol oddi yno trwy law Moses ac Aaron: ond yr oedd y caethiwed hwn yn fwy o ddysgyblaeth rhagluniaethol na chaethgludiad, ac yn amgylchiad oedd yn dangos mwy o ofal yr Arglwydd am danynt na'i gosp am eu pechodau.

Cyfrifir fod chwech o gaethgludiadau wedi dygwydd yn nyddiau y Barnwyr—ysbaid oddeutu tri chant a deugain o flyneddoedd Y cyntaf, gan Cusan-Risathaim, brenin Mesopotamia, yr hwn a barhaodd am oddeutu wyth mlynedd· yr ail, gan Eglon, brenin Moab, pan y gwaredwyd y genedl trwy offerynoliaeth Ehwd: y tryydd, gan y Philistiaid, o afael pa rai y cyfodwyd Shamgar yn waredwr iddynt: y pedwerydd, gan Iabin, brenin Hazor, pan y gwaredwyd hwynt yn orchestol gan Deborah a Barac: y pummed, gan y Midianiaid, pan y galwyd Gedeon o'r llawr dyrnu i fod yn offeryn eu gwaredigaeth: y chweched, gan yr Ammoniaid a'r Philistiaid yn nghyd, yn amser llywodraeth Iephthah, &c. Ar ol tymmor ansefydlog y Barnwyr, mwynhaodd y genedl ysbaid o lonyddwch a llwyddiant cynnyddol; ond ni pharhaodd fawr hwy nag ysbaid dau deyrnasiad. Daeth i ben gyda blyneddoedd olaf Solomon. Yn fuan ar ol hyny, cymmerodd y dygwyddiad anffodus le yr hwn a wanhaodd nerth y genedl ac a'i parotodd i syrthio yn ysglyfaeth i'w gormeswyr galluocaf; sef ei hymraniad i ddwy deyrnas wahanol. Ar ol hyn, yr oedd ei chyflwr yn myned yn fwy tywyll a chythryblus nes iddo ddybenu yn y

CAETHGLUDIAD BABILONAIDD.

Nid oedd alltudiad gormesol holl drigolion dinas, neu weithiau rhan o wlad, yn beth anghyffredin mewn hanesiaeth boreuol. Ystyrid hyn yn un o'r moddion mwyaf effeithiol i dori grym cenedl, ac i ddal ei gwlad mewn ufudd-dod. Rhan o'r un cynllun oedd trosglwyddo trigolion y wlad a ddewisid yn gartref i'r genedl ddarostyngedig, i'w gwlad hwythau yn ol: yr hyn a alluogai y gormeswr yn fwy effeithiol i ddal ei afael yn ei diriogaethau newyddion. Barn Heeren [*Ideen*, i. 405] ydyw fod y drefedigaeth Aiphtaidd, sef y Casluchim, yr hon a sefydlwyd yn Colchis yn ol Herodotus, wedi ei throsglwyddo gan Nebuchodonosor, neu ryw ormeswr arall a wnaeth ymgyrch ar yr Aipht. Ar ol darostyngiad yr Aipht gan Cambyses, trosglwyddwyd trefedigaeth o chwe mil o Aiphtiaid i Susa. Rhydd Gesenius anghreifftiau cyffelyb o wledydd dwyreiniol yn ei esboniad ar *Esa.* xxxvi. 16; coffeir am drefedigaethau Saxonaidd gan Charlemagne o'r un natur; ac o bryd i bryd y mae ymherawdwyr Rwssia wedi defnyddio moddion cyffelyb. Heblaw awydd i lwyr ddarostwng gwledydd gelynol, yr oedd cael trigolion i boblogi dinasoedd newyddion, a adeiledid ganddynt oddi ar falchder neu i ddybenion uchelgeisiol, yn gymhelliad i ormeswyr wneyd eu caethgludiadau.

Y mae y sylwadau hyn yn gadarnhad i wirionedd yr hanesion a gawn am gaethgludiad a dychweliad yr Iuddewon dan ormes yr Assyriaid a'r Persiaid. Syrthiodd y dyrnod cyntaf ar deyrnas Israel dan Pecah, yn y flwyddyn c. c. 740, pan yr ymosododd Tiglath-pileser arni, ac y caethgludodd i Assyria ran o drigolion gogleddbarth y wlad, yn benaf o lwythau Reuben, Gad, a hanner llwyth Manassch, yn nghyd â Naphtali a Zabulon: 2 *Bren.* xv. 27—29. At hyn y cyfeirir yn *Esa.* ix. 1; "Eto ni bydd y tywyllwch yn ol yr hyn a fu yn y gofid, megys yn yr amser cyntaf y cyffyrddodd yn ysgafn â thir Zabulon a thir Naphtali," &c. Dysgrifir yr alltudiad hwn yn nghyd â'i achosion, yn 1 *Cron.* v. 25, 26. Cyn

Digitized by Google

pen ugain mlynedd ar ol hyn (722 c. c.) gwnaeth Salmaneser brenin Assyria ymgyrch yn erbyn Samaria:—ac wedi ymdrechiadau gwaedlyd, a gwarchae arni am dair blynedd, gorchfygodd a llwyr ddinystriodd hi, gan gymmeryd y gweddill a adawodd Tiglath-pileser o enwogion Israel i dir y gelyn; a chyfleodd hwynt yn mhell, tu hwnt i'r Euphrates, yn Halah, ac yn Habor, wrth afon Gozan, ac yn ninasoedd y Mediaid: 2 *Bren.* xvii. 6; xviii. 9, &c. Ar ol yr ail alltudiad hwn o drigolion o wlad Israel, llanwyd eu lle gan drefedigaethau o Syriaid a Babiloniaid: 2 *Bren.* xvii. 24. Y cyfryw oedd diwedd teyrnas Israel fel teyrnas.

Yn mhen tua chant a hanner o flyneddoedd y cyfarfyddodd teyrnas Iudah â'r un dynged oddi wrth y Caldeaid dan Nebuchodonosor. Nid oedd llygredigaeth Iudah mor ddwfn ag ydoedd llygredigaeth Samaria; ac ni chwympodd heb ymdrech penderfynol i'w hamddiffyn ei hun. Enwir dau gaethgludiad gwahanol o drigolion Iudah yn llyfr y Breninoedd, a thri yn llyfr Ieremiah, tra y mae un boreuach yn ymddangos yn llyfr Daniel;—ac felly yn gwneyd i fyny bedwar o gwbl. Daeth Nebuchodonosor, yn 607 c. c., yn erbyn y brenin Ioachim, ac a'i darostyngodd: ond ar ol tair blynedd o ddarostyngiad, gwrthryfelodd Ioachim, pryd yr amgylchynwyd ef â lluaws o elynion ar unwaith—"tyrfaoedd o'r Caldeaid, tyrfaoedd o'r Syriaid, tyrfaoedd o'r Moabiaid, a thyrfaoedd o feibion Ammon;" 2 *Bren.* xxiv. 1, 2. Yn y flwyddyn 597, cymmerwyd ymaith Ioachim y brenin, a'i deulu, a'i dywysogion, yn rhwym i Babilon: 2 *Bren.* xxiv. 8, &c. Nifer y caethion oedd deng mil o wyr (mae yn lled debyg fod y nifer 3,023 yn *Ier.* lii. 28, yn wall rhyw adysgrifenydd); a 7,000 o wyr nerthol (rhyfelwyr); a llaw weithwyr, sef seiri a gofaint, 1,000. Ni adawyd ar ol ond y tlodion, y rhai oedd heb ddim meddiannau a dylanwad. Ymddengys nad oedd yr Assyriad yn barnu fod pob peth yn addfed i hollol ddifodiad yr awdurdod Iuddewig; o herwydd fe osododd Zedeciah i fyny ar orsedd Iudah, gan ddysgwyl y buasai ef, yr hwn oedd ddyledus iddo am ei ddyrchafiad, yn ufudd iddo. Ond cymmerodd brenin Iudah fantais o'r cyfleusdra cyntaf i wrthryfela; yr hyn a ddygodd Nebuchodonosor ai holl lu yn erbyn Ierusalem drachefn (c.c. 588); ac ar ol gwarchae o ddeunaw mis, gosodwyd y deml ar dân, yr un modd palas y brenin, a phob adeilad gadarn, a thorwyd i lawr furiau Ierusalem o amgylch. Yn y galanasdra hwn collodd Iudah ei hanfodiad cenedlaethol, ac ni adawodd y buddugoliaethwr un llywodraeth ar ei thraed, ond yr hon oedd yn llaw ei brif filwr ef ei hun. Ymddengys fod trigolion Iudah, fel trigolion Israel, wedi cael eu halltudio o'u gwlad trwy *ddau* brif symmudiad. A chan mai yn yr olaf (586) y rhoddwyd terfyn ar yr addoliad yn Ierusalem, trwy losgiad y deml; ac ar y llywodraeth, trwy ddinystriad y palasau breninol; gellir edrych ar y flwyddyn hon mewn modd arbenig yn gyfnod y caethgludiad. Eto gellir dyweyd yn briodol fod y caethgludiad wedi dechreu pan y gwnaeth Nebuchodonosor Ioachim yn ddarostyngedig iddo yn y flwyddyn 607 c. c. Rhoddodd Cyrus, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad (536 c. c.), ryddid i'r Iuddewon ddychwelyd i'w gwlad, er y buont am ysbaid cyn gallu cymmeryd mantais o'r caniatâd. Mae hyn yn gwneyd parhâd y caethgludiad yn deng mlynedd a thrigain, yn unol â'r prophwydoliaethau am dano: *Ier.* xxv. 11; xxix. 10; 2 *Cron.* xxvi. 21; *Zech.* i. 12; vii. 5.

Y mae rhai wedi cyfrif y deng mlynedd a thrigain o amser dinystriad y deml gyntaf, c. c. 588, hyd at orpheniad yr ail deml, c. c. 516, yr hyn mae'n wir sydd yn rhoddi yr ysbaid dywededig: ond y mae *Ier.* xxv. 12, yn enwi cospedigaeth brenin Babilon—"Myfi a ymwelaf â brenin Babilon"—fel terfyn y caethgludiad, yr hyn a gymmerodd le c. c. 538; fel y mae llawer, yn debyg i Jahn, yn credu fod y caethgludiad cyntaf wedi cymmeryd lle yn y drydedd flwyddyn i Iehoiacim, c. c. 605.

Yn Assyria Briodol, neu yn ystyr cyfyngaf y gair, y mae y gwahanol fanau y crybwyllir i Israel a Iudah gael eu trosglwyddo iddynt; sef yn y taleithiau gogleddol tuag Armenia, a elwir yn awr Caushan, a rhai o ddinasoedd Media.

Ni chludwyd yr holl genedl i gaethiwed—dim ond y tywysogion, y mawrion, y rhyfelwyr, a'r celfyddydwyr, y rhai a allasent fod o les mewn gwlad ddyeithr, neu a fuasent yn beryglus pe gadawsid hwy gartref. O Galilea, ac yn enwedig o Samaria, yr oedd yr alltudiad yn fwyaf llwyr, ac yma yn unig y cododd cenedl ddiriywiedig, gymmysg o Israeliaid a Babiloniaid. Ar ol y caethgludiad mawr, gadawyd gweddill yn ngwlad Iudah, ar ba rai y gosododd Nebuchodonosor Gedaliah yn llywydd. Ymgasglodd nifer o gadbeniaid o'i amgylch i fyw yn weision trethedig i'r Babiloniaid; ond yn fuan, ymosododd Ismael o'r had breninol arnynt, gan ladd eu llywydd a chwalu ei ganlynwyr. Parodd hyn ofn mor gyffredinol y codai rhyfel trwy y wlad rhwng y ddwy blaid, fel y cyfododd y bobl, "o fychan hyd fawr, a thywysogion y lluoedd, ac a ddaethant i'r Aipht; canys yr oeddynt yn ofni y Caldeaid;" 2 *Bren.* xxv. 22, &c. Rhydd galarnad Ieremiah ddysgrifiadau cyffrous o sefyllfa y gweddill a adawyd. "Buanach yw ein herlidwyr nag eryrod yr awyr: y maent yn ein herlid ar y mynyddoedd, yn ein cynllwyn yn yr anialwch." "Ein gwarau sydd dan erlid, llafurio yr ydym, ac nid oes gorphwysdra i ni;" *Galar.* iv. 19; v. 5, 9. Yr un modd *Esa.* li. 17—20; *Ezec.* xxxiii. 27. Dyoddefasant wawd a dirmyg oddi wrth eu gorchfygwyr, ac oddi wrth yr holl genedloedd yr ymlidiwyd hwynt i'w mysg. "Yn ddirfawr y llanwyd ein henaid â gwatwargerdd y rhai goludog, ac â diystyrwch y rhai beilchion;" *Salm* cxxiii. 4; cxxxvii. Ond yr oedd eu dyoddefiadau yn lleihau gyda pharhâd eu halltudiaeth. Dechreuodd llawer ymgartrefu yn fuan, gan droi eu nerth at amaethyddiaeth; ymgymmerai ereill â masnach a thrafnidiaeth—yr hyn, yn wir, o hyny hyd yn awr, sydd wedi bod yn brif orchwyl yr Iuddewon. Nid oeddynt yn y caethgludiad hwn yn ddarostyngedig i gaethwasanaeth caled, fel y bu eu tadau yn yr Aipht; ond ymddengys iddynt fwynhau prif ragorfreintiau dinasyddion, a chael rhyddid i gasglu cyfoeth, mewn tir a nwyfau ereill. Ennillodd rhai o honynt ymddiried eu llywodraethwyr paganaidd, fel y gwelir yn hanes Daniel, Tobias, ac Esther. Gorchymynodd yr Arglwydd iddynt geisio llesâd y bobl y preswylient yn eu mysg; *Ier.* xxix. 4—7. Er bod yr Iuddewon yn cael eu hannog gan eu dysgawdwyr, ac yn cael caniatâd gan y llywodraeth, i sicrhau tai a thiroedd iddynt eu hunain, eto nid oedd hyn gyda y bwriad iddynt ymsefydlu byth yn y wlad, ond ar y tir y byddai y caethiwed yn hir: *adn.* 28. Pa mor bell y llwyddasant i gasglu manteision cysur a chyfoeth, a welir oddi wrth yr hanesion am eu dychweliad i'w gwlad eu hunain: *Ezra* i, ii, iii,

Digitized by Google

vii, ac viii. Yr oedd rhyw gyfran, fodd bynag, yn rhoddion gwirfoddol pobl y wlad yr oeddynt yn ei gadael, yn unol âg arfer cyffredinol y dwyrain. Caniatawyd rhyddid iddynt i arfer eu crefydd; ond gan nad oedd y deml yn eu mysg, nid allent aberthu. Er hyny ymgasglent at eu gilydd i ddarllen a gweddio. [Gwel SYNAGOG.] Ymddengys, oddi wrth ymadrodd yn *Ezra* ii. 65, 41, —"dau gant o gantorion, a dau gant o gantoresau," y rhai a ddychwelasant o Babilon gyda Zorobabel—fod addoliad y deml wedi ei adferu i ryw radd o wychder yn Babilon. Er mwyn cadw pobl y gaethglud rhag colli eu gobaith yn Nuw, ac ymwrthod â'u crefydd er mwyn ofergoelion y Babiloniaid, cyfeiriai y prif brophwydi eu prophwydoliaethau atynt; sef Ieremiah [gwel llythyr Ieremiah at y gaethglud, *pen.* xxix.]; Ezeciel [gwel erthygl]. Prophwydai Esaiah cyn hyny am eu rhyddhad trwy Cyrus, am ddymchweliad eu gorthrymwyr, eu dychweliad i'w gwlad, ac adsefydliad eu haddoliad. Yr oedd y genedl wedi cael prawf o wirionedd bygythion y prophwydi yn ninystr y deyrnas a'r deml: ac yr oedd hyn yn gynnorthwy i gredu yr addewidion am eu rhyddhad a'u llwyddiant dyfodol. Pa fwyaf tywyll yr oedd eu hamgylchiadau, mwyaf taer yr edrychent tuag i fyny, ac y dysgent fwyfwy mai Iehofah oedd eu brenin, a llywydd yr holl ddaiar; yr hwn a waredai ei bobl, fel y gwaredodd hwynt â llaw gref ac â braich estynedig o gaethiwed yr Aipht. Yr oedd y syniadau hyn yn cael eu meithrin a'u cryfhau yn eu mysg trwy lais y prophwydi, y rhai a gryfhaent eu gobaith, ac a fywiogent eu heiddigedd i brysuro dydd eu gollyngdod, trwy ymgyflwyniad ffyddlawn i wasanaeth eu Duw. Ac fel moddion at hyn, cyfeirient eu meddyliau at y cyfammod newydd a wnai yr Arglwydd â thŷ Israel ac â thŷ Iudah, gan ddodi y gyfraith yn y meddwl, ac at yr addewid y byddai efe yn Dduw iddynt, ac y caent hwythau fod yn bobl iddo ef: *Ier.* xxxi, a xxxiii. Mewn gwlad ddyeithr, wedi ei hamgylchynu gan ddyeithriaid, pan nad oedd ganddynt un rhwymyn i'w cadw gyda eu gilydd ond eu cyfraith a'u crefydd, y maent yn ymwrthod âg eilunaddoliaeth; ac y mae eu hymlyniad wrth eu crefydd yn taro ei wreiddiau yn ddyfnach, a'u hen elyniaeth at eu gilydd yn diflanu, a Iudah ac Israel yn dyfod yn un.

Hyn oedd dyben mawr yr Arglwydd yn ei oruchwyliaeth tuag atynt. Ac fel y canlyn y llefara y prophwyd am yr undeb y byddai eu caethgludiad yn foddion i ffurfio rhyngddynt:—"Yn y dyddiau hyny, ac yn yr amser hwnw, medd yr Arglwydd, meibion Israel a ddeuant, hwy a meibion Iudah ynghyd, dan gerdded ac wylo yr äint, ac y ceisiant yr Arglwydd eu Duw. Hwy a ofynant y ffordd tua Sion, tuag yno y bydd eu hwynebau hwynt: Deuwch, meddant, a glynwn wrth yr Arglwydd, trwy gyfammod tragwyddol yr hwn nid anghofir;" *Ier.* l. 4, 5. "A gwnaf hwynt yn un genedl o fewn y tir yn mynyddoedd Israel, ac un brenin fydd yn frenin iddynt oll; ni byddant hefyd mwy yn ddwy genedl, ac ni renir hwynt mwy yn ddwy freniniaeth;" *Ezec.* xxxvii. 21, 22.

Cymmerodd y dychweliad unedig hwn le pan y cyhoeddodd Cyrus—c. c. 536, yn fuan ar ol dymchweliad Babilon, a dinystr yr ymherodraeth Galdeaidd—ryddid iddynt i ddychwelyd i'w gwlad, ac i ail adeiladu eu teml: *Ezra* i. 1. Nid i Israel nac i Iudah yn wahaniaethol y rhoddwyd y caniatad, ond i'r holl bobl. Cynnwysai y dychweliad cyntaf dan Zorobabel, yn ol y rhestr, 50,000 o drigolion Iudah ac Israel—nid oedd un gwahaniaeth: yn wir, yr oedd llawer "na fedrent ddangos tŷ eu tadau;" *Ezra* ii. 59. Yr oedd pob gwahaniaeth wedi ei symmud ymaith rhyngddynt, ac undeb y genedl wedi ei adferyd. Ymddengys mai penau llwythau Iudah a Beniamin oedd y cyntaf i gymmeryd mantais o'r cyhoeddiad; ond yr oedd hyn yn naturiol, o herwydd yr oedd eu harosiad hwy yn y wlad wedi bod yn fyr, mewn cymhariaeth i'r gaethglud o'r deg llwyth. Ac o'r braidd yr ydoedd i'w ddysgwyl y buasai llawer heb law hwynthwy yn dychwelyd; eto yr oedd y cyhoeddiad i bawb. Y mae yn ddiau i lawer, os nad y nifer mwyaf o'r holl lwythau aros; gan fod Iago yn cyfarch y "deuddeg llwyth sydd ar wasgar;" *Iago* i. 1.

Cymmerodd ail ddychweliad le yn mhen pedwar ugain mlynedd (c. c. 456), dan Ezra, pan y mae yr holl bobl yn myned dan un enw; "Myfi (Artaxerxes) a osodais orchymyn, fod i bwy bynag yn fy nheyrnas i o bobl Israel, ac o'i offeiriaid ef, a'i Lefiaid, sydd ewyllysgar i fyned i Ierusalem, gael myned gyda thi;" *Ezra* vii. 13. Yn mhen deuddeng mlynedd ar ol hyn, dychwelodd Nehemiah i Palestina, trwy ganiatâd brenin Persia; ac fe gafodd y bobl yn unedig yn y tir, ac yn addoliad y deml. Yr oedd y cyhoeddiad a roddodd Cyrus wedi newid cyflwr y rhai oedd yn aros;—nid oeddynt yn gaethion yn hwy. Trwy arosiad o gan mlynedd yn Mesopotamia, yr oeddynt wedi ennill cartref newydd; a chyda chyfnewidiad yn eu cyflwr, diau iddynt deimlo cyfnewidiad cyfatebol yn eu teimladau: ac, er i lawer ddychwelyd i Ganaan, eto arosodd llawer ar lan yr Euphrates; ac felly, ffurfiwyd y wladychfa fawr Iuddewig yn Babilonia, yr hon y canfyddir ei hanfodiad yn yr oes apostolaidd (1 *Pedr* v. 13), ac fe barhaodd i ddylanwadu am oesoedd wedi hyny yn yr ysgolion Talmudaidd. Trwy offerynoliaeth y caethgludiad i Assyria a Babilon, ymledaenodd yr Iuddewon drwy ran fawr o'r dwyrain. Yn yr oes apostolaidd yr ydym yn darllen am danynt yn Asia Leiaf, yn Syria a Phœnicia, yn yr Aipht, a Groeg, a Rhufain. Nid oedd y genedl wedi ei difodi, er bod ei phlant mor wasgaredig. Edrychent tua Ierusalem fel eu mam a chanolbwynt eu gobaith; ac anfonent eu rhoddion o bob cwr i'r deml sanctaidd. Dylanwadent yn y gwahanol wledydd lle y trigiannent, dan arweiniad doethineb Ddwyfol, i barotoi y Cenedloedd i ymwrthod â'u duwiau lawer, am yr un Duw, yr hwn a wnaeth nef a daiar; a thrwy y gobaith a goleddent am y Siloh, at yr hwn y byddai cynnulliad pobloedd, a'r hwn a gasglai holl had Israel o'u gwasgariad i'w gwlad eu hunain, deffröent ryw ddymuniad aneglur yn nghenedloedd y ddaiar "am weled dydd Crist."

CÆSAR. Enw oedd hwn a berthynai i hen deulu yn Rhufain, y rhai a broffesent eu bod wedi deilliaw o Iulus, mab Æneas; yr hwn a ddiangodd o Caerdroia pan ddinystriwyd hi gan y Groegiaid; ac wedi myned trwy lawer o beryglon ar fôr a thir, a gyrhaeddodd Italy yn ddiogel. Mae Virgil wedi ei anfarwoli ef a'i fordaith yn yr *Æneid.* Y cyntaf o'r enw Cæsar a gyfarfyddir mewn hanesiaeth ydyw Sextus Julius Cæsar, yr hwn a fu yn drysorydd (swydd tebyg i ganghellydd y trysorlys yn Lloegr) yn Rhufain y flwyddyn 532 wedi adeiladu y ddinas. Yr oedd Caius Julius Cæsar—y gorchfygwr—y bummed genedlaeth o'i hiliogaeth ef. Hysbysir i ni gan Ovid,

Digitized by Google

Virgil, a Plautus, mai ystyr y gair Cæsar yw *gwallt hir*. Peth cyffredin yn mhlith y Rhufeiniaid, yn gystal ag ereill o'r cenedloedd boreuol, oedd enwi dyn yn ol rhyw hynodrwydd personol a berthynai iddo.

Daeth yr enw Cæsar i fri mawr yn mherson Caius Julius Cæsar, llywydd unbenaethol cyntaf Rhufain. Yn ol ei ewyllys ef, medd rhai, ond trwy orchymyn y senedd, medd ereill, y cymmerodd Octanius Augustus, ei nai, yr enw hwn pan esgynodd i'r orsedd ymherodrol; ac arferwyd ef gan holl ymherawdwyr Rhufain hyd gwymp yr ymherodraeth. Cymmerodd Tiberius yr enw o barch i Augustus, yr hwn oedd wedi ei fabwysiadu. Yr oedd Caligula a Chlaudius yn ddisgynedig o Julia, chwaer Julius Cæsar, ac felly yr oedd yn naturiol iddynt arfer yr enw. Yn mherson Nero, y pummed ach o Julia, y darfu teulu a llinach ymherodrol Cæsar. Wedi i Hadrian fabwysiadu Ælius Verus, a'i ddwyn i'r teulu breninol, cymmerodd Verus y teitl Cæsar. Y mae'n debyg, yn ol Spartianus, mai Verus a ddechreuodd yr arferiad, a ddilynwyd am hir amser wedi hyny, o alw etifedd y goron, neu yr ail yn y llywodraeth, yn Cæsar, tra y gelwid yr ymherawdwr, Imperator Cæsar Augustus. Fel hyn, arferid Augustus o barch i ymherawdwr cyntaf Rhufain, tra yr arferid yr enw Cæsar o barch i'r gorchfygwr, yr hwn a osododd i lawr sylfaen yr ymherodraeth trwy roddi terfyn ar weriniaeth.

Bu Cæsar am beth amser yn brif deitl yn yr ail ymherodraeth hyd nes i Alexius Commenius roddi y teitl Cæsar i Nicephorus Melisenus. Gan ei fod ar ol hyn yn teimlo awydd am roddi rhyw deitl uwch i'w frawd Isaacius, galwodd ef Sebastocrator, gan roddi iddo y flaenoriaeth ar Melisenus, a gorchymynodd ar fod yn mhob cyhoeddiad i Isaacius Sebastocrator gael ei enwi yn ail, a Melisenus Cæsar yn drydydd. Yr oedd ymherawdwr Germany yn arfer ymgyfenwi yn Cæsar, a thebygol mai efelychiad o hyn yw y Czar o Rwssia, er fod rhai o'r Rwssiaid yn dyweyd fod iddo darddiad gwahanol.—(*Livy*; *Tacitus*; *Virgil*; *Ovid*; *London Encyc.*; *Penny Cyc.*; *Riddle's Latin Dic.*)

CÆSAR BORGIA, neu CESARE BORGIA. Y mae y fath beth ag enwogrwydd mewn drygioni. Buasai llawer un wedi ei anghofio pan y gosodwyd ei weddillion marwol yn y bedd, oni buasai fod hanes yn ei gadw o flaen y byd fel math o oleudy rhag myned o honynt hwythau yn y ffordd hono. Un o'r cyfryw gymmeriadau oedd Cesare Borgia, am yr hwn y rhoddir hanes byr. Mab ydoedd Cesare Borgia i Alexander VI., pab Rhufain. Enw ei fam oedd Vanozia, ond nid yw ei thylwyth yn adnabyddus. Yr oedd teulu Borgia wedi dyfod ar y dechreu o Valencia, yn Yspaen. Yr oedd Cesare yn yr ysgol yn Pisa pan wnaethpwyd ei dad yn bab. Aeth yn uniongyrchol i Rufain, lle y cafodd ei wneuthur yn archesgob Valenza, yn yr Ital; ac wedi hyny, yn gardinal. Ond cymmaint oedd awydd Cesare am ddyrchafiad gwladwriaethol, fel y rhoddodd i fyny ei swyddau eglwysig, ac y trodd yn filwr. Dangosodd, pan yn ieuanc, ei fod yn feddiannol ar alluoedd a chyfrwysdra mwy na chyffredin. Tua thair blynedd wedi esgyniad Alexander i'r gadair Babaidd, daeth Charles VIII., o Ffrainc, â byddin i Rufain, a gorfu ar Alexander roddi ei fab yn wystl i Charles: ond ryw fodd, diangodd Cesare o ddwylaw y gelynion, ac anodd frenin Naples, ac ereill, yn erbyn y Ffrancod. Yr oedd tiriogaethau yr eglwys wedi eu rhanu yn ddwy blaid,—y Guelfs a'r Ghibellines. Cynnrychiolid y blaenaf yn Rhufain gan deulu Orsini, a'r olaf gan deulu Colonna. Byddai y pabau yn arfer pleidio y naill o'r rhai hyn yn erbyn y llall. Mewn efelychiad o'r arferiad cyffredin, unodd Alexander a'i fab â theulu Orsini, yr hyn a'u galluogodd yn fuan i ennill y maes ar eu holl elynion. Gyrasant deulu Sforza o Pesaro; teulu Malatesti, o Rimini; a theulu Manfredi, o Faenza. Cymmerasant lawer o ddinasoedd caerog a nerthol; ac felly, gosodasant i lawr sylfaen arglwyddiaeth helaeth. Ond nid cynt y gorchfygodd Cesare ei elynion, nag y trodd yn elyn i'w gyfeillion. Gyrodd dduc Urbino, yr hwn oedd wedi ei gynnorthwyo lawer gwaith, yn alltud; ac o'r braidd y diangodd rhag colli ei fywyd trwy law Cesare. Cytunodd Vitelli, Baglioni, ac ereill o benaethiaid Orsini, i'w wrthwynebu: ond dywedai Cesare ei bod yn gyfreithlawn i orchfygu trwy ddichell y rhai oeddent feistri ar bob twyll; ac nid hir y bu nes eu cael i'w afael, a'u rhoddi i farwolaeth.

Yn 1498, anfonwyd Cesare gan ei dad i Ffrainc, â gweithred i gyfreithloni ysgariaeth Louis XII. oddi wrth ei wraig Jeanne, merch Louis XI. Gwnaeth Louis Cesare yn dduc Valentinois yn Dauphiny. Yn 1498, priodwyd Cesare â Charlotte, chwaer i Jean D'Albret, brenin Navarre Wedi i'r Ffrancod groesi yr Alps yr ail waith, anfonodd Louis XII. fyddin i gynnorthwyo Cesare, yr hwn oedd yn ymladd yn erbyn arglwyddi Romagna, y rhai ni ymostyngent i lys Rhufain. Cymmerodd Cesare gastell Forli, yr hwn a amddiffynid yn wrol gan C. Sforza. Lladdwyd yr amddiffynwyr, a danfonwyd C. Sforza yn gaeth i Rufain, lle y cafodd ei rydd hau ar eiriolaeth D'Alègre, y cadlywydd Ffrengig. Wedi i'r Ffrancod gael eu galw yn ol i Lombardy, dychwelodd Cesare i Rhufain mewn rhwysg mawr; ac yno crëwyd ef gan ei dad yn dduc Romagna. Trodd ei arfau wedi hyn yn erbyn Giovanni Sforza, yr hwn a yrodd o Pesaro; a chymmerodd Rimini oddi ar Malatesti. Ymladdodd pobl Faenza am tua blwyddyn o blaid eu tywysog ieuanc Astorre Manfredi; a rhoisant i fyny yn y diwedd ar yr ammod i Astorre, a'i frawd Evangelista, gael bod yn rhydd. Ond gyrwyd hwynt yn garcharorion i Rufain gan Cesare, lle y cawsant eu gosod i farwolaeth mewn modd creulawn, yn 1501. Ymosododd ar Bologna; ond gwrthwynebwyd ef mor egniol gan Giovanni Bentivoglio, nes gorfu arno wneuthur heddwch am dymmor. Aeth yr un flwyddyn yn erbyn Florence, ond gorfu arno droi yn ol wrth orchymyn y pab. Aeth gyda y fyddin Ffrengig yn erbyn Naples; ac yr oedd yn bresennol pan gymmerwyd Capua, lle y cyflawnwyd creulonderau ofnadwy gan y Ffrancod. Daliodd Cesare lawer o fenywod, ac anfonodd rai o honynt i'w balas yn Rhufain, a gwerthwyd ereill yn gyhoeddus fel caethion. Yn 1502, cymmerodd Urbino a Camerino, gan roddi Giulio da Varano a'i feibion i farwolaeth. Yr oedd byddin Cesare yn cael ei gwneyd i fyny mewn rhan o hen filwyr, ac mewn rhan o gynnorthwywyr—yn mhlith y rhai hyn yr oedd Vitelli, Baglioni, Oliverotto, Paolo Orsino, ac ereill. Tra yr oedd efe yn Lombardy, gyda Louis XII., trodd y dynion hyn yn ei erbyn, naill ai o herwydd eu bod yn ofni ei awydd, neu yn cenfigenu wrth ei lwyddiant. Pan ddychwelodd Cesare yn ol i Romagna, cymmerodd fod arno awydd ymhoddychu â'r

Digitized by Google

penaethiaid gwrthryfelgar. Gwahoddodd hwy i Sinigaglia, lle yr aeth efe ei hun, â llu o wŷr arfog. Daliodd ei wrthwynebwyr, oddi gerth Petrucci a Baglioni, y rhai a ddiangasant; ac yno rhoddodd hwy â llawer o'u canlynwyr i farwolaeth. Anrheithiwyd Sinigaglia ar yr achlysur. Y mae Machiavelli, yr hwn oedd ar y pryd gyda Cesare yn genadydd dros Florence, yn rhoddi darluniad o'r amgylchiadau yn ei ddull tarawiadol ei hun. Pan glywodd Alexander VI. yr hyn a wnaethai Cesare, efe a ddaliodd cardinal Orsini, ac ereill o'r un teulu, ac a orchymynodd eu rhoddi i farwolaeth yn y carchar. Yr oedd Borgia yr amser yma yn ddychryn i holl ganolbarth Italy, o'r Môr Adriatic hyd Fôr y Canoldir; a'i ymgais oedd gwneuthur ei hun yn frenin Romagna, y Marches, ac Umbria. Yr oedd prif obeithion y pab fel hyn yn cael eu cyflawnu. Yr oedd yn canfod ei deulu yn ymddyrchafu yn Italy, a'r holl deuluoedd pendefigol ereill wedi eu dinystrio. Casglodd Cesare y mân foneddigion o'i gwmpas, a rhoddodd dâl iddynt am eu gwasanaeth, tra y daliai y tiriogaethau gorchfygedig dan ei awdurdod trwy rym ofn a chreulondeb. Nid oedd gan Cesare barch i ddim na neb os byddent ar ei ffordd i gyrhaedd ei amcan. Dywedir, er nad oes hollol sicrwydd, iddo orchymyn llofruddio ei frawd John Borgia, duc Gandia, a'i daflu i'r afon Tiber. Parodd i'w weision ladd ei frawd yn nghyfraith, yr hwn a drywanwyd ar risiau ei balas. Methwyd ei ladd y pryd hwnw; ac er fod ei wraig a'i chwaer yn gweini iddo, ac yn parotoi bwyd, rhag iddo gael ei wenwyno—ie, er fod y pab wedi gosod gwarchawdlu o amgylch y palas er diogelu ei fab yn nghyfraith—chwarddai Cesare, a dywedai, "Yr hyn y methwyd ei wneyd bryd ciniaw, gellir ei wneyd bryd swper." Pan oedd y tywysog ar wella o'i glwyfau, gwthiodd Cesare ei ffordd i'w ystafell. Trodd ei wraig a'i chwaer allan; a galwodd y dienyddwr i mewn, a gorchymynodd iddo dagu y dyn claf. Cerid ef yn fawr gan ei dad: ond nid oedd ganddo ef ddim parch i Alexander, er ei fod yn deall fod parhad ei fywyd yn angenrheidiol er ei ddyrchafiad ef. Lladdodd Pereto, cyfaill mawr i Alexander, pan oedd yn ymaflyd yn ymyl gwisg ei amddiffynwr, a llifodd gwaed ei hoffddyn i wyneb y pab. Dywedir ei fod yn hardd iawn o ran ymddangosiad, ac yn hynod nerthol o ran corff. Lladdodd chwech o deirw gwylltion â gwaewffon, oddi ar ei farch; a thorodd ben un o honynt i ffordd âg un ergyd, yr hyn a ystyrid yn rhyfedd gan bawb yn Rhufain. Yr oedd ei holl weision yn cael eu gwisgo yn ardderchog, a'u dillad wedi eu haddurno âg arian ac aur. Yr oedd o ysbryd hael iawn, ac yn berchen ar radd o nerth meddwl, ond wedi llwyr ymroddi i ddilyn ei chwantau, a'i ddwylaw yn llawn o waed. Dywedir na wrandawai ar neb ond yr hwn oedd ganddo wrth y swydd o ddienyddio. Yr oedd holl daleithiau yr eglwys dan ei awdurdod. Arswydai Rhufain rhag ei enw. Brithid ei heolydd bob nos â chelaneddau meirw; ac eto ni feiddiai neb yngan gair, rhag ofn mai ei dro ef fyddai nesaf. Nid oedd yn bosibl i bethau fel hyn gymmeryd lle ond yn ymyl gorsedd y pab, pan oedd yr awdurdod wladol ac eglwysig yn yr un llaw. Cyfarfu y rhai hyn am unwaith yn mherson Cesare; ac yma y cyrhaeddodd drygioni ei eithafnod; yma yr ymddangosodd pob pechod fel wedi ymgorffoli mewn un dyn. Y mae yn debyg nad oedd bywyd Cesare ond canlyniad naturiol yr addysg a dderbyniodd gan ei dad; yr hwn oedd â'i holl fryd ar godi ei deulu i anrhydedd daiarol. Rhoddodd lythyr ysgar i frenin Ffrainc, ar yr ammod iddo yntau roddi talaeth i'w fab Cesare y byddai ei chyllid yn 28,000 o *francs*, a gwraig o deulu breninol, yn nghyd â pheidio danfon milwyr i Naples oddi gerth i gynnorthwyo teulu Borgia. Cymmerodd holl gyllid yr eglwys am dair blynedd, a rhoddodd yr arian i Cesare er codi byddin i ymladd yn erbyn y Tyrciaid. Gwenwynai ei ddeiliaid a'i gardinaliaid, er mwyn cael eu meddiannau i'w drysordy ei hun—ond daliwyd yntau o'r diwedd. Anfonodd un diwrnod at Cardinal di Corneto, ei fod yn bwriadu swpera gydag ef, a'i fod ef yn parotoi y swper. Gwyddai y cardinal fod y pab am ei ladd, a meddyliodd ei fod am ei wenwyno y pryd hwnw. Anfonodd am un o weision y pab, a thrwy roddi iddo 10,000 o *ducats*, cafodd allan gynllun y pab. Cytunodd â'r gwas i roddi yr ymborth gwenwynig i'r pab ei hun. Pan ddaeth "ei sancteiddrwydd" yno, ymgrymodd y cardinal o'i flaen, ac erfyniai am ganiatâd i weini iddo, gan gymmeryd arno ei fod yn ei ystyried ei hun yn annheilwng i eistedd gydag ef ar y bwrdd. Yr oedd y pab wedi parotoi tair dysglaid o ddanteithfwyd, a rhoddi gwenwyn yn un o honynt, gan orchymyn i'r gwas ei roddi i'r cardinal: derbyniodd y cardinal y dysglau o law y gwas. Rhoddodd yr un gwenwynig o flaen y pab, yr hwn, gan ymddiried yn ffyddlondeb ei was, a fwytaodd yn helaeth o hono. Effeithiodd y gwenwyn arno cyn hir, fel y bu farw. Wedi hyn, cymmerodd gelynion Cesare galon: gorchfygwyd ei luoedd, gwrthryfelodd holl drefydd Romagna a daliwyd ef yn garcharor gan Cardinal Della Rovere, y pab newydd, yr hwn oedd yn elyn i'r Borgiaid. Diangodd i Naples, a chynnygiodd ei wasanaeth i Gonzalo o Cordova; yr hwn, wedi addaw ei amddiffyn, a'i hanfonodd yn garcharor i'r Yspaen. Cauodd y brenin Ferdinand ef yn Medina del Campo, lle yr arosodd am ddwy flynedd. Diangodd oddi yno, ac aeth at ei frawd yn nghyfraith, brenin Navarre, yr hwn oedd ar y pryd yn ymladd âg un o'i farwniaid. Gwasanaethodd Cesare yn myddin Navarre, a lladdwyd ef yn 1507 gan belen, pan yn gwarchae ar dref fechan o'r enw Viana, ger llaw yr Ebro. Claddwyd ef heb ddim seremoni mewn eglwys yn Pamplona. Fel hyn y terfynwyd einioes y dyn uchelgeisiol hwn, ac y disgynodd i'w fedd mewn gwarth a dirmyg, ar ol ymdroi mewn rhwysg a mawredd daiarol, a thynu arno ei hun felldithion miloedd o weddwon ac amddifaid, adgasrwydd dynolryw yn gyffredinol, a dialedd Duw.—(*Ranke's Lives of the Popes; Penny Cycl.*)

CÆSAR, CAIUS JULIUS. Ymddangosodd y dyn hynod hwn mewn cyfnod pwysig ar ymherodraeth Rhufain. Mae yn anhawdd dyweyd pa un wnaeth fwyaf, efe er ffurfio amgylchiadau a dwyn oddi amgylch ddygwyddiadau ei oes, neu ynte amgylchiadau yr amseroedd er ei wneyd ef yr hyn ydoedd. Effeithiodd y naill ar y llall i raddau helaeth, ond yr oedd eu cyssylltiad â'u gilydd mor agos fel nad all yr hanesydd mwya byth eu dangos ar wahân yn berffaith. Hawdd iawn yw priodoli i Cæsar yr hyn a ddygwyd oddi amgylch gan ereill, yn gystal a phriodoli i ereill yr hyn a achoswyd yn benaf ganddo ef ei hun. Yr oedd Rhufain wedi cyrhaedd y safle uchaf, a phawb o'i mewn braidd am fod yn ben yn Rhufain. Yr oedd yr ymherodraeth, o ran ymdlangosiad allanol, yn uchder ei gogoniant. Yr oedd ei swyddogion gwladol yn gyfreithwyr

Digitized by Google

galluog, ei swyddogion milwraidd y rhai mwyaf medrus a arweiniasant fyddinoedd erioed, a'i milwyr y goreu fu dan arfau, ac yn fuddugoliaethus yn mhob brwydr braidd. Ond yr oedd sefyllfa fewnol Rhufain yn druenus; yr oedd fel teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun. Yr oedd y mawrion yn gorthrymu ac yn ysbeilio y tlodion; a'r canlyniad naturiol oedd fod y tlodion yn casäu y mawrion. Yr oedd y senedd a'r llywiawdwyr yn benben; y wladwriaeth a'r fyddin yn elynion. Yr oedd pob is-swyddog am fyned yn brif swyddog, a'r prif swyddog am fyned yn ymherawdwr. Magwyd Cæsar yn nghanol amgylchiadau o'r fath yma: ni welodd ddim ond twyll a hoced yn mhob cylch; cafodd esamplau o'i flaen oeddynt yn ddigon i lygru dyn y byddai ei gariad at rinwedd yn rhagori llawer ar yr eiddo ei hun. Nid rhyfedd ynte ei fod ef dan lywodraeth yr ysbryd hwnw, yr hwn sydd mor gyffredin yn mhlith dynion, sef awydd am gael y blaen. Nid oedd i'w glywed yn ei amser ef ond clod y dynion oedd wedi eu henwogi eu hunain ar faes y gwaed —y Scipios, oedd wedi dinystrio Carthage, yn gystal a gwahanol bersonau oeddynt wedi darostwng y rhan fwyaf o Ewrop, a dwyn Asia i gaethiwed. Nid oedd i'w ganfod o'i gwmpas ond arwyddion o fawredd swyddogion Rhufain; palasau a thyrau wedi eu hadeiladu â'r hyn a ladratawyd oddi ar ddinasoedd ereill; trysordai wedi eu llenwi â chyfoeth gwledydd ereill; caethion wedi eu dwyn o blith gwahanol genedloedd; colofnau wedi eu hadeiladu er cof am arwyr oeddynt wedi gorchfygu pan yn ymladd dan faner Rhufain; a dinasyddion yn byw yn foethus ar y gwinoedd a'r danteithion oedd wedi eu lladrata oddi ar ereill. Er hyny nid oedd neb yn foddlawn i'w sefyllfa. Yr oeddynt wedi dysgu byw yn fras a moethus, ac felly wedi dirywio oddi wrth arferion syml a sobr eu henafiaid, y rhai oeddynt wedi gosod i lawr sylfaen, ac ennill i Rufain y rhan fwyaf o'i mawredd. Pa beth allesid ei ddysgwyl oddi wrth ddyn o gyfansoddiad meddwl mor hunanol, balch, ac uchelgeisiol, ag oedd Cæsar, ond gwneuthur ei oreu i ddefnyddio pob moddion o fewn ei gyrhaedd, a'r rhai oeddynt wedi llwyddo yn nwylaw ereill, i'w godi ei hunan i binacl uchaf anrhydedd daiarol. Mae yn anhawdd cael allan pa bryd y meddyliodd Cæsar gyntaf am fyned yn brif yn Rhufain. Y peth mwyaf tebyg yw, iddo ddymuno bod felly pan oedd Sulla yn ei erlid, ac yn bygwth ei roddi ef a'i blaid i farwolaeth; ac iddo benderfynu gwneyd y cynnygiad yn mhen ugain mlynedd wedi hyn, pan oedd y senedd yn ceisio ei droi o'i swydd fel llywydd Gaul, ac yntau yn teimlo nad oedd fawr o barch na dyrchafiad iddo ddysgwyl yn Rhufain, lle yr oedd cymmaint o'i elynion, pe buasai yn dychwelyd yno heb ei fyddin. Sicr yw mai nid ar unwaith y daeth i benderfyniad i ddymchwelyd y weriniaeth, ac ymddengys i ni yn debygol nad hir y bu cyn cynnyg ar y gorchwyl wedi llwyr benderfynu hyny.

Er galluogi y darllenydd i farnu am gywirdeb y syniadau uchod, rhoddwn ychydig o hanes ei fywyd. Ganwyd ef tua chan mlynedd cyn Crist, y 12fed o fis Quintilis, a alwyd wedi hyny Julius, er anrhydedd iddo ef. Enw ei dad oedd C. J. Cæsar ac enw ei fam oedd Aurelia. Yr oedd yn ddisgynedig o Æneas, yr hwn a ddiangodd i Italy, pan ddinystriwyd Caerdroia. Gan fod traddodiad mai mab y dduwies Venus oedd Æneas, yr oedd Cæsar yn hôni perthynas â'r duwiau, a dichon mai hyn barodd iddo ymgodi yn ei galon mor uchel fel ag i ofyn anrhydedd dwyfol tua diwedd ei oes. Bu ei dad farw pan oedd yn dra ieuanc; ond gofalodd ei fam, yr hon oedd foneddiges o radd uchel a rhinweddol iawn, am ei ddwyn i fyny yn mhob dysg a rhinwedd, yn ol dull yr oes heno. Yma hefyd y gwiriwyd y ddiareb, "mai mam dda sydd yn gwneyd dyn mawr." Pan yn bymtheg oed priododd Cornelia, merch Cinna, yr hwn mewn canlyniad a'i gwnaeth yn archoffeiriad Jupiter. Yr amser hwn yr oedd Rhufain yn cael ei llywyddu gan Sulla, y *dictator* —swydd unbenawl. Yr oedd Cinna a Marius yn pleidio y weriniaeth yn erbyn Sulla, ond cawsant eu gorchfygu. Trwy ei gyssylltiad â hwy daeth Cæsar yn wrthddrych casineb Sulla. Cafodd ei droi o'i swydd, collodd ei feddiannau, ac amcanwyd cymmeryd ei fywyd. Gorfu ar Cæsar ffoi am ei einioes; a bu am ddyddiau lawer yn gorfod newid ei guddle bob nos, er yn cael ei flino gan gystudd trwm. Daliwyd ef o'r diwedd gan ganwriad o'r enw Camelius Phagita, yr hwn a'i gollyngodd yn rhydd wedi gael swm mawr o arian. O'r diwedd, llwyddodd gwahanol bleidiau i gael gan Sulla i alw yn ol y ddedfryd oedd yn erbyn Cæsar; yr hwn a ddywedodd, "Caiff ei arbed, yn gymmaint a'ch bod am hyny; ond gwybyddwch y bydd yr hwn yr ydych gymmaint am ei arbed ryw ddydd yn ddinystr i'ch plaid, o blegid y mae yn Cæsar lawer Marius." Ar ol hyn bu Cæsar yn gwasanaethu fel milwr dan M. Thermus yn Asia, a hynododd ei hun wrth gymmeryd Mitylene, c. c. 80. Ond dywedir iddo ddiraddio ei hun a thynu gwarth ar ei enw tra yn aros yn llys Nicomedes, brenin Bithynia, trwy anfoesoldeb gwaradwyddus. Barna llawer oddi wrth gymmeriad cyffredin Cæsar mai celwydd oedd hyn: pa fodd bynag ni faddeuodd y Rhufeiniaid byth iddo am y tro. Y flwyddyn ganlynol aeth i Cilicia gyda Servilius Isauricus. Bu Sulla farw tua'r amser hwnw, a dychwelodd Cæsar i Rhufain; ond o ddiffyg ymddiried yn y llywydd newydd, Æmilius Lepidus, er ei fod o'r un blaid ag ef ei hun, ni chymmerodd Cæsar unrhyw ran yn y llywodraeth. Ar yr un pryd, mae'n debyg, ei fod wedi penderfynu dal ar bob cyfleusdra i ddarostwng y blaid bendefigaidd, oddi wrth ba un yr oedd efe a'i deulu wedi dyoddef cymmaint. Pan yn un ar ugain oed, ymddangosodd Cæsar wrth y *bar*, i gyhuddo Dolabella, yr hwn oedd newydd ddychwelydd o ymladd yn erbyn y Thraciaid, a chael ei anrhydeddu fel gorchfygwr. Cyhuddid ef gan Cæsar o gamlywodraeth yn y dalaeth dan ei ofal. Yr oedd ei araeth yn alluog, ac yn dangos cryn lawer o fedrusrwydd; ennillodd iddo enw mawr fel cyfreithiwr. Ond gwrthwynebwyd ef mor egniol gan ddau gyfreithiwr enwog, o'r enw Hortensius a Cotta, fel y rhyddhawyd Dolabella gan y senedd. Teimlai yr areithiwr ieuanc yn dra gofidus ei fod wedi ei orchfygu, a chanfyddiai yn amlwg ei fod mewn perygl oddi wrth Dolabella a'i gyfeillion: am hyny gadawodd Rhufain ac aeth tua Rhodes, i fyfyrio areithyddiaeth, dan Apollonius Molo, y dysgawdwr mwyaf yn ei oes. Dan hwn yr oedd Cicero wedi dysgu yr hyn a'i hanfarwolodd. Yr oedd newydd ymadael cyn i Cæsar fyned yno. Pan yn hwylio tua Rhodes, yn y gauaf, daliwyd ef gan forladron, ger llaw ynys Pharmacusa, ar gyfer Miletus. Bu yn garcharor am tuag wyth ar ugain o ddyddiau, heb ddim ond meddyg a dau was gydag ef. Tra yn gaeth gan y morladron, ymddygai yn fwy fel meistr nag un mewn caethiwed. Pan ofynent ugain talent am ei ollwng yn rhydd, dywedodd

Digitized by Google

na wyddent werth eu carcharor—y rhoddai efe iddynt hanner can talent, ac y croeshoeliai efe hwynt ar ol iddo ennill ei ryddid. Galwai hwy yn farbariaid anwybodus, am nad oeddynt yn canmawl darnau prydyddol o'i waith ei hun a ddarllenai iddynt. Ennillodd barch ac ymddiriedaeth mawr yn eu mysg trwy ei ddull llawen a boneddigaidd. Wedi cael arian i dalu am ei rydaid, glaniodd yn Asia, casglodd gynnifer o longau ag a fedrai gael, ac aeth yn erbyn y morladron; suddodd rai o'u llongau, cymmerodd ereill, a rhoddodd y dynion yn ngharchar. Wedi hyn aeth at Junius, y llywydd yn Asia, i ofyn am awdurdod i gospi y carcharorion; ond gan na roddwyd iddo yr hyn a ddymunai, dychwelodd, a chyn i orchymyn y llywydd gyrhaedd Miletus, croeshoeliodd bob un o honynt yn ol ei fygythiad. Yna cymmerodd Cæsar ei genad i ddefnyddio ei fyddin i ymladd yn erbyn gweision Mithridates, nes ei wahardd gan Junius, rhaglaw Asia Leiaf. Ar ol hyn ymroddodd am ychydig i ddysgu areithyddiaeth, a chyrhaeddodd gryn radd o bertfeithrwydd yn y gelfyddyd. Dywed Cicero ei fod yn disgyn o linach siaradwyr da, ac nad oedd yn ail i neb yn ei oes fel areithiwr. Nid hir y bu Cæsar yn Rhodes cyn clywed fod ei ewythr, Aurelius Cotta, wedi marw, a'i fod yntau wedi ei ddewis i lenwi ei le ef fel aelod o goleg yr archoffeiriaid. Yr oedd y Mor Adriatic y pryd hwnw yn llawn o forladron, fel na feiddiai hyd yn oed llongau rhyfel braidd anturio drosto ond yn y gauaf. Cyflogodd Cæsar fad, a pharodd i'r cadben groesi yn y man lletaf, rhag iddo syrthio i ddwylaw y morladron a wylient y manau culaf. Wedi cyrhaedd Rhufain gwnaeth Cæsar bob ymdrech i ennill serch y werin;—areithiodd yn y llys barn; gwahoddodd lawer at ei fwrdd; a chymmaint ydoedd ei haelioni a'i wastraff nes y dysgwyliai ei elynion y buasai yn fuan yn suddo mewn dyled a gwarth. Mynodd y bobl ei ddyrchafu yn olynol i wahanol swyddau. Gwnaed ef yn *dribune* milwraidd (swydd i drefnu ar gyfer cysur ac iechyd y milwyr). Tra yn y swydd hon talodd fwy o sylw i'r pethau angenrheidiol er ailsefydlu amgylchiadau fel yr oeddynt cyn dyddiau Sulla, nag i amgylchiadau milwraidd. Ymdrechodd á'i holl egni i bleidio deddf Plotius, er galluogi y rhai oeddynt wedi eu halltudio gan Sulla i ddychwelyd yn ol, a chael hawlfraint y ddinas. Tua'r amser yma bu farw Cornelia, gwraig Cæsar, a merch Cinna. Traddododd Cæsar araeth angladdol ar ei hol hi a Julia, ei fodryb chwaer ei dad, a gwraig Marius. Dangosodd fod ei deulu ef yn freninol o ran tarddiad dynol, ac nid anghofiodd nodi allan fod gwaed y duwiau yn rhedeg trwy ei wythïenau ef. Cymmerodd achlysur hefyd i ddyrchafu enwau Marius a Cinna, y rhai oeddynt brif arweinyddion y werin. Ennillodd barch mawr fel gwladgarwr, ac fel gwr da a chariadus.

Tua'r amser hwn, cafodd ei wneuthur yn *quæstor* (swydd tebyg i ganghellydd trysorlys), dan Antistius Vetus, yn yr Yspaen. Yr oedd sefyllfa y weriniaeth y pryd hwnw yn druenus iawn:—y boneddigion yn crafangu pob peth iddynt eu hunain, ac yn rhagori y naill ar y llall mewn gwychder a mawredd. Dywedir i Cicero dalu 650*p.* am fwrdd, a bod Cæsar wedi rhedeg i ddwy filiwn o ddyled. Yr oedd y cyffredin wedi colli eu tiroedd trwy raib y cyfoethogion; ac wedi colli eu gwaith trwy fod Italy mor lawn o gaethion. Yr oedd y caethion hwythau, wedi eu casglu o wahanol wledydd, yn anesmwyth iawn, a chymmerasant y cyfle cyntaf i dalu y pwyth i'w meistriaid am eu creulondeb. Torodd rhyfel y caethion allan pan oedd Cæsar yn yr Yspaen, pan y dinystriwyd lluaws o ddinasoedd a phentrefi, ac y collodd miloedd eu bywydau. Yr oedd ymherodraeth Rhufain heb un llywydd, ond pob un yn dilyn ei ewyllys ei hun cyn belled ag y medrai gael y fyddin i'w ganlyn. O'r diwedd, ymunodd Cæsar a Pompey a Crassus mewn cyfammod. Cafodd Cæsar ei wneuthur yn *ædile* (llywydd yr adeiladau cyhoeddus), a llwyddodd i gael gan y senedd roddi awdurdod i Pompey i ddarostwng y morladradau, a threfnu gwahanol bethau er lles y llywodraeth. Rhoddodd ei ferch yn wraig i Pompey, yr hyn a barodd i'r blaid bendefigaidd ofni fod rhyw ddrwg yn canlyn. Yr oedd ei swydd newydd yn rhoddi llawer o arian dan ddwylaw Cæsar; y rhai a ddefnyddiodd er harddu y ddinas, a threfnu amrywiol chwarëyddiaethau er difyru y bobl. Llwyddodd i gael ei ethol yn llywydd y coleg archoffeiriadol; a chyn hir gwnaethpwyd ef yn ail faer (*prætor*). Cafwyd allan gydfrad pwysig iawn yn Rhufain yn c. c. 63, yn cael ei flaenori gan Catiline, a'i amcan i lofruddio y ddau brif faer (*consuls*), a chymmeryd awenau y llywodraeth i ddwylaw y cydfradwyr. Dedfrydwyd hwy oll i farwolaeth; ond er fod rhai wedi cyhuddo Cæsar o fod â rhan yn y cydfrad, cyfododd yn ei le yn y senedd, a dadleuodd yn nerthol yn erbyn rhoddi y carcharorion i farwolaeth—mynai eu halltudio, a chymmeryd eu meddiannau; eithr collodd ei amcan, trwy fod ereill yn ei wrthwynebu â mwy o ddylanwad nag ef yn y senedd. Methodd Cæsar hefyd y pryd hwn a chael ei benodi i fyned yn llywydd ar fyddin i drefnu amgylchiadau teulu breninol yr Aipht. Yn y flwyddyn c. c. 60, cafodd Cæsar ei ethol yn brif faer (*consul*), gyda Bibulus. Yr oedd efe wedi cytuno â Lucceius i roddi ei ddylanwad, ond i Lucceius roddi arian, fel y byddai iddynt gael eu cydethol. Mynodd gelynion Cæsar ddewis Bibulus; ond nid hir y buont cyn gweled nad oedd eu dyn hwy yn ddigon i gadw Cæsar o fewn terfynau. Mynai bob peth yn ei ffordd ei hun, ac ysgrifenai dynion cellweirus yn y flwyddyn o gonsulaeth Julius a Cæsar; ac nid oedd y senedd chwaith yn ddigon i feistroli Cæsar. Pan fyddai y prif faer yn myned o'i swydd, arferid rhoddi iddo lywodraeth ar un dalaeth am flwyddyn. Yn wyneb fod rhai am ddifuddio Cæsar o'r hawlfraint hon, cynuygiwyd gan un o'i bleidwyr fod iddo gael llywyddu gogledd Italy ac Illyricum am bum mlynedd; a chytunodd y senedd â hyn rhag i'r bobl roddi chwaneg. Rhoisant hefyd Gaul neu Ffrainc dan ei lywodraeth. Yr oedd Cicero hyd yma wedi gwrthwynebu Cæsar yn ei holl fesurau, er bod lle cryf i gredu nad oedd dull yr areithiwr o drin materion mor fuddiol i'r werin a dull y rhyfelwr [gwel CICERO]. Y mae llawer o bethau ereill sydd yn dal cyssylltiad agos â Cæsar, nad ellir eu henwi yma: ond y mae yn deilwng o sylw na ddiatodd Cæsar byth ar Cicero, er cael digon o gyfleusderau.

Yma y dechreu bywyd cyhoeddus Cæsar, a'r gweithredoedd nerthol a effeithiasant i gytnewid tynged y byd. Er deall gweithrediadau Cæsar yn y tymmor yma, rhoddir byr hanes y taleithiau Gaulaidd, tuag at ba rai yr oedd yn cyfeirio. Trigolion y gwledydd hyny ar y pryd oeddynt Gauliaid—o'r un gwaed, ac yn debyg yr un iaith, a'r hen Gymry—pobl nerthol, ac wedi bod yn enwog yr amser gynt fel rhyfelwyr. Bu

Digitized by Google

amser pan oedd eu henwau yn ddychryn i bawb a'u hadwaenent, ac yn neilldiol felly i Rufain. Terfynau eu preswylfod oeddynt y Môr Gorllewinol, y Rhine, yr Alps, Môr y Canoldir, a'r Pyrenees; ond byddent yn arferol o dori dros eu terfynau yn aml. Yr oeddynt wedi ymdaenu dros holl Italy, cymmeryd Rhufain, ac ymestyn yn mlaen trwy Groeg. Yr oeddynt hefyd wedi gorchfygu y Teutoniaid, a sefydlu teyrnas yn nyffryn yr Elbe. Yr oeddynt hefyd wedi myned rhwng y Rhine a'r Danube, croesi i Groeg, a gwthio eu ffordd yn mlaen i diriogaethau breision Asia Leiaf: ac yr oedd rhyw gyssylltiad agos rhyngddynt â Phrydain; ïe, y mae rhai yn myned mor bell a dyweyd mai o Brydain yr oedd grym yr heidiau yn dyfod, tra y dywed ereill mai haid o Gauliaid oedd yn Mhrydain. Er nad oeddynt mor awyddus am frwydr ag i anfon heidiau allan fel cynt, eto nid oeddynt yn gymmydogion hollol ddiberygl i Rufain. Heb law hyn, yr oedd y Cimoriaid, a'r Teutoniaid o ogledd yr Almaen, am wthio eu ffordd i waered i diroedd ffrwythlawn y deheu; ac wrth bob tebyg, yr oedd Rhufain mewn perygl oddi wrth bob pen i'r Alps. Yr oedd Gaul, fel Rhufain, yn myned ar oriwaered. Yr oedd y bobl wedi ymranu i gyfoethogion neu gaethion. Yr oedd yr undeb rhyngddynt yn wan iawn. Yr oedd senedd Rhufain yn gweled fod adeg bwysig ger llaw, a'i fod o'r pwys mwyaf iddynt gael llywydd medrus a phenderfynol i wrthwynebu rhuthrgyrchoedd y Germaniaid; a dichon fod hyn mewn golwg ganddynt pan yn rhoddi llywyddiaeth Gaul i Cæsar am bum mlynedd. Wedi derbyn awdurdod, ni bu Cæsar yn segur, a gofalodd y gelynion na roddent iddo fawr seibiant. Daeth y newydd i Rufain, cyn i Cæsar gychwyn, fod yr Helvetiaid, a llwythau eraill, dan lywyddiaeth Orgetorix, yn gadael eu trigle gyfyng ar lanau llyn Leman, i wladychu yn neheudir Gaul, lle y dysgwylient allu ennill y rhan a fynent o'r wlad. Bu Orgetorix farw cyn cychwyn, ond parhaodd yr Helvetiaid yn yr un penderfyniad; llosgasant eu holl drigleoedd, a'r ymborth nas gallent ei gludo gyda hwynt. Yr oeddynt wedi nodi yr 28ain o Fawrth yn ddydd eu hymadawiad. Cyn i'r dydd ddyfod, yr oedd Cæsar wedi cyrhaedd Geneva. Aeth oddi yno drachefn i ymofyn milwyr, a chyn hir casglodd 30,000. Erbyn hyn, yr oedd yr Helvetiaid wedi parotoi i'w taith. Anfonasant at Cæsar am ganiatad i fyned trwy y taleithiau Rhufeinig; ond gwrthododd Cæsar eu cais, gan ei fod wedi penderfynu eu rhwystro i Gaul. Torodd bont Geneva, yr hon oedd yr unig gyssylltiad rhwng yr Helvetiaid a Gaul. Ar hyn, trodd yr Helvetiaid i fyned trwy wlad y Sequani, a chyrhaeddasant yr Arar, yr hon oedd yn rhanu rhwng y Sequani a'r Ædui. Yn llederbyn yr Helvetiaid yn garedig, gyrodd yr Ædui, yr Amharai, a llwythau ereill, at Cæsar am gymhorth i'w gwrthwynebu. Bu yr Helvetiaid am ugain niwrnod yn croesi yr Arar. Yr oedd tair rhan o bedair wedi myned drosodd; ond yr oedd y bedwaredd ran ar ol. Ymosododd Cæsar arnynt o hyd nes y llwyr ddinystiodd hwynt; wedi hyn, parodd wneuthur pont dros yr Arar, a chroesodd ar ol corff yr Helvetiaid. Anfonwyd cenadau oddi wrth yr Helvetiaid at Cæsar, un o ba rai ydoedd Divico, yr hwn oedd rai blynyddoedd cyn hyny wedi gorchfygu y Rhufeinwyr dan Cassius. Ymddengys fod Divico a Cæsar â'u bryd yn ormod am ymladd i feddwl am delerau heddwch, ac felly, ymadawsant heb wneyd dim. Cafodd Cæsar gryn ofid oddi wrth yr Ædui, er mai ei bleidwyr oeddynt. Ni anfonasant ymborth i'w filwyr fel yr oeddynt wedi addaw; ac yr oedd rhai o'u llywyddion, er yn ymladd dan Cæsar, yn fwy pleidiol i'r Helvetiaid na'r Rhufeiniaid. Er hyny, dilynodd Cæsar yr Helvetiaid am bymtheng niwrnod, a gadawodd hwynt tua phedwar ugain milltir oddi wrth yr Arar. Y dydd cyntaf wedi i Cæsar groesi yr Arar, cyfarfu pedair mil o'i wŷr meirch â phum cant o'r Helvetiaid, ond gorchfygwyd hwynt yn fuan. Cododd hyn ysbryd yr Helvetiaid mor fawr, nes y penderfynasant aros am Cæsar. O ddiffyg ymborth, gorfu ar Cæsar droi oddi ar ol yr Helvetiaid, â'i wyneb at brif ddinas yr Ædui. Parodd hyn i'r Helvetiaid feddwl ei fod yn rhoddi i fyny, a throisant i'w ganlyn. Cyfarfu y ddwy fyddin. Gosododd Cæsar ei eiddo yn nghanol y gwersyll, a gosododd yr Helvetiaid eu gwragedd a'u plant, yn gystal a'r eiddo, yn nghanol eu gwersyll hwythau. Gyrwyd meirch Cæsar yn ol gan yr Helvetiaid, ond trowyd hwythau yn ol gan y llengau Rhufeinig, y rhai a'u dilynasant i fryn cyfagos; ond pan oedd y llengau yn parotoi i ymosod ar y gelyn yn ei sefyllfa newydd, daeth pymtheng mil o'r Boii a'r Tulingi yn mlaen i ymosod ar yr aden hono. Parodd Cæsar i'r ddwy linell gyntaf barhau i fyned yn mlaen, a throdd y drydedd yn erbyn y Boii, ac felly daeth y frwydr yn gyffredinol. Dechreuodd tuag un o'r gloch, a pharhaodd nes oedd yn llawer o'r nos. Ni welodd y Rhufeinwyr yn ystod yr holl amser gefn un gelyn; ond gorfu arnynt eu gyru yn ol bob yn foufedd, nes llwyr ennill y maes. Ond llwyddodd medrusrwydd yn erbyn gwroldeb a rhif. Pan gychwynai yr Helvetiaid, yr oedd eu rhifedi yn 360,000; o ba rai yr oedd 92,000 yn dwyn arfau; tra nad oedd y Rhufeinwyr dros 20,000. Ar ol y frwydr, parodd Cæsar i'r gweddill o'r Helvetiaid, tua 110,000, ddychwelyd adref i'w gwlad, ac adeiladu eu preswylfeydd. Gwnaeth hyn er rhwystro yr Ellmyn, o'r tu hwnt i'r Rhine, i ddyfod yno i feddiannu y wlad.

O hyn allan, y mae yn rhaid nodi brwydrau Cæsar yn Gaul a'r Almaen. Y frwydr nesaf fu rhyngddo a'r Ellmyn, y rhai oeddynt wedi croesi y Rhine dan Ariovistus, i gynnorthwyo y Sequani yn erbyn yr Ædui. Yr oedd y Gauliaid wedi rhoddi y fath ddarluniad o faintioli a dewrder yr Ellmyn nes digaloni byddin Cæsar. Chwarddai yntau, gan ddywedyd fod y Rhufeiniaid wedi gorchfygu cenedloedd mwyaf gwrol yr Almaen, sef y Cimbriaid a'r Teutoniaid; ac os gwrthodent ei ddilyn, yr äi efe yn erbyn yr Ariovistus â'r ddegfed lleng yn unig. Llwyddodd i galonogi ei filwyr, a gorchfygodd Ariovistus, gan ei yru a'r gweddill o'i fyddin dros y Rhine yn ol.

Yn 57 c. c., aeth Cæsar yn erbyn y Belgiaid, y rhai yn ystod y gauaf oeddynt wedi parotoi eu hunain i wrthwynebu y Rhufeiniaid. Teimlodd Cæsar fod eisieu cryn barotoadau i'w gwrthwynebu, gan fod eu byddin yn debyg o fod yn dri chan mil neu chwaneg. Cododd yntau ddwy leng chwanegol, ac aeth yn ol ei arfer i fan nas gallai y gelyn ei gyrhaedd, nes i ddiffyg ymborth, a phethau ereill, ranu byddin y Belgiaid, a pheri iddynt ddychwelyd i ymladd yn erbyn yr Ædui, y rhai oedd yn anrheithio eu gwlad. Dilynodd Cæsar hwynt, a darostyngodd y gwahanol lwythau: fel hyn, torwyd i fyny fyddinoedd y Gauliaid, fel na fedrent o hyn allan ddyfod â byddin fawr i'r maes. Yr oedd Cæsar yn disgwyl heddwch bellach; ond cymmaint oedd eu hawydd am

Digitized by Google

ryddid, fel y darfu i'r Veneti (Vannes yn Llydaw) a llwythau arfordirol ereill, fwrw ymaith yr iau—daliasant swyddogion Rhufain, a gwrthodasant eu gollwng yn rhydd nes y dychwelid eu gwystlon hwy. Teimlodd Cæsar hyn yn fwy na dim, gan yr ofnai rhag i ereill ddilyn eu hesampl. Felly, gorfu arno ranu ei swyddogion, a'u danfon i wylied y gwahanol lwythau, tra yr oedd efe yn parotoi llongau, gan eu danfon dan lywyddiaeth Decimus Brutus yn erbyn y Veneti; ac aeth ei hun â byddin ar hyd y tir. Y mae darluniad Cæsar o'r Veneti, a'u llongau, yn darawiadol iawn. Bu brwydr galed ar y môr trwy y dydd, yn yr hon y collodd y Veneti tua dau gant o longau. Er mwyn dychrynu y cenedloedd cymmydogaethol, rhoddodd Cæsar yr holl seneddwyr i farwolaeth, a gwerthodd y bobl yn gaethion. Yn 55 c. c., daeth dau lwyth o Ellmyn dros y Rhine, i weled y Menapii. Penderfynodd Cæsar ddychrynu yr Ellmyn fel na byddai iddynt o hyn allan groesi y Rhine. Er pob ymdrech o eiddo yr Ellmyn i gael heddwch, ymosododd Cæsar arnynt. Gollyngodd ei wŷr meirch i ganol y gwragedd a'r plant, y rhai a'u lladdasant yn ddidrugaredd. Dyrysodd yr olygfa hon y milwyr Ellmynaidd i'r fath raddau fel y taflasant eu harfau, ac y ffoisant. Boddodd llawer o honynt yn nghyflif y Mosa a'r Rhine. Cafodd Cæsar drin-iaeth arw gan Cato am yr ymgyrch yma, o flaen y senedd yn Rhufain. Pan glywodd y gwŷr meirch oeddynt ar y pryd yn chwilio am ymborth i'r fyddin fod eu pobl wedi eu gorchfygu, croesasant y Rhine i wlad y Sicambri. Anfonodd Cæsar yno i geisio ganddynt roddi i fyny y dynion oeddynt wedi ymladd yn ei erbyn ef. Gwrthodasant, a thrwy fod yr Ubii yn ei wahodd, penderfynodd Cæsar groesi y Rhine, yr hyn ni wnaethai un llyngesydd Rhufeinig o'r blaen. Archodd ddwyn cad yn nghyd, ac yn mhen deng niwrnod yr oedd wedi adeiladu pont ddigon llydan a chref i gludo ei fyddin a phob peth arall drosodd. Ffodd y Sicambri o'i flaen, eithr casglodd y Suevi eu holl luoedd i ganol y wlad i ddysgwyl Cæsar, yr hwn a ddewisodd ddychwelyd yn hytrach nag ymladd, wedi aros yno tua thair wythnos. Y flwyddyn yma hefyd, daeth Cæsar drosodd i Brydain. Dywed Halley, y seryddwr, mai ar y 26ain o Awst y tiriodd yma. Nid oes wybodaeth sicr pa beth a barodd iddo ddyfod drosodd. Nodir tri neu bedwar o bethau fel prif achosion. Cafodd ei wahodd, medd y *Trioedd*, gan Afarwy, i'w ail sefydlu ef ar ei orsedd. Dywed Cæsar a'r *Trioedd*, fod y Prydeinwyr yn anfon byddinoedd lluosog i ymladd yn ei erbyn ef yn Gaul. Dywed ereill, fod y gair ar led fod llawer iawn o aur a pherlau yn Mhrydain, a gwyddom oddi wrth gymmeriad Cæsar fod arno awydd neilldduol am orchfygu gwlad nad oedd neb o'r blaen wedi ymweled â hi. Y mae braidd yn ammheus a yw Cæsar wedi ysgrifenu yr holl wir am amgylchiadau ei ddyfodiad i Brydain. Ymddengys i ni yn bur hynod ei fod mor anwybodus o sefyllfa ynys ag oedd â chymmaint o drafnidiaeth rhyngddi a'r Cyfandir. Barnwn naill ai fod dyfodiad Cæsar yma yn groes i ewyllys y Gauliaid, neu ynte fod Cæsar wedi mwyhau y rhwystrau a'r anhawsderau ar ei ffordd er cuddio y gwarth o fethu llwyddo i ddarostwng Brydain. Derbyniad pur anffafriol gafodd Cæsar yma, er fod Afarwy wedi ei wahodd. Ni bu dylanwad Afarwy, na dewrder y Rhufeiniaid, yn ddigon i ennill iddo fawr groesaw. Ymadawodd yn mhen tair wythnos. Y flwyddyn ganlynol gwnaeth barotoadau mawrion o longau a dynion; ond er iddo gael tirio yn hawdd, gwrthwynebwyd ef mor egniol gan Caswallon, fel na ennillodd ddim ond mwy o gydnabyddiaeth â dewrder y Prydeinwyr, a'r enw o fod wedi ymladd yn Mhrydain. Ymadawodd yn gynnar yn yr haf, gan nad oedd tebygolrwydd y buasai yn gorchfygu Caswallon cyn y gauaf. Ymdaenodd y newydd am fethiant Cæsar yn Mhrydain trwy holl dir Gaul, yr hyn a barodd i'r Gauliaid benderfynu ysgwyd ymaith iau y Rhufeiniaid. Bu yn galed iawn ar Cæsar a'i fyddin-oedd yn 53 c. c. Cododd yr holl Gauliaid yn ei erbyn, a blaenorid hwy gan ddynion oeddynt wedi dysgu ymladd yn ysgol y Rhufeiniaid. Hwyrach na ddangosodd Cæsar erioed gymmaint o wroldeb ysbryd, presennoldeb meddwl, a chyflymder ysgogiadau a'r flwyddyn hon. Ymladdodd yn erbyn holl allu Gaul, wedi ei chynhyrfu i'r eithaf, er nad oedd ganddo dros hanner can mil o ddynion, heb na bwyd nac arian. Ystyrir cymmeryd Alesia, pan oedd milwyr lawer o'i mewn, a'r byddinoedd unedig oddi allan yn ymosod ar fyddin Cæsar, y gwrhydri milwraidd mwyaf a wnaed mewn un oes. Bu llawenydd mawr yn Rhufain am ugain niwrnod ar ol y frwydr yma. Yr oedd cyfeillgarwch Cæsar a Pompey yn dechreu gwanhau tua'r amser yma, ar ol marwolaeth merch y naill a gwraig y llall. Yr oedd plaid y boneddigion yn gwneyd eu goreu i'w gwahanu. Rhoddent bob math o anrhydedd i Pompey: dewisasant ef yn brif faer (*consul*) heb gymhar, yr hyn ni wnaed â neb erioed o'r blaen. Penderfynasant hefyd wrthwynebu Cæsar, ac ymddengys fod eu casineb ato yn cynnyddu yn ol fel yr oedd ei arfau yn llwyddo. O'r diwedd, anghofiwyd ei holl wasanaeth, a dechreuwyd meddwl am y niwed a wnaeth pan yn brif faer, a threfnu mesurau i'w ddiswyddo, a'i alw i gyfrif, a'i alltudio, os nad ei roddi i farwolaeth. Sonid am i Cato ddwyn ei achos o flaen y senedd; a phe buasai hyn yn cymmeryd lle, nid oedd dim i Cæsar ddysgwyl ond cael ei gondemnio. Yn y flwyddyn c. c. 51, gwrthryfelodd amryw lwythau yn Gaul, a dygwyddodd ar y pryd amryw bethau a adawyd allan gan Cæsar, fe ddichon rhag cywilydd, ond cofnodir hwy yn ofalus gan Hirtius. Daeth amryw fyddinoedd Ellmynai id drosodd i bleidio y Gauliaid, a chafodd Cæsar a'i gadbeniaid ddigon o waith i ddarostwng y gwrthryfelwyr. Y flwyddyn hon y dechreuodd Mark Antony, perthynas a chyfaill i Cæsar, ddyfod i sylw.

Pan oedd Cæsar fel hyn yn ymladd â gelynion Rhufain, yr oedd ei elynion yntau yn Rhufain yn cynllunio yn ei erbyn. Gwnaed cynnygiad yn y senedd gan Marcellus fod i Cæsar gael ei ddiswyddo, a bod canlyniedydd i gael ei ddanfon i Gaul yn ddioed. Gwrthododd y senedd y cynnygiad ar y pryd, ond addawent wneyd sylw o hono ryw amser wedi hyn. Yr oedd Pompey wedi penderfynu gwrthwynebu Cæsar, ac yr oedd y ddau *gonsul*, Claudius Marcellus, ac Æmilius Paulus, yn elynion iddo. Yr oedd Cæsar yntau wedi ymosod ar y gorchwyl o geisio ennill ffafr y Gauliaid, ac wedi llwyddo tu hwnt i gyffredin. Yr oedd wedi dyfod yn barchus iawn yn eu plith. Pan ymwelodd â Cisalpine Gaul, derbyniwyd ef gyda llawenydd yn mhob man. Yr ochr arall, aeth Pompey a'r senedd â dwy leng oddi ar Cæsar, dan yr esgus fod eu hangen i ymladd yn erbyn y Parthiaid. Hefyd, llwyddasant i ennill Labienus, yr hwn yr oedd Cæsar bob amser yn ymddiried cymmaint iddo. Parodd hyn iddynt fod yn fwy hyf,

Digitized by Google

gan feddwl y buasai yn hawdd ennill holl filwyr Cæsar. Yr oedd Pompey yn gwrthwynebu dewisiad Cæsar yn brif faer, os na buasai yn rhoddi heibio lywyddiaeth y fyddin. Boddlonodd Cæsar, ond i Pompey wneyd yr un peth; ond ni chytunai cyfeillion Pompey â hyn, ac felly cauasant y llwybr trwy ba un y gallesid heddychu y ddau gadlywydd, fel nad oedd dim i'w wneyd ond penderfynu y ddadl trwy rym arfau. Ysgrifenodd Cæsar lythyr at y senedd mewn hunan-amddiffyniad, ac yn cynnwys yr un peth ag a nodwyd eisoes; eithr gwnaed deddf gan y senedd fod i Cæsar roddi ei fyddin i fyny ar amser penodedig, neu gael ei ystyried yn elyn y llywodraeth. Yr oedd Cæsar wedi parotoi ar gyfer hyn trwy gasglu ei filwyr mewn lleoedd cyfleus.

Wedi clywed penderfyniad y senedd, cynnullodd ei filwyr yn nghyd, croesodd yr afon Rubicon, yr hon oedd derfyn deheuol ei dalaeth ef, a chychwynodd tua Rhufain. Dywedir iddo aros ynoi ystyried a gofyn cynghor ei gyfeillion; ond o'r diwedd neidiodd i'r afon, a chanlynwyd ef gan ei filwyr. Cyn dydd dranoeth yr oedd wedi cymmeryd Ariminum. Pan glywodd Pompey hyn, parodd i'r senedd gyhoeddi rhyfel yn erbyn Cæsar, a gorchymynodd i bawb oedd yn caru rhyddid ei ddilyn ef. Ymadawodd efe a'r holl foneddigion oeddynt yn elynol i Cæsar, gan adael yr arian oedd yn y trysordy at ewyllys Cæsar. Ar yr un pryd antonodd Pompey genadau at Cæsar i ddyweyd fod yn ddrwg ganddo am yr hyn oedd wedi dygwydd. I'r hyn yr atebodd Cæsar mai anrhydedd y llywodraeth oedd y prif beth mewn golwg ganddo ef; fod y senedd yn ceisio ei droi o'i swydd pan oedd eto chwe mis o'i amser heb ddyfod i fyny, er ei fod wedi gwneyd pob peth galluadwy er cadw heddwch; ond fod y senedd wedi gwrthod gwrando ar ei gais ef, i beri i'r holl gadlywyddion roddi eu byddinoedd i fyny, a'u bod wedi myned â rhan o'i fyddin ef i ymladd yn ei erbyn, dan yr esgus o fyned â hwy yn erbyn y Parthiaid. Beth allasai hyn fod ond amcan i'w ddinystrio ef? Methodd Cæsar a chael Pompey a'r senedd i unrhyw delerau; gan hyny aeth yn mlaen tua Rhufain. Derbyniwyd ef gyda'r parodrwydd mwyaf yn mhob man, er fod milwyr Pompey yn daenedig dros yr holl wlad. Troai y milwyr yn erbyn eu harweinyddion, ac yn aml rhoddent eu blaenoriaid yn nwylaw Cæsar. Cymmerodd yntau fantais o'r cyfryw amgylchiadau i ddangos mai ei amcan oedd lles y Rhufeiniaid. Gadawai i bawb wneyd eu dewisiad, pa un ai aros yn ei wasanaeth ef neu ddychwelyd at Pompey. Llanwodd ei garedigrwydd yr holl wlad, ac ennillwyd Italy yn gyffredinol mewn byr amser i bleidio ei faner. Gorfu ar Pompey a'i blaid adael Italy a chroesi i Groeg, wedi gwneyd ymdrech aneffeithiol i gael yr arian o'r trysordy. Aeth Cæsar i Rufain, lle y derbyniwyd ef yn llawen gan y werin a llawer o'r canolradd. Traddododd araeth, yn yr hon y rhoddodd hanes yr holl amgylchiadau; a gwahoddodd y senedd i'w gynnorthwyo i ddwyn yn mlaen amgylchiadau y llywodraeth, gan eu hysbysu ar yr un pryd, os na wnaent yr ai efe a'r gwaith yn mlaen ei hun. Cymmerodd feddiant o'r trysordŷ trwy dori y drws, a phan oedd Metellus yn dyweyd fod hyny yn anghyfreithlawn, atebodd Cæsar nad oedd y gyfraith a'r cleddyf yn blaguro yn yr un man. Rhoddodd Cæsar orchymyn i adeiladu dwy lynges ar wahanol foroedd, gosododd Italy mewn cyflwr o ddiogelwch, ac aeth ei hun tuag Yspaen, lle yr oedd dau o swyddogion Pompey â byddin gref yn ei aros. Cafodd gryn orchwyl i'w gorchfygu; ac nid rhyfedd, wrth ystyried mai Rhufeiniaid oedd yn ymladd â Rhufeiniaid. Derbyniodd Cæsar ymostyngiad y swyddogion ar yr ammod iddynt ollwng ymaith eu milwyr. Dewisodd ddwy ran o dair o'r milwyr aros yn Yspaen, ac äed a'r rhan arall i Italy, lle y cawsant eu gollwng yn rhydd wedi croesi yr afon Varus. Fel hyn, mewn hanner cant o ddyddiau, darfu holl fyddin Pompey yn Yspaen. Parhaodd Massilia i bleidio Pompey, ond llwyddodd Trehanius i dori y mur, a pheri iddynt ymostwng. Yn y Gaditani cafodd Cæsar hyd i lynges oedd wedi ei hadeiladu gan Varro, at wasanaeth Pompey. Yn y cyfamser gwnaed Cæsar yn *dictator* Rhufain, gan Æmilius Lepidus, prif faer y ddinas, trwy ganiatâd y bobl. Wedi iddo ddychwelyd i Rufain dewiswyd ef a Servilius V. Isauricus yn *gonsuls*. Y peth cyntaf a wnaeth Cæsar oedd deddf i adferu i'r Mariaid yr iawnderau o ba rai yr oeddynt wedi eu hysbeilio gan Sulla. Rhoddodd hefyd ganiatâd i'r rhai oeddynt wedi eu halltudio gan Pompey i ddychwelyd. Trefnodd fesurau i benderfynu amgylchiadau arianol y trigolion, ac hefyd er cael digon o fwyd i'r ddinas, yn gystal a gweinyddu cyfiawnder yn y taleithiau. Yr oedd Pompey yntau yn ddiwyd yn casglu milwyr, arfau, ac ymborth, ac wedi trefnu i gynnal y llys yn Thessalonica. Ymadawodd Cæsar â Rhufain yn Rhagfyr c. c. 47, ac aeth tua Brundisium, lle yr oedd wedi gorchymyn i ddeuddeg lleng ymgasglu. Nid oedd ganddo ddigon o longau i drosglwyddo yr holl fyddin; ond aeth â saith lleng o wŷr traed, a chwe chant o wŷr meirch. Anfonodd ei longau yn ol i gyrchu y gweddill, dan olygiaeth Calenus. Pan oedd Calenus yn dychwelyd, cyfarfu cenad Cæsar âg ef yn hysbysu fod Bibulus wedi meddiannu glan y môr, fel nad oedd yn bosibl glanio. Trodd Calenus yn ol i Brundisium. Rhoddodd trigolion Oricon ac Apollonia y dinasoedd i law Cæsar. Gwnaeth Cæsar un cynnyg chwanegol i gael heddwch, ond atebwyd ei genadau nad gwiw iddynt siarad am heddwch oddi eithr iddynt ddyfod â phen Cæsar. Yr oedd sefyllfa Cæsar yn bur gyfyng y pryd yma—heb longau nac ymborth, yn ymyl byddin ag oedd wedi parotoi pob peth, ac yn cael ei llywyddu gan arweinydd cyfarwydd. Yn y gwanwyn, llwyddodd Mark Antony i groesi gyda gweddill y fyddin o Brundisium. Collodd dwy o'r llongau ffordd, daliwyd un o honynt, a rhoddwyd dau gant a hanner o filwyr ieuainc oeddynt ynddi i farwolaeth mewn gwaed oer, ar ol addaw eu bywyd iddynt. Beth bynag oedd egwyddor Cæsar, yr oedd ei ymddygiadau yn rhagori llawer ar Pompey a'i wyr. Ymddygwyd yn greulawn tuag at y taleithiau gan rai o swyddogion Pompey, trwy eu trethu tu hwnt i'w gallu, a pheri iddynt awyddu taflu eu hunain dan amddiffyniad Cæsar, ac yr oedd llawer o gyfeillion Pompey yn ofni y canlyniad pe buasai yn ennill y fuddugoliaeth. Yr ochr arall, yr oedd cyfeillion Cæsar yn gwneuthur eu goreu i ennill trigolion Italy, a threfnu pob peth yn y modd goreu er dedwyddu a diogelu cymdeithas. Methodd Cæsar a chael Pompey i ymladd brwydr, am hyny penderfynodd ei gau i mewn yn ei wersyll ei hun. Llwyddodd i rwystro y dwfr rhag rhedeg at wersyll Pompey. Effeithiodd hyn, yn nghyd âg arosiad gormodol yn yr un man, ar filwyr Pompey nes eu gwneyd yn afiach a digalon. Dygwyddodd yr amser yma i ddau o swyddogion Cæsar ffoi at Pompey gyda llu o'u canlynwyr Gaulaidd. Wedi

Digitized by Google

i Pompey gael deall nerth a gwendid Cæsar, penderfynodd ymosod ar ran o'r fyddin. Cafodd ddwy fuddugoliaeth yr un diwrnod, a chwedi gwawdio y carcharorion rhoddodd hwy i farwolaeth. Ar hyn penderfynodd Cæsar wneuthur ei oreu; gadawodd y clawdd oedd yn ei godi am wersyll Pompey, a chasglodd ei fyddin yn nghyd. Aeth ar hyd nos tuag Apollonia; penderfynodd fyned tua Macedonia; a dygwyddodd i Pompey wneyd yr un peth. Yr oedd Domitius, un o swyddogion Cæsar, yno yn barod â byddin: dygwyddodd i rai o fyddin Pompey ei hysbysu am symmudiadau y ddau gadlywydd, felly trodd ar y llaw aswy, ac unodd â Cæsar yn Aeginium. Yr oedd y newydd am orchfygiad Cæsar wedi ymdaenu, a pheri i lawer o fanau droi yn ei erbyn. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd Gamphi. Meddyliai y llywydd y gallasai ddal allan hyd nes y daethai Scipio neu Pompey i'w gynnorthwyo; ond ymosododd Cæsar ar y dref tua thri o'r gloch, a chymmerodd hi cyn machlud haul. Yr oedd plaid Pompey yn teimlo yn bur galonog, ac yn barnu nad oedd dim yn angenrheidiol ond cael brwydr er gorchfygu Cæsar. Yr oedd eu byddin yn rhagori yn mhell ar yr eiddo Cæsar. Yr oedd eu gwyr meirch yn saith mil, tra nad oedd eiddo Cæsar ond mil. Yr oedd eu gwyr traed yn 45,000, a'r eiddo Cæsar ond 22,000. Yr oedd eu swyddogion hefyd y dynion blaenaf yn Rhufain o ran medr a phrofiad. Cymmaint oedd eu sierwydd am fuddugoliaeth nes oeddynt yn barod i ymladd am y swydd flaenaf dan Pompey ar ol iddo ennill y dydd; a chymmerasant lw na ddychwelent i'r gwersyll nes ennill y fuddugoliaeth. Cyfarfu y ddwy fyddin ar wastadedd Pharsalia, Awst 9fed, c. c. 48—dydd i'w gofio byth yn hanes y byd fel yr adeg yr unwyd yr holl fyd adnabyddus dan un pen. Ymddiriedai Pompey fwy yn ei feirch na dim; eithr parotodd Cæsar ar gyfer hyn trwy osod gwyr ieuainc, oedd wedi dysgu cydymladd â meirch, i sefyll ar eu cyfer, i fod yn barod i ddyfod i mewn wedi iddynt ddechreu ymladd. Yr oedd meirch Pompey ar y cyntaf yn fuddugoliaethus, ond pan ddaeth y dynion ieuainc hyn yn mlaen ar draed gyda meirch Cæsar, odd meirch Pompey, ac aeth rhai Cæsar yn mlaen ar aden aswy byddin Pompey, nes eu gyru ar ffo. Dychwelodd Pompey i'r gwersyll, ond nid hir y bu yno nes oedd Cæsar yn curo ar y gwersyll, a ffodd Pompey ar ei farch tua glan y môr. Lladdwyd pymtheg mil o filwyr Pompey, a chymmerwyd pedair mil ar ugain yn garcharorion, cymmerwyd hefyd gant a phedwar ugain o fanerau, a naw eryr. Yr oedd gwersyll Pompey wedi eu hulio ar gyfer gwledd ar ol ennill y maes. Syrthiodd y cwbl i ddwylaw Cæsar, yr hwn a ymddygodd gyda thynerwch mor fawr tuag at ei holl wrthwynebwyr nes ennill parch cyffredinol. Gwnaeth canlynwyr Pompey un cynnyg i wrthsefyll Cæsar, ond cyn hir clywsant fod Pompey wedi marw yn yr Aipht [gwel POMPEY], a rhoisant i fyny. Aeth Cæsar tuag Alexandria, lle y cafodd waith caled iawn i ddyfod â phethau i drefn aeth y gair ar led ei fod wedi aros yno yn hwy hefyd, o blegid y serch oedd ganddo at Cleopatra, yr hon oedd y ddynes harddaf yn ei hoes [gwel CLEOPATRA]. Dywedir fod Cæsar a hithau yn euog o gyfeillachu mewn modd anghyfreithlawn. Wedi trefnu pethau yn yr Aipht, aeth Cæsar i Asia, yn erbyn Pharnaces, mab Miithridates. Yr oedd pethau yn dra annhrefnus yn Rhufain y pryd hyn; ond mynai Cæsar drefnu pethau yn y taleithiau cyn dychwelyd. Yr oedd y Pompeyaid yn cryfhau, a Cicero, druan, yn troi yn ol ac yn mlaen, heb wybod gyda pha blaid i aros [gwel CICERO]. Gorchfygodd Cæsar Pharnaces mor rwydd fel y dywedodd, "Dedwydd oeddit, O Pompey! gael dy alw yn fawr wrth orchfygu y fath ryfelwyr." Cyrhaeddodd Cæsar Italy yn gynt nag yr oeddid yn dysgwyl, ac ymosododd at drefnu mesurau er diogelu llwyddiant a heddwch yr ymherodraeth. Gwrthryfelodd y ddegfed lleng tua'r amser yma yn Campania; aethant tua Rhufain. Cyfarfu Cæsar â hwy, a dywedodd, "Ddinasyddion! yr ydych wedi ymladd yn dda: er na ddysgwyliais hyn oddi wrth y ddegfed lleng, yr wyf yn eich rhyddhau; gellwch fyned adref, a chewch eich talu wedi i mi orphen y rhyfel yn Affrica." Ar hyn, erfyniasant arno eu cospi yn lle eu hanfon adref, a chanlynasant ef yn wirfoddol i Affrica. Effeithiodd hyn yn fawr er digaloni y Pompeyaid, y rhai a ddysgwylient y buasai y fyddin oll yn codi yn erbyn Cæsar. Er hyny, gwnaethant barotoadau mawrion yn Affrica; ond daliwyd hwy gan Cæsar yn ddisymmwth. Ymadawodd â Rhufain tua chanol Rhagfyr, c. c. 47. Ar y ffordd clywodd fod gan Julia bedair, a Scipio ddeg, lleng o filwyr; fod eu meirch yn aneirif; fod ganddynt chwech ugain o elephantiaid, a llynges gref iawn. Aeth yn mlaen er hyny gydag ychydig o longau, yn cynnwys tair mil o wŷr traed, a chant a hanner o feirch, gan orchymyn i Allienus ddanfon y gweddill o'r chwe llynges ar ei ol mor fuan ag y medrai. Aeth ar gyfer Affrica ddechreu Ionawr. Cymmerodd feddiant o Ruspinum, lle y daeth chwaneg o'i filwyr ato. Daeth Lubienus a Petreius i'w erbyn, a gyrasant ei filwyr ar ffo, pan oeddynt yn casglu ymborth. Daeth Scipio hefyd yn mlaen âg wyth lleng, a dywedid fod Julia i ddyfod yn fuan. Digalonid milwyr Cæsar wrth y newyddion hyn; ond attebodd Cæsar "Gwybyddwch y bydd y brenin yma yn fuan â deg lleng, yn nghyd â deng mil ar ugain o feirch, a chan mil mewn arfau ysgeifn, a thri chant o elephantiaid; am hyny, peidied neb o hyn allan ymholi yn nghylch y pethau hyn, ond bydded iddynt fy nghredu i, yr hwn wyf yn gwybod yn sicr. Os gwrthodant hyn, gosodaf hwynt yn yr hen long waelaf o hyd cyrhaedd, a dantonaf hwy i'r môr i fyned wrth ewyllys y gwynt a'r tonau."

Yn y cyfamser, daeth byddin Mauritania i diriogaethau Juba, fel y gorfu arno ddychwelyd heb wneyd dim ond anfon deg ar ugain o elephantiaid i gynnorthwyo Scipio. Ar yr un pryd, yr oedd milwyr newyddion yn dyfod at Cæsar o Sicily. Cymmerodd Sallus hetyd Circina, lle yr oedd llawer iawn o ymborth. Heb law hyn, pan wybu y trigolion yn sicr fod Cæsar ei hun yn Affrica, daethant yn lluoedd i gynnyg eu gwasanaeth iddo. Agorodd y naill ddinas ar ol y llall ei phyrth iddo. Cyfarfu y ddwy fyddin ger llaw Thapsus, lle y gorchfygwyd y Pompeyaid mor llwyr, fel na fedrent godi llaw yn erbyn Cæsar. Yr oedd Cato, prif elyn Cæsar, yn llywydd Utica; pan welodd fod pob gobaith am fuddugoliaeth wedi darfod, lladdodd ei hun. Felly bu farw y mwyaf enwog a phenderfynol o elynion Cæsar [gwel CATO]. Wedi i'r newyddion am fuddugoliaeth Cæsar yn Affrica gyrhaedd y senedd, gwnaethpwyd ef yn *ddictator* am ddeng mlynedd, a darparwyd llawer o bethau er ei anrhydeddu. Dychwelodd i Rufain, ac areithiodd yn synwyrol a deniadol iawn o flaen y senedd, pryd yr addawodd wneyd pob peth a allai er cysur a lles y llywodraeth. Wedi hyn treinwyd ar gyfer ei anrhydeddu fel gorchfygwr. Dangos-

Digitized by Google

wyd cyfoeth a gorwychder pob gwlad yr oedd efe wedi ei gorchfygu, a rhoddwyd swm mawr o aur yn aberth i Jupiter ar y pryd. Rhanodd Cæsar roddion helaeth yn mhlith y dinasyddion yn gyffredinol. Bu arddangosiadau helaeth o bob math o ddifyrwch yn Rhufain am amryw ddyddiau—mae'n debyg na welwyd dim cyffelyb yn y byd, cyn na chwedi hyny. Treuliodd Cæsar ei amser wedi hyn i fadden i'w elynion, anrhydeddu ei gyfeillion, a threfnu mesurau er diogelwch a llwyddiant cymdeithas. Un gwasanaeth o bwys mawr ydoedd penderfynu hyd y flwyddyn; yr hon ydoedd cyn hyny yn cael ei dyrysu gan yr offeiriaid. Gelwir y flwyddyn a gynnwys 365 o ddyddiau, *y Julian*, er anrhydedd i Cæsar. Llawer o bethau ereill a wnaeth nas gellir o ddiffyg lle eu henwi. Casglodd Cneius a Sextus, dau fab Pompey, ac ereill o'u plaid, fyddin yn yr Yspaen; a chan eu bod braidd yn drech na'i swyddogion, aeth Cæsar tuag yno, lle y cyrhaeddodd mewn pedwar diwrnod ar ugain. Ymosododd ar Attegua, yr hon a agorwyd iddo. Trodd amryw ddinasoedd ereill at Cæsar, a gorfu ar y Pompeyaid anturio i'r maes rhag colli eu dylanwad yn hollol yn y parthau hyny. Cyfarfu y ddwy fyddin ger llaw Munda, lle y lladdwyd deng mil ar ugain o'r Pompeyaid, heb law llawer o benaethiaid. Efallai mai dyma y frwydr galetaf a gafodd Cæsar drwy ei oes. Gorfu arno warchae amryw ddinasoedd yn Yspaen ar ol hyn. Dychwelodd i Rufain, ac anrhydeddwyd ef yn mhob dull a modd gan y senedd. Cynlluniodd lawer o weithiau angenrheidiol, megys temlau, ffyrdd, camlasau, &c., yn nghyd â rhyfelgyrch yn erbyn y Parthiaid; ond ar y 15fed o Fawrth, c. c. 44, lladdwyd ef yn nghanol ei lwyddiant yn y senedd, gan gydfradwyr a flaenorid gan Brutus a Cassius. Buasai yn hawdd ysgrifenu yn faith ar gymmeriad Cæsar fel dyn, milwr, awdwr, a llywydd gwladol. Os yw y cwbl a ddywed ei gydoeswyr ac ysgrifenwyr dilynol yn wir, yr oedd yn ddyn mawr iawn, ond hynod dwyllodrus, anfoesol, ac annuwiol—yn euog o buteindra i raddau helaeth iawn. Yr oedd yn filwr gwrol, penderfynol, cyflym, a medrus iawn. Yr oedd yn ysgrifenwr galluog, syml, ac eglur iawn; ac fel llywydd gwladol, yr oedd yn gall fel sarff. Gwyddai pa fodd i ennill serch dynion; ond y mae yn ammheus a fuasai ei boblogrwydd yn dal. Meddyliem ei fod yn ymddiried gormod mewn arddangosiadau a rhoddion. Diau mai camsyniad mawr oedd i Brutus a Cassius ei ladd, o blegid yr oedd bywyd y weriniaeth wedi darfod, ac nid oedd dim gobaith i ymherodraeth Rhufain y pryd hwnw ond mewn un pen: heb law hyny, nid oedd ganddynt un dyben arall mewn golwg ond eu dyrchafiad eu hunain. Er gweled chwaneg am dano, gwel *Plutarch's Lives; Suetonius' Cæsars; Life of Cæsar, by Archdeacon Williams; Gweithiau Tacitus, Hirtius, Cicero,* a *Dion Cassius; Schlegel's Lectures on Literature; History of Rome* yn *Lardner's Cyclopædia;* a gweithiau Cæsar ei hun.

CAFELL—AU, [*caf*]: cell; cor neu ganghell eglwys. "Pan ddyrchafwyf fy nwylaw tuag at dy gafell sanctaidd;" *Salm* xxviii. 2. Wrth y gair דביר, y meddylir y sancteiddiolaf yn y tabernacl a'r deml. Y mae deilliad y gair yn destyn o ddadl. Gelwid y sancteiddiolaf wrth yr enw hwn, medd yr hen esbonwyr, am mai oddi yno yr atebai Duw y rhai a ymgynghorent âg ef. Darllena Aquila a Symmachus, χρηματιστηριον (oracl), a Ierome λαλητηριον (llafarfa). Y mae amryw o'r esbonwyr diweddar yn rhoddi yr ystyr "yr ystafell gefn," fel y gwelir yn Gesenius; ond ni fernir fod yr ystyr hwn yn gywir. Nid oes un rheswm geiryddol yn erbyn yr hen ystyr a roddwyd iddo. Meddwl cyntaf y gair ydyw, "yr hyn a ddywedir," ac yna, "y lle y dywedir y peth hwnw." Ac y mae yr enw hwn ar y sancteiddiolaf yn gydweddol â'r enw a roddir ar yr holl adeilad—"pabell y cyfarfod," sef y lle y cyfarfyddai Duw â'i bobl; a'r sancteiddiolaf oedd y gyfrinfa, y fan y llefarai wrthynt. Y sail gryfaf i'r eglurhâd hwn yw y geiriau yn *Num.* vii. 89; "Ac fel yr oedd Moses yn myned i babell y cyfarfod i lefaru wrth Dduw, yna efe a glywai lais yn llefaru wrtho oddi ar y drugareddfa." Heb law hyny, y mae yn cydsefyll â'r cyd-destyn: gweddia y Salmydd am i'r Arglwydd beidio dystewi wrtho, ac iddo wrandaw ar ei ymbil; ac yn yr amgylchiadau hyn, yr oedd yn rhesymol iddo ddyrchafu ei ddwylaw tua'r fan y llefarai Duw ynddo wrth ei bobl, a dysgwyl am atebiad oddi yno i'w waedd am gynnorthwy. Y mae y cyfieithiad Seisoneg "oracle," yn cario yr ystyr yn well na'r Cymraeg "cafell."

CANGHELL. Dyma y rhan uchaf neu y mwyaf dwyreiniol o'r eglwys lle y saif yr allor. Gelwid ef gynt ar wahanol enwau; megys, 1af. Βῆμα; gair yn tarddu oddi wrth ἀναβαινειν=*myned i fyny*, am fod y lle yn uwch na chorff yr eglwys, ac y rhaid esgyn iddi ar hyd grisiau. Ac am mai lle a briodolid yn neillduol i'r offeiriaid ydoedd, i'r dyben o weinyddu y gwasanaeth dwyfol: gelwid y rhai hyny weithiau yn οἱ του Βήματος, a τάξις του Βήματος=urdd y Bema. 2il. *Y cyssegr.* Galwai y Groegiaid ef yn Ἅγιον=*cyssegr*, ac o hyny daeth yr allor i gael ei galw yn Ἅγιον Ἁγίων=y cyssegr santeiddiolaf. Weithiau hefyd, Ἁγιασμα; yr hwn yw yr enw ar ba un y geilw y Deg a Thrigain y cyssegr yn yr Hen Destament. Y Lladinwyr a'i galwent *sacrarium*—gair yn arwyddo yr un peth, sef y cyssegr 3ydd. θυσιαστήριον=*lle yr allor;* enw arall a arferai y Groegiaid. Oblegid er mai yr allor ei hun a arwydda y gair yn gyffredin, eto mewn rhai hen ganonau a hanesion eglwysig, defnyddir ef i osod allan yr holl gyssegr tu fewn i'r rheilion. 4ydd. Geilw Cyprian ef yn *Consessus Cleri*=eisteddfa y clerigwyr. A Forbesius, ac ereill, yn 5ed. *Diaconicum*, neu diaconfa. 6ed. *Cŏr;* rhoddir yr enw hwn arno mewn rhai hen ganonau. 7fed. *Canghell.* Dyma yr enw cyffredin a roddir i'r lle yn awr, a thardda o *cancelli*, yr enw a roddai y Lladinwyr gynt ar y rheilion oedd wedi eu plethu drwy eu gilydd, er mwyn gwahanu y lle oddi wrth gorff yr eglwys. Gellir yn wir gael gwraidd Cymraeg i'r gair, sef *can* a *cell*, gyda golwg ar y tyllau lluosog a fyddai yn y cledrau cymhleth. 8fed. *Llogawd* hefyd sydd hen air Cymraeg am y lle dan sylw. Ymddengys i hwn gael ei fenthyca oddi wrth faen llog y beirdd; o blegid ystyrient hwy y gyfran hono o'r cylch a gymmerid i mewn gan ddwy linell ddychymygol, wedi eu tynu o'r maen llog, y naill at godiad haul y dydd hwyaf, a'r llall at godiad haul y dydd byraf, fel y fan sancteiddiolaf yn eu teml. Dyma'r gwyngil, ac nid anhawdd chwaith fyddai olrhain gwreiddyn *canghell* yn y cyfryw enw.

Arfera Taliesin y gair,—

"Mi a fum am logawd,
Yngwlad y Drindawd."

Eir i fyny o gorff yr eglwys at yr allor, yn

Digitized by Google

gyffredin ar hyd *tair* o risiau—yn arwyddo, fel y dywedir, y Drindod. Weithiau yn y brif eglwys byddai y pared tu cefn i'r allor wedi ei wneyd ar hanner cylch, lle yr eisteddai yr esgob a'r henuriaid, a'r hwn a elwid *apsis*. Yr oedd *apsis* yn hen eglwys Llanfairpwllgwyngyll, lle yr eisteddai yr offeiriad a'i deulu: ond ni wyddys am unrarall yn awr o fewn y dywysogaeth.

CANGHELLWR. Ystyr cyssefin y gair ydyw, un yn sefyll wrth reilion ffenestr, neu ddrws, i'r dyben o arwain gwestwyr i mewn. Yn yr ystyr yma nid oedd canghellwr yn ddim mwy na cheidwad y drws, neu borthor. Gwnaeth yr ymherawdwr Carinus un o'i ganghellwyr yn rhaglaw ar y ddinas, yr hyn a barodd anfoddlonrwydd mawr [*Vopiscus, Carinus*]. Mewn ystyr arall, yr oedd canghellwr yn fath o ysgrifenydd cyfreithiol; a gelwid ef felly gyda golwg ar ei sefyllfa wrth gledrau y llysoedd barn. Yr oedd y canghellwr, dan yr ymherawdwyr mwyaf diweddar, yn brif ysgrifenydd; a chynnysgaethwyd ef o'r diwedd â galluoedd barnedigol, ac arolygiad cyffredinol ar swyddogion ereill yr ymherawdwr. Gelwid ef yn ganghellwr, am yr eisteddai *intra cancellos*=tu mewn i'r cledrau a wahanent un rhan o ystafell oddi wrth y llall, er mwyn cyfleusdra a neilluolrwydd.

Yn Lloegr, ar y cyntaf, prif ysgrifenydd y brenin oedd y canghellwr, ac ato ef y cyfeirid deisebau: efe hefyd a gymmeradwyai ac a gyflawnai y breintebau a'r anrhegion a ddeuent oddi wrth y goron, a chanddo ef y gwneid adroddiadau ar y cyfryw bethau i'r brenin, lle y byddai achos. Fel ysgrifenydd, efe oedd cynghorwr ei feistr: parotoai ei eirchion, ei anrhegion, a'i freinlenau; a phan ddaeth seliau i arferiad, gosodai ei sel wrthynt. O herwydd pa ham, neu efallai am mai gwr eglwysig fyddai yn gyffredin mewn amseroedd boreuol, daeth i fod yn geidwad cydwybod y brenin, yn chwiliwr ei freintebau, yn barotöwr ei ysgrifenlenau breiniol, ac yn geidwad y sel fawr. Yr eglwyswr olaf a gyflawnodd y swydd ydoedd John Williams, archesgob Caerefrog, yr hwn a fu yn arglwydd warcheidwad o Gorph. 10, 1621, hyd Tach. 1, 1625.

Mynych y ceisid gan y brenin, fel ffynnonell cyfiawnder, ymyraeth yn erbyn penderfyniadau brawdlysoedd, lle y byddai y rhai hyn yn annheg; ac hefyd mewn materion na fyddent yn dyfod dan ystyriaeth y llysoedd cyffredin. Cafodd yr awdurdod a fedd y canghellwr ei ddechreuad yn y rhan yma o allu diammodol a ddalhwyd gan y brenin ar sefydliad llysoedd barn. Er nad yw yr arferiad o'r gallu yma, y dydd heddyw, yn myned fawr neu ddim pellach oddi wrth reol ac anghraifft nag yw penderfyniadau y llysoedd cyffredin, eto y mae dadleuon ar brydiau wedi codi o barth helaethrwydd awdurdod y canghellwr.

Teitl y swyddog hwn yn Lloegr yw, Arglwydd Uchel Ganghellwr Prydain Fawr. Y mae ei radd uwchlaw yr holl dduciaid na fyddont o waed brenhinol, ac yn nesaf at archesgob Caergaint. Penodir ef trwy draddodi i'w gadwraeth y sel fawr, er bod esamplau i'w cael o benodiad rhai i'r swydd trwy freinteb. Y mae gwaith y brenin yn derbyn y sel fawr yn ol yn rhoddi terfyn ar ei swydd. O ran ei swydd, y mae efe yn brif gynghorwr i'r brenin mewn materion cyfraith, ac yn gyfrin-gynghorwr; yn rhaglefarwr Tŷ yr Arglwyddi, yn brif farnwr yn llys cydwybod, ac yn ben ar wyr y gyfraith; y mae, yn hawl y brenin, yn ymwelydd â'r holl ysbyttai a'r colegau fyddont o sylfaeniad breninol; ac yn noddwr holl fywoliaethau y goron dan 20*p*. y flwyddyn, yn ol y prisiad a wnaed yn nheyrnasiad Harri VIII., ac a gonffirmiwyd yn nheyrnasiad Elizabeth. Efe sydd yn penodi ac yn symmud holl ustusiaid yr heddwch, er y gwneir hyn yn gyffredin ar gymmeradwyaeth arglwydd raglawiaid y siroedd. Efe sydd yn anfon allan ysgriflenau er galw y senedd yn nghyd, ac yn cyflawnu pob gorchwyl perthynol i gadwraeth a defnyddiad y sel fawr. Iddo ef yr ymddiriedwyd y gofal am blant wedi diddymu llys gwardau a thirfeddiannau; ac y mae ganddo lywodraeth ar wallgofwyr, yr hon a drosglwyddwyd iddo yn neilluoi oddi wrth y goron. Y mae efe hefyd yn arwedd llywodraeth arbenig fel prif farnwr o barth elusenau, cymdeithasau cyfeiliggar, gwarcheidwaeth plant gwallgofus, mewn rhai appeliadau oddi wrth lys arolygiad, mewn materion o fethdaliad, a llawer o bethau ereill. Y mae efe yn geidwad yr heddwch, a gall roddi gorchymynion a gorfodaeth o barth cadw yr heddwch: ac y mae ganddo yr un awdurdod a'r barnwyr ereill mewn perthynas i ysgriflenau *habeas corpus*.

Y mae awdurdod yr arglwydd ganghellwr a'r arglwydd warcheidwad wedi cael eu gwneyd yr un trwy ystat. 5 Eliz. c. 18, er nad yw yn arferol yn awr o benodi arglwydd warcheidwad. Yr arglwydd warcheidwad olaf ydoedd arglwydd Henley, yn 1757. Nid yn unig y mae y canghellwr yn swyddog barnol y goron, ond y mae ganddo orchwylion gwladyddol o bwys. Y mae ganddo sedd yn y gynghorfa, ac y mae yn arferol o gymmeryd rhan mewn gweithrediadau seneddol. Y mae yn myned allan o'i swydd ar yr un amser a'r blaid y perthyn iddi.

Yr oedd canghellwr yn swyddog cyfreithiol dan y tywysogion Cymreig, fel y gwelir yn nghyfreithiau Hywel Dda.

CANGHELLWR EGLWYS neu ESGOB: sydd ficer cyffredinol i'r esgob, yn cynnal ei lysoedd, ac yn ei gyfarwyddo a'i gynnorthwyo mewn materion perthynol i'r gyfraith eglwysig. Y mae ganddo rydd-feddiant yn ei swydd, ac nid yw o angenrheidrwydd yn ŵr eglwysig; eithr os gwr lleyg yw, neu wr priod, rhaid iddo fod yn ddoethawr y gyfraith wladol.—(*Black's Com.*; 37 Harri VIII., c. 17.)

CANGHELLWR EGLWYS GADEIRIOL. sydd swyddog yn arolygu trefn y gwasanaeth crefyddol.

CANGHELLWR Y BRIFYSGOL. Etholir ef gan y gorfforaeth ar ba un y mae efe yn ben. Y mae ganddo lywodraeth hollol o barth pob cwyn a dadl wladol, lle byddo aelod o'r brifysgol neu rhyw ddyn breiniol yn un o'r pleidiau, oddigerth pan fyddo hawl i rydd-feddiant mewn ymrafael. Yn y ddwy brifysgol cyflawnir dyledswyddau y canghellwr bron i gyd gan isganghellwr.

CAIAPHAS: yr hwn hefyd a elwid Ioseph, ydoedd un o archoffeiriaid yr Iuddewon, a'r seithfed a thrigain yn y rhestr a roddir o'r swyddogion hyny. Efe oedd olynydd Simon, mab Camith; ac yn ol yr hanesion, ymddengys iddo gael y swydd pan yr oedd yr Arglwydd Iesu tua 27 oed, a pharhäai i'w gweinyddu am naw mlynedd; ac felly efe oedd yn dal yr awdurdod archoffeiriadol pan groeshoeliwyd ef. Yr oedd wedi priodi merch

Digitized by Google

i Annas, yr hwn hefyd oedd wedi bod yn archoffeiriad ychydig o amser yn flaenorol; ac o herwydd hyny yn parhau i gael y teitl yn gyssylltiedig â Chaiaphas (*Luc* iii. 2), am y byddai efe, y mae yn debygol, yn gweinyddu fel dirprwywr (*sagan*) i'w fab yn nghyfraith yn ei absennoldeb [gwel ANNAS]. Pan oedd penaethiaid yr Iuddewon, yr henuriaid a'r ysgrifenyddion, wedi amcanu dyfetha yr Iesu, a thra yn cynllunio y dull o ddwyn eu hamcan oddi amgylch, hwy a ymgasglasant yn nghyd i'r perwyl hwnw i balas yr archoffeiriad; a thra yr oedd rhyw betrusder yn eu plith yn nghylch cyfreithlondeb y weithred, safodd Caiaphas i fyny, gan ddywedyd, "Nid ydych chwi yn gwybod dim oll, nac yn ystyried mai buddiol yw i ni farw o un dyn dros y bobl, ac na ddyfether yr holl genedl." Gallesid gwneyd y cyfryw gasgliad oddi ar resymau naturiol; sef, os goddefid i'r Iesu fyned yn mlaen yn y dull ag yr oedd, y byddai iddo cyn hir, trwy ei aml weithredoedd gwyrthiol, ennill y cyffredinolrwydd o'r bobl i gredu ynddo fel y Messiah addawedig, ac felly ei ystyried a'i gydnabod fel Brenin Israel; a phan glywai y Rhufeiniaid hyny, nas gellid dysgwyl yn amgen na byddai iddynt anfon eu byddinoedd diarbed i Iudea gyda'r fath ddigllonrwydd ag a fyddai yn berygl o ddinystrio y genedl, eu prif ddinas, a'u teml. Ond y mae yr efengylwr wedi eglurhau ddarfod i Caiaphas lefaru y geiriau hyny yn amgen i'w syniadau dynol ei hun, eithr o dan oruchawdurdod a chyfarwyddyd dwyfol ysbryd prophwydoliaeth; ac felly bod gwir arwyddocâd ei ymadrodd yn llwyr wahanol i'r hyn oedd efe yn ei feddwl, sef yn gosod allan y byddai i farwolaeth yr Iesu fod yn iachawdwriaeth ysbrydol i ddynolryw, Iuddewon a Chenedloedd. Yn gymmaint a bod Caiaphas ar y pryd yn sefyll mewn swyddogaeth o ddwyfol osodiad, fe welodd yr Iehofah yn dda anrhydeddu ei sefydliad ei hun drwy ddodi tystiolaeth gyssegredig yn ngenau archoffeiriad, er nad oedd ond un annuwiol: *Ioan* xi. 47—52. Pan ddaliwyd yr Iesu yn ngardd Gethsemane, trwy fredych Iudas, cymmerwyd ef yn rhwym o flaen Annas yn gyntaf: eithr gan fod Caiaphas, yr archoffeiriad awdurdodedig, yn y ddinas ar y pryd, barnwyd yn addasach gyfleu y mater o'i flaen ef; ac erbyn myned yno, yr oedd yr henuriaid a'r ysgrifenyddion wedi ymgasglu yn nghyd i'r lle, yn barod i ymdrin â'r achos, ac i roddi barn ar y carcharor. Ond ar ol holi y gau dystion a ddaethent i'w erbyn, ystyriwyd eu tystiolaeth yn annigonol i'w gondemnio i farwolaeth; a chan fod yr Iesu yn parhau yn ddystaw o hyd, Caiaphas a ddywedodd wrtho, "Yr ydwyf yn dy dynghedu di trwy y Duw byw, ddywedyd o honot i ni, ai tydi yw y Crist, Mab Duw." Yr Iesu a atebodd yn gadarnhaol, gan chwanegu, "Ar ol hyn y gwelwch Fab y Dyn yn eistedd ar ddeheulaw y gallu, ac yn dyfod ar gymylau y nef." Caiaphas, wedi clywed y geiriau hyn, a rwygodd ei ddillad, gan ddywedyd, "Efe a gablodd: pa raid i ni mwy wrth dystion? wele, yr awr hon y clywsoch ei gabledd ef: beth dybygwch chwi? Hwythau gan ateb a ddywedasant, Y mae efe yn euog o farwolaeth;" *Mat.* xxvi. 59—66. Gan fod yr Iuddewon y pryd hwnw wedi eu difeddiannu gan y Rhufeiniaid o awdurdod bywyd a marwolaeth (*Ioan* xviii. 33), am hyny nid allai Caiaphas a'i gydswyddogion ddim yn chwaneg na thraddodi yr Iesu at Pilat, y rhaglaw, fel y byddai iddo ef gadarnhau eu dedfryd hwy, a rhoddi y gorchymyn am gyflawnu yr unrhyw. Y mae yn ymddangos mai yr archoffeiriad hwn hefyd oedd yr un a amlygai gymmaint o egni i geisio attal yr apostolion i bregethu Crist (*Act.* v. 17, &c.), lle y rhoddir ar ddeall mai Saduceaid oedd efe o ran ei farn gryddol. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol croeshoeliad ein Iachawdwr, cafodd Caiaphas ei ddiswyddo, drwy orchymyn Vitellius, rhaglaw Rhufeinig Syria; a Ionathan, un o feibion Annas, a wnaed yn archoffeiriad yn ei le.

CAIB: offeryn hysbys, arferedig i godi ceryg, i ddiwreiddio coed, neu i lafurio y tir: megys y dywedir yn *Esa.* vii. 25, "Yr holl fynyddoedd y rhai a geibir â cheibiau," &c., sef y rhanau hyny o fynydd diroedd y wlad, y rhai a drinid felly tuag at ddwyn yd, neu i blanu gwinwydd ynddynt: ond pan oresgynid y wlad gan yr Assyriaid, tröid y cyfryw leoedd yn borfeydd anifeiliaid. Yn 2 *Cron.* xxxiv. 6, dywedir am y brenin duwiol Iosiah, pan yr oedd efe yn glanhau ei deyrnas oddi wrth yr uchelfeydd, a'r llwyni, a'r delwau, fod ei ddynion yn dryllio y pethau hyny "â'u ceibiau oddi amgylch." Ond yn ol y nodiad ar ymyl y ddalen, darllenir, "â'u gyrdd, neu morthwylion." Pan oedd pobl Israel yn cael eu gorthrymu gan y Philistiaid, yn amser y brenin Saul, dywedir "na chaid gof trwy holl wlad Israel;" ac am hyny bod y bobl yn gorfod myned at y Philistiaid "i flaenllymu bob un ei swch, a'i gwlltwr, a'i fwyell, a'i gaib;" eithr ar yr un pryd bod ganddynt lif ddur (Seis. *file*) i wneuthur min ar y ceibiau, &c.: 1 *Sam.* xiii. 19—21

CAIN, [קין, *caffawd*, neu *meddiant*]: y cyntafanedig o ddynolryw, a mab hynaf Adda ac Efa, yr hwn, fel y tybir, a anwyd yn y flwyddyn gyntaf o oed y byd. Ar ei enedigaeth, ei fam, Efa, a ddywedodd, "Cefais ŵr gan yr Arglwydd;" neu yn eglurach yn ol y Seisoneg, "cefais *ddyn* gan yr Arglwydd," canys trwy fod y Cymraeg yn caniatäu i'r gair *gwr* arwyddocäu *priod* (*husband*), yn gystal a *dyn* (*man*), felly nid yw ein cyfieithiad ni yn penderfynu pa un ai at ei phriod ai at ei phlentyn yr oedd ymadrodd Efa yn cyfeirio. Ond y mae mwy o hynodrwydd na hynyna yn y darlleniad gwreiddiol Hebraeg o'r ymadrodd קניתי את יהוה (*canithi eth Iehofah*)=cefais ddyn, y Iehofah. Oddi wrth hyn, cesglir yn gyffredin fod Efa yn tybio mai ei phlentyn hwn oedd yr hâd addawedig i ysigo pen y sarff: *Gen.* iii. 15. Ond cafodd weled wedi hyny ei bod wedi camsynio yn ddirfawr; a diau mai llawer cywirach oedd barn yr apostol am Cain, sef mai "o'r drwg yr oedd;" 1 *Ioan* iii. 12. Yn nesaf dywedir, "A hi a esgorodd eilwaith ar ei frawd ef, Abel;" neu yn fwy llythyrenol yn ol yr Hebraeg, ותסף ללדת (*ffattoseph laledeth*)=hi a *chwanegodd i esgor* ar ei frawd ef. Oddi wrth yr hyn y mae amryw wedi casglu fod Cain ac Abel yn *efeilliaid;* canys yn gyffredinol yn yr Ysgrythyrau, pan sonir am enedigaethau olynol plant o'r un rhieni, crybwyllir am *ymddwyn* ac *esgor* ar bob un yn wahanredol; ond yma ni ddywedir ddarfod i Efa ymddwyn ar Abel ar ol genedigaeth Cain, ond yn unig *chwanegu* i esgor ar ei frawd ef, Abel.

Yr hanes cyntaf am y ddau frawd hyn sydd o berthynas i'r galwedigaethau a ddewisasant. Y naill, sef Abel, a aeth yn fugail defaid, a'r llall, sef Cain, yn llafurwr y ddaiar, neu amaethydd. Ac yn y nesaf, hysbysir am ansawdd eu cretydd, sef bod y ddau yn addoli y Iehofah drwy offrymu. Oddi wrth yr hyn y mae yn rhesymol casglu fod yr Arglwydd wedi rhoddi rhyw gyfarwyddiadau

Digitized by Google

i'r teulu cyntaf hwn mewn perthynas i'r dull, y modd, a'r amser yr oeddynt i'w addoli ef; sef drwy gyflwyno offrymau iddo [gwel ABEL]. Ac am yr amser, dywedir mai "wedi talm o ddyddiau," neu yn ol yr Hebraeg, מקץ ימים (*miccets yamim*)=ar ddiwedd neu derfyn dyddiau; sef, yn ol barn rhai, ar y dydd olaf o'r flwyddyn: ond yn fwyaf cyffredin golygir mai y dydd olaf, neu y seithfed o'r wythnos, sef y Sabbath, sydd i'w ddeall. Offrwm Cain ydoedd o "ffrwyth y ddaiar," a'r eiddo Abel o "flaenffrwyth ei ddefaid (neu ddeadell), ac o'u brasder hwynt." A'r hanes a fynega ddarfod i'r Arglwydd gymmeradwyo offrwm Abel, ond anghymmeradwyo yr eiddo Cain: a diau fod cymmeradwyaeth y naill, ac anghymmeradwyaeth y llall, yn cael eu hamlygu drwy ryw arwydd gweledig ac eglur; onidè ni buasai Cain yn sylwi cymmaint ar y peth: a chytunir yn gyffredin mai yr arwydd oedd bod offrwm Abel yn cael ei ysu gan dân o'r nef, o'r hwn arwydd y ceir amryw anghreifftiau diweddarach yn yr Ysgrythyrau: *Lef.* ix. 24; *Barn.* vi. 21; 1 *Bren.* xviii. 38; 2 *Cron.* vii. 1. Mae duwinyddion yn gyffredin yn sylwi mai yr hyn oedd yn gwneyd offrwm Cain yn llai cymmeradwy na'r eiddo Abel oedd am nad ydoedd ond math o offrwm diolch; yr hyn a alwai yr Iuddewon, *minchah*—yn gynnwysedig o beillied yd, teisenau croew, olew, &c. —ffrwythau y ddaiar. Felly nid oedd y cyfryw offrwm ond math o gydnabyddiaeth o eiddo Cain am ddaioni yr Arglwydd yn ffrwythloni ei dir, &c.; ond heb gydnabod ei hun yn bechadur euog, ac fel y cyfryw mewn angen am faddeuant o'i gamweddau, yr hyn nad oedd i'w gael ond yn unig drwy angeu y Messiah addawedig, ac a gysgodid trwy aberth gwaedlyd o anifeiliaid byw, y fath ag oedd offrwm Abel; ac am hyny, yn ol yr apostol, yr oedd "yn rhagorach na'r eiddo Cain," heb law bod y blaenaf yn offrymu "trwy ffydd, trwy yr hon y cafodd efe dystiolaeth ei fod yn gyflawn;" *Heb.* xi. 4. Cain, wrth weled llwyddiant ei frawd, a ddigllonodd yn ddirfawr, fel y "syrthiodd ei wynebpryd ef:" hyny yw, aeth ei wedd yn sarug, a'i dymmer yn afrywiog. Ar hyn y sylwodd yr Arglwydd, ac a alwodd ar Cain i'w argyhoeddi o afresymoldeb ei ymddygiad, gan ei holi yn nghylch yr achos, a dywedyd wrtho, "Os da y gwnai, oni chai oruchafiaeth?" neu gymmeradwyaeth. Fel pe dywedasid, Pe bait ti yn ymddwyn yn rasol yn ol esampl dy frawd, ti a gymmeradwyid fel yntau; a phe cydnabyddit dy bechadurusrwydd, gan edifarhau o'i herwydd, a chanfod yr angenrheidrwydd am iawn drosto, byddai hawdd i ti gael anifail addas i'w offrymu yn bechaberth, y fath ag sydd yn awr yn gorwedd wrth ddrws dy gorlan. *Pechaberth* sydd i'w ddeall wrth y gair חטאת yn y lle hwn, fel mewn lluaws o fanau ereill yn yr Ysgrythyrau. Rhai, yn wir, a ddeallant yr ymadrodd megys yn arwyddo fod tuedd bechadurus Cain fel yn gwylio arno yn barhaus, yn barod i'w demtio i gyflawnu anwireddau mwyfwy erchyll, megys y bu yn y canlyniad; canys er i Dduw ei argyhoeddi o'r afresymoldeb o genfigenu wrth lwyddiant Abel, gan nad oedd y llwyddiant hwnw yn lleihau dim ar ei ymostyngiad iddo ef fel brawd hynaf, eto ymgyndynu a wnai Cain, gan chwilio am gyfleusdra i ymddial arno; ac ar ryw adeg efe "a ddywedodd wrth Abel"—yma y mae hynodrwydd; ond nid yw ein cyfleithiadau awdurdoded ig ni yn hysbysu yr hyn a ddywedodd Cain wrth ei frawd; eithr yn nghyfleithiad Groegaidd y Deg a Thrigain darllenir, Διελθωμεν εις το πεδιον="Awn allan i'r maes." Ac yn y rhan fwyaf o'r hen gyfleithiadau dwyreiniol ceir geiriau i'r un perwyl, y rhai sydd yn gysson â'r hyn a ganlyn; "Ac fel yr oeddynt hwy yn y maes, Cain a gododd yn erbyn Abel ei frawd, ac a'i lladdodd ef." Yn ol dychymyg darlunwyr, rhoir ar ddeall mai ei darawo ef â chwlbren a ddarfu; eithr yn ol y *Taryum*, mynegir mai trwy ei darawo â chareg yn ei dalcen y lladdodd efe ei frawd; ac i'r un perwyl y dywed Milton, "Smote him into the midriff with a stone." Yn fuan ar ol i Cain gyflawnu y weithred greulawn hon, yr Arglwydd a'i galwodd ef i gyfrif am hyny, gan ofyn iddo yn gyntaf pa le yr oedd ei frawd Abel. Yntau, gan geisio osgoi y cwestiwn, a atebai yn sarug i'r perwyl nad oedd cadwracth ei frawd yn gorphwys arno ef. Yr Iehofah, yn lle pratiaw iddo, a wasgodd y mater hyd adref at ei gydwybod, gan ddywedyd wrtho, "Beth a wnaethost? llef gwaed dy frawd sydd yn gwaeddi arnaf fi o'r ddaiar." Wrth hyn deallir yn gyffredin ei fod ef wedi cuddio corff ei frawd yn y ddaiar; neu, yn ol tyb rhai, arwyddir fod gweddw a phlant amddifaid Abel yn llefain am ddialedd ar ei lofrudd. Ac yn ddiattreg yr Arglwydd a gyhoeddodd ddedfryd Cain: "Melldigedig wyt ti o'r ddaiar .....pan lafuriech hi, ni chwanega roddi ei ffrwyth i ti; gwibiad a chrwydriad fyddi ar y ddaiar." Neu yn ol y Deg a Thrigain, στενων και τρεμων εση="ti a fyddi yn griddfan ac yn crynu ar y ddaiar." I hyn Cain a atebodd, "Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu." Michaelis a ddyry yr ymadrodd mewn dull holiadol, "Ai mwy yw fy anwiredd?" &c. Ond yn ol y cyfleithiad ar ymyl y ddalen darllenir, "Mwy yw fy nghospedigaeth nag y gallaf ei oddef." Dyma y darlleniad awdurdodedig yn y Seisoneg. A chan y gellir meddwl fod Cain yn fwy pryderus yn nghylch ei gospedigaeth nag yn nghylch ei bechod, felly ymddengys mai y darlleniad olaf a ddewisir gan y rhan fwyaf; a dyna yw yr eiddo Boothroyd.

Cain, yn hytrach nag amlygu un gradd o edifeirwch am ei gamwedd, a rwgnachai o herwydd toster ei ddedfryd, ei grwydredigaeth o'i wlad enedigol, ac oddi wrth ei rieni, ac yn enwedig ei berygl am ei fywyd trwy ddialwyr gwaed Abel. I hyn drachefn atebai yr Arglwydd, na byddai raid iddo ofni hyny, am y gofalai efe am ddiogelu ei fywyd trwy gyhoeddi cosp seithblyg ar y saw l a'i lladdai; ac er chwaneg o amddiffyniad i'w hoedl, dywedir, "A'r Arglwydd a osododd nôd ar Cain rhag i neb a'i caffai ei ladd ef." Y mae yn anhawdd penderfynu pa olygiad sydd gywiraf i'w gymmeryd o'r "nôd" hwnw. Mae dynion wedi rhoddi rhaff i'w dychymygion yn nghylch y peth: rhai yn barnu ddarfod i Cain gael ei hynodi âg anhwylideb crynedig tebyg i'r parlys (*palsy*), gan gymmeryd achlysur i'r cyfryw dyb oddi wrth y cyfleithiad Groegaidd, Στενων και τρεμων εση= "griddfan a chrynu y byddi." Rhai o'r *Taryumau* a'r *Talmudau* Hebreig a awgrymant mai יוד o'r llythyrenau yn yr enw Iehofah, neu y llythyren ת (*tau*) a argraffwyd ar ei dalcen. A'r Rabbi Ioseph a haerai mai corn hir a dyfodd ar ei ben. Ac Abivanel a hônai fod Cain i'w aduabod drwy fod ei Abel yn ei ganlyn yn wastadol. Ond y dysgedig Dr. Shuckford, gan wawdio y fath dychymygion, a sylwa mai ystyr addasaf y gair Hebreig אות (*oth*), a gyfleithir "nôd," yw *arwydd* neu *argoel*; ac felly mai rhyw dystiolaeth arwyddiadol a roddodd yr Arglwydd i Cain yn bersonol, er sicrhâd iddo am ddiogelwch ei fywyd, gan y

Digitized by Google

buasai pob nodau allanol, o'r fath a grybwyllwyd, yn debycach o'i wneyd yn fwy amlwg i bawb, ac felly yn fwy agored i'r perygl a ofnai. Mae un awdwr Arabaidd wedi dadgan fod bywyd Cain wedi ei wneyd mor ddiogel fel nas gallai cleddyf ei drywanu, na thân ei losgi, na dwfr ei foddi, nac awyr ei adwytho, na mellt a tharanau ei niweidio. Oddi wrth y fath amrywiaeth o dybiau y mae yn amlwg nad yw yn bosibl penderfynu y mater.

Cymmaint ag a geir yn chwaneg o hanes Cain yw, ddarfod iddo ymneillduo oddi wrth y lleill o ddynolryw, a chilio i ryw wlad anghyfannedd o'r enw Nod—gair yn arwyddo *crwydredigaeth*, gyda chyfeiriad at gyflwr ei meddiannydd; ac yno dywedir iddo epilio yn helaeth, ac adeiladu dinas a elwid Enoch. Ei hiliogaeth a fuont enwog am eu medrusrwydd mewn celfyddydau, gan weled, y mae yn debygol, na thyciai iddynt lafurio y ddaiar, o herwydd y felldith a gyhoeddasid ar eu tad.—(*Bible Cyclop.; Calmet's Dict.; Prof. Eadie; Kitto's Cyc. of Bib. Lit.; Brown; Clarke; Boothoyd; Cobbin.*)

CAINAN, [*meddiannydd*]: a elwir CENAN yn yr Hen Destament Cymreig, ond Cainan yn y Newydd. Mae yr Ysgrythyrau yn crybwyll am ddau ddyn o'r enw hwn; un yn fab i Enos, a thad Mahalaleel (*Gen.* v. 9—12; 1 *Cron.* i. 1, 2); a'r llall yn fab i Arphaxad, a thad Sala (*Luc* iii. 36, 37). Y mae yn beth a ystyrir yn nodedig na chrybwyllir am yr olaf yn yr Ysgrythyrau Hebreig presennol; ac eto ei fod i'w gael yn nghyfieithiad Groegaidd y Deg a Thrigain yn *Gen.* x. 24; a xi. 12, a hefyd yn y lle uchod gan Luc. Tybia rhai ddarfod i'r Iuddewon yn fwriadol adael allan enw yr ail Cainan, er mwyn peri i'r Deg a Thrigain a Luc ymddangos yn ysgrifeniadau ammheus. Ereill a farnant ddarfod i Moses adael Cainan allan er mwyn dodi deg cenedlaeth yn unig rhwng Adda a Noah, fel rhwng Noah ac Abraham. Ereill drachefn a olygant fod Arphaxad yn dad i Cainan a Sala hefyd—i Sala yn naturiol, ac i Cainan yn gyfreithlawn. A thyb arall yw mai yr un dyn oedd Cainan a Sala, dan ddau enw. Er hyn oll y mae amryw yn tueddu i gredu nad oedd yr ail Cainan yn cael ei grybwyll yn nghynysgrif Luc; eithr mai rhyw adysgrifwyr anochelgar a'i dodasant i mewn drwy ei weled mewn rhyw ysgrifau o gyfieithiad y Deg a Thrigain. Ac felly, ar y cyfan, ymddengys fod y mwyafrif yn ymwrthod â'r ail Cainan.

CALAMUS, [קנה, *caneh*]. Y planigyn peraroglus hwn a elwir "corsen felus" yn y cyfieithiad Seisoneg (*Esa.* xliii. 24; *Ier.* vi. 20); ac yr ydoedd yn un o'r defnyddiau yn ngwneuthuriad yr enaint sanctaidd dan oruchwyliaeth Moses (*Exod.* xxx. 23), yn nghyd â'r prif ber-lysiau, megys y myrr, y synamwn peraidd, a'r casia. Felly gellir canfod crybwylliadau mynych am y calamus peraidd fel un defnydd yn ffurflad amrywiol fathau o olew peraroglaidd, o amser Theophrastus hyd amser yr Arabiaid. Y mae yr olew a wneir o hono yn cael ei werthu yn awr yn y masnachdai, ond o dan y cam enw o olew nardus, yr hwn sydd sylwedd tra gwahanol [gwel NARDUS]. Yn *Can.* iv. 14, crybwyllir ef yn nghyd â nardus, saffrwn, synamwn, prenau thus, myrr, ac aloes. Eto, y mae ei werth yn cael ei osod allan gan Esaiah (*Esa.* xliii. 24), "ni phrynaist im' galamus âg arian;" a'i fod yn cael ei gludo o wlad bell a ddangosir yn *Ier.* vi. 20; "I ba beth y daw i mi thus o Seba, a chalamus peraidd o wlad bell?"—tra y nodir allan gylch y fasnach yn *Ezec.* xxvii. 19; "Dan hefyd a Iafan yn cynniwair a farchnatasant yn dy farchnadoedd: haiarn wedi ei weithio, casia, a'r calamus oedd yn dy farchnad."

Yn ol barn Gesenius, ac ereill, golygir mai yr un ydyw a'r hyn a eilw Linnæus yn *acorus calamus*, neu y *calamus odoratus*, y sonir am dano gan Pliny, yn tyfu mewn lleoedd llaith yn yr Aipht a Iudea, ac amryw barthau o Syria

Dar. 143.

Y mae y gorsen yn tyfu i tua dwy droedfedd o uchder, yn rhanedig gan amrywiol gylymau, ac oddi mewn yn cynnwys math o fwydionyn (*pith*) gwyn meddal, o arogl tra dymunol, yr hwn, pan ei craser yn sych, ac y malurier yn llwch, a wna un o'r defnyddiau gwerthfawrocaf a hyfrydar mewn peraroglau. Dan yr un enw y mae Dioscorides yn mynegu am fath o *cyperus*, ag iddynt wraidd peraroglus, ac a ddefnyddir i'r cyfryw berwyl gan bobl yr India; ac felly yn cyfateb yn well i'r ymadrodd "calamus peraidd o wlad bell," yn *Ier.* vi. 20. Y mae y glaswellt tal sydd yn gwneyd glaswellt-olew peraroglaidd Canolbarth India, gan hyny, yn cyfateb yn hollol i nodiadau yr Ysgrythyrau, yn gystal ag i'r darluniad a roddir gan Dioscorides.—(*Kitto's Cyclo.*)

CALCEDON, [Gr. Χαλκηδών]: enw math o faen gwerthfawr. Yr unig le y crybwyllir am dano yn yr Ysgrythyr yw *Dad.* xxi. 19, lle yr enwir y meini gwerthfawr oedd yn harddu sciliau mur y ddinas sanctaidd a ddangoswyd i'r apostol Ioan; a'r trydydd o'r meini hyny oedd *calcedon*, am yr hwn faen y dywed naturiacthwyr ei fod o rywogaeth y gemau hanner tryloewon (*semi-pellucid*), o ba rai y dywedir fod pedwar math:—1. Rhai o liw glaswyn:—y cyfryw a

Digitized by Google

gyfrifir y mwyaf cyffredin. 2. Rhai â gwythienau llaethog aneglur yn rhedeg drwyddynt:—y cyfryw ni chyfrifir ond o ychydig werth. 3. Rhai llwyd-dduon:—lleiaf eu harddwch. 4. Melyn-gochion:—y cyfryw a gyfrifir yn brydferthaf a gwerthfawrocaf oll. Hyd yn hyn dywedir na chafwyd dim o'r fath yma mewn un wlad ond yr India Ddwyreiniol.

CALDEA, CALDEAID. Y mae y ddau enw, Babiloniaid a Chaldeaid, yn cael eu defnyddio yn fynych yn gyfystyr. Yn 2 *Bren.* xxv, gelwir Nebuchodonosor yn "frenin Babilon," tra y gelwir ei filwyr yn "Galdeaid." Yn *Esa.* xiii. 19, gelwir Babilon "prydferthwch y teyrnasoedd, gogoniant godidogrwydd y Caldeaid." Yn *Dan.* ix. 1, dywedir i Darius, y Mediad, gael ei wneyd yn frenin ar deyrnas y Caldeaid. Defnyddir Babilonia weithiau mewn ystyr eangach na Chaldea, fel yn cynnwys yr holl wledydd sydd yn dyfod dan yr enw Assyria, yn yr ystyr eangaf. Wrth edrych i'r Ysgrythyrau gwreiddiol, yr arfer mwyaf cyffredin ydyw i'r ysgrifenwyr ddefnyddio Babilon (Babel)—nid Babiloniaid; ond Caldeaid (Casdim)—ac nid Caldea. Anfynych y mae eithriad i'r dull hwn o lefaru. Oddi wrth hyn, gellid casglu fod Babilon, neu Babel, gyda hwynt yn enw y wlad; a Chaldeaid, neu Casdim, yn enw y trigolion. Ond yn ol Ptolemy, Caldea ydyw enw y rhan dde-orllewinol o'r ymherodraeth Fabilonaidd, yn cyrhaedd ar hyd yr Euphrates, cyn belled ag anialwch Arabia.

Gydag ychydig eithradau boreuol—*Gen.* x. 10; xi. 9, lle y lleferir am Babel, a *Gen.* xi. 28, 31; xv. 7, lle y crybwyllir am y Caldeaid—nid ydym yn cael, hyd yn lled ddiweddar, y deyrnas hon na'i thrigolion yn cymmeryd rhan yn hanesiaeth yr Israeliaid. Dygwyddodd hyn (tua c. c. 678) pan y daeth arfau buddugoliaethus breninoedd Mesopotamia i ddarostwng pobl Dduw i gaethiwed. Y pryd hwnw y cododd hen deyrnas Babilon megys o'i bedd, i gyflawnu gorchwyl pwysig yn ymddygiadau yr Arglwydd tuag at ei bobl ddewisedig. Dengys hyn i ni mai nid amcan yr ysgrifenwyr sanctaidd oedd rhoddi i ni grynodeb o hanesiaeth cyffredinol, ond olrhain ymddygiadau yr Arglwydd tuag at eu cenedl eu hunain, gan gyffwrdd yn unig â chenedloedd ereill pan yr ymblethent â'r hanesiaeth yr oeddynt hwy yn cael eu harwain i'w ysgrifenu.

Tua'r amser a grybwyllwyd uchod, yr ydym yn cael fod brenin Assyria wedi dwyn trigolion o Babilon, a'u gosod yn ninasoedd Samaria: 2 *Bren.* xvii. 24. Canfyddir yma fod Babilon yn dalaeth o ymherodraeth fawr Assyria. Yn 2 *Bren.* xxiv. 1, 2, darllenwn fod Nebuchodonosor, brenin Babilon, wedi anfon tyrfaoedd o'r Caldeaid yn erbyn Ioacim. Ac yn 2 *Bren.* xxv. 1, yr ydym yn cael fod Nebuchodonosor, â'i holl lu, yn dyfod yn erbyn Ierusalem: ac yn y bedwaredd adnod, dywedir, mai Caldeaid oeddynt,—"A'r Caldeaid oedd wrth y ddinas o amgylch." Efallai pe yr ystyriem Caldeaid yn enw ar drigolion Babilonia, ac hefyd fod Babilon weithiau yn arglwyddes ar yr oll o Mesopotamia, bryd arall yn deyrnas ddarostyngedig i Ninefeh, a thrachefn yn eisteddle ymherodraeth rhwng ac yn agos i'r Euphrates a'r Tigris, y byddem yn agos i'r gwirionedd; a byddai hyny yn gynnorthwy i ddeall y cyfeiriadau ysgrythyrol am y gwledydd hyn.

Nimrod ydoedd sylfaenydd a brenin cyntaf Babilon: *Gen.* x. 8. Yr enw nesaf a geir ar frenin Babilonaidd, ydyw, "Amraphel, brenin Sinar:" *Gen.* xiv. 1. Ni roddir un arall am amser maith, hyd nes yr anfonodd "Berodach-Baladan, mab Baladan, brenin Babilon," lythyrau ac anrheg at Hezeciah; "canys efe a glywsai fod Hezeciah yn glaf;" 2 *Bren.* xx. 12, 13. Tua chan mlynedd ar ol hyn, y mae y prophwydi Ieremïah a Habacuc yn crybwyll am yr ymgyrch ar Iudah gan y llu Caldeaidd. Y mae enw Nebuchodonosor yn ymddangos yn awr yn llyfrau hanesol y Beibl. Ac yn *Ezra* v. 12, dysgrifir ef fel "Nebuchodonosor, brenin Babilon, y Caldead, yr hwn a ddinystriodd dŷ yr Arglwydd, ac a gaethgludodd y bobl i Babilon." Am yr hanes hwn, gwel CAETHGLUDIAD. Yr enw breninol nesaf yn perthyn i'r Caldeaid, ydyw Efilmerodach; yr hwn, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, a ryddhaodd Ioachin brenin Iudah, ar ol dyoddef caethiwed, os nad carchariad, am un ar bymtheg ar ugain o flyneddoedd: 2 *Bren.* xxv. 27. Yn yr adnod nesaf (28), crybwyllir amgylchiad sydd yn rhoddi mantais i weled gwychder ac eangder yr ymherodraeth Fabilonaidd y pryd hwn. Yr oedd breninoedd ereill yn Babilon heb law Ioachin, a chaniatawyd i bob un o honynt ei gadair freninol. Belsassar sydd yn terfynu llinell y breninoedd Caldeaidd (c. c. 538). Yn yr eilfed flwyddyn ar bymtheg, rhoddwyd ef i farwolaeth, gan Cyrus, yn nghlanol ei loddest, pryd y cymmerwyd Babilon yn y nos (*Dan.* v. 30), a sefydlwyd yn lle yr ymherodraeth Galdeaidd yr un Medo-Persiaidd.

Ond heb law y crybwylliadau ysgrythyrol am Caldea a'r Caldeaid, y mae Berosus, yr hanesydd Caldeaidd, yr hwn a ysgrifenodd *Hanes y Caldeaid a Gweithredoedd eu Breninoedd*, yn rhoddi y crybwylliadau canlynol i ni am danynt. A chyda y rhai hyn hefyd rhoddir y cyfeiriadau a geir yn yr hanesion Groegaidd o barth iddynt.

Y mae Strabo, yn ei hanes am Babilonia [xvi. c. i., cyf. iii., td. 437, arg. Tauchnitz], yn son am lwyth o Galdeaid yn cyfanneddu gwlad ag oedd yn taraw ar yr Arabiaid a'r môrgaine Persiaidd; ac y mae efe yn cyfeirio yn amlwg at yr un ardal, wrth ddysgrifio terfynau Arabia [l. c., c. iv., td. 384], pan y sonia am "y rhosydd yn ngwlad y Caldeaid, y rhai a ffurfir gan lifogydd yr Euphrates." Ni sonia Herodotus [vii. c. 63] am y Caldeaid ond yn unig fel rhai wedi eu rhestru gyda'r Assyriaid yn myddin Xerxes, heb ddarlunio dim ar y wlad o ba un yr hanoeddent. Yr oedd y Caldeaid hefyd yn gwasanaethu fel gwŷr cyflog yn myddin Artaxerxes Mnemon. Yr oedd yn rhaid i'r deng mil Groegiaid, ar eu henciliad ar ol brwydr Cunaxa (c. c. 401), fyned trwy eu tiriogaeth yn mynyddoedd Carduchia, ac ar lenydd y Kentrites, yr hon oedd afon yn rhedeg i'r Tigris. Yr oeddynt wedi eu harfogi â tharianau eiliedig mawrion, a gwaewffyn: yr oeddynt yn rhyddion ac anymddibŷnol; hyny yw, y mae yn debyg, nid oeddynt yn ddarostyngedig i lywodraeth y Persiaid;—a chyfrifid hwy yn bobl ddewrion. Tybir fod Strabo yn golygu y Caldeaid mynyddig hyn, pan y dywed [xii. c. 3., cyf. iii., td. 26], fod y Tiberaniaid, y Caldeaid, y Sanniaid, ac Armenia Leiaf, yn sefydlog ar hyd mynyddoedd y Skydises, uwch law Trapezus a Pharnakia. Y mae Gesenius [*Ersch und Gruber's Encyclopædia*, erth. CHALDÆER] ac ereill yn chwannog i ystyried y Caldeaid mynyddig hyn fel yr al dechreuol; y rhai y darfu i nifer o'u hepil, sef Caldeaid yr Hen Destament, ymsefydlu yn mhen llawer o amser ar y gwastadedd o

Digitized by Google

amgylch cwrs isaf yr Euphrates, a'r rhai a fuont dros amser yn ddarostyngedig i ymherodraeth Assyria, ond wedi hyny a sylfaenasant lywodraeth Galdeo-Fabilonaidd. A oedd y Caldeaid hyn, y rhai a ddisgynasant o'r gogledd, yn perthyn i'r teulu Semitaidd, neu ynte i'r teulu Indo-Persiaidd, ni wyddys yn sicr. Y mae yr iaith a siaredid yn Babilon, a'r hon a elwir bob amser yn Galdaeg, yn perthyn i'r cyff Semitaidd; ac y mae enwau rhai o dduwiau Babilon, y sonir am danynt gan hen awduron, o darddiad Semitaidd. Pe byddai achos digonol i feddwl bod addoliad y duwiau hyn yn perthyn ar y cyntaf i ddosbarth o offeiriaid yn mhlith Caldeaid mynyddig y gogledd, ac iddo gael ei ddwyn ganddynt i Babilonia, byddai yr enwau hyny yn myned yn mhell i brofi mai Semitiaid ydoedd Caldeaid ucheldiroedd Carduchia. Oni bai hyn, parai sefyllfa ddaiaryddol y mynyddwyr dan sylw i ni feddwl eu bod o'r al Indo-Persiaidd. Y mae Gesenius o'r farn hon, a thybia efe mai enw cyssefin y genedl ydoedd *Kard*, yr hwn trwy ddirywiad, a ddaeth i gael ei seinio a'i ysgrifenu yn *Casd* (Casdim), a *Cald* (Caldeaid); ac y mae efe yn meddwl y cedwir ef o hyd yn enw y Curdiaid presennol.

Yn ol Berosus, y Caldeaid a olrheinient eu gwareidd-dra at ryw fod, hanner dyn a hanner pysgodyn, a ddaethai atynt o Fôr Erythræa, lle yr oedd ei breswylfod. Ymddengys y chwedl hon, ar ol ei diosg o'i dull allegawl, fel yn arwyddo bod y Caldeaid yn ystyried eu hunain yn ddyledus am eu gwareidd-dra cyntaf i estroniaid a ddaethant atynt dros y môr. Y mae Berosus yn rhifo deg brenin o eiddo y Caldeaid, cyn y dylif mawr; y cyntaf o ba rai a eilw efe yn Alôrus, a'r olaf yn Xisuthros, neu Seisithros [*Eusebii Pamphili Chronicon Bipartitum, &c.*], y rhai, gyda'u gilydd, a deyrnasasant am 120 *sari*, neu 432,000 o flyneddoedd. Ceisiodd Xisuthros ddiogelwch oddi wrth y dylif mewn llong, yr hon a yrwyd ar fynyddoedd Cordyæa (Corcyræa). Yna y canlyn traddodiad tebyg i hwnw am Dŵr Babel. O amser y dylif mawr, hyd pan y cymmerwyd Babilon gan y Mediaid, cyfrifa Berosus chwech a phedwar ugain o freninoedd, a 3391 o flyneddoedd. Y mae y cyssondeb sydd rhwng yr hanesion ysgrythyrol a'r hanesion paganaidd yn deilwng o sylw.

Yn ol yr Hen Destament, gosodwyd sail ymherodraeth Caldea, fel y dywedwyd o'r blaen, ar wastadedd Sinar, gan Nimrod, mab Cus (*Gen.* x. 8). *h. y.*, yr Ethiopiad. Gellir cymharu â hyn y traddodiad yn nghylch dechreuad tramorawl y gwareidd-dra Caldeaidd y soniwyd am dano uchod, ac hefyd â thraddodiad a gofnodwyd gan Diodorus [i. c. 28], yn yr hwn y dywedir i bobl gael eu harwain gan Belus, mab Poseidon a Libya, o'r Aipht i Babilon. Sonir am Berodach-Baladan gan Berosus hefyd, yr hwn a ddywed mai y teyrn hwn a wnaeth wladwriaeth Babilon yn anymddibynol ar uchafiaeth Assyria. Dilynwyd ef gan Belibus, yr hwn enw hefyd a ganfyddir mewn rhestr o freninoedd Babilonaidd, a gadwyd gan Ptolemæus. Ond yn mhen tair blynedd ar ol ei esgyniad i'r orsedd, gorchfygwyd Belibus mewn rhyfel gan Sanherib, a daeth Babilonia drachefn yn dalaeth Assyriaidd, dan lywodraeth Esarhaddon (Assaraddinus), mab Belibus. Dechreua cyfnod newydd gyda Nabopolassar, tad Nebuchodonosor. Trwy gymhorth llywydd Media, gwrthododd dalu gwarogaeth i Assyria (c. c. 625), dinystriodd Ninefeh, a mynnumiodd ei awdurdod ei hun yn Syria yn erbyn Pharaoh-Necho: 2 *Bren.* xxiii. 29, 30; 2 *Cron.* xxxv. 20, &c.; cymh. *Herod.* ii., c. 159. Ar ei ol ef (c. c. 604, yn ol cyfrifiad canon Ptolemæus), y daeth ei fab Nebuchodonosor, yr hwn a estynodd ei oruchafiaethau cyn belled a'r Aipht; neu fel y dywed Megasthenes [*Strabo* xv., c. i], cyn belled a cholofnau Hercules. Gwnaeth dair anturiaeth yn erbyn Ierusalem, yr olaf o ba rai a derfynodd yn ei waith yn cymmeryd y ddinas ar ol dwy flynedd o warchae; ond methodd a chymmeryd Tyrus. Bu farw c. c. 562, a dilynwyd ef gan ei fab Efil-merodach; yr hwn, yn yr eilfed flwyddyn o'i deynasiad, a laddwyd gan Neriglissar, ei frawd yn nghyfraith. Parhaodd teyrnasiad Neriglissar bedair blynedd; ar ddiwedd pa rai dilynwyd ef gan ei fab Laborosoarchod, neu Labassoarascus, yr hwn yn mhen naw mis a syrthiodd yn aberth i fradwriaeth. Ar ei ol ef daeth Nabonitus, neu Labynitus—yr un, mae'n debyg, a Belsassar y Beibl. Dyma y brenin, yn nheyrnasiad pa un y daeth Babilon yn ddarostyngedig i'r Persiaid [*Herod.* i., c. 188].

Unbenaeth annibynol oedd llywodraeth y Caldeaid. Sonia y prophwydi Hebreaidd, yn enwedig Daniel a Ieremiah, am gryn lawer o swyddogion cyhoedd. Yr oedd yr ymherodraeth wedi ei rhanu yn wahanol daleithiau, y rhai oeddynt dan arolygiad llywiawdwyr o wahanol raddau. Crefydd y Caldeaid oedd Sabæaeth, yr hyn a gynnwysai yn enwedig y gwaith o addoli yr haul, y lleuad, y pum planed, a deuddeg arwydd y Sidydd. Arweiniodd addoliad y goleuadau nefol hyn at sylwadau seryddol a rhaniad rheolaidd amser. Tystia Herodotus [ii., c. 109] ddarfod i'r Groegiaid dderbyn oddi wrth y Babiloniaid y drefn o ranu y diwrnod yn ddeuddeg rhan, neu oriau. Ymddengys fod y Caldeaid yn arfer blwyddyn leuadol i ddybenion cyffredin; ond er mwyn sylwadau seryddol, defnyddient flwyddyn heulawl symmudol. Yr oedd cyfansoddiad yr olaf, a'i dull, yn cael ei rhanu yn fisoedd, yr un fath ag eiddo yr Aiphtiaid [*Ideler, Lehrbuch der Chronologie*, Berlin, 1831, 8plyg, td. 85, &c].

Yr oedd serddewiniaeth yn cael ei astudio yn fawr yn eu plith. Ystyrid y planedau Bel (Iau) a Meni (Gwener) fel yn arwyddo da, a Mawrth (Merodach?) a Sadwrn yn daroganu drwg. Ymddibynai dylanwad Nebo (Mercher) ar ei sefyllfa. Tynu casgliadau perthynol i dynged dynion oddi wrth sefyllfa y ser ar awr eu genedigaeth, deongli breuddwydion, neu wneuthur daroganau oddi wrth chediad adar, diffygion ar yr haul a'r lleuad, daiargrynfäau, a dygwyddiadau anianol ereill, oeddynt brif orchwyl yr offeiriaid, y rhai a ledaenent eu doethineb trwy draddodiad o dad i fab [*Diodor. Sic.*, ii. c. 29]. Haerent bod eu sylwadau seryddol wedi dechreu 473,000 o flyneddoedd cyn amser Alexander [*Di. Si.*, c. 31]. Yr oedd cred mewn arfaeth ddwyfol a digyfnewid yn rhan hanfodol o'u ffydd [*Di. Si.*, c. 30]. Ac yn ol tystiolaeth Ephraim Syrus, yr oedd yr athrawiaeth hon ar gerdded yn Caldea yn ystod y pummed canrif o'r cyfnod Cristionogol.

Yr oedd sefyllfa y Caldeaid ger llaw yr Euphrates a'r Tigris yn dra ffafriol i fasnach; ac ni a gawn eu bod yn mhlith y marchnatwyr mwyaf yn yr hen amser. Yr oeddynt mewn cyfathrach â'r India, mewn rhan trwy arfer meni ar draws y tir, ac mewn rhan trwy ddefnyddio llongau dros forgaine Persia. Y prif bethau a gyrchent o'r India oeddynt feini gwerthfawr, lliwiau, perlau

Digitized by Google

coed at ddefnyddiau llongau, a chotwm. Dywed Herodotus [i., c. 192] bod cyllid pedwar o bentrefi mawrion, yn y gwastadedd o amgylch Babilon, yn cael eu defnyddio at borthi helgwn Indiaidd, y rhai o ganlyniad oedd yn rhaid eu bod yn cael eu dwyn drosodd yn lluosog eu nifer. Yr oedd Babilon ei hun yn enwog am frethynau llïan, gwlanen, a chotwm, a charpedi: a sylwodd Herodotus, fod modrwyau â seliau arnynt, a ffyn â phenau wedi eu cerfio yn gampus, yn cael eu defnyddio yn fawr gan y Babiloniaid; yr hyn a brawf bod y gelfyddyd o gerfio ar geryg a choed yn cael ei choleddu yn gyffredin yn eu plith. —(*Kitto's Cyclo.; Penny Cyclo.; People's Dictionary of the Bible; Herzog Real Worterbuch.*) —Gwel BABILON, BABILONIA.

CALDEA, ATHRONIAETH. Y mae hwn yn bwnc o ddyddordeb holl ddarllenwyr y Beibl, o herwydd y dylanwad a feddai yr athroniaeth Fabilonaidd ar opiniynau yr Israeliaid, a'u dull o feddwl, yn ystod eu caethiwed yn Babilon—dylanwad o nodweddiad cyffredinol a phenderfynol, yr hwn a addefir gan y Rabbiniaid eu hunain, trwy ddadgan fod enwau yr angelion a'r misoedd wedi eu cymmeryd gan dŷ Israel o Babilon [*Rosh Hashanah*, td. 56]. Nid ellir ystyried y gyfundrefn o opiniynau a'r dull o feddwl yr ymgyfarfyddai y gaethglud â hwynt yn Babilon yn hollol Galdeaidd; ond yr oeddynt yn cael eu cyfansoddi o elfenau o amrywiol wledydd y Dwyrain, y rhai, fel yr ymddengys, a gawsant dir nid anffrwythlawn yn Babilon, yn mha le y tyfasant ac y dygasant ffrwyth a gyddyfodd yn un gyfundrefn gyffredinol. O'r elfenau hyn, y ddwy brif elfen oedd y Galdeaidd a'r Medo-Bersiaidd, neu y Zoroastriaidd. At y gyntaf y gelwir sylw y darllenydd yn yr erthygl hon.

Yr oedd y Caldeaid, y rhai oeddynt yn trigo mewn hinsawdd lle nad yw pelydrau yr haul byth yn cael eu tywyllu, a'r nosweithiau bob amser yn oleu a dysglaer gan oleuni y lleuad a'r ser, wedi eu harwain i gredu mai goleuni ydoedd enaid natur. O ganlyniad, trwy oleuni yr haul a'r ser y dygai yr ysbryd cyffredinol bob peth i fodolaeth; am hyny, cyflwynai y Caldeaid eu haddoliad i'r Bod Goruchaf trwy y cyrff nefol, lle yr ymddangosai iddynt fel yn byw mewn modd arbenigol. Fel y mae y ser yn gyrff gwahanedig, y dychymyg a'u darluniai fel bodau penodol, y rhai a feddent bob un eu swyddogaeth neillduol, gan effeithio dylanwadau gwahanol yn nygiad allan gynnyrchion natur. Diflanodd y drychfeddwl o ysbryd cyffredinol, gan ei fod yn rhy ddyryslyd i'r bobl; ac yn meddu anhawsderau i feddyliau diwylliedig; a chyflwynwyd addoliad i'r ser fel cynnifer o alluoedd a lywodraethent y byd. Y mae yn hawdd gweled pa fodd y llithrodd y Caldeaid o'r llygriad boreuol hwn o grefydd wreiddiol y Beibl i amlddiwaeth isel a gwaradwyddus.

Gan yr ystyrid goleuni fel unig allu ysgogol natur, a phob seren fel yn meddu ei dylanwad priodol ei hun, felly ymddangosai gweithrediadau natur fel cynnyrch dylanwad neillduol y corff nefol hwnw a ddygwyddai fod ar y pryd uwch law y terfyngylch; a chredai yr athronwyr Caldeaidd eu bod yn canfod yr achos o ddygwyddiadau yn ei sefyllfa, a'r modd i ragfynegu dygwyddiadau yn ei ysgogiadau. Y golygiadau hyn, ac efallai, y gwres mawr, a'r gwyntoedd heintus, y rhai a ffynent yn y wlad ar fisoedd neillduol, rhag pa rai nid oes un amddiffyniad ond yn y bryniau, a arweiniodd y Caldeaid i'r mynyddoedd a amgylchynent y tir. Yn yr arsyllfeydd hyn, y rhai a ymddangosent fel wedi eu ffurfio gan natur yn benodol i'r dyben hwnw, astudient sefyllfaoedd ac ysgogiadau y llu nefol. Tybient eu bod yn canfod fod ymddangosiadau cyffelyb yn cael eu dilyn yn wastadol gan yr un ser-gyssylltiad, y rhai a ymddangosent fel yn cadw symmudiadau rheolaidd a llwybrau cyffelyb. Drwy hyn daeth yr offeiriaid Caldeaidd i'r penderfyniad fod dygwyddiadau naturiol wedi eu cylymu yn nghyd, ac nad oedd aberthau yn attal eu gyrfa; fod iddynt oll darddiad cyffredin, yr hwn sydd yn gweithio yn unol âg egwyddorion a deddfau anadnabyddus, canfyddiad pa rai sydd mor bwysig ag i deilyngu eu sylw manylaf. Y mae y cyrff nefol eu hunain yn ufuddhau i'r deddfau hyn; y mae eu ffurf, eu sefyllfa, a'u dylanwad, yn gynnyrchion y deddfau cyffredinol hyn, trwy ba rai y rheolid natur. Parodd hyn i'r Caldeaid benderfynu ymofyn yn y nefoedd am wybodaeth o'r achos gwreiddiol a greodd y byd, ac o'r deddfau a ddilynwyd gan yr achos hwnw yn ffurfiad pethau, ac yn nghynnyrchiad ymddangosiadau, gan mai yn y nefoedd y trigai y gallu a ddygai bob peth yn mlaen.

Talpiau o oleuni oedd y ser; yr oedd y lle yn mha un y safent wedi ei lenwi â goleuni; nid ymddangosai fod un gallu arall yn gweithredu yno: am hyny, credai y Caldeaid mai goleuni oedd y gallu ysgogol a gynnyrchodd y ser. Nis gellid ammheu na feddai y gallu hwn ddealltwriaeth, ac ymddengys gweithrediadau y meddwl fel yn meddu cymmaint o debygrwydd i goethder a chyflymder y goleuni, fel na feddai dynion nad oedd ganddynt ond dychymyg yn arweinydd an pryder i gydnabod dealltwriaeth fel priodoledd goleuni, a'r ysbryd cyffredinol, neu y dealltwriaeth uchaf, fel y goleuni ei hunan. Dysgodd y Caldeaid drwy eu hardremiadau fod pellder y ser oddi wrth y ddaiar yn anghyfartal, a bod goleuni yn lleihau yn ei ddynesiad tua'r ddaiar; o ganlyniad daethant i benderfyniad fod goleuni yn llifo o ffynnonell dragwyddol mewn pellder mawr o'r ddaiar, wrth wneyd yr hyn y mae yn llenwi yr eangder â'i belydrau, ac yn ffurfio y cyrff nefol mewn gwahanol sefyllfaoedd, ac o wahanol faintioli. Gosodid allan yr ysbryd creadigol ganddynt, gan hyny, o dan y darluniad o ffynnonell dragwyddol anhysbyddadwy o oleuni: tybient fod y ffynnonell hon i'r bydysawd yr hyn ydyw yr haul i'r gororau a oleuir ac a gynhesir gan ei belydrau.

Gan fod goleuni yn lleihau wrth ymledaenu, y mae yn rhaid fod ei ffynnonell o goethder a phurdeb annirnadwy, ac o ganlyniad, yn ei ystad uchaf, yn ddealltwrus. Fel y mae ei belydrau yn pellhau o'u tarddle y maent yn colli eu bywiogrwydd, a thrwy ddiflaniad graddol eu dylanwad disgynant o'u perffeithrwydd gwreiddiol; y maent gan hyny yn cynnyrchu bodau a dealltwriaethau gwahanol, yn ol y graddau y pellhaent oddi wrth ffynnonell y goleuni; o'r diwedd, trwy fyned o'r naill elfen i'r llall, collasant eu goleuni, a dirwasgwyd hwynt yn nghyd, nes y daethant yn sylweddol, ac y cynnyrchasant sylwedd cymmysglyd fel yr oedd y ddaiar yn ei chreadigaeth. Yr oedd, gan hyny, rhwng y Bod Goruchaf a'r ddaiar gadwen o fodau cyfryngol, perffeithiau pa rai oedd yn lleihau fel y pellaent oddi wrth yr Achos Mawr Cyntaf. Yr oedd y Bod Goruchaf hwn wedi cyfranu i raddau nodedig ei belydrau,

Digitized by Google

ei ddealltwriaeth, ei allu, a'i gynnyrchioldeb gwreiddiol; yr oedd gan yr holl haniadau ereill, yn ol graddau eu pellder oddi wrth y dealltwriaeth uchaf, gyfran lai a llai yn y perffeithderau hyny; ac fel hyn yr oedd gwahanol ororau y goleuni, o'r lloer i breswylfod y Goruchaf, wedi eu llenwi â gwahanol urddau o ysbrydion.

Yr oedd yr eangder a gynnwysai yr Achos Cyntaf, neu Ffynnonell y pelydrau, wedi ei lenwi â bodau pur a dedwydd. Yn union o dan yr oror hon y dechreuai y byd sylweddol, neu y gwynaint (nef y nefoedd), yr hwn ydoedd eangder annherfynol, yn cael ei oleuo gan y goleuni pur a lifai yn uniongyrchol o'r Ffynnonell Fawr. Yr oedd y gwynaint hwn wedi ei lenwi â thân anfeidrol llai pur na'r goleuni gwreiddiol, ond yn anfesurol goethach nag unrhyw gorff. O dan hwn yr oedd y nwyfre, neu yr oror dewaf, wedi ei lenwi â thân anmhurach drachefn. Yn nesaf, deuai y ser sefydlog, wedi ymledu dros oror eang lle yr oedd y rhauau tewaf o'r tân awyrol wedi dyfod yn nghyd, ac wedi eu ffurfio. Deuai byd y planedau wedi hyny, yr hwn a gynnwysai yr haul, y lloer, a'r ser gwibiog. Yna deuai y radd olaf o fodau—yr elfenau garw sydd wedi eu hamddifadu o bob bywiogrwydd, ac yn gwrthsefyll ysgogiadau a dylanwad y goleuni. Y mae perthynas rhwng amrywiol ranau y byd, a gall ysbrydion y gororau uchaf ddylanwadu ar fodau yr isaf, yn gystal a disgyn a myned i mewn iddynt. Gan fod elfenau y tryblith heb ffurf nac ysgogiad, y mae yn rhaid mai ysbrydion y gororau uchaf a ffurfiodd y ddaiar, ac ysbrydion wedi deilliaw o honynt yw eneidiau dynol. I'r ysbrydion oddi uchod hyn y priodolai cyfundrefn y Caldeaid bob cynnyrchion, ymddangosiadau, ac ysgogiadau ar y ddaiar. Ffurfiad y corff dynol, tyfiant y ffrwythau, a holl roddion natur, a briodolid i ysbrydion cymmwynasol. Yn yr eangder o dan y lloer, yn nghanol tywyllwch, cyfodai tymmestloedd, gwibiai mellt yn y cymylau duon, torai taranau allan ac anrheithient y ddaiar; yr oedd yno ysbrydion tywyllwch, a diafliaid sylweddol yn daenedig trwy yr awyrgylch. Canfyddid yn fynych hefyd flamau o dân yn dyrchafu o fynwes y ddaiar, a'r mynyddoedd a ysgydwid. Tybid fod y galluoedd daiarol, neu yr ellyllon, yn trigo yn nghanolbwynt y ddaiar; a chan yr ystyrid defnydd yn amddifad o fywiogrwydd, priodolid pob ysgogiad i ysbrydion. Nid ymddangosai fod un dyben i'r ystormydd, y llosgfynyddoedd, a'r tymmestloedd, ond dinystrio dedwyddwch dynol; ac ystyrid yr ellyllon hyn yn ysbrydion drwg, y rhai a gynnyrchent y drygau hyn: iddynt hwy y priodolid pob dygwyddiad anffodus, a ffurfiwyd math o wahanraddau o'r bodau drygionus hyn, fel y gwnaed o'r ysbrydion da. Ond pa ham na ddifodai y Bod Goruchaf, trwy ei allu, yr haid hon o ysbrydion drwg? Tybiai rhai fod ymryson â'r ellyllon hyn islaw i urddas yr Hanfod Cyntaf. Yr oedd ereill o'r farn fod yr ysbrydion drwg hyn yn naturiol anninystradwy; a chan nad allai y Goruchaf eu dinystrio na'u diwygio, efe a'u halltudiodd i ganolbwynt y ddaiar, ac i'r oror islaw y lloer, lle yr ymdröent yn eu llygredd, ac yr arferent eu llywodraeth. Mewn trefn, pa fodd bynag, i amddiffyn yr hil ddynol rhag diafliaid mor luosog ac ofnadwy, efe a benododd ysbrydion da—swydd pa rai oedd amddiffyn dynion rhag yr ellyllon hyn. Fel yr oedd gan yr ysbrydion da a drwg raddau gwahanol o allu, a swyddau gwahanol, felly hefyd rhoddwyd enwau iddynt a osodai allan eu sefyllfaoedd. Gan fod yr ysbrydion da o dan rwymau i amddiffyn dynion, a'u cynnorthwyo pan fydd angen, yr oeddynt yn cael eu gorfodi i ddysgu iaith ddynol; o ganlyniad, credid fod gan bob un angel gwarcheidiol rhag pob drwg, yr hwn a feddai ei enw cyfriniol—enw nad oedd i'w ynganu ond yn unig pan y byddai cymhorth yn angenrheidiol. Am hyny, dyfeisiwyd pob math o enwau, trwy ba rai yr oedd yr ysbrydion da yn cael eu tynghedu neu eu hysbysu o angenrheidiau dynol; a dyhysbyddwyd holl gyssylltiadau llythyrenau yr egwyddor mewn trefn i ddwyn oddi amgylch fasnach rhwng dynion ac angelion. Dyma wraidd y Cabbala, yr hwn a roddai enwau dyeithr i'r ysbrydion hyn, mewn trefn i'w dwyn i gyssylltiad â dynion, a thrwy y moddion hyn i wneuthur pethau rhyfeddol (*Mat.* xii. 24—27). Gwasanaethai yr enwau hyn hefyd weithiau i yru ymaith ysbrydion drwg: yr oeddynt yn fath o swyngyfareddiad. O herwydd gan y credid fod yr ellyllon wedi eu halltudio i ganolbwynt y ddaiar, ac nas gallent wneuthur drwg ond mewn canlyniad i drechu gwyliadwriaeth yr angelion gwarcheidiol, a diane i'r byd allanol, felly, bernid eu bod yn cael eu gorfodi i ffoi mor gynted ag y clywent enwau yr angelion da—gorchwyl pa rai oedd eu cadw mewn ogofäau tanddaiarol, a'u cospi os beiddient ddyfod o'u carchardy. Priodolid gallu, hefyd, i enw yr ysbryd, neu i'r darlun a ddynodai ei swydd—gallu a orfodai yr ysbryd i ddyfod pan ei gelwid; ac, o ganlyniad, credid fod yr enw hwn wedi ei gerfio ar gareg yn cadw yr angel yn agos i'r person a'i gwisgai—tybiaeth, yn mha un, y mae yn debygol, y mae gwraidd swyneilunod (*talismans*), y rhai a ffurfid naill ai trwy eiriau neu trwy arwyddluniau.

Y mae ysgrifeniadau Berosus, y rhai a ddiogelwyd gan Eusebius a Josephus, ac a ganfyddir yn Scaliger [*De Emendat. Temp.*], ac yn llawnach yn Fabricius [*Bib. Gr.*, xiv. 175], yn rhoddi peth gwybodaeth ar y pwnc o athroniaeth Galdeaidd. Offeiriad i'r duw Baal oedd Berosus, yn Babilon, yn amser Alexander Fawr. Ceir hysbysrwydd ar hyn hefyd yn y *Talmud*, a gweithiau ereill y rabbiniaid Iuddewig, yn nghyd â'r awduron canlynol:—*Euseb. Præp. Evang.*, ix. 10; *Philo's De Mig. Mun.*; *Selden's De Diis Syris*, proleg. 3; *Stanley's History of Oriental Philosophy*; *Knorrii de Rosenroth's Cabbala denudata, s. doctrina Ebræorum transcendentalis et metaphysica atque theologica*, t. 1, Solisb. 1677, t. 2., "Liber Johan. restitutus," Francof. 1684; *Kleuker's Ueber der Natur und den Ursprung der Emanationslehre bei den Kabbalisten*, Riga, 1786; *Molitor's Philosophie der Geschichte*, 1827—8; *Hartman's Die enge Verbindung des A. T. mit dem N.*, 1831; *Ketzer's Lexicon von P. Fritz*, 1838; *Brucker's Hist. Crit. Phil.*; *Ritter's Geschich. der Phil.*; *Vergleichende Mythologie von Nork*, 1836; *Kitto's Cycl. Bib. Lit.*

CALEB: mab Iephunch, o lwyth Iudah. Yr oedd efe yn un o'r ysbïwyr a anfonodd Moses i chwilio ansawdd Gwlad Canaan: *Num.* xiii. 1—20. Efe a Iosuah yn unig a roisant adroddiad ffyddlawn i'w brodyr ar eu dychweliad am ddaioni y tir, gan galonogi yr Israeliaid i fyned i fyny a'i feddiannu yn ol gair yr Arglwydd: ac am hyny hwynthwy eu dau yn unig a ddiangasant rhag y farn o farwolaeth yn yr anialwch a gyhoeddai Duw ar yr holl genedlaeth y perthynent iddi: *Num.* xiii. 6; xiv. 6, 24, 38. Pan aeth Iosuah i mewn i Wlad yr Addewid, yr oedd Caleb yn un

Digitized by Google

o'r deuddeg a ddewisodd Duw i ranu y tir. Wedi goresgyn y wlad, a meddianŵu rhanau o honi, caniatêid y rhagorfraint i Caleb o ddewis Caer Arba neu Hebron a'i chymmydogaeth yn etifeddiaeth: *Ios.* xiv. 6—15. Felly, efe a aeth i fyny, ac a'i cymmerodd oddi ar y cynfrodorion, ac a aeth oddi yno i Debir, yr hon a gymmerwyd drosto gan ei nai Othniel, yr hwn a gafodd Achsah ferch Caleb yn wraig, ac etifeddiaeth werthfawr i'w chanlyn, yn wobr am ei ddewrder: *Ios.* xv. 13—19. Tybir yn gyffredin fod Caleb wedi byw yn hwy na Iosuah.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.*)

CALEB-EPHRATAH: enw a roddid ar Bethlehem; ac a gyfansoddid trwy gydio enwau Caleb a'i wraig: 1 *Cron.* ii. 19, 24.

CALENDAR. Dyma yr enw a roddir ar drefn dosbarthiad y flwyddyn, wedi ei osod i lawr yn rheolaidd, yn ddyddiau, wythnosau, a misoedd, yn nghyd â threfn y gwyliau, a'r dyddiau penodol. Deillia y gair oddi wrth y Lladin *Calendæ* neu *Calends*, sef y dydd cyntaf o bob mis, yn ol trefn y Rhufeiniaid. Dosberthid y mis ganddynt yn dri dosbarth. Y *Calendæ* oedd y dydd cyntaf, a alwyd felly oddi wrth arferiad yr offeiriad (*pontifex*) yn cyhoeddi i'r bobl amser y lleuad newydd. Y dosbarth nesaf oedd yn dechreu ar y 5ed o'r mis, ac a elwid *Nonæ*, oddi wrth *nonus*= y nawfed; o herwydd fod hwn y nawfed dydd o flaen yr *Idus*, a chyfrif y 5ed a'r 13eg. Y dosbarth nesaf oedd yr *Idus*, oddi wrth y ferf *iduare* =rhanu; o herwydd fod yr *Idus* agos yn rhanu y mis. Yn Mawrth, Mai, Gorphenaf, a Hydref, yr oedd y *Nonæ* ar y 7fed, a'r *Idus* ar y 15fed. Arferid cyfrif y dydd a'r mis yn ol y dosbarthiadau hyn; sef, hyn a hyn o flaen y *Calendæ*, y *Nonæ*, neu yr *Idus*. Er anghraifft, y 26ain o Fehefin a gyfrifid y chweched dydd o flaen *Calendæ* Gorphenaf; a'r 5ed o Orphenaf, yn 3ydd dydd o flaen y *Nonæ*, yn yr un mis; a'r 11eg o'r mis hwnw, yn 5ed cyn *Idus* Gorphenaf.

Yr ydym wedi manylu ar y pethau hyn gan eu bod mewn arferiad yn y wlad hon yn y canrifoedd diweddaf, fel y gellir gweled mewn llawer o hen lyfrau. Gellir eu canfod yn y calendar eglwysig, yn amryw o'r gwahanol argraffiadau o *Lyfr Gweddi Gyffredin*, er un William Salisbury, yn 1586, hyd tua diwedd y canrif diweddaf. Dylid sylwi, hefyd, mai oddi wrth y gair *Calendæ* neu *Calends*, y daeth y gair "calan" i arferiad yn ein hiaith ni; megys y cawn ef yn, "Dydd Calan," ar ddechreuad y flwyddyn; "Calan-mai," "Calan-gauaf," &c. Ceir y gair weithiau yn yr hen lyfrau Cymraeg ar ddechreuad y misoedd; megys, "Calan-Awst," "Calan-Medi,"[1] &c.

Y prif restrau o drefniadaeth y flwyddyn a geir mewn hanesyddiaeth, ydynt y rhai Iuddewig, Rhufeiniaidd, Juliaidd, ac eiddo y pab Gregory.

Y mae traddodiad yn priodoli i Romulus y *Calendar Rhufeiniaidd*. Yn ol hwnw, yr oedd y flwyddyn yn dechreu yn mis Mawrth, ac wedi ei dosbarthu i ddeg o fisoedd, a'r rhai hyny yn anghyfartal o ran nifer y dyddiau yn mhob mis. Cyfanrif nifer y dyddiau yn y flwyddyn oedd 304. Ond canfyddwyd yn fuan fod y flwyddyn Rufeinig, yn ol y trefniad uchod, yn llai na'r flwyddyn yr oedd y Creawdwr wedi ei sefydlu. Sefydlodd Numa, ar ol hyny, ddau fis newydd, er dyfod â phethau yn drefnus; ond ni roddwyd y rhai hyn yn y calendar am lawer iawn o amser. Ar ol hyn, darfu i Numa, er dilyn y Groegiaid, ranu y flwyddyn yn ddeuddeng mis yn ol trefn y lleuad, yn cynnwys cyfanrif o 354 o ddyddiau. Ar ol hyny, chwanegodd un diwrnod er gwneyd y rhif yn od, gan y tybiai fod hyny yn rhif mwy ffodus. [*Pliny's Hist. Nat.*, xxxiv. 7.] Ond yr oedd deng niwrnod, pum awr, ac agos 49 o fynydau o wahaniaeth rhwng blwyddyn y lleuad, a blwyddyn yr haul. I wneyd hyny yn iawn, sefydlodd fath o fis anghyffredin bob yn ail flwyddyn, yn cynnwys weithiau 22 o ddyddiau, ac weithiau 23. Enw y mis hynod hwn oedd *Mensis Intercalaris*. Daeth yr arferiad o hono yn fantais i'r swyddogion Rhufeiniaidd i wasanaethu eu hunain a'u cyfeillion, trwy symmud yr amser a gwneyd y flwyddyn yn llai neu yn hwy, yn ol fel y gwelent hwy yn dda. Er anghraifft, efallai y byddai gan gyfeillion, neu berthynasau iddynt gytundeb i gasglu y trethi; a byddai yn elw iddynt gael blwyddyn hwy neu lai. [Gwel *Adam's Rom. Ant.*, td. 301.] Yr oedd hyn yn arwain i annhrefn mawr iawn.

Ond pan ddaeth Julius Cæsar i lywodraethu, penderfynodd roddi terfyn ar bethau o'r fath. I'r dyben hyny, gosododd astronomydd enwog o'r enw Sosigenes, o Alexandria, ar waith i barotoi calendar newydd yn ol trefn yr haul; a rhoddodd yn mhob mis yr un rhifedi o ddyddiau ag sydd ynddynt yn awr. I'r dyben i ddyfod â phethau i'w lle, rhoddodd yn y flwyddyn a alwyd yn *Flwyddyn olaf yr annhrefn*, heb law y *Mensis Intercalaris*, fisoedd newydd anghyffredinol; fel y cynnwysai y flwyddyn hono 15 o fisoedd, a 445 o ddyddiau. Hwn yw y *Calendar Juliaidd*, yr hwn sydd mewn arferiad hyd y dydd hwn; oddi eithr y cyfnewidiad a adnabyddir wrth yr enw *hen style*, a *style newydd* (hen ddull, a dull newydd), yr hyn sydd yn gwneyd i fyny yr hyn a elwir *Calendar Gregory*.

Cyn gadael y Rhufeiniaid â'u cyfnewidiadau yn y Calendar, efallai y dylem sylwi mai enwau y misoedd ar y cyntaf oedd fel y canlyn:—Mawrth (*Martius*) oedd y cyntaf; oddi wrth y duw a elwid felly, yr hwn a dybid oedd yn dad i Romulus. Yr ail, Ebrill (*Aprilis*), un ai oddi wrth enw Groegaidd Gwener, neu ynte o herwydd fod blodau y coed a'r llysiau yn agor y pryd hwn. Y trydydd, Mai (*Maius*), oddi wrth Maia, mam Mercury. Y pedwerydd *June*, neu *Junius*, oddi wrth y dduwies Juno. Enwyd y lleill oll yn ol eu rhif:—*Quintilis* (pummed); *Sextilis* (chweched); *September* (seithfed); *October* (wythfed); *November* (nawfed); *December* (degfed). Newidiwyd ar ol hyny *Quintilis*, i fod ar enw Julius Cæsar; a *Sextilis*, i fod ar enw Augustus Cæsar. Ar ol hyny, yn amser Numa, y chwanegwyd *Januarius*, oddi wrth *Janus*; a *Februarius*, o herwydd mai yn y mis hwn yr arferid puro y bobl (*februabatur*) trwy aberth oddi wrth bechodau yr holl flwyddyn; o blegid hwn y pryd hyny oedd y dosran olaf o'r flwyddyn.

Dyma ni bellach wedi dyfod at y diwygiad a gymmerodd le yn amser y pab Gregory, yr hwn a wnaethpwyd yn y flwyddyn 1582. Gwelwyd yn y flwyddyn hono fod Alban Eilir (*vernal equinox*) ar y 10fed o Fawrth; a chan fod hanesiaeth yn eu dysgu ei fod yn amser Cynghor Nice, sef yn y flwyddyn 325, ar yr 21ain, yr oeddynt felly yn canfod fod trefniad y flwyddyn wedi myned o'i le lawer o ddyddiau, ar ol sefydliad y flwyddyn Juliaidd. Y pryd hyny yr oedd Julius wedi trefnu fod diwrnod yn cael ei chwanegu bob

[1] Gwel ragor ar y pethau uchod yn yr *Herafiaethau*, &c., gan W. Roberts.

Digitized by Google

pedair blynedd, fel y mae yn awr, ar gyfer y chwe awr sydd dros ben 365 o ddyddiau yn y flwyddyn; ond nid oedd ef na neb arall wedi meddwl am ddarpariaeth ar gyfer yr 11eg o fynydau, ac 11eg o eiliadau, sydd yn fyr o wneyd y chwe awr uchod i fyny yn hyd y flwyddyn; yr hyn, mewn 129 o flyneddoedd, sydd yn gwneyd diwrnod cyfan; ac erbyn treulio 1257 o flyneddoedd (sef o Gynghor Nice, hyd amser Gregory XIII. yn 1582), yr oedd yr annhrefn wedi myned yn ddeng niwrnod; ac ordeiniodd Gregory, trwy gyfarwyddyd astronomyddion cyfaddas, i adael allan y dyddiau o'r 4ydd i'r 15fed o Hydref. Felly galwyd y 5ed yn 15fed; yna yr oedd yr 22ain o Ragfyr, 1582, yn dyfod yn 1af o Ionawr, 1583. Trefnwyd yn mhellach fod tri diwrnod bob 400 mlynedd yn cael eu tynu allan; sef, diwrnod ar ddiwedd pob canrif, oddi eithr y pedwerydd canrif: a thrwy y drefn hon, cedwir y calendar mor agos i'w le, fel na fydd wedi myned ddiwrnod cyfan oddi wrth gwrs y flwyddyn heulawg mewn llai na 5200 a flyneddoedd. Ond er fod y diwygiad yna wedi ei wneuthur yn y calendar gan Gregory, a'i fod wedi ei fabwysiadu yn yr holl wledydd a goleddent y grefydd Babaidd; eto, nid oedd Prydain yn barod i dderbyn hyd yn oed ddaioni o Rufain mor fuan ar ol y Diwygiad Protestanaidd, ac ydoedd yn 1582. Gan hyny, cadwyd yr hen drefn, neu yn hytrach yr hen annhrefn, yn ein gwlad ni am 170 o flyneddoedd yn hwy. Dylid sylwi yma, fod ymdrech wedi bod i ddwyn pethau i drefn yn amser Elizabeth, yn fuan ar ol i Gregory wneyd cyfnewidiad yn y calendar. Cawn, yn y 27ain o deyrnasiad Elizabeth, ar yr 16eg o Fawrth, 1584—5,[1] fod ysgrif yn cael ei darllen y waith gyntaf yn Nhŷ yr Arglwyddi—

Act yn rhoddi awdurdod i'w Mawrhydi i gyfnewid ac i wneyd y calendar yn ol fel y mae calendarau yn y gwledydd ereill." Darllenwyd hwn yr ail waith ar y 18fed o'r un mis; ond wedi hyny nid oes air o son am dano.

Dylid sylwi yma mai yn raddol y derbyniwyd y diwygiad hwn gan wahanol wledydd Ewrop. Derbyniodd pobl Ffrainc, Yspaen, Portugal, Italy, a pharthau o'r Iseldiroedd, ef yn yr un flwyddyn, sef 1582; ond y gwledydd Protestanaidd a fuant yn hwyrfrydig. Yn 1700, derbyniwyd ef gan y Lutheriaid yn yr Almaen, Switzerland, &c. Yn 1752, gwnaed yr un peth yn Sweden, Tuscany, a Phrydain Fawr. Ond arosodd Rwssia hyd y dydd hwn heb newid y dull; gan hyny, y mae, erbyn hyn, ddeuddeg o ddyddiau rhwng eu dyddiad hwy a'n dyddiad ni.

Yr act nesaf a gawn yw 24 Geo. II., pen. 23, lle y mae eglurhâd ar y cyfnewidiad a wnaed yn nghalendar y wlad hon, yn 1751—2. Cawn yn hono ddarpariadau er diwygiad mewn pedwar o bethau pwysig:—

1. Fod yn rhaid dechreu y flwyddyn gyfreithlawn, neu yn ol trefn y gyfraith, ar y 1af o Ionawr, yn lle y 25ain o Fawrth, fel yr oeddid wedi gwneyd hyd yma. Gwelir yn yr holl hen lyfrau Cymraeg a Seisoneg, mai felly yr ydoedd cyn y flwyddyn 1752. Rhoddwyd y dosran hwn o'r act mewn grym ar y 1af o Ionawr, 1752.

Bu gwahaniaeth mawr rhwng cenedloedd yn eu hamser yn penodi dechreuad y flwyddyn. Yr Atheniaid a'i dechreuasant yn Mehefin; y Macedoniaid, yn Medi; y Rhufeiniaid, fel y nodwyd yn barod, yn Mawrth, ac wedi hyny yn Ionawr; y Persiaid, ar yr 11eg o Awst; y Mahometiaid, yn Gorphenaf; a'r seryddwyr, yn Alban Eilir. Yn Mhrydain, dechreuid hi y 25ain o Fawrth, hyd 1582; ar ol hyny yr oedd rhyw gymmysgedd yn y dull, hyd nes gwnaed yr act yn 1751, i benderfynu y peth. Yn yr Alban, darfu y brenin Iago VI. gyhoeddi yn 1600, fod y flwyddyn i ddechreu yno Ionawr 1af, yn lle Mawrth 25ain.

2. Fod yn rhaid tynu allan 11 o ddyddiau ar gyfer diwygio y calendar, a dyfod âg ef i ffurf calendar gwledydd ereill. Gwelir fod eisieu tynu un diwrnod yn rhagor nag a dynwyd yn amser Gregory; canys yr oedd 170 o flyneddoedd wedi myned heibio er hyny. Rhoddwyd y dosran hwn o'r act mewn grym yn mis Medi, 1752. Gadawyd allan 11 o ddyddiau ar ol yr 2il o Fedi yn y flwyddyn hono; a galwyd y 14eg o Fedi yn 3ydd, gan adael i'r 11 o ddyddiau fyned i ebargofiant.

Ond cofier mai peth yn act y senedd oedd hyn; ac er fod yr act hono yn dda, ac y dylasai fod wedi cymmeryd lle 170 o flyneddoedd yn flaenorol, eto nid oedd parodrwydd yn y bobl i dderbyn y fath gyfnewidiad. Yr oedd cyfnewidiad o'r fath hyn yn dyfod ar draws holl gynlluniau a defodau y wlad, braidd; nid oedd na ffair, na gwylmabsant (a chofier fod y gwyliau hyn mewn bri mawr y pryd hyny), na Phasc, na Sulgwyn, na Nadolig, nac un cyfnod arall, nad oedd yr act ormesol hon yn taflu y cyfan o'u lle. Yn awr, y cwestiwn oedd, Pa beth oedd i'w wneyd? Felly yr oedd raid i almanacwyr Cymru a Lloegr hysbysu fod eu halmanaciau hwy yn cynnwys pob peth o bwys yn yr hen dull, ac yn y dull newydd. Mewn rhai lleoedd cynnelid dwy ffair—un yn ol yr hen dull, a'r llall yn ol y dull newydd—ac y mae rhai o honynt yn aros hyd y dydd hwn. Hefyd, cynnelid dau wylmabsant, dau ddydd Nadolig, dau Galanmai, a dau Galangauaf, a dau o bob peth o bwys trwy y flwyddyn. Parhaodd y sel dros yr hen ddull hyd yn mhell yn y canrif hwn. Clywsom hen bobl yn dyweyd, tua'r flwyddyn 1820, fod yr anifeiliaid yn myned ar eu gliniau yn y beudai, yn fore ar yr *hen* ddydd Nadolig, o barch naturiol i goffadwriaeth genedigaeth y Messiah.—[Gwel *Mari Lwyd*, td. 136.] Y mae *Glastonbury thorn*, yn ymyl y Fenni, yr hon sydd, fel y gwyr naturiaethwyr, yn blodeuo tua'r gwyliau: teithiodd llawer o bobl bellder mawr o ffordd, megys o'r Merthyr, Aberhonddu, &c., i weled hon yn blodeuo ar yr *hen* ddydd Nadolig—fel y tybient, o barch i enedigaeth y Messiah. Yr oeddynt wrth gwrs yn gweled hyny weithiau, ac amserau ereill yn cael eu somi. Yr oedd unwaith, tua deunaw mlynedd yn ol, yn mhlith y pererinion hyn i'r Fenni, ddyn tra pharchus a dysgedig, yr hwn oedd yn offeiriad Pabaidd yn Merthyr ar y pryd hwnw: dygwyddodd iddo alw yn nhŷ gwraig yn Nhredegar, gyda yr hon yr ydoedd yn gydnabyddus; a dywedodd i ba le yr oedd yn bwriadu myned, yn nghyd â'i ddyben. Yr oedd hyn y diwrnod cyn yr *hen* ddydd Nadolig. Yr oedd ei merch yn ddarllengar a gwybodus: a hi a ddangosodd lyfr i'r offeiriad, yn yr hwn y traethid am y ddraenen a elwir *Glastonbury thorn*. Wedi darllen hwnw, trodd yn ei ol, heb fyned yn mhellach. Dengys pethau fel hyn mor bell y mae rhagfarn yn cario dynion, yn nghyd â gwerth gwybodaeth athronyddol a chrefyddol.

3. Yr oedd yr act hefyd yn sefydlu darpariaeth ar gyfer yr 11 mynydau, a'r 11 eiliadau

[1] Fel uchod yr oeddid yn dyddio y blyneddoedd cyn 1752, o Ionawr hyd Fawrth. Gelwid yr uchod, yn ol ein trefn ni yn awr, Mawrth, 1585.

Digitized by Google

mewn amser dyfodol; sef, fod y blyneddoedd 1800, 1900, 2100, 2200, 2300, yn nghyd â phob canfed flwyddyn, oddi eithr y pedwerydd canfed o oed Crist, i fod un diwrnod yn llai. Ond am y flwyddyn 2000, yr oedd hi i fod yn gyntaf o restr *y pedwerydd canfed*, sef y rhai nad ydynt i fod yn llai o rif y dyddiau. Y blyneddoedd 2000, 2400, 2800, a 3200, ydynt i gynnwys 366 o ddyddiau, gan eu bod yn flwyddyn naid; ond am bob canfed arall, er eu bod yn flwyddyn naid yn ol y drefn Juliaidd o chwanegu diwrnod bob pedair blynedd, eto tynir allan ddiwrnod o bob un o honynt, a gwneir hwy yn 365 o ddyddiau, er mwyn gwastatäu y mynydau a'r eiliadau a nodwyd uchod.

4. Yr oedd yr act hon yn newid y cynllun i benderfynu amseriad y Pasc, a'r holl wyliau symmudol ereill. Yr oedd yr hen drefn a fabwysiadwyd yn nghynghor Nice o ganlyniad yn cael ei newid, a rheolau yn cael eu gosod yn yr act hon i fod mewn grym o'r 2il o Fedi, 1752 yn mlaen. Gwel CALENDAR EGLWYSIG.

Efallai na ddylem anghofio y calendar a ffurfiwyd yn Ffrainc, yn amser y chwyldroad yn 1793. Mae y fath adnabyddiaeth yn awr rhyngom ni a Ffrainc fel y dylem fod yn gyfarwydd â hanes y wlad hono braidd fel yr eiddom ein hunain. Yn amser y chwyldroad hwnw, aethpwyd i ffurflo calendar, fel y dywedent, ar egwyddorion athronyddol; a rhoddwyd gorchymyn allan, ar y 24ain o Dachwedd, 1793, nad oedd son i fod mwyach am oedran Crist—fod prifnod (*era*) newydd i ddechreu o sefydliad y werin-lywodraeth, sef Medi 22ain, 1792. Yr oeddynt yn rhanu y flwyddyn yn ddeuddeng mis, a deg ar ugain o ddyddiau yn mhob mis, a phum diwrnod ar ddiwedd y flwyddyn yn fath o ŵyl o gof am sefydliad y werin-lywodraeth. Nid oedd wythnosau i fod, ond rhaniad o'r misoedd yn ddegau o ddyddiau. Yr oeddynt wedi tynu cynllun am drefn y calendar newydd hwn i fod mewn grym yn ddigyfnewid am 4,000 o flyneddoedd. Ond ni bu mewn arferiad yn mhellach nag 1805, sef deuddeng mlynedd o'r amser y dechreuodd; yna mabwysiadwyd yr hen ddull Gregoraidd. Gwel BLWYDDYN; DYDD; MIS.

CALENDAR EGLWYSIG. Rhestr ddarparedig o ddyddiau a gwyliau, gogyfer a threfn gwasanaeth eglwysig, dros y flwyddyn, yw y calendar eglwysig. Rhaid i ni sylwi yn gyntaf ar y calendar eglwysig Pabaidd; o blegid oddi yno y tarddodd y rhestr o ddyddiau gwyliau Protestanaidd agos oll. Deilliodd y gwyliau Pabaidd ar y cyntaf oddi wrth y gwyliau a'r gwleddoedd paganaidd. Efallai y gallem mewn rhyw ystyriaethau olygu y dyben oedd ar y cyntaf gan yr Eglwys Babaidd yn mabwysiadu y dyddiau gwyliau paganaidd, ac yn eu gosod yn y calendar eglwysig, yn dda. Cawn mai y dyben oedd, er tynu y paganiaid i goleddu Cristionogaeth. Gan hyny darfu iddynt sefydlu gwyliau yn ngwahanol amserau y flwyddyn gyferbyn â'r gwahanol wyliau paganaidd. Gellir egluro hyn trwy ddyfynu dernyn o *Henafiaethau gan W. Roberts*, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1852, td. 120. "Codais eiriau Syr I. Newton [td. 6] yn dywedyd fod Gregory yn y trydydd canrif wedi sefydlu gwyliau y seintiau, yn lle gwyliau a gwleddoedd y paganiaid; yn awr dangosir yn fanylach y modd y dygwyd hyn oddi amgylch. Y brif wyl oedd y Saturnalia, a'r gwyliau cyssylltiedig y rnai a gynnelid am saith o ddyddiau, heb son am y Laurentinalia. I wrthbwyso y fath ŵyl a hon yr oedd raid cael rhyw ŵyl nodedig; felly rhoddwyd genedigaeth Crist yma, nid am fod neb yn meddwl fod Crist wedi ei eni y pryd hyny ar y flwyddyn [gwel ar hyn td. 136], ond o herwydd fod eisieu rhyw ŵyl nodedig i gymmeryd lle y Saturnalia: ac i'r dyben o'i gwneyd yn fwy enwog, rhoddwyd catrawd o ŵyliau ereill er cynnorthwyo hon i drechu yr hen ŵyliau paganaidd; sef Stephan, Ioan, y Gwirioniaid (sef lladd plant Bethlehem), Thomas, Matthew, &c. Dim ond mewn enw yn unig yr oedd y gwyliau hyn i drechu y rhai paganaidd; canys yr hen ddull o'u cynnal ydoedd i barhau yn y gloddest, y sports, &c. Y tair gwyl nesaf mewn pwysigrwydd gan y paganiaid oedd y dydd hwyaf, a'r 25ain o Fawrth a Medi, fel y nodwyd am wyliau y Derwyddon. Rhaid cael eto rhyw wyliau lled bwysig at y rhai hyn. Yn Mawrth, pan oedd gwyliau Bacchus, Minerva, a Hilaria, yn parhau am wyth niwrnod, gosodwyd yma Mair Forwyn, y santes enwocaf yn Rhufain [gwel tudal. 5 a 72.]. Barnwyd y gwnelai hyny, gyda gwyliau y Pasc, lyncu enwau yr hen Minerva, Bacchus, &c. Ioan Fedyddiwr,[1] a'r Drindod, Paul a Phedr, sydd i fod yn nghanol yr haf, i daflu Carna, Mars Juno, Bellona, Vesta, a Matuta, i dir anghof. Yn Medi, er mwyn cael amrywiaeth, rhag i'r oll fod yn seintiau daiarol, ac er mwyn troi holl gyflegrau a magnelau nef a daiar yn erbyn paganiaeth, Derwyddiaeth, &c., rhoddwyd Michael, neu Mihangel, yr archangel, a'r holl angelion! Dyna fyddin gref, i ddymchwel (mewn enw) yr wyl fawr i Jupiter, Juno, a Minerva, yn nghyd â gwyl Meditrina. Wrth gwrs, nid oes neb a feddwl mai ar gyfrif fod Mihangel wedi ei eni na'i greu ar yr adeg hon o'r flwyddyn; ond fod eisieu rhyw un o ddylanwad ac enwogrwydd i daflu paganiaeth i'r cysgod. Adegau lled bwysig hefyd ydoedd mynediad yr haul trwy arwyddion ereill y cylchedd; gan hyny yr oedd eisieu seintiau heb fod yn anenwog i lanw yr adwyau pwysig hyny. Troad St. Paul yn Ionawr, ar fynediad yr haul i'r dyfrwr, yn lle Janus, Carmenta, &c.; gwyl Matthias, heb law Valentine, &c., ar ei fynediad i'r pysg, yn Chwefror, yn lle Faunus, Pan, Romulus, Manes, &c.; yn Ebrill, ar fynediad yr haul i'r tarw, gwyl Marc, yn lle Cerealia, Fordicidia, Palilia, &c.; yn Mai, ar fynediad yr haul i'r gefeilliaid, gwyliau Corpus Christi, ac ereill, yn lle y Lemures, Mercury, a Vulcan; ar fynediad yr haul i arwydd y llew, yn lle Neptune, &c., yn Gorphenaf, gwyl Iago; yn Awst, ar fynediad yr haul i arwydd y forwyn, yn lle Venus, Consus, &c., gwyl Bartholomeus; yn Hydref, ar fynediad yr haul i'r sarff, yn lle Augustalia, Faunalia, &c., gwyl Simon a Iudas; yn Tachwedd, ar fynediad yr haul i'r saethydd, yn lle yr Epulum Jovis, &c., gwyl Andreas. Hefyd, yr oedd bylchau ereill heb eu llanw; rhoddwyd Phylip a Iago yn ngwyl fawr Flora, yn nechreu Mai; Barnabas yn lle Vesta a Fortuna, yn nechreu Mehefin; puredigaeth Mair yn lle gwyl fawr Ceres, a'i chanwyllau yn ymofyn am ei merch, Proserpina, a ddygwyd gan Pluto; gwyliau yr holl eneidiau a'r meirw, yn warcheidwaid Calangauaf, i wrthdroi yr hen goelcerthi Derwyddol, &c. Fel yna y sefydlwyd y gwyliau Pabyddol."

Ar ol hyny, llanwyd nid yn unig wahanol-ranau y misoedd uchod, ond pob wythnos yn y mis, a phob dydd yn yr wythnos, â seintiau, fel y oeir

[1] Efallai nad yw pawb sydd yn son am "Wyl Ifan," yn gwybod mai Ioan Fedyddiwr yw hwnw, a bod Ioan ac Ifan yr un peth yn ol trefn yr hen Gymry.

Digitized by Google

pob dydd trwy y flwyddyn, ond y 29ain o Chwefror ar y flwyddyn naid, wedi ei anrhydeddu â rhyw nifer o seintiau, a llawer o ddyddiau yn cynnwys o ddeg i bymtheg o honynt. Nis gellir rhoddi enwau yr holl seintiau sydd yn y Calendar Pabaidd, o herwydd y cymmerai ormod o le, ond rhoddir y nifer o wyliau saintyddol a wneir gan y Pabyddion bob mis.—Ionawr, 150; Chwefror, 143; Mawrth, 127; Ebrill, 144; Mai, 126; Mehefin, 145; Gorphenaf, 158; Awst, 117; Medi, 132; Hydref, 125; Tachwedd, 125; a Rhagfyr, 105:—yr oll yn 1607. Dylid sylwi, mai nid 1607 yn unig sydd o seintiau yn y Calendar Pabaidd, canys y mae llawer o'r ffugrau uchod yn cynnwys llawer (*group*) o seintiau wedi eu canoneiddio yn un pentwr. Hefyd, rai prydiau, ceir enwau pethau, ac angelion, yn mysg y canoneiddiaid: er anghraifft, ffydd, ar y 6ed o Hydref, ac y mae y diwygwyr Protestanaidd wedi codi yr wyl hon i Galendar Eglwys Loegr, yn nghyd â gwyliau yr angelion, a gwyliau er cof am ddygwyddiadau, &c. Mae enwau yr oll sydd yn y Calendar Pabaidd (set y 1607 uchod), yn llawn a rheolaidd yn *Every Day Book* yr enwog W. Hone. Dylem gofio hefyd nad yw y rhif a nodwyd yn cynnwys un o'r gwyliau symmudol, sydd wedi eu cylymu wrth y Pasc, y rhai a ddeuant o dan sylw eto. Yn raddol y daeth y Calendar Pabaidd mor llawn—o oes i oes, fel yr oeddynt yn cael eu canoneiddio. Am y dull o ganoneiddio:—nid rhywbeth yn cael ei wneyd o barch i un pan fyddai efe farw ydoedd, ond rywbryd ar ol hyny i ateb dybenion yr Eglwys Babaidd: er anghraifft, dyna ein Dewi Sant ni, y Cymry, wedi byw yn y pummed a'r chweched canrif, ac wedi gwneyd rhyw wmbredd o wyrthiau, os credir yr hen lyfrau Pabaidd; a Sant Cyndeyrn wedi gweled yr angelion yn myned â'i naid ef i'r nefoedd yn y flwyddyn 544, sef pan fu farw. Ond er yr holl wyrthiau a'r daioni a wnaeth, ni wnaed ef yn sant gan Eglwys Rhufain hyd yr unfed canrif ar ddeg. Mae yn ddigon tebyg pe buasai Dewi yn gwybod yn ei fywyd yr hyn a wneid iddo gynnifer o gannoedd ar ol ei farwolaeth, na buasai ganddo fawr o olwg ar y peth; canys nid oedd y canoneiddio ond wedi prin ddechreu yn amser Dewi, yn enwedig yn Nghymru. Mor belled ag y gallwn ni gasglu oddi wrth hanesiaeth, ni wyddai y Cymry am santyddiaeth, yn ol y dull Pabaidd o'u canoneiddio, am gannoedd o flyneddoedd ar ol hyny.

Yn awr deuwn at y *gwyliau symmudol.* Y mae llawer o wyliau wedi eu rhwymo o ran amseriad i ymddibynu ar adeg y Pasc; gan hyny y maent weithiau yn gynt ac weithiau yn ddiweddarach ar y flwyddyn, yn ol fel y byddo y Pasc yn dygwydd. Y gwyliau hyn ydynt y *Septuagesima*, a elwir felly o herwydd ei bod ddeg a thrigain o ddyddiau cyn y Pasc; *Sexagesima*, trigain o ddyddiau cyn y Pasc; *Quinquagesima*, deg a deugain o ddyddiau cyn y Pasc—gelwir hwn weithiau yn Sul Ynyd; yna Dydd Mawrth Ynyd; Mercher y Lludw: *Quadragesima*, deugain o ddyddiau cyn y Pasc. Dyma dymmor y Grawys yn dilyn;—Sul y Blodau; yna y *Passion Week*—yn hon y mae Gwener y Croglith. Yna y Pasc; yna y Suliau ar ol y Pasc, hyd nes deuir at y 5ed, yr hwn yw Sul y Gweddiau (*Rogation Sunday*); wedi hyny dydd Iau y Dyrchafael; ar ol hyn y Sungwyn, a Sul y Drindod; *Corpus Christi* (gwyl corff Crist), sydd gan y Pabyddion ar ddydd Iau ar ol Sul y Drindod; hon yw'r unig un sydd heb fod gan Eglwys Loegr o'r lluaws gwyliau sydd gan Eglwys Rhufain yn dibynu ar y Pasc. Ar ol hyny cawn y Suliau wedi'r Drindod. Mae yr holl wyliau hyn, fel y nodwyd, yn dibynu ar y Pasc am eu hamseriad. Yn awr, pwne o gryn bwys wedi arfer cael ei ystyried ydyw y drefn o wybod amser y Pasc. Byddai yn werth i ryw un a fynai edrych yn fanwl ar wahanol dreigliadau y gwyliau hyn trwy y canrifoedd a aethant heibio, ddarllen *History of Good Friday*, gan Robinson, Caergrawnt. Mae amryw dablau yn y *Llyfr Gweddi Gyffredin* (o leia, mewn llawer o'r hen argraffiadau) i gael allan amser y Pasc, trwy ddeall y *prif*, a'r llythyren Sul (*dominical letter*), &c.

Gall y darllenydd weled traethawd hirfaith yn y *Philosophical Transactions*, a gyhoeddwyd yn 1710, yn dangos yr anhawsderau oedd yn gyssylltiedig â'r rheol i gael amser y Pasc. Cyhoeddwyd llyfr 8plyg, yn 1735, gan un H. Wilson, yn cynnwys *Rheol i wybod trefn amseriad y Pasc*, &c. Gellid meddwl bod yn hawdd deall y rheol ganlynol:—"Fod y Pasc y Sul cyntaf wedi y llawn lleuad, a syrthio ar, neu y nesaf ar ol, yr 21ain o Fawrth. Ac os dygwydd y llawn lleuad ar ddydd Sul, dydd Pasc yw y Sul ar ol hyny." Ond y mae yr amryw draethodau, tablau, a llyfrau a gyhoeddwyd i eglurhau hyn, yn dangos fod gryn anhawsderau yma. Un anhawsdra yw, fod cylch (*cycle*) yr haul yn 28 o flyneddoedd. Anhawsdra arall yw, fod dwy lythyren Sul am y flwyddyn naid; sef un hyd ddiwedd Chwefror, a'r llall hyd ddiwedd y flwyddyn. Anhawsdra arall yw, amser dechreuad y dyddiau mewn gwahanol fanau, &c. Anghraifft o'r anhawsderau hyn yw yr hyn a ddygwyddodd tua deugain mlynedd yn ol; sef, fod yr almanaciau yn cynnwys dydd camsyniol i gynnal y Pasc arno. Yr oeddynt wedi dilyn eu gilydd yn yr un camsyniad. Gwelwyd y peth cyn i'r Pasc ddyfod; anfonwyd *memorial* at yr arglwyddi. Yr oedd rhai offeiriaid yn rhy gyndyn i newid; glynent, meddynt hwy, wrth yr almanaciau a'r *Rubric*. Felly, cynnaliodd rhai eu Pasc un Sul, a'r lleill y Sul arall. Dygwyddodd camsyniad cyffelyb yn 1825. Yr oedd y llawn lleuad ar fore Sul, 6*a.* 23*m.*, o'r gloch. Yn ol act y senedd a'r *Rubric*, dylasai y Pasc fod o ganlyniad ar y 10fed, ac agoriad llysoedd y gyfraith ar y 27ain. Ond rhoddodd yr almanacwyr y Pasc ar y 3ydd, a'r *term* cyfreithiol ar yr 20fed. Gwelir fod y camsyniad yna wedi ymgodi oddi ar y dyb fod y dydd Sul hwnw yn dechreu ar ol 6*a.* 23*m.* yn y bore. Y mae erthygl fechan, gynnwysfawr, a syml, yn y *Penny Cyclopædia*, ar y llythyren Sul, dan y geiriau DOMINICAL LETTER, a thabl hawdd i'w ddeall ar y mater dan sylw.

CALFARIA: y gair sydd yn y cyfieithiad Lladin am y gair *cranion* a ddefnyddia Luc i ddynodi y man lle y croeshoeliwyd Iachawdwr y byd (*Luc* xxiii. 33); ac a gadwyd yn ein cyfieithiad ninnau. Yn yr haneswyr ereill defnyddir y gair Hebraeg *Golgotha*: *Mat.* xxvii. 33; *Marc* xv. 22; *Ioan* xix. 17. Mae y tri gair o'r un arwyddocâd, ac yn dynodi *pen* neu *penglog.* Pa ham y gelwid y lle ar yr enw hwn sydd yn ammheus. Rhai a fynent y gelwir y lle yn Galfaria, neu Le y benglog, o herwydd ei fod yn ddienyddle lle y rhoddid drwgweithredwyr yn gyffredin i farwolaeth arno: ereill a olygant fod arno gladdfa gyffredin (*cemetery*): ac ereill, mai o herwydd eu bod yn arfer taflu penglogau yr anifeiliaid a aberthid yn Ierusalem ar ryw ran o hono. Ond ereill a

Digitized by Google

farnant ei fod yn cael ei alw felly o herwydd dullwedd naturiol y bryn, trwy ei fod yn ymddyrchafu i'r golwg megys penglog, neu gopa pen dyn. Dros y golygiad olaf y rhoddir y rhesymau canlynol. Mae cydsyniad cyffredinol mai y cyfryw ydoedd ffurf y lle; yr hyn a gadarnheir gan yr ymadrodd traddodiadol a briodolir i Galfaria, sef mynydd, neu yn hytrach *bryn* (*mount*). Mae y llun a gynnwysir yn y gair penglog yn gysson â'r cydsyniad a'r traddodiad hwn. Cadarnheir grym yr ystyrlaethau hyn gan yr anhawsderau sydd yn gyssylltiedig â'r esboniadau ereill. Mor bell ag sydd yn wybyddus, nid oes dim profion hanesyddol fod dienyddle cyffredin yn y fan lle y tybir yn gyffredin fod Calfaria, nac ychwaith fod un lle o'r fath yn dwyn yr enw hwn yn Ierusalem na'r cyffiniau. Nid yw y gair Calfaria yn ddysgrifiadwy o'r fath le. I'w wneuthur felly dylasai fod yn lle y *penglogau*, ac nid lle y *benglog*. Ond yn y rhif unigol y lleferir am dano gan y pedwar efengylwr, heb unwaith yn y rhif luosog. Mae y dull yr enwir y lle yn anghysson â'r dybiaeth ei fod yn adnabyddus, fel y buasai dienyddle cyffredin. Galw Matthew y lle "Golgotha, yr hwn a elwir Lle'r benglog." Dywed Marc, "lle Golgotha, yr hyn o'i gyfieithu yw Lle'r benglog." Luc, "y lle a elwir Calfaria." Ioan, "lle a elwid Lle'r benglog, ac a elwir yn Hebraeg Golgotha." Nid yw un o'r dysgrifiadau hyn yn naturiol, pe buasai Calfaria yn nodedig fel y lle yn yr hwn y rhoddid drwgweithredwyr i farwolaeth. Ni buasai un esboniad yn angenrheidiol—gwybuasai pawb pa beth ac yn mha le yr oedd Calfaria. Gellid casglu oddi wrth yr hanes, i'r milwyr Rhufeinaidd gymmeryd Iesu ymaith ar frys, a'i roddi i farwolaeth yn y lle cyfleus cyntaf; a hyny yn hytrach, o herwydd fod perygl cynhwrf yn mhlith y bobl, gan fod lluaws o honynt yn ei ddilyn. Ond yn mha le yr oedd y fan? Gellid meddwl oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, mai nid yn mhell oddi wrth y "dadleudŷ," yr hwn ydoedd, mae yn ddiau, yn agos i brif gynnullfan y milwyr Rhufeinaidd, sef Castell Antonia (*Fort Antonia*). Ac oddi wrth y map a roddir yn ei le priodol o ddinas Ierusalem, gwelir mai yn y gongl ogledd-orllewinol oddi wrth y deml yr oedd y castell hwnw. Nid oedd yn debygol gan hyny y buasai y milwyr yn cymmeryd yr Iesu i'r deheu, hyny yw trwy holl led y ddinas, yn y sefyllfa gythryblus yr oedd y ddinas ynddi ar y pryd. Mae yn eglur gan hyny mai yn y rhan ogleddol o'r ddinas y rhoddasant ef i farwolaeth. Ac os yn y gogledd ni buasai un man mor gyfleus a'r ffordd i Ioppa neu Damascus; ac yn y gymmydogaeth hono nid oedd un lle mwy cyfaddas i'w dyben na'r ymgodiad crwn a elwir Calfaria. Rhoddai gelynion yr Iesu y flaenoriaeth i ryw fryn fel lle ei groeshoeliad, er mwyn ei osod yn fwy manteisiol i fod yn wrthddrych gwawd, ac i roddi arbenigrwydd i'r cyhuddiad yn ei erbyn. Yr oedd yr un amgylchiad yn gwasanaethu amcan doethineb dwyfol, trwy fod Mab Duw yn cael ei roddi i farwolaeth ar le digon uchel i bawb o'r dyrfa oedd yn myned heibio ei ganfod pan ar y groes. Mae yr hanes yn dangos mai nid yn y man y condemniwyd ein Hiachawdwr, nac ychwaith yn agos iawn ato, y rhoddwyd ef i farwolaeth; ond iddo gael ei arwain trwy ryw gymmaint o'r ddinas. Os felly, gwelir oddi wrth y cynllun o Ierusalem fod yn rhaid i hyn fod tua'r gorllewin. Ymddengys oddi wrth hyn fod dau bwynt wedi eu penderfynu—cymmerodd y croeshoeliad le i'r *gogledd-orllewin* o'r ddinas.

Yr hanes yn yr efengylwyr mewn perthynas i le y croeshoeliad a chladdedigaeth ein Harglwydd sydd fel y canlyn:—wedi i Pilat ei draddodi i'w groeshoelio, arweiniwyd yr Iesu ymaith, yn cael ei ganlyn gan luaws mawr o bobl ac o wragedd yn galaru o'i blegid ef. Ar y ffordd cyfarfyddodd y milwyr âg un Simon o Cyrene, *yn dyfod o'r wlad*, yr hwn a gymhellasant i ddwyn ei groes. Wedi dyfod i'r man a elwir Calfaria, yno y croeshoeliasant ef. Yr oedd y lle yn agos i'r ddinas; a chan eistedd, hwy a'u gwyliasant ef yno. A'r rhai oedd yn myned heibio a'i cablasant gan ysgwyd eu penau. Yr un modd yr archoffeiriaid hefyd a'i gwatwarasant ef. Y milwyr hefyd a'i gwatwarasant ef. Yr oedd yn sefyll wrth groes yr Iesu ei fam, a chwaer ei fam, a Mair Magdalen. A'i holl gydnabod ef a safasant o hirbell; a'r gwragedd, y rhai a'i canlynasant ef o Galilea, yn edrych ar y pethau hyn. *Yn y mangre lle y croeshoeliasid* ef yr oedd gardd, a bedd newydd yn yr ardd, wedi ei naddu yn y graig; yno y dodasant ef, ac y treiglasant faen mawr wrth ddrws y bedd. Dywed awdwr yr Epistol at yr Hebreaid iddo ddyoddef *y tu allan i'r porth*, gan chwanegu, "Am hyny awn allan ato ef o'r tu allan i'r gwersyll, gan ddwyn ei waradwydd ef;" *Heb.* xiii. 12, 13; *Mat.* xxvii; *Marc* xv; *Luc* xxiii; *Ioan* xix.

Fel hyn yr ydym yn dysgu, fel ffaith bendant, fod y croeshoeliad a'r claddedigaeth wedi cymmeryd lle y tu allan i'r ddinas, ac eto yn agos at y ddinas. Ac y mae tystiolaeth yr ysgrifenydd at yr Hebreaid yn cael ei gadarnhau gan y sylw achlysurol fod y milwyr wedi cymhell Simon wrth ddyfod o'r wlad. Ymddengys gan hyny fod Calfaria yn gorwedd i'r gogledd-orllewin, a hefyd y tu allan i'r ddinas. Ac oddi wrth yr holl hanes arweinir ni i feddwl mai nid yn mhell o'r tu allan i'r ddinas yr ydoedd. Mae yn eglur fod y lle yn un ag y gallai llawer o bobl gyrchu o'i amgylch, yn agos i ba un yr oedd teithwyr yn myned heibio, a lle cyfleus i edrychwyr o bell ac agos weled a siarad wrth y rhai oedd yn dyoddef arno; yr hyn oll sydd yn dangos fod y lle ar ryw gymmaint o godiad; ac nad "mewn congl y gwnaed hyn," ond mewn man a than amgylchiadau tebygol o wneyd Calfaria yn dra adnabyddus gan elynion a chyfeillion yr Arglwydd. Yr oedd hefyd amgylchiadau adgyfodiad Crist y fath ag i sicrhau yn annileadwy y cof am y lle yn meddyliau y dysgyblion cyntaf.

Yma y mae yn angenrheidiol cyfeirio sylw y darllenydd at y ddadl sydd wedi bod yn hir ar droed mewn perthynas i gywirdeb y traddodiad am y fan y cyfeirir ato yn bresennol dan yr enw Calfaria a lle y bedd sanctaidd. Mae llawer i'w ddyweyd o blaid ac yn erbyn mai y lle y mae traddodiad canrifoedd wedi cyfeirio ato fel Calfaria ydyw y fan lle y croeshoeliwyd y Gwaredwr. Ac yn y blyneddoedd diweddaf y mae llawer wedi ei ysgrifenu o'r ddwy ochr. Rhoddir yma grynodeb byr o'r rhesymau gwrthwynebol hyn Ac yn gyntaf o blaid yr honiad mai y lle y cyfeirir ato yn bresennol, ac sydd wedi cael ei dderbyn trwy yr oesoedd fel y fan y croeshoeliwyd ac y claddwyd yr Iesu ydyw y fan gwirioneddol y cymmerodd hyny le:—

Y mae yn annhebygol iawn y buasai y cof am y lle yn colli. O bob man, gallesid dysgwyl y buasai Calfaria y lle mwyaf cyssegredig yn nheimladau yr eglwys foreuol. Yr oedd beddau y prophwydi, a beddrod Dafydd (*Mat.* xxiii. 29; *Act.* ii. 29), yn wrthddrychau parch a gofal crefyddol gan yr Iuddewon; ac y mae yn annhebyg

Digitized by Google

y buasai y fan lle y bu farw ac y claddwyd Arglwydd Dafydd yn syrthio i dir anghof, a hyny pan yr oedd ganddo gynnifer o ganlynwyr—pob un o ba rai oedd yn dysgwyl am fywyd tragywyddol trwy ei angeu. Cymmerodd y weithred ryfeddol o groeshoelio Arglwydd y Bywyd le ar adeg pan yr oedd miloedd wedi dyfod o bob gwlad i Ierusalem i'r ŵyl. Yr oedd casgliad cyffelyb o ddyeithriaid ar Wyl y Pentecost, pan y tywalltwyd yr Ysbryd Glân, ac y dwysbigwyd tair mil ar unwaith. Onid oedd yn naturiol i'r rhai oedd yn dysgwyl iachawdwriaeth trwy yr hwn a fu farw ar Galfaria syllu llawer ar y fan, a rhoddi dysgrifiadau o hono wedi ymwasgaru trwy wahanol wledydd, ac anwylo y cof am dano eu hunain, a'i drosglwyddo i'w plant? Y mae y tebygolrwydd hwn yn cael ei gadarnhau hefyd trwy y cyfeiriad yn yr Epistol at yr Hebreaid; o herwydd yn mhell yn y canrif cyntaf yr ydym yn cael ei nodi allan yn y modd mwyaf pendant fel y "tu allan i'r porth." Gwasanaethai yr ymadrodd hwn i gadw y cof yn fyw, ac i'w drosglwyddo o oes i oes, nes o'r diwedd i'r traddodiad gael ei sefydlu mewn hanesiaeth, ac i adeilad orwych gael ei chodi ar y fan, mewn cof am y rhyfeddodau a wnaeth Calfaria—y lle hynotaf ar wyneb y ddaiar. Ond cyn i ni ddyweyd dim am yr adeilad hon, a'r dystiolaeth a ddygodd i le y croeshoeliad, y mae yn angenrheidiol sylwi fod paganiaeth wedi cadarnhau y traddodiad Cristionogol. Ar ol i Ierusalem gael ei chymmeryd gan y Rhufeiniaid, gwnaed hi yn ddinas baganaidd, a chyfnewidiwyd ei henw i Colonia Ælia Capitolina. Yn ngorfoledd eu buddugoliaeth, gwnaethant Iau yn dduw amddiffynol y ddinas, a chodasant luniau o Iau a Gwener ar y fan lle y croeshoeliwyd yr Iesu. Gwnaed hyn, nid yn gymmaint o wawd, ond er mwyn ennill y Cristionogion. Cymmerai y paganiaid fantais o'r cyssegredigaeth oedd yn perthyn i Galfaria i godi eu hadeiladau sanctaidd arno. Y mae fod yno deml i Gwener yn ddigon i ddangos mai yno yr oedd yr Iesu wedi ei groeshoelio. Fel hyn, y mae y deml baganaidd hon yn cymmeryd i fyny y traddodiad, ac yn ei drosglwyddo mewn *marmor a cheryg* i'r oesoedd dyfodol. Yr oedd hyn yn fwy pwysig o gymmaint ag iddo gymmeryd lle tua'r amser yr alltudiwyd y Cristionogion o Ierusalem. Ond nid oedd eu halltudiaeth ond o fyr barhad; ac yn fore yn y trydydd canrif, yr oedd pererinion yn dyfod o wledydd pell i'r tir sanctaidd, er mwyn ymweled â'r manau yr oedd presennoldeb a dyoddefiadau Crist wedi eu gwneyd mor gofiadwy a chyssegredig. Canrif yn ddiweddarach (B. A. 315), hysbysir ni gan Eusebius, fod Cristionogion yn ymweled â Ierusalem o bob parth o'r ddaiar i'r un dyben. Y mae dylifiad mor fore i'r ddinas sanctaidd yn rhagdybied teimlad cryf a thraddodiad sefydlog yn yr eglwys o barth i'r lleoedd mwy nodedig.

Yn y pedwerydd canrif, y mae Eusebius a Jerome yn ysgrifenu y traddodiad, ac fel hyn yn ei wneyd yn sicr yn eu hysgrifeniadau. Ganwyd Eusebius yn Cesarea, yn Palestina, o ddeutu 270 B. A. Yn 315, gwnaethpwyd ef yn esgob ei wlad enedigol; ac yn 340 y bu farw. Yr ydoedd yn ddyn tra dysgedig; ac ysgrifenodd hanes yr Eglwys Gristionogol. O ddeutu y flwyddyn 330, ysgrifenodd lyfr a elwir *Onomasticon*, gyda y bwriad o benderfynu a chadw mewn cof fanau o hynodrwydd a chyssegredigaeth yn Ngwlad Canaan. Yn mhen o ddeutu hanner can mlynedd yn ddiweddarach, cyfleithwyd y llyfr hwn o'r Groeg, yn yr hon yr ysgrifenwyd ef gyntaf, i'r Lladin, gan Jerome; ac felly chwanegodd ei awdurdod ei hun at yr eiddo Eusebius. Ymgartrefodd Jerome yn Ngwlad Canaan tua diwedd y pedwerydd canrif, ac arosodd yno hyd ei farwolaeth. Dylifodd pererinion i mewn i'r wlad o bob parth, a phenderfynwyd mai yr un llanerch ydoedd Calfaria ag a ddangosir felly hyd yn awr. Gwnaed hyn, nid yn unig ar dystiolaeth y ddau ysgrifenydd a enwir uchod, ond yn unol â gweithrediadau yr ymherawdwr Cystenyn, a'i fam Helena. Yn ei henaint, ymwelodd mam yr ymherawdwr â Ierusalem, gyda y bwriad o adeiladu eglwys yn y fan y croeshoeliwyd yr A. dlwydd.

Mewn traethawd a gyhoeddwyd yn ddiweddar [*Site of the Holy Sepulchre*, by G. Finlay, K. R. G., 1847], dadleuir yn y modd canlynol. Bod y lle a ddangosir yn awr fel man y croeshoeliad yn gywir—o herwydd 1. Bod y cofrifiad (*census*) Rhufeinaidd, yn ddiammheu, bob amser yn gyflawn. 2. Y mae yn rhaid, o ganlyniad, ei fod yn cynnwys gwir sefyllfa y fan a adnabyddid fel Calfaria. 3. Y mae yn rhaid, gan hyny, fod y rhai hyn yn nwylaw mam Cystenyn i'w chwilio. 4. Nid oes ammheuaeth na chawsant eu chwilio yn fanwl ar ei gorchymyn, ac i'r gwir fan gael ei nodi allan: ac yna deuai i'r casgliad mai yr ünig ddau le yn Ierusalem nad oes betrusder yn eu cylch ydynt, y man y safai y deml arno, a Chalfaria. Ond i roddi y traddodiad yn gyflawn, dylid chwanegu, mai nid heb anhawsder mawr y cafwyd allan y gwir le, o herwydd ymdrechiadau y paganiaid i'w guddio. Ond erbyn cloddio, a gwneyd yr ymchwiliadau angenrheidiol, darganfyddwyd y bedd sanctaidd, ac yn ei ymyl dair croes, a'r ysgrifen a osododd Pilat uwchben croes y Gwaredwr. Ac ar y fan hon, pa un bynag ai gan Helena, ai gan yr ymherawdwr Cystenyn, y mae yn sicr trwy ddylanwad a chyfoeth Rhufain, y codwyd eglwys orwech. Gorphenwyd a chyssegrwyd yr eglwys yn y flwyddyn B. A. 335. Yr oedd hyn yn adeg bwysig i'r byd Cristionogol. Ac er mwyn rhoddi y pwysigrwydd a'r gorwychedd angenrheidiol arno, casglwyd cymmanfa o esgobion, trwy orchymyn yr ymherawdwr, o'r holl daleithiau, yr hon a ymgyfarfu gyntaf yn Tyrus, ac wedi hyny yn Ierusalem. Y cyfryw ydyw y traddodiad a grym yr ymresymiad dros unoliaeth y fan a elwir Calfaria yn awr a Chalfaria y Testament Newydd.

Yr hwn sydd wedi ysgrifenu fwyaf, a mwyaf penderfynol, yn erbyn cywirdeb y traddodiad, a thrwy hyny wedi galw sylw neilldiol at y mater y blyneddoedd diweddaf, ydyw Dr. Robinson, o'r America [*Biblical Researches*]. Dengys Dr. Robinson fod traddodiad mor hen ac mor gyffredinol a'r traddodiad uchod wedi ffynu am y man lle yr agorodd y ddaiar, ac y llyncodd yn fyw Corah, Dathan, ac Abiram. Yn nghymmydogaeth y mynachdy wrth fynydd Sinai, dangosir er's canrifoedd, nid yn unig y fan lle y gwnaeth Aaron y llo aur, a'r lle y torodd Moses lechau y gyfraith, ond hefyd y fan lle yr agorodd y ddaiar i lyncu Corah, Dathan, ac Abiram. Ond wrth gymharu *Num.* xvi, a *Num.* xiii. 26, a *Deut.* i. 2, ymddengys mai wedi i'r Israeliaid gyrhaedd Cades—taith un diwrnod ar ddeg oddi wrth Horeb a Sinai—y cymmerth y wyrth hono le. Drachefn, y mae Eusebius yn dyweyd mai i'r *gogledd* i Sion y mae Aceldama, neu faes y gwaed. Yr oedd efe yn llygad-dyst, ac y mae yn ddiammheu iddo roddi traddodiad ei oes ei hun am y fan, ac y mae yn bosibl, farn y rhai oedd yn cynnorthwyo Helena i gael allan le y gladdfa. Eto,

Digitized by Google

yn mhen trigain neu ddeng mlynedd a thrigain, gesyd Jerome Aceldama i'r *deheu* o Sion, ac felly y credir hyd heddyw. Eusebius ydyw y prif dyst am Galfaria, ac eto dyma ei farn ef am Aceldama yn cael ei gosod o'r neilldu yn yr oes nesaf at ei oes ef ei hun. Ond yr anghraifft fwyaf nodedig o barth i ffacledigrwydd traddodiad mewn amgylchiad o'r fath, ydyw lle tybiedig esgyniad yr Arglwydd Iesu oddi ar ben Mynydd yr Olewydd. Am y lle hwn yr oedd traddodiad o flaen oes Cystenyn, ac ymwelai pererinion âg ef fel y cyfryw. Eusebius hefyd ydyw y prif dyst yn yr achos hwn; ac wrth ysgrifenu, un mlynedd ar ddeg (B. A. 315) cyn taith Helena, efe a ddywed fod Cristionogion yn dyfod o bob parth o'r ddaiar i Ierusalem, i addoli ar ben Mynydd yr Olewydd, lle y dysgasai Iesu ei ddysgyblion, ac yno yr esgynodd i'r nefoedd. Efe hefyd sydd yn adrodd mai Helena a sylfaenodd eglwys ar ben yr Olewydd, er cadw cof parchus am esgyniad ein Harglwydd, ac un arall yn Bethlehem, uwch ben lle ei enedigaeth. Ond yn ngwyneb y dystiolaeth a'r traddodiad hwn, y mae yn ddiau eu bod yn gyfeiliornus, o herwydd fe ddywedir yn *Luc* xxiv. 50, 51; "Ac efe a'u dyg hwynt allan hyd yn Bethania."

Ar ôl rhoddi yr anghreifftiau hyn, nad yw traddodiad yn sail ddilys i ddal casgliad arno o barth unoliaeth unrhyw le a enwir yn yr Ysgrythyrau, y mae Robinson yn myned rhagddo i wadu fod un traddodiad sicr yn amser Eusebius yn penderfynu lle claddedigaeth yr Arglwydd. Ei resymau dros yr honiad hwn ydynt:—Nad oes un o'r tadau, yn foreuach nag Eusebius, yn crybwyll dim oll am le claddedigaeth yr Iesu. Efe, yr hwn ydoedd yn gydoeswr a chyfaill i Cystenyn, ac yn gweithredu drosto yn Ngwlad Canaan yn y materion hyn, ydyw yr unig un sydd yn rhoddi i ni y ffeithiau hanesyddol am yr ymchwiliadau i Galfaria yn yr oes hono. Yn awr, deng mlynedd cyn darganfyddiad y bedd sanctaidd, llefara Eusebius am y lluaws oedd yn ymgyrchu o bob parth i ymweled â Mynydd yr Olewydd, ac hefyd â Bethlehem:—pe buasai traddodiad sicr am Galfaria, oni buasai yr un cynnulliad pobloedd yno, ac oni buasai yn naturiol i'r hanesydd grybwyll hyn wrth enwi y ddau le arall? Ond y mae yn hollol ddystaw am hyny; yr hyn sydd yn rhoddi rheswm i gasglu fod y lle yn anadnabyddus. Heb law hyny, y mae iaith Eusebius a Chystenyn yn dangos eu bod hwy yn credu fod yr hyn a olygent yn ddarganfyddiad y bedd sanctaidd, yn effaith gwyrth; ac o ganlyniad, ni allasai fod traddodiad cyffredinol yn dynodi y lle.

Ond yr hyn sydd yn taro pob teithiwr wrth ymweled â'r ddinas sanctaidd, fel yr wrthddadl fawr ac amlwg, ydyw, fod y lle yr hwn a wyddom oddi wrth yr Ysgrythyr oedd y *tu allan* i'r ddinas, yn awr *yn* y ddinas. Yn y rhan mwyaf poblogaidd o'r ddinas y mae y fan a ddangosir fel Calfaria yn awr; yr hyn sydd yn anghysson â'r dystiolaeth i'r Iesu ddyoddef y tu allan i'r porth. Y mae y rhai sydd yn ceisio esbonio hyn yn gysson â'r dybiaeth fod yr hen draddodiad yn gywir, yn dyweyd nad oes sicrwydd fod y ddinas bresennol yn sefyll yn union ar yr un tir ag yn amser Crist:—a'i bod yn fwy tebyg y buasai lle fel Calfaria yn parhau yn adnabyddus, ac felly yr un trwy yr holl oesoedd, nag y buasai dinas fel Ierusalem, sydd wedi myned trwy gyfnewidiadau mwy nag un man arall ar wyneb y ddaiar, yn parhau yr un o ran ei maintioli a pherthynas y naill ran o honi â'r llall. Adeiladwyd muriau presennol Ierusalem mor ddiweddar a'r flwyddyn 1542 B. A., a gadawyd rhan o fynydd Sion allan. Nid rhaid i ni ond tybied fod y ddinas wedi cael ei eangu ychydig i'r gogledd ar ol amser Crist, ac yna rhaid fod y fan ag oedd y tu allan i'r ddinas yn ei amser ef, yn y ddinas yn bresennol. I'r sylw diweddaf, mai yn ddiweddar y codwyd y muriau presennol, nid oes un grym ynddo; o herwydd sylwai ysgrifenwyr canrifoedd cyn hyny fod Calfaria yn y ddinas. Ac heb law hyny, y mae y ddinas yn llawer llai yn awr nag ydoedd yn amser hanesiaeth y Testament Newydd. Yr hyn a ystyria y Dr. Robinson yn hollol benderfynol yn erbyn mai yr un yw y lle, ydyw geiriau Josephus. Y mae Josephus yn cyfeirio at yr ail fur: yr oedd trydydd mur, a adeiladwyd gan Agrippa o ddeutu deng mlynedd ar ol croeshoeliad yr Iachawdwr. A'r cwbl a ddywed am yr ail fur, ydyw, ei fod yn cychwyn oddi wrth y porth a elwir Gennath, yn y mur cyntaf, ac yn ymestyn at Antonia, gan gynnwys *ar gylch* dim ond y llecyn a orweddai i'r gogledd. Rhaid fod porth Gennath yn agos i dŵr Hippicus, yn y rhan ogledd-orllewinol o Sion; yr oedd castell Antonia yn agos i'r deml yn y gogledd. Yr ymofyniad ar ba un y mae penderfyniad y cwbl yn dibynu, ydyw, A oedd yr ail fur yn rhedeg yn *unionsyth*, neu yn agos felly, rhwng porth Gennath ac Antonia? Os felly, yna gorweddai yr hyn a ddangosir fel y bedd yn bresennol, y tu allan, a gellid ei olygu fel yn y lle priodol. Os nad oedd yr ail fur yn rhedeg yn unionsyth, ond ar gylch, o ganlyniad y mae yn rhaid fod y bedd presennol yn gorwedd y tu fewn i'r mur, ac nis gall fod y gwir fan. Yn awr, y mae Josephus yn dyweyd yn bendant, "Nid ydoedd yn rhedeg yn union, ond gan *gylchynu o amgylch* (*circling around*) y llain i'r gogledd, rhedai at Antonia." Ystyria Robinson iaith Josephus yn hollol benderfynol; ac nad oes neb sydd yn dadleu dros y bedd traddodiadol wedi ei gyfarfod. Y mae ystyriaethau ereill yn cael eu defnyddio i'r un dyben, megys yr un canlynol, yr hwn a ystyrir yn rheswm cryf yn erbyn tybied fod mur y ddinas wedi cael ei symmud ar ol amser Crist, fel ag i gynnwys o'i fewn yr hyn oedd y pryd hwnw o'r tu allan. Pe byddai gweddillion, neu sylfeini, neu fur felly i'w canfod yn bresennol, byddai hyny yn gymhorth i benderfynu y cwestiwn: ond nid oes y fath i'w gweled; ac y mae y fan y tybir y gall y fath hen sylfeini fod, wedi ei gorchuddio am droedfeddi o ddyfnder âg ysbwrial. Ond ar y llaw arall, ymddengys oddi wrth y gwarchae a fu ar Ierusalem yn amser brenin Assyria (2 *Bren.* xviii. 17, 26, 27, &c.), fod y mur ar ochr ogleddddwyreiniol y ddinas, yn cyrhaedd, yn nyddiau Hezeciah, mor agos i lyn uchaf Gihon ag ydyw yn bresennol, os nad yn mhellach. Daeth Rabsaceh gyda'i lu, ac a safodd "wrth ymyl pistyll y llyn uchaf, yn mhrif ffordd maes y panwr." Ac yr oedd *y mur mor agos i'r llyn*, fel y gallai Eliacim mab Hilciah, a Sebnah, a Ioah, y rhai oedd wedi eu hanfon i gynnadleddu, lefaru wrth y cadfridog Assyriaidd, yr hwn oedd yn eu difrio yn eu hiaith eu hunain,—"Llefara, atolwg, wrth dy weision yn Syriaeg (canys yr ydym ni yn ei deall hi), ac nac ymddyddan â ni yn iaith yr Iuddewon, lle y clywo y *bobl sydd ar y mur*," Teimlir grym yr ymresymiad hwn yn gryfach wrth edrych ar gynllun Ierusalem.

Y mae yr erthygl hon yn rhoddi mantais i'r darllenydd ddeall pa beth sydd yn cael ei ddyweyd ar y ddwy ochr o'r ddadl sydd yn awr wedi

Digitized by Google

cael ysgrifenu arni yn helaeth gan lawer. Y mae Pabyddion yn gyffredin yn cymmeryd ochr yr hen draddodiad—dros unoliaeth Calfaria henafol a ciweddar; a Phrotestaniaid—ond nid yn dneithriad o lawer—yn amddiffyn yr ochr arall. Y mae ysgrifenydd yn yr *Evangelical Review* am y flwyddyn 1854, yn dyweyd, "fod ymchwiliadau Robinson yn meddu eu holl werth yn ngwyneb y cyfan a ddywedwyd yn eu herbyn; a bod ei ail ymweliad â Palestina wedi ei gryfhau yn yr hyn a ddywedodd ar ol ei ymweliad a'i ymchwiliadau cyntaf." Y mae ymchwilwyr ereill yn llefaru mor benderfynol yr ochr arall. Dywed y Dr. Olin,—"Ni phetrusaf ddywedyd, fy mod yn golygu yr ymresymiad traddodiadol mor foddhaol ag sydd yn bosibl i unrhyw reswm fod, sydd yn dibynu ar y math yma o brawf."

Y mae eglwys eang, ond lled afluniaidd o wneuthuriad, yn sefyll yn bresennol ar Galfaria, ac a elwir "Eglwys y Beddrod Sanctaidd." Y mae afluniaidd-dra ei gwneuthuriad yn codi o'r dymuniad oedd i gynnwys holl olygfeydd dyoddefaint a chladdedigaeth Crist, yn yr un adeilad.

Y ddau brif ysgrifenydd, un o bob ochr i'r ddadl uchod, ydynt, Williams [*The Holy City*, Llundain, 1845], a Dr. Robinson [*Biblical Researches*]; ac hefyd *Bibliotheca Sacra*, 1843. Gwel IERUSALEM.

CALIXTINIAID: cangen o'r Hussiaid, yn Bohemia a Moravia, yn y pymthegfed canrif. Rhoddid yr enw hwn hefyd ar y rhai hyny yn mhlith y Lutheriaid a ddilynent ddaliadau George Calixtus, duwinydd enwog yn yr eilfed canrif ar bymtheg, yr hwn a ymdrechodd i uno yr eglwysi Rhufeinaidd, Lutheraidd, a Chalvinaidd, mewn rhwymau cariad ac ewyllys da. Efe a ddaliai, 1af. Fod prif athrawiaethau Cristionogaeth (wrth yr hyn y golygai yr egwyddorion elfenol hyny o ba rai y mae pob gwirionedd yn deilliaw) yn cael eu cadw yn bur yn y tri chyfundeb, ac yn gynnwysedig yn yr hyn a elwir yn gyffredin, Credo yr Apostolion. 2il. Fod y barnau a'r opiniynau a dderbyniwyd yn gysson gan yr hen ddoctoriaid yn ystod y pum canrif cyntaf, i gael eu hystyried yn gyfartal o ran gwirionedd ac awdurdod a thystiolaethau ac athrawiaethau arbenigol yr Ysgrythyr.—(*Encyclopedia of Religious Knowledge.*)

CALMET, AUGUSTINE: ganwyd y gŵr hwn yn Mesnil-la-Horgne, yn agos i Commercy, yn nhalaeth Meuse, Chwefror 6ed, 1672; a derbyniodd elfenau cyntaf ei ddysgeidiaeth yn mhriordŷ Breuil; astudiodd areithyddiaeth wedi hyny yn Pont-à-Musson. Efe a ymunodd drachefn â'r Benedictiaid yn mynachdy Mansuy, yn Fauxbourg Toul, lle y proffesodd eu haddunedau yn 1689. Groeg, Hebraeg, athroniaeth, a duwinyddiaeth, oedd yn myned â'i holl amser hyd 1704, pan y penodwyd ef yn is-brior yn mynachdy Munster, yn mha le yr ymddengys iddo ddilyn ei astudiaeth Feiblaidd yn ddyfal. Yn 1707, cyhoeddodd yn y Ffrancaeg y gyfrol gyntaf o'i esboniad ar y Beibl. Yn 1715, pwrcasodd briordŷ St. Lay gan yr abad Morel, elusenwr y brenin, am dâl blyneddol o 3000 *livres;* ac yn mhen tair blynedd wedi hyny, penodwyd ef yn abad St. Leopold, Nanci. Rhoddodd i fyny briordŷ St. Lay pan y dewiswyd ef yn abad Senones, yn 1723; a gwrthododd hefyd y pryd hyny y teitl o esgob *in partibus infidelium*, yr hwn a gynnygiwyd iddo gan y pab Benedict XIII. yn unol â chais coleg y cardinaliaid. Bu farw yn ei fynachdy Hydref 25ain, 1757, mewn parch mawr am ei ddysgeidiaeth ac am ei diriondeb.

Y mae Calmet wedi ysgrifenu llawer, ac y mae ei weithiau yn gyfoethog o wybodaeth; ond y maent yn feithion, ac wedi eu hysgrifenu mewn dullwedd trwsgl. Dylid eu darllen gyda gradd o ochelgarwch, gan fod yr awdwr yn orlawn o ddaliadau dychymygol a rabbinaidd. Y mwyaf poblogaidd o'i gyfansoddiadau ydyw, *A Historical and Critical Dictionary of the Bible*, mewn pedair cyfrol pedwarplyg, yr hwn sydd wedi ei gyhoeddi, mewn ffurf lai, yn y Seisoneg, ac ieithoedd ereill. —(*Penny Cycl.; Ency. Rel. Knowl.*)

CALNEH: y bedwaredd o ddinasoedd Nimrod, yr hon a adeiladwyd yn ngwastadedd Sinar: *Gen.* x. 10. Bernir mai yr un ydoedd a *Chalno* Esaiah (x. 9); a *Channeh* Ezeciel (xxvii. 23). Mae y prophwydi hyn yn ei chydio â Haran, Eden, Assyria, a Chilmad, y rhai a farchnatäent â Thyrus; ac am hyny yr ydys yn casglu ei bod yn gorwedd yn Mesopotamia. Caniatäir yn gyffredin yn bresennol i orsaf yr hen ddinas hon gael ei feddiannu yn ddiweddarach gan y ddinas fawr Ctesiphon, preswylfa auafol y penaduriaid Persiaidd a Pharthiaidd, yr hon a orweddai ar lan ddwyreiniol y Tigris, ac o ddeutu deunaw milltir islaw Bagdad. Ar ei chyfer, ac o fewn tua thair milltir iddi, y gorweddai Seleucia, dinas a adeiladwyd gan Seleucus, yr hwn wrth wneyd hyny a andwyodd Babilon. Wedi treigliad rhai cannoedd o flyneddoedd, dechreuodd Ctesiphon, yr hon hyd hyny a fuasai yn dref fechan, fyned ar gynnydd, a tlyfod yn lle pwysig, fel gwrthymgeisydd i Seleucia; a daeth o'r diwedd yn ddinas orwych. O'r diwedd, cwympodd Seleucia o flaen gogoniant cynnyddol Ctesiphon a mawredd y Parthiaid, y rhai oeddynt elynion anghymmodlawn i'r Groegiaid; a hi a wnaed fel maesdref i Ctesiphon, dan yr enw Coche.

Gallem feddwl fod Calneh yn dywysogaeth annibynol yn amser y prophwyd Amos (*Amos* vi. 1, 2); ond cyn hir wedi hyny, daeth hi fel y gweddill o Asia Orllewinol, yn ysglyfaeth i'r Assyriaid: *Esa.* x. 9. Y mae yn ymddangos fod Calneh yn dref fawr gant a hanner o flyneddoedd yn ddiweddarach, gan y crybwylla y prophwyd Ezeciel am ei marchnadyddiaeth â Thyrus. Gelwid y lle gan yr Arabiaid mewn oesoedd diweddarach, *El-Madain*, h. y., *y ddwy ddinas.* Cymmerwyd Ctesiphon, yr hen Calneh, gan yr Arabiaid, tua'r flwyddyn B. A. 637, ac er y pryd hyny ni bu namyn adfeiliad prysur arni; ac o'i hadfeilion y cafwyd defnyddiau i adeiladu Bagdad. Nid oes dim o Seleucia yn aros yn awr ond ei hen furiau, ac olion eglur o'i maintiolaeth blaenorol, ar wyneb noeth y ddaiar, yr hon sydd wedi ei hanwastadäu gan y creigiau a arwyddocänt orsafau y dinasoedd lluosog a dryfrithent wastadedd poblogaidd Sinar gynt. Ond y mae Ctesiphon wedi bod yn fwy ffodus; canys, nid yn unig gellir olrhain ei muriau tewion am ffordd faith ar hyd glan y Tigris, ond y mae yno adeilad fawrwych a thra eang, o briddfeini teg, yn aros eto, ac y mae yn weledig o bellder mawr o ffordd, yn sefyll mewn rhyw fawrwychedd unigol, yn nghanol y fro anghyfanneddol yma. Dywedir nad ydyw yn debyg i unrhyw adeilad arall yn y rhan hono o'r byd; a bernir iddo gael ei adeiladu gan gelfyddydwyr Groegaidd a roddid ar waith gan freninoedd Persia. Cynnwysa adeil-wyneb o dri chan troedfedd o hyd, ac agorfa

Digitized by Google

yn y canol o fwa ardderchog, uchder yr hwn sydd tua chant a thair o droedfeddi; ac arweinia i neuadd fawr o'r un uchder, bedwar ugain a dwy droedfedd o led, a chant a thrigain o hyd. Fe'i gelwir *Tauk Kesra*. Bernir mai llys y brenin-oedd Persiaidd ydoedd, neu y Llys Gwyn—cyfoeth a gogoniant yr hwn a lanwai y buddugoliaethwr barbaraidd o Arabia â syndod.



Dar. 144. TAUK KESRA.

Yn agos i Ctesiphon y bu farw Julian y gwrthgiliwr; ac y mae y wlad o amgylch Ctesiphon yn cael ei galw yn fynych gan yr ysgrifenwyr Groegaidd yn Calonitis, enw a ddeillia yn amlwg oddi wrth ei henw gwreiddiol, Calneh.

CALNO. *Esa.* x. 9; "Onid fel Charchemis yw Calno? onid fel Arpad yw Hamath? onid fel Damascus yw Samaria?" Bost falch brenin Assyria yw y geiriau, o'r modd yr oedd efe wedi darostwng dinasoedd cryfion a berthynent i'r teyrnasoedd o'i amgylch. Y mae cyfieithiad y Deg a Thrigain yn amrywio cryn lawer oddi wrth y testyn gwreiddiol yn yr adnod uchod, a'r un flaenorol iddi—"Ac efe a ddywed, Oni chymmerais i y wlad tu hwnt i Babilon, a Chalane, lle yr adeiladwyd y tŵr? a myfi a gymmerais Arabia, a Damascus, a Samaria." Gwel CALNEH.

CALOIERIAID (καλογεροι=*hen ddynion da*), sydd enw ar fynachod Eglwys Groeg. Ystyriant Basil fel eu sylfaenydd; ac ystyriant yn drosedd mawr ddilyn unrhyw reol neu reolau ond y rhai a roddes ef. Dosberthir hwy i dair rhan—Cœnobiaid, Anchoriaid, a Meudwyaid. Cyflawna y Cœnobiaid eu gwasanaeth crefyddol o hanner nos hyd fachlud haul; a chan fod yn anmhosibl iddynt, mewn ymarferiad mor faith, beidio cael eu gorchfygu gan gwsg, y mae un o'r mynachod wedi ei osod i'w gwylio a'u cadw yn effro. Yr Anchoriaid a ymneillduant oddi wrth y byd, a thrigant mewn lleiandai yn nghymmydogaeth y mynachdy. Gwrteithiant ddarn bychan o dir; ac nid änt allan oddi eithr ar y Sabbathau, a'r dyddiau cyssegredig, i'r fynachlog; treuliant y gweddill o'r wythnos mewn gweddïau, a rhyw orchwylion. Y mae y Meudwyaid yn cau eu hunain i fyny mewn celloedd ac ogofäau, o'r rhai nid ánt allan un amser; dibynant am eu cynnaliaeth ar yr elusenau a anfonir iddynt o'r mynachdŷ.

Mynachdŷ mwyaf y Caloieriaid yn Asia, ydyw, mynachdŷ mynydd Sinai, yr hwn a adeiladwyd gan yr ymherawdwr Justinian. Y mae gan yr abad ddau cant o fynachod dano. Y mae ganddynt un arall heb fod yn mhell oddi wrtho, yn gyflwynedig i St. Catherine, a saif yn y lle y pereiddiodd Moses y dyfroedd. Y mae yn perthyn iddi ardd, ac ynddi uwch law deng mil o balmwydd, oddi wrth y rhai y mae y mynachod yn derbyn llawer o elw. Y mae ganddynt un arall yn lled agos i Ierusalem, mewn lle hynod ddiffaith. Y mae ei phorth wedi ei orchuddio â chrwyn crocodiliaid, i'w chadw rhag yr Arabiaid. Y mae mynach mewn tŵr uchel yn ei gwylio rhagddynt hwy a bwystfilod gwylltion.

Y mae yn Ewrop, hefyd, luaws o fynachdai yn perthyn iddynt. Y rhai enwocaf ydyw mynachdai mynydd Athos, yn Macedonia; eu nifer yw tair ar ugain; ac y mae eu mynachod yn byw mor reolaidd, fel y mae hyd yn oed y Tyrciaid yn eu parchu, ac yn fynych yn gofyn am eu gweddïau drostynt. Y mae Caloieriaid mynydd Athos yn casäu y pab â chas cyflawn, am fod un o'r pabau wedi ysbeilio a llosgi rhai o'u mynachdai, am na ddangosasai eu hurdd ddigon o barch iddo.

CALON—AU: meddwl, yni, dewrder, hyder; y groth, brawd un galon=brawd un fam. Arwydda καρδια (calon) eisteddle cylchrediad y gwaed, a'r bywyd yn y corff dynol. Yn y Testament Newydd defnyddir y gair mewn ystyr trawsenwol yn unig. 1. Am eisteddle y dymuniadau, y serchiadau, a'r nwydau: *Mat.* v. 8; vi. 21; *Marc* iv. 15; *Heb.* iii. 8, 12. "O'r galon," a arwydda, "yn ewyllysgar:" *Mat.* xviii. 35; *Rhuf.* vi. 17. "O un galon ac un enaid," a ddynoda undeb perffaith. 2. Eisteddle y deall, y meddwl: *Mat.* xiii. 15; *Luc* xxiv. 25; *Ioan* xii. 40; *Rhuf.* i. 21. Am y gydwybod yn *Rhuf.* ii. 15; 1 *Ioan* iii. 20. Y mae καρδια, fel yr Hebraeg לב. 3. Am ganol unrhyw beth, megys calon y ddaiar: *Mat.* xii. 40. Yr oedd Ionah yn "mol uffern" (*Ionah* ii. 2), yn gysgod o Fab y dyn yn "nghalon y ddaiar." Barna Olshausen ac Alford, y cyfeirir, nid at gorff yr Iachawdwr yn medd Ioseph o Arimathea, ond at ei ddisgyniad i Hades—sefyllfa eneidiau ymadawedig; "o blegid," medd y diweddaf, "nis gallesid galw bedd Ioseph yn 'galon y ddaiar,' ac nid yw yn briodol dywedyd y bu Mab y dyn yno." Onid yw mor briodol dyweyd fod "Mab y dyn" yn medd newydd Ioseph a dyweyd y bu "yr Arglwydd" yn gorwedd yno?

Y mae y fer berthynol i'r gair Hebraeg לב, yn arwyddo "ysgwyd," "symmud yn ol a blaen;" a gelwir y galon wrth yr enw o herwydd ei

Digitized by Google

hysgydwad, neu ei churiad. "Mae yr Ysgrythyrau yn priodoli i'r galon feddyliau, rhesymiadau, deall, ewyllys, barn, bwriadau, serchiadau, cariad, cas, ofn, llawenydd, tristwch, digofaint; o blegid pan y mae y pethau hyn mewn dyn, y mae cryniad neu symmudiad i'w ganfod o ddeutu y galon."—*Cocceius.* Ac y mae hyn, medd Parkhurst, yn cadarnhau y sylw, fod yr iaith Hebraeg yn dysgrifio nwydau a serchiadau y meddwl a'r effeithiau a wnant ar y corff.

"Calon hawddgar a da" (*Luc* viii. 15), ydyw calon ymroddgar i sancteiddrwydd, wedi ei pharotoi gan yr Ysbryd Glân i dderbyn y gair gyda'r tueddiadau a'r penderfyniadau dyladwy. "Bod heb galon" (*Hos.* vii. 11), a arwydda, naill ai bod heb wrolder, neu heb ddeall. "Hwyrfrydig o galon" (*Luc* xxiv. 25), a arwydda feddwl anmharod, anwybodus. "Prophwydo o'u calon eu hun" (*Ezec.* xiii. 2), oedd prophwydo yn ol eu dychymygion, ac oddi ar eu mympwy eu hunain, heb dderbyn na galwad na chenadwri oddi wrth Dduw.

Caledrwydd calon ydyw y sefyllfa hono o ddideimladrwydd a ddynodir yn y geiriau "calon wedi brashäu." Gellir adnabod hyn oddi wrth syniadau ysgeifn am bechod, cyflawniad mynych o hono, rhyfyg, difaterwch am bethau dwyfol, &c. Mae gwahaniaeth rhwng y caledrwydd y cwyna credinwyr o'i herwydd, a chaledrwydd pechaduriaid. Ni adnabyddir, ac ni theimlir o herwydd caledrwydd barnol: y mae y neb sydd dano yn anymwybodol o hono, ac nid yw yn awyddu am ryddhâd oddi wrtho; tra y mae eu calcdrwydd yn gofidio mwy ar blant Duw na dim arall: *Rhuf.* vii. 24. Y mae caledrwydd barnol yn barhäus; a phan dynerir y galon i ryw raddau, nid yw ond effaith rhyw flinderau allanol, neu arswyd digofaint Duw; ond pan y gwisgir y tynerwch ymaith, y mae ei galedrwydd yn dychwelyd yn gryfach nag o'r blaen (*Exod.* ix. 27): ond y mae caledrwydd y credadyn yn ei flino bob amser; pan nad oes blinderau arnynt, trallodir hwy o'i herwydd: *Rhuf.* vii. 15. Y mae caledrwydd barnol yn dyeithro y dyn oddi wrth ymarferiad â dyledswyddau crefydd, yn enwedig rhai dirgel; ond nid yw yn cadw y credadyn oddi wrthynt, er ei fod yn ei ammheu yn y cyflawniad o honynt: *Iob* xxiii. 2, 3. Y mae caledrwydd barnol yn arwain y dyn i ymofyn am heddwch gau, trwy ffyrdd anghyfreithlawn; ond nis gall, ac ni fyn y credadyn, yr hwn sydd yn ocheneidio o herwydd caledrwydd ei galon, gael tangnefedd yn un man ond yn Nghrist.

Y mae "cadw y galon," medd Fland, yn cynnwys sylwadaeth barhäus ar agwedd y galon (*Salm* lxxvii. 6); ymostyngiad dwfn o herwydd ei hannhrefn (2 *Cron.* xxxii. 26); ymbiliad difrifol am burdeb calon (*Salm* xix. 12); gofal ac eiddigedd gwastadol dros ein calon (*Diar.* xxviii. 14); sylweddoli presennoldeb Duw, a'i osod yn wastadol ger ein bron (*Gen.* xvii. 1; *Salm* xvi. 8).

Yr adegau ag y dylid yn fwyaf neilduol ei chadw ydynt, adeg llwyddiant (*Deut.* vi. 10, 12); adeg blinderau (*Heb.* xii. 5, 6); amser adfyd Sion (*Salm* xlvi. 1, 4); adegau o beryglon mawrion (*Esa.* xxvi. 20, 21); mewn angenion mawrion (*Phil.* iv. 6, 7); mewn awr o demtasiwn (*Mat.* xxvi. 41); mewn aflechyd, ac yn angeu (*Ier.* xlix. 11). Y moddion i gadw y galon ydynt, gwyliadwriaeth (*Marc* xiii. 37); ystyriaeth (*Diar.* iv. 26); gweddi (*Luc* xviii. 1); darllen gair Duw (*Ioan* v. 39); dibyniad ar ddwyfol ras (*Salm* lxxxvi. 11).

CALVIN, JOHN: a aned yn Noyon, Picardy, Ffrainc, ar y 10fed o Orphenaf, 1509. Yr oedd ei dad, Gerard Calvin neu Cauvin, yn ddyn o farn a galluoedd, ac wedi cyrhaedd amryw swyddau oedd yn wrthddrychau ymgais gan ddynion o amgylchiadau uchel yn y byd, er nad oedd efe ei hun felly. Yr ydoedd yn fath o nodiadur (*apostolic notary*), yn ddirprwywr arianol (*procurator fiscal*) maenor Noyon, heb law mewn amryw swyddau ereill. Enw ei fam oedd Jeanne Lefranc; yr ydoedd yn ferch i westwr yn Cambray, yr hwn a ddaeth wedi hyny i Noyon i fyw. At brydferthwch personol mawr, addurnwyd hi â duwioldeb amlwg ond diymhongar. Nid oes ond ychydig o ffeithiau ar gael am flyneddoedd cyntaf Calvin. Bwriadai ei dad ef o'r dechreu i efrydiau duwinyddol, oddi ar y profion a roddai Calvin, pan yn fachgen, o'i duedd dduwiolfrydig, ac efallai oddi ar y dybiaeth ei fod yn meddu galluoedd cymhwys i ragori ynddynt. Agorai y parch oedd i'w dad yn y wlad y drws i'r bachgen i deulu pendefigaidd De Montmor, i gael cydgyfranogi â phlant y teulu hwn o elfenau dysg, er ar gost ei dad. Anfonwyd ef wedi hyny i goleg a sylfaenwyd yn Noyon. Ni fwynhäai y plentyn ond ychydig o ddifyrwch. Yr un llymdoster ag a hynodai y mab ydoedd hefyd nodwedd y tad. O'i flyneddoedd cyntaf, bu raid i John ymostwng i reol anmhlygadwy dyledswydd, yr hyn yn fuan a ddaeth yn hawdd iddo. Calvin, yr hwn ydoedd o nodweddiad ofnus a gwledig braidd, ac a wnaed yn fwy felly gan lymder ei dad, a giliai o ystafelloedd gorwych ei noddwyr, ac a ymddifyrai mewn bod ar ei ben ei hun. Ac felly mewn unigrwydd ymgydnabyddai ei feddwl ieuanc â gwrthddrychau mawr. Tra yr ydoedd Luther, yr hwn oedd i gyffroi y lluaws, wedi ei ddwyn i fyny fel un o blant y lluaws, derbyniodd Calvin, yr hwn oedd yn benat i fod yn dduwinydd ac ymresymwr cadarn, addysg fanylach ac eangach yn fore. Awydd Gerard oedd cyflwyno ei fab i'r eglwys; a chan nad oedd yn gyfoethog, yn ol arfer yr oes hono o roddi swyddau eglwysig a'r cyllidau perthynol iddynt i blant, cafodd gan yr esgob fywoliaeth iddo pan yn ddeuddeng mlwydd oed, yn Chapelle de Notre Dame de la Gesine. Ar wyl Corpus Christi, Mai 21ain, 1521, torodd yr esgob wallt y plentyn ymaith, a thrwy y ddefod hon gwnaed ef yn aelod o'r urdd offeiriadol, ac awdurdodwyd ef i ddal ei swydd heb drigiannu yn y lle. Gyda chynnyrch y swydd hon galluogwyd Calvin i fyned i Paris, gyda phlant De Montmor, i ddilyn ei efrydiau. Ei ysgol gyntaf yno oedd College de la Marche, yr hon oedd o dan lywyddiaeth Maturin Cordier—dyn o nodweddiad uchel, o ddysg manwl, ac o enwogrwydd fel dysgawdwr, a'r hwn wedi hyny a ymwrthododd â Phabyddiaeth, ac a aeth i Geneva i gartrefu. Yn y sefydliad nesaf y bu ynddo, sef Collége Montaigu, rhagorai yn mhell ar ei gydysgolheigion mewn ieithyddiaeth, ac hefyd yn y crafftder ymresymiadol a amlygai yn ei ymchwiliadau duwinyddol mewn blyneddoedd dyfodol.

Trwy ddylanwad ei dad, cafodd, yn y bedwaredd flwyddyn ar bymtheg o'i oed, fywoliaeth Monteville, yr hon, yn mhen dwy flynedd, a newidiodd am Pont l'Evêque—pentre i'r hwn y perthynai ei dad yn wreiddiol. Er fod y llwybr i anrhydedd yn yr eglwys yn ymagor o flaen Calvin, eto nid yn offeiriad Pabaidd yr ydoedd i fod. Daeth cyfnewidiad dros feddwl ei dad, yn gystal a'i feddwl ef ei hun, mewn perthynas i'w yrfa

Digitized by Google

ddyfodol. Dechreuodd Gerard Calvin feddwl nad ydoedd wedi dewis yr alwedigaeth fwyaf ennillfawr i ddyn ieuanc o dalentau mor ddysglaer a John. Anfonwyd ef o Paris i Orleans i astudio y gyfraith, dan ddysgawdwr enwog o'r enw Pierre de l'Etoile. Yn fynych rhoddai ddarlithiau yno yn absennoldeb y cadeirdraw; ac ar ei ymadawiad o Orleans, y fath oedd ei gymmeriad am alluoedd a dysgeidiaeth, fel y derbyniodd y radd o ddoctor heb dalu y cydnabyddiaeth arferol am hyny. O Orleans aeth i Bourges i wthio yn mhellach i efrydiau y gyfraith, dan ddysgawdwr Italaidd o'r enw Alciati: yno hefyd y dysgodd yr iaith Roeg, dan yr enwog Wolmar [gwel BEZA], yr hon oedd mor bwysig iddo fel duwinydd. Yr oedd Calvin yn fyfyriwr caled trwy ei oes; ond tua'r pryd hwn yr oedd ei frwdfrydedd y fath fel ag i beryglu ei iechyd. Llafuriai gyda'i lyfrau hyd hanner nos, a dechreuai bump yn y boré; a'r peth cyntaf a wnai wedi deffro oedd myned dros y cwbl a ddysgodd y diwrnod o'r blaen, er mwyn ei sicrhau yn ddiogel. Dywed Beza iddo felly hau hadau yr anhwylderau a dorodd allan yn afiechyd yn fynych yn ei fywyd, ac a brysurodd ei farwolaeth. Tua'r pryd hwn cymmerodd cyfnewidiad le yn meddwl Calvin, yr hwn a gyfnewidiodd ei holl fywyd. Ar annogaeth Pierre Robert Olivetan, perthynas iddo, a chyfieithydd cyntaf y Beibl i'r Ffrancaeg, arweiniwyd ef i ddarllen ac astudio, am y tro cyntaf, y gyfrol sanctaidd. Effeithiodd hyn i gymmodi ei feddwl â chals ei dad i roddi i fyny y swydd offeiriadol, er nad i'w ennill ar y dechreu oddi wrth Babyddiaeth. Ond er ei fod yn cyflawnu ei defodau gyda chyssondeb ac eiddigedd, eto nid oedd trwy hyny yn ennill tawelwch cydwybod. Yr oedd y meddwl am Dduw yn ei lenwi â dychryn a braw, ac nid oedd penydiau yn tycio dim i'w hymlid ymaith. Po fwyaf y meddyliai am dano ei hun, mwyaf oll oedd aflonyddwch y gydwybod, ac nid oedd llonyddwch i'w gael ond mewn anghofio ei hun. Dygodd hyn ef i ddarfod â Phabyddiaeth fel cyfundrefn nad oedd yn meddu rhinwedd i gyfarfod angenion dyn. Ymwrthododd yn llwyr â'i efrydiau cyfreithiol, ac ymroddodd gyda phenderfyniad a sel i chwilio yr Ysgrythyrau; a thrwy hyny daeth i fwynhad teimladwy o'r gwirionedd. Ymddengys hefyd fod ymddyddanion Wolmar wedi bod yn foddion i ddyfnhau ei argyhoeddiadau crefyddol, ac i'w gadarnhau yn egwyddorion y Diwygiad. Yr oedd y rhai hyn yn awr yn dechreu ymledaenu trwy Ffrainc. Yr oedd deuddeng mlynedd yn awr pan gyhoeddodd Luther ei osodiadau (*theses*) yn erbyn llythyrau maddeuant y pab—deuddeng mlynedd o gyffro dwys a dadleuon pryderus, nid yn Germany yn unig, ond yn yr holl deyrnasoedd cylchynol. Nid oedd un gwrthryfel cyhoeddus yn erbyn Eglwys Rhufain wedi cymmeryd lle eto yn Ffrainc ond yr oedd lluaws yn rhoi gwrandawiad astud athrawiaethau y Diwygiad, a rhai yn llawenhau yn ddirgel eu bod wedi eu cofleidio. Gyda'r cyfryw yr ymunodd Calvin, tra yr ydoedd yn Orleans, ac ar ol ei symmudiad i Bourges dechreuai eu dysgu yn ddirgel mewn ymddyddanion, ac yn fwy cyhoeddus mewn cyfarfodydd. "Cyn pen blwyddyn," meddai, wrth son am ei dröedigaeth, "deuai pawb oedd yn sychedu am athrawiaeth burach ataf fi, er nad oeddwn ond dysgybl ieuanc a newyddian fy hun." A dywed Beza ei fod nid yn unig yn cadarnhau yr ychydig gredinwyr oedd yn y dref, ond ei fod hefyd yn pregethu yn fynych yn y palasau a'r pentrefi cymmydogaethol, gan ennill lluaws mewn teuluoedd i dderbyn y gwirionedd, o ba rai y mae yn enwi arglwydd Lignieres a'i wraig. "Yn ei gyfarchiadau" medd yr un hanesydd, "ni wnai un ymhoniad i hyawdledd, ond llefarai gyda'r fath eglurder, a'r fath gadernid iaith, fel nad oedd neb yn gallu ei wrandaw heb gael ei lenwi â syndod."

Achlysurodd marwolaeth ddisymmwth ei dad ei ymadawiad o Bourges, a'i ddychweliad am ychydig i'w gymmydogaeth enedigol. Ond yn fuan aeth drachefn i Paris, ac a wnaeth ei gartref yno. Ymroddai yn awr yn hollol i eangu a chywiro ei syniadau am wirioneddau yr Ysgrythyrau, i bregethu gydag egni mawr, gan ddefnyddio pob moddion yn ei allu i ennill ereill i gofleidio y gwirionedd, ac i gadarnhau y rhai oedd wedi ei gofleidio. Erbyn hyn yr oedd y Diwygiad wedi ennill cynnifer o bleidwyr yn Ffrainc, fel yr oedd amddiffynwyr y Babaeth yn ffyrnigo, a cheisient roddi attalfa ar ei lwyddiant rhagllaw trwy yr erlidigaethau creulonaf. Gyda y bwriad o ddylanwadu ar y rhai oedd mewn awdurdod, ac yn enwedig ar y brenin, Francis I., am oddef i'w ddeiliaid gael eu dirdynu a'u llosgi am eu crefydd, cyhoeddodd Calvin, Ebrill, 1532, ar ei draul ei hun, argraffiad o waith Seneca, *De Clementia*, gydag esboniad.

Yr oedd Calvin yn awr yn y bedwaredd flwyddyn ar ugain o'i oed, a chydnabyddwyd ef mor fore a hyn fel arweinydd y Diwygiad yn Ffrainc. Cymmaint oedd ei hyder y gallai ennill y brenin, ac mor ddewr oedd ei ysbryd o blaid y gwirionedd, fel y cymmerodd fantais o amgylchiad a ddygwyddodd y pryd hyn i ddwyn egwyddorion y Diwygiad o flaen meddyliau y rhai oedd mewn awdurdod. Yr oedd Nicholas Cop, yr hwn oedd newydd gael ei ethol yn llywydd y brifysgol, i draddodi yr araeth arferol o flaen y brenin, ar Wyl yr Holl Saint. Mewn canlyniad i gyfeillgarwch a hanfodai rhwng Calvin a Cop, traddododd yr olaf araeth a barotowyd iddo gan Calvin, yr hon a gynnwysai amddiffyniad o egwyddorion y Diwygiad, ac yn enwedig o'r athrawiaeth o gyfiawnhad trwy ffydd yn unig. Yr oedd hyn yn fwy nag y gallai dysgawdwyr y brifysgol ei ddyoddef; a rhag cael ei wysio i ymddangos o flaen y senedd, ffodd Cop i Basle. Diangodd Calvin hefyd, wedi ei hysbysu fod bradwriaeth ar droed i'w ddal yntau. Chwiliwyd ei ystafelloedd, a chymmerwyd meddiant o'i lyfrau a'i bapyrau, er mawr enbydrwydd i rai o'i gyfeillion, llythyrau pa rai oedd yn eu mysg. Cafodd ef ei hun nodded yn llys brenines Navarre, unig chwaer Francis I., yr hon oedd y pryd hyny yn bleidiol i'r diwygwyr, a thrwy gyfryngiad yr hon y llonyddwyd yr ystorm a dorodd allan yn eu herbyn y pryd hwn. Ar olhyn, ymsefydlodd yn Xaintonge, lle y parotodd bregethau byrion [*Breves Admonitiones Curistianas*], y rhai a ledaenwyd drwy y plwyfydd cymmydogaethol, ac a ddarllenwyd yn gyhoeddus i'r bobl. Nid yw y rhai hyn ar gael yn bresennol. Yn ystod ei arosiad yn y lle hwn y parotodd yr ail lyfr a gyhoeddodd, sef traethawd a elwir *Psychopannychia* (1534), yn yr hwn y gwrthwyneba syniad cyfeiliornus yr Ailfedyddwyr, sef fod yr enaid mewn sefyllfa o gwsg rhwng angeu a'r farn ddiweddaf.

Credir mai tra yr oedd Calvin yn Xaintonge y parotodd y braslun cyntaf o'i *Institutio Christianæ Religionis* (corff o dduwinyddiaeth). Ond ni pharhaodd ei arosiad yno ond am ychydig fisoedd, o herwydd yn 1534 yr ydym yn ei gael yn Paris drachefn. Yma bu raid iddo ymguddio,

Digitized by Google

er mwyn dianc rhag y creulonderau oedd yn cael eu defnyddio tuag at gyfeillion yr efengyl. "Ond nid heb berygl bywyd," fel y dywed ef ei hun, y daeth allan i gyfarfod âg un y cyfarfyddodd âg ef mewn amgylchiadau gwahanol ar ol hyny; sef Servetus, meddyg o'r Yspaen, yr hwn oedd yn lledaenu ei syniadau hereticaidd o barth i'r Drindod. Rhoddodd Calvin wahoddiad iddo i'w gyfarfod mewn cynnadledd; ond er fod y lle a'r amser wedi ei benodi, ni ddaeth Servetus yn mlaen. "Fy amcan oedd," meddai, "ei waredu o'i gyfeiliornadau." Bu raid iddo yn fuan adael Ffrainc o gwbl, a chyda y bwriad hwn, aeth gyda Louis Fillet i Basle. Ar eu ffordd yno, lladrataodd un o'u gwasanaethyddion brou y cwbl oedd ganddynt, fel mai trwy fenthyg oddi ar un arall o'u gweision y cawsant ddigon i gyrhaedd pen eu taith. Yno croeshawyd Calvin gan yr ysgolheigion a'r duwinyddion oedd wedi codi y ddinas hono yn Athen Switzerland, ac yn enwedig gan y dysgedig Simon Grynæus, Wolfgan, a Capito, blaenor y Diwygiad yn Basle. Dan gyfarwyddyd yr olaf y dysgodd Calvin yr iaith Hebraeg.

Yr oedd Francis I., tra yn awyddus i ddiffodd y Diwygiad trwy erlidigaeth, yn anfoddlawn i gyffroi tywysogion Prostestanaidd Germany yn ei erbyn; felly efe a orchymynodd i'w genadon i hysbysu i'w llysoedd hwy nad oedd ef yn rhoddi neb i farwolaeth ond yr Ailfedyddwyr, ac ereill oedd yn codi yn erbyn y llywodraeth wladol. Yr oedd hyn yn cael ei ledaenu trwy bamphletau gan amddiffynwyr yr eglwys a swyddogion y llywodraeth, er mwyn gwneyd esgusawd drostynt eu hunain am eu creulonderau didrugaredd yn erbyn Protestaniaid. Ceisient guddio eu creulondeb âg enllib. Cyffrodd hyn ddigllonedd Calvin; ac er mwyn amddiffyn y diwygwyr yn Ffrainc, efe a barotodd ei *Institutes*, yn frysiog i'r wasg, ac a'u cyhoeddodd fel eu cyffes, ac a'u cyflwynodd i'r brenin. O'r argraffiad hwn, yr hwn a ymddangosodd yn y flwyddyn 1535, nid oes un copi ar gael yn bresennol. Dysgrifir ef gan yr awdwr fel braslun o'r hyn a ymddangosodd wedi hyny dan yr un enw; a chyhoeddwyd ef yn ddienw, gan nad oedd ganddo mewn golwg ond rhoddi dadganiad o ffydd y rhai a welai yn cael eu tori i lawr gan greaduriaid gwenieithgar a gwaedlyd y llys. Tybir iddo gael ei ysgrifenu yn Ffrancaeg. Yn y flwyddyn ganlynol, ail argraffwyd ef mewn ffurf helaethach yn Lladin, a chydag enw yr awdwr. Yn y gwaith hwn, er nad oedd ei awdwr ond pump ar ugain pan ysgrifenodd ef, cynnwysir esboniad cyflawn o'r gyfundrefn dduwinyddol sydd wedi ei chyfenwi ar ol hyny ar ei enw. Nid ymddengys oddi wrth argraffiadau diweddarach, nac ychwaith oddi wrth weithiau diweddarach, iddo newid ei farn mewn dim hanfodol oddi wrth yr hyn oedd pan gyhoeddwyd ef gyntaf. Byddai y fath addfedrwydd meddwl a barn yn yr oedran hwnw dan unrhyw amgylchiadau yn beth hynod; ond y mae byrdra yr amser er pan ymroddodd Calvin i astudio duwinyddiaeth yn ei wneuthur yn arbenig felly ynddo ef. Y mae yn ammheus, hefyd, a oes anghraifft arall yn hanes llenyddiaeth, o lyfr wedi ei ysgrifenu gan un mor ieuanc wedi gwneyd y fath gyfnewidiad dirfawr yn syniadau ac arferion yr oes a'i cynnyrchodd, yn nghyd â'r oesoedd dilynol. Y mae ei effeithiau ar y byd Cristionogol wedi bod cymmaint, fel y gellir edrych arno fel un o'r llyfrau sydd wedi newid wyneb cymdeithas. Ar ol cyhoeddiad y gwaith mawr hwn, aeth Calvin i Italy i ymweled â'r diwygwyr yno; a derbyniwyd ef gyda pharch mawr gan dduces ddysgedig Ferrara, merch Louis XII.; ond er ei nodded hi, bu raid iddo chwilio am ddiogelwch mewn ffoedigaeth rhag dialedd y chwil-lys. Dychwelodd i Ffrainc i drefnu ei achosion cyn ymadael â'i wlad enedigol am byth. Ei fwriad oedd i ymsefydlu yn Basle, ac ymroddi yn llwyr i'w efrydiau; ond gan ei fod yn analluog i gyrhaedd Basle ar hyd y ffordd arferol, o herwydd sefyllfa aflonydd y wlad, bu raid iddo gymmeryd y ffordd trwy Geneva. Pan yn y ddinas hon, attaliwyd ef i fyned yn mhellach gan yr hyn a eilw yn "wrthwynebiad arswydus" Farel a Viret, a diwygwyr enwog ereill. Ar ol ymdrechiadau a dyoddefiadau mawr, yr oedd Farel wedi llwyddo i blanu baner y groes yn Geneva; ac yn dra awyddus i sicrhau dyn fel Calvin yno, cymhellodd ef gyda'r taerineb mwyaf i roddi heibio ei fwriad i fyned yn mhellach, ac i gyssegru ei hun i'r gwaith yn y ddinas hono. Ymwrthodai Calvin ar y cyntaf; gan hòni, fel rheswm, yr angenrheidrwydd am fwy o amser er cynnydd personol, nag a allai gael dan faich cyfrifoldeb y weinidogaeth. I feddwl tanbaid Farel, nid oedd hyn yn ymddangos ond esgus dros ddiogi. "Dywedaf wrthych," chwanegai, "yn enw y Duw Hollalluog, os na chyflwynwch eich hun gyda ni i'r gwaith hwn, chwi a syrthiwch dan felldith Duw fel un yn ceisio, nid Crist, ond chwi eich hun." Yn ddychrynedig gan y bygythiad, ac yn teimlo fel pe buasai Duw wedi rhoddi ei law arno i'w attal i fyned yn mhellach, ymfoddlonodd i aros yn Geneva, lle y penodwyd ef yn ddioed yn ddysgawdwr duwinyddiaeth. Dewiswyd ef gan yr ynadon, gyda chydsyniad y bobl, yn bregethwr hefyd. Farel oedd y pryd hwn y mwyaf ei enwogrwydd yn y lle: ond yr oedd yn ugain mlwydd hynach na Calvin, yr hwn oedd yn yr wythfed flwyddyn ar ugain o'i oed. Yr oedd eu hymroddiad, eu dysgeidiaeth, a'u cariad at y gwirionedd yr un; ac erbyn hyn, yr oeddynt wedi uno eu hymdrechiadau i ennill buddugoliaeth lwyr i egwyddorion y Diwygiad yn Geneva, ac hefyd i'w lledaenu trwy Ewrop yn gyffredinol.

O hyn allan treuliodd Calvin y rhan fwyaf o'i oes yn Geneva, ac nid esmwyth oedd y swydd y galwyd ef i'w cyflawnu. Er fod trigolion Geneva wedi bwrw ymaith iau Rhufain, eto nid oedd eu gwybodaeth o bethau dwyfol ond anmherffaith iawn. Gosodai hyn hwynt yn agored i ruthriadau y dysgawdwyr penboeth, y rhai y bu y Diwygiad yn achlysur o'u cyffroi i weithrediad, a chan ba rai y blinid cyfeillion y gwirionedd yn fawr. Fel amddiffyniad i'r bobl yn erbyn y cyfryw, parotoai Farel a Calvin gyffes ffydd byr, yn nghyd â chatecism i'w ganlyn. Galwyd ar y dinasyddion bob yn ddeg i ddadgan eu cymmeradwyaeth a'u derbyniad o honynt—yr hyn, medd Calvin, "a wnaed gyda boddhâd mawr." Gwelir yma ddechreuad y ffurflywodraeth eglwysig a osodwyd i fyny yn Geneva. Galwyd ar y trigolion fel *dinaswyr* i ddadgan eu cyffes grefyddol, yr hyn a wnaed (Tach. 20fed, 1536). Yn mhlith y prif ddysgawdwyr hereticaidd a'u haflonyddent, yr oedd yr Ailfedyddwyr, y rhai a gyfarfu Calvin mewn dadl gyhoeddus (Mawrth 18fed, 1537) yn mhresennoldeb y llywodraethwyr a'r bobl, ac a'u dystawodd fel nad ymddangosasant mwyach yn eu mysg. Yn y flwyddyn hon hefyd torwyd ar heddwch Calvin a'i gyfeillion gan un Peter Caroli; yr hwn, ar ol llawer o gyfnewidiadau, a osododd ei hun i fyny fel amddi-

Digitized by Google

ffynydd iachusrwydd y ffydd. Cyhuddai dduwinyddion Geneva o Sabeliaeth ac Ariaeth, o herwydd na osodent gyffes Athanasius i fyny fel un awdurdodedig, ac o herwydd na ddefnyddiasant y geiriau *Trindod* a *Pherson* yn y gyffes a gyfansoddwyd ganddynt eu hunain. Mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn Berne, chwiliwyd i mewn i hyn, a rhoddwyd dedfryd bleidiol i dduwinyddion Geneva, a diswyddwyd ac alltudiwyd Caroli fel un euog o ddwyn cyhuddiadau anwireddus yn erbyn ei frodyr. Yn yr un flwyddyn cyhoeddodd ddau draethawd yn erbyn Pabyddiaeth [*De ugienda Idolatria*, a *De Papisticis Sacerdotiis*].

Nid cynt yr oedd cynhwrf Caroli drosodd nag y daeth profedigaethau newyddion a chwerwach i gyfarfod y diwygwyr yn Geneva. Penderfynodd Calvin a Farel, y Pasc 1538, i beidio gweinyddu Swper yr Arglwydd, o herwydd anfoesoldeb y trigolion. Amlygasant hefyd eu penderfyniad i beidio ymostwng yn y gradd lleiaf mewn pethau crefyddol i'r awdurdodau gwladol. Yr oedd y dinaswyr a'r cynghor, ar y llaw arall, yn brawychu rhag i'r gweinidogion wthio eu hawdurdod yn rhy bell, a gweinyddu dysgyblaeth nid yn unig am anfoesoldeb, ond am anufudd-dod i reolau o barth i'w gwisgoedd a'u dull o fyw. Galwyd cyfarfod o'r trigolion gan yr ynadon, Ebrill 23, 1538, a gorchymynasant i'r gweinidogion ymadael o'r ddinas o fewn deuddydd. Atebasant hwythau mai "gwell oedd ufuddhau i Dduw nag i ddynion," ac ymadawsant yn llawen. Aethant yn gyntaf i Berne, ac yn fuan ar ol hyny i Zürich, lle y galwyd cymmanfa o weinidogion Switzerland. O flaen y gymmanfa hon, dadleuasant eu hachos, a dangosasant pa bethau a dybient hwy yn hanfodol i ddysgyblaeth yr eglwys. Tystiasant eu parodrwydd i ymostwng i'r awdurdodau yn Geneva mewn pethau amgylchiadol, mor bell ag i ddefnyddio bedyddfaen, bara dilefeinllyd yn Swper yr Arglwydd, a chaniatau dyddiau gwyl, ar yr ammod y byddai y bobl yn rhydd i ddychwelyd at eu gorchwylion ar ol y gwasanaeth. Edrychai Calvin ar y pethau hyn yn bethau dibwys, os na roddai yr ynadon bwysigrwydd arnynt trwy orfodaeth. Ar y llaw arall, yr oeddynt hwythau yn gofyn am awdurdod i weinyddu dysgyblaeth ac i ysgymuno; i dderbyn pregethwyr gyda mwy o drefn, na byddai awdurdod ond gan weinidogion i arddodi eu dwylaw ar ordeiniad gweinidog; y byddai i Swper yr Arglwydd gael ei weinyddu o leiaf unwaith yn y mis; a bod yr arferiad o ganu cynnulleidfaol i gael ei ddechreu yn yr addoliad cyhoeddus. Ond aneffeithiol eto oedd yr ymdrech i wneyd i fyny y rhwyg.

Ar ol hyn, ymsefydlodd Calvin yn Strasburg hyd ddiwedd y flwyddyn 1541, lle yr ymroddodd i ysgrifenu, i bregethu i eglwys o ffoaduriaid o Ffrainc, ac i ddarlithio ar dduwinyddiaeth mewn coleg oedd newydd ei sefydlu. Mewn cynnadleddau a gynnaliwyd gan y diwygwyr yn Frankfort, Worms, a Regenburg, daeth i gydnabyddiaeth gyfeillgar â Melancthon, ac ennillodd yn mhlith yr Ellmyn y cyfenw anrhydeddus, *y duwinydd*. Yn ystod ei arosiad yma y dygodd ei *Institutio* i'w faintioli presennol, trwy chwanegu ychydig yn fwy na chymmaint arall at ei ddefnyddiau; ac yn y ffurf i'r hwn y dygwyd ef yn awr yr ymddangosodd mewn pump o argraffiadau cyn y flwyddyn 1559, pan y derbyniodd adolygiad a gwelliadau diweddaf Calvin ei hun, nid hir cyn ei farwolaeth, er nad oedd ond deng mlwydd a deugain oed, a'i holl alluoedd yn eu bywiogrwydd mwyaf. Pan yr ydoedd yn Strasburg y pryd hwn hefyd, cyfansoddodd ei draethawd ar Swper yr Arglwydd, ac yr ysgrifenodd ei *Esboniad ar yr Epistol at y Rhufeiniaid*. Ond yn nghanol yr holl weithgarwch hwn, cafodd adeg i briodi. Enw ei wraig oedd Ideletta de Bares, gweddw dyn o'r enw Stöerder, yr hwn a ennillasai oddi wrth yr Ailfedyddwyr.

Ffynai annhrefn ac anfoesoldeb yn Geneva yn ei absennoldeb. Cymmerodd Sadolet, esgob Pabaidd, fantais oddi wrth hyn i geisio adfer Pabyddiaeth i'w mysg. Ond yr oedd Calvin yn gofalu ac yn gwylio drostynt, er ei fod wedi ei alltudio ganddynt; ac ysgrifenodd y fath lythyr atynt yn erbyn ymdrechiadau Sadolet ag i'w hollol rwystro. Cadwai i fyny ei gyssylltiad â Geneva trwy ysgrifenu llythyrau i annog a chysuro y rhai oedd o hyd yn meithrin tuag ato y parch a'r cariad mwyaf. Yr oedd rhagluniaeth yn parotoi y ffordd i'w ddychweliad. Yr oedd yr afreoleidd-dra mwyaf wedi tori allan yn ei absennoldeb; yr oedd amryw o'r rhai a gymmerasant y blaen yn ei alltudiad wedi cyfarfod â marwolaethau arswydlawn; ac yn yr amgylchiadau hyn anfonwyd gwahoddiad taer ato i ddychwelyd. Yn Worms yr ydoedd ar y pryd. Gwrthodai ar y cyntaf, ac ysgrifenodd at gyfaill, "nad oedd un man ar y ddaiar ag yr oedd yn ei ofni gymmaint a Geneva." Ond trwy resymau Farel a Bucer, yn gystal a thaerineb cenadon a anfonwyd ato o Geneva, gorchfygwyd ei wrthwynebiad. Cydsyniodd gyda dagrau, gan ddywedyd, "yr wyf yn rhoddi fy hun i fyny i ewyllys Duw." Ar y 13eg o Fedi, 1541, derbyniwyd ef yn ol i Geneva, yn nghanol gorfoledd yr awdurdodau a'r trigolion.

Yma y dechreuodd cyfnod newydd yn hanes Calvin. Dechreuodd ar ei waith gyda phenderfyniad i ddwyn yn mlaen yr holl ddiwygiadau a ddygodd i addfedrwydd yn ei feddwl tra y bu yn Strasburg. Efe yn awr oedd yn llywodraethu y cwbl yn eglwys Geneva. Cadwyd Farel yn Neufchatel; ac yn fuan ar ol dychweliad Calvin, aeth Viret i Lausanne: gwnaeth hyn ei lafur yn ddirfawr. Heb law pregethu bob dydd bob yn ail wythnos, darlithiai ar dduwinyddiaeth dridiau bob wythnos, byddai yn bresennol yn y llys eglwysig (*consistory*) bob wythnos, cadwai i fyny ohebiaethau eang ar luaws o bethau, ymddangosai yn fynych mewn dadleuon cyhoeddus yn erbyn cyfeiliornadau, a pharotoai esboniadau ar yr Ysgrythyrau. "Nid oes genyf amser," meddai, wrth ysgrifenu at gyfaill, "i edrych allan ar yr haul; ac os pery pethau fel hyn, byddaf wedi anghoflo pa fath olwg sydd arno. Wedi i mi fyned drwy fy llafur arferol, y mae genyf gynnifer o lythyrau i'w hysgrifenu, cynnifer o gwestiynau i'w hateb, fel y mae llawer noswaith yn cael ei threulio heb i fy natur gael cynnyg ar gwsg." Nis gellir, mewn braslun fel hwn, olrhain holl amgylchiadau ei fywyd ar ol ei ddychweliad i Geneva;—nis gellir ond cyffwrdd â'r prif ddygwyddiadau.

Yn mysg y dadleuon yr ymgymmerodd Calvin â hwynt, un o'r rhai mwyaf pwysig oedd yr hon yn mha un yr amddiffynai ei olygiadau ar arfaeth ac etholedigaeth. Ei wrthwynebydd cyntaf ar y pen hwn oedd Pighius, Pabydd, yr hwn a gymmerai i fyny y ddadl rhwng Erasmus a Luther ar ryddid yr ewyllys; ac a ymosodai ar Calvin ar gyfrif y golygiadau a ddadganodd efe ar y mater. Atebodd Calvin ef mewn gwaith a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1543, yn yr hwn yr amddiffynai ei olygiadau ei hun trwy reswm, yn

Digitized by Google

gystal ag o'r Ysgrythyrau, ac o'r tadau, yn enwedig Awstin. Mor gadarn oedd ei ymresymiadau yn ngolwg ei wrthwynebydd, fel y cofleidiodd syniadau Calvin, er iddo gael ei drin yn lled erwin. Yn 1551, cyfododd dadl feithach a mwy gofidus ar yr un mater, yn yr hon y galwyd ar Calvin i amddiffyn ei olygiadau yn erbyn Bolsec, meddyg Protestanaidd; ac yn yr hon, yn raddol, yr ymddangosodd amryw yn erbyn Calvin—ac yn eu plith, Castalio, Fabri, ac hyd yn oed ddiwygwyr mor enwog a Bullinger a Melancthon; ac nid oedd ond Beza a safai wrth ei ochr.

Ond o'r holl ddadleuon y cymmerodd Calvin ran ynddynt, y mwyaf nodedig ar y pryd, a'r un y mae enw da y diwygiwr wedi dyoddef mwyaf oddi wrthi mewn oesoedd diweddarach, ydoedd y ddadl y tynwyd ef iddi yn y flwyddyn 1553, gyda'i hen wrthwynebydd, Servetus. Ar ol blyneddoedd o grwydriadau, ac ar ol cael ei ddedfrydu i farwolaeth yn Lyons, am heresi, pryd y llwyddodd i ddianc oddi wrth y gosp fygythiedig, cyrhaeddodd yr aflonyddwr anturiaethus hwn i Geneva, Mehefin, 1553. Ymddengys iddo aros yma yn llonydd am o ddeutu mis; ac yr ydoedd am ymadael a myned i Zürich, pan y cymmerwyd ef i fyny ar y cyhuddiad o gabledd. Edrychid arno yn hir gan y diwygwyr gyda theimladau o ddygasedd—nid yn unig fel un yn dysgu athrawiaethau hollol wrthwynebol i'w hargyhoeddiadau hwy am wirionedd, ond fel aflonyddwr ar heddwch yr eglwysi, ac fel gelyn y da yn mhob man. Yn Geneva, Calvin a ymddangosai fel ei gyhuddwr, a dygwyd yn mlaen y frwydr rhwng y ddau gyda llawer o dalent o bob ochr; ac hefyd gyda llawer o chwerwder, yn enwedig o ochr Servetus. Ar ol prawf maith, condemniwyd ef i'w losgi i farwolaeth. Ymddengys nad oedd Calvin yn dysgwyl dedfryd mor lem. Cymmerodd i fyny yr erlyniad yn ei erbyn gyda'r gobaith y daethai Servetus i weled ei gyfeiliornad, ac y buasai yn galw yn ol o leiaf rai o'i ymadroddion cableddus: ac ar ol i'w holl ymdrechiadau i'w argyhoeddi o'i gamsyniadau dinystriol, nid yn unig fod yn aneffeithiol, ond hefyd gyffroi ei gynddaredd cableddus, yn unol â syniadau yr oes a chyda chymmeradwyaeth yr holl ddiwygwyr, rhoddodd ei gydsyniad i'w farwolaeth; eto safai yn erbyn pob creulondeb yn y dull o weinyddu y gosp, a gwnaeth ymdrech gyda'r senedd i'r dyben hwnw. Ond yr oedd hyn yn ofer; ac felly llosgwyd Servetus yn agos i Geneva, Hydref 27ain, 1553. Yr oedd Farel gydag ef yn ei oriau olaf. a hebryngodd ef i'r dienyddle. Ymwelodd Calvin âg ef bore y diwrnod olaf; erfyniodd Servetus ei faddeuant, ond ni alwai yn ol ddim o'i eiriau.

Mae llawer o feio a chablu wedi bod ar Calvin o herwydd y rhan a gymmerodd yn yr amgylchiad anffodus hwn. Ond nid oedd efe i'w feio yn fwy na'r diwygwyr ereill:—yr oeddynt oll yn cymmeradwyo ei gondemniad. Ac wrth gyhoeddi barn arnynt am hyn, rhaid coflo mai syniad cyffredinol yr oes hono oedd y dylasid cospi cabledd â marwolaeth:—a chabledd oedd y cyhuddiad o herwydd pa un y cyhoeddwyd y ddedfryd ar Servetus. Yn unol â syniadau yr oes bresennol, yr oedd y gosp yn rhy lem; ond pan gofir nad oes ond ychydig o flyneddoedd er pan y cospid *forgery* a mân-ladradau â marwolaeth yn y gwledydd mwyaf gwareiddiedig, nid yw yn rhyfedd fod dynion duwiol ac eiddigeddus, dri chan mlynedd yn ol, o'r farn y dylasid ymddwyn yr un modd tuag at drosedd sydd lawer mwy erchyll ynddo ei hun, ac yn llawer mwy niweidiol i gymdeithas nag unrhyw weithred o anonestrwydd, pa mor fawr bynag. Ni ddiwreiddiwyd cyfeiliornad Servetus gyda'i farwolaeth; ond gan mai am ei gableddau anferth y dedfrydwyd ef i ddyoddef cosp eithaf y gyfraith, ac nid am ei syniadau cyfeiliornus, ni ddyoddefodd neb o'i ganlynwyr gosp drymach nag alltudiaeth o Geneva. Ond cymmerodd y cynnadleddau, y dadleuon, a'r treialon crybwylledig, ac amryw o'r rhai hyn, lawer o amser Calvin am rai blyneddoedd.

Prif nodweddiad holl weithiau Calvin ydyw ysbryd trefn a chyfundraeth. Mae hyn yn nodweddiad cenedlaethol y Ffrancod. Yn nghanol eu holl fywiogrwydd, mae hyn i'w ganfod yn eu hiaith, eu llenyddiaeth, eu hymgais at ffurflywodraeth wladol; ac o fewn terfynau crefydd, gwelir ef yn arbenig yn y ffurf reolaidd a rhesymegyddol a roddodd Calvin i dduwinyddiaeth. Ni weithiodd dynion allan eu hegwyddorion yn fwy anmhlygadwy erioed nag y gwnaeth diwygwyr Geneva. Gwaith mawr duwinyddol y diwygiad yw *Institutio* Calvin; yr hwn sydd gorff o dduwinyddiaeth, ar gynllun syml Credo yr Apostolion, ac yn unol â pha un y mae holl wirioneddau Cristionogaeth yn cael eu hymresymu allan. Nodweddiad gwahaniaethol cyfundraeth Calvin ydyw arfaeth ac etholedigaeth. Edrychai ar hyn, nid fel pwnc o athrawiaeth yn unig, ond fel egwyddor hanfodol i fywyd o sancteiddrwydd. Credai ef fod y syniadau bas oedd gan ddynion am natur pechod a gras yn gyssylltiedig â ffyniant llygredigaeth yn y byd, a bod Pabyddiaeth yn meithrin y syniadau hyn, ac nad oedd un llwybr effeithiol i'w gwrthsefyll ond trwy roddi arbenigrwydd ar hollol lygredigaeth dyn, a'i anallu ysbrydol i bob gweithred dda, ac o ganlyniad ar benarglwyddiaeth gras Duw fel unig ffynnonell ei iachawdwriaeth, a chyflawnhad trwy ffydd yn unig heb weithredoedd y ddeddf. Yr athrawiaethau hyn, y rhai a adnabyddid o'r blaen yn eu neillduolrwydd fel Awstiniaeth, a ddefnyddiodd Calvin i wrthsefyll a gorchfygu Pabyddiaeth. Ond nid Calvin yn unig o'r diwygwyr oedd yn dal yr athrawiaethau hyn: yr oeddynt nid yn unig yn gyffredin iddo ef a Zuinglius ac Œcolampadius, ond hefyd i Luther, ac i Melancthon yn nechreuad ei yrfa, o'r hyn lleiaf; yr oedd y diwygwyr yn gyffredin yn mhob gwlad yn cydsynio am danynt. Y rhai hyn oedd eu harfau i ddinystrio Pabyddiaeth. Yr oedd golygiadau Calvin yn gaethach yn niwedd ei oes, pan yr ydoedd wedi defnyddio llymder ei resymeg i dynu allan y gosodiad am ddewisiad grasol a thragywyddol Duw o bechaduriaid i'r holl ganlyniadau a dybiai efe oedd yn gynnwysedig ynddo, nag yr ymddengys eu bod pan yr ysgrifenodd y braslun cyntaf o'r *Institutio*. [Gwel ARFAETH.]

Pwnc arall o bwys mawr yn nghredo Calvin ydyw ei olygiadau am awdurdod yr eglwys, ac am ddysgyblaeth yr eglwys. Y mae yn rhoddi y fath arbenigrwydd i'w syniadau ar hyn fel y cyhuddai ysgrifenwyr Pabaidd ef o fod yn nes atynt hwy ar y pen hwn nag at egwyddorion Protestaniaeth. Ac y mae yn lled sicr fod Calvin yn priodoli awdurdod uwch i'r eglwys nag y gwnai y diwygwyr ereill. Yr oedd ei gyfundraeth ef o ffurflywodraeth eglwysig yn gyffelyb os nad yn hanfodol yr un a'r ffurflywodraeth dan ba un yr oedd Israel gynt; sef dwyflywodraeth (*theocracy*). Cymmerai yn ganiatael fod pob aelod o'r wladwriaeth yn ddarostyngedig i ddysgyblaeth eglwysig, a honai fod yr hawl i wein-

Digitized by Google

yddu dysgyblaeth yn hollol yn nwylaw y pregethwyr a'r henuriaid. Parai ei ymdrechiadau i gario allan y golygiadau hyn ymrafael rhyngddo a'r awdurdodau gwladol, ac hefyd a'r werin. Ymgodai yr olaf yn erbyn dysgyblaeth fel caethiwed ar eu rhyddid i fyw fel y mynent; ac ewyllysiai y blaenaf sicrhau yn eu dwylaw eu hunain ran o'r awdurdod yr oedd Calvin yn ei gyfyngu i lywodraethwyr yr eglwys yn unig. Ond o'r diwedd, llwyddodd ei wroldeb a'i benderfyniad, a chafodd y boddhad, cyn ei farwolaeth, o weled y gyfundrefn eglwysig y rhoddodd ei galon gymmaint arni wedi ei sefydlu, nid yn unig yn Geneva, ond mewn rhanau ereill o Switzerland, ac o wybod ei bod wedi ei mabwysiadu o ran ei phrif egwyddorion gan ddiwygwyr Ffrainc a Scotland.

Bu dadl faith ac anghysurus rhyngddo a'r Lutheriaid, yr hyn a derfynodd mewn ymraniad yn mhlith y blaid efengylaidd i ddau ddosbarth mawr; sef y Lutheriaid a'r Eglwys Ddiwygiadol. Honai y blaenaf fod corff a gwaed Crist yn sylweddol yn Swper yr Arglwydd, a bod y cymunwyr i gyd yn cyfranogi o hono: tra y myntumiai yr olaf mai presennoldeb rhinweddol corff a gwaed Crist yn unig sydd; ac o ganlyniad nad oes ond cyfranogiad ysbrydol trwy ffydd yn bosibl. Yn nghanol y gofalon a'r gorchwylion aneirif hyn, cafodd Calvin amser i ysgrifenu llawer o lyfrau, heb law y rhai a achlysurwyd trwy y dadleuon hyn. Mae y rhai pwysicaf a lluosocaf o honynt o natur esboniadol. Hyd ddiwedd ei oes parhaodd i draddodi darlithiau duwinyddol deirgwaith yn yr wythnos, ac yn fynych bob dydd. Achlysurodd nifer cynnyddol y dynion ieuainc a ddeuent o bob parth o Ewrop i wrandaw arno, i senedd y ddinas sefydlu athrofa ar gais a chyda chynnorthwy Calvin. Dewiswyd Beza yn athraw duwinyddol ac yn llywydd cyntaf y sefydliad [gwel BEZA]. Traddododd Calvin lawer o'i esboniadau o flaen y cynnulleidfaoedd a gyrchent yno, a pharotodd rai ereill heb eu traddodi. Dengys hyn pa fodd y mae ei esboniadau mor luosog. Er iddynt gael eu cyfansoddi yn Lladin, cyfleithodd ef ei hun lawer o honynt i'r Ffrancaeg. Cynnwysa ei esboniadau holl lyfrau y Beibl, ond llyfrau y Barnwyr, Ruth, Samuel, y Breninoedd, Esther, Nehemiah, Ezra, Diarhebion, y Pregethwr, Caniad Solomon, a'r Dadguddiad. Mae ei esboniadau yn meddu cymmaint o werth mewn esboniadaeth Ysgrythyrol ag a berthyn i'w gorff o dduwinyddiaeth a'i draethodau ereill yn eu dosbarth eu hunain. Gan lawer yn wir cyfrifir hwynt o uwch gwerth.

Yr oedd y fath gydgasgliad o ansoddau angenrheidiol i esboniwr wedi cyfarfod yn Calvin, nes ei osod yn mhlith esbonwyr cyntaf unrhyw oes a gwlad. Y mae ei anmhleidgarwch a'i ddifrifwch fel ymofynydd i ystyr yr Ysgrythyr—ei farn, ei dreiddgarwch, a'i fedr i gael allan feddwl ei awdwr—ei fanylwch, a i allu i grynoi llawer i ychydig o le—cywirdeb ei ddysgeidiaeth, cyfanrwydd ei ymresymiad, a dillynedd ei arddull—oll yn cyduno i osod gwerth anmhrisiadwy ar ei esboniadau fel trysorau gwybodaeth ysgrythyrol, ac hefyd fel cynlluniau rhagorol o esboniadaeth. Ac fel y mae ei barch i air Duw yn cymmedroli ei feddwl yn ffurfiad ei farn am athrawiaethau—oddi eithr, fel y tybia rhai, am arfaeth—felly y mae ei olygiadau duwinyddol yn gweithredu ar ei feddwl fel esboniwr i'w wneuthur yn fwy awyddus nag esbonwyr yn gyffredin i gael allan feddwl arweiniol a chyssylltiad ymresymiad ei awdwr. Y mae hyn yn arwain i noddweddiad arall ynddo fel esboniwr; sef, mai nid gwneyd sylwadau annibynol y mae, ond cymmeryd gafael yn yr edafedd sydd yn rhedeg drwy ac yn rhoddi unoliaeth i'r cwbl.

Ennillodd athrofa Geneva enwogrwydd mawr trwy ddarlithiau Calvin a Beza. Yn fynych ni byddai llai na mil o wrandawyr pan y byddai Calvin yn traddodi ei ddarlithiau ef. Deuent o bob parth o Ewrop; a rhwng ei ddysgyblion, a'i esboniadau mewn Lladin a Ffrancaeg, yr oedd ei ddylanwad yn fawr ac yn gyffredinol.

Nid allasai llafur mor galed a dibaid lai nag effeithio ar y cyfansoddiad cryfaf—pa faint mwy ar un mor frau ag eiddo Calvin! Ond yn mhlith llawer o ddyoddefiadau, ac ymosodiadau mynych aflechyd, daliodd ei ffordd yn wrol am wyth mlynedd ar ugain; ac nid cyn i'w gorff syrthio megys yn gandryll o'i gwmpas, wedi ei rwygo gan y dwymyn, diffyg anadl, y gareg, a'r gymmalwst—ffrwyth, gan mwyaf, ei gaethiwed parhaus yn ei fyfyrgell—y rhoddodd ei ysbryd i fyny y frwydr. Yn nechreuad y flwyddyn 1564, yr oedd ei boenau mor dost fel yr oedd yn amlwg fod ei yrfa yn tynu i'w diwedd. Ar y chweched o Chwefror o'r flwyddyn hono, pregethodd y waith olaf, gydag anhawsder mawr, o ddiffyg anadl. Dygwyd ef amryw weithiau ar ol hyn i'r eglwys, ond nid allai gymmeryd un rhan yn y gwasanaeth. Yn nghanol ei ddyoddefiadau, yr oedd ei sel a'i ymroddiad yn ei gadw mewn gweithgarwch parhaus; a phan yr ymresymid âg ef am hyn, atebai, "A fynech chwi i'r Arglwydd ddyfod, a fy nghael yn segur?" Ar ol misoedd o ddygn boenau, y rhai a ddyoddefodd mewn ffydd ac amynedd, bu farw yn mreichiau ei gyfaill ffyddlawn Beza yn hwyr y 27ain o Fai, yn y bymthegfed flwyddyn a deugain o'i oed.

Yr oedd Calvin o faintioli cyffredin, o wynebpryd llwyd-ddu: ymddangosai craffder ei feddwl yn nysgleirdeb ei lygaid. Yr ydoedd yn gymmedrol yn ei ymborth, ac yn syml yn ei wisg. Ni chymmerai ond ychydig gwsg; ac yr ydoedd yn alluog i ddal ymdrechiadau meddyliol anghyffredin. Yr oedd ganddo gof rhyfeddol; ond ni ddefnyddiai ef ond i wasanaethu ei alluoedd uwch. Ni bu ond yn anfynych iawn ei gyffelyb fel ymresymydd, ac yr oedd craffder a diogelwch ei farn y fath ag i roddi i'w benderfyniadau yr ymddangosiad o ragfynegiadau; ac ennillai hyder mwyaf ei holl gyfeillion yn ei ddoethineb. Fel duwinydd, ni chyrhaeddodd neb enwogrwydd uwch ond Awstin; ond fel esboniwr yr Ysgrythyrau, ac o ran dillynder ei arddull, rhagorai Calvin arno yntau. Yr ydoedd yn llym a chyffrous o ran ei dymmer naturiol, ond yn berffaith gydwybodol, uniawn, a didwyll. "Yr ydwyf wedi cael manteision i sylwi arno am un mlynedd ar bymtheg," medd Beza, "ac y mae genyf hawl i dystio ei fod yn esampl i bob Cristion yn ei fywyd a'i farwolaeth—y fath na bydd yn hawdd ei ddifrio, a'r fath y bydd yn anhawdd ei efelychu."

Ymddangosodd casgliad o'i holl waith yn Geneva yn y flwyddyn 1617, mewn deuddeg cyfrol: ond yr argraffiad goreu ydyw un Amsterdam, mewn naw cyfrol unplyg, 1671. Y mae y *Calvin Translation Society* wedi gorphen cyhoeddi yn Seisoneg ei holl waith, ond ei *Homiliau* ar 1 *Samuel* ac ar *Iob*. Y prif awdurdod am ffeithiau hanes bywyd Calvin ydyw y bywgraffiad a ysgrifenodd Beza am dano, yn 1564; sef y flwyddyn y bu farw. Y mae hanes Dr. Henry, mewn dwy gyfrol, yn cynnwys lluaws o ffeithiau chwanegol.

Digitized by Google

CALVINIAETH: yr enw a roddir ar y gyfundrefn dduwinyddol hono sydd yn cyfateb ar y cyfan i eiddo Calvin, er yn gwahaniaethu mewn rhai pethau oddi wrth olygiadau y diwygiwr enwog. Cynnwysai y gair yn y dechreu olygiadau athrawiaethol a ffurflywodraeth eglwysig Calvin a'i ganlynwyr. Y ffurflywodraeth eglwysig a amddiffynai ac a osododd Calvin i fyny yn gyntaf yn Strasburg, ac wedi hyny yn fwy cyflawn yn Geneva, o ba le yr ymledaenodd i Ffrainc, Germany, Holland, Lloegr, a Scotland, ydyw *Presbyteriaeth* [gwel yr erthygl].

Y prif athrawiaethau duwinyddol a amddiffynai ydynt, arfaeth neu etholedigaeth, pechod gwreiddiol, prynedigaeth neillduol, gweithrediad effeithiol neu anorchfygol (*irresistible*) Ysbryd Duw yn ailenedigaeth pechadur, cyflawnhad trwy ffydd, parhad mewn gras, a phresennoldeb gwirioneddol ond ysbrydol Crist yn Swper yr Arglwydd. Ond nid yw pawb a elwir yn Galviniaid yn awr yn dal y golygiadau uchod o barth i ffurflywodraeth eglwysig. Ac y mae Arminiaid yn dal rhai o'r pynciau athrawiaethol y dadleuai Calvin gymmaint drostynt. Mae cyfundrefn Arminius ei hun, a Wesley, a'r rhai a elwir yn Arminiaid Efengylaidd [gwel yr erth.] yn cynnwys yr athrawiaethau am hollol lygredigaeth natur foesol dyn, ailenedigaeth a sanctceiddiad trwy yr Ysbryd Glân, a chyflawnhad o ras trwy ffydd yn unig. Mae Arminiaid a Chalviniaid yn cytuno yn yr athrawiaethau a ellir eu golygu fel y rhai mwyaf hanfodol yn nhrefn y dadguddiad dwyfol; sef dwyfoldeb person ac iawn y Cyfryngwr, pechod gwreiddiol, ailenedigaeth, a chyflawnhad. Ond y mae Calviniaid yn myned yn mhellach, ac yn hòni nas gellir *gyda chyssondeb* ddal y rhai uchod heb hefyd ddal neillduolion eu credo hwy; sef etholedigaeth ddiammodol i fywyd tragwyddol, gras anorchfygol yn nychweliad pechadur, a pharhad sicr credinwyr. Dadleua y Calviniaid fod golygiadau ysgrythyrol am bechod gwreiddiol ac ailenedigaeth yn arwain yn angenrheidiol i'w hathrawiaethau neillduol hwy; ac o ganlyniad mai po mwyaf cysson â'r gwirionedd y mae Arminiaid am anallu dyn, a gras Duw yn nychweliad pechadur, mwyaf *anghysson* ydynt â hwy eu hunain.

Y mae gwirionedd cyntaf duwinyddiaeth, sef perthynas dyn a Duw, yn cynnwys dirgelwch anorfod i ddeall terfynol. Y mae *creadigaeth foesol* yn ffaith nas gall dyn ei hesbonio. Mae yn teimlo ei fod yn greadur dibynol, ac eto yn weithredydd moesol, cyfrifol am ei weithrediadau i'r hwn y derbyniodd ei allu oddi wrtho i weithredu. Y mae y cyssylltiad hwn sydd rhwng rhyddid a dibyniad yn cynnwys rhywbeth sydd y tu allan i derfyn galluoedd dyn. Y duedd, wrth olrhain dibyniad dyn yn unochrog, ydyw edrych ar bob peth yn cael ei lyncu yn yr Anfeidrol, heb fod un gweithredydd mewn bod ond Duw:—y peryglwrth olrhain ei annibyniaeth ydyw codi dyn i orsedd Duw. Y mae pob dadblygiad pellach o'r gyfundrefn dduwinyddol yn ddadblygiad pellach o'r un dirgelwch i ba un y mae ei helfenau cyntaf yn rhedeg. Mae y ddwy elfen hanfodol i bob ystyriaeth gywir o ddyn, sef ei ddibyniad a'i gyfrifoldeb, neu mewn geiriau ereill, perthynas ewyllys dyn âg ewyllys Duw, i'w cadw mewn golwg wrth edrych ar ddyn yn ei gyflwr cwympedig trwy bechod, ac hefyd yn ei gyflwr adferedig trwy ras. Y mae y dirgelwch hwn yn ein cyfarfod mewn athroniaeth—a'r un dirgelwch yn ymddangos eilwaith mewn duwinyddiaeth.

Mewn trefn i ddeall Calviniaeth fel cyfundrefn, rhaid cofio nad ydyw yn proffesu esbonio dirgelwch perthynas ewyllys Duw âg ewyllys dyn. Ei hamcan ydyw gosod y dirgelwch yn y fath fodd fel na bydd iddo gymylu penarglwyddiaeth gras Duw o'r dechreu i'r diwedd ar un llaw, nac ychwaith gyfrifoldeb dyn ar y llaw arall. Mae y gyfundrefn hon yn addef yr anhawsder ar unwaith, ac yn dadgan nas gall hi egluro y llywodraeth ddwyfol er boddhad rheswm dynol, ac mai nid ei hamcan ydyw ceisio gwneyd hyny. Y mae Calviniaeth yn appelio yn yr eithaf, yn erbyn pob gwrthddadleuon, at uchaflaeth a gallu Duw, ac yn amcanu yn unig i geisio cyfleu yr anhawsder yn ei le priodol. Os addefir mai rhai yn unig a achubir, y mae cwlwm yn ymgynnyg i'n hystyriaeth nas gellir ei ddattod. Y mae trefniad, bwriad, ac arfaethiad, yn ymddangos, nas gellir ond ei olrhain i benarglwyddiaeth ddwyfol, am weithrediad yr hwn nis gellir rhoddi un cyfrif. Yr unig ymofyniad ydyw—Yn mha le y mae gosod y cwtogiad neu y cyfyngiad hwn sydd yn perthyn i weithrediad trugaredd? Yma y mae yr anhawsder. Mae Calviniaeth yn edrych ar ewyllys y Tad fel unig ffynnonell trefn yr iachawdwriaeth, ac fel unig reswm y neillduolrwydd sydd yn perthyn iddi; a golygant waith y Mab a'r Ysbryd fel yn gymmesur âg ewyllys y Tad, ac yn sicrhau ei benderfyniadau. Yma olrheinir yr holl anhawsder i benarglwyddiaeth ac ewyllys da Duw—Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. Ac os gofynir, Pa ham nad yw Duw yn ewyllysio achub pawb, neu chwaneg nag sydd yn y cynllun? atebir drwy ofyn cwestiwn arall, Pa ham y mae yn ewyllysio achub neb?

Yn lle gosod y neillduolrwydd yn ewyllys y Tad, yr hyn sydd yn myned o flaen gwaith Crist a'r Ysbryd, ac yn eu terfynu, fel y gwna Calviniaeth, gellir ei osod yn ewyllys dyn, yn dyfod ar ol gwaith Crist a'r Ysbryd, ac yn cyfyngu yr hyn a adawodd Duw yn gyffredinol. Yna y mae genym gariad cyffredinol y Tad, gwaith cyffredinol y Mab, a dylanwad cyffredinol yr Ysbryd—a'r cwbl yn dibynu ar ewyllys dyn am eu heffeithioldeb. Hon ydyw cyfundrefn Pelagius; a'r wrthddadl yn ei herbyn ydyw, ei bod hi yn gosod ffynnonell iachawdwriaeth dyn yn ei ewyllys ei hun.

Yn ol Arminiaeth, y mae cariad y Tad a gwaith y Mab yn gyffredinol, ond gwaith yr Ysbryd yn neillduol; ac yn unol â hyn gosodir yr anhawsder, nas gall un gyfundrefn ei symmud ymaith, pa beth bynag a wna âg ef, rhwng gwaith y Mab yn pwrcasu a gwaith yr Ysbryd yn cymhwyso yr iachawdwriaeth. Y mae eu golygiadau am anallu moesol dyn i wneyd un daioni yn eu gorfodi i briodoli neillduolrwydd i waith yr Ysbryd.

Ond mae yr hyn a elwir Calviniaeth Ddiweddar (*Modern Calvinism*) yn priodoli neillduolrwydd i ewyllys y Tad ac i waith yr Ysbryd, ond cyffredinolrwydd i waith y Mab.

O'r cyfundraethau hyn, y mwyaf cysson â hwy eu hunain ydyw y ddwy sydd yn priodoli neillduolrwydd neu gyffredinolrwydd i weithrediadau yr holl bersonau dwyfol fel eu gilydd; am fod y ddwy ereill fel yn dwyn i mewn wahaniaeth i'r hanfod ddwyfol, i'r hon y perthyna ond un ewyllys, er fod ynddi dri pherson. Mae y gyfundrefn Galvinaidd yn gysson â hi ei hun, wrth briodoli neillduolrwydd cadwedigaeth i ewyllys y Tad, a thrwy hyny i waith y Mab a gwaith yr Ysbryd. Mae y gyf-

Digitized by Google

undrefn sydd yn wrthgyferbyniol i hon, ac o ganlyniad y bellaf oddi wrthi, yn gysson trwyddi wrth briodoli i ewyllys dyn yn unig yr achos o'r neillduolrwydd hwn. Y ddwy gyfundrefn arall a gudd iant yr anhawsder trwy ei gyfleu yn wahanol.

Gwelir oddi wrth hyn mai yr athrawiaeth sydd mewn modd arbenig yn hynodi Calviniaeth ydyw etholedigaeth ddiammodol, yn nghyd â'r athrawiaeth o bechod gwreiddiol, ar yr hon y mae angenrheidrwydd am etholedigaeth yn gorphwys; ac hefyd gras anorchfygol, yr hyn sydd yn gasgliad angenrheidiol oddi wrth etholedigaeth.

Dylid cofio fod gwahaniaeth rhwng angenrheidrwydd [gwel erthygl] neu dyngedfeniaeth (*fatalism*) a golygiadau Calvinaidd ar etholedigaeth, er fod egwyddorion y naill wedi cael eu defnyddio i amddiffyn y llall. Mae y blaenaf yn gorphwys ar athroniaeth am ei brawf, ond yr olaf a broffesa ymsylfaenu ar ddadguddiad dwyfol. Y mae un math o angenrheidrwydd yn gorphwys ar yr egwyddor gyffredinol—fod i bob dygwyddiad achos; a chan gymhwyso yr egwyddor hon at weithredoedd dynion, ymresyma yn y modd canlynol:—fel y mae yn rhaid fod achos i bob gweithred, felly y mae yn rhaid fod achos i'r achos hwnw, ac felly, hyd yn oed pe dywedem mai dewisiad yr ewyllys ei hun ydyw yr achos hwn, rhaid i ni fyned yn mlaen yn mhellach, a dyweyd fod i hwn drachefn achos. Felly gyda'r gyfres annherfynol hon o achosion i bob gweithred ddynol, tra nad yw oes y gweithredydd ond terfynol, y mae amddiffynydd angenrheidrwydd yn estyn y gyfres yn ol nes y cyrhaedda bwynt y tu allan i'r gweithredydd—yr hwn a brofir yn y modd hyn i fod, yn yr eithaf, dan ddylanwad achosion annibynol arno ei hun.

Ond y mae math arall o angenrheidrwydd, sydd yn gorphwys nid ar yr egwyddor anianyddol a nodwyd, ond ar egwyddor grefyddol, sef y briodoledd o allu yn Nuw; a'r hon sydd yn ymresymu i lawr oddi wrth yr Achos Cyntaf, yn lle yn ol, fel uchod, oddi wrth weithredoedd dyn. I'r hwn sydd yn credu mewn Creawdwr, neu Achos Cyntaf i bob peth, ac yn ystyried dyn yn ei berthynas â'r Bod anfeidrol, y mae anhawsder mawr i ddeall pa fodd y gall creadur feddu ar ewyllys rydd, a bod yn ffynnonell annibynol ei weithredoedd. Ein syniad am achos ac effaith ydyw, fod achos yn weithgar, ac effaith yn oddefol; ac felly, os yw dyn yn effaith, pa fodd y gall fod yn greadur gweithgar. Mae ein syniad am greadigaeth yn ymddangos yn anghysson âg ewyllys rydd. Y mae amddiffynydd angenrheidrwydd ar y tir hwn yn dal fod ewyllys rydd yn anmhosibl.

Ond y mae amddiffynwyr neillduolion Calviniaeth yn gosod i fyny eu hamddiffyniad, gan mwyaf, ar dir ysgrythyrol. Felly, nid edrychant hwy ar ewyllys rydd yn beth anmhosibl yuddo ei hun; o herwydd addefant, ar awdurdod yr Ysgrythyr, ei fod yn meddiant y dyn cyntaf, Adda, yn ei gyflwr creadigol, ond iddo trwy y cwymp ei golli. Ar y ffaith hanesyddol hon, sef cwymp dyn, a'i anallu moesol trwy hyny, y gosodir yn gyffredin gan dduwinyddion Calvinaidd yr angenrheidrwydd am etholedigaeth ddiammodol. Mae rhai, o duedd mwy ymresymiadol, wedi amddiffyn eu Calviniaeth bron yn hollol ar yr egwyddorion a grybwyllwyd, sef athroniaeth achosion â gallu dwyfol. Yn mhlith y rhai hyn y mae Jonathan Edwards, Dr, E. Williams, Dr. Payne, a Dr. Chalmers. Y tir ar ba un y safai Awstin yn benaf oedd tir ysgrythyrol; er yn achlysurol y defnyddiai athroniaeth yn ei amddiffyniad i'w olygiadau. I'r gwrthwyneb, yn y canoloesoedd, defnyddiai y duwinyddion a amddiffynent olygiadau Awstin ymresymiadau athronyddol yn benaf, gan appelio yn achlysurol at yr Ysgrythyrau. Ac er hyny yr ydym yn cael Thomas Aquinas, duwinydd mwyaf y canoloesoedd, a'r enw uchaf mewn duwinyddiaeth yn y cyfnod maith rhwng Awstin yn y pedwerydd canrif a Calvin yn yr unfed ar bymtheg, yn sylfaenu yr athrawiaeth o etholedigaeth ar y cwymp. Ymwrthodai y diwygwyr, Luther a Calvin, âg ewyllys rydd yn yr ystyr o allu moesol ac ysbrydol mewn dyn i wneyd daioni; ond eto nid â'r gynneddf naturiol, fel y gwnai amddiffynwyr angenrheidrwydd trwy ei dwyn dan ddylanwad achosion y tu allan iddi ei hun. Felly amddiffynent hwy neillduolrwydd eu cyfundraeth ar dir ysgrythyrol. Olrheinia Coleridge y gwahaniaeth mawr a honai ef sydd rhwng Calviniaeth Calvin a Chalviniaeth Jonathan Edwards, neu rhwng gwir Galviniaeth a Chalviniaeth Ddiweddar, i'r gwahaniaeth hwn yn eu syniadau am yr ewyllys, neu, mewn geiriau ereill, i'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt yn y tir y safant arno i amddiffyn eu golygiadau.[1] Mae yn ffaith hynod fod y Lutheriaid wedi ymwrthod â chanlyniadau y gyfundrefn Awstinaidd neu Galvinaidd, a honent fod arfaethau Duw yn ammodol;—tra yr oedd y Calviniaid yn y dechreu yn olrhain eu hegwyddorion mor bell i'w canlyniadau ag i ddadleu fod hyd yn oed y cwymp wedi ei arfaethu gan Dduw [gwel UCHGWYMPEDYDDION]. Wrth ymresymu oddi wrth allu dwyfol, mewn dull athronyddol, yr oedd Calviniaid yr oes hono, ac ambell un ar ol hyny,

[1] "The doctrine of Modern Calvinism, as laid down by Jonathan Edwards and the late Dr. Williams, which represents a will absolutely passive, clay in the hands of a potter, destroys all will, takes away its essence and definition as effectually as in saying—This circle is square. I should deny the figure to be a circle. It was in strict consistency therefore that these writers supported the Necessitarian scheme, subjecting the universe to its mechanism—the moral world no less than the material or physical. It follows that all is nature. Thus, though few writers use the term spirit more frequently, they in effect deny its existence, and evacuate the term of all its proper meaning. With such a system, not the wit of man nor all the theodices ever framed by human ingenuity, before and since the attempt of the celebrated Leibnitz, can reconcile the sense of responsibility, nor the fact of the difference in kind between regret and remorse. The same compulsion of consequence drove the fathers of Modern (or pseudo) Calvinism to the origination of holiness in power, of justice in right of property, and whatever other outrages on the common sense and moral feelings of mankind they have sought to cover under the fair name of sovereign grace.

I will not take on me to defend sundry harsh and inconvenient expressions in the works of Calvin. Phrases equally strong, and assertions not less rash and startling, are no rarities in the writings of Luther: for *catachresis* was the favorite figure of speech in that age. But let not the opinions of either on this most fundamental subject be confounded with the New-England system, now entitled Calvinistic. The fact is simply this:—Luther considered the pretensions to free-will boastful, and better suited to the budge doctors of the Stoic Fur, than to the preachers of the Gospel, whose great theme is the redemption of the will from slavery; the restoration of the will to perfect freedom being the end and consummation of the redemptive process, and the same with the entrance of the soul into glory, that is, its union with Christ:—"*glory*" (*John* xvii. 5) being one of the names, or tokens, or symbols of the spiritual Messiah. Prospectively to this we are to understand the words of our Lord; "At that day ye shall know that I am in my Father, and ye in me;" *John* xiv. 20: the freedom of a finite will being possible under this condition only, that it has become one with the will of God. Now, as the difference of a captive and enslaved will, and no will at all, such is the difference between the Lutheranism of Calvin and the Calvinism of Jonathan Edwards."—*Coleridge's Aids to Reflection.*

Digitized by Google

yn cyrhaedd casgliad mor aswydlawn.[1] Ond yr oedd y syniad hwn mor bell oddi wrth gyfarfod â chymmeradwyaeth gyffredinol yn mhlith Calviniaid, fel yr ymwrthodwyd âg ef bron yn llwyr am y syniad gwrthwynebol, mai fel rhai wedi cwympo y golygai yr arfaeth hwynt [gwel Is-GWYMPEDYDDION].

Ond a chymmeryd yn ganiatael mai athrawiaeth y cwymp, neu bechod gwreiddiol, ydyw sail briodol yr athrawiaeth am etholedigaeth, gellir gofyn, Pa fodd y mae y naill athrawiaeth yn sail i, ac yn rheswm dros, y llall? Fel y canlyn:—

Y mae athrawiaeth y cwymp yn dysgrifio holl ddynolryw yn analluog i wneyd dim derbyniol a chymmeradwy gan Dduw. Y mae trugaredd ddwyfol yn penderfynu gwaredu dyn o'r cyflwr hwn o drueni a dinystr. Ond pa fodd y gellir effeithio cadwedigaeth un sydd yn hollol analluog i wneyd dim erddo ei hun ond trwy weithred o allu diammodol o eiddo ei Achubwr? Addefir ar bob llaw fod Duw wedi penderfynu er tragwyddoldeb gwneyd pa beth bynag y mae yn ei wneuthur mewn amser; o herwydd nis gall neb, sydd yn credu mewn Duw o gwbl, gredu ei fod yn gwneyd dim yn fyrbwyll, heb fod wedi meddwl am hyny o'r blaen. O ganlyniad y mae arfaeth Ddwyfol er tragwyddoldeb i gyfranu iachawdwriaeth sicr i bawb y cyfrenir hi iddynt. Drachefn, addefir yn gyffredinol nad yw pawb o ddynolryw yn cael eu hachub. Ond y mae y ddau addefiad hyn yn gwneyd i fyny yr athrawiaeth o etholedigaeth; yr hon ydyw—fod Duw wedi arfaethu er tragwyddoldeb achub rhan o ddynolryw trwy ei allu penarglwyddiaethol, a gadael y gweddill yn eu cyflwr colledig.

Wrth olrhain etholedigaeth i'w ffurf symlaf—sef i weithred benarglwyddiaethol o eiddo Duw yn penderfynu pwy a achubir a phwy a adewir i gosp—y mae Calviniaeth yn hòni nad yw hyn yn newid dim ar natur llywodraeth Duw: mae hi yn parhau yn foesol o ran ei natur, gan wobrwyo rhinwedd a chospi bai. Y mae yn canlyn fod y rhai sydd wedi eu harfaethu i fywyd tragywyddol wedi eu harfaethu i feddu y cymhwysderau angenrheidiol i'w fwynhau. A chan fod Duw wedi arfaethu gwneyd personau neilldiol yn rhinweddol a sanctaidd, y mae wedi penderfynu cyfranu gras iddynt i newid eu hewyllysiau ac i sicrhau yr amcan mewn golwg. Y mae duwinyddion yn gosod i lawr yn eu cyfundraethau ddau fath o ras: un ydyw gras cynnorthwyol, yr hwn y gall ewyllys dyn ei dderbyn a'i ddefnyddio neu ei wrthod; a'r llall sydd effeithiol neu anorchfygol, yn sicrhau ei amcan yn anffaeledig. Hòna Calviniaid fod y gras effeithiol hwn yn rhan anhebgorol o etholedigaeth. Hebddo, ni allai arfaeth sicrhau iachawdwriaeth neb. Ac yn hyn y mae hanfod y gwahaniaeth rhwng Calviniaeth a phob cyfundrefn arall. Y mae cyfundraethau creill yn dal arfaeth dragywyddol, er mai i'r gyfundrefn dan sylw y priodolir hyn yn gyffredin. O herwydd y mae yr hwn sydd yn credu mewn ewyllys rydd ac mewn gras cynnorthwyol yn unig, yn dal fod Duw wedi penderfynu er tragywyddoldeb roddi y gras cynnorthwyol hwnw i bawb sydd yn ei gael. Ac nid oes dim gwahaniaeth rhwng Calviniaid a'u gwrthwynebwyr am sail y ddedfryd a gyhoeddir yn y diwedd, nac am y rheswm o herwydd pa un y gwobrwyir y da ac y cospir y drwg. Ond y mae gwahaniaeth rhyngddynt yn eu golygiadau am natur y weithred sydd yn wrthddrych yr arfaeth ddwyfol, ac am y dull trwy ba un y cynnyrchir y gwahaniaeth rhwng y da a'r drwg: hyny yw, y mae y ddwy gyfundrefn yn gwahaniaethu am natur a nerth gras Duw dan yr efengyl—un yn dal mai gras cynnorthwyol ydyw, yn dibynu ar ewyllys dyn am ei ddefnyddiad, a'r llall yn dal mai gras anorchfygol ydyw.

Ar ol olrhain y golygiadau Calvinaidd i'w hanfod, a dangos mai mer y gyfundrefn ydyw gras anffaeledig yn sicrhau iachawdwriaeth pechadur, tybia ei hamddiffynwyr eu bod yn eangu yn fawr gylch yr ymresymiad o'i phlaid. Yn lle dibynu yn unig ar yr ychydig adnodau sydd yn cynnwys y geiriau sydd yn neilldiol i'w cyfundrefn, appeliant at athrawiaeth yr Ysgrythyr am iachawdwriaeth trwy ras, yn gyffredinol; o herwydd nid rhaid ond chwanegu rhagwybodaeth Duw at dystiolaethau yr Ysgrythyr am raslonrwydd yr efengyl i gael etholedigaeth ddiammodol. Mae yr ysgrythyr yn cyferbynu yn y modd mwyaf pendant, yn ol syniadau Calviniaid, ddau gyfammod. Y cyntaf oedd y cyfammod dan ba un y crewyd dyn, ac a derfynodd yn ei gwymp. Yn hwnw yr oedd ei ufudd-dod a bywyd tragywyddol yn ymddibynu yn hollol ar y dyn ei hun. Hwn oedd y cyfammod gweithredoedd. Mae y cyfammod gras yn wrthwyneb iddo. Ond nis gall fod yn wrthwyneb iddo, os ydyw iachawdwriaeth fel o'r blaen yn dibynu ar ewyllys rydd y dyn. Os dywedir fod yn yr ail gyfammod ras yn gymhorth i ymdrechiadau ewyllys dyn, ac mai yn hyn y mae y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfammod, y mae yr ateb yn hawdd—Pa faint bynag o ras a all fod dan yr ail, tra y mae y derbyniad a'r defnyddiad o'r gras hwn yn dibynu ar ewyllys dyn, nid oes dim gwahaniaeth hanfodol rhyngddynt. Mae ei iachawdwriaeth yn dibynu ar weithred o ddewisiad o'i eiddo ei hun, fel y gwnaeth yn y cyfammod cyntaf, os nad oes yn yr ail ras i sicrhau ei dderbyniad o ras. Yn mha beth y mae y ddau gyfammod gan hyny yn wrthwyneb i'w gilydd, os nad yn hyn?—y mae gras yn y cyntaf yn dibynu ar ddewisiad gwreiddiol ac annibynol y dyn ei hun; ond yn yr ail nid yw felly. Y mae gras yr efengyl yn effeithiol ac anorchfygol, yn newid yr ewyllys ei hun. Yn unol â hyn y mae Calviniaid yn ystyried fod holl iaith yr Ysgrythyr am ras yr efengyl yn profi neilldulion eu cyfundrefn

[1] "Toplady says, 'If God had not willed the fall, he could, and no doubt would, have prevented it; but he did not prevent it, *ergo*, he willed it; and if he willed it, he certainly decreed it.' This is a philosophical argument, proceeding from the attribute of the Divine Power; as is the following appeal to our intellectual consistency as believers in a God. 'He alone is entitled to the name of true God, who governs all things, and without whose will (either efficient or permissive) nothing is or can be done. And such is the God of the Scriptures, against whose will not a sparrow can die, nor a hair fall from our heads. Now what is predestination but the determining will of God? I defy the subtlest Semi-Pelagian in the world to form or convey a just and worthy notion of the Supreme Being without admitting Him to be the Great Cause of all causes; also Himself dependent on none; who willed from eternity how he should act in time, and settled a regular, determinate, scheme of what he would do and permit to be done from the beginning to the consummation of the world. A contrary view of the Deity is as inconsistent with reason itself, and with the very religion of nature, as it is with the decisions of revelation. . . . Without predestination to plan, and without providence to put that plan in execution, what becomes of God's omnipotence? It vanishes into air: it becomes a mere nonentity. For what sort of omnipotence is that which is baffled or defeated by the very creatures it has made.'—*Toplady*, cyf. v. td. 293." Dyfynedig gan Mozley yn ei *Augustinian Doctrine of Predestination*; Murray, London, 1855.

Digitized by Google

hwy, am nad yw etholedigaeth ond gras anorchfygol, gyda'r chwanegiad o ragwybodaeth.

Y rhai hyn yw neilduolion Calviniaeth, yn nghyd â'u cyssylltiad a'u dibyniad angenrheidiol ar eu gilydd. Ond yn eu herbyn, gwrthddadleuir fod arfaeth sydd er tragwyddoldeb yn penderfynu tynged dragwyddol pawb, gan ordeinio bywyd tragwyddol i rai, a chosp dragwyddol i ereill, a hyny heb ddim gwahaniaeth yn nheilyngdod y gwrthddrychau, yn anghysson â'n teimlad naturiol o gyfiawnder. Yr atteb a roddir i'r wrthddadl hon ydyw—mai yr un athrawiaeth sydd yn sail i neu yn rheswm dros etholedigaeth ddiammodol, ydyw hefyd ei hamddiffyniad, sef yr athrawiaeth o bechod gwreiddiol. Rhaid ystyried yn mha gyflwr y mae y penderfyniad tragwyddol hwn yn cael dynolryw—sef yn haeddu tragwyddol gosp. Nid â dynolryw fel dynion y mae a wnelo etholedigaeth, ond â dynolryw mewn cyflwr colledig. Y mae yn gyfiawn cospi y cyfannis gall fod yn anghyfiawn cospi rhan. Y mae dynolryw, a'u hystyried yn ddiniweid, yn ddarostyngedig i gyfiawnder Duw; ond yn euog, y maent yn ddarostyngedig i ewyllys Duw. Y mae ei benarglwyddiaeth yn awr yn dyfod i mewn;—y mae yn trugarhau wrth y neb y myno, ac yn gadael y neb y myno i'w haeddiant ei hunan. Y cyfryw ydyw yr amddiffyniad yn erbyn y cyhuddiad o anghyfiawnder a ddygir yn erbyn etholedigaeth. Fel hyn, y mae neilduolion Calviniaeth a'u hamddiffyniad yn gorphwys ar yr un athrawiaeth o bechod gwreiddiol.

Yr wrthddadl arall a ddygir yn ei herbyn ydyw, fod gras anorchfygol yn anghysson â'r teimlad o ryddid y mae pawb wrth wneuthur drwg a da yn ei feddu. Y mae pawb sydd wedi profi gras achubol yn ymwybyddus nad oes un gorthrech na thrais yn cael ei roddi ar yr ewyllys, y fath ag a gynnwys y geiriau anwrthwynebol ac anorchfygol. Yr atteb i hyn ydyw, fod yr wrthddadl yn seiliedig ar gamsyniad am natur y dylanwad anorchfygol, o gymmaint ag nad yw y neb sydd yn ei brofi yn gweithredu er gwaethaf ei ewyllys, ond trwy ei ewyllys. Y cyfryw ydyw braslun o neilduolion Calviniaeth, y gwahaniaeth yn y modd o'u profi, eu dibyniad cyfunol â'u gilydd, a'r amddiffyniad a wneir iddynt.

Ymddengys oddi wrth yr hyn a ysgrifenwyd eisoes mai nid Calvin oedd y cyntaf a alwodd sylw at yr athrawiaethau sydd yn gyssylltiedig â'i enw. Nid yw Calvin chwaith yn rhoddi lle ac arbenigrwydd anghyfartal iddynt yn ei ysgrifeniadau. Nid ydynt yn ffurfio ond rhan fach o'i *Institutes;* ac yn ei esboniadau nid yw un amser yn eu llusgo i mewn yn annaturiol. Cyssylltwyd ei enw ef â hwynt o herwydd gwresogrwydd ei hyawdledd, a grym ei resymeg yn ei amddiffyniad o honynt, ac o herwydd yr enwogrwydd mawr a ennillodd fel duwinydd.

Awstin oedd y cyntaf a'u dygodd i arbenigrwydd neilduol, yn ei wrthwynebiad i Pelagiaeth; ac oddi wrtho ef y galwyd hwynt yn *Awstiniaeth.* Yn nechreuad Cristionogaeth, ac yn symlrwydd ffydd yr eglwys gyntefig, yr oedd y dadganiad cyffredinol *nas gall dyn wneuthur dim da heb ras* (*nihil bonum sine gratia*) yn ddigon; ond pan ddechreuodd dynion ymresymu uwch ben y geiriau hyn, y canlyniad fu i ddwy athrawiaeth fawr wrthwynebol ymddangos—gras diammodol a hollalluog ar un llaw, ac ewyllys rydd annibynol ar y llaw arall. Felly, yn ol y gwahanol esboniadau o'r un gosodiad gwreiddiol, cododd y ddwy gyfundrefn, sef Awstiniaeth a Phelagiaeth, gyda eu gwahanol gasgliadau ac athrawiaethau. Yr oedd yr Eglwys Babaidd yn proffesu trwy yr oesoedd ei bod yn dal egwyddorion Awstin; etto yr oedd Pelagiaeth o wahanol ffurfiau yn cael derbyniad cysson a chyffredinol gan y Babaeth. Ond yn achlysurol codai amddiffynwyr gwresog i athrawiaethau gras: megys Gotteschalcus yn y nawfed ganrif; Anselm yn yr unfed ganrif ar ddeg; Peter Lombard yn y ddeuddegfed ganrif; Thomas Aquinas yn y drydedd ganrif ar ddeg; a Bradwardine yn y bedwaredd ganrif ar ddeg; ac nid yn unig ennillasant sylw i Awstiniaeth, ond hefyd rhoddasant ei delw ar holl addysg awdurdodol eglwys y canoloesoedd. Awstin, mewn modd enwedigol, ydyw cynnrychiolydd Awstiniaeth, ac yn wir, duwinyddiaeth yr oesoedd hyny. [Gwel Oesoedd Canol.] Yn ei feddwl ef yr ydym yn cael duwinyddiaeth ac athroniaeth y cyfnod hwnw mewn undeb â'u gilydd.[1] Ac yn ei esboniadau o athrawiaethau Awstiniaeth, chwanega atynt lawer o egwyddorion athroniaeth baganaidd. Proffesai yr eglwysi Waldensiaidd hefyd yr un egwyddorion, yn y ddeuddegfed ganrif. Yn y ganrif o flaen y Diwygiad, sef y bymthegfed, yr oedd amryw yn dal ac yn dysgu athrawiaethau gras gyda grym ac eglurder, yn enwedig John Wessel—duwinydd ac athronydd a ganmolir yn uchel am ei ddysgeidiaeth, ei dduwioldeb, a'i syniadau clir [*The Reformers before the Reformation*, gan Ullmann]. Cofleidiai yr Eglwysi Diwygiadol yn gyffredinol yr un syniadau. Yn Holland y cododd y gwrthwynebiad cyntaf o bwys yn eu herbyn, gan yr Arminiaid [gwel yr erthygl]. Ac er mai Calviniaid oedd y diwygwyr cyntaf yn Lloegr, ac *Institutes* Calvin a ddarllenid yn y prif ysgolion ar y cyntaf, etto cymmaint oedd cynnydd Arminiaeth yn Eglwys Loegr, fel, tua chan mlynedd ar ol hyny, "*Corff o Dduwinyddiaeth Episcopius* oedd yn nwylaw yr efrydwyr yn y ddwy brif ysgol, ac a ystyrid y gyfundrefn dduwinyddol oreu a ymddangosodd erioed" [*Burnet's History of his own Times*]. Ond er hyny, safai y Puritaniaid yn gyffredinol bron yn ffyddlawn i egwyddorion Calviniaeth, ac a'u hamddiffynent yn y modd mwyaf penderfynol, gan godi arnynt y lenyddiaeth grefyddol ymarferol gyfoethocaf a gynnyrchodd unrhyw oes. Yn yr un ganrif, sef yr eilfed ar bymtheg, cynnyrchwyd ar y cyfandir ysgrifeniadau duwinyddol o syniadau Calvinaidd, y rhai goreu, fe ddichon, medd y Dr. Pye Smith, yn nesaf at yr Ysgrythyrau, a ysgrifenwyd

[1] "The doctrine of Predestination in the system of Aquinas rests mainly on philosophy, and rises upon the idea of divine power. This fundamental position was laid down, this religious axiom stated with jealous exactness and the most scientific strength of language, and the rest was deduced by way of logical consequence from it. God was the First Great Cause: his will the source of all things, the spring of all motions, all events; it could not be frustrated, it must be fulfilled: 'God hath done whatsoever he would.' This was contained in the very idea of Omnipotence; for no agency can be impeded but by stronger agency, and none can be stronger than Omnipotence.... The fundamental idea of the divine power thus laid down was applied strictly to the motions of the human will, or to human actions....He produced the motions of the physical world by necessary, the motions of the human will by voluntary causes; but these voluntary causes were set in motion by himself; God was the cause of the will..... The will moved itself was the cause of its own motion..... .....but this self motion was only admitted as an internal impression, and was not allowed to counteract or modify the dominant position of one absolute causality. The will was a principle of motion itself; but it was not, therefore, the *first* principle of such motion."—*Mozley on the Augustinian Doctrine of Predestination.*

Digitized by Google

erioed.[1] Yn nechreuad y diwygiad Methodistaidd, dygwyd yr un egwyddorion i ddadl drachefn, ond nid gan ddynion mor alluog a'r rhai a fu o'r blaen yn gwrthwynebu eu gilydd o berthynas iddynt. Nid oedd Wesley na Fletcher, o ochr Arminiaeth, nac ychwaith Hill a Toplady, o ochr Calviniaeth, yn alluog i wneuthur ond ychydig o chwanegiadau o bwys at yr hyn a gynnyrchwyd o bob ochr i'r ddadl hon gan dduwinyddion mawr yr eilfed canrif ar bymtheg. Cyfeiriwyd eisoes at y prif ysgrifenwyr a adnabyddir fel amddiffynwyr Calviniaeth Ddiweddar. Am hanes tarddiad y dadleuon hyn, gwel PELAGIAETH; ac am y gwahanol ddadleuon eu hunain, gwel y gwahanol erthyglau yn y gwaith hwn, megys ARFAETH; ETHOLEDIGAETH; EWYLLYS, &c. &c.

CALYPSO: yn chwedloniaeth y Groegiaid, oedd ferch Atlas; neu yn ol rhai, merch Nereus a Doris, neu Oceanus a Tethys. Preswyliai yn ynys goediog Ogygia, a chadwai yn neilluedig oddi wrth ddynion a duwiau. Pan daflwyd Ulysses ar ei hynys, derbyniodd ef yn llawen, ac addawodd y gwnai ef yn anfarwol, os priodai hi. Ond yr oedd ei hoffder at ei wlad a'i wraig yn drech na swyn y dduwies. Gorfodwyd ef i aros yno am saith mlynedd. O'r diwedd, dygodd Merchyr orchymyn oddi wrth Iau at Calypso, am iddi ganiatäu i Ulysses ddychwelyd adref; ac ni feiddiai hithau wrthwynebu y gorchymyn. Wedi ei ymadawiad, bu Calypso farw o dristwch.

CALL—INEB, [*all*]: doeth, deallus, synwyrol, cyfrwys; gwyliadwrus; parodrwydd deall; gallu i wahaniaethu.

"Nid call ond a gadwo yn ei gof." *Diar.*

"Tri chyfaill awen; nwyf, callineb, a digrifwch." *Barddas.*

Callineb ydyw y gallu i drefnu yr ymadroddon a'r ymddygiad yn ol, ac mewn cydweddiad ag amgylchiadau pethau, neu â rheolau rheswm. Dynodai Cicero gallineb fel "y wybodaeth o'r hyn sydd i'w ddymuno a'i ochel." Dywed Grave mai "callineb yw y gallu i farnu pa beth sydd oreu yn y dewisiad o ddybenion a moddion." Ysgrifena Mason fel y canlyn: — "Callineb ydyw cydffurfiad â rheolau rheswm, gwirionedd, a gweddeidd-dra, bob amser, a than bob amgylchiad." Gwahaniaetha oddi wrth ddoethineb yn unig mewn gradd: nid yw doethineb ond callineb perffeithiach, a challineb yn radd is, neu ffurf wanach, o ddoethineb. Y mae callineb, medd un ysgrifenydd, yn cynnwys y pethau canlynol:—εὐσυνοΐα=ymgynghoriad neu ystyriaeth, a hyny yn yr amser priodol, fel na byddo y penderfyniad a wneir yn rhy fyrbwyll nac yn rhy ddiweddar; a συνεσις=y gallu i ganfod y moddion priodol. Ac i berffeithio callineb, y mae y tri chymhwysder hyn yn angenrheidiol:—δεινότης=cyfrwysdra naturiol; αγχινοια=presennoldeb meddwl, neu feddwl parod, cyflym; εμπειρα=profiad. Galwa Plato gallineb yn rhinwedd arweiniol; a dywed Cicero ei fod yn ansawdd sydd yn rhedeg trwy yr holl rinweddau, o blegid ei fod yn angenrheidiol i'w trefnu a'u iawn gyfeirio:—heb gallineb, gall sel fyned yn benboethder anweddaidd, eymmesuredd yn llymdostedd mynachaidd, a gwrolder a dewrder yn fyrbwylldra rhyfygus; ond y mae callineb yn cadw y tymmerau, y tueddiadau, a'r rhinweddau, o fewn y terfynau y mae sobrwydd a chymmesuredd wedi eu gosod iddynt. Y mae Butler yn gwneyd callineb yn elfen rinweddol, neu yn rhan o rinwedd. Y mae y gair yn arwyddo gofal dyladwy am ein hapusrwydd a'n buddiannau ein hunain, ac ymdrech resymol am eu sicrhau a'u hyrwyddo. "Ymddengys fod hyn yn rhinwedd, a'r ymddygiad gwrthwyneb yn feius; o blegid yn ein myfyrdod mwyaf hamddenol, yr ydym yn cymmeradwyo y cyntaf, ac yn condemnio yr olaf, ynom ein hunain ac mewn ereill. Y mae yn bwnc o brofiad, ein bod wedi ein ffurfio yn y fath fodd, ag i farnu yn llym ar esamplau o esgeulusdra ffol a byrbwylldra anghall ynom ein hunain ac mewn ereill. Ymddengys yn eglur fod callineb yn fath o rinwedd, a ffolineb yn ddrwg—gan feddwl wrth ffolineb ryw beth hollol wahanol i anallu neu anghymhwysder naturiol; sef diffyg gofalu am, a thalu sylw, i'n lles a'n hapusrwydd ein hunain, i'r hyn yr ydym wedi ein cynnysgaethu yn naturiol â gallu a chymhwysder."

Gellid meddwl fod doethineb yn rhagori ar gallineb, nid yn unig mewn graddau, fel y dywed Mason, ond hefyd mewn natur. Perthyna yn fwy i bethau ysbrydol; tra nad yw callineb ond math o gyfrwysdra naturiol, ac yn ymwneyd â phethau naturiol fel ei gwrthddrychau. Egwyddor callineb ydyw hunan-les; ond y mae egwyddor doethineb yn uwch, yn anhunangar. Priodolir doethineb i Dduw, a gelwir Iesu Grist yn "ddoethineb;" ond teimlid y byddai yn sarhâd ar y Personau Dwyfol pe priodolid callineb iddynt. Gelwir creaduriaid direswm yn φρονιμοι =call; ond nid yn σοφοι=doeth. Gall fod ynddynt hwy fath o gallineb neu gyfrwysdra (*Mat.* x. 16), ond nid oes ddoethineb yn ysgaredig oddi wrth reswm. Gall callineb fod ar wahan oddi wrth ddaioni:—yr oedd y goruchwyliwr anghyfiawn yn ymddwyn yn gall, er yn anghyfiawn; ond nid oedd yn ddoeth, o blegid nis gall doethineb fyned ar draws uniondeb: buasai doethineb yn ei gadw rhag myned i'r amgylchiadau a ofynent am gymmaint o gyfrwysdra, buasai yn ei gadw yn ei oruchwyliaeth, ac yn sicrhau iddo ffafr wastadol ei arglwydd. Y mae callineb o nodwedd nacaol—yn rhoddi gwyliadwriaeth rhag perygl, yn effeithiol i waredu allan o gyfyngder, ac yn gwneyd y goreu o'r gwaethaf: ond y mae doethineb yn cynnwys ansoddau cadarnhaol, yn beth o natur uwch, ac yn fwy cydweddol â dyn fel creadur yn feddiannol ar reswm ac ysbryd. Yn *Eph.* i. 8, y mae σοφια a φρονησις yn gyssylltiedig. *Cyf. Cym.*—"Doethineb a deall:" nid callineb. "Haera Harless nas gellir priodoli φρονησις i Dduw. Y mae yn wir nad yw felly yn y Testament Newydd; ond yn y Deg a Thrigain, ar ba un y mae arddull y Testament Newydd yn gorphwys, cymhwysir y gair at Dduw fel Creawdwr. *Diar.* iii. 19 [yn Gymraeg

[1] "Perhaps the very best theological writings that ever the world beheld—next to the sacred fountains themselves—are the Latin works of foreign divines who have flourished since the period of the Reformation. It is no extravagance to affirm, that all the toil and labour of acquiring a masterly acquaintance with the Latin tongue would be richly recompensed by the attainment of this single object—an ability to read and profit by those admirable authors. It is an additional recommendation that they are commonly sold cheap. For a few shillings one may get information which many pounds would not purchase in English. To mention some of these worthies may not be an unacceptable piece of service:—Calvin, Beza, the Magdeburg Centuriators, Musculus, Zanchius, the Spanheims, Francis Burmann, Rivet, Aiting, Alsted, Hoornbeek, Voetius, Walæus, the Turretines, Van Mastricht, the Vitringas, Lampe, Stapfer, Venema, Marck, Pictet, Storr, Knapp, the two Tittmanns, Pelt."—*Dr. Pye Smith's First Lines of Christian Theology.*

Digitized by Google

'deall']. Yr un modd y mae yn yr adran gyffelyb yn *Ier.* x. 12 [yn y cyfleithiad Cymraeg, 'ei synwyr']. Ac y mae y briodoledd ddwyfol o ddoethineb yn *Diar.* viii. 14, yn dyweyd, *εμη φρονησις*=deall. Pa ham nas gellid cymhwyso *φρονησις* at Dduw yn gystal a *γνοσις*=gwybodaeth? Prin y gellir cymhwyso callineb yn yr ystyr cyffredin at yr Hollwybodol. Ond os yw Duw mewn unrhyw weithred yn arddangos yr ansoddau hyny a ellir eu galw mewn dyn yn *φρονησις*, gellir priodoli y cyfryw ansawdd iddo yntau mewn cydweddiad âg anthropomorphiaeth cyffredin yr Ysgrythyr. Ond gall nad yw *φρονησις* yn arwyddo callineb yn ystyr cyffredin y gair:—gweithrediad y *φρην*, neu y meddwl, ydyw. Y mae deall *φρονησις* bob amser am synwyr ymarferol, fel y mae Estius a Bengel yn gwneyd, yn ddisail. *Σοφια* ydyw y perffeithrwydd o ddoethineb, a *φρονησις* ydyw ei ffurf neillduol, neu y cylch o weithgarwch y mae yn ei amlygu ei hun. Nid yw yn gymmaint fel canlyniad o ffrwyth doethineb, ag ydyw fel gwedd neillduol ei gweithrediad. Gweithred ddeallawl o dan arweiniad *σοφια* ydyw *φρονησις*."—*Dr. Eadie on the Ephesians.*

Gwelir oddi wrth hyn nad yw y gair "callineb" yn hollol gyfystyr â'r Groeg *φρονησις*. Y mae y diweddaf yn nes i ddoethineb, tra y mae y cyntaf yn nes i gyfrwysdra. *Φρονησις*=synwyr a deall. Callineb=synwyr a chyfrwysdra.

CALLESTR, [*ca—llestr*], maen ca.ed, careg dân. *Deut.* viii. 15. "A'r gallestr yn ffynnon dyfroedd;" *Salm* cxiv. 8. Ithfaen (*granite*), ydyw craig Horeb, yr hon a wnaed yn ffynnon dyfroedd. Ystyr y gair Hebraeg ydyw "caled." "Y mae efe yn estyn ei law at y gallestr;" *Iob* xxviii. 9. Yr un gair sydd yma ag sydd yn y manau uchod, ac hefyd yn *Deut.* xxxii. 13. Darllena Dr. Good, "*sparry ore*"=mwn canfaenol. Cyfleitha Michaelis y gair yn Deuteronomium, yn "*red granite*"=ithfaen coch. "Wyneb fel callestr" (*Esa.* l. 7), a arwydda wroldeb diysgog.

CAM, [חם]: mab ieuangaf Noah, a brawd Sem a Iapheth. Ystyr yr enw, medd Dr. Hales, ydyw "llosgedig," neu "ddu," yr hyn sydd yn gydweddol â'r parthau a roddwyd i'w hiliogaeth. I hiliogaeth ei fab hynaf Cus, rhoddwyd parthau deheuol Asia, ar derfynau morgainc Persia, Lusiana, Arabia, &c.; i hiliogaeth Canaan, rhoddwyd Palestina, Syria, &c.; i feibion Misraim, yr Aipht, Libya, ac Affrica. O herwydd i Cam ymddwyn yn anweddaidd tuag at ei dad, rhagfynegodd Noah y byddai ei hiliogaeth yn gaethweision i'w frodyr a'u disgynyddion: *Gen.* ix. 25. Ond gellid tybied oddi wrth yr hanes, fod Noah wedi cyfeirio y felldith yn erbyn Canaan a'i hiliogaeth yn unig, a'i throi oddi wrth y tri mab arall, Cus, Misraim, a Phut: *Gen.* x. 6. Yn ninystr y Canaaneaid, gwelir pa fodd y cafodd y felldith ei chyflawnu. Bernir yn gyffredin fod yr holl genedloedd deheuol wedi deilliaw o Cam. Tybir mai hiliogaeth Cus ydyw cenedloedd dwyrain a deheudir Asia, Arabia ddeheuol, ac Ethiopia,—mai hiliogaeth Misraim ydyw y cenedloedd Affricanaidd, yr hen Philistiaid, a rhai llwythau ereill a gyssylltir gan draddodiadau Groegaidd ac Aiphtaidd,—ac mai o Phut y tarddodd rhai llwythau Affricanaidd: a Chanaan oedd tad preswylwyr Palestina a Phœnicia. Sylfaenwyd ymherodraethau Assyria a'r Aipht gan hiliogaeth Cam; a hefyd llywodraethau Tyrus, Sidon, a Carthage, y rhai oeddynt hynod am eu marsiandwyr; ond buan y syrthiasant i adfeiliad; a daeth yr Aipht yn ddarostyngedig i hiliogaeth Sem a Iapheth.

CAMALDOLIAID: urdd eglwysig, a sefydlwyd yn yr unfed canrif ar ddeg, yn Camaldoli, ar fynydd yr Apennines, gan benboethyn Italaidd, o'r enw Romauld. Rhenid yr urdd i ddau ddosbarth—y Cenobiaid, a'r Emictiaid. Rhai o reolau yr urdd sydd fel y canlyn:—Yr oeddynt i drigo mewn celloedd gwahanedig, ac i ymgyfarfod ar amser gweddio yn unig. Parhäai rhai o honynt yn gwbl ddystaw, heb yngan gair dros yr holl grawys, ac ereill am gynnifer a chant o ddyddiau. Ar y Suliau a dyddiau Iau, ymborthent ar lysiau; a thros y gweddill o'r wythnos, ar fara a dwfr yn unig. Nid yw yr urdd ond math o welliant ar urdd y Benedictiaid. Gwisgai y Camaldoliaid ddillad gwynion, a chadwont eu barfau yn hirion. Y mae ganddynt fynachdai mewn llawer o fanau yn Italy, wedi eu hadeiladu gan mwyaf mewn lleoedd uchel a neillduedig. Bu yn perthyn i'r urdd hon lawer o ddynion enwog, ac yn eu mysg Fra Manro, daiaryddwr, yn y pymthegfed canrif; hefyd, Traversari, ieithydd enwog; ac yr oedd y diweddar bab, Gregory XVI., yn perthyn iddi.

CAMBYSES: ail frenin y Mediaid a'r Persiaid, a ddilynodd ei dad Cyrus, c. c. 529. Arweiniodd fyddin yn erbyn yr Aipht (c. c. 525); gorchfygodd yr Aiphtiaid, a darostyngodd eu gwlad i fod yn dalaeth dan lywodraeth Persia. Bernir fod creulonder a gwallgofrwydd y brenin a'i filwyr wedi peri iddynt ddinystrio llawer o'r cofadeiliau Aiphtaidd. O'r Aipht, aeth Cambyses yn erbyn yr Ethiopiaid Macrobaidd; ond ar ol dyoddef yn dost yn yr anialwch, a chael eu gorfodi gan newyn i ymborthi ar gnawd eu gilydd, dychwelodd i Thebes, a'i fyddin wedi ei lleihau yn ddirfawr. Cyflawnodd Cambyses lawer o ddrygau yn yr Aipht; rhoddes ei frawd Smerdis i farwolaeth; priododd ei chwaer yn groes i arfer y Persiaid, a lladdodd hi trwy ei churo yn amser ei beichiogiad. Bu farw o archoll a gafodd â'i gleddyf ei hun yn Ecbatana, yn Syria. Yn Damascus y bu farw, ar ol teyrnasu am chwe blynedd. Yr oedd, medd Josephus, "yn naturiol ddrygionus."

CAMEL, [Heb. גמל; Arab., *jemel* neu *djammel* Gr., *καμηλος*; Llad., *camelus*; Ital., *cammello*; Ellmyn., *kameel*; Ffranc., *chameau*]: anifail pedwartroed mawr, cadarn, digyrn, yn ngwledydd y dwyrain, ac un hynod o wasanaethgar. Y mae gwahanol fathau o'r camel, pa rai er hyny sydd yn meddu yr un nodweddau cyffredin; ond gan y rhoddir darluniau yn mlaen, cymmerir yma olwg gyffredinol ar y rhywogaeth (*genus*) cyn dyfod i sylwi ar y mathau (*species*), ac yna ychydig ar bob un ar ei ben ei hun.

Rhestrir y camel gan naturiaethwyr yn nosbarth y cilgnoaid. Y mae iddo bedwar ar ddeg ar ugain o ddannedd:—un ar bymtheg yn yr ôn uchaf, sef dau flaenddant, dau ysgythrddant, a deuddeg mâlddant; a deunaw yn yr ên isaf, sef chwech blaenddant, dau ysgythrddant, a deg mâlddant. Y mae y blaenddaint yn yr ên uchaf yn llymion ac yn fachog, yn dra thebyg i'r dant ysgythru; ac yn hyn y mae y camel yn wahanol i'r cilgnoaid ereill, gan nad oes blaenddaint i un o honynt yn yr ên uchaf ond efe. Hyn, yn nghyd â rhai

Digitized by Google

pethau dibwys ereill, sydd wedi peri i amryw osod y camel a'r *llama* yn rhywle yn y canol rhwng y cilgnoaid a'r anifeiliaid croendew (*pachydermata*). Y mae y pen yn hir; y wefus uchaf yn rhanedig; y ffroenau yn llettraws; y llygaid yn uchel allan; a'r clustiau yn fyrion; y gwddf sydd gam ac estynedig; y cefn yn grwmachog; y gynffon yn fer; y traed yn fychain; y gwadnau yn gorniog; yr ewin oddi arnodd yn fforchogi. Ac i orphen y dysgrifiad hwn, y mae dan y ddwyfron ac ar blygiad y cymmalau fath o groengaledwch—saith o honynt o gwbl: a chan fod y corff yn fawr ac afrosgo, yn cael ei gynnal ar goesau hirion ac afluniaidd, gellir bod yn sicr nad yw y creadur hwn yn un o'r rhai harddaf i edrych arno: ond gwelir er hyny ei fod yn un o'r rhai mwyaf defnyddiol.

Un o'r pethau cyntaf sydd yn tynu sylw yr edrychydd cyffredin yn y camel ydyw y croengaledwch (*callosities*) y cyfeiriwyd atynt yn barod; a'r crwmach, neu y crwmachau, fel y byddont, sydd ar ei gefn. Ond wrth sylwi yn fanylach, a dyfod i ddeall eu gwasanaeth i'r creadur, y mae rhagofal y Creawdwr i'w weled mewn modd neilldiol yn y pethau hyn. Haera Buffon am y crwmachau a'r croengaledwch, mai effaith ei ddarostyngiad dan ormes dyn ydynt:—nad oeddynt yn perthyn iddo ar y cyntaf. I'r ffaith fod y camel yn cael ei eni felly, y mae yn dyweyd fod yr hyn a ddygwyddodd yn ddamweiniol ar y dechreu, yn cael ei barhau yn awr trwy genedliad, ac felly bod yr eithriad mewn amser wedi dyfod yn rheol. Y mae y syniad hwn, pa fodd bynag, yn dra ammheus. Tybia ereill, mai tyfu y maent, fel y tyfa cyrn ar draed fyddo yn cael eu gwasgu gan yr esgidiau: ond y mae pleidwyr y dyb hon heb gofio mai fel hyn y mae y camel yn dyfod i'r byd. Ni welwyd cyrn erioed ar draed dyn y pryd hyny. Dichon mai y dyb fwyaf rhesymol ydyw, mai darpariaeth naturiol ydynt, i gyflawnu angenrheidiau y camel, fel creadur sydd wedi ei ddarostwng i wasanaeth dyn dan amgylchiadau neilldiol. Am y crwmachau, y maent yn cael eu gwneyd i fyny o sylwedd bras (*fatty secretion*) tebyg i bwrs y fuwch, ac yn myned yn fwy ac yn llai yn ol fel y byddo yr anifail yn cael ei borthi. Os bydd wedi ei borthi yn galed am hir amser, y maent yn myned yn gwbl o'r golwg; ac ni ellid adnabod y lle y buont ond wrth y croen llac sydd yno ar eu hol. Yn awr, pan yr ystyrir fod yn rhaid i'r camel deithio yn fynych am ddyddiau lawer yn olynol yn yr anialwch heb ond ychydig, os dim, bwyd, y mae y baich—ofer, i bob dyben arall—sydd ar ei gefn, yn dyfod erbyn hyn o'r pwys mwyaf iddo. Fel y "blawd yn y celwrn," y mae yn ei gadw yn ddiwall nes y delo i fan cyfleus i gael ei borthi drachefn. Y mae y croengaledwch hefyd yn gwasanaethu dyben llawn mor bwysig iddo mewn ystyr arall; canys dyma yr esmwythfeinciau ar ba rai y gorwedda ar y tywod poeth, i'w ddadluddedu ei hun ar ei daith. A phan gofier fod ganddo allu i gau ei ffroenau rhag iddynt gael eu llenwi â'r tywod sydd yn aml fel cwmwl yn ei orchuddio, a bod ffurf ei draed yn ei gadw rhag suddo ynddo, fe welir fod hyd yn oed y pethau mwyaf afluniaidd yn yr olwg arno yn ei gyfaddasu mewn modd arbenig i'w sefyllfa.

Y mae gwneuthuriad mewnol y camel eto yn danges llawn cymmaint o ragofal a doethineb ag ydyw yr allanol, os nad mwy. Y cylla, er esampl, sydd yn wrthddrych sylw neilldiol. Yn yr holl gilgnoaid, y mae y cylla yn cael ei ranu i bedair o gelloedd gwahanedig, pa rai a elwir yn gyffredin, y *paunch*, yr *honey comb*, y *manyplus*, a'r *abomassum*; ond gan nad yw y geiriau hyn o unrhyw ystyr penodol, gelwir hwynt yma, y gyntaf, yr ail, &c. Yn y cilgnoaid y mae y sefnig (*œsophagus*), yn lle terfynu yn y gell gyntaf, fel y gwna mewn creaduriaid ereill, yn parhau yn gafn agored oddi yno i'r drydedd gell; ac fel y mae hwn yn agor neu yn cau, y mae y bwyd yn cael ei gario i un neu y llall o'r celloedd hyn. Pan y mae yr anifail yn pori, y mae yr ymborth yn myned yn ddiocdi trwy y sefnig; a chan ei fod eto heb ei falu, y mae y cafn yn cael ei agor gan y swm sydd yn dyfod iddo, ac yn gollwng ei gynnwysiad i'r gell gyntaf a'r ail. Oddi yno y mae yn cael ei gymmeryd yn lled fuan yn belonau rheolaidd trwy y sefnig yn ol i'r genau, i gael ei falu gan y dannedd; a dyma "gnoad y cil." Wedi hyn y mae yn cael ei ddychwelyd yr un ffordd i'r cafn eilwaith: a chan fod y swm yn awr yn llai, a hwnw mewn sefyllfa wlybyraidd, y mae yn myned y tro hwn drwy y cafn heb ei agor nes dyfod i'r drydedd gell, ac oddi yno y mae yn cael ei symmud i'r bedwaredd gell, yn yr hon y mae y gwir dreuliad yn cymmeryd lle. Gwasanaetha hyn fel dysgrifiad o gylla y cilgnoaid yn gyffredinol; ond y mae gwahaniaeth pwysig iawn ar y pen hwn yn y camel. Tybiwyd unwaith fod y pedair cell yn gweithredu yr un modd yn y camel ag yn y cilgnoaid ereill, ond fod iddo bummed cell, a elwir y *reticulum*, yr hon a lenwid ganddo â dwfr i'w ddefnyddio wrth ei angen. Dyma farn Perrault, Daubenton, Buffon, ac ereill; ond y mae ymchwiliadau anianwyr diweddar wedi eu harwain i ystyried y dyb hon yn anghywir. Y cyntaf, dybygid, a wnaeth y darganfyddiad hwn oedd y Dr. John Hunter; yr hwn a ymresymai, gan fod y gell gyntaf yn y camel yn cyflawnu dybenion y gynta, a'r ail yn y cilgnoaid corniog, ac nad yw yr ymborth byth yn myned i'r ail, ond ar hyd y cafn i'r drydedd, fod yn rhaid mai yr ail gell ydyw y dwfrgawg sydd yn gwasanaethu i gyfreidiau y camel. Dangosodd hefyd fod y *reticulum* (Daubenton) yn rhy ddibwys i ateb y fath ddyben. Gwelir gan hyny oddi wrth hyn nad oes fwy o gelloedd yn perthyn i'r camel na chilgnoaid ereill, ond fod y celloedd hyny yn gweithredu yn wahanol. Y mae yn wirionedd sicr am y camel y gall yfed digon o ddwfr ar y tro i wasanaethu iddo am hir amser. Dywed Syr Everard Home, fod y camel, pan y mae taith hir o'i flaen, yr hyn a ddygwydda yn fynych, yn meddu y gallu i eangu y dyfrgelloedd, ac yfed mwy y tro hwnw na chyffredin. Mewn gwaith a gyhoeddwyd gan y Dr. Patrick Russell [*History of Aleppo*], ceir y crybwylliad canlynol; "Y mae dwfr ar achlysuron neilldiol yn cael ei dynu o gylla y camel; ac nid oes neb yn Syria yn ammheu hyny nac yn edrych arno yn rhyfedd....Beidawi, yr hanesydd Arabaidd, a ddywed yn yr hanes a rydd am hynt y prophwyd i Tabuc, yn erbyn y Groegiaid, fod y fyddin wedi ei darostwng i'r fath gyfyngder fel y gorfu arnynt ladd eu camelod er mwyn y dwfr a geid yn eu cylla [*Sale's Koran*, 164; *Gib's Rom. Emp.*, v. td. 245]." Y mae hyn eto yn cyfaddasu y camel yn rhyfedd i'w sefyllfa. Er y gorfydd arno deithio cannoedd o filltiroedd yn aml heb weled cymmaint a dyferyn o ddwfr, y mae ei gylla "yn ffynnon o ddwfr ynddo," yn ei gadw heb sychedu.

Y mae y camel yn adnabyddus yn y dwyrain yn lled gyffredin. Gwelir ef yn Arabia, Persia, a deheudir Tartary; yn India ac Affrica, a'r

Digitized by Google

Aipht hyd Mauritania, ac o Fôr y Canoldir hyd yr afon Senegal. Y mae yn dra lluosog hefyd yn ynysoedd y Canary. Ymddengys oddi wrth gyfeiriadau aml yr Ysgrythyrau ei fod yn adnabyddus yn Asia er yn fore iawn, a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan farsiandwyr a theithwyr y pryd hyny fel yn awr. Y cyfeiriad cyntaf a wna y Beibl at y camel ydyw yr un a geir yn *Gen.* xii. 16, lle y dywedir am gyfoeth Abraham, ar ol ei fynediad i'r Aipht, fod ganddo "ddefaid a gwartheg ac asynod, a gweision a morwynion, ac asenod, a chamelod." Am Iacob hefyd y dywedir yn *Gen.* xxxii. 7, pan yr oedd arno ofn myned i gyfarfod ei frawd Esau, iddo "ranu y bobl oedd gydag ef, a'r defaid a'r eidionau, a'r camelod yn ddwy fintai:" ac yn yr anrheg a wnaeth iddo (*adn.* 15), yr oedd "deg ar ugain o gamelod blithion a'u llydnod." Wedi i frodyr Ioseph ei fwrw i'r pydew, tra yr oeddynt yn eistedd i fwyta, "hwy a ddyrchafasant eu llygaid, ac wele fintai o Ismaeliaid yn dyfod o Gilead, yn myned i waered i'r Aipht, a'u camelod yn dwyn llysiau, a balm, a myrr; *Gen.* xxxvii. 25. Gideon, wedi iddo ladd Zeba a Salmunna (*Barn.* viii. 21), "a gymmerth y colerau oedd am yddfau eu camelod." Am olud Iob (i. 3) fe ddywedir fod iddo "saith mil o ddefaid, a thair mil o gamelod:" ac yn nydd ei gyfyngder, y mae un o'i weision yn dywedyd wrtho (*adn.* 17), "y Caldeaid a osodasant dair byddin, ac a ruthrasant i'r camelod, ac a'u dygasant ymaith:" a phan fendithiodd yr Arglwydd "ddiwedd Iob yn fwy na'i ddechreuad" (xlii. 12), "yr oedd iddo bedair mil ar ddeg o ddefaid, a chwe mil o gamelod." Dywed Camus fod Aristotle yn rhoddi esamplau o lawer o bersonau yn y dwyrain yn perchen y rhifedi dirfawr o dair mil o gamelod; yr un nifer yn gymhwys ag oedd gan Iob.

Nid oes un prawf wedi ei gael eto yn y gwledydd hyn, trwy ymchwiliad na hanesiaeth, o'r camel yn ei gyflwr gwyllt, er fod llawer cais wedi ei wneyd tuag at hyny. Haera Diodorus a Strabo iddo fod felly yn Arabia. Y mae Desmoulins yn nodi anghreifftiau o rai felly yn amser Hadrian. Yr Affricaniaid hefyd a ddywedant fod camelod gwylltion yn y mynyddoedd, ond fod y rhai hyny mor bell nad oes un Ewropiad erioed wedi bod ynddynt. Ond y dyb gyffredin ydyw, nad yw yr esamplau hyn, os ydynt i'w cael, yn ddim ond epil camelod gwâr a aethant mewn rhyw oes ar grwydr oddi wrth eu perchenogion. Yn gyffelyb ceir meirch gwylltion yn nghoedwigoedd America. Am y defnydd a wna Pallas o dystiolaeth y Bucharianiaid a'r Tartariaid, fod camelod gwylltion yn anialwch canoldir Asia, sylwa Cuvier yn dra phriodol, fod y Calmuckiaid yn gosod pob creadur at ei ryddid oddi ar ystyriaethau crefyddol. Ychydig o gamelod sydd yn Ewrop, ac y mae yn hawdd deall ar y rhai sydd, eu bod yn mhell o'u gwlad. Y mae rhai yn Tuscany, fel y tybir, er yr unfed canrif ar bymtheg. Pisa ydyw yr unig le manteisiol yn Ewrop i'w magu. Gwnaed llawer ymdrech i'w dwyn drosodd i'r Yspaen a'r America, ond nid ydynt wedi lluosogi yn y naill na'r llall. Er y gellir eu trosglwyddo, a'u bod yn epilio yn y gwledydd hyn, y mae y drafferth sydd yn angenrheidiol gyda hwynt yn llawer mwy na'u gwerth, ac y maent yn fuan yn troi yn fwy o golled i'w meddianwyr nag o elw.

O'r camel y mae dau fath gwahanol, sef yr un *Bactrianaidd* a'r *dromedaraidd.* Gelwir y naill yn gamel, a'r llall yn dromedari.

Y cyntaf a nodir yma yw y *camel=camelus Bactrianus*—Linnæus; *le chameau*—Buffon. Hwn yw y mwyaf a'r cryfaf, ac y mae dau grwmach ar ei



Dar. 145. Camel Bactrianaidd.

gefn. Ei hyd sydd o gylch deg troedfedd. Mae yn dra blewog, yn neillduol dan y gwddf. Y lliw yn gyffredin ydyw gwineu tywyll. Ceir ef yn Asia Leiaf, yn Syria, ac yn Persia; ond y mae yn llawer amlach yn nghanoldir Asia, ar du y gogledd i fynyddoedd y Taurus a'r Himalaya. Y mae yn adnabyddus hefyd yn China, Tartary, Rwssia, a Thwrci. Gwelir y math hwn yn aml yn Nghaer Cystenyn heb ond un crwmach arno, a dywed Burckhardt ei bod yn hen arfer gan y Tyrciaid, ac un digon diberygl, i gymmeryd y crwmach blaen ymaith â chyllell pan y mae y camel yn ieuanc, er mwyn cael mwy o le i roddi eyfrwy a phwn ar ei gefn. Hyn, yn nghyd â phethau ereill, sydd yn peri fod y math hwn mewn gwahanol fanau yn cael ei alw ar wahanol enwau. Y pwn a roddir arno a amrywia o chwech hyd yn ddeg cant o bwysau. Y mae amrywiaeth weithiau yn y lliw. Ceir rhai yn wyn càn, a rhai o liw hufen.

Y math nesaf a nodir yw y *dromedari=camelus dromedarius*—Linn.; *le dromadaire*—Buffon. Mae hwn yn llai ac ysgafnach na'r un Bactrianaidd, heb ond un crwmach, a hwnw ar ganol y cefn.



Dar. 146. Camel cyflym Arabia.

Ei hyd sydd o gylch wyth troedfedd. Y lliw yn wineu goleu. Y mae yn lluosog iawn yn Arabia, Affrica, &c. Nid ydys yn sicr fod un math o gamel yn adnabyddus yn yr Aipht yn ei hanes boreuaf. Fe dybia rhai nad oedd; a'u rheswm penaf dros hyny ydyw chwedl yr offeiriaid am ffoedigaeth Syphon, yr hwn a deithiodd, medd y chwedl hono, am saith niwrnod ar asyn. Ond y mae genym sicrwydd fod yno rai yn amser

Digitized by Google

Pharaoh: ac ar ol hyny y mae y cyfeiriadau aml a wneir atynt yn ein tueddu i feddwl eu bod yn liuosog yno. O'r math hwn eto y mae dau amrywiaeth tra hynod; un cryf trwm i gario pynau, yn amrywio o saith gant i fil o bwysau, ac yn teithio yn ol pedair milltir ar ugain y dydd; ac un arall ysgafn, cyflym, yn teithio yn ol dau can milltir y dydd, yr hwn a arferir ar deithiau a negeseuau fyddont yn gofyn brys. Gelwir yr amrywiaeth hwn eto wrth lawer o wahanol enwau, megys y *deloul*, *hadjeens*, *ashaary*, *maherry*, &c., yr oll o ba rai, fel yr enw mwy arferedig, *δρομάς*, a arwyddant gyflymder. Y camelod cyflymaf oll



Dar. 147. Camel cryf Arabia.

ydyw y rhai a elwir Raguahill. Dywed Purchas [llyfr vi., pen. i., adr. 9] y gall y brenin Tombuctoo anfon cenad i Segelmesse, neu Darha, ar un o'r camelod hyn mewn wyth diwrnod, er fod y pellder yn naw cant o filltiroedd. Y mae diareb yn mhlith yr Arabiaid am yr *heirie*, neu y *maherry*, i'r perwyl yma,—"Pan gyfarfyddi â *heirie*, a chyfarch o honot ei farchogwr â 'Salem Aleik,' cyn iddo dy ateb, 'Aleik Salem,' bydd bron allan o'r golwg, canys y mae mor gyflym a'r gwynt." Dywedir fod teithio ar un o'r camelod cyflym hyn yn orchwyl caled iawn i un anghynnefin. Y math hwn o gamel a ddefnyddid, y mae yn debyg, mewn rhyfeloedd. Tua'r trydydd a'r pedwerydd canrif, yr oedd gan y Rhufeiniaid gattrodau o honynt yn yr Aipht, ac yn Ngwlad Canaan. Dyna oedd *ala dromedariorum Antana*, yn Ammata, yn llwyth Iudah; ac yr oedd tair ereill yn Thebais. Gwnaed yr un defnydd o honynt gan Napoleon Buonaparte. Yn China ac India y maent yn cael eu defnyddio i'r pwrpas yma yn awr.

Y mae y camel yn ddefnyddiol i ddyn yn mhob ystyr. Ond ei ddefnydd penaf ydyw ei gyfaddasrwydd i gludo y teithiwr a'i angenrheidiau trwy yr anialwch. Yn hyn y mae o wasanaeth anmhrisiadwy i'r byd. Hebddo buasai rhanau helaeth o'r ddaiar yn annhramwyadwy. Dynodir ef weithiau gan y beirdd yn "*ship of the desert;*" ac yn yr anialwch y mae efe mor ddefnyddiol ag ydyw y llong ar y môr. Gwelir oddi wrth y dysgrifiad a gynnygiwyd o hono, ei fod yn ddigon cryf i gario pwysau dirfawr, ac yn ddigon cyflym i wneyd teithiau mawrion mewn ychydig amser. Dysgir ef pan yn ieuanc i blygu ei liniau a gorwedd ar y ddaiar i gymmeryd y pwn ar ei gefn. Os bydd y pwysau a roddir arno yn rhy fawr neu yn anghyfartal, y mae ganddo sŵn penodol i arwyddo hyny, ac ni chyfyd nes iddo gael ei ysgafnhau. Dyna yr hanes a rydd Dennon am dano yn yr Aipht; ond y mae yn wahanol, meddir, mewn manau ereill. Yn Pisa, er esampl, nid yw byth yn grwgnach, beth bynag fydd y pwysau a roddir arno. Y mae bob amser yn gymmedrol, yn ufudd, ac yn hynod o amyneddgar. Rhydd y gameles ei llaeth drwy y flwyddyn; yr hwn, medd Pliny, sydd, yn ddiod iachusol a hyfryd, wedi ei gymmysgu â dwfr. Y mae cnawd y camel yn fwyd blasus; ond yr oedd yn waharddedig i Israel (*Lef.* xi. 4)—yn fwy efallai er cynnildeb nag o herwydd un afleddid oedd ynddo. O'r croen y mae yr Arabiad yn gwneyd ei sandalau; ac o'r blew y mae yn gwneyd ei ddillad, ac hyd yn oed ei bebyll. Yr oedd dillad Ioan wedi eu gwneyd o flew camel: *Mat.* iii. 4; *Marc* i. 6. Y mae pob rhan o hono yn cael ei droi i ryw ddefnydd; hyd yn oed y dom, yr hwn a losgir yn danwydd, ac o'r lludw y mae y fferyllydd yn tynu allan y sylwedd a elwir *sal ammonia* neu *muriate of ammonia.* Ond y creadur defnyddiol hwn, fel pob creadur arall, a ddarostyngir gan ddyn i oferedd. Nid peth anfynych yn Arabia ydyw gweled mintai o ladron ar eu camelod, yn teithio cannoedd o filltiroedd, heb un dyben ganddynt ond lladd ac ysbeilio; ac y mae y camel mor ufudd i'r lleidr ag ydyw i'r teithiwr mwyaf gonest.

Er fod camelod yn rhan fawr o gyfoeth y patriarchiaid, a'u bod wedi hyny mewn cyflawnder mawr gan eu hiliogaeth, nid yw yn eithaf amlwg pa fodd y gallent fod o fudd neillduol iddynt. Tybia rhai mai y camelod oedd yn galluogi yr Hebreaid i dynu holl fasnach y gwledydd cyfagos i'w gilydd—o Asia Leiaf a Syria, hyd y Môr Coch a'r Aipht; ac o Arabia, hyd i'r gogledd a phorthladdoedd Phœnicia—trwy Wlad Canaan. Ac os felly, rhaid fod y camel yn un o adnoddau penaf eu golud. Mewn perthynas i'r ymadrodd—"Haws yw i gamel fyned trwy grai y nodwydd ddur, nag i oludog fyned i mewn i deyrnas Dduw" (*Mat.* xix. 24), digon ydyw dyweyd, ei bod yn ddiareb yn Israel; ac yn un sydd yn parhau yn mhlith yr Arabiaid i arwyddo peth anmhosibl. "Yr ydych yn hidlo gwybedyn, ac yn llyncu camel" (*Mat* xxiii. 24), sydd gyffelyb, ac yn dra phriodol i ddysgrifio dynion sydd yn orfanwl gyda phethau bychain, ac yn esgeulus gyda phethau mwy. Addewid gynnwysfawr yn y brophwydoliaeth am lwyddiant yr eglwys, ydyw, "Lluaws y camelod a'th orchuddiant, sef cyflym gamelod (dromedariaid) Midian ac Ephah; hwynt oll o Seba a ddeuant; aur a thus a ddygant; a moliant yr Arglwydd a fynegant;" *Esa.* lx. 6.—(*Plin. Hist. Nat.; Gold.'s Anim. Nat.; Buffon's Nat. Hist.; Camus de Nat. Anim.; Kitto's Bib. Cycl.; Dr. Cope's Nat Hist., Penny Cycl.; Carp. Physiol.; Carp. Comp. Physiol.; Dr. Shaw's Travels; Calm. Dict.; Barnes' Com., &c.*)

CAMELEON, [Heb., חנשמת; Gr., χαμαιλεων, Llad., *chamæleon;* Seis., *chameleon*]: mudfall, ethrithfil, budrithfil, lysard=math o ymlusgiad tebyg i'r geneugoeg, yr hwn y mae ei enw yn dra adnabyddus ar gyfrif y gallu rhyfedd sydd ganddo i newid ei liw. Ei hyd o'r trwyn i flaen y gynffon ydyw tuag un modfedd ar ddeg. Ei uchder cyffredin, tua dwy fodfedd; a hyd ei goesau, tua dwy fodfedd a hanner. Y mae bysedd y traed yn sypynau o ddau a thri yn gyferbyniol; y croen yn genog fel pysgodyn; y gynffon yn hir a dirwynog; y tafod, pan y mae yn estynadwy, yn dra hir; a'r pethau hyn yn benaf sydd yn gwahaniaethu y cameleon oddi wrth ymlusgiaid ereill.

Digitized by Google

Nid yw synwyrau y cameleon, dybygid, ond o radd lled gyffredin. Y teimlad, yr arogliad, yr archwaethiad, a'r clyw, yn sicr ydynt dra anmherffaith. Y golwg, fel y tybir, sydd yn hynod gywir a chraff. Y mae y llygaid yn fawrion, yn sefyll allan yn dda, yn cael eu gorchuddio agos â chroen; ond y peth rhyfeddaf a berthyn iddynt ydyw, fod eu symmudiadau yn gwbl annibynol ar eu gilydd. Gall y cameleon gyfeirio un llygad yn mlaen, a throi y llall yn ol yr un pryd, a thrwy hyny gymmeryd dau olwg gwahanol ar unwaith.

Y mae yr ermyg sydd gan y creadur hwn i anadlu yn fawr iawn; yr hyn a barodd i'r henafiaid feddwl ei fod yn byw ar wynt. Barnodd Cuvier mai ar faint yr ermyg hon yr oedd newidiad y lliw yn ymddibynu; ond yn hyn yr oedd yn methu. Maint yr ysgyfaint yn ddiammheu sydd yn ei alluogi i ymchwyddo, fel y gwna yn fynych, i fwy na chymmaint arall ei faint cyffredin. Y mae y chwydd hwn yn wastad dros ei holl gorff; a gwelir ef yn yr agwedd yma weithiau am yn agos i ddwy awr, pan y gwelir ef yn lleihau yn raddol nes dyfod i'w faint naturiol; ac yna y mae yr olwg arno mor deneu fel y gellir cyfrif ei holl esgyrn. Y mae yn ymgynnal ar bryfed mân, a ddelir ganddo â'i dafod, blaen yr hwn sydd wedi ei orchuddio â glud tew. Gall estyn ei dafod i gryn chwe modfedd o bellder, yr hyn a wna gyda chyflymder a chywirdeb neillduol pan y bydd pryf yn ei gyrhaedd.

Am arferion y cameleon, y mae yn byw mewn coedwigoedd, yn dringo ar hyd eu cangau, ac yn dysgwyl yno am ei ysglyfaeth nes y delo heibio. Yn y sefyllfa hon, tybir fod ei allu i newid ei liw yn dra manteisiol iddo er ei guddio ei hun. Gall ymprydio yn hir iawn. Cafwyd profion digonol o rai o honynt yn byw am chwech wythnos, hyd y gellid gweled, heb un math o ymborth, a hyny heb waelu ond ychydig. Ond fel y crybwyllwyd yn barod, y gallu sydd gan y creadur hwn i newid ei liw ydyw y peth rhyfeddaf yn ei hanes. Y mae hyn wedi ei wneyd yn destyn sylw neillduol i'r naturiaethwyr mwyaf dysgedig, ac wedi achlysuro llawer o wahanol farnau yn eu plith. Y lliw naturiol ydyw llwyd-las; rhwng y graenenau, melyn-goch; a than y traed, gwyn yn tueddu at felyn. Ond pan symmudir ef i oleuni yr haul, gwelir ef yn fuan yn cael ei orchuddio â lluaws o wahanol liwiau, a'r oll o honynt o'r fath brydferthaf ac yn symmudol. Melyn, coch, gwyrdd, &c., ydyw y lliwiau mwyaf amlwg yn y gymmysgedd. Pan symmudir ef o'r haul, y mae y lliwiau benthyciol yn colli, a'r lliw naturiol yn dyfod yn ei ol drachefn. Y mae y cyfnewidiad yma yn y lliw yn dygwydd yn y cysgod yn gystal ag yn ngoleuni yr haul; ond nid yw y pryd hyny yn edrych mor brydferth. Y mae teithwyr, yn eu dysgrifiadau o'r cameleon, yn arfer dywedyd ei fod yn cymmeryd ei liw oddi wrth y gwrthddrych a ddygir i gyffwrdd âg ef; ond y mae profion mynych wedi eu gwneyd i ddangos fod hyn yn gamsyniad.

Mewn perthynas i'r achos o'r ymddangosiad rhyfedd hwn, fe dybiodd Hasselquist ei fod yn tarddu oddi ar fath o aflechyd (*jaundice*), i ba un y mae y creadur bob amser yn ddarostyngedig, ond yn fwy neillduol pan gyffröir ef. M. d' Obsonville a dybiodd iddo gael y dirgelwch allan yn y gwaed, yr hwn sydd yn gymmysg o las a melyn, ac felly yn ddigon i gyfrif am y gwahanol liwiau yn y croen. Barrow, Cuvier, Spittal, ac ereill, a dybient fod yr esboniad ar y dirgelwch i'w gael yn yr ysgyfaint yn unig. Wood a'i priodola i ddylanwad *oxygen* ar y gwaed; a Houston i ryw ddirgelwch arall yn nghyfansoddiad y croen. Ond dygwyd yr ymchwiliadau hyn derfyn boddhaol o'r diwedd gan Mr. Milne Edwards, mewn erthygl ar y pwnc a ymddangosodd yn yr *Annales des Sciences Naturales*, am Ionawr, 1834: ac a gyhoeddwyd wedi hyny yn yr *Edin. New Phil. Journ.*, cyf. xvii., td. 315; yn yr hon y mae yn olrhain yr achos i ddirgelwch neillduol yn ffurfiad y croen, ac yn dywedyd gyda hyny pa beth yw y dirgelwch hwnw. Wedi dangos fod pob golygiad blaenorol yn anghywir, y mae yr awdwr hwn yn dyweyd fod yn nghroen y cameleon ddau blyg o groen lliwiedig, pa rai a symmudir ganddo wrth ei ewyllys, ac mai ar y symmudiadau hyny y mae y cyfnewidiad yn y lliw yn ymddibynu. Nid yw hyn ond awgrym o'r golygiad cywrain sydd wedi ei egluro i foddlonrwydd cyffredinol gan Mr. Edwards. Dengys y gall yr achos a nodir ganddo effeithio ar liw y creadur hyd yn oed ar ol iddo farw.

Nid oes ond un rhywiogaeth o'r *chamæleo*. Y mae, er hyny, amryw fathau, pa rai sydd yn gwahaniaethu ychydig oddi wrth eu gilydd. Y maent yn ddigon adnabyddus mewn hinsoddau cynhes, yn yr Yspaen, Affrica, India, Bourbon, Moluccas, Madagascar, &c. Y *chamæleon Africanus* ydyw yr un a geir yn Palestina, ac yn holl ogledd Affrica. At y math yma y cyfeirir yn *Lef.* xi. 30. Gwel LYSARD.—(*Le Brun's Voy. to the Levant; Barrow's Afric. Travels; Dr. Shaw's Travels; Wood. Zoology; Plin. Hist. Nat.; Goldsmith's Anim. Nat.; Buffon's Nat. Hist.; Kitto's Bib. Cycl.; Dr. Cope's Nat. Hist.; Penny Cycl.; Calmet's Dict., &c.*)

CAMERONIAID, [*Cameronians*]: plaid o Ymneilldüwyr yn yr Alban, a sefydlwyd gan un Richard Cameron, yn y flwyddyn B. A. 1677, ac a elwir ar ei enw. Gelwir hwynt hefyd "Mc. Millmans," ar enw y gweinidog cyntaf a fu iddynt ar ol y chwyldroad. Ond gan mai damweiniol oedd yr enwau hyn, yn nghyd â rhai ereill, megys y "Whigiaid," y "Mynyddwyr," a'r "Cyfammodwyr," mwy dewisol ganddynt hwy eu hunain gael eu galw yn "Bresbyteriaid Diwygiedig;" neu yn hytrach yn "Hen Ymneilldüwyr Presbyteraidd." Ystyrian yr enw diweddaf yn fwy nodweddiadol, am eu bod, fel Presbyteriaid, yn glynu wrth athrawiaethau Calvin; ac fel Ymneilldüwyr, wedi encilio oddi wrth yr Eglwys Wladol; a'r gair *hen* a chwanegir i'w gwahaniaethu oddi wrth rai sydd wedi encilio yn fwy diweddar.

Cyn amser y chwyldroad, yr oedd mesurau y llywodraeth mor annyoddefol, fel yr oedd meddyliau y bobl wedi eu cyffroi trwy yr holl wlad. Yr oedd ambell un yn rhoddi gwynt i'w feddwl mewn geiriau; ac un arall yn rhoddi ffurf iddo mewn gweithred; a hyny weithiau o bosibl yn ddigon byrbwyll. Un o'r rhai hyn, dybygid, oedd Richard Cameron. Yr oedd ei sel yn erbyn gormes ac o blaid iawnderau yn ei arwain i siarad mewn geiriau mor danllyd, nes yr oedd llawer o'i gyfeillion yn ofni am dano. Ac yn y flwyddyn 1677, daeth amryw o honynt yn nghyd i Edinburgh, i ystyried ei achos; a llwyddasant i gael addewid ganddo i fod yn fwy gwyliadwrus rhag llaw. Ymddengys i'r addewid hon, pa fodd bynag, ar ol ei gwneyd, fod yn llawer o boen iddo. Ac er mwyn tawelu ychydig ar ei feddwl, aeth yn fuan wedi hyn i Holland; ond ni bu ei arosiad yno ond byr. Ar ol ei ddychweliad, aeth,

Digitized by Google

gydag ugain ereill o'r un daliadau, i dref fechan Sanquhar, yn swydd Dumfries; ac yno, ar groes y farchnad, ar yr 22ain o Mehefin, 1680, gwnaeth ardystiad ffurfiol yn erbyn y llywodraeth, ac yn erbyn Charles Stuart, y brenin. Am y weithred hon, medd ei wrthwynebwyr, y cafodd ei ladd; ond ei gyfeillion a haerant, ar y llaw arall, iddo farw yn anrhydeddus fel merthyr i'w egwyddorion. Y mae hyn, pa fodd bynag, yn ffaith:—tra yr oedd efe a'i ganlynwyr yn y mynyddoedd rhwng Nithsdale ac Ayrshire, ymosodwyd arnynt gan fyddin o filwyr arfog oddi wrth y llywodraeth; ac mewn ysgarmes a gymmerodd le yn Airdsmoss, yn Kyle, ar yr 20fed o Gorphenaf, 1680, cafodd Richard Cameron ei ladd. Wedi hyn, cymmerwyd rhai o'i ganlynwyr yn garcharorion, ac ymwasgarodd y lleill. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd un Cargill, yr hwn a barhaodd i bregethu yn yr awyr agored ar hyd y wlad, hyd y mis Medi canlynol, pan y gwnaeth yntau ardystiad cyffelyb i eiddo Cameron, mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Torwood, rhwng Falkirk a Stirling. At y cyfreithiau gormesol oedd mewn grym yn barod, yn y flwyddyn 1681 fe chwanegodd y breninwyr y *Test Act*; yn erbyn yr hon y gwrthdystiodd y Cyfammodwyr, yn Lanark, ar y 12fed o Ionawr, 1682; gan ddadgan eu hymlyniad wrth yr ardystiad Cameronaidd yn Sanquhar, yn nghyd â rhoddi eu rhesymau drosto. Gwnaethant yr un peth drachefn mewn *Apologetic Declaration*, ar yr 28ain o Dachwedd, 1684: ac ar esgyniad y duc o York i'r orsedd, gwnaethant ardystiad arall yn Sanquhar, ar yr 28ain o Fai, 1685, yn yr hwn yr adnewyddwyd yr ardystiad cyntaf, ac y chwanegwyd eu gwrthwynebiad i'r brenin Iago, fel Pabydd proffesedig. Yr oedd y pethau hyn, yn ddiarwybod bron iddynt eu hunain, wedi eu parotoi i gymmeryd rhan benderfynol yn y chwyldroad a doredd allan yn y flwyddyn 1688. Gwrthodasant ddyfod i un math o gytundeb â'r llywodraeth, fel y Presbyteriaid; a gwrthdystiant hyd heddyw, yn erbyn y cydrwymiadau a wnaed y pryd hyny, yn gystal ag yn erbyn Erthyglau yr Undeb, Deddf y Goddefiad, a llawer o bethau ereill sydd, yn eu tyb hwy, yn groes i'r Ysgrythyr, y Diwygiad, a'r Cyfammod. Y maent er hyny yn byw mewn ymostyngiad tawel i gyfreithiau y wlad; ac fel prawf o'u teyrngarwch, dywedant fod "Cattrawd y 26ain o draedfilwyr wedi ei chodi ar y cyntaf o'n plith hwy, ac yn parhau i gael ei galw ar eu henw."

Y mae y bobl hyn yn credu yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, fel unig reol ffydd a bywyd. Yn nesaf at hyn y maent yn cyfeirio at awdurdodau boreuol yr Eglwys Albanaidd, *Cyffes Ffydd Westminster*, a'r ddau *Gatechism*, &c. Gellid chwanegu y llyfrau a gyhoeddwyd ganddynt hwy eu hunain i egluro ac amddiffyn eu hegwyddorion: megys y *Judicial Act and Testimony*, Glasgow, 1818; *A Short Account of the Old Presbyterian Dissenters*, a gyhoeddwyd trwy awdurdod yn 1806; ac *Explanation and Defence of the Terms of Communion adopted by the Reformed Presbyterian Church*. Argraffwyd y ddau ddiweddaf yn Glasgow, yn y flwyddyn 1824. Y maent yn parhau i ystyried y Cyfammod Cenedlaethol yn yr Alban yn rhwymedigaeth arosol arnynt.

Yn y flwyddyn 1743, cafodd y blaid fechan hon ei ffurflo yn henuriaeth reolaidd, gan Mr. Mc. Millman ac ereill; a hyd yn ddiweddar, nid oedd ganddynt un llys uwch na hyny i gyfeirio ato. Yn awr, y mae ganddynt synod, neu gymmanfa eglwysig, yn gynnwysedig o bum nenuriaeth; sef yr eiddo Edinburgh, Glasgow, Paisley, Kilmarnock, a Newton Stewart. Yn ol y cyfrifon diweddaf sydd genym i gyfeirio atynt, y mae iddynt yn yr Alban 33 o eglwysi, yn cynnwys rhyngddynt 6000 o aelodau. Y mae gan y synod yma hefyd genadwr yn Canada. Yn yr Iwerddon, y mae synod o bedair henuriaeth, yn cynnwys 27 o eglwysi, a 7000 o aelodau. Yn Lloegr, dwy gynnulleidfa, ac un gweinidog. Yn Nova Scotia a New Brunswick, un henuriaeth, a dau weinidog. Yn y Taleithiau Unedig yn America, y mae 60 o weinidogion, a chynnifer a hyny o eglwysi. Ni dderbynir caethfeistr i gymundeb ganddynt.—(*R. Adams' R. W.; Dr. Charteris' Dis. on the Centenary of the Revolution; Will.'s all Rel.; Pen. Cycl.; Black. Mag.*, 1819.)

CAMERONIAID, [*Cameronites*]: plaid o Galviniaid cymmedrol yn Ffrainc, a ddadleuent dros ryddid yr ewyllys. Cymmerent eu henw oddi wrth John Cameron, yr hwn a anwyd yn Glasgow yn y flwyddyn 580, ac a fu am ryw dymmor yn athraw enwog yn y brifysgol yno. Symmudodd oddi yno i Bordeaux a Saumur, lle y dechreuodd gyhoeddi ei syniadau am ras Duw ac ewyllys rydd. Dilynwyd ef yn fuan gan Amyraut, Cappel, Bochart, Daille, a gweinidogion dysgedig ereill, y rhai a ymadawent oddi wrth Calvin yn y pethau hyny yr ystyrient ef yn rhy galed, neu yn anysgrythyrol. Ond wrth gymmedroli Calviniaeth, aeth rhai o honynt, pa fodd bynag, i bellafoedd Arminiaeth.—(*Mosh.'s Eccles. Hist.; Bayle's Dict.*, dg. AMYRAUT; *Will.'s all Rel.*

CAMISARIAID, [*Camisars, Camisards*]: gwŷr y crysau, crysiwyr. Penboethiaid crefyddol, politicaidd, a gyfodasant yn y Cevennes, yn neheudir Ffrainc, yn niwedd yr eilfed canrif ar bymtheg. Count Grégoire a fynega iddynt ddechreu yn "ysgol y prophwydi," yr hon a gyfodwyd gan ŵr, o'r enw Du Serre, yn Vivarais. Manau hynod am grefydd ddiwygiedig, er's llawer can mlynedd, oedd dyffrynoedd a chymydd y Cevennes a'r Alpau. Mor fore a'r nawfed canrif, darllenir am Claude, esgob Turin, yn ymosod yn benderfynol yn erbyn cyfeiliornadau yr Eglwys Babaidd; a thybir mai cefnogi a wnelai hen egwyddorion Cristionogaeth ddihalog a lechent yn mysg y creigiau hyn gannoedd o flyneddoedd yn gynt. Pobl ymneilldueddig a hollol anadnabyddus, braidd, oedd y trigolion; ac yr oedd chwyldroadau Ewrop yn myned heibio agos heb yn wybod iddynt. Ond yn y deuddegfed a'r trydydd canrif ar ddeg daethant i sylw yr eglwys fel hereticiaid, o dan yr enwau Vaudois, Albigensiaid, Waldensiaid, y tlodion o Lyons, &c.; a gyrwyd croesgadau Pabaidd dychrynllyd i'w dyfetha. Eu hanes a ddangosa fod Cristionogaeth yn eu plith yn ymddysgleirio mewn purdeb apostolaidd i raddau mawr, ond yn gymmysgedig â phenboethni i fesur helaeth.

Credent mai yr Eglwys Babaidd oedd Anghrist, Babilon, a phutain, y Dadguddiad; fod ei dial a'i ehwymp arswydus yn ymyl; fod y milflwyddiant wrth y drws, pan y disgynai y Ierusalem nefol yn ei chrynswth i'r ddaiar, yn yr hon y teyrnasai Crist yn bersonol, y cynnelid neithior fawr priodas gwraig yr Oen, pan y byddai holl breswylwyr y ddaiar yn cael eu dinystrio gan ei lidiogrwydd, &c. Credent eu bod yn brophwydi, ac y gallent wneuthur gwyrthiau trwy ddylanwad uniongyrchol yr Ysbryd Glân.

Digitized by Google

Yr amgylchiad a alwodd y rhai hyn i sylw ydoedd gwaith Louis XIV. (1697) yn eu herlid yn mhob modd, ac yn eu gorthrymu â threthi trymion, &c. Yr oedd Louis wedi gorchymyn i'w gadfeirch (*dragoons*) ddifa eu heiddo, lladrata eu plant, er mwyn eu magu yn y ffydd Babaidd, a lladd pob un o honynt a ddalient. Hwythau, o dan ddylanwad yr ysbryd prophwydo, a ad-dalent—lladdent bob un o'i filwyr yntau a syrthiai i'w dwylaw, a chyfodent ganol nos yn bleidiau cryfion gan ymwisgo, rhag eu hadnabod, yn eu crysau, oddi wrth yr hyn y cawsant eu henw; elent ar draws tai casglwyr y trethi, llusgent hwy o'u gwelyau, a chrogent hwy ar bren cyfagos, â llen y trethi wrth eu gyddfau.

Tua'r flwyddyn 1702, lladdwyd Abad Chaila, yr hwn ydoedd gadlywydd y cadfeirch. Louis a ddyblodd y cadgyrch yn eu herbyn; hwythau a ffyrnigasant yn gyfatebol. A llanc o brophwyd o honynt, tuag ugain mlwydd oed, o'r enw John Cavilier, neu Cavalier, a ddyrchafwyd yn arweinydd arnynt. Yr oedd hwn yn ŵr ieuanc dysgedig; ac efe a droes allan yn gadlywydd mor ystrywgar a gwrol, fel y dyrysodd ac y maglodd y gelynion rhwng creigiau a chymydd y mynyddoedd, nes eu gorchfygu yn hollol, a meddiannu yr holl wlad, o ororau y môr hyd eithafion penau y mynyddoedd. Trigolion y dinasoedd Nimes, Montpelier, Uzes, &c., a'u cynnorthwyasant âg ymborth ac arfau: llosgasant ddau cant o eglwysi, lladdasant tua chant o offeiriaid, a chyflawnasant alanasdra dirfawr. Yr oedd rhyfel ol-ddilyniad coron Yspaen erbyn hyn wedi llenwi breichiau Louis â gwaith. Ac er poethed y brwydrau hyny bu raid galw Marshal Villars oddi wrth fyddin y Rhine i ddyfod yn eu herbyn. Lladdwyd, yn yr holl ymladdfeydd a fuant ar y pryd, tua 40,000 o'r Camisariaid. Ond methodd Villars, trwy rym arfau, eu darostwng; ac efe a droes i wneuthur heddwch gyda hwynt. Y canlyniad fu i Cavilier a'i fyddin (tuag 1,600 ydoedd eu rhif erbyn hyn) ymostwng, ar ammod cael maddeuant, a chenad heddychol i adael y deyrnas. Ond wedi dyfod i gyfeillach a Cavilier, Villars a gytunodd âg ef i restru ei fyddin o dan y llywodraeth, ac iddo ef fod yn swyddog arni, a chael cyflog. Cafodd Cavilier lawer o drafferth i gael gan ei wyr restru os na adsefydlid deddf Nantes. Fodd bynag, rhestru a wnaed, ac aethant tua Catalonia; ac yn mrwydr Almanza, lladdwyd agos yr holl gatrawd, a chlwyfwyd Cavilier. Yn y Cevennes, er ymadawiad Cavilier, ni ddarfyddodd y Camisariaid; ond ailgyfodasant o dan arweinydd o'r enw Roland. Bu Villars yn ymladd yn eu herbyn drachefn; ac yn y flwyddyn 1705, Marshal Berwick a'u llwyr ddarostyngodd. Gan nad oedd Cavilier, er iddo droi yn filwr Ffrengig, wedi cael ymwared oddi wrth ddylanwad yr ysbryd prophwydo, a chan mai lle peryglus mwyach iddo arfer y chwidredd a'r ystumiau hynod gynhyrfus hyn oedd Ffrainc, efe a ddaeth, yn nghyd â dau neu dri ereill, drosodd i Lundain. Ryw ffordd neu gilydd, efe a fedrodd ymwthio i ffafr y frenines Anne, ac efe a'i frodyr a ddechreuasant brophwydo, a mynegasant y byddai i Anne hefyd droi yn brophwydes yn fuan, ac y byddai i Lundain (hi ydoedd Babilon erbyn hyn), gwympo ar frys; ac nid yn unig Llundain, ond holl ddinasoedd y cenedloedd:—fod yr Arglwydd yn myned i buro y ddaiar drwy ddylif, daiargryn, a thân; a bod yr angelion ar ymddangos i gasglu yr efrau, a'u llwyr losgi: ac yna y byddai i flwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd ddyfod; a chyn pen y tair blynedd (yr oedd hi y pryd hyny yn 1706) y byddai y mil-flwyddiant wedi dechreu, a Christ yn teyrnasu gyda'r saint ar y ddaiar.

Wedi dadebru o'u llewygfeydd, traddodent eu prophwydoliaethau bygythiol (ac o'r ansawdd hwn yr oedd y rhan fwyaf o honynt) yn araf, mewn llais sobr-ysgrechlyd, ac o sill i sill, fel hyn,—"Y mae we-di ei ben der-fyn-u; dim ga-lw yn ol, y mae y dded-fryd we-di ei chy-hoedd-i. Gwae! gwae! i ti, O ddin-as nwyd-lyd, af-lan, gabl-edd-us a hun-an-gyf-iawn, yr hon a ryf-yg-i wrth-od fy rhy-budd-ion! Ty-wallt-af ar-nat ti, O dym-mestl ofn-ad-wy! Mwg a'th dy-wyll-a di, tân a ddis-gyn o'r uch-el-der i'th ys-u, dy fflam-iau a es-gyn-ant i fyn-y," &c. Llefarent â thafodau dyeithr; a honent y gallent wneuthur gwyrthiau. Yr oedd un o honynt, o'r enw Dr. Emes, wedi marw; rhoddasant her i'r dinasyddion, y frenines, a'r cyfrin-gynghor, ar ddydd penodedig i ddyfod i'w gweled yn ei adgyfodi i fywyd. Daeth y dydd, ymgasglodd miloedd o bobl, a dyna lle y bu Cavilier a'r frawdoliaeth yn gweddïo, &c.; ond ni chyfododd y marw. Ac fel esgus am y ffaeledd, dywedent fod rhyw un aflan yn eu plith. Credodd cannoedd ynddynt yn Llundain; ac un o aelodau y Dr. Calamy, John Lacey, ysw., yr hwn a lynodd eu holl ffoleddau, ond cyffredinolwydd eiddo: bu yn gwingo am dro yn erbyn hyn, oblegid yr oedd yn werth 2,000*p.* yn y flwyddyn. Pa fodd bynag, yn mhen ennyd, ar ryw fore, heb yngan gair wrth undyn, cyfododd oddi wrth ei foneddiges o'i wely, gadawodd hi a'i phlant, ac aeth i fyw i blith y prophwydi. Cymmerodd yn wraig iddo brophwydes o'r enw Betty Grey, yr hon, cyn i'r ysbryd ei meddiannu, oedd yn tori penau canwyllau mewn chwareudy. Gofynodd Calamy (yr hwn a'i gwelodd yn un o'i lewygfeydd) iddo, pa fodd y gallodd gyflawnu y fath weithred. Ei ateb ydoedd, "Duw a orchymynodd i mi adael Hagar, a phriodi Sarah." Methiant y gwyrthiau, adgyfodiad y meirw, a ffolineb y daroganau, a fu yn angeu iddynt. Cavilier a roddodd heibio, o'r hyn lleiaf yn gyhoeddus, y prophwydo a'r tyrfu; a chan ei fod yn ddyn campus ei fedr mewn gwleidiadaeth a llywod-ddysg, efe a osodwyd yn gadlywydd a llywiadur ar ynys Jersey, lle y bu farw.—(*Dict. of all Rel.; Penny Cyc.; Pop. Encyc.*, &c.)

CAMPAU. Y mae hanes pob cenedl bron yn cofnodi rhyw chwarëyddiaethau a gynnelid yn eu mysg. Codai hyny yn naturiol, dybygid, oddi ar fywiogrwydd natur a sirioldeb tymmer plant ac ieuenctyd yn enwedig, ar y cyntaf, a hyny yn achlysurol; ond mewn amser, dygid hyny i ffurf fwy rheolaidd, gwobrwyid y neb fyddai yn fwy medrus nag ereill fel un wedi ennill y gamp; ac ystyrid hyny yn rhagoriaeth gwerth ymdrechu am dani, nes o'r diwedd y cafodd campau eu sefydlu ar adegau mwy penodol a rheolaidd. Mewn canlyniad, daeth yr hyn nad oedd unwaith ond difyrwch yn unig, i gael edrych arno fel gorchwyl pwysig, â thuedd ynddo i gyffroi uchelgais y rhai a gymmerent ran ynddo; i dderbyn cefnogaeth y rhai a fyddai mewn awdurdod; ac i'w ystyried fel rhan o wasanaeth crefyddol, wedi ei sefydlu gan, ac er anrhydedd y duwiau. Ac er y golygid, ac y mynychid y campau fel lleoedd o ddifyrwch gan yr edrychwyr, byddent yn ymladdfeydd gwaedlyd i rai o'r neb a ymdrechent ynddynt.

Ymddengys oddi wrth eu cerfladau, fod yr hen

Digitized by Google

Aiphtiaid yn cynnal rhyw fath o gampau. At hyny y cyfeiria yr un canlynol, dybygid: pa



Dar. 148.

fodd bynag, nid yw yn debyg eu bod o nemawr fri mewn cymhariaeth i gampau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Mewn llawer o bethau, yr oedd campau y Rhufeiniaid yn gyffelyb i eiddo y Groegiaid [gwel CAMPAU GROEGAIDD]; ond mewn ereill yr oeddynt yn gwahaniaethu. Un o'r pethau y cymmerai y Rhufeiniaid hyfrydwch mawr ynddo, ydoedd edrych ar ddynion yn ymladd â bwystfilod gwylltion. Weithiau byddai rhai o'r mawrion yn cymmeryd rhan yn yr ymdrechfeydd hyn; ond yn fwyaf cyffredin, ni cheid neb yn foddlawn i anturio i'r fath berygl, heb law rhyw rai o'r dosbarth iselaf o ran eu nodweddiad. Cyflogid hwy gan eu huchafiaid, a rhoddid gwisgoedd ac arfau iddynt i amddiffyn



Dar. 149.

eu hunain. Bwrid drwgweithredwyr at y gwylltfilod, yn hollol noethion a diamddiffyn; ac weithiau yn rhwym, fel cospedigaeth arnynt, ac er difyrwch i'r edrychwyr. Crybwylla haneswyr, fod cannoedd o lewod, a chreaduriaid creulawn ereill, wedi cael eu lladd o dro i dro yn yr ymdrechfeydd hyn. Nid oedd un gospedigaeth mor waradwyddus: a chafodd lluaws o Gristionogion eu hyrddio at y llewod, am eu hymlyniad wrth y gwirionedd. Myn rhai fod Ephesus yn lle hynod am yr ymladdfeydd hyn; bod Paul wedi cael ei fwrw i'w mysg; ac mai at hyn y cyfeiria yn 1 *Cor.* xv. 32,—"Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg anifeiliaid yn Ephesus," &c.; ond barna ereill, er ei fod yn llefaru mewn cyfeiriad at ymladdfeydd fel yma, mai rhyw gythrwfl y mae yn ei olygu ag y bu mewn enbydrwydd am ei einioes ynddo yno: *Act.* xix. [Gwel YMLADDFA.]

Ymddengys fod campau cenedlig wedi cael eu dwyn i fysg yr Iuddewon wedi eu dychweliad o Babilon,—"A hwy a adeiladasant ysgol yn Ierusalem, yn ol arfer y Cenedloedd;" 1 *Mac.* i. 14, 15. Ysgol oedd hon i ddysgu y campau. Dygwyd y campau hyn i fysg yr Iuddewon gan Antiochus Epiphanes, mewn trefn i ddwyn eu meddyliau oddi wrth eu crefydd, a'u cael i ymostwng i'w lywodraeth ef. Yn 2 *Mac.* iv. 7—18, dywedir i "Iason brawd Onias" weithio yn ddirgel trwy wobrwyo Antiochus i gael bod yn archoffeiriad, ac iddo addaw "talu deg a deugain a chant" o dalentau o arian, "os caniatëid iddo trwy ei awdurdod ef, osod campfa ac ysgol i'r gwŷr ieuainc." Wedi iddo gael hyn "trwy fodd y brenin, yn y man efe a ddenodd ei genedl ei hun i arferion y Groegwyr;" "efe a adeiladodd gampfa o'i wirfodd dan y castell;" ac mewn canlyniad, yr oedd y bobl "yn dirmygu y deml, yn esgeuluso yr ebyrth," ac "yn prysuro i fod yn gyfranog o ddogn annuwiol eu campau, yn ol taflu y gareg; ac heb ganddynt bris am anrhydedd eu tadau, gan gyfrif gogoniant y Groegwyr yn oreu." Dywed Josephus hefyd [*Henaf. yr Iudd.*, llyfr xv. pen. viii], ddarfod i Herod Fawr "gilio oddi wrth gyfreithiau ei wlad," a chyfnewid "eu gosodiadau henafiaethol, trwy ddwyn ymarferiadau dyeithrol i mewn.....Canys yn y lle cyntaf, efe a appwyntiodd chwareuon parchedig, i'w cynnal bob pummed flwyddyn er anrhydedd i Cæsar; ac a adeiladodd chwareudy yn Ierusalem; ac hefyd, chwareufa dra eang yn y gwastadedd.....Eto, efe a gynnaliai y chwareuon hyn bob pum mlynedd yn y modd parchusaf a godidocaf.....Yr ymafiwyr codwm, hefyd, ac ereill a ymdrechent ennill y gamp yn y fath chwareuon, a wahoddid drosodd o bob gwlad; yn gystal o herwydd gobaith am y fath wobrwyon ag a gyfrenid a chlod i'r ennillwyr a gaid yno.....Canys yr ydoedd gwobrwyon mawr yn cael eu haddaw i fuddugoliaethwyr; nid yn unig i'r rhai a gyflawnent eu campau yn noethion, ond i'r rhai a chwareuent fel cerddorion hefyd, a elwid Thymelici.....Efe a gynnygiodd wobrwyon nid ychydig i redegwyr mewn cerbydau, pan dynid hwy gan bedwar, tri, neu ddau bâr o geffylau.....Efe hefyd a barotodd anifeiliaid gwylltion yn rhifedi mawr; a'r fath greaduriaid ereill ag oedd naill ai o nerth anghredadwy, neu y fath ag a welid yn anaml. Y rhai hyn a fwriedid, un ai i ymladd â'u gilydd, neu fod i ddynion a farnwyd i farwolaeth ymladd â hwynt..... Nid oedd yn ymddangos hefyd yn ddim gwell nac arwydd o ddidduwiaeth wynebnoeth, i fwrw dynion i anifeiliaid gwylltion, i'r dyben o ddifyru yr edrychwyr." Yn wyneb hyn, yr ydym yn canfod fod yr ymadroddion a ddefnyddir yn y Testament Newydd, mewn cyfeiriad at gampau o'r fath, i annog y Cristionogion i ymdrechu, i redeg yr yrfa, &c., yn eu hymlyniad wrth grefydd Crist a'u llafur o'i phlaid, yn hollol ddeallladwy i'r Iuddewon yn gystal ag i'r Cenedloedd.

CAMPAU GROEGAIDD.

Yr oedd campau y Groegiaid yn dwyn cyssylltiad agos â'u crefydd. Hònid eu bod wedi eu sefydlu trwy orchymyn a than gyfarwyddyd rhyw dduw penodol. Cael y deiliaid i dalu gwarogaeth i'r awdurdodau gwladol, i ufuddhau i'r deddfau, ac i fod yn bybyr ac yn wrol i amddiffyn eu gwlad, oedd rhai o amcanion uchaf eu crefydd. Ystyrid gwroldeb ar faes y frwydr y rhinwedd mwyaf pwysig a gogoneddus ag yr oedd yn ddichonadwy i ddyn fod yn feddiannol arno; o ganlyniad, yr oedd y campau hyn yn ddefnyddiol mor bell ag yr oeddynt yn wasanaethgar i gadw hyny mewn bri, ac i gymhell dynion i ymdrechu am ragori ynddo. Er nad oedd nifer y rhai fyddai yn ymddarparu gogyfer â'r ymdrechfeydd hyn ond ychydig, mewn cymhariaeth, eto yr oedd yr anrhydedd cyssylltiedig â bod yn fuddugol ynddynt yn cael dylanwad helaeth ar feddyliau yr ieuenctyd trwy y wlad yn gyffredinol, ac yn effeithio i beri iddynt ddymuno rhagori yn yr hyn oedd yn ennill y fath glod. Mynai rhai o athronyddion Groeg

Digitized by Google

fod yr ymladdfeydd oedd yn y gwyliau hyn yn gwneuthur mwy o niwed nag o les; ond barnai ereill, er y gallai eu bod yn niweidiol ar ryw gyfrifon, eto, gan eu bod yn meddu dylanwad mor gyffredinol ar feddyliau y genedl ieuanc, i'w dysgu i ddyoddef caledi a dysgyblaeth fanwl, i gryfhau eu gewynau, a'u harfer i fod yn ddewr yn ngwyneb eu gelynion, a thrwy hyny eu gwneuthur yn filwyr glewion—eu bod yn deilwng o gefnogaeth ar y cyfrifon hyn. Ymddengys mai hyn oedd amcan eu sefydliad ar y cyntaf; ond fel yr oeddynt yn dyfod i fwy o fri, cefnogid cywreinrwydd yr arlunydd a'r cerflwr; ac nid oedd y beirdd, yr haneswyr, yr areithwyr, na chantorion offerynau cerdd, yn ol o nodded i'w hathrylith ynddynt.

Cynnelid y campau hyn mewn pedwar o leoedd, y rhai a ystyrid yn perthynu i'r holl genedl, sef yn Olympia, Pythia, Nemea, ac yn agos i Corinth.

Lle oedd Olympia ar lan afon Alpheus, yn y Peloponnesus, heb fod yn mhell oddi wrth Elis. Dywed rhai ei bod yn ddinas ar ei phen ei hun; dywed ereill mai yr un ydoedd a Pisa; ac ereill drachefn, fod Olympia a Pisa yn ddwy ddinas wahanol, un o bob tu i'r afon Alpheus, ar gyfer eu gilydd, ac mai y rheswm pa ham y cymmerid y naill yn lle y llall oedd eu hagosrwydd i'w gilydd, ac nad oedd ond yr afon yn eu gwahanu. Dywed Mr. Dodwell, "Ni bu Olympia erioed yn dref, ac nis gelwir hi felly gan un hen awdwr." Ymddengys mai dyma farn esgob Thirlwall, ac amryw ereill. Dadleuir o'r ochr arall, pe nad ellid profi yn benderfynol ei bod yn ddinas, mai "prin y gellid tybied y gadewid y fath nifer o adeiladau mor ardderchog, a'r fath luosogrwydd o gerfluniau, yn ddiamddiffyniad am bedair blynedd; neu yr ymddiriedid yr offrymau a'r trysorau a gedwid yn y temlau yn hollol i gyssegredigrwydd y lle." Yr oedd yno deml ac oracl i Jupiter, a hòna rhai ddarfod i'r campau hyn gael eu sefydlu yno er anrhydedd y duw hwnw.

Anfuddiol fyddai adrodd yr holl chwedlau a roddir fel achos o sefydliad y campau hyn, yn nghyd â'r gwahanol farnau yn nghylch eu sylfaenwyr. Y syniad mwyaf cyffredin, dybygid, yw nad oeddynt yn cael eu cynnal yn rheolaidd, pwy bynag a'u sefydlodd, a than ba amgylchiadau bynag y gwnaed hyny, hyd oni ddarfu i Iphitus, brenin Elis, mewn cyssylltiad à Lycurgus, deddfroddwr Sparta, a Cleosthenes o Pisa, eu hadsefydlu tua phedwar cant a chwech, yn ol rhai, ac wyth, yn ol ereill, o flyneddoedd ar ol dinystr Caerdroia. Ymgymmerodd Iphitus â'r gorchwyl mewn trefn i sicrhau heddwch rhyngddo ef a theyrnasoedd mwy galluog oedd o'i amgylch; o blegid dywedid fod y wlad yn lle cyssegredig ar gyfrif y campau hyn, ac nas gallai neb gymmeryd dim yn ysbail o un cwr o honi heb fod yn euog o gyssegr-ysbeiliad. Ac i'r dyben o roddi gwedd grefyddol ar ei waith yn eu sefydlu, hònai ddarfod iddo ymgymmeryd â'r gorchwyl ar orchymyn a than gyfarwyddyd oracl Apollo, yr hon oedd yn Delphi, a bod iddo ef a'i ddeiliaid gael y llywodraeth yn eu dygiad yn mlaen. Y mae yn ymddangos, pa fodd bynag, fod gan Pisa awdurdod gyfartal yn eu llywodraethiad hyd oni ddinystriwyd hi gan drigolion Elis, pryd y disgynodd eu llywodraeth yn gwbl i'w dwylaw hwy. Nid oedd yr ŵyl hon yn lluoseg ar ei sefydliad cyntaf, ac yr oedd yn cael ei hesgeuluso am ysbaid maith wedi amser Iphitus, mewn cymhariaeth i'r bri y daeth iddo wedi ei hadsefydlu drachefn gan Coroebus; pryd y tynai sylw yr holl genedl, ac yr ymgasglai lluaws aneirif iddi o bob parth o'r wlad. Deuai llawer hefyd o'r trefedigaethau Groegaidd yn Ewrop, Asia, ac Affrica, y rhai a ystyrid fel cenadau wedi eu hanfon dros ddinasoedd. Cynnelid yr ŵyl hon bob pummed flwyddyn, a disgynai weithiau ar fis Apollonius (Gorphenaf); bryd arall ar fis Parthenius (Awst); a pharhâai bedwar diwrnod yn ol Thirlwall, neu bump yn ol Potter. Ni chaniatëid ar y cyntaf i neb o'r rhyw fenywaidd fod yn bresennol ynddynt, ond offeiriades Ceres ac ychydig forwynion, y rhai a eisteddent gyferbyn a'r barnwyr wrth y cyrchnod; eithr mewn amser diweddarach fe ddilewyd y ddeddf hon.

Weithiau, byddai llywodraethiad y campau hyn yn nwylaw y Piseaid; ond wedi eu gorchfygu gan yr Eliaid, syrthiodd yn hollol, gyda chydsyniad y Groegiaid yn gyffredinol, i ddwylaw y buddugoliaethwyr. Ganddynt hwy y penodid y barnwyr. Ar y cyntaf, nid oedd ond un barnwr; wedi hyny penodid dau; a thrachefn lluosogwyd eu nifer i ddeuddeg, yn ol rhifedi y llwythau Eliaidd: lleihawyd eu nifer yn fuan i wyth, wedi hyny chwanegwyd un atynt; ond o'r 106 Olympiad hyd amser Hadrian, ymherawdwr Rhufain, deg oedd eu nifer. Deuai y barnwyr yn nghyd i Elis ddeng mis cyn yr ŵyl, mewn trefn i dderbyn yr ymgeiswyr, ac i edrych ar fod iddynt fyned trwy y rhagddarpariadau gofynol yn ol y rheolau: ac wrth dderbyn cyflawn awdurdod i weinyddu fel y cyfryw, cymmerent lŵ difrifol y byddai iddynt benderfynu yr ymdrech yn berffaith ddiduedd; na byddai iddynt dderbyn gwobrau, na dadguddio y rhesymau pa ham y gwrthodent y naill, ac y cymmeradwyent y llall. Ac os tybiai neb o'r ymdrechwyr ei fod yn cael cam, yr oedd rhyddid iddo i osod ei achos o flaen y senedd Olympaidd; ac os profid hwy yn euog o wyro barn, yr oeddynt yn agored i ddirwy drom. Yr oedd yno swyddog penodol yn hysbysu telerau a rheolau yr ymdrechfeydd, enwau yr ymgeiswyr, y gwobrwyon, &c.; yn nghyd â swyddogion ereill i gadw trefn, ac i edrych ar fod pob peth yn cael ei ddwyn yn mlaen yn ol y rheolau.

Cynnelid y campau Pythiaidd er anrhydedd y duw Apollo, yn agos i Delphi, yr hon oedd dref yn Phocis, yn sefyll mewn dyffryn ar ochr ddeorllewin mynydd Parnassus. Gelwid hi gyntaf yn Pytho, o blegid i'r sarff Python gael ei lladd yno gan Apollo; a phryd arall yn Delphi, oddi wrth Delphus, mab Apollo. Yr oedd yno deml ac oracl i Apollo, yr hon a ystyrid am lawer o amser y fwyaf enwog, ac yn meddu mwyaf o awdurdod yn yr holl wlad. Priodola rhai sefydliad y campau yno i Amphictyon, mab Deucalion; ereill i Agamemnon; ac ereill drachefn i Diomedes: ond y chwedl a gafodd fwyaf o dderbyniad yw, iddynt gael eu sefydlu gan Apollo ei hun, mewn coffadwriaeth am ei oruchafiaeth ar y sarff a grybwyllwyd, fel na byddai i amser ddileu y son am y fath weithred glodfawr.

"Neve operis famam possit delere vetustas
Instituit sacros celebri certamine ludos,
Pythia perdomitæ serpentis nomine dictos." *Ovid.*

Ni chynnelid y campau hyn, ar eu sefydliad cyntaf, ond unwaith bob naw mlynedd; ond wedi hyny daethant i gael eu cynnal bob pummed flwyddyn, mewn coffadwriaeth am y pum nymph a ddaethant o Parnassus i gysuro Apollo, ac i'w wobrwyo â rhoddion ar ol ei oruchafiaeth.

Pentref a llwyn oedd Nemea, yn Argolis, rhwng Cleonæ a Phlius, lle y dywedir ddarfod i Hercu-

Digitized by Google

les ladd llew anghenfilaidd, pan oedd yn un ar bymtheg oed, yr hyn a barodd sefydliad y campau yno, er coffadwriaeth am yr oruchaflaeth. Adroddir amryw o chwedlau ereill gan wahanol awduron i geisio rhoddi cyfrif am eu dechreuad, ond nid yw y cyfan yn amgen na chwedlau wedi eu sylfaenu ar draddodiadau. Ystyrid hwy yn gyssegredig i Jupiter, a chynnelid hwy bob trydedd flwyddyn, ar y deuddegfed o fis Panemos (Awst).

Gelwid y campau ISTHMIAIDD felly am eu bod yn cael eu cynnal yn agos i Corinth, yn y llain o dir (*isthmus*) yr hwn sydd yn cyssylltu y Peloponnesus â'r cyfandir. Nid oes un cyfrif eglurach yn cael ei roddi am ddechreuad y rhai hyn nag am y lleill. Cynnelid hwy bob tair blynedd, neu ar y gyntaf a'r olaf o bob pum mlynedd; ac ystyrid y fath gyssegredigrwydd yn perthyn iddynt, fel nad oedd yn ddiogel ar un cyfrif eu gollwng i lawr. Hyd yn oed mewn cyfnod diweddarach, pan y daeth Corinth yn dalaeth Rufeinig, cynnelid y gŵyliau hyn i fyny gydag enwogrwydd chwanegol o dan y Cæsariaid, fel ag yr oedd Paul, yn y darlun a dynai, yn ysgrifenu i lygaid Cristionogion Corinth. A phe byddai prawf o wirionedd y llythyr cyntaf yn angenrheidiol, gallem gael cymmaint ag a ddymunem mewn henafiaethau ag sydd eto mewn bodolaeth; o blegid y mae bathodyn er amser Marcus Aurelius, ac un arall er amser Commodus,





Dar. 150.

ac yn wir, ereill diweddarach, â'r gair ISTHMIA (y campau Isthmiaidd) ar bob un o honynt. Ymddengys fod y Corinthiaid yn hoff ryfeddol o'r chwareuon hyn. Pan ddinystriwyd Corinth gan Mummius, y cadfridog Rhufeinaidd, cyflwynwyd gofal eu dygiad yn mlaen yn rheolaidd i'r Sicyoniaid, hyd oni adeiladwyd y ddinas.

Er yr ystyrid pob un o'r rhai hyn yn fath o ŵyliau cenedlaethol, eto nid yw yn ymddangos fod un o'r tri lle olaf wedi cyrhaedd enwogrwydd Olympia. Yr un campau a arferid yn mhob un o honynt, er, efallai, fod mwy o amrywiaeth, yn enwedig yn Olympia, nag yn un o'r lleoedd ereill ar ei ben ei hun; yr oedd mwy o arbenigrwydd hefyd yn cael ei roddi ar ryw gampau neillduol yn y naill le ragor y llall. Nid oedd y gwobrau chwaith a ennillid yn y naill o nemawr fwy o werth ynddynt eu hunain nag yn y llall, y rhai nid oeddynt yn ddim amgen na changau neu goron blethedig o ddail olewydd, pinwydd, perllys, neu ryw bethau cyffelyb. Ar yr un pryd, yr oedd yr anrhydedd o fod yn fuddugoliaethus y fath ragoriaeth, ac yn cael ei ystyried yn teilyngu y fath glod, fel o'r braidd y gallai dyn ddymuno anrhydedd uwch. Caniatëid iddynt hefyd wobrwyon gan y llywodraeth y byddent yn ddeiliaid o honi. Yn Sparta, rhoddid swyddogaeth anrhydeddus iddynt yn y fyddin; a sefydlwyd deddf gan Solon, yn Athen, yn caniatäu pum can *drachmé* (o ddeutu deuddeg punt a deg swllt o'n harian ni), yn nghyd âg eisteddle yn mhlith yr ynadon yn y Prytaneum, i'r ennillwyr yn y campau Olympaidd. Ar ol i'r ymdrech fyned drosodd, cyflwynid y goron iddynt gan y barnwyr, ac arweinid hwy yn ol ac yn mlaen ar hyd y cemmaes gan y cyhoeddwr yn ngwydd yr edrychwyr, ac yn nghanol y gorfoledd a'r bloeddiadau uchaf o gymmeradwyaeth iddynt. Hysbysid eu henwau hwy a'u rhieni, yn nghyd â'r ddinas y perthynent iddi: a chan y byddai yr ŵyl mor luosog o ddyeithriaid, byddai eu clod yn adnabyddus drwy yr holl wledydd mewn ychydig ddyddiau. Dygid hwy adref gyda llawenydd mawr mewn cerbydau, a thynid darn o gaer y ddinas i lawr i gael mynedfa iddynt y ffordd hono; i'r dyben o ddangos, fel y dywed Plutarch, nad oedd caerau ond o ychydig ddefnydd lle y preswyliai y fath wroniaid. Croesawid hwy â'r lleoedd blaenaf mewn gwleddoedd, rhoddai y beirdd holl nerth eu hawen ar waith i'w canmawl, a chodid cofgolofnau iddynt yn Olympia, naill ai ganddynt hwy eu hunain neu gan eu cyfeillion, yr hyn a achlysurodd y darnau mwyaf cywrain mewn barddoniaeth a cherfwaith. Ië, mewn gair, dyrchefid hwy braidd yn gyfartal â'r duwiau, a dywedir fod hanes am allorau wedi eu hadeiladu, ac am aberthau wedi eu hoffrymu iddynt.

Yr oedd yn angenrheidiol i bob un o'r ymgeiswyr fyned trwy y rhagddarpariadau gofynedig yn flaenorol i'r ŵyl, mewn athrofa a gynnelid ar draul y llywodraeth yn Elis, lle yr oedd athrawon perthynol i bob un o'r campau i'w haddysgu. Yr oedd yn rhaid iddynt aros yno, medd Potter, am ddeng mis; barna ereill mai deng niwrnod ar ugain oedd yr ysbaid angenrheidiol iddynt fod o dan addysg, ond fod yn rhaid iddynt roddi eu henwau ar y rhestr ddeng mis cyn yr ŵyl, a hysbysu at ba ran o'r ymdrechfeydd yr oeddynt yn ymbarotoi. Ymostyngent i'r ddysgyblaeth fanylaf, a dyoddefent y caledi mwyaf. Ni chaniatëid ond ffigys sychion, cnau, caws, a math o fara caled, yn ymborth iddynt. "A ddymunech chwi fod yn ennillwr yn y campau Olympaidd?" medd un ysgrifenydd;—"dylech ystyried pa beth sydd yn rhagflaenu, a pha beth sydd yn dilyn; yna, os bydd er lles i chwi, gellwch ymosod ar y gorchwyl. Rhaid i chwi gydffurflo â'r rheolau, ymattal oddi wrth ddanteithion, ymarfer eich corff, pa un a fyddoch yn dewis neu beidio, ar awr benodedig, mewn gwres ac oerni; ni chewch ddwfr oer na gwirod i'w hyfed. Mewn gair, rhaid i chwi ymgyflwyno yn gwbl i'ch athraw fel i feddyg. Drachefn, yn yr ymdrechfa, gellwch gael eich taflu i ffos, dadgymmalu eich breichiau, ysigo eich fferau, llyncu llawer o lwch, cael eich fflangellu, ac yn y diwedd golli y fuddugoliaeth. Ar ol i chwi fwrw golwg dros y pethau hyn, os bydd eich awydd yn parhau, gellwch ymosod ar y gorchwyl." Ar ddydd yr ŵyl, hysbysid enwau y rhai a fyddent wedi myned drwy y rhagddarpariadau gofynedig, a gwneid ymchwiliad i mewn i'w hachau a'u nodweddiad. Yr oedd yn angenrheidiol iddynt fod yn Roegwyr o waedoliaeth, yn wŷr rhyddion, ac na byddent hwy na neb o'u perthynasau agosaf yn euog o un camwedd anfad. Os deuent yn llwyddiannus drwy yr ymchwiliad hwn, arweiniai y cyhoeddwr bob un o honynt yn ol ac yn mlaen ar hyd y cemmaes, gan ofyn i'r edrychwyr, "A oes neb a all gyhuddo y dyn hwn o unrhyw fai? A ydyw yn lleidr, yn gaethwas, neu o ymarweddiad drygionus?" Wedi dyfod trwy y prawf hwn eto, arweinid hwynt at allor Jupiter, lle y cymmerent

Digitized by Google

lŵ difrifol eu bod wedi myned trwy y rhagddarpariadau gofynol yn ol y rheolau, ac na byddai iddynt arfer twyll, dichell, nac annhegwch, er mwyn ennill y fuddugoliaeth. Mewn canlyniad i hyn, ystyrid pob un yn barod i'r ymdrech, a chysurid a chalonogid hwy gan eu perthynasau a'u cyfeillion.

Yr oedd yr ymdrechfeydd a gyflawnid ar y gŵyliau hyn yn amrywiol; ac nid ystyrid y neb a fyddai yn orchfygwr yn y naill gamp yn deilwng o gymmaint o glod â'r hwn a fyddai wedi ennill mewn camp arall, yn gymmaint ag na byddai yr ymdrech mor galed, a'r peryg̀l mor fawr. Cyfrifid fod rhedeg, neidio, taflu y llechdafl, a thaflu y waewffon, y campau mwyaf diniweid; ac wedi i ddyn gyrhaedd medrusrwydd yn y pethau hyn, y gallai fyned o dan ddysgyblaeth fanylach, i ymddarparu gogyfer a'r lleill. Yr oedd ymdynu, ymaflyd codwm, a dyrnodio (*boxing*), yn fwy peryglus. Ar yr un pryd, nid oedd cenad i'r dyrnodiwr ymaflyd, nac i'r rhai fyddent yn ymaflyd codwm daro eu gilydd, os na byddai hyny yn ddealladwy rhyngddynt a'u gilydd cyn dechreu. Yr oedd dau fath arall o gampau, y rhai oeddynt yn myned yn mhellach na'r rhai blaenorol, y rhai a elwid Pentathlon, a Pankration. Unid y pum camp, neidio, rhedeg, taflu y llech-dafl, a thaflu y waewffon, yn y cyntaf: ac yn yr olaf, yr oedd dyrnodio ac ymaflyd, neu ryddid i wneyd *pob ymdrech* i orchfygu ei wrthwynebydd, a defnyddio ei ddwylaw a'i draed, ie, ei ewinedd a'i ddannedd; ac anfynyeh y rhoddai y naill y goreu i'r llall cyn ei niweidio yn anadferadwy.

Neidient weithiau â phwysau ar eu penau neu ar eu hysgwyddau; bryd arall drwy eu cymmeryd yn eu dwylaw.



Dar. 151.

Teflid y waewffon â dwylaw noethion, neu trwy gylymu carai tua'i chanol, er mwyn rhoddi chwaneg o nerth. Weithiau teflid hi fel saeth oddi ar fwa.



Dar. 152.

Yr oedd y llech-dafl (*quoit*) o wahanol ffurflau —cron neu bedair ongl; wedi ei gwneyd o bren, careg, plwm, pres, neu haiarn, ac weithiau o gryn bwysau—yr hon a deflid fel pel-dreigl (*bowl*); a'r neb a daflai bellaf a fyddai yn fuddugol.

Ar y cyntaf pwysau corff a nerth gewynau oedd y cyfan oedd yn angenrheidiol wrth ymaflyd codwm i sicrhau yr oruchafiaeth. Ond mewn amser diweddarach, sefydlodd Theseus ysgolion i ddysgu ieuenctyd i fod yn fwy medrus, fel y byddai weithiau rai yn gallu taflu ereill mwy a chryfach na hwy eu hunain. Cyn dechreu yr ymdrechfa, rhwbient eu cyrff a'u haelodau âg olew, i'r dyben o fod yn fwy ystwyth, ac i arbed niwed trwy ddirdyniadau. Yr oedd yn angenrheidiol i'r naill daflu y llall ddwywaith neu dair, a chael gan ei wrthwynebydd gydnabod ei oruchafiaeth arno cyn y byddai yn fuddugol. Byddai amryw yn ymdrechu ar unwaith, bob yn ddau, ar yr un llanerch.

Dar. 153.

Wedi i'r campau hyn ddyfod i fri, gwisgai y dyrnodwyr (*boxers*) fath o fenyg lledr am eu dwylaw, yn cyrhaedd hyd yr arddwrn, ac weithiau yn uwch na'r penelin; a dywed rhai y cymmerent geryg, plwm, neu haiarn yn eu dyrnau: ond barna ereill mai yn mhlith y Rhufeiniaid yr oedd yr arferiad yma. Byddent weithiau am ysbaid maith cyn i'r naill roddi dyrnod i'r llall; bryd arall dechreuent guro eu gilydd yn uniongyrchol gyda'r creulondeb mwyaf, gan geisio yn benaf am benau ac wynebau eu gilydd. Os dygwyddai i'r naill allu osgoi dyrnod y llall, pan y byddai yn ei geisio â'i holl egni, parai i'w wrthwynebydd

Dar. 154.

gwympo mewn modd peryglus, a cholli y fuddugoliaeth yn y fan. Ymladdent weithiau am oriau. Cymmerent ychydig o fynydau o hamdden yn awr a phryd arall, ar ganol yr ymdrech, i adnewyddu eu nerth ac i sychu eu chwys. Yna ymosodent ar eu gilydd gyda'r un ffyrnigrwydd, hyd oni roddai un o honynt ei freichiau i lawr, a chydnabod iddo gael ei orchfygu. Ystyrid y neb a roddai y goreu cyn gwneuthur ymdrechfa galed a cholli llawer o waed, yn tynu gwarth annileadwy ar ei gymmeriad; ac nid anfynych y byddent yn colli llygad, dannedd, neu fod rhai o'u hesgyrn wedi eu tori, a'u hwynebau wedi eu hanurddo fel nad allai eu cyfeillion a'u perthynasau agosaf eu hadnabod.

Agorid y campau yn Olympia, ac yn ol pob tebyg yn y lleoedd ereill hefyd, trwy redeg gyrfa.

Digitized by Google

Dyma oedd yr unig gamp a fyddai yn yr ŵyl hon ar y cyntaf. Gan faint y bri a roddid ar gyflymdra yn mysg y Groegiaid, nid oedd un ddysgyblaeth yn rhy galed ganddynt i fyned dani mewn trefn i ennill y gamp; ïe, dywedir y cymmerent gyfferïau i losgi y ddueg (*spleen*), am y tybient y gallent redeg yn gyflymach yn y canlyniad. Penodid hyd yr yrfa, y lle i gychwyn, a'r cyrchnod, gan y swyddogion; a gorfodid yr ymdrechwyr i gadw at eu rheolau yn y modd manylaf.

Dar. 155.

Nid oedd hyd yr yrfa ar y cyntaf ond un ystad (tua chwe chan' troedfedd), ac nid oedd raid iddynt redeg at y cyrchnod ond unwaith; wedi hyny daeth yn angenrheidiol iddynt redeg yn ol i'r fan lle y cychwynasant; ac mewn amseroedd diweddarach gorfodid hwynt i roddi tro o amgylch y cyrchnod wyth, deg, neu ddeuddeg o weithiau. Byddai i'r naill fod hyd troed o flaen y llall yn ddigon i benderfynu iddo y fuddugoliaeth, ac ymddibynai hyny yn fynych ar allu i roddi y naid olaf. Byddai rhai ymgeiswyr hefyd yn arfer rhedeg yr yrfa gyda ffaglau yn eu dwylaw.



Dar. 156.

Yr oedd yn y campau hyn hefyd redegfeydd ceffylau. Weithiau byddid yn eu marchogaeth, ond gan amlaf cyssylltid dau neu bedwar wrth gerbydau. Ymddengys mai yr achos o ddechreu hyn oedd fod breninoedd yn arfer ymladd o'u cerbydau mewn rhyfel, a bod medrusrwydd mewn

Dar. 157.

gyru cerbyd wedi dyfod i gael ei ystyried yn rhagoriaeth ganddynt. Cyfyngid y gamp hon o angenrheidrwydd i freninoedd a chyfoethogion, ar gyfrif y draul oedd mewn cyssylltiad â hi; ond yr oedd y lleill yn agored i'r dinesydd tlotaf. Byddai raid iddynt roddi tro o amgylch y cyrchnod ddeuddeg gwaith. Yr oedd medrusrwydd mawr yn angenrheidiol i roddi tro heibio iddo yn agos ato heb ei gyffwrdd; os amgen, y canlyniad naturiol fyddai i'r cerbyd gael ei ddymchwelyd;



Dar. 158.

yr hyn a fyddai yn ddygwyddiad tra pheryglus i'r cerbydwr a'i feirch, yn gystal ag yn un a ddygai gywilydd mawr arno yn ngwydd cynnifer o edrychwyr.

Defnyddir amryw ymadroddion yn y Testament Newydd sydd â chyfeiriad ynddynt at y campau hyn. "Oni wyddoch chwi fod y rhai sydd yn rhedeg mewn gyrfa i gyd yn rhedeg, ond bod un yn derbyn y gamp? felly rhedwch, fel y caffoch afael. Ac y mae pob un a'r sydd yn ymdrechu, yn ymgadw yn mhob peth: hwynthwy yn wir, fel y derbyniont goron lygredig; eithr nyni, un anllygredig. Yr wyf fi gan hyny felly yn rhedeg, nid megys ar amcan; felly yr wyf yn ymdrechu, nid fel un yn curo yr awyr. Ond yr wyf fi yn cospi fy nghorff, ac yn ei ddwyn yn gaeth; rhag i mi mewn un modd, wedi i mi bregethu i ereill, fod fy hun yn anghymmeradwy; 1 *Cor.* ix. 24—27. Y mae y geiriau "curo awyr" yn cyfeirio naill ai at y modd y byddai y rhai o dan addysg yn arfer eu dyrnau a'u breichiau mewn trefn i fod yn fwy medrus mewn dyrnodio; neu at y dull y byddent yn bygwth eu gilydd yn yr ymdrechfa; neu ynte at y modd yr osgoai y naill ddyrnod y llall. Y mae y gair κηρύξας, a gyfleithir *pregethu* yma, yn cyfeirio at y cyhoeddwr (*herald* neu *crier*) yn y campau hyn; a'r gair ἀδόκιμος=*anghymmeradwy*, yn cyfeirio at y rhai a wrthodid fel rhai heb fod yn deilwng i gael cynnyg ar ymdrechu o gwbl, neu ynte fel rhai heb ymdrechu yn ol y rheolau, ac felly heb fod ganddynt hawl gyfiawn i'r wobr. "O blegid hyny ninnau hefyd, gan fod cymmaint cwmwl o dystion wedi ei osod o'n hamgylch"—sef y rhai fuont byw trwy ffydd, ac a enwir yn y bennod o'r blaen, mewn cyferbyniad i'r edrychwyr yn y campau hyn—"gan roi heibio bob pwys, a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, trwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni;" *Heb.* xii. 1. Dywed rhai fod y gair εὐπερίστατον=*sydd barod i'n hamgylchu*, yn cyfeirio at ddillad llaesion a wisgai y Groegiaid, y rhai a ddiosgent, fel na byddai iddynt fod yn rhwystr iddynt redeg. "Chwi a redasoch yn dda; pwy a'ch rhwystrodd?" *Gal.* v. 7. Ἐνέκοψε=*rhwystrodd*, a arwydda ddyfod ar draws y llwybr y byddai un yn rhedeg, a'i hergwthio ymaith. Ceir cyfeiriadau hefyd yn *Ac.* xx. 24; *Gal.* ii. 2; *Phil.* ii. 16; iii. 13, 14; 1 *Tim.* vi. 12; 2 *Tim.* ii. 5; iv. 7, 8; *Heb.* xii. 4.—(*Potter's Antiq. of Gr.; Penny Cyc.; Cyc. of Bib. Lit.; Traethodydd*, 1847; *Rollin's Anc. History; Thirlwall's History of Greece.*)

Digitized by Google

CAMPBELL, GEORGE, D. D.: duwinydd tra dysgedig a rhyddfrydig yn y canrif diweddaf, a anwyd y 25ain o Ragfyr, 1719, yn Aberdeen, Scotland. Ei dad, y Parch. Colin Campbell, ydoedd un o weinidogion dinas Aberdeen, ac a berchid yn fawr gan ddynion da y gwahanol enwadau, o blegid ei dduwiolfrydedd a'i elusengarwch. Yr oedd ganddo chwech o blant—tri o feibion a thair o ferched—y rhai a amddifadwyd o ofal eu tad tra yn ieuainc, gan iddo farw y 27ain o Awst, 1728: a phawb a'i adwaenai a alarent ar ei ol, ar gyfrif ei ddull dirodres, ei haelfrydedd, a'i gyflawniad ffyddlawn o ddyledswyddau ei alwedigaeth. Gan mai George, gwrthddrych yr erthygl hon, ydoedd y mab ieuangaf, yr oedd ei gyfran ef o etifeddiaeth fechan ei dad yn dra phrin: i'w ymdrechiadau ei hun, ac i fawr allu naturiol ei feddwl, yr oedd yn ddyledus, yn benaf, am ei lwyddiant mewn amser dyfodol. Derbyniodd elfenau addysg glasurol yn ysgol ramadegol ei ddinas enedigol, yr hon oedd wedi bod yn enwog er's mwy na chanrif am ddysgu yr iaith Ladin: aeth wedi hyny yn fyfyriwr i goleg Marischal, lle y cynhyrfwyd gan yr enwog Dr. Thomas Blackwell, y penaeth a'r proffeswr Groeg, sel fawr dros astudio yr iaith gyfoethog a grymus hono. Fel hyn, gosododd i lawr yn brydlawn sail ddigonol a chadarn i'r ddysgeidiaeth ddofn ac amrywiol, a'r craffder beirniadol, trwy y rhai wedi hyny y cyflawnodd y fath wasanaeth anhebgorol i'r eglwys. Ymddengys ei fod wedi bwriadu unwaith astudio y gyfraith; a chanfyddwn ef wedi ymrwymo i'r dyben hwn gyda chyfreithiwr yn Edinburgh. Cyrhaeddodd tra yn y sefyllfa hon y wybodaeth hono o gyfansoddiad cyfreithiau ei wlad, a'r arferiad hono o ymresymu caeth a chyfansoddi manwl, am yr hyn yr ydoedd wedi hyny mor enwog. Yn fuan, pa fodd bynag, daeth yn anfoddlawn i'r alwedigaeth hon, a dechreuodd astudio yr Ysgrythyrau, a pha beth bynag a dueddai i'w barotoi i'r swydd o weinidog yr efengyl. Cyn i dymmor ei wasanaeth, gan hyny, ddyfod i ben, gwrandawai y darlithiau ar dduwinyddiaeth, y rhai a draddodid ar y pryd gan y proffeswr Gobdie, yn mhrifysgol Edinburgh; a chyn hir wedi hyny daeth yn fyfyriwr duwinyddiaeth, o dan y proffeswr Lumsden, o Goleg y Brenin, a'r proffeswr Chalmers, o goleg Marischal, Aberdeen. Yma, hynododd ei hun yn neilduol drwy ei areithiau, y rhai a draddodid, yn unol â'r arferiad gyffredin, yn mhrifysgolion Scotland. Gan ddymuno, pa fodd bynag, cyrhaedd ychwaneg o wybodaeth a mwy o fedr mewn duwinyddiaeth ddadleuol nag a roddai yr ymarferiadau hyn, ymunodd â chymdeithas lênyddol, gyda lluaws o'r myfyrwyr ereill, yn mhlith pa rai y gellir crybwyll y Parch. Dr. Glennie, Mr. James M'Kail, a Mr. William Forbes. Ffurfiwyd y gymdeithas hon yn mis Ionawr, 1742, a derbyniwyd iddi, yn raddol, amryw wŷr ieuainc tra gobeithiol; ond, yn unol â'r dystiolaeth a roddir gan amryw o'r aelodau, ystyrid Mr. Campbell fel bywyd ac enaid y gymdeithas, ac fel un yn debyg o gyrhaedd enwogrwydd mawr yn ei alwedigaeth. Ar ol y cwrs cyffredin o astudiaeth dduwinyddol, cynnygiwyd ef i'r synod; ac o'r diwedd, trwyddedwyd ef fel pregethwr, yr 11eg o Mehefin, 1746. Yn mhen dwy flynedd ar ol hyn, derbyniodd gyflwyniad i blwyf Banchory Terman, tua dwy filltir ar bymtheg o Aberdeen, lle y dechreuodd ei dalentau mawrion fel deonglydd yr Ysgrythyr ymddangos, yn ei ddarlithiau boreuol i'w gynnulleidfa, y rhai oeddynt yn noded am eu symledd a'u heglurdeb. Tra yn esbonio y Testament Newydd fel hyn i'w braidd, meddyliodd am gyfieithu rhan o hono—yr hyn a wnaeth: a chyhoeddodd yn mhen amryw flyneddoedd ar ol hyn gyfieithiad o'r Pedair Efengyl. Wedi bod am naw mlynedd yn y plwyf gwladaidd hwn, cafodd alwad i lanw lle Mr. John Bisset, fel un o weinidogion Aberdeen. Yma dysgleiriai ei dalentau fel darlithydd yn eu cylch priodol; a thrwy gael manteision y llyfrgelloedd goreu, dechreuodd gwrs o ddarlithiau ar areithyddiaeth, beirniadaeth, a phynciau ereill, y rhai a draddodwyd i gymdeithas lênyddol y lle uchod, ac a wasanaethasant wedi hyny fel sylfaen ei *Philosophy of Rhetoric*, a gweithiau ereill, trwy ba rai yr ennillodd enwogrwydd mawr. Y pryd hyn nid ydoedd wedi cyhoeddi dim, oddi eithr pregeth a draddodwyd ganddo o flaen synod Aberdeen, ar gymmeriad gweinidog fel dysgawdwr ac esampl; ond nid ydyw wedi cynnwys hon i mewn yn y casgliad a wnaeth ychydig amser cyn ei farwolaeth, o blegid, y mae yn debygol, nad ydoedd ei dullwedd yn ddigon syml. Yn 1759, derbyniodd Mr. Campbell gyflwyniad brenin-ol i'r swydd o benaeth coleg Marischal, er fod dau ereill yn ymgais am y lle. Wedi ei osod fel hyn uwch ben y brifysgol, profodd ei hun yn fuan yn deilwng o'r anrhydedd. Yr oedd yr anffyddiwr enwog hwnw, Mr. David Hume, newydd gyhoeddi ei *Draethawd ar Wyrthiau*, yr hwn a gynhyrfodd sylw mawr yn mhlith dysgedigion y dydd; ac ni chyfarfyddodd âg un gwrthwynebydd a ystyriai yn deilwng o sylw nes y daeth y proffeswr Campbell i'r rhestr, ac y traddododd bregeth ar y pwnc o flaen synod daleithiol Aberdeen, yr hon, wedi hyny, yn ol eu dymuniad, a ffurfiwyd ganddo yn *Draethawd ar Wyrthiau*. Ymddangosodd y traethawd hwn yn 1763, a chyflwynwyd ef i iarll Bute, yr hwn oedd ar y pryd yn brif weinidog: cafodd gylchrediad eang iawn yn y wlad hon, a chyfieithwyd ef i'r Ffrancaeg, yr Isellmynaeg, a'r Ellmynaeg; fel yr edrychid ar enw Dr. Campbell (o blegid derbyniodd yn y cyfamser y teitl o ddoethawr duwinyddiaeth o Goleg y Brenin) gyda'r parch mwyaf gan wŷr dysgedig pob gwlad yn Ewrop. Cyflawnodd ei ddyledswyddau fel penaeth coleg Marischal am ddeuddeng mlynedd, tra yn cael ei barchu gan y proffeswyr yn gystal a'r myfyrwyr, ac yn byw ar y telerau mwyaf dedwydd gyda'i holl gydswyddogion. Ystyrid ef yn ddyn tra rhinweddol, yn Gristion cywir, ac yn bregethwr da; heb law hyny, yr oedd yn un o ddarlithwyr goreu ei oes. Ar y 26ain o Mehefin, 1771, penodwyd ef yn broffeswr duwinyddiaeth yn ei goleg, yn lle Dr. Gerard, yr hwn a symmudwyd i Goleg y Brenin; a chan y gelwid ef fel hyn at lafur chwanegol, rhoddodd i fyny ei ofal bugeiliol fel un o weinidogion y ddinas; fel gweinidog y Brodyr Llwydion, pa fodd bynag, yr hon oedd swydd gyssylltiedig â'r broffeswriaeth, pregethai unwaith ar y Sabbath yn un o'r eglwysi sefydledig. Ni ddilynodd Dr. Campbell yn fanwl ddarlithiau arferedig y proffeswyr blaenorol, y rhai a arferent gyfarfod y myfyrwyr ddwy waith yn yr wythnos yn ystod yr eisteddiad, a threulio un o'r cyfarfodydd hyn i'w gwrandaw hwy yn areithio. Awgrymodd ef yn uniongyrchol, wrth ddechreu ar ei lafur, y traddodai ddarlithiau yn gysson ddwy waith yn yr wythnos; a phenderfynodd ar ddydd arall i wrandaw darlithiau y myfyrwyr. pan fyddai ganddynt rai i'w traddodi. Efe oedd y proffeswr cyntaf erioed a gyfyngodd gylch y

Digitized by Google

pynciau yn y darlithiau duwinyddol; yr arferiad oedd eu hestyn yn mhell tu draw i'r tymmor a ganiatëid yn gyffredin i astudio y pynciau hyny; ond cyfyngodd Dr. Campbell hwy yn dra doeth i bedair blynedd, fel y cai pob myfyriwr, drwy hyn, y fantais o wrandaw yr holl gyfres. Yr oedd prif ragoroldeb y darlithiau hyn, pa fodd bynag, yn gymmwysedig yn eu manylrwydd a'u dysg dwfn; yn eu trefniad dysglaer a'u heglurdeb rhagorol; ac uwch law y cwbl, yn y dull a arferai bob amser o dywys y myfyrwyr i feddwl drostynt eu hunain, ac i beidio dibynu ar opiniynau a chyfundraethau dynion ereill. Yr oedd ei ddealltwriaeth ef ei hun ar yr un pryd yn eang ac yn dreiddiol; yr oedd yn rhy annibynol i gymmeryd ei lyffetheirio gan gyfundraethau dynol, ac yn rhy synwyrol i gymmeryd ei arwain ar gyfeiliorn gan opiniynau mympwyol; amlygai y gwirionedd, pa mor groes bynag fyddai i'w dybiau personol ei hun a'i arferion, neu ynte i eiddo y corff y perthynai iddo. Yn dra hyddysg mewn hanesiaeth eglwysig, beirniadaeth ysgrythyrol, duwinyddiaeth ddadleuol, a phob pwnc o bwys i'r myfyriwr ac i'r gweinidog, yr oedd yn neilldduol o gymhwys i gyfarwyddo ereill, tra yr oedd ei areithiau cyhoeddus a'i lafur yn arddangos y wybodaeth a gyfranai. Y mae ei ddarlithiau ar hanesiaeth eglwysig yn rhoddi digon o eglurhad ar y sylwadau hyn; ni chyhoeddwyd hwynt hyd wedi marwolaeth yr awdwr, gan mai ychydig cyn ei afiechyd diweddaf y darfu iddo eu parotoi i'r wasg. Yn mis Ebrill, 1771, traddododd a chyhoeddodd ei bregeth ragorol ar ysbryd yr efengyl, yr hon a gaiff ei darllen am amser maith fel cynllun rhagorol o'i dalent a'i onestrwydd. Yn mhen pum mlynedd ar ol hyn, gorphenodd ei waith ar areithyddiaeth, y ddwy bennod gyntaf o'r hwn a gyfansoddwyd ganddo, o'r hyn lleiaf, bum mlynedd ar ugain cyn hyn. Mae y gwaith hwn yn gyfoethog o'r sylwadau mwyaf dyddorol ar ddullwedd, ac areithyddiaeth, ac o'r feirniadaeth fanylaf: dywed yr *Encyclopædia Britannica* mai y damcaniaeth prawf (=*theory of evidence*) a gynnwysa, yw y rhan werthfawrocaf o hono, ac "nad oes dim rhagorach nag ef, ac efallai dim cyfartal iddo yn ein hiaith ein hunain, nac mewn unrhyw iaith arall." Yn 1776, ar y diwrnod a benodwyd yn ddydd ympryd, ar gyfrif y rhyfel Americanaidd, pregethodd Dr. Campbell ar natur, eangder, a phwysigrwydd, ffyddlondeb i'r llywodraeth. Ysgrifenwyd y bregeth hon gyda'r fath rym rhesymiadol, ac yn y fath ysbryd rhagorol, yn yr hon y gwrthwyneba yr awdwr hawl y trefedigaethau i ymwrthod â'u gwarogaeth, fel y cyfranwyd chwe mil o gopïau o honynt yn America, ar ddymuniad y deon Tucker. Y flwyddyn ganlynol, ymddangosodd pregeth arall, ar lwyddiant pregethwyr cyntaf yr efengyl i'w ystyried fel prawf o'i gwirionedd. Pregethwyd hi o flaen y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, a chyhoeddwyd hi ar eu cais hwy. Yn y flwyddyn 1779, arddangosodd Dr. Campbell ryddfrydigrwydd ei farn, mewn Anerchiad at bobl Scotland, ar y cyffroad a achoswyd gan yr ysgrif o blaid y Pabyddion. Cynnwysa yr ymadroddion canlynol, a ddyfynwyd o'r traethodyn galluog hwn, ar yr un pryd yr anghraifft hapusaf o ysbryd a dull yr ysgrifenydd, a'r gosodiad mwyaf eglur o'r ymresymiad ei hun. "Gadawer i Babyddiaeth fod mor ddu ag y myner: galwer hi yn Beelzebub, os dewisir;—nid trwy Beelzebub yr wyf fi am fwrw allan Beelzebub, ond trwy Ysbryd Duw. Llefarwn yn erbyn Pabyddiaeth; ac wrth lefaru, dangoswn yn eglur ein bod wedi yfed o'r ysbryd o herwydd yr hwn yr ydym yn ei chasäu. Yn ysbryd mwyaf anghariadus Pabyddiaeth yr ydym yn ymladd yn erbyn Pabyddiaeth! Nid trwy y fath arfau a hyn y mae Duw wedi addaw dinystrio y dyn pechod, ond trwy anadl ei enau, sef ei air. Yr oedd y Cristionogion, yn yr amser gynt, yn ymddiried yn yr addewidion dwyfol; ond yr ydym ni, yn y dyddiau hyn, yn ymddiried yn y senedd! Ni flodeuodd gwir grefydd erioed gymmaint, ac ni ymledaenodd mor gyflym, a phan, yn lle bod yn erlid, yr oedd yn cael ei herlid; yn lle bod yn derbyn cymhorth oddi wrth awdurdodau dynol, y byddai holl ddychrynfeydd yr heddynadon a'r gyfraith wedi ymarfogi yn ei herbyn."

Cyhoeddodd y Dr. Campbell amryw draethodau ereill; ond ei waith diweddaf a gwerthfawrcaf oedd ei *Gyfieithiad o'r Pedair Efengyl*, yr hwn a gydnabyddir yn gyffredin fel yn rhagorol; ac y mae y traethodau rhagarweiniol sydd ynddo wedi gwneyd llawer tuag at symmud ymaith rai o'r rhwystrau y cyfarfyddai â hwynt yn y cyfieithiad cyffredin. Y mae y gwaith rhagorol hwn wedi cael cylchrediad tra helaeth: ni bu yr awdwr, pa fodd bynag, fyw yn hir i weled ei lwyddiant. Ar yr 31ain o Mawrth, 1796, tra yn eistedd gyda'i gyfeillion, tarawyd ef âg afiechyd; ond tranoeth yr oedd wrth ei ysgrifenfwrdd fel arferol, er y cwynai nad allai ysgrifenu gyda'i rwyddineb arferol. Y dydd canlynol cafodd ei daraw â'r parlys, yr hwn a'i hamddifadodd o'i leferydd, o dan yr hwn y dihoenodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a ddygwyddodd ar y 7fed o Ebrill, heb un arwydd o ymwybodolrwydd, ond yn unig ei ymdrechion mynych i siarad. Er na oddefwyd iddo adael tystiolaeth ar ei ol wrth farw, eto gadawodd un tua phum mlynedd cyn hyn, pryd y bernid ei fod yn ymyl marwolaeth. Ar yr achlysur hwnw, llefarai fel hyn:—"Gwelodd Duw yn dda roddi i mi beth dealldwriaeth o'i addewidion yn efengyl ei Fab Iesu Grist. Traddodais y rhai hyn i ereill yn fy mywyd. Yr wyf yn awr yn croesawu eu ffydd a'u gobaith hwynt; a gellir ystyried hyn fel tystiolaeth dyn yn marw."

O fewn y flwyddyn cyn ei farwolaeth rhoddodd i fyny y swydd o broffeswr duwinyddiaeth yn ngholeg Marischal; ac yn fuan wedi hyny rhoddodd y brenin dal blyneddol iddo o dri chant o bunnau, a rhoddodd yntau y swydd o benaeth y coleg i fyny, ac ymneilldduodd o fywyd cyhoeddus. Dyn byr o gorffolaeth ydoedd, ac mewn henaint gwargrymai ychydig; yr oedd ei wynebpryd yn agored, a'i lygaid yn dreiddiol, ac yn arddangos mawr graffder meddyliol. Myfyriai yn dra dyfal, yn enwedig tua rhan ddiweddaf ei oes; cyfodai yn gyffredin tua phump o'r gloch y bore, a pharhäai i astudio hyd hanner nos, oddi eithr am ambell i ysbaid byr yn awr ac yn y man: ac eto, oblegid ei ddull rheolaidd o fyw, a'i gymmedroledd, nid oedd ei gyfansoddiad wedi ei anmharu; canys yr oedd dros un ar bymtheg a thrigain oed pan y bu farw.

Gellir rhoddi darnodiad o'i gymmeriad mewn ychydig eiriau. Yr oedd ei grebwyll yn ffrwythlawn; ei farn yn rymus a threiddiol; ei ddysgeidiaeth yn ddwfn ac amrywiol; o dymmer addfwyn, duwioldeb diragrith, a moesau difrycheulyd; o arferion llednais a mwynaidd, ac yn hynod am ei onestrwydd, a'i gariad at wirionedd; yn fyr, fel dyn ac fel Cristion, mewn bywyd cyhoeddus neu anghyhoedd, fel priod, fel gweinidog yr efengyl, ac fel penaeth coleg a phroffeswr

Digitized by Google

duwinyddiaeth, nid oedd, efallai, ond ychydig yn gyfartal iddo—yn sicr nid oedd ei ragorach.—(*Life, by the Rev. George Skene Keith; Jones's Christ Biog.; Encycl. of Rel. Knowl.*)

CAMPBELLIAID. Gwel DYSGYBLION CRIST.

CAMPHOR, [*Camphire*]: Heb., *copher*; Gr., *cupros*, neu *cypros*. Ei enw presennol ydyw *henna*, *alcanna*, *kenna*, *kna*, *quene*. Prysgen (*shrub*) ydyw, a dyfa yn naturiol yn y Levant, yr Aipht, Affrica, Arabia, Persia, India Ddwyreiniol, &c. Ei enw llysieuol ydyw *lawsonia alba*; a pherthyna i dylwyth neu ddosbarth y *lythrariceæ*. Darlunir ef fel hyn:—Prysgen neu lysieuyn tal; dail hirgrwn, y naill ddalen ar gyfer y llall o bob tu y gangen, ac o liw gwyrdd gwan. Tyf ei



Dar. 159.

flodau ar flaen brig y gangen yn glystyryn siobynog hir; coesau y blodau ydynt gochion, a'r naill yn cyfodi ar gyfer y llall o'r gangen: tyf dalen fechan, gron, yn y gesail ffurfledig gan gyfodiad y goes o'r gangen: pedair deilen sydd yn y blodeuyn, yn tueddu i grychu tuag i mewn, a melyn goleu yw eu lliw. Rhwng pob deilen o'r blodeuyn, tyfa dau goesyn neu edefyn main, gwyn, â chopa melyn; ac o fewn i'r blodeuyn y mae pwyntgnap gwyn. Y mae bôn coes y blodeuyn yn goch, a thuag i fyny ymgolla i wyrdd gwan. Y mae ymylau ochrau dail y blodeuyn o liw gwyrdd tyner, a mîn ei gwpan yn goch. Cneuen fechen yw y ffrwyth neu y grawn, o liw gwyrdd pan yn ieuanc, ond yn cochi wrth addfedu, a thry yn wineu wedi sychu: yn y gneuen y mae pedair cell, ac yn mhob cell hedyn bychan trionglog, o liw gwineu. Llwyd cryf yw lliw rhisgl y gangen. Rhaid ei bod yn brydferth; —ei rhisgl llwyd cryf, ei dail gwyrdd-oleu, ei blodau melyn-wyn, gyda'u hymylau gwyrddion a'u cwpanau ymyl-goch; clystyrau o'r rhai hyn yn tarddu yn rheolaidd y naill ar gyfer y llall o ddeutu iddi, ar eu coesau cochion; nôdd iraidd yn ymchwysu o honi; a'r arogl pereiddiaf arni. Pa ryfedd, gan hyny, i'r bardd breninol, pan yn canu i'w anwylyd, ddywedyd, "Sypyn o fyrr, clystyryn o gamphor yn ngwinllanoedd Engedi, yw fy anwylyd i mi, a gosodaf hi yn fy mynwes." —*Deg a Thrigain.*

Y dwyreinwyr a addurnant eu gerddi â'r brysgwydd hyn; y boneddigesau a drwsiant eu hystafelloedd â hwynt; a changen ystwyth o'r *henna* yw per-sypyn y ffroen, a hardd-siobyn y fynwes.

Defnyddir y llysieuyn hwn gan y dwyreinwyr er lliwio eu crwyn, eu hewinedd, a'u blew; mwng a charnau eu hanifeiliaid, &c. Er cyflawnu hyn, crinir y dail, a melir hwynt yn llwch; yna cymmysgir â dwfr poeth, a gwneir math o does o hono; cymhwysir hwn at yr ewinedd, neu ryw fan arall y dewisir ei liwio, ac yn mhen ychydig amser y cyfryw a dröir yn felyn. Meddylir, gan fod yr ewinedd, &c., bob amser yn felynion, fod hen bêr-gyrff (*mummies*) yr Aipht wedi eu trin fel hyn. Drwy gymmysgu y llwch hwn âg allog (*alum*) a hâl haiarn (*sulphate of iron*), gellir lliwio gwlaneni âg ef, a defnyddiau ereill, yn felyn, a gwineu, o amryw fathau.

CAMPHOR YR APOTHECARI: math o ystor gwyn, o arogl tra chryf, sur ei flas, ireiddlyd i'r cyffyrddiad, noflol mewn dwfr, nas gellir ei falu yn llwch heb gymhwyso gwirf (*alcohol*) ato, ac a ddefnyddir yn feddyglyn cyffredin rhag amrywiol anhwylderau. Tynir hwn o goed anferthol eu maintioli, o lwyth coediog y llawryf (*bay*), pa rai a elwir *laurus camphora*, ac a dyfant yn China a'r India Ddwyreiniol. Gellir tynu yr ystor hwn o bob rhan o'r coed, ond yn benaf o'u gwreiddiau. Ei ddystyllio o'r coed a wneir. Rhoddir y coed, yn nghyd â gwellt a dwfr, mewn crochan haiarn, a chlawr o briddfaen ar ei enau; berwir y dwfr: y camphor a gyfyd yn ager, ac a ymdewycha am y gwellt, ac ar hyd ymylau y crochan, yn fath o frasder. Cesglir hwn yn ofalus, a chyflëir ef i lestri gwydr, bâs, a gwastad; rhoddir y rhai hyn i orwedd mewn tywod; a'r camphor a gydgorffola, yn bur, yn grawen o'r tu fewn i'r clawr gwydr; dryllir y gwydr, a chesglir y camphor gyda chyllell bwrpasol.

Gwyddys, o herwydd eu hysgafnder, eu parhâd, a'u perarogledd, yr hyn a'u ceidw rhag eu niweidio gan bryfed, fod coed camphor yn werthfawr gan seiri coed.

Gellir dystyllu ychydig o gamphor o amryw brysgwydd, megys gruwlys (*thyme*), rhosmair, chwerlys (*sage*), marchalan (*elecampane*), blodau y gwynt (*anemone*), cedorlys (*fennel*), &c.; a gellir ei ddystyllu o dwrpet (*turpentine*) drwy ei dwymno yn dra araf. Ond gan nad ydyw yr ychydig a ellir ei dynu o'r pethau yna yn werth y drafferth, o China, ac India, a gwledydd cyffelyb, y ceir yr holl gamphor. Trosglwyddir ef, yn ei sefyllfa naturiol, mewn ceulestri (*canisters*). Am lawer o flyneddoedd, nid oedd ond trigolion Venice yn gwybod y ffordd i'w buro; ond yn awr, purir ef gan apothecariaid yr amrywiol deyrnasoedd.

Y mae camphor o ansawdd wanach i'w gael mewn cyflawnder yn Borneo a Sumatra, mewn coed a elwir *dipterocarpus camphora*. Gorwedda y camphor gyda'r mywyn (*pith*) yn y coed hyn, megys, olew pan yn ieuanc, ac yn caledu fel yr heneiddia y coed. Y ffordd y ceir ef allan ydyw tori agen â bwyell wrth fôn y pren ieuanc, a gwthio twll tuag i fyny yn y mywyn, a'r olew a red allan i gafnau bamboo parotöedig. Pan y bernir fod camphor mewn hen bren, torir ef i lawr; llifir ef yn ddarnau, holltir y rhai hyn, a cheir y camphor mewn cyflwr caled yn cydor-

Digitized by Google

wedd â'r mywyn. Defnyddir llawer o hwn, yn enwedig yr olew, yn y dwyrain; ond nid cymmaint a drosglwyddir i wledydd y gorllewin.

CANA, [Κανᾶ]. Yr oedd nant fechan o'r enw Cana yn ffurfio llinell derfynol llwyth Manasseh o du y gogledd, yr hon y sonir am dani yn *Ios.* xvi. 8; xvii. 9: a dyma yr unig fanau y ceir yr enw yn yr Hen Destament.

Cana y Testament Newydd oedd dref yn Galilea, yr hon sydd wedi ei henwogi trwy i Grist gyflawnu gwyrth yno er troi y dwfr yn win yn y briodas, i ba un y gwahoddasid ef a'i ddysgyblion: *Ioan* ii. 1—11. Yr oedd y dref yn sefyll tua phedair milltir o du y gogledd i Nazareth ar y ffordd sydd yn arwain i Tiberias. Mae yno yn bresennol bentref o faintioli lled fawr, yn cael ei alw Kefr Kenna, yn cael ei boblogi gan mwyaf



Dar. 160. CANA.—Kefr Kanna.

gan Gristionogion, er ei bod o dan lywodraeth swyddog Tyrcaidd. Cana oedd lle genedigol Nathanael; tŷ yr hwn y proffesir ei ddangos yn awr i'r teithiwr. Mae yno hefyd weddillion hen eglwys Roegaidd. Mae yn ymyl y pentref ffynnon fawr, a llestri dwfr mawrion wedi eu naddu o'r ceryg calch; a dangosir rhai o honynt fel y llestri a ddaliasant y dwfr a drowyd yn win gan ein Harglwydd yn y briodas. Mae Cana, neu Kefr Kenna, yn sefyll mewn man hynod o ddymunol, ar odre bryn yn wynebu y deheu-orllewin, ac yn cael ei amgylchu gan olewydd, a choed ffrwythlawn ereill. Rhoddir yma ddarlun o'r lle fel yr oedd yn ymddangos ychydig flynyddoedd yn ol; yr hwn a ddengys ei fod yn bentref serchus a phrydferth.

CAN, CANIAD—AU, [*ca—an*=saim, hymn, awdl, melodeg; Llad., *canticum;* Sais., *canticle,* song, poem]: enwad cyffredinol a roddir ar gyfansoddiad barddonol a cherddorol—y naill neu y llall. Yn yr Ysgrythyrau, arwydda y gair *cân,* 1. Cyfansoddiad barddonol i'w lefaru neu ei ddarllen: "A llefarodd Moses lle y clybu holl gynnulleidfa Israel eiriau y gân hon;" *Deut.* xxxi. 30; xxxii. 44. Neu, ynte, i'w ddadganu ar felodeg (*tune*); "Ac ar fy nghân y clodforaf ef;" *Salm* xxviii. 7; *Exod.* xv. 1. Dilynid y dadganiad âg offeryn neu offerynau cerdd hefyd: "Minnau a'th folannaf ar offeryn nabl;" *Salm* lxxi. 22; xxx. 12. 2. Cyfansoddiad cerddorol yn unig: "A'r rhai a'n hanrheithiasai, lawenydd;" neu, fel y gellir cyfieithu y gair, "A'r rhai a'n hanrheithiasai, *gân*" =melodeg: *Salm* cxxxvii. 3. 3. Caniadaeth, neu y gelfyddyd o ddadganu—o leisio peroriaeth, ac o chwareu offerynau cerdd—yn ei chyssylltiad â gwasanaeth y deml: 1 *Cron.* xv. 22.

Cyfansoddid y caniadau a'r melodau gan "flaenor" a "meistr y gân," sef Asaph, Zecharîah, Cenanîah, ac ereill, yn amser Dafydd a Solomon, tybir. Yr oedd Dafydd ei hun nid yn unig yn fardd athrylithgar, ond yn gerddor medrus a chywrain, fel y dengys ei gyfansoddiadau a'i fanylrwydd yn sefydliad caniadaeth fel rhan o'r addoliad dwyfol; ac y mae yn ddiammheuol iddo gyfansoddi melodau ar y nifer lluosocaf, os nad ar yr oll o'i ganiadau ei hun.

Enwir yr Arglwydd yn Gân, am ei fod, fel Duw iachawdwriaeth, yn achos o, ac yn wrthddrych, cân y rhai y mae efe yn Dduw iddynt: *Exod.* xv. 2; *Esa.* xii. 2.

Dywed Iob ei fod ef yn gân meibion yr ynfyd (*Iob* xxx. 9): a chwyna Ieremiah ei fod yntau yr un peth i'w "holl bobl"—ei genedl (*Galar.* iii. 14). Yr oedd "meibion yr ynfyd" a'r "bobl" yn gwneyd caneuon a cherddi (*ballads*) difenwol a gwatwarus iddynt, ac yn eu dadganu gyda y gwawd mwyaf anfoesol ac annyoddefol.

"Wele di hefyd iddynt fel cân cariad un hyfrydlais;" *Ezec.* xxxiii. 32. Y mae dy athrawiaeth, dy icithwedd, dy barabl, a'th bereiddiaf lais, yn eu boddhau fel y boddha dadganiad pereiddiol o gân gariadaidd, serchoglawn, a nwyfus, ei gwrthddrych. "Caniadau yr Arglwydd" (1 *Cron.* xxv.

Digitized by Google

7), a "chaniadau Sïon" (*Salm* cxxxvii. 3), yw caniadau ysbrydol (*Eph.* v. 19) i'w canu yn addoliad Duw. Enwir cân lygredig, isel, a masweddol ei thestyn a'i hieithwedd, yn "gân ffyliaid" (*Preg.* vii. 5), yn wrthgyferbyniol i gân ysbrydol a dwyfol.

"A chanu y maent gân Moses, gwasanaethwr Duw, a chân yr Oen;" *Dad.* xv. 3. "Cân Moses" yw y gân a ganodd efe a meibion Israel, er coffadwriaeth am yr amlygiadau rhyfeddol ac arswydol o ardderchogrwydd nerth deheulaw yr Arglwydd yn eu gwaredigaeth o gaethiwed yr Aipht, &c.: *Exod.* xv. 1—19. "Cân yr Oen," yw y "ganiad newydd" a genir gan y pedair mil a'r saith ugein-mil, er anrhydedd i'r Oen fel eu Gwaredwr, ac yn goffadwriaeth o fawr a rhyfeddol weithredoedd a barnau yr Arglwydd Dduw Hollalluog yn eu gwaredigaeth hwythau oddi wrth orthrymder y gallu Anghristaidd: *Dad.* v. 9, 10, 12, 13; vii. 9, 10; xiv. 1—3. Unolir y ddwy gân, am fod tebygrwydd yn amgylchiadau y naill waredigaeth i'r llall.

Y cyfansoddiadau barddonol a ddadgenid fynychaf oeddynt o'r dosbarth offerynol neu delynol (*lyrical*); sef y salmau, yr odlau, a'r marwnadau. Y mae iaith ac arddull y caniadau ysbrydoledig yn dra phriodol i'w testynau a'u materion.

Yn ol dosbarthiad mesurol barddoniaeth y Cymry, nid yw y gair *cân* yn cael ei arfer am yr awdl a'r bryddest, yn gyffredin, ond am gerdd, carol, marwnad, hymn, &c., sef yr amrywiaeth hwnw a gynnwysir yn nosbarth dyri.

Fel enwad neilldduol, golyga y gair *cân*, yn bresennol, gyfansoddiad cerddorol ar ddernyn o farddoniaeth, ar destyn cyssegredig, moesol, neu wladwriaethol ei natur, yn alawenol, neu gynghaneddol. Ond yn fwyaf cyffredin mae y testynau o natur foesol a gwladwriaethol; yr alawenau cenedlaethol, er anghraifft.

"Celfyddyd y gân" a olyga y gelfyddyd o farddoniaeth neu gerddoriaeth; y naill a'r llall.

Am eglurhad helaethach ar ganiadau yr Ysgrythyr, gwel BARDDONIAETH Y BEIBL. Gwel hefyd *Agoriad Gwybodaeth*, gan Tegai, ar farddoniaeth y Cymry.

CANAAN, [כנען]: mab Cham, ac ŵyr i Noah. Efe oedd pedwerydd fab Cham, yn ol y gyfres a gawn yn *Gen.* x. 6; ond nid oes genym hanes am amser ei enedigaeth na'i farwolaeth. Mae y felldith a gyhoeddwyd uwch ben Canaan gan Noah (*Gen.* ix. 25) wedi achosi llawer o ysgrifenu a dadleu rhwng duwinyddion. Er cyfiawnhau ymddygiad Noah, meddylir gan rai fod Canaan yn gydgyfranog â'i dad yn y trosedd yn erbyn y patriarch, ac o herwydd hyny fod Noah wedi cyhoeddi y felldith; ond dylid cofio nad yw yr hanes dwyfol yn awgrymu fod gan Canaan un llaw yn y peth. Heb law hyn, os oedd y felldith yn cael ei chyhoeddi am y trosedd, pa fodd na buasai yn cael ei chyhoeddi ar ben Cham, y prif weithredydd yn yr amgylchiad? A golygu i'r felldith ar Canaan, a'r fendith ar Sem a Iapheth, gael eu cyhoeddi ar yr adeg wedi i Noah ddeffro o'i feddwdod—yr hyn sydd yn cael ei gymmeryd yn ganiataol, ond heb ei brofi—mae yn amlwg nad oedd yr amgylchiad a nodir ond achlysur ac nid achos y fath gyhoeddiad; hefyd, ni chyflawnwyd y brophwydoliaeth yn mherson Canaan, ond yn ei hiliogaeth, rai cannoedd o flyneddoedd ar ol hyn. Ar y cyfan nid ydym yn canfod fod un berthynas yn bod rhwng y felldith a Canaan, na bod Canaan yn cael ei enwi, er nodi allan y gangen o hiliogaeth Cam ar ba un yr oedd y felldith i ddisgyn. Ymddengys i Canaan fyw a marw yn y wlad i ba un y rhoddodd ei enw; ganwyd iddo un ar ddeg o feibion; yr oedd ei gyntafanedig yn dad i'r Sidoniaid a'r Phœniciaid, tra y daeth ei feibion ereill yn sylfaenwyr llwythau o bwys [gwel CANAANEAID]. Yr oedd Canaan yn adnabyddus i'r hen ysgrifenwyr paganaidd; cawn Sanchoniatho yn enwi Cna fel tad y Sidoniaid, ac adnabyddid ef wrth yr enw Cnaan gan yr Aiphtiâid a chenedloedd ereill.

CANAAN, GWLAD. Gwel PALESTINA.

CANAANEAID, [כנעני; Καναναῖοι]: hiliogaeth Canaan, mab Cham. Yr oedd i Canaan un ar ddeg o feibion, y rhai a ddaethant yn benaethiaid llwythau cryfion iawn:—Sidon, ei gyntafanedig, oedd dad y Sidoniaid a'r Phœniciaid; ac o'r meibion ereill y deilliodd yr Hethiaid, y Iebusiaid, yr Amoriaid, y Girgasiaid, yr Hefiaid, yr Arciaid, y Siniaid, yr Arfadiaid, y Semariaid, a'r Hamathiaid. Mae yr un llwyth ar ddeg hyn wedi deilliaw o feibion Canaan, a gellir yn ddigon priodol eu galw yn Ganaaneaid; eto anfynych y bydd yr oll o'r rhai hyn yn cael eu hystyried felly yn yr hanes ysgrythyrol, tra mae yn amlwg fod llwythau pwysig ereill ag oedd wedi deilliaw o Canaan nad ydynt yn gyffredin yn cael eu hystyried felly; megys, y Ceneaid, Ceneziaid, Cadmoniaid, Pereziaid, a'r Rephaimiaid (*Gen.* xv. 19, 20); heb law hyn, yr oedd yr Amaleciaid a'r Anaciaid, yn deilliaw o Canaan. Er hyny, pan gawn Moses yn llefaru wrth Israel am y Canaaneaid, y mae yn amlwg ei fod yn cyfyngu ei sylw i saith o'r llwythau hyn, ag oedd yn ei amser ef yn poblogi Gwlad yr Addewid; sef y Canaaneaid, Hethiaid, Amoriaid, Pereziaid, Heflaid, Iebusiaid, a'r Girgasiaid: *Exod.* iii. 17; *Deut.* vii. 1. Yr oedd y cenedloedd hyn yn preswylio Gwlad yr Addewid pan ddygodd yr Arglwydd y genedl Iuddewig o'r Aipht, a chafodd Israel orchymyn gan yr Arglwydd i gymmeryd meddiant o'r wlad lle y trigai y saith genedl a alwai Moses yn Ganaaneaid. Yr oedd Israel i wneyd rhyfel yn erbyn y bobl hyn, er eu gyru allan o'r wlad, a'r Arglwydd yn addaw eu cynnorthwyo, trwy roddi iddynt gyflawn feddiant o'r tir, yn ol ei addewid i Abraham eu tad. Dechreuodd y rhyfel rhwng Israel a'r bobl hyn cyn marw Moses: profodd Israel yn orchfygol, a daethant i feddiant o'r tir a feddiannwyd wedi hyny gan Reuben a Gad, a hanner llwyth Manasseh. Wedi marw Moses, arweiniwyd y bobl dros yr Iorddonen gan Iosuah, ac ymosodwyd ar y Canaaneaid; ac yn raddol cymmerwyd meddiant o'r tir, er na ddaeth yn hollol i law Israel am lawer o flyneddoedd. Nid oedd Iebus (Ierusalem), dinas y Iebusiaid, wedi ei chymmeryd hyd amser Dafydd: 2 *Sam.* v. 6. Ac y mae yn dra ammheus a ddarfu i lwyth Asser gael meddiant o Sidon; y tebygolrwydd yw na ddaeth erioed i feddiant y llwyth. Yn nyddiau Solomon yr oedd yr oll o'r wlad a fwriadai yr Arglwydd ei roddi i Israel wedi dyfod i'w dwylaw, neu yr oedd math o undeb wedi ei ffurfio rhwng y gweddill o'r Canaaneaid a'r genedl Iuddewig, trwy fod y cyntaf yn talu treth i'r olaf am y fraint o gael bod mewn undeb: 1 *Bren.* ix. 20, 21. Ymddengys i'r llwyth Girgasiaidd gael ei gwbl ddifodi yn amser Iosuah, gan nad oes un hanes am dano wedi amser Iosuah. Distrywiodd Iosuah yr Anaciaid, neu y cawri, ond y rhai a bobloge nt y tair dinas, Gaza, Gath, ac Asdod: *Ios.* xi. 21——

Digitized by Google

23. Bu yr Amaleciaid yn achos o lawer o ofid i Israel am lawer o flyneddoedd; ond o'r diwedd fe'u cwbl ddinystriwyd hwy gan lwyth Simeon: 1 *Cron.* iv. 43. Ymddengys i lawer iawn o'r Canaaneaid, ar ddyfodiad Iosuah i ymyl yr Iorddonen, o herwydd yr ofn ag oedd wedi syrthio arnynt, wneyd eu meddyliau i fyny i ffoi, gan adael y wlad i syrthio yn dawel i ddwylaw y gorchfygwyr. Fel hyn daeth y tir i law Israel heb aberthu cymmaint o fywydau ag a ellid meddwl ar yr olwg gyntaf. Dywed y teithiwr Procopius fod yn Tigisis, yn Numidia, ddwy gofgolofn fawr ar y rhai yr oedd yn gerfiedig mewn llythyrenau Phœniciaidd y geiriau hyn, "Nyni ydym y rhai a ffoisant o flaen Iosuah y lleidr, mab Naue."

Gyda golwg ar hawl Israel i gymmeryd meddiant o wlad y Canaaneaid trwy drais, yn y modd y gwnaethpwyd, ymfoddlonwn yn y fan hon trwy ddadgan ein cred fod yr hawl hon yn codi yn hollol o'r gorchymyn dwyfol i wneyd hyn. Yr oedd Israel yn hyn yn ufuddhau i'r Arglwydd, ac yn offerynau yn ei law ef i gospi y cenedloedd hyny ag oedd wedi pechu yn ei erbyn. Ewyllys yr Arglwydd oedd i'r Canaaneaid, y rhai oeddynt wedi diffrwytho y tir, gael eu bwrw allan, ac ewyllys yr Arglwydd oedd rhoddi y tir a gamddefnyddiwyd gan y Canaaneaid yn eiddo i blant Israel, i fod yn gartrefle iddynt hwy, ac yn nodded i wir grefydd, cyhyd ag y buasai iddynt fel cenedl ofni a gwasanaethu Arglwydd y lluoedd: *Num.* xxxiii. 51—53; *Deut.* vii. 1, 2; xi. 31, 32. Gwel PALESTINA.

CANADA. Y mae Canada yn gwneyd i fyny ran o'r tiriogaethau Prydeinig yn Ngogledd America. Y mae Canada rhwng 42° 30′, a 50° lled. gog.; a rhwng 64° a 97° hyd. gor. Amgylchir hi o du y gogledd gan Prydain Newydd; o du y dwyrain gan forgainc y St. Lawrence, a rhan o Brunswick Newydd; ar y de-ddwyreiniol a'r de gan ranau o'r Unol Daleithiau American-aidd; o du y gorllewin, nid yw y llinell derfynol wedi ei nodi gydag unrhyw gywirdeb hyd yn hyn. Mae Canada yn cael ei rhanu i ddau ddosbarth mawr; sef Canada Uchaf, a Chanada Isaf. Mae Canada Uchaf yn gorwedd o du y gogledd i'r prif lynoedd, ac yn cael ei gwahanu oddi wrth Caerefrog Newydd gan y llynoedd ac afon St. Lawrence. Cyrhaedda rhwng 42° 30′ a 50° lled. gog. Ac y mae Canada Isaf yn gorwedd i'r dwyrain oddi wrth Canada Uchaf, o bob tu i'r afon St. Lawrence, ac yn cyrhaedd rhwng 45° a 50° lled. gog., a 64° a 71° hyd. gor. Gwnaed y rhaniad hwn gan y senedd Brydeinig yn amser George III. Gwahenir y ddwy Ganada oddi wrth eu gilydd gan linell yn dechreu ar ochr ogleddol llyn St. Francis, a'r afon St. Lawrence, yr hon a red mewn cyfeiriad gogleddol nes cyrhaedd yr afon Ottawa, ac oddi yno yn y cyfeirnod gogleddol nes dyfod i gilfach Hudson.

Hanes. Mae yr anrhydedd o ddarganfod Canada, a'i dwyn i sylw y byd gwareiddiedig, yn perthyn i'r Ffrancod. Yr oeddynt hwy yn gynnar iawn yn yr unfed canrif ar bymtheg yn meddu pysgodfa o gryn bwys ar ororau Newfoundland. O gylch y flwyddyn 1506, gwnaed darlunlen o gilfach St. Lawrence, gan Ffrancwr o'r enw Denys. Ac yn y flwyddyn 1508, dygwyd rhai o frodorion Canada trosodd i Ffrainc gan gadben llong o'r enw Aubert. Aeth amryw flyneddoedd heibio wedi hyn cyn bod unrhyw sylw neillduol yn cael ei roddi i'r diriogaeth newydd. Yn 1524, danfonodd Francis I. bedair llong, yn ngofal brodor o Florence, i wneyd ymchwiliadau pellach o berthynas i Canada. Gwnaeth hwn ddwy fordaith, ond nid ydym yn cael iddo ddarganfod dim o newydd. Cynnygiodd y drydedd waith; a chollodd ef a'r oll o'r dwylaw eu bywydau. Yn mis Ebrill, 1534, awdurdododd y brenin ddyn o'r enw James Cartier i gymmeryd dwy long fechan, a chwech ugain a dau o ddynion gydag ef. Ar y 10fed o Fai daethant i olwg Newfoundland, a chawsant y ddaiar yn orchuddiedig gan eira, a'r afonydd yn llawn o ia; ac ar ol llawer cynnyg aflwyddiannus i ffurfio math o drefedigaeth, dychwelasant i Ffrainc heb effeithio unrhyw ddaioni. Yn y flwyddyn ganlynol cychwynodd drachefn, â thair llong y tro hwn, a llwyddodd i nofio yr afon St. Lawrence am 900 o filltiroedd, yna adeiladodd amddiffynfa, a gauafodd yn y wlad newydd. Cafodd y Ffrancod dderbyniad caredig gan y brodorion, ond collwyd trwy angeu bump ar ugain o'r dwylaw; a'r gwanwyn dyfodol dychwelodd Cartier a'r gweddill o'r dwylaw i Ffrainc. Ar ol hyn, o gylch y flwyddyn 1544, ymdrechodd un o bendefigion Ffrainc o'r enw De la Roque, arglwydd Robervall, sefydlu trefedigaeth yn Canada: ond yn anffodus i'r amcan, boddodd ef a nifer mawr o'i ganlynwyr, a chollwyd y bwriad mewn golwg. Yn 1598, penododd Harry IV. y pendefig De la Roche yn llywydd ar Canada, yr hwn a geisiodd sefydlu trefedigaeth yn Sable, ynys fechan, ond y fan mwyaf annhebyg o ateb y dyben; gadawodd yma ryw ddeugain o ddrwgweithredwyr—ysgubion carcharau Ffrainc. Bu y trueiniaid hyn yno am saith mlynedd, pan gyrchwyd hwy yn ol i Ffrainc, a chymmerodd Harry IV. dosturi arnynt, a maddeuodd eu troseddau, a rhoddodd iddynt arian i ddechreu eu byd o newydd. Yn 1600, gwnaed mordaith o Ffrainc i Canada gan un o'r enw Chauvin, yr hwn a ddychwelodd o Canada â'i long wedi ei llwytho o grwyn gwerthfawr iawn. O hyn allan cafodd Canada fwy o sylw y llywodraeth Ffrengaidd. Yn 1608 adeiladwyd dinas Quebec, yr hyn fu yn ddechreuad trefedigaeth sefydlog gan y Ffrancod yn Canada. Bu y drefedigaeth am amryw flyneddoedd mewn gwendid a nychdod mawr, a'r Indiaid yn bwgwth ar brydiau ddifodi y cwbl, nes i'r trefedigwyr wneuthur math o ammod â'r Indiaid, trwy yr hyn y cafwyd heddwch; a hefyd cafodd y Ffrancod fath o lywodraeth arnynt. Yn 1628 cyfyngwyd y drafnidiaeth rhwng Ffrainc a Canada i gwmpeini, y rhai a gawsant hawlfraint at hyny. Yn 1629, cymmerodd nifer o Seison, o dan arweiniad Syr David Keith, ddinas Quebec, a chadwasant hi hyd nes iddi gael ei rhoddi yn ol i'r Ffrancod, yn unol â chytundeb a wnaed rhwng Prydain a Ffrainc, a elwid Cytundeb St. Germain. Yn 1690, ymosododd trigolion Lloegr Newydd ar Canada, gyda bwriad i'w darostwng i goron Lloegr. Syr William Phipps oedd yn llywyddu y cadgyrch yma. Yr oedd ganddo yn ei ddilyn o 1,200 i 1,300 o wyr arfog; ond er iddynt dirio yn agos iawn i Quebec, eto gyrwyd hwy yn ol gan y Ffrancod a'r Indiaid; ac yn fuan iawn rhoddwyd y mater i fyny am y tro. Yn 1711, gwnaed ail ymosodiad gan nifer o filwyr Seisonig, yn cael eu cefnogi gan tua 4,000 o filwyr lleol; trodd hyn eto yn ofer. O hyn allan, am bedair a deugain o flyneddoedd, bu Canada yn meddiant y Ffrancod heb gyfarfod âg unrhyw ofid ond y gofidiau a ymgodent yn eu plith eu hunain. Pan dorodd y rhyfel allan rhwng Ffrainc a Lloegr yn 1756, gwnaed darpariadau mawrion

Digitized by Google

o bob tu i gymmeryd a chadw Canada. Yn y flwyddyn 1759 ffurfiwyd cynllun gan y llywodraeth Brydeinig i ymosod ar Canada mewn tri o fanau ar yr un pryd. Yr oedd un dosbarth o dan arweiniad y Cadfridog Wolfe, i fyned i fyny i'r afon St. Lawrence, ac amgylchynu dinas Quebec; yr ail fraich o'r fyddin i fyned ar yr un pryd yn erbyn Ticonderoga a Crown Point; a'r trydydd i fyned yn erbyn Niagara, ac ar ol darostwng y lle hwn i ddyfod i lawr ar hyd yr afon i Montreal. Llwyddodd byddin Wolfe i gymmeryd Quebec, ar ol ymladdfa boeth a gwaedlyd, yn yr hon y lladdwyd y Cadfridog Wolfe a'r cadfridog Ffrengig, Montcalm. Yn fuan ar ol hyn daeth yr oll o Canada i feddiant Prydain. Cadarnhawyd Prydain yn ei meddiant o Canada yn y cytundeb a wnaed yn y flwyddyn 1763. Ac er fod mwy nag un cynnyg wedi ei wneyd i gymmeryd Canada oddi ar Loegr, eto mae yr undeb a fodola rhwng coron Prydain a'r drefedigaeth hon mor agos, os nad yn fwy felly nag a fu erioed o'r blaen. Yn y flwyddyn 1825, rhyddhawyd masnach y drefedigaeth hon fel ein trefedigaethau ereill, yr hyn a fu yn fraint o'r gwerth mwyaf i'r wlad.

Mae y llywodraeth Brydeinig wedi rhoddi pob cefnogaeth i ddynion â theuluoedd i ymfudo i Canada, ac er fod cannoedd lawer wedi myned o'r wlad hon, nid ydym yn gwybod fod neb o'r ymfudwyr yn teimlo yn edifeiriol; tra y mae llawer iawn, yn ol pob tebyg, a fuasent yn dlawd yn y wlad hon wedi cyrhaedd sefyllfa o annibyniaeth yn Canada sydd wedi eu gosod uwch law angen am byth. Bu y llywodraeth am flyneddoedd yn cefnogi ymfudwyr, trwy roddi i bob ymfudwr ddarn o dir yn rhad, talu ei fordaith, a darpariadau o fwyd ac offer at waith am ddeuddeng mis wedi cyrhaedd yno. Mae hyn yn awr wedi darfod, ond er hyny mae amryw filoedd yn myned i Canada bob blwyddyn. Yn ystod y tair blynedd ar ddeg, o 1829 hyd 1841, yr oedd yr ymfudwyr i Canada yn 321,807, neu 24,800 yn flyneddol am y tymmor uchod.

Mae Canada yn awr yn wlad wahanol iawn i'r hyn oedd pan ddaeth i feddiant Prydain yn y flwyddyn 1763. Y pryd hwnw nid oedd yr oll o'r boblogaeth dros 70,000, ac nid oedd ond ychydig iawn o Ewropiaid yn poblogi Canada Uchaf. Yn awr mae yn debyg fod poblogaeth Canada yn agos i fliwn a chwarter.

Ni gawn yn awr sylwi ar rai o'i

NODWEDDAU.

Y tir, neu arwynebedd y ddaiar. Y mae ansawdd y tir yn gwahaniaethu yn fawr iawn mewn gwahanol fanau o'r wlad. Yn rhanau gogleddol Canada Isaf, nid yw y tir yn werth ei drin; ac hyd yn oed yn ardal Quebec, digon prin y ceir digon o gynnyrch i ad-dalu costau yr amaethwr. Y mae y tir yn dyfod yn well wrth fyned i fyny ar hyd ymylon y St. Lawrence. Heuir y gwenith yn mis Mai, ac yn gyffredin bydd yn aeddfed erbyn diwedd Awst: y maent yn awr hefyd yn codi llawer o wenith India, ac ychydig o fyglys. Y mae y tir porfa yn dda yn y parthau hyn, ac i lawr mor isel a Quebec. Y mae tir pori da yn gwerthu am bum punt yr erw, tra y mae digonedd o dir canolig i'w gael am o bymtheg swllt i bunt yr erw; pris cyffredin y tir coediog yw wyth swllt yr erw. O Montreal i fyny, y mae y tir yn dyfod yn well, ac yn parhau felly i fyny trwy Canada Uchaf. Y mae y rhan hon o anada yn cynnwys peth o'r tir goreu yn America. Gelwir Canada Uchaf gan rai yn "ardd America." Y mae yr hin yn fwy dymunol yma nag yn Canada Isaf, tra y mae y gauaf yn fyrach, a'r haf heb fod mor boeth. Fel hyn, y mae Canada Uchaf wedi dyfod yn ddewisol le gan yr ymfudwr, pa un bynag a fydd yn dyfod o Loegr neu o'r Unol Daleithiau. Prif gynnyrchion naturiol y tir ydynt goed anferthol o faintioli, a hynod o amrywiol. Y mae yma filltiroedd lawer o dir wedi eu gorchuddio gan goed o'r maintioli mwyaf; ac er maint y difa sydd wedi bod arnynt am y can mlynedd diweddaf, ymddengys fod yno ddigon i ddiwallu angen y byd am ganrifoedd i ddyfod. Y pinwydd (*pine*) ydynt y mwyaf lluosog a thoreithiog; y mae y pinwydd melynion a chochion mewn cyflawnder mawr yma. Heb law y rhai hyn, y mae Canada yn cynnwys llawer math o goed gwerthfawr iawn, megys cegid (*hemlock*), y winiolen (*maple*), &c.

Heb law y coed mawrion, yr hyn sydd un o brif nodweddau y wlad, y mae yno hefyd lawer o lysiau gwerthfawr a defnyddiol. Mae y gwenith Indiaidd yn tyfu yn naturiol yn Canada, ac y mae i'w gael agos yn mhob cymmydogaeth o honi. Y mae math o *rice* gwylltion yn tyfu yno, y rhai gydag ychydig driniaeth a wneir yn wir wasanaethgar i'r trigolion. Y mae y winwydden i'w chael yma, ond nid yw ei ffrwyth yn dyfod i faintioli ac addfedrwydd. Y mae y mwsc a'r pompiwn yma mewn cyflawnder mawr. Heb law y pethau hyn sydd yn naturiol i Canada, y mae yn awr bob math o lysiau a ffrwythgoed Ewropaidd wedi eu dwyn yno. Nid yw Canada chwaith yn amddifad o'r

Meteloedd. Y mae swn wedi bod ar led fod yno gloddfeydd arian; ond nid ydynt eto wedi eu dwyn i'r golwg. Y mae haiarn wedi ei gael mewn cyflawnder: y mae mŵn plwm toreithiog wedi ei ddarganfod yma hefyd; tra y mae digonedd o fŵn efydd wedi ei ddwyn i'r amlwg yma. Y mae glo i'w gael yn y wlad; ond o herwydd cyflawnder mawr y coed at danwydd o bob math, nid oes neb wedi ymdrafferthu i gael y glo o'r ddaiar.

Y creaduriaid perthynol mewn modd arbenig i Canada ydynt, y bual (*buffalo*), y carw, yr arth, y blaidd, y llwynog, y gath wyllt, yr afanc, y dyfrgi, y wenci, y paun, y bele, y wiwer, yr hebog, aderyn y si, aderyn yr eira, y crwban (*tortoise*), y llyffant, y madfall, a rhyw chwech a deugain o ddosbarthiadau o nadroedd—y fwyaf beryglus o ba rai yw y neidr gynffondrwst (*rattle-snake*). Ond erbyn hyn, y mae y creaduriaid yna agos oll wedi gorfod cilio o flaen gwareiddiad, ac y mae eu lle wedi ei lenwi gan greaduriaid llai peryglus a mwy gwasanaethgar i ddynion. Deuwn bellach i nodi allan y

Prif drefydd. Quebec yw y brif ddinas yn Canada, ac yno y mae eisteddle y llywodraeth. Y mae Quebec yn sefyll ar ochr ogleddol yr afon St. Lawrence, pedwar can milltir oddi wrth y môr. Y mae y ddinas wedi ei chodi ar graig o farmor; ac yn cael ei hamddiffyn gan gastell cadarn. Mae y tai, gan mwyaf, wedi eu hadeiladu o feini. Y mae yma borthladd cyfleus a diogel; y dwfr yn bum gwrhyd o ddyfnder. Rhif y trigolion ydyw 22,000. Y mae Quebec yn danfon pedwar cynnrychiolydd i'r senedd.

Montreal ydyw y ddinas nesaf mewn bri yn Canada. Saif hon ar ynys yn yr afon St. Lawrence. Y mae yr ynys hon tua deng milltir o hyd a phedair o led. Y mae y dref wedi ei hadeiladu yn bedeirongl, a'r heolydd wedi eu trefnu yn hynod o ofalus. Y mae Montreal yn fath o ganolbwynt i drafnidiaeth Canada.

Digitized by Google

Kingston sydd dref o bwys yn Canada Uchaf; saif yn ymyl Llyn Ontario.

Newark, neu yr hen Niagara. Y mae hon yn sefyll tua deunaw milltir oddi wrth gwymp y Niagara.

Toronto, yr hon a elwid gynt York, sydd yn gorwedd ar y Llyn Ontario, tua chan milltir o Kingston. Dyma y dref a ystyrid yn brif dref Canada Uchaf, ac felly y mae yn dra phwysig yn ngolwg y bobl.

Llynoedd. Llyn Superior, yr hwn gynt a elwid y Llyn Uchaf. Dyma y llyn mwyaf o ddwfr croew yn yr holl fyd. Y mae yn mesur 400 milltir o hyd, 100 milltir o led, a thros 1,200 o amgylchedd, a'i ddwfr yn hollol bur a gloew. Y mae y dwfr yn yr haf ar ei wyneb yn gynhes, ond ar yr un pryd, mewn dyfnder o wrhyd, ceir y dwfr yn agos mor oer a'r ia. Y mae y llyn hwn yn gytoethog iawn o bysgod. Y mae ynddo bump o ynysoedd, un o ba rai—yr Isle Royal—sydd 100 milltir o hyd, a 40 milltir o led. Y mae deugain o afonydd yn arllwys eu cynnwysiad i mewn i'r llyn hwn, ac eto nid oes ond un yn rhedeg o hono.

Llyn Huron, i'r hwn yr arllwysa y Llyn Uchaf, sydd yn mesur 240 milltir o hyd, a 1,000 o amgylchedd. Y mae yn hwn hefyd amryw ynysoedd o gryn faintioli.

Llyn Michigan; gelwid hwn gynt Llyn Illinois, ac wedi hyny Llyn Dauphin. Y mae hwn tua 260 milltir o hyd, a 945 milltir o amgylchedd. Y mae y llyn hwn yn ddyfn iawn; ac yn gyfoethog o bysgod o'r math mwyaf gwerthfawr.

Llyn St. Clare, sydd yn llai ei faintioli na'r lleill o lynoedd Canada.

Llyn Erie, sydd yn 225 milltir o hyd, wrth 40 milltir o led, ac yn 610 o amgylchedd. Y mae y dwfr yn arllwys o'r llyn hwn, ac wedi rhedeg am gryn ffordd, yn syrthio i ddyfnder mawr iawn, ac yn ffurfio un o nodweddau hynotaf y wlad; sef rheieidr y Niagara=*the falls of Niagara.*

Llyn Ontario: y mae hwn yn gorwedd yn is i lawr na'r Niagara. Y mae yn mesur 160 milltir o hyd, a 600 o amgylchedd.

Afonydd. Y brif afon yn Canada yw y St. Lawrence; ac y mae hon yn deilwng o gael ei gosod yn nosbarth blaenaf afonydd y byd. Y mae yr afon hon yn 2,500 milltir o hyd, ac yn 90 milltir o led yn y man lle yr arllwysa ei dwfr i'r môr. Y mae yn alluog i nofio y dosbarth mwyaf o'n llongau rhyfel hyd at Quebec—pellder o 400 milltir o'r môr; a llongau mawrion i fyny drachefn i Montreal—180 milltir uwch law Quebec; tra y gellir nofio y llongau mwyaf ar hyd ei llynoedd am 2,000 o filltiroedd oddi wrth y môr.

Yr afonydd ereill ydynt, y Saquenay, y Montmorency, y Chauclive, y St. Ann, y Jacques Cartier, y Sorel, a'r Ottawa. Y mae y rhai hyn o hyd a maintioli gwahanol, a chan mwyaf yn arllwys eu cynnwysiad i'r afon fawr St. Lawrence.

Mynyddoedd Canada ydynt gangenau mawrion o'r mynyddoedd creigaidd, y rhai a ymestynant o'r dwyrain i diriogaethau Canada; amgylchant lynoedd Winnipeg a Superior, ac yna ymestynant yn mlaen ar hyd redfa y St. Lawrence.

Hinsawdd. Mae Canada yn wlad oer, ac ystyried ei phellder oddi wrth y cyhydedd. Y mae yn mhellach oddi wrth y pegwn nag yw Ynys Prydain, ac eto mae y gauaf yn Canada yn para yn hwy ac yn llawer mwy caled na dim a brofir yn y wlad hon. Mae yn ffaith bwysig er hyny fod hinsawdd Canada Isaf yn awr mewn cyflwr o gyfnewidiad. Mae yr hin yno yn bresennol wyth gradd yn gynhesach yn y gauaf nag oedd yn yr amser y darganfyddwyd y diriogaeth; tra mae yr afon St. Lawrence yn awr fis yn hwy cyn rhewi i fyny nag oedd yn yr amser cyntaf y sefydlwyd trefedigaeth ar ei gororau. Ar ol gauaf hirfaith a chaled, mae yr haf yn ymagor ar y wlad yn mis Mai: y pryd hwnw dechreua yr adar ganu, a hydd y ddaiar yn rhoddi ei chynnyrch gyda chyflymdra anadnabyddus i ni yn y wlad hon. Yn mis Mai heuir y grawn, ac yn fuan bydd wyneb y ddaiar wedi ei harddu gan ffrwythlondeb. Yn ystod y misoedd Mehefin, Gorphenaf, ac Awst, bydd yr hin yn hynod o wresog;—bydd y gwresfesurydd o 90° i 100° Fahrenheit. Yn ystod y tymmor hwn ceir cawodydd maethlawn, gyda mellt a tharanau unwaith bob wyth neu ddeng niwrnod; yr hyn sydd o fawr les i'r ddaiar, ac i raddau yn oeri yr hin.

Trigolion Canada. Trigolion gwreiddiol Canada oeddynt yr Indiaid Americanaidd; ac er fod Canada yn drefedigaeth er y flwyddyn 1608, pan adeiladwyd Quebec, eto mae miloedd o'r brodorion yn aros yn Canada hyd yn bresennol; canys er y ffrwd fawr o ymfudwyr sydd wedi arllwys i'r wlad o Ewrop ac o'r Unol Daleithiau, dylid cofio fod y dydd hwn naw rhan o ddeg o diriogaeth Canada yn ei chyflwr cyntaf, ac felly yn rhoddi cartrefle i'r brodorion. Yn y cyfrifiad a wnaed yn 1841 cafwyd fod 11,143 o'r brodorion yn preswylio coedwigoedd Canada. Yn nesaf at yr Indiaid, daw y Ffrancod mewn henafiaeth; hwy a gymmerasant feddiant gyntaf o'r wlad gyda bwriad i'w thrin a'i phoblogi. Ond wedi y flwyddyn 1763, y mae llawer o Seison, Gwyddelod, Scotiaid, a Chymry wedi ymfudo i'r wlad. Mae poblogaeth Canada Isaf yn awr rhwng 700,000 ac 800,000. o ba rai y mae 500,000 yn deilliaw o'r hen Ffrancod—y trefedigwyr cyntaf. Y mae Canada Uchaf yn cynnwys tua 600,000; ond yma nid oes ond ychydig iawn o hiliogaeth y Ffrancod: ond gwneir poblogaeth y rhan hon o'r wlad i fyny yn agos oll o ymfudwyr o'r wlad hon ac o Unol Daleithiau America. Mae yn ffaith y dylid ei chofio fod miloedd lawer o'r Americaniaid yn ymfudo i'r tiriogaethau Prydeinig yn Canada. Y mae y trigolion, gan mwyaf, yn teimlo yn gysurus, dedwydd, a thra llwyddiannus yn eu cartrefleoedd newyddion.

Llywodraeth. Mae y llywodraeth yn Canada yn hollol o'r un cynllun ag eiddo Prydain Fawr: dylid cofio ei bod yn ddarostyngedig i, ac yn gyfrifol am, ei gweithrediadau i goron Lloegr. Mae llywydd Canada yn fath o is frenin o dan goron Prydain; yna mae ganddynt gynghor gweithredol, o ddeuddeg o bersonau, yn cyfateb i'r cynghor dirgelaidd yn Lloegr; cynghor seneddol, o wyth ar ugain o bersonau, yn cyfateb i dŷ yr arglwyddi yn y wlad hon; ac yn olaf tŷ y y cynnrychiolwyr, o bedwar ugain a phedwar o bersonau, wedi eu dewis gan yr etholwyr, yn cyfateb i dŷ y cyffredin gartref. Mae y senedd drefedigol hon yn cyfarfod yn flyneddol; y rhai a ffurfiant ddeddfau, pa rai a drosglwyddir i Loegr i dderbyn cymmeradwyaeth neu anghymmeradwyaeth y goron.

Llysoedd cyfreithiol. Mae dau o'r llysoedd hyn; un yn cael ei gynnal yn Quebec, a'r llall yn Montreal, yn cyfateb i lysoedd y frenines gartref. Mae hefyd lys morawl, yn cyfateb i'r unrhyw lys yn Lloegr. Ac os bydd un o'r pleidiau yn anfoddlawn i benderfyniad y llys yn Canada, gall,

Digitized by Google

os ewyllysia, godi yr achos i'w brofi yn llysoedd y deyrnas yn y wlad hon.

Cyllid. Nid oes drethi uniongyrchol yn Canada ond ar drwyddedau i werthu gwirod; ond codir y cyllid trwy drethu nwyddau, a gwerthu trwyddedau i dori coed. Mae y dreth yn Canada yn dyfod i 5*s.* 3*c.* y pen; yr hyn sydd yn llai nag un rhan o ddeg o'r hyn a delir genym ni yn y Deyrnas Gyfunol, a llai na'r hanner o'r peth a delir gan yr Americaniaid yn eu hymyl. Ond dylid cofio fod traul y fyddin a'r llynges er amddiffyn Canada yn cael ei dwyn gan Brydain.

Masnach. Mae Canada yn debyg o ddyfod yn eisteddle i fasnach ëang a llwyddiannus. Mae yn barod yn meddu gweithfaoedd pwysig iawn; megys gweithiau cotwm yn Sherbrooke a Chambly; gweithiau gwlân yn Sherbrooke a Cobourg; gweithiau llin yn Montreal, a manau eraill; mae hefyd liaws o weithiau papyr; gweithiau haiarn St. Marise; gweithiau gwydr yn St. John; gweithiau crwyn yn ardal Montreal; gweithiau hoelion, bwyelli, &c. Y mae Canada yn barod yn danfon allan i Ewrop, ac i India, grwyn, ffwriau, coed, gwenith, bara caled, had llin, pysgod, a llawer o wreiddiau meddygol. Ond ei phrif nwydd yw coed; o ba rai y danfonir symiau anferth bob blwyddyn i wahanol wledydd y byd—ond yn benaf i Brydain. Mae y fasnach hon yn rhoddi gwaith i lawer o filoedd o'r trigolion am y tymmor y byddant yn gweithio ar y coed: ac er nad ydynt yn gweithio ond tua hanner y flwyddyn, y mae y cyflogau mor dda fel y maent yn gallu byw yr hanner arall yn lled dda heb weithio.

Crefydd. Pan yr oedd y Ffrangcod yn meddiannu y drefedigaeth, yr oedd Pabyddiaeth yn grefydd yr holl drigolion; ac etto mae rhan lieosog o drigolion Canada Isaf yn Babyddion. Y mae yr Eglwys Esgobawl hefyd wedi ei sefydlu yno er y flwyddyn 1793; ond nid yw yn lliosog ei haelodau. Y mae y Presbyteriaid yn dra lliosog yn y wlad, yn gystal a'r Annibynwyr, y Wesleyaid, y Mennoniaid, a'r Bedyddwyr—y rhai sydd yn meddu coleg rhagorol er cymmhwyso dynion ieuainge i waith y weinidogaeth. Yr oedd yr Eglwys Esgobawl am gryn lawer o amser wedi derbyn ei chymmhorth oddi wrth dir neilluedig, yn lle degwm. Yn awr, y mae y senedd wedi cymmeryd y tir hwnw, a'i osod at wasanaeth y wladwriaeth; a bellach, y mae yr holl enwadau crefyddol yn gorfod dibynu ar roddion gwirfoddol eu cyfeillion; ac y mae crefydd yn amlwg yn blodeuo yno o dan y gyfundrefn newydd.—(*Guthrie's Grammar of Geography; Pop. Cyc.; Bell's Geography; Penny Cyclo*, &c.)

Yn chwanegol at yr hyn sydd yn ymddangos yn yr erthygl flaenorol, ni a roddwn y manylion canlynol, fel y maent i'w cael ddechreu y flwyddyn 1890:—

Cynnwysa Canada yn awr nifer o dalaethau yn Ngogledd America Brydeinig; sef, Ontario, yr hon a adnabyddid gynt fel 'Canada Uchaf,' a Quebec, a adnabyddid hefyd fel 'Canada Isaf;' ynghyd â thalaethau Brunswick Newydd, Nova Scotia, Ynys y Tywysog Edward, Columbia Brydeinig, Tiriogaethau y Gogledd-orllewin, a Manitoba.

Meddianniad y wlad. Yn yr erthygl flaenorol, hysbysir ei bod wedi ei darganfod yn 1506, gan Ffrangcwr o'r enw Denys. O leiaf, gwnaed darlunlen o gilfach St. Lawrence ganddo. Ond ymddengys yn awr mai gŵr o'r enw Sebastian Cabot a'i darganfyddodd, yn 1497. Cymmerodd y Ffrangcod feddiant o'r wlad yn 1534; a sefydlwyd ei threfedigaeth gyntaf yn Quebec, yn 1608. Yn 1759, cymmerodd y Cadfridog Wolfe, a'i filwyr, feddiant o Quebec yn enw Prydain; ac yn 1763, daeth yr holl dalaeth ëangfawr yn feddiant i'r deyrnas hon, trwy Gyttundeb Paris, yr hwn a wnaed y flwyddyn hono.

Cafwyd meddiant o Nova Scotia yn 1713, trwy Gyttundeb Utrecht; ac o honi y ffurfiwyd talaethau Brunswick Newydd ac Ynys y Tywysog Edward yn ddiweddarach. Gwnaed Columbia Brydeinig yn drefedigaeth berthynol i'r goron yn 1858, yr hon oedd cyn hyny yn rhan o diriogaeth Machwy Hudson; ac unwyd hi âg Ynys Vancouver yn 1866.

O dan 'Ddeddf Gogledd America, 1867,' cafodd talaethau Canada, Nova Scotia, a Brunswick Newydd, eu huno dan eu henw presennol; sef, *The Dominion of Canada.* Gwnaed darpariaeth yn y ddeddf hefyd i dderbyn i mewn, ar unrhyw adeg ddyfodol, Newfoundland, Columbia Brydeinig, Ynys Vancouver, a'r holl feddiannau eraill sydd gan Brydain yn Ngogledd America.

Ffurfiwyd talaeth Manitoba, neu Sefydliad yr Afon Goch, fel y gelwid hi, yn Mai, 1870. Am Diriogaeth Rupert, a meddiannau tiriogaethol eraill yn y gogledd-orllewin, a elwir, gyda'u gilydd, 'Tiriogaethau y Gogledd-Orllewin,' derbyniwyd hwynt oll i'r undeb yn Mehefin, y flwyddyn hono. Daeth Columbia Brydeinig ac Ynys Vancouver i'r undeb yn Gorphenaf, 1871, ac Ynys y Tywysog Edward yn 1873. Yn ol hyn, y mae Canada yn cynnwys yr holl feddiannau Prydeinig sydd yn Ngogledd America, gyda'r eithriad o Newfoundland.

Y Llywodraeth. Y mae cyfansoddiad y wlad yn llawer gwell nag un y Deyrnas Gyfunol, er y gorwedda yr awdurdod gweithredol yn nheyrn Prydain Fawr a'r Iwerddon. Gweinyddir ef yn ei enw gan lywodraethwr cyffredinol a chyfrin-gynghor. Y mae yr awdurdod i wneuthur cyfreithiau yn gorwedd mewn dau dŷ; sef, Prif Gynghor, a Thŷ y Cyffredin. Cynnwysa y Prif Gynghor 80ain o bersonau; y rhai sydd yn dal eu swyddi am eu bywyd, ac a bennodir gan y llywodraeth. Perthynant i'r gwahanol dalaethau fel y canlyn:—24 i Ontario, 24 i Quebec, 10 i Nova Scotia, 10 i Brunswick Newydd, 4 i Ynys y Tywysog Edward, 3 i Columbria Brydeinig, 3 i Manitoba, a 2 i Diriogaethau y Gogledd-orllewin. Rhaid i bob un a bennodir fod yn ddeg-ar-hugain oed, yn byw yn y dalaeth am yr hon y pennodir ef, yn ddeiliad hefyd o'r deyrnas hon, ac yn meddu eiddo gwerth tuag 800*p.* Etholir aelodau Tŷ y Cyffredin, gan y trigolion am bum mlynedd, yn y cyfartaledd o un aelod am bob 17,000 o bersonau, yn ol y cyfrifiad deng mlwyddol blaenorol. Dewisir Tŷ y Cyffredin bob pum mlynedd, y fan bellaf, a chynnwysa 215 o aelodau; sef, 92 yn cael eu dewis dros Ontario, 65 dros Quebec, 21 dros Nova Scotia, 16 dros Brunswick Newydd, 5 dros Manitoba, 6 dros Columbia Brydeinig, 6 dros Ynys y Tywysog Edward, a 4 dros y Tiriogaethau Gogledd-Orllewinol. Rhaid i aelodau Tŷ y Cyffredin, hefyd, fod yn ddeiliaid o'r deyrnas hon. Ni ofynir ganddynt hwy un cymmhwysder mewn eiddo; ac y mae y cymmhwysderau a ofynir gan etholwyr yn rhai rhyddfrydig iawn. Dewisir Llefarydd Tŷ y Cyffredin gan yr aelodau; a bydd raid fod ugain yn bresennol, drwy y Llefarydd, i ffurfio Tŷ.

Digitized by Google

Y mae gan bob talaeth senedd ar wahân, a gallu gweinyddol, gydag is-lywydd—yr hwn fydd yn ben ar y corph gweinyddol.

Rhaniadau y wlad.—Dosberthir Canada yn bedair rhan, fel y canlyn :—

1. Y Talaethau Dwyreiniol; sef, Ontario, Quebec, Brunswick Newydd, Nova Scotia, Ynys y Tywysog Edward—gydag Ynys Newfoundland, yr hon sydd etto heb ddyfod i'r undeb.

2. Columbia Brydeinig, yr hon sydd rhwng y Mynyddoedd Creigiog a'r Tawelfor.

3. Tiriogaethau y Gogledd-orllewin; y rhai sydd yn ymestyn ar draws y cyfandir, o Alaska i Labrador; a dosberthir y rhan fwyaf gorllewinol o honynt i Assiniboia, Saskatchewan, Athabasca, ac Alberta.

4. Manitoba; yr hon a adnabyddid gynt fel Sefydliad yr Afon Goch, ar ddwy ochr Llyn Winnipeg, rhwng Ontario ac Assiniboia.

Nid ydyw y terfynau yn y gogledd a'r gorllewin etto wedi eu mesur yn gywir; ond tybir fod y daflen ganlynol yn lled agos felly :—

	Mill. Pet.	Poblogaeth.
Ontario (Canada Uchaf)	181,800	2,154,786
Quebec (Canada Isaf)	188,688	1,479,036
Brunswick Newydd	27,174	345,292
Nova Scotia	20,907	482,317
Ynys y Tywysog Edward	2,133	120,176
Columbia Brydeinig	341,305	105,000
Tiriogaethau y Gogledd-Orllewin	3,257,000	150,000
Manitoba	60,520	112,000
Cyfanrif	4,079,527	4,948,607

Y mae y diriogaeth ëang hon gryn lawer yn fwy nag Ewrop—yn ymestyn o Fôr y Werydd i'r Cefnfor Tawelog; a chyfrifir ei fod yn mesur tua 4,079,527 mill. pet.

Poblogaeth. Y maent yn cynnyddu yn gyflym; a thybir eu bod tua 4,948,607—neu, fe allai, yn mhell dros 5,000,000. Er eu bod yn perthyn i wahanol genhedloedd, y maent yn ymdoddi yn fwy-fwy yn barhaus i'w gilydd fel un corph o bobl, a deiliaid o'r un lywodraeth.

Preswylia dilynwyr y drefedigaeth Ffrengig yn benaf yn nhalaeth Quebec; yn yr hon y mae dros 1,000,000 yn Babyddion, allan o boblogaeth o 1,400,000. Gwnaed cyfrifiad crefyddol yn Canada yn y flwyddyn 1881; ac yr oedd rhifedi yr enwadau gwahanol yn debyg fel y canlyn :—Pabyddion, 1,791,982; Methodistiaid Wesleyaidd, 1,042,981; Presbyteriaid, 676,163; Eglwys Loegr, 574,810; y Bedyddwyr, 296,525; Enwadau eraill, 151,000.

Cynnydd y wlad. Nid oes un o feddiannau Prydain wedi camu yn mlaen yn frasach yn yr ugain mlynedd diweddaf nag y gwnaeth Canada, pa un bynag a edrychir arni yn ei pherthynas â'i masnach, ei chyfoeth, ei phoblogaeth, neu unrhyw beth sydd yn arwydd o lwyddiant gwirioneddol gwlad newydd. Yn 1871, yr oedd yn Canada 20 o ddinasoedd a threfi, a'u poblogaeth yn cyrhaedd, gyda'u gilydd, 430,043. Ond yn 1881, yr oedd y nifer yn 37, a'u poblogaeth yn 660,040. Cynnyddodd y boblogaeth fwyaf yn nghorph y deng mlynedd hyny yn Winnipeg, yr hon sydd yn Manitoba, lle y cododd y boblogaeth o 241 yn 1871, i 7,985 yn 1881, ac i 22,098 yn 1888. Cynnyddodd y boblogaeth yn y deng mlynedd diweddaf 18.97 y cant—yr hyn sydd yn agos i'r bummed ran.

Prif ddinas y wlad ydyw Ottawa, poblogaeth yr hon, yn 1888, oedd 40,500. Ei phellder o Lundain ydyw 2,924 milldir.

Rhoddwn yma y manylion canlynol am dderbyniadau y llywodraeth, a'i masnach, yn y flwyddyn yn diweddu Mehefin 30ain, 1888 :—

Holl dderbyniadau y llywodraeth	P.7,378,451
Ei thaliadau cyffredinol	7,544,896
Gwerth y dadforion	22,786,568
Gwerth yr allforion	18,534,863
Dadforion o'r deyrnas hon	8,102,798
Allforion i'r deyrnas hon	8,236,640
Y ddyled wladol Gorph. 1af, 1888	48,191,375

Y Talaethau. Y mae gan bob talaeth ddeddfwrfa berthynol iddi ei hun, a hono yn gorph gweinyddol hefyd. Y mae yr is-lywydd, yr hwn a bennodir gan y llywydd cyffredinol, yn brif swyddog yn yr awdurdod gweinyddol.

Llysoedd. Gweinyddir y gyfraith, fel yn y deyrnas hon, gan farnwyr, ustusiaid heddwch, ac ustusiaid perthynol i'r heddlu. Pennodir y barnwyr gan y llywydd cyffredinol am eu bywyd. Y prif lys a elwir 'Llys Uchaf Canada' (*The Supreme Court of Canada*).

ONTARIO a QUEBEC. Mesura Ontario 181,800 mill. pet., a Quebec 188,688—yn gwneyd cyfanrif o 370,488 m. p., heb gyfrif y llynau. Gwahenir y ddwy dalaeth hyn oddi wrth eu gilydd gan yr afon Ottawa. Cynnwysa Quebec hefyd Ynys Anticosti ac Ynysoedd Magdalen yn Môrgainge St. Lawrence. Y mae trigolion Quebec, gan mwyaf, yn perthyn i genedl y Ffrangcod; ac yn parhau i arfer eu hiaith, eu harferion, a'u crefydd. Ond y mae trigolion Ontario, gan mwyaf, yn Brydeiniaid.

Gwneir yno fasnach helaeth mewn coed; ac y mae amaethyddiaeth, yn ei gwahanol ganghenau, ynghyd â magwraeth gwartheg, yn cael sylw neilldiol y trigolion. Y mae y pysgodfeydd hefyd yn werthfawr. Ychydig o fwnau sydd wedi eu darganfod etto; ond y mae glanau Llyn Superior yn gyfoethog o honynt, ac hefyd glanau Llyn Huron:—lle y ceir haiarn, plwm, efydd, aur, arian, cobalt, ceryg calch, llechi, a marmor o wahanol liwiau. Ceir llawer o greig-olew (*petroleum*) yno hefyd. Y mae y tir, gan mwyaf, yn gymmhwys i dyfu pob math o ffrwythydd. Poblogaeth Ontario yn 1888 oedd 2,154,786, a phoblogaeth Quebec yn 1,479,036.

BRUNSWICK NEWYDD. Trefedigaeth Brydeinig ydyw hon etto, yn Ngogledd America, ac yn ffurfio rhan o Canada. Ar ei thu gogleddol y mae Machwy Chaleur, ac ar ei deheu Machwy Fundy. Y mae hi yn gyssylltiol â Nova Scotia ar ei chornel de-ddwyreiniol, trwy lain o dir tua phedair milldir ar ddeg o led. Tywydd caled sydd yno yn y gauaf; ond y mae yn hynod iachus. Mesura y drefedigaeth 27,174 mill. pet. Ei phoblogaeth, yn 1888, oedd 345,292.

Ei chynnyrch, yn mron yn gwbl, ydyw yr hyn a geir o'i fforestydd a'i physgodfeydd, ac oddi wrth adeiladaeth llongau. Cafwyd glô yno, ac antimoni, efydd, haiarn, manganese, a mwnau eraill. Tuag un rhan o ddeg o'r tir sydd yn werth ei drin sydd etto wedi ei feddiannu.

Gweinyddir llywodraeth y dalaeth gan is-lywydd, yn cael ei gynnorthwyo gan bwyllgor gweithiol, a chynghorfa o ddeunaw o aelodau, a chymmanfa ddeddfwrol o un-a-deugain, y rhai a etholir gan y trigolion.

Y brif dref ydyw Fredericton, gyda phoblogaeth o tua 7,000. Prif drefydd eraill ydynt, St. John, gyda phoblogaeth o 32,000; Portland, p. 16,500; a Moncton, p. 6,000.

Digitized by Google

YSTYR Y TALFYRIADAU A ARFERIR YN Y MAP O CANADA.

B., *neu* Bay ...	Machwy.
Bank, Banks ...	Bryn, Bryniau.
C., *neu* Cape ...	Penrhyn.
Castle	Castell.
Coast	Arfordir.
Ch., *neu* Channel ...	Sianel.
East, Eastern ...	Dwyrain, Dwyreiniol.
English Miles ...	Milldiroedd Saesnig.
Equator	Cyhydedd.
Firth, *neu* Frith ...	Morgainge.
Ft., *neu* Fort ...	Caerfa, Amddiffynfa.
G. of, *neu* Gulf of ...	Llyngelyn.
H., Havn., *neu* Haven	Porthladd, *neu* Machwy
Hd., *neu* Head ...	Penrhyn.
Hills	Bryniau.
I., Isle, *neu* Island ...	Ynys.
Is., Isles, *neu* Islands.	Ynysoedd.
L., *neu* Lake ...	Llyn.
Land	Tir.
Loch, *neu* Lough ...	Llwch—llyn agored i'r [môr.
Mt., *neu* Mountain ...	Mynydd.
Mts., *neu* Mountains..	Mynyddoedd.
New	Newydd.
North, Northern ...	Gogledd, Gogleddol
Ocean	Cefnfor.
P., *neu* Port ...	Porth.
Pen., Pena., Peninsula	Gorynys.
Plateau	Gwastadedd uchel.
Pt., *neu* Point ...	Pwynt.
R., *neu* River ...	Afon.
Ruins of	Adfeilion.
S., *neu* Sound ...	Culfor.
St., *neu* Saint ...	Sant.
Sea, *neu* Sea of ...	Môr.
Shoal, Shoals ...	Bas-le, Bas-leoedd.
South, Southern ...	Deheu, Deheuol.
Str., *neu* Strs., Straits	Culfor, Culforoedd.
Town	Tref.
Tropic	Trofan.
West, Western ...	Gorllewin, Gorllewinol

CYFIEITHIAD O'R PRIF ENWAU SYDD AR Y MAP HWN.

Anticosti Id. ...	Ynys Anticosti.
Atlantic Ocean ...	Môr y Werydd.
Bay of Fundy ...	Machwy Fundy.
British Columbia ...	Columbia Brydeinig.
Canada East ...	Canada Ddwyreiniol.
Canada West ...	Canada Orllewinol.
Cape Breton ...	Penrhyn Breton.
Cape Breton Island ...	Ynys Penrhyn Breton.
Eastern Provinces ..	Talaethau Dwyreiniol.
Falls of Niagara ...	Rhaiadrau Niagara.
Georgian Bay ...	Machwy Georgia.
Great Archipelago ...	Yr Ynysfor Mawr.
Gulf of St. Lawrence.	Llyngelyn St. Lawrence.
Hudson Bay ...	Machwy Hudson.
Lake of the 1,000 Isles	Llyn y mil o Ynysoedd.
Lake Erie (elevation, 565 feet: greatest depth, 270 feet) ...	Llyn Erie (uwch law y môr, 565 troedfedd: dyfnder mwyaf 270 tr.
Lake Huron (elevation, 578 feet; mean depth 1,000 feet) ...	Llyn Huron (578 troedfedd uwch law y môr: ei ddyfnder canolog, 1,000 o droedfeddi).
Lake St. John ...	Llyn St. Ioan.
Lake Ontario (elevation 232 feet: mean depth 500 feet ...	Llyn Ontario (uwch law y môr, 232 troedfedd: ei ddyfnder canolog, 500 troedfedd).
Lake Champlain ...	Llyn Champlain.
Long Island Sound ...	Basfor yr Ynys Hir.
Martha's Vineyard ...	Gwinllan Martha.
New Brunswick ...	Brunswick Newydd.
New York ...	Caerefrog Newydd.
North West Territory	Tiriogaethau y Gogledd-Orllewin.
Northumberland Strait	Culfor Northumberland
Pr. Edward Id. ...	Ynys y Tywysog Edward.
River St. Lawrence...	Afon St. Lawrence.
Rocky Mountains ...	Mynyddoedd Creigiog.
St. George's Bay ...	Machwy St. Sior.
Str. of Belle Isle ...	Culfor Belle Isle.
Three Rivers ...	Tair Afon.
Trinity B. ...	Machwy y Drindod.
United States ...	Yr Unol Dalaethau.

NOVA SCOTIA. Talaeth fwyaf dwyreiniol Canada ydyw hon—yn mesur, trwy Ynys Penrhyn Breton (*Cape Breton Island*), 20,907 mill. pet.—un rhan o bump o ba rai sydd yn cael eu cymmeryd i fyny gan lynau ac afonydd. O'r cyfan, y mae tua 5,000,000 o erwau yn gymmhwys i gael eu hamaethu—hyny yw, yn agos i hanner y dalaeth. Dywedir fod y tir yn yr hanner gorllewinol o honi, yn enwedig yn Nyffryn Annapolis a Phantle Minas (*Basin of Minas*), yn ffrwythlawn anarferol.

Poblogaeth y dalaeth, yn 1888, oedd 482,317.

Y Cynnyrch. Gwair ydyw cynnyrch penaf y dalaeth hon; a thyfir ef ar y drydedd ran o'r holl dir sydd dan driniaeth; cynnyrch yr hwn ydyw tua 600,000 tynell. Ymroddir yno hefyd i dyfu ffrwythydd. Ceir yn y dalaeth lawer o lô o ansawdd dda; o'r hwn y codwyd 1,776,128 tynell yn 1888. Y mae mwnau haiarn yno, ac aur; ac y mae pysgod hefyd yn rhan fawr o gynnyrch y wlad—y rhai sydd i'w cael yn benaf ar yr arfordir dwyreiniol.

Am Ynys Penrhyn Breton, y mae hi yn awr wedi ei chyssylltu â Nova Scotia, yn cynnwys 3,125 mill. pet., gyda phoblogaeth o tuag 85,000. Prif dref yr ynys hon ydyw Sydney—yr hon sydd ar yr arfordir dwyreiniol.

Y mae gan Nova Scotia lywodraeth dalaethol, yr hon sydd yn cael ei gweinyddu gan islywydd, gyda chynghor gweithredol; a chynghor deddfwrol, yn cynnwys 21ain o aelodau, a chymmanfa ddeddfwrol o 38ain o aelodau.

Prifddinas y dalaeth ydyw Halifax, poblogaeth yr hon sydd tua 40,000.

YNYS Y TYWYSOG EDWARD. Dyma y dalaeth ddiweddaf a dderbyniwyd i'r undeb. Gorwedda ar y deheu i Forgainge St. Lawrence. Mesura 2,133 mill. pet.; a'i phoblogaeth yn 1888 oedd 120,176. Cafodd ei henw oddi wrth y Tywysog Edward—y diweddar Dduc o Kent. Rhenir hi i dair o siroedd; sef, Sir y Brenin, Sir y Frenhines, a Sir y Tywysog—pob un yn ethol 10 o gynnrychiolwyr, a 4 o gynghorwyr.

Perchenogid yr ynys hon gynt gan nifer o dirfeddiannwyr oedd heb fod yn preswylio yn y wlad; ond prynwyd hi ganddynt, yn 1875, dan ddeddf a elwir Deddf Pryniad Tir (*Land Purchase Act*).

Gwaith y trigolion, yn benaf, ydyw amaethu y tir; ond talant sylw neillduol i'r pysgodfeydd hefyd, ac i fagwraeth ceffylau a defaid. Y mae y tir yn ffrwythlawn, ac yn neillduol o gymmhwys i dyfu porfa.

Digitized by Google



Digitized by Google

Digitized by Google

Yn nwylaw is-lywydd, a chynghor gweithiol, y gorwedd awenau y llywodraeth; gyda chynghor deddfwrol o 12eg o aelodau, a chymmanfa ddeddfwrol o 30ain o aelodau. Dewisir aelodau y ddau dŷ gan y trigolion.

Prifddinas yr ynys ydyw Charlottetown, yr hon sydd ar lan Machwy Hillsborough, ac yn meddu porthladd da. Ei phoblogaeth ydyw tua 14,000.

COLUMBIA BRYDEINIG. Trefedigaeth yn Ngogledd America ydyw hon hefyd, sydd yn ffurfio rhan o Canada. Gorwedda rhwng y Mynyddoedd Creigiog a'r Tawelfôr. Unwyd Ynys Vancouver, ac Ynysoedd y Frenhines Charlotte, â'r dalaeth hon yn y fl. 1860 o dan ddeddf seneddol.

Y mae Ynys Vancouver yn mesur tua 14,000 mill. pet.; ac y mae y rhan fwyaf o honi heb erioed ei chwilio. Y mae y tir yn ffrwythlawn, â digonedd o ddwfr arno, ac yn gyfoethog mewn mŵnau. Ar ei arfordir y mae amryw o borthladdoedd da.

Swp o ynysoedd yn y Cefnfor Tawelog Gogleddol ydyw Ynysoedd y Frenhines Charlotte, ar y naill du i Columbia Brydeinig, ac i'r gogledd o Ynys Vancouver. Y mae eu hinsawdd yn dda, ac y mae ynddynt fforestydd rhagorol. Ceir mŵnau arnynt—aur, efydd, haiarn, a glô.

Cyfritir fod holl dalaeth Columbia Brydeinig yn mesur 341,305 mill. pet.; ac yn cynnwys poblogaeth o tua 105,000.

Tyfir coed rhagorol yno o faintioli anferth; a dywedir fod y glô a godir yn y drefedigaeth yn rhagori ar ddim a geir ar arfordir y Môr Tawelog. Anfonir llawer o hono i'r Unol Dalaethau.

Y mae ei physgodfeydd yn dyfod yn dra phwysig. Ceir ëogiaid o ansawdd rhagorol yn yr afonydd; ac anfonir llawer o filoedd o dunelli o honynt mewn blychau alcan i'r wlad hon bob blwyddyn. Y mae ffwrw a chrwyn gwahanol greaduriaid gwylltion yn cael eu hanfon oddi yno hefyd i wledydd eraill.

Llywodraethir y dalaeth gan is-lywydd a chynghor gweithiol; gyda chymmanfa ddeddfwrol yn cynnwys 27ain o aelodau, 5 o ba rai a ffurfiant y cynghor gweithiol.

Victoria yw y brifddinas; poblogaeth yr hon, yn 1889, oedd tua 15,000. Y prif drefydd ydynt New Westminster, pob. 5,000; Vancouver, p. 12,000; a Nanaimo a'r dosbarth, p. 7,000.

TIRIOGAETHAU Y GOGLEDD-ORLLEWIN (*The North West Territory*). Gorwedda y tiriogaethau hyn rhwng y Mynyddoedd Creigiog a Machwy Hudson, a rhwng Cefnfor y Gogledd a'r Unol Dalaethau. Dyma y brif ran o'r wlad a adnabyddid gynt fel Tiriogaeth Cwmni Machwy Hudson (*The Hudson Bay Company's Territory*). Nid yw yn sicr beth ydyw mesur y darn mawr hwn o'r cyfandir; ond cyfritir ei fod yn rhywle tua 3,257,000 mill. pet. Y mae arwynebedd y wlad yn y cyffredin yn isel, ac yn wastad yn ochri yn raddol at Gefnfor y Gogledd a Machwy Hudson. Yn y flwyddyn 1870, darfu i lywodraeth Canada osod allan y diriogaeth anferth hon i dalaeth Manitoba—yr hon y cyfeirir ati yn mhellach yn mlaen; ac yn 1882, ffurfiwyd pedwar dosbarth arall.

1. Assiniboia, i'r gorllewin o Manitoba. Mesura 95,000 mill. pet.; prif ddinas, Regina, ar Ffordd Haiarn y Tawelfor (*Canadian Pacific Railway*).

2. Alberta, rhwng Assiniboia a'r Mynyddoedd Creigiog. Mesura 100,000 mill. pet., prif ddinas Calgary, ar yr un ffordd haiarn.

3. Athabasca, i'r gogledd o Alberta, a rhwng yr afon Athabasca a Columbia Brydeinig. Mesura 122,000 mill. pet.

4. Saskatchewan, i'r gogledd o Assiniboia, a rhwng Alberta a Llyn Winnipeg:—yn mesur 114,000 mill. pet. Prif ddinas, Battleford.

Y mae yr holl wlad uchod yn mron yn un gwastadedd di-goed, a hir-wellt garw yn tyfu ar hyd-ddo; ac yn ymestyn o'r Afon Goch yn Manitoba hyd y Mynyddoedd Creigiog; ac am oesoedd lawer, y mae gyroedd afrifed o fuail (*buffalos*), neu ychain gwylltion, wedi bod yn porfau arno. Daear led ddu, a bras, sydd yno, â'i ddyfnder o ddeunaw modfedd i amryw o droedfeddi yn mron yn mhob man. Dywedir y tyfir arno agos i bum chwarter (neu bymtheng hobaid) o wenith yr erw y flwyddyn gyntaf, a thua phedwar mesur (neu ddeuddeg hobaid) am ddeuddeng mlynedd ar hugain drachefn—heb fod dim tail yn cael ei roddi iddo. O herwydd hyn, tybir mai dyma y rhan fwyaf ffrwythlawn o Ogledd America.

Cynnyrch. Trwy Ffordd Haiarn y Tawelfor, y mae yr holl wlad yn mron wedi ei hagor i ymfudwyr; ac yn mhen blynyddoedd etto, bernir y bydd swm anferthol o ŷd yn cael ei dyfu yno ar gyfer angenrheidiau rhanau eraill y byd.

Poblogaeth. Yn 1871, tybiwyd fod y trigolion yn rhifo 100,000—o ba rai yr oedd tua 70,000 yn Indiaid. Mae'n tebyg eu bod erbyn hyn yn cyrhaedd tua 150,000.

Hinsawdd. Y mae hi yn boethach yno yn yr haf, ac yn oerach yn y gauaf, nag mewn lledredau tebyg yn y rhan yma o'r byd. Swm y gwlaw a ddisgyna yno ydyw tua 16.83 modfedd y flwyddyn. Y mae y flaith fod y bual wedi dewis y wlad fel ei gartref yn y gauaf yn symmud pob ammheuaeth am ei chymmhwysder i ymfudwyr. Ar borfa y mae y bual yn byw; ac y mae yn rhaid fod porfa yn mhob man lle y bydd efe yn gwneyd ei gartref. Dywedir fod tymmheredd y gauaf, ar y cyfan, yn foddhaol. Nid ydyw yr eira yn ddwfn, na'r oerni mor anhawdd ei ddioddef ag yn y talaethau dwyreiniol. Dechreua y gwanwyn yn gynnar yn mis Ebrill, ond byr ydyw ei barhâd. Dechreua yr haf yn Mai, ac y mae y gwres yn fynych yn fawr iawn; ond y mae y nosweithiau yn oer, a gwlith trwm yn disgyn—yr hwn sydd yn amddiffyniad i'r cnydau ŷd pan na bydd ond swm bychan o wlaw yn disgyn yno. Tyfir yn y wlad hono yr holl ydau a'r ffrwythydd a welir yn yr Ynysoedd Prydeinig, gyda llawer eraill—a hyny mewn cyflawnder mawr. Y mae y glô o'r ansawdd goreu, ac i'w gael mewn llawer o leoedd yn y tiriogaethau hyn.

MANITOBA. Adwaenid y dalaeth hon wrth yr enw "Sefydliad yr Afon Goch;" a sylfaenwyd hi yn 1813. Gorwedda ar lanau yr Afon Goch, yr hon sydd yn rhedeg i lawr i'r Unol Dalaethau. Terfynir hi ar y dwyrain gan Ontario, ar y deheu gan yr Unol Dalaethau, ar y gorllewin gan diriogaethau Assiniboia a Saskatchewan, ac ar y tu gogleddol gan Kewatin. Mesura tua 60,520 mill. pet. Yn 1887, cyfrifwyd fod y boblogaeth tua 112,000.

Ffurfiwyd hi yn dalaeth bennodol gan lywodraeth Canada yn y fl. 1870; a pherthyna iddi

Digitized by Google

senedd ei hun, yr hon sydd yn meddu hawliau cyfartal i'r chwe talaeth arall sydd yn cyfansoddi Canada.

Cynnyrch.—Mae y tir yn hynod ffrwythlawn, a chodir cnydau mawr o ŷd yno. Perchenoga y sefydlwyr niferi mawr o wartheg a defaid. Y mae y glô cyffredin, a choedfaen, neu lô llwyd, i'w gael yn y dalaeth—ac yn wir, drwy yr holl ogledd-orllewin.

Ceir ffynnonau o ddwfr hallt yn agos i lynau Manitoba a Winnipegosis, oddi wrth ba rai y mae y trigolion yn cael halen lled fràs.

Winnipeg ydyw y brifddinas; yr hon sydd tua deugain milldir i'r de o'r llyn o'r enw hwn. Yn 1888, cyfrifwyd fod ei phoblogaeth tua 23,000. Gorwedda wrth ymuniad yr Afon Assiniboia â'r Afon Goch. Felly, y mae hi yn fanteisiol iawn i fasnach; a dywedir y bydd hi yn mhen amser, yn un o'r dinasoedd mwyaf pwysig yn y rhanau gorllewinol o'r cyfandir.

NEWFOUNDLAND. Gorwedda yr ynys fawr hon ar y gogledd-ddwyrain i Fachwy St. Lawrence. Nid oes ond un-ar-ddeg o ynysoedd o fewn y byd sydd yn fwy na hi. Mesura 42,200 mill. pet. Ei phoblogaeth yn 1889 oedd tua 225,000, gan gynnwys y rhai oedd yn preswylio yn Labrador. Yr oedd o ddeutu 125,000 o honynt yn Brotestaniaid, a 77,000 yn Babyddion.

Dyma'r drefedigaeth hynaf sydd yn perthyn i Brydain. Darganfyddwyd hi gan Sebastian Cabot, yn 1497. Ar yr arfordir y preswylia y trigolion yn fwyaf; a threuliant eu hamser yn benaf mewn pysgota—y penfràs (*cod*) yn yr haf, a môrloi (*seals*) yn y gauaf a'r gwanwyn. Dyma y ffynnonell benaf o gyfoeth yr ynys.

Y mae amryw lynau ac afonydd ynddi; a dywedir fod tuag un ran o dair o'i harwynebedd felly dan ddwfr. Ychydig iawn o'r wlad sydd yn cael ei amaethu. Y mae yr hinsawdd yn dda, a'r trigolion yn gryfion a gweithgar.

Ychydig o filldiroedd oddi wrth y glanau, y mae'r wlad heb erioed ei thrin, ac yn cynnwys tiroedd rhagorol.

LABRADOR. Gorynys ynngogledd America. Mesura 450,000 mill. pet.—tua'r un faintioli a'r Deyrnas Gyfunol, Ffraingc, a Phrwssia gyda'u gilydd. Ychydig o drigolion sydd ynddi; ac nid ydyw yn gymmhwys i'w phreswylio. Ei phoblogaeth yn awr sydd tua 5,000. Rhenir hi yn dair rhan:—un o dan lywodraeth Newfoundland, a'r ddwy eraill dan Canada.

CANCR: un o'r amrywiol glefydau ag y mae plant dynion yn agored iddynt. Y mae y cancr o ddau fath—yr anweledig (*occult cancer*); a'r cancr agored, pan fyddo wedi tori a ffurfio math o glwyf agored. Eisteddleoedd y cancr, yn gyffredin, ydynt o dan y ceseiliau, y fynwes, a'r gwyneb. Y mae yr afiechyd yn ymffurfio yn y chweryn (*glands*). Pan fydd y chŵydd yn dyfod yn fawr, yn ymledu, yn dyfod o liw dulas, ac yn cynnyrchu poen dirfawr, gelwir ef 'y cancr anweledig;' a phan fyddo y croen wedi tori, a'r clwyf yn dechreu rhedeg, ac yn arogli yn anhyfryd, gelwir ef 'y cancr agored.' Personau wedi myned dros ddeugain oed, yn enwedig benywod, os byddant yn arwain bywyd segur a diwerth, yw y mwyaf agored i'r afiechyd hwn. Achosir y clefyd yn benaf gan ddiffyg gofal am natur yr ymborth a fwytëir, ac am ammodau iechyd; yr hyn sydd yn rhoddi cyfrif am y nifer mawr o'r rhyw fenywaidd, rhwng pump a deugain a hanner cant oed, sydd yn cael eu dal ganddo. Gall hefyd gael ei achosi gan ofn, gofid, nwydau drwg, neu iselder ysbryd; a dichon iddo gael ei ddwyn yn mlaen gan segurdod, anwyd, ergydion, &c., ar y fynwes. Y mae llawer o fenywod yn ei ddwyn arnynt eu hunain, a'i holl boenau, trwy geisio gwella gwaith y Creawdwr mawr yn ffurfiad eu cyrph. Dywedir fod ysmocio llawer hefyd yn tueddu i'w fagu ar y gwddf. Mewn rhai amgylchiadau, cawn yr afiechyd yn etifeddol. Nodweddau y cancr ydynt yn dra hawdd i'w hadnabod, ond bod yn ofalus. Y peth cyntaf a dyn sylw y dioddefydd fydd chŵydd caled, tua maintioli cneuen Ffrengig, o dan y croen. Dichon i'r arwydd hwn aros heb gynnyddu am lawer o amser; ac am y tymmor hwn, ni bydd yn boenus iawn, nac o unrhyw anghysur neillduol i'r person. Yn y man, os digwydd i'r cyfansoddiad gael ei ammharu mewn unrhyw fodd, neu i'r person dderbyn ergyd neu wasgfa ar y lle y gorwedd y drwg, ymleda y chŵydd, estyn allan fath o freichiau a chymmalau, yn debyg o ran ffurf i eiddo y crangc—ffurfiad yr hwn sydd wedi rhoi yr enw 'cancr' i'r clefyd. Erbyn hyn, bydd wedi cyrhaedd yr hyn a eilw y meddygon yn *occult cancer*. Bydd hefyd i liw y croen newid; ar y cyntaf, bydd yn goch iawn, yna yn lasgoch, wedi hyny yn lâs, ac yn fuan bydd wedi myned yn ddu. Yn gydfynedol â'r arwyddion allanol uchod, bydd y person yn dioddef poen ingol—teimla wres a llosgfeydd mawr, ynghyd â chnofeydd a phoen, fel pe bae yn cael ei drywanu â chyllyll yn barhaus. Yn fuan wedi hyn, bydd i'r croen dori, a bydd i glwyf mawr ffurfio, o'r hwn y rhed mater afiach o sawyr anhyfryd, yr hwn a gymmer ymaith archwaeth y dioddefydd at ymborth. Yn fuan wedi hyn, bydd i waed dori allan o ryw ran o'r corph, yr hyn a derfyna y bywyd.

Y mae y feddyginiaeth ar gyfer y cancr yn hollol ansicr, gan nad oes unrhyw foddion sicr etto wedi eu dwyn i'r amlwg ag y gellir ymddibynu arnynt. Y mae modd i leihau y boen, ac o dan rai amgylchiadau, i gadw y cancr yn ol am dymmor; ac felly, i estyn bywyd y dioddefydd. Y moddion sydd wedi bod yn ddefnyddiol at yr afiechyd ar achlysuron ydyw ffrwyth y cegid (*hemlock*); ond barn meddygon yw fod amryw fathau o hono sydd yn anfeddyginiaethol. Yr hyn a wneir yn fynych, os bydd y dioddefydd wedi amlygu ei ddymuniad mewn pryd, a'i gyfansoddiad yn gallu ei ddioddef, ydyw cymmeryd y gyllell, a thori ymaith y cancr.

Mae cyfeiliornadau a heresiau yn cael eu cyffelybu i gancr. Y maent yn ymledu, yn llygru, ac yn dinystrio eneidiau dynion. Y maent yn distrywio bywyd crefyddol a gweithgarwch, ac yn dwyn dinystr a marwolaeth ysbrydol ar bersonau ac eglwysi, ac ar genhedloedd, lle bynag y goddefir hwynt: 2 *Tim.* ii. 17. Y mae arian ac aur cybyddion yn rhydu (cancro), a'u rhwd hwynt a fydd yn dystiolaeth yn eu herbyn, ac a fwyty eu cnawd fel tân. Mae pentyru cyfoeth yn cael ei ddilyn â phryder blinderus, ac yn dwyn melldith a phoenau i'w ganlyn: *Iago* v. 3.

CANDACE: yr oedd Candace yn enw cyffredin ar frenhinesau Ethiopia, fel yr oedd Pharaoh a Ptolemy ar frenhinoedd yr Aipht, a Cæsar ar ymherawdwyr Rhufain. Mae Pliny yn rhoi hanes ymweliad a wnaed âg Ethiopia gan genhadon o Rufain, y rhai a ddywedent, "Yr oedd adeil-

Digitized by Google

adau y ddinas yn ychydig, ac yr oedd benyw yn teyrnasu o'r enw Candace; yr hwn enw sydd yn cael ei roddi i'r breninesau hyn er's blyneddoedd" [*Nat. Hist.*, vii. 29]. Mae Strabo hefyd wrth roddi hanes am wrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid, yn dywedyd, "Ac yn eu plith yr oedd swyddogion y frenines Candace, yr hon yn ein dyddiau ni oedd yn teyrnasu ar yr Ethiopiaid; yr oedd hi yn fenyw wrywaidd, ac yn ddall o un llygad." Yr oedd yr eunuch y sonir am dano yn *Act.* viii. yn drysorydd i frenines o'r enw Candace, yr hon oedd yn llywodraethu yn Ethiopia. Y mae yn dra amlwg mai nid enw priodol oedd Candace, ond math o deitl a arferid gan freninesau Ethiopia cyn ac ar ol amser Crist ar y ddaiar. Mae De Dieu yn dywedyd, ar awdurdod traddodiad eglwysig, mai enw priodol Candace y Testament Newydd, oedd Lacasa; ac mai enw yr eunuch, ei thrysorydd, oedd Iudich. Mae yn debyg fod y frenines hon yn byw yn Meroë, dinas o gryn bwys y pryd hwnw yn sefyll yn agos i'r fan lle saif Assour yn awr, oddeutu ugain milltir o du y gogledd i Shendy. Y mae Irenæus ac Eusebius yn tybied i'r eunuch fod yn foddion i ennill ei feistres i gofleidio Cristionogaeth, ac iddo hefyd fod yn foddion i ledaenu egwyddorion y Testament Newydd trwy ei theyrnas; a dywedir yn mhellach mewn hen draddodiadau Abyssiniaidd iddo bregethu yno yn gystal ag yn Arabia Felix ac ynys Ceylon, lle y bu farw o ferthyrdod. Gwel ABYSSINIA; ETHIOPIA.

CANIAD Y GRADDAU; neu CANIADAU Y GRADDAU: teitl a roddir i bymtheg o'r Salmau; sef o *Salm* cxx. i cxxxiv. Y mae amrywiaeth barn am ei ystyr. Barna rhai duwinyddion y golyga ragoroldeb neillduol y Salmau hyn fel cyfansoddiadau barddonol—cyfansoddiadau o'r *graddau* uchaf. Ereill a farnant y golyga y gwahanol offerynau cerdd y chwareuid hwynt arnynt, yn eu dadganiad, yn addoliad y deml. Tra y barna ereill y golyga eu dadganiad gan y genedl Iuddewig yn ei theithranau, neu ei *theithraddau* (*stages*), ar ei dychweliad o gaethiwed Babilon. Y mae yn anhawdd, os nad yn anmhosibl, gwybod pa beth a olyga: nid yw y rabbiniaid Iuddewig eu hunain yn gwybod ychwaith. Nid afresymol tybio y gall olygu un o'r pethau canlynol:—

1. Y felodeg y dadgenid hwynt arni yn addoliad y cyssegr. Wrth felodeg yr ydys yn golygu, cyfansoddiad cerddorol, alaw, neu erddygan, cynnwysedig o bymtheg o wahanol ddosbarthranau, sef dosbarthran i bob Salm; a phob dosbarthran yn terfynu gyda math o ddisgynsain (*cadence*) wahaniaethol a gorphwysraddol; felly, dadgan y Salmau hyn, o un i un, yn *raddiadol*, i derfyniad y felodeg.

2. Neu, ynte, ei fod yn enwad a ddefnyddid ar ffurf o farddoniaeth Hebreëig, y gellir ei enwi yn fydr graddiadol (*rhythm of gradation*); sef, ailadroddiad, gyda chwanegiad, yn y llinell ddilynol, o'r hyn a adroddir yn y llinell flaenorol; felly, o linell i linell, nes y deuir i'r raddiaith (*climax*) derfynol. Y mae yr holl Salmau a ddynodir â'r teitl hwn yn y ffurf yna o farddoniaeth o'r bron. Er anghraifft o'r ffurf celfyddydol hwn o farddoniaeth yr Hebreaid, dyfynir *Salm* cxxi:—

1. Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd,
O'r lle y daw *fy nghymhorth.*
2. *Fy nghymhorth* a ddaw ODDI WRTH YR ARGLWYDD,
Yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar.
3. Ni âd efe i'th droed lithro;
Ac ni *huna* dy geidwad.
4. Wele, ni *huna* ac ni CHWSG
Ceidwad Israel.
5. Yr Arglwydd yw dy *geidwad;*
Yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheulaw.
6. Ni'th dery yr haul y dydd,
Na'r lleuad y nos.
7. Yr Arglwydd a'th *geidw* RHAG POB DRWG;
Efe a *geidw* dy ENAID.
8. Yr Arglwydd a *geidw* DY FYNEDIAD A'TH DDYFODIAD,
O'r pryd hwn hyd yn dragywydd.

Y mae cân Deborah a Barac wedi ei chyfeilio yn yr un ffurf o farddoniaeth hefyd: *Barn.* v. 4, 5, 7, 20, 21, 22. Y farn fwyaf naturiol yw, y golyga y teitl dan sylw y ffurf crybwylledig ar farddoniaeth, yn hytrach na dim arall.

CANIADAU SOLOMON. Dywedir am Solomon fod ei ganiadau yn fil a phump: 1 *Bren.* iv. 32. Nid oes ond un o'r rhai hyn wedi ei chadw ar gof, dan yr enw "Cân y Caniadau," a elwir felly, fel y mae yn debyg, o herwydd ei rhagoriaeth, megys "y sanctaidd sancteiddiolaf," a "nefoedd y nefoedd," neu o herwydd ei bod yn hwy nag un o'r lleill. Byrion yn ddiau oedd y rhan fwyaf o honynt, gan nas gallwn yn hawdd feddwl y buasai cymmaint o nifer yn cynnwys llawer o linellau. Efallai nad annhebyg oeddynt i'r Salmau, neu i emynau William Williams, Pant y celyn, o ran eu hydedd. Ond rhagorai Solomon ar Williams, o ran nifer, gan nad yw eiddo yr olaf ond wyth gant a thrigain.

Nid oes dim ammheuaeth nad Solomon oedd awdwr y gân hon, yn unol â'i theitl; y mae hyn wedi dyfod i lawr fel llais unfrydol Iuddewon a Christionogion. Y mae cyfansoddiad y llyfr hefyd yn cadarnhau y grediniaeth hon. Cesglir y cymhariaethau a ddefnyddir ynddo o bob parth o deyrnas Israel, pan yn ei hundeb cyntefig dan lywodraeth Solomon, o Ierusalem, Engedi, Saron, Tirzah, Gilead, Hesbon, Carmel, Lebanon, a Hermon. Cytuna hefyd nodweddau y gân â'r hyn a ddysgir i ni yn hanes Solomon am yr hyfrydwch a gymmerai mewn natur, mewn gerddi prydferth, mewn adeiladau gorwych, ac nid yw ychwaith y cyfeiriad at feirch Pharaoh yn anmherthynasol yn y cyssylltiad hwn. Y mae testyn ac ysbryd y cyfan yn adlewyrchu y llwyddiant a'r happusrwydd cyffredinol a ffynai yn amser Solomon. Gan fod ynddi rai geiriau Caldeaidd, barnai Dr. Kennicott, a rhai ereill, iddi gael ei hysgrifenu yn ddiweddarach o gryn amser na dyddiau Solomon; ond barn y rhan fwyaf ydyw, mai Solomon ei hun a'i hysgrifenodd. Gallasai y fath eiriau (nid ydynt ond ychydig) ddyfod i arferiad trwy y fasnach helaeth oedd rhwng yr Israeliaid a'r Cenedloedd cymmydogaethol, yn enwedig yn nyddiau Solomon. Gwelwn y cyffelyb beth yn cymmeryd lle yn ein dyddiau ni.

Y mae gwrthddadl Ewald, nad allasai Solomon lefaru am ei degwch personol ei hun yn yr iaith ganmoliaethus a geir ynddo, ac yn enwedig *pen.* v. 10—16, yn wrthddadl mewn gwirionedd yn erbyn ei gamesboniad ef o'r holl lyfr, ac nid yn erbyn ei awduriaeth gan Solomon.

Yr oedd y llyfr hwn yn y canon, yn mhlith llyfrau ereill yr Hen Destament, o'r amseroedd boreuaf; derbyniwyd ef hefyd i gyfleithiad y Deg a Thrigain, felly yr ydoedd mewn ymarferiad yn amser Crist a'i apostolion, fel rhan o'r gyfrol sanctaidd a elwid "yr Ysgrythyrau," ac

Digitized by Google

"oraclau Duw." Nid yw yn ymddangos fod un o ysgrifenwyr y Testament Newydd wedi defnyddio *geiriau pendant* y llyfr hwn; ond y mae y cytundeb amcan a syniad sydd rhyngddo â rhanau lluosog o'r Hen Destament a'r Newydd, yn amlwg: *Salm* xlv; *Esa.* liv. 5; lxi. 10; lxii. 4, 5; *Hos.* ii. 16—20; *Mat.* ix. 15; xx. 2; xxv. 1—11; *Ioan* iii. 29; 2 *Cor.* xi. 2; *Eph.* v. 23—27; *Dad.* xix. 7—9; xxi. 2, 9; xxii. 17. Gellir cymharu hefyd luaws o gyfeiriadau ereill.

Y mae ysgrifenwyr wedi gwahaniaethu o barth i ffurf farddonol y gân, neu gynllun ei chyfansoddiad. Y mae rhai wedi tybio mai casgliad ydyw o amryw fân ganiadau neu gerddi. Ond i bob darllenydd craffus a diduedd, y mae ei hunoliaeth yn deimladwy. Y mae unoliaeth cyfansoddiad i'w deimlo oddi wrth luaws o fân amgylchiadau, yn hytrach nag i'w brofi trwy osodiadau ffurfiol. Dynodir hyn gan gyfenwad y cyfansoddiad, "Cân y Caniadau," pa un bynag a olygir hwn fel enw a roddwyd arni gan yr awdwr ei hun, fel y mae yn ddiau y mae, neu ynte gan yr hwn a gasglodd y llyfrau dwyfol at eu gilydd. Pe dosbarthid y llyfr hwn yn wahanol ddosranau dibynol ar eu gilydd, nid yw hyn yn profi nad yw yn un cyfanwaith. Yr un yw y testyn trwyddi; sef cariad y brenin tuag at y briodasferch: a'r un personau sydd yn ymddangos yn mhob rhan o'r gân—y brenin Solomon, y Sulamees, a merched Ierusalem. Mae ynddi yr un arddull meddwl a geiriad, yr un cyflawnder o gymhariaethau, yr un dull o ymadroddi, ïe, yr un neu gyffelyb ymadroddion yn fynych, megys yn *pen.* ii. 16, a vi. 3: "yr hwn a hoffodd fy enaid;" *pen.* i. 7; iii. 1, 2, 3, 4: cyferchir y briodasferch, "y decaf o'r gwragedd;" *pen.* i. 8; v. 9; vi. 1: "claf ydwyf fi o gariad;" *pen.* ii. 5; v. 8: "canys gwell yw dy gariad na gwin;" *pen.* i. 2; iv. 10. Weithiau ceir ffurf penodol o eiriau; megys *pen.* ii. 6, 7; iii. 5; viii. 3, 4. Cymharer hefyd *pen.* v. 8; iii. 6; vi. 10; viii. 5. Ceir darnau meithach hefyd yn tebygoli i'w gilydd: *pen.* ii. 10—13, a vii. 11—13; iii. 1—5, a v. 2—8; iv. 1—3, a vi. 5—7.

Fel y canlyn y dosberthir hi gan y Dr. Good, ar y dybiaeth mai nid un gân neu gerdd ydyw; ond y cynnwysa amryw ganiadau neu odlau yn wahanol y naill oddi wrth y llall.

Awdl, y gyntaf.....*Pen.* i. 1—8.
— yr ail..... — i. 9—ii. 7.
— y drydedd ..... — ii. 8—17.
— y bedwaredd ..... — iii. 1—5.
— y bummed ..... — iii. 6—iv. 7.
— y chweched..... — iv. 8—v. 1.
— y seithfed ..... — v. 2—vi. 10.
— yr wythfed..... — vi. 11—13.
— y nawfed ..... — vii. 1—9.
— y ddegfed..... — vii. 10—viii. 4.
— yr unfed ar ddeg..... — viii. 5—7.
— y ddeuddegfed..... — viii. 8—14.

Pa un a olygir hi yn un gerdd, yn cynnwys gwahanol ranau, neu yn amryw gerddi neu odlau, nid yw y gwahaniaeth o fawr bwys. Ei henw, "Cân y Caniadau," neu, Cerdd y Cerddi, a ddynoda yn ddiau mai un gân ydyw; gan nad ystyr y fath ymadrodd yw rhes o ganiadau.

Ystyria rhai y gân hon yn fath o ddrychfarddas sanctaidd (*sacred drama*), wedi ei hysgrifenu yn ol trefn y caniadau neu y cerddi hyny a draddodir gan wahanol bersonau mewn ateb i'w gilydd mewn chwareuyddiaeth. Amlwg yw fod ynddi ymddyddanion rhwng gwahanol bersonau: ond y mae yr anhawsderau i'w gwneyd yn fath o *ddrama*, yn mha un y mae dadleniad graddol i'w weled, o amcan sydd yn guddiedig yn y dechreu, ac heb ei ddwyn yn hollol amlwg hyd y diwedd, yn anorfod, er fod llawer o esbonwyr beriniadol wedi ymdrechu eu dosbarthu yn ol y cyfryw gynllun. Y mae y gwrthwyneb yn hollol amlwg oddi wrth y cyfansoddiad ei hun. Y mae yr undeb a'r anwyldeb mor agos ac mor amlwg tua dechreu y gân (*pen.* ii. 6, 16), ag ydyw yn ei diwedd (*pen.* vii. 10, neu viii. 3).

Heb law hyny, nid oes odid ddau ysgrifenydd wedi cytuno pa fodd i'w dosbarthu yn ol y cynllun hwn. Syniad Bossuet ydoedd, fod ynddi gyfatebiad i'r arfer oedd gan yr Iuddewon i gadw gwledd briodas dros saith niwrnod; a rhanai hi i saith dosbarth—pob dosbarth yn cyfateb i ddiwrnod, ac yn dybenu gyda'r Sabbath; gan nad yw y priodfab yn myned allan y diwrnod hwnw yn ol ei arfer at ei orchwyl, ond yn myned allan o'r ystafell briodas gyda'r briodasferch. Y dosbarthiadau ydynt fel y canlyn:—

Dydd, y cyntaf.....*Pen.* i.—ii. 6.
— yr ail..... — ii. 7—17.
— y trydydd..... — iii.—v. 1.
— y pedwerydd ..... — v. 2—vi. 9.
— y pummed ..... — vi. 10—vii. 11.
— y chweched..... — vii. 12—viii. 3.
— y seithfed ..... — viii. 4—14.

Nid yw yr esgob Lowth yn hollol gydfyned â'r syniad hwn; ond tybiai mai bugeilgerdd yw. yn cyfranogi mewn rhan o nodwedd y cerddi a draddodid gan chwarëyddion. Cyfrifai hi yn un gân, er y cynnwys amryw o ymddyddanion, a gymmerant le mewn amryw sefyllfaoedd, ac a gyfeiriant at bethau tra gwahanol, ac eto yn dwyn perthynas i'r un dyben, sef i ddangos hoffder ac anwyldeb yr undeb priodasol.

Ond ymofyniad mwy pwysig na'r un a berthyna i ffurf neu gynllun y gân ydyw ei hesboniad. Er fod llawer o wahaniaeth wedi bod rhwng esbonwyr mewn perthynas i amgylchiadau dibwys yn y cyfansoddiad hwn, eto y mae cydsyniad cyffredinol bron yn mhlith Iuddewon a Christionogion uniawngred am ei gwir amcan a'i dyben. Alegori o ysbrydoliad dwyfol, mewn ffurf bugeilgerdd, ydyw y gân hon; yn dysgrifio cariad yr un mwy na Solomon tuag at ei ddyweddi—cariad Iehofah at Israel, Crist at ei eglwys—a hyny trwy gyffelybiaethau wedi eu cymmeryd oddi wrth y berthynas a'r anwyldeb sydd yn hanfodi rhwng priodfab a'i ddyweddi. Hyn ydyw esboniad yr Iuddewon o amser Ezra hyd yn awr. Dywedir yn y *Talmud*, fod yr holl lyfrau canonaidd yn sanctaidd, ond mai Caniad Solomon ydyw y sancteiddiolaf, ac nad yw holl oesoedd y byd o gymmaint gwerth a'r diwrnod y derbyniodd Israel hwn. Ac yn yr olwg ar y berthynas sydd rhwng Duw a'i bobl, a ddysgrifir ynddo, y lleferir am dano felly. Yn y *Targum*, neu yr esboniadau Caldeaidd ar y llyfr hwn, perthynas yr Arglwydd â'i bobl ddewisedig a osodir allan ynddynt. Yr un modd yr esboniai holl ysgrifenwyr Iuddewig y canol oesoedd ef. Dywed Hengstenberg, "fod yr holl dystion Iuddewig o blaid yr esboniad alegoraidd—heb un yn ei erbyn." Gellir dywedyd yr un modd am y rhai a elwir yn dadau yn yr Eglwys Gristionogol, megys Cyprian, Awstin, Ambrose, Jerome, Origen, Cyril, Theodoret, ac yn wir yr holl ysgrifenwyr o awdurdod yn eu plith. Yn yr ystyr hwn yr effeithiodd mor fawr ar lyfrau crefyddol

Digitized by Google

y canoloesoedd, ysgrifenwyr penaf pa rai a gadwent y gorchwyl o esbonio Caniad Solomon hyd gyflawn adlfedrwydd eu galluoedd. Yr oedd yr esboniad llythyrenol o'r gân hon, megys serchgerdd Solomon ar yr achlysur o'i briodas, yn gwbl wrthodedig yn yr eglwys. Ac er y byddai ysgrifenydd yn awr ac yn y man, o'r rhai y byddai gryn ammheuaeth yn nghylch ei iachusrwydd, yn rhoi arbenigrwydd i'r golygiad anianol hwn, eto nid oedd derbyniad iddo ond yn mysg ychydig, hyd nes y parotodd rhesymoliaeth Germany y ffordd i'r syniadau isaf a mwyaf annheilwng am air Duw. Y mae yn wir fod llawer sydd yn meddu syniadau priodol am natur ysbrydol y gân o'r farn mai priodas Solomon â merch Pharaoh oedd achlysur ei chyfansoddiad. Y mae Dr. Good, yr hwn a gyhoeddodd gyfleithiad newydd o honi yn 1803, yn amrywio ychydig oddi wrth hyn am achlysur ei chyfansoddiad. Barna efe mai y frenines, neu y briodferch, oedd un a gymmerasai Solomon yn wraig iddo ychydig flynedd-oedd wedi priodi merch Pharaoh, yr hon oedd ganddi brydferthwch tra rhagorol; ac am hyny y dywedir pethau hynod am dani. Tybia iddi gael ei geni o dylwyth isel, ac yn Saron (*pen.* i. 6; ii. 1); bod ei thad wedi marw, gan y sonia yn unig am ei mam (*pen.* iii. 4; viii. 2); a bod ganddi dreftadaeth yn Baal-hamon (*pen.* viii. 11, 12). Dywed hefyd y sonia am blant henach na hi ei hun, y rhai a ymddygasent yn angharedig tuag ati (*pen.* i. 6); ac am frawd a chwaer ieuangach, y rhai yr amlygai tuag atynt serch neillduol (*pen.* viii. 1, 8). Am amryw o'r pethau hyn, mae'n eglur nad oes un sail iddynt. Pan y geilw y briodferch ei hun yn "Rhosyn Saron," yr ystyr amlwg yw, ei bod yn tebygu iddo. Y winllan yn Baal-hamon a berthynai, fel y dywedir yn bendant, i Solomon, ac nid i'r briodferch. Am ei brawd, nid yw *pen.* viii. 1. yn dangos fod ganddi frawd ieuangach: yr hyn a ddywed yw, yr ewyllysiai ei phriod fod iddi *megys* brawd. Am y tri pheth arall y sonia y Dr. Good am danynt, y mae rhyw sail iddynt. Cyfeiria y briodferch at blant henach na hi (*pen.* i. 6); sonia am ei mam, ond cyfeiria hefyd at fam y priodfab (*pen.* iii. 11); a sonia am chwaer, ond "chwaer i ni" y gelwir hi.

Rhag i'r darllenydd ddychymygu fod y rhesymau yn gryfach nag ydynt dros yr esboniad llythyrenol, ni a roddwn yma resymau un o'r rhai diweddaf sydd yn dadleu dros ymwrthod â'r esboniad y mae efe ei hun yn addef sydd wedi bod yn gyffredinol yn mhlith Iuddewon a Christionogion, a thrwy yr hwn "y mae dirgeledig bethau y bywyd ysbrydol wedi cael eu dadlenu i filoedd ar filoedd." Rhesymau Delitzsch ydynt:—1. Fod yn anhawdd meddwl y gallasai perthynas yr Arglwydd â'i bobl, dan y gymhariaeth o briodas, gael ei dadguddio gyda chyflawnder mwy yn y gân hon nag a wneir mewn rhanau diweddarach o'r Ysgrythyrau. 2. Fod yn annirnadwy pa fodd y gallasai Solomon ddefnyddio ei enw ei hun i gynnrychioli yr Iehofah anfeidrol; neu, os dywedir mai cynnrychioli y Messiah y mae, y mae hyn yn tybied fod gan yr eglwys y pryd hwnw wybodaeth eangach am y Messiah nag oedd ganddi. 3. Mae rhai pethau yn y gân ag y mae yn anmhosibl rhoddi esboniad allegawl neu alegoraidd arnynt; o ganlyniad rhaid eu cymmeryd yn llythyrenol. 4. Y mae yn anmhosibl meddwl y gallasai yr un ysgrifenydd fod yn awdwr Llyfr y Diarebion a Chaniad Solomon, os rhoddir esboniad alegoraidd ar yr olaf, gan y byddent felly mor annhebyg i'w gilydd.

Gwelir fod y gwrthddadleuon hyn yn gorphwys ar dybiaeth hollol ddisail; sef ar y dybiaeth fod yn rhaid i'r dadguddiad dwyfol gael ei roddi yn unol â rhyw gynllun, neu mewn rhyw ffurf pen odedig a farno dyn yn oreu. Pa beth sydd i'gyfiawnhau y dybiaeth na allasai yr Arglwydd ddadguddio ei feddwl gyda mwy o eglurder ar ryw wirionedd pwysig i ysgrifenydd un oes nag a wnaeth i ysgrifenwyr oesoedd dilynol? Onid yw yr athrawiaeth am fachnïaeth y Messiah yn sefyll allan gyda mwy o arbenigrwydd yn *Esa.* liii. nag mewn un ysgrifenydd blaenorol nac olynol? Pe buasai perthynas yr Arglwydd â'i bobl yn cael ei gosod allan dan y gymhariaeth o briodas gyda mwy o aneglurder, ac yn anfynychach nag y gwneir, ni buasai hyny yn un rheswm dros beidio ei gydnabod yn y llyfr hwn, os ceir profion amlwg o hyny. Ond nid yn Nghaniad Solomon yn unig y mae y gymhariaeth hon:—y mae yn rhedeg trwy yr holl Ysgrythyrau, o'r dechreu i'r diwedd. Mae y gymhariaeth hon yn rhedeg dan yr ymadroddion yn mha rai y priodolir eiddigedd i'r Arglwydd rhag i Israel ei adael a dewis duwiau ereill yn ei le: *Deut.* xxxii. 16, 21; *Exod.* xx. 5; xxxiv. 14—16. Awgrymiadau yn unig a geir yn llyfrau Moses; ond yn y prophwydi ar ol amser Solomon ceir yr un gymhariaeth mewn ffurf o alegori. Mae Hosea, y cyntaf o'r prophwydi, yn agor ei brophwydoliaethau trwy ddysgrifio yr Arglwydd fel y gwna Solomon, ac Israel fel gwraig anffyddlawn. Yr un drychfeddwl hefyd a ddefnyddir yn Ezeciel (*pen.* xvi. xxiii); ac hefyd gan Esaiah (i. 21; l. 1; liv. 5; lxi. 10; lxii. 4, 5); a Ieremiah (ii. 2; iii. 1, 20, &c.); heb law llawer o fanau yn y Testament Newydd. Ac nid oes un esboniad yn fwy naturiol, o'r gwahaniaeth sydd rhwng y dull awgrymiadol a ddefnyddir yn llyfrau Moses, ac arferiad llyfrau diweddarach y Beibl, na bod Caniad Solomon wedi ymddangos yn y cyfwng, a'i bod i'w deall yn allegawl.

Yn yr addewid i Dafydd (2 *Sam.* vii. 12, 16) am barhad ei freniniaeth, a sicrhad tragwyddol ei orseddfainc, y mae prophwydoliaeth am deyrnasiad Solomon; ac hefyd, dan gysgod ei deyrnasiad ef, am freniniaeth dragwyddol y Messiah, yr hwn oedd hefyd yn fab ac yn Arglwydd Dafydd. Ar sail yr addewid hon y mae amryw o'r Salmau yn cynnwys dysgrifiadau o deyrnas Crist dan y gymhariaeth o deyrnas weledig Israel, yn enwedigol *Salm* lxxii. Yn ngwyneb hyn, gwelir y priodoldeb o lefaru am Grist dan yr enw Solomon. O herwydd yr un rheswm lleferir am dano dan yr enw Dafydd gan y prophwydi; *Ezec.* xxxiv. 23, 24; xxxvii. 24, 25. Dengys Hengstenberg fod Shiloh a Solomon yn gyffelyb o ran arwyddocad hefyd, a bod Dafydd, trwy ysbryd prophwydoliaeth, yn gweled yn nheyrnasiad heddychlawn ei fab, gysgod o'r hwn yr ymostyngai y Cenedloedd iddo; ac yn y rhagolwg hwn iddo ei gyfenwi yn Solomon.

Nid yw yn un wrthddadl yn erbyn yr esboniad allegawl fod yn anhawdd priodoli ystyr pendant i bob peth yn yr alegori. Mae natur ymadroddion ffugrol neu gymhariaethol y fath fel nas gellir cael cyfatebiaeth hollol rhwng y gymhariaeth a'r hyn a arwyddocëir. Y mae cyfatebiaeth mewn rhyw ystyriaethau arbenig, ac amcan y gymhariaeth ydyw rhoddi arbenigrwydd i'r cyfryw. Ond ar yr un pryd er mwyn presennoli y gwrthddrych yn gyflawn, a chyda bywiogrwydd, i feddwl y darllenydd, y mae yn angenrheidiol ei wisgo mewn rhyw amgylchiadau dibwys. Y rheol wrth ba

Digitized by Google

un y mae arwyddluniau, dammegion, ac allegau, i'w hesbonio, ydyw, nid rhoddi ystyr i bob peth sydd yn ymddangos yn y ffugr, ond cymmeryd i fyny prif ddrychfeddwl y oyfan, yr hyn a fwriedid ei osod allan,—yna rhoddi ystyr i ba beth bynag sydd yn perthyn yn naturiol ac yn briodol iddo; a pha beth bynag nad yw felly y mae i'w ystyried fel yn perthyn i'r ffugr yn unig, ac heb un ystyr penodol. Prif fai esbonwyr alegoraidd y gân hon ydyw y duedd sydd ynddynt i redeg i eithafoedd, trwy geisio rhoddi ystyr pendant i'r amgylchiadau mwyaf dibwys.

Gwahaniaetha yr ysgrifenwyr a olygant Gân y Caniadau yn fath o serch-gân, yn eu barn am wir amcan y cyfansoddiad.—Yn ol barn Ewald, molawd ydyw i gariad ffyddlawn. Y mae y Sunamees yn parhau yn ffyddlawn yn ei hymlyniad wrth ei dyweddi, er holl swyn llys Solomon, ac er holl ymdrechiadau y brenin i sicrhau ei serchiadau iddo ei hun. Ar y dybiaeth hon, nid oes un cyssylltiad rhyngddi a chrefydd na moesoldeb, ac felly nid oes un priodoldeb mewn rhoddi lle iddi yn nghanon yr Ysgrythyrau: ond y mae ei bod wedi cael lle yn rhestr y llyfrau sanctaidd. o amser ei chyfansoddiad hyd yn awr, yn brawf nas gall esboniad o'r fath fod yn gywir.—Y mae un arall o feirniaid Germany (Hofmann) wedi ceisio gwella ar y syniad hwn, trwy ddyweyd, fod y pethau hyny wedi eu sylweddoli yn anmherffaith, yn weledig ac mewn pethau allanol, dan yr Hen Destament, sydd i gael eu cyrhaedd yn eu gogoniant a'u perffeithrwydd ysbrydol dan y Newydd. Yr oedd oes Solomon yn gyfnod wedi ei hynodi gan gyflawnder o fendithion tymmorol. Yr oedd heddwch a chyfoeth wedi dyrchafu ei deyrnasiad i'r graddau uchaf o lwyddiant a gwychder. Ond yn ei holl lywodraeth, nid oedd dim mor gu gan Solomon, nac yn cyfrauu cymmaint o ddedwyddwch iddo, ag ydoedd ei serch at ei ddyweddi. Yn ol golygiad Hofmann, amcan y gân ydyw darlunio y dedwyddwch hwn i ni—y dedwyddwch uchaf oedd yn gyrhaeddadwy y pryd hwnw; ac nad oedd gan Solomon amcan uwch yn ei chyfansoddiad. Ond fel y diflanodd gogoniant teyrnas Solomon, dangoswyd nad oedd hapusrwydd yn gyrhaeddadwy mewn pethau tymmorol: ond yr hyn y methwyd ei gyrhaedd trwy ddanteithion uchaf natur, a gyflawnir trwy ddarpariadau gras. A phan ymddengys Crist yn ei ogoniant, â'i ddyweddi, sef ei bobl, wedi ei chyfnewid ar ei ddelw, bydd y dysgrifiad a gynnwysir yn y gân hon o gymundeb serchog wedi ei sylweddoli yn berffaith yn y berthynas a'r gymdeithas agos a fodola rhwng Crist a'i eglwys byth.—Ychydig yn wahanol i hyn, ond eto wedi ei sylfaenu arno, ydyw y dysgrifiad canlynol am amcan y llyfr gan Delitzsch. Ei farn ef ydyw ei fod wedi ei ysgrifenu gan Solomon ar yr achlysur o'i briodas; ond ar yr un pryd, fod iddo ystyr moesol neu gyfriniol, ac mai ei amcan ydyw gosod allan y syniad gwreiddiol am briodas, yn ol y cynllun dwyfol:—fod cariad ffyddlawn a diwair y Sunamees, ei symlrwydd, ei gwylder, ei ymhyfrydiad mewn natur, ac absennoldeb pob balchder a rhodres yn ei chymmeriad, ymddygiad edmygaidd ac eto plentynaidd Solomon, ac amddifadrwydd pob peth tebyg i genfigen yn merched Ierusalem yn cyfaddasu y cyfan i fod yn ddarlun o undeb gŵr a gwraig yn ol yr hyn y bwriadodd y Creawdwr iddo fod, fel y byddai y ddau "yn un cnawd." Ond er mwyn cymmeryd i mewn holl ddrychfeddwl yr awdwr, rhaid golygu priodas, fel perthynas a sefydlwyd i ddyn cyn y cwymp, fel yn meddu rhag-gynllun tragwyddol yn meddwl Duw yn yr undeb a'r cariad sydd rhwng y personau dwyfol; ac o ganlyniad, fod priodas yn perthyn yn hanfodol i ddyn fel creadur ar ddelw Duw. Er fod y berthynas hon, fel pob peth sydd yn perthyn i ddyn, wedi ei llygru drwy y cwymp; eto, purwyd a dyrchafwyd hi trwy ei chymmeryd i wasanaeth goruchwyliaeth gras, gan ei bod wrth wraidd bywyd y ddynoliaeth. Ond y mae rhag-gynllun iddi hefyd yn y wedd hon, yn y briodas sydd rhwng Crist a'i holl bobl prynedigol; ac yn y berthynas hon sydd rhwng Crist a'i bobl y mae yr agosrwydd perffeithiaf i'r undeb tragwyddol sydd rhwng y personau dwyfol. Gosodir priodas allan yn y wedd ddyrchafedig hon yn *Ephes.* v. 23—32. A chan fod Caniad Solomon yn ddarluniad o ddrychfeddwl gwreiddiol a dwyfol priodas, rhaid ei bod hefyd yn ddysgrifiad priodol o'r cynllun o briodas a geir yn undeb Crist â'i bobl.

Y mae y golygiad hwn, fel yr un blaenorol, am amcan y llyfr dan sylw, yn wahanol i'r hwn a dderbynir gan esbonwyr yn gyffredin; sef, ei fod yn alegori neu ddammeg, yn gosod allan yn gyntaf oll, ac yn mwriad Solomon, undeb yr Arglwydd â'i bobl, neu undeb Crist â'i eglwys, er iddo gael ei ysgrifenu ar yr achlysur o un o'i briodasau. Y mae y golygiad uchod am amcan y llyfr yn mhell uwch law yr hen syniad oedd yn gyffredin yn Germany yn y canrif diweddaf; sef, nad oedd ond rhyw serch-gân gyffredin. Ond yn y golygiadau diweddaf a enwyd ceisir uno y cwbl sydd yn hanfodol i'r hen syniad anffyddol, ac hefyd y syniad a fu bob amser yn ffynu yn yr eglwys o barth i'w natur.

Dros yr esboniad a dderbynir gan ysgrifenwyr uniawngred, y mae y rhesymau canlynol:—

Yn gyntaf, Y mae lle y gân hon yn nghanon yr Ysgrythyrau. Hyd yn oed ysgrifenwyr anffyddol a addefant fod yn rhaid fod y rhai a gasglasant y llyfrau sanctaidd i un gyfrol, wedi ei deall yn alegori yn gosod allan undeb a chymundeb yr Arglwydd â'i bobl. Pe na buasai ond molawd ar yr achlysur o briodas Solomon, ni buasai un rheswm dros ei rhestru yn mhlith llyfrau crefyddol, heb son am lyfrau ysbrydoledig. Y mae Crist a'i apostolion wedi penderfynu anffaeledigrwydd canon yr Hen Destament, a Chaniad Solomon fel un o'r llyfrau a gynnwysir ynddo. A chyda golwg ar y syniad am briodas a gynnwysir yn esboniad Delitzsch, y mae *pen.* vi. 6, yn dattroi y cyfan; heb law nad oes un cyfeiriad yn y llyfr at ofn Duw fel sylfaen priodas, nac at ddyledswyddau teuluaidd, &c.

Rheswm arall dros ei ystyr alegoraidd, ydyw, yr anghyssonderau sydd yn nglŷn â'i esbonio fel yn cynnwys un dygwyddiad gweithredol. Weithiau y mae y priodfab yn frenin—bryd arall yn fugail. Weithiau y mae y ddyweddi yn llances wledig (*pen.* i. 6; ii. 14)—bryd arall yn ferch pendefig (*pen.* vii. 1). Fel dygwyddiad yn mysg dynion, y mae gwaith y ddyweddi yn chwilio liw nos ar hyd yr heolydd a'r ystrydoedd am ei hanwylyd yn wrthwyneb i wylder a gweddeiddrra. Yn *pen.* i. 4, y mae y ddyweddi yn ystafell y brenin—yn *pen.* iii. 6, y mae hi yn dyfod i fyny o'r anialwch—ac yn *pen.* iv. 8, y mae Solomon yn ei galw o Libanus. Y mae lluaws o anghreiffiau cyffelyb, y rhai sydd yn gysson â'u gilydd os ydyw y cyfansoddiad yn alegori; ond nid ydynt felly os ydyw yn adroddiad o restr o ffeithiau.

Digitized by Google

Yn drydedd, Y mae y gân yn llawn o ymadroddion sydd yn gymhwys i ddysgrifio pobl Dduw, neu eglwys; ond yn hollol anghymhwys i osod allan nodweddau person unigol. Yn *pen.* i. 4, y mae yr unigol yn ymddangos yn lluaws,—"Tyn *a*, a *ni* a redwn." Ni buasai "meirch yn ngherbydau Pharaoh" (*pen.* i. 9), yn briodol i osod allan nodwedd gwraig; ond y mae hyn yn gysson â'r dysgrifiadau a geir am eglwys Dduw: *Zech.* x. 3, 5, 7. Yr nn modd am y cymhariaethau—"Ofnadwy megys llu banerog" (*pen.* vi. 4); "Dy wddf sydd fel tŵr Dafydd, yr hwn a adeiladwyd yn dŷ arfau"—y maent yn annealladwy am berson, ond yn ddigon hawdd eu deall os pobl waredigol yr Arglwydd a feddylir. Cymherir hwynt yn fynych i ddinasoedd, gyda'u rhagfuriau a'u tyrau:—esbonia hyn yr ymadroddion, —"Gweddus megys Ierusalem" (*pen.* vi. 4); "Dy wddf fel tŵr o ifori.....dy drwyn fel tŵr Libanus yn edrych tua Damascus" (*pen.* vii. 4); "Caer ydwyf fi, a'm bronau fel tyrau" (*pen.* viii. 10).

Yn bedwaredd, Y mae *Salm* xlv. mor debyg i Ganiad Solomon, fel nas gellir ei hesbonio ond ar yr un egwyddor: ac fe addefir yn gyffredinol, mai at Grist a'i eglwys y cyfeiria y Salm hon.

Yn bummed. Nid oes un syniad a gydwedda â sylwedd cyffredin y gân ond yr hwn a gymmer y rhan fwyaf o awduron cywirgred: sef, mai dychymyg neu ddammeg ydyw, cyffelyb i amryw o'r dammegion a lefarodd ein Harglwydd; megys dammeg y wledd briodas, y winllan, a'r gwr cyfoethog a Lazarus. A'r hyn a amcenir neu a fwriedir ynddi yw, gosod allan yr undeb priodasol sydd rhwng Duw a'i eglwys, a'r cymundeb a'r gyfeillach sydd rhyngddynt. Nid oes prin un gyffelybiaeth mwy cyffredin yn yr Ysgrythyr na'r un a arferir yn y gân hon. Ac ni ddywedir am yr undeb dwyfol yn unig megys am briodas, ond darlunir hefyd y gymdeithas mewn modd unol â'r fath gyffelybiaeth. Cyfeiria yr esgob Lowth, ar y pen hwn yn enwedig, at y man canlynol yn *Esa.* liv. 5;—

Canys dy Briod *fydd* dy wneuthurwr,
Iehofah y lluoedd *yw* ei enw;
Ië, dy Brynwr *fydd* Sanct Israel,
Duw yr holl ddaiar y gelwir ef.

Yn yr un prophwyd (lxii. 5) cawn eiriau cyffelyb i'r rhai a ddefnyddir yn y gân hon:—

Fel y prioda gwr ieuanc forwyn,
Y priodi di dy Greawdydd;
Ac â llawenydd priodfab am briodferch
Y llawenha o'th herwydd dy Dduw.

Gellir cyfeirio, fel y gwna yr esgob Lowth, at amryw fanau ereill yn y Salmau a'r prophwydi lle y cawn yr un math o ddarluniad. Gwel *Salm* xlv; *Ier.* ii. 2; iii. 2; *Ezec.* xvi. a xvii; *Hos.* ii. 16—20. Er nad oes un cyfeiriad neillduol yn y Testament Newydd at un rhan o'r gân hon, eto defnyddir ynddo yr un math o gyffelybiaethau. Gwel *Mat.* ix. 15; *Ioan* iii. 2, 29; 2 *Cor.* xi. 2; *Eph.* v. 23—27; *Dad.* xix. 7—9. Cymharer yr Ysgrythyrau canlynol:—

Pen. i. 4..... âg *Ioan* vi. 44.
— iv. 7..... „ *Eph.* v. 27.
— v. 2..... „ *Dad.* iii. 20.
— vii. 1..... „ *Esa.* lii. 7; *Eph.* vi. 15.
— viii. 11, 12. „ *Esa.* v. 1—7; *Mat.* xxi.
— viii. 14. „ *Dad.* xxii. 20. [33—43.

Y mae Hengstenberg yn esbonio y llyfr hwn yn allegawl drwyddo; ond golyga y gân hon yn ddarluniad prophwydoliaethol o Israel naturiol, yr hwn yn ei gyssylltiad â'r Messiah ydyw y briodasferch. Bod y rhan gyntaf (i. 2, hyd v. 1) yn ddysgrifiad mewn gwahanol ffyrdd o ddyfodiad y Messiah;—y byddai iddo gymmeryd enw Solomon, Tywysog tangnefedd: ac y rhagflaenid ei ddyfodiad â blinfyd a dyoddefaint, fel cosp gyfiawn ar bobl anffyddlawn. Gosodir y dyoddefiadau hyn allan trwy wres yr haul (i. 6), y gauaf a'r gwlaw (ii. 11), tywyllwch y nos (iii. 1), a'r anialwch (iii. 6). Gwneir y dyoddefiadau hyn yn fwy tost trwy ymdrech y bobl i ddwyn ymwared iddynt eu hunain yn anamserol (iii. 1—3). Cyssylltir derbyniad y Cenedloedd dan yr enw merched Ierusalem i deyrnas y Messiah â'i ddyfodiad. Cymharer *Ezec.* xvi. 61; *Salm* lxxxvii. 4—6. Bod yr ail ran (v. 2, hyd viii. 14) yn cynnwys pechod Israel yn erbyn y Messiah ar ei ddyfodiad i'r byd, y farn a ddaeth arnynt o'r herwydd, eu hedifeirwch a'u dychwelad ato drachefn trwy gydweithrediad merched Ierusalem, sef y Cenedloedd; i ba rai y buont hwythau yn foddion iachawdwriaeth yn flaenorol. Felly y mae Israel yn dyfod drachefn yn ganolbwynt teyrnas Dduw.

Yr wrthddadl yn erbyn y golygiad hwn ydyw, mai nid Israel yn ol y cnawd ydyw priodasferch Crist, ond yr Israel yn ol yr Ysbryd.

Bu llawer o ysgrifenu ar y gân hon. Y darluniad goreu o honi a roddir gan yr esgob Lowth, mewn dwy o'i ddarlithiau Hebreig, sef y xxx. a'r xxxi. Ysgrifenodd Dr. Gill eglurhad helaeth o honi yn 1728. Cyhoeddodd yr esgob Percy gyfieithiad newydd, yn nghyd â nodau, yn 1764; felly hefyd y gwnaeth T. Williams, yn 1801; John Mason Good, yn 1803; a John Fry, yn 1811. Ymddangosodd hefyd gyfieithiad Cymraeg o honi, gyda nodau eglurhaol, yn y *Gwyliedydd* am y flwyddyn 1836.

Mae amryw o esboniadau wedi dyfod allan yn ddiweddar ar y llyfr hwn. *The Song of Solomon compared with other parts of Scriptures.* Llundain, 1852. *A Commentary by Rev. Geo. Burrowes.* Easton, 1853. Yn Germany, cyhoeddwyd esboniad Delitzsch, 1851; esboniad Hahn, 1852; a hefyd esboniad Hengstenberg.

CANIG: nwyfgan, cywestgan, lloneilwy (Seis. *glee, joy, gaiety*). Math o gyfansoddiad cerddorol lleisiol (*vocal*) yw canig; hyny yw, cyfansoddiad i'w ganu gan leisiau yn unig; o natur ddifyrol, llawen, a nwyfus; ac i'w ddadganu mewn cynnulliadau cyfeillgar, cydwestiol, dirwestol, &c. Y melodau (*parts*) yn y math hwn o gyfansoddiad yw yr alaw (*treble* neu *alto*), y cyfalaw, a'r isalaw, yn gyffredin. Ond geill eu nifer fod yn bedwar, pump, &c., drwy ddyblu y naill neu y llall, megys dau alaw, un cyfalaw, ac un isalaw; neu, un alaw, dau gyfalaw, ac un isalaw, &c. Trefnir y melodau i leisiau meibion, yn gyffredin, ac mewn gwrthalawiant syml (*simple counterpoint*); felly dadgenir yr un geiriau gan yr holl felodau drwy y ganig. Os bydd y gwrthalawiant yn gyfansawdd (*double*), a threfniad y melodau i raddau yn ffurf maleilwy (*imitation*), neu oreilwy (*fuge*), a'r testyn o ansawdd difrifol a syml, enwir y cyfansoddiad yn ganig brudd, neu bruddeilwy (*serious glee*)—camenwad, yn sicr. Nid oes nemawr wahaniaeth rhwng y ffurf yna a'r ffurf cyfansoddol a enwir bugeilgan (*madrigal*). Er mai ffurf syml a diaddurn yw ffurf cyfansoddiad y ganig, yn wreiddiol; eto, rhaid wrth athrylith fywiog, chwaeth coethedig, a barn ymarferol i gyfeilio

Digitized by Google

nn dda a phoblogaidd. Nid yw yr awen Gymreig wedi anturio cyfeilio cerddoriaeth yn y ffurf hwn ond i radd bychan iawn.

CANOLFOR, MOR Y CANOLDIR: gelwid hwn mewn modd arbenig gan y Rhufeiniaid yn *Nostrum Mare*=ein môr ni; ac ar brydiau yn *Internum Mare*, yr hyn sydd agos yn gyfystyr â'r enw wrth yr hwn yn fwyaf cyffredin yr adnabyddir ef yn awr. Mae hwn yn wasanaethgar fel enw i'w wahaniaethu oddi wrth foroedd ereill, ac hefyd yn ddarnodiadol o'i sefyllfa ardirol. Cyssylltir ef â Môr y Werydd trwy gulfor Gibraltar, yr hwn sydd yn wyth ar ugain o filltiroedd o hyd, ac yn amrywio yn ei led o dair milltir ar ddeg i wyth milltir. Trwy ganol y culfor hwn y mae ffrwd gref o ddwfr yn ymarllwys o Fôr y Werydd i Fôr y Canoldir, tra ar y ddwy ochr y mae dwy ffrwd fechan yn rhedeg yn ol i'r Werydd. Deallir hefyd, wrth fwrw angorion yn nghanol y culfor, fod tanddyliflad yn rhedeg mewn cyfeiriad cyferbyniol i'r hyn a welir ar y wyneb. Y mae gan athronwyr waith eto i egluro y deddfau sydd yn achosi y gwahanol ysgogiadau hyn.

Hyd y môr hwn o'r dwyrain i'r gorllewin sydd oddeutu 2,000 o filltiroedd, ac o 500 i 800 o filltiroedd o led, ar gyfartaledd. Mewn rhai manau y mae yn lled gul. O Genoa i Bizerta, nid yw ond 375 o filltiroedd o led: o barthau deheuol Italy i Behrhyn Bon, y mae 200 o filltiroedd: tra nad yw o Andalusia yn Yspaen, i'r ochr gyferbyniol ar fordiroedd Affrica, ond oddeutu 150 o filltiroedd, ac y mae yn debyg mai dyma y man culaf arno. Y mae y môr hwn, heb yr Adriatic a'r Archipelago, y rhai ydynt fôrgangenau eang o hono, yn gorchuddio 860,000 o filltiroedd ysgwâr.

Y mae ei ranau gogleddol yn lled anwastad, ac mewn rhai manau yn rhedeg yn forgeinciau mawrion, y rhai a adwaenir wrth enwau gwahanol. Gelwir y morgainc sydd rhwng parthau gorllewinol Italy, ac ynysoedd Corsica a Sardinia, yn Fôr Tuscan; y Rhufeiniaid a arferent ei alw *Mare Inferum*. Rhwng Italy ac Illyrica a Dalmatia, fe'i gelwir yn *Adriatic*, neu Wddfgainc Venice; ac yn mhellach i'r deheu, ac i ochrau gorllewinol Groeg, fe'i gelwir y Môr Ionaidd. Arferai y Rhufeiniaid alw y ddau hyn yn *Mare Superum*, neu y Môr Uchaf, mewn cyferbyniad i'r *Mare Inferum*. Y morgainc arall, sydd yn mhellach i'r gogledd-ddwyrain, rhwng Twrci yn Ewrop ac Asia Leiaf, a adnabyddir wrth yr enw Archipelago, neu yr *Ægean Sea*. Y mae glanau deheuol y môr hwn yn llawer gwastatach, heb nemawr forgainc yn rhedeg o hono. Arllwysa y Môr Du ei ddyfroedd iddo yn barhaus, trwy gulfor y Dardanelles; ac felly y mae dyfroedd y Danube, y Po, y Nile, y Dnieper, a'r Ebro, yn cydgymmysgu â'u gilydd yn y môr hwn.

O blegid y gwahanol fynyddoedd sydd yn amgylchynu ei lanau, a'r ynysoedd sydd yn britho ei wyneb, y mae y gwynt arno yn dra chyfnewidiol. Un mynyd bydd yn huno mewn tawelwch, a'r mynyd arall bydd mewn cyffro gwyllt, tan ddylanwad y rhyferthwy peryglus.

Er y dywedir nad oes lanw a thrai yn perthyn i Fôr y Canoldir, nid yw hyny yn gwbl wir; gan ei fod rhwng Venice a'r Lesser Syrtis yn cyfodi ac yn disgyn o bump i saith droedfedd. Y mae llanw hefyd yn cael ei deimlo, ond yn lled afreolaidd, ar ochrau cyfyngfor Gibraltar, yn morgainc Corinth, ac yn Faro Messina; ac y mae ysgogiad adgyrchol rhyfedd yn y dyfroedd yn lleinfor yr Euripus, rhwng Groeg a Negropont. Dygwydda gorllifiadau cryfion, yn enwedig yn gyfagos i Venice a Faro Messina. Mae gorllif gorllewinol yn rhedeg ar hyd arfordir Karamania. Dywedir hefyd fod gorllif dwyreiniol yn rhedeg yn gysson ar hyd arfordiroedd Affrica a'r Aipht; ond nid yw hyn, yr ydym yn credu, wedi ei brofi.

Mewn ystyr trafnidiol, y mae y môr hwn o'r pwys mwyaf. Y mae rhai o'r porthladdoedd enwocaf yn y byd ar ei lanau, a llongau holl alluoedd gorllewinol Ewrop i'w canfod ar ei wyneb, yn prysur gludo ac adgludo nwyddau masnachol o bob gwlad ac i bob gwlad. Y mae gan y galluoedd mordwyol longau rhyfel yno, i ddiogelu y llongau masnachol a'u trafnidiaeth, rhag ymosodiad morladron, y rhai, hyd yn ddiweddar, oeddynt dra lluosog a pheryglus.

Prydferthir gwyneb y môr hwn â nifer mawr o ynysoedd, y rhai a gedwir mewn hanesiaeth gyffredin a chyssegredig mewn bri ac enwogrwydd. Y prif ynysoedd ydynt y rhai Balearaidd, preswylwyr y rhai a wnaethant wrhydri yn myddinoedd Hannibal; Corsica a gofir yn hir fel lle genedigol Napoleon I.; Sardinia fel seren ddydd, a phelydr gobaith rhyddhâd Italy orthrymedig oddi dan iau caethiwed; y ddwy Sicily o blegid amledd eu tywysogion, eu dugiaid, eu hardalyddion, eu harchesgobion, esgobion, offeiriaid, mynachod, a mynachesau, ac yn bendifaddeu am eu hysbryd erlidus tuag at y rhai a wahaniaethant oddi wrth olygiadau yr Eglwys Sefydledig (Babaidd) yn y lleoedd hyn; Candia, neu Crete, a Cyprus a gofnodir mewn hanesiaeth ysgrythyrol; a Malta (Melita yr Ysgrythyrau) sydd adnabyddus fel gorsaf filwrol bwysig, yn perthyn i Brydain Fawr; ond y mae wedi ennill hynodrwydd uwch, a choffadwriaeth fwy parhaol, oddi wrth y ffaith fod un o'r llongddrylliadau a ddygwyddodd i'r apostol Paul wedi cymmeryd lle yn agos iddi, a dywedir fod yr agen i'r hon y gwthiwyd y llong yn adnabyddus hyd y dydd hwn. Y mae ynysoedd ereill o gryn bwys mewn ystyr gwleidiadol (*political*) yn y môr hwn:—yr Elba, ynysoedd Lipari, a'r rhai Ionaidd; ac mae eu hynodrwydd yn cael ei chwanegu pan ystyrir mai ynddynt y ganwyd Homer y bardd, ac Apelles a Parrhasius yr arlunwyr, yn nghyd â'u bod hefyd yn rhai o faethleoedd boreuaf gwareiddiad cyffredinol.

Ar lanau y môr hwn y cymmerodd y dygwyddiadau pwysicaf yn hanes dynoliaeth le, ac ymddengys fod ei gymmeriad yn ei nodi fel y man addasaf i berffeithiad cyflym gwareiddiad yr hil ddynol. Oddi wrth amrywiaeth mawr y tir a'r cynnyrchion, o dan hinsawdd dymmerus ac amryfath, byddai i'r trefedigion, o ba fanau bynag y deillient ar y cyntaf, fabwysiadu yn fuan y gwahanol arferion hyny o dan ba rai y dadblygid eu hamrywiol alluoedd. Byddai i agosrwydd cymhariaethol y gwahanol wledydd at eu gilydd, trwy wneyd mordeithio mewn llongau bychain ac anmherffaith yn hawdd a dymunol, ac i hyny hyrwyddo masnach er yn fore, dueddu i eangu a dwyn yn mlaen wareiddiad; tra y byddai i drafnidiaeth, trwy ddwyn yn nghyd ddynion o wahanol arferion, defodau, ac ieithoedd, ac fel hyn chwanegu gwybodaeth ymarferol, gyflenwi y defnyddiau at berffeithiad y celfyddydau a'r gwyddorion. Ar ei lanau hefyd, yn y cynoesoedd, y blagurodd y Phœniciaid, yr Iuddewon, yr Aiphtiaid, y Carthaginiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid—y cenedloedd boreuaf a roddasant gychwyniad i'r symmudiad clodadwy hwnw.

Digitized by Google

Y mae yn ddiammheu fod mordwyaeth Môr y Canoldir wedi dechreu er yn dra bore. Y mae y chwedl am Minos yn dinystrio morladron (*Thucyd.* i. 4) yn cymmeryd yn ganiatsol y ffaith, bod yn rhaid fod yno longau masnachwyr yn cludo nwyddau gwerth eu lladrata er y cyfnod hanesyddol boreuaf. Os cymmerwn yn ganiatsol, gyda Strabo, gywirdeb dysgrifiadau Homer, ni ddilyn mewn un modd fod y Groegiaid yn gwybod pob peth a allasai fod yn wybyddus i bob cenedl arall ar y pryd; ac y mae y chwedlau a adroddir am yr eiddigedd gyda pha un y gwyliai y Phœniciaid a'r Carthaginiaid eu darganfyddiadau, yn profi o'r hyn lleiaf nad oedd gwybodaeth ddaiaryddol yn eiddo cyffredin; a chyda golwg ar y cenedloedd hyn, y mae yn rhaid fod y wybodaeth a feddai y Groegiaid am danynt, yn mhlith barbariaid ereill, islaw i'r hyn a feddwn ni yn yr Ysgrythyrau yn unig. Y mae yr hanes i Utica gael ei sylfaenu 130 ó flyneddoedd o flaen Carthage, yn profi fod cyfathrach reolaidd rhwng y lle hwn a Syria—pellder uwch law 1200 o filltiroedd; a gallwn benderfynu fod mordeithiau y bobl anturiaethus hyn eisoes wedi ymledu dros derfynau gwybodaeth yn mhell tu hwnt i'r cyffiniau hyn.

Y mae ffrwythau yn nwyddau pwysig yn ein masnach â Môr y Canoldir: y mae llongau buain, gan hyny, yn cael eu defnyddio i'w cludo, a thelir gwobr i'r llong gyntaf a ddychwel i borthladd Llundain ar ol rhyw amser penodol o ddechreu y tymmor. Yn yr amser gynt, yr oedd yr holl fasnach Brydeinaidd yn y Levant yn cael ei dwyn gan y Turkey Company; ond diddymwyd ef yn nheyrnasiad George IV.

Nid yw y llongau sydd yn mordwyo y môr hwn o faintioli mawr. Y mae math o hwyl yn perthynu i'r llongau mwyaf, a elwir *polacca*, y rhai a achlysurwyd gan y gwyntoedd mynych a disymmwth, y rhai yn aml a barant fod yn angenrheidiol gostwng yr hwyliau yn dra buan, rhag iddynt ddinystrio y llong, a pheryglu bywydau y dwylaw: i'r dyben hwn y mae yr hwylbren wedi ei wneyd o un darn, a'r hwyliau uchaf, wrth eu gostwng, a lithrant i lawr yn ddirwystr. Y mae yn Môr y Canoldir amryw leoedd i noddi y llongau ynddynt; ac nid yw yr ystormydd, er mor aml a dinystriol, yn para mor hir fel ag i dreulio y llong na digaloni y dwylaw, ac nid yw yn arferedig chwaith, a hyny er yr amseroedd boreuaf hyd yn bresennol, ei fordwyo yn ystod misoedd ystormus y gauaf: y mae y pethau a enwyd yn fanteisiol i ddwyn dynion i radd helaeth o fedrusrwydd mewn arfer cychod. Y mae ager-lestri yn rhedeg yn gysson ar bob tymmor rhwng prif borthladdoedd Môr y Canoldir.

Y mae y gwynt yn dra chyfnewidiol yn Môr y Canoldir, fel y gwelwyd tair neu bedair o lestri dan wyntoedd gwahanol ar yr un adeg. Y mae y *scirocco*, neu wynt ddeheu-ddwyrain, wedi bod bob amser yn nodedig yn Môr y Canoldir am ei effeithiau pruddhaol ar y cyfansoddiad anifeilaidd, a'i ddylanwad niweidiol mewn ffyrdd ereill, megys ar baent newydd ei ddodi ar bethau, yr hwn ni sycha wedi hyny. Dilynir ef yn gyffredin gan awyr niwlog a chymylog. Ond yn y gauaf nid yw ei effeithiau mor niweidiol. Y mae dwfrbistylloedd (*water spouts*) yn dygwydd yn gyffredin yn y môr hwn, y rhai sydd yn dra pheryglus i'r llongau a anturiant yn rhy agos iddynt pan yn ymddyrchafu fel hyn yn golofnau tryfion i'r awyr.

Y mae yn ddiammheu fod y môr hwn yn ddwfn iawn; yn gymmaint felly fel nas gellir ei blymio mewn llawer man: ac, yn wahanol i gasgliadau mawrion ereill o ddyfroedd, nid yw gwybodaeth am ei ddyfnder, mewn cymhariaeth, ond o ychydig bwys, gan ei fod mor ddwfn drwyddo fel nad yw yn beryglus i'r llongau ar ei wyneb daro wrth leoedd bas, yr hyn sydd yn wahanol mewn moroedd ereill.

Y mae rhai môrfrwydrau pwysig wedi cymmeryd lle yn Môr y Canoldir. Y forgad gyntaf y mae hanes am dani ydyw yr un a fu rhwng yr Ioniaid a'u trefedigaeth eu hun, Corcyra, yn y flwyddyn 644 c. c. Y fôrfrwydr gyntaf sydd wedi ei dysgrifio ydyw yr un a fu rhwng y Persiaid, yn nheyrnasiad Darius, a'r Groegiaid Asiaidd cynghreiriol, gyferbyn i Miletus, yn 493 c. c. Yn mhen tair blynedd ar ol hyn y bu brwydr enwog Salamis, yn mha un y dinystriwyd llynges Xerxes. Cymmerodd amryw fôrfrwydrau le rhwng y Groegiaid a'r Persiaid, ac yn mhlith y Groegiaid eu hunain, ac hefyd rhwng y Rhufeiniaid a'r Carthaginiaid. Rhwng y rhai diweddaf y bu y frwydr yn mha un y trechwyd y Carthaginiaid gan y Rhufeiniaid, o dan Duillius, yn 260 c. c., yr hon oedd ymladdfa gyntaf y Rhufeiniaid ar y môr. Gellir chwanegu at y rhestr hon frwydr Actium, yn 30 c. c., yn mha un y gorchfygodd Augustus Antony a Cleopatra; brwydr 1203, yn mha un y cymmerodd y Ladinwyr Gaer Cystenyn, trwy ddyfod ar hyd y môr; brwydr Lepanto, yn 1571, yn mha un yr ymladdai Cervantes; brwydr Syr George Byng, yn Faro Messina, 1718; brwydr drefnedig y llyngesydd Byng, ar gyfer Mahon, yn 1756; brwydr y Nile, yn 1798, yn mha un y torodd Nelson y cyssylltiad rhwng Ffrainc a'r rhyfelgyrch o dan Bonaparte, ac y dinystriodd allu morawl Ffrainc yn Môr y Canoldir; y mynediad i fyny y Dardanelles, gan Syr T. Duckworth, yn 1808, i orfodi y Tyrciaid i ddyfod i ammodau heddwch â Rwssia, ond methodd yn ei amcan, er iddo ddinystrio rhan o'u llynges. Yn 1816, ymosododd arglwydd Exmouth, gyda llyngesau unedig yr Isellmyn a Phrydain, ar Algiers, a gorfododd y *dey* (=penadur) i ollwng yn rhydd y carcharorion Cristionogol. Y frwydr ddiweddaf o bwys oedd yr un a ymladdwyd yn angorfa Navarino, yn mha un y darfu i lengoedd unedig Lloegr, Ffrainc, a Rwssia, ddinystrio y llyngesau Tyrcaidd ac Aiphtaidd, yr hyn a ddilynwyd gan ryddhad Groeg, ac ymruthriad Rwssia ar Twrci.—(*Ency. Brit.; Bell's System of Geography; Universal Geography; Penny Cycl.; Pop. Ency.; Steele's Chart of Med.*)

CANOLFUR, [*canol—mur*]: dyraniad, esran, pared. "Ac a ddattododd ganolfur y gwahaniaeth rhyngom ni;" *Eph.* ii. 14. "Nid ydym," medd Eadie (yn y lle), "yn gweled un rheswm i gymmeryd, *τοῦ φραγμοῦ*="y gwahaniaeth," yr hwn sydd yn y sefyllfa feddiannol, fel pe bai mewn atosodiad â'r gair "canolfur." Ac nis gallwn, gyda Piscaton, newid y frawddeg i "ddattododd wahaniaeth y canolfur." Nid yw *φραγμος*, fodd bynag, yn arwyddo "gwahaniaeth;" dynoda yn hytrach "cae," neu "gaeadle" (=*enclosure, fence*). Galwai y Rabbiniaid y ddeddf Fosenaidd yn fynych wrth yr enw *cae*. Pa gyfeiriad oedd gan yr apostol yn y gair "canolfur," sydd destyn cryn ddadleuaeth. Dychymyga Wagenseil, ei fod yn cyfeirio at y llen a grogir o flaen ystafell freninol, neu neithiorawl; a thybia Gronovius, y cyfeiria at y muriau hyny mewn dinas fawr, yn cael ei phreswylio gan bobl

Digitized by Google

o genedloedd gwahanol, sydd yn derfynau rhyngddynt—yn debyg fel y mae y 'Ghetto Iuddewig yn cael ei therfynu gan fur mewn prif ddinasoedd Ewropaidd: ond diammheu fod y tybiau hyn yn anmheilwng o sylw. Crybwyllwn olygiadau cyffredin amryw esbonwyr. Cyfeirir, medd rhai, at y mur neu y pared oedd yn nheml Herod, yn gwahanu cyntedd yr Iuddewon oddi wrth eiddo y Cenedloedd. Crybwylla Josephus, fod gwaharddiad yn ysgrifenedig ar y mur hwn "i bob dyeithr ddyn fyned i mewn dan boen marwolaeth." Y cyfeiriad hwn a gymmeradwyir gan Anselm, Hammond, Wetstein, Bengel, Olshausen, Trollop, Barnes, &c. Y mae Tyndal yn cyfleithu —"*The wall that was a stop bitwene vs.*" Y mae y dyb hon yn rhesymol; ar yr un pryd, y mae yn dra thebyg nad ydyw yn gywir, o blegid—1. Nid oes un prawf fod y cyfryw fur wedi derbyn yr enw hwn erioed. 2. Yr oedd y mur a ddysgrifir gan yr hanesydd Iuddewig yn gae neu wahaniad anawdurdodedig. Yr oedd mur arall a wahanai hyd yn oed rhwng yr addolwyr Iuddewig a chyntedd yr offeiriaid. 3. Nis gallesid dysgwyl i'r blaid baganaidd yn eglwys Ephesus fod yn adnabyddus o gynllun y deml yn Ierusalem. 4. Rhaid, felly, y buasai y cyfeiriad yn dra anmhriodol; o blegid yr oedd y mur hwnw yn sefyll ar amser ysgrifeniad yr epistol, ac ni ddinystriwyd ef am wyth mlynedd yn ddiweddarach. Felly, yr ydym yn cydfarnu âg amryw esbonwyr, fod yr apostol yn defnyddio ffugr dealladwy a bywiog, heb fod ynddo un cyfeiriad neillduol at unrhyw ran o adeilwaith y deml. Gall unrhyw arferiad cymdeithasol, neillduolrwydd cenedlaethol, neu ymddidoliad crefyddol, sydd yn amgau o gylch un genedl, ac yn cau allan bawb ereill o'i chymundeb, gael ei ddynodi yn "ganolfur y gwahaniaeth."

Mae Alford (ar y lle) yn gwrthwynebu y Dr. Eadie, gan farnu fod yma gyfeiriad, nid at un o'r muriau a nodir ganddo ef, ond yn hytrach "at rwygiad y llen ar adeg y croeshoeliad. Nid wyf yn barnu fod y llen hon yn gwahanu Iuddewon a Chenedloedd; ond ei bod, fel arwyddlun penaf ein didoliad oddi wrth Dduw, yn cynnwys, yn ei rhwygiad, rydd dderbyniad ato Ef, i'r un corff o Iuddewon a Chenedloedd, yr hwn a wnaed felly gan Grist. Y mae y syniad dyblyg hwn o flaen meddwl yr apostol trwy y frawddeg; ac felly o angenrheidrwydd; o blegid nad ydyw y cymmod a wnaeth Iesu Grist rhwng yr Iuddew a'r Cenedlddyn, ond rhan israddol yn unig o'r cymmod mawr rhwng y ddau a Duw. Felly, y mae meddwl y gair 'gwahaniaeth' yn fwy eang na chanolfur. Y cyntaf ydyw yr holl drefniant, o'r hwn nid yw y diweddaf ond offeryn, neu y didoliad ei hun, yn ganlyniad trefniant o ddidoliad; yr holl drefniant deddfol, yr hwn a wnai yr holl ysgariad rhwng yr Iuddew a'r Cenedlddyn, a rhwng y ddau a Duw."

CANOL OESOEDD. Gwel OESOEDD CANOL.

CANON. Gwel y darllenydd, wrth droi at yr erthygl BEIBL BEIRNIADAETH, mai y mater sydd yn dyfod o dan y gair hwn ydyw hanes casgliad y llyfrau sanctaidd i'w ffurf presennol, a'r prawf eu bod wedi eu derbyn fel rheol ffydd ac ymarweddiad gan yr eglwys o'r amser cyntaf yr ysgrifenwyd hwynt neu y daethant yn hysbys. Mae yr Hen Destament a'r Newydd yn gyfansoddedig o luaws o wahanol lyfrau, neu gyfansoddiadau wedi eu hysgrifenu gan wahanol ddynion ac mewn gwahanol oesoedd. Yn yr erthygl bresennol yr ydys yn ymofyn pa bryd y casglwyd y gwahanol gyfansoddiadau hyn at eu gilydd, ac ar ba sail yr honir eu bod yn unig *reol* awdurdodedig mewn crefydd a moesoldeb.

Ceir y gair Groeg *canon* (κανων) yn y Testament Newydd bum gwaith (2 *Cor.* x. 13, 15, 16; *Gal.* vi. 16; *Phil.* iii. 16), a chyfleithir ef trwy y geiriau "mesur" a "rheol." Ei ystyr cyntaf ydyw *gwialen syth*; ac oddi wrth hyn y tardda ystyron ereill, i gyd yn dynodi *unionder, sythder.* Yn mhlith ystyriaethau ereill, defnyddid ef am *reol* neu *safon*, wrth yr hyn y gellid mesur uniondeb gweithredoedd neu opiniynau. Yn yr ystyr hwn y defnyddir ef yn y Testament Newydd, ac hefyd gan dadau yr eglwys. A chan mai at ewyllys dadguddiedig Duw, cynnwysedig yn yr Hen Destament a'r Newydd, yr appelient fel safon ffydd a dyledswydd, daethant yn raddol i siarad am dani fel y *canon* neu *reol.* Wrth "y canon" gan hyny y meddylir y casgliad o'r llyfrau hyny sydd yn cyfansoddi rheol ysgrifenedig y grefydd Gristionogol; sef llyfrau yr Hen Destament a'r Newydd.

Y mae hawl llyfr i'w le yn y canon yn seiliedig ar ei fod yn ysbrydoledig: 2 *Tim.* iii. 16. Ond pa fodd y gwybyddid fod llyfr wedi ei roddi trwy ysbrydoliaeth dwyfol? Yr oedd y prophwydi dan yr hen oruchwyliaeth, a'r apostolion dan y newydd, dan arweiniad ysbrydoliaeth. Yr oedd llyfr gan hyny a ysgrifenid gan brophwyd neu apostol yn cael ei dderbyn i'r canon. Eto y mae yr ymofyniad yn ymgodi pa fodd y gwybyddid fod llyfr wedi ei ysgrifenu gan brophwyd neu apostol? Yr oedd hyn yn hawdd i'w cydoeswyr, y rhai oedd yn eu hadnabod, y rhai yr ysgrifenent atynt, neu y prophwydent iddynt. Nid allasai cenedl Israel fod yn anwybodus o'r ffaith fod yr Arglwydd yn llefaru trwy Moses a Iosuah; a'r un modd am y prophwydi ereill a'r apostolion. Trosglwyddid gwybodaeth un oes i'r llall gyda'r sicrwydd mwyaf; ac felly ar sail gwybodaeth yr oes yn mha un y llefarwyd unrhyw lyfr y cafodd dderbyniad i'r casgliad o lyfrau dwyfol. Y mae gan hyny fod llyfr wedi cael derbyniad i'r canon yr un peth a'i fod wedi derbyn sel cymmeradwyaeth yr Eglwys Iuddewig i'w ddwyfoldeb, os yn yr Hen Destament; a chymmeradwyaeth yr oes apostolaidd, yn nghyd â'r oesoedd dilynol, os yn y Newydd. Y mae profion tufewnol o ddwyfoldeb y Beibl, y rhai sydd yn hollol annibynol yn eu dylanwad ar farn ereill am y llyfr, ac am ei dderbyniad mewn gwahanol wledydd ac oesoedd—profion sydd yn tywynu yn uniongyrchol i'r galon trwy oleuni Ysbryd Duw. Daw y rhai hyn dan ystyriaeth yn eu lle priodol; ond amcan yr erthygl hon ydyw olrhain y profion o'u derbyniad fel rheol anffaeledig ffydd ac ymarweddiad yn mysg y rhai hyny oedd yn dystion uniongyrchol o'r ffeithiau a adroddir ynddynt, a'u holynwyr uniongyrchol hwythau, ac o ganlyniad yn mysg y rhai hyny a feddent y manteision goreu i farnu am wirionedd eu hawliau.

CANON YR HEN DESTAMENT.

Y mae yn amlwg ei fod yn raddol o ran ei ffurfiad, ac yn ymestyn trwy oesoedd maith. Rhoddwyd Pum Llyfr Moses, ar eu gorpheniad, i'w cadw yn ofalus yn ystlys arch y cyfammod: "A phan ddarfu i Moses ysgrifenu geiriau y gyfraith hon ar lyfr, hyd eu diwedd hwynt; yna y gorchymynodd Moses i'r Leflaid, y rhai oedd yn dwyn arch cyfammod yr Arglwydd, gan ddywedyd, Cymmerwch lyfr y gyfraith hon, a gosodwch ef

Digitized by Google

ar ystlys arch cyfammod yr Arglwydd eich Duw; fel y byddo yno yn dyst i'th erbyn;" *Deut.* xxxi. 24—26.

Mae yn ddiau i gopïau o'r gyfrol sanctaidd gael eu gwneuthur cyn ei gosod yn y cyssegr sancteiddiolaf; o herwydd gan nad oedd ryddid i'r bobl fyned i mewn yno, buasent hwy yn anwybodus o'i chynnwysiad pe na buasai copïau yn cael eu gwneuthur. Hysbysir ni hefyd mai un o ddyledswyddau y brenin, pan osodid swyddog felly, fyddai ysgrifenu â'i law ei hun gopi o'r gyfraith: "A phan eisteddo ar deyrngadair ei freniniaeth, ysgrifened iddo gopi o'r gyfraith hon mewn llyfr, allan o'r hwn sydd ger bron yr offeiriaid y Lefiaid. A bydded gydag ef, a darllened arno holl ddyddiau ei fywyd: fel y dysgo ofni yr Arglwydd ei Dduw, i gadw holl eiriau'r gyfraith hon, a'r deddfau hyn, i'w gwneuthur hwynt: fel na ddyrchafo ei galon uwch law ei frodyr, ac na chilio oddi wrth y gorchymyn, i'r tu deheu nac i'r tu aswy: fel yr estyno ddyddiau yn ei freniniaeth, efe a'i feibion yn nghanol Israel;" *Deut.* xvii. 18—20. Adroddir gan Josephus fod copi o'r gyfraith wedi ei barotoi i bob llwyth yn ol cyfarwyddyd Moses.

Y chwanegiad cyntaf a wnaed at Bum Llyfr Moses oedd Llyfr Iosuah; o herwydd dywedir i "Iosuah ysgrifenu y geiriau hyn yn llyfr cyfraith Duw:" gwel *Ios.* i. 8; xxiv. 26. Ac yr oedd cynnwysiad y llyfr hwn o bwysigrwydd cyffredinol, yn gystal a'r hyn a ysgrifenwyd yn y gyfraith;—fel y cynnwysai y naill gyfreithiau ac ordeiniadau ysgrifenedig i'w cyfarwyddo yn mhob dim, felly y cynnwysai y llall raniad y tir yn mysg y llwythau. Dangosir yma derfynau pob llwyth: felly yr ydoedd yn weithred gyhoeddus, yn cynnwys trosglwyddiad eu meddiannau. Pan ysgrifenwyd llyfrau ereill gan ddynion ysbrydoledig, mae yn ddiau y gosodent copïau o honynt yn y cyssegr, ac y lluosogid copïau hefyd yn mysg y bobl. Dywedir yn bendant i Samuel, wedi iddo draethu cyfraith y deyrnas wrth y bobl, "ei hysgrifenu mewn llyfr, a'i gosod ger bron yr Arglwydd;" 1 *Sam.* x. 25. Cyfeiria Esaiah at "lyfr yr Arglwydd," sef casgliad o brophwydoliaethau, a dywed, "Ceisiwch allan o lyfr yr Arglwydd a darllenwch" (*pen.* xxxiv. 16), er mwyn cymharu y prophwydoliaethau â'r dygwyddiadau, yr hyn a brofai ddwyfoldeb eu tarddiad; "o herwydd ni phalla un." Hysbysa Daniel ei fod ef trwy "lyfrau" yn deall rhifedi blyneddoedd y gaethglud: *pen.* ix. 2. Wrth y llyfrau hyn dealla Michaelis, Gesenius, a Bleek, Ysgrythyrau yr Hen Destament, y rhai a gasglesid at eu gilydd. Ereill a farnant mai llyfrau y prophwydi yn unig a feddylir. Pa un bynag, nid yw yn debyg y defnyddiasai y prophwyd y rhif lluosog wrth gyfeirio at Ieremiah oni buasai casgliad o lyfrau sanctaidd wedi ei wneyd; o herwydd yn Ieremiah yn unig yr oedd yr hysbysrwydd i'w gael. Fod copïau yn cael eu defnyddio o'r llyfrau sanctaidd sydd hefyd yn amlwg oddi wrth y ffaith fod y Lefiaid a'r offeiriaid, y rhai a anfonodd Iehosaphat i ddysgu yn ninasoedd Iudah, yn cymmeryd llyfr cyfraith yr Arglwydd gyda hwynt: 2 *Cron.* xvii. 9. Ac er fod lle i feddwl nad oedd ond ychydig o barch yn cael ei dalu i air Duw am dymmor cyn eu caethgludiad i Babilon, eto ar ol eu dychweliad yr oedd awydd mawr i ymffurfio â'r gyfraith sanctaidd yn mhob dim. Y mae hyn yn amlwg oddi wrth y cyfeiriadau mynych at y gyfraith yn llyfrau Ezra a Nehemiah, ac yn enwedig oddi wrth yr awyddfryd gyda pha un y gwrandawai y bobl ar Ezra yn darllen, ar eu cais eu hunain, y dydd cyntaf o'r flwyddyn (*Neh.* viii. 1—8). Drachefn, ymgasglent bob dydd, a darllenent lyfr cyfraith yr Arglwydd bedair gwaith yn y dydd (*pen.* ix. 1—3). Nid ydym yn darllen mewn unrhyw gyfnod o hanes yr Israeliaid am y fath awyddfryd i glywed ac i gydymffurfio â'r gyfraith: a gallesid dysgwyl mai y pryd hwn, os unrhyw adeg yn eu hanes, y buasai ymdrechiadau anghyffredin am cael eu gwneuthur i gwbleiddio y canon mor gyflawn ag oedd yn ddichonadwy. Yn unol â hyn, i'r tymmor hwn y mae ysgrifenwyr Iuddewig a Christionogol yn priodoli y casgliad a wnaed o lyfrau yr Hen Destament sydd yn awr yn ein meddiant.

I gynnorthwyo Ezra yn y gwaith hwn, y mae ysgrifenwyr Iuddewig yn dyweyd fod yn ei amser ef synagog fawr, yn gynnwysedig o gant a hanner o ddynion; ac yn eu plith yr oedd Daniel a'i dri chyfaill, Sadrach, Mesach, ac Abednego; y prophwyd Zechariah; a Simon y Cyflawn. Ond ni allasai y rhai hyn fod yn aelodau o'r synagog ar unwaith; o herwydd rhwng Daniel a Simon y Cyflawn yr oedd cyfwng o ddim llai na dau cant a hanner o flyneddoedd. Y mae y beirniaid goreu o'r farn fod gradd fawr o debygolrwydd yn y traddodiad hwn. Sylwedd y traddodiad ydyw, fod y prophwydi wedi cadw gwyliadwriaeth ar y llyfrau sanctaidd ar ol Moses a'r heuriaid, a bod y canon wedi ei gwbleiddio gan Ezra, Nehemiah, a gwŷr y synagog fawr. Y mae y rhesymau canlynol dros debygolrwydd cryf y traddodiad. 1. Y mae fod y fath draddodiad mewn bod yn ffafriol i'w wirionedd. Y mae i'w gael yn rhai o lyfrau henaf yr Iuddewon; ac nid yw fod rhai pethau anhygoel yn nglyn â'r traddodiad yn rheswm dros wrthod yr hyn sydd yn debygol. 2. Gwelir drwy y cyfeiriadau blaenorol fod cymmaint o'r traddodiad yn wir ag sydd yn cyfeirio at Moses a'r prophwydi. 3. Gwelir hefyd oddi wrth awyddfryd y bobl i glywed y gyfraith ar ol eu dychweliad o Babilon, yn nghyd â'r ffaith fod y lluaws o honynt wedi colli yr iaith Hebreig, ac o ganlyniad fod cyfleithiad yn angenrheidiol, ei bod yn anhebgorol i ryw awdurdod cymhwys benderfynu ar y llyfrau oedd wedi eu rhoddi drwy ysbrydoliaeth. 4. Yr oedd amryw brophwydi yn fyw yn amser Nehemiah ac Ezra a allasent eu cynnorthwyo i berffeithio y gwaith hwn; yn mhlith pa rai y gwyddom am enwau Haggai, Zechariah, a Malachi. Ac yn yr oes hono y terfynodd llinell y prophwydi, ac felly yr arweiniad anffaeledig a allasai arolygu casgliad a phenderfyniad y llyfrau oedd i fod yn rheol moesau a chrefydd i'r eglwys. 5. Y mae pob cyfeiriadau dilynol at yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn tybied eu bod wedi eu casglu i'w ffurf bresennol; tra na ddywedir am lyfrau yr Apocrypha gan un o'u hawdwyr, na chan un ysgrifenydd Iuddewig arall, eu bod yn teilyngu lle yn mhlith yr Ysgrythyrau Sanctaidd.

Oddi wrth yr ystyriaethau hyn, y mae yn dra thebyg fod llyfrau yr Hen Destament wedi eu dwyn i'w ffurf bresennol yn amser Ezra. Y mae hyn yn gysson â thraddodiad unffurf yr Iuddewon am Ezra, fel yr hwn a gwblhaodd ganon yr Hen Destament, ac na chollodd un prophwyd ar ol Malachi yr hwn a chwanegodd ddim at y gyfrol sanctaidd.

Nid yw o bwys yn y byd i allu penderfynu pa un ai i un gyfrol ai ynte i amryw y casglwyd y llyfrau. Yr unig gwestiwn o bwys ydyw, gallu

Digitized by Google

penderfynu pa lyfrau a dderbyniwyd i'r canon. Ond y tebygolrwydd ydyw, fod y llyfrau sanctaidd wedi eu casglu i dair cyfrol—y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Ysgrifeniadau neu y Salmau. Yr oedd y dosbarthiad hwn yn adnabyddus yn amser ein Iachawdwr: *Luc* xxiv. 44. Crybwylla Josephus am y rhaniad hwn, a phriodolir ef yn unfrydol gan yr Iuddewon i Ezra.

Gallasem fod mewn petrusder am amryw o'r llyfrau sydd yn cyfansoddi yr Hen Destament, oni buasai fod y cyfan, dan yr enw "yr Ysgrythyrau," ac yn cynnwys y dosbarthiad triphlyg a enwir uchod, wedi derbyn cymmeradwyaeth pendant yr Arglwydd Iesu. Y mae efe yn fynych yn ceryddu yr Iuddewon am eu hanufudd-dod, eu camesboniadau, a'u chwanegiadau at yr Ysgrythyrau; ond nid yw yn rhoddi y cyhuddiad lleiaf o anffyddlondeb nac o ddiofalwch yn eu herbyn yn nghadwraeth y llyfrau sanctaidd. Defnyddia Origen, un o brif dadau yr eglwys, yr ymresymiad hwn dros burdeb dilwgr yr Ysgrythyrau. "Os dywed neb," medd Jerome, "fod yr Iuddewon wedi llygru eu llyfrau sanctaidd, gwrandawed ar Origen:—na buasai yr Arglwydd a'i apostolion, y rhai a geryddasant yr ysgrifenyddion am feiau ereill, byth yn ddystaw am y bai mwyaf, pe buasent yn euog o hono." Mor bell oddi wrth hyn, y mae yn cyfeirio at yr Ysgrythyrau fel rheol anffaeledig, y rhai y mae "yn rhaid eu cyflawnu;" *Marc* xiv. 49: "y rhai nis gellir eu tori;" *Ioan* x. 35. "Chwiliwch yr Ysgrythyrau," meddai, "canys ynddynt hwy yr ydych yn meddwl cael bywyd tragwyddol, a hwynt-hwy yw y rhai sydd yn tystiolaethu am danaf fi;" *Ioan* v. 39. Priodolir cyfeilicrnadau y Saduceaid i'w hanwybodaeth o'r Ysgrythyrau; ac ni chrybwyllir am y llyfrau sanctaidd un amser ond fel gair anffaeledig Duw. Dywed Paul hefyd, gan gyfeirio yn benaf, os nad yn hollol, at Ysgrythyrau yr Hen Destament—"Ac i ti er yn fachgen wybod yr Ysgrythyr lân, yr hon sydd abl i'th wneuthur di yn ddoeth i iachawdwriaeth. Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw;" 2 *Tim.* iii. 15, 16. Gelwir hwynt hefyd, "ymadroddion Duw;" *Rhuf.* iii. 2: a gelwir y geiriau a lefarodd Dafydd yn eiriau a lefarwyd "gan yr Ysbryd Glân trwy enau Dafydd;" *Act.* i. 16. Ceir hefyd dystiolaethau cyffelyb yn 2 *Pedr* i. 21; *Iago* i. 21—23; ii. 23; iv. 5.

Dyma beth o bwys mawr wedi ei gadarnhau yn y modd mwyaf pendant a dîwrthwynebiad; sef fod canon yr Hen Destament yn amser Crist a'i apostolion yn gyflawn ac yn ddilwgr. Dyma yr awdurdod uchaf yn tystiolaethu fod yr Ysgrythyrau oedd gan yr Iuddewon y pryd hyny yn rheol anffaeledig ffydd ac ymarweddiad. Yn awr, ond i ni allu bod yn sicr pa lyfrau oedd yn gwneyd i fyny y gyfrol ddwyfol y pryd hyn, ni a allwn sefydlu canon yr Hen Destament heb un petrusder.

Nid yw Crist na'i apostolion yn rhoddi cyfres o lyfrau yr Hen Destament. Y maent wedi gwneyd dyfyniadau o lawer o honynt; ac mor bell a hyn y mae y cyfan yn eglur. Gwyddom fod y Gyfraith, y Prophwydi, a'r Salmau, yn y canon; ond nid yw hyn yn ein sicrhau fod yr holl lyfrau sydd ynddo yn bresennol ynddo y pryd hwnw, a dim yn chwaneg. Rhaid i ni droi gan hyny i chwilio am hysbysrwydd am hyn i ryw le arall. Ac yn Josephus, yr hanesydd Iuddewig, ni gawn yr hysbysrwydd angenrheidiol, nid yn wir gyda'r eglurder y gallasem ddymuno, ond eto y fath ag a'n harwain i benderfyniad hollol foddhaol. Nid ydyw yn rhoddi enwau llyfrau yr Hen Destament, ond eu nifer; ac yn rhoddi y fath ddysgrifiad o honynt, fel o'r braidd y mae yn bosibl i ni gamgymmeryd. Ei dystiolaeth ef sydd fel y canlyn:—"Nid oedd caniatâd i bawb ysgrifenu a ddymunent; nid oes chwaith anghyssonderau yn y pethau a ysgrifenwyd:—y prophwydi yn unig, wedi eu haddysgu gan ysbrydoliaeth Duw, a ysgrifenasant y dygwyddiadau boreuaf a henaf, ac a drosglwyddasant i ni ddygwyddiadau eu hamserau eu hunain, fel y dygwyddasant. O herwydd nid oes genym ni lyfrau aneirif, y rhai sydd yn anghysson â'u gilydd. Dau ar ugain yn unig sydd genym, y rhai a gredir eu bod o ddwyfol awdurdod. Y mae pump o honynt yn llyfrau Mosca. O farwolaeth Moses hyd deyrnasiad Artaxerxes, mab Xerxes brenin Persia, y mae genym ysgrifeniadau y prophwydi, olynwyr Moses, mewn tri ar ddeg o lyfrau. Y mae y pedwar llyfr arall yn cynnwys hymnau i Dduw, a rheolau i lywodraethu ein bywyd wrthynt."[1] Cytunir yn gyffredinol mai Pum Llyfr Moses ydynt Genesis, Exodus, Leviticus, Numeri, a Deuteronomium. Y mae tri ar ddeg o lyfrau a ysgrifenwyd gan y prophwydi, yn cynnwys Iosuah, Barnwyr gyda Ruth, Samuel, Brenin-oedd, Esaiah Ieremiah gyda'r Galarnad, Ezeciel, Daniel, y deuddeg prophwydi mân, Iob, Ezra, Esther, a'r Croniclau. Y pedwar llyfr ereill ydynt y Salmau, Diarebion, y Pregethwr, a Chaniad Solomon:—yr hyn sydd yn gwneyd y cyfan yn bedwar ar ugain. Fel hyn y mae yn amlwg fod y canon oedd y pryd hwnw yr un ag sydd genym ni yn awr. Gellid meddwl mai mwy priodol fyddai eu rhifo yn bedwar ar ugain; ac felly y gwneir gan yr Iuddewon yn bresennol: ond gynt, cyfrifwyd hwynt yn ol yr egwyddor Hebreig, yr hon a gynnwysai ddwy ar ugain o lythyrenau; felly, chwanegent Lyfr Ruth at y Barnwyr; ac efallai mai parhâd o'r llyfr hwnw ydyw gan yr un awdwr. Yr oedd yn naturiol hefyd iddynt chwanegu y Galarnad at Ieremiah. Am y prophwydi mân, y rhai sydd yn ddeuddeg o wahanol lyfrau yn ein Beiblau ni, cyfrifwyd hwynt gynt yn un llyfr; ac felly yr ystyrir hwynt mewn hen gyfresau, ac mewn dyfyniadau oddi wrthynt. Y mae yn anmhosibl fod un cyfnewidiad wedi ei wneyd yn y canon o amser Crist hyd amser Josephus. Gellir dywedyd yn wir ei fod ef yn gydoesawr â'r apostolion. Ganwyd ef tuag amser tröedigaeth Paul, ac y mae yn debygol i'r apostol Ioan ei oroesi. Ac yn y dyfyniad uchod, rhaid cofio fod Josephus yn dwyn ei dystiolaeth i ffaith gyhoeddus. Y mae yn tystio pa lyfrau oedd yn cael eu derbyn fel llyfrau dwyfol gan ei genedl, ac y mae yn gwneuthur hyn heb betrusder nac anghyssondeb:—"Y mae genym," meddai, "ddau ar ugain o lyfrau, y rhai a gredir ar seiliau digonol eu bod yn ddwyfol."

Gellir dwyn yn mlaen dystiolaethau ereill i'r un perwyl. Rhai o dadau boreuaf Cristionogaeth, ar ol eu dychweliad oddi wrth baganiaeth, a wnaethant ymchwiliad manwl i ganon yr Hen Destament. Teithiodd Melito, esgob Sardis, i wlad Iudea, gyda'r amcan i foddloni ei hun ar hyn. Ac er fod ei ysgrifeniadau ef wedi myned ar goll, y mae Eusebius wedi cadw y gyfres a wnaeth efe o'r llyfrau sanctaidd; oddi wrth yr hon y canfyddir fod y canon yn gymhwys yr un yn ei amser ef ag y mae yn bresennol. Y mae

[1] *Contra Apionem*, llyfr i. pen. 7, 8.

Digitized by Google

yn wir ei fod yn gadael allan Esther a Nehemiah: ond nid oes un anhawsder gyda golwg ar Nehemiah; o herwydd cyfrifid ef yr un a Llyfr Ezra, ac y mae rhai o'r farn fod Esther wedi ei ysgrifenu gan Ezra, ac o ganlyniad yn cael ei gyfrif yr un âg ef. Nid yw y cyfwng rhwng Mileto a Josephus ond can mlynedd, ac ni ellir yn rhesymol tybied fod un cyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn yr ysbaid hwn.

Yn fuan ar ol Melito, cawn gyfres o lyfrau yr Hen Destament, sydd yn cydgordio yn berffaith â'r canon presennol, gan Origen. Y mae yn wir ei fod yn ddiarwybod, neu gopïwr ei waith, wedi gadael allan y prophwydi mân; ond y mae yn sicr ei fod ef yn eu derbyn, ac nis gellir gwneyd i fyny y nifer a rydd ef yn y fan hon o lyfrau yr Hen Destament, heb eu cyfrif yn un. Ar ol hyn y mae lluaws o gyfresau yn dilyn eu gilydd gan y prif ysgrifenwyr a'r cynghorfäau, yn hollol yr un a chanon presennol y Beibl Hebraeg. Y mae yn anmhosibl i dystiolaeth o'r natur hwn fod yn gryfach.

Ond pe buasem yn hollol amddifad o bob math o brawf o'r natur yma, gallasem droi gyda'r hyder mwyaf at fath arall o brawf, fel yn hollol benderfynol ar yr achos. Y mae y llyfrau hyn, er amser Crist a'i apostolion, wedi bod yn nghadwraeth Iuddewon a Christionogion, y rhai sydd wedi bod yn hollol wrthwynebol i'w gilydd, fel nad allasai un blaid wneuthur un cyfnewidiad yn y canon heb i hyny gael ei ganfod yn union gan y llall. Ac y mae cydgordiad perffaith y pleidiau gwrthwynebol o barth i lyfrau yr Hen Destament yn brawf sicr nad oes un cyfnewidiad wedi ei wneyd ynddynt. Ar hyn y mae yr Iuddew a'r Cristion yn berffaith unol. Beibl Hebraeg y naill ydyw Beibl Hebraeg y llall:—nid oes un gwahaniaeth. Y mae yn wir mai y Protestant a'r Iuddew sydd fel hyn yn cytuno â'u gilydd: y mae eglwysi Rhufain a Groeg wedi chwanegu yr Apocrypha. [Gwel yr erthygl.]

Y mae yn ffaith bwysig, hefyd, fod cyfleithiad Groeg wedi ei wneuthur o'r Hen Destament yn fuan ar ol i'r canon gael ei orphen; yr hyn a brawf fod yr holl lyfrau sydd yn y canon yn bresennol ynddo y pryd hwnw. [Gwel Beibl; Cyfieithiad y Deg a Thrigain.] Ffaith o'r un natur hefyd ydyw cadwraeth a throsglwyddiad Pum Llyfr Moses yn mhlith y Samariaid, yn hollol annibynol ar yr Iuddewon, er yr amser y caethgludwyd deg llwyth Israel.

Heb law yr ystyriaethau hyn sydd yn perthyn fel eu gilydd i holl lyfrau yr Hen Destament, dangosir dan bob llyfr yn y gwaith hwn y profion a gynnwysa o'i hawl i le yn y canon oddi wrth y cyfeiriadau sydd ato mewn llyfrau ereill o'r gyfrol ddwyfol. Er mwyn teimlo y grym sydd yn yr ymresymiad oddi wrth y cyfeiriadau sydd yn y naill awdwr at y llall, mae yn rhaid cofio yn barhaus mai gwahanol lyfrau sydd yn gwneyd i fyny y gyfrol ddwyfol: nid ydyw eu bod yn cael eu rhwymo gyda'u gilydd yn eu gwneyd yn un yn yr ystyr hwn. Y maent yn dystion annibynol y naill i'r llall pan ddygant eu tystiolaeth i'r un ffeithiau, neu pan gyfeiriant at eu gilydd. [Gwel ar hyn cyf. i, tudal. 657.] Y mae llyfrau diweddarach yr Hen Destament yn cyfeirio yn fynych at hysbysiadau llyfrau boreuach; ac mae llyfrau y Testament Newydd, heb law yn eu dadganiad mynych a phendant o ddwyfoldeb Ysgrythyrau yr Hen Destament, fel y sylwyd uchod, yn cynnwys cyfeiriadau lluosog at bron holl lyfrau unigol yr Hen Destament.

CANON Y TESTAMENT NEWYDD.

Fel y mae yn amlwg oddi wrth y ffaith mai Ysgrythyrau y Testament Newydd ydyw yr ysgrifeniadau olaf a roddwyd trwy ysbrydoliaeth ddwyfol, nid ellir cael *tystiolaeth ddwyfol* dros berffeithrwydd canon y Testament Newydd megyzy ceir yn nhystiolaeth Crist a'i apostolion dros berffeithrwydd canon yr Hen. Ond gan i'r Testament Newydd gael ei ysgrifenu gannoedd o flyneddoedd yn nes at ein hoes ni, a chan iddynt roddi bod, yn yr oesoedd dilynol i'w hymddangosiad, i lenyddiaeth doreithiog o bob math o gyfansoddiadau, y rhai sydd yn rhoi manteision i ni farnu drosom ein hunain am y derbyniad a roddwyd i lyfrau y Testament Newydd bob yn un ac un, nid ydym yn sefyll yn yr un amgylchiadau gyda golwg arnynt hwy ag yr ydym gyda golwg ar lyfrau yr Hen Destament, y rhai nis gallwn eu holrhain yn fanwl bob yr un. Gwyddom lai am awduron, amgylchiadau cyfansoddiad, a derbyniad llyfrau yr Hen Destament nag a wyddom am y Newydd; ond i wneyd i fyny am y diffyg hwn, y mae genym luaws mawr o gyfeiriadau *ysbrydoledig* at y cyntaf, â sel Mab Duw ar eu dwyfoldeb. Am yr olaf y mae genym y fath gyflawnder o brawf yn ysgrifeniadau cyfeillion a gelynion Crist ag sydd yn gwneuthur pob math arall yn afreidiol.

Mae y darllenydd yn cofio ein bod yn yr erthygl hon yn llefaru am y profion allanol neu hanesyddol sydd genym dros hawl llyfrau y Testament Newydd i'w lle yn y canon. Ac nis gwyddom am un ffordd mwy adeiladol i astudio hanes oesoedd cyntaf yr Eglwys Gristionogol nag a fyddai cymmeryd y canon yn destyn ein hymchwiliad, ac edrych ar holl gynnyrchion meddyliol yr oesoedd hyny yn eu cyssylltiad âg ef. Hanes y canon ydyw un elfen bwysig yn hanes yr eglwys. Dwg hyn ni i gyfarfyddiad â'i phrif amddiffynwyr a'i phrif wrthwynebwyr—y rhai a wnaeth fwyaf i'w llygru â chyfeiliornadau, a'r rhai a enwogasant eu hunain trwy amddiffyn ei phurdeb, a gwrthwynebiadau ymherawdwyr, a phenderfyniadau cynghorfäau. Mae cyflawnder o ddefnyddiau wedi eu casglu at eu gilydd gan ysgrifenwyr diweddar i egluro syniadau Cristionogion yr oesoedd cyntaf am y llyfrau a dderbynid ganddynt yn freinlen eu rhagorfreintiau a rheol eu dyledswyddau. Yr hwn sydd wedi gwneyd hyn lwyraf ydyw Dr. Nathaniel Lardner, yn ei waith dysgedig, *The Credibility of the Gospel History*. Y mae efe wedi tramwyo dros holl wyneb llenyddiaeth, paganaidd a Christionogol, yr oesoedd hyny, ac wedi casglu yr holl gyfeiriadau o bob natur sydd yn frith ar hyd-ddi at ysgrifeniadau y Testament Newydd, a thrwy hyny wedi cyfansoddi prawf hanesyddol o'i wirionedd, y fath, medd Dr. Chalmers, ag a ddylai wneyd i bob Cristion deimlo yn falch o'i grefydd. Ond yr amcan yn y lle hwn ydyw galw sylw, nid at y profion o wirionedd y ffeithiau a gynnwysir yn y Testament Newydd, ond at y cylch llai hwnw o dystiolaethau cyfoeswyr yr apostolion a'u holynwyr ag sydd yn dangos pa beth oedd eu teimlad a'u barn hwy—hyny yw, pa beth oedd teimlad a barn yr holl eglwysi Cristionogol—o barth i'r lle a roddent i'r Testament Newydd. Nid yn unig a ystyrid ef ganddynt yn *wir*, yn cynnwys ffeithiau wedi eu hadrodd yn gywir, ond o *ysbrydoliaeth ddwyfol;* ac felly yn meddu awdurdod i benderfynu pa beth sydd yn wir mewn athrawiaeth, ac yn ddyledswydd mewn moesau.

Digitized by Google

Mae yr ymchwiliad hwn i hanes y Testament Newydd fel rheol anffaceledig, yn ngwyneb tystiolaethau y rhai oedd yn ddysgyblion ac yn olynwyr i'w ysgrifenwyr, ac felly yn meddu y manteision goreu i farnu am eu hawliau, i fod yn ymchwiliad trwyadl, ac felly yn cynnwys ymchwiliad i hawl pob llyfr ar ei ben ei hun i le yn y gyfrol sanctaidd. Dan bob llyfr y ceir ystyriaeth fanwl o'r tystiolaethau allanol, yn nghyd â'r profion tufewnol o'u hysbrydoliaeth, a'u hawl i le yn nghanon yr Ysgrythyrau. Ond yn chwanegol at hyn, nid yw yn llai angenrheidiol i gael golwg cyffredinol ar hanes llyfrau y Testament Newydd fel un casgliad o ysgrifeniadau.

Yn raddol y sefydlwyd canon y Testament Newydd. Yr oedd amgylchiadau cymdeithas, yn nghyd âg ansawdd dufewnol y gwahanol eglwysi, yn rhwystr i hyn gael ei wneyd ar unwaith nac yn fuan. Nid oes un sail i'r traddodiad sydd yn priodoli sefydliad y canon i'r apostol Ioan. Yn mhlith yr attalfeydd i ffurfiad buan y canon, yr oedd anhawsderau teithio; ac o ganlyniad, dyeithrwch cymhariaethol gwahanol eglwysi i'w gilydd. Yr oedd lluosogiad ysgriflyfrau yn gostus ac yn araf. Yr oedd canolbwynt ymgyfarfyddiad Cristionogion â'u gilydd wedi ei ddinystrio yn nghwymp Ierusalem; a'r canlyniad fu, i eglwysi mewn gwahanol wledydd roddi mwy o arbenigrwydd ar y ffurfiau a'r cyssylltiadau hyny o wirioneddau yr efengyl a gynnwysid yn ysgrifeniadau yr apostolion oedd yn fwyaf adnabyddus iddynt hwy.

Fod epistolau Paul, Ioan, Pedr, ac Iago, yn dwyn nodwedd neillduol eu hysgrifenwyr, sydd amlwg i ddarllenwyr manwl. Yr oedd y dynion eu hunain yn wahanol mewn llawer o nodweddau meddyliol; ac y mae hyn wedi achlysuro amrywiaeth hyfryd ac adeiladol yn eu dull o edrych ar yr un gwirioneddau dwyfol. Yr oedd yn beth i'w ddysgwyl, gan hyny, i wahanol eglwysi adlewyrchu gyda mwy o rym nodweddau yr apostolion yr oeddynt fwyaf dan eu dylanwad, naill ai trwy addysg bersonol neu trwy gyfrwng eu hysgrifeniadau. Fel canlyniad naturiol o hyn, yr oedd lledaeniad gwahanol ranau y Testament Newydd yn ymddibynu mwy neu lai, am dymmor, ar y ffurfiau neillduol o Gristionogaeth a ffynai mewn gwahanol wledydd.

Nid oedd y gwahaniaeth hwn yn wahaniaeth hanfodol mewn athrawiaeth, ond yn effaith dylanwadau achlysurol; a diflanodd yn ol fel y daeth Cristionogion i gael mwy o adnabyddiaeth a chymdeithas â'u gilydd.

Tra yr oedd yr apostolion yn fyw, a'r eglwysi yn cael y fantais i glywed yr efengyl o'u geneuau, nid oedd yr angen am eu haddysgiadau ysgrifenedig yn cael ei deimlo mor fawr. Heb law hyny, yr oedd y Cristionogion cyntaf yn tynu cysur ac addysg o ysgrifeniadau yr Hen Destament i raddau helaethach nag y gwneir fe ddichon yn bresennol.

Ond yn mhen ychydig, daeth cyfnewidiad ar amgylchiadau yr eglwysi. Ar ol i ddysgyblion uniongyrchol yr apostolion fyned ymaith, ac i gyfeiliornwyr gyfodi, gan hòni awdurdod Paul a Phedr dros yr hyn a ddysgent, nid oedd yn ddigon i appelio at y traddodiadau oedd ar led am yr athrawiaethau a ddysgasai yr apostolion; o herwydd gallasai y cyfeiliornwyr hòni traddodiadau gwrthwynebol. Yn yr amgylchiadau hyn, nid oedd un ffordd i benderfynu pa beth oedd y gwirionedd ond trwy fyned at y rheol a adawsant ar eu hol, sef eu hysgrifeniadau, y rhai nas gallesid eu newid na'u llygru. Mewn dadleuon a gyfodent yn yr eglwysi eu hunain, yr oedd appeliadau at eiriau ysgrifenedig yr apostolion yn benderfynol. Felly, nid oedd amgylchiadau yn galw am i'r Cristionogion cyntaf ddadgan eu barn am awdurdod llyfrau y Testament Newydd nes i eg wysi gael eu planu, ac ennill nerth, ac i lenyddiaeth gael ei gwreiddio yn eu mysg. Yn y cyfwng rhwng marwolaeth yr apostolion a lledaeniad cyffredinol llyfrau Cristionogol, sef o ddiwedd y canrif cyntaf hyd ddiwedd yr ail, y mae yr adeg dywyllaf ar hanes y canon; ac yr oedd hyn yn codi yn naturiol o amgylchiadau pethau. Ond o ddiwedd yr ail canrif yn mlaen, y mae yr hanes yn eglur, a'r prawf yn gyflawn. Am yr hanner can mlynedd cyntaf ar ol marwolaeth yr apostol Ioan, ychydig o lythyrau yn unig a ysgrifenwyd gan Gristionogion: nid ellir dysgwyl, gan hyny, cyfarfod â lluaws o gyfeiriadau at lyfrau y Testament Newydd.

Ond er mwyn dangos y parch a roddid i ysgrifeniadau yr apostolion o'r oesoedd cyntaf, rhoddwn, yn gyntaf, y penau dan ba rai y mae Paley wedi crynoi y profion a gasglwyd gyda'r fath gyflawnder gan Lardner:—"Yn laf. Y mae llyfrau y Testament Newydd yn cael eu dyfynu neu yn cael cyfeirio atynt gan ysgrifenwyr Cristionogol, yn dechreu gyda'r rhai oedd yn cydoes gyda'r apostolion neu eu holynwyr uniongyrchol, ac yn parhau yn ddifwlch ac yn rheolaidd hyd yn bresennol. Yn 2il. Pan y cyfeirir at neu y dyfynir yr Ysgrythyrau, gwneir hyny bob amser gyda pharch neillduol, fel llyfrau sydd yn sefyll yn hollol ar wahan oddi wrth bob llyfrau ereill, ac fel yn meddu awdurdod sydd heb fod yn perthyn i ddim llyfrau ereill, ac yn hollol benderfynol yn mhob dadleuon yn mhlith Cristionogion. Yn 3ydd. Casglwyd yr Ysgrythyrau yn fore i un gyfrol. Yn 4ydd. Yn fore rhoddwyd enwau o barch a theitlau ar yr ysgrifeniadau sanctaidd sydd yn ein mysg ni i'w gwahaniaethu oddi wrth bob llyfrau ereill. Yn 5ed. Darllenwyd ac esboniwyd hwynt yn nghynnulliadau crefyddol y Cristionogion cyntaf. Yn 6ed. Ysgrifenwyd esboniadau arnynt; cymharwyd hwynt â'u gilydd; a chyfleithwyd hwynt i wahanol ieith oedd. Yn 7fed. Derbyniwyd hwynt gan Gristionogion o wahanol sectau, gan gyfeiliornwyr yn gystal a chan rhai uniawngred, ac appeliwyd atynt gan bob ochr i benderfynu eu dadleuon. Yn 8fed. Derbyniwyd y Pedair Efengyl, Actau yr Apostolion, tri ar ddeg o lythyrau yr apostol Paul, Epistol Cyntaf Ioan, ac Epistol Cyntaf Pedr, heb un ammheuaeth, hyd yn oed gan y rhai oedd yn ammheu mewn perthynas i'r llyfrau ereill a gynnwysir yn ein canon presennol. Yn 9fed. Ymosodwyd ar lyfrau hanesiol y Testament Newydd fel yn cynnwys y ffeithiau ar ba rai y mae Cristionogaeth yn seiliedig, gan elynion crefydd. Yn 10fed. Cyhoeddwyd cyfresau (*catalogues*) o lyfrau y Testament Newydd, yn mha rai y cynnwysid yr holl lyfrau sydd yn y canon presennol, ar ol i hysbysrwydd am danynt gael ei ledaenu, ac i'w hawliau i le yn y canon gael eu cydnabod gan yr eglwysi yn gyffredinol. Yn 11eg. Nis gellir hòni yr un pethau am y llyfrau hyny a elwir, 'Llyfrau apocryphaidd y Testament Newydd.'" Rhydd Paley grynodeb o'r tystiolaethau a gasglodd Lardner i brofi y gosodiadau hyn.

Ond yn ddiweddarach, y mae yr holl faes wedi ei chwilio drachefn a thrachefn gan ysgolheigion

Digitized by Google

yr Almaen yn yr ysbryd mwyaf beirniadol a mwyaf penderfynol i beidio cymmeryd eu boddloni heb y profion egluraf a mwyaf diymwad. Y gwaith diweddaraf ar y canon yn Lloegr ydyw gwaith Westcott; yn yr hwn y ceir golwg cyffredinol ar hanes a ffurfiad y canon am ysbaid y pedwar canrif cyntaf, a hyny gyda mantais hoil ymchwiliadau a beirniadaeth ddiweddar yr Almaen. Yr oedd y gwaith hwn yn angenrheidiol er mwyn cyfarfod agwedd ac ysbryd presennol beirniadaeth anffyddol a Neologaidd, a gosod yr ymofyniad i ganon yr Ysgrythyrau yn ei arbenigrwydd priodol yn ei gyssylltiad â duwinyddiaeth yr oes bresennol.

Nis gellir gwneyd yn well na rhoddi crynodeb o'r defnyddiau y mae Westcott wedi eu casglu yn nghyd i egluro hanes a ffurfiad y canon, yr hyn ar yr un pryd fydd yn fantais i'r darllenydd mewn trefn i gael golwg cyffredinol ar hanes boreuol yr eglwys, ac yn gyfarwyddyd iddo i droi at erthyglau yn nghorff y gwaith hwn a rydd chwaneg o oleuni ar y materion y cyfeirir atynt.

Dosberthir holl hanes ffurfiad canon y Testament Newydd i dri chyfnod. Y mae y cyfnod cyntaf yn cynnwys hanes y canon o'r oes apostolaidd hyd amser Hegesippus. Yr ail hyd erlidigaeth Diocletian. Y trydydd hyd amser Cynghorfa Carthage. Mae y cyntaf yn cynnwys yr adeg yn mha un yr oedd llyfrau y Testament Newydd yn cael eu lledaenu ar wahan, ac yn cael eu casglu yn raddol at eu gilydd: mae yr ail yn cwblhau eu didoliad oddi wrth lyfrau Cristionogol ereill: a chynnwysa y trydydd gadarnhad y grediniaeth gyffredinol trwy awdurdod cynghorfäau.

Y CYFNOD CYNTAF. B.A. 70—170.

Gelwir yr hanner can mlynedd cyntaf o'r cyfnod hwn (70—120) "oes y tadau apostolaidd." Y rhai a gyfrifir felly ydynt CLEMENT o Rufain, IGNATIUS, POLYCARP, a BARNABAS. Ni chyn nwysa eu hysgrifeniadau draethodau, na hanesion, nac amddiffyniadau i'w crefydd—dim ond llythyrau yn llawn o deimlad byw o'u cymundeb newydd â Christ ac â Christionogion fel eu brodyr ynddo. Ac nid yw eu llythyrau yn cynnwys ond rhybuddion ac annogaethau gwresog i'w brodyr crefyddol. Yr ymofyniad yn y lle hwn ydyw, Pa beth sydd yn y llythyrau hyn yn dwyn cyssylltiad â thestyn yr erthygl hon? Dangosant fod ysgrifeniadau yr apostolion yn cael eu derbyn fel yn meddu awdurdod i benderfynu athrawiaeth a buchedd Gristionogol. Dangosant ddechreuad canon ysgrifenedig. Gan y rhoddir hanes yr ysgrifenwyr hyn dan eu henwau priodol nid yw yn angenrheidiol yma ond dwyn ar gof i'r darllenydd mai dysgyblion yr apostolion oeddynt—wedi gwrando arnynt, ac wedi dysgu yn bersonol ganddynt. A phwy a all ammheu eu bod yn ysgrifenu dan ddylanwad dysgeidiaeth apostolaidd yn y syniadau canlynol. Fel hyn y dywed Clement, gan uno athrawiaethau Paul ac Iago yn ei gyfeiriadau at gyflawnhad.—"Trwy ffydd a llettygarwch rhoddwyd mab i Abraham yn ei henaint, a thrwy ufudd-dod efe a'i offrymodd i Dduw." "Trwy ffydd a llettygarwch yr achubwyd Rahab." "Nid trwyddom ein hunain na thrwy y gweithredoedd a gyflawnasom ni yn sancteiddrwydd ein calon y'n cyflawnheir, ond trwy ffydd, trwy yr hon y mae y Duw Hollalluog wedi cyflawnhau pawb o ddechreuad y byd." Yn fuan wed'yn chwanega, "Gweithiwn gan hyny â'n holl galon weithredoedd cyflawnder." Y mae Westcott yn canfod dylanwad Ioan ar Clement yn y geiriau canlynol a'u cyffelyb:—"Mae gwaed Crist wedi ennill i'r holl fyd gynnygiad o ras a maddeuant." "Trwyddo ef yr ydym yn sefydlu ein golwg ar uchelderau y nefoedd; trwyddo ef yr agorir llygaid ein calonau; trwyddo ef y mae ein deall tywyll yn cael ei fywiogi yn ngwres ei oleuni rhyfeddol ef." Y mae y cyfeiriadau at yr Epistol at yr Hebreaid mor luosog fel y mae yn hawdd canfod fod meddwl Clement wedi ei drwytho ynddo.

Mewn dyfyniadau o Ignatius, canfyddir yn amlwg ddylanwad syniadau Paul ac Ioan; megys yn y rhai canlynol; "Ffydd yw dechreuad a chariad ydyw diwedd bywyd." "Ffydd ydyw ein harweinydd i fyny; ond cariad ydyw y ffordd sydd yn ein tywys at Dduw." "Y Gair trâgwyddol ydyw yr amlygiad o Dduw, y drwstrwy yr hwn yr ydym yn dyfod at y Tad; ac hebddo ef yr ydym yn amddifad o egwyddor gwir fywyd." Gwir ymborth y Cristion "ydyw bara Duw, bara y nefoedd, bara y bywyd, yr hwn yw cnawd Iesu Grist;" a'i ddiod "ydyw gwaed Iesu Grist, yr hyn ydyw cariad anllygradwy."

Yr un modd y mae llythyrau Polycarp a Barnabas yn llawn o ymadroddion o'r Testament Newydd. Ac er fod Polycarp yn defnyddio geiriau ac ieithwedd neilldduol Paul ac Ioan, eto y mae ei gyfeiriadau at Pedr yn lluosog ac amlwg. Mewn un ystyr y mae tystiolaeth Polycarp yn fwy pwysig nag eiddo un o'r tadau apostolaidd. Fel ei athraw (Ioan), fe fu efe byw i uno dwy oes. Yr oedd yn ddysgybl i Ioan, ac fe fu ei hun yn athraw i Irenæus.

Fel hyn y mae tystiolaethau y tadau apostolaidd yn brawf o'r ffurfiau neilldduol o feddwl ac ymadroddi a geir yn llythyrau yr apostolion. Ond nid yn unig canfyddir cydsyniad hanfodol mewn athrawiaeth, gyda gwahaniaeth ieithwedd, ond y mae cyfeiriadau at yr apostolion dan eu henwau. Mae yn wir nad yw y cyfeiriadau hyn mor fynych yn eu hysgrifeniadau hwy ag a geir mewn ysgrifenwyr diweddarach: ac y mae hyn yn codi yn naturiol o'u hagosrwydd at yr apostolion. Nid oedd yn debygol y buasai i'r rhai oedd wedi clywed y llais byw gyfeirio at eu geiriau ysgrifenedig. Mae cymdeithas bersonol yn nes atom na chymdeithas llyfrau. Eto mor fynych ag y gallesid dysgwyl, fe geir cyfeiriadau personol. "Cymmerwch i fyny epistol y bendigedig Paul yr apostol," medd Clement yn ei Lythyr at y Corinthiaid....."mewn gwirionedd efe a'ch rhybuddiodd am dano ei hun, a Cephas, ac Apollos." Wrth ysgrifenu at yr Ephesiaid, dywed Ignatius, "Mae y rhai sydd yn cael eu cymmeryd ymaith at Dduw trwy ferthyrdod yn myned trwy eich dinas; yr ydych chwi wedi eich dysgu yn y dirgeledigaethau gyda Sant Paul, yr hwn sydd wedi ei sancteiddio, wedi ei ferthyru, ac yn deilwng o bob bendith.....yr hwn yn mhob rhan o'i lythyr sydd yn coffa am danoch yn Nghrist Iesu." Dywed Polycarp wrth y Philippiaid, "Y mae y bendigedig Paul wedi ysgrifenu llythyrau atoch, trwy ba rai, os edrychwch iddynt yn astud, y gellwch gael eich adeiladu i gyflawnder y ffydd sydd wedi ei rhoddi i chwi." Heb law hyn, y mae eu llythyrau yn cynnwys lluaws o gyfeiriadau pendant at agos holl lythyrau yr apostolion [*Westcott*, tudal. 57]. Y mae ynddynt hefyd y prif ffeithiau a'r tystiolaethau a gynnwysir yn yr Efengylau am Grist. Mae y canlynol yn grynodeb:—"sef fod Crist, y tragwyddol Air, Arglwydd a Chreawdwr y byd, yr hwn oedd gyda'r Tad cyn i amser ddechreu, wedi dibrisio ei hun, ac wedi dyfod i lawr o'r nefoedd,

Digitized by Google

wedi ei eni o'r Forwyn Fair, o hâd Dafydd yn ol y cnawd; fod seren o ddysgleirdeb anarferol wedi ymddangos ar ei enedigaeth. Ar ol hyny iddo gael ei fedyddio gan Ioan i gyflawnu pob cyfiawnder; ac yna, yn ol gorchymyn ei Dad, efe a alwodd nid rhai cyfiawn ond pechaduriaid i edifeirwch. O'r diwedd, dan Herod a Pontius Pilat, croeshoeliwyd ef; rhoddwyd finegr iddo i'w yfed. Ond ar ddydd cyntaf yr wythnos, efe a gyfododd oddi wrth y meirw yn flaenffrwyth y bedd; a chyfodwyd llawer o brophwydi gydag ef, am yr hwn y dysgwyliasant. Ar ol ei adgyfodiad, efe a fwytaodd gyda'i ddysgyblion, ac a ddangosodd iddynt nad oedd yn ysbryd digorff. Efe a esgynodd i'r nefoedd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw y Tad; ac oddi yno y daw i farnu y byw a'r meirw."

Y cyfryw, yn eu geiriau eu hunain, ydyw tystiolaeth y tadau apostolaidd i fywyd y Gwaredwr.

Ar ymgnawdoliad, dyoddefiadau, ac adgyfodiad Crist y gorphwysent eu gobaith. Y mae yn wir nad yw y tystiolaethau hyn am ffeithiau bywyd ac angeu Crist yn brawf fod yr Efengylau mewn bod; o herwydd yr oedd y ffeithiau yn adnabyddus cyn eu hysgrifenu, a diau fod lluaws yn gydnabyddus â hwynt na chawsant fantais i'w darllen. Ond y maent yn brawf o wirionedd hanfodol yr Efengylau. Y maent yn brawf fod ffeithiau bywyd ac angeu Crist yn adnabyddus i bawb o'r dechreu: y maent yn brawf fod Cristionogaeth yn gorphwys ar ffeithiau hanesiol.

Y mae y tadau apostolaidd, er eu bod yn ddysgyblion ac yn ganlynwyr i'r apostolion, yn gosod eu hunain ar dir is;—nid ydynt yn hôni yr un anffaeledigrwydd ac awdurdod iddynt eu hunain ag a briodolant i'r apostolion; er, efallai, nad oeddynt yn deall yr athrawiaeth o ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau yn ei chyflawnder, fel y gwneir yn bresennol, o herwydd yn raddol y mae yr eglwys wedi dyfod i ddeall cynnwys pob athrawiaeth. Y mae rhyw bellder yn angenrheidiol i iawn ddirnad pob gwrthddrych. Ac nid yw Duw yn dysgu dynion trwy ddynion, ond yn ddarostyngedig i ddeddfau y bywyd a'r meddwl dynol. Ond er fod amgylchiadau yn rhwystr i'r tadau apostolaidd ddeall cyflawn bwysigrwydd yr Ysgrythyrau i'r eglwys hyd ddiwedd y byd, o herwydd eu bod hwy eu hunain yn dibynu i fesur mawr ar ddysgeidiaeth bersonol yr apostolion, eto y maent yn priodoli iddynt allu a doethineb nad ydynt hwy eu hunain yn eu hôni; —fel trwy ddysgeidiaeth ryw reddf ysbrydol, y mae pob un o'r dysgawdwyr hyn yn cyferbynu eu hysgrifeniadau eu hunain âg ysgrifeniadau yr apostolion, ac yn gosod eu hunain ar is tir. Y mae y ffaith hon yn llawn o ystyr; o herwydd y mae yn dangos pa fodd yr oedd ffurfiad y canon yn ffrwyth ymwybyddiaeth uniongyrchol Cristionogion, ac nid yn effaith ymresymiad.

Y mae tystiolaeth y tadau hyn yn fwy gwerthfawr wrth gofio eu bod yn gyssylltiedig â phedwar prif ganolbwynt Cristionogaeth; sef dinasoedd mor bell oddi wrth eu gilydd ag Antiochia, Alexandria, Ephesus, a Rhufain. Dengys hyn fod yr holl eglwysi Cristionogol o'r dechreu yn derbyn ffeithiau mawrion hanesion yr efengylwyr, a sylwedd llythyrau yr apostolion; eu bod yn un yn hanfodion crefydd, ac yn adlewyrchu yr amrywiaeth sydd i'w ganfod yn ngwahanol ranau y Testament Newydd. Cydnabyddent y priodoldeb o ganon neu reol anffaeledig mewn crefydd, ac awgryment ei derfynau, trwy gyfeirio a dadgan prif ffeithiau Cristionogaeth, a defnyddio athrawiaethau ac ymadroddion bron yr gwbl o gyfansoddiadau yr apostolion.

Pennod arall yn hanes y cyfnod cyntaf a nod wyd ydyw

OES AMDDIFFYNWYR GROEGAIDD CRISTIONOGAETH (120—170 B. A.).

Yr oedd llenyddiaeth yr oes hon yn dra gwahanol i eiddo yr oes flaenorol. Cynnwysai bron bob math o gyfansoddiadau mewn rhyddiaith:—llythyrau, croniclau, traethodau, amddiffyniadau gweledigaethau, ac ystoriau. Yr oedd amgylchiadau Cristionogaeth yn y byd wedi newid. Yr oedd yn rhaid i'r eglwys, erbyn hyn, amddiffyn ei hun yn ngwyneb erlidigaethau, heresiau, a dadleuon athronyddol. Yr oedd llywodraethwyr gwladol am rai blyneddoedd cyn deall fod gwahaniaeth rhwng Iuddewaeth a Christionogaeth felly yr oedd yr olaf yn mwynhau tawelwch dan nodded y blaenaf. Ond ni chafodd nodded yn hwy dan yr hen enw o Iuddewaeth; a bu raid i'w phroffeswyr roddi rheswm am y grefydd y ceisient nodded iddi. Parodd hyn i ysgrifenwyr Cristionogol gymmeryd golwg newydd ar eu crefydd; sef ar ei chymhwysder i gyfarfod angenion dyfnaf y ddynoliaeth, ac i ateb holl gwestiynau paganiaeth. Yr oedd llenyddiaeth yr oes hon yn gyffelyb i un yr oes flaenorol yn ei hiaith —Groeg oedd y ddwy. Nid oedd y tadau Lladinaidd wedi ymddangos eto. Y mae hon yn ffaith o bwys yn ei chyssylltiad â natur y cyfeiriadau a geir at y canon yn yr adeg hon. Yr oedd nodwedd neilduol a gwahaniaethol yn perthyn i'r Groegiaid. Eu tuedd neillduol hwy oedd at wirionedd, a thuedd y Rhufeiniaid at ddeddf. Yn y canlyniadau eithaf maent yn cytuno; o herwydd y mae y gwirionedd uchaf a'r ddeddf ddyfnaf yn cydgordio: eto y maent yn wahanol yn eu dull o gyrhaedd yr amcan hwn. Y mae y gwahaniaeth hwn i'w ganfod yn eu dull o ddefnyddio a chyfeirio at y Testament Newydd. Effaith y duedd hon ar y Groegiaid oedd eu gogwyddo at sylwedd a chynnwysiad ei ddysgeidiaeth yn y lle cyntaf, yn hytrach nag at gyfeiriadau mewn geiriau a dyfyniadau pendant.

Ceir holl weddillion y llyfrau a ysgrifenwyd yn ystod yr adeg dan sylw, ac sydd yn awr ar gael, dan yr enwau canlynol: Papias, Quadratus, ac Aristides, Agrippa Castor, Justin Ferthyr, Dionysius o Corinth, Hermas, Hegesippus, Melito, a Claudius Apollinaris. Y mae cyfansoddiadau yr ysgrifenwyr hyn yn dwyn tystiolaeth gyflawn a mynych i hanfodiad ac awdurdod holl lyfrau y Testament Newydd ond un, sef Ail Epistol Pedr. Dygant dystiolaeth hefyd i'r ffaith fod yr athrawiaethau oedd yn cael eu dysgu yn y gwahanol eglwysi gan ddynion o nodweddau cenedlaethol a phersonol hollol wahanol, ac mewn llyfrau yn amrywio yn fawr yn eu hamcan a dull eu cyfansoddiad, yn gyfryw ag sydd yn cyfateb i'r canon apostolaidd

Tystiolaethau personol ydyw y tystiolaethau a ddygwyd yn mlaen hyd yn hyn, a thystiolaethau dynion ffafriol i Gristionogaeth: ond er mwyn cwblhau a chadarnhau y prawf mai y canon a ddefnyddir yn bresennol oedd yr un a ddefnyddiwyd ar y dechreu, ymofynir yn nesaf pa mor bell yr oedd eglwysi gwahanol wledydd yn ei dderbyn, a pha mor bell yr oedd cyfeiliornwyr yn ei gydnabod. Cawn dystiolaeth eglwysi a thaleithiau yn y cyfeithiadau boreuol.

O'r amddiffynwyr Groegaidd, Justin Ferthyr ydyw yr un ag y mae ei dystiolaeth gyflawnaf i hanfodiad ac awdurdod llyfrau y Testament

Digitized by Google

Newydd yn ei ddyddiau ef. Ganed ef oddeutu y flwyddyn 90, a bu farw 165 B. A. Llanwai y dyfyniadau o'r Testament Newydd sydd yn ei weithiau, a'r sylwadau y mae beirniaid diweddar wedi gwneyd arnynt, gyfrol eu hunain. Wrth gymharu y dyfyniadau hyn gyda'r hyn a geir yn yr Efengylau, y mae lluaws yn cytuno gair yn ngair; ereill yn cytuno o ran ffeithiau ond yn amrywio ychydig o ran y geiriad; rhydd ereill drachefn y meddwl; mewn ereill, sylwedd amryw o adnodau a roddir yn nghyd. Nid oes genym le yma ond i anghraifft neu ddwy. "Ond pren heb ddwyn ffrwyth da a dorir i lawr ac a deflir i'r tan;" *Mat* vii. 19; *Justin's Apol.*, ii. Y mae hwn yn ddyfyniad air yn ngair. O'r rhai sydd yn meddu cyffelybrwydd cyffredinol y mae hwn yn anghraifft,—"Na chymmerwch ofal pa beth a wisgoch; onid ydych yn well nag adar y nefoedd, neu anifeiliaid gwyllt? ac eto y mae Duw yn eu porthi hwy. Na chymmerwch gan hyny feddwl pa beth a fwytaoch neu pa beth a wisgoch; canys gŵyr eich Tad nefol fod arnoch eisieu y pethau hyn; ond ceisiwch deyrnas nefoedd, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn chwaneg; o herwydd lle mae eich trysor yno y mae meddwl dyn."—*Justin's Apol.*, ii. Nis gall fod ammheuaeth nad oedd y dyn oedd yn ysgrifenu fel hyn yn meddu ein Testament Newydd ni. Ac y mae hwn hefyd yn un o'r rhai mwyaf anghywir. Onid yw yn hollol sicr pan y mae llyfrau yn cael eu hysgrifenu tua chanol yr ail canrif—hyny yw, ychydig dros hanner can mlynedd ar ol marwolaeth yr apostolion—wedi eu britho â dyfyniadau fel hyn, fod y Testament nid yn unig mewn bod ond mewn arferiad. Dwg Justin ei dystiolaeth i'r ffaith fod *Adgofion yr Apostolion*—dyna un enw a ryddar yr Efengylau—yn cael eu darllen yn y gwasanaeth wythnosol yn yr eglwysi ar yr un tir a llyfrau y prophwydi; neu mewn geiriau ereill, eu bod yn mwynhau urddas yr Ysgrythyr. Mae darllen llyfrau Justin, a gweled fod ymadroddion a ffeithiau y Testament Newydd fel yr Hen yn rhedeg trwyddynt, yn creu argyhoeddiad annileadwy yn y meddwl fod y ffeithiau yn wir, ac hefyd fod seiliau credadwy yn bod i olrhain yr Efengylau a'r Epistolau i fyny i'r apostolion.

CYFIEITHIADAU BOREUOL.

Un o'r cyfieithiadau henaf, os nad yr henaf oll, ydyw y Peshito [gwel BEIBL CYFIEITHIADAU]. Yr oedd y cyfieithiad hwn yn hen yn y pedwerydd canrif, ac yn cael ei dderbyn yn gyffredinol gan y gwahanol sectau i ba rai yr oedd yr eglwys yn Persia wedi ei rhanu, ac yn para felly hyd yn bresennol. Mae y cyfieithiad hwn yn dangos pa lyfrau a dderbynid yn ganonaidd gan eglwysi Syria yn y cyfnod boreuol hwn. Ni chynnwysa un llyfr nad yw yn ein Testament Newydd ni; ond y mae yr Ail a'r Trydydd o epistolau Ioan yn absennol, Ail Epistol Pedr, Epistol Iudas, a'r Dadguddiad. Yr oedd rhyw gymmaint o amser yn angenrheidiol i eglwysi un wlad ddyfod yn adnabyddus o'r llyfrau oedd wedi eu hysgrifenu neu eu cyfeirio at eglwysi gwlad arall.

Yn yr eglwysi gorllewinol, oedd yn defnyddio yr iaith Ladin, yr oedd hen gyfieithiad Lladin mor fore o'r hyn lleiaf a B. A. 170: ni wyddys pa faint yn foreuach. Cynnwysai y cyfieithiad hwn y pedair efengyl, tri ar ddeg o epistolau Paul, tri epistol Ioan, Epistol Cyntaf Pedr, Epistol Iudas, a'r Dadguddiad. Chwanegwyd cyn amser Tertullian (B. A. 190), y cyntaf o'r tadau Lladinaidd, yr Epistol at yr Hebreaid. Y mae y ddau gyfieithiad henaf hyn yn cynnwys llais yr eglwysi a'u defnyddient o barth i'r llyfrau oedd yn y canon y pryd hwnw. Mae y ddau yn anmherffaith. Ac yr oedd hyn i'w ddysgwyl nes i'r ddau gael eu huno—nes dwyn llais y dwyrain a'r gorllewin at eu gilydd. Rhoddid derbyniad dioed i'r holl llyfrau yn y gwledydd lle yr oeddynt yn adnabyddus. Yr oedd Epistol Iago nid yn unig wedi ei gyfeirio at Iuddewon, ond hefyd wedi ei ysgrifenu yn Palestina. Nid yw yn rhyfedd gan hyny fod yr eglwysi Lladinaidd am dymmor heb wybod am dano. Ysgrifenwyd yr Epistol at yr Hebreaid ar y llaw arall yn Italy. Er ei fod wedi ei ysgrifenu i Iuddewon, yr oedd gan hyny yn adnabyddus yn yr eglwysi hyny, er y petrusent ei dderbyn ar y cyntaf i'r canon, gan yr ammheuent a ysgrifenwyd ef gan Paul. Cydnabyddwyd y Dudguddiad o'r dechreu yn y manau y llafuriai Ioan ynddynt, er fod peth amser yn angenrheidiol i eglwysi ereill gael hysbysrwydd yn ei gylch. Gallasai cyfeiriad anmhenderfynol Epistol Iudas, ac Ail Epistol Pedr, fod yn rhwystr iddynt gael eu cydnabod am dymmor yn mhob man.

Y MAE TYSTIOLAETH HERETICIAID BOREUOL yn benderfynol o blaid dilysrwydd ac awdurdod y Testament Newydd. Gan eu bod yn ymwrthod â'r syniadau a gyfrifid yn uniawngred, ni buasent yn cydsynio â hwynt yn eu barn am yr Ysgrythyrau oni buasai prawf digonol o'u plaid. Yn ystod y tair canrif cyntaf yr oedd bron pob athrawiaeth yn nghredo y Cristion yn cael ei dadleu a'i gwrthwynebu; ac er y gwrthodent weithiau hwn neu y llall o lyfrau y Testament Newydd, gwnaent hyny, nid o herwydd fod y dystiolaeth allanol neu hanesiol o'u plaid yn rhywan, ond o herwydd eu bod yn anghysson â'u cyfundraethau hwynt. Nid oedd y ffaith bwysig hon yn ddisylw gan amddiffynwyr Cristionogaeth. Ymffrostient drachefn a thrachefn fod yr hereticiaid yn ceisio amddiffyn eu cyfeiliornadau o'r llyfrau canonaidd, er eu bod trwy hyny yn cyflawnu prophwydoliaeth a gynnwysant: 1 *Cor.* xi. 19. Prif gyfeiliornwyr y cyfnod hwn, o'r oes apostolaidd yn mlaen, oedd y rhai canlynol:—Simon Magus, Menander, Cerinthus, Basilides, ac Isidorus, Carpocrates, Valentinus, Heracleon, Ptolemæus, Marcion, a Tatian. Yn ysgrifeniadau y dynion hyn, ceir hysbysrwydd digonol eu bod nid yn unig yn gydnabyddus â llyfrau y Testament Newydd, ond hefyd yn cydnabod eu hawdurdod. Ni enwir yma ond ffaith neu ddwy i brofi hyn. Mae esboniadau yn cynnwys crediniaeth yn nilysrwydd ac awdurdod yr Ysgrythyrau. Ac yn mhlith cyfeiliornwyr y dechreuodd yr arferiad o ysgrifenu esboniadau gyntaf. Heracleon ydyw yr esboniwr proffesedig cyntaf, a hyny tua chanol yr ail canrif. Teimlai fod llawer yn yr efengylau yn anghysson â'i syniadau ef; ac o hyn y cododd yr angenrheidrwydd i'w hesbonio, er mwyn eu troi a'u gwneyd i wasanaethu ei amcanion ei hun. Marcion, un arall o'r cyfeiliornwyr hyn, a gyhoeddodd y rhestr cyntaf o lyfrau y Testament Newydd. Ond yn ei ganon ef, ymwrthodai â'r oll ond epistolau Paul. Yr oedd hyn yn codi o'r syniadau neillduol a ddysgai. Honai mai Paul oedd y gwir apostol, ac mai ei ysgrifeniadau ef yn unig a ddylid eu derbyn.

Yn y modd hwn y mae cyfres o ysgrifenwyr, yn dechreu gyda Clement, cyfaill yr apostol Paul, yn dwyn tystiolaeth difwlch, mwy neu lai cyflawn, i lyfrau y Testament Newydd. Mae yn

Digitized by Google

wir hyd yn hyn nad oedd yr eglwysi wedi cyhoeddi un gyfres o'r llyfrau a dderbynid ganddynt, ond yr oedd y cydsyniad cyffredinol yn mysg Cristionogion ar hyn yn ei wneyd yn afreidiol, ac nid oedd neb wedi codi i ddwyn y peth i ddadl. Mae hyn i'w weled yn y dull y mae yr holl ysgrifenwyr yn y canrif cyntaf ar ol marwlaeth yr apostolion yn dwyn eu tystiolaeth i'w gwirionedd a'u hawdurdod. Mae y cyfeiriadau at yr Ysgrythyrau yn berffaith naturiol; gwneir dyfyniadau heb un esgusawd nac esboniad, fel peth nad oedd ammheuaeth i fod yn eu cylch. Yr oedd iaith y Testament Newydd mor adnabyddus ag i fod yn rhan o iaith gyffredin y bobl. Y mae yr holl dystiolaethau hyn yn ymffurflo yn un—a'r un hono ydyw barn a chrediniaeth gyffredinol yr holl eglwysi a blanwyd gan yr apostolion eu hunain, a'u cydweithwyr a'u holynwyr.

Dangosir hyn yn mhellach trwy berffaith gydgordiad yr holl dystiolaethau hyn. Nid oes odid un dernyn o ddim a ysgrifenwyd mewn cyssylltiad â Christionogaeth yn ystod y tymmor hwn, wedi dyfod i lawr i'r amser presennol nad ydyw yn cynnwys cyfeiriadau at ysgrifeniadau yr apostolion;—a'r cwbl yn gysson â'u gilydd yn eu dangos fel llyfrau o awdurdod.

At hyn, yr oedd y ddau gyfleithiad mawr a enwyd mewn arferiad cyffredin o'r amseroedd boreuaf, yn y dwyrain a'r gorllewin, a'r ddau yn cynnwys y llyfrau canlynol—y pedair efengyl, yr Actau, tri ar ddeg o epistolau Paul, epistolau cyntaf Ioan a Phedr:—a hyn oll yn cael eu cadarnhau yn y modd egluraf a chyflawnaf gan dystiolaeth y rhai oedd yn ymwrthod à'r dull uniawngred o'u deall.

Fel prawf mai nid yn frysiog, ac heb y seiliau mwyaf boddhaol, y cydnabyddid hawl unrhyw lyfr i le yn y Testament Newydd, dylid galw sylw neilduol at y ffaith, nad oedd eto dderbyniad cyffredinol i epistolau Iago a Iudas; Ail a Thrydydd Epistol Ioan; yr Epistol at yr Hebreaid; na'r Dadguddiad: ond eto yr oeddynt yn cael eu derbyn yn gymhwys yn y manau hyny lle yr oeddynt yn adnabyddus. Am Ail Epistol Pedr, hyd yn hyn nid oes dim cyfeiriadau wedi eu cael ato.

YR AIL GYFNOD (B. A. 170—303).

Prif dadau ac ysgrifenwyr yr eglwys yn niwedd yr ail canrif, ydynt, Irenæus, Clement o Alexandria, a Tertullian. Bu Irenæus yn gwrandaw ar Polycarp, dysgybl yr apostol Ioan, a'r hwn fu yn henadur yn Eglwys Lyons yn Ffrainc, yr amser yr oedd Pathinus yn esgob; a'r hwn, hefyd, fel Polycarp, a berthynai i oes Ioan. Yr oedd Irenæus mewn amgylchiadau na allasai gael ei dwyllo am ysgrifeniadau Ioan. Y mae ysgrifeniadau y tri hyn yn dangos mwy o allu meddyliol nag a ymddangosodd mewn llenyddiaeth Gristionogol cyn hyny. Defnyddient hwy ddysgeidiaeth ac athroniaeth i amddiffyn y gwirionedd, ac i wrthsefyll cyfeiliornadau. Ennillodd Cristionogaeth ei buddugoliaeth *gyntaf* trwy ddarostwng calonau y lluaws i'w derbyn: ei *hail*, oedd ennill barn a deall yr athronydd: yr oedd gwarogaeth gwladeiddwyr (*statesmen*) eto yn ei haros.

Dyma anghraifft o dystiolaeth yr ysgrifenwyr hyn gan Tertullian:—"Edrychwn pa fath laeth a gryfhaodd y Corinthiaid gan Paul; yn ol pa reol y rhybuddiwyd y Galatiaid; pa beth a ddarllenir gan y Philippiaid, y Thessaloniaid, a'r Ephesiaid; pa beth ydyw tystiolaeth y Rhufeiniaid y rhai sydd agosaf atom, ac i ba rai y gadawodd Pedr a Phaul yr efengyl, a hono wedi ei selio à'u gwaed. Y mae genym hefyd eglwysi wedi eu sylfaenu gan Ioan. Os ydyw Marcion yn gwrthod ei Ddadguddiad, y mae olyniad yr esgobion yn y saith eglwys yn gorphwys ar awdurdod Ioan.....Yr wyf yn hòni, gan hyny, fod Efengyl Luc wedi cael ei derbyn o'r dechreu, nid yn unig gan yr eglwysi a blanwyd gan yr apostolion, ond hefyd gan yr holl eglwysi." Drachefn, "Y mae yr un awdurdod a berthyn i'r eglwysi apostolaidd yn rhoddi derbyniad i'r efengylau ereill sydd genym, sef eiddo Matthew ac Ioan; a gellir edrych ar Efengyl Marc fel eiddo Pedr, o herwydd ysgrifenydd iddo ef ydoedd." "Rhesymau fel hyn a ddefnyddir genym yn erbyn hereticiaid o blaid yr efengylau, gan osod o'r naill du ysgrifeniadau ffugiol o gynnyrch diweddar, ac amddiffyn llais yr eglwysi dros ysgrifeniadau yr apostol."

Fel hyn y mae yr holl dadau, yn niwedd yr ail canrif, yn appelio at dystiolaeth henafiaeth dros ddilysrwydd ac awdurdod ysgrifeniadau yr apostolion. Yr oedd hyn yn cael ei wneyd hefyd pan yr ydoedd yn hawdd profi eu gwirionedd. Yr oedd y dolenau rhyngddynt a'r apostolion yn ychydig ac yn adnabyddus; a phe buasai bwlch, nid oedd dim yn hawddach na'i ddangos.

Y mae eu tystiolaeth yn bendant. "Y mae yr Ysgrythyrau yn berffaith," medd Irenæus, "gan y llefarwyd hwynt gan Air Duw a'i Ysbryd." A llefara am yr Hen Destament a'r Newydd yn ddiwahaniaeth. Cyferbyna Tertullian yr Hen Destament a'r Newydd. Fel y sylwyd o'r blaen, y mae tystiolaeth dros saith o lyfrau y Testament Newydd yn llai cyflawn a chyffredinol na thros y lleill. Y mae ymchwiliadau manwl wedi cael eu gwneyd i lais y gwahanol eglwysi—sef Alexandria, eglwysi Ladinaidd Affrica, Eglwys Rhufain, eglwysi Asia Leiaf, ac eglwysi Syria—o barth i'r llyfrau hyn yn y trydydd canrif. A'r casgliad oddi wrth yr ymchwiliad hwn ydyw—lle bynag yr oedd y cymundeb rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn agos ac yn fynych, yno yr oedd y canon yn berffaith; ac yn gyfatebol i bellder a neilduedd unrhyw ran oddi wrth yr ymgyfathrach cyffredinol, yr oedd diffygion yn y canon. Yn Alexandria a Cesarea, lle yr oedd yr ymgyfeillach rhwng y dwyrain a'r gorllewin agosaf, yno yr oedd y canon wedi ei sefydlu fel y mae yn bresennol. Ond yn yr eglwysi Ladinaidd, i'r gwrthwyneb, nid oes dim prawf yn nechreuad y trydydd canrif fod Epistol Iago, ac Ail Epistol Pedr, mewn arferiad; ac nid oedd yr Epistol at yr Hebreaid yn cael ei dderbyn ganddynt fel llythyr Paul. Ond y mae Alexandria, Affrica, Rhufain, a Carthage, yn dwyn tystiolaeth i awdurdod apostolaidd y Dadguddiad. Heb law y rhai a enwyd, prif enwau y cyfnod hwn ydynt, Origen, Dionysius, Novatus, Hippolytus, Polycrates, Apolonius, Gregory, Firmilian, Methodius, Theophilus, Serapion, Pamphilius, &c.

O'r rhestr hon, Origen ydyw y pwysicaf: yn wir yr oedd ei wybodaeth ef o'r Ysgrythyrau yn eangach a dyfnach na neb a ymddangosodd eto yn hanes yr eglwys; ac ychydig o enwau hyd yn awr sydd wedi ennill y fath arbenigrwydd. Fel yr ysgrifenwyr a'i rhagflaenodd, ni dderbyniai ond y llyfrau oedd yn cael eu trosglwyddo gan Gristionogion yr oes apostolaidd.

Gan mai Origen sydd yn rhoddi y rhestr gyntaf o lyfrau y Testament Newydd, rhoddir yma ei eiriau. "Yn y llyfr cyntaf o'i esboniadau ar Matthew," dywed Eusebius, wrth ysgrifenu am

Digitized by Google

Origen, "tystia nad oes ond pedair efengyl; ei eiriau ydynt fel y canlyn:—'Yr wyf wedi dysgu trwy draddodiad am y pedair efengyl, y rhai a dderbynir yn ddiwrthwynebiad yn eglwys Dduw, yr hon sydd wedi ymledaenu dan yr holl nefoedd; mai yr un gan Matthew, yr hwn oedd yn bublican ar y cyntaf, ond wedi hyny yn apostol i Iesu Grist, a ysgrifenwyd yn gyntaf;.....yr un yn ol Marc yn ail;.....yr un a ysgrifenwyd gan Luc yn drydydd;.....a'r un yn ol Ioan yn ddiweddaf oll.'" "Yr un ysgrifenydd, sef Origen," medd Eusebius, "yn y pummed llyfr o'i *Esboniad ar Ioan* a lefara fel hyn am epistolau yr apostolion:—'Paul, yr hwn a wnaethpwyd yn weinidog cymhwys y cyfammod newydd, nid o'r llythyren, ond o'r ysbryd, a'r hwn a bregethodd yr efengyl o Ierusalem hyd Illyricum, ni ysgrifenodd at yr holl eglwysi a ddysgodd; ac heb law hyny, ni ysgrifenodd lawer at y rhai yr ysgrifenodd. Pedr, drachefn, ar yr hwn yr adeiladwyd yr eglwys, yr hon nas gall pyrth uffern ei gorchfygu, a adawodd epistol a gydnabyddir yn gyffredinol; efallai iddo ysgrifenu ail epistol hefyd, ond y mae hyn yn beth mewn dadl. Pa ham y rhaid i mi ddywedyd dim am yr hwn a bwysodd ar fynwes yr Iesu, Ioan, yr hwn a ysgrifenodd un efengyl, er ei fod yn dyweyd y gallasai wneuthur cynnifer na chynnwysai y byd mo honynt. Heb law hyny, ysgrifenodd y Dadguddiad, er y gorchymynwyd iddo beidio ysgrifenu llefau y saith daran. Gadawodd ar ei ol un epistol byr, efallai ail, a thrydydd; ond nid yw pawb yn cydnabod dilysrwydd y ddau olaf: ond er hyny, nid yw y tri gyda'u gilydd ond byr.' Yn chwanegol at hyn y dywed, sef Origen, wrth draethu yn ei *Homiliau ar yr Epistol at yr Hebreaid*:—'Y mae pob un sydd yn gymhwys i farnu am icithwedd yn barod i gyfaddef fod geiriad yr epistol yn fwy tebyg i awduron clasurol Groeg nag ysgrifeniadau adnabyddus yr apostol. Ond eto fod y meddyliau yn ardderchog, heb fod ddim islaw ei ysgrifeniadau ef, rhaid i bawb gyfaddef. Pe bawn i yn dyweyd fy marn, dywedwn fod y meddyliau yn eiddo Paul, ond y cyfansoddiad yn eiddo rhyw un sydd yn dadgan ei feddyliau ac yn eu hesbonio. Os ydyw rhyw eglwys, gan hyny, yn credu mai Paul ydyw ei awdwr, nid ydyw i'w beio, o herwydd nid heb reswm da y traddodwyd ef i lawr i ni gan ddynion yr hen amser fel epistol Paul. Y mae yr hanes sydd wedi treiglo atom ni yn amrywio—rhai yn dyweyd mai Clement, yr hwn a ddaeth yn esgob Rhufain, a'i hysgrifenodd; ereill a'i priodolant i Luc, awdwr yr efengyl a'r Actau.'" Gallesid dyfynu chwaneg i'r un perwyl.

Y mae y dyfyniad hwn yn profi yn eglur amryw ffeithiau pwysig; a hyny yn fwy grymus o herwydd ei fod yn gwneyd hyny yn anunion-gyrchol. 1. Bod sylw wedi cael ei dalu am amser maith i'r ymofyniad, pa rai oedd, a pha rai nad oeddynt, yn ysgrifeniadau apostolaidd. 2. Bod hanesiaeth draddodiadol yn bod ar y cwestiwn, ac mai at hwnw yr appelia mewn achosion ammheus. 3. Nad oedd Cristionogion yn derbyn llyfrau fel rhai dwyfol heb awdurdod am hyny. 4. Bod gwahaniaeth yn cael ei wneyd rhwng llyfrau a gydnabyddid yn ddibetrus a'r cyfryw nad oedd wedi ymgodi uwch law pob ammheuaeth. 5. Bod casgliad, neu ryw nifer penodol, o lyfrau yn cael derbyniad cyffredinol. 6. Bod y casgliad hwn, er nad oedd yn gyflawn, eto yn cynnwys y pedair efengyl, yr Actau, epistolau Paul, Epistol Cyntaf Ioan, ac Epistol Cyntaf Pedr, a'r Dadguddiad. 7. Bod Origen yn gydnabyddus â'r holl lyfrau sydd yn gwneyd i fyny y canon presennol, ond ei fod yn derbyn ac yn defnyddio tri neu bedwar o'r epistolau lleiaf gyda mwy o wyliadwriaeth; nid o herwydd un aail oedd ganddo i'w hammheu, ond o ddiffyg hysbysrwydd mwy manwl yn eu cylch.

Gallesid dwyn i mewn yma dystiolaethau hereticiaid y cyfnod, sef y Montaniaid a'r Minicheaid; ac hefyd y gwrthwynebwyr paganaidd, Celsus a Porphyry; ond fel y mae yr erthygl hon yn faith eisoes, er nad yn rhy faith i'w phwysigrwydd.

Y TRYDYDD CYFNOD (B. A. 303—397).

Y mae hwn yn ymestyn o erlidigaeth Diocletian hyd Gynghorfa Carthage.

Yr oedd yr erlidwyr boreuaf wedi ymdrechu amddifadu yr eglwys o'i dysgawdwyr; ond amcan Diocletian oedd, ei hamddifadu o'r ysgrifeniadau oedd yn sail ei ffydd. Effaith cyntaf yr erlidigaeth hon oedd, peri ymraniad yn yr eglwys ei hun. Yr oedd lluaws mawr o Gristionogion yn barod i gymmeryd mantais o dynerwch rhai o'r swyddogion gwladol, i ddianc cospedigaeth, trwy roddi i fyny ysgrifeniadau difudd, yr hyn a foddlonai yr ynadon. Yr oedd ereill o'r Cristionogion yn edrych ar yr ymddygiad hwn gydag eiddigedd, ac yn dynodi y rhai a ymostyngent i bob rhith drygioni, er mwyn dianc cospedigaeth, yn "fradwyr." Parodd y gwahaniaeth hwn ymraniad chwerw, a barhaodd am ddau can mlynedd. [Gwel DONATIAID.] Ond yr oedd ymraniad, yn gystal ag erlidigaeth, yn gwasanaethu achos yr efengyl. O hyn allan, adnabyddid yr Ysgrythyrau *Canonaidd*, wrth yr enw hwn, fel teitl gwahaniaethol, os na wneid hyny o'r blaen. Yr oedd y ddwy blaid yn cytuno i wahaniaethu yr Ysgrythyrau oddi wrth bob llyfrau ereill.

Y mae y cyhoeddiad a orchymynodd "losgi yr Ysgrythyrau" wedi myned ar goll; ond y mae yn amlwg, oddi wrth y Testament a ddefnyddiai y Donatiaid, pa lyfrau a gynnwysai. Ac y mae Awstin, yr hwn a ysgrifenodd lawer yn eu herbyn, yn dyweyd ei fod yr un ag a ddefnyddiai yr eglwys yn ei amser ef, sef yr un sydd genym ni yn awr. Yn yr erlidigaeth hon, y daeth yr eglwysi Lladinaidd yn Affrica i feddiant o Destament Newydd cyflawn.

Yn Palestina, tua'r un adeg, ceir tystiolaeth gyflawn a phenderfynol i'r canon presennol, gan Eusebius (B. A. 270—340), esgob Cesarea, a hanesydd yr eglwys foreuol. Fe ddywed—"Mi a welais â'm llygaid fy hun y tai gweddi yn cael eu taflu i lawr a'u dinystrio i'w sylfaen, a'r Ysgrythyrau Sanctaidd yn cael eu bwrw i'r tân ar ganol y farchnad." Yn y fath amgylchiadau, nid oedd yn anhawdd gwybod pa lyfrau yr oedd y Cristionogion yn eu gwerthfawrogi yn fwy na'u bywyd. Yn y dwyrain a'r gorllewin, gwnaeth yr erlidiwr ei waith, a chododd Testament Newydd cyflawn o'r tân a gynneuodd i'w losgi. Nid oedd ei dderbyniad cyffredinol yn gorphwys ar gyhoeddiad awdurdodol o un math; ac y mae hyn yn brawf nad oedd un yn angenrheidiol.

Y mae y cyfnod hwn yn dybenu gydag

OES Y CYNGHORFAAU.

Gorchwyl cyntaf Cystenyn Fawr, ar ol i'w ddychymyg weled llun y groes, oedd ymroddi i ddarllen yr Ysgrythyrau dwyfol. "Os oedd yr ymherawdwyr blaenorol am losgi yr oraclau ysbrydoledig, rhoddodd efe orchymyn i'w lluosogi a'u haddurno ar draul y llywodraeth." Ar ol sylfaenu Caer Cystenyn, gorchymynodd Eusebius

Digitized by Google

i barotoi deg a deugain o gopïau o'r Ysgrythyrau at wasanaeth yr eglwysi, wedi eu hysgrifenu ar femrwn, ac yn gyfleus i'w defnyddio.

Yn y dadleuon pwysig a barhaodd trwy ei deyrnasiad ef, fel un "wedi ei osod yn esgob gan Dduw mewn pethau allanol," proffesai ymostyngiad i oruchel awdurdod yr Ysgrythyrau. Cyhuddai Arius o "ddysgu pethau croes i'r Ysgrythyrau ysbrydoledig." Appeliai y ddwy blaid yn y ddadl at yr Ysgrythyrau. [Gwel ARIAETH.] Yn y dadleuon yn Nghynghorfa Nice (B. A. 325), cymmerwyd awdurdod yr Ysgrythyrau yn ganiataol, fel peth nad oedd ammheuaeth yn ei gylch; ac felly yn yr holl gynghorfäau dilynol. Yr oedd hyn yn egwyddor oedd yn gorwedd dan bob dadl.

Rhwng y blyneddoedd B. A. 390 a 419, ni chynnaliwyd dim llai na chwech o gynghorfäau yn Affrica, a phedair o'r rhai hyn yn Carthage. Yn y drydedd (397), cynnwysai un o'u penderfyniadau restr o lyfrau y Testament Newydd:—"Penderfynwyd nad oedd dim i'w ddarllen yn yr eglwysi ond llyfrau canonaidd yr Ysgrythyrau. A llyfrau canonaidd y Testament Newydd ydynt y Pedair Efengyl, Actau yr Apostolion, tri ar ddeg o epistolau Paul, ac un epistol gan yr un (awdwr) at yr Hebreaid, dau Epistol gan Pedr, tri gan Ioan, un gan Iago, un gan Iudas, a'r Dadguddiad gan Ioan." A'r canon yn y ffurf yma a ddefnyddiwyd gan Jerome ac Awstin—dau brif enw y ganrif; a thrwy eu dylanwad derbyniwyd ef pa le bynag y siaredid yr iaith Ladin—yn Ffrainc, Yspaen, ac hyd yn oed yn Mhrydain a'r Iwerddon.

Y mae yr holl hanes yn wers bwysig yn hanes yr eglwys, ac yn ngofal ei Phen am dani.

Y mae yn anmhosibl nodi amser pan y penderfynwyd ar ein canon presennol. Y mae y cyfeiriadau cyntaf ato yn ei olygu, nid yn newyddbeth, ond fel peth adnabyddus. Penderfynwyd ar ei gynnwysiad yn yr amseroedd boreuaf, trwy arferiad yn hytrach na beirniadaeth; ac yr oedd yr arferiad hwn yn gorphwys ar wybodaeth uniongyrchol. Nid cyfeirio ato y mae yr oesoedd boreuaf, fel yn gorphwys ar awdurdod y pabau a chynghorfäau, ond ar wybodaeth Cristionogion yn gyffredinol, yn cael ei olrhain yn ol, o oes i oes, nes cyrhaeddyd yr oes apostolaidd, a gwybodaeth uniongyrchol yr eglwysi y cawn eu hanes yn y Testament Newydd.

Nid oes dim yn yr erthygl hon wedi ei ddywedyd am y profion tufewnol o ddilysrwydd ac awdurdod yr Ysgrythyrau. Daw hyn dan sylw mewn man arall.

Yr achos pa ham yr ydym yn estyn yr erthygl hon, ac ereill o'r un natur, mor faith ydyw, am na wyddom yn Gymraeg am lyfr yn cynnwys yr un defnyddiau i gyfeirio y darllenydd ato. Yn Seisoneg, y mae y llyfrau canlynol:—*Cosin's Scholastic History of the Canon of the Old Testament; Jones' New Method of settling the Canon of the New Testament; Lardner's Credibility of the Gospel History; Dr. Wordsworth on the Canon; Alexander on the Canon of the Old and New Testament;* heb law pennodau ar hyn yn *Paley's Evidences; Chalmer's Evidences;* a *Kitto's Cyc.* Ond y llyfr diweddaraf a goreu ar y mater hwn ydyw *Westcott's History of the Canon of the New Testament*, Macmillan, 1855; un o'r gyfres sydd yn cael ei chyhoeddi i *theological students.*

1. CANON, CANONWR. Gŵr wrth reol; megys y gelwir y rhai oedd yn byw wrth reol St. Awstin yn ganonwyr Awstinaidd. Sonir yn gyffredin am ddau fath o ganonwyr, sef *canonwyr rheolaidd*, a *chanonwyr bydol.* Y canonwyr rheolaidd oeddynt rai a anneddent mewn mynachlogydd neillduol, ac a gadwent yn fanwl at eu rheolau; y canonwyr bydol oeddynt rai, er arwedd o honynt fuchedd grefyddol, a ymgymmysgent fwy neu lai â phobl y byd, ac a weinyddent er lles y llëygwyr. Y fath yma a geid mewn eglwysi cadeiriol, lle y trigent yn nghyd yn gyffredin dan arolygiad yr esgob, ac o bryd i bryd a aent allan i bregethu yr efengyl mewn ardaloedd tywyll a phaganaidd, neu i addysgu aelodau newydd o'r eglwys, ac i weinyddu gwahanol drefnau ac ordinhadau y grefydd Gristionogol. Fel ag yr oedd eglwysi plwyfol yn codi, felly yr oedd angen am ymweliadau oddi wrth ganonwyr yr eglwysi cadeiriol yn lleihau. Ond bodola y sefydliad eto.

Sonir am ganonwyr yn hen gyfreithiau Cymru, nid yn unig fel swyddogion eglwysig, eithr fel yn meddu, dan rai amgylchiadau, awdurdod deddfol neu farnol. Er anghraifft, dodid ar ganonwyr benderfynu lle yr ymddangosai y gyfraith ysgrifenedig mor gadarn ar y ddwy ochr a'u gilydd.—[*Ancient Laws and Institutes of Wales.*]

2. CANON, [*rheol*]. Gellir olrhain y gair o wreiddyn Cymreig, sef *cân;* o herwydd dan y gyfundrefn dderwyddol, byddai pob rheol a gorchymyn yn cael eu rhoddi ar gân. Arferir y gair yn neillduol am reol mewn pethau eglwysig, a hyny o herwydd i Paul ei ddefnyddio yn y cyfryw ystyr yn *Gal.* vi. 16; "A chynnifer ag a rodiant yn ol y rheol (=canon) hon, tangnefedd arnynt a thrugaredd, ac ar Israel Duw." Y rheol y sonir am dani yma yw y rheol Gristionogol—rheol neu gyfraith yr Eglwys Gristionogol. Ac fel yr esboniwyd ac yr helaethwyd y rheolau hyn o dro i dro, gan wyr o awdurdod yn yr eglwys, megys pabau, esgobion, cymmanfaoedd cyffredinol neu neillduol, daethant i gael eu galw yn ganonau. Y mae llawer iawn o'r rhai hyn ar gael; megys canonau Nicea, canonau Trent, canonau Llundain. Y mae y canonau apostolaidd o hynafiaeth mawr yn yr eglwys.

Y mae y canonau hyn, wedi eu casglu yn un corff, yn gwneyd i fyny yr hyn a elwir Deddf yr Eglwys. Derbyniodd canonau Nice, Caer Cystenyn, Ephesus, a Chalcedon—sef canonau y pedair prif gymmanfa—warantiad y llywodraeth wladol trwy ddeddf o eiddo yr ymherawdwr Justinian [*Novel.* 131, pen. i]. Medd y cabidwl, wrth eu cadarnhau, "Yr ydym ni yn derbyn athrawiaethau y cymmanfaoedd sanctaidd uchod fel yr Ysgrythyrau dwyfol, a'u canonau a arferwn fel cyfreithiau." Dechreuwyd casglu y canonau yn nghyd er yn fore. Y casgliad hynotaf, a'r hwn a dderbyniwyd yn fwyaf cyffredinol, yw y *Codex Canonum*, a wnaethpwyd gan Dionysius Exiguus, mynach Rhufeinig, B. A. 520. Dechreuodd Ivo, esgob Chartres (B. A. 1114), wneuthur casgliad o osodedigaethau y pabau a'r cardinaliaid; a gorphenwyd ef gan Gratian, mynach Benedictaidd, yn 1150. Y mae y casgliad hwn mewn tri llyfr, dan yr enwad *Concordia Discordantium Canonum;* ond adnabyddir ef yn gyffredin wrth yr enw *Decretum Gratiani.* Cynnwysa restr o ganonau a gosodedigaethau eglwysig ereill, o amser Cystenyn Fawr yn nechreu y pedwerydd canrif, hyd amser y pab Alexander III. yn niwedd y deuddegfed canrif. Cyhoeddwyd y *Decretalau*, y rhai oeddynt lythyrau oddi wrth esgobion Rhufain, yn cynnwys atebion a bynciau eglwysig, gyntaf (B. A. 1235), mewn pum llyfr, gan Raimond de Renafort, caplan y

Digitized by Google

pab Gregory IX. Y mae y *Decretalau* hyn yn traethu ar bob pwnc ag oedd yn yr oes hono yn dyfod dan awdurdod y llysoedd eglwysig; megys bucheddau ac ymarweddiad yr offeiriaid, priodasau ac ysgariaethau, penyd, esgymundod, a'r cyffelyb. At y pum llyfr hyn, chwanegodd Boniface VIII. un arall (B. A. 1298), yr hwn a elwid *Sextus Decretalium*, neu y *Sext*. Cynnwysa hwn y penderfyniadau a gyhoeddwyd ar ol pabaeth Gregory IX. Cyhoeddwyd y *Clementinian*, neu osodedigaethau Clement V., ganddo ef ei hun yn Nghymmanfa Vienna (B. A. 1308); a dilynwyd hwy gan eiddo ei olynwr, Ioan XXII., y rhai a elwid *Extravagantes Iohannis*. At y rhai hyn chwanegwyd rhai penderfyniadau o eiddo pabau mwy diweddar, dan yr enw *Extravagantes Communes*. Y rhai hyn, gyda'u gilydd, sef *Penderfyniad Gratian*, *Decretelau Gregory* IX., y *Sext*, y *Clementinian*, ac *Extravagantau* Ioan XXII. a'i olynwyr, a wnant i fyny yr hyn a elwir *Corpus Juris Canonici*, neu Gorff y Ddeddf Ganonaidd.

Heb law y rhai hyn, yr oedd math o ganonau gwladol, yn gynnwysedig o osodedigaethau censadol a thaleithiol, wedi eu trefnu at gyflwr neilldiol Eglwys Loegr. Y blaenaf oeddynt ddeddfau eglwysig a basiwyd mewn cymmanfaoedd gwladol a gynnaliwyd dan y cardinaliaid Otho ac Othobon, cenadau oddi wrth y pab Gregory IX., a Clement IV., yn nheyrnasiad Harri III. Y gosodedigaethau taleithol oeddynt benderfyniadau cymmanfaoedd taleithol, a gynnaliwyd dan wahanol archesgobion Caergaint, o Stephen Langton, yn nheyrnasiad Harri III., hyd Harri Chichele, yn nheyrnasiad Harri V., wedi eu derbyn hefyd gan dalaeth Caerefrog, yn nheyrnasiad Harri VI.—[*Blackstone's Com.*, td. 83; *Burn's Eccl. Law*, rhagymadrodd].

Y mae holl ganonau Eglwys Loegr, a wnaethpwyd cyn ystadud 25 Harri VIII., sydd heb fod yn groes i'r gyfraith gyffredin neu ysgrifenedig, mewn grym fyth yn y wlad yma. Penderfynwyd, beth bynag, gan lys y King's Bench, nad yw canonau Cymmanfa Caergaint, B. A. 1603 (y rhai, er cael eu cadarnhau gan y brenin, ni dderbyniasant mo warantrwydd y senedd), ddim yn rhwymo gwŷr lleyg y deyrnas, yn mhellach nag y maent yn ddadganiad o hen ddeddf y ganon. Ond fe addefodd arglwydd Hardwicke, wrth roddi ei farn ar y peth, fod y gwŷr llên yn rhwym wrth yr holl ganonau a gadarnheir gan y brenin.

Y mae dau ryw fath o lysoedd yn Lloegr, lle yr arferir i raddau y ddeddf ganonaidd.—1. Llysoedd yr archesgobion a'r esgobion, a'u swyddogion; y rhai a elwir yn gyffredin yn ol y gyfraith Llysoedd Cristionogol (*Curiæ Christianitatis*), neu lysoedd eglwysig. 2. Llysoedd y ddwy brifysgol. Yn y blaenaf o'r rhai hyn sylfaenir y derbyniad o'r ddeddf ganonaidd yn hollol ar arferiad; ond y mae yr arferiad gyda golwg ar y prifysgolion yn cael eu cadarnhau yn mhellach trwy y gweithredoedd seneddol sydd yn awdurdodi eu breinlenau. Y maent i gyd yn ddarostyngedig i arolygiad a rheolaeth llysoedd y ddeddf gyffredin, y rhai a hònant hawl neilldiol i ddeongli yr holl ystadudau perthynol i'r llysoedd eglwysig, ac a'u rhwystrant rhag myned tu hwnt i'w llywodraeth benodol; ond gellir appelio oddi wrthynt hwythau at y brenin.

Cyn y Diwygiad, cyfrenid urddau cyn amled yn y ddeddf ganonaidd ag yn y ddeddf wladol. Ond rhoddodd Harri VIII. derfyn ar byn yn Nghaergrawnt; ac y mae yn debyg i Rydychain hefyd dderbyn y cyfryw waharddiad, o ddeutu yr un amser; o blegid ni dderbyniodd neb yn Lloegr, byth ar ol hyny, urddau o'r fath.

CANONES: dynes, yn Eglwys Rhufain, ag sydd yn mwynhau glwysfudd, a berthyn yn ol y sefydliad i wyryfon; heb ofod arni ymwrthod â'r byd, neu wneuthur unrhyw adduned. Nid oes fawr o'r cyfryw i'w cael oddi gerth yn Flanders a'r Almaen. Golygir y sefydliadau fel ysgolion neu gilfanau i enethod gogyfer â phriodi, yn hytrach na manau lle yr ymrwyment i wasanaethu Duw.

CANONESAU SANT AWSTIN: dosbarth o fenywod crefyddol, ag sydd yn ymlynu wrth reolau Awstin. Y mae amryw gynnulleidfaoedd o'r rhai hyn.

CANONWR: gwr yn meddu glwysfudd, neu gyllid, am ei waith yn cyflawnu gwasanaeth dwyfol mewn eglwys gadeiriol neu golegawl. Nid yw canonwyr o henafiaeth mawr. Sylwa Pasquier nad oedd yr enw canonwr yn adnabyddus cyn amser Charlemagne; o leiaf y tro cyntaf y cawn hyd iddo sydd yn ngwaith Gregory de Tours, yr hwn a sonia am goleg o ganonwyr, a sefydlwyd gan Baldwin XVI., archesgob y ddinas hono yn amser Clotharius I. Ar y dechreu nid oedd canonwyr ond offeiriaid, neu is-eglwyswyr yn byw gyda'u gilydd yn ymyl yr eglwys gadeiriol, er mwyn cynnorthwyo yr esgob. Byddent yn ymddibynu yn hollol ar ei ewyllys ef, ac yn cael eu cynnal gan gyllid yr esgobaeth, ac yn preswylio yn yr un tŷ, fel ei weision neu ei gynghorwyr. Byddent hyd yn oed yn etifeddu ei dda mudo, hyd y flwyddyn 816, pryd y gwaharddwyd hyny gan gymmanfa Aix la Chapelle. Yn raddol ymwrthododd y cymmundebau hyn â'u hymddibyniaeth, ac ymffurfiasant yn gyrff gwahanol, er fod yr esgobion yn benau arnynt fyth. Yn y degfed canrif yr oedd amryw o gymmundebau neu gynnulleidfaoedd o'r fath wedi eu sefydlu hyd yn oed mewn dinasoedd lle nad oedd esgobion. Gelwid y rhai hyn yn golegwyr. Yr oedd yr enw cabidwl a roddwyd arnynt yn llawer mwy diweddar. O dan ail hil breninoedd Ffrainc yr oedd y bywyd canonaidd neu golegawl wedi ymdaenu dros yr holl wlad, ac yr oedd gan bob eglwys gadeiriol ei chabidwl ar wahân oddi wrth y gweddill o'r offeiriaid.

Cawsant yr enw *canonwyr* oddi wrth y gair Groeg *κανων*, yr hwn a arwyddoca dri o wahanol bethau, *rheol*, *cyfarwys*, neu gyllid sefydlog i fyw arno, a *rhestreb*, neu *matricula*. Felly, dywed rhai iddynt gael eu galw yn ganonwyr o herwydd y tâl neu y glwysfudd (o achos hyny gelwir hwy weithiau hefyd yn *sportulantes Fratres*): haera ereill iddynt gael eu galw yn ganonwyr, am y cymhellid hwy i fyw yn ol rheolau canonaidd a roddid iddynt; ac ereill, megys M. de Marca, am y rhoddid eu henwau i lawr yn *matricula* neu restreb yr eglwys gadeiriol.

Mewn amser ymryddhaodd y canonwyr oddi wrth eu rheolau, ac o'r diwedd peidiasant a byw mewn cymmundeb, er iddynt ddal i ymffurfio yn gyrff. Cymmerasant arnynt swyddau ereill heb law gweinyddu gwasanaeth cyffredin yr eglwys; gwnaethant eu hunain fel cynghor angenrheidiol i'r esgob, a gweinyddasant yr esgobaeth pan y byddai yn wag, ac etholent esgob newydd i'w llenwi. Y mae rhai cabidylau hyd yn oed yn

Digitized by Google

rhyddion oddi wrth lywodraeth yr esgob, heb hôni neb yn ben ond y deon. Yn ol esampl cabidylau yr eglwys gadeiriol, parhaodd y rhai colegawl hefyd i ymffurflo yn gyrff neillduol wedi iddynt beidio a byw mewn cymmundeb.

Y mae gwahanol fathau o ganonwyr; megys *Canonwyr cardinalaidd*; sef rhai wedi eu cyssylltu, ac, fel y dywed y Ladinwyr, *incardinati*, wrth eglwys, fel ag y mae offeiriad wedi ei gyssylltu wrth blwyf.

Canonwyr cartrefol; y rhai oeddynt ganonwyr ieuainc heb fod mewn urddau, ac o'r herwydd heb ganddynt unrhyw hawl mewn cabidylau neillduol.

Canonwyr dysgwylgar; sef rhai heb unrhyw gyllid neu lwysfudd, oedd ganddynt deitlau ac urddasau canonwyr, llais yn y cabidwl, a lle yn y côr, hyd nes y dygwyddai glwysfudd iddynt.

Canonwyr estronol; sef y rhai ni weinyddent yn y canoniaethau y perthynent iddynt. Yn gyferbyniol â'r rhai hyn yr oedd y *canonwyr trigiannol.*

Mewn ysgriflyfr yn Rouen sonir am *ganonwyr tri marc ar ddeg*; yr hyn, efallai, ydoedd gyllid eu canoniaeth.

Yn Llundain yr oedd is-ganonwyr, y rhai a weinyddent dros yr uchel ganonwyr. Yn Lucca yr oedd *canonwyr meitraidd.* Yr oedd hefyd *ganonwyr tlodi*, a *chanonwyr ad succurrendum*, y rhai a wnelid yn ganonwyr ar fin marw, er mwyn cyfranogi o weddïau y cabidwl.

Canonwyr llëygol neu *fygedol*, ydynt lëygwyr wedi cael eu derbyn, o ran parch ac anrhydedd, i ryw gabidwl o ganonwyr. Y cyfryw ydyw iarll Anjou, yn eglwys St. Martin de Tours; brenincedd Ffrainc yn eglwysi St. Hilary, &c.

Canonwyr rheolaidd, ydynt ganonwyr yn dal i fyw mewn cymmundeb, ac sydd wedi chwanegu at eu rheolau y broffes o addunedau. Gelwir hwy yn *rheolaidd*, er mwyn eu gwahaniaethu oddi wrth y canonwyr ag sydd wedi ymwrthod â byw mewn cymmundeb.

Parhaodd canonwyr yn eu symlrwydd hyd yr unfed canrif ar ddeg, neu, fel y dywed ereill, hyd y deuddegfed canrif, pryd yr ymneillduodd rhai o honynt oddi wrth gymmundeb, gan gymmeryd gyda hwynt yr enw canonwyr, neu offeiriaid acephalaidd (=di ben), o herwydd iddynt wrthod byw mewn cymmundeb gyda'r esgob. Cafodd y rhai a adawyd o hyny allan yr enw canonwyr rheolaidd, a mabwysiadasant y rhan fwyaf o broffesiadau rheol Awstin. Ni wyddys yn iawn i ba ddosbarth y perthyn y canonwyr rheolaidd, pa un ai i'r clerigwyr neu y crefyddwyr; gan fod y cyflwr clerigaidd a mynachaidd wedi eu huno ynddynt. Dadleuir yn egr o blaid y flaenoriaeth rhwng y canonwyr rheolaidd a'r offeiriaid; a rhwng y canonwyr rheolaidd a'r mynachod.

Canonwyr trydyddawl; sef y rhai na feddent ond y drydedd ran o gyllid eu canoniaeth. Penododd Charlemagne ar fod i'r sawl a dderbynid i'r ystâd ganonaidd fyw yn ganonaidd, ac yn unol â'r rheol a roddid iddynt, gan ufuddhau i'w hesgobion megys yr ufuddha mynachod i'w habad. Drwy hyn y daeth yr ysbryd mynachaidd i mewn i'r eglwys gadeiriol; o blegid daeth y clerigwyr, drwy gael eu rhwymo wrth reolau neillduol, yn banner mynachod; ac yn lle ymroddi i waith yr offeiriadaeth, cauasant eu hunain i fyny mewn clasordai, a daeth y cyfryw leoedd i gael eu galw yn fynachdai. Felly yr oedd dau fath o fynachdai, un i fynachod, a'r llall i ganonwyr. Yn mhen ychydig amser daeth canu yn brif orchwyl canonwyr; ac y mae hyn yn gwneyd y gair yn ddigon Cymreigaidd o ran ei ddull a'i wreiddyn.

Yn yr wythfed canrif gwnaeth S. Chrodegand reol i'r canonwyr, yr hon a dderbyniwyd ganddynt oll, a'r hon sydd fyth ar gael mewn pedair erthygl ar ugain. Tynwyd hi allan yn benaf o reol Benedict, gan ei chymhwyso at y fuchedd glerigaidd. Gwnaed ail reol yn 816, ar ddeisyfiad Charlemagne, gan yr esgobion yn ymgynnulledig yn Aix la Chapelle, wedi ei chyfansoddi o ramau a gymmerwyd allan o'r tadau a'r cymmanfaoedd.

CANRIFAU MAGDEBURG: hanesiaeth eglwysig tra nodedig, wedi ei rhanu yn dair ar ddeg o ganrifau, y rhai a gynnwysant dri chant ar ddeg o flyneddoedd, yn diweddu yn 1298. Cyfansoddwyd ef gan amryw o Brotestaniaid dysgedig o Magdeburg. Y penaf o'r canrifwyr ydoedd Matthias Flacius Illyricus. Dywedir ddarfod i Baronius gymmeryd mewn llaw ei hanesiaeth yn hollol i'r dyben o wrthwynebu canrifwyr Magdeburg.

CANTEN=Cannen; ydoedd fab i Gwyddlew ab Gwynlliw Filwr, ac un o saint Ynys Prydain. Yr oedd yn byw yn y chweched canrif, ac efe a sefydlodd eglwys Llanganten, yn sir Frycheiniog.

CANTORION: caniadyddion; dadgeiniaid; cerddorion; prophwydi. Ar sefydliad yr hen oruchwyliaeth, gorchymynodd Duw fath o ganiadaeth offerynol i feibion Israel, yr hon oedd i fod yn "ddeddf dragwyddol iddynt drwy eu cenedlaethau." Y cantorion oedd i fod "meibion Aaron, yr offeiriaid;" a'r offeryn oedd "udgorn;' "Gwna it' ddau udgorn arian." Offeryn o ddychymyg Aiphtaidd oedd yr udgorn, tybir. Dybenion neillduad a sefydliad meibion Aaron i ganu ar yr udgyrn, y pryd hwnw, oedd i "alw y gynnulleidfa yn nghyd"—i gychwyn y gwersylloedd—i'w galw i "ryfel yn eu gwlad yn erbyn y gorthrymwr"—"i gofio dydd eu llawenydd" (sef, dydd eu hymadawiad o'r Aipht) — eu "gwyliau gosodedig"—"dechreu eu misoedd," &c. Yr oedd yr offeiriaid i wneyd dau amrywiaeth sain ar yr udgyrn: enwid y naill "canu," a'r llall "larwm." Cynnwysid yr amrywiaeth, mae'n debyg, yn nifer a pharhâd y seiniau; canys nid oedd yr udgorn, y pryd hwnw, ond offeryn syml ac anamrywiadwy ei sain: *Num.* x. 1—10.

Y mae *cantorion* a *phrophwydi*, weithiau, yn eiriau cyfystyr yn y Beibl. "Ti a gyfarfyddi â thyrfa o brophwydi, ac o'u blaen hwynt nabl, a thympan," &c., "a hwythau yn prophwydo;" 1 *Sam.* x. 5. "Y rhai a brophwydant â thelynau," &c.; 1 *Cron.* xxv. 1. Y prophwydi crybwylledig oeddynt ysgolorion y prophwydi priodol, y rhai a ddygent iddynt ganiadaeth leisiol ac offerynol. yn gystal a deongliad prophwydoliaethau; ac fe ddichon fod rhai o'u hysgolorion yn brophwydi priodol hefyd. Enwid cantorion yn brophwydi am y dadganent Salmau prophwydoliaethol, o eiddo y prophwydi priodol, gyda chyd-darawiant offerynol, yn eu cynnulliadau crefyddol ac addysgiadol; ac hefyd, am yr arferent chwareu cerddoriaeth ar eu hofferynau i'r prophwydi priodol, i barotoi eu meddwl i dderbyn prophwydoliaethau ac i brophwydo: 2 *Bren.* iii. 15—19. Yn ol syniad rhai beirniaid, *cantorion* yr enwid dynion yn medru ar ganiadaeth leisiol yn unig; a *phro-*

Digitized by Google

phwydi, dynion yn medru ar ganiadaeth leisiol ac offerynol hefyd.

Nid oedd cantorion, fel swyddogion neillduedig, yn gweinyddu yn addoliad Duw cyn amser Dafydd frenin. Ond yr ydys yn eu cael yn defnyddio eu celfyddyd ar adegau o lawenydd—gwyliau arbenig—ar oruchafiaeth mewn rhyfel—mewn gorymdeithiau, &c., pryd yr ymunai â hwynt "holl dŷ Israel" â thelynau, a nablau, &c.: 1 *Sam.* xviii. 6; 2 *Sam.* vi. 5; 1 *Cron.* xiii. 8; 2 *Cron.* xx. 27, 28. Yr oedd Dafydd yn gerddor cywrain yn gystal ag yn ganiedydd peraidd. Ac o herwydd ei ymwybyddiaeth o fuddioldeb caniadaeth leisiol ac offerynol, fel moddion i wneyd "ei foliant Ef yn ogoneddus," yr ydys yn ei gael, ychydig cyn ei farwolaeth, yn sefydlu cantorion yn ddosbarth neillduol i gydweini â'r offeiriaid "yn wastadol o flaen arch cyfammod Duw." Dewiswyd y gweinidogion cantorawl hyny o fysg yr offeiriaid, ac o "benau cenedl y Lefiaid," meibion Aaron, fel y gwnaed ar sefydliad cyntaf caniadaeth offerynol yn mysg y genedl. Nifer y cantorion neillduedig i wasanaeth y babell, ac hefyd i wasanaeth y deml, wedi hyny, oedd 288. Yr oedd y cantorion arbenig hyn yn "ddysgedig" a "chyfarwydd" yn "nghaniadau yr Arglwydd." Y prif gantorion, sef y rhai a flaenorent, ac a ddysgent ereill "am y gân," oedd Heman, Asaph, ac Ethan; ac ar ol marwolaeth yr olaf, Ieduthun: yr oedd Cenanïah, ac ereill, fel is-gantorion hefyd, yn dysgu ac yn blaenori yn y gân. Dosbarthwyd y 288 i 24 o ddosbarthiadau, 12 yn mhob dosbarth, y rhai a weinyddent "ger bron yr arch yn wastadol, gwaith dydd yn ei ddydd." Yr oedd i bob dosbarth ei offerynau cerdd gwahaniaethol; a thybir y dyrenid y côr, y naill ran yn lleisio neu ddadganu y gân a'r felodeg, a'r rhan arall yn chwareu cannhrawiant (*accompaniment*) iddynt ar eu hofferynau: enwid y blaenaf, cantorion; a'r olaf, cerddorion. O'r nifer hwn (288) o gantorion, yr oedd, o leiaf, dair o ferched, sef merched Heman. Heb law y nifer crybwylledig, neillduwyd 4,000 ereill yn gantorion. Ymddengys nad oedd y cantorion hyn i weini yn rheolaidd yn ngwasanaeth yr arch a'r deml, ond i gynnorthwyo y lleill ar adegau neillduol; a thybir nad oeddynt mor gyfarwydd a'u "brodyr dysgedig" yn y gân; canys yr oeddynt oll i ganu ar yr un offeryn cerdd, o wneuthuriad Dafydd ei hun—offeryn syml a hawdd ei chwareu, tybir. Cyflawnai y cantorion eu gwasanaeth yn sefyll, yr un pryd ag yr offrymid y poethoffrymau gan yr offeiriaid: a thra y cydgyflawnid y gwahanol ranau hyn o'r addoliad gan weinidogion arbenig, byddai "yr holl gynnulleidfa" yn "addoli:" 1 *Cron.* vi. 32; ix. 33; xv; xvi. 4, 5, 6, 42; xxiii; xxv; 2 *Cron.* v. 11—14; xxix. 25—28.

Wedi gorphen y deml, gosododd Solomon, "yn ol trefn Dafydd ei dad," y Lefiaid "i foliannu ac i weini ger bron yr offeiriaid;" 2 *Cron.* viii. 14.

Yn yr ymgeisiadau a wnaed gan Iehoiadah a Hezeciah i adferu addoliad Duw i'w ardderchogrwydd cyntaf, yn amser Dafydd a Solomon, yr ydys yn cael iddynt osod y Lefiaid, y cantorion, yn "nhŷ yr Arglwydd, â symbalau, &c., yn ol gorchymyn Dafydd;" 2 *Cron.* xxiii. 18; xxix. 25, 30. Ac wedi dychweliad y genedl o gaethiwed Babilon drachefn, gosodwyd y "Lefiaid meibion Asaph â symbalau, i foliannu yr Arglwydd;" *Ezra* iii. 10, 11.

Er pan ddinystriwyd y deml, ac y gwasgarwyd y genedl, nid ydys yn cael cerddoriaeth na chantorion yn ngwasanaeth y synagog, yn gyffredin; canys dyweda yr Iuddewon ei fod yn waharddedig canu yn eu gwasanaeth cyn dyfodiad y Messïah. Dywedir fod cantorion yn cyflawnu rhan o'r gwasanaeth mewn rhai synagogau yn yr Almaen:—eithriad goddefol yw hyny, deallir.

Yr unig sefydliad o bwys, dan yr hen oruchwyliaeth, a droswyd i'r oruchwyliaeth newydd, oedd caniadaeth y cyssegr; yr hyn a ddengys fod y sefydliad hwnw i barhau yn ngwasanaeth ac addoliad Duw. Ac yn nghynnulliadau crefyddol yr eglwysi cyntaf, yr ydys yn cael eu bod yn canu "salmau a hymnau, ac odlau ysbrydol." Gwneid hyny yn ol ffurf adfeiliedig caniadaeth ddwyfol, ar y pryd. Ond nid oes yn y Testament Newydd awgrymiad fod cantorion, fel dosbarth neillduedig o swyddogion, wedi eu gosod i gyflawnu, yn wahaniaethol, ganiadaeth yr addoliad dan oruchwyliaeth yr efengyl. Y mae yn debyg i'r gwasanaeth hwnw, yn gystal a phethau ereill perthynol i addoliad y Goruchaf, gael ei adael i'r eglwysi ei drefnu fel y byddo amgylchiadau dyfodol yn gofyn ac yn caniatäu. Ac y mae hanes cerddoriaeth yn profi fod cantorion wedi eu sefydlu neu eu gosod fel dosbarth arbenig a gwahaniaethol, yn yr eglwysi boreuol, i gyflawnu yn lleisiol y gwasanaeth o foliannu Duw, yn yr hyn y cydunai yr addolwyr yn gyffredinol. Y mae y sefydliad wedi parhau drwy yr oesoedd, yn yr eglwysi Cristionogol yn gyffredinol, i raddau mwy neu lai: ac yn yr oesoedd diweddaraf, cyssylltwyd caniadaeth offerynol â'r leisiol, yn addoliad nifer lluosog o honynt yn holl wledydd cred: ac y mae cyd-ddefnyddiad y ddau ffurf yn dyfod yn barhaus yn fwy cyffredinol.

Bernir fod côr o gantorion "cyfarwydd," yn syml a dirodres flaenori yn, ac arwain y, gân, yn fanteisiol i'r addolwyr yn gyffredinol i ddyrchafu eu llais mewn "sain cân a moliant," "i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orseddfainc, ac i'r Oen:" ac nid yw beio caniadaeth côr a arweinia y canu fel y crybwyllwyd, am nad yw yr addolwyr yn cyduno âg ef yn y gorchwyl, yn ddim amgen nag arwydd o anwybodaeth, a diffyg eydnabyddiaeth â'r ddyledswydd sydd ar "bob perchen anadl" i foliannu yr Arglwydd yn y gwasanaeth dwyfol.

CANU MARWNAD: yw ymarllwysiad dadganiadol o deimladau galarus y meddwl, drwy eiriau priodol, ac ar felodeg gwynfanus a chy ffröus, am farwolaeth dynion enwog, neu berthynasau a chyfeillion anwyl a hoff; yn gyffelyb fel y gwnaeth Ieremïah, "a'r holl gantorion a'r cantoresau," am Iosïah: 2 *Cron.* xxxv. 25. Ymddengys mai un o brif ddybenion canu marwnad, neu alarnad, oedd cyffroi y teimlad, ac ennyn galar eithafol a chyffredinol am yr ymadawedig; ac i'r dyben yna, cyflogid cerddorion cyfarwydd ar bibellau i alarnadu (*Mat.* ix. 23; xi. 17); a'r canlyniad eithafol fyddai rhwygo dillad, curo y ddwyfron, tynu y gwallt a'r farf, &c. Bernir y cenid y marwnadau mewn arwyliau (cyn cladd-edigaeth y marw), gorymdeithiau angladdol, ac yn ystod yr amser y byddid yn galaru.

CANU MASWEDD. Yystyr cyffredin y gair *maswedd*, yw, benywaidd, gwreigaidd, merchedaidd: a chymhwysir ef at ddynwarediad o'r ystlen fenywaidd, mewn ymweddiad ac ymddygiad, gan yr ystlen wrywaidd—ymweddu yn anwraidd, yn anllad, yn drythyll. Canu maswedd, yw canu neu dreithganu cerddi a chaneuon nwyfus, anllad, trythyll, a llygredig eu testyn, eu hebieithion, a'u dyben, gydag ystumiau mwythus, mursen-

Digitized by Google

aidd, ac anwrol, neu ynte merchedaidd, ar y corff, yr hwn hefyd a ddilladid â gwisgoedd merch, yn y treithganiad, fel y gwnelai "Clerwr y Dom," a "Bili Ffŵl," yn nghoegchwareuon gwylmabsantau, &c., y Cymry gynt, ac fel y gwneir yn nghynnulliadau llygredig a masweddol y chwareudai yn gyffredinol. Y pethau yna sydd yn gwahaniaethu "canu maswedd," oddi wrth yr hyn a enwir "canu gwagedd." Nid yw canu gwagedd cynddrwg, yn ol y syniad cyffredin am foesau, a chanu maswedd. Y mae maswedd, yn mhob amgylchiad a chyssylltiad, yn tueddu i ennyn chwantau cnawdol a llygredig yn y meddwl, ac i niweidio a drygu moesau da; a dywed yr Ysgrythyr Lân yn arbenig na chaiff "masweddwyr.....etifeddu teyrnas Duw;" 1 *Cor.* vi. 9, 10.

CANWRIAD, [*ἑκατοντάρχης, ἑκατόνταρχος=centurio*]: swyddog milwraidd yn y fyddin Rufeinig ar gant o wŷr. Crybwyllir am amryw o honynt yn y Testament Newydd: *Mat.* viii. 5, 8, 13; xxvii. 54; *Luc* vii. 2, 6; *Act.* x. 1, 22; xxi. 32; xxii. 25, 26; xxiii. 17, 23; xxiv. 23; xxvii. 1, 6, 11, 31, 43; xxviii. 16.

CANWYLL—AU, [*can—gwyll*]: gwneir canwyllau yn gyffredin o wêr, ond gwneir y rhai goreu o gŵyr, neu o ddefnydd a geir yn y morfil (*spermaceti whale*), neu o gymmysgedd o wêr puredig a chŵyr. Gwahana rhai y sylwedd olewaidd oddi wrth y brâs yn y gwêr, gan ddefnyddio yr olaf yn unig i wneyd canwyllau. Wrth ganfod y gellid gwerthu canwyllau a wneid o'r defnydd hwn yn llawer is na rhai cŵyr, darfu i M. Cheorcul, y gwr a gafodd hyn allan, yn nghyd â fferyllydd enwog arall, M. Gay-Lussac, gymmeryd braint-lythyr (*brevet d'invention*) i'w gwneyd a'u gwerthu; ond nid yw yn ymddangos iddynt gael nemawr o elw oddi wrthynt mewn cymhariaeth i'r hyn a wnaeth ereill, wedi i dymmor y braint-lythyr fyned trosodd, wrth eu gwerthu fel canwyllau cŵyr. Gwneir defnydd hefyd o sylwedd a dynir o gneuen yr India (*cocoa nut*) i wneyd canwyllau.

Un ffordd i wneuthur canwyllau yw, wedi toddi a darparu y gwêr mewn llestr priodol, trwy suddo y pabwyryn (*wick*) ynddo. Gwneir y pabwyryn o gotwm wedi ei nyddu yn edef led lac, a'i wneufhur yn ddyblygion, yn ol y maintioli y byddo y ganwyll i fod, neu y nifer a fyddo o honynt yn y pwys; o blegid y mae cyfartaledd priodol rhwng maintioli y pabwyryn a'r gwer fyddo o'i hamgylch yn angenrheidiol mewn trefn i oleuo yn dda. Wedi darparu y pabwyryn fel hyn, a dolen yn un pen, rhoddir amryw o honynt ar wialen led fain mewn agosrwydd penodol at eu gilydd; ac os byddys yn gwneuthur llawer o ganwyllau rhoddir amryw o wiail wedi eu trefnu fel hyn ar fath o lwyfan (*frame*), yna suddir y pabwyr oll gyda'u gilydd yn y gwêr toddedig ddwywaith neu dair, ac ar ol iddynt ddyferu ychydig rhoddir y llwyfan o'r neilldu nes y byddont wedi oeri. Suddir a gadewir iddynt oeri amryw o weithiau nes y byddont wedi dyfod i'r maintioli a'r pwysau angenrheidiol; ac i'r dyben o wybod hyny rhoddir y pwysau gofynedig ar y pen arall i'r peiriant a ddefnyddir i'w suddo. Gwneir defnydd o amryw lwyfanau i'w suddo y naill ar ol y llall.

Gwneir canwyllau hefyd mewn mold grongeuol, ychydig yn fwy yn un pen, mewn trefn i gael y ganwyll yn rhwydd o honi. Wedi rhoddi y pabwyryn yn y fold, a'i sicrhau â gwyfr i fod yn union yn y canol, dodir o ddeg i bymtheg c honynt mewn llwyfan o bren, a'u penau oll yn dyfod i gafn i'r hwn y tywelltir y gwêr i redeg iddynt. Ar ol iddynt oeri yn yr awyr, cymmerir y gwyfr a'r gwer a fyddo yn ngweddill ymaith, a thynir y ganwyll allan.

Y modd y gwneir canwyllau cŵyr yw trwy ddal y pabwyryn uwch ben llestr, a thywallt y cŵyr â math o lwy i redeg ar hyd-ddo, hyd nes y bydd yn ddigon o faint; yna wedi iddi oeri digon rholir hi ar fwrdd i'w gwneyd yn gron, ac wedi hyny llyfnheir hi.

Po fwyaf anhawdd ei doddi fyddo y defnydd y gwneir y ganwyll o hono meinaf oll y rhaid i'r pabwyryn fod, ac o ganlyniad llosgant yn hwy, a hydd y goleuni yn fwy dysglaer. Gan fod y pabwyr yn y math yma o ganwyllau yn fain, nis gall y pen wrth losgi ymgynnal heb gamu, fel yr eiddo y ganwyll wer, ac felly daw i gyffyrddiad âg *oxygen* yr awyr, a thrwy hyny caiff ei ddifa, fel nad yw yn angenrheidiol am ddim i dori y pen.

Bu treth am ysbaid maith o geiniog y pwys ar ganwyllau gwêr, a thair ceiniog a dimai ar ganwyllau cŵyr; ond diddymwyd hi y dydd cyntaf o Ionawr, 1832.

Y mae canwyll yn yr Ysgrythyrau yn arwyddo weithiau, yr hyn sydd yn rhoddi goleuni: *Diar.* vi. 23; *Mat.* v. 15; vi. 22; *Marc* iv. 21; *Luc* viii. 16; xi. 33, 34, 36; xv. 8; *Dad.* xviii. 23; xxii. 5 Pryd arall, arwydda lwyddiant, hawddfyd, neu esmwythdra: *Iob* xxi. 17; *Salm* xviii. 28; *Diar.* xiii. 9; *Ier.* xxv. 10.

Canwyll y llygad yw y llecyn crwn yn nghanol y llygad trwy yr hwn y treiddia goleuni i ni weled. Ar gyfrif y tynerwch a berthyn iddo, a'r gofal a gymmerir am dano, defnyddir yr ymadrodd i ddangos gofal ac amddiffyn manwl yr Arglwydd dros ei bobl: *Deut.* xxxii. 10; *Salm* xvii. 8; *Zech.* ii. 8. "Na pheidied canwyll dy lygad;" *Galar.* ii. 18;=*Μὴ σιωπήσαιτο θυγατηρ ὀφθαλμῶν σου*="na ddystawed merch dy lygaid." —*Deg a Thrigain.* Barna rhai mai deigryn a feddylir, ac nid canwyll y llygad. "Bydded eich lwynau wedi eu hymwregysu, a'ch canwyllau wedi eu goleu;" *Luc* xii. 35. Cyfeirir yma at ddefod ddwyreiniol: pan y byddai y meistr mewn gwledd fawr, ac yn aros yn hwyr, fel yr arferent yn gyffredin, byddai y gweision ffyddlawn yn gwregysu eu lwynau, ac yn cadw eu lampau yn oleu, i'r dyben i fod yn barod i agor iddo a'i arwain i mewn ar yr amnaid lleiaf o'i ddyfodiad.

CANWYLLBREN: canwyllyr. Yn *Exod.* xxv. 31—40, yr ydym yn cael y gorchymyn i Moses wneuthur canwyllbren aur i fod yn y tabernacl, a dysgrifiad manwl pa fath oedd i fod, yn ol y portreiad a ddangoswyd iddo yn y mynydd. "Gwna hefyd ganwyllbren: o aur pur yn gyfanwaith y gwneir y canwyllbren; ei baladr, ei geinciau, ei bedyll, ei gnapiau, a'i flodau, fyddant o'r un. A bydd chwe chainc yn dyfod allan o'i ystlysau; tair cainc o'r canwyllbren o un tu, a thair cainc o'r canwyllbren o'r tu arall. Tair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar un gainc; a thair padell o waith almonau, cnap a blodeuyn ar gainc arall: felly ar y chwe chainc a fyddo yn dyfod allan o'r canwyllbren. Ac yn y canwyllbren y bydd pedair padell ar waith almonau, a'u cnapiau a'u blodau. A bydd cnap dan ddwy gainc o hono, a chnap dan ddwy gainc o hono, a chnap dan ddwy gainc o hono, yn ol y chwe chnap

Digitized by Google

addeuent o'r canwyllbren. Eu cnapiau a'u ceinciau a fyddant o'r un: y cwbl fydd aur coeth o un cyfanwaith morthwyl. A thi a wnai ei saith lusern ef, ac a oleui ei lusernau ef, fel y goleuo efe ar gyfer ei wyneb. A bydded ei efeiliau a'i gafnau o aur coeth. O dalent o aur coeth y gwnai ef, a'r holl lestri hyn." Ac yn *pen.* xxxvii. 17—24, cawn ddysgriflad o hono ar ol ei wneuthur, braidd air yn air fel yr un blaenorol.

Dyry Josephus y dysgriflad a ganlyn o hono, yr hyn sydd yn gyffelyb i'r un blaenorol [*Henaf. yr Iudd.*, cyf. H. Jones]:—"Gyferbyn a'r bwrdd hwn (bwrdd y bara gosod), yn agos i'r pared deheuol, y gosodid canwyllbren o aur, yn wag oddi fewn, ac yn un cant o bwysau, yr hwn a eilw yr Hebreaid, yn *cinchares*, yr hyn os dychwelir i'r iaith Roeg a arwydda talent. Gwnaed ef â chnapiau, liliaid, a phomgranadau, a ffiolau; yr addurniadau hyn a gyfrifid oll yn ddeg a thrigain. Trwy y moddau hyn y bicell a ymddyrchafai oddi wrth y gwaelod, oedd yn gwahanu i gynnifer o gangenau ag sydd o blanedau; gan gyfrif yr haul yn eu mysg. Efe a ddiweddid â saith llaw mewn un rhes, y cwbl yn sefyll yn gydradd y naill i'r llall; ac yr oedd y ceinciau hyn yn dwyn gyda hwynt saith o lampau, un ac un, mewn cyffelybiaeth i nifer y planedau; yr oedd y lampau hyn yn edrych i'r dwyrain, ac i'r deheu, ac ar ogwydd y safai y canwyllbren."

Pan ddinystriwyd y deml gan y Rhufeiniaid, yn mhlith pethau ereill a ddygwyd yn ysbail yr oedd y canwyllbren aur, a cherfiwyd ci lun ar y bwa a adeiladwyd i gadw mewn coffadwriaeth orymdaith fuddugoliaethus Titus.

Dar. 161

Ymddengys fod y gair a gyfieithir *cyfanwaith* yn arwyddo ei weithio â morthwyl, ac nid ei doddi a'i fwrw. Yr oedd ei geinciau yn dyfod o'r paladr, y naill uwch law y llall, tair o bob ochr, a llusern i ddal goleuni ar ben uchaf y paladr yr un modd ag ar y ceinciau, ac felly yr oedd iddo saith llusern. Nodir pedyll, cnapiau, a blodau, fel addurniadau arno. Yr oedd pedwar cnap a blodeuyn, a phedair padell ar y paladr; un o dan bob dwy gainc, ac un y tu uchaf iddynt oll o dan y llusern; ond tybia rhai nad oedd mwy nag un cnap a blodeuyn ar y cangenau, a hwnw yn union o dan y llusern, fel i'r paladr. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg fod tair padell ar bob cainc, yr hyn oedd yn gwneyd nifer y pedyll yn ddwy ar ugain, a nifer y cnapiau yn ddeg, oddi eithr i ni olygu fod cnap a blodeuyn yn perthyn i bob padell ar y ceinciau yn gystal ag y paladr, neu y "canwyllbren," fel y gelwir ef yn *adn.* 34, ac felly fod yr un nifer o'r naill a'r llall; a dichon mai dyma y golygiad mwyaf naturiol. Bernir y dylid deall dau o'r ymadroddion a ddefnyddia Josephus yn gyfystyr—"cnapiau" a "phomgranadau"—sef fod y cnapiau yn gyffelyb i bomgranadau, ac nid yn gosod allan bedwar math o addurniadau. Arwydda hefyd fod y blodau yn gyffelyb i'r lili. Ond barna ereill mai tebyg i flodau almonau oeddynt.

Nid yw gwahanol awduron yn cytuno pa beth oedd uchder y canwyllbren, na pha un a oedd pob un o'i geinciau yn ogyfuwch â'u gilydd, ac o'r un uchder a'r paladr, fel y mae yn y darlun uchod yn arwyddo. Nid yw yr Ysgrythyr yn rhoddi un fantais i ni gasglu. Yr oedd ei bwysau i fod yn "dalent o aur coeth," yr hyn oedd yn gyfartal o ran ei werth i 5,067*p.* 3*s.* 10*c.*, medd rhai, o'n harian ni. Cyfrifa ereill ei werth yn 5,475*p.*; ereill yn 7,013*p.*; a rhai hefyd yn fwy na hyny. Bernir gan lawer y gellid ei dynu yn ddarnau oddi wrth eu gilydd i'w gludo; ond nis gellir penderfynu pa un a oedd ei geinciau yn troi o amgylch ei baladr ai peidio. Gorchuddid y canwyllbren a'r holl ddodrefn a berthynai iddo â sidan glas, a gosodid y cyfan "mewn gorchudd o groen daiarfoch," i'r dyben i'w gludo: *Num.* iv. 9, 10.

Ei sefyllfa yn y cyssegr oedd o'r tu allan i'r wahanlen, "gyferbyn a'r bwrdd (y bara gosod), ar y tu deheu i'r tabernacl," a'r "bwrdd ar du y gogledd;" hyny yw, wrth edrych tua'r drws oddi wrth y wahanlen: *Exod.* xxvi. 35. Tybia rhai nad oedd y lampau yn goleuo ond yn unig yn y nos, ac y diffoddid hwy bob bore; ond barna ereill, am nad oedd ffenestri ar y cyssegr, ac am y dywedir fod i'r lamp losgi yn wastad, eu bod yn goleuo y dydd yn gystal a'r nos, ac na fyddent byth yn diffoddi ond pan fyddai yr offeiriaid yn esgeuluso eu trwsio: *Exod.* xxvii. 21; xxx. 7, 8; *Lef.* xxiv. 2, 3. Barna ereill nad oedd ond y lamp ganol ag oedd ar y paladr yn oleu y dydd, a'r lleill yn niffodd hyd yr hwyr. Dywed Josephus fod tair o honynt yn oleu y dydd, a'r lleill yn cael eu goleuo yn yr hwyr: ond efallai nad yw ei dystiolaeth ef yn benderfyniad ar y pwnc, gan nad oedd ganddo, heb law yr Ysgrythyr, ond traddodiad, a'r modd yr arferid gwneyd yn ei ddydd iau ef; ac yr oedd llawer o bethau wedi gwyro yn mhell o'u ffurf gyntaf y pryd hwnw. Goleuid y lampau neu y llusernau âg "olew olew-wydden pur, coethedig;" *Lef.* xxiv. 2.

Yn nheml Solomon yr ydym yn darllen fod "pum canwyllbren o'r tu deheu, a phump o'r tu aswy, o flaen y gafell, yn aur pur;" ond ni roddir dysgriflad pa fath oeddynt: 1 *Bren.* vii. 49; 2 *Cron.* iv. 7. Cymmerwyd y rhai hyn gyda phethau ereill yn ysbail i Babilon: *Ier.* lii. 19. Wedi dychweliad yr Iuddewon o'u caethgludiad nid yw yn ymddangos fod yn y deml a adeiladodd Zorobabel chwaneg nag un canwyllbren: 1 *Mac.* i. 21. Ond bernir oddi wrth y dysgriflad a ddyry Josephus o'r un oedd yn nheml Herod wedi hyny, a'r hyn a ddywedir yn 1 *Mac.* iv. 50, eu bod yn goleuo "y canwyllau oedd yn y canwyllbren, i oleuo y deml," fod ceinciau iddo, efallai chwech, fel y canwyllbren oedd yn y tabernacl. Ymddengys ddarfod i Antiochus Epiphanes ysbeilio yr ail deml o'r "canwyllbren oedd yn dal y

Digitized by Google

goleuad, a'i holl offer ef," gyda'i holl ddodrefn, "yr arian a'r aur, a'r llestri gwerthfawr," a'u cymmeryd ymaith i'w wlad ei hun: 1 *Mac.* l. 20—24. Syrthiodd y canwyllbren oedd yn nheml Herod, yn gystal a phethau gwerthfawr ereill, yn ysbail i ddwylaw y Rhufeiniaid pan ddinystriwyd Ierusalem ganddynt. Dywedir ddarfod ei ddwyn yn ysbail oddi yno i Affrica gan Genseric, yn B. A. 455; ac oddi yno gan Belisarius i Gaer Cystenyn, tua'r flwyddyn B. A. 533; a'i fod wedi ei drosglwyddo drachefn i Ierusalem; ac o'r pryd hwnw nid oes hanes am dano.

Yn *Zech.* iv. 2, 3, ceir adroddiad o weledigaeth nodedig a gafodd y prophwyd i'r dyben i gadarnhau Zorobabel, a'r rhai oedd yn ei gynnorthwyo, i adeiladu yr ail deml, yn eu hymddiried yn yr Arglwydd, mewn cyfeiriad at y canwyllbren yn y cyssegr. "Edrychais, ac wele ganwyllbren i gyd o aur, a'i badell ar ei ben, a'i saith lusern arno, a saith o bibellau i'r saith lusern oedd ar ei ben ef; a dwy olew-wydden wrtho, y naill o'r tu deheu i'r badell, a'r llall o'r tu aswy iddi." Yn y weledigaeth hon yr oedd y llusernau yn cael eu cyflenwi o'r badell trwy bibellau aur, ac nid fel y trwsid pob un o honynt gan yr offeiriaid yn y tabernacl; ac yr oedd y ddwy olew-wydden, un o bob tu i'r badell, yn ei chadw hithau â digonedd o olew yn barhaus. Yn awr, yr eglurhad a roddir ar y weledigaeth hon gan yr angel yw hyn,—"Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, ond trwy fy ysbryd, medd Arglwydd y lluoedd," &c.; *adn.* 6—14. Pa faint bynag o garedigrwydd a dderbyniasant ac a dderbynient rhag llaw oddi wrth freninoedd Persia, yr oedd hyny yn deilliaw trwy ddylanwad Ysbryd yr Arglwydd; a pha faint bynag fyddai eu gwrthwynebiadau, yr oedd eu llwyddiant yn ymddibynu ar ddylanwad yr un Ysbryd ar eu meddyliau i'w cyfarwyddo mewn doethineb, ac i'w nerthu mewn ffydd i ddwyn y gwaith yn mlaen mewn ymddibyniad ar Dduw, ac nid trwy unrhyw gymhorth dynol. Trwy gael eu hamddiffyn a'u nerthu gan Ysbryd Duw fel hyn, byddai y mynydd mawr yn myned yn wastadedd—pob rhwystrau yn diflanu o'u blaen. "Y mae yn ddiammheu fod hyn yn arwyddo digonolrwydd gras Duw i oleuo a sancteiddio gweinidogion ac aelodau yr eglwys; yr hyn sydd wedi ei drysori yn Nghrist, i'w gyfranu o hono ef, trwy ei ordinhadau, i bob un yn holl barthau y byd, yn ol fel y byddo achosion ac amgylchiadau yn galw; a'r hyn nas gellir ei gael na'i attal trwy unrhyw allu dynol, ond sydd yn cael ei gyfranu yn ol y drefn y mae efe wedi ei sefydlu a'i dadguddio yn ei air."—*Scott.*

Y mae yr un arwyddlun yn cael ei ddefnyddio yn *Dad.* i. 12, 13, 20, i osod allan yr eglwys yn ei gwahanol gangenau fel y mae yn oleuni y byd, ac yn cynnal gair y bywyd. "Ac wedi i mi droi, mi a welais saith ganwyllbren aur; ac yn nghanol y saith ganwyllbren un tebyg i Fab y dyn," &c. "A'r saith ganwyllbren a welaist, y saith eglwys ydynt."

CAPEL, [Llad. *capella*]: enw a ddefnyddir er dynodi adeilad is-raddol wedi ei neillduo at wasanaeth dwyfol. Ni wyddys yn iawn beth yw dechreuad a tharddiad y gair.

Arferir ef yn y wlad yma er gosod allan adeiladau crefyddol o is-radd, wedi eu sylfaenu dan amgylchiadau ac i ddybenion gwahanol.

1. Y mae llawer iawn o adeiladau eglwysig ar hyd y wlad, mewn plwyfydd mawrion, y rhai nid ydynt mewn ystyr priodol yn eglwysydd, eithr capeli. Y mae llawer o honynt o sefydliad hen, ond nid cyn hyned a'r amser y dosbarthwyd plwyfydd gyntaf, ac y trefnwyd ar fod i'r degwm a'r offrwm berthyn i rector rhyw eglwys neillduol. Dygwyddai yn fynych mewn plwyfydd mawrion y byddai teulu o urddas yn byw yn mhell oddi wrth yr eglwys, ac y dymunent gael adeilad yn nes atynt, i ba un y gallent hwy a'u deiliaid gyrchu i fwynhau yr ordinhadau Cristionogol. Wedi rhoddi rheswm digonol am y peth, cydsyniai yr esgob yn aml â'u cais: ond ni oddefai i iawnderau eglwys y plwyf gael eu gormesu; nid oedd dim o'r degwm i gael ei dynu oddi wrthi a'i roddi i'r sefydliad newydd, ac nid oedd i'r sefydliad hwnw gael ei ystyried o radd gogyfuwch â'r hen eglwys, na'i pheriglor fod ond megys is-weinidog i beriglor eglwys y plwyf. Ond byddai yr esgob yn gyffredin, efallai bob amser, yn ammodi ar fod i'r adeilad gael ei chynnysgaethu gan y sylfaenydd. Nid anfynych y byddai dau ddyben mewn golwg wrth adeiladu y capeli hyn; sef cael man cyfleus i addoli, ac adeilad lle y gellid offrwm gweddïau parhaus dros deulu y sylfaenydd. Sylfaenwyd rhai trwy ddefosiwn y plwyfolion. Byddai poblogaeth rhyw bentref lled anghysbell oddi wrth eglwys y plwyf yn cynnyddu, a theimlai y bobl yn anhawdd ganddynt fyned yno i fedyddio, eglwysa, a chladdu, heb law cyrchu i'r gwasanaeth ar y Sabbathau a'r gwyliau; ac o'r herwydd, anfonent ddeisebau at yr esgob, gan ddadgan y pellder yr oeddynt yn byw oddi wrth yr eglwys, a'r rhwystrau a'u lluddient rhag myned iddi yn gysson, megys ffyrdd drwg, eira, llifogydd, a'r cyffelyb. Yna cydsyniai yr esgob â'u cais, gan gadw, beth bynag, iawnderau a breintiau eglwys y plwyf fel yr oeddynt o'r blaen. Yn mhlwyf Halifax, y mae deuddeg o'r cyfryw gapeli, oll wedi eu sylfaenu cyn y Diwygiad. Yn mhlwyf Manceinion, a'r rhan fwyaf o blwyfydd swydd Lancaster, y maent hefyd yn dra lluosog. Tlodwyd llawer o honynt trwy weithred 1 Edward VI., ond gwaddolwyd hwy i raddau mwy neu lai wedi hyny trwy roddion neillduol, ac yn enwedig trwy yr hyn a elwir haelioni y frenines Anne.

2. Arferir y gair capel i ddynodi lleoedd addoliad yn nghastelli a thai gwyr urddasol. Yr ydym yn canfod yn adfeilion rhai o hen gastelli y deyrnas ryw ystafell fechan a ddefnyddiwyd yn ddiammheu i ddybenion o addoliad. Ond yn fwyaf cyffredin adeiledid capeli o'r fath hyn mewn cyssylltiad âg annedd-dai perthynol i wŷr mawr. Y mae yn debyg fod y rhan fwyaf o'r tai barwnol yn meddu ar y cyfryw. Gellir gweled mor orwych fyddent weithiau oddi wrth gapel Sant Sior yn Windsor, a chapel Sant Stephan yn Westminster, y rhai ill dau a gyssylltwyd wrth drigfanau ein breninoedd.

3. Capeli colegau, megys yn y ddwy brifysgol; a chapeli ysbyttai, neu sefydliadau cyffelyb.

4. Capeli at wasanaeth neillduol, yn benaf gwasanaeth dros y meirw, mewn eglwysi mawrion, megys capel St. Erasmus, ac ereill, yn eglwys Westminster. Weithiau, gelwir y chwaneg-iadau a wneir at eglwysi plwyfol i ddybenion cantorawl, yn gapeli cantorawl.

5. Gelwir lleoedd addoliad o sefydliad diweddar, yn enwedig mewn trefi, yn gapeli cyfleus (*chapels of ease*), am eu bod wedi eu hadeiladu er cyfleusdra y trigolion, pan na byddai digon o le iddynt yn eglwys y plwyf. Y mae y rhan fwyaf o'r rhai hyn wedi eu seilio ar weithredoedd neillduol o eiddo y senedd, yn mha rai y dysgrifir iawn-

Digitized by Google

d rau a dyledswyddau y gweinidog a'r sylfaenwyr.

6. Y mae y gair capel hefyd ar arfer gwlad yn gyffredin yn arwyddo y lleoedd addoliad a adeiladwyd gan wahanol enwadau o Ymneilldduwyr, dan weithred y Goddefiad, er bod y Crynwyr, a rhai o'r Ymneilldduwyr mwyaf manwl, perthynol i enwadau ereill, o gasineb at enw wedi ei fenthyca oddi ar gyfundrefn eglwysig nad ydynt hwy yn ei chymmeradwyo, yn dewis yn hytrach alw y cyfryw adeiladau yn dai cwrdd.

CAPERNAUM, [*dinas cysur;* enw yn defilliaw o'r Hebraeg, yn yr hon y mae yn air cyfansawdd, Caphar-Nahwm, ystyr yr hyn o'i ddeongli yw, *dinas* neu *bentref dyddanwch;* neu fel enw priod, *Dinas Nahwm*]: dinas ar y tu gogledd-orllewin i lyn Gennesaret, ac yn nghyffiniau rhandiroedd Zabulon a Naphthali; dinas y sonir am dani yn fynych yn yr efengylau, gan mai yno y treuliai ein Harglwydd lawer o'i amser yn ystod ei weinidogaeth gyhoeddus, ac o herwydd hyny y gelwir hi gan Matthew (*pen.* ix. 1), "ei ddinas ei hun." Llettyai yno gyda Pedr, yr hwn, fel yr ymddengys, oedd yn byw gyda'i deulu yn nghyfraith, ac wedi symmud yno o Bethsaida, yn nghylch yr un amser: cymharer *Marc* i. 29—36 à *Ioan* i. 44.

Nid yw Capernaum yn cael son am dani yn yr Hen Destament o gwbl, na than yr enw hwn nac un arall cyffelyb; am hyny, nid annhebygol yw ei bod yn un o'r trefydd a adeiladwyd gan yr Iuddewon wedi eu dychweliad o gaethiwed Babilon. Dywedir ddarfod iddi gael ei henw oddi wrth ffynnon gyfagos, oedd yn enwog am ei dyfroedd gloyw, grisialaidd; yr hon, yn ol Josephus, a elwid gan y brodorion, Capernaum [*Rhyf. Iudd.*, iii. 10, 8]. Dichon fod y ffynnon yn gymhelliad i adeiladu dinas yn y lle, fel ag y daeth yn gynniweirfa gyffredin i ymdeithwyr o Galilea i'r parth tu hwnt i'r llyn. Ond yr hyn sydd uwch law pob ystyriaeth arall yn gwneuthur y ddinas hon yn gofiadwy, yw, mai yma y dangosodd Mab Duw ei ogoniant drwy lawer o'i wyrthiau rhyfeddol, ac yma hefyd y traddododd efe rai o'i bregethau mwyaf nodedig, a chryn nifer o'i ddammegion. Yn y synagog, yn Capernaum, efe a iachaodd ddyn âg ynddo ysbryd cythraul aflan (*Luc* iv. 33—37);—iachaodd yno fam gwraig Pedr (*Marc* i. 30, 31);—y claf o'r parlys (*Mat.* ix. 2—8);—mab y pendefig (*Ioan* iv. 46—54);—gwas y canwriad (*Luc* vii. 1—10);—merch Iairus, a'r wraig o'r dyferlif gwaed (*Marc* v. 22—43). Yma, yn y synagog, y traddododd y bregeth ddwyfol am fara y bywyd (*Ioan* vi. 26—59); ac yn y gymmydogaeth, ei bregeth ar y mynydd (*Mat.* v; vi; vii); a'r dammegion yn *Mat.* xiii. Wrth y dollfa yno y galwyd Matthew (*pen.* ix. 9). Os darllenir yn fanwl adroddiad syml a diaddurn yr efengylwr Marc (*pen.* i. 21—ii. 12), canfyddir yn eglur y fath sylw dyddorol yr oedd pregethau a gwyrthiau Crist wedi ei ennill yn y ddinas hon. Yr oedd y prophwyd Esaiah yn ddiau er's oesoedd wedi rhagfynegu y dygwyddiadau hyn, ac hyd yn oed wedi nodi allan y fan lle y dygwyddent (*Esa.* ix. 1, 2); prophwydoliaeth y dywedir yn benodol a gyflawnwyd yn y pethau rhyfedd a gogoneddus a gymmerasant le yn Capernaum, at ba rai yn fyr y cyfeiriasom: *Mat.* iv. 12—16. Ond ni wnaeth Capernaum iawn ddefnydd o'i breintiau. Yr Iesu ei hunan "a edliwiodd i'r dinasoedd yn y rhai y gwnaethid y rhan fwyaf o'i weithredoedd nerthol ef, am nad edifarhasent;" ac am y ddinas hon yn neilldiol, cyhoeddodd uwch ei phen y bygythiad mwyaf ofnadwy; "A thydi, Capernaum, yr hon a ddyrchafwyd hyd y nef [o ran breintiau yr efengyl], a dynir i lawr hyd yn uffern: canys pe gwnaethid yn Sodom y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd ynot ti, hi a fuasai yn aros hyd heddyw;" *Mat.* xi. 20, 23. Y mae y geiriau difrifol hyn yn dangos yn eglur nas gellir camddefnyddio rhagorfreintiau ysbrydol yn ddiberygl; y rhaid i bawb sydd yn mwynhau goleuni dadguddiad dwyfol roddi cyfrif manwl i Dduw pa ddefnydd a wnaethant o hono; ac i ba le bynag y mae yr Arglwydd yn anfon ei efengyl, ac yn planu yno weinidogaeth y gair, y mae y fan hono yn myned dan gyfrifoldeb pwysig, am yr hyn y bydd yn rhaid ateb yn y dydd mawr a ddaw: *Luc* xii. 48; xvi. 31.

Y bygythiad hwn, o herwydd anedifeirwch ac anghrediniaeth y trigolion, a gyflawnwyd mor lwyr, fel y mae gwir safle y ddinas erbyn hyn yn hollol anhysbys. Y mae ymdeithwyr dysgedig a chraff wedi bod yn chwilio yn fanwl am ei lle, ond yn methu dyfod i un penderfyniad am dano. Tueddir Dr. Robinson, oddi ar awgrymiad o eiddo Quaresmius, i farnu fod ei lle yn cael ei nodi allan gan ychydig o adfeiliau, a elwir gan yr Arabiaid, Khan Minyeh. Y mae yn sefyll yn y gwastadedd ffrwythlawn ar du gorllewin llyn Gennesaret. Math o bant trionglog ydyw, yn cael ei ffurflo gan gîl y mynyddoedd yn nghylch canol y lan orllewinol. Y mae ochr y gwastadedd hwn, ar hyd glan y llyn, o ddeutu taith awr o hyd; tra y mae yr ochrau tu mewn yn daith tuag awr a hanner. Yma y cyflea Josephus y ffynnon grybwylledig, a elwid Capharnaum, ond nid yw efe yn son dim am y ddinas; a chan y gellir casglu, oddi wrth awgrymiadau ysgrythyrol, fod Capernaum yn sefyll yn y gwastadedd hwn, tebygol nad oedd y ffynnon yn mhell oddi wrthi, gan y gelwid hi ar ei henw. Adnabyddir y ffynnon hon yn awr wrth yr enw Ain-et-Tin; ac y mae yn agos i ben gogleddol y gwastadedd, ac nid yn mhell oddi wrth y llyn. Y mae ffigysbren yn ei gorchuddio, oddi wrth ba un y deillia ei henw presennol; ac y mae ei dwfr, meddir, yn flasus. Os yw yr adfeilion sydd ger llaw y ffynnon hon yn dynodi sefyllfa y ddinas boblog gynt, gwelir ei bod wedi ei thynu i lawr yn isel iawn yn wir. Y mae ffynnon brydferth arall yn yr un gwastadedd, a elwir "Y Ffynnon Gron" (Ain el-Madauwarah), ond nid oes olion hen adeiladau i'w canfod yn agos iddi, am hyny nis gellir tybied fod sefyllfa y ddinas yn y fan hono. Y mae Khan Minyeh yn sefyll tua chwe milltir oddi wrth aber yr Iorddonen, neu y fan y mae yn rhedeg i lyn Gennesaret.

Y mae y dybiaeth uchod, modd bynag, yn cael ei hammheu gan deithwyr cyfrifol ereill, a'r flaenoriaeth yn cael ei roddi i le a elwir Tel Hwm, fel yn meddu mwy o debygolrwydd mai yno y safai yr hen Capernaum. Y mae adfeilion Tel Hwm ar derfyn y llyn, o gylch taith awr oddi wrth lan orllewinol yr Iorddonen, yn sefyll ar drwyn o dir yn estyn allan, neu yn hytrach gamder yn y lan Ceir yma weddillion lle o gryn bwys a maintioli, yn gorchuddio llain o leiaf hanner milltir o hyd, gyda glan y llyn, a thua hanner hyny o led i'r tir. Y maent yn cynnwys yn benaf sylfeini, a muriau syrthiedig, hen anneddau, ac adeiladau ereill—oll o geryg heb eu trin, oddi eithr dau adfail. Un yn amlwg a adeiladasid mewn amseroedd diweddar, o geryg nadd a cholofnau adeiladau blaenorol; ac heb fod yn mhell oddi wrtho y mae adfeiliau syrthiedig yr adeilad arall, yr

Digitized by Google

hwn, am draul llafur ac addurn, sydd tu hwnt i ddim sydd i'w weled o fewn Palestina. Y mae y defnyddiau yn gynnwysedig o feini cerfledig, marmor wedi ei ddwyn o bell, a cholofnau o'r gwaith mwyaf cywrain, ac oll yn gorwedd yn ddarnau gwasgaredig yn yr annhrefn mwyaf, fel na ellir dywedyd yn awr pa un ai teml genedlig ai eglwys Gristionogol ydoedd. Y mae y gweddillion hyn yn brawf fod yno gynt "ddinas nid anenwog;" ond yn bresennol, ac er's oesoedd bellach, y mae si diwydrwydd dynol yno wedi llwyr ddystewi, a'r cwbl yn dangos anghyfannedd-dra galarus. Sylwa Dr. Wilson, fod cyfran o'r enw gwreiddiol, *Caphar Nahwm*, i'w ganfod yn dalfyredig yn yr enw *Tel Hwm*; a bernir fod adfeilliau y lle hwn o fwy henafiaeth nag adfeiliau Khan Minyeh; eto nis gellir bod yn benderfynol mai yma chwaith y safai y ddinas a ddyrchafwyd hyd y nef, ac y bygythiwyd ei thynu i lawr hyd yn uffern.

Tybir nad yw y ffrydiau o un o'r ffynnonau a nodwyd, er eu bod yn ffrwythloni y tir yn hyfryd hyd y cyrhaeddant, yn ddigon o hyd i ateb i ddysgrifiad Josephus o ffynnon Capernaum, oedd yn dyfrhau gwastadedd Gennesaret. "Nis gwyddom," medd Dr. Kitto, "am un ffrwd y gellid dywedyd hyn am dani oddi eithr y Wady Rubudiyeh, yr hon y mae ei changenau rhanedig yn croesi parthau canol a gogleddol y gwastadedd. Os byth y darganfyddir safle Capernaum, dichon y bydd ar y naill neu y llall o gangenau y ffrwd hon."—(*Rel. Cycl.; Kitto's Cycl. of Bib. Lit. Kitto's Land of Promise*, &c.)

CAPIAID, [*cap;* Ll. *Caputiati*]: plaid benboeth, a gyfododd yn y deuddegfed canrif, ac a elwid felly oddi wrth fath o gap hynod a wisgent fel eu harwydd. Buont o flinder mawr i dalaeth Burgundy, esgobaeth Auxerre, a pharthau ereill o Ffrainc, drwy gyffroi llawer o derfysg yn mhlith y bobl. Gwisgent ar eu capiau ddelw blwm o Fair Forwyn; a hysbysent yn gyhoeddus, mai eu hamcan oedd darostwng pob pendefigaeth, dileu swyddogaeth, symmud pob israddoliaeth o blith dynolryw, ac adferyd rhyddid gwreiddiol, a'r cydraddoldeb naturiol, oeddynt yn freintiau anmhrisiadwy y marwolion cyntaf. Ymosododd Hugo, esgob Auxerre, ar y terfysgwyr hyn, gan ddefnyddio grym arfau yn hytrach na rhesymau er eu darostwng.—*Mosheim.*

CAPITOLIUM, ["Cabidyldy Rhufain"—*Dr. Davies*]: teml enwog yn Rhufain, ar y Bryn Cabidylaidd, yr uchaf o'r saith fryn ar ba rai yr adeiladesid y ddinas. Yr oedd yn betryal, a phob ystlys iddi tua 200 troedfedd o hyd, a'r esgynfa iddi ar hyd grisres o gant o raddau. Yr oedd yn un o'r adeiladau henaf, mwyaf, ac ardderchocaf yn y ddinas. Fe'i sylfaenwyd gan Tarquinius Priscus, ac a helaethwyd ac a brydferthwyd ar wahanol amserau. Yr oedd ei phyrth o bres, ac yr oedd wedi ei goreuro yn gostus; ac oddi wrth hyny gelwid hi yn "euraid" ac "ysblenydd." Yr oedd yn cynnwys tri adeilad,—teml Iau yn y canol, teml Minerva ar y ddeheu, a theml Juno ar yr aswy; ac heb law hyny, rai temlau neu gapelydd llai, a bwth Romulus â thô gwellt iddo.—Gwel RHUFAIN.—(*Kitto's Cycl. Rel. Lit.*, dg. ROME.)

CAPLAN: yn yr ystyr priodol o'r gair, clerigwr yn gwasanaethu capel, mewn cyferbyniad i beriglor eglwys y plwyf, ydyw caplan, Ond arferir yr enw yn aml i arwyddo, 1. Clerigwyr yn byw gyda theuluoedd o urddas, ac yn cyflawnu gwasanaeth crefyddol yn y teulu; neu, yn 2. Y rhai a dybir eu bod felly, er na fyddont mewn gwirionedd. Tardda y ffugiad yma oddi ar y dybiaeth fod gan bob esgob a phendefig, yn nghyd â rhai o brif swyddogion y llywodraeth, bob un ei gapel neillduol, i'r hwn y penodant offeiriad neu chwaneg. Y mae rhyw freintiau o barth dal bywoliaethau yn perthyn i'r capelwyr hyn, wedi eu diogelu trwy y weithrod yn erbyn amlblwyfau, 21 Harri VIII., c. 13. Trwy yr un weithred penodwyd nifer y capelwyr y gallai pendefigion ac ereill gael:—gallai archesgob gael wyth; dug neu esgob, chwech; ardalydd neu iarll, bump; is-iarll, bedwar; barwn, marchog y gardys, neu yr arglwydd ganghellwr, dri; trysorydd tŷ y brenin, arolygwr tŷ y brenin, y llogawdur, ysgrifenydd y brenin, deon y capel, yr elusenwr, a meistr y rholau, bob un ddau; prif ynad Queen's Bench, a gwarcheidwad y Cinque Port, un bob un; gall duges, ardalyddes, iarlles, a barones, os byddant weddwon, gael dau bob un.

Y mae amrywiol gyfeiriadau yn nghyfreithiau Hywel Dda, at gapelwyr y llys breninol, yn amser annibyniaeth Cymru.

CAPPADOCIA: teyrnas a fu cyn tymmor hanesiaeth—wedi hyny talaeth—yn Asia Leiaf. Ei therfynau oeddynt, o du y gogledd, morgainc Amisene, yn y Môr Du; o du y dwyrain, yr Euphrates; o du y deheu, mynyddoedd Taurus, a thalaeth Cilicia; ac o du y gorllewin, Phrygia, Galatia, a Paphlagonia; neu, yn yr hen amseroedd, tybir mai yr afon Halys oedd ei therfyn gorllewinol. Rhanwyd hi yn ddwy dalaeth gan Darius Hystaspis, tua 500 c. c.; y rhai a elwid, Cappadocia Pontus, yr hon a ymledai o ororau y Môr Du hyd fynyddoedd Paryadres; a Chappadocia Taurus, yr hon a ymledai o'r mynyddoedd hyn hyd fynyddoedd Taurus. Yn yr amser hyn, yr oedd y ddwy dalaeth yn ddarostyngedig i Persia: llywodraethid hwy gan ddau raglywydd (*satraps*), pa rai a dalent deyrnged, mewn ceffylau, mulod, a defaid, i'r llywodraeth Bersiaidd. Pliny a fynega mai oddi wrth afonig a lifa o'r Paryadres (Keldir) i'r Halys, ar derfynau Galatia yr hon a elwid Cappadox, y tardda enw y dalaeth.

Y mae daiar dyffrynoedd yr afonydd Halys (Kizil-Ermak), yr Iris (Yeshil-Ermak), a'r Melas, mor frased ag un man yn Asia Leiaf; ond gan fod yr afonydd, ar amserau, yn gorlifo y dyffrynoedd, ac yn eu toi â llaid, nid yw yr awyr yn iachus. Disgyna y ddwy afon flaenaf i'r Môr Du, a'r olaf a ddisgyna i'r Euphrates. Croesir y dalaeth gan dri thrum o fynyddoedd mawrion ac uchel; rhai o honynt yn döedig gan eira oesol, sef y Taurus, Anti-Taurus, a'r Paryadres (Keldir). Yn y mynyddoedd hyn, y mae ucheldir gwastad (*table lands*) rhagorol er magu anifeiliaid; ac yn yr hen amserau, digonid y taleithiau cylchynol â'u cynnyrch. Yr unig fan coediog ynddi ydyw ardaloedd mynydd Argæus (Argis Dagli). Rhwng hyny a'r dwyrain, tuag Anti-Taurus, ceir anialwch tywodlyd, a chreigiau noethion, heb ddim yn tyfu, ac arwyddion o ddymchweliadau folcanig. Y mae y bryniau o ddeutu yr afon Kizil (Halys) yn cynnwys digonedd o halen. Ac yn y wlad ogledd-ddwyreiniol, ar ororau y Môr Du, ceir digonedd o fŵn haiarn, allog (*alum*), ychydig arian, grisial, iasper, ac onyx. Mynegir fod y Chalibeaid wedi bod yn gweithio y mwn-

Digitized by Google

gloddiau hyn yn yr amser gynt. Y prif ddinasoedd ydynt, yn Cappadocia Fwyaf (Taurus):—Comana (Bostan), lle y bu teml enwog i Bellona: a Mazaca (Kalsarich), hen Cesarea Cappadocia, a fu yn brif ddinas breninoedd y dalaeth, ac yn cynnwys 400,000 o drigolion; saif ar yr afon Melas, yn nghymmydogaeth goediog mynydd Argæus; a'i thrigolion yn awr ydynt tua 25,000. Bu, ac y mae, amryw drefydd mawrion ar lan y Môr Du, yn Cappadocia Leiaf (Pontus):—bu Themiscyra, ar lan yr afonig Thermodon, yn lle enwog megys preswylfa y menywod rhyfedd hyny, yr Amazoniaid. Yn mlaen tua'r dwyrain, y mae Kharesoun, hen Cerasus, o ba le y trosglwyddwyd coed ceirios (*cherries*); a dygant fyth enw eu lle cyntefig. Ac ar derfyn y dwyrain, y mae Trebizound, hen Trapezus y Groegiaid, y rhai a'i sefydlasant yn drefedigaeth deyrngedol i Sinope.

Ymddengys fod y Persiaid wedi methu cadw y ddwy Gappadocia o dan deyrnged iddynt; ac felly, ceir rhestr o freninoedd yn y ddwy hyd eu gorchfygiad gan y Rhufeiniaid. Cappadocia Pontus a lywodraethid gan wyth neu naw o freninoedd yn olynol o dylwyth y Mithridatesiaid, hyd oni lwyr orchfygwyd Pharnaces, mab Mithridates Fawr, gan Julius Cæsar, tua'r flwyddyn 46 c. c. Cappadocia Taurus a lywodraethid yn olynol gan bymtheg neu ugain o freninoedd o dylwyth y Pharnaciaid, hyd Archelaus, tad Glaphyra, gwraig Alexander, mab Herod Fawr; ar farwolaeth yr hwn y disgynodd yn hollol o dan lywodraeth Rhufain, tuag amser genedigaeth Crist. Ac yn meddiant Rhufain y bu hyd amser Mohamet II., yr hwn a'i goresgynodd yn y pymthegfed canrif, a'r Twrc a'i llywodraetha hyd heddyw. Adnabyddir hi wrth yr enwau Roum, a rhan fawr o Karamenia, yn mhashalaeth Natolia.

Gelwid y preswylwyr, unwaith, yn Leukosyri (Syriaid Gwynion), er eu gwahaniaethu oddi wrth y Syriaid, am fod y ddwy iaith yn lled debyg. Cenedl anwar, greulawn, ac anfoesgar, oeddynt, ac yr oedd eu cymmeriad yn ddiareb a rheg; a'r un peth oedd gan ddyn o genedl arall gael ei alw yn ddyhiryn, a'i alw yn Gappadocyn. Dywedid am ochelyd y tair K (neu C)—Cappadocia, Cilicia, a Crete. Gwel CAPHTOR.

Act. ii. 9, a 1 *Pedr* i. 1, a ddangosant fod yr efengyl wedi myned yno, a chael ei chredu, yn yr oes apostolaidd; a bu yno eglwysi, a dynion enwog, am gannoedd o flyneddoedd. Yr oedd Basil Fawr, a Gregory Thaumaturgus, yma yn y trydydd canrif; Gregory Nazianzen, ac Eusebius Pamphilus, yr hanesydd, yn y pedwerydd canrif, &c. Ychydig a ellir fynegu am gyflwr presennol Cristionogaeth yma; ond y mae miloedd lawer o'r trigolion yn perthyn i Eglwys Groeg, Eglwys Armenia, a rhai Pabyddion. Y mae tymmestl ddirfawr y rhyfel Rws-Dyrcaidd wedi bod yn achlysur toriad gwawr ar y gwledydd hyn; ac nid hir, efallai, y byddys heb wybodaeth helaethach am danynt.

CAPUCHIAID, [*cap*; Saes. *Capuchins*]: crefyddolion yn yr Eglwys Babaidd o urdd St. Francis, dyledus am eu dechreuad i Matthew de Bassi, brawd o'r urdd hono; yr hwn, wedi gweled arddangosiad o St. Francis gyda chap neu gwcwll coryn uchel, brigfain, a ddechreuodd wisgo yn gyffelyb yn 1525, drwy oddefiad y pab Clement VII. Dilynwyd ef gan ddau ereill o'r frawdoliaeth; a'r pab, drwy lythyr cyhoedd, a roddes ganiatad i'r tri mynach hyn i encilio i ryw feudwyfa, a pharhau i wisgo eu diwyg newydd. Ymneillduasant i fan ger llaw Massacio, lle y cawsant dderbyniad tra charedig.

Parodd y newyddbeth hwn yn ngwisg yr urdd dramgwydd i'r Francisiaid, a'u llywydd a erlidiodd y mynachod tlodion hyn, fel y gorfu arnynt ffoi o le i le. O'r diwedd, cawsant nodd ed yn mhalas y Dug de Camerino; a thrwy ei ddylanwad ef, derbyniwyd hwy dan yr ufuddod mynachaidd, i radd y Mynachod Lleiaf, yn y flwyddyn 1527. Cymmeradwyodd y pab yr undeb hwn yn y flwyddyn ganlynol, a rhoddes iddynt y fraint o wisgo y cwcwll ysgwar, ac o dderbyn pawb oll a gymmerent y wisg. Felly dechreuodd yr urdd yn 1528; a gelwir hwynt y Capuchiaid, oddi wrth y cap (*capuche*) a wisgant. Gelwir hwynt hefyd, y Brodyr Cycyllog, a Mynachod Llwydion.

Wedi dechreu ymsefydlu, cynnyddasant yn fuan; a'r nifer mawr o ddychweledigion a wnaethant drwy bregethu, a'r cynnorthwy a roddent i'r bobl yn amser yr haint oedd yn dygn flino Italy y flwyddyn hono, a ennillodd iddynt barch cyffredinol.

Adeiladwyd iddynt amryw fynachdai, a dewiswyd Matthew de Bassi yn beriglor cyffredinol arnynt; yr hwn a dynodd i fyny osodiadau er llywodraethiad yr urdd. Trefnent, yn mhlith pethau ereill, fod i'r Capuchiaid gyflawnu y gwasanaeth crefyddol heb ganu; bod iddynt ddywedyd un offeren yn unig yn y dydd yn eu mynachdai; penodent yr oriau i weddi fyfyriol, fore a hwyr; y dyddiau i'w dysgyblu eu hunain, a'r dyddiau i fod yn ddystaw; gwaharddent i'r mynachod wrandaw cyffesiadau y llëygion, a gorchymynid iddynt deithio bob amser ar eu traed; annogid hwy i fod yn gynnil yn addurniadau eu heglwys, a gwarafunid iddynt ddefnyddio aur, arian, a sidan; lleni yr allorau oeddynt i fod o wê, a'r cwpanau cymun o alcan.

Ymdaenodd yr urdd yn fuan dros Italy a Sicily: ac ar ddymuniad Charles IX., caniataodd y pab Gregory XIII. iddynt ymsefydlu yn Ffrainc, ac yno cawsant eu dwyn bob yn dipyn i'r brifddinas. Yn 1606, y pab Paul V. a roddodd genad iddynt i dderbyn gwahoddiad i ymsefydlu yn yr Yspaen. Groesent hefyd y moroedd i lafurio er trœdigaeth yr anffyddloniaid; ac mor fawr y cynnyddasant, fel yn bresennol y maent wedi eu rhanu i fwy na thrigain o daleithiau, yn cynnwys yn agos i 1,600 o fynachlogydd, a 25,000 o fynachod; heb law eu cenadaethau yn Brazil, Congo, Barbary, Groeg, Syria, a'r Aipht.

Ymunodd rhai pendefigion goludog a'r urdd o bryd i bryd, gan ddewis tlodi y frawdoliaeth o flaen manteision gwaedoliaeth a golud. Y mae hefyd urdd o fynachesau Capuchiaidd, yn dilyn dysgyblaeth lem un'a elwid ganddynt St. Clara. Sefydlwyd hwy gyntaf yn Naples, dan lywyddiaeth boneddiges o deulu pendefigaidd yn Catalonia: ac yn fuan wedi hyny adeiladodd leiandy dan yr enw "Ein Harglwyddes o Ierusalem;" ac o herwydd llymder eu rheol, galwyd hwy yn "Lleianod y Dyoddefaint." Galwyd eu sefydliad yn Rhufain, "Lleiandy y Sacrament Sanctaidd;" ac yn eu sefydliad yn Paris, rhoddid coronau o ddrain ar benau y gwyryfon ieuainc a dderbynid i mewn.—(*Buck's Theol. Dict.; Rel. Encyclo.*)

CAPHTOR: y mae y gair yma i'w gael mewn tri neu bedwar o fanau yn y Beibl, ac y mae y

Digitized by Google

manau hyny mewn ymddangosiad yn gwrthddywedyd eu gilydd. Yn Genesis, dywedir mai ewythr y Philistiaid, brawd eu tad Chasluhim, oedd Caphtor; tra y dywedir yn Deuteronomium ac Amos, mai eu tad ydoedd Caphtor. Y mae cryn ddadl hefyd weidi bod yn mhlith dysgedigion am drigle gwreiddiol y Caphtoriaid. Dywed rhai mai yn Cappadocia, ac ereill mai yn Crete, yr oeddynt. Y mae ymchwiliadau diweddar wedi profi mai llwyth Aiphtaidd oedd y Caphtoriaid. Dywedir yn Genesis, mai o Misraim, mab Cham, mab Noah, y disgynodd y Caphtoriaid. Yn ol yr hyn a ddadguddir gan hen gofgolofnau yr Aipht, fel eu darllenir gan ddysgedigion diweddar, wedi i'r Cusiaid (*Gen.* x. 7) ffurfio trefedigaethau ar hyd glanau moroedd Persia ac India, aethant drosodd i Affrica, a sylfaenasant ymherodraeth Nubia, ac ymestynasant oddi yno yn mlaen tua'r Aipht Uchaf. Gelwir yr holl wledydd hyn Cus yn y Beibl [gwel Cus]. Tua'r un amser, yr oedd teulu Misraim yn teithio tua'r Aipht Isaf, ac yn sefydlu trefedigaethau yn Basan, a manau ereill yn Palestina. Cyrhaeddodd rhai llwythau yr Aipht, a sefydlodd y Caphtoriaid yn Delta y Nile, darn o dir ar lan y Môr Coch, a elwir felly am ei fod yn driongl; ac yn raddol ymestynasant yn mlaen ar hyd glanau y Nile, tuag i fyny. Gydag amser, fel yr oedd dynion yn amlhau, cyfarfu y Cusiaid a'r Misraimiaid yn nyffryn y Nile; ac nid hir y buant cyn dechreu ymladd am yr oruchafiaeth. Mae 'n debyg i'r Misraimiaid wahodd y llwythau ereill oeddynt wedi aros yn Ngwlad Canaan i'w cynnorthwyo yn erbyn y Cusiaid. Daeth llwythau ereill y Misraim i'r Aipht; ac fel y dygwydd yn gyffredin, gorchfygasant nid yn unig y gelynion, ond gorthrymasant y rhai oedd wedi galw am eu cynnorthwy; yn debyg fel y gwnaeth y Saxoniaid pan alwyd hwy i Brydain i gynnorthwyo y Cymry yn erbyn y Pictiaid a'r Scotiaid. Adnabyddid y llwythau Misraimaidd yma o Palestina wrth yr enw Rephaim, neu fugeiliaid breninol. Dylasai y gair Rapha a Rephaim gael ei osod i lawr yn y Beibl fel enw priodol, yn lle ei gyfleithu *cawri*. Ei ystyr yw *blaenor* neu *frenin*. Gelwid hwy gan yr Aiphtiaid, Huksos (=y gwrolwyr), yr un a Hu y Cymry, ac Og o Basan. Tebygol fod Pharaoh yr Aipht hefyd wedi tarddu o Rapha. Bu yr Huksos, neu Rephaim, y bugeiliaid breninol, yn gorthrymu yr Aiphtiaid am tua dau gant, neu chwaneg, o flyneddoedd. Ond gwrthryfelodd yr Aiphtiaid, a gyrasant hwy allan, ryw ychydig o amser cyn i Ioseph fyned i'r Aipht. Rhydd hyn esboniad ar y casineb oedd gan yr Aiphtiaid at fugeiliaid yn nyddiau Ioseph. Mae'n debyg mai un o'r Caphtoriaid oedd yn llywyddu yr Aipht yn amser Ioseph. Y pryd hwn, galwyd y wlad Aikopt, gwlad Kopt, neu wlad Caphtor; ac y mae enw Caphtor ar gael hyd heddyw yn yr iaith Goptaeg, neu iaith Caphtor. Y mae yn deilwng o sylw hefyd, mai trigfan llwyth Caphtor ydoedd gwlad Goshen, lle yr aeth Iacob a'i feibion i wladychu. Ar ol marwolaeth Ioseph, gorchfygwyd y Caphtoriaid gan y Cusiaid; yr hyn a esbonia ddywediad Moses, i frenin arall gyfodi yn yr Aipht, yr hwn nid adwaenai mo Ioseph. Rhydd hyn esboniad hefyd ar gasineb y brenin newydd tuag at feibion Israel, y rhai oeddynt wedi derbyn cymmaint o garedigrwydd oddi ar law y Caphtoriaid. Yr oedd yn naturiol iddo ddysgwyl y buasai meibion Israel yn pleidio eu hen gyfeillion, os buasent ryw amser yn cynnyg adennill yr orsedd. Yn ystod yr ymrafaelion aml rhyngddynt hwy a'r Cusiaid, ymadawodd heidiau lluosog o'r Caphtoriaid o'r Aipht. Yn y fan yma, gallwn gynnyg at benderfynu yr anhawsderau y cyfeiriasom atynt yn y dechreu; sef, pa un ai yn Crete ai yn Cappadocia yr oedd cartref y Caphtoriaid. Os yw yr hyn a ddywedwyd eisoes yn gywir, fe wel y darllenydd mai cartref gwreiddiol y Caphtoriaid oedd yr Aipht, ac nad annhebyg iddynt fyned oddi yno i Cappadocia a Chrete [gwel erthyglau]. Hefyd, gyda golwg ar y Philistiaid—pa un ai o Chasluhim ai o Caphtor y daethant? Dywedasom yn barod fod rhai o'r Misraim, neu Rephaim, yn Ngwlad Canaan; a thebygol fod y Chasluhim wedi aros yno, ac mai eu hiliogaeth hwy oedd Philistiaid dyddiau Abraham. Eithr aeth llawer o'r Caphtoriaid o'r Aipht, a sefydlasant gyda'u brodyr yn Ngwlad Canaan. Fel hyn, daeth y Philistiaid oeddynt yn ofni Abraham ac Isaac yn ddigon galluog i wynebu yr Amoriaid yn bur fuan. Ymddengys hyn yn fwy naturiol na chynnyg cyfnewid *Gen.* x. 14, fel y gwneir yn aml, er mwyn gwneuthur Caphtor yn dad y Philistiaid. Y mae yn deilwng o'n sylw fod Goliath, a'i frodyr, yn cael eu nodi fel meibion Rapha ac fel Philistiaid ar yr un pryd. Yn lle cyfleithu Rapha, "y cawr," fel y gwneir yn 1 *Cron.* xx. 8, gwell fuasai ei adael fel enw priodol llwyth. Buasai hyn yn gynnorthwy i weled cenedl a llwyth Goliath, a'i frodyr, sef mai Philistiaid o hiliogaeth y Rephaim, llwyth y Caphtoriaid, a ddaethant o'r Aipht, oeddynt, ac nid trigolion gwreiddiol Palestina, o hiliogaeth Chaslushim. Y mae ymchwiliadau diweddar i hen gofadeiliau ac ysgrifau yr Aipht wedi tafluo goleuni neillduol ar hanes yr amrywiol lwythau cyntaf ar ol y dylif, a rhoddi profion nerthol o wirionedd a chywirdeb yr hanes yn llyfr Genesis. Gwel erthyglau Miss Fanny Corbett ar y REPHAIM, yn y *Journal of Sacred Literature* am 1854. Hefyd, erthyglau CHASLUHIM; CAPPADOCIA; CRETA; CANAAN; CERETHIAID; PHILISTIAID; PHŒNICIAID; REPHAIM.

CAR, CERAINT: arferir y gair hwn i ddynodi perthynasau yn gyffredinol (*Iob* xlii. 11), ac yn neillduol perthynasau heb fod yn agos iawn (*Num.* xxvii. 11). Dywed Moses, os na bydd gan ddyn frodyr, na chan ei dad frodyr, fod ei etifeddiaeth i fyned i'w gâr nesaf o'i dylwyth. Gelwir Boaz yn gâr i ŵr Naomi; a dywedir fod Elisabeth, mab Ioan Fedyddiwr, yn gares i Mair, mab yr Iesu. Nis gellir oddi wrth hyn farnu pa mor agos yr oeddynt yn perthyn i'w gilydd. Yr oedd yn ddeddf yn Israel, fod i ferch fyddai wedi derbyn etifeddiaeth ei thad briodi ei châr nesaf, fel na symmudid yr etifeddiaeth o'r teulu. Pan fyddai dyn farw yn ddiblant, dysgwylid i'w frawd neu gâr nesaf briodi ei weddw, a chaniatâu i'r plentyn cyntaf gael ei alw ar enw yr ymadawedig, a rhoddi iddo ei etifeddiaeth ef. Yr oedd yr arferiad hon yn hen: *Gen.* xxxviii. 8—12. Corfforwyd hi yn neddf Moses, gyda chaniatâd i ddyn wrthod y weddw, trwy oddef iddi ddiosg ei esgid, a phoeri yn ei wyneb. Gwel CYFATHRACHWR.

CARADOG, neu, gyda'r terfyniad Rhufeinig, CARACTACUS: oedd un o flaenoriaid enwocaf y Brython cyntefig. Ond gan fod ei fywgraffiad yn cynnwys hanes yr ynys yn gyffredinol yn yr amser hwnw, rhaid i ni wybod pwy oedd prcswylwyr y wlad cyn y gellir iawn ddeall hanes y gwron hwn.

Digitized by Google

Digitized by Google

CARADOG, TY

YN

EI ARAETH ANFARWOL GER BRON



"Pe buasai mesur fy llwyddiant yn gyfartal i'm huchelfonedd a'm hytrach nag yn garcharor; ac ni buaset tithau yn cael dy iaw oddi wrth henafiaid clodfawr, ac yn rheoli amrywiol ge felly y mae yn fawrygus i tithau. Yr oedd genyf feirch, r i'w colli? O blegid, os chwychwi a fynwch lywodraethu ar buasun yn ymostwng yn uniongyrchol, ni buasai na fy nghyfw fy narostyngiad. Eithr yn awr, os arbedi fi yn ddiniwed, b

Digitized by Google

YSOG CYMRU,

ODI

LAUDIUS, YMHERAWDWR RHUFAIN.

ryfluer genedigol, gallaswn ddyfod i'r ddinas hon yn gyfaill, yn anrhydeddu trwy dderbyn i ammod heddwch un wedi deill-edloedd. Fy nhynged presennol, fel y mae yn anffodus i mi, elwyr, arfau, cyfoeth!—pa ryfeddod os oeddwn yn anfoddlawn wb, a ydyw yn canlyn y dylai pawb dderbyn caethiwed? Pe i na dy ogoniant dithau yn ymenwogi, ac anghof a ganlynasai ldaf yn engraifft dragwyddol o diriondeb!"

Digitized by Google

Digitized by Google

Rhenir y poblogion, yn y *Trioedd* diweddar, sef y drydedd res yn y *Myvyrian Archæology*, yn Gymry, Lloegrwys, a Brython. Trigiannai y Lloegrwys yn y rhanau a elwir Lloegr yn ein dyddiau ni: ond nid yw yn eglur pwy oedd y Brython mewn gwrthgyferbyniad i'r Cymry; ac y mae yn amlwg fod y *Trioedd* yn cyfeirio at gyflwr y wlad mewn amser rhy ddiweddar i ateb y dyben presennol. Rhaid, gan hyny, myned yn mhellach yn ol. Pan ddaeth y Rhufeiniaid i adnabyddiaeth o'r ynys, yr oedd yn rhanedig fel y canlyn:—Yr oedd Caint yn meddiant y Cantiaid; swyddau presennol Middlesex ac Essex gan y Trinofantwys, a Llundain o fewn eu tiriogaeth; yn Suffolk, yr oedd rhan o'r Iceniaid, a elwid y Cenimagni, neu y Ceniaid mawrion; ac yr oedd yr Iceniaid ereill yn swyddau Norfolk, Cambridge, a Huntingdon; a phoblogwyd Hertford, Buckingham, a Bedford, gan bobl a elwid y Catwelaniaid neu Catyeuchlaniaid: meddiannid swyddau Northampton, Leicester, Rutland, Lincoln, Nottingham, a Derby, gan y Coritaniaid. Gelwir hwynt yn y *Trioedd*, ond yn anmhriodol, y Coraniaid, a sonir am danynt fel cenedl ddyeithr i'r Cymry; ond gan fod Nottingham o fewn eu terfynau, ac mai llygriad yw Notting o'r hen enw *Ty Gogofawc*, fel y dywed Asserius o Fynyw, y mae yn amlwg eu bod yn siarad Cymraeg pur groew. Yn y rhan ddwyreiniol o Yorkshire (swydd Efrawc), yr oedd y Parisiaid; a thu hwnt iddynt hwy, yn ngogledd-dir Lloegr, sef yn swyddau Efrawc, a Durham (Deifyr), yr oedd y Brigantwys; neu fel eu gelwir gan y beirdd, y Bryneich. O fewn terfynau Scotland, yr oedd y Nofantwys, a phobl Gododin, y sonir am danynt gan Aneurin; ond nid oes a fynom â hwy yn presennol. Priodolir Cumberland, Westmoreland, a Lancaster hefyd, i'r Brigantwys, gan y daiaryddwr Ptolemy; ond y mae Richard o Cirencester yn gosod Sistuntiaid a Voluntiaid yno; ac y mae lle i gasglu ei fod yn gywir yn hyn o beth. Meddiennid swyddau Warwick, Worcester (Gwyrangon), Stafford, Salop (Amwythig), Caer, a rhan o Fflint, gan y Carnabiaid: yr oedd Hampshire, Gwlad yr Haf, a Wiltshire, gan y Belgiaid, y rhai hefyd a siaradent Gymraeg: yr oedd Dyfneint a Chernyw yn eiddo y Dumnoniaid: Dorset gan y Durotriges (Dwr-drigwyr, efallai): swyddau Caerloew a Rhydychain gan y Dobuniaid; Berkshire gan yr Attrebatiaid; ac yn nghymmydogaeth y rhai hyn, y Seontwys, Ancalitwys, y Bibrochiaid, a'r Cassiaid.

Yn y cyfamser, yr oedd tywysogaeth Cymru yn rhanedig fel y canlyn:—Meddiennid swyddau Henffordd, Maeshyfaidd, Brycheiniog, Mynwy, a Morganwg, gan y Siluriaid, neu yr Essyllwyr; a'r Dimetiaid, neu y Dyfedwys, a lanwent Geredigion, a swyddau Penfro a Chaerfyrddin. Y tu gogleddol i afon Dyfi yr oedd y Gorddyfwys, neu y Gordofigion; a'r tu gogleddol iddynt hwy, yr oedd y Cangiaid, ac, y mae yn debygol, y Gwyndud, sef pobl Gwynedd.

Darganfyddwd yr ynys gan Julius Cæsar ar y 26ain o fis Awst, 55 c. c.; ac ymwelodd â'r ynys yr ail waith yn y flwyddyn olynol, ond ni chafodd nemawr o lwyddiant. Gwrthwynebwyd ef gan Cassivellaunus, sef Caswallawn, brenin y Cassiaid, yr hwn a orthrechwyd; ond yr oedd rhyfel du fewnol wedi gwanhau y Brython o flaen llaw. Tarddodd ymryson yn nghylch yr unbenaeth, rhwng Caswallawn ac Imanuentius, brenin y Trinofantwys, yr hwn a laddwyd; ac yna ennillodd Caswallawn yr oruchafiaeth. Ond aeth Mandubratius, mab Imanuentius, yn bleidiwr i'r Rhufeiniaid, a chadarnhaodd Cæsar ef yn ei lywodraeth. Y mae caddug yn cuddio hanes y can mlynedd nesaf; ac ni wyddom chwaneg nag i ddau dywysog—un o'r enw Dumnobellanus (Dunwallawn)—ymostwng i Augustus yr ymherawdwr, c. c. 26; fod yr oruchafiaeth yn meddiant y Trinofantwys; ac yn nechreuad yr oes Gristionogol, fod Cynfelyn, Cunobelinus, neu Cymbeline, yn unben ar y Brython, yn fawr ei barch gan y Rhufeiniaid, ac yn fawr ei rwysg yn ei wlad ei hun, fel yr ymddengys oddi wrth yr aneirif fathau arian sydd â'i enw a'i lun ef arnynt. Yr oedd ganddo ef dri, ac efallai ragor, o feibion, sef Adminius, Togodumnus, a Caractacus neu Caradog.

Yn y cyfnod dan sylw, bernir fod y gwahanol lwythau a enwyd, yn arddel uchafiaeth tri yn neillduol, sef y Trinofantwys yn y deheu, yr Iceniaid rhwng yr afonydd Thames a Humber, a'r Bryneich yn y rhanau gogleddol. O ddeutu y flwyddyn 40 B. A., tarddodd ymryson rhwng Cunobelinus a'i fab Adminius, ac alltudiwyd y mab gan ei dad. Aeth y mab hwnw, yr hwn yn llygriad Orosius a elwir Minocynbellinus, ac efallai mewn llygriad arall, Beli ab Manogan, at yr ymherawdwr Caligula, ac ymostyngodd iddo yn enw y Brython. Danfonodd yntau, yn fawr ei ffrwst, y newydd tua Rhufain, a gyrodd y llu a gyfodasid i ymosod ar y Germaniaid tua glan môr Gâl, ar fedr dyfod i Brydain. Tra yr oedd y milwyr yn dysgwyl am orchymynion pellach, aeth yr ymherawdwr mewn llong ychydig oddi wrth y tir; cyfododd yr arwydd i wneyd ymosodiad rhyfelol; a chyda sain udgyrn, gorchymynodd iddynt wneyd ysglyfaeth o'r môr, a llanw eu mynwesau a'u helmau â chregyn. Adeiladodd dŵr uchel i gofnodi y fuddugoliaeth; rhoddodd anrhegion i'r milwyr; a dygwyd y cregyn mewn gorfoledd tua Rhufain.

Ond bu y brad hwn yn fwy niweidiol yn ol llaw, trwy ffurflo esampl i ereill. Bu farw Cunobelinus yn neu o ddeutu 42 B. A.; ac mewn canlyniad, mae yn debygol, cyfododd gwrthryfel yn mhlith y Brython, efallai, er ysgwyd ymaith iau y Trinofantwys. Ciliodd blaenor o'r enw Berig neu Bericus, yn nghyd â'i ganlynwyr, at yr ymherawdwr Claudius (Gloew); a disgynodd awdurdod Cunobelinus i'w feibion, Caractacus a Togodumnus. Gofynasant i Claudius roddi y ffoedigion yn rhwym iddynt hwy; ond gwrthodwyd y cais; a bu annogaeth Berig yn achos i'r Rhufeiniaid oresgyn yr ynys. Cynnullwyd byddin gref i'r perwyl hwn, yr hon a arweiniwyd gan seneddwr hybarch o'r enw Aulus Plautius; ond yr oedd y milwyr ar y cyntaf yn anfoddlawn i adael tir Gâl, dan feddwl fod Prydain tu draw i'r byd trigfanol. Yn y diwedd, rhanwyd y fyddin yn dair rhan; diflaswyd hwynt ar y fordaith trwy orfod dychwelyd unwaith; ond cefnogwyd hwynt eilwaith trwy weled seren wibiog yn myned o'r dwyrain i'r gorllewin. Tiriasant yn Nghaint (43 B. A.) yn ddirwystr, gan fod y Brython wedi clywed am anfoddlonrwydd y milwyr, ac yn tybied na buasai yr ymosodiad yn cymmeryd lle. Yn awr, ffoasant i'r coed a'r aialdiroedd; a chafodd Plautius drafferth i gael allan pa le yr oeddynt. Gwrthsafwyd ef yn mlaenaf gan Caractacus, ac wedi hyny gan Togodumnus; ond gorchfygwyd y ddau, a hwy a ddychwelasant yn ol, gan wersyllu tu hwnt i afon a feddyliasant yn rhy ddofn i'r Rhufeiniaid ddyfod trwyddi. Yn y cyfamser, ar ol darostwng rhan

Digitized by Google

o'r Boduniaid neu y Dobuniaid, y rhai oeddynt dan oruchaflaeth y Catwelaniaid, a sefydlu gwarchawdlu yn eu mysg, daeth Plautius i'r ochr arall. Danfonodd rai o'r Celtiaid oedd yn ei lu, a'r rhai oeddynt yn arfer noflo yn arfog, yn groes i'r afon; a darfu iddynt greu cynhwrf yn mhlith y Prydeiniaid trwy glwyfo eu meirch, a gwneyd eu cerbydau yn anniogel. Danfonodd hefyd Flavius Vespasian, yr hwn wedi hyny a fu yn ymherawdwr, a Sabinus ei frawd; a thrwy ddyfod ar draws y Brython yn ddiarwybod, lladdasant amryw o honynt. Adnewyddwyd y frwydr dranoeth, a bu yr ymladd yn gydbwys am gryn lawer o amser; ond o'r diwedd, trwy ymdrechion Cneius Osidius Geta, yr hwn fu yn agos i gael ei wneyd yn garcharor, llwyddodd y Rhufeiniaid, a gyrwyd y Brython ar ffo; ac y mae yn debyg mai yn un o'r ddwy frwydr hon y bu Vespasian mewn perygl o'i fywyd, nes i wroldeb ei fab Titus wasgaru y Brython, a gwaredu ei dad. Wedi hyn, daeth y Brython y tu yma i'r afon Thames; a bu y Rhufeiniaid am ryw gymmaint o amser yn analluog i'w dilyn. Trwy gyfrwng y nofwyr Celtaidd, ac wedi gwneyd pont, ymosodasant arnynt y drydedd waith, a rhoddasant lawer i farwolaeth; ond ar y llaw arall, denwyd hwythau i'r meusydd a'r morfaoedd, a lladdwyd llawer o honynt.

Yr oedd y flaenoriaeth yn awr yn nwylaw Caractacus yn unig. Cafodd ei frawd ei ladd yn un o'r brwydrau a gofnodwyd. Parodd hyn i'r Brython ymladd gyda mwy o ffyrnigrwydd nag o'r blaen; ac ymunasant i'w ddial. O herwydd hyn, a'r golled grybwylledig, cafodd Plautius gryn ddychryn; ac ni aeth yn mhellach i'r wlad; ond, fel y tybir, ymgryfhaodd y tu deheuol i'r Thames, a chadarnhaodd ei hun yn ei feddiant o'r rhan hyny. Yr oedd wedi ei awdurdodi i ddanfon am yr ymherawdwr, pe dygwyddai rhyw rwystr o bwys; ac yr oedd yntau wedi parotoi i fyned trwodd. Ar gais y cad-lywydd, brysiodd Claudius tua Phrydain; ac ar ei ddyfodiad, arweiniodd y milwyr yn erbyn y Brython. Gorthrechodd hwynt mewn brwydr waedlyd, a chymmerodd Camalodunum (Maldon neu Colchester), trefedigaeth freiniol Cunobelinus a Charactacus. Wedi hyn, darostyngodd lawer i'w awdurdod, rhai trwy drais, a rhai yn heddychlawn; ac wedi eu diarfogi, rhoddodd y llywodraeth yn nwylaw Plautius, gyda gorchymyn i ddarostwng y llwythau annibynol. Dychwelodd yn ei ol yn mhen un niwrnod ar bymtheg (44 B. A.); a mawr y gorfoledd fu ganddo ef, y senedd, a'r Rhufeiniaid, o herwydd y frwydr. Rhoddwyd iddo ef a'i fab, fel nod o anrhydedd, yr atenw Britannicus; ffurfiwyd deddf, er rhwyddhau darostyngiad y Prydeinwyr, fod pob cytundeb a wnai Claudius neu ei swyddogion â thrigolion yr ynys, yr un mor gadarnhaol a phe buasid wedi derbyn caniatâd y senedd, a'r bobl Rufeinig; a rhoddodd Claudius arddarluniad (*representation*) o ymostyngiad y breninoedd Prydeinig iddo ef yn ei wisg filwrol.

Meddiannodd Plautius ei awdurdod dros dair blynedd yn chwanegol; ac yn y cyfamser, yr oedd y filwriaeth dan ofal Vespasian. Cadwodd Caractacus ef mewn llawn waith; ymladdwyd deg ar ugain o frwydrau rhyngddynt, a'r mwyafrif yn y cyfnod hwn; ond ni fu gwroldeb yn unig erioed yn alluog i wrthsefyll dysgyblaeth filwrol; a bu anffawd y Brython yn yr amser hwn i gael eu gorthrechu y rhan fynychaf, er cymmaint oedd dewrder eu blaenor, a'u gwroldeb hwythau. Darostyngodd Vespasian ddau o lwythau cedyrn, ugain o drefydd cyfrifol, ar ynys Wight, dan awdurdod y Rhufeiniaid. Ond yr oedd ymdrechion Caractacus yn ddiflino; ac er cymmaint ei anffodion, parhaodd i wynebu gelynion rhyddid ac annibyniaeth y bobl, tra yr oedd yn bosibl eu gwrthsefyll. Yn y flwyddyn B. A. 47, aeth Plautius adref, a chafodd lawer o anrhydedd yn Rhufain. Cynnaliwyd ymladdfeydd cleddyfol (*gladiatorial combats*) ar yr achlysur; a rhoddwyd llawer o gaethion Prydeinig i farwolaeth yn y dull yma; gan fod yr ymherawdwr yn ddyn o anian greulawn, ac yn ymorfoleddu yn yr ysgelerder hwn.

Daeth Publius Ostorius Scapula yn ei le yn 50 B. A., fel *proprætor*. Yr oedd y tiriogaethau deheuol y pryd yma wedi eu ffurflo yn lywodraeth Rufeinig; ac nid oedd ond un tywysog Prydeinig, sef Cogidubnus, brenin Sussex, o fewn i'r dosbarth; a daliai yntau ei lywodraeth oddi wrth y goresgynwyr. Cafodd Ostorius y wlad mewn gwrthryfel. Barnai y Brython fod y cyfnod yn newidiad y blaenor yn ffafriol iddynt hwy, a thybient na fuasai blaenor newydd ar fyddin ddyeithr yn barod iawn i gymmeryd y maes. Gan hyny, rhuthrasant, efallai dan lywyddiad Caractacus, ar y llwythau ymostyngedig, a dyfethasant eu cyfoeth y ffordd y cerddent; ond camsyniasant yn eu syniadau am Ostorius. Casglodd ei filwyr yn ddioed, rhuthrodd arnynt yn ddiarwybod, rhoddwyd pawb a safent eu tir i fin y cleddyf, a lladdwyd y ffoedigion yn ddidrugaredd. Ond barnodd hyn yn annigonol; ac yna sefydlodd res o gaerau rhwng yr Avon a'r Hafren, i'r dyben o'u cyfyngu o fewn i'r terfynau hyn. Ond tra yr oedd Ostorius yn ymestyn i'r gorllewin, tarddodd gwrthryfel yn y dwyrain yn mhlith yr Iceniaid. Nid oes un crybwylliad uniongyrchol fod Caractacus â rhan yn y mudiad, ond y mae lle i gasgl mai efe oedd y blaenor yma hefyd. Yr oedd yr Iceniaid yn bobl ddewr a rhyfelgar; ond hyd yma ar eu cais eu hunain yr oeddynt mewn cyfeillach â'r Rhufeiniaid; ac o ganlyniad, heb ddyoddef nemawr o golledion yn y rhyfel. Ffurfiasant gytundeb â'r llwythau cyfagos, a dewisasant eu tir i ymladd brwydr benderfynol. Cylchynid y lle gan glawdd, ac nid oedd ond un mynediad i mewn, a hwnw mewn lle rhy anhawdd i'r marchogion Rhufeinig ei gyrhaedd. Penderfynodd Ostorius ruthro ar y lle; ac er nad oedd y llengoedd gydag ef, ymddibynodd ar ddewrder y milwyr cynnorthwyol. Gorchymynodd i'r marchogion ymladd ar eu traed; ac yna gwnaeth ei ymosodiad. Rhuthrasant dros y clawdd, a daliasant y Brython yn eu cyfyngle. Parodd hyn lawer o derfysg yn eu plith; ond ymladdasant yn wrol hyd y diwedd; ac y mae yr hanesydd Rhufeinig yn hòni yn neillduol iddynt gyflawnu llawer o orchestion clodfawr.

Cafodd y gorchfygiad hwn ganlyniadau pwysig. Digalonodd llawer o'r Prydeiniaid; a'r rhai oedd gynt yn bwriadu cymmeryd rhan yn y gwrthryfel, yn awr a blygent eu gyddfau i'r iau Rufeinig. Ond yr oedd llawer o wroldeb eto yn y wlad. Hyd yma yr oedd trigolion Cymru heb deimlo min y cleddyf estronol; ond yn awr cyrhaeddodd hwythau. Y mae yn debyg fod Cangiaid gogledd-dir y dywysogaeth wedi cynhyrfu gwg Ostorius, efallai o herwydd cyfraniad yn y frwydr ddiweddaf; ac yn awr teimlent bwys ei lid. Dyfethodd y ffordd y cerddai; a chymmerodd lawer o ysglyfaeth; ond ni chyfarfu â'r bobl mewn brwydr: a thra yr oedd o fewn taith fer i

Digitized by Google

fôr Iwerddon, clybu fod y Brigantiaid y tu cefn iddo mewn gwrthryfel. Brysiodd yn ol, ac aeth vn eu herbyn. Darostyngodd hwynt yn fuan; rhoddodd y rhai a'i gwrthsafent i farwolaeth; a chyhoeddodd faddeuant i'r lleill. Ond nid ymostyngai yr Essyllwyr na thrwy deg na thrwy hagr; ac o ganlyniad, cyfyngodd ei sylw atynt hwy. Sicrhaodd y rhanau dwyreiniol trwy wneyd caer o hen dref Cynfelyn, a sefydlu corff cadarn o filwyr yno; yna mudodd yn erbyn yr Essyllwyr; a barnodd fod yn angenrheidiol ffurfio caer i'r llengoedd yn nghanol eu gwlad hwy, hyny yw, yn Nghaerlleon ar Wysg.

Ar y llaw arall, yr oedd y genedl ddewr a rhyfelgar hon, heb law eu ffyrnigrwydd priod eu hunain, yn ymorfoleddu yn mhresennoldeb Caractacus; yr hwn o herwydd llawer anffawd, a llawer llwyddiant, oedd yn rhagori mewn clod ar yr holl freninoedd Prydeinig ereill. Ond er ei fod o ran cyfrwysdra a gwybodaeth o'r wlad yn rhagori ar y Rhufeiniaid, yr oedd yn wanach o ran cadernid byddinol; ac o herwydd hyn, mudodd y rhyfel i diriogaeth y Gordofigion, lle y mae yr enw Caer Caradog yn awr yn cofnodi yr amgylchiad. Yma, dewisodd wersyllfa, ar warthaf bryn, âg afon (Clun?) wrth ei odreu; a chyfododd fur amddiffynol o geryg rhyddion, yn y manau hawddaf eu cyrchu; a gosododd lu o wŷr pendefigol, mewn arddull brwydrol, i amddiffyn y rhyd. Yn y lle hwn, lle anhawdd i'r gelyn ei gyrchu, neu ffoi o hono, ond yn fanteisiol yn mhob ffordd iddo ef a'i ganlynwyr, casglodd yn nghyd yr holl Brydeiniaid a dybient mai enw arall ar gaethiwed oedd heddwch â'r Rhufeiniaid, a phenderfynodd ymddiried annibyniaeth ei wlad i ffawd brwydr.

Yr oedd pendefigion y gwahanol lwythau yn ddiwyd yn mhob cwr. Rhuthrasant ar hyd y rhesoedd arddulliedig tu allan i'r gwersyll; anerchasant eu canlynwyr; cynhyrfasant yr ofnus; cadarnhasant y dewr; a thrwy obeithion ac addewidion, a phob cymhelliad haelionus, cynneuasant awyddfryd eu milwyr. Ymddangosodd Caractacus yn mhob rhan o'r maes; rhuthrodd ar hyd y rhesoedd; a gwaeddodd yn uchel, "Hwn yw'r dydd, a hon yw'r frwydr, naill ai o berchenogi rhyddid, neu o ddechreuad caethiwed tragwyddol." Galwodd hefyd ar enwau "eu henafiaid, y rhai a yrasant Cæsar ar ffo, y rhai a waredent y wlad oddi wrth drethi a bwyeill y goresgynwyr, ac yn fwyaf oll a ddiogelent eu gwragedd rhag trais, a'u plant rhag caethiwed." Derbyniwyd yr araeth hon gan y milwyr gyda bloeddiadau o ganmoliaeth; a rhwyment eu hunain yn y modd cadarnaf a ystyrient hwy, "nac er peleidr, nac er clwyfau, nad ymattalient i frwydro."

Synodd y blaenor Rhufeinig wrth weled eu bywiogrwydd. Gwelai fod afon i'w chroesi, a'r mur chwanegol, a mynydd syth i'w ddringo, yn ngwyneb torfeydd aml o amddiffynwyr dychryllyd. Ond er hyny, yr oedd y milwyr yn awyddus i gyrchu; "rhydd pob rhwystr ffordd i ddewrder" oedd y waedd gyffredin; ac eiliwyd tanbeidrwydd y milwyr gan y swyddogion. Yna, Ostorius, wedi sylwi yn fanylgraff ar y manau gwanaf, a ddyrchafodd yr arwydd i ymosod. Croeswyd yr afon heb nemawr o anhawsder, ac yna nesasant at y mur. Bu yr ymladd yno yn ystyfnig; a thra y parhawyd i ddefnyddio arfau tafl, y Prydeiniaid oedd yn maeddu. Ond wrth weled hyny, defnyddiodd Ostorius ei wybodaeth filwrol, a gorchymynodd iddynt ffurfio yr hyn a elwid *testudo*, sef cragen *tortoise;* hyny yw, iddynt ddyrchafu eu tarianau uwch eu penau, a dryllio y mur dan eu cysgod. Llwyddodd yr amcan, a daeth y rhyfelwyr wyneb yn wyneb; ond yn awr yr oedd y Prydeiniaid dan anfantais. Yr oedd y Rhufeiniaid yn wisgedig mewn arfau amddiffynol; ond nid oedd gan ein henafiaid na llurygau na helmau. Gadawsant eu rhestrau, a ffoasant i benau y bryniau. Dilynai y Rhufeiniaid, a darfu nid yn unig i'r milwyr ysgafn, ond hefyd y llengoedd trwm-arfog, gyrhaedd penau y mynyddoedd, er dan gawodydd o arfau tafl. Dymchwelai y llengoedd bob peth a safai o'u blaen â'u cleddyfau ac â'u gwaewffyn; a gwnaeth y cynnorthwywyr â'u mân arfau alanastra mawr. Yr oedd y dymchweliad yn gyflawn:—cymmerwyd gwraig a merch Caractacus yn garcharorion; a'i frodyr a ymostyngasant yn wirfoddol.

Caractacus ei hun a ffodd at Cartismandua, brenines y Brigantwys, gan feddwl cael noddfa yno. Ond y mae adfyd yn ddigyfaill. Traddododd y fenyw ysgeler hono ef mewn cadwynau i'r Rhufeiniaid, pan yr oedd wedi rhyfela yn eu herbyn, a'u gwrthsefyll, am naw mlynedd; a chludwyd ef i Rufain yn garcharor. Yr oedd clod y gwron wedi taenu dros yr holl wledydd cymmydogaethol; yr oedd yn enwog hefyd trwy Italy, ac yr oedd y bobl yn awyddus i weled y gŵr a ddirmygodd eu byddinoedd am gynnifer o flyneddoedd. Nid oedd yn ddianrhydedd hyd yn oed yn Rhufain; a'r ymherawdwr, tra y dyrchafai ei anrhydedd ei hun, a chwanegai ogoniant y gorchfygedig. Galwyd y bobl Rufeinig yn nghyd i weled arddrychiad mawreddog. Safai y byddinoedd ymherodrol dan eu harfau yn y maes cyfagos; yna daeth Caractacus yn mlaen, a chludwyd yr arfau, y seirch, hyny yw, meirchwisgoedd, a'r eurdyrch, a ennillasai efe mewn rhyfeloedd. Yn ganlynol, daeth ei frodyr, ei wraig, a'i ferch; ac yn olaf o'r cwbl, ymddangosodd Caractacus ei hun. Y lleill, mewn braw, a roisant le i ofyniadau gwael; ond Caractacus ni ofynai am drugaredd, na thrwy eiriau na thrwy ostwng ei ben; eithr safodd ger bron gorseddfainc Claudius, a llefarodd ei araeth anfarwol, yr hon a draddodir yma yn nghyfieithiad cywir Carnhuanawc:—

"Pe buasai mesur fy llwyddiant yn gyfartal i'm huchelfonedd a'm cyflwr genedigol, gallaswn ddyfod i'r ddinas hon yn gyfaill, yn hytrach nag yn garcharor; ac ni fuaset tithau yn cael dy ddianrhydeddu trwy dderbyn i ammod heddwch un wedi deilliaw oddi wrth henafiaid clodfawr, ac yn rheoli amrywiol genedloedd. Fy nhynged bresennol, fel y mae yn anffodus i mi, felly y mae yn fawrygus i tithau. Yr oedd genyf feirch, rhyfelwyr, arfau, cyfoeth; pwy ryfeddod os oeddwn yn anfoddlawn iddeu colli? O blegid os chwychwi a fynwch lywodraethu ar bawb, a ydyw yn canlyn fod i bawb dderbyn caethiwed? Pe buaswn yn ymddarostwng yn uniongyrch, ni fuasai na fy nghyflwr i na dy ogoniant dithau yn ymenwogi, ac anghof a ganlynasai fy naros tyngiad; eithr yn awr os arbedi fi yn ddiniweid, byddaf yn anghraifft dragwyddol o diriondeb."

Ar hyn, rhoddodd Claudius ollyngiad iddo ef, ei wraig, a'i frodyr. Wedi eu rhyddhau o'u cadwynau, aethant at orseddfainc arall, lle yr eisteddai yr ymherodres, Agrippina, a thalasant barch a diolch iddi hithau yn yr un modd ag y gwnaethant i'r ymherawdwr cyn hyny. Ar gynnulliad y senedd, rhoddwyd clod uchel i'r fuddugoliaeth; penderfynwyd fod y gogoniant "ddim llai

Digitized by Google

na phan ddygwyd Syphax yno gan Scipio, a Perses gan L. Paulus, neu neb o'r breninoedd ereill a ymddangosasent yno yn garcharorion;" a rhoddwyd anrhydedd ac addurniadau gorfoleddawl i P. Ostorius Scapula.

Yma y terfyna bywgrafflad au Caractacus yn gyffredinol; ond y mae dernyn chwanegol o waith Dion Cassius wedi ei gael yn ystod y blyneddoedd diweddaf; a rhoddir ef yma yn gyflawn:—

"Caractacus (Καράχης), un o'r blaenoriaid Prydeinig, wedi ei gymmeryd yn garcharor, a ddygwyd i Rufain. Claudius, gan wisgo ei ysgin ymherodrol, a'i dygodd ger bron ei orseddfainc. Cafodd faddeuant, ac, yn nghyd â'i wraig a'i blant, arosodd yn Italy. Unwaith, pan yn rhodio ar hyd y ddinas, ac yn sylwi ar ei helaethrwydd, ac ar ei hanneddau ysblenydd, gofynodd, 'Pa ham yr ydych chwi, gan feddiannu adeiladau mor niferog a pharhaus, yn trachwantu yn ein hanneddau isel ni?'"

Ac y mae ail adroddiad i'r un perwyl gan yr hanesydd Zonaras. Cyn i'r crybwylliad hwn ddyfod i'r golwg, yr oedd yn ammheus gan amryw ysgrifenwyr, pa un a ddychwelodd Caractacus i Brydain; ond yr oedd y dyb yn afresymol, yn anghydweddol âg egwyddorion llywodraethol y Rhufeiniaid, ac yn groes i un casgliad teg oddi wrth ddystawrwydd yr hanesydd Tacitus. Ond wele draethiad penderfynol; ac y mae yn awr yn ffaith sicrhaol iddo farw dan wybren las Italy, ac na welodd eilwaith na'i drefedigaeth freiniol ei hun, na bryniau gwlithog Cymru.

Rhaid gwneyd un sylw chwanegol. Y mae ysgrifenwyr cyfrifol yn Nghymru yn gosod *Trioedd*, a gyfansoddwyd yn yr unfed canrif ar bymtheg, i gystadlu â'r haneswyr Rhufeinig, Tacitus a Dion Cassius, ac i brofi mai nid mab Cunobelinus oedd y gwron hwn, ond mab un Bran ab Llyr; ac i'r Bran hwnw gyfarfod â'r apostol Paul yn Rhufain, a dwyn yr efengyl oddi yno yma. Yr oedd tad Caractacus wedi marw o'i flaen; a gwelir fod pedwar o grybwylliadau am ei wraig, ei ferch, a'i frodyr, fel carcharorion; ac nad oes un son fod ei dad yn yr un sefyllfa. Dychymyg diweddar yw y chwedl hon; yr oedd Bran ab Llyr yn byw yn y chweched canrif; ac nid oes i'r haeriadau hyn un sail hanesol.—(*Tacitus' Annales; Dion Cassius; Monumenta Historica Britannica; Hanes Cymru, Price.*)

CARAI, [*car*], *ll.* careiau: rhwymyn neu linyn o groen, neu o ryw ddefnydd arall; rhaff neu gorden; càrai esgid. "O edau hyd gàrai esgid," a arwydda ryw beth o ychydig werth: *Gen.* xiv. 23. "Ni ddryllir càrai ei esgidiau," *h. y.*, y byddai y rhai a ddialeddent dros Dduw, yn barod i gychwyn i'w hymgyrch ar y rhybydd lleiaf. "Càrai esgidiau yr hwn nid wyf fi deilwng i ymostwng ac i'w dattod;" *Marc* i. 7; *Luc* iii. 16; *Ioan* i. 27. Gorchwyl y gweision iselaf y cyfrifid hyn; ac ystyriai Ioan Fedyddiwr ei hun yn annheilwng i wneuthur y peth lleiaf a distadlaf i, neu er mwyn y Messiah, yr hwn oedd ar ymddangos. Rhwymwyd Paul "â chareiai," gyda bwriad i'w fflangellu, yr hyn nid oedd gyfreithlawn, ac yntau yn ddinesydd Rhufeinig: *Act.* xxii. 25.

CARBONARIAID, [*Carbonari*; yn llythyrenol, golosgwyr]: plaid wladychyddol grefyddol, a gododd yn ddiweddar yn Italy, wedi deilliaw, fel y tybir, oddi wrth y Seiri Rhyddion; ac fel hwynt, yn cyfarfod mewn cymdeithasau dirgel, ac yn dilyn rhyw ddefodau ac arwyddion cyfrinioi. Fel y Seiri Rhyddion, hònant eu bod yn tynu eu hegwyddorion cyntaf o'r Ysgrythyrau, ac yn derbyn moesoldeb yr efengyl, ac arwyddion Cristionogaeth; ond y maent yn eu defnyddio yn wladychyddol, ac fe ddywedir, yn derfysglyd. Y groes, er anghraifft, a gyssegrwyd drwy ddyoddefiadau ein Harglwydd, a ystyrir ganddynt hwy fel offeryn i groeshoelio y rhai a ddyfarnant yn elynion a gormeswyr, yn erbyn y rhai y maent yn addunedu gelyniaeth tragwyddol; y maent yn proffesu parch i'n Gwaredwr, "fel yr aberth mwyaf gresynol, a mwyaf godidog, i drawslywodraeth."

Cyn y gwrth-chwyldroad yn Naples, yr oedd yr holl genedl agos wedi troi yn Garbonariaid; ac fe ymdaenodd y blaid i'r Almaen, Switzerland, a gwledydd ereill; ond ni ddylid eu hystyried mewn un modd fel enwad crefyddol. Pan y tyfasant yn lluosog a grymus, cyfododd plaid arall i'w gwrthwynebu a'u gwrthweithio, y rhai a elwir Calderari, *h. y.*, pres-ofaint.—(*Secret Societies of Italy, &c., &c.; Williams.*)

CARBWNCL, [*Ll. carbunculus*]: gem tra phrydferth, o liw coch dwfn yn gymmysg â choch gloew. Fe'i ceir yn gyffredin o ansawdd bur a dianaf, ac mor galed a'r saphir, y nesaf mewn caledwch i'r adamant. Y mae yn gyffredin tua chwarter modfedd o hyd, a dwy ran o dair o hyny o led. Ei ffurf naturiol sydd onglog, ac yn ymlynu ar ei waelod wrth fath o gareg drom, haiarnaidd, o rywogaeth yr ellfwn (*emery*). Yn ei ranau tewaf, pan ei delir i fyny gyferbyn â'r haul, y mae yn colli ei liw dwfn, ac yn ymddangos fel glöyn tanllyd; ac ar y cyfrif hwn, yr hynafiaid a'i galwent *anthrax*. Nid yw tân yn peri un cyfnewidiad yn ei liw. Hyd yn hyn, yn yr India Ddwyreiniol yn unig y mae i'w gael, ac yno ond yn anaml.

Y carbwncl ydoedd y trydydd maen yn y rhes gyntaf o feini gwerthfawr ar ddwyfroneg yr archoffeiriaid (*Exod.* xxviii. 17), yn y cyfleithiad Seisoneg. Yn y cyfleithiad Cymraeg, y cyntaf ydyw yn yr ail res, a'r gwyrddfaen (*emerald*) a feddylir wrtho: *adn.* 18. Yr achos o'r gwahaniaeth, dybygid, yw, fod ein cyfieithwyr ni yn dilyn y Deg a Thrigain, Josephus, a'r *Vulgate*, yn eu cyfieithiad o'r gair.

CARCHAR—AU—U, [*carch, dalfa*]: lle i gaethiwo a chospi drwgweithredwyr neu ddyledwyr: *Luc* xxiii. 19; *Mat.* xviii. 30. I hyn y cymherir beth bynag sydd yn tueddu i gyfyngu rhyddid, a dwyn dyn i waradwydd a thrueni; megys—1. Cyflwr isel, adfydus, a chystuddiol: *Preg.* iv. 14. 2. Yr attalfa effeithiol drwy ba un y rhwymir Satan rhag hudo dynolryw: *Dad.* xx. 7. 3. Y sefyllfa o gaethiwed ysbrydol y mae pechaduriaid yn cael eu cadw ynddi dan felldith y ddeddf, a chan ddiafol, a'u chwantau eu hunain: *Esa.* xlii. 7. 4. Gwarchodfa, o'r hon nis dichon dynion symmud, ac yn mha un y cauir arnynt fel troseddwyr: *Esa.* liii. 8. Efallai mai mewn cyfeiriad at hyn y geilw Dafydd yr ogof, lle yr oedd fel un wedi ei gladdu yn fyw, yn *garchar*: *Salm* cxlii. 7. 5. Uffern, lle y cedwir annuwiolion collfarnedig yn ddiogel, yn warthus, a thruenus byth: 1 *Pedr* iii. 19. Y cyfryw a gauir felly, mewn cyflwr o gaethiwed o ryw fath, a elwir yn garcharorion: *Esa.* xlix. 9; *Salm* lxix. 33; *Iob* iii. 18.—*Brown.*

Nid ymddengys fod carchariad wedi ei osod

Digitized by Google

gan Moses fel cosp, er nas gallai fod yn anhysbys o hono; gan iddo ei ddysgriflo fel yn arferedig yn mysg yr Aiphtiaid: *Gen.* xxxix. 20, 21. Yr unig waith y mae efe yn ei grybwyll, ydoedd er cadw troseddwr mewn dalfa ddiogel hyd oni cheid barn ar ei achos: *Lef.* xxiv. 12. Mewn amseroedd diweddarach, modd bynag, daeth cospedigaeth y carchar i arferiad yn mysg yr Israeliaid a'r Iuddewon; a chawn eu hanes, dan eu breninoedd, yn carcharu gwŷr, yn enwedig y prophwydi, y rhai, drwy eu ffyddlondeb yn eu ceryddu am eu pechodau, a dynent arnynt eu hunain eu gŵg a'u digofaint. Felly y traddododd Asa y prophwyd Hanani i garchar am ei geryddu ef (2 *Cron.* xvi. 10); Ahab, Micheah (1 *Bren.* xxii. 27); a Sedecïah, y prophwyd Ieremïah, am yr un peth (*Ier.* xxxvii. 21). Carcharwyd Ioan Fedyddiwr gan Herod y tetrarch, o achos Herodias (*Luc* iii. 19, 20); a Phedr, gan Herod Agrippa (*Act.* xii. 3, 4). Darllenwn am "y carchar cyffredin," lle y caethiwid y fath waethaf o droseddwyr: *Act.* v. 18. [Gwel DAIARDY; CYFFION.] Yr oedd gwŷr mawrion ac uchel swyddogion yn y dwyrain yn arfer neilduo rhan o'u palasau yn garchardy (*Ier.* xxxii. 2, 3, 8; xxxvii. 15, &c.; *Gen.* xl. 3); ac felly yr arferant yno eto.

"Y carchar nesaf i mewn," i ba un y taflwyd Paul a Silas yn Philippi (*Act.* xvi. 24), oedd yr un peth, fel y tybir, a'r pydew yn y daiardy y bwriwyd Ieremïah iddo. Y mae pob cyfeiriad a gawn at garcharau yn yr Ysgrythyr, yn dangos eu bod yn lleoedd o gaethiwed a chyfyngder ofnadwy, a'u cadernid hefyd y fath fel yr oedd yn anobeithiol allu dianc o honynt; a'r trueiniaid a fwrid iddynt (a hyny yn fynych yn eithaf anghyflawn), weithiau yn cael eu gadael i ddihoeni ynddynt mewn budreddi a gwall-ymgeledd, nes trengu dan yr effeithiau. Yr oedd ceidwaid carcharau gynt, fel y maent eto yn y dwyrain, yn meddu awdurdod i drin eu carcharorion yn mron fel y mynent; y cwbl a ofynid ganddynt fyddai eu dwyn ger bron pan y gelwid am danynt. Derbynient wobrau er eu trin yn ysgafnach neu greulonach; neu trinient hwy yn fynych yn greulawn a didrugaredd, yn hollol wrth eu nwyd afrywiog eu hunain, gan eu cadw mewn newyn a syched, neu mewn anwyd a noethni, heb ddangos dim teimlad tuag atynt. Y fath rym sydd yn yr ymadroddion ysgrythyrol a ganlyn:—"Ei enaid a aeth mewn heiyrn" (*Salm* cv. 18); "ocheneidiau y carcharorion" (*Salm* lxxix. 11); "profedigaeth—trwy rwymau hefyd a charchar" (*Heb.* xi. 36); a'r cythraul yn bwrw rhai o'r saint i garchar, &c. (*Dad.* ii. 10) —pan ystyrir ansawdd carcharau yn y gwledydd dwyreiniol, ac mewn gwledydd ereill, ysywaeth. —[*Horne's Intro.*, &c., &c.] Gwel CHWIL-LYS.

Mae dyngarwch yn yr oes hon wedi gwneuthur llawer yn ein gwlad ni tuag at liniaru trueni y carcharau, drwy awyriad, glanweithdra, a threfniadau iachus ereill, hyd y gellid yn gysson â dyben y cyfryw sefydliadau, fel lleoedd o gaethiwed a chosp, ac er rhybudd a gocheliad i ddrwg-weithredwyr. Y mae ymdrechiadau canmoladwy yn cael eu harfer er eu gwneyd yn foddion effeithiol er diwygiad y troseddwyr, yn lle eu gollwng ar y byd, ar eu rhyddhâd, yn fwy dyhir nag o'r blaen. Y mae rhyddid y deiliaid, yn ein gwlad ni, yn cael ei ddiogelu trwy ddeddfau da a llywodraeth dyner; ac y mae carcharu o herwydd crefydd a chydwybod wedi myned yn beth lled anghyffredin; a da fyddai pe ei gwnelid yn beth annichonadwy, drwy lwyr ddileu y cyfreithiau gorthrymus ac erlidus sydd eto yn aros ar ddeddflyfr y wladwriaeth. Gobeithio y daw hyny ar frys, nid yn unig yn y deyrnas hon, ond dros y byd i gyd.

CARCHEMIS, [כרכמיש, *ocn, cymmerwyd ymaith*]: dinas a enwir yn *Esa.* x. 9, yn mysg lleoedd ereill yn Syria, y rhai a ddarostyngesid gan frenin Assyria, Tiglath-pileser, fel y tybir. Ymddengys fod Carchemis yn ddinas gadarn ar yr Euphrates, oddi wrth ragymadrodd prophwydoliaeth Ieremïah yn erbyn yr Aipht:—"Yn erbyn llu Pharaoh-necho, brenin yr Aipht, yr hwn oedd wrth afon Euphrates yn Carchemis, yr hwn a ddarfu i Nebuchodonosor brenin Babilon ei daraw, yn y bedwaredd flwyddyn i Iehoiacim mab Iosïah brenin Iudah;" *Ier.* xlvi. 2. Yn ol 2 *Cron.* xxxv. 20, yr oedd Necho wedi gwneyd ymgyrch, bum mlynedd o'r blaen, yn erbyn y Babiloniaid, hyd yr Euphrates, a chymmeryd Carchemis. Y mae y ddau amgylchiad hyn, sef sefyllfa Carchemis wrth yr Euphrates, a'i bod yn dref gyffiniol, yn gwneyd yn dra thebygol fod yr enw Hebraeg yn cyfeirio at ddinas a alwai y Groegiaid, Kirkesion; y Lladiniaid, Cercusium; a'r Arabiaid, Kerkesiyeh; yr hon oedd yn gorwedd ar lan orllewinol yr Euphrates, yn y lle y mae yn cymmeryd y Chaboras, sef yr afon Chebar. Yr ydoedd yn ddinas fawr, a chaerau cryfion o'i hamgylch; y rhai, yn amser y Rhufeiniaid, a adgyweirid yn achlysurol, am mai yno yr oedd terfyn eithaf yr ymherodraeth tua 'r Euphrates, yn nghyfeiriad Persia. Ni wyddys a oes rhyw weddillion eto yn aros; gan ei bod encyd oddi wrth rawd arferol y mynteioedd, nid ydyw wedi cael sylwi arni gan deithwyr diweddar.—*Kitto.* Rhagfynegwyd dymchweliad Pharaoh-necho, a'r lladdfa aruthrol a gymmerodd le yno y pryd hwnw, gan y prophwyd, mewn arddull fywiog a grymusder barddonol tra nodedig: *Ier.* xlvi. 1—12.

CARDOTA—YN, [*cardawd*]: gofyn elusen; un yn byw ar elusenau. Nid yw cardota ynddo ei hun yn fai, onidê ni byddai rhoddi elusen yn rhinwedd. Gwir wrthddrychau elusen yw y rhai hyny y mae Rhagluniaeth wedi eu gosod mewn, neu eu darostwng i, sefyllfa o dlodi ac eisieu, fel nad oes un llwybr arall wedi ei adael iddynt am gynnaliaeth, ond taflu eu hûnain ar dosturi a thrugaredd eu cyd-ddynion. Y mae rhai yn cael eu dwyn i'r cyfryw sefyllfa drwy ddamweiniau anocheladwy, ac am dymmor yn unig; ac ereill fel wedi eu geni i dlodi ac ymddibyniaeth ar haelioni y trugarogion dros eu hoes: *Luc* xvi. 20; *Marc* x. 46; *Act.* iii. 2; *Ioan* xii. 8. Y mae gwneuthur trugaredd i'r cyfryw yn ddyledswydd a ddysgir yn y Beibl: *Deut.* xv. 2, 4; *Iago* ii. 14—16; *Luc* iii. 10, 11. Pan fyddo cardotiaeth yn ganlyniad diogi, afradlonedd, neu annarbodaeth, nid elusen yw ei gefnogi, am nad yw ar lwybr cyflawnder, a'i fod yn tueddu i brinhau cyfran y gwir dlodion. Cyfranu felly yn ddiwahaniaeth yw y math iselaf o weithrediad haelioni, fel y sylwa Paley; eto, nid ellir troi heibio y cyfryw druenusion yn ddiberygl bob amser, gan y dichon fod gwir gyfyngder, er ei fod wedi ei achosi drwy gam-ymddygiad, a gallai angeu ddygwydd mewn canlyniad; ond wrth weinyddu ymwared, dylid ymdrechu i'w diwygio oddi wrth eu dull isel a chywilyddus o fyw, a'u haddysgu i barchu eu hunain, a dilyn

Digitized by Google

mewn diwydrwydd ryw ffordd onest ac anrhydeddus i ennill eu bywoliaeth. Oni ddiwygiant, y cerydd-dŷ yw y lle priodol iddynt, a dyled yr awdurdodau yw eu hanfon yno. Y mae y cyfryw sefyllfa yn waradwyddus: *Salm* xxxvii. 25; cix. 10; *Diar.* xx. 4; *Luc* xvi. 3. Y mae dilyn cardotiaeth yn rhith crefydd, fel y gwneir gan amryw fathau o fynachod yn yr Eglwys Babaidd, yn sarhâd ac yn gabl ar Gristionogaeth; y mae y brodyr cardotëig hyny, fel eu gelwir, wedi bod yn maron yn ddieithriad yn felldith iddynt eu hunain ac i'r byd, megys locustiaid o'r pwll diwaelod, yn ddinystr i bob daioni lle bynag y cyrhaeddai eu dylanwad. Y mae y lledrith hwn yn taraw yn uniongyrchol yn erbyn ysbryd yn gystal a llythyren y gwirionedd: 2 *Thes.* iii. 6—16; *Act.* xx. 33—35. Gwel ELUSEN; MYNACHAETH.

CAREGL, [*chalice*]: y cwpan i gyfranu y gwin yn y sacrament. Gwaherddir y garegl, neu gyfranogi o'r ddwy elfen, i'r llëygion yn Eglwys Rhufain. Cedwir y garegl i'r offeiriad yn unig, yr hyn sydd yn groes i orchymyn pendant yr Iachawdwr; "Yfwch bawb o hwn."

CAREGLIAID, [*Calixtins*]: cangen o'r Hussiaid yn Bohemia a Moravia, yn y pymthegfed canrif. Y prif bwnc y gwahaniaethent ynddo o ddeutu Eglwys Rhufain oedd, yr arferiad o'r garegl (*calix*, o'r hyn y tarddodd yr enw), neu gyfranogi o'r sacrament yn y ddwy elfen. Nid ewyllysient ymneillduo o gymundeb Eglwys Rhufain, ond ceisient wella yr offeiriaid, a sefydlu pregethau yn yr holl eglwysi.

CAREY, WILLIAM, D.D.: a anwyd Awst 17, 1761, yn Paulerspury, pentref bychan yn swydd Northampton, ar ysgol rad pa un yr oedd ei dad yn ysgolfeistr. Pan yn bedair ar ddeg oed dodwyd ef yn egwyddorwas i ddysgu cryddwaith. Yn ystod y tymmor hwn deffröwyd ei gydwybod, ac arweiniwyd ef i fynychu addoliadau yr ychydig Ymneillduwyr oedd yn y lle. Gwnaeth broffes o grefydd trwy fedydd yn y flwyddyn 1783, a daeth yn aelod o eglwys y Bedyddwyr yn Olney. Dechreuodd bregethu cyn pen hir o amser, ac ordeiniwyd ef yn weinidog yn Olney yn 1787. Yr oedd wedi bod yn briod er 1781, a chadwai ychydig fusnes. Ond gan nad oedd yn llwyddiannus gyda'i alwedigaeth, symmudodd o Olney, wedi ei ordeiniad, i Piddington, ac oddi yno i Moulton, lle yr oedd yn cadw ysgol er cael ei gynnaliaeth gyda y weinidogaeth. Ond, fel y dywed ei chwaer, "yr oedd ei allu fel dysgawdwr yn llai nag fel dysgwr;" os aflwyddiannus fel crydd, aflwyddiannus hefyd fel ysgolfeistr. Ac nid rhyfedd nad oedd yn ffynu yn y naill na'r llall, o blegid yr oedd ei feddwl yn ymroddedig i bethau ereill. Efrydai yn helaeth ar y pryd yn ieithoedd gwreiddiol yr Ysgrythyrau, ac ennillodd fedrusrwydd mawr ynddynt. Rhoddodd lawer o'i feddwl hefyd i ieithoedd y Cyfandir, yn enwedig i'r Isellmyn (*Dutch*); a dysgodd hi mor dda fel y gallai gyfieithu o honi gyda rhwyddineb. Yr oedd gwaith mawr ei oes, sef y genadaeth, yn cael llawer o'i feddwl yn ystod y tymmor hwn, ac mewn cyssylltiad âg ef rhoddai lawer o'i amser i hanesiaeth a daiaryddiaeth. Arferai ffurfio darlunleni o'r byd, i'r dyben i ymgydnabyddu â'i wahanol wledydd, ac â chyflwr moesol ac âg angenion ysbrydol eu trigolion. "Yr oedd ei galon," meddai Fuller, "wedi ymosod ar ddychweliad y paganiaid cyn ei symmudiad i Moulton yn 1786."

Nid hir y bu wedi ei symmudiad i Moulton cyn y dechreuodd wneuthur ei deimladau yn nghylch ffurfio cymdeithas genadol yn hysbys i'w frodyr, y rhai oeddynt, rhaid addef, yn dra anmharod i wynebu ar y fath orchwyl; ond ni chawsant lonydd ganddo nes iddo lwyddo yn ei amcan. "Am ddechreuad cenadaeth y Bedyddwyr," medd y Dr. Ryland, "yr wyf yn credu mai Duw a roddodd yn meddwl Carey y pryder hwnw dros iachawdwriaeth y paganiaid, yr hwn nis gellir ei olrhain i un darddell arall. Pan yr aeth i Birmingham i gasglu at addoldy a adeiladodd yn Moulton, gwnaeth grybwylliad am yr amcan yno. Pwyswyd arno gan gyfaill i ysgrifenu ac argraffu ar y pwnc; yr hwn a gynnygiodd ddeg punt tuag at dalu am argraffu. Wrth ddychwelyd cyfarfu â Fuller a Sutcliffe yn fy myfyrgell yn Northampton, a gwasgodd arnom i ysgrifenu ar y pwnc. Cymmeradwyasom lawer o'r pethau a ddygai yn mlaen; ond gwnaethom rai gwrthwynebiadau, ar y tir fod cymmaint eisieu ei wneyd gartref, &c. Beth bynag, gan nas gallai lwyddo i gael gan un o honom i wynebu ar y gorchwyl, dywedodd fod yn rhaid iddo ef amlygu yr holl wirionedd; iddo ef ddywedyd, mewn ymddyddan gwresog yn Birmingham, ei fod yn penderfynu gwneuthur pob peth a allai er gosod ar droed genadaeth i'r Bedyddwyr. 'Wel,' ebe y cyfaill, 'argreffwch ar y pwnc, a chynnorthwyaf finnau i ddwyn y draul.' 'Nis gallaf wneyd hyny,' ebe yntau. 'Os nad ellwch wneyd cystal ag yr ewyllysioch,' ebe y cyfaill, 'gwnewch cystal ag y gellwch; yr ydych eisoes wedi ymrwymo i wneyd pob peth a ellwch, a rhaid i mi eich cadw at eich gair.' Wedi cael ei ddal fel hyn yn ei sel, nis gallai ddyfod yn rhydd ond trwy addaw ysgrifenu ar y pwnc, os nad allai lwyddo i gael gan ryw un mwy galluog i wneuthur yn ei le. Yna unasom oll i ddywedyd, 'Gwnewch ar bob cyfrif: ysgrifenwch i lawr eich meddyliau gynted ag y medroch; ond na fyddwch mewn brys i'w hargraffu. Gadewch i ni edrych drostynt i edrych a fydd eisieu gadael allan, cyfnewid, neu chwanegu rhywbeth.' Wedi y calonogiad hwn, ymosododd ar y gwaith, a dangosodd i ni gynnwysiad y traethodyn a gyhoeddwyd wedi hyn, ar yr hwn ni chanfuasom angen gwneuthur ond ychydig ddiwygiadau." Galwyd y traethawd hwn, *Ymofyniad yn nghylch rhwymedigaeth Cristionogion i ddefnyddio moddion er dychwelyd y paganiaid.* Yn y flwyddyn 1788, symmudodd Carey o Moulton i Leicester, a daeth yn weinidog ar yr eglwys yn Harvey lane: parhaodd ei bryder yn nghylch lledaeniad yr efengyl i gynnyddu bob dydd wedi y symmudiad yma nes myned o'r diwedd mor anorchfygol fel y dygai ef ger bron ei frodyr bob cyfle a ddeuai i'w afael. Yn 1781, yr oedd cyfarfod gweinidogaethol yn Clipston, lle y pregethodd Mr. Sutcliffe oddi wrth 1 *Bren.* xix. 10, ar "Sel dros Arglwydd Dduw y lluoedd;" a Mr. Fuller ar "Ddylanwad niweidiol oedi mewn pethau crefyddol," oddi wrth *Hag.* i. 2. Cariodd y pregethau hyn argraff ddwys ar amryw oedd yn wyddfodol, yn enwedig ar y gweinidogion; yr hyn a fu yn ffafriol iawn i Carey i ddwyn pwnc ei fywyd dan eu sylw. Cymmerodd fantais ar yr adeg i ddwyn ger eu bron yr ymofyniad, "A oedd yn beth ymarferol; ac onid eu dyledswydd rwymedig oedd anturio rhyw gymmaint er gwasgaru yr efengyl yn y byd paganaidd?" Penderfynwyd cyn ymadael gyhoeddi y traeth-

Digitized by Google

odyn y cyfeiriwyd ato o waith Carey (o blegid hyd yn hyn ymddengys nad oedd wedi ei gyhoeddi), "mewn rhan," meddai Fuller, "er mwyn boddloni y brawd Carey, ac mewn rhan er mwyn oedi yr amser;" o blegid yr oedd y gweinidogion yn cael eu gorfodi trwy ei daerineb i wneuthur rhywbeth: ond gan ei fod yn llwybr disathr, yr oedd eu meddyliau yn methu ei gerdded. "Ymddangosai iddynt," fel y dywedai Fuller, "yn anturiaeth rhy fawr, yn rhy debyg i geisio gafael mewn gwrthddrych oedd allan o'u cyrhaedd." Mewn cymmanfa yn Nottingham, yn Mai 1792, pregethodd Carey oddi ar *Esa.* liv. 2, 3, ar "Ddyledswydd yr eglwys i ddysgwyl pethau mawr oddi wrth Dduw, ac ymdrechu pethau mawr dros Dduw;" ac y mae y rhaniadau hyn o'i bregethau erbyn hyn wedi dyfod yn arwyddair yr eglwys. Cynnyrchwyd y fath argraff drwyddi, fel y dywedodd Dr. Ryland, "Pe buasai y bobl yn codi eu llais ac yn wylo fel y gwnaeth plant Israel yn Bochim (*Barn.* ii.), ni buaswn yn rhyfeddu; ni buasai hyny yn ymddangos ond yn gyfartal i'r achos, gan mor eglur y dangosodd i ni gamweddusrwydd ein syrthni gydag achos Duw." Arweiniodd y bregeth hon i sefydliad Cymdeithas Genadol y Bedyddwyr; o blegid penderfynwyd cyn ymadael "fod cynllun i gael ei ddarparu erbyn y cyfarfod nesaf yn Kettering, i'r dyben o ffurfio cymdeithas er gwasgaru yr efengyl yn mhlith y paganiaid." Cynnaliwyd y cyfarfod hwn ar yr 2il o Hydref yn yr un flwyddyn—a ffurfiwyd y gymdeithas.

Ar ol ffurfiad y gymdeithas, yr ymofyniad cyntaf oedd, Yn mha barth o'r byd paganaidd y dechreuent eu gweithrediadau? ac wedi hyny, Pwy a anturiai i'r fath orchwyl peryglus? I'r olaf atebai Carey, "Wele fi, os cyfrifwch fi yn deilwng." Yr oedd efe wedi meddwl llawer am hyn, a'i hoffwaith fuasai yr anturiaeth. Ond i ba le i fyned? Yr oedd Carey wedi gwneyd ei feddwl i fyny ar hyn hefyd. "Pe byddai i mi ddilyn fy nhueddiad, a phe byddai genyf foddion yn fy meddiant, Ynysoedd Môr y Deheu fyddai maes fy llafur, a dechreuwn yn Otaheite." Ond yr oedd Duw wedi trefnu iddo fyned i le arall. Mewn cyfarfod perthynol i'r genadaeth yn Northampton, Tachwedd 13, derbyniwyd llythyr oddi wrth Mr. Carey yn hysbysu fod un Mr. Thomas, meddyg o Bengal, yn casglu yn Llundain at gael cenadaeth yn yr India Ddwyreiniol, ac yn ymofyn am gydymaith yn y gwaith; a neillduwyd Mr. Fuller i wneuthur ymofyniad yn nghylch cymmeriad a gweithrediadau Mr. Thomas. Cyflwynwyd atebiad i'r ymofyniad mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Ionawr, 1793, yr hwn a gymmeradwywyd; a phenderfynwyd rhoddi cais ar Mr. Thomas i fyned allan dan nawdd y gymdeithas, gan ymrwymo i chwilio am un addas yn gydymaith iddo. Cydsyniodd Mr. Carey ar unwaith i fyned gyda Mr. Thomas, os boddlonai efe i gais y pwyllgor. Ar yr un prydnawn ag y cafwyd cydsyniad Carey, daeth Mr. Thomas i Kettering, a derbyniodd yr holl gynnygion. Dygwyddiad dyddorol ac effeithiol oedd cyfarfyddiad y ddau â'u gilydd y tro cyntaf. Rhodda un oedd yn wyddfodol hanes fel hyn am yr amgylchiad:—"Yr oedd yn hwyr brydnawn, tra yr oedd y pwyllgor mewn dwys ymgynghoriad, pan ddaeth y newydd am ddyfodiad Mr. Thomas. Gan awyddfryd i weled ei gydlafurwr, daeth i mewn i'r ystafell gyda brys; ac wedi i Mr. Carey godi, syrthiasant ar yddfau eu gilydd ac wylasant. Ebe Fuller, 'Canfuasom oddi wrth yr hanes a roddodd Mr. Thomas fod yno gloddfa aur yn India; ond ymddangosai mor ddwfn a chanolbwynt y ddaiar. Pwy a anturia i'w chwilio?' 'Ar fi i lawr,' atebai Carey; 'ond cofiwch, rhaid i chwi ddal y rhaffau.' Ymrwymasom gyda difrifoldeb i wneuthur hyny; a thra byddwn byw nis gadawn ef.'"

Ond nid peth hawdd oedd i Carey gyflawnu ei fwriad: yr oedd ei wraig yn hollol wrthwynebol i fyned gydag ef. Ond er fod ei gariad at ei wraig yn gryf, yr oedd ei gariad at Grist yn gryfach. Wedi cael ei chaniatâd i Felix ei fab henaf fyned gydag ef, penderfynodd ei gadael, gan fwriadu dychwelyd am dani hithau wedi iddo sefydlu yn yr India. Cynnaliwyd cyfarfod ymadawol yn Leicester, Mawrth 20, 1793. Yna cychwynasant i Ryde, yn yr Isle of Wight; o ba fan yr aethant i long oedd yn rhwym i'r India. Ond nid oeddynt i fyned gyda y llong hon. Derbyniodd y cadben lythyr dienw yn ei hysbysu fod y cenadon heb eu trwyddedu gan Gwmni yr India Ddwyreiniol; ac o blegid hyn gorfu iddynt adael y llong mewn tristwch, ac er braw i'r pwyllgor. Crynai calon lewaidd Fuller o blegid hyn, a dywedai, "Yr ydym oll wedi ein handwyo." Ond os fel hyn y barnai Fuller, yr oedd Duw wedi ei fwriadu er daioni; canys, yn ystod yr amser y buwyd yn ymofyn am long arall, llwyddodd Mr. Thomas trwy lawer o daerineb i gael gan Mrs. Carey gydsynio i fyned allan gyda'i gwr. Ar y 13eg o Fehefin, yn yr un flwyddyn, aethant i'r Kron Princessa Maria, llong berthynol i'r Daniaid (*Danes*). Ar fore eu hymadawiad, ysgrifenodd un o honynt fel y canlyn:—"Y mae y llong wedi dyfod; yr arwydd wedi ei wneuthur; y gynau wedi eu tanio; ac yr ydym yn myned gyda gwynt teg dymunol. Ffarwel! anwyl frodyr a chwiorydd; ffarwel! Duw Iacob fyddo yn eiddo i ni a chwithau, ar fôr a thir, am amser a thragwyddoldeb."

Sylwyd eisoes fod Carey wedi ennill medrusrwydd ieithyddol mawr hyd yn oed pan oedd yn dilyn ei alwedigaeth fel crydd. Erbyn hyn yr oedd yn meddu gwybodaeth anghyffredin yn y Lladin, Groeg, Hebraeg, Ffrancaeg, Isellmynaeg, Italaeg, ac ereill; yn yr hyn y dangosodd y rhwyddineb rhyfeddol mewn dysgu ieithoedd trwy yr hyn yr oedd Duw yn ei gymhwyso a'i godi i'r gwaith o fod yn gyfieithydd y Beibl i baganiaid India. Ni bu yn segur yn y maes hwn ar ei fordaith. Ymosododd yn ddiwyd gyda Mr Thomas i gyfieithu llyfr Genesis i iaith Bengal. Tiriasant yn India, Tachwedd 10fed, ac aethant dranoeth i Calcutta. Gan nad oeddynt wedi cael trwydded gan y cwmpeini i ddyfod i India, gorfu iddynt fod yn guddiedig am amser, a gadael Calcutta, yr hyn a wnaethant, gan fyned i Sunderbunds. O'r diwedd, wedi agos dreulio eu holl gynnaliaeth, daeth Carey i adnabyddiaeth â boneddwr Seisoneg, o'r enw Charles Short, Ysw.; a thrwy ei garedigrwydd ef llwyddodd i gael ychydig o dir yn Collahtullah, lle y dysgwyliai allu ennill ei gynnaliaeth wrth ei drin, ac hefyd gael yr hyfrydwch o bregethu yr efengyl i'r paganiaid a'i hamgylchynent. Nid hir yr arosodd yma; o blegid ar y 13eg o Fai, 1794, symmudodd i Malda, ar gais un Mr. Udney, yr hwn oedd wedi sefydlu dau weithfa lliw glas (*indigo*), un yn Mudnabatty, tua dau can milltir i'r gogledd o Calcutta, a'r llall yn Moypauldiggy, un ar bymtheg o filltiroedd yn mhellach i'r gogledd: a rhoddwyd gofal y blaenaf i Carey, a'r olaf i Mr. Thomas. Gwellhaodd hyn sefyllfa Carey yn

Digitized by Google

fawr; ac yr oedd ganddo rai cannoedd o bobl dan ei ofal, i ba rai y pregethai Grist yn ddiwyd, yn gystal ag i'r paganiaid o amgylch. Yn y flwyddyn 1795, sefydlodd eglwys Gristionogol, yn cynnwys pedwar o aelodau, Mr. Thomas ac yntau, a dau Ewropeaid ereill—yr eglwys Gristionogol gyntaf yn India. Parhaodd Carey yma hyd 1799, yn ddiwyd yn pregethu yr efengyl, yn arolygu y weithfa, yn dysgu y Sanscrit, ac yn cyfleithu yr Ysgrythyrau i'r Bengalaeg. Yr oedd yr holl Feibl bron yn barod i'w argraffu i'r iaith ddiweddaf erbyn diwedd 1797. Ychydig yn mhellach yn hanes y gymdeithas cawn y cofnodyn a ganlyn:—"Medi 18, 1798. Heddyw gosodasom i fyny yr argraffwasg yn Mudnabatty. Rhai o'r brodorion a ddaethant i'w gweled, ac aethant ymaith gan ddywedyd, '*balatle ddourga;*' hyny yw, eilun dduw y Seison ydyw. Mae pob peth yn barod yn awr i ddymuniad brwdfrydus Mr. Thomas gael ei gwblhau:—'Rhoddwn filiwn o bunnau, pe meddwn hwy, am weled Beibl Bengalaeg. O drugarocaf Dduw! y fath fendith fyddai hon i'r miliynau hyn.'"

Bu Mr. Udney yn aflwyddiannus gyda y gwaith *indigo;* a gorfu i Carey ymadael â'i wasanaeth ef yn 1799, gan fwriadu gosod i fyny weithfa iddo ei hun yn Kidderpore. Ond ar y 12fed o Hydref cyrhaeddodd pedwar o genadon newydd i'r India, sef Ward, Brunsdon, Grant, a Marshman; a chan nad allai Carey gael caniatâd gan y llywodraeth i sefydlu y cenadon ar y tiriogaethau Prydeinig, aeth gyda hwy i Serampore, trefedigaeth berthynol i'r Daniaid, lle y cawsant garedigrwydd a chefnogaeth gan y llywydd, yr hwn a'u noddodd hyd ei fedd. Yr oedd Mawrth 17, 1800, yn ddydd mawr yn Serampore, o blegid arno y cysodwyd y ddalen gyntaf o'r Testament Newydd yn y Bengalaeg. Dydd hyfryd i'r cenadon, yn enwedig i Carey, oedd Rhag. 29, "pryd y cafodd yr hyfrydwch," fel y dywedai, "o ddigyssegru y Gunga, trwy fedyddio ynddi Crishnw, y Cristion Hindwaidd cyntaf, a'i fab ei hun Felix." "Torwyd cadwen y *caste*," ebe Ward; "a phwy a ddichon ei chyfanu?" Bu Carey a'i gymdeithion yn ddiwyd a llwyddiannus hefyd yn y tymmor hwn mewn sefydlu ysgolion yn Serampore. Chwefror 7fed, 1801, y cysodwyd y ddalen ddiweddaf o'r Testament Newydd, er mawr lawenydd i'r cenadon a'r Cristionogion brodorol. Anrhegwyd y llywydd lleol a'r prif lywydd (*local governor and governor general*) â chopiau o hono, pa rai a dynasant sylw y marchog Wellesley mor fawr fel y neilldüwyd Carey cyn hir i fod yn broffesydd yn ieithoedd y Bengalaeg a'r Sanscrit yn Ngholeg Fort William, Calcutta. Yn mhen ychydig amser cymmerwyd Serampore gan y Prydeiniaid; am yr hyn, yn gystal ac am ei neilldüad ei hun, yr ysgrifenai Carey fel hyn:—"Mehefin 24, 1801. Y mae Serampore yn nwylaw y Seison; ond nid oes genym ddim i'w ofni. Neilldüwyd fi i fod yn broffesydd Bengalaeg a Sanscrit yn Ngholeg Fort William, gan yr arglwydd Wellesley, yn enwedigol o dan y cymmeriad o genadwr. Yr wyf yn awr wedi myned trwy un tymmor."

Yr oedd y neilldüad hwn yn fanteisiol iawn i Carey a'r gymdeithas mewn ystyr arianol: o blegid yr oedd nid yn unig yn gallu cadw ei deulu, ond hefyd yn gallu cyfranu yn helaeth i drysorfa y gymdeithas. Am ei lafur yn y tymmor hwn ysgrifena fel y canlyn:—"Dichon eich bod yn synu nad wyf yn ysgrifenu chwaneg o lythyrau; ond pan welwch yr hyn sydd genyf i'w wneyd, chwi beidiwch a rhyfeddu. Yr wyf yn cyfleithu i'r Bengalaeg; ac o'r Sanscrit i'r Seisoneg (hyny yw, y Ramayunaeg; hefyd, yr wyf wedi dechreu rhoi cais at gyfleithu y Vedas); yr wyf yn gorfod cymharu copiau. Rhaid i bob prawflen o'r Ysgrythyrau yn Bengalaeg a'r Mahratta, y gramadeg Sanscrit, a'r Ramayunaeg, fyned dair gwaith o leiaf drwy fy llaw; ac y mae y geiriadur Sanscrit, yr hwn a olygir gan Mr. Colebrooke, yn myned unwaith o leiaf trwy fy llaw. Yr wyf wedi ysgrifenu argraffiad (*edition*) newydd o'r gramadeg Bengalaeg, wedi ei ail wneyd drosto a'i helaethu; a gramadeg Mahratta; ac wedi casglu defnyddiau geiriadur Mahratta. Heb law hyn, yr wyf yn pregethu ddwywaith yn yr wythnos, ac yn aml deirgwaith; heb law cyflawnu y dyledswyddau perthynol i'r coleg." Parhaodd ei gyssylltiad â'r coleg hyd oni ddifodwyd proffeswriaeth (*professorship*) ynddo, yr hyn a gymmerodd le tua 1829. Yn nghylch hyn cawn yr hysbysiad a ganlyn yn mynegiad y gymdeithas am 1830:—"Yr unig aelodau perthynol i'r genadaeth a allant gyfranu i'w thrysorfa ydynt Dr. Carey, Dr. Marshman, a Mr. J. C. Marshman. Y maent hwy yn cyfranu hyd derfynau eu gallu; ond gwelodd Duw yn dda leihau eu gallu yn fawr. Y mae y llywodraeth Brydeinig newydd ddifodi proffeswriaeth yn Ngholeg Fort William; ac y mae Dr. Carey, gan mai *pensioner* yw, wedi dyoddef colled o 500 o *rupees* y mis. Ni bydd, gan hyny, o hyn allan yn alluog i gyfranu mwy na 300 o *rupees* i drysorfa y genadaeth.' Achosodd neilldüad Dr. Carey i'r coleg, fel y canfyddwyd, lawer o lafur a phryder iddo; ond chwanegodd hefyd at ei fanteision, a gwnaeth ddefnydd o honynt mewn ymgydnabyddu â'r brodorion ac â'u hiaith, ac mewn dysgu gwirioneddau yr efengyl i lawer a ddygwyd dan ei ddylanwad trwy ei ddyrchafiad i'r sefyllfa hon o anrhydedd. Yma hefyd cafodd fanteision mawrion i wneuthur ymchwiliadau dyfnddysg i'r iaith Sanscrit, ac mewn canlyniad i'r hyn yr ysgrifenodd ei ramadeg a'i eiriadur i'r iaith hono. Ond parhaodd ei lafur fel cenadwr er hyn oll. Sefydlwyd ysgol tua'r amser yma yn Calcutta, yn yr hon y cedwid â bwyd a dillad, ac y dysgid ugain o frodorion yn egwyddorion Cristionogaeth; ar yr hon yr oedd tri o athrawon achlysurol, heb law Dr. Carey. Rhoddai efe iddynt ddarlithoedd ar ddaiaryddiaeth, servddiaeth, duwinyddiaeth, a phynciau ereill, dair gwaith yn yr wythnos. Yn y flwyddyn 1818 adeiladwyd coleg helaeth yn Serampore, i'r dyben yn benaf o ddwyn i fyny ddynion ieuainc i'r weinidogaeth. Yr oedd ynddo 37 o fyfyrwyr yn 1819, o dan lywyddiaeth Carey, yr hwn a draddodai ddarlithoedd ar dduwinyddiaeth yn iaith Bengalaeg. Yr oedd y coleg hwn am y deng mlynedd cyntaf o dan ofal addysgiadol Carey yn unig. Cynnwysai ei lyfrgell erbyn hyn 5000 o gyfrolau, a'r offer (*apparatus*) athronyddol helaethaf yn India.

Llafuriai Dr. Carey hefyd yn helaeth yn ngwaith y weinidogaeth, gyda'i gymdeithion Ward a Marshman, ac mewn llafur cenadol yn ac o amgylch Serampore bob cyfle a ddeuai i'w afael. Ni bu ei lwyddiant gweledig yn fawr am amser; ond yr oedd y lefain yn gweithio. Yn 1804, un mlynedd ar ddeg wedi iddo gyrhaedd India, yr oedd eglwys yn Serampore yn cynnwys 34 o aelodau—14 o Ewropeaid, ac 20 o frodorion—wedi eu dychwelyd oddi wrth wahanol gau grefyddau India. Yn 1806 yr oedd ynddi 100 o aelodau; sef 25 o Ewropeaid, a 75 o frodorion. Erbyn 1811 yr oedd yr eglwys wedi tori allan ar

Digitized by Google

ddeheu ac ar aswy, a chynnwysai 300 o aelodau. Ond anmherthynasol fyddai dilyn effeithiau y lefain a fwriwyd yn benaf gan Carey yn mhellach. Yr oedd Dr. Carey hefyd yn ddedwydd iawn yn ei blant; pa rai a ddaethant yn gynnorthwywyr iddo yn ei lafur cenhadol.

Dywed y proffeswr Wilson, o Rydychain, am dano fel ieithyddwr; "Ei *Rammadeg Sanscrit* oedd y gramadeg cyflawn cyntaf a ysgrifenwyd erioed ei *Ramadeg Telingaidd* ef oedd yr un cyntaf a argraphwyd yn Seisoneg; ei *Ramadegau Karnata a Mahratta* oedd y gweithiau cyntaf a gyhoeddwyd yn dadlenu ffurfiad yr ieithoedd hyn; ei *Eiriadur Mahratta* oedd un o'r ymdrechion cyntaf mewn geirlyfryddiaeth yn yr iaith hon; y mae ei *Ramadeg Punjabi* yn aros eto yr unig awdurdod a fodola yn iaith y Sikhiaid." Hefyd, dywed yr un awdwr; "Y mae *Gramadeg Sanscrit* Dr. Carey yn waith o derfynau a llafur dirfawr ac o deilyngdod mawr. Ond y dosran o lenyddiaeth ddwyreiniol, ar ba un y gellir dywedyd, mewn modd arbenigol, fod Dr. Carey yn llywyddu, ydoedd iaith a llenyddiaeth y Bengalaeg. Trwy ei ramadeg a'i eiriadur, a llyfrau elfenawl defnyddiol ereill, gall Dr. Carey hawlio y clod o godi y Bengalaeg o fod yn dafodiaith anghelfydd ac ansefydlog, i'r cymmeriad o fod yn ffurf ymadrodd reolaidd a pharhaol, yn meddu rhyw gymmaint o lenyddiaeth, ac yn alluog, trwy ei pherthynas agos â'r Sanscrit, i ddyfod yn gludai coethedig a chynnwysfawr er gwasgaru gwybodaeth iach a gwirioneddol crefyddol." Yr amcan mawr oedd gan Dr. Carey mewn golwg yn ei holl ymchwiliadau ieithyddol oedd galluogi ei hun i drosglwyddo yr Ysgrythyrau i ieithoedd y brodorion. Canfuwyd yn barod ei lwyddiant yn y rhan hon; o blegid yn fore yn 1801, yr oedd y Testament Newydd wedi ei argraffu yn Bengalaeg. Erbyn 1804, yr oedd llawer o'r Hen Destament wedi ei gyfieithu a'i argraffu, a darpariadau mewn llaw i argraffu bron yn holl ieithoedd India. Mor hyfryd i deimlad Carey oedd gallu dywedyd yn y flwyddyn hon fel y canlyn:—"Y mae yn ein gallu, pe bai genym foddion, i gael holl air Duw, mewn ystod 15 mlynedd, wedi ei gyfieithu a'i argraphu yn holl ieithoedd y dwyrain. Y mae ein sefyllfa yn gyfryw ag a'n cynnysgaetha â'r cynnorthwy goreu oddi wrth frodorion o'r gwahanol wledydd. Gallwn gael toddi yr holl lythyrenau yma, a thua 700 o *rupees* y mis, rhan o ba un a allwn ei gyfranu yma, yr wyf yn gobeithio, a gwblha y gwaith. Yr ieithoedd ydynt Hindwstanaeg, Mahratta, Oreea, Telinga, Bhotan, Burman, Chinaeg, Cochin Chinaeg, Tonquinaeg, a'r Malaeg. Mae y gwaith mawr hwn genym mewn golwg." Tua chanol 1809, yr oedd wedi cyfieithu yr holl Feibl i'r Bengalaeg, pan y cymmerwyd ef yn glaf o dwymyn boeth; ond, trwy drugaredd, gwellhaodd cyn hir. Yr oedd erbyn hyn, trwy gymhorth ei gymdeithion, wedi cyfieithu rhanau o'r Ysgrythyrau i ddeg o ieithoedd ereill;—yr oll o'r Testament Newydd, a rhanau o'r Hen, i'r Sanscrit, yr Orissa, y Telinga, y Karnata, a'r Mahratta; y Testament Newydd i'r Gujerattaeg, yr Hindwstanaeg, a'r Sikh; a rhanau o hono i'r Burman a'r Chinaeg. Am y llafur enfawr hwn, dywedai y *Quarterly Review*, am Chwefror, 1809 [cyf. i., td. 223—225];—"Y mae y crefftwyr dirmygedig hyn wedi cyfieithu yr holl Feibl i'r Bengalaeg, ac erbyn hyn wedi ei argraffu. Y maent yn argraffu y Testament Newydd yn y Sanscrit, yr Orissa, y Mahratta, Hindwstanaeg, a'r Gujerat, ac yn ei gyfieithu i'r Persiaeg. Telinga, Karnata, y Chinaeg, a ieithoedd y Sikhiaid a'r Burmaniaid; ac y maent yn myned yn mlaen gyda'r Beibl mewn pedair o'r ieithoedd hyn. Er mor ryfedd yw hyn, ymddangosa yn fwy felly, pan gofir mai crydd oedd un o'r rhai hyn, a'r llall yn argraffydd yn Hull, a'r trydydd yn ysgolfeistr yn Bristol. Nid oes ond pedair blynedd ar ddeg er pan osododd Thomas a Carey droed yn India; ac yn yr amser hwn y mae y cenhadon wedi ennill y fath ddawn mewn ieithoedd;—y mae y crefftwyr dirmygedig hyn wedi gwneuthur mwy mewn pedair blynedd ar ddeg tuag at wasgaru gwybodaeth o'r Ysgrythyrau yn mhlith y paganiaid nag a wnaed gan yr holl fyd heb law hwy." Yn mhen y tair blynedd wedi hyn, yr oeddynt wedi cyfieithu rhanau helaeth o'r Testament Newydd i saith o ieithoedd ereill; sef Cashmere, Assam, Pushtw neu Affghan, Nepula, Brij Basha, Bilochaeg, a'r Maldivian. Yn y flwyddyn 1814, ysgrifenai Carey;—"Yr ydym yn awr yn ymosod ar gyfieithu y Beibl i un ar hugain o ieithoedd."

Parhaodd yn ei ymdrechion fel cyfieithydd hyd ei ddyddiau diweddaf. Mehefin 9fed, 1834, gorphwysodd oddi wrth ei lafur. Cyfarwyddodd yn ei ewyllys fod y beddargraph a ganlyn i gael ei ddodi ar gareg ei fedd:—

"WILLIAM CAREY,
Born August 17th, 1761;
'A wretched, poor, and helpless worm,
On thy kind arms I fall.'"

Ymhyfrydai Carey mewn ymchwiliadau athronyddol. Dywedai un o'i feibion;—"Yr oedd fy nhad yn gywrain dros ben mewn ymchwiliadau anianyddol. Yr oedd ei gasgliad o fwnau, a gwrthddrychau ereill mewn hanes anianyddol, yn helaeth, ac yn derbyn ei sylw neillduol yn ei oriau adfywiol. Yr oedd llysieuaeth yn wyddiant ag oedd yn ddefnydd pleser ac efrydiaeth parhaol iddo. Traddodai ddarlithiau yn aml ar y wyddiant hon; a llawer yn dyfod i'w gwrandaw, ac yn eu mwynhau yn fawr. Y mae ei waith, *The Roxburg Flora Indica*, yn safon gan lysieuwyr."

Am ei gymmeriad personol, dywed y Parch. Eustace Carey, ei nai;—"Nid oedd dim yn meddwl ac ymarferion bywyd Dr. Carey o hynodrwydd i gael ei ddarlunio. Nid oedd ynddo ddim tarhagoriaeth deall mawr a gwreiddiol; dim brwdaniaeth ac egni mewn teimlad; nid oedd dim yn ei gymmeriad meddyliol i beri syndod. Ni hona neb a'i hadwaenai fod ei dalentau o gymmeriad dysglaer. Hynodion arweiniol Dr. Carey oeddynt ei benderfyniad, ei ddianwadalwch amynedd-gar, a'i symlrwydd. Nid oedd un ammheuaeth neu betrusdod yn nghyfansoddiad ei feddwl; nid oedd un rhan o'i nerth, gan hyny, yn cael ei ddifrodi ar bethau nad oeddynt yn dwyn perthynas â rhyw amcan neillduol a phwysig. Amynedd anorchfygol mewn llafur, a dianwadalwch parhaol, a sicrhai iddo oruchafiaeth ar bob rhwystr."—(*Memoir of Dr. Carey, by Eustace Carey; Dr. Cox's History of the Baptist Mission; Encyclopedia of Religious Knowledge*, d.g., CAREY; CALCUTTA; SERAMPORE.)

CARFAN, [*carf*]: cynnalydd, rhwymydd, trawst, rhes; carfan gwely, "carfan gwehydd," carfan o wair: 1 *Sam.* xvii. 7.

Mal yr eddi am y garfan. *Diar.*

"Eisteynt yn garfanau o fesur cantoedd;" *Marc* vi. 40.—*W. Salisbury.*

CARGILIAID: y Cameroniaid Ysgotaidd a elwir felly oddi wrth un o'u blaenoriaid.

Digitized by Google

CARIA: gwlad yn Asia Leiaf; terfynau yr hon oeddynt wahanol mewn gwahanol amseroedd. Ei sefyllfa oedd i'r dehcu o Ionia, i'r gogledd a'r dwyrain o'r môr Icaraidd, ac i'r gorllewin o Phrygia Fwyaf a Lycia. Cafodd ei galw yn Phœnicia, am fod trefedigaeth Phœniciaidd wedi ymsefydlu yno: wedi hyny, derbyniodd yr enw Caria, oddi wrth y brenin Car, yr hwn a ddyfeisiodd y gelfyddyd neu ddyfais o adargoel. Y brif ddinas a elwir Halicarnassus, lle genedigol Herodotus, prif dduw yr hon oedd Iau. Tref ynddi hi (yn Caria) oedd Cnidus, heibio i'r hon yr aeth Paul ar ei fordaith i Rufain.

CARIAD, [*car*]: anwyldeb, serch, hoffder. Y mae yn y Testament Groeg ddau air a gyfleithir "cariad;" sef *αγαπαω* (*agapao*) a *φιλεω* (*phileo*). Dynoda y cyntaf, medd Robinson; 1. Serch ac ymlyniad cryf at wrthddrych: *Luc* vii. 42; *Ioan* iii. 25; viii. 42; *Dad.* iii. 9. 2. Gyda golwg ar uchafiaid, ac yn cynnwys y drychfeddwl o barch, a dyledswydd, dynoda caru a gwasanaethu mewn ffyddlondeb: *Mat.* vi. 24; xxii. 37; *Marc* xii. 30, 33; *Luc* xvi. 13; *Rhuf.* viii. 28. 3. Edrych gyda ffafr, ewyllys da, a haelfrydedd, ar un: *Marc* x. 21; *Luc* vii. 5; *Ioan* x. 17; 2 *Cor.* xii. 15. 4. Ymhyfrydu mewn gwrthddrych, neu mewn pethau: *Luc* xi. 43; *Ioan* iii. 19; *Heb.* i. 9.

Y mae y gair *phileo* yn arwyddo y pethau canlynol:—1. Ymserchu mewn person; "caru tad a mam:" *Mat.* x. 37; *Ioan* xx. 2; *Dad.* iii. 19. 2. Arddangos cariad trwy gusan: *Mat.* xxvi. 48; *Marc* xiv. 44; *Luc* xxii. 47. 3. Caru gwneyd unrhyw beth, hyny yw, gwneyd y peth yn ewyllysgar, yn llawen; ac felly, arfer ei wneyd: *Mat.* vi. 5. Y mae Tittmann a Trench wedi ysgrifenu yn helaeth ar y gwahaniaeth sydd rhwng y ddau air. Tybir gan y diweddaf fod gwahaniaeth tebyg rhyngddynt ag sydd rhwng y ddau air Ladin—*diligere* ac *amare*: *diligere*=*αγαπᾶν*; *amare*=*φιλειν*. Am y ddau air Ladin, dywed Ernesti:—"Perthyna *diligere* yn fwy i'r farn; ac *amare* yn fwy i deimlad y meddwl." Gwelir y gwahaniaeth yma mewn amryw ymadroddion o eiddo ysgrifenwyr clasurol; fel hyn, ysgrifena Cicero at gyfaill am yr hoffder oedd ganddo at gyfaill arall [*Ep. Fam.*, 13, 47]:—"Ut scires illum a me non *diligi* solum, verum etiam *amari*"="Fel y gwybyddost fy mod nid yn unig yn ei *barchu*, ond hefyd yn ei *garu*." Ond tra y mae y teimlad a ddynodir yn y gair *amari* yn gryfach nag yn *diligi*, eto, mewn golygiadau ereill, y mae *diligi* yn uwch nag *amari*, ac *αγαπᾶσθαι* na *φιλεισθαι*. Y mae y naill ymlyniad yn cyfodi yn fwy oddi ar reswm a barn; tra y mae y llall, er nad yn hollol heb reswm, eto yn benaf yn cael ei lywodraethu gan nwydau a theimladau. Pan y mae *φιλειν* yn cael ei briodoli i berson o'r naill ryw gyda golwg ar un o'r rhyw arall, dynoda yn gyffredin y nwyd o gariad; a phan na ddynodir y nwyd o gariad, ni arferir *φιλειν*, ond *αγαπαν*. Dywedir fod yr Iesu yn hoff o Lazarus, a'r gair yno ydyw *φιλειν* (*Ioan* xi. 36), lle nid oes bosibl camddeall; ond pan ddywedir ei fod yn hoff o Martha, y mae Ioan yn newid y gair, ac yn ysgrifenu *αγαπᾶν*. Ar yr un pryd, arferir *φιλειν* i ddynodi y serchogrwydd rhwng personau o rywiau gwahanol, a hyny pan na chynnwysir y nwyd o gariad, pan y mae agosrwydd perthynas yn cau allan y math hwnw o gariad. Yn gydweddol â'r gwahaniaeth crybwylledig, gorchymynir dynion i garu Duw â'r cariad a ddynodir yn y gair *αγαπη* (*Mat.* xxii. 37; *Luc* x. 27; 1 *Cor.* viii. 3), tra na orchymynir y cariad a ddynoda y gair *φιλια* yn un man.. Cymhwysir y ddau air yn yr un ystyr at gariad y Tad at y Mab (*Ioan* iii. 35, *αγαπα*; v. 20, *φιλει*). Y mae yr un gwahaniaeth rhwng y ddau air i'w weled yn *Ioan* xxi. 15—17; ac y mae yn resyn na buassai hyn wedi cael sylwi arno yn y testynau Cymraeg a Seisoneg. Y mae yn wir fod rhai, a Grotius yn onwedig, yn ystyried eu bod yn cael eu harfer yma yn ddiwahaniaeth: ond y mae hyny yn dra annhebyg; o blegid, fel y sylwa Alford, pe felly, pa ham y mae dau gwestiwn cyntaf yr Iesu i Pedr yn cynnwys *αγαπαν*, tra y mae atebion Pedr yn cynnwys *φιλω*—ond y drydedd waith, y mae y cwestiwn a'r ateb yn cynnwys *φιλειν*? "Ymddengys," medd yr awdwr crybwylledig, "mai y gwahaniaeth rhyngddynt ydyw, fod *αγαπαν* yn cael ei ddefnyddio yn fwyaf am y cariad parchus hwnw, yn seiliedig ar rasau a phrydferthion uchel cymmeriad, a deimlir at Dduw a dyn gan blentyn Duw; tra y mae *φιλειν* yn dynodi, yn benaf, gariad personol y serch dynol. Y mae Pedr, felly, yn arfer gair llai dyrchafedig, yn arwyddo ei ymwybyddiaeth o'i wendid ei hun, ond ar yr un pryd ei argyhoeddiad a'i deimlad dwfn o gariad personol. Ac yn y trydydd cwestiwn, y mae yr Arglwydd Iesu yn cymmeryd gair Pedr ei hun, i'r dyben o wasgu yn nes at ei feddwl ei ystyr a'i gynnwysiad."

Y mae y geiriau *cariad*, a'i wrthwyneb *cas*, yn cynnwys lluaws mawr o deimladau y sydd yn cael eu dynodi gan wahanol enwau, yn gyfatebol i'r amrywiaeth sydd yn ngrym y teimladau hyn, a'r gwahaniaeth sydd yn yr ansoddau ar gyfrif pa rai y gweithredir y cariad; megys, 1. Cariad o *ymhyfrydiad*, yn cyfodi oddi ar ystyriaeth o ddymunoldeb y gwrthddrych. 2. Cariad o *barch*, yn tarddu oddi ar ystyriaeth o ragoriaeth y gwrthddrych. 3. Cariad o *ddiolchgarwch*, yn cael ei gynnyrchu gan gymmwynasgarwch wedi ei arddangos. 4. Cariad o *ewyllys da*, neu dueddfryd i geisio hapusrwydd unrhyw fod.

Rhoddir gwahanol enwau arno hefyd yn ol y gwahaniaeth yn ei wrthddrychau; megys, hunan-gariad, cariad perthynasol, cyfeillgarwch, gwladgarwch, tosturi, cymmwynasgarwch. Y mae y gwahanol deimladau hyn yn amrywio mewn rhai pethau, ond y maent oll yn cytuno mewn dau beth; sef, fod y teimlad sydd yn gydfynedol â hwynt yn hyfryd; a'u bod yn cynnwys dymuniad o ddaioni neu hapusrwydd i'w gwrthddrych. Y mae pob math o gariad o leiaf yn cynnwys y ddwy elfen hyn. Gellir sylwi yn laf. Am y gwahanol serchiadau hyn, y maent yn ein tueddu, mor bell ag y maent yn deimladau cymmwynasgar, i ymddygiad cyffelyb tuag at eu gwrthddrychau. Tueddant ni i wneuthur lles iddynt mor bell ag y mae gallu a chyfleusura yn myned; i ddymuno yn dda iddynt pan nad allwn wneuthur daioni iddynt; i farnu yn ffafriol am danynt; i gydymdeimlo â hwynt yn eu trallodion; i lawenhau gyda hwynt yn eu llwyddiant a'u hapusrwydd. Yn 2il. Y mae cyfansoddiad ein natur yn ein cymhell yn gryf i feithrin y teimladau hyn yn ein meddwl. Ymddengys mai amcan y teimlad hyfryd sydd bob amser yn gydfynedol â hwy ydyw i fod yn wobr bresennol am y meithriniad o honynt. Y mae y teimladau hyn trwy rinwedd eu natur yn llonyddu y meddwl, yn cynhesu y galon, yn bywiogi yr holl gyfansoddiad, ac yn peri i'r wyneb ddysgleirio. Gellir yn briodol ddyweyd eu bod yn feddyginiaethol i'r corff a'r meddwl. Y maent yn ddyledswydd arnom; ein mantais hefyd ydynt; a

Digitized by Google

chan fod y ddau rwymyn hyn yn fynych yn weiniaid, y mae genym serchiadau naturiol i'w cynnorthwyo, ac i gyflenwi y diffygion; y maent hefyd yn ffynnonell hyfrydwch mawr. Dywed St. Bernard, fod yr enaid yn hanfodi mewn dull mwy gwirioneddol wrth garu nag wrth anadlu. "*Anima magis est ubi amat quam ubi animat.*" Y mae y teimladau serchiadol yn eangu neu yn lluosogi ein bod; trwyddynt yr ydym yn byw â chynnifer o eneidiau ag sydd o wrthddrychau yn cael eu caru genym, ac felly dygant hapusrwydd y byd i fwynhad yr un dyn. Y mae yr enaid yn hanfodi, yn iaith Bernard, wrth garu, ac yn hanfodi yn holl fwynderau gwrthddrych y cariad. 3ydd. Y mae y serchiadau hyn yn brawf fod awdwr natur wedi bwriadu i ni fyw mewn eymdeithas, a gwneuthur daioni i'n cyd-ddynion fel y caffom gyfleusdra; gan fod y rhan hon o'n cyfansoddiad yn ein golygu mewn cymdeithas, ac nid oes le iddynt mewn sefyllfa o unigrwydd.

Cariad ydyw egwyddor hanfodol y ddeddf foesol. Pan ofynwyd i Grist, Pa un yw y gorchymyn mwyaf yn y gyfraith? Ateb y Dysgawdwr mawr iddo, ydyw, mai *cariad at Dduw* ydyw y gorchymyn mawr; a bod yr ail, sef caru ein cymmydog fel ni ein hunain, yn gyffelyb iddo o ran *urddas: Mat.* xxii. 36—39; *Marc* xii. 29—31. Ac er mwyn dangos mai nid y ddau mwyaf yn mhlith ereill a allesid chwanegu atynt a feddylir, chwanegir—"Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll." Cariad ydyw yr egwyddor sydd yn rhedeg trwy yr holl ddeddf, yn ganolbwynt undeb a bywyd i'w holl orchymynion. Gellir olrhain y cyfan i gariad, a chasglu y cyfan o gariad. Y mae gorchymynion ereill o eangder mawr yn cael eu rhoddi yn yr Ysgrythyrau; megys—"Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi;" 1 *Pedr* i. 16. "Byddwch berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith;" *Mat.* v. 48. "Pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy,"—a'u cyffelyb. Ond gellid dangos fod y rhai hyn wedi eu cyfaddasu at amgylchiadau neillduol; ac o ganlyniad, nad ydynt mor gyfaddas i nodi allan gwir hanfod a chanolbwynt y ddeddf foesol; ac felly, nad ydynt yn cynnwys holl fywyd moesol dyn. Y mae cariad yn cynnwys bod yn sanctaidd a bod yn berffaith, fel y mae Duw yn sanctaidd ac yn berffaith: ond y mae mwy mewn cariad nag sydd yn ngeiriad y gorchymynion hyn; o ganlyniad, nid ydynt hwy yn cynnwys yr oll o gariad. Ond gellir olrhain y ddau orchymyn mawr o gariad at Dduw a chariad at ddyn, i *un* egwyddor. Dengys geiriau Crist am y cyntaf o'r rhai hyn—sef "hwn yw y gorchymyn cyntaf, a'r gorchymyn mawr"—mai hwn ydyw gwreiddyn y cwbl, ac mai ar y gwreiddyn hwn y mae pob ffrwyth moesol a rhinweddol yn tyfu. Y mae egwyddor yr ail orchymyn, sef cariad at ein cymmydog, yn gynnwysedig yn y cyntaf, sef cariad at Dduw; ac oddi wrth hyn y mae yn derbyn ei werth. Y mae hyn i'w ganfod yn y ffaith fod natur ysbryd-ol dyn wedi ei wneyd ar ddelw Duw, a bod yr hwn sydd yn caru Duw o angenrheidrwydd yn caru ei ddelw mewn dyn. Cariad at Dduw ydyw bywyd ein holl ddyledswyddau tuag at Dduw a dyn. Nid yn unig efe ydyw prif wrthddrych cariad; ond efe hefyd ydyw y gwrthddrych sydd yn cynnwys pob un arall: ac felly y mae pob cariad yn sanctaidd ac yn anfarwol, yn unig wrth gael ei lyncu mewn cariad at Dduw Y mae hyn yn cael ei gynnwys eisoes yn y gorchymyn i garu Duw â'r holl galon, â'r holl enaid, â'r holl feddwl, ac â'r holl nerth. Nis gall cariad aydd yn hôni hawl i holl fywyd tufewnol dyn roi lle i un cariad arall ond trwy ei gynnwys yuddo ei hun. Am fod dyn wedi ei greu ar ddelw Duw y gorchymynir parchu ac amddiffyn ei fywyd: *Gen.* ix. 6. Ar yr un ystyriaeth y sylfaenir y gwaharddiad i felldithio dyn gan Iago (*pen.* iii. 9—11), sef am fod delw Duw ynddo; ac fe wna hyn yn y fath fodd ag i ddangos fod bendithio Duw a'r Tad, a chynnwys casineb at un a wnaed ar lun Duw, yn wrthwynebol i'w gilydd. Y mae y rheswm dros 1 *Ioan* iv. 20—"Os dywed neb ei fod yn caru Duw, ac efe yn casäu ei frawd, celwyddog yw"—yn gorphwys ar yr un meddwl; sef, fod yn anmhosibl caru Duw heb hefyd garu ei ddelw: ac o gymmaint a hyny yn llai, o blegid nis gallwn adnabod natur Duw ond trwy ddadguddiad i ni o hono; ac mor bell ag y mae dyn ar ddelw Duw, y mae ynddo ei hun, ac yn unol â'i natur, yn un dadguddiad o Dduw.

Nid mewn un adnod yn unig y mae cariad at Dduw yn cael ei ddysgrifio fel egwyddor fywiol pob ufudd-dod gwirioneddol i'r ddeddf; ond y mae hyn yn rhedeg trwy yr oll o'r Ysgrythyrau. Ymddengys mewn gwahanol ffyrdd pan nad yw cariad a chyflawniad y ddeddf yn cael eu dwyn yn uniongyrchol i sylw. Mor fynych y mae Crist yn dysgrifio cariad at ei Dad ac at ddynion yn enaid ei fywyd ef: *Ioan* xiv. 31; xv. 10. Y mae yn gofyn cariad ato ei hun, yr hwn yw yr un a chariad at ei Dad (*Ioan* xiv. 9), fel egwyddor fywiol ufudd-dod i'w orchymynion (*Ioan* xiv. 15, 21; xv. 10); a hyny yn y fath fodd ag i ddangos fod ufudd-dod iddo ef yn anmhosibl lle nad oes gariad tuag ato: *Ioan* xiv. 24. Yr un modd y mae cariad at Dduw, at Grist, neu gariad yn gyffredinol, yn cael ei osod allan gan yr apostolion fel gwreiddyn pob rhinwedd Cristionogol, ac fel diwedd pob deddf: *Eph.* iii. 18; iv. 15; 1 *Cor.* viii. 2, 3; xiii. 1—7; *Rhuf.* xiii. 7, 8; 2 *Cor.* v. 14, 15; *Gal.* ii. 20; 1 *Tim.* i. 5; 1 *Ioan* iv. 19—21; v. 1—3.

Nid yw cariad mewn un ffurf arno, nac fel gwybodaeth nac ufudd-dod, fel diolchgarwch nac fel ymdebygoliad i Dduw, fel cariad at Dduw na dyn, cariad at ein cymmydog, na chariad sanctaidd atom ein hunain, yn tyfu o hono ei hun yn nghalon pechadur. Ysbryd yr Hwn a fu farw ac a adgyfododd sydd yn cynneu ac yn cadw yn fyw y cariad hwn yn y galon; eto yn y fath fodd fel mai cariad Crist, neu gariad at Grist fel y Duw-ddyn, yr hwn a'n prynodd trwy ei ufudd-dod a'i angeu, yw y cymhelliad eangaf i ufudd-dod Cristionogol (2 *Cor.* v. 14; *Rhuf.* v. 5; xii. 1; *Eph.* v. 20; 1 *Ioan* iii. 1); a'r hwn sydd yn rhoddi bod i'r cwbl. Mae cariad at Dduw yn Nghrist yn cynnwys cariad sanctaidd atom ein hunain (1 *Cor.* vi. 15—20), yn gystal a chariad at ein cymmydog (1 *Ioan* iv. 20); cariad cyffredinol a chariad brawdol (2 *Pedr* i. 7). Yr un modd y mae yn cau allan gariad pechadurus atom ein hunain, ac at y byd: 1 *Ioan* ii. 15.

Gwelir, gan hyny, yn unol â'r Ysgrythyrau, mai *cariad at Dduw* ydyw gwir hanfod daioni moesol, yr hyn sydd o angenrheidrwydd ac er ei fwyn ei hun yn dda; ac y mae pob tueddiad meddwl a gweithrediad arall yn wirioneddol dda mor bell yn unig ag y mae yn tarddu o hwn. Mae rhinweddau moesol a grasau Cristionogol ereill wedi eu cyfaddasu yn unig i'n sefyllfa bresennol; a pheidiant o ran eu ffurf bresennol, mewn

Digitized by Google

sefyllfa o berffeithrwydd. Ond y mae cariad nid yn unig yn gyfaddas i sefyllfa anmherffaith, ond y mae yn dragwyddol (1 *Cor.* xiii. 8): ac yn alluog, yn holl amgylchiadau dyfodol dyn, pa mor wahanol bynag y bo ei sefyllfa a'i gyssylltiadau, i fod yn egwyddor fywiol bywyd sanctaidd.

Yr oedd un o'r athronwyr mwyaf [Kant], yn ystod y canrif diweddaf, yn gwadu fod cariad yn ddyledswydd ar ddyn o gwbl, o blegid nad yw o dan awdurdod yr ewyllys. Y mae yn wir nad yw gallu yr ewyllys yn ymestyn yn uniongyrchol at y serchiadau a'r dymuniadau. Fe ddichon yr ewyllys gynnyrchu gweithredoedd da i ryw fesur, ond nis gall gynnyrchu tueddiadau da. Nis gallwn garu yr hyn a fynom na chasau yr hyn a fynom, a hyny o herwydd fod cariad a chas yn ddyfnach na'r ewyllys, ac nad yw yr ewyllys ond yn dwyn eu dymuniadau hwy i weithrediad. Mae ein gweithredoedd yn ein dwylaw ein hunain, ond nid yw ein calonau felly. Y mae deddf Duw, yr hon sydd yn gynnwysedig mewn un gair—"TI A GERI"—yn golygu nid y gweithredoedd allanol yn unig ond tueddiadau y galon. A chan fod yr ewyllys mor analluog i lywodraethu ysgogiadau y galon y mae yn analluog i gyflawnu deddf Duw. Ond nid yw yn canlyn oddi wrth hyn nad yw cariad yn ddyledswydd am nad yw dan lywodraeth yr ewyllys. Pe buasem wedi ein gadael heb ddadguddiad oddi wrth Dduw am dano ei hun fe fuasai hyn yn hollol wir. Wedi ei adael iddo ei hun, fe fuasai dyn yn fnan wedi colli ei adnabyddiaeth o'r ddyledswydd hon sydd yn cynnwys pob un arall. Ond yn ngwyneb y dadguddiad y mae Duw yn roddi o hono ei hun, y ddyledswydd gyntaf sydd yn ysgrifenedig yn neddf Duw ydyw hon, "TI A GERI YR ARGLWYDD DY DDUW."

Y mae cariad at Dduw yn gyssylltiedig âg athrawiaethau mawrion, ac â grasau ereill. Y mae yn tybied fod iawn wedi ei roddi; ac edifeirwch, maddeuant, a ffydd, yn bosibl; a thrwy ddadguddiad o athrawiaeth yr iawn, a thrwy feddu y grasau ereill, y mae cariad Duw yn cael ei dywallt yn y galon. Edifeirwch a ffydd sydd yn agoryd drws y galon, er mwyn i gariad—cyflawnder y gyfraith, a'r penaf o rasau yr efengyl—gymmeryd meddiant o honi.

Y mae caru Iesu Grist yn cael ei osod allan yn yr Ysgrythyrau fel effaith neu ganlyniad ei gariad ef atom ni;—fel yr un peth, yn ei natur, ei achosion, ei weithrediadau, a'i effeithiau, a charu Duw. Gosodir ef allan fel enaid a bywyd crefydd, ac fel bywyd y credadyn; efe yw y "bywyd tragwyddol." Ffydd sydd yn cynnysgaethu y pechadur â bywyd, a ffydd a gobaith sydd yn cynnal y bywyd; ond perffeithrwydd y bywyd—ie, y bywyd ei hunan—ydyw cariad. Fel nad yw holl berffeithiau moesol Duw ond gwahanol ffurfiau o'i gariad—o ba herwydd y dywedir, "Duw, cariad yw"—felly, nid yw holl rasau a rhinweddau y Cristion ond gwahanol ffurfiau o gariad. Y mwyaf o honynt oll ydyw, o blegid cynnwysa hwynt oll; ac y mae yn elfen yn treiddio drwyddynt oll.

Nid ydyw cariad at Dduw yn gynnwysedig mewn *diolchgarwch* yn unig am gymmwynasau a dderbyniwyd ganddo; ond cynnwysa yn hanfodol gariad o *ymhyfrydiad* ac *addoliad*, ar gyfrif ei berffeithrwydd. Ond gan fod y perffeithrwydd hwn o ran ei hanfod mewnol yn gynnwysedig mewn CARIAD, yr hwn sydd yn ymhyfrydu mewn cyfranu ei hun, y mae y cariad dyblyg o ddiolchgarwch ac ymhyfrydiad yn cael eu huno, a'r gwrthgyferbyniad a dybir yn fynych sydd rhyngddynt yn diflanu.

I'r gofyniad PWY A PHA BETH ydyw Duw? nid oes genym ond un ateb wedi ei ddadguddio sydd yn ddigon i bob dyben, sydd yn cynnwys y cyfan ag ydyw, o ran ei hanfod moesol, a'r cyfan y mae yn ei wneyd. A'r ateb hwn ydyw, "DUW CARIAD YW;" *Ioan* iv. 8. Gallwn ddyweyd fod Duw yn *gyfiawn*, yn *drugarog*, yn *sanctaidd*; ac yr ydym yn galw ei gyfiawnder, ei drugaredd, a'i sancteiddrwydd yn *briodoliaethau*; ond nid priodoledd yn Nuw ydyw ei gariad, ond ei hanfod—Efe ei hun. Ni ddywedir yn unig ei fod *yn caru*, ond mai cariad *ydyw*. Ac ar ei gariad y mae ei sancteiddrwydd a'i gyfiawnder yn seiliedig. Ynddo ef y mae cariad yn berffaith; a cheir ynddo bob peth a berthyn o angenrheidrwydd i gariad—yn ei hanfod yn gystal ag yn ei weithredoedd. Pa beth a gynnwysa fod Duw yn gariad, gyda golwg ar ei fod a'i hanfod? Y mae cariad o angenrheidrwydd yn cynnwys dau berson. Ni allai un person yn hanfodi ar wahan fod yn gariad. Pe dywedid y gallai felly garu gwaith ei ddwylaw, yr ateb yw, fod cariad yn ei berffeithrwydd yn cynnwys tebygolrwydd ac uchafiaeth. Felly, gan fod Duw yn gariad, rhaid fod dau berson o leiaf yn Nuw; a rhaid i'r ddau berson hyn fod yn ogyfuwch. Y mae hyn yn gysson â'r Ysgrythyrau am berthynas y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Y mae tragwyddol Fab Duw yn gyd-dragwyddol, ac yn ogyfuwch â'r Tad; nid deilliad oddi wrtho mewn amser, ond gydag ef er tragwyddoldeb. Hebddo ni buasai y Tad yn gariad; ac ynddo y mae ei gariad yn ymorphwys gyda boddhad tragwyddol. Mae hyn oll yn gysson â'r dysgrifiadau am y Mab—"Anwyl Fab," "Uniganedig Fab," &c. "Ti a'm ceraist cyn sylfaenu y byd." A chan fod y Mab yn Dduw, a'i hanfod yn gariad, y mae yntau yn caru y Tad fel y mae y Tad yn caru y Mab. Y mae yr Ysbryd hefyd yn Dduw, ac yn caru y Tad a'r Mab. Y mae rhai duwinyddion, megys Awstin [*de Trinitate*, lib. viii], ar sail tystiolaeth yr Ysgrythyr fod tri Pherson yn yr hanfod dwyfol, yn ymhyfhau i ymresymu hyny allan, oddi wrth y dystiolaeth mai "Duw cariad yw." "Os ydych yn gweled cariad," meddai, "yr ydych yn gweled Trindod; gan eu bod yn dri—yr hwn sydd yn caru, yr hwn a gerir, a'r cariad sydd yn hanfodi rhwng y naill a'r llall." (*Vides Trinitatem, si caritatem vides: nam tres sunt, amans, amatus, et mutuus amor.*) Anghraifft o ymdrech un o'r meddyliau cywreiniaf a galluocaf i ymwthio i ddirgelwch y Drindod ydyw hyn. Os meddylia rhai ei bod yn fwy cywrain na diogel, y mae yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrythyrol am natur Duw, ac yn gysson â'r athrawiaeth am Drindod yn ei natur. Golygiad Awstin ydyw, fod yn angenrheidiol, mewn trefn i Dduw gyfateb yn berffaith i'w dystiolaeth am dano ei hun, iddo gynnwys yn undod y Duwdod, y Tad yr hwn sydd yn caru; y Mab, yr hwn sydd yn cael ei garu, ac o angenrheidrwydd yn caru y Tad; a'r Ysbryd Glân, sef Ysbryd cariad, yn deilliaw oddi wrth y Tad a'r Mab, yn berson ogyfuwch â'r Tad a'r Mab—nid yn greedig, ond yn angenrheidiol i hanfod Duw fel cariad, ac yn deilliaw oddi wrth berthynas y Tad a'r Mab. Mae hyn yn annhraethol fwy cywir na syniad Kitto: sef, "mai canlyniad creadigaeth—effaith y berthynas a sefydlodd Duw rhyngddo a'r creadur—ydyw cariad:"—syniad sydd mor fas mewn athroniaeth ag ydyw yn gyfeiliornus mewn duwinyddiaeth.

Digitized by Google

Gan y dangosir yn unol â'r Ysgrythyr fod Duw yn DDA, mor bell ag y mae yn gariad, a bod dyn a'i weithredoedd yn dda mor bell ag y mae yn cydymffurfio â'r gorchymyn i garu Duw, gellir yn naturiol dysgwyl ateb i'r gofyniad—Pa fodd y mae priodoliaethau sydd yn ymddangos mor wahanol, er nad yn anghysson â chariad, sef cyfiawnder a sancteiddrwydd, yn gynnwysedig ynddo? Yr amlygiad cyntaf o gariad ydyw rhoddi neu gyfrana; ond yr amlygiad cyntaf o gyfiawnder ydyw gorchymyn, gofyn gydag awdurdod, a chyhoeddi cosp am anufudd-dod. Pa fodd y gellir dyweyd fod cariad yn cynnwys cyfiawnder? neu, Pa fodd y gellir olrhain holl briodoliaethau moesol Duw i'w gariad?

Y mae cariad yn hanfodi lle y mae bod a allai fod yn hollol ymgyflwynedig iddo ei hun—eto, yn dewis dyfod allan o hono ei hun, megys, a byw i, neu er mwyn, un arall. Nis gall cariad fod, gan hyny, ond rhwng personau. Dau fod gwahanol, ac annibynol i ryw raddau, yn dewis cyflwyno eu hunain i'w gilydd, ydyw cariad. Y mae meddu ar ewyllys, neu bersonoliaeth gwahanol, yn angenrheidiol i ddau wrthddrych i gyrhaedd yr undeb uchaf mewn cariad. Ceir cyffelybrwydd neu gysgod o gariad yn fynych yn y greadigaeth ddireswm a difywyd, lle y mae greddfau anifeilaidd ac angenrheidrwydd anianol yn dwyn dau greadur yn nghyd. Ac nid yn unig yn y byd ised hwn, ond trwy holl drefniadau y greadigaeth—o'r cyfnewidiadau sydd yn cymmeryd lle mewn planigion, hyd at berthynas planedau â'u gilydd—canfyddir gweithrediad deddfau sydd yn cysgodi gweithrediadau cariad. Y mae pob bywyd, a'r cyfnewidiadau sydd yn cymmeryd lle mewn elfenau difywyd, yn tarddu o undeb a chydweithrediad gwahanol alluoedd; ac fe ddangosai y Groegiaid hyn, trwy y chwedl, mai Eros (=cariad) ydyw meddyginiaethwr pob anghydfod, a'r egwyddor sydd yn llywodraethu y byd. Prophwydoliaethau mud o gariad ydyw y rhai hyn:—rhwng bodau rhesymol ac ymwybodol y mae cariad yn cyrhaedd ei urddas priodol, ac yn dyfod yn ddeddf y byd moesol.

Y mae cariad yn cydnabod fod gan ei wrthddrych hawliau, gan ei fod yn berson; ac y mae am eu diogelu. Y mae yn caniatau i ereill, gyda'u teimladau, eu hangenion, a'u hiawnderau, ddyfod i mewn i'n calonau, i gael lle yn ein teimlad ni. Y mae yn wir mai nid yr amlygiad uchaf o gariad ydyw cydnabod iawnderau ereill; ond nis gall fod cariad heb hyn wrth ei wraidd:—ond hyn drachefn ydyw y teimlad o gyfiawnder. Ymddengys, gan hyny, fod cariad yn cynnwys cyfiawnder—nad ydyw cyfiawnder ond cariad mewn gwedd ddyeithrol. Y mae undeb wedi ei seilio ar ddifodiad pob gwahaniaeth ac iawnderau personol, y fath ag sydd yn myned dan yr enw cariad weithiau, yn mhellach oddi wrth ei wir natur nag ydyw y llinell ddiwyrni y mae cyfiawnder yn ei thynu. Gellir gweled, yn ngwyneb hyn, mor afresymol ydyw ceisio dwyn yn mlaen deyrnas cariad yn y byd, fel y proffesa *Socialists* Prydain a'r cyfandir, trwy ddifodi eiddo a meddiannau personol.

Fel hyn, ni a welwn nad yw cnaid pob trefn foesol yn ddim amgen na chariad. Cariad, dan enw arall, ydyw parch i ddeddf; ufudd-dod i ewyllys uwch sydd yn trefnu i ddyn ei le penodol a'i ddyledswyddau priodol. Fel yr oedd goruchwyliaeth yr Hen Destament, yn hanes yr hil ddynol, yn rhagarweiniad i gariad dadguddiedig y Newydd—felly, y mae cydnabyddiaeth o hawliau personol yn meddwl pob dyn yn hanfodol i deimlad o gariad.

Ond nid yw cariad yn egwyddor grëedig y bywyd newydd ac uwch, ond pan y dadguddir ef yn gyflawn yn ei wir natur. Ac nid yw hyn yn cymmeryd lle ond dan ddylanwad ei wrthddrych priodol ac anfeidrol, sef Duw; a gwrthddrychau ereill, yn eu perthynas hanfodol iddo ef. Yn Nuw yn unig y ceir gwrthddrych digon mawr i sugno dyn i fyny, a'i gynnal uwch law y dyfnder tywyll i ba un y cwympai o hono ei hun heb hyny.

Gall y sylwadau hyn roddi y darllenydd ar waith i geisio dyfalu ei hun pa fodd y mae holl briodoliaethau moesol y Duwdod yn gynnwysedig yn ei gariad; a pha fodd, hefyd, y mae cyflawniad y ddeddf, ac enaid gwir ufudd-dod a rhinweddau Cristionogol, yn gynnwysedig mewn cariad.

Y mae *cariad Duw* at ddynolryw, medd Barrow, yn driphlyg. 1. Cariad cyffredinol at ddynolryw, yn flaenorol i anfoniad ei Fab; yr hwn y gellir ei alw yn gariad o dosturi neu drugaredd at un truenus yn gorwedd dan gollfarn. Dyma y "daioni a'r cariad" (φιλανθρωπια=dyngarwch; *Tit.* iii. 4) a ymddangosodd tuag at ddyn; y cariad y mae Duw yn ei ganmawl, "o blegid a ni eto yn bechaduriaid, i Grist farw drosom ni;" *Rhuf.* v. 8. 2. Cariad yn canlyn gwaith a marwolaeth Crist, ac wedi ei ennill trwyddynt; trwy y rhai y mae Duw wedi ei ddyhuddo, a'i gymmodi â dynion, fel y mae yn ewyllysio iachawdwriaeth pob dyn, ac yn cynnyg iddynt y telerau a'r moddion i'w gyrhaedd; a chyda golwg ar y cariad hwn y dywedir fod ein Harglwydd yn Iachawdwr y byd, ac yn Achubwr pob dyn; ac am dano ef y llefara Paul, pan ddywed, "Pan oeddym elynion ein heddychwyd â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef." Y mae yn briodol galw y cariad hwn yn gariad o heddychiad a ffafr, neu yn *ras* Duw, yr hwn a ddaeth trwy Iesu Grist. 3. Cariad arbenig o gyfeillgarwch ac ymfoddhad, yr hwn a deimla Duw at bawb a ddychwelant mewn gwirionedd ato, ac a lynant yn ffyddlawn wrtho. Y mae y cyfryw wahaniaeth i'w weled yn amlwg yn y geiriau sydd yn dangos Duw fel yn caru holl ddynolryw, ond yn enwedigol yn caru y ffyddloniaid.

Dynodir cariad Crist fel "uwch law gwybodaeth;" *Eph.* iii. 19. "Gellir ei wybod mewn rhai llinellau ac i ryw fesur; ond ar yr un pryd y mae yn ymestyn draw i anfeidroldeb, yn mhell tu hwnt i ganfyddiad a mesuriad dynol. Fel ffaith, yn arddangos ei hun mewn amser, yn cael ei chorffori yn ymgnawdoliad, bywyd, gweithredoedd, ac angeu Mab Duw, gellir ei ddeall; o blegid cymmerodd natur o glai, gwaeddodd ar y groes, gorweddodd yn y bedd: ond yn ei hanfodiad diddechreuad fel teimlad tragwyddol, yn flaenorol i'r cread a'r cwymp hefyd, y mae 'uwch law gwybodaeth.' Yn y bendithion a gyfrana, gellir ei adnabod a'i deimlo; ond yn ei nerth diderfynau, a'i adnoddau diddiwedd, y mae yn trechu pob dysgrifiad."

Y mae cariad Duw at ei bobl yn ymddangos yn ei fwriadau a'i gynlluniau doeth er ei dedwyddwch (*Eph.* iii. 10); yn y dewisiad o honynt, a'r penderfyniad i'w sancteiddio a'u gogoneddu (2 *Thes.* ii. 13); yn ei waith yn rhoddi ei Fab drostynt, a'u prynu oddi wrth bechod, angeu, ac uffern (*Rhuf.* v. 9; *Ioan* iii. 16); yn nadguddiad ei ewyllys, a chyhoeddiad ei addewidion iddynt (2 *Pedr* i. 4); yn ei waith yn cospi eu gelynion

Digitized by Google

(*Exod.* xix. 4); ac yn ei holl ofal am danynt yn y byd hyd eu dygiad i ogoniant (*Rhuf.* viii. 30—39). Y mae y cariad hwn yn dragwyddol (*Ier.* xxxi. 3); yn anghyfnewidiol (*Mal.* iii. 6); yn benarglwyddiaethol (*Ioan* iii. 16):—nid haeddiannau dynion, ac nid dyoddefiadau y Cyfryngwr ydyw yr achos o hono, ond y cariad ei hun—y mae yn anachosedig.

2. *Cariad at Dduw.* Sail priodol cariad at Dduw ydyw hawddgarwch hanfodol Duw, neu brydferthwch ei natur foesol. Nid yw ei briodoliaethau naturiol yn gyfryw ag y gellir eu hystyried yn hawddgar oddi eithr fel y maent yn gyssylltiedig yn eu gweithrediadau â'i berffeithiau moesol. Nid yw tragwyddoldeb, annherfynoldeb, hollalluogrwydd, hollbresennoldeb, mewn ystyr priodol, ynddynt eu hunain yn hawddgar. Dibyna yn gwbl ar y perffeithiau moesol â'r rhai y maent yn gyssylltiedig, pa un a gynnyrchant gariad neu gas, ymhyfrydiad neu ddychryn. "Prydferthwch moesol yn unig," medd Edwards, "sydd ynddo, ac ar ei gyfrif ei hun yn ffurfio rhagoriaeth bodau deallgar. Hyn sydd yn rhoddi prydferthwch ar, neu yn hytrach, hyn ydyw prydferthwch ei berffeithiau, neu eu hansoddau naturiol. Rhagoriaeth moesol ydyw rhagoriaeth rhagoriaethau naturiol. Sancteiddrwydd creadur deallgar ydyw prydferthwch ei holl ansoddau naturiol; ac felly y mae yn Nuw, yn ol ein dull ni o feddwl am y Bod Dwyfol:—sancteiddrwydd mewn modd arbenig ydyw tegwch y natur ddwyfol." Ac wrth sancteiddrwydd y meddylir yr oll o ragoriaethau moesol y Duwdod—yr holl gasgliad o'i berffeithiau moesol: ac o herwydd yr holl rai hyn y mae yn cael ei garu gan ei greaduriaid.

Nid yw dyledswydd dyn i garu Duw "â'i holl galon, â'i holl enaid, â'i holl feddwl, ac â'i holl nerth," yn cau allan weithrediad y teimlad cynhenid sydd yn ei natur yn ei arwain i'w garu ei hunan. Mor bell y mae hunan-gariad oddi wrth fod yn waharddedig, fel y mae Duw yn ei ddeddf yn ei gymmeryd fel safon y ddyledswydd orchymynedig," "Car dy gymmydog *fel ti dy hun.*" A phe y tybiem yn bosibl," medd Wardlaw, "i'r hunan-gariad gael ei ddiwreiddio o'r galon ddynol, diddymid y gorchymyn trwy ei wneyd yn annealladwy."

Ond er ei fod yn wirionedd, nad yw cariad at Dduw yn cau allan hunan-gariad, nid yw yn llai gwirionedd fod caru Duw yn unig o herwydd yr hyn a dderbynir oddi wrtho yn annheilwng i'w alw yn gariad ato. Pan nad yw y perffeithrwydd o ddaioni yn cael ei ystyried ynddo ei hun, fel y mae yn cyfansoddi rhan o hawddgarwch moesol y Duwdod, ond yn unig yn ei berthynas â ni, ac yn y rhoddion a gyfrana i ni, nid yw hyny yn amgen na hunan-gariad digymmysg. Cariad at y rhodd, nid at y rhoddwr, ydyw; neu gariad ato fel rhoddwr, er mwyn y rhodd, ac nid er ei fwyn ei hun; a chariad sydd yn cartrefu mewn hunanoldeb; hunan ydyw ei Alpha a'i Omega, ei ddechreu a'i ddiwedd, ei gynhyrfydd a'i amcan eithaf. Ar yr un pryd, mae yn ddiammheu fod diolchgarwch yn un o elfenau hanfodol gwir gariad; ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng diolchgarwch sanctaidd ac ysbrydol, a'r teimlad hunangar a gamenwir diolchgarwch. Mae gwir ddiolchgarwch yn anwahanol gyssylltiedig âg adnabyddiaeth o ddaioni Duw, fel rhan o'i hawddgarwch a'i ragoriaeth moesol; ac nid yn hollol ac yn benaf fel ffynnonell ein llesâd a'n hapusrwydd ein hunain. Mae y gwir deimlad yn edrych ar y rhodd yn ei chyssylltiad â'r haelfrydedd anfeidrol sydd yn natur Duw, ac yn ymgodi ar bwys y rhodd mewn myfyrdod caruaidd ar y briodoliaeth hono: ond arosa y meddwl hunangar gyda'r rhodd, gan ei hystyried yn unig yn ei chyssylltiad â'i ddaioni a'i hapusrwydd ei hunan.

Y mae cariad at Dduw yn ddiffuant (*Mat.* xxii. 36, 38); yn sefydlog (*Rhuf.* iii. 3); yn golygu ei holl berffeithiau, ei orchymynion, a'i ordinhadau; yn gynnyddol (1 *Thes.* iv. 9, 12; 2 *Thes.* i. 3); yn dragwyddol (*Rhuf.* viii. 35). Y mae yn profi ei hun, mewn dymuniad am fod yn debyg i Dduw, ac mewn gosod ei ogoniant yn amcan penaf ein gweithreoedd (1 *Cor.* x. 13); mewn hyfrydwch yn ei gymdeithas (1 *Ioan* i. 3); mewn gofid a thrallod dan guddiad ei wyneb (*Iob.* xxii. 2); mewn ymadael â phob peth sydd yn groes i'w ewyllys (*Phil.* iii. 8); mewn ymlyniad wrth ei dŷ, ei ordinhadau, a'i addoliad (*Salm* lxxxiv.); mewn cariad at ei wirionedd a'i bobl (*Salm* cxix; 1 *Ioan* ii. 3). Am wahanol raddau cariad at Dduw, fel y gosodir hwy allan gan Bernard, gwel BERNARD.

3. *Cariad at ddyn.* Yr ail orchymyn yw—"Car dy gymmydog fel ti dy hun." Deillia y cariad hwn oddi wrth gariad cyffredinol Duw, fel yr unig Grëwr, ac un Tad holl ddynolryw—y rhai, o herwydd eu perthynas âg ef, fel eu gwneuthurwr a'u Tad, ydynt yn frodyr a chymmydogion i'w gilydd. Y mae ein cariad at Dduw ac at ein cymmydog yn seiliedig ar unoliaeth y Duwdod—"Clyw, Israel: Yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw: a châr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl, ac â'th holl nerth. Hwn yw y gorchymyn cyntaf; a'r ail sydd gyffelyb iddo: câr dy gymmydog fel ti dy hun;" *Marc* xii. 29—31; *Deut.* vi. 4. A rhydd yr apostol (*Eph.* iv. 6) yr un rheswm pa ham y dylai Cristionogion fod mewn undeb â'u gilydd—"Un Duw, a Thad oll." Y mae unoliaeth Duw yn cynnwys y ffaith ei fod yn Fod perffaith, anfeidrol—yn "Dduw heb ei fath"—yr hyn sydd yn rheswm penderfynol dros ei garu â'r holl galon:—y mae ei unoliaeth yn arwyddo fod pob perffeithrwydd sydd yn rhyglyddu cariad y creadur yn hanfodol ynddo. Y mae y prophwyd (*Mal.* ii. 10) yn dwyn yr un gwirionedd fel cymhelliad i undeb a heddwch rhwng dynion a'u gilydd—"Onid un Tad sydd i ni oll? onid un Duw a'n creodd ni? Pa ham y gwnawn yn anffyddlawn bob un yn erbyn ei frawd?" Fel y mae cariad at Dduw yn cynnwys holl orchymynion y llech gyntaf, felly y mae cariad at gymmydog yn cynnwys holl orchymynion yr ail. Ond y mae y naill a'r llall yn hanfodol un; o blegid nis gallant fod ond gyda'u gilydd. Y mae yr ail yn dibynu ar y cyntaf—yn derbyn ei holl werth, yn ol fel y mae yn codi oddi arno; a'r cyntaf yn profi ei gywirdeb yn y llall. Cariad at Dduw ydyw y gwreiddyn, a chariad at gymmydog ydyw yr amlygiad allanol. "Tra y mae cariad at Dduw, ar ran dyn, yn ymddangos yn nacaol (*Ioan* iv. 10), y mae cariad at ei gymmydog yn ymddangos yn gadarnhaol." Effaith neu weithrediad mwyaf naturiol cariad ydyw rhoddi a chyfranu; ond pa beth a all Duw dderbyn? Pa beth a all y creadur roddi iddo? Ond profir diffuantrwydd y cariad at Dduw trwy weithredoedd o gariad at ddynion. Y mae y cariad hwn i fod yn dueddfryd parhaus y meddwl, yn ein cymhell ni i bob gweithred o gymmwynasgarwch tuag atynt. Ni chynnwysir ef yn unig mewn tosturi at eraill, a gwneuthur cymmwynas iddynt (1 *Cor.* xiii.), ac mewn cariad at ein cymmwynaswyr yn un (*Mat.* v. 46, 47); ond cyfoda oddi

Digitized by Google

ar gariad at Dduw. Cariad at gymmwynaswr yn unig, nid yw amgen na hunan-gariad; o blegid cerir y dyn *am* ei fod yn gymmwynaswr *i ni*: ond pan gyrhaedda y cariad at holl ddynolryw, ac yr ymestyna hyd yn oed at elynion, y mae hyny yn sail i'w berchen obeithio ei fod yn gariad diffuant —y cyfryw ag a gymmeradwyir gan y ddeddf— ei fod yn eu caru, nid yn unig er ei fwyn ei hun, ond er mwyn Duw, ein Tad ni oll.

Y mae yn ddyledswydd caru pawb â rhyw fath o gariad; am hyny y gorchymynir "caru gelynion." Dylid gwahaniaethu rhwng *ymhyfrydiad* a *charedigrwydd*, neu *ewyllys da*. Y mae ymhyfrydiad yn golygu prydferthwch cymmeriad; ond nid yw caredigrwydd, neu ewyllys da, yn edrych yn uniongyrchol ar hyny. Ond er nad yw cariad o ewyllys da yn cyfeirio yn benodol at gymmeriad, ac y dylid ac y gellir ei goledd at bersonau o gymmeriadau ag y mae yn anmhosibl eu caru fel y cyfryw, eto, y mae yn golygu ei wrthddrych o fewn terfynau gobaith—mewn ystâd ag y mae yn bosibl ei ddwyn i gymmod â Duw. Os bydd creadur wedi ei sefydlu yn dragwyddol mewn gelyniaeth at Dduw, fel y mae y cythreuliaid a'r colledigion, y mae gwir ewyllys da a charedigrwydd yn peidio a galaru o'u herwydd—yn sychu ei ddagrau rhag taflu un sarhâd ar gymmeriad yr Anfeidrol. Ar yr egwyddor hon y gwaharddwyd i Aaron alaru am ei feibion, Nadab ac Abihu (*Lef.* x. 6), ac y ceryddwyd Samuel am alaru ar ol Saul (1 *Sam.* xvi. 1).

Am gariad at elyn, ysgrifena Olshausen [ar *Mat.* v. 43, &c.]; "Y mae y gwahanol amlygiadau o hyn—caru, bendithio, gwneyd da, a gweddio dros—yn ffurfio graddeb, ac yn sefyll mewn cyferbyniad i ffurflau ac amlygiadau casineb; nis gellir, yn wir, garu y ffurfiau diweddaf (amlygiadau o gasineb), ac ni ddylid gwneyd: ond dylid caru y personau yn y rhai y gwelir hwynt; o blegid y mae ynddynt hwy hedyn cuddiedig bodolaeth uwch, yr hwn y gellir ei gynhyrfu gan nerth cariad. Ond gyda golwg ar y cariad a orchymynir, nid unrhyw gariad goddefol ydyw, yn trigo yn unig yn y teimlad; o blegid nid yw yn bosibl cynhyrfu hwnw gan amlygiadau o gasineb; rhywbeth cyffelyb yn unig a ddichon ei ennynu; ond yn hytrach cariad fel *gallu o eiddo yr ewyllys*, yr hwn sydd mewn ystâd y gall orchfygu pob teimlad gwrthwynebus. O herwydd hyn, y mae bod yn debyg i Dduw yn cael ei roddi fel dyben yr arddangosiad o gariad at elynion. Fel y mae Duw yn casäu drygioni, ac yn gorchymyn i ninnau ei gasäu (*Rhuf.* xii. 9), ond yn bendithio y *dyn*, felly hefyd y mae y creadur sydd yn aros mewn cariad pur a dwyfol. Y mae Ysbryd Duw ynddo yn ei ddysgu i ysgar y drwg oddi wrth y dyn; a thra y mae yn casäu y cyntaf, i garu y diweddaf."—(*Howe's Works; Paley's Works; A. Fuller's, Barrow's, & Tillotson's Works; Trench's Syn.; Kitto's Cycl.; Muller's Doctrine of Sin; Sartorius's Die Lehre von der heiligen Liebe.*)

CARIAD BRAWDOL. Gwel BRAWDGARWCH.

CARIAD-WLEDD—OEDD. [*Agapæ*, αγαπη =*cariad*]: oeddynt wleddoedd crefyddol yn mysg y Cristionogion boreuaf, a gynnelid yn gyffredin yn gyssylltiedig â sacrament Swper yr Arglwydd. Yr oedd Swper yr Arglwydd yn cael ei weinyddu ar y cyntaf, ac hyd nes y daeth llygredigaeth i mewn trwy yr arferiad, mewn cyssylltiad â'r gwleddoedd hyn, ac yr ydoedd yn adnabyddus fel sefydliad gwahaniaethol. Mae yr ymadrodd *Agapæ* i'w gael gyntaf yn *Iudas* 12. Mae yn debygol mai nid efelychiad o wleddoedd cyffredin a gynnelid gan yr Esseniaid na'r Theraputæ oedd y rhai hyn, ond iddynt gael eu hachlysuro trwy sefydliad cyntaf Swper yr Arglwydd mewn cyssylltiad â'r Pasc. Fel y canlyn y dysgrifia Neander hwynt:—"Wrth ystyried yr argraff ddofn a wnaeth amgylchiadau 'y nos y bradychwyd' yr Arglwydd Iesu ar feddyliau y dysgyblion, nid oes dim y gellid meddwl am dano yn fwy naturiol, a mwy cydweddol âg ysbryd yr oruchwyliaeth newydd, na dymuniad i gyssylltu y coffa am ei angeu â'u gwleddoedd cymdeithasol. Dartu i'r cyfranogiad o'r sacrament ar ei sefydliad cyntaf, roddi ryw gyssegredigaeth ar y pryd a fwytaodd y dysgyblion yn flaenorol; a phan chwanegir at yr ystyriaeth yna, ffydd a chariad angerddol y dychweledigion ieuainc, ar y naill law, yn nghyd â'r golled a gawsant o'u meddiannau, trwy eu hysgariad oddi wrth hen gyssylltiadau, ar y llaw arall, yr hyn o angenrheidrwydd a gynnyddai eu cariad at eu gilydd—wrth gymmeryd dan ein sylw yr ystyriaethau hyn, rhoddant gyfrif boddhaol am ddechreuad y cariad-wleddoedd yn mysg y Cristionogion boreuol, y rhai oeddynt yn arwydd o gariad diffuant, ac yn arddangosiad o hono." Ac er iddynt gael eu llygru yn lled fuan, yr oeddynt ar eu sefydliad cyntaf yn haeddu y ganmoliaeth a roddodd Ioan Aurenau iddynt:—"Arferiad o'r fath fwyaf prydferth a buddiol; o blegid yr oedd yn gynnorthwy i gariad, yn ddyddanwch mewn tlodi, yn gymmedrolydd cyfoeth, ac yn ddysgyblaeth i ostyngeiddrwydd."

Ymgynnullai y Cristionogion cyntaf yn y deml neu mewn tai, a hyny, mae yn debygol, yn feunyddiol "i dori bara" (*Act.* ii. 42, 46); *h.y.*, i gymmeryd y prydiau cyffredin hyn, ac i gofio am angeu eu Harglwydd. Dibenai y cyfan â chusan brawdol (cusan sanctaidd, cusan cariad: *Rhuf.* xvi. 16; 1 *Cor.* xvi. 20; 1 *Thes.* v. 26; 1 *Pedr* v. 14). Trwy yr annhrefn a ddygwyd i mewn gyda hwynt yn eglwys Corinth, collasant eu cymmeriad o "gariad-wleddoedd," bwytaent Swper yr Arglwydd yn annheilwng, cymmerent fantais i ymffrostio yn y gwahaniaeth sefyllfaoedd bydol oedd rhyngddynt, a hyny yn y man diweddaf o bob man i wneyd hyny, sef wrth gofio am angeu eu Harglwydd (1 *Cor.* xi. 20, &c.). Er mor ddiberygl oedd y gwleddoedd hyn mewn ystyr gwladwriaethol, eto ni buont heb gyffroi drwgdybiaeth y llywodraethwyr gwladol o fod yn perthyn i'r Hetæriaid; sef cymdeithasau dirgelaidd, er mwyn amcanion gwleidyddol, y rhai oeddynt o'r herwydd yn waharddedig gan y gyfraith. Dengys Pliny yr Ieuaf, rhaglaw Bithynia, hyn yn ei lythyr at yr ymherawdwr Trajan [*ep.* x. 96]. Yn ystod yr ail canrif gwahanwyd Swper yr Arglwydd a'r cariad-wleddoedd oddi wrth eu gilydd. Gweinyddwyd Swper yr Arglwydd fel rhan o addoliad crefyddol yn unig, ac ar y Sabbath gan mwyaf, a pheidiwyd a chadw y cariad-wleddoedd mor fynych ag yn y dechreu. Rhydd Tertullian y dysgrifiad canlynol o'r gariad-wledd yn ei amser ef, tua diwedd yr ail canrif:—"Gellir deall natur ein gwledd oddi wrth ei henw, yr hwn yw y gair Groeg am *gariad*. Pa faint bynag a gostia i ni, y mae yn ennill mewn gwirionedd myned i'r fath draul yn achos crefydd; o blegid yr ydym yn cynnorthwyo y tlawd yn y ddarpariaeth yma. Nid ydym yn eistedd i fwyta hyd oni weddiom yn gyntaf ar Dduw; yr ydym yn bwyta i foddloni ein hawyddfryd; nid ydym yn yfed mwy nag sydd

Digitized by Google

yn weddus i'n cymmesur. Yr ydym yn gwledda fel rhai yn cofio ein bod i dreulio y noson mewn defosiwn; yr ydym yn ymddyddan â'n gilydd fel rhai yn gwybod fod Duw yn ein clywed. Ar ol dwyn dwfr i olchi y dwylaw, a goleuni i mewn, gofynir i bob un ganu rhywbeth yn fawl i Dduw, naill ai o'r Ysgrythyr neu o'i fyfyrdodau ei hun; a thrwy hyn, os bydd rhyw un wedi ymroddi i ormodedd, y mae hyny yn cael ei amlygu. Diweddir y wledd â gweddi." "Yr ydym ni, y Cristionogion," medd yr un, "yn edrych arnom ein hunain fel un corff, yn cael ei lywodraethu megys gan un enaid. Ac wedi ein cydgorffori fel hyn gan gariad, nid ydym yn ymddadleu byth o barth yr hyn yr ydym i'w gyfranu i'n haelodau ein hunain. Ac a ydyw yn rhyfeddod fawr fod y cyfryw frodyr caruaidd ag a fwynhant bob peth yn gyffredin, yn arfer cynnal cariad-wleddoedd? Ac o herwydd hyn yr ydych yn ein diraddio, ac yn dirmygu ein swper cynnil, fel pe bai yn sefydliad o'r fath waethaf."

Wrth y crybwyllion ysgrythyrol, fel y sylwyd, am y gariad-wledd, ymddengys mai nid hir y bu heb ei gŵyrdroi oddi wrth ei hamcan cyntaf. Ar y cyntaf, yr oedd nerth yr undeb crefyddol yn ymddangos mewn gorchfygu pob gwahaniaeth mewn sefyllfa a choethder; cyfranogai cyfoethog a thlawd, meistriaid a gweision, gyda'u gilydd o'r un ddarpariaeth seml. Ond yn eglwys Corinth, lle yr oedd y gwahaniaethau uchod mor fawr, ac yn cael sylwi cymmaint arnynt, collodd y gariad-wledd ei hamcan a'i symledd cyntaf. Yr oedd, fel yr ymddengys, yn mysg y Groegiaid, arferiad i gynnal gwleddoedd, i'r rhai y dygai pawb ei fwyd ei hun: a gŵyrdroai y Corinthiaid y gariad-wledd o'i llwybr ei hun, a gwnaent hi yn fwy cydffurf â chynllun y gwleddoedd paganaidd; ac mewn cyfnod diweddarach o'i oes, beiai Tertullian, yn nghyd âg ysgrifenwyr ereill, hwynt am eu llygredigaeth.

Yn ddiweddarach, daeth y gariad-wledd yn destyn ymdrafod mewn cynghorfäau eglwysig. Yn Nghynghor Laodicea, gwaharddwyd eu cadw yn yr eglwysi. Yn Nghynghor Carthage, penderfynwyd nad oedd neb i gael cyfranogi o'r sacrament, oddi eithr iddynt ymattal yn flaenorol oddi wrth fwyd. Y mae hyn yn cefnogi y dyb fod y gariad-wledd yn cael cyfranogi o honi cyn, ac nid ar ol y sacrament, mewn cydffurfiad â'r swper diweddaf. Adnewyddwyd yr un gwaharddiadau yn y chweched, y seithfed, a'r nawfed ganrif; sef yn Nghynghorfa Orleans, B. A. 533; yn Nghynghorfa Trullianaidd Caer Cystenyn, B. A. 692; ac yn y cynghor a gynnaliwyd yn Aix la Chapelle, B. A. 816.

Nid oedd y rheolau hyn yn cael eu bwriadu i lwyr ddiddymu y gariad-wledd. O blegid yn Nghynghor Gangra, yn 360, cyhoeddwyd anathema ar bwy bynag a ddirmygai y rhai a gyfranogent o'r gariad-wledd, neu a wrthodent ymuno â hwy. Amcan hyn, y mae yn debyg, oedd ceisio gwrthweithio y duedd Asceticaidd oedd y pryd hwnw yn enpill tir. Pan ddygwyd Cristionogaeth i Brydain, gan Awstin (596), annogodd Gregory Fawr gadwraeth y gariad-wledd, ar gyssegriad eglwysi, mewn bythod wedi eu gwneyd o gangau y coed.

Heb law y gariad-wledd gyssylltiedig â'r sacrament, crybwyllir am rai ereill gan haneswyr eglwysig; sef y gariad-wledd a gynnelid er coffa am y merthyron, gwleddoedd priodas, a gwleddoedd angladdol.

Y mae cyfarfodydd tebyg iddynt yn cael eu cadw yn yr amseroedd hyn, ac yn cael eu galw wrth yr un enw, gan y Moraviaid, a'r Methodistiaid Wesleyaidd; ac yn Scotland gan ganlynwyr Robert Sandeman.—(*Cycl. Rel. Knowl.; Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Neander's Works; R. E. Hertzog.*)

CARITIAID, [Hebr., *Karaim;* Sais., *Karaites,* neu *Caraites, h. y.*, Ysgrythyrwyr]: plaid Iuddewig, yn preswylio yn benaf yn Poland ac yn y Crimea, ond hefyd i'w cael mewn gwahanol barthau o Lithuania, Awstria, y Caucasus, Twrci, yr Aipht, Abyssinia, India, a'r Tir Sanctaidd. Y prif wahaniaeth rhyngddynt a'r Rabbiniaid yw eu hymwrthodiad â'r ddeddf draddodiadol, a'u hymlyniad manwl wrth destyn yr Ysgrythyr fel unig ffynnonell a phrawf-reol gwirionedd crefyddol. Ar y cyfrif hwn fe'u gelwir yn Ysgrythyrwyr. Nid am na ddarllenant y *Talmud,* ond am na chaniatant fod iddo un awdurdod rwymedig ar eu cydwybodau. Y maent yn gwahaniaethu oddi wrthynt hefyd yn neongliad yr Ysgrythyr ei hun. Y Talmudyddion a ddefnyddiant, yn benaf, y gelfyddyd gyfriniol i ddwyn allan feddyliau dyfnion, dirgeledig, o'r testyn cyssegredig; ond y Caritiaid a ddaliant mai yr Ysgrythyr yw ei ddeonglydd ei hun, a bod ystyr unrhyw adran i'w benderfynu yn ol meddwl gramadegol y geiriau, eu tuedd, a'u cyssylltiad, a chymhariad yr adranau cyfatebol. Y maent yn fanwl iawn yn eu hymlyniad wrth lythyren y gyfraith, ac yn rhydd oddi wrth lawer o ofergoeledd yr Iuddewon yn gyffredin; y maent yn gywir a gweddaidd eu harferion a'u trefniadau teuluaidd; ac yn eu masnach yn nodedig am uniondeb a gonestrwydd. Prin y gwyddys am danynt mewn trafferth cyfraith, nac yn wrthddrychau erlyniadau cyfreithiol. Yn eu hymarferiadau crefyddol, y maent yn gwahaniaethu oddi wrth y Rabbiniaid yn nghadwraeth y gwyliau, ac yn cadw y Sabbath yn fwy manwl. Y maent yn cario eu gwaharddiad i briodi hyd raddau pellach o gyfathrach, ác ni oddefant ysgariaeth ar seiliau bychain a dibwys.

Y maent yn hòni hynafiaeth uchel, a dangosant restr o'u dysgawdwyr hyd amser Ezra. Pa fodd bynag, ymddengys mai yr un oeddynt yn eu dechreuad a'r Saduceaid; eithr ddarfod iddynt ymwahanu oddi wrthynt pan y derbyniodd y rhai hyny y cyfeiliornadau a'u dynodent yn amser ein Iachawdwr. Diwygiwyd hwy ar ol hyny gan y rabbi Anan, tua chanol yr wythfed ganrif. Yn ol hanesion cymmeradwy yn eu mysg, y lle cyntaf y sefydlwyd synagog Caritaidd ar ol dinystr Ierusalem oedd Grand Cairo, lle y maent yn parhau hyd heddyw. Nid yw nifer y Caritiaid yn lluosog—nid llawer efallai dros 8,000. Y mae gan y rhai sydd yn neheubarth Rwssia gyfieithiad o'r Beibl Hebraeg yn iaith y Tartariaid, yr hon sydd gynnwynol iddynt. Y maent yn credu dwyfol ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, adgyfodiad y meirw, a'r farn ddiweddaf. Credant na ddaeth y Messiah eto, ond gwrthodant bob cyfrifiadau am amser ei ymddangosiad; eto, dywedant mai "cymhwys iddynt dderbyn eu hiachawdwriaeth beunydd trwy y Messiah, Mab Dafydd." Ymwelodd y Dr. Edward Clarke â'u sefydliad yn y Crimea, ac âg un o'u dysgawdwyr (rabbi); yr hwn, medd efe, "oedd yn dra pharchus, ac yn rhagori mewn gwybodaeth." Dywedir fod eu gonestrwydd yn y Crimea yn ddiarebol. Y mae y rhyfel diweddar wedi tori i fyny y sefydliad, a hwythau wedi eu gwasgaru, ac encilio i'r cyfandir. Pa un a ddychwelasant yno ai

Digitized by Google

peidio ar ol i heddwch gymmeryd lle, y mae eto yn lled fuan i ddysgwyl hysbysiaeth.—(*Hen. Buck; Williams.*)

1. CARMEL, [*gwlad gwinllanoedd a gerddi*]: rhes o fryniau yn estyn allan i'r gogledd-orllewin o wastadedd Esdraelon, ac yn terfynu mewn penrhyn neu benarth, yn ffurfio môr-gilfach Acre. Mae yn nghylch chwe milltir o hyd, nid ar linell uniawn; ond y ddau ben (ar y tu gorllewin tua'r môr) yn taflu allan, ac yn sefyll gyferbyn â'u gilydd, yn ffurfio bwa yn y canol. Mae oddeutu 1,500 troedfedd (neu, fel y cyfrifa rhai, tua 2,000 o droedfeddi) o uchder; ac wrth droed y mynydd, ar y tu gogleddol y mae yn afon Cison yn rhedeg, ac ychydig yn mhellach i'r gogledd, yr afon Belus. Mae mynydd Carmel yn gynnwysedig o amryw fryniau cyssylltiol yn hytrach nag o un trum; y rhanau gogleddol a dwyreiniol rywfaint yn uwch na'r rhanau deheuol a gorllewinol. Mae troed y mynydd yn y gyfran ogleddol yn sefyll mor agos i'r dwfr, fel, pan edrychir arno o'r bryniau i'r gogledd-ddwyrain o Acre, y mae yn ymddangos fel pe byddai "yn trochi ei draed yn môr y gorllewin;" ond yn mhellach i'r deheu mae yn cilio yn fwy i'r tir, ac yn gadael dyffryn eang a ffrwythlawn rhwng y mynydd a'r môr.



Dar. 162.

Mynydd Carmel sydd yn ffurfio yr unig benrhyn mawr ar dueddau Palestina. Yn ol adroddiadau ymdeithwyr, mae y mynydd yn dra theilwng o'r enw Hebraeg, *Carmel.* Dysgrifir ef megys "goror hyfryd," a bod ansawdd ragorol y tir i'w weled yn amlwg wrth fod y fath amledd o blanigion a blodau peraroglaidd yn tyfu yn wylltion ar y mynydd. Mae yn orchuddiedig drosto gan wyrddlesni. Ar ei gopa mae pinwydd a derw; yn is i lawr, olewydd a llawrwydd—yn cael eu dyfrhau yn ddigonol yn mhob man. Mae lluaws o ffrydiau grisialaidd yn codi arno, y fwyaf o honynt yn tarddu allan o Ffynnon Elias, fel ei gelwir; ac y maent oll yn prysuro i waered, rhwng ceulanau gorchuddiedig gan lwyni, i'r afon Cison. Y mae pob math o driniaeth ar y tir yn llwyddo yma yn rhagorol, dan yr awyr dyner a siriol hon. Mae yr olygfa o ben y mynydd, dros forgainc Acre, â'i lanau ffrwythlawn, a thros uchelfeydd gleision Libanus a'r Penrhyn Gwyn, yn foddhaol dros ben. Nid oes un mynydd yn, nac o ddeutu, Palestina, yn dal ei brydferthwch cyntaf fel Carmel. Mae dau neu dri o bentrefydd a rhai bythod gwasgaredig i'w cael arno; mae ei goedwigoedd yn ychydig nifer, ond yn dyfiannus; nid lle ysgythredd a chlogwyni ydyw, na chreigiau y geifr gwylltion; ond y mae ei arwyneb yn orchuddiedig â gwyrddlesni ffrwythlawn a pharhaus. Mae y dysgrifiadau hyn yn egluro iaith y prophwydi a'r beirdd Hebreaidd yn rhagorol. Yn y modd hwn y mae Esaiah (xxxv. 2) yn cyfeirio at "odidogrwydd (addurniadau ysblenydd) Carmel." Felly, ar gyfrif prydferthwch ei lun, a gwyrddlesni siriol ei gopa, mae pen y ddyweddi yn cael ei gymharu iddo yn *Can.* vii. 5. Yr oedd hefyd yn enwog am ei borfeydd, ac am hyny yn cael ei gyfraddu â Basan: *Esa.* xxxiii. 9; *Ier.* l. 19; *Amos* i. 2.

Iawn, er hyny, yw dywedyd fod teithwyr yn gwahaniaethu yn eu dysgrifiadau o'r mynydd hwn; ond yr achos o'r anghyssondeb yw eu bod yn ymweled â'r lle ar amserau gwahanol o'r flwyddyn. Mae y rhai a ânt yno yn y gwanwyn, neu yn gynnar yn yr haf, yn ei gael yn orchuddiedig gan wyrddlesni; ond y rhai a ânt yno yn ddiweddarach, tua diwedd yr haf, ac yn yr hydref, a gânt bob peth braidd wedi llosgi, sychu, a llwydo.

Ceryg calch durfing yw y mynydd; ac, fel y mae yn aml mewn lleoedd o'r fath, mae yno ogofeydd lawer—dywedir, fwy na mil. Mewn un parth a elwir Ogof y Mynach, y mae yno gynnifer a phedwar cant yn gyfagos i'w gilydd, â ffenestri iddynt, a chelloedd i gysgu wedi eu naddu yn y graig. Un neillduolrwydd ar lawer o'r ogofeydd hyn yw, fod y fynedfa iddynt mor gul fel nas gall ond un dyn gripio i mewn ar unwaith; ac y maent mor drofäog fel y collir golwg arno oni ddilynir ef yn union. Gwasanaetha hyn i egluro yr hyn a feddylir yn *Amos* ix. 3, lle y dywed yr Arglwydd am y rhai a geisiant ddianc rhag ei farnedigaethau, "Pe llechent ar ben Carmel, chwiliwn a chymmerwn hwynt oddi yno." Yr oedd yn hysbys yn barod y byddai prophwydi a chrefyddwyr ereill, gynt, yn cyfanneddu yn nhyllau ac ogofeydd mynydd Carmel. Y prophwydi Elias ac Eliseus a fynych gynniweirient yno: 1 *Bren.* xviii. 19—42; 2 *Bren.* ii. 25; iv. 25: cymharer hefyd, efallai, 1 *Bren.* xviii. 4, 13. Y maent yn dangos cell a elwir Ogof Elias, ychydig islaw Ogof y Mynach a enwyd o'r blaen, yr hon sydd yn awr yn gyssegr Moslemaidd. Ar ben y mynydd y mae hen sefydliad y mynachod Carmelaidd. [Gwel CARMELIAID.] Distrywiwyd yr hen fynachdy gan Abdallah Pasha, a chymmerodd y defnyddiau i'w wasanaeth ei hun; ond yn ddiweddar fe'i ail adeiladwyd ar gynllun mwy golygus drwy help cyfraniadau o Ewrop.—(*Dr. Kitto; Rel. Cyc.*)

2. CARMEL arall yn mynydd-dir Iudah, ac un o'r dinasoedd a enwir yn *Ios.* xv. 55. Yma y darfu i'r brenin Saul osod i fyny gof-golofn o'i fuddugoliaeth ar Amalec (1 *Sam.* xv. 12): ac yma yr oedd Nabal yn cneifio ei ddefaid, pan yr ymddygodd yn drahaus at Dafydd, ac y gwaredwyd ef trwy ddoethineb Abigail ei wraig (1 *Sam.* xxv. 2, &c.). Yn amser Eusebius a Jerome, yr oedd yno bentref ac amddiffynfa Rufeinig, tua deng milltir o Hebron i'r dwyrain. Fe'i gelwir yn awr *Kurmul*, ac y mae yn hollol anghyfannedd; ond dengys yr adfeiliadau fod yno gynt dref o gryn faintioli. Mae yr adfeiliadau hyn yn gorwedd o amgylch pen ac ar hyd ystlysau dyffryn o beth lled a dyfnder, ac ar ddull hir-grwn, yn cael ei gau i mewn gan greigiau. Maent yn gynnwysedig yn benaf o seiliau a muriau anneddau drylliedig ac adeiladau ereill, ar wasgar yn mhob cyfeiriad, mewn annhrefn ac anghyfannedd-dra pruddaidd. Yr adfail fwyaf nodedig yw murddyn

Digitized by Google

hen gastell pedwar-onglog, a safai ar godiad tir yn nghanol y dref.—(*Dr. Kitto*).

CARMELIAID, neu BRODYR GWYNION: urdd grefyddol *Ein Harglwyddes o fynydd Carmel.* Hönant eu deilliad dechreuol oddi wrth y prophwydi Elias ac Eliseus; a bu hyn yn achlysur o ddadl frwd rhwng yr urdd hon a'r Jesuitiaid, tua diwedd yr ail canrif ar bymtheg—y naill blaid a'r llall yn cyhoeddi llawer o lyfrau, ac yn deisebu y pabau Innocent XI. ac Innocent XII.; yr olaf o ba rai a roes daw ar y ddwy, drwy lythyr swyddol, ar yr 20fed o Dachwedd, 1698. Nis gall dim fod yn fwy ynfyd a phlentynaidd na'r chwedlau ar ba rai y ceisient seilio eu honiadau. Elias, meddent, oedd y cyntaf o honynt; a'i ddysgyblion ef oedd Ionah, Michah, ac Obadiah. Dywedent fod Pythagoras—ïe, Mair y Forwyn, ac Iesu Grist—yn Garmeliaid!

Yr hyn a wyddys am eu dechreuad yw, ddarfod i Almeric, cenad y pab yn y dwyrain, a phatriarch Antioch yn y deuddegfed canrif, gasglu yn nghyd nifer o feudwyaid yn Syria, y rhai oeddynt yn agored i ymgyrch a thrais yr anwariaid, a'u cyfleu yn mynydd Carmel, lle gynt y cyfanneddai y prophwydi Elias ac Eliseus; ac oddi wrth y mynydd hwnw y cymmerasant yr enw *Carmeliaid.* Albert, patriarch Ierusalem, a roddes reolau iddynt yn 1205, y rhai a gadarnhawyd gan y pab Honorius III. yn 1224.

Yr heddwch a wnaed gan yr ymherawdwr Frederic II. â'r Saraceniaid, yn y flwyddyn 1229, mor anfanteisiol i Gristionogaeth, a buddfawr i'r anffyddloniaid, a fu yn achlysur i'r Carmeliaid adael y Tir Sanctaidd, dan Alan, pummed llywydd yr urdd. Anfonodd yn gyntaf rai o'r crefyddolion i Cyprus, y rhai a diriasant yno yn y flwyddyn 1238, ac a sylfaenasant fynachdy yn nghoedwig Fortania. Rhai Siciliaid, ar yr un pryd, gan adael mynydd Carmel, a ddychwelasant i'w gwlad eu hun, lle y sylfaenasant fynachdy, yn nghwr dinas Messina. Rhai Seison a adawsant Syria, yn 1240, i sylfaenu ereill yn Lloegr. Ereill yn Provence, yn y flwyddyn 1244, a sylfaenasant fynachdy yn niffaethwch Aigualates, tair milltir o Marseilles; ac fel, yn y modd hwn, yr oedd nifer eu mynachdai yn lluosogi, cynnaliasant eu glwysgor Europeaidd cyffredinol cyntaf yn y flwyddyn 1245, yn eu mynachdy yn Aylesford, yn Lloegr.

Ar ol i'r Carmeliaid ymsefydlu yn Ewrop, newidiwyd eu rheol mewn rhai pethau: y waith gyntaf, gan y pab Innocent IV., yr hwn a chwanegodd at yr erthygl flaenaf y gorchymyn o weddwdod; ac a liniarodd yr unfed ar ddeg, oedd yn erchi ymattal bob amser oddi wrth gig, gan ganiatäu iddynt, pan fyddent yn ymdeithio, i fwyta cig wedi ei ferwi. Rhoddodd genad iddynt hefyd i fwyta mewn bwydfa gyffredin, ac i gadw asynod neu fulod at eu gwasanaeth. Lliniarwyd eu rheol drachefn gan y pabau Eugenius IV. a Pius II. Fel hyn, aeth yr urdd yn rhanedig i ddwy gangen; sef, *Carmeliaid yr hen ddefodau*, a elwid yn *gymmedrol*, a'r rhai *manwl ddefodol*, sef y *Carmeliaid troednoeth.* Gosodwyd diwygiad ar droed, yn 1540, gan Santes Theresa, lleian o leiandy Avila, yn Castile. Y rhai olaf hyn ydynt ranedig i ddwy gynnulleidfa; sef. y rhai o'r Yspaen, a'r rhai o'r Ital.

Gwisg yr urdd ar y cyntaf ydoedd wen, a mantell gyda sider o amryw eddi ar ei godre; ond y pab Honorius IV. a barodd iddynt ei newid am yr eiddo y Minimiaid, urdd arall yn Eglwys Rhufain. Gwisgant doryn bychan o wlanen lwyd dros eu hysgwyddau. Ni wisgant grysau lliain, ond cymmysgwe o lin a gwlan yn eu lle.—(*Hen Buck; Mosheim, &c.*)

1. CARMI, [כרמי, *fy ngwinllan*]: pedwerydd mab Reuben, tad tylwyth y Carmiaid: *Num.* xxvi. 6.

2. CARMI: tad Achan, o lwyth Iudah: *Ios.* vii. 1, 18.

CARN, CARNEDD: ydynt eiriau cyffredin yn Nghymru, mewn enwau lleol, megys Mynydd Carn, Carn Arthur, Carn Ingli, Carn Llechart, Carn Tylygway, Carn Wyllion, Carn y Frwydr, Carnedd Dafydd, Carnedd Llywelyn, Carnedd y Filast, Maes y Garnedd; ac y mae yn haeddu sylw mai *carn* yw y gair a ddefnyddir yn y Deheubarth, *carnedd* yn y Gogledd. Y pethau a ddynodir gan y geiriau, a deilyngant sylw chwanegol. Perthynant i gyfnod bore iawn yn hanes y byd yn gyffredinol, yn gystal ag i hanes yr ynys hon yn neillduol. Perthynant i hanes claddedigaethau ein henaflaid, oesoedd lawer cyn sefydliad y claddedigaeth mynwentol a arweiniwyd i mewn gan Gristionogaeth, ac a arferir yn awr; ac eglurhant hanes boreuol y genedl, yn nghyd â'i harferion angladdol.

Priodolir yr hen feddau i dri chyfnod arbenig.

1. *Y cyfnod cerygog*, a enwir felly o herwydd fod y cyllyll, y bwyeill, a'r saethau, a phethau ereill a geir ynddynt, yn wneuthuredig o geryg neu faen callestr, ac yn perthyn i amser gorhenol, cyn bod nac efydd, na haiarn, nac un metel, yn aduabyddus i'r trigolion. I'r cyfnod hwn y priodolir y cromlechau; a bernir, gan fod efydd yn adnabyddus i'r Celtiaid, yn mhlith pa rai y mae y Cymry yn gynnwysedig, fod y beddau hyn yn perthyn i ryw bobl ragflaenol.

2. *Cyfnod yr efydd* (*Bronze period*), a elwir felly gan fod y bwyeill, a'r offerynau rhyfel, ac addurniadau ereill yn ffurfiedig o'r defnydd hwn. Bernir fod y beddau hyn yn perthyn i'r Celtiaid: ac i'r cyfnod hwn y dylem briodoli llawer o'r carnau a'r carneddau. Yn yr amser rhagflaenol, cleddid y meirw fel yr oeddynt; ond yn y cyfnod yma, llosgid y cyrff, cesglid y lludw, a chleddid ef mewn llestri pridd.

3. *Y cyfnod haiarnol*, yr hwn a briodolir i amser y Rhufeiniaid; o herwydd mai hwy, yn ol y dyb gyffredin, a ddygasant arfau a pheiriannau haiarn i'r wlad. Hwythau a arferent losgi cyrff am oesoedd lawer; ac ni ddaeth yr arferiad Cristionogol yn gyffredin hyd ddiwedd y chweched canrif. Dichon fod y dosbarthiad hwn i ryw raddau yn anghywir; ond gan ei fod yn bur gyfleus, ac yn cael ei fabwysiadu gan brif henafiaethwyr yr oes, y mae yn teilyngu sylw.

Carn, carnedd, neu, mewn ffurf Seisonig, *cairn*, sydd grug o geryg, yn dynodi bedd un o'r hen Brydeiniaid, a gladdwyd cyn bod cglwysi plwyfol, na mynwentydd, wedi eu sefydlu, a phan yr oedd yn angenrheidiol gosod rhyw gofadail uwch ben beddau pendefigion y wlad, fel y byddai eu gorphwysleoedd yn adnabyddus i'w teuluoedd, ac yn weledig i'r werin. Dan y garn, y mae yn arferol o fod *cistfaen*, sef cist ffurfiedig o bedair llech neu elech ochrog a thalcenog, ac â llech arall yn osodedig ar y wyneb. Ac yn y gist, y mae yn arferol fod lludw y claddedig, mewn *urn*, neu ysten bridd, â'i gwddf i waered. Ar rai achlysuron, ceir rhagor nag un ysten; ac mewn rhai manau ceir amryw o honynt, yr hyn a gyn-

Digitized by Google

nyrcha y dyb fod yno wyddfa deuluol. Mewn beddau perthynol i gyfnod diweddarach, ceir yn agos yr un ymddangosiad allanol—y garn geryg, ac efallai dywod neu dywarch, ond fod y corff wedi ei gladdu yn ddilosg, mewn ysgrin dderw, ac weithiau yn y wisg arferol, â lluryg y gwron yn ei gylch, a'i arfau wrth ei ochr. Wedi hyny, daeth y dull presennol i arferiad. Anhawdd dyweyd pa mor gynnar y bu hyn; ond y mae un ffaith a ddengys ei fod yn niwedd y chweched canrif. Bu farw Cynddylan, tywysog Powys, yn B. A. 577; ac y mae Llywarch Hen yn canu:—

"Gan fy nghalon i mor dru,
Cyssylltu ystyllod du,
Gwyn gnawd Cynddylan cynran canllu."

Yn y cyfnod hwn, yr oedd y Dywysogaeth yn hynod am henafiaethau o'r fath yma. Dysgrifir hi gan Taliesin fel "Cymru garneddawg;" ac y mae eto yn haeddu yr enw: ond y mae lle i ofni fod llawer o anwybodaeth yn eu cylch, a bod llawer o honynt yn cael eu dystrywio mewn traehwant neu anystyriaeth. Bydd o fudd, efallai, i ni ddwyn ein cydwladwyr i well adnabyddiaeth o honynt, ac o arferion claddedigol ein henafiaid yn gyffredin.

Os oes hamdden gan y darllenydd, deued i angladd Urien Rheged, yn B. A. 584. Amddiffynodd iawnderau ei genedl yn ei ddydd; a'i enw a haedda barch cenedl y Cymry. Traddododd Llywarch Hen ei araeth angladdol:—

"Y gelain veinwen a oloir (gleddir) heddiw,
A dan bridd a main,
Gwae vy llaw! lladd tad Owain.

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
Ymmhlith pridd a derw,
Gwae vy llaw! lladd vy nghevynderw.

Y gelain veinwen a oloir heno,
A dan vain ai edewid,
Gwae vy llaw! llam rym tyngid.

Y gelain veinwen a oloir heno,
Ymmhlith pridd a thywarch,
Gwae vy llaw! lladd mab Cynvarch.

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
Dan weryd ac arwydd,
Gwae vy llaw! lladd vy arglwydd.

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
A dan bridd a thywawd,
Gwae fy llaw! llam rym daiarawd.

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
A dan bridd a main glas,
Gwae vy llaw! llam rym gallas.

Y gelain veinwen a oloir heddiw,
A dan bridd a dynad,
Gwae fy llaw! llam rym'gallad."

Am y mwyafrif o'r hen garneddau, nid oes un wybodaeth pwy a gleddid ynddynt; ond y mae coffadwriaeth am orphwysleoedd enwogion y cyfnod hanesyddol, sef wedi mynediad y Rhufeiniaid oddi yma, yn y casgliad o bennillion a elwir, "Englynion Beddau Milwyr." Bydd dwy anghraifft yn ddigon i gwblhau y drychfeddwl o'u plegid.

Yn y flwyddyn 1813, sylwai amaethydd ar lan Alaw, yn Mon, fod amryw geryg yn sefyll allan o ochrau tomen dywarchog gron yn agos i'r afon; a chan fod arno eisieu ceryg at adail oedd mewn llaw, tynodd ymaith y tyweirch, ac yna daeth at garn o geryg. Symmudodd y rhai hyn, yna daeth at gist o elech geirwon; ac wedi codi y clawr, wele ysten â'i gwddf i waered, ac yn llawn o ludw ac esgyrn llosgedig. Daeth swn am y dygwyddiad i glustiau offeiriad y plwyf, yn nghyd âg offeiriad arall. Hoffent henafiaethau eu dau; a'r pryd hwnw cofiwyd fod Mabinogi Bronwen ferch Llyr, yn traethu i'w brawd "wneuthur bed pedryual idi ae chladu yno ygglan Alaw." Yr oedd y Derwyddon yn credu mewn byd dyfodol, ac y mae yn ddiammheu i'r un gred ffynu yn mhlith y Prydeiniaid cyn sefydliad Cristionogaeth yn grefydd genedlaethol; ond y mae yn anhawdd cael allan beth oedd eu golygiadau neilldu ol am y byd a ddaw. Y mae Indiaid America yn claddu arfau a cheffyl eu blaenor gydag ef, dan feddwl y defnyddia hwynt yn ngwlad yr ysbrydion; gwnaed yr un peth gan yr hen Ellmynwyr, er na wyddys beth oedd y pwrpas: claddwyd ei waewffon, ei gleddyf, ei esgid, boglwm aur, a phen a phedrain ei geffyl, gyda Childeric, brenin Ffrainc; ac y mae gweddillion anifeilaidd wedi eu cael mewn hen feddau yn Nghymru, ond ni wyddys beth oedd dyben eu gosodiad yno. Y ffaith fwyaf neilldu ol yn y cyssylltiad yma ydyw hanes bedd Benlli Gawr, yr hwn oedd yn byw yn agos i'r Wyddgrug. Yn agos i'r lle hwn, yr oedd tomen fawr, a elwid Bryn yr Ellyllon, yr hon a dynwyd ymaith i welläu yr heolydd. Dywedid fod ysbrydion mewn arfau dysglaer yn arfer ymddangos yno; ond nid oedd neb yn tybied mai hen fedd ydoedd hyd o ddeutu deng mlynedd ar ugain yn ol. Pan ddaeth y gweithwyr i'r canol, ceibiasant i waered; ac yna yn fuan daethant at ysgerbwd o faintioli anarferol. Yr oedd y siol o faint mawr, a'r morddwydydd yn ciddo dyn o gorffolaeth cawraidd. Ar agoriad i'r awyr, aeth yr esgyrn yn llwch, fel na arbedid dim o honynt; ond yr oedd yn gorwedd ar y ddwyfron luryg aur ddysglaer, wedi ei haddurno yn gelfydd â thri chant o gleiniau gwefrol. Yr oedd yn dair troedfedd a saith modfedd o hyd, ac wyth modfedd o led; amgylchynai y corff, gan gau ar y cefn. Y mae y wisg freninol hardd hon ar gadw yn y British Museum; pwysa ddwy wns ar bymtheg: mae y gwefr yn cadw ei ddysgleirdeb; a bernir fod y lluryg yn werth trigain punt. Tybiai y Dr. Owen Pughe mai Benlli Gawr oedd y gwr claddedig, ac idde farw yn nghylch y flwyddyn B. A. 500; ac y mae pob tebygolrwydd fod y syniad yn gywir. Claddwyd ei fab yn yr un gymmydogaeth; ac am hwnw dywed Englynion y Beddau,—

"Pieu y bet yn y Maes mawr,
Balch ei law ar ei lafnawr,
Bet Beli vab Benlli Gawr."

Y mae hyn yn cadarnhau y dyb am ei dad.

Beddau pendefigion, a rhyfelwyr enwog, yw y rhan fwyaf o'r carneddau Cymreig. Yn y canoloesoedd, bernid eu bod yn gwbl felly, fel y traetha bywgraffydd Gruffydd ab Cynan am Fynydd Carn:—"E mynydd hagen i bu y frwydyr ynddaw, a eilaw ciwdawt y wlat y Mynydd Carn; sef yw hyny Mynydd y Garnedd, canys yno i mae dirfawr Garnedd o fein adan yr hon i claddwyt rhysswr yng cynnoesoedd gynt." Ond y mae amryw o anghreifftiau o garneddau benywod. Eto, er mai dynion a benywod cyfrifol a gleddid felly, ystyriai y Cristionogion yr arferiad hwn o gladdu yn y dyffrynoedd, ar y mynyddoedd, ac mewn tir anghyssegredig, yn beth paganaidd ac anmhriodol. Gwrthwynebwyd y ddefod gan yr offeiriaid, nes aeth y carneddau yn warth yn hytrach nag yn anrhydedd, ac yn gyfyngedig i ddrwg-weithredwyr. Yna daeth dymuno "Carn ar dy wyneb" i gael ei gyfrif y felldith drymaf a gyhoeddid yn erbyn gelyn; ac o herwydd cyssylltiad o'r fath, defnyddiwyd carn fel ansoddair a roddai i'r gair yr ystyr neilldu ol a ddwg yn y

Digitized by Google

brawddegau—*carn leidr, carn fradwr*, a'r cyffelyb. Cyfodid carneddau hefyd ar feusydd brwydrau; ac y mae rhai enwau lleol, megys Maes y Garnedd, yn cyfleu eu hanes eu hunain.—(*Worsae's Primæval Antiquities; Gweithiau Llywarch Hen; Myvyrian Archæology; Lhwyd's Archæologica Britannica; Williams' Biog. Dict. of Eminent Welshmen.*)

CARNAIM. Gwel ASTAROTH-CARNAIM.

CARNOL—ION, [*carn*]: anifail yn meddu carnau, megys ych, march, asyn, &c.: *Salm* lxix. 31;—*pedwar carnolion: Act.* x. 12; *Rhuf.* i. 23. Yr oedd yr anifeiliaid carngyfain yn aflan dan gyfraith Moses (*Lef.* xi. 3—8); a chyfrifid y rhai a holltent yr ewin, ac a gnoent y cil, yn lân.

CAROG, [*car*]: baedd gwyllt; *llu.* carogion: enw afon hefyd. Y mae tomen neu garnedd, yn mhlwyf Eglwysfach, yn sir Ddinbych, a elwir *Bedd Carawg*; a dywed traddodiad, mai bedd baedd gwyllt anferth, a laddwyd gan Bach ab Carwed ar yr afon Carog ydyw.—*Dr. W. O. Pughe.*

CAROL—AU: mawlgan; cofganiad. Cân o natur grefyddol, neu foesol, yn gyffredin, yw carol, i'w chanu mewn cynnulliadau cyhoeddus ac arbenig, i gofio (*celebrate*) amgylchiad neu sefydliad o bwys; megys "carol plygain," neu "garol nadolig,"

"Yn ol Defodau ein Tadau a'n Teidiau,
Hen Acen ydoedd hel caniadau
I gofio 'r Borau gwych;"

Sef "Borau"

"Genedigaeth y MAB Rhad,"
"Yn Geidwad, Genad gynes."

Neu, "garol clwb," i ddathlu y sefydliad, i ganmawl ei ddybenion, ac i annog y frawdoliaeth i undeb, cariad, a rhinweddau yn gyffredinol.

A "charol haf" (*May song*), i ddathlu dyfodiad yr haf i mewn: yr hon a genid mewn cynnulliadau chwareuol a llygredig, ar y cyntaf o Fai.

Y mae y prydyddion Cymreig wedi canu peth afrifed o "garolau nadolig" o ryw fath. Cynllun cyffredin y goreu o honynt yw, traethu am ddyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd; am ei gwymp a'i ganlyniadau; am ddaioni Duw yn anfoniad ei "Fab mâd" i'r byd, i "drefnu ffordd newydd i'r nef;" am enedigaeth Crist, yn neilldul; ac am ei fywyd a'i farwolaeth, fel iawn dros bechodau y byd; ac yna, annog i foliannu Duw am ei "gariad fawr haeddiad," ac i ffydd a chrediniaeth yn Nghrist, "hynod gras Duw;" gan ddiweddu, yn fynych, drwy

"Ddweyd Oed yr Iesu;"

ac

"Amen yn awr Duw Nef."

Y mae yr "Hen Acen," erbyn hyn, bron ar drancedigaeth; ac ymddengys nad yw y beirdd, neu ynte y prydyddion, na'r cantorion chwaith, yn gofalu am ei hadferu.

Caiff darllenydd meddylgar lawer o ddifyrwch diniwed wrth ddarllen carolau ein "tadau a'n teidiau" prydyddol, oedd yn oesi tua 'r flwyddyn "dau gant ar bymtheg a saith deg a saith" o oedran ein "Pen Crair.'

CAROLOSTADIAID: plaid a elwid felly oddi wrth Carolostadt, un o gydweithwyr Luther, yr hwn a wadai bresennoldeb *gwirioneddol* corff Crist yn y sacrament, fel y dysgid ef gan Luther, a'r hwn a gyfododd gynhwrf yn Wittemberg yn ei absennoldeb, yn herwydd yr hyn y bu raid iddo ymneilldu o i Switzerland. Dywed Mosheim ei fod yn ddyn o dymmer wresog a brwdfrydig, yr arferai lefaru yn uchel yn erbyn dysgeidiaeth ddynol, ac y coleddai rai o ddaliadau ynfyd yr Ailfedyddwyr Almaenaidd.

CARPOCRATIAID, [*Carpocratians*]: enwad o grefyddwyr a gyfododd tua chanol yr ail canrif; ac a gawsant eu galw felly oddi wrth un Carpocrates, daliadau athronyddol yr hwn oedd yn cytuno ar y cyfan â'r eiddo y Gnosticiaid Aiphtaidd. Efe a gydnabyddai fodolaeth un Duw goruchaf, a'r Aions (is-dduwiau) hanedig o hono trwy genedliad olynol. Efe a ddaliai fod mater yn dragwyddol, a bod y byd wedi ei greu o hono trwy allu angelaidd, yn nghyd â dwyfol haniad eneidiau a garcherir yn anffodus mewn cyrff marwol. Haerai bod yr Iesu wedi ei eni o Ioseph a Mair trwy gwrs cyffredinol natur, ac nas gwahaniaethid ef oddi wrth ddynolryw yn gyffredinol trwy ddim ond gwroldeb a mawredd enaid rhagorach. Mewn gair, nid yw yn ymddangos fod ei ddaliadau yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth yr eiddo Dynoliadwyr diweddar; y rhai, dybygid, a gytunasant âg ef hefyd yn yr athrawiaeth o angenrheidrwydd athronyddol; yr hyn, ond odid, a barodd iddynt gael eu cyhuddo o ddal allan ddieuogrwydd drygedd, am ei fod yn tarddu oddi ar nwydau a blanwyd yn ein natur gan y Creawdwr. Dywed Irenæus am danynt, eu bod yn crynoi holl hanfodolion crefydd i ddau bwnc —ffydd a chariad; ond nis gallwn ganfod pa fodd y mae hyny yn gamwedd i'w roddi yn eu herbyn; canys y mae holl foeswersi Cristionogaeth yn cyfarfod dan y ddau ben yna. Cyhuddid hwynt o benrhyddid yn eu cariad-wleddoedd hefyd; lle, medd eu cablwyr, yr arferent ddiffodd y canwyllau, fel y gallent gyflawnu pob rhysedd yn y tywyllwch: ond y mae y chwedl yna wedi ei thraethu yn rhy fynych, a'i gwrthbrofi yn rhy amlwg, i'w chredu yn awr. Y mae yn hawdd credu y cyhuddiad a roddir yn eu herbyn o'u bod yn goelgrefyddol, ac yn tueddu i ymarfer â dewiniaeth, pan ystyriom anwybodaeth yr amserau; er nad oes nemawr brofion o hyny ar gael chwaith. Ond y mae yn ddiammheuol eu bod yn euog o goledd syniadau athrawiaethol cyfeilornus, yr hyn efallai, a achlysurodd ymarweddiad anghristionogol, er nad i'r mesur y mynai eu gelynion eu cyhuddo o hono.

CARPUS: un o ddysgyblion yr apostol Paul, yr hwn oedd yn byw yn Troas: 2 *Tim.* iv. 13. Bernir mai yn ei dŷ ef y llettyai Paul pan oedd yn Troas; ac iddo adael ei gochl yno.

CARTESIAID: dysgyblion athronydd enwog o Ffrainc, o'r enw Renes Des Cartes, yr hwn a seiliai ei gyfundrefn athronyddol ar ddwy egwyddor fawr—y naill yn uchanianol (*metaphysical*), a'r llall yn anianol (*physical*). Yr egwyddor *uchanianol* yw hon,—"Yr ydwyf yn meddwl, am hyny yr ydwyf." Ymosodwyd ar yr egwyddor yma ar y naill du, ac amddiffynwyd hi ar y tu arall, gyda llawer o bybyrwch a medrusrwydd. Yr egwyddor *anianyddol*, yn y gyfundraith hon, yw,—"Nad oes dim yn bod ond sylweddau," a bod y rhai hyn o ddau ryw, sef yr hyn sydd yn meddwl, neu yr enaid; a'r hyn sydd yn darestyn, neu y corff.

Digitized by Google

Llwyddodd Des Cartes i ddymchwelyd athroniaeth Aristotle, yr hon a fuasai yn teyrnasu ar y byd dros fil o flynedd oedd, ac ennillodd i'w gyfundraeth ei hunan fri mawr dros dymmor yn mysg dysgedigion, hyd oni thywalltwyd ffrydlif gryfach o oleuni ar egwyddorion gwir athroniaeth, trwy ysgrifeniadau arglwydd Bacon, pan ddiflanodd athroniaeth Des Cartes fel drychiolaeth anelwig o flaen goleuni y dydd.

CARTHUSIAID: y mynachod Carthusiaidd oeddynt gangen o'r urdd Benedictaidd, neu y Brodyr Duon, rheol y rhai a ddilynent, gyda llawer o lymderau chwanegol. Bruno, yr hwn a anwyd yn Cologne, yn yr Almaen, a sefydlodd yr urdd gyntaf yn Chartreux, yn esgobaeth Grenoble, yn Ffrainc, tua'r flwyddyn 1080; a hyny a barodd i fynachdai perthynol i'r urdd yma yn Lloegr gael eu galw *Charter houses*, yr hyn oedd yn llwgrenw am *Chartreux houses*. Yr oedd rheol y Carthusiaid, yr hon, meddir, a gadarnhawyd gan y pab Alexander III. mor fore a'r flwyddyn 1174, yn fwy manwl na'r eiddo unrhyw urdd mynachaidd. Ni fwytäai y mynachod gig un amser; a gorfyddent ymprydio ar fara a dwfr a halen un diwrnod bob wythnos; ac ni oddefid iddynt fyned dros ffiniau eu mynachdai—yn unig goddefid i'w llywyddion fyned ar negeseuon pwysig a berthynent i'r tai y gweinyddent fel eu penaethiaid.

Dygwyd y Carthusiaid i Loegr yn y flwyddyn 1180, neu 1181, gan y brenin Harri II.; a'u mynachdy cyntaf oedd yn Witham, yn swydd Somerset. Yr oedd eu holl wisgoedd yn wynion, oddi eithr eu harwisg ddyblygedig, yr hon oedd i fod yn ddu. Dywed Stevens, yn ei barhâd o *Dugdale's Monasticon*, nad oedd namyn pump o wyryfdai yn perthyn i'r urdd orfanol yma yn y byd; na dim ond 167 o fynachdai. Nid oedd ond un gwyryfdy, a naw o fynachdai, perthynol iddynt yn Mhrydain. Y naw mynachdy hyny oeddynt yn Witham a Hinton, yn swydd Somerset; y Charter-house, yn Llundain; Beauvale, yn swydd Nottingham; St. Anne, yn agos i Coventry; Kingston ar yr Hull; a Mountgrace, yn swydd Gaerefrog; Eppeworth, yn ynys Axholm; a Shene, yn Surrey.

CARW (*Deut.* xii. 15; 1 *Bren.* iv. 26): creadur pedwartroed, corniog, buan, ofnus, o ddosbarth y cilgnoaid, ac un adnabyddus, yn y naill neu y llall o'i amrywiaethau lluosog, yn mhob parth agos o'r byd. Gan ei fod yn cnoi y cil ac yn fforchogi yr ewin, nodir ef yn y gyfraith yn anifail glân. Ac o'r holl anifeiliaid glân, nid oes un harddach na'r carw. Yn nillynder ei ffurf, ysgafnder ei symmudiadau, ynghyd â'r cyrn uchel, cangenog, sydd ar ei ben, y mae yn gynllun, bron, o'r prydferth yn mysg yr anifeiliaid. Yn ei ranau mewnol, y mae yn gwahaniaethu ychydig oddi wrth y cilgnoaid yn gyffredin. Nid oes iddo fustl; y mae y ddueg yn fwy; a'r elwlenau o ffurf wahanol. Y gwahaniaeth mwyaf neillduol rhyngddo a chilgnoaid corniog ereill ydyw, fod ei gynffon yn ferach, a'i gyrn yn syrthiadol (*deciduous*), y rhai a gollir ac a adnewyddir iddo bob blwyddyn.

Y mae y carw, y flwyddyn gyntaf, yn ddigyrn; yn yr ail, y mae iddo gyrn hir, sengl; yn y drydedd, y mae arnynt ddwy gainc; tair y bedwaredd; pedair y bummed; a phump y chweched. Ond nid yw hyn bob amser yn sicr, gan eu bod weithiau yn fwy ac weithiau yn llai. Yn mhen y chwe blynedd, y mae yr oed yn cael ei benderfynu yn fwy oddi wrth faint a lled y ceingciau nag oddi wrth eu rhifedi. Pan deimla y carw ei fod yn myned i golli ei gyrn, y mae yn chwilio am unigrwydd a llonyddwch: y mae un corn yn syrthio, yn gyffredin, ddiwrnod neu ddau o flaen y llall. Yr hen sydd yn eu colli gyntaf, a hyny tua diwedd Chwefror, neu ddechreu Mawrth; wedi hyny, y nesaf o ran oed, tua diwedd Mawrth, neu ddechreu Ebrill; a'r ieuengaf, tua chanol neu ddiwedd Mai. Trwy fod eu cyrn i'w cael, yn fwyaf cyffredin, mewn llynau acafonydd, tybiodd llawer fod ganddynt fwriad i'w cuddio; ond nid oes un sicrwydd am hyn. Y mae yr hen gorn yn sylwedd caled trwyddo; ond y newydd sydd yn tyfu yn ei le, sydd am amser yn feddal ac yn dra thyner. Os bydd yr anifail yn iach, ni bydd y cyrn newyddion ond ychydig ddyddiau yn tyfu i'w cyflawn faint; ond y maent yn caledu yn raddol wedi hyn am yn agos i dri mis.

Byddai ymchwilio i'r achos o'r ymddangosiad rhyfedd hwn yma, efallai, yn ddifudd: ond pa fodd bynag, gellir dywedyd pe byddai i'r carw gael ei ddysbaddu pan fyddo newydd golli ei gyrn, na welid cyrn ar ben hwnw mwy. O'r tu arall, pe gwneid hyny pan fyddont yn eu cyflawn dwf a'u nerth, na syrthient ymaith. Y fath, meddir, yw y cyssylltiad, fel pe y dysbaddid ef ar un ochr, y byddai y corn yn eisieu ar yr ochr hono. Fel y mae y carw yn heneiddio, y mae y cyrn yn gwaelu; ac os porthir ef yn wael, y maent yn fwy diwerth. Gan ei fod tua phum

Dar. 163.

mlynedd yn dyfod i'w gyflawn faint, tybir y gall fyw i fyned yn agos i ddeugain oed. Y mae llawer o chwedlau ofergoelus am ei hirhoedledd, er hyny, wedi eu dyweyd a'u credu. Yn mhlith ereill, y mae chwedl fod carw wedi ei gael unwaith yn Ffrainc, â choler am ei wddf, ac arni yn ysgrifenedig:—"*Cæsar hoc mihi donavit*"=Cæsar a roddodd hon i mi; a thybiwyd, oddi wrth hyn, fod y carw hwn wedi byw er dyddiau Julius Cæsar. Ond os yw y chwedl yn wir, bu rhyw un yn lled anffortunus yn y casgliad a dynodd oddi wrthi. Y mae y gair Cæsar, yn ein dyddiau ni, yn fath o enwad brenhinol; ac y mae yr ymherawdwyr Ellmynaidd yn cael eu galw wrtho yn lled gyffredin: a gallasai y goler fod wedi ei gorchymyn gan un o honynt hwy. Buasai yn fwy naturiol meddwl felly, o leiaf.

Y mae oes y carw, fel yr eiddo creaduriaid ereill, yn dibynu llawer ar amgylchiadau. Pan y mae yr anifail yn cael llonydd gan yr

Digitized by Google

heliwr, ac mewn porfa dda, y mae yn llawer eryfach, a'r olwg arno yn harddach. Lliw cyffredin y carw yn ein gwlad ni ydyw coch: mewn gwledydd ereill, y mae yn wineu; ac mewn rhai manau, yn wyn. Nid oes un anifail, yn ein hinsawdd ni, â llygaid mor brydferth. Y mae yr arogliad a'r clyw hefyd yr un mor berffaith. Nid yw yn bwyta ond ychydig, ac y mae yn gwneyd hyny yn araf. Cnoi y cil sydd yn ymddangos yn fwy trafferthus iddo nag i greaduriaid ereill, ac yn cael ei ddilyn â math o eigian. Yr achos o hyn, efallai, ydyw, fod y sefnig yn fwy cyfyng. Y llais sydd gryf ac uchel, ac yn myned yn fwy felly fel y mae yn heneiddio; a phan y bydd yn ymrëo, y mae y pryd hyny yn ddychrynllyd. Yn yr adeg hon, y mae y carw yn gymmaint dan ddylanwad nwyd, nad oes dim, o'r bron, a'i dychryna. Dywedir ddarfod i William, duc Cumberland, unwaith, beri i garw a theigr gael eu cau gyda'u gilydd yn yr un cylch, pryd y gwnaeth y carw y fath amddiffyniad dewr, nes y gorfu i'r teigr o'r diwedd roddi y maes i fyny. Yn y gauaf, nid yw y carw yn yfed ond yn anfynych; ond tua diwedd y gwanwyn, ac yn yr haf, y mae yn ymwelydd cysson â'r llynau a'r afonydd. Y mae yr ewig (y fenyw) yn hynod am ei gofal am ei llwdn; a rhaid iddi ei guddio a'i amddiffyn rhag y carw ei hun, yr hwn sydd yn elyn tra pheryglus iddo. Pan fyddo yr heliwr allan, rhydd ei hun yn aml o flaen y cwn, er mwyn eu harwain o'r gymmydogaeth lle y bydd gwrthddrych ei gofal penaf wedi ei guddio.

Er fod y carw yn lled gyfrwys, ac ar adegau yn wrol, y mae yn fwy dyledus am ei ddiogelwch i'w gyflymder nag i ddim arall. Y mae hwn, yn aml, yn hynod o wasanaethgar iddo. Y mae hela carw wedi bod yn arfer, bron, yn mhob oes. Helid ef ar y cyntaf, o angenrheidrwydd; ond wedi hyny, yn fwy er difyrwch. Yn yr oesoedd boreuaf, yr oedd anifeiliaid hela o bob math yn yr ynys hon yn dra lluosog; ac yn y gyfraith hela yn mhlith yr hen Gymry, rhesir y carw yn yr helfa gyffredin: a dyma fel y dywed:—"Y carw a ddywedir ei fod yn un o'r tair helfa gyffredin; yn gyntaf, am ei fod yn wychaf ac yn wrolaf anifail, y mae helwriaeth arno â bytheiaid ac â milgwn: yn ail, am ei fod yn rhanog rhwng pawb a ddel ato wedi ei ladd, cyn tynu ei groen oddi am dano; o blegid os bydd gwr ar ei daith yn dyfod heibio yr amser hwnw, efe a gaiff ran o hono wrth gyfraith cystal a'r neb a'i lladdo."—*Geir. Rich.*, td. 475. Cyfraith y Rhufeiniaid, wedi hyn, oedd gyffelyb; yr hon a orchymynai ar fod i bob creadur nad oedd neb yn ei berchen, megys anifeiliaid gwylltion, adar, pysgod, &c., i fod yn eiddo i bwy bynag a'u lladdai. Yn amser y Saxoniaid a'r Normaniaid, daeth helwriaeth i gael ei hystyried yn eiddo i'r mawrion a'r brenin-oedd. Llawer cyfraith waedlyd a luniwyd ganddynt i sicrhau y difyrwch hwn iddynt eu hunain. Yn nheyrnasiad William Rufus, a'r brenin Harri I., yr oedd lladd dyn yn llai o ddrwg na lladd carw, neu ryw anifail hela arall. Trodd helwriaeth yn ddifyrwch chwerw i William, er hyny; canys wrth hela yn y Fforest Newydd, gollyngodd un Walter Tyrrel saeth yn ddamweiniol oddi ar ei fwa, a lladdodd ef. Ond yn sefyllfa ddiwylliedig y wlad hon yn bresennol, ni all helwriaeth fod yn llawer o elw na difyrwch i neb. Y mae y carw, pa fodd bynag, wedi myned bron yn estron yn y tir. Nid yw byth i'w weled yma yn ei sefyllfa gyntaf. Y mae ambell un, dan yr enw "carw coch," i'w ganfod yn awr ac eilwaith yn mharciau y boneddwyr; ond gan fod y cig mor ddrwg, a'r anifail yn fynych mor ddyhir yn amser ymread, y maent yn dyfod yn barhaus yn fwy anghyffredin. Dywed awdwr y *Menageries*, fod fforest Athol, yn yr Alban, yr hon a gynnwys yn agos i gan mil o erwau Seisonig o dir, yn cael ei gadael yn gwbl i'r ceirw; ac na oddefir i un dyn, na dynes, na phlentyn, na dafad, nac ych i fyned iddi, ond yr helwyr yn unig. Y mae rhai ceirw, pa fodd bynag, yn eu cyflwr gwyllt, ar derfynau Cernyw a Dyfnaint, ac yn y mynyddoedd uchel yn yr Iwerddon, ac mewn rhai parthau o'r Alban.

Mathau ac amrywiaethau y carw sydd dra lluosog; ond ni fanylir arnynt yma, gan y ceir achlysur i nodi rhai o honynt dan wahanol enwau yn nghorff y gwaith hwn. Y math a ganfyddir yn China, sydd fychan—maint ei cyffredin: ystyrir y cig yn rhagorol dda. Yn Corsica, nid yw y carw ond tua hanner maint yr un a geir yn ein gwlad ni. Yn yr Almaen, y mae un a alwai yr henafiaid yn *tragelephus*, ac a elwir yn awr gan bobl y wlad yn garw gwineu. Y mae lliw hwn yn llawer tywyllach na'r carw cyffredin, a blew hirion ar ei war a than ei wddf: ymddengys yn farfog fel yr afr. Y mae un arall, a elwir gan Pliny yn *axis*, yr hwn, efallai, sydd amrywiaeth rhwng y carw a'r bual. Y mae iddo bedwar o liwiau gwahanol; sef gwineu-goch, gwyn, du, a llwyd; ac ar hyd y cefn y mae dwy res o ysmotiau gwynion rheolaidd, ac ereill afreolaidd dros y corff i gyd. Y mae y gynffon yn fer, a blew hirion, chwe modfedd o hyd, yn ei gorchuddio. Y mae ychydig o amrywiaethau hefyd yn America, yn neilduol yn Mexico, Canada, a manau ereill.

Nid ychydig o anhawsder sydd i benderfynu y mathau a'r amrywiaethau y cyfeirir atynt dan wahanol enwau yn yr Ysgrythyrau. Ond wrth sylwi yn fanwl ar dystiolaethau haneswyr, ac ymchwiliadau naturiaethwyr diweddar, gellir bod agos yn sicr mai yr un creadur a feddylir ynddynt wrth y carw, a'r un a adnabyddir wrth yr enw genym ni. Tybiodd y Dr. Shaw, Syr J. G. Wilkinson, ac ereill, yn wahanol; a hyny am yr ammheuent a oedd cilgnoaid, yn meddu cyrn syrthiadol cangenog, i'w cael yn y de-orllewin i Asia a'r Aipht. Bu Cuvier hefyd, am ryw hyd, yn ammheu a oeddynt i'w cael yn Affrica, er fod Virgil yn cyfeirio atynt yno. Y mae yn sicr nas gallant fod yn lluosog mewn gwlad lle mae dwfr yn brin; ond y mae mor sicr a hyny eu bod i'w cael o Morocco hyd y Nile; ac nid oes ammheuaeth, dybygid, nad oes math Asiaidd o honynt yn adnabyddus yn Syria, yr hwn gynt oedd yn fwy cyffredin yno.

Un math y gall fod cyfeiriad ato ydyw y *Cervus Barbarus*, neu garw Barbary, yr hwn, o ran maint, sydd rhwng ein carw a'n bual ni. Y mae yn ol o'r ail gangen ar y corn, ac yn frith ei liw; a dyna yr holl wahaniaeth. Credir mai hwn ydyw *igial* neu *ajal* yr Arabiaid, yr hwn, meddant hwy, sydd yn bwyta pysgod, lyzardiaid, a nadroedd. Dywedir yr un peth am geirw Virginia a Mexico. Dichon mai hwn hefyd ydyw *axis* Pliny, a nodwyd yn barod; yr hwn, fel y tybia Buffon, sydd gynhenid o Affrica. Y mae cerfiadau o'r math hwn yn aml ar hen gofgolofnau yn yr Aipht. Gwelir ef hefyd yn bresennol yn llynau y Natron, i'r gorllewin o'r Nile, ac yn yr anialwch o du y dwyrain i'r Môr Coch. Y math arall ydyw y *Cervus Persianus*, neu garw Persia, neu *Maran* y cenedloedd Tahtaraidd, a *Gewayen*

Digitized by Google

yr Armeniaid. Y mae hwn eto ychydig yn fwy. Y mae iddo fwng cryf, ac y mae yntau hefyd heb yr ail gainc a welir ar gorn y carw Europeaidd. Tybir mai y math hwn ydyw *soëgur* Twrci yn Asia, a *mara* yr Arabiaid; ac felly, yr oedd yn byw ar ymylon y coedwigoedd rhwng Syria a Phalestina. Yr oedd un, neu y ddau fath yma, wedi eu cyssegru i'r *bona dea*, yn mynydd Libanus, yr hyn sydd brawf tebygol o leiaf fod ceirw yn adnabyddus yn y gymmydogaeth. Ond gwel Ewig; Iwrch; Hydd, &c.—(*Buffon's Nat. Hist.; Dr. Shaw; Strav.; Cope's Nat. Hist.; Kitto's Bib. Cyc.; Pliny's Hist. Nat.; Gold.'s Anim. Nat.*, &c.)

CAS—AU—EION—INEB, [*cy—as*]: dygasedd, cilwg, cenfigen, malais. Y gwrthwyneb i gariad. Nid ydys i ddeall y gair "casau" bob amser yn ei ystyr cryfaf. Nid ydyw mewn rhai manau yn arwyddo mwy na charu un gwrthddrych yn llai na'r llall, megys yn *Deut.* xxi. 15; "Pan fyddo i ŵr ddwy wragedd, un yn gu ac un yn gas;" *h. y.*, un yn anwyl, ac un heb fod mor anwyl. Dywed Iesu Grist fod yn rhaid i'r hwn a'i canlyno ef "gasau ei dad a'i fam, ei wraig a'i blant, ie, a'i einioes ei hun hefyd;" *Luc* xiv. 26. Y mae yn eglur na feddylir casineb gweithredol yma, o blegid yr oedd Iesu Grist ei hun yn esampl i'r gwrthwyneb (*Ioan* xix. 25, 27). "Y casau yma," medd Alford, "ydyw y teimlad *cyffredinol*, nid *personol*, o ymddyeithriad; fel nad yw perthynasau y byd hwn, yn eu cyssylltiad âg ystad pethau yn y byd hwn, yn gartref a gorphwysfa i'r galon." Yr un yw y meddwl yn *Rhuf.* ix. 13; "Iacob a gerais, eithr Esau a gaseais." Yr ystyr, medd Hodge, yw, fod Duw wedi dewis y naill yn hytrach na'r llall. Gan mai dyma y drychfeddwl a fwriedir ddangos, y mae yn amlwg mai ystyr y gair casäu ydyw caru yn llai. Fel hyn (*Gen.* xxix. 33) dywed Leah ei bod yn gas gan ei gwr; tra yn *adn.* 30, y dangosir yr un meddwl trwy ddywedyd fod "Iacob yn hoffi Rahel yn fwy na Leah."

Priodolir casineb i Dduw; ond nid yw yn nwyd ynddo ef fel mewn dynion; ac nid yw yn casäu neb o'i greaduriaid fel y cyfryw. Y mae efe yn casäu cymmeriadau: megys y drygionus (*Salm* v. 5); "Cascaist holl weithredwyr anwiredd."

CASIDIM, CHASIDIM, neu *Dduwioliaid:* sydd blaid Iuddewig led ddiweddar. Nid yw i'w chamgymmeryd am y blaid a gymmerodd yr un enw yn amser y Maccabeaid, ac a enwogodd ei hun trwy ei hymroddiad yn amddiffyn y sefydliadau cenedlaethol. Cyfododd y blaid hon yn Podolia, talaeth berthynol i Rwssia Bwylaidd, yn agos i ddiwedd y deunawfed canrif. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'w daliadau gan Israel Loebel, mewn cylchgrawn o'r enw *Salometh*, cyhoeddedig yn Dersau. Sylfaenydd y blaid oedd Israel, rabbi Iuddewig yn Miedzyvors. Dysgrifir ef fel dyn tra uchelgeisiol, o ymddangosiad rhithsanctaidd a difrifol, ac yn proffesu dal cymundeb agos â'r byd ysbrydol. Chwanegodd at yr enw Israel, Baalsham, neu, "meddiannydd enw Duw." Yn ystod ugain mlynedd, ymdaenodd ei glod i'r fath raddau fel yr ennillodd nifer mawr o ganlynwyr, nid llai na deugain mil, medd rhai, yn Poland, Moldavia, a Wallachia. Hònai y rabbi fod ei enaid ar amserau yn ymadael â'i gorff, i'r dyben o dderbyn dadguddiadau yn myd yr ysbrydoedd, a'i fod wedi ei gynnysgaethu â gallu gwyrthiol, trwy yr hwn yr oedd yn abl i reoli dygwyddiadau yn y byd naturiol a meddyliol. Edrychai ei ganlynwyr ato ef am faddeuant o bob trosedd. Addysgid hwy i ymgadw rhag pob ymchwiliad i, a myfyrdod ar, athrawiaethau crefydd; ac i ddysgwyl ymddangosiad ebrwydd y Messiah. Y mae cyhuddiadau Loebel yn eu herbyn am anfoesoldeb ac afreoleidd-dra yn cael eu gwadu gan rai, a'u gosod allan fel yn cyfodi oddiar ragfarn at y blaid; ond y mae yn fwy tebyg eu bod yn eithaf gwirionedd: a sicrheir gan un a feddai fantais helaeth i wybod am danynt, fod eu moesau yn gywilyddus, ac nad oes un gradd o ormodiaith yn narluniadau Loebel. Dywedir fod traethodau a ysgrifenwyd gan rai o ddynion blaenaf y blaid yn llawn o syniadau llygredig ac anfoesol. Talent barch mawr i'w rabbiniaid, y rhai a anrhydeddent â'r enw *Zadiks*=cyfiawnion. Rhoddwyd iddynt yr enw *Jewish Jumpers*, o herwydd eu hystumiau afreolaidd yn eu gwasanaeth cyhoeddus. Gweithient eu hunain i deimladau uchel, torent allan mewn chwerthin mawr, curent eu dwylaw, a neidient ar hyd y synagog fel gwallgofiaid. Troent eu llygaid tua'r nef, a chauent eu dyrnau, fel pe baent yn bwgwth yr Hollalluog am attal oddi wrthynt yr hyn a geisient. Mewn canlyniad i'r cyhuddiadau a ddygid yn eu herbyn o gefnogi llygredigaeth, gwaharddodd ymherawdwr Awstria iddynt ymgyfarfod. Erbyn hyn y mae yn anhawdd cael hanes am danynt.

CASIPHIA. *Ezra* viii. 17. Ar ei ddychweliad i Iudea, anfonodd Ezra orchymyn at Ido, penaeth yn y fan a elwir Casiphia, neu Chasiphia. Barna Calmet, mai mynydd Caspius, yn agos i'r Môr Caspiaidd, rhwng Media a Hyrcania, y lle y trigai lluaws o'r gaethglud, ydoedd y fan hon. Ond nid ymddengys y dyb hon yn debygol, o blegid yr oedd y lle hwn yn rhy bell iddynt i allu myned a dychwelyd yn yr amser a nodir: *pen.* x. 9; a viii. 15, 31. Diammheu mai rhyw le mewn talaeth Fabilonaidd, y lle y trigai nifer o'r Leflaid, ydoedd.

CASSANDRA: merch Priam a Hecuba. Syrthiodd Apollo mewn cariad â hi, ac addawodd roddi iddi pa beth bynag a ofynai, ar yr ammod iddi foddhau ei geisiadau. Gofynodd hithau am y gallu i wybod dygwyddiadau dyfodol; ond mor gynted ag y derbyniodd y ddawn, gwrthododd gyflawnu ei haddewid. Y duw, yn ei siomiant, a wlychodd ei wefus â'i dafod, a thrwy hyn a barodd na roddid coel gan neb yn ei rhagfynegiadau, er iddynt fod yn wirionedd. Barna rhai chwedlonwyr iddi dderbyn y ddawn brophwydol gyda'i brawd Helenus, trwy gael eu dodi pan yn ieuanc yn nheml Apollo am noswaith, lle y gwelwyd seirff yn cordeddu am eu cyrff, ac yn llyfu eu clustiau, yr hyn a roddes iddynt olygiad i'r dyfodol. Edrychai y Groegiaid arni yn anmhwyllog. Cerid hi gan lawer o dywysogion yn ystod rhyfel Caerdroia. Cymmerodd Agamemnon hi yn wraig, a dygodd hi i dir Groeg. Rhagfynegodd iddo lawer gwaith am y dinystr a'i goddiweddai ar ei ddychweliad, ond ni roddai un coel yn ei hymadroddion. Lladdwyd ef gan Clytæmnestra ei wraig, a chyfarfyddodd Cassandra â'r un dynged.

CASSIA, CASIA: yn ol yr Hebraeg, *Cetsioth.* Bernir fod yr enw yn deilliaw o'r gair קצעה=*tori ymaith;* a dynoda felly "darnau," neu "ranau wedi eu tori." Crybwyllir am cassia mewn tri o fanau (*Exod.* xxx. 24; *Ezec.* xxvii. 19; *Salm* xlv. 8), mewn cyssylltiad â myrr, sinamon,

Digitized by Google

calamus peraidd, ac aloes. Y maent oll yn sylweddau peraroglaidd; ac oddi eithr myrr, yr hwn a geir o Affrica, yn gynnyrchion perthynol i'r India. Y mae felly yn debygol fod cassia yn ddefnydd o natur gyffelyb, ac i'w gael o'r un wledydd. Heb law y gair קציעות=*cetsioth*, y mae y gair arall, *cidda*, yn cael ei gyfieithu "cassia." Cyfieithir y cyntaf i luaws o eiriau; megys, cassia, aloes, acacia, amber. Dywed Kitto (d.g.), ei fod yn dwyn perthynas â *coost* yr Arabiaid, a *costos* (κοστος) y Groegiaid. Cyfrifir y *costos* yn mysg y peraroglau a ddefnyddid i wneuthur enaint. Dywed Dioscorides, fod tri math o hono; y goreu o'r tri ydyw yr un Arabaidd; yr ail, yr un Indiaidd; a'r trydydd, yr un Syriaidd. Ni chrybwylla Pliny am ond dau.

"Arogl myrr, aloes, a chassia, sydd ar dy wisgoedd:" *Salm* xlv. 8. Yn ol yr Hebraeg—"Myrr, aloes, a chassia, ydyw dy holl wisgoedd." Aroglant mor beraidd o'r pethau hyn a phe buasent wedi eu gwneyd o honynt. Byddai gwisgoedd breninoedd a thywysogion yn cael eu tryliwio â pheraroglau drudfawr; a gwisgoedd yr archoffeiriaid a eneinid â'r enaint sanctaidd. Yr oedd cassia yn werthfawr iawn yn ngolwg yr henafiaid: ond wedi i sinamon ddyfod i arferiad cyffredin, aeth cassia yn llai gwerthfawr ganddynt. Y mae yn dewach a mwy garw na sinamon; ond gan ei fod yn rhatach na sinamon, arferir ef yn ei le, neu yn lle y ddarpariaeth a elwir olew sinamon.

CASSIUS, CAIUS LONGINUS: trysorydd Crassus yn y rhyfelawd yn erbyn y Parthiaid, c. c. 53. Rhagwelodd ganlyniadau yr ymgyrch i Mesopotamia; a rhybuddiodd y cadlywydd o honynt, ond yn ofer. Blaenorai ystlys o'r fyddin Rufeinig yn y frwydr y gorchfygwyd hwynt; ac yn eu gwaith yn cilio yn ol o Carrboc, canfyddodd fradwriaeth yr arweinwyr, a chymmerodd ei ffordd ei hun gyda 500 o wŷr meirch, y rhai yn unig o'r fyddin a arweiniodd yn ddiogel yn ol i Syria. Ar ol dyfod i feddiant o lywyddiaeth y dalaeth, ennillodd fuddugoliaeth ar y Parthiaid, ac ymlidiodd hwynt y tu hwnt i'r Euphrates. Ar ddyfodiad y trafnoddwr Bibulus, c. c. 51, dychwelodd Cassius i Rufain, wedi ennill trwy ei ymddygiad barch mawr. Yn mrwydr Pharsalia, c. c. 48, yr oedd dan Pompey, yn llywyddu llynges yn yr Hellespont. Cafodd gyfleusdra i gymmeryd Cæsar yn garcharor; ond yn lle gwneyd hyny, trwy anghallineb neu fradwriaeth, rhoddes ei hun i fyny i Cæsar, ac aeth i'w ochr ef. Efe oedd y blaenaf yn y fradwriaeth yn erbyn Cæsar, a'r offeryn i ddwyn Brutus, chwaer yr hwn a briodasai, i'r fradwriaeth. Derbyniasai lawer o ffafrau gan Cæsar, a gwnaed ef yn llywydd ar Syria. Ceisiodd Antony ei amddifadu o'r anrhydedd hwn, a llwyddodd i ennill llais y bobl o blaid Dolabella. Pan glywodd Cassius hyn, cynnullodd fyddin, ac ennillodd oruchafiaeth ar Syria, Phœnicia, ac Iudea; a phan oedd ar fin goresgyn yr Aipht, derbyniodd orchymyn oddi wrth Brutus i ddychwelyd tuag Ewrop, i wrthsefyll y Triwyriaid (*Triumviri*); ymunodd â Brutus yn Sardis, aethant trwy Thrace i Macedonia, a chyfarfuant Antony ac Octavianus ar wastadedd Philippi. Yn y frwydr, llywyddai Cassius yr ystlys aswy, a gwrthwynebid ef gan Antony. Gorchfygodd Brutus ar y dde filwyr Octavianus, ac ymlidiodd hwynt o'r maes. Ond defnyddiodd ei fantais yn rhy bell, yr hyn a drodd yn rhwystr mawr i Cassius. Meddyliodd Cassius fod y cwbl ar ben gydag ef, a rhoddes derfyn ar ei fywyd. Wrth glywed am ei farwolaeth, anrhydeddodd Brutus ef â'r enw—"Y diweddaf o'r Rhufeiniaid." Cyfrifir ei fod yn faeslywydd da; yn well, medd Paterculus, na Brutus. Yr oedd hefyd yn ddyn tra dysgedig. Y mae rhai o'i lythyrau ar gael yn mysg epistolau Cicero. O ran ei farnau athronyddol, perthynai i'r Epicuriaid. Yr oedd ei dymmer yn rhy fyrbwyll ac angerddol. Y diwrnod ar ol lladd Cæsar, yr oedd yn ciniawa yn nhŷ Antony, yr hwn a ofynodd iddo, a oedd ganddo y pryd hyny ddagr yn ei fynwes. "Oes," meddai yntau, "os ymgeisiwch chwi i lywodraethu yn orthrymus." Er ei fod yn proffesu ymlyniad mawr wrth y werin lywodraeth, eto ni ddiangodd rhag cael ei gyhuddo o lochi casineb dirgelaidd at Cæsar yn bersonol; ac yr oedd y dull diaymmwth y gadawodd achos Pompey yn anfanteisiol i'w gyfrif yn ddyn o gymmeriad cywir.

CASTALIA, neu CASTALIUS FONS: ffynnon yn Parnassus, gyssegredig i'r awenau. Yr oedd ei dyfroedd yn oerion a rhagorol, ac yn meddu y rhinwedd i gynnysgaethu y neb a yfai o honynt â'r ddawn farddonol. Derbyniodd yr awenau yr enw Castalidiaid oddi wrth y ffynnon hon.

CASTELL—U, [*cas;* Llad. *castellum*]. Amddiffynfa, tŵr, llystyn, adeilad o ddiogelwch. [Gwel AMDDIFFYNFEYDD.] "Angel yr Arglwydd a gastella o amgylch y rhai a'i hofnant ef;" *Salm* xxxiv. 7: Seis., "*encampeth round.*"

"Angel ein Duw a *dry yn gylch,*
O amgylch pawb a'i hofnant." *E. Prys.*

Tybir fod yma gyfeiriad at weledigaeth Iacob yn Mahanaim: *Gen.* xxxii. 1, 2.

"Fel y cyfyd eryr ei nyth, ac y *castella dros* ei gywion; *Deut.* xxxii. 11: Seis., "*fluttereth over.*" Y mae y gwrthwynebiadau sydd i'r efengyl yn cael eu galw (2 *Cor.* x. 4) yn "gestyll" (οχυρωμα). Arwydda yr amrywiol wrthwynebiadau, cyffelyb i amddiffynfeydd, y rhai a fwriedir ac a gyfaddasir i wrthsefyll gwirionedd yr efengyl. Y mae yr holl wrthwynebiadau hyn wedi eu hadgyfnerthu, fel cestyll. Y mae pechodau y galon yn cael eu cryfhau trwy fyw yn hir ynddynt. Mae drygioni y byd y mae yr efengyl yn ymosod arno yn cael ei gryfhau gan y ffaith o'i fod wedi cymmeryd gafael yn nwydau cryfion y natur ddynol. Yr oedd eilunaddoliaeth y byd yn cael ei adgyfnerthu gan hen ragfarnau, amddiffyniad cyfreithiau, a gallu yr offeiriadaeth; ac y mae camsyniadau y byd yn cael eu cefnogi gan athroniaeth a gamenwir felly. Y mae yr holl fyd fel castell wedi ei adgyfnerthu yn erbyn Cristionogaeth. Ond y mae arfau y ffilwriaeth Gristionogol, "y rhai nid ydynt gnawdol, trwy Dduw yn nerthol i fwrw y cestyll adgyfnerthedig i'r llawr."

CASTE: dosbarth o bobl y rhai y mae eu breintiau yn dyfod iddynt yn etifeddol. Y mae y gair yn dyfod o'r gair Portugiaidd *casta*, ac a gymhwyswyd gan orchfygwyr India y Dwyrain at y teuluoedd Indiaidd; y rhai y mae eu gorchwylion, eu harferion, eu breintiau, a'u dyledswyddau yn etifeddol. Cymhwyswyd y gair hwn rai gweithiau at y dosbarth pendeflgaidd yn Ewrop; a lleferir am ysbryd, neu freintiau, neu drawsfeddiannau y *caste*, i ddynodi y wedd hono ar gymdeithas, sydd yn gwneyd i hynodrwydd ddibynu ar amgylchiadau haniad a'r cyffelyb.

Digitized by Google

Y mae dosbarthiad trigolion yr hen fyd i *gastes* gwahanol wedi dygwydd mor fore fel nad yw hanesiaeth yn taflu goleu arno. Dichon bod y *castes* gwahanol ar y cyntaf yn llwythau gwahanol.

Y mae *castes* yr Hindwaid yn bedwar dosbarth, y rhai a ddywedir ydynt wedi deilliaw o ben, calon, clun, a thraed y duw mawr Brahmah.—1. Y dosbarth Brahminaidd, neu gyssegredig; sef yr offeiriaid, y rhai ydynt hefyd eu hathronwyr a'u llenorion. 2. Y dosbarth milwraidd, neu ddiffynawl; a elwir yn gyffredin y *Sittri*, oddi wrth *Chatriya*, diffynwyr rhag drwg. 3. Dosbarth y *Beise*, yn cynnwys marsiandwyr ac amaethwyr; y rhai a ystyrir, yn ol eu henw, fel maethwyr y wladwriaeth. 4. Y *Sudras*, y rhai a ddeilliasant o draed Brahmah, ydynt weision i'r dosbarth uchaf; gweithwyr cyffredin. Y mae hefyd amryw ddosbeirth ereill, y rhai a wnaed trwy briodasau cymmysgedig; ac yn ddiweddaf, yr *Hari*, neu yr esgymun, y rhai a gaseir ac a ddiystyrir gan y dosbeirth ereill.

CASTOR A POLUX: yr enw cyffredin arnynt gan scryddwyr ydyw "Gefeilliaid." Y mae y ddwy seren yma yn drydydd o'r deuddeg arwydd yn nghylchdro blyneddol yr haul. Castor a Polux oedd arwydd y llong o Alexandria, gyda'r hon y mordeithiai Paul o Melita i Rufain: *Act.* xxviii. 11. Gwelir ei bod yn arferiad gynt, fel y mae eto, i roi enwau rhyw enwogion a gwroniaid ar y llongau a'r peiriannau, er eu hanrhydeddu. Y mae y traddodiadau a geir oddi wrth baganiaid y cynoesau yn nghylch Castor a Polux yn llawn o hygoeledd a digrifwch, ac mewn gwisg eithaf baganaidd, er fod ynddynt addysg i ninnau, ar y rhai y daeth terfynau yr oesoedd. Dywedir mai meibion Jupiter ydynt, o Leda a Tyndareus, brenin Lacedæmon. Pan oedd Leda yn ymdrochi yn afon Eurotas, sylwodd Jupiter arni, a hoffodd hi: ymffurfiodd yn union yn alarch prydferth, ac aeth ati ar ddyfroedd yr afon. Y canlyniad o hyn fu, i Leda ymddwyn ar wy; ac allan o'r wy hwnw y daeth Castor a Polux, â hanner y plisgyn am ben un, a'r hanner arall am ben y llall. Yn fuan ar ol hyn, fe'u cymmerwyd i Pallene i'w haddysgu, gan y credid fod rhyw fawredd yn perthyn iddynt, gan eu bod yn dal perthynas mor agos â'r duwiau. Wedi iddynt addfedu mewn dyddiau, a chael eu perffeithio mewn dysgeidiaeth, daethant allan i'r byd fel gwroniaid i gyflawnu gorchestion.

Hynodir hanes eu gyrfa ddaiarol gan y tri amgylchiad neilduol a ganlyn:—1. Eu hymgyrch yn erbyn yr Atheniaid. Cymmerwyd eu chwaer Helena ymaith, pan oedd yn ddeg oed, gan Theseus, brenin Athen, o herwydd ei glendid a'i thegwch anghymharol. Ar hyn, teimlodd y ddau frawd; ac yn eu sel a'u ffyddlondeb, aethant yn arfog i'w dwyn yn ol: a llwyddasant i'w chael adref i Sparta yn ddihalog. Cododd hyn eu henwau yn fawr. 2. Eu hymgyrch Argonautaidd. Aethant hwy, ac amryw ereill, i ymofyn am "gnu auraidd" yr hwrdd a dybient hwy oedd yn crogi ar dderwen yn llwyn Ares yn Colchis. Yn ystod yr ymgyrch hwn, daeth yn ystorm enbyd arnynt; ac yn nghanol yr ystorm a'r dymmestl, gwelid dwy fflam dân yn chwareu o amgylch penau meibion Leda—ac yn y fan, tawelai y dymmestl. Credai pawb, wedi hyn, eu bod yn meddu gallu ac awdurdod i daweiu y gwyntoedd. Yn gyssylltiedig â'r traddodiad hwn, y rhoddid eu henwau ar y goleuni a welid weithiau yn dilyn y llongau ar y môr; ac at Castor a Pholux y cyfeirid gweddïau gan y morwyr mewn peryglon yn eu mordeithiau. 3. Eu hymladdfa gyda Lynceus ac Idas, meibion Aphareus. Yr oeddynt wedi dyfod i gydlawenhau â meibion Aphareus ar ddydd eu gwyl briodasol. Ond yn lle helaethu eu llawenydd, cawsant chwerwi eu hysbryd, trwy iddynt geisio dwyn eu gwragedd oddi arnynt. Aeth yn ymladd caled rhyngddynt, a lladdodd Castor Lynceus, a lladdwyd yntau gan Idas; a dialodd Polux waed ei frawd trwy ladd Idas. Ac fel yr oedd mewn undeb anfarwol a thyner â'i frawd, erfyniodd ar Jupiter am naill ai adfer ei fywyd i Castor, neu gymmeryd ymaith ei anfarwoldeb yntau hefyd. Caniataodd Jupiter i Castor gael rhan o anfarwoldeb Polux, fel yr oeddynt wedi hyn yn byw ac yn marw bob yn ail—bob yn ail dydd, medd rhai; bob yn ail chwe mis, medd ereill. Er gwobrwyo eu cariad a'u ffyddlondeb y naill tuag at y llall, gwnaeth Jupiter y ddau yn gydser yn y nef, o dan yr enw gefeilliaid (*gemini*). Pan y bydd un yn ymddangos, y mae y llall yn myned o'r golwg. Derbyniodd y ddau hyn anrhydedd dwyfol gan drigolion Sparta. Adnabyddwyd arwydd y gefeilliaid, yn ol Heverius, yn y flwyddyn 1700: eu lledred gogleddol yw 10° 4′ 23″; a'u hydred o arwydd y Cranc yw 17° 4′ 14″. —(*Dr. W. Smith's Biog. & Myth. Dict.; Calmet's Dict.*)

CATABAPTISTIAID, [*Gwrthfedyddwyr*], yw yr enw a roddir ar y rhai a wrthwynebant fedydd, fel ordinhâd nad yw mewn grym mwyach yn yr eglwys; neu y rhai a ddaliant nad yw i'w gweinyddu ond yn unig ar ddychweledigion oddi wrth grefydd arall at Gristionogaeth. Gwel BEDYDD.

CATAPHRYGIAID, [*Cataphrygians*]: enw a roddid ar blaid o gyfeiliornwyr a gyfododd yn yr ail canrif, dan ddysgeidiaeth un Montanus o Phrygia.

CATAW = CADO: ydoedd fab i Geraint ab Erbin, tywysog Dyfnaint, ac un o saint Ynys Prydain. Yr oedd yn aelod o goleg Garmon, a chofrestrir ei enw yn y *Trioedd* fel un hynod am ei ddoethineb. "Tri dyn a gavas ddoethineb, Addav, Cado hen, a Beda, a Sibli ddoeth; cyn ddoethed oeddynt ag Addav ei hun."—*Myv. Arch.*, ii. 2. Yr oedd y sant hwn yn byw yn y chweched canrif.

CATECISM. Gwel HOLWYDDOREG.

CATO, sef "Y Doeth;" ac a elwid hefyd "Cato Fawr;" oedd gyfenw a roddid i Marcus Porcius Priscus, a anwyd c. c. 234. Yr oedd yn hanu o deulu cyfrifol yn Tusculum, a threuliodd ei flyneddoedd boreuaf ar dyddyn a dderbyniasai yn etifeddiaeth ar ol ei dad; ond, fel Rhufeinwr, yr oedd dan orfodaeth i fyned i'r fyddin pan yn ddwy flwydd ar bymtheg oed; ac felly dechreuai ei rawd milwraidd yn yr un flwyddyn ag yr oedd Hannibal yn anrheithio gogledd yr Eidal, wedi brwydr Trebia, c. c. 217. Canfyddwn ef wedi hyny yn gwasanaethu dan Fabius, yn nghymmeriad Tarentum, c. c. 209; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, enwogodd ei hunan yn y frwydr hygof a ymladdwyd ar lanau y Metaurus, yr hon a drodd allan mor andwyol i frawd Hannibal. Yr oedd efe yn nodedig am ei gymmedroldeb, gan nad yfai un amser ddim ond

Digitized by Google

dwfr, a'i fod yn foddlawn ar yr ymborth mwyaf dysyml yn wastad. Yr enw uchel a ennillasai am ei ddiwydrwydd a'i gymmedroldeb, fel tyddynwr, ac fel milwr, yn gystal a'r synwyr cryf a amlygai yn ei ymddyddanion cyffredinol, fel y trysorid ei ddywediadau gan ei gydnabod fel gwirebau doethineb, a dynodd sylw pendefig Rhufeinaidd ieuanc o'r enw L. Valerius Flaccus, yr hwn a wnaeth iddo symmud i Rufain, a dyfod yn ymgeisydd am swyddogaeth ddinesig; ac yn fuan, efe a ddewiswyd i weinyddu rhai o'r swyddi uchaf yn y llywodraeth. Yn y flwyddyn c. c. 204, llanwai y swydd o drysorydd gwladol; ac efe a benodwyd i ymuno â'r fyddin oedd ar gael ei thywys gan Scipio, o Sicily i Affrica; ond afradlonedd erfawr y maeslywydd a roddai y fath dramgwydd i syniadau cynnilwedd Cato, fel y dychwelodd efe i Rufain; ac wedi cymmeryd ei sedd yn y gynghorfa wladol, i'r hon y meddai hawl ar gyfrif ei swydd, efe a ardystiai fod ymddygiad Scipio yn andwyol i ddysgyblaeth y fyddin. Wedi dringo trwy luaws o ddyrchafiadau yn y fyddin ac yn y wladwriaeth, etholwyd ef yn seniadur (*censor*) yn y flwyddyn y bu farw Plautius, sef c. c. 184; a Valerius ydoedd ei gydleniadur; a gwnaed tymmor ei seniadwriaeth yn nodedig, trwy y manylrwydd â'r hwn y gweinyddai Cato ddyledswyddau pwysig y swydd. Yr oedd efe erbyn hyn yn hanner can mlwydd oed, a bu dros ddeng mlynedd ar ugain yn llanw lle pwysig iawn yn y wladwriaeth; ond, ei ymosodiad diarbed ar gamweddau y pendefigion a gyfodai lawer o elynion iddo; ac efallai na bu un Rhufeinwr erioed yn gorfod amddiffyn ei hun yn erbyn mwy o erlyniadau cyhoeddus na Cato; a hyd yn oed pan oedd yn 81 mlwydd oed, bu raid iddo ei amddiffyn ei hun yn erbyn achwyniad a ddygid i'w erbyn, heb un sail iddo ond malais ei elynion; ac ar yr achlysur hwnw y dywedai efe, mor greulawn oedd, ei fod ef wedi treulio ei oes gyda gwŷr un genedlaeth, yn gorfod amddiffyn ei hun yn erbyn cenedlaeth arall! Ond ni pharai y cyfryw ymosodiadau maleisus un radd o lwrfdra ar ei feddwl; canys, pan warthruddodd Sergius Galba ei wlad, trwy lofruddio y Lusitaniaid, wedi rhoddi o honynt eu harfau i lawr ar ammodau, ac ei gwysiwyd i ymddangos ger bron y frawdlys yn Rhufain o'r herwydd, canfyddwn enw Cato wedi ei danysgrifio fel un o'r erlynwyr, a deallwn ei fod wedi cymmeryd rhan fywiog yn yr erlyniaeth. Efe a fu farw yn ebrwydd wedi y prawf hwn, yn 85 mlwydd oed, yn y flwyddyn c. c. 149. Efe a ennillodd iddo ei hunan enwogrwydd mawr, fel milwr llwyddiannus, gwladweinydd cyflawn a galluog, amaethwr diwyd a chelfyddgar, areithiwr hyawdl, ac fel hanesydd medrus.

CATTAH, neu CATTATH: enw un o'r dinasoedd a berthynai i lwyth Zabulon: *Ios.* xix. 15.

CATWG (Ddoeth): a elwir hefyd Cadog, ab Gwynlliw Filwr, arglwydd Gwynllwg ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg, ydoedd un o saint Ynys Prydain, ac abad yn Llancarfan, yn Morganwg. Ganwyd y sant hwn rywbryd yn y pummed canrif; a bu farw, meddir, yn ei fynachdy yn Llancarfan, yn llawn gant ac ugain mlwydd oed. Catwg oedd yr henaf o feibion Gwynlliw, a thrwy hyny efe oedd yr etifedd cyfreithlawn i teddiannau ei dad, y rhai oeddynt dra helaeth, yn cyrhaedd, meddir, o'r afon Taf hyd yr afon Wysg, neu yn ol hen ysgrif a fu yn meddiant un Watcin Giles o Langan, o'r "afon Wysg yn Ngwent, hyd yr afon Elerch, neu y Rhymi fawr, yn Morganwg." Ond yn hytrach na chymmeryd meddiant o'r bendefigaeth, Catwg a farnodd yn oreu ei gadael rhwng ei frodyr, a chyssegru ei hun i fywyd o fyfyrdod a chrefydd, yn yr hyn y daeth mewn amser yn dra enwog.

Tua'r pryd hwn yr oedd yr eglwys yn Mrydain mewn cryn drallod yn achos yr heresiau a'r cyfeiliornadau a ymosodent arni. Prin y cafodd anadlu ar ol ei rhyfeloedd yn erbyn Arius, nad oedd Pelagius neu Morgan, mewn cyssylltiad â Gwyddel o'r enw Celestius, yn prysur ddysgu athrawiaethau peryglus a dinystriol yn mhlith y bobl. Yn ngwyneb hyn, teimlodd yr ychydig ddynion a ymlynent wrth y gwirionedd nad oedd un o honynt hwy yn gymhwys o ran dysg na dawn i sefyll yn eu herbyn; a daethant i'r penderfyniad i anfon eu cwyn at eu brodyr yn nhir Gâl, ac i erfyn am eu cynnorthwy. Mewn canlyniad i'r cais hwn, cyfarfyddodd yr esgobion yn Ffrainc, mewn cymmanfa gyffredinol, i ystyried beth oedd oreu i'w wneyd, ac anfonasant Garmon ab Rhedyw, ewythr Emyr Llydaw, esgob Altissiodorum (Auxerre), a Bleiddian (Lupus), esgob Tricasses (Troyes), drosodd i'r wlad hon fel y dynion mwyaf cymhwys i ymgymmeryd â'r gorchwyl. "Y ddau genad dysgedig yma, wedi tirio yn Mhrydain, yr hyn a wnaethant o gylch y flwyddyn B. A. 429, a ddechreuasant bregethu y gwirionedd yn mhob ardal o'r wlad, yn y dinasoedd a'r pentrefydd, ac yn y mynyddau a'r lleoedd neillduedig, gan gael eu gwrandaw gyda'r parodrwydd mwyaf gan dorfeydd lluosog o bob gradd. Ac wedi cyfarfod â'u gwrthwynebwyr mewn cymmanfa gyhoeddus yn Verulamium (St. Albans), hwy a'u gorthrechasant mewn dadleuaeth, ac a lwyr ddymchwelasant eu gau athrawiaeth." Ymddengys i'r ymweliad hwn o eiddo Garmon fod o lawer o les, gan y dywedir i "lawer o'r Morganiaid gael eu dwyn i gofleidio y gwirionedd, ac i'r iawn ffyddiog gael eu cadarnhau a'u cysuro trwy eu hathrawiaeth hwynt."

Ar ol hyn, Garmon, yn gweled ei waith yma wedi ei orphen, a ddychwelodd gyda'i gyfaill yn ol i'w wlad ei hun; ond nid hir y buwyd heb ei gyrchu yma yr ail waith. Wedi dyfod drosodd y tro hwn, gwelodd Garmon gildynrwydd y Morganiaid mor fawr fel y gwan obeithiodd eu hargyhoeddi trwy reswm a phwyll, ac heb ystyried fod gan bob dyn hawl i'w farn fel creadur cyfrifol i Dduw yn unig, efe a lwyddodd trwy gydsyniad cyffredinol i'w halltudio allan o'u gwlad; canys dyma fel y dywedir gan Constantius, yn ei *Vita Germani*, "Omniumque sententia pravitatis auctores expulsi ab insula." Gwedi alltudio y Morganiaid o'r ynys, a phenodi esgobion uniawngred yn eu lle, cafodd yr eglwysi yn Mhrydain lonydd am dymmor gan yr heresi Forganaidd. Ond fel rhagddarpariaeth gogyfer âg unrhyw ymosodiadau dyfodol, "Garmon, yn gwybod mai anwybodaeth oedd gwreiddyn yr holl annhrefn ag oedd y pryd hyny yn eglwysi Prydain, ac yn brofiadol o ddefnyddioldeb dysgeidiaeth i eangu ac arddercho gi y cynneddfau dynol, a chynnorthwyo gweinidogion Crist i ddeall yr Ysgrythyrau, ac amddiffyn gwirioneddau yr efengyl, a benderfynodd osod athrofäau i fyny mewn amrywiol leoedd yn Nghymru, fel ag y byddai i wŷr ieuainc gael eu hyfforddi mewn duwinyddiaeth, ieithoedd, a'r celfyddydau, ac eglwysi Cymru gael athrawon

Digitized by Google

duwiol a dysgedig, yn medru iawn ddosbarthu gair y gwirionedd, a sefyll yn ddiysgog dros burdeb athrawiaeth a dysgyblaeth yr efengyl."

I'r dybenion hyn, aeth Garmon yn nghyd â'r gorchwyl o adgyweirio hen athrofa Caer Worgorn, a ddystrywiasid gan y Gwyddelod yn amser Padrig, a gosododd Illtyd, ei nai, yn ben rhaith ynddi; am hyny y galwyd hi yn Fangor Illtyd, ac wedi hyny Llanilltyd Fawr (Lantwit Major). Heb law hyny, sefydlodd Garmon athrofa enwog arall yn Llancarfan, neu Llanfeithin, yn sir Forganwg, a gwnaeth Ddyfrig Beneurog (Dubricius), gŵr dysgedig a duwiol o Abergwaun, yn ben rhaith yn hono. Yr oedd Dyfrig yn trigiannu y pryd hwn yn y Garnllwyd, ac y mae ffynnon yn y lle hwnw, a elwir "Ffynnon Ddyfrig," hyd y dydd heddyw. Wedi cyflawnu ei swydd yn ffyddlawn fel athraw am ryw dymmor, cafodd Dyfrig ei gyssegru gan Garmon yn esgob Llandaf, lle yr oedd eglwys Gristionogol er dyddiau Lleirwg, tywysog Siluria; ac yn ei le ef, dewiswyd Catwg yn ben yn athrofa Llancarfan, yr hwn a lanwodd y swydd er anrhydedd iddo ei hun, a lles dirfawr i achos rhinwedd a chrefydd, hyd ei fedd.

Tybir fod y sefydliadau addysgawl yn mhlith y Cymry yn y cyfnod hwn yn cyfranogi i raddau lled helaeth o elfenau yr athrofa a'r mynachdy, ac am hyny, defnyddir y ddau enw heb wahan yn aml yn yr hen ysgrifau i ddynodi yr un lle. Fel hyn, gelwir athrofa Llancarfan weithiau yn fynachdy; a phan y gwneir hyny, gelwir yr athraw yn abad. Enw priodol y lle y safai yr adeilad arno oedd Llanfeithin, a gelwir yr athrofa ar yr enw hwn yn gystal a'r llall. Ymddengys mai y sefydliad yn y lle hwn oedd y mwyaf pwysig ar y pryd yn Nghymru, a'i fod yn amser Catwg, yn neillduol, yn dra blodeuog. [Rhoddir ei hanes yn lled fanwl dan Bangor Catwg, cyf. i., td. 497, o'r gwaith hwn, yn nghyd â rhai esamplau o'r dull a ddefnyddid ynddi gan Catwg i gyfranu addysg yn td. 498]. Yr oedd Catwg yn cael ei ystyried yn hynod yn yr holl wlad am ei ddysg, a'i ddoethineb, a'i dduwioldeb; ac yn yr athrofa dan ei ofal ef y cafodd y dynion mwyaf dysgedig o'r oes hono eu dwyn i fyny. Yr oedd Dyfrig yn rhoddi y fath ymddiried yn ei farn a'i gynghor fel yr appeliai ato ar bob achos o bwys; ac er mwyn bod yn agos iddo, dewisodd aros i fyw yn y Garnllwyd, er ei fod yn esgob yn Llandaf.

Heb law yr enw sydd i Catwg yn ei berthynas â'r athrofa yn Llancarfan, crybwyllir am dano yn y *Trioedd* mewn amrywiol gyssylltiadau ereill. Cawn hanes am dano fel un o farchogion llys Arthur yn y triad canlynol:—"Tri chyviawn varchogion Llys Arthur a vuant yn ben ynaid iddo: cyntav, Catwg Sant ab Gwynlliw Vilwr, arglwydd Gwynllwg yn Morganwg; ail, Blas, iarll Llychlyn; trydydd, Badrogyl Baladrddellt, iarll Cernyw. Cystal oeddynt eu cynneddvau, a chymmaint eu gwybodau a'u doethineb, val na wnelai un o honynt ond a vai drugar a chyviawn, ac ymroddi a wnaethant i ymddifyn pob un a gai cam, ac anghyviaith, a phob ymddivaid a gweddwon, a gweryddon, a dyeithriaid rhag trais a gorddwy: Blas drwy gyvraith vyd, Padrogyl trwy gyvraith arvau, a Chatwg trwy gyvraith Duw a'i eglwys."—*Myv. Arch.*, ii. 74. Mewn triad arall, enwir ef fel un o dri "diweirvarchogion Llys Arthur"—y ddau ereill oeddynt Illtyd a Burt; ac mewn un arall, enwir ef gyda Madog Morvyn a Deiniol yn "dri gwynvebydd Ynys Prydain." Ceir hanes am saint ereill hefyd a rifid yn mhlith y marchogion yn llys Arthur; ond bu Catwg gyda hyn yn un o dri phen cynghor i Arthur, ac fel hyn y dywedir yn y *Trioedd*,—"Tri doethion Pencyngor Arthur: cyntav, Catwg Sant, abad Llancarfan, ab Gwynlliw Vilwr; ail, Arawn ab Cynvarch; trydydd, Cynon ab Clydno Eiddin. Cystal oeddynt eu cynneddvau, a'u deall, a'u hystyriaeth, val nas caid amgen no llwydd erioed o wneuthur eu cyngor, nog aflwydd o beidio ei wneuthur."—*Myv. Arch.*, iii. td. 3. Yr oedd Catwg fel hyn yn un o barch ac enw cyffredinol yn yr holl wlad.

Ond yn y fan hon, dylid sylwi fod llawer o bethau yn cael eu dyweyd am Catwg, fel llawer un arall o'r hen seintiau, nad oes y rhithyn lleiaf o wir ynddynt; ac o ganol y swmp anferth o chwedlau sydd yn ei gylch, y mae weithiau yn anhawdd gwybod beth sydd wir a pheth sydd gelwydd. Ond modd bynag, y mae *Bywyd Sant Catwg*, a ysgrifenwyd gan rywun rywbryd yn yr iaith Ladin, ac a welir, yn nghyd â chyfieithiad o hono i'r Seisoneg gan Rees, yn y *Lives of the Cambro-British Saints*, yn un cruglwyth o'r chwedlau mwyaf ynfyd a gwrachïaidd a gyhoeddwyd erioed i'r byd. Rhoddir yma i'r darllenydd rai esamplau o'r hyn a gynnwys:—

"Y noswaith y ganed Catwg, daeth llais o'r nef at Gwynlliw, tra yr oedd efe yn cysgu, i'w ragfynegu y byddai i hen feudwy ddyfod heibio iddo dranoeth, i'r hwn pan ddelai yr oedd efe i geisio ganddo fedyddio y plentyn, a'i alw yn Cathmail: ac ar ol pên y saith mlynedd ei gyflwyno yn hollol dan ei ofal i dderbyn addysg. Yr un noswaith, ymddangosodd yr angel i'r meudwy ar yr un achos. Yn fore dranoeth, gwnaeth y meudwy ei ymddangosiad ger bron y brenin. Enw y meudwy oedd Meuthi. Cyn bedyddio y plentyn, cwynai Snaudrentia, gwas y brenin, am fod ei ffordd mor bell i gyrchu dwfr, a'i fod yn dra blin. Wrth glywed hyn, aeth Meuthi i weddi, a chyn iddo orphen gweddio, yr oedd ffynnon fawr o ddwfr clir rhedegog wedi ei hagor yn ei ymyl, a phan ddygwyd y plentyn i'w fedyddio, neidiodd i'r ffynnon dair gwaith o hono ei hun, heb neb i'w gynnorthwyo. Yr oedd y tair llam hyn yn arwydd o'r tri pherson yn yr hanfod ddwyfol; sef, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân. Trowyd y dwfr yn y ffynnon ar ol hyn yn fedd (*mead*), ac yn yr ail flwyddyn yn llaeth, ond wedi hyny sychodd, am i ddynion dyhir fyned i ymryson yn ei chylch, a lladd eu gilydd."

Wele un arall:—

"Tra yr oedd Catwg yn ymdeithio yn ngwlad Groeg ac yn Ierusalem, Dewi Sant, wrth gyfarwyddyd angel, a alwodd yn nghyd gymanfa eglwysig (*synod*) yn Mrefi. Pan ddychwelodd Catwg, ei ddysgyblion a ofnent adrodd iddo yr hyn a wnaed. Wedi bwrw coelbren, daeth i ran Finnian i wneyd. Digiodd Catwg yn fawr dros ben wrth Dewi pan glywodd am y sarhad, a threuliodd y noswaith hono mewn ymprydd a gweddi. Yn ystod y nos, angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo, gan ddywedyd, 'Yr wyf yn erfyn arnat na fyddo i ti ddigio wrth dy frawd am y sarhad hwn, yr hyn a wnaeth wrth fy nghyfarwyddyd i; a darllenir yn Epistol Ioan. Yr hwn a gasao ei frawd, lleiddiad dyn yw.' Gan i Catwg wrandaw ar lais yr angel, a maddeu i Dewi, yna yr angel a chwanegodd, 'Am hyn yr Arglwydd fy Nuw a wared dy gastell di, yr hwn sydd lawn o eneidiau dynion, oddi wrth gosp dragwyddol yn nydd y farn; ac am bob blewyn

Digitized by Google

sydd ar dy hugan y gwaredir dynion rhag poenedigaeth uffern; un enaid a waredir bob Sabbath o'r nos hon hyd fyth o boenau tragwyddol er dy fwyn di, a'th holl gyfeillion a fyddant farw yn y lle hwn a waredir rhag cosp uffernol; a mwy na hyn, pa beth bynag a ofyni gan Dduw, efe a fydd i ti.' Cyfododd Catwg yn llawen, a galwodd ar ei holl ddysgyblion gydag ef i foliannu yr Arglwydd."

Rhoddir un esampl eto o fysg degau o'r cyffelyb:—

"Daeth Catwg unwaith i ddinas ar lan yr afon Nedd, ac wedi sylwi ar y lle, gorchymynodd wneuthur iddo yno dŷ i weddio. Aeth deuddeg o ddynion at y gorchwyl o dori coed at y gwaith. Cafodd Gwyddel tlawd o'r enw Linguri ran yn y gwaith, a chan ei fod yn saer celfydd, rhagorodd gymmaint ar ei gydweithwyr nes iddynt o'r diwedd ei gasäu. Cytunasant â'u gilydd un diwrnod i'w ladd; ac wedi iddynt dori ei ben, rhwymasant faen mawr wrth ei gorff, a bwriasant ef i lyn dwfn oedd ger llaw. Plant y Gwyddel, yn gweled eu tad heb ddychwelyd fel arfer, a wylasant âg wylofain chwerw. Daeth y newydd i Catwg, yr hwn wedi galw y dynion yn nghyd, a methu a chael ganddynt addef pa fodd y bu, a dreuliodd y noswaith gyda'r holl offeiriaid mewn ympryd a gweddi. Yn y bore, gwedi gorphen y gweddiau, daeth y saer druan i mewn at Catwg a'r offeiriaid, â'i ben dan ei gesail, a'r maen mawr ar ei gefn, a'i gorff yn wlyb gan ddwfr a gwaed. Y mae yn rhyfedd i'w adrodd, ond nid yn rhy ryfedd i Dduw ei wneyd—y pen a lefarodd fel hyn wrth Catwg, 'O, was Duw! gosod fi ar y corff yn y sefyllfa o'r blaen, a mi a ddywedaf i ti yr oll sydd hyd yn hyn yn dywyll i ti am y peth hwn.' Wedi i'r sant roddi y pen yn ei le, adroddodd y Gwyddel iddo yr holl hanes. Ar ol iddo ddarfod, gofynodd Catwg iddo, pa un well ganddo ai byw dros dymmor yn y byd hwn, ai ynte myned yn ei flaen i'r bywyd anfarwol y pryd hwnw? Ac fel yr oedd yn ateb, 'Myned i'r bywyd anfarwol,' efe a fu farw. Galwyd y lle o hyny hyd yn awr yn Lanlinguri. Rhoddwyd y maen hefyd ar ei ben yn y ddaiar, er cof am y wyrth, a thrwy y maen hwn y mae yr Arglwydd yn iachäu y rhai a flinir gan lifiad dwfr, ac anhwylderau ereill lawer iawn, er mwyn Catwg a Linguri, hyd y dydd hwn."

Nid yw hyn ond ychydig, fel esampl, a gymmerwyd yn hollol ar antur, o'r hyn sydd yn llenwi cryn bedwar ugain a chwech o dudalenau wythplyg mawr yn y llyfr y cyfeiriwyd ato. Fel esgusawd dros y chwedlau hyn, y mae y cyhoeddwr yn ein cyfeirio at yr hyn a ddywedir gan ysgrifenydd y *Lives of the English Saints*, yr hwn a ddywed "nad yw bywydau y saint i'w hystyried fel bywgraffiadau ffyddlawn, ond fel chwedlau adeiladol, wedi eu cyfansoddi oddi ar draddodiad, yn fwy er rhoddi argraff grefyddol ar y meddwl nag er adrodd ffeithiau." Nid yw ef ei hun yn rhoddi unrhyw farn mewn perthynas iddynt, ond gadael i'r darllenydd eu credu neu beidio, fel y gwelo oreu. Ond y mae un Tomos ab Ievan, o Dre'r Bryn, yn ei ragymadrodd i *Lyfr Catwg*, yn dywedyd ei feddwl am danynt mewn geiriau clir a diarbed, ac fel hyn y dywed:—"Y mae y Pabyddion wedi gwedyd pethau am dano y rhai nad oes y gronyn lleiaf o gred iddynt, canys val y dywaid Catwg ei hunan—

'Nid gwir yw pob rhyveddod, ond rhyveddod pob gwir.'

Y mae y lle goreu yn y byd i ni gredu mai celwyddau y mynachod Pabaidd yw y rhyveddod y gwedir am Gatwg. Twyll hanesion i gyd; ond amser a vu arnom ni y Cymry, val ar genedloedd ereill, pan y credid yr holl bethau anwireddus y sonir am dano. Y Pabyddion a ddodasant lawer peth ar enw Catwg na ddaeth erioed nag yn nag am ei ben ev, a chymmaint ag oedd yn amlwg i'm meddwl i o'r pethau hyny mi a ymwrthodais â hwynt."—*Myv. Arch.*, iii. td. 4.

Ond yn annibynol ar y gau a'r gwir a ddywedir am Catwg yn yr hen gofion, bydd ei enw ef byw ond odid am hir amser yn ei waith. Y mae o ddeutu can tudalen o cyf. iii. o'r *Myvyrian Archaiology* wedi eu britho â'i ddiarebion a'i ffraethddywediadau, a'r rhan fwyaf o honynt sydd dra rhagorol. Yr oedd Catwg yn un o'r prydyddion goreu yn ei amser; a chymmaint oedd ei glod am ei ddoethineb, fel ag yr oedd ei gynghorion, ei ymadroddion, a'i ddiarebion, yn hysbys trwy yr holl wlad. Prawf o'i glod fel bardd a geir yn y triad canlynol:—"Tri doethion beirdd Llys Arthur: Catwg Sant vab Gwynlliw Vilwr; Taliesin ben Beirdd; a Llywarch Hen vab Elidir Lydanwyn: cystal oeddynt eu cynneddvau val na ddodynt amgen no gwir a doeth yn eu cerddi."—*Myv. Arch.*, iii. td. 3. Mor wir ydyw hyn, fel yn yr holl weithiau a briodolir i Catwg na cheir odid linell nad yw o natur grefyddol, a'i thuedd i feithrin rhinwedd a moesau da. Y mae agos yn sicr nad Catwg yw gwir awdwr yr oll o'r dywediadau sydd ar ei enw; canys, fel y dywed Tomos ab Ievan, "arfer y byd yw dodi ar ddoeth ac ar annoeth vwy nog y sydd yn ddyw iddynt." Ac yr oedd y fath enw i Catwg am ei ddysg a'i ddoethineb fel, o'r diwedd, y daeth pob dywediad rhagorol o eiddo ereill i gael ei briodoli iddo ef. Fel y mae agos i bob Salm yn y Beibl yn cael ei phriodoli i Dafydd, a phob diareb yn mhlith yr Iuddewon yn cael ei phriodoli i Solomon, a phob pennill da yn yr iaith Gymreig yn cael ei briodoli i Williams, o Bant y celyn, felly y mae pob doeth air o'r oesoedd gynt bron yn gwbl wedi eu priodoli i Catwg; ond dylid cofio mai un mewn oes, neu yn hytrach mewn oesoedd, ydyw y dyn sydd yn cyrhaedd i enwogrwydd fel hyn:—un Dafydd, un Solomon, un Williams, ac un Catwg Ddoeth, y sydd.

Y mae gweithiau Catwg yn y *Myvyrian Archaiology* yn cael eu trefnu yn wahanol ddosbarthiadau, o dan wahanol enwau, megys *Doethineb, Athronddysg, a Thrioedd Catwg Ddoeth*; ond ni welir cymmaint o wahaniaeth yn natur y cyfansoddiad rhwng y naill a'r llall. Math o ddiarebion ffraeth ydynt i gyd, yn llawn o synwyr, ac yn amlygu y parch mwyaf i rinwedd a chrefydd. Rhoddir yma ychydig anghreiffiau ar antur o bob un o honynt, a gall y darllenydd weled amryw ereill wedi eu cyhoeddi yn y gwaith hwn eisoes. Dechreuir gyda

DOETHINEB CATWG DDOETH.

"A fyno gynghor gofyned i'r doethaf,
A fedro ganmol canmoled y penaf,
A eirch olud arched i'r cyfoethocaf,
A eirch iechyd arched i'r meddyg mwyaf,
A gais a fo da gofyned i'r haelaf,
A gais nodded gofyned i'r cadarnaf,
A gais drugaredd arched i'r mawr trugaraf.
A gyfarcho cyfarched i Dduw yn benaf.

O gadw dy air y cedwi dy wyneb,
O gadw dy gof y cedwi ddoethineb,
O gadw dy ddwrn ti a gedwi dy dda,
O chedwi glod cadw heddwch a'i gwna,

Digitized by Google

O gadw dy ddydd ti a gedwi dy ddawn.
O gadw'th gydwybod ti a gedwi pob iawn."
Myv. Arch., iii. td. 6.

Yn yr anghreifftiau hyn gwelir un o neillduolion yr hen feirdd Cymreig; sef dechreu y naill linell ar ol y llall â'r un gair yn yr un ffurf, neu wedi ei dreiglo. Ceir rhywbeth cyffelyb i hyn hyd yn oed yn ngweithiau duwinyddol rhai o'r hen awduron Seisonig yn y pymthegfed a'r unfed canrif ar bymtheg, megys Richard Bernard, ac ereill. Yn yr anghraifft nesaf, ceir pob llinell hyd y diwedd yn cyfodli â'r gair diweddaf yn y llinell gyntaf, yn gystal a dechreu yn yr un ffurf.

GWIREDDAU CATWG DDOETH.

"Ni ddigia Duw Dad er erchi cyfiawnder,
Nid tlotach Dofydd er rhoddi bob amser,
Nid ä neb i'r nef er bonedd a dewrder,
Nid nes y gwynfyd er maint y bo y gwychder,
Ni thry y doeth o'r iawn er maint yr anhawsder,
Nid ingach neb er a el iddo o nifer,
Ni chadwo yr ychydig ni ddaw byth i lawer,
Ni chair y melus heb wybod i'r chwerwder,
Nid melus iechyd ond yn wysg y clafder,
Nid yn yr araf y bydd mwyaf y mwynder,
Nid e chwai dafod y daw mwyaf doethder,
Nid yn y chwerthin y bydd mwyaf yr ysgafnder,
Ni cheir breniniaeth er meddyliau ofer,
Nid mwyaf tlodi y bydd mwyaf prinder;
Ni fydd hawdd esgus ar fynydd Goleufer
Pan welir cydwybod yn ei holl noethder
Yn ngwydd Duw Ddofydd a lluoedd uchelder,
A Christ yn barnu yn ngoleu cyflawnder."
Myv. Arch., iii. td. 7.

Rhoddir un anghraifft yn mhellach dan y penran hwn, lle y gwelir fod y llinellau yn cyfodli bob yn ddwy yn niwedd y llinell.

CYNGHORION CATWG DDOETH.

"O myni fod yn ddoeth dywed ychydig,
Yn serchog, yn araf, ac yn bwyllig;
Na ddos i'r cynghor oni'th alwer yno,
A chyn llefaru cymmer amser i wrando;
A phan lefarot bydd di 'n ddifrif,
Ac nac yngan air hagyr ar un cyfrif;
Nag yngan ond â gair wedd i'r amser,
Er heddwch, er cariad, a chyflawnder;
Nag yngan ond er helaethu gwybodaeth
A phob deddfoldeb ar lywodraeth.
A chais di ddangos ar bob achosion
Yn gynta bodd Duw yn ail bodd dynion,
Gwna di yn ystyriol yn ol hyn o gynghor,
Ac yn mhlith y doethion y rhoddir i ti'th ragor."
Myv. Arch., iii. td. 8.

Am ragoriaethau synwyr ac awen y darnau hyn, gadewir i'r darllenydd farnu; a rhoddir ychydig anghreifftiau yn nesaf o

ATHRONDDYSG CATWG DDOETH, a elwir hefyd NIDIAU CATWG DDOETH.

Er nad ymddengys i ni fod llawer mwy o athroniaeth yn y rhanau yma o'i waith, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, nag a geir yn y rhanau ereill, ein gorchwyl ni yw eu rhoddi fel y maent.

"Nid gwir ond yr hyn nis gellir ei amgen,
Nid cyfiawn ond yr hyn nis gellir ei hebgor,
Nid da ond yr hyn nis gellir ei welläu,
Nid drwg ond yr hyn nis gellir ei waeth,
Nid gwaethaf ond yr hyn nis gellir un da o hono.
Nid cymhwys ond yr hyn nis gellir ei gamu,
Nid cam ond yr hyn nis gellir ei gymhwyso.
Nid cyflawn ond yr hyn nis gellir diffyg ynddo,
Nid diffyg ond yr hyn nis gellir un lles o hono,
Nid lles ond lle nis gellir gwrth,
Nid gwrth ar y drwg ond Duw,
Nid Duw ond yr hyn nis gellir ei well,
Nid nis gellir ei well ond gwell na'r cyfan,
Nid gwell na'r cyfan ond cariad,
Nid cariad ond Duw, nid Duw ond cariad."

Arall,—

"Nid agos ond yr hyn nis gellir ei gyrhaeddyd, sef hunan,
Nid aml ond yr hyn nis gwelir mewn un man, sef gwirionedd,
Nid mawr ond yr hyn nis gwelir y byd gan ei leied, sef cyfiawnder,
Nid gwaeddfawr ond yr hyn ni chlyw neb ei lais, sef cydwybod,
Nid iawn ond a geir ar gam gan bob un, sef gwybodaeth,
Nid argais pob un ond yr hyn nad oes neb yn ymofyn am dano, sef doethineb,
Nid goleuni ond a welir yn dywyll yn mhob dyn, sef deall,
Nid yn mhob man, ond yr hyn nis gwel nemawr yn un man, sef Duw."
Myv. Arch., iii. td. 14.

"Nid gweled ond ystyr,
Nid ystyr ond glewineb,
Nid glewineb ond gloewineb,
Nid gloewineb ond goleuni,
Nid goleuni ond deall,
Nid deall ond cydwybod,
Nid cydwybod ond llygad Duw yn enaid dyn."
Myv. Arch., iii. td. 16.

Gellir troi hwn, yn nghyd â llawer o ddarnau ereill yn ei athronddysg yn ol fel hyn,—

"Nid llygad Duw yn enaid dyn, ond cydwybod,
Nid cydwybod ond deall,
Nid deall ond goleuni, &c.,
* * * *
Nid ystyr ond gweled,
Nid gweled ond gweled Duw."

Gwel rhif. 28 yn y *Myv. Arch.* am y terfyniad hwn, yn nghyd â rhif. 30, lle y mae traws-symmudiad cyffelyb i hyn yn cael ei wneyd.

Dyma anghraifft arall i'r un perwyl:—

CYLCH BYD A BYWYD (*The circle of the Moral World*).

"Tlodi a bair ymgais,
Ymgais a bair lwyddiant,
Llwyddiant a bair cyfoeth,
Cyfoeth a bair balchder,
Balchder a bair cynhen,
Cynhen a bair rhyfel,
Rhyfel a bair tlodi,
Tlodi a bair heddwch,
Heddwch a thlodi a bair ymgais,
Ymgais a dreigla i'r un cylch ag o'r blaen."
Myv. Arch., iii. td. 40.

Rhoddir un anghraifft eto dan y pen hwn o gyfansoddiad o nodwedd gwahanol i'r holl rai blaenorol:—

GWRTHYDDIAID CATWG DDOETH.

"Pob ffol a wna offeiriad, rhaid call i wneuthur ysgolhaig.
Pob cythraul a wna filwr, rhaid dyn da i fod yn heddychwr.
Pob dyhiryn a wna gyfreithiwr, rhaid doeth i fod yn reithwr.

Digitized by Google

Pob lleidr a wna oludawg, rhaid cynneddfawl i fod yn ŵr boneddig.

Pob diwybod a wna feiwr, rhaid gwr deallus i fod yn farnwr.

Pob dyn i ddiawl a wna y da a welo yn dda iddo ei hun yn unig, rhaid dyn i Dduw i wneuthur a fo da i arall er afles iddo ei hun.

Pob ystrywus a ynnill fodd y byd, rhaid cywir cariadus i ynnill bodd Duw."

Myv. Arch., iii. td. 55.

Rhaid gadael yr athronddysg ar hyn, a rhoddi ychydig anghreifftiau eto o

DRIOEDD CATWG DDOETH.

Yr oedd llunio triad da yn cael ei ystyried gan yr hen Gymry yn gryn orchest; ac felly y mae agos i bob un o'r hen feirdd wedi gadael rhyw nifer o drioedd ar eu hol. Wele ychydig o'r rhai a briodolir i Catwg:—

"Tri dyn anhawdd eu credu; rhodiadur o bell, darllenwr llyfr anghyflaith, ac a fo hŷn na'i gymydogion.

Tair breniniaeth ddedwydd; gair da y byd, cydwybod lawen, a gobaith cadarn am y byd a ddaw.

Tri pheth a gaiff anghywir; byd drwg, gair drwg, a diwedd drwg.

Tri pheth a gair o hir ddilyn drwg; newyn, carchar, ac uffern.

Tri pheth a ddylid eu hystyr gan bob dyn; o ba le y daeth, yn mha le y mae, ac i ba le ydd ä.

Tri pheth a ysbeiliant lle delont; dwr, tân, a melldith Duw.

Tri dyn y sydd; dyn i ddyn, dyn i Dduw, a dyn ddiawl: dyn i ddyn a wna dda dros dda a drwg dros ddrwg, dyn i Dduw a wna dda dros ddrwg, dyn i ddiawl a wna ddrwg dros dda.

Tri rhyw gelwydd y sydd; celwydd ar air a bair i arall wedyd na fo gwir, celwydd ar weithred a bair i arall weithredu yn erbyn y gwir, a chelwydd arddangos, neu o ymddwyn, a bair i arall feddwl a chredu y peth na fo gwir.

Tri pheth anhawdd i ddyn eu gwneuthur; oeri y tân, sychu y dwr, a boddloni y byd.

Tri pheth angenrhaid i ddyn a elo i dafarn; pon cadarn, bola gwydyn, a chôd drom.

Tri pheth a wnant annhrefnusder mewn tŷ a theulu; y gwr yn feddwyn, y wraig yn esgymun, a'r plant yn anhydyn.

Tri pheth gwell i ŵr ei grogi na'u meddu; tylwyth anghywir, plant anufuddion, a gwraig feddw.

Da fyddai genyf wybod mwy nag a wn am danat; dywed i mi ba fath ydwyd, O ddyn! ebai Daliesin, wrth Gatwg; ac yn ateb iddo y dywed Catwg, Gwell y dylit ti wybod am danaf no mi fy hun, canys ti a glywi drach fy nghefn y peth na ddaeth erioed i'm clust i am danaf, a gwlad a biau barnu, ac nid mi no neb arall a ŵyr yr holl wir am dano ei hunan."—*Myv. Arch.*, iii. td. 69—82.

Dyma fras olwg ar weithiau Catwg Ddoeth. Dywedir i Catwg sefydlu llawer o eglwysi mewn amrywiol leoedd yn y wlad hon; ac yn mhlith ereill, Llangatwg Crughywel, yn sir Frycheiniog; Portheinion, Celligaer, Cadwgan, Llancarfan, Pendeulwyn, Pentyrch, Llanfaes, a Chadwgan Dyffryn Nedd, yn sir Forganwg; Llangatwg ar Wysg, Llangatwg Lenig, Llangatwg Llingoed, Llangatwg meib Ionafel, Caerlleon ar Wysg, Penrhos, a Threfeithin, yn sir Fynwy. Cofwyl Catwg a gynnelir Chwefror 24.—(*Lives of the Cambro-Brit. Saints; Myv. Arch.; Biog. Dict.; Woodward's Hist. Wales; Carnhuan. Han. Cym.; Camb. Biog.; Mosh. Eccles. Hist.; Usher de Eccles.; Achau Saint Ynys Pryd.; Camb. Regis.; Hanes Cref., D. Peter; Lewis's Hist. Brit.; Jones's Hist. Brec.; Clarke's Martyr.; Warrington's Hist. Wales; Bede's Eccles. Hist.; Gildas; Rees's Welsh Saints; Lady Charl. Guest's Mabin.; Iolo MSS.*)

CATYRFA, [*ca—tyrfa*]: corff cyfan o filwyr, byddin, llu, lleng; hefyd y nifer can mil.—"Ac Iudas wedi iddo gahel catyrva o wŷr;" *Ioan* xviii. 3.—*W. S.*

CATH—OD, [Gr., *αἴλουρος*; Llad., *felis*; Seis., *cat*]: gwel *Esa.* xiii. 22; xxxiv. 14; *Ier.* l. 39. Y gath sydd greadures fechan mor adnabyddus, fel, ar un olwg, nad oes angen am ei dysgrifio. Ond ar gyfrif ei pherthynas â lluaws o greaduriaid ereill sydd yn dwyn tebygrwydd iddi, efallai mai nid afreidiol fyddai sylwi yma ar rai o neill duolion y llwyth a elwir ar ei henw. Y mae y *felidæ* yn sefyll yn mlaenaf, yn y dosdrefniad Linnæaidd, yn nosbarth y *carnivora*. Yn y llwyth hwn y mae y llew, y teigr, y pard, a'r wns, yn nghyd â lluaws o greaduriaid ereill; a'r oll o honynt, heb un eithriad, wrth natur yn greulawn a thra pheryglus. Nid allant oddef cymdeithas hyd yn oed â'u gilydd ond ar dymmorau neillduol. Ymborthant ar ysglyfaeth yn unig; a threngant o eisieu cyn y cyffyrddant âg un math o lysienfwyd. Y mae creaduriaid ereill o'r un rhywogaeth yn amrywio mewn gwahanol wledydd, a than wahanol amgylchiadau; ond y mae y *felidæ* yn gyffelyb yn mhob gwlad: ac y mae y cyfnewidiad lleiaf mewn arferion, ffurf, neu liw, yn ddigon i newid eu sefyllfa yn y llwyth y perthynant iddo.

Y mae i bob un o'r creaduriaid hyn, fel y gath, ewinedd hirion a bachog, pa rai a estynant i gryn bellder, pan yn rhuthro ar eu hysglyfaeth. Y trwyn sydd fyr; y pen yn grwn ac yn llydan; a blew hirion yn estyn allan oddi ar y wefus uchaf. Y mae iddynt ddeg ar ugain o ddannedd llymion, pa rai sydd wedi eu cyfaddasu yn fwy er rhwygo yr ysglyfaeth na'i gnoi; a dyma yr achos fod bwyta yn orchwyl mor annyben iddynt. Y mae cuddiad cryfder yr holl rywogaeth yn eu crafangau. Tra y mae creaduriaid ereill yn gryfach, a rhai yn llawer cyflymach, nid oes un yn fwy llwyddiannus i sicrhau ei ysglyfaeth, yr hyn a wnant bob amser ar un naid, yn hollol annysgwyliadwy; ac wedi iddynt ei gael unwaith i'w crafangau, nid yn hawdd y gollyngant eu gafael o hono. Ond yn y cyffredin, y maent yn ofnus ac yn llwrf. Anfynych y gwnant ymosodiad hyd oni welant eu cyfleusdra. Y maent yn rhy ofalus i anturio i berygl, lle byddo gallu cyfartal yn eu herbyn. Fel hyn, y mae y llew yn aml yn ffoi pan aflonyddir ef gan swn gwragedd a phlant.

Yn y llwyth hwn, y gath yw y leiaf, a'r unig un a ddefnyddir gan ddyn at ei wasanaeth. Er y gellid dofi y creulonaf o honynt, nid yw hyny yn werth y drafferth a'r perygl. Gwelwyd y llew cyn hyn wedi ei rwymo wrth gerbyd y gorchfygwr, a'r teigr yn gwylio diadellau yr amaethwr; ond nid oeddynt yn y cyflwr hwnw ond cymdeithion peryglus ar y goreu, gan eu bod yn meddu digon o allu, pe buasent wedi eu cyffroi, i wneuthur llawer o alanasdra. Ond y gath, er ei bod yn hawdd ei digio, ac yn ddigon parod i ddial, nid yw ei gallu yn gyfartal i'w hanian; a thrwy hyny, ni all wneyd ond ychydig niwed. Er ei bod yn naturiol reibus, ac yn ddigon blysig i ysbeilio pa beth bynag a ddaw yn ei ffordd, y mae bob amser yn dra gofalus i guddio ei bwriad nes

Digitized by Google

y gall ei roddi mewn gweithrediad; ac unwaith y llwydda, y mae yn dianc ymaith gyda'i hysglyfaeth, ac yn sicr o gadw yn ddigon pell, nes y tybia fod ei throsedd wedi ei anghofio. Nid yw serchogrwydd yn y gath ond mewn ymddangosiad yn unig; a gwelir oddi wrth ei dynesiad ofnus, a'i hedrychiad llechwrus, nad oes ganddi ond ychydig ymddiried yn ngharedigrwydd ei chyfeillion goreu. O ran arferion, y mae yn fywiog, yn lanwaith, ac yn dra hoff o'r lleoedd esmwythaf i orwedd arnynt. Dichon mai yr achos o hyn ydyw, ei bod o wneuthuriad tyner, ac efallai, yn gynhenid, o hinsoddau cynhesach na'r eiddo ein gwlad ni. Yn adgynnyrchiad ei rhyw, bydd y gath yn dorog am un niwrnod ar bymtheg a deugain; ac ni bydd y torllwyth yn fwy na phump neu chwech ar y tro. Portha y rhai bach am rai wythnosau â llaeth, ac â mân greaduriaid a leddir ganddi; a thrwy hyny, y mae yn eu dysgu mewn pryd i ymarfer âg ysglyfaeth. Hyd ei hoes, yn gyffredin, yw tua naw neu ddeng mlynedd; a goddefa lawer o gystudd a phoen yn aml cyn marw.

Y cenawon sydd, ar y cyntaf, yn dra chwareus a digrifol; ond nid hir y byddant cyn dangos arwyddion o greulondeb eu natur. Ymosodant yn ddiarbed ar bob creadur llai, neu y gallant ei orchfygu. Fel hyn, y mae presennoldeb y gath yn dra dinystriol i adar, llygod, y wadd, yn nghyd â llawer o fân greaduriaid ereill. Dywedir fod y mynachod Groegaidd, yn ynys Cyprus, wedi dysgu cathod i hela seirff, â pha rai yr oeddynt yn cael eu blino yn yr ynys; ond tybir fod hyn yn naturol i'r gath, heb i neb fyned i'r drafferth o'i dysgu. Gwelsom gathod cyn hyn yn ymbleseru i lusgo nadroedd mwyaf ein gwlad ni, ac yn eu gollwng yn ddigyffro ddigon ar yr aelwyd, er mawr ddychryn weithiau i bawb yn y tŷ. Ond dengys y gath fwy o bleser mewn llygota, ond odid, nag mewn unrhyw helwriaeth arall. Gwelir hi ar brydiau yn gwylio yn astud am ddiwrnod cyfan, gan ddysgwyl i'r pryf wneyd ei ymddangosiad; ac un o arwyddion penaf ei chreulondeb yw, y modd y gall chwareu âg ef am hir amser ar ol ei ddal cyn ei ladd. Y mae ffurf ei llygaid yn gyfryw ag y gall weled ei hysglyfaeth yn well yn y tywyllwch nag yn y goleuni. Er fod y gath i'w gweled mor fynych yn ein tai, nis gellir ei hystyried eto ond rhyw hanner gwâr. Ei hymlyniad yn gyffredin sydd fwy wrth y lle nag wrth y rhai fydd yn byw ynddo; a phan fyddo y teulu yn symmud, bydd hi yn debyg o aros yn ol yn yr hen dŷ: ac os dygwydd iddi gael ei chymmeryd ymaith, bydd am gryn amser yn teimlo yn chwith yn ei lle newydd. Dwfr, oerfel, a phob arogl drwg, sydd yn ei gwneyd yn dra anghysurus; ac am hyny, y mae yn hoff o le cynhes, ac ymrwbia yn y personau hyny fydd yn cludo o'u deutu unrhyw berarogl. Y mae rhai planigion, megys y *valerian*, *marum*, *cat-mint*, ac ereill, mor ddewisol ganddi, fel y bydd raid i'r garddwr fod ar brydiau yn lled ofalus rhag iddynt gael eu niweidio ganddi.

Gan fod y gath wyllt, neu y gath goed, fel ei gelwir yn gyffredin, yn epilio gyda'r un ddof, dywed naturiaethwyr nad yw y flaenaf ond amrywiaeth o'r olaf. Er hyny, y mae ychydig wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd. Y gath wyllt sydd ryw gymmaint yn fwy—y pen yn lletach, a'r gwyneb yn fwy gwastad; y dannedd a'r ewinedd yn gryfach ac yn fwy llym; y gynffon, yr hon sydd o hyd cymmedrol, sydd yn llawer tewach, a'r blew yn llinellau rheolaidd o ddu a gwyn bob yn ail ar ei thraws. Y lliw yn gyffredin ydyw melyn goleu, wedi ei gymmysgu â llwyd tywyll, yr hwn a ymddengys yn debyg, wrth edrych arno yn graff, i'r brithder yn y teigr. Canfyddir y creadur hwn weithiau mewn coedwigoedd, a lleoedd anial neu uchel; ac yn sicr, efe yw y mwyaf dinystriol o'r *carnivora* sydd heb eu llwyr ddyfetha yn y wlad hon. Tybia rhai, pa fodd bynag, i'r math hwn gael ei drosglwyddo ar y cyntaf i'r ynys hon mewn cyflwr gwâr, ac iddo, trwy ddifaterwch a chamdriniaeth, gael ei adael nes iddo syrthio i gyflwr gwyllt yn ol. Y mae hyn yn sicr—fod y gath mewn llawer mwy o fri gan yr henafiaid nag ydyw genym ni; yr hyn sydd yn ffafrio y dyb mai estron ydyw yn y wlad hon, ac nad oedd yma ond prinder o honynt ar y cyntaf. Yn ol cyfreithiau Hywel Dda, yr oedd cath fechan cyn agor ei llygaid yn werth ceiniog; o hyny, hyd oni ddaliai lygoden, dwy geiniog; ac ar ol iddi ddechreu llygota, pedair ceiniog: a dylid cofio fod hyn yn bris mawr y pryd hyny. Os dygwyddai fod rhyw anaf arni, yr oedd y gwerthwr i ddychwelyd y traian o'r gwerth i'r prynwr. Pe buasai i ryw un ladrata neu ladd y gath fyddai yn gwylio ŷd y brenin, yr oedd hwnw i fforffedu dafad, yn nghyd â'i chnu a'i hoen, neu gymmaint o wenith ag a orchuddiai gath fyddai yn cael ei dal gerfydd ei chynffon a'i thrwyn yn cyffwrdd â'r llawr, pan dywelltid ef arni. Gellid casglu oddi wrth ddarbodau fel hyn, nad oedd rhyw gyflawnder mawr o gathod yn yr ynys hon y pryd hyny, neu na buasid yn rhoddi y fath bris arnynt.

Ni wyddys am ond un math o gath wyllt yn yr hinsoddau hyn; ac ymddengys oddi wrth dystiolaeth haneswyr, nad oes ond ychydig wahaniaeth ynddi mewn hinsoddau ereill. Y mae y gwahaniaeth penaf rhwng y gath wyllt a'r un ddof yn ffurfiad yr ymysgaroedd. Dywedir fod y perfedd yn y flaenaf yn llai ac yn fyrach nag mewn un creadur arall o'i maint. Y mae perfedd y ddafad, er anghraifft, wrth ei fesur, ddeg ar ugain o weithiau yn fwy na hyd ei chorff; ond nid yw eiddo y gath wyllt ond tri chymmaint. Cyfrifir am hyn yn weddol, trwy ddywedyd fod gwahaniaeth yn yr ymborth, sydd yn gofyn am wahaniaeth cyfatebol yn y peiriannau sydd i'w droi yn faeth i'r gwahanol greaduriaid. Ond erys yr anhawsder, pan welir fod yr eiddo y gath wyllt yn un ran o dair yn fyrach na'r un ddof; ac nid oes dim eto wedi ei gael allan i roddi cyfrif am hyn. Dywed naturiaethwyr nad oes un esboniad boddhaol i'w roddi arno; ond dichon i ryw ymchwiliwr dyfodol, trwy ddamwain neu sylw manylach, ddyfod â'r dirgelwch hwn i oleuni. Y mae y gath wyllt yn adnabyddus yn America yn gystal ag yn Ewrop. Dygodd heliwr un i Columbus, yn fuan ar ol dargantyddiad y wlad hono. Ceir hwynt hefyd yn Peru, mewn rhanau o Affrica ac Asia; ac mewn rhai o'r gwledydd hyn, y mae y lliw yn gogwyddo at fod yn las. Dywed Pietro della Valle iddo weled, yn nhywysogaeth Chorazan, yn Persia, gath o ran maint a llun yn ddigon tebyg i'r gath gyffredin, ond yn llawer iawn prydferthach ei lliw, yr hwn sydd las llwyd, heb ddim cymmysgedd ynddo; a bod ei ffwrw yn esmwythach na'r sidan ei hun. Y gynffon hefyd, meddai ef, yr hon sydd lawer yn hwy, a orchuddir â blew hirion, o gylch chwe modfedd o hyd. Ond tybir fod y math hwn yn ddigon adnabyddus yn Ffrainc; a dygwyd rhai o honynt drosodd i'w harddangos yn y wlad hon. Math arall a elwir weithiau yn llew-gath, neu

Digitized by Google

gath Angora, yr hon sydd yn fwy na hyd yn oed y gath wyllt ei hunan. Y mae y blew lawer yn hwy, yn neillduol o gylch y pen a'r gwddf, yr hyn sydd yn peri i'r math hwn ymddangos yn debyg i'r llew. Dygir hwy drosodd i'r wlad hon o Syria a Persia. Y mae ychydig amrywiaethau ereill, y rhai sydd yn gwahaniaethu mwy yn y lliw na dim arall.

Gellir bod agos yn sicr nad oedd y gath yn anadnabyddus i'r Iuddewon yn Ngwlad Canaan; canys yr oedd eu henafiaid wedi gweled ei haddoli yn yr Aipht, dan yr enw *Pasht*, duwies y lleuad, neu Diana. Edrychid arni yno yn gyssegredig yn mhob teulu, a pheraroglid ei chorff yn aml i'w anfon i'r Bubastis i'w gladdu. Ond nid oes gymmaint ag un o'r ysgrifenwyr sanctaidd yn cyfeirio ati yn ei chyflwr gwâr, o leiaf; a digon tebyg nad llawer o rai gwylltion oedd i'w cael mewn gwlad mor ddigoed. Efallai nad oes dim i gyfrif am hyn, ond fod yr Iuddewon yn edrych arni yn greadur aflan, ac am hyny, nas gallent ei goddef yn eu tai. Ond i wneyd i fyny am ei habsennoldeb, yr oedd gwahanol fathau o *viveridæ* a *mustelidæ* yn y wlad, y rhai a elwir yn aml dan yr enw cyffredin *cath*. Yr oedd yr holl greaduriaid hyn yn ysglyfgar, ac yn mynychu hen adfeilion; a thybir mai y mathau hyn a olygir wrth y gair *tziyim*, yn *Esa.* xiii. 21. Dynoda y gair



Dar. 164.

hwn yn briodol, efallai, yr anifeiliaid hyny a drigent mewn lleoedd sychion, anial—oddi wrth y=*lle anghyfannedd*, neu *anialwch*. Cyfleithir ef mewn gwahanol fanau gan y Deg a Thrigain yn θηρία=*anifeiliaid gwylltion*, neu δαιμόνια=*ellyllon*: gan y *Vulgate*, yn "anifeiliaid," "ellyllon," a "dreigiau:" a chan Abarbanel, yn "epaod." Bochart a dybia mai cathod gwylltion a feddylir. Dywed ef fod cyflawnder o honynt yn y gwleydd dwyreiniol, a'u bod yn trigo mewn coedwigoedd a lleoedd anial, yn ymborthi ar gyrff a gweddillion ysglyfaethus, ac yn hynod am eu hoernadau.—*Bochart's Hieroz.*, rhan i. llyfr iii. pen. xiv. td. 860—862. Mewn perthynas i'r gair *tziyim*, a gyfleithir "cathod" yn yr adnod nesaf, tybia yr un gwr mai math o fleiddiaid a feddylir, megys y *sacalius aureus*, neu y *thous anthus*.—*Bochart's Hieroz.*, rhan i. llyfr iii. pen. xii. Y mae yn dra thebyg fod y cyfeiriadau Ysgrythyrol mor eang, fel y gallant gynnwys y naill neu y llall, neu yr oll o'r amrywiaethau uchod. Ond nid oes un crybwylliad am y gath, fel y mae yn adnabyddus yn ein gwlad ni, yn cael ei wneyd yn yr Ysgrythyrau.—(*Gold's Anim. Nat.; Pliny's Hist. Nat.; Camus de Nat. Anim.; Kitto's Bib. Cyc.; Buff. Nat. Hist.; Dr. Cope's Nat. Hist.; Shaw's Travels; Bochart; Sir R. K. Porter's Travels; Keppel's Narrative; Penny Cyc.*)

CATHARI, neu CATHARIAID, *h. y.*, Puritanlaid: enwad a gymhwysid, mewn gwahanol oesoedd, at bawb a fyddent yn ymgais, neu o leiaf yn proffesu eu bod yn ymgais, at fwy o burdeb na'r lluaws Cristionogion o'u hamgylch. Yr oedd, yn enwedig, yn cael ei gymhwyso at y Pauliciaid yn y seithfed canrif, a'r canrifoedd dilynol, mewn ffordd o waradwydd. Cyhuddid hwy o ddal cyfeiliornadau y Manicheaid, fel y gwneid yn gyffredin â phawb a ymneillduent oddi wrth Eglwys Rhufain.

Y dysgedig a'r rhagorol Mr. Milner, wrth sôn am y Cathari, yn y deuddegfed canrif, a ddywed fel hyn:—"Yr oeddynt yn Gristionogion syml, anymhongar, diniweid, a llafurus; yn collfarnu, drwy eu hathrawiaeth a'u moesau, holl beiriant yr eilunaddoliaeth a'r coelgrefydd llywodraethol, gan osod gwir grefydd mewn ffydd a chariad at Grist, a meithrin y parch mwyaf i'r gair dwyfol." Ymddengys eu bod yn dra lluosog yn y canrif hwn; ac mai yn Cologne, Flanders, deheudir Ffrainc, Savoy, a Milan, yr oedd eu prif breswylfod.—(*History of the Church of Christ*, cyf. iii. can. 12, pen. 3.)

CATHL—AU, [*ca—tyl*]: cân, emyn, cerdd, awdl; peroriaeth: felly, *cethlydd* yw cantor neu awdwr emynau. *Y gethlydd* y gelwir y gôg, o herwydd ei phynciad gorfoleddus ar ddynesiad yr haf. Cethlyddiaeth, cynghanedd, caniad yr adar.

"Cymmerwch *gathl* y sallwyr lân,
A moeswch dympan hefyd;
A cheisiwch ganu gyda hyn
Y nabl a'r delyn hyfryd."—*Salm* lxxxi. 2.
E. P

"Ac adar awyr dont gerllaw,
I leisiaw rhwng y coedydd;
Yn canu mawl, o bren i bren,
Cethlyddiaeth lawen ufudd."—*Salm* civ. 12.
E. P.

CATHOLIGIAID, [*Catholics*]: cydoligion, cydoligion Rhufeinig, Pabyddion. Darfu cyfodiad heresiau dueddu y brif eglwys Gristionogol i ymgyfenwi wrth yr enwad *catholic* (cyffredinol), i'w gwahaniaethu oddi wrth bob pleidiau, y rhai, er bod iddynt enwau neillduol, a ymlochesent weithiau dan yr enw Cristionogion. Y mae Eglwys Rhufain yn awr yn hôni yr enw *catholic*, mewn gwrthgyferbyniad i bawb oll a ymwahanasant oddi wrth ei chymundeb hi, y rhai a ystyrir ganddi megys hereticiaid ac ymrwygwyr, a hi ei hun megys yr unig wir eglwys Gristionogol. Yn ystyr manwl y gair, nid oes eglwys gatholig mewn bod; hyny yw, nid oes un cyfundeb Cristionogol cyffredinol.—*Hend. Buck.* "Yr eglwys lân gatholig" yw cynnifer oll, ym mhob lle ac oes o'r byd, a alwyd i sancteiddrwydd ac addoliad yr unig wir Dduw, yn ol dadguddiad ei ewyllys ef iddynt. "At eglwys Dduw yr hon sydd yn Corinth, at y rhai a sancteiddiwyd yn Nghrist Iesu, a alwyd yn saint, gyda phawb ag sydd yn galw ar enw ein Harglwydd Iesu Grist, yn mhob man, o'r eiddynt hwy a ninnau;" 1 *Cor.* i. 2. Nid ydyw gyfyngedig mwyach i genedl yr Iuddewon, i gau allan y Cenedloedd ereill; "canys nid oes gwahaniaeth," dan oruchwyliaeth yr efengyl "rhwng Iuddew a Groegwr; o blegid yr un Arglwydd ar bawb, sydd oludog i bawb ar sydd yn galw arno;" *Rhuf.* x. 12. Yn yr ystyr eang hwn, y mae yr ymadrodd "yr eglwys gyffredinol," yn ffurf-weddiau yr Eglwys Wladol, i'w ddeall, nid fel yn golygu unrhyw eglwys neillduol, neu gyfundeb o ryw ffurf eglwysig benodol, megys esgobol, henaduriaethol, annibynol, &c., ond holl bobl Dduw trwy y byd, o ba enwau bynag eu gelwir gan ddynion,

Digitized by Google

y rhai yn unig yn yr ystyr helaeth yma y gellir eu galw yn gatholigiaid.—(*Griffith Jones ar y Credo*, td. 124, &c.)

CAWELL—AID, [*caw*]: *ll.* cewyll: basged, cest, crud, balleg; basgedaid. Cawell pysgota, balleg, math o rwyd wneuthuredig o wïail neu ddellt, i ddal pysgod. Cawell saethau, côd neu wain a arferid gynt i gludo saethau, yr hwn a ddygid weithiau ar yr ysgwydd, ac weithiau ar yr ystlys aswy. Yr oedd yn un o offer helwriaeth (*Gen.* xxvii. 3); ac wedi hyny daeth yn rhan o arfogaeth rhyfelwyr, at yr hyn y cyfeirir yn fynych yn yr Ysgrythyrau: *Iob* xxxix. 23; *Salm* cxxvii. 5; *Esa.* xlix. 2; *Ier.* v. 16; *Galar.* iii. 13. Cawell o lafrwyn, oedd fath o grud neu fasged, wedi ei wneuthur o hesg a elwir y *papyrus*, sydd yn tyfu ar lanau y Nilus, a'i ddwbio â chlai ac â phŷg i'w wneyd yn ddiddos, yn yr hwn y gosodwyd Moses gan ei fam yn mysg yr hesg ar fin yr afon, gan ddysgwyl y canfyddid ef gan ryw un a dosturiai wrtho; ac ynddo ei cafwyd yn rhagluniaethol gan ferch Pharaoh: *Exod.* ii. 3—5. Arferid cewyll o amryw fath i ddybenion teuluaidd (*Deut.* xxviii. 5, 17; *Gen.* xl. 16; *Ier.* xxiv. 1; *Amos* viii. 1); i gaethiwo adar (*Ier.* v. 27); ac yn ngwasanaeth y babell (*Exod.* xxix. 3, 23, 32; *Deut.* xxvi. 2, 4).

CAWG—IAU, [*caw*]: mail, cogan, llestr i ddal dwfr, neu waed, neu ryw hylif arall (*Exod.* xii. 22); osged, osgyd, trwpa, llestr ymolchi, llestr i olchi traed: *Ioan* xiii. 5. Yr oedd cawgiau o bres ac o aur coeth wedi eu parotoi gan y brenin Solomon at wasanaeth y deml: 1 *Bren.* vii. 45, 50. "Y cawg aur" (*Preg.* xii. 6), sydd ffugr prydferth, yn arwyddo padell yr ymenydd (*cranium*): yn marwolaeth, y mae gweithrediadau y pen a'i gynnwysiad yn cael eu dinystrio, a'r peiriant yn ymddattod; y cawg, er gwerthfawroced, yn tori.

CAWL—ION, [*caw*]: bresych neu lysiau crochan; potes, grual, neu isgell, â dail neu lysiau wedi eu berwi ynddo: *Gen.* xxv. 29—34; 2 *Bren.* iv. 38; *Hag.* ii. 12. "Cawl coch," neu "gawl ffacbys" (am fod y pys hyn wedi eu berwi yn ei liwio felly), oedd ymborth digon salw—yr "un saig o fwyd" am ba un y gwerthodd Esau ei enedigaeth fraint. Felly y mae llawer eto yn gwerthu breintiau crefydd, eu heneidiau, a bywyd tragwyddol, am y cyfryw bleserau a fyddont yn ymborth i'w chwantau a'u blysiau llygredig: *Heb.* xii. 16, 17.

CAWR—I, [*ca—gwr*]: gwr cadarn: arwr, gwron; penaeth; dyn o faintioli a chreulondeb anghyffredin. Y mae amryw eiriau yn yr Ysgrythyrau Hebreig yn arwyddo cawri neu gedyrn; a'r sylw dilynol o honynt a'n tywys i roddi braslun o hanes cawri yr Ysgrythyrau.

I. Yn *Gen.* vi. 4, y cawn y crybwylliad cyntaf am gawri (Heb. נפילים). "Cawri oedd ar y ddaiar y dyddiau hyny; ac wedi hyny hefyd, pan ddaeth meibion Duw at ferched dynion, a phlanta o'r rhai hyny iddynt: dyma y cedyrn a fu wŷr enwog gynt." Sonir am gyfathrach gyffelyb yn yr ail adnod,—"Weled o feibion Duw ferched dynion mai teg oeddynt hwy; a hwy a gymmerasant iddynt wragedd o'r rhai oll a ddewisasant." Yr awdwr Wellbeloved, ac ereill, a gyfleithant ac a ddeonglant y gejriau megys yn unig yn arwyddo "dynion creulawn," yn darostwng, yn treisio, ac yn ysbeilio y gweiniaid diamddiffyn. Diau fod hyn yn cytuno âg ystyr y gair gwreiddiol. Ond y cawri hyn, fel mewn amgylchiadau ereill, a ddynodid yn dra naturiol âg enw dysgrifiadol; ac y mae trais a gorthrymder yn gyffredin yn cydfyned â chryfder mawr. Y mae cyfeiriad y geiriau, i'n tyb ni, yn bleidiol i'r syniad cyffredin am gawri, a hyny yn fwy am fod eu deilliad yn cael ei olrhain i ryw gyssylltiad anegluradwy â "meibion Duw;" hyny yw, â bodau o ddoniau uchel, os nad o natur uchraddol.—*Kitto.* Hiliogaeth priodasau cymmysg oedd y cawri hyn; ac arwydda y gair, ddynion o feddwl cryf, cynhyrfus, uchelfrydig, parod i weithredoedd o drais a gorthrymder, yn fwy na dynion o faintioli corfforol mawr; yn wrthgyferbyniol i "feibion Duw," sef y duwiolion. Eu hawyddfryd hwy oedd, nid am fod yn dda, ond am fod yn fawr, yn "wŷr enwog."—*Dr. Campbell.*

II. Yn *Gen.* xiv. 5, cyfarfyddwn â chenedl a elwid Rephaimiaid (רפאים), yn trigo y tu hwnt i'r Iorddonen, yn Asteroth-Carnaim, ac a darawwyd gan Cedorlaomer. Un o'r genedl hon oedd Og, brenin Basan, yr unig un yn nyddiau Moses oedd wedi ei adael o'r Rephaimiaid (cawri): *Deut.* iii. 10, 11. Tybia rhai fod y gyfran ddilynol o *adn.* 11, yn chwanegiad o waith llâw ddiweddarach:—"Wele, ei wely [neu fel y cyfieitha rhai, *ei arch*] ef oedd wely [neu *arch*] haiarn; onid yw hwnw yn Rabbath meibion Ammon? naw cufydd oedd ei hyd, a phedwar cufydd ei led, wrth gufydd gwr," neu hyd naturiol y cufydd. [Gwel CUFYDD.] Ymddengys oddi wrth hyn fod Og yn ddyn o faintioli anarferol, er nas gellir penderfynu yn fanwl beth oedd ei daldra oddi wrth hyd y gwely yn mha un y gorweddai, neu yr arch yn mha un y dodwyd ei gorff, os yn wir y claddwyd ef mewn arch o gwbl yr hyn nid yw yn debyg iawn oddi wrth yr hanes am ei ddiwedd: *Num.* xxi. 33—35. Cymmaint a hyn sydd yn amlwg, fod yr hanesydd sanctaidd yn llefaru am Og megys cawr, ac o genedl y cawri (cymharer *Ios.* xii. 4; xiii. 12). Y genedl hon a roddodd enw i ddyffryn ger llaw Ierusalem, a elwid "glŷn y cawri," neu ddyffryn y Rephaimiaid (yn ol y Deg a Thrigain, glŷn neu ddyffryn y Titaniaid=Τιτάνων): *Ios.* xv. 8; 2 *Sam.* v. 18; *Esa.* xvii. 5. Enwir y Rephaimiaid gyda'r Phereziaid, fel hen drigolion Canaan: *Ios.* xvii. 15. Yn *Iob* xxvi. 5, y mae y gair *rephaim* yn cael ei gyfieithu "pethau meirw;" ac yn *Esa.* xiv. 9, "y meirw:" ond nid yw yn gosod allan gyflawn rym y gair gwreiddiol. Bernir mai *ysbrydion y rhai galluog a fuant feirw* a feddylir, ac y gellid darllen yr adnod yn Iob fel y canlyn:—

"Yr ysbrydion a grynant oddi tanodd,
Y dyfroedd, gyda'r rhai sydd yn trigo
ynddynt."

Gwel Barnes ar yr adnodau uchod yn Iob ac Esaiah. Y mae yr un gair yn cael ei gyfieithu "y meirw," yn *Diar.* ii. 18; xxi. 16, &c.

III. Yr Anaciaid (בני ענק neu ענקים). Yn *Num.* xiii, yr ysbiwyr a anfonasid gan Moses i chwilio Gwlad yr Addewid a adroddent yn mhlith pethau ereill,—"Y mae y bobl sydd yn trigo yn y tir yn gryfion; a gwelsom yno hefyd feibion Anac;" *adn.* 28. Y mae y crybwylliad hwn yn dangos fod meibion Anac yn rhywogaeth gawraidd digon adnabyddus. Yn *adn.* 32 a 33, y maent yn ymhelaethu,—"Tir yn difa ei breswylwyr yw efe; a'r holl bobl a welsom ynddo ydynt wŷr corfforol [ymyl y ddalen, 'mawr eu maint']: ac yno y gwelsom y cawri, meibion Anac, y rhai a ddaeth-

Digitized by Google

ant o'r cawri; ac yr oeddym yn ein golwg ein hunain fel ceiliogod rhedyn, ac felly yr oeddem yn eu golwg hwythau." Pa ormodiaith bynag a roddai ofn yn y dysgrifiad, y mae y gyfran yn eglur ddangos crediniaeth yr ysgrifenydd yn hanfodaeth cenedl o gawri: *Deut.* ix. 2. Oddi wrth *Deut.* ii. 10, 11, ymddengys fod maint yr Anaciaid wedi myned yn ddiarebol, ac yn safon wrth ba un y cymherid ereill. Yn amser Moses yr oeddynt yn preswylio yn amgylchoedd Hebron: *Ios.* xi. 21. Yr oeddynt yn gynnwysgedig o dri llwyth—"Ahiman, Sesai, a Thalmai, meibion Anac;" *Num.* xiii. 22. Dyfethwyd hwynt gan Iosuah, "o'r mynydd-dir, o Hebron, o Debir, o Anab, ac o holl fynyddoedd Iudah, ac o holl fynyddoedd Israel: Iosuah a'i difrododd hwynt a'u dinasoedd. Ni adawyd un o'r Anaciaid yn ngwlad meibion Israel: yn unig yn Gaza, yn Gath, ac yn Asdod, y gadawyd hwynt;" *Ios.* xi. 21; xiv. 12; *Barn.* i. 20.

IV. Oddi wrth weddill yr Anaciaid, a adawsid fel hyn yn Gath, y deilliodd Goliath y Philistiad: 1 *Sam.* xvii. 4. Yr oedd y cawr hwn yn chwe chufydd a rhychwant ei uchder, a'i arfogaeth yn gyfatebol i'w faint a'i nerth. Pan oedd rhyfel rhwng Israel a'r Philistiaid, daethai allan "i waradwyddo byddinoedd y Duw byw;" yr hyn a wnaeth efe fore a hwyr am ddeugain niwrnod, er dychryn dirfawr i Israel, a digalondid i Saul a'i weision. Yn y cyfamser, anfonwyd Dafydd gan ei dad i'r fyddin i ymweled â'i frodyr, yn llanc ieuanc gwridcoch; ac wrth ganfod haerllugrwydd y gelyn, cynnygiodd ei hun i ymladd âg ef. Wedi gwrthod arfogaeth y brenin, heb ddim ond ei ffon-dafl a'i geryg llyfnion a godasai o'r afon, tarawodd y cawr yn ei dalcen, fel y cwympodd ar ei wyneb ar y ddaiar; a thorodd Dafydd ei ben ef â'i gleddyf ei hun. Ennillwyd buddugoliaeth gyffredinol mewn canlyniad—yr hyn a gyfrifir i gynnorthwy dwyfol: *adn* 46, 47. Wrth gymharu 2 *Sam.* xxi. 19, â 1 *Cron.* xx. 5, cawn fod i Goliath, y Gethiad, frawd o'r enw Lami, yr hwn a laddwyd gan Elhanan y Bethlehemiad, un o gedyrn Dafydd; a dywedir fod paladr ei waewffon fel carfan gwehydd. Enwir cawri ereill yn 2 *Sam.* xxi. 16—22; sef, 1. "Isbibenob, yr hwn oedd o feibion y cawr (â phwys ei waewffon yn dri chan siel o bres) ac wedi ei wregysu â chleddyf newydd, meddyliodd ladd Dafydd; ond Abisai mab Serflah a'i helpiodd ef, ac a darawodd y Philistiad, ac a'i lladdodd." 2. Saph, yr hwn oedd o feibion y cawr, ac a laddwyd gan Sibbechai yr Husathiad. 3. Gŵr corffol, â chwech o fysedd ar bob llaw, a chwech o fysedd ar bob troed iddo, pedwar ar ugain o rifedi; yr hwn "pan ddifenwodd efe Israel, Ionathan mab Simea, brawd Dafydd, a'i lladdodd ef. Y rhai hyn a anesid i'r cawr yn Gath, ac a gwympasant trwy law Dafydd, a thrwy law ei weision." Y mae yn debyg eu bod oll yn frodyr i Goliath, ac y gelwid eu tad hwy "y cawr" mewn ffordd o hynodrwydd.

V. Enwir cenedl arall yn *Deut.* ii. 10, yr Emiaid (אימים), y rhai a gyfanneddent yn ngwlad y Moabiaid:—"pobl fawr ac aml, ac uchel fel yr Anaciaid; yn gawri y cymmerwyd hwynt hefyd fel yr Anaciaid; a'r Moabiaid a'u galwent hwy yn Emiaid." Gwel *Gen.* xiv. 5.

VI. Y Zamzummiaid (זמזמים): *Deut.* ii. 19—21: y rhai a breswylient yn nhir meibion Ammon, a gyfrifid befyd yn wlad cawri; "cawri a breswyliasant ynddi o'r blaen; a'r Ammoniaid a'u galwent hwy yn Zamzummiaid; pobl fawr ac aml, ac uchel fel yr Anaciaid. A'r Arglwydd a'u dyfethodd hwynt o'u blaen hwy (sef yr Ammoniaid), a hwy a ddaethant ar eu hol hwynt, ac a drigasant yn eu lle hwynt." Mae'n debyg mai yr un bobl a elwir Zuziaid yn *Gen.* xiv. 5.

Oddi wrth y rhestr hon, amlwg yw fod yr Ysgrythyrau yn son am gawri yn yr amser gynt, a chenedloedd o gawri; ac er y sonir am danynt fel rhyw beth hynod ac anghyffredin, eto ymddengys eu bod, mewn cymhariaeth â nifer y boblogaeth, i'w cael yn lled aml. Ac y mae y dybiaeth fod y cenedloedd boreuaf o ddynion yn dirfawr ragori ar ereill mewn corffolaeth yn cael cefnogaeth ddigonol mewn hen awduron yn gyffredinol; ac yn gynnar iawn, a than amgylchiadau ffafriol, gallai fod personau, ac hyd yn oed llwythau, wedi cyrhaeddyd taldra a chryfder anarferol. Ond y mae llawer o bethau yn cytuno i ddangos nad oedd gwahaniaeth o bwys yn maintioli yr hil ddynol yn gyffredin, oddi wrth yr hyn ydyw yn bresennol. Y mae hyn i'w weled mewn gweddillion dynol mewn beddau, yn enwedig y cyrff peraroglegig yn yr Aipht. Gwelir yr un peth wrth faint hen arfogaeth, mesuriad adeiladau, a hyd-fesurau a gafwyd oddi wrth yr henafiaid. Hen ysgrifenwyr, heb fod dan ddylanwad ffugchwedlau, ydynt yn cyddystiolaethu yr un peth. Homer, wrth son am ddyn hardd, a rydd iddo bedwar cufydd o uchder, ac un o led; Vitruvius a esyd y safon arferol i ŵr yn chwe throedfedd Rufeinig; ac Aristotle a wna fesuriad gwelyau yn chwe throedfedd.

Bod amrywiaeth mawr o ran taldra a chorffolaeth yn mhlith dynion, sydd ddigon adnabyddus. Pa beth yn gymhwys a ddichon fod y terfynau o fewn pa rai y mae natur yn gweithio yn ffurfiad y corff dynol, y mae yn anhawdd penderfynu. Gellir trin yr hanes a ddyry Aristotle am gorod ac am gawri yn ddiogel fel ffugchwedlau. Ond y mae yn hysbys iawn fod trigolion y gwledydd mwyaf gogleddol islaw y safon cyffredin—llawer o honynt prin yn bedair troedfedd: tra yn yr hinsoddau tymmerus, y mae uchder dynolryw gyda'u gilydd o bedair troedfedd a hanner i chwe throedfedd; ac nid ydym heb anghreifftiau o bersonau yn mesur wyth neu naw troedfedd. Y mae rhai awdwyr yn myned mor bell a deg a deunaw troedfedd; ond ymddengys fod yr haeriadau hyn yn cyfeirio at esgyrn cloddiedig o'r ddaiar, a briodolwyd yn gamsyniol i ddyn. Dywed Humboldt, fod y Guayaquiliaid a'r Payagwaod yn mesur chwe throedfedd a hanner, a bod Caribbeaid Cumana i'w gwahaniaethu wrth eu maintioli cawraidd yn mron rhagor yr holl genedloedd ereill y cyfarfu efe â hwynt yn y Byd Newydd. Dywedai y morwyr Yspaenaidd boreuaf, fod y Patagoniaid yn mesur saith troedfedd a phedair modfedd; ond ymddengys fod y cyfrif hwn yn ormod: pa fodd bynag, y mae teithwyr mwy diweddar yn cadarnhau fod eu huchder yn amrywio o chwech i saith troedfedd.

Yn mhlith y cawri diweddar, prin y cafwyd un yn fwy na naw troedfedd—ychydig uwch law saith a hanner; er y sonir am un Swediad yn mesur wyth troedfedd, ac am un arall o osgordd y dug o Brunswick, oedd yn wyth troedfedd a chwe modfedd. Tua dechreu y deunawfed canrif, yr oedd gof o'r enw Parsons, a drysor i'r llys, yn saith troedfedd a dwy fodfedd; ac, yn ol Fuller, "yr oedd ei holl ranau yn gymmesur, ei gryfder yn gyfartal i'w gorffolaeth, ei wroldeb â'i gryfder,

Digitized by Google

a'i bwyll â'i wroldeb; fel yr oedd yn ddirmygus ganddo wneyd niwed i undyn. Ni fyddai ddim ganddo gymmeryd dau o wŷr talaf y gosgorddlu, un dan bob cesail, ar unwaith, a'u trin fel y mynai." Y mae profion ar gael o daldra anarferol un O'Brien, yr hwn y buwyd yn ei ddangos trwy Lloegr, yn y flwyddyn 1784. Y mae ei ysgrud yn nghadw yn amgueddfa Coleg Breiniol y Llawfeddygon yn Llundain, yn mesur saith troedfedd ac un modfedd ar ddeg. Os caniatëir dwy fodfedd i ranau meddalion y corff, rhaid oedd fod ei daldra yn wyth troedfedd a modfedd. Y mae anghreifftiau ereill o daldra mwy eto ar gael, ond y mae rhai o honynt yn ffug-chwedlau disail, ereill heb dystiolaeth ddigonol o'u gwirionedd, ac ereill yn dwyn arwyddion amlwg o ormodiaith. Wedi y cwbl, nid yw o nemawr bwys i ba uchder y cyrhaedda y corff dynol mewn personau unigol. Y mae anferthedd o bob math wedi bod; a thaldra, heb iechyd, nerth, a bywiogrwydd cyfatebol, sydd fath o anferthedd.

Bod cenedl o gawri yn beth dichonadwy, nis gellir ei wadu. Adnabyddus yw fod tueddiad yn y corff dynol i barhau rhyw neilldulrwydd y byddo unwaith wedi ei ddwyn iddo. Pa ham nad hir-dyfiant yn gystal a rhyw beth arall? Mewn gwirionedd, y mae epiliad corffolaeth, pa un bynag ai uchel ai isel, yn beth sydd i'w ganfod beunydd o flaen ein llygaid. Y mae plant yn tebygu i'w rhieni. Y mae taldra i'w gael yn aros mewn teuluoedd; a diammheu, oni bai fod amgylchiadau yn cyfryngu er lleihau y corffolaeth, drwy ymbriodi â phersonau byrion, y gallai taldra anarferol barhau yn mlaen mewn un llinach am oesoedd. Dywedir fod trigolion Potsdam, wedi disgyn oddi wrth y fyddin o filwyr tal, y rhai y cymmerodd Frederic o Prwssia gymmaint o boen i'w dwyn yn nghyd—eu bod eto yn nodedig fel yn rhagori ar y taldra cyffredin. Ymddengys fod teulu y Scaligers o daldra anarferol. Etallai y gellir caniatäu, i ryw raddau, fod dynion yr oesoedd boreuaf yn rhagori ar y rhai diweddar mewn maint a nerth. Y mae gwareiddiad uchel a moethau, pa beth bynag y maent yn ei effeithio ar y meddwl, yn tueddu i leihau a gwanhau y corff. Y mae hyn yn ddeddf mewn naturiaeth, fod unrhyw ran neu aelod drwy ymarferiad yn myned yn fwy, yn gryfach, a bywiocach. Y mae ymarferiad â llafur cymmedrol, awyr iach, ac ymborth maethlawn, yn tueddu i wrth-weithio effeithiau niweidiol syrthni, ac awyr ac ymborth afiach, anghymmedroldeb a rhysedd, ac i gadw maint a nerth y ddynoliaeth heb amrywio rhyw lawer oddi wrth ei sefyllfa naturiol.—(*Kitto's Cyc. of Bib. Lit.*)

CAWS, [*caw;* un., *cosyn*]: enllyn tra adnabyddus, yn gynnwysedig o geuled llaeth, yr alwyn (*albumen*), yn nghyd â rhyw gyfartaledd, mwy neu lai, o hufen neu ymenyn. Y modd y gwneir ef yw, trwy dymmeru y llaeth tua chant o raddau, a rhoddi ynddo ychydig o gaul, sef dwfr y mwydwyd ynddo ddernyn o gylla neu fol llo, wedi ei halltu a'i gadw i'r dyben hwnw, yr hyn a bair i'r llaeth ddosranu yn gaws gwyn (*coagulum*) a maidd (*serum*). Wedi codi y caws gwyn o'r maidd, gwesgir y gweddill o'r meiddlyn allan o hono; yna rhwbier yn dda, a rhodder ynddo ddogn cymhwys o halen; wedi hyny, rhwbier yn ofalus drachefn, yr hyn a elwir ceulfraenu. Wedi trin y ceulfraen felly, gosoder ef mewn llian, ac yna mewn cawsellt, i'w wasgu mewn gwryf neu wasg, gan ei droi a newid y llian fel y byddo achos, hyd oni ddelo yn ddigon caled—yn dorthau neu deisenau o amryw faint, y rhai a osodir mewn lle cyfaddas i sychu. Y mae y cyffyr a elwir *annatto*, neu liw caws, yn hollol ddiwerth. Yr hyn sydd yn peri gwahanol ansoddau mewn caws yn benaf yw, eu bod yn cynnwys graddau mwy neu lai o ymenyn ynddynt. Y caws goreu sydd o ansawdd ddurfing, sych, heb dyllau neu lygaid, o liw goleu; a thrwy ei rwbio rhwng bys a bawd, y mae yn ddiattreg yn troi yn ir a meddal. Ystyrir fod caws, i bobl iach, fel enllyn bara, yn ymborth tra defnyddiol a maethlawn, er y dywed rhai i'r gwrthwyneb; ond nid yw caws hen iawn, na chaws rhy newydd chwaith, yn iachus. Y mae *blas* caws, weithiau, yn cael ei beri trwy gamdriniaeth wrth eu gwneyd, neu gan ryw fath o laswellt, neu ryw bawr arall, â pha un y porthir buchod; ond nid yw yn un prawf o'i ansawdd faethlawn. Y mae yn mron bob sir yn Lloegr yn meddu rhyw neilldulrwydd gyda'r enllyn hwn, am yr hyn y maent yn fwy neu lai enwog—caws rhai yn fras, ereill yn dyner, &c. Cyfrifir swyddi Caerlleon, Caerloyw, Gwlad yr Haf, a Dyffryn Clwyd, yn hynod am gaws da yn y wlad hon. Y mae Parma, yn Italy, hefyd yn lle nodedig am gaws. O laeth gwartheg yn unig y gwneir caws yn Lloegr; ond yn Nghymru (gynt yn llawer mwy nag yn awr), ac yn Rochfort, yn Ffrainc, a rhai manau ereill, fe'i gwneir o laeth defaid, neu gymmysg o laeth defaid a gwartheg. Y mae y caws a wneir o laeth wedi ei ddihufenu yn wastad yn wael; ac wrth sychu, yn myned yn galed, a braidd yn anfwytadwy. *Cawsa*, yw hel neu gardota caws, fel y gwnai gwragedd tlodion newydd briodi mewn rhai ardaloedd yn Nghymru gynt; a hel bara a chaws o dŷ i dŷ, ar Ddydd Gwŷl y Meirw, mewn lleoedd ereill. Y mae'r hen ddefodau hyn yn mron llwyr ddiflanu o flaen gwybodaeth a gwareiddiad.

Y cyfeiriad mwyaf nodedig yn yr Ysgrythyr at y defnydd hwn o laeth sydd yn *Iob* x. 10, lle y mae Iob, yn ffugrol, yn dysgrifio ffurfiad a meithriniad y corff dynol o'i ddechreuad yn y groth:—

"Oni thywelltaist fi fel llaeth;
Ac oni cheulaist fi fel caws?"

Y mae hyn yn cyfeirio at dewychiad y llaeth trwy ei geulo, a'r modd y mae yn caledu yn raddol yn gaws durfing. Y mae y caws newydd yn feddal a gwan; ac wrth heneiddio, yn caledu ac yn cryfhau. Y mae yn ddiammheu y bwytëid llaeth ceuledig gan y dwyreinwyr, fel gyda ninnau; ond nid hyn a feddylir wrth gaws ir, neu gaws llaeth, yn 1 *Sam.* xvii. 18 (ymyl y ddalen), a "chaws gwartheg," yn 2 *Sam.* xvii. 29, fel y tybiodd rhai beirniaid; ond caws o wneuthuriad priodol, fel yn fwy cymhwys i'w cludo ar hynt filwraidd. Y mae yn dra thebyg nad oedd caws yr Iuddewon yn gwahaniaethu dim oddi wrth yr hyn sydd yn gyffredin yn y dwyrain hyd heddyw: teisenau bychain ydynt, o faint dysgl de, yn wyn, a hallt iawn—heb grystyn—ac yn fuan yn myned yn galed a sych; ac felly, heb fod yn gymhwys i hir gadwraeth. Yn ir neu newydd, a chyn eu myned yn galed, y mae eu caws hwynt yn oreu; ond nid ydynt yn agos mor flasus a chaws ein gwlad ni. Defnyddiant yn lle caul, naill ai llaeth enwyn, neu drwyth oddi ar fath o ysgall, fel y defnyddir llysiau y cywer yn ein mysg ni. Dodir y caws gwyn mewn basgedi bychain o frwyn neu ddail palmwydd, gan eu rhwymo yn dyn, a'u dodi dan bwysau. Y mae y *Mishnah* yn cynnwys amryw

Digitized by Google

benderfyniadau ofergoelus perthynol i wasgu caws; ac fe wahèradid i'r Iuddewon fwyta caws gwneuthuredig gan ddyeithriaid, rhag ofn eu bod yn cynnwys llaeth rhyw anifail a aberthasid i eilunod.

CEBAR, neu CHEBAR, [*nerth*]: afon gref yn Mesopotamia, ar lanau yr hon y sefydlodd brenin Babilon yr Iuddewon a gaethgludasai efe; ac yn eu mysg, y prophwyd Ezeciel: 2 *Bren.* xxiv. 15; *Ezec.* i. 1, 3; iii. 15, 23; x. 15, 22. Yr un a Chaboras y Groegiaid, ac a elwir yn awr Khabour. Yn 2 *Bren.* xvii. 6, gelwir hi Habor. Y mae yn cael ei ffurfio trwy ymuniad lluaws o fân ffrydiau, yn rhedeg trwy wlad ffrwythlawn, ac yn ymarllwys i'r Euphrates ger llaw Kerkesia neu Carchemis. [Gwel CARCHEMIS.]

CECROPS: priodor o'r Aipht, a sylfaenodd freniniaeth Athen, c. c. 1556. Wedi ymsefydlu yn Attica, efe a ranodd yr holl wlad oedd o dan ei lywodraeth yn ddeuddeg rhandir. Efe hefyd a sefydlodd yr Areopagus, y llys uchaf yn Athen.

CEDAR, [*du*]: ail fab Ismael; *Gen.* xxv. 13; a sylfaenydd y llwyth a elwid ar ei enw yn Cedar, neu Cedariaid, y rhai a breswylient yn nghymmydogaeth y Nabatheaid, yn Arabia Deserta. Yr oedd y bobl hyn yn byw mewn pebyll, ac yn llwyth crwydredig, fel y mae yn rhy anhawdd gosod i lawr derfynau eu preswylfod. Trigent, fel y tybir, yn neheubarth Arabia Deserta, a gogleddbarth Arabia Petræa. Ymddengys fod yr enw "Cedar" yn cael ei arfer weithiau am Arabia yn gyffredinol, neu Arabia Deserta yn neillduol: *Salm* cxx. 5; *Can.* i. 5; *Esa.* xxi. 16; xlii. 11; lx. 7; *Ier.* ii. 10; xlix. 28; *Ezec.* xxvii. 21.

CEDEMAH, [*dwyreiniol*]: mab ieuengaf Ismael: *Gen.* xxv. 15. Tybir i'w hiliogaeth breswylio o du y dwyrain i Gilead, yn anialwch Cedemoth, ac i'r lle hwnw gael ei enw oddi wrthynt: *Deut.* ii. 26.

CEDEMOTH, [*henafiaeth*, neu *dwyreinwyr*]: dinas ac anialwch o'r enw, ger llaw yr afon Arnon. Oddi yma yr anfonodd Moses genadon hedd at Sehon, brenin Hesbon: *Deut.* ii. 26. Gwedi ei orchfygu ef, daeth y ddinas hon i ran llwyth Reuben, a rhoddwyd hi a'i meusydd pentrefol wedi hyny i'r Lefiaid: *Ios.* xiii. 18; xxi. 37.

1. CEDES: dinas yn Iudah, yr un a CADES-BARNEA.

2. CEDES: yn Galilea, perthynol i lwyth Naphtali, a roddwyd i'r Lefiaid, ac a wnaed yn ddinas noddfa. Y fwyaf gogleddol oedd o'r tair a gyssegrwyd ar y tu gorllewinol i'r Iorddonen: *Ios.* xii. 22; xix. 37; xx. 7; xxi. 32; 1 *Cron.* vi. 76.

3. CEDES: dinas yn llwyth Issachar, a roddwyd i'r Gersomiaid: 1 *Cron.* vi. 72.

CEDORLAOMER: brenin Elam; un o'r pedwar brenin a orchfygasant Sodomah a Gomorrah, yn nyddiau Abraham, ac a gymmerasant "Lot nai fab brawd Abraham, a'i gyfoeth," yn ysbail: *Gen.* xiv. Gwel ABRAHAM; ELAM.

CEDRON, neu CIDRON: afonig fechan sydd yn tarddu yn nghymmydogaeth orllewinol Ierusalem, yn ymddirwyn trwy ddyffryn Iehosaphat—yr hwn hefyd a elwir dyffryn Cedron—ac yn ymarllwys i'r Môr Marw ugain milltir i ochr ddwyreiniol y ddinas uchod. Χειμαρρος του Κεδρων, y gelwir hi gan ysgrifenwyr Groeg:—χειμαρρος, oddi wrth χειμα (gauaf), a ροος (ffrwd) =*gauaflif* neu *gornant Cedron.* Y mae yr enw hwn arni (gauaflif), yn gystal a hanes teithwyr diweddar, yn dangos nad ydyw Cedron ond ffrydlif fechan a llwydlyd; a'r hyn sydd yn ei gwneyd yn deilwng o sylw neu ddau ydyw, ei bod yn hytrach yn meddu nodweddiad cyssegredig, ac yn enwog hefyd mewn hanesyddiaeth. Arwyddocâd y gair Hebreig *Cedron* (קדרון) ydyw, *düwch, gwyll, pygliw*; ac y mae yr ystyr hwn hefyd yn rhoddi nodweddiad yn gystal ag enw y dwfr a'r cwm dan sylw. Un o deithi neilduol hen ieithoedd ydoedd, fod eu henwau yn ansoddawl; hyny yw, yr oedd yr enw yn ddrych o'r gwrthddrych. Er anghraifft, un o brif nodweddau rhagorgamp y Gymraeg—neu, os myn y darllenydd, y Geltaeg—ydyw, fod ei geiriau yn dangos prif nodwedd y pethau. Y mae enwau mynyddoedd, bryniau, cwmwdau, cyndyddynau, afonydd, a nentydd Cymru, yn nghyd â gwledydd ereill ag sydd o darddiad Celtaidd, yn ansoddawl; fel y gall y Cymro gael golygddrych ar y peth yn y gair.

Er mwyn rhoddi dysgrifiad o helyntion Cedron yn llwyrach, tybied y darllenydd ein bod yn sefyll ar lechwedd bryn Sion, ar ba un y saif cwr pellaf deheuol Ierusalem—â'n gwynebau tua'r gogledd. Y cwm wrth droed y bryn hwn, tu cefn i ni, yw dyffryn Hinnom, neu Gehenna, lle yr ydoedd hefyd y cylch a elwid Tophet (=tabyrddog), oddi wrth y swn a wnelid â thabyrddau i foddi llais y trueiniaid a aberthid yn y cyfryw gylch i'r eilunddiw Moloch. Gwnaed y cylch hwnw, wedi hyny, yn domenfa gyffredinol, lle y bwrid ysgarthion Ierusalem; ac oddi wrth y "tân ysol," a'r "pryf nad oedd yn marw," ag oeddynt yma yn ymborthi ar yr ysbwrial hyn, y daeth y lle yn raddol i gael ei ystyried yn gysgod gwan ond dychrynllyd o uffern. Trwy ddyffryn Hinnom, yr ydych yn gweled ffrydlif fain (dyfroedd Gihon) yn rhedeg ac yn ymgydio â Chedron yn nyffryn Iehosaphat. Ychydig yn uwch i fyny yn y dyffryn, wrth droed dwyreiniol Sion, y mae ffynnon Siloam yn ffurfio dau lyn. "Wrth ddisgyn o'r mynydd hwn," ebe Chateaubriand, "o'r tu dwyreiniol, ni a ddaethom at ffynnon Siloam. Distylla ei dyfroedd o'r graig, ac ymdreiglant yn ffrydlif ddystaw, araf, gan ddisgyn o honi hithau i'r Cedron. Ar ol ffurfio mân lynoedd ar y gwastattir, perthyn iddi fath o lanw a thrai. Yr oedd yma wragedd yn golchi dillad, a chleiflon a ddeuent yma i olchi eu llygaid."—*Chat. Trav. in Palcs.* Y mae rhediad didrwst, gloew-las, araf, dyfroedd Siloam yn cael ei arfer yn arwyddlun o anianawd dyner, dirion, heddychol, ac iachusol, yr efengyl. *Esa.* viii. 6.

Os edrychwn yn awr rhag ein blaen gydag ystlys ddwyreiniol dinas Ierusalem, yr ydym yn gweled cwm dwfn, cul—ei led nid ydyw ond tuag wyth cant o latheni: yr afonig sydd yn ymlusgo yn gysglyd, budr, llwyd-ddu, a chrintachlyd, gan gludo gyda hi fudreddi y ddinas Cedron ydyw; a'r dyffryn yna, dyffryn Iehosaphat ydyw. Mae pob modfedd o hono yn gyssegredig—claddfa tair mil o flyneddoedd i Ierusalem, ydyw y cwm. Yn mynwes y dyffryn hwn y mae yr hyn oedd farwol o brophwydi a breninoedd yr Hen Destament yn cymmeryd eu hûn; a chadl bedd yn mynwes hwn ydyw breuddwyd bywyd yr Iuddew selog; ac yn y dyffryn yma y mae

Digitized by Google

efe hefyd yn meddwl, oddi wrth *Ioel* iii. 2, y bydd i'r farn fawr eistedd ar ddiwedd y byd. Yr ydys yn gweled mynydd serth a ban yn ymgodi yr ochr arall i'r dyffryn—Mynydd yr Olewydd ydyw; a'r ysmotyn bychan o dir amgauedig sydd i'w weled ar ei lechwedd, gardd Gethsemane ydyw. Rhoddwn yma rai dyfyniadau o eiddo teithwyr diweddar:—

"Disgynasom i ddyffryn Cedron neu Iehosaphat, trwy borth St. Stephen. Yr oedd golwg gethin a diffaeth ar y glyn a'r llechweddi hyn. Yr ochr ddwyreiniol sydd yn lethr greigaidd, yn cynnal ar ei war furiau Ierusalem; a'r ochr arall sydd yn terfynu yn ngodre Mynydd yr Olewydd, oddi ar grib uchaf pa un yr esgynodd Iachawdwr dynolryw i'r nefoedd. Y mae y gwastattir yn llawn beddau; ac y mae adfeilion tair cofgolofn henafol yn tynu sylw neillduol; sef beddadail y prophwyd Zechariah, a'r eiddo Iehosaphat ac Absalom. Oddi wrth farweidd-dra difasnach Ierusalem—heb lais yn cyffro, na braidd golofn o fwg yn dyrchafu; oddi wrth unigedd prudd-ddystaw y bryniau serth hyn, lle nid oes greadur byw i'w weled; ac oddi wrth gyflwr dadfeiliog a charneddog y beddfeini a'r cofgolofnau beddrodol yn y cwm mynwentol hwn—y meini yn gogwyddo bob ffordd, y cofadeiladau yn garnedd, a'r beddau yn hanner agored:—oddi wrth y fath olygfa gethin, chwi allech gasglu fod udgorn yr archangel newydd roddi y floedd, a bod y meirw yn y weithred o ymuniawnu, a bod dyffryn Iehosaphat yn rhoddi i fyny ei feirw."—*Chat. Travels.*

"Yr oeddym ar drothwy porth St. Stephen, ac wedi aros ennyd i sylwi ar y cofgolofnau ag oeddynt yn mynwent y Tyrciaid, ar ochr ddeheuol y porth, a ni a ddisgynasom i'r bont ag oedd yn croesi Cedron; a dyna ni yn nyffryn cul, unig, a swyngyfareddol Iehosaphat. Dyma ni yn sengu ar dir sanctaidd clasurol y Beibl; y mae pob peth yma fel y gadawodd natur ef, heb law yr aneirif gofadeiladau beddrodol hyn. Wrth edrych ar y gwastattir a'r llechweddi oddi amgylch ogylch yn llawn beddau, nid oedd amnheuaeth genym nad oeddym yn sefyll yn nghanol hen fynwent Ierusalem, ac yr amgylchynid ni gan lwch enwogion yr Hen Destament. A dyma ganolbwynt dysgyrchiol pob Iuddew crwydredig—cael bedd yma yn swn murmurog nant Cedron, yn mhentwr y tadau. Fel y cadfeusydd enwog lle y collwyd ac yr ennillwyd gorseddfeinciau, ac nad ydyw y lleoedd yn awr yn dwyn un adgof o'r golygfeydd hyny; felly, gallai y teithiwr dyeithr fyned trwy ardd Gethsemane, heb freuddwydio ei fod ar y smotyn a wlychwyd gan 'chwys fel dafnau gwaed' y Cyfryngwr y nos hono, pan ydoedd yn y fan yma yn gweddio yn ddyfalach ddyfalach. Y mae yna yn awr Fellah Arabaidd yn palu y tir."—*Stephens' Travels.*

CEDRWYDD, neu CEDARWYDD, [ארז= *cadarn, parhaus*]. Nid yw y pren hwn (*pinus cedrus*), yn ol dosbarthiad Linnæus, ond cenedl o'r ffawydden, neu y *fir-tree*. Bydd llysieuwyr enwog ereill yn gosod y cedrwydd yn rhywogaeth ar ei ben ei hun. Yr ydoedd y gedrwydden yn bren o hybarchedd mawr yn ngwledydd y dwyrain, a cheir crybwylliad mynych am dano yn yr Ysgrythyrau. Cartrefle cynnwynol neu naturiol y pren hwn ydyw Libanus, a mynyddoedd Syria; ond gellir ei dyfu mewn hinsoddau ereill: a cheir amryw brenmaeth o honynt yn mharciau Cymru. Y mae Mr. Lyson yn dywedyd yn y *Penny Cyclopædia* [erthygl ABIES] ei fod ef wedi ymweled â'r gedrwydden ag oedd yn mharc iarll Caernarfon, yr hon ydoedd ar y pryd yn drigain mlwydd oed; a dywed fod ei chylchfesur, dair troedfedd o'r bôn, yn ddeg troedfedd. Y mae y gedrwydden yn un o'r prenau mwyaf mawreddog ac ardderchog; tyf yn anghyffredin o uchel, praff, ac amrosgo, fel clochdy. Ei changenau ydynt fawrion, ac o gryn bellder oddi wrth eu gilydd; ei dail yn glysdyrog, a bythwyrddion, ac yn debyg o ran eu ffurf i ddail rhos Mair; a thynir sudd o honynt a ystyrir yn feddyginiaethol. Yn ol Labillardiere, teithiwr Ffrengig diweddar, y mae llawer o gedrwydd yn tyfu y dydd heddyw ar fynydd Libanus. Dywed mai

Dar. 165. Cedrwydd Libanus.

tryfesur yr un mwyaf ydoedd naw troedfedd—fod parch ofergoelus yn cael ei dalu iddynt gan y trigolion; a chedwid dydd gwyl blyneddol iddynt. Yr ydym yn darllen y byddai yr Iuddewon yn gwneyd defnydd cyffredin o'r pren hwn mewn adeiladu a dodrefnu eu tai. Byddai weithiau yn cael ei arfer yn lle ceryg mewn muriau, am ei fod o galedrwydd anmhydradwy, a bod ei chwerwder nodedig yn ei ddiogelu yn erbyn pryfed. Un nodwedd o ogoniant perthynol i deml Solomon, yn nghyd â phalas y brenin, oedd eu bod wedi eu hadeiladu o gedrwydd Libanus; ac o blegid fod yn yr adeiladau mawrion hyny y fath gyflawnder o "goed Liban," byddai y deml, trwy droellymadrodd, weithiau yn cael ei galw yn Libanus: "Libanus, agor dy ddorau;" *Zech.* xi. 1. A phalas y brenin, o blegid yr un rheswm, a elwid weithiau, "tŷ coedwig Libanus;" 1 *Bren.* vii. 2.

Y mae awduron yn gwahaniaethu yn nghylch gwir arwyddocâd y gair Hebreig ארז (=*eres*) a ganfyddir mor fynych yn yr Ysgrythyrau, ac a gyfleithir *cedrwydd.* Tybia Celsius [*Hier.*, i. 10] mai enw cyffredinol ydyw ar rywogaeth y pinwydd, ac nad yw yn golygu o gwbl gedrwydd Libanus, y rhai a dybiai ef a ddynodir gan y gair ברוש=*berosh.* Ond y mae mwyafrif o'r awduron, o'r hyn lleiaf, yn barnu mai cedrwydd Libanus (*pinus cedrus*, neu *cedrus Libani*) yn unig a feddylir. Barna Rosenmüller "fod y gair *eres*, a ganfyddir mor fynych yn yr Hen Destament, yn cael ei gyfleithu bob amser gan y cyfleithwyr boreuol yn gedrwydd" (κέδρος). Cesglir, gan

Digitized by Google

hyny, ganddo ef, yn nghyd âg ereill, mai cedrwydd Libanus yn unig a olygir wrth y gair; ond ymddengys nad yw yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio yn hollol am y pren crybwylledig gan yr henafiaid. Tybia Sprengel fod y gair κέδρος a ddefnyddir gan Dioscorides yn ddim amgen na rhywogaeth y ferywen; ac y mae Dr. Lindley, golygydd y rhifynau diweddaf o'r *Flora Græca* yn cytuno âg ef. Pe cymharem y gwahanol frawddegau lle y dygwydd y gair hwn yn yr Ysgrythyrau, ni ganfyddwn yn amlwg fod yr enw yn cael ei arfer am ragor nag un math o blanigion. Y crybwylliad cyntaf am y cedrwydd a geir yn *Lef.* xiv. 4, 6; lle y cyfarwydda Moses y gwahanglwyfus i offrymu dau aderyn y to, coed cedr, ysgarlad, ac isop, er ei lanhâd; ac yn *adn.* 49, 51, 52, gorchymynir i'r tai ag yr oedd y gwahanglwyfus yn trigo ynddynt gael eu puro â'r cyffelyb ddefnyddiau. Yn *Num.* xix. 6, hefyd, erchir i Moses ac Aaron gymmeryd anner goch: "A chymmered yr offeiriad goed cedr, ac isop, ac ysgarlad; a bwried i ganol llosgfa'r anner." Sylwa yr arglwyddes Callcott [*Scr. Herb.*, td. 92], "Nid oedd y cedrwydd yn briodor o'r Aipht, ac nis gellid dyfod o hyd iddynt yn yr anialwch ond trwy lafur dirfawr; ond y mae y ferywen yn dra lluosog yno, ac yn gwreiddio yn ddwfn yn agenau creigiau mynydd Sinai. Bod rhai, o'r hyn lleiaf, o gedrwydd yr henafiaid yn rhywogaeth y ferywen sydd eglur oddi wrth yr Ysgrythyrau a ddyfynasom uchod: y mae rhai o honynt yn fwy neu yn llai peraroglaidd. Yr oedd yr henafiaid yn arferol o daflu aeron y pren meryw ar goelcerthi angladdol er mwyn amddiffyn yr eneidiau ymadawedig rhag dylanwad ysbrydion drwg, ac yr oeddynt yn offrymu y pren hwn i'r duwiau, gan dybio ei fod yn dra derbyniol ganddynt; llosgent ef hefyd yn eu tai er mwyn cadw draw y cythreuliaid rhag eu haflonyddu. Y mae yn dra hynod hefyd fod yn mharthau pellaf mynyddoedd Himalaya rywogaeth arall o'r dosbarth hwn yn cael ei ddefnyddio i'r un dyben, ac fel arogldarth yn eu defosiynau crefyddol."

Mewn amseroedd diweddarach ceir crybwylliad am y gwahanol ddybenion yr arferid y pren hwn; megys yn 1 *Sam.* v. 11; vii. 2—7; 1 *Bren.* v. 6, 8, 10; vi. 9, 10, 15, 16, 18, 20; vii. 2, 3, 7, 11, 12; ix. 11; x. 27; 1 *Cron.* xvii. 6; 2 *Cron.* ii. 8; ix. 27; xxv. 18. Yn yr adnodau hyn fe'n hysbysir am y cytundeb gyda Hiram, brenin Tyrus, am gyflenwad o gedrwydd o Libanus, ac am y dybenion y defnyddid hwynt yn adeiladaeth y deml a'r palas breninol:—"byrddiwyd y tŷ â thrawstiau ac ystyllod o gedrwydd;" "ac efe a fyrddiodd barwydydd y tŷ oddi fewn âg ystyllod cedrwydd;" ac yr oedd "colofnau o gedrwydd," a "thrawstiau o gedrwydd," ac yr oedd yr allor hefyd wedi ei gwisgo â'r pren hwn. Yn yr holl ymadroddion uchod y gair Hebreig *eres* a ddefnyddir, yr hwn a gyfieithir cedrwydd. Nid oes un crybwylliad penodol am ansawdd y pren hwn, fel y gellid tynu casgliad cywir am ei wir nodwedd, ond yn unig oddi wrth y dewisiad a wnaed o hono, a'r crybwylliad mynych a wneir yn ei gylch, mai efe oedd y cymhwysaf o herwydd ei ragoriaethau digyffelyb at adeiladu y deml a'r palas breninol. Oddi wrth hyn, pa fodd bynag, y tardda yr anhawsder i benderfynu mai yr hyn a alwn ni yn gedrwydd Libanus yn unig a olygid wrth y gair Hebreig: o blegid y mae ymchwiliadau a phrofion manwl diweddar yn ein sicrhau nad ydyw y pren hwn o ddefnydd mor ragorol ag y myn rhai i ni credu ei fod. I benderfynu hyn ni ddylem gyfeirio at adroddiadau awduron y rhai, yn wir, a ddysgrifiant gedrwydd, ond ni phrofant eu bod yn deilliaw o gedrwydd Libanus. Yr oedd yr enw cedrwydd yn cael ei arfer yr un mor anmhenodol gan yr henafiaid ag ydyw mewn amseroedd diweddar. Yn bresennol arferir ef am bren y *juniperus virginiana*, yr hwn sydd o liw coch, ac o'r hwn y gwneir y pwyntel cyffredin.

Y mae Mr. Loudon [*Arboretum*, td. 2417] yn rhoddi y dysgrifiad canlynol o'r pren hwn:—"Y mae y cedrwydd o liw goleugoch, ysgafn, a meddal, yn hawdd ei weithio, ond yn dra thueddol i grebychu a myned yn wyrgam, ac nid ydyw mewn un modd o hirbarhad." Ond pan y tyf y pren ar fynyddoedd, y mae ei haenau blyn eddol yn llawer culach, a'r llinionen (*fibre*) yn llawer llyfnach na phan y tyf ar wastadedd; yn gymmaint felly, fel yr oedd darn o gedrwydd a ddygwyd o fynyddoedd Libanus yn y flwyddyn 1829, yr hwn a wnaed yn ddodrefnyn bychan—yr oedd ei arwyneb yn ymddangos yn gryno, ei wythïenau yn gysson, ac, ar y cyfan yr oedd yn dra dymunol a phrydferth. Dygodd Dr. Pococke ddernyn o un o'r cedrwydd mwyaf, yr hwn a daflwyd i lawr gan y gwyntoedd ystormus ar y mynydd hwn, a dywed yntau nad yw y pren hwn yn gwahaniaethu nemawr oddi wrth y pren ffawydd, ac nad yw chwaith yn ymddangos yn fwy durfing. Y mae yn ymddangos yn debygol, gan fod y coed hyn yn cael eu cludo o gryn bellder, lle yr oedd pob math o gedrwydd yn tyfu, fod y pinwydd a chedrwydd Libanus, yn nghyd â'r ferywen, yn cael eu defnyddio yn adeiladaeth y deml. Y mae y gair *arz* yn cael ei ddefnyddio gan yr Arabiaid er dynodi y tair rhywogaeth a enwyd. Yr oedd Celsius o'r farn hefyd fod y *pinus sylvestris*, neu y pinwydd Ysgotaidd, yn cael eu cynnwys yn y gair *cedrwydd*, y rhai a adwaenir fel ffawydd cochion a melynion Norway. Cadarnheir y dyb hon gan *Ezec.* xxvii. 5; "Adeiladasant dy holl ystyllod o ffynnidwydd o Senir; cymmerasant gedrwydd o Libanus i wneuthur hwylbren i ti." Nid yw yn ymddangos yn debygol y defnyddid un pren arall i wneyd hwylbreni llongau ond y pinwydd cyffredin, pan yr oeddynt yn gyrhaeddadwy, a hyny hyd yn oed yn y dyddiau presennol.

Y mae yn ymddangos y cynnwysid y pinwydd mewn rhai ymadroddion o'r Ysgrythyr yn y gair cedrwydd; eto y mae yr un mor debygol fod ymadroddion ereill na chyfateba y pren hwn i'r dysgrifiad neu y defnydd a wneid o honynt. Pe yr ystyriem rai brawddegau o'r Ysgythyr, nis gallem lai na phenderfynu mai at gedrwydd Libanus, ac atynt hwy yn unig y cyfeirir; megys yn *Salm* xcii. 12; "Y cyfrawn a flodeua fel palmwydden, ac a gynnydda fel cedrwydden yn Libanus:"—*Seis.*, "spread abroad like a cedar of Lebanon." Y mae yn hysbys fod brig blodeuog y balmwydden, a changenau ymdaenol y gedrwydden yn ddau brif nodwedd berthynol iddynt. Ond y prophwyd Ezeciel a rydd y dysgrifiad mwyaf mawreddig, ac ar yr un pryd y darluniad cywiraf o'r pren nodedig hwn: "Wele, Asur oedd gedrwydden yn Libanus, yn deg ei cheinciau, a'i brig yn cysgodi, ac yn uchel ei huchder, a'i brigyn oedd rhwng y tewfrig" (xxxi. 3). "Am hyny yr ymddyrchafodd ei huchder hi goruwch holl goed y maes, a'i cheinciau a amlhasant, a'i changenau a ymestynasant, o herwydd dyfroedd lawer, pan fwriodd hi allan. Holl ehediaid y nefoedd a nythent yn ei cheinciau hi, a holl fwystfilod y maes a lydnent dan ei changenau hi; ie, yr holl

Digitized by Google

genedloedd lluosog a eisteddent dan ei chysgod hi" (xxxi. 5, 6). Yn y dysgrifiad uchod ceir prif nodweddion y cedrwydd; sef yn mlaenaf, lluosogrwydd a hirder eu cangenau. Nid oes un pren, braidd, yn meddu cynnifer o gangenau, neu yn lledu ei geinciau dros ddarn mor helaeth o dir a'r gedrwydden; "Ei cheinciau a amlhasant, a'i changenau a ymestynasant." Yr ail nodwedd berthynol iddi ydyw, ei chyfaddasder neillduol fel cysgodle i'r teithiwr blinedig. Y mae ceinciau y cedrwydd mor gymhlethedig y naill yn y llall, ac mor dewfrig, fel nad oes un pren yn y goedwig mor fanteisiol i ymgysgodi oddi tano a'r gedrwydden; megys y darlunia Ezeciel hi yn dra chywir a phrydferth yn yr ymadroddion a ddyfynasom uchod. Yn chwanegol at hyn, yr oedd arogl hyfryd a dymunol yn cael ei wasgar ganddynt dros holl fynydd Libanus: "Ei geinciau a gerddant, a bydd ei degwch fel yr olewydden, a'i arogl fel Libanus;" *Hos.* xiv. 6. Gwel LIBANUS.

Yr oedd mynydd Libanus yn nodedig am ei gedrwydd; ond dywed teithwyr eu bod mor anaml yn bresennol fel y mae prophwydoliaeth Esaiah wedi ei gwirio gyda golwg arnynt: "A phrenau gweddill ei goed ef fyddant o rifedi, fel y rhifo plentyn hwynt;" *Esa.* x. 19. Rhoddir gwahanol gyfrifon gan deithwyr am nifer y cedrwydd ar Libanus; ond gan fod rhai yn cyfrif y coed ieuainc, ac ereill y rhai oedd wedi cyrhaedd eu cyflawn dyfiant, y mae cryn wahaniaeth rhyngddynt. Rhoddwn yma y nifer a rydd teithwyr mewn gwahanol flyneddoedd:—

Yn y fl.	1565, Furer,	25	
	1575, Rauwolf,	24	
	1583, Radzivil,	24	
	1600, Biddulph,	24	
	1605, De Breves,	24	
	1612, Lithgow,	24	
	1630, Fermenel,	22	
	1633, Rodger,	22	
	1688, De la Roque,	20	
	1696, Maundrell,	16	
	1745, Pococke,	15	
	1810, Burckhardt,	11	neu 12
	1818, Richardson,	8	
	1832, Lamartine,	7	
	1836, Lord Lindsay,	7	
	1816, Buckingham,	20	o rai

mawrion, ar eu penau eu hunain—y cyfan yn 200.

Ac yn olaf, y mae y Dr. Kitto yn sylwi fod llawer mwy o gedrwydd yn awr yn tyfu yn Lloegr, nag ar holl fynydd Libanus.—(*Kitto's Cycl. Bib. Lit.; Eadie's Bib. Cycl.*)

CEFFYL. Gwel MARCH.

CEG—AU, [*cy—eg*]: safn, llwnc, agorfa, mynedfa; Heb. נרן—gair yn cael ei ffurflo o ferf, sydd yn cynnwys y drychfeddwl o symmudiad, neu gynhyrfiad; ac felly a gymhwysir at y geg, neu y bibell wynt, ar gyfrif gweithiad parhäus yr anadl. Gwelir y gair hwn yn *Salm* v. 9, "ceg;" cxv. 7, "gwddf;" cxlix. 6, "geneu;" *Ezec.* xvi. 11, "gwddf;" *Ier.* ii. 25, "ceg." Y gair Groeg a ddefnyddir ydyw λαρυγξ=*larynx;* y gwddf, neu y safn. "Bedd agored yw eu ceg;" *Salm* v. 9; ac a ddefnyddir yn *Rhuf.* iii. 13. "Cymherir y *geg* yn y fan hon," medd Hengstenberg, "i ddynodi y llwnc-beiriant, ac i arddangos y gelynion fel wedi eu meddiannu gan syched angerddol am ddinystr. Felly y dealla Calvin—'Y mae y Salmydd yn eu cyffelybu i feddau, fel pe dywedai, 'Y maent yn ddyfnderoedd sydd yn llyncu pob peth; sychedant yn angerddol am waed.' Ond fel y gwelir uchod, arferir y gair yn gyffredin am y peiriant llafar yn gystal: arwydda y *genau* mor fynych, ac yn fynychach na'r *safn;* ac y rhaid i ni ddeall felly yma, a ymddengys oddi wrth y cyssylltiad y saif y gair â'r genau fel peiriant y lleferydd, â'r galon fel ffynnonell y lleferydd ac â'r tafod. Gorwedda y gymhariaeth rhwng eu *ceg* a *bedd agored* yn y gogwyddiad a'r duedd at ddinystr. Yr oedd eu lleferydd yn parotoi iddynt y dinystr oedd ger llaw." Rhoddir y gymhariaeth yn wahanol gan ereill. "Am fod bedd agored yn anfon allan sawyr anhyfryd, y mae y Salmydd yn defnyddio y ffugr hwnw i osod allan ymadroddion llygredig a heintus annuwiolion. Ac yn ol hyn chwanegir—'gwenwyn aspiaid sydd o dan eu gwefusau.'"—*Macknight.* "O'u ceg daw allan eiriau mor afiachus a gwenwynig a sawyr llygredig bedd agored; neu, fel yr ymddengys yn debygol oddi wrth yr ymadrodd nesaf, 'Eu genau sydd yn llawn melldith a chwerwedd,' y mae eu ceg bob amser yn agored, ac yn barod i lyncu fel y bedd nas gellir ei ddigoni."—*Hodge.* "Y mae y bedd agored yn arwyddlun o ddinystr, i'r hwn y mae eu ceg, fel peiriant y lleferydd, yn cael ei gymharu."—*Alford.*

"A gosod gyllell ar dy geg, os byddi ddyn blysig;" *Diar.* xxiii. 2. "Pan ger bron bwrdd llawn, bwyta yn gymmedrol."—*Clarke.* "Dyro attalfa ar dy geg."—*Parkhurst, Hodgson.* "Ti a osodi gyllell ar dy geg, neu ar dy wddf;" hyny yw, ti a fyddi mewn perygl: sail y perygl ydyw, na bydd i ddyn blysig gymmedroli ei hun, felly efe a ddarostwng ei hun yn ngolwg y tywysog.—*M. Stuart.*

CEGIN—AU, [*ceg*]: lle i drin bwyd: *Ezec.* xlvi. 23; Seis., "*boiling places.*" "Ystafelloedd anorchuddedig, y lle y cedwid tanau i barotoi y rhanau hyny o'r hedd-offrymau a wnelid yn y deml gan bersonau unigol, oddi ar deimlad o ddefosiwn. Ar y rhai hyn ymborthai eu cyfeillion a'u teuluoedd, ac anfonid rhanau o hono i'r tlodion, y gweddwon, a'r amddifaid."—*Clarke.*

CEHELATHA: oedd un o wersyllfanau Israel yn yr anialwch: *Num.* xxxiii. 22. Gan mai ystyr y gair ydyw "cynnullfan," neu "lle y gynnulleidfa," tybia rhai mai yno y cymmerodd ymgynnulliad a gwrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram, le. Y mae yn debyg mai yr un ydoedd a Ceilah, tref o du y deheu i Iudah.—*Calmet.*

CEIDWAD—AID, [*cadw*]: gwarcheidwad, gwyliwr, arolygydd, gwaredwr, achubwr; un yn achub allan o berygl neu ddinystr, ac yn dwyn arall i ystâd lwyddiannus a dedwydd; gwyliwr tŷ; gwarcheidwad carchardy.

Gwell un ceidwad no dau ymlyniad. *Diareb Gym.*

Pan gymhwysir y gair yn y Testament Newydd at Dduw neu Iesu Grist, y mae yn gyfleithiad o'r gair σωτηρ (*Luc* ii. 11; 1 *Tim.* ii. 3). Yn fwyaf cyffredin, y gair am σωτηρ ydyw *iachawdwr,* a rhai gweithiau *achubwr.* Arferir ef gan y Groegiaid am waredydd neu gymmwynaswr gwlad; ac yn arbenig am y duwiau, megys y ceidwad Iau (Ζευς σωτηρ); y ceidwad Apollo (σωτηρ Απολλων).

Yn y Testament Newydd cymhwysir ef yn fynych at Dduw (*Luc* i. 47; 1 *Tim.* i. 1; ii. 3;

Digitized by Google

1 *Tim.* iv. 10; *Tit.* i. 3; ii. 10; iii. 4; *Iudas* 25); ac yn neillduol at Iesu Grist fel Messiah ac Iachawdwr dynolryw, fel y mae yn gwared ei bobl oddi wrth farwolaeth dragwyddol, oddi wrth gosp a thrueni, fel canlyniadau eu pechodau, ac yn rhoddi iddynt fywyd a dedwyddwch tragwyddol (*Luc* ii. 11; *Act.* v. 31; xiii. 23; *Phil.* iii. 20; 2 *Petr* i. 1, 11; ii. 20; iii. 2, &c.)

"Megys ceidwaid maes y maent o amgylch yn ei herbyn" (*Ier.* iv. 17):=="Megys gwylwyr y meusydd yr oeddynt wrthi o amgylch."—*Dr. Morgan.* Y mae llysiau bwytadwy yn tyfu yn aml yn y dwyrain mewn meusydd agored; ac felly wrth gynnyddu mewn gwerth, a nesau at addfedrwydd, yr oedd yn angenrheidiol gosod gwyliadwriaeth arnynt. Felly y dywed Chardin, —"gan fod ffacbys a ffrwythau ereill yn cael eu tyfu yn y dwyrain mewn meusydd heb eu hamgau, pan ddechreuant fod yn gymhwys i'w casglu gosodant wylwyr arnynt; os byddant yn agos i brif ffordd, gosodant nifer mwy, ac os na byddant, nifer lai, y rhai a gyfleant eu hunain yn gylch o amgylch y maes." Ac fel hyn y cyfleai byddinoedd Babilon eu hunain yn warchae o amgylch Ierusalem (2 *Bren.* xxv. 1, 4).

"Yr amser y cryna ceidwaid y tŷ;" *Preg.* xii. 3. "Ceidwad y tŷ yw y breichiau."—*Esgob Hall.* "Pan ä y dwylaw yn barlysol."—*A. Clarke.* "Gelwir y dwylaw a'r breichiau yn geidwaid y tŷ, am fod y corff, yr hwn a ddiffynant, yn cael ei alw yn dŷ" (*Job* iv. 19; 2 *Cor.* v. 1).—*Boothroyd.* "Mewn hen ddyddiau y mae y pen, yr hwn sydd fel tŵr gwyliadwriaeth, yn crynu, a'r un modd y dwylaw a'r breichiau, y rhai ydynt yn barod a chyfleus i amddiffyn y corff, ac änt yn ddinerth ar bob dynesâd disymmwth, ac ymosodiad unrhyw berygl; y mae yni yr ysbrydoedd anifeilaidd a arferid i weithredu er hunan-amddiffyniad yn pallu ac yn methu cyflawnu ei waith. Y mae hen bobl yn hawdd jawn eu llwfrhau a'u digaloni."—*Henry.* Gwel ACHUBYDD.

CEILAH, [*yr hon sydd yn tori*, neu *yn rhanu*]: dinas fechan, yn meddiannu muriau oddi amgylch iddi. Cafodd Ceilah ei rhoddi gan Iosuah i lwyth Iudah yn rhaniad cyntaf Gwlad Canaan: *Ios.* xv. 44. Yr oedd ar y terfyn rhwng y llwyth rhyfelgar hwn a gwlad y Philistiaid, nid yn mhell oddi wrth Engedi. Yn amser Saul, gwnaeth y Philistiaid ruthr arni, ac anrheithiasant yr ysguboriau. Pan y clybu Dafydd hyn, efe a deimlodd dros y bobl, yn enwedig dros ei lwyth ei hun, ac a geisiodd gan ei ryfelwyr ddyfod gydag ef i'w hamddiffyn; eithr yr oeddynt hwy yn ofnus hyd oni ymgynghorodd â gair yr Arglwydd—"A'r Arglwydd a'i hatebodd ef, ac a ddywedodd, Cyfod, dos i waered i Ceilah: canys myfi a roddaf y Philistiaid yn dy law di." Ac er nad oedd gyda Dafydd ond 600 (yn ol Josephus, 400) o wŷr, a bod llu y Philistiaid yn fawr iawn, "Dafydd a'i wŷr a aethant i Ceilah, ac a ymladdodd â'r Philistiaid, ac a ddug eu gwartheg hwynt, ac a'u tarawodd hwynt â lladdfa fawr iawn;" 1 *Sam.* xxiii. 4, 5. Bu Dafydd a'i wŷr yno dalm o amser ar ol hyn, o leiaf hyd nes y cafodd y trigolion gasglu eu hŷd a'u ffrwythydd i ddiogelwch. Pa un bynag, cyn hir, clybu Saul ei fod ef a'i wŷr yn Ceilah—"mewn dinas â phyrth a bàrau iddi;" —a meddyliodd fod Duw yn rhyfela o'i ochr ef yn erbyn Dafydd. Mor rwydd y gall y dyn annuwiol berswadio ei hun fod Duw yn ei gynnorthwyo, pan mewn gwirionedd fod Duw yr holl amser yn ei erbyn! Byddinodd Saul ei lu yn gyflym, gan feddwl dyfod ar warthaf Dafydd cyn iddo gael un rhybudd o'i ddyfodiad; ond y Duw hwnw, yr hwn a eneiniodd ei was, ac a roddes iddo addewid o'r freniniaeth, a ddangosodd y peth i Dafydd;—deallodd fod Saul yn bwriadu drwg yn ei erbyn ef; ac efe a ddywedodd wrth Abiathar yr offeiriad, "Dwg yr ephod." Wedi ymofyn â'r Arglwydd, a chael y gwnelai arglwyddi Ceilah, naill ai trwy frad neu trwy ofn Saul, ei draddodi ef a'i wŷr i'r brenin, yna y cyfododd Dafydd a'i wŷr, ac a rodiasant lle y gallent yn yr anialwch, yr hwn oedd ar gyfer Engedi, nid yn mhell oddi wrth y Môr Marw. Yr unig grybwylliad arall am y fan sydd yn *Neh.* iii. 17, 18. Dywedir i'r prophwyd Habacuc gael ei gladdu yn Ceilah. Y mae ar y map yn llydred 34° 50′, a lledred 31° 37′. Nid oes yn bresennol ond pentref bychan yn agos i'r fan yr oedd y ddinas gaerog hon gynt yn sefyll, na dim oddi amgylch iddi ag sydd yn werth i ymdeithiwr droi o'i ffordd er mwyn ei gweled. Y mae amser, a'r Arabiaid, wedi dwyn yn mlaen eu gwaith o ddinystr ar y lle hwn, megys llawer o leoedd ereill a fuasent gynt yn llawer mwy ardderchog. —(*Josephus*; *Dr. Clark*; *Scott*, &c.)

CEILIOG—OD, [Gr., ἀλέκτωρ]: *Mat.* xxvi. 34, 74, 75; *Marc* xiv. 30, 68, 72; *Luc* xxii. 34, 60, 61; *Ioan* xiii. 38. Y gwryw o'r adar o bob math a ddynodir â'r enw hwn; megys, ceiliog-bronfraith, ceiliog-gwydd, ceiliog-hwyad, &c.; ond chwedl yr hen ddiareb,

> "Nid cyfannedd ond ceiliog,
> Nid ceiliog ond ceiliog ty."
> *Myv. Arch.*, iii. td. 21.

Yr aderyn glân, hardd, a gwrolfrydig hwn, adnabyddir yn neillduol wrth yr enw yn mhob llan a thref yn yr holl wlad. Mawr hoffir ef gan y gweithiwr am ei ganiad clir a rheolaidd yn y bore, yr hyn yn aml yw ei arwydd ef i fyned "allan i'w waith ac i'w orchwyl hyd yr hwyr." Rhestrir y ceiliog gan naturiaethwyr yn nosbarth y *rasores*, neu *gallinaceæ*, sef ednod o rywogaeth y ceiliog-coed (*pheasant*), y rhai sydd wedi eu cyfaddasu i fyw yn unig ar dir sych. Y mae i'r holl ednod yn y dosbarth hwn goesau cryfion, adenydd byrion, cynffonau llydain a bwaog, gwddf hir, a'r pen yn aml yn cael ei addurno â chrib hardd. Y pig sydd fyr a chryf; y genogl uchaf yn gafnog; a'r oll o hono yn edrych yn debyg o ran ei ansawdd i gorn. Ymborthant bron yn ddieithriad ar lysieuiwyd, megys hadau a mân ronynau ereill, yn nghyd â phryfaid bychain a welant yn y pridd a'r tail; ac y maent bob amser yn hynod graff i'w canfod a'u gwahaniaethu. At yr ednod yn y dosbarth hwn y cyfeiria un o'n beirdd yn y dernyn dysgrifiadol a ganlyn:—

> "Yna 'r adar yn heidiau—ddeorwyd,
> Awyr a lanwyd o amryw luniau:
>
> Rhai dofion oedd yno 'n hel
> Eu dewis fwyd yn dawel,
> Yn eu greddf yn chwalu 'r gro,
> Adwaenent eu bwyd yno.
> Y ceiliog glân â'i gân gu,
> A'r ddôf iar i'w ddifyru."
> *Awdl ar y Greadigaeth*, gan Addolwr, td. 27

O'r holl adar, fe dybir fod y ceiliog yn un o'r rhai cyntaf a "ddofwyd gan y natur ddynol," ac a ddefnyddiwyd gan ddyn i wasanaethu i'w gyfreidiau; a dywedir mai po hwyaf y byddo unrhyw greadur yn y cyflwr yma o ddarostyngiad, mai mwyaf oll yr amrywiaethau a geir o hono. I a

Digitized by Google

fodd bynag, y mae yn wir am y ceiliog fod ei amrywiaethau mor luosog, fel mai prin y canfyddir dau aderyn o'r holl rywogaeth yn gwbl yr un fath. Y mae y gwahaniaeth mwyaf yn fynych yn eu maint, eu lliw, a'u llun, ac hyd yn oed yn eu harferion a'u tueddiadau. Nid oes i adar o'r dosbarth hwn yn gyffredin ond pedwar o fysedd, ond y mae un math o'r ceiliog ag iddo bump. Y mae math arall heb gynffon, ac hyd yn oed heb y gloren; un arall sydd â'i bluf yn sefyll i'r gwrthwyneb: ac am y lliw, y mae yn gymmysgedd amrywiol yn mhob un. Dywedir fod un math yn cael ei ddwyn drosodd o Japan, yn cael ei orchuddio â math o flew yn lle pluf. Ystyrir yr amrywiaethau hyn gan lawer yn brawf o hir ddofiad yr aderyn hwn gan ddyn.

Nid ydys yn gallu bod yn sicr pa bryd y dofwyd y ceiliog yn y wlad hon, ond gellid meddwl ei fod yn adnabyddus yma er yn lled fore. Yr oedd yn wharddedig, meddir, fel ymborth gan yr hen Brydeiniaid yn eu hanes boreuaf. Y mae Aristophanes yn ei alw yn "aderyn Persia," a thybir mai oddi yno y dygwyd ef gyntaf i wledydd y gorllewin. Y mae yn awr, pa fodd bynag, mor adnabyddus, ac wedi ei ddofi mor gyffredinol, fel y gellid ammheu yn hawdd a fu efe erioed mewn rhyw gyflwr arall. Ond gellir cael esamplau o hono yn awr, yn ei gyflwr gwyllt naturiol, yn ynys Tinian, ac yn ynysoedd Môr yr India, yn gystal ag yn y coedwigoedd mawrion ar dueddau Malabar. Ei liw yn y gwledydd hyn ydyw du a melyn. Dywedir fod ei esgyrn, ar ol eu berwi, yn myned yn hollol dduon. Gall hyn gael ei achosi gan rywbeth y mae yn ymborthi arno, fel y mae esgyrn creaduriaid ereill yn cochi wrth ymborthi ar y wreiddrudd.

Ystyriai yr henafiaid fod y ceiliog coch yn tra rhagori ar y gwyn, a thybiai Aristotle fod yr olaf yn llawer mwy diffrwyth na'r blaenaf. Safon y rhagoriaeth yn ei ddosdrefniad ef yw ffrwythlonedd. Ond yn y dosdrefniadau diweddar, rhoddir y flaenoriaeth yn ddibetrus i'r ceiliog ymladd ar bob un arall, er yr addefir mai efe yw y mwyaf diffrwyth o'r cwbl. Y mae ymladd ceiliogod wedi bod, unwaith, mewn bri neilldduol yn y wlad hon, fel yr oedd hefyd yn mhlith yr Atheniaid a rhai cenedloedd ereill yn yr oesoedd gynt. Yr oedd y rhai a ymhyfrydent mewn hapchwareuon o'r fath yn ymrwymo weithiau mewn cyngwystlon am gannoedd o bunnau yn yr un ymladdfa, ar un ceiliog. Myn rhai fod y ceiliog yn ein gwlad ni yn fwy hyf a gwrol nag ydyw mewn un wlad arall, a bu dadleuon pwysig rai prydiau am yr achos o hyny; ond tybir nad oes un sail i'r fath haeriad, gan fod yn China, a manau ereill, rai yn uno mwy o nerth ac ysgafndder â'u gilydd, ac felly yn rhwym o fod yn fwy beiddgar a di-ildio. Dywedir, pa fodd bynag, nad oes un creadur a ddengys fwy o wroldeb na'r ceiliog, pan osodir ef i ymladd ag aderyn o'i rywogaeth ei hun; a dichon mai dyma yr achos fod yr arferiad isel a barbaraidd o "ymladd ceiliogod" wedi ffynu mor gyffredinol agos yn mhob gwlad. Yn China, a'r India, yn ynysoedd y Philippi, ac yn holl wledydd y dwyrain, y mae yr arferiad hon yn brif ddifyrwch gan freninoedd a thywysogion hyd y dydd hwn; ond yn y wlad hon, y mae yn awr yn cael ei rhifo gyda 'r pethau fu.

Tybir fod y gwroldeb anghymharol a berthyn i'r ceiliog i'w briodoli yn benaf i'w nwyfusrwydd. Dywedir fod un o honynt yn ddigon i'w gadw gyda deg neu ddeuddeg o ieir. Hyn hefyd a bâr ei fod yn heneiddio mor fuan. Mewn tair neu bedair blynedd, y mae irder ei gorff wedi cwbl ddarfod. Cydnabyddir yn gyffredin fod yr aderyn hwn yn fyr hoedlog, ond dichon nad oes neb wedi gwneyd y prawf pa hyd y gallai fyw dan amgylchiadau ffafriol. Cedwir y plufogion o bob math gan yr amaethwr er mwyn yr elw a geir oddi wrthynt; a chan fod y ceiliog mewn ychydig flyneddoedd yn myned yn ddifudd yn yr ystyr yma, ac nad all fod o un elw arall nes ei ladd, byddai yn ormod traul a thrafferth gan neb i gadw y rhifedi angenrheidiol o honynt i alluogi naturiaethwyr i ddyfod i un penderfyniad sicr am hyd eu hoes. Y mae Aldrovandus, pa fodd bynag, yn anturio dyweyd nas gallant fyw ond ychydig dros ddeng mlynedd—ond ni wyddys pa beth yw ei sail; ac y mae Linnæus yn dyweyd eu bod yn dra hoff o ymborthi ar rawn ysgaw, a phethau niweidiol ereill, yr hyn sydd yn tueddu yn sicr i fyrhau eu hoes.

Nid oes un cyfeiriad eglur at yr aderyn hwn yn hanes yr Hebreaid; ac y mae hyn yn fwy rhyfedd, pan ystyrir fod adar o rywogaeth y *gallinaceæ* mor gyffredin yn yr Aipht, ac yn holl ddeheu a gorllewin Asia. Nid oeddynt, pa fodd bynag, yn gynhenid yno; ond perthynent yn briodol i India, a pharthau o China, ac ynysoedd mawrion Austral-Asia; felly, y mae yn bosibl nad oeddynt yn adnabyddus yn yr Aipht hyd ar ol ymadawiad y genedl Iuddewig, a rhoddiad y gyfraith; ond y mae agos yn sicr iddynt gael eu trosglwyddo yno yn fuan ar ol hyny. Yn y gwledydd hyn, ystyrid yr aderyn yn lân neu yn aflan, fel y tueddai arferion neu ragfarnau y bobl i hyny. Bernid ef, efallai, yn fwyaf cyffredin, yn aflan, gan ei fod yn ymborthi ar bryfaid felly o lawer math. Y mae yn sicr nad oedd yr Iuddewon yn arfer magu y plufogion cyffredin; ond nid yw hyny yn rheswm digonol dros ddyweyd fod y ceiliog yn estron hollol yn Ierusalem.

Yn yr hanes am Pedr yn gwadu ei Arglwydd, yr hwn a roddir gan y pedwar efengylwr, lle y sonir am "ganiad y ceiliog," y mae yr iaith, fe dybir, yn ddigon clir a phenderfynol. Haera rhai, mae yn wir, fod y gair ἀλεκτοροφωνία (yn *Marc* xiii. 35) yn cyfeirio at fath o udgorn a genid i gyhoeddi y wyliadwriaeth ar y nos, ac nid at ganiad priodol y ceiliog; a'u rheswm dros hyny ydyw, nad oedd yr aderyn hwnw yn adnabyddus, neu yn oddefedig yn y lle. Ond gellir gofyn, At ba beth y cyfeirir yn *Luc* xiii. 34? Y mae yn y geiriau, "Y modd y casgl yr iar ei chywion dan ei hadenydd," gyfeiriad rhy eglur, fe dybir, at yr aderyn hwn i neb ei gymhwyso at ddim arall. Y mae yn ffaith a sicrheir i ni gan luaws o dystiolaethau, fod y ceiliog yn cael ei gadw yn gyffredin yn y dwyrain, ac mewn llawer o wledydd ar gyfandir Ewrop, fel y gwneid gan y Celtiaid, nid ar gyfrif ei ddefnyddioldeb fel ymborth yn gymmaint a'i wasanaeth fel geilwad pan fyddo y wawr yn tori. Gwel Iar.—(*Buffon's Nat. Hist.; Gold.'s Anim. Nat; Plin.'s Hist. Nat.; Arist. do.; Kitto's Cycl. of Bib. Lit.; Calm.'s Dict.; Barnes' Notes; Cope's Hist.; Camus de Nat. Anim.; Cham.'s Zool.*, &c.)

CEILIOG, CANIAD Y, [Gr., *ἀλεκτοροφωνία*]. Y mae y ceiliog yn canu amryw weithiau o gylch hanner nos, ac wedi hyny ar doriad y wawr; a chan ei fod yn canu yn uwch ac yn fwy clir y pryd hyny, gelwir yr awr yma mewn modd arbenig yn "ganiad y ceiliog." Y mae rhai o'r hen awduron Iuddewig a phaganaidd, er hyny, yn nodi y caniad *cyntaf* a'r *ail* [*Boch.*, cyf. iii., td.

Digitized by Google

109]; a thybir mai hwn oedd yr hen ddull, a'r dull boreuaf o rifo oriau y nos. Y mae yr ail ganiad, pa fodd bynag, yn cael ei ddefnyddio yn barhaus i ddynodi yr un adeg, pan y mae dosbarthiad mwy celfyddydol ar amser wedi dyfod i arferiad. Yn nyddiau y Gwaredwr, arferai yr Iuddewon y dull Groegaidd a Rhufeinaidd o ranu y nos i bedwar cyfnod neu wyliadwriaeth, a phob gwyliadwriaeth yn cynnwys tair awr, a'r wyliadwriaeth gyntaf yn dechreu chwech o'r gloch yn y prydnawn. Cyfeirir at hyn yn *Luc* xii. 38; "Ac os daw efe ar yr ail wyliadwriaeth, neu os ar y drydedd wyliadwriaeth y daw:" ac yn *Mat.* xiv. 25; a *Marc* vi. 48; "Ac yn y bedwaredd wylfa o'r nos yr aeth yr Iesu atynt." Heb law y gyntaf, a'r ail, &c., gelwid y gwyliadwriaethau hyn hefyd—hwyr, hanner nos, caniad y ceiliog, a'r boreuddydd—fel y gwelir yn *Marc* xiii. 35.

Tybiodd rhai fod adroddiad Matthew (xxvi. 34) o'r hyn a ddywedodd yr Iesu wrth Pedr—"Cyn canu o'r ceiliog y'm gwedi deirgwaith," yn anghyssoni â'r adroddiad a rydd Marc (xiv. 30) o'r un peth—"Cyn canu o'r ceiliog *ddwywaith*, y gwedi fi deirgwaith." Ond dylid cofio nad yw Matthew ond yn rhoddi ystyr ymarferol y gocheliad (felly hefyd y gwneir yn *Luc* xxii. 34, ac *Ioan* xiii. 38), gan gyfeirio yn amlwg at yr amser a olygid gan bawb wrth yr ymadrodd "caniad y ceiliog;" ond y mae Marc, yr hwn a ysgrifenai wrth gyfarwyddyd Pedr ei hun, yn rhoddi y geiriau yn fanwl fel y cawsant eu llefaru. Y mae y ddau hanes yn hollol yr un, ond fod Marc yn fwy *cyflawn*—yn rhoddi y caniad *cyntaf* a'r *ail*, tra nad yw Matthew yn enwi ond yr un a glywid gan y cyffredin.

Cyfodir dadl arall yn erbyn y rhan yma o'r hanes yn yr efengylau, wedi ei seilio ar haeriad o eiddo y Mishna, yn y *Bava Kama*, vii. 7, lle y dywedir "nad ydynt yn magu ceiliogod yn Ierusalem, o blegid y pethau sanctaidd." Sylwedd yr wrthddadl ydyw hyn—gan fod yr aderyn hwn yn chwalu y tomenau, a thrwy hyny yn cyfodi ymlusgiaid a allent halogi yr aberthau, ei bod yn waharddedig i neb yn Ierusalem ei gadw; ac am hyny, fod yn anmhosibl i Pedr ei glywed yn canu. Y mae hyn wedi ei ateb mewn rhan yn barod: ond gellir chwanegu nad yw y traddodiadau yn gysson â hwy eu hunain; er anghraifft, y mae chwedl yn *Erubin*, td. 261, am geiliog yn Ierusalem wedi lladd plentyn, ac wedi ei labyddio am hyny wrth orchymyn y cynghor. Y mae anghreifftiau ereill yn cael eu rhoddi gan Reland, er dangos y gallasai Pedr, yn nystawrwydd y nos, glywed ceiliog yn canu, er iddo wneyd hyny o'r tu allan i furiau y ddinas, gan nad oedd llys Caiaphas ond rhy brin bedwar cant o latheni oddi wrthynt. Yr un pryd, dylid cofio fod y gair ἀλεκτώρ yn anmhenodol, ac felly y ceir ef yn mhob man yn y Testament Newydd oddi eithr yn *Luc* xxii. 60; ac y mae Griesbach, ar ol cyferbynu amryw ddarlleniadau, yn ymwrthod â'r fannod yn yr anghraifft hon hefyd. Gellir casglu oddi wrth hyn, os oedd y ceiliog yn cael ei oddef yn Ierusalem o gwbl, ei fod yn llawer mwy anghyffredin nag yn ein gwlad ni.—(*Winer's Biblisches Real Worterbuch; Kitto's Cycl. of Bib. Lit.*, d. g.; *Hühner.*)

CEILIOG RHEDYN, [חגב; Seis., *grasshopper*]: *Lef.* xi. 21, 22: math o bryf bychan o rywogaeth y locust, ac yn perthyn i lwyth o greaduriaid y mae ei amrywiaethau yn dra lluosog. Rhoddir yma ddysgrifiad byr o hono, yn nghyd â'i hanes, am y bydd hyny yn rhoddi golwg i ni ar y cyfan. Ceir ef mewn eryn helaethrwydd yn y gweirgloddiau a'r gwrychoedd yn ystod yr haf, ac adnabyddir ef wrth ei gân, yr hon sydd yn dyfod yn fwy clir tua therfyn y dydd. Ei liw sydd debyg i'r glaswellt, oddi eithr fod llinell ruddgoch yn rhedeg ar hyd y cefn, a dwy arall oleuach dan y bol a thu ol i'r coesau. Y pen sydd hirfain, yn tueddu i lawr, fel eiddo y march. Y genau a amddiffynir â tharian gron, ac a arfogir â nifer o ddannedd gwineu a blaengeimion. Oddi mewn y mae tafod mawr coch, yn rhwym wrth yr ên isaf. Y teimlyddion, neu y cyrn, fel eu gelwir yn gyffredin, ydynt dra hirion, ac yn meinhau at y blaen; a'r llygaid sydd yn hynod o amlwg, gan eu bod yn sefyll yn mhell allan. Y ddwyfron sydd yn gul ac uchel, yn cael ei chynnal gan ddau ysbin danneddog—un oddi arnodd, a'r llall oddi tanodd. Ar y cefn y mae tarian gref, wrth yr hon y mae cyhyrau y coesau yn rhwym, ac o amgylch y cyhyrau hyn y mae yr ermygau trwy ba rai y mae y creadur yn anadlu, pa rai ydynt yn wyn fel eira. Y mae iddo dri phâr o goesau, a'r rhai olaf yn hwy ac yn gryfach o lawer na'r rhai blaenaf; yr hyn sydd yn ei gyfaddasu i fod yn neidiwr da, ac am hyn y gelwir ef yn aml yn "ysboncyn gwair." Y mae iddo hefyd bedair o adenydd—y rhai blaenaf yn cyfodi oddi ar yr ail bâr o goesau, a'r rhai olaf oddi ar y trydydd. Yr adenydd ol, y rhai sydd yn llawer teneuach ac eangach na'r rhai blaen, sydd yn ei alluogi i ehedeg. Y mae y bol yn fawr, yn cael ei wneyd i fyny o wyth o gylchau, ac yn terfynu mewn cynffon fforchog, yr hon a orchuddir â math o flew mân. Wrth ymchwilio i wneuthuriad mewnol y creadur hwn, canfyddir, heb law y sefnig, gylla bychan; ac o'r tu ol i hwn, canfyddir un arall mwy, yr hwn oddi mewn sydd grych, ac yn llawn o rychau; ac islaw i hwn canfyddir un arall: fel mai nid heb reswm y dywedwyd fod yr holl greaduriaid o'r dosbarth hwn yn cnoi y cil, gan eu bod yn dwyn y fath debygrwydd i'r cilgnoaid yn gyffredinol yn nhrefniad y peirianwaith oddi mewn.

Mor fuan ag y bydd y ceiliog rhedyn wedi gallu defnyddio ei edyn, clywir ei gân yn y weirglawdd, yr hon yn gyffredin sydd i alw ar ei gymhar. Y gwryw yn unig, rhaid cofio, sydd yn gallu canu. Os gwneir ymchwiliad gofalus, ceir twll bychan yn ei gorff, yn agos i fôn ei edyn, yn cael ei orchuddio â philionen deneu a thryloew. Tybia Linnæus mai hwn yw yr offeryn â pha un y mae y creadur yn gallu canu; ond haera ereill fod y swn yma yn cael ei effeithio ganddo wrth rwbio y coesau ol yn erbyn eu gilydd: ond pa fodd bynag y mae hyn, anfynych y clywir un o'r gwrywiaid yn canu, na bydd un arall yn fuan yn ei ateb; ac wedi bod am beth amser yn blino eu gilydd fel hyn, y diwedd fydd i'r ddau fyned i ymladd, yr hyn a wnant gyda ffyrnigrwydd enbyd. Cael y fenyw fydd y wobr i'r gorchfygwr. Tua diwedd yr haf, y mae y fenyw yn darparu tuag at roddi ei baich i lawr, yr hwn sydd yn gynnwysedig o gant a hanner o wyau. Mewn trefn i wneyd lle priodol i'w derbyn, y mae natur wedi ei chynnysgaethu â math o offeryn llym yn agos i'w chynffon, ar lun cleddyf dau fin, yr hwn a weinia ac a ddadweinia pan fyno. A'r offeryn hwn y mae yn tori twll bychan yn y ddaiar, i'r hwn y cyflwyna ei hwyau, un ar ol y llall hyd yr olaf. Wedi darparu fel hyn ar gyfer parhad y rhyw, y mae y creadur ei hun, fel y mae y gauaf yn agosäu, yn gwanychu ac yn marw. Dywed

Digitized by Google

rhai, ei fod yn cael ei ddifa gan yr oerfel; ac ereill, ei fod yn cael ei ysu gan bryfed: ond pa fodd bynag am hyny, y mae yn ffaith nad oes un o honynt yn byw dros y gauaf. Yn y cyfamser, y mae yr wyau yn aros yn ddigyfnewid yn y pridd. Am yr wyau, gellir dyweyd eu bod oll yn hir-grynion, o liw gwyn, ac yn galed fel corn; eu maint sydd gyfartal i ronyn o had anis, a'u sylwedd oddi mewn yn fath o wlybwr gwyn, gludiog, a dysglaer. Yn nechreu yr haf, pan y bydd natur i gyd yn adfywio, y mae pob un o'r wyau hyn, tua mis Mai, yn deori yn y gwres, ac yn cynnyrchu y pryf. Nid yw y pryf, ar y cyntaf, ond bychan, ac o liw hollol wyn; ond yn mhen deuddydd neu dri, y mae yn troi yn ddu; ac yn fuan wedi hyny yn wineu tywyll. Y mae ar ei ddyfodiad cyntaf o'r wy yn gallu hwpian drwy y glaswellt yn dra chyflym, ac yn ymddangos yn mhob peth fel ceiliog rhedyn, ond ei fod eto heb adenydd.

Er y dywedir ei fod hyd yn hyn *heb* adenydd, ni olygir ei fod felly mewn gwirionedd. Nid yw yr amddifadrwydd hwn ond mewn ymddangosiad yn unig. Y mae yr adenydd y pryd hwn wedi eu plygu yn y modd cywreiniaf, a'u cuddio mewn pedwar o sypynau bychain sydd i'w gweled yn anffurfio ychydig ar ei ochrau. Y mae yr holl drychfilod o'r natur yma yn wir, beth bynag yw y trawsffurfiadau y maent yn myned trwyddynt, yn perchen ar y cyntaf yr holl aelodau a'r hynodion sydd yn eu nodweddu wedi hyny mewn cyflwr mwy perffaith. Nid oes dim yn cael ei chwanegu iddynt mewn amser nad yw ganddynt eisoes—nid chwanegiad ond dadblygiad sydd yn cymmeryd lle. Hyd yn oed yn y llindysyn mwyaf digymhorth, gwelir ynddo eiluniau teg o'r prydferthion dyfodol a arddangosir yn adenydd y glöyn byw; ac er yr ymddangys i'r sylwedydd arwynebol fod yn hwnw ranau newyddion yn dyfod i'r amlwg, gwel y craff nad yw y cyfan ond dadblygion cyflawnach o bethau a berthynent iddo yn flaenorol. Fel hyn, y mae y ceiliog rhedyn yn meddu ar adenydd o'r dechreuad, ond ei fod am dymmor heb nerth digonol i ddryllio y llyffetheiriau sydd yn eu dal yn rhwym. Wedi bod yn y cyflwr yma am o ddeutu ugain niwrnod, y mae y creadur bychan yn ymbarotoi erbyn y cyfnewidiad sydd bellach ger llaw iddo, a'r hwn sydd i'w arwain i fwy o ryddid a nwyfiant. Fel rhagddarpariaeth i'r cyfnewidiad hwn, y mae am amser yn peidio bwyta, ac yn ymofyn am le cyfleus yn nghysgod yr eithinen neu y ddraenen, lle y cysgodir ef rhag y cawodydd damweiniol a ddeuant heibio. Yma y gwelir ef yn ymestyn, ac yn ymysgwyd, ac yn ymguro, fel y gwna pob creadur o'r un rhyw yn flaenorol i gyfnewidiadau cyffelyb. Wrth hir godi a gostwng y pen a'r gwddf, a rhoddi pob egni sydd ynddo ar waith i ymryddhau, y mae y croen teneu sydd yn gorchuddio y pen a'r ddwyfron o'r diwedd yn ymranu oddi ar y gwddf, nes y mae y pen yn dyfod i'r golwg yn gyntaf; ac yna wrth barhau yr ymdrech y mae yr holl gorff, y coesau, yr adenydd, y teimlyddion, a'r cwbl yn dyfod allan o un i un, o'r hen groen, yr hwn sydd erbyn hyn wedi aros wrth yr eithinen neu y ddraenen. Y mae yn gryn syndod pa fodd y mae pryf mor fychan yn gallu ymryddhau o rwymau mor gryfion sydd fel gwisg dyn yn gorchuddio ei holl gorff i gyd.

Ar ol y cyfnewidiad hwn, y mae y ceiliog rhedyn, wedi ymadael o hono â'i groen-wisg uchaf, i'w weled bellach yn ei gyflwr perffaith; ond ei gorff sydd eto mor feddal a thyner y gellid ei gyweirio fel cwyr. Y mae y lliw, yr hwn oedd o'r blaen yn aneglur, yn awr yn wyrdd cymmysgedig â gwyn, yr hwn a ymddengys yn fwy clir fel y byddo y lleithder sydd ar hyd ddo yn sychu ymaith. Yn yr ystad hon, nid yw yn rhoddi un arwydd o fywyd, ond ymddengys am fwy nag awr o amser wedi ei lwyr orchfygu gan flinder ar ol yr ymdrech. Yn ystod yr amser hwn y mae y corff yn sychu, a'r adenydd yn raddol yn ymestyn ac yn ymledu; a'r pryd yma, gall y sylwedydd manwl eu gweled, blyg ar ol plyg, yn ymagor yn yr haul, nes y byddant o'r diwedd yn hwy na'r coesau ol; ac erbyn diwedd y trawsffurfiad hwn, bydd y corff ei hunan yn hwy, ac yn llawer prydferthach nag o'r blaen.

Er nad yw y ceiliog rhedyn yn ehediad gwych, a'i fod yn ymddangos ar brydiau yn anewyllysgar i wneyd, y mae ar rai amserau, yn neillduol pan fyddo yr awyr yn llaith ac yn oer, yn ehedeg i gryn bellder. Os ymeflir ynddo gerfydd un o'i goesau, y mae yn y cyffredin yn myned ymaith gan ei gadael yn y llaw ar ei ol. Y mae hyn yn dygwydd yn fynych; ond nid yw y goes hono byth yn tyfu drachefn, fel y gwna yn y crane a'r pryf copyn; ac wedi ei cholli, y mae byth ar ol hyny yn analluog i ehedeg, am nas gall godi ei hun yn ddigon uchel oddi wrth y llawr i ysgwyd ei adenydd. Cafodd y plant brawf lawer gwaith ei fod yn gallu brathu yn llym, os dygwyddai iddynt ei drin yn rhy esgeulus. Y mae yn ymborthi yn unig ar ddail a llysiau. Yr unig achos na fyddai presennoldeb y creadur hwn yn ddinystriol i gnwd y maes, fel rhai amrywiaethau o'r un rhywogaeth, ydyw ei fod yn fwy anaml, a bod pob un o honynt yn ymborthi ar ei ben ei hun, ac nid yn heidiau fel y lleill.

Am y cyfeiriadau a wneir at y ceiliog rhedyn yn yr Ysgrythyrau, digon yw crybwyll yn y fan hon nad y math a ddysgrifiwyd uchod a olygir wrtho. Cyfeirir y darllenydd at y gair Locust, lle y sylwir yn fanwl ar yr holl amrywiaethau.

CEINIOG: darn arian Rhufeinaidd, cyfartal mewn gwerth i saith geiniog a thair ffyrling o'n harian ni; *Mat.* xviii. 28; a xx. 9. Mae Calmet

Dar. 166. Ceiniog dan deyrnasiad Augustus Cæsar.



Dar. 167. Ceiniog dan deyrnasiad Tiberius Cæsar

yn gwneyd y sylwadau canlynol dan y gair hwn: —"Gan mai un bathodyn oedd hwn, efallai nad da fuasai yn ein cyfleithiad i ni ddefnyddio enw rhyw fathodyn o'r eiddom ein hunain mor agos i'w werth ag a ellir, megys swllt, &c Felly,

Digitized by Google

darllenid yr ymadroddion canlynol fel isod:—'Ac wedi cytuno â'r gweithwyr er swllt y dydd, efe a'u hanfonodd i'w winllan;' *Mat.* xx. 2. 'Dangoswch i mi arian y deyrnged. A hwy a ddygasant ato swllt;' *Mat.* xxii. 19. 'A awn ni a phrynu gwerth deucan swllt o fara, a'i roddi iddynt i'w fwyta;' *Marc* vi. 37. 'A thranoeth wrth fyned ymaith efe a dynodd allan ddau swllt, ac a'u rhoddes i'r llettywr;' *Luc* x. 35. Mae rhyw ddarlleniad o'r fath yma yn anhebgorol angenrheidiol yn *Dad.* vi. 6; 'Mesur (neu beint) o wenith er swllt.' Y mae yr ymadrodd, fel ei darllenir yn awr, yn ein cyfieithiad awdurdodedig ni, yn dwyn y meddylrith o lawnder i'r darllenydd Cymraeg; tra mewn gwirionedd y mae wedi ei fwriadu yn ddysgrifiad o'r prinder mwyaf gofidus. Cymmerer yr erthygl yma fel prawf o'r angenrheidrwydd o fod yn gyfarwydd yn manylion yr Ysgrythyr; canys pwy a all weled unrhyw awgrymiad o newyn yn y dywediad fod 'mesur o wenith er ceiniog?' Y mae yn wir y gallai llafurwr yn Mhrydain yn yr hen amseroedd gael ei ddewis o fesur o wenith neu geiniog yn gyflog am ei waith; ond y mae y gwahaniaeth yn ngwerth arian yn gwneuthur yr adgof yma yn anmhriodol yn ein dyddiau ni. Ac onid yw yn fwy priodol y pryd hwn i ni dybied y buasai arglwydd y winllan yn dibrisio cyflog y llafurwyr, fel ag i dalu dim ond ceiniog y dydd iddynt am eu gwaith: arwyddai hyny fantais grintachlyd yn cael ei chymmeryd ar angenrheidiau y tlawd, tra, mewn gwirionedd, ei hamcenid i'r gwrthwyneb, i arwyddocau haelfrydedd."

CEISIAD—IAID, [*cais*] trethgasglydd, publican, ceisbwl, gofynwr. "Rhwyded y ceisiad yr hyn oll sydd ganddo;" *Salm* cix. 11. *Seis.*—"Let the extortioner catch all that he hath." *Hengstenberg*—"May the creditor catch all that he hath." "Pencais y deyrnged," set pen publican; *Luc* xix. 2.—*W. Salisbury.*

CEITHIAID: plaid a ymadawodd oddi wrth y Crynwyr, yn Pennsylvania, yn y flwyddyn 1691. Blaenorid hi gan George Keith, oddi wrth yr hwn y cawsant eu henw. Ar ol i'w blaenor eu gadael a dychwelyd i Loegr, ymarferai y rhai a lynasant wrth eu hymneilluaeth â'r ordinhad o fedydd, derbyniasant y sacrament, a chadwasant y seithfed dydd yn Sabbath, oddi wrth yr hyn y galwyd hwy yn Grynwyr Bedyddiol, a Sabbatariaid. Cadwasant, er hyny, iaith, gwisgiad, a dulliau y Crynwyr. Ymadawodd Keith ei hun a'r blaid yn hollol, a chydffurfiodd âg Eglwys Loegr, yn yr hon y cafodd ordeiniad a bywoliaeth.

CELAIAH, neu Celitah: un o'r Lefiaid a briodasant wragedd dyeithr: *Esra* x. 23.

CELAIN, [*cel*]; corff marw, burgyn. Corff marw dyn neu anifail: *Num.* xiv. 29; *Esa.* xiv. 19; *Mat.* xxiv. 28. "Pa le bynag y byddo y gelain, yno yr ymgasgl yr eryrod;" *Mat.* xxiv. 28. "Yr unig ffordd i ddeall y gair," medd Olshausen, "ydyw cymmeryd y 'gelain' yn golygu y wladwriaeth Iuddewig, yr hon erbyn hyn oedd fel corff wedi ei amddifadu o fywyd; a'r 'eryrod' fel y Rhufeiniaid, y rhai a roddasant derfyn llwyr ar ei hanfodiad. Ac nid yw yn annhebyg fod yma gyfeiriad at eryrod y llengau Rhufeinig." Dywed Alford; "Yn yr ymadroddion cyffelyb yn *Luc* xvii. 37, yn flaenorol i'r dywediad hwn, y mae y dysgyblion yn gofyn—'Yn mha le, Arglwydd?' Yr atebiad yw, Yn gyntaf, yn *Ierusalem*; y lle y gorwedd y corff pydredig—yno yr ymgasgla y fwlturod. Yn ail, yn ei chyflawniad llwyr—dros yr holl fyd; o blegid dyna y gelain yn bresennol, a'r eryrod ydyw angelion dial. Gwel *Deut.* xxviii. 49; y lle, mae yn debygol, y cyfeirir yma ato: hefyd *Hos.* viii. 1; *Hab.* i. 8. Ymddengys eglurhad Theophylact, Euthymius, Calvin, ac ereill, yn ol yr hwn y 'gelain' ydyw Iesu Grist, a'r 'eryrod' yr etholedigion, yn gwbl anmhwrpasol. Ac nid oes un cyfeiriad, fel y tybia Lightfoot, Hammond, Wetstein, ac ereill, at yr eryrod Rhufeinig."

CELESTINIAID: urdd grefyddol, a elwir felly oddi wrth eu sylfaenydd, Pedr de Meuron, a gyfodwyd i'r gadair babaidd dan yr enw Celestin v. Brodor ydoedd o Isernia, pentref yn Naples. Ganwyd ef yn 1215, o rieni isel, ac ymneilluodd yn bur ieuanc i fynydd anghysbell, i'r dyben i ymroddi yn llwyr i ddefosiwn a hunanfarweiddiad. Daeth llawer o bryd i bryd i ymweled âg ef, oddi ar glywed am ei dduwioldeb diarebol; ac effeithiai yr olwg arno, a'r rhinweddau a arddangosid ynddo, yn gymmaint ar feddyliau rhai, fel yr ymwrthodent â'r byd, i ymuno âg ef yn ei unigrwydd. Gyda'r rhai hyn, ffurfiodd math o gymdeithas yn y flwyddyn 1254; yr hon a gymmeradwywyd gan y pab Urban iv. yn 1264, ac a wnaed yn urdd neilluol a rheolaidd, dan yr enw Meudwyaid St. Damien. Llywodraethodd yr urdd hon hyd 1286, pryd y tueddwyd ef gan ei hoffder at ymneilluaeth i roddi y gofal i fyny. Yn 1294, gan mor fawr oedd y parch a delid iddo ar gyfrif ei dduwioldeb, dyrchafwyd ef i'r babaeth, er yn groes i'w dueddfryd. Galwodd ei hunan yn Celestin y Pummed; a chymmerodd yr urdd ei henw oddi wrtho. Ond, fel y gallesid dysgwyl, yr oedd llymdostedd a manyldra ei ymddygiadau, yr hyn a daflai warth a chywilydd ar lygredigaeth y llys Rhufeinaidd, yn enwedig ar rysedd y cardinaliaid, yn ei wneyd yn wrthddrych adgasedd gan yr offeiriaid llygredig. A gwneid yr adgasedd yma tuag ato yn fwy gan fanylwch ei holl weinyddiadau. Dangosai y cwrs a gymmerai fel pab fod ei fryd yn fwy ar ddiwygio a phuro yr eglwys, nag ar chwanegu ei chyfoeth a dyrchafu ei hawdurdod; o ba herwydd, ystyrid braidd yn gyffredinol ei fod yn annheilwng o gadair Pedr. O herwydd yr anghymmeradwyaeth cyffredinol a deimlai y Pabyddion at ddyn nad oeddynt deilwng o hono, annogwyd ef gan amryw o'r cardinaliaid, ac yn enwedig gan Benedict Cajetan, i roddi y swydd i fyny; a mwynhasant yr hyfrydwch o weled eu cynghor yn cael ei dderbyn gyda'r parodrwydd mwyaf. Yr oedd yn llawer haws gan yr henuriad parchedig roddi y swydd i fyny na'i chymmeryd ar y cyntaf. Cymmerodd hyn le ar y pedwerydd mis ar ol ei etholiad; a bu yntau farw yn 1296, yn nghastell Fumone, y lle y caethiwid ef gan ei olynydd trahaus, rhag i geisiadau ei gyfeillion lwyddo gydag ef i geisio adfeddiannu yr anrhydedd a adawodd. Dywedir ei fod, pan yn bab, yn gwisgo ei ddillad mynachaidd, o dan arwyddion ac addurniadau y swydd babaidd. Yr oedd ei goffadwriaeth yn fendigedig yn mysg y dosbarth mwyaf rhinweddol o'r eglwys, a dyrchafwyd ef i fysg y seintiau gan Clement v. Gwnaeth y Celestiniaid gynnydd mawr ar ol ei farwolaeth yn Italy a Ffrainc; ymdaenasant hefyd trwy rai parthau o'r Almaen. Y mae

Digitized by Google

ganddi yn agos i gant o fynachdai yn Italy, ac un ar ugain yn Ffrainc. Y mae gan Celestiniaid Ffrainc hawl, wedi ei rhoddi iddynt gan Martin v. a Clement VII., i ffurfio rheolau newyddion i'w hurdd pan dybiant hyny yn briodol. Maent yn cadw plygain bob bore, gan ddechreu ar ol hanner nos. Ni fwytant gig un amser, oddi eithr mewn aflechyd. Ymprydiant ar ddyddiau Mercher a Gwener, o'r Pasc hyd Wyl Dyrchafiad y Groes Sanctaidd, ac o'r ŵyl hono hyd y Pasc, bob dydd. Gwisgant wn gwyn, cwccwll, ac ysgwyddwisg ddu. Rhoddir hefyd yr enw Celestiniaid ar blaid o feudwyaid a ymneillduodd, trwy ganiatâd Celestin v., oddi wrth urdd y Friars Minors, ac a aeth i fwy o unigrwydd, i'r dyben o ymarfer rheolau St. Francis gyda'r manylwch eithaf. Dyoddefodd gryn erlidigaeth yn achos ei hymneillduaeth.

CELFI, [*cel*]: arfau, offerynau, mân bethau. "Lle y drylliwyd wrth gelfi benau y fam a'r plant;" *Hos.* x. 14:="eu plant a ddryllir wrth gelfi;" *Hos.* xiii. 16.—*Cyf. Dr. Morgan.*

CELFYDD—YD—AU, [*celf*]: medrus, cywrain, crefft, cywreindeb, dirgelwch; gwybodau.

"Celfydd celed ei arfaeth." *Diar.*
"The expert, let him conceal his design."

"Tair colofn y celfyddodion,
Marcwlf a Gadw gadr swyson,
A Selyf, ben sywedyddion."
Li. P. Moch, i D. ab Owain.

"Cas a welo lawer o foesau, a chelfyddydau, ac heb ddysgu dim." *Diar.*

Y mae celfyddyd yn cael ei darnodi gan Bacon fel cyflead priodol o bethau natur gan feddwl a phrofiad dyn, fel ag i ateb amrywiol amcanion dynolryw. Yn yr ystyr yma, saif celfyddyd yn gyferbyniol i *natur.* Deallir wrth gelfyddyd, gyfundraeth o reolau yn gwasanaethu i rwyddhau dygiad yn mlaen ryw weithredoedd; megys adeiladu, argraffu, &c.: ac yn yr ystyr yma, y mae yn gyferbyniol i *wyddiant,* neu gyfundraeth o egwyddorion damcanol. Dosberthir y celfyddydau i'r llawgelfau a'r ceingelfau. Y cyntaf ydynt y rhai y mae a fyno y llaw a'r corff yn fwy â hwynt na'r meddwl; o'r math hwn y mae y nifer mwyaf o'r rhai a'n cynnysgaethant âg angenrheidiau bywyd; ac adnabyddir hwynt yn gyffredin wrth yr enw crefft neu alwedigaeth. Dibyna yr olaf yn fwy ar nerth y meddwl nag ar lafur y dwylaw. Cynnyrch y crebwyll ydynt; eu hanfod ydyw rhoddi mynegiad effeithiol o beth; a'u hamcan ydyw cynnyrchu pleser. Y mae barddoniaeth, arluniaeth, a chaniadaeth, yn perthyn i'r dosbarth hwn.

Y mae rhai o'r celfyddydau yn rhwym o fod braidd yn gyfoesol â'r natur ddynol ei hun; o blegid yr oedd trin bwyd, gwisgo, a threfnu lleoedd i breswylio, fel y gwneid hyn yn eu symledd boreuol, yn gofyn mesur o gelfyddyd. Y mae llawer o gelfyddydau ereill mor hen, fel nas gall traddodiad daflu ei oleuni ammheus ar eu dechreuad. Gwreiddiodd y celfyddydau yn benaf mewn angenrheidrwydd, ac mewn rhan yn y duedd gref sydd yn ein natur i ymchwilio a dyfeisio; a'r duedd hon, a'r angenrheidrwydd a gyfodai oddi ar amgylchiadau, yn cynnorthwyo eu gilydd. Diammheu fod pob celfyddyd ar y cyntaf yn dra anmherffaith, a chyfyng o ran cylch ei gweithrediad; o herwydd yn raddol y mae meddwl dyn yn cyrhaedd perffeithrwydd. Mae greddf'ar unwaith yn amlygu yr nell amrywiaeth a'r perffeithrwydd a ddadgaddia byth.

"The winged inhabitants of Paradise,
Wove their first nests as curiously and well
As the wood minstrel of our evil day."

Yn ngweithrediad cyntaf greddf, yr oedd crwybr y gwenyn, preswylfa y *beaver,* gwe y pryf copyn, fel nyth yr aderyn, y fath ar y cyntaf na allesid byth eu gwella. Ond mae dyn wedi ei fwriadu i fyned rhagddo. Gellir rhoddi yma ychydig grybwylliadau am darddiad a hanes boreuol amryw o'r celfyddydau buddiol. Ac wrth wneuthur hyn byddai yn fantais i sylwi ar ddyn mewn amgylchiadau tra amrywiol Yn mhell cyn i helwriaeth ddyfod yn ddifyrwch fel y mae yn ein gwlad ni, yr oedd yn angenrheidiol i ddyn, er mwyn cael ymborth, i ddal adar, gwylltfilod, a physgod. I'r dyben hyn yr oedd rhwydau mewn arferiad cyffredin. Ni amrywiai rhwydau yr Aiphtiaid a'r Hebreaid nemawr oddi wrth y rhai sydd mewn arferiad yn ngwledydd Ewrop yn bresennol. Arfau Esau wrth ddilyn ei helwriaeth oedd ei "fwa a'i saeth." Defnyddir y cyfryw yn bresennol gan frodorion cyntefig America ogleddol. Defnyddid moddion ereill tuag at gael cynnaliaeth yn moreuddydd cymdeithas:—y cyfryw oedd y bywyd bugeiliol. Yr oedd Abel "yn fugail defaid;" dysgrifir Iubal, mab Lamech, "yn dad pob preswylydd pabell a pherchen anifail," gan awgrymu mai efe oedd y cyntaf a fabwysiadodd y dull hwn o fyw, yr hwn a ddilynir yn bresennol gan luaws o lwythau Arabia a Tartary. Yn bresennol, fel cynt, mewn amser o berygl, ffu y bugail dwyreiniol gyda'i holl eiddo i ogofeydd mawrion; ac nid yn anfynych y ceir fod trigolion trefydd a phentrefydd, gyda'r cwbl a feddent, wedi ymguddio rhag gormes a chreulondeb yn y celloedd tywyll hyn. I'r dull bugeiliol o fyw yr oedd y babell yn bur briodol. Codid y tŷ symmudol hwn mewn ychydig fynydau. Nid oedd yn eisieu ond polyn yn y canol, a gorchudd o groen i gadw allan y gwlaw a'r gwlith. Yn ngwahanol ddyfeisiau y bugail cyntefig i blethu blew a gwlan, glaswellt rhywiog a mân edafedd llysieuol, er mwyn cael neni a gorchudd i'w babell, y cafodd y celfyddydau o nyddu a gweu eu dechreuad. Y mae gwisgiadau y bugail dwyreiniol yn bresennol yn hynod syml, fel yr ydoedd yn yr amser patriarchaidd. Rhydd ei wisg am dano, yr hon sydd o un dernyn, trwy ddiogelu ei benelin chwith yn un o'i blygion, ac yna ei daflu amryw weithiau o gwmpas ei gorff. Weithiau y mae ei wisg yn fath o fantell, heb un ffurf neillduol, ond yn debyg i sach ysgwar, gydag agoriad o'r tu blaen, a lle yn yr ochrau i'r breichiau ddyfod allan; ac yn hon y mae yn cysgu y nos. Cunogau a dysglau pren, sachau blewog, a chostrelau wedi eu gwneyd o grwyn geifr a lloi, ydynt, hyd yn awr, yn brif ddodrefn pabell bugail yn y dwyrain; a ffon, ffon dafl, saeth a bwa, ei brif offerynau. Yr oedd eu dull o dynu dwfr i'w praidd yn hynod syml hefyd. Yn y gwledydd bugeiliol hyn yr oedd y gelfyddyd o gerddoriaeth yn ei ffurf mwyaf gwareiddiol. Yn chwedloniaeth y paganiaid priodolid darganfyddiad y bib ganu, â'r hon y difyrai y bugail ei hun yn ei oriau amddenol, i'r bugail. Edrychent ar Apollo fel tad y delyn. Yr oedd Dafydd wedi ennill clod mawr yn mhlith bugeiliaid Palestina am ei fedr gyda'r offeryn hwnw. Yr oedd Iubal yn byw cyn y dylif—yr hwn "oedd dad pob teimlydd telyn ac organ."

Digitized by Google

Ceir dysgrifiadau o wahanol offerynau amaethyddol, yn nghyd â chelfyddydau buddiol ereill, dan eu gwahanol enwau, fel na raid yma ond gwneud ychydig grybwylliadau pellach i ddeffro chwilfrydedd y darllenydd.

Y mae traddodiadau henafol yn priodoli dechreuad llawer o'r celfyddydau i ymweliadau ac addysgiadau bodau goruwch dyn. Un o'r rhai hynotaf ydyw y traddodiad am Prometheus, yr hwn a ddygodd dân i lawr o'r nefoedd i wasanaeth dyn. Dysgrifir ef gan Æschylus wedi ei gadwyno wrth fynydd Caucasus, fel cosp am ei gymmwynasgarwch i ddyn, mewn gwrthwynebiad i'r Gallu sydd yn llywodraethu y byd.

Pa fodd y cafodd dyn dân yn y dechreu, nis gallwn wybod. Y mae chwedl Fahometaidd yn dyweyd, ddarfod i'r angel Gabriel ei ddwyn at ein rhieni cyntaf. Dywed Barddoniaeth, ddarfod i'r gwynt chwythu trwy lwyn o goed, ac i ddwy goeden, wrth ymrwbio yn eu gilydd, gymmeryd tân:—i Adda weled hyny, a ffoi; iddo drachefn droi yn ei ol, a theimlo ei wres; ac iddo, wedi hyny, trwy amryw ffyrdd, geisio ei gynneu ei hun. Dychymyg arall ydyw, ddarfod i saeth callestr, yr hon a gyfeiriwyd at anifail, daraw mewn craig, ac i wreichionen neidio allan—yr hyn a arweiniodd Adda i rwbio ceryg uwch ben dail sychion, ac i Efa eu chwythu yn fflam. Y mae traddodiad chwaneg nag un genedl henafol yn ei briodoli i rwbiad dau ddarn o bren yn eu gilydd; a defnyddir y dull hwn yn bresennol yn mysg cenhedloedd anwar. Ond, pa fodd bynag, y mae yn rhaid fod tân yn adnabyddus i ddyn o'r dechreu, er mwyn parotoi ei ymborth, ac hefyd er mwyn dwyn yn mlaen y celfyddydau a briodolir i "Tubal-Cain, gweithydd pob cywreinwaith pres a haiarn." Tybiodd rhai, oddi wrth debygrwydd yr enw, mai yr un oedd Tubal-Cain a Vulcan y Groegiaid, yntau hefyd yn of. Yn lle "gweithydd pob cywreinwaith pres a haiarn," darllena rhai, "blaenllymwr pob arf o bres a haiarn;"—felly Martanus. Dywed Josephus [*Hen.* i. 2. 2] mai efe oedd y cyntaf a ddyfeisiodd y gelfyddyd o weithio pres. Gan fod celfyddyd y gof yn un o hanfodolion cyntaf gwareiddiad, yr oedd crybwylliad am ei ddyfeisydd yn deilwng o le yn mysg tadau ereill y celfyddydau.

Yr oedd trigolion parthau o wlad nad oeddynt, ar gyfrif rhyw achosion neu gilydd, nodweddau lleol, er esampl, mor fanteisiol i amaethyddiaeth a pharthau ereill, dan angenrheidrwydd i droi eu sylw, a dwyn allan eu hymadferthoedd i gefnogi a gwellhau y celfyddydau. Ac yr oedd y celfyddydau yn ffynu yn fawr yn mysg rhai cenhedloedd yn yr oesoedd boreuaf. Yr oeddynt, mae yn ddiammheu, yn dra blodeuog erbyn amser Noah, yr hyn sydd amlwg oddi wrth yr arch a wnaed dan ei gyfarwyddyd, adeilwaith yr hon oedd yn brawf o gydnabyddiaeth â rhai o leiaf o'r llawgelfyddydau. Ac yn fuan ar ol y dylif, ceir crybwylliadau am gelfi ac addurniadau, sydd yn dangos fod yn y byd radd helaeth o wybodaeth gelfyddydol:—*Gen.* ix. 21; xi. 1—9; xii. 7, 8; xiv. 1—16; xvii. 10; xviii. 4, 6; xix. 32; xxxi. 19, 27, 34.

Yr oedd yr Aipht, yn yr oesoedd boreuaf, yn rhagori mewn celfyddyd ar holl genedloedd y ddaiar. A diammheu fod yr Israeliaid, trwy fod yn eu gwlad am bedwar can mlynedd, wedi eu haddysgu i raddau helaeth yn y wybodaeth gelfyddydol a feddai eu meistriaid. Cyn eu mynediad i'r Aipht, y mae yn sicr nad oedd eu gwybodaeth gelfyddydol ond anmherffaith iawn. Yr oedd eu bywyd bugeiliol a chrwydredig yn anfanteisiol i'w cynnydd hyd yn oed yn y llawgelfyddydau, a llawer mwy i'w cynnydd yn y ceingelfyddydau. Felly, mae yn naturiol meddwl yr ymddangosai yr Aipht yn wlad lawn o ryfeddodau i'r patrieirch; ac nid ychydig o wybodaeth a ennillodd y genedl yn ngwlad eu gorthrymwyr, yr hon a drodd allan yn fanteisiol iddi ar ol ei hymadawiad oddi yno. Yn yr anialwch, cawn yn mysg yr Hebreaid ddynion digon celfyddgar i adeiladu ac addurno y tabernacl. Er fod hyw beth goruwchnaturiol yn athrylith a chywreindeb y ddau brif gelfyddwr; eto nid yw hyn yn ddigon i gyfrif am yr adeilad addurnol hono, heb ystyried eu bod yn cael eu cynnorthwyo gan lawer o gelfyddwyr medrus, wedi derbyn eu gwybodaeth yn eu gwahanol alwedigaethau, nid mewn ffordd anghyffredin, fel Bezaleel ac Aholiab, ond yn hytrach mewn ffordd gyffredin, trwy wneyd y defnydd goreu o'r manteision a gawsent yn yr Aipht, a choethi ac ymarfer yr athrylith a feddent yn y wlad fwyaf celfyddgar yn y byd y pryd hwnw. Nid oes yn mysg deddfau Moses un yn dwyn perthynas uniongyrchol â'r celfyddydau; dim yn eu ffafr, nac yn eu herbyn. Yr oll a geir yn ei ysgrifeniadau yw y ganmoliaeth a roddir i adeiladwyr y tabernacl. Amcan mawr ei weinyddiaeth ef, mewn ystyr bydol, oedd cefnogi garddwriaeth; a gwelai mai y ffordd oreu gyda'r celfyddydau oedd eu gadael yn Israel, fel mewn gwledydd ereill, i angenrheidrwydd, diwydrwydd, a dyfais y bobl.

Er nad oedd medr celfyddydol y genedl yn nhymmor ei hymdaith yn yr anialwch ond ychydig, fel y dangoswyd, eto yr oedd ei hamcanion rhyfelgar, ei chyflwr ansefydlog, a'r ffaith fod ei holl yni yn cael ei lyncu gan yr un amcan mawr o oresgyn a meddiannu Canaan, yn attalfa ar ffordd ei chynnydd yn y celfyddydau—y rhai y mae eu hamaethiad a'u cynnydd yn dibynu i fesur mawr ar heddwch gwladol. Oddi wrth 1 *Sam.* xiii. 20—"Nid oedd gof yn yr holl wlad... ond holl Israel a aent i waered at y Philistiaid i flaenllymu bob un ei swch, a'i gwlltwr, a'i fwyall, a'i gaib"—gwelir fod gwedd isel ar y llawgelfyddydau mor ddiweddar a dyddiau Saul. Ond pan ddaeth amgylchiadau y wlad yn fwy tawel a setydlog, rhoddodd hyny adfywiad i athrylith, trwy fod diwydrwydd yn derbyn mwy o gefnogaeth. Daeth crefftau i gael eu cefnogi. Crybwyllir am y toddydd (*Ier.* x. 14) metteloedd. Nid ymddengys fod adeiladyddiaeth, a'r celfyddydau perthynol i hyny, wedi gwneud cynnydd mawr hyd amser Solomon. Oddi wrth Hiram, brenin Tyrus, y cafodd efe y cynion cywrain tuag at adeiladu y deml: 1 *Bren.* v. 1; 1 *Cron.* xiv. 1; 2 *Cron.* ii. 7. Yn 1 *Cron.* iv. 14, sonir am "lŷn y crefftwyr," am fod llawer o honynt yn y glŷn hwnw; yn *adn.* 21, coffeir am "dylwyth gweithyddion llian main;" ac yn *adn.* 23, am "grochenyddion yn preswylio yn mysg planwydd a chaeau." Pan gymmerwyd Ierusalem gan Nebuchodonozor, dygodd ymaith "bob saer a gof," yn fil mewn rhifedi: 2 *Bren.* xxiv. 14. Fel prawf nad oedd medr yr Hebreaid yn fawr mewn celfyddyd, ceir nad yw Ezeciel (*pen.* xxvii), pan yn adrodd am helaethrwydd o bob nwyddau a ddygid i Tyrus, yn son am ddim yn cael ei ddwyn o Iudea, ond gwenith, olew, grawnwin, a thriagl neu faim.

Derbyniodd Israel rai manteision celfyddydol oddi wrth y Phœniciaid; ac yn fwy diweddar yn

Digitized by Google

y caethiwed Babilonaidd. Nid edrychid yn isel ar gelfyddwyr yn Israel, fel mewn gwledydd ereill; ond ystyrid hwy yn ddosbarth parchus a gwerthfawr. Ystyriai yr Iuddewon addysg bachgen yn dra anmherffaith, os na byddai yn medru rhyw gelfyddyd. "Pwy bynag nid yw yn dysgu rhyw gelfyddyd i'w fab, sydd yn ei ddysgu i ladrata," oedd bron yn ddiareb ganddynt. Yn yr Apocrypha, ac yn y Testament Newydd, crybwyllir am farceriaid (*Act.* ix. 43); gwneuthurwyr pebyll (*Act.* xviii. 3); yn Josephus [*Rhyf. Iudd.*, v. 4. 1] am wneuthurwyr caws; yn y *Talmud*, yn mysg ereill, sonir am deilwriaid, ryddion, gwydrwyr, eurychod, a phlastryddion. Ni oddefid i rai celfyddwyr fod yn archoffeiriaid, megys gwehyddion, eillwyr, panwyr, peraroglwyr, cibwaedwyr, barceriaid; ac ystyrid y crefftiau hyn, yn enwedig yr olaf, yn dra anmharchus. Mewn dinasoedd mawrion, penodid cymmydogaethau neillduol i bob celfyddyd, fel y mae yn bresennol yn y dwyrain. Coffeir yn Ieremiah (*pen.* xxxvii. 21) am "heol y pobyddion;" yn y *Talmud*, am "farchnad gig;" yn Josephus, am "farchnad gaws;" ac yn y Testament Newydd (*Ioan* v. 2), am "farchnad y defaid."

Yn y gwledydd lle y mae y trigolion yn farbaraidd ac anllythyrenog, y mae amaethiad y celfyddydau yn araf iawn. Sicrheir mewn hen gân Ffrancaeg, fod nodweddau y tynfaen yn adnabyddus cyn y flwyddyn 1180. Arddangoswyd cwmpawd y morwr yn Venice yn 1260, gan Paulus Venetus, fel ei ddyfais ei hun. John Gioja, o Amalfi, oedd y cyntaf a'i defnyddiodd, lawer blwyddyn wed'yn, at forwriaeth. Er ei fod yn cael ei arfer yn China mewn morwriaeth yn mhell cyn ei ddyfod yn hysbys yn Ewrop, eto nid yw hyd heddyw mor berffaith ag y mae yn Ewrop. Defnyddid llawfelinau i falu ŷd yn fore; a phan ddeuwyd i gyfodi ŷd yn fwy helaeth, daeth melinau yn cael eu gweithio gan geffylau i arferiad. Sonir am felinau dwfr gan Vitruvius. Yr oedd melinau gwynt yn adnabyddus yn Groeg ac Arabia mor fore a'r seithfed canrif; ond nid oes un crybwylliad am danynt yn Italy cyn y pedwerydd canrif ar ddeg. Ymddengys, oddi wrth lyfr teuluaidd iarll Northumberland, nad oeddynt yn hysbys yn Lloegr yn nheyrnasiad Harri VIII. Yr oedd gan yr henafiaid wydrddrychau, a defnyddient wydr i wneyd efelychiadau o ffolau grisial; ond ni feddyliasant am wneyd ffenestri o hono. Nid oedd awrlais i daro yr awr yn adnabyddus yn Ewrop hyd ddiwedd y deuddegfed canrif. Ac o herwydd hyn, cyflogid dynion i gyhoeddi yr oriau yn ystod y nos, yr hyn oedd mewn arferiad yn lled ddiweddar mewn rhai gwledydd. Galileo oedd y cyntaf a feddyliodd y gallai pendil fod o wasanaeth i fesur amser; a Huygens a ddygodd y meddwl allan. Ni wnaed papyr yn gynt na'r pedwerydd canrif ar ddeg; ac yr oedd y ddyfais o argraffu gan mlynedd yn ddiweddarach yn cael ei bod. Yr oedd y gelfyddyd o ddarllen yn araf iawn yn ei chynnydd; ac er mwyn ei chefnogi yn Lloegr, arbedid bywyd troseddwr a gondemniwyd i farw, os gallai ddarllen.

Yn gyffredin, y mae cynnydd y celfyddydau yn dyfod yn llawer mwy cyflym. pan ddygwyddo fod cenedl yn cael ei deffro o ystad o farweidd-dra meddyliol gan ryw gyfnewidiad ffortunus mewn amgylchiadau. Y mae llwyddiant, pan yn dilyn aflwyddiant ac iselder, yn cyfranu bywiogrwydd ac ysbrydiaeth newydd i'r meddwl. Nid oedd yr Atheniaid yn gwneyd ond ymddangosiad salw o dan orthrwm Pisistratus; ond ar ol ennill eu rhyddid a'u hannibyniaeth, daethant ar unwaith yn wroniaid. Cyn pen llawer o flyneddoedd wedi eu rhyddhad, ennillasant oruchafiaeth odidog yn Marathon; ac ymrestrasant dan Themistocles, yn erbyn y fyddin afrifed ag y bwriadai Xerxes oresgyn Groeg trwyddi. Cynnyrchodd y cyfryw lwyddiant ei effeithiau cyffredin; ar ol y rhyfeloedd, blodeuodd y celfyddydau. Darfu i deyrnasiad Augustus Cæsar, yr hwn a roddes derfyn ar y rhyfeloedd cartrefol ac adferiad ar heddwch Rhufain, droi allan yn gyfnod ffortunus i lenyddiaeth; cynnyrchodd luaws mawr o haneswyr, beirdd, ac athronwyr, i'r rhai y mae y byd hyd heddyw yn ddyledus. Nid oes dim yn cynhyrfu bywiogrwydd a gweithgarwch mewn cenedl yn fwy na bod mewn rhyw argyfwng pwysig ac ammheus; megys mewn ymdrech dros ryddid; neu yn gwrthsefyll gelyn grymus. Ar ol cysgadrwydd maith dros ystod yr oesoedd tywyll, adfywiodd y celfyddydau yn nhaleithiau aflonydd Italy. Nid ydym, wrth hyn, yn gwrthddyweyd yr hyn a grybwyllwyd o'r blaen; sef, fod rhyfel yn anffafriol i amaethiad y celfyddydau: ar yr un pryd, pan y mae hyd yn oed rhyw gynhwrf gwladol yn foddion i ddeffroi a symbylu meddyliau y bobl allan o'r difaterwch a'r cysgadrwydd y mae dynolryw yn dueddol i fyned iddo, pan y mae pob peth o'u hamgylch yn llonydd a thawel, y mae y deffroad meddwl hwnw yn un o'r arwyddion sicraf o adfywiad agosaol y celfyddydau, trwy ba foddion bynag y cynnyrchir ef.

Y CELFYDDYDAU BREINIOL.

Dylid sylwi yn arbenig o barth i'r celfyddydau breiniol yn gyffredinol, nad yw yr holl reolau yn y byd yn ddigonol i wneyd bardd, areithydd, neu arlunydd enwog; o blegid y mae y cymhwysderau sydd yn angenrheidiol i'w ffurflo yn dibynu ar y tueddiad naturiol—ar yr athrylith—yr hwn nis gall un ymroad, na dilyn y gyfres berffeithiaf o reolau, gynnysgaethu un efrydydd âg ef. Gall y rheolau, pa fodd bynag, attal dyn rhag bod yn arlunydd gwael, yn areithydd diflas, neu yn fardd salw, gan eu bod yn gynnyrchion meddwl athrawon yn y celfyddydau, ac yn cyfeirio yr efrydydd at y creigiau a'r sugnbyllau y dylai eu gochel yn yr ymarferiad o'i alluoedd. Y maent hefyd o ddefnydd mawr i hyrwyddo ei egnion, a'i arwain ar hyd y llwybrau unionaf a diogelaf rhyngddo a pherffeithrwydd. Y maent yn puro, yn cryfhau, ac yn cyfeirio ei chwaeth a'i athrylith naturiol. Diammheu fod natur, pan yn cael ei gadael iddi ei hun, yn meddu rhyw elfenau afreolaidd ac anniwylliedig; ac amcan rheolau celfyddyd, os byddant wedi eu seilio ar egwyddorion uniawn a phriodol ydyw, naddu ceinciau natur, a'i gwisgo â phrydferthwch a lledneisrwydd na pherthynent iddi yn gynhenid.

Dylai pwy bynag sydd yn ei fryd ymroddi i'r celfyddydau, yn benaf ac yn mlaenaf, ymgynghori âg ef ei hun o barth i'w athrylith a'i dueddfryd naturiol. Dywed un am farddoniaeth, "mai yn ofer yr ymgeisia neb ddringo copa uchel Parnassus, os nad yw y nef, trwy weithrediad dirgelaidd, yn cyfranu gallu, ac yn ei ysbrydoli â'r awen;" a gellir, efallai, gymhwyso yr un dywediad at y celfau breiniol yn gyffredinol; o blegid y mae cynnydd mawr ynddynt yn dibynu ar y crebwyll: nid ar grebwyll ac athrylith ar wahân oddi wrth ymroad a diwydrwydd; ond ar grebwyll yn cael ei gynnorthwyo, ei ddwyn allan, a'i amaethu ganddynt. Dylai y celfyddydwr

Digitized by Google

lafurio yn ddiball er gwellhau ei chwaeth, a chyrhaedd y ddirnadaeth eglur a choeth a'i galluoga i wahaniaethu gwir brydferthion pob gwrthddrych, yr addurniadau ydynt gydweddol âg ef, a'r cyfartaledd sydd rhwng y gwahanol ranau. Y mae yr ymroad hwn yn cynnwys, nid yn unig sylwadaeth ar briodoleddau gwrthddrychau yn eu cyssylltiad â'r celfau, ond hefyd astudiaeth gysson a thrwyadl o brif gynlluniau prydferthwch.

Rheol arall ag y dylid ei dilyn gyda'r celfau ydyw, efelychu natur. Y mae gan bob gwrthddrych ei natur briodol, a'i ansoddion arbenig, y rhai ni ddylai y celfyddydwr fod heb eu hadnabod; a diammheu fod gadael allan o'r celfyddwaith unrhyw beth y gellir ei ystyried yn un o hanfodion y gwrthddrych, yn dinystrio effaith yr hyn a fwriadwyd yn arddangosiad o hono. Dywedir fod Homer, tad y beirdd, wedi troseddu y rheol hon i raddau; o blegid gan fod y duwiau yn cael eu hystyried uwch law dynion—yn anfarwolion—nis gellir meddwl ei fod yn arddangosiad da o honynt briodoli iddynt nwydau ac actau ffol ac isel, na oddefid prin mewn dynion marwol, a'u gwneyd i siarad mewn iaith iselwael a gwrthun. Nid efelychu a dilyn natur ydyw rhoddi yn ngenau un o'r arwyr, ar fin ymladdfa bwysig, araeth flinderus o ran ei meithder, yr hon nis gallasai un ran o fil o'r fyddin ei chlywed. Gellid meddwl, ar yr olwg gyntaf, nad oes dim yn hawddach na dilyn natur; ond pan geisir dwyn hyny i ymarferiad, teimlir ei fod yn dra anhawdd: —y mae yn anhawsder mor fawr, fel y mae yn gofyn y fath ddirnadaeth a gallu mynegiadol, na roddwyd ond i ychydig. Un o hanfodion mynegiad ydyw eglurder. Y mae mynegiad aneglur, amwys, a llafurfawr, bob amser yn ddieffaith. Y mae ymgais am effaith, bob amser yn dinystrio effaith. Y mae gwir brydferthwch yn hawdd i'w adnabod i'r anwybodus fel y dysgedig: prydferthwch gau, ymddangosiadol, neu o radd isel, sydd yn gofyn ei arwisgo a'i gaboli. Nid oes eisieu gwisg ar y gwir brydferth—ymddengys yn well yn ei noethder ei hun.

Addefir gan rai o'r celfyddwyr mwyaf deallus yn y gangen hon, fod tarddiad a dechreuad arlunyddiaeth yn gwestiwn sydd yn gorwedd mewn cryn dywyllwch; ac y mae cryn wahaniaeth barn o barth i'r lle a roddes fod iddi. Diammheu fod, yn yr oesoedd boreuaf, geisiadau yn cael eu gwneyd yn China, India, a'r Aipht, i arddangos y ffurf dynol mewn cerfiadaeth; ond yr oedd y fath anfedrusrwydd ac anghoethder yn yr arddangosiadau hyny, fel mai prin y gellir eu galw yn gynnyrch celfyddyd o gwbl. Y mae rhai awdwyr wedi olrhain dechreuad arlunyddiaeth mor bell ag amryw oesoedd yn flaenorol i ryfel Caerdroia [*Pliny*, llyfr vii]; ereill, at gyfnod llawer mwy diweddar [*Pliny*, llyfr xxxv]. Dywed Pliny fod yr Aiphtiaid yn ymffrostio eu bod yn gydnabyddus â'r gelfyddyd chwe mil o flynedd-oedd o flaen y Groegiaid; ond y mae hanesiaeth cyffredin, yn gystal ag ysgrythyrol, yn ymwrthod â'r fath dybiaeth. Ond, er nad yw y cyfnod hwn yn amgen na dychymygol, eto, y mae yn sicr fod rhyw fath o arlunio yn hysbys yn eu plith mewn cyfnod pur fore. Dywedir fod Cambyses wedi dinystrio gweithiau celfyddyd yn yr Aipht, yr hyn a gymmerodd le c. c. 525. Ond, fel y crybwyllwyd o'r blaen, nid oedd yr arluniau hyn yn deilwng o'r enw, fel y gwelir oddi wrth rai o honynt sydd mewn bod yn bresennol. Gan fod y Phœniciaid wedi ymddyrchafu i wareiddiad yn lled fore, ac mai iddynt hwy y priodolir dyfeisiad llythyrenau, gellir hawlio iddynt y ddyfais hon yn gystal ag un genedl. Yn amser Solomon, c. c. 992, yr oeddynt mor gyfarwydd yn y celfau, fel y darfu iddo eu rhoddi ar waith yn adeiladaeth y deml. Sonia yr Ysgrythyr am arddercho-grwydd eu hadeiladau, eu hystafelloedd addurnedig, a'u cerfluniau; ac y mae yn amlwg oddi wrth eu bathion, nad oeddynt yn ol yn hyny i'r Groegiaid.

Y mae celfyddyd Etruscaidd yn adnabyddus, oddi wrth y cawgiau sydd yn dwyn yr enw hwnw —*Etruscan vases*. Y mae rhai o'r arluniau yn arddangos ymladdfeydd, ac ereill, ddawns menywod—yr oll wedi eu gwneyd gyda llawer o fedrusrwydd, ac yn arddangos cryn ysbrydiaeth. Ac y mae yr arluniau ar y cawgiau yn dangos tlysni cynlluniad, purdeb ffurf, a medr mewn cyflawniad. Dywed Pliny fod yn Ardea, un o hen ddinasoedd Etruria, yn ei amser ef, rai arluniau a wnaethpwyd cyn sylfaeniad Rhufain; a rhyfedda eu bod wedi cadw mor dda am amser mor faith. Dysgrifia hefyd arluniau o Atalanta a Helen, yn Lacuvium, y rhai a ddangosent gryn fedrusrwydd.

Cynnyrchion neu geisiadau cyntaf arlunyddiaeth oedd, mewn amlinellau=*diagrams*. Nid oedd ynddynt ddim cymmeriad a mynegiad, ond yn unig yr hyn a allai amlinellau y gwrthddrych ei gynnwys. "Yr oedd gan gelfyddyd Groeg ei mabandod; ond siglai y Grasau ei chryd, a dysgai Cariad hi i siarad."

Y radd nesaf yn y gelfyddyd oedd y *monogram*, sef amlinell y gwrthddrych, heb oleu a thywyll, ond yn cynnwys rhanau o fewn y llinellau.

Yr enw cyntaf ar gof a chadw, mewn cyfnod ag y gellir cael hanes boddlonol am y gelfyddyd, ydyw Polygnotus. Blodeuai o ddeutu 422 c. c. Yr oedd ei lwyddiant mor fawr yn Athen a Delphi, fel y penderfynwyd, mewn cynghor cyffredinol, y telid ei gostau, pa bryd bynag y teithiai o dir Groeg, gan y wlad. Ar ol Aglaophon, Phidias, Panænus, Colotes, ac Evenor, y daeth Apollodorus yr Atheniad. Cymhwysodd ef egwyddorion Polygnotus at y gelfyddyd—ac yn enwedig at y ffurf dynol—trwy ymchwilio i'r prif gynlluniau sydd yn gwahaniaethu yr amrywiol ddosbeirth o ansoddau a nwydau dynol. Arweiniodd synwyrdeb ei chwaeth ef i wneyd y sylw—fel y mae pob dynion yn debyg i'w gilydd mewn un ffurf gyffredinol, felly y maent yn wahanol oll oddi wrth eu gilydd, ar gyfrif rhyw elfenau gorbwysol sydd yn sefydlu eu cymmeriad ac yn eu gwneyd yn ddosbeirth. Ystyriai Pliny a Plutarch Apollodorus yn lliwiedydd penaf ei oes. Dilynwyd Apollodorus gan Zeuxis, yr hwn, trwy uno mewn un darlun ranau perffeithiaf amryw gynlluniau, a gynnyrchodd ffurf dychymygol; yr hwn, yn ol ei dyb ef, a ffurfiai y radd uchaf o brydferthwch dynol. Dysgrifia Lucian arlun a ddangosai yn y Campau Olympaidd fel un rhagorol mewn dyfais a chynlluniad.

Parrhasius, brodor o Ephesus, oedd fab a dysgybl Evenor, a chydoesydd â Zeuxis. Trwy dalu llawer o sylw i amlinellau, sefydlodd, medd Fuseli, safon ffurf yr arwyr a'r duwiau, fel ag y cyfodwyd ef i'r fath awdurdod ag i fod yn ddeddfroddwr yn y gelfyddyd, ac yn ddyn nad oedd un appeliad i'w wneyd oddi wrth ei benderfyniadau. Yn ei gystadleuaeth â Timanthes, pa fodd bynag, ystyriwyd ef gan y mwyafrif o'r pleidleisiau yn israddol iddo. Testyn y gystadleuaeth oedd, ymdrechfa Ajax ac Ulysses am arfau Achilles.

Digitized by Google

Nid oes un o arluniau yr hen amseroedd wedi ennill cymmaint o glod ag Aberthiad Iphigenia, gan Timanthes. Y mae, ar ol derbyn canmoliaeth uchaf beirniaid yr hen amseroedd, yn yr amseroedd diweddar, pa fodd bynag, wedi ei ddarostwng dan feirniadaeth fanylach, oddi ar y ffaith fod Timanthes yn cuddio wyneb Agamemnon, tad y ferch oedd i'w haberthu, yn ei fantell, o herwydd ei fod (yr arlunydd) yn analluog, trwy ei gelfyddyd, i arddangos dwysder ei ing a'i dristwch. Sylwa Syr Joshua Reynolds ar hyn: "Os yw anhawsderau, pan orchfygir hwy, yn gwneyd rhan fawr o ragoriaeth celfyddyd, nid yw anhawsderau pan yn cael eu hysgoi yn haeddu ond ychydig ganmoliaeth." Ac y mae y beirniad Ffrengig Falconet yr un mor ddiarbed ar yr ysgoad hwn. Ond ymddengys ateb Fuseli iddynt yn foddhaol:—"Testyn Timanthes," meddai, "oedd aberthiad Iphigenia—hi oedd y prif ffugr; a'i ffurf, ei hymostyngiad tawel, neu ei hing, oedd prif orchwyl yr arlunydd. Nid yw llun Agamemnon, gan nad pa mor bwysig, ond ailraddol, neu gyfranogol yn unig; ac nid yw yn fwy angenrheidiol i wneyd y testyn yn brudd ac alaethus na ffugr Clymenestra, y fam. Teimlai Timanthes fel tad; ni chuddiodd wyneb Agamemnon am ei fod tu hwnt i allu ei gelfyddyd—nid am ei fod uwch law gallu mynegiad, ond am ei fod tu hwnt i'w ardduniant: gallai wreyd ynwahanol, ond ni ystyriai hyny yn briodol, am y buasai yr amlygiad o serch tad, yn y foment hono, a'r ymddygiad a fuasai o angenrheidrwydd yn dilyn, naill ai yn dinystrio mawredd y cymmeriad, a difrifwch yr olygfa, neu yn darostwng yr arlunydd gyda'r mwyafrif o'i feirniaid dan y cyhuddiad o annheimladrwydd." Cymmerwyd yr un ffugr i arddangos gofid a thristwch, gan Michael Angelo, yn narlun Abigam, a chan Raphael, yn yr Ymlidiad o Baradwys.

Yr arlunwyr uchod a ffurfient ail ysgol celfyddyd, ac a sefydlasant ei hamcan a'i therfynau. Ar lafur y rhai hyn y sylfaenwyd y trydydd cyfnod, yn yr hwn y blodeuodd Apelles, Protogenes, Aristides, Euphranor, ac Eupompus. Pan ymgynghorwyd â'r diweddaf, gan Lysippus, o barth i safon mewn celfyddyd i'w efelychu, cyfeiriodd ef at y bobl a aent heibio, gan sylwi, mai natur, ac nid celfyddydwr, a ddylai fod yn wrthddrych efelychiad. Darfu i Pamphilus, athraw Apelles, a'r mwyaf gwyddonawl o holl arlunwyr ei amser, gymmeryd yn ei fryd ddilyn rheolau Eupompus. Heb law arlunio, astudiai feintoniaeth, a dysgai nad yw yn bosibl i un arlunydd wneyd cynnydd mawr heb wybodaeth yn y wyddoreg hono. Dywed Pliny, fod Apelles yn ddihafal yn y gelfyddyd o arlunio. Rhagorai ar bawb o'i gyn a'i gydoeswyr mewn tlysni; ond rhoddir y flaenoriaeth i Aristides am y gallu i fynegu nwydau a theimladau y meddwl.

Un o hynodion y celfyddydwyr cyntaf, yn enwedig y cerflunwyr, oedd amcan i weithio effaith grymus a tharawiadol, trwy weithio lluniau mawrion iawn. Arferai yr Aiphtiaid a'r Hindwaid osod llewod cerfiedig o geryg, o faintioli anferth, yn y mynedfeydd i'w temlau. Soma Abdallatif am ddau a welodd yn Memphis, yn llawer mwy na llewod byw. Arferai yr Aiphtiaid baentio eu cerfluniau, fel y gwelir oddi wrth y ffugrau sydd yn perthyn i deml Ipsambul. Yr oedd cerfluniau yn gyffredin yn nhir Groeg, a llawer o honynt uwch law deg llath o uchder. Yr oedd amryw ddelwau o Iau uwch law hyny; a chrybwyllir am un yn uheml Apheus, o ddeutugain llath. Y mae crybwyll am gelfyddwaith Chares, delw anferth yr haul, yn ddigon i arddangos chwaeth y Groegiaid at gerfluniau mawrion. Gosodwyd hi i fyny yn Rhodes. Yr oedd yn ddeg troedfedd a thrigain o uchder, neu gant a phump o droedfeddi Rhufeinig. Y mae ei bawd yn ormod o faintioli i un dyn gyrhaedd am dani, a'i bysedd yn fwy na'r nifer mwyaf o gerfluniau. Dywedir ei bod wedi costio tri chant o dalentau, a chymmerwyd deuddeng mlynedd i'w gweithio.

Fel esampl o brydferthwch, dywedir fod amryw o ddelwau Minerva heb eu cyffelyb. Y mae yr un sydd yn bresennol yn y Capitoline Museum, yn Rhufain, yn ddiammheuol yn gynllun o ran prydferthwch ac ardduniant. Y mae yr agweddiad yn fawreddog, ac effaith yr holl gerflun yn cael ei fwyhau yn fawr gan symledd a thlysni y dilladiad sydd am dani.

Dygwyd cerfiadaeth yn fore i Brydain gan y Rhufeiniaid; ond ni pherthyn i hen olion celfyddyd y concwerwyr nemawr o ragoriaeth. Ymddengys, pa fodd bynag, eu bod wedi gadael ar eu hol raddau o chwaeth at y celfyddydau. Cyfodwyd cerflun pres i'r brenin Lud, yn Ludgate Hill; ond, yn ol dysgrifiad Bede, yr oedd yn dra anghoeth: camgymmerwyd maintioli am ddadurniant, a gorwylltedd barbaraidd am fawredd gwron.

Dilynwyd y Rhufeiniaid gan y Saxoniaid; ond ystyrir eu ceisiadau hwythau i efelychu y ffurf dynol yn dra anmherffaith. Gwnaent y cerfluniau â gwedd ddychrynllyd arnynt. Ond fel y cynnyddasant eu hunain mewn gwareiddiad, daeth cynnyrchion eu celfyddyd yn fwy coeth; ac yn eu hadeiladyddiaeth, dechreuasant arddangos mesur o chwaeth—ond attaliwyd eu cynnydd gan oresgyniad y Normaniaid.

Yr oedd adfeiliad y gallu Rhufeinig, fel y gallesid dysgwyl, yn adfeiliad hefyd ar y celfyddydau breiniol. Nid yw hanes y celfyddydau, o'r pummed canrif hyd yr unfed ar ddeg, yn cynnwys dim dyddordeb—prin yr oeddynt yn cael sylw am y cyfnod maith, oddigerth i ychydig raddau gan y mynachod yn eu neilluaeth. Gyda chyfodiad y gwerinlywodraethau Italaidd y dechreua eu hadnewyddiad, pan elwid am gelfyddydwyr o dir Groeg i addurno adeiladau Florence a Pisa; ac ymddengys fod ysgolion i ddysgu arlunyddiaeth wedi eu cyfodi yn Italy mor fore a'r unfed canrif ar ddeg neu y deuddegfed. Y mae arddull celfyddyd yn y cyfnod hwn yn cael ei arddangos yn y gweddillion sydd yn aros. Y mae yn llyfrgelloedd ymherawdwyr Awstria a Ffrainc arluniau Groegaidd o brydferthwch mawr, a wnaed yn y canoloesoedd; ond y cynddelwau goreu yw y rhai sydd i'w gweled yn eglwys Santa Maria Maggiore, yn Florence, y rhai a gynnwysant y Gweddnewidiad, yr Adgyfodiad, a Gogoneddiad Iesu Grist.

Gan nad ydyw hanes arlunyddiaeth yn amgen na hanes yr arlunwyr enwocaf, cyfeiriwn y darllenydd at eu bywgraffiadau.

Deffrowyd meddwl yr Almaeniaid at y celfau breiniol yn gynnar yn y pymthegfed canrif; ond ni bu y cynnydd ond bychan am amser wedi hyny. Bu Albert Durer o wasanaeth mawr i'w dyrchafu i fwy o fri, a dilynwyd ef gan Van Leyden a Holbein. Cyfnewidiodd chwaeth yr Almaeniaid yn hollol ar ol cael gafael ar weithiau Michael Angelo.

Rhoddwyd cychwyniad i Loegr gyda'r celfau, yn nheyrnasiad Harri VIII. Yr oedd uchelgais naturiol Harri, a'i ysbryd cydymgeisiol â'i gym-

Digitized by Google

mydog, Francis I. o Ffrainc, yn gymhelliadau digon cryfion i'w gynhyrfu ef i ymawyddu am fod yn noddwr i'r celfau breiniol; ond llesteiriwyd ef yn hyn gan ei ddadleuon duwinyddol â'r Diwygwyr, a'i ymrysonau dilynol â'r pab. Pleidiwyd arlunyddiaeth hefyd gan Charles I. Cynhyrfodd fwy o chwaeth at y gelfyddyd, a meddai ei hun chwaeth goethedig ati. Rhoddes Rubens ar waith tra bu yn aros yn Llundain; prynodd y *cartoons* trwy annogaeth Rubens; cyflogodd arlunydd i gopio gweithiau Titian yn Yspaen, a phrynodd lawer o'r arluniau gwerthfawrocaf. Am wybodaeth bellach ar y mater, gwel dan y gwahanol gelfyddydau a chelfyddwyr.

CELFYDDYDAU, GRADDAU YN Y: dechreuasant, fel y bernir, gyda chorfforiad y prif athrofeydd, yn yr unfed ar ddeg a'r deuddegfed canrif. Cyn yr adeg hon, yr unig wahaniaeth ynddynt oedd y gwahaniaeth rhwng athraw ac ysgolheigion, fel y mae yn bresennol yn yr ysgolheigion gramadegol. Y gradd o athraw yn y celfyddydau a fernir yr henaf yn y graddawd. Sonia Eugenius II., yn y 34 rheol o'r cynghor a gynnaliwyd yn Rhufain yn 826, am appwyntiad *magistri* a *doctores* yn yr un frawddeg; a chadarnhawyd y rheol gan benderfyniad o eiddo Leo IV. mewn cymmanfa arall yn Rhufain yn 853. Y mae Du Pin o'r farn hon o barth i ddechreuad y graddau athrofaol. Dywed fod yr athrofäau neu y prif ysgolion oeddynt eisoes wedi eu sefydlu, wedi cael eu dwyn i drefn yn y trydydd canrif ar ddeg. Dywed am athrofa Paris, yr hon a ddechreuwyd yn y canrif blaenorol, ei bod wedi enwogi ei hun ar gyfrif nifer ei hysgolheigion, a'i meistriaid (*magistri*), â'r rhai y cyflenwodd Ewrop. Ar y cyntaf, cynnwysai wyddonwyr, y rhai a addysgent athroniaeth a'r gwyddorion; a duwinyddion, y rhai a eglurent weithiau Peter Lombard a'r Ysgrythyrau. Nifer y celfau oedd saith, y rhai a ddosberthid i'r *trivium* (triad), yn cynnwys gramadeg, rhesymeg, ac arcitheg; a'r *quadruvium* (pedwariad), yn cynnwys cerddoriaeth, rhifyddiaeth, meintoniaeth, a seryddiaeth.

Dywedir mai Gregory IX. (1227—1241) a sefydlodd radd Gwyryf yn y Celfyddydau (= *Bachelor of Arts*); a bod yr enw *bachelor* wedi dyfod oddi wrth *bacilla* (ffyn bychain), naill ai am eu bod yn cael eu derbyn trwy roddi iddynt ffon fechan, neu mewn cydffurfiad â'r enwad a roddid ar fllwyr ieuainc, y rhai a ymarferent â ffyn i'r dyben o ddysgu trin arfau.

Ymddengys, oddi wrth *Hanes Pri ysgol Rhydychain*, gan Wood, fod y graddau o athraw a gwyryf yn cael eu rhoddi yno yn amser Harri III.; a'r gradd o athraw, efallai, yn llawer cynnarach.

Y mae yr arholiad am radd gwyryf, yn Rhydychain, yn cynnwys yr ieithoedd Groeg a Lladin, yn benaf gyda golwg ar eu cyfansoddiad gramadegol—elfenau rhesymeg, neu ran o Euclid. Y mae yr arholiad hwn yn fath o ragbarotoad i un arall, yr hwn a gynnwysa elfenau crefydd, yr hyn sydd yn cymmeryd i mewn wybodaeth led drwyadl o'r efengylau yn y Groeg—o hanes yr Hen Destament a'r Newydd—o erthyglau Eglwys Loegr—ac o brofion crefydd naturiol a dadguddiedig. Cynnwysa hefyd y *Literæ Humanores;* yr hyn a gymmer i mewn gydnabyddiaeth â Groeg a Lladin, hen hanesyddiaeth, arcitheg, barddoniaeth, moeseg, a gwladyddiaeth, fel y trinir hwynt gan hen ysgrifenwyr Groeg a Rhufain, yn nghyd âg elfenau y gwyddorion naturiol.

Yn Nghaergrawnt, y mae yr ymgeiswyr am radd gwyryf yn myned o dan arholiad blaenorol; yr hon a gynnwys un o'r pedair efengyl, neu Actau yr Apostolion, yn y Groeg—profion Cristionogaeth, gan Paley—a rhan o'r clasuron Groeg a Lladin.

Y mae un ar bymtheg o dermau yn ofynol am radd gwyryf yn Rhydychain oddi wrth bawb oddi eithr meibion arglwyddi y deyrnas, a meibion henaf eu meibion henaf. Y mae caniatâd iddynt hwy fod yn ymgeiswyr am y gradd ar ol gorphen tair blynedd. Yn Rhydychain a Chaergrawnt, ennillir graddau mewn celfyddydau, duwinyddiaeth, y gyfraith, meddyginiaeth, a cherddoriaeth. Ond y gradd isaf, G. C.=Gwyryf yn y Celfyddydau, yw yr unig un a roddir mewn canlyniad i arholiad manwl. Cyrhaeddir y graddau uchaf trwy arosiad yn y brifysgol, a chyflawnu rhyw wasanaeth dibwys.

CELTIAID, CELTÆ, neu CELTES. Y rhan hono o hiliogaeth y Cymry, neu y Gomeriaid, yr hon oedd yn genedl gref a gyfanneddai un waith y rhan amlaf o wledydd Ewrop. [Y mae yr erthygl hon, gan mwyaf, yn dwyn perthynas â'r Celtiaid hyny. Am hanes y Cymry eu hunain, gwel d. g. CYMRY.] Dywed yr hen hanesion iddynt hanu o Gomer, cyntafanedig Iapheth, mab Noah. Haerir ddarfod i Gomer sefydlu yn Phrygia yn Asia, ac i Ascenas ei fab henaf, neu Togarmah yr ieuengaf, neu y ddau, aros yn Armenia; a Riphath, yr ail, yn Cappadocia. Aeth y gwledydd hyn, pa fodd bynag, yn fuan yn rhy gyfyng iddynt i breswylio ynddynt, gan mor gyflym yr oeddynt yn lluosogi; a thybir iddynt ymestyn ar y cyntaf yn golofnau rheolaidd, heb aflonyddu dim ar neb o'u cymmydogion, ac i ddisgynyddion Gomer ddyfod felly bron yn ddiarwybod iddynt eu hunain tua'r gorllewin, hyd i Poland, Hungary, Germany, Ffrainc, Yspaen, a Phrydain; tra yr oedd disgynyddion Magog, ei frawd, yn symud yr un mor gyflym mewn cyfeiriad arall tua'r dwyrain, i gyfanneddu Tartary.

Wedi dyfod drosodd i Ewrop, nid hir y bu y Celtiaid yn y gwledydd crybwylledig cyn dyfod yn allu cryf dan unbenaeth rheolaidd, neu yn hytrach, fel y tybia rhai, ac fel yr ymddengys yn fwy tebygol, dan y ffurf o amrywiol freniniaethau. Crybwyllid am danynt mor fynych gan hen awduron a haneswyr yn yr oesau gynt fel y tybiodd Ortelius mai enw cyffredin oedd Celtica am gyfandir Ewrop, a gwnaeth ddaiarlen (*map*) o hono dan yr enw hwn. Mewn rhanau o Asia, yn gystal ag yn Ewrop, gelwid y Celtiaid ar wahanol enwau. Y rhai mwyaf cyffredin yn Asia Leiaf oeddynt y Titaniaid, neu y Saciaid; yn ngogledd Ewrop, Cymmeriaid, Cimbriaid, &c.; ac yn y parthau deheuol, Celtiaid, Gàliaid, neu Galatiaid.

Gyda golwg ar ffurf llywodraeth yn mhlith y Celtiaid, yr ydym bron yn hollol dan ein dwylaw. Yr oll agos a wyddys am hyn ydyw, mai i'r derwyddon y perthynai rhoddi barn bron ar bob achos o bwys yn eu plith. Dywed Cæsar, yr hwn a ystyrir yn gyffredin yn awdurdod lled uchel ar y pen hwn, am y derwyddon, eu bod wrth fraint eu swydd yn rheoli yn y pethau sanctaidd, yn gweinyddu yn yr aberthau, ac yn egluro holl bynciau crefydd i'r werin anwybodus. "Y mae lluaws o'r bobl ieuainc," eb efe, "yn eu parchu yn fawr, ac yn derbyn eu hyfforddiadau. Hwynthwy sydd yn rhoddi barn ar bobdadl, pa un bynag

Digitized by Google

ai cyhoeddus ai personol fyddo. Am droseddau; os lleddir dyn, neu os bydd dadl yn nghylch unrhyw feddiant neu derfynau, y mae y derwydd yn eistedd mewn barn ac yn penderfynu y wobr neu y gosp, fel y bo'r achos. Os bydd rhyw un na fyn ymostwng i'w dedfryd y maent yn y fan yn ei esgymuno o'u haberthau; a hon yw y gosp drymaf sydd ganddynt i'w gweinyddu. Ar ol hyn, edrychir ar yr esgymunedig, pwy bynag fyddo, gyda'r arswyd llwyraf gan yr holl wlad; bydd hyd yn oed y gwehilion yn mhlith y bobl yn ei ochel fel un dan y felldith, ac yn ofni cyffwrdd âg ef rhag iddynt gael eu halogi. Y mae allan o gylch amddiffyniad, ac yn wrthddrych dirmyg a ffeidd-dra gan bawb." Edrychid ar y gosp hon gan y Celtiaid yn waeth nag angeu; ac y mae llawer yn eu golygiadau crefyddol i gyfrif am hyny. Yr oedd gan y bobl hyn ragfarn neillduol yn erbyn temlau töedig a thai o bob math i addoli ynddynt. Yr oedd y llwyn agored yn fwy cymhwys, yn eu tyb hwy, na lle cauedig, i addoli yr Hwn sydd a'i hanfod yn annherfynol. Yn hyn yr oeddynt yn debyg i ddysgyblion Zoroaster, ond fod y rhai hyny yn ystyried y tân yn fwy cyfaddas na'r derw fel arwydd o'r Duwdod. Y Celtiaid a roddent fri arbenig ar y derw, a phriodolent lawer o rinweddau goruchnaturiol i'r pren, y dail, a'r mes; a defnyddient yr oll o honynt yn ngwahanol ranau eu gwasanaeth crefyddol. Mewn cyfnod diweddar yn eu hanes, tybir fod llawer o arferion ofergoelus a gawsant oddi wrth y Rhufeiniaid, a chenedloedd ereill, wedi ffynu i gryn raddau yn eu mysg. Hyn, mae yn ddiammheu, a barodd iddynt edrych ar eu gwroniaid a'u tywysogion yn gyssegredig, a thalu i rai o honynt warogaeth ddwyfol fel y cyfryw. Yr oedd, meddir, hyd yn oed rai o ddduwiau y cenedloedd hyny yn cael eu cydnabod ganddynt; megys Jupiter dan yr enw Taran, a Mercurius a elwid gan rai hen awduron yn Heus neu Hesus. Mars a ystyrid yn benaf gan ryfelwyr, a Mercurius gan fasnachwyr y genedl. Ond wedi'r cwbl, tebycach yw mai llygriad o hen erthyglau syml y Celtiaid ydoedd y duwiau cenedlig. Y mae tarddiad Cymraeg yr enwau yn cadarnhau y dyb.

Fel y lled awgrymwyd eisoes, y derwyddon a flaenorent yn ddieithriad yn yr holl bethau crefyddol; a rhan arbenig o'u swydd oedd cyfranu addysg i'r genedl ieuanc mewn duwinyddiaeth, athroniaeth, seryddiaeth, a serddewiniaeth, &c.; yn yr oll o ba rai yr oeddynt yn dra chyfarwydd. Cæsar a ddywed am eu dull o gyfranu addysg [gwel yn helaethach ar hyn yn yr erthygl ar FARDDONIAETH] eu bod yn ei wneyd bob amser ar air, gan yr ystyrient eu hathrawiaethau yn rhy gyssegredig i'w rhoddi ar ysgrifen. Pethau mwy cyffredin, pa fodd bynag, a ysgrifenid ganddynt: o leiaf gellid tybio hyny, os yw yr hyn a ddywed Cæsar yn wir, fod y tribanau a ddysgid ganddynt wedi cyrhaedd y fath rifedi yn ei amser ef fel y cymmerai i fardd ieuanc ugain mlynedd llawn i'w trysori yn ei gof. Yn eu hathrofäau yr oedd lluaws o ieuenctyd yn derbyn addysg, nid yn unig o'u gwlad eu hunain, ond o wledydd ereill hefyd; yn gymaint felly fel y dywed Diogenes Laertius fod y Groegiaid wedi derbyn eu gwybodaeth athronyddol oddi wrth y Celtiaid, ac nid wedi ei chyfranu iddynt. Y mae Diodorus Siculus hefyd, yr hwn a ddyfyna o Hecateus, yn dywedyd fod gan y derwyddon fath o offerynau trwy ba rai y gallent ddwyn gwrthddrychau pell yn agos, a gwneyd iddynt ymddangos yn fwy ac yn llawer eglurach, a'u bod hyd yn oed yn gallu gweled moroedd a mynyddoedd a dyffrynoedd ar wyneb y lleuad. Ond er y graddau o oleuni dysg a chelfyddyd, a pha swm bynag o wirionedd crefyddol oedd ganddynt, y mae yn ddigon sicr fod llawer o arferion creulawn a barbaraidd yn hanfodi yn eu mysg, o leiaf mewn amseroedd diweddar. Ond ceir achlysur i sylwi yn fanylach ar hyn eto dan air arall.

Y mae yn deilwng o sylw yn y fan hon fod y cyfeiriadau a wneir gan Cæsar [*De Bell. Gall.*] ac y Celtiaid i'w deall yn benaf am y rhan hono o honynt a breswylient yn Gâl, sef Ffrainc, ac yn wir yn yr un ystyr y defnyddir y gair fynychaf gan bob ysgrifenydd o bwys o hyny hyd yn awr. [Am y rheswm o hyn gwel dan y gair GAL.] Y mae hanes y Celtiaid, er hyny, yn y wlad hon, mor dywyll ac ansicr ag ydyw mewn gwledydd ereill. Ond yn unol â'r afonyddwch greddfol oedd yn eu nodweddu yn mhob gwlad, fel yr oeddynt yn cynnyddu yn y tir, yr ydym yn eu cael yn ymdywallt yn finteioedd cryfion i wledydd ereill y rhai yn gyffredin a ddarostyngent ac a gymmerent iddynt eu hunain. Ymosodid arnynt hwythau drachefn yn eu tro gyda'r fath allu nes y gorfodid hwy i roddi i fyny, neu anfon i'w gwlad enedigol am gymhorth i'w gwrthsefyll. Amlygid y parodrwydd mwyaf bob amser i gydsynio â dymuniad o'r natur yma, ac anfonid mintei oedd mor luosog, y rhai a wasgarent y fath ddinystr a thrueni yn y ffordd y cerddent fel yr oedd hyd yn oed yr enw Celtiaid yn ddigon daro dychryn i galon pob cenedl gyfagos

Yr ymgyrch cyntaf o eiddo y Celtiaid ag syod genym un hanes penodol am dano oedd yr un i Italy, dan arweinydd galluog o'r enw Bellovesus, brenin y Cymry, o gylch c. c. 622. Yr arweinydd hwn oedd y cyntaf oll, mae'n debyg, i anturio dros yr Alps; ac wedi croesi yn llwyddiannus, gorchfygodd yr Etruriaid mewn rhyfel, a chymmerodd feddiant o ran o'u gwlad, a adnabyddir yn awr dan yr enwau, Lombardy a Piedmont. Yr ymgyrch pwysig nesaf a wnaed gan y Cenomani, sef llwyth o'r Celtiaid a drigent rhwng yr afon Seine a'r afon Loire, dan arweinydd o'r enw Elitonis. Yr anturwyr hyn a ymsefydlasant yn y rhanau hyny o Italy a elwid ar ol hyn yn Bresciano, Cremonese, Mantua, Garniola, a Venetia. Yn y trydydd ymgyrch, ymsefydlodd dau lwyth Celtaidd arall ar bob tu i'r afon Po; ac yn y pedwerydd y Boiiaid a'r Lingoniaid a ddaethant i'r wlad sydd rhwng Ravenna a Bologna. Nid ydys yn sicr o amseriad y tri ymgyrch diweddaf. Ond y nesaf, yr hwn a wnaed yn mhen tua dau can mlynedd ar ol y cyntaf a nodwyd, oedd yn llawer mwy hynod na'r oll o'r rhai blaenorol. Un o arglwyddi Etruria a anfonodd wahoddiad i'r Senoniaid, a gyfanneddent rhwng Paris a Meux, yn Gâl, i ddyfod drosodd i Italy; y rhai, ar ol derbyn y gwahoddiad, a aethant drosodd, ac a ymsefydlasant yn Umbria. Yn fuan wedi hyn, Brennus, brenin y Cymry, a warchaeodd ar Clusium, dinas oedd ar y pryd mewn cynghrair â Rhufain, yr hyn a achlysurodd gweryl difrifol rhyngddynt a'r Rhufeiniaid. Yn ol honiadau y Rhufeiniaid, dywedir i'r Cymry fod yn llwyddiannus ar y cyntaf i ymlid y gelyn a llosgi y ddinas, ac iddynt gael eu gorchfygu o'r diwedd gan fyddinoedd cryfion a ddygwyd i'w herbyn gan Camillus, a hyny mor lwyr fel na ddiangodd gwr o honynt:—nid yw hyn ond dysgrifiad anghywir ac ymffrostgar o'r amgylchiad o eiddo y Rhufeiniaid eu hunain; ac fe gydnabyddir hyny gan Niebuhr, Arnold, ac ysgolheigion

Digitized by Google

diweddar ereill. Y gwirionedd yw, ddarfod i'r Cymry gymmeryd Rhufain, a'i dal am chwe mis, bob rhan o honi ond y Capitol; ac ni ryddhawyd hi heb fil o bwysi o aur. Pan yn ei bwyso, fe daflodd Brennus ei gleddyf a'i wregys i'r glorian, ac a ddywedodd, "*Ve victis!*"=Gwae y rhai a orchfygwyd! Y mae genym hanes am ruthrgyrchoedd ereill o eiddo y Celtiaid yn erbyn y Rhufeiniaid; ac er eu bod yn y cyffredin yn aflwyddiannus, a hyny o eisieu dysgyblaeth filwrol, eto yr oedd eu ffyrnigrwydd a'u gwroldeb dihafal yn peri y fath ddychryn i'r weriniaeth fel y gwneid chwanegiadau anarferol at y fyddin mor fuan ag y clywent am eu dyfodiad. Yr oedd hyd yn oed offeiriaid a hen bobl y pryd hwn yn cael eu rhoddi dan arfau.

Nid llawer mwy llwyddiannus fu ymgyrchoedd y Celtiaid yn erbyn y Groegiaid nag yn erbyn y Rhufeiniaid. Cymmerodd y cyntaf o'r rhai hyn le yn y flwyddyn c. c. 279, tra yr oedd Pyrrhus yn ymosod ar Italy. Wrth weled eu gwlad yn myned yn rhy gyfyng, penderfynodd y Celtiaid anfon tair byddin i chwilio am leoedd newyddion y gallent gyfanneddu ynddynt. Un o'r byddinoedd hyn, a arweinid gan Brennus, a drodd ei gwyneb tua Pannonia neu Hungary; un arall, gan Cerethrius tua Thrace; a'r llall gan Belgius tuag Illyricum a Macedonia. Yn y wlad hon Belgius a fu ar y cyntaf yn dra llwyddiannus; ac wrth glywed am ei helynt penderfynodd Brennus fyned yno hefyd, o leiaf i ranu yr yspail. Yn fuan, pa fodd bynag, cafodd Belgius ei orchfygu, a'i fyddin bron ei llwyr ddyfetha, fel mai da erbyn hyny oedd fod Brennus ger llaw. Yr oedd gan Brennus o'r dechreu 150,000 o wyr traed, a 15,000 o wyr meirch; ond aeth 20,000 o honynt ymaith mewn anghydfod ar ol Cerethrius, a chymmerasant feddiant o Byzantium, a pharthau gorllewinol y Propontis. I wneyd i fyny am y golled annysgwyliadwy hon, anfonodd Brennus i Gâl am wyr ereill i'w adgyfnerthu, fel yr oedd ganddo, pan aeth i Macedonia, 150,000 o draed-filwyr, a 60,000 o feirch-filwyr, â pha rai y trechodd ei wrthwynebwyr, ac yr anrheithiodd yr holl wlad. Wedi hyn efe a drodd ei wyneb tua Bwlch y Thermopylæ, gyda bwriad o wneyd ymosodiad ar dir Groeg; ond yn hyn, pa fodd bynag, cafodd ei luddias, am fod y fynedfa hono yn cael ei hamddiffyn gan allu cryf yn ei erbyn. Pan welodd ei siomi yn hyn, gadawodd ran o'r fyddin yn ngofal Acichorius, y nesaf iddo ef mewn awdurdod, ac aeth ei hunan gyda 4,000 o wŷr dros gefn y mynydd am ben y Phociaid a amddiffynent y Bwlch. Ciliasant hwy i'w llongau yn ddiogel, a brysiodd yntau yn y blaen tua Delphi, er mwyn ysbeilio y deml gyfoethog oedd yn y lle hwnw. Ond profodd yr anturiaeth hon yn siomedig iddo, canys fel yr oedd y fyddin yn nesäu at y ddinas cafodd ei gorddiwes gan ystorm ddychrynllyd o daranau:—brwydrodd Apollo, medd y Groegiaid, o blaid ei deml anwylaf; lladdwyd llawer o'r milwyr gan y mellt a'r cenllysg, dinystriwyd ereill gan ddaiargryn; a'r gweddill, wedi eu dychrynu yn y nos, a dybiasant fod y gelyn yn dyfod arnynt yn ddisymmwth, ac a fuant yn ymladd law-law â'u gilydd mewn camgymmeriad hyd y bore, fel erbyn hyn nad oedd ond prin eu hanner yn fyw. Gwelodd y Groegiaid fod y fantais yn awr yn gwbl yn eu llaw hwy, a daeth minteioedd lluosog o honynt yn nghyd o bob cwr i orphen y lladdfa ofnadwy oedd yn barod wedi ei dechreu. Ac er i Acichorius ddyfod i fyny mewn pryd i'w gynnorthwyo, gwelodd Brennus ei hun yn gwbl ddiallu yn erbyn y gelyn, ac felly cafodd ei orchfygu â lladdfa fawr. Wedi llwfrhau yn ngwyneb yr anffodion hyn, a chan ganfod ei hunan wedi ei archolli yn drwm, galwodd Brennus ar ei dywysogion, a gorchymynodd iddynt ladd pob clwyfedig ac analluog yn y fyddin, a dychwelyd yn y modd goreu y gallent tua'u gwlad, ac wedi hyny rhoddodd derfyn ar ei einioes. Ar ol rhoddi yn agos i 20,000 o'u cydwladwyr i farwolaeth mewn gwaed oer fel hyn, cychwynodd y gweddill o honynt dan arweiniad Acichorius yn ol tua'u gwlad; ond gan fod yn rhaid iddynt gerdded bob cam trwy wlad y gelyn, cawsant y fath anhawsderau ar eu ffordd fel na chyrhaeddodd un o honynt byth i dir Gâl. Y mae amryw o'r hen awduron paganaidd yn dyweyd mai barn gyfiawn ar y Celtiaid oedd y trychineb ofnadwy hwn am eu bwriadau drygionus yn erbyn y deml odidog yn Delphi. Ymsefydlodd y rhan fwyaf o honynt yn Thrace, lle y mae Caer Cystenyn yn awr; ac oddi yno mudodd llawer o honynt i Asia Leiaf, lle y trigasant. Gweddillion byddin Brennus oedd Galatiaid y Testament Newydd: dywed Josephus mai Gomeriaid oeddynt; ac y mae lle i gasglu oddi wrth Justin eu bod yn siarad Cymraeg.

Hyd yn hyn y mae y Celtiaid yn mhob cweryl yn yr ochr ymosodol, ond daeth eu tro hwythau o'r diwedd i sefyll yn yr ochr arall. Wrth weled eu beiddgarwch mor fawr, meddyliodd y Rhufeiniaid fod ganddynt rywbeth i'w wneyd heb law mewn ffordd o hunan-amddiffyniad, a daethant i'r penderfyniad i ymosod arnynt ar eu tir eu hunain. Yr ymgyrch llwyddiannus cyntaf a wnaed yn y cyfeiriad yma oedd yn y flwyddyn c. c. 118, o dan arweiniad Caius Marius. I wneyd yr ymgyrch yn llwyddiannus, gwelodd y cadlywydd hwn yn angenrheidiol i agor tramwyfa rhwng mynyddoedd yr Alps a'r Pyrenees, a thrwy hyny, gosododd sail ei fuddugoliaethau dyfodol yn y cychwyn. Yr oedd y gorchwyl hwn yn un o lafur dirfawr; ac, fel y gallesid dysgwyl, nid oedd y Celtiaid ar ol o wneyd yr hyn a allent er ei luddias i'w ddwyn i ben. Yr oedd y Stœniaid, y rhai a breswylient yn y dyffrynoedd ger llaw, yn ymosod arnynt yn barhaus; ond pan welsant eu hunain yn cael eu trechu gan y Rhufeiniaid, wedi rhoddi eu trigfanau ar dân, a lladd eu gwragedd a'u plant, taflasant eu hunain i ganol y goelcerth. Ar ol hyn Marius a adeiladodd Narbonne, yr hon a ddaeth wedi hyny yn brif ddinas y dalaeth. Dilynwyd ef gan Scaurus, yr hwn, heb law darostwng amryw gangenau o'r Celtiaid, a wnaeth lawer o ffyrdd da, er hyrwyddo trosglwyddiad milwyr o Italy i Gâl.

Wedi hyn bu y Celtiaid a'r Rhufeiniaid am ryw dymmor mewn heddwch â'u gilydd; ond yn fuan llwyddodd yr Helvetiaid i ennyn rhyfel yn erbyn y weriniaeth, yr hon a barodd i Cæsar ddyfod dros yr Alps a chwbl ddarostwng y rhan hono o'r wlad. Dechreuwyd y cweryl hwn gan Orgetorix, yr hwn a arweiniodd fyddin gref o'i gydwladwyr yn erbyn y Rhufeiniaid, gyda gobaith o losgi eu dinasoedd a'u pentrefi, a thrwy hyny adennill yr enw oeddynt erbyn hyn bron wedi ei golli. Wedi cyrhaedd y Rhone, yr hyn a wnaeth mewn wyth niwrnod, aeth Cæsar yn nghyd â'r gorchwyl o chwalu pont Geneva; ac yn mhen ychydig ddyddiau yr oedd wedi gorphen y gaer enwog sydd rhwng y ddinas hono a mynydd Jura, yn 17 milltir o hyd, ac yn 16 troedfedd o uchder, gyda thyrau a chestyll mewn

Digitized by Google

pellder priodol oddi wrth eu gilydd, a ffos ddofn yn rhedeg gyda'i hochr, o un pen i'r llall. Os gellir ymddiried i'r hanes a rydd ef ei hun o'r hynt yma, yr oedd yn nechreu Ebrill arno yn cychwyn; ac erbyn y 13eg o'r un mis yr oedd y gwaith aruthrol wedi ei orphen: ac os cofir iddo fod wyth niwrnod ar ei daith, gwelir nad oedd ganddo ond pum niwrnod ereill i ddwyn y cwbl i ben. Yn y cyfamser ei brif nod oedd cadw yr Helvetiaid yn dawel nes iddo ef gael ei adgyfnerthu gan y byddinoedd oedd yn dyfod ar ei ol; ac wedi cael ei hun yn barod cymmerodd rhyfel arswydus le, yn yr hwn y lladdwyd 130,000 o'r Helvetiaid, ac y cymmerwyd lluaws ereill yn garcharorion, yn mhlith pa rai yr oedd gwraig a merch Orgetorix, cadlywydd yr ymgyrch. Caniatawyd i'r gweddill, ar eu hymostyngiad, fyned i ymsefydlu yn mhlith yr Æduiaid, o ba rai yr oeddynt ar y cyntaf wedi hanu.

Yr oedd y Celtiaid, fel y mae yn ddigon hysbys, mewn anghydfod parhaus â'u gilydd; a bu hyn yn fantais fawr i Cæsar i ennill cryn boblogrwydd yn eu plith: a chan ei fod yn amcanu amddiffyn y gorthrymedig, ac ad-dalu i'r gorthrymwr, dewiswyd ef yn fuan i gyfryngu yn eu holl ddadleuon. Yn mhlith ereill, daeth yr Æduiaid, y rhai oeddynt eisoes mewn cynghrair âg ef, i ofyn am ei gymhorth yn erbyn Ariovistus, brenin y Germaniaid, yr hwn, wedi ymuno â'r Averniaid a boblogent lanau y Loire, a gymmerodd wlad y Sequaniaid oddi arnynt, ac a'u gosododd hwythau dan deyrnged iddo ei hun. Gan na fynai Ariovistus wrandaw ar Cæsar, ac adferu y meddiannau hyn i'w perchenogion, efe a ddygodd ei holl fyddin yn ei erbyn, ac a'i llwyr ddinystriodd; fel mai o'r braidd y diangodd y brenin ei hun, gan adael ei ddwy wraig a'i ferch, yn nghyd âg amryw ereill o radd uchel yn garcharorion. Ar ol y fuddugoliaeth hon rhoddodd Cæsar ei filwyr i mewn dros y gauaf, a dychwelodd dros yr Alps i wneyd parotoadau angenrheidiol erbyn y rhyfelawd nesaf. Yr oedd y Belgiaid erbyn hyn wedi eu taro â'r fath ddychryn wrth weled ei lwyddiant, fel y gwnaethant gyfammod â'u gilydd yn ei erbyn fel eu gelyn cyffredinol. Pan ddaeth y newydd o hyn i glustiau Labienus, a adawyd gyda'r fyddin yn Gâl, efe a anfonodd genad i fynegu i Cæsar, yr hwn a adawodd Rufain yn ddioedi; ac yn mhen pymtheng niwrnod yr oedd ar y maes unwaith yn rhagor. Yr oedd y fyddin wrthwynebol y tro hwn yn 150,000, yn cael ei blaenori gan Galba, brenin y Suessoniaid. Llwyddodd Cæsar i arwain y meirch a'r traedfilwyr dros bont Axona; a thra yr oedd y Belgiaid yn croesi yr afon yn yr annhrefn mwyaf, lladdodd y fath nifer o honynt nes o'r diwedd yr oedd yr afon wedi ei llenwi â'u cyrff, a'r gweddill o'r fyddin yn cerdded drostynt i'r lan arall. Parodd y fuddugoliaeth hon y fath arswyd ar y lleill, fel y daeth y Suessoniaid, a'r Bellovaciaid, a'r Ambianiaid, yn nghyd â rhai ereill, at Cæsar i ddeisyf ammodau heddwch. Ymunodd y Nerviaid, mae'n wir, â'r Artebatiaid drachefn yn ei erbyn; ac wedi rhoddi eu gwragedd a'u plant mewn diogelwch, gwnaethant wrthsafiad ffyrnig am beth amser, ond o'r diwedd cawsant hwythau eu gorchfygu, a'r rhan fwyaf o honynt eu lladd. Caniataodd y gorchfygwr i'r gweddill o honynt i ymsefydlu gyda'u gwragedd a'u plant yn eu pentrefi a'u dinasoedd fel o'r blaen. Wedi hyn darostyngodd yr Aduaticiaid, o ba rai am fradwriaeth a gafodd ynddynt, y gwerthodd 50,000 o honynt i gaethiwed. Crassus hefyd a ddarostyngodd lawer o fyddinoedd ereill, yr hyn a gwblhaodd yr oruchafiaeth ar y Belgiaid, ac a ddygodd amryw genedloedd o'r tu arall i'r Rhine o dan awdurdod Cæsar. Ond tua'r pryd hwn yr oedd y Venetiaid, hen frodorion Vannes (yn Brittany =Llydaw) yn anfoddlawn i'r deyrnged a dalent i'r gorchfygwr, ac yn gwneyd darpariadau helaeth ar dir a môr i adnewyddu eu rhyddid. Yr oedd Cæsar ar y pryd yn Illyricum: ac wedi deall am y symmudiad hwn, rhoddodd lynges dan ofal Brutus i'w cyfarfod ar y môr, a chymmerodd y fyddin dan ei arweiniad ei hun ar hyd y tir, fel yn mhen ychydig amser yr oedd wedi eu llwyr ddyfetha: lladdodd y penaethiaid o honynt â'r cleddyf, a gwerthodd y lleill i gaethiwed. Darostyngwyd yr Unelliaid, a'r Venetiaid, a'r Aulerciaid, tua'r un pryd gan Sabinus; a'r Aquitaniaid gan Crassus, pryd y collodd y Celtiaid 30,000 o ddynion. Nid oedd erbyn hyn yn holl Gâl ond y Morini a'r Menapii yn aros heb eu gorchfygu. Gwelodd Cæsar fod gan y rhai hyn amddiffynfeydd mor gryfion fel mai ofer iddo oedd ymosod arnynt; ac felly, wedi rhoddi ei filwyr mewn cyfarchwyl am y gauaf, aeth ei hunan dros yr Alps unwaith eto, i weled pa fodd yr oedd pethau yn myned yn mlaen yn Rhufain. Ond bu raid iddo, pa fodd bynag, droi ei wyneb yn ol yn lled fuan, i amddiffyn y tir a ennillodd yn Gâl, yn erbyn y Germaniaid, o ba rai yr oedd 400,000 wedi dyfod yno i gymmeryd meddiant o'r wlad. Ar ol iddo orchfygu y rhai hyn, a gweled, yn ol ei dyb ef, nad oedd iddo lawer ychwaneg o waith yn Gâl, gwnaeth ei feddwl i fyny i ymosod rhag llaw ar Germany. Pan ddaeth Cæsar i Gâl y tro hwn yr oedd newyn mawr yn y wlad, yr hwn oedd wedi achosi gwrthryfel cyffredinol yn mhlith y bobl. Cafodd y fyddin, a adawyd dan ofal Cotta a Sabinus yn ngwlad yr Eburoniaid, ei dyfetha bron yn llwyr, trwy ddichell, gan Ambiorix, un o dywysogion Gâl. Byddin arall, a adawyd yn ngofal Q. Cicero, a ddarostyngwyd i gyfyngder mawr gan yr Aduaticiaid. Gwnaed ymosodiad arall ar Labienus gan y Rheniaid a'r Senoniaid, dan arweiniad Induciomarus; ond trodd hwn allan yn fwy aflwyddiannus. Ennillodd Cæsar lawer o glod iddo ei hun wrth dawelu y gwrthryfel hwn: ond yn mhob brwydr er hyny yr oedd yn colli miloedd lawer o filwyr, a gorfu arno o'r diwedd anfon at Pompey am gynnorthwyon i sicrhau ei oruchafiaeth. Arosodd Cæsar am ryw dymmor yn Gâl y pryd hwn; ac wrth weled ei hunan wedi llwyddo i dawelu y Celtiaid yno i'r fath raddau, meddyliodd am wneyd ymosodiad ar y Cymry. Ond am hanes yr ymgyrch hwn gwel d.g. PRYDAIN, YMOSODIAD CÆSAR AR.

Nid oedd dim yn fwy annyoddefol gan y Celtiaid na byw dan iau estronol; ac felly nid hir y buont heb gyfodi gwrthryfel arall, yr hyn a wnaeth i Cæsar droi ei wyneb unwaith eto tua Gâl. Yr oedd Cæsar yn bur anesmwyth tua'r pryd hwn rhag i Pompey, yn ei absennoldeb, lwyddo i ddwyn serchiadau y bobl oddi wrtho, yr hyn a barodd iddo ysbeilio y Celtiaid o lawer o aur ac arian, a phethau ereill, fel y gallai trwy lwgr-wobrwyaeth ennill y Rhufeiniaid o'i blaid; ond trwy hyny hauodd y fath gynhen yn mhlith y Celtiaid ag a dorodd allan wedi hyny yn wrthryfel cyffredinol yn ei erbyn. Darostyngwyd y Nerviaid, pa fodd bynag, yn lled fuan; a gwnaed yr un peth â'r Aduaticiaid, y Menapiaid, a'r Treviriaid; yr olaf o ba rai a gyfodasant y gwrthryfel dan arweiniad Ambiorix. Ond nid oedd hyn ond rhan o'r gwaith; canys yr oedd yr holl

Digitized by Google

wlad yn cyfodi i'w erbyn dan arweiniad y cadlywydd Vercingetorix. Yr oedd Cæsar wedi meddwl am auafu yn Insubria, fel y gallai wylio symmudiadau Pompey; ond pan welodd fod pethau mor ddrwg yn Gâl, gorfu arno groesi yr Alps yn nyfnder y gauaf, a dyfod i Narbonne. Yn y lle hwn efe a gynnullodd ei fyddin wasgaredig yn nghyd, ac wedi ei rhoddi mewn trefn, yr hyn a wnaeth gyda phob brys, efe a warchaeodd ar Noviodunum (Noyous), lle y gorchfygodd Vercingetorix, yr hwn oedd yno i amddiffyn y lle. Y lle nesaf y daeth iddo oedd Avaricum (Bourges), un o'r dinasoedd cadarnaf yn Gâl, yn yr hon yr oedd gwarchlu o 40,000 o wyr, a'r rhai a laddwyd oll oddigerth wyth cant a ddiangasant. Yn fuan wedi hyn, tra yr oedd yn gwarchae ar Gergovia, prif ddinas Auvergne, hysbyswyd iddo fod y Nitiobrigiaid, neu yr Agenoiaid, wedi eu rhoddi dan arfau; a bod yr Æduiaid yn anfon deng mil o wyr i Vercingetorix, y rhai a ddylasent eu hanfon iddo ef. Wrth glywed hyn, Cæsar a adawodd y gwarchae yn ngofal Fabius, ac a arweiniodd ran o'r fyddin ei hunan yn erbyn yr Æduiaid. Y rhai hyn, wedi cymmeryd arnynt ymostwng, a gawsant eu harbed; ond yn fuan ar ol hyn cyfododd yr holl genedl o honynt dan arfau, a rhoddasant bob un o'r milwyr Italaidd ag oedd yn y ddinas i farwolaeth. Yn ngwyneb hyn yr oedd yn gyfyng ar Cæsar i wybod pa beth i'w wneyd; ond efe a benderfynodd o'r diwedd ar gynnull y milwyr oedd yn gwarchae ar Gergovia, ac ymosod ar unwaith ar wersyll y gelyn, yr hyn a wnaeth gyda gradd o lwyddiant: ond erbyn iddo fyned i Noviodunum, lle yr oedd wedi gadael ei gelfi rhyfel, a llawer o bethau ereill, yr oedd yr Æduiaid wedi eu cymmeryd oll ymaith, a rhoddi y lle hwnw ar dân. Y pryd hwn, Labienus, yn meddwl fod Cæsar mewn angen am ei wasanaeth, a ddaeth i'w gynnorthwyo, ac ar y ffordd gorchfygodd fyddin gref dan lywyddiaeth Camulogeno, yr hwn oedd wedi rhoddi ei fryd ar ei rwystro i gyflawnu ei fwriad. Ond cynnyddu yn gyflym yr oedd yr ysbryd gwrthryfelgar yn Gâl er pob peth; a thra yn dysgwyl adgyfnerthion oddi yno anturiodd Vercingetorix wneyd ymosodiad ar Cæsar; ond cafodd ei orchfygu yn llwyr, a'i orfodi i ddianc i amddiffynfa gref yn Alesia, sef Alise efallai, yn Burgundy. Cæsar, pa fodd bynag, a ymlidiodd ar ei ol, ac a warchaeodd arno yno; ac wedi gwneyd dau amglawdd o gylch y ddinas yr oedd yn llwyr obeithio ei newynu i farwolaeth, a digon tebyg mai felly fuasai ond fel y daeth 160,000 o Geltiaid o Gâl i'w gynnorthwyo. Gwnaeth yr adgyfnerthion hyn rai ymosodiadau aflwyddiannus ar Cæsar, ond cawsant eu gorchfygu o'r diwedd mewn tair o frwydrau olynol; a thrwy hyny bu raid i Vercingetorix roddi ei hunan i fyny yn ddiammod i drugaredd ei elyn. Addefir i Cæsar arfer llawer o greulondeb at ei holl garcharorion yn yr amgylchiad hwn, oddi eithr yr Æduiaid, a'r Arverniaid; a'i reswm dros arfer gradd o dynerwch at y rhai hyn, oedd ei fod yn dysgwyl i hyny ei wneyd yn fwy cymmeradwy yn mhlith eu pobl, am eu bod y cenedloedd cryfaf yn Gâl. Ac yn hyn cyrhaeddodd ei amcan; canys derbyniwyd ef yn heddychol gan y ddwy genedl, a rhoddodd yr Æduiaid le iddo auafu yn eu prif ddinas. Y rhyfelawd hwn oedd y tostaf o holl ryfeloedd Cæsar i gyd; ond yn ei ymgyrchoedd yn erbyn y Celtiaid, ennillodd fwy o enw nag un cadflaenor arall a fu yn Rhufain erioed. Nid oedd hyn er hyny yn tycio iddo; canys yr oedd ei wrthwynebydd wedi ennill ffafr y seneed, fel nad oedd ganddo un gobaith am barhad y rhaglawiaeth: a phan ddeallodd hyn, dywedir iddo osod ei law ar ei gleddyf, a dywedyd, fel y gallai dyn o'i benderfyniad ef yn unig ddyweyd, "Hwn a'i gwna."

Yr oedd ganddo waith eto yn Gâl. Wrth weled eu hunain mor aflwyddiannus yn ei erbyn, penderfynodd y Celtiaid drefnu cynnifer o fyddinoedd i'w wrthsefyll ag oedd ganddynt o dywysogaethau, gan feddwl fod y ffordd hono yn fwy effeithiol er dyrysu ei gynlluniau. Fel hyn yr oedd Cæsar a'i ddau is-flaenor, Labienus a Fabius, dan rwymau i ymladd â phob byddin ar ei phen ei hun; yr hyn a wnaethant, pa fodd bynag, yn dra llwyddiannus. Er mor anffafriol oedd y tymmor o'r flwyddyn, yr oedd y gorchfygwr yn fuan wedi llwyr ddarostwng y Biturigiaid, y Carnutiaid, y Rheniaid, a'r Bellovaciaid, trwy yr hyn y tawelodd yr oll o'r tywysogaethau Belgiaidd a derfynent ar Gâl. Y rhai nesaf a ddaethant yn ei erbyn oeddynt y Treviriaid, yr Eburoniaid, a'r Andiaid, dan lywyddiaeth y cadflaenor Dunmarus: a'r lle diweddaf i ymostwng iddo oedd Uxellodunum, yr hwn a amddiffynid gan y ddau gadlywydd olaf o eiddo y Celtiaid, sef Drapes y Senoniad, a Luterius y Cadurceaď. Gan fod y lle hwn yn gryf, ac wedi ei warchluyddu yn dda, bu raid i Cæsar ddyfod i'w erbyn ei hunan; ond o blegid prinder dwfr syrthiodd y lle yn fuan i'w ddwylaw. Ar ol yr oruchafiaeth hon dywedir iddo orchymyn tori llaw ddeheu pob un o honynt a allasai ddwyn arfau, fel nad allent gymmeryd rhan mewn un gwrthryfel a gyfodid i'w erbyn ar ol hyny.

Fel hyn y cwbl ddarostyngwyd y Celtiaid, o'r Alps a'r Pyrenees hyd i'r Rhine, a gwnaed yr holl wlad yn un dywysogaeth Rufeinig dan ynadlywiaeth. Yn ystod ei ymgyrchoedd yn erbyn y Celtiaid dywedir i Cæsar gymmeryd 800 o ddinasoedd; darostwng 300 o wahanol gangen-genedloedd; a gorchfygu mewn amrywiol ryfeloedd fwy na thair miliwn o ddynion; un filiwn o ba rai a laddodd; a miliwn arall a gymmerodd yn garcharorion. Nid oes dim o hanes y Celtiaid ar ol eu darostyngiad gan y Rhufeiniaid wedi dyfod i ni, ond mewn cyssylltiad â hanes cenedloedd ereill yn unig.

Yr oedd yr hen Geltiaid, fel y gwelir uchod, yn cael eu rhanu i luaws o wahanol genedloedd, y rhai oeddynt yn wastad mewn anghydfod â'u gilydd. Yr oedd y naill ddinas a'r naill randir mewn rhyfel yn barhaus â'r llall; a dywed Cæsar fod hyd yn oed teuluoedd yn cael eu rhwygo gan ymrysonau; yr hyn, mae yn ddiammheu, a brysurodd eu darostyngiad gan eu gelynion. Y llinell fwyaf nodweddiadol yn hanes y bobl hyn, er hyny, ydyw cariad greddfol at ryddid, a ffyrnigrwydd gwallgof i farw drosto, yn hytrach na'i golli. Y fath oedd y teimlad hwn ynddynt fel nad allent oddef yr ymddangosiad lleiaf o gaethiwed; a phan ddygwyddai iddynt fyned yn analluog, naill ai trwy henaint neu archollion o ryw fath, os nad allent eu gwellhau, rhoddent derfyn ar eu heinioes, neu ceisient gan eu cyfeillion wneyd hyny drostynt. Pan warchauid arnynt yn un o'u dinasoedd, a phan na allent ddallan yn hwy, yn hytrach na cheisio ammodau heddwch, eu gofal penaf yn gyffredin oedd rhoddi eu gwragedd a'u plant i farwolaeth; ac wedi hyny lladdent eu gilydd, rhag i'r gelyn eu harwain i gaethiwed. Y mae Strabo o'r farn fod y cariad angerddol hwn at ryddid, a'u dibrisdod cyffredin o fywyd, wedi gwneyd mwy tuag at

Digitized by Google

rwyddhau y ffordd i Cæsar nag hyd yn oed unrhyw fedrusrwydd oedd gan y milwr dihafal hwnw ei hun.

Difyrwch penaf y Celtiaid oedd helwriaeth; a phan ystyrir fod eu gwlad wedi ei gorchuddio â choedwigoedd cysgodfawr, a bod y rhai hyny yn llawn o fwystfilod rheibus, yr oeddynt dan angenrheidrwydd i'w dyfetha, rhag i'r tir fyned yn gwbl anghyfannedd. Heb law hyn hefyd, yr oedd ganddynt lawer math o gampau a chwarëyddiæthau a rhedegfeydd; yn yr oll o ba rai yr oedd y beirdd yn rhoddi eu presennoldeb a'u cynnorthwy, ac yn eu difyru yn aml ar gerdd ac offeryn. Yr oedd gwleddoedd hefyd yn bethau tra chyffredin yn eu mysg, gan eu bod, fel y mae pob cenedl ogleddol hyd heddyw, yn dra hoff o fwydydd a diodydd. Eu diod hoffus oedd cwrw a gwin. Yr oedd eu byrddau, yn gyffredin, yn isel. Ni fwytaent ond ychydig fara; eu prif ymborth oedd cig, o'r hwn yr oeddynt yn lled wastraffus. Buasai eu dull o fwyta yn cael ei ystyried yn hynod o ddifoes yn ein dyddiau ni. Cymmerent y tamaid yn eu llaw, a rhwygent ef â'u dannedd; neu, os byddai hyny yn rhy anhawdd, yr oedd ganddynt gyllell fechan wrth eu gwregys, yn barod at y gwasanaeth. Os dygwyddai i'r gwahoddedigion fod yn lluosog, y *coryphee*, neu lywydd y wledd—yr hwn fyddai naill ai y cyfoethocaf neu y gwrolaf o honynt—a eisteddai wrth y bwrdd yn y canol, â gwr y tŷ ar y naill law iddo; yna, cymmerai pob un ei le yn ol ei radd, a'u gweision a ddalient eu tarianau iddynt o'r tu ol. Anfynych y byddai y gwleddoedd hyn yn terfynu heb ymrysonau a thywallt gwaed. Ond os dygwyddai i un o honynt fod yn heddychol, gorphenid y seremoniau mewn dawns a chân. Mewn rhai o'r gwleddoedd hyn, yr oedd yn arferiad i'r gwahoddedigion ymddangos wedi eu gwisgo mewn crwyn anifeiliaid: a hon oedd y wisg gyffredin mewn gorymdeithiau er anrhydedd eu duwiau a'u gwroniaid. Ereill a wisgent fwgwd, fel y mae yn arfer eto yn y parthau gogleddol, ac a chwareuent lawer o ddigrifgampau er difyrwch i'r dorf yn gyffredinol. Yr oedd yr arfer hon yn parhau yn eu plith am ryw amser ar ol eu dychweliad at Gristionogaeth. Ond am hanes eu crefydd, gwel dan y gair DERWYDDIAETH.

Dylem, cyn diweddu, hysbysu fod yr enw Celtig yn cael ei ddefnyddio mewn dau ystyr—un i ddynodi y gangen genedlaethol, sydd yn cynnwys y Cymry, Gwyddelod, Albanwyr, Manawyr, Cerniwiaid, a Llydawiaid; a'r llall i ddynodi pobl Iwerddon, yr Alban, a Manaw yn unig. Y blaenaf yw yr ystyr priodol; ac yn yr ystyr hwn y defnyddir yr enw yma. Dealler, gan hyny, mai pobl o'r un gwaedoliaeth a'r Cymry a'r Gwyddelod oedd Celtiaid Ewrop; a bod y crybwylliadau rhagflaenol yn cynnwys hanes gyfandirol y ddwy ran o'r teulu Celtig.—(*Jos. Antiq.; Hieron.; Theod.; Dion.; Herod.; Polyb.; Isidor.; Orig.; Ptolem. Quad.; Cæsar de Bell. Gal.; Plutarch in Camillo; Pompo. Mela.; Euseb. Hist.; Diog. Laert.; Strab. Geogr.; Suet. in Vit. Claudi; Liv. Hist.; Tacit. Annal. et Vit. Agrie., et de Mor. German; Diod. Sic.; Bochart Phaleg.; Le Clerc; Pezron Ant.; Rawl. Hist.; Malet North. Ant.; Encyc. Brit. Penny Cyc.; Borlase's Antiq.; Lewis's Introd. in Hist. Brit.; Cluver. Antiq. Genn.; Carte's Hist. Eng.; Rowl. Mon. Ant.; Stilling. Orig. Brit.; Davies's Celt. Res.; Rob. Pop. Ant.; Cam. Brit.; Will. Essay on Druid Sacr.; James's Patri. Rel.; Univ. Hist.*, cyf. i. vi. viii. xi. xvii. xviii.)

CELU, [*cel*]: cuddio, dirgelu, peidio mynegu peth: *Gen.* xviii. 17; *Deut.* xiii. 8; *Diar.* xii. 23.

Gwel, a chel, a chlyw *Barddas.*
Ni allai 'r grudd, fy lloer gron,
Gelu cystudd y galon. *H. Daß.*

CELUBIA. Gwel CALEB.

CELWRN—YRNAU—AID, [*cel—gwrn*]: llestr crothog, crwc, cynnog, baril. "Llonaid llaw o flawd mewn celwrn;" 1 *Bren.* xvii. 12. Seis., "In a barrel." Y gair Hebraeg a arwydda "costrel bridd." Gan fod yn beryglus i ŷd gael ei ddifa gan bryfaid, cedwir yr hyn a ddefnyddir ar y pryd gan y dwyreinwyr mewn llestri pridd hirion, medd Sandys. Ac felly y mae yn debyg y gwnai y wraig o Sarepta. Y mae y gair gwreiddiol yn rhoddi ar ddeall mai llestr cyffelyb oedd celwrn y wraig hon i'r "piserau" y cuddiai milwyr Gideon eu lampau ynddynt. *Esa.* xl. 15.

CELWYDD—WR, [*cel—gwydd*]: celu rhyw ffaith o ŵydd; anwiredd; ffalsedd; geudab. *Dyfetha celwydd* = dywedyd celwydd diangenrhaid, pan nad oes un amcan yn cael ei ateb drwy hyny.

Ni's dylai fardd roddi gair yn ei gerdd a ellir gwad amo a'i gelwyddaw. *Barddas.*

Celwyddaw ydyw llefaru pethau anwir yn wirfoddol, gyda bwriad i dwyllo. "Celwydd" medd Grove, "ydyw cadarnhâd neu wadiad mewn geiriau, neu ryw arwyddion ereill, o'r rhai y mae rhyw ystyr penodol yn gyssylltiedig, o beth yn wrthwyneb i'n meddwl a'n syniadau." "Celwydd," medd Paley, "sydd yn droseddiad ar addewid; o blegid y mae yr hwn sydd yn tynu ymddyddan ar arall yn ddystaw yn addaw dywedyd y gwir, am ei fod yn gwybod mai y gwir a ddysgwylir." Y mae amryw fathau o gelwydd; neu, yn hytrach, dywedir ef i ateb amrywiol amcanion, ac oddi ar wahanol gymhelliadau; megys celwydd maleisus, â'i amcan i ddrygu arall; celwydd yn cael ei ddyweyd er mantais i ni ein hunain neu i arall; celwydd ysmala a gwageddol, yn cael ei adrodd er difyrwch a digrifwch mewn ymddyddan cyffredin; celwyddau mewn cyssylltiad â chrefydd, neu, fel y gelwir hwynt yn anmhriodol, *pious frauds*, megys honiadau i ysbrydoliaeth, llyfrau ffugiedig, gwyrthiau gau, a'r cyffelyb; celwydd mewn ymddygiad—y mae "gwneuthur celwydd" yn beth posibl yn gystal a'i adrodd—pan wna un rywbeth gyda 'r bwriad o dwyllo ereill, y mae yn un o'r mathau gwaethaf a mwyaf anfad o gelwydd; celwydd o ommeddiad, megys dirgelu yr hyn a ddylai gael ei wneyd yn hysbys; ac y mae pob amwysedd yn dyfod dan euogrwydd y pechod hwn.

Y mae drygedd ac anghyfiawnder celwydd yn ymddangos oddi wrth y pethau canlynol:—1. Y mae yn halogiad ar hawliau naturiol a chyffredinol dynolryw i'r gwirionedd yn eu holl drafodaeth â'u gilydd. 2. Y mae yn droseddo gyfraith Duw: *Phil.* iv. 8; *Lef.* xix. 11; *Col.* iii. 9. 3. Amcan y Creawdwr yn ein cynnysgaethu â gallu i ymadroddi oedd, i fod yn gyfrwng gwybodaeth ac addysg, ac nid yn gyfrwng i dwyllo; i hysbysu ein meddyliau, ac nid i'w celu, pan mae angenrheidrwydd am danynt. 4. Y mae mewn ymarfer celwydd duedd i ddattod rhwymau cymdeithas. 5. Y mae canlyniadau a chosp y trosedd hwn yn alaethus;—coll cymmeriad ac ymddiried, adgasrwydd y rhai a dwyllir, a'u hymddyeithrad oddi wrth y neb a'u twyllodd, ac amddifadrwydd

Digitized by Google

o bob dedwyddwch yn y byd a ddaw: *Salm* ci. 7; *Dcd.* xxi. 8; xxii. 15.

"Gan fwrw ymaith gelwydd, dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog: o blegid aelodau ydym i'n gilydd;" *Eph.* iv. 25. Mae yr un syniad yn *Zech.* viii. 16. Wrth gymmydog y meddylir—fel y mae yn amlwg oddi wrth yr adnodau canlynol—nid dynion yn gyffredin, fel y barna Jerome, Awstin, ac ereill; ond yn benaf, y brodyr Cristionogol. Mae Cristionogion yn rhwym o ddywedyd y gwir, heb un gwyrdroad, lleihâd, na chwanegiad arno. Dylai gair proffeswr crefydd fod fel ysgrifrwym, a phob ymadrodd yn fynegiad "o wirionedd oddi mewn." Y mae arddunianat gwirionedd bob amser i nodweddu ei holl ymdrafod â dynion. At anwiredd gwirfoddol, bwriadol, mae yn ddiau, y cyfeiria yr apostol; o blegid gall dyn gael ei dwyllo, ac yn anfwriadol dwyllo ereill. Mae Whitby, ac ereill, yn gwneyd amryw ddyfyniadau, y rhai a ddangosant nad oedd rhai o'r athronwyr paganaidd yn ddigon manwl yn eu hymlyniad wrth wirionedd; ac nad edrychent gydag adgasrwydd dyladwy ar anwiredd a chelwydd. Y mae Cristionogion yn aelodau i'w gilydd—yn gyssylltiedig mewn rhwymau arbenig i'w galwedigaeth fel Cristionogion; ac nid oes dim yn rhyfela yn fwy yn erbyn eu hundeb na chelwydd. Gan eu bod yn ymddiried yn yr un Duw, ni ddylent beri anymddiried yn eu gilydd; gan eu bod yn ceisio cadwedigaeth mewn un ffydd, ni ddylent fod yn anffyddlawn i'w gilydd; a chan eu bod yn proffesu eu bod wedi eu rhyddhau gan y gwirionedd, ni ddylent geisio caethiwo eu gilydd trwy gelwydd. Y mae Chrysostom, wrth gymmeryd y ffugr yn ei gyfeiriad at y corff, yn gwneyd cyfatebiaeth tra phrydferth:—"Na ddyweded y llygad gelwydd wrth y troed, na'r troed wrth y llygad. Os bydd rhyw bwll dwfn, a'i wyneb wedi ei orchuddio â chorsenau, yn ymddangos i'r llygad yn dir caled, oni wna y llygad ddefnydd o'r troed er gwybod a yw yn ddiogel ynte yn beryglus? A ddywed y troed gelwydd, ac nid y gwirionedd? Ac os cenfydd y llygad sarff, neu fwystfil drwg, a ddywed ef gelwydd wrth y troed?" Na ddywed! Yr un modd y dylai Cristionogion ymddwyn, gan eu bod hwythau "yn aelodau i'w gilydd."

CELLITIAID, [*Cellites*]: plaid grefyddol a gododd yn Antwerp, yn y pedwerydd canrif ar ddeg, a elwid yn Frodyr a Chwiorydd Cellitaidd, am eu bod yn preswylio mewn celloedd. Gelwid hwy weithiau hefyd yn Frodyr a Chwiorydd Alexiaidd, am mai un Alexius oedd eu noddwr. Yr hyn a fu yn achlysur o gyfodiad y blaid hon oedd, fod yr offeiriaid yn esgeuluso ymweled â'r cleifion, y rhai a ddelid gan glefydau ag oedd y pryd hwnw yn bur fynych. Yn wyneb hyny, ymffurfiodd y rhai mwyaf crefyddol a theimladwy yn gymdeithas, i gysuro ac i gynnorthwyo y rhai oedd yn ngafael yr afiechyd â'u gweddïau a'u cynghorion; ac i ofalu am gladdu y neb a dorid ymaith gan yr haint, y rhai a gludent i'r bedd gyda galargan ddifrifol. O herwydd fod yr offeiriaid yn gweled fod eu llafurus gariad yn y wedd yma yn ennill cymmeradwyaeth y bobl, a thrwy hyny fod gobaith eu helw hwythau yn lleihau, nid oedd ganddynt ond ymosod arnynt i geisio eu llethu drwy erlidigaeth. Gwel LOLLARDIAID.—(*Mosheim's Eccl. Hist.*)

CEMARIAID, CHEMARIAID, [*duon*]: offeiriaid i Baal, a elwid ar yr enw hwn, naill ai am eu bod yn duo wrth fod yn wastadol yn gwylio y tanau aberthol, neu ynte am eu bod yn gwisgo dillad duon. Cyfleithir y gair yn 2 *Bren.* xxiii. 5, *offeiriaid.* "Ac enw y Chemariaid a'r offeiriaid;" *Seph.* i. 4; *Hos.* x. 5. "Dinystriaf y rhai hyn, yn nghyd â'r offeiriaid o lwyth Lefi, a ymunasant mewn addoliad eilunod."—(*Lowth.*)

CEN: croen, plisg, caen; cen ceryg, cen y coed, cen pysg. Yr oedd pob math o bysgod, nad oedd iddynt "esgyll a chen," yn aflan o dan y gyfraith: *Lef.* xi. 9, 10; *Deut.* xiv. 9, 10. Dywedir fod "megys cen" wedi syrthio oddi wrth lygaid Paul, pan ddaeth Ananias ato, ac yr adferwyd iddo ei olwg. Rhyw sylwedd tebyg i gon y pysgodyn oedd, dybygid: *Act.* ix. 18.

CENAD—WR—AETH. Gwel CYMDEITHASAU CENADOL.

CENAN. Gwel CAINAN.

CENANIAH: "blaenor y Lefiaid ar y gân," pan oedd Dafydd yn dwyn yr arch o dŷ Obededom "i'w lle a baroteisai efe iddi hi" yn Ierusalem: 1 *Cron.* xv. 22.

CENATH: tref yn rhandir Manasseh, o'r tu hwnt i'r Iorddonen, a ennillwyd gan Nobah, ac wedi hyny "a'i galwodd ar ei enw ei hun, Nobah;" *Num.* xxxii. 42; 1 *Cron.* ii. 23.

CENAWON: hil, epil: cenawon arthes (2 *Sam.* xvii. 8); cenawon y llewod (*Iob* iv. 10, 11; xxxviii. 39; *Salm* civ. 21); dreigiau (*Galar.* iv. 3); cŵn (*Marc* vii. 27).

1. CENAZ: un o dduciaid Edom, mab Eliphaz, mab Esau: *Gen.* xxxvi. 11, 15. Ymddengys hefyd fod y rhan o'r wlad y preswyliai ynddi yn cael ei galw felly: *adn.* 42, 43.

2. CENAZ: brawd ieuangaf Caleb, a thad Othniel, yr hwn a briododd ferch Caleb: *Ios.* xv. 16, 17; *Barn.* i. 12, 13; 1 *Cron.* iv. 13.

3. CENAZ: ŵyr i Caleb: 1 *Cron.* iv. 15.

CENCHREA, [Κεγχρεαί]: un o borthladdoedd Corinth. Yr oedd dau borthladd yn perthyn i Corinth—Cenchrea a Lechæum. Safai y blaenaf ar ochr ddwyreiniol, a'r olaf ar ochr orllewinol y gyddfdir sydd yn uno y Peloponnesus (y Morea yn bresennol) â chyfandir Groeg. Wedi i Paul aros ddyddiau lawer yn Corinth, yr ail dro iddo ymweled â'r lle hwnw, a chneifio ei ben yn Cenchrea, efe a hwyliodd oddi yno i Ephesus: *Act.* xviii. 18. Ar ol hyn, yr ydym yn cael fod eglwys Gristionogol wedi ei phlanu yn y lle: *Rhuf.* xvi. 1.

CENEAID: llwyth o'r Midianiaid, a breswylient gyda'r Amaleciaid yn Arabia Petrea, o bob tu i'r gaine ddwyreiniol o'r Môr Coch [gwel MIDIANIAID]. Pan anfonwyd Saul i lwyr ddinystrio yr Amaleciaid, am eu gwaith yn sefyll yn erbyn Israel pan yn dyfod o'r Aipht, yr ydym yn ei gael yn gorchymyn i'r Ceneaid gilio o fysg yr Amaleciaid, rhag cael eu dinystrio gyda hwynt; a'r rheswm a roddir dros hyny ydyw, o herwydd iddynt wneuthur trugaredd â holl feibion Israel pan ddaethant i fyny o'r Aipht: 1 *Sam.* xv. 2—6. Tybir mai y caredigrwydd hwn oedd yr hyn a ddangoswyd gan Iethro a'i deulu tuag at Moses, yn gystal a thuag at yr holl

Digitized by Google

genedl. Bu hyny yn achos i'r holl lwyth gael ei arbed. Ond ymddengys i deulu Iethro fyned i Wlad Canaan gyda'r Israeliaid, a thrigo yno yn eu plith; o herwydd, er i Iethro, chwegrwn Moses, ddychwelyd i'w wlad ei hun ar ol dwyn ei wraig a'i blant iddo pan yn anialwch Sinai y tro cyntaf—pan ddaeth Israel y ffordd hono drachefn, yn nechreu yr ail flwyddyn ar ol dyfod allan o'r Aipht, y mae "Hobab, mab Raguel"—yr hwn, fel y tybir, nid ydoedd ond Iethro dan enw gwahanol [gwel HOBAB]—gyda Moses, ac yn cael ei wahodd yn daer i fyned gydag ef a'r Israeliaid i Wlad Canaan. Ac er fod yr Ysgrythyr yn ddystaw, y mae lle cryf i gasglu mai felly y bu (*Num.* x. 29—32); o blegid wedi i feibion Israel gymmeryd a meddiannu y wlad, y mae "meibion Ceni, chwegrwn Moses," yn myned i fyny gyda meibion Iudah, ac yn cymmeryd eu trigle ar derfynau deheuol y wlad: *Barn.* i. 16. Nid ydyw yn ymddangos i unrhyw randir o'r wlad gael ei roddi iddynt yn etifeddiaeth; ond eu bod yn trigo mewn pebyll, ac yn ymsymmud o le i le, yn ol arfer bugeiliaid yn ngwledydd y dwyrain: *Ier.* xxxv. 7. O'r teulu hwn, yr oedd Heber, gwr y Iael hono a laddodd Sisera: ac oddi wrth hyny y gelwir ef "Heber y Cenead;" *Barn.* iv. 11, 17—21; a v. 24. Ar ol hyn, ceir hanes am deuluoedd ereill o'r Ceneaid yn preswylio yn Palestina, yn mysg y rhai yr oedd y Rechabiaid: 1 *Cron.* ii. 55; *Ier.* xxxv. 2. Ond nid ydyw yn eglur pa un ai adraniadau o deulu Iethro, yr hyn sydd fwyaf tebyg, oedd y rhai hyn, ynte teuluoedd gwahanol o'r un llwyth a ddaethent i breswylio yn y wlad o herwydd y ffafr a ddangosai yr Israeliaid tuag atynt [gwel RECHABIAID]. Pa beth bynag oedd sefyllfa crefydd yn mysg y Midianiaid fel cenedl, fe ymddengys fod gan lwyth y Ceneaid, yn amser Iethro, wybodaeth o'r gwir Dduw; ac y mae pob crybwylliad a geir am danynt wedi hyny yn dangos nad oeddynt yn colli y wybodaeth hono, ond ei bod yn hytrach yn cynnyddu yn eu plith. Ceir cyfeiriad at y bobl hyn hefyd yn mhrophwydoliaeth Balaam: *Num.* xxiv. 21, 22. Y meddwl, efallai, ydyw, er eu bod wedi cael iddynt anneddle gadarn yn mynyddoedd Iudah, ac wedi gosod eu nyth yn ddiogel yn mynwes cenedl Israel—yn mhlith pobl briodol yr Arglwydd, ac o fewn terfyngylch ei amddiffyniad arbenig—eto, y byddai i'r Assyriaid ddyfod o hyd iddynt, a'u dwyn i gaethiwed: 2 *Bren.* xvi. 9; *Ier.* xxxv. 11.

CENEDL: tylwyth, hiliogaeth, rhywogaeth. 1. Pobl wedi hanu o'r un gwreiddyn cyffredinol: *Gen.* xxv. 13; *Act.* iv. 6; xxvi. 4; *Phil.* iii. 5. 2. Y tad, fel cynnrychiolydd ei hiliogaeth: *Gen.* xxv. 23. 3. Trigolion yr un wlad: *Deut.* iv. 34; 2 *Sam.* vii. 23; *Ier.* ii. 11; *Act.* x. 35. 4. Gwahanol lwythau yr un wlad, pan y byddai y naill yn annibynol ar y llall yn ei llywodraethiad: *Exod.* xxxiv. 24; *Lef.* xviii. 24. "Cyfyd cenedl yn erbyn cenedl;" *Mat.* xxiv. 7. Y mae y geiriau hyn yn cyfeirio at yr anghydfyddiaethau a gymmerent le yn flaenorol i ddinystr Ierusalem, a fyddent o fewn clywedigaeth y Cristionogion oedd yn Ngwlad Canaan, ac yn debyg o effeithio er dychryn iddynt. Ceir hanes am amryw o ryfeloedd a gymmerasant le y pryd hwnw; megys yn Alexandria, lle y bu yr Iuddewon mewn modd penodol yn wrthddrychau erlidigaeth; ac o ddeutu yr un amser yn Seleucia, pryd y lladdwyd mwy na hanner can mil o Iuddewon; ac hefyd yn Iamnia, dinas yn agos i Ioppa, ar gyffiniau Iudea, yn nghyd ag amryw ymrafaelion ereill.—(*Josephus, Rhyf. yr Iudd.; Alford's Greek Test.*)

CENEDLAETH—AU, [*achyddiaeth = genealogy*]. Defnyddir y gair yn fynych yn yr ystyr yma i osod allan achau teuluoedd. "Dyma lyfr cenedlaethau Adda;" *Gen.* v. 1. "Cenedlaethau Noah;" *Gen.* vi. 9. "Cenedlaethau meibion Noah;" *Gen.* x. 1. "Cenedlaethau Iacob;" *Gen.* xxxvii. 2. "Llyfr cenedliad Iesu Grist;" *Mat.* i. 1;—Βίβλος γενέσεως Ἰησοῦ Χριστοῦ=cenedlaeth, neu achyddiaeth Iesu Grist. Heb law fod amcan penodol gan yr Arglwydd yn trefnu fod i achyddiaeth cenedl Israel gael ei gadw yn ofalus, i'r dyben i ddangos yn eglur, pan yr ymddangosai y Messiah, fod ei ddyfodiad yn ol y brophwydoliaeth am dano, y mae yn ymddangos fod eu hamgylchiadau y fath ag oedd yn tueddu i gyffroi eu cywreinrwydd yn hyn, o herwydd y pwysigrwydd oedd ynddo iddynt yn eu perthynas â'u gilydd. Yr oedd y fath hynodrwydd yn amgylchiadau Noah a'r dylif, fel nad yw ond peth naturiol i ni gael llin ei ddisgyniad o Adda; ac yr oedd yr arbenigrwydd yn ngalwad a neillduad Abraham yn gyfryw ag y gallasem ddysgwyl olrheiniad ei achau yntau hyd Noah. Yn awr, dyma genedl yn cael ei dewis yn benodol gan yr Arglwydd i fod ar wahân oddi wrth bob cenedl arall; ac addewidion yn cael eu rhoddi iddi, fel nas gallasai lai na theimlo fod neillduolrwydd yn perthyn iddi, ag oedd yn gweithredu yn gryf i'w chadw rhag ymgymmysgu â chenedloedd ereill. Ac o herwydd mai i Abraham, Isaac, a Iacob, y gwnaed yr addewidion hyn, yr oedd o bwys iddynt hwythau fedru olrhain eu perthynas â'r patriarchiaid hyn. Yn y wedd yma, yr oedd yn naturiol iddynt fod yn ofalus am eu hachau, a thrwy hyny fod yn adnabyddus o'r llwyth neillduol y perthynent iddo tra y buont yn aros yn Ngwlad yr Aipht—gan eu bod yn edrych yn mlaen am gyflawniad o'r addewidion a wnaed i'w tadau. Tra y buont yn yr anialwch, yr oeddynt, nid yn unig yn bobl yn preswylio eu hunain, ar wahân oddi wrth ereill, ond yr oeddynt wedi eu trefnu yn y llwythau penodol y perthynai pawb iddynt. Ac wedi eu dyfodiad drachefn i'r tir yr oeddynt i'w feddiannu, yr oedd rhanau neillduol o'r wlad yn disgyn i bob llwyth, a phob teulu i feddiannu etifeddiaeth yn y llwyth y perthynent iddo. "Felly ni threiglai etifeddiaeth meibion Israel o lwyth i lwyth: canys glynu a wnai pob un o feibion Israel yn etifeddiaeth llwyth ei dadau ei hun;" *Num.* xxxvi. 7. Ac yr oedd hyn yn gymhelliad cryf, ac yn wir yn eu gosod dan fath o angenrheidrwydd, i drosglwyddo eu hachau o'r naill oes i'r llall.

Ymddengys hefyd, er yr holl anfanteision yr oedd y genedl danynt, ddarfod iddynt fod yn fanwl gyda llyfr eu cenedlaethau yn ystod eu caethgludiad yn Babilon—yn enwedig y teuluoedd penaf, os nad yn lled gyffredinol; *Ezra* ii; *Neh.* vii. Ac yr ydym yn cael hanes am ychydig nifer "y rhai a geisiasant eu hysgrifen yn mhlith yr achau, ond ni chafwyd hwynt: am hyny y bwriwyd hwynt allan o'r offeiriadaeth;" *Neh.* vii. 63, 64. Y mae yn amlwg, oddi wrth *Luc* ii. 3, 4, fod eu hachau yn adnabyddus iddynt y pryd hwnw; o blegid "pawb a aethant i'w trethu bob un i'w ddinas ei hun." Dywed Josephus, yn hanes ei fywyd, y gallai ef olrhain ei haniad ei hun o lwyth Lefi mewn cofrestrau cyhoeddus; a dywed hefyd, na byddai yr Iuddewon byth yn esgeuluso

Digitized by Google

cael tafleni achyddol manwl, wedi eu codi o'r ysgrifau awdurdodedig oedd yn nghadw yn Ierusalem, pa mor wasgaredig a gorthrymedig bynag y byddent; ac er eu holl ddioddefiadau, y byddent yn ofalus i gadw y taflenau hyn, a'u hadnewyddu o bryd i bryd. Cyfeiria Paul at achau Crist, y gallesid eu holrhain yn ddiammheuol—"mai o lwyth Iudah y cododd ein Harglwydd ni;" *Heb.* vii. 14; 2 *Tim.* ii. 8. Oddi wrth hyn yr ydym yn cael lle cryf i gasglu fod eu hachau wedi cael eu cadw gyda chryn fanylrwydd hyd ddechreu y cyfnod Cristionogol, ac yn lled debyg, hyd ddinystr Ierusalem gan y Rhufeiniaid. Wedi hyny, gan fod eu dinystr mor fawr, a'u chwa'fa mor lwyr, nid yw yn ymddangos i neb o honynt allu cadw eu hachres gyda dim cyssondeb; fel, erbyn hyn, nas gall un Iuddew olrhain hanes ei henafiaid ond ychydig iawn yn ol. Fel hyn, er nad oedd cadwraeth eu cenedlaethau ond peth dibwys iawn, ar ryw gyfrifon, ynddo ei hun, eto, gan fod cyssylltiad rhwng hyny a'r cyflawniad o fwriadau ac addewidion Duw i'w bobl, yr oedd pwys ynddo; ac yr oedd y Llywodraethwr anfeidrol ddoeth yn trefnu amgylchiadau y genedl i fod y fath, fel ag yr oedd cadwraeth eu hachau yn beth naturiol. Ond wedi i'r amcan mawr gael ei ddwyn oddi amgylch—i'r Messiah addawedig ymddangos—yr oedd yr angenrheidrwydd am hyny yn darfod, a hwythau yn cael eu dwyn o dan amgylchiadau hollol wahanol gyda golwg ar hyny. Wrth i ni edrych ar hyn yn annibynol ar eu perthynas â'u gilydd fel gwahanol lwythau, ac â'r wlad yr oeddynt yn preswylio ynddi yn ol eu llwythau a'u teuluoedd, nis gallasai dim llai na gwyrth beri i'r genedl gadw coffadwriaeth o'u hachau am gynnifer o ganrifoedd i'r fath fanylrwydd. Y mae yn beth na cheir hanes am ei gyffelyb yn mysg un genedl arall a fu ar wyneb y ddaear erioed. Ac o'r ochr arall drachefn, os cymmerwn eu hamgylchiadau yn unig, a dim ond hyny, i roddi cyfrif am dano, yr ydym yn colli golwg ar yr anfeidrol ddoethineb sydd yn llywodraeth Duw, ac ar yr amcan mawr sydd yn ngweinyddiad y llywodraeth hono yn trefnu eu hamgylchiadau yr hyn oeddynt. Ond wrth edrych ar y naill a'r llall yn eu perthynas â'u gilydd, fel yr oeddynt yn gwasanaethu i ddwyn tystiolaeth i addewidion Duw yn eu cyfeiriad at y Gwaredwr, y mae unoliaeth a phrydferthwch yn perthyn i'r cyfan.

Yr oedd yr addewidion am y Messiah yn dyfod yn twy arbenig gyda golwg ar y genedl a'r teulu o'r hwn yr hanai, fel yr oedd yn dyfod yn oleuach. Duw, wrth wneuthur cyfammod âg Abraham, a hysbysodd iddo mai yn ei hâd ef yn benodol y bendithid holl dylwythau y ddaear: *Gen.* xvii. 4—7; xviii. 18; xxii. 18; xxvi. 4; *Act.* iii. 25; *Gal.* iii. 16. Yn nesaf, y mae llwyth Iudah yn cael cyfeirio ato o holl lwythau Israel: *Gen.* xlix. 10. Wedi hyny, nodwyd teulu Dafydd, trwy "dyngu o Dduw iddo trwy lw, mai o ffrwyth ei lwynau ef o ran y cnawd y cyfodai efe Grist i eistedd ar ei orseddfa ef;" 2 *Sam.* vii. 12; *Salm.* cxxxii. 11; *Act.* ii. 30. Ac y mae dau o'r efengylwyr yn rhoddi i ni restr o genhedlaethau Crist—y naill yn eu holrhain i waered o Abraham, a'r llall yn dechreu gyda'r Iesu, gan fyned yn ol hyd Adda. Wrth sylwi ar yr achresau hyn, yr ydys yn cyfarfod âg anhawsderau, o leiaf ar yr olwg gyntaf, i'w cyssoni. Ac y mae anffyddwyr, o ddyddiau Porphyry hyd yn awr, wedi arfer dwyn yr anghyssonderau hyn yn mlaen fel un rheswm pwysig dros eu gwrthodiad o dystiolaeth yr efengylwyr fel rhai yn ysgrifenu o dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Ond, pa fodd bynag y gallant ymddangos i ni, y mae seiliau i gredu nad oedd un anghyssondeb yn ymddangos ynddynt yn yr oes yr ysgrifenwyd hwynt; o blegid yr oedd gelyniaeth yr Iuddewon mor fawr yn erbyn Crist, ac yr oeddynt yn meddu ar bob cyfleusdra i chwilio i gywirdeb neu anghywirdeb tafleni yr efengylau; ac nis gellir ammheu am fynyd na buasent yn gwneuthur hyny yn hysbys fel twyll, pe twyll fuasai, ac na buasai gelynion Cristionogaeth wedi gofalu am ei gadw drwy yr oesoedd hyd ein dyddiau ni, i gadarnhau eu gwrthwynebiad iddi. Ond, yn lle hyny, ni feiddiodd neb eu hammheu. Yn wir, y mae Matthew, yr hwn a ysgrifenodd ei efengyl yn benodol i'r Iuddewon, yn rhoddi ar ddeall fod yr Iesu, pan oedd yma ar y ddaear, yn cael ei gydnabod yn gyffredinol yn yn fab Dafydd: *Mat.* ix. 27; xv. 22. Ac y mae Paul yn crybwyll y ffaith fel peth nad oedd un petrusder yn ei chylch: *Rhuf.* i. 3; 2 *Tim.* ii. 8.

Wrth sylwi ar achres Matthew (*pen.* i. 2—16), yr ydym yn canfod ei fod wedi ei threfnu yn dri dosbarth, â phedair cenedlaeth ar ddeg yn mhob dosbarth: *adn.* 17. Er mwyn cael golwg arnynt ar unwaith, rhoddir yr enwau i lawr yn dri dosbarth, fel y gallant daraw meddwl y darllenydd wrth edrych arnynt am y tro cyntaf.

1 Abraham.	1 Solomon.	1 Salathiel
2 Isaac.	2 Rehoboam.	2 Zorobabel.
3 Iacob.	3 Abia.	3 Abiud.
4 Iudas.	4 Asa.	4 Eliacim.
5 Phares.	5 Iehosaphat.	5 Azor.
6 Esrom.	6 Ioram.	6 Sadoc.
7 Aram.	7 Ozias.	7 Achim.
8 Aminadab.	8 Ioatham.	8 Eliud.
9 Naason.	9 Achas.	9 Eleazer.
10 Salmon.	10 Ezecias.	10 Matthan.
11 Booz.	11 Manasses.	11 Iacob.
12 Obed.	12 Amon.	12 Ioseph.
13 Iesse.	13 Iosias.	13 Iesu.
14 Dafydd.	14 Iechonias.	

Y mae yn amlwg, wrth eu trefnu yn y modd uchod, fod yma un yn rhy fychan i wneyd y cyfrif yn gyflawn yn y dosbarth olaf. Gan hyny, pa reswm a roddir am y diffyg? Dywed rhai fod genym seiliau i dybied fod un genhedlaeth wedi ei gadael allan, a hyny yn bur foreu, trwy ddiofalwch rhyw ysgrifenydd; a'i fod mewn amser wedi dyfod yn gyffredinol. Y mae gwahaniaeth etto yn mha le y dylid dodi y genhedlaeth hono i mewn. Myn un blaid, oddi ar fod rhai argraffiadau Groeg yn darllen felly, y dylai enw Ioachim, yn ol 1 *Cron.* iii. 15, 16, fod rhwng Iosias a Iechonias; ac y gwneid y nifer i fyny felly trwy roddi Ioachim at yr ail ddosbarth, a Iechonias i ddechreu y trydydd. Ond ymddengys y dylai Iechonias fod yn perthyn i'r ail ddosbarth; ac os felly, y mae pymtheg yn yr ail, a'r trydydd yn cael ei adael yr un modd. Myn ereill, y dylid rhoddi yr enw Abner i mewn rhwng Eliacim ac Azor. Seilir y dyb hon ar fod rhyw hen ysgrifiyfr Hebraeg o Efengyl Matthew yn darllen, "Ac Eliacim a genhedlodd Abner, ac Abner a genhedlodd Azor." Ond y mae awdurdod y darlleniad hwn yn gorphwys ar seiliau rhy weiniaid i ddderbyn cymmeradwyaeth fel yr unig un cywir, tra y mae pob un arall yn ei erbyn.

Y mae amrywiol dybiau etto wedi cael eu cynnyg er egluro yr anhawsder, heb wneuthur un cytnewidiad yn y rhestr fel y mae genym ni. Y mae rhai yn cymmeryd Mair i mewn i'r cyfrif.

Digitized by Google

Y mae ereill yn cyfrif Dafydd a Iosias ddwy waith, gan adael yr Iesu allan, fel hyn:—

1 Abraham.	1 Dafydd.	1 Iosias.
14 Dafydd.	14 Iosias.	14 Ioseph.

Myn ereill, mai cyfrif Iechonias a ddylid ddwywaith—yr olaf yn yr ail ddosbarth, a'r cyntaf yn y trydydd, gan gymmeryd yr Iesu i mewn. Barna ereill, nad yw yn angenrheidiol ond cyfrif Dafydd ddwy waith, er eu cyssoni. "Os sylwn yn fanwl ar drefniad Matthew," medd Alford, "ni bydd i ni gyfarfod â dim anhawsder i gyflawnu y tri pedwar ar ddeg. O blegid y mae y cyntaf o Abraham i Dafydd, gan gynnwys y naill a'r llall wrth reswm:—yr ail o Dafydd (gan ei gynnwys ef eto) i'r *symmudiad*; nid oes un enw yn cael ei roddi fel o'r blaen, i gael ei gynnwys yn yr ail a'r trydydd dosbarth. Y mae yr olaf hwn yn cymmeryd Iechonias ac Iesu Grist i mewn. Saif y tri, yn ol geiriau yr adnod, fel hyn—1. ἀπὸ Ἀβραὰμ ἕως Δαυιδ. 2. ἀπὸ Δαυὶδ ἕως τ. μετ. βαβ.; hyny yw, yn nghylch yr amser y cenedlodd Iosias Iechonias. 3. ἀπὸ τ. μετ. βαβ. (*h. y.*, o Iechonias) ἕως τοῦ Χριστοῦ. Dyma y golygiad a gymmeradwyir gan amryw feirniaid galluog.

Dadleua ereill eto, fod yr Iechonias a nodir yn fab Iosias, a'r Iechonias a "genedlodd Salathiel," "wedi y symmudiad i Babilon," yn ddau berson gwahanol. "Iechonias, *adn.* 11," medd Macknight, "yw Iehoiacim, a elwid Eliacim cyn ei esgyniad i'r orsedd, a mab Iosias; ond yr Iechonias yn *adn.* 12, yw Iehoiacim, a elwid hefyd Iechonias mab Iehoiacim. Yr hyn sydd yn cadarnhau y golygiad yma yw, fod, nid yr efengylwr yn unig, ond y Deg a Thrigain, a Josephus, wedi rhoddi i'r ddau frenin hyn un enw cyffredin. Ie, y mae yr Ysgrythyr ei hun yn galw Iehoiacin yn Iehoiacim [sylwed y darllenydd mai yn y llythyren olaf yn unig y mae y ddau enw yn gwahaniaethu]; o blegid, dywedir yn *Dan.* i. 1, ddarfod i Nebuchodonosor, yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Iehoiacim brenin Iudah, fyned ei hun i'r gwarchae oedd ar Ierusalem—yr hwn oedd wedi dechreu ychydig amser cyn hyny gan ei raglawiaid: 2 *Bren.* xxiv. 8—11. Yn *Dan.* i. 2, dywedir ddarfod i'r Arglwydd roddi i'w 'law ef Iehoiacim brenin Iudah:' ac oddi wrth *adn.* 3, ymddengys fod meibion Israel, yr had breninol, a'r tywysogion, wedi cael eu dwyn yn gaethion i Babilon gan Nebuchodonosor. Y mae y pethau hyn, wrth eu cymharu â 2 *Bren.* xxiv. 12—16, yn profi yn eglur mai yr Iehoiacim yn Daniel yw yr Iehoiacin yn yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad yr hwn y cymmerwyd Ierusalem gan Nebuchodonosor, ar ol bod yn gwarchae arni am o gylch saith mlynedd; ac y dygwyd yr Iuddewon o Babilon: 2 *Bren.* xxiv. 8—12. Dywed Matthew ddarfod i Iosias genedlu Iechonias yn nghylch amser y caethgludiad (ἐπὶ τῆς μετοικεσίας), er fod hyny uwch law deugain mlynedd o'i flaen—fel y mae yn amlwg oddi wrth oedran Iehoiacim. Yr oedd yn un ar bymtheg ar ugain oed pan y bu farw (2 *Bren.* xxiii. 36), yr hyn a gymmerodd le wyth mlynedd cyn y caethgludiad; o blegid fe deyrnasodd ei fab Iehoiacin cyhyd a hyny o amser ar ol ei farwolaeth: 2 *Bren.* xxiv. 12. Y mae yn amlwg, gan hyny, nad yw y rhagddodiad ἐπὶ, yma, yn dynodi yr amser hwnw yn neilduol; ond, fel arferol, yn cynnwys cyfnod o gryn ysbaid."

Yn ol y syniad yma, y mae y rhestr yn dosbarthu fel hyn:—

1 Abraham.	1 Solomon.	1 Iechonias, *h. y.*, Iehoiacin.
14 Dafydd.	14 Iechonias, *h. y.*, Iehoiacim neu Eliacim.	14 Iesu.

Dyma y modd y cyssonai Jerome hwynt; a chytuna awdwr yr erthygl ar y pwnc yn *Kitto's Cyclopædia*, ac amryw ereill, â'r golygiad. Dyma y golygiad hefyd a amddiffynir mewn erthygl ar "Dafleni achau Iesu Grist," yn y *Traethodydd*, am Hydref, 1852.

Gwelir mai yr unig wahaniaeth rhwng y golygiad hwn a'r cyntaf a nodwyd yw, fod hwnw yn cymmeryd yn ganiataol fod llygriad wedi dyfod i mewn i'r testyn presennol, ac mai yr un person yw Iechonias mab Iosias, a Iechonias tad Salathiel, yn ol y darlleniad sydd genym ni; tra y mae yr olaf yn dal ei fod yn ddilwgr, ac nad oes angenrheidrwydd am ddarlleniad gwahanol mewn trefn i ddeall nad yr un personau ydynt. Pa fodd bynag, y mae yr amrywiol olygiadau uchod, neu rai o honynt o leiaf, yn ddigon i ddangos nad oes dim yn annaturiol yn y dosbarthiad, fel na ellir dwyn rhesymau cryfion dros gyssondeb yr achres. Ac y mae hyn yn ddigon i dawelu pob meddwl diragfarn, hyd yn oed pe nad ellid bod yn benderfynol pa un o'r llwybrau hyn oedd yn ymddangos i feddwl yr efengylwr wrth ei dosbarthu. Y mae yn ddigon naturiol i ni dybied ei fod yn gwneuthur y rhaniad yma, naill ai mewn trefn iddynt fod yn fwy hawdd eu cofio, neu ynte oddi ar eu bod yn ymranu yn naturiol:—y dosbarth cyntaf, heb fod mewn cyssylltiad â swydd benodol fel y cyfryw, oddi eithr Dafydd, yr olaf; yr ail, yn dilyn yn llinach y teulu breninol; a'r trydydd, drachefn, yn gynnwysedig o bersonau heb feddu yr awdurdod freninol, er eu bod yn y llin hono—oddi eithr Iechonias, y cyntaf yn y trydydd dosbarth. Ond ni bu ef felly ond ychydig, gan iddo gael ei ddiorseddu a'i ddwyn i gaethiwed gan frenin Babilon. Ac er fod Salathiel a Zorobabel wedi eu dyrchafu i awdurdod ar ol dychweliad y genedl o'u caethiwed, eto nid oeddynt yn amgen na rhaglawiaid i freninoedd Persia.

Gyda golwg ar y dosbarth cyntaf—gwrthddadleuir nad Rahab y butain, o Iericho, yw y Rahab a grybwyllir yma, yn *adn.* 5; ar y cyfrif nad yw yr enw yn cael ei sillebu yr un modd, na nodir hi allan fel *y butain*, a bod gwaharddiad i Israel ymgyssylltu â neb o genedloedd Canaan; nas gellir meddwl i briodas Salmon, tywysog o Israel, fyned heibio mor ddisylw; a bod yr amser o gymmeriad Iericho hyd Dafydd—o ddeutu tri chant a thrigain a chwech, yn ol rhai, a phedwar ugain, yn ol ereill, o flyneddoedd—yn rhy faith i fod dim ond pedair cenedlaeth yn y cyfwng. Yn wyneb hyn, dywedir nas gellir casglu dim oddi wrth y gwahaniaeth yn y dull yr ysgrifenir yr enw—nac yn wir, fod dim anhawsder yn hyn, ond yn unig yn meithder yr amser. Ac nid yw hyn chwaith yn annichonadwy i roddi eglurhâd arno; o blegid, ar y dybiaeth y gallasai fod chwaneg o genedlaethau, y mae yn berffaith gysson â'r modd y nodir achau mewn manau ereill o'r Ysgrythyr, fel y ceir sylwi yn mlaen. Ond nid ar hyn yn unig y mae y pwnc yn gorphwys: o herwydd "fe offrymodd Naason, tad Salmon, tywysog o Iudah, ei offrwm ar godiad y tabernacl (*Num.* vii. 12)," medd Alford, "bedair blynedd ar bymtheg ar ugain cyn cymmeriad Iericho. Felly, yr oedd Salmon wedi dyfod i oedran gwr

Digitized by Google

erbyn, neu yn fuan ar ol, yr amgylchiad hwnw; pryd yr oedd Rahab, y mae yn bur debygol, yn ieuanc, gan fod ei thad a'i mam eto yn fyw: *Ios.* vi. 23.....Nid yw yr anhawsder i roddi cyfrif am y cyfnod o 366 o flyneddoedd rhwng Rahab a Dafydd yn perthyn i'r adnod hon yn unig; ond hefyd, gyda'r un grym, i *Ruth* iv. 21, 22; ac nid yw chwaith mewn un modd yn anorfod, yn enwedig pan y cymmerir i ystyriaeth oedran mawr Iesse, fel yr awgrymir yn 1 *Sam.* xvii. 12." Mae esamplau o rai yn cenedlu plant pan oeddynt uwch law can mlwydd oed; ac felly, nid yw o gwbl yn anhygoel, nac yn wir yn annhebygol, fod yr achau yma yn cael eu cyfrif o dad i fab mewn ystyr naturiol, a'u bod yn cymmeryd y cyfwng hwnw, pan ystyriom fod hir ddyddiau a hiliogaeth yn cael eu haddaw gan yr Arglwydd i'r rhai a'i hofnent.

Yn yr ail ddosbarth eto, y mae yn amlwg fod Matthew yn gadael allan dair cenedlaeth; sef Ahaziah, Ioas, ac Amaziah: 1 *Cron.* iii. 11, 12. Myn rhai fod hyn wedi dygwydd oddi ar ddiofalwch rhyw adysgrifenydd, a bod y rhaniad yn dri dosbarth i'w briodoli yr un modd i waith rhyw un diweddarach na'r efengylwr ei hun. Ond nid yw hyn yn amgen na dychymyg hollol ddisail. Y mae ereill yn barnu fod yr enwau hyn yn cael eu gadael o'r neilldu fel cospedigaeth ar gyfrif eu perthynas â thŷ annuwiol Ahab, trwy Athaliah. Dywed ereill, fod yn fwy tebygol iddynt gael eu pasio yn unig mewn trefn i gael yr un nifer yn mhob dosbarth. Pa fodd bynag, y mae yn amlwg nad yw hyn yn ddigon o reswm i brofi diofalwch ac anghyssondeb yr efengylwr; o blegid yr ydym yn cael anghraifft gyffelyb o enwau yn cael eu gadael allan yr un modd gan Ezra, wrth olrhain ei achau ei hun: *Ezra* vii. 1—5. Wrth gymharu yr achres yma â 1 *Cron.* vi. 3—15, gwelir fod chwech o genedlaethau yn cael eu gadael allan yn y blaenaf; a hyny yn ddiau oddi ar ryw resymau oedd yn ymddangos yn ddigon naturiol iddo ef, ond nad yw mor hawdd i ni yn bresennol, efallai, roddi cyfrif am danynt. Cymharer hefyd *Gen.* xlvi. 21, â 1 *Cron.* viii. 1.

Drachefn, yn y trydydd dosbarth, dywedir ddarfod i Iechonias genedlu Salathiel; ond yn 1 *Cron.* iii. 17, dywedir mai mab i Assir oedd Salathiel, ac Assir yn fab Iechonias. Cyssona rhai hyn yr un modd ag y nodwyd o'r blaen, trwy adael cenedlaeth allan. Y mae ereill yn barnu na ddylid cymmeryd Assir yn enw priodol, ond mai ei ystyr yw *caeth;* ac o ganlyniad, y dylid ei gymmeryd i osod allan gyflwr Iechonias, yn hytrach nag enw mab iddo; ac felly, mai y cyfieithiad mwyaf naturiol o 1 *Cron.* iii. 17 yw, "A mab Iechoniah, y *caeth*, ydoedd Salathiel." Ond pa fodd y cyssonir hyn eto â'r brophwydoliaeth am dano yn *Ier.* xxii. 30; "Ysgrifenwch y gwr hwn (Iechonias) yn ddiblant," &c.? Yr ateb a roddir i hyn yw, nad yw y bygythiad yn cynnwys y byddai yn amddifad o hiliogaeth; ond y byddai mor druenus yn ei ddarostyngiad, na chai neb o'i had fod yn frenin byth wedi hyny, fel yr awgrymir yn niwedd yr adnod—"Canys ni ffyna o'i had ef un a eisteddo ar orseddfa Dafydd, nac a lywodraetho mwyach yn Iudah." Yn y dosbarth hwn eto, dywedir mai mab Zorobabel oedd Salathiel; ond yn 1 *Cron.* iii. 19, dywedir mai mab Pedaiah ydoedd. Myn rhai fod llygriad wedi ymlithro i'r adnodau hyn yn y Cronicl; a'i fod yn ddigon i brofi hyn, ac i ddangos cywirdeb Matthew, fod Zorobabel yn cael ei gydnabod yn fab Salathiel gan Ezra, Nehemiah, a Haggai; ac hefyd gan Josephus. A phe mai ŵyr iddo fuasai, nid oedd dim yn anghysson yn yr achres wrth ei alw yn fab iddo, fel y sylwyd eisoes. Ac y mae rhai yn cymmeryd y geiriau i arwyddo mai brodyr oedd Salathiel a Pedaiah; os felly, gallasai fod yn fab naturiol i'r naill, ac yn fab cyfreithiol i'r llall. Nid oes un crybwylliad yn y Cronicl am un enw a geir yn yr efengylwr oddi yma i waered; a bernir ei fod wedi cymmeryd y rhan yma o'r cofrestrau teuluaidd. Wrth i ni edrych i achrestr Luc eto, yr ydym yn cael un enw nad oes grybwylliad am dano yn yr Hen Destament. Dywedir yma, "Sala, fab Cainan, fab Arphaxad;" *Luc* iii. 35, 36. Ond yn *Gen.* x. 24, dywedir, "Ac Arphaxad a genedlodd Selah." Cymharer *Gen.* xi. 12, â 1 *Cron.* i. 24. Y mae enw Cainan i mewn yn y ddau le a nodwyd yn Genesis yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, ond nid yw yn y Cronicl. Yn awr, y mae yn lled amlwg, dybygid, fod llygriad, naill ai yn y testyn Hebraeg, neu yn y Deg a Thrigain. Tybia rhai, fod gwall yn y gwreiddiol, ac mai y cyfieithiad sydd yn ei le: ond dadleua ereill drachefn mai y Deg a Thrigain sydd yn wallus, o herwydd na cheir yr enw mewn un hen gyfieithiad arall. Y mae amryw lwybrau ereill wedi eu cynnyg i egluro yr anhawsder. [Gwel CAINAN.] Ond pa fodd bynag y rhoddir cyfrif am y gwahaniaeth, nid oes ond ychydig bwys yn y ddadl yn erbyn Luc; o blegid os chwanegiad diweddarach ydyw yn y cyfieithiad Groeg, gallasai yr un un ei roddi yn yr efengyl, neu ynte ryw un arall oddi wrth yr ysgrif hono, gyda bwriad i ddiwygio y gwall; neu ynte, os oedd yn y Deg a Thrigain ar y cyntaf—gan mai o hwnw y mae Luc yn gwneuthur ei holl ddyfyniadau yn ei efengyl, ac yn yr Actau—y mae yn naturiol i ni dybied y rhoddid enw Cainan i mewn.

Yn awr, y mae yn angenrheidiol sylwi ar yr anghyssondeb sydd yn ymddangos rhwng y ddwy achres a'u gilydd: *Mat.* i. 2—16; *Luc* iii 23—38. Nid yw beirniaid yn cytuno i sefyll ar yr un tir i gyfarfod â'r anhawsder hwn. Dywed rhai, fod y naill a'r llall o'r efengylwyr yn rhoddi achau Ioseph; ond dywed ereill, mai achau Ioseph a roddir gan Matthew, ac mai achau Mair a roddir gan Luc. Y mae ychydig o wahaniaeth eto yn y llwybr y mae y rhai sydd yn cydsynio â'r golygiad cyntaf yn ceisio cyssoni y ddwy daflen â'u gilydd. Un llwybr yw eiddo Julius Africanus. Ei syniad ef yw, fod Matthew yn rhoddi achau naturiol, a Luc yn rhoddi achau cyfreithiol Ioseph. Yn ol deddf oedd yn Israel, os byddai un farw yn ddiblant, yr oedd i'w frawd—neu, os na byddai ganddo frawd, ei gyfathrachwr—gymmeryd ei wraig, a chyfodi had i'w frawd. Yn awr, yr oedd yr had, mewn ystyr cyfreithiol, yn eiddo y blaenaf; ond mewn ystyr naturiol, yn eiddo yr olaf. "Fel hyn," medd Africanus, "nid yw y naill na'r llall o'r efengylau yn anghywir; gan fod y naill yn cynnwys llin natur, a'r llall yr eiddo cyfraith. O blegid fe ddarfu i deuluoedd Solomon a Nathan ymgymmysgu—mewn rhan trwy ail briodasau, ac mewn rhan trwy gyfodi had i'r rhai a fuont feirw yn ddiblant—fel yr oedd yr un rhai yn meddu mwy nag un tad: y naill yn cael eu cyfrif felly, a'r lleill yn dadau mewn gwirionedd. Fel hyn, y mae y ddwy restr yn gywir, ac yn cyfarfod ac yn cytuno yn hollol yn Ioseph." Wrth egluro hyn, dywed ddarfod i Matthan, y trydydd o'r diwedd, yn ol achres Matthew, a Melchi, y trydydd, yn ol achres Luc, "briodi yn olynol yr un wraig, a chenedlu

Digitized by Google

meibion, y rhai oeddynt yn frodyr o'r un fam. Y cyntaf, gan hyny, Matthan, yr hwn oedd yn ddisgynydd o Solomon, a genedlodd Iacob o Estha; o blegid dyna oedd enw y wraig. Ar ol marwolaeth Matthan, fe gymmerodd Melchi, disgynydd o Nathan, y weddw yn wraig iddo, a chafodd yntau Eli. Fel hyn, yr oedd Iacob ac Eli yn frodyr o'r un fam, er eu bod o wahanol deuluoedd. Wedi hyny, gan ddarfod i Eli farw yn ddiblant, fe gymmerodd Iacob ei weddw yn wraig iddo, ac a genedlodd y trydydd Ioseph—yr hwn oedd yn fab iddo yn ol natur a rheswm; ac am hyny, y mae yn ysgrifenedig, 'A Iacob a genedlodd Ioseph:' ond yn ol y gyfraith, mab i Eli ydoedd, o herwydd fe gyfododd Iacob ei frawd had iddo." Y mae dau enw yn cael eu gadael allan, yn ol y testyn presennol, yn Luc, rhwng Melchi ac Eli, sef Lefi a Matthat, yn y drefn uchod, ar ryw gyfrifon. Pa fodd bynag, y mae y llwybr y mae Africanus yn ei gymmeryd i gyssoni y ddau efengylwr yn amlwg. Ac ymddengys mai dyma y drefn a gymmeradwyai Eusebius, Nazianzen, ac ysgrifenwyr ereill am oesoedd, ac yn wir, gan rai eto.

Llwybr arall o geisio eu cyssoni, yn ol yr un egwyddor yw, mai Luc sydd yn rhoddi yr achau naturiol, a Matthew y llin gyfreithiol. I gadarnhau y syniad hwn, haerir nas gallasai Salathiel fod yn fab naturiol i Iechonias, yr hwn a fu farw yn ddiblant, yn ol prophwydoliaeth Ieremiah (*Ier.* xxii. 30); ac felly, rhaid mai mab naturiol Neri, o lin Nathan ydoedd, yn ol fel y dywed Luc. Dywedir hefyd nad oedd y gyfraith yn gosod un rhwymedigaeth ar Iacob i briodi gweddw Eli, yn ol fel yr honir yn y golygiad blaenorol, am nad oeddynt ond brodyr o'r un fam. Dyma olygiad Grotius; â hwn hefyd y cytuna Hammond, Le Clerc, Wetstein, Da Costa, ac ereill. Ond dadleuir nas gellir bod yn sicr nad mab naturiol i Iechonias oedd Salathiel, na chwaith fod y ddeddf oedd yn rhwymo un i briodi gweddw ei frawd yn ei ryddhau, am nad oedd ond yn unig yn frawd o'r un fam; o blegid ymddengys mai yn ol rhwymedigaethau y gyfraith hon y priododd Boaz Ruth, er nad oedd ond perthynas bell.

Nid oes ond ychydig o wahaniaeth rhwng y ddau olygiad blaenorol mewn gwirionedd; ac felly, y mae yr un gwrthddadleuon yn dyfod yn erbyn y naill a'r llall. Myn rhai, fod genym le cryf i gasglu mai yr achau cyfreithiol a gedwid fanylaf yn mysg yr Iuddewon; ac felly, bod yr anhawsder i gael y rhai naturiol yn anorfod, gan fod y naill yn colli yn y llall. Hona ereill, mai y llin naturiol a gedwid; o blegid, er mai gwneuthur rhan cyfathrachwr a wnaeth Boaz trwy briodi Ruth, ni elwir Obed yn un lle yn fab Mahlon, ei dad cyfreithiol, ond yn fab Boaz, ei dad naturiol; ac nad yw y gyfraith yn *Deut.* xxv. 5—9, er ei bod yn trefnu fod i'r cyntafanedig yn y cyfryw briodas gael ei gyfrif yn had i'r brawd a fuasai farw, yn golygu dim mwy na bod i etifedd gael ei eni fel hyn i'w olynu yn ei enw yn yr etifeddiaeth, er mwyn cadw y teuluoedd ar wahan; ac felly, nad yw yn canlyn o angenrheidrwydd mai yn ol y llinell gyfreithiol y cedwid yr achau. Ond pa olygiad bynag a gymmerir ar hyn—ac yn wir a chymmeryd yn ganiatad fod y naill a'r llall yn cael eu cadw, a bod y ddwy wedi cyfarfod yn Ioseph—y mae yn annichonadwy rhoddi cyfrif am y gwahaniaeth sydd ynddynt i waered o Dafydd hyd Ioseph. Y mae yn rhaid fod tadau cyfreithiol a naturiol yn mhob cenedlaeth braidd o'r naill i'r llall—yr hyn sydd yn dra annhebyg.

Y mae un llwybr eto gan y rhai sydd yn dal mai achau Ioseph a gofnodir gan y ddau efengylwr; sef mai mab naturiol i Iacob oedd Ioseph, a bod Matthew yn rhoddi ei achau fel y cyfryw; ond fod Eli wedi ei dderbyn a'i fabwysiadu yn fab iddo ei hun, yn ol y drefn oedd gan yr Iuddewon i hyny; a bod Luc yn olrhain ei achau mewn ystyr cyfreithiol yn y golygiad yma. Yn awr, pa un bynag o'r golygiadau uchod a gymmeradwyir, tra y delir mai achau Ioseph a roddir i ni gan y naill a'r llall o'r efengylwyr, y mae yn anhawdd, os nad yn annichonadwy, rhoddi cyfrif am yr arbenigrwydd sydd yn yr Hen Destament a'r Newydd wrth gyfeirio at Grist fel wedi hanu o Dafydd o ran y cnawd: *Salm* cxxxii. 11; *Esa.* xi. 1; *Ier.* xxx. 9; *Zech.* vi. 12; *Mat.* ix. 27; 2 *Tim.* ii. 8; *Dad.* xxii. 16.

Cytuna Alford mai achau Ioseph a roddir i ni gan y ddau efengylwr; er ei fod, ar yr un pryd, yn tueddu i feddwl, oddi wrth *Luc* i. 32, fod Mair o dylwyth Dafydd—ac mai oddi yma yr ydym i brofi haniad *gwirioneddol* yr Iesu o had Dafydd drwyddi hi yn unig, ac nid oddi wrth yr achau: ond y mae yn anobeithio gallu cyssoni y ddwy daflen â'u gilydd, er ei fod yn credu y gallesid eu cyssoni, neu o leiaf roddi rheswm da dros y gwahaniaeth sydd ynddynt, pe buasem yn meddu ar y defnyddiau angenrheidiol i hyny:—"O blegid pwy a all olrhain a dwyn i'r goleu y cyssylltiadau diddiwedd o elfenau cymmysgedd a allasai ymlusgo i mewn i achyddiaeth o'r fath yma? Y mae Matthew wedi eu cyfansoddi yn y fath fodd ag i ffurflo tri o bedwar ar ddegau, trwy *adael o'r neilldu rai cenedlaethau*; pa fodd y gallwn ni ddyweyd na ddichon fod dull cyffelyb, anadnabyddus i ni, wedi ei gymmeryd gyda'r eiddo Luc? Yr oedd yn beth cyffredin yn mysg yr Iuddewon fod gwahanol enwau ar yr un personau—pa fodd y dichon i ni wybod pa mor fynych y gallasai hyn ddygwydd yn mysg henaflaid Ioseph?" Oddi ar yr ystyriaethau hyn, a'u cyffelyb, dywed ei fod yn dangos cymmaint o ryfyg yn y neb a benderfyno eu bod yn anghysson, ag ydyw o fod yn orfanwl ac anfeirniadol yn y neb a geisio eu cyssoni: bod yn ddigon i ni eu bod yn rhanau awdurdodedig o'r efengylau, wedi eu rhoddi yn unig i amlygu disgyniad tad cyfrifol ein Harglwydd o Dafydd; ac nad yw ei haniad gwirioneddol ef ei hunan o Dafydd yn ymddibynu ar y naill na'r llall.

Ond y golygiad a gymmeradwyir gan luaws mawr o awduron, fel y mwyaf naturiol, rhesymol, a thebyg i fod yn gywir ydyw, fod Matthew yn olrhain achau Ioseph, a Luc yn olrhain yr eiddo Mair: y cyntaf yn dangos hawliau cyfreithiol yr Iesu i orseddfa ei dad Dafydd, yn ol ei berthynas â Ioseph, yr hwn oedd wedi hanu o hono yn llin y freniniaeth; a'r olaf yn dangos ei fod mewn gwirionedd "o had Dafydd o ran y cnawd," fel mab Mair, am ei bod hithau o dŷ a thylwyth y patriarch hwnw. Y mae pleidwyr y golygiad hwn yn gwahaniaethu ychydig yn mherthynas i'r enwau Salathiel a Zorobabel sydd yn y ddwy achres. Dywed rhai, mai yr un personau oeddynt; a bod teuluoedd Solomon a Nathan wedi cydgyfarfod ynddynt hwy, a thrachefn wedi ymwahanu, hyd oni unwyd hwy eilwaith yn Ioseph a Mair: a bod genym le i dybied fod math o angenrheidrwydd am gyssylltiad fel hyn, mewn trefn i gyflawnu yr addewid a roddwyd i Dafydd, yr hon, meddir, sydd yn lled arwyddo y byddai i'r Messiah hanu o hono ef drwy Solomon: 2 *Sam.* vii. 12—16. Myn ereill, fod y ddwy

Digitized by Google

linach yn cadw yn hollol ar wahân o Dafydd i waered; ac nad ydyw fod yr un enwau yn dygwydd yn y naill a'r llall yn un prawf mai yr un personau oeddynt. Ond pa ochr bynag a gymmerir ar hyn, nid yw yn effeithio dim ar y prif bwnc yr amcenir ei brofi.

Gwrthddadleuir yn erbyn y golygiad hwn, am fod Luc yn rhoddi ar ddeall i ni, meddir, nad oedd Mair o lwyth Iudah o gwbl. Honir mai o lwyth Lefi yr ydoedd, gan y dywedir fod Elizabeth, gwraig Zacharias, yn gares iddi; a dywedir yn benodol ei bod hi "o ferched Aaron:" *Luc* i. 5. 36. Yr oedd Strauss wedi cymmeryd mantais oddi wrth hyn i ddadleu nad oedd yr Iesu wedi disgyn o had Dafydd, gan nad oedd Ioseph yn dad naturiol iddo, na Mair yn fam chwaith o'r llwyth hwnw. Y llwybr y mae Da Costa—yr hwn sydd yn dal mai achau Ioseph a geir yn y ddau efengylwr, cofier—yn cyfarfod â'r wrthddadl hon ydyw, nad oedd hyn yn angenrheidiol mewn trefn i gyflawnu y brophwydoliaeth o fod y Messiah i gael ei eni o dŷ Dafydd; o blegid, yn ol y ddeddf oedd yn mhlith y patriarchiaid, ac wedi hyny yn Israel, yr oedd y wraig a roddid mewn priodas yn cael ei hystyried yn feddiant i'w gwr; bod y plant a enid o honi yn eiddo iddo, fel cynnyrch ei faes; a'u bod hefyd yn perthyn trwyddo ef i'r holl lwyth yn gyffredinol. Pa un bynag a ystyrir hyn yn ddigonol i gyfarfod yr wrthddadl ai peidio, y mae yn ddigon amlwg y gallasai Mair fod yn gares i Elizabeth heb ei bod ei hun o lwyth Lefi; o blegid gallasai mam Mair fod o deulu Aaron, neu fam Elizabeth fod o deulu Dafydd, ac eto fod y tad yn cadw eu teuluoedd eu hunain. Nid yw yn ymddangos fod y ddeddf oedd yn gwahardd i ferched briodi allan o'u llwythau eu hunain yn golygu neb ond y rhai oedd yn etifeddesau: *Num.* xxxi. 6. A bernir ei fod yn beth cyffredin i ferched offeiriaid briodi rhai o lwythau eraill: *Lef.* xxii. 12.

Myn rhai, fod yr arbenigrwydd a roddir ar Ioseph yn *Luc* i. 27, a ii. 4, fel un o dŷ Dafydd, yn cynnwys ynddo awgrymiad o leiaf nad oedd Mair felly. Dywed ereill, fod ystyriaeth ddiduedd o'r geiriau a'r cyd-destynau yn arwain i gasgliad hollol wahanol. Dadleuir hefyd nad oedd yr Iuddewon yn arfer cadw achau trwy y fam. Honir, o'r tu arall, nad ydym yn amddifad o esamplau o hyn eto. Gwel *Iudith* viii. 1. [*Josephus de Vitâ Suâ*, 1.] Ac os tad Mair oedd Eli, gan fod ei achau ef ar gael, yr oedd mor hawdd i Luc olrhain achau yr Iesu i fyny drwyddi hi ag oedd i Josephus olrhain ei achau ei hun o'r teulu breninol o du ei fam: ac oddi ar y tir y mae yr efengylwr yn edrych ar hanes Iesu Grist, y mae yn naturiol i ni gasglu mai felly y gwnaeth.

Y mae yn eithaf amlwg, yn ol y golygiad mai achau Ioseph a roddir gan y ddau efengylwr, nas gellir profi dim mwy oddi wrth y naill na'r llall, nac oddi wrth y ddau yn nghyd, na bod Iesu Grist yn perthyn i dylwyth Dafydd mewn ystyr cyfreithiol. Ond yr ymofyniad sydd yn ymgynnyg yn naturiol yn wyneb hyn yw, A ydyw yn debygol y buasid yn cael ei achau yn y wedd yma gyda'r fath fanylrwydd gan ddau o'r efengylwyr, ac y buasent yn gadael ei haniad naturiol o Dafydd—pwnc ag y mae arbenigrwydd neilldiol yn cael ei osod arno, fel "ffrwyth ei gorff" ef yn yr addewid—heb grybwyll dim yn ei gylch, ond a geir mewn un frawddeg amwys gan un o honynt? Na: y mae hyn yn ymddangos braidd yn anhygoel. Ond yn wyneb y golygiad mai achau Mair a ddilynir gan Luc, y mae yr anhawsder, i fesur mawr, yn cael ei symmud; ac yr ydys yn cael un prawf pwysig yn chwanegol mai Iesu o Nazareth oedd y gwir Fessiah.

Dadleuir yn mhellach, fod genym sail i gasglu, oddi wrth amcan y ddau efengylwr yn ysgrifenu hanes yr Iesu, mai yn y wedd yma yr olrheinid ei achau. Y mae yn bur amlwg, dybygid, mai Iuddew oedd Matthew, a'i fod yn ysgrifenu ei efengyl at wasanaeth Iuddewon Cristionogol. Yn awr, nid yw ond peth naturiol i ni ddysgwyl cael achau Crist ganddo ef yn ol y llin freninol, i brofi fod ganddo mewn gwirionedd hawliau cyfreithiol i gael ei gydnabod yn frenin yr Iuddewon. Y mae hyn yn berffaith gysson â holl rediad ei efengyl drwyddi i gyd. O'r ochr arall, y mae yr un mor amlwg mai cenedl-ddyn oedd Luc, a'i fod yntau yn ysgrifenu i'r Cenedloedd. Ceir llawer o ymadroddion yn ei efengyl fel eglurhâd ar wyliau, safle dinasoedd, a'r cyffelyb, na buasai un angenrheidrwydd am danynt i'r Iuddewon; ond nis gellid eu hebgor, mewn trefn i wneyd y pethau hyn yn eglur i'r Cenedloedd. Y mae ef yr un modd, wrth roddi i ni achau Crist, yn eu dilyn hyd Adda, gwreiddyn cyffredinol dynolryw, ac nid fel Matthew yn aros gydag Abraham tad yr Iuddewon. Yn awr, y ddadl oddi wrth hyn yw, fod yn bur debygol, os nad yn hollol sicr, ei fod yn olrhain achau yr Iesu drwy Mair ei fam a'i henaflaid, gan nad oedd un teimlad Iuddewig i'w gymhell i, nac un angenrheidrwydd am, wneyd yn wahanol, ond yn hytrach fel arall.

Dadleuir yn mhellach, fod genym seiliau i gredu mai achau Mair a roddir gan Luc, oddi wrth y lle arbenig y mae yn ei roddi i genedliad goruchnaturiol Iesu Grist yn flaenorol; a'i fod yn dwyn y geiriau "fel y tybid" i mewn i ragflaenu unrhyw dybiaeth ei fod yn gwrthddywedyd ei hun—mai mab Mair ydoedd mewn gwirionedd ond yn marn y cyffredin yr ystyrid ef yn fab Ioseph, am fod Ioseph yn wr i Mair. Hònir gan rai, ein bod i ystyried Ioseph yn fab Eli, yn yr un ystyr ag yr oedd Eli yn fab Matthat; ac os felly, fod yn rhaid mai achau Ioseph ydynt. Yn wyneb hyn, dywedir, o'r ochr arall, nad ydym yn rhwym o angenrheidrwydd i ddyfod i'r penderfyniad hwn; o blegid nad yw yr ymadrodd i'w gymmeryd yn ei ystyr priodol am "Adda fab Duw," yn yr achres. Ac heb law hyny, y mae genym esamplau fod achau y gwr yn colli yn eiddo y wraig mewn rhyw amgylchiadau: 1 *Cron.* ii. 21—24, 34—36. Cymharer *Num.* xxxii. 41; 1 *Bren.* iv. 13. Gwel hefyd *Num.* xxvii. 1—11; *Neh.* vii. 63. Yn awr, y mae yn amlwg nad yw y dybiaeth yma yn anghydweddol â'r modd y cedwid yr achau gan yr Iuddewon; ac o ganlyniad, gan fod amgylchiadau yr hanes blaenorol yn rhoddi mantais i hyny, y mae yn naturiol i ni gasglu mai achau Mair a roddir gan Luc.

Ond y mae rheswm arall mwy penderfynol dros y golygiad hwn, oddi wrth yr achres yma. Nid yw y gair *mab* rhwng pob un o'r enwau yn y testyn gwreiddiol fel y mae yn y cyfleithiad Cymraeg. Y mae y gair i lawr unwaith yn y dechreu, ac y mae yr holl enwau dilynol yn yr achos meddiannol (*genitive case*), yn cael eu rhagflaenu gan y fanhod. Yn awr, y ddadl oddi wrth hyn yw, fod yr holl enwau hyn, o'r cyntaf i'r diweddaf, yn cael eu llywodraethu yn yr achos meddiannol gan y gair υἱος=*mab.* yn y dechreu; a'i fod yn ddealledig rhwng pob un o honynt mewn cyferbyniad i'r gair Iesu. Fel hyn, Iesu, mab (fel y tybid) Ioseph; Iesu, mab

Digitized by Google

Eli; Iesu, mab Matthat, &c.; ac nid fod Ioseph yn fab i Eli, ac Eli yn fab i Matthat, a Matthat yn fab Lefi. Yn y wedd yma y deallir y daflen y mae Ezra yn ei rhoddi o'i achau ei hun, mewn trefn i ddangos ei fod yn "fab Aaron yr offeiriad penaf;" *Ezra* vii. 1—5. Gwel hefyd *Gen.* xxxvi. 2, 24, 25; *Neh.* vii. 63, y rhai sydd esamplau cyffelyb. Ac y mae y ddadl yma yn cael ei chadarnhau yn mhellach, yn ol darlleniad y *Codex Vaticanus*—un o'r ysgriflyfrau henaf. Yn ol hwnw, nis gall fod un ammheuaeth am hyn; ac y mae rhai o'r beirniaid mwyaf dysgedig yn sefyll drosto. Y mae Giescler, ac ereill, yn amddiffyn y darlleniad hwnw, gan roddi enw Ioseph yn nghyd mewn cromfachau fel hyn—*υἱος* (*ὡς ἐνομίζετο του Ἰωσὴφ*) *τοῦ* Ἡλι = mab (fel y tybid i Ioseph) Eli, &c.—*h.y.*, nid oedd ond yn ol y dybiaeth gyffredin yn fab Ioseph, ar gyfrif ei fod yn briod â'i fam; ond yr oedd mewn *gwirionedd* yn fab Eli. Cymmeradwyir yr ystyr yma gan nifer mawr o ddynion galluog, fel yr unig gyfrif rhesymol am y gwahaniaeth sydd rhwng y ddwy achres, a'r llwybr mwyaf naturiol i'w cyssoni.

Dyma grynodeb o'r dadleuon mwyaf pwysig a ddygir yn erbyn ac o blaid cyssondeb y tafleni hyn: ond dylid cofio, nad ydyw fod rhai dynion yn gwrthddadleu yn erbyn rhyw ranau o'r Ysgrythyrau yn ddigon i brofi fod yn y rhanau hyny anhawsderau gwirioneddol ac anorfod, ond yn unig eu bod yn ddigon iddynt hwy dramgwyddo wrthynt. Ac hyd yn oed pe gellid dangos y fath anghyssondeb yn yr achresau hyn, fel nas gallem ni, yn bresennol, ddwyn unrhyw resymau a fyddent yn ddigonol i roddi unrhyw eglurhâd ar yr anhawsder, nid yw hyny, chwaith, yn ddigon i brofi nad allesid cael gafael yn y rhesymau hyny, ond dyfod i feddiant o'r defnyddiau angenrheidiol. Yn yr amddifadrwydd o'r defnyddiau hyny, y mae y rhesymau sydd ar gael yn ddigon i ddangos, a dywedyd y lleiaf, fod y tebygolrwydd yn fwy o blaid nag yn erbyn eu cyssondeb.—(*Y Traethodydd* am 1852; *Lardner's Cred. of Gos. Hist*; *Journal of Sacred Lit.*, am 1849 ac 1853; *Da Costa's Four Wit.*; *Cycl. of Bib. Lit.*; *Macknight's Har. of the Gos.*; *Kuinoel's Nov. Test. Lit. Hist.*; *Alford's Gr Test.*; *Penn's New Cov.*; *Olshausen's Com.*)

CENEDLDRAITH. Gwel Dyn, ei Hanes Naturiol.

CENEDLOEDD, [מין; Deg a Thrigain, *ἔθνοι*]: cymhwysid y gair hwn gan yr Hebreaid at bawb nad oeddynt dan y gyfraith; hyny yw, holl dylwythau y ddaiar, ond yr Iuddewon yn unig. Ond mewn amseroedd diweddarach, pan y cofleidiodd nifer o daleithiau ac amryw bersonau unigol Iuddewaeth, fe'u gwahaniaethid oddi wrth y Cenedloedd, yn gystal ag oddi wrth yr Iuddewon, wrth yr enw *proselytiaid* (*προσήλυτοι*). Mewn rhai manau yn yr argraffiad awdurdodedig o'r Ysgrythyrau, ceir y gair "Cenedloedd," pryd y mae y gwreiddiol yn Ἕλληνες, yr hwn yn briodol a arwydda y "Groegiaid." Y mae yr apostol Paul yn gyffredin yn cyfrif yr holl Genedloedd dan yr enw Groegiaid; a holl ddynolryw yn yr ymadrodd, Iuddewon a Groegiaid. Fel yr oedd y Cenedloedd gynt yn anwybodus am addoliad y gwir Dduw, y mae cenedl-ddyn, neu ethnig, weithiau yn dynodi y rhai fyddont y tu allan i'r eglwys; sef y rhai hyny sydd yn eilunaddolgar a didduw.

CENEDLOEDD, GWASGARIAD Y. Mae amryw resymau eglur yn ein tueddu i dybied y byddai i'r ychydig nifer o ddynolryw a arbedwyd gan drugaredd ddwyfol heb eu dyfetha yn ninystr y dylif—wyth o bersonau, yn gwneyd i fyny ar yr eithaf bump o deuluoedd—barhau i breswylio yn agos i'w gilydd cyhyd ag y byddai i amgylchiadau ganiatau iddynt. Nis gellir yn briodol nodi unrhyw amseriad i ymddygiad annheilwng Cham a'i bedwerydd mab, yn gynt nag o ddeutu ugain neu ddeng mlynedd ar ugain wedi y dylif. Hyd yn hyn, o leiaf, buasai serch perthynasol, a lles y naill a'r llall, yn gweithredu yn gryf i beri iddynt beidio ag ymwahanu. Buasai ofn peryglon, adnabyddus ac anadnabyddus, a phrofiad beunyddiol o'r lles a fwynhëid trwy gymhorth eu gilydd, yn cadarnhau cymhelliadau ereill. Y mae yn amlwg, oddi wrth *Gen.* xi. 10—16, fod o ddeutu can mlynedd, yn ol y testyn Hebraeg, wedi eu treulio yn yr agosrwydd teuluaidd hwn, er eu bod o angenrheidrwydd yn ymwasgaru i ryw raddau; ond y mae yr oesoedd, yn ol y Deg a Thrigain, heb gynnwys y Cainan ar ol y dylif, yn gwneuthur 400. Y mae cyfrif gofalus y proffeswr Robert Wallace, yn gwneyd y cyfnod yn 531 o flyneddoedd. O'r braidd y gellir caniatäu y cyfnod Hebraeg; ond y mae hyd yn oed hwnw (a'r lleill yn llawer mwy) yn rhoi digon o amser i gynnydd dynolryw fod y fath ag a barai fod ymwasgariad helaeth yn dra angenrheidiol. Trwy fod lluaws mawr yn nghyd, yn ol pob tebyg, buasai cynhwrf ac anghydfod ar un llaw, a thrëawdurdod mewn rhyw wedd neu gilydd ar y llaw arall, yn cael eu cynnyrchu. Buasai llawer o ardaloedd heb eu pobiogi yn beryglus o afiach trwy fer-ddyfroedd a chydgasgliad o lysiau ac anifeiliaid pydredig. Buasai cynnyrchion diwylliad, a chelfau ereill, yn cael eu dwyn oddi amgylch mor araf, fel y buasai yn afrwyddo gwelliant a chysuron yn mhlith plant dynion. Ni buasid yn cyrhaedd rhanau pellenig am lawer o gannoedd neu filoedd o flyneddoedd trwy ymwasgariad annyben. Buasai creaduriaid niweidiol yn lluosogi yn ormodol Buasai ufudd-dod crefyddol, ag oedd, yn ol gorchymyn Duw, wedi ei gyssylltu â meddiant a defnydd o'r ddaiar, yn cael ei ŵyrdroi a'i wrthweithio i raddau helaethach nag y mae profiad chwerw y byd eisoes yn adnabyddus o hono. Fel hyn, gallai ymddangos, oddi ar brofion lled gryfion, ei fod yn beth tra dymunol i ymwasgariad dynolryw gymmeryd lle mewn modd mwy cyflym a helaeth nag a fuasai yn cael ei ddwyn oddi amgylch gan gymhelliadau o gyfleusdra a gwag dueddfryd yn unig.

Yn awr, y mae ysgrifeniadau Moses yn penderfynu ddarfod i hyn gymmeryd lle. Dywed yr hanes mai enw mab henaf Heber "oedd Peleg; o herwydd yn ei ddyddiau ef y rhanwyd y ddaiar" (*Gen.* x. 25); ac y mae hyn yn cael ei ailadrodd, yn ddiammheuol, fel dyfyniad llythyrenol yn 1 *Cron.* i. 19. Pe goddefid troi y gair Hebraeg i ffurf Gymreig, byddai, "y *Pelegiwyd* y ddaiar." Tybia rhai ddarfod i hyny gymmeryd lle tua'r amser y ganwyd ef, a bod yr enw hwn wedi ei roddi arno ef mewn coffadwriaeth am y gorchwyl. Ond yr oedd yn arferiad yn mhlith pob cenedl, y mae yn debyg, yn yr hen amseroedd, fod personau yn cymmeryd enwau arnynt eu hunain, neu roddi enwau ar eu plant a perthynasau ereill, ar wahanol amserau o'u bywyd, oddi wrth lawer o wahanol amgylchiadau a'u cyfarfyddent. Y mae amrywiol esamplau o hyn

Digitized by Google

yn yr Ysgrythyrau. Y dybiaeth fwyaf naturiol yn yr anghraifft dan sylw yw, fod yr enw wedi ei roddi arno wedi iddo ddyfod i oedran, *ar gyfrif* rhyw ran a gymmerodd efe yn nechreuad neu ddygiad yn mlaen y rhaniad. Ond nid yw yr arwyddocâd a roddir iddo yn gyffredin mewn un modd yn hollol benderfynol. Nid yw y ferf yn dygwydd ond yn unig yn y ddau (neu yn hytrach, un) le a nodwyd, ac yn *Salm* lv. 9, "gwahân eu tafodau;" ac yn *Iob* xxxviii. 25, "Pwy a ranodd ddyfrlle i'r llifddyfroedd," wedi eu cynnyrchu gan wlawogydd trymion? Y mae rhai dysgedigion galluog yn ammheu a ydyw yn cyfeirio o gwbl at ymwahaniad dynolryw; ac yn tybied fod yr hyn a nodir yn mywyd Peleg, yn rhyw wahaniad yn y ddaiar ei hun—daiargryn, yn cynnyrchu rhyw ymagoriad eang, gan wahanu dwy ran o'r ddaiar o gryn faintioli oddi wrth eu gilydd yn y rhan neu yn agos i'r rhan a breswylid gan ddynion.[1] Y mae arwynebedd presennol y rhan hono o'r byd yn brawf amlwg fod daiargrynfâau wedi dygwydd, a rhanau o'r ddaiar wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu gilydd trwy ryw gynhyrfiadau llosgfalus, ar wahanol amserau cyn y cyfnod hanesyddol. Gan hyny, nis gellir gwadu fod rhyw gynhwrf daiaregol yn *ddichonadwy*, ac y gallai fod ar gylch tra eang, ac i effeithiau pwysig ar sefyllfa plant dynion ei ddilyn.

Ond nis gall y derbyniad neu y gwrthodiad o'r deongliad hwn o raniad y ddaiar, effeithio dim ar y pwnc o ymwahaniad boreuol, a dosbarthiad ymfudol dynion. Y mae y rhesymau a nodwyd yn ddigon i ddangos yn eglur fod rhyw ddygwyddiadau o'r fath yn olynol wedi cymmeryd lle; ac, heb sefyll ar ran sydd â'i deongliad yn ammheus, eglur yw fod y pennodau x. ac xi. o Genesis yn cymmeryd y ffaith yn ganiataol, ac y gellid eu hystyried yn gydnabyddiaeth mewn cylch byr o hyny, yn hytrach na hanes manwl. Y mae dwy frawddeg yn benderfynol: *Gen.* ix. 19; "Y tri hyn oedd feibion Noah: ac o'r rhai yr hiliwyd (neu y *taenwyd ar led*) yr holl ddaiar." Y llall yw *Gen.* x. 32; "Dyma deuluoedd meibion Noah, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu cenedloedd: ac o'r rhai hyn yr ymranodd (neu yr *ymwasgarodd*) y cenedloedd ar y ddaiar wedi y dylif." Defnyddir gair gwahanol yn y lle hwn, ag sydd i'w gael yn fynych yn yr Hen Destament; ac nis gall fod ammheuaeth yn nghylch ei ystyr. Fe'i ceir hefyd yn *adn.* 5; "O'r rhai hyn y rhanwyd (yr *ymwasgarodd*, neu y *taenwyd drostynt*) ynysoedd y cenedloedd yn eu gwledydd, pawb wrth eu hiaith eu hun, trwy eu teuluoedd, yn eu cenedloedd." Y mae dull o ymadroddi pur gyffelyb yn ein iaith ni ein hunain, pan y dywedir, fod y maes wedi ei hau, yn lle fod yr had wedi ei hau yn y maes.

Y mae yn mhummed llyfr Moses, air y dylid sylwi arno yn y cyssylltiad hwn: *Deut.* xxxii. 8, 9; "Pan gyfranodd y Goruchaf etifeddiaeth y cenedloedd, pan neillduodd efe feibion Adda, y gosododd efe derfynau y boblocdd yn ol rhifedi (מספר—yn fwy cywir, *rhifiad*) meibion Israel. Canys rhan yr Arglwydd yw ei bobl; Iacob yw rhan ei etifeddiaeth ef." Mae cyficithiad y Deg a Thrigain o *adn.* 8 yn hynod; ac felly, wedi bod yn achlysur deongliadau neilduol: "Pan gyfranodd y Goruchaf y cenedloedd, pan y gwasgarodd efe feibion Adda, efe a benododd derfynau cenedloedd yn ol nifer angelion Duw."[2] Gallai fod darlleniad (*El* neu *Elohim*, yn lle *Israel*), yr hwn a roddai y meddwl hwnw wrth gymharu â *Iob* i. 6; ii. 1; xxxviii. 7. Hefyd, gallasai y cyfleithwyr Alexandriaidd fod yn meddu rhyw fath o reswm dros y darlleniad—fel y byddai iddo, hwyrach, wasanaethu fel amddiffyn rhag perygl oddi wrth y llywodraeth Aipht-Facedoniaidd, os byddai iddi synied fod yr Iuddewon yn hòni hawl ddwyfol i oruchafiaeth ar bob cenedl arall. Modd bynag, rhoddodd y darlleniad hwn achlysur i'r tadau Groegaidd (Justin Ferthyr, Origen, Eusebius, &c.) i amddiffyn athrawiaeth o darddiad Iuddewig diwedlarach—bod meibion Noah yn ddeg a thrigain, a bod pob un o honynt yn ben cenedl; bod i bob cenedl ei hiaith ei hun, ac iddi ei chael yn nghymmysgedd Babel; a bod i bob cenedl hefyd ei hangel gwarcheidiol wedi ei osod arni gan y Creawdwr, oddi eithr cenedl Israel—yr oedd Duw ei hun yn Noddwr iddi hi. Y mae y darllenydd sydd yn gydnabyddus â'i Feibl, yn canfod, yn y syniad hwn, ychydig o wirionedd yn gymmysgedig â llawer o gyfeiliornad. Y cyfeiliornad hwnw o eiddo yr hen offeiriaid paganaidd a'u dilynwyr, o eiddo Gnosticiaid y trydydd a'r pedwerydd canrif, ac eiddo gwrthuchanianwyr (*anti-supernaturalists*) diweddar, sydd yn cynnwys mai bod dychymygol, sef rhan o'r gyfundrefn genedlaethol o chwedloniaeth, ac nid y GORUCHAF, yw Duw Israel, Iehofah yr Hen Destament.

Y mae anhawsderau amgylchiadol y geiriau yn cael eu dadrys fel hyn i foddlonrwydd. Y mae yr unig anhawsder gwirioneddol yn gorwedd yn ei fod yn ymddangos fel yn hòni fod y boblogaeth gynnyddol wedi ei rhanu yn llwythau, gyda bwriad penodol i wneuthur cyferbyniad *rhifyddol* â theuluoedd Israel, yn mhen wyth gan mlyneud wedi hyny. Yr enwau a berthynent i'r trydydd gradd—hyny yw meibion (yn hytrach llwythau neu genedloedd) Noah—ydynt, Iapheth, pedwar ar ddeg; Cham, un ar ddeg ar ugain; Sem, pump ar ugain; yn gwneuthur yn nghyd *ddeg a thrigain:* ac yr oedd holl deulu Iacob, pan y daethant i drigiannu yn yr Aipht, yn *ddeg a thrigain*: *Gen.* xlvi. 26; *Exod.* i. 5; *Deut.* x. 22. Dychymmygodd rhai, hefyd, eu bod yn canfod peth tebyg yn y deg henuriaid a thrigain: *Exod.* xxiv. 1, 9; *Num.* xi. 16, 24, 25. [Gwel hefyd *Pictorial Palestine; Civil History.*] Gallesid rhagflaenu y syniadau plentynaidd hyn, pe buasai dynion yn ystyried nad yw מספר yn arwyddo swm rhifyddol yn unig; ond yn cael ei ddefnyddio hefyd i osod allan *adroddiad manwl: Barn.* vii. 15. Y mae yr ymadrodd yn arddull farddonol aruchel y gân

[1] Y mae'r hen *Drioedd* hanesyddol Cymreig yn cadarnhau y dybiaeth olaf am ddirgryniad dirfawr natur mewn amser tra bore:—"Tair Engir Ddichwain Ynys Prydain:—cyntaf, toriad Llyn Llion, a myned bawdd hyd wyneb yr holl diroedd yni foddes yr holl ddynion, namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddiangesynt mewn llong foel, ac o honynt hwy ydd adepilied Ynys Prydain:—all fudychryn y Tân Rhyferthwy, (gwel *Iob* xxviii. 25); pan holltes y ddaiar hyd annwn, ac y difaed y rhan fwyaf o bob byw:—trydydd, yr Haf Tesawg; pan aethynt y coedydd ac y llysiau ar dân gan angerdd gwres yr haul, a cholli llawer o ddynion, ac anifeiliaid, a rhywiau adar, a phryfed, a choedydd, a llysiau, yn anesgorawl." Y mae y gair *Prydain*, yn y *Triad* hwn a'r cyffelyb, yn arwyddo y tir a breswylid y pryd hwnw gan y Prydeiniaid—yr hwn, ar yr adeg yma, oedd y dwyrain.

[2] Tybir mai hyn yw y cyfleithiad cywir, trwy y cyfeiriadau a wneir at yr un mater yn *Dan.* x. 13. 20, lle y nodir Michael fel angel gwarcheidiol yr Iuddewon, ac angelion a thywysogion ereill fel yr eiddo Groeg a Persia. Michael hefyd oedd angel gwarcheidiol neu arweinydd y Cymry—

"Geiriau Mihangel,
Am hedd am rhyfel,
A fydd diogel
I ein Troia."

Digitized by Google

ardderchog yn yr hon y mae yn dygwydd, ac wrth ei aralleirio byddai yn debyg i hyn:—"Y mae yr Iehofah Hollwybodol a Hollalluog wedi penderfynu pob creadur â dygwyddiad, bob amser ac yn mhob lle, ar gyfundrefn berffaith yn dwyn perthynas â chyssylltiad y naill a'r llall; ac y mae pob rhan o honi yn cyfateb i bob un o'r lleill: gan hyny, trwy ei anfeidrol ddoethineb a'i allu, y mae wedi trefnu symmudiadau a thrigleoedd pob llwyth o ddynion yn y fath fodd ag a wnai, ar ol i fil o flyneddoedd fyned heibio, gyssylltu pob achos ac offeryn â'u gilydd i ddwyn yr Israeliaid i feddiant o'r wlad a addawyd i'w tadau, a thrwy hyny, brofi eu bod yn bobl o dan fendith neilluol Duw.

Yn awr, yr ydym yn dyfod at y pwnc o *wasgariad cenedloedd.* Y mae wedi bod yn dyb gyffredin fod y *lledaeniad* sydd yn cael ei osod allan yn Genesis (*pen.* x), a'r *gwasgariad* a adroddir yn *pen.* xi. 1—9, yn cyfeirio at yr un dygwyddiad—fod yr olaf yn cael ei gynnwys yn y blaenaf, ac yn ddangosiad o'r modd yr oedd y gwasgariad yn cael ei ddwyn oddi amgylch. Pa fodd bynag, tybia rhai fod adroddiad yr Ysgrythyr yn arwain i benderfyniad hollol wahanol, a'i fod yn ymddangos yn y modd mwyaf amlwg fod y ddau adroddiad yn hollol annibynol o ran amser a nodwedd. Yr oedd y cyntaf yn gyffredinol, rheolaidd, a thawel; yr ail yn lleol, heb gynnwys ond rhan o ddynolryw, ac yn afreolus, gydag arwyddion o anfoddlonrwydd dwyfol yn ei ddilyn.

Y mae y cyntaf yn cael ei ddwyn i mewn yn y geiriau hyn:—"Sem, Cham, a Iapheth; y tri hyn oedd feibion Noah; ac o'r rhai hyn yr hiliwyd yr holl ddaiar." Ar ol y crybwylliad am feibion Iapheth, chwanegir, "O'r rhai hyn y rhanwyd ynysoedd y cenedloedd yn eu gwledydd, a phawb wrth eu hiaith eu hun, trwy eu teuluoedd yn eu cenedloedd." Y mae yr ymadrodd yn gwahaniaethu ychydig wrth son am feibion Cham:—"Dyma feibion Cham yn ol eu teuluoedd, wrth eu hieithoedd, yn eu gwledydd, ac yn eu cenedloedd." Defnyddir yr un geiriau i adrodd am deulu Sem: ac y mae y cyfan yn terfynu gyda, "Dyma deuluoedd meibion Noah, wrth eu cenedlaethau, yn ol eu cenedloedd, ac o'r rhai hyn yr ymranodd y cenedloedd ar y ddaiar wedi y dylif."

Yr ail adroddiad a ddechreua mewn modd a ddefnyddir yn fynych yn yr Ysgrythyrau Hebreig wrth ddwyn pwnc newydd i sylw. Rhoddir yma gyfleithiad hollol lythyrenol, fel y gall y darllenydd gael pob mantais i ddeall yr ystyr:—"Ac yr oedd yr holl ddaiar (ond gellid ei gyfleithu gyda pherffaith briodoldeb, yr *holl dir, gwlad, neu ardal*): gwefus un a geiriau un. (*h. y.*, yn gyffelyb). A darfu, yn eu mynediad yn mlaen, iddynt ganfod gwastadedd yn ngwlad Sinar, a gwnaethant eu trigfa yno." Yna, adroddir hanes eu penderfyniad i adeiladu tŵr uchel, yr hwn a wasanaethai fel cynnullfan iddynt fod mewn undeb. Adroddir yr hanes am y dyryswch a fu ar yr amcan hwn mewn dull o ymadroddi a ganfyddir yn fynych yn yr Ysgrythyrau boreuaf, ac oedd hefyd yn gyfaddas i sefyllfa fabanaidd dynolryw:—"Felly yr Arglwydd a'u gwasgarodd oddi yno ar hyd wyneb yr holl ddaiar, a pheidiasant ag adeiladu y ddinas."

Am Noah—"Gallem dybied," medd Mr. Bryant, "fod ei feibion yn dangos iddo barch mawr bob amser; ac ar ol iddynt ymwahanu, ac iddo yntau farw, parhasant i ymddwyn mewn cyd-ffurfiad â'r rheolau a osododd efe iddynt. Ond ymddengys ddarfod i un teulu ymddwyn yn wahanol. Nid ymostyngai meibion Cus i'r trefniad dwyfol (yn ngwasgariad y teuluoedd): ac fe ddarfu i Nimrod, yr hwn oedd y cyntaf i gymmeryd arno ei hun yr awdurdod freninol, yru Assur ymaith o'i diriogaeth, a'i orfodi i gymmeryd ei nodded yn mharthau uchaf Mesopotamia. Crybwylla yr hanesydd sanctaidd, ar ol hyn, am weithred arall yn codi oddi ar fwriad gwrthryfelgar; sef adeiladu tŵr uchel. Y mae y rhan fwyaf o ysgrifenwyr yn nodi yr amgylchiadau hyn fel wedi cymmeryd lle cyn ymfudiad dynolryw: ond bwriedir profi yma, fod yr ymfudiad cyffredinol, nid yn unig cyn hyn, ond hefyd o barth arall o'r byd. Gallem ganfod (oddi wrth *Gen.* x. xi.) dau ddygwyddiad gwahanol, y rhai, yn gyffredin, a gyssylltir yn nghyd. Yn gyntaf, fod ymfudiad ffurfiol o deuluoedd wedi cymmeryd lle i'r gwahanol barthau a nodwyd iddynt yn ol trefniad yr Hollalluog. Yn ail, fod *chwaliad* wedi bod ar ereill, y rhai nad ymostyngent i'r trefniad dwyfol. Tybir, yn gyffredin, fod holl ddynolryw yn cael eu cynnwys yn y dysgrifiad yma (*Gen.* xi. 1, 2). Ond nid wyf yn sicr y caniatâ y geiriau hyn unrhyw brawf o'r syniad yma. Nid yw yr ymadrodd, o'i gyfleithu yn gywir, mewn un modd yn cyfeirio at holl blant dynion. Yn ol y gwreiddiol, dywedir yn anmhenderfynol ddarfod, 'yn ymdeithiad pobl o'r dwyrain, iddynt ganfod gwastadedd yn ngwlad Sinar.' Y mae ystyr yr holl frawddeg yn unig yn dyfod i hyn—fod corff o bobl, cyn i unrhyw gyfnewidiad gael ei wneyd yn iaith dynolryw, wedi dyfod o'r dwyrain i'r lle a nodwyd uchod. Yr wyf fi yn mhell o gael fy moddloni fod holl ddynolryw wedi ymuno yn yr ymdeithiad hwn o'r dwyrain. Nid yw yr Ysgrythyr yn ymddangos fel yn dyweyd hyny; ac nis gellir cael unrhyw reswm pa ham yr oedd raid iddynt ymdaith mor bell yn unig i gael eu gwasgaru wedi hyny. Y mae genym seiliau i dybied fod y patriarch, yn fuan wedi ei fynediad allan o'r arch, wedi canfod ei hun mewn gwlad brydferth a ffrwythlawn—fel y dysgrifir hi gan holl awdurion hen a diweddar. Yma yr wyf fi yn tybied i'r patriarch gartrefu. Y mae yr Ysgrythyrau fel yn rhoddi amnaid ei fod wedi sefydlu ei breswylfod am amser maith yn y llanerch. Yn wir, nid ydynt yn rhoddi unrhyw le i gasglu ei fod byth wedi ymadael oddi yno. Y mae ei waith yn planu y winwydden yn ymddangos fel yn arwyddo ei fwriad i breswylio yno. Nid oes un gair yn cael ei ddywedyd am y patriarch yn gadael y lle; nac am neb o'i feibion chwaith, hyd y *symmudiad cyffredinol.*" Pan y daeth dynolryw i fod yn bur lluosog, "gwelodd Duw yn dda ranu i'r amrywiol deuluoedd wahanol ardaloedd, i'r rhai yr oeddynt i ymneilluo; ac fe ddarfu iddynt, gan hyny, symmud yn nyddiau Peleg, a myned i'w gwahanol leoedd. Ond ni fynai meibion Cus ufuddhau. Hwy a aethant ymaith o dan arweiniad yr arch-wrthryfelwr Nimrod, ac y mae yn ymddangos iddynt fod am gryn ysbaid yn crwydro; ond o'r diwedd, daethant i wastadedd Sinar. Hwy a ganfuant y lle hwn wedi ei feddiannu gan Assur (*Gen.* x. 11) a'i feibion; o blegid yr oedd efe wedi ei osod yno trwy orchymyn Duw. Ond hwy a'i bwriasant ef allan, ac a gymmerasant feddiant o'r wlad. Y mae eu harweinydd yn cael crybwyll am dano yn fynych gan ysgrifenwyr cenedlig, o dan yr enw Belus." (*Bel, Baal;* "nid enw unrhyw

Digitized by Google

berson neillduol, ond cyfenwad a gymmerid gan amryw, ac o wahanol genedloedd."—*Anc. Myth.*, cyf. vi. td. 260) "Yn nechreuad yr hanes hwn, dywedir eu bod wedi ymdaith o'r dwyrain pan ddaethant i wlad Sinar. Dyma ran ddiweddaf eu taith: a gellid dangos yn eglur, dybygid, y rheswm am eu dyfodiad yn y cyfeiriad hwn. Fe orphwysodd yr arch, yn ol yr hanesion mwyaf cywir yn yr Ysgrythyrau a chan baganiaid, ar fynydd yn Armenia, a elwir Minyas, Baris, Lubar, ac Ararat." [Gwel ARARAT; ARCH.] "Y mae yn debyg fod amryw deuluoedd wedi myned yn union tua 'r *dwyrain* neu y *gorllewin* mewn canlyniad i'r lle yr oeddynt wedi eu trefnu iddo. Ond nis gallai y rhai oedd i fyned i'r rhanau deheuol o'r cyfandiroedd eang yr oeddynt i'w preswylio, wneuthur eu ffordd mor rwydd, gan fod mynyddoedd uchel iddynt fyned rhyngddynt." Yma, dengys Mr. Bryant mor anhygyrch oedd y mynyddoedd hyn:—"Gellid meddwl, gan hyny, fod dynolryw o dan orfod, o angenrheidrwydd, i aros am rai oesoedd yn agos i'r fan y disgynasant; ac nad ymadawsant oddi yno chwaith hyd yr ymfudiad cyffredinol. Y mae Armenia, i fesur mawr, yn cael ei hamgylchu naill ai gan y môr neu fynyddoedd; ac ymddengys fod yn mwriad rhagluniaeth gyfyngu meibion dynion i'r wlad hon yn neillduol, i rwystro iddynt fyned i grwydro yn rhy fuan. Oni buasai hyn, gallasent fyned ymaith yn heidiau bychain cyn i'r teuluoedd mawrion gael eu ffurfio. Yr oedd amryw deuluoedd o dan angenrheidrwydd i dramwy mwy neu lai tua 'r dwyrain, mewn trefn i ddyfod i waered i barthau isaf Asia. Gallasai y Cusiaid, y rhai yr ymddengys iddynt fod am gryn ysbaid mewn cyflwr crwydrol, dramwy hyd y Pylæ Caspiæ cyn iddynt ganfod lle i fyned allan. Mewn canlyniad i hyn, yr oedd yn rhaid i'r rhan olaf o'u llwybr fod yn 'ymdeithiad tua 'r dwyrain.' Yr oeddwn yn rhyfeddu, wedi i mi ffurfio y syniad hwn oddi wrth hanes naturiol y wlad, i ganfod ei fod yn cael ei gadarnhau gan yr hen hanesydd Berosus. Y mae efe yn crybwyll am lwybr ei gydlwadwyr o Ararat ar ol y dylif, ac yn dyweyd nad oedd mewn llinell uniongyrchol; ond fod y bobl wedi eu cyfarwyddo i *fyned ar gylch, ac felly i ddisgyn i ardaloedd Babylonia.* Yn y wedd yma, daeth meibion Cus i wastadedd Sinar, rhan o ba un oedd Babylonia; oddi yno, hwy a fwriasant Assur allan; ac wedi hyny, hwy a ormesasant ar derfynau Elam yn y parthau tu hwnt i'r Tigris." [*Anc. Mythol.*, cyf. iv. td. 21—34.]

Y mae Mr. Bryant yn dwyn rhesymau dros gredu mai anmhariaeth ar y peiriannau ymadrodd, wedi ei roddi arnynt yn wyrthiol, fel nas gallent roddi y sain briodol a dealladwy i'r un geiriau a'r un iaith, oedd y *cymmysgiad ieithoedd;* ac nad oedd wedi effeithio ar neb ond ar deulu Cus—nad oedd ond dros dymmor, a'i fod wedi peidio ar ol iddynt ymwahanu. Dywed yn mhellach:—"Ymddengys eu bod yn gorff pur luosog; ac mewn canlyniad i'r methiant hwn, hwy a ffoisant ymaith—nid i unrhyw le ag yr oeddynt wedi penderfynu arno—gan gael eu 'gwasgaru ar wyneb yr holl ddaiar.' Yr oedd ganddynt amryw wedi ymlynu wrthynt—rhai efallai o bob teulu—gwrthgilwyr oddi wrth y gwirionedd, y rhai a adawsant deulu eu tadau a chrefydd y gwir Dduw. O blegid, ar ol yr ymadawiad o Babel, yr ydym yn canfod yn mysg Cusiaid Caldea rai o deulu Sem (*Gen.* xi. 28, 31), na buasem braidd yn dysgwyl eu canfod yn y tath gymdeithas. A gallem yn naturiol dybied fod amryw o gangenau o Cham wedi ymuno yn yr un modd mewn cynghrair a'r gwrthryfelwyr."

Wedi symmud, fel yr ydys yn tybied, yr anhawsderau hyn, caiff ein llwybr fod yn eglur ac yn fyr wrth roddi ystyriaeth i'r prif bwnc: sef gwasgariad cyntaf y teuluoedd a'r llwythau a fwriadwyd i ffurfio cenedloedd y ddaiar.

"Y mae yr hanes cyntaf am y teulu dynol, a'r cyfansoddiad henaf, fe ddichon, yn y byd, mewn gwaith yn Hebraeg," rhanau cyntaf yr hwn (*Gen.* i. ii.) ydynt "ragymadrodd i'r hanes gwladol henaf sydd ar gael. Yr ydym yn canfod eu gwirionedd yn cael ei gadarnhau trwy ymresymiad, a thrwy brawf, mewn rhan yn dra thebygol, ac mewn rhan yn sicr; ond y mae y cyssylltiad sydd rhwng hanesiaeth Moses ag eiddo yr efengyl—trwy gadwen o ragfynegiadau arddechog nad oes un ammheuaeth am eu henafiaeth, sydd yn amlwg wedi eu cyflawnu, yn ein rhwymo i dybied fod yr hanesiaeth Hebreig o darddiad uwch law dynol, ac o ganlyniad, yn wir yn mhob rhan o honi; er, fe ddichon, wedi ei gosod mewn rhyw fanau mewn iaith ffugrol. Nid yw mwyach yn debygol yn unig, ond yn hollol sicr, fod holl blant dynion wedi dyfod o *Iràn* (enw priodol Persia, a rhai ardaloedd cymmydogaethol), fel canolbwynt o'r lle yr ymfudasant ar y cyntaf mewn tair trefedigaeth fawr; a bod y tair cangen yma wedi tarddu o gyff cyffredinol, yr hwn a gadwyd yn wyrthiol yn ninystr cyffredinol y byd gan y dylif."—*Sir William Jones on the Origin and Families of Nations.*

Wrth dalu sylw manwl i'r pennodau hyn, y mae y pethau canlynol yn ymgynnyg i'n sylw:—

1. Nid yw y rhifiad yn cynnwys neb ond y cenedloedd oedd yn bod yn oes Moses yn unig—na neb o honynt hwythau, y mae yn debyg, ond y rhai mwyaf hynod—fel yr ceddynt i raddau mwy neu lai yn dwyn cyssylltiad â hanes yr Israeliaid. Y mae llawer o genedloedd wedi cael eu ffurfio mewn amseroedd dilynol, ac yn wir eto yn cael eu ffurfio, trwy ymwahaniad ac ymgymmysgiad. Nis gellir ystyried y rhai hyn yn cael eu cynnwys ond yn unig mewn haniad diweddarach. Y cyfryw ydyw poblogaeth dwyrain Asia, canolbarth a deheudir Affrica, America, ac Australia.

2. Nis gellir dyweyd, gyda sicrwydd, ein bod yn cael yma daflen gyflawn o'r holl genedloedd oedd mewn bod hyd yn oed yn amser Moses. Y mae yn rhoddi meibion pob un o feibion Noah; ond y mae yn amlwg na nodir eu plant hwythau (orwyrion Noah) oll; ac nis gallwn wybod mewn un modd pa nifer sydd yn cael eu gadael allan. Fel hyn, ni ddilynir yn nheulu Iapheth ond Gomer a Iafan: gadewir Magog, Madai, Tubal, Mesech, a Thiras, heb grybwyll dim am eu hiliogaeth; eto, y mae genym brofion fod cenedloedd o bwys mawr yn hanes dynolryw wedi disgyn o honynt. Yr oedd i Cham bedwar o feibion: y mae meibion, neu yn hytrach hiliogaeth genedlaethol, tri o honynt yn cael eu nodi: ond ni roddir teulu Phut, y pedwerydd. Yr oedd i Sem bump o feibion: ond ni roddir un hanes am hiliogaeth ond dau o honynt. Nis gellir tybied fod y rhai hyny, nad oes grybwylliad am eu teuluoedd, wedi marw yn ddiblant; o blegid, fel y sylwir eto, gellir olrhain hanes cenedloedd lluosog a darddasant o honynt.

3. Y mae hiliogaeth uniongyrchol Iapheth, Cham, a Sem, oddi eithr Nimrod, ac ychydig ereill, amryw o ba rai sydd yn ammheus, yn cael eu rhoddi i ni dan enwau, nid rhai personol, ond

Digitized by Google

enwau yn gosod allan lwythau neu genedloedd, neu eu gwledydd. Felly y mae y rhai oll sydd yn terfynu yn y lluesog *im*, ac ereill, megys y Iebusiad, yr Hefiad, &c.

4. Wrth roddi enwau cenedloedd i'r rhai a nodir yma, y mae weithiau gryn ansicrwydd. Ni ddylid gorphwys ar gyffelybrwydd sillebiad a sain yn unig: rhaid cael profion cadarnhaol. Y mae enwau dwyreiniol yn meddu nodwedd hynod o anghyfnewidiol, o'r hyn y mae Dr. Robinson wedi gwneuthur defnydd pwysig yn ei *Biblical Researches in Palestine*. Ar y tir yma, y mae casgliadau yn lled ddiogel. Ond y mae yn hollol wahanol gyda'r enwau a roddir i ni trwy gyfrwng y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; o blegid yr oeddynt hwy yn cymmeryd cryn ryddid yn fynych i wneuthur cyfnewidiadau mewn enwau priodol i'w dwyn i gydffurfiad â'u hiaith eu hunain. Yr ydym, yn yr ymchwiliad hwn, yn cael cymhorth pwysig yn yr hanes am fasnach Tyrus (*Ezec.* xxvii), ar gyfrif ei fod mor gynnwysfawr, ac am ei fod o ddwyfol awdurdod.

5. Nid oes genym seiliau i dybied fod y teuluoedd, neu y llwythau—neu pa fodd bynag yr oedd y minteoedd yn cael eu ffurfio—wedi ymfudo yn uniongyrchol i'w gwahanol diriogaethau trwy ymraniad cyffredinol ar unwaith. Byddai hyn yn rhagdybied math o orfodaeth nad oes genym le i'w gasglu oddi wrth amgylchiadau yr hyn a gymmerodd le, nac oddi wrth yr hanes. Gallem ddychymygu ddarfod i amrywiol symmudiadau ddygwydd, a hyny yn codi oddi ar yr ystyriaeth o ddyledswydd a phriodoldeb y peth—yn cael ei drefnu, i fesur mawr, yn ol rheolau y patriarch Noah, ac yn cael ei gadarnhau gan amgylchiadau a ddygwyddent yn anocheladwy; megys, ar un llaw, daiargrynfäau, ymdoriadau llosgfalus, afiachusrwydd ardaloedd corsog, cael eu poeni gan drychfilod adeiniog a chreaduriaid peryglus ereill—yn eu tueddu i ymofyn am le mwy cysurus; ac, o'r ochr arall, fod rhyw bethau deniadol, lleoedd gwell a mwy cyfleus i borfau eu hanifeiliaid, gwell tir i gynnyrchu ffrwyth, lle mwy dymunol i wneuthur eu tai, i ffurfio trefydd, ac er diogelwch y trigolion, yn tynu eu sylw. Y mae yn rhy debyg hefyd fod yno ddynion cynhenus, neu rai wedi cyflawnu drygau, y rhai gyda'u teuluoedd, a'r rhai a ymunent â hwy, a ymadawent ac a aent ymaith mor bell ag y gallent.

6. Yn yr ymraniad a'r ymdeithiad, byddai llawer iawn o wahaniaeth o ran yr achos cynhyrfiol o hono, a'r modd y cymmerai le; effeithiai ar y minteioedd yn fwy neu yn llai gyda golwg ar yr amser, y nifer, a chyflymder y symmudiad.

7. A ddarfu i'r symmudiad mawr hwn—mor bwysig yn ei ddylanwad ar hanes dynolryw—wreiddio mewn gorchymyn dwyfol, wedi ei roddi trwy ddadguddiad gwyrthiol? Neu ynte, a ddygwyd ef oddi amgylch yn unig yn llwybr cyffredinol rhagluniaeth Duw, i'r hon nid oes dim yn fawr na dim yn fychan, sydd yn gweithredu trwy foddion naturiol ar farnau, ewyllysiau, a gweithrediadau plant dynion fel creaduriaid cyfrifol? Yr ydym yn tybied nad oes genym resymau penderfynol dros dderbyn y naill ochr mwy a'r llall. Gellid haeru o blaid y cyntaf, yr angenrheidrwydd am awdurdod goruchnaturiol i gynnyrchu ufudd-dod cyffredinol; fod y cymhelliad yn codi oddi wrth sicrwydd am arweiniad ac amddiffyn dwyfol; a bod ffaith gyffelyb wedi cymmeryd lle yn mhen 600 mlynedd wedi hyny (amseryddiaeth diwygiedig—yn ol y testyn Hebraeg presennol, 176 yn unig); "A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Abram, Dos allan o'th wlad, ac oddi wrth dy genedl, ac o dŷ dy dad, i'r wlad a ddangoswyf i ti;" *Gen.* xii. 1. Wrth edrych ar y dybiaeth olaf hefyd, dylid cofio fod pob dygwyddiad mor ragluniaethol a'u gilydd—fod Duw yn dwyn yn mlaen ei lywodraeth yn anweledig, ac yn rhy fynych heb gael ei chydnabod yn ei dylanwad ar weithrediadau ei greaduriaid, ac nad yw hyn yn ddim llai prawf o honi na phan y gwna hyny trwy amlygiad goruchnaturiol o'i ewyllys; nad yw yr hanes ysbrydoledig yn rhoddi un hysbysrwydd am y fath amlygiad ar y pen hwn; fod cynllun y llywodraeth ddwyfol yn hollol gyfaddas i'r holl effeithiau; a bod yr iaith, ar yr hon yr ydym wedi sylwi (*Deut.* xxxii. 8), yn berffaith gysson â chylch cyffredinol yr amgylchiadau trwy ba rai y mae y Goruchaf yn dwyn yn mlaen ei lywodraeth yn mhlith dynion, ac yn "gweithio pob peth wrth gynghor ei ewyllys ei hun" (*Dan.* v. 21; *Eph.* i. 11).

Nid oes genym bellach ond rhoddi rhestr o enwau cenedloedd o flaen y darllenydd, gan wneyd defnydd o lafur Bochart, J. D. Michaelis, Rosenmüller ieuengaf, Gesenius, Robinson, a Baumgarten.

I. *Meibion Iapheth* (*Iapetus* y Groegiaid).

1. Gomer. Olrheinir yr enw hwn yn Cimmerii Homer a Herodotus; Gomares (Γομαρεῖς, Josephus, *Henaf.* i. 6). Dyma y Cymry, o'r rhai yr hanodd y Celtiaid, y Gauliaid, y Galatiaid, yr holl lwythau Celtaidd ac Iberiaidd, Gaelig, Gwyddelig, a Llydawig; y Bosphorus Cimmeraidd, a'r Crimea.

Meibion Gomer.—

(1.) Ascenas. Axeni; preswylwyr cyffiniau deheuol y Môr Du, lle y canfyddwn wlad Askania, ac afon Askanius, a rhan fawr o Armenia; y Basqueaid yn ngogledd Yspaen (*Ier.* li. 27); yr hen Gymry, neu Ascenedæ yr Almaen.

(2.) Riphath (Diphath—1 *Cron.* 1. 6: troi yr R i'r D, fel y gwneir weithiau). Rhibiaid yn y dwyrain i'r Môr Du; Tobata, a pharthau ereill o Paphlagonia; Croatia; y mynyddoedd Riphæaidd—enw lled adnabyddus mewn hen ddaiaryddiaeth [*Strabo, Virgil, Pliny, Mela*], yn cyfeirio, fe ddichon, at y gadwen fawr o fynyddoedd o ogledd Asia i'r gorllewin (Hyperboræaid, Steph. Byzant); ac o ganlyniad, yn cynnwys gwybodaeth am yr ardaloedd Uralaidd, Hartzaidd, ac Alpaidd.

(3.) Togarmah. Pobloedd Armenia, a rhanau ereill o'r cyffiniau Caucasaidd. Dywed traddodiad Armeniaidd, mai eu cyndad oedd Haik, mab Torgom, ac ŵyr Noah.

2. Magog. Ymddengys fod yr enw hwn yn cael ei ddefnyddio yn Ezeciel am wlad, a Gog yn enw ei phenaeth. Y Mongoliaid, Moguliaid; cenedl fawr y Tartariaid.

3. Madai. Y Mediaid; trigolion Iran, i'r rhai y perthynai yr iaith Sanscrit; preswylwyr cyntaf Hindwstan.

4. Iafan. Y Groegiaid, Asiaidd ac Ewropaidd. Iaoniaid [*Hom. Iliad*, xiii. 685].

Meibion Iafan:—

(1.) Elisah. Groegiaid, yn neilldiol o'r Peloponnesus; Hellas; Elis, yn yr hon y mae Alisium (Ἀλείσιον,—*Il.*, ii. 617).

(2.) Tarsis. Cyffiniau dwyreiniol Yspaen, lle y sefydlodd y Canaaneaid Phœniciaidd wedi hyny eu trefedigaeth.

(3.) Cittim. Preswylwyr yr ynysoedd, ac amryw o gyffiniau Môr y Canoldir; yn neilldiol y Macedoniaid a'r Rhufeiniaid, a'r rhai yn mhellach i'r dwyrain.

(4.) Dodanim (Rhodanim: 1 *Cron.* i. 7), Dodona,

Digitized by Google

trefedigaeth o'r hon y mae yn debyg a ymsefydlodd yn ngheg y Rhone a'r Rhodanus.

I hil Iapheth y priodolir poblogi "ynysoedd y cenedloedd" (*Gen.* x. 5)—enwad Hebraeg mynych i'r gwledydd gorllewinol, â pha rai y byddai a wnelai yr Israeliaid, y Tyriaid, yr Aiphtiaid, &c.; a hyny drwy y môr.

II. *Meibion Cham.* Y gair hwn a arwydda *poethder* neu *boeth*, yn ol yr Hebraeg; ond yn ol y Gymraeg, *gwyrgam*, *gwyrdraws*, *anghyfiawn*—yr hyn a'u hynoda.

1. Cus. Yr Ethiopiaid, yn gyntaf ar dueddau Arabiaidd y Môr Coch; yna, y rhai a ymsefydlasant ar yr ochr Affricanaidd, ac wedi hyny a ymestynasant yn mhell tua'r gorllewin; fel y daeth y gair Cusiad (*Ier.* xiii. 23) i ddynodi y *negro*.

Meibion Cus:—

(1.) Seba. Yn gyssylltiedig â Mizraim a Cus (*Esa.* xliii. 3), yn amlwg yn dynodi agosrwydd a chyffelybrwydd. Y mae y llwyth neu y dosbarth yma, mae yn debygol, yn perthynu i Suba, enw cynnwynol Meroe ar y Nile, yn mhen deheuol uchaf yr Aipht, neu ddechreuad Ethiopia.

(2.) Hafilah. Y mae amrywiol o enwau lleoedd yn Arabia orllewinol, ac yn y rhanau agosaf ati o Affrica, yn dangos perthynas â'r enw hwn. Y mae yn hollol wahanol oddi wrth Hafilah (*Gen.* ii. 11) sydd yn agos i Armenia, ac mae'n debyg oddi wrth un arall (*Gen.* x. 29) yn Arabia; oddi eithr i ni dybied fod llwythau wedi ymuno, neu fod y naill wedi dilyn y llall.

(3.) Sabtah. Y mae Sabota, neu Sabbatha, yn enw ar hen dref fasnachol yn Arabia.

(4.) Raamah, רעמה; Deg a Thrigain, *Rhegma* (Alex. *Rhegelma*)—yr hwn, wrth newid yr ε i η sydd enw porthladd, yn ol y daiaryddwr Groeg-Aiphtaidd, Claudius Ptolemy (yr hwn a flodeuodd yn yn y rhan gyntaf o'r ail canrif), ar dueddau Arabiaidd morgainc Persia. I'r lle hwn y dywed Dr Baumgarten fod yr enw yn perthynu. Dywed ereill mai Ramah ydyw—tref o gryn bwys ar yr ochr dde-ddwyreiniol i Arabia Felix, lle mae ei thrigolion yn hynod o dduon; yn cael ei chrybwyll mewn cyssylltiad â Seba yn *Ezec.* xxvii. 22, fel lle cyfoethog o ran ei masnach yn y dwyrain.

Crybwyllir am ddau fab i Raamah—Seba, a Dedan. Yr ydym yn canfod y rhai hyn mewn rhanau diweddarach o'r Ysgrythyr yn hynod am eu masnach a'u cyfoeth (*Salm* lxxii. 10, 15; 1 *Bren.* x. 2; *Esa.* lx. 6; *Ezec.* xxvii. 15, 20, 22). Y mae y ddau le yn gorwedd yn mharth gorllewinol Arabia. Daeth brenines Seba i lys Solomon. Bernir gyda thebygrwydd mai Dedan yw gwreiddyn Aden, yr hen borthladd ar yr ynys hono, wrth geg y culfor Arabiaidd neu y Môr Coch, yr hwn sydd wedi dyfod yn ddiweddar i feddu pwysigrwydd o newydd.

(5.) Nimrod. Heb law Babel ei fam-ddinas, efe a adeiladodd dair tref yn ngwastadedd eang Sinar; sef Erech, Accad, a Calneh. Y rhai hyn, y mae yn debyg, oeddynt Aracca, neu Arecha, ar y Tigris (Edessa, yn ol tyb rhai); Sacada, yn agos i gydgyfarfyddiad y Lycus a'r Tigris; a'r drydedd (Calno: *Esa.* x. 9), Chalonitis y Groegiaid, a elwid wedi hyny Ctesiphon; ond y mae cryn dywyllwch yn gorwedd ar y tybiau hyn.

2. Mizraim: yn llythyrenol y ddwy Aipht, yr uchaf a'r isaf: gelwid pob un o'r ddwy *Misr*—gair cyffredin yn y wlad hono hyd yn oed yn awr. Y mae saith o'i hiliogaeth yn cael eu nodi o dan enwau cenedlaethol yn y *lluosog*; ac y mae rhai o honynt yn ddigon adnabyddus.

(1.) Ludim. Lydiaid—yn enwog fel milwyr a saethyddion (*Esa.* lxvi. 19; *Ier.* xlvi. 9; *Ezec.* xxvii. 10; xxx. 5); ac yn y lleoedd hyn, mewn cyssylltiad â phobloedd ereill adnabyddus fel Affricaniaid. Yr oedd y Ludim, mae yn debyg, yn gorwedd tuag Ethiopia. Ni ddylid eu cymmeryd am Lydiaid Asia Leiaf (*Gen.* x. 22). Ceir yr adroddiad canlynol gan Mr. John Hamilton, yn ei *Researches in Asia Minor, Pontus, and Armenia*, wrth roddi hanes am yr ychydig adfeilion sydd yn aros o Sardis, hen brif ddinas Lydia:—"Yr oedd yn fy mwriad chwanegu rhai sylwadau ar hanes boreuol Lydia sydd mewn traddodiadau, a dilyn cynllun gwaith dyddorol Abbé Guerin du Rocher ar hanesiaeth draddodiadol yr Aipht, i ddangos y modd y gallesid diosg hanes Lydia o'r dychymygion anghysson sydd yn Herodotus, a hen haneswyr ereill, mewn perthynas iddi. Yr oeddwn yn dymuno dangos mai Noah oedd Manes, brenin cyntaf Lydia; mai Lydus, ŵyr Manes, oedd Lud, ŵyr Noah; ac yn neilldiol, gyda golwg ar y pwnc dyrus o ymfudiad Tyrrheniaidd y Lydiaid, fod yr holl hanes yn adroddiad cymmysglyd ac anghysson wedi ei sylfaenu ar ymfudiad Tyrrheniad arall; sef, Abraham mab Terah; a bod hanes yr ymfudiad Lydiaidd yn cydfyned yn mhob peth o bwys â'r adroddiad yn y ddeuddegfed a'r drydedd bennod ar ddeg o Genesis. Pa fodd bynag, wedi i mi ganfod y buasai eglurhâd ar y syniad hwn yn myned yn helaethach nag yr oeddwn yn tybied ar y cyntaf, gorfu i mi ei adael o'r neilldu hyd ryw amser eto."

(2.) Ananim. Pur ansicr. Tybia Bochart mai llwythau crwydrol o amgylch teml Jupiter Ammon oeddynt, lle yr oedd pobl gynt a elwid Nasamoniaid.

(3.) Lehabim. Efallai mai preswylwyr ar dueddau y môr yn union i'r gorllewin o'r Aipht. Mae yn debyg mai y Ludim ydynt, y rhai y sonir am danynt yn 2 *Cron.* xii. 3; *Nah.* iii. 9.

(4.) Pathrusim. Pobl y Thebaid (Pathros) yn yr Aipht Uchaf.

(5.) "Casluhim, o'r rhai y daeth Philistim." Pobl ar dueddau gogledd-ddwyrain yr Aipht, trefedigaeth o ba rai oedd y Philistiaid—efallai mewn cyssylltiad â rhai o'r Caphtorim.

(6.) Caphtorim. Trigolion ynys Cyprus.

3. Phut. Ceir y gair yma mewn dau fan neu dri arall, bob amser mewn cyssylltiad âg Affrica. Crybwylla Josephus a Pliny am afon yn Affrica o'r enw Phutes. Dywed Ritter, y daiaryddwr henafiaethol enwog diweddar, ddarfod i finteioedd o bobl ymdywallt allan o Futa, yn nghanolbarth Affrica.

4. Canaan. Daeth ei hiliogaeth ef allan o Arabia, sefydlasant drefedigaeth yn Palestina, a meddiannasant yn raddol yr holl wlad.

Ei blant neu ei hiliogaeth oeddynt:—

(1.) Sidon, ei gyntafanedig, yr hwn a sylfaenodd ddinas o'r enw hwnw.

(2.) Heth, cyndad yr Hethiaid. Y mae y *naw* ereill yn eithaf adnabyddus; a gosodir hwynt i lawr yma o dan enwau sydd yn cyfeirio at y cenedloedd a hanodd o honynt—y Jebusiad, yr Amoriad, y Girgasiad, yr Hefiad, yr Arciad, y Siniad, yr Arfadiad, y Semariad, a'r Hamathiad. Yr oedd y cyfan yn perthyn i Palestina, ac y mae terfynau y wlad yn cael eu nodi yn fanwl.

III. *Sem*, yn ol tyb rhai, oedd yr henaf o'r tri brawd, er ei fod yn cael ei enwi yma yn olaf. Y rheswm am hyn, meddant, yw, mai bwriad yr hanesydd oedd dilyn llinach y bobl a godai y Llywodraethwr dwyfol yn hiliogaeth Sem; ac yn yr

Digitized by Google

hwn, "pan ddelai cyflawnder yr amser," y "bendithid holl genedloedd y ddaiar."

Meibion Sem:—

1. Elam. Cyndad yr Elamitiaid, neu yr Elamæiaid, y rhai a feddiannent Elymais—parth o wlad rhwng Susiana a Media, a elwir yn awr Khusistan. Daeth y Persiaid Iaphetaidd wedi hyny i'r wlad, ac a ennillasant yr oruchafiaeth; ac mewn canlyniad, cynnwysid hwy o dan yr enw Elam.

2. Assur. Cyndad yr Assyriaid.

3. Arphaxad:—enw personol yn llin Abraham. Y mae y gair, dybygid, yn arwyddo *cyfagos i'r Chasdim*, h. y., y Caldeaid. Y mae yr enw yn ymddangos yn *Arrhapachitis*, talaeth yn Assyria Ogleddol, cartrefle boreuol y Chasdim; yn agos i hon, neu ynddi, y ganwyd Abraham.

Meibion Arphaxad:—

Y mae y rhai hyn yn benaf yn bersonol, ac yn gwasanaethu i ffurfio y llinach gyssegredig sydd yn arwain at y Messiah. Crybwyllir yn y llin hon am ddau ŵyr, Peleg, yn mherthynas i'r hwn y sylwyd eisoes, a

Heber. Y mae yr unig beth mewn cyssylltiad âg ef yn dra phwysig (yr hyn sydd fel pe byddai yn arwyddo rhyw beth hynod yn ei hanes personol), am ei fod yn wreiddyn i'r enw Hebread—enw hen a chyffredinol y genedl, ac yn cynnwys Abraham ei hunan. Gwel HEBER.

Ioctan. Efe a gydnabyddir yn gyffredinol yn dad llwythau lluosog o Arabiaid yn Yemen (Arabia Ddedwydd)—a elwir felly ar gyfrif ei pherlysiau (*spices*), a chynnyrchion cyfoethog ereill, ac i'w gwahaniaethu oddi wrth y Garegog a'r Anial. Y mae tri ar ddeg o sylfaenwyr y llwythau hyn yn cael eu nodi. Y cyntaf y mae yn amlwg yw *Modad*, gyda'r fannod Arabiaidd: yr ail yw *Shaleph*; ac y mae Ptolemy yn crybwyll am bobl yn nghanolbarth Arabia, a elwir Salapeni. *Hatzarmaveth*, sydd randir ffrwythlawn ar y tueddau deheuol, ag sydd eto yn dwyn yr un enw yn hollol. Y mae yr enw hwnw yn arwyddo *cauadle, porth*, neu *gyntedd marwolaeth*, ar gyfrif ei afiachusrwydd—yr hyn sydd yn codi oddi ar gymmysgedd mawr a chryf o aroglau. Y mae Ierach yn arwyddo y *lleuad*. O'r tu gorllewin i'r lle hwn, y mae rhandir lle y ceir aur, yn yr hwn y mae Mynyddoedd y Lleuad. Dylid gwahaniaethu y rhai hyn eto oddi wrth y rhai sydd yn nwyrain Affrica, y rhai sydd yn dra anadnabyddus; ac a elwid hefyd gan y dwyreinwyr yn Asgwrn Cefn y Byd. *Hadoram*, Adramitiaid Ptolemy a Pliny, ar y tueddau deheuol. *Uzal* (neu *Meuzal*), a grybwyllir yn *Ezec.* xxvii. 19; dylid ei gyfleithu "Fedan a Iavan (efallai Yemen ?) o Uzal"—hen enw prif ddinas Yemen, yn awr Sanaha. *Obal* (Ebal yn 1 *Cron.* i. 22)—anadnabyddus. *Abimael*—anadnabyddus: ei ystyr yw, *fy nhad Mael;* a thybia Bochart mai Maliaid Theophrastus a Minæaid Strabo—llwyth neu lwythau yn Arabia—a olygid. *Sheba*, yn arwyddo, fe ddichon, ymgyrch o eiddo y llwyth hwn ar Dedan a Sheba Cusiaidd: *Gen.* x. 7; gwel hefyd *pen.* xx. 3. Y mae llawer o anhawsder yn fynych i wybod am derfynau cenedloedd, yn codi oddi wrth y fath gymmysgedd. Crybwyllir am Sheba a Seba (*Gen.* x. 7) yn aml yn yr Hen Destament, fel lleoedd o gyfoeth a masnach mawr. *Ophir*—yn ddiau yn cyfeirio at borthladd yn neheubarth Arabia, mor hynod am ei masnach mewn aur, gemau, a choed prydferth. Rhoddid yr un enw, mae'n debyg, i leoedd yn yr India a dwyrain Affrica, i'r lle y byddai llongau masnachol Ophir Arabiaidd yn myned. Y mae tref a elwir gyda'r fannod *El-Ophir* mewn parth ar dueddau deheuol Arabia, o'r enw Oman. *Hafilah:* dichon fod yr ymsefydlwyr Cusiaidd wedi eu gyru ymaith gan y llwyth Ioctanaidd hwn. *Iobab:* y mae Ptolemy yn crybwyll am lwyth *Iobaritæ*, ar dueddau dwyreiniol Arabia. Gallai yr *r* fod yn gamsyniad neu yn amrywiaeth cangenieithol am *b*.

Ymddengys fod y tri llwyth ar ddeg hyn wedi ffurfio y cynghrair o Arabiaid annibynol ac anorchfygadwy—gyddfdir, anialwch, a mynyddoedd gwlad pa rai a'u hamddiffynodd rhag ymgyrchoedd. Ymunodd Ismael a'i hiliogaeth â hwynt.

Y mae ein testyn yn terfynu gyda dysgrifiad o linell terfynau gwlad y llwythau hyn, "o Mesa hyd Sephar." Y gyntaf, y mae yn debyg, ydyw gwlad Maishon neu Mesene, yn mhen gogleddorllewin y Culfor Persiaidd; a'r olaf, ar dueddau de-orllewin Arabia, lle y canfyddir mynydd o'r enw Sabber.

4. Lud. Oddi wrtho ef y cafodd y Lydiaid yn Asia Leiaf eu henw.

5. Aram. O hono ef y tarddodd preswylwyr Syria, Chalonitis, a rhan helaeth o Mesopotamia.

Meibion neu hiliogaeth Aram:—

(1.) Uz. Yn rhan ogleddol Arabia, yn terfynu ar Caldea:—gwlad Iob.

(2.) Hul. Y gwastadedd eang yn ngogledd Palestina, trwy yr hwn y mae gyrfa yr Iorddonen yn cychwyn; hyd yn oed yn awr gelwir ef Tir Hûleh: ac yn yr hwn y mae Llyn Hûleh—Merom gynt, am yr hwn y rhoddir hanes manwl gan Dr. Robinson [*Researches*, iii. 339—357; ail argraff., ii. 434—440].

(3.) Gether. Dwyrain Armenia; Carthara oedd ddinas ar y Tigris.

(4.) Mash (Mesech: 1 *Cron.* i. 17). Parthran yn y mynyddoedd yn ymestyn tua'r dwyrain o'r trum mawr Taurus: mynyddoedd Masiaidd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid.

Wrth yr ymadrodd, "y Cenedloedd," golygai yr Hebreaid—y rhai oeddynt hiliogaeth Sem eu hunain—yn gyffredin, hiliogaeth Iaphet, neu genedloedd y gorllewin. Cyfeirid yn wastadol at y rhai hyn gan eu prophwydi, fel rhai wedi eu rhagfwriadu i fod yn etifeddiaeth neu eglwys ddyfodol y Messiah. Ymledent o'r Caucasus i Fôr y Werydd. Yr oeddynt yn saith mewn rhiffedi, wedi deilliaw o saith mab Iapheth. Y mae Josephus yn nodi, gyda chywirdeb mawr, eu trefniadau a'u gwledydd. Meddiannai Gomer Italy, rhan o'r Almaen, ac Eithafoedd y Ddaiar (Prydain); a rhanodd hwynt rhwng ei dri mab, Ascenas, Riphath, a Thogarmah. O hono ef y deilliodd y Cymry; ac o'r Cymry, deilliodd y Celtiaid. Trosglwyddodd Magog, ail fab Iapheth, ei enw a'i etifeddiaeth i'r Scythiaid:—a Madai i genedl orchfygol a deithiasant tua'r deheu, ac a ddaethant yn Fediaid hanesiaeth. O Iafan y tarddodd cenedloedd Ioniaidd Asia Leiaf a Hellas. O Tubal, yr Iberiaid neu yr Yspaeniaid:—o Mesech, y Moscoviaid neu y Rwssiaid:—ac o'r seithfed mab, Tiras, y Thraciaid. Y mae yr holl genedloedd hyn, yn unol â phrophwydoliaethau yr Ysgrythyr, er's amser maith, wedi eu dychwelyd i'r ffydd yn Nghrist. "Cenedloedd hefyd a rodiant at dy oleuni, a breninoedd at ddysgleirdeb dy gyfodiad;" *Esa.* lx. 3. "Goleuni i oleuo y Cenedloedd, a gogoniant dy bobl Israel;" *Luc* ii. 32. Y mae y cenedloedd Iaphetaidd, yn mhob oes, wedi bod yn hynod am eu rhagoriaeth ar y cenedloedd Ammonaidd a Semitaidd, neu hiliogaeth

Digitized by Google

Cham a Sem: "Duw a helaetha ar Iapheth, ac efe a breswylia yn mhebyll Sem; a Chanaan fydd was iddo ef;" *Gen.* ix. 27. I feibion Iafan, y Groegiaid neu yr Helleniaid, y mae dynolryw yn ddyledus am y cofadeiljau ardderchocaf yn yr hen fyd, mewn celfyddyd, llenyddiaeth, a gwyddor: i feibion Gomer, sef Umbri Italy—cangen o ba rai oedd y Rhufeiniaid—am seiliau deddfau gwladol a rhyngwladwriaethol (*international*): ac i Gymry Prydain am y sefydliadau crefyddol mawrion, y rhai a ffynnasant yn Ewrop am bymtheg can mlynedd, ac i fesur mawr a barotoisant y ffordd i dderbyniad o'r efengyl dragwyddol. Yn yr amseroedd presennol, y mae y rhagoriaeth hwn yn ymddadblygu gyda nerth cynnyddol. Y mae Asia, gwlad "pebyll Sem," un ai yn meddiant ai o dan ddylanwad Iapheth, fel yn cael ei gynnrychioli gan ein hynys ni, Prydain. Y mae America ac Australia wedi eu chwanegu at ei diriogaethau, yn ol yr addewid am ei helaethiad. Y mae gwahanol genedloedd Ewrop yn cydymgais a'u gilydd mewn rhagori yn y celfyddydau, ac mewn llenyddiaeth, ar y cenedloedd hyny a ddeilliasant oddi wrth ddau fab ieuangaf Noah. Y mae Cristionogaeth, fel y derbyniwyd hi yn gyffredinol ar y cyntaf gan y cenedloedd Iaphetaidd, yn bodoli eto mewn amrywiol ffurfiau; ac fe fydd i'w ffydd a'i haddewidion, trwy eu lledaeniad gan ymdrechion cenadol, cyn hir, beri i dywyllwch paganiaeth yn y dwyrain gilio, a chymmeryd yr holl ddaiar i mewn i'w breichiau cymmwynasgar. O ganlyniad, y mae hanes dyfodol "y Cenedloedd," fel y gelwid hwynt unwaith, yn llwythog o'r canlyniadau mwyaf pwysig gyda golwg ar lwyddiant tymmorol ac ysbrydol dynolryw, a chynnydd Cristionogaeth a gwareiddiad.—(*Sir W. Jones's Discourse on the Origin and Families of Nations; Kitto's Cycl. of Bib. Lit.*; &c.)

CENEDLU, CENEDLIAD, [*cenedl*]: epilio, hilio. Y gair Groeg ydyw γεννάω. Cymhwysir at wrywiaid, yn ystyr Cymraeg y gair "cenedlu:" *Mat.* i. 2—16. Mewn ystyr trawsenwol arwydda, achosi, achlysuro, peri: 2 *Tim.* ii. 23; "magu ymrysonau." Pan ddefnyddir ef mewn ystyr ysbrydol, i ddynodi perthynas athraw â dysgyblion, arwydda, bod un yn offerynol yn nhröedigaeth arall; yn foddion i'w ddwyn i ystâd newydd: 1 *Cor.* iv. 15; *Philem.* 10. Pan gymhwysir y gair at Dduw, arwydda, ei fod yn cyfranu bywyd ysbrydol. Am hyny y gelwir y saint yn "blant Duw," ac yn rhai "wedi eu geni o hono ef."

Wrth ei gymhwyso at fenyw, arwydda *esgor: Luc* i. 13, 57; xxiii. 29; *Ioan* xvi. 21. Yn drawsenwol, ceir y gair yn *Gal.* iv. 24.

Y mae y gair "cenedliad tragwyddol" yn cael ei arfer gan dduwinyddion uniongred yn mhob oes i ddynodi y berthynas oruchel a dirgelaidd sydd rhwng y Tad a'r Mab yn y Drindod Sanctaidd. Rhaid i wrthwynebwyr yr athrawiaeth addef fod y mwyafrif o Gristionogion yn mhob oes ar yr eglwys yn cwbl gredu fod Iesu Grist yn cael ei alw yn Fab Duw ar gyfrif rhyw berthynas sydd yn hanfodi rhyngddo fel Duw a'r Person Cyntaf yn y Drindod. Pwnc y ddadl ydyw, A yw yr athrawiaeth hon yn cael ei dysgu yn yr Ysgrythyrau? Addefir gan bawb ei bod yn un o erthyglau ffydd y Cristionogion yn mhob oes a gwiad. Ymddengys fod gormod o ddadleu a checru wedi bod yn yr oesoedd boreuaf ar y cenedliad tragwyddol. Yn lle ei dderbyn fel pwnc o ffydd, fel "gwirionedd i'w gredu, ac nid i'w amgyffred," aeth llawer o dduwinyddion chwilio yn nghylch y *pa fodd*—i geisio esbonio natur y berthynas rhwng y Personau yn y Drindod; a hyny, weithiau, trwy fenthyca drychfeddyliau ac egluriadau o faes athroniaeth baganaidd, a'u cymhwyso at y pwnc. Ond, ar y llaw arall, yr oedd ysgrifenwyr mwyaf sobr yr eglwys yn y canrifoedd cyntaf, tra yn dal eu gafael yn dyn yn yr athrawiaeth, yn dysgu nad oedd yn briodol i greaduriaid byrolwg ymchwilio yn gywrain i'r modd—i natur y berthynas. Eu rheol oedd, "*Scrutator majestatis absorbetur a gloria.*" A dywed y Dr. Owen, mai y dadleuon cywrain hyn, rhwng Alexander ac Arius, "a roddes achlysur i gyfodiad yr anghenfil hwnw, yr heresi Ariaidd. O blegid, pan unwaith y mae dynion, o benau cywreinddoeth a chalonau heb eu sancteiddio, yn ymchwilio i bethau sydd yn annhraethol uwch law eu deall a'u galluoedd, trwy ymchwyddo yn eu meddyliau cnawdol, syrthiant i ymraniadau diddiwedd yn eu plith eu hunain, heb gytuno mewn dim ond mewn cydwrthwynebiad i'r gwirionedd." Tra yr oedd rhai, fel hyn, yn ymddadleu, ac yn ymhyfrydu mewn gwneyd rhyw wahaniaethau athronyddol gyda'r pwnc, yr oedd yr ysgrifenwyr hyny a ymdrechent "synied i sobrwydd" yn codi eu llef yn erbyn eu hyfdra rhyfygus. I'r perwyl yma y llefara Lactantius [*De Verâ Sapient*, llyfr iv.]:—"Pa fodd, gan hyny, y cenedlodd y Tad y Mab? Nis gall neb wybod a mynegu y gweithrediad dwyfol yma; ond y mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd yn dysgu ei fod yn Fab Duw—yn Air Duw." Llefara Ambrose hefyd gyda pharch duwiolfrydig:—"Y mae yn anmhosibl i mi wybod dirgelwch y cenedliad hwn. Y mae fy meddwl yn pallu, a'm llais yn dystewi—ac nid yn unig yr eiddof fi, ond yr eiddo yr angelion. Y mae uwch law pob tywysogaeth, angelion, cerubiaid, a seraphiaid—uwch law pob dealldwriaeth. Dod dy law ar dy enau—nid yw yn gyfreithlawn chwilio i mewn i'r dirgelion nefol hyn. Y mae yn gyfreithlawn i ni wybod ei fod wedi ei genedlu; nid yw yn gyfreithlawn dadleu am y *modd* y cenedlwyd ef. Nid yw yn briodol gwadu y cyntaf—y mae arnaf arswyd chwilio i'r olaf. O blegid, os dywed Paul, pan gymmerwyd ef i'r drydedd nef, nad oedd yn bosibl adrodd yr hyn a glywodd, pa fodd y gallwn ni fynegu dirgelwch y cenedliad dwyfol, yr hwn nis gellir ei ddirnad na'i glywed. Pa ham y mae y cyfryw gwestiynau blinderus yn dy foddhau?"—*De Fide ad Gratianum.* Ysgrifenodd Ephraim Syrus draethawd i'r perwyl yma yn erbyn y rhai a geisient chwilio allan natur Mab Duw; ac yn mysg pethau ereill, dywed—"Y mae yr hwn sydd yn chwilio allan ei Wneuthurwr, yn annedwydd, truenus, a rhyfygus. Y mae miloedd o filoedd, a channoedd o filoedd o filiynau o angelion ac archangelion yn ei ogoneddu gydag arswyd, ac yn ei addoli mewn gwylder; ac a ddadleua dynion o glai, llawn o bechod, yn nghylch y Duwdod yn ddiofn? Nid yw dychryn yn siglo eu cyrff, nid yw eu meddyliau yn crynu; ond gyda meddwl hamddenol, siaradant heb wyleidd dra am Fab Duw, yr hwn a ddyoddefodd drosof, bechadur annheilwng, ac am ei ddau genedliad." Yr un modd y llefara Eusebius, Leo, ac ereill.

Yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth, y mae yn debygol fod y syniadau a gyssylltid â'r geiriau "maboliaeth," a "chenedliad tragwyddol," yn fwy anmhenodol hyd yn oed na'r rhai a gyssylltir

Digitized by Google

yn yr oesoedd diweddaraf â hwynt gan y rhai sydd yn dal yr athrawiaeth gyffredin ar y pwnc. Dysgid Cristionogion gynt i gredu yn y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân; ac ystyrient y geiriau hyn fel enwau priodol Personau y Drindod fel y cyfryw. Eithr mor gynted ag y dechreuodd dynion, fel y sylwyd, ymholi i natur y berthynas a arwyddir yn y geiriau hyn, parodd hyny yr un amrywiaeth syniadau, a dull o fynegu y syniadau hyny, ag a ddangoswyd wrth geisio egluro athrawiaethau sylfaenol ereill. A diammheu yr arferwyd, yn y canrifoedd cyntaf, bob dull o ymresymu ac egluro ag a arferwyd byth wedi hyny gyda'r mater. Ceisiai rhai o'r tadau esbonio y dirgelwch, trwy ddefnyddio y gwahaniaeth rhwng Logos ἐνδιάθετος (=rheswm, neu ymadrodd wedi ei drefnu yn y meddwl), a Logos προφορικος (=rheswm, neu ymadrodd wedi ei fynegu). Gwrthwynebai Irenæus y dull hwn a dulliau ereill o esbonio yr athrawiaeth, tra y myntumiai yr athrawiaeth ei hun.

Benthycai Origen ei eglurhâd o'r athroniaeth Blatonaidd am y berthynas rhwng y νους (meddwl), ac ov (o'r ferf ειμι=*bod*):—fel y dadguddiwyd y diweddaf bob amser yn y cyntaf, felly y mae y Tad er tragwyddoldeb yn cael ei egluro yn y Mab fel dysgleirdeb ei ogoniant ef. Daliai genedliad tragwyddol y Mab; ond gwrthodai bob dull o ymadroddi, a phob eglurhâd wedi ei gymmeryd oddi wrth wrthddrychau elfenol neu faterawl, fel yn gwbl anghydweddol âg ysbrydolrwydd y Bod Dwyfol. Dadleuai yn erbyn y dywediad "cenedliad o'r hanfod (ουσιας) ddwyfol," am y barnai ei fod yn awgrymu fod y natur ddwyfol yn bosibl ei rhanu. Yr oedd dull Tertullian o feddwl yn llawer llai coeth. "Gallai ef," medd Neander, "synied, yn gydunol â'i gyfundraeth o ddeilliad, pa fodd y gallai bod ddeilliaw o'r Duwdod, meddiannu yr un sylwedd, er mewn graddau llai, fel y mae pelydr yn deilliaw o'r haul." Y mae dull y tadau yn Nghynghor Nice yn dra hysbys i bob darllenwr:—"Credwn yn yr un Arglwydd Iesu Grist, Mab Duw, uniganedig y Tad—hyny yw, o hanfod y Tad—Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch, Gwir Dduw o Wir Dduw, cenedledig — nid gwneuthuredig — o'r un hanfod a'r Tad, trwy yr hwn y gwnaethpwyd pob peth." Ac ar ol y cyfnod hwn, dyma y dull mwyaf cyffredin o lefaru ar y mater. Yn mysg duwinyddion Protestanaidd, y mae cryn gydrediad yn y dull o egluro cenedliad y Mab. Arferir ymadroddion tebyg i'r rhai canlynol arno:—"cyfranogiad tragwyddol ac annirnadwy o'r un hanfod, o'r Tad i'r Mab." Nid bod yr hanfod ddwyfol yn cynnyrchu hanfod ddwyfol arall; ond fod y Tad, fel person, yn cyfranu yr un hanfod i'r Mab. Gwelir ar unwaith mai nid adroddiad o ffaith ysgrythyrol ydyw hyn, ond eglurhâd athronaidd ar eiriau yr Ysgrythyr. Ac y mae y deffiniad uchod, medd un awdwr, yn cyfodi oddi ar y drychfeddwl am genedliad naturiol. Dywed De Moor, y rhaid ystyried cenedliad y Mab fel yn cynnwys holl hanfodion cenedliad; ac fel, yn mysg dynion, y mae cenedliad yn gyfraniad bywyd, felly mae yn rhaid fod cyfraniad cyffelyb yn y cenedliad tragwyddol. Y cyfatebiaeth hwn y ceisir ei sefydlu â'r gair yn *Ioan* v. 26, "Felly y rhoddes efe i'r Mab hefyd fod ganddo fywyd ynddo ei hun," a ystyrir yr unig seiliau dros gymmeryd y golwg hwn ar y mater. Er y gellid, ar y golwg cyntaf, dybied fod rhywbeth yn ddaiarol ac anghoeth yn y cyfatebiaeth hwn a wneir rhwng y dwyfol a'r dynol, eto y mae pleidwyr y golygiad hwn yn ymwrthod â phob syniad anghydweddol âg ysbrydolrwydd a pherffeithrwydd Duw—megys y syniadau am olafiaeth, dibyniaeth, neu gyfnewidioldeb. Pe dywedid fod y syniadau hyn yn cael eu cynnwys o angenrheidrwydd yn y frawddeg, "cyfranu yr hanfod ddwyfol"—ac os gwedir hyn, fod yr hyn a sicrheir ganddynt yn cael ei wadu—dywedai amddiffynwyr y golygiad hwn, fod y cyfryw wrthddadleuon yn cyfodi oddi wrth gymhwyso y syniadau anmhur a daiarol a geir oddi wrth wrthddrychau y synwyrau at ysbryd anfeidrol; a bod mor anhawdd dirnad pa fodd y gallai y Tad a'r Mab feddu yr un hanfod ddwyfol, ac eto fod yn bersonau gwahaniaethol, ag ydyw deall pa fodd y gallai yr hanfod yma gael ei chyfranu gan y naill i'r llall. Tra, fel hyn, y mae llawer o Gristionogion uniawngred yn pleidio y golygiad hwn am gyfraniad hanfod, y mae ereill yn gwahaniaethu oddi wrtho, ac yn ystyried nad yw yn hanfodol i Faboliaeth tragwyddol yr Ail Berson. Y mae Lampe, er esampl, yn ei esboniad ar *Ioan* v. 26, tra yn dal cenedliad tragwyddol y Mab, eto yn ymwrthod â'r golygiad a grybwyllwyd ar y gair: "Nis gall y bywyd y dywedir ei fod yn cael ei roddi i'r Mab, gael ei gyfrif i'w natur ddwyfol; o blegid byddai y cyfryw rodd yn anghysson â'i annibyniaeth a'i hanfodiad angenrheidiol." Mae Calvin hefyd yn deall y geiriau am y bywyd dihysbyddd a drysorwyd yn y Mab, fel Cyfryngwr, i'w gyfranu i ddynion. "Dywedir fod gan Dduw fywyd ynddo ei hun, nid yn unig am ei fod yn byw trwy ei fywyd gwreiddiol a hanfodol, ond o herwydd ei fod yn cynnwys pob cyflawnder o fywyd, ac yn ei gyfranu i bob peth. A pherthyna hyn i Dduw yn unig; fel y dywedir, 'Gyda thi y mae ffynnon y bywyd;' *Salm* xxxvi. 9. Ond am fod mawredd Duw, ar gyfrif ei bellder oddi wrthym, yn debyg i ffynnon anhysbys a chuddiedig, fe welodd yn dda o herwydd hyn ei arddangos a'i egluro yn amlwg yn Nghrist. Y mae genym felly ffynnon agored yn ein hymyl, o'r hon y gallwn dynu." Y mae Zachariä (yn ei *Biblische Theologie*) yn gwneyd yr adroddiad canlynol, fel ffrwyth ei ymchwiliad i ymadroddion yr Ysgrythyr ar y cwestiwn:—"Mae yn y natur ddwyfol berthynas fewnol, sydd yn dwyn rhyw debygrwydd i'r berthynas rhwng tad a mab yn mhlith dynion. Mae hyn yn canlyn oddi wrth yr enwau Tad a Mab, os ydyw yr enwau hyn yn cyfeirio, fel y mae yn ymddangos eu bod, at y Person Cyntaf a'r Ail yn y Drindod *fel y cyfryw*, ac yn seiliedig ar eu perthynas â'u gilydd. Mae y berthynas hon yn cynnwys y drychfeddwl o undod natur, a dyma yr unig ddrychfeddwl sydd yn hanfodol iddi. Mae pob peth arall cynnwysedig yn mherthynas tad a mab, gan nad ydynt ond syniadau dynol, yn anmhosibl eu trosglwyddo i Dduw. Mae yn rhaid, gan hyny, fod y Mab yn meddu y natur ddwyfol, am fod y Tad yn ei meddu; neu, mewn geiriau ereill, rhaid fod rhyw berthynas, yn rhinwedd yr hon y mae y Mab yn cyfranogi o'r natur neu yr hanfod ddwyfol. Nis gellir rhoddi eglurhâd mwy pendant o natur y berthynas hon rhwng y Tad a'r Mab, ar gyfrif ein gwybodaeth fer a therfynol am Dduw; neu am nad oes dim yn gyfatebol iddi yn mhlith dynion Mae yn rhaid fod y berthynas hon yn bod er tragwyddoldeb, yr hyn a bâr ei bod yn berthynas angenrheidiol ac anghyfnewidiol."

Sylwa un awdwr, yn y *Princeton Review*, fod y gwrthddadleuon *à priori* i ddwyfol Faboliaeth Crist, yn cael eu hachlysuro, nid gan dystiol-

Digitized by Google

aethau yr Ysgrythyr ar y mater, ond gan ddulliau duwinyddion o'i esbonio—oddi ar y syniadau am "ddeilliad," "cyfraniad o hanfod," neu "gyfraniad o bersonoliaeth." Haerir fod yr athrawiaeth yn cynnwys gwrthddywediad, a'i fod yn beth hollol anamgyffredadwy, pa fodd y gallai yr hanfod ddwyfol gael ei chyfranu i'r Mab, ac eto gael ei chadw gan y Tad—fod y syniad am gyfranu yn cynnwys trosglwyddiad o feddiant un person i feddiant arall. Y mae yn amlwg y cyfeirir yr wrthddadl hon at y drychfeddwl o gyfraniad hanfod. A rhaid addef ei bod yn wrthddadl gref, os cymmerir y gair *cyfraniad* mewn ystyr naturiol. Ond y mae y rhai sydd yn ei arfer, yn dyweyd mai nid dyma yr ystyr a gyssylltant âg ef: gan ei fod yn cael ei gymhwyso at fod ysbrydol, fod yn wrthun llefaru am ranau, fel pe byddai yn bosibl rhanu y Duwdod: ac os ydyw yn deg gofyn am y *modd* y gall yr hanfod ddwyfol gael ei chyfranu gan y Tad i'r Mab, ac eto ei meddiannu yn barhaus gan y Tad, y mae yn rhaid i'r gwrthddadleuwr ei hun oddef gofyniad cyffelyb: *Pa fodd* y gall tri o bersonau gwahaniaethol feddu yr un natur?—*Pa fodd* y gall Duw fod yn y nefoedd ac ar y ddaiar ar unwaith; ac eto nid rhan o hono yn y nefoedd, a rhan ar y ddaiar, ond yr holl Dduwdod yn y naill a'r llall? Y mae yn eglur ein bod, wrth lefaru fel hyn, dan fath o angenrheidrwydd i arfer geiriau sydd bron heb un ystyr, gan fod iaith ddynol mor anghymhwys i osod allan ddyfnion bethau Duw, a'n gwybodaeth mor arwynebol a therfynol, fel y gellir dywedyd am danom, "na wyddom y pethau yr ydym yn eu dywedyd, nac am ba bethau yr ydym yn taeru."

Gwrthddadl arall ydyw, fod yr athrawiaeth dan sylw yn anghysson â thragwyddoldeb natur ddwyfol y Mab, gan y rhaid, oddi ar natur y peth, fod y Tad yn bod cyn y Mab; a dadleuir hefyd, ei bod yn cynnwys gwadiad o annibyniaeth a hunanfodiad yr Ail Berson. Y mae y ddwy wrthddadl yma yn dyfod i'r un peth; sef, fod yr athrawiaeth hon yn anghydweddol â phriodol Dduwdod Crist. Ond atebir gan ei phleidwyr, pa un bynag a ydyw fel yr haerir ai peidio, y dylid cofio fod Duwdod anachosedig, hunanfodol, annibynol Iesu Grist, yn cael ei ddal mor gadarn gan gefnogwyr yr athrawiaeth hon ag un dosbarth o dduwinyddion. Er esampl, y mae Hooker yn dal y syniad o gyfraniad hanfod, ond ar yr un pryd yn credu yn ddiysgog hanfodiad annibynol a hunanfodol y Mab. "Trwy genedliad tragwyddol, derbyniodd Crist gan y Tad yr un a'r unrhyw sylwedd neu hanfod, yr hwn y mae y Tad yn ei feddu heb ei dderbyn gan neb. O blegid y mae pob *dechreuad yn dad* i'r hyn sydd yn dyfod o hono, a phob *haniad yn fab* i'r hyn y daw o hono. Y Tad, felly, ydyw gwreiddyn y Duwdod, ac nid y Mab: o blegid Duw o Dduw, Llewyrch o Lewyrch ydyw y Mab. Gan hyny, pa beth bynag sydd gan Grist, fel ac yn yr un modd a'r Tad, rhaid mai ei *roddi* iddo a ddarfu y Tad; ond ei roddi *yn naturiol a thragwyddol*, ac nid mewn ffordd o garedigrwydd a ffafr." [*Eccles. Polity*, llyfr v. pen. 2.] Y mae duwinyddion ereill, sydd o'r un farn a Hooker am gyfraniad hanfod, yn mynegu mewn iaith gryfach nag ef, eu crediniaeth yn Nuwdod anachosedig, hunanfodol, ac annibynol y Mab. Y mae Calvin, Beza, De Moor (yr hwn a ysgrifenodd yn helaeth ar y cwestiwn), a duwinyddion Protestanaidd yn gyffredinol, yn dysgu hyn. Dywed Calvin, yn ei draethodau duwinyddol, fod y Mab a'r Ysbryd i'w galw yn *αὐτο θεος* (Duw o hono ei hun—Duwdod annibynol), fel y Tad. Gwadant hefyd bob math o ddibyniaeth o eiddo y Mab ar y Tad, am ei natur ddwyfol; a daliant fod y Tri Pherson yr un mor annibynol, yn ogyfuwch mewn mawredd a pherffeithrwydd. Ni ddylid tybied, felly, mai y rhai sydd yn gwadu y tragwyddol genedliad ydyw yr unig dduwinyddion sydd yn credu Duwdod anachosedig, annibynol Iesu Grist. Yr unig gwestiwn yw, A ydyw cyfraniad yr hanfod ddwyfol gan y Tad i'r Mab yn unol â'r grediniaeth yn hunanfodiad ac annibyniaeth y Mab? Ac yr ydym yn gweled fod pleidwyr y darnodiad hwn ar y cenedliad tragwyddol bron yn ddieithriad yn cytuno ei fod yn berffaith unol. Sicrhânt nad ydynt yn cyssylltu un drychfeddwl â'r darnodiad sydd yn anghydweddol â'r priodoleddau dwyfol hyn. Dywedant fod yn llawn mor afresymol i neb gyssylltu ystyr â'u darnodiad ag y maent hwy yn ymwrthod âg ef, ag ydyw i'r Unitariaid haeru ein bod yn credu mewn tri o dduwiau, am ein bod yn credu mewn tri o bersonau; nad oes fwy o angenrheidrwydd am arfer y gair "cyfraniad," pan yn cael ei gymhwyso at Dduw yn ei ystyr cyffredin, nag sydd am ddefnyddio y gair "person," pan yn cael ei gymhwyso at Dduw, yn yr un ystyr a phan gymhwysir ef at ddynion; ac mai y camsyniad mawr oddi ar ba un y mae pob gwrthddadl o'r fath yn cyfodi ydyw, cario y cyfatebrwydd rhwng pethau dwyfol a dynol yn rhy bell, a meddwl a llefaru am Dduw fel yn meddu natur faterawl a rhanadwy. Wedi y cwbl, y mae yn rhaid addef fod y cwestiwn hwn yn gorwedd mewn tywyllwch, ac uwch law dirnadaeth creadur i'w chwilio allan. Yr oll a ddywedir yn y Beibl ydyw, fod y Gwaredwr yn Fab Duw; a'i fod yn Fab Duw yn rhinwedd rhyw berthynas ddirgeledig rhyngddo a'r Tad, nas gellir ei dadguddio o herwydd y dirgelwch cynhenid sydd ynddi i feddwl terfynol. Y mae yn ffaith—yn bwnc dadguddiad—fod y Tad yn Dad, a'r Mab yn Fab, o angenrheidrwydd, ar gyfrif rhyw berthynas rhyngddynt, nad oes dim o fewn cylch sylwadaeth dynion yn dwyn cymmaint o gyfatebrwydd iddi a "chenedliad," a chyssylltiad tad a mab naturiol; ond fel y mae Duw yn anfeidrol uwch law dyn, felly y mae y cenedliad a'r berthynas yma yn annhraethol uwch law cenedliad a pherthynas naturiol; ac nid yw cymmeryd y diweddaf i farnu y cyntaf ond ceisio mesur yr anfeidrol â'r meidrol, ceisio plymio y dyfnder diwaelod â chufydd bychan meidroldeb. "Bod Iesu Grist yn Fab Duw mewn modd neillduol ac arbenig, sydd wirionedd ag y mae y Beibl yn ei ddysgu yn eglur; ond yn mha beth y mae ei Faboliaeth yn gynnwysedig sydd gwestiwn y mae yn ddystaw arno." Gwel TRINDOD; MABOLIAETH CRIST.—(*Owen's Works; Hooker's Works; Calvin's Works; Stier & Olshausen; The Princeton Review.*)

CENEZIAID: un o lwythau Gwlad Canaan, y crybwyllir am dano, yn nghyd âg ereill, yn *Gen.* xv. 19, y rhai yr addawodd yr Arglwydd eu tir i Abraham. Y mae y dybiaeth mai hiliogaeth Cenaz, ŵyr Edom, a'u bod yn trigo yn Idumea, yn cael ei hystyried yn ddisail, am fod y llwyth yn cael ei grybwyll lawer o amser cyn dyddiau Cenaz. Tybir fod y Ceneziaid, y sonir am danynt yn *Num.* xxxii. 12, a *Ios.* xiv. 6, yn genedl wahanol i Geneziaid Llyfr Genesis; a'u

Digitized by Google

bod hwy wedi tarddu o Cenaz, ŵyr Edom. Ni sonir am y Ceneziaid yn mysg y llwythau a ddarostyngwyd gan Israel: yr hyn sydd yn ei wneyd yn debygol eu bod wedi colli eu bodolaeth fel cenedl yn y llwythau ereill a orchfygwyd.

CENFAINT: yr holl epil; mintai gref.

Pedwar-meib ar ugaint y'nhenfaint Llywarch
O wyr glew galwythaint
Twll eu dyfod clod tramaint. *Llywarch Hen.*

"Cenfaint o foch;" *Luc* viii. 32. Dywed Marc (*pen.* v. 13), mai eu nifer oedd dwy fil.

CENFIGEN—AU: cynghorfynt, cas, ma.ais, drwg ewyllys.

"Sef yw cenfigen, yn ddrwg gan ddyn weled ei gymydawg yn cynnyddu ar dda bydawl, neu gampau da, neu grefydd; neu fod dda ganddo weled gofid ar ddyn, neu ddrwg yn damchweiniaw iddo."—*Ll. Gwyn Hergest.*

Y mae yn y Testament Groeg ddau air yn oael eu cyfleithu "cenfigen;" sef ζηλος (*zêlos*), a φθονος (*phthonos*). Y cyntaf ydyw y gair yn *Iago* iii. 14; "Od oes genych genfigen:" *Rhuf.* xiii. 13; "Nid mewn cynhen a chenfigen;" a'r diweddaf mewn lleoedd ereill, ac yn fwyaf cyffredin. Y maent hefyd yn cael eu cyssylltu â'u gilydd yn fynych: *Gal.* v. 20, 21. Cyssylltir hwy gan ysgrifenwyr clasurol, megys Plato, a chan ysgrifenwyr eglwysig, megys Clemens Romanus. Ond y mae gwahaniaeth rhyngddynt. Y mae *zêlos*, weithiau, yn meddu ystyr da (*Ioan* ii. 17; *Rhuf.* x. 2; 2 *Cor.* ix. 2); ac weithiau, fynychaf yn yr Ysgrythyrau, ystyr drwg (*Act.* v. 17; *Rhuf.* xiii. 13; *Gal.* v. 20): tra nad yw *phthonos* un amser yn cael ei arfer ond mewn ystyr drwg. Pan arferir *zêlos* mewn ystyr da, arwydda gydymgais anrhydeddus, heb ddim cenfigen ynddo. Yn yr ystyr hwn yn unig yr arferir ef gan Aristotle: arwydda y cydymgais hwnw sydd yn ymofidio, nid o herwydd fod arall yn meddu y daioni a ddymunir, ond am ei fod ei hunan heb ei feddu; ond ni orphwysa ar hyn, eithr ceisia feddiannu yr hyn nid oes ganddo—ac yn hyn, y mae yn wrthwyneb i genfigen.

Y mae yn beth hawdd i'r *zêlos*—y cydymgeisiad anrhydeddus hwn—gael ei lygru a'i ddarostwng i nwydau is; a gall y llygriadau hyn, medd Trench, gymmeryd arnynt ddwy ffurf: naill ai ymosod ar y da a wel gan arall, a cheisio ei leihau—am hyny, y mae *zêlos* ac ερις (*eris*), cenfigen a chynhen, yn cael eu cyssylltu yn fynych—neu pan nad oes yn y dyn ddigon o nerth i geisio lleihau y da a feddiennir gan arall, y mae ynddo o leiaf awydd am hyny: os na cheisia *wneyd* drwg iddo, *ewyllysia* hyny; a dyma y cyssyllttiad sydd rhwng *zêlos* a *phthonos*. Nid yw y diweddaf yn cael ei roddi yn y rhestr yn *Marc* vii. 21, 22; ond cynnwysir ef yn y gair "drwg lygad." Hwn ydyw y pechod iselaf, mwyaf anwrol, o'r ddau. Deffiniai y Stoiciaid ef—"anfoddlonrwydd i ddaioni ereill, a dymuniad dirgelaidd yn y meddwl am iddo fod yn llai. Nid yw yr hwn sydd yn ei deimlo yn gwybod am awydd cryf neu ymestyniad am ymddyrchafu mor uchel a'r hwn y gwynfyda wrtho, ond yn hytrach i ddarostwng hwnw i'r un iselder ag ef. Pan oedd buddugoliaethau Miltiades yn rhwystro i Themistocles ieuanc gysgu, yr oedd yma *zêlos* yn ei ffurf uchaf; sef cydymgais a'i cymhellai i gyflawnu gweithredoedd arwraidd, ac na adawai lonydd iddo hyd oni enillai safle mor uchel a Miltiades. Ond *phthonos* (gwir genfigen) a barai fod y dinesydd hwnw o Athen yn blino clywed galw Aristides "y cyfiawn;" ac ni chynnwysai ei genfigen un cymhelliad i beri iddo ymdrechu am yr elfen rinweddol a genfigenai mewn arall.

"Y mae cenfigen," medd un awdwr, "yn cael ei ystyried yn gyffredin yn un o nwydau gwrthunaf y galon. Ni ddylid condemnio neb, y mae yn wir, am amddiffyn ei iawnderau, a dangos anfoddlonrwydd tuag at elyn maleisus; ond y mae ymddwyn ar ddrwg ewyllys at ddyn na wnaeth ddim cam â ni, yn unig am ei fod yn fwy llwyddiannus nag ydym, yn dueddfryd cwbl annaturiol a gwrthun. Am hyny, y mae cymmeriad y dyn cenfigenus yn ffiaidd gan bawb. Y mae pawb yn ymwrthod â'r cymmeriad; a'r rhai sydd dan lywodraeth y nwyd, gofalant am ei chelu. Prif wrthddrychau cenfigen ydynt, galluoedd a chyrhaeddiadau meddwl, manteision tras a bonedd, a llwyddiant mewn amcanion bydol. Er mwyn darostwng y tueddfryd adgas hwn, ystyrier ei natur bechadurus, y drygau a achosa yn y byd, yr annedwyddwch a bâr i'r hwn a'i coledda, a'r pethau sydd yn ei feithrin, megys balchder a diogi."

Y mae y pechod hwn yn echryslawn; o blegid y mae yn cael ei gyssylltu â phechodau a gwyniau ereill o'r fath waethaf; megys balchder, anwybodaeth gwirfoddol, ymrysonau, cableddau, drwgdybiau, a'r cyffelyb: 1 *Tim.* vi. 4. Arweinia i derfysg, a phob gweithred ddrwg: *Iago* iii. 16. Y mae yn "lladd yr annoeth," ac "yn pydru yr esgyrn;" *Iob* v. 2; *Diar.* xiv. 30. Y mae yn hollol wrthwyneb i gariad yr efengyl: 1 *Cor.* xiii. 4. Yr hyn a ddymuna y cenfigenus i arall a syrth ar ei ben ef ei hun: *Ezec.* xxxv. 11; *Salm* vii. 15; lvii. 6; *Diar.* xxvi. 27. Cymharer *Esth.* v. 11—14, â vii. 9, 10. Y mae cenfigen, a'r gwyniau cyffelyb, yn bechodau cythreulig—"daiarol, anianol, cythreulig yw;" *Iago* iii. 15. Y mae chwantau y cnawd yn darostwng dyn i fod yn debyg i'r anifail; ond y mae y chwantau hyn—gwyniau yr ysbryd—yn gwneyd dyn yn ddiaflaidd, yn gythreulig. "Nid oes dim," medd Manton, "yn fwy naturiol i ddyn fel creadur syrthiedig na'r pechod hwn. 'At genfigen y mae chwant yr ysbryd a gartrefa ynom ni;' *Iago* iv. 5. Gwelir ef hyd yn oed mewn plant. Dywed Awstin—'Mi a welais fachgen bychan yn edrych yn welw gan genfigen.' Ond fel y mae yn naturiol, felly y mae yn wrthun; y mae yn sarhau Duw a'i oruchwyliaethau, fel pe bai yn cyfranu ei roddion yn anghyfiawn; y mae yn niweidiol i ereill, am ein bod yn meddu drwg ewyllys i'r daioni sydd ynddynt, o'r hyn y tardd casineb ac erlid; y mae yn boenus i ni ein hunain, ac felly yn pydru yr esgyrn. Y mae yn cyfodi oddi ar falchder, yn cael ei gario yn mlaen mewn cybyddod a drygchwant, ac yn dybenu mewn cynhen ac ymryson. Y mae yn gas gan Dduw, yn niweidiol i ereill, ac anhyfryd i ni ein hunain. Y mae yn gosp arno ei hun. Nid oes dim yn fwy anghyflawn na chenfigen; ac eto, nid oes dim yn fwy cyfiawn, medd Gregory Nazianzen. Y mae y pechod hwn yn dyfod i'r golwg, mewn gofid o herwydd mwynderau ereill: syrthiodd gwynebpryd Cain, am fod aberth Abel yn fwy derbynio na'r eiddo ef (*Gen.* iv. 5);—mewn ymlawenhau wrth eu drygau a'u dinystr (*Salm* xxii. 7); mewn anghyfranoldeb. Dymunai y cenfigenus i bob braint fod wedi ei chau i fewn yn ei gylch ef; mae cyffredinolrwydd rhoddion a doniau yn ei flino yn fawr. Mor wahanol i Moses, yr hwn a ddymunai, 'O! na byddai holl bobl yr Arglwydd yn brophwydi.'"—(*Manton on James.*)

Digitized by Google

CENI: *Barn.* i. 16; "A meibion Ceni, chwegrwn Moses:" Seis, "And the children of the Kenite." Dylid darllen, yn ol y Deg a Thrigain, "A meibion Iethro, y Cenead." Hiliogaeth Iethro oeddynt, y rhai a gyfranogasant âg Israel o ddaioni Gwlad yr Addewid: *Num.* x. 32. Cadwasant ddysgeidiaeth Moses a Iethro (1 *Cron.* ii. 55); nid yfent win, ac nid adeiladent dai (*Ier.* xxxv); a thrwy hyn, diangasant rhag y dinystr a ragddywedasai Balaam am eu gwlad. Yn amser Ieremïah, adnabyddid hwynt wrth yr enw Rechabiaid, oddi wrth Rechab, un o ddisgynyddion Iethro.

CENIN: y gair Hebraeg ydyw חציר (*chatsir*). Ceir ef mewn lluaws o fanau yn yr Hen Destament, a chyfieithir ef yn dra amrywiol. Yn 1 *Bren.* xviii. 5; 2 *Bren.* xix. 26; *Iob* xl. 15; *Salm* xxxvii. 2; xc. 5; ciii. 15, cyfieithir ef *gwellt, glaswellt, llysiau:* yn *Diar.* xxvii. 25, *gwair:* yn *Esa.* xxxiv. 13, *danadl.* Yr unig fan lle y cyfieithir ef *cenin*, ydyw *Num.* xi. 5. Y mae yn amlwg oddi wrth fod y gair yn cael ei gyssylltu yn *Num.* xi. 5, â'r cucumerau, pompionau, y winwyn, a'r garlleg, mai nid glaswellt a feddylir wrtho, ond rhyw lysiau gwyrddlas, cymhwys i ddynion i'w bwyta. Dywed Kitto, nad ydys yn gwbl sicr mai *cenin* a feddylir wrtho; ond y gall olygu llysiau bwytadwy yn gyffredinol. Barna Rosenmüller, pa fodd bynag, mai y cenin a feddylir, o herwydd fod yr hen gyfieithwyr Groeg a Chaldaeg yn esbonio y gair gwreiddiol â'r Groeg πρασα, neu *cenin.* A gall fod yr enw wedi ei roddi ar y cenin, yn neillduol oddi ar eu tebygrwydd i laswellt. Barna yr esgob Lowth, mai y *lotus* a feddylir, yr hwn sydd fath o lili dyfrol perthynol i'r Aipht, ac sydd yn un rhan o ymborth yr Aiphtiaid yn bresennol. Y mae gwreiddyn y planigyn hwn yn grwn, o faintioli afal, o natur adfywiol, ac yn ddymunol i'r chwaeth. Hoffir ef yn fawr yn ngwres yr haf. Y mae cyfieithiad yr Arabiaid o'r gair Hebraeg yn dynodi *cenin.* Yr oedd y Rhufeiniaid yn dra hoff o'r cenin yn eu coginiaeth. Dygwyd y llysieuyn hwn i'r wlad hon o ddeutu y flwyddyn 1562. Gwel GLASWELLT.

CENLLUSG: cawod gref, ystormus; cenllusg o wlaw; cenllusg o gesair. Cesair yn unig a feddylir wrth genllusg yn Ngogledd Cymru. Dygwyddant yn fynychaf yn y gwanwyn a'r haf—nid yn anfynych yn cael eu dilyn gan ystorm o daranau. Ffurfir hwy gan ddefnynau o ddwfr wedi eu rhewi gan oerni yn mharthau uchaf yr awyrgylch, a disgynant i'r ddaiar yn ronynau crynion. Y mae y gronynau weithiau yn haenau (*layers*); ac weithiau y mae haen tryloew a haen tywyll bob yn ail. Amrywiant yn eu ffurf: yn gyffredin, y maent yn ronynau crynion; ond weithiau, yn bigyrnol, neu yn onglol, neu hyd yn oed yn deneu a gwastad. Eu maint cyffredin ydyw o ddeutu chwarter modfedd o dryfesur; ond ar brydiau, y maent yn llawer mwy: a choffeir am rai anghreifftiau ag y mae eu maintioli bron yn anghredadwy. Dywed Halley, fod rhai wedi disgyn yn sir Fflint, ar y 9fed o Ebrill. 1697, a bwysent bum wns, ac wedi peri difrod mawr. Gwelodd Robert Taylor rai yn sir Henffordd, ar y 4ydd o Fai, 1697, oeddynt bedair modfedd o dryfesur. Yr oedd cenllusg yn un o bläau yr Aipht (*Exod.* ix. 24); a dywed Volney, nad ydynt yn gwbl anadnabyddus, er nad yn gyffredin, yn y wlad hono. Sonia am gawod o genllusg a welodd yn croesi uwch ben Mynydd Sinai i'r Aipht, a chafodd efe rai o'r gronynau; ac "felly," meddai, "mi a yfais ddwfr wedi rhewi yn yr Aipht." Defnyddiodd yr Arglwydd genllusg hefyd i ladd lluoedd brenin oedd Canaan: *Ios.* x. 11. Y mae barnau Duw yn cael eu cyffelybu iddynt: *Esa.* xxviii. 2. Yn *Dad.* xi. 29, y mae cenllusg yn un o arwyddluniau y Mawredd Dwyfol, yn gyssylltiedig â'r drychfeddwl y byddai iddo ddinystrio ei elynion. Felly hefyd yn *Salm* xviii. 13; "Yr Arglwydd hefyd a daranodd yn y nefoedd, a'r Goruchaf a roddes ei lef; cenllusg a marwor tanllyd." A'r un modd yn *Iob* xxxviii. 22, 23. "A chenllusg mawr, fel talentau, a syrthiasant o'r nef ar ddynion;" *Dad.* xvi. 21. "Y mae yn bosibl fod yma," medd Barnes, "gyfeiriad at un o bläau yr Aipht. ...Nid ydym i dybied, efallai, y dygwyddai hyn yn llythyrenol; ffugr ddychrynllyd ydyw, i ddynodi y dinystr sicr a llwvr a ddeuai ar Babilon fawr."

CEPHAS, [Κηφας]; cyfenw a roddes Iesu Grist ar Simon, yn gyfystyr a Πετρος yn y Groeg, a *Petrus* yn y Lladin, a *Charey* yn y Gymraeg. Gair Hebraeg ydyw Cephas. Gwel PEDR.

CERBYD. Defnyddia yr Ysgrythyr amrywiol eiriau i ddynodi gwahanol fathau o gerbydau; ond nid yw yn hawdd penderfynu, yn mhob amgylchiad, pa fath rai a ddynodir yn y gwahanol eiriau a ddefnyddir i'w darlunio. Yr ydym yn awr, pa fodd bynag, trwy ddarganfyddiad cerfiadaeth ac arluniaeth henafol, yn meddu y fath hysbysrwydd am gerbydau yr Aipht, Assyria, Babilon, a Phersia, ag sydd yn rhoddi mantais i ni egluro y pwnc hwn yn well nag ysgrifenwyr boreuol, am nad oeddynt hwy yn meddu y cyfryw fanteision. Crybwyllir am gerbydau y cenedloedd hyn yn yr Ysgrythyr; ac wrth gyssylltu yr hyn sydd wedi ei egluro â'r hyn nad yw yn wybyddus, gallwn gyrhaedd gwybodaeth fwy penderfynol nag sydd hyd yn hyn wedi ei gael.

Y cerbydau cyntaf y sonir am danynt yn yr Ysgrythyr ydyw eiddo yr Aiphtiaid; ac wrth sylwi yn fanwl ar y gwahanol grybwylliadau am danynt, gallwn farnu yn lled gywir am y rhai oedd mewn arferiad yn eu phth hwy. Yr hysoysiad cyntaf am danynt a geir yn *Gen.* xli. 43, lle yr anrhydeddir Ioseph gan frenin yr Aipht trwy orchymyn iddo farchogaeth yn yr ail gerbyd breninol. Yr oedd hwn, yn ddiammheu, yn deyrn-gerbyd (*state chariot*); ac nid yw yn ymddangos fod teyrn-gerbydau yr Aipht yn wahanol i'w cerbydau rhyfel—gorwychder milwraidd pa rai oeddynt mor ysblenydd fel yr oeddynt yn gymhwys i'r rhwysg a'r pomp breninol. Cadarnheir y dyb hon trwy fod yr un gair yn cael ei ddefnyddio am y naill a'r llall. Defnyddir y gair מרכבה (*mercabah*) am deyrn-gerbydau yn *Gen.* xlvi. 29; 1 *Sam.* viii. 11; 2 *Sam.* xv. 1; ond fe ddefnyddir yr un gair am gerbyd rhyfel yn *Exod.* xv. 4; *Ioel* ii. 5. Yn *Esa.* ii. 7, drachefn, arferir y gair am gerbydau o bob math a ganfyddid mewn dinasoedd. Gellir cyfrif am hyn drwy y ffaith nad oedd cerbydau yn cael eu defnyddio yn y dwyrain ond yn unig mewn achosion perthynol i'r wladwriaeth neu mewn rhyfel; ac anfynych y defnyddid hwynt gan bersonau cyffredin ar achosion cyffredin. Gellir sylwi hefyd, mai lle yr oedd cerbydau yn cael eu harfer yn gyffredin, megys yn yr Aipht, eu bod yn gyffelyb i'r rhai a arferir mewn rhyfel, ond yn unig nad oeddynt yn meddu cymmaint o addurn-

Digitized by Google

iadau milwraidd, ac nid oedd angenrheidrwydd am yr amwisg yn ei ochr i gadw y saethau. Un o'r darluniadau Aiphtaidd mwyaf dyddorol yw yr un sydd yn cynnrychioli person o urddas yn myned i wledd mewn cerbyd, yn cael ei dynu gan ddau farch, fel y byddai holl gerbydau yr Aiphtiaid. Dilynir y gwr urddasol gan nifer o weision ar eu traed: un o honynt a brysura yn



Dar. 168. Cerbyd Aiphtaidd.

mlaen i guro wrth ddrws y tŷ; un arall a ddaw yn mlaen i gymmeryd yr awenau; y trydydd sydd yn cludo ystol fechan, i gynnorthwyo ei feistr ddisgyn o'r cerbyd; a'r rhan fwyaf o honynt a garient eu sandalau yn eu dwylaw, fel y gallent redeg yn fwy hwylus. Rhydd hyn ddarluniad bywiog o'r ymadroddion a geir yn 1 *Sam.* viii. 11; 2 *Sam.* xv. 1. Y prif wahaniaeth rhwng y cerbydau cyffredin hyn a'r rhai a arferid mewn rhyfel oedd, fel yr ymddengys oddi wrth y cofadeiladau, mai yn y rhai blaenaf yr oedd y cerbydwr yn gyru ei hunan, tra yn yr olaf, fel yn mhlith y Groegiaid, yr oedd yn gyffredin berson gwahanol i yru y cerbyd, fel y gallai y rhyfelwr fod yn fwy at ei ryddid i ddefnyddio ei arfau yn fwy effeithiol. Ond nid oedd yn dygwydd felly bob amser; o blegid yn y cofadeiladau Aiphtaidd canfyddwn yn fynych hyd yn oed rai o'r teulu breninol yn marchogaeth eu hunain yn eu cerbydau, ac yn cyflymu yn ffrochwyllt, a'r awenau yn ymglymedig am eu canol, megys yn



Dar. 169. Cerbyd rhyfel Aiphtaidd.

y darlun uchod. Felly yr ymddengys fod Iehu, yr hwn yn ddiau a farchogai mewn cerbyd rhyfel, yn gyru ei hunan; oblegid fe adnabyddwyd ei ddull neillduol ef o gryn bellder: "A'r gyriad sydd fel gyriad Iehu fab Nimsi; canys y mae efe yn gyru yn ynfyd;" 2 *Bren.* ix. 20.

Y mae cryn amrywiaeth barn am ystyr priodol y geiriau *mercabah* (מרכבה) a *mercab* (מרכב). Yn 2 *Bren.* v. 26, y mae y diweddaf yn ddiau yn golygu cerbydau yn ddiwahaniaeth. Ond yn *Lef.* xv. 9 (yr hwn a gyfleithir "cyfrwy" yn y cyfieithiad awdurdodedig), ac yn *Can. Sol.* iii. 10, cyfleithir ef "llawr," yr hwn a ddeallir gan rai yn golygu eisteddle y cerbyd. I'r dyb hon y mae gwrthwynebiad cryf, gan nad oedd i'r cerbydau boreuol eisteddle o gwbl Y mae yn ymddangos ei fod yn golygu eisteddle yr elorglud (*litter*), sef math o gerbyd a ddygid ar bolion rhwng dau farch, yr unig gludai oedd yn meddu eisteddle; ac efallai i'r enw *mercab* ddeilliaw oddi wrth ei debygolrwydd, o ran ei ffurf a'i defnyddioldeb, i eiddo y cerbyd.

Gair arall a arferir ydyw, רכב (*receb*), yr hwn sydd o'r un gwreiddyn, ac ymddengys ei fod yn golygu cerbyd o unrhyw fath, ac arferir ef yn fynychaf am nifer lluosog o gerbydau, ac yn fwyaf neillduol cerbydau rhyfel; o blegid anaml y gwelid nifer lluosog o gerbydau yn nghyd ond yn unig pan ddefnyddid hwynt mewn rhyfeloedd. Cymhwysir ef yn ddiwahaniaeth at gerbydau rhyfel unrhyw genedl: at yr eiddo yr Aiphtiaid (*Exod.* xiv. 9); y Canaaneaid (*Ios.* xvii. 18; *Barn.* i. 19; iv. 3); yr Hebreaid (2 *Bren.* ix. 21, 24; x. 16); y Syriaid (2 *Bren.* v. 9); a'r Persiaid (*Esa.* xxi. 7, 9). Wrth gymharu y cyfeiriadau hyn gyda y brawddegau lle y dygwydd y gair *mercabah*, ni ganfyddwn y ddau air yn cael eu harfer braidd yn ddiwahaniaeth am bob math o gerbydau. Cyfarfyddir hefyd weithiau frawddegau gwahanol, yn y rhai yr arferir y ddau air am yr un cerbyd, megys yn 2 *Bren.* v. 9, 21, a 1 *Bren.* xxii. 35, 38; lle nad ellir tybio fod yno wahanol gerbydau, yr hyn a amcanodd rhai ei ddyweyd, er mwyn dangos fod gwahaniaeth rhwng *receb* a *mercabah*. Tybia rhai fod *mercabah* yn dynodi teyrn-gerbyd, yn cael ei dynu gan bedwar o feirch, a'r *receb* yn gerbyd israddol, yn cael ei dynu gan ddau farch. Yn atebiad i hyn, digon yw dywedyd nad oedd teyrn-gerbydau y dwyrain yn cael eu tynu gan bedwar o feirch; ac y mae dysgedigion Hebreig manylaf y Cyfandir yn gwadu nad yw *receb* mewn un man yn dynodi elorglud (*litter*), am yr hwn y defnyddir gair gwahanol.

Defnyddir gair arall hefyd yn y gwreiddiol, yr hwn a gyfleithir cerbyd, sef עגלה (*'agalah*); yr hwn a arwydda cert neu bedrolfen, yn cael ei chludo gan ychain. Ond haerir fod y gair, yn *Salm* xlvi. 9, yn golygu cerbyd rhyfel. Y gair lluosog *'agaloth* a ddefnyddir yno, a'r syniad ei fod yn golygu cerbyd rhyfel a dardda o'r dybiaeth nad oedd ond cerbydau yn arferedig mewn rhyfel. Ond nid hyn yw y ffaith; o blegid yn narluniau milwraidd yr Aipht, canfyddwn gerti yn cael eu tynu gan ychain, ac yn cael eu dwyn i'r maes gan genedloedd crwydrol, yn mha rai yr amcanent ffoi rhag eu herlynwyr.

Yn mhrophwydoliaeth Nahum (yr hwn oedd yn perthyn i'r caethgludiad cyntaf, ac yn trigo, os nad wedi ei eni, yn Elkosh, yn Assyria), ceir cyfeiriadau mynych at gerbydau, yr hyn a achlysurid, efallai, trwy eu canfod yn dra mynych yn heolydd Ninefeh, a thrwy yr ymherodraeth Assyriaidd. Mewn gwirionedd, pan yn prophwydo dymchweliad Ninefeh. rhydd ddysgrifiad bywiog o'u gweithrediadau yn heolydd y ddinas fawr:—

"Tarian ei wŷr grymus a liwiwyd yn goch:
Ei wŷr o ryfel a wisgwyd âg ysgarlad:
Y cerbydau fyddant gyda lampau tanllyd y dydd y byddo ei arlwy,
A'r ffynnidwydd a ysgydwir yn aruthrol.
Y cerbydau a gynddeiriogant yn yr heolydd,
Tarawant wrth eu gilydd yn y prif-ffyrdd:
Eu gwelediad fydd fel fflamau. ac fel mellt y saethant.' *Nahum* ii. 3, 4.

Y mae y cyfeiriadau hyn at farchogwyr a

Digitized by Google

cherbydau Ninefeh yn rhoddi llawer o ddyddordeb yn un o ddarganfyddiadau diweddar M. Botta, ar adfeilion yr hen ddinas hono. Wrth gloddio i bentwr o hen adeiladau, yr hwn a ymddangosai fel wedi bod yn ffurfio rhan o gruglwyth mwy helaeth, darganfyddodd nifer o gerfiadau ac arluniau, y rhai a ddangosant fod y gwaith yn foreuach na dyddiau Cyrus, a'u bod yn perthyn i ddyddiau yr ymherodraeth Assyriaidd. Mewn un lle y mae baslun, yn cynnrychioli marchogwr ar lawn carlam. Y mae un arall ar yr un mur yn cynnrychioli dau farchogwr yn carlamu ochr yn ochr, gydag un arall yn dilyn yn lled agos. Yn mhellach yn mlaen canfyddir dau farchogwr arfog y naill yn dilyn y llall ar lawn carlam. Y mae symmudiadau y meirch yn ymddangos yn llawn bywiogrwydd. Mewn lle arall drachefn, gwelir dau farchogwr, a'u meirch yn cerdded ochr yn ochr. Yr unig farchogwr sydd i'w weled, y mae yn meddu cleddyf; ac y mae cawell saethau a bwa ar ei ysgwydd, a'i goesau wedi eu gwisgo â llurig. Y mae y darluniau hyn yn llawn dyddordeb, nid yn unig mewn cyssylltiad â'r brophwydoliaeth, yr hon a grybwylla mor benodol am "farchogwyr" Ninefeh, ond hefyd am eu bod mewn gwirionedd yr unig ddarluniau a ddarganfyddwyd yn mhlith cofadeiladau boreuaf Asia. Ond yr hyn sydd yn meddu dyddordeb mwy eto ydyw, darganfyddiad basddelwad nodedig, yn cynnrychioli cerbyd, yn cael ei dynu gan ddau farch, ac yn cynnwys tri o bersonau. Ymddengys fod y penaf o'r rhai hyn yn ddyn barfog, yn codi i fyny ei fraich ddeheu, ac yn dal bwa yn ei law aswy. Gwisga benwisg o liw coch ("ei wŷr o ryfel a wisgwyd âg ysgarlad"); y tu ol iddo y mae caethwas difarf, yn dwyn cysgodlen eddïog, ac ar el law aswy saif y cerbydwr, yn dal yr awenau a'r fflangell. Gwisgir clust-dlysau gan y prif berson yn y cerbyd, a chan y cerbydwr. Y mae wyth aden yn olwynion y cerbyd; ac y mae y cerbyd wedi ei orchuddio â cherfiadau, y rhai sydd yn bresennol yn anmhosibl eu deall. Ond yr hyn a dynodd fwyaf o sylw ydyw mainc, yr hon a ymddengys ei bod wedi ei sicrhau wrth y cerbyd gan rwymyn dwbl, yr hwn a dybir gan M. Botta oedd yn wialen o fetel, wedi ei bwriadu i sicrhau cadernid a diysgogrwydd y cyfan. Y mae y meirch wedi eu cerfio yn dra chelfyddgar a chywir, a dangosant arwyddion eu bod o'r rhyw Arabaidd. Y mae eu cêr yn ymddangos yn dra chostus, ac yn arddangos eto arwyddion o'u bod o wahanol liwiau; ond glas a choch yn unig a cllir eu canfod yn bresennol, gan fod y lleill wedi troi yn dywyll. Ar ol y cerbyd y mae marchfilwr yn dwyn gwaewffon, â chleddyf wrth ei wregys, a chawell saethau ar ei ysgwyddau.



Dar. 170. Cerbyd Persiaidd.

Oddi wrth y dysgrifiad hwn, ymddengys fod cerbydau Assyria yn dra gwahanol i eiddo yr Aiphtiaid boreuol, ac hyd yn oed i eiddo y Persiaid, gyda pha rai yr ydym yn gydnabyddus trwy amrywiol gerfiadau Persepolitaidd sydd yn bresennol yn y British Museum, Llundain (dar. 170), y rhai ydynt yn ymddangos o wneuthuriad cadarnach nag eiddo yr Aiphtiaid, fel yr oedd nodwedd mynyddig y wlad hono yn gofyn hyny. Yr oedd cerbydau Assyria yn ymddangos, ar rai cyfrifon, rhwng y rhai a enwyd uchod. Yn mhlith pethau ereill, sylwasom nad yw edyn olwynion y cerbydau Aiphtaidd un amser yn cyrhaedd dros chwech o nifer, pan y mae wyth yn yr un Assyriaidd, ac un ar ddeg yn yr un Bersiaidd. Nid annhebyg i'r un Bersiaidd yw yr hon a ddarganfyddwyd ar fathodyn a gafwyd yn adfeilion Babilon dar. 171); ond y



Dar. 171. Cerbyd Babilonaidd.

mae wyth o edyn yn ei holwynion, yn gyffelyb i gerbydau Assyria. Y mae y bathodyn hwn wedi bod yn achlysur i lawer o dybiau disail wrth amcanu ei gyssylltu â hanes Daniel.

Yr oedd cerbydau yn cael eu harfer mewn rhyfeloedd er yn dra bore. Y crybwylliad cyntaf a geir am danynt, yn cael eu defnyddio i'r perwyl hwn, sydd mewn cyssylltiad â Pharaoh, pan y cymmerodd chwe chant o "ddewis gerbydau" i ymlid ar ol Israel. Yr oedd gan y Canaaneaid hefyd, yn amser Iosuah, gerbydau heiyrn yn eu brwydrau. Dywedir i Dafydd gymmeryd oddi ar Hadadezer, brenin Sobah, fil o gerbydau. Yr oedd y cerbydau hyn o wneuthuriad cadarn, ac wedi eu hadeiladu yn gelfyddgar a chyfleus i'r dyben y bwriedid hwynt. Yr oedd cerbydau Persia



Dar. 172. Cerbyd rhyfel Aiphtaidd.

yn meddu olwynion o dryfesur mawr, ac yn cael eu tynu gan bedwar o feirch, ochr yn ochr â'u gilydd; ac yn yr oesoedd boreuol cyssylltid bachau a phladuriau wrth echeli y cerbyd. Wrth

Digitized by Google

ymladd o gerbydau yr oedd deheurwydd mawr yn cael ei ddangos gan y rhyfelwr, nid yn unig wrth ddefnyddio ei arfau, ond hefyd wrth neidio o'r cerbyd ar y pawl i fyned at ysgwyddau y meirch, fel y gallai fod yn fwy cyfleus i gyrhaedd ei elynion. Yr oedd y cerbydwr hefyd yn berson o bwys, cyfartal mewn urddas i'r rhyfelwr ei hun. Yr oedd gan deyrnasoedd Iudah ac Israel eu cerbydau rhyfel; ac ymddengys oddi wrth y ffaith fod y brenin Iosiah, yn rhyfel Megido, wedi gadael ei gerbyd rhyfel, a chael ei gludo i Ierusalem yn yr "ail gerbyd," yn rhoddi lle i gasglu fod ganddynt gerbydau ereill mwy pwrpasol at deithio: 2 *Cron.* xxxv. 24. Yr oedd cerbydau rhyfel yn arferedig hyd ddyddiau y Maccabeaid (2 *Mac.* xiii. 3), ac yn Mhrydain hefyd pan oresgynwyd hi gan Cæsar.—(*Kitto's Bib. Cyc.*)

CERDONIAID: plaid grefyddol yn y ganrif cyntaf, a elwid felly oddi wrth Cerdon, yr hwn a flodeuai yn y flwyddyn 140 neu 141, ac a ddaeth i Rufain o Syria. Mabwysiadodd ei ddysgyblion y rhan fwyaf o ddaliadau Simon Magus a'r Manicheaid. Honent fod dwy egwyddor—da a drwg. Galwent y gyntaf yn Dad yr Arglwydd Iesu; a'r ddiweddaf yn Greawdwr y byd. Gwadent yr ymgnawdoliad a'r adgyfodiad, a gwrthodent lyfrau yr Hen Destament.—(*Hend. Buck.*)

CERDDORIAETH. Cerddoriaeth a olyga, yn mlaenaf, trefnu meddyldrychau ar gynghanedd=ar gân; neu ynte, barddoni yn ol rheolau "dosbarth y cynghaneddion," "a chanu yn gytsain neu yn gytawchrgerdd ar un mesur arr hugeint." Yn nesaf, cyfansoddi peroriaeth wrth reolau "cerdd dant, a medru gwneuthur cerdd (cân) i hunan yn ddifai yn marn pencerddiaid." Yn nesaf, chwareu peroriaeth ar offer cerdd= "am iddynt geisio gŵr yn medru canu telyn;" 1 *Sam.* xvi. 16. Ac yn olaf, lleisio peroriaeth wrth reolau caniadaeth.

Golyga caniadaeth y rhan fwyaf gyffredin o'r gyfundrefn gerddorol mewn arferiad; sef cyfansoddiant a dadganiad; neu—ac arfer yr enwad cyffredin—canu.

Y mae canu i'w wahaniaethu oddi wrth lefariad yn ngraddeg (*pitch*) ysgogiadau (*inflections*) neu lithriadau y llais, yn benaf. Wrth lefaru, mae llithriadau y llais drwy y graddegau mor fân (*minute*) fel nas gall y glust fanylaf eu dirnad yn wahaniaethol. Ond wrth ganu, mae ei lithriadau drwy y graddegau yn frasach ac eangach, fel y gellir eu gwahaniaethu a'u dilyn gyda rhwyddineb: canys wrth ganu, y llithriad graddegol lleiaf a wneir yw yr hyn a enwir hanner tôn—cyfrwng y gall clust unrhyw ddyn a dalodd ond ychydig sylw i athroniaeth sain yn ieithol, areithyddol, neu caniadaethol, ei wahaniaethu. Nid yw cylch y llais wrth lefaru yn gyffredin mor eang ag yw wrth ganu ychwaith: tra wrth lefaru nid yw eangach na chyfrwng o bump neu chwe thôn, y mae wrth ganu yn wythawd a chwaneg yn fynych. Ac wrth ganu, mae y llais yn dilyn amseriad arbenig a rheolaidd, ac yn acenu a phwysleisio—yn acenu, o'r hyn lleiaf, yn gryfach a manylach, ac yn fwy rheolaidd, nag wrth lefaru. Y pethau yna, yn benaf, sydd yn gwahaniaethu llefariad cyffredin oddi wrth ganu neu caniadaeth, ac yn rhoddi i caniadaeth ymarferol yr ansoddau a enwir llafar, cerddgar, soniarus, &c. Nid athronaidd yw dyweyd bod offer cerdd yn lleisio:—y mae "seinio âg udgyrn a symbalau" yn athronaidd. Twrw y daran=swn; llais i ddyn=canu. Y mae canu yn cael ei briodoli i adar hefyd: ond ychydig nifer o'r rhywogaeth asgellog sydd yn canu mewn gwirionedd: chwibanu y mae yr ehedydd, nid canu: y mae yr hyn a elwir llais y gog mor wyntog, ac eiddo ceiliog yr iar a rhegen yr yd mor aflafar ac anfelodus, fel nas gellir gyda phriodoldeb ddyweyd eu bod yn canu. Ond priodol dyweyd bod yr eos, y durtur, yr aderyn du, yr aderyn bronfraith, &c., yn canu; canys y mae melodeg a graddegau gwahaniaethol, &c., yn eu lleisiau hwy.

Elfen yr iaith yw sain. Nid oes ond un sain yn alluadwy i'r llais dynol. Iaith yw yr amrywiaeth seiniol a wna dyn i amlygu ei feddwl drwyddo. Y mae i sain amryw foddau; sef yr hyn a elwir llafariaid, acen, pwyslais, llithriadau, graddeg, &c. Y mae dyn yn amlygu ei feddwl drwy ffurfiau a chyfuniadau (*combinations*) arbenig ar y moddau crybwylledig; ond yn amlygu ei deimlad yn nheithi y sain yn y cyfryw ffurfiau a chufuniadau. Cyd-drefniad a chydgyfuniad cyfundraethol o amrywiol foddau sain yw yr hyn a enwir cerddoriaeth.

Un o brif deithi y meddwl dynol yw tynerwch neu gyfaddasrwydd i deimlo. Y mae cerddoriaeth megys pe byddai wedi ei gwneyd yn arbenig i gyfateb yn berffaith i'r holl ansoddau a ddichon fod arno; ac mewn rhai amgylchiadau, ymddengys ei bod yn hollol dan ei hawdurdod. Mae y cyfatebiad hwn yn anegluradwy, ac yn guddiedig yn meddwl yr Anfeidrol Fod. Cyfuniad syml neu gyfansawdd o'i gwahanol foddau yn peri i'r meddwl deimlo yn eofn ac anturiaethus, a chyfuniad arall yn peri iddo deimlo yn ofnus a llwfr—y naill gyfuniad yn peri iddo lawenhau, a'r llall dristäu, &c.:—y mae hyn tu hwnt i athroniaeth i allu ei egluro. Yr achos bod sain yn effeithio mor drylwyr a grymus ar y meddwl yw, bod cydweddiad rhwng y gwahanol gyfuniadau ar ei moddau âg ansoddau y meddwl, fel yr awgrymwyd eisoes: a gellir dyweyd nad oes un ansawdd dichonadwy arno nad yw yn ngallu sain, drwy y naill gyfuniad neu y llall ar ei hamrywiol foddau, ei gyfateb yn berffaith. Un o brif ddybenion Awdwr natur yn cyfaddasu cerddoriaeth mor berffaith gydweddol â theimladau naturiol y meddwl dynol, oedd ei gwneyd yn gyfrwng priodol ac effeithiol i ddyn arllwys drwyddi ei deimladau o fawl a diolchgarwch iddo yn ei wasanaeth a'i addoliad.

Dan yr hen oruchwyliaeth, ystyrid canu mawl, neu ganiadaeth gyssegredig, y rhan bwysicaf o'r addoliad, oddi eithr aberthu. Tra yr aberthai yr offeiriad, safai y Lefiaid, meibion Aaron—y cantorion y tu ol iddynt yn canu; ar yr un pryd byddai "yr holl gynnulleidfa yn addoli;" 2 *Cron.* xxix. 27, 28. Nid ydym yn barnu fod yn rheidiol yma sylwi ar ganiadaeth dan yr hen oruchwyliaeth, gan y gall y darllenydd wybod yr oll a ellir ei wybod am dani yn hanes ei sefydliad yn ngwasanaeth y cyssegr a'r deml, &c. Gwel 1 *Cron.* xvi, xxv; 2 *Cron.* v, vii, xxix, a manau ereill. Gwel CANTORION.

Y mae canu mawl i Dduw yn ddyledswydd gyffredinol. *Salm* cl. 6. A dylai pob dyn a ystyria hyny amcanu cyrhaedd y gradd hwnw o wybodaeth ganiadaethol ag a'i galluoga i ganu ei fawl ef "yn gerddgar a soniarus," ac i'w wneyd yn ogoneddus. Y mae y rhan hon o'r addoliad dwyiol i'w gwneyd, nid yn unig "â'r ysbryd," ond "â'r deall hefyd;" 1 *Cor.* xiv. 15. Y mae yn anmhossibl addoli Duw wrth ganu ei fawl heb fod i raddau yn hysbys o'r melodau a arferir yn ei

Digitized by Google

wasanaeth. Amcanwn gyfleu ger bron y darllenydd grynoad o hanes "canu mawl," neu ganiadaeth eglwysig, yn mhlith y gwahanol genedloedd Cristionogol, o gyfnod sefydliad yr oruchwyliaeth newydd i'r amser presennol.

Haerir nad oes yn y Testament Newydd brawf o sefydliad caniadaeth fel ordinhâd ddwyfol i'w harfer yn addoliad Duw dan yr oruchwyliaeth newydd, tra yr addefir ei dwyfol sefydliad yn ei addoliad dan yr hen oruchwyliaeth. Y mae yn eglur fod Duw i'w foliannu yn ei eglwys "byth ac yn dragywydd;" *Salm* cxlv. 2. Dyben eithaf y ddwy oruchwyliaeth ydyw dwyn yr eglwys filwriaethus i ogoniant, i ganu "iddo Ef, yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddi wrth ein pechodau yn ei waed ei hun;" *Dad.* i. 5. Gan hyny, dygwyd caniadaeth gyssegredig o'r hen oruchwyliaeth i'r newydd; ac y mae yn ffaith, i Iesu Grist a'i ddysgyblion "ganu hymn," sef *Salm* cxiii—cxviii, fel y bernir, ar sefydliad y swper sanctaidd: *Mat.* xxvi. 30. Pe na byddai ond esampl Iesu Grist a'i ddysgyblion yn canu mawl i Dduw ar y sefydliad crybwylledig, y mae hyny yn ddigon o reswm dros i Eglwys Crist wneyd yr un peth yn ei chynnulliadau addoliadol, hyd "oni ddelo" yr "Arglwydd ei hun, a disgyn o'r nef, gyda bloedd a llef yr archangel, ac âg udgorn Duw." Y mae yn ffaith, i Paul a Silas, yn y "carchar nesaf i mewn," yn Philippi, "ganu mawl i Dduw" hefyd; ac y mae Paul, ac ereill, yn eu hepistolau at yr eglwysi Cristionogol, yn eu hannog i "ddysgu a rhybuddio bawb eu gilydd mewn salmau, a hymnau, ac odlau ysbrydol; gan ganu trwy ras yn eu calonau i'r Arglwydd" (*Act.* xvi. 25; 1 *Cor.* xiv. 15, 26; *Eph.* v. 19; *Col.* iii. 16; *Iago* v. 13).

Y mae hanesiaeth gyffredinol hefyd yn hysbysu bod y Cristionogion yn yr oes apostolaidd, a'r oesoedd dilynol, yn canu mawl i Dduw yn eu cynnulliadau crefyddol. Dyma fel y dywed Philo, yr hwn a oesai yn y canrif cyntaf, ar y mater:—"Ar ol swper, dechreuai eu caniadau cyssegredig. Wedi i bawb o honynt godi ar eu traed, neillduid o'u mysg ddau gôr—y naill yn feibion, a'r llall yn ferched; yna, dewisid un o ymddangosiad mygedol o bob côr, ac yn deall caniadaeth yn dda, i arwain y corau; ac yna, dyganent (*chanted*) hymnau o fawl i Dduw, wedi eu cyfansoddi mewn gwahanol fesurau a chyweiriant —weithiau yn cyd-ddyganu, a phryd arall yn dyganu ar gylch." Ac fel hyn yr ysgrifenai Pliny, yr hwn a oesai tua'r un amser a Philo, yn ei lythyr at Trajan, o barth i ganiadaeth eglwysig y Cristionogion boreuol:—"Ymgynnullant cyn dydd i ganu, bob yn ail, hymnau o fawl i Dduw a Christ." Ac y mae Lucianus, ac ereill a oesent tua dechreuad yr ail canrif, yn crybwyll yn eu hysgrifeniadau hwythau am ganiadaeth ysbrydol y "sect newydd," fel yr enwid y Cristionogion y pryd hwnw; sef, ei fod yn rhan arbenig o'u haddoliad a'u gwasanaeth cyssegredig.

Nid oes ammheuaeth na pharhaodd caniadaeth yn addoliad y Cristionogion trwy yr oesoedd nesaf dilynol i'r oes apostolaidd, er nad yw hanesiaeth eglwysig na chyffredinol yn crybwyll dim o'r bron am hyny.

Tua diwedd yr ail, neu ddechreu y trydydd ganrif, hysbysa hanesiaeth eglwysig i un Paulus Samosatenus, esgob Cristionogol, gael ei esgymuno o'r eglwys am esgeuluso canu Salmau Dafydd yn yr addoliad, a sefydlu caniadaeth i'w glod ei hun ynddo. Ac yn nechreuad y trydydd canrif, dywedir i Athanasius gondemnio dull caniadaeth eglwysig y Melesiaid, dilynwyr Meletus, esgob Lycopolis, yn yr Aipht, sef "dylamu, curo dwylaw, a chanu clychau, wrth ganu Salmau Dafydd" yn yr addoliad dwyfol. Dengys hyn fod caniadaeth yn parhau yn nghynnulliadau crefyddol y Cristionogion trwy yr oesoedd boreuaf, er yn ddirywiedig mewn rhai eglwysi neillduol. Dylid crybwyll mai at ganiadaeth eglwysig y Cristionogion yn Asia, yn benaf, y cyfeiria y sylwadau blaenorol.

Erbyn y trydydd canrif, yr oedd Cristionogaeth wedi ymdaenu i nifer lluosog o wledydd Ewrop; ac i ba wlad bynag yr ymdaenai, dygai ganiadaeth gyda hi. Y mae cerddoriaeth a chaniadaeth wedi cydredeg â Christionogaeth o'r oesoedd boreuaf i'r oes hon; a gellir dyweyd mai Cristionogaeth yn unig a noddodd ac a amddiffynodd ganiadaeth am ganrifoedd lawer. Wedi sefydlu Cristionogaeth yn nhiriogaethau Rhufain, dan yr ymherawdwr Cystenyn, tua diwedd y canrif hwn, ymddengys bod caniadaeth eglwysig wedi cyrhaedd gradd lled helaeth o berffeithrwydd ymarferol; canys dywed Eusebius, yr hanesydd eglwysig, fel hyn am dano:—"Cyd-ddygenid mawl i Dduw: yr oedd gweinyddiad yr addoliad yn ddichlynaidd, a defodau yr eglwys yn drefnus a mawreddig; ac yr oedd lle neillduedig i'r rhai a ganent Salmau—ieuenctyd a gwyryfon, a henafgwyr a llanciau." Cyfeiria y dyfyniad yma at ganiadaeth eglwysig yn gyffredinol y pryd hwnw yn ddiau: ac awgrymir ynddo bod y Cristionogion yn parhau i ddilyn y dull cyntefig ar ganiadaeth, sef neillduad corawl, a dyganiad ar gylch gan y corau, neu ynte gan côr a'r gynnulleidfa, yn gystal ag ymuniad yr holl gynnulliad mewn "mawl i Dduw."

Ni ddygwyddodd dim o bwys mewn cyssylltiad â chaniadaeth yr Eglwys Gristionogol yn Asia, o ddiwedd yr ail canrif, neu yn nghylch y cyfnod hwnw, hyd y flwyddyn 375, pan y daeth dan sylw Cymmanfa Laodicea. Nid yw hanesiaeth yn hysbysu yr achos iddi gael ei dwyn dan sylw ynddi, nac ychwaith yn crybwyll dim am y drafodaeth fu arni, amgen na'r penderfyniad hwn: sef, "Nid yw neb ond y canonwyr, a'r côr a gana o'r llyfrau memrwn, i gynnyg canu yn yr eglwys." Y mae yn anmhosibl gwybod pa ham y daeth y gymmanfa i'r penderfyniad hwn; ac nid yw ond ofer dyfalu. Y canlyniad fu, fel yr ymddengys, i'r gynnulleidfa gael ei hamddifadu o'i hawl a'i rhagorfraint i ddyrchafu ei llais mewn "sain cân a moliant" i Dduw yn yr addoliad. Yr oedd y penderfyniad crybwylledig, y mae yn ddiammheu, yn ymadawiad oddi wrth ddull boreuol y Cristionogion o gyflawnu y rhan ganiadaethol o'r gwasanaeth dwyfol; a dywedir i'r dull newydd hwn o ganu gymmeryd lle, nid yn unig yn yr eglwysydd yn Asia, ond yn y rhai gorllewinol neu Ewropaidd yn gyffredinol hefyd. Yr oedd y penderfyniad a'r newyddbeth hwn mewn caniadaeth eglwysig mor anghydweddol âg amcan sefydliad yr ordinhâd hono, fel y syrthiodd o ymarferiad cyffredinol yn yr eglwysydd dwyreiniol a gorllewinol yn mhen ychydig flyneddoedd ar ol ei sefydliad ynddynt.

Cyn myned yn mhellach, dichon y dylid sylwi ar y melodau a'r farddoniaeth a arferid gan y Cristionogion boreuol yn yr addoliad dwyfol. Yr oedd eu barddoniaeth o ddau rywogaeth; sef Salmau a hymnau ysbrydoledig, megys Salmau Dafydd, Asaph, &c.; a hymnau, neu ganiadau seintiau ereill yr Hen Destament a'r Newydd, megys caniadau Moses, cân Deborah a Barac,

Digitized by Google

Elizabeth, Mair, Zecharias, yn nghyd â chaniadau yr apostolion (*Act.* iv. 24—30); ac "odlau ysbrydol," sef cyfansoddiadau prydyddol rhai o'r Cristionogion boreuol awengar, y rhai a genid drwy ganiatâd yr apostolion yn addoliadau y saint. Yr oedd yr amrywiaeth barddonol hwn, o angenrheidrwydd, yn achosi amrywiaeth cerddorol neu ganiadaethol hefyd yn eu hymarferiadau crefyddol, ond yn benaf yn mhlith y cenedloedd dychweledig. O barth melodau neu ddyganau y Salmau a'r hymnau, y mae pob lle i dybio mai melodau Hebreaidd oeddynt, y rhai a ddygenid yn ngwasanaeth y deml; a bod rhai o honynt o gyfansoddiad "peraidd ganiedydd Israel" ei hun; ac i'r cyfryw felodau, yn gystal a'r Salmau a'r hymnau, gael eu dysgu i'r Cristionogion gan yr apostolion, y rhai, yn ddiammheu, oeddynt hysbys yn nghaniadaeth y gwasanaeth Hebreaidd. Y mae y dybiaeth yna, o'r hyn lleiaf, yn naturiol.

Nid ymddengys i'r Hebreaid, fel cenedl, ymddiwyllio nemawr, os dim, mewn cerddoriaeth na chaniadaeth, o amser Dafydd, a'i fab Solomon, hyd ddiwedd yr hen oruchwyliaeth, na byth wedi hyny. Ond y mae hanesiaeth ysgrythyrol yn hysbysu i ganiadaeth gyssegredig gael ei sefydlu yn ngwasanaeth yr ail deml, ar ol dychweliad y genedl o gaethiwed Babilon, fel y sefydlwyd hi gan Dafydd a Solomon gynt. Ac yn y sefydliad hwnw, y mae yn ddiammheu i'r un melodau a ddygenid yn eu hamser hwy gael eu penodi i fod mewn ymarferiad yn ngwasanaeth yr ail deml, ac i'r cyfryw felodau barhau felly hyd ddiwedd yr hen oruchwyliaeth; ac yna, eu dwyn, fel yr awgrymwyd, i wasanaeth ac addoliad Duw dan yr oruchwyliaeth newydd; ac iddynt barhau mewn ymarferiad yn yr addoliad hwnw hefyd am rai canrifoedd beth bynag. Cadarnheir y dybiaeth yna gan hanesiaeth eglwysig, yr hon a hysbysa mai Salmau Dafydd, &c., yn nghyd â'r hymnau ysbrydoledig, a ddygenid gan yr Iuddewon Cristionogol yn eu haddoliadau hwy am gyfnod lled faith wedi sefydliad Cristionogaeth; ond y dygenid yr hymnau a'r odlau anysbrydoledig, yn gystal a'r Salmau, gan y cenedloedd dychweledig yn yr eiddynt hwy.

O barth i ffurf neu ansawdd cyfansoddiadol melodau y Salmau a'r hymnau a ddygenid gan y Cristionogion boreuol, nid oes gymmaint ag enghraifft o honynt "ar gof a chadw" i'w wybod a'i benderfynu i sicrwydd. Y mae yr Iuddewon yn haeru, heddyw, mai melodau y tabernacl a'r deml gynt a ddygenir ganddynt hwy yn ngwasanaeth y synagog yn gyffredinol drwy yr oesoedd. Os felly, a chaniatau mai y cyfryw felodau a ddygenid gan y Cristionogion boreuol hefyd yn eu haddoliadau hwythau, y mae yn hawdd gwybod eu ffurf a'u teithi cyfansoddiadol. Eithr nid yr un melodau a ddygenir gan yr Iuddewon yn ngwasanaeth y synagog yn nghwaanol wledydd Asia ac Ewrop; a lle y tybir dyganu yr un melodau, mewn gwahanol synagogau, y mae cymmaint o wahaniaeth yn null eu dyganiad fel mai braidd y gwybyddir eu bod o'r un ffurf cyfansoddiadol. Y gwirionedd yw, y mae melodau eglwysig y Cristionogion boreuol, pa un bynag ai melodau y deml neu ynte melodau cenedlig a diweddarach oeddynt, wedi myned er's oesoedd i ffordd y "nablau," y "symbalau," "offer Dafydd, brenin Israel," a "dau can mil udgyrn Solomon;" ac y mae yn fwy na thebyg na ddeuir byth i wybod dim yn rhagor yn eu cylch yn y byd hwn.

O barth yr "odlau," neu ynte, fel y myn rhai eu henwi, "hymnau," anysbrydoledig, ond priodol i'w harfer yn addoliad Duw, a'u melodau—dywedir fod yr odlau, o ran ffurf mesurol eu cyfansoddiad, yn baganaidd—Groegaidd neu Rufeinaidd; Groegaidd, fe ddichon. A barna rhai mai melodau paganaidd oedd eiddo yr odlau hefyd; ac i'r naill a'r llall o honynt gael eu harfer yn nghynnulliad crefyddol y Cristionogion cenedlig trwy oddefiad y tadau apostolaidd. Am nad yw hanesiaeth eglwysig yn crybwyll dim am "felodau newyddion" mewn ymarferiad yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth, dywedir mai ar yr un melodau y dygenid yr odlau ag y dygenid y Salmau a'r hymnau arnynt:—ond fe ammheuir hyn. Yr oedd ffurf mesurol yr odlau yn wahanol i eiddo y Salmau a'r hymnau ysbrydoledig; gan hyny, nid oeddynt yn gymhwys o ran eu ffurf mesurol, i'w dyganu ar felodau y Salmau, &c.; ac y mae yn naturiol barnu, un ai i'r odlau gael eu cyfansoddi ar felodau oedd eisoes yn hysbys ac arferadwy, neu ynte ar felodau newyddion a gyfansoddwyd iddynt yn bwrpasol. Y syniad blaenaf yw y mwyaf naturiol, fe ddichon. Ac nid oedd bod y melodau o darddiad a chyfansoddiad paganaidd yn rheswm digonol dros beidio eu defnyddio yn yr addoliad Cristionogol, mwy nag oedd ffurf mesurol cyfansoddiad yr odlau yn rheswm dros eu gwrthod hwythau i ymarferiad ynddo. Yr oedd safon cyfansoddiant cerddoriaeth y Groegiaid y pryd hwnw yr hyn oedd yn amser Ambrose, tua dechreu y pedwerydd canrif; a gwyr pob cerddor ymchwilgar am ragoroldeb a theithi tybiedig ei ddyganau (*chants*) ef, y rhai a gyfansoddodd, yn ol y safon hwnw, i ymarferiad yn ei eglwys ei hun yn Milan.

Awgrymwyd eisoes na ddyganai yr Iuddewon Cristionogol ond y Salmau a'r hymnau ysbrydoledig yn eu cynnulliadau, tra y dyganai y cenedloedd dychweledig yr odlau yn gystal a'r Salmau, &c. A hysbysa hanesiaeth fel hyn am eu dull cyffredinol o ddyganu; sef, y dygenid yr odlau gan berson unigol, ond y Salmau a'r hymnau ysbrydoledig gan yr holl gynnulleidfa. Awgryma hyn yna yr amrywiaeth cerddorol neu ganiadaethol tybiadwy, a grybwyllwyd eisoes, raid oedd fod yn arferedig yn addoliadau y Cristionogion boreuol; a bod y Salmau a'r hymnau mewn arferiad cyffredinol, tra nad oedd yr odlau ond yn neillduol.

Gan nad oedd cerddoriaeth a chaniadaeth wedi cyrhaedd ond gradd lled gyfyng o berffeithrwydd y pryd hwnw, rhaid barnu nad oedd nemawr o drefn a chyssondeb yn nghyflawniad cyffredinol y rhan ganiadaethol o'r addoliad. Math o dreithganiad (*recitative*) silliadol, yn nghyd âg ymgeisiadau anmherffaith at aceniad a mydraeth, oedd; heb ofalon am gydseiniaeth, oddi eithr yn awr ac eilwaith y treithgenid yn unseiniadol, neu ynte yn wythonol: yn gyffredinol, treithgenid yn ngraddeg naturiol y lleisiau, a llywodraethid yr amseriad gan y teimladau a fwynheid ar y pryd, yn hytrach na chan iarn a chwaeth. Y dull tebycaf o ganu yn addoliad y Cristionogion boreuol, yw y dull treithganiadol arferedig yn ngwasanaeth y synagogau yn bresennol, fe ddichon.

Y mae un peth yn sicr a digon diammheus o barth eu canu, os gellir credu hanesiaeth hefyd, sef ei fod yn wrthddyganiadol neu wrthganiadaethol (*antiphonal* neu *responsorial*); hyny yw, ar gylch, neu bob yn ail—y naill ddosbarth corawl yn ateb y llall. Awgryma hyn yna, naill ai y dosberthid y gynnulleidfa i ddau ddosbarth

Digitized by Google

cyffredinol, neu ynte fod dosbarthiad corawl neillduol a gwahaniaethol yn eu mysg. Os tybir iddynt ddilyn y dull Hebreaidd ar ganiadaeth, yr olaf yw y tebycaf. Yr un pryd, tybir yr ymunai yr holl gynnulliad yn un côr cyffredinol ar adegau, yn ol trefn cyflawniad y rhan hono o'r gwasanaeth a allai fod wedi ei sefydlu.

Y mae rhai haneswyr yn hysbysu i'r dull gwrthganiadaethol ar ganiadaeth eglwysig boreuol gael ei sefydlu gyntaf yn eglwys Antiochia, gan Flavian a Diodore, neu, fel yr hysbysa Eusebius, ac fel yr haera yr hanesydd eglwysig Socrates hefyd, gan Ignatius, dysgybl Ioan: y farn gyffredinol yw, mai Ignatius a'i sefydlodd yno. Dywedir iddo ef, mewn perlewyg neu weledigaeth (*vision*), fel y dywed rhai, glywed y corau nefol yn dyganu hymnau o fawl i Dduw, neu, fel y dywedir, i'r Drindod, *bob yn ail;* ac iddo ei gynnyg, fel y dull mwyaf priodol o foliannu Duw yn yr addoliad, i'r Cristionogion dwyreiniol i'w efelychu. Derbyniwyd y dull hwn yn eiddgar ganddynt. Dosbarthwyd y cantorion yn ddau gôr gwahaniaethol—un ar y naill ochr, a'r llall ar yr ochr arall, i'r eglwys. Dywedir fod y dull corawl hwn ar ganiadaeth eglwysig wedi dyfod i arferiad yn mhob gwlad lle yr oedd Cristionogaeth yn sefydledig. Eithr y mae yr hanesydd Suidas yn haeru na ddaeth y dull gwrthganiadaethol i arferiad yn yr eglwysi Cristionogol cyn teyrnasiad Constantius, mab Cystenyn Fawr, tua'r flwyddyn 314 B. A. Camgymmeriad yw hyny, medd rhai haneswyr; a haerant mai at ddygiad y dull hwn o ganu i arferiad cyffredinol yn yr eglwysi gorllewinol y cyfeiria Suidas.

Ond y gwirionedd yw, i'r Cristionogion boreuol ddilyn y dull Hebreaidd o ddyganu y Salmau a'r hymnau yn ngwasanaeth y deml. Dyna farn Padre Martini, Calvin, Hooker, Latrobe, ac ereill. Nid oes dim ammheuaeth bellach, nad y dull gwrthganiadaethol a arferid yn y gwasanaeth hwnw. Y mae dull cyfansoddiadol nifer o'r Salmau ar unwaith yn profi hyn. Er anghraifft, *Salm* civ. Yn y salm hon, y mae y naill adran wrthganiadaethol yn hawdd ei gwahaniaethu oddi wrth yr adran arall. Wedi i'r naill côr ddyganu moliant Duw yn yr ail berson, dyganai y llall ei foliant yn y trydydd—y naill yn ateb y llall ar gylch. Y mae *Salm* cxxxvi. yn anghraifft o'r un peth. Dyganai un o'r corau—

"Clodforwch yr Arglwydd; canys da yw:"

Gwrthddyganai y côr arall—

"O herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd."

Yn y cyfeithiad Cymraeg o *Salm* cxlvii. 7, dywedir—"Cydgenwch i'r Arglwydd mewn diolchgarwch." Eithr yn yr Hebraeg, "*Atebwch* i'r Arglwydd," &c., yw. Cyfeithir *Esa.* xxvii. 2, i'r Gymraeg, "Yn y dydd hwnw cenwch iddi:" ond "*atebwch* iddi" yw yn yr Hebraeg. Y mae *Exod.* xxxii. 18; *Num.* xxi. 17; *Salm* xxiv. 7—10; ac *Esa.* vi. 1—3, yn anghreifftiau o gyfansoddiadau barddonol i'w canu yn yr un dull, yn nghyd â nifer ereill a ellid enwi i ddangos yr un peth. Nid yw y chwedl o barth gweledigaeth Ignatius am y dull gwrthganiadaethol o foliannu yr Arglwydd ond ynfydrwydd. Yr un pryd, nid yw yn annhebygol iddo ef, neu ryw un arall, sefydlu trefn ar ganiadaeth eglwysig mor fuan ag y caniatäai amgylchiadau i hyny gael ei wneyd; a'r drefn hono oedd, yn ddiammheu, y drefn wrthganiadaethol. Yn brawf o'r dull hwn ar ganiadaeth eglwysig yn oesoedd boreuaf Cristionogaeth, y mae hanesiaeth yn hysbysu ei fod mewn ymarferiad yn yr eglwysi Cristionogol yn yr Aipht, Lybia, Thebes, Palestina, ac yn yr eglwysi Cristionogol yn mhlith yr Arabiaid, y Phœniciaid, y Syriaid, ac yn Mesopotamia, yn yr ail a'r trydydd canrif. A dywedir i Basil ei sefydlu yn yr eglwysi Cristionogol yn nhir Groeg yn gynnar yn y pedwerydd canrif, os nad yn gynt. Dygwyd ef i arferiad yn Rhufain gan yr esgob Damascus yn yr un canrif; yn Milan, gan Ambrose, tua 'r flwyddyn 374, medd rhai haneswyr; ac yn Caer Cystenyn, gan Chrysostom, tua 'r un amser.

Ymddengys fod caniadaeth eglwysig, o ran y melodau neu y dyganau, wedi dirywio a syrthio i annhrefn mawr iawn tua dechreu y pedwerydd canrif. Gan hyny, y mae hanesiaeth eglwysig yn hysbysu i Ambrose, esgob Milan, ymgymmeryd â'r gorchwyl o gyfansoddi dyganau newyddion, yn benaf i'w harfer yn ei eglwys ei hun, yn Milan. Dywedir iddo gael ei gymhell at y gorchwyl o gyfansoddi ei ddyganau gan ddiffyg peroriaethol y dyganau arferedig. Canys dywed Isidore am danynt, eu bod yn dra diffygiol mewn peroriaeth ac ysgogiadau graddegol; ac mai eu prif hynodrwydd oedd undoniaeth (*monotony*). Rhoddodd Ambrose i'w ddyganau ef fwy o gyfeiriad ac amrywiaeth peroriaethol nag oedd yn y dyganau cyntefig. Ac y mae Isidore yn hysbysu bod ei ddyganau ef yn tra rhagori yn mhob ystyr ar y dyganau arferedig gan yr eglwysi Cristionogol yn Asia ac Ewrop ar y pryd. Dygenid y dyganau Ambrosaidd yn yr un dull ag y dygenid y dyganau arferedig; sef yn wrthganiadaethol. Beth bynag oedd eu neillduolrwydd a'u teithi cyfansoddiadol, ymddengys eu bod yn dylanwadu ar y teimlad yn nerthol ac anwrthebadwy. Fel hyn y dywedai Awstin am dano ei hun, o barth y dylanwad a deimlai wrth glywed eu dyganu:—"Pan ddisgynai y lleisiau ar fy nghlust, dyferai gwirionedd i'm calon, a dylifai duwiol serchiadau mewn dagrau a llawenydd." Yr oedd rhagoroldeb y dyganau Ambrosaidd ar y dyganau cyffredin gymmaint fel y dywedir iddynt ddyfod yn fuan i arferiad yn yr eglwysi Cristionogol drwy y byd. Y mae yn annichonadwy, weithion, gwybod dim am neillduolion y dyganau crybwylledig; canys y maent wedi myned oddi ar "gof a chadw" er's canrifoedd lawer. Beth bynag oedd eu teithi cyfansoddiadol a gwahaniaethol, y mae pob lle i dybio eu bod o ran eu harddull yn gyffelyb i eiddo y dyganau boreuol, er bod iddynt fwy o berorineth a chyfeiriad. Dywedir fod Ambrose yn gerddor diwylliedig. Os efe yw awdwr y "Ti Dduw" (*Te Deum*) a gyfrifir iddo, nid oes un ammheuaeth am hyny. Y cyfansoddiad crybwylledig yw y cyfansoddiad eglwysig henaf ar gael; ac y mae mor debyg y parha mewn arferiad gan nifer o'r eglwysi Cristionogol hyd ddiwedd amser. Eithr y mae rhai haneswyr yn ammheu ei awduraeth, sef na chyfansoddwyd ef gan Ambrose ei hun, ond ganddo ef ac Awstin yn nghyd; tra yr haera ereill ei gyfansoddi gan Nicetius, esgob Triers, tua 'r flwyddyn 500.

Er rhagoroldeb a theithi arbenig a gwahaniaethol y dyganau Ambrosaidd, a'u dylanwad cyffredinol, ymddengys na pharhasant yn hir iawn mewn arferiad gan yr eglwysi Cristionogol gorllewinol o'r hyn lleiaf; canys ychydig cyn y flwyddyn 550, yr oedd caniadaeth eglwysig yn yr eglwysi hyny wedi syrthio eilwaith i annhrefn a dirywiad. Ei gymmeriad, y pryd hwnw, oedd ymarferiad â dyganau neu felodau mwy blodeuog

Digitized by Google

(*florid*) na'r dyganau blaenorol, sef cymmysgedd o'r dyganau Ambrosaidd â melodau mwy blodeuog y chwarëyddiaethau paganaidd. Enwid y cymmeriad hwn ar ganiadaeth eglwysig *canto figuranto.* Anfoddhëid y tadau, fel y dywedir, yn fawr iawn yn y *canto* hwnw: yn un peth, o herwydd ei arddull anmhriodol i wasanaeth crefyddol; heb law hyny, o herwydd ei fod yn rhy gywrain a chelfyddgar i'r anniwylliedig mewn caniadaeth ei ymarfer, fel yr amddifedid ef o'i ragorfraint a'i ddyledswydd o foliannu yr Arglwydd yn nghynnulleidfa y saint. Penderfynodd y pab Gregory Fawr roddi terfyn ar y dull hwnw ar ganiadaeth eglwysig. Cyfansoddodd yntau ddyganau newyddion, a rhoddodd iddynt fwy o gyfeiriad nag a roddwyd i'r dyganau Ambrosaidd. Cyfansoddwyd y dyganau Ambrosaidd mewn pedwar o foddau (*modes*), fel safonau cyfansoddiad dyganau. Enwir hwy *y moddau authentic*;—moddau Groegaidd oeddynt: dyna oedd eithafion cyfeiriad a therfynau safonau cyfansoddiad y dyganau Ambrosaidd. At y pedwar modd yna, chwanegodd Gregory bedwar ereill yn safonau cyfansoddiad. Enwir ei foddau chwanegol ef, *y moddau plagal.* Ac yn nghyfansoddiad ei ddyganau, defnyddiodd yr holl foddau yn safonau. Y mae ei ddyganau mewn arferiad hyd heddyw gan rai o'r eglwysi Cristionogol trwy y byd gorllewinol. Y gwahaniaeth rhwng moddau neu safonau cyfansoddiad y dyganau Ambrosaidd a Gregoraidd yw hyn:—yn ol y safonau Ambrosaidd, dywedir y cyfyngid cyfryngau y ddygan i'r cylch o wyth o seiniau uwch law y cyweirnod; ond yn y safonau Gregoraidd, i'r cylch o wyth o seiniau islaw ei bummed. Enwir y dull Gregoraidd ar ganiadaeth eglwysig, *canto fermo.* Heb law cyfansoddi dyganau newyddion, casglodd Gregory yn nghyd nifer lluosog o'r dyganau boreuol, ac o gymmeradwyaeth y tadau henafol, ac a'u trefnodd i arferiad caniadaethol yn y ffurf yr arferir hwynt yn bresennol mewn amrywiol eglwysydd Cristionogol yn Ewrop. Cyn ei amser ef, yr oedd yr offeiriaid a'r cantorion neillduedig yn gweinyddu eu swyddau yn yr un lle neillduedig yn yr eglwys. Ond gan fod yr olaf yn enwocach am eu lleisiau nag am eu duwioldeb, neillduodd ef y naill oddi wrth y llall. gan drefnu lle arbenig i'r cantorion. Dywedir iddo sefydlu ysgol gerddorol hefyd yn Rhufain, i addysgu rhai yn y gelfyddyd o gerddoriaeth, ac i wasanaeth caniadaethol yr eglwysydd yn gyffredinol. Dywedir fod y sefydliad hwnw wedi parhau dros dri chan mlynedd.

Gwell hysbysu yma nad oedd ond un math o goel cerddorol yn amser Gregory, sef y coel ▬; ac nid yw y coelion a elwir "coelion Gregoraidd" ond rhai o ddyfeisiad diweddarach, ac a gymhwyswyd at ei ddyganau ef. Yn mhell ar ol ei amser ef y daeth y coel ◆ i arferiad. Arwyddai y coel ▬ sill hir, a'r coel ◆ sill byr. Dyma y coelion a fu mewn arferiad i ddynodi amseriad caniadaeth y dyganau am ganrifoedd.

Y cyfnewidiad nesaf o bwys a chanlyniad a wnaed ar ffurf caniadaeth eglwysig yn yr eglwysydd Cristionogol gorllewinol, ar ol amser y pab Gregory, oedd, cyfuno neu gyssylltu caniadaeth offerynol â'r ffurf leisiol arni. Nid yw hanesiaeth yn cytuno o barth cyfnod y cyfuniad hwn. Haera rhai o honynt y defnyddid offerynau cerdd gan y Cristionogion boreuaf yn nghaniadaeth yr eglwysydd. Ond y mae Dr. Burney yn haeru yn wahanol; sef na chyfunwyd caniadaeth offerynol â'r un leisiol cyn sefydliad Cristionogaeth yn ymherodraeth Rhufain yn gyffredinol. Wedi hyny, defnyddid offerynau cerdd gan y Cristionogion yn eu caniadaeth yn eu huchel wyliau, &c. Eu hofferynau cyffredin oedd y delyn, y psaltring, y symbal, &c., eb efe.

Prif offeryn cerdd caniadaeth eglwysig, er's oesoedd a chanrifoedd, yw yr organ. Pan y daeth yr offeryn hwn i arferiad, ciliodd y mân offerynau o'r neilldu. Y mae anghytundeb rhwng haneswyr o barth y cyfnod y dygwyd hi i arferiad. Ammheuir cywirdeb yr haeriad fod yn rhai o ysgrifau Jerome grybwylliad am organ yn Ierusalem (ni ddywedir yn mha le ynddi) tua dechreuad y cyfnod Cristionogol, y gellid clywed ei sŵn o Fynydd yr Olewydd. Dywedir i'r offeryn hwn gael ei arfer gyntaf yn nghaniadaeth yr eglwysydd gorllewinol gan y pab Vitalian, yn Rhufain, tua'r flwyddyn 670: ac yn y flwyddyn 755, anfonodd yr ymherawdwr Groegaidd, Constantinus Copronymus, un yn anrheg i Pepin, brenin Ffrainc; yr hwn offeryn a arferid wedi hyny yn addoliad neilldnedig y teulu brenhinol. Eithr y mae hanesydd, o'r enw Ammonius, yn haeru na ddaeth yr organ i arferiad mewn caniadaeth eglwysig cyn y flwyddyn 820. Ac y mae Bingham yn haeru na ddaeth cyn y flwyddyn 1290 i arferiad ynddi. Pwy sydd i'w goelio, ni wyddys. Ond y farn gyffredin yw, fod yr offeryn dan sylw wedi dyfod i arferiad tua dechreu y chweched canrif.

Awgrymwyd eisoes nad oedd y dyganau boreuol ond math o gyfuniad seiniol neu felodawl unlleisiol. Ond wedi dwyn yr organ i arferiad, dechreuwyd chwanegu lleisiau ereill at y ddygan, gyda gradd o fedrusrwydd celfyddydol. Y mae yn ddiammheu i'r organ, o herwydd yr amrywiaeth seiniau a feddai, fod yn offeryn darganfyddiad athroniaeth a chyfuniad seiniau, neu, yr hyn a enwir yn bresennol, cynghanedd. Ar y cyntaf, chwareuid melodeg y ddygan mewn unsain â'r lleisiau. Yn raddol, ac fel y ceffid allan gyfuniad boddhaol seiniau a'u teithi, daeth yr hyn a elwir y trydydd lleiaf i arferiad cannhrodol neu gymdeithranol; sef math o ddeuawd (*duet*) offerynol a lleisiol. Weithiau, chwareuid yr organ ar gyfrwng islaw y ddygan, sef yr hyn a enwir *holding note;* bryd arall, chwareuid y ddygan yn y cyfrwng o bedwar islaw neu o bummed uwch law ei graddeg cyweirnodol: ac yn fynych cydchwareuid hi yn y ddau gyfrwng, tra y cenid hi yn ei graddeg cyweirnodol gan y lleisiau. Enwid y dull diweddaf a grybwyllwyd ar chwareuad y ddygan, dyganiad dyblyg amryleisiol, neu ynte amryseiniol (*descant*). Ac o radd i radd, daeth y dull amryseiniol hwn i arferiad heb yr organ; a chwanegwyd nifer y lleisiau o ddyganiad dyblyg, i ddyganiad triphlyg (*triple* neu *trio*), a dyganiad pedwarplyg (*quadruple* neu *quartet*), &c. Mewn gair, dygwyd pob cyfuniad galluadwy ar seiniau i arferiad, mor berffaith ag y goddefai cydnabyddiaeth â'u deddfau ac â rheolau sefydledig y cyfnod hwnw ar gerddoriaeth cynghanedd a chaniadaeth. Ac erbyn yr unfed canrif ar ddeg, yr oedd yr amryleisiant hwn wedi cyrhaedd cymmaint o berffeithrwydd ymarferol mewn rhai eglwysi, fel y medrai eu cantorion celfyddgar gyfeilio *fugues* ac *imitations* yn ddifyfyr ar unrhyw ddygan syml, a hyny yn unol â rheolau manylaf cynghanedd sefydledig. Erbyn hyn, yr oedd ffurf hollol newydd ar ganiadaeth eglwysig yn gyffredinol yn yr eglwysydd gorllewinol. Ac o herwydd ei anghydweddiad â'r ffurf boreuach arno ac âg amcan caniadaeth

Digitized by Google

eglwysig, ennynwyd eiddigedd yr awdurdodau eglwysig dros yr hen ffurf, yn nghyd â gwrthwynebiad anhyblyg yn erbyn y ffurf newydd; a chondemniwyd hi fel peth i foddhau y glust, yn hytrach na moddion neu gyfrwng addoliad a mawl.

Awgrymwyd eisoes nad oedd ond dau fath o goelion, neu arwyddion amseriad sain, mewn arferiad am rai canrifoedd cyn i gerddoriaeth a chaniadaeth gyrhaedd y perffeithrwydd ymarferol a grybwyllwyd yn y sylwadau blaenorol. Y pryd hwnw, rhaid fod y cyfuniad seiniol, neu y gynghanedd, yn y ffurf symlaf; sef coel gyferbyn â, neu yn ateb i goel; neu ynte sain yn ateb i sain, parth amseriad. Ysgrifenid y coelion uwch ben y sillau; canys nid oedd yr erwydd wedi ei dyfeisio y pryd hwnw; a rhoddid i'r sillau amseriad seiniadol cyfartal.

Ni chymmerodd unrhyw gyfnewidiad o bwys le yn nghaniadaeth eglwysig yr eglwysi gorllewinol o'r unfed canrif ar ddeg hyd y pymthegfed canrif, amgen na pherffeithiad chwanegol ar gynghanedd y dyganau arferedig. Fel y dywedwyd o'r blaen, yr oedd y perffeithiad hwn yn parhau i anfoddloni yr awdurdodau eglwysig: ac erbyn dechreu y trydydd canrif ar ddeg, yr oedd wedi myned mor annyoddefol iddynt fel y condemniwyd ef gan y pab Ioan XXII. yn 1322. Beiai gefnogwyr y ffurf newydd yn llym, a dywedai "eu bod yn caru boddhau eu clustiau â'r pethau a enwid *semibreves* a *minims*, yn nghyd â dyfeisiau ereill cyffelyb diwerth, yn hytrach nag â'r dyganau eglwysig henafol." Ac yn Lloegr, ychydig cyn y Diwygiad Protestanaidd, yr oedd caniadaeth wedi ei garlo i'r fath eithafion o gywreinrwydd cynghaneddol, fel y gwahardd-odd yr esgob Latimer ganu o gwbl yn holl eglwysydd ei esgobaeth. Y mae Erasmus, hefyd, yn dywedyd am y canu y pryd hwnw, ei fod "yn ddyrus i'r eithaf," ac nad ydoedd ddim amgen na "dadwrdd annhrefnus a chymmysglyd ar eiriau," fel na wyddai neb ond y cór yr hyn a genid—os gwyddai hwnw.

Ymddengys mai prif hynodion caniadaeth yn gyffredinol tua'r amser hwnw oedd defnyddiad anghydseiniaid o ddarganfyddiad diweddar—*imitations*, *fugues*, &c.—yn nghynghaneddiad y dyganau. Dywedir mai Sais, o'r enw Dunstable, a ddarganfyddodd gyntaf yr anghydseiniaid a arferir; ac mai efe a arferodd gyntaf yr hyn a enwir "cynghanedd flodeuog" (*florid*, neu *figurative*) i'r ddygan hefyd.

Wedi olrhain caniadaeth eglwysig yn gyffredinol i'r bymthegfed canrif, rhaid i ni weithian droi yn ol eto i sylwi arni yn fwy neillduol yn ngwahanol wledydd cred.

Yn y nawfed canrif, ymrwygodd yr Eglwys Gristionogol gyffredinol i ddau ddosbarth neillduol; sef, Eglwys Groeg, ac Eglwys Rhufain; neu yr Eglwys Ddwyreiniol, a'r Eglwys Orllewinol. Ar ol yr ymrwygiad hwnw, parhaodd caniadaeth eglwysig yn Eglwys Groeg yr hyn oedd yn yr eglwys gyffredinol cyn hyny, heb nemawr os dim o gyfnewidiad arno am gyfnod lled faith. Eithr y mae rhai yn haeru i un, John Damascenus, tuag amser y rhwygiad, ddiwygio y dyganau arferedig cyffredinol, yn gyffelyb fel y gwnaeth Gregory cyn hyny; ac iddo ddyfeisio coelion newyddion, a thrwy hyny roddi ffurf newydd ac arbenig ar ganiadaeth Eglwys Groeg. Os gwnaed y diwygiad yna ar ganiadaeth yr eglwys hono y pryd hwnw, nid yw yn ymddangos iddo barhau yn hir mewn arferiad; canys nid oedd argoelion o hono i'w cael yn mhen ychydig ganrifoedd ar ol y cyfnod hwnw.

Yn yr unfed canrif ar bymtheg, daeth llyfr defodau (*rituals*) Eglwys Groeg, yn Rwssia, dan sylw arbenig y llywodraeth. Y canlyniad fu ad-drefnu ffurf ei gwasanaeth, a'i ddwyn i fwy o unffurfiaeth nag o'r blaen, yn yr hyn y dyfynwyd, mewn rhan, ffurf gwasanaeth Eglwys Rhufain; ac felly, dygwyd caniadaeth, yn gystal a rhanau ereill o wasanaeth Eglwys Groeg, i arferiad cyffelyb i eiddo hono. Ac yn nechreu y deunawfed canrif, bu Bortniansky a Bérézoosky, dau gerddor Rwssiaidd, yn llwyddiannus i sefydlu ffurf caniadaeth Eglwys Rhufain yn lled gyflawn yn Eglwys Groeg, yn Rwssia: ac felly y mae yn parhau heb gyfnewidiad o bwys arno hyd heddyw yn yr ymherodraeth hono. Dywedir mai caniadaeth leisiol, yn gyffredin, sydd yn ngwasanaeth Eglwys Groeg yn Rwssia, ac yn ei gwasanaeth yn gyffredinol hefyd; ac o ran ei ansawdd, y mae mewn gradd mawr o berffeithrwydd ymarferol mewn rhai parthau o'r ymherodraeth. Cyrhaeddir y perffeithrwydd ymarferol hwnw drwy ymdrechion diflino; pa rai sydd yn cael eu hachosi gan y syniad mai caniadaeth yw y rhan arbenicaf o'r addoliad dwyfol. Ffurfir y corau, yn gyffredin, o drigolion yr Ukraine, sef y Cossackiaid, o herwydd rhagoroldeb naturiol eu lleisiau.

Y mae caniadaeth eglwysig yn mysg y Groegiaid eu hunain yn bur anmherffaith a dilewyrch. Ei hynodrwydd penaf yw undonaeth (*monotony*); a thuedda i arwain y gynnulleidfa i gysgu yn hytrach nag i gynnyrchu ynddi deimlad effro a bywiog i addoli. Ychydig iawn yw eu gwybodaeth a'u hymarferiadau cerddoriaethol a chaniadaethol yn mhob ystyr. Ac y mae diffyg cyfundrefn o gerddoriaeth yn eu mysg yn un o'r rhwystrau penaf iddynt gyrhaedd nemawr o ddiwylliant cerddorol a chaniadaethol. Hyd yn ddiweddar, yr oedd nifer coelion seiniau mor lluosog ac amryfal ganddynt, fel ei fod "yn nesaf peth i wyrth" i neb allu dysgu cerddoriaeth i radd o berffeithrwydd, er yr holl ddiwygiad yr haerir i John Damascenus wneyd ynddi. Cynnwysir eu holl ganiadaeth eglwysig mewn hymn i'r "Forwyn Fair," ac i ychydig nifer o Salmau y maent yn adnabyddus o honynt, ac yn alluog i'w dyganu.

Y mae haneswyr yn hysbysu na chymmerodd nemawr gyfnewidiad le yn Italy ar ganiadaeth eglwysig, o amseriad y pab Gregory, hyd ddechreu yr unfed canrif ar ddeg. Yn y canrif hwn, dywedir i fynach o'r enw Guido ddyfeisio yr erwydd, ar yr hon yr ysgrifenid y coelion, yn lle uwch ben y geiriau. Dywedir mai efe hefyd a gynghaneddodd y dyganau Gregoraidd gyntaf erioed; ac mai cyfryngau ei gynghaneddiad arnynt oedd y trydydd mwyaf a lleiaf, y pedwerydd (ni ddywedir o ba ansawdd yr oedd), a'r wython, i felodeg y ddygan. Defnyddid y ddygan, yn y ffurf gynghaneddol hono arni, gyntaf, yn ei fynachdy ef ei hun yn Rhufain. Y mae haneseiaeth yn sicrhau hefyd iddo eangu cylch defnyddiad y gwahanol leisiau i bedwar ar ugain o gyfryngau, sef o G yn y sawd (*bass*), i E yn yr alon (*treble*). Myn rhai awdwyr fod cynghanedd mewn arferiad ar y dyganau yn mhell cyn ei amser ef, ac na chwanegodd ef ddim at yr hyn oedd arferedig o'r blaen arnynt, ond cyfrwng y trydydd mwyaf a lleiaf. Fe ddichon y priodolir i Guido fwy o ddiwygiadau mewn cerddoriaeth nag sydd ddyledus iddo mewn gwirionedd.

Digitized by Google

O amser Guido, ac yn wir yn mhell cyn hyny, i'r bymthegfed ganrif, y prif amgylchiad mewn cyssylltiad â chaniadaeth eglwysig yn Italy, yn gystal ag yn ngwledydd ereill Ewrop, oedd y perffeithiad ar gynghanedd y dyganau a grybwyllwyd yn flaenorol. Ond nid ymddengys i'r perffeithiad hwnw fod mor lwyddianus yn Italy ag mewn rhai gwledydd ereill; canys dywedir y cynghaned lid y dyganau, ac y cyfansoddid cerddoriaeth at wasanaeth caniadaethol yr eglwysydd Italaidd, hyd yn oed yr eglwysydd yn Rhufain ei hun, gan estroniad cenedlaethol; megys Ellmyn, Ffrangcod, &c.

Ond rhwng 1571 a 1594, cododd cerddor yn Italy a roddodd ddiwyg newydd ar gerddoriaeth a chaniadaeth eglwysig y genedl, ac yn wir ar gerddoriaeth a chaniadaeth eglwysig cenedloedd ereill yn Ewrop hefyd. Y gŵr hwnw oedd Palestrina: ac enwid ef am gyfnod maith yn "awdwr cerddoriaeth eglwysig ddiweddar." Nodweddau penaf ei gyfansoddiadau cyssegredig yw "manylder ac eglurder parth rheolau cynghanedd," "symledd trawsgyweiriadol," "teleidrwydd mewn dyluniad" (*expression*), a "phurdeb chwaeth," &c. Er hyny, dywedir nad oes ynddynt yn gyffredin nemawr o beroriaeth a melodeg. Dibyna eu rhagoroldeb ar eu cynghaneddiad, yn benaf. O amser Palestrina i ddechreu yr eilfed ganrif ar bymtheg, dywedir fod y cyfansoddiadau cyssegredig arferedig yn yr eglwysydd yn Italy bron yn hollol gynghaneddol (*purely harmonial*). Yr oedd cyfansoddwyr wedi troi heibio melodeg yn hollol, yn mron. Nid oes ammheuaeth nad Palestrina a roddodd y cyfeiriad hwn gyntaf i ganiadaeth eglwysig yn Italy; a gellir chwanegu y nodweddiad cynghaneddol hwn hefyd mewn rhan at nodweddion blaenorol ei gyfansoddiadau. Nid ydym yn haeru nad oes melodeg wreiddiol a theleidiol yn ei hymnau a'i *motetts*.

Dylid hysbysu yma fod caniadaeth eglwysig yn Italy erbyn hyn yn amrywiaethol. Heb law y dyganau Gregoraidd, cynnwysai hefyd y *motetts*, y caniadau (*cantiones*), y galarganau, a'r hymnau, &c.

Yma, fe ddichon, y dylid hysbysu hefyd i un, John Diodati, tua diwedd y bymthegfed ganrif, amcanu dwyn salmyddiaeth fesurol i arferiad. Achoswyd yr ymdrech hwn gan y llwyddiant a ddilynodd y dull hwnw ar ganiadaeth eglwysig yn mysg yr eglwysi Protestanaidd a Diwygiedig yn Germany, Switzerland, a Lloegr, &c. Ond ni lwyddodd yr amcan; canys ystyrid fod y Salmau Lladinaidd, y *motetts*, y caniadau, galarganau, &c., yn ddigon o amrywiaeth mewn caniadaeth i'r Italiaid.

Ymddengys fod cerddoriaeth a chaniadaeth eglwysig chwareuol (*dramatical*) hefyd mewn arferiad bore yn Italy. Enwid y math hwnw o gerddoriaeth eglwysig, *oratorio*—yn hytrach, adroddgan neu alawgan (*cantata*)—y pryd hwnw; canys yn mhell ar ol dygiad caniadaeth eglwysig chwareuol i arferiad y cyrhaeddodd yr *oratorio* ei berffeithrwydd presennol. Y chwareugan gyntaf a chwareuwyd yn Italy, medd Apostolo Zeno, oedd yn y flwyddyn 1245, yn Padua; a'r nesaf, yn ol Muratori, oedd yn Turin, yn 1298. Ei thestyn oedd, "*Representation of the Mysteries of the Passion of Christ.*" Ond myn rhai fod y chwareugan yn cael ei harfer yn Llundain, a hyny yn y gwasanaeth dwyfol hefyd, cyn y cyfnodau a enwyd. Casglant hyny oddi wrth ddywediadau Fitzstephen, mynach yn Canterbury tua chanol yr unfed ganrif ar ddeg; yr hwn a ddywed, "yn lle y coeg-gerddi (*interludes*) a berthynant i'r chwareudai, chwareuid cyfansoddiadau chwareuol o destynau mwy sanctaidd; sef arddangosiad o'r gwyrthiau hyny a wnaed gan y tad-gyffeswyr," &c. Trwy ymdrechiadau un, Philip Neri, a'i gyfaill Giovanni Animuccia, cerddor yn eglwys St. Pedr, yn Rhufain, daeth y chwareugan i arferiad lled gyffredin ar adegau y gwyliau yn Italy. Yr oedd hyn tua diwedd y bymthegfed ganrif. Rhwng y ddau, perffeithiwyd y chwareugan yn mhell tu hwnt i'r hyn oedd o'r blaen; a pherffeithiad eu cynllun hwy, ac ereill diweddarach, yw ffurf bresennol yr *oratorio*. Ac o'r pryd hwnw, y mae yn debyg, y dylid ystyried perffeithiad yr alawgan i *oratorio*. Y chwareugan neu yr *oratorio* (wedi ei pherffeithio i'r graddau tybiadwy, gan Neri ac Animuccia) gyntaf a chwareuwyd yn Italy gyda rhwysgfawredd, oedd un a enwid, "*Representatione di Anime, edi corpo*," ar esgynlawr, yn eglwys La Valliella, yn y flwyddyn 1600, gydag arddangosiadau chwareuol (*scenes*) addurniadau (*decorations*), a chyngherdd cyflawn.

Tua dechreuad yr eilfed ganrif ar bymtheg, ymddengys i gerddor o'r enw Carissimi lwyddo, yn ngrym ei athrylith a'i gymmeriad fel cerddor, i roddi ffurf arall ar ganiadaeth eglwysig, gwahanol iawn i eiddo Palestrina. Prif nodwedd arddull ei gyfansoddiadau eglwysig ef oedd yr hyn a enwir addurnedd neu flodeuogrwydd (*floridness*). Heb law dwyn i arferiad ganiadaeth eglwysig o arddull gwahanol i eiddo Palestrina, dygodd Carissimi hefyd nifer chwanegol o offerynau cerdd i arferiad. Dywedir iddo berffeithio rhyw gymmaint ar y ffurf cyfansoddiadol a enwir treithganiad (*recitative*) yn yr *oratorio* hefyd, a rhoddi mwy o felodeg yn symmudiadau y sawd nag a roddwyd iddo yn flaenorol.

O ddeutu y flwyddyn 1638, dyfeisiodd un o'r enw Mazzochi y coelion, *piano* a *forte*, y *crescendo* a'r *diminuendo*, at wasanaeth caniadaeth y chwareudai; a daeth y cyfryw goelion yn fuan i arferiad yn nghaniadaeth y cyssegr hefyd. Y mae hanesiaeth yn hysbysu na bu cyfnewidiad o bwys yn nghaniadaeth eglwysig Italy, Naples, Tuscany, Sardinia, a'r taleithiau Awstriaidd, er y ddeunawfed ganrif. Yn yr eglwysi yn Rhufain ei hun, y mae caniadaeth mewn graddau uchel o berffeithrwydd; ond yn Milan, a manau ereill, ymddengys ei fod yn israddol i eiddo Rhufain yn gyffredin. Dosberthir caniadaeth eglwysig yn y wlad hon, er y bymthegfed ganrif, i'r pedwar dosbarth canlynol:—*à capella style*, *accompanied style*, *concerted style*, a'r *oratorio*. Cyfansoddiadau o ffurf ac arddull yr olaf, mewn rhan, yw y *masses* a genir yn Eglwys Rhufain hefyd. Y mae cyfansoddiadau yn y gwahanol arddulliau blaenorol yn cael eu harfer yn y gwasanaeth crefyddol yn yr eglwysydd cadeiriol yn lled gyffredin yn Italy yn bresennol.

Yn Yspaen a Portugal, y melodau cenedlaethol Gothaidd a arferid yn nghaniadaeth yr Eglwys Gristionogol cyn y flwyddyn 1068. Y flwyddyn hono, dygwyd y dyganau Gregoraidd i arferiad yn eglwys Arragon, a rhai eglwysydd ereill. Ond parhau i arfer y melodau cenedlaethol Gothaidd yr oedd yr eglwysydd yn gyffredin, yn gystal a'r ffurf-wasanaeth Gothaidd. Cyn pen hir, llwyddodd y pab Gregory VII. i ddarbwyllo yr eglwys o ragoroldeb y dyganau Gregoraidd, yn nghyd â'r ffurf-wasanaeth Lladinaidd, ar yr eiddynt hwy; a daeth y dull Rhufeinaidd ar ganiadaeth i arferiad cyffredinol yn eu gwasanaeth, ac

Digitized by Google

felly y mae yn parhau hyd yn bresennol. Cyn y chwyldroad, dywedir fod caniadaeth eglwysig yn Yspaen, yn neillduol yn yr eglwysydd cadeiriol a'r sefydliadau colegawl, mewn ansawdd ysblenydd iawn; a thuag at ei gynnal yn yr ysblander hwnw, nid oedd dim llai na 400,000 o *dducats* yn cael eu gwario yn flyneddol gan y llywodraeth.

Nid yw hanesiaeth yn crybwyll braidd ddim am ganiadaeth eglwysig Ffrainc cyn y chweched canrif, pryd yr anfonodd Theodoric, ar gais Clovis, brenin Ffrainc, un Aicorède, o Rufain, yno, i ddysgu yr offeiriaid a'r cantorion yn nghaniadaeth yr Eglwys Rufeinig. Sefydlodd Aicorède ganiadaeth offerynol a lleisiol yn Ffrainc y pryd hwnw. Nid yw yn ymddangos i'r Ffrancod ymberffeithio nemawr yn eu caniadaeth o amser sefydliad y dyganau Gregoraidd yn eu heglwysydd hyd deyrnasiad Charlemagne; a'r syniad mwyaf naturiol yw, eu bod wedi llygru y dyganau yn fawr iawn: ac o hyn, yn wir, y cyhuddid hwy hefyd yn Rhufain, yn y flwyddyn 787, pan oedd Charlemagne a nifer o'i gantorion yno yn cadw gwyl y Pasc. Ymddengys i ddadl gyfodi rhwng cantorion Ffrainc a chantorion Rhufain ar y mater; ac yr oedd y ddadl mor gyffrous fel y bu raid appelio at y pab i'w phenderfynu. Collodd cantorion Charlemagne y dydd. Deisyfodd yntau ar y pab i anfon cantorion eilwaith i Ffrainc fel y dysgent ganu y dyganau yn eu ffurf wreiddiol a chynnwynol. Cydsyniwyd â'i gais, ac anfonwyd Theodore a Benedict yno. Cymmerasant gyda hwy *antiphonarium* wedi ei ysgrifenu gan y pab Gregory Fawr ei hun, a chywirasant y dyganau, a sefydlasant ganiadaeth reolaidd yn yr eglwysydd—caniadaeth leisiol ac offerynol.

Y mae haneswyr yn hysbysu i ddyganau cenedlaethol ddyfod i arferiad yn nghaniadaeth eglwysig Ffrainc cyn y flwyddyn 1250. Yr oeddynt o arddull a chyfeiliad mwy blodeuog na'r dyganau Gregoraidd. Ond nid ymddengys iddynt barhau yn hir mewn arferiad. Y dyganau Gregoraidd yn unig a arferid am rai canrifoedd cyn y deunawfed canrif. Tua dechreu y canrif hwnw, ymddengys i'r esgobion newid ffurf y gwasanaeth, ac felly, rhoddi ffurf wahanol ar ganiadaeth eglwysig. Ymwrthodasant â'r dyganau arferedig, a sefydlasant ddull diarchwaeth ac anrheleidwiw o ganu; yr hwn a ymddiriedasant i ddynion hollol analluog i'w gyflawnu hefyd. Dyma ddysgrifiad o ganiadaeth eglwysig yn Ffrainc y pryd hwnw gan M. Choron ei hun:—"Dychymyger côr o ddeutu ugain o gantorion, o bob math o leisiau, yn canu nerth esgyrn eu pen, pob un yn ol ei fympwy ei hun, heb na rheol nac amcan, gan seinio pob nodyn yn y gyfundrefn—yn naturiol, hanner tonol, a gorseiniol: tra y cenid, fel yna, amrywiol leisiau y ddygan gan nifer o'r côr, cenid y felodeg gan nifer arall o hono gyda lleisiau cras ac anghydgordiol: yna bydd genych ddirnadaeth am gynghanedd a chaniadaeth y ddygan." Fe ddichon fod y dysgrifiad yna yn eithafol; yr un pryd, awgryma fod ansawdd caniadaeth eglwysig yn isel iawn yn Ffrainc y pryd hwnw.

Nid ydym yn gwybod nemawr am ansawdd presennol caniadaeth eglwysig yn y wlad hono. Gan mai caniadaeth wladol a chwarëyddiaethol (*theatrical*) yw prif wrthddrychau athrylith cerddorol y genedl, y mae lle i dybio nad yw caniadaeth eglwysig mewn ansawdd ddymunol yn eu mysg. Awgrymwyd eisoes i ganiadaeth offerynol gael ei chyssylltu â chaniadaeth eglwysig leisiol yn bur fore yn Ffrainc. Yr offeryn cerdd mwyaf arferedig yn eu caniadaeth hwythau, fel yn nghaniadaeth gwledydd Ewrop yn gyffredinol, yw yr organ. Y mae yn debyg y dilynir ffurf caniadaeth Eglwys Rhufain yn lled gyflawn yn Ffrainc, fel y gwneir yn mhob gwlad arall y mae yr eglwys hono yn sefydledig ynddi. Dichon fod ansawdd a ffurf ymarferol caniadaeth eglwysig yn mysg yr enwadau Cristionogol ereill yn yr ymherodraeth hono yn wahanol.

Nid yw hanesiaeth gyffredinol nac eglwysig yn hysbysu nemawr am ansawdd cerddoriaeth na chaniadaeth o un math yn Germany cyn yr unfed canrif ar ddeg; nac ond yehydig am danynt o'r cyfnod hwnw hyd ddechreuad y pymthegfed canrif hefyd. Nid oes ammheuaeth nad oedd caniadaeth mewn arferiad yn y gwasanaeth crefyddol yn y wlad hono er yn fore, er, fe ddichon, heb lawer o arddercho grwydd arno; canys y mae hyn yn sicr, fod y dyganau cyssegredig wedi eu sefydlu ynddo tua'r chweched canrif gan un Boniface, o Mentz. Cyn amser Luther, yr oedd caniadaeth eglwysig yn lled gyffredinol wedi cyrhaedd gradd o berffeithrwydd a rhagoroldeb, yn ddiammheuol. Hysbysir nad oedd cynnifer ag un anghraifft o gyfansoddiad cerddorol i'w gael cyn y pymthegfed canrif. Y mae hyn yna yn anghredadwy bron; eto gall fod yn wirionedd. Yr anghreifftiau boreuaf o gerddoriaeth Germanaidd yw melodau y diwygiad cyntaf; sef melodau hymnau John Huss, ac ereill. Nid anmhriodol tybio i'r melodau hyny, yn gystal a'u hymnau, gael eu cyfansoddi yn arbenig at wasanaeth y Diwygwyr y pryd hwnw, fel y cyfansoddwyd rhai at wasanaeth y diwygiad olaf gan Luther ac ereill. Yr oedd yr anfarwol Luther, yn ddiau, yn gerddor o athrylith gref a bywiog; ac, fel pob cerddor athrylithgar ac ymarferol, yr oedd yn hoff iawn o'r gelfyddyd. Ac yn llyfr y defodau a ffurfiwyd ganddo ef a'i gyfaill Melancthon, gofalodd roddi i'r rhan ganiadaethol o'r gwasanaeth dwyfol yr anrhydedd a deilyngai, can belled ag y caniatäai amgylchiadau y Diwygiad iddo wneyd hyny. A dywedir nad oedd caniadaeth eglwysig y pryd hwnw yn mysg y Diwygwyr, o ran dirifolder, arddull, ac arferiad, yn israddol i eiddo yr Eglwys Rufeinig ei hun. Ymddengys y dyganent y Salmau ar y cyntaf ar y dyganau Gregoraidd, fel y gwnelid yn Eglwys Rhufain; canys wedi amser Luther, tybir iddynt gael eu troi yn fesurol. Felly yr oedd eu caniadaeth mewn dau ffurf, sef yr hymnol a'r salmyddol; y naill â'i felodau neillduol, a'r llall â'i ddyganau arferedig.

Nid hir y parhaodd salmyddiaeth ddyganol mewn arferiad yn eu mysg; canys dywedir ir Salmau gael eu troi yn fesurol gan Marot a Beza, ar ddeisyfiad Calvin, at wasanaeth yr Eglwys Ddiwygiedig Calvinaidd yn Geneva, a manau ereill, yn benaf. Gwnaed casgliad o felodau i'r Salmau mesurol hyny gan un Quillame Franc. Melodau syml—*h. y.*, heb gynghanedd—oeddynt. Cyhoeddwyd y casgliad yn Strasburg, yn y flwyddyn 1545. Yn mhen enyd, trefnwyd y melodau i amryw leisiau gan Bourgeois a Goudimel. Dywed y Dr. Burney am y melodau hyny eu bod "heb gynghanedd, amrywiaeth aceniadol, mydraeth, nac elfenau cyfansoddol melodeg." Er hyny, ymddengys iddynt ddyfod i arferiad cyffredinol yn yr Eglwys Ddiwygiedig ar y Cyfandir ar y pryd; ac y mae rhai o honynt mewn arferiad ynddynt hyd heddyw, yn gystal a'r Salmau mesurol o drefniad Marot a Beza.

Digitized by Google

Tua'r flwyddyn 1538, cyhoeddodd y Brodyr Unedig, sef dilynwyr John Huss, lyfr hymnau newydd, yn Uhn. A thua'r un amser cyhoeddodd nifer o'r clerigwyr Uch-Ellmynaidd drefniad mesurol o'r Salmau.

Y mae y melodau arferedig yn nghaniadaeth y Brodyr Unedig ar y Cyfandir, yn Lloegr a gwledydd ereill, yn bresennol, yn parhau yn eu cymmeriad cyssegredig boreuol, ac yn gynllun, o ran symledd ac arddull, o wir felodau eglwysig.

Dywedir mai yn unlleisiol, yn gyffredin, y cenid yn ngwasanaeth crefyddol yr eglwysi diwygiedig yn Germany hyd yn ddiweddar. Dilynid y felodeg yn gynghaneddol gan yr organ. Mae yr offeryn hwn mewn arferiad cyffredinol yn nghaniadaeth yr eglwysi crybwylledig, yn gystal ag yn nghaniadaeth Eglwys Rhufain yn y wlad hono. Yn bresennol, y mae caniadaeth amryleisiol wedi dyfod i arferiad led gyffredinol yn yr eglwysi diwygiedig hefyd.

Er mor gyffredinol yw ymarferiadau a medrusrwydd cerddorol yr Is-Ellmyn, dywedir nad yw caniadaeth yn Eglwys Rhufain, na'r eglwysi diwygiedig, oddi eithr mewn rhai parthau o'r wlad, mewn ansawdd uchel iawn yn eu mysg. Fe ddichon mai yr achos o hyny, yn benaf, yw eu tuedd at gerddoriaeth offerynol.

Cyffelyb yw dull ac ansawdd caniadaeth eglwysig yn Sweden, &c., i'r hyn yw yn Germany yn gyffredinol.

Nid yw hanesiaeth yn crybwyll nemawr am ganiadaeth eglwysig yn Ysgotland, cyn y Diwygiad Protestanaidd. Ond y mae'n debyg ei fod yno o ran dull ac ansawdd yn gyffelyb i'r hyn oedd yn Lloegr yn gyffredinol. Cyn y fl. 1424, ymddengys ei fod wedi syrthio i raddau o ddirywiad; canys dywedir i Iago I., rhwng y flwyddyn grybwylledig a'r flwyddyn 1437, amcanu ei ddwyn i well trefn drwy gyssylltu caniadaeth offerynol (yr organ) â chaniadaeth leisiol yr eglwysydd cadeiriol a'r mynachdai, a sefydlu côrau cyflawn a galluog yn yr eglwysydd yn gyffredinol, heb law cyfansoddi anthemau a dyganau ei hun at eu gwasanaeth. Yn nghyfnod y Diwygiad Protestanaidd, ac wedi dychweliad John Knox o Geneva, ymddengys iddo ef, yn benaf, sefydlu yn Scotland y dull caniadaethol arferedig yn eglwysi diwygiedig y Cyfandir. Cyhoeddodd gasgliad o felodau at wasanaeth yr eglwysi hefyd. Nid ydym yn gwybod pwy a droes y Salmau yn fesurol, na pha bryd y gwnaed hyny chwaith at wasanaeth yr eglwysi diwygiedig yn Scotland. Ond ymddengys i hyny gael ei wneyd yn fore iawn yn y Diwygiad. Yn Eglwys Wladwriaethol Scotland, cenir y Salmau yn fesurol, nid yn ddyganol. Y mae ganddi ychydig nifer o hymnau yn arferedig hefyd; ond y Salmau a genir fynychaf yn ei haddoliadau. Cyffelyb i ffurf caniadaeth yr eglwys grybwylledig yw eiddo y gwahanol eglwysi Presbyteraidd yn Scotland, Iwerddon, a Lloegr hefyd. Y mae caniadaeth y gwahanol enwadau hyn o'r ffurf mwyaf syml ac ymarferol, yn gyffelyb i eiddo yr Ymneilldüwyr yn Nghymru a Lloegr. Caniadaeth leisiol, gydag ychydig eithriadau, sydd yn arferedig yn eu haddoliadau. Ond y mae ymgeisiadau yn bresennol yn un neu ddau o'r enwadau Presbyteraidd, os nad yn Eglwys Wladwriaethol Scotland hefyd, at gyssylltu caniadaeth offerynol â'r un lleisiol, ac at ddwyn hymnau i arferiad mwy cyffredinol yn eu cynnulliadau crefyddol. Ymddengys hefyd fod y ffurf corawl ar caniadaeth yn dyfod yn raddol i arferiad mwy cyffredinol ynddynt. Yn ddiweddar, gwnaed ymdrechiadau egniol gan nifer o'r enwadau hyn at ddwyn caniadaeth i ffurf ac ansawdd mwy trefnus a boddhaol yn eu plith. Cefnogid y cyfryw hefyd gan nifer lluosog o'u gweinidogion mwyaf poblogaidd a dylanwadol. Ac y mae dau neu dri o gasgliadau o felodau wedi eu cyhoeddi yn arbenig at eu gwasanaeth. Ac heblaw hyny, cyhoeddir misolyn, a elwir *The Psalmodist and Magazine of Sacred Music*, fel moddion i gyrhaedd yr un amcan.

Dywedir i'r pab Gregory, yn y flwyddyn 596, anfon Awstin i Loegr i addysgu y Saxoniaid yn y grefydd Gristionogol; ac i Awstin ddwyn gydag ef gyfargraff o'r dyganau Gregoraidd i'w arfer yn yr addoliad. Y mae hyny yn ymddangos yn ddiammheuol; canys yr oedd yn naturiol i Gregory orchymyn defnyddio y dyganau newydd a diwygiedig yn y gwasanaeth, wedi iddo ef ymgymmeryd mor egniol â'r gorchwyl o adferu caniadaeth i'w ffurf gyntefig. O herwydd y bri a osodid gan Eglwys Rhufain ar ganiadaeth eglwysig, cymmerid gofal neilldual i'w sefydlu yn yr holl eglwysydd, a'i adfer gyda'r perffeithrwydd celfyddydol cyrhaeddadwy ar y pryd. Gofelid hefyd sefydlu gyda phob mynachdy a adeiledid ysgol gerddorol a chaniadaethol, i gymhwyso gantorion at ganiadaeth yr eglwysydd yn gyffredinol. Ac elai aml ganor aiddgar i Rufain i ymberffeithio yn y gelfyddyd. Cymmaint oedd aidd y pab Agatho dros ddysgu caniadaeth i'r Saxoniaid, fel yr anfonodd i Loegr tua diwedd y seithfed canrif, brifgeiniad Eglwys St. Pedr, yn Rhufain, i ddysgu mynachod Weremouth yn y gelfyddyd. Ymddengys i genadaeth y prifgeiniad fod yn effeithiol i roddi i gerddoriaeth a chaniadaeth berffeithiad ymarferol llawer tu hwnt i'r hyn oedd arnynt o'r blaen. Efrydid cerddoriaeth a chaniadaeth gan yr offeiriaid yn gyffredin y pryd hwnw; a ffurfient ran helaeth o addysg y genedl. Dan yr amgylchiadau yna, nid oes le i ammheu cywirdeb Bede, pan y dywedai fod caniadaeth eglwysig yn yr ynys yn dra blodeuog yn yr wythfed canrif. Caniadaeth unleisiol yn ddiau a arferid yn Lloegr hefyd y pryd hwnw; canys nid oedd gynghanedd wedi ei ddyfeisio eto.

Rhwng y flwyddyn 930 a 938, dygwyd yr organ i arferiad caniadaethol mewn rhai eglwysi yn yr ynys gan Dunstan. Ac erbyn y degfed canrif yr oedd mewn arferiad cyffredinol.

Ryw bryd yn yr unfed canrif ar ddeg dechreuwyd cynghaneddu y dyganau i amryw leisiau yn Lloegr hefyd. Ac erbyn y trydydd canrif ar ddeg (y pedwerydd canrif ar ddeg, ebe rhai), yr oedd y Saxoniaid wedi cyrhaedd perffeithrwydd caniadaethol yn y dyganau a ddaliai ei gyferbynu âg eiddo unrhyw genedl Gristionogol yn Ewrop. Beth bynag am hyny, yr oedd o ran ei arddull yn fwy blodeuog na chaniadaeth cenedloedd Cristionogol ereill yn gyffredinol.

Nid oes anghreifftiau o ddyganau na chyfansoddiadau eglwysig ereill o eiddo y Saxoniaid i'w cael nemawr cyn y pymthegfed canrif. Ond yn y cyfnod hwnw cynnyrchodd yr athrylith Saxonaidd nifer o *masses*, *services*, &c. at wasanaeth yr eglwysydd. Yr oeddynt yn gyffredin o arddull a chyfeiliad syml ac arddunol; ond addurnid hwy yma ac acw âg ychydig *imitations*, *appogiaturas*, &c.

Yn amser y Diwygiad, gwnaed cyfnewidiadau o bwys yn nghaniadaeth eglwysig yn Lloegr. Y peth cyntaf a wnaed oedd ei droi i'r iaith Seisonig.

Digitized by Google

Cyfieithwyd y gweddiau, y litani, &c., gan Cranmer a Henry VIII.; a gorchymynwyd iddynt gael eu "canu neu eu darllen" yn y gwasanaeth. Cenid hwynt ar y dyganau Gregoraidd, ac yn wrthganiadaethol. Dywedir i un John Marbeck drefnu yr holl wasanaeth yn gorawl neu ganiadaethol i arferiad yn yr eglwysydd cadeiriol hefyd. Dywedir mai unlleisiol oedd y trefniad hwnw. Ac yn ebrwydd wedi hyny, cyhoeddwyd gwasanaeth caniadaethol arall amryleisiol, wedi ei sylfaenu ar yr eiddo Marbeck, gan nifer o gerddorion ynghyd. Cyn hyny ni wnaed nemawr o sylw ar ansawdd cynghaneddol y dyganau, &c. Yr oedd hwnw yn parhau yr hyn oedd cyn y Diwygiad, sef yn "ddyrys eithafol," fel yr awgrymwyd o'r blaen. Gwnaed appeliad at y brenin Henry VIII. gan nifer liosog o offeiriaid, i roddi terfyn arno, a sefydlu caniadaeth mwy syml ac ymarferol yn yr eglwys yn gyffredinol: ond lled atlwyddiannus fu yr appeliad ar y pryd.

Penododd Edward VI. ddirprwywyr i ddiwygio y gwasanaeth yn helaethach, a'i ddwyn i'w ffurf syml boreuol. O'r rhan ganiadaethol o hono tynwyd ymaith yr "Hymn i'r Forwyn," a'r hymn i'r seintiau; eithr goddefwyd i'r *Te Deum*, y *Sanctus*, *Gloria in Excelsis*, *Gloria Patri*, *Magnificat*, a'r *Nunc Dimittis*, barhau mewn arferiad. Cyfieithwyd y Salmau i'r Seisoneg hefyd; a threfnwyd hwynt i'w canu ar y dyganau Gregoraidd, yn wrthganiadaethol, fel y cenid y litani, &c. Tua yr un amser ag y gwnaed y diwygiad yna, cyhoeddwyd gan Sternhold a Hopkins nifer o'r Salmau yn fesurol, wedi eu trefnu i'w canu ar o ddeutu deugain o felodau, yn unlleisiol. Hwn oedd y trefniad mesurol cyntaf ar y Salmau a gyhoeddwyd yn Lloegr. Yn y flwyddyn 1563, cyhoeddodd un John Day felodau y Salmau mesurol a grybwyllwyd, wedi eu trefnu i amryw leisiau. Dilynwyd y cyhoeddiad hwn gan amryw ereill; megys eiddo W. Damon, yn y flwyddyn 1579; John Cosyn, yn y flwyddyn 1585; Thomas Este, yn y flwyddyn 1592; ynghyd âg ereill, o ddeutu yr un amser. Ymddengys i ganiadaeth yn yr eglwysydd plwyfol, yn gyffredinol, newid i ffurf newydd, wedi cyhoeddiad y Salmau mesurol â'u melodau cynghaneddol. Ciliodd caniadaeth ddyganol o'r neilldu, i roddi lle i salmyddiaeth mesurol; ac y mae y ffurf hwn wedi parhau mewn arferiad cyffredinol hyd heddyw yn y cyfryw eglwysydd. Ond yn yr eglwysydd cadeiriol, colegol, &c., dilynwyd y ffurf ddyganol boreu. Enwid y melodau arferedig ar y Salmau mesurol, y pryd hwnw, "*Proper Tunes*;" nifer o barai oedd yn Lutheraidd a "*High Dutch*," &c. Ac yn raddol, daeth nifer o felodau o gyfansoddiad y Saeson eu hunain i arferiad; megys St. David's, Glastonbury, Abbey, Dundee, &c., y rhai a ystyrir yn gynlluniau cywir o felodau eglwysig Seisonig.

O ddeutu y flwyddyn 1698, cyhoeddwyd yr holl Salmau yn fesurol, wedi eu trefnu gan N. Brady, D. D., ac N. Tate, y bardd brenhinol. Ac os nad ydym yn camgymmeryd, y trefniad hwnw arnynt sydd mewn arferiad yn yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr hyd yn bresennol.

Ond rhaid i ni droi yn ol tua chyfnod y Diwygiad. Dan deyrnasiad Mary, ail sefydlwyd y dull Rhufeinaidd ar y gwasanaeth dwyfol. Yr unig gyfnewidiad o bwys a wnaed y pryd hwnw ar y rhan ganiadaethol o hono, oedd, ei droi yn ol i'r iaith Lladin, ac ymwrthod â'r Salmau yn fesurol. Felly y parhaodd dan ei theyrnasiad hi.

O herwydd yr erlidigaeth a wnaed ar y Protestaniaid dan ei theyrnasiad, ffodd nifer lluosog o honynt i Switzerland, a manau ereill ar y Cyfandir. Ond wedi esgyniad Elizabeth i'r orsedd, dychwelodd nifer o honynt yn ol i Loegr. Yr oedd y dull Rhufeinaidd o ganu yn yr addoliad yn parhau mewn arferiad dan deyrnasiad Elizabeth, mewn rhan; canys ni chafwyd etto egwyl i wneyd y diwygiadau a fwriedid wneyd. Gan hyny, un o'r diwygiadau cyntaf yr amcanodd y Protestaniaid dychweledig wneyd, oedd newid ffurf caniadaeth yr eglwys i'r ffurf ddiwygiedig blaenorol arno, sef ei droi i'r iaith Seisonig, a sefydlu caniadaeth fesurol, sef yr hymnau a'r Salmau mesurol, yn lle y ffurf ddyganol arno. Ymddengys iddynt lwyddo yn eu hamcan, ond yn yr eglwysydd cadeiriol, y colegau, &c., yn mha rai y parhaodd y ffurf ddyganol o hyny hyd yn awr. Ond yn yr eglwysydd hyny, trowyd caniadaeth y Salmau, &c., i'r iaith Seisonig, wrth reswm. Daeth y dull mesuronol hwn ar ganiadaeth y cyssegr yn fwy poblogaidd nag o'r blaen yn y deyrnas yn gyffredinol; ac yn gymmaint felly, fel na byddai dim llai na chynnulleidfa o ddeutu 6,000 o bobl mewn eglwysydd gwahanol yn Llundain yn cyd-ddyrchafu eu llais mewn "sain cân a moliant" i Dduw yn yr addoliad dwyfol, yn ol dywediad yr esgob Jewell.

Amcanwyd gan y Diwygwyr—neu y Puritaniaid, fel y gelwir hwynt gan rai—yn y flwyddyn 1562, i droi allan ganiadaeth offerynol o'r gwasanaeth, a rhoddi terfyn ar y gwrthganiadaethol o ganu yn yr eglwysydd cadeiriol, a symleiddio y melodau a'u cynghanedd: ond ymddengys iddynt fethu yn eu hamcan. Pa fodd bynag, ac fel yr awgrymwyd eisoes, darfyddodd y dull gwrthganiadaethol a dyganaidd yn raddol o'r eglwysydd plwyfol, a daeth salmyddiaeth mesurol a melodaeth hymnol i arferiad yn ei le ynddynt.

Prif gerddorion y genedl y pryd hwnw oedd Tye, Marbeck, Tallis, Byrde, ac ereill. Ystyrir Tallis yr enwocaf o honynt; a'i wasanaeth corawl, neu ganiadaethol, a gyfrifir y mwyaf penigamp o gynnyrchion yr awen Seisonig.

Ar ol diorseddiad Charles I., dywedir fod terfyn wedi ei roddi ar ddull caniadaeth yr eglwysydd cadeiriol, colegol, &c., a bod y dull mesurol cyffredin wedi ei sefydlu ynddynt, fel yr oedd yn arferedig yn yr eglwysydd plwyfol. Dinystriwyd yr organau yn gyffredinol, a gwnaed eu "chwareuwyr, ynghyd â'r corgeiniaid, yn gardotwyr." Nid ydym yn gwybod pa faint o wirionedd sydd yn hyn yna; ond hyn yw tystiolaeth hanesiaeth.

Pan esgynodd Charles II. i'r orsedd, adsefydlwyd caniadaeth eglwysig yn ei ffurf blaenorol, ac y mae wedi parhau yn y ffurf hono hyd yn bresennol; oddi eithr bod y melodau a'r gynghanedd o arddull a chyfeiliad mwy blodeuog ac ysgafn nag eiddo yr hen ysgol, yn amser Tallis ac ereill. Prif gel-gantorion a chyfansoddwyr capel Charles II. oedd y Dr. Child, Gibbons, Tucker, Lawes, ac ereill.

Caniadaeth gynnulleidfaol oedd eiddo yr eglwysydd plwyfol yn Lloegr, yn gyffredinol, o gyfnod y Diwygiad hyd yr ail ganrif ar bymtheg, medd rhai haneswyr. Yn y cyfnod hwnw, dechreuwyd yn raddol ddynwared caniadaeth yr eglwysydd cadeiriol, mewn rhan; sef caniadaeth gorawl, ond nid yn y ffurf ddyganol a gwrthganiadaethol arno: *h.y.*, y Salmau mesurol a'r hymnau a genid yn gorawl. Yn raddol, eilwaith, daeth y ffurf ddyganol ar ganiadaeth y Salmau i arferiad; ac ynghyd â hyny, y ffurf anthemol

Digitized by Google

arnynt, ac ar ranau ereill o'r Ysgrythyr Lân. Yr oedd cyfeiliad yr anthemau erbyn hyny yn amrywiol, ac yn ddosbarthranol i'r ffurflau unlleisiol (*solo*), deuleisiol (*duet*), trilleisiol (*trio*), a chorawl (*full*). Cyssylltwyd â chaniadaeth leisiol ganiadaeth offerynol (*brass, wind, and stringed instruments*) hefyd. Ac heb law hyn yna oll, yr oedd melodeg y cyfansoddiadau cerddorol eglwysig, yn eu hamrywiaeth cyffredinol, yn gwisgo arddull a chyfeiliad i raddau mawr gwahanol i hen felodau y Diwygiad. Fel yna, yn raddol, y llithrodd caniadaeth eglwysig o ddwylaw y gynnulleidfa i ddwylaw y côr; ac yn ei feddiant ef, yn benaf, y mae hyd heddyw; Yr un pryd, nid ydym yn haeru nad yw y gynnulleidfa yn parhau i hôni hawl yn ei rhagorfraint, ac yn ei defnyddio a'i harfer i raddau mwy neu lai.

Prif achosion y cyfnewidiad crybwylledig ar ganiadaeth y cyssegr, meddai y Dr. Gauntlett, oedd diffyg syniad yn y swyddogion a'r uchswyddogion eglwysig o barth caniadaeth fel rhan o'r addoliad dwyfol, ac fel rhagorfraint a dyledswydd y gynnulleidfa—math o ysfa am fwy o wychder ar ganiadaeth nag a ganiatäai arddull a chyfeiliad melodau henafol y Diwygiad—a boddhau ymgeisiadau diwylliadol y genedl mewn cerddoriaeth. Yn yr oesoedd gynt, yr oedd cerddoriaeth a chaniadaeth yn rhanau arbenig o addysg yr offeiriaid: ac yn yr oes hon, y mae yr un angenrheidrwydd arnynt am dano ag oedd yn yr oesoedd hyny.

Y mae rhai yn dadleu nad yw caniadaeth gorawl amryleisiol, gwrthganiadaethol, ddyganol, ac anthemol, yn rhwystr i ganiadaeth gynnulleidfaol. Y mae yn hawdd dadleu llawer ar y pwnc yna, o'r ddwy ochr; ond y mae hyn yn ffaith, nad yw y gynnulleidfa yn ymyryd nemawr ddim ond â melodeg syml—hi biau hono; a dylai ei chael yn ei symlrwydd cynhenid. Ac nis gellir dysgwyl chwaneg oddi wrth gynnulleidfa annysgedig mewn cerddoriaeth a chaniadaeth, yn yr addoliad dwyfol, na dadganiad o felodeg syml a diaddurn ar eiriau neu destyn yn y ffurf fesurol. Ar yr un pryd, nid ydym yn barnu bod côr o gantorion yn rhwystr i gynnulleidfa ganu y felodeg, ond yn hytrach yn gymhorth iddi wneyd hyny, tra na ormesa y gwahanol leisiau yn ormodol ar y felodeg; a bydd hyny yn anmhosibl, tra byddo cynnulleidfa luosog, a chôr o'r nifer cyffredin. Gall côr o leisiau da gynnal y felodeg heb lawer o anghyfartaledd rhwng gwahanol ranau neu leisiau y dôn; a rhoddid i'r dadganiad fath o arddunedd, nerth, a llawnder peroriaethol nas gellir ei gyrhaeddyd drwy ganiadaeth unleisiol.

Dirywiodd caniadaeth eglwysig yn yr eglwysydd plwyfol yn Lloegr, i raddau, wedi cyfnod o arferiad â'r dull olaf a grybwyllwyd. Ond yn gynnar yn y deunawfed canrif, dechreuodd ail wisgo yr un arddull; ond yn lle yr offerynau a grybwyllwyd o'r blaen, daeth yr organ i arferiad mwy cyffredinol; a lle nad yw yr offeryn hwnw yn arferedig, caniadaeth leisiol yn unig a arferir, gydag ychydig eithriadau. O'r pryd hwnw hyd yn hyn, y mae caniadaeth yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr yn parhau yn gyffelyb, a'r ffurf gorawl ar gynnydd parhäus ynddi: ac o ran ei hansawdd, y mae yn parhau yn yr eglwysydd cadeiriol yn ei gwychder arferol a chyntefig; ac mewn nifer o eglwysydd plwyfol, y mae yn ymberffeithio fel y mae y genedl yn ymddiwyllio mewn cerddoriaeth a chaniadaeth. Nid ydym yn gwybod nemawr am ansawdd caniadaeth yn yr Eglwys Sefydledig yn yr Iwerddon; ond o ran ei ffurf, y mae, o angenrheidrwydd, yr hyn yw yn Lloegr, a Chymru, a gwledydd ereill. Gwelir trefn caniadaeth yr eglwys grybwylledig yn y *Llyfr Gweddi Cyffredin*. Y mae gan y Seison nifer lluosog o *choral services*, anthemau, a dyganau clasurol, at wasanaeth yr addoliad yn eu heglwysydd a'u colegau, &c.

O barth i ganiadaeth eglwysig yr Ymneilldüwyr yn Lloegr, y mae, ar y cyfan, yn gyfartal o ran ei ansawdd i eiddo yr Eglwys Sefydledig; ac yn mysg rhai enwadau, megys y Wesleyaid a'r Bedyddwyr, yn ymdebygu i'w heiddo hithau yn y dull dyganol arno. Y mae y Wesleyaid yn dyganu ychydig nifer o'r Salmau, a'r *Te Deum*, &c., yn eu colegau, ac mewn nifer o'u haddoldai drwy y deyrnas, er cyfnod eu hymneilldüaeth. Ac y mae y Bedyddwyr hefyd, yn ddiweddar, wedi dechreu arfer eu dyganu yn nifer o'u haddoldai hwythau. Ond yn gyffredinol, y Salmau mesurol a'r hymnau a genir gan yr enwadau crybwylledig, yn nghyd â chan yr Annibynwyr hefyd. Nid ydym yn sicr nad oes rai cynnulleidfaoedd Annibynol yn dyganu y Salmau yn eu haddoliadau: y mae yn debygol fod rhai. Y mae caniadaeth offerynol a lleisiol yn dyfod i gydarferiad yn bresennol yn mysg yr Ymneilldüwyr Seisonig hefyd: yr organ yw eu hofferyn cerdd dewisol hwythau. Ond y mae rhai cynnulleidfaoedd yn mysg y nail enwad a'r llall o honynt yn ymwrthod â chaniadaeth offerynol yn hollol, gan haeru nad gweddus—o'r hyn lleiaf, nad rheidiol—caniadaeth felly dan yr oruchwyliaeth newydd. Ond yn mysg yr holl enwadau dan sylw, y mae caniadaeth gorawl a chynnulleidfaol mewn cydarferiad. Y mae caniadaeth eglwysig yn mysg y gwahanol enwadau crybwylledig wedi parhau mewn arferiad er cyfnod eu hymneilldüaeth, heb nemawr o gyfnewidiad ar ei ffurf gyntefig. Yr oedd y melodau a arferid yn addoliadau yr Ymneilldüwyr, ac yn ngwasanaeth yr Eglwys Sefydledig hefyd, hyd yn ddiweddar, ac yn wir hyd heddyw i raddau gormodol, o arddull rhy flodeuog i symledd yr addoliad dwyfol, ac i arferiad cynnulleidfaol llwyddiannus a boddhaol. Ond y mae yr ansawdd hwn ar felodau y cyssegr yn diflanu yn raddol, a melodau mwy priodol eu harddull yn dyfod i arferiad yn eu lle, fel y mae chwaeth gerddorol y genedl yn cael ei phuro.

Mewn perthynas i ganiadaeth Eglwys Rhufain yn Lloegr, y mae mewn rhai parthau, yn enwedig yn y dinasoedd a'r trefydd, mewn ansawdd blodeuog; ond yn y wlad mewn ansawdd dilewyrch ac anfoddhaol; ac yn fynych rhaid darllen y rhan caniadaethol o'r gwasanaeth—y *mass*, a'r cwbl—o ddiffyg corau ymarferol. Yn yr Iwerddon hefyd, gellir tybio ei bod o ansawdd cyffelyb. Yr un ffurf sydd i ganiadaeth yn ngwasanaeth Eglwys Rhufain yn gyffredinol. Gwel ei *Missal*, &c. Dywedir fod y dyganau Gregoraidd yn myned o arferiad yn ei gwasanaeth yn Lloegr, yn raddol; a bod rhai diweddarach yn cymmeryd eu lle.

Nid yw hanesiaeth, hyd y gwyddom ni, yn crybwyll nemawr am ganiadaeth eglwysig y Cymry yn yr oesoedd boreuaf, na'r diweddaraf ychwaith. Nid oes ammheuaeth nad yw ein cenedl, er's oesoedd cyn cred, yn genedl gerddgarol a cherddoriaethol. Y mae heddyw ar gof a chadw nifer o hen felodau o gyfansoddiad rhai o brif feirdd y genedl yn y canrifoedd cyntaf, na

Digitized by Google

raid ofni eu cymharu â chynnyrchion melodawl diweddar unrhyw genedl gerddoriaethol yn Ewrop. Tystiolaetha hanesiaeth fod caniadaeth yn arferadwy yn ei seremoniau a'i haddoliadau derwyddol hefyd.

Y mae Irenæus a Tertullian yn hysbysu i'r Cymry gael eu troi at Gristionogaeth yn niwedd y canrif cyntaf, neu ynte yn gynnar yn yr ail canrif: ac fe ddywedir gan rai fod seiliau digonol dros dybied fod yr apostol Paul wedi talu ymweliad â'r ynys hon. [Gwel CYMRY; EGLWYS BRYDEINIG.] Os gellir dibynu ar hanesiaeth neu dystiolaeth y dynion crybwylledig, y mae yn naturiol i ni dybio mai y ffurf ganiadaethol gyntefig a dwyreiniol a arferid yn eu haddoliadau Cristionogol, gydag ychydig eithriadau dibwys a oddefid, fe ddichon, o herwydd arferiadau ac amgylchiadau gwladwriaethol a chymdeithasol y genedl ar y pryd. Canys ni bu nemawr o gyfnewidiad ar y dull cyntefig ar ganiadaeth eglwysig o gyfnod ei sefydliad i'r canrif olaf a grybwyllwyd, hyd yn oed yn mysg y gwahanol a'r amrywiol genedloedd a ddychwelwyd at Gristionogaeth yn y cyfamser.

Ond y mae rhai yn ammheu y ychweliad at y grefydd Gristionogol mor fore a'r cyfnodau a enwyd. Dywed yr hanesydd eglwysig, Bede, mai i Germanus, esgob Paris, y mae cenedl y Cymry yn ddyledus am eu defodau a'u ffurf-wasanaeth eglwysig cyntaf. Yr oedd Germanus yn oesi tua diwedd y pummed canrif. Y ffurf-wasanaeth hwnw oedd yr un Gallicaidd—nid y Rhufeinaidd. Y mae yn anmhosibl weithian gwybod dull caniadaeth eglwysig yn y ffurf-wasanaeth hwnw, amgen na'i fod, yn ol pob tebygolrwydd, yn debyg i'r ffurf boreuol a chyffredinol arno yn yr eglwysi Cristionogol dwyreiniol a gorllewinol yn gyffredin. Y mae yr un mor anmhosibl hefyd gwybod pa un a arferai y Cymry felodau Gallicaidd, neu ynte felodau Cymreig cenedlaethol, yn eu caniadaeth.

Y mae haneswyr ereill yn tueddu i farnu na ddychwelwyd y Cymry yn gyffredinol cyn y chweched canrif; ac mai tua'r un amser y dychwelwyd hwynt ag y dychwelwyd y Saxoniaid, drwy genadaeth Awstin, ac ereill. Os felly, y mae yn naturiol tybied mai y ffurf-wasanaeth Rhufeinaidd, ac o ganlyniad, y ffurf Rufeinaidd ar ganiadaeth, a arferid yn ngwasanaeth crefyddol ein cenedl hefyd; ac i'r ffurf hono barhau ynddo, fel yn ngwasanaeth y Saxoniaid, drwy y canrifoedd dilynol hyd y Diwygiad Protestanaidd. Yn gyffredin, fe ddichon y gellir dyweyd mai yr un yw hanesiaeth caniadaeth eglwysig y Cymry a'r Saxoniaid o'r chweched canrif i gyfnod yr ymneilldua d.

A ddygenid nifer o'r Salmau, a rhanau ereill o'r Ysgrythyr Lân, yn ngwasanaeth yr eglwysydd plwyfol yn gyffredinol yn Nghymru cyn eu trefnu ar fesur cerdd, a chyn cyfleithu yr hymnau arferedig i'r Gymraeg gan yr archddiacon Prys, o gylch y flwyddyn 1630, nid ydym yn gwybod. Tybir na wneid. Ond yn yr eglwysydd cadeiriol, dygenid rhan o'r gwasanaeth corawl yn y ffurf benodedig yn ddiammheu; o'r hyn lleiaf, cyn belled ag yr oedd hyny yn ddichonadwy ar y pryd.

Nid cofus genym weled anghreifftiau argraffedig o ddyganau o gynnyrchiad yr awen Gymreig, nac ychwaith grybwylliad am ddefnyddiad rhai estronol yn y gwasanaeth dwyfol, oddi eithr yn yr eglwysydd cadeiriol, colegawl, &c.: rhai estronawl a ddefnyddid ac a ddefnyddir ynddynt yn gyffredin. A meddwl yr ydym fod y dyganau Gregoraidd yn syrthio o arferiad yn y cyfryw eglwysydd yn gyffredinol yn Nghymru a Lloegr, i roddi lle i ddyganau cenedlaethol Seisonig, gan mwyaf.

Oddi wrth ragymadrodd yr archddiacon i'r Salmau, &c., gellir barnu nad oedd caniadaeth yr eglwysydd yn gyffredinol, cyn ei amser ef, mewn ansawdd pur foddhaol a llewyrchus, pa un bynag ai corawl ai cynnulleidfaol oedd—os oedd caniadaeth o fath yn y byd ynddynt, oddi eithr ychydig yn y ffurf anthemol, fe ddichon. Wedi trefnu y Salmau ar fesur cerdd, dechreuodd yr awen gerddorol Gymreig ymysgwyd o'i marweidd-dra blaenorol, a chynnyrchodd luosogrwydd o felodau ar salmyddiaeth fesurol. Ond rhaid dyweyd eu bod yn gyffredin o ran eu cyfansoddiad, yn felodawl a chynghaneddol, yn bur anghelfyddydol, ac o ran eu harddull a'u rhywogaeth yn anghymhwys i'w harfer yn yr addoliad dwyfol. Ac erbyn hyn, y maent, oddi eithr ychydig nifer o honynt, yn mron wedi myned o arferiad; ac nid oes neb yn gofalu dim am danynt. O gylch yr un amser, tybir, y dechreuwyd cyfansoddi anthemau Cymreig ar y Salmau a rhanau ereill o'r Ysgrythyr: fe ddichon fod ychydig nifer wedi eu cyfansoddi cyn hyny. Yr oedd y cyfansoddiadau anthemawl hefyd yn dra diffygiol o gynllun a chymmeriad cerddorawl clasurol. Eto, rhaid addef bod rhai o honynt yn brawf o athrylith gynnwynol anturiaethus a bywiog iawn; a gellir dyweyd yr un peth am felodau y Salmau mesurol hefyd. Y mae yr anthemau, hwythau, erbyn hyn, yn mron wedi myned o arferiad. Ar y pryd, yr oedd melodau y Salmau mesurol a'r anthemau yn cyd-daro â chwaeth anniwylliedig y genedl mewn ystyr cerddorol; ond y mae hwnw, erbyn hyn, wedi ymburo gymmaint fel nad oes obaith am i'r hen Salmau a'r anthemau ddyfod byth i arferiad cyffredinol. Rhai o brif awduron yr anthemau a melodau y Salmau mesurol Cymreig diweddaraf oedd J. Williams, ac R. Ellis, Dolgellau.

Er's blyneddoedd, weithian, melodau, dyganau, ac anthemau, estronawl, yn nghyd âg ychydig nifer o rai cenedlaethol diweddar, a arferir yn ngwasanaeth yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru, lle y mae caniadaeth gorawl mewn arferiad led gysson a threfnus. Y mae dau fath o anthemau mewn arferiad ynddi; sef anthemau ar ranau o'r Ysgrythyr Lân, a rhai y gellir eu henwi yn *anthemau mesurol* neu *hymnol*. Mae yr organ yn dyfod i arferiad led gyffredinol yn nghaniadaeth yr Eglwys yn Nghymru hefyd; yn neillduol yn eglwysydd y trefydd. Heb law hyny, dygir y dull dyganol ar y Salmau i arferiad hefyd yn y blyneddoedd diweddaraf hyn yma ac acw, ond nid yn wrthganiadaethol. Hyd y mae yn ein gallu ni i wybod, y mae y rhan ganiadaethol o'r gwasanaeth eglwysig yn ymgyrhaedd yn brysur a llwyddiannus at ansawdd boddhaol a theilwng i'r addoliad ysbrydol yn yr eglwysydd plwyfol hefyd; oddi eithr bod caniadaeth gorawl, mewn rhai manau, yn gwasgu yn ormodol, fe ddichon, ar hawl a rhagorfraint y gynnulleidfa i'r rhan hono o'r addoliad. Yr un yw trefn caniadaeth eglwysig yn ffurf-wasanaeth yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru ag yw yn Lloegr.

Yn nghyfnod yr ymneilldua d, ac am amser maith wedi hyny, y mae yn debygol mai y Salmau mesurol â'u melodau a arferid fynychaf yn addoliadau yr Ymneilldu wyr. Y pryd hwnw, nid oedd ganddynt ond ychydig amrywiaeth o

Digitized by Google

hymnau; a rhai o honynt yn hymnau digon gwael.

Cyn amser y bardd o Bant y celyn, yr oedd diffyg hymnau i arferiad caniadaethol cyffredin yn cael ei deimlo yn fawr iawn; yn gymmaint felly, "fel y darfu i Mr. Howell Harris, mewn cymmanfa, yn mhlwyf Llanddeusant, swydd Gaerfyrddin, annog nifer o frodyr oedd yno i gyfansoddi ychydig o brydyddiaeth, i edrych a oedd yr Arglwydd wedi rhoddi dawn prydyddiaeth i un o honynt—a phwy oedd hwnw. Felly y gwnaethant. Ac wedi iddynt i gyd ddarllen eu cyfansoddiadau, penderfynwyd yn gytûn mai Mr. W. Williams a gafodd y ddawn odidog hon; ac annogodd Mr. Harris, a phawb ereill, ef i'w harferyd er gogoniant Duw a lles i'w eglwys." Felly y gwnaeth: ac yn mhen ennyd, cyhoeddodd ei gasgliad o hymnau, a enwid *Haleluia.* Os nad ydym yn camgymmeryd, daeth ei hymnau yn raddol i arferiad gyffredinol yn mysg yr Ymneilldüwyr Cymreig. Y mae hymnau yr "hen Williams" wedi eu cyfansoddi ar amrywiaeth mawr o fesurau. Ond nid yw hyny yn brawf fod gan y Cymry, yn arferadwy, ar y pryd, yr amrywiaeth melodawl cyfartal i'w hamrywiaeth mesurol hwy. Y mae yn naturiol tybio iddo eu cyfansoddi ar y fath amrywiaeth mesurol i'w darllen yn gymdeithasol, teuluol, a phersonol, yn hytrach nag i ganiadaeth gynnulleidfaol a chyhoeddus. A thybir na chenid, yn ei amser ef, yn gynnulleidfaol, mwy nag y gwneir yn bresennol, ond yr hymnau hyny yr oedd gan ein cenedl felodau adnabyddus ac arferadwy, estronol neu genedlaethol, ar eu mesurau. O'r pryd hwnw hyd y pryd hwn, cyhoeddwyd nifer lluosog o gasgliadau o hymnau, o waith amryw awduron, gan y gwahanol enwadau ymneillduol Cymreig.

Yr ymgais cyffredinol diweddaraf at ddiwylliant caniadaeth eglwysig yn mysg yr Ymneilldüwyr yn Ngogledd Cymru, a wnaed o ddeutu deugain mlynedd yn ol. Cyn hyny, caniadaeth syml unleisiol a arferid, oddi eithr mewn ychydig fanau—caniadaeth gynnulleidfaol y bobl oedd raid ei fod. Ond yn raddol, daeth i wisgo y ffurf gorawl ac amryleisiol; ac erbyn hyn, ond odid, na cheir cynnulleidfa o Gristionogion ymneillduedig yn Nghymru heb gôr-ganiadaeth o ryw ansawdd mewn cyssylltiad â'r cynnulleidfaol ynddi. Nid ydym yn sicr na chyssylltwyd caniadaeth offerynol â'r un leisiol mewn rhai addoldai perthynol i un enwad ymneillduol Cymreig; meddwl yr ydym y gwnaed hyny, am dymmor, o'r hyn lleiaf. Ond yn gyffredin, caniadaeth leisiol a arferir yn mysg y gwahanol enwadau.

Wedi sefydlu y dull corawl ac amryleisiol, dechreuwyd arfer melodau estronol, yn gystal a melodau y Salmau mesurol, a'r hen felodau hymnol cenedlaethol. Yn raddol, aeth melodau cenedlaethol y Salmau a'r hymnau bron i dir anghof, o herwydd nad oeddynt mewn gwisg gynghaneddol, a bod ysfa y corau am newyddbeth yn aflywodraethus. Adferwyd rhai o'r hen anthemau Cymreig am dymmor byr, y rhai a genid mewn cynnulliadau corawl. Aeth y rhai hyny o chwaeth, a llyncodd y corau rai estronol a chyfleithedig, oddi eithr ambell un fesurol a ddygwyddai gyfartalu â nifer pennillion hymn gynnwynol Gymreig. Cymmysgedd o felodau estronol a chenedlaethol sydd byth yn parhau mewn arferiad yn ngwahanol gynnulleidfaoedd Cristionogol ein gwlad: y rhai estronol yw y rhai lluosocaf yn gyffredin.

Nid oes ammheuaeth nad effeithiodd y dull corawl ac amryleisiol hwn i raddau yn ddrwg ar ganiadaeth gynnulleidfaol am dymmor: canys yr oedd y melodau arferedig o arddull a chyfeiliant nad allasai y cynnulleidfaoedd ymuno â'r corau mewn mawl i Dduw; ac ofnir nad yw y drygedd a wnaed i ganiadaeth gynnulleidfaol wedi ei gwbl wellhau eto. Y mae yn hawdd esgusodi ein corau am ddefnyddio melodau o arddull anmhriodol i ganiadaeth y cyssegr; canys nid oedd ganddynt y pryd hwnw faes helaeth i ddewis melodau priodol o hono, heb law eu bod yn ddiffygiol mewn gwybodaeth, barn, a chwaeth, gerddorol a chaniadaethol. Ond erbyn hyn, y mae yn mysg ein corau gerddorion o athrylith, ac o farn a chwaeth ddiwylliedig, y rhai a allant, gydag ymdrech a chefnogaeth, godi ein caniadaeth eglwysig i'r perffeithrwydd a'r priodolder hwnw y beiddid ei gymharu âg eiddo unrhyw genedl Gristionogol yn y byd. A rhwng yr holl gasgliadau o dônau a gyhoeddwyd yn y Gymraeg, yn nghyd â'r rhai Seisonig, gellir cael digon o felodau cymhwys i'w harfer yn yr addoliad dwyfol: y fath rai ag y gall y cynnulleidfaoedd eu canu gyda rhwyddineb ar ol ychydig o ymarferiad.

Gwnaed amryw ymgeisiadau, er's deugain mlynedd, i lenwi yr hyn a enwid, "ein diffygion o dônau addas i'w canu yn yr addoliad cyhoeddus." Wedi y cwbl, y mae ein diffygion, yn ol tyb rhai dynion, yn parhau. Y cyntaf y gwyddom am dano a amcanodd at hyny, yn Ngogledd Cymru, oedd Mr. O. Williams, o Fôn. Os nad ydym yn camgofio, casgliad o'r hen felodau arferadwy ar y Salmau mesurol, yn benaf, oedd ei eiddo ef, wedi eu cynghaneddu gan y diweddar Mr. Novello, o Lundain. Dygwyddodd rhyw anffawd cyfreithiol mewn perthynas i'r casgliad hwnw, fel na bu o nemawr les i ganiadaeth. Cyhoeddodd y diweddar John Ellis, o Lanrwst, lyfr cerddorol hefyd, o ddeutu deng mlynedd ar ugain yn ol, os ydym yn cofio yn gywir. Ond nid oedd hwnw at archwaeth y Cymry; er fod ei awdwr yn ddyn o athrylith arbenig a neilldüol. Y nesaf a allwn gofio yw y *Caniedydd Crefyddol,* gan y diweddar W. Owen, Drefnewydd, yn niwedd yr hwn y cyhoeddwyd ychydig nifer o dônau gwreiddiol. W. Owen oedd y cerddor Cymreig mwyaf athrylithgar a chynnwynol a fu yn Nghymru yn y canrif diweddaf. Yn y flwyddyn 1840, cyhoeddodd y diweddar Mr. R. Mills, Llanidloes, y *Caniadau Seion;* yn nghyd âg *At todiad* iddo, tua 'r flwyddyn 1842. Nid ydym yn sicr ai casgliad tônau Mr. J. A. Lloyd a ymddangosodd nesaf: yr ydym yn tybio mai ê. Yna, cyhoeddodd y Parch. J. Mills y *Cerddor Eglwysig.* Ac o gylch yr un amser, cyhoeddodd Mr. Thomas Williams ("Hafrenydd") y *Cerddor Cymreig;*—y casgliad goreu at wasanaeth caniadaeth y cyssegr a gyhoeddwyd yn y Gymraeg hyd yn hyn. Ac y mae amryw ereill wedi eu cyhoeddi yn ddiweddarach, na oddef terfynau i ni eu crybwyll, oddi eithr casgliad o'r hen felodau Cymreig gan Mr. J. Roberts, Henllan.

Wrth ystyried fod ein cenedl yn genedl gerddgarol ac athrylithgar, ei hymdrechiadau egnïol i gyrhaedd gwybodaeth gerddorol, yn nghyd â'i manteision i gyrhaedd ei hamcan, gellir casglu yn naturiol fod caniadaeth eglwysig mewn ansawdd ddymunol a llewyrchus yn ei haddoliadau; ac nad yw yn ol, yn hyny, i genedloedd ereill Ewrop yn gyffredinol. Yr un pryd, rhaid ei bod yn ymwybodus o'i diffygion, a bod perffeithrwydd uwch i'w gyrhaeddyd trwy egni ac ymarferiad.

Yn addoliadau yr Ymneilldüwyr, hymnau a

Digitized by Google

genir yn gyffredin. Nid ydym yn gwybod yr achos paham na byddai y Salmau mewn ymarferiad mwy cyffredinol; os oes achos i hyny hefyd. Hyd yn hyn, ni bu y ffurf ddyganol ac anthemol ar ganiadaeth yn arferedig yn addoldai yr Ymneillduwyr Cymreig. Ffurf syml yr hymnau a'r Salmau mesurol a arferir. Bernir fod caniadaeth yn cael ei lle dyladwy hefyd yn eu haddoliadau; canys ni chenir dim llai na phedair gwaith ynddynt, yn gyffredin.

Yr oedd caniadaeth dan yr hen oruchwyliaeth yn arferedig yn yr addoliad dwyfol yn y ffurf offerynol, corawl, dyganol, a gwrthganiadaethol. A than yr oruchwyliaeth newydd, dilynir yr un ffurf arferedig arni drwy yr oesoedd, i raddau mwy neu lai. Nid ydym yn bwriadu dadleu y priodoldeb, neu ynte yr ammhriodoldeb, o ddilyn ffurf caniadaeth yr hen oruchwyliaeth yn ngwasanaeth yr Arglwydd dan y newydd. Fe allai fod caniadaeth gyssegredig, yn gystal a rhanau eraill o'r addoliad, dan yr oruchwyliaeth newydd, wedi ei gadael yn rhydd i'r eglwysi Cristionogol ei chyflawni yn y ffurf a farnont hwy yn oreu, ac yn fwyaf manteisiol hefyd i gyrhaedd yn llwyddiannus amcan ei sefydliad.—(*Burney's History of Music; Stafford's History of Music; Latrobe on the Music of the Church*, &c., &c.).

Gan fod yr erthygl flaenorol wedi ei chyhoeddi er's dros ugain mlynedd, cyflwynasom hi i sylw pedwar o bersonau y mae eu henwau yn hysbys fel awduron uchel ar gerddoriaeth, gan ddymuno arnynt ysgrifenu y cyfryw chwanegiadau ati ag a farnent hwy yn angenrheidiol, er ei dwyn i lawr hyd at y dyddiau presennol; ac y mae yn bleser genym gyhoeddi eu herthyglau yma. Y mae yr holl awdwyr wedi dadgan eu syniadau eu hunain yn annibynol ar eu gilydd; a disgwyliwn y byddant yn dra derbyniol gan ein cerddorion yn gyffredinol. Dyma

YR ATTODIAD CYNTAF.

YN yr erthygl flaenorol, a ymddangosodd yn yr argraphiad cyntaf o'r gwaith hwn, ceir sylwadau helaeth ar y wyddor, ac ar gerddoriaeth, fel un o'r celfau cain; ac, yn arbenig, ar hanes cerddoriaeth, o'r cyfnod boreuol y gwyddys rhywbeth am dano, i lawr i ddechreu y ganrif bresennol. Ond nid enwir ond ychydig iawn o bersonau a fuont â llaw i ddwyn y gwelliantau i mewn yn y gwahanol gyfnodau, mewn gwahanol wledydd; ac ni ddosberthir hwynt, gyda rhoddi disgrifiad o godiad a chynnydd y gwahanol ysgolion (*schools*). Prin hefyd y cyffyrddir â hanes cerddoriaeth wedi iddi gyrhaedd ei llawn dŵf, megys; ac nid enwir braidd neb o'r prif gerddorion ar ol Guido, a Palestrina (Italiaid), a'u cyfoedion.

Palestrina, tad Cerddoriaeth Eglwysig.—Palestrina (1524—1594) oedd prif gerddor yr unfed ganrif ar bymtheg. Bu fyw i effeithio cyfnewidiad hollol yn arddull cerddoriaeth eglwysig y byd—dysgybl i Goudimel (1510—1572). Gafaelodd yn yr egwyddorion a wnai i fyny Ysgol Goudimel, heb fenthyca ei dullwedd. Yn 1562, digwyddodd amgylchiad a ddygodd Palestrina i sylw y byd fel y person a gododd safon neu ansawdd cerddoriaeth gyssegredig. Yr oedd ei arddull mor goeth a defosiynol, fel yr oedd efe yn ddigon uchel i'r eglwysi edrych i fyny ato bob amser. Yn y flwyddyn hono (1562) y darfu i gymmanfa fawr Trent amlygu ei chondemniad o'r ysgafnder oedd wedi ymgripio i mewn i gyfansoddiadau yr eglwys; megys, dwyn i mewn alawon bydol chwareus, ac ar eiriau ysgeifn, i foddio y lliaws—yn lle cadw at yr hen arddull syml a chyfoethog. Palestrina oedd y cerddor a godwyd, ac a gymmhwyswyd, i adferu a pherffeithio yr arddull eglwysig bur. Yr oedd efe yn feistr ar alaweg o radd uchel, ac yn gynghaneddwr di-ail yn yr ysgol hon.

Ei gyfoedion a'i gydweithwyr oeddynt Christoforo Morales (Yspaenwr), Luca Morenzio, Giuseppe Zarlino (1519—1599); heb anghofio ei gydoeswyr Nanini (M. 1607); a Tomaso Vittoria (1560—1608).

Yr Ysgol Italaidd.—Yr oedd yno oleuadau mawrion ar yr adeg hono yn Belgium; y rhai sydd, erbyn hyn, yn diflanu yn gyflym, neu yn hytrach wedi ymdoddi i mewn i'r Ysgol Italaidd: megys Arcadelt, Jacques, Clement ("*Non papa*"), Waelrant (1517—1595, yr hwn a ddygodd i mewn welliantau pwysig yn y gelfyddyd; a Lejeune (1540—1600):—oll yn ysgrifenwyr cerddorol parod ac ysgolheigaidd. Y mae rhai o gyfansoddiadau Arcadelt mewn arferiad hyd y dydd hwn.

Yr Opera yn cael ei ffurfio gan yr Ysgol Italaidd.—O'r ysgol hon, er eu holl ymlyniad wrth yr uchel-ddefosiynol, y cododd yr opera. Tua'r flwyddyn 1580, sefydlwyd cymdeithas o lenorion a cherddorion yn Florence, gyda'r amcan o sefydlu yr opera. Dygwyd allan yr opera gyntaf yn y flwyddyn 1594, o dan y teitl "*Dafne*"—y geiriau gan y bardd Rinucini, a'r gerddoriaeth gan Peri. Yn y gwaith hwn y dygwyd i mewn y *Recitative*, neu y *Musica Parlante*—mewn ffurf anaeddfed, bid sicr. Dygodd llwyddiant yr opera hon operau eraill i fodolaeth gan yr un awdwr, a chan eraill. Ond i ran Claudio Monteverde (1568—1649) y syrthiodd y gwaith o roddi ffurf briodol i'r opera. Ei brif weithiau oeddynt "*Orfeo*," "*Arianna*," "*Il Ballo Delle Ingrate*," a "*Tancred & Clorinde*." Nid oedd sefyllfa y gerddorfa (*orchestra*) yn y cyfnod hwn ond isel. O'r bron nad ellir dyweyd mai dyma ei chychwyniad.

Codiad a chynnydd yr Oratorio.—Fel yr oedd yr opera yn cael ffurf a bodolaeth, cynnyddodd ac ymddadblygodd yr oratorio hefyd; ac er na ddaeth i'w chyflawn faintioli hyd amser cewri cerddorol yr ail ganrif ar bymtheg, a'r ddeunawfed; etto, daeth ffurf uchel yr oratorio yn raddol i amlygrwydd. Am oesoedd, yr oedd yn arferiad i berfformio chwareuaethau anaeddfed—ac o'r bron na ddywedem *dramas* hannerbarbaraidd—ar eiriau cyssegredig!

Perffeithio yr Oratorio.—Ond tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg, ymgymmerodd St. Phillipo de Neri, esgob o Florence, â gwella y cyflawniadau hyn; a dygodd i mewn olygfeydd hanesyddol, neu *allegories* cyssegredig, yn ystod y gwasanaeth a gynnelid yn ei esgobaeth. Dyna a grëodd y gair '*oratorio*;' yr hyn a olyga yn yr iaith Italaidd 'araethyddiaeth' ('*oratory*'). Cynnyrchwyd yr oratorio gyntaf, deilwng o'r enw, yn 1600, pryd y perfformiwyd '*L' Animæ Corpo*,' gan Emilio del Cavaliere, mewn eglwys yn Rhufain.

Ond Giacomo Carissimi (1580—1673), er hyny, wnaeth i'r oratorio yr hyn a wnaeth Monteverde i'r opera. Dygodd ef i fodolaeth yr *Arioso*, o'r hon yr hanodd yr *Aria*. Ei weithiau mwyaf adnabyddus ydynt "Jonah," a "Jephtha." Cafodd y cyntaf ei ddwyn i sylw yn Lloegr, gan Mr. Henry Leslie, a'i gôr enwog, yn Llundain, rai blynyddoedd yn ol.

Cerddoriaeth yn Germany.—Dyma ni yn yr 16eg a'r 17eg ganrif; a chyda chewri yr Ysgol

Digitized by Google

Saesnig o gerddorion. Ond rhaid dyweyd gair am gerddoriaeth yn Germany yn gyntaf. Er mai yn y bedwaredd ganrif ar ol Crist y daeth cerddoriaeth i gael ei chydnabod fel celfyddyd, yr oedd cerddoriaeth natur yn bod; ac yr oedd gan yr Aiphtiaid, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid gyfryngau (ammherffaith o angenrheidrwydd) i arllwys eu teimladau allan. Ond y mae yn rhyfedd nad oes hanes am gerddoriaeth yn Germany hyd yr unfed ganrif ar ddeg.

Dygiad y Gôral a'r Fotet i mewn.—Gyda'r Diwygiad Protestanaidd, pa fodd bynag, dan Luther (1483—1546) y siglwyd y wlad gan ddylanwad cerddoriaeth. Y mae yn rhaid ei bod, gan hyny, yn deimladwy yno yn mhell cyn yr adeg hon. Dechreuodd y diwygiad mawr hwn yn 1524; a chydag ef, dygodd Luther y côral i arferiad; o'r hon yr hanodd yr Hymn-dôn, fel y daeth y Salm-dôn o'r dyganau Gregoraidd.

Luther.—Yr oedd Luther, yn ddiddadl, yn gerddor o radd uchel, fel y profa ei gôralau cyfoethog; a gwnaeth ddefnydd gogoneddus o gerddoriaeth i wthio yn mlaen y diwygiad grymus. Ond i'w gyfaill a'i gydweithiwr—J. Walther (1490—1555)—yr ymddiriedodd efe y gwaith o ddethol y casgliad o gôralau a gyhoeddwyd yn 1524. I'r casgliad hwn, sicrhaodd Luther gyfansoddiadau o'r un natur oddi wrth Eccard, Handl (nid Handel, cofier), Ludwig, Senfl (1490—1560), Vulpius, Hassler, a M. Praetorius (1571—1621), a'r holl ysgol Italaidd. Yn mhlith gweithiau Handl, ceir motet mewn pedair-ar-hugain o ranau. Ond cerddor mwyaf Germany, yr adeg hon, oedd Heinrich Schütz (1585—1672). Yr oedd efe yn cael ei ystyried yn 'dad yr oratorio' yn Germany.

Yr Ysgol Saesnig:—Purcell.—Fel mai Schütz oedd prif gerddor Germany y cyfnod hwn, gellir, yn ddibetrus, roddi yr un anrhydedd i Henry Purcell (1658—1695) yn Lloegr—dysgybl i Dr. Blow, a chantor yn y Capel Brenhinol, lle y dechreuodd cynnifer o gerddorion Saesnig enwog. Cafodd bob manteision addysg. Byddai enwi gweithiau afrifed Purcell yn myned â gormod o'n gofod. Gellir nodi iddo gyfansoddi ei opera fechan, ond brydferth, "*Dido and Æneas*," yn 1677—blwyddyn ar ol iddo gael ei bennodi yn organydd Westminster Abbey. Cyfansoddodd lawer o operau, a chynnyrchion o bob math—i leisiau ac offerynau—ar ol hyny. Y "*Te Deum Jubilate*," yn *D*, oedd ei waith mawr olaf, gyda chyfeiliant y gerddorfa. Cynnyrchodd, hefyd, amryw o weithiau offerynol:—yn eu plith, ei ddeuddeg *Sonatas* i'r *violin*, y rhai a ddaethant i sylw mawr—yn enwedig yr un a adnabyddir dan yr enw "*The golden Sonata*" (1683). Bu farw yn ieuangc, fel Mozart a Mendelssohn: nid oedd ond 37ain mlwydd oed. Claddwyd ef mewn llecyn cyssegredig yn Westminster Abbey.

Yr enwogion eraill a gydoesent âg ef, ac a wnaethant i fyny yr ysgol bwysig Saesnigaidd, oeddynt, Orlando Gibbons (1583—1625), Henry Lawes, William Child (1605—1697), Matthew Lock (1620—1677), a John Blow, &c.

Yr Anthem yn gynnyrch y cerddorion Saesnig.—Yn dilyn Purcell, cawn Wm. Croft (1657—1727), yr hwn a gyfoethogodd y byd cerddorol â rhai o'r anthemau mwyaf hyfryd a defosiynol. Hefyd, Green, a J. Kent—dysgybl a dilynydd i Croft: Weldon, a Boyce (1710—1779). Cydoesai a chydredai Arne (1710—1778) â Boyce; ac ar ol Thomas Arne, daeth John Travers, Nares, Battishill, a Samuel Arnold (1740—1802).

Dyma gynnydd a chodiad yr ysgol Saesnig o gerddorion. Yn 1715, gwnaethpwyd Croft yn ddoctor mewn cerddoriaeth yn Rhydychain; ac felly Boyce yn Nghaergrawnt, yn 1749.

Y Cerddorion rhagarweiniol.—Yr oedd dylanwad prif gerddorion y bymthegfed ganrif, a dechreu yr unfed-ar-bymtheg, yn amlwg ar y tô uchod o gerddorion; ac yr oedd teyrnasiad y frenhines Elizabeth yn gyfoethog o gerddorion. Y penaf o'r rhai hyny oedd Tallis (1529—1585), a Richard Farrant (mar. 1584—5). Cyfrifir fod galluoedd Tallis fel cerddor cywrain yn ddiguro. Ysgrifenodd fotet mewn dim llai na deugain o ranau: a gŵyr cerddorion am ei "Emyn Brydnawnol," yr hon sydd wedi ei gweithio mor gelfydd, gan fod y trebl a'r tenor yn y dôn hono mewn canon. Dysgybl enwog iddo ef ydoedd Wm. Byrde (1543—1623). Y mae yn deilwng o sylw i ddau o gyfansoddwyr y cyfnod rhagarweiniol hwn farw yn yr un flwyddyn (1585); sef, Tallis, a Merbecke.

Y Fadrigal.—Cyn toriad gwawr yr ail ganrif ar bymtheg yn mron—yn yr hanner olaf o'r unfed ar bymtheg, daeth y Fadrigal yn boblogaidd yn y wlad hon, yn gystal ag mewn gwledydd eraill. Gellir ei disgrifio fel math o rangân, o natur fugeiliol; ond yn fwy cywrain ei chyfansoddiad na'r rhan-gân ddiweddar. Fel yr oedd Palestrina yn ben ar gyfansoddwyr cerddoriaeth eglwysig—o natur fanwl, cywrain, a defosiynol yr oes euraidd foreuol—yr oedd y rhai canlynol yn ffurfio 'Ysgol y Fadrigal fydol' ac yn brif Fadrigaliaid eu hoes:—nid amgen, Thomas Morley, Kirbye, Dowland, Weelkes, Wilbye, a Bennett. Morley oedd eu harweinydd; a ffurfiasant fath o gymdeithas i gyhoeddi y casgliad o honynt, o dan yr enw, "*The Triumphs of Oriana.*" Cyhoeddwyd y llyfr yn 1601, a chyflwynwyd ef i'r frenhines Elizabeth.

Cyfnod y prif Feistri.—Yr ydym yn cychwyn yn awr gyda'r ddau brif feistr cyntaf: Johann Sebastian Bach (1685—1750), a George Frederick Handel (1685—1759). Yn yr ail hanner o'r eilfed ganrif ar bymtheg, a'r ganrif ddilynol, y ganwyd yr holl feistri cerddorol mwyaf; a gellir galw y cyfnod hwn yn 'Gyfnod Euraidd y Meistri Mawr.' Yr hyn sydd yn syndod yw, mai yn Germany y ganwyd y glewion hyn i gyd—gwlad a fagodd gewri fel duwinyddion, &c., mae yn wir. Yr oedd hi yn wlad gymmharol araf yn diwyllio y gelfyddyd gerddorol, fel y sylwyd; ond hi a ddaeth ar ol hyny i sefyll ar y blaen fel Penllys Cerddoriaeth; ac y mae hi yn parhau felly yn bresennol hefyd.

Ar yr olwg gyntaf, ymddangosai fod dolen o'r gadwen yn yr Ysgol Germanaidd o gerddorion yn eisieu; sef, rhwng Schütz a Bach. Ni welir fod neb yn llanw y gwagle hwn. Ond dywed y Proffeswr Ritter, hanesydd cerddorol enwog, fod gŵr o'r enw John Sebastiani (1660), wedi ysgrifenu gwaith ar 'Y Dioddefaint,' a gynnwysai amryw o gôralau uchel, a chydganau, yn cynnwys gwrthbwynt (*counterpoint*) rhagorol. Cyhoeddwyd ef yn 1672—yn y flwyddyn y bu farw Schütz. Hefyd, hysbysir ni fod Reinhard Keiser (1673—1739), brodor o Leipsic, heb law cyfansoddi dros gant o operau, wedi gwneyd oratorio ar y 'Croeshoeliad;' ond ei fod wedi gadael allan o'i waith yr adrodd-gân a'r côral arferol. Credir yn lled sicr felly fod hyd yn oed 'y Bach' ei hun wedi sylfaenu ei gerddoriaeth ar 'Y Dioddefaint' ar y cynlluniau hyn. Ond tybiaeth ydyw hon.

Digitized by Google

Bach a Handel.—Nis gellir manylu yn yr ysgrif hon ar un o'r prif feistri, ac nid oes angen am hyny, gan fod eu hanes hwy i'w gael mewn cyfrolau eraill o'r gwaith hwn. Am gyfansoddiadau Bach a Handel—lleisiol ac offerynol—y maent yn afrifed, yn mron. Ganwyd J. S. Bach yn 1685; ac y mae ei gyfansoddiadau yn ddwys, dwfn, a hynod ddysgedig. Ei brif weithiau ydynt—heb law ei fotawdiau—ei 48 *preludes*, a'i *fugues* (gweithiau safonawl y byd)—y ddau oratorio ar "Y Dioddefaint:"—"St. Ioan," a "St. Matthew." Gwell genym ni yr olaf. Ganwyd Handel hefyd yn yr un flwyddyn (1685). Mae ei weithiau yn ëang, mawreddog, a phoblogaidd. Digon yw nodi "Y Messiah," "Israel," a "Judas." Gwelodd Handel wrthwynebiad mawr; ond yr oedd ganddo ewyllys o haiarn, a gorchfygodd y cyfan. Ei brif wrthwynebydd gyda'i gelfyddyd oedd, Bononcini. Cyfarfyddasant gyntaf yn Berlin, a daethant i gyffyrddiad â'u gilydd wedi hyny yn Llundain—lle y treuliodd Handel ei flynyddoedd olaf, yn 'frenin ar bawb,' er fod yr hen gawr yn ddall cyn marw. Cafodd golledion trymion wrth gyflwyno ei operau i'r byd (y rhai, fel cyfansoddiadau, sydd bron yn anymarferol yn bresennol); ond llwyddodd yn mhob ystyr gyda'i *oratorios*—a bu farw yn werth tuag 20,000*p*. Claddwyd yntau yn Mynachlog Westminster.

Yn mhlith cyfoedion Bach a Handel yn Germany, yr oedd Hasse a Graun. J. A. Hasse (1699—1783), a lwyddodd yn yr opera a'r oratorio. Galwai yr Italiaid ef, 'y Sais dwyfol' ('*the divine Saxon*'). Hefyd, Hiller (1728—1804), Benda, Naumann, a Himmel (1765—1814). Yn Italy, ceir Alessandro Scarlatti (1659—1725); a rhoddodd efe ffurf fwy pendant i'r oratorio nag a gafodd ar law Carissimi, a'i gyd-oeswyr. Hefyd, Durante, Feo, Stradella, a Marcello—awdwr yr arall-eiriad o'r 50ain Salmau Dafydd.

Yr Opera yn Ffrainge.—Cyn myned yn mlaen yn llinell y prif Feistri, yr ydym yn tybied y dylid gwneyd rhai sylwadau ar y testyn hwn. Dygwyd yr opera i Ffrainge gan y Cardinal Mazarini. Math o efelychiad o'r arddull Italaidd ydoedd. Ymffrostiai y Ffrangcod fod ganddynt, o Marcello (1639) i Ch. W. Gluck (1714—1787), amryw gerddorion da. Ond oddi eithr yr olaf, nid oes neb o honynt wedi gosod ei ddelw ar gerddoriaeth y byd. Sefydlasant ysgol yn yr arddull ysgafn a hanner-digrifol—yr hyn bethau sydd yn nodweddu cerddoriaeth y genedl hon, i raddau pell, hyd heddyw.

Gluck.—Yn Bohemia y ganwyd Gluck (1714); ond ymsefydlodd yn Paris yn 1773, a chododd i anrhydedd a dylanwad fel cyfansoddwr operau. Ar amgylchiad priodas yr ymherawdwr Joseph yr Ail, efe a ddygodd allan ei opera, a elwir "*Orfeo;*" yr hon a'i dygodd i sylw buan a chyffredinol. Gydag ef, daeth y gerddorfa yn rhan hanfodol o'r chwareu-gân ddramäyddol; a rhoddodd sylfaen i lawr, ar yr hon yr adeiladodd Mozart, Weber, ac hyd yn oed Wagner. Ar ymddangosiad ei wrthwynebydd, Piccinni (1728—1800), yr hwn a geisiodd ail sefydlu yr arddull Ffrengig, cynnyrchwyd cryn lawer o deimlad rhwng edmygwyr y ddau. Ond gyda'r opera, "*Iphigénie en Tauride*," sefydlodd Gluck ei hun fel y gorchfygwr. Parhaodd yr elyniaeth, er hyny, hyd ei farwolaeth, yn 1787.

Yr Overture.—I'r ysgol ddiweddaf, hefyd, y perthynai Lully (1633—1687); yr hwn a ystyrid yn gynllunydd gwreiddiol yr *overture*—ffurf ddechreuol—yr *adagio*, neu y symmudiad araf; a'r *minuet*, neu'r *fugue*, a gynnwysai y symmudiad cyflym. Rameau (1683—1764) hefyd, yr ysgrifenydd enwog ar egwyddorion cerddoriaeth, yr hwn hefyd a wellhaodd ar arddull Lully.

Haydn a Mozart.—Ganwyd Joseph Haydn, y trydydd o'r Meistri mawr, yn 1732; a bu farw yn y fl. 1809; ac felly, ymestynodd ei oes faith a ffrwythlawn ef i mewn i'r ganrif hon.

Dilynwyd ef yn mron yn union gan seren oleu arall—Mozart (1756—1791). Byr oedd oes Wolfgang Amadeus Mozart. Yr oedd yn flodeuyn mor dyner, a gwasgarai ei sawr mor ieuangc, fel nad allai barhau yn hir. Ond cyfoethogwyd y byd ganddo â chynnyrchion lawer; ac y maent o ansawdd hyfryd a nefolaidd. Ac ystyried hyd bywyd Mozart, cynnyrchodd hyd yn oed fwy na 'Papa' Haydn. Y mae yn syndod fel yr aethant i mewn i bob dosbarth o gerddoriaeth—yn enwedig yr offerynol. Er mwyn rhoddi dychymmyg am nifer gweithiau Haydn, y maent wedi eu symio i fyny fel hyn:—*symphonies*, 118; *quartetts* (llinynol), 83; *concertos*, 24; *trios* (i'r *violin*, y *cello*, a'r *piano*, gan mwyaf), 24; *sonatas*, 44; *operas*, 19; *masses*, 15; darnau bychain ac ysgeifn, megys dawns-gerddi, 400; darnau etto i offerynau neillduol, fel y *viol-da-gamba*, 163. Ond nid ydyw y cyfrif hwn yn berffaith mewn un modd. O'i weithiau mawr-ion, saif "Y Greadigaeth" ("*The Creation*") ar ben y rhestr; ac y mae trwy'r blynyddoedd yn ymgystadlu am y flaenoriaeth â'r "Messiah." Yn nesaf at y draethgân hon, saif 'Y Tymmorau" ("*Seasons*"). Ymwelodd Haydn â Lloegr ddwywaith; sef, yn 1790 a 1794; ond ni bu Mozart erioed yn y wlad hon. Ond aeth, gyda'i dad, unwaith ar daith hirfaith yn yr Ital, yn y flwyddyn 1770; a chafodd ddigon o glod—ond ychydig o gydnabyddiaeth. O'i *masses* amrywiol (gwasanaeth yr Eglwys Babaidd), y "Iaf," a'r "12fed," sydd yn fwyaf poblogaidd: ac o'i operau, "*Le Nozze di Figaro*" a "*Don Giovanni*" a ystyrir oreu:—y gyntaf o safon uchel a dramäyddol, a'r llall fel darluniad o fywyd yn ei amrywiol weddau—er fod y *libretto* hon bron yn isel mewn ystyr lenyddol. Ei gyfansoddiad olaf oedd ei "*Requiem*" hynod; ond ni ellir myned i mewn i'r hanes rhyfedd sydd ynglŷn â hi yma.

Yr oedd gan y ddau Feistr hyn fwy o allu dros y gerddorfa na Bach a Handel; ond buasai yn well i Mozart, er ei holl ragoroldeb, adael *scores* Handel yn llonydd, rhag rhoddi esgus i eraill eu torfynyglu.

Cydoesai â Haydn a Mozart y rhai canlynol:—Albrechtsberger (1746—1809); ac adnabyddir ef, yn benaf, oddi wrth ei ysgrifeniadau llafurfawr ar wrthbwynt a chyfansoddiant. Michael Haydn, brawd ieuangach i'r Meistr mawr; Andre (1741—1799); Naumann, &c. Cyfansoddwyr *operas* ac *oratorios*:—Martini, Stadler, a Vogler (1749—1814). Cyfansoddwyr cerddoriaeth eglwysig:—Reichardt, a J. Playel (enw adnabyddus i efrydwyr y berdoneg); Dussek, Steibelt, a Zelter (1758—1832) athraw Mendelssohn; Dr. Adolph Bernhard Maix (1799—1866), ysgolor cerddorol rhagorol. Y mae ei lyfrau ar gyfansoddiant a hanes cerddoriaeth, yn y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg yn Germany, yn weithiau uchel. Romberg hefyd, awdwr y cyfansoddiad sydd yn boblogaidd yn y wlad hon, "*The Lay of the Bell.*"

Clementi.—Yn mhlith yr Italiaid, hefyd, yr oedd Viotti a Muzio Clementi (1752—1832).

Digitized by Google

Adnabyddir ef wrth ei 'ddeuddeg *sonata;*' ac yr oedd yn dywysog yn mysg athrawon. Yn ystod ei ymweliad hir â Lloegr, gadawodd ei ddylanwad ar y gelfyddyd ynglŷn â'r bêrdoneg. Y mae ei fedd yntau yn y Fynachlog yn Llundain, lle y gorwedd eraill o wledydd tramor a'u henwogasant eu hunain yn y wlad hon. Hefyd, Salieri, Mayer, ac F. Paer (1771—1839).

Cherubini.—Ganwyd y prif athraw, M. L. Cherubini (1760—1842), yn Florence; ond sefydlodd yn Paris pan yn 26ain oed. Daeth yn enwog fel cyfansoddwr operau, a cherddoriaeth i'r Eglwys Babaidd; a phennodwyd ef yn feistr y brifysgol gerddorol yn Ffraingc. Nodweddir ei gyfansoddiadau gan lawer o fanylrwydd ac ysgolheigdod. Y mae hyn i'w weled yn amlwg iawn yn ei '*offeren,*' neu "*Requiem* yn *C. minor,*" a ysgrifenodd yn 1810. Ac nid rhyfedd, o herwydd efe ydyw awdwr y llyfr safonol ar gynghanedd a gwrthbwynt. Dilynwyd ef gan Mehul (1763—1817)—ac arweinia y ddau olaf ni at Beethoven.

Beethoven, yr olaf o'r Meistri mawr.—Ganwyd Ludwig Von Beethoven yn Bonn (1770); a bu farw yn Vienna (1827). Efe oedd y cyfansoddwr mwyaf, nid yn unig yn mysg y Germaniaid —ond yr athrylith uchaf a mwyaf gyffredinol a welodd y byd erioed. Y mae ei fywyd cynnyrchiol o'r braidd yn bruddaidd; ac yr oedd ei ddyddiau olaf yn druenus—am fod arno ofn tlodi. Ond ni bu eisieu arno; er na chydnabyddwyd ef mewn modd teilwng o hono ei hun yn ei ddydd, fel llawer athrylith tebyg. Byddai ceisio rhoddi disgrifiad o'i werth, heb fyned i mewn i'w hanes yn gyflawn, yn waith ofer. Nid oedd ar delerau da, fel yr awgrymasom, â neb—nac âg efe ei hun. Yr oedd mewn dwfn fyfyrdod beunydd. Nid oedd neb yn ei ddeall. Nid amlygodd fawr o ddim serch at neb, ond at ei fam; a phan y bu hi farw yn 1787, hiraethodd i ormodedd. Yr unig lychedyn goleu arall yn ei fywyd ydyw y cyssylltiad a ffurfiwyd rhyngddo â theulu y wraig weddw, Madame Breuning, a'i meibion, a'i merched. Ei uchelgais mawr, pan yn ieuangc, oedd cael ymweled â Mozart. Ymwelodd âg ef yn Vienna (1785); ond derbyniad oeraidd a gafodd gan y cerddor o Salsburg—yr hyn a'i cyffrodd. Ond wedi i Mozart ei glywed yn chwareu, yna dywedodd, "Telwch sylw i'r llangc. Fe ddaw rhyw ddydd i synu y byd." Wedi efrydu o dan Von den Eeden, organydd y llys; a Neefe, Albrechtsberger, ac eraill, cafodd wersi gan Haydn. Ond ychydig y gallodd efe ei wneyd o hono. Yr oedd tymmherau y ddau ddyn mawr mor wahanol. Ac ni bu nemawr o gyfeillgarwch rhyngddynt; er hyny, parhaodd i dderbyn gwersi oddi wrtho hyd 1794. Fel chwareuwr ar y berdoneg, yr oedd yn rhagori hyd yn oed ar Hummel; yr hwn a efrydai bron yr un amser o dan Mozart. Y mae Czerny yn symio i fyny ei weithiau fel hyn:—1 opera, 2 ddrama, gyda cherddoriaeth; 1 ddrama-gantata; amryw o ganeuon dramäyddol; 1 oratorio; 2 offeren (*mass*); 9 *symphony* (gweithiau safonol); 11 *overtures;* 1 *septett;* 7 *concerto* i'r *pianoforte;* 1 *violin concerto;* 2 *violin quintetts;* 7 etto, *quartetts;* 5 *violin trios;* 35 *solo sonatas* i'r *piano;* 10 etto, i'r *violin* a'r *piano;* 6 etto, i'r *violoncello* a'r *piano;* 7 *trios* i'r *piano, violin,* a'r *cello;* 1 *piano quintett;* ac amryw o *gantatas,* caneuon, &c., gyda chyfeiliant i'r berdoneg, &c.—er mai ychydig a gynnyrchodd, mewn cymmhariaeth, i'r lleisiau. Y mae ei un opera, "*Fidelio*" ("*Leonora*" ar y cyntaf), y fwyaf clasurol sydd yn adnabyddus; ac y mae ei un oratorio ef, er yn fèr, yn wir aruchel. Pwy o'n cerddorion sydd heb wybod am y gydgan "*Hallelujah to the Father,*" o'r draethgan hon, a "*The Mount of Olives, or David in the Wilderness?*" Erbyn hyn, y mae y byd yn dechreu dyfod i deimlo ac i adnabod y dyn mawr, ond hynod hwn!

Hummel.—Canlynwyd Beethoven gan gerddorion a adawsant eu hôl yn eu gwahanol ffyrdd ar y byd; megys, Hummel (1778—1837)—y chwareuydd rhagorol. Germanwr oedd yntau.

Spohr.—Ludwig Spohr (1784—1859); cyfansoddwr campus, a chwareuydd hynod ar y *violin.* Y mae ei oratorio "Calfari," a'r "Farn Ddiweddaf" ("*The Last Judgment*") yn hynod dda. Y mae cerddoriaeth gôrawl Spohr, er yn hynod o dderbyniol gan y byd, etto, o herwydd yr amryw ddilyniadau cromataidd a ddyga i mewn yn barhaus, yn hynod o afrwydd. Y mae ei lyfr ar "Y ffordd oreu i ddysgu chwareu y Crwth," yn waith safonol. Ysgrifenodd lawer i'w hoff offeryn, ac offerynau eraill, a'r gerddorfa lawn.

Weber.—Karl Maria Von Weber (1786—1826), oedd gyfansoddwr operau hynod ddramäyddol. Y mae ei "*Der Freyschütz*" yn sefyll uchr yn ochr â gweithiau Mozart. Yr oedd yn feistr ar ysgrifenu i'r gerddorfa, a dygodd i mewn rai offerynau anymarferedig. Gwnaeth ddefnydd newydd a helaeth o'r *clarionet.* Bu farw yn annisgwyliadwy ar derfyn un o'i ymrwymiadau yn Chwareudy Covent Garden; a chladdwyd ef yn Llundain, Mehefin 1826.

Schubert a Meyerbeer.—Dilynwyd Weber gan Franz Schubert (1797—1828); ac ar ol hyny gan Jacob Meyer, neu Meyerbeer (1794—1864). Germaniaid oedd y rhai hyn etto. Yr oedd yr olaf yn gyd-ddysgybl â Weber, dan yr Abbe Vogler, yn Vienna. Cawn fod Schubert yn meddu bron gymmaint o athrylith a Beethoven; ond, bu farw yn ieuangc, ar ol gyrfa anffodus, lwfr, a melancolaidd. Ni ddaeth efe i gyffyrddiad â'r Meistr mawr hyd at derfyn ei oes—yn rhy ddiweddar iddo i estyn un cymmhorth iddo—pe y gallasai weled rhagoriaeth yn neb arall. Mae rhai o *masses* Schubert—yn enwedig ei un yn *E.* flat—yn ysblenydd fel cyfansoddiad, ac yn llawn o ddefosiwn. Ond yn ei ganeuon—o ba rai y mae cannoedd lawer—a'i weithiau offerynol, efe a ymarllwysodd ei enaid mawr allan. Nid oedd Meyerbeer mor gryf ac annibynol fel cyfansoddwr a'i gyfaill Weber; etto, cyfansoddodd amryw o operau o'r arddull Ffrengig; a phan ddygodd allan ei waith mawr, "*Robert le Diable,*" yn Paris, yn 1831; sefydlwyd ei gymmeriad fel cyfansoddwr o radd uchel. Germaniad oedd yntau o enedigaeth a dygiad i fyny.

Moscheles, yr olaf o Gerddorion y ddeunawfed ganrif.—Yr olaf o'r cewri a anwyd yn y ganrif uchod ydoedd I. Moscheles (1794—1870). Yr oedd efe mor enwog fel chwareuydd ar y bêrdoneg, fel y darfu i deulu Mendelssohn lwyddo i'w gael yn athraw iddo—a hyny gyda thraul fawr.

Mendelssohn, y cyntaf a'r mwyaf o Gerddorion y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg.—Yr ydym erbyn hyn wedi dyfod at y cerddorion mawr a anwyd yn y ganrif hon. Yn uchaf o ran amser a galluoedd y saif Felix Mendelssohn-Bartholdy (1809—1847). Cafodd ei eni yn yr un flwyddyn ag y bu Haydn farw! Mendelssohn oedd y

Digitized by Google

cerddor mwyaf cyflawn o ddysg a welodd y byd erioed. Hanodd o deulu uchel, a chafodd yr addysg a'r manteision goreu. Ystyrir ei lythyrau bron mor flasus a'i weithiau cerddorol. Yr oedd efe yn llenor rhagorol. Y mae ei weithiau heddyw mor boblogaidd, ac mor adnabyddus, fel nad oes eisieu eu nodi yma. Cwblhäodd ei addysg fel cerddor dan Zelter, dysgybl i Sebastian Bach. Nid rhyfedd, felly, i Mendelssohn gymmeryd y fath ofal i efrydu, a dwyn allan weithiau yr hen gantor o Weimar. Ystyrir "*St. Paul*," a'r "*Elijah*," gan Mendelssohn, yn gyfochrog â'r "*Messiah*" a'r "*Greadigaeth*." Y mae y naill yn hynod ddefosiynol, yn arddull goethedig a dwfn Bach, a'r llall yn fwy darluniadol a dramäyddol. Cymmerodd ofal mawr i wellhau, diwygio, a pherffeithio ei weithiau.

Schumann.—Dilynwyd y cerddor o Hamburg gan amryw o Germaniaid enwog eraill. Robert Schumann (1810—1856), oedd un:—brodor o Zwickau, Saxony. Bwriadwyd ef gan ei dad i'r gyfraith; ond dangosodd duedd gref iawn at gerddoriaeth pan yn ieuangc. Heb law bod yn gerddor cynnyrchiol a gwreiddiol, yr oedd efe yn llenor o'r dosbarth uchaf. Bu yn olygydd i gyhoeddiad cerddorol yn Germany; yr hwn a fu yn foddion i godi safon beirniadaeth yn y wlad; a gadawodd ei ôl ar yr holl dalaethau o amgylch, ac ar gerddoriaeth y byd. Bu farw yn rhy gynnar—yn ol syniadau dynion—wedi cael ei lethu gan waith llenyddol a cherddorol. Y mae ei wraig, Clara Schumann, y chwareyddes hynod ar y bêrdoneg, etto yn fyw, ac yn arfer ymweled â Lloegr bron yn flynyddol.

Yr opera Italaidd ddiweddar.—Cydoesai â hwy Spontini (ma. 1851). Effeithiodd lawer o gyfnewidiadau yn arddull Gluck. Daeth i fri, ar yr adeg hon, dri o gerddorion Italaidd, a ddoniwyd â gallu melodawl hynod gynnyrchiol —nid amgen Gioacchino Rossini (1792—1868), brodor o Pezaro, yn Italy; V. Bellini (1802—1835); a G. Donizetti (1798—1848)—sefydlwyr yr opera Italaidd ddiweddar. Crëwyd, neu dygwyd allan, lu mawr o gantorion gan y tri hyn. Mae amryw o honynt yn rhagori yn eu halawon hyd y dydd hwn; sef, Madame Patti Nicholini, ac eraill. Gŵyr pawb am "*Stabat Mater*" Rossini. Cyfansoddiad o arddull newydd ac ysgafn ar y fath destyn oedd hwn; ac ammheuai llawer fod ynddo ddim defosiwn. Ond canai ef yn ol yr anianawd oedd ynddo—a saif y gwaith ei dir.

Yn cydoesi â hwynt yr oedd Daniel Auber (1782—1871); cyfansoddwr a gyfyngodd ei hun, braidd yn gwbl, i'r opera ysgafn. Ffrangcwr oedd efe. Ystyrir ei "*Fra Diavolo*" yn waith o gynlluniad da.

Hector Berlioz. — Dyn hynod oedd Hector Berlioz yn ei ddydd (1803—1869); ac y mae ei ddylanwad yn aros ar y gerddorfa hyd heddyw. Yr oedd pob peth perthynol i'r gerddorfa gyflawn, a arweiniai am flynyddoedd, yn gydnabyddus iddo. Ei lyfr ef ar offeryniaeth (*instrumentation*) a ystyrir yn safon. Cynnyrchodd lawer o gyfansoddiadau o nodwedd gwyllt ac ëang, ond hynod wreiddiol—fel y dyn ei hun. Esgeuluswyd hwynt yn ei wlad ei hunan; ond daw rhai o honynt—megys ei "*Faust*"—yn boblogaidd yn Lloegr, Germany, ac yn Ffraingc hefyd—ei wlad ei hun.

Gounod. — Saif Charles Gounod (gan. 1818), ar ben y rhestr fel cyfansoddwr yn y dyddiau presennol yn Ffraingc. Yn mhlith cyfansoddwyr poblogaidd, ac o ddylanwad yn Ffraingc, heb law awdwr "*Faust*," a'r "*Redemption*," gellir nodi Ambroise Thomas; Flotow, awdwr "*Martha*;" ac Offenbach, cyfansoddwr operau ysgeifn a digrifol; Bizet, awdwr "*Carmen*," a dysgybl i Halevy, &c.

Verdi.—Y mae Giuseppe Verdi (ga. 1814), ar hyn o bryd, yn sefyll yn mron ar ei ben ei hun yn Italy. Gŵyr cerddorion Cymru am ei opera, "*Il Travatore*," yn dda. Ei gyfansoddiadau diweddaraf ydynt ei operau "*Aida*" ac "*Othello*," a'i "*Requiem*."

Wagner. — Y mae yn ddigon hysbys fod Richard Wagner (cerddor y dyfodol), a anwyd flwyddyn o flaen Verdi (1813), "wedi marw; ond yn llefaru etto." Dyn hynod o alluog fel bardd, cerddor, a llenor, oedd efe. Y mae rhai o'i feirniadaethau ar Mendelssohn, ac eraill, yn gelyd ac yn eithafol; ond yn amlygu nerth ac annibyniaeth meddwl. Dilynai Gluck, ac yn enwedig Weber, a Berlioz, yn ei offeryniaeth. Mewn gair, gosodai bob peth ar gynllun ëang; gan gynnyrchu mwy o dwrw, yn fynych, nag o gerddoriaeth.

Cerddorion Cenedlaethol.—Y cerddorion mwy diweddar—oddi eithr Frederic Chopin (1810—1849)—ydynt, Niels W. Gade (ga. 1817), Anton Rubinstein, Franz Liszt (yr Abbe Liszt) (1811—1886), Johannes Brahms (ga. 1833), J. Raff (mar. 1882), J. Joachim (ga. 1831), a Dvoràk, Boito, a Grieg. Cerddorion ydyw y rhai olaf hyn oll sydd yn cynnrychioli nodweddion eu gwahanol wledydd, gan ddwyn eu halawon nodweddiadol i mewn i'w gweithiau, yn ol dull cerddorion presennol Cymru. Brodor o Warsaw oedd Chopin; ac anfarwolodd ei wlad (Poland) gyda'i driniaeth o'i dawns-gerddi. Ganwyd Gade yn Copenhagen. Y mae yn un o brif gyfansoddwyr ei ddydd. Rwssiad yw Rubinstein, pêrdonydd o'r dosbarth blaenaf, a chyfansoddwr da. Y mae yn troi yn y gymdeithas uchaf; ac anrhydeddir ef yn fawr yn ei wlad ei hun. Hungariad oedd F. Liszt, a phêrdonydd mwyaf ei oes. Cefnogai a noddai yr arddull Wagneraidd. Y mae Brahms a Raff yn gyfansoddwyr hynod, yn mysg eraill, yn eu gwahanol ddulliau. Y mwyaf o'r tô yma, er hyny, ydyw Dvoràk. Y mae hanes y dyn hwn yn un rhyfedd, pe y gellid cael hamdden i'w ddilyn. Cyfan-weithiau o nodwedd uchel ydynt ei oratorio, "*St. Ludmilla*," a'i "*Stabat Mater* yn *B. minor*," fel eiddo Bach. Fe ddylai Grieg a Boito gael sylw yn ochr yr uchod, am y defnydd da y maent yn ei wneyd o'r gerddorfa linynol, i enwogi cerddi eu gwlad a'u pobl—y Scandinaviaid a'r Slafoniaid. Dyma faes toreithiog y gallai cerddorion gweithgar Cymru ei drin a'i wrteithio am y blynyddoedd nesaf. Ond à gymmerant hwy yr awgrym?

Parhâd o'r ysgol Saesnig.—Yn Lloegr etto, i gwblhau yr ysgol Saesnig, rhaid enwi Samuel Wesley (1766—1837), mab Charles Wesley—yr emyn-gyfansoddwr. Ond y mae'n rhaid peidio camgymmeryd y cerddor hwn am Samuel Sebastian Wesley (1810—1876), y cyfansoddwr eglwysig mwyaf a anwyd yn Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; William Crotch (1775—1847), gŵr o athrylith gref; Thomas Attwood (1767—1838), dysgybl i Mozart; J. B. Cranmer (1771—1858); John Field (1782—1837), dysgybl i Clementi; a Syr H. R. Bishop (1782—1855)—y ganig-gyfansoddwr poblogaidd, ond o ddullwedd gwahanol i Webbe, a'i gyfoedion.

Digitized by Google

Cydoeswyr Mendelssohn yn Lloegr.—Ei gydoeswyr ef yn Lloegr oeddynt V. Wallace (1814—1865), M. W. Balfe (1808—1870)—Gwyddel o enedigaeth; a Syr William Sterndale Bennett (1816—1875).

Syr Wm. Sterndale Bennett. — Cyfansoddwr mwyaf clasurol y Saeson, ac edmygydd mawr o Mendelssohn. Y mae ei gantata, "*Y wraig o Samaria,*" yn cael ei hedmygu gan gerddorion. Efe oedd dilynydd Cipriani Potter, fel prifathraw y *Royal Academy of Music.*

Y cerddorion mwyaf adnabyddus a ddilynasant Syr Sterndale yn Lloegr (ond y mae y rhan fwyaf o honynt wedi marw) oeddynt Syr John Goss (1800—1880), cerddor eglwysig rhagorol, ac organydd Eglwys Gadeiriol St. Paul, a dysgybl i Attwood. Syr Julius Benedict (ga. 1804); a Syr Michael Costa (ga. 1810):—pa rai, er yn enedigol o Germany, a dreuliasant lawer o'u dyddiau goreu yn y wlad hon. Arweinwyr a chyfansoddwyr medrus oedd y ddau. Costa oedd prif arweinydd ei ddydd, a chyfansoddwr y traethganau "*Eli*" a "*Naaman.*"

Macfarren.—Syr. G. A. Macfarren (ga. 1813), y prif athraw cerddorol yn Cambridge, a'r *Royal Academy.* Dysgawdwr mawr oedd efe, a chyfansoddwr llawer o weithiau o bob math. Syr F. A. Gore Ouseley (ga. 1825), ysgrifenydd ar gynghanedd a'i ffurfiau uchaf, a chyfansoddwr llawer o dônau da. Syr R. P. Stewart, proffeswr cerddoriaeth yn Mhrifysgol Dublin; a Dr. Steggall, organydd Lincoln's Inn.

Cerddorion mwyaf blaenllaw y wlad hon yn y dyddiau presennol.—Yn mysg y rhai mwyaf adnabyddus sydd ar hyn o bryd yn fyw, ac yn llafurio yn Lloegr, Ysgotland, yr Iwerddon, a Chymru, gellir enwi y personau canlynol:—Syr George Grove, llywydd y *Royal College of Music:* Dr. Mackenzie, prifathraw y *Royal Academy:* Syr Arthur Sullivan, awdwr "*The Golden Legend,*" "*The Light of the World,*" a llawer o weithiau pwysig eraill: E. H. Turpin, beirniad a cherddor da, yr hwn sydd newydd dderbyn y gradd o ddoethawr mewn cerddoriaeth: Syr John Stainer, diweddar organydd St. Paul's; ond yn awr, prif arolygwr y colegau elfenol mewn cerddoriaeth, ar ol John Hullah: F. H. Cowen, awdwr "Ruth," &c.: Dr. Hubert Parry, y proffeswr Villiers Stanford, Berthold Tours, Ebenezer Prout, Joseph Barnby, Joseph Bennett, John Barnett, J. F. Barnett, awdwr "*The Ancient Mariner,*" a Dr. Rogers, organydd, &c., &c.

John Thomas (*Pencerdd Gwalia*), telynor ei mawrhydi; yr hwn, gyda'r diweddar Brinley Richards, a wnaeth lawer dros gerddoriaeth genedlaethol y Cymry. Dr. Joseph Parry, awdwr "Emmanuel," a "Blodwen," a llawer o gerddoriaeth leisiol ac offerynol. Y Parch. O. Davies (*Eos Llechid*)—cerddor eglwysig Cymreig rhagorol, yr hwn a wnaeth lawer yn ddiweddar dros hanesyddiaeth gerddorol Gymreig. John Thomas (yn awr o Llanwrtyd) a Gwilym Gwent, cyfansoddwyr anthemau a chanigau poblogaidd. W. T. Rees (*Alaw Ddu*), cyfansoddwr y *cantatas* "*Llewelyn,*" "*Y Bugail Da,*" a "*Ruth a Naomi,*" gyda llawer o ddarnau lleisiol o bob math. D. Emlyn Evans, awdwr yr *operetta* "Y Tylwyth," a'r *gantata* "Gweddi'r Cristion;" a chyfansoddydd caneuon rhagorol. D. Jenkins M.B., cyfansoddwr darnau poblogaidd i leisiau gwrywaidd. Mae y tri diweddaf yn ymwneyd cryn lawer gyda llenyddiaeth gerddorol. J. H. Roberts, M.B., (*Pencerdd Gwynedd*); athraw cerddorol, a chyfansoddwr cantawd ac anthemau. J. T. Rees, awdwr y *quartett* llinynol buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Aberdâr. Hugh Davies, cyfansoddwr amryw o lyfrau at wasanaeth plant, &c. R. S. Hughes, organydd a chyfansoddwr caneuon:—a llawer eraill o gyfansoddwyr, arweinwyr, cantorion, a sol-ffâwyr.

Cymru yn codi i sylw.—Gwelir, oddi wrth yr uchod, fod Cymru, yn mysg gwledydd eraill, yn wlad gerddorol iawn, ac enwog am ei cherddoriaeth gôrawl a lleisiol, o bob natur. Ac erbyn hyn, y mae hi yn dechreu ymysgwyd hefyd gyda cherddoriaeth offerynol.

Gwnaeth hen gerddorion Cymru lawer i barotoi y llwybrau i'r tô presennol o gerddorion:—a pha wlad, o'i maint, a all ymffrostio yn fwy yn nifer ei cherddorion, ei datganwyr, a'i thelynorion? Rhydd *Eos Llechyd* enwau tua saith gant o honynt, o'r cyfnod boreuol hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, heb enwi neb sydd yn fyw yn awr. Gweler "*Cerddor y Cymry*" (1888—1890), o dan olygiaeth *Alaw Ddu.*

Yn eu plith, ceir John Ellis, Llanrwst (1750—1834); Dafydd Jenkin Morgan, Llechryd (1752—1844); John Parry (*Bardd Alaw*) (1776—1851); Morris Davies, Bangor (1796—1876); y Parch. John Jones, Tal-y-sarn (1796—1857); y Parch. William Jones (1726—1800); Owen Williams, o Fôn, ac eraill:—y rhai oeddynt alaw-wyr cymmeradwy, ond cynghaneddwyr ac ysgolheigion cerddorol gwael. Y mae cerddorion presennol Cymru wedi trefnu rhai o'u halawon goreu, ac y maent o wasanaeth yn eu gwisgoedd newyddion; ond nid da fyddai adgyfodi gormod o honynt. Ceir y casgliad cyflawnaf o lawer o'n hen dônau (cyhoeddedig 1873), gan y Mri. T. Gee a'i Fab, o dan yr enw "*Caniadau y Cyssegr a'r Teulu.*" Y mae yn yr ail argraphiad o'r gwaith hwn (1889), dan olygiaeth Hugh Davies (*Pencerdd Maelor*), lawer o rai mwy diweddar, ac o gyfansoddiad a chynghaneddiad gwell:—yr hwn a gynnwysa 770 o dônau, 25 o anthemau, a 25 o gôr-ganau—820 o gwbl. Y maent ar yr holl emynau, &c., a geir yn "*Emynau y Cyssegr,*" gan T. Gee—yr hwn yw y casgliad cyflawnaf o emynau sydd genym.

Y mae y Cymry wedi cydredeg â'r Saeson, a chenhedloedd eraill, yn y mater o gyhoeddi llyfrau tônau, &c. Cawn, o'r flwyddyn 1727 i'r flwyddyn 1883, gynnifer a 55 o lyfrau, casgliadau, &c., wedi eu dwyn allan. Gweler "*Cerddor y Cymry*" (1884—1885), am restr gyflawn o honynt. Ond teg ydyw nodi fod cerddoriaeth gynnulleidfaol Cymru wedi myned yn lled isel, o ran y dull o ganu, a'r pethau a genid, cyn cyhoeddiad "*Llyfr Tônau Ieuan Gwyllt*" (1859). Dilynwyd y llyfr ardderchog hwn gan amryw eraill o deilyngdod uchel—ac i raddau, o'r un nodwedd. Byddai dilyn hanes y llyfrau hyn, a'u golygwyr, yn ddyddorol; ond cymmerai hyny ysgrif faith. Digon ydyw dywedyd mai ar ol cyfnod yr hen gerddorion Cymreig, diwedd y ddeunawfed ganrif a dechreu y bedwaredd-ar-bymtheg, y daeth tô o gerddorion Cymreig y gellir eu galw, o'r bron, yn 'Ysgol o Gerddorion Cymreig,' gan fod cryn lawer o neilduolrwydd yn perthyn i rai o honynt. A chynnhyrfodd Eisteddfod Bethesda, yn Arfon, awen aml un o honynt. Y rhai mwyaf amlwg ydynt D. Roberts (*Alawydd*), awdwr "*Y Grammadeg Cerddorol:*" Robert Davies (*Cyndeyrn*) (1814—1867): Gorfyniawc o Arfon, ysgrifenydd a beirn-

Digitized by Google

iad da: John Roberts, o Henllan, emyn-dônwr awenyddol: Richard Mills, awdwr '*Duw sydd Noddfa*' (1809—1744): y Parch. John Mills (*Ieuan Glan Alarch*), awdwr y "*Grammadeg*," a llyfrau llenyddol a ddylanwadodd er lles i gerddoriaeth y wlad: Thomas Williams (*Hafrenydd*), casglwr a threfnwr diwyd: Rosser Beynon, Merthyr (1810—1876): y Parch. E. Stephens, Tan-y-marian, awdwr y draeth-Gymreig gyntaf a gyhoeddwyd; yr hon sydd newydd ei hail gyhoeddi, o dan olygiaeth Mr. D. Emlyn Evans: y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*) (1822—1877), beirniad goreu Cymru ar yr adeg hono, a golygydd "*Y Cerddor Cymreig*:" Mr. J. Ambrose Lloyd, awdwr y *gantata* gyfoethog, "*Gweddi Habacuc*," a llawer o anthemau hyfryd a nodedig—yn eu plith y mae '*Teyrnasoedd y Ddaear*:' John Owain (*Owain Alaw*, yn 1821—1883), organydd a chyfansoddwr anthemau yn yr arddull eglwysig. Gwnaeth yntau wasanaeth mawr i gerddoriaeth yn ei ddydd. J. D. Jones, Rhuthyn, cydweithiwr â Than-y-marian: R. Davies (*Asaph Llechid*) (1834—1858); a'r Parch. Owen Davies (*Eos Llechid*)—yr unig un o'r dosbarth talentog a gweithgar hwn, gyda Hafrenydd, sydd yn fyw yn bresennol. Pwy all fesur maint llafur y cerddorion uchod? Trwyddynt hwy, a'u gweithiau, yr addysgwyd cerddorion di-fanteision Cymru.

Cyfnod newydd yn hanes Llenyddiaeth Gerddorol Gymreig.—Ond o 1861 i 1873, dechreuwyd cyfnod newydd ar lenyddiaeth gerddorol yn ein gwlad ni, trwy ddygiad allan "*Y Cerddor Cymreig*," dan olygiaeth Ieuan Gwyllt; a gwnaeth "*Greal y Côrau*," dan olygiaeth Tan-y-marian ac eraill; a'r "*Gerddorfa*," gan Dewi Alaw, yn cael ei gynnorthwyo, am dymmhor, gan Mr. Emlyn Evans, wasanaeth yn y cyfeiriad yma. Ac wedi hyny, o 1878 i 1880, daeth "*Yr Ysgol Gerddorol*," o dan olygiaeth Alaw Ddu, a'r Parch. J. Ossian Davies, allan. Yn bresennol, cawn ddau gyhoeddiad cerddorol ar y maes; sef, "*Cerddor y Cymry*," a gychwynwyd yn 1883, dan olygiaeth Alaw Ddu; ac "*Y Cerddor*," o dan olygiaeth y Mri. D. Jenkins a D. Emlyn Evans, a ddechreuwyd yn 1889.

Sefyllfa Cerddoriaeth ar hyn o bryd yn Nghymru.—Erbyn hyn, y mae adeg euraidd cerddoriaeth Gymreig yn dechreu gwawrio, trwy weithgarwch y cerddorion presennol, a nodir uchod, ac eraill. Y mae Cymru, mewn ystyr gerddorol, yn dechreu cael ei chydnabod yn mhlith cenhedloedd y byd; ac y mae cyssylltiad agosach yn dyfod rhyngddi a'r genedl agosaf ati. Mae yr eisteddfodau, yn enwedig yr Eisteddfod Genedlaethol, y blynyddau diweddaf yma, er ei holl ddiffygion, yn dylanwadu ar y cyfan er daioni. Ceir, bellach, nid yn unig gystadleuaethau ar ganigau a chydganau unigol ynddynt; ond ceir hefyd berfformiadau o weithiau cyfain ar hyd a lled y wlad: yr hyn sydd yn profi yn ddigon eglur fod chwaeth at gerddoriaeth dda yn myned ar gynnydd. Yn mysg y gweithiau estronol lliosog, ceir eiddo y prif Feistri. Ceir hefyd rhai o gôrau Cymru yn ymgymmeryd â dwyn allan lyfrau o waith cerddorion eu gwlad eu hunain; ac o barhau yn y cyfeiriad hwn, cefnogir ein cerddorion. A phwy a ŵyr na chyfyd cerddor yn Nghymru yn fuan a sigla y byd gan ddylanwad a grym ei athrylith?

Y mae gan gyfundrefn y Tonic Sol-Ffa gannoedd o ddysgyblion yn Nghymru; ac amryw, bellach, yn athrawon proffesedig, yn byw wrth eu gwaith. Cyfundrefn ardderchog ydyw hon i ddwyn plant yn gyfarwydd âg elfenau cyntaf cerddoriaeth; ond ofnwn fod gormod o '*fusnes*' a '*system*' o'i chwmpas, fel ag i beri anghofio y gelfyddyd.

Y mae genym bellach, hefyd, amryw o wŷr teitlog yn ein mysg, ac areithiwr cerddorol yn Ngholeg Caerdydd, yn mherson Dr. Parry. Ond dylai fod cadair gerddorol ynglŷn â phob un o'n colegau cenedlaethol.

Y symmudiad olaf, a'r goreu etto, ynglŷn â cherddoriaeth yn Nghymru, ydyw, yr Undeb Cerddorol, neu Gymdeithas y Cerddorion. Fe gychwynwyd hon, ar ol llawer o ysgrifenu cyhoeddus, a gohebu cyfrinachol, gan flaenoriaid cerddorol y genedl y dyddiau presennol, tua dwy flynedd yn ol; a chafwyd cyfarfodydd rhagorol i'w sefydlu ar dir cadarn, yn Nghwrecsam (1888), ac yn Aberhonddu (1889), ynglŷn â'r Eisteddfodau Cenedlaethol, o dan nawdd Cymdeithas y Cymmrodorion. Mr. John Thomas (*Pencerdd Gwalia*), yw y llywydd; a chefnogir y gymdeithas gan lawer o ddynion dylanwadol. Perthyna iddi yn awr ugeiniau o aelodau; a disgwylir llawer oddi wrthi yn y dyfodol.

Un o amcanion penaf yr undeb hwn, gyda chefnogi talent ein hieuengctyd, a dwyn i sylw weithiau Cymreig, ydyw gwrteithio chwaeth at gerddoriaeth 'offerynol' neu 'gerddorfäol' yn Nghymru. Mae genym eisoes gannoedd o *harmoniums*, a llawer o organau, yn ein heglwysydd a'n capeli; y rhai a arferir i gynnorthwyo yn y gwasanaeth a'r canu cynnulleidfaol. Ond angen mawr Cymru, ar hyn o bryd, ydyw, dwyn i mewn gerddoriaeth offerynol, a sefydlu cerddorfäau (*orchestras*), fel y gellir dwyn i sylw y werin Gymreig y gerddoriaeth uchaf, a chodi chwaeth y cerddorion eu hunain. Wrth hyny, codir ein safon, fel ag i ymgystadlu â gwahanol wledydd y byd, a sefydlu 'Ysgol o Gerddorion Cymreig.'

YR AIL ATTODIAD.

Yn ystod y deng mlynedd ar hugain sydd wedi myned heibio er pan yr ysgrifenwyd yr erthygl wreiddiol, y mae cerddoriaeth wedi ymsymmud yn mlaen drwy y byd gwareiddiedig yn gyffredinol—ac yn nodedig felly mewn rhai gwledydd.

Er fod ITALY, yr hon a gydnabyddid yn gerdd-frenhines y byd am genedlaethau, fel pe wedi dyhysbyddu ei hun er's rhai blynyddau bellach, o ran y gallu i gynnyrchu cerddorion a cherddoriaeth o'r radd flaenaf; a bod GERMANY, hithau, yr hon a'i dilynodd yn y flaenafiaeth ynglŷn â chyfansoddiadaeth, fel ar golli y deyrnwïalen yn ei thro; a FFRAINGC, i bob ymddangosiad, wedi rhoddi ei bryd yn mron yn hollol ar gerddoriaeth chwarëyddol ysgafn a diflanol; etto, y mae y naill fel y llall wedi eu breintio â cherddorion ydynt wedi troi allan weithiau na byddai raid i unrhyw genedl, yn ei chyfnod mwyaf disglaer, gywilyddio o'u plegid. Ac er nas gellir etto benderfynu safleoedd diammodol Wagner, Berlioz, a Liszt, Verdi, Gounod, Brahms, a Dvorák, ynghyd âg eraill o'u cydlafurwyr, gellir ei gymmeryd yn ganiataol na bydd y safleoedd hyny yn rhai isel a dinôd, pan y gwna amser benderfynu y mater.

Ond nid yn y cyfeiriadau yna yr hynodir y cyfnod dan sylw yn fwyaf arbenig; ond yn hytrach, yn nadblygiad galluoedd cerddorol cenhedloedd eraill, oedd, hyd yn ddiweddar, yn "eistedd mewn tywyllwch." Nid yw hyn,

Digitized by Google

er hyny, yn ddim amgen na hanesiaeth yn ei hail-adrodd ei hun. "Un genhedlaeth a ä, ac arall a ddaw," sydd wirionedd mewn mwy nag un ystyr; ac ymddengys bellach fel pe bae Anglo-Celtiaid yr ynysoedd hyn ar ddyfod i'r amlwg. Fel yna y pwyntia'r arwyddion yn marn beirniaid craffus; ac y mae y bras-gamau cerddorol a wnaed yn ein plith yn ystod y chwarter canrif olaf, a'r sefyllfa anrhydeddus y mae cerddoriaeth Brydeinig wedi ei ennill iddi ei hun yn mysg rhai o brif genhedloedd y Cyfandir yn y cyfnod hwnw, yn attegu y cyfryw olygiad i raddau pell. Y mae rhai o lwythi Slafonaidd Ewrop hefyd yn dangos profion eglur o'u hymddeffröad hwythau, ar ol oes hir o ddinodedd a chaethder. Ond yma, nis gellir ond prin gwneyd hyn yna o gyfeiriad at y ffaith.

Yn y rhan wreiddiol o'r erthygl hon, ymdrinir yn benaf â cherddoriaeth yn ei hagwedd gyssegredig—agwedd, ar yr ochr arall, a anwybyddir gan ysgrifenwyr ar gerddoriaeth Gymreig fel rheol. Ond bernir ei bod yn angenrheidiol er ffurfio barn gywir a chyflawn ar y pwngc i gymmeryd y ddwy agwedd—y gyssegredig a'r fydol (*secular*)—ynghyd â'r un offerynol, ar wahân i'r un leisiol, i ystyriaeth. Y mae hanes cerddoriaeth yn profi fod caneuon y bobl (*folk-song*), neu mewn geiriau eraill, eu caneuon cenedlaethol, yn llawer mwy awengar a nwyfus na'r gerddoriaeth a ffynai yn yr eglwysydd—pa un oedd, bron yn mhob cyfnod, yn dioddef oddi wrth reolau caethiwus y dysgawdwyr, ynghyd â chulni a difaterwch yr awdurdodau. Felly yr oedd yn hanes dadblygiad prifysgolion cerddorol y Cyfandir—eiddo y Ffrangcod, yr Iseldiroedd, yr Eidaliaid, a'r Ellmynwyr; ac felly yr oedd yn Lloegr a Chymru, fel y gellir canfod, ond cymmharu prydferthion yr alawon cenedlaethol â'r hyn sydd ar gôf a chadw o gerddoriaeth gyssegredig hynafol. Yn y pen draw, fe weithiodd y teimlad melodol hwn ei ffordd i mewn i'r cyssegr:—nid yn y modd mwyaf dymunol bob amser, y mae yn wir, fel y prawf y motetau a genid unwaith yn eglwysydd y Cyfandir, prif felodi (*cantus firmus*) pa rai, yn aml, oeddynt ganeuon bydol a llygredig; ac, fel y prawf hefyd yr alawon isel a baledol a ieuwyd âg emynau, ac a ddygwyd i mewn i wasanaeth y cyssegr yn y wlad hon. Mynai y bobl felodi gânadwy a gwresoglawn; a chan na wnai yr eglwysi eu dyledswydd, drwy eu cynnysgaeddu â hwy yn briodol, gwthiwyd eiddo y ddawnsfa, y chwareudy, a'r ffair, i mewn i'r cylch sanctaidd. Ond gweithiodd y drwg hwn ei iachawdwriaeth ei hun allan yn y diwedd. Fel yn amser y diwygiwr Palestrina, felly yn amser ein diwygwyr ninnau, gwelwyd yn y drwg ei hun y cyffyr a'i gwrthweithiai; a'r canlyniad ydyw, y gerddoriaeth anghymmharol well sydd yn ffynu yn bresennol yn ein mysg.

Yn Lloegr, gyrwyd y darnau ysgeifn, a gamenwid yn 'anthemau,' a'r rhigymau gwylltion oeddynt wedi trawsfeddiannu lle y goral a'r dôn ddefosiynol, i'w dinodedd priodol gan gyfansoddiadau Attwood, Crotch, y ddau Wesley, Goss, Smart, Elvey, Gauntlett, Dykes, a Monk—a'u dilynwyr teilwng, Sullivan, Stainer, Hopkins, Barnby, ac eraill. Yn lle ymddiried yn mron yn hollol i gynnyrchion tramor yn yr oratorio, yr opera, y gantawd, a'r symphoni, fel y gwnaethpwyd ar ol amser Purcell ac Arne, hyd ddechreu y ganrif bresennol, y mae ganddi, yn Sterndale Bennett, a G. A. Macfarren, Mackenzie, Cowen, Stanford, y ddau Barnett, Stephens, Prout, a Goring Thomas, ynghyd âg amryw o'r rhai a grybwyllwyd eisoes, ac eraill, restr o gyfansoddwyr yn y meusydd ëang hyn nas gall unrhyw genedl, yn y blynyddoedd hyn, ddangos ei rhagorach, os ei chystal. Yn y fadrigal, deil ei heiddo eu cymmharu â rhai yr Eidal; yn y rhangân, â Germani; ac yn y ganig—fel ag yn yr anthem—saif yn mron ar ei phen ei hun. Nis gellir dyweyd fod sefyllfa bresennol y gân (*song*) mor foddhaol. Ond yn mysg y nifer afrifed o rai diwerth a gyhoeddir, i gyfarfod â 'chwaeth y farchnad,' diau fod yn nghaneuon uchelradd Bennett, Hatton, Pinsuti, Sullivan, a Cowen, ynghyd â rhai eraill nas gellir eu henwi yma, amryw a fyddant fyw, ac a ystyrir yn y dyfodol fel rhai o geinion melodawl y genedl. Y mae ei chantorion a'i hofferynwyr yn mysg goreuon y byd; felly hefyd ei gwyliau cerddorol yn Llundain, a'r prif drefydd: ac er nad ydyw ei cherddoriaeth gerddorfäol (*orchestral*) etto yn y sefyllfa y dymunid iddi fod, y mae y gwelliant yn y cyfeiriad hwn hefyd yn amlwg, ac yn argoeli bod yn un cynnyddol a pharhaol. Ni byddai y braslun yma o hanes ddiweddar cerddoriaeth yn mhlith y Saeson yn gyflawn, pe yn amddifad o gyfeiriad at y gwaith pwysig a gyflawnwyd ynglŷn âg addysgiaeth gerddorol y genedl gan y gwŷr trylen hyny—John Hullah, a John Curwen.

Yn Ysgotland, nid ydyw sefyllfa pethau mewn cyssylltiad â diwylliant ei cherddoriaeth wedi bod nemawr yn fyr o fod yn chwyldroadol. Nid oes ond ychydig amser er pan yr edrychid ar ganu hymnau yn yr addoliad yno gyda llawer o ddrwgdybiaeth a gwrthwynebiad; tra yr oedd y fath beth a chanu anthemau, ac yn neillduol chwareu unrhyw offeryn cerdd, yn mron allan o bob possiblrwydd. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae, nid yn unig yr emyn a'r gorgan, ond yr anthem a'r organ, yn dyfod i arferiad fwy-fwy cyffredinol. Yn ei phrif drefydd, fe geir perfformiadau mynych o oratoriau a gweithiau cyffelyb, tra y mae amryw o'i meibion a'i merched wedi cymmeryd eu lle yn rhes flaenaf cerddorion y brifddinas.

Yn y cyssylltiad olaf, gellir dywedyd yr un peth, ond i raddau llai, am yr Iwerddon. Yno, er fod cerddoriaeth yn gymmharol flodeuog yn y prif drefydd, nid ydyw sefyllfa wleidyddol y rhan hono o'r deyrnas yn gyfryw ag y gellir disgwyl i unrhyw un o'r celfau cain lwyddo, tra y parhao yr aflwydd presennol.

Yn y rhan sydd yn ngweddill o'r Deyrnas Gyfunol y mae y prif ddyddordeb yma; ac er nad ydyw Cymru ond prin newydd ddihuno o'i hir drwmgwsg, y mae sefyllfa cerddoriaeth ynddi ar yr adeg hon yn annhraethol uwch nag y bu yn ystod ei holl hanes. Gwnaed cyfeiriad eisoes at ran o lafur y Millsiaid, o Lanidloes; a diau fod i'r gwasanaeth a wnaethant hwy, drwy gyhoeddi eu casgliadau a'u grammadegau cerddorol, ran fawr o'r clod ynglŷn â'r deffroad a gymmerodd le yn ein plith tua dechreu yr ail ran o'r ganrif bresennol. Y prif lafurwr nesaf atynt oedd Ieuan Gwyllt; yr hwn, yn ei "*Lyfr Tônau Cynnulleidfaol*" (1859), a osododd safon lawer rhagorach i'r genedl na'r un a feddai o'r blaen. Mae yn eithaf possibl, ac erbyn hyn yn addefedig fe allai, iddo ddiddymu, gyda llawer oedd yn wael, rhyw gymmaint o'r hyn oedd yn wych. Ond nid ydyw hyny ond yr hyn a ddigwydd yn hanes pob diwygiad, ac ynglŷn â

Digitized by Google

gwaith pob diwygiwr. Tua'r adeg hon, daeth y sefydliad eisteddfodol i fri cyffredinol; a chychwynwyd, am y waith gyntaf yn ein hanes, gylchgroniaeth gerddorol trwy gyhoeddiad "*Y Cerddor Cymreig*" (1861), a "*Greal y Côrau*" (1861)—dau fisolyn, y rhai, tra y parhasant, fuont o wasanaeth dirfawr, nid yn unig mewn ystyr egwyddorol, ond hefyd trwy gyhoeddiad darnau cerddorol—amryw o ba rai oeddynt yn weledigaethau newydd i gorph y genedl. Yn y fan hon, ni byddai ond cyfiawnder i ni gydnabod y mawr les a wnaeth Alawydd i gerddoriaeth ei wlad trwy gyhoeddiad ei "*Rammadeg*" bychan, ond tra chynnwysfawr yn 1848, a 1862. Er fod yr eisteddfod, fel ei cynnelir, yn mhell o fod yn berffaith, mae'n ddiamheuol fod cerddoriaeth a cherddorion Cymru yn ddyledus iddi fwy nag ychydig; o herwydd rhaid addef nad ydyw ein cyfundebau crefyddol wedi estyn ond mesur bychan o gymmhorth i'r naill, mwy nag i'r llall. Edrychir ar y côr a'r arweinydd, a'r organ a'r organydd, yn rhy fynych fel 'drygau angenrheidiol,' sydd raid eu goddef; ac nid fel rhai y mae iddynt ran arbenig a phwysig yn nygiad y gwasanaeth cyhoeddus yn mlaen mewn dull priodol ac effeithiol. Nid o fympwy, na chyda'r radd leiaf o bleser, y gwneir y sylwadau hyn; ond o herwydd y ddyledswydd a orwedd ar ysgwyddau y croniclydd gonest. Trwy ymdrechion personol—gydag ond ychydig iawn o eithriadau—y mae y gwahanol gyfundebau wedi eu breintio â chasgliadau o emyn-dônau, nad oes yr un genedl o gyffelyb faintioli yn meddu eu cyffelyb. Yr ydys eisoes wedi crybwyll y *Llyfr Tônau Cynnulleidfaol*—caed *Attodiad*, yn cael ei ddilyn gan *Ychwanegiad* (1870). Y prif gasgliadau dilynol oeddynt—*Cerddor y Cyssegr*, gan y Parch. E. Stephen (1860); *Llyfr y Psalmau*, gan Alawydd (1867); *Hymnau a Thônau, er gwasanaeth yr Eglwys yn Nghymru*, gan y Parch. Daniel Evans, Llanwrin (1868); *Llyfr Tônau ac Emynau* Stephen a Jones (1868)—caed *Attodiad* gan y Parch. E. Stephen (1879); *Hymnau Hen a Newydd, ynghyd â Thônau, i'w harfer yn ngwasanaeth yr Eglwys* (tua 1869); *Llwybrau Moliant*, gan L. Jones, Treherbert (1872); *Aberth Moliant*, gan J. A. Lloyd ac E. Rees (1873); *Caniadau y Cyssegr a'r Teulu*, cyhoeddedig gan T. Gee, Dinbych (1878); *Tunes, Chants, and Anthems*, gan D. Jenkins, M.B. (1883); a *Llyfr y Bedyddwyr*, o dan olygiaeth J. H. Roberts, M.B. Y mae y mwyafrif o honynt yn cadw at yr arddull syml a sillafol a fabwysiadwyd gan Ieuan Gwyllt; ond y mae argoelion fod y wlad yn hiraethu am rywbeth, nid llai defosiynol o bossibl, ond mwy melodus, gwresog, a chydweddol â theimladau neilldiol y cyfnod presennol. A chanfyddir fod y teimlad cenedlaethol yn codi yn y cyfeiriad hwn hefyd, ac fel pe yn galw

"—— am sŵn yr emynau mwyn—
Odlau cymmhwys at Sul a gŵyl;
Ganai 'r saint â chalonau twymn,
A'u hysbryd mewn nefol hwyl."

Y mae aml un o'r hen dônau, a osodwyd o'r neilldu am flynyddau, yn dyfod yn ol i arferiad yn fwy-fwy beunydd; a chredir yn sicr nas gall y duedd adnewyddedig hon lai na bod yn un ddaionus, ond ei chadw o fewn terfynau, a'i harwain i gyfeiriad priodol. Canfyddir yr un gogwydd, ond i raddau llai, ynglŷn â'n hen anthemau; ond y mae cynnyrchion ein cyfansoddwyr diweddarach yn y dosbarth hwn yn dra uwchraddol, o'u cymmharu âg eiddo eu blaenafiaid, ac hefyd yn boddloni dyhëad yr oes yn llawer llwyrach. Y mae aml i ymgais wedi ei wneyd i boblogeiddio y gôrgan (*chant*) yn ein plith; ond hònir gan rai mai o brin y mae y dull hwn yn dygymmod â'r anianawd Gymreig. Bid a fyno am hyny, ni raid yma ond croniclo y ffaith, nad yw côrganiadaeth yn arferedig, ond i radd fechan, yn ein mysg hyd yn hyn. Fel ei gymmydog Seasneg, y mae y cyfansoddwr Cymraeg wedi cynnyrchu yn y blynyddau sydd o dan sylw nifer liosog o ganigau a rhan-ganau nodedig am eu hawen a'u gallu; ac yn y ddau ddosbarth hwn, yn nghyd â'r anthem, ac o bossibl y gân (*song*), y gwelir ein cyfansoddwyr i fwyaf o fantais, fe allai. Credir fod caneuon cyfansoddwyr Cymreig yr ugain mlynedd diweddaf, ar gyfartaledd, yn uwch eu safon, ac yn fwy rhydd oddi wrth ysbwrial, nag eiddo eu brodyr Saesneg. Ymdriniant, fel rheol, â thestynau gwladgarol, arwrol, bugeiliol, teuluol, neu serchiadol—yn yr ystyr buraf—heb ymostwng, ond yn anfynych, at yr hyn sydd wammal ac iselhäol; tra y mae yr alawon yn ymestyn at yr hyn sydd yn goeth, melodus, a naturiol.

Yn rhodfeydd uwch yr oratorio, y gantawd, a'r opera, nid oedd y nifer a gynnyrchwyd hyd yn ddiweddar ond bychan iawn. Bu *Ystorm Tiberias*, gan Parch. E. Stephen (1855), a *Gweddi Habacuc*, gan A. Lloyd (tua 1860)—y naill yn oratorio, a'r llall yn gantawd—yr unig ddau brif waith a feddem am flynyddau. Ond bellach, y mae genym nifer cymmharol liosog o gyfan-weithiau, fwy neu lai pwysig, at ba rai y chwanegir yn barhaus. Yn mysg y rhai sydd wedi bod, neu yn bod, yn fwyaf blaenllaw gyda'r gwaith o gyfoethogi ein cerddoriaeth yn y dosbarthiadau uchod, gellir enwi Ambrose Lloyd, Owain Alaw, E. Stephen, Ieuan Gwyllt, Cyndeyrn, Alawydd, a J. D. Jones; Eos Llechid, Gwilym Gwent, John Thomas (Llanwrtyd), Alaw Ddu, Joseph Parry, M.D., Emlyn Evans, D. Jenkins, M.B., J. H. Roberts, M.B., R. S. Hughes, Eos Bradwen, Isalaw, Tom Price, J. T. Rees, M.B., a William Davies. Rhaid hefyd cydnabod, a hyny gyda boddhâd, y ddau Gymro Llundeinig athrylithgar, Brinley Richards a John Thomas (*Pencerdd Gwalia*)—casgliadau a threfniadau pa rai, o'n halawon cenedlaethol yn enwedig, sydd wedi gwneyd y cyfryw deleidion yn hysbys i'r holl fyd cerddorol.

Mewn cerddoriaeth offerynol nid yw Cymru ond mewn sefyllfa ddigon ganolig. Diau ei bod wedi dirywio cryn lawer yn y cyfeiriad hwn, pan gofiwn mai dyma gartrefle y delyn a'r crŵth am gynnifer o oesau; a'i bod, o blegid achosion nad y gorchwyl yma ydyw ymholi iddynt, heb adennill iddi ei hun y safle a gollodd. Ond y mae y ffaith fod organau a harmoniau yn lliosogi mor gyflym yn ein haddoldai, a phêrdonau ac offerynau eraill yn ein hanneddau, yn dangos fod y llanw yn dechreu codi yn y cyfeiriad hwn hefyd; ac o bossibl y bydd i sefydliad y Gymdeithas Gerddorol Gymreig—un o brif ddybenion yr hon yw hyrwyddo dadblygiad cerddoriaeth offerynol yn ein plith—ddwyn ffrwyth da yn y dyfodol. Y mae caniadaeth gorawl y genedl wedi ei chodi i fri uchel; a diau fod a wnelo cyfundrefn y Tonic Sol-Ffa, yr hon sydd wedi llwyddo mor gyffredinol drwy y wlad, â hyn i gryn raddau. Yn amryw o'n prif drefydd, ceir perfformiadau mynych o brif-weithiau brodorol a thramor. A dylai y cymmanfaoedd canu,

Digitized by Google

sydd mor liosog yn ein mysg, adael eu hôl ar ein caniadaeth grefyddol. Y mae nifer o fechgyn a merched Cymru wedi, ac yn enwogi eu hunain yn athrofeydd cerddorol y brif-ddinas, ac amryw o honynt wedi dringo i fyny i safleoedd anrhydeddus fel lleiswyr a chwareuwyr. Y mae felly bob lle i hyderu fod y genedl fechan hon, er ei holl anfanteision, yn ennill iddi ei hun yn sicr, os yn araf, safle uwch nag sydd wedi syrthio i'w rhan hyd yn hyn yn myd y gân.

Y TRYDYDD ATTODIAD.

I ddilyn hanes a chynnydd cerddoriaeth, gellid dyweyd mai y ffurfiau cerddorol a adawodd fwyaf o'u hôl ar y byd oedd y chwareugerdd (*opera*), y dreithgân (*oratorio*), a'r gantawd (*cantata*). Tair cangen ydyw y rhai hyn sydd yn ymdebygu i'w gilydd o ran ffurf a chynllun; ond fod y gyntaf ar destyn bydol (*secular*), yr ail ar destyn cyssegredig (*sacred*), a'r olaf ar bob un o'r ddau—ond yn llai o ran hyd, ac yn ysgafnach o ran mater.

Yr adeg gyntaf y ceir hanes am y rhai hyn ydyw yn y flwyddyn 1597, pan y dygwyd math o chwareugerdd allan gan Giulio Caccini, ac un arall gan Emilio del Cavalieri. Y mae yn anhawdd gwybod pa un oedd y cyntaf; ac y mae yn debyg nas gellir byth cael hyny allan i sicrwydd: ond yn yr un flwyddyn y perfformiwyd hwynt.

Y mae yn ddyddorol meddwl mai yn yr un flwyddyn y gwnaed prawf ar yr oratorio; sef, yn 1597. Nid oedd y ffurfiau hyn ar gerddoriaeth wedi eu gosod ar sylfeini cedyrn nes i Monteverde ddwyn allan, yn 1607, ei chwareugerdd "*Ariana;*" ac yn 1608, ei "*Orfeo.*" Yn y gweithiau hyn, ac eraill a gynnyrchodd efe yn Venice, y ceir blaen-brawf o'r egwyddorion a gymmerwyd i fyny gan Gluck, gant a hanner o flynyddoedd ar ol hyny; ac yn y blynyddoedd diweddaf, gyda'r fath sêl ac yni, gan Richard Wagner.

Yn Italy y cafodd y chwareugerdd ledu ei changau, a thyfu i'w llawn dŵf. Edrychid yno arni fel sefydliad cenedlaethol; ac nid fel rhyw ffurf farw, yn cael ei noddi a'i chynnal yn unig gan y mawrion. Ond mynwesid hi gan y werin bobl fel eu prif attynfa. Tua'r adeg hon y dechreuwyd rhoddi ambell i berfformiad o'r dreithgân mewn neuaddau cyhoeddus, ac nid yn unig yn yr eglwysydd, lle y dechreuwyd gwneyd hyny. Gwneir hyn yn aml yn y dyddiau hyn; a rhoddir gwrandawiad astud iddynt pan eu perfformir, pa un bynag ai mewn neuadd, pabell eisteddfodol, neu eglwys gadeiriol.

Un o'r ysgrifenwyr mwyaf cynnyrchiol ar y ffurfiau hyn oedd Alessandro Scarlatti (1659—1725), yr hwn a gyfansoddodd 115 o chwareugerddi, a llawer o dreithganau, ac o ddarnau cyssegredig eraill. Dygwyd y ffurf hon i sylw gyntaf yn Ffraingc gan gwmni o Italiaid a ddygwyd drosodd gan y cardinal Mazarin; a chafodd bob cynnorthwy y medrai y Ffrangcod roddi i'w meithrin a'i mabwysiadu. Y cyfansoddiad cyntaf gan Ffrangcwr fel chwareugerdd oedd eiddo yr Abbe Mailly.

Ychydig o lwyddiant fu ar y rhyw hyn yn yr Almaen. Y mae yn wir fod Heinritch Schutz wedi cyfansoddi ar "*Dafne;*" ond, fel rheol, gweithiau yr Italiaid, gyda chantorion o'r un wlad, a glywid yn barhaus yn Germany.

Yn Lloegr, hi a gafodd dderbyniad lled foreu. Un o'r rhai cyntaf, yn mhlith lliaws eraill, a noddodd y chwareugerdd yn Mhrydain, oedd Nicholas Lamere; ond y cryfaf a'r galluocaf oedd Purcell (1658—1695). Y mae ei opera, "*Dido and Æneas*"—a gyfansoddodd efe pan yn ddeunaw oed—yn gynnrychioliad teg o'r arddull operataidd. Y mae enw yr awdwr hwn ar unwaith yn ein harwain at Handel, gan fod llawer o bethau yn ei frawddegau cerddorol, a'r ystwythder â pha un yr oedd yn trafod ei feddylddrychau, yn ei wneyd yn rhagredegydd teilwng i ymweliad Handel â Lloegr.

Handel a anfarwolodd y dreithgan fel ffurf neillduol ar gerddoriaeth. Y mae yn wybyddus mai fel cyfansoddwr chwareugerddi y daeth efe yn hysbys yn ei wlad enedigol; a'r enw mawr a ennillodd efe yno a agorodd y ffordd iddo i'r wlad hon. Er cystal oedd ei operau, methiant, ar y cyfan, fuont yn Mhrydain; ac yr ydoedd ei enwogrwydd yntau, mewn canlyniad, heb ei sicrhau. Ond mor gynted ag y trodd at gerddoriaeth gyssegredig, anfarwolodd ei hun ar unwaith. Yn 1741, talodd ymweliad â Dublin, gyda'r amcan o berfformio ei dreithgan, "*Y Messiah;*" a chymmerodd yr amgylchiad pwysig hwn i gerddoriaeth le ar y 13eg o Ebrill, 1742. Y mae y parch a ddangosir tuag at y gwaith hwn yn Lloegr, a phob man arall lle y mae yn adnabyddus, yn brawf cryf ei fod yn waith anfarwol. Y mae ei weithiau eraill—megys, "*Israel in Egypt,*" "*Judas Maccabæus,*" "*Alexander's Feast,*" "*Samson,*" "*Acis and Galatea,*" "*Jephtha,*" a llawer eraill, yn ddigon adnabyddus, erbyn hyn, i'r cyffredin o gerddorion.

Yn y cyssylltiad hwn, y mae Sebastian Bach yn dyfod i sylw. Er nad ydyw efe mor boblogaidd gan y werin a Handel; etto, ystyrir ei weithiau yn golofnau safadwy, ac yn dal y prawf mwyaf ymchwilgar. Bu cynnyrchion y gŵr hwn o dan gûdd am flynyddoedd, nes i Mendelssohn ysgubo y llwch oddi arnynt, trwy eu perfformio, a siarad o'u plaid. Y mae treithganau Bach yn wahanol i'r eiddo Handel; o herwydd eu bod wedi eu sylfaenu ar yr hen garolau Germanaidd. Pan eu cenid, bwriedid i'r bobl yn yr eglwysydd gydganu yr emyndônau, a'r côr y cydganau; ac fel hyn y gwnaed gan yr awdwr ei hun. Ac y mae yn hawdd dychymmygu yr effaith, ar ganol gwaith y côr, a'r gerddorfa, a'r organ, pa mor rymus ac effeithiol y byddai hen alawon cyssegredig y bobl yn cael eu canu gan y gynnulleidfa. Yr oedd hedyn y cynllun hwn wedi cael ei osod i lawr gan Luther; a thyfodd yn bren mawr canghenog yn oratorio Bach, ar hanes dioddefaint Crist yn ol Matthew.

Yr oedd y ddau gawr hyn, Handel a Bach, wedi eu geni o fewn mis i'w gilydd; ac yr oeddynt yn enwog fel chwareuwyr ar yr organ. Er eu bod wedi cartrefu yn yr un dref am ychydig o ddyddiau, dywedir na ddarfu iddynt erioed fod o fewn cyrhaedd i siarad â'u gilydd. Meddyliodd rhai o'u cyfeillion am gael math o gystadleuaeth rhyngddynt ar chwareu ar yr organ; ond ni ddaeth dim o hyny. A digon da hyny, gan y buasai yn greulondeb ac yn sarhâd ar ddau gerddor o'r fath alluoedd. Nid gormod ydyw dyweyd fod cyfnod newydd wedi cael ei greu yn y byd cerddorol gan y ddau gerddor hyn. Yn ôl eu traed hwy y dilynodd Haydn, Mozart, Beethoven, a Mendelssohn. Ar ol clywed treithganau Handel yn y wlad hon y meddyliodd Haydn am gyfansoddi y "*Creation,*" a'r "*Seasons.*" Ac ar y cynlluniau hyn y mae "*The Mount of Olives,*" gan Beethoven—ac yn

Digitized by Google

enwedig eiddo Mendelssohn—sef, "*Elijah*," "*St. Paul*," "*Hymn of Praise*," a'i "*Salmau*" —wedi eu trefnu. Mor bell ag y mae Cymru wedi cael ei ffurfio yn gerddorol, y gweithiau hyn sydd wedi gadael mwyaf o effaith arni.

Y gweithiau hyn, hefyd, sydd wedi gadael mwyaf o ddylanwad ar Loegr; ond fod *symphonies* y prif Feistri wedi bod ar waith yno gyda'r rhai hyn; y rhai nis gellid eu clywed yn Nghymru, am nad oedd cymmaint ag un gerddorfa, hyd yn ddiweddar, i'w perfformio. Gelwir Haydn yn 'dad y symphonwyr;' ond dylid cofio iddo yntau dderbyn rhai o'i ffurfiau cerddorol oddi wrth ail fab Sebastian Bach; sef, Carl Philip Emanuel Bach. Ar ol Haydn, perffeithiodd Mozart y *symphony*, a rhoddodd i'r byd rai o'i ddarnau mwyaf byw ac ehedog. Yn yr un llwybr y cerddodd Mendelssohn; ac y mae ei weithiau coeth a gorphenedig ef yn hawlio gwrandawiad astud bob amser. Yr hwn a esgynodd uchaf yn y math hwn o gyfansoddiad oedd Beethoven. Rhoddodd i'r byd naw o symphonau ag y mae y byd gwareiddiedig yn eu cydnabod fel Alpau cerddorol, nad oes mo'u tebyg wedi eu cynnyrchu gan un cerddor arall. Yn yr olaf o'r rhestr odidog hon, teimlai Beethoven na fedrai gael mynegiad cyflawn i'w feddyliau heb gael gwasanaeth lleisiau at yr offerynau. Felly y mae yn dwyn i mewn, yn y symmudiad olaf o'r nawfed *symphony*, leisiau, yn chwanegol at yr offerynau; ac yn cynnyrchu cyfansoddiad sydd yn gosod coron ar ben ei brif waith.

Y darnau cyffredin, neu anghyssegredig (*secular*), y rhai y gellir eu rhestru fel yn gyfochrog â threith-ganau y prif Feistri, ydynt eiddo Gluck, Donizetti, Meyerbeer, Rossini, Weber, Mozart, Beethoven, a Wagner—o gerddorion tramor; a Purcell, Bishop, a Balfe, yn Lloegr.

Fel perffeithiad a chwanegiad o'r chwareugerdd (*dramas*), Wagner sydd wedi creu mwyaf o gynnhwrf a chwyldroad. Y mae bron yn sicr mai efe oedd y meddyliwr cryfaf yn mysg cerddorion ei oes; ac y mae wedi gadael mwy o'i ol a'i neillduolion ar ein cerddorion ieuaingc nag un o'i gydoeswyr. Yr oedd yn ddyn o benderfyniad di-ildio, ac o yni dibaid; ac y mae ei weithiau yn parhau i ddyfod yn fwy poblogaidd fel y maent yn dyfod yn fwy adnabyddus. Y trueni ydyw, fod cymmaint o nerth ac athrylith wedi eu gwastraffu ganddo ar rai testynau sydd mor wael, ac isel. Drychfeddwl mawr Wagner oedd, y dylid uno yr holl gelfau cain —cerddoriaeth, chwarëyddiaeth, barddoniaeth, a darluniaeth—a gwneyd un ddrama o honynt oll. Y mae yn rhaid addef ei fod yn syniad ardderchog. Ar ol sylwi, y mae cyssylltiad agosach yn bodoli rhwng y rhai hyn a'u gilydd nag y mae llawer yn meddwl. Pan y bydd cerddor yn myned i wneyd darlun, marciau ydyw ei gyfryngau—ac nid iaith, fel y ceir gan y bardd. Y mae swyn neillduol yn y syniad o uno holl alluoedd dyn, a gwneyd un cyfanwaith o honynt oll. Yn hyn y mae Wagner wedi llwyddo yn fawr; ac er y gwawdio a'r dirmygu fu arno gan y Saeson, etto y mae ei weithiau yn dyfod i fwy o fri yn barhaus. Nid oes un cerddor yn yr oes hon wedi gadael cymmaint o'i ol ar gerddorion ieuaingc a'r Meistr hwn.

Y PEDWERYDD ATTODIAD.

Y mae yn eglur fod ein hen dônau yn hynod nodweddiadol, ac yn arddangos yn eglur iawn natur teithi meddyliol y genedl Gymreig—yn llawn o nwyf a bywyd, fel pe buasai yn methu ymattal rhag gorfoleddu yn y rhyddid yr oedd hi newydd ei ennill. Ar yr un pryd, yr oedd ei halawon yn llawn o'r lleddf a'r prudd, er eu bod yn fywiog a nwyfus gan amlaf. Yr oeddynt o'r dosbarth hwnw sydd yn gynnyrch teimladau angerddol. Ychydig o'r cywrain a deimlid ynddynt. Yr oedd angerddolrwydd y teimlad yn cuddio pob peth arall o'r golwg; a gwnaethant eu rhan am flynyddoedd i gynnhyrfu y bobl i fawl a gorfoledd, a hyny mewn amgylchiadau hynod o anffafriol.

O tua'r fl. 1830 i 1835, torodd y diwygiad dirwestol allan; pryd y cynnelid cyfarfodydd a chymmanfaoedd mawr. Teimlwyd angen caniadaeth yn y cyfarfodydd hyny; a dechreuwyd ffurfio corau i ganu anthemau a thônau cyfaddas i'r amgylchiadau. Bu hyny yn fantais fawr i ganiadaeth Gymreig, trwy greu yr angen; ac wrth geisio llanw yr angen hwnw, dadblygodd gallu y genedl, a chynnyrchodd y cyfnod lawer o anthemau a thônau dirwestol, y rhai a fuont yn hynod o wasanaethgar i'r genedl am flynyddoedd. Cafodd caniadaeth grefyddol hefyd symbyliad yn yr amgylchiadau hyn; gan fod llawer o gôrau yn cael eu ffurfio yn ngwahanol ranau y wlad, ac yn dysgu anthemau.

O 1857 i 1861—daeth y Parch. John Roberts (*Ieuan Gwyllt*) ar daith trwy y wlad, i draddodi darlithiau ar ganiadaeth gynnulleidfaol. Condemniai yn ddiarbed y tônau oedd, gan mwyaf, mewn bri y pryd hwnw; sef, y tônau nwyfus ac efelychiadol. Addefwn fod y fath gamddefnydd yn cael ei wneyd o honynt weithiau, fel yr oedd yn bryd gwneyd sylw o honynt. Ond ni ddylesid eu taflu ymaith fel pethau diwerth; ond yn hytrach, eu cadw yn eu lleoedd priodol.

Yr oedd Ieuan Gwyllt, yn y cyfamser, yn parotoi llyfr tônau cynnulleidfaol, yn ol ei arddull ei hun. Yn y flwyddyn 1859, neu 1860, daeth y llyfr allan o'r wasg, yn cynnwys llawer o dônau, ac oll o'r un arddull—yn syml a sillog eu halawon—heb ond ychydig iawn o donau Cymreig yn eu plith; ond yn dramoraidd iawn eu harddull—Germanaidd, gan mwyaf. Ar ol ychydig o wrthwynebiadau, cafodd y llyfr hwn dderbyniad cyffredinol gan yr holl enwadau Ymneillduol; a chafodd gryn lawer o sylw cerddorion yr Eglwys Wladol. Yn fuan, llwyddodd Ieuan Gwyllt i gael gwahanol gynnulleidfaoedd i ffurfio undebau i ddysgu tônau o'r llyfr hwnw, ac i gynnal cymmanfaoedd canu—ac yntau yn arwain. Bu y fath lwyddiant ar y cymmanfaoedd hyn fel y daethant yn gyffredinol iawn. Yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd y cynnelid hwy, o'r bron yn unig, am rai blynyddau. Ond daeth yr holl enwadau crefyddol yn fuan i deimlo eu gwerth a'u dylanwad; a dechreuasant eu cynnal yn eu plith eu hunain.

Yn fuan ar ol dechreu y cyfarfodydd hyn, daeth eraill yn amlwg fel arweinyddion, yn gystal ag Ieuan Gwyllt. Daeth pob enwad i ddewis ei arweinydd ei hun, ac i deimlo mai trefniant enwadol oedd y gymmanfa ganu, fel y gymmanfa bregethu. Bu y cymmanfaoedd canu yn allu mawr yn y wlad, a chafwyd prawfion amlwg o'r presennoldeb Dwyfol ynddynt. Ofnir, erbyn hyn, eu bod yn prysur ddirywio yn eu crefyddolrwydd, ac yn cael eu camarfer. Effeithiodd hyn oll chwyldroad yn nghaniadaeth grefyddol Cymru.

Erbyn hyn, y mae llawer yn credu fod cam rhy bell wedi ei wneyd; a bod ein caniadaeth

Digitized by Google

grefyddol yn colli ei gafael ar y cynnulleidfaoedd, am ei bod yn rhy ddyeithr ei nodwedd i'r genedl; ac y mae arwyddion eglur fod llanw arall yn codi yn brysur—tuedd uniongyrchol yr hwn ydyw dychwelyd, i raddau pell, yn ol at yr hen alawon Cymreig bendigedig, y rhai oedd yn tueddu i genhedlu bywyd a theimlad yn y cynnulleidfaoedd; a'r rhai a genid gynt gyda brwdfrydedd mawr.

Yn fuan wedi ymddangosiad y casgliad uchod, teimlodd y gwahanol enwadau crefyddol angenrheidrwydd am lyfrau tônau perthynol iddynt eu hunain. Dygodd yr Annibynwyr lyfr allan, o dan olygiad Mr. J. D. Jones, Rhuthyn, gyda'r Parch. E. Stephen, o Tan-y-marian; yr hwn oedd, i raddau helaeth iawn, yn arddull casgliad Ieuan Gwyllt. Ond yr oedd yr emynau gyda'r tônau ynddo. Ac o ddeutu yr un amser, cyhoeddodd Mr. J. A. Lloyd lyfr tônau cynnulleidfaol; ac os nad ydym yn camddeall, yn benaf at wasanaeth yr Annibynwyr y bwriadwyd i hwnw hefyd fod. Cyhoeddodd y Bedyddwyr gasgliad hefyd, o dan olygiad y Parch. Harris Jones? Y Wesleyaid, hefyd, a gyhoeddasant lyfr tônau, a hwnw dan olygiad Mr. J. D. Jones, Rhuthyn. Dygodd yr Eglwys Wladol amryw o lyfrau allan, hefyd, o ddeutu yr un amser; y rhai a wneid i fyny, gan mwyaf, o'r llyfrau Saesnig a ddefnyddid ganddi yn Lloegr. Yn ddiweddarach, dygodd Mr. Gee gyfrol allan, o dan yr enw "*Caniadau y Cyssegr*"—yr hon a gyhoeddwyd, gyda'r amcan yn benaf, o gadw yn fyw nifer o'r hen dônau Cymreig.

Felly, yn y cyfnod rhwng 1860 ac 1880, yr oedd y teimlad yn amlwg yn dechreu codi o blaid rhywbeth mwy amrywiol, a mwy Cymreig, yn nghaniadaeth y cyssegr; ac yn awr, y mae mwy nag un cynnygiad yn cael ei wneyd i gyfarfod y teimlad hwn. Y mae y Bedyddwyr, er's blynyddoedd, wedi cyhoeddi llyfr, o dan olygiad Mr. J. H. Roberts, M.B., o Gaernarfon, yr hwn sydd wedi cael derbyniad calonog ganddynt; ac y mae yn awr yn cael ei helaethu gan yr un gŵr. Hefyd, y mae y Mri. Hughes a'i Fab, Gwrecsam, yn chwanegu at Lyfr Ieuan Gwyllt lawer o dônau gyda'r un amcan, yr hwn sydd dan olygiad Mr. Edward Llewelyn Jones, o'r Rhosddu.

Cyhoeddodd y Mri. Gee a'i Fab, hefyd, lyfr emynau, o dan y teitl o "*Emynau y Cyssegr*," yn yr hwn y mae pob emyn Gymreig arferedig, a llaweroedd o emynau nad ydynt arferedig yn awr, ond a fuont yn boblogaidd iawn gynt—y cwynai y bobl eu bod wedi eu gadael allan o'r llyfrau presennol. Yn hwn, y mae 2,687 o emynau Cymreig, a 72 o rai Saesnig. Wedi ymddangosiad "*Emynau y Cyssegr*," yn yr hwn y mae llawer o emynau ar hydau nad oes tônau i'w cael arnynt yn y llyfrau arferedig, daeth ymofyniad mawr am lyfr tônau yn cyfatteb iddo. Er mwyn cyfarfod â'r angen hwn, a'r awydd hefyd am dônau mwy Cymreig, dygodd Mri. Gee a'i Fab ail argraphiad o "*Caniadau y Cyssegr*" allan, o dan olygiaeth Mr. Hugh Davies (*Pencerdd Maelor*), yn cynnwys agos i dri chant yn rhagor o dônau hollol Gymreig.

Yn yr un cyfnod, dygodd Mr. David Jenkins, M.B., lyfr tônau allan—gan mwyaf gogyfer â'r cynnulleidfaoedd Saesnig yn ein gwlad. A chan fod y cynnulleidfaoedd Cymreig yn dyheu am rywbeth newydd, a mwy amrywiol, cafodd y llyfr dderbyniad da.

Gallwn anturio dywedyd, gan hyny, fod yr ngain mlynedd diweddaf—o 1870 hyd 1890—wedi bod yn rhai ffrwythlawn iawn mewn tônau cynnulleidfaol, gan fod yn rhywle o bymtheg i ugain o gasgliadau wedi eu cyhoeddi—drwy y chwanegiadau; a'r oll wedi cael derbyniad lled gyffredinol. Er hyny, nid ydyw y gwelliant yn y canu cynnulleidfaol wedi bod yn gyfattebol i'r hyn y gallesid ei ddisgwyl.

Yn awr, yr ydym yn troi yn ol at y diwygiad dirwestol. Fel y nodwyd, yr oedd amryw gorau wedi eu sefydlu yn y wlad y pryd hwnw, er mwyn gwasanaethu y gymdeithas. Aeth y rhai hyny i ymgystadlu â'u gilydd yn y gwahanol ŵyliau, a chynnyrchodd hyny lawer o waith a ffyddlondeb, o nodwedd hynod o iach a boddhaol. Nid oedd ond 'yr enw' yn unig o ragori yn y cwestiwn ar y dechreu. Ond yn fuan, cynnygiwyd gwobrau mewn arian am y datganiadau goreu o ryw gyfansoddiadau dirwestol a nodid. Mawr oedd y sel a'r ymdrech at y gystadleuaeth. Esgorodd hyn ar gystadleuaeth gôrawl gyffredinol yn y wlad; a pha bryd bynag y cynnelid cyfarfodydd llenyddol, yr oedd yn rhaid cael cystadleuaethau côrawl ynddynt.

Erbyn hyn, y mae pethau wedi cymmeryd gwedd arall. Yn awr, ffurfir rhyw fath o gyfarfod er mwyn cael cystadleuaeth gôrawl, gyda'r amcan o wneyd elw. Rhaid ydyw cydnabod, er gofid, fod cystadleuaeth gôrawl yn awr yn dechreu gwisgo gwedd anhapus, a difrifol; â thuedd ynddi i wneyd mwy o niwed nag o les. Y mae degau o gôrau yn y wlad nas gellir eu cael i wneyd dim ond ymbarotoi i ymgystadlu mewn canu; ac yn aml, nid ydynt yn gwneyd hyny yn y modd mwyaf buddiol iddynt eu hunain chwaith, nac i eraill.

O ddeutu y flwyddyn 1860, daeth cyfundrefn y Tonic Sol-ffa i sylw yn Nghymru; a dechreuwyd ffurfio dosbarthiadau i'w dysgu. Mawr oedd y sêl a'r llafur gyda hyn am rai blynyddoedd. Yr oedd dosbarth mewn cyssylltiad â phob cynnulleidfa, yn mron, drwy y wlad ar un adeg. Yn y cyfnod hwn, daeth gwedd newydd ar bethau mewn cyssylltiad â chaniadaeth. O'r blaen, anaml yr oedd personau oedd yn gallu darllen cerddoriaeth; ac os galiai un ddarllen yn lled rwydd, byddai yn destyn syndod a rhyfeddod mewn llawer lle. Ond gyda chyfundrefn y Tonic Sol-ffa, newidiodd pethau yn rhyfedd mewn ychydig amser. Daeth darllenwyr cerddorol yn amlach, ac yn rhagorach; a mynych y gwelid plant deg oed yn gallu canu tônau ar yr olwg gyntaf gyda rhwyddineb a chywirdeb.

O ddeutu y flwyddyn 1870, dechreuwyd cyfnod mewn gwedd hollol newydd ar gerddoriaeth yn Nghymru; sef, cyfnod y gwasanaeth cerddorol, a'r gantawd. Cyn hyn, nid oedd ond un cyfanwaith cyssegredig wedi ei gyhoeddi yn Gymraeg; sef, "*Ystorm Tiberias*," gan Tan-y-marian. Yr oedd gwaith cyflawn arall gan Owain Alaw, ar "*Warchau Harlech*," yr hwn a fu yn boblogaidd iawn am flynyddoedd.

O ddeutu yr adeg a nodwyd, dechreuwyd cyfnod newydd arall, drwy i Mr. Hugh Davies (*Pencerdd Maelor*), drefnu llyfr at wasanaeth plant ac Ysgolion Sabbothol, o'r enw "*Y Messiah i Blant.*" Dyna'r cyntaf yn y cyfeiriad yma a gyhoeddwyd yn Nghymru. Cafodd y fath dderbyniad calonog gan gôrau ieuaingc, a chan Ysgolion Sabbothol, fel y symbylwyd yr awdwr i barotoi un arall ar yr un cynllun; sef, ar hanes Joseph. Bu y llyfrau hyn yn achlysur i sefydlu côrau o blant yn y wlad yn lled gyffredinol; fel y mae datgan cyfanwaith ar ryw

Digitized by Google

destyn cyssegredig (Ysgrythyrol gan amlaf) yn beth cyffredin iawn. Yn siroedd y Deheudir y mae hyn yn fwyaf poblogaidd; ac y mae mor gyffredin yno fel y mae llawer cerddor wedi cyhoeddi rhywbeth at wasanaeth côrau ieuainge.

Cerddoriaeth Offerynol.—Bu yr Ymneillduwyr am flynyddoedd yn credu ei bod yn bechadurus i ddwyn offeryn cerdd i le o addoliad. Erbyn hyn, y mae yr organ, neu y cysseinydd (*harmonium*), yn lled gyffredin yn ein capeli a'n heglwysydd.

Yn ddiweddar, hefyd, y mae cadeiriau cerddorol wedi eu sefydlu yn ein colegau a'n prifysgolion. Bu cadair ganddynt yn Aberystwyth; a dylasai gael ei chadw yn anrhydeddus, ac nid ei gadael i fyned yn wâg. Y mae cadair yn awr yn Nghaerdydd—yn cael ei llanw gan Dr. Parry, yr hwn a fu yn Aberystwyth.

Gwelir, gan hyny, fod caniadaeth Cymru wedi myned drwy chwyldroadau lawer yn nghorph yr ugain mlynedd, o 1870 hyd 1890; ac erbyn hyn, y mae ein gwlad yn mron yn llon'd y geiriau canlynol—

"Môr o gân yw Cymru i gyd."

A gaiff crefydd y genedl fantais oddi wrth yr holl symmudiadau hyn? Dyma y cwestiwn mawr. Amser a ddengys.

CERETHIAID: enw a roddir ar y Philistiaid; "Wele fi yn estyn fy llaw ar y Philistiaid, a thoraf ymaith y Cerethiaid," &c.; *Ezec.* xxv. 16. Sephaniah (ii. 5), wrth gyhoeddi y farn yn erbyn y Philistiaid, a ddywed, "Gwae breswylwyr glan y môr, cenedl y Cerethiaid." Dywedai yr Aiphtddyn a ddygid o'r maes at Dafydd, fod y fyddin Amalecaidd y perthynai iddi wedi rhuthro ar du deheu y Cerethiaid," y rhai, fel y gwelir wedi hyny, oeddynt yr un a'r Philistiaid; 1 *Sam.* xxx. 14—16.

Gelwid gosgorddlu personol y brenin Dafydd, "Cerethiaid a Phelethiaid;" 2 *Sam.* viii. 18. Mae y *Targum* Caldeaidd ar Ail Lyfr Samuel yn cyfieithu yr enwau hyn yn "saethyddion a thafliyddion," fel pe buasai yr enwau yn ddynodawl o'u harfogaeth yn hytrach nag o'u cenedl; a chan fod y bwa a'r dafl-ffon yn rhanau arbenig o arfogaeth yr oesoedd hyny, a bod yr Hebreaid yn enwog am eu medrusrwydd gyda'r arfau hyn, nid oes dim yn anhygoel yn y meddwl fod y gwarchodlu breninol yn rhai a ragorent yn eu medr gyda'r cyfryw arfogaeth. Gellir gwneyd rhyw ddyfaliad am eu nifer oddi wrth yr hyn a ddywedir am y nifer o darianau a bwcledau aur a wnaeth Solomon i'w osgorddlu—"A'r brenin Solomon a wnaeth ddau can tarian o aur dilin: chwe chan sicl o aur dilin a roddodd efe yn mhob tarian. A thri chant o fwcledi o aur dilin: tri chan sicl o aur a roddodd efe yn mhob bwcled. A'r brenin a'u gosododd hwynt yn nhŷ coed Libanus;" 2 *Cron.* ix. 15, 16. Math o weision teuluaidd i'r brenin oeddynt, ac arferent lettya mewn ystafell berthynol iddynt wrth borth y palas, fel y byddent yn barod ar y rhybudd lleiaf unrhyw bryd.

Y mae ereill yn meddwl mai o filwyr tramor, megys y Philistiaid, &c., y gwnelid gosgorddlu Dafydd i fyny; ac mai am hyny eu gelwid "y Celethiaid a'r Pelethiaid." Nid yw yn debyg fod Dafydd mor anmhoblogaidd yn mysg ei ddeiliaid ei hun fel y byddai yn angenrheidiol iddo logi milwyr estronol i ddiogelu ei berson; ond efallai fod nifer o'r Philistiaid wedi glynu wrth Dafydd er amser ei grwydriadau yn y wlad hono; ac iddo yntau, ar ei esgyniad i'r orsedd, roddi swydd iddynt oddeutu ei berson, yr hon a ofynai eu bod dan arfau yn barhaus.

CERFIO, CERFLUNIO: gwaith wedi ei dori ar goed, ceryg, haiarn, neu bres, &c.: 1 *Bren.* vi. 35; 2 *Cron.* ii. 14; *Act.* xvii. 29. Y mae yn amlwg fod y gelfyddyd hon yn cael ei choleddu yn mysg yr Hebreaid; nid yn unig oddi wrth y cerubiaid, a ddodid ar y cyntaf yn y tabernacl, ac wedi hyny yn nheml Solomon, ond hefyd oddi wrth y llewod a ddodid o bob tu i orsedd y brenin: 1 *Bren.* x. 20. Rhydd y prophwyd Esaiah ddysgrifiad manwl i ni o'r modd y cerflunid eilunod:—"Y saer pren a estyn ei linyn; efe a'i llunia hi wrth linyn coch; efe a'i cymhwysa hi â bwyeill, ac a'i gweithia wrth gwmpas, ac a'i gwna ar ol delw dyn, fel prydferthwch dyn, i aros mewn tŷ;" *Esa.* xliv. 13.

Yr oedd yr Aiphtiaid yn dra hoff o gerfluniau ar eu dodrefn, ar furiau eu tai, a'u nenfwd; ac yn wir, prin y canfyddid congl mewn palas Aiphtaidd heb fod yn addurnedig â cherfluniau.

Y mae Roberts yn sylwi, fod y dwyreinwyr yn gyffredinol, yn haelionus dros ben yn eu cerfiadau. Edrychwch ar deml; ac y mae yn orchuddiedig o'i sylfaen i'w nen, o'r bron, gan gerfluniau; edrychwch ar eu cerbydau cyssegredig, yn y rhai y tynir eu duwiau mewn gorymdeithiau, ac nis gellwch lai na synu at y llafur, y chwaeth, a'r cywreinrwydd a amlygir gan y cerflunwyr. Ië, y mae nenau a dorau eu hanneddau, colofnau eu rhodfäau, eu cistiau, eu glythau, a'u harfau, wedi eu haddurno yn ysblenydd â chynion y celfydd.

CERINTHUS, CERINTHIAID: Cerinthus oedd un o'r cyfeiliornwyr boreuaf yn yr Eglwys Gristionogol. Iuddew oedd o ran cenedl; a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Asia Leiaf, lle y gwasgarodd ei syniadau cyfeiliornus. Y mae yn lled sicr ei fod yn byw yn y canrif cyntaf. Y mae Waterland, Michaelis, ac ereill, yn lled benderfynol fod gan yr apostol Ioan olwg ar ei heresi wrth ysgrifenu; ac y mae tuedd amryw eiriau yn ei efengyl a'i epistolau yn ffafrio y dybiaeth hon, heb iaw fod Irenæus, yr hwn oedd yn gydnabyddus â Polycarp, yn mynegu fod Ioan, trwy gyhoeddi ei efengyl, yn ewyllysio symmud y cyfeiliornad a hauwyd yn meddyliau dynion gan Cerinthus. Barna rhai ei fod yn un o'r athrawon Iuddewaidd y cyfeirir atynt mor fynych yn y Testament Newydd: ond ymddengys nad oes digon o sail i'r dybiaeth hon. Y mae yn hytrach i'w ystyried fel y ddolen gyssylltiol rhwng y blaid Gnosticaidd a'r blaid Iuddewaidd. Dywed Theodoret ddarfod i Cerinthus ddechreu cyfranu ei addysg yn Alexandria; ac ar ol derbyn ei gynhyrfiad cyntaf, a chyfeiriad i'w feddwl oddi wrth dduwinyddiaeth yr Iuddewon Alexandriaidd, iddo fyned i Asia Leiaf mewn tymmor mwy diweddar. Y mae yr egwyddor Iuddewig i'w chanfod yn Cerinthus, pan y mae yn tybied fod agendor ddirfawr rhwng Duw a'r byd; ac mewn cyssylltiad â hyn, y mae yn dwyn yn mlaen y dybiaeth fod bodau afrifed, neu ysbrydion, o raddau uwch ac is yn llanw yr agendor. Yr oedd yr athrawiaeth am raddau gwahanol o angelion yn meddu lle arbenig yn nuwinyddiaeth ddiweddaraf yr Iuddewon. Dysgai Cerinthus mai trwy gyfryngiad y cyfryw angelion y creasai Duw y byd; o blegid ymddangosai iddo ef islaw mawredd y Duw Goruchaf iddo ddyfod i gyffyrddiad

Digitized by Google

digyfrwng â byd mor dra gwahanol i'w natur ei hun. Yn ben ar yr holl raddau o angelion, gosodai un i fod yn gynnrychiolydd y Goruchaf. Ymlynai Cerinthus wrth yr athrawiaeth, fod deddf Moses wedi ei rhoddi trwy weinyddiad angelion; a defnyddiai hyn i ddangos dechreuad Iuddewiaeth, a'i nodwedd israddol. Y mae yn debygol ei fod yn ystyried yr angel uchaf fel rheolydd neillduol yr Iuddewon, ac mai trwy hwn y dadguddiai y Goruchaf ei hun i ddynion. Credai y lluaws eu bod ynddo ef yn addoli y Goruchaf ei hun. Y mae syniadau Cerinthus am berson a gwaith Crist yn seiliedig i raddau helaeth ar eiddo yr Ebioniaid. Yr un modd a hwythau, priodolai yr holl berffeithiau dwyfol a feddai i ddisgyniad yr Ysbryd Glân arno ar ei fedydd. Yr Ysbryd Glân, yn ol ei dyb ef, oedd "y gwir Fessïah nefol" ei hun; ac felly, mae yn eglur y gwadai ei genedliad goruchnaturiol. Trwy yr Ysbryd hwn y daeth Crist gyntaf i adnabod y Goruchaf, yr hwn oedd o'r blaen yn anadnabyddus iddo. Nid oedd y Messïah daiarol, y *dyn* Crist Iesu, ond cyfrwng yn unig i'r Messïah nefol a weithredai yndd o a thrwyddo. Nid oedd gan Cerinthus un syniad am y Duwdod yn ymddangos yn ffurf gwas, ac yn y darostyngiad dyfnaf; ni addefai un Messïah arall ond yr hwn a eglurai ei hun mewn bri a rhwysg. Yr oedd y Crist nefol, yn ei gyfundraeth ef, uwch law pob dyoddefaint; ymadawodd oddi wrth y dyn Iesu pan draddodwyd ef i farwolaeth. Felly, ni chyssylltai Cerinthus un gwerth a rhinwedd â'i ddyoddefaint a'i farwolaeth yn ngwaith y prynedigaeth; pa fodd bynag yr ystyriai hyny fel prawf o'i dduwioldeb a'i barch i'r Goruchaf. Yn ol adroddiad Epiphanius, gwadai hefyd ei adgyfodiad. Dysgai Cerinthus hefyd, mewn cydffurfiad â llawer o'r duwinyddion Iuddewaidd, y byddai cyfnod dedwydd o fil o flyneddoedd, pan y byddai i'r Iesu, trwy nerth y Crist nefol mewn undeb âg ef, orchfygu ei holl elynion, a theyrnasu yn yr Ierusalem ogoneddus—canolbwynt y ddaiar newydd. Casglai, oddi wrth *Salm* xc. 4, trwy ei deall yn llythyrenol, gan "fod mil o flyneddoedd gyda Duw fel un dydd," y byddai i'r byd barhau yn ei ystâd presennol am chwe mil o flyneddoedd, ac y byddai ar ddiwedd y cyfnod hwn fil o flyneddoedd o Sabbathau o wynfydedigrwydd didor i'r cyfiawnion, y rhai fyddent erbyn hyn wedi eu rhyddhau oddi wrth eu holl flinderau a'u peryglon. Cyhuddodd rhai ef o goleddu syniadau isel ac anianol am y mwynhad hwn, oddi ar ei fod yn ei ddysgrifio dan y cymhariaethau o wleddoedd, a neithiorau, a'r cyffelyb. Ond wrth gofio am iaith ffugrol y dwyrain, y mae yn ddiau y dylid ei ryddhau oddi wrth y cyhuddiad hwn.

Dywed Irenæus, ddarfod "i rai glywed Polycarp yn adrodd fod yr apostol Ioan, pan yn myned i ymdrochi, ac yn gweled Cerinthus yn y fan, wedi rhuthro o'r olchfa heb ymdrochi, gan lefain, 'Ffown! rhag hyd yn oed i'r lle syrthio, tra y mae Cerinthus, gelyn y gwirionedd, yndd o!'" Y mae Epiphanius a Theodoret yn adrodd yr un hanes. Y mae llawer, pa fodd bynag, yn ammheu ei gywirdeb; ond y mae yr hanes yn cael ei gredu gan Mosheim, ac amryw ysgrifenwyr diweddar.

CERITH: afonig fechan yn Ngwlad Canaan, sydd yn ymarllwys i'r Iorddonen. Yr unig fan yn yr Ysgrythyrau y crybwyllir am dani yw, 1 *Bren.* xvii. 3—5, lle y gorchymynid i'r prophwyd Elias fyned i ymguddio ger llaw iddi rhag cynddaredd y brenin Ahab. [Gwel Elias.] Nid yw yn gwbl sicr o ba du i'r Iorddonen yr oedd Cerith yn rhedeg; ac nid yw y cyfleithiad Cymraeg yn rhoddi nemawr gynnorthwy tuag at symmud yr ansicrwydd. Yr hyn a ddywed yw, bod Cerith "ar *gyfer* yr Iorddonen;" ond gallasai fod felly o ba du bynag i'r afon hono yr ydoedd. Yn y Seisoneg, dywedir ei bod "o *flaen* yr Iorddonen; yr hyn, yn fynych, yn ol dull ymadroddol yr Ysgrythyrau, a arwydda y tu *dwyreiniol*, er bod yr un ymadrodd gwreiddiol mewn manau ereill wedi ei gyfleithu *tua*, fel pe dywedasid fod Cerith *tua* 'r Iorddonen. (*Gen.* xviii. 16; xix. 28; *Barn.* xvi. 3). Nid yw hyn drachefn yn penderfynu o ba ochr i'r afon hono yr ydoedd. Y mae sylwadau y Dr. Kitto ar y mater yn ymddangos yn eithaf boddlonol. I'r perwyl canlynol yr ymresyma efe:—Mae yn hysbys fod Samaria, lle yr oedd llys Ahab, yn sefyll o du y gorllewin i'r Iorddonen, ac y mae yn naturiol meddwl y byddai Elias yn debyg iawn o chwennych cael yr afon hono rhyngddo a'i elyn, ac felly iddo fyned o'r tu dwyreiniol iddi; a chryn gryfhâd i'r tyb hwn yw, bod y gair gwreiddiol a gyfleithwyd yn yr hanes "ar gyfer" yn fynych yn arwyddo y *tu dwyreiniol*. Dywed haneswyr hefyd fod y parth hwnw o'r wlad yn llawn glynau a bryniau, llwyni ac ogofäau; ac felly y gallai y prophwyd lechu yn hir yno heb i ysbiwyr Ahab ddyfod o hyd iddo.

CERN, CERNWST, CERNODIO: [Gr., *διαγών*; Seis., *cheek*]: ochr y wyneb, boch, grudd; tarawo ar y gern neu ochr y wyneb: 1 *Bren.* xxii. 24; *Iob* xvi. 10; *Esa.* l. 6; *Galar.* iii. 30; *Micah* v. 1; *Mat.* v. 39; *Luc* vi. 29. Yn llawer o'r manau lle y defnyddiwyd y gair "cernodio" yn y cyfleithiad Cymraeg o'r Testament Newydd, nid oes yn y Groeg un cyfeiriad neillduol at y *gern*, dim ond tarawiad (*ῥαπισμα, κολαφιξω*) ar ryw ran o'r corff, a hyny pa un bynag ai â llaw ai â rhyw offeryn; megys lle y dywedir ddarfod i un o'r bobl yn llys yr archoffeiriad roddi *cernod* i'r Iesu, ar ymyl y ddalen ceir *ffonod* neu *wialenod* (*Ioan* xviii. 22), ac i'r un perwyl yn *pen.* xix. 3; ac mewn manau ereill crybwyllir am darawo â *chledrau dwylaw*; *Mat.* xxvi. 67; *Marc* xiv. 65. Y mae yr ymadrodd bob amser yn arwyddo yr ymddygiad mwyaf sarhaus a diystyrllyd: ac y mae amryw ysgrifenwyr enwog a fuont yn ymdeithio yn y gwledydd dwyreiniol wedi sylwi fod y trigolion yn wastad yn ystyried mai bod i un gael ei darawo ar ei wyneb yw y dirmyg mwyaf a ellir ei ddangos tuag ato, ac yn enwedig pan y tarawont ef â gwadn un o'u sandalau, yr hyn sydd ddull arferedig iawn yn y gwledydd hyny.

CERUB—IAID. Llawer o farnau sydd am darddiad y gair כרוב, fel y gwel y darllenydd wrth chwilio geiriaduron Parkhurst, Gesenius, Lee, ac ereill, yn gystal a'r esbonwyr dysgedicaf. Ond, fel y dywed Dr. Lee, "ofer fyddai cynnyg dim ar ei darddiad; gan nad oes, hyd yn hyn, ddim boddhaol wedi ei ddwyn i'r goleu." A dyma yr achos, ond odid, i'r Deg a Thrigain drosglwyddo y gair i'r Groeg, *χερουβ, χερουβιμ* (*cheroub, cheroubim*); ac iddo gael ei fabwysiadu gan awdwr y Llythyr at yr Hebreaid: *pen.* ix. 5. Eto, ceir y gair yn yr Hen Destament chwech ar ugain o weithiau yn y rhif unigol, a phedwar a thrigain o weithiau yn y rhif lluosog.

Y mae amrywiaeth mawr hefyd yn mhlith

Digitized by Google

esbonwyr a dysgedigion ereill o barth i natur, ffurflau, arwyddocâd, a dybenion y cerubiaid. Mor amrywiol ydynt y darluniau cerfiedig a roddir gan Calmet, Parkhurst, Kitto, a dysgedigion ereill, fel y gellid tybio fod golygiadau cywir ar y pwnc yn anghyrhaeddadwy. Ond y mae manteision gwybodaeth ar hyn, fel nifer o bethau ereill, ar gynnydd yn barhaus. Y mae y creaduriaid rhyfeddol sydd wedi eu darganfod yn hen demlau a phalasau mawrion yr Aipht, Mesopotamia, Persia, ac hyd yn oed India dywyll, yn taflu goleuni ar ffurflau arwyddluniol yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Hyderwn y parhâ ymdrechion ac ymchwiliadau y fath enwogion a Champollion a Wilkinson, Botta a Layard, i gyrchu o feddau hen deyrnasoedd, nid yn unig brofion newyddion o wirionedd y Beibl, ond hefyd eglurhadau cysurlawn ar ffeithiau a gweledigaethau anhawdd eu deall. Yn y tryblith o dybiau gwahanol ac anghysson, ceisiwn ymlwybro wrth oleuni yr Ysgrythyr ei hun, â chynnorthwy darganfyddiadau hen a diweddar.

Y crybwylliad cyntaf am y cerubiaid sydd yn *Gen.* iii. 23, 24. Yr Arglwydd Dduw "a yrodd allan y dyn, ac a osododd, o'r tu dwyrain i ardd Eden, y cerubiaid, â chleddyf tanllyd ysgwydedig, i gadw ffordd pren y bywyd." Y mae y cyfleithiad hwn yn rhagori ar y Seisoneg, ac yn hollol cyfystyr â'r Hebraeg. Nid cerubiaid, ond הכרבים =*y* cerubiaid. Yma, ni ddywedir dim am eu rhifedi na'u hagwedd, am eu hadenydd na'u gwynebau; ond cyfeirir atynt fel pethau hollol adnabyddus i bobl Israel ar eu hymadawiad o'r Aipht, ac efallai, yn ddigon hysbys i genedloedd ereill trwy eu cyndadau. Parkhurst, ac ereill, a feddyliant fod y cerubiaid, bob amser, yn meddu yr holl hynodion a briodolir iddynt yn ngweledigaeth Ezeciel, a'r seraphiaid a ddarlunir yn *Esa.* vi. megys pedwar wyneb, â phedair neu chwech aden, &c. Ond y mae yn fwy tebygol fod eu hymddangosiad yn amrywio yn ol amgylchiadau a dybenion eu gwneuthuriad. Y cwbl a ddywedir am danynt, mewn cyssylltiad âg Eden, yw, i'r Arglwydd Dduw eu gosod i drigo neu dabernaclu y tu dwyreiniol i baradwys, gyda chleddyf tanllyd yn ymysgwyd, i'r dyben i attal dyn euog rhag agosäu, a chymmeryd ffrwyth pren y bywyd. Nid byddinoedd o angelion nef oedd y rhai hyn; canys nid oes un anghraifft eglur fod y gair cerubiaid yn cael ei arfer fel enw priodol y llu angelaidd yn gyffredinol, nac i un gradd o honynt yn neilluol. Ymddangosiadau gwyrthiol oeddynt hwy, tebyg i'r cleddyf fflamllyd, wedi eu sefydlu wrth borth paradwys er dysgu i ddyn syrthiedig brif wirioneddau crefydd. Dangosai y cwbl, ar y naill law, fod yn Nuw ddigofaint tanllyd yn erbyn drygioni dyn—fod paradwys, â'i holl ddedwyddwch, wedi ei cholli ganddo am byth—ac nad oedd modd iddo ef mwyach, fel pechadur, gael heddwch â'i Greawdwr ar sail y cyfammod neu y sefydliad paradwysaidd, sef trwy ei gyflawnder a'i haeddiant ei hun: ond, ar y llaw arall, fod yr Arglwydd Dduw yn ei arbed rhag cosp marwolaeth, ac yn rhoi gobaith diangfa dragwyddol iddo trwy Had y Wraig ag oedd newydd gael ei addaw; a'i fod ef wedi gosod y troseddwr dan oruchwyliaeth newydd ac achubol, yn yr hon yr oedd trugaredd a gwirionedd, cyfiawnder a heddwch, yn ymgyfarfod. Arwydd adnabyddus a chyffredin o bresennoldeb y Duw sanctaidd ydoedd tan fflamllyd neu oleuni gorddysglaer; ac ni welwyd cerubiaid erioed lle nad oedd Duw yn trigo fel gwrthddrych addoliad ac ufudd-dod. O ganlyniad, yr oeddynt yn Eden yn arwyddion amlwg fod yr Iehofah wedi dychwel i drigo gyda dyn, ac wedi gosod ei babell wrth borth yr ardd. Yno, ysgatfydd, yr adeiladodd Adda, trwy ddadguddiad, yr allor gyntaf yn y byd, ac yr offrymodd yr ebyrth, â chrwyn pa rai y gwisgwyd ef gan yr Arglwydd Dduw. O blegid afresymol meddwl mai "ewyllys-grefydd, yn ol gorchymynion ac ordinhadau dynol," oedd gan deulu Adda, ar y cyf taf, a chan y patriarchiaid cyn y dylif, y rhai a ganmolir am eu ffydd. Y mae y gair שכן, yn *Gen.* iii. 24, yn cadarnhau hyn; canys ei ystyr priodol yw, peri i babellu; ac yn *Gen.* iv., dywedir i Cain ac Abel *ddwyn* eu hoffrymau i'r Arglwydd, fel i ryw fan neu allor benodol. Yno y rhoddwyd arwydd eglur, efallai trwy dân, o dderbyniad aberth Abel ffyddiog, yn hytrach nag offrwm Cain; ac oddi yno yr alltudiwyd y llofrudd cyntaf, yn "wibiad a chrwydriad ar y ddaiar"—yn esgymunedig am byth o'r eglwys batriarchaidd, ac o drigfa ddewisedig Duw rhwng y cerubiaid. Eglura hyn bwysigrwydd cwyn Cain, pan y dywedodd wrth yr Arglwydd, "O'th ŵydd di y'm cuddir."

Yn ngosodiad y cerubiaid, yn union wedi y cwymp, y cawn darddiad a chynllun cyntefig llawer o'r ffurfiau anferth a rhyfeddol a geir trwy y byd paganaidd, yn enwedig yn y gwledydd a feddiannwyd gan y prif genedloedd a hanasant o feibion Noah. Yn yr eilunod cymmysg, y geufilod cyfansawdd, a'r lluniau amryliw, a ddygir o demlau a phalasau gorwych Assyria, Persia, a'r Aipht, canfyddir rhai o hen ddrychfeddyliau dadguddiedig dyn wedi eu corffoli, eu gwyro, eu cymmysgu â dychymygion ofergoelus, a'u cyfnewid i ateb dybenion drwg eilunaddolwyr llygredig ac ymherawdwyr gormesol. Gellir dangos hyn trwy y darluniau canlynol, y rhai a gymmerwyd oddi wrth gofadeiliau henafol, ac a arddangosant ryw un neu chwaneg o'r tybiau a

Dar. 173.

gyssylltir genym â'r ffurf gerubaidd. Y mae y swp cyntaf o ddarluniau (dar. 173) wedi dyfod o'r Aipht. Y mae y ffugrau yn fwy hynod am eu bod i'w canfod ar *eirch* cyssegredig y wlad; ac y mae agwedd eu hadenydd yn cytuno âg un neu arall o'r sefyllfaoedd a briodolir i eiddo cerubiaid arch y cyfammod. [Gwel ARCH Y CYFAMMOD.]

Digitized by Google

Y mae y swp nesaf o ffugrau yn Aiphtaidd hefyd (dar. 174), a dengys amrywiol fathau yr arwyddluniau adeiniog a ganfyddir mor aml ar y cofadeiliau. Ffugr 1 ac 8 ydynt y fath ddarluniau adeiniog ag a ddodir yn gyffredin uwchben llech, creirfa, neu allor gyssegredig: ac ymddengys fod cyfeiriadau arwyddluniol yn yr

Dar. 174.

Ysgrythyrau at y ffugrau hyn hyd yn oed pan na chrybwyllir am y cerubiaid. Ffugr 4, yr hwn a esyd allan hebog gyda gwyneb ac arwyddluniau Isis, a'r seirff adeiniog a choronog (ffugr 6, 7) yw yr unig ddelwau cymmysgryw; ac fel y cyfrvw, teilyngant sylw neillduol.

Dar. 175

Wrth fyned yn mlaen at gofadeiliau Persia henafol, y mae yr arwyddluniau adeiniog yn dyfod yn fwy hynod. Mae yr esampl rhyfeddol a welir yn dar. 175 wedi ei gymmeryd o faslun yn Mourg Aub; ac arddengys ddyn wedi ei wisgo mewn gwisg o frodwaith gwerthfawr, gydag adenydd cyffelyb i'r rhai a briodolir yn ngweledigaeth Ezeciel i'r cerubiaid; â'r chwaneg-iad o gyrn mawrion (arwyddluniau adnabyddus gallu breninol) yn tarddu o'r pen, ac yn cynnal coron neu feitr arwyddluniol, o'r fath ag a welir yn fynych ar benau y duwiau Aiphtaidd, a'u hoffeiriaid gweinyddol.

Dar. 176.

Ceir yn y pedwerydd ffugr, yn y darlun uchod esampl hynod o gyfuniad anifail, aderyn, a dyn ac ymddengys mai yr un ydyw a'r sphinx Babilonaidd, ond mewn sefyllfa wahanol. Y mae y ffugrau ereill yn yr un darlun yn dygwydd yn fynych yn y cerfluniau Persiaidd. Cydnabyddir hwynt fel arwyddluniau Mithraidd; ac fel y cyfryw, y maent yn myned yn mhell at egluro cymmeriad hollol arwyddluniol y ffugrau cerubaidd. Yn ffugrau 1, 2, 3, yn y darlun uchod (dar. 176), arddangosir rhyfelwr yn gafaelu yn yr arwyddluniau adeiniog hyn gerfydd eu un corn, yr hwn sydd gan bob un o honynt, âg un llaw, tra y

Digitized by Google

gwthia ei gleddyf i'w cyrff â'r llall. Gellir sylwi fod y darluniau hyn, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, yn cynnwys yr holl ffurfiau hyny a briodolir yn ngweledigaeth Ezeciel i'r cerubiaid—pen dyn, eryr, llew, ac ych (ffugr 5): ond ni chanfyddwn yn un man y rhai hyn oll wedi eu huno mewn un ffugr, fel yr ymddengys eu bod yn ngherubiaid y weledigaeth.

Casglwyd y swp nesaf o ddarluniau (dar. 177) oddi wrth amrywiol gerfiadau a gemau Persiaidd henafol. Ffugr 1 sydd arwyddlun adeiniog hofianedig a ddygwydd yn fynych yn y cofadeiliau Persiaidd, fel ag y gwna y ffugrau cyffelyb yn

Dar. 177.

nghofadeiliau yr Aipht. Y mae ffugr 1 a 4 yn hynod ar gyfrif y tebygrwydd sydd rhyngddynt i'r ffurf draddodiadol a briodolwyd i'r angelion; a ffugr 3 a esyd allan esampl hynod o adenydd pedwarplyg, tebyg i dar. 175, ond yn llawer byrach.

Os awn tua Babilon, canfyddwn arwyddluniau adeiniog cyffelyb. Y mae dar. 178 wedi ei gymmeryd oddi wrth rol (*cylinder*) Babilonaidd, ae y

Dar. 178.

mae yn hynod am ei fod yn rhoddi nid yn unig adenydd ond hefyd pen aderyn i'r ffurf ddynol. Gellir ei gymmeryd am Nisroch, duw Nebuchodonosor: 2 *Bren.* xix. 37. Cymmerwyd dar. 179

Dar. 179.

oddi wrth gem henafol a gaed yn Babilon. Mae yn uno y ffurf ddynol â'r bedwarcarnol, yn nghyd âg adenydd aderyn; ac nid yw yn annhebyg i'r sphinx Aiphtaidd, oddi eithr fod y pen yn eiddo dyn yn hytrach nag yn eiddo benyw.

Nid duwiau oedd y rhai hyn, fel y tybia Layard; canys efe a'u cafodd hwynt, nid wrth demlau, ond wrth byrth palasau breninol, ac heb allorau, ac arwyddion ereill gwasanaeth crefyddol. Arwyddluniau yr ymherodraeth oeddynt, yn gosod allan brif nodweddau y deyrnas; ac y maent yn gyffelyb i'r bwystfilod a welodd y prophwyd Daniel yn cynnrychioli teyrnasoedd Babilon, Persia, Groeg, a Rhufain. "Y cyntaf oedd fel llew, ac iddo adenydd eryr"—arwyddlun ymherodraeth Babilon. Y trydydd oedd megys "llewpard, ac iddo bedair aden aderyn ar ei gefn: a phedwar pen oedd i'r bwystfil;"—arwyddlun ymherodraeth Groeg. Cymharer dar. 176, yn enwedig ffugr 5, â dar. 179. Dangosant i'r meddylgar fod yn trigo yn y palas, wrth ddrysau yr hwn y safent, awdurdod ymherodrol, gwybodaeth ddofn a helaeth, nerth anorchfygol, a chyflymdra rhyfeddol yn nghyflawniad cyfreithiau a phenderfyniadau y llywodraeth.

Nid oes son am y cerubiaid eto am tua dwy fil a phum cant o flyneddoedd wedi eu sefydliad yn Eden. Nid benthyca llun duwiau bychain oddi ar eirch yr Aipht a wnaeth Moses i'r dyben i wneyd cerubiaid i'r tabernacl. Yr oedd addolwyr y gwir a'r bywiol Dduw yn gwybod am eu ffurf a'u defnydd cyn i blant Mizraim ddechreu poblogi yr Aipht, nac Assur osod sylfeini Ninefeh, na Nimrod gael dechreuad ei freniniaeth yn Babel. Y Cenedloedd, fel y dywedwyd eisoes, a'u benthycasant; ac wedi iddynt yn eu hanwybodaeth eu gwyrdroi oddi wrth eu dybenion cyntefig, hwy a wnaethant dduwiau o honynt, ac a'u haddolasant. Gwel ARCH Y CYFAMMOD a'r darluniau; yn enwedig dar. 58, lle y mae yn sefyll ar gist "ddwy ddelw o'r dduwies Thenei neu Wirionedd," yn lled debyg i'r cerubiaid ar arch y cyfammod.

Ar fynydd Sinai, cafodd Moses orchymyn i osod dau gerub ar ddau pen clawr yr arch yn y cyssegr sancteiddiolaf; a chan iddo wneuthur pob peth yn ol y portread a ddangoswyd iddo yn y mynydd, nid oes le i ammheu nad oedd y rhai hyn yn y cynllun dadguddiedig. Ond ni rydd i ni un darluniad o honynt. Y mae yn debyg fod eu ffurf mor hysbys i'r bobl, ac yn enwedig i Bezaleel ac Aholiab, meistri y gwaith, fel nad oedd yn angenrheidiol rhoddi iddynt unrhyw gyfarwyddiadau yn nghylch eu gwneuthuriad; ond yn unig y rhaid eu bod "o gyfanwaith morthwyl," o'r un talp o aur a'r clawr, a elwid y drugareddfa; yn sefyll, y naill ar un cwr o'r drugareddfa, a'r llall ar y cwr arall iddi; eu hesgyll yn estynedig tuag i fyny, a'u gwynebau tuag at eu gilydd, ac yn gogwyddo tuag at y drugareddfa: *Exod.* xxv. 18—20. Gwnaed hyn oll yn ol y gorchymyn: *Exod.* xxxvii. 7—9. Ni ddywedir dim am eu maint; ond gan eu bod yn sefyll ar glawr yr arch, yr hwn nid oedd ond dau gufydd a hanner o hyd, nis gallasent fod yn fawrion. Heb law y ddau hyn, yr oedd cerubiaid wedi eu gweithio yn gywrain yn y lleni mawrion a orchuddiasant y tabernacl (*Exod.* xxvi. 1; xxxvi. 8), ac yn y wahanlen orwych oedd rhwng y ddau gyssegr (*Exod.* xxxvi. 35). Oddi wrth y nodion hyn, ymddengys nad oedd ond un gwyneb a dwy aden i'r naill a'r llall o'r ddau gerub ar yr arch. Gellir meddwl mai gwyneb a chorff dyn oedd iddynt, fel y ffurf ragoraf o fywiolion daiarol; eto, fe ymddengys mai gwyneb llo neu darw a elwir yn wyneb cerub yn

Digitized by Google

Ezec. x. 14; a chreda rhai mai hwn oedd dullwedd cyffredin cerub, ac mai un o'r cyfryw oedd y llo aur a wnaeth Aaron i'r bobl yn yr anialwch, a'r lloi a osododd Ieroboam yn Dan a Bethel, â pha rai y gwnaeth efe i Israel bechu. Ond eto, y mae yn amlwg nad oedd na gwyneb ych na llew yn y cerubiaid a gerflwyd ar ddeg ystôl Solomon: 1 *Bren.* vii. 29, 36.

Rhwng y cerubiaid, a goruwch y drugareddfa, y preswyliai yr Iehofah, ac yr ymddysgleiriai yn ei ogoniant (*Num.* vii. 89; 2 *Bren.* xix. 15; *Salm* xcix. 1; *Esa.* xxxvii. 16); ac o herwydd eu cyssylltiad agos â'i orsedd Ef yn y fan sancteiddiaf ar y ddaiar, gelwir hwynt yn "gerubiaid y gogoniant;" *Heb.* ix. 5.

Yn nheml Solomon, yr oedd y cyssegr tufewnol yn llawer helaethach na'r un yn yr hen babell. Yr oedd yr ystafell hon yn ddeg troedfedd ar ugain ysgwâr; os nad oedd, fel y cyfrif rhai, yn ddwy droedfedd ar bymtheg ar ugain a hanner. Gosodwyd ynddi ddau gerub newydd, heb law y ddau fychan oedd yn sefydlog ar glawr yr arch. Yr oeddynt o faintioli anferthol, sef deg cufydd o uchder—nid llai na phymtheg troedfedd; ond yn ol cyfrif Barnwell, yn agos i ugain. Safent bum cufydd oddi wrth y ddau bared, a deg cufydd rhyngddynt. Yr oedd gan y naill a'r llall ddwy aden, a phob aden yn bum cufydd o hyd yn estynedig; fel yr oeddynt yn cyrhaedd o bared i bared, ac yn cyffwrdd â'u gilydd yn nghanol y gafell. Gwnaed hwynt o goed olewwydd, a gwisgid hwynt âg aur pur. Dan gysgod yr adenydd auraidd mawrion hyn y dodwyd yr arch, â'i dau gerub bychan ar ei chlawr. "Yr oeddynt hwy yn sefyll ar eu traed, â'u *hwynebau tuag i fewn;*" 2 *Cron.* iii. 13. Y frawddeg olaf a brawf nad oedd i'r rhai hyn, fel y barna Parkhurst, bedwar o wynebau, fel y rhai yn ngweledigaethau Ezeciel. Anhyall i bedwar gwyneb edrych tuag i fewn. Ymddengys, hefyd, nad oedd i'r rhai hyn eto ond dwy aden, ac un gwyneb, a hwnw yn wyneb dynol. Ond megys yn y tabernacl, felly yn y deml, yr oedd llawer o gerubiaid wedi eu gweithio yn y wahanlen (2 *Cron.* iii. 14), ac yn gerfiedig ar barwydydd y tŷ oddi amgylch, ar ddwy ddor drws y gafell, ac ar ddwy ddor drws allanol y deml: 1 *Bren.* vi. 29, 32, 35. Y mae yn beth nodedig nad oes un crybwylliad am gerubiaid y cyssegr sancteiddiolaf yn ngweledigaeth Ezeciel o'r deml, yn *Ezec.* xl. hyd xlvi; ond nodir yn *pen.* xli. 18—20, 25, fod cerub a phalmwydd wedi eu gweithio ar barwydydd ac ar ddorau drysau y deml. "Palmwydden oedd rhwng pob dau gerub; a dau wyneb i bob cerub, canys gwyneb dyn oedd tua'r balmwydden o'r naill du, a gwyneb llew tua'r balmwydden o'r tu arall."

Yn ngweledigaeth Ezeciel, wrth afon Chebar (Chabour), y rhoddir y golygiadau rhyfeddaf a manylaf yn yr Hen Destament o'r cerubiaid. Gwel *Ezec.* i. a x. Gelwir hwynt, "y pethau byw," "y pedwar peth byw," a'r "peth byw." "Dyma eu hagwedd hwynt; dull dyn oedd iddynt." Yr oedd mwy o'r agwedd ddynol iddynt nag o ddull un creadur arall;—corff dyn, gwyneb dyn, a dwylaw neu freichiau dyn dan eu hesgyll ar eu pedair ystlys. Yr oedd iddynt o gwbl un ar bymtheg o wynebau; sef, pedwar i bob cerub. Yr oeddynt yn wynebau y creaduriaid byw rhagoraf dan yr haul;—dyn, fel bod deallawl a moesol; y llew, brenin y bwystfilod gwylltion; yr ych neu y tarw, y penaf o'r anifeiliaid doflon; a'r eryr, y rhagoraf o adar yr awyr. "Dyma ddull (sefyllfa) eu hwynebau hwynt; Wyneb dyn, ac wyneb llew, oedd ar y tu deheu iddynt ill pedwar: ac wyneb ych o'r tu aswy iddynt ill pedwar, ac wyneb eryr iddynt ill pedwar;" *Ezec.* i. 10. Yr oedd gan bob un bedair aden, yn llawn llygaid neu liwiau llewyrchus—dwy yn cuddio eu cyrff, a dwy yn estynedig i fyny, "wedi eu cyssylltu â'u gilydd;" hyny yw, efallai, yn cyffwrdd â'u gilydd fel esgyll y cerubiaid uwch yr arch. Eu traed oeddynt uniawn, a'u gwadn fel gwadn troed llo, yn dysgleirio fel efydd gloew. Eu hymddangosiad oedd fel marwor tân yn llosgi, ac fel ffaglau yn fflamio; a'u symmudiadiau oeddynt fel ehediad mellten. Yn ymyl pob cerub, yr oedd olwyn o liw gwyrddlas; ei chylchoedd yn uchel ac ofnadwy, ac yn llewyrchu megys yn llawn o lygaid; ac hefyd, olwyn o fewn olwyn, ar groes i'w gilydd, dybygid, yn y fath fodd fel y gallent fyned bob ffordd heb droi "cerbyd y cerubiaid." Uwch ben y cerubiaid, yr oedd ffurfafen (*canopy*) ddysgleirwych, fel grisial, yn estynedig; yn debyg i'r palmant a welodd Moses a'r henuriaid dan draed Duw Israel: *Exod.* xxiv. 10. Goruwch y ffurfafen hon yr oedd cyffelybrwydd gorseddfainc, yn debyg i olwg maen saphir; ac ar yr orseddfainc yr eisteddai Penllywydd y greadigaeth, mewn annhraethol ogoniant, ac eto mewn "cyffelybrwydd fel gweledigaeth dyn." Efe a lewyrcha yn yr uchelder awyrawl fel tân angerddol; a chylchynir Ef oddi amgylch megys â dysgleirdeb y bwa amryliw ar ddydd gwlawog. O ganol y gogoniant hwn, efe a lefara â "llais yr Hollalluog" wrth y prophwyd, yr hwn, wedi ei orchfygu gan y weledigaeth, sydd ar ei wyneb ar y ddaiar. Dyma y cerbyd cerubaidd, y peiriant bywiol, sydd yn cario y Brenin Tragwyddol yn ei oruchwyliaethau yn y byd.

Y prophwyd Esaiah hefyd a welodd yr Arglwydd yn eistedd ar orsedd oruchel, â'i odre yn llenwi y deml: *Esa.* vi. 1—8. Fe ganfyddodd y seraphiaid—rhai tanllyd—yn sefyll yn uchel gerbron eisteddfa y Cyfryngwr breiniol: *Ioan* xii. 41. Efallai mai enw arall am y cerubiaid yw seraphiaid. Y mae cyffelybrwydd yn eu prif nodweddau, eu sefyllfa, eu haddoliad, a'u gwasanaeth. Addolant y Sanct, Arglwydd y lluoedd, yn y modd mwyaf gostyngedig a difrifol, a chyflawnant wasanaeth cyffelyb mewn cyssylltiad âg achos crefydd a'r swydd brophwydol. Ond y mae ganddynt chwech o adenydd—ac nid dwy na phedair—i bob un; "A dwy y cuddiai ei wyneb; ac â dwy y cuddiai ei draed; ac â dwy yr ehedai." Nid oes yma ond dau, fel yn y tabernacl, ac i'r naill a'r llall ond un gwyneb.

Tebyg iawn i'r cerubiaid ydyw y pedwar anifail rhyfeddol a welodd Ioan yn ei ail weledigaeth yn ynys Patmos: *Dad.* iv. a v. Mewn amryw bethau pwysig, y mae y gweledigaethau yn gwahaniaethu; megys, y mór o risial oddi tanodd, yn lle y ffurfafen o risial uwch ben; y pedwar ar ugain o henuriaid coronog mewn gwisgoedd gwynion, â'u telynau a'u phiolau aur; y Cyfryngwr fel oen wedi ei ladd, ond eto yn fyw, ac iddo saith gorn a saith llygad, yn cymmeryd y llyfr o law yr hwn sydd ar yr orseddfainc. Ond gelwir y pedwar creadur arwyddluniol, fel cerubiaid Ezeciel, yn "bedwar peth byw" (τέσσαρα ζῶα); dangosant yr un fath wynebau, sef eiddo llew, ych, dyn, ac eryr. Y maent fel hwythau, yn llawn llygaid, o'r tu ol a'r tu blaen, ac oddi fewn. Y mae i bob un o honynt chwech o adenydd; gweithredant fel gweinidogion Duw yn ei deyrnas;

Digitized by Google

safant ger bron gorsedd ogoneddus y Sanct Hollalluog a Thragwyddol, ar wahan oddi wrth y llu angelaidd; addolant ei sancteiddrwydd ef yn ddibaid ddydd a nos, a chanmolant weithrediadau ei ras achubol. Mewn cyssylltiad â'r orseddfainc, hefyd, llewyrcha dysgleirdeb meini gwerthfawr; yr enfys amryliw—arwydd hedd; yn gystal a mellt, a lampau yn llosgi, gyda tharanau a lleisiau—arwyddion mawrhydi, sancteiddrwydd, a chyflawnder y Duwdod.

Rhoddwyd uchod sylwedd yr oll a geir yn yr Ysgrythyrau yn nghylch y cerubiaid. Yn awr, y gofyniad naturiol a phwysig yw, Pa beth oedd eu natur a'u harwyddocâd? Amlwg yw nad lluniau oeddynt o fodau sylweddol yn y byd hwn, nac mewn un goror arall o'r greadigaeth. Byddai creaduriaid angenfilaidd, cymmysgedig o wahanol rywogaethau, yn hollol anghysson â'r oll a wyddom am weithredoedd y Creawdwr. Ond pa un ai drychau dychymygol mewn gweledigaethau, neu ddelwau o aur neu waith nydwydd yn nhŷ Dduw, neu rhyw ymddangosiadau goruchnaturiol wrth borth paradwys, nid oeddynt ond arwyddluniau i roddi addysg grefyddol i ddynolryw. Pa beth, ynte, oedd eu harwyddocâd? Ar y pen hwn y mae tybiau lawer, a lled anghysson â'u gilydd, ac â'r gwirionedd. Ymdrecha Parkhurst yn galed i brofi eu bod yn arddangos y Drindod fendigedig mewn cyfammod i brynu dyn, trwy uno y natur ddynol â'r Ail Berson. Nid oes llawer, efallai, wedi medru canfod grym ei resymau, a chymhwysiad ei ffeithiau lluosog, tra y mae y gwrthresymau yn amlwg a chedyrn. Nid Trindod sydd i'w gweled yn y pethau pedwarwynebog a ystyria efe yn wir ddull y cerubiaid oll. Onid oes yna, yn hytrach, *bedwar* mewn undod neu gyfammod? Hefyd, buasai gwneuthur delwau o'r Duwdod, a'u gosod yn ei dŷ ac yn ei wyddfod, yn hollol groes i'w orchymyn mwyaf pendant a difrifol, ac yn annogaeth i eilunaddoliaeth. Buasai y cerubiaid, fel hyn, yr un peth mewn effaith ag eilunod y cenedloedd, sef delwau gweledig o wrthddrych anweledig eu haddoliad. Yn ol y dyb wrthun hon, fe orchymynodd yr Arglwydd i Moses wneuthur yr hyn a warafunodd ac a fygythiodd â'r gosp drymaf: *Deut.* iv. 15—18; *Exod.* xx. 4, 5. Pa ddelw a allai osod allan y Bod anweledig ac anfeidrol? "I bwy," medd efe, "y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a osodwch iddo?" *Esa.* xl. 18. Pa beth oedd pechod Israel yn Horeb?—"Troisant eu gogoniant i lun eidion yn pori glaswellt;" *Salm* cvi. 20. Felly hefyd y paganiaid: *Rhuf.* i. 23. Heb law hyn, y mae y cerubiaid bob amser yn cael eu gwahaniaethu oddi wrth Dduw; a hwythau yn weinidogion, yn offerynau, ac yn addolwyr, iddo ef; yn ddarostyngedig ac ufudd i'w ewyllys, ac yn cael eu bywhau, eu cynhyrfu, a'u tywys, gan ei Ysbryd ef: *Gen.* iii. 24; *Salm* xviii. 10; xcix. 1; *Ezec.* ix. 3. Ni welir dim yn y cerub nad yw yn perthyn i greadur, ond yr hyn a dderbyn oddi wrth ei Greawdwr.

Barn arall, a briodolir i'r fath enwogion hen a diweddar a Philo, Grotius, Bochart, Rosenmüller, a De Wette, ydyw, fod y cerubiaid yn arddangos yn uniongyrchol ac yn gorfforol briodoliaethau anfeidrol y Duwdod. Ymddengys y dyb hon, i raddau, yn agored i'r un gwrthresymau a'r un flaenorol. Buasai y cyfryw gynnrychiolaeth o berffeithiau yr Iehofah yn gefnogaeth i ddelwaddoliaeth. Y mae Fairbairn yn condemnio y cyfeiliornad peryglus hwn; eto, fe ddywed, "mai creaduriaid dychymygol oedd y cerubiaid, yn gosod allan berffeithiau y Duwdod, fel yr amlygid hwynt yn y ffurfiau uchaf o fodolaeth bywiol, ac mewn mwy o berffeithrwydd nag y meddiennid hwynt gan un creadur ag oedd yn hanfodi." "Yr oeddynt," eb efe, "yn *arwyddluniol* (*symbolical*) o briodoleddau uchaf bywyd creadurol (*creature-life*), fel allfynediadau ac amlygiadau o'r bywyd dwyfol; ac yn *gysgodol* o ddynoliaeth wedi ei phrynu a'i gogoneddu," &c. Ar yr egwyddor hon, y mae yn methu rhoddi esboniad cysson ac eglur o'r pedwar peth byw, a'r pedwar henuriaid ar ugain, yn *Dad.* iv. v. Y mae yn gorfod uno a chymmysgu fel un corfi, ddau ddosbarth sydd ar wahân yn y weledigaeth.

Y mae dosbarth arall o ysgrifenwyr cyfrifol yn ystyried y cerubiaid yn ddarluniadol o ragorol briodoleddau anian mewn undeb, fel cyfanwaith y Crëwr. Hyn, mewn sylwedd, yw barn Baehr, Priestley, a Tholuck. Dywed yr olaf, fod "y cerub â gweddwynebau dyn, y llew, y tarw, a'r eryr (yn cydgyssylltu megys ynddo ei hun ddealltwriaeth, mawrhydi, grym, a bywyd anian), yn arwyddlun o nerthoedd anian."

Rhai, fel Dr. Gill, a gredant fod y cerubiaid yn arddangos swyddau, nodweddau, galluoedd, a gweithrediadau gweinidogion y gair. Safant ac addolant, fel gweinidogion Duw, ger bron yr orseddfainc, lle y mae cyflawnder a gras yn ymddysgleirio yn nghadwedigaeth pechadur; syllant yn barhaus ar gynllun mawr iachawdwriaeth, canolbwynt yr hwn yw y drugareddfa; a gweinyddant iddo, gyda bywyd a nerth, yn ngoruchwyliaethau ei ras tuag at ddynolryw.

Ond y farn fwyaf gyffredin ar y pwnc yw, mai darluniadau oedd y cerubiaid o'r holl luoedd angelaidd, fel prif weinidogion llys y Goruchaf, neu ryw ddosbarth neillduol o honynt a wahaniaethir â'r enw hwn: 1 *Pedr* i. 12.

Dichon fod rhyw gymmaint o wirionedd wrth wraidd amryw o'r tybiau hyn, ond eu bod yn gyfyng a naillochrog. Os sylwn yn fanwl ar yr holl bethau a ddywedir yn y Beibl am y cerubiaid, canfyddwn eu bod yn cael eu gosod allan bob amser fel gwasanaethwyr yr Arglwydd mewn sefyllfa ddyrchafedig, a gwasanaeth anrhydeddus a phwysfawr. Gellir eu hystyried fel yn cynnwys yr holl fodau angelaidd, dynol, ac anianyddol, y rhai a ddefnyddia efe yn ei amrywiol oruchwyliaethau rhagluniaethol a grasol. Ac y mae dull eu hymddangosiad, a'u gweithrediad, yn wahanol, yn ol y gwahanol wasanaeth sydd iddynt i'w gyflawnu a'r gwahanol amcanion mewn golwg. Mae holl nerthoedd y greadigaeth yn cyfansoddi cerbyd gorseddawg y Pen llywydd. Y llu angelaidd fry a syllant ar ei ogoniant ef; a chwennychant edrych i mewn i bethau mawrion iachawdwriaeth; ac ehedant fel mellt wrth ei arch ef; ac ydynt gedyrn o nerth i warchod a diogelu ei bobl, ac i dywallt ystormydd tanllyd ei ddigofaint ar ei elynion: "Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawdwriaeth;" *Heb.* i. 14. Dyma "gerbydau Duw" (*Salm* lxviii. 17); "meirch a cherbydau tanllyd," er amddiffyn y cyflawn, a dinystrio eu gwrthwynebwyr (2 *Bren.* vi. 17); a chenadon ewyllysgar ei drugaredd a'i ddigofaint *Dan.* ix. 21; *Dad.* xvi. 1. Y mae teyrnasoedd a llywodraethwyr y ddaiar, pa un bynag ai da ai drwg, yn cael eu gwneyd yn wasanaethgar i Arglwydd y lluoedd yn nghyfundraeth ei ragluniaeth: *Diar.* viii. 15, 16. O herwydd hyn, yn benaf, y gelwir tywysog Tyrus yn "gerub

Digitized by Google

eneiniog yn gorchuddio," &c.; *Ezec.* xxviii. 14. Mae hyd yn oed holl elfenau natur, nid yn unig yn ddarostyngedig iddo, ond yn weinidogaethol i'w amcanion; ac y mae efe yn aml wedi gwneyd defnydd rhyfeddol o honynt. Mae "tân a chenllusg, eira a tharth, a gwynt ystormus, yn gwneuthur ei air ef." A phan y mae nerthoedd anian mewn cynhwrf yn gweini iddo, dywedir ei fod yn marchogaeth ar gerub: "Marchogodd hefyd ar y cerub, ac a ehedodd; ie, efe a ehedodd ar adenydd y gwynt;" *Salm* xviii. 10. Ond yn benaf oll, y mae gweinidogion y gwirionedd dadguddiedig yn oruchwylwyr Duw yn ei lywodraeth foesol, a threfn ei ras cadwedigol. Yn y dosbarth hwn y cyfrifir y patriarchiaid cyn ac wedi y dylif, Moses a'r prophwydi—y rhai a gadwasant yn agos at Dduw yn ei addoliad, a'r rhai oeddynt, yn eu gweinidogaeth, dan ysbrydoliaeth Duw, yn llawn bywyd, goleuni, a nerth. Y cyfryw oedd gweinidogion y Testament Newydd—yr apostolion, y prophwydi, yr efengylwyr, a'r athrawon boreuol, gyda'r holl ddoniau grasol, a'r holl alluoedd gwyrthiol, â pha rai yr oeddynt wedi eu cynnysgaethu gan "Ysbryd y peth byw." A'r cyfryw yw eu gwir ddilynwyr o oes i oes hyd ddiwedd y byd—y llu o dystion sydd wedi selio eu tystiolaeth â'u gwaed; y diwygwyr, y rhai, yn llawn goleuni a gwres, a bregethasant gyflawnder, a dirwest, a'r farn a fydd; y cenadon sydd mewn gwledydd pell yn cyhoeddi efengyl y tangnefedd; a'r lluaws o olygwyr ac athrawon eglwysi sydd yn para i flaenori yn ngwasanaeth yr Arglwydd, ac i dywys y byd at y Cyfryngwr. Dyma y "pedwar peth byw" a welodd Ioan: *Dad.* iv. v.; ac yn nodweddau ardderchog y rhai hyn y ceir y pedwar wyneb, yr adenydd, a'r llygaid, wedi eu sylweddoli. Gan fod yr holl weledigaeth yn gosod allan sefyllfa a chymmeriad yr Eglwys Gristionogol ar y ddaiar, gwelir yr angelion yn dorf aneirif ar wahân, ac oddi amgylch i'r rhai byw a'r henuriaid (*Dad.* v. 11); a'r pedwar peth byw, fel y cerubiaid, y nesaf at yr orsedd oddi eithr yr Oen, yn blaenori yn yr addoliad, ac yn cyduno â'r pedwar henuriaid ar ugain fel cynnrychiolwyr dynion cadwedig, i foli yr Oen am eu "prynu i Dduw trwy ei waed, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl."—(*Calmet's Fragments; Fairbairn's Ezeciel and Typology; Parkhurst's Heb. and Eng. Lex.; Kitto's Hist. of Palestine*, a *Cyc. of Bib. Lit.; Layard's Ninefeh.*)

CERWYN—I, [*car*]: llestr i dderbyn hylif; trwp, llestr darllaw. Y gair Groeg ydyw ληνος, yr hwn a arwydda *ysten* i yfed o honi, neu i ddyfrhau â hi: *Gen.* xxiv. 43. Yn y Testament Newydd, arwydda *winwryf* neu *wingafn;* weithiau, y cafn neu y wasg uchaf, i'r hwn y teflid y grawn, ac y sethrid hwy gan ddynion: *Dad.* xiv. 19, 20; xix. 15. Yr oedd y cafn hwn, weithiau, wedi ei naddu mewn craig, ac agoriad yn agos i'w waelod, trwy yr hwn y llifai y gwlybwr i gafn arall is. Arwydda *lénos*, weithiau, y cafn isaf: *Mat.* xxi. 33; *Marc* xii. 1: a'r Deg a Thrigain, *Diar.* iii. 10; *Ioel* ii. 24. "Ac a'i bwriodd i gerwyn fawr digofaint Duw;" *Dad.* xiv. 19. Y mae yma gyfeiriad, y mae yn debygol, at ymadroddion Esaiah: *pen.* lxiii. 1—6. Y gerwyn ydyw y gwingafn y sethrid y grawn ynddo; a'r llifnodd, tebyg i waed, sydd yn llifo allan, a ellir ei ddefnyddio yn arwyddlun i ddynodi amystr y drygionus. Gan fod y nifer yn ddirfawr, gelwir y gerwyn yn gerwyn *fawr* digofaint Duw. Arferir yr arwyddlun yma gyda chyfeiriad at liw y gwin yn debyg i waed, a'r dirwasgiad sydd yn angenrheidiol i'w gael allan; ac felly, y mae yn un o'r arwyddluniau mwyaf tarawiadol i osod allan ddinystr llwyr y drygionus.

CERYDD—U, [*cer*]: sen, argyhoeddiad, cosp. Y mae yn y Testament Groeg amryw eiriau yn cael eu cyfleithu *cerydd* a *cheryddu;* megys επιτιμια (2 *Cor.* ii. 6); παιδεια (*Heb.* xii. 7, 8, 11. &c.); ελεγξις (2 *Pedr* ii. 16). Y gwahaniaeth rhwng επιτιμαω ac ελεγχω ydyw, y gellir gwneyd y cyntaf, sef ceryddu, heb ddwyn y ceryddedig i'r argyhoeddiad o'i fai, a gynnwysir yn y gair olaf. Y syniad o geryddu neu ddwrdio yn unig sydd yn επιτιμαω, naill ai yn gyflawn, neu yn annheg. Yn yr ystyr yma y "dechreuodd Pedr geryddu" (επιτιμαω) ei Feistr (*Mat.* xvi. 22; *Luc* xviii. 39); ac y "ceryddodd" y lleidr anedifeiriol ei gyddoddefydd (*Luc* xxiii. 40), ond yn aneffeithiol. Ond y mae ελεγχω yn cynnwys argyhoeddiad effeithiol. Arwydda, cau genau y gwrthwynebydd: *Ioan* iii. 20; viii. 9; 1 *Cor.* xiv. 24, 25. Y mae ystyr y gair παιδεια yn eangach na'r naill na'r llall: dynoda weinyddiad o addysg; dysgyblu yr anghyfarwydd trwy athrawiaeth, rhybudd, cerydd, gwobr, &c.

Y mae amryw eiriau Hebreig yn cael eu cyfleithu *cerydd;* megys מוסר (*Deut.* xi. 2; *Diar.* iii. 11), yr hwn a arwydda addysg, hyfforddiant, a dysgyblaeth; yn lled gyfystyr a παιδεια: תוכחת (*Diar.* i. 23), a arwydda sen, argyhoeddiad, dadl: נעורת (*Esa.* xxx. 17; l. 2), a arwydda attal, ffrwyno, a rhwystro.

Wrth geryddu ereill, dylid sylwi ar y rheolau canlynol:—Ni ddylid bod yn rhy frysiog i geryddu henafgwr; ni ddylid ceryddu yn fyrbwyll; dylid cael prawf o'r bai cyn ceryddu am dano; ni ddylid ceryddu am bethau bychain, sef y cyfryw ffaeleddau neu ddiffygion ag a darddant oddi ar wendid naturiol, neu fyrbwylldra; ni ddylid ceryddu yn anamserol, ond yr ydym i ofalu am fod y cerydd yn briodol o ran lle, y pryd, a'r amgylchiadau; dylid gwneyd mewn mwyneidd-dra doethineb, gyda dull a geiriau arafaidd; a dylai y neb a fyno i'w geryddon fod yn effeithiol ymgadw rhag bod yn hoff o geryddu; o blegid nid oes neb yn fwy arfiawdd ei ddyoddef na'r hwn sydd yn ymhyfrydu mewn chwilio beiau ereill.

CESAIL, CESEILIAU: y twll dan y fraich.

Mynych y syrth mefi o gesail. *Diar.*

"A'r pwdr-fratiau hyn, dan dy geseiliau oddi tan y rhaffau" (*Ier.* xxxviii. 12); fel na byddai i'r rhaffau eu briwo a'u harcholli.

CESAIR. Gwel CENLLUSG.

CESAREA. Yn y Testament Newydd y mae dwy ddinas o'r enw hwn. Gelwir un Καισαρεα, heb un gair gwahaniaethol yn gyssylltiedig âg ef; ond gwahaniaethir y llall trwy chwanegiad ἡ Φιλιππου—Cesarea Philippi.

I. Gelwir y gyntaf, er mwyn gwahaniaeth, weithiau Cesarea Palestinæ, neu Palestina. Gorweddai ar lan Môr y Canoldir, rhwng Ioppa a Dora, yn agos i'r terfyn rhwng Galilea a Samaria [*Hen. Iudd.*, xv. 9, 6]. Adnabyddid y lle yn foreuach wrth yr enw Στρατωνος πυργος= *Stratonis turris*=tŵr Strato. Rhydd Josephus yr hanes canlynol am ei hadeiladaeth [*Hen. Iudd.* xv. 9, 6]:—"Pan welodd Herod le ar lan y môr digon eang i gynnwys dinas, efe a ddechreuodd

Digitized by Google

gynllunio un hardd. Adeiladodd leoedd cyfleus iawn i drigolion fyw, ac addurnodd hi âg amryw balasau teg. Y gwaith mwyaf o'r cwbl oedd ei haddurno â phorthladd, yr hwn oedd bob amser yn ddiogel rhag y tonau; yr oedd gymmaint a'r Pyræum yn Athen, ac yn meddu sefyllfa ddyblyg i'r llongau. Yr oedd o wneuthuriad rhagorol, er nad oedd yno ddim defnyddiau ar gyfer y fath adeilad; gorfuwyd cludo y cwbl o fanau ereill. Saif y ddinas yn Phœnicia, ar y ffordd dros y môr i'r Aipht, rhwng Ioppa a Dan, y rhai ydynt ddinasoedd arforawl, ond heb borthladdoedd cyfleus i dderbyn llongau mawrion. Gwnaeth Herod y diffyg hwn i fyny yn Cesarea trwy daflu i'r môr am ugain gwrhyd o ddyfnder feini mawrion hanner can troedfedd o hyd, deunaw o led, a naw o drwch, mwy neu lai. Lled y gronfa hon ydoedd ddau can troedfedd; un hanner a gadwai allan y tonau, ac a elwid Præymacia, neu dorwr cyntaf y tonau; ar yr hanner arall yr oedd mur wedi ei addurno âg amryw dyrau, y mwyaf nodedig o ba rai ydoedd tŵr Drusius. Yr oedd yno nifer mawr o gelloedd bwaog, lle y preswyliai y morwyr, ac o'u blaen yr oedd rhodfa hyfryd o gylch yr holl hafn. Yr oedd y ddyfodfa i mewn i'r porthladd o du y gogledd—lle hollol diogel rhag gwynt a thonau; ac ar y llaw aswy i'r ddyfodfa yr oedd tŵr wedi ei wneuthur yn gadarn iawn i wrthsefyll y tonau mwyaf nerthol, tra ar y llaw ddeheu y safai dwy graig, wedi eu cydgyssylltu, a phob un yn fwy na'r tŵr ar eu cyfer. O amgylch yr hafn yr oedd adeiladau prydferth; ac yn eu mysg, ar uchelfan, deml ardderchog, yr hon a welid o bellder mawr ar y môr. Yr oedd ynddi ddwy ddelw, un o Rufain a'r llall o Cæsar; er mwyn yr hwn y galwyd y ddinas Cesarea.

Yr oedd y celloedd tanddaiarol mor ardderchog a'r adeiladau ar y wyneb. Cyrhaeddai rhai o honynt yn unionsyth o bellder mawr at ymyl y môr; ond gwnaed un yn ŵyrgam i gyssylltu y lleill, fel y byddai i fudreddi y ddinas gael ei gludo ymaith, ac y byddai i'r môr ar amser llanw ddyfod i'r ddinas a'i golchi yn lân. Adeiladodd Herod hefyd chwareudy o geryg; a thu cefn i'r porthladd, chwareudy digon eang i gynnwys miloedd o bobl, ac yn edrych allan i'r môr"

Dar. 180.—CESAREA

Dysgrifia Strabo, yn nheyrnasiad Augustus, y lle yr adeiladwyd y ddinas hon, yn ddim amgen na man cyfleus i dirio, yn nghyd â Thŵr Straton [*Strabo*, xvi. 2]. Ond cyn pen pedwar ugain mlynedd, yr oedd yno ddinas wedi ei chodi, yn meddu rhagorfreintiau pwysig, ac yn "brif ddinas" Iudea, fel yr oedd Antioch i Syria. Y mae Josephus, yn y dyfyniad uchod, yn dysgrifio y gwaith a ddechreuodd ac a gwblhaodd Herod Fawr mewn deuddeng mlynedd. Yr oedd y ddinas hon o ran ei dechreuad a'i henwogrwydd yn gyfoesol â'r hanes a gynnwysir yn yr Efengylau a'r Actau. Er anrhydedd i Augustus Cæsar y cyfnewidiodd Herod ei henw i Cesarea; ac yn fuan, cyrhaeddodd yr enwogrwydd o fod y ddinas bwysicaf yn Palestina (*μεγιστη τῆς Ιουδαιος; Rhyf. Joseph.*, 9, 1). Yma y cyhoeddwyd Vespasian yn ymherawdwr; a gwnaeth y ddinas yn drefedigaeth Rufeinig, gan ei henwogi â'r anrhydedd chwanegol o gael ei galw ar ei enw ei hun.[1]

Cyn dinystr Ierusalem, gwnaethpwyd hi yn eisteddle y rhaglaw Rhufeinaidd: *Act.* xxiii. 23, 33; xxv. 1, 6. Crybwyllir am y lle fel cartref Cornelius (*Act.* x. 1, 23, 24); a'r efengylwr Phylip (*Act.* viii. 40; xxi. 8). Yma y bu farw Herod Agrippa (*Act.* xii. 19—23; *Hen. Jos.*, xix. 8, 2). Bu Paul yma amryw weithiau (*Act.* ix. 30; xviii. 22; xxi. 8); yn y lle hwn hefyd y traddodwyd ef i Felix (*Act.* xxiii. 23, 24), ac y cadwyd ef yn y carchar am ddwy flynedd (*Act.* xxiv. 27). Cyffro a gyfododd yn mysg y trigolion, y rhai oedd yn gynnwysedig o Iuddewon a phaganiaid, dros eu hiawnderau, oedd yr achlysur o'r rhyfel Iuddewig a ddybenodd yn ninystr

[1] "Stratonis turris, eadem Cæsarea, ab Herode rege condita: nunc colonia prima Flavia, a Vespasiano Imperatore deducta."—*Plin. H. N.*, v. 14.

Digitized by Google

Ierusalem. (*Hen. Iudd.*, xx. 8, 7; *Bywyd Jos.*, 11; *Rhyf. Iudd.*, ii. 13, 7; 14, 4.) Ar ol dinystr Ierusalem, daeth Cesarea yn brif ddinas Palestina [*hæc Judææ caput est*=pen Iudea; *Tacit. Hist.*, ii. 79], ac eisteddle esgobaeth [*Robinson's Palestine*, ii. adr. 221]; yn mhlith esgobion pa un yr oedd Eusebius, yr hwn sydd mor adnabyddus fel hanesydd eglwysig. Treuliodd Origen — un o ddysgawdwyr enwocaf yr eglwys—ran o'i amser yn ei efrydiau duwinyddol yn y ddinas hon.

Diau yr hoffa llawer gael yr hanesyn canlynol o Eusebius am Cesarea. "Torwyd pen Merinus am broffesu Crist dan yr amgylchiadau canlynol:—yr oedd wedi cyrhaedd cymmaint o ddylanwad fel milwr fel ag i beri iddo ymgais am urdd y winwydden; a phan oedd ar gael ei osod yn ei swydd fel canwriad, daeth un arall ydoedd am y swydd yn mlaen, a dywedodd, nad cyfreithlawn i Merinus gael y swydd gan ei fod yn Gristion. Gofynodd y barnwr i Merinus beth ydoedd ei farn; a phan ddeallodd ei fod yn Gristion, rhoddodd iddo dair awr i ystyried. Wrth fyned allan o'r llys, cyfarfu â Theotecnus, esgob y ddinas, yr hwn a'i cymmerodd o'r neilldu, gan ei arwain i'r eglwys. Wedi ei osod wrth yr allor symmudodd gwr ei fantell, a dangosodd iddo y cleddyf â pha un yr oedd wedi ei wregysu, ac hefyd gopi o'r Efengylau, gan beri iddo ddewis yr un a fynai. Wedi i Merinus gymmeryd y llyfr sanctaidd, heb ddim petrusder, dywedodd yr esgob wrtho, "Glŷn wrth Dduw, ac yn ei nerth ef cei yr hyn a ewyllysi. Pan ddychwelodd yn ol galwodd y criwr fod yr amser ar ben; ac wedi iddo broffesu ei ymlyniad wrth Grist, llusgwyd ef i'r dienyddle." — *Hanes yr Eglwys.* Dywed Eusebius hefyd i dri o ddynion duwiol iawn gael eu merthyru yn Cesarea dan Valerian: yr oeddynt wedi dyfod yno o'r wlad, gan eu hawydd i ddyoddef dros Grist. Er mor hynod oedd mawredd a gwychder Cesarea gynt, nid yw ei hiseldder presennol yn llai hynod. Sylwai Dr. E. Clarke, fod yn debyg na chododd un ddinas i gymmaint o fri mewn can lleied o amser, nac yn arddangos cymmaint o wrthdarawiad yn bresennol i'w mawredd blaenorol. Mae ei phalasau teg yn drigfa dreigiau, a'i holl leoedd dymunol yn cael eu cyfanneddu gan greaduriaid rheibus, y rhai a derfir yn awr a phryd arall gan ryw deithiwr cywrain o Ewrop, neu Arabiad crwydredig o'r anialwch. Synwyd yr enwog Lamartine yn fawr gan orwychder ac unigrwydd adfeilion Cesarea. Yn tudal. 298 o hanes ei deithiau, dywed, "Neidiodd tri *jackall* allan o ganol yr adfeilion, y rhai a ŵnient yn wag o dan draed ein ceffylau. Aethom i chwilio am y ffynnon oedd wedi ei dysgriflo i ni; ac wedi cryn drafferth cawsom hi yn y rhan ddwyreiniol ar adfeilion y lle y gosodasom ein pabell. Yn y prydnawn, daeth yno Arabiad ieuanc ar gefn asyn, yn hollol noeth, â rhifedi mawr o ddefaid, gwartheg, a geifr. Bu ddwy awr yn tynu dwfr iddynt, tra yr ymddangosai pob un yn amyneddgar i ddysgwyl ei dro, ac elent ymaith ar ol yfed digon. Dywedodd wrthym mai anifeiliaid ei lwyth oeddynt, y rhai oeddynt yn y mynyddoedd, a'i fod yn dyfod â hwy chwe milltir bob dydd i'r dwfr. Hwn oedd yr unig ddyn a welsom yn y ddinas, i'r hon y casglodd Herod Fawr holl ryfeddodau Groeg a Rhufain, a'r hon oedd yn meddu ar borthladd digon eang i gynnwys holl longau Syria."

2. CESAREA PHILIPPI: tref ar odre mynydd Hermon, a elwid gynt Dan, neu o leiaf a safai yn agos i'r fan yr oedd Dan gynt wedi ei hadeiladu arno. Yr oedd ar derfyn eithaf gwlad Israel tua'r gogledd. Gelwid hi gynt gan y Groegiaid Paneas; ac yn bresennol ei henw yw Banias—llygriad o'r hen enw gynt. Y mae fel y rhan fwyaf o leoedd wedi myned trwy amryw gyfnewidiadau. Yn amser Crist, adgyweiriwyd hi gan Phylip brawd Herod, yr hwn a'i galwodd Cesarea o barch i Augustus, ac a chwanegodd Philippi o barch iddo ei hun, yn gystal ag er mwyn ei gwahaniaethu oddi wrth Cesarea Stratonis, yr hon a addurnasai Herod. Fel hyn y gelwid hi yn nyddiau Crist. Ar ol hyn galwyd hi Neronias gan Agrippa. Yn amser dinystr Ierusalem dygwyd llawer iawn o Iuddewon yno gan Titus, lle y gorfuwyd hwy i ymladd â'u gilydd ac âg anifeiliaid gwylltion, trwy yr hyn y bu feirw llawer o honynt. Y mae rhai bathau â Cesarea Paneas yn argraffedig arnynt ar gael eto. Yn y pedwerydd canrif, yr oedd yno esgob dan batriarch Antiochia. Yr oedd ei hesgob, Philocalus, yn Nghymmanfa Nice, B. A. 325; ac Olympus yn Nghymmanfa Calcedon, B. A. 421. Gelwid y ddinas wrth ei henw cyntaf, Paneas, yn nyddiau Eusebius a Jerome. Nid yw yn bresennol ond pentref bychan, yn cynnwys tua 150 o dai, y rhai a breswylir gan Tyrciaid yn benaf, er fod yno Roegiaid, Druses, ac Arabiaid. Saif ar aber y Banias a'r Iorddonen, ac o'r tu cefn iddi y mae y mynyddoedd, o ba rai y tardd y Banias. Mae yr afon yn tarddu o ogof, lle y mae llawer o gerfiadau Groegaidd, ond yn hollol annealladwŷ yn bresennol.

Mae yno hefyd olion delwau, un o ba rai oedd yn debygol yn dynodi y duw Pan. Dywed Josephus fod rhai yn barnu mai ger llaw Cesarea yr oedd tarddiad yr Iorddonen; ond barnai ef ei bod yn dyfod yno trwy ffordd ddirgel o lyn Pheala; ond dywed teithwyr diweddar fod tarddiad yr Iorddonen yn mhellach fyth oddi wrth y Môr Du. Mae pont dda ger llaw y pentref, ac ychydig olion yr hen dref yr ochr arall i'r afon. Nid oes yno ddim muriau, er fod yno lawer o geryg, a rhai colofnau. Y mae olion hen gastell yr ochr ddeheuol i'r pentref, ac ysgrifen yn dangos ei fod wedi ei adeiladu yn y trydydd canrif ar ddeg. Mae yr olygfa o gwmpas yn ogoneddus, a'r wlad oddi amgylch yn wrteithiedig a ffrwythlawn, er, mae yn debyg nad yw yn deilwng i'w chymharu â'r amser pan oedd Josephus yn llawenychu yn mhrydferthwch y wlad a gogoniant y ddinas. Mae Eusebius yn adrodd rhai pethau difyr iawn am y lle hwn. Dywedir fod yn arferiad ar ryw ŵyl benodol i daflu aberth i'r ffynnonau, o ba rai y tardd yr Iorddonen, ar droed mynydd Paneas. Trwy ddylanwad y diafol, yr oedd yn myned o'r golwg ar unwaith, yr hon wyrth a dynai sylw neilldduol. Dygwyddodd Astyrius fod ar ryw dro yn bresennol; ac wrth ganfod y bobl yn cael eu synu gymmaint gan yr olygfa, efe a dosturiodd wrth eu camsyniadau. Efe a gododd ei lygaid i'r nef, ac a erfyniodd ar y Duw goruchel, trwy Iesu Grist, am geryddu y diafol, yr hwn ydoedd yn twyllo y bobl, a gorchymyn iddo beidio. Dywedir i'r aberth noflo mor fuan ag y gweddiodd; ac na wnaed gwyrth mwyach yn y fan hono.

"Yno y prêswyliai y wraig â'r dyferlif gwaed, yr hon a wellhaodd Crist; a gellir gweled ei thŷ yn bresennol: ger llaw y porth, o flaen drws ei thŷ, y mae colofn o faen, ac ar y golofn lun gwraig wedi ei wneyd o bres, ar ei gliniau, ac yn codi ei dwylaw fel un yn ymbil. Ar yr ochr arall safai llun dyn, o'r un defnydd. ac yn estyn

Digitized by Google

ei law tuag at y wraig. Wrth ei draed y tyfai math o lysieuyn dyeithr, ac i fyny trwy ei wisg, ac yna yr oedd yn effeithiol i symmud pob math o glefydau. Dywedir mai delw ein Iachawdwr ydoedd hon. Safodd hyd ein hoes ni, ac aethym vno fy hun i gael golwg arni. Nid oes achos i ni synu fod y Cenedloedd, ar ol derbyn lles trwy Grist, yn gwneuthur pethau fel hyn iddo, yn gymmaint a'u bod yn canfod darluniau o Pedr a Phaul, yn gystal a Christ ei hun, wedi eu tynu mewn lliwiau, a'u cadw hyd ein dyddiau ni."—(*Euseb. Eccl. Hist.*, llyfr vii. pen. 17, 18.)

CESIS: enw dyffryn, a thref efallai, yn nhirlogaethau llwyth Beniamin: *Ios.* xviii. 21.

CETURAH, [*arogldarth*=Deg a Thrigain, Κετουρα]: ail wraig, neu, fel y gelwir hi yn 1 *Cron.* i. 32, "gordderchwraig" Abraham; o'r hon y bu iddo chwech o feibion—Zimran, Iocsan, Medan, Midian, Isbac, a Suah; y rhai y bu fyw i'w gweled wedi tyfu i oedran gwŷr: ac efe a'u hanfonodd hwynt i fyw i'r dwyrain, fel na flinent Isaac: *Gen.* xxv. 1—6. Gan fod Abraham yn gan mlwydd oed pan anwyd Isaac, yr hwn a roddwyd iddo trwy addewid neillduol Duw, pan oedd "cystal a marw" (*Heb.* xi. 12), gan ei fod yn 140 mlwydd oed pan fu farw Sarah, a chan iddo ef ei hun farw yn yr oedran o 175 mlwydd—tybir ei fod yn bur annhebyg fod y chwech mab hyn wedi eu geni i Abraham o un wraig ar ol iddo gyrhaedd 140 mlwydd oed, a'i fod wedi eu gweled hwynt oll wedi tyfu i oedran gwŷr, a'u hanfon i ffurfio sefydliadau annibynol yn y tymmor olaf a gwanaidd hwnw ar ei fywyd. Os ganwyd Isaac iddo yn groes i drefn natur, pan oedd yn 100 mlwydd oed, pa fodd y ganwyd chwech o feibion iddo yn ol trefn natur ar ol iddo gyrhaedd 140? Gan hyny, casglwyd, gan esbonwyr da, gan y gelwir Ceturah yn "ordderchwraig" i Abraham yn Llyfr y Cronicl, a chan ei bod yn debygol ei bod hi ac Agar yn cael eu dynodi fel ei "ordderchwragedd" yn *Gen.* xxv. 6, fod Abraham wedi cymmeryd Ceturah fel ail "ordderchwraig" cyn marwolaeth Sarah, er fod yr hanesydd yn crybwyll am y ffaith ar ol y dygwyddiad hwnw, fel nad attelid ei brif adroddiad. Yn ol y safon o foesoldeb a gydnabyddid y pryd hwnw, gallasai Abraham, gyda llawn cymmaint o briododdeb, gymmeryd Ceturah cyn ag ar ol marwolaeth Sarah; ac nis gellir cael un rheswm i brofi nas gallasai wneyd felly, neu i brofi y dylasai aros hyd hyny. Y mae yr eglurhâd hwn yn symmud llawer o anhawsderau; ac nid oes dim yn afresymol ynddo.

CEUDOD—AU, [*cau*]: gwagle, ceuedd, rhan fewnol anifel. "Ceudawd afal;" *h. y.*, y tu fewn i afal. Arwydda hefyd y meddwl, neu y galon; fel yn y ddiareb Gymreig—

Pe dywetai dafawd a wypai ceudawd, ni byddai gymmydawg neb rhai.

Num. xxv. 8; *Salm* v. 9; *Esa.* li. 1.

CEUFFOS—YDD, [*cau—ffos*]: ffos ddofn, agen. "Bwrier hwynt i'r tân, ac mewn *ceuffosydd*, fel na chyfodant" (*Salm* cxl. 10):—Seis., *deep pits*:—Hengstenberg, *water floods*. "Cyffelybir barn Duw yma i dân (Seis., *burning coals*), mewn cyfeiriad at ddinystr dinasoedd y gwastadedd. Ac fel yr oedd yn y dylif, ffenestri y nefoedd wedi agor, a ffynnonau y dyfnder mawr wedi ymrwygo, felly y mae yma; nid yn unig y mae marwor yn syrthio arnynt oddi uchod, ond y maent hwythau yn cael eu bwrw i'r tân obry; y mae nef ac uffern, digofaint Duw y Barnwr, a malais Satan, y poenwr, yn cyduno i'w gwneyd yn druenus."—*M. Henry.*

CEULO, [*caul*]: cawsio, tewychu. "Y dyfnderau a *geulasant* yn nghanol y môr" (*Exod.* xv. 8): Seis., *congeal.* Yr oedd y gwaelodion oedd o'r blaen yn feddal a lleidiog, yn awr wedi caledu fel pe buasent wedi rhewi, fel ag i fod yn gysurus i gerdded drosto. Y mae preswylwyr Ierusalem yn cael eu cyffelybu i ddynion "yn ceulo ar eu sorod"—fel gwin ar ei waddod, yn llonydd a digyffro; felly, gan eu bod hwythau heb weled ond ychydig o gyfnewidiadau, gorphwysent mewn diofalwch, heb ofni dim. "Dywedent yn eu calon, Ni wna yr Arglwydd dda, ac ni wna ddrwg." Y mae dysgrifiad Ieremiah (xlviii. 11) o Moab yn dra thebyg;—"Moab a fu esmwyth arni er ei hieuenctyd, a hi a orphwysodd ar ei gwaddod, ac ni thywalltwyd hi o lestr i lestr:" *Seph.* i. 12.

CHALMERS, THOMAS. Nid oes un duwinydd er amser y Diwygiad Protestanaidd wedi dylanwadu mor gyffredinol ac mor ddwys ar genedl ac eglwys yr Alban a'r dyn enwog hwn. Ganwyd ef yn Aristruther, yn swydd Fife, yr 17eg o Fawrth, 1780, o rieni parchus a duwiol, ond nid cyfoethog. Ar ol derbyn elfenau dysgeidiaeth yn ysgol y plwyf, aeth i goleg St. Andrews pan yn 12 oed; ac yno, fe roddes amlygiad o'i awyddfryd cryf at y gwyddorion anianyddol, yr hwn a feithrinai fwy neu lai trwy ei oes. Wedi cyflawnu ei gylch duwinyddol, cafodd drwydded i bregethu yn Eglwys Sefydledig Scotland pan yn 19eg oed—dwy flynedd dan yr oed penodedig gan y gyfraith—o herwydd ei fod yn "fachgen o gynneddfau toreithiog." Ond yn lle dechreu ar ddyledswyddau ei swydd gyssegredig, treuliodd y ddau auaf canlynol yn Mhrifysgol Edinburgh, yn gwrandaw ar ddarlithiau Stewart, Playfair, Robinson, a Hope. Ni osodai ddim gwerth y pryd hwn ar weinidogaeth yr efengyl, ond yn unig fel moddion i'w hyrwyddo i gyrhaedd sefyllfa o athraw yn y brifysgol. Wedi bod yn pregethu am flwyddyn yn Cavers fel cynnorthwywr, rhoddodd i fyny ei le yno am un mwy cydnaws â'i archwaeth, sef i fod yn athraw cynnorthwyol y celfyddydau rhif a mesur yn St. Andrews. Yr oedd ei lwyddiant yn y sefyllfa hon mor fawr, fel y rhoddodd y coleg iddo blwyf Kilmany, ac ordeiniwyd ef yn weinidog iddo, Mai 12, 1803. Cymmaint islaw yn ei fryd y pryd hwn oedd dyledswyddau ei swydd weinidogaethol i ymchwiliadau gwyddorawl, a ymddengys oddi wrth y ffaith iddo dreulio dau auaf yn St. Andrews yn darlithio ar feintoniaeth a fferylliaeth trwy yr wythnos, gan ddychwelyd i'w blwyf ar ddydd Sadwrn, a chan ei adael eilwaith yn fore ddydd Llun. Ond yn unol â'r syniadau oedd yn ffynu y pryd hwnw yn gyffredinol trwy Scotland, am grefydd a'i phwysigrwydd, yr oedd hyn yn hytrach yn gymmeradwyaeth iddo nag yn rhwystr. Yn 1805, gwnaeth ymdrech i sicrhau y swydd o athraw meintoniaeth, yr hon oedd ar y pryd yn wag; ond bu yn aflwyddiannus. Yr oedd ei bregethau yr adeg hon o'i fywyd yn hyawdl, ond yn hollol amddifaid o ysbryd ac athrawiaethau neillduol yr efengyl: o ran cynnwysiad, ni wahaniaethent nemawr oddi wrth y moesoldeb anffyddol oedd yn ffynu dan yr enw crefydd, yn ac allan o'r eglwys. Yr oedd

Digitized by Google

ei holl gymmeriad yn ei arwain i osod gwerth mawr ar y rhinweddau sydd yn prydferthu y ddynoliaeth; sef, uniondeb diwyrni, ymroddiad penderfynol, eiddigedd dros gyfiawnder, gwirionedd, a dynoliaeth, a gwrthwynebiad dirmygus i bob peth tebyg i dwyll a rhagrith. Yn nechreu y canrif, pan yr oedd dyfodiad Napoleon i Brydain yn cael ei fygwth, fflamiai ei bregethau o wladgarwch ac eiddigedd yn erbyn yr archelyn. Meddyliai am gasglu catrawd o ewyllysgaryddion (*volunteers*) yn ei erbyn; ac ar yr un pryd, yr oedd am i'w efrydiau fod yn wasanaethgar i'w wlad. Gwnaeth ymchwiliadau i allu ac ymadferthoedd y deyrnas, a chyhoeddodd draethawd ar hyny [*Inquiry into the Extent and Stability of National Resources*, Edinburgh, 1808] —ei ymgais cyntaf at egluro egwyddorion gwladeiddiol. Tra yn parotoi argraffiad newydd o'r gwaith hwn, cyfarfu âg amryw golledion teuluaidd; a daliwyd ef gan aflechyd personol, yr hwu a'i dygodd i fin y bedd, ac a'i hanalluogodd i gyflawnu ei ddyledswyddau cyhoeddus am o ddeutu blwyddyn. Yn y cyfamser, profodd gyfnewidiad trwyadl, yr hwn a roddodd gyfeiriad newydd i'w holl fywyd:—yn lle edrych ar grefydd yn ail beth, o hyn allan yr oedd ei phwysigrwydd hi yn llyncu pob peth arall iddi ei hun. Yr oedd Dr. Brewster wedi ei wahodd i ysgrifenu i'r *Edinburgh Encyclopædia;* ac ar ei gais ei hun, rhoddwyd iddo yr erthygl CRISTIONOGAETH i'w pharotoi, yr hyn a wnaeth ar yr adeg dan sylw. Wrth astudio proflon Cristionogaeth, cafodd olygiadau newydd am ei chynnwysiad; ac wrth geisio byw yn gydffurf â moesoldeb pur ac uchel efengyl Crist, ac er hyny yn methu, dygwyd ef, yn y teimlad o'i anallu, at y Ceidwad; yr hyn a fu yn achos o'r cyfnewidiad mawr ysbrydol yr hwn a ddysgrifia mor eglur yn ei natur a'i effeithiau yn ei ddyddlyfr a'i lythyrau. Pan ddechreuodd ar ei ddyledswyddau gweinidogaethol eilwaith, yr oedd yn amlwg i bawb fod cyfnewidiad hollol yn ei olygiadau a'i deimladau. Yn fuan, aeth y son am ei hyawdledd a'i ddifrifoldeb fel pregethwr, a'i ddiwydrwydd mewn ymweliadau teuluaidd, dros derfynau ei blwyf ei hun. Cyhoeddwyd ei erthygl ar Gristionogaeth yn draethawd annibynol, yr hyn a chwanegodd yn fawr at ei glod fel awdwr. Gwnaed ymdrechiadau mawr yn fuan i gael ei wasanaeth i leoedd mwy poblog a phwysig; ac ar ol arosiad o ddeuddeng mlynedd yn Kilmany, symmudodd i Glasgow. Ond mor gryf a phenderfynol oedd y gwrthwynebiad y pryd hwnw i athrawiaethau efengylaidd, fel mai trwy ymdrech dirfawr y llwyddodd ei gyfeillion i sicrhau ei etholiad gan y swyddogion dinesig (*town council*), yn llaw y rhai yr oedd yr awdurdod. Yn Mehefin, 1815, gosodwyd ef yn weinidog y Tron Church a'r plwyf. Ar unwaith, amgylchynwyd ef â phoblogrwydd yn mron heb ei ail fel pregethwr. Yn 1817, cyhoeddwyd cyfres o bregethau a bregethodd ar y cyssylltiad rhwng darganfyddiadau seryddol a'r dadguddiad dwyfol, y rhai a gawsant dderbyniad mwy awchus a lledaeniad mwy cyffredinol nag a gafodd un gyfres arall o bregethau erioed. O fewn blwyddyn, yr oedd naw argraffiad o honynt allan. Yn fuan wedi cyhoeddiad y pregethau hyn y gwahoddwyd ef i Lundain, i bregethu ar ryw achlysuron cyhoeddus. Yr oedd y tyrfaoedd a ymgyrchent i'w wrando yn anferth, a'r ganmoliaeth iddo yn uchel a chyffredinol, fel mai o'r braidd y ceir yn hanes y pulpud fod neb wedi peri cyffro mor fawr. "Y mae yr holl fyd," ysgrifenai Wilberforce, "yn wallgof yn nghylch Dr. Chalmers." Ni leihaodd ei boblogrwydd ddim yn ystod yr wyth mlynedd yr arosodd yn Glasgow.

Ond nid oedd ei barotoadau ar gyfer y pulpud ond rhan bychan o'i waith. Wrth ymweled â'i blwyf, yr hwn a gynnwysai 11,000 o eneidiau, canfyddodd nad oedd ond tua'r drydedd ran yn mynychu un lle o addoliad, a bod y plant yn cael eu gadael i dyfu i fyny mewn anwybodaeth a drygioni. Ar unwaith, meddiannwyd ef gan y teimlad dwysaf o dosturi drostynt; a rhag llaw, hyd ddiwedd ei oes, dyrchafu y cyfryw, yn dymmorol ac yn ysbrydol, oedd un o brif amcanion ei fywyd. Priodolai ef yr holl drueni oedd yn cynnyddu mor ddirfawr yn Glasgow, a threfydd mawrion ereill, i absennoldeb ysgolion ac eglwysydd yn gyfatebol i'r boblogaeth. Wrth gymmeryd ei blwyf ei hun yn anghraifft, gwnaeth yn gyhoeddus mai ei farn ef oedd, y dylid, yn ddioedi, adeiladu ugain o eglwysydd newyddion yn Glasgow. Ond y cwbl a allai berswadio y *town council* i ymgymmeryd âg ef oedd adeiladu un eglwys, i'r hon y chwanegwyd plwyf yn cynnwys 10,000 o drigolion. Cynnygiwyd yr eglwys hon i Chalmers ei hun, er mwyn rhoddi mantais iddo i osod ei wahanol gynlluniau mewn gweithrediad. Derbyniodd hi; ac yn Medi, 1819, derbyniwyd ef yn weinidog plwyf ac Eglwys St. John. Yr oedd y boblogaeth yn gynnwysedig yn benaf o wehyddion, a llaw-weithwyr ereill. Yr oedd y lluaws plant yn hollol amddifaid o addysg ddyddiol a Sabbathol. Yr oedd 800 o deuluoedd, allan o 2,000, yn absennoli eu hunain yn hollol o bob lle o addoliad. Yn ei blwyf presennol, fel yn yr un blaenorol, cyfeiriai Chalmers ei ofal a'i ymdrechiadau yn gyntaf at y plant. Sicrhaodd ddau ysgoldy dyddiol, a phedwar o ysgolfeistriaid, gyda gwaddoliad o 25*p.* yr un yn flyneddol; a thrwy hyn, ac arian chwarterol y plant, yr hyn oedd yn 2*s.* neu 3*s.* y chwarter, yr oedd addysg dda yn cael ei gweinyddu i 700 o blant. Heb law hyn, rhoddwyd addysg Sabbathol i dros 1,000 o'r plant tlotaf. Dosbarthodd y plwyf i bump ar ugain o ddosbarthiadau, yn cynnwys o 60 i 100 o deuluoedd, ac ar bob un gosodwyd henadur a diacon; y cyntaf i ofalu am eu sefyllfa ysbrydol, a'r olaf am eu hamgylchiadau bydol. Cymmerai Chalmers arolygiad y cwbl; ac nid hyny yn unig, ymwelai yn bersonol â'r holl deuluoedd, gan gyflawnu ei gylch trwy yr holl blwyf mewn dwy flynedd. Cynnaliai gyfarfodydd wythnosol i gyfarch y rhai y buasai yn ymddyddan â hwynt yn nghorff yr wythnos. Fel hyn fe ennillwyd llawer i fod yn gysson mewn moddion gras ar y Sabbath, a dygwyd llawer dan ddylanwad parhaus gwirioneddau yr efengyl.

Prif reswm Dr. Chalmers yn ymgymmeryd â phlwyf newydd St. John oedd, er mwyn rhoi prawf ar effeithioldeb yr hen ddull yn Scotland o gynnal y tlawd. Nid oedd ond ychydig o blwyfydd trwy yr holl wlad yn mha rai yr oedd treth orfodol yn cael ei chodi er cynnaliaeth y tlawd, fel yn Nghymru a Lloegr. Ond yr oedd y dull o godi treth yn ymledaenu yn brysur dros y siroedd agosaf i Loegr. Edrychai Dr. Chalmers ar hyn yn drychineb tost i gyfarfod ei wlad. Ar ol astudio gweithrediad treth orfodol yn ei hegwyddorion a'i chanlyniadau, yr oedd yn llwyr argyhoeddedig fod y dull hwnw o gynnorthwyo y tlawd yn chwanegu y drwg y bwriadwyd ef i'w leihau. Yr oedd ef o'r farn fod y dreth orfodol yn sylfaenedig ar egwyddor gyfeiliornus, sef fod

Digitized by Google

gan y tlodion hawl i gynnaliaeth. Yr oedd Dr. Chalmers yn gwadu hyn; ac o ganlyniad nid oedd am i'r hyn oedd yn waith cariad ac ewyllys da, sef cynnal y tlodion, gael ei droi yn hawl gyfreithiol iddynt hwy. Dadleuai ef mai difodi y rhinwedd o gymmwynasgarwch y mae cyfraith i orfodi dynion i gyfranu o'u heiddo. Tra y mae yn wirfoddol yn unig y mae yn rhinwedd. Heb law hyny, y mae y Creawdwr wedi planu digon o gydymdeimlad yn mynwesau dynion at eu gilydd i'w cymhell i gynnorthwyo eu gilydd yn mhob amgylchiad angenrheidiol, heb i hyny gael ei orfodi trwy ddeddf. Yr hen ddull sectarïdd oedd, trwy gyfraniadau gwirfoddol wrth ddiws yr eglwys. Dadleuid yn erbyn Chalmers, fod y dull hwnw yn burion mewn plwyfydd gwledig, ond yn hollol anghyfaddas mewn trefydd mawrion, lle y mae cynnifer o dlodion. Gofynai Dr. Chalmers i ynadon Glasgow i ymddiried holl dlodion plwyf St. John i'w ddwylaw ef, ac yr ymrwymai i brofi nad oedd dim grym yn yr wrthddadl. Caniatawyd iddo wneuthur y prawf. Yn nechreuad ei weithrediadau yr oedd tlodion y plwyf hwnw yn costio i'r ddinas 1,400*p.* yn flyneddol. Yr oedd diacon pob dosbarth i chwilio i mewn deilyngdod pob achos a ddygid ger bron; a chan nad oedd nifer y teuluoedd dan ei ofal ddim yn fawr, yn fuan yr oedd amgylchiadau yr oll o honynt yn adnabyddus iddo. Trwy chwilio yn ofalus i bob achwyniad o dlodi; trwy wrthod pob cymhorth i'r diog, y meddw, a'r diwerth; trwy symbylu y tlawd i fod yn weithgar eu hunain, a phan yn angenrheidiol estyn ychydig o gymhorth iddynt; yr oedd achwyniadau lluaws mawr yn cael eu cyfarfod heb eu rhoi i bwyso ar y casgliadau gwirfoddol wrth ddrws yr eglwys. Ond y cyfryw oedd effaith y prawf a wnaed, fel, mewn pedair blynedd, yr oedd y treuliadau i'r tlodion wedi eu lleihau o 1,400*p.* i 280*p.* yn flyneddol. Yr oedd nifer o lëygwyr Cristionogol yn ei gynnorthwyo yn egniol yn ei ymdrechiadau; felly nid oedd ryfedd i'r cynllun lwyddo yn y fath ddwylaw. Ond er ei fod ef yn ei weithio yn egniol ei hun, ac er iddo gyhoeddi gwaith a ddaeth allan yn chwarterol [*The Christian and Civic Economy of large Towns*] i egluro, i argymhell, ac i amddiffyn ei egwyddorion a'i gynlluniau, ni fabwysiadwyd hwynt mewn un plwyf arall; ac er y flwyddyn 1837 nid ydynt mewn gweithrediad yn St. John ychwaith.

Ond o'r diwedd, yr oedd ei lafur mawr yn ei blwyf, yn gystal a'i barotoadau ar gyfer y pulpud, yn dechreu gwisgo allan ei nerth, ac yr ydoedd yn dechreu awyddu am sefyllfa athrofaol, yn yr hon y gallai ymroddi yn hollol i'w efrydiau, ac i barotoi dynion ieuainc i ganlyn ei esampl fel gweinidog ffyddlawn ac ymroddgar. Yn y cyfamser yr oedd eisieu dysgawdwr, neu gadeirdraw, i lenwi cadair athroniaeth foesol yn St. Andrews, yr hon a gynnygiwyd iddo ef. Y cynnygiad hwn —y seithfed o'r cyffelyb a wnaed iddo yn ystod yr wyth mlynedd y bu yn Glasgow—a dderbyniodd; ac fe ddechreuodd ar ddyledswyddau ei swydd, Tachwedd, 1823, ac a gyflwynodd iddynt y pedair blynedd canlynol. Torodd Dr. Chalmers dros yr hen derfynau yn y sefyllfa newydd hon eto. Yn flaenorol i'w amser ef, arfer dysgawdwyr athroniaeth foesol oedd uno uchanianaeth a moesddysg yn eu darlithiau, gan gyfeirio mor anfynych ag y gallent at athrawiaethau neillduol Cristionogaeth. Ond ystyriai Chalmers uchanianaeth, neu athroniaeth feddyliol, fel yn perthyn i ddosbarth arall; a chyfyngai ef ei hun at athroniaeth moesau a duwinyddiaeth naturiol, gan ymdrin yn helaeth ar ddyledswyddau dynion at Dduw, yn gystal ag at eu gilydd. Un amcan penodol hefyd a gadwai mewn golwg trwy ei ddarlithiau oedd, dangos annigonoldeb duwinyddiaeth naturiol i bob dyben ond i fod yn rhagflaenor i Gristionogaeth. Yr oedd ei ddylanwad yn fawr yn St. Andrews i ddeffro ysbryd crefydd yn mysg yr efrydwyr, trwy gyfeiriadau at Gristionogaeth yn ei ddarlithiau, a thrwy ei esampl ennillgar, fel y bu i lawer o honynt—ac yn eu plith rai sydd wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr —gyflwyno eu hunain i'r gwaith cenadol.

Yn Tachwedd, 1828, newidiodd Chalmers ei le yn St. Andrews am y gadair dduwinyddol yn Mhrifysgol Edinburgh, lle y cafodd gyfle i osod mewn gweithrediad ei syniadau o barth i'r dull goreu o ddwyn yn mlaen addysg athrofaol. Yn chwanegol at yr hen arfer o draddodi darlithiau; wedi eu parotoi yn flaenorol, i'r efrydwyr, holai hwynt ar y materion a gynnwysai y darlithiau; a defnyddiai hefyd lyfrau, y rhai a ddysgwyliai i'r efrydwyr eu hastudio gartref, ac ar ba rai y gwnai ef ei hun sylwadau, neu y traddodai ddarlithiau. Felly y cyfansoddodd ei ddarlithiau ar Butler a Paley. Yn y modd hwn yr ymdrechodd i uno y dull Seisoneg, sef o addysg personol, a'r dull Scotaidd, trwy ddarlithiau, â'u gilydd. Y mae llawer o ddysgawdwyr athrofaol wedi bod yn meddu ar eangach a dyfnach gwybodaeth, ac yn gallu arwain eu hefrydwyr i gyrhaeddiadau uwch mewn dysgeidiaeth ac athroniaeth, ond ni ragorodd neb erioed ar Dr. Chalmers yn ei allu i drosglwyddo ei frwdfrydedd angerddol ei hun i galonau y dynion ieuainc aiddgar a amgylchynent ei gadair. Ac i'r ysbryd a ddeffrodd efe yn meddyliau gweinidogion ieuainc Scotland, y mae yn rhaid priodoli, i fesur mawr, y rhwyg a wnaed yn Eglwys Sefydledig Scotland, yn nghyd â sylfaeniad yr Eglwys Rydd.

Ar ol ymadael o Glasgow, parhaodd i argymhell trwy y wasg bwysigrwydd yr egwyddorion a'r cynlluniau a osodasai mewn gweithrediad tra y bu yno; ac yn 1826 daeth allan y drydedd gyfrol o'r *Christian and Civic Economy of large Towns.* Yn 1827, daeth allan o'i eiddo yr amddiffyniad— y goreu yn yr iaith—o waddoliadau i ddybenion crefydd a dysgeidiaeth [*The Use and Abuse of Literary and Ecclesiastical Endowments*]. Yr oedd egwyddorion gwleidiadaeth [*political economy*] yn meddu dyddordeb neillduol i feddwl Chalmers; yr oedd yn destyn y darlithiai lawer arno i'r efrydwyr; ac yn 1832 cyhoeddodd ffrwyth myfyrdodau blyneddoedd mewn traethawd ar hyny. Egwyddor sylfaenol y gwaith hwn ydyw, fod sefyllfa neu gysur cymdeithasol gwlad yn dibynu ar ei sefyllfa foesol. Gyda bod y gwaith hwn trwy y wasg, gwahoddwyd ef gan ymddiriedolwyr y duc Bridgewater i gyfansoddi traethawd ar gyfaddasiad y byd allanol i gyfansoddiad moesol a deallol dyn [*On the adaptation of External Nature to the Moral and Intellectual Constitution of Man*], yr hwn a ymddangosodd yn 1833. Gwobrwywyd yr ymdrechiadau hyn oll â gradd o anrhydedd na ddisgynodd o'r blaen i ran un gweinidog perthynol i Eglwys Ysgotland. Yn 1834, etholwyd ef yn gymmrawd R. S. Edinburgh; ac yn yr un flwyddyn yn aelod o'r Royal Institute yn Ffrainc; ac yn 1835, rhoddwyd iddo gan Brifysgol Rhydychain y radd o D.C.L.

Yn y rhan olaf o'i fywyd, ymgyssegrodd Chalmers ei hun bron yn hollol i wasanaeth Eglwys Sefydledig Ysgotland, yn ei llysoedd a'i mesurau

Digitized by Google

mwyaf cyffredinol a chyhoeddus. A'i dynged rhyfedd fu i fod yn foddion i'w chodi i lwyddiant a gweithgarwch nad amlygodd o'r blaen, ac wedi hyny i fod yn brif offeryn i'w hamddifadu o'r rhan oreu o'i gweinidogion a'i phobl. Yn 1834, ennillodd y blaid efengylaidd y mwyafrif yn nghymmanfa gyffredinol yr eglwys, yr hon o'r blaen oedd dan lywodraeth y *Moderates*; a'r peth cyntaf a wnaeth y gymmanfa hon oedd gosod Dr. Chalmers, fel arweinydd y blaid efengylaidd ar ol marwolaeth Dr. Andrew Thomson, yn ben ar gyfeisteddfod a ffurfiwyd i eangu yr eglwys yn Ysgotland. Y swydd a ymddiriedwyd i Chalmers yn bresennol oedd, codi 200 o eglwysydd newyddion. Appeliai yn gyntaf oll at y wlad, gyda hyawdledd a brwdfrydedd anarferol, trwy lythyrau, pamphletau, ac adroddiadau; ac wedi i'r rhai hyn wneuthur eu goreu, cymmerodd daith trwy ran fawr o'r wlad, gan gyfarch y gwahanol Bresbyteries, a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Yn y flwyddyn gyntaf, casglwyd *tri ugain mil o bunnau*: chwanegai y swm flwyddyn ar ol blwyddyn, fel yn niwedd y seithfed flwyddyn yr oedd tros *dri chan mil o bunnau* (300,000*p.*) wedi eu casglu, a thros *ddau cant* o eglwysydd wedi eu hadeiladu. Ond er cymmaint yr oedd yr appeliadau hyn wedi llwyddo i ennill cyfraniadau gwirfoddol, egwyddor Chalmers oedd ei bod yn ddyledswydd ar y llywodraeth, ac yn enwedig felly wedi i'r bobl wneyd cymmaint eu hunain, i waddoli yr eglwysydd hyn, a hefyd chwanegu at eu nifer. Anfonwyd cynnrychiolwyr i Lundain i ddadleu yr achos gyda'r llywodraeth; ond yr oedd llais y llywodraeth a'r senedd yn hollol anffafriol i'w cais, o herwydd y teimlad cryf a hanfodai y pryd hwnw yn erbyn gwaddoliadau eglwysig yn mhlith dosbarth helaeth o'r wlad, a'u dylanwad ar y llywodraeth. Ymdrechai Ymneilldüwyr Ysgotland yn egniol yn erbyn cais Chalmers a'i frodyr i ledaenu eu heglwys ar draul adnoddau cyhoeddus y deyrnas. Dr. Chalmers ei hun oedd amddiffynydd mawr y sefydliad yn erbyn yr ymosodiadau a wnaed arni. Yr ydoedd wedi cyhoeddi, fel y dywedwyd eisoes, draethawd ar waddoliadau; ac yn 1828, traddododd chwech o ddarlithiau yn Llundain—y rhai a wrandawyd gyda'r cymmeradwyaethau uchaf gan luaws o brif addurniadau y senedd ac Eglwys Loegr. [*Lectures on the Establishment and Extension of National Churches.*]

Ond mewn cyssylltiad â'r ysgogiad hwn, yr oedd un arall ar droed, yr hwn a attaliai y cyntaf yn hollol, ac yn yr hwn yr oedd Chalmers i chwareu rhan mwy pwysig fyth. Pa mor ciddigeddus bynag yr oedd y blaid efengylaidd i sicrhau cynnaliaeth yr eglwys oddi wrth y wladwriaeth, yr oedd yr hen wrthwynebiad presbyteraidd i bob ymyraeth o eiddo y llywodraeth â'r eglwys mor gryf ag erioed; ac felly, yn Nghymmanfa 1834, ar ol cyhoeddi mai egwyddor sylfaenol yr eglwys ydoedd, "Nad oedd un gweinidog i gael ei osod ar blwyf yn groes i ewyllys y gynnulleidfa," penderfynwyd i osod yr egwyddor hon mewn grym. Dygodd y ddeddf hon, yr hon a elwir y *Veto Law*, yr eglwys a'r llywodraeth yn erbyn eu gilydd. Yn flaenorol i hyn yr oedd yr eglwys wedi gwrthod rhai a benodwyd i fywoliaethau; ac yr oedd y llysoedd gwladol hefyd wedi ymyraeth â phenderfyniadau yr eglwys; ond nid yn mhellach nag i benderfynu yr hawl cyfreithiol i'r fywoliaeth. Ond yn awr, gwadai y llysoedd gwladol fod gan yr eglwys hawl i basio deddf fel y *Veto Act*, a hònent hawl eu hunain i arolygu a llywodraethu penderfyniadau yr eglwys. Yr ymrafael cyntaf a gymmerodd le dan y ddeddf newydd oedd, yn Auchterarder;—plwyf yn cynnwys 3,000 o eneidiau. Allan o 300 o benau teuluoedd, yr oedd 2 o blaid, a 287 yn erbyn, y gweinidog a gynnygiai y noddwr osod arnynt; ac yn ol deddf yr eglwys, yr ydoedd yn wrthodedig: ond penderfynodd y llys gwladol fod y gwrthodiad yn groes i'r gyfraith. Mewn canlyniad i appeliad, cadarnhawyd y penderfyniad hwn gan Dŷ yr Arglwyddi. Wrth gyhoeddi eu barn, tystiai arglwyddi Brougham a Cottenham, nad oedd gan yr eglwys hawl gyfreithiol i ymofyn ond i "fywyd, dysgeidiaeth, a moesau," y gweinidog cynnygiedig. Dygwyddodd amgylchiadau cyffelyb:—Aeth yr ymrafael yn fwy, a'r ddwy blaid yn parhau yn hollol anmhlygadwy;—yr eglwys yn gwrthod ordeinio; y llysoedd gwladol yn cyhoeddi gwaharddiadau (*interdicts*); a phrif weinidogion yr eglwys, megys y Dr. Chalmers a Dr. Gordon, yn pregethu yn y plwyfydd yr oedd y gweinidogion gwrthodedig ynddynt er gwaethaf y gwaharddiadau hyn. Fel hyn yr oedd pethau yn myned yn waeth. Appeliodd yr eglwys at y senedd i gyfryngu. Yn y cyfamser, mewn cymmanfa benodedig, Tachwedd, 842, arwyddwyd gan luaws mawr o weinidogion, a chyhoeddwyd penderfyniad, i roddi i fyny eu bywoliaethau, os na chaent ymwared oddi wrth ormes y llysoedd gwladol. Yn Ionawr, 1843, nid yn unig gwrthododd y llywodraeth estyn yr ymwared a geisient, ond hefyd gwadent eu hawl i annibyniaeth ysbrydol. Yn Mawrth, gwnaeth Tŷ y Cyffredin yr un modd, trwy fwyafrif digon penderfynol i ddangos fod pob gobaith wedi darfod. Yr oedd y ddadl yn awr ar ben, ac nid oedd i'r gweinidogion a deimlent nad allent barhau yn hwy i dderbyn cynnaliaeth oddi wrth y wladwriaeth heb aberthu eu hannibyniaeth crefyddol, ddim mwy i'w wneyd ond ymadael â'r Eglwys Sefydledig. Yr oedd llawer yn darogan hyd y diwedd mai ychydig o weinidogion a wnai y fath aberth dros eu hegwyddorion, a thaflu i fyny eu holl fywyd heb ddim parotoad ar gyfer y dyfodol. Ar y 18fed o Fai, 1843, ymadawodd 470 o weinidogion â'r Eglwys Sefydledig, ac ymffurfiasant yn EGLWYS RYDD Ysgotland, gan ddewis y Dr. Chalmers ei llywydd cyntaf. Yr oedd Chalmers, cyn ymadael â'r sefydliad gwladol, yn cynllunio ar gyfer cynnaliaeth y gweinidogion; ac am flwyddyn neu ddwy ar ol yr ymraniad, rhoddai ei holl fryd ar berffeithio y cynlluniau hyny. Ar ol hyn, ymneilldduai yn raddol oddi wrth wasanaeth cyhoeddus yr eglwys, a chyfyngai ei hun bron yn hollol i'w ddyledswyddau fel prif athraw duwinyddol yn ngholeg yr Eglwys Rydd, ac mewn perffeithio ei Gorff o Dduwinyddiaeth (*Institutes of Theology*). Yn 1847, galwyd ef i Lundain, i ymddangos o flaen cyfeisteddfod Tŷ y Cyffredin, i roddi tystiolaeth o barth gwaith rhai o berchenogion tir oedd yn Ysgotland yn gwrthod lle i godi addoldai, gan gymmaint oedd eu gelyniaeth yn erbyn yr Eglwys Rydd. Dychwelodd o Lundain yn ei iechyd arferol; ac ar ol treulio Sabbath, y 30ain o Fai, yn hyfryd yn mynwes ei deulu, canodd yn iach iddynt cyn myned i orphwys y noswaith hono. Bore dranoeth, pan aethpwyd i'w ystafell, cafwyd ef yn ei ledeistedd—ei ben yn ei led orwedd ar y gobenydd, heb un arwydd o boen nac ymdrech, a'i dalcen a'i law, pan gyffyrddwyd â hwynt, mor oer ag i ddangos fod yr

Digitized by Google

ysbryd wedi ymadael i dangnefedd er ys rhai oriau.

Er fod Dr. Chalmers wedi treulio oes lawn o'r gweithgarwch mwyaf, a hyny mewn amrywiol ffyrdd, ac er y cynmysgai lawer mewn cymdeithas, eto ni adawai i ddiwrnod fyned heibio heb dreulio rhai oriau i ysgrifenu; ac hyd yn oed yn y lleoedd mwyaf anghyfleus, diogelai awr neu ddwy i gyfansoddi. Yr oedd yn rheolaidd yn ei holl arferion; ac un o'i ddywediadau mynychaf oedd—fod prydlondeb yn un o'r prif rinweddau. Y mae ei weithiau yn awr yn llenwi dros 30 o gyfrolau. Cynnwysant draethodau ar wleidyddiaeth, ac egwyddorion a chynlluniau i ddyrchafu cymdeithas, ar drefniadau eglwysig, athroniaeth foesol, profion Cristionogaeth, duwinyddiaeth, esboniadau ysgrythyrol, a thraethodau ymarferol a phrofiadol. Efallai y buasai ei glod fel awdwr yn uwch mewn amser dyfodol pe buasai wedi ysgrifenu llai, neu wedi cymmeryd mwy o amser i berffeithio ei waith fel cyfansoddiadau llenyddol.

Ond yr oedd Chalmers, er ei fod yn llenwi mwy o le nag odid neb o'i gydoeswyr, fel pregethwr, fel ysgrifenydd, ac fel cadeirdraw a darlithydd—eto yr ydoedd yn fwy mewn gweithred nag mewn ysgrifen, mewn ymdrechiadau Cristionogol i ddyrchafu ei gyd-ddynion nag mewn athroniaeth a duwinyddiaeth. Er ei fod mor effeithiol yn y pulpud a Robert Hall, eto nid yw y goreu o bregethau Chalmers i'w cymharu fel cyfansoddiadau i rai o oreuon Hall. Yr ydoedd hefyd gymmaint islaw John Foster mewn gwreiddioldeb meddwl, a Thomas Arnold mewn dysgeidiaeth, ag yr oedd uwch law iddynt oll yn ei ddylanwad ar y byd a'r eglwys. Y mae Chalmers i'w restru yn mysg y dynion sydd yn creu *cyfnod newydd* yn hanes eu gwlad; ac fe fydd ei enw rhagllaw, yn hanes Ysgotland, yn yr un rhestr ag enw Knox. Knox oedd y prif offeryn i ennill ei gydwladwyr oddi wrth Babyddiaeth; a Chalmers yn benaf a anrhydeddwyd i ddwyn oddi amgylch ddiwygiad mor angenrheidiol oddi wrth y deddfoldeb a'r anffyddiaeth, o ran ysbryd a barn, oedd wedi cymmeryd meddiant llwyr o'r bron ar Eglwys Sefydledig ei wlad. Yr oedd Ysgotland, pan ddechreuodd Chalmers bregethu yr *efengyl* yn ngwresogrwydd ei ysbryd a chyda grym angerddol ei hyawdledd, mewn sefyllfa gyffelyb, o ran dideimladrwydd ac anystyriaeth crefyddol, i sefyllfa Lloegr a Chymru yn nechreuad y cyffroad Methodistaidd. Hanner anffyddiaeth yn gwisgo enw Cristionogaeth, yr hyn a elwid *moderatism*, oedd crefydd y lluaws; a chyfeillion anffyddwyr oedd eu harweinwyr. Nid ceisio diwygio neu ailffurfio eu *duwinyddiaeth* a wnaeth Chalmers; ond gan deimlo y gwirion edd yn brofiad byw ynddo ei hun, ymgyssegrai i'w bregethu, gan alw dynion oddi wrth eu beirniadaeth a'u gwahaniaethau duwinyddol, yn gystal ag oddi wrth eu ffurfioldeb, eu hanffyddiaeth, a'u bydolrwydd. Ceir yr anghraifft oreu o'i bregethau cyffredin yn ei ddarlithiau ar y Rhufeiniaid [*Lectures on the Epistle to the Romans*]; y rhai sydd yn ymgadw yn hollol oddi wrth bob ymgais at ddysgeidiaeth esboniadol, a newyddeb golygiadau; ond sydd yn llawn o'r hyawdledd hwnw sydd yn tarddu o feddwl mawr cyfoethog, wedi ei hollol feddiannu gan yr efengyl.

Ei nodweddiad fel pregethwr oedd, ei fod yn ymgadw at wirioneddau mawr a chyntaf yr efengyl, gyda 'r fath haelfrydigrwydd, grym, ac eangder syniad ac ysbryd—ac yn hyn yr oedd ei fawredd, yn annibynol ar ei gymhwysderau arcithyddol anghyffredin. Y mae yr efengyl yn ei rhadlondeb, ei chyfoeth, a'i heangder, yn cael ei harddangos a'i hargymhell gyda 'r fath eneiniad a gwresogrwydd ysbryd ganddo, ag sydd yn dangos i ni mor amddifaid o'r efengyl ydyw Homilian Chrysostom, pregethwr mawr yr Eglwys Ddwyreiniol, ac yn peri i ni resynu na buasai John Foster, meddyliwr mawr yr oes ddiweddaf, wedi crynoi ei holl rym i dreiddio i ddirgeledigaethau yr efengyl. Er fod Dhalmers, trwy ei bregethau, ei ymdrechiadau Cristionogol, a'i ysgrifeniadau, wedi bod yn offeryn i greu cyfnod crefyddol newydd yn ei wlad ei hun, ac i ennill sylw a pharch i hawliau a gwirioneddau crefydd mewn gwledydd ereill; ac er ei fod wedi bod yn athraw moeseg mewn un brifysgol, ac yn athraw duwinyddiaeth mewn un arall, ac iddo dalu holl nerth ei feddwl mawr i'w ddyledswyddau athrofaol; eto nis gellir dyweyd ei fod wedi ennill enwogrwydd mawr o herwydd gwreiddioldeb ei ysgrifeniadau duwinyddol. Bydd pawb yn ennillwyr o fod yn gydnabyddus â'i ysgrifeniadau; ond nid yn neilduol o ran y treiddgarwch nac eangder y syniadau a geir ynddynt. Y mae ei *Theological Institutes* yn ddarlithiau hyawdl ar y pynciau cyffredin sydd yn cael ymdrin â hwynt mewn corff o dduwinyddiaeth. Y mae ei syniadau yn Galwinaidd; a defnyddia yn helaeth, yn ei bregethau a'i ddarlithiau, yr egwyddor athronyddol o angenrheidrwydd i'w hamddiffyn. Yr oedd ei barch yn ddiderfyn bron i Bacon, fel athronydd; i Butler a Paley, fel amddiffynwyr Cristionogaeth; ac i Jonathan Edwards, fel duwinydd. Ystyriai *Induction* Bacon mor gymhwysiadwy at dduwinyddiaeth ag at athroniaeth naturiol; ac nid yw byth yn blino dadgan ei farn mai yr un ydyw y dull o ymresymu yn y ddwy. Y mae yr un mor uchel yn ei ganmoliaeth i *Gyfatebiaeth* Butler, fel atteb perffaith foddhaol i bob ymresymiadau yn erbyn gwirionedd Cristionogaeth. Ac fel amddiffyniad yn ngwyneb rheswm ac athroniaeth, o'i gyfundrefn dduwinyddol ef ei hun, cyfrifai *Edwards ar yr Ewyllys* yn anatebadwy. Yn ei ymchwiliadau i natur foesol dyn, dilynai athronwyr Ysgotland—Reid a Stewart, ond yn benaf y Dr. Brown. Nid oedd Chalmers yn y dosbarth hwnw o ddynion i'r hwn y perthyna athronwyr mawr na duwinyddion mawr. Meddai bob cymhwysder i gyffroi dynion i ysgogiadau pwysig, ac i'w harwain drwy gyfnewidiadau mawr;—yn yr ystyr hwn yr ydoedd mewn modd arbenig yn arweinydd: ond fel meddyliwr, nid oedd wedi ei gynysgaethu yn uchel â'r galluoedd sydd yn cymhwyso dynion i adeiladu cyfundrefn o feddwl iddynt eu hunain, nac i roddi cyfeiriad newydd i feddwl yr oes y perthynant iddi. Yn gyffredin, nid yw yn ymgodi uwch law ffurfiau blaenorol o feddwl, nac yn ceisio dangos allan y GWIRIONEDD yn annibynol ar gyfundrefn ddynol. Yr oedd ei deimlad mor gryf, mor haelfrydig, ac mor iachus, ag i ddryllio gefynau pob cyfundrefn yn fynych; eto, yn gyffredin, fe'u gwisgai, ond heb eu teimlo yn faich.

Yr oedd ei ysbryd yn llawer mwy na'i ddeall. Yr oedd ysgogiadau y cyntaf yn fawreddus a breiniol, tra yr oedd yr olaf yn hytrach yn gaeth dan wyddorion rhesymeg ac awdurdod ddynol. Tra yr oedd ei galon yn byw, yn symmud, ac yn bod, *yn nghariad* yr efengyl, yr oedd yn edrych trwy wydrau o wneuthuriad dynol yn fynych *ar wirioneddau* yr efengyl.

Digitized by Google

Nid ydys wrth hyn yn awgrymu fod ei syniadau duwinyddol yn fwy cul nag eiddo Calviniaid yn gyffredin; i'r gwrthwyneb, ymryddhäai yn fwy na'r lluaws o honynt oddi wrth lyfftheiriau cyfundraeth, pan yn cymhell pechaduriaid at y Ceidwad. Ond duwinyddiaeth ei galon, yn hytrach na'i ddeall, oedd yn llosgi gyda'r fath danbeidrwydd yn y gwahoddiadau hyn. Ni ddymunir awgrymu trwy y sylwadau hyn, nad yw Calviniaeth yn wir; ond ar yr un pryd, yr ydys yn hôni nad ydyw yr *holl* wirionedd, mwy na'r gyfundrefn gyferbyniol. Tra y bydd *gwirionedd Duw* yn fwy na *deall dyn*, ni cheir byth un gyfundrefn ddynol i allu mesur hyd a lled, dyfnder ac uchder, trefniadau doethineb ddwyfol. Y mae mwy yn y *Beibl* nag a ganfyddodd un o'r ysgrifenwyr ysbrydoledig — Moses, Dafydd, ac Esaiah; a dyfnderoedd na phlymiodd Paul, Pedr, nac Ioan. Yr Ysbryd Glân yn unig—yr hwn sydd yn deall dyfnion bethau Duw hefyd—sydd yn amgyffred cyssondeb a chymmesuredd y gwahanol wirioneddau a ddadguddiwyd trwy yr ysgrifenwyr hyn. Llawer llai ynte y gellir hôni fod Awstin, Calvin, Arminius, nac Edwards, wedi dyhyspyddu i'w cyfundraethau bach hwy, holl gynnwysiad DADGUDDIAD DUW. O ran y ffurfiau dynol, yn mha rai y gwisgir gwirioneddau dwyfol, y maent fel dyn, yn gyfyng ac yn gyfnewidiol; tra y mae y gwirioneddau, fel Duw, yn anamgyffredadwy a thragwyddol.

> "Our little systems have their day;
> They have their day and cease to be:
> They are but broken lights of thee,
> And thou, O Lord, art more than they."

Yr oedd dylanwad Chalmers ar grefydd ei wlad a'i oes, trwy ei bregethau a'i ysgrifeniadau, yn annhraethol fwy nag ar dduwinyddiaeth fel gwyddoniaeth. Yn hyn, yr ydoedd nid yn annhebyg i Thomas Charles, o'r Bala. Y mae gwresogrwydd ysbryd, haelfrydigrwydd teimlad, a phenderfyniad ewyllys y ddau, wedi esgor ar fendithion mwy gwerthfawr i'r byd, nag a wnaeth unrhyw wreiddiolder meddwl, neu graffder deall, a feldai y naill neu y llall. O ran eu syniadau duwinyddol, y mae y ddau yn gyffelyb; ac yn hyn yn dilyn Turretin, Pictet, Dr. Owen, &c.; ond fod Chalmers, fel yr oedd yn angenrheidiol mewn cadeirdraw athrofaol, yn gosod allan ei syniadau mewn gwedd mwy athronaidd, ac yn cymmeryd i mewn gylch eangach; megys duwinyddiaeth naturiol; y profion o ddwyfoldeb Cristionogaeth; atebiad i wrthwynebwyr, fel y ceir yn ei ymgais i gyssoni gweddi a threfn sefydlog natur; ei ddull newydd a boddhaol i gyfarfod gwrthddadl Hume i wyrthiau; ei *Bregethau Seryddol*, trwy ba rai y gwnaeth wasanaeth mawr ar y pryd, trwy gyfarfod gwrthddadl oedd yn cael ei chyhoeddi yn ymffrostgar gan anffyddwyr; sef, yr annhebygolrwydd y buasai ein byd bach ni yn cael cymmaint o sylw yr Anfeidrol yn nghanol creadigaeth mor ddiderfyn.

Nid dyben y sylwadau hyn ydyw gadael yr argraff ar feddwl y darllenydd, fod Chalmers yn efelychwr caeth yn ei syniadau duwinyddol, ac nad yw ei ddarlithiau yn dangos crafffder ac annibyniaeth meddwl, ac nad oedd ganddo deimlad cryf o'r hyn oedd yn angenrheidiol er mwyn rhyddhau duwinyddiaeth oddi wrth luaws o olygiadau unochrog, a gwrthddadleuon anffyddol, ac ar yr un pryd i agor yr holl Feibl i'r meddwl a'r galon, a gwneuthur duwinyddiaeth yn gyfled â'r Dadguddiad Dwyfol. Ond hyn a ddywedir—nad ydoedd yr amlygiadau o allu ac annibyniaeth meddwl, a ganfyddir mor amlwg yn ei ysgrifeniadau, yn alluog i gyflawnu yr amcanion uchod, ac nad oedd ganddo feddwl clir ei fod yn argenrheidiol i'w wneuthur. Er ein bod yn dyweyd fel hyn, eto yr ydym yn cyfaddef yn rhwydd, fod duwinyddiaeth efengylaidd y deyrnas hon dan fwy o rwymau i Chalmers nag i un dysgawdwr arall o'i oes. Bydd hyn yn esgusawd dros roddi ychydig ddyfyniadau, er mwyn dangos dull, ysbryd, a nodwedd ei dduwinyddiaeth.

Mewn cyfundraeth o bob natur, yr ymofyniad cyntaf ydyw, pa beth yw *y dull* (*method*) yn ol pa un y ffurfir hi. Y mae yr ateb i hyn yn hawdd i bob darllenydd o weithiau Chalmers, ac yn gynnwysedig mewn dau air; sef, *dull Bacon*. "Nid ydym yn meddwl," eb efe, "pe buasai athroniaeth Bacon yn adnabyddus yn amser Paul, y buasai yn ei chondemnio fel gwag dwyll; ac nis gallwn lai na dysgwyl am gyfnod newydd a dysglaer mewn duwinyddiaeth, wrth ddwyn yn mlaen ein hymchwiliadau yn unol â rheolau yr athroniaeth hon." Yn y bennod ar *Systematic Theology* [*Institutes*], esbonia yn faith pa fodd y mae cymhwyso y rheolau hyn at dduwinyddiaeth, fel at y gwyddorion naturiol. Y mae yr esboniad hwn yn gynnwysedig yn hyn:—Yn y gwyddorion, y mae ffeithiau i'w casglu yn gyntaf, yna eu cymharu a'u dosbarthu; ac i berffeithio y gwaith rhagbarotoawl hwn, y mae casgliadau cyffredinol i'w tynu oddi wrth y cwbl, y rhai a elwir yn ddeddfau natur. "Yn gyffelyb i hyn y mae y tystiolaethau unigol sydd yn wasgaredig ar hyd wyneb gair Duw, i gael eu casglu a'u hegluro bob yn un ac un, yn eu geiriau a'u cystrawen—yr hyn yw gwaith y beirniad ysgrythyrol;—yna y mae yr un gwaith i'w wneyd gydag adnodau unigol y Beibl ag sydd gyda ffeithiau unigol natur, sef eu dosbarthu yn ol eu tebygolrwydd i'w gilydd; ac yna canfyddir a chadarnheir gwirionedd cyffredinol neu athrawiaeth mewn duwinyddiaeth, megys y sefydlir deddf gyffredinol yn un o'r gwyddorion." Y mae y frawddeg hon yn cynnwys drychfeddwl y bennod dan sylw, a hanfod y *dull* a arganmolir ganddo i gyrhaedd sierwydd am athrawiaethau y Beibl, fel am unrhyw beth arall. Dywed Isaac Taylor, pe cymhwysid y dull hwn yn drwyadl a theg at holl gredoau y Diwygiad, y gwneid hafog go fawr yn eu mysg; a'i bod yn llawn bryd i wneuthur y cymhwysiad hwn, yr hyn ni wnaeth Chalmers, er cymmaint y soniai am hyny. Yr hyn sydd yn wirionedd yn hyn, ac yn wirionedd pwysig, ydyw, fod y credoau dan sylw wedi eu ffurfio i amddiffyn rhyw ochr neillduol o'r gwirionedd, gan adael rhyw ochr arall, nad oedd ymosodiad arno, bron yn hollol o'r golwg: ac fel hyn y mae yr holl gyfundraethau duwinyddol yn meddu eu hoff bynciau, a gwnant eu goreu i ddirdynu y geiriau Ysgrythyrol sydd yn ymddangos yn groes iddynt. Cyfundrefn yn unol â'r dull Baconaidd o ymresymu fyddai cyfundrefn a edrychai yn ddidderbyn-wyneb ar holl dystiolaethau yr Ysgrythyr, pa un bynag a ydyw y cyssondeb rhyngddynt yn ganfyddadwy ai peidio. Y mae crediniaeth ymarferol a thrwyadl yn eu dwyfoldeb yn cynnwys crediniaeth yn eu cyssondeb hanfodol yn ngwyneb anghyssondeb ymddangosiadol. Mewn athroniaeth naturiol, ni chymmerir un dosbarth o ffeithiau yn safon i fesur dosbarth arall wrtho, a'u gwrthod neu eu derbyn yn ol fel y cytunant â'r safon hono; ond rhoddir yr un derbyniad iddynt oll, a gwrthodir

Digitized by Google

pob cyfundrefn nad yw yn esbonio y naill ffaith mor naturiol a chyflawn a'r llall. Mewn duwinyddiaeth, y mae y duedd wedi bod yn rhy gyffredinol i amddiffyn y gyfundrefn a ffurfiwyd yn ngwynebrhyw ddosbarth penodol o dystiolaethau, pa beth bynag a ddeuai o ddosbarth arall. Yn y gwyddorion, ystyrir unrhyw gyfundrefn ond ar brawf os bydd *un* ffaith ddiymwad yn ei herbyn: ond hyd yn hyn nid yw geiriau ysgrythyrol wedi derbyn yr un parch. Aberthir yn rhwydd un hanner o'r gwirionedd er mwyn cadw y llall; tra y mae yr olaf yn colli ei rym a'i brydferthwch trwy wadiad y blaenaf.

Nid yw Chalmers, fel y dywedwyd, yn fwy euog o droseddu y rheolau hyn nag ysgrifenwyr duwinyddol ereill; ond gan ei fod ef yn rhoddi y fath arbenigrwydd ar y dull priodol o ddwyn yn mlaen ymchwiliadau duwinyddol, yr oedd yn naturiol iddo wneuthur llawer mwy nag ereill i ryddhau gair Duw oddi wrth lyffetheiriau ymresymiadau dynol.

Y mae ei holl ysgrifeniadau yn gynnwysedig mewn pump ar ugain o gyfrolau, a gyhoeddwyd yn ei fywyd, a naw a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd mewn pedair cyfrol gan ei fab yn nghyfraith, Dr. Hanna.—*Memoirs of the Life and Writings of Thomas Chalmers;* Edin. a Llundain, 1850. Cyhoeddwyd gan yr Eglwys Rydd fywgraffiadau byrion o hono yn y *Monthly Series of Tracts* am 1848; rhif. 41, 43, 45. Hefyd, gan H. Davis, *The Life and Writings of Dr. Chalmers;* Llundain, 1847. Dwy erthygl yn y *North British Review*, rhif. 33 a 52, gan Isaac Taylor.

CHARLES, DAVID. Ganwyd y Parch. David Charles, o Gaerfyrddin, yn Pantdwfn, yn agos i St. Clears, yn sir Gaerfyrddin, Hydref 11, 1762: ac felly yr oedd saith mlynedd yn iau na'i frawd, y Parch. Thomas Charles, o'r Bala. Swm yr hanes a roddir am dano yn ei ieuenctyd, yw, ei fod, fel pawb a ddaeth i ddim enwogrwydd, yn dra hoff o ddarllen. Mor gref oedd y duedd hon, fel y dywedai ei dad am dano, "Nis gwn beth i'w wneyd o Dafydd, os na ddygaf ef i fyny yn offeiriad, gan ei fod bob amser mewn rhyw gongl â'i ben yn y llyfr." Ond nid oedd amgylchiadau y tad yn caniatäu iddo wneyd un arall o'i feibion yn offeiriad; ac felly, yn lle ei anfon i Rydychain i ddysgu Groeg a Lladin, anfonwyd ef i Gaerfyrddin, i ddysgu trin llin a gwneyd rhaffau. Pa fodd bynag, yr oedd ei benderfyniad i ddysgyblu ei feddwl yn ei ddilyn yno; ac yr ydym yn cael iddo gyflawnu y gorchestwaith o drysori yn ei gof y cyfan o *Young's Night Thoughts* yn ystod ei brentisiaeth. Dywedir wrthym fod dygwyddiadau dyfodol yn taflu eu cysgod o'u blaen; ac yn ddiau yr oedd yma ryw arwydd mai nid dyn cyffredin a fyddai y bachgen hwn: ac os, fel y dywed un arall, y pientyn yw tad y dyn, yr oedd yma hefyd ddangosiad pa fath ddelw ac argraff fyddai ar ei feddyliau wedi iddo ddyfod yn fwy oedranus. Ond yr hyn sydd o fwy pwys ydyw, ei fod yn ddyn ieuanc crefyddol; a bod ei fywyd yn brawf mor gysson o wirionedd ei broffes, fel y rhoddid yr ymddiried mwyaf diysgog ynddo gan bawb a'i hadwaenai. Deffrowyd ei feddwl i ystyried wrth ddarllen pregethau Ralph Erskine, pan o ddeutu pymtheg oed; a byth wedi hyny, yn nghanol trafferthion bydol, ni chollodd ei olwg ar yr un peth angenrheidiol. Tua'r flwyddyn 1780, symmudodd o Gaerfyrddin i Bristol, lle yr arosodd am dair neu bedair blynedd. Byddai yno yn arfer cyfarfod gyda nifer o grefyddwyr ieuainc i weddio ac adeiladu eu gilydd. Yn y cofiant ar ddiwedd y gyfrol Seisonig o'i bregethau, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am y ffeithiau hyn, rhoddir y dystiolaeth a ganlyn am y gyfran hon o'i oes, mewn llythyr oddi wrth Mr. Warlow, o Milford:—"Yr oedd ei gymdeithas o les nid bychan i ni; yr oedd ychydig o flaen Mr. Weston a minnau mewn blyneddoedd, yn gystal ag mewn profiad. Yr oedd yn ddyn ieuanc o farn gref: yr oedd yn deall athrawiaethau gras yn dda, ac yn teimlo eu heffeithiau ymarferol ar ei galon, tra yr oedd yn arddangos eu gwirionedd a'u gallu yn ei fywyd a'i ymarweddiad. Gyda'r cymmeriad hwn yr ymadawodd o Bristol i Gymru. Yr wyf yn cofio hyn yn dda, ac hefyd y lluaws o gyfarfodydd hyfrydol a gawsom gyda'n gilydd, a'r hiraeth a deimlid ar ei ymadawiad."

Dychwelodd i Gaerfyrddin i ddilyn ei alwedigaeth: ac yn mhen ychydig o flyneddoedd priodododd ferch i Samuel Levi Phillips, Ysw., banker, o Hwlffordd (*Haverfordwest*). Yr oedd Mr. Phillips yn enedigol o Frankfort-on-the-Maine, wedi ei ddwyn i fyny yn y grefydd Iuddewig, ac yn fab i Rabbi; ond wedi troi at Gristionogaeth, yn more ei oes, yn fuan ar ol ei ddyfodiad i Brydain. Ei ferch a ennillwyd at grefydd trwy weinidogaeth y Parch. Rowland Hill; i'r hwn yr oedd ganddi y parch mwyaf tra fu byw: ac yn ei thŷ hi yr arosai Mr. Hill yn benaf pan yn ymweled â'r rhan hono o'r wlad. Ac yma, y mae yn anhawdd myned heibio heb grybwyll hanesyn bychan sydd yn cael ei adrodd am y diweddar Mr. Evans, New Inn, wedi hyny o Lwynffortun. Pan ofynwyd i Mr. Evans, beth oedd yr achos ei fod ef yn derbyn cydnabyddiaeth am ei lafur gweinidogaethol, pan oedd Mr. Charles bob amser yn pregethu am ddim, atebodd yn ei ddull difyr ei hun, "O! *my dear Sir*, y mae Mr. Charles wedi cael digon gan yr Iuddewon; y mae yn rhesymol iawn i minnau gael ychydig gan y Cenedloedd." Ond cafodd Mr. Charles fwy gyda'i wraig na chynnysgaeth fydol, fel y mae y llythyr canlynol yn profi, yr hwn a ysgrifenodd efe ati yn y flwyddyn 1817. "Fy anwyl Sarah,—Dymunaf yn fawr na fyddo i chwi ofalu am ddim, na meddwl am ddim, ond eich iechyd, a'r hyn sydd yn llawer mwy pwysig nag iechyd corfforol; o blegid y mae hwn i wywo pa ofal bynag a gymmerir am dano, tra y bydd *y bwyd sydd yn deilliaw o Grist* (Efe yw 'ein bywyd') yn cryfhau dan ddwylaw angeu, ac yn ymadnewyddu i dragwyddoldeb diderfyn. 'Y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo,' medd Crist, 'yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragwyddol.' Y mae y gradd lleiaf o'r bywyd dwyfol hwn yn werth mwy na'r holl greadigaeth weledig, o blegid boddlonrwydd a delw Duw ydyw; y mae yn hawl i'r mwynhâd o Dduw, ac yn gymhwysder ysbrydol i'w fwynhau. Pa ddaioni a allwn ni weddio am dano, i ni ein hunain neu i ereill, yn gyffelyb i'r fendith annhraethol hon? O! na bai genyf galon i'w cheisio yn fwy difrifol a dyfal, i chwi ac i mi fy hun! Yr wyf yn cydnabod fod arnaf ddyled fawr o weddiau i chwi. Yr wyf yn ei hystyried yn ddyledswydd, ac yn ei theimlo i ryw radd yn bleser, i geisio ei thalu; ond mewn dull llawd iawn yn wir. Y rhai hyny yw gwir gedyrn y ddaiar y rhai sydd yn gedyrn mewn gweddi, y rhai sydd fel Iacob yn orchfygwyr gyda Duw, ac yn orchfygwyr ar y byd, ac uffern, ac angeu,

Digitized by Google

a'r bedd. Er mor ddrwg yw fy nghalon ofer, nid yn fynych yr ydych *chwi* yn mhell oddi wrthi; ac ar i chwi a minnau gael mynediad helaeth, pa bryd bynag y delo yr amser, i'w dra-gwyddol deyrnas ef, yw, gobeithiaf, ddymuniad uchaf fy meddwl. 'Am hyn y ceisir ef gan dŷ Israel:' a pha fodd y gallwn fod mewn gwell gwaith nag yn tywallt ein calonau, ac yn anadlu ein dymuniadau ger ei fron ef, yr hwn y mae ei glust bob amser yn agored i lef ei greaduriaid distadlaf. Dedwydd fydd i ni gael tynu yr anadl olaf yn y gorchwyl hwn: ni byddai hyny yn llafur ofer—cai ei wobrwyo mewn tragwyddoldeb o lawenydd."

Dewiswyd Mr. Charles mewn oedran ieuangach na chyffredin i fod yn ddiacon i eglwys y Methodistiaid Calvinaidd yn Nghaerfyrddin; ac yn fuan ennillodd iddo ei hun "radd dda" mewn gwybodaeth, a "mwyneidd-dra doethineb." Cyflawnodd waith y swydd hon yn ffyddlawn am fwy nag ugain mlynedd; ac yn mhell cyn ei alw i swydd fwy cyhoeddus, rhoddid yr ymddiried llwyraf yn ei farn, a theimlid angen am ei gynnorthwy, nid yn nghyfarfodydd misol ei sir yn unig, ond hefyd yn y cymdeithasfaoedd chwarterol. Yr oedd un hynodrwydd yn ei achos ef nad oes anghraifft o hono mewn cyssylltiad âg un *blaenor* arall yn hanes y cyfundeb. Y mae yn hysbys nad oes ragoriaeth yn perthyn i neb yn nghymmanfaoedd y Methodistiaid yn herwydd ei le na'i swydd, nac unrhyw amgylchiad allanol. Y mae pawb ar yr un tir yn y cyfarfodydd hyn, oddi eithr fel y byddont yn ennill dylanwad trwy y cyfryw brofion o'u cymhwysderau ag a fyddo yn creu parch iddynt yn meddyliau ied brodyr. Er hyny, fel y mae yn naturiol tybied, ymddiriedir amgylchiadau arianol y cyfundeb yn fwy neillduol i'r diaconiaid; ac o'r tu arall, wrth ymdrin â materion athrawiaethol, dysgwylir yn benaf wrth y pregethwyr. Nid oes un reol ffurfiol yn achos o'r gwahaniaeth; a diau mai goreu po leiaf o ffurfioldeb yn hyn fyddo yn hanfodi. Rhodder y dyn mwyaf addas yn y lle mwyaf addas, beth bynag fyddo enw ei swydd; ac felly y gwneir y gwaith yn fwyaf effeithiol. Yn mhob cymdeithas, pa mor werinol bynag fyddo ei chyfansoddiad, y mae rhyw rai o angenrheidrwydd i fod ar y blaen; ac nid oes reol ddiogelach i benderfynu pwy a ddylai y rhai hyny fod na'r syniad cyffredin; o blegid er mor analluog yw y mwyafrif i ddeall pynciau, y maent yn lled gywir yn eu barn am bersonau; a thra byddo rhyddid yn ffynu, y mae pob meddwl, yn gystal a phob corff, yn cael y lle sydd yn cyfateb i'w bwysau. Pwy bynag fyddo ar y blaen, nis gall fod yn esmwyth i bawb, tra fyddo y natur ddynol yr hyn ydyw, a thra fyddo cenfigen heb ddarfod o'r byd: ond y mae hanes Mr. Charles yn profi fod gwir deilyngdod yn sicr mewn amser o ennill ei le priodol; o blegid er nad oedd efe ar y pryd ond diacon yn unig, ac er fod y Methodistiaid heb golli eu parchedigaeth arbenig i ordeiniad esgobaethol, eto gelwid arno i draethu ei feddwl ar bob mater a ddeuai ger bron y gymdeithasfa; ac nid oedd neb yn cael gwrandawiad mwy astud pan yn ymdrin âg athrawiaethau dyfnaf y gwirionedd dwyfol. Nid oedd raid iddo geisio dangos mawredd; ac nid oedd mor ffol a cheisio dangos gostyngeiddrwydd: ond wrth gymmeryd ei le naturiol, yr oedd yn cael ei hun yn mysg y rhai blaenaf yn y cyfundeb, trwy gydsyniad unfrydol ei frodyr, a bron yn ddiarwybod iddo ei hun.

Mewn canlyniad i ddymuniadau taerion a chyffredinol, ac yn benaf, fel y dywedir, trwy annogaeth ei frawd Mr. Charles o'r Bala, tueddwyd ef i ddechreu pregethu pan yn chwech a deugain oed. Cafodd ei gyfeillion yn fuan yr hyfrydwch o weled nad oeddynt wedi camsynied; a phan benderfynwyd galw nifer o'r pregethwyr mwyaf cymmeradwy i weinyddu yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd, tra y cytunid fel rheol gyffredinol nad oedd neb i gael ei neillduo heb gael prawf o hono fel pregethwr am bum mlynedd, gwnaed cithriad penodol gyda golwg arno ef, a chafodd ei ordeinio gyda'r dosbarth cyntaf o weinidogion y Deheubarth yn 1811. Tybygid mai nid llawer o wahaniaeth a wnaeth hyn yn ei ddull o lafurio; o'r hyn lleiaf, nid esgeulusodd yr achos crefyddol yn ei gartref wedi hyny mwy nag o'r blaen. Nid oedd efe yn un o'r pregethwyr llafurus hyny, y rhai y mae eu holl lafur yn gynnwysedig mewn teithio. Yr oedd yn llafurio yn ddiarbed; ond yn benaf â'i feddwl. Yr oedd yn byw o hyd mewn myfyrdodau ysbrydol; a byddai ei agwedd allanol yn dangos fod y myfyrdodau hyny yn dwyseiddio fel y byddai amser yr ymgynnulliad eglwysig yn agosáu; ac yn y cyfarfod hwnw yr oedd yn ei elfen. Sonir hyd heddyw am yr ymddyddanion nefolaidd rhyngddo ef a'r hen frodyr, neu yr hen chwiorydd, mwyaf profiadol. Nid oedd yn treulio yr holl amser i areithio; ond medrai y ffordd at galonau y rhai iselaf, a thynai eu meddyliau hwythau allan. Ond y lle yr oedd llnaws ei frodyr yn cael mwynhau ffrwyth ei fyfyrdodau dyfnaf oedd yn y cymdeithasau chwarterol. Ar yr achlysuron hyn, y mae yn rheol fod un cyfarfod yn cael ei dreulio i ymdrin â rhyw bwnc o athrawiaeth, yr hyn, mewn modd llai ffurfiol, ond i gylch eangach, sydd yn ateb dyben y darlithoedd duwinyddol yn yr athrofeydd, yn Lloegr ac Ysgotland. Yn y cyfarfodydd hyn, byddai rhai o'r dynion mwyaf yn Nghymru yn wyddfodol; ond edrychent i fyny ato ef fel athraw yr athrawon. Pan gyfodai, byddai pawb yn ymwneyd i wrandaw, ac fel yr elai yn mlaen, byddent yn fuan wedi eu llenwi â theimladau cymmysg o ryfeddu ac addoli. Nid oedd ynddo un egni nac ymdrech; dim un ystum nac ymgais i dynu sylw; dim ond *meddwl pur* yn gorlenwi pawb â syndod: a phan dawai, byddai y gwrandawyr yn teimlo fel pe byddent yn dyfod yn ol o fyd y meddwl i'r byd gweledig. Adroddir am un tro neillduol, pan oeddynt yn ymddyddan am rai o'r priodoliaethau dwyfol. Yr ysgrifenydd, fel arferol, oedd Mr. Richards, Tregaron: a phan gododd Mr. Charles, dechreuodd Mr. Richards sylwi gyda'r bwriad o ysgrifenu pob gair yn fanwl hyd eithaf ei allu, ond wrth wrandaw, anghofiodd ysgrifenu, ac anghofiodd ei swydd; a phan ofynwyd iddo ar ddiwedd y cyfarfod, a oedd wedi gofalu am gofnodi sylwadau Mr. Charles heb eu talfyru, nid oedd ganddo ond cyfaddef nad oedd wedi ysgrifenu un gair.

Un fantais fawr yn y cyfarfodydd hyn oedd, fod ei wrandawyr gan mwyaf yn alluog i werthfawrogi ei feddyliau: ond pan fyddai yn llefaru mewn cynnulleidfa gymmysg, yr oedd yr achos yn dra gwahanol; gan nad oes ond ychydig mewn cymhariaeth yn fedrus i ddosbarthu rhwng drwg a da: a'r canlyniad oedd, fod Mr. Charles trwy ei oes yn mhell o fod yn bregethwr poblogeidfa yn gyffelyb i'r diweddar Mr. Howells, o Long Acre, un o weinidogion mwyaf parchus yr

Digitized by Google

Eglwys Sefydledig yn Llundain; yr hwn a ofalai am ei wrandaw ar bob adeg gyfleus; a phan fyddai rhyw feddwl mwy ysblenydd na chyffredin yn disgyn o enau y pregethwr, codai Mr. Howells yn fyrbwyll, a rhoddai dro ar ei begwn ddwywaith neu dair, gan rwbio ei ddwy law, fel un wedi colli arno ei hun; ac yna eisteddai i lawr mor ddisymmwth ag y cododd i fyny.

Pe buasai yr holl drigolion mewn rhyw un ardal neu dref i gyd yn ddynion call, efe fuasai yn y lle hwnw y pregethwr mwyaf poblogaidd o bawb. Ond y mae Khagluniaeth yn ddoeth wedi gwasgaru y rhai call yn mysg y rhai anghall; ac felly y mae toraeth y bobl hyd yn hyn, yn mhob gwlad, yn gyffelyb i wrandawyr yr areithiwr hwnw, yr hwn, pan oedd y werin yn ei ganmawl un diwrnod, a ofynodd i'w gyfeillion, Pa beth ffol a ddywedais heddyw? Nid oes dim yn fwy poenus i'r cyffredin na cheisio meddwl; ac i'r cyfryw nis gallasai fod dim o werth yn mhregethau Mr. Charles, Caerfyrddin. Ac y mae dosbarth arall o wrandawyr ychydig uwch law y rhai hyn, os ydynt uwch law iddynt hefyd, y rhai sydd yn meddwl eu bod yn meddwl, ac yn dychymygu eu bod yn deall, ond heb ddechreu meddwl na deall fel y dylent; y rhai a ddadleuant yn ddiddiwedd yn nghylch mân-gwestiynau, ond ni welant un gradd o anhawsder na mawredd yn meddyliau dyfnion Efengyl Ioan; ac i'r cyfryw drachefn, nid oedd Mr. Charles ond pregethwr bychan. Nid oedd yn ei bregethau un gradd o'r cywreinrwydd hunan-ddoeth sydd yn ymddangos yn fawr i'r anwybodus: ac nid yn unig, yr oedd yn ymattal rhag gwneyd swn mawr yn nghylch pethau bychain; ond nid oedd efe yn un a allai wneyd llawer o swn yn nghylch pethau gwir fawr. Ond i'r sawl sydd yn caru gwirionedd er ei fwyn ei hun, ac yn alluog i ganfod mawredd pan na fyddo llawer o rwysg yn ei amgylchynu, yr oedd yn un o'r rhai mwyaf hoff ganddynt i'w wrandaw; ac y mae y gyfrol argraffedig o'i bregethau yn un o'r llyfrau mwyaf gwerthfawr ganddynt i'w ddarllen. Wrth ddywedyd hyn, ni feddylir fod pob math o ragoriaethau wedi cydgyfarfod yn y pregethau hyn. Y maent yn ddiffygiol mewn teimlad, ac i raddau mewn cyssylltiad ymresymiadol. Myfyrdodau ydynt yn hytrach na phregethau. Nid ydynt yn llefaru llawer wrth y serch na'r gydwybod; ac nid oes ynddynt ddim o'r hyn a ystyrir gan Arglwydd Brougham yn hanfod areithyddiaeth, ac a elwir ganddo yn "*fierce declamation.*" Ond os edrychir am sylwadau gwreiddiol a chynnwysfawr, yn codi dyn uwch law iddo ei hun, ac uwch law pob peth daiarol, i wlad y meddyl-ddrychau tragwyddol a digyfrwng, y mae yn anhawdd cyfarfod â gwell anghreiffiau nag a geir yn mhregethau Mr. Charles, o Gaerfyrddin.

Er hyny nid oes i ni dybied ei fod yn ddyeithr i deimladau dwysion a dyfnion: ond yr oedd wedi arfer llywodraethu ei hun, a chuddio ei deimladau o olwg y byd, nes yr oedd hyny wedi myned o'r diwedd yn ail natur iddo. Nid oedd dim yn fwy croes i'w feddwl na rhoddi lle i neb dybied ei fod yn rhagrithio; ac yn sier y mae bob amser yn arwydd o ragrith neu blentyneiddrwydd pan fo dyn yn hoff o son am ei deimladau, ac yn eu dangos ar bob achlysur. I'r eithafion hyn y mae y Cymry yn gyffredin yn fwyaf tueddol. Nid oes ond ychydig o honynt a fuasent, fel efe, yn cychwyn oddi cartref brydnawn ddydd Sadwrn, newydd weled rhan fawr o'u meddiannau yn myned ar dân, ac yn pregethu y Sabbath, ac yn dychwelyd ddydd Llun, heb son gair am y golled wrth neb, yn gyhoeddus nac mewn ymddyddan. Nid dideimladrwydd oedd yr achos ynddo ef; ond yr oedd galw sylw dyeithriaid ato ei hun a'i amgylchiadau yn beth nas gallai ei oddef. Fod ynddo ystôr o deimlad, sydd amlwg oddi wrth ei hymnau, y hwy ydynt, efallai, mor llawn o dân barddonol a hymnau neb oddi eithr rhai Williams, o Bantycelyn: ac nid llawer o gyfansoddiadau Williams ei hun sydd yn fwy trydanol na'r pennill tra adnabyddus hwnw,—

O fryniau Caersalem ceir gweled
Holl daith yr amalwch i gyd;
Bryd hyn y daw troion yr yrfa
Yn felus i lanw ein bryd;
Cawn edrych ar 'stormydd ac ofnau,
Ac angeu dychrynllyd a'r bedd:
A ninnau 'n ddiangol o'u cyrhaedd,
Yn nofio mewn cariad a hedd.

Yn ol pob hanes, y mae yn ymddangos fod ei serchogrwydd yn dyfod i'r golwg yn gyfatebol i'r graddau y byddai ef ei hun o'r golwg: yn fwy yn ei hymnau nag yn ei bregethau, yn fwy mewn cyfarfodydd eglwysig nag mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ac yn fwy yn ei gartref ei hun nag yn un man arall. Y mae yr olwg a geir arno yn ei deulu yn gadael yr argraff mwyaf dymunol ar bob calon. Ar ei ddyfodiad i'r ystafell deuluaidd yn yr hwyr, cymmerai y *poker* yn ei law i roddi adfywiad i'r tân, pa un a fyddai mewn angen am hyny ai peidio; fel yn dywedyd ynddo ei hun, Gadewch i ni yn awr fod yn gysurus gyda 'n gilydd. Eisteddai yn y gadair freichiau, a thaflai olwg serchiadol o'i amgylch. Yna dilynai y cydymddyddan mwyaf siriol a hyfryd hyd bryd swper, ac am hanner awr wedi hyny; yna yr addoliad teuluaidd; ac wedi hyny cenid dwy neu dair o hymnau neu salmau, yn benaf o Watts neu Williams, ond yn fynych o Cowper neu Newton. Yr oedd yno rai yn ei deulu yn medru canu â'r ysbryd, ac â'r deall hefyd: ac ar amserau byddai rhyw hymnau neilldiol yn effeithio cymmaint arno fel y byddai ffrwd o ddagrau yn treiglo dros ei ruddiau.

Oni bai fod gobaith gwynfydedig wedi ei ddwyn i'r golwg trwy yr efengyl, yr hwn sydd yn rhoddi y sicrwydd cryfaf nad yw cymdeithas y saint ar y ddaiar ond blaenbrawf o'r hyn a fwynheir ganddynt yn y nef, galarus fuasai adrodd pa fodd y daeth cwmwl tywyll dros y dedwyddwch hwn am y chwe blynedd diwedda. o'i fywyd. Yn mis Gorphenaf, 1828, tarawyd ef â'r parlys, a chollodd ei leferydd yn llwyr. Ei unig orchwyl bron o hyny allan oedd darllen y Beibl, neu wrandaw ar ereill yn darllen. Parhaodd hefyd i dderbyn cysur oddi wrth yr hymnau a genid iddo gan ei ferched; ac nid anghofiodd yr addoliad teuluaidd. Pan ddygwyddai nad oedd neb arall yn bresennol, i fod yn arweinydd mewn gweddi deuluaidd, gelwid y teulu yn nghyd fel arferol, ac wedi i ryw un ddarllen pennod o'r Beibl, ac i'r teulu benlinio o'i amgylch, dyrchafai yntau ei lygaid ac un llaw tua'r nef, ac ar ei eisteddfa gweddiai fel y gallai. Ar y cyfryw amserau, byddai pawb, fel y mae yn hawdd meddwl, wedi eu gorchfygu gan deimladau nas gellir eu dysgrifio, er nad oedd neb yn deall un gair. Fel hyn yr aeth ei flyneddoedd olaf heibio: ond nid oes un ammheuaeth nad oedd ef ei hun wedi cymmeryd y cynghor a roddodd i'w frodyr mewn cyfarfod eglwysig cyn dechreu ei gystudd:—"Ymdrechweh i gael gwybodaeth eglur o'ch derbyniad

Digitized by Google

gyda Duw *yn awr*; o blegid y mae yn bosibl na fydd yr haul yn y ffurfafen pan fyddoch yn rhodio ar hyd glyn cysgod angeu." Bu farw Medi 2 1834, yn y 72fed flwyddyn o'i oedran.

CHARLES, THOMAS. Er fod bywgraffiadau am y Parch. Thomas Charles wedi ymddangos yn Gymraeg a Seisoneg, mae yn debyg y dyswylir cael yma restr o'r cyfnodau mwyaf neilldu ol yn ei fywyd. Ganwyd ef y 14eg o Hydref, 1755, yn Pantdwfn, plwyf Llanfihangel, yn sir Caerfyrddin, ar y llaw aswy wrth fyned o St. Clears i Lacharn. Ei dad oedd ffermwr cyfrifol, o'r enw Rice Charles. Pan oedd oddeutu deg neu ddeuddeg oed, anfonwyd ef i'r ysgol yn Llanddowror, lle yr oedd yr enwog Griffith Jones wedi bod yn llafurio hyd ei farwolaeth yn 1761. Arosodd yn Llanddowror am dair neu bedair blynedd: ac yn yr ysbaid hwnw y profodd yr argraffiadau crefyddol cyntaf ar ei feddwl. Darllenai y Beibl, a phob llyfr da a fedrai gael; a theimlodd effeithiau dwys wrth ddarllen *Bunyan ar y Ddau Gufammod*. Ond yr oedd yn amddifad o bob cymhorth oddi wrth gyfeillion crefyddol nes y daeth yn gydnabyddus â hen ŵr duwiol o'r enw Rhys Hugh, yr hwn oedd yn byw yn agos, ac yn hen ddysgybl i Mr. Griffith Jones. Galwai gydag ef unwaith neu ddwy bob wythnos; ac edrychai arno fel ei dad yn Nghrist. Yn yr amser hwn aeth i'r sacrament, a gwnaeth ymdrech i ddwyn crefydd i'r teulu; ac ennillodd ddylanwad mawr arnynt oll trwy ei diriondeb a'i ddifrifoldeb. Pan oddeutu pedair ar ddeg oed, anfonwyd ef i'r athrofa oedd yn Nghaerfyrddin: ac yn fuan wedi hyny ymunodd â'r Methodistiaid Calvinaidd. Ond yr oedd proffeswyr hunanol a gweigion yn bod yn y dyddiau hyny, a bu cyfeillach rhai o honynt yn niwed mawr iddo; nes yr agorodd yr Arglwydd yn rasol ei lygaid, ac y gwaredodd ef allan o'u rhwyd. Cafodd adeiladaeth a bendith wrth ddarllen *Ymddyddanion Hervey*, ac amryw lyfrau efengylaidd ereill. Pan yn ddeunaw oed, Ionawr 20fed, 1773, aeth yr holl ffordd i Capel Newydd, i wrandaw Mr. Rowlands o Langeithio; a chaiff fynegu yr effeithiau a gafodd y bregeth ar ei feddwl yn ei eiriau ei hun:—"Ei destyn oedd yn *Heb.* iv. 15: a bydd y diwrnod yn dra chofiadwy genyf tra byddwyf byw. O'r diwrnod cysurol hwnw cefais fath o nefoedd a daiar newydd i'w mwynhau. Y cyfnewidiad a brofai dyn dall wrth dderbyn ei olwg, nid ydyw yn fwy na'r cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnw yn fy meddwl,—

Ciliodd daiar, aeth o'r golwg,
Nef a ymagorai 'n amlwg;
Sain angelaidd oedd i'm clustiau,
Adsain nefol bêr ganiadau.

Dyna 'r pryd yr argyhoeddwyd fi gyntaf o'r pechod o anghrediniaeth, neu o gynnwys meddyliau culion, bychain, a chaled, am yr Hollalluog. Gyda hyny cefais y fath olwg ar Grist fel ein harchoffeiriad, ar ei gariad, ei dosturi, ei allu, a'i holldd ignonedd, ag a lanwodd fy enaid â syndod, ïe, â 'llawenydd annhraethadwy a gogoneddus.' Yr oedd fy meddwl wedi ei orthrechu a'i orchfygu gan syndod: yr oedd y gwirioneddau a osodwyd ger fy mron yn ymddangos yn rhy anfeidrol rasol i'w credu; nis medrwn gredu gan lawenydd. Bydd y golygiadau gogoneddus a gefais y pryd hwnw er llawn ddigoniad i fy enaid, yn y myfyriaeth arnynt, yn mhen myrdd o oesoedd i ddyfod. Yr oedd genyf o'r blaen ryw ddarluniad o wirioneddau yr efengyl, megys yn nofio yn fy mhen; ond erioed hyd y tro hwn ni threiddiasant i'm calon gydag effeithiolaeth a nerth dwyfol. Arosodd effaith y bregeth hon ar fy meddwl am fwy na hanner blwyddyn; ac yn y misoedd hyny yr oeddwn, yn gyffredinol, mewn agwedd gysurus a nefolaidd. Yn fynych wrth rodio yn y meusydd, mi a godwn fy ngolwg yn llawen i'r nef, fel un yn edrych tua'i gartref, a than hiraethu yn wresog am ymddangosiad fy Iachawdwr gogoneddus i'm cymmeryd am byth ato ei hun. Eto, ar amserau, ammheuon a redent i fy meddwl, a mi a ddywedwn ynof fy hun, 'A oes modd i'r pethau hyn fod yn wir?' Yna yr Arglwydd a barai i'r fath eiriau a'r rhai hyn ddadseinio yn fy meddwl—'Ni chyflawnaf angerdd fy llid; ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim; canys Duw wyf fi, ac nid dyn;' *Hos.* xi. 9: 'Fy enaid, bendithia yr Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef;' *Salm* ciii. 4. Ynghylch y pryd hwn hefyd y bu agoriad Luther ar *Gal.* i. 4 er bendith fawr a neilldduol i'm hysbryd, megys y bu am lawer gwaith wedi hyny. Yn yr holl amser y bu fy arosiad yn Nghaerfyrddin, yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi i mi, yn gyffredinol, brawf melus o'i gymdeithas; ac yr oeddwn yn mwynhau yn dra helaeth y moddion mwyaf grymus o ras, a llawer o'r dwyfol bresennoldeb ynddynt. Ar yr un amser nid oeddwn heb demtasiynau cryfion a maglau, y rhai a fuont fwy nag unwaith yn agos iawn i'm llwyr anafu; ond yn y cwbl yr oedd llaw anweledig Duw yn fy nghadw—'y breichiau tragywyddol oddi tanodd.'"

Yn y flwyddyn 1775, agorodd rhagluniaeth y ffordd yn annysgwyliadwy iddo fyned i Rydychain. Ond yn mhen oddeutu dwy flynedd ar ol ei dderbyniad i mewn, dygwyd ef i anhawsder a chyfyngder mawr. Ei gynnaliaeth o Gymru a attaliwyd yn ddisymmwth; ac nid oedd un ffynonell ddaiarol y gallasai edrych iddi am gynnorthwy. Dygwyddodd hyn hefyd pan oedd yn ddyledwr o ugain punt i'r coleg. Ond yn y cyfyngder hwn, anfonodd gwr boneddig am dano i giniawa gydag ef; a chyn iddo fyned o'r tŷ estyn odd iddo y swm o ugain punt: ac ar yr un pryd dywedodd wrtho, na chai diffyg fod arno tra fyddai yn Rhydychain: a bu y gwr boneddig rwydd yr amgylchiad; ond i geisio argraffu ar feddyliau y rhai hyny y perthyn iddynt, y mawr bwys o gynnorthwyo dynion ieuainc. Cafodd ei urddo yn ddiacon, Mehefin 14, 1778. Yr haf hwnw ymwelodd â'r Bala: ac oddi yno aeth ef a'i gyfaill, Mr. Lloyd, i Langeitho, lle y gwrandawsant ddwy bregeth gan Mr. Rowlands, er eu cysur annhraethol: ac o Langeithio teithiasant i Pantdwfn. Am yr ymweliad hwn â'i hen gartref, dywed Mr. Charles,—"Minnau a edrychwn ar y conglau bychain yn y tŷ, ac ar y gwrychoedd encil yn y meusydd, gyda hyfrydwch sydd yn anhawdd i'w adrodd; lleoedd y buasai fy enaid gynt mewn ymdrech â Duw ynddynt, ac mewn gweddi yn cafflael y fendith. Nis gallwn lai nag edrych ar y conglau a'r manau hyny, y buaswn ynddynt yn mwynhau cymdeithas adfywiol â Duw, fel lleoedd cyssegredig. Yr oedd tyddyn fy nhad megys yn gwisgo gwedd baradwysaidd; a'r coffa am yr amryw fendithion a gyfranwyd arnaf ar amryw amserau, oedd yn llenwi fy nghalon â llawenydd a mawl. Awst 16eg, mi a bregethais yn Llanfihangel—plwyf fy nhad; a chefais y fraint o fod yn y gwaith gyda chysur a difrifwch neilldduol: a bu yn llawenydd mawr i'm calon gael gweled unwaith yn chwaneg fy hen gyfaill tra anwyl a Christionogaidd, Rhys Hugh.

Digitized by Google

Medraswn agos wylo o lawenydd. Y cyfarfod olaf ydoedd a gawsom yn y byd hwn: yn mhen mis ar ol hyn efe a ddiangodd i'r nef."

Graddwyd ef yn A. B. yn 1779: a chafodd ei urddo yn offeiriad yn 1780. Wedi bod yn llafurio am bum mlynedd yn Halifax, priododd Miss Jones, o'r Bala, Awst 20fed, 1783: a sefydlodd yn y Bala am weddill ei oes. O ddeutu dechreu y flwyddyn 1784, cafodd guradaeth Llanymowddwy; ond achwynwyd arno gan rai o'r plwyfolion ei fod yn egwyddori y plant bob Sabbath ar ol y gosper, a rhoddodd y periglor iddo rybudd i ymadael. "Bu ar ol hyn," fel y dywed y Parch. T. Phillips, yn *Llyfr y Jubili*, "am rai gweithiau, yn gwasanaethu yn Llanwddyn; a rhag bod yn segur, yr hyn oedd yn boen o'r mwyaf i'w enaid effro, aeth drachefn i weinidogaethu amryw droiau yn achlysurol i Shawbury, er meithed oedd y daith iddo fyned a dychwelyd, ac amryw rwystrau ereill. Ond er y cwbl, nid oedd Mr. Charles eto wedi cael digon o foddlonrwydd meddwl yn nghylch ewyllys Duw o berthynas i'r llwybr oedd iddo i'w gymmeryd, fel ag i ymroddi, heb oed na dysgwyliad yn mhellach, i adael yr Eglwys Sefydledig, nac i bregethu unwaith y tu allan i'w muriau. Ymgynghorai â'i gyfeillion, y Parch. J. Newton, ac ereill, y rhai a'i hannogent i ymadael â Chymru o gwbl, a myned i Loegr; ond nis gallai wneyd hyny, am ei fod, meddai, mor dueddol i gymmeryd Cymru fel y cymmerodd ei wraig, 'er gwell ac er gwaeth,' hyd oni wahanai angeu hwynt. Gan ei fod yn methu cael lle i weinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig, ac o'r ochr arall yn berffaith argyhoeddedig yn ei feddwl ei fod wedi cael ei alw i bregethu, gallwn ddirnad ei deimladau, i ryw radd, pan y dywed, mewn llythyr at gyfaill, o dan y dyddiad Mehefin 12fed, 1784, 'ei bod yn gyfyng arno o'r deutu—rhwng gadael yr Eglwys ac aros ynddi. Wedi cael fy nhroi allan o dair o eglwysi, yn y wlad, ac heb obaith o gael un arall, pa beth a wnaf? Yn yr eglwys ddiweddaf a wasanaethais, bûm dri mis. Cafodd yr efengyl ei bendithio yn fawr yno, fel y mae pethau yn ymddangos yn bresennol. Y mae y bobl yno yn gwaeddi arnaf dan wylo am eu porthi hwynt â bara y bywyd. Pa beth a wnaf? Y mae geiriau Crist yn swnio yn barhaus yn fy nghlustiau, 'Portha fy ŵyn.' Yr wyf yn meddwl fod fy nghalon yn barod i ymaflyd yn y gwaith, bydded y canlyniad a fyddo.' O'r diwedd, ar ol ymdrech a dysgwyliad maith, a dadgan ei ewyllysgarwch i weinyddu am ddim i Eglwyswyr ei gymmydogaeth, a chael ei wrthod, cafodd ei dueddu, neu yn hytrach ei nerthu mewn ymroddiad, i ddilyn arweiniadau rhagluniaeth, a bwrw ei goelbren yn mhlith y Methodistiaid Calvinaidd."

Mae yn naturiol meddwl iddo gael y derbyniad mwyaf croesawus yn ebrwydd. Ond nid felly y bu; o blegid yr oedd llawer o'r Methodistiaid yn edrych arno ar y cyntaf fel un balch, a diddawn, a diddefnydd. Ond yr oedd y rhai callaf o angenrheidrwydd yn ei barchu; a choffeir am Mr. Rowlands, pan glywodd ef yn pregethu yn Llangeitho oddeutu Awst, 1785, iddo ddywedyd am dano yn llon, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd ydyw Charles." Ac nid hir y bu cyn i'r Arglwydd ei arddelwi mewn modd neillduol. Yn nyddiau y Nadolig y flwyddyn hon (1785) pregethodd mewn cymmanfa yn y Bont uchel, ger llaw Ruthyn, ar *Gal.* iv. 4, 5: a dywed ei fywgraffydd, y Parch. T. Jones, iddo lefaru "am berson anfeidrol, ac ufudd-dod gweithredol a dyoddefol y Prynwr, gyda'r fath eglurdeb, awdurdod, ac effeithiau nefolaidd, ag a roddodd y gynnulleidfa mewn syndod deffrous a diolchus, ac mewn ymdoddiad serchiadol ac ysbrydol, na welwyd y cyffelyb ond yn anfynych." Rai blyneddoedd wedi hyn cafodd un o'r odfaon rhyfeddaf a welwyd erioed, pan yn llefaru am ddyrchafiad Crist, mewn cymmanfa yn Aberystwyth.

Teithiodd lawer trwy wahanol barthau o Gymru i bregethu, ac i sefydlu ysgolion dyddiol a Sabbathol, hyd y flwyddyn 1799. Ond yn fuan ar ol dechreu y gauaf hwnw, wrth deithio ar noswaith oerlem tros fynydd Migneint, ar ei ddychweliad o sir Gaernarfon, ymaflodd oerfel dwys yn mawd ei law aswy; yr hyn a barodd iddo ddolur maith a gofidus: a bu raid iddo yn y diwedd oddef ei thori, neu yn hytrach ei chodi ymaith. Yr oedd gweddiau aml yn yr achos, gan yr ystyrid ei fywyd mewn cryn enbydrwydd; a chofir hyd heddyw am eiriau hen weddiwr hynod, o'r enw Richard Owen, yr hwn a ddadleuai gyda thaerineb a byder,—"Pumtheg mlynedd yn chwaneg, O Arglwydd! Yr ydym yn erfyn am bumtheg mlynedd o estyniad at ddyddiau ei oes; ac oni roddi di bumtheg mlynedd, O ein Duw, er mwyn dy eglwys a'th achos?" A pha esboniad bynag a roddir ar yr amgylchiad, y mae yn iawn cofnodi y ffaith, mai o fewn ychydig i bumtheg mlynedd ar ol hyn y diweddodd gyrfa ddaiarol Mr. Charles. O hyn allan, gan nad oedd mor alluog i deithio, ymroddodd yn fwy i ysgrifenu. Yn y flwyddyn 1799, ac o hyny hyd 1802, cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r *Drysorfa Ysbrydol* ganddo ef a Mr. Jones, o Ddinbych. Yn y flwyddyn 1803, dygodd argraffwasg i'r Bala; ac argraffwyd, o'r amser hwnw hyd ei farwolaeth, o'r llyfrau ysgol a barotoisai efe, 320,000 o gopiau. Yn y blyneddoedd hyn hefyd, dygodd allan y *Geiriadur Ysgrythyrol*, ei *Amddiffyniad i'r Methodistiaid Cymraeg*, a'r ail gyfrol o'r *Drysorfa*. Ond yn 1814, llesgaodd yn raddol: ac yn Awst aeth ef a Mrs. Charles i'r Abermaw am bythefnos, lle y clybuwyd ef yn dyweyd wrth ei wraig, "Sally, y mae y pumtheg mlynedd yn agos ar ben." Oddi yno aethant at eu perthynasau i Fachynlleth, lle y pregethodd Mr. Charles ddwywaith ar y dydd Sabbath, Medi 4ydd; yn y bore oddi ar *Luc* xv. 7, a'r prydnawn oddi ar 1 *Cor.* xvi. 22: a'r rhai hyn oedd ei bregethau diweddaf. Dychwelasant adref y 10fed o Fedi, ac wrth draethu ei lawenydd a'i ddiolchgarwch am gael cyrhaedd adref, chwanegodd Mr. Charles, "Bellach nid oes genyf ddim i'w wneuthur ond marw." Ymwelodd cyfaill âg ef y bore y bu farw, a dywedodd, "Wel, Mr. Charles, y mae dydd trallod wedi dyfod:" atebodd yntau, "Y mae noddfa:" a dyna ei eiriau diweddaf. Bu farw dydd Mercher, Hydref 5ed, 1814: a dilynwyd ef gan ei briod ar y 19eg o'r un mis.

Dyma grynodeb o'r prif ddygwyddiadau allanol yn mywyd Mr. Charles; dyma yr amgylchiadau a'i cyfarfu yn ystod ei daith: ac nid ydynt yn lluosog mewn rhifedi, nac yn ddigyffelyb mewn pwysigrwydd. Y mae llawer nad yw eu henwau mewn coffadwriaeth wedi byw bywyd allanol mwy cyflawn o hynodrwydd. Ond nid caethwas amgylchiadau oedd Mr. Charles; nid hynodrwydd sefyllfa oedd ei hynodrwydd, ac nid mawredd damweiniol oedd ei fawredd; ac am hyny nid yw dysgrifiad o'r holl amgylchiadau a ddaeth i'w gyfarfod yn rhoddi ond golwg anmherffaith ar hanes ei fywyd. Nid yn oddefol yn unig yr aeth efe trwy y byd, ond yn weithredol. Nid effaith

Digitized by Google

oedd ei fywyd yn unig, ond achos. Gallu ydoedd a ddaeth yma i roddi ysgogiad newydd i feddyliau dynion. Ei brif nodwedd oedd, ei fod yn weithwr diwyd a difefl; ac er nad oedd ei weithiau yn gyfryw ag sydd yn gyffredin yn tynu sylw dynion bydoi, y mae eu heffeithiau yn fwy parhaus, heb son dim am eu buddioldeb, nag yw gorchestion buddugoliaethwyr milwrol, a llywodraethwyr y ddaiar.

Gellir rhanu ei waith yn ddau ddosbarth; yn gyntaf, ei lafur dyngarol; ac yn ail, ei lafur awdurol.

I'w lafur dyngarol y perthyn ei ymdrechion o blaid addysg. Y mae hwn erbyn hyn yn bwnc poblogaidd. Y mae mawrion y deyrnas yn gwenu arno, ac yn ei gymmeryd dan eu hamddiffyn. Ond yn yr oes hono, yr oedd dyn yn cael ei dybied bron fel yn codi yn erbyn y llywodraeth os soniai am roddi addysg i'r bobl. Er fod Griffith Jones, o Landdowror, yn offeiriad, ac er fod ei ysgolion mewn undeb â'r Eglwys Sefydledig, eto yr oedd boneddigion y wlad, gan mwyaf, yn gwgu arno. Ac yma, ni ddylid myned heibio i enw y gwr hwn heb ddyweyd ei fod yn un o brif ddiwygwyr Cymru. Cyhoeddodd rai o'r llyfrau goreu yn yr iaith Gymraeg, a llwyddodd yn ngwyneb llawer o wrthwynebiad, trwy gynnorthwy rhai cyfeillion cyfoethog, i gynnal ysgolion cylchynol yn holl siroedd Cymru. Ond pa faint mwy o rwystrau oedd yn rhaid fod ar ffordd Mr. Charles, gan ei fod ef yn ameanu at godi ysgolion heb fod mewn cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig? Er hyny, gwnaeth waith mawr yn ngwyneb anfanteision mawrion. Pe na buasai wedi gwneyd dim ond a wnaeth gyda'r ysgolion dyddiol, buasai hyn yn unig yn gymmaint ag a wnaeth rhai yr ysgrifenwyd cyfrolau am danynt yn Lloegr. Yr oedd ganddo nifer o ysgolfeistriaid a rhai ysgolfeistresi yn cadw yr ysgolion hyn mewn gwahanol barthau o'r wlad: ac y mae pawb a'u hadwaenai yn dwyn tystiolaeth fod doethineb a chraffder mawr i'w gweled yn eu dewisiad. Rhoddodd lawer ei hun at eu cynnal, a chasglodd lawer i'r un perwyl oddi wrth ewyllyswyr da yn Lloegr a Chymru: ac heb law hyn, os gwelai ddyn ieuanc gobeithiol, anfonai ef i ryw ysgol i'w barotoi i fod yn ysgolfeistr. Gwnaeth yn y ffordd hon gymmaint ag oedd yn ddichonadwy iddo ei wneuthur; a phe buasai llawer yn gweithredu yn gyffelyb, buasai golwg arall ar Gymru heddyw. Ond cyfiawn yw addef nad oedd, yn yr ymdrech hwn, ond dilynwr i'r Parch. Griffith Jones; ac y mae hanes yr ysgolion dyddiol a sefydlwyd ganddo wedi diflanu o'r golwg yn ngoleuni cryfach y lles annhraethol a ddeilliodd o'r Ysgolion Sabbathol. Y mae yn y rhai hyn elfen wreiddiol, yr hon sydd yn un o'u rhagoriaethau mwyaf arbenig: ac ni wneir y sylw hwn er mwyn dyrchafu Mr. Charles, nac er mwyn darostwng neb arall, ond i ddangos natur a noddwedd yr Ysgol Sabbathol yn Nghymru, fel y mae yn sefydliad heb ddim cyffelyb iddo mewn un wlad arall dan haul. Y mae Ysgolion Sabbathol yn Lloegr; ac yr oeddynt wedi dechreu yno yn gynt nag yn Nghymru: a chan fod yr un enw arnynt, y mae llawer yn tybied eu bod yr un peth mewn gwirionedd. Ond y mae cymmaint o wahaniaeth rhyngddynt ag oedd rhwng gorchwyliaeth Moses a goruchwyliaeth y Testament Newydd. Dyben yr Ysgol Sabbathol yn mhob gwlad arall ond Cymru yw dysgu plant yn unig, ac nid dysgu plant chwaith fel y cyfryw, ond plant y tlodion, y rhai sydd yn analluog i gael addysg mewn un ffordd arall. Nid yw y gweinidog na'r diacon, nac un aelod parchus o'r gynnulleidfa, yn meddwl am anfon ei blant yno. Y canlyniad yw, fod yr Ysgolion Sabbathol yn anadnabyddus lle y mae cyflawnder o ysgolion dyddiol, a'r rhai hyny o fewn cyrhaedd plant y tlodion, megys yn y rhan fwyaf o Scotland: ac fel y bydd addysg ddyddiol yn dyfod yn fwy cyffredin yn Lloegr, mae yn dra thebyg y bydd yr Ysgolion Sabbathol yn darfod, os na osodir hwynt i sefyll ar egwyddor uwch. Hyd yn hyn, pa fodd bynag, y mae cyfarfod i bob oedran, ar ddydd yr Arglwydd, i chwilio yr Ysgrythyrau, yn beth anarferol ac annealladwy yn mhob gwlad, oddi eithr yn unig yn Nghymru. Efallai na chyfeiliornid pe dywedid mai dyma brif ragoriaeth ein cenedl; ac mai dyma y penaf o holl weithredoedd Charles o'r Bala. Mawr oedd y gwrthwynebiad a gafodd oddi wrth yr holl enwadau crefyddol, ac hyd yn oed oddi wrth lawer o'r Methodistiaid Calvinaidd. Dyod lefodd ferthyrdod moesol am faith flyneddoedd, a hyny oddi wrth ei gyfeillion. Ond yn mlaen yr aeth yn dawel a diwyd, heb ffrwst ac heb drwst. Yr oedd rhyw fywyd na fynai farw yn yr Ysgolion Sabbathol. Ac erbyn hyn y mae y gronyn o hâd mwstard wedi myned yn bren mawr.

Y mae un weithred ddyngarol yn arwain i un arall; a bu yr ymdrech gyda'r Ysgolion Sabbathol yn achos o sefydliad Cymdeithas y Beiblau. Y mae llawer o ysgrifenu wedi bod am ddechreuad y gymdeithas ardderchog hon, ac ychydig o wahaniaeth barn wedi ei amlygu o barth i'r personau a ddylent gael eu hystyried fel ei sylfaenwyr. Y mae enwau rhai wedi eu llusgo i'r ddadl nad oedd un berthynas rhyngddynt â'r achos, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol. Yr unig ddau sydd yn teilyngu cael eu cofrestru fel cychwynwyr y gymdeithas yw Thomas Charles a Joseph Hughes. Y cyntaf oedd yr un a greodd yr angenrheidrwydd teimladwy am gymdeithas o'r fath; ac nid hyny yn unig, ond ymofynodd, a chynhyrfodd, ac ni orphwysodd nes ei chael. Ond yn y cyfarfod a gadwyd yn Llundain ar yr achos, pan oeddynt, mewn canlyniad i lafur a thaerineb diorphwys Mr. Charles, yn penderfynu ar gael cymdeithas i ddiwallu angenion y Cymry, mae yn ymddangos mai y Parch. Joseph Hughes a ddygodd i mewn y meddyldrych am ei gwneyd yn gymdeithas gyffredinol, nid i Gymru yn unig ond i Brydain; ac nid i Brydain yn unig, ond i'r holl fyd. Fel hyn y dylasai fod, ac ni fuasai Mr. Charles mor uchel pe buasai fel arall. Meddylier ei fod, yn nghanol yr angen oedd yn ei wlad ei hun, pan oedd plant yr Ysgol Sabbathol yn gwaeddi am Feiblau, ac yn methu eu cael, er hyny yn myned i fyny i Lundain, ac yn cynnyg am gael cymdeithas i anfon Beiblau i eithafoedd y ddaiar, buasai felly yn rhy debyg i'r "ffyliaid, y rhai y mae eu llygaid yn nghyrau y byd." Prin y gallasai y cyfryw ymddygiad darddu oddiar awydd syml am wneyd daioni; a phe caniatëid ei fod yn dangos teimlad canmoladwy, mae yn eglur nas gallasai y teimlad hwnw fod yn cydfyned â doethineb. Ond gwnaeth Mr. Charles yr hyn oedd yn perthyn iddo: llafuriodd yn y cylch yr oedd rhagluniaeth ddwyfol wedi ei osod, nes y bu ei lafur yn achlysur i sefydlu Cymdeithas y Beiblau. Y mae ymofyn pa un ai efe ai Mr. Hughes oedd awdwr y gymdeithas, mor anmhriodol ac mor ddifudd ag yw dadleu pwy oedd awdwyr y fuddugoliaeth yn Waterloo —pa un ai y Seison, y rhai a wrthsafasant y

Digitized by Google

gelynion am ddiwrnod cyfan, ai ynte y Prwssiaid, y rhai a ddaethant yn mlaen yn niwedd y dydd, ac a orphenasant y gwaith.

Ond er mwyn gosod y mater hwn yn gywir ger bron y darllenydd, y mae un neu ddau o sylwadau yn mhellach yn deilwng o ystyriaeth. Y sylw cyntaf yw, fod gwahaniaeth hanfodol rhwng dyngarwyr a darganfyddwyr naturiol. Yn y celfyddydau a'r gwybodaethau, y peth mawr yw cael allan y meddylddrych: ond mewn dyngarwch, nid y mwyaf gwreiddiol yw y dyn mwyaf; ond y mwyaf gweithgar, ac yn enwedig y mwyaf medrus i ennill ereill i weithio. Nid oes dim yn fwy hawdd na ffurfio cynlluniau; ond yr anhawsder yw eu dwyn i weithrediad. Yn yr olwg yma y mae Mr. Charles a Mr. Hughes yn sefyll yn uchel yn eu perthynas â Chymdeithas y Beiblau; Mr. Charles fel y mwyaf offerynol i'w dwyn i fod, a Mr. Hughes fel y mwyaf llafurus o'i phlaid ar ol ei sefydlu. Pe buasai Mr. Charles yn cynnyg y meddylddrych am ei gwneyd yn gymdeithas gyffredinol i'r holl fyd, ni fuasai hyny yn chwanegu dim at ei anrhydedd; a phe na buasai Mr. Hughes yn ei gynnyg, ni fuasai hyny o bwys; o blegid y gofyniad ydyw, nid pwy a siaradodd, ond pwy a weithredodd. A hyn y cytuna Mr. Alers Hankey, yr hwn oedd yn bresennol yn y cyfarfod; a'r hwn wrth son am Mr. Hughes, sydd yn sylwi fel y canlyn:—"Ar lafur ein cyfaill ymadawedig, yn ystod y cyfnod pwysig (ac i bawb oedd yn dwyn perthynas ag ef) pryderus hwn, yr wyf yn seilio yr hawl i'w enw gael ei drosglwyddo i oesoedd dyfodol fel 'tad y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor;' a'r cyfryw hawl, ar y sail gadarnaf, fel na feiddia neb ei ddadleu. O berthynas i'r anrhydedd ansicr o fod yn llefarydd y geiriau a ddyferwyd yn y cyfarfod ar y 7fed o Ragfyr, 1802, ar ol clywed adroddiad Mr. Charles, pe gallesid bod yn sicr hyd yn oed o'r geiriau eu hunain, nid oeddynt yn unig ond ymgorfforiad o deimlad cyffredin pawb oedd yn bresennol, ac yr oeddynt yn rhy aneglur i gyfleu un ystyr. Dywedodd rhyw *un* ryw *beth*. Atebwyd dyben rhagluniaeth felly, a thu hwnt i hyny yr wyf yn credu fod pob peth yn anhysbys. Nid wyf yn gwadu nad efe allai fod y person a'u llefarodd hwynt, beth bynag oeddynt—y mae y tebygrwydd hwyrach o'i du—ond ni thybiwyd fod yr hawl o hyny o un pwys hyd oni ymgymmerodd Mr. Owen â'r gorchwyl o ysgrifenu hanes y gymdeithas, ac wedi hyny seiliwyd ef ar gof Mr. Hughes ei hun. Y mae ei hawl i fod yn dad iddi, fel y dywedais, yn gorphwys ar lawer cadarnach sail. O'r foment gyntaf yr ennynwyd y wreichionen, darfu iddo ef ei chwythu â'i holl sel, hyd oni ddaeth yn fflam fawr." Dyma eiriau Mr. Hankey, fel y ceir hwynt yn *Llyfr y Jubili*, gan y Parch. Thomas Phillips. Nid oes ynddynt ddiffyg parch i Mr. Hughes; o blegid enwir ef yn "dad y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor;" a seilir ei hawl ar yr iawn sylfaen, sef ar ei lafur, ac nid ar ei eiriau. Os llafur dibaid o blaid y gymdeithas o'i chychwyniad sydd yn rhoddi hawl i'r enw, nid oes neb yn fwy teilwng o hono na Mr. Hughes: ond os llafur mor ddibaid cyn ei chychwyniad, a'r llafur hwnw yn achosi ei dygiad i fod, sydd yn cyfansoddi tad y gymdeithas, yna mae yr enw yn perthyn yn fwyaf priodol i Mr. Charles. Ond atreidiol yw dadleu yn nghylch yr enw; ac y mae yn ammheus a yw yn briodol galw neb ar y ddaiar yn dad Cymdeithas y Beiblau. Yr hyn oll a ameenir yma yw, dangos natur y cyssylltiad sydd rhwng sylfaeniad y gymdeithas â Chymru, ac yn bendifaddeu â llafur Mr. Charles. Y sylw arall ar y mater hwn yw, fod llai o bwys nag y mae llawer yn ei feddwl yn y geiriau "Brytanaidd a Thramor." Y pwnc mawr oedd cael cymdeithas i ddosbarthu Beiblau yn rhadlawn, heb nod nac esboniad; nid meddwl am dani, ac nid siarad am dani, ond mynu ei chael. Dyma yr egwyddor fawr sydd yn enaid i'r gymdeithas: ac yr oedd yr egwyddor hon yn gynnwysedig yn nghynnygiad Mr. Charles; o blegid y mae efe ei hun yn dywedyd yn ei ddull dirodres arferol, "Wrth waith y Parch. T. Charles yn ymorol yn Llundain âg ewyllyswyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraffiad helaeth o'r Beibl am bris gweddol, yn yr iaith Gymraeg, ac os byddai bosibl, i drefnu cyllidfa barhaus o honynt, fel na byddai un amser mwy brinder o Feiblau i'r Cymry tlodion, rhoddodd yr Arglwydd y meddwl caruaidd ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddyddan â hwynt, o ffurfio cymdeithas i ddosbarthu Beiblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn y gwledydd pellenig tramor." Pe sefydlasid y gymdeithas i Gymru yn unig, neu i Brydain yn unig, buasai yr egwyddor hon yn gweithio ei ffordd yn raddol, ond yn effeithiol. A dichon y buasai Prydain wedi gwneyd mwy o les i wledydd ereill pe soniasai lai am dani ei hun fel yr unig ffynnonell o bob daioni i'r holl fyd; a phe buasai yn cyfeirio ei hymdrech yn fwy i annog, a chodi, a chynnorthwyo dynion ymroddgar yn mhob gwlad i lafurio yn eu gwlad eu hunain, ac i sefydlu cymdeithasau daionus yn mysg eu cydwladwyr.

Wrth adael y mater hwn, os cymmerir golwg gyffredinol ar lafur dyngarol Mr. Charles, gellid meddwl mai peth hawdd iawn yw cyrhaedd y llwyddiant mwyaf mewn gwneyd daioni. Nid oedd efe yn ameanu at orchwylion mawrion, ac eto cyflawnodd y rhai mwyaf. Dirgelwch ei lwyddiant oedd, fod ei lygad yn syml: ac felly, yn lle treulio ei amser i edrych oddi amgylch, a chynllunio pa beth a allai wneuthur i enwogi ei hun; ac yn lle ymgyrhaedd at ameanion uchel i dynu sylw ac i ennill clod gan ddynion, yr oedd bob amser yn gwneyd yr hyn oedd o'i flaen, er ei fod yn orchwyl rhy ddistadl gan ereill i ymaflyd ynddo. Effeithiodd yn mhell trwy wneuthur yn egniol yr hyn oedd yn agos ato. Braidd na ellid dywedyd mai un meddwl oedd ganddo; a'r meddwl hwnw oedd rhoddi addysg i'r bobl. Dyma yr hyn oedd yn ymddangos ar y pryd yn fwyaf angenrheidiol, ac at hyn y casglodd ei holl nerthoedd. Yr oedd yn alluog i draddodi pregethau mor gyflawn o faterion, ac mewn dull mor rymus, a neb yn Nghymru; ac felly y gwnai pan fyddai achlysuron yn galw am hyny. Wrth ymdrin â phynciau athrawiaethol yn y cymdeithasfaoedd, yr oedd ei frodyr mwyaf gwybodus yn cael adeiladaeth a goleuni newydd i'w meddyliau wrth ei wrandaw, a rhoddent y blaen iddo yn naturiol. Ond wrth fyned a dyfod ar hyd y wlad, ei destyn gwastadol oedd addysg. Pa un bynag ai yn y tŷ, ai ar y ffordd, ai yn yr areithfa, ei hyfryd wedd oedd dysgu y bobl, ac annog ereill i wneuthur yr un modd. Oddi ar y teimlad hwn y sefydlodd yr ysgolion dyddiol: ac wrth weled y rhai hyny yn annigonol, arweiniwyd ef i godi yr Ysgol Sabbathol. Atebodd y sefydliad hwn y dyben; a llwyddodd, nid ar unwaith, ond yn raddol, tu hwnt i bob dysgwyliad. Yr oedd yma egwyddor

Digitized by Google

newydd, o nerth annherfynol, wedi dyfod i'r golwg, yr hon nid yw eto ond yn dechreu dangos ei hefeithiolrwydd. Ond ar ol sefydlu yr Ysgol Sabbathol, nid aeth i chwilio pa beth a gai i'w wneuthur drachefn, pa golofn arall a godai i anfarwoli ei enw: ond aeth yn mlaen yn ddyfal gyda'r gwaith oedd ganddo, nes y gorfodwyd ef, gan y llwyddiant oedd yn cydfyned â'i ymdrechion, i chwilio am ryw foddion i gyflenwi yr angen am Feiblau yn ei wlad ei hun; ac felly, trwy ei ffyddlondeb yn addysgu y Cymry tlodion, y daeth, dan arweiniad dwyfol, i fod yn achosydd o sefydliad Cymdeithas y Beiblau.

Os awn rhagom yn nesaf at yr ail ran o'i lafur, yr ydym yn cael yr un ysbryd yn ei weithiau awdurol. Cyhoeddodd dri o lyfrau gyda golwg uniongyrchol ar yr Ysgol Sabbathol. Un o honynt yw y *Sillydd*, yr hwn sydd yn awr allan o arferiad, er colled yn hytrach na mantais i ieuenetyd yr oes hon; gan fod ynddo luaws o gyfarwyddiadau mewn pethau bychain, yn y rhai y mae y Cymry yn fwyaf ar ol. Mae yr *Hyfforddwr* yn adnabyddus i bawb; ac wedi bod yn un o'r llyfrau mwyaf defnyddiol. Ond tybia rhai fod yr oes hon yn rhy oleuedig i sefyll mewn angen am ei gynnorthwy—heb ystyried mai wrth ddysgu yr *Hyfforddwr* y daeth yr oes mor oleuedig ag ydyw—a phe bai yn llawer mwy goleuedig, y gwirioneddau anwadadwy ydyw, er ein holl ymffrost a'n clindarddach, y bydd yr oes nesaf yn dywyllach na'r ddiweddaf yn athrawiaethau sylfaenol crefydd, oni pharheir i ddysgu yr *Hyfforddwr*, neu ryw lyfr cyffelyb. Rhyfedd ydyw fod dynion, sydd yn proffesu gweled yn mhell, yn methu canfod y gwirionedd hwn—sydd mor amlwg, ac mor agos atynt. Bydd rhifedi mawr yn mhob oes yn rhaid iddynt wrth laeth, ac nid bwyd cryf: ac hyd yn oed am y rhai a farnant eu bod hwy eu hunain yn ei ddeall yn berffaith, efallai fod hyny yn brawf eu bod eto heb ei chwilio i fanylrwydd; o blegid y mae ynddo ddigon o waith i'r amgyffredion cryfaf, gan ei fod yn cynnwys casgliad o amryw adnodau dyfnion ar yr holl bynciau pwysicaf yn athrawiaeth yr efengyl. Ond ni feddyliodd Mr. Charles am ddysgu crefydd yn athrawiaethol, heb ei dysgu hefyd yn ymarferol; ac am hyny cyhoeddodd *Esboniad ar y Deg Gorchymyn*: ac nid yw yn un clod i'r Cymry fod y llyfr hwn yn llai poblogaidd na'r *Hyfforddwr*. Heb law amddiffyn ein hunain yn ngwyneb cyhuddiadau anhaeddiannol a ddygwyd yn ein herbyn fel gwlad, buasai yn dda i ni ymosod o ddifrif i ddiwygio lle yr ydym yn feius; ac nid rhyw egni achlysurol, ond ymdrech cysson sydd yn angenrheidiol i buro moesoldeb y genedl. I'r dyben hwn, y mae yn anhawdd dyfeisio moddion mwy effeithiol na dysgu ac adrodd yr *Esboniad ar y Deg Gorchymyn* yn barhaus yn yr holl Ysgolion Sabbathol.

Fel y mae llawer o amrywiaeth chwaeth, felly y mae yn rhaid fod llawer o wahaniaeth barn mewn perthynas i bob cyhoeddiad cyfnodol. Ond i'r rhai sydd yn caru sylwedd yn fwy na gwegi, i'r rhai a ewyllysiant weled hanes enwogion, a'r rhai hyny yn *wir* enwogion, a thraethodau duwinyddol, a'r rhai hyny yn *wir* dduwinyddol, yn nghyd âg adroddiadau o ymdriniaethau cymdeithasfaol y rhai oeddynt yn haeddu eu trosglwyddo i'r oesoedd a ddeuai, bydd y ddwy gyfrol o'r *Drysorfa Ysbrydol*, a gyhoeddwyd gan ddo, yn sicr o gael eu cyfrif yn mhlith eu llyfrau mwyaf gwerthfawr. Y maent yn perthyn i'r dosbarth ûnwnw o lyfrau, am y rhai y gellir dywedyd eu bod yn "dda bur." Nid oedd y wasg yn y dyddiau hyny, o'r hyn lleiaf dan ei olygiaeth ef, wedi syrthio mor isel ag i gael ei chyflenwi gan y rhai mwyaf segur ac anwybodus, y rhai a ruthrant i ddysgu ereill pan y dylent ddysgu eu hunain; a llawer llai y rhoddai efe dderbyniad i gecraeth a difriaeth oddi wrth swyddymgeiswyr aflwyddiannus, neu ddrwgweithredwyr diarddeledig. Ond y pwysicaf o'i holl anturiaethau llenyddol oedd y *Geiriadur Ysgrythyrol*. Y mae yn anhawdd dysgrifio y lles a wnaeth y gwaith hwn i genedl y Cymry mewn llawer o ystyriaethau. Pe edrychid arno yn ei berthynas â'r iaith Gymraeg, efallai nad oes un llyfr, heb law y gyfrol sanctaidd yn y cyfieithiad awdurdodedig, wedi gwneyd mwy i gadw yr iaith mewn bod a bywyd; fel y mae yn ddiau nad oes un llyfr yn fwy diogel fel cynllun i ysgrifenwyr, gan nad yw ei arddull yn rhy hen nac yn rhy newydd, yn rhy uchel nac yn rhy isel. Os gofynir drachefn i'r rhai sydd yn gwneyd arferiad o feio crefyddwyr Cymru am eu bod yn rhy esgeulus o wybodaeth gyffredinol, pa lyfr a fu yn fwyaf offerynol i roddi y graddau sydd o'r wybodaeth hono yn ein gwlad, y mae yn rhaid iddynt addef mai y *Geiriadur Ysgrythyrol*. Ond er ei fod wedi cyflawnu yr amcanion hyn wrth fyned heibio, maes neillduol y llyfr, o'i ddechreu i'w ddiwedd, fel y mae ei enw yn arwyddo, yw yr Ysgrythyrau; a pha ddarpariaeth bynag sydd yn ofynol i alluogi y Cymro uniaith i efrydu y Beibl yn fanwl ac yn drwyadl, y mae i'w gael, hyd yr oedd y terfynau yn caniatäu, yn y *Geiriadur*. Os yw yn ddymunol cael arweiniad i holl lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, y mae hyny i'w gael yn y *Geiriadur*. Os byddai llyfr ar hanesiaeth y Beibl yn dra buddiol, y mae hyny yn y *Geiriadur*. Os yw yn angenrheidiol deall daiaryddiaeth y Beibl, ceir hyny hefyd yn y *Geiriadur*. Os ymofynir am esboniad ar luaws o anhawsderau y Beibl, ni chwilir yn ofer am hyny yn y *Geiriadur*. Ac yn olaf, os teimla neb awydd i ddarllen Corff o Dduwinyddiaeth, er iddo chwilio y llyfrgelloedd helaethaf, nid yn fynych y cyfarfyddir âg un gwell nag a feddir gan y Cymry yn y *Geiriadur Ysgrythyrol*. Er fod ei wasanaeth yn mhob un o'r rhandiroedd a enwyd yn deilwng o grybwylliad, y mae yn debyg mai yr hyn sydd yn cyfansoddi ei ragoriaeth penaf, a'i fuddioldeb mwyaf parhäus, yw ei draethodau duwinyddol. Y mae y golygiadau athrawiaethol yn eang, ac yn dangos gofal am roddi ei le priodol i bob pwnc yn y dadguddiad dwyfol. Nid ydynt yn gwadu dyledswydd dyn er mwyn dyrchafu gras Duw, nac yn cuddio gras penarglwyddiaethol er mwyn arcymhell dyledswydd. Nid peth bach yw cael cyfarwyddwr y gellir ymddiried iddo, un nad yw yn caru eithafion, ac nad yw yn dewis myned yn mlaen un cam heb wybod yn sicr i ba le y mae y flordd yn arwain. Duwinyddiaeth fel hyn yw duwinyddiaeth y *Geiriadur Ysgrythyrol*.

Ysgrifenodd Mr. Charles, hefyd, lyfr bychan yn yr iaith Seisonig, i amddiffyn y Methodistiaid Calvinaidd yn ngwyneb cyhuddiadau a ddygid yn erbyn y cyfundeb gan wr eglwysig o sir Fôn, yr hwn a gymmerai arno brofi fod rhai o honynt mewn modd dirgelaidd yn feithrinwyr teyrnfradwriaeth. Er fod y gwr hwn, a'i gyhuddiadau, wedi myned i ebargofiant, y mae y traethawd yn werth ei ddarllen eto fel anghraifft o iaith brydferth, ac ysbryd gwir foneddigaidd. Heb law hyn oll, yr oedd wedi dechreu ar *Fynegair*

Digitized by Google

helaeth i'r Beibl Cymraeg. Ac ni ddylid myned heibio heb ddyweyd gair am ei hymn. Y mae yn debyg na chyfansoddodd fwy nag un hymn; ond gem yw yr un hono. Y mae y pennill cyntaf fel y canlyn:—

Dyfais fawr tragwyddol gariad
Ydyw Iachawdwriaeth lawn.
Sail cyfammod hedd sydd gadarn;
Ac nis derfydd byth mo'i ddawn.
Dyma'r fan y gorphwys f'enaid;
Dyma 'r fan y hyddaf byw;
Mewn tangnefedd pur heddychol,
Yn mhob 'stormydd gyda'm Duw.

Mae y pennillion ereill yn gyffelyb, yn un gadwen o feddwl a theimlad barddonol, er eu bod wedi eu hargraffu weithiau heb fod mewn cyssylltiad â'u gilydd. Ond o'i holl gyfansoddiadau, efallai nad oes yr un yn dangos mwy o wreiddiolder a mawredd meddwl na'i ddyddlyfr, yr hwn a argraffwyd yn hanes ei fywyd. Yn hwn y mae yn chwilio dirgeledigaethau y galon ddynol, ac yn plymio dyfnderoedd profiad ysbrydol. Yn lle aros yn yr ymddangosiadau arwynebol, y mae yn eu holrhain i lawr yn barhaus at yr achosion cyffredinol yn eigion yr enaid, lle y mae pob amrywiaethau personol yn cydgyfarfod, ac yn diflanu o'r golwg mewn egwyddorion tragwyddol; ac o ganlyniad y mae ei ddyddlyfr yn gyflawn o'r addysgiadau dyfnaf i bob dyn yn mhob oes.

Ac yn awr, fel casgliad oddi wrth y cwbl, gallwn weled gymmaint y dichon i un dyn ei wneuthur os bydd o ddifrif. Pe cyfranogai holl weinidogion a diaconiaid y Methodistiaid Calvinaidd yn helaeth o'r un ysbryd ag oedd yn Mr. Charles, pe byddent oll mor hunan-ymwadol, a phe ymdrechent i wneuthur cymmaint gyda'u gilydd ag a wnaeth ef ei hun, mae yn ddiammheuol y byddai effeithiau newyddion i'w gweled yn fuan oddi wrth eu gweithrediadau. Pe caent yr un ffydd ag oedd ynddo yntau, ffydd yn Nuw i ddechreu, a ffydd mewn dynion yn nesaf, hwy a symmudent fynyddoedd eto yn yr oes hon.

CHARNOCK, STEPHEN, B. D.: ydoedd un o dduwinyddion blaenaf yr eilfed canrif ar bymtheg. Yr oedd Charnock gyda'r blaenaf yn ei oes o ran dysgeidiaeth a duwioldeb; ac ystyriai llawer o ddysgedigion yr oes hono yn fraint cael eistedd wrth ei draed. Mab ydoedd Stephen Charnock, i Richard Charnock, cyfreithiwyr tra enwog yn y *Court of Chancery*. Yr oedd yn ddisgynedig o hen deulu anrhydeddus yn swydd Lancaster. Ganwyd ef yn mhlwyf Cathrine Cree, Llundain, yn y flwyddyn 1628. Nid oes ar gael yn bresennol ddim adgofion am febyd ac ieuenctyd Mr. Charnock, hyd yr amser yr aeth yn fyfyriwr i Goleg Emanuel, Caergrawnt: y pryd hwnw, dan arolygiaeth y Dr. W. Sancroft, yr hwn wedi hyny a wnaed yn archesgob Canterbury. Llafuriodd Charnock yn galed, a llwyddodd i gasglu llawer o wybodaeth; a thra yn yr athrofa, dysgodd gadw cyfraith ei Dduw, a charu y Cyfryngwr.

Ymadawodd Charnock â'r athrofa, nid yn unig yn ysgolhäig graddedig, ond hefyd yn addas i fod yn weinidog da i Iesu Grist. Er hyny treuliodd ychydig yn chwaneg o amser er parotoi ei hun i'r gwaith pwysig, fel athraw i blant rhyw wr bonedd ig. Tua dechreu y rhyfel gartrefol, dechreuodd ar ei weinidogaeth yn Southwark, lle y bu dros ychydig amser yn dra llwyddiannus. Ymddengys na bu ei weinidogaeth mor lwyddiannus byth wedi hyny.

Yn 1649, symmudodd Mr. Charnock i Rhydychain, lle y gwnaethpwyd ef yn aelod o New College, ac yn fuan wedi hyny yn athraw yn y celfyddydau (M. A.). Tynodd ei ddiwydrwydd a'i fuchedd dduwiol gymmaint o sylw, fel y gwnaethpwyd ef yn llywydd yr athrofa, yn 1652; yr hon swydd a lanwodd, er anrhydedd mawr iddo ei hun a lles y gymdeithas yn gyffredinol, hyd 1656. Ar ol hyn, aeth drosodd i'r Iwerddon, lle bu am tua phum mlynedd yn gaplan i Harry Cromwell. Tra yn aros yn Dublin, dangosodd aelodau y Brif Athrofa eu parch iddo trwy ei raddio yn wyryf mewn duwinyddiaeth (B. D.). Ar farwolaeth Cromwell ac adferiad Charles, trodd y wlad ar Charnock yn gystal ag ereill o'r Ymneilldüwyr. Gorfu ar Charnock adael maes ei lafur lle yr oedd mor dderbyniol, a dychwelyd i Lundain, lle yr arosodd am flyneddoedd mewn dystawrwydd. Rhoddodd hyn gyfleusdra iddo ddilyn ei fyfyrdodau, yr hyn a wnaeth gyda'r dyfalwch mwyaf, ac o'r braidd yn ddidor am bymtheng mlynedd. Yn 1675, derbyniodd alwad i fugeilio yr eglwys yn Crosby square, fel cydweinidog â'r Parch. Thomas Watson; yr hwn a fwriasid allan o Eglwys St. Stephen, Walbrook, ag oedd wedi llwyddo i gasglu eglwys yn y fan hono. Bu yno am bum mlynedd. Bu farw, Gorphenaf 27, 1680, yn 75ain oed.

Ychydig iawn o'r amgylchiadau sydd yn hysbys i ni am yr adeg hon, mwy nag adegau ereill yn mywyd Charnock; ond y mae yn amlwg iddo farw fel y bu byw—mewn heddwch â Duw, a'i lygaid yn gweled ei iachawdwriaeth ef. Yr oedd ar y pryd yn traddodi ei ddarlithiau ar fodolaeth a phriodoleddau Duw, i'w gynnulleidfa yn Crosby Hall. Parai y teimlad a amlygai ar y pryd i amryw feddwl ei fod yn agosäu i'r nefoedd. Bu farw, y mae yn debyg, yn dra sydyn, yn nhŷ Mr. Richard Tymus, yn mhlwyf Whitechapel. Cymmerwyd y corff yn uniongyrchol i'r capel yn Crosby square, ac oddi yno aethpwyd âg ef rhwng lluaws o alarwyr i Eglwys St. Michael, Cornhill, lle y claddwyd ef wrth ymyl y clochdŷ. Pregethwyd ei bregeth angladdol gan ei hen gydfyfyriwr yn athrofa Caergrawnt, Mr. John Johnson, oddi ar y geiriau, "Y cyfiawn a ddysgleiriant fel yr haul yn nheyrnas eu Tad."

Prif ragoriaeth Charnock ydoedd fel pregethwr. Hoffai pob math eistedd dan ei weinidogaeth: yr oedd yn hynod efengylaidd. Ymdriniai â'r groes fel prif sylfaen ei weinidogaeth, ac fel y prif fan o ba un y tynai ei saethau llymion a'i ddywediadau mwyaf effeithiol. Ond fel ysgrifenydd y mae Charnock yn fwyaf adnabyddus. Y mae llawer o'i waith wedi ei gyhoeddi, ond bron i gyd ar ol ei farwolaeth. Cyhoeddwyd y *Traethawd ar Raglunaeth*, yn 1681; wedi hyn dilynodd y *Traethawd ar Fodolaeth a Phriodoleddau Duw*, yn 1682; ac wedi hyny y traethodau ar *Ailenedigaeth, Cymmod, Swper yr Arglwydd*, &c. Y mae ei glod fel ysgrifenydd yn hysbys i bawb, ac ni fyddai ceisio ei ddyrchafu ond goreuro aur dilin; ond gallwn sylwi fod yn syndod fod ei iaith mor goeth pan ystyrir nad oedd wedi parotoi dim i'r wasg. Y mae rhai dynion mawr wedi sylwi, mai Charnock yw y goreu i dywys dyn ieuanc i ddeall y Beibl, o'r holl Buritaniaid. Yr argraffiad goreu o'i waith, yw yr un a gyhoeddwyd gan Parsons, Leeds, yn 9 cyfrol, 8plygg, yn nghyd â hanes bywyd yr awdwr. Gwel hefyd *Calamy's Nonconformist Memorial*, am hanes pellach am dano.

Digitized by Google

CHINA: gwlad eang yn Asia Ddwyreiniol, yn gwneyd i fyny y rhan fwyaf o'r ymherodraeth Chineaidd. Y mae yn gorwedd ar lanau y Môr Tawelog, ac yn cyrhaedd o 20° lled. gog., neu os cymmerir ynys Hainan i fewn, o 18° i 41° lled. gog.; ac os chwanegir y rhandir sydd yn ymestyn ar y gogledd orllewin, tua chanolbarth Asia, i 46° lled. gog. Y mae ei phen dwyreiniol, lle y mae yn ymylu â'r Corea, yn cael ei dori gan 124° hyd. dwyr.; a'i therfyn gorllewinol, lle y mae yn ymylu â'r ymherodraeth Birmah, gan 98° hyd. dwyr.; ond os cymmerir y rhandir ysgwyddol i mewn, cyrhaedda hyd 85° hyd. dwyr. Ei hyd mwyaf, o borthladd Amoy—ar gyfer ynys Formosa, a'i gymmeryd mewn cyfeiriad gogledd orllewinol—i ben eithaf y rhandir ysgwyddol, nis gall fod nemawr dan ddwy fil o filltiroedd; ond os cauir y rhandir crybwylledig allan, hyd mwyaf China—o'r Orynys, ar gyfer Hainan, hyd y mur mawr ar y tu gogleddol i Peking—sydd tua 1,400 o filltiroedd; a'i lled sydd yn amrywio o 900 i 1,300 o filltiroedd. Pe cymmerid ei hyd at ei gilydd, yn 17 o raddau lledredawl, neu tua 1,180 o filltiroedd, a'i lled at ei gilydd tua'r un nifer o filltiroedd, yna canfyddem fod arwyneb China yn 1,292,400 o filltiroedd ysgwâr; yr hyn nis gwahaniaetha lawer oddi wrth fesuriad Syr George Staunton, yr hwn a'i cyfrifa yn cynnwys arwyneb o 1,297,999 o filltiroedd ysgwâr; neu gymmaint un waith ar ddeg ag arwynebedd yr Ynysoedd Prydeinig; a dylid sylwi, nad yw y rhandir ysgwyddol sydd yn ymestyn ar y gogledd orllewin, yn y cyfrifon yma.

Y mae China yn cael ei hamgylchynu gan wledydd sydd yn ymddibynu arni, oddi eithr ar ei hystlysau de-orllewin a deheuol; lle y mae yn ymylu ar ymherodraeth Birmah, breniniaeth Siam, a Cochin China: o ba rai, nid oes ond yr olaf yn unig mewn enw yn ymddibynu ar China, neu yn ddarostyngedig iddi. Ar y tu gorllewin iddi y mae Tibet, a gwlad Kho-kho-nor, neu Ching-Hai. Y rhandir ysgwyddol, a amgylchynir yn benaf gan y wlad a elwid gynt Tartaria Fawr, a chan Mongolia. Y mae Mongolia yn cymmeryd i fyny y rhan fwyaf o'i therfyn gogleddol hefyd, oddi eithr yn y pen dwyreiniol iddo, lle ei terfynir gan Manchuria, neu Ching-King, a chan Corea. Ei hystlys ddwyreiniol a olchir gan ddyfroedd y Môr Tawelog; yr hwn a ffurfia gulfor dwfn rhwng China a Corea, yr hwn a elwir Hoango-Hai, neu y Môr Melyn; ond rhwng y Corea ag ynys Formosa, fe'i gelwir Tung-Hai, neu y Môr Dwyreiniol; a Nan-Hai, neu y Môr Deheuol, rhwng Formosa a Hainan.

Y mae yn cynnwys tua y drydedd ran o gyfandir mawr Asia; a bernir ei bod y llywodraeth fwyaf boblogaidd a chyfoethog yn yr holl fyd. Y mae y mur mawr, a adeiladwyd rhwng China a Tartary, yn rhagori ar bob peth arall o gynnyrch celfyddyd a diwydrwydd dynol, y meddwn ei hanes. Barna rhai fod y mur anghymharol yma wedi ei adeiladu tua 200 o flyneddoedd cyn y cyfnod Cristionogol, gan benadur cyffredinol cyntaf China, er amddiffyn y trigolion rhag y llwythi crwydrol o'r Tartariaid, y rhai a anrheithient y rhanau deheuol o'r deyrnas yn ddibaid. Y mae corff y mur wedi ei wneyd o bridd ac ysbwrial, a'i wynebu â cheryg a phriddfeini. Tua 1,250 milldir yw ei hyd. Ar y mynyddoedd tua 15 troedfedd yw ei uchder; a chynnydda i tua 30 troedfedd ar y gwastadeddau. Ei drwch ar y gwaelod ydyw 25 troedfedd, yn culhau i tua 15 troedfedd yn ei ben uchaf. Y mae tyrau arno o fewn 300 llath i'w gilydd; ac y maent yn 40 troedfedd ar draws bob ffordd yn y gwaelod, ac yn culhau i 30 troedfedd yn y pen uchaf; eu huchder yw 37 troedfedd.

Y mae ymherodraeth China wedi ei dosbarthu yn nifer o daleithau; o ba rai y mae saith yn ymledu yn gyfan, neu mewn rhan, dros y gwastadedd mawr: dwy yn cynnwys yr ardaloedd bryniog; y ddwy ereill, y wlad fynyddig, ar hyd glan y môr; a'r lleill, y mynydd-dir yn y berfedd-wlad.

1. *Pe-tche-li*: sydd yn ymledu dros y rhan ogleddol o'r gwastadedd; yr hwn nid yw mor gynnyrchiol a rhanau ereill o'r un gwastadedd, er ei fod dan amaethiad da, a bod llawer o wenith yn cael ei godi o hono, heb law cyflawnder o lysiau at wasanaeth y brif ddinas. Yn y dalaeth yma y mae Peking, prif ddinas yr holl ymherodraeth; ond prif dref y dalaeth yw Pao-ting-foo; yr hon sydd dref fawr a phoblogaidd, yn yr hon y mae y llywydd yn preswylio.

2. *Chang-tung*: a gynnwysa ran o'r gwastadedd, a gorynys Chang-tung, ar yr hon y mae mynyddgainc lled uchel yn ymddyrchafu. Cynnyrcha wenith, a chotwm, &c. Ei phrif ddinas yw Tsi-nan-foo, yr hon sydd dref fawr a phoblogaidd. Lin-tchin-tcheou, ar gyfarfyddiad y ddyfr-ffos (*canal*), a'r afon Eu-ho, yw ystorfa y nwyfau a ddygir o'r taleithau deheuol i Peking; ac y mae yn lle mawr iawn.

3. *Kiang-su*: yr hon, yn nghyd â'r dalaeth nesaf, unwaith a ffurfiai dalaeth Kiang-nan, a gynnwysa y wlad isel a chorslyd o bob tu y ddyfr-ffos fawr. Ei phrif gynnyrchion yw reis, a phŷs; ac y mae amryw bysgfiau mawrion yn perthyn iddi. Heb law y brifddinas Nanking, y mae yn cynnwys amryw drefi mawrion ar lanau y ddyfr-ffos; yn mysg y rhai y gellir enwi Yang-tcheou-foo, yr hon sydd yn lled agos i Yang-tse-kiang, ac yn dref fasnachol fywiog; a Su-tcheou-foo, yn yr hon y mae amryw weithfeydd cotwm a sidan; a phrif borthladd yr hon yw Shang-hae.

4. *Ngan-hoei*, neu *An-hoi*: o bob tu i'r Yang-tse-kiang, sydd yn cynnyrchu ŷd, reis, a sidan; ac yn ei pharthau de-ddwyreiniol y mae planfeydd tê helaeth, a rhai mwngloddiau aur, arian, ac efydd. Ei phrif ddinas yw Ngan-king-foo, ar lan yr Yang-tse-kiang.

5. *Ho-nan*: sydd gan mwyaf yn y gwastadedd; ond y mae mynyddres Pe-ling a'i changenau yn croesi ei pharthau gorllewinol. Y mae yn dra goludog mewn grawn a chotwm; a thybir ei bod yn cynnwys rhai mwngloddiau. Meithrinir tê hefyd yn y parthau de-ddwyreiniol o honi. Nid yw ei phrif ddinas, Khai-fong-foo, yn mhell oddi wrth lanau yr Hoang-ho; ond, tybygid mai y dref fwyaf poblogaidd yw Ho-nan-foo, ar afon sydd yn ymarllwys i'r Hoang-ho, mewn dyffryn bras ac amaethedig.

6. *Hoo-pe*: a gynnwysa ran o'r dosbarth tònawg o'r gwastadedd, a dyffrynoedd llydain yr Han-kiang, a'r Yang-tse-kiang, yn nghyd â rhai rhandiroedd mynyddig. Y mae yn gorwedd yn mherfedd China, ac y mae yn dra ffrwythlawn. Ei phrif gynnyrchion ydynt ŷd, cotwm, sidan, a thê, yr hwn a feithrinir yn y rhan ogledd-ddwyreiniol o honi. Ei phrif ddinas, Wu-tchang-foo, ar lan yr Yang-tse-kiang, gerllaw ei chydiad â'r Han-kiang, sydd un o'r trefydd mwyaf yn mherfedd-dir China; ac y mae yn dwyn yn mlaen drafnidiaeth helaeth. Yn mhellach i'r

Digitized by Google

gorllewin, y mae King-tcheou-foo, tref fasnachol fawr arall ar lan yr Yang-tse-kiang.

7. *Che-kiang:* a gynnwysa y gongl dde-ddwyreiniol o'r gwastadedd, a'r rhan ogleddol o'r mynydd-dir, ger glan y môr. Y mae yn cynnyrchu mwy o dê gwyrdd na'r taleithau ereill, a helaethrwydd o sidan, reis, ŷd, a phys, &c. Ei phrif ddinas yw Hang-tcheou-foo, ar lan y Tsien-tong-kiang, yn agos i derfyn deheuol y ddyfr-ffos fawr, mewn sefyllfa dra hyfryd. Cyfrifai y cenadon ei phoblogaeth tua miliwn o eneidiau. Nid oedd un o'r tai oddi ar ddau uchder llofft; ac yr oedd yr heolydd wedi eu palmantu yn dda. Cynnwysa weithfeydd sidan a chotwm mawrion; ac y mae trafnidiaeth helaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen oddi yma, ar hyd yr afon a'r ddyfr-ffos. Prif borthladd y dalaeth yma yw Ning-po.

8. *Kiang-si:* sydd yn ymledu dros y rhan ddwyreiniol o'r wlad fryniog, ar hyd y llechwedd orllewinol a elwir Nan-ling; ac yn ei ddyffrynoedd trinadwy, cynnyrchir cyflawnder o ŷd, reis, sidan, cotwm, sugr, &c.; ac y mae rhai planfeydd tê ynddi. Y mae ei phrif ddinas, Nan-tchang-foo—ar lan y Kan kiang, yn lled agos i'w harllwysiad i'r llyn Poyang—yn dref fawr, ac yn dwyn yn mlaen drafnidiaeth helaeth. Y mae tref arall, yn y bryniau, ar y tu dwyreiniol i lyn Poyang, yr hon a elwir King-te-ching, yn yr hon y dywedir fod miliwn o drigolion; gwaith pa rai yw gwneyd llestri; y rhai, meddir, a wneir yn dra phertfaith yma. Dywedir fod yma tua phum cant o ffyrnau.

9. *Hoo-nan*, neu y rhan ddeheuol o'r hen dalaeth Hoo-quang; a gynnwysa y gweddill o'r wlad fryniog. Y mae ei chynnyrchion yn gyffelyb i'r dalaeth flaenorol; ond dywedir ei bod yn oludog hefyd mewn mwngloddiau. Ei phrif ddinas, Tchang-cha-foo, ar yr Heng-kiang, sydd dref fasnachol fawr.

10. *Fo-kian*, neu Fochan; sydd yn ymledu dros y mynydd-dir, ar lan y môr, ar gyfer ynys Formosa. Y mae rhai o gribau mynyddres Nan-ling yn ymddyrchafu yn dra uchel yn y dalaeth hon; ond nid ydynt yn cyrhaedd llinell yr iâ oesol. Mae y rhanau uchaf o rai o'r mynydd-geinciau yn noethlwm; ac ereill yn orchuddiedig gan goed: ond cyfarfyddir â holl gynnyrchion masnachol China o'r bron yn nyffrynoedd teg y dalaeth hon. Y mae ei phlanfeydd tê yn eang; ac yn wir, yn y dalaeth hon y cyfodir y rhan fwyaf o'r tê du. Y mae y trigolion yn nodedig am eu diwydrwydd, ac yn fwy nodedig fyth am eu hysbryd anturiaethus, a'u hoffder o ymfudiaeth. Y sefydliadau Chineaidd lluosog yn ynysoedd yr India, a'r gwledydd tu hwnt i'r Ganges, a ffurfiwyd ganddynt, ac y maent yn cael eu cryfhau beunydd trwy ymfudwyr newyddion o Fo-kian. Y brif ddinas yw Fu-tcheou-foo, ar yr afon Mingho, dros yr hon y mae pont wedi ei hadeiladu o 33 o fwäau, o geryg gwynion, hardd iawn. Gall y llongau Chineaidd mwyaf ddyfod i fyny hyd yn agos i fur y ddinas, yr hon y mae ei thrafnidiaeth fordwyol yn dra eang, a'i phoblogaeth yn fwy na'r eiddo Canton. Y mae tref fawr arall, o'r enw Tsuen-tcheou-foo, rhwng y brif ddinas ac Amoy; ac y mae lluaws mawr o lestri yn hwylio oddi yno i'r gwledydd cymmydogaethol. Y mae yma bont wedi ei hadeiladu dros gaine o fôr, yn gorwedd ar dri chant o bileri o geryg duon. Yma hefyd y mae porthladd Amoy, i'r hwn y cyrchai Ewropiaid gynt.

11. *Quang-tun*, neu *Canton:* sydd yn ymledu dros yr holl arfordir deheuol, o 117° hyd. dwyr. hyd derfyn Cochin China. Y mae hon hefyd yn dalaeth fynyddig; ond nid yw ei mynyddoedd mor uchel a'r eiddo Fo-kian. Y mae ynddi amryw ddyffrynoedd llydain a theg, ac y mae y gwastadedd, yn yr hwn y gorwedda Canton, yn eang iawn. Cynnyrcha holl nwyddau masnachol China, oddi eithr tê a barnais. Y mae ynddi luaws o borthladdoedd; ond Canton yw yr unig un a fynychir gan Ewropiaid. Canton y gelwir prif ddinas y dalaeth; y mae tref fawr arall, a elwir Fochan, yn gorwedd i'r de orllewin o Canton, tuag ugain milltir, yn yr hon y mae poblogaeth o tua miliwn o eneidiau: a dywedir fod ynddi lawer o weithfeydd sidan, cotwm, llestri, a lliwiau.

12. *Quang-si*, yr hon a ymleda o bob tu i'r afon Ta-si-kiang, sydd yn orchuddiedig gan fynyddoedd. Y dyffrynoedd, y rhai ydynt yn gyffredin yn gulion, ydynt yn cymmeryd i fyny ran fechan o'i harwyneb. Y mynyddoedd a berthynant i fynydd-res Nan-ling, ac a amgauant y rhan ogleddol o'r dalaeth, ydynt yn ymgyfodi yn dra uchel, a rhai clogwyni uwch law llinell yr ia oesol. Y mae yma goedwigoedd mawrion ar lethrau y bryniau. Ei chynnyrchion ydynt reis, sidan, a choed; a thybir ei bod yn cynnwys mŵn aur, a meteloedd ereill. Y mae rhandir fynyddig tua'r ffiniau gogleddol o'r dalaeth, yn cael ei chyfanneddu gan lwyth annibynol o'r cynfrodorion, a elwir Tchang-Colas, y rhai a wahaniaethant oddi wrth y Chineaid mewn iaith a moesau. Prif ddinas y dalaeth, Kuei-ling-foo, sydd yn gorwedd mewn dyffryn eul a hardd.

13. *Kuei tchow*, i'r gogledd o Quang si, sydd un o'r taleithiau mwyaf mynyddig yn China, gan fod y rhan uchaf o fynydd-res Nan-ling yn ei chroesi ar ei hyd; ac amryw glogwyni o'r mynyddoedd hyn a orchuddir âg ia oesol. Yn y mynyddoedd hyn y mae llwyth o gynfrodorion, a elwir Seng-Miao-tsee, yn byw, y rhai a wahaniaethant oddi wrth y Chineaid mewn iaith a moesau, ac ydynt mewn rhyfel â hwy yn fynych. Mae llawer o amddiffynfeydd wedi eu cyfodi yn mylchau y mynyddoedd, er attal eu cad-ruthrau. Ei phrif gynnyrchion yw coed, aur, arian, efydd, ac arian byw. Y brif ddinas yw Kuei-yang foo, yr hon nid yw ond tref fechan mewn cymhariaeth, tua dwy filltir o amgylchedd.

14. *Yun-nan;* y dalaeth fwyaf de-orllewinol, yn ymylu ar Cochin China, Siam, a Birmah, sydd yn cynnwys ucheldir maith ac anwastad, yn cael ei fritho, tua'r gogledd yn enwedig, âg amryw fynyddoedd uchel, amryw o honynt yn orchuddiedig gan ia oesol. Mae y mynyddoedd deheuol, tua ffiniau Birmah a Siam, yn cael eu cyfanneddu gan lwyth o fynyddwyr, a elwir Lolos, neu Lowas, y rhai nid ydynt yn ddarostyngedig i'r Chineaid ond mewn enw yn unig. Y mae cyfoeth masnachol y dalaeth hon yn gynnwysedig yn nghynnyrchion ei mwngloddiau aur, arian, efydd, &c., a'i choedwigoedd, o'r rhai y ceir prenau gwerthfawr. Mae ei phrif ddinas, Yun-nan-foo, yn llemawr, a thrafnidiaeth helaeth rhyngddi âg ymherodraeth Birmah.

15. *Se tchu-an:* y fwyaf o'r taleithiau, a amgylchynir o'r bron gan fynydd-resi uchel; ac y mae amryw fynydd-geinciau is yn ei chroesi yma a thraw. Ei dyffrynoedd ydynt yn y cyffredin yn llydain, a'i daiar yn fras; a chynnyrcha bob math o rawn, yn gystal a helaethrwydd o reis, sugr, &c.: ond y mae ei phrif gyfoeth masnachol yn gynnwysedig o sidan, coed, ac amryw feteloedd. Ei phrif ddinas, Tching-too-foo, sydd

Digitized by Google

yn gorwedd ar ynys a ffurfir gan y Min-kiang, mewn gwastadedd eang a diwylliedig. Y mae yn dra phoblogaidd, a'i masnach yn fywiog. Yn y dalaeth hon hefyd y mae Koei-tcheou-foo, ar lanau yr Yang-tse-kiang, un o'r dinasoedd mwyaf trafnidiol yn mherfedd-dir China, a thra lluosog ei thrigolion.

16. *Shen-si*: sydd yn fwy gorchuddedig gan fynyddoedd geirwon na Se-tchu-an, ac yn cynnwys llai o dir diwylliedig; eto y mae ynddi rai dyffrynoedd dyfradwy a thra ffrwythlawn, a chynnyrcha helaethrwydd o wenith, miled, a phys; ond ni chynnyrchir nemawr o reis ynddi. Ei phrif ddinas yw Si-ngan-foo, ar lan y Wei-ho, yr hon a fu unwaith yn brif ddinas yr holl ymherodraeth; ac y mae y dref mor fawr fel ei cymherir i Peking ei hunan.

17. *Shan-si*: sydd yn fwy mynyddig fyth, ond y mae ynddi un dyffryn llydan a ffrwythlawn, dan amaethiad da, ac yn frithedig gan bentrefi a threfi. Prif nwyddau masnachol y dalaeth hon ydynt, gwenith, miled, raisins, haiarn, a glo. Ei phrif ddinas yw Tai-yuen-foo — lle mawr, yn cynnwys amryw weithfeydd sidan, a llawrleni, &c.

18. *Kan-si*: y dalaeth fwyaf gogledd-orllewinol o China, sydd yn cynnwys y rhan orllewinol o Chen-si, at yr hon y chwanegwyd rhandir eul, sydd yn ymestyn yn mhell i'r gorllewin, i bersfedd-dir Asia. Y dyben o gydio y rhandir yma â'r dalaeth oedd, er ysgaru y llwythau crwydredig a rhyfelgar a gyfanneddant yr ucheldiroedd ar y tu gogleddol a gorllewinol i China, oddi wrth eu gilydd, ac attal eu cad-ruthriadau i China. Y mae amryw fynyddoedd uchel yn britho y rhan ddwyreiniol o'r dalaeth hon, a'r rhan orllewinol sydd yn ymledu dros ddiffaethfaoedd caregog a thywodog canolbarth Asia. Gwlad dlawd yw hon, ac nid yw ei phoblogaeth ond teneu. Ei phrif ddinas yw Lan-tcheou, lle bychan ar lan yr Hoang-ho, yr hon a ymddibyna yn benaf ar ei thrafnidiaeth â'r llwythau a gyfanneddant yr ucheldiroedd ar y tu gogleddol a gorllewinol iddi.

At y deunaw talaeth uchod gellir chwanegu talaeth Moug-den, yr hon sydd yn ymestyn ar hyd lenydd gogleddol y Môr Melyn. Mae y wlad hon yn orchuddedig gan fynyddoedd mawrion, oddi eithr ar lanau y Leao-ho, lle y mae gwastadedd eang dan driniogaeth dda. Yma y mae prif ddinas y dalaeth, yr hon a elwir Fung-thian-foo, yn yr hon y mae beddrodau y teyrnllwyth Manchowaidd, lle y gorwedd llwch henafiaid ymherawdwr presennol China.

Poblogaeth, a Llywodraeth.—Y mae yr ymherodraeth hon yn un o'r rhai mwyaf poblogaidd yn y byd. Mesuriad arwyneb China Briodol ydyw 1,534,953 o filltiroedd petryal. Ond os chwanegir at hyn y tiriogaethau sydd yn dibynu arni, bydd ei mesur yn 4,468,750 o filltiroedd petryal; yr hyn sydd ychydig yn fwy na'r ddeuddegfed ran o holl diroedd y byd.

Ychydig o ymddiried sydd i'w roddi yn nghyfrifon China o rifedi ei phoblogaeth. Tybir nad ydynt yn awr nemawr dros 300,000,000. Yn ol Llyfr Melyn swyddol a gyhoeddwyd yn ddiweddar, eu rhifedi oedd 303,241,969.

Amaethyddiaeth.—Nid yw y Chineaid fel pobl yn gofalu am godi unrhyw ymborth i anfeiliaid trwy lafur; ond troir eu holl lafur amaethyddol at gynnyrchu ymborth dyn; a'r canlyniad yw, nas meddant ond ychydig iawn o feirch, ychain, a defaid, y rhai a adewir i ymgynnal oreu y gallant ar y porfeydd nas gellir eu diwyllio i ddwyn ymborth dynol: ac nid oes unrhyw wlad, yn yr hon y ceir cymmaint o ymborth dynol o'i dyfroedd. Mae yr achosion gwleidyddol a dueddant i chwyddo poblogaeth China yn lluosog ac yn gryfion. Mae cyfreithiau yr ymherodraeth yn caniatäu ei fywyd, hyd yn oed i lofrudd collfarnedig, os bydd y diffyg o fab, neu ŵyr arall, yn gwneyd ei fodolaeth yn anhebgorol i gynnal rhieni. Achos arall sydd yn gwneyd plant gwryw mor ddymunol yw, y syniad a goleddir o barth aberthau ger beddrodau, ac yn nhemlau eu henafiaid. Os bydd pall ar feibion mewn teulu, y mae gandd ynt drefn gyfreithiol o fabwysiadu, er cadw y llinell i fyny, ac attal difodiad y teulu. Y mae hyd yn oed y duedd sydd mewn caethwasanaeth i attal cynnydd poblogaeth, yn cael ei wrthweithio trwy gyfraith sydd yn eu plith yn gwneuthur perchenogion caethion teuluaidd yn ddarostyngedig i gosp, os esgeulusant geisio gwyr i'w caethesau. Ac achos cryf arall o luosogiad poblogaeth y wlad ydyw, yr attalfeydd cryfion sydd ar ffordd y trigolion i ymfudo o'u gwlad enedigol, ac ymbellhau oddi wrth feddrodau eu henafiaid.

Cyllid.—Nid ydym yn meddu ond ychydig fanylion am gyllid yr ymherodraeth. Y mae pob talaeth yn gorfod cyfarfod â'i threuliau ei hun, a thalu y gweddill a dderbynia o'r trethi i drysorfa yr ymherodraeth. Yn 1875, yr oedd y cyllid tua chan mil o *taels* (gwerth tua 6s. 8c. o'n harian ni), neu 33,390,000*p.*; yr hyn a dderbyniodd oddi wrth fasnach dramor, halen, treth y tir, *opium*, &c., &c. Tybir nad oedd holl ddyled yr ymherodraeth fawr hon yn Ionawr 1891, dros 13,000,000*p.*

	P.
Gwerth ei dadforion yn 1888 oedd	26,000,000
Etto, ei hallforion, etto ...	23,100,000
Ei dadforion o Brydain yn 1891.	6,525,662
Etto, ei hallforion yma yn 1891	4,713,508

Nodweddion moesol y trigolion.—Dywed Dr. Morrison, fod ynddynt lawer i'w feio a'i anghymmeradwyo, a rhyw bethau i'w dysgu; ac un wedd dra chanmoladwy yn eu plith yw, eu bod yn rhoi y flaenoriaeth i addysg foesol ar addysg anianyddol: y canlyniad yw, bod diwydrwydd, tawelwch, a boddlonrwydd, yn ffynu i raddau anghyffredin yn mysg corff y boblogaeth. Ond y mae yr arweddau canmoladwy yma yn eu noddweddiad yn cael eu dilyn gan yr hyn sydd i'w feio yn fawr, sef twyll a chelwydd, a'u canlyniad naturiol o anymddiried ac eiddigedd. Ni chyfrifir twyll a chelwydd yn mysg y Chineaid mor warthus ag ei cyfrifir genym ni, yn enwedig pan ei harferir tuag at Ewropiaid; ac nid yw hyny mor ryfedd, pan ystyriom eu bod yn cael pob annogaeth oddi wrth eu llywodraethwyr i edrych ar estroniaid fel math o fodau israddol.

Er fod y Chineaid yn gyfarwydd ar lawen o'r celfyddydau gwasanaethgar, ac yn feddiannol ar lenoriaeth hen a diweddar; a bod amryw, yn mysg cylchoedd uchaf cymdeithas, wedi cyrhaedd graddau helaeth o ddysgeidiaeth, eto, gyda'u holl ddysgeidiaeth, y maent fel cenedl yn dra eilunaddolgar, a gellir cymhwyso geiriau yr apostol atynt gyda llawer o briodoldeb,—"Nid oedd yn gymmeradwy ganddynt gadw Duw yn eu gwybodaeth; a hwy a addolasant ac a wasanaethasant y creadur yn fwy na'r Creawdwr:" y maent yn casäu y gwir Dduw, ac wedi eu llenwi â phob anghyfiawnder, godineb, anwiredd, a drygioni; yn llawn cenfigen, a malais, twyll a chelwydd,

Digitized by Google

balchder ac ymffrost, yr hyn a ffyna bron yn ddiderfyn yn eu mysg. Ac y mae eu creulondeb dideimlad yn cael ei brofi yn y diofalwch a amlygant wrth edrych ar rai mewn perygl bywyd; eu triniaeth greulawn o'u caethion teuluaidd; y modd yr arteithir meibion a merched yn eu llysoedd cyhoeddus; a llofruddiad babanod benywaidd, yr hyn a ffyna mor gyffredin, er ei fod mewn enw yn groes i'w cyfreithiau.

Crefydd y Chineaid. Y mae tair cyfundraith grefyddol yn ffynu yn China, a bagad o ddysgyblion yn perthynu i bob un:—

1. *Y Tao-tse*, neu *feibion anfarwolion*; a elwir felly oddi wrth seilydd y blaid, Laon-keon, yr hwn a haerai ei fod wedi darganfod y dirgelwch o wneuthur meddyglyn, yr hwn trwy ei yfed a wna ddyn yn anfarwol. Efe a ddysgrifir fel un a ymgnawdolasai lawer gwaith, er mwyn addysgu dynolryw. Dalient allan yr angenrheidrwydd o ymwrthod â phob rhyw foethau, a myned trwy lawer o galedi, er mwyn toddi ymaith y rhanau anmhuraf o'r natur ddynol, ac esgyn yn raddol i gyflwr arddunol, ysbrydol, a dwyfol; ac mewn amrywiol oesoedd ymroddasant i erlyniadau dychymygol ffug-ffernylliaeth, ac i geisio cael allan y ffordd i fyw heb fwyta nac anadlu, dan ddylanwad y dychymyg y gall yr anadl gylchredeg trwy y cyfansoddiad fel y gwaed; ac felly gwneyd anadlu yn afreidiol, a'r dyn yn anfarwol.

2. *Y Kong-foo-tse.* Mae y blaid hon yn gyfansoddedig o'r dysgedigion yn unig. Dywedir mai syniad bychan a feddai ei seilydd, Confucius, am anfarwoldeb yr enaid; ac o ganlyniad nid yw ei athroniaeth, fel ei dysgir yn y *Shu-King*, neu y chwe llyfr canonaidd, yn argymhell nemawr o'r dyledswyddau rhwymedig oddi wrth ddyn i'w Greawdwr, nac yn dysgu ond ychydig o ddim heb law dyledswyddau gwleidyddol. Nis gwna unrhyw grybwylliad am y Duw mawr a gogoneddus, ac nid ymddyrchafa uwch law cydnabyddiaeth dywyll o ryw ddeddf mewn natur, yr hon, pan ei troseddir, a gynnyrcha ddrwg presennol. Dywed fod nef a daiar wedi ymgymmeryd â'u ffurf bresennol trwy ryw allu cynhenid; a bod rhyw effeithiolaeth dyblyg tybiedig wedi cydweithredu yn nghynnyrchiad neu ffurfiad creaduriaid a'r duwiau. Y nefoedd a gyfrifir y gallu cyntaf mewn anian; a'r ddaiaren, ar yr hon y troediwn, a gyfrifir yn ail: a dywedir fod y duwiau yn ddarostyngedig i'r ddau allu yma. Weithiau, yn wir, fe gauir y duwiau crybwylledig allan, gan fod rhai yn barnu nas gellir meddu un sicrwydd am eu bodolaeth; ac yna cyfrifir mai y tri gallu mawr yw, nefoedd, daiar, a dyn.

3. *Y Foo-too*, neu blaid *Budhu.* "Mae athrawiaeth Fo," medd Syr George Staunton, "gan ei bod yn caniatäu is dduw, tra chymmwynasgar i bob dymuniad a ellir ei ffurfio yn y fynwes ddynol, yn rhwym o ffynu yn mysg y dosbarthiadau hyny o'r bobl nad ydynt foddhaol ar eu sefyllfaoedd, fel y maent yn debyg o gael eu ffurfio gan achosion naturiol amgylchiadau. Ni roddir unrhyw attalfa ar eu ffordd gan lywodraeth y wlad, yr hon nid yw yn ymyraeth âg opiniynau. Nis gwahardda y llywodraeth unrhyw grefydd, am yr hon y bernir nad yw yn anmharu heddwch cymdeithas. Nid oes y fath beth a chrefydd wladol yn China; nid oes yno un grefydd yn waddoledig gan y llywodraeth, neu yn cael y flaenoriaeth mewn ystyr cyfreithiol ar grefyddau ereill. Mae yr ymherawdwr o un ffydd, llawer o'r pendefigion o un arall, a'r rhan fwyaf o'r bobl gyffredin yn perthyn i'r drydedd blaid grefyddol, sef Fo, yr hon yw y fwyaf poblogaidd. Yn wir, y mae yn anhawdd gweled pobl mwy ccelgrefyddol nag ydyw y cyffredin o'r Chineaid. Heb law y swyddau crefyddol arferol, a gyflawnir gan yr offeiriaid a'r benywod, tra mynychir y temlau gan ddysgyblion Fo, yn enwedig pan fyddont ar ymgymmeryd â rhyw orchwyl pwysig. Maent yn agored yn wastad i'r sawl a fyddo yn dewis ymgynghori yn nghylch arfaethau y nef: a phan fyddo yr oracl yn eu hateb yn ol eu hewyllys, dychwelant eu diolchgarwch yn wresog. Eto arferant fwrw coelbrenau, er cael allan pa lwyddiant a fydd ar unrhyw anturiaeth fwriadol, yn amlach nag y gweddïant am ei bod yn llwyddiannus; ac y mae eu haddoliad yn gynnwyselig mewn diolchgarwch yn hytrach na gweddïau. Ychydig o'r Chineaid sydd yn golygu unrhyw amcanion uwch na llesion tymmorol i ymestyn atynt trwy eu cyflawniadau crefyddol; er hyny y mae crefydd Fo yn dal trawsfudiaeth eneidiau, fel un o'i herthyglau, ac yn addaw dedwyddwch i'r bobl ar ammodau, y rhai, ar y dechreu, yn ddiau, a fwriedid i fod yn gynnwysedig yn y cyflawniad o ddyledswyddau moesol; ond, yn lle hyny, mynych yr arddodir y rhwymedigaethau i gyfranu tuag at adeiladaeth neu adgyweiriad y temlau, cynnaliaeth yr offeiriaid, a chyflawniad manwl o ryw ddefodau. Cyhoeddir fod esgeulusiad o'r pethau hyn yn gospadwy trwy drawsfudiad eneidiau yr esgeuluswyr i gyrff y creaduriaid distadlaf, yn y rhai y bydd eu dyoddefiadau yn gyfartal i'r troseddau a gyflawnasant pan mewn cyrff dynol. Y mae y delwau a ganfyddir yn nhemlau Fo yn lluosocach nag yn y temlau Pabaidd. Talant anrhydedd arbenig i'w henafiaid trancedig, gan losgi arogldarth o flaen eu delwau, ymgrymu ger bron eu darluniau, a gweddïo arnynt, fel pe byddai ar eu llaw eu bendithio â phob bendith dymmorol."

A ganlyn sydd ddysgrifiad, a ysgrifenwyd gan un a gafodd lawer o gyfleusdra i ymgydnabod â gwerin China, o'r syniadau a ffynant yn eu plith mewn perthynas i sefyllfa ddyfodol:—"Y maent yn barnu fod gan ddyn dri enaid; a phan fyddo dyn farw, fod yr eneidiau hyny yn darwibio oddi amgylch; ond pan ddoder y corff yn y bedd, bod un o'r eneidiau yn cymmeryd ei drigias yno gydag ef. A phan ddyger coflech at y bedd, ar yr hon y mae yn gerfiedig enw y trancedig, ac amser ei enedigaeth a'i farwolaeth, y mae un arall o'r eneidiau yn dilyn y goflech i deml ei henafiaid, lle y mae yn aros, ac yn cael ei addoli. Cymmerir y trydydd gan weision neu angelion deg brenin i'w brawdle yn myd yr ysbrydoedd, lle y cyhoeddir y ddedfryd arno. Os bydd yr un a fernir fel hyn wedi bod yn dda, y mae y trydydd ysbryd hwn o'i eiddo yn myned i fewn i gorff baban a fyddo heb ei eni, ac yn dyfod yn blentyn rhieni goludog ac anrhydeddus. Os bydd ei ymddygiad yn dda yn y sefyllfa yma—ei fod yn gweddïo llawer ar Budha, yn byw ar lysiau, ac yn cyfranu elusenau, &c.—efe a draws symmudir drachefn gan angeu, ac a ddaw yn blentyn rhieni o radd uwch eto; ac fel y tyf i fyny, y mae wrth gwrs yn dyfod yn ŵr o sefyllfa ddyrchafedig ei hunan; ac wedi pump neu chwech, efallai, o'r cyfryw drawsfudiadau, o un gradd urddasol i un uwch fyth, y mae o'r diwedd yn cael myned i'r neuaddau nefol, ac yn dyfod yn dduw, gan lywodraethu tyngedfenau dynion. Barnant fod rhai hynod o dda ac o deilwng, wedi cael myned i uniongyrchol o'r frawdle i'r nefoedd a bod pawb a gyrhaeddant

Digitized by Google

yno yn dduwiau. Os benyw rinweddol a da fydd yr un a fernir, y mae yn trawsfudo, ac yn dyfod yn ddynes urddasol a chyfoethog, neu yn *ddyn*; ac wedi amryw drawsfudiadau, y mae o'r diwedd yn dyfod yn dduw, neu dduwies, neu wraig i dduw yn y nefoedd. Mewn rhai anghreifftiau o deilyngdod anghyffredin, cawsant fynedfa uniongyrchol i'r neuaddau nefol, a dyfod yn wragedd y duwiau.

"Y mae y neuaddau nefol yn un ar bymtheg ar ugain mewn nifer, ac yn gorwedd yn rhyw le yn y gorllewin, yn y 'Wlad Happusaf.' Fe'u trefnir ar ffurf betryal ceuawl—wyth o honynt ar bob ochr, a phedwar yn y canol; a barnant mai yn y canol yn gymhwys y preswylia y duw mwyaf a'i wragedd. Ond y mae preswylfod Budha mewn lle hollol wahanol, lle y mae yn eistedd yn y mwynhâd o orphwysfa drwyadl; o'r hon yr ymysgydwa weithiau, gan anfon ei ysbryd allan oddi ar ei ben, i drefnu ar darawiad amrant holl helyntion y cyfanfyd.

"Y rhai ydynt mor ffodus a chyrhaedd y neuaddau nefol, a wisgir mewn aur ac arian, ac a gânt dai, a gwastadoedd o aur, ac arian, a meini gwerthfawr, mewn gwlad lle y mae helaethrwydd o erddi ysblenydd, a ffynnonau godidog. Y mae yno gyfnewidiadau dydd a nos; ond y mae yr hinsawdd yr hyfrytaf y gall dychymyg ei ddarlunio. Dywedant fod yno amrywiaeth o chwarëyddiaethau yn cael eu dwyn yn mlaen yn wastadol er difyru y duwiau. Meddant fwyd a diod o'r eiddynt eu hunain, o'r hwn y cyfranogant wrth eu hewyllys, a deuant a bwytânt hefyd o'r bwyd a offrymir iddynt gan ddynion. Eu gorchwyl yw addoli a moliannu Budha, neu Fe, fel ei gelwir yno, ac arolygu amgylchiadau dynion. Deuant i'r temlau hefyd, ac ânt i mewn i'r delwau trwy dwll sydd wedi ei adael yn mhob delw i'r perwyl hyny; ac felly derbyniant addoliad ac offrymau dynion, a gwrandawant eu deisyfiadau.

"Os drwg fydd yr hwn a farner, cospir ef—hyny yw, y trydydd enaid—yn gyntaf yn 'ngharcharau y ddaiar,' sef uffern, am ysbaid hwy neu fyrach, yn ol graddau ei anwiredd. Y mae deunaw uffern, y rhai a wahaniaethir trwy y gwahanol rywiau o gospedigaethau a weinyddir ynddynt; megys yr uffern rynedig, yr uffern losgedig, yr uffern lifiedig, yr uffern o olew berwedig, &c. Y mae rhai a tuant yn dra drygionus, yn cael eu cospi yno dros byth; ond yn y cyffredin, wedi iddynt ddyoddef eu tymmor yn uffern, fe ganiatëir iddynt drawsfudo, er bod eu cospedigaeth yn parhau. Daw y dyn yn blentyn i rieni iselradd a thlawd, ac efallai yn *fenyw*, yr hyn a gyfrifir yn gospedigaeth. Os nad oedd yn ddrwg iawn, efallai y daw yn fenyw mewn teulu cyfoethog ac anrhydeddus; ac wrth gwrs, y daw yn wraig i un o'r cyffelyb radd. Os oedd yn dra drygionus, efe a ddaw, nid yn unig yn un tlawd, ond yn un â rhyw ddiffyg personol arno—megys dallineb, cloffni, neu ryw anaf arall. Y mae rhai euog o ysgelerderau mwy fyth yn cael eu trawsfudo i aniteiliaid. Er anghraifft, os bydd dyn farw mewn dyled, trawsfudir ei enaid i gorff march, a marchogir ef gan y gofynwr; os bydd efe yn anifail hynod o ffyddlawn a da, fe drawsfudir yr enaid ar farwolaeth y march i gorff dyn eilwaith. Os bydd yr un a fernir wedi bod yn dra drygionus, trawsfudir ei enaid i gorff trychfilyn, neu abwydyn; ac wedi hyny ni bydd trawsfudiadau mwyach, ond difodiant a gymmerle. Barnant fod gan bob bwystfilod, adar, ymlusgiaid, a thrychfilod, eneidiau; ond fod eneidiau ymlusgiaid a thrychfilod mor fychain fel y maent islaw sylw:—bod llawer o fwystfilod ac adar yn cael eu cymmeryd i'r nefoedd yn fwystfilod ac adar, er gwasanaethu y duwiau. A thybiant fod yn rhaid i'r holl ysbrydion, o ba radd neu ryw bynag y byddont, wrth ymborth, dillad, ac arian. Treulir llawer o amser, ac arian, a llafur, er darbod y nwyddau angenrheidiol hyn iddynt; canys tybiant, onis gwnant y cyfryw ddarbodaeth i'r ysbrydion, y byddant yn goddef newyn ac angen; ac yna, nas gallant hwythau ddisgwyl llai na chael eu cystuddio a'u blino ganddynt.

Crefydd.—Dilynwyr Confucius, neu y blaid a elwir Keng-foo-tse, ydyw aelodau y llys, a'r dosbarthiadau uchaf. Perthyna y corph o drigolion China Briodol, Manchuria, Mongolia, a Tibet, i blaid Buddha. Tibet ydyw ei chanolbwynt. Y gyfundrefn a elwir Tao-tse, neu Tao, ydyw y nesaf mewn pwysigrwydd, wrth ystyried y nifer sydd yn ei phroffesu. Y mae Mahometaniaid yn lliosog yno—yn enwedig yn nhalaethau gorllewinol Shen-si, Sze-chuen, a Yunnan. Ychydig o Iuddewon sydd yn y wlad, ac y maent wedi colli eu traddodiadau cenedlaethol. Nid oes yno ond tua 400,000 o Babyddion.

Y mae amryw gymdeithasau Protestanaidd yn llafurio yno—yn mysg pa rai y mae y *China Inland Mission*—yr hon sydd wedi bod yn hynod lwyddiannus. Perthyna i'r genhadaeth hon yn awr (1890) 336 o genhadon; ac y mae yn eu mysg dair o ferched ieuainge o Gymru; sef, Miss Hannah Jones (Mrs. Burnnett yn awr), Miss Mary Evans, a Miss S. E. Jones; a dywedir eu bod yn hynod lwyddiannus.

Pan feddyliom fod y cyfryw genedl liosog a hon—yr hon a gynnwysa tua'r drydedd ran o'r hil ddynol—yn gorwedd dan y fath leni tewion o goelgrefydd, anwybodaeth, ac annuwioldeb, nis gall pob gwir Gristion lai na dymuno "i Air yr Arglwydd redeg, a chael gogonedd," yn eu plith. Am hanes Cristionogaeth foreuol yno, gweler d.g. MORRISON, MILNE, XAVIER, &c.

Ffurflywodraeth.—Unbenaeth annibynol ydyw ei ffurflywodraeth. Y mae gwaith yr ymherodraeth yn cael ei gario yn mlaen, dan yr ymherawdwr, gan ddau gynghor. Gelwir un y Cynghor Mewnol, a'r llall y Cynghor Cyffredinol. Yn annibynol ar y llywodraeth, ac uwch law ei swyddogion, y mae bwrdd a elwir Tuchah-yuen; yr hwn sydd yn cynnwys o 40 i 50 o aelodau, dan ddau lywydd—un yn anedig yn Tartary, a'r llall yn China. Yn ol hen arferion yr ymherodraeth, y mae holl aelodau y bwrdd hwn yn medlu rhyddid i gyflwyno unrhyw gais yn uniongyrchol i'r ymherawdwr.

Y trigolion, &c.—Perthyna y Chinëaid i hiliogaeth y Mongoliaid—un o'r canghenau mawr y dosberthir trigolion y byd iddynt; a chredir eu bod yn genedl wareiddiedig er's amryw filoedd o flynyddoedd. Yr oeddynt yn gallu argraphu, a gwneuthur pylor, sidan, a llestri 'China,' ac yn feddiannol ar gwmpas y morwr, gaurifoedd cyn iddynt ddyfod yn adnabyddus yn Ewrop. Ond y maent yn awr yn mhell ar ol cenhedloedd gwledydd gwareiddiedig eraill y byd. Pobl yn byw wrthynt eu hunain ydynt, ac yn ystyried pawb eraill yn 'farbariaid.'

Yn nesaf, ni a roddwn fap o China—un o'r rhai mwyaf cywir a diweddar a gyhoeddwyd—gydag eglurhâd ar y geiriau Saesnig a'r talfyriadau sydd ynddo.

Digitized by Google

CHINA.

YSTYR Y TALFYRIARAU A WELIR YN Y MAP.

B., *neu* Bay ...	Machwy.
Bank, Banks ...	Bryn, Bryniau.
Black Rock B. ...	Machwy y Graig Ddu.
Black Tea District ...	Yr ardaloedd lle y tyfir Tê Du.
C., *neu* Cape ...	Penrhyn.
Castle	Castell.
Coast	Arfordir.
Ch., *neu* Channel ...	Sianel.
Desert	Anialwch.
Double Peak ...	Dau Gopa, neu Fryn.
East, Eastern ...	Dwyrain, Dwyreiniol.
English Miles ...	Milldiroedd Saesnig.
Equator... ...	Cyhydedd.
Firth, *neu* Frith ...	Morgaingc.
Former mouth of the Hoang Ho, found dry in 1858 ...	Aber yr Afon Hwang Ho, a gafwyd yn sych yn 1858.
Ft., *neu* Fort ...	Caerfa, Amddiffynfa.
G. of, *neu* Gulf of ...	Llyngclyn.
Grand Canal ...	Y Ddyfrffos Fawreddog.
Great Wall ...	Mur Mawr y wlad.
Green Tea District ...	Yr ardaloedd lle y tyfir Tê Gwyrdd.
Group	Swp.
H., Havn., *neu* Haven	Porthladd, *neu* Machwy.
Harbour	Porthladd.
Hd., *neu* Head ...	Penrhyn, Pentir.
Hill, *neu* Hills ...	Bryn, Bryniau.
I., Isle, neu Island ...	Ynys.
Is., Isles, *neu* Islands	Ynysoedd.
L., *neu* Lake ...	Llyn.
Land	Tir.
Loch, *neu* Lough ...	Llwch:—llyn agored i'r môr.
Mt., *neu* Mountain ...	Mynydd.
Mts., *neu* Mountains.	Mynyddoedd.
New	Newydd.
New Course ...	Rhedle Newydd.
North, Northern ...	Gogledd, Gogleddol.
Ocean	Cefnfor.
Old Course of Yellow River	Hen Redle yr Afon Felen.
Or	Neu
P., *neu* Port ...	Porth.
Partly dry ...	Mewn rhan yn sych.
Pen., Pen^s., Peninsula	Gorynys.
Plateau	Gwastadedd uchel.
Promontory ...	Penrhyn.
Pt., *neu* Point ...	Pwynt.
Quicksands ...	Traeth byw.
R., *neu* River ...	Afon.
Red B.	Machwy Coch.
Rugged Point ...	Pwynt Clogyrnog.
Ruins of	Adfeilion.
S. Entrance ...	Yr Agorfa Ddeheuol.
S., *neu* Sound ...	Culfor.
St., *neu* Saint ...	Sant.
Sea, *neu* Sea of ...	Môr.
Shoal, Shoals ...	Bâs-le, Bâs-leoedd.
Snowy Mts. ...	Mynyddoedd yr Eira.
South, Southern ...	Deheu, Deheuol.
Str., *neu* Strs., Straits	Culfor, Culforoedd.
Submarine Cable ...	Rhaff Tanforawl y Pellebyr.
Tribes	Llwythau.
Tributary ...	Teyrngedol i Burmah.
Town	Tref.
Tropic, Tropics ...	Trofan, Trofanau.
Unsurveyed territory, inhabited by native tribes	Gwlad heb ei archwilio, yn cael ei phoblogi gan lwythau brodorol.
West, Western ...	Gorllewin, Gorllewinol.
White Dogs ...	Cŵn Gwynion
Yellow Sea ..	Môr Melyn.

NI A RODDWN YMA FFEITHIAU PELLACH AM Y WLAD.

Gelwir China mewn hen ysgrifeniadau yn 'TSING,' neu yr "Ymherodraeth Nefolaidd." Mewn rhai o hen hanesion y wlad, dywedir fod yr ymherodraeth mewn bod am o bedwar ugain i gan mil o flynyddoedd cyn Crist. Dychymygion neu syniadau eithafol yr hen haneswyr sydd wedi rhoddi bodolaeth i'r ffigyrau hyn. Yn ol eraill, mwy credadwy, cafodd ei sefydlu gan Fohi, tua 2,240 c.c. Tybir mai Noah y Beibl ydoedd Fohi. Dywedir fod y Chinëaid yn seryddwyr galluog pan yr oedd Yao yn llywodraethu—tua 2,357 c.c.

Yn niwedd y seithfed ganrif cyn Crist y mae hanes y wlad yn dyfod yn fwy eglur. Y mae dauar hugain o deyrn-achau brenhinol wedi ei llywodraethu, drwy yr un presennol; sef, Kuang Hsû. Tsai t'ien oedd ei enw cyn iddo esgyn i'r orsedd. Yr arferiad yno ydyw i'r ymherawdwr ddewis enw newydd pan y coronir ef, neu pan yr ymgymmer â'r swydd. Ganwyd ef Awst 15fed, 1871, ac esgynodd i'r orsedd Ionawr 12fed, 1875.

Yn ol y cyfrifon diweddaf, y mae China Briodol—y deunaw talaeth—yn 1,547,635 mill. pet. Ei hyd, o ogledd i dde, yw 1,860 mill., a'i lled yn 1,520. Cylchynir hi ar y gogledd gan Mongolia a Manchuria; ar y gorllewin, gan Turkestan, Tibet, a Burmah; ar y deheu, gan Burmah, Tonquin, a'r môr; ac ar y dwyrain, gan y Cefnfor Tawelog, y Môr Melyn, a'r Corea. Y mae y rhan fwyaf gogleddol o honi yn lled. 44° 50' gog.; a'r rhan fwyaf deheuol—sef, Machwy Yulin, yn Ynys Hainan—yn lled. 18° 10' gog. Ar y tu dwyreiniol y mae China yn ymestyn, fel y gwelir, i 126° 10' hydred dwyr.; ac ar y tu gorllewinol i 97° 30' dwyr. Y mae ei meddiannau yn ymestyn yn mhell tu draw i'r terfynau hyn, ac yn cynnwys Manchuria, Mongolia, a Corea, yn y gogledd, a Turkestan Ddwyreiniol (yn cynnwys Dzungaria), a Tibet yn y gorllewin. Y mae holl arwynebedd China Briodol, a'i meddiannau, yn cynnwys 4,418,739 mill. pet., neu ychydig mwy nag un ran o ddeuddeg o'r holl dir sydd ar wyneb y ddaear.

O fewn y terfynau hyn, y mae pedair cadwen fawr o fynyddoedd, oddi wrth ba rai y tardd rhai o'r afonydd mwyaf sydd yn y byd:—y rhai, gyda'r afonydd sydd yn ymdywallt iddynt, a'r dyfrffosydd, a ffurfiant gyfleusderau i fasnach a morwriaeth na cheir eu cyffelyb mewn un wlad arall ar y ddaear.

Rhaniadau gwladol.—Rhenir China Briodol, fel yr eglurwyd o'r blaen, i ddeunaw o dalaethau—pob un o ba rai sydd, ar gyfartaledd, cryn lawer yn fwy na Phrydain Fawr. Ni a'u rhoddwn yma etto, gan nodi prif ddinasoedd pob talaeth, gyda phoblogaeth rhai o honynt. Dylem hysbysu yma mai anfynych y ceir yr enwau ar y prif drefi, &c., yn cyfatteb yn gwbl i'w gilydd, hyd yn

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

oed yn y mapiau a'r llyfrau goreu a gyhoeddwyd ar China. Gan hyny, caiff yr ymofynydd beth trafferth i'w hadnabod yn fynych wrth gymmharu mapiau a llyfrau â'u gilydd. Y geiriau rhwng cromfachau ydyw enwau yr afonydd agosaf at y trefydd; er esampl, Chow-king (Choo).

Ei Chwe Thalaeth Dwyreiniol neu Arfordirol.

Quang-tong, neu Quang-tun.—Ei phrif ddinasoedd, a'u poblogaeth, ydynt fel y canlyn:—Canton, 1,500,000; Victoria, 30,000; Macao, 52,000; Chow-king (Choo), Lien-choo (ar yr arfordir deheuol), Chow-choo (Han); Swatow (arfordir dwyr.); Kien-choo, 100,000, yn ynys Hainan.

Fo-kian, neu Fo-kien. — Foo-choo, 1,000,000; Yen-ping (Min), Amoy, 250,000; Chang-chow, 800,000 (Fo-kien Chan.), Tai-wan (ar Ynys Formosa).

Che-kiang.—Hang-chow, 700,000 (Tsien-long); Wan-chow, Tai-chow, Ning-po, 200,000 (arfordir).

Kiang-su, neu Kiang-tsu. — Nanking, 500,000 (Yang-tse); Shang-hae, 135,000 (Woo-sung), Soo-choo, 1,500,000 (Camlas Mawr); Hwai-ngan (Hoang-ho).

Chang-tung, neu Shan-tung.—Tsi-nan (Hoang-ho), Yen-chow, Tong-chang (Camlas Mawr), Teng-chow (G. Pe-chili).

Pe-tche-li, neu Pe-chili.—Peking neu Pekin, 1,650,000 (Pei-ho); Tien-tsin (Eu-ho).

Chwe Talaeth y Canolbarth.

Shan-si.—Tai-yuen, Pin-yang, Fuen-chow (Fuen-ho).

Ho-nan. — Kai-fong, 1,000,000; Quei-te, Hoai-King (Hoang ho).

Ngan-hoei, neu An-hoi, neu Ngan-whei.—Ngan-king, Tai-ping, Chee-chow (Yang-tse).

Kiang-si. — Nang-chang (Kan), Kin-te-ching, 1,000,000 (Po).

Hoo-pe, neu Hu-peh. — Wo-chang, Han-kow (Yang-tse-kiang), Siang-yang (Han).

Hoonan, neu Hou-nan.—Chang-cha, Heng-choo, Hong-choo (Heng).

Chwe Talaeth y Gorllewin.

Quang-si.—Kwe-lin (Kwe-ling), Lien-choo (Choo), Chin-ngan (Ngo-yu).

Yun-nan.—Yun-nan (Tien-chi), Li-kiang (Yang-tse), Lin-ngan, Yuen-kiang (Tonquin), Yoong-chang (Me-kong).

Kuei-tchrow, neu Kwei-chou.—Kwei-yang, Se-nan (Oo), Tchi-yuen, Tcing-y-foo (Yuen).

Se-tchu-an, neu Sze-chuen.—Ching-too, Sioo-choo (Min), Poo-kiang (Kia-ling).

Kan-si, neu Kan-su. — Lan-shoo (Hoang-ho), Kong-tchang (Wei-ho).

Shen-si.—Se-gan (Wei-ho), Han-tchong (Han).

Yn y map, ceir y gair *foo* wedi ei gyssylltu yn fynych âg enwau trefydd—*Nan-chang-foo*, er esampl. Nid ydyw y sill diweddaf yn rhan o enw y lle. Arferir ef yn unig i gyflwyno y syniad fod y dref yn un o gryn bwysigrwydd.

Afonydd.—Y mae yr Hoang-ho, neu yr Afon Felen, yn llifo 2,800 mill., ac yn derbyn ei dyfroedd o arwynebedd yn mesur 715,000 mill. pet. o'r wlad. Gyda hyn, y mae yr afon fawr Yang-tze-kiang yn mesur, fel y dywedir, o'i tharddle i'r môr, tua 3,200 mill., ac yn derbyn ei dyfroedd o ddarn o wlad sydd yn mesur 950,000 mill. pet. Yn nesaf at yr afonydd hyn, a ystyrir y rhai mwyaf yn Asia, gellir enwi yr Haen Ho, sydd yn llifo yn lled agos i'r brif-ddinas, Peking; a'r Choo-Kiang, sydd yn agos i Canton pa rai sydd yn afonydd o'r pwysigrwydd mwyaf. Ceir fod dyfroedd poethion yn tarddu o'r ddaear mewn manau yn y wlad hon, a llawer o nwy.

Llynau.—Y mae llawer o lynau mawr yn China; sef, y Tai-Hou, neu y Llyn Mawr, yn nhalaeth Kiang-tsu; a'r Po-yang a'r Toong-ting ar yr afon Yang-tse-Kiang. Dywedir fod y Toong-ting, yn nhalaeth Hou-nan, yn 220 mill. dir o amgylch.

Yr Arfordir.—Y mae mesur yr arfordir tua 2,500 mill. o hyd; ac y mae cryn lawer o hono yn greigiog, a'r dyfroedd yn ddyfnion yn agos i'w lanau. Mewn manau eraill, y mae yr arfordir yn isel, ac yn gorsog. Y mae llawer o borthladdoedd da yn ngeneuau yr afonydd, ac mewn manau eraill.

Hinsawdd, &c.—Y mae y gauafau yn oerach, a thymmhorau yr haf yn boethach, nag mewn gwledydd sydd yn gorwedd yn yr un lledred yn ngorllewin Ewrop. Yn y talaethau deheuol, yn agos i Canton a Macao, y mae misoedd y gauaf yn sych, ac yn oer; a Mawrth ac Ebrill yn niwlog, ond yn fwy tymmherus. Disgyna cryn lawer o wlaw yn Mai. O Gorphenaf i Medi y mae y gwres yn fawr, gyda throwyntoedd ofnadwy a dinystriol, a elwir *Ty-foon*, ac ystormydd o fellt a tharanau mewn amryw fanau.

Poblogaeth.—Dywedwyd gan rai fod ei phoblogaeth, yn y fl. 1812, yn 360,279,897; ond yn ol cyfrifon eraill, hysbysir nad ydoedd ond 307,467,200. Tybia rhai nad ydyw ei phoblogaeth yn awr dros 305,000,000; ond yn ol y daflen ganlynol, a gafwyd o un o'r gweithiau diweddaraf, ymddengys ei fod yn llawer iawn mwy. Ceir manylion ynddi am fesur arwynebedd pob dosbarth; ynghyd â'r gwledydd a berthynant i China:—

	Arwynebedd.	*Poblogaeth.*
Che-kiang	35,669	37,809,765
Pe-chili	57,280	46,313,360
Fo-kien	45,759	22,699,460
Ho-nan	66,931	33,173,526
Hou-nan	83,226	26,859,608
Hu-peh	69,480	39,412,940
Kan-su	260,588	21,878,190
Kiang-si	68,593	43,814,866
Kiang-su	40,139	54,494,644
Ngan-whei	54,006	49,201,992
Quang-si	70,853	10,584,429
Quang-tong	90,242	27,610,128
Kwei-chou	66,756	7,615,025
Sze-chuen	185,046	30,867,875
Shan-si	65,966	20,166,072
Shan-tung	53,776	41,700,621
Shen-si	81,912	14,698,499
Yun-nan	122,456	8,008,300
Hainan, Ynys	13,975	*yn* Quang-tong
Formosa, etto	14,982	*yn* Fo-kien
Cyfanrif	1,547,635	536,909,300
Manchuria	366,795	3,187,286
Mongolia	1,381,190	2,000,000
Tibet	651,698	6,000,000
Corea	91,421	9,000,009
Turkestan Ddwyreiniol, neu Tartary	380,000	2,500,000
Cyfanrif	4,418,739	559,596,595

Dinasoedd Rhyddion i Fasnach. — Y mae dwy-ar-hugain o honynt drwy yr ymherodraeth. Y prif rai ydynt Canton, Victoria neu Hong-Kong, Foo-choo, Amoy, a Shanghae, ac eraill.

Yn y talaethau arfordirol, Canton ydyw un o'r dinasoedd sydd yn agored i dramoriaid; a

Digitized by Google

dyma brif ystorfa masnach yn yr ymherodraeth. Ei phrif allforion ydynt tê, sidan, metteloedd gwerthfawr, cassia, a sugr. Y prif nwydd a ddadforir ydyw *opium*, o Hindostan—yr hyn y goddefir ei werthu yn ddirgel, er ei fod yn anghyfreithlawn.

Daeth Victoria, neu Hong Kong, yr hon sydd ar ynys o'r un enw, yn feddiant i Brydain trwy rinwedd cyttundeb a wnaed â'r Chinëaid yn 1843. Mae yn y ddinas hon lawer o ystorfeydd mawrion, a thai a breswylir gan Ewropiaid; ac y mae cyssylltiadau rheolaidd, trwy agerlongau, rhyngddi â'n teyrnas ni.

Dinas boblog ydyw Foo-choo, ac un o'r pump a agorwyd i fasnach âg Ewrop trwy Gyttundeb Nanking. Gwneir symiau mawr o ddefnyddiau cotwm a brethyn glâs yma; ac y mae tua phum cant o bobtâi ynddi, yn cael eu cadw yn barhaus ar waith yn ngwneuthuriad llestri o wahanol fathau, o'r defnyddiau goreu—a elwir 'China.' Nid ydyw y dosbarth o wlad lle y tyfir tê du ond o ddeutu deng milldir a thrigain oddi yno.

Un arall sydd yn agored i dramorwyr ydyw Amoy; a gwneir ynddi fasnach helaeth, ac y mae amryw weithfeydd pwysig ynddi hefyd.

Shanghae a saif ar yr arfordir dwyreiniol, tua chanol yr ymherodraeth. Gwneir ynddi lawer o fasnach â gwledydd tramor; ac hefyd, rhwng y talaethau gogleddol a deheuol.

A'r porthladdoedd rhyddion sydd yn y Corea y mae agerlongau o Ewrop a Japan yn galw yn achlysurol.

Peking, neu Pekin, ydyw y brifddinas er y drydedd ganrif ar ddeg, pan y gwnaeth Kublai Khan hi yn breswylfod iddo, yn lle Nanking. Gorwedda ar wastadedd tywodlyd, gan milldir oddi wrth y môr, a thrigain milldir oddi wrth y Mur Mawr (*Great Wall*) y cyfeiriwyd ato yn barod. Dywedir fod poblogaeth Peking tua 1,650,000; a hi ydyw y ddinas fwyaf poblog o lawer yn Asia, er nad ydyw ei phoblogaeth ond tua hanner poblogaeth Llundain. Nid ydyw yr hen ranau o'r ddinas wedi newid ond ychydig er's pump neu chwe chanrif. Ei phorthladd ydyw Tien-tsin—y ddinas sydd yn enwog am y cyttundeb a wnaed yn 1858 rhwng China a Phrydain.

Adfeilio y mae Nanking, prifddinas talaeth Kiang-tsu; yr hon oedd, ar un adeg, yn brifddinas yr ymherodraeth.

Kien-choo ydyw y brifddinas fwyaf poblog yn Ynys Hai-nan; a gwneir masnach helaeth rhyngddi a Macao, Assam, Siam, a Singapore.

Ei chynnyrchion.—Nid yw metteloedd gwerthfawr i'w cael yno ond mewn symiau bychain. Ond y mae yno fwngloddiau cyfoethog o haiarn, plwm, efydd, sinc, ac arian byw. Ceir llawer o lô yno; a gwelyau difesur yn mron o'r hyn a elwir Kaolin, neu bridd, o'r hwn y gwneir y llestri pridd goreu. Y mae ei meddiant boreuol o hwn, a medrusrwydd y trigolion yn ei weithio, wedi rhoddi yr enw 'China' ar y llestri prydferth fuont yn cael eu hystyried y gwerthfawrocaf yn marchnadoedd Ewrop. Tê, fel y dywedwyd yn barod, ydyw ei chynnyrch pwysicaf; ac hyd yn ddiweddar, yn y wlad hono yn unig y tyfid ef. Yn mysg y coed, ystyrir y *bamboo* y mwyaf gwerthfawr. Trin y tir a gyfrifir fel y gorchwyl mwyaf anrhydeddus; a gwneir defnydd o bob troedfedd y gellir ei drin. Ffermydd bychain sydd yno yn mron drwy y wlad. Ystyrir fod tyddyn o wyth i ddeng erw yn un mawr; a gwna yr amaethwyr y defnydd goreu o bob dim y gellir ei droi yn dail. O herwydd fod yn anhawdd cael lleoedd i adeiladu tai arnynt, gan fod y boblogaeth mor hynod o liosog, y mae llawer o'r trigolion wedi adeiladu eu tai ar nifer o goed wedi eu cyssylltu â'u gilydd ar yr afonydd. Ychydig o greaduriaid gwylltion sydd yno. Y maent wedi eu difodi yn mron er's rhai canrifoedd; ac ychydig o anifeiliaid dôf a gedwir hyd yn oed yn y blynyddoedd hyn. Telir sylw arbenig i'r pysgodfeydd—pa rai sydd yn hynod o gyfoethog.

Gwerth ei hallforion, yn y flwyddyn 1888, oedd 23,100,000*p.*, a'i dadforion yn 26,000,000*p.* Allforiwyd oddi yno i'r Deyrnas Gyfunol, yn 1888, gwerth 6,457,673*p.*; a derbyniwyd oddi yma werth 6,339,303*p.*

Cyfleusderau Masnachol.—Er cymmaint o fasnach a wneir rhwng China a gwledydd eraill, y mae masnach fewnol y wlad yn llawer mwy. Tair neu bedair o ffyrdd haiarn bychain iawn sydd yn yr holl wlad. Trosglwyddir y nwyddau masnachol ar hyd dyfr-ffosydd ac afonydd mawrion y wlad; y rhai sydd yn ffurfio y gyfundrefn fwyaf perffaith o forwriaeth ganol-dirol sydd o fewn yr holl fyd.

Addysg.—Y mae y bobl yn gyffredin yn cael eu dysgu i ysgrifenu ac i ddarllen; ac addysg ydyw yr unig ffordd i swydd ac anrhydedd yno, ac i fysg y cylchoedd uchaf mewn cymdeithas. Er hyny, nid addysgir y plant mewn dim, o'r bron, ond yn hen ysgrifeniadau eu doethion.

Iaith y Chinëaid ydyw y benaf yn mysg tylwyth yr ieithoedd unsill sydd o fewn y byd. Nid oes ynddi un wyddor o gwbl; ond y mae pob gair yn meddu nodau gwahanol, y rhai sydd yn adnabyddus drwy yr holl wlad; a phob talaeth yn meddu ei ffordd ei hun i'w sillebu.

Cyllid, &c.—Codir y cyllid o dair ffynnonell; sef, trethi ar yr allforion a'r dadforion, ac ar drwyddedau. Yn 1875, y diweddaf a hysbyswyd, nid oedd ei swm ond 35,837,500*p.* Nid oedd ar China un ddyled i dramoriaid hyd y flwyddyn 1874, pan y benthyciodd y llywodraeth 627,675*p.* o Loegr. Nid oedd ei dyled yn 1889, meddir, ond 12,505,000*p.*; sef, 3,755,000*p.* i dramoriaid, ac 8,750,000*p.* i'w phobl ei hun.

Byddin a Llynges.—Nid ydyw dros 1,000,000 o wŷr; ac y mae ei llynges yn fechan, ac yn hynod o wan. Y mae y milwyr oll, pan na byddant yn ngwasanaeth y deyrnas, yn gweithio mewn rhyw gylch o fasnach gartrefol.

MANCHOORIA. Gwlad ëang yn nwyrain Asia ydyw, ac yn rhan o China. Mesura 366,795 mill. pet.; ac y mae rhan fawr o honi, meddir, heb fod dyn wedi byw ynddi erioed. Tybir fod y boblogaeth tua 3,187,000. Nid ydyw y map blaenorol o China ond yn cynnwys rhan fechan iawn o Manchooria. Gorwedda ar y dde, yn y pen uchaf, uwch law Corea, ac i'r dwyrain o Mongolia. Rhenir Manchooria i dair talaeth; sef, Leao-Tong, neu Manchooria Ddeheuol; a Kirin, neu Manchooria Ganol; a Tsi-tsi-har, neu Manchooria Ogleddol. 'Manchooaid' y gelwir y trigolion. Y maent wedi cefnu ar eu bywyd gwibiol er's blynyddoedd, ac wedi ymroddi i drin y tiroedd fel amaethwyr. Y mae nifer fawr o honynt yn ymfudo i China bob blwyddyn. Llywodraethir y wlad gan swyddog o bennodiad ymherawdwr China. Teulu brenhinol y Manchooaid sydd yn eistedd ar orsedd China yn awr. Esgynasant iddi yn y fl. 1662. Buddhiaeth ydyw crefydd y wlad; ond y mae

Digitized by Google

nifer fawr o'r trigolion yn Fahometiaid. Y prif afonydd ydynt Soongari ac Usuri; a'r prif fynyddoedd ydynt y gadwen o fynyddoedd a elwir Shin-alin.

MONGOLIA. Gwlad fawr yn Asia ydyw hon hefyd, yn perthyn i ymherodraeth China. Y mae Manchooria i'r dwyrain iddi; China a Turkestan i'r dde; ac Irkutsk a'r Trans-Baikal i'r gogledd—y rhai sydd yn ddarostyngedig i Rwssia. Cyfrifir fod y wlad yn mesur 1,381,190 mill. pet., a'i phoblogaeth yn 2,000,000.

Gwlad anial ydyw, gan mwyaf; ond ceir rhai darnau yn y rhanau hyny lle y mae gwartheg yn porfau—eiddo y tylwythau crwydrol; a thyfir ychydig o wenith, haidd, a miled (math o lysieuyn) ynddi. Yn y gogledd y mae y wlad yn goediog.

Ffrydiau perthynol i'r Amur, neu yr Yenisei, ydyw yr afonydd, gan mwyaf. Ei phrif lynau ydynt Kosgol, Ubsa Nor, a'r Ike-Aral Nor.

Crefydd y wlad ydyw Buddhiaeth; ac y mae y trigolion yn byw o dan amryw o benaethiaid—y rhai sydd yn talu teyrngedau i ymherawdwr China. Ond derbyniant roddion ganddo, y rhai sydd yn werth llawer mwy na'r teyrngedau. Gwneir ei masnach yn mron yn gwbl â China.

TIBET. Nid ydyw y wlad hon yn ymddangos ar y map blaenorol; ond gellir ei gweled ar y map o Asia. Rhoddir y manylion am dani yma o herwydd ei pherthynas â China. Y mae yn gorwedd ar y gorllewin i China. Ei hyd, o'r dwyrain i'r gorllewin, ydyw 1,400 mill., a'i lled 600 mill.; ac y mae ei phoblogaeth tua 6,000,000. Gwlad uchel, wastad, a'i hinsawdd yn sych ac yn oer, ydyw; a'i gwastatiroedd uchaf dros 15,000 tr. uwch law y môr. Y mae amryw o brif afonydd Asia ddeheuol yn codi yn Tibet; sef, yr Indus, Sutlej, a Brahmapootra. Ceir yn y wlad lawer o lynau mawr. Rhenir Tibet i bedair talaeth—Ari, Tsang, U, a Kam. Y mae y parthau gorllewinol yn amddifad o goed, ac heb ddwyn llawer o lysiau. Er hyny, y mae ynddi lawer o helwriaeth, ac o anifeiliaid gwylltion, a llawer o ddeadellau o ddefaid a geifr—gwlân pa rai a ddefnyddir i wneuthur gwarleni, a gwisgoedd eraill, yn Kashmir. Megir y creaduriaid dôf sydd yn y wlad hon yno; a rhywogaeth dda o gŵn a cheirw, o wahanol fathau. Tyfir hefyd, haidd, pys, a gwenith; ond ychydig o lysiau garddwrol a ffrwythydd; ac y mae y trigolion yn byw yn fwy trwy wylio a magu eu defaid na thrwy unrhyw arferion amaethyddol eraill. Ceir ynddi geryg gleision, gwenithfaen, creig-risial, a chalch; ac hefyd borax, neitr, creig-halen, arian, copr, a *lapis-lazuli*.

Tibet ydyw prif eisteddle Buddhiaeth; a cheir arferion crefyddol y Buddhiaid yno yn eu purdeb mwyaf. Mae yn y wlad liosawgrwydd o demlau, a dywedir fod pedwar ugain mil o 'offeiriaid' yn cael eu cynnal ar draul y wlad.

Yn 1885, nid oedd ei hallforion i India ond 24,097*p.*, a'i dadforion o India ond 30,806*p.*

COREA. Gwlad ydyw hon etto sydd yn ffurfio rhan o ymherodraeth China, gyda Manchooria ar y gogledd, Môr Japan ar y dwyrain, a'r Môr Melyn ar y gorllewin. Cyfrifir ei bod yn mesur, trwy yr ynysoedd, 91,421 mill. pet., a bod ei phoblogaeth ryw gymmaint dros 9,000,000.

Ei phrif gynnyrch ydyw gwenith, miled, reis, cotwm, llin, tybaco, coed, ffwrw, aur, arian, haiarn, creig-halen, a glô. Y mae ei gweithfeydd yn debyg i'r eiddo China; arferion a chrefydd yr hon sydd yn gyffredin yn mysg ei phoblogaeth. Gwna y trigolion eu masnach yn benaf â Japan.

Unbenaeth ydyw ei llywodraeth; a rhaid i etholiad ei brenin, yn gystal a llawer o'i weithredoedd cyhoeddus, gael eu cymmeradwyo gan ymherawdwr China. Rhenir y wlad yn wyth o dalaethau. Ei phrif ddinas ydyw Kiöng neu Séoul. Y mae yn perthyn i Corea amryw o ynysoedd yn y Môr Melyn—y penaf o ba rai yw Quelpaert ac Amherst. Ei phorthladdoedd yw Jenchuan, Fusan, a Tuensan. Ei dadforion yn 1888 oedd 597,005*p.*, a'i hallforion yn 217,149*p.*

TURKESTAN ORLLEWINOL neu TARTARY. Yn chwanegol at yr hyn a geir yn cyf. ix, td. 610, ni a roddwn y manylion canlynol:—

Yn lle bod ei mesur o 500,000 i 800,000 mill. pet., fel y dywedir yno, tybir nad ydyw yn awr dros 380,000 mill. pet., a'i phoblogaeth tua 2,500,000. Y mae ei thiroedd ffrwythlawn yn tyfu ŷd o bob math, cotwm, a ffrwythydd; y rhai, gyda gwartheg a mŵnau gwahanol, sydd yn ffurfio ei phrif allforion. Gwneir masnach helaeth rhyngddi â'r gwledydd i'r gorllewin a'r dwyrain orllewin; ac hefyd â Rwssia Asiaidd, ac India. Chwanegodd ei masnach âg India trwy Kashmir lawer yn nghorph y blynyddau diweddaf. Ei gwerth yn 1867 oedd 55,494*p.* Yn 1870, yr oedd yn 130,000*p.*

Mahometiaid neu Buddhiaid ydyw ei phoblogaeth, yn benaf—gyda rhai Cristionogion ac Iuddewon. Yn y gogledd, y mae y llywodraeth yn gwbl filwrol. Yn manau ereill, byddinoedd Chinëaidd, a Manchooriaid, sydd yn amddiffyn y dinasoedd; pa rai sydd yn meddu gradd o lywodraeth arnynt eu hunain. Gorchfygwyd y wlad yn 1758 gan China. Y mae rhan fawr o'r hyn a elwid Turkestan Chinëaidd wedi myned i ddwylaw Yakoob Beg, llywodraethwr Turkestan Annibynol neu Ddwyreiniol.

CHRYSOSTOM, JOHN: oedd y pregethwr mwyaf hyawdl yn nghanrifoedd cyntaf Cristionogaeth. Antioch, y ddinas lle y galwyd y dysgyblion gyntaf yn 'Gristionogion,' oedd lle ei enedigaeth; yr hyn a gymmerodd le o ddeutu y flwyddyn 347. Adnabyddid ef yn ei oes wrth yr enw John; ac ni dderbyniodd y chwanegiad anrhydeddus 'Chrysostomos' (Χρυσόστομος = *yr aur-eneu*) hyd yn ddiweddarach (y seithfed ganrif). Yr oedd Secundus, ei dad, yn dal swydd uchel dan raglaw Rhufeinig Syria; a bu farw tra yr oedd John yn faban. Gadawyd Anthusa, ei fam, yn weddw pan yn ugain oed; a chyflwynodd ei holl amser i addysgu ei hunig fab; a gadawodd argraph ei duwioldeb ar ei galon—yr hyn a'i dilynodd trwy ei fywyd. Cyfeiriai Chrysostom yn fynych at ei fam yn ei bregethau, gan ei chymmharu â Hannah, ac â gwragedd duwiol eraill yr Ysgrythyrau. Derbyniodd ei addysg lenyddol a gwyddonol dan Libanius, dysgawdwr enwog—yr hwn a gyfrifid yn 'ogoniant diweddaf paganiaeth.' Llwyddodd Libanius i hudo rhai a fagwyd yn egwyddorion Cristionogaeth at baganiaeth; ond yr oedd dylanwad a gweddïau Anthusa gartref yn rhy drech i ddylanwad yr athrofa genhedlig. Yr oedd ei addysg foreuol wedi ei

Digitized by Google

fwriadu i'w gymhwyso i fod yn ddadleuwr; ac yr oedd ei gyrhaeddiadau a'i allu fel areithiwr y fath, pan yn ieuanc iawn, ag i gyflawnhau y gobeithion uchaf am ei lwyddiant dyfodol. Pan ofynwyd i Libanius unwaith pwy a fyddai ei olynwr yn yr athrofa, "John," ebe yntau, "oni buasai y Cristionogion wedi ei ladrata oddi arnom." Yr oedd dylanwad Meletius, esgob Antioch, dan addysg grefyddol yr hwn y bu am dair blynedd, mor fawr arno, fel yr ymwrthododd â'r alwedigaeth y bwriedid ef iddi, ac yn yr hon y cyrhaeddasai yr anrhydedd uchaf. Penderfynodd y pryd hwn i dori ei gyssylltiad â'r byd, ac ymneillduo i fynachdy dros ei oes; ond bu ei fam yn foddion i attal cyflawniad penderfyniad mor annoeth ynddo ei hun, ond eto mor gydweddol âg arferion yr oes. Ond yn mhen rhai blyneddoedd ar ol hyny, ar ol marwolaeth ei fam fe ddichon, ymunodd â'r mynachod yn Antioch pan yn saith ar ugain oed, a pharhaodd gyda hwynt am chwe blynedd, hyd nes yr oedd eu gerwinder afresymol wedi gwanhau ei gyfansoddiad. Yn ddioed, ordeiniwyd ef yn ddiacon; ond ni chafodd ei wneyd yn offeiriad, ac ni phregethodd bregeth hyd nes yr oedd yn ddeugain oed.

Ond yr oedd yn adnabyddus eisoes fel awdwr. Ei gyfaill yn ei efrydiau oedd Basil—gwr ieuanc o ysbryd cyffelyb. Yr oedd y ddau yn nodedig am eu llafur llenyddol, a'u diwydrwydd yn eu hymarferiadau crefyddol. Yr oedd Chrysostom yn awyddus ar i'w gyfaill, "yr hwn oedd mor anwyl ganddo a'i enaid ei hun," ymroddi i wasanaeth yr eglwys; a chydsyniodd yntau i dderbyn ordeiniad ar y dealldwriaeth fod Chrysostom hefyd am ymostwng i'r un ddefod. Ond pan ddaeth yr amser, gwrthodai Chrysostom dderbyn y swydd, gan amddiffyn ei ymddygiad tuag at ei gyfaill ar y tir ei fod yn gwneuthur drwg fel y delai daioni. Ymresymai Basil âg ef: atebai yntau yn ol: a'r ymresymiadau o bob ochr oedd yr achlysur o'r traethawd tra adnabyddus a gyfansoddwyd gan Chrysostom, *Ar yr Offeiriadaeth.* Mae y llyfr hwn wedi ei fwriadu i osod allan bwysigrwydd a chyfrifoldeb swydd gweinidogaeth yr efengyl. Mae yn draethawd hynod, ac yn haeddu ei gymharu, ar y mater, âg un cyfansoddiad a ymddangosodd o hyny hyd yn bresennol. Golygai Chrysostom y swydd weinidogaethol fel yn meddu ar bwysfawredd ofnadwy. Y mae yn ordinhâd wedi ei sefydlu gan y Paraclete (yr Ysbryd Glân), ac yn tra rhagori ar offeiriadaeth Aaron. Duw a thragywyddoldeb, dyn ac iachawdwriaeth, ydyw ei thestynau priodol. Nid areithiwr i ddifyru, ond offeiriad i addysgu, y llylai y pregethwr fod. Rhaid i'w gyfarchiadau fod yn meddu ar ddidwylledd a serchogrwydd, pwysigrwydd ac eiddigedd sanctaidd. Cyfeiria at apostol mawr y Cenedloedd, fel un i'w efelychu am fawrfrydigrwydd a gweddeidd-dra, symlrwydd ac eofndra, nerth ac eglurder ei ymresymiadau, yn nghyd â chyfaddasiad doeth ei ymddygiadau a'i ysgrifeniadau at bob math o bobl ac amgylchiadau. Ac O! y fath ddysgrifiad ofnadwy a rydd o lygredigaeth y swydd yn ei ddyddiau ef! Ond gyda'i holl ragoriaethau, y mae yn cynnwys hadau rhai o brif gyfeiliornadau Pabyddiaeth. Y mae hyd yn oed enw y llyfr yn anysgrythyrol; o herwydd yn y Testament Newydd y mae y saint i gyd yn cael eu galw yn "offeiriadaeth sanctaidd," ac nid yn unig y rhai sydd wedi eu galw i weinidogaethu mewn pethau sanctaidd. Ac y mae y gwahaniaeth sydd yn gorwedd wrth wraidd Pabyddiaeth, sef y gwahaniaeth ofergoelus sydd yn gorphwys ar ordeiniad eglwysig, yn annibynol ar nodweddiad moesol, i'w ganfod, mwy neu lai, trwyddo oll.

Ar ol iddo gael ei ordeinio (yn *breslyter*) yn Antioch, ymroddodd yn gyfan oll i bregethu. Dysgwyliai y bobl amlygiadau anghyffredin o hyawdledd ganddo; ac ni siomwyd hwynt am y deuddeng mlynedd y bu yn llafurio fel pregethwr yn eu mysg. Mae yn rhaid fod ei lafur yno yn fawr; o herwydd yr oedd dros ddau can mil o drigolion, a'u hanner yn Gristionogion mewn enw, yn preswylio yno, tra nad oedd ond un brif eglwys, gydag un esgob, ac amryw offeiriaid. Pregethai ddwy waith yn yr wythnos, a phob dydd ar y gwyliau mwyaf. Er mwyn cadw amrywiaeth yn ei bregethau, cymmerai adranau o'r Ysgrythyrau yn olynol yn destynau darlithiau a homiliau, ac ni adawai i amgylchiadau neillduol ddianc heb eu defnyddio i'w ddyben. Cyfansoddai lawer o'i bregethau yn ofalus; mae ereill yn ymddangos fel pe buasent yn gynnyrch adeg eu traddodiad. Y pregethau a wnaeth yr argraff ddyfnaf yn Antioch oedd yr homiliau a draddodwyd ar yr achlysur o ddinystr delwau yr ymherawdwr Theodosius. Yr oedd trethi newyddion wedi cael eu gosod ar drigolion Antioch i gyfarfod angen y llywodraeth. Cyfododd cynhwrf, ymosododd y werin ar swyddogion y llywodraeth ac ar balas y rhaglaw, taflwyd delwau yr ymherawdwr a'i wraig i lawr, a llusgwyd hwynt gydag anmharch trwy yr heolydd. Ond o'r diwedd, trwy ymosodiad byddin o saethyddion, darostyngwyd y cyffro, rhoddwyd y blaenoriaid i farwolaeth yn ddidrugaredd, tywalltwyd gwaed pob graddau o'r trigolion yn ddiarbed, a llanwyd mynwesau pawb â dychryn. Yn y cyfwng hwn y traddododd Chrysostom y pregethau dywededig—un ar ugain mewn nifer. Gydag eofndra nad oedd dim yn ei ddychrynu, y mae y pregethwr yn cymmeryd mantais o'r braw arswydlawn oedd wedi eu goddiweddyd, ac yn ei ddefnyddio i ddybenion uwch. Yn nghanol y llymder mwyaf yn erbyn eu beiau, y mae yn dangos y cydymdeimlad tyneraf. Defnyddia sefyllfa druenus y ddinas—dynion yn myned yn wallgof gan dristwch, rhai wedi byw mewn moethau yn gorwedd allan yn ddinodded ar geryg yr heolydd, a'r dolefau mwyaf torcalonus am drugaredd yn hollol ddieffaith—i brofi anallu dynion i estyn ymwared iddynt eu hunain a'u gilydd. Os ydyw eu dychryn mor fawr mewn canlyniad i ddigofaint brenin daiarol, pa beth am ddigofaint Brenin yr holl ddaiar! Os oedd yr olygfa mor gyffrous, nid yn unig i'r dyoddefwyr, ond i'r edrychwyr hefyd, pa beth am y farn ddiweddaf, pan y bydd pawb yn cael eu barnu, ac adeg maddeuant wedi myned heibio! Bod yn bosibl i Antioch, fel ag i Ninefeh, edifarhau. Cynghorai hwynt i droi eu meddyliau tua gorsedd Brenin y breninoedd mor awyddus ag yr oeddynt yn edrych tua Byzantium am benderfyniad yr ymherawdwr ar eu hachos. Cafodd Chrysostom hefyd gyfleusdra ardderchog i gyferbynu dysgawdwyr Cristionogol âg athronwyr paganaidd. Yr oedd y mynachdai yn nghymydogaeth y ddinas i gyd yn weigion, y mynachod wedi ymdywallt i'r ddinas i gysuro a chydymdeimlo â'r dyoddefwyr, ac yn barod i gymmeryd eu lladd gyda hwynt—tra yr oedd y dysgawdwyr paganaidd yn ffoi ac yn ymguddio, gan adael y trigolion iddynt eu hunain. Yr oedd esgob y ddinas, Flavianus, wedi myned i Gaer Cystenyn, er ei fod yn oedranus, gan adael

Digitized by Google

chwaer ar drancedigaeth, er mwyn erfyn tosturi yr ymherawdwr dros ei braidd. Ond nis gellir lai na gresynu fod y pregethau hyn, yn nghyd â holl bregethau y pregethwr hyawdl hwn, yn ddiffygiol yn nghyflawnder eu syniadau efengyl-aidd.

Yn y flwyddyn B. A. 398, bu farw archesgob Caer Cystenyn. Y swydd hon oedd y swydd eglwysig uchaf yn yr ymherodraeth Rufeinig ddwyreiniol. Yr oedd dylanwad y swydd hon yn nesaf at ddylanwad yr orsedd ei hun. Yr oedd St. Sophia—enw yr eglwys gadeiriol—yn nesaf, yn ei hawdurdod ar helyntion yr ymherodraeth, at y palas. Er holl ymdrechiadau ymgeiswyr diegwyddor, llwyddodd Eutropius, prif weinidog y llys, i sicrhau y swydd i Chrysostom. Rhag iddo ef wrthod cydsynio, hudwyd ef o Antioch, a dygwyd ef, dan ryw ffug esgus, i'r ddinas ymherodrol lle yr oedd pob peth yn barod i'w urddo yn archesgob. Yr oedd hyn yn y flwyddyn 398. Yn y sefyllfa uchel hon, dysgleiriai ei rinweddau gyda nerth cynnyddol. Swynai ei hyawdledd bob graddau o ddynion, yn gymmaint felly fel y gadawent y chwareudai yn weigion, ac yr arwyddent eu cymmeradwyaeth o'u harchesgob trwy guro eu dwylaw a'u traed ar ganol ei bregethau. Daeth ffurfiau crefydd i ymarferiad, a'i phethau i ymddyddan cyffredinol. Ond ni bu yn hir heb greu gwrthwynebwyr a gelynion trwy ei argyhoeddiadau llymion, y rhai a gyfeirid yn ddiarbed yn erbyn boneddig yn gystal a gwreng. Ymosodai ar heresiau; cyffroai yr offeiriaid o'u syrthni; agorai ddrysau y mynachdai, ac anfonai y mynachod allan yn genadon i wledydd a chenedloedd amgylchynol; a gyrai yn ol i'w hesgobaethau yr esgobion oedd wedi gadael eu gwaith i fwynhau pleserau a moethau y brif ddinas. Adeiladwyd yspyttai yn Caer Cystenyn; ac ymdrechai ofalu am y tlawd yn ol cynllun yr oes apostolaidd. Diswyddodd dri ar ddeg o esgobion yn Asia Leiaf am wahanol droseddau. Yr oedd ef ei hun yn byw yn y dull mwyaf syml, cynnil, a diaddurn. Cynnydd sancteiddrwydd, a lledaeniad yr eglwys, oedd amcan ei fywyd. Ei arwyddair oedd, mewn geiriau a ddywedodd ef ei hun pan yn byw yn Antioch, "Fod un dyn wedi ei lenwi âg eiddigedd sanctaidd yn ddigonol i ddiwygio cenedl gyfan." Ond cyfarfyddodd â gwrthwynebiadau na allasai dim ei gynnal yn eu wyneb ond crediniaeth ddiysgog ei fod yn ymladd dros ogoniant Duw. Bu Eutropius, y prif weinidog, yn noddwr iddo; ond nid oedd hyn yn tycio dim i ennill ffafr Chrysostom, os cynnygiai wneyd dim a dybiai yr esgob oedd yn groes i uniondeb. Ceisiai Eutropius amddifadu yr eglwys o'r rhagorfraint o fod yn noddfa i'r rhai a ffoent iddi; ond gwrthwynebai Chrysostom ef gydag eofndra diweniaith. Yn fuan ar ol hyny bu yn dda i'r prif weinidog ei hun wrth y fath amddiffynfa rhag dialedd y milwyr. Ffodd at gyrn yr allor, cofleidiodd golofnau yr adeilad gyssegredig, tra yr oedd y milwyr oddi allan yn sychedu am ei waed—ond ymddangosodd Chrysostom yn eu plith: trwy ei hyawdledd llwyddodd i arbed ei fywyd, tynodd y dysgrifiadau bywiocaf o gyfnewidioldeb mawredd daiarol, dygodd ar gof i Eutropius yr annogaethau a roddasai iddo yn nghanol ei rwysg balch, adgofiodd iddo ei annuwioldeb yn ceisio diddymu y rhagorfraint yr ydoedd yn awr yn cymmeryd mantais o honi. Llwyddodd yr areithiwr. Dofwyd cynddaredd y milwyr; ïe, cyffrowyd tosturi yn eu mynwesau, a thynwyd dagrau i'w llygaid. "Yr wyf yn teimlo," meddai, "fy mod wedi llwyddo. Mi a'i gwelaf yn eich gwynebau a'ch llygaid. Os ydyw eich calonau wedi eu toddi, dygwch ffrwythau addas i'ch cydymdeimlad."

Yr oedd hanner olaf y pedwerydd canrif yn sefyll mewn angen dyn fel Chrysostom. Yr oedd Cristionogaeth yn awr wedi dyfod yn grefydd y llywodraeth. Yr oedd temlau Jupiter wedi syrthio, a thân eu hallorau wedi diffodd yn eu lludw. Ond er mai ffydd Iesu o Nazareth oedd y grefydd awdurdodedig, yr ydoedd erbyn hyn wedi colli ei symledd cynhenid. Tra yr ydoedd yn ddinodded, yr oedd yn alluog yn ei thlodi, yn fawreddig yn ei hiselder, a phelydrau o'i gogoniant yn synu y byd, fel yr oedd gogoniant ei hawdwr yn melltenu allan ar brydiau yn nyfnder ei ddarostyngiad. Ond o'r braidd yr oedd y canrif cyntaf wedi rhedeg allan cyn i goelgrefydd ddechreu amlygu ei dylanwad llygredig. Ac yr oedd Cristionogaeth wedi colli llawer o'i phurdeb a'i nerth cyn i dduwioldeb neu gyfrwysdra Cystenyn ei gwneyd yn grefydd ei ymherodraeth. Yn rhy fynych yr ydoedd erbyn hyn fel yr ail deml—nid oedd un Shechinah yn tywynu yn y cyssegr, nac un Urim a Thummim yn llefaru oraclau dwyfol.

Yr oedd Rhufain Newydd, fel y gelwid dinas Cystenyn, y pryd hwn yn nawn ei gogoniant. Bwriadwyd hi gan ei sylfaenydd i fod yn ogyfuwch a phrifddinas y gorllewin, ac ni arbedwyd unrhyw draul er ei gwneuthur felly. Ond yr oedd ei thrigolion mor lygredig ag eiddo Athen a Chorinth, ond heb eu coethder. Yr oedd y celfyddydau yn llawforwynion llygredigaeth; ac yr oedd y pechodau ffieiddiaf wedi eu gwisgo mewn "porphor a llian main." Ond yr oedd ffurfiau Cristionogaeth yn cael eu cyflawnu gyda rhwysg ysblenydd, oedd yn tebygoli yr eglwysydd i chwareudai. Cyrchai y dinasyddion iddynt i gael eu cyffroi gan beroriaeth, a'u difyru gan hyawdledd; ac yna ymwasgarent, wedi anghofio y cwbl ond y swyn anianyddol a fwynhawyd ganddynt am yr awr. Ni wnaeth yr esgobion a ragflaenodd Chrysostom ddim i wrthsefyll y ffrwd. Teimlodd Ioan Aurenau gyfrifoldeb ei swydd, a gadawodd i'w sel fflamio allan heb ei llywodraethu yn fynych gan gallineb. Mae cyhuddiadau yn fynych yn cyffroi gelyniaeth yn hytrach nag yn toddi i edifeirwch. Nid oedd yr Arglwydd yn y dymmestl nac yn y tân yn amser Elias, ond yn y llais dystaw main: a buasai Chrysostom yn fwy llwyddiannus i ddiwygio trigolion Caer Cystenyn oddi wrth eu hanfoesoldeb pe buasai llais dystaw trugaredd yn cyhoeddi maddeuant yn tyneru mwy ar arwder ei fygythion taranllyd.

Ennillai Chrysostom am dymmor fuddugoliaeth ar bob gwrthwynebiad. Ond yr ydoedd yn wrthddrych casineb ac ofn i lawer o'r esgobion, y rhai a ymdrechent ei ddisodli yn mhob modd. Hynodai Theophilus, esgob Alexandria, ei hun yn enwedigol am ei wrthwynebiad iddo, a hyny o'r amser yr ordeiniwyd Chrysostom ganddo. Yr oedd y Theophilus hwn wedi condemnio pedwar ar ugain o fynachod fel hereticiaid, o herwydd eu bod yn bleidiol i egwyddorion Origen. Daeth y rhai hyn yn un corff i Gaer Cystenyn i erfyn nodded yr archesgob. Daeth Theophilus o'r Aipht i'r brifddinas i geisio ffurfio cynghrair yn erbyn Chrysostom. Yr oedd ganddo fantais hefyd i lwyddo yn ei ymdrech, am fod boneddigesau y llys yn teimlo y gwrthwynebiad cryfaf yn erbyn yr archesgob, o herwydd ei ddynoethiad

Digitized by Google

llym o'u hymddygiadau coegfalch anniwair. Yr oedd yr ymherodres Eudoxia, dan lywodraeth yr hon yr oedd yr ymherawdwr, yn mhlith ei elynion anghymmodlawn. Yr oedd hi, fel Iezebel, wedi chwennychu gwinllan gwraig weddw, gwr yr hon a aberthwyd i'w chwant; ond nid oedd ei huchder yn arbediad iddi rhag argyhoeddiad. Galwyd cymmanfa wrth y *dderwen* (*ad quercum*, εἰς δρῦν) yn Chalcedon. Dygwyd yn mlaen restr faith o gyhuddiadau yn erbyn pen yr Eglwys Ddwyreiniol. Ond nid oedd ynddynt ddim o bwys yn erbyn ei athrawiaeth na'i gymmeriad. Dengys penau y cyhuddiadau eu natur maleisus;—ei fod wedi argyhoeddi yr offeiriaid o fod yn ddynion segur dilafur; ei fod wedi cyffroi y bobl; wedi galw yr ymherodres yn Iezebel, &c. Cyhuddent arddull ei bregethau o fod yn chwyddedig, ac uwch law amgyffred dynion cyffredin. Gwysiwyd Chrysostom i ymddangos o'u blaen; yr hyn a wrthododd wneuthur, am mai ei brif elynion oedd ei gyhuddwyr a'i farnwyr. Condemniwyd ef i golli ei esgobaeth, ac i gael ei alltudio,—dedfryd a gadarnhawyd gan Arcadius yr ymherawdwr. Ymostyngodd Chrysostom i'w dynged—yr oedd ei feddwl yn dawel. Cyfarchai ei wrandawyr fel y canlyn:—"Pa beth sydd i'm dychrynu? Angeu? 'Byw i mi yw Crist, a marw sydd elw!' Alltudiaeth? 'Eiddo yr Arglwydd y ddaiar a'i chyflawnder!' Ysbeiliad o'm meddiannau? 'Ni ddygasom ddim i'r byd, ac amlwg yw nas gallwn ddwyn dim allan chwaith!'"

O'r braidd yr oedd wedi cyrhaedd yr alltudfa, pan alwyd ef yn ol. Y noson gyntaf ar ol ei ymadawiad o Gaer Cystenyn, dychrynwyd y trigolion gan ddaiargryn, yr hyn a briodolid i farn Duw ar elynion y diwygiwr alltudiedig. Cododd y bobl mewn gwrthryfel; rhoddwyd rhai o greaduriaid Theophilus i farwolaeth; ac amlwg oedd fod chwyldroad yn dechreu ymweithio a lluchio ei donau i fyny. Dychrynodd Eudoxia. Dychwelodd Chrysostom ar ei herfyniad ysgrifenedig hi ei hun. Ni welwyd Caer Cystenyn erioed yn fwy llawen nag ar ddychweliad ei hesgob. Yr oedd y culfor sydd yn gwahanu Ewrop oddi wrth Asia yn llawn o lestri, a lampau wedi eu goleuo ar hyd y traeth o bob ochr, a'r esgob yn cael ei arwain i'w eglwys yn nghanol banllefau milo dd. Nid ymwasgarai y lluaws heb iddo eu cyfarch. Ei eiriau cyntaf oedd, "Pa beth a ddywedaf? Bendigedig fyddo Duw. Dyma y geiriau diweddaf a ddywedais wrth ymadael, a'r rhai hyn gaiff fod yn gyntaf ar fy nychweliad." Ond yr oedd y croesaw a dderbyniodd o fyr barhâd. Nid oedd gwg ymherawdr nac alltudiaeth yn alluog i ddysgu Chrysostom i lefaru gweniaith. Parhaodd i gondemnio pechod mor llym ag erioed. Cyfeiriodd yn un o'i bregethau at elyniaeth Herodias yn erbyn Ioan Fedyddiwr—yr hyn a dderbyniwyd yn bersonol gan Eudoxia. Ymunodd yn fwy penderfynol nag erioed â gelynion yr esgob. Cymmerent yn esgus i'w alltudio yr ail waith, nad oedd gan neb awdurdod i'w alw yn ol ond cymmanfa uwch na'r hon oedd wedi ei ddedfrydu. Cydsyniodd yr ymherawdr â chais ei wraig, a gorfuwyd i Chrysostom, bum niwrnod ar ol y Sulgwyn, yn y flwyddyn 404, i ymadael â'r ddinas. Cymmerwyd ef i Bythynia, lle yr arosodd am ychydig yn Nicea; ond ni foddlonid yr ymherodres heb ei alltudio i Cucusus,—lle anial ar derfyn Cilicia ac Armenia. Dysgrifiai ei deimladau mewn llythyr ar y pryd fel y canlyn:—"Pan alltudiwyd fi o'r ddinas, nid aflonyddai hyny ond ychydig arnaf. Dywedwn ynof fy hun, os ewyllysiai yr ymherodres fy alltudio, 'eiddo yr Arglwydd y ddaiar.' Pe mynai fy nhori â llif, gwnaed hyny—y mae Esaiah o fy mlaen yn hyny. Pe taflai fi i'r môr—yr wyf yn coflo Ionah. Pe bwriai fi i'r ffwrn dân, bu y tri llanc yn amgylchynedig gan fflamau. Pe rhoddai fi yn ymborth i wylltfilod, bu Daniel yn ffau y llewod. Os myn fy llabyddio, y mae Stephan yn esampl i mi dan y gawod geryg. Pe cymmerai fy mhen, cymmered ef; rhagflaenodd Ioan Fedyddiwr fi yn hyny." Treuliodd dair blynedd yn nghanol pob amddifadrwydd yn y lle anial hwn; eto ei hoff ymadrodd oedd, "Gogoniant i Dduw am bob peth." O genfigen at ei ddylanwad a'i boblogrwydd, y rhai a chwanegid gan ei alltudiaeth, gorchymynwyd ef i newid ei arosfa, a thrafeilio ar ei draed i Pityas ar lan y Môr Du. Cychwynodd y pererin hybarch, yn crymu dan lwyth llafur trigain mlynedd, ar ei daith. Arweiniai y milwyr ef dros eira, pan y crynai fel deilen; a thros y tywod poeth, pan y crefai yn ofer am gwpanaid o ddwfr oer. Ni thosturient wrth weled ei ben moel yn cael ei guro gan y gwlaw, a'i losgi gan yr haul; yr oeddynt wedi cael addewid am wobr os byddai farw ar y ffordd. Ar ol tri mis o lafur fel hyn, gwrthododd ei gorff ei ddwyn yn mhellach: yn agos i dref Comana, yn ymyl bedd merthyr, bu farw gan sibrwd yn ddystaw, "Gogoniant i Dduw am bob peth." Cymmerodd hyn le yn y flwyddyn 407. Ymgasglodd lluoedd fel mewn ufudd-dod i lais goruwchnaturiol at ei fedd. Collodd eglwysi y dwyrain eu haddurn penaf ac olaf, ac adfeiliodd crefydd ysbrydol yn brysur. Ffurfioldeb a rhwysg oedd yn teyrnasu, yn lle parch duwiolfrydig; ac yn fuan lluman Mahomet a welwyd yn chwyflo yn y fan y bu baner y groes. Yn mhen deng mlynedd ar ugain, gorchymynodd Theodosius II. ddwyn ei esgyrn i Gaer Cystenyn.

Er i grefydd a'r llywodraeth ddyfod i undeb â'u gilydd yn amser Cystenyn, nis gallasent barhau yn hir yn ogyfuwch. Yr oedd yr offeiriadaeth wedi ennill yr oruchaflaeth yn y gorllewin, yn mherson Ambrose, pan ddygwyd Theodosius i ymostwng yn eglwys gadeiriol Milan. Ac ysbryd Ambrose, wedi meddiannu Hildebrand, mewn oesoedd diweddarach, a ddygodd ymherawdr Germany at ei draed. Ond yn y dwyrain, y goron a ennillodd; ac yn Caer Cystenyn, nid oedd dilynwyr Chrysostom ond gweision i'r palas. Oni buasai i Eudoxia weithredu yn gyndyn am ei ffordd, neu pe buasai yr eglwys yn unfrydol, diau y gwelsid, yn nwylaw dynion cyfrwys, sylfaen pabaeth arall yn cael ei gosod i lawr yn Rhufain Newydd. Ond tra y mae Eglwys Rufain trwy y byd yn cydnabod awdurdod esgob Rhufain, yn Eglwys Groeg y mae esgobaethau gwahanol, yn meddu awdurdod annibynol. Y mae offeiriaid yr eglwys hon yn ei chyfrif eu prif anrhydedd y gallant restru Chrysostom yn eu plith; ond i Eudoxia, ei erlidiwr, y mae iddynt ddiolch nad oes arnynt un pen gorthrymus i gwblhau eu darostyngiad trwy roddi ei droed ar eu gyddfau.

Y mae pwysigrwydd Chrysostom i hanesiaeth eglwysig yn fawr ac amrywiol. Ond yn benaf, trwy ei *gymmeriad*, fel Cristion a phregethwr, y rhoddodd y fath brawf dysglaer o allu moesol Cristionogaeth. Yn yr ystyr hwn, saif ar yr un tir ag Origen, Cyprian, Athanasius, Ambrose, ac Awstin. Nid nerth meddyliol oedd ei brif

Digitized by Google

hynodrwydd. Yr oedd ei olygiadau yn glir, ond nid yn ddwfn nac yn eang. Nid oes ond ychydig anghreifftiau o ymresymiadau pur yn ei waith. Saif yn mhlith prif areithwyr hyawdl yr eglwys; ond y mae yn ddyledus am hyny yn fwy i wresogrwydd ei deimlad, ac i ffrwythlonedd ei ddychymyg, nag i fin ei resymeg. Y mae ei holl feddyliau yn ymgodi fel delwau lliwiedig o flaen y llygaid. Yn hyn nid oes neb o'r tadau i'w cymharu âg ef. Fel *duwinydd*, cyfrifid ef yn ei ddydd o syniadau uniawngred; eto ni wnaeth ddim i hynodi ei hun mewn hanes athrawiaethau. Ond y mae ei ysgrifeniadau yn fuddiol yn yr ystyr yma mor bell ag i ddangos pa beth oedd y syniadau oedd yn ffynu yn yr oes hono am drefn yr efengyl. Yr oedd ei barch i'r Ysgrythyrau yn fawr. Yr oedd ei gydnabyddiaeth â hwynt yn amlwg yn ei ddyfyniadau mynych oddi wrthynt. Llawenhäai yn fawr wrth ganfod eu bod yn cael eu cyfleithu a'u lledaenu yn mysg y Gothiaid; ac ar un achlysur, dywedai, gydag arbenigrwydd mawr, "Y mae Prydain yn mwynhau gair y bywyd." Annogai ei wrandawyr i bwrcasu rhyw gyfran o hono, beth bynag; ac yn enwedig—gan fod y gyfrol i gyd y pryd hwnw yn fawr ac yn gostus—yr Efengylau, yr Actau, a'r Epistolau. Yn fynych hysbysai pa beth fyddai ei destyn y Sabbath canlynol, ac annogai ei wrandawyr i'w ddarllen a'i astudio. Yr oedd ei dduwinyddiaeth yn dra diffygiol fel arddangosiad o gyfoeth a chyflawnder yr efengyl; ond nid mor ddiffygiol a llawer o'i gydoeswyr. Y mae prif wirioneddau Cristionogaeth i'w cael yn ei ysgrifeniadau—sancteiddrwydd a chariad yr Iehofah tri yn un, Duwdod ac iawn Iesu Grist, personoliaeth a gwaith yr Ysbryd, gwaith ffydd yn derbyn maddeuant ac yn cynnyrchu sancteiddrwydd, a dedwyddwch y saint mewn byd arall.

Ond yr oedd y gyfundrefn hon yn cael ei llygru a'i gorlwytho gan athrawiaethau o darddiad dynol. Ac yn fynych, pan y mae ffurf yr ymadroddion iachus yn cael eu defnyddio, y mae yn beryglus mai ffurf yn unig ydynt. Yr oedd dirywiad gresynol wedi cymmeryd lle yn nuwinyddiaeth yr eglwys foreuol. Yr oedd symlrwydd yr efengyl wedi colli. Nid oedd un heresi newydd wedi ei dwyn i mewn, ond yr heresi sydd yn wreiddiol yn y ddynoliaeth lygredig; sef gwadu mewn teimlad raslonrwydd yr efengyl—er addef mewn gair ei bod o ras, eto teimlo mewn effaith ei bod o deilyngdod personol. Yr oedd yr efengyl wedi ei dwyn i undeb â gwahanol ffurflau o athroniaeth, yn enwedig Gnosticiaeth [Gwel GNOSTICIAETH]. Yr oedd syniadau cyfeiliornus am natur dyn yn cymylu eu golygiadau am drefn Duw i'w achub. Credid hefyd fod preswyliad yr ysbryd mewn pabell ddaiarol yn ei lygru; o ganlyniad, ei bod yn ddyledswydd darostwng y corff a'i ddwyn yn gaeth—yr hyn a balmantodd y ffordd i argymhell bywyd o weddwdod ac ymneillduaeth oddi wrth y byd. Yr oedd mwy o hyder yn nylanwad swynol y sacramentau, nag yn y gwirionedd wedi ei dderbyn i'r galon. Y mae yn resyn gweled meddwl annibynol Chrysostom gymmaint dan ddylanwad y cyfeiliornadau hyn.

Yr oedd tuedd yr oes wedi bod yn hir i ddyrchafu yr eglwys, a'i gosod yn uwch na'r efengyl yr ydoedd i'w chyhoeddi; ei gwneuthur yn gynnrychiolydd y Gwaredwr; ei gwisgo â'i awdurdod ef; ac edrych ar ei hordinhadau yr unig ffordd anffaeledig i gyrhaedd pob bendith angenrheidiol. Nid yw yn glir pa beth oedd syniadau Chrysostom ar hyn. Weithiau ymddangosant yn unol â Phrotestaniaeth; ond bryd arall priodolir y rhinweddau uchaf i'r elfenau ar ol eu cyssegriad. Dywed Jeremy Taylor, "Fod Chrysostom yn cael ei hòni gan y ddwy ochr; y mae ei reitheg yn ei osod yn yr ochr Babaidd, ond y mae ei farn bwyllus yn ei osod gyda ni."

Fel *esboniwr* yr Ysgrythyrau, a phregethwr, y mae Chrysostom yn fwyaf adnabyddus: y mae ei *Homiliau*, fynychaf, yn cymmeryd y ffurf o esboniadau ar lyfrau cyfain o'r Ysgrythyrau. Fel esboniwr, gellir ei restru gyda Theodoret, Theophylact, Œcumenius—yr esbonwyr boreuol. Ond y mae ei hyawdledd yn gwneuthur ei holl esboniadau yn bregethau. Fel *pregethwr*, yn hytrach nag fel esboniwr, na llywodraethwr, na diwygiwr eglwysig, y saif Chrysostom allan heb ei ail yn yr eglwys foreuol. Yr oedd wedi ei gynnysgaethu â phob cymhwysder i'r pulpud — nerth cof, ffrwythlondeb dychymyg, tanbeidrwydd teimlad, parodrwydd ymadrodd, ymddangosiad mawreddus, a meddiant hollol arno ei hun a'i holl gynneddfau. Mewn dinas fel Caer Cystenyn, lle yr oedd athroniaeth, hyawdledd, a chelfyddydau y Groegiaid mewn bri yn yr ysgolion paganaidd, ac wedi eu trosglwyddo hefyd i wasanaeth yr eglwys, yr oedd y galwad yn gryf am yr ymdrechiadau areithyddol uchaf i foddloni y gwrandawyr. Nid oedd yn rhyfedd fod dyn o'r fath feddwl, yn y fath amgylchiadau, yn cael ei demtio i addurno ei bregethau yn fynych â chyferbyniadau annaturiol, ac â chwyddiaith ormodol. Ar yr un pryd, y mae sobrwydd ei farn i'w ganfod yn ei wrthwynebiad cryf i'r dull alegoraidd a dychymygol o esbonio yr Ysgrythyrau, oedd yn gyffredinol y pryd hwnw. Dilynai y dull naturiol o roddi ei ystyr priodol i bob gair, ei chystrawen ramadegol i bob brawddeg, ac edrychai ar y cyfan yn ngoleu, amcan, ac ymresymiad yr ysgrifenydd. Ond nid oes un ammheuaeth na pharhâ *Homiliau Chrysostom* i gael eu darllen rhag llaw, fel y maent hyd yn hyn, fel cyfansoddiadau o wir hyawdledd naturiol, wedi ei feithrin gyda'r llafur a'r astudiaeth mwyaf, a'i gyssegru gan deimlad angerddol o bwysfawredd tragwyddoldeb, a'r angenrheidrwydd am barotoad i'w dreulio yn ddedwydd.

Ysgrifenwyd hanes ei fywyd yn gyntaf gan Palladius, ei gyfaill; yn mhlith ereill, gan Du Pin, Cave; ond yn enwedig gan Neander, mewn gwaith ar Chrysostom a'i amseroedd, mewn cyssylltiad âg Eglwys y Dwyrain. Ceir hefyd lawer o ddyfyniadau o Chrysostom, er mwyn egluro syniadau ei oes, yn *Ancient Christianity*, gan Isaac Taylor.

CI, CWN, [כֶּלֶב; Gr. κύων; Llad. *canis*]. Gwel *Exod.* xi. 7; *Deut.* xxiii. 18; *Barn.* vii. 5; 1 *Sam.* xvii. 43; 2 *Sam.* ix. 8; 2 *Bren.* viii. 13; *Salm* xxii. 20; lix. 6, 14, 15; *Diar.* xxvi. 11, 17; *Preg.* ix. 4; *Esa.* lxvi. 3; *Mat.* vii. 6; *Luc* xvi. 21; *Phil.* iii. 2; *Dad.* xxii. 15. Mewn mildraeth (*zoology*), y mae y ci yn blaenori rhywogaeth arbenig o greaduriaid pedwartroed, yn nosbarth y gwylltfilod. Ei brif nodweddau ydynt y rhai canlynol:—Y mae iddo ddeuddeg blaen-ddaint—chwech yn yr ên uchaf, a chwech yn yr isaf; y rhai ochrol yn hwy na'r rhai canol, ac yn wahanedig. Gyda hyn, y mae iddo chwe mâl-ddaint yn yr ên uchaf, a saith yn yr isaf, yn nghyd â phedwar o ysgythr-ddaint—un bob ochr yn y ddwy ên; y mae y rhai olaf yn flaenfeinion, yn camu ychydig i fewn, ac yn sefyll ar wahân oddi

Digitized by Google

wrth y dannedd ereill. Tra y mae yn nosbarth y *feræ* bedwar ar ddeg o wahanol fathau o greaduriaid, nid oes a fynwn yma ond â'r *familiaris*, neu y ci priodol, yn unig.

Mewn rhai o amrywiaethau y math hwn, y mae y clustiau yn sythion, ac yn y lleill yn grogedig. Y mae y tafod yn llyfn; y mwsel yn hir, ac yn agored i gryn wahaniaeth, yn ol yr amrywiaethau. Y mae pump o fodiau ar y traed blaen, a phedwar ar y rhai ol, gydag ewinedd hirion a blaengrynion. Bydd yr ast yn dorog am naw wythnos. Rhifedi y torllwyth yn gyffredin ydyw o dri i bump, er y bydd weithiau yn gynnifer a deuddeg. Y mae y cenawon ar y cyntaf yn ddeillion, ac yn parhau felly am yn agos i bythefnos. Yn mhen tua chwe mis y maent yn bwrw eu dannedd, y rhai a ddilynir gan rai ereill cryfion a mwy parhäus. Y maent yn cyrhaedd eu llawn dwf a'u nerth cyn bod yn ddwy flwydd oed. Hyd oes y ci, yn gyffredin, ydyw pedair ar ddeg neu bymtheng mlynedd; ond y mae rhai o honynt wedi cyrhaedd eu llawn ugain mlwydd oed. Anfynych er hyny y mae yn cyrhaedd oedran naturiol. Heb law y cam a dderbynia trwy esgeulusdra a chreulondeb, y mae yn dra agored i lawer math o aflechyd; megys y clafr, y cyllbryf, a'r gynddaredd.

Ond un o'r pethau rhyfeddaf yn hanes y creadur gwasanaethgar hwn, ydyw, y gwahaniaeth diderfyn yn mron a ganfyddir yn ei faint a'i ffurf. Tra y mae rhai o honynt yn agos i bedair troedfedd a hanner o uchder, ac o nerth cyfatebol; y mae un yn cael ei gadw yn yr Arddangosfa yn Dresden, yr hwn sydd berffaith yn ei holl ranau, ac heb fod dros bum modfedd o hyd. Pa un a all creaduriaid sydd yn gwahaniaethu cymmaint oddi wrth eu gilydd fod wedi hanu o'r un cyff ai peidio, y mae yn ffaith fod y fath amrywiaethau o honynt, y rhai a atebant i gymmaint o wahanol ddybenion a phe buasent gynnifer a hyny o wahanol greaduriaid. Un o honynt a ddefnyddir i wylio y praidd, un arall i ddiogelu ein meddiannau, ac un arall i ddinystrio creaduriaid peryglus a niweidiol; y mae un yn wasanaethgar yn y tŷ, ac un arall yn y maes; y naill yn yr eira dwfn, a'r llall yn y dyfroedd cryfion—ac eto y mae pob un yn meddu yr un nodweddau cyffredin ag sydd yn ganfyddadwy yn yr un math o greaduriaid.

Uchelgais penaf y ci ydyw gwasanaethu ei feistr ac ennill ei gymmeradwyaeth. Mynych y gwelir ef yn iselgrymu wrth ei draed, yn sylwi ar ei ysgogiadau, a chyda'r awgrym lleiaf yn cychwyn i gyflawnu ei ewyllys. Y mae ei ffyddlondeb yn ddiareb yn mhob gwlad. Y mae yn gysson yn ei ymlyniad, ac yn ddiolchgar am yr arwydd lleiaf o ewyllys da. Y mae yn fwy hawdd ganddo gofio cymmwynas na dal dig—yn neillduol tuag at ei berchen. Er yr ymddygir yn ddiystyr a chreulawn yn aml tuag ato, nid yw ei ymostyngiad ffyddlawn er hyny yn ddim llai. Nid yw yn ormod ganddo lyfu y llaw a'i tarawodd; a thrwy hyny y mae weithiau yn ei diarfogi. Nid oes dim yn ymddangos yn ei wneyd mor annedwydd a gwg parhäus ac anghymmodlawn.

Y mae hyddysgedd y ci yn gyfryw, fel y mae yn dyfod yn fuan i ymgymmeryd âg arferion y teulu y perthyna iddo. Yn y palas, y mae yn uchelfrydig; ac yn y bwthyn, yn daiogaidd. Yn mhob man y mae yn ddiystyr o bawb ond ei feistr a'i gyfeillion. Adnebydd y cardotyn wrth ei wisg, neu ei agweddau; a gwna ei oreu i beri iddo gadw draw. Yn y nos, pan ar ei wyliadwriaeth, ymddengys yn falch o'i swydd; ac os dyeithrddyn a ddaw yn agos iddo y pryd hwn, y mae yn ymgreuloni drwyddo ac yn ei orchfygu ei hunan, neu yn gwneyd y fath gyffro ag fydd yn debyg o gyfodi rhywun i'w gynnorthwyo.

Y nodweddau hyn, a'r cyffelyb, a gyfaddasant y ci mewn modd neillduol i gymmeryd rhan yn y rheolaeth sydd gan ddyn ar greaduriaid ereill. Ymddiriedir y praidd dan ei ofal. Efe sydd yn eu harwain, yn eu gwylio, ac yn eu diogelu rhag llawer o beryglon y maent yn agored iddynt. Ar faes yr helwrfa hefyd, y mae yr un mor barod, ac mor fedrus. Y mae pob creadur sydd yn byw ar gig yn heliwr wrth naturiaeth. Y llew, gan ei fod mor gryf, sydd yn ymlid ar ol ei ysglyfaeth yn sengl; a'r holl gigyswyr ereill yr un modd. Ond y blaidd a'r llwynog a droant allan yn heidiau lluosog gyda'u gilydd, ac a ymfoddlonant i ranu yr ysbail. Y ci gwyllt hefyd sydd gyffelyb; ond yn y gwâr, y mae y duedd hela wedi ei diwyllio trwy addysg, fel y mae yn hela bob amser wrth reol, a thrwy hyny y mae yn fwy llwyddiannus.

Er nad yw y ci gwyllt, yn yr ystyr priodol o'r gair, yn adnabyddus yn awr mewn un rhan o'r byd, y mae lluaws i'w cael mewn gwahanol fanau wedi dirywio o gyflwr gwâr, ac mewn canlyniad wedi troi yn wyllt, ac yn dilyn eu tueddiadau naturiol. Yn y gwledydd anniwylliedig—megys mewn rhai parthau o Asia—lle y dywedir fod cŵn gwylltion, y maent yn cyfranogi i raddau helaeth o dueddiadau y blaidd, ac yn ymuno â'u gilydd yn fyddinoedd crwydrol i ymosod ar fwystfllod mwyaf brawychus y goedwig; megys y *jaguar*, y *panther*, a'r *bison*. Mewn rhai cyrau o'r America, y mae cŵn a ddygwyd yno ar y cyntaf yn ddofion gan Ewropiaid, ac a esgeuluswyd ar ol hyny, wedi dirywio fel hyn, ac wedi cynnyddu i'r fath nifer nes gorchuddio y wlad, a gosod y trigolion yn aml mewn perygl. Ymddygir tuag atynt fel y gwneir tuag at greaduriaid rheibus ereill, trwy eu lladd pa bryd bynag y gellir hyny. Y mae y rhai hyn, pa fodd bynag, yn hawdd eu dofi; a than driniaeth briodol y maent yn dyfod yn fuan i amlygu y serchogrwydd a'r ffyddlondeb mwyaf—yn yr hyn y maent yn dra gwahanol i'r blaidd a'r llwynog.

Dichon mai y ci ydyw yr unig greadur y mae ei ffyddlondeb yn ddigyfnewid, a'i addysgiant bob amser yn llwyddiannus. Ond i'r graddau y mae yn fwy hyblyg yn ei dymmer, y mae hefyd yn fwy agored i gyfnewidiadau yn ei ffurf. Y mae yr amrywiaethau o hono mor luosog, fel nad oes un dysgrifiad cyflawn eto wedi ei gael o honynt. Yn mhlith pethau ereill, y mae hinsawdd, ymborth, a dysg, yn peri llawer o wahaniaeth yn ei faint, ei liw, ei lun, a'i flew—yn mhob peth bron ond ei natur. Y mae yr un ci, wrth ei gymmeryd o un hinsawdd i un arall, yn myned dan gyfnewidiad trwyadl; ac y mae cymmaint o wahaniaeth yn aml rhwng dau amrywiaeth, a phe y perthynent i rywogaethau gwahanol o greaduriaid. Ond yn ngwyneb y gwahaniaeth hwn, y mae y gwneuthuriad mewnol yr un yn y cyfan; ac yn absennoldeb pob tebygrwydd allanol, nid oes ond hyn i nodi y rhyw.

Oddi wrth hyn, yr ydys yn tybied fod yr holl amrywiaethau wedi hanu o'r un cyff; ond pa un oedd hwnw, nid hawdd yw penderfynu. Tuag at wneyd hyny, pa fodd bynag, gellir crybwyll fod pob creadur sydd wedi ei ddarostwng i wasanaeth dyn, yn agored i fwy o gyfnewidiadau na

Digitized by Google

chreaduriaid ereill. Am wylltfflod yr anialwch sydd yn chwareu yn rhydd, ac yn ymborthi ar eu dewis-fwyd, fe dybir nad all fod ond ychydig wahaniaeth ynddynt—rhwng yr olaf a'r cyntaf o'r un rhywogaeth. Ond am y ci, ar y llaw arall, y mae y ddysgyblaeth y mae ef dani yn un rheswm cryf i gyfrif am yr amrywiaethau a ganfyddir ynddo. Dywedir, os cymherir y ci â rhyw greadur o'r un rhyw, mewn cyflwr gwyllt, ei fod o ran ei wneuthuriad mewnol yn fwy tebyg i'r blaidd nag i un arall; a haerir, fel canlyniad, mai y ci hwnw sydd yn dwyn mwyaf o debygrwydd i'r blaidd yn allanol yw y tebycaf i'r cynllun gwreiddiol o'r rhywogaeth. Y mae naturiaethwyr yn gyffredin o'r un farn, mai y bugeilgi, neu y ci defaid, ydyw hwnw. Efallai fod y dyb hon yn cael ei chadarnhau gan y ffaith, mai cwn o'r gwneuthuriad hwn a ganfyddir amlaf yn y gwledydd hanner gwareiddiedig; megys yn Siberia, Lapland, Iceland, Penrhyn Gobaith Da, Madagasgar, Madeira, Calicut, Malabar, &c. Y mae y cŵn gwylltion, hefyd, yn America a Congo, o'r un ffurf. Ceir cyflawnder o'r un math yn yr hinsoddau tymmerus, yn neillduol yn mhlith y bobl sydd yn rhoddi y flaenoriaeth i ddefnyddioldeb ar harddwch, ac a ddewisant at eu gwasanaeth y ci y byddo lleiaf o waith dysgu arno. Er fod y bugeilgi yn arw yn ei ffurf, ac yn bruddglwyfus hyd greulondeb yn ei edrychiad, y mae yn tra rhagori yn ei synwyrau ar bob un arall.

Tybir yn gyffredinol, hyd y gwyddys, mai y ci hwn ydyw y cyff dechreuol o'ba un y mae yr holl gangenau ereill wedi tarddu. Mewn hinsoddau tymmerus, ac yn mhlith pobl anwareiddiedig, y gwelir ef nesaf i'w ystâd gynhenid. Os cymmerir ef i wledydd oerion iawn, y mae yn dyfod yn llai ac yn fwy hagr, fel y gwelir ef yn Lapland; ond y mae ychydig yn well yn Rwssia, lle y mae yr hinsawdd ychydig yn fwy cynhes, a'r bobl fymryn yn fwy gwâr. Y mae yr holl gŵn yn y gwledydd hyn yn dra thebyg i'w gilydd, yn meddu clustiau sythion, trwynau hirion, blew geirwon, ac edrychiad ffyrnig, ac nid ydynt yn cyfarth yn agos mor aml nac mor uchel ag y gwnant mewn gwledydd mwy diwylliedig. Yn yr hinsoddau cynhes, ac yn mhlith pobl wedi eu cwbl wareiddio—megys yn Lloegr, Ffrainc, a'r Allmaen — y mae y bugeilgi yn edrych yn addfwyn, ei flew yn fwy masw a threfnus, a gellir ei gamgymmeryd weithiau am y matin, y mastiff, neu y bytheuad. Ymddengys fod y tri diweddaf yn ddisgynyddion union-gyrchol o'r blaenaf, ac iddynt hwy y mae naturiaethwyr yn olrhain yr holl amrywiaethau fel y prif gangenau.

Amcenir yma roddi golwg mor fyr ac mor gyflawn ag y gellir o'r holl amrywiaethau adnabyddus, fel y maent wedi eu dosbarthu gan wahanol awduron sydd wedi ysgrifenu ar y pwnc; a dechreuir gyda y Dr. Caius, yr hwn sydd wedi cyfyngu ei sylw yn benaf at yr amrywiaethau yn Mhrydain. Rhoddir y tabl canlynol o'i waith ger bron, gyda nodiad byr ar bob un.

Yn yr adran gyntaf o'r prif ddosbarth cyntaf yn y tabl hwn, ceir y bytheuaid fel y canlyn:—

(1.) *Y terrarius* (*terrier*), neu ddaiargi—math o fytheuad a ollyngid i dyllau dyfnion yn y ddaiar, ar ol y llwynog a chreaduriaid ereill, i'w codi allan.

(2.) *Y ieverarius* (*harrier*), neu geinachgi—a arferid i hela ysgyfarnogod. Dan y pen hwn hefyd ceir un arall cryfach a chyflymach, a arferid i hela llwynog.

Cwn Prydeinig.

I.	Cŵn hela.	Bytheuaid	Daiargi. Ceinachgi. Gwaedgi.
			Tremgi. Milgi. Ysgafngi. Cynllwyngi.
	Cŵn adar.		Spaniad. Cyfeirgi. [dwfr. Cyrchgi=Spaniad
	Cŵn arffed.		Llochgi=Spaniad bychan.
II.	Cŵn gwlad.		Bugeilgi. Mastiffgi.
III.	Cŵn lledryw.		Clepgi. Ci-berdro. Ci-dawns.

(3.) *Y sanguinarius* (*bloodhound*), neu waedgi—a arferid gynt yn y wlad hon i chwilio am gyrff lladdedigion, ac i ymlid llofruddion a drwgweithredwyr. Yr oedd y synwyr o arogliad mor berffaith yn y ci hwn, fel yr oedd yn dra chyfaddas i'r gorchwyl.

Yn yr adran nesaf, ceir y cŵn oeddynt yn hela wrth olwg; ac a ymddibynent yn gwbl am eu ffawd yn yr helfa ar gywirdeb golwg, buander, neu ddichell.

(4.) *Yr agasæus* (*gazehound*), neu dremgi—a arferid yn ddiwahaniaeth i hela ysgyfarnogod, llwynog, neu garw; dewisai yr anifail tewaf o'r ceirw, a dilynai ef wrth olwg yn ddiorphwys nes ei ddal; neu, os dygwyddai iddo ymuno a'r ddeadell drachefn, byddai y ci, meddir, yn sicr o sefydlu ei olwg ar yr un creadur ag o'r blaen.

(5.) *Y leporarius* (*greyhound*), neu filgi—a gymmer ei enw, medd y Dr. Caius, "*quod præcipui gradus fit inter canes*"=am ei fod y blaenaf mewn gradd yn mhlith y cŵn. Gellid meddwl yr ystyrid ef felly gynt, oddi wrth y gyfraith hela a wnaed gan y brenin Canut, yr hon a ddarparai nad oedd neb ond "dyn o waed" i gadw milgi. Yr oedd hen ddywediad hefyd yn mhlith y Cymry, y gellid adnabod y boneddwr oddi wrth ei "hebog, ei farch, a'i filgi."

(6.) *Y levinarius*, neu *lorarius*; *leviner*, neu *lyemmer*:—a gymmerir o'r gair *levis*=ysgafn; a'r ail o'r hen air *lyemme*=carai;—am y byddai y math hwn yn cael eu rhwymo bod yn ddau, neu chwaneg, gan yr heliwr, i'w gollwng yn ol yr eisieu, pan y mynai. Dywedir fod y ci hwn yn hela wrth arogliad yn gystal ag wrth olwg; a'i fod, o ran ffurf, yn rhywbeth rhwng y bytheuad a'r milgi. Hwn, efallai, a adwaenir yn awr wrth yr enw "milgi Gwyddelig."

(7.) *Y vertagus* (*tumbler*), neu gynllwyngi—a ddaliai ei ysglyfaeth yn benaf trwy ddichell. Nid oedd yn hynod o graff nac o gyflym. Yn y cwning-gaer, ni byddai yn cyfarth nac yn rhedeg, ond yn edrych yn hollol ddidaro, nes y byddai y pryf yn ddigon agos ato, pryd y disgynai arno yn hollol ddisymmwth. Yr oedd y ci hwn ryw faint yn llai na'r bytheuad, ac yn fwy blewog, gyda chlustiau sythion,—tebyg efallai i'r llechgi (*lurcher*) diweddar.

Digitized by Google

Yn yr adran olaf o'r dosbarth hwn y mae y cŵn a arferid i hela adar.

(8.) *Yr Hispaniolus* (*Spaniel*), neu Spaniad: a elwid felly, dybygid, i arwyddo y wlad o ba un yr hanodd. Yr oedd dau amrywiaeth o'r math hwn; y cyntaf i godi yr aderyn, ac yn cyfateb i'r tarfgi diweddar; a'r llall, yn fath o wyliwr, a ddefnyddid yn unig gyda'r rhwyd, ac a elwid yn *index* neu *setter*. Y ci hwn a adnabyddir yn awr dan yr enw "Spaniad Seisoneg;" a thybir ei fod yn un o gŵn cynhenid Ynys Prydain, er nad yw ei enw yn arwyddo hyny.

(9.) *Yr aquaticus* (*finder*), neu gyrchgi—a arferid gan yr adarwr i fyned i'r dwfr i gyrchu yr aderyn i dir ar ol ei saethu. Yr oedd hwn yn debyg i'r Spaniad-dwfr presennol.

(10.) *Y melitæus* (*Spaniel gentle*), neu lochgi—oedd yn cyfateb i'r ci arffed (*lap-dog*) diweddar. Yr oedd cŵn bychain Malta yn y fath fri gan foneddigesau yr oesoedd gynt ag ydyw y rhai o Bologna yn yr oes hon. Y mae hen awdwr, yn nyddiau Elizabeth, o'r enw Hollingshed, yn difrio merched yr oes hono yn greulawn, am y serch a ddangosent at y creaduriaid bychain hyn; yr hyn, efallai, sydd yn brawf ei fod ar y pryd yn beth newydd.

Yn yr ail ddosbarth ceir y *rustici*, neu gŵn gwlad, yn amrywio fel y canlyn:—

(1.) *Y pastoralis*, neu fugeilgi—yr hwn a gyfatebai yn hollol i'r ci a ddefnyddir yn awr i wylio y praidd, ac i yru y deadelloedd.

(2.) *Y villaticus*, neu *catenarius* — yr hwn a elwir gan Collum, *canis villaticus*=ci tŷ; a chan Senn., *catenarius canis*=ci cadwyn—oedd yr un a'n mastiff ni; yn gi mawr cryf, ac yn gyfarthwr uchel. Dywed Caius fod tri o'r cŵn hyn yn ddigon i drechu arth; a phedwar i drechu llew. Gwnaed prawf o hyn yn y tŵr yn Llundain, pryd y trechwyd llew cryf gan dri mastiff: clwyfwyd dau o'r cŵn; ond wedi hir ymdrech, cafodd yr olaf y maes iddo ei hun.

Yn y prif ddosbarth diweddaf o'r tabl hwn, ceir y cŵn lledryw, neu y corgwn; a gwelir ynddo dri amrywiaeth.

(1.) *Y wappe*, neu glepgi—ydoedd gi bychan yn cymmeryd ei enw oddi wrth ei gyfarthiad, yr hwn oedd yn dra uchel a chyffrous.

(2.) *Y versator*, neu y berdro — ydoedd gi bychan isel, gyda choesau ceimion.

(3.) *Y saliator*, neu y dawns-gi—a gymmerid o amgylch yr heolydd gan segurwyr, er dangos ei gampau. Nid oedd un o'r rhai hyn o ddysgriflad penodol, gan fod eu rhyw yn gymmysg o lawer o wahanol fathau.

Nid yw yr amrywiaethau y cyfeirir atynt yn y tabl uchod, fel y gwelir, yn cynnwys mwy na'r rhai a adnabyddid yn Mhrydain yn amser y Dr. Caius. Y mae Buffon, pa fodd bynag, wedi gwneyd tabl achyddol o'r holl gwn adnabyddus yn ei amser ef, ac yn nodi y *chien de berger*, neu y bugeil-gi, fel y cyff o ba un y maent oll wedi hanu, am fod ei synwyrau, yn ei dyb ef, yn tra rhagori. Y mae y tabl hwn, heb law ei fod yn cynnwys y gwahanol fathau o gwn, wedi ei fwriadu i ddangos yr amrywiaethau sydd wedi tarddu mewn canlyniad i'r dirywiad sydd yn cael ei effeithio ynddynt gan ddylanwad gwahanol hinsoddau, a chymmysgiad y rhywiau. Y mae y tabl cywrain hwn wedi ei wneyd ar gynllun y ddaiar-len, yn mha un y mae yr awdwr yn rhoddi i bob amrywiaeth ei le priodol, mor bell ag yr oedd hyny yn bosibl, yn ol sefyllfa y gwleydd y perthynent iddynt. Y mae Mr. Pennant hefyd, yn ei *History of Quadrupeds*, yn rhoddi llechres led gyflawn o'r holl gwn oedd yn adnabyddus iddo ef, ac yn rhoddi y flaenoriaeth i'r un ci. Ond dichon mai y dosdrefniad mwyaf cyflawn a rheolaidd ar y mater dyrus hwn ydyw yr un a wnaed gan y Cadben Thomas Brown, o'r Alban, ar gynllun Cuvier. Yr oedd Cuvier wedi crynoi yr holl gwn adnabyddus i dri phrif ddosbarth, ac yn sylfaenu ei gyfundrefn ar ffurf y pen, a hyd y cernau a'r mwsel; ond y mae Brown wedi adranu y dosbarthiadau hyn i wahanol gangenau, a thrwy hyny wedi gwneyd y dosdrefniad yn fwy cyfleus, a gellid meddwl, yn lled berffaith. Cymmerir golwg yma ar yr amrywiaethau yn ol y dosdrefniad hwn, a gwneir defnydd o ymchwiliadau y naturiaethwyr dysgedig uchod, ac ereill, fel y bernir yn angenrheidiol, mewn ffordd o eglurhâd.

DOSB. I. CWN GYDA PHENAU HIRION.

1af. *Cwn gwylltion, ac yn hela yn fyddinoedd.*

(1.) *Y dingo*, neu gi Holland Newydd, sydd â phen tebyg i'r blaidd, ac am ba achos y mae Bewick yn ei alw yn flaidd Deheudir Cymru Newydd. Y mae y mwsel yn hir a blaenfain, a'r clustiau yn fyrion ac yn sythion. Y mae yn ddwy droedfedd o uchder, ac yn ddwy droedfedd a chwe modfedd o hyd. Ei ffwrw sydd gymmysgedd o flew sidanaidd a gwlanog, o liw rhudd-felyn tywyll. Ei gynffon sydd hir a chudynog, fel eiddo y cadnaw. Y mae y ci hwn o dymmer greulawn a ffyrnig iawn. Dywed Pennant ddarfod i un o honynt, a ddygwyd drosodd i'r wlad hon, neidio unwaith ar gefn asyn, ac y bu agos iddo a'i rwygo yn gareiau cyn y gallwyd ei dynu i lawr.

(2.) *Y dhole*, sydd gi gwyllt yn yr India, ac yn dra thebyg i'r *dingo*, ond ei fod heb gynffon gudynog fel hwnw: ei liw ydyw coch dysglaer. Y mae y math hwn yn hela ei ysglyfaeth bob amser yn ddystaw nes y byddo yn ei ymyl, pryd y mae ganddo fath o sibrwd sydd yn ymylu ar gyfarthiad; ac yn hyn y mae yn gwahaniaethu oddi wrth yr holl gwn sydd yn hela yn fyddinol. Y mae y *dhole* mor gyflym fel mai yn dra anfynych y metha ei nod. Y mae lluoedd o honynt yn llechu yn y coedwigoedd, yn mharthau gorllewinol India. Dywed y Cadben Williamson, er ei fod yn ddiberygl ddigon i'r trigolion, tra y gadewir ef yn llonydd, ei fod yn gwneyd llawer o ddinystr weithiau yn mhlith yr anifeiliaid.

(3.) *Y pariah*, ydyw y ci tŷ (*villaticus*) cyffredin yn yr India. Y mae iddo ben crwn llym, gyda chlustiau byrion, corff ysgafn, a meingefn cul. Ei liw ydyw gwineu tywyll. Arferir y math hwn gan yr Indiaid i hela y teigr a'r baedd gwyllt, ac y mae yn hynod greulawn.

(4.) *Yr ekia*, sydd gi cynhenid o Affrica, ac yn ol pob tebygrwydd yn amrywiaeth o'r *dhole*. Ceir y math hwn yn amrywio yn y lliw, gan fod rhai o honynt yn dduon, ereill yn gochion, ereill yn wynion, ereill yn wineuon, ac ereill yn felynion. Dywedir fod y Negroaid yn eu bwyta. Y mae y cwn gwylltion yn Affrica, yn gystal ag yn India, yn hela yn fyddinoedd.

(5.) *Yr alco*, sydd gi cyffredin yn Neheudir America, o ba un y mae dau amrywiaeth. Y mae pen y ci hwn yn fychan, a'r clustiau yn grogedig: yn hyn y mae yn gwahaniaethu bron oddi wrth bob ci gwyllt arall. Y cefn sydd i raddau yn grwmog, a'r gynffon yn lled fer. Yr oedd y math hwn yn y wlad cyn iddi gael ei darganfod gan yr Yspaeniaid. Herrara a ddywed i Columbus weled cwn mudion yn America.

Digitized by Google

(6.) Ci dienw yn Ngogledd America, o'r hwn nid oes genym un dysgriflad penodol. Dywedir ei fod yn debyg o ran ffurf i'r *dingo;* fod ei arogliad yn hynod o graff, a'i fod yn dra chyflym yn yr helfa.

Adroddir yr hanesyn canlynol am y ci hwn, i ddangos cywirdeb ei arogliad:—"Yr oedd gan Le Fevre blanigfa yn War Waring, yn agos i'r Mynyddoedd Gleision, yn nhalaeth Caer Efrog Newydd. Un diwrnod aeth bachgen bychan pedair oed iddo ar goll. Wedi i'r holl gymmydogion fod am ddau ddiwrnod yn chwilio yn ofer am dano, a meddwl ei fod wedi ei ddyfetha gan y gwylltfilod oedd ar y mynyddoedd, daeth Indiad o'r enw Tewenissa heibio i Le Fevre gyda'i gi Oniah. Wedi deall yr helynt, gofynodd yr Indiad am yr esgidiau a'r hosanau a fuont ddiweddaf am draed y bachgen, a chymhwysodd hwy at ffroenau y ci, gan ei arwain allan i wneyd yr ymchwiliad. Cyn pen yr awr yr oedd y ci wedi arwain y teulu galarus at fôn coeden fawr, a safai ryw bellder o'r fan, ac yno yr oedd y bachgen Derrick yn eistedd yn dawel heb dderbyn un niwed.

2il. *Cwn gwâr, yn hela yn fyddinol, neu yn sengl, yn benaf wrth olwg, ond weithiau wrth arogliad.*

(1.) *Y milgi Gwyddelig* (*levinarius*—Cai.; *le Matin*—Buff.), sydd gyffelyb o ran ei ffurf i'r milgi cyffredin, ond ei fod yn uwch ac yn gryfach. Ei uchder arferol ydyw tair troedfedd, ond y mae rhai anghreifftiau o hono yn agos i bedair. Dywed Goldsmith iddo weled llawer o'r uchder hwn. Yr oedd gan Ardalydd Sligo rai o'r math hwn o wahanol liwiau—rhai gwineuon, gwynion, a brithion. Eu defnydd cyntefig oedd hela bleiddiaid, gan ba rai yr oedd y wlad hono yn cael ei blino, hyd yn agos i derfyn y canrif diweddaf. Y maent i'w gweled yn fwy anfynych yn awr yn yr Ynys Werdd, gan i frenin diweddaf Poland gasglu cymmaint ag a allodd gael o hono ynt i'w wlad ei hun.

(2.) *Y ci Danaidd* (*le grand Danois*—Buff.) yw y mwyaf o'r math hwn, a thybia Buffon fod y milgi Gwyddelig wedi disgyn o hono. Y mae yn ffaith fod y Daniaid unwaith wedi bod yn cyfanneddu yn yr Iwerddon. Dywed Pennant, fod yn dra thebyg mai o'r math hwn hefyd yr oedd cwn Epirus, y crybwyllir am danynt gan Aristotle [llyfr iii, pen 21], neu gwn Albania, a ddysgrifir mor brydferth gan Pliny [llyfr viii. pen. 40]. Dichon fod cwn Thibet hefyd o'r un tarddiad cyntefig, am y rhai y dywed Marco Paolo eu bod yn gymmaint ag asynod, a'u bod yn cael eu harfer ar ucheldiroedd yr Himalaya i hela yr ych gwyllt, a elwir *beyamini.*

(3.) *Y ci Albanaidd*, neu *Georgia Ddwyreiniol*, sydd, fel y crybwyllwyd eisoes, yn ol pob tebygrwydd wedi hanu o'r *le grand Danois.* Y mae y ci hwn o faint mastiff cryf, ac yn hynod o flewog. Yr oedd yn gi hynod o ddewisol yn yr hen amser i hela y baedd gwyllt, i'r hyn yr oedd yn dra chymhwys, gan fod ei aelodau mor ewynog a chryfion. Y mae o wasanaeth hefyd fel ci gwlad, mewn rhai manau, i ddiogelu y corlanau rhag ladron. Dywed Lieutenant Shipp, am un o'r math hwn, a berchenogid gan un o'r is-swyddogion yn y fyddin, ei fod yn arfer cerdded ei awr yn rheolaidd ar yr wylfa, ac ar noswaith dywyll iawn ei fod yn arfer rhoddi ei glust ar y ddaiar i ymglywed â'r swn, ond na welwyd ef erioed yn gorwedd nes i'w awr ddyfod i ben. Cafodd swyddog arall ei fenthyg un tro i fyned gydag ef i Loodianna; ond mor fuan ag y gollyngwyd ef yn rhydd yn mhen ei daith, cychwynodd y ci yn ol at ei feistr, a dychwelodd i Meerut—pellder o bedwar can milltir—mewn dau ddiwrnod a hanner. Dro arall, tra yr oedd ei feistr yn feddw, ac wedi gorwedd tan lwyn o goed cysgodol i'w ddiogelu rhag y gwres, efe a syrthiodd i gwsg trwm; a phan ddeffrodd, gwelai fod ei ddillad mewn amryw fanau wedi eu rhwygo, a'i fod yntau ei hunan wedi ei lusgo rai llatheni o'r fan y gorweddodd gan ei gi; ond yr oedd ei syndod yn lled gyffrous pan y gwelodd neidr fawr yn gorwedd yn ddrylliau yn ei ymyl, newydd ei lladd.

(4.) *Milgi yr Ucheldir*, sydd gi mawr, cryf, a hynod gyflym. Nid yw ond ychydig llai na'r milgi Gwyddelig, a thybir ei fod yn amrywiaeth o hono. Dywed rhai, pa fodd bynag, ei fod wedi disgyn trwy olyniad rheolaidd o gwn Ossian. Arferid ef bob amser gan dywysogion yr Ucheldiroedd, yn yr oesoedd gynt, yn eu helwriaethau. Y mae llawer o chwedlau yn mhlith y trigolion am gi Fingal, a elwid Branne, ei fod o'r fath oreu yn y byd. Yn swyddi Argyle a Perth y mae adfeilion hen gestyll i'w gweled, a elwid Castail nam Fiam, neu gestyll y Fingaliaid; ac yn Glenlyon dangosir tŷ yn mha un y cedwid y cwn, yn nghyd â thŷ y prif heliwr.

(5.) *Milgi Rwssia*, sydd agos o'r un faint, ond ei fod yn llawer mwy blewog, ac o liw tywyll. Y mae y ci hwn yn fynych yn lladd blaidd neu faedd gwyllt ei hunan.

3ydd. *Cwn gwâr, yn hela yn sengl, a phob amser wrth olwg.*

(1.) *Y tremgi* (*agasæus*—Cai.), er ei fod yn enwog gynt, sydd yn awr yn gwbl anadnabyddus. Nid oes, hyd y gwyddys, gymmaint a darlun o hono ar gael.

(2.) *Y milgi* (*leporarius*—Cai.; *canis graius*—Linn.) sydd mor adnabyddus fel na raid ei ddysgrifio. Rhagora ar bob ci am ei gyflymder. Y mae profion sicr y gall redeg am lawer o filltiroedd yn ol dwy filltir bob tri mynyd, yr hyn sydd fwy na chyflymder cyffredin yr ager-gerbyd. Y mae yn dyb gyffredin fod y milgi yn fwy diffygiol na'r rhelyw o'r cwn mewn synwyr a ffyddlondeb. Nid yw hyn, fodd bynag, yn gysson â'r hyn a ddywed Xenophon yr ieuengaf am un o'r math hwn a fagwyd ganddo ef. "Yn awr," eb efe, "yr wyf yn meddwl na raid i mi gywilyddio son am y ci hwn, a gadael i olafiaid wybod fod gan Xenophon, yr Atheniad, gi, o'r enw Hormè, yr hwn a ragorai ar bob ci am ei gyflymder, ei synwyr, ei ffyddlondeb, a phob rhinwedd arall." Gwyr pob Cymro am y chwedl a adroddir am y Tywysog Llewelyn a'i ffyddlawn Gelert; ond dylid crybwyll fod Iolo Morganwg yn "Nammeg y Gwr a Laddwys ei Filgi," yn dywedyd i hyn gymmeryd lle yn Abergarwan, ac nid yw yn enwi y gwr. Yn ol y ddammeg hon, ni wyddys pa un ai Llewelyn ai rhyw un arall ydoedd. Yr amgylchiad hwn a achlysurodd y ddiareb, "Cyn dial gwybydd yr achos, ac ystyr ddwywaith cyn taraw unwaith, ac am a fu o hyny y dywedir mor edifar a chan y gwr a laddwys ei filgi. A gwaith byrbwyll nid gwaith ystyrbwyll; ond fal y gwr a laddwys ei filgi. Y gwr a oddef i lid ddwyn y blaen ar ei bwyll a wna ddrygwaith nis gellir byth ei ddadwneuthur, ac a bair edifeirwch tro fo byw. Da yw ffrwyno llid rhag dialu yn anghyfiawn, fal y gwnaeth y gwr a laddwys ei filgi."

(3.) *Y milgi Italaidd*, sydd o'r un gwneuthuriad, ond ei fod yn llai agos o'r hanner. Y mae ei flewyn byr hefyd yn fwy llyfn-sidanaidd.

Digitized by Google

(4.) *Y milgi Tyrcaidd*, sydd hefyd gryn lawer yn llai na'r un Italaidd. Y mae iddo glustiau hirllaes, a blew hirion a gwasgarog ar ei gynffon. Dywed Pennant, nad yw y ddau hyn ond amrywiaethau dirywiedig o'r un blaenorol.

DOSB. II. CWN GYDA PHENAU CANOLIG.

4ydd. *Cwn gwlad* (*rustici*—Cai.), *a arferir i wahanol ddybenion gan amaethwyr ac ereill.*

(1.) *Y bugeilgi* (*pastoralis*—Cai.; *domesticus*—Linn; *le chien de berger*—Buff.), yn y wlad hon sydd o faintioli canolig, yn cael ei orchuddio â chnwd da o flew; mwsel hir a blaenfain; clustiau sythion, yn plygu ychydig yn agos i'w blaen; cynffon hir gudynog; a lliw du a gwyn, ond yn fynych yn amrywio. Y mae y math hwn yn Ffrainc, ac ar dueddau yr Alps, yn fwy ac yn llawer cryfach nag yn y wlad hon. Yn mhob gwlad y mae ei wasanaeth i'r bugail bron yn anmhrisiadwy, ac y mae y chwedlau profedig am ei gyfrwysder a'i ffyddlondeb agos yn aneirif.

(2.) *Y corgi* (*cur dog*) sydd o wneuthuriad cryfach na'r bugeilgi, o'r hwn y mae wedi hanu. Y mae iddo gynffon fer, blewyn llyfn, ac arferir ef i hel y meirch a'r gwartheg, fel yr arferir yr olaf i arwain y defaid. Gelwir y ci hwn mewn rhai manau yn "sodlwr," am ei fod yn dueddol i ruthro at sodlau yr anifeiliaid. Y mae yn frathwr llym, a'i afael yn dra ffyrnig.

Heb law y rhai hyn, y mae nifer o amrywiaethau yn cael eu cadw gan amaethwyr, ac ereill, yn y wlad hon, y rhai sydd wedi dirywio cymmaint trwy bob math o gymmysgiad, fel nad oes un dysgrifiad penodol i'w roddi o honynt, ac nid allant fod ond o ychydig wasanaeth.

5ed. *Cwn dwfr* (*aquatici*—Cai.), *y rhai sydd agos yn droed-weog, ac yn hynod am nofio.*

(1.) *Ci Newfoundland.* Y mae y ci hardd a boneddfrydig hwn yn awr yn lled adnabyddus. Y mae yn mesur, o'r trwyn i flaen y gynffon, yn agos i chwe throedfedd a hanner, ac o uchder a nerth cyfatebol. Y mae yn hynod am ei hyddysgedd a'i addfwynder; a chan ei fod yn gryf, ac yn nofiwr da, y mae o wasanaeth dirfawr i ddyn mewn lluaws o amgylchiadau. Y mae morwyr yn dra hoff o gymmeryd y ci hwn gyda hwy yn eu môr-deithiau. Ystyriant ef yn arwydd rhagorol pan fydd y llestr yn nesu at y tir, yr hyn sydd brawf fod ei arogliad yn lled gryf. Ond dengys yr amgylchiadau canlynol fod ei wasanaeth i'r morwr yn aml yn un tra phwysig. Tra yr oedd y Cadben Smith yn Greenland yn morfila, yr oedd ei fab a'r dwylaw un diwrnod yn sefyll ar ddarn o rew, yr hwn yn fuan a giliodd oddi tan eu traed; llwyddodd chwech o'r dynion i afael mewn rhaffau o ben blaen y llong, ond collodd y seithfed o'r golwg. Daeth y cadben i'r golwg ar y pryd, wrth glywed y cyffro, a chi mawr gwrol o'r math hwn wrth ei ochr. Wedi sylwi am ysbaid, gwelodd y cadben ben y dyn yn cyfodi i'r wyneb, a dangosodd ef i'r ci, yr hwn, gyda chyfarthiad sydyn, a neidiodd dros y bwrdd i'w gynnorthwyo; a rhwng y ci, a bâd a ollyngwyd o long arall, yr oedd y dyn yn fuan ar y bwrdd.

(2.) *Y Spaniad dwfr:* o hwn y mae dau fath, un mawr cryf, ac un arall llai a elwir y *poodle*, yr hwn sydd gymmysgryw rhwng y blaenaf a'r tarfgi. Y mae y ddau yn grych-flewog, ac yn nofwyr da. Dywedir fod swyddog o'r 44 catrawd wedi prynu ci *poodle* unwaith, ar un o'r pontydd sydd yn croesi yr afon Seine yn Paris, yr hwn a ddysgwyd i ymrwbio yn y llaid, a maeddu botasau y boneddigion a elent heibio, er mwyn dwyn gwaith i'w berchenog, ac iddo ei ddwyn gydag ef i Lundain; ond mor fuan ag y cafodd y ci ei draed yn rhydd, canfyddwyd ei fod ar goll, a chyn pen y pythefnos yr oedd gyda'i hen feistr ar y bont yn Paris, yn cyflawnu yr un swydd ag o'r blaen. Ni ddywedir, os gwyddid, pa fodd y gwnaeth y siwrnai. Y mae y cwn hyn yn dra gwasanaethgar i hela ednod gwylltion.

(3.) *Ci Pomerania*, a elwir weithiau yn flaiddgi, sydd amrywiaeth o'r bugeilgi, a dywed Pennant yr un modd am gi Siberia. Y ddau, pa fodd bynag, ydynt gryfach, a mwy blewog; ond cyfrifir am hyn mewn rhan gan wahaniaeth yr hinsawdd. Arferir y ci hwn yn Siberia i lusgo y cerbydau, y rhai ydynt fath o geir llusg. Rhoddir o chwech i ddeuddeg o'r cwn wrth yr un car, a throsglwyddir y teithiwr fel hyn ganddynt drwy y rhew a'r eira, yn ol deg a thrigain neu bedwar ugain milltir y dydd. Y mae eu harogliad mor graff fel y dilynant yn sicr yr un llwybr yn mlaen ac yn ol, y naill dro ar ol y llall, er ei fod yn aml wedi ei orchuddio gan y lluchfeydd. Nid oes ond y cyffelyb ddysgrifiad i'w wneyd o gwn Iceland a Greenland.

(4.) *Ci yr Esquimaux*, sydd mor debyg i flaidd y parthau hyny fel nad yw yn hawdd ar olwg eu gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd. Y maent yn elynion llidiog er hyny i'w gilydd.

(5.) *Y ceinachgi Indiaidd*, a ganfyddir ar lenydd y Mackensie a Llyn yr Arth Fawr, sydd mor debyg i'r llwynog gogleddol ag ydyw yr un blaenorol i'r blaidd. Dywedir nad yw y ci hwn byth yn cyfarth yn ei wlad gynhenid. Dygwyd rhai o honynt drosodd i'r wlad hon gan Syr John Franklin a Dr. Richardson, a chawsant eu cyflwyno i berchenogion y Wylltfilfa yn Llundain, ac ni chlywyd un o honynt erioed yn cyfarth: ond yr oedd y rhai a anwyd yno yn cyfarth mor uchel ag un math o gwn Prydeinig. Aeth un o honynt yn rhydd o'r gerddi, a chafodd y ceidwaid gymmaint o hela arno i'w gael yn ol a phe buasai yn llwynog.

(5.) *Y clepgi* (*shock*) yw y lleiaf o'r amrywiaethau yn y dosbarth hwn. Y mae yn flewog iawn, ac, fel yr oll yn yr un dosbarth, yn nofiwr da. *Y barbel* hefyd sydd gyffelyb iddo. Cedwir y ddau hyn fynychaf yn fwy er difyrwch na gwasanaeth.

6ed. *Cwn adar* (*canis avicularium*—Linn.), *yn hela yn sengl, ac wrth arogliad.*

(1.) *Y Spaniad*, sydd gi adar hynod o brydferth, ac y mae gwahanol fathau o hono yn adnabyddus yn y wlad hon. Y *Spaniad tir* yw y mwyaf. Y *setter* sydd gymmysgryw o'r ci dwfr, y cyfeirgi Yspaenaidd, a'r tarfgi, ac y mae yn cael ei ystyried yn rhagorol am ei brydferthwch a'i fywiogrwydd yn yr helfa. Y tarfgi sydd ychydig yn llai, ond o ddysgrifiad cyffelyb. Heb law y rhai hyn, gellir cynnwys y llochgi, ci y brenin Siarl, y ci arfed, a'r llewgi, yn yr un dosbarth.

Y mae chwedl ddarfod i Spaniad dwfr bychan effeithio yn rhyfedd ar deimladau Buonaparte yn mrwydr Castiglione, rhwng y Ffrancod a'r Awstriaid. Pan yr oedd rhengau yr Awstriaid wedi eu tori, a'r Ffrancod yn parhau i'w hymlid, daeth Napoleon i fyny ar y pryd i'r fan yr oedd yr ymosodiad mwyaf yn cael ei wneyd; ac yn nghanol cyrff y lladdedigion, sylwodd ar gi bychan, â'i draed ar ddwyfron swyddog Awstriaidd; ei glustiau yn gorchudio ei lygaid, y rhai oeddynt yn edrych yn sefydlog ar wynebpryd marw ei feistr. Tra nad oedd dim arall yn

Digitized by Google

tynu ei sylw, edrychodd unwaith ar Napoleon, ac yn y fath fodd nes i'r milwr dewr deimlo fod y ci bychan yn gofyn am ffafr. Yr oedd y teimlad yn anwrthwynebol, a rhoddwyd terfyn ar y galanas.

(2.) *Y Spaniad Alpaidd*, neu gi St. Bernard, sydd yn llawer cryfach a mwy defnyddiol na'r amrywiaethau yn y wlad hon. Y mae yn agos i chwe throedfedd o hyd, a dwy o uchder. Gwnaed darlun o ddau o'r cwn hyn yn ddiweddar gan Mr. Edwin Landseer, yr hwn a ystyrir yn orchestwaith. Yn y darlun, gwelir un o'r cwn yn chwalu yn yr eira am deithiwr anffodus oedd newydd gael ei orchuddio ynddo, tra y mae y llall yn rhoddi yr alarm i geidwaid y mynachdy yn St. Bernard, y rhai a brysurant i weinyddu y cymhorth angenrheidiol. Y mae y mynachdy hwn o wasanaeth dirfawr i deithwyr yn y lleoedd peryglus hyn. Y mae y mynachod yn rhwym o roddi dynion galluog, a chyfarwydd â'r mynyddoedd, i gadw y llwybrau yn agored ar bob tywydd yn ystod y gauaf. Gelwir y dynion hyn, *maroniers*; a gwelir un o honynt, gydag un neu chwaneg o'r cwn, bob dydd drwy y gauaf ar y llwybr yn yr ochr Italaidd i'r mynyddoedd, ac un arall yr un modd ar y llwybr sydd yn arwain i Valais. Bu un o'r cwn hyn, o'r enw Barry, yn foddion i achub llawer o fywydau. Un arall, o'r enw Jupiter, hefyd a fu o'r un gwasanaeth. Yn y fl. 1827, sylwodd yr olaf fod rhyw un wedi myned heibio i'r mynachdy, tua'r mynydd, a chychwynodd yntau ar ei ol. Yn fuan gwelwyd ei golli o'r mynachdy, ac wrth ddilyn ol ei draed daeth y ceidwaid hyd iddo, yn ceisio cynhesu gwraig dlawd, â phlentyn yn ei breichiau, oedd ar drengu yn yr eira. Bu gofal Jupiter yn foddion i achub y fam a'r plentyn.

(3.) *Y cyfeirgi* (*pointer*), sydd gymmysgryw o'r cyfeirgi Yspaenaidd a'r bytheuad. Y mae yn hardd ei lun, ac yn gyflym ei ysgogiadau. Y cyfeirgi Yspaenaidd, o ba un y mae wedi hanu, a ystyrid gynt yn rhagorol; ond yn awr nid yw ond yn anfynych mewn arferiad. Y cyfeirgi bychan sydd o'r un dysgriflad, ond ei fod lawer yn llai; a'r un Rwssiaidd, ond ei fod yn fwy blewog.

(4.) *Y ci brith*, neu y *Dalmatian*, sydd gynhenid o Dalmatia, yn Twrci, ac a arferir yn y wlad hono i hela. Ni ystyrir ef mor gymhwys i'r helwriaeth yn y wlad hon; ond ar gyfrif ei harddwch a'i hoffder o feirch, gwelir ef yma gyda cherbydau y boneddigion. Y mae math arall Danaidd ychydig yn llai. Y mae y cwn hyn o'r ffurf fwyaf lluniaidd. Y lliw cyffredin ydyw gwyn, yn cael ei orchuddio âg ysmotiau duon neu rudd-gochion i gyd drostynt.

7fed. *Bytheuaid* (*le chien courant*—Buff.; *canis sagax*—Linn.), *yn hela yn fyddinol, ac wrth arogliad.*

(1.) *Y bytheuad Talbot*, sydd un o fytheuaid cyntefig Ynys Prydain, a arferid gan yr henafiaid i hela ceirw ac anifeiliaid gwylltion. Y mae Buffon, yn y tabl achyddol, yn gosod y bytheuad yn y sefyllfa bellaf oddi wrth y bugeilgi, am fod ei glustiau hirion yn gwbl grogedig; a dywed fod ei addfwynder, ei hyddysgedd, a'i ofnusrwydd, yn brofion eglur o'r dirywiad anarferol sydd wedi cymmeryd lle ynddo. Tybir fod y bytheuad carw yn dwyn perthynas agos i'r un Talbot: hwn, pa fodd bynag, yw y mwyaf o'r bytheuaid. Y bytheuad llwynog hefyd sydd dra thebyg, ond fod ei ben yn llai, a'i fwsel yn hwy.

(2.) *Y gwaedgi* (*sanguinarius*—Cai.), sydd gi cryf, gwrol, a'i ffroen mor graff fel y gall ddilyn wrth arogl, yn mhen dyddiau rai, ar ol ei ysglyfaeth. O herwydd hyn yr arferid ef gynt, ac yr arferir ef eto mewn manau, i ymlid llofruddion, lladron, a ffoedigion o bob math. Y mae y ci hwn, fel yr arwydda ei enw, yn greulawn a gwaedlyd iawn. Y math Affricanaidd o hono a arferir gan gaethfeistriaid i hela Negroaid fydd yn dianc o'u gwasanaeth. Yn ynys Cuba, mae y math hwn mor greulawn fel y lladdent bob Negro yn y lle, ond iddynt gael eu gollwng yn rhydd. Yn ystod y chwyldroad yn Hispaniola, cafodd llaweroedd o deuluoedd Negroaidd eu rhwygo yn ddarnau yn y coedwigoedd gan y cwn hyn a gymhellid ar eu hol gan farbariaid gwynion. Yr oedd hela Negro yn yr ynys hon yn brif ddifyrwch gan rai o'r trigolion. Wedi dal y ffoadur, torid ei ben ymaith oddi wrth ei gorff, pryd y teflid yr olaf i'r cwn, ac y cymmerid y blaenaf i'r swyddfa, lle yr oedd gwobr yn cael ei chynnyg am dano. Arferir y gwaedgi i greulonderau cyffelyb yn nghaethdaleithiau America hyd y dydd hwn.

(3.) *Y daiargi* (*terrarius*—Cai.), a ddefnyddir gyda haid o fytheuaid, ac y mae yn dra gwasanaethgar i'r helwyr. Y mae iddo flewyn llyfn, o liw du, gydag ychydig o goch ar y cernau, a thufewn i'r coesau. Gwelir hwy rai gweithiau o liwiau gwahanol, ond tybir eu bod o ryw cymmysg. Daiargi yr Alban sydd ychydig yn llai, gyda blewyn garw, ond yn llawer mwy ffyrnig. Y daiargi tarw sydd gymmysgryw rhwng y daiargi a'r ci tarw, ac y mae yn ymladdwr creulawn.

(4.) *Y ceinach-gi* (*leverarius*—Cai.), sydd yn ddigon adnabyddus, ac mewn arferiad parhaus yn y wlad hon i hela ceinach. Yr olrhein-gi (*beagle*), a arferir i'r un perwyl, yw y lleiaf o'r bytheuaid; ond y mae ei arogliad yn hynod o gyflym a chywir.

8fed. *Bytheuaid lledryw, yn hela yn sengl, wrth arogliad neu wrth olwg.*

Yn yr adran hon y mae y llechgi (*lurcher*), y ci berdro, yn nghyd â rhai dibwys ereill. Gwel tabl Caius.

DOSB. III. CWN GYDA PHENAU BYRION.

9fed. *Cwn cadw, heb un tuedd i hela.*

(1.) *Y mastiff-gi* (*villaticus*—Cai.; *le dogue de forte race*—Buff.; *canis mollossus*—Linn.), sydd gi mawr, cryf, gyda phen gwastad, a mwsel byr a phwl, ei wefusau uchaf yn ymollwng i lawr dros yr ên isaf, a'i glustiau, er yn fyrion, yn plygu ychydig i lawr. Tybir ei fod yn gymmysgryw rhwng y milgi Gwyddelig a'r ci tarw. Arferir ef wrth gadwen, neu yn rhydd, i gadw anneddau a gerddi, &c., rhag lladron; yr hyn a wna yn fynych yn dra effeithiol. Y mae y ci hwn, pa fodd bynag, weithiau, yn gwneyd cryn lawer o ddifrod ar y defaid. Dywed Brougham, ar awdurdod Serjeant Wilde, am un a arferai ymryddhau o'r gadwen yn y nos, i ymweled â phraidd y cymmydogion, ac a ddychwelai yn ddigon boreu i roddi ei wddf yn y dorch yn ol, fel nad oedd neb yn meddwl am ei ammheu. Clywsom am un cyffelyb gan amaethwr yn agos i Gorwen, yn Meirionydd, a gwyddom am un arall a gedwid gan gyffeithiwr yn Mhwllheli, yn sir Gaernarfon, a ddaliwyd yn gwneyd yr un peth.

(2.) *Y ci tarw* (*le dogue*—Buff.), sydd yn cymmeryd ei enw oddi wrth arferiad barbaraidd oedd gan gigyddion gynt o faeddu teirw cyn eu lladd. Y ci hwn, yr hwn a arferid i'r perwyl, sydd o wneuthuriad cryf drwyddo, gyda phen mawr, a'r ên isaf ychydig yn hwy na'r uchaf. Y mae mor ffyrnig fel y goddef gymmeryd ei dori yn ddarnau cyn y gollynga ei afael. Tybir fod y

Digitized by Google

Dr. Caius yn ystyried y ci hwn o'r un rhywogaeth a'r mastiff, ac mai efe a olygir ganddo dan yr enw *laniarius* ci cigydd. Yr oedd yr amrywiaeth hwn mor ragorol yn Mhrydain yn yr hen amser, fel y darfu i ymherawdwyr Rhufain neilldu swyddog, a elwid *procurator synegii*, o bwrpas yn y wlad hon i'w magu yn briodol, a'u hanfon yno fel y byddai yr alwad am danynt yn y chwareufa. Y mae Gratius, yn ei *Cynogeticon*, yn dwyn tystiolaeth i'w rhagoriaethau. Dywed Strabo hefyd, fod y Prydeiniaid yn addysgu eu cwn i ryfel, ac yn eu cymmeryd allan bob amser yn eu brwydrau. Nid yw y cwn hyn i'w gweled yn awr ond anfynych mewn cymhariaeth yn y wlad hon. Gwelir mwy o honynt, efallai, yn Morganwg nag mewn un sir arall yn Nghymru.

(3.) *Yr ab-gi*:—*pug-dog*, (*le Doguin*—Buff.),—sydd ledryw o'r ci tarw, ac yn etifeddu ei holl wrthuni, heb gymmaint ag un o'i ragoriaethau. Y mae gryn lawer yn llai.

Mewn rhai o ynysoedd y Môr Tawel, yr oedd cig cŵn, hyd yn ddiweddar, yn cael ei ystyried yn ymborth rhagorol gan y trigolion. Yn yr Ynysoedd Cyfeillgar, yr oeddynt yn cael eu magu fel defaid i'r lladdfa; a chaniatëid, hyd yn oed gan Ewropiaid, fod y cig yn hynod o flasus. Dywed Swinburne, fod yr un arferiad yn ffynu yn y ddwy Sicily, ac o blegid hyny nad oedd un ci i'w weled yno byth yn yr heolydd. Y mae Syr William Hamilton, hefyd, yn cadarnhau y ffaith mewn llythyr at Swinburne, ac yn dyweyd iddo ef ei hunan golli ci yn Casalnuova; a phan wnaeth ymchwiliadau am dano, fod ci arweinydd yn sicrhau iddo, mai rhai o'r trigolion oedd wedi ei ladd er mwyn ei gig. Yn ei deithiau trwy ganoldir America Ogleddol, y mae y cadben Carver hefyd, wrth ddysgrifio gwledd gyhoeddus y bu ef ynddi, yn dyweyd mai cig cŵn oedd yn gwneyd i fyny y dysglau mwyaf danteithiol a ddygwyd ger ei fron. Yn mhlith yr henafiaid, hefyd, ystyrid cig ci ieuanc, yn enwedig os byddai wedi ei ddysbaddu, yn fwyd rhagorol. Dywed Hippocrates, fod cig ci o'r dysgrifiad hwn mor flasus a chig defaid, ac yn llawer mwy maethlawn. Y Rhufeiniaid a ystyrient fod y cenawon yn rhagori; aberthent hwy yn fynych i'w duwiau, a dywedent eu bod yr arlwy mwyaf dewisol ganddynt.

Yr oedd cŵn yn adnabyddus i'r Israeliaid yn lled fore, ond yr oeddynt yn waharddedig yn y gyfraith (*Deut.* xxiii. 18); ac o blegid hyny yn aflan. Yr un pryd, tybir fod rhai mathau o honynt mewn arferiad yn eu plith. Gellir casglu oddi wrth gyfeiriad a wneir yn *Iob* v. 16, ac xi. 4, fod cŵn yn cael eu defnyddio ganddynt i gynnull ac i arwain eu hanifeiliaid; a thybia rhai, oddi wrth hyn, nad oedd yr holl rywogaeth yn cael ei hystyried yn gwbl aflan ganddynt. Heb law y ci anifeiliaid, bernir hefyd fod y bytheuad, yn nghyd â rhai amrywiaethau o'r milgi, yn cael eu harfer ganddynt i hela. Y mae mathau o gŵn, pa fodd bynag, yn y gwledydd dwyreiniol, heb fod na gwyllt na gwâr, i'w gweled ar hyd y ffyrdd, a'r heolydd, heb neb i'w perchenogi. Y mae lluoedd o'r rhai hyn i'w gweled yn awr yn Nghaer Cystenyn, yn Twrci; a chan eu bod yn ymgynnal ar y gweddillion a deflir gan y trigolion i'r heolydd, y mae greddf yn eu dysgu i ranu y ddinas i wahanol ddosbarthiadau; ac felly, y mae i bob ci ei ddosbarth neilldu ei hun, a byddai yn berygl bywyd iddo anturio allan o hono. Dywedir nad oes un demtasiwn yn ddigon cref i beri iddo ddyfod ond ychydig dros derfynau ei gylch priodol ei hun. Mewn lleoedd ereill, y mae yr un math o dueddiadau mwy crwydrol; ac er eu bod o anian yn ymgymmeryd â diogelu eiddo, y maent er hyny yn dra ysglyfaethus. Y mae agos yn sicr mai at y math hwn y cyfeirir yn *Exod.* xxii. 31; a bod y cŵn hyn yn canlyn y gwersyll yn yr anialwch. Gwelir hwy yn canlyn minteiocedd y pererinion o Cairo, a Damascus, tua Mecca; ac o lenydd yr Indus i Kerbela, hyd y dydd hwn. Yn y dinasoedd yn y dwyrain, y mae y trigolion yn cael eu haflonyddu yn ddirfawr yn y nos gan eu cyfarthiadau; ac at hyn, yn ddiammheu, y cyfeirir yn *Salm* lix. 6, 14. Y mae cŵn mudion (*Esa.* lvi. 10), hefyd, yn adnabyddus yn y parthau hyn. Am y cŵn a fwytasant gnawd Iezebel (1 *Bren.* xxi. 23), tybir mai math o gŵn gwylltion oeddynt, o ba rai yr oedd lluaws, meddir, ar lenydd y Cison, ac yn nghymmydogaeth Iezreel.

Yr oedd cyffelybu dyn i gi, y sarhâd penaf o'r bron a allai Iuddew ei gynnyg i neb. Y mae Dafydd yn galw ei hun yn "gi marw" (1 *Sam.* xxiv. 14), i ddangos nad oedd i Saul ddim anrhydedd o ymlid ar ol ei fath. Κυναδοι, oedd enw a roddid gan y Groegiaid i bersonau a geid yn euog o fryntni; a thybia rhai awduron fod y ffaith yma yn esboniad ar *Deut.* xxiii. 18, a *Dad.* xxii. 15. Cymhwysir y gair *ci* neu *gŵn* yn gyffelybiaethol at erlidwyr (*Salm* xxii. 16); athrawon gau (*Esa.* lvi. 10, 11, 12); y diafol (*Salm* xxii. 20); dynion aflan a llygredig (*Mat.* vii. 6; *Dad.* xxii. 15; *Deut.* xxiii. 18; 2 *Pedr* ii. 22; *Diar.* xxvi. 11; *Salm* lix. 7); y cenedloedd (*Mat.* xv. 26).

Am y gwr a wnelo dro lledchwith, dywed y Cymro ei fod "wedi tori cynffon ei gi." Anystyriaeth a bâr i neb wneyd hyny. Byddai cystal, medd Blackwood, i un dori tafod ei gi. Y mae y ci yn siarad llai â'i dafod nag a wna â'i gynffon. Gyda ci gynffon y dengys ŵdiolchgarwch, gobaith, erfyniad, serch, cariad, ufudd-dod, digofaint, cywilydd, beiddgarwch, ofn, a digrifwch. Pan dyr un gynffon ei gi, y mae yn ei amddifadu o beiriant llafar.

Dywed Cuvier, fod gweddillion creaduriaid o'r rhywogaeth yma wedi eu cael yn y creigiau yn swydd Efrog; a bod un ci yn eu plith, yn wyth troedfedd o hyd, ac yn bump o uchder. Ac y mae Brougham, yn ei nodiad ar hyny (yn y fl. 1844), yn dyweyd fod deg o wahanol fathau yn awr wedi eu cael.—(*Bock. Hier.; Cook's Voy.; Hist. of the Bucc.; Russ. Nat. Hist.; Burch.'s Trav. in Affr.; Bro.'s Dial. on Ins.; Slade's Trav.; Sir W. Jard.'s Nat. Lib.*, cyf. ix, x.; *Swinb. Trav. in Sic.; Arist. Hist. Anim.; Carv. Trav. in N. A.; Cam. de. Nat. Anim.; Plin. Hist. Nat.; Trans. Linn. Soc. Lond.; Barr. Affr. Trav.; Buff. Nat. Hist.; Gold.'s Hist. Anim. Nat.; Kitto's Bib. Cycl.; Penny Cycl.; Cope's Nat. Hist.; Encycl. Brit.; Penn. Hist. Quad.; Cass. Pop. Ed.; Smell. Phil. Nat. Hist.; Chambers' Inform.; Cuvier's Fos. Ost.; Gratius, Cyneget.; Gesner; Perrault; Shaw, &c.)

CIBAU: codenau, plisg ffrwythau; megys ffa, pys, yd, &c. Peiswyn ŷd a elwir yn gibau yn 2 *Bren.* iv. 42. Y gair κερατίων, a gyfieithir yn *Luc* xv. 16, "y cibau a fwytäai y moch," a arwydda fath o ffrwyth tebyg i ffa, neu ddelasg. Y Groegiaid, megys Galen a Paulas Ægeneta, a alwent y pren yn κερατία, κερατωνία; a'r ffrwyth a elwid *siliqua edulis, siliqua dulcis*, neu yn ol Pliny, *siliqua prædulcis*. Yn y cyfieithiad Arabaidd o'r Testament Newydd, darllenir *kharoob*, neu *kharnoob* am y *ceratia*. Dywed Celsius, fod y Groegiaid diweddar wedi cyfnewid yr enw Arab-

Digitized by Google

aidd i χαρουβα; a'r Yspaeniaid, i *garrova*, ac *algaroba*. Geilw yr Italiaid y pren yn *caroba*; a'r Ffrancod, yn *carroubier*; a'r Seison, yn *carob tree*. Perthyna y pren i'r math ydrawnol (*leguminous*); ac er nad oes ond ei enw yn adnabyddus i ni, y mae cyflawnder mawr o hono yn neheudir Ewrop, yn gystal ag yn Syria a'r Aipht. Y mae y fath lawnder o hono yn Syria fel y geilw yr Arabiaid ef yn fynych yn *kharnoob shamee*, neu carob Syria. Y mae Theophrastus, a Pliny hefyd, yn son am dano fel pren perthynol i Syria. Dywed Celsius fod sylw mynych o hono yn y Talmud, ac y dywedir yno fod ei ffrwyth yn cael ei roddi yn fwyd i foch, ac anifeiliaid ereill. Crybwylla Pliny, Columella, ac ereill hefyd, am yr un peth. Y mae y pren hwn yn tyfu yn wyllt yn yr holl wledydd sydd yn terfynu ar Fôr y Canoldir. Yn Malta, nid oes odid bren arall yn tyfu yn yr holl ynys. Mewn rhai o'r rhyfeloedd dwyreiniol y mae y meirch Prydeinig wedi bod yn ymborthi ar ei ffrwyth. Gwelir y cibau weithiau yn y wlad hon, yn neillduol yn ffenestri ffrwyth-werthwyr yn Llundain. Y mae y sylwedd sydd ynddynt yn fath o sudd melus, a lled faethlawn. Anfonir llwythi llongau o honynt yn awr o Palestina i Alexandria, ac oddi yno dros Fôr y Canoldir i Gaer Cystenyn, lle y maent yn nwydd marchnad cyffredinol. Dywedir fod y bywyn (*pulp*) yn debyg o ran ei flas i'r manna, a'i fod yn cael ei ddefnyddio weithiau fel sugr i roddi blas ar bethau ereill.

Yr hyn sydd wedi gwneyd y pren hwn yn destyn sylw yw, y ddadl a gyfodwyd mewn perthynas i fwyd Ioan yn yr anialwch. Y mae rhai o'r tadau yn lled gryf dros mai math o lysiau a dyfent yn yr anialwch oedd yr ἀκρίδες, ac nid locustiaid gwirioneddol; ac mai sylwedd sugraidd y cibau oddi ar y *ceratia* oedd y μέλι ἄγριον, ac nid mêl gwyllt. Dichon nad ellir bod yn sicr am hyn; ond y mae yn sicr fod y pren hwn yn tyfu mewn cyflawnder yn yr anialwch, o'r tu hwnt i'r Iorddonen; a defnyddir ef fel ymborth gan y trigolion hyd y dydd hwn. Gelwir y pren weithiau yn "locust-bren," a'i ffrwyth yn "fara Ioan."

Yn neheudir Ewrop, ac yn ngogledd Affrica, y mae y pren o faint canolig; ond mewn rhai manau y mae yn lled fawr, a chysgod da dan ei gangenau. Y mae y cibau yn mesur o chwech i wyth modfedd o hyd, a'r rhifedi o honynt ar yr un pren yn cyrhaedd yn aml i wyth neu naw can pwys. Y mae arogl y codau ar y pren yn anhyfryd, ond ar ol eu casglu a'u sychu y maent yn hawdd eu bwyta. Yn y gwledydd lle y tyfant, yn neillduol yn yr Aipht a'r Yspaen, gwerthfawrogir hwy gan y tlodion, ac yn amser newyn gan bobl o sefyllfaoedd uchel. Fel bwyd anifeiliaid, pa fodd bynag, y defnyddir hwy yn benaf; ac nis gallant fod, ar y goreu, ond ymborth gwael i ddyn.

Pwysa hâd y *ceratia* bedwar gronyn, a thybir mai o hyn y tarddodd y gair *carat*. Arferid y *carat* gan yr Arabiaid i bwyso cyfferi meddygol, fel yr arferir y *grain* (pwys gronyn o haidd) gan feddygon yn ein gwlad ni.

Yn nammeg doddedig y mab afradlawn fe ddywedir, "ac efe a chwennychai lenwi ei fol â'r cibau a fwytäai y moch;" ond nid yw ei fod yn chwennych yn cynnwys ei fod yn cael; a dywedir, "ni roddodd neb iddo." Tybir fod y dinasydd yn y wlad bell yn rhwym o ddarparu i gyfreidian yr afradlawn fel ei was; ond gan fod ei wasanaeth mor isel, yr oedd y ddarpariaeth mor wael, fel y buasai yn fwy dewisol ganddo pe cawsai fwyta o'r cibau a roddid i'r moch. Hon yw y llinell dduaf yn narlun y bachgen a adawodd dŷ ei dad.—(*Bloom's Gr. Test.*; *Bib. Cyc.*; *Penny Cyc.*; *Encyc. Brit.*)

CIBROTH-HATTAAFAH, [קבחית־התאו, *beddau y blys*]: y drydedd ar ddeg o wersyllfaoedd meibion Israel yn yr anialwch, yn ol *Num.* xxxiii. Hynodwyd y wersyllfa hon â'r enw "Beddau y blys" (yr hyn yw ystyr yr enw Hebraeg), o herwydd darfod claddu yno rifedi mawr o enwogion y gynnulleidfa, y rhai a laddwyd gan bla mawr iawn, am ddiystyru y manna, a thuchan am gig i'w fwyta, gan amcanu dychwelyd i'r Aipht; *Num.* xi. 4—34; *Salm* lxxviii. 18—31.

CIBSAIM: enw tref, neu, efallai, ddwy dref gyfagos i'w gilydd, yn rhandir Ephraim; *Ios.* xxi. 22.

CICAION, [קיקיון; Gr., κολοκυνθη; Vulgate, *hedera*]: planigyn nodedig, yn tyfu mewn amrywiol wledydd cynhesion; ond ni chrybwyllir am dano oddi eithr mewn un man yn y Beibl Cymraeg, sef *Ionah* iv. 6—10, lle y dywedir ddarfod i'r Arglwydd Dduw ddarparu un o'r planigion hyn, gan wneyd iddo dyfu dros y prophwyd Ionah, i fod yn gysgod uwch ei ben, pan ydoedd yn eistedd allan o'r tu dwyrain i ddinas Ninefeh, hyd oni welai beth a fyddai ynddi, ac yn anynad ei dymmer o herwydd nad oedd yr Arglwydd yn ei dinystrio hi yn ol ei ragfynegiad ef [gwel IONAH]. O berthynas i'r planigyn uchod yr oedd cryn wahaniaeth tybiau yn mysg yr henafiaid; ond erbyn hyn y mae naturiaethwyr yn gyffredinol yn cydsynio mai un o rywogaeth y *ricinus communis* ydoedd, sef y *palma christi*, fel yr arwyddir ar ymyl y ddalen yn y Beibl Cymraeg; a hwnw, meddir, yw y planigyn o ba un y ceir yr olew a elwir *castor oil*, ac i ba un y mae helaethrwydd o ddail llydain cysgodfawr. Yn y cyfieithiad Arabaidd gelwir ef *elchoron*, ac yn yr Aiphtaidd κικι κουκι=planigyn dwyflyneddol, yn tyfu yn dra chyflym, nes yn myned fel pren bychan, o ddeg i ddeuddeg troedfedd o uchder; ond fel pob planigion cyflymdwf, yn dueddol iawn i wywo oddi wrth y niwed lleiaf. Dioscorides, wrth ei ddysgrifio, dan yr enw κικι, a ddywed fod ei ddail yn debyg i'r eiddo y blân-wydden (*plane-tree*), ond yn llawer eangach a llyfnach, a'u lliw yn dywyllach. Y planigion hyn a dyfant yn dirflon yn y tir mwyaf sych, ac yn mysg ceryg a malurion, gan gyrhaeddyd i uchder nid bychan, ac ymledu i amrywiol gangenau deiliog. Mae y paladr (*stem*) yn lled braff, rhychog, a chygnog, ac yn wag oddi mewn fel cecys. Mai yr unrhyw ydoedd cicaion Ionah, a gadarnheir gan draddodiadau trigolion glanau yr afon Tigris, lle y mae y planigion hyn yn ffynu yn rhagorol. Dywed Herodotus, eu bod yn tyfu yn ngwlad Groeg o honynt eu hunain, heb gael dim trin-iaeth; ond bod trigolion yr Aipht yn eu hau gyda glanau yr afon a'r camlesydd; a'u bod yn dwyn helaethrwydd o ffrwyth, ond o arogl tra annymunol; ac wedi casglu yr unrhyw, a'u rhwbio neu eu gwasgu, ceir math o wlybwr ireiddlyd drygsawrus o honynt, yr hwn a oleua gystal ag olew yr olewydd. A sylwa y Rabbi Kimchi, fod pobl y dwyrain yn eu planu o flaen eu masnachdai, er mwyn y cysgod adfywiol a geir danynt.

Digitized by Google

Gan y dywedir mai yr Arglwydd a ddarparodd y cicaion i Ionah, y mae yn naturiol meddwl ei fod yn un o fath ragorol; ond nid ydyw yr ymadrodd, "Mewn noswaith y bu, ac mewn noswaith y darfu," ddim i'w ddeall fel yn arwyddo ddarfod iddo ddyfod i'w gyflawn faintioli mewn un noswaith; canys nid yw hwn ond dull dwyreiniol o lefaru, yn arwyddo cyflymder ei dyflant; ac, o'r tu arall, syndynrwydd ei adfeiliad. A chyda chyfeiriad at gicaion Ionah, dywed Roberts, y cenadwr, "Y mae amledd dirfawr o'r *palma christi*, neu y *ricinus*, yn y dwyrain; a bu genyf fi, yn fy ngardd fy hun, un o honynt, yr hwn a dyfodd i uchder o 14 troedfedd, a hyny yn gyflym iawn." Yr ydym yn darllen yn *Ionah* iv. 7, "A'r Arglwydd a barotôdd bryf ar godiad y wawr dranoeth, ac efe a darawodd y cicaion, ac yntau a wywodd." Y mae y pren hwn, mewn ychydig iawn o amser, yn magu y "lindys blewog;" ac mewn un noswaith, pan fyddo y lindys yn lluosog, hwy a ddiosgant y pren o'i holl ddail, fel na rydd ddim cysgodrwydd mwyach. Ond y mæ math arall o bryf yn y dwyrain, a elwir y *kurut-tu-pullu*, y pryf dall, yr hwn y dywedir ei fod yn cael ei fagu gan y gwlith: y mae hwn yn dechreu ei ddifrod drwy ymosod ar y rhan lysieuol o'r planigyn, ac yn fuan yn ei ddyfetha.

CICAION GWYLLT, [קקיון, *pakkuoth*]. Yn y cyfleithiad Seisoneg crybwyllir am gicaion o rywogaeth wahanol i'r eiddo Ionah, dan yr enw *cicaion gwylltion*; ond yn ein cyfleithiad ni a elwir yn "winwydden wyllt," neu "fresych gwylltion;" 2 *Bren.* iv. 39. Tybiai Celsius mai y *cucumis colocynthis* a arwyddir; pa un a elwid yn winwydden wyllt, o herwydd ei fod yn tebygu i'r winwydden o ran llun y dail, a natur ddringawl ei baladr. Ei ffrwyth sydd o ddull wy, ac yn dra chwerw ei flas, ac yn cael ei fagu mewn plisgyn caled fel pren, a'r mwydionyn sydd fwytadwy; ac felly y mae gwerin bobl yr Aipht ac Arabia yn gwneyd ymborth o hono drwy ei ferwi mewn gwinegr, gan ei gymmysgu â reis a chig. Yn ei ansawdd naturiol ymddengys ei fod yn wenwynig. —(*Bib. Cycl.; Calmet; Eadie; Harris.*)

CICERO: un o'r enwau mwyaf mewn hanesiaeth henafol, ac un sydd wedi gadael ei argraff ar hanesiaeth y byd, heb law ei fod yn awdwr sydd wedi gadael gweithiau llenyddol ar ei ol, y rhai sydd yn ffurfio rhan hanfodol o addysg clasurol pob gwlad wareiddiedig. Byddai hanes cyflawn o'r holl weithrediadau y cymmerodd Cicero ran bwysig ynddynt, neu y bu yn edrychydd pryderus arnynt, yn un maith. Ganwyd ef mewn amseroedd cynhyrfus, ac yn yr amseroedd hyny chwareuodd ran arbenig. Y mae y dynion y dygwyd ef i gyfarfyddiad â hwynt yn adegau gwahanol ei oes i gyd yn enwau hanesyddol; megys, Sylla, Marius, Pompey, Cæsar, Cato, Brutus, Antony, Octavius, neu Augustus Cæsar. Heb law fod Cicero yn weithredydd o ddylanwad mawr yn holl ddygwyddiadau ei oes—ac oes lawn o ddygwyddiadau ydoedd — gadawodd i'r oesoedd dilynol gyflawnder o ddefnyddiau, i'w galluogi i ffurfio barn am ei gymhelliadau, ac i ysgrifenu hanes ei feddwl yn gystal a'i weithrediadau, ei gymmeriad yn gystal a'i fywyd. Heb law y traethodau athronyddol a gyfansoddodd, a'r areithiau hyawdl sydd wedi enwogi ei enw fel un o brif areithwyr y byd, y mae ar gael dros fil o lythyrau, wedi eu cyfeirio at ohebwyr mewn gwahanol amgylchiadau, yn cyffwrdd â phob math o helyntion gwladol a theuluaidd, ac yn enwedig yn cynnwys y teimladau, y gobeithion, a'r gwendidau oedd yn cael eu hanadlu yn gyfrinachol mewn gohebiaeth cyfeillgar rhynddo ag Atticus. Rhydd hyn fantais i ni ffurfio barn am ddylanwad paganiaeth yn ei ffurf mwyaf coeth, a'r athroniaeth buraf, ar deimladau a nodweddiad dyn. Y mae yn wir ei bod yn arferiad cyffredin i osod i fyny y cariad anghymmedrol a ymddengys trwy ei holl weithiau at ei glod a'i anrhydedd ei hun, fel nod condemniad digofus neu areb-edd chwerthingar. Ac er fod Macaulay yn ei enwi fel un ac yr oedd ei holl enaid dan lywodraeth balchder gwirionffol, ac ofn anwrol (*girlish vanity and craven fears*), eto dywed Niebühr fod yr adeg i ddirmygu Cicero wedi myned heibio; a chwanega, "Y mae yn fy mhoeni glywed ymadroddion o'r fath; o herwydd yr ydwyf yn ei garu fel pe buaswn yn ei adnabod, ac yr ydwyf yn ei farnu gyda'r un tynerwch ag y gwnawn berthynas agos wedi bod yn euog o ryw ffoledd." Fod chwant Cicero am ogoniant daiarol yn anghydweddol âg egwyddorion yr efengyl, nid oes ond pagan a wâd; ond yn ol yr un safon, pwy o fawrion Groeg neu Rufain na syrth dan farn condemniad? I ddynion amddifaid o wybodaeth am y gwir Dduw, fel yr oeddynt oll, ac o ganlyniad yn analluog i deimlo y cymhelliadau puraf, ac i amcanu at y dybenion uchaf, ac ar ba rai yr oedd bywyd ac anllygredigaeth erioed heb dywynu, pa ddyben uwch a allasai fod na gwasanaethu eu gwlad, a pha ddymuniad uwch na chyrhaedd cydnabyddiaeth ddiolchus eu gwlad. Mae yn wir fod Cicero wedi bradychu ei wendid yn ei waith yn galw sylw ei gydwladwyr mor ddiflino at ei deilyngdod, yn lle gadael iddynt ei gasglu oddi wrth ei weithredoedd.

Ganwyd ef yn Arpinum, hen ddinas a berthynai i'r Samniaid, o drigain i ddeng milltir a thrigain i'r deheu-ddwyrain oddi wrth Rufain. Ganwyd ef yn yr un flwyddyn a Pompey, chwe blynedd o flaen Julius Cæsar, a 106 cyn dechreuad y cyfnod Cristionogol. Yr oedd o deulu cyfrifol a chyfoethog, a chafodd y ddysgeidiaeth oreu a allasai y wlad roddi i'w phlant mwyaf ffodus, ac nid arbedodd ef ei hun unrhyw draul na llafur mewn blyneddoedd dyfodol i berfleithio yr addysg a roddwyd iddo gan ei dad. Mewn adeg pryd nad oedd Rhufain o'r braidd wedi creu llenyddiaeth iddi ei hun, a phan yr ydoedd iaith Groeg, fel y daeth y Ffrancaeg yn ddiweddarach yr Ewrop, ac fel y mae tuedd yn Nghymru yn awr i wneuthur Seisoneg yn nod o wahaniaeth rhwng diwylliad meddyliol ac anwybodaeth—yr oedd dysgawdwyr boreuaf Cicero yn Roegiaid. Hwy oedd dysgawdwyr addefedig y cylch hwnw o'r celfau a ystyrid y pryd hwnw, fel yn awr i fesur, yn sylfaen addysg dda; sef gramadeg, barddoniaeth, hanesiaeth, ac areitheg. Pan ydoedd o ddeutu pedair ar ddeg oed, symmudodd ei dad i Rufain, fel y tybir, er mwyn sicrhau manteision eangach i'w fab. Ac o hyny yn mlaen ymroddodd i'r gwaith o addysgu ei hun gyda diwydrwydd na ddangosodd neb erioed fwy. Yr haneswyr a'r areithwyr Groegaidd oedd prif destynau ei efrydiaeth. Gosodwyd ef y pryd hyn dan addysgiad ac arolygiad cyfreithwyr enwocaf y dydd, sef tad a mab o'r enw Scævola; a danynt hwy y cyrhaeddodd gydnabyddiaeth âg egwyddorion y gyfraith ac ymarferiadau y llysoedd.

Yn gyfamserol â'r tymmor boreuol hwn yn oes Cicero, yr oedd dechreuad y blyneddoedd tywyll a gwaedlyd hvnv, a barhasant gydag ychydig

Digitized by Google

scibiant am hanner can mlynedd, i liwio meusydd Italy, a heolydd Rhufain, â gwaed. Dechreuodd y rhyfeloedd cartrefol hyn yn ngelyniaeth a chenfigen Marius a Sylla i'w gilydd—dau gadlywydd Rhufeinig a godasant eu hunain, trwy eu gallu milwraidd a'u creulonderau annynol, i fod yn mhlith gormeswyr creulonaf Rhufain. Nid oedd oedran Cicero yn galw arno eto i ymrestru gyda'r naill na'r llall, os ydoedd yn sicr pa ochr y dylasai fabwysiadu. Yr ydoedd Marius o'r un dref ag ef, ac yn berthynas pell:—cytunai yn hytrach â Sylla o ran ei syniadau. Ond ymbwyllodd i ddysgwyl. Rhaid fod ei holl natur yn cyffroi wrth weled cymmaint o waed yn llifo.

O'r diwedd, pwrcaswyd heddwch byr â miloedd o fywydau dynol; ac yr oedd Rhufain yn llaw ac wrth ewyllys Sylla. Dyna'r pryd, pan—fel areithiwr enwocaf Groeg, Demosthenes—yn saith ar ugain oed, y dechreuodd Cicero ei fywyd cyhoeddus, ac y traddododd un o'r areithiau sydd wedi anfarwoli ei athrylith. Yr oedd yr ymddangosiad cyntaf hwn yn wystl o fawrfrydigrwydd anrhydeddus am y dyfodol; pan y dringai, yn wr ieuanc, ar yr esgynlawr (*rostrum*), yn nghanol y *Forum* Rhufeinig—ysgwâr, amgylchynedig â phalasau a themlau gorwych, wedi ei orlenwi â dineswyr a dyeithriaid; y Palatine Mount o'i ol; ac ar ei aswy, ymgodai y Capitoline, wedi ei haddurno â theml ar ei phen—i amddiffyn Roscius, tad yr hwn a syrthiodd yn aberth i greulondeb Sylla; a'r hwn ei hun oedd dan gyhuddiad, er mwyn cael esgus i'w amddifadu o'i feddiannau. Fel areithiwr mawr Groeg, yr oedd Cicero, yn y tymmor hwn, yn wan yn ei iechyd cyffredinol, ond yn enwedig mewn peiriant pwysig er mwyn cyrhaedd enwogrwydd mewn hyawdledd, sef yr ysgyfaint, ac yn ddiffygiol mewn meistrolaeth ar ei lais. Ar annogaeth cyfeillion a meddygon, wedi dwy flynedd o ymarferiad yn y llys, aeth ar daith. Yr hyn ydyw cyfandir Ewrop i Brydain, yn yr ystyr hwn, yr oedd Groeg ac Asia Leiaf i Italy. Ond cadwai ei fryd yn barhäus ar chwanegu at ei wybodaeth, a dadblygu galluoedd ei feddwl. Ac felly, pa le bynag yr äi, yr ydoedd yn fyw am ddysgu—athroniaeth yn Athen, ac areithyddiaeth yn Rhodes, ac fe chwiliai allan y dynion mwyaf dysgedig yn yr holl wledydd trwy ba rai y teithiai. Yn mhen dwy flynedd, dychwelodd yn gyflawnach dyn na phan y cychwynodd. Yn ystod y pedair blynedd ar ddeg canlynol, cyrhaeddodd a chyflawnodd y gwahanol swyddau o ymddiried ac anrhydedd oedd yn angenrheidiol mewn trefn i gyrhaedd y swydd uchaf yn y wladwriaeth, sef i fod yn gonsul neu uchel faer. I bob un o'r swyddau is hyn, dewiswyd ef yn unfrydol mor fuan ag y cyrhaeddodd yr oedran penodedig. Bu yn *quæstor* yn Sicily, lle yr ydoedd i ofalu am ŷd i gyflawnu eisieu Rhufain, a hyny fel y dygwyddodd mewn amser o newyn; yn *ædile*, yn Rhufain, i ofalu am y marchnadoedd a'r adeiladau cyhoeddus; ac yn *prætor*, i eistedd mewn barn ar faterion o bwys. Ynddynt oll ennillodd y cymmeriad o weinyddwr gallug a dyn anrhydeddus. Ond tra yr oedd yn cyflawnu y swyddau hyn, parhaodd ei lafur fel dadleuydd.

Dyma y pryd, yn nghyflawnder ac addfedrwydd ei alluoedd, y cyrhaeddodd y swydd uchaf oedd gan brif ddinas y byd ei rhoddi—daeth yn brif weinidog Rhufain. Ac ni bu adeg mwy peryglus ar amgylchiadau pethau mewn unrhyw wlad, na'r adeg y cafodd Cicero y llyw i'w law. Ennillodd Sylla, fel cynnrychiolydd y blaid aristocrataidd, y fuddugoliaeth ar Marius, yr hwn oedd yn sefyll dros yr egwyddorion gwrthwynebol; a gwnaeth gyfnewidiadau mawr yn y cyfansoddiad, er mwyn darostwng y bobl a chadarnhau y bendefigaeth yn ei gallu a'i rhagorfreintiau. Ond pan gyrhaeddodd Cicero y swydd bwysig, ond beryglus, o lywyddu llestr y wladwriaeth, yr oedd y llanw wedi troi; yr oedd y bobl yn ail ddechreu ymdeimlo, a'u nerth a'u hawyddfryd dros gipio yn ol eu hiawnderau yn chwyddo yn brysur. Nid oedd ar y werin eisieu ond blaenor, er mwyn dial eu holl golledion a'u dyoddefiadau ar ganlynwyr y *dictator* trancedig. Cafwyd ef yn Catiline; un o fonedd uchel, o fedrusrwydd mawr, o fywyd llygredig, o arferion gwastraffus—heb foddion cyfatebol—ac i goroni y cwbl, un wedi cael ei siomi yn ei uchelgais; yr oedd ynddo bob cymhwysder i fod yn flaenor chwyldroad, a bradwr i ddiogelwch a thangnefedd ei wlad. Tafliwyd y ddinas i bryder ac ofn; dysgwylid bob dydd i'r llif-ddorau ymagor:—y prif weinidog oedd i gael ei ddirgel lofruddio yn gyntaf; efe oedd yn gyfrifol am ddiogelwch y dinasyddion; yr ydoedd hefyd wedi cario mesurau er cospi llygredigaeth; yr oedd ei gymmeriad yn adnabyddus am uniondeb. Am foment chwythodd yr ystorm heibio. Dynoethodd Cicero y bradwr yn ei wyneb yn y senedd. Ond yr oedd y cydfradwriaeth yn rhy gryf yn Rhufain, a thrwy Italy, i'w ddarostwng mor fyrbwyll. Yr oedd Catiline yn perffeithio ei gynlluniau, yn sicrhau cydweithrediad yr holl rai siomedig, diegwyddor—ac yr oedd Italy yn llawn o hen filwyr anniddig, ysgeler eu bywyd—ïe, yr oedd dynion yn sibrwd â'u gilydd fod rhai o enwau blaenaf Rhufain wedi cyssylltu eu tynged wrth lwyddiant y fradwriaeth ysgeler hon. Ar y llaw arall, yr oedd Cicero yn cadw ei wylwyr yn mhob heol, ac yn mhob tŷ. Un noswaith, y 6ed o Dachwedd, trwy lwybr dirgelaidd, dygwyd gair iddo am holl gynlluniau y bradwyr, y rhai a benderfynwyd arnynt mewn cyfarfod y noswaith hono. Cytunasant fod ymgodiad cyffredinol i gymmeryd lle yn ddioed; fod Catiline i gychwyn i Etruria ar unwaith, i arwain ei fyddinoedd i Rufain; fod y ddinas i gael ei rhoddi ar dân, a'r seneddwyr i gael eu llofruddio. Ond o flaen pob peth, fod un dyn, nad oedd yn cysgu na nos na dydd, yr oedd yn rhaid ei gael oddi ar y ffordd. Rhaid i Cicero gael ei lofruddio cyn y gallai Catiline gychwyn o Rufain. Ymddiriedid y gwaith i ddau farchog, y rhai oedd i fyned at ei dŷ gyda gwyll y bore, dan esgus cyfeillgarwch a gorchwyl pwysig, i'w lofruddio yn ei wely. Cyrhaeddodd y newydd Cicero yn yr hwyr; ac erbyn i'r ddau gyfaill fyned at y tŷ yn y bore, yr oedd y drws wedi ei gloi a'i farlo. A'r dydd canlynol, traddodwyd yr araeth ysblenydd hono yn y senedd, yn ngwyneb Catiline, a ddadguddiodd iddo fod ei holl gynlluniau yn adnabyddus i'r consul; a thra yr eisteddai ar y faine yn y senedd-dŷ, ar ei ben ei hun fel bradwr cyhuddedig, annogai ef i ffoi o'r ddinas yn ddioed, os oedd am ddianc o ganol rhegfeydd y trigolion. Dangosodd Cicero ei ddoethineb yn ymgadw rhag gorchymyn ei ddal yn ddioed. Gan fod y fradwriaeth mor gref, gallasai llymdoster diymaros fod yn beryglus. Yr oedd ei ymadawiad o'r ddinas yn ateb dau ddyben,—cyhoeddai ei hun felly yn elyn cyhoeddus, yn arwain ei filwyr yn erbyn y wladwriaeth; ac yn ail, yr oedd hyny yn rhoi gwell mantais i'w holl gydfradwyr gael eu dal. Nis gellir yma olrhain yn mhellach yr

Digitized by Google

holl amgychiadau cyffrous a ddilynodd—ysgogiadau y milwyr—gofal Cicero i ddiogelu profion diymwad o euogrwydd gelynion eu gwlad—yr areithiau a draddodwyd gan y dynion cyntaf mewn hanesiaeth Rufeinig; sef ef ei hun, Cæsar, a Cato—hyd at ddienyddiad y dihirwyr, a dychweliad Cicero i'w dŷ yn nghanol bloeddiadau y dinasyddion.

Addefa Niebühr fod Cicero yn niwedd ei gonsuliaeth braidd yn benysgafn. Yr oedd yn teimlo ei fod wedi creu enw iddo ei hun a ennillai le iddo yn mhlith gwaredwyr mawr ei wlad, ac eto o'r braidd yr oedd yn teimlo ei fod yn meddu gallu-oedd cyfaddas i'r fath dynged uchel. Nid oedd ei athrylith ef wedi y cwbl o'r radd uchaf. Efe ydoedd areithiwr penaf ei oes; ac os na roddir y lle cyntaf iddo, yn ddiwrthwynebiad, yn mhlith areithwyr y byd, efe, yn ol barn pawb, a ddaw i mewn yn ail. Rhestrir ef hefyd yn athronydd cyntaf Rhufain; ond rhaid addef mai wedi cymeryd benthyg y cwbl oedd ganddynt, mewn ffordd o ymchwiliadau dyfnddysg i natur Duw a dyn a natur, yr oeddynt hwy oddi ar y Groegiaid. Ond i'w osod mewn amgylchiadau o enbydrwydd a chyfnewidiadau mawr, nid oedd ganddo y llygaid eryraidd a allai ymgodi uwch law yr ystorm, a'r gafael cadarn hwnw a allai ei throi i'w ddybenion ei hun.

Yr oedd Marius a Sylla wedi diflanu, ond yr oedd y ddwy blaid a gynnrychiolent eto yn parhau, ac mor elyniaethol ag erioed. Buasai yn anhawdd penderfynu hyd at amser consuliaeth Cicero pwy fuasai rhag llaw yn arwain y ddwy blaid hyn. Yr oedd Pompey yn adnabyddus fel cadlywydd llwyddiannus. Yr oedd wedi ennill poblogrwydd mawr yn ei frwydrau yn erbyn Mithridates, ond nid oedd ei egwyddorion yn adnabyddus; yn wir nid oedd ganddo egwyddorion na gwladgarwch, ond fel yr ennillwyd ef trwy weniaeth parhaus i fabwysiadu ochr y bendefigaeth.

Yr oedd Pompey chwe blwydd yn hŷn na Cæsar; yr ydoedd hefyd yn ddyledus i wên Sylla am gychwyn gobeithiol, tra na chafodd Cæsar ond ei waethaf. Ond nid oedd hyn o nemawr bwys. Yr oedd gan Cæsar athrylith at bob peth, ac o'r radd uchaf oll. Pan dynodd ei gleddyf y waith gyntaf, yr ydoedd fel Cromwell yn gadlywydd cyflawn. Pan esgynodd yr esgynlawr y tro cyntaf, yr ydoedd yn areithiwr digoll; yr hyn ni ennillodd Cromwell hyd ei ddiwedd. Cæsar a gymmerodd i fyny ochr y bobl—ochr Marius—yn erbyn y mawrion. Ond ni bu erioed ddau olynydd mwy annhebyg i'w gilydd. Yr oedd Marius mor ddiddysg, mor arw, a chreulawn—Cæsar mor ddiwylliedig, mor ysblenydd ei gyrhaeddiadau, ac mor hynaws ei deimladau. O holl arweinwyr pleidiau yn yr amseroedd enbyd hyny efe oedd yr unig un na aberthodd fywydau cyfeillion a dinaswyr er mwyn diogelwch iddo ei hun neu i'w blaid. Cyfrifir un arall, Crassus, yn mhlith arweinwyr Rhufain ar y pryd; ond yr oedd gymmaint islaw y ddau ereill, fel y diflanodd yn fuan oddi ar y chwareufwrdd.

O blith y tri hyn yr oedd Cicero i ddewis ei arweinydd, a'i anffawd oedd ei fod wedi digio y tri. Ochr y bendefigaeth, yr hon a gynnrychiolid ar y pryd gan Pompey, oedd ochr Cicero; ond yr oedd wedi digio y llywydd hwnw trwy ysgrifenu ato pan yn uchder ei orfoledd am ei fuddugoliaeth ar Mithridates, i edliw iddo ei ddiffyg parch i un oedd wedi darostwng cydfradwriaeth Catiline. Yr oedd Crassus wedi ei gyhuddo ganddo o fod yn gyfranog yn y gyflafan hono. A thrwy air anochelgar amddifadodd ei hun o nodded Cæsar. Yr oedd y rhod yn awr ar droi ar dynged Cicero. Am dymmor byr yr oedd pob un o'r tri ymgystadleuydd uchod am lywodraeth Rhufain a'r byd yn cael ei fantais trwy uno ei ffawd â'r ddau ereill: felly ffurflwyd yr hyn a elwir y *triumvirate* gyntaf. A chan nad oedd un o honynt yn sefyll mewn angen am wasanaeth Cicero, tra y byddent mewn cynghrair â'u gilydd, yr oedd yn well ganddynt gael gwared o'i bresennoldeb. Nid oedd yn angenrheidiol iddynt hwy wneyd dim ond tynu eu hamddiffyn oddi wrtho—yr oedd ereill yn barod i'w ddarostwng mor isel ag y mynent. Yr oedd Claudius, gwr ieuanc mor ddiffaeth ei gymmeriad a Catiline, yn falch o'r cyfle i gwblhau yr hyn y methodd yr olaf ei gyflawnu. Pasiodd deddf alltudiaeth yn erbyn Cicero; yr oedd rhaid iddo gilio i bellder, o'r hyn lleiaf o bedwar can milltir, oddi wrth y ddinas. Distrywiwyd ei balasau, cyhoeddwyd cospedigaeth yn erbyn pwy bynag a roddai letty iddo, neu a gynnygiai ddeddf i'w alw yn ol. Llanwodd hyn oll ei feddwl â theimlad o drueni perffaith ac anobeithiol. Ymddengys trwy ei holl lythyrau, a ysgrifenwyd yn y cyfnod hwn, nad oedd cysur na gobaith yn ymweled âg ef o un man. Dywed Gibbon fod llythyrau Chrysostom yn ei alltudiaeth yn dangos "gwrolder meddwl uwch law yr eiddo Cicero mewn amgylchiadau cyffelyb." Cyn lleied o ddyoddefgarwch a chadernid meddwl y gallai ei athroniaeth weinyddu iddo, fel y mae yn tori allan yn y dolefiadau mwyaf cwynfanus:—"Yr wyf yn casäu enwogrwydd; nis gallaf ddyoddef y goleuni; yr wyf yn dianc rhag dynolryw." Ceisiai ei gyfeillion wneyd esgus tros ei wendid, trwy ei briodoli i ddiffyg oedd wedi dyfod dros ei reswm. Treuliodd rai misoedd o'i alltudiaeth, yr hwn a barhaodd o Ebrill un flwyddyn i Fedi y flwyddyn ganlynol, yn Thessalonica. Ond er iddo gael ei ddychwelyd yn ol i'w hoff Rufain yn nghanol bloeddiadau y trigolion, eto nid adferwyd ef ato ei hun. Y pum mlynedd canlynol oedd y rhai mwyaf truenus a aeth dros ei ben. Ceisiodd ddifyru ei hun trwy ysgrifenu rhai o'r traethodau nad yw amser wedi effeithio dim arnynt. Yn yr amser hwn y cyfansoddodd *De Oratore*, a *De Republicâ*.

Parhaodd i ymddangos yn y llys fel yn ei flyneddoedd ieuengaf, weithiau fel erlynydd, ond yn fynychach fel amddiffynydd. Y pryd hwn ymgymmerodd âg amddiffyniad Milo, yr hwn a gyhuddid o fod wedi rhoddi terfyn ar yrfa a bywyd drygionus Claudius. Yr oedd sefyllfa Rhufain yn druenus pan yr oedd dynion, oedd yn gosod eu hunain i fyny fel ymgeiswyr am y swyddau uchaf, yn llogi canlynwyr, ac yn ymosod ar eu gilydd ar yr heol neu y ffordd fawr. Mewn ffrwgwd o'r fath y collodd Claudius, ac un ar ddeg o'i ganlynwyr, eu bywydau. Daeth dydd y prawf. Yr oedd y siopau wedi eu cau—y Forum yn orlawn—yr oedd pob mynedfa yn dŷn gan gyfeillion y dyhiryn trancedig—ac uwch law y dyrfa yr oedd y consul gyda gwarchawdlu o wyr arfog yn gorchymyn sylw; a than yr amgylchiadau hyn y cododd Cicero i amddiffyn Milo. Er, wrth ddarllen yr amddiffyniad a wnaed i'r cyhuddedig, yr ydym yn teimlo ei fod yn awr, ar ol pedwar ar bymtheg o ganrifoedd, yn anwrthwynebol; eto condemniwyd ac alltudiwyd Milo.

Yn y flwyddyn ganlynol, pan ydoedd yn un ar

Digitized by Google

bymtheg a deugain oed, gosodwyd ef yn rhaglaw (*proconsul*) Cilicia, ac fe ennillodd ei weinyddiaeth yno lawer o barch iddo. Tua'r pryd hwn yr oedd dysgwyliad cyffredinol am rwyg rhwng Cæsar a Pompey. Yr oedd Crassus gyda'i fyddin wedi eu colli cyn hyn mewn rhyfelgyrch yn erbyn y Parthiaid; ac yr oedd Julia, merch Cæsar, a gwraig Pompey, yr hon oodd wedi bod hyd yn hyn yn rhwymyn undeb rhynggdynt, wedi marw ar enedigaeth plentyn. Yr oedd Cæsar wedi terfynu y rhyfel yn erbyn y Galiaid, ac wedi darostwng yr holl Dywysogaeth dan iau y Rhufeiniaid; ond er fod tymmor ei swyddogaeth bron ar ben, eto nid oedd ganddo un meddwl i roddi i fyny, a gosod ei hun yn mhlith dineswyr cyffredin. Ymesgusodai trwy hòni nad allai fod yn ddiogel heb ei fyddin, tra y byddai Pompey yn llywydd Yspaen, yr hon oedd wedi ei hymddiried iddo am bum mlynedd. Dysgasai Cicero oddi wrth ei gyfeillion ar ei ddychweliad o'i raglawiaeth fod pethau yn brysur addfedu i ryw argyfwng. Gan ei fod yn rhagweled canlyniad rhyfel yn eglurach na neb o honynt, ei ymdrech cyntaf oedd cyfryngu rhwng y ddwy blaid i sicrhau heddwch. Os byddai ei ymdrech yn aflwyddiannus, ei fwriad oedd uno ei dynged gyda Pompey. Rhagwelai, os rhyfel a gymmerai le, mai dybenu a wnai mewn gormes. Yr unig wahaniaeth, meddai, fyddai, os ennillai eu gelynion, y gosodid hwy dan ddedfrydiad; ond os eu cyfeillion a ennillent, ni byddent ond caethion. Nid cynt y cyrhaeddodd y ddinas nag y deallodd fod y cynhwrf wedi dechreu, a bod rhyfel mewn effaith wedi ei gyhoeddi. Yr oedd y senedd wedi pasio deddf fod i Cæsar roddi i fyny ei swydd, neu y cyhoeddid ef yn elyn yn erbyn y wladwriaeth. Cyhoeddodd y senedd ei hun o blaid Pompey. Yn awr dilynodd y naill ddygwyddiad y llall gyda chyflymdra y fellten. Yr oedd pawb yn Rhufain hyd yr awr ddiweddaf yn camsynio am nerth ac eofndra anturiaethus Cæsar, ac ni fynent gredu y gallai anufuddhau i orchymyn y senedd. A phan ddaeth y newydd ei fod wedi croesi y Rubicon, yr hon a derfynai ei dywysogaeth, ei fod wedi cymmeryd Ariminum, a'i fod ar ei ffordd tua Rhufain, yr oedd y dychryn yn annysgrifiadwy. Yr oedd pob parotoad angenrheidiol i'w wrthsefyll heb eu gwneyd eto. Yr oedd Pompey, y consuliaid, a'r senedd, yn ffoi, er mwyn casglu milwyr lle y gallent. Mewn trigain niwrnod, yr oedd Italy yn llaw Cæsar, a Pompey wedi croesi y mór i Groeg. Yn yr holl gynhwrf hyn pryderai Cæsar yn nghylch Cicero, nid am y dysgwyliai ei ennill drosodd i'w blaid ef, ond er mwyn ei gael yn foddlawn i beidio ymuno â'r blaid wrthwynebol. Ysgrifenodd ato amryw weithiau, defnyddiodd rai oedd yn gyfeillion i'r ddau i geisio llwyddo, ond yn ofer:—yr oedd Cicero yn awyddus i ymuno â Pompey. Dengys hyn i ni mor uchel ei gymmeriad oedd Cicero yn Rhufain ar y pryd. Pan yr oedd brwydr marwol wedi dechreu, nad allai ond nerth y cleddyf ei benderfynu, yr oedd y blaenoriaid ar bob ochr mor awyddus i ennill dyn nad oedd ynddo un cymhwysder at arfau na rhyfel. Wedi mabwysiadu ochr Pompey, dilynodd ef, a chyrhaeddodd ei wersyllfa yn Dyrrhachium, gyda'i fab, ei frawd, a'i nai, lle y treuliodd ddeunaw mis. Ar ol y frwydr yn Pharsalia, yn yr hon y gorchfygwyd Pompey, nid oedd gan Cicero ddim gwell i'w wneyd na thaflu ei hun ar hynawsedd y buddugoliaethwr. I hyn dychwelodd i Italy, a derbyniwyd ef i ffafr Cæsar, yr hwn oedd erbyn hyn wedi ei gyhoeddi yn *ddictator* yr ail waith. Y mae yn hawdd dychymygu, yr hyn sydd yn amlwg hefyd yn ei lythyrau, fod yn anhawdd iawn ganddo fyned i gyfarfod Cæsar, wedi bod mewn arfau yn ei erbyn. Er, ar ryw gyfrifon, gallasai ddysgwyl derbyniad croesawgar; eto, o'r braidd y meddyliai fod ei fywyd yn werth i'w ofyn, gan y gallai yr hwn oedd yn ei roddi ei gymmeryd ymaith pan y mynai. Ond ar gyfarfyddiad y ddau, nid oedd raid iddo wneuthur na dyweyd dim islaw ei urddas; o herwydd nid cynt y gwelodd Cæsar ef, nag y disgynodd, y cofleidiodd, ac y cydgerddodd âg ef gan ymddyddan yn gyfeillgar am gryn bellder.

Yr adeg hon, pan yn un â thrigain mlwydd oed, cymmerodd ysgariad le rhwng Cicero a'i wraig Terentia, gyda'r hon, o herwydd afrywiogrwydd ei thymmer a'i hymddygiad, nid allai yn hwy gyd-drigo. Ac yn fuan wedi hyny, syrthiodd arno y dyrnod, yr hwn a deimlodd fel y trymaf a ddyoddefodd erioed—sef marwolaeth Tullia, ei ferch, yr hon a fu farw ar enedigaeth plentyn, yn ebrwydd ar ol ei hysgariad hithau â'i thrydydd gŵr, Dolabella. Oddi wrth yr ychydig grybwylliadau a geir am dani, ymddengys ei bod yn wraig ragorol, yn dirion a charuaidd wrth ei thad, ac wedi ei chymhwyso trwy y rhinweddau sydd yn addurno ei rhyw, a'i chyrhaeddiadau mewn gwybodaeth a llenyddiaeth, i fod yn gyfaill a dyddanwch ei hen ddyddiau. Yr oedd ei drallod ar achlysur ei marwolaeth mor ddwys—ciliodd o gymdeithas, neilldu-odd i dŷ Atticus ei gyfaill, lle yr oedd yn byw bron yn hollol yn ei lyfrgell, gan droi pob llyfr a allai roi ei law arno wedi ei gyfansoddi gyda y bwriad i liniaru trallod. Ond yr oedd ei ing yn anfeddyginiaethol. Er mwyn cilio yn mhellach fyth oddi wrth gymdeithas, ymneillduodd i Antura, i dŷ oedd ganddo yn agos i Antium—ynys fechan ar lan y mór, yr hon oedd wedi ei gorchuddio â choed a llwyni,—lle cymhwys i feithrin prudd-der, ac i roddi ymollyngiad i drallod. "Yma," meddai wrth Atticus, "yr wyf yn byw heb leferydd dyn. Bob bore, yr wyf yn ymguddio yn y coed, heb ddyfod allan hyd y prydnawn; ac yn nesaf atoch eich hun, nid oes dim mor anwyl genyf ag unigrwydd; a llyfrau ydyw fy unig gyfeillion."

Y flwyddyn ganlynol, cymmerodd le un o olygfeydd rhyfeddaf hanesiaeth, sef dirgel lofruddiad Cæsar yn senedd-dŷ Rhufain. Yr oedd Cicero yn mhlith yr edrychwyr; ac ni chollodd ddim amser i ganmawl y weithred, ac i gynnorthwyo Brutus, ei hawdwr, â'i enw a'i gynghorion.

Dilynwyd marwolaeth Cæsar â rhwydwaith dyrus o ddygwyddiadau newyddion, ac ymddangosiad ymdrechwyr ereill ar y chwareufwrdd. Ond diflanodd y cyfan yn fuan, hyd at dri—sef Octavius, nai ac etifedd Cæsar; Anthony, yr hwn a ennillodd enwogrwydd yn y rhyfeloedd Iuddewig, ac ar ol hyny a fu yn gydfilwr ac yn gyfaill i Cæsar; a Lepidus, un o gadlywyddion Cæsar. Ar ddyfodiad Octavius i Italy, ar ol marwolaeth ei ewythr, rhoddodd Cicero ei wyneb o'i blaid, er nad heb betrusder. Ei amcan oedd cadw Octavius ac Anthony rhag ymuno i ddial marwolaeth Cæsar. Trwy y flwyddyn hono o derfysg a chyffro, nid ymattaliodd oddi wrth ei orchwylion llenyddol. Heb law cyfansoddiadau athronyddol ereill, gorphenodd ei lyfr *Ar Ddyledswyddau*. Ar yr un pryd, ni chollodd un adeg i wneuthur y cwbl a allasai doethineb ddynol tuag at adferu y werin-lywodraeth (*republic*).

Digitized by Google

Eto, yr oedd yn hiraethu am waredigaeth oddi wrth derfysgoedd yr amseroedd enbyd hyny. Penderfynodd adael Italy, a myned i ymweled â'i fab yn Athen, a dychwelyd mewn amseroedd mwy dedwydd. Ond cyn iddo gwbl adael ei wlad, galwyd ef yn ol i'r brifddinas i wrthwynebu Anthony. Yr oedd yr anturiaethwr diegwyddor hwn ar amlygu pa beth ydoedd, trwy ddechreu rhyfel yn erbyn ei wlad. Safodd Cicero allan gyda nerth a phenderfyniad, a mawrfrydigrwydd dihafal yn ei hanes er dyddiau Catiline. Ond yn awr yr oedd y perygl yn fwy, iddo ei hun ac i Rufain. Daeth allan araeth ar ol araeth o'i *Philippics*, yn y rhai yr amlygid holl nerthoedd ac adnoddau ei feddwl; a dybenodd hwynt trwy gynnyg, fod deg a deugain o ddyddiau i'w cynnal yn ddyddiau diolchgarwch am y fuddugoliaeth ar Anthony a'i fyddin yn Modena. Yr oedd gwaith Cicero yn awr wedi ei orphen, er nad oedd rhyddid Rhufain wedi ei ailsefydlu trwy y fuddugoliaeth hon. Ond yn y frwydr hono, collodd y ddau gonsul, Pansa a Hirtius, eu bywyd, yr hyn a ddadymchwelodd holl gynlluniau Cicero, ac a fu yr achos uniongyrchol o ddinystr y cyfansoddiad gwladol (*republic*) dan ba un yn unig yr oedd gobaith iddynt am ryddid.

Yn awr, yr oedd ffawd rhyfel ac ystyriaeth o hunan-les wedi taflu Octavianus, Anthony, a Lepidus, i gynghrair â'u gilydd. Penderfynwyd ar gyfarfod rhyngddynt, er mwyn penderfynu ar ammodau y cynghrair, a rhanu rhyngddynt dalaethau ac awdurdod Italy. Ymgyfarfyddasant ar ynys fechan a ffurfir yn yr afon sydd yn rhedeg yn agos i Bologna; ac yno y buont am dridiau. Y peth diweddaf a benderfynwyd arno oedd, cyfres o ddedfrydiau (*proscriptions*). Dywedir fod hyn wedi achlysuro dadleuon poeth rhyngddynt. Yr oedd rhestr o ddynion enwocaf Rhufain ger eu bron, ac yr oeddynt yn eu dewis allan i ddedfrydiad. Y mae pob un yn ei dro yn gofyn am aberthu rhyw elyn, ac y mae yn rhaid gwneyd hyny ar gost bywyd rhyw gyfaill. Rhydd Anthony i fyny ewythr, ond i Lepidus ganiatäu marwolaeth brawd. O'r diwedd, y mae rhestr o dri chant o seneddwyr, a dwy fil o farchogion (*knights*), wedi ei gwblhau. Ond y mae yn fwy angenrheidiol prysuro marwolaeth rhai o honynt, yn enwedig dau ar bymtheg; ac yn y dau ar bymtheg, enw Cicero oedd y cyntaf.

Yr oedd efe, ar y pryd, yn mwynhau tawelwch palasdy oedd ganddo yn Tusculum, gyda'i frawd. Yr oedd bwriadau gwaedlyd yr ymgynghreirwyr yn ddirgel eto; ond yr oedd geiriau llyfn a gwedd tawel Octavianus, yn gwahardd anobaith. Ond yn fuan, dyma y newydd wedi cyrhaedd, fod gweinidogion angeu ar eu sodlau. Penderfynasant yn y fan; nid oedd dim i'w wneyd ond ffoi i Macedonia, lle yr oedd gan amddiffynwyr eu gwlad wersyllfa. O gartref Cicero, yn Astura, gallent forio ar unwaith, a bod yn ddiogel. Tuag yno y cychwynasant; ond er mwyn cael arian i'r daith, rhaid oedd i un o honynt ddychwelyd i Rufain. I Cicero, buasai hyn yn wallgofrwydd; ond yr oedd ei frawd yn wrthddrych llai enwog; gallasai ef ddianc.—Ymadawsant am byth. Wedi i'w frawd gyrhaedd Rhufain, cymmerwyd ef i fyny yn y fan, a rhoddwyd ef i farwolaeth. Aeth Cicero i Astura, ac yno cafodd lestr yn barod. Hwyliodd am rai oriau gyda'r lan oedd mor adnabyddus iddo; ond o herwydd y gwynt gwrthwynebus, a'r tonau cyffrous, glaniodd gyda'r nos, a threuliodd rai oriau ar y tir. Ond trwy daerineb ei weision, cafwyd ef ar fwrdd y llestr eilwaith; ond glaniodd drachefn mewn lle arall hoff ganddo ar fin y môr: a phenderfynodd farw yn y wlad yr oedd mor fynych wedi bod yn offeryn i'w hachub. Cysgodd yma am ychydig oriau, hyd nes y cariodd ei weision ef tua'r môr unwaith eto, wedi clywed nad oedd llofruddion Anthony ddim yn mhell. O'r braidd yr oeddynt wedi ymadael o'r tŷ, cyn i'r llofruddion gyrhaedd yno; wedi deall ei fod wedi ffoi, erlyniasant ar ei ol, a daliasant ef mewn coed ar lan y môr. Mor fuan ag y daeth y milwyr i'r golwg, parotodd ei weision i'w amddiffyn; ond gorchymynodd Cicero iddynt beidio gwneyd dim gwrthwynebiad iddynt. Ac yn fuan, torasant ei ben a'i ddwylaw, yn ol gorchymyn Anthony. Derbyniodd ef hwynt gyda llawenydd; a derbyniasant wobr fawr am eu gwaith. Gorchymynodd hoelio y pen rhwng y dwylaw, i fyny uwch ben yr osgynlawr (*rostra*) yn Rhufain;—golygfa athrist, yr hon a dynai ddagrau o bob llygad.

Dywedir fod Octavianus, wedi iddo fyned yn Augustus, yn barnu yn gywirach am Cicero nag a wnaeth cyn iddo ganiatäu i'w fywyd gael ei gymmeryd ymaith. Y farn a roddir am ei gymmeriad yn yr *Encyclopædia Britannica*, sydd fel y canlyn:—"Oddi wrth ei lythyrau anghysson, gellir casglu fod mwy ynddo i'w feio nag i'w ganmawl. Nid oedd daioni ei wlad, a chariad at rinwedd, yn gymhelliadau parhäus ynddo ef, fel yn Brutus a Cato." Bu farw Cicero ar y 7fed o Ragfyr, yn y bedwaredd flwyddyn a thrigain o'i oed. Gellir dywedyd am dano fel areithiwr, fod celfyddyd yn amlwg yn ei holl areithiau. Dechreuai gyda rhagymadrodd rheolaidd. Y mae ei drefn yn eglur, a'i resymau wedi eu trefnu yn y modd cywiraf. Y mae pob peth yn ei le. Nid yw byth yn cynnyg cyffroi y teimladau, nes argyhoeddi y deall. Nid oedd neb byth yn deall grym geiriau yn well nag oedd Cicero. Y mae ei feistrolaeth arnynt yn berffaith. O'r braidd y gellir dyweyd am dano ei fod yn feddyliwr gwreiddiol; ond nid hyny oedd ei ymffrost, ond yn hytrach ei fod wedi trosglwyddo i'w iaith ei hun drysorau llenyddiaeth Groeg; ei fod wedi rhoddi, yn y geiriau goreu, yr hyn yr oedd y dynion doethaf wedi meddwl.

Ceir hanes ei weithiau, a'r argraffiadau goreu o honynt, yn *Smith's Dictionary of Greek and Roman Biography*; ac o ychydig o honynt yn yr *Encyclopædia Britannica*; yn nghyd â llyfrau ereill cyffelyb.

CICONIA, [חסידה; Gr. στοργή; Seis. *stork*]: sydd fath o aderyn, o rywogaeth y crëyr, y cyfeirir ato yn *Lef.* xi. 19; *Deut.* xiv. 18; *Iob* xxxix. 13; *Salm* civ. 17; *Ier.* viii. 7; *Zech.* v. 9. Yn yr Arabaeg, gelwir ef *abuhist*, *heklek*, *hegleg*, i ddynodi y sŵn hynod a wna â'i gylfaint; a *hadji*, i ddynodi ei dueddiadau ymfudol. Y mae llawer o'r enwau gorllewinol hefyd yn arwyddo yr un peth. Yr enw Seisoneg *stork*, yn gystal a'r un Danaidd, Swedaidd, Ellmynaidd, a rhai ereill, a dybir eu bod yn tarddu o *stor eger*; yr hyn a arwydda *garan ymfudol*. Ond y Gr. στοργή, er ei fod yn gyffelyb o ran sain, sydd dra gwahanol o ran ystyr, gan ei fod, yn ol Schrev., yn arwyddo "*affectus naturalis, quo parentes et liberi se mutuo prosequuntur;*" neu y serch a'r ymlyniad a ddengys yr hen a'r ieuaine at eu gilydd. Y mae hyn, pa fodd bynag, yn cytuno â'r Heb. *chasidah*; yr hyn a arwydda serchlonedd, duwiolfrydedd, &c. Yn gysson â hyn, yr oedd yr hen awduron yn ei alw

Digitized by Google

yn *avis pia*, neu "yr aderyn duwiol" [*Plin. Hist. Nat.*, x; *Ælian's Hist. An.*, 3, 23]; er fod rhai o honynt yn ei ddysgrifio wrth ei liw, ac yn ei alw *canidia avis*, neu "yr aderyn gwyn" [*Virg. Georg.*, llyfr ii., td. 320].

Credid yn gyffredinol yn Asia, fod yr adar hyn yn meddu serch neillduol tuag at eu gilydd, fel ag i beri i'r ieuanc ofalu am yr hen, yn gystal a'r hen am yr ieuanc; a thybir mai hyn sydd i gyfrif am yr enw a roddir arnynt. Dichon mai yr un rheswm sydd i'w roddi dros y cyferbyniad a wneir yn *Iob* xxxix. 13 (ymyl y ddalen), rhwng y ciconia a'r estrys; yr hon, ar gyfrif ei chreulondeb tuag at ei chywion, a elwid gan yr henafiaid yn *avis impia*=yr aderyn annuwiol neu annhrugarog. Tra y mae haneswyr diweddar yn ammheu y chwedlau a adroddir am serch y cywion tuag at yr hen adar, y maent yn cyd-dystio am ofal yr hen adar tuag atynt hwy. Nodant luaws o esamplau o'r fam yn marw wrth amddiffyn ei chywion. Dygwyddodd hyn ar adeg y tân mawr yn Delft, ac yn fwy diweddar yn mrwydr Friedland. Yn y lle diweddaf, rhoddwyd ffynidwydden, yn yr hon yr oedd nyth ciconia, ar dân; pryd y gwelid y fam, ar ol llawer cynnyg aflwyddiannus i ryddhau ei chywion o'r perygl, yn syrthio yn farw yn nghanol y fflamau. Tybir fod hyn yn ddigon i brofi, mai y ciconia a olygir wrth y *chasidah;* ac er fod rhai esbonwyr yn cymhwyso y gair at y garan ac adar ereill, nid oes un o honynt yn cyfateb i giconia yr Ysgrythyrau.

O'r ciconia y mae dau fath; a dynodid hwy gan yr Aiphtiaid a'r enw *anaseh.* Y lleiaf o'r ddau sydd o faint y gylfin-hir, ac yn ddu i gyd drosto. Y mae ganddo big cryf, ac ymbortha ar lindys, locustiaid, a nadroedd. Hwn a elwir gan awduron diweddar yn *ibis;* a thybia rhai o honynt ei fod yn cyfateb i'r aderyn a elwid felly yn yr Aipht. Y mae yn wir fod yr ibis diweddar yn adnabyddus yn yr Aipht; a gall fod o gryn wasanaeth i ddifa pryfaid gwenwynig a dinystriol yn y wlad: ond y mae yn dra ammheus ai yr un ydyw a'r aderyn sydd mor enwog yn yr hen chwedlonau, ac a addolid gan yr henafiaid. Dywed Mailett, swyddog Ffrengig yn Cairo, fod yn anhawdd penderfynu pa un oedd yr hen ibis, am fod yn yr Aipht yn bresennol wahanol fathau o adar, y rhai sydd mor ddinystriol i'r seirff a'u gilydd. Tua mis Mai, pan fyddo y gwynt yn chwythu oddi ar ganoldir Affrica, y mae llawer o adar, eb efe, yn dyfod i lawr o'r Aipht uchaf, allan o gyrhaedd y gwlawogydd; a'r pryd hwn, y maent yn dinystrio cymmaint o bryfaid gwenwynig o bob math, fel y maent o wasanaeth dirfawr i'r wlad. Nid yw yr arwyddluniau o'r aderyn hwn, sydd i'w cael yn yr hen gerfladau, chwaith, yn ddigon eglur i'w wahaniaethu oddi wrth adar ereill. Y mae yn sicr, pa fodd bynag, nad yw yr ibis diweddar ond ymwelydd â'r Aipht am dymmorau neillduol o'r flwyddyn; tra y dywed Pliny, nad oedd yr hen ibis i'w weled yn un man arall. Y mae yn amlwg, gan hyny, nad y math hwn a olygir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd.

Y math arall, a elwid yn yr Aipht, *belari*, sydd aderyn mawr, cryf; ac mor debyg i'r crëyr, fel, ar olwg allanol, y gellid cymmeryd y naill yn lle y llall. Y mae ei gorff, pa fodd bynag, yn tŵy, heb fod mor uchel. Hwn yw y ciconia. Ei fesur o'r troed i'r big ydyw, tair troedfedd a chwe modfedd; ac y mae yn agos i'r un hyd o'r big i flaen ei gynffon. Y mae iddo big cryf, hir, a blaenfain, o liw ysgarlad goleu, a choesau hirion afrosgo o'r un lliw. Ei draed sydd mewn rhan yn wëog a'i ewinedd yn wastad fel ewinedd dyn, ond eu bod yn fwy cul yn y blaen. Y mae o liw gwyn drosto, oddi gerth ychydig o ddüwch o gylch y llygaid, a phlu yr adenydd, y rhai ydynt hollol dduon. Heb law yr arwyddlion hyn, y mae yn gwahaniaethu yn benaf oddi wrth y crëyr yn ei wneuthuriad a'i arferion. Tra y mae corn gwddt y crëyr yn nŷdd-droelli drwy asgwrn y ddwyfron, y mae eiddo y ciconia o'r ffurf gyffredin. Y mae y crëyr yn meddu ysgrech uchel a chyffrous, a'r ciconia yn hollol ddystaw, oddi eithr ychydig sŵn a wna wrth rwbio y naill gylfant yn y llall. Y mae y naill yn ymborthi ar rawn a llysiau; a'r llall ar bysgod, adar, a phob math o ymlusgiaid. Y ciconia hefyd a welir yn mynychu y lleoedd mwyaf cyhoeddus, ac yn cyfanneddu yn y pentrefi, a'r dinasoedd; tra y mae y crëyr bob amser yn cadw yn mhell oddi wrthynt.

Y mae y ciconia, fel y crëyr, yn aderyn ymfudol; ond nid yw yn hawdd penderfynu o ba le y maent yn dyfod, nac i ba le y maent yn myned. At hyn y cyfeiria y prophwyd yn y geiriau—"Ië, y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymmorau." Er fod gwddf a choesau hirion yr aderyn hwn yn rhwym o fod yn rhwystr iddo ehedeg yn mhell, y mae ei adenydd o wneuthuriad mor neillduol i wrthbwyso yr anfantais hon, fel y tybir ei fod yn ehedeg yn ddiorphwys o'r Rhine isaf, hyd yn oed o gymmydogaeth Strasburg, i Affrica; ac hyd i'r Delta a'r Nile. Tybir eu bod yn gadael Ewrop yn mis Hydref; a gwnant hyny mor lwyr, na bydd cymmaint ag un o honynt ar ol. Anfynych y gwelir hwynt yn gwneyd eu hymadawiad, gan fod hyny bob amser yn dygwydd yn y nos; ac esgynant gyda chyflymder bron anghredadwy yn fuan allan o'r golwg. Y maent yn dychwelyd i'r wlad hon tua diwedd Mawrth; ond nid mor gyfan a llwyr ac y gadawsant hi. Nythant mewn pinwydd, ffynidwydd, a choed ereill; ond mwy dewisol ganddynt simneiau, hen adeiladau, a thyrau. Yr ŷyau sydd o faint a lliw ŷyau gwyddau, ac yn bedwar mewn rhifedi. Y ddau aderyn a eisteddant arnynt bob yn ail am fis, pryd y deorant; a dengys y naill fel y llall y gofal mwyaf am y cywion.

Yn yr holl wledydd Mahometaidd, y mae y ciconia yn ymwelydd mwyaf derbyniol gan y trigolion; ac edrychant arno gyda pharch, sydd mewn rhai manau yn ymylu ar y coelgrefyddol. Y mae ei groesaw yn gymmaint mewn llawer o fanau yn Ewrop, fel y mae yn gwneyd ei hun yn lled gartrefol yn mhlith y bobl. Yn Holland, yn neillduol, dywed Col. H. Smith, iddo weled y ciconia yn Middelburg, yn cerdded yn ddigyffro drwy y dorf yn y farchnad lysiau. Yr Is-Ellmyn, hefyd, ydynt mor bleidiol i'r ciconia, fel y goddefant iddo nythu ar benau eu tai heb ei aflonyddu. Y mae hen gred gan y bobl hyn, nas gall yr aderyn fyw ond dan weiniaeth; ond yn anffodus i'r dyb hon, nid dan weiniaeth yn unig y canfyddir y ciconia, gan nad oes odid dref ar y cyfandir, yn yr iseldiroedd, nad yw yn cyfanneddu ynddynt;—dan ormes-dywysogaethau Allmaen, yn gystal a than weiniaethau bychain Italy.

Ymddengys fod amryw ysgrifenwyr diweddar yn sicrhau yr hen chwedl, am ofal a serchogrwydd cywion y ciconia am eu rhieni; a'u bod yn eu porthi pan fyddant yn analluog i wneyd hyny eu hunain. Ond gofyna Col. H. Smith, yn dra phriodol, gan fod y ciconia yn byw i fyned yn dra hen, a'u bod yn cael dwy haid o gywion weithiau yn y flwyddyn,—Pa rai o'r cywion hyn

Digitized by Google

sydd yn gofalu am yr hen adar? Nid yr ieuangaf —maent eto yn rhy weiniaid; ac nid y rhai henaf —y mae y rhai hyny wedi eu gadael. Heb law hyn, y mae y rhai gwanaf yn aros yn hinsoddau cynhes y deheu, ac yn nythu yno; pan y mae eu cyfeillion cryfach yn ymfudo tua'r gogledd. Dywed Col. Smith, iddo ef weled haid o adar ymfudol unwaith—nid allai fod yn sicr pa un ai crëyr ai ciconia—yn cyfeirio tua'r deheu, ac yn ymdrechu yn galed yn erbyn gwynt cryf a gwrthwynebus. Gorfu arnynt o'r diwedd ddyfod yn is i lawr. Yr oedd yr arweinydd erbyn hyn wedi llwyr ddiffygio. Cymmerwyd ei sefyllfa, yn y fan, gan un arall; a daeth tri neu bedwar yn mlaen i'w gynnorthwyo i gadw ei le yn y golofn. Tybia yr hanesydd, fod y ffaith hon yn cyfrif am rai o'r chwedlau a gredir am y ciconia. Y mae yn wir y dengys ofal cyffredinol yr adar hyn am eu gilydd; ond nid mwy, efallai, nag a ddangosir gan adar ereill, o'r un rhyw, y naill tuag at y llall.

Ystyrir fod y ciconia, yn mhob gwlad, yn gwneyd llawer o ddifrod ar nadroedd, seirff, &c. Gellir yn hawdd gredu hyn mewn rhan; canys y mae hyd yn oed dôf-ednod yn y wlad hon yn gwneyd yr un peth â llawer o bryfaid gwenwynig cyffelyb. Ond y mae yn amlwg fod y ciconia, am hanner y flwyddyn o leiaf, yn trigo mewn gwledydd nad ydynt yn hynod, beth bynag, am eu seirff. Heb law hyn, ymddengys fod yn fwy dewisol ganddynt lysywod, llyffaint, lysardiaid, &c., na seirff, yn mhob man.

Yr oedd y ciconia yn aderyn aflan dan y gyfraith; a dichon fod pob aderyn a ystyrid yn gyssegredig yn yr Aipht yn aflan i'r Iuddewon yr un modd.—(*Gold.'s Hist. Anim. Nat.; Cope's Nat. Hist.; Bib. Cycl.; Barnes' Notes; Boch. Hier.; Calm. Dict.; Plin. Hist. Nat.; Ælian's Hist. An.; Maillet's Descript d'Egypte.*)

CIG, [*cnawd*]: y rhan dyner o ddyn ac anifail. Yr un gair (בשר) ag a gyfleithir i'r Seisoneg yn *flesh*, a gyfleithir i'r Gymraeg weithiau yn *gig*, ond y rhan amlaf yn *gnawd*. Lle y darllenir *cig*, yn yr Ysgrythyrau, arwydda y gair y naill neu y llall o'r pethau canlynol:—

1. *Y cnawd priodol*, mewn gwrthgyferbyniad i esgyrn, neu ryw ran arall o gorff unrhyw greadur. "Ac a gauodd gig yn ei lle hi;" *Gen.* ii. 21. Gwelodd Pharaoh, yn ei freuddwyd, "Saith o wartneg, teg yr olwg, a thewion o gig:" a "saith ereill drwg yr olwg, ac yn gulion o gig;" *Gen.* xli. 2, 3. "Y cig oddi wrth eu hesgyrn;" *Micah* iii. 2.

2. *Cnawd anifeiliaid*, wedi eu lladd a'u darparu yn ymborth. "Yn yr hwyr cewch fwyta cig;" *Exod.* xvi. 12. "A'r cig a gyffyrdda â dim aflan, ni fwytëir;" *Lef.* vii. 19. Gwel hefyd *Gen.* ix. 4; *Num.* xi. 18, 33; *Deut.* xii. 15; 1 *Bren.* xvii. 6. Sonir hefyd am gig yn aberth: *Exod.* xxix. 14.

3. *Perthynasau yn ol y cnawd.* "Os gallaf ryw fodd yru eiddigedd ar fy nghig a'm gwaed fy hun:" *Rhuf.* xi. 14. Defnyddir y gair *cig*, yma, yn yr un ystyr a *chnawd* yn 2 *Sam.* v. 1, a manau ereill.

4. *Dynion anianol.* "Nid cig a gwaed (*nid dynion*) a ddadguddiodd hyn i ti;" *Mat.* xvi. 17. Nid wrth ymofyn â dynion; ac nid wrth farnu â golwg dynol, y deallodd Simon mai yr Iesu oedd "y Crist, Mab y Duw byw." "Yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed;" *Gal.* i. 16. Nid ymofynodd â dynion cyn gwneyd ei feddwl i fyny am ei ddyledswydd.

5. *Y natur ddynol*, mewn cyferbyniad i'r angeleidd, a'r ddwyfol. "Gaz fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau;" *Heb.* ii. 14.

6. *Corff dyn*, fel y mae yn y fuchedd bresennol. "Ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw;" 1 *Cor.* xv. 50. Ni ddichon y daiarol a'r cnawdol gymdeithasu â'r ysbrydol a'r anweledig heb ei newid.

7. *Calon*, wedi ei chyfnewid gan Ysbryd Duw, a elwir yn "galon dyner o gig" (*Ezec.* xxxvi. 26), i ddangos ei thynerwch mewn cyferbyniad i'w chaledwch blaenorol. Gwel CNAWD.

CIGFRAN: aderyn ysglyfaethus, ac aflan dan y gyfraith (*Lef.* xi. 15), sydd yn adnabyddus bron yn mhob gwlad. Hwn yw yr aderyn a anfonwyd gan Noah allan o'r arch y waith gyntaf: *Gen.* viii. 7. Bu hefyd o wasanaeth mawr i Elias, wrth afon Cerith: 1 *Bren.* xvii. 4. Anfonodd yr Arglwydd ddau o'r adar hyn—er eu gwanc—i borthi ei was, â bara a chig y boreu, ac â bara a chig y prydnawn. Gwel BRAN.

CIGWAIN—EINIAU, [Heb. מולג; Gr. κρηαγρα; Ll. *fuscinula*]: math o ffyrch neu dryferi, a arferid yn y babell a'r deml, i droi y cig ar y tân, ac i gasglu y darnau yn nghyd at eu gilydd. Yn y babell, yr oedd y cigweiniau, fel yr holl lestri ereill a berthynent i'r allor, wedi eu gwneyd o bres (*Exod.* xxvii. 3); ond yn y deml, yr oeddynt i gyd o aur pur (1 *Cron.* xxviii. 17). Yr oedd y cigweiniau yn dra gwasanaethgar i'r offeiriaid i droi yr aberth tra byddai yn llosgi ar y tân, rhag iddynt gyffwrdd âg ef â'u dwylaw. Un o anwireddau meibion Eli yn erbyn yr Arglwydd oedd defnyddio y cigweiniau yn arfau trais yn y cyssegr: 1 *Sam.* ii. 12—17. Yr oedd rhan yr offeiriad o'r aberth wedi ei benu yn Israel, trwy ddeddf dragwyddol (*Lef.* vii. 21—33; *Deut.* xviii. 3); ond y pryd hwn sefydlwyd defod newydd, i was yr Arglwydd gymmeryd cigwain dridaint yn ei law, a'i tharaw yn y badell, neu yr efyddyn, neu y crochan, neu y pair, yn yr hwn y berwai y cig; a pha beth bynag a gyfodai â'r gigwain, a ystyrid yn ol y ddefod yn eiddo i'r offeiriad.

CILDDANT—DDANNEDD, [*cil—ddant*]: y boch-ddannedd, y malyddion.

> Gwerth cilddant dyn deg ar ugaint.
> The value of a man's grinder tooth is thirty pence.
> *Welsh Laws.*

"Duw a holltodd y cilddant oedd yn yr ên, fel y daeth allan ddwfr o hono" (*Barn.* xv. 19);= *Seis.*, "Hollow place that was in the jaw." Mae yn ddiau fod y ddau gyfleithiad hyn yn anhapus, ac wedi camarwain lluaws o ddarllenwyr. Y mae yn beth syn, medd Harmer, fod dynion mor hoff o'r rhyfeddol, fel ag i feddwl mai y lle y daeth y dwfr allan o hono oedd hollt yr ên, yn ngên yr asyn, â'r hwn y lladdodd Samson y Philistiaid; pan y mae yn eglur mai o herwydd yr hyn a wnaeth Samsom y galwyd y lle yn Lehi, neu "ên."

Sylwa Calmet, fod yr Hebreaid yn galw creigiau moelion a noethion, yn ddannedd (1 *Sam.* xiv. 4, 5; *Iob* xxxix. 28); ac y mae yr un priodddull yn y Gymraeg—soniwn am "graig ddanneddog," a "dannedd y graig:" ac yn yr amgylchiad hwn, agorodd Duw graig a elwid Machtes, neu y Cilddant; a'r hon, o herwydd hyny, medd Calmet, a alwodd yn Lehi=*gên*. Y mae yn wy tebyg y gelwid y fan yn Lehi—gèn—

Digitized by Google

o herwydd y difrod a wnaeth Samson ar y Philistiaid gyda gên asyn; ac yn Lehi yr oedd craig ysgythrog, yr hon a agorodd Duw.

Y mae "cilddannedd" yn cael ei arfer yn arwyddlun o greulondeb: *Iob* xxix. 17; *Salm* lviii. 6; *Diar.* xxx. 14.

CILGWTHIO, [*cil—gwth*]: gwthio ar gil, gwthio yn ol, gyru ar ffo: *Salm* xliv. 5; *Act.* vii. 27.

CILHAMIAID: enw a roddir weithiau ar Fethodistiaid y Cyfundeb Newydd, oddi wrth Alexander Kilham, yr hwn oedd yn bregethwr lled enwog yn eu plith, ac yn ysgrifenydd i'w cyfundeb.

CILICIA: talaeth yn y parth deheu-ddwyrain i Asia Leiaf, yn terfynu i'r gorllewin ar Pamphylia, yn cael ei gwahanu oddi wrth Cappadocia o du y gogledd gan drum y Taurus, ac oddi wrth Syria i'r dwyrain gan Amanus, ac i'r deheu yn terfynu ar lynclyn Issus a Môr Cilicia: *Act.* xxvii. 5. Yr ydoedd yn sefyll i'r gogledd o Cyprus, yn agos i ben dwyreiniol Môr y Canoldir. Tarsus, lle y ganwyd Paul, oedd y brif ddinas: *Act.* xxi. 39. Y dinasoedd ereill oeddynt Issus a Solæ. Yr oedd llawer o Iuddewon wedi ymsefydlu yn y dalaeth hon, ac yr oedd ganddynt synagog: *Act.* vi. 9. Mae'n debyg y perthynai Saul o Tarsus i'r synagog hon, a'i fod yn mhlith y rhai a ymddadleuent â Stephan (cymh. *Act.* vii. 58). Cafodd yr efengyl ei phregethu yno yn gynnar: *Act.* xi. 30. Yr oedd y parth dwyreiniol o Cilicia yn wlad ddyfradwy a ffrwythlawn, yn cynnyrchu amrywiol fathau o rawn a ffrwythydd; ond y parthau gorllewinol yn arw a mynyddig, eto yn dwyn cyflawnder dihyspydd o gedrwydd a ffawydd at adeiladu llongau, ac yn nodedig am rywogaeth o eifr, o grwyn y rhai y gwneid mantelli a phebyll. Yr oedd ei rhywogaeth o geffylau hefyd yn rhagori, fel yr oedd 360 o honynt (un am bob dydd yn y flwyddyn) yn gwneyd rhan o'r deyrnged flyneddol i freninoedd Persia. Dywedir fod glanau y môr yn cael eu preswylio gan fôr-ladron; y rhai a ddygent yn mlaen gaethfasnach, yn yr hyn eu cefnogid gan y Rhufeinwyr cyfoethog. O'r diwedd aeth eu rhaib yn annyoddefol, ac anfonwyd Pompey gydag awdurdod i'w darostwng; yr hyn a gyflawnodd mewn deugain niwrnod. Sefydlodd y gweddill o honynt yn Solæ, yr hon a ail adeiladodd efe, ac a'i galwodd Pompeiopolis. Bu Cicero yn rhaglaw Cilicia (oed Rhufain 702); a bu yn llwyddiannus yn erbyn mynyddigion Amanus, am yr hyn y cafodd ei wobrwyo â gorymdaith fuddugol. Rhan o Twrci yw y dalaeth hon yn awr.

CILMAD: mur neu amddiffynfa Media, fel y mae y gair yn arwyddocau. Efallai mai dinas gadarn, a gorsaf filwraidd, yn rhywle yn agos i ffiniau Media, ydoedd. Dywedir ei bod yn un o'r rhai a farchnataent â Thyrus yn adeg ei gogoniant.

CINAH: un o'r dinasoedd a berthynent i lwyth meibion Iudah; *Ios.* xv. 22.

CINIAW, [*cin*]: a arwydda, mewn ystyr gyffredinol, *pryd;* ond yn ei ystyr gyfyngedig cymhwysir ef at y pryd a gymmerir yn nawn y dydd. Yr oedd prydiau y dwyreinwyr yn cyfateb i'n ciniaw a'n swper ni. Gelwid y blaenaf *αριστον;* a'r olaf, *δεῖπνον.* Yr oedd yr *ariston,* neu y ciniaw, gyda hwy yn cyfateb weithiau i'n boreufwyd, ac weithiau i'n ciniaw ni. Gallai yr hyn a elwir yn "giniaw" yn *Luc* xiv. 12, mor briodol olygu boreufwyd. Nid oedd y ciniaw yn gyffredin ond pryd ysgafn a gymmerid weithiau yn gynnar yn y bore, ac weithiau ychydig cyn neu wedi nawn y dydd, yn ol yr amgylchiadau. Yn amser Homer, yr oedd y ciniaw yn cael ei gymmeryd tua chodiad haul; ond mewn amser oedd diweddarach daeth i gyfateb i *prandium* y Lladinwyr, yr hwn a gymmerid tua chanol dydd fel gyda ninnau. Yn Persia, y maent yn cyfranogi o'r pryd hwn rhwng deg ac un ar ddeg o'r gloch y bore, a gwneir ef i fyny o ffrwythydd, llaeth, caws, &c. Y pryd penaf yn y dwyrain oedd y *deipnon,* neu y swper, yr hwn a gymmerid tua min y nos, wedi i wres gorthrechol y dydd fyned heibio. Y mae darpariaeth a goruchwyliaeth yr efengyl yn cael eu gosod allan dan y gymhariaeth o "giniaw," "swper," a "gwledd:" *Esa.* xxv. 6; *Mat.* xxii. 4; *Luc* xiv. 12, 16.

CINNERETH, neu CHINNERETH, neu CHINNEROTH, [*megys y goleuni*]: un o ddinasoedd caerog llwyth Naphtali: *Ios.* xix. 35; *Deut.* iii. 17; *Ios.* xi. 2. Gellid meddwl oddi wrth y crybwylliad olaf fod yr enw hefyd yn cymmeryd i mewn randir. Dyma enw cyntaf llyn Genesareth (yr hwn air a dybir sydd yn llygriad o Cinnereth), oddi wrth yr hyn y cesglir fod y dref yn sefyll ar yr ochr orllewinol i'r llyn hwnw, ac yn ddigon pwysig i roddi ei henw ar y llyn. Tybir hefyd, gan mai yr un ydoedd llyn Genesareth, neu Cinnereth, a môr Tiberias, mai yr un hefyd oedd tref Cinnereth a Tiberias—y blaenaf yn enw cyntaf arni, a'r olaf yn un diweddarach. Y mae ereill yn barnu ei bod yn sefyll yn y lle yr adeiladwyd Capernaum. Yr oedd o'r tu deheu iddi wastadedd mawr, yn ymestyn ar hyd afon yr Iorddonen, ac yn cyrhaedd hyd at y Môr Marw, a elwid yn "rhos-dir:" *Ios.* xi. 2.

CIR: dinas o Moab, yr hon weithiau a elwir Cirhares, Cirhareseth, a Cirheres: dinas wedi ei murio â phriddfeini llosg. Gelwid hi weithiau Ar [gwel dan y gair hwn], ac Ariel; gelwid hi hefyd Rabbath Moab, er ei gwahaniaethu oddi wrth Rabbath yr Ammoniaid. Y Groegiaid a'i galwent Arcopolis. Rhagfynegid ei hanrheithiad gan y Caldeaid fel y canlyn:—"O herwydd y nos y dinystriwyd Cir Moab, ac y dystawyd hi;" *Esa.* xv. 1. "Am hyny yr uda Moab am Moab, pob un a uda: am sylfeini Cirhareseth y griddfenwch; yn ddiau hwy a darawyd;" *Esa.* xvi. 7.

Gelwid rhan o Albania a Media hefyd, drwy yr hon y llifeiriai yr afon Cyrus, neu Curos, ar yr enw Cir. Bu y wlad hon unwaith yn perthyn i'r ymherodraeth Assyriaidd, ac iddi y caethgludid trigolion Damascus (2 *Bren.* xvi. 9; *Esa.* xxii. 6; *Amos* i. 5): ac yma hefyd yr ymfudai yr Arameaid o ddwyreindir Syria unwaith; *Amos* ix. 7. Bernir hefyd mai oddi wrth yr unrhyw afon, Cur, Curos, neu Cyrus, y cafodd Gurjistan, neu Grusia (*Grusiana*), a elwir yn gyffredin Georgia, ei henw, am ei bod yn llifeirio trwy y wlad hono ar ei ffordd i Fôr Caspia. Barnai Jahn mai hiliogaeth y caethion Syriaidd hyn yw yr Uzbeciaid.

CIRIATH: enw dinas a berthynai i lwyth Iudah (*Ios.* xv. 25): ac un arall a berthynai i lwyth Beniamin (*Ios.* xviii. 28). Hefyd un o ddinasoedd Moab: *Ier.* xlviii. 24, 41; *Amos* ii. 2.

Digitized by Google

CIRIATHAIM: neu y dref ddyblyg; un o'r trefydd henaf ar y tu dwyreiniol i'r Iorddonen, yr hon a berthynai unwaith i'r cawri Emiaidd; *Gen.* xiv. 5. Trawsfeddiannwyd hi oddi ar yr Emiaid gan y Moabiaid (*Deut.* ii. 9, 10): y rhai, yn eu tro, a ddifeddiannwyd gan yr Amoriaid; oddi ar y rhai y cymmerwyd hi drachefn gan yr Israeliaid; ac yna hi a roddwyd i lwyth Reuben: *Num* xxxii. 37; *Ios.* xiii. 19. Ond yn ystod y caethgludiad i Assyria, cymmerodd y Moabiaid feddiant o'r dref hon a threfydd creill: *Ier.* xlviii. 1—23; *Ezec.* xxv. 9.

Mae yr hen hanesydd Eusebius, wrth grybwyll am y dref hon, yn ei chyfleu ar y tu gorllewinol i adfeilion Medeba; a chanfu Burckhardt adfeilion creill tua dwy filltir i'r gorllewin o Medeba, y rhai a elwid El-Teym, y rhai y dyfalai eu bod yr un a Ciriathaim, a bod y sill olaf o'r enw wedi ei gadw; ond y mae hyn yn ammheus, gan fod y lle a grybwyllai Eusebius ddeng milltir i'r gorllewin o Medeba.

Yr oedd lle arall o'r un enw yn rhandir llwyth Naphtali: 1 *Cron.* vi. 76. Bernir mai yr un oedd hon a'r Cartan a grybwyllir yn *Ios.* xxi. 32.

CIRIATH-ARBAH, neu GAER-ARBAH: hen enw Hebron, un o ddinasoedd Iudah; *Gen.* xxiii. 2; *Ios.* xv. 13; *Neh.* xi. 25. Efallai iddi gael yr enw hwnw oddi wrth ei seilydd, Arbah. Gwel HEBRON.

CIRIATH-ARIM, [*dinas y dinasoedd*, neu *ddinas y gwylwyr*]: yr un, dybygid, a Chiriath-Iearim.

CIRIATH-BAAL: dinas berthynol i Iudah, yr hon hefyd a elwir Ciriath-Iearim; *Ios.* xv. 60; xviii. 14. Gelwir hi hefyd Baalah: *Ios.* xv. 9.

CIRIATH-HUSOTH, neu CAER HUSOTH, [*dinas y petryalau*]: dinas freninol Balac, brenin Moab ydoedd; ac am hyny y mae yn debyg fod ynddi heolydd hardd, a phetryalau gwychion a chyfleus: *Num.* xxii. 39.

CIRIATH-IEARIM, [*dinas y coedwigoedd*]; un o drefydd y Gibeoniaid: *Ios.* ix. 17. I'r lle hwn y dygwyd yr arch o Bethsemes, wedi ei symmudiad o dir y Philistiaid; ac yma y bu hyd oni ddygwyd hi i Ierusalem gan Dafydd: 1 *Sam.* vii; 1 *Cron.* xiii. Dyma un o'r hen orsafoedd a ail gyfanneddwyd wedi y dychweliad o gaethiwed Babilon: *Ezra* ii. 25; *Neh.* vii. 29. Y mae Eusebius a Jerome yn son am y lle fel pentref yn eu hoes hwy naw neu ddeng milltir o Diospolis (Lydda), ar y ffordd i Ierusalem. Barna y Dr. Robinson y dichon fod yr hen Ciriath-Iearim yn y fan a adwaenir yn yr oes yma dan yr enw Kuryet-el-Enab, neu yn fynych, Carieh, neu Curieh. Y rhan gyntaf o'r enw, Ciriath, neu Kuryet, yr hyn a arwyddoca *dinas*, sydd yr unrhyw yn y ddau; ac y mae yn debyg ei fod yn dra henafol, gan nas ceir ef mewn enwau priodol Arabaidd yn un man ond Syria a Phalestina, nac yn fynych yno chwaith. Yr unig gyfnewidiad a fu yw, bod hen "ddinas y coedwigoedd" wedi dyfod mewn oesoedd diweddarach yn "ddinas y gwinwydd." Y mae yr orsaf hon hefyd oddeutu taith tair awr, neu naw milltir Rhufeinaidd, o Lydda, ar y ffordd i Ierusalem, ac heb fod yn mhell o Gibeon, o'r hon nis gallasai Ciriath-Iearim fod yn mhell. Y mae y fath debygolrwydd mewn enw a sefyllfa, dybygid, yn llwyr gadarnhau casgliad Dr. Robinson, mai yr un yw Kuryet-el-Enab a'r hen Ciriath-Iearim. Mae yr hen draddodiadau eglwysig yn gwneyd y lle yma yr unrhyw ag Anathoth; ond y mae Dr. Robinson o'r farn mai Anata y gelwir y lle hwnw yn bresennol. Gwel ANATHOTH.

Cawn y dysgrifiad canlynol o Carieh, gan Meistri Bonar a M'Cheyne:—"Y mae y tai wedi eu hadeiladu yn gryfion, o geryg, ac y mae yno amryw adfeilion hen adeiladau, yn enwedig eglwys, neu abatty mawr, yn yr arddull Gothaidd, yr hon, fel ein hysbysid gan Ibraim, sydd yn bresennol wedi ei throi yn deml Fahometaidd. Mae y pentref wedi ei amgau gan olewydd, pomgranadau, a choed ffigys mawrion, ac un balmwydden dal yn ymgyfodi goruwch y llwyn. Yr oedd y pomgranadau yn eu llawn flodau, ac yr oedd y blodau ysgarlad yn dysgleirio yn ysblenydd o ganol eu dail gwyrddliw heirddion. Yr oedd diadell o eifr yn pori dan y coed, ac amryw o'r llethrau o amgylch y lle oeddynt dan driniogaeth dda, â golwg gynnyrchiol arnynt, yr hyn a ddangosai y fath ddefnydd a ellid ei wneyd o'r mynyddoedd hyn yn fuan."

CIRIATH-SANNATH, [*dinas y palmwydd*]. *Ios.* xv. 49: a gyfenwir hefyd CIRIATH SEPHER (*dinas y llyfr*); *Ios.* xv. 15: a elwid hefyd DEBIR, neu CIRIATH-DEBIR (*dinas y geiriau*); *Barn.* i 11, 12. Dinas oedd hon o fewn rhandir llwyth Iudah, ac a roddwyd i Caleb. Fe'i cymmerwyd gan Othniel; ac fel gwobrwy ei wroldeb rhoddes Caleb ei ferch, Achsah, yn wraig iddo; *Ios.* xv. 17.

1. CIS: mab Abiel, a thad y brenin Saul: 1 *Sam.* ix. 1. Nid oedd ond gwr o dylwyth isel, yn llwyth Beniamin; yr oedd efe yn fugail a rhyfelwr, yn ol arfer yr oes hono; a chanmolir ei ddewrder yn yr Ysgrythyrau: 1 *Sam.* ix. 1; xiv. 51; 1 *Cron.* viii. 33; a ix. 38, 39.
2. CIS: mab Gibeon a Maachah: 1 *Cron.* viii. 30.
3. CIS: mab Abdi, Lefiad o dylwyth Merari.

CISON, [קישון; Deg a Thrigain, Κισῶν]: afon sydd yn rhedeg gyda godrau mynydd Carmel, ac yn disgyn i Fôr y Canoldir, yn Acca neu Acre, ac a elwir yn bresennol El-Mukútta. Nid yw teithwyr yn cytuno yn hollol am ei tharddiad. Yn ol hen awdwyr, yr oedd yn codi yn mynydd Tabor, ac yn rhedeg drwy ddyffryn Iezreel neu Esdraelon, ac yna gyda mynydd Carmel i'r môr. Ond dywed y Dr. Shaw, nad oedd unrhyw gyssylltiad rhyngddi a mynydd Tabor, nac â gwastadedd Esdraelon; a'i fod ef wedi canfod ei tharddiad mewn tri lle neu bedwar yn lled agos at eu gilydd, yn mynydd Carmel, y rhai a elwir Ras el Cison, neu Darddiad Cison. Y mae y rhai hyn yn unig yn ddigon i'w gwneuthur yn afon o hanner maintioli yr Isis. Ac ar y tymmorau gwlawog, y mae yr holl ddyfroedd sydd yn disgyn ar du dwyreiniol y mynydd hwnw yn rhedeg iddi, fel y mae ar amserau yn chwyddo ac yn tori dros ei glanau. Nid yw hyn yn dygwydd ond yn achlysurol. Y mae yn rhedeg gyda chryn gyflymdra hyd o fewn ychydig i'r môr; a phan yn ei maintioli cyffredin, gan fod llawer o'i dyfroedd yn treiddio drwy fryniau o dywod sydd wedi ffurfio yn ei cheg gan wyntoedd y gogledd, nid yw yn ymddangos ond bechan yn ei hymarllwysiad i'r môr. Ymwelodd y Dr. Shaw â'r afon yn Ebrill, 1722; ac nid yw ei hyd, yn ol ei gyfrif ef, yn chwaneg nag o ddeutu saith milltir. Y mae teithwyr ereill, diweddarach

Digitized by Google

yn cadarnhau yr hen dyb yn erbyn Shaw. Dywed Buckingham, fod ffynnonau a elwir Ain-es-Sherrar, yn ngodrau mynydd Tabor, ar y tu deorllewin, "y rhai a anfonant ffrwd trwy ganol gwastadedd Esdraelon, ac a ffurfiant yr afon Cison." Y mae dyffryn Esdraelon, cofier, yn mhellach oddi wrth y môr na mynydd Carmel; ac y mae gwahaniaeth rhwng syniadau teithwyr yn hyn:—A ydyw yn codi yn Tabor, ac yn rhedeg trwy ddyffryn Esdraelon, gan dderbyn yr holl ffrydiau sydd yn disgyn iddi oddi ar ochr ddeddwyreiniol mynydd Carmel, neu ynte ai o'r olaf yn unig y mae yn tarddu? Dywed Shaw, fel y sylwyd, mai o'r olaf. "Camsyniodd Mr. Saunders, ac ereill," meddai, "wrth dlyweyd fod afon Cison yn rhedeg o fynyddoedd Tabor a Hermon; â'r rhai nid oes rhyngddi unrhyw gyssylltiad." Cadarnha Buckingham, ac ereill, ei bod yn tarddu o'r cyntaf. Mewn brwydr a fu rhwng y Ffrancod a'r Arabiaid, yn agos i fynydd Tabor, ar Ebrill 16, 1799, dywedir fod llawer o'r olaf wedi boddi yn yr afon sydd yn dyfod o Debûrieh, ag oedd y pryd hwnw wedi tori dros ei glanau yn y rhan hwnw o'r gwastadedd. Pentref bychan, gwael, yw Debûrieh, ar waelod mynydd Tabor. Croesodd Monro o Solam i Nazareth, ar ddydd iau cyntaf mis Mai; a dywed ei fod, mewn hanner awr ar ol gadael Solam, wedi myned heibio i "ffrwd o gryn faintioli, ac wedi hyny rai ereill, y rhai sydd yn llifo i lyn bychan ar du gogleddol y gwastadedd, ac yna yn rhedeg i ffurfio y Cison." Daeth Prokesch, wrth fyned o Ramleh i Nazareth, yn Ebrill, 1829, i wastadedd Esdraelon, yn agos i Lejjun, a chanfu yno y Cison yn rhedeg mewn gwely dwfn, trwy dir corsog; ac ar ol crwydro am ryw ysbaid i chwilio am le i'w chroesi, fod Arabiad wedi dangos iddo y rhyd. Dywed Anderson, ei fod wedi gweled yr afon wedi gorlifo ei glanau yn mis Mawrth; ond pa un a ydyw yn cyfeirio ati yn y parth hwn, neu yn is i lawr, nid yw yn hawdd penderfynu; er y gellid tybied mai y rhan uchaf, pan y dywed nad oedd yno ond ei gwely yn sych, pan yr ymweloddâ'r lle ar ei daith gyntaf.

Y mae y Dr. Robinson yn dywedyd ddarfod iddo groesi y dyffryn o Jenin i Nazareth, Mehefin 16, 1848, ac iddo weled yno amryw o redleoedd o gryn faintioli, ond nad oedd ynddynt ddwfr y pryd hwnw, yn y parth hwnw o'r gwastadedd. Ond dywed fod hono yn flwyddyn o sychder mawr, ac o ganlyniad, ei fod yn gasgliad annheg oddi wrth hyny, nad oedd unrhyw gyssylltiad rhwng Cison a Tabor. "Nid yw yn annhebyg y gallai, yn yr oesoedd gynt, pan oedd y wlad efallai yn fwy coediog, fod ffrydiau parhäus drwy yr holl wastadedd, cyffelyb i'r un sydd mewn parth arall o hono, yn rhedeg tua'r dwyrain; ac hyd yn oed yn awr, yn y gauaf a'r gwanwyn, y mae llawer o ddyfroedd yn y dyffryn yn llifo tua'r gorllewin i ffurfio y Cison." Barna nad yw yn afon barhäus yn y parth hwn yn bresennol, ond ei bod yn rhedeg yn amser gwlawogydd, ac am ysbaid wedi hyny; yna yn sychu. Nid yw yn cadarnhau pa un a ydyw yr afon sydd yr ochr arall i'r dyffryn, ger Lejjun, yn cyrhaedd y Cison yn yr haf ai peidio. Croesodd Maundrell hi yn nghanol mis Mawrth, o ddeutu taith tair awr a hanner o Lejjun, yn is i lawr; ac nid oedd y pryd hwnw ond ychydig iawn o ddwfr ynddi. Nid yw yn ymddangos y bydd un amser yn sychu o'i tharddiad yn mynydd Carmel i'r môr; ond y mae y ffeithiau uchod yn rhoddi lle i gasglu nad oes llawer o ddyfroedd yn ymarllwys iddi yn uwch na hyn, oddi elthr ar, ac am ysbaid wedi tymmorau gwlawog.

Y mae dau amgylchiad nodedig yn cael eu crybwyll yn yr Ysgrythyr mewn cyssylltiad âg afon Cison. Un ydyw, yr oruchafiaeth a gafodd Deborah a Barac ar "Sisera tywysog llu Iabin:" *Barn.* iv. "Y breninoedd a ddaethant, ac a ymladdasant; yna breninoedd Canaan a ymladdasant yn Taanach, wrth ddyfroedd Megido: ni chymmerasant elw o arian. O'r nefoedd yr ymladdasant; y ser yn eu graddau a ymladdodd yn erbyn Sisera. Afon Cison a'u hysgubodd hwynt; yr hen afon, yr afon Cison;" *Barn.* v. 19—21. Y mae yn dra thebyg fod y frwydr hon wedi cymmeryd lle mewn adeg pryd yr oedd yr afon wedi chwyddo yn fawr; a'r gelynion, mewn camsyniad am ei dyfnder ar adeg felly, yn tybied y gallent ei chroesi wrth ffoi; ond yn lle hyny, yn cael eu "hysgubo" ymaith yn ei dyfroedd. Barna rhai fod genym seiliau i gasglu oddi wrth y geiriau, "O'r nefoedd yr ymladdasant," &c., fod ystorm aruthrol wedi cymmeryd lle ar y pryd. Dywed Josephus, ddarfod, wedi iddynt ddyfod i agosrwydd ymladdfa, "i dymmestl fawr ddisgyn o'r nefoedd, gyda mesur aneirif o wlaw a chenllusg; a'r gwynt a chwythodd y gwlaw i wynebau y Canaaneaid, ac a ddallodd eu llygaid gymmaint, fel nad oedd eu saethau a'n ffyn-tafl o un defnydd iddynt. Ac ni ddyoddefai oerder yr awelon i'r milwyr ddal i fyny a defnyddio eu cleddyfau. Y dymmestl hon, pa fodd bynag, ni bu o gymmaint anghyfleusdra i'r Israeliaid, o herwydd ei bod i'w cofnau."—[*Henaf. yr Iudd.*, llyfr v. 5.]

Gorchymynodd Elias, wedi cael goruchafiaeth ar brophwydi Baal ar fynydd Carmel, eu dal oll; ac efe "a'u dygodd hwynt i waered i afon Cison, ac a'u lladdodd hwynt yno;" 1 *Bren.* xviii. 19—40. Y mae yn debyg mai y lle y mae yr afon yn rhedeg yn barhäus y bu hyn, yn ngodrau y mynydd. Y mae rhai teithwyr yn barnu fod yr enw El-Mukûtta yn air o darddiad sydd yn arwyddo *toriad*, ac wedi ei gymmeryd oddi wrth yr amgylchiad hwnw; ond nid yw yn arwyddo mwy na rhyd gan y bobl gyffredin; a chymmerir ef o wreiddyn sydd yn arwyddo hyny gan ereill.—(*Robinson's Biblical Researches in Pales.*, cyf. ii., ail argraffiad; *Anderson's Wand.*, &c.; *Cycl. of Bib. Literature.*)

CISION: dinas yn llwyth Issachar, ac a elwid felly, dybygid, am ei bod ar lan afon Cison. Rhoddwyd hi i'r Lefiaid o deulu Gersom: *Ios.* xix. 20; xxi. 28.

CIST, [*cest*]: coffr. 1 *Sam.* vi. 8, 11, 15; *Ezec.* xxvii. 24. Yn 2 *Bren.* xii. 4—10, a 2 *Cron.* xxiv. 4—14, ceir hanes, yn wyneb fod yn mryd Ioas adgyweirio tŷ yr Arglwydd, a bod yr offeiriaid wedi bod yn anffyddlawn i'w gorchwyliaeth, ddarfod i Iehoiada yr offeiriad gymmeryd cist, ac a dyllodd dwll yn ei chauad, ac a'i gosododd hi o'r tu deheu i'r allor, ffordd y delai un i mewn i dŷ yr Arglwydd; a'r offeiriaid, y rhai oedd yn cadw y drws, a roddent yno yr holl arian a ddygid i mewn i dŷ yr Arglwydd. Yr arian a geid yn y gist a ddefnyddid i "dalu i'r seiri pren, ac i'r adeiladwyr, ac i'r seiri meini, ac i'r naddwyr ceryg, ac i brynu coed a cheryg nadd i gyweirio adwyau tŷ yr Arglwydd, ac am yr hyn oll a aethai allan i adgyweirio y tŷ." Yn 2 *Bren.* xii. 9, dywedir fod y gist wedi ei gosod "o'r tu deheu i'r allor, ffordd y delai un i mewn

Digitized by Google

i dŷ yr Arglwydd;" ond yn 2 *Cron.* xxiv. 8, dywedir mai "yn mhorth tŷ yr Arglwydd, oddi allan," yr ydoedd. Barna rhai ei bod wedi ei gosod ar y cyntaf yn ymyl yr allor, ac iddi wedi hyny gael ei symmud oddi yno i borth y cyntedd, er boddlonrwydd i'r bobl, fel y gallont roddi yr arian ynddi eu hunain, ac nid eu cyflwyno trwy ddwylaw yr offeiriaid. Sylwa y Dr. Lightfoot, nad yw y ddau destyn yn cyfeirio at yr un adeg, ac mai yr hyn a barodd ei symmud ydoedd, nad oedd yr arian yn dyfod i mewn mor gyflym ag y dysgwylid yn y fan hono, lle nad oedd y bobl yn gallu dyfod ati; neu ynte, mai cist arall i'r un dyben a osodwyd mewn amser diweddarach oddi allan i'r porth. "Yn 2 *Cron.* xxiv," medd Horsley, "dywedir fod yr offeiriaid a'r Lefiaid wedi eu hanfon trwy y wlad i gasglu treth, yr hon, fel yr ymddengys oedd hanner sicl, a delid gan bob un a gyrhaeddai ugain oed. Yr arian a grybwyllir yma (2 *Bren.* xii. 4), oedd yr hyn a delid er rhyddhâd oddi wrth addunedau (*Lef.* xxvii), neu a roddid fel offrymau gwirfoddol. Gosodir y gist, yn *Croniel*, wrth y porth o'r tu allan. Y mae y gist, yn *Breninoedd*, i gynnwys arian addunedau ac offrymau gwirfoddol. Ymddengys, gan hyny, fod y ddau le yn cynnwys gwahanol ranau yr un hanes, a bod yr holl orchwyl yn debyg i hyn:—Yn y lle cyntaf, fe anfonodd y brenin yr offeiriaid a'r Lefiaid trwy y wlad i gasglu y dreth oedd ar bob un (*poll-tax*); ac a orchymynodd i'r arian a godid gael eu defnyddio i adgyweirio y deml. Ond yn lle hyny, celciodd yr offeiriaid a'r Lefiaid yr arian, ac ni wnaed dim i'r deml am yn agos i dair blynedd ar ugain. Gan hyny, cymmerodd y brenin y gorchwyl o'u dwylaw; cytunodd âg adeiladwyr am yr adgyweiriadau, a darparodd ddwy gist, a thwll yn nghauad pob un i dderbyn yr arian. Gosodwyd un wrth fynedfa porth y deml, i dderbyn y dreth a ddygid gan y bobl yno. Gosodwyd y llall oddi fewn i'r deml, yn agos i allor y poeth offrwm, i dderbyn yr arian a delid i'r offeiriaid am ryddhâd—rhoddion gwirfoddol." Yr oedd yr holl arian i gael eu defnyddio at adgyweiriadau y tŷ. "Canys meibion Athaliah y wraig ddrygionus hono a rwygasent dŷ Dduw; a holl gyssegredig bethau tŷ yr Arglwydd a roisant hwy i Baalim;" 2 *Cron.* xxiv. 7. Gwel TRETH—(*Barrett's Synopsis of Crit.; Horsley's Bib. Crit.*)

CISTERTIAID: urdd mynachaidd, a seiliwyd yn y nawfed canrif, gan St. Robert, abad Molême; ond y rhai yn fuan a ddaethant mor benrydd mewn dysgyblaeth, fel eu gadewid gan eu sylfaenydd ei hunan, hyd oni bu raid iddo ddychwelyd ac adfeddiannu ei lywodraeth, mewn ufudd-dod i orchymyn y pab.

CITRON: dinas yn rhandir Zabulon, yr hon oedd yn cael ei phreswylio gan y Canaaneaid, "dan dreth:" *Barn.* i. 30.

CITTIM, CHITTIM, [כתים]: mab Iafan (*Gen.* x. 4): neu gan fod y gair yn y rhif lluosog, arwydda gangen o'r teulu hwnw; y rhai a ymfudasant, yn ol pob tebyg, i Cyprus, ac a adeiladasant yno dref Citium, lle y mae ei hadfeilion yn awr yn agos i benrhyn a elwir Chitti. Dywed Josephus [*Henaf.* i. 6], fod "Chethimus wedi meddiannu ynys Chethima. Gelwir hi yn awr Cyprus; ac oddi wrth hon, Chethim y gelwir holl ynysoedd a pharthau glan y môr gan yr Hebreaid. Y mae fod un o ddinasoedd Cyprus wedi cadw ei henw dechreuól yn brawf o hyn; o blegid Citius y gelwir hi yn ol priodiaith y Groegiaid; ac felly nid yw wedi colli yr enw Chethimus." Y mae yn ymddangos fod yr enw Cittim, mewn amseroedd diweddarach, yn golygu amrywiol ynysoedd a gwledydd ar gyffiniau Môr y Canoldir, er ei fod yn cael ei gyfyngu ar y cyntaf efallai i Cyprus yn unig. Cyfeirir at Macedonia o dan yr enw Χεττειείμ, yn 1 *Mac.* i. 1; a Κιτιέων, yn *pen.* viii. 5. Myn rhai hefyd fod Italy yn cael ei galw felly, ac mai ati hi y cyfeirir yn *Dan.* xi. 30, "llongau Cittim."—*Vulg. Romani.* Ond y mae Hengstenberg yn barnu fod yr enw, yn mhob lle y mae yn dygwydd yn yr Hen Destament, yn cyfeirio at Cyprus.

"Gyda golwg ar y tair o wahanol farnau sydd yn mysg esbonwyr hen a diweddar," medd Gesenius, "y rhai a ymofynent am dir Chittim yn Italy, Macedonia, a Cyprus, yr wyf fi yn ddibetrus yn dewis yr olaf; yr hwn hefyd oedd syniad Josephus." Yn ol hwn, Chittim ydyw ynys Cyprus, a elwid felly oddi wrth y drefedigaeth Phœniciaidd, Κίτιον (Citium), yn rhan ddeheuol yr ynys. Bod Κίτιον (Citium) yn cael ei ddefnyddio weithiau am holl ynys Cyprus, ac hefyd mewn ystyr eangach i arwyddo ynysoedd ereill, sydd yn cael ei ddyweyd yn eglur fel peth eithaf adnabyddus, gan Epiphanes, yr hwn oedd ei hun yn byw yn Cyprus [*Adv. Haeres*, xxx. 25]; lle y dywed, "Y mae yn amlwg i bawb fod ynys Cyprus yn cael ei galw Κίτιον (Citium); o blegid y mae y Cypriaid a'r *Rhodiaid* (Ῥόδιοι) yn cael eu galw yn *Kitiaid* (Κίτιοι). Gellid ei ddefnyddio hefyd am y Macedoniaid, o blegid y maent hwy wedi hanu o'r Cypriaid a'r Rhodiaid. Y mae Diodorus [ii. td. 114; cymh. *Herod.* vii. 90], yn dyweyd yn benodol, fod y rhan fwyaf o ddinasoedd Cyprus yn drefedigaethau Phœniciaidd; ac nis gallem ddysgwyl yn amgen, wrth ystyried agosrwydd yr ynys i Phœnicia, yn nghyd â'i chynnyrch helaeth, yn enwedig y pethau angenrheidiol i adeiladu llongau. Y mae y cyfeiriad yn *Ezec.* xxvii. 6—un o'r ychydig leoedd yn y Beibl y rhoddir unrhyw amnaid i ni allu casglu pa le yr ydoedd Cittim—yn cytuno yn bur dda â Cyprus. "Gweithiasant dy rwyfau o dderw Basan: mintai yr Assyriaid a wnaethant dy feinciau o ifori o ynysoedd Cittim." Mewn cyfeiriad at *Esa.* xxiii. 1, dywed mai "yr ystyr yw, y byddai i'r llongau a ddeuai o Tarsus (Tartessus) i Tyrus gael hysbysrwydd ar eu ffordd yno gan breswylwyr Cyprus am ddadymchweliad Tyrus." —(*Cyc. of Bib. Lit.; Barnes on Esa.*)

CIWDAWD — DODAU: llwyth, tylwyth, cenedl; byddin o filwyr. *Pen ciwdawd*=tywysog milwrol. 'Η οὖν σπειρα καὶ ὁ χιλιαρχος, &c., a gyfieithir gan W. S.,—"Yno 'r *giwdawd*, a'r *penciwdawd*, a swyddogion yr Iuddaeon, a ddaliesont yr Iesu;" *Ioan* xviii. 12. Yn y cyfieithiad Cymraeg awdurdodedig, χιλιαρχος a gyfieithir *pencapten;* a chan W. S., *penciwdawd: Act.* xxi. 31; xxii. 24, &c.

Naw *ciwdawd* a wledycha yn Rhufain.
B. Sibli—Mabinogion.

Deryw clody *ciwdodau*,
Dor a hil ior dewr hael oedd.
G. ab M. ab Dafydd.

Ciwdodau Ynys Prydain oeddynt y gwahanol lwythau a ddaethant iddi o bryd i bryd i gyfanneddu ynddi, neu i ymosod arni; ac am ba rai y mae yr hanesion mor amrywiol a chymmysg-

Digitized by Google

lyd, fel nad hawdd ydyw deol y gwir a'r gau oddi wrth eu gilydd. Y mae y rhai a goleddant y syniadau mwyaf eithafol, pa fodd bynag, ar hanes y Cymry, yn cytuno yn y farn, mai hwynthwy oeddynt frodorion cyntaf yr ynys hon; yr hyn a sierheir fel hyn yn y *Trioedd*,—"Ac nid oes dyled i neb arni namyn i Genedl y Cymry, can ys hwy a'i goresgynasant gyntaf, a chynn no hyny, nid oedd neb o ddynion yn byw ynddi, eithr llawn eirth, a bleiddiau, ac efeinc, ac ychain bannog ydoedd."—*Trioedd* i. Eto, tra y mae haneswyr o bob cred, hyd y gwyddys, yr un farn am hyn, y maent yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddi wrth eu gilydd am yr amser a'r modd y daethant yma. Yn y byrnodiad hwn, dilynir yr hanes fel y gwelir ef yn y *Trioedd*—gan mai ynddynt hwy y mae yr awdurdod hanesiol uchaf ar y pwnc—gyda chyfeiriad achlysurol at brofion ereill sydd yn cadarnhau neu yn gwahaniaethu oddi wrthynt.

Yn yr hanes hwn, "am hynodion o ddynion, ac o bethau, a fuant yn Ynys rydain, ac ar ddamwain a damcwydd i Genedl y Cymry, er yn oes oesoedd," ceir awgrym fel hyn am y giwdawd gyntaf a ddaeth yma dan dywysiad Hu Gadarn:—

"Triphost Cenedl Ynys Prydain. Cyntaf Hu Gadarn a ddaeth â Chenedl y Cymry gyntaf i Ynys Prydain; ac o Wlad yr Hâf, a elwir Defrobani, y daethant; sef y lle y mae Constinoblys. A thrwy Fôr Tawch y daethant hyd yn Ynys Brydain, a Llydaw, lle ydd arhosasant."—*Trioedd* iv.

Er y gellid profi mai Cymry diledryw oedd y giwdawd hon a ddaeth gyntaf i Ynys rydain, rhaid cymmeryd hyny, yn nghyd â'i tnarddiad o Iapheth, yn llinach Gomer ac Ascenas, yn y fan hon yn ganiataol; er mwyn cadw ein golwg ar amser a threfn ei symmudiad o'r dwyrain i'r gorllewin. Yn yr hanes a geir yn *Gen.* x, am raniad y ddaiar i feibion Noah, gwelir i Sem gael ei randir yn Asia; Cam yn Affrica; a Iapheth yn "ynysoedd y Cenedloedd;" ac yr oedd yr ymadrodd hwn yn cael ei arfer yn gyffredin yn y dwyrain am gyfandir Ewrop a'r Ynysoedd. Gwnaed y rhaniad hwn yn nyddiau Peleg, sef yn mhen tua chan mlynedd ac un ar ol y diluw; ond nid oedd y meddiant eto wedi ei gymmeryd, gan fod tueddrwydd naturiol yn y llwythau i aros gyda'u gilydd. Y fath oedd anfoddlonrwydd y bobl i ymwahanu, fel y tybient gymmeryd meddiant o'r tir bob yn ychydig, fel y byddai yr eisieu arnynt; ac wrth ymdaith neu ymestyn felly y daethant i wastadedd Sinar (*Gen.* xi), lle yr aethant yn nghyd â'r gorchwyl o adeiladu dinas a thŵr, "rhag eu gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaiar," fel yr oedd yr Arglwydd wedi trefnu. Ond pan gymmysgwyd eu hiaith, "fel na ddeallent iaith eu gilydd," gorfu ar y prif dylwythau gyfeirio eu camrau, bob yn un, tua'u rhandiroedd priodol eu hunain; a chan nad oedd ond ychydig o anhawsderau i fod ar eu ffordd, tybir fod yr hanes ysgrythyrol yn eglur ddangos fod pob gwlad adnabyddus trwy y byd wedi ei chyfanneddu mewn oes neu ddwy ar ol y rhaniad yn amser eleg; sef, yn mhen tri neu bedwar can mlynedd ar ol y diluw.

Wedi yr ymwasgariad ar wastadedd Sinar—yr hwn a orweddai rhwng y Tigris a'r Euphrates—tybir i Ascenas ymsymmud tua'r gorllewin, ar hyd ochr ddeheuol y Môr Du, ac ymsefydlu yn Bithynia — talaeth ogledd-orllewinol yn Asia Leiaf—lle, y mae yn debyg, yr arosodd ef ei hun, gan fod y barth-ran hon yn cael ei galw ar ei enw am oesoedd lawer wedi hyny. Ond fel yr oedd ei hiliogaeth yn cyflym gynnyddu, daethant yn fuan drosodd i Ewrop, ar draws y culfor sydd yn cyssylltu y Marmora â'r Môr Du, a elwir yn bresennol yn gulfor Caer Cystenyn. Gan eu bod yn gadael Thrace, ac yn teithio i'r gogledd-orllewin, daethant cyn hir i gyffiniau y Danube, —enw Lladinaidd yr hon (*Ister*), sydd o darddiad Cymraeg amlwg; sef, *is—tir*. Wedi olrhain yr afon hon i'w chychwyn, a dyfod dros y Rhine, daethant o'r diwedd i lan y Môr Tawch (*German Ocean*); ac oddi yma, trodd rhai o honynt ar y dde, a daethant i orynys Jutland; ac ereill ar yr aswy tua Gâl, lle yr arosasant; ond daeth y rhan fwyaf dros y môr i Ynys Prydain, o dan dywysiad Hu Gadarn, yr hwn a fu yn brif arweinydd iddynt ar hyd y ffordd.

Hon oedd y giwdawd gyntaf: ond ymddengys iddi gael ei dilyn yn fuan gan ddwy ereill, fel y gwelir oddi wrth y *Triad* canlynol:—

"Tair ciwdawd addwyn Ynys Prydain: cyntaf, oeddynt genedl y Cymry a ddaethant gyda Hu Gadarn i Ynys Prydain; sef ni fynai efe wlad a thiroedd o ymladd ac ymlid, eithr o gyfiawnder ac yn nhangnef.

"Ail, oeddynt Al y Lloegrwys, a ddaethant o Dir Gwasgwyn ac a hanoeddynt o brif Genedl y Cymry.

"Trydydd, oeddynt y Brython, ac o Dir Llydaw y doethant, a'u hanas o gyssefin Al y Cymry.

"A'r tair Hedd Giwdawd a'u gelwir am ddyfod o honynt y naill wrth fodd y llall yn heddwch ac yn nhangnef; a'r tair ciwdawd hynny a hanoeddynt o gyssefin Genedl y Cymry, a chyfiaith cyflafar y tair Ciwdawd."—*Trioedd* v.

"Al y Lloegrwys," neu yr ail giwdawd, a ddaeth o dir Gwasgwyn (*Gascony*), ydoedd bobl a gyfanneddent y wlad o amgylch yr afon Loire, enw cyntaf yr hon oedd y *Liger*; ond y mae yn ammheus pa un a dderbyniasant eu henw oddi wrth yr afon: y mae yn fwy tebygol i'r afon gymmeryd ei henw oddi wrthynt hwy. Enw y giwdawd nesaf, sef y "Brython," sydd nodweddiadol o dueddiadau rhyfelgar. Y ddwy giwdawd hyn a ddaethant yma trwy gydsyniad y flaenaf; a chan eu bod yn siarad yr un iaith, ac wedi tarddu o'r un gwreiddyn, daethant yn fuan yn un genedl gref; a dyma frodorion cyntaf Ynys Prydain.

Bod y ciwdodau hyn wedi dyfod yma yn dra bore, a gredir gan Carnhuanawc, am fod profion sicr "eu bod o gylch dwy fil o flyneddoedd yn ol yn genedl luosog a chadarn; yr hyn a arwyddocâ eu hir feddiant o'r ynys y pryd hwnw;" ond gyda yr un prawf tebygol, gallasai yr hanesydd galluog hwn gymmeryd ei safle ganrifoedd lawer yn mhellach yn ol na dyfodiad y Rhufeiniaid yn amser Cæsar. Yr estroniaid cyntaf a ddarganfuant yr ynys hon oedd y Phœniciaid; a dywed Sammes (*Antiquities of Ancient Britain, derived from the Phœnicians*), fod y morwyr enwog hyn wedi dyfod yn gydnabyddus â phob marchnadfa yn y gogledd a'r de, ar lenydd Môr y Canoldir, ac wedi hwylio trwy gulfor Gibraltar, a dargair fod yr ynysoedd Prydeinig, mor fore a rhyfel Caerdroia, yr hon a gymmerodd le o gylch 1184, c. c. Dywed yr un awdwr yn mhellach, fod Prydain y pryd hwnw mewn cyflwr o ddiwylliad uchel, a bod y trigolion wedi cael allan adnoddau y wlad; ac yn gweithio cymmaint o'r alcan, y plwm, a'r efydd, a mwnau ereill, yn y deheu, fel yr oeddynt yn alluog i anfon cyflenwad

Digitized by Google

o'r cyfryw i holl borthladdoedd Môr y Canoldir. Bu y Phœniciaid yn dwyn y fasnach yn y mwnau hyn, a phethau ereill, yn mlaen, rhwng Prydain a phorthladdoedd Groeg, am rai cannoedd o flynyddoedd; nes o'r diwedd i'r Groegiaid, tua 500 c. c., gael allan o ba le yr oedd eu nwyddau masnachol yn cael eu cludo iddynt. Wedi hyn, daeth y masnachwyr Groegaidd drosodd i Brydain eu hunain, i wneyd masnach uniongyrchol â'r trigolion; a thystiant hwythau yr un peth am sefyllfa y wlad, a'i diwylliant. Yr oedd ei chynnyrch amaethyddol yn gyfryw y pryd hwn, fel y dynodid hi gan y Groegiaid mewn modd arbenig yn "Wlad Yd." Er nad yw y cyfeiriadau hyn mewn un modd yn rhoddi cyfrif manwl am yr amser neilduol y daeth y ciwdodau hyn i Ynys Prydain, eto yr ydys yn rhwym o ganiatäu fod hyny wedi cymmeryd lle yn oesoedd boreuaf hanesiaeth y byd newydd.

Y mae hanesion ereill, pa fodd bynag, yn rhoddi cyfrif am ddyfodiad y Cymry i'r ynys hon, o Gaerdroia, ac a welir yn yr *Historia Britonum*, dan enw Nennius, yr hwn a ysgrifenwyd yn y flwyddyn 858, o. c.; ac a adysgrifiwyd wedi hyny gan Marc y Meudwy, yn y flwyddyn 945. Yn y llyfr hwn, dywed yr awdwr iddo gael, "*in annalibus autem Romanorum scriptum est*," ddarfod i'r Cymry ddyfod i'r ynys hon o Gaerdroia, dan dywysiad Brutus, gorwyr Æneas. Dywed yn mhellach, iddo gael, "*ex antiquis libris nostrorum veterum*," fod Brutus yn fab i Hesicion ab Alanus o Iapheth, yn yr ugeinfed âch, trwy ei fab Iafan. Mae cyfeiriad at y traddodiad hwn mewn hen gyfansoddiad a briodolir i Taliesin:—

"Mi a ddoethym yma
At weddillion Troia."

Ac hefyd yn yr "Awdl Fraith:"—

"——Mor druan
Y daw 'r ddarogan
Drwy ddirlawr gwynfan
I lin Troia."

Ond heb law y cyfeiriadau hyn, y mae adroddiad helaeth o'r un chwedl yn *Mrut y Breninoedd*, a gafodd Walter Maples, archddiacon Rhydychain, yn Llydaw, yn y flwyddyn 1100, mewn hen ysgrif Gymreig, yr hon a gyfieithodd efe i'r Ladin, ac wedi hyny i'r Gymraeg yn ol. Y cyfieithiad hwn a welir yn y *Myv. Arch.*, gyda y crybwylliad canlynol o'i hanes:—"Myfi, Gwallter, Archiagon Rhydychen, a droes y llyfr hwn o Gymraec yn Ladin, ac yn fy henaint y troes i ef yr ail waith o Ladin, yn Nghymraec." Rhoddwyd yr ysgrif wreiddiol hefyd gan Walter i Gruffydd ab Arthur, a adwaenir yn well wrth yr enw "Sieffre o Fynwy," am ei fod yn fwy medrus yn yr iaith Ladin, yr hwn a'i cyfieithodd yn y flwyddyn 1125. O blegid hyn, y mae yr hanes yn cael ei briodoli yn aml i Sieffre. Ond dyma sylwedd y chwedl fel yr adroddir hi yn y *Brut*:—

"Brutus pan yn llange, a laddodd ei dad â saeth yn ddifwriad pan yn hela yn un o goedwigoedd yr Eidal, ac am ba achos y gorfu arno ffoi o'i wlad. Wedi dyfod i dir Groeg, cafodd yno nifer mawr o hiliogaeth Caerdroia yn gaethweision gan y Groegiaid. Y rhai hyn a gasglodd Brutus yn nghyd, fel yr oeddynt yn fuan yn rhifo saith mil o wŷr arfog, heb law gwragedd a phlant. Ar ol amryw fân ryfeloedd â'r Groegiaid, ennillodd Brutus un frwydr benodol, yn yr hon y cymmerodd y brenin yn garcharor, a hyn fu yn achlysur iddo gael ymadael â'r wlad yn ddirwystr. Hwyliodd Brutus a'i wyr ar dueddau Affrica am ryw ysbaid, a daethant i ynys yn yr hon yr oedd teml i'r dduwies Diana; a delw yn rhoddi atebion dewinol, yr hon a rybuddiodd Brutus i hwylio tuag Ynys Prydain. Wedi dyfod trwy gulfor Gibraltar, a mordwyo heibio Yspaen, efe a ddaeth i gyffiniau Gâl, lle y tiriodd efe a'i bobl i hela, ac yma y buont yn rhyfela â phobl y wlad, a gorfu arnynt ddychwelyd i'w llongau, a hwylio oddi yno tuag Ynys Brydain. Tiriasant yn Twtnais, yn Nyfaint. Gelwid yr ynys y pryd hwn yn Albion, neu yn Ynys Wen. Ond ar ol gorchfygu y cewri oedd yn byw ynddi, Brutus a'i galwodd ar ei enw ei hun, yn Frydain, a'i thrigolion yn Frytaniaid." Gwel PRYDAIN.

Am yr hanes hwn, dywed Carnhuanawc ei fod mor chwedleuaidd ac anghysson fel y mae yn hollol annheilwng o un math o sylw. Tybia fod y chwedl wedi ei llunio gan y Rhufeiniaid, am fod y bobl hyny yn ymffrostio yn eu deilliad o Gaerdroia, a bod Nennius yn cyfaddef mai mewn ysgrifau hanesiol perthynol i'r Rhufeiniaid y daeth efe o hyd iddi. Awgryma hefyd ei fod yn ddigon posibl, "fod rhai o'r Brytaniaid mor anwladgar ag ymhoffi yn y gred eu bod o'r un hiliogaeth a'u gormeswyr;" a bod hyn yn ddigon cyfleus i'r Rhufeiniaid, tra yr oedd yn eu cadw yn fwy tawel dan eu llywodraeth. Y mae Woodward, hefyd, yn ystyried y chwedl hon yn gwbl groes i'r hanes yn y *Trioedd*, ac yn cyfrif am yr achos o hyny fel hyn; dywed,—"Fod dosbarth o ddynion tra dysgedig wedi ei ffurfio yn y wlad hon dan lywodraeth Rhufain, yn yr iaith Ladin, ac ar egwyddorion Cristionogol, yn cael ei wneyd i fyny bron yn gwbl o offeiriaid; y rhai a wahaniaethent agos yn mhob peth oddi wrth feirdd a haneswyr y genedl." Tra y mae yr haneswyr hyn yn uno â'u gilydd i gondemnio y *Brut*, y maent yn rhoddi rhyw gymmaint o gred i'r *Trioedd*; ac os gellir dangos fod y naill yn gysson â'r llall, y mae yn rhaid fod rhyw faint o wirionedd yn mhob un o honynt.

Y mae y Dr. James, pa fodd bynag, wedi amcanu at hyn, ac wele yn canlyn sylwedd ei ymresymiad. Haera y Dr. nad yr un amgylchiad a gofnodir yn y *Brut* a'r *Trioedd*. Tra y mae yr olaf yn cyfeirio at y ciwdodau cyntaf, a ddaethant yma i gymmeryd meddiant o ynys anghyfannedd, fod y blaenaf yn son am lwyth o Droianwys, a ddaethant yma dan arweiniad Brutus yn mhen amser maith wedi hyny, sef tua deuddeg can mlynedd ar ol y diluw. Fel prawf o wirionedd y chwedl, cyfeirir at *Hanes Toledo*, gan Pedro de Rosas, yr hwn a ddywed fod, ar ol y Celtiaid, nifer mawr o Roegiaid, o'r enw *Almozudes* neu *Almonides*, wedi dyfod drosodd i Ynys Prydain, a glanio yn Nghernyw. Y mae Florian de Campo, a Don Rodrigo Ximenes—dau hanesydd Yspaenaidd ereill—yn cyfeirio at yr un amgylchiad, ac yn dyweyd eu bod yn cael eu harwain gan "Tolemon a *Brutus*—dau o uchel swyddwyr Rhufain." Y mae hyn yn amlwg, yn cadarnhau yr hyn a ddywedir yn y *Brut*. Yn mhellach, hefyd, sylwir fod y *Brut* yn dyweyd i Brutus a'r Troianwys ddyfod yma yn mhen tua deuddeg can mlynedd ar ol y diluw; a bod Ynys Prydain yn cael ei chyfanneddu y pryd hwnw gan gawri; yr hyn sydd ynddo ei hun yn addefiad nad hwy oeddynt y rhai cyntaf i ddyfod iddi. Yn lle gwrthbrofi y *Trioedd*, y rhai a roddant hanes am gynfrodorion yr ynys, y mae y *Brut* gan hyny yn eu cadarnhau; o blegid tra y dywed y naill fod yr ynys yn cael ei chyfanneddu cyn i

Digitized by Google

Brutus ddyfod iddi, dywed y llall i ni gan bwy y cyfanneddid hi, a pha fodd y daethant yma.

Wedi rhoddi y gwahanol olygiadau fel hyn ger bron, gadewir y canlyniad i farn y darllenydd. Nid oes ond ychydig o wahaniaeth rhwng haneswyr a'u gilydd mewn perthynas i'r ciwdodau ereill; ac am hyny, rhoddir eu hanes yn fwy rhwydd yn ngeiriau y *Trioedd* eu hunain.

Y nesaf a elwir—

"Tair Ciwdawd Nawdd a ddaethant i Ynys Prydain, ac yn nhanc a chennad Cenedl y Cymry y doethant, heb arf, heb ossawd;

Cyntaf, oedd Ciwdawd Celyddon yn yGogledd,

Ail, oedd yr Al Wyddyl, ac yn yr Alban y maent,

"Trydydd, Gwyr Galedin a ddaethant yn y llongau moelion hyd yn Ynys Wyth, ban foddes eu gwlad, a chael o honynt Le Tir gan Genedl y Cymry, ac nid oedd iddynt Fraint o Hawl yn Ynys Prydain, namyn y Tir a'r Nawdd a rodded iddynt dan derfyneu, a dodi arnynt na's gellid Braint Cymry cynhenid iddynt hyd yn mhen y nawfed Ach."—*Trioedd* vi.

Gwelir nad oedd y ciwdodau hyn o waedoliaeth Cymraeg, ond mai cenedloedd estronol oeddynt, a ddaethant i Ynys Prydain i ofyn nawdd ac amddiffyn cenedl y Cymry, yr hyn a ganiatäwyd iddynt. Crybwyllir am helynt rhai o honynt mewn hanesion ereill; ac am y lleill, nid oes son ond a geir yn y *Trioedd* yn unig.

Y nesaf a elwir—

"Tair Ciwdawd Ormes a ddaethant i Ynys Prydain, ac nid aethant fyth o honi.

"Cyntaf, oeddynt y Coraniaid, a ddaethant o Wlad y Pwyl.

"Ail, y Gwyddyl Ffichti, a ddaethant i'r Alban drwy Fôr Llychlyn.

"Trydydd, y Saeson.

"Sef, lle y mae y Coraniaid am Afon Hymyr a glann Môr Tawch; ac yn yr Alban y mae y Gwyddyl Ffichti, yn nglann Môr Llychlyn.

"A myned yn un a wnaethant y Coraniaid a'r Saeson a dwyn Rheal y Lloegrwys, yn ogyfan a hwynt, o drais a gorfod arnynt, a chwedi hyny dwyn coron yr Unbennaeth oddi ar Genedl y Cymry. Ac nid oes o'r Lloegrwys nad aethant yn Saeson namyn a geir yn Nghherniw, ac yn Nghwmwd Carnoban yn Neifr a Bryneich. A Chiwdawd gyssefin y Cymry a gadwasant eu Gwlad a'u Hiaith. Colli teyrnedd Ynys Prydain a wnaethant achos Brad y Ciwdodeu Nawdd, ac anrhaith y Tair Ciwdawd Ormes."—*Trioedd* vii.

Nid ydys yn gwybod o ba hiliogaeth yr oedd y Coraniaid; ond tybir iddynt ddyfod i'r Ynys hon o Belgium, a'u bod wedi ymsefydlu yma cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Crybwylla yr hanesion Rhufeinaidd am lwyth o bobl yn preswylio yn nwyreindir yr ynys, a elwir ganddynt "Coritanii." Dichon mai yr un oeddynt a'r Coraniaid.

Yr olaf a elwir—

"Tair Ciwdawd Ormes a ddaethant i Ynys Prydain ac a aethant o honi.

"Cyntaf, y Llychlynwys, a gwedi dwyn o Urb Lluyddawg y goreuon o Genedl y Cymry o'r ynys hon: sef oeddynt eu rhif tairmil a thrugaint ac un mil o wyr cyfallawg meirch a rhyfel, a gyrru y Llychlynogion drwy For hyd yng Ngwlad yr Almaen a wnaethant y Cymry ymhen y drydedd oes.

"Ail, y bu lluoedd Ganfal Wyddel a ddaethant i Wynedd, ac a fuant yno naw mlynedd ar hugain, hyd yn a'u gyrrwyd hwynt i'r mor gan Gaswallawn ab Beli ab Mynogan.

"Trydydd, y bu 'r Caisariaid a fuant o drais yn yr ynys hon amgen na phedwar canmlynedd yn ydd aethant i wlad Rhufain i wrthosod Cadgyffrwd yr ormes ddu, ac ni ddaethant fyth yn ol i Ynys Prydain, ac o hynny nid arhoses yn yr ynys hon namyn Gwragedd a phlant bychain y dan nawmlwydd oedran, a myned yn Gymry a wnaethant y rhai hynny."—*Trioedd* viii.

Ceir ychydig o eglurhâd ar y *Trioedd* hyn mewn un arall [*Trioedd* xiv], lle y dywedir i Ur ab Erin ddyfod i ofyn cymhorth i'r ynys hon; ac iddo ei gael dan adduned na cheisiai o bob prif gaer ond cynnifer o ddynion ag a allai ddwyn iddi; ac na ddelai â mwy nag un i'r brif gaer gyntaf. Felly aeth Ur i'r gyntaf heb neb i'w ganlyn ond Mathutta Fawr, ei was; ac yno cafodd ddau; ac o'r ail gaer, pedwar; ac o'r drydedd, wyth; nes o'r diwedd yr oedd y gwŷr a gafodd, yn ol y *Trioedd* blaenorol, yn "deirmil a thrugaint ac un mil o wyr;" ac un erbyn hyn, "ni ellid y rhif hwn yn yr holl ynys;" ac o herwydd hyny y dywedwyd, "Llwyra lluydd a fu erioed oedd Ur ab Erin Luyddawg." Wedi i Ur gymmeryd y gwŷr hyn, o oreuon y genedl, i Galas ac Afena, yn nhir Groeg, lle yr arosasant, daeth y Llychlynwys (gwŷr Denmark) i ymosod ar y Prydeiniaid; a chan eu bod wedi eu gwanhau i'r fath raddau trwy gyforddwy Ur, ni allwyd eu gyru yn ol hyd yn mhen y drydedd oes. Yr un peth hefyd a fu yn achlysur i'r Coraniaid ddyfod yma, am y rhai y dywedir nad aethant fyth oddi yma. Ciwdawd Ganfal Wyddel, yr hon a fu yn gormesu ar y Cymry am naw mlynedd ar ugain, a yrwyd ymaith gan Caswallon â lladdfa mor fawr, nes i gyrff y lladdedigion achosi un o "Dair Haint Ynys Prydain" [*Trioedd* xii]. Caswallon, hefyd, gyda Gwenwynwyn a Gwanar, meibion Lliaws ab Nwyfre, a gymmerasant "drugaint ac un mil o wyr" [*Trioedd* xiv], i fyned ar ol y Caisariaid, "drwy Fôr hyd yn Nhir Geli Llydaw," ac ni ddaeth un o honynt byth yn ol i'r ynys hon, "eithr aros a wnaethant yn Ngwlad Gwasgwyn, ymysg y Caisariaid." I ddial yr orddwy hon y daeth y Caisariaid gyntaf i Ynys Prydain, a hon yw y giwdawd ddiweddaf yn yr hen hanesion.—(*Myv. Arch.; Cæs. Comm.; Nennius' Hist. Brit.; Woodward's History of Wales; Carnh. Hanes Cymru; James' Patriarchal Religion.*)

CIWN, [כיון]: sydd enw a roddir, yn *Amos* v. 26, i eilun-dduw a addolid gan feibion Israel, am yr hyn y cawsant eu caethgludo i Assyria. Gwel 2 *Bren.* xv. 29; xvii. 6. Cyfieithir y gair hwn yn *Act.* vii. 43, yn Ρεμφαν, neu Ρεφαν, oddi wrth y Deg a Thrigain, Ραιφαν. Ymddengys fod y Deg a Thrigain, yn gystal a'r cyfieithwyr Seisonig a Chymreig, wedi ystyried yr enw yn un priodol; ond nid yw hyn mewn un modd yn sicr, gan y darllenid y geiriau yn fwy cywir fel hyn; "Ond dygasoch babell eich brenin (eilun) a *delw* (neu *ddelwau*) eich eilunod, seren eich duw, a wnaethoch i chwi eich hunain." A hyn hefyd y cytuna "*imaginem idolorum vestrorum*," y *Vulgate.* Yn ol y darlleniad hwn, gwelir nad yw gwir enw yr eilun yn cael ei roddi, ond gellir casglu oddi wrth yr ymadrodd "seren eich duw," mai un o'r cyrff wybrenol a feddylir. Tybia Jerome mai Lucifer neu Venus ydoedd. Yn y cyfieithiad Syriaidd, enwir *Sadwrn.* Yr oedd y blaned hon, yn nghyd â Mawrth, yn cael ei haddoli gan hiliogaeth Sem. Hon yw y farn fwyaf gyffredin yn bresennol; ac y mae Winer yn sylwi ar y mater dan y gair Sadwrn. Y mae rhai wedi amcanu

Digitized by Google

profi nad yw *Remphan* a *Rephan* yn amgen nag enwau Aiphtaidd y blaned Sadwrn; ond nid yw hyn wedi ei egluro i foddlonrwydd. Ceir hwynt felly, y mae yn wir, yn ngeirlyfr Coptaidd-Arabaidd Kircher [*Ling. Ægypt. Restit.*, td. 49; *Œdip. Ægypt.*, cyf. i, td. 386]; ond y mae Jablonsky wedi dangos yn eglur fod yr enwau crybwylledig, yn gystal ag enwau planedau ereill a ganfyddir yn y geirlyfrau uchod o darddiad Groegaidd, wedi eu cymmeryd o'r darlleniadau Coptaidd o *Amos* a'r *Actau*.—(*Jablonsky's Remphan Ægyptior., in Opusc.* ii, 1, *sq.*; *Schræder's De Tabernac. Molochi et Stella Dei Remph.*, 1745; *Maius' Dissert. de Kium et Remph.*, 1763; *Harenburg's De Idolis Chium et Remphan*, 1723; *Wolf's Dissert. de Chium et Remphan*, 1741; *Gesenius' Thesaurus*, td. 669, 670; *Kitto's Bib. Cycl.*)

CLADDEDIGAETH, CLADDU: mewn perthynas i'r math o leoedd y cleddid ac y cleddir cyrff dynol, a'r dull o wneuthuriad y beddau, mewn gwahanol wledydd, edrycher dan y gair BEDD, &c. Ac yma sylwir ar yr amrywiol arferion a defodau cyssylltiedig â chladdedigaeth y meirw.

Un o'r penderfyniadau cyntaf a gyhoeddwyd uwch ben cyndad dynolryw, ar ol ei gwymp o'i gyflwr o'i ddiniweidrwydd, oedd, "Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli;" yr hyn a awgrymai mai yn mhridd y ddaiar yr oedd y lle cyfaddasaf i ddodi cyrff dynion ar ol eu marwolaeth; a dyna y dull o gladdu y mae genym y crybwylliadau boreuaf am dano. Mor fore a dyddiau y patriarchiaid, ymddengys fod y dull hwn yn un sefydledig yn mysg gwahanol genedloedd, fel y canfyddir oddi wrth yr ymddyddan rhwng Abraham a meibion Heth: *Gen.* xxiii. 3, &c. Ac yn fwyaf cyffredin yn mysg braidd bob cenedl o nodweddiad moesol neu wareiddiedig, ystyriwyd claddu y meirw nid yn unig yn weithred o ddyngarwch, eithr hefyd yn un ddyledus a chanmoladwy; a phwy bynag a'r ni weinyddid y gymmwynas hon i'w gorff marw a gyfrifid yn un mwyaf truenus o ddynion: *Preg.* vi. 3; *Salm* lxxix. 2, 3; *Ier.* xiv. 16. A'r unrhyw ydoedd un o'r bygythion arbenig a gyhoeddid yn erbyn annuwiolion nodedig (*Deut.* xxviii. 26; *Ier.* viii. 1, 2; xxii. 18, 19).

Y mae yn wir fod llawer o genedloedd, lluosog eu poblogaeth, heb ddilyn yr arferiad o gladdu cyrff eu meirw yn y ddaiar; eithr eu llosgi yn lludw ar y mygedorth (*funeral pile*); megys gynt yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, ac yn ddiweddarach yn mhlith yr Indiaid; ereill, megys yr Hindoos, yn eu bwrw i afonydd mawrion; neu fel y Parsees, yn eu rhoddi yn ymborth i adar ysglyfaethus. Ac y mae yn hysbys fod crybwylliad neu ddau yn y Beibl am yr Iuddewon yn llosgi cyrff meirw: un yn yr amgylchiad o farwolaeth y brenin Saul a'i feibion (1 *Sam.* xxxi. 12); a hyny, y mae yn debygol, o herwydd bod eu cyrff hwy wedi eu cigyddio gymmaint gan eu gelynion fel nas gellid yn weddus weinyddu arnynt yr anrhydedd breninol o berarogliad. Mae y llall wedi ei goffau gan y prophwyd Amos (*pen.* vi. 10); gan gyfeirio, fel yr ymddengys, at amgylchiad o haint peryglus yn mhlith y genedl, ac felly yn peri bod yn angenrheidiol defnyddio y cyfryw foddion er mwyn attal ymdaeniad yr haint yn mysg y trigolion. Eithr yn gyffredinol ymddengys fod y ddefod o gladdu y meirw yn cael ei harferyd yn dra defosiynol a chysson yn mhlith y genedl Hebrëig, fel y gellir casglu oddi wrth yr amrywiaeth o grybwylliadau sydd i'w cael yn yr Hen Destament a'r Newydd. A'r dull y gosodir yr unrhyw allan a gyfetyb yn agos iawn i'r hyn a arferir yn mysg cenedloedd dwyreiniol yn y dyddiau hyn. Cauid llygaid y marw gan ei gyfnesaf o berthynas, yr hyn a ddilynid â chusan ymadawol; fel yr addawyd i Iacob pan oedd yn myned i'r Aipht, "Myfi," meddai Duw, "gan ddwyn a'th ddygaf di i fyny drachefn; Ioseph hefyd a esyd ei law ar dy lygaid di;" *Gen.* xlvi. 4. Ac yn gyfatebol dywedir, pan fu farw Iacob, "Yna y syrthiodd Ioseph ar wyneb ei dad, ac a wylodd arno ef, ac a'i cusanodd ef;" *Gen.* l. 1. Yn nesaf golchid y marw â dwfr, a dodid y corn i orwedd mewn goruwch ystafell: 2 *Bren.* iv. 21; *Act.* ix. 37. Wedi hyn amdoid y corff âg amryw ddyblygion o liain main, a dodid napcyn am ei ben, fel y gwelir oddi wrth hanes cyfodiad Lazarus a'r Arglwydd Iesu: *Ioan* xi. 44; xx. 5, 7. Ond yn y cyfrwng hwn, heb law y triniaethau anhebgorol a grybwyllwyd, byddid yn cyflawnu triniaeth arbenig arall ar gyrff dynion o urddas ac enwogrwydd, a hyny weithiau gyda dirfawr draul a haelioni, yn gyfartal i foddion y marw neu frwdfrydedd ei berthynasau neu gyfeillion. Y driniaeth hon a elwid PERAROGLI; am yr hon gelfyddyd gwel dan y gair hwnw.

Byddai cyrff pobl gyfrifol yn cael eu dodi mewn eirch. Ac yn mysg yr Aiphtiaid, dyfeiswyr cyntaf y cyfryw goffrau, nid oedd eu defnydd weithiau amgen na haenau o bilenau y papyrfrwyn, wedi eu gosod ar eu gilydd, neu eu gludio yn nghyd; wedi hyny daethpwyd i ddefnyddio eirch o goed ac o geryg; ac yr ydys yn barnu ddarfod i rai o'r fath yma ddyfod i arferiad yn fore iawn yn Ngwlad Canaan hefyd, yn enwedig wrth gladdu breninoedd a phendefigion clodfawr; ac ar eu heirch, fel arddangosiadau chwaneg ol o anrhydedd, gosodid rhyw arwyddion cynnrychiedig o'u graddoliaeth, tra yn cael eu cludo i'w beddrodau; megys ar arch tywysog, dodid ei goron a'i deyrnwialen; ar ryfelwr, ei gleddyf a'i arfau; ac ar rabbi, ei lyfrau.

Ond yn gyfamserol i hyn y mae yn ddyledus sylwi ar yr agwedd deuluol yn nghartrefle y trancedig: a chan nad ydyw defodau yn cyfnewid nemawr yn mysg trigolion y gwledydd dwyreiniol, gellir ystyried eu harferion presennol fel cynllun o'r hyn oeddynt yn mhob oes. Cyn gynted ag yr elo yr anadliad olaf allan o gorff y claf, y mae y benywod yn y teulu yn tori allan i grochlefain yn y modd mwyaf wylofus, gan barhau pob dolef cyhyd ag y dalio eu hanadl, a chan ddiweddu gyda dwys ochenaid. Yn mhen ychydig ennyd gwnant yr un modd drachefn; ac er bod yr angladd weithiau yn cymmeryd lle yn fuan ar ol trengiad y marw, eto cynnelir y cyfryw wylofain dros wyth niwrnod. Eisteddant yn nghyd yn gylch ar y llawr mewn ystafell neilldduedig, hyd oni chymmerir y corff ymaith o'r tŷ, a gwraig, merch, neu ryw gares agos i'r marw yn cistedd yn y canol; a phob un â napcyn yn ei llaw. Wrth glywed y cyfryw ddolefau ac wylofain, bydd cymmydogion a chyfeillion y teulu yn ymgasglu i'r tŷ mor luosog a chynhyrfus, fel, yn iaith yr efengylwyr, wrth ddysgrifio marwolaeth merch Iairus, gelwid yr amgylchiad yn "derfysg" (θόρυβος): *Marc* v. 38; *Mat.* ix. 23. Ond yn mysg graddau o bobl mwy cyfrifol, lle ni chymmerid y fath hyfdra, yr oeddid, ac yr ydys eto, yn arfer peri i'r gwasanaeth hwn o amlygu galar y teulu gael ei gyflawnu gan ddosbarth o fenywod, y rhai a gyflogent eu hunain fel galarwragedd proffesedig, a rhai *cyfarwydd* yn yr alwedigaeth hono, fel y dywedid am danynt gan y

Digitized by Google

prophwyd Ieremiah (*pen.* ix. 17, 18); "Danfonwch am y rhai cyfarwydd, i beri iddynt ddyfod, a brysio, a chodi cwynfan, fel y gollyngo ein llygaid ni ddagrau, ac y dyfero ein hamrantau ni ddwfr." Y rhai hyny, gan ymgymmysgu â'r cylch teuluol rhag-grybwylledig, a thrwy ddyfal a dwys ocheneidio, ac arferyd ystumiau arteithiol, gan fynych goffäu rhinweddau a rhagoriaethau y marw, fel y rhai hyny yn amgylchiad Dorcas (*Act.* ix. 39), nes adgynhyrfu teimladau y perthynasau, a'u galluogent i dywallt dagrau drachefn a thrachefn; tra yn y cyfamser y mae y gares agosaf yn parhau yn unman, gan dynu ei gwallt, ac archolli ei gwyneb, ei breichiau, a'i mynwes, â'i hewinedd. Ac i wneyd i'r galar-ganeuon fod yn fwy effeithiol, byddid weithiau yn arferyd offerynau cerdd (*Ier.* xlviii. 36), fel yn amgylchiad merch Iairus, lle y dywedir, "Pan ddaeth yr Iesu i dŷ y penaeth, a gweled y *cerddorion*" (*αὐλητάι*, sef *pibellwyr*). Ac i'r un perwyl y dywedir am alarnadaeth y brenin Iosiah: 2 *Cron.* xxxv. 25. Yn y cyfryw fodd, mewn dystawrwydd yn gymmysgedig â chyrsiau disymwth o ddolefain, treulir yr amser hyd oni chymmerir y marw ymaith tua'r gladdfa. Nid yn mysg yr Iuddewon yn unig yr oedd yn arferedig defnyddio offerynau peroriaethol tuag at ddwyseiddio galar personol a chyhoeddus; eithr y mae hanesiaeth yn dangos fod y bibell (*flute*) yn arferedig yn angladdau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hefyd; ac y mae yr unrhyw arferiad yn parhau yn mhlith trigolion duon Affrica, y Tyrciaid yn Palestina, yr Hindwiaid, yr Aiphtiaid, a Groegiaid yr oes bresennol. "Yn eu holl brif westfaoedd," medd y Dr. Shaw, "y mae y benywod yn croesawu dyfodiad pob un o'r ymweiwyr drwy lefain allan amryw weithiau, Lŵ, lŵ, lŵ! Ac yn eu hangladdau, ac ar achlysuron galarus ereill, arferant y cyffelyb ddadwrdd, oddi eithr gyda llais mwy ceuawl, gan ddiweddu pob ebwch gyda rhyw ddwfn fol-ruad. Ac y mae yn debygol mai rhywbeth o'r fath yma oedd yr *αλαλαζοντας πολλά*, sef 'wylo ac ochain llawer,' fel y mae yr ymadrodd yn ein cyfleithiad ni: *Marc* v. 38. Y benywod a gyflogid i weinyddu ar y cyfryw achlysuron galarus, yr un modd a'r galarwragedd gynt, ydynt gyfarwydd mewn galarnadaeth, ac yn medru cyflawnu eu gorchwyl gyda'r fath briododdeb lleisiau ac ymystumiau, fel mai anfynych y methant effeithio ar y dyrfa i gynhyrfu y teimladau mwyaf difrifol ac athrist."

Y mae y Parch. William Jowett, yn hanes ei deithiau yn Palestina, yn adrodd ddarfod iddo gyrhaeddyd i dref Naplous, sef yr hen Sichem gynt, yn fuan ar ol marwolaeth llywodraethwr y lle. "Ar ein dyfodiad i olwg y porth," medd efe, "canfyddem fintai luosog o fenywod, y rhai oeddynt yn araf gôr-ganu, gan fesur yr amser drwy ysgogiad eu dwylaw. Erbyn ein bod wedi cyrhaeddyd at y porth, yn ddisymmwth hwy a newidiasant eu tôn, gan dori allan yn y cwynfanau a'r ysgrechiadau mwyaf brawychus; yr hyn, yn nghyd â'n hystyriaeth o'n bod yn myned i ddinas na bu erioed yn enwog am ei llettygarwch, a'n meddiannodd â theimladau tra ansiriol."

Ymddengys fod yr ysbaid o amser rhwng marwolaeth a chladdedigaeth yn llawer byrach yn ngwledydd y dwyrain nag y mae yn arferedig yn ein gwlad ni yn yr oes hon; canys gellir casglu y byddai y patriarchiaid boreuol yn claddu eu meirw yn fuan iawn (*Gen.* xxiii. 2—4; xxv 9; xxxv. 29): ond y mae yn debygol y byddai eu hiliogaeth yn yr Aipht yn oedi yn hwy; ac mai o herwydd hyny y darfu cyfraith Moses benodi bod i'r halogedigaeth oddi wrth gorff marw barhau am saith niwrnod, fel y byddai i'r bobl brysuro yr angladd; heb law fod cynhesrwydd hinsawdd rhai gwledydd yn galw am hyny yn fwy neillduol. Ac y mae y dysgawdwr Jahn yn sylwi bod yr Iuddewon mewn oesoedd diweddarach yn dilyn esampl y Persiaid, gan gladdu y marw yn fuan iawn ar ol ei drancedigaeth; o'r hyn y ceir dau anghraifft nodedig yn *Act.* v. 6, 10. Ac y mae yn debygol mai yr achos o oedi claddiad Tabitha oedd, y dysgwyliad am ddyfodiad Pedr: *Act.* ix. 37, 38.

Y dull mwyaf arferedig o gludo corff i'r gladdfa ydoedd ar elor neu wely (2 *Sam.* iii. 31); ac mewn rhai amgylchiadau byddid yn myned i gost a rhwysg nid bychan, yn enwedig os cywir yw casgliadau amryw ddysgedigion oddi wrth yr hanes am y brenin Asa (2 *Cron.* xvi. 14), ac am Herod Fawr [*Hen. Jos.*, xvii. 8, adran 3]; sef fod y penaduriaid hyny yn cael eu trosglwyddo i'w beddau yn eu gwelyau eu hunain. Pa fodd bynag, yr elorau mwyaf arferedig yn mysg y cyffredin a'r is-radd bobl, nid oeddynt amgen na math o ystyllen ddiaddurn, ar ba un y dodid y corff i orwedd, gan ei orchuddio âg ychydig lian neu frethyn ysgafn; a thrwy ddodi yr unrhyw ar ddwy drostan, cludid y marw ar ysgwyddau ei gyfeillion tua'r beddrod; o'r hyn y ceir esampl yn hanes cynhebrwng mab y weddw o Nain: *Luc* vii. 11—14. "Y dull hwn o gyflawnu defodau claddedigol," medd un ymdeithydd dealltwrus, "sydd yn arferedig hyd y dydd

Dar. 181.

heddyw yn mysg Iuddewon, Mahometiaid, a Christionogion yn y dwyrain." Y perthynasau agosaf a gerddant yn nesaf at yr elor; gan gyflawnu gorchwyl cludwyr, yn yr hyn y cynnorthwyir hwynt gan wŷr o'r dorf, y naill ar ol y llall. Canys os bydd y marw yn un o nodweddiad cyhoeddus, ac wedi bod yn gariadus yn mysg ei gydnabod a'i gymmydogion, er mewn sefyllfa isel yn y byd, daw rhifedi mawr o'r cyfryw i dalu y gymmwynas olaf hon i'w gorff marw: ac o hyn hefyd ceir anghraifft arbenig yn amgylchiad yr angladd crybwylledig yn Nain, lle y dywedir fod "bagad o bobl y ddinas gyda'r weddw." A'r lle y byddo moddion yn caniatäu, cyflogir galarwyr i gydrodio â'r orymdaith; a thrwy ddadorchuddio y corff yn achlysurol ar hyd y

Digitized by Google

ffordd, cymmerir hyny fel arwydd i'r dorf i adnewyddu eu dolefau galarnadus. Ond yr angladd mwyaf nodedig a goffeir yn yr Ysgrythyrau oedd, yr un a wnaeth Ioseph i'w dad Iacob: *Gen.* l. 1—14.

Pan gyrhaeddai y cynhebrwng i'r gladdfa neu y fynwent, byddai yr Iuddewon—megys rhai yn proffesu eu crediniaeth o anfarwoldeb yr enaid ac adgyfodiad y corff—yn cyfeirio eu lleferydd at y meirw y rhai a orweddent yno, fel pe ouasent ddynion byw, gan ddywedyd, "Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn a'ch creodd, a'ch porthodd, a'ch dygodd i fyny; ac o'r diwedd, yn ei gyfiawnder, a'ch cymmerodd ymaith o'r byd Efe a ŵyr eich rhifedi oll, ac mewn amser a'ch bywhâ drachefn. Bendigedig fyddo yr Arglwydd, yr hwn sydd yn peri marwolaeth, ac yn adferu bywyd."—[*Buxtorf's Synag. Jud.*, pen. xxxv.] Ac ar ol cyfarch y meirw fel y crybwyllwyd, dodant y corff i lawr ar y ddaiar; ac os bydd y marw wedi bod yn un o enwogrwydd, traddodir math o araeth angladdol ganmoliaethol uwch ben y corff. Wedi hyn, rhodiant o amgylch y bedd, gan adrodd gweddi lled faith, yn dechreu gyda *Deut.* xxxii. 4, yr hon a alwant "Cyfiawnder barn;" a hyny o herwydd eu bod yn y weddi hono yn talu diolch i Dduw am ddarfod iddo draddodi barn uniawn ar fucheddiad y marw. Yna dodir cydaid bychan o bridd dan ben y corff, a'r arch (os bydd un) a gauir ac a hoelir yn ddiogel. Os gwr a fydd y marw, erchir i ddeg o ddynion roi deg tro o'i amgylch, gan adrodd gweddi dros ei enaid; a'r perthynas cyfnesaf a rwyga ddernyn o'i wisg; a'r corff a ollyngir i lawr i'r bedd, â'i wyneb tua'r nefoedd, tra y mae y galarwyr yn llefain arno, "Dos mewn tangnefedd!" neu yn ol y Talmudiaid, "Dos i dangnefedd!" Y perthynasau agosaf yn gyntaf a daflant bridd ar y corff; ac wedi hyny, pawb o'r gwyddfodolion. Ar ol cyflawnu y pethau hyn, hwy a ymadawant, gan gerdded yn wysg eu cefnau; a chyn myned o'r fynwent, tynant bob un dusw o laswellt dair gwaith, ac a'i taflant dros eu hysgwyddau, gan ddywedyd, "Hwy a flodeuant fel gwellt y ddaiar;" *Salm* lxxii. 16.

Yn mhlith amlygiadau ereill o alar o herwydd marwolaeth perthynasau a chyfeillion, byddai yr Iuddewon yn arfer y ddefod o rwygo eu dillad, am yr hwn arferiad y ceir crybwylliadau mynych yn yr Ysgrythyrau ar wahanol achlysuron; megys *Gen.* xxxvii. 29, 34; *Barn.* xi. 35; 2 *Sam.* i. 2, 11; iii. 31; 2 *Bren.* ii. 12; *Iob* ii. 12, &c. Byddent hefyd weithiau yn cerdded yn droednoeth ac yn bennoeth, gan orchuddio yr ên isaf â'u gwisg allanol, ac yn tynu eu gwallt a'u barfau; yn ymattal oddi wrth iawn drefnu eu gwisgiadau, heb eneinio eu penau nac ymolchi, na chwaith ymddyddan nemawr y naill â'r llall; taenent hefyd lwch ar eu penau, neu gorwedd ynddo; ymattalient oddi wrth ymborth, a gwin, a gwleddoedd: 2 *Sam.* i. 12; iii. 35; *Ier.* xxv. 34. Ar ol y claddedigaeth, byddai cymmydogion y teulu galarus yn darparu lluniaeth iddynt, yr hyn oedd dra angenrheidiol ar ol y fath adeg flinderus a galarus. Yr anrhegion hyny a elwid weithiau לחם אונים=*lachem onem*, sef "bara galar;" ac weithiau כוס תנחומים=*cos tanchumim*, sef "phiol cysur;" *Ier.* xvi. 7; *Ezec.* xxiv. 17; *Hos.* ix. 4.

Canfyddir oddi wrth *Ioan* xi. 31, fod yn arferiad i berthynasau y marw fyned at y bedd i wylo yno dros ryw ysbaid ar ol y claddedigaeth; ac y mae y ddefod hon yn parhau i gael ei harfer o hyd yn y gwledydd dwyreiniol; fel y sylwa y Parch. John Hartley, yn hanes ei deithiau yn nhir Groeg. "Un bore," medd efe, "pan yn rhodio wrthyf fy hun yn Ægina, clywn ryw sŵn mwyaf wylofus a ddaeth erioed i'm clustiau. Cyfeiriais fy ngherddediad tua'r lle yr ymddangosai ei fod yn tarddu, yr hyn a'm harweiniodd at fedd, yn mha un yn ddiweddar y claddesid dyn ieuanc, yr hwn a dorasid i lawr yn mlodau ei ddyddiau; ac uwch ben y bedd hwnw yr oedd dynes, yr hon a gyflogasid i'r perwyl, yn tywallt 'galar, a griddfan, a gwae,' a hyny gyda llais ac agwedd mor hynod o gwynfanus, fel mai prin y gallesid ammheu nad oedd yn ddiragrith."

CLADDFA—LE. Gwel Bedd.

CLADDOGOF, [Seis., *catacomb*]: ogofäau tanddaiarol i gladdu y meirw ynddynt. Y maent i'w cael yn y nifer mwyaf o wledydd; ond yn benaf mewn gwledydd fel yr Aipht, Italy, a Sicily —lle y mae careg hawdd ei naddu, ac eto yn ddigon caled i beidio syrthio i mewn. Y farn fwyaf tebyg am eu dechreuad ydyw, mai chwarelau oedd amryw o honynt ar y cyntaf, y rhai a ddefnyddid wedi hyny yn feddrodau. Y mae claddogofäau Rhufain, y fynedfa i'r rhai sydd ar ffordd Appia, o ddeutu tair milltir o'r ddinas, ac yn dra lluosog ac eang. Tybia Mr. Monro, yn ei *Philosophical Transactions*, mai beddau cyffredin yr hen Rufeiniaid oeddynt. Y mae yr ogof o ddeutu tair troedfedd o led, a deg o uchder; y maent yn rhedeg yn ffurf oriel, a chyssylltiad neu dramwyfa o'r naill i'r llall: gosodid y cyrff ar hyd yr ochrau, tair neu bedair rhes uwch law eu gilydd. Prif ddyddordeb yr ogofäau hyn, fodd bynag, ydyw eu cyssylltiad â'r Cristionogion yn y canrifoedd cyntaf. Defnyddid hwy ganddynt, yn ol pob tebyg, yn lleoedd addoliad yn amser erlidigaethau, ac yn gladdleoedd. Cafwyd ynddynt arluniau, beddargraffiadau, ac allorau —oll yn dangos rhyw berthynas â Christionogion a Christionogaeth. Yn amser Diocletian, yr oedd nifer mawr o feddau Cristionogion ynddynt; ac yno y ffoent am noddfa rhag eu gelynion; "Ac wrth oleuni lamp, syllent yn hyderus ar weddillion y meirw, a thrwy ffydd yn Arglwydd y meirw a'r byw, dalient gymundeb â'u brodyr a'u chwiorydd ymadawedig, y rhai oeddynt, er yn feirw, yn fyw iddo ef." Yn y mynedfeydd culion, trofäol, gwelid agenau wedi eu tori yn y graig, yn llawn o esgyrn y Cristionogion. Wrth gymmeryd dan ystyriaeth nifer y Cristionogion yn Rhufain yn yr ail a'r trydydd canrif, a bod yr ogofäau hyn yn gladdleoedd cyffredin iddynt y pryd hyny, y mae yn rhaid fod y casgliad o weddillion iddynt yn fawr iawn. Gallai y Cristion erlidiedig dramwy drwyddynt am lawer o filltiroedd, gan sylwi, wrth fyned rhagddo, ar ystafelloedd dystaw y rhai a hunent yn yr Iesu. Y mae yn aros yn bresennol ddarnau o geryg, ac arnynt feddargraffiadau yn perthyn i gyfnod cyn yr erlidigaeth da Diocletian; ac wrth i ni chwilio i mewn iddynt, medd un awdwr, ennillant ddyddordeb chwanegol yn ein golwg, wrth feddwl eu bod wedi cael sylwi arnynt a'u darllen gan y rhai a ddyoddefasant yn achos crefydd a chydwybod yn y trydydd canrif. Y mae y beddargraff canlynol yn un lled fore:—

"N. xxx. Syrra. et. Senec. Coss."

Pa un a ydyw "xxx" yn cyfeirio at ferthyr oedd yn ddeg ar ugain oed, ynte at ryw ddeg ar ugain

Digitized by Google

o ferthyron, sydd ansicr; ond y mae yn amlwg fod "*Syrra. et. Senec. Coss,*" yn cyfeirio at drafnoddaeth Syrra a Senececio; ac y mae yn hysbys eu bod hwy yn drafnoddwyr yn y flwyddyn 102, o. c.; felly, y mae y beddargraff uchod mor fore a dechreuad yr ail canrif.

Pan esgynodd Cystenyn yr orsedd, rhoddwyd y claddogofäau yn feddiant i'r Cristionogion, am eu bod yn lleoedd ag yr hoffai tywysogion a mawrion y llys gyrchu iddynt. Adrodda Jerome, ei fod yn arferol, pan yn ieuanc, o ymweled yn fynych â hwynt. "Pan oeddwn yn Rhufain, ac yn brysur gyda llenyddiaeth, arferwn gydag ereill o'r un oedran, ac yn cael fy nghynhyrfu gan yr un teimladau, ymweled â beddrodau y merthyron ar y Sabbathau; ac yn fynych, awn i mewn i'r celloedd tanddaiarol, lle y mae y muriau ar bob llaw wedi eu gorchuddio â chyrff, a'r tywyllwch yn gymmaint fel yr adgofiwn yn fywiog eiriau y prophwyd—'Disgynasant yn fyw i uffern,—er fod mewn rhai manau dyllau bychain, nid teilwng i'w galw yn ffenestr, i ollwng i mewn ryw ychydig o oleuni i leihau y tywyllwch sydd yn gordoi y lle. Ac fel yr äem yn mlaen gyda chamrau gofalus, meddyliem am eiriau Virgil—'Dychryn ar bob llaw; y mae hyd yn ced y dystawrwydd yn chwanegu yr arswyd.'"

Y mae claddogofäau Naples heb fod yn annhebyg i rai Rhufain; a dywed yr Esgob Burnet eu bod yn harddach a helaethach na hwynt. Y mae y fynedfa iddynt yn ddigon i beri arswyd, gan fod penglogau ac esgyrn y rhai a laddwyd gan y pla a anrheithiodd Naples yn yr unfed canrif ar bymtheg yn gorwedd yno yn bentyrau. Y mae rhai o'r mynedfeydd hyn wedi eu gorchuddio âg arwyddluniau Cristionogol. Y mae yn Palermo a Syracuse hefyd ogofäau cyffelyb. Gwelir rhai llai yn Malta, wedi eu naddu yn y graig ar ba un y saif hen bentref Città Vecchia. Gwelir hwy hefyd yn ynysoedd Groegaidd yr Archipelago. Yn Milo, un o'r Cyclades, y mae mynydd wedi ei dyllu yn mhob cyfeiriad ganddynt, fel crwybr gwenyn. Y maent hefyd yn lluosog yn holl barthau creigiog yr Aipht; ond nid ydynt gymmaint o ran eu maint, nac o'r un ffurf, a rhai Rhufain a Naples. Y mae y pryder oedd gan yr Aiphtiaid am gadw yn ddilwgr weddillion eu cyfeillion, a chyrff anifeiliaid cyssegredig, yn ddigon i roddi cyfrif am nifer yr ogofäau hyn. Y mae teithwyr lled ddiweddar yn yr Aipht, megys Belzoni, Salt, Legh, a Henniker, wedi rhoddi hanes manwl am danynt. Y maent yn agos i Cairo, ac yn cyrhaedd oddi yno at byramidiau Pharaoh, y rhai ydynt wyth milltir o'r ddinas. Canfyddwyd rhai lled fychain yn Peru, a pharthau ereill o ddeheudir America.

CLAFR—LLYD, [*claf*]: crach, crachlyd. Yr oedd yn waharddedig i'r offeiriaid fyddent "yn grachlyd neu yn glafrllyd" (Seis., "be scurvy or scabbed") wasanaethu yn y tabernacl: *Lef.* xxi. 20. "Am hyny y clafra yr Arglwydd gorynau merched Sion" (*Esa.* iii. 17):="Will humble the heads."—*Lowth*:="Will smite with a scab the crown of the head."—*Cyf. Seis.*:="Will make bald the crown of the head."—*Cyf. Calvin.* Ystyr y gair Hebraeg, medd Parkhurst, ydyw darostwng; dwyn i gyflwr o gaethiwed.

CLAI, [*llai*]: pridd, priddgalch. Sonir am glai yn fynych yn yr Ysgrythyrau, yn benaf gyda chyfeiriad at y defnydd a wneir o hono gan y crochenydd; ac y mae y ffurfiau prydferth y dygid y defnydd isel hwn iddynt dan ei ddwylaw yn cael eu harfer yn arwyddluniau o allu ac awdurdod Duw ar ddyn. Fel y mae y clai cyffredin yn cael eu droi yn llestr buddiol a gwasanaethgar, felly y mae Duw wedi cyfodi dyn o bridd y ddaiar i urddas uchel yn mysg ei greaduriaid. "Nyni ydym glai, a thithau yw ein lluniwr ni" (Seis., "our potter"); *Esa.* lxiv. 8. Fel y mae y telpyn clai yn hollol o dan feistrolaeth y crochenydd, felly y mae dyn dan awdurdod Duw (*Rhuf.* ix. 21). Ceir cyfeiriad at y defnydd a wneid o glai i selio âg ef yn *Iob* xxxviii. 14; "Hi a ymnewidia fel clai y sel:"="Seis., "It is turned as clay to the seal." Yn ystod y tywyllwch, y mae y ddaiar yn ymddangos yn wag, heb un argraff arni, fel clai heb roddi y sel arno; ond erbyn goleuni y bore, y mae gwrthddrychau afrifed yn ymddangos arni—ei hwyneb yn llawn mynegiad, prydferthion yn ei gorchuddio, fel y clai cyffredin a gwaed ar ol derbyn argraff y sel. Ac mor ebrwydd y mae ei gwedd yn ymnewidio, pan lewyrcha y goleuni arni, ag y mae y clai yn newid i argraff y sel. Gallai y cyfeirir yma at selio priddfeini cyn eu llosgi, yr hyn a welir yn mhriddfeini yr Aipht a Babilon. Dywed Norden fod swyddogion y Sultan yn Cairo yn selio drws ei ysgubor gyda chlai yn lle cwyr. Ac y mae ystafelloedd lle y cedwir nwyfau cyffredin yn cael eu selio fel hyn; rhoddir darn o glai ar y clo, a selir ef â math o sêl o bren.

CLARKE, ADAM, LL.D.: ydoedd frodor o Moybeg, y rhan orllewinol o'r Iwerddon, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1760. Fel llawer o ddynion enwog ereill, yr ydoedd yn ddyledus i ddylanwad a chynghorion ei fam am ffurfiad ei gymmeriad, yn gystal ac am gyfeiriad ei fywyd am yr amser dyfodol. Perthynai ei dad i Eglwys Loegr; ond ei fam, yr hon ydoedd yn wreiddiol o Ysgotland, ac yn perthyn i'r Presbyteriaid, ar ei dyfodiad i'r Iwerddon, a fabwysiadodd gyda sel mawr Fethodistiaeth Wesleyaidd, ac a ddefnyddiodd bob moddion i ddwyn ei mab dan ddylanwad egwyddorion y cyfundeb yr oedd yn aelod parchus o hono. Yr ydoedd y bachgen, er yn ieuanc iawn, yn sychedig am wybodaeth; ond yn ei flyneddoedd cyntaf, nid oedd unrhyw barodrwydd neillduol ynddo i dderbyn dysg: ond fel yr oedd ei gynneddfau yn ymagor, gadawai ei gydysgolheigion yn mhell ar ol. Pan roddwyd ef yn y gelfyddyd o weithio llieiniau, deallodd yn fuan ei fod mewn sefyllfa nad oedd yn gwasanaethu dim i dori ei syched am wybodaeth. Penderfynodd yn fuan newid ei ddull o fyw, a dychwelodd adref, a threuliodd ei amser mewn dysgu ieithoedd, a llafurio ar dyddyn ei dad. Dywedir am dano, iddo y pryd hwn ddewis yn arwyddair iddo ei hun y geiriau canlynol:—"Y neillduol a gais wrth ei ddeisyfiad ei hun, ac a ymyra â phob peth." Mae y cyfieithiad Seisonig yn eglurach ac yn fwy amlwg, yn cynnwys penderfyniad Clarke—"Through desire a man having separated himself, seeketh and intermeddleth with all wisdom." Pan oedd tua dwy ar bymtheg oed, profodd argraffiadau dwys o natur grefyddol ar ei feddwl, a phenderfynodd gyssegru ei hun i weinidogaeth yr efengyl. Yr oedd y pregethwyr Wesleyaidd a ymwelent â thŷ ei rieni, oeddynt gydnabyddus âg ef, yn hollol benderfynol mai hyn oedd ei ddyledswydd; ac ysgrifenasant at Mr. Wesley ar ei achos: a'r canlyniad fu, i Clarke symmud i'r ysgol a sylfaenwyd gan Mr. Wesley

Digitized by Google

yn Kingswood, yn agos i Bristol. Yr ydoedd yn awr mewn amgylchiadau mwy manteisiol i lafurio am wybodaeth. Heb law efrydiau y lle—y rhai nad oeddynt gymmaint ynddynt eu hunain i un fel efe, oedd yn cael ei symbylu yn ei flaen gan syched angerddol—yr oedd yr amser, fe ddichon, yn fwy gwerthfawr. Ymgymmerodd â dysgu ei hun lawer o bethau nad oeddynt o fewn cylch dysgeidiaeth y sefydliad. Dywedir iddo, wrth balu yn yr ardd un diwrnod, gael hanner gini; ac â hwn, iddo brynu gramadeg Hebraeg, yr hyn oedd dechreuad ei efrydiau dwyreiniol, yn mha rai y cyrhaeddodd enwogrwydd, ac a osododd sylfaen ei wybodaeth feirniadol o Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Daeth yr amser yn fuan i ben pan yr ydoedd i adael yr ysgol, a dechreu ar ei waith fel pregethwr teithiol. Ac arferai ddyweyd gyda hyfrydwch, iddo dderbyn ei awdurdodiad o enau Mr. Wesley ei hun. Yr oedd rhyw serchogrwydd neillduol yn mendithiad yr hen dad hybarch. Penodwyd Clarke i Bradford, yn Wiltshire. Yn y modd hwn y daeth yn bregethwr Wesleyaidd yn y flwyddyn 1782, ac felly y parhaodd hyd ei farwolaeth. Am yr ugain mlynedd cyntaf, bu yn preswylio mewn gwahanol barthau o'r deyrnas. Ond wedi hyny, bu fyw yn neu yn agos i Lundain, neu ar ystâd a bwreaswyd iddo yn Lancashire. Fel gweinidog, yr oedd yn dra derbyniol a phoblogaidd; ac am lawer o flyneddoedd olaf ei fywyd, ystyrid ef yn un o brif oleuadau y cyfundeb y perthynai iddo. Ond yr hyn a ennillodd iddo ei brif enwogrwydd oedd ei gyrhaeddiadau eang a'i wasanaeth yn benaf i lenyddiaeth gyssegredig. Yn nghanol ei holl grwydriadau, a'r anhawsderau yr oedd yn rhaid myned trwyddynt fel pregethwr teithiol, parhaodd i ymestyn yn mlaen i feusydd gwybodaeth gydag ymroddiad diflino. Ni adawai i ddim amser fyned ar goll—pa un bynag ai yn y gwestty lle y gorphwysai, ai ar ei deithiau, neu pan yn marchogaeth, yr oedd ei lyfr yn ei law. Gyda'r fath lafur, nid rhyfedd ei fod yn casglu trysorau mewn gwahanol feusydd, heb law ei fod yn cangu yn barhaus ei wybodaeth ieithyddol, a'i gydnabyddiaeth â llenyddiaeth ddwyreiniol. Y ffrwyth gweledig cyntaf o'r llafur hwn oedd y *Bibliographical Dictionary*, mewn chwe chyfrol, a gyhoeddodd yn 1802. Ennillodd y gwaith hwn enw i'w awdwr ar unwaith yn mysg llenorion. Cynnwysai lawer o wybodaeth am lyfrau ac awduron nad oedd yn gyrhaeddadwy mewn Seisoneg o'r blaen. Yn 1806, cafodd y gydnabyddiaeth o'i ysgoleigdod sydd yn gynnwysedig yn y radd o LL. D., o brifysgol St. Andrews. Dewiswyd ef hefyd yn aelod o luaws o gymdeithasau llenyddol. O'r flwyddyn y symmudodd i Lundain, 1805, yr ydoedd yn parotoi yn ddiorphwys i'r wasg. Parotodd attodiad i'r gwaith a enwyd uchod, a *Memoirs of the Family of Wesley*, a gwaith i efrydwyr duwinyddol. Ysgrifenai yn fynych hefyd i gyhoeddiadau cyfnodol y dydd. Yr oedd ei fywyd y pryd hwn yn dymmor o lafur llenyddol diorphwys. Ond yr oedd un gwaith mawr, ar y cyflawniad o ba un yr oedd ei galon a'i fryd wedi ei sefydlu yn fwy nag ar ddim arall, ac i'r cyflawniad o ba un yr oedd ei holl efrydiau gan mwyaf yn ddarostyngedig, sef *Esboniad ar yr Ysgrythyrau Sanctaidd*, gyda nodiadau beirniadol; wedi ei gyfaddasu i fod yn Feibl teuluaidd, ac ar yr un pryd i gynnwys ymchwiliadau dysgedig, fel ag i fod yn gynnorthwy i'r ysgolhaig. Ymddangosodd y gyfrol gyntaf yn 1810; a thynodd y gwaith gryn sylw ar gyfrif mwy sylwadau ar demtiwr ein rhieni cyntaf, o'r pryd hwnw yn mlaen, hyd nes y gorphenwyd ef, yr hyn a wnaeth yn 1826, pan y daeth yr wythfed gyfrol allan. Am wyth o'r blynedd-oedd hyn, set o 1815 hyd 1823, bu yn byw yn sir Lancaster, mewn lle a elwir Millbrook, lle yr oedd rhai cyfeillion wedi pwrcasu tŷ ac ystâd fechan iddo.

Yn Haydon Hall—lle prydferth a bwreasodd yn agos i Lundain—yr oedd pan orphenodd ei *Esboniad*. Yr ydoedd wedi treulio rhan fawr o ddeugain mlynedd ar y gwaith hwn; ac er y bu am flyneddoedd yn rhydd oddi wrth appwyntiad rheolaidd i gylchdaith, eto parhäai i bregethu yn fynych hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ganddo gyhoeddiad i bregethu yn Bayswater bore y diwrnod y bu farw. Cymmerwyd ef gan y *cholera* oedd y pryd hwnw yn ysgubo ymaith gannoedd yn Llundain, ar y 26ain o Awst, 1832; ond yn nghanol y dirdyniadau arswydus a achosir gan yr haint echrydus hwnw, yr oedd ei feddwl yn dawel yn pwyso ar fynwes ei Waredwr.

Heb law y gweithiau a enwyd, ysgrifenodd ac arolygodd amryw ereill, sef, *Traethawd ar iawn-ddefnyddiad a cham-ddefnyddiad Tobacco:* tair cyfrol o bregethau: ac arolygodd gyhoeddiad o *Baxter's Christian Directory*, a *Fleury's Manners of the Ancient Israelites;* cyfieithiad o *Adfyfyriadau Sturm*, o'r German; a *Harmer's Observations*—pedair cyfrol. Heb law y rhai hyn, bu y Dr. Clarke am amryw flyneddoedd yn ngwasanaeth y llywodraeth, yn casglu defnyddiau i gyhoeddi argraffiad newydd o *Rymer's Fœdera*. Gwelodd y gyfrol gyntaf, a rhan o'r ail, o'r wasg. Y mae y gwaith mawr cenedlaethol hwn yn cael ei ddwyn yn mlaen yn awr dan arolygiad prwyadaeth y llywodraeth. Hyn oedd yr amgylchiad hynotaf yn ei hanes, pan ystyrir fod amryw o henafiaethwyr enwog wedi ofni ymgymmeryd â'r gorchwyl. Pa beth ydoedd y cymhwysder neillduol a arweiniodd i ddewisiad y Dr. Clarke i'r gwaith, nid yw hysbys, gan fod ei efrydiau wedi gorwedd gan mwyaf mewn cyfeiriad arall; a dywed ef ei hun ei fod wedi ymgymmeryd â'r gwaith heb syniad pendant am ei natur. Gellir dywedyd yma, mai henafiaethydd enwog oedd Rymer, yr hwn a wnaeth gasgliad o'r cyfammodau (*fœdera*), cytundebau, llythyrau, &c., oedd wedi cael eu gwneyd gan freninoedd Lloegr â breninoedd ereill, a hyny o ddechreuad y deuddegfed canrif hyd at ei oes ei hun: bu farw yn y flwyddyn 1714. A dyben y gwaith a ymddiriedwyd i Dr. Clarke oedd, nid yn unig arolygu argraffiad newydd o'r casgliad hwn, yr hwn oedd yn gynnwysedig mewn deg o gyfrolau, ond hefyd casglu pentwr mawr o ddefnyddiau ereill.

Tra y bu fyw yn Lancashire, gosodwyd dau offeiriad Buddhaidd, y rhai a ddygwyd o Ceylon, yn ei deulu i ddysgu Cristionogaeth. Bu hefyd yn foddion i sefydlu gorsaf genadol yn Ynysoedd Shetland; ac yn 1831, ychydig cyn ei farwolaeth, cafodd yr hyfrydwch o sefydlu ysgolion yn Ulster—y rhan hono o'r Iwerddon lle y ganwyd ef. Yr ydoedd wedi casglu llyfrgell dda, ac yr oedd ganddo amgueddfa o gywreinion naturiol.

Ar ei gymmeriad fel esboniwr y mae clod y Dr. Clarke yn dibynu yn benaf. Ac am ei *Esboniad*, dywed Beaumont, yr hwn a bregethodd ar yr achlysur o'i farwolaeth:—"Am yr ychydig neillduolion mewn barn a barodd i rai geisio difrio y gwaith, gallwn haeru yn y modd mwyaf pendant, nad ydynt mewn un modd yn effeithio ar hanfodolion yr efengyl; ac yn mhellach, gallwn

Digitized by Google

ddyweyd, nad oes un esboniwr yn y wlad hon, nac mewn un wlad arall, wedi dysgu a gosod allan gyda mwy o rym—gwymp a llygredigaeth y natur ddynol, y pryredigaeth trwy Iesu Grist, eangder ac effeithiolder yr iawn, yr angenrheidrwydd am ddylanwad yr Ysbryd Glân, a sanctteiddiad yr holl ddyn, na Dr. Adam Clark."

CLARKE, Dr. SAMUEL: ydoedd athronydd a duwinydd enwog, a anwyd yn Norwich, yn y flwyddyn 1675; yr hwn, wedi derbyn ei addysg foreuol yn ysgol ramadegol y ddinas hono, a symmudodd i Gaergrawnt, lle yn fuan y daeth ei gynneddfau anghyffredin i'r amlwg. Athroniaeth Descartes oedd y pryd hwnw mewn bri yn y brifysgol: ond yn fuan gwnaeth Clarke ei hun yn gydnabyddus âg athroniaeth Syr Isaac Newton; a thrwy argraffiad, gyda chyfleithiad a nodiadau, o waith Rohault, ar athroniaeth naturiol, cynnorthwyodd yn fawr i ledaenu egwyddorion Newton; a pharhaodd ei waith ef yn hir i gael ei ystyried fel yr arweiniad goreu i efrydwyr ar y gangen hono o wybodaeth. Ond er ei fod yn eangu ei wybodaeth am y gwyddorion naturiol, ei brif ymdrech oedd sicrhau cyrhaeddiadau uchel mewn duwinyddiaeth; ac i'r dyben hyny ymroddodd i efrydiaeth drwyadl o'r Ysgrythyrau yn yr Hebraeg a'r Groeg. Trwy y fath lafur enwogodd ei hun yn fuan fel duwinydd. Ar ol cymmeryd urddau yn 1669, dechreuodd ei yrfa awdurol fel y cyfryw trwy gyhoeddi *Tri thraethawd ymarferol ar Fedydd, Conffirmasiwn, ac Edifeirwch;* ac yn fuan ar ol hyny ei *Aralleiriad o'r Pedair Efengyl.* Yn 1704, penodwyd efi draddodi cyfres o ddarlithiau ar y *Profion* mewn cyssylltiad â darlith Boyle. Dewisodd yn destyn ei ddarlithiau y flwyddyn gyntaf, "Bod a Phriodoliaethau Duw;" a'r ail flwyddyn, "Profion o Grefydd Naturiol a Dadguddiedig." Cyhoeddwyd y darlithiau hyn yn ddwy gyfrol ar y cyntaf; ond casglwyd hwynt i un traethawd ar ol hyny. Tynodd y gwaith hwn sylw mawr, nid yn unig yn Lloegr, ond trwy Ewrop, ac ennillodd yr awdwr y lle uchaf yn mysg duwinyddion athronyddol. Ennillodd hyn iddo ddyrchafiad yn yr eglwys; cafodd fywoliaeth St. Bennet's, Paul's Wharf, Llundain; ac er nad oedd ynddo elfenau pregethwr poblogaidd, amlygodd ddiwydrwydd mawr yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau plwyfol. Yn 1712, cyhoeddodd draethawd ar *Y Drindod*, yr hwn a achlysurodd ddadleuon brwd, a bu agos iddo golli ei bersonoliaeth trwy hyny. Cyhuddid efo ogwydd at Ariaeth o flaen y glwysgymmanfa (*convocation*); i'r hon yr ysgrifenodd Clarke fath o amddiffyniad esgusawl, gan roddi amryw resymau a foddlonodd y Tŷ, ac addawodd na byddai achos dwyn cyhuddiad cyffelyb yn ei erbyn byth mwy. Hoff bwnc Clarke oedd yr athrawiaeth am ryddid ac angenrheidrwydd athronyddol; ac yn 1715 a 1716, bu dadl gyfeillgar rhyngddo a Leibnitz, un o athronwyr y Cyfandir, yn yr hon y cymmerai y frenines Caroline ddyddordeb mawr. Amcan Clarke oedd amddiffyn rhyddid yr ewyllys yn erbyn angenrheidrwydd yr ewyllys—yr hyn a amddiffynid gan ei wrthwynebydd. Dywed Dugald Stewart fod Clarke wedi ennill buddugoliaeth fawr ar Leibnitz, ac mai ysgrifeniadau Clarke ar y mater hwn ydyw yr amlygiadau cryfaf a phwysicaf o'i alluoedd. Rhaid cyfaddef fod Stewart yn wrthwynebydd mor frwdfrydig i'r drychfeddwl o angenrheidrwydd, fel mai o'r braidd y gellir rhoi yr un ymddiried i'w farn ar y mater hwn ag ar ymchwiliadau athronyddol ereill. Yr oedd Dr. Chalmers mor benderfynol yr ochr arall fod ymresymiadau Leibnitz yn anorchfygadwy. Ond y mae Syr W. Hamilton—meddyliwr mwy nag un o'r ddau—trwy dreiddio yn ddyfnach i'r mater, wedi cyrhaedd penderfyniad eangach, yn unol â'r hwn y tystia fod y ddwy ochr yn llwyddiannus, mor bell ag i wrthbrofi y naill y llall, ond nid mor bell ag i brofi eu bod hwy yn unig yn y meddiant o'r gwir. Gwel ANGENRHEIDRWYDD.

Parhaodd Clarke i gadw i fyny ei gydnabyddiaeth âg athroniaeth naturiol; a chyhoeddodd argraffiad o draethawd Newton ar Dremyddiaeth (*optics*), am yr hyn y cafodd ganddo 500*p.*, heb law yr hyn oedd yn llawer mwy ei werth—ei gyfeillgarwch personol. Ar farwolaeth Newton, gwrthododd y cynnygiad gan y llywodraeth o gael ei wneuthur yn arolygydd y bathdy—yr hyn a fuasai dros 1200*p.* yn flyneddol, heb ond dyledswyddau mewn enw i'w cyflawnu. Golyga ei gyfaill Whiston y weithred o wrthod y dyrchafiad gwladyddol hwn yn brawf o'i ymroddiad difrifol gyda chrefydd. Bu farw, mewn canlyniad i afiechyd byr, y 17eg o Fai, 1729, yn y 54 flwydd o'i oed. Ar ol ei farwolaeth, cyhoeddwyd ei *Esboniad ar Gatecism yr Eglwys*, a deg cyfrol o bregethau. Dygodd allan yn ei fywyd argraffiad o *Cæsar*, a chyfleithiad o *Homer*, gyda nodiadau ar y ddau.

Gan fod Clarke yn un o'r prif enwau yn mysg ATHRONWYR DUWINYDDOL y deyrnas hon, ni a roddwn yma fraslun o'r hyn a olygir yn nodwedd gwahaniaethol ei gyfundrefn. Fel y mae gelynion y Dadguddiad dwyfol yn gwneuthur eu hymosodiadau arno oddi ar dir rheswm, y mae cyfeillion crefydd yn eu cyfarfod ar yr un tir. Ond y mae rhai yn myned yn mhellach na'u gilydd yn y defnydd a wnant o reswm i gyfarfod eu gwrthwynebwyr. Y mae y nifer mwyaf o amddiffynwyr y gwirionedd wedi meddwl fod rheswm fel cleddyf Ach, yn alluog i wella y clwyfau y mae yn gallu wneyd, a dim chwaneg. Ond yr oedd Clarke yn myned yn mhellach, ac yn credu y gallesid profi rhai o brif egwyddorion crefydd a moesoldeb ar dir rheswm noeth yn unig, ac felly myned yn mhellach nag ateb gwrthddadleuon anffyddwyr. Priodolai i reswm nerth cadarnhaol, yn gystal a nacaol. Mor bell gan hyny ag y rhoes ef fwy o arbenigrwydd i reswm mewn ymchwiliadau duwinyddol na neb arall yn y deyrnas hon, gellir ei olygu yn sylfaenydd Rhesymoliaeth. Ond yr un pryd yr oedd yn credu yn yr angenrheidrwydd am wirionedd o'r Beibl: ac yn yr ystyr pwysig hwn y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y rhai a elwir yn Rhesymolwyr ar y Cyfandir—y rhai a ddadleuant dros ddigonolrwydd rhesymoliaeth bur heb un dadguddiad goruchnaturiol. Yn y traethawd a enwyd, neu y ddwy gyfres o ddarlithiau, [*A Demonstration of the Being and Attributes of God, in answer to Mr. Hobbes and Spinoza;* ac hefyd, *A Discourse concerning the unchangeable obligations of Natural Religion, and the Truth and Certainty of the Christian Revelation*] dadblygir neu gweithir allan ei gyfundrefn o gynnwysiad rheswm. Mae rheswm yn cynnwys y tri drychfeddwl am Dduw, am rinwedd, ac am anfarwoldeb; ac ar y tir hwn y mae yn dangos yr angenrheidrwydd am Ddadguddiad, a'i gyssondeb â rheswm. Cymmer yn ganiataol, fel yr hyn a addefai ei wrthwynebwyr, fod bod Duw yn ddymunol o leiaf er dedwyddwch dyn, a bod rhinwedd yn hanfodol. Ond pa fodd y mae profi bod Duw? Ei ddull o geisio gwneuthur

Digitized by Google

hyn sydd yn cael ei osod allan yn gyffredin fel ei brif wahaniaeth. Y dull cyffredin o brofi hyn yw y dull a ddefnyddia yr apostol Paul—"Ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddi-dyst, gan wneuthur daioni, a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymmorau ffrwythlawn, a llenwi ein calonau ni â lluniaeth ac à llawenydd." A thrachefn, "Canys ei anweledig bethau ef...wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg; sef ei dragwyddol allu ef a'i Dduwdod." Y dull hwn o ymresymu oddi wrth effeithiau at yr achos o honynt a geir yn gyffredin mewn llyfrau ar dduwinyddiaeth naturiol; megys yn Paley, Chalmers, &c. Ond nid hwn ydyw dull Clarke. Ei ymresymiad ef sydd fel y canlyn:—Y mae yn rhaid fod rhywbeth yn hanfodi er tragwyddoldeb, fel achos cyntaf pob peth, a hyny o angenrheidrwydd. Nid oes dim yn y *byd*, o ran ei ffurf na'i sylwedd, a'n gorfoda i feddwl y gall y byd fod yn dragwyddol. Er fod hanfod y Bod hunan-hanfodol yn adnabyddus i ni, eto y mae llawer o'i briodoliaethau yn gyfryw ag y gallwn gael dirnadaeth o honynt; megys ei dragwyddoldeb, ei hollbresennoldeb, ei unigoliaeth, ei ddeall, ei hollalluogrwydd, ei ddoethineb, ei sancteiddrwydd, a'i gyflawnder. Nid ydyw yn ymresymu, neu yn casglu trwy reswm, yr holl briodoliaethau hyn oddi wrth y drychfeddwl o Fod angenrheidiol. Gellir gosod allan yr ymresymiad yn y modd canlynol, yn ngeiriau Syr Isaac Newton; y rhai, mae yn debygol, a arweiniasant Clarke at y dull hwn o ymresymu.—"Y mae Duw yn dragwyddol ac yn anfeidrol, yn hollalluog ac yn hollwybodol; hyny yw, y mae yn parhau o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb, ac yn bresennol o anfeidroldeb i anfeidroldeb. Nid anfeidroldeb, na thragwyddoldeb ydyw, ond un anfeidrol a thragwyddol; y mae yn parhau byth, ac yn bresennol yn mhob man; ac wrth hanfodi bob amser ac yn mhob man, y mae yn cyfansoddi parhâd a gofod" (*duration and space*). Yn gyffelyb dywed Clarke —"Y mae lle neu ofod, ac amser, yn ein harwain o angenrheidrwydd i feddwl am anfeidroldeb a thragwyddoldeb; ond nid yw anfeidroldeb a thragwyddoldeb yn sylweddau: y mae yn rhaid, gan hyny, eu bod yn briodoliaethau Bod, yr hwn sydd o angenrheidrwydd yn anfeidrol a thragwyddol." Nid yw Clarke yn proffesu ei fod yn gallu casglu holl briodoliaethau Duw oddi wrth y drychfeddwl o ryw fod hunan-hanfodol a thragwyddol; ond addefa, fod dadguddiad yn angenrheidiol i'n dysgu am ei briodoliaethau moesol, o leiaf. Ar sail priodoliaethau moesol Duw, yr ydym yn myned i diriogaeth moesoldeb; ond nid yn y modd yma y mae Clarke yn cael elfenau ei gyfundrefn foesol. Dechreua ef gyda 'r syniad neu y drychfeddwl o ddaioni sydd yn naturiol i reswm dyn, y teimlad o rwymedigaeth foesol sydd yn ei gydwybod, a'r ddeddf naturiol dragwyddol, sydd uwch law pob deddfau gwneuthuredig, ac yn penderfynu ewyllys Duw ei hun. Gellir crynöi ei gyfundrefn foesol i'r geiriau canlynol:—Nis gall dyn ganfod dim, heb ar yr un pryd ganfod ei berthynasau â phethau ereill. Y mae yn rhaid i bob meddwl ganfod y perthynasau hyn yn gyffelyb. Y mae yn rhaid, gan hyny, fod perthynasau pob peth wedi bod er tragwyddoldeb o flaen y Meddwl Tragwyddol, pa mor ddiweddar bynag y daeth y pethau eu hunain i fod. Yr oll o'r perthynasau hyn sydd yn cyfansoddi gwirionedd. Gwybodaeth o honynt oll ydyw hollwybodaeth. Oddi wrth y *gwahaniaeth* tragwyddol sydd rhwng pethau a'u gilydd, y mae yn tarddu *cymhwysder* neu *anghymhwysder* tragwyddol yn y cymhwysiad o bethau at eu gilydd, neu yn ymddygiad y naill tuag at y llall. Y gwahaniaeth hwn rhwng pethau sydd yn cyfansoddi drwg a da, ac yn gosod rhwymedigaeth i ochelyd y naill a dilyn y llall, heb un golwg ar wobr na chosp. Y mae dyledswyddau dyn yn codi o'r perthynasau tragwyddol hyn, yn hollol annibynol. Amcan Clarke oedd sylfaenu moesoldeb yn hollol ar reswm; a gwneuthur perthynasau moesol, fel perthynasau rhifyddiaeth a meintoniaeth, yn hollol annibynol ar deimlad mewnol, yn gystal ag ar awdurdod allanol. Felly gwir gymmeriad pechod ydyw afresymoldeb, a sancteiddrwydd ydyw rhesymoldeb. Y mae deddf natur ynddi ei hun yn gosod rhwymedigaeth; ac mae bod gwobr a chosp yn canlyn, yn tarddu o natur Duw. Ond gan nad yw gwobr a chosp yn cael eu gweinyddu yn uniawn yn y bywyd hwn, y mae rheswm yn ein dysgu ni yr angenrheidrwydd o'r drydedd egwyddor fawr, sef anfarwoldeb yr enaid. Ond yn y fan yma y mae yn cael lle i ddadguddiad ac i efengyl. Er fod rheswm yn dysgu anfarwoldeb yr enaid, eto, o herwydd llygredigaeth dyn y mae rheswm wedi ei gymylu, ac o ganlyniad yn sefyll mewn angen arweiniad a gwaredigaeth ddwyfol. Yn y modd hwn dangosir rhesymoldeb crefydd Crist, a gwirionedd yr Ysgrythyrau. Gwelir mai ymdrech Clarke oedd sylfaenu a chodi adeilad crefydd a moesoldeb ar a thrwy reswm, hyd y gallai, er mwyn gwneuthur eu gwirioneddau, fel gwirioneddau y gwyddorion naturiol, yn ddiammheuol ac yn anwrthwynebol.

Y mae yr athrawiaeth a ddysgai am y Drindod, hefyd, yn dangos ei duedd i ymddibynu yn ormodol ar reswm fel arweinydd mewn crefydd. Credai ef fod y Mab a'r Ysbryd yn derbyn eu hanfod a'u priodoliaethau oddi wrth y Tad, ac yn ddibynol ar ei ewyllys anchwiliadwy ef; ac fel canlyniad, nad yw y Mab i'w addoli ar gyfrif ei hanfod, ond yn unig ar gyfrif ei waith. Yn ei erbyn, profai Waterford, fod y Mab yn ogyhyd dragwyddol, ac o'r un hanfod a'r Tad, a bod y gwadiad o hyn yn gwneuthur Crist yn greadur yn unig. Er i Clarke ymgadw rhag aflonyddu dim mwy ar yr eglwys ar y mater hwn, eto y mae lle i feddwl iddo barhau i goleddu y golygiadau Sosinaidd uchod.

Am gywirdeb ei ymresymiad i brofi bod a phriodoliaethau Duw, yr hyn yn gyffredin a elwir y dull *a priori* o ymresymu, dywed Syr James Mackintosh fel y canlyn:—"Ei bod yn ymdrech sydd yn ei orfodi weithiau i gymmeryd yn ganiataol yr hyn y mae deddfau ymresymiad yn gofyn iddo brofi; ac ar y cyfan, gellir dyweyd fod ei fethiant, er holl nerth ei feddwl, yn brawf fod y dull hwn o ymresymu uwch law cynneddfau dyn."—*Ethical Philosophy.* Y mae Clarke, hefyd, yn addef fod yn anmhosibl profi fod yn *rhaid* bod Duw yn fod deallus (*intelligent*) yn ol y dull *a priori.* Ac yn y fan hon y mae y prif wahaniaeth rhwng Atheistiaid a chredinwyr yn y bod o Dduw. Dechreuodd Spinoza ymresymu yn gyffelyb fel y gwna Clarke, trwy ddyweyd fod yn *rhaid* fod rhywbeth erioed. Y mae y ddau yn hòni fel eu gilydd, fod amser a lle, parhâd ac eangder, annherfynoldeb a thragwyddoldeb, wedi hanfodi erioed. Y mae yn afresymol meddwl eu bod heb fod. Yn nesaf, dywed y ddau,—Gan fod y rhai hyn yn briodoliaethau, rhaid eu bod yn hanfodi mewn rhyw fod. Ond yn hyn y maent yn gwahaniaethu:—Dywed

Digitized by Google

Spinoza mai y byd ydyw y bod angenrheidiol hwn; dywed Clarke i'r gwrthwyneb, mai bod ysbrydol a deallus ydyw, a *rhaid* ei fod. Bod y casgliad hwn yn ddigon eglur ac anwrthwynebol, trwy ystyriaethau sydd wedi cael eu haddef yn gyffredinol, sydd yn amlwg; ond am allu rheswm i'w brofi, yn annibynol ar amlygiadau allanol o Dduw, a ystyrir gan luaws mawr o ysgrifenwyr yn ammheus, os nad yn hollol anmhosibl. Gwers bwysig i'w dysgu ydyw nerth a gallu rheswm yn nhiriogaeth crefydd; ac y mae y ddadl hon wedi bod o werth yn benaf yn yr ystyr hwn. Y mae y Creawdwr wedi rhoddi i ddyn, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, gymmaint o oleuni am dano ei hun, fel y mae dynion yn mhob oes ac yn mhob gwlad wedi cael eu harwain i gredu ynddo yn flaenorol i, ac yn annibynol ar, bob dull o ymresymu. Felly, ni wnaethai llwyddiant, mwy nag y gwna aflwyddiant ymdrech Clarke, nemawr wahaniaeth yn y canlyniad. Ond fel prawf pa faint y gall rheswm noeth ei gyflawnu, y mae ei ysgrifeniadau o werth mawr. Yr oedd gan Clarke y tegwch i gyfaddef, ar drothwy ei ymchwiliad, fod yn rhaid iddo wrth gymhorth oddi allan iddo ei hun, i gyflawnu yr hyn yr oedd wedi gosod ei fryd ar ei gyflawnu yn unig yn y nerth oedd ganddo fel creadur rhesymol.

Am ei gyfundrefn foesol, gwel MOESEG.

CLAUDIA, A HANES CRISTIONOGAETH YN MHRYDAIN AM Y CANRIF CYNTAF. Cristion o Rufain oedd Claudia, a enwir gan Paul yn 2 *Tim.* iv. 21. Yr un oedd a Gwladys, merch Caradog ab Bran Fendigaid. Mae enw y bendefiges Brydeinig hon yn dwyn perthynas agos â hanes Cristionogaeth boreuol Ynys Prydain. Yr hanes canlynol am dani hi a'i theulu a gasglwyd allan o awduron gwahanol ac annibynol—enwau pa rai yn mron i gyd a arddodir wrth eu priodol adroddiadau.

Claudia Rufina, neu fel ei gelwid yn ei gwlad ei hun, Gwladys Ruffydd, ydoedd ail ferch Caradog ab Bran. Ganwyd hi mewn lle a elwir Trefran, yn bresennol o fewn plwyf Llanilid, ger llaw Castell Dindryfan (*Dunraven Castle*) yn Morganwg. Bran, tad Caradog, ydoedd fab i Lyr, yr hwn a gyfenwid Llyr Llediaith, am ei fod ef a'i frawd hynaf, Cynfelyn, wedi cael eu dwyn i fyny gan Augustus, ymherawdwr Rhufain. Yn y flwyddyn 36 o'r cyfrif Cristionogol, efe a roddes i fyny freniniaeth Essyllwg (*Siluria*), yn nghyd â'r palas breninol, Dindryfan, i'w fab hynaf, Caradog, gan ymneillduo oddi wrth ofalon y llywodraeth i'w breswylfod ei hun, Trefran. Yn yr un flwyddyn, Gwydyr a ddilynodd ei dad Cynfelyn ar orsedd Prydain; a'i frawd ieuangach, Gweyrydd, a gafodd dduciaeth Cernyw, yn cynnwys yr oll o benrhyn gorllewinol yr ynys, sef Gwlad yr Haf, Dyfneint, a Chernyw (*Somerset, Devonshire, a Cornwall*).

Dyma linach teulu breninol Essyllwg, yn ol *Ysgriflyfrau Pantlliwydd*, Llansannor, Morganwg, [*The Trueman MSS.*]:—

"Caradoc ab Bran Fendigaid, ab Llyr Llediaith, ab Baran, ab Ceri Hirlyngwyn, ab Caid, ab Arch, ab Meirion, ab Ceraint, ab Greidiol, ab Dingad, ab Anyn, ab Alafon, ab Brywlais, ab Ceraint Feddw, ab Berwyn, ab Morgan, ab Bleddyn, ab Rhun, ab Idwal, ab Llywarch, ab Calchwynydd, ab Enir Fardd, ab Ithel, ab Llarian, ab Tewged, ab Llyfeinydd, ab Peredur, ab Gweyrydd, ab Ithon, ab Cymryw, ab Brwt, ab Selys Hen, ab Annyn Dro, ab Brydain, ab Aedd Mawr. Annyn Dro, a elwir yn *Llyfr Ieuan Deulwyn* yn Einion Dro, a fu y brenin cyntaf ar Gymru. Efe oedd fab i Brydain ab Aedd Mawr. Aedd Mawr oedd frenin ar genedl y Cymry cyn ei dyfod i Ynys Prydain. A llyma yr enwau a fu ar yr ynys hon cyn noi chyfanneddu, sef Clas Merddin; a chwedi dyfod o rai Cymry iddi y gelwid hi y Fêl Ynys, gan amled y mêl a gafwyd ynddi: a phan wybu Aedd Mawr am hyny, a theged gwlad ydoedd, efe a roddes wyr a moddion i oresgyn y Fêl Ynys, a hyn a wnaeth efe, a'i galw yn ol ei enw ei hun, Prydain. Efe a ranwys yr ynys yn deiran, ac un ran a gafas ei fab hynaf, a elwid Lloegr; a hwn a roddes ei enw ar ei wlad. A mab arall, sef yr ieuaf, a gafas y ran ogledd o'r ynys; a dywedir mai Dynwallon oedd enw y mab hwnw. A'r mab canol, a elwid Annyn Dro, a gafas dir Cymru, o afon Hafren hyd fôr y Werddon. Gwr glewfryd ydoedd Annyn."—*O Lyfr Trueman, Pantlliwydd.*

Y cyndadau breninol hyn oeddynt y "*clari majores*" (= hynafiaid ardderchog) y cyfeirid atynt gan Caradog, yn ei araeth yn Rhufain, ger bron yr ymherawdwr Claudius.

Meibion Caradog oeddynt, 1af, Cyllin; 2il, Lleyn (a alwyd felly ar ol taid Llyr Llediaith, yr hwn a roddasai ei enw i Leyn yn Arfon); a'r 3ydd, Cynan. Ei ddwy ferch oeddynt Eurgen neu Eurgain, a Gwladys.

Un o chwiorydd Gweyrydd a Gwydyr (*Arvirus a Guiderius*), a elwid hefyd Gwladys, ar ei phriodas âg Aulus Plautius, y llywydd Rhufeinaidd, a gymmerodd yr enw Pomponia Græcina.

Croeshoeliad ein Harglwydd bendigedig a ddygwyddodd yn yr 11eg flwyddyn o deyrnasiad Gwydyr, ac yn yr 17eg o deyrnasiad Tiberius Cæsar, olynydd Augustus. Dygwyd gwybodaeth am ddygwyddiadau dydd y Pentecost, ac o bregethiad y ffydd newydd, a adnabyddid y pryd hyny yn unig fel "y ffordd," a "ffordd Duw" (ἡ ὁδος—ὁδος του Θεου), gan wŷr duwiolfrydig, ar eu dychweliad o Ierusalem i'w gwledydd priodol, i "bob cenedl dan y nefoedd." Dyma y taeniad mawr cyntaf a fu ar yr efengyl. Achoswyd yr ail drwy erlid y saint yn Iudea gan Saul o Tarsus. Yn mysg y ffyddloniaid y bu gorfod arnynt adael eu gwlad enedigol ar yr achlysur hwnw, yr oedd Ioseph o Arimathea, yr hwn, gyda Lazarus, Mair a Martha ei chwiorydd, Mair Magdalen, ac ereill, a gawsant noddfa yn ninas Roegaidd Marseilles, yn nehcubarth Gâl (Ffrainc). Yma yr ymunodd â hwynt Phylip yr apostol, a nifeiri o'u ceraint eu hunain. Darfu i rai Derwyddon Prydeinaidd, wedi eu taro gan yr athrawiaethau a ddysgid, gynnal amryw gynnadleddau gyda Ioseph a'i frawdoliaeth ("Negotium habiut cum Druidis quorum primi præcipuique Doctores erant in Britannia."—*Freculphus*, td. 236). Yr oedd rhai o'r Derwyddon hyn o radd uchel; ac ar eu gwahoddiad hwy, Ioseph a'i gymdeithion o ddeugain o gredinwyr a ddaethant i Brydain (B. A. 37)—y pryd hyny yr unig wlad rydd ac annibynol yn ngorllewin Ewrop. Yma, ei fucheddd a'i foes a ennillodd iddo ewyllys da Gweyrydd, yr hwn a roddes iddo diroedd yn Ynys Afallon, dan nawdd un o gorau derwyddol mawrion y deyrnas. Gosododd yma sylfaen yr eglwys Gristionogol gyntaf yn Ynys Prydain—60 troedfedd ei hyd, a 26 o led, yr hon a adeiladodd efe yn y dull Galaidd, o golofnau coed cyfain, wedi eu cyfrwymo â phlethwaith deublyg. Bu hon yn ddechreuad cyfres o adeiladau gorwych, y rhai a godwyd uwch ben ei chronglwyd.

Digitized by Google

Am y tair canrif cyntaf ni adwaenid mo honi wrth un enw amgen na "chyfrinach Duw." "tŷ Dduw." "preswylfa Duw." Mae hanesion Gildas, ac awduron ereill, yn cytuno â'r adroddiad hwn. Dywed Gildas, yr hwn a anwyd yn y flwyddyn 480,—"Crist a daenodd ei belydrau gyntaf i'r ynys hon yn y flwyddyn ddiweddaf o deyrnasiad Tiberius Cæsar:"—yr amseriad hwn ydoedd B. A. 37, sef y flwyddyn ganlynol i wasgariad eglwysi Palestina. Er mor gynnar yr ymddengys hyn, y mae yr hanesydd Prydeinaidd yn son am dano fel peth digon hysbys ("*ut scimus*=megys y gwyddom"). O Marseilles (medd Baronius, allan o'r ysgrifeniadau Vaticaidd=*Vatican MSS.*), Ioseph a aeth drosodd i Brydain; ac yno, ar ol pregethu yr efengyl, yr ymadawodd efe â'r bywyd hwn.—[*Baronius ad Annum*, B. A. 49.] Y mae ysgriflyfr memrwn Melchin (Maelgyn Hir o Landaf, ewythr St. Teilo), wrth ddysgriflo y fan benodol lle y cafodd Ioseph ei gladdu, yn defnyddio yr ymadroddion tra henafol ac aneglur hyn, y rhai ydynt yn arwyddo henafiaeth dirfawr:—"Ioseph o Arimathea, Seneddwr pendefigaidd, yn nghyd âg un-ar-ddeg o'i gymdeithion, a dderbyniodd ei hûn barhaol yn Ynys Afallon (*Glastonbury*, yn swydd *Somerset*), a gorwedda yn awr wrth yr ongl ddeheuol i'r linell ddwy-fforchog yn nghafell weddi y Wyryf fendigaid. Efe a ddŷg gydag ef y ddau lestr grisial, gwyn fel arian, y rhai a dderbyniasant chwŷs a gwaed y Prophwyd mawr Iesu." [Ioseph Arimathæa, *nobilis Decurio*, &c.] "Eurgain ferch Caradog (medd *Llyfr Pantlliwydd*), a briodes Benaeth Rhufeinaidd, Sallwg, arglwydd Caer Sallwg (*Old Sarum*), yr hwn a ddaeth gyda hi i Gymru (*Cambria*). Y Penaeth hwn, yn gystal a'i wraig Eurgain, y rhai yn gyntaf a ddygasant y Ffydd i fysg y Cymry, oeddynt wedi eu dychwelyd at Gristionogaeth. Anfonasant am Ilid, brodor o wlad Israel, a elwid St. Ioseph o Arimathea. Efe a ddaeth yn brif athraw Cristionogaeth i'r Cymry, ac a seiliodd Drefniadau Côr Eurgain, a sefydlasid ganddi hi i ddeuddeg o saint, yn gyfagos i'r lle a elwir yn awr Llanilid." Y tystiolaethau ddarfod i Ioseph o Arimathea bregethu yr efengyl yn Mhrydain, sylwa yr Esgob Goodwin [*Catalogue of Bishops*, td. 11], ydynt lawer, eglur, a chyflawn. Y mae Syr Henry Spelman, ar ol ymchwiliad llafurus i'r pwnc, yn casglu fel y canlyn:—"Yr Eglwys yn Ynys Afallon yw yr henaf o'r holl eglwysi yn Mhrydain y darfu i mi chwilio i'w dechreuad."—[*Spelman's Concilia.*] Os gellir rhoddi coel i awduron, cytuna Fuller, mai eglwys *Glastonbury* (Ynys Afallon) yw yr henaf yn y byd [*Church History*, td. 9]. Ac i'r un perwyl ysgrifena *Publius Discipulus* [*Opp.* td. 19],—"Eglwys *Glastonbury*—nid dwylaw neb amgen nag Apostolion ein Harglwydd ei hun a'i hadeiladasant."

Rhoddodd Gweyrydd dir i Ioseph, rhydd oddi wrth bob treth a tholl; sef cymmaint ag a arddai deuddeg aradr mewn blwyddyn. Parhaodd felly yn rhydd drwy chwyldroadau deg o ganrifoedd, hyd B. A. 1080, a thebygol hyd B. A. 1520. Y mae y cofnodiad canlynol i'w gael yn y *Brawdlyfr* (*Doomsday Book*), B. A. 1080:—"Mae Eglwys *Glastonbury* yn y faenawr ei hun yn dal [tir] deuddeg aradr, yr hyn nid yw erioed wedi talu dim treth."—[*Ecclesia Glastyngbury habet in ipsâ villâ* xii *Hydas quæ nunquam geldaverunt.*]

Y cyflwr o heddwch yr oedd Prydain wedi gorphwys ynddo am un ar bymtheg a phedwar ugain o flyneddoedd—o amser rhuthr-gyrch Julius Cæsar—oedd yn awr yn nghylch cyfnewid am ddychrynfeydd a galanastra rhyfel gwaedlyd. Beric ac Adminius—tywysogion y Brigantiaid a'r Coraniaid—wedi eu deol o'r deyrnas am fradwriaeth, a gyrchasant i Rufain. Cenadwriaeth oddi wrth Gwydyr a ofynai am eu rhoddi i fyny: ond yr ymherawdwr Claudius, nid yn unig a wrthododd wrandaw ar y cais hwn, ond a archodd wneuthur parotoadau mawrion tuag at ryfelgyrch ar Brydain. Y fyddin Rufeinig, wedi ymgynnull yn Boulogne, pan ddeallasant yr hyn oedd ar eu medr, a dorasant allan mewn terfysg, gan haeru y cyrchent hwy i ryw le o *fewn* y byd, ond nid *allan* o hono—fel yr ystyrient hwy fod Prydain. O'r diwedd, drwy bwyll Narcissus—gweinidog a gwr rhydd yr ymherawdwr—dychwelwyd hwy at eu dyledswydd filwraidd; a thiriasant, yn dair plaid, dan Aulus Plautius—cadlywydd galluog a phrofedig—ger Richborough (*Rutupium*) yn Nghaint, yn ngwanwyn B. A. 43. Wedi treiddio rhagddynt ar hyd Sarn Gwyddelin, (*Watling street*), Plautius a gafodd y fyddin Brydeinig, dan Gwydyr, wedi ymfyddino ar wastadedd, rhwng y bryniau a elwir yn awr Kentish Hills a'r afon Tafwys, ger llaw y lle y saif tref Deptford arno. Tertfynodd y frwydr trwy enciliad y Prydeiniaid. Ymladdwyd ail frwydr ger Richmond, yn yr hon y syrthiodd Gwydyr. Dewiswyd Caradog yn unfrydol yn ben-dragon, neu brif reolwr y fyddin, yn ei le; a Gweyrydd ei hun, yr hwn a ddilynodd ar yr orsedd, yn rhoddi yn gyntaf ei lais o'i blaid. Caradog a dynodd yn ol ei luoedd dros y Tafwys, wrth Chertsey. Gwnaeth Plautius ddau gynnyg i ennill y fynedfa; ond cafodd ei faeddu gyda cholled drom. Bu y trydydd, dan gudd ac amddiffyn llawer o wŷr meirch, y rhai a nofiasant y ffrwd yn is i lawr, ac a dynasant ymaith sylw y cerbydwyr Prydeinaidd, yn fwy llwyddiannus. Parhaodd y frwydr a ddilynodd, ar y tu gogleddol, gyferbyn â Kingston, i ymgynddeiriogi am dri diwrnod, yn ol yr hanesydd Groegaidd, Dion Cassius; a chan na allai y llywydd Rhufeinaidd gadw i fyny ei lwyddiant, bu raid iddo anfon cenadwri daer i Rufain am adgyfnerthoedd. Yn fuan, daeth Claudius ei hun, gyda 'r ail leng, a'r bedwaredd ar ddeg, a brigâd o elephantiaid, a fwriedid i ymosod ar gadernid ofnadwy cerbydau y gelyn. Y byddinoedd unedig a aethant rhagddynt yn erbyn Caer Col (*Colchester*), a elwir gan Dion, "Dinas Freninol Cynfelyn." Er fod y Coraniaid (*Coritani*), yn eu bradwriaeth arferol, yr hyn a drosglwyddodd eu henw mewn gwarth yn yr hanesion Prydeinaidd, mewn gwrthryfel o'i du ol, anturiodd Caradog un frwydr arall er amddiffyn yr orsaf bwysig hon. Yr oedd ei ddymchweliad yn benderfynol. Caer Col, ar ol gwarchae byr, a roddes i fyny, a phenaethiaid yr *Iceni* a ymlynasant wrth y Rhufeiniaid. Yn mysg preswylyddion y llys breninol, yr oedd Gwladys, chwaer Gweyrydd, a'i chyfnither Gwladys, chwaer Caradog. Y flaenaf, yn fuan ar ol hyn, a unwyd mewn priodas âg Aulus Plautius, ac a gymmerodd yr enw *Pomponia Græcina*; a'r olaf, dan yr enw Lladinaidd *Claudia*, a ddyweddïwyd â Rhufeiniad enwog arall, Aulus Pudens Rufinus, mab Pudentinus—seneddwr, a chanddo berchenogaeth eang yn Samnium. Nid yw hanes rhyfel Caradog yn syrthio o fewn cylch yr erthygl hon. Digon yw dywedyd iddo lyncu i fyny sylw y byd Rhufeinaidd, a thasgu ei gyllidau milwraidd i'r eithaf, am ysbaid naw mlynedd. I'w ddwyn yn mlaen, rhoddwyd ar waith gad-lywyddion mwyaf

Digitized by Google

galluog yr ymherodraeth;—Plautius, a Geta, goresgynydd y Mauritania, a Vespasian, a Titus ei fab, ac yn ddiweddaf, Ostorius Scapula. Symmudwyd eisteddle y rhyfel yn olynol gan y pendragon Prydeinaidd i Ddyfneint, ac yna i Essyllwg, ac o'r diwedd hyd derfynau Gwynedd neu Ogledd Cymru. Yn ystod y rhyfelgyrchoedd hyn, ymladdwyd uwch law deugain câd ar faes, a llawer o honynt, medd Tacitus, yn anffodus i'r milwyr Rhufeinaidd. Wrth Gaer Caradog, yn swydd Amwythig, cafodd Caradog o'r diwedd ddymchweliad hollol: "yn ddiau yr oedd yn fuddugoliaeth ysblenydd," medd yr hanesydd uchod; canys yr oedd gwraig a merch i Garadog, a'i frodyr ef, yn mhlith y rhai a roddasant eu hunain i fyny yn garcharorion. Ar wahoddiad taer Aregwedd (*Cartismandua*), brenines y Brigantwys, y pendragon a gymmerodd noddfa yn ei thiriogaethau hi. Yma, tra yn cysgu yn un o ystafelloedd ei phalas hi o fewn Caer Efrawc (*York*), wrth ei gorchymyn hi, syrthiwyd arno, a daliwyd a throddodwyd ef mewn cadwynau i Ostorius Scapula. Anfonodd Claudius gyfarwyddiadau ar fod iddo ef a'i holl deulu gael eu dwyn dan osgordd i Rufain. Nid oedd Bran, ei dad, yr hwn hefyd oedd un o arch-dderwyddon yr ynys, yn gynnwysedig yn mysg y caethion; ond aeth gyda hwynt i gynnyg ei hun yn wystl dros fywyd ei fab. Yr oedd dyfodiad y gwron i Rufain—yr hwn yn unig o wrthwynebwyr tramor yr ymherodraeth, am y can mlynedd diweddaf, a feiddiai gymhariaeth mewn athrylith filwraidd a gwroldeb anorchfygol â'r Hannibals, Mithridates, a Jugurthas, o amseroedd y weriniaeth, a ddysgrifir mor fywiog gan Tacitus—yn peri cryn deimlad. Yr oedd yn ddeddf gan y Rhufeiniaid, oddi wrth ba un ni ŵyrent ond yn anfynych, i roddi i farwolaeth y breninoedd a'r tywysogion hyny a deflid i'w dwylaw drwy ffawd rhyfel, wedi eu harddangos mewn gorfoledd cyhoedd. Yr oedd enwogrwydd mawr y penaeth Prydeinaidd, canfyddedig yn ei ymddygiad tawel a mawreddig ger bron brawdle yr ymherawdwr, yn peri fod yn rheidiol gwneuthur eithriad, ar ei ran ef, i'r arfer annynol a bawaidd hon. Arbedwyd ei fywyd, a derbyniwyd Bran fel mâch na byddai iddo eto gyfodi mewn arfau yn erbyn y Rhufeiniaid. Yr oedd yn ofynol, modd bynag, fod i'r mâch a'i fab, eu dau, aros am saith mlynedd mewn gwarchodaeth rydd (*liberâ custodiâ*) yn Rhufain. Dylid ystyried fod ysgafnder yr ammodau hyn yn dra hynod, yn fwy enwedig pan feddyliom fod gwŷr Essyllwg, wedi eu ffyrnigo yn hytrach na'u taflu i annhrefn drwy y brad a arferwyd tuag at eu tywysog, ar y cyfrwng hwn wedi llwyr ddryllio byddin Rufeinig, a hefyd curo yn ol eu lluoedd ereill tu hwnt i'r llinell o amddiffynfeydd a dynasai Plautius rhwng rhosydd Ely ac aber Hafren. Tebygol fod gan ddylanwad unedig teuluoedd Aulus Plautius ac Aulus Pudens, ar ran eu cyfathrachau Prydeinaidd, gryn lawer i'w wneyd yn y tynerwch anarferol a estynwyd felly iddynt, o dan yr amgylchiadau cenedlaethol llidgar hyn. Wedi hyn, gweinyddwyd priodas Pudens a Gwladys, yn mhalas y blaenaf, ar Fryn yr Helyg (*Viminal Hill*); yn yr hwn le hefyd yr oedd Bran, Caradog, a Lleyn (*Linus*), wedi cymmeryd eu cartref. Nid yw amser penodol y briodas wedi ei gofnodi; ond rhaid ei fod rai blyneddoedd cyn merthyrdod Paul (B. A. 67), fel y mae yr awduron eglwysig hynaf yn cyd-dystio, gan fod plant Pudens a Gwladys mewn oed i gael eu haddysgu yn ngeiriau y ffydd gan yr apostol ei hunan. Yr oedd Gwladys wedi cael ei dychwelyd at Gristionogaeth yn Mhrydain, drwy yr un offeryn a'i chwaer Eurgain:—hwnw ydoedd Ioseph o Arimathea. Yr oedd esampl ei ddyweddi, at yr hon yr oedd ei serch yn angerddol, yn cytuno â chymhelliadau o radd uwch, i ddylanwadu ar benderfyniad Pudens; yr hwn, cyn i'r flwyddyn briodasol fyned heibio, a wnaeth broffes o Gristionogaeth, ac a fedyddiwyd gan Arwystli (Aristobulus). Y mae Martial, y prydydd pennillion, yn hysbysu yr undeb rhwng merch y penadur Prydeinaidd, ac etifedd tŷ Pudentinus, i Quintus Pomponius Rufus, un o'r un tylwyth neu genedl, oedd ar y pryd yn gweinyddu mewn swydd filwraidd uchel yn Dalmatia, yn y pennillion canlynol:—

"Claudia, Rufe, meo nubit Peregrina Pudenti
Macte esto tœdis, O Hymenæe tuis:
Tam bene rara suo miscentur cinnama nardo
Massico Theseis tam bene vina Cadis
Nec melius teneris junguntur vitibus ulmi
Nec plus Lotos aquas littora myrtus amat;
Candida perpetuo reside, Concordia, lecto
Tamque pari semper sit Venus æqua jugo
Diligat illa senem quondam, sed et ipsa marito
Tunc quoque quum fuerit, non videatur anus."
Lib. iv., *Ep.* 13.

"Gwladys, yr alltudes, O Rufus! a briodwyd â fy nghyfaill Pudens—
Tywallt, a'th lusern neithiorawl, dy fendith ar eu hundeb, O dydi Hymen!
Felly y dyfysgir yn hapus y sinamon gwerthfawr gyda'i nard cyfnaws,
Ac felly gwin Massic gyda melysion Attic:
Nid gweddusach yr ymlyna y winwydden dyner wrth y llwyfanen,
Neu y câr y lotos y dwfr, neu y myrtwydd y forlan.
Gwna dy gartref parhaus, O Gyfundawd claer-wisgedig, ar eu gorweddfa:
Bid Gwener hob amser yn rhadlawn tuag at gyfathrach mor gymhwys.
Cared hi ef wedi cyrhaeddyd o hono hir henaint, ac yn ei olwg ef
Nac ymddangosed hithau yn ei henaint byth yn ddim amgen nac ieuanc."

Y mae ail bennill gan y prydydd, a ysgrifenwyd ganddo wedi dyfod o Wladys yn fam i dri o blant, yn dadgan mewn ymadroddion gwresoglawn, edmygedd cyffredinol cymdeithas yn Rhufain i'r rhinweddau personol a meddyliol dihafal oeddynt yn hynodi Tywysoges Essyllwg. Mae Pudens yn cael ynddo y cyfenwad o Sanct neu Gristion. I ddeall cyflawn bwynt y llinellau terfynol, dylid cofio fod priodas, ar y cyfnod hwn, yn rhwymyn o'r math mwyaf penrhydd yn mysg yr uchraddolion yn Rhufain baganaidd, fel yr arferai y gwragedd mwyaf anrhydeddus ammodi ysgariaeth olynol, ac ymgymmeryd â gwŷr newyddion; a bod y fath ffyddlondeb priodasol a dedwyddwch teuluaidd ag oedd yn hynodi cartref Cristionogol Pudens, yn eithradau anghyffredin i benrhyddid cyffredinol yr amseroedd, a ddysgrifir mor fanwl gan Paul yn y bennod gyntaf o'i Epistol at y Rhufeiniaid. Nis gall fod nemawr o ammheuaeth, chwaith, fod presennoldeb Bran yn tueddu i gryfhau y cyflwr hapus hwn ar bethau yn nheulu ei gares ieuanc; gan fod moesau diargyhoedd yn un o anhebgorion y broffes Dderwyddol.

"Claudia Cerveis quum sit Rufina Britannis
Edita, quam Latiæ pectora plebis habet!
Quale decus formæ! Romanam credere matres
Italidum possunt, Atthides esse suam;
Di bene quod Sancto peperit fœcunda marito
Quod sperat generos quodque Puella nurus
Sic placeat Superis ut conjuge gaudeat unâ
Et semper natis gaudeat ipsa tribus."
xi., *Ep.* 4.

Digitized by Google

"Yn mha fath radd uchel y mae Gwladys Ruffydd, disgynedig o'r Prydeiniaid lliwiedig,
Yn meddu diwylliant meddwl y byd Rhufeinaidd.
Y fath bryderthwch gosgedd! Da y gallai gwragedd Ital
Goelio ei bod yn Rhufeiniad, a hwy o'r Attica ei bod yn Atheniad.
Mae rhad y nef yn gorphwys arni,—hi a ymddug blant i'w phriod sanctaidd;
Ac eto ieuenged yw fel y gall obeithio gweled meibion a merched yn nghyfraith.
Canlatäed y duwiau fod iddo ef yn wastadol gael ei hapusrwydd yndti hi, ei unig wraig,—
A hithau yn y rhai hyn, ei thri phlentyn."

Ymddengys fod holl deulu Bran yn dra ymlyngar wrth ymchwiliadau llenyddol. Yr oedd Eurgain eisoes wedi sefydlu a gwaddoli coleg yn Essyllwg. Yr oedd Gwladys mor gydnabyddus â phrif awduron llenyddiaeth Groeg ag ydoedd pendefigesau Attica, y rhai a ymfalchïent o'u rhagoriaeth yn hyn ar y Rhufeinesau llai deallgar. Ei chyfnither Pomponia (Gwladys), oddi ar y flaenoriaeth a ddangosai i'r awduron Groegaidd ar y rhai Lladinaidd, ydoedd yn barod wedi cael y cyfenw wrth ba un y daeth yn adnabyddus gyffredinol — Pomponia Græcina. Yr oedd cymmeriad Pudens am chwaeth gywir yn sefyll mor uchel, fel y darfu Martial roddi ei gyfansoddiadau dan ei feirniadaeth ef cyn eu cyhoeddi. Y mae achwyniad y prydydd, fod Pudens wedi dileu cyfran helaeth o honynt, a chynghori gwellhâd ar y gweddill ar gyfrif eu hansawdd a'u geiriadaeth benrhydd, yn dystiolaeth chwanegol a thra boddhaol o'r dymmer Gristionogol oedd yn rheoleiddio gweithrediadau meddyliol yn gystal a moesol y pendefig ieuanc. Bran a ddug femrwn (*vellum=parchment*), a rhol, o amgylch pa un y gosodid y defnydd hwnw, i arferiad gyffredin yn Mhrydain [*Coelbren y Beirdd*, td. 25]:—y beirdd, yn unig fel mater o rwymedigaeth grefyddol, yn glynu wrth yr hen ddull o ysgrifenu ar y beithynen.

Yn y flwyddyn 1723, dygwyd i oleuni eglurhâd nodedig ar gyssylltiad Pudens, cyn ei briodas a'i dröedigaeth, â Phrydain, trwy ddarganfyddiad argraff Rufeinaidd yn Nghaer Ceri (*Chichester*), gan Roger Gale, Ysw. Yr oedd y gareg gerfiedig yn gorwedd o gylch pedair troedfedd yn y ddaiar, a'i gwyneb i fyny, drwy yr hyn y cafodd yr anffawd, medd Horsley [*Britannia Romana*], o "dderbyn llawer iawn o niwed oddi wrth bigau y gweithwyr wrth geisio ei chodi; canys heb law dileu amryw lythyrenau, yr oedd yr hyn a godwyd o'r gareg wedi tori yn bedwar darn, ac y mae y gyfran sydd eto yn eisieu, yn ol pob tebyg, wedi ei gladdu dan y tŷ nesaf, ac nis dygir i'r amlwg hyd oni ddygwyddo i hwnw gael ei ail adeiladu. Y mae yr argraff wedi cael ei naddu ar farmor Sussex llwyd; ac yr oedd ei hyd yn chwe throedfedd Rhufeinig, fel y gellir dyfalu wrth fesur o ganol y gair '*templum*' i'r pen hwnw iddi sydd yn gyfan; ac nid yw yn gwbl dair troedfedd Seisonig o'r pwynt a nodwyd. Y mae y llythyrenau wedi eu llunio yn hardd a manwl – y rhai yn y ddwy linell gyntaf, yn dair modfedd o hyd, a'r gweddill yn ddwy a chwarter." Yr argraff yw yr hyn a ganlyn:—Y *Cogidunus* (=Brenin a Chenad Augustus) a enwir, oedd un o ddugiaid neu dywysogion deheu-ddwyrain yr ynys; y rhai, wrth ammodau y cytundeb a wnaed gan Claudius yr ymherawdwr, yn Nghaer Col, a osodasant eu hunain dan amddiffyniad Rhufain; —eu tiroedd a'u breiniau yn cael eu gwarantu iddynt, a'r mwynhâd o'u gwlad enedigol i'w deiliaid. Yr oedd y gallu a'r awdurdod milwraidd yn y wladwriaeth, mewn ffordd o daledigaeth, yn cael eu gosod yn yr ymherawdwr, a gynnrychiolid yn mhob dinas gan raglaw neu faer, yr hwn a lywyddai y gwarchodlu Rhufeinaidd ynddi, a chanddo awdurdod hefyd i wysio y cyfnerthoedd Prydeinaidd a godid ar achlysuron o angen i'r maes. Y swydd hon yn Regnum (*Chichester*), yr hon oedd yn dwyn holl nodweddau amddiffynfa Rufeinig o'r radd uchaf, a lenwid yn B. A. 50, gan Pudens. Y *Collegium Fabrorum*, oedd y fyntai (*cohors*) o beiriannwyr milwraidd a berthynai i bob lleng—gorchwyl y rhai oedd gweithio yr amddiffynfeydd, ffyrdd, arfau, peiriannau, &c. Y mae Tacitus, yr hwn a anwyd B. A. 58, yn cyfeirio at Cogidunus fel tywysog (*regulus*) o Brydain, a gofiai efe fel pleidiwr mwyaf ffyddlawn (*fidissimus socius*) i hawliau y Rhufeinwyr.—[*Vita Agricolæ*, pen. xiv.] Y Cymry, y rhai a ddalient drwy fraint genedigaeth uchafiaeth filwraidd yr ynys, a drinent bawb o'r cyfryw megys bradwyr achos eu gwlad; eu henwau a dynid ymaith o restr y pendefigion; ac os byth yr enwid hwy mwyach, fe eu dynodid â'r cyfenw gwarthus, "bradwr." O achos hyn, nid ydym yn cael un cyfeiriad yn y *Trioedd*, nac mewn hen goffadwriaethau Prydeinaidd ereill, am lawer o dywysogion, ac yn eu mysg Cogidunus; y rhai, wrth reswm, a enwir mewn ymadroddion o ganmoliaeth gan eu noddwyr a'u harglwyddi Rhufeinaidd.

"Neptuno et Minervæ
Templum
Pro Salute Domus Divinæ
Ex auctoritate Tib: Claudii
Cogiduni Regis Legati Augusti in Britannia
Collegium Fabrorum et qui in eo
A Sacris sunt de suo dedicaverunt donante aream
Pudente Pudentini Filio."

"Myntai y Peirianwyr, a Gweinidogion y Defodau Cyssegredig perthynol iddynt, a gyssegrasant ar eu traul eu hunain. drwy genad Tiberius Claudius Cogidunus, brenin a chenadwr Augustus yn Mhrydain, y Deml hon er diogelwch y Teulu Dwyfol [ymherodrol], i Neptunus a Minerva; — y tir yn rhad rodd Pudens fab Pudentinus."

Mae tueddfryd crefyddol Pudens, hyd yn nod yn ei gyflwr cenedlig, yn cael ei amlygu yn y rhodd a gofnodir yma. Wrth reswm, nis gallasai, ar ol ei droad at Gristionogaeth, heb dreisio ei hegwyddorion sylfaenol, gyfranu at na sail na gwaddoliad teml gyssegredig i eilunaddoliaeth. Rhaid gan hyny fod amseriad yr argraff o flaen ei ymuniad â Gwladys, a gellir yn ddiogel ei sefydlu yn neu cyn B. A. 50, yn yr hon flwyddyn y dychwelodd Pudens, gyda'i gâr, Aulus Plautius, pan alwyd yr olaf yn ol i Rufain.

Dilys yw fod Pudens a'i fam, eu dau, wedi eu dychwelyd a'u bedyddio cyn dyfodiad Paul i Rufain; canys y mae yr apostol, yn ei lythyr sydd yn hysbysu ei fwriad i ymweled am y waith gyntaf â'r ddinas ymherodrol, yn anfon ei anerch atynt fel rhai eisoes yn "etholedig yn yr Arglwydd." Hefyd, amlwg yw fod teulu Pudens yn dra pharod i dderbyn apostol mawr y cenedloedd, pa bryd bynag y byddai i'r Ysbryd Glân arwain ei gerddediad at yr eglwys oedd yn eu tŷ hwynt. Yr oedd Pudens yn cadw tŷ mewn gradd o arddercho-grwydd a mawredd tywysogaidd; y gwrywiaid yn unig yn ei balas yn ddau cant o rifedi, ac oll yn frodorion o'i diriogaethau etifeddol yn Umbria. Yr oedd efe gan hyny yn un o'r ychydig o'r rhai galluog ac o'r boneddigion a alwyd.

Yn B. A. 56 y daeth Paul i Rufain ar ei appeliad at Cæsar, ac "a arhoes ddwy flynedd gyfan yn ei dŷ ardrethol ei hun, ac a dderbyniodd bawb a'r

Digitized by Google

oedd yn dyfod i mewn ato, gan bregethu teyrnas Dduw, ac athrawiaethu y pethau am yr Arglwydd Iesu Grist, gyda phob hyfder yn ddiwahardd;" *Act.* xxviii. 30, 31. Y Cristionogion a breswylient yn Rhufain, y rhai yr oedd eu "ffydd yn gyhoeddus yn yr holl fyd" (*Rhuf.* i. 8), a ffurfiwyd yn ddioedi yn eglwys o amgylch yr apostol, ac a fuont mewn cymundeb beunyddiol âg ef; yn mysg y rhai y mwyaf hynod mewn enwogrwydd, sefyllfa, cyfoeth, a gwaedoliaeth, oedd, fel gwrandawyr (*audientes*), Bran, Caradog, a'i fab Llin (*Linus*): fel aelodau mewn cyflawn gymundeb, Gwladys, ac Eurgain, yr hon oedd y pryd hyn gyda'i chwaer yn Rhufain. Yr oedd egwyddorion Derwyddiaeth yn argymhell ar ei holl broffeswyr y ddyledswydd o gadw eu meddyliau yn agored i dderbyn y gwirionedd, o ba fan bynag, neu yn mha ffurf bynag, yr ymgynnygiai iddynt. Ymddangosodd effeithiau buchedd, ymddyddanion, ac athrawiaeth yr apostol yn fuan. Bran a Charadog, yr un dydd, a dderbyniasant y sacrament o fedydd o'i ddwylaw ef:—y breninoedd cyntaf a gofleidiasant Gristionogaeth, ac a arfaethasid i fod y rhai cyntaf hefyd yn eu gwlad eu hunain i sylweddoli ar weithred tuag at grefydd ddwyfol y Gwaredwr, yn ei chyflwr mabanaidd, addewid Duw, y byddai "breninoedd yn dadmaethod, a breninesau yn famaethod" iddi; *Esa.* xlix. 23. "Eithafoedd y ddaiar" oedd y dynodiad arferol yn y dwyrain o ynys fawr genedlig Prydain; a llawer o'r prophwydoliaethau efengylaidd a roddant bwys neillduol ar ei thröedigaeth ddyfodol:—"Gwael yw dy fod yn was i mi, i gyfodi llwythau Iacob, ac i adferu rhai cadwedig Israel: mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r cenedloedd, fel y byddont yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaiar;" *Esa.* xlix. 6. Gellir dywedyd fod cyflawniad y rhagddywediadau hyn, a rhai cyffelyb iddynt, wedi dechreu gyda bedydd Bran a Charadog. Y dygwyddiad hwn, yn nghyd â'i ganlyniadau i'r Prydeiniaid, a gofnodwyd mewn amryw ffurfiau yn nghoffadwriaethau henafiaethol y Cymry:—"Tri pheth y mae i'r Cymro flaenoriaeth ynddynt rhagor pob cenedl arall yn Ynys Prydain:—blaenoriaeth fel cyndrigolion; blaenoriaeth fel gwladwriaeth wareiddiedig; a blaenoriaeth fel Cristionogion."—*Trioedd y Cymry.* "Tri menwedigion teyrnedd Ynys Prydain—Bran Fendigaid ab Llyr Lledlaith, a ddygwys gyntaf ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yng ngwystl ei fab Caradawc, a ddug gwŷr Rhufain yng ngharchar, gwedi ei fradychu trwy hud a thwyll a chynllwyn Aregwedd Foeddawg, brenines y Brigantiaid." — *Trioedd Hanesiol Ynys Prydain.*

O'r amser hwn daeth palas Pudens yn gartref i'r apostolion, pa bryd bynag yr ymwelai neb o honynt â Rhufain; ac yno yr oedd yr Eglwys Gristionogol yn wastad o hyny allan yn cyfarfod i addoli Duw a gweinyddu y cymun. Fe hysbyswyd i ni," ysgrifena Baronius, "trwy draddodiad sefydlog ein cyndadau, mai tŷ Pudens oedd y cyntaf i lettya yr apostolion, ac mai yno yr ymgynnullai y Cristionogion i'r cymun sanctaidd er ffurfio eglwys; ac o'r holl eglwysydd, yr henaf yw yr un a elwir ar enw Pudens."—*Baronius. Annal. Eccles. in notis ad* 19 *Maii.*

Oddi wrth haelioni gwirfoddol teulu breninol Prydain, a'r gangen Wladysaidd o hono a ymsefydlodd yn Rhufain, parhaodd yr eglwys yn Rhufain i dderbyn ei phrif gynnorthwy mewn pethau allanol, am y tri chan mlynedd cyntaf; *h.y.*, tra y parhaodd yn ei ffurf gyntefig, yn wrth-wahaniaethol i'r Eglwys Babaidd, yr hon a gyfododd ar lygredigaeth ac adfail yr eglwys gyntefig yn y seithfed canrif, a'r rhai dilynol.

Yr oedd Cristionogaeth yn awr wedi tynu sylw gwladwriaeth Rhufain. Yr oedd ei chynnydd cyflym yn rhai o brif ddinasoedd yr ymherodraeth yn effeithio yn niweidiol ar fasnach gwneuthurwyr delwau, o aur, arian, pres, elydr, a'r defnydd gwerthfawr adnabyddus wrth yr enw *Corinthium æs.* Yr oedd meddiannwyr y gweithfaoedd mawrion ac ennillgar hyn, o herwydd eu cyfoeth a'u perthynas âg urddau offeiriadol y grefydd baganaidd, yn arfer dylanwad nid bychan ar y lluaws, ac hefyd ar aelodau y senedd. Yr oedd yr aberthau o amryw fath, yr offrymau at gynnaliaeth y temlau, y rhoddion addunedol, cyflwyniad delwau a thiroedd—y gwahanol foddion, mewn gair, drwy y rhai yr oedd yr offeiriaid paganaidd yn cael eu cynnal—yn dangos lleihâd o flwyddyn i flwyddyn; yr hyn, yn marn y rhai oeddynt ymlyngar wrth y drefn bresennol ar bethau, a fygythiai derfynu yn nifodiad crefydd y wladwriaeth. Dilynasid Claudius yn yr ymherodraeth (Medi 28, B. A. 53) gan Domitius Nero, mab Agrippina—llanc 17eg oed. Seneca, ei athraw, athronydd Stöicaidd o ran proffes, ond mewn ymarferiad yn ocrwr gorthrymus a chribddeilus, a barhaodd am ryw ysbaid yn brif gynghorwr a gweinidog iddo. Yr oedd yr ymherawdwr ieuanc, nes ei lygru gan benrhyddid a gwaseidd-dra y llys, yn ymddangos yn hynaws, a chroes i fesurau eithafol. Wylodd wrth arwyddo ei orchymyn cyntaf i roddi cosp angeuol mewn gweithrediad. Gan bwy y gwnaed yr achwyniad, ni wyddys; ond fe ddygwyd achwyniad i mewn i'r senedd yn erbyn Græcina, ei "bod yn gogwyddo at goelgrefydd estronol." Nid yw yn bur eglur pa un ai Cristionogaeth ai Derwyddiaeth a feddylid wrth y "goelgrefydd" hon. Gwladgarwch, neu ymlyniad un wrth ei fro enedigol, uwch pob dyledswydd arall, oedd y ddyledswydd wladyddol flaenaf a argymhellid gan y grefydd a enwyd olaf. Yr oedd hon, gan hyny, ar y Cyfandir, er's hir amser, wedi ei nodi allan i ddinystr gan lywodraeth Rhufain, yr hon oedd yn awyddus i suddo pob cenedlgarwch arall yn yr eiddo ei hunan yn unig. Rhoddwyd allan gyhoeddiadau o'r natur creulonaf er ei diddymu yn Gâl a gogledd Italy, yn olynol, gan Augustus, Tiberius, a Claudius Cæsar. Prydain, yr hon bob amser a fuasai yn ganolbwynt iddi, a'r unig le y dysgid ei hegwyddorion yn eu purdeb, yn awr ydoedd unig noddfa ei phroffeswyr rhag yr erlidigaeth reolaidd a gyfeirid yn eu herbyn. Yma hefyd, yn mhen ychydig flyneddoedd (B. A. 60), dilynwyd hwy gan gleddyf y Rhufeiniaid, a chyflawnwyd galanas ar nifer mawr o'r urdd, drwy orchymyn yr ymherawdwr a'r senedd, ar lanau y Menai. Ond pa un bynag a oedd yr achwyniad yn cyhuddo Pomponia o Gristionogaeth, ynte o Dderwyddiaeth dybiedig, ei phrawf, o herwydd urddas ei theulu a'i chyfathrach, a adawyd ar ei phriod. Yr adran o Tacitus yn adrodd y canlyniad sydd fel hyn:—"Pomponia Græcina, pendefiges urddasol, gwraig Plautius, yr hwn, ar ei ddychweliad o Brydain, a ddygwyd i mewn gydag anrhydedd gorfoledd o'r ail radd, a gyhuddwyd o fod wedi ei llygru gan goelgrefydd estronol; ond gwirionedd neu dwyll y cyhuddiad a adawyd at benderfyniad ei phriod. Gwnaeth yntau ymchwiliad yn ol yr hen ffurf, yn ngwydd ei pherthynasau unwaed ei hun, i'r cyhuddiad

Digitized by Google

hwn, ac a gyhoeddodd ei wraig yn ddieuog o bob achwyniadau a allent effeithio ar ei bywyd neu ei chymmeriad. Y Pomponia hon a fu byw i oedran mawr, ond mewn prudd-der parhaus; o blegid ar ol marw Julia, merch Drusus, bu fyw am ddeugain mlynedd heb roddi heibio ei galarwisg na'i dwfn dristyd."

Cymmerodd y prawf le yn B. A. 57, pedair blynedd ar ddeg ar ol marw Julia, merch Drusus. Rhaid, gan hyny, ddarfod i Pomponia fyw hyd y flwyddyn B. A. 83. Mae yr hanesydd yn myned heibio i ddaliadau gwahanredol y "goelgrefydd estronaidd" a gofleidid ganddi, gan ymfoddloni ar sylwi nad oedd ei phroffes o honynt yn cynnwys dim gwaradwyddus i'r ddychweledig.

Saith mlynedd y *libera custodia*, a osododd Claudius ar deulu breninol Prydain, a derfynodd yn 59. Rhaid fod yr aelodau o hono yn lluosog—yn ol y *Trioedd hanesiol*, yn cynnwys cenedlaethau.—"Tri theulu teyrnedd a ddygid yn ngharchar o'r gorhendaid i'r gorwyron, heb adu yn nianc un o honynt; cyntaf, teulu Llyr Lledlaith, a ddygid yn ngharchar hyd yn Rhufain y gan y Caisariaid; ail, teulu Madawg ab Medron, a fuynt yn ngharchar y gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Alban; trydydd, teulu Gair ab Geirion, arglwydd Geirionydd, y gan raith gwlad a chenedl, yn ngharchar Oeth ac Annoeth: ac oed y rhai hyny nac un nac arall o honynt yn nianc; a llwyraf carcharu a wybuwyd erioed a fu ar y teuluoedd hyny."

Y mae amseryddiaeth y prif awduron, yr Ysgrythyrau, a'r *Trioedd hanesiol*, mewn cyssondeb manwl am y ffaith fod Paul a theulu Bran ar yr un pryd yn Rhufain, o B. A. 56 i B. A. 59. Pan oedd yr olaf yn parotoi i ddychwelyd i Essyllwg, pa weithred mwy cytûn â rheol yr apostol na phenodi un i fyned gydag ef, a allai roddi cyfarwyddiadau pellach iddo ef a thrigolion Prydain yn mhethau yr efengyl? Iaith eglwys Rhufain, yn amser yr apostolion, oedd yr iaith Roeg, ac yn yr iaith hono yr ysgrifenodd Paul ei epistol ati. Yr ydym yn deall oddi wrth Cæsar y byddai y Derwyddon hefyd yn eu holl achosion tramor yn gwneuthur defnydd o lythyrenau Groeg; ac yr ydym wedi gweled fod Claudia a Pomponia, ac yn ol pob tebyg, aelodau ereill o deulu yr archdderwydd, Bran, yn dra chyfarwydd yn llenyddiaeth Groeg. Ein casgliad blaenaf, gan hyny, fyddai, mai Hebread Groegaidd a fyddai yr hwn a benodid ac a awdurdodid felly gan Paul i addysgu yr eglwys ieuanc yn Ynys Prydain. Ac yr ydym yn gweled mai felly y bu. Efe a ddewisodd Aristobulus, brawd Barnabas, a thad yn nghyfraith Pedr, i'r swydd bwysig hon; yr hwn, mewn canlyniad a adawodd Rhufain gyda Bran, Caradog, Eurgain, a'r lleill o'r teulu breninol, yn Hydref, B. A. 59—Pudens, Linus, Claudia, a'i phlant, yn eu danfon cyn belled a Marseilles. I Ioseph o Arimathea yn gyntaf, ac yn ail i Aristobulus, yr ydym i briodoli nodwedd ddwyreiniol nodedig yr Eglwys Brydeinig foreuol; yr hon oedd yn gwahaniaethu mewn llawer o'i defodau a'i chyflawniadau oddi wrth eglwys ddiweddarach Rhufain yn ei ffurf Ladinaidd. Gydag Aristobulus y daeth Ilid, Cyndaf, a'i fab Manaw, y rhai hefyd a ddysgrifir yn *Achau Saint Ynys Prydain* yn "wŷr o Israel." Cymmerasant eu cartref yn nghastell Dindryfan; ac yn y gymmydogaeth hono yr adeiladwyd yr eglwys foreuaf yn Mhrydain, y nesaf at sefydliad Ioseph yn Ynys Afallon, gan Ilida—a hi a alwyd ar ei enw. Y mae *Ysgriflyfrau Pen y fai* (*The Iolo MSS.*), yn gosod derbyniad Cristionogaeth gan y Cymry (*Cambro-Britons*), bedair blynedd yn gynarach, pan ddychwelodd Eurgain, ar ei phriodas â Sallog, i Essyllwg, B. A. 55. "Oed Crist, 55, y cawsant genedl y Cymry y ffydd yn Nghrist, ac a gredasant yn Nuw, ac a cafwyd ddeall gyntaf ar iaith y Llandinwyr yng Nghymru." Essyllwg, yn ddiammheu, ydoedd cryd Cristionogaeth yn Nghymru, fel yr oedd Ynys Afallon yn Lloegr. Digon tebyg fod Aristobulus yn treulio cyfran o'i amser gyda Ioseph yn ei sefydliad ef. Yr oedd ei ymdrechiadau cenadol ef a'i gymdeithion, modd bynag, yn cael eu cyfeirio yn benaf er tröedigaeth gorllewin yr ynys; ond dygwyddodd pethau, cyn iddo fod yn hir yn yr ynys, a fuant yn rhwystr dirfawr i daeniad egwyddorion tyner a heddychlawn yr efengyl. Caradog, o herwydd y rhwymedigaeth ddifrifol yr aethai dani yn Rhufain, a wrthododd gymmeryd ei adferu yn ol i'w swydd uchel drachefn, fel penrheolwr milwraidd yr ynys, yr hon swydd oedd yn parhau i gael ei gweinyddu gyda medrusrwydd a gwladgarwch neillduol gan ei gefnder, Gweyrydd (Arviragus), yr hwn hefyd, er nad oedd yn Gristion ei hun, oedd yn noddwr i Ioseph a'r frawdoliaeth yn Afallon. Yn y dwyrain, yr Iceniaid a'r Coraniaid, yr olaf yn enwedig, a fuasent yn nodedig am eu bradwriaeth gysson yn achos eu gwlad ar bob achlysur o ymosodiad arni gan elynion tramor, oeddynt erbyn hyn, gan orthrymder dygn y Rhufeiniaid, wedi eu gyru i wneuthur un achos cyffredin â'r rhan arall o'r ynys. Brasydog (Prasutagus), brenin yr Iceniaid, a fuasai farw yn ddiweddar, gan adael ei drysorau dirfawr i'w rhanu yn dair rhan; y gyntaf, i'r ymherawdwr Nero; yr ail, i'w frenines Buddug = Victoria (Boadicea); a'r drydedd, i'w ddwy ferch. Yr oedd y pwyllineb o wneuthur yr ymherawdwr yn gydetifedd, er mwyn diogelu darpariadau yr ewyllys, yn cael ei arfer yn dra chyffredin gan y graddau cyfoethocaf yn Rhufain, yn gystal a chan freninoedd teyrn-drethol y llywodraeth; y rhai oll a ystyrid, yn llygad y gyfraith, fel noddedigion personol yr ymherawdwr. Felly y cafodd yr hen ddefod, wrth yr hon y byddai gŵr o lwyth neu genedl yn gadael rhyw gyfran o'i eiddo yn ei ewyllys i'r pen-cenedl neu flaenor y llwyth, ei chynnal yn mlaen ar gyfartaledd helaethach. Yn yr amgylchiad hwn, methodd a diogelu iawnderau cyfreithlawn teulu breninol yr Iceniaid. Seneca, prif weinidog Nero, yn hysbys ddigon o adnoddau y llwyth goludog hwn, a ddirgymhellasai arnynt echwyn, cyfartal i 2,000,000*p.* o arian presennol, ar wystloraeth eu hamddiffynfeydd, temlau, ac adeiladau cyhoeddus. Yr echwyn yma a alwodd efe i fyny yn ddirybudd, gan godi ar senedd yr Iceniaid lôg afresymol am fenthyg yr arian. Cynnygiwyd talu y corff, a'r llôg arferol; ond gwrthodwyd hyny gan yr athronydd Stöicaidd: a rhoddwyd allan orchymyn i Caius Decius, y llywydd Rhufeinaidd, i gymmeryd meddian o holl wystlon y llywodraeth. Aeth y llywydd dros ben y gorchymyn hwn, fel yr arferid gwneyd yn fynych yn nhalaethiau anghysbell yr ymherodraeth; canys heb law cymmeryd meddiant o Castor, ger Norwich, prifddinas yr Iceniaid, aeth rhagddo i attafaelu etifeddiaethau y pendefigion, oedd wedi eu gwarantu iddynt drwy y cytundeb a wnaed gan Claudius, ac ar farwolaeth Brasydog, yn nghanol y mesurau llymion hyn, yr aur a'r arian bath, ac anfathol hefyd, a drysorasid yn y brenin-dŷ. Pan eu gwrthsafwyd, y llengau a gymmerasant y palas drwy ruthr, gan

Digitized by Google

gyflawnu y trais creulonaf ar bersonau Buddug a'i dwy ferch, a dwyn ymaith y trysorau i'r castell. Ar yr un pryd ag yr anfonwyd y cenadwriaethau hyn at Decius, derbyniodd y llywydd milwraidd Rhufeinaidd, Suetonius Paulinus, gyfarwyddiadau i daro ergyd a hir-arfaethasai y llywodraeth, ac ymosod ar gadarnfa Gymreig y Derwyddon, ar lànau y Menai, yn Môn. Yr ysbryd o wladgarwch anmhlygedig, yr hwn yn mhob oes, ac yn erbyn eu holl dreiswyr gelynol, oedd yn gwahaniaethu urdd godidog Beirdd Ynys Prydain, oedd yn eu nodi allan fel y rhwystrau cyntaf i'w dyfetha o'r ffordd gan bob ymosodwr tramor, o amser Nero hyd Iorwerth y Norman. Yn ngolwg ymherodraeth y fath ag ydoedd yr un Rufeinig—unig gyfraith yr hon oedd y cleddyf. a thrachwant annigonol yr hon am fawredd pellenig a enllibiai lle nas gallai orchfygu, ac a arbedai yn unig pryd y gallai fforddio diystyru —ymlyniad wrth eu gwlad enedigol, o bob trosedd, oedd y mwyaf anfaddeuol. O herwydd hyny, Derwyddiaeth—gwladgarwch pa un y pryd hyny fel yn awr a gynnwysid yn yr arwyddair, "Cymru, Cymro, a Chymraeg"—oedd y nodwedd rymusaf ar adegau o gyffro milwraidd, a erlidid gyda dygasedd ac ymroddiad nas dangoswyd erioed tuag at un grefydd baganaidd arall. Cyflawnwyd ei gyfarwyddiadau gyda 'r llymder didosturi oedd yn hynodi y gwasanaeth Rhufeinaidd. Suetonius, gan adael St. Alban ar ffrwst, a thrwy deithiau gorfodol, a gyrhaeddodd gulfor y Menai. Y mae y dysgriflad a rydd Tacitus o'r olygfa a ddilynodd yn dystiolaeth amlwg ei fod yn esgusawd dros weithred a deimlid yn gyffredinol yn warthnod dwfn ar y llywodraeth a'i gorchymynodd, ac ar y fyddin a'i cyflawnodd. Y chwanegiad manwl o bob peth i beri dychryn ag yr oedd hygoeledd y werin yn Rhufain wedi ei gyssylltu â dathliad y defodau Derwyddol, ond o'r hyn nid oes dim yn ganfyddadwy yn eu hysgrifeniadau, sydd yn ein tywys i wneuthur y casgliad gofidus, nad oedd hyd yn oed y fath awdwr a Tacitus ddim uwch law ymddarostwng at ystrywiau annheg, y rhai, ar y pryd eu defnyddid i barddu beirdd gwladgarol Prydain, ni phetrusid eu defnyddio yn mron ar yr un tudalen i arddangos y Cristionogion, oeddynt yn byw megys dan gysgod y brifddinas, a'r rhai y gallesid ymofyn â'u hefengylau a'u hapostolion ar unrhyw awr o'r dydd, fel cydfrodoriaeth annynol, yn aberthu yn eu dirgel gyfarfodydd blant bychain fel yr offrymau mwyaf cymmeradwy gan y duwiau. Dygir yr un cyhuddiad gan Tacitus, gyda golwg ar garcharorion rhyfel, yn erbyn Derwyddon Môn; —yr esgus mwyaf ymddangosiadus, ysgatfydd, a allesid ddyfeisio er bychanu ysgelerder y gyflafan a wnaed arnynt. Ar bob tu i'r Menai, ymestynai claddfa fawr dderwyddol y Cymry. Yma, rhwng fforest uchel a chwyfiedig yr Eryri a thònau gleision y Mór Werydd eang ac adnabyddus, y gorweddai llwch llinachau meithion o freninoedd; — o arch-dderwyddon, ceidwaid doethineb henafol y dwyrain;—a phenaethiaid, enwau Cymreig pa rai a ddygent arswyd i wledydd y deheu, ac i bellderau y byd. Trwy y lleoedd cyssegredig hyn o goffadwriaethau mor amrywiol a henafol yr oedd ymdaith reolaidd llengau arfog yr ymherodraeth haiarnaidd yn awr yn trystio. Wedi peth petrusder ar ran y lluoedd, croeswyd y cyfyng-fôr, gan ddymchwelyd pob ymdrech a wnaed er attal eu tiriad gan y rhai a godwyd i'w gwrthwynebu. Y Derwyddon, a'r Derwyddesau yr un ffunud, heb wahaniaeth rhyw, a roddwyd i'r cleddyf, gan eu bwrw yn bentyrau mewn annhrefn pruddaidd; dinystriwyd yr allorau; colofnau a beràon y cylchoedd cyssegredig a ddrylliwyd yn chwilfriw; preswylfeydd y côr offeiriadol a wnaed yn gydwastad â'r llawr; a'r coedwigoedd oll, am filltiroedd o amgylch, a roddwyd i'r fflamau. Ond tra yr oedd yr olygfa frawychus hon o waed a thân yn myned yn mlaen yn Môn, a thonau y Menai nos a dydd yn adlewyrchu tanbeidrwydd y cyssegroedd llosgedig, yr oedd y genedl o'r tu ol wedi cyfodi mewn arfau, a myrdd-iynau o ddinasyddion Rhufeinaidd eisoes wedi talu iawn â'u bywydau am y gorchwyl llofruddiog. Nid cynt yr aeth y gair ar led am wir amcan yr hynt filwraidd hon, nad oedd y rhyfel am y waith gyntaf yn mhob modd wedi cymmeryd gwedd rhyfel grefyddol. Yr Iceniaid, a'r Coraniaid, drwy eu hymddarostyngiad cynnar, neu yn hytrach drwy eu cyd-frâd â'r Rhufeinwyr, oeddynt wedi llwyr golli eu hawl i'r enw Prydeiniaid, fel y buasid yn edrych gyda boddhâd ar y trais gormesol i ba un yr oeddynt yn awr yn anrhaith, dan amgylchiadau gwahanol, fel dialedd cyfiawn arnynt, oddi ar ddwylaw y rhai hyny y gwerthasent eu gwlad iddynt, am eu gwaith yn ei bradychu; ond galanas y Menai a barodd i'r teimlad hwn gael ei suddo yn y teimlad dyfnach o ddigter a braw cyffredinol. Yr oedd cynnygion o gynnorthwy gwŷr ac arfau yn dylifo i mewn o bob parth o Brydain; ac yn fuan cafodd Buddug ei hun yn ben ar 120,000 o filwyr. Y mae yr hanesion Rhufeinaidd cyfoed yn gadael argraffiadau bywiog ar ein meddyliau o'r pruddder dwys a'r iselder yr oedd eu galluoedd wedi eu llyncu iddynt, drwy gyfres o rag-argoelion, y rhai sydd yn fwy dyddorol yn gymmaint a'u bod wedi eu dysgrifio gan hanesydd [Tacitus] a ymfalchïai yn ei ryddid athronyddol oddi wrth bob hygoeledd crefyddol, a'r hwn, yn y tudalenau blaenorol o'i waith, a waradwyddai Dderwyddiaeth fel coel-grefydd waedlyd. Yn Nghaer Col, delw buddugoliaeth, yn gyffelyb i'r eiddo Dagon yn Asdod, a syrthiodd yn wysg ei chefn, ac a dorodd yn ddarnau. Chwilioges, yn cael ei chynhyrfu gan ysbryd dewiniaeth anwrthwynebadwy, a barodd i'r cynniweirfaoedd cyhoeddus adseinio gan ei gwaedd anewyllysgar—"Y mae angeu gerllaw!" Yn y senedd-dŷ Rhufeinaidd, bloedd rhyfel y Prydeiniaid yn dadseinio gan dafodau anweledig a ddychrynodd ac a wasgarodd y cynghorwyr. Yn y chwareudai a'r baddau, yr oedd griddfanau ac wylofain maes brwydr i'w clywed drachefn a thrachefn. Ymddangosodd yn nyfroedd y Tafwys, er braw i'r edrychwyr, ryfeddod, o drefedigaeth Rufeinig wedi ei dymchwel, ei chaerau yn adwyau, a'i heolydd yn adfeilion. Gwelwyd y môr rhwng Dover a Calais, ar y gorllanw, yn rhedeg o waed; ac ar ol i'r llanw gilio, ymddangosai ar y tywod ol rhengau o gyrff, fel wedi eu gosod allan i'w claddu. Mewn gwirionedd, yr oedd galanas y Menai wedi dychrynu a llenwi cydwybodau y rhai a'i cyflawnasant âg argoelion drygfyd, i'r un gradd ag yr oedd wedi cyffroi ffyrnigrwydd crefyddol y boblogaeth Brydeinig. "Yr oedd y Duwdod," medd Dion Cassius, "drwy yr argoelion hyn a'u cyffelyb, yn rhagfynegu mawredd y trychineb oedd ar ddyfod." Yr oedd y rhyfel, o'r ddwy ochr, yn hynod greulawn; yr hyn a fu bob amser yn nodwedd arbenig ar ryfel-oedd crefyddol. Y mae hyn yn anghyssondeb mawr rhwng proffes ac ymarferiad. Ymgynnullodd y fyddin Brydeinig yn Nghaer Llŷr

Digitized by Google

(Leicester), dan Venusius, a Buddug yn bersonol a areithiodd iddynt. "Buddug," medd Dion Cassius, a "esgynodd i orsedd y cadlywydd; —ei thaldra a'i hymddygiad mawreddus yn cenedlu parch; ei hedrychiad yn dawel a digyffro; ei llais yn ddifrifol a grymus; ei gwallt wedi ei gasglu ar ei thalcen â thalaith euraid gan ddisgyn yn llywethau melynion hyd ei chluniau, ei gwisg o *tartan*, yn gymhwys i'r corff hyd y wasg, ac yna yn ymdaenu fel gŵn, yn blygion prydferth; a mantell filwraidd ar hyny. Dyma oedd ei thrwsiad arferol; ac ar yr achlysur hwn yr oedd yn arweddu gwaewffon hefyd." Yr ydys yn dwyn i mewn yr arlun hwn i ddangos nas gellir nodi allan un cyferbyniad cryfach rhwng cenedloedd a phersonau unigol yn hanfodi can rifoedd oddi wrth eu gilydd, nag a geir yn yr un ganrif, ac nid yn anfynych yn yr un teulu, mewn un wlad. Nis dichon un arlun fod mewn mwy o wrthgyferbyniad i hwn yma o Fuddug, brenines dderwyddol, yn areithio wrth ei byddin, yn nghanol Prydain, na'r eiddo Gwladys, ferch Caradog - meistres ar holl lenyddiaeth a rhagoriaethau Rhufain, yn aelod o Eglwys Gristionogol, yn defnyddio ei hamser mewn gweithredoedd o gariad a chymmwynasgarwch, yn gweini i'r apostolion, ac yn gosod ei phlant bychain ar eu gliniau i gael eu dysgu ganddynt yn ffydd Iachawdwr dynolryw. Eto, yr oedd y ddwy wraig hyn yn gyfnitheroedd o waed, y ddwy o uchafiaeth breninol, eu dwy o enedigaeth a llinach yn Brydeinesau, a blyneddoedd boreuol y naill a'r llall wedi cael eu ffurfio dan yr un addysgiadau a dylanwadau derwyddol;—enwau y ddwy yn hanesyddol; ond y mae un yn dyfod i waered atom yn amgylchedig â phelydrau gogoniant y sanctes a gafodd y fraint o weinyddu ar apostol mawr y Cenedloedd yn oriau ei farwolaeth, yr hwn a'i cofrestrodd hi a'i theulu yn ei anerchiadau diweddaf ar y ddaiar; y llall sydd yn disgyn atom wedi ei gwisgo yn holl gyfeilion rhwysg paganaidd a gallu milwraidd â pha rai y gallai gwroniaid yr haneswyr clasurol amgylchu ei pherson. Nis gellir dangos y gwahaniaeth a achosir yn ffurfiad nodwedd personol gan Gristionogaeth yn fwy eglur nag yn hanes y ddwy dywysoges hyn o Brydain foreuol—eu dwy yn eu cylchoedd eu hunain y gwragedd arddechocaf yn eu hoes. Y mae gweddi Buddug, ar ol ei haraeth, yn rhoddi meddylddrych teg, yn ei ffurf lygredig, neu Iceniaidd, am hen grefydd Prydain, yr hon oedd wedi ei rhagdrefnu gan ragluniaeth ddaionus Duw i roddi lle yn fuan i "ffordd fwy rhagorol" yr efengyl, a hyny yn benaf drwy gyfrwng ei chyfnither Gwladys a'i theulu. Andras oedd duwies buddugoliaeth y Prydeiniaid. A ganlyn yw gweddi Buddug:—

"Yr wyf yn dy addoli di, yr wyf yn diolch i ti, yr wyf yn galw arnat ti, gwraig tuag at wraig, O Andras! Nid wyf, fel Nitocris, yn llywodraethu dros ysgrubliaid, y fath ag yw cenedloedd moethus y dwyrain; nac fel Semiramis, dros farchnadyddion a masnachwyr, cyffelyb i'r Aiphtiaid; nac yn debyg i'r dyn merchedaidd hwnw, Nero, ar eunuchiaid a chaethweision—y fath yw y ddysg werthfawr a fynai y Rhufeiniaid hyn ei dwyn i'n mysg! Ond llywodraethu yr wyf fi dros Brydeiniaid—lled anghyfarwydd, mae'n wir, mewn dichell ac ystryw—ond wedi eu geni a'u hyfforddi i helyntion rhyfel; gwŷr a aberthant, yn achos rhyddid, eu bywydau eu hunain, bywydau eu gwragedd a'u plant, eu tiroedd a'u meddiannau.—Brenines ar gyfryw genedl, eiddunaf dy gynnorthwy i ryddid; er buddugoliaeth ar elynion gwarthus am ysgelerderau y trais a wnant, am eu gwaith yn gwyro cyflawnder, am eu dirmyg ar grefydd, am eu trachwant anniwalladwy; a phobl hefyd a ymloddestant mewn pleserau masw, y rhai ni fedrant fyw heb foethineb a rhysedd, na chysgu ond ar welyau mânblu; y rhai y mae eu caredigrwydd i'w ofni a'i ffieiddio yn fwy na'u rhyfeloedd. Na chaniatâ i alltud lywodraethu arnaf fi, na'm cydwladwyr hyn! Na chaniatâ i gaethiwed deyrnasu yn yr ynys hon — ei gartref priodol ydyw Rhufain. Bydd di yn unig byth, O dduwies dynolryw a buddugoliaeth! yn benadures a brenines yn Mhrydain!"

Caer Col, prif wersyllfa y fyddin Rufeinig, a ddewiswyd felly am ei bod mor gyfleus y pryd hyny i gael adgyfnerthoedd a chynnorthwy llyngesol o'r Cyfandir, a gymmerwyd gan fyddin y Prydeiniaid ar yr ymosodiad cyntaf; a'r deml, a warchodid gan filwyr profedig, wedi gwrthsefyll am ddau ddiwrnod, a gyfranogodd o'r un dynged. Gorchfygwyd yr is-lywydd Rhufeinaidd, Petilius Cerealis, gyda cholled o'r nawfed lleng yn gyfan, wrth Cocci Collis (*Congeshall*, yn *Essex*). Cerealis ei hun, gyda'r gweddill o'i wŷr meirch, o'r braidd, a ddiangodd i'r gwersyll. Tref freiniol Verulam (Caer Municep) a gymmerwyd trwy ruthr anwrthwynebadwy; ac wedi ei anrheithio o bob peth gwerthfawr, fe'i llosgwyd. Ac nid ymattaliodd dialedd brenines Prydain ar hyn; nod ei hymosodiad nesaf oedd Llundain, prif ddinas yr ynys, yr hon, yn hir absennoldeb Gweyrydd yn y gorllewin, a dderbyniodd warchodlu Rhufeinig yn ddiweddar o fewn ei muriau. Yr oedd ei masnach mor eang fel yr oedd rhifedi y dinasyddion Rhufeinig a breswylient ynddi y pryd hwnw yn 50,000 o enoidiau. Y sawl o'r trigolion oeddynt yn ewyllysio yn dda i'w hachos a ymlynasant wrth Buddug, ereill a ffoisant i Regnum a Rutupium (*Chichester* a *Richborough*), a'r gweddill, yn cynnwys y dinasyddion Rhufeinaidd a'r masnachwyr tramor, gan benderfynu gwrthsefyll i'r eithaf, a giliasant am nodded at y gwarchodlu, o fewn llinell y rhagfuriau a gyrhaeddent o deml Diana hyd y Bryn Gwyn — yn awr y Tŵr. Dringwyd y rhagfuriau; y gwarchodlu, a'r holl boblogaeth o'u hamgylch a roddwyd i'r cleddyf; taniwyd y ddinas mewn pedwar man—tai annedd ac adeiladau cyhoeddus, ac yn eu plith teml Cariadwen (Diana), yr hon oedd mor enwog yn Mhrydain a hono yn Ephesus, yn Asia Leiaf, i'r un dduwies a losgwyd yn ulw. "Ni roddid arbediad, ac ni dderbynid pridwerth," fel y sylwa Tacitus, "gan y naill ochr na'r llall yn y rhyfel hwn." Anhawdd dychymygu pa nifer o fywydau a aberthwyd yn yr amlygiad hwn o ddialedd crefyddol a chenedlaethol. Mae Tacitus yn arwyddo fod mwy na 70,000 o Rufeiniaid, cyn y frwydr yn erbyn Paulinus, wedi syrthio yn yr amddiffynfa, neu ar y maes—colled fwy nag a gawsai yr ymherodraeth oddi wrth un achos tramor er y pryd y dyfethasid 100,000 o Rufeinwyr yn Asia gan Mithridates, brenin Pontus. Y mae yn deilwng o sylw, mai yr unig waith y cafodd Llundain ei chymmeryd a'i dinystrio oedd, nid gan elyn tramor, ond gan frenines a byddin Brydeinig, yn ymweled â'r ddinas â chosp haeddiannol am gydfradwriaeth gyda gallu tramor. Ymddengys nad anghoflwyd byth mo'r wers; o blegid y mae y dinasyddion byth ar ol hyny wedi bod y rhai blaenaf i wrthsefyll ymosodiadau cyhoedd, neu ddylanwad dichellgar gelynion

Digitized by Google

estronol. Ar yr achlysur hwn, gwnaed muriau Llundain yn gydwastad â'r llawr. Gan adael ar ol yr anghraifft gofiadwy hon o brifddinas, â'i lludw llosgedig yn diffodd yn ngwaed ei phreswylwyr, prysurai Buddug tua'r gorllewin, i wrthsefyll Paulinus, â'i lluoedd erbyn hyn wedi lluosogi yn 230,000 o wŷr. Tacitus a gofrestra ond dwy yn unig, ond Dion lawer o frwydrau rhyngddi hi a'r cadlywydd Rhufeinaidd. Cyfenwid hi gan y Prydeiniaid yn Foeddawg neu Fuddug, enw cyfystyr a Victoria, enw ei rhadlonaf fawrhydi ein brenines bresennol—yr hyn sydd yn arwyddo ei bod yn y rhan fwyaf o'r brwydrau hyny yn llwyddiannus. Y mae Tacitus yn gosod safle y frwydr olaf yn nghwr Fforest Epping—yr hyn sydd yn wall daiaryddol amlwg. Ymladdwyd hono ar linell y ffordd i'r Iwerddon ger llaw y Newmarket bresennol, yn swydd Callestr. Y mae yr amrywiol enwau ar y llanerch hon yn ddangosiad mor gywir o ddamweiniau y frwydr, fel y gallwn ymollwng yn mron i ddychymygu fod Dion Cassius wedi chwilio y fan, a bod y gwahanol leoedd wedi eu dangos iddo gan y trigolion, tra yr ydoedd y goffadwriaeth o honi eto yn fywiog ar gof gwlad. Y mae y dysgrifiad grymus a ganlyn o honi wedi ei godi allan o waith ei gasglydd, Xiphilinus, ysgrifenydd Groegaidd, i'r hwn yr ydym yn ddyledus am gadwraeth rhai darnau gwerthfawr a berthynant i hanes Prydain dan y Rhufeiniaid:—

"Paulinus, ar ei enciliad o Fôn, a fu yn hir yn anewyllysgar i anturio brwydr, gan ei fod yn ofni nifer a chreulonedd y barbariaid; ond gorfodwyd ef o'r diwedd i wneyd hyny, mewn rhan, o blegid ei fod yn cael ymosod arno yn barhaus; ac mewn rhan, am fod yr adgyflenwad o luniaeth wedi ei attal oddi wrtho ar bob tu. Yna, wedi trefnu ei wŷr yn dair byddin, efe a dderbyniodd frwydr, gan gyfarch ei luoedd, cyn iddynt ymgydio â'r gelyn, yn yr araeth fer ganlynol:—'Fy nghydfilwyr! chwi a glywsoch yr hyn a wnaeth y Prydeiniaid melldigedig; eich llygaid eich hunain a fuant yn dystion o amryw o'u creulonderau. Dewiswch, gan hyny, pa un a oddefwch chwi y cyffelyb arteithiau, a chael gyda hyny eich gyru am byth o'r ynys; ynte a ddielwch chwi waed y meirw, gan ddangos i'r byd un anghraifft arall o'r llymder â pha un y mae Rhufain yn cospi gwrthryfel. Y mae genyf hyder cryf y bydd y fuddugoliaeth o'n hochr ni; —rheol y duwiau yw amddiffyn y treisiedig. Mewn calondid naturiol, nid oes un genedl eto wedi ein cystadlu; ac y mae ein dysgyblaeth filwraidd unwaith o'r blaen wedi gorchfygu ein gelynion, yn erbyn y rhai yr ydym yn myned. Yr ydym yn nghylch gwneuthur ymosodiad, cofier, yn erbyn y rhai ydynt ryddion a hunanlywodraethol, yn unig trwy ein goddefiad: ond os dygwydd i siomedigaeth ddilyn ein harfau, ac nid wyf am gelu y gallwn gael ein trechu, bydd yn fwy anrhydeddus i ni farw fel gwŷr ar faes y frwydr, na chael ein cymmeryd fel ein cyddinasyddion, a'n polioni yn fyw gan y bwystfilod gwylltion cynddeiriog acw, y rhai ydynt ddyeithriaid i gyfraith, trugaredd, a theimlad. Awn a gorchfygwn! neu ynte cwympwn ar y maes! a phe byddai i'r Rhufeiniaid ereill oll gael eu gwthio allan o Brydain, bid i ni yn mhob modd adael ein hesgyrn—esgyrn milwyr Rhufain—i gadw meddiant tragwyddol yn ei daiar.'

"Yna rhoddwyd yr arwydd i'r gâd, a'r ddwy fyddin a nesasant i'r ymgyrch; y Prydeiniaid gyda chaniadau a bloedd rhyfel, y Rhufeiniaid mewn dystawrwydd dwfn, nes y daethant o fewn ergyd gwaewffon; yna, gan daflu eu gwaewffyn, a chyda gwaedd uchel, rhuthrasant yn mlaen i ganol eu gelynion, y rhai a gauasant yn ddiattreg am danynt. Ymffurfiasant yn betryal (*square*), ac felly, gan wynebu eu hymosodwyr ar bob tu, ymladdasant gyda ffyrnigrwydd mawr. Yr oedd yr ymdrech yn ammheus mewn modd nodedig. Mewn un man, yr oedd gwŷr meirch yn erbyn gwŷr meirch, trwm-arfogion yn erbyn trwm-arfogion, ysgafn-arfogion yn erbyn ysgafn-arfogion; ond mewn manau ereill, hyny yw, mwy na thair rhan o'r maes, yr oedd rhengau y Rhufeiniaid yn cael eu tori i lawr gan y cerbydau Prydeiniaidd, y rhai drachefn a gurid yn ol gan gymylau o saethau; yna dilynodd ffrawdd gyffredinol a maith,—gwŷr meirch yn erbyn gwŷr traed, gwŷr y llengau yn erbyn y cerbydwyr, a'r rhai hyny drachefn yn gwasgaru y saethyddion. Yn y modd yma dygwyd yr ymdrech yn mlaen gyda chreulonedd ac ystyfnigrwydd cyfartal hyd yn hwyr y dydd, pan y trodd y fantol o blaid y Rhufeiniaid. Gyrwyd y Prydeiniaid yn ol i'w gwarchgloddiau o feni o'r tu cefn, lle y lladdwyd, neu y cymmerwyd yn garcharion nifeiri o honynt. Y gweddill, y rhai oeddynt yn dra lluosog, a giliasant o'r maes mewn trefn dda; ac yr oeddynt yn barod yn fuan i adnewyddu y frwydr: ond yn y cyfamser cynnmerwyd Buddug yn glaf, a bu farw yn nghanol galar chwerw ei deiliaid a'i chynghreirwyr. Dathlwyd ei harwyl gyda mawr wychder costus. Byddin y Prydeiniaid, fel wedi ei gorchfygu, yna, am y waith gyntaf, a ymwasgarodd, gan ddychwelyd bawb i'w gwledydd eu hunain."

Gwelir fod yr hanesydd Groegaidd yn cyfrif marwolaeth Buddug i achosion naturiol, ac nid i wenwyn a gymmerasid yn wirfoddol, fel yr adroddir yn yr hanesion Lladinaidd. Mae yr enwau sydd yn cadw y frwydr bwysig hon mewn coffadwriaeth barhaus yn dra chyfaddas i alw gweledigaethau bywiog o honi i olwg yr ymdeithydd meddylgar, a allai yn olynol gymmeryd ei safle ar Cop Paulinus,—Bryn y Saethau, Bryn y Lladdfa, Pant y Gwae, Braich y Dadleu, Pwll y Crogwyn, Coetiau yr Orsedd, Pant Erwin. O fewn hanner milltir o bellder, y mae y maen cof a elwir "Maen Achwynfa;" ac ar y ffordd i Gaerwys gynt y safai Maen Bedd Buddug, ond yn awr y mae wedi ei symmud i Downing. Ar farwolaeth Buddug, terfynodd yr ysbaid hwnw o alanastra, rhwng B. A. 60 a 62, a ddynodir oddi wrthi hi yn "Rhyfel Buddug." Yn Essyllwg, Dyfed, a'r rhan arall o'r deyrnas i'r gogledd i'r afon Trent, yr oedd y rhyfel yn parhau, dan lywyddiad Gweyrydd, i ymgynddeiriogi mewn ffyrnigrwydd tost.

Yn adeg cymmeriad a llosgiad Llundain gan Buddug, y mae ysgrifenwyr Pabaidd yn cyfleu cenadaeth Pedr yr apostol i Brydain; a'r prawf a ddygant yn mlaen sydd fel y canlyn:—Mae Cornelius a Lapide, i roddi rheswm pa ham nad yw Paul, yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, yn anfon anerch at Pedr, yn dywedyd yn ei esboniad ar y bennod olaf, fod Pedr ar y pryd hwnw wedi ei orfodi, drwy orchymyn Claudius, i ymadael o Rufain, a'i fod yn absennol yn Mhrydain." [*Cornelius a Lapide*, yn y lle]. Dilys yw fod Epistol Paul at y Rhufeiniaid wedi ei ysgrifenu nid yn ddiweddarach na B. A. 56. Os felly, rhaid fod Pedr, cyn y gallai fod yn Llundain yn B. A. 61, wedi estyn ei ymweliad â Phrydain am bum mlynedd o leiaf. Nid awn yma i ymdrin â'r

Digitized by Google

ddadl flinderus pa un a fu Pedr erioed yn Rhufain cyn ei ferthyrdod, na pha un ai yn Rhufain ai yn Babilon y cafodd ei ddienyddio. Ymfoddlonwn yn unig ar sylwi y gellir crynöi yr holl ddadl rhwng Eglwys Rhufain a'r Protestaniaid, ar y pwnc annilys hwn, i'r tri gosodiad canlynol:—1. Bod yr Ysgrythyrau yn disbrofi yr haeriad i Pedr fod yn Rhufain, drwy eu dystawrwydd hylwyr ar y mater. 2. Eu bod trwy y dystawrwydd hwnw yn ei wneuthur hefyd yn beth hollol anghymhwys i Eglwys Gydolig Rhufain wasgu hyn fel pwnc o ffydd ar neb sydd yn cymmeryd yr Ysgrythyrau, a'r Ysgrythyrau yn unig, yn rheol ffydd. 3. Ar bwynt, ar ba un y mae y ddadl am uchafiaeth honiadol Eglwys Rhufain yn cael ei osod ganddi ei hun i bwyso a dibynu, mae dystawrwydd negyddol yr Ysgrythyrau, fel ar bob pwnc hanfodol, yn wrthddadl ddinystriol; canys ar brawf nacaol, nis gellir cadarnhau na sefydlu dim yn awdurdodol, llawer llai erthygl hanfodol o gredo. Yr ail dystiolaeth a ddygir yn mlaen yw yr eiddo Eusebius Pamphilus, a ddyfynir gan Simeon Metaphrastes, awdwr o'r degfed canrif, ac o'i ran ei hun yn hollol ddigoel:—"Pedr, wedi aros o hono ddeuddeng mlynedd yn y dwyrain, a dreuliodd dair blynedd ar ugain yn Rhufain, a Phrydain, a gwledydd y gorllewin." [*Eusebius Pamphilus apud Metaphrasten, ad* 29 *Junii*]. Y drydedd yw yr un o'r *Codex Groegaidd*, a ddyfynir gan Patricius, yn ei nodiadau ar yr epistol a gyfenwir ar enw Clement, ail esgob Rhufain:—"St. Pedr, wedi aros o hono rai dyddiau yn Mhrydain, a goleuo llawer drwy y gair grasol, a sefydlu eglwysi, ac ordeinio esgobion, offeiriaid, a diaconiaid, a ddychwelodd i Rufain yn y ddeuddegfed flwyddyn i Nero. Yna, gan weled fod Linus wedi marw, efe a ordeiniodd Clement yn olynydd iddo. Yntau, gan ymesgusodi, a ymbiliai ar gael ei arbed rhag cymmeryd arno gyfrifoldeb y swydd esgobawl; ond yr apostol a'i calonogodd ef; ac efe a eisteddodd yn nghadair ei athrawiaeth." — *Codex Græcus loco ut supra apud Patricium.*

Yr oedd Ioseph o Arimathea yn dra adnabyddus i Pedr, ac yr oedd Aristobulus yn chwegrwn iddo; yr hwn, am ei fod mewn gwth o oedran, a gyfenwid yn addas iawn gan y Cymry yn Arwystli Hen. Nid oes un annhebygolrwydd blaenorol; ond yn y gwrthwyneb, y mae cryn lawer i'w ddywedyd a allai fod yn gymhelliadol i'r apostol dalu ymweliad â'r naill neu y llall o'i gyfeillion a'i frodyr hyn yn ynys fawr y byd cenedlig. A byddai yn brawf o feddwl egwan a checrus i ofyn tystiolaeth mor helaeth a manwl o'r ffeithiau pell hyn ag a ddysgwylir mewn achosion o bwys crefyddol neu wladol, pan eu profir mewn llysoedd cyfraith, gyda holl oleuni a chyfleusderau gwybodaeth y pedwerydd canrif ar bymtheg. Nid oes un barnydd rhesymol a ofyn, ar un achos, brawf eglurach nag a oddef amser ac amgylchiadau y drafodiaeth; eto nis gallwn gau ein llygaid ar y fath gamamseriad gwarthus ag a wnaed gan ysgrifenydd y *Codex Groegaidd.* Yr ydym yn dilys wybod, oddi wrth Ail Epistol Paul at Timothëus, fod Linus, yr hwn a anerchir ganddo, wedi ei oroesi ef, ac o ganlyniad Pedr hefyd, os, fel y mae Eglwys Rhufain yn dal, darfu i Pedr ddyoddef yn yr un lle ac ar yr un pryd a Paul. Nis gellir rhoddi un ymddiried mewn awdwr sydd yn cymmysgu holl seiliau amseryddiaeth, ac yn dangos y fath anwybodaeth dybryd o ffeithiau a nodir allan mor amlwg yn yr Ysgrythyrau. Y mae dau draddodiad, modd bynag, yn aros, ag sydd yn dwyn perthynas âg ymweliad honiedig Pedr â'r ynys hon; pa rai, o herwydd y taeniad helaeth a gawsant yn yr amseroedd gynt, ni ddylid myned heibio iddynt yn ddystaw. Credid yn gyffredin iawn gan yr hynafiaid, fod y dadguddiad o'i farwolaeth agosaol, yr hyn y mae efe yn cyfeirio ato yn ei ail epistol,—"Gan wybod y bydd i mi ar frys roddi fy nhabernacl hwn heibio, megys ag yr hysbysodd ein Harglwydd Iesu Grist i mi;" 2 *Pedr* i. 14)—wedi ei ganiatäu iddo ar lan y Tafwys, y lle yn awr y saif yr eglwys gadeiriol, a ddynodwyd, er cof enwedigol am yr amgylchiad, gan Sebert brenin Cristionogol cyntaf Essex, neu y Seison dwyreiniol, yn ol ei enw ef yn "St. Pedr o Westminster." Gyferbyn a hi, ar fin yr afon, y mae safle palas ac eglwys Lambeth; ac y mae hen gofion yn dywedyd fod yr eglwys hon wedi cael ei hadeiladu ar y cyntaf gan yr apostol ei hun; o herwydd hyny gelwid hi gan y Prydeiniaid, yn Llanbedr—yr hyn a lygrwyd gan y Seison o Lampeter, ei ail ffurf, yn Lambeth. Cawsai hon, yn nghyd âg adeiladau cyhoeddus ereill, eu dinystrio gan Buddug; ond ailadeiladwyd hi yn y canrif nesaf gan Lleufer Mawr, neu Lucius.

Os addefwn genadaeth Pedr i Brydain, naill ai yn ngweinyddiad y rhwymedigaeth olaf a mwyaf difrifol a roddwyd arno ef, yn nghyd â'r apostolion ereill, gan ein Harglwydd, o "ddysgu a bedyddio yr holl genedloedd," ai ynte, rywfaint yn ddiweddarach na B. A. 60, i ymweled â'i gyfathrachwr, Aristobulus, y mae pob hawl i uchafiaeth, a honir gan Eglwys Rhufain yn mherson ei chenadwr cyntaf hi, Awstin (B. A. 607), dros eglwys gyntefig Brydain, yn ymddangos, oddi wrth ei chynseiliau hi ei hunan, yn hollol ddisail. Yr eglwys henaf yn ddiau, hyd yn oed i Pedr, heb son am yr apostolion ereill, yn yr amgylchiad yna fyddai Eglwys Prydain, ac nid Rhufain. Nid oedd un eglwys arall yn Rhufain ei hun, mewn ystyr eglwysyddol, ond yr un a ymgynnullai gyda Paul, fel y dywedir gan gorflaenor (*coryphæus*) yr haneswyr Pabaidd Rhufeinaidd, yn mhalas merch a mab yn nghyfraith brenin Prydeinaidd. Byddai yr haeriad yn berffaith gysson â'r gwirionedd, fod yr eglwys yn Rhufain, yn yr oes apostolaidd, yn fwy Prydeinig na Lladinaidd neu Rufeinig, gan mai ei hiaith ydoedd y Groeg, a'i bod yn derbyn ei chynnaliaeth allanol yn benaf oddi wrth ddychweledigion a chyllidau Prydeinaidd.

Y mae cenadaeth apostol arall, ar y cyfnod hwn i Brydain, sef Simon Zelotes neu y Canaanead, yn gorphwys ar awdurdod mwy sylweddol. Y mae rhai awduron yn enwi Persis, yn Asia, fel y lle yn mha un y gorphenodd efe ei lafur; ond y mae Dorothëus, esgob Tyrus, B. A. 300—yr hwn oddi wrth sefyllfa ei esgobaeth, ac amser boreuol ei dystiolaeth, sydd yn dyst o gryn bwys—a Nicephorus, a'r *Menology* Groegaidd, yn cytuno yn eu hadroddiad mai yn Mhrydain y dyoddefodd efe. Cafodd ei farwolaethu drwy groeshoeliad—math o artaith anadnabyddus i'r Prydeiniaid hyd onis dygwyd i mewn gan y Rhufeinwyr, B. A. 43, ond a roddid yn arferol fel cosp ar dri dosbarth o droseddwyr gwladol—y Cristion, y gwrthryfelwr, a ffoadur o gaethwas—gan y bobl ffyrnig ac ymgleddyfol hyny. Rhaid, gan hyny, fod Simon Zelotes wedi dyoddef yn ddiweddarach na heddwch Caer Col, B. A. 43, ac mewn rhyw ardal yn y dwyrain neu y de-ddwyrain i Brydain, ydoedd yn ddigyfrwng dan lywodraeth y Rhufeiniaid;

Digitized by Google

—trefedigaeth Caer Col, fe ddichon, neu ddinas freiniol Verulam. Tywalltwyd gwaed y merthyr apostolaidd hwn ar ddaiar Prydain: ond y mae genym bob lle i gasglu, mai nid gan y Prydeiniaid, ond trwy ddwylaw gwŷr alltud.

Coleddir tybiau tra chyfeiliornus, gan bobl annysgedig, o barth helaethrwydd cyfleusderau i dramwy rhwng Prydain a'r Cyfandir yn y canrif cyntaf o'r cyfrif Cristionogol. Gallai dyn a gychwynai o Rufain i Lundain gyflawnu ei daith mor gyflym a diogel yn mron a'r teithiwr diweddar, yn ffordd yr hwn y mae anghyfleusderau a rhwystrau lawer yn cael eu tafiu oddi wrth raniad y Cyfandir yn amryw wladwriaethau annibynol, a phob un yn cael ei rheoli gan gyfundrefn o drwyddedau hynod o fanwl. Yr oedd Julius Cæsar, uwch law can mlynedd o flaen dygiad Cristionogaeth i'r ynys hon, gyda theulu breninol Essyllwg, yn arfer cyflawnu teithiau o chwech ugain milltir y dydd, yn Italy a Gâl. Yn amser Augustus a'i olynwyr, yr oedd moddion cyweithasu rhwng y gwahanol genedloedd wedi cynnyddu yn ddirfawr. Yr oedd ffyrdd yn myned allan o Rufain hyd derfynau eithaf yr ymherodraeth. I ba le bynag y dewisai y dinesydd Rhufeinaidd gyfeirio ei yrfa, byddai adenydd amddiffynol eryr Rhufain yn chwyflaw drosto. Un gyfraith oedd yn ffynu yn mhob lle, un cyfundeb o awdurdod, un llywodraeth, un trefniant parod a chyflawn, cyfluniedig âg athrylith filwraidd a manwl, yn dramwyfa ddiogel o'r Euphrates hyd gyfyngfor Dover. Byddai yn drais ar ein gwybodaeth am eiddgarwch diflin ac anturiaeth eofn yr apostolion, i dybied na byddai iddynt, yn nghyflawniad eu dyledswydd benodol o ennill eneidiau at Grist, a helaethu terfynau ei deyrnas, gymmeryd mantais o'r holl ffyrdd cyfleus oedd fel hyn yn treiddio, ac yn agor o flaen y marchnatäwr, y milwr, yr athronydd, a swyddog y llywodraeth. i bob ardal yn Ewrop, ag oedd yn gwneyd i fyny un gyfran o'r taleithiau ymherodrol. Yr ydym wedi gweled fod deng mil a deugain o ddinaswyr Rhufeinaidd yn breswylwyr parhäus, neu am dymmor, yn Llundain yn unig; —masnach yr hon, o amseroedd pell yn ol oedd yn cario dylanwad mawr ar gyflwr cymdeithasol a gwladyddol yr ynys. Yn mhlith y rhai hyn, gallwn yn ddiammheuol gasglu fod lluaws yn proffesu ffydd Crist, yr hon oedd wedi ymdaenu ar led yn mhell, yn wir tu hwnt i derfynau ymherodraeth Rhufain, i wledydd lle na chlywsid erioed drwst na chyffro ei harfau ymosodol. Yr oedd colomen yr efengyl, a'i deilen olewydden o hedd, wedi chedeg yn mhellach, i'r gogledd, gorllewin, dwyrain, a deheu, na chediadau pellaf yr eryr ymherodrol. Y mae Tertullian yn dyweyd, fod "gororau yn Mhrydain, heb eu cael allan erioed eto gan y Rhufeiniaid, yn proffesu ufuddod i Grist"=*Britanniarum inaccessa Romanis loca, Christo vero subdita.* [*Tertullian adv. Judæos Lut.; var.* 1664, td. 189.] Yn y gwareiddiad pwysig oedd yn treiddio trwy yr ymherodraeth, gwelwn barotoad rhagluniaethol i, ac amlygiad rhwydd a boddhaol o, daeniad cyflym a chydamserol yn mron o'r efengyl, trwy y cwbl o'r byd adnabyddus y pryd hyny, yn oes yr apostolion eu hunain. Nid i wledydd cyffelyb i anialdiroedd America, neu ddifficithfaoedd anhygyrch Affrica, yr oedd yr apostolion a'u dilynwyr yn dwyn cenadwri y groes; ond tros ymherodraeth, a than arglwyddiaeth cenedl lywodraethol ddihafal am ei medr peiriannol, a ddygid i weithredu ar y gyfundrefn eang-fawr o ffyrdd. y rhai oeddynt i rwymo y gwahanol daleithiau wrth eisteddle y llywodraeth. Nis gellir, gan hyny, ddwyn yn mlaen un wrthddadl yn erbyn ymweliad, unwaith ac eilwaith, gan yr apostolion à Phrydain, ar gyfrif anhawsderau y ffordd. Ond y gwrthwyneb yw y gwir. Fel yr oedd gorchymyn ein Hiachawdwr yn cynnwys yr holl genedloedd o fewn cylch efengyl ein iachawdwriaeth, felly yr oedd y cyfnod ar ba un ei rhoddwyd yn meddu cyfleusderau o'r math mwyaf manteisiol i'w roddi mewn gweithrediad. Yr oedd mawredd y canlyniad yn gyfatebol. Yr oedd ffydd y Rhufeiniaid crediniol, fel y dywed Paul, "yn gyhoeddus yn yr holl fyd;" *Rhuf.* i. 8.

Pedwar plentyn Pudens a Gwladys oeddynt Timothëus, a alwyd felly ar ol Timothëus, yr hwn a elwir weithiau yn esgob Ephesus, cydymaith Paul yn y rhan fwyaf o'i deithiau; Novatus (adgenedledig); Pudentiana, a Praxedes. Cawsant oll eu haddysgu gan yr apostol ei hun yn egwyddorion Cristionogaeth. Penodwyd Linus (Lleyn, Llin, neu Cyllin), brawd Gwladys, gan Paul, yn esgob cyntaf eglwys y cenedloedd yn Rhufain;—yr eglwys Hebrëig yn yr un ddinas yn cael ei harolygu gan Clemens.

Yn y flwyddyn ganlynol (B. A. 64), ymwelodd Paul â'r dychweledigion breninol yn Mhrydain. Gellid dyfynu rhestr faith o awdurdodau er cadarnhau gwirionedd y genadaeth hon i apostol mawr y cenedloedd, sydd yn awr yn ddiddadl. "Am daith Paul i Brydain," sylwa esgob Burgess, "pwnc o gryn bwys yn hanes yr efengyl ac i'r Eglwys Brotestanaidd, yn ffodus y mae genym brawf mor sylweddol ag a ddichon unrhyw ffaith hanesyddol ei ofyn." [*Burgess' Independence of the British Church*, td. 21.] Y mae yr awduron canlynol yn dwyn tystiolaeth i'r dygwyddiad dyddorawl hwn:—Tertullian, Origen, Athanasius, Chrysostom, Irenæus, Eusebius, Theodoret, Nicephorus, Sophronius, a Venantius Fortunatus. "Y farn gyffredin," medd Capellus [*Hanes yr Apostolion*, td. 29], "a'r hyn a dderbynid gan yr holl dadau, heb odid un yn anghytuno, yw fod Paul yr apostol, ar ol y ddwy flynedd o garchar yn Rhufain a gofnodwyd gan Luc, wedi treulio amryw flyneddoedd ar ol ei ryddhâd i bregethu yr efengyl yn mhob gwlad yn ngorllewin Ewrop." "Anturiodd Paul ar Fôr y Gorllewin," yw geiriau Nicephorus Callestus, "a chan groesi y cyfyng-fôr sydd yn gwahanu Prydain oddi wrth y Cyfandir, pregethodd yr efengyl yn yr ynys hono."—[Llyfr i., pen. 1.] "Efe a aeth dros y cefnfor," medd Eusebius Pamphilus, [llyfr iv.], "i'r ynysoedd Prydeinig." Mae yn dra thebygol fod Pudens, Gwladys, ac ereill o'r teulu, wedi dyfod gyda Paul ar yr achlysur hwn; o blegid ymddengys fod cyfeillach agos iawn rhwng yr apostol a theulu Pudens yn mhell cyn dyfodiad cyntaf yr apostol i Rufain: ond pa fodd y daethant i gydnabyddiaeth â'u gilydd, mae yn rhy anhawdd dyweyd, ar ol cymmaint o amser. Yn ei anerchiadau, mae efe yn galw mam Ruffus (Pudens), "a'i fam ef a minnau;" *Rhuf.* xvi. 13. Yr oedd, gan hyny, amryw gymhelliadau yn cydgyfarfod i dueddu Paul, fel apostol i Grist, i ymweled, yn ol ei reol arferedig, âg eglwysi y saint cenedlig yn Mhrydain, ac â theulu Gwladys, i adnewyddu eu hundeb mewn cymdeithas âg aelodau crediniol ereill o deulu breninol Essyllwg yn eu gwlad enedigol. Gallwn gasglu, gan hyny, fod Castell Dindryfan, preswylfod Caradog, wedi cael ei anrhydeddu, dros ryw ysbaid anmhenodol, â phresennoldeb ac athraw-

Digitized by Google

iaeth Paul. Yn ddiau, oddi eithr yn achos y tri brenin Prydeinaidd, Bran, Caradog, ei fab Cyllin, a'i gefnder, Arifog, nid ydym yn gweled cyflawniad llwyr a llythyrenol o addewid Iesu Grist gyda golwg ar yrfa ddyfodol yr apostol Paul, a wnaed i Ananias yn Damascus,—"Mae hwn yn llestr etholedig i mi, i ddwyn fy enw ger bron y cenedloedd, a breninoedd, a phlant Israel;" *Act.* ix. 15: canys Agrippa, yr unig benadur arall o flaen yr hwn y "tystiodd" Paul "gyffes dda" am Grist, ydoedd Hebread; a chyflogedig gan Rufain, yn hytrach nag unben annibynol. Ac ar ol yr oes apostolaidd, nis gallai fod yr Eglwys Gristionogol mewn angen am "dadmaethod a mammaethod." Iawn i ni, gan hyny, ystyried y cyfryw brophwydoliaethau, a'r rhai canlynol, yn eglur gyfeirio at oes gyntaf neu apostolaidd yr eglwys, megys yn derbyn eu prif, os nad eu hunig, gyflawniad yn eglwys foreuol Prydain, a'i breninoedd yn Essyllwg:—"Cenedloedd a rodiant at dy oleuni; a breninoedd at ddysgleirdeb dy gyfodiad." "Yn ddiau yr ynysoedd a'm dysgwyliant." "Meibion dyeithr a adeiladant dy furiau; a'u breninoedd a'th wasanaethant." "Sugni hefyd laeth y cenedloedd; ïe, bronau breninoedd a sugni" (*Esa.* lx. 3—16). "Gwrandewch arnaf, ynysoedd; ac ystyriwch bobl o bell." "Mi a'th roddaf hefyd yn oleuni i'r Cenedloedd, fel y byddech yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaiar." "Breninoedd a welant, ac a gyfodant; tywysogion hefyd a ymgrymant." "Cyfodaf fy llaw at y cenedloedd, a dyrchafaf fy maner at y bobloedd." "Breninoedd hefyd fydd dy dadmaethod, a breninesau dy fammaethod" (*Esa.* xlix. 1—23). Yn nheulu Caradog, yn Essyllwg, yn unig y canfyddwn gyflawniad o'r addewidion hyn o eiddo yr Hollalluog; canys yn Rhufain, ac yn gyffredinol allan o Brydain, yn ol tystiolaeth yr apostol, "nid llawer o rai galluog, nid llawer o rai boneddigion, a alwyd." Yr oedd Prydain Gristionogol yn hyn yn wrthgyferbyniol iawn i'r Cyfandir. "Yr ydoedd cryd yr Eglwys Gristionogol yn Mhrydain," fel y sylwa yr hanesydd a'r duwinydd Galaidd, Moncæus, "yn un breninol; sef yr eiddo Claudia Rufina, gwyryf o'r gwaed breninol —yr un a fu gwedi hyny yn wraig sanctaidd i'r seneddwr Rhufeinaidd sanctaidd hwnw, Aulus Pudens, ac yn fam i dylwyth o saint." [*Moncæi Syntagma*, td. 38.] Mae Moncæus yn cynnwys yn ei restr o awduron y *Fides et Scripta Bardorum*, er profi fod Gwladys yn ferch i Garadog, ac felly darddiad breninol yr hen Eglwys Brydeinig. Wrth roddi yn nghyd y cyd-darawiadau hyn oll, rhwng awduron hollol annibynol, yr ydym yn ystyried fod y casgliad mai Paul a sylfaenodd yr eglwys foreuol yn Mhrydain, ac iddo efei hun yn bersonol addysgu ei "breninoedd a'i breninesau" yn Essyllwg, wedi ei sefydlu ar sail gadarnach na'r nifer mwyaf o lawer o adroddiadau mewn hanesiaeth eglwysig foreuol. Tueddir ni hefyd i gredu fod y *Fides Bardorum* wedi trosglwyddo i waered i ni yn y *Trioedd*, a elwir "Trioedd Pawl," gyfran sylweddol, ond bechan, o'i athrawiaeth ef i'r Prydeiniaid. Dull Derwyddol o weinyddu addysg yw y *Trioedd;* ac nis gall dim fod yn fwy naturiol na bod y dychweledigion cyntaf oddi wrth Dderwyddiaeth wedi gosod rhai o addysgiadau yr apostol yn y ffurf arwireddol gynnwysfawr hon. Mae "Trioedd Pawl" yn dwyn gyda hwynt brawf mewnol o'u bod wedi cu cyfansoddi mewn amser bore iawn: mae y syniadau a draethir ynddynt yn hollol ysgrythyrol, yn gwahaniaethu yn fawr yn hyn oddi wrth y rhan fwyaf o gyfansoddiadau yr oes nesaf ar ol yr apostolion. Dodir hwynt i mewn yma fel coflon Prydeinaidd o addysg foesol yr eglwys yn ei hamserau puraf a boreuaf yn yr ynys hon:—

"Tri dyn y sydd: dyn i Dduw, a wna dda dros ddrwg; dyn i ddyn, a wna dda dros dda, a drwg dros ddrwg; a dyn i ddiawl, a wna ddrwg dros dda.

Tri menwydigion Duw: gwâr, heddgar, a thrugar.

Tri nodau plant Duw: ymddwyn difalch, cydwybod lân, a dyoddef camwedd yn amyneddgar.

Tri phrif ofynion Duw: cariad, cyfiawnder, ac ufudd-dod.

Tri lle y bydd mwyaf o Dduw: lle mwyaf a'i cais, y mwyaf a'i câr, a lleiaf o'r hunan.

Tri chelwydd y sydd: celwydd gwedyd, celwydd taw, a chelwydd ymddwyn; a phob un a bair credu nas dylid.

Tri pheth a gaiff dyn o gredu yn Nuw: a fo raid yn y byd, heddwch cydwybod, ac ymgyd â'r nefol.

Tri chosp Cristion ar ei elyn: maddeu iddo, tewi arno, a gwneuthur daioni iddo hyd eithaf gallu.

Tri gofal Cristion: rhag digio Duw, rhag tramgwyddo dyn, a rhag ymwanhau o'i gariadoldeb at bob daioni.

Tri thyst dwyfolder: gommedd hunander, ymddwyn haelionus, a channerth pob daioni.

Tri moethineb Cristion: darpar Duw, a ellir gan a fo cyfiawn i bawb, ac a allo cariad at bawb eu harfer.

Tri dyn a safant yn hawl a braint brodyr a chwiorydd: amddifad, gweddw, ac alltud."

Y mae Arnoldus Mumannus [*Theatrum de Conversione Gentium*] yn gosod cenadaeth Paul yn misoedd diweddaf B. A. 59; os felly, rhaid ei fod wedi gadael Rhufain gyda Bran a Charadog. Nid yw hyn yn annichonadwy: ond yr ydym yn meddwl fod pwys y prawf amgylchiadol yn troi o blaid amseriad diweddarach—B. A. 63; yn yr hon flwyddyn, hefyd, y tybir ddarfod i'r apostol ganu yn iach i Essyllwg, i ddwyn newyddion iachawdwriaeth i'r Yspaen a gwledydd gorllewinol ereill. Yn B. A. 67, yr ydym yn ei gael, ar ol ei brawf, a'i fwrw i ddyoddef marwolaeth gan Nero, yn ysgrifenu ei gyfarchiad olaf at Timothëus, o'i hen breswylfod yn mhalas Claudia. Yn ei ail epistol hwn at ei fab, a genedlasai efe yn y ffydd, efe a ddywed yn benodol, mai "Luc yn unig" o'r enwaediad oedd gydag ef (iv. 11); ac nid oes mo'r cyfeiriad lleiaf yn cael ei wneyd at Pedr fel yn bresennol, nac fel cyddyoddefydd chwaith. Nid oes anerchiadau neb wrth eu henwau, heb law teulu Pudens a Gwladys, yn cael eu hanfon ganddo at Timothëus. "Y mae Eubulus yn dy anerch, a Pudens, a Linus, a Claudia" (*adn.* 21). Yr oedd y rhai hyn yn gweini yn arbenig ar yr olygfa derfynol o fywyd yr apostol, ac efallai yn gwrandaw arno yn traethu y geiriau cofiadwy hyny, na pha rai nis gall dim fod yn fwy godidog a ddaeth erioed dros wefusau dyn, na mwy argyhoeddiadol o wirionedd a gallu yr efengyl i fywyd tragwyddol: —"Myfi yr awr hon a aberthir, ac amser fy ymddattodiad i a nesaodd: mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd: o hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi y dydd hwnw; ac nid yn unig i mi, ond hefyd i bawb a garant ei ymddangosiad ef;" *adn.* 6, 7, 8. Gan fod cyfraith Rhufain yn gwahardd cospi dinesydd

Digitized by Google

Rhufeinaidd drwy groeshoeliad, dyoddefodd Paul ferthyrdod drwy gael tori ei ben. Claddwyd ei weddillion marwol ger llaw Via Ostiensis. Lleyn, neu Linus, ail fab Caradog, a'i dilynodd ef fel esgob cyntaf yr eglwys yn Rhufain. Fel hyn, trwy y prawf tanllyd o drychineb gwladol a darostyngiad teuluaidd, yr oedd meibion a merched y gwladgarwr Prydeinaidd ardderchog wedi cael eu dyrchafu i weini ar apostol a sylfaenydd yn Nghrist yr eglwys yn mhlith y Cenhedloedd, yn ei oriau olaf. Nid oes un nodwedd mwy hawddgar na hwn—o wraig o waedoliaeth Prydeinaidd uchel, yn gwasanaethu ar "Paul yr hynafgwr" yn yr ysbaid rhwng aberthiad ei gorff a'i dderbyniad o goron anfarwoldeb—yn cael ei osod ger bron i'w edmygu genym, ar ddalenau hanesiaeth; nac un anghraifft fwy tarawiadol o'r modd y mae Duw yn dwyn daioni allan o ddrwg, ac yn goruwchreoli trallodion tymmorol i fod yn offerynau iachawdwriaeth dragwyddol. Y mae dygiad yr efengyl i Brydain, a hyny o darddiad apostolaidd amlwg, a than amddiffyniad gwladol o'r radd uchaf, i'w olrhain i anffawd oedd ar y pryd yn ymddangos, nid yn unig yn anadferadwy, ond hefyd yn ddymchweliad ar y cyfiawnder sydd yn rheoli flyrdd tragwyddol Duw yn llywodraethiad y cenedloedd a'r byd.

Estynwyd einioes Bran, ac Aristobulus, neu Arwystli Hen, i eithafedd henaint; yr olaf yn derbyn ei ollyngdod o'r diwedd trwy ferthyrdod yn y parth hwnw o diriogaeth y Gordofigion, adnabyddus oddi wrtho ef wrth yr enw Cantref Arwystli, yn swydd Drefaldwyn, B. A. 78, yn amser rhyfelawd cyntaf Agricola. Y mae y dygwyddiad wedi ei gofrestru fel hyn yn *Merthyrdraeth Eglwys Groeg.*

"Yr oedd Aristobulus yn un o'r deg dysgybl a thrigain; ac yn ddilynwr i St. Paul yr apostol, gyda'r hwn y pregethodd efe yr efengyl yn yr holl fyd, ac y gwasanaethodd arno. Dewiswyd ef gan St. Paul i fod yn esgob cenadol i wlad Prydain, a breswylid gan genedl dra rhyfelgar a chreulawn. Cafodd ei fflangellu ganddynt yn fynych, a'i lusgo megys troseddwr trwy eu trefydd; er hyny, efe a drodd lawer at Gristionogaeth. Mewn canlyniad, efe a ferthyrwyd yno; ond nid cyn iddo adeiladu eglwysydd, ac ordeinio diaconiaid a henuriaid, yn yr Ynys."

Claddwyd Aristobulus yn Ynys Wydrin, neu Afallon. Ei ddydd gŵyl yw Mawrth 15fed. Nid oes un coffadwriaeth am amser a modd marwolaeth Cyndaf a Manaw wedi disgyn i waered atom ni. Gorphenodd Ilid ei ddyddiau mewn tangnefedd yn nghyssegrfa Ioseph, yn Afallon.

Bu farw Caradog yn B. A. 91, yn ei 80fed mlwydd oed, yn ei balas yn Abergwerydwyr, a adeilesid, medd *Gwehelyth Iestyn Morganwg*, ar y dull Rhufeinaidd—yn awr Llanddunwyd Fwyaf, neu St. Donats Major. Dilynwyd ef gan ei fab Cyllin; i'r hwn, yn yr un gwaith, y rhoddir y cymmeriad canlynol;—"Cyllin ab Caradog a fu frenin doeth a mwyn iawn; ag yn ei amser ef y doeth lawer o'r Cymry i'r Ffydd Gristionogol, drwy addysg y saint o Gôr Eurgain; a llawer o wŷr duwiol o wlad Groeg a Rhufain a fuont yn Nghymru yn ei amser ef. Efe gyntaf o'r Cymry a beris rhoddi enw dyn arno yn faban, herwydd cyn hyny ni roddid enw cyn llawnoed, a chael gwybodaeth o'r cynneddfau."—*Gwehelyth Iestyn ap Gwrgant, Tywysog Morganwg.*

Mab ac olynydd Cyllin ydoedd Coel; a'i fab yntau, Lleurwg (Lleufer Mawr), a sefydlodd Gristionogaeth, yn y ganrif ganlynol, yn lle Derwyddiaeth, yn grefydd wladol yn Mhrydain. Owain, hefyd, ail fab Cyllin, sydd enwog am y gwasanaeth pwysig a wnaeth i'r Cristionogion. Coel ac Owain oeddynt gefnder i Timotheus, Novatus, Prudentiana, a Praxedes—plant Pudens a Gwladys.

Ioseph o Arimathea a fu farw mewn perffaith dawelwch, B. A. 90, yn Ynys Afallon. Y mae traddodiad, gyda math o serchogrwydd sanctaidd, wedi cadw y beddargraff syml a ddynodai ei feddrod ar Mons Acutus:—"Mi a ddaethym at y Prydeiniaid ar ol claddu Iesu Grist. Dysgais hwynt, a gorphwysais."=*Ad Britones veni postquam Christum sepelior. Docui. Quievi.*

Tybir i Lazarus, Martha, a'r ddwy Fair, farw a chael eu claddu yn yr un gyssegrfa. Y mae dywediad o eiddo Lazarus yn aros eto ar gael, wedi ei gadw yn y ffurf arferedig o Drioedd, yn mhlith ei frodyr yn Mhrydain:—"Tri chynghor Lasar: cred yn Nuw a'th wnaeth, câr Dduw a'th brynwys, ac ofna Dduw a'th farn." Fel yr unig weddill a ddaeth i waered hyd ein hamser ni o ymddyddanion Cristionogol y dyn, ar yr hwn y gwnaeth Arglwydd y Bywyd y fwyaf aruthrol o'i wyrthiau, y mae yn deilwng o goffâd ac efrydiaeth neillduol. Y mae syniadau o eiddo Ilid a Bran yr un mor fynegiadol o'u ffydd a'u cymmeriad Cristionogol, wedi eu trosglwyddo yn y tribanau canlynol:—

"A glywaist ti chwedl Ilid,
Sant o'r Israel ei hendid,—
'Nid ynfydrwydd ond trallid.'"

"A glywaist ti chwedl Bran
Fendigaid wrth y Clodfan,—
'Nid da ond Duw ei Hunan.'"

Yn Eglwys Groeg, y mae gŵyl Aristobulus (Arwystli) yn cael ei chadw eto fel un yr esgob cenadol cyntaf i Brydain, yr hon oedd o flaen cenadaeth Awstin 536 o flyneddoedd. Y mae yr hysbysiadau canlynol yn cyfeirio ato yn y sefyllfa hono.

"Aristobulus, yr hwn a goffeir gan yr apostol yn ei Epistol at y Rhufeiniaid, a wnaed yn esgob Prydain."—*Dorothei Synopsis*, B. A. 303.

"Dydd Nadolig Aristobulus, esgob Prydain, brawd St. Barnabas yr apostol, gan yr hwn yr ordeiniwyd ef yn esgob. Efe a anfonwyd i Brydain, ac wedi pregethu gwirionedd Crist, a ffurfio eglwys, efe a dderbyniodd ferthyrdod."—*Adonis Martyrologia in Diem Martii* 17.

Ymddengys, oddi wrth Ado, ddarfod i Arwystli dderbyn cyssegriad oddi wrth Barnabas, a'i genadaeth oddi wrth Paul; ac felly yn uno yn ei berson ei hun dystiolaeth y ddau apostol, a neillduwyd gan yr Ysbryd Glân i waith y weinidogaeth yn mhlith y Cenhedloedd.

"Y mae coffadwriaeth llawer o ferthyron yn cael ei gadw yn mhlith y Prydeiniaid; yn enwedig yr eiddo Aristobulus, un o'r LXX dysgyblion."—*De Græ. Off., lib* ix., *tom.* iv.

O ddwy ferch Arwystli, gwraig Pedr oedd yr henaf.

Yr oedd gohebiaeth gysson drwy lythyrau yn cael ei ddwyn yn mlaen rhwng teulu Gwladys yn Rhufain a'u ceraint yn Mhrydain. Y gohebydd ar ran y blaenaf ydoedd Hermas—yr hwn, wedi hyny, oddi wrth waith o'r enw a ysgrifenwyd ganddo, a alwyd y Bugail—brawd Pius, wedi hyny esgob Rhufain. Hermas y Bugail oedd gweinidog yr eglwys yn nhŷ Claudia—swydd yn tebygu i ryw radd i'r un ddiweddar o gaplan yn y teulu breninol. O'r holl deulu breninol o saint, Gwladys yn unig a fu farw o angeu naturiol. Y

Digitized by Google

lleill oll—ei gwr Pudens; eu dau fab, Timothëus a Novatus; a'u dwy ferch, Prudentiana a Praxedes —a wysiwyd gan yr Iachawdwr i dderbyn eu coron trwy yr un bedydd ag ef ei hun. Hwy oll a chwanegwyd at "ardderchog lu yr merthyri" —hwy oll a seliasant eu ffydd â'u gwaed. Y mae hanes eu dyoddefiadau yn perthyn yn fwy priodol i hanesiaeth ail canrif yr eglwys yn Mhrydain; ond ni buasai yr erthygl hon yn cael ei hystyried yn gyflawn heb y dyfyniadau canlynol allan o *Ferthyrdraethau* a hen ysgrifau ereill y brif eglwys, yn mherthynas i'w marwolaeth yn yr Arglwydd. Yn y *Merthyrdraethau*; wrth y "Nadolig," y meddylir dydd marwolaeth y saint, —y dydd y derbynient eu gollyngdod oddi ar y ddaiar, ac yr elent i mewn, yn greaduriaid newyddion, i'r ddinas nefol, "saer ac adeiladydd yr hon yw Duw."

Claddwyd hwynt oll wrth ochr Paul yn y Via Ostiensis.

Pudens a ddyoddefodd, Mai 17, B. A. 96.—"Die 17 Maii. Natalis Beatissimi Pudentis, Patres Virginum Praxedis et Pudentianæ, qui ab Apostolis Christi in baptismo vestitus innocentem vestem usque ad coronam vitæ immaculatæ custodivit et servavit:"—*Adon. in* 17 *Maii Martyrol*:=*h. y.*, "Mai 17, Dydd nadolig Pudens dradedwydd, tad y gwyryfon Praxedes a Pudentiana. Efe a wisgasid mewn bedydd gan apostolion Crist; a gwyliodd a chadwodd ei ddillad yn bur a digrychni hyd goron y bywyd dihalog."

Ar ol merthyrdod Pudens, ymneilldudd Gwladys i'w etifeddiaeth ef yn Sabinum, yn Samnium. Nid hir y bu hi byw ar ol anwyl gymhar ei bywyd a'i ffydd; a chladdwyd hi yn ymyl ei phlant yn yr un beddrod.

"Wedi marw eu tad Pudens (medd Ado), Pudentiana a Praxedes a gyssegrasant ddydd a nos i ymarferiadau duwiol, yn y rhai yr ymunai Pius gyda hwynt, yr hwn a fu ar ol hyny yn esgob yn y ddinas. Efe a adeiladodd feddrodau i luaws o'r merthyron, ac a dreuliodd ei holl olud ar dlodion yr eglwys; ac yn dâl am hyny, wedi ei ddyfod drwy amryw brofedigaethau, efe a gymmerwyd gan Iesu Grist ato ei hun. Praxedes a Pudentiana, eu dwy, a hunant wrth ochr eu tad seintiedig Pudens. Pudentiana a gafodd ollyngdod o'r fuchedd farwol hon ar ddydd gwyl merthyrdod ei thad."—*Ado Martyr.*

"Dydd nadolig St. Pudentiana, y wyryf, o ddisgyniad ardderchocaf, merch Pudens, dysgybl yr apostol sanctaidd St. Paul."—*Martyr. Rom. ad diem, Maii* 17.

"Romæ, 20 Junii. Natalis Sancti Novati, fratres Timothëi."=Dydd Nadolig St. Novatus, brawd St. Timothëus. — *Adon. Martyr. ad locum.*

"Gwyryfon sanctaidd Crist, Pudentiana a Praxedes, oeddynt chwiorydd Timothëus a Novatus."—*Usuardi Martyrol. in Diem.*

"Novatus, dysgybl a anwyd yn Rhufain, oedd yn deilliaw o deulu mwyaf ardderchog, yn fab i Pudens, dysgybl St. Paul, ac yn frawd i Timothëus. Eu chwiorydd oeddynt Pudentiana a Praxedes." [*Petrus Esquilinus in Novatum.*]

"Ar y 19eg o Fehefin y dodwyd yn nghadw St. Novatus, mab y gwynfydedig Pudens, seneddwr, a brawd hefyd i St. Timothëus, yr henadur, ac i wyryfon sanctaidd Crist, Pudentiana a Praxedes; y rhai oll a addysgwyd yn y ffydd gan yr apostolion."—*Romana Martyrologia ad Diem.*

"26ain dydd o Dachwedd. Dydd nadolig St. Linus."—*Rom. Martyr. ad Diem.*

"22ain Awst. Dydd nadolig St. Timothëus, mab Pudens, yn Rhufain yn y Via Ostiensis."

"21ain Gorphenaf. Dydd nadolig y wyryf Praxedes, yn Rhufain."

Y mae rhywbeth yn dra effeithiol yn y dyddrestr hwn o ferthyron eglwys gyntefig Prydain. Da fyddai i Gristionogion yn gyffredinol fyfyrio, mewn arswyd gweddaidd, ar yr anghraifft a osodir yma ger eu bron, o bedwar o ŵyrion brenin, a fuasai unwaith yn rheoli holl alluoedd Prydain, a'i enwogrwydd yn llanw yr holl fyd,—y naill ar ol y llall yn tywallt allan eu heinioes dros "y gwirionedd megys ag y mae yn yr Iesu." Da fyddai hefyd i'r Cymry alw i gof y fath ferthyron a chyffeswyr gwrol, a gyfododd o'u cenedl yn achos y gwirionedd, bymtheg cant o flyneddoedd cyn i Loegr draddodi yr eiddo hi i'r fflamau yn Rhydychain a Smithfield.

Yr oedd cryn amser rhwng y merthyrdodau hyn. Linus a ddyoddefodd, B. A. 77, dan Vespasian. Y mae awdwr llythyr *Clemens Romanus*, yr hwn sydd yn waith o henafiaeth mawr, yn ei alw, *Sanctissimus Linus, frater Claudia*,="y tra sanctaidd Linus, oedd frawd i Gwladys." Collodd Novatus ei fywyd yn y flwyddyn B. A. 145, yn yr erlidigaeth dan Antoninus Pius. Yr oedd Timothëus ar y pryd yn Mhrydain, wedi ei wahodd yma gan ei nai, Lleufer Mawr, i weinyddu defod gyhoeddus ei fedydd ef, a nifer o'i bendefigion, yn Nghaer Wynt (Winchester). Hysbyswyd y dygwyddiad iddo ef gan Hermas y Bugail, mewn llythyr a anfonwyd gydag Eusebius, is-ddiacon. Yn mysg pethau ereill, y mae y Bugail yn gofyn cyfarwyddiadau pa fodd i drefnu eiddo Novatus. Mewn atebiad, y mae Timothëus yn dyweyd, mai ei fwriad ef a'i ddiweddar frawd, bob amser, oedd trosglwyddo y palas, y gerddi, a'r baddon perthynol iddo, yn rhodd i'r eglwys yn Rhufain, ond cadw hawl ei chwaer Praxedes iddynt am ei hoes. Mae yn peri i'r Bugail gymmeryd y moddion cyfreithiol oedd yn rheidiol er gwneuthur y rhodd yn safadwy—yr hyn hefyd a wnaeth efe. O hyny allan, adnabyddid palas Claudia ar y cyntaf wrth yr enw y "Titulus," ac wedi hyny, "Eglwys St. Pudentiana." Yr eglwys henaf ydyw o ddau can mlynedd yn Rhufain; gan na oddefid i'r cyfundeb Cristionogol yno brynu, meddiannu, na derbyn gwaddol o dir neu adeiladau ereill hyd deyrnasiad Cystenyn Fawr, yr hwn oedd o hiliogaeth Bran. Y baddau adnabyddus fel y *Thermæ Timothinæ*, a'r *Thermæ Novati*, a fuant enwog fel ysbytty gwastadol y Cristionogion o bob parth o'r byd. "Yn mha le y buost ti yn cartrefu?" meddai rhaglaw y ddinas wrth Justin Ferthyr. Atebai yntau, "Yn maddon Timothëus, ger llaw tŷ Martius." Yn B. A. 156, sef chwe blynedd ar ol ei ddychweliad o Brydain, derbyniodd Timothëus yntau goron merthyrdod ar y llanerch hono lle y cafodd Paul ei ddienyddio. Dyoddefodd Marcus, henuriad, gydag ef. "Yr henuriaid hyny (ysgrifena yr esgob Pius at Justus esgob Vienne yn Gâl), y rhai a addysgwyd gan yr apostolion, ac a fuant byw hyd ein dyddiau ni, ydynt yn awr yn gorphwys mewn heddwch ar eu gwelyau tragwyddol. Timothëus a Marcus dduwiol a aberthasant eu bywydau yn yr ymdrech deg. Edrych, frawd, am ddilyn eu camrau, ac efelychu eu rhinweddau. Na lyffetheirier di â hualau daiarol. Y mae Soter ac Eleutherus yn dy anerch. Y mae senedd dlawd Crist (*Pauper Senatus Christi*), yn Rhufain, yn dy anerch. Preswylied gras Duw yn dy galon." [*Epistola*

Digitized by Google

Pii ad Justum.] Y flwyddyn ganlynol, dododd Pius hefyd ei einioes i lawr. Gellid yn gyfaddas yma gymhwyso iaith y *Dadguddiad* at Rufain baganaidd, ei bod "yn feddw gan waed y saint." Yn y flwyddyn 164, y rhoddwyd allan orchymyn gan Marcus Aurelius Verus, yn gwahardd, dan boen marwolaeth, i'r Cristionogion yn Rhufain gynnal eu cyfarfodydd yn gyhoeddus. Ymlidid hwy yn mhob man, gan eu llusgo i aberthu i eilunod. Hysbyswyd i'r ymherawdwr fod yr eglwys eto yn parhau i ymgynnull yn y Titulus; a gwarchodlu y ddinas, wrth ei orchymyn ef, a dorasant i mewn iddo, daliasant yr holl aelodau, a thorasant benau Symmetrius, a dau ar ugain o henuriaid ereill, o fewn y neuadd neu y cyntedd (*atrium*). "Praxedes fendigaid," ysgrifena Hermas y Bugail, yn ei henaint, "a gasglodd eu cyrff hwynt i'w claddu yn y nos; ond wedi ei tharo gan ofid calon, hi a daer weddïodd ar Dduw ar iddo weled bod yn dda ei rhyddhau hithau hefyd oddi wrth babellu yn yr anialwch. Ei gweddi a ddaeth, yn nghyd â'i dagrau, ger bron yr Arglwydd, ac efe a ganiataodd iddi ei dymuniad. Yn mhen deng niwrnod ar ugain wedi hyny, ar y 12fed calan o Awst, hi a ymadawodd at Grist; corff yr hon, myfi y Bugail, yr Henuriad, a'i cleddais wrth ystlys ei thad Pudens." [*Apud Baronium*, 12 *calends August.*] Fel hyn y bu farw yr aelod olaf o dylwyth Claudia yn Rhufain, yr hon oedd yn bummed o'r merthyron yn llinach Caradog, y rhai a dystiasant eu ffydd yn Nghrist â'u gwaed. Gellir gweled eto uwch ben porth Eglwys Ddinasaidd St. Pudentiana, yn ddwfn gerfiedig mewn llythyrenau mawrion, yr arysgrifen ganlynol, er coffau diolchgarwch eglwys foreuol Rhufain i'w chymmwynas-wraig o Brydain:—"In hac sanctâ antiquissimâ Ecclesiâ Titulo Pastoris a S. Pio Papa dedicata olim domo S. Pudentis Senatoris et Hospitio Sanctorum Apostolorum; tria millia Beatorum Martyrum corpora requiescunt, quæ sanctæ Christi virgines Pudentiana et Praxedes suis manibus sepehebant."="Yn yr eglwys gyssegredig a thra henafol hon, Titulus y Bugail a gyssegrwyd gan St. Pius y Pab, a phalas St Pudens y seneddwr cyn hyny, a chartref yr apostolion sanctaidd, y gorphwysa gweddillion tair mil o Ferthyron Bendigaid, y rhai y darfu i Pudentiana a Praxedes, y gwyryfon sanctaidd, eu claddu â'u dwylaw eu hunain." Pa un bynag a ystyrir teulu Bran mewn cyssylltiad â'r brif eglwys yn Mhrydain ynte yn Rhufain, y mae yn sefyll yn uchel fel yr amgylchiad Cristionogol mwyaf rhyfedd yn y canrif cyntaf a'r ail. Am wresogrwydd eu duwioldeb, a'r dylanwad dirfawr a arferwyd ganddynt ar helynt yr eglwys, nid oedd un teulu arall yn yr ynys hon, nac ar y Cyfandir, y gellid ei gystadlu â hwynt. Iawn yn ddiau y dynodir hwynt fel "Y cyntaf o Dair Gwelygordd sanctaidd Ynys Prydain."

Y mae y rhestr ganlynol yn cynnwys y saint o'r teulu hwn yn Mhrydain, a'r eglwysydd a adeiladwyd ganddynt yn y ddau canrif cyntaf:—

Bran ap Llyr Lledlaith: Llandaf.

Eurgain merch Caradog: Llanilid, Llansallwg (*Old Sarum*).

St. Cyllin ap Caradog: Troy Michel, Henllys.

Lleurwg (Lucius): Llanlleirwg, yn awr St. Melons, Caerdydd; St. Peters, Cornhill, Llundain; St. Peters, Lambeth; Henllan, wedi hyny, St. Martin's, Caergaint; yr eglwysydd cyntaf yn Nghaer Wynt, Caer Col, Caer Efrog, Dover, a Lincoln.

St. Dyfan: Merthyr Dyfan, Morganwg.

St. Fagan: St. Fagans, Gwent.

St. Medwy: Llanfedwy, Morganwg.

St. Elfan: Llanelfan, Morganwg.

St. Crallo: Llangrallo, Gwent.

St. Dochen: Llandochwy, (?) Gwent.

St. Gwynno: Llanwynno, Gwent.

Yr oedd y ddwy "welygordd" ereill o Saint Ynys Prydain, sef yr eiddo Cynnedda Wledig a Brychan Brycheiniog, yn disgyn drwy linach uniawn oddi wrth Bran a Charadog.

CLAUDIUS LYSIAS: swyddog Rhufeinaidd yr hwn a grybwyllir yn *Actau yr Apostolion* fel pen cadben gwarchodlu y brenin yn Ierusalem; yr hwn a ddiogelodd fywyd Paul, pan oedd yr Iuddewon yn eu cynddaredd wedi ymddiofrydu i'w ladd ef. Er ei ddiogelwch, efe a barodd ei gymmeryd gan y milwyr yn gyntaf i gastell Antonia; ac wedi hyny, efe a'i hanfonodd yn ngofal gwarchodlu at y rhaglaw, Ffelix, i Cesarea. Mae yn ymddangos mai Groegwr oedd Lysias, yr hyn a gesglir oddi wrth ei enw, cystal a'i dystiolaeth ei hunan wrth Paul, mai â swm mawr y prynasai efe yr hawlfraint Rhufeinaidd; ond y mae Paul yn ei ateb ei fod ef wedi ei eni yn freiniol. Er i Paul gael ei eni yn Tarsus, dinas nid anenwog yn Cilicia, nid oedd hi ar y pryd hyny wedi cyrhaedd yr urddas a roddai hawl i freintiau dinasyddion Rhufeinaidd i'r rhai a enid ynddi. Mae yn wir ei bod wedi ei gwneyd yn ddinas rydd gan Augustus, yr hyn a roddai yr hawl iddi i gael ei llywodraethu gan ei chyfreithiau a'i barnwyr ei hunan, ac a'i rhyddhäai oddi wrth deyrnged: ond nis gwnaed hi yn drefedigaeth Rufeinig, yr hon a roddai hawl dinasyddion Rhufeinaidd i'w brodorion, hyd yn mhell wedi dyddiau Paul: gan hyny, rhaid fod yr apostol wedi derbyn ei hawlfraint fel dinesydd Rhufeinaidd oddi wrth ei dad; yr hyn a brofai ei fod yn ŵr cyfrifol, fel y gallai roddi holl fanteision addysg goethedig y lle i'w fab.

Tua dwy flynedd cyn yr adeg dan sylw, dacthai Iuddew Aiphtaidd i Iudea, gan hacru ei fod yn brophwyd, a chrynhoai ato ei hunan tua 30,000 o wyr yn y diffaethwch, y rhai a berswadiai efe i'w ganlyn ef i fynydd yr Olewydd, o'r lle, meddai, y caent hwy weled muriau Ierusalem yn cwympo wrth ei orchymyn, fel y gallent hwy fyned i'r ddinas dros yr adfeilion. Ei amcan oedd cymmeryd y ddinas trwy drais, dinystrio y gwarchodlu Rhufeinaidd, a chymmeryd meddiant o'r llywodraeth iddo ei hun. Ond y rhaglaw, Ffelix, gan arwain ei fyddin i'w cyfarfod, a rhuthro arnynt yn ddisymmwth, a'u gwasgarodd yn rhwydd, gan ladd pedwar cant o honynt, a chymmeryd dau cant yn garcharorion; ond yr Aiphtwr ei hunan, yn nghyd â rhai o'i ganlynwyr, a ffoisant. A chan ei fod ef eto yn fyw, tybiai Lysias mai hwnw a lwyddasai yn rhywfodd i ddyfod i'r ddinas, ac a fuasai yn achlysur o'r terfysg presennol; ac am hyny y gofynai efe iddo, "Onid tydi yw yr Aiphtwr," &c. Gwel *Hen. Ios.*, xx. 8, 6; *De Bello Iud.*, ii. 23. 5; *Act.* xxi. 33; a xxiii. 26.

CLAWDD, CLODDIAU: ffos, ffosydd, cladd ffos, &c. 1. Gwrthglawdd a gyfodid ar gyfer dinasoedd caerog, er mantais i ymosod arnynt a chymmeryd meddiant o honynt; 2 *Bren.* xix. 32; *Preg.* ix. 14; *Esa.* xxxvii. 33; *Luc* xix. 43. 2. Dichellion y rhai drygionus i faglu y duwiol, y rhai a gyffelybir i ffos orchuddiedig a wnelid

Digitized by Google

gan helwyr i ddal bwystfilod gwylltion; *Salm* vii. 15. 3. Colledigaeth; *Iob* xxxiii. 28. 4. Cyfeiliornad dinystriol; *Luc* vi. 39.

CLAWDD OFFA. Tystiolaeth y *Brutiau* o barth dechreuad a dyben Clawdd Offa sydd fel y canlyn:—

"DCCLXXXIIIJ.—Yr haf y difeithws y Cymre cyvoeth Offa, ac yna y peris Offa gwneuthur clawd yn dervyn rhyngthaw a Chymre val y bei haws ydaw gwrthnebu y ruthyr y elynion, a hwnw a elwir yn glawd Offa yr hynny hyd heddyw."—*Brut y Seison.*

"Oed Crist 765, y diffeithiwyd Tiroedd y Mers gan y Cymry, ac y gorfuant ar y Saeson, ac a'i hyspeiliasant yn ddirfawr, achaws hynny y gwnaeth Offa Brenin y Mers y Clawdd mawr a elwir Clawdd Offa yn derfynfa rhwng gwlad Gymru ar Mers, fal y mae fyth yn parhau."—*Brut y Tywysogion.*

"Oed Crist, 776, y codes Gwyr Gwent a Morganwg, ac a aethant am benn y Mers, ac y torasant Glawdd Offa yn gydwastad â'r ddaiar, a gwedi hynny dychwelyd ag yspail fawr."—*Brut y Tywysogion.*

"Oed Crist 784 y diffeithiwyd y Mers gan y Cymry, ac Offa a wnaeth Glawdd yr ail waith yn nes attaw, a gadael lle Gwlad rwng Gwy a Hafren, lle mae llwyth Elystan Glodrydd, lle ydd aethant yn un o bum Brenhinllwyth Cymru."—*Brut y Tywysogion.*

Oddi wrth y cofnodau uchod ymddengys i'r clawdd dan sylw gael ei wneuthur yn yr wythfed canrif, gan Offa, brenin y Mers, i fod yn derfyn rhwng ei wlad ei hun a Chymru: iddo yn mhen tipyn gael ei ddistrywio gan wŷr Gwent a Morganwg, ac o'r herwydd i Offa lunio clawdd arall yn nes i Loegr.

Y mae yn debyg iawn mai yr hwn a elwir yn gyffredin yn *Wat's Dyke*, neu glawdd Wat, ydyw yr ail glawdd y sonir am dano yma. Wrth olrhain gweddillion y terfynau hyn, rhaid bod yn ofalus rhag cymmeryd, mewn manau, y naill am y llall, fel y mae rhai awduron wedi gwneyd. Yn wir, cyn cyhoeddi mapiau y llywodraeth, yr oedd yn hawdd iawn syrthio i'r amryfusedd hwn. Y mae y rhai hyn, beth bynag, yn awr, yn help mawr i ni gael allan a phenderfynu gwir rediad y cloddiau. Sylwn arnynt, y naill ar ei ben ei hun.

CLAWDD OFFA. Y lle cyntaf yn y pen gogleddol y canfyddwn olion y clawdd hwn sydd tu allan i dref Newmarket, yn swydd Fflint, oddeutu chwarter milltir ar yr ochr ddwyreiniol oddi wrth yr eglwys. Rhed tua'r dwyrain ddeheuol, oddi wrth y fan lle y croesir ef gan Sarn Hwlcyn, dan y rhes o fryniau o'r tu gorllewinol i Chwitffordd. Yma y mae yn myned wrth ochr ffordd Treffynnon dros ddwy filltir; ac yn mhen tipyn, o du dwyreiniol i'r fferm a elwir Cildwrn, yn ymyl yr hen dyrnpec, rhydd dro tua'r deheu, ac ar ei ffordd yn ymyl Ffordd Las ymddengys tomen fechan. Yna y mae yn myned i fyny i allt tua'r deheu ddwyreiniol, lle y gwelir tomen arall. O ddeutu tri chwarter milltir tua'r gogledd ddwyreiniol oddi yma, a milltir a hanner o Chwitffordd, gellir gweled dwy domen fawr, a rhyw weddillion llai, y rhai a elwir yn ddiwahaniaeth "Gorsedd;" gall fod rhyw gyssylltiad rhwng y rhai hyn a'r clawdd, er eu bod rywfaint allan o'i ffordd.

O'r fan hon, mewn cyfeiriad deheu-ddwyreiniol, hyd at Dreuddyn, yr hyn sydd bymtheng milltir o ffordd, ni welir unrhyw arwyddion o'r clawdd ar y map. Tebyg yw iddo fyned ar hyd neu dan drum yr Helygen, at Naid y March, lle y gwelir ryw hen weddillion eeryg hyd heddyw, heibio Moel Crio, tua Moel y Gaer, milltir a thri chwarter o'r tu deheu i Helygen. Oddi yno gallasai fyned heibio Pant y Terfyn, o'r tu dwyreiniol i Gwysannau, i lawr i'r Wyddgrug; yna heibio y Tŵr a Nercwys, neu hwyrach yn nes i'r dwyrain, drwy Goed Llai i Ben y Stryt, milltir a hanner o du deheu-ddwyreiniol Treuddyn a'r Heol, lle y canfyddir ef eilwaith.

Daw y clawdd i'r golwg drachefn wrth lidiart y ffordd fawr, yn ymyl y fynedfa i Nant y Ffridd, a rhed yr ochr ddeheuol tu cefn i weithiau glo Brymbo hyd at dyddyn a elwir Llidiart. Yn fuan wedi hyny croesa y ddwy ffordd, yr hen a'r newydd, o Wrexham i Minera, ac yna try ychydig i'r dwyrain, tua Phlas Power; yna i'r deheu drachefn, ymddengys yn bur amlwg yr holl ffordd heibio Tyddyn Cadwgan i'r Pentre Bychan, a deil felly nes cyrhaedd y ffordd o Wrexham i Riwabon, ger llaw y New Inn, a'r tŷ a elwir Tan y Clawdd. Rhed yn awr ar hyd yr ochr orllewinol i'r ffordd, a thry tua'r deheu-orllewinol trwy erddi Gardden Lodge, lle y gellir ei weled oddi ar y bryn uwch law tua'r gorllewin; ac y mae yn bur uchel a pherffaith lle y croesa y ddwy ffordd o Riwabon i Langollen, a gweithiau haiarn y Cefn.

Yma y mae gweithiau mŵn a chloddfeydd ereill wedi dileu ei ol; ond canfyddir ef yn fuan drachefn, ar yr ochr ddeheu i afon Dyfrdwy, yn dyfod i fyny oddi wrth fin yr afon, ac yn esgyn heibio y tyddyn a elwir Cefn y Wern.

Yna cymmer gyfeiriad deheu-orllewinol wrth ddeheu, tua'r dyffryn bach is law yr ochr orllewinol i Gastell y Waen. Wedi myned heibio y Castell, aiff ar draws Dyffryn Ceiriog, yn ymyl Melin y Castell, ac yna dringa dros y bryniau tua Ffynnonau y Castell a Than y Mynydd, gan ffurfio dros dair milltir y terfyn rhwng siroedd Dinbych a'r Amwythig. Y mae yn bur eglur yn y parthau hyn, yn enwedig tua'r ochr orllewinol i fryn Selattyn. Y mae carn ar ben hwn, a thomen y tu gorllewinol i'r clawdd. Deil yma yn union i'r deheu, ac ar yr ochr Seisonig neu y ddwyreiniol iddo gellir gweled Maen hir, yn ymyl Llwyn y Pant. Y mae yn hwylio heibio Careg y Big, ac yn dal yn uchel ar lechwedd y bryn, gan gilio i'r tu gorllewinol i redegfa Croesoswallt, ac felly yn mlaen i Drefonen. Yn fuan ar ol hyn y mae yr ol yn lled aneglur, neu hwyrach fod y creigiau calch yn sefyll yn ei le. Y mae yn myned o gylch y bryn uwch yr odynau calch, yn ymyl llidiart ffordd fawr Llanyblodwel, gan droi i'r dwyrain am hanner milltir, yna dring i fyny i drum bryn Llanymynach, a deil ar hyd hwnw nes troi o hono i lawr i'r llan, ar yr ochr ddeheu i'r llechwedd. Y mae y clawdd yn awr yn dyfod i'r tir gwastad, yr un rhediad a'r Fyrnwy, ac yn ei chroesi oddeutu milltir a hanner o'r tu dwyreiniol i'r gwersyll Rhufeinig, a elwir Clawdd Coch. Yna rhed yn gyfunol a'r ffordd sydd yn arwain o Groesoswallt i'r Trallwm, gan fyned trwy Landyssilio, gerllaw Stryt, Rhos, a Nathe, i lawr at lan Hafren. Yma, am ysbaid pedair milltir a hanner, y mae allan o'r golwg, os nad yw yr afon yn cymmeryd ei le. Neu, hwyrach, ei fod yr un un a Chlawdd Tir y Mynach: neu, gellir tybied iddo groesi yr afon gyferbyn a Thyddyn Hafren, a'i fod i'w ganfod mewn clawdd ag sydd yn rhedeg i fyny heibio y Pren Yw, a thu cefn i ryw hen weddillion daiarol ar y gwastad, a elwir y Moat, yn ymyl Old Mills.

Yr ydym yn nesaf yn cael hyd i'r clawdd yn

Digitized by Google

Buttington, chwarter milltir o'r tu deheu i'r eglwys, ac oddi yno gellir ei olrhain ar hyd llechwedd gorllewinol y Mynydd Hir i'r Pentre a'r Fron, uwch law Plas Leighton. Yn fuan wedi hyn rhed yn gyfochrog â rhyw hen ffordd, yr hon hefyd a groesir ganddo hanner milltir o'r tu gogledd-ddwyreiniol-wrth-ogledd, i'r lle y try ffordd y Trallwm yn ddwy, i fyned at Chirbury a Threfaldwyn; yna ä trwy ganol tir braenar is law yr amddiffynfa greigiog a elwir Moat, yn mhlwyf Forden. Mae cyfeiriad cyffredin y clawdd yma yn ddeheu-orllewinol. Canfyddir efdrachefn wrth y Fron Goch, ac yn croesi y ffordd o Worthin i Drefaldwyn, ger llaw Pound; ond aiff am ennyd allan o'r golwg, wrth fyned ar draws y tir corsog, ar rediad y Camlad. Mae yn myned heibio y tyddyn a elwir y Ffosydd; ac ychydig tu a'r gorllewin wrth Brompton, gwelir dwy domen isel, ond cwmpasog. Diammheu fod y tomenydd hyn yn cynnwys gweddillion rhai a laddwyd mewn brwydr yn rhywle yn y gymmydogaeth yma. Rhed y clawdd yn ei flaen o du y dwyrain i goed Mellington a Phlas Mellington, cyn belled a'r Cwm Uchaf.

Yma y mae ei fynediad yn lled ddireol; try tua'r gorllewin ger llaw Derwen, a chan ddringo i fyny i'r bryniau, rhed ar draws y ffordd a'r cyffiniau, rhwng yr Amwythig a Threfaldwyn, lle y cyrhaedda i ran wyllt ac anial o'r wlad. Disgyna oddi wrth derfyn y siroedd i lawr i'r dyffryn isel y tu gogleddol i Fryn Edenhope; yna dringa i fyny yr allt anial, a chroesa y rhan uchaf o honi, gan redeg i'r dwyrain-ddeheu cyn belled a Mainstone. Y mae enw y pentref neilldu hwn—gan ei fod wedi ei gyfansoddi o ddau air Cymraeg a Seisoneg, y rhai a arwyddant yr un peth, *careg*—fel yn cyfeirio at ryw amgylchiad nodedig a ddygwyddodd yma, naill ai brwydr neu gynghrair.

Yma, try y clawdd yn raddol tua'r gorllewin, wrth wynebu drachefn ar y bryniau, gan fyned rhwng Cnwc Uchaf a Chnwc Isaf, lle y mae lluest bychan oddeutu chwarter milltir o du y dwyrain: yna disgyna yn ddisymmwth i'r dyffrynoedd, a dilyna eu cwrs troellog am dair milltir, nes cyrhaedd o hono i Ddyffryn Clun, ger llaw Bryn Draenog.

Wrth Spoad Isaf y mae y clawdd drachefn yn dringo i fyny o Clun, ac yn dyfod i anialdir ag sydd yn ymestyn o du'r gorllewin i drefydd Clun a Knighton. Y mae yn myned rhwng Bryn Weston ar yr ochr ddwyreiniol, a Bryn Spoad ar y tu gorllewinol, gan gyfeirio tua'r deheu-orllewin; yna dros ryw dir pur uchel try i'r deheu-ddwyrain, gedy wersyllfa gaerog ger llaw Llan Du, ar yr ochr ddwyreiniol, a disgyna tua thyddyn a elwir Plas Garbet. Yma esgyn drachefn, ger llaw Bryn Wrgan, a chanlyna ymyl dyrus y bryn, ar hyd ochr Bryn Penpwntan, at gyffiniau Coed Kinsley, lle y try i lawr yn fyrbwyll i ddyffryn y Teme neu Teame.

Y mae y clawdd yn rhedeg drwy dref Knighton, ac yn rhoddi iddi ei henw Cymraeg, Tref ar y Clawdd, gan fyned dipyn o du y gorllewin i'r eglwys, drwy ryw gaeau a gerddi; ac wedi dringo i'r bryn, uwch law y Ffridd, a Woodhouse Uchaf, croesa ar draws ffordd Presteign, yn ymyl y Tile House. Trwy yr holl ran yma o'r wlad y mae y clawdd i'w weled yn hynod o'r amlwg, ac mewn manau y mae wedi ei gau i mewn a'i blanu. Y mae yn awr yn rhoi tro oddeutu tair milltir o hyd tua'r dwyrain, a daw yn ol at y pwynt deheu-orllewinol i Fryn Furrow, lle y disgyna i Ddyffryn y Lug, oddeutu tri chwarter milltir oddi wrth Discoed.

Yn y fan yma rhed y clawdd i'r deheu-deheu-orllewin, i fyny y bryniau tua Castle Ring=gwersyllfa gron; ond cyn ei chyrhaedd, try yn sydyn tua'r ddeheu-ddwyrain, a rhydd dro yn ol drachefn o amgylch Bryn Evenjob, ger llaw Burva, nes dyfod o hono i'r tir gweirgloddiog, ar hyd ffrwd Hindwell, rhwng Harpton a Knill. Y mae y clawdd yn awr yn dechreu dyfod yn hynod o'r troellog yn ei fynediad, gan ddilyn troadau y bryniau, a rhed yn union tua'r dwyrain, uwch law Holywell i Eyewood, un filltir o du y gorllewin i Titley; yna try tua'r deheu drachefn, ac am ryw hyd y mae yn anweledig o herwydd llafuriad y tir. Ail ymddengys wrth Flinsham, ar y ffordd o Kington i Titley, a chroesa y bryn uwch ben Parkstile; ä drwy Park, ac ymestyna tua'r deheu-ddwyrain, heibio i Jacob's Castle at Holmes Marsh.

Y mae weithian wedi gadael yr ucheldir, a chyrhaedd gwastadedd toreithiog Henffordd. O herwydd hir driniaeth o'r tir, nid ellir olrhain mo hono dros chwe milltir neu saith; ond y mae lle i feddwl ei fod agos yn cydredeg â'r ffordd sydd yn arwain o Kington i Henffordd, heibio Lynhales a Sarnsfield. Ond gall ei fod hefyd yn troi ychydig mwy tua'r dwyrain, ac yn myned heibio y tomenydd, Hall Moat a Hell Moat, i Weobley; o herwydd ymddengys olion hen ffordd yn dringo o'r dref hono drwy Garnstone Park, i fyny at lechwedd Burton Hill, uwch law.

Nid yw yn annhebyg i'r clawdd, os cyrhaeddodd droed y bryn hwn ar yr ochr ogleddol, ddilyn ei lechwedd gorllewinol heibio Shoal's Bank, ac felly dan Ladylift Clump at y Claypits, lle y canfyddir ei ol gyntaf drachefn.

Wrth y Claypits, y mae y clawdd yn troi ryw ychydig tua'r deheu-ddwyrain, trwy Upperton Farm, ar draws y ffordd fawr, ac yn rhedeg yn syth at Mansel Gamage. Yna deil dros dalcen y bryn, ä o fewn hanner milltir heibio Garnons House, ar y tu dwyreiniol, a daw i lawr i ffordd Henffordd, ac at lan ogleddol yr afon Gwy, yn ymyl porth ag sydd hanner milltir i'r gorllewin o Bridge Sollers, a dwy filltir i'r gorllewin o Kenchester.

Wedi cyrhaedd Gwy, collir ol y clawdd am lawer o filltiroedd, pryd yr ymddengys drachefn tua'r deheu ar ochr Seisonig yr afon, o ddeutu milltir o ffordd i'r gorllewin o Bicknor Seisonig. Tybir iddo fyned trwy Coleford, lle y dywedir i'r gweddillion fod yn weledig ryw amser yn ol. Canfyddwyd rhanau o hono wrth St. Briavel. Ar drum bryniau Tidenham, yn ymyl y fan lle y cyferfydd plwyfydd Woolastone a Tidenham, daw i'r golwg drachefn, ac oddi yma ä yn ei flaen trwy ddyrysni coed Caerswall, ar hyd pen y bryniau, at graig nodedig a elwir "Pulpud y Cythraul;" ac yn mlaen dros ucheldiroedd coediog cyffelyb, gan adael helfa Tidenham ar y llaw aswy (dwyrain), ac iseldiroedd Walwere ar y deheu (gorllewin), at nant neu glyn rhosog, yn disgyn oddi wrth yr helfa at y Gwy, lle y terfyna y gob. Gan ail ddechreu yr ochr arall i'r nant, ä yn mlaen ar hyd ymyl y clogwyn, ond nid mor berffaith, at Fryn Denhill, lle y diflana drachefn, ar y tu deheu i dyddyn Wallhope, yn y dyffryn. Ar ol hyn, yr ydys yn dyfod at glogwyni serth Banagor, y rhai a gyrhaeddant at y gwddf tir sydd yn uno Lancaut â Tidenham, lle y canfyddir cloddiau pridd o wahanol nodweddiad, ond y rhai a elwir gan bobl y wlad yn

Digitized by Google

"Glawdd Offa." Ar ol hyn diflana, er y tybir iddo ganlyn ymyl clogwyni uchel Penmoel, ar draws pen uchaf y llechwedd ger llaw Tutshill, ac yna ar hyd clogwyni serth Tutshill, y rhai a ymestynant ar hyd yr afon Gwy at y Pile wrth Rôs Tiler. Wrth ben deheuol y clogwyni, a chyferbyn â thertyn muriau Normanaidd Caerwent, y mae crugfryn, tebyg i'r rhai sydd yn y rhan gyntaf o'r clawdd yn y gogledd. O du y dwyrain i ffrwd fechan yn ymyl y crugfryn yma, y mae y clawdd yn ail ymddangos, a dringa i fyny yr allt gyferbyn, gan gyfeirio tua Hafren. Yna disgyna drwy Berllan Pensilvania, agos yn berflaith, ac esgyna drachefn tua phen Bryn Buttington. Wedi hyn cyrhaedda barc Sedbury, ac yna i goed Buttinton; ac wedi cyrhaedd y godre, croesa gwm a nant fach, yna esgyna yn gyflym at ran arall o goed Buttinton, yn ymyl dibyn, pryd y gorphwys drachefn ar Hafren, gan arolygu ei chyssylltiad â'r afon Gwy yn y gwastadedd islaw, y fan lle y dywed traddodiad a chroniclwyr ei fod yn terfynu.

Clawdd Wat. Canfyddir y clawdd yma ar du y dwyrain i geunant bychan yn arwain i lawr tua'r môr, ger llaw Treffynnon, ac yn rhedeg yn gyfochrog â'r ceunant mwyaf lle y llifa dwfr y ffynnon. Nid yw ei ol ond gwan; ond er hyny gellir ei weled cyn belled i lawr tua'r gogledd a'r gweithdy uwch law Mynachlog Basin. Tebyg iddo derfynu lle y safai castell Basin, y tu gorllewinol i'r fynachlog. Try y clawdd oddi wrth Dreffynnon i'r dwyrain; ond nid ellir ei olrhain am bum milltir a hanner o ffordd, nes ymddangos o hono wrth Ffynnon Pen y Castell, lle y croesir ef gan y ffordd fawr o Dreffynnon i Gaer. Oddi yma ä yn mlaen at Mynachlog, ac yna croesa y ffordd o Laneurgain i'r Wyddgrug, yn ymyl llidiart y *turnpike*, a rhed heibio Sychdyn nes cyfarfod â'r ffordd fawr o'r Wyddgrug i'r Queen's Ferry, wrth y Blue Bell. A heibio Plas Argoed, o ddeutu chwarter milltir i'r dwyrain croesa ffordd y Wyddgrug a'r Bwcle yn ymyl Bistre, ä tu draw i Blas Major i lawr nant, a rhed ar draws ffordd Wyddgrug a Chaer yn ymyl y Gareglwyd.

Yn y fan yma croesa y ffordd haiarn; ac y mae yn bur amlwg i'w weled yn rhedeg i'r dwyrain o Lwyn Derw, heibio Rhyd y Defaid, a Stryd y Groes, i Estyn a Chaergwrle, lle y canfyddir ef islaw y bryn caerog o du y gorllewin. Oddi yno dilyna ymyl dyffryn Alyn, a gwelir gwersyllfa fawr ar ei ffordd, lle y try yr afon yn ddisymmwth tua'r gogledd. Yma croesa yr Alyn, a chyfeiria yn lled ddeheu-orllewinol heibio Bryn Llyn at y Rhedegfa, o ddeutu hanner milltir i'r gorllewin o Wrexham, yn ymyl gorsaf y ffordd haiarn. Yna ymestyna at Felin Puleston, ac ä i mewn i diroedd Erddig, lle y mae tomen o'r enw Mount yn sefyll arno. Yma drachefn dilyna ymyl dyffryn a dyfrffordd, gan gadw uwch law iddo, tua'r dwyrain, cyn belled a'r tyddyn a elwir Pentre Clawdd, o ddeutu milltir a hanner i'r deheu-ddwyrain oddi wrth dyddyn arall a elwir Tan y Clawdd, ar fin Clawdd Offa. Oddi yno rhed tu cefn i bersondy Rhiwabon, ac yn y fan yma nid oes dros filltir o bellder rhwng y ddau glawdd.

Yna ä y clawdd i barc Wynnstay, gan fyned drwyddo ychydig o droedfeddi oddi wrth wyneb y tŷ, ac felly heibio Pen y Nant at Dŵr Nant y Belan, yr hwn a adeiladwyd ychydig uwch law iddo tua'r dwyrain.

Yma collir ei ol, ond gellir casglu ei fod yn dilyn llethr y dyffryn uwch ben y Dyfrdwy, cyn belled a'r fan lle y try yr afon tua 'r gogledd, ac yna, gan groesi yr afon, ei fod yn canlyn y llethr ar ochr ddwyreiniol Dyffryn Ceiriog hyd at Ben y Banc, lle y canfyddir ef eilwaith.

Rhed y clawdd yn awr yn amlwg goruwch Glyn Morlas i'r deheu, a chroesa gamlas Ellesmere, yn ymyl lle a elwir y Sarn; ä heibio Belmont i Fryn y Castell, lle y saif tomen; ac yna, gan redeg dros ffordd Croesoswallt a Llangollen wrth Gobowen, ä yn ei flaen i fyny at wersyll Hen Groesoswallt, yr hwn a luniwyd arno. Oddi yma rhed ar ochr ddwyreiniol Croesoswallt ar ffordd fawr yr Amwythig.

Cymmer gyfeiriad deheu-ddwyreiniol, ac ä heibio Maes y Clawdd, ar hyd ffordd Knocin, cyn belled braidd a'r Ball. Wedi cyrhaedd i'r ardal isel a chorsog hon, nid ellir yn hawdd ei olrhain yn mhellach. Ond diammheu iddo gael ei ddwyn yn mlaen cyn belled a'r afon Hafren, yr hon ni chroesa, "gan adael," fel y dywed y *Brut*, "le gwlad rhwng Gwy a Hafren."

Tystiolaeth y *Brutiau*, fel y sylwasom, ydyw, bod y cloddiau hyn wedi eu hadeiladu gan Offa i fod yn derfyn rhwng y Cymry a'r Seison. Ymddengys oddi wrth eu dull, fod sail i'r haeriad yma. Nid ydynt yn ddigon cedyrn i fod yn wrthgloddiau milwrol, er fod hyny o nodweddiad amddiffynol a berthyn iddynt, sef eu llethrdiad gogwyddol, drwy fod yn anffafriol i ochr y Cymry, yn dangos yn eglur mai gwaith Sais ydynt.

Dywed yr hanesydd Speed, ar dystiolaeth Ioan Bever, mynach Westminster, ddarfod i'r brenin Egbert, ar annogaeth ei wraig, wneyd deddf ar roddi pob Cymro, a ddeuai dros y clawdd i'r ochr Seisonig, i farwolaeth; ac ar dystiolaeth Ioan Salisbury, ddarfod i Harold, yn yr un modd ddedfrydu, ar fod i ba Gymro bynag a ddelid âg arfau yn ei ddwylaw ar yr unrhyw ochr, gael tori ei law ddeheu gan swyddogion y brenin. Ymddengys oddi wrth hyn fod y clawdd dan sylw yn cael ei ystyried fel terfyn rhwng Cymru a Lloegr mor ddiweddar a'r unfed canrif ar ddeg.

CLEDDYF, [*lledd*]: cadgnaw, ffoswrn. Gwel Arf. Arferir y gair cleddyf fel aralleg am ryfel (*Gen.* xxxiv. 25; *Lef.* xxvi. 25); am farnedigaethau Duw (*Deut.* xxxii. 42); ac am awdurdod gospawl mewn gwladwriaeth (*Rhuf.* xiii. 4). "Bywiol yw gair Duw a nerthol, a llymach nag un cleddyf daufiniog;" *Heb.* iv. 12: y mae yn fwy effeithiol i glwyfo na chleddyf daufiniog. Y mae effeithiolrwydd bygythion Duw yn cael eu cyffelybu yn fynych i gleddyf. Arddangosir Mab y dyn, yn ngweledigaeth Ioan, â "chleddyf llym daufiniog yn dyfod allan o'i enau;" yr hyn a arwydda fod ei eiriau yn tori, ac yn cyrhaedd trwodd fel cleddyf llym, a'i geryddon a'i rybuddion yn clwyfo yn ddwfn (*Dad.* i. 16; ii. 12, 16). Cymharer hefyd *Esa.* xi. 4, y lle y mae yr ymadrodd "gwialen ei eneu." Felly y mae iaith geryddol a bygythiol yn cael ei galw yn yr Ysgrythyrau yn "wialen," neu "gleddyf y geneu." "Cleddyf yr Ysbryd, yr hwn yw gair Duw;" *Eph.* vi. 17. "Galwai yr apostol air Duw yn 'gleddyf yr Ysbryd,' am ei fod wedi ei roddi trwy ysbrydoliaeth yr Ysbryd, ac am fod ei athrawiaeth, ei addewidion, a'i orchymynion, y moddion mwyaf effeithiol i orchfygu ein gelynion ysbrydol." — *Macknight.* "Dyma yr unig arf ymosodol ag y mae y milwr Cristionogol i'w

Digitized by Google

arfer. Wrth air Duw yr ydym i feddwl yr holl Ysgrythyr, ac nid unrhyw ranau o hono, megys ei orchymynion a'i fygythion. A'r arf hwn—gair Duw—ydyw "cleddyf yr Ysbryd;" o blegid yr Ysbryd a'i rhoddes i ni, ac efe sydd yn ein dysgu i'w drin. Y mae y sefyllfa feddiannol yn y frawddeg, "cleddyf yr Ysbryd," yn mynegu y cyssylltiad sydd rhwng gair Duw a'r Ysbryd. Mae yn lled ddyeithrol fod Harless, Olshausen, a Stier, ac ereill, wedi rhoddi y ddau air mewn atosodiad, gan ddeall wrth y cleddyf, yr Ysbryd ei hun. Pleidiai Basil hefyd yr un golygiad, a dygai yr ymadrodd fel prawf fod nid yn unig y Mab ond yr Ysbryd hefyd yn cael ei alw yn "Air"—y Mab yn Air y Tad, a'r Ysbryd yn Air y Mab. Y mae Chrysostom, Theophylact, Michaelis, ac ereill, yn rhoddi yr ystyr "cleddyf *ysbrydol* y gair;" yr hyn sydd yr un mor bell oddi wrth y gwir feddwl. Ac y mae esboniad Morus, De Wette, a Rosenmüller, yn bellach fyth—y rhai a feddyliant wrth yr "Ysbryd," ysbryd dyn; fel pe dywedasai yr apostol, "Cymmerwch gleddyf goreu eich enaid, sef gair Duw." Y meddwl cywir, mae yn ddiammheu ydyw, yr un a drosglwyddir yn y cyfeithiad awdurdodedig—"cleddyf yr Ysbryd;" cleddyf wedi ei barotoi ganddo ef; celfyddwaith yr Ysbryd ydyw; a thrwy hwn y gall y Cristion orchfygu ei elynion ysbrydol;—y mae cyfaddasrwydd yn yr arf i ymosod arnynt. Ysbrydol ydyw y gelynion, ac ysbrydol, ac nid cnawdol, ydyw arf ymosodol y filwriaeth, am mai "cleddyf yr Ysbryd ydyw. Rhoddes Tywysog iachawdwriaeth esampl o ddeheurwydd i'w holl filwyr, yn ei waith yn trin y cleddyf; o blegid gwrthsafodd ymosodiadau tywysog y tywyllwch amryw weithiau â rhanau o'r Ysgrythyr.

CLEFYD—AU, [*claf*]: anhwyl, afiechyd, dolur. Gr., *νοσος;* Llad., *febris. Mat.* iv. 23; viii. 17. Duw sydd yn anfon clefydau (*Deut.* xxviii.) "A'r Arglwydd ni esyd arnat yr un o glefydau drwg yr Aipht;" *Deut.* vii. 15. Gall y cyfeirir yma at rai o'r plaau a roddes Duw yn farn ar yr Aipht, i'r rhai yr oedd yr Israeliaid yn llygad-dystion; ond barna Casaubon y cyfeirir yn hytrach at lynorod oeddynt yn adnabyddus yno, a elwid Ægyptiaca a Syriaca. Ac arferai offeiriaid Isis fygwth y bobl druain â'r doluriau hyn, os na wasanaethent y dduwies. A chyda chyfeiriad at hyn, tybia Spencer fod yr Arglwydd yn gwneyd yr addewid hon i'w cadw oddi wrth bob cyfryw glefydau, os ymgadwent hwy oddi wrth eilunaddoliaeth. Ac os oedd addoliad Isis mor hen ag amser Moses, dywed yr esgob Patrick fod y dybiaeth hon yn dra naturiol.

Gan fod yr Iuddewon yn lled anghyfarwydd âg achosion naturiol afiechyd, ystyrient hwy fod clefydau yn gyffredin yn meddu rhyw achosion goruchnaturiol, yn cael eu heffeithio naill ai gan ysbrydion drwg—neu, os byddai rhyw elfenau anghyffredin ynddynt, yn enwedig os byddai yr achos o honynt yn gwbl anhysbys, barnent yr achlysurid hwynt gan farn Duw—ac am hyny, elai dynion crefyddol ato ef i ymofyn iachâd; a beiir y brenin Asa am ymddiried yn y meddygon: 2 *Cron.* xvi. 12. Cyfrifai cyfeillion Iob ei holl gystuddiau ef i ddialedd Duw; tra mai Satan a'u hachlysurodd. Clefydau mwyaf cyffredin gwledydd y dwyrain ydynt afiechyd croenaidd, amryw fathau o lycheden, y gwaedglwyf, a fflameg y llygad. Y mwyaf hynod o'r cyntaf ydyw y gwahanglwyf a'r elephantiasis. O'r un rhywogaeth hefyd y mae clefyd Aleppo, yr hwn a gyfyngir i Aleppo, Baghdad, a'r pentrefydd ar y Segour a'r Cowick. Parha y clefyd hwn am fisoedd, ac weithiau am yn agos i flwyddyn. Nid effeithia nemawr ar yr iechyd cyffredinol, ac ofnir rhagddo yn unig o herwydd y crach a adawa ar ei ol. Mae yn beth hynod fod cwn a chathod yn cael eu taro ganddo yn gystal a dynion. Y mae yr Aiphtiaid yn cael eu blino gan ysmotiau cochion yn tori allan, ac yn peri ennyniad anhyfryd. Dychwela y frech hon yn flyneddol oddeutu diwedd Mehefin, a chyfrifir hi o herwydd hyny i orlifiad yr afon. Y mae clefydau poethion yn dra chyffredin yn y dwyrain, ac o'r rhai hyn y mwyaf ofnadwy yw y pla—"fflangell fawr y dwyrain"—yr hwn sydd tu hwnt i bob clefyd arall mewn angerddolrwydd a heintusrwydd. Sonir yn fynych, fel yr awgrymwyd, am glefydau yn yr Hen Destament; ond gan na roddir dysgriflad o honynt ond mewn un neu ddwy o anghreifftiau, teimlir fod yn anmhosibl dyfalu gydag un gradd o gywirdeb am eu natur. Am afiechyd Iob a Nebuchodonozor, gwel d. g.

CLEMENT, ROMANUS, o Rufain: awdwr teilwng o sylw neillduol, fel yr ysgrifenydd *anysbrydoledig cyntaf* yn yr Eglwys Gristionogol. Y mae dygwyddiadau ei fywyd yn anmhosibl eu holrhain gydag un sicrwydd, o herwydd eu cyssylltiad â'r ffugchwedl grefyddol gyntaf a gyfansoddwyd, yr hon a elwir *Y Clementinia;* ac hefyd, yn mhellach, o herwydd i'r traddodiadau a berthynent i wahanol ddynion gael eu casglu at eu gilydd i fawrygu olynydd Pedr yn esgobaeth Rhufain. Ond y mae ei enwogrwydd yn yr eglwys foreuol yn amlwg oddi wrth y ffaith fod cynnifer o weithiau neu lyfrau wedi eu priodoli iddo ef fel eu hawdwr. Y mae Origen, Eusebius, Epiphanius, a Jerome—cofier fod boreuaf o'r rhai hyn yn byw dros gan mlynedd yn ddiweddarach—yn cymmeryd yn ganiataol mai yr un ydyw a'r Clement a enwir yn *Phil.* iv. 3, fel un yr oedd ei enw yn "llyfr y bywyd." Dilynir hwy yn hyn gan lawer o ysgrifenwyr diweddarach, yn enwedig gan ysgrifenwyr Pabaidd. Tybia ereill fod hyn yn anhawdd i'w brofi. Y cwbl sydd yn adnabyddus am Clement, a grybwyllir gan Paul, ydyw yr hyn a ellir gasglu oddi wrth y crybwylliad hwnw; sef ei fod yn frodor o Philippi, yn aelod o'r eglwys hono, ac yn gydlafurwr â Paul; a chan fod yr enw Clement mor gyffredin, nid oes digon o sail i gredu mai yr un oedd a Clement o Rufain. Nid yw yn eglur pa un a oedd gwrthddrych yr erthygl hon yn Iuddew ynte Cenedl-ddyn. Gelwir ef weithiau yn ddysgybl Paul—bryd arall yn ddysgybl Pedr. Mae ansicrwydd hefyd am olyniad ei esgobaeth. Yn ol Jerome, yr oedd y traddodiad hynaf yn ei wneuthur yn olynwr uniongyrchol i Pedr. O'r tu arall, dywed ereill fod Linus (Lleyn) rhyngddo a Phedr. O'r farn hon y mae Awstin, &c., ac un llinach o esgobion Rhufain. Gwthir ef i lawr y llinach yn mhellach eto gan rai, trwy roddi Linus a Cletus, neu Anacletus, rhyngddo a Phedr. Y drefn gan luaws o Babyddion diweddar ydyw Pedr, Linus, Clement, Cletus, Anacletus, &c. Gan fod enwau yr ysgrifenwyr mwyaf o'r tadau Cristionogol, ac o'r ysgrifenwyr Pabaidd eu hunain, ar bob ochr i'r gwahanol dybiau hyn, gwelir fod y cyfan yn gorphwys ar draddodiad disail, fel yn wir y mae esgobaeth Rhufeinig Pedr, yn gystal â'i ymweliad o gwbl â'r ddinas hono. Mae yn

Digitized by Google

hawdd egluro pa fodd y daeth cynnifer o draddodiadau i fod. Dengys y llythyr cyntaf o eiddo Clement at y Corinthiaid nad oedd y syniad diweddarach, a'r un presennol, am esgob ac esgobaeth, ddim mewn bod yn ei amser ef; ond pan ddaeth y cyfryw syniad yn ei ffurf presennol i fod, er mwyn ennill awdurdod iddo, olrheiniwyd ef yn ol at amser yr apostolion, a dewiswyd hwn a'r llall o'r henuriaid mwyaf enwog gan hôni yr awdurdod iddynt. Felly yr oedd yn annichon na buasai amrywiaeth, gan fod tybiau yn hytrach na ffeithiau yn eu rheoli. Mae yr ymchwiliadau diweddaraf yn rhoi Clement y pedwerydd yn esgobaeth Rhufain; o herwydd os ydoedd mewn gwirionedd yn ail, y mae yn anhawdd deall pa fodd y daeth enwau mor adnabyddus a Linus a Cletus o'i flaen; ond lled naturiol fuasai gwthio enw Clement o'u blaen hwy er mwyn mawrygu urddas yr esgobaeth. Mae yr ymofyniad i amser ei fywyd a'i farwolaeth yr un mor ansicr, ac yn gyssylltiol â'r ymofyniad i amser cyfansoddiad yr epistol sydd yn awr ar gael dan ei enw at y Corinthiaid. Nid yw yr ansicrwydd sydd yn perthyn i amgylchiadau ei fywyd yn un achos i ammheu fod y fath un wedi bod, a'i fod hefyd yn un o ddylanwad ac enwogrwydd mawr yn yr eglwys foreuol. Mae y ffaith fod cynnifer o ysgrifeniadau yn cael eu priodoli iddo yn anesboniadwy ar un dybiaeth arall. Mewn gwirionedd collodd ef ei hanfodiad personol yn y gydnabyddiaeth gyffredinol ei fod ef mewn hanesiaeth yn cael ei ystyried fel yn cynnrychioli yr eglwys yn yr oes nesaf at oes yr apostolion.

Ennillai llyfrau dan enw Clement gylchrediad eang yn y dwyrain a'r gorllewin. Cyhoeddwyd dau lythyr Syriaeg dan ei enw, gan Wetstein. Mae y Clementiniaid (*Clementines*) hefyd ar gael, er eu tuedd aflachus, ac yn profi ansawdd niweidiol llenyddiaeth oesoedd cyntaf Cristionogaeth [gwel erthygl]. Y canonau a honant ei awdurdod ef, y rhai a ddelid mewn bri mawr fel llyfr yn cynnwys cyfreithiau Cristionogion [gwel erthygl]. Mae dau epistol Groeg hefyd, wedi eu hattodi wrth un o'r llawysgrifau hynaf o'r Beibl sydd ar gael, yn cael eu priodoli iddo.

Mae pwysigrwydd Clement yn yr eglwys foreuol yn amlwg hefyd oddi wrth y traddodiadau sydd yn priodoli awduriaeth yr Epistol at yr Hebreaid ac Actau yr Apostolion iddo ef. Yn ddiweddarach, ymddengys yn y cymmeriad deublyg o un yn cyfryngu rhwng canlynwyr Paul a chanlynwyr Pedr, ac fel deddfwneuthurwr yr eglwys. Nis gall yr ymofyniad, pa nifer o'r cyfansoddiadau uchod sydd yn deilliaw yn ddiammheuol oddi wrtho ef, fod heb ddyddordeb neillduol. Hefyd, a ydyw tystiolaeth yr ysgrifenydd anysbrydoledig cyntaf ac enwocaf o ryw bwys mewn cyssylltiad â'r Beibl a'i ddysgeidiaeth athrawiaethol. [Gwel CANON Y TESTAMENT NEWYDD.]

Casgliad lled gyffredinol oddi wrth ymchwiliadau, wedi eu gwneuthur gyda mantais y ddysgeidiaeth a'r amynedd mwyaf, i awduriaeth y llyfrau uchod ydyw, nad oes sicrwydd boddhaol fod un o honynt wedi eu cyfansoddi gan Clement —ond iddo ysgrifenu un llythyr at y Corinthiaid. Tybid am ganrifoedd fod y llythyr hwn wedi myned ar goll, fel llawer o gynnyrchion yr oes oedd henafol. Er y byddai yr henafiaid yn crybwyll am dano yn fynych, ni ellid ei gael. Ond yn niwedd y *Codex Alex.*, yr ysgrifllyfr nodedig hwnw o'r Testament Newydd a anfonwyd at Charles I., brenin Lloegr, y cafwyd dau lythyr at y Corinthiaid oddi wrth Clement, a'r cyntaf o'r rhai hyn ydyw yr un a fernir yn awdurol.

Am amser ei gyfansoddiad y mae gwahaniaeth barn. Tybiai yr henafiaid iddo gael ei ysgrifenu tua'r flwyddyn 70, yn fuan ar ol erlidigaethau Nero. Yn ddiweddarach, y duedd ydyw ei roddi yn nheyrnasiad Domitian, rywbryd o'r flwyddyn 80 i 90. O'r farn hon y mae Schlieman, Gieseler, Bunsen, Hilgenfeld, &c. Ond nid oes ddefnyddiau digonol i ffurfio barn hollol benderfynol ar y mater. Er mwyn rhoddi syniad i'r darllenydd am gynnwysiad y llyfr hwn, ni a ddyfynwn ychydig frawddegau a all fod yn dwyn cyssylltiad âg amgylchiadau ei gyfansoddiad. Y prif reswm dros ei ddyddiad cyn y flwyddyn 70 ydyw, y dysgrifiad canlynol o wasanaeth y deml, yr hon a dybir ei bod yn sefyll ar y pryd. Yn *pen.* xli. dywedir, "Y mae yr offrymau a'r aberthau dyddiol, y rhai a osodwyd dros bechodau a chamweddau, i'w hoffrymu yn unig yn Ierusalem; ac nid yn mhob man yno, ond ar yr allor o flaen y deml," &c. Ond gellir dyweyd fod yr amser presennol yn cael ei ddefnyddio yma am yr hyn a fu, er mwyn ei fywiogi o flaen y dychymyg. Yn y 6ed a'r 7fed bennod, dysgrifia erlidigaeth y dyoddefodd rhai o'r apostolion, yn nghyd â llawer o Gristionogion, oddi wrthi fel y canlyn:—"Y mae rhai o golofnau ffyddlonaf a chyfiawnaf yr eglwys wedi cael eu herlid hyd at farwolaeth: gosodwn o flaen ein llygaid yr apostolion sanctaidd. Dyoddefodd Pedr lawer, nes o'r diwedd, wedi ei ferthyru, efe a aeth i'r gogoniant oedd yn addas iddo. O herwydd yr un achos derbyniodd Paul mewn cyffelyb fodd wobr ei amynedd. Saith waith y bu mewn cadwynau...pregethodd yn y dwyrain a'r gorllewin;...ac felly, wedi dysgu yr holl fyd gyfiawnder, ac i'r dyben hyny, wedi teithio hyd at derfynau eithaf y gorllewin, o'r diwedd dyoddefodd ferthyrdod.....gan fod yn esampl o amynedd i'r holl oesoedd. At yr apostolion sanctaidd hyn y mae lluaws o rai ereill, wedi myned trwy boenau a dyoddefiadau, wedi gadael i ni esampl ogoneddus," &c. Rhaid fod y geiriau hyn yn ddysgrifiad o'r erlidigaeth dan Nero, yn 64, a rhaid fod y llythyr hefyd wedi ei ysgrifenu cyn yr erlidigaeth dan Domitian, tybygid tua'r flwyddyn 96, onid e buasai rhai cyfeiriadau ynddo at ryw bersonau a ddyoddefasant yn yr erlidigaeth hono.

Mae y llythyr yn gynnwysedig o drigain o adranau neu bennodau byrion iawn. Ar ol y rhagymadrodd (*pen.* i—iii), yr hwn sydd yn cynnwys achlysur y llythyr, canmoliaeth am yr hyn a fu eglwys Corinth (*pen.* ii), yn nghyd â'i sefyllfa isel ar y pryd (*pen.* iii), dilyna (*pen.* iv—xxxvi) annogaethau moesol a chrefyddol, y rhai sydd yn wasanaethgar i sychu i fyny yr holl deimladau drwg sydd yn arwain i ymrafaelion, y rhai ydynt, medd yr awdwr, genfigen ac ymgais at fod yn fawr. Annogir hwynt at edifeirwch, ufudd-dod, gostyngeiddrwydd, tangnefedd, ac undeb, ac eglura a chymhella yr annogaethau trwy luaws o esamplau. Dechreua *pen.* xxii. gydag annogaethau wedi eu sylfaenu yn fwy uniongyrchol ar ystyriaethau Cristionogol. "Rhaid i'r holl bethau hyn gael eu cadarnhau trwy y ffydd sydd yn Nghrist." Yn *pen.* xxiii, cyfeiria at ail ddyfodiad Iesu Grist; ac yn *pen.* xxiv—xxvi, rhydd resymau oddi wrth gyfatebiaeth naturiol o blaid yr adgyfodiad, ac yna drachefn annogaethau cyffredinol. Yn yr adraniadau o *pen.* xxxi—xxxvi, mae yn egluro ffordd cadwedigaeth, ac yn cymharu cyfiawnhad a gweithredoedd da, gydag annogaethau

Digitized by Google

yn gymmysgedig. O'r adran xxxvii hyd y diwedd, mae *ail ran* y llythyr. Oddi wrth y gymhariaeth yn xxxvii, fod Cristionogion yn filwyr i Grist, y mae yn myned yn mlaen i ddangos yr angenrheidrwydd am drefn yn yr eglwys, yn gyntaf oddi wrth gyfansoddiad yr eglwys yn gyffredinol (xxxviii—xliv); ac yn ail, oddi wrth amgylchiadau yr eglwys yn Corinth yn neilldiol (xliv—lvii). Yn lvii, y mae coll yn yr ysgrif; ac yn y tair olaf, y mae yn dybenu trwy weddi a bendith.

Mae y llythyr hwn wedi cael ei gymharu yn fynych o ran ei gyfansoddiad a'i olygiadau i epistolau yr apostolion. O ran ei eiriad, y mae ynddo debygolrwydd i gyfansoddiadau Paul a Phedr. Er y tybir fod y profion yn gryfach drwy ei ystyried fel un a ddygwyd i fyny dan addysg a dylanwad Pedr yn hytrach na Paul, eto y mae ei debygolrwydd i'r olaf, o ran neilldu-olrwydd geiriau, lawn cymmaint os nad yn fwy nag i'r blaenaf. Weithiau defnyddia eiriau nad ydynt i'w cael ond yn epistolau Pedr; ond yn fynychach defnyddia eiriau sydd yn gyffredin i'r ddau apostol hyn; ac y mae yr anghreifftiau o debygolrwydd i Paul yn lluosog ac yn nodedig.

Dengys lawn cymmaint o ddylanwad Paul yn y *syniadau duwinyddol* a geir ynddo, ac hefyd yn y dull o'u gosod allan. Fel y canlyn y mae Clement yn gosod allan athrawiaeth fawr epistolau Paul, sef cyfiawnhad trwy ffydd:—"A ninnau hefyd, wedi ein galw trwy ei ewyllys ef yn Nghrist Iesu, ydym wedi ein cyfiawnhau, nid trwom ein hunain, na thrwy ein doethineb, ein deall, ein duwioldeb ein hunain, na thrwy y gweithredoedd a gyflawnasom ni yn sancteiddrwydd ein calonau; ond trwy y ffydd hono trwy ba un y mae y Duw Hollalluog wedi cyfiawnhau pawb o ddechreuad "y byd" (*p.* xxxii). Mewn manau ereill, defnyddia yr un esamplau ag a ddefnyddir gan Paul a Iago,—"Trwy ffydd a llettygarwch (*δια πιστιν και φιλοξενιαν*) rhoddwyd mab i Abraham mewn henaint; a thrwy ufudd dod efe a'i offrymodd yn aberth i Dduw." "Trwy ffydd a llettygarwch yr achubwyd Rahab y butain" (*p.* x, xii). Fel y canlyn y llefara am angeu a gwaed Crist:—"Edrychwn yn ddiysgog ar waed Crist, mor werthfawr ydyw yn ngolwg Duw, fel, wedi ei dywallt er ein iachawdwriaeth, y mae wedi sicrhau y cynnygiad o'r gras o edifeirwch i'r holl fyd" (*p.* vii, hefyd xxi, xlix). Am yr Arglwydd Iesu Grist, fe ddywed—"Dyma y ffordd, anwylyd, trwy ba un y gallwn gael yr Iachawdwr Iesu Grist, ein harchoffeiriad, i gyflwyno ein holl offrymau i Dduw, i'n hamddiffyn a'n cynnorthwyo yn ein holl wendidau. Trwyddo ef yr ydym yn edrych i uchelderau y nefoedd, ac yn canfod megys mewn drych ei wyneb sanctaidd a gogoneddus. Trwyddo ef yr agorir llygaid ein calonau; ac y mae ein deall fel mewn ogof dywyll yn amddifad o oleuni yr haul hyd oni thywyno ei oleuni ef arno." Y mae cydnabyddiaeth Clement â'r Epistol at yr Hebreaid yn fwy manwl nag â llythyr Paul at y Rhufeiniaid, er yr ymddengys hyn yn rhyfedd pan feddyliom ei fod ef ei hun yn byw yn Rhufain.

Ystyriaeth bwysig yn ei chyssylltiad â Chanon y Testament Newydd, ydyw yr un y geilw Westcott sylw neilldiol ato; sef, fod y tadau apostolaidd, a Clement fel y cyntaf o honynt, er yn byw ac yn ysgrifenu cyn i'r holl apostolion farw, eto yn tynu y fath wahaniaeth rhwng ysgrifeniadau yr apostolion a'u hysgrifeniadau eu hunain ag i'w gosod ar unwaith ar dir is.[1]

Nid yw Clement yn hòni dim awdurdod—llawer llai awdurdod apostolaidd—yn ei lythyr; yn wir, nid yw yn ysgrifenu yn ei enw ei hun o gwbl, ond fel cynnrychiolydd Eglwys Rhufain. Ac yn yr oes ganlynol, enwyd yr epistol fel Epistol y Rhufeiniaid at y Corinthiaid. Fel y canlyn y llefara am Epistol Paul at y Corinthiaid:—"Cymmerwch epistol y bendigedig Paul yn eich dwylaw. Pa beth a ysgrifenodd efe atoch yn nechreuad yr efengyl yn eich mysg" (*p.* xlvii)? Dywed hefyd ei fod wedi ysgrifenu yn "ysbrydol" atynt.

Ond heb law ei fod ef ei hun yn ymwybodol o'r gwahaniaeth, y mae i'w deimlo i bob un sydd yn gydnabyddus â chyfoeth a blas yr ysgrifeniadau ysbrydoledig. Ymofyniad buddiol ydyw,—A oes rhyw wahaniaeth neu ddiffygion yn ganfyddadwy yn ngolygiadau Clement, o'u cymharu â'r safon dwyfol? Y mae y diffyg mwyaf i'w weled yn y dull y mae yn gosod allan wrthddrych ffydd, ac hefyd yn y cyssylltiad sydd rhwng ffydd a gweithredoedd. Y mae yn wir fod yr ymadroddion a nodwyd yn dangos ei fod yn credu fod Crist wedi tywallt ei waed er iachawdwriaeth y byd; eto, nid yw o gwbl yn dadgan mewn geiriau eglur mai Crist yn ei angeu ydyw gwrthddrych ffydd, tra y mae yn cyfeirio ato yn ei angeu fel esampl i ni. Ar ol dyfynu yr oll o *Esa.* liii, fe ddywed—"Chwi welwch, anwylyd, pa fath esampl a roddwyd i ni" (*p.* xvi). Wrth ganmawl cariad (*p.* xlix), fe ddywed,—"O gariad atom y rhoddodd Crist ei waed trosom trwy ewyllys Duw, ei gnawd dros ein cnawd, ei enaid dros ein heneidiau." Ar y llaw arall, pan yn cyfeirio at wrthddrych ffydd, fe ddywed,—"Sefydlwn ein meddwl trwy ffydd ar Dduw" (*p.* xxxv). Y mae yr holl gyfeiriadau—ac yr ydym wedi rhoddi y cwbl bron sydd yn y llythyr—at angeu Crist, yn cael eu gwneyd i ddangos ei gariad, neu ei ufudd-dod, a'i ddyoddefgarwch, ac felly yn gymhwys i fod yn esampl i ni, tra na ddyweder dim am ei gymhwysder i fod yn wrthddrych ac yn sail ein ffydd. Y mae y diffyg hwn yn ngwrthddrych a sail ffydd yn cynnyrchu diffygion ereill yn ei gyfundrefn athrawiaethol. Y mae ffydd a gweithredoedd yn cael lle gan Clement; ond nid yw yn gosod allan eu cyssylltiadau â'u gilydd yr un modd ag y gwna yr ysgrifenwyr sanctaidd. Ganddynt hwy, dangosir gweithredoedd fel ffrwyth sydd yn tarddu yn angenrheidiol o ffydd fel gwreiddyn; ond gan Clement, gosodir ffydd a gweithredoedd ochr yn ochr heb un cyssylltiad neilldiol rhyngddynt. Nid yw hyn i'w ddeall fel pe byddai yn dal fod cyfiawnhad trwy ffydd a gweithredoedd fel eu gilydd—y mae cyfiawnhad trwy ffydd yn unig yn cael ei ddadgan ganddo yn rhy eglur i hyny—ond nid yw yn dangos un cyssylltiad rhyngddynt; o herwydd hyny, nid allasai ei gynghorion i weithredoedd da lai na bod yn ddiffygiol. Y mae hyn yn olrhain gweithredoedd da at wreiddyn arall, sef at orchymynion a gosodiadau yr Arglwydd (*προσταγματα και*

[1] "They attributed to them (the apostles) wisdom and power, to which they themselves made no claim. Without any exact sense of the completeness of the Christian Scriptures, they still draw a distinct line between them and their own writings. As if by some providential instinct, each one of those teachers who stood nearest to the writers of the New Testament plainly contrasted his writings with theirs, and definitely placed them on a lower level. The fact is most significant: for it shows in what way the formation of the canon was an act of the intuition of the church—derived from no reasoning, but realised in the course of its natural growth as one of the first results of its selfconsciousness."

Digitized by Google

δικαίωματα του Κυριου)—at ewyllys Duw (θέλημα, Βουλημα)—yn hytrach nag at fywyd ysbrydol wedi ei dderbyn oddi wrth undeb a chymundeb â Christ. Felly y mae yn bosibl, er dal cyfiawnhâd trwy ffydd yn unig, i golli yr ystyr sydd ynddo, a gwneyd yr athrawiaeth yn llythyren farw.

Ei syniad am swyddwyr eglwysig, ydyw, fod yr apostolion wedi gosod "esgobion a diaconiaid" (ἐπισκοπους και διακονους) yn mhob eglwys. Felly, gwelir nad oedd "esgob" y pryd hwnw ond yr un peth a "henadur," heb un uchafiaeth arnynt. Yr un modd yn yr *Actau*, yr un personau a elwir, yn *pen.* xx. 28, yn "olygwyr" (ἐπισκοπους=esgobion), ag a gyfenwir ychydig o'r blaen (*adn.* 17) yn "henuriaid." Ond yn groes i ddysgeidiaeth y Testament Newydd y mae yn cyferbynu gweinidogion a llëygwyr, gan olygu y blaenaf yn offeiriadaeth y Testament Newydd, o ba un yr oedd offeiriadaeth yr Hen Destament yn gysgod.

Gellir casglu oddi wrth hanes a syniadau Clement:—

1. Mor ddychymygol ydyw cadwen yr olyniaeth apostolaidd, pan y mae cymmaint o ammheuaeth am y dolenau cyntaf ynddi.

2. Mor fuan y mae absennoldeb ysbrydoliaeth dwyfol i'w ganfod, hyd yn oed yn y rhai oedd yn cydfyw â, ac yn mwynhau addysg uniongyrchol y rhai oedd dan yr arweiniad anffaeledig hwnw.

3. Mor ansicr ydyw cymmeryd neb yn arweinwyr anffaeledig mewn crefydd, pa mor cang bynag eu manteision, ac uchel bynag eu cymmeriad, ond yr ysgrifenwyr ysbrydoledig eu hunain.

Y mae y llenyddiaeth sydd yn dwyn cyssylltiad â Clement, yn gyflawn ac yn amrywiol. *Wake's Epistles of the Apostolic Fathers; Westcott's Canon of the New Testament.*—Y mae y llyfr hwn yn cynnwys ffrwyth ymchwiliadau mwy diweddar na Wake. Yn erthygl Uhlhorn, yn *Hertzog*, ceir enwau a barn yr holl awduron Ellmynaidd ar y testyn. Ceir hefyd ychydig frawddegau yn *Bennett's Theology of the Early Church.* Hefyd *Lardner's Credibility.*

2. CLEMENT, o Alexandria, neu TITUS FLAVIUS CLEMENT, oedd un o dadau yr Eglwys Gristionogol, ac yn enwog mewn dysgeidiaeth a hyawdledd. Ganwyd ef yn B.A. 217. Ni ddaeth yn Gristion hyd nes y cyrhaeddodd oedran gwr. Trwy ymchwiliad rhydd a diragfarn, daeth yn llwyr argyhoeddedig o wirionedd Cristionogaeth, ar ol iddo gyrhaedd graddau uchel o wybodaeth a brofodd yn fanteisiol iddo fel dysgawdwr Cristionogol. Arweiniwyd ef gan yr ysbryd ymchwiliadol a'i dygodd at Gristionogaeth i geisio cymdeithas dysgawdwyr crefyddol enwog, o duedd-iadau meddyliol gwahanol, mewn amrywiol wledydd. Ar ol teithio llawer, a derbyn addysg gan ddysgawdwyr gwahanol wledydd, ymsefydlodd yn yr Aipht; ac yno y cyfarfyddodd â'r enwog Pantænus. Daeth Clement yn olynydd iddo fel athraw ysgol Alexandria; ac yn ddiweddarach gwnaed ef yn henuriad yn yr eglwys yno. Y mae genym dri o weithiau o'i awduriaeth, y rhai a ffurflant gyfres gyssylltiedig. Syniad dechreuol ei gyfundraeth ydyw, "Fod dysgawdwr Dwyfol dynolryw—y *Logos*—yn gyntaf yn arwain y paganiaid anghoethedig, yn gaeth gan bechod ac eilunaddoliaeth, i'r ffydd, ac yna yn diwygio eu bywydau trwy orchymynion moesol; ac yn ddiweddaf, yn dyrchafu y rhai a brofasant y purediigaeth hwn i'r wybodaeth ddyfnach am bethau dwyfol—yr hon a eilw, *gnosis.* Felly y mae y *Logos* yn ymddangos gyntaf fel yn annog pechaduriaid; yna, fel yn ffurfio bywyd ac ymarweddiad y rhai dychweledig trwy ei ddysgyblaeth; ac yn ddiweddaf, fel athraw y *gnosis* (gwybodaeth) i'r rhai sydd wedi eu puro." A'r drychfeddwl yma ydyw yr edef sydd yn cyssylltu y tri traethawd o'i eiddo sydd ar gael—yr *annogaethol*, neu rybuddiol; y *moesol*, neu ddysgyblaethol; a'r un a gymhwysa elfenau y *gnosis*, a elwir y *Stromata*—enw cyffredin yn yr amser hwnw ar weithiau o gynnwysiad amrywiol, yn gyfystyr â *miscellany* yn y Seisoneg. Ymddengys nad oedd meddwl Clement yn drefnus a rheolaidd. Dygai yn nghyd syniadau anghyssylltiol â'u gilydd, a gweithiai hwy i un gyfundraeth; cyssylltai ddrychfeddyliau nas gallesid eu huno. Ond trwy fflachiadau achlysurol, diammheu y rhoddai gynhyrfiad i feddyliau ei ddysgyblion, fel y gwelir yn esampl Origen. Y mae amryw ddrychfeddyliau anorphenol, yn arddangos gallu meistrolgar, ac yn cynnwys hadau cyfundraeth ddiwinyddol gyflawn, yn gorwedd yma a thraw yn ei weithiau yn mysg crug o ddamcaniadau ofer a diles. O barth i'w *Stromata*, ei amcan ynddo oedd, "dwyn yn nghyd gasgliad o wirionedd a chyfeiliornad o'r athronwyr Groegaidd a chyfundraethau y pleidiau Cristionogol, mewn cyssylltiad â rhanau o'r gwir *gnosis.*" Dysgwyliai i bob un chwilio iddo ei hun yr hyn a fyddai gymhwys iddo. Ei amcan oedd cynhyrfu ymchwiliad ac ystyriaeth, yn hytrach nag addysgu; ac yn fynych, y mae yn fwriadol yn ymfoddloni yn unig ar awgrymu at y gwirionedd, pan ofnai roddi tramgwydd i gredinwyr (πιστικοις), y rhai oeddynt analluog i ddirnad y syniadau oedd ganddo. Y mae ei waith esboniadol (ei *hypotyposis*) ar goll; yr hyn y cwynir o'i herwydd yn benaf am ei fod yn gynddrych o eglurhadaeth ysgrythyrol ar egwyddorion ysgol Alexandria.

Yn ei draethawd ar "Y cyfoethog yn ymofyn am iachawdwriaeth," amcana ddangos mai y pethau mwyaf hanfodol mewn Cristionogaeth ydyw serchiadau y galon. "Nid yw ein Iachawdwr yn ein cynhell, fel yr hona rhai ymresymwyr arwynebol, i ymadael â'n da bydol, ond ymadael yn hytrach â'r cariad atynt—cancr yr enaid—gofalon, drain y bywyd daiarol, sydd yn tagu hâd y bywyd dwyfol. Nid rhyw weithred allanol y mae yn ei ofyn, a wnaed gan ereill; ond rhywbeth uwch, mwy dwyfol a pherffaith, yr hon nid yw y cyntaf ond arddangosiad yn unig o hono. O blegid diystyrodd rhai cyn hyn bethau daiarol, ac ymadawsant â hwy: ond daeth y dymuniadau tufewnol yn gryfach—ymlanwent o wagedd, hunandyb, a diystyrwch o ereill, fel pe buasent wedi gwneyd gwaith oedd tu hwnt i allu y ddynoliaeth. Gall dyn ymadael â'i dda bydol, ac eto lochesu y dymuniad am danynt yn ei galon. Pa weithredoedd haelionus, oddi ar gariad, a allent fod yn mhlith dynion pe na bai gan neb y moddion i gyfranu? A phe hyn a fyddai dysgeidiaeth Crist, oni byddai yn wrthdarawiadol i athrawiaethau ereill o'i eiddo? Dylid ystyried meddiannau bydol fel moddion a chyfryngau i wneuthur daioni, i gael eu troi i wasanaeth buddiol gan y rhai a wyddant pa fodd i'w iawn ddefnyddio." Mewn gwrthwynebiad i'r rhai a fawrygent y sefyllfa anmhriodasol, dywed, "Nid mewn neillduaeth y mae un yn dangos ei hunan yn *ddyn;* yr hwn sydd yn meddu goruchafiaeth ar bob dyn arall yw hwnw sydd fel priod a phen

Digitized by Google

teulu yn gwrthsefyll yr holl demtasiynau sydd yn ymosod arno, yn ei waith yn darparu ar gyfer ei wraig, ei blant, ei weision, a'i dŷ, ac heb gael ei ddyeithro oddi wrth gariad Duw. Y mae yr hwn nad oes ganddo deulu yn gochel llawer o demtasiynau; ond y mae islaw y dyn sydd ganddo lawer o bethau yn tueddu i ddyeithro ei feddwl oddi wrth ei iachawdwriaeth, ac eto yn cyflawnu ei ddyledswyddau yn y cylch teuluaidd, ac yn arddangos yn ei deulu ddarlun o ragluniaeth ei hun." Ac wrth ddysgrifio y fam grefyddol, dywed, "Y fam ydyw gogoniant ei phlant; gwraig ei phriod; mae y tad a'r plant yn ogoniant y wraig, a Duw yn ogoniant y cwbl." Am ei syniadau athrawiaethol, gwel YSGOL ALEXANDRIA; GNOSIS.

CLEMENTINIAID, [τα Κλεμεντινια]: enw a roddir ar ffugchwedl a gyfansoddwyd tua diwedd yr ail canrif. Y mae y cyfansoddiad hwn yn cael ei ystyried yn un pwysig mewn hanesiaeth eglwysig, o herwydd ei wasanaethgarwch i daflu goleu ar ansawdd pleidiau crefyddol yn Rhufain am oes neu ddwy ar ol yr amser yr ysgrifenodd Paul ei lythyr atynt. Nid oes dim yn y Testament Newydd i'n cynnorthwyo i ffurfio barn am effaith llythyr yr apostol yn y ddinas hono, ac am agwedd pethau ar ol hyny. Ond oddi wrth y llyfr rhyfedd dan sylw, gwelir fod yr opiniynau Iuddewig yn parhau yn eu grym am gan mlynedd o leiaf ar ol amser Paul. Nid oes ammheuaeth nad oedd yr awdwr yn Rhufeinwr neu Roegwr, yn trigiannu yn Rhufain. Y mae yn amlwg trwyddo mai ffugchwedl grefyddol ydyw, wedi ei hysgrifenu gyda yr amcan o sicrhau awdurdod apostolaidd i syniadau y blaid Iuddewig a wrthwynebai Paul. I'r dyben hwn, dysgrifir Clement, esgob Rhufain [gwel CLEMENT], yn y cymmeriad o athronydd paganaidd yn teithio i'r dwyrain i chwilio am yr apostol Pedr, er mwyn cael boddhâd i'w feddwl yn nghylch y gwirionedd. Y mae y chwedl yn llawn o ddygwyddiadau dychymygol—y cyfryw ag a fyddent yn cael lle mewn cyfansoddiadau cyffelyb; megys anturiaethau rhai wedi eu gwerthu i gaethiwed, a'u bwrw allan i'r môr; plant wedi eu colli, yn cael eu hadferu trwy ffyrdd rhyfedd i'w rhieni; gwŷr i'w gwragedd; a lluaws o olygfeydd difyrus wedi eu cymmeryd wrth fywyd cyffredin pobl mewn masnach, y fath ag sydd yn llenwi chwareuon Plautius neu Terence. Ei phrif ddyddordeb ydyw y syniadau crefyddol sydd ynddi; o herwydd nid oes ammheuaeth nad ydynt yn ddysgrifiad cywir o'r hyn a gredid gan ddosbarth o Gristionogion ar y pryd. Y mae y cyfan yn cael eu dysgrifio fel yn cymmeryd lle yn Palestina a'r gymmydogaeth, a'r iaith a ddefnyddir ydyw y Groeg. Yn mhlith ei phrif hynodion, y mae barn yr awdwr am urddas a dylanwad yr apostolion yn mysg eu gilydd mor bell oddi wrth briodoli unrhyw flaenoriaeth i Pedr, er mai Pedr yw ei brif wrthddrych drwyddi, fel y cydnabyddir Iago, esgob Ierusalem, yn ben addefedig holl wledydd Cred, yn benderfynwr dadleuon; ac i'r hwn y mae Pedr ei hun yn ymostwng. Yn Palestina y mae Clement yn cyfarfod â Phedr; ac eto dysgrifir Pedr fel apostol y Cenedloedd, ac mai iddo ef y mae y byd paganaidd yn ddyledus am yr efengyl. Ond y mae yr awdwr yn dangos casineb chwerw, cwta, a dirmygus, yn erbyn Paul. Gosodir Pedr i fyny yn erbyn Paul; a than enw y blaenaf, amddiffynir Iuddewaeth yn erbyn gras ac athrawiaeth yr efengyl, fel y ceir hwynt yn arbenig yn epistolau yr olaf. Dysgrifir Pedr fel yn gorchfygu pob math o gyfeiliornadau—nid yn unig paganiaeth, ond hefyd y llygriadau a ddaeth i Gristionogaeth yn ystod yr ail canrif. Ymosodai ar y Gnosticiaid yn mherson Simon Magus; gwrthwynebai athrawiaeth y Drindod, a milflwyddiaeth. Ar y llaw arall, darlunir Pedr fel yn cyhoeddi ac yn profi, trwy weithredoedd nerthol, yr athrawiaeth ganlynol:—Mai ail gyhoeddiad o'r ddeddf yn ei phurdeb gwreiddiol ydyw yr efengyl:—mai goleuni ydyw Duw, a bod ei Ddoethineb a'i Ysbryd—y rhai ydynt yr un â'u gilydd, a'r ddau yr un â Mab Duw—yn trigo mewn gwahanol ddynion; sef yn yr wyth canlynol,—Adda, Enoch, Noah, Abraham, Isaac, Iacob, Moses, a Christ. O'r rhai hyn, y mwyaf enwog ydoedd Adda, Moses, a Christ—yr hwn drachefn a ragorai ar y ddau flaenaf. Nad oes dim cynnydd yn y goleuni y mae Duw yn ei roddi i ddynion; fod Iuddewaeth bur yn hollol yr un a Christionogaeth. Y ffordd i gyrhaedd iachawdwriaeth ydyw trwy wybodaeth a chyflawniad y ddeddf. Rhaid cael adnabyddiaeth o bethau fel y maent, ac o Dduw o ran ei hanfod. Ond gan fod dyn trwy bechod wedi colli hyn, y mae angenrheidrwydd am ddadguddiad a gwir brophwyd: fod y dadguddiad wedi ymddangos yn y personau a enwyd. Nad yw cyflawniad y ddeddf, gan fod yr egwyddor fywiol sydd wrth wraidd pob gweithred dda yn absennol, yn ddim amgen na chyddfurfiad seremoniol â gosodiadau allanol. Y mae yr holl fyd, o Dduw i waered, yn un gyfundrefn fawr o wrthgyferbyniadau yn cyfateb i'w gilydd; megys nefoedd a daiar, dydd a nos, mawr a bach, gwir a gau brophwydi, Cain ac Abel, &c. Y gwrthgyferbyniad y sefir arno fwyaf yn y gwaith hwn ydyw, Pedr a Simon Magus; ac y mae ynddo awgrymiadau eglur iawn o wrthgyferbyniad rhwng Pedr a Phaul.

Y mae y cyfansoddiad ffugiol hwn yn ddangosiad cywir o blaid luosog yn Rhufain; ac fe ddengys y gwahanol ffurfiau a chyfeithiadau, yn mha rai yr ymddangosodd y *Clementinia*, y derbyniad mawr oedd iddynt. Amcan yr holl blaid oedd dyrchafu Pedr, a'i wneuthur yn sylfaenydd yr eglwys yn Rhufain; ac yn yr holl draddodiadau am Pedr yn Rhufain, y mae Simon Magus yn ymddangos fel ei gysgod. Y mae y gweithiau hyn yn brofion o nerth a pharhâd y syniadau Iuddewig yn Rhufain. Ac nid yw y dull ffugiol yn mha un y cyfansoddwyd hwynt yn un rhwystr iddynt fod yn dadgan syniadau ac opiniynau byw. Dangosant hefyd nerth y pleidiau a ymgyfenwent ar enwau y ddau apostol—Pedr a Paul—a'r ysbryd dallbleidiol yn mha un y dadleuent am uchafiaeth i'r rhai a gamenwent yn flaenoriaid. — (*Gieseler's Eccles. History; Milman's Latin Christianity Hertzog*, d. g. CLEMENTINEN.)

CLEOPATRA: merch Ptolemy Auletes, brenin yr Aipht, a anwyd tua'r flwyddyn 69 c. c. Yr oedd i Ptolemy ddau fab a dwy ferch, a gadawodd y goron yn ei ewyllys i'w fab, Ptolemy, a'i ferch henaf, Cleopatra, gan orchymyn iddynt gyddeyrnasu, a bod iddynt ymbriodi. Ac o herwydd nad oeddynt eto ond ieuainc (y chwaer, yr hon oedd yr henaf, heb fod uwch law deunaw oed), trefnodd iddynt fod o dan arolygiaeth senedd Rhufain. Ond nid hir y buont heb i anghytundeb gymmeryd lle rhyngddynt; mewn canlyniad i'r hyn y darfu i Pothinus, yr eunuch, ac Achillas.

Digitized by Google

blaenor y fyddin, y rhai oeddynt yn cymmeryd gofal addysg y brenin ieuanc, ei bwrw hi ymaith o'r llywodraeth, fel y gorfu arni ffoi i Syria am nodded. Yn yr adeg hono, tua 48 c. c., daeth Julius Cæsar i Alexandria, yn ei erlyniad ar ol Pompey, ac ymgymmerodd â'r gorchwyl o benderfynu yr ymrafael rhwng y brawd a'r chwaer. Hônai fod ganddo hawl fel cynnrychiolydd senedd Rhufain i ymyraeth â'r achos yn ol ewyllys eu tad. Yn hytrach na gadael ei hachos i neb arall i'w ddadleu ger bron Cæsar, penderfynodd Cleopatra ei hysbysu fod y rhai oedd ganddi i'w phleidio wedi ei bradychu, a dymunodd ganiatâd i ddyfod i'w bresennoldeb, i ddadleu ei hachos ei hun. Daeth mewn cwch bychan at furiau y ddinas yn y nos; a chan nas gallasai fyned i mewn yn anadnabyddus, lluniodd i roddi o'i hamgylch faich o ddillad, a bod iddi yn y rhai hyny gael ei rhwymo a'i dwyn i'r ddinas. Fel hyn, llwyddodd Apollodorus, yr unig un o'i chyfeillion a gymmerodd gyda hi, i'w dwyn at Cæsar; ac ymddengys fod y ddyfais hon, yn nghyd â'r rhagoriaethau a berthynent i'r frenines, wedi ei ennill yn hollol o'i phlaid. Penderfynodd Cæsar fod i'w brawd ymheddychu â hi, a bod iddi gael ei hadferu i feddiant o'r rhan o'r freniniaeth a berthynai iddi yn ol ewyllys ei thad. Yn wyneb hyn, ymgynddeiriogodd Ptolemy a'i gynghoriaid, a chasglasant eu byddinoedd o dan lywyddiaeth Achillas, i ymlid Cæsar allan o'u gwlad. O'r diwedd, yn mhen ychydig fisoedd, cawsant eu gorchfygu yn hollol gan filwyr Rhufain; ac wrth i Ptolemy wneuthur cais i ddianc mewn cwch dros yr afon Nile fe'i boddwyd yn ei dyfroedd. Mewn canlyniad i hyn yr oedd Alexandria yn hollol at ewyllys Cæsar. Wedi hyn gorchymynodd ar fod i'w brawd arall gyd-deyrnasu â hi. Ymddengys ddarfod i Cæsar syrthio mewn cariad mawr â Cleopatra, ac iddo aros yn yr Aipht am amryw fisoedd gyda hi. Ac wedi iddo ddychwelyd i Rufain, aeth hithau yno ar ei ol. Ile yr arosodd hyd oni laddwyd ef; pryd y dychwelodd i'r Aipht. Bu iddi un mab o hono, Cæsarion, yr hwn a laddwyd wedi hyny gan Augustus. Yr oedd ei brawd gryn lawer yn ieuangach na hi, ac ni buont yn cyd-deyrnasu chwaneg nag oddeutu pedair blynedd; pryd y llwyddodd i'w roddi i farwolaeth trwy ei wenwyno.

Wedi brwydr Philippi, tua 40 neu 41 c. c., darfu i Antony, Rhufeinwr o alluoedd milwrol a hyawdledd anghyffredinol, orchymyn iddi ei gyfarfod yn Tarsus, yn Cilicia, i roddi cyfrif am ymddygiadau rhai o'i gweinidogion. Ufuddhaodd hithau, ac aeth yno mewn rhwysg mawr; a'r canlyniad fu iddi gael goruchafiaeth hollol ar galon Antony i'w charu. Tybia rhai ei fod wedi ei gweled cyn hyn, naill ai pan y bu yn yr Aipht gyda Gabinius, yn sefydlu ei thad ar yr orsedd (55 c. c.), neu ynte yn ystod ei harosiad yn Rhufain. Pa fodd bynag, llwyr orchfygwyd ef y pryd hwn, a buont am gryn ysbaid yn croesawu eu gilydd â'r gwleddoedd mwyaf gorwych a drudfawr. Yr oedd y naill fel y llall yn ynfyd yn eu hymroddiad i foethau a phleserau. Dywedir iddi lwyddo gydag ef y pryd hwn i roddi ei chwaer, Arsinoe, i farwolaeth, yr hon oedd wedi ei halltudio o'r Aipht, ac wedi ffoi am ddiogelwch i deml Diana, yn Ephesus.

Wedi dychweliad Antony i Rufain, priododd Octavia, hanner chwaer Octavius (wedi hyny Augustus), yr hyn a barodd iddo ymddyeithro am ryw ysbaid oddi wrth Cleopatra. Ond yn ei ymgyrchoedd milwraidd i'r dwyrain, cyfarfuant â'u gilydd drachefn, tua 36 c. c., ac adnewyddwyd eu hymlyniad y naill wrth y llall yn fwy nag o'r blaen. Buont yn byw yn nghyd, a dilynai hithau ef yn rhai o'i hyntiau milwraidd. O'r diwedd, llwyddodd Octavius i dori grym awdurdod Antony yn Rhufain. Pan ddeallodd yntau hyn, penderfynodd ef a'i blaid fod iddo ymwrthod âg Octavia, a chyhoeddi rhyfel yn erbyn Cæsar. Ymladdwyd y frwydr a benderfynodd eu tynged yn Actium. Wedi dychwelyd i Alexandria, gorchymynodd Cleopatra roddi yr holl arglwyddi ag yr oedd yn ddrwgdybus o honynt i farwolaeth. Gyda gobaith y buasai iddi hi ei hun ddianc, bwriadodd fradychu Antony i Cæsar. Pan ddeallodd efe hyny, aeth i mewn i'r palas, gan fwriadu ei lladd; ond yr oedd hi wedi dianc, a mynegwyd iddo ei bod hi wedi ei lladd ei hun: pan glywodd hyny trywanodd ei hun â'i gleddyf, a bu farw yn mhen ychydig oriau. Yn union wedi hyn cymmerwyd hi yn garcharor gan Cæsar; ond yn hytrach na goddef iddi ei hun gael ei dwyn ganddo fel arwydd o fuddugoliaeth, medrodd gael hyd i asp, a chaniataodd iddi ei brathu, a bu farw, oddi wrth effaith y gwenwyn, yn bedair ar bymtheg ar ugain oed.

Ymddengys fod i'r wraig hon lawer o ragoriaethau yn gyssylltiedig â chalon anfad o ddrygionus. Dywedir y gallai siarad amryw o ieithoedd gyda rhwyddineb; ac yr oedd ganddi gryn lawer o chwaeth at lenyddiaeth [gwel ALEXANDRIA]. Ond yr oedd ei hoffder o bleserau, yn nghyd â'i huchelgais, yn peri nad oedd dim yn ormod ganddi fwrw ymaith bob rhinwedd, ac arfer y ddichell a'r creulondeb mwyaf i gyrhaedd ei hamcanion. Bu iddi ddau fab, Alexander a Ptolemy, ac un ferch, Cleopatra, o Antony. Claddwyd hi mewn gorwychedd breninol, yn yr un bedd ag Antony, trwy orchymyn Cæsar.—(*Rollin's Ancient Hist.; Penny Cyc.*)

1. CLEOPHAS: un o'r ddau ddysgybl yr ymddangosodd Iesu Grist iddynt ar eu ffordd tuag Emmaus: *Luc* xxiv. 18.

2. CLEOPHAS, neu yn hytrach CLEOPAS, yr hwn a elwid Alpheus. Gwel ALPHEUS.

CLINDARDDACH, [*clin—tardd*]: clindarddiad, crinelliad, cleciad. "Chwerthiniad dyn ynfyd sydd fel *clindarddach* drain dan grochan;" *Preg.* vii. 6. Y mae crechwen ffôl a disylwedd yr annuwiol yn gyffelyb i drwst tân drain yn clecian dan grochan—yn anfuddiol ac yn darfod yn fuan, ac yn diweddu mewn diflasdod a somiant.

CLO, [*clo*]: offeryn i gau a diogelu drws neu gauad; *llios*, cloiau. Cloi = bolltio neu fario yn glöedig = wedi ei gloi neu ei wneyd yn ddiogel. Yr oedd cloiau yn arferedig yn y cynoesoedd, ond nid mor gyffredin ag yn ein dyddiau ni; ac nid oedd eu gwneuthuriad ychwaith mor gywrain. Y mae yn hysbys fod eu hagoriadau yn fawrion, fel eu dygid, ar achosion o bwys, ar ysgwyddau; yr hyn a ystyrid yn arwydd anrhydeddus o awdurdod. Rhaid, gan hyny, fod eu cloiau yn fawrion i gyfateb i'r agoriadau; a rhaid mai ar ddrysau pyrth dinasoedd ac adeiladau cyhoeddus y defnyddid hwynt: *Neh.* iii. 3, 6, 13—15; *Barn.* iii. 23—25. Yn *Can.* iv. 12, cyfeirir at ffynnonau clöedig, a berthynent i freninoedd a phendefigion. Y mae yr ysgrythyrau canlynol yn cyfeirio at arferiad mwy cyffredin o'r offeryn hwn;—2 *Sam.* xiii. 18;

Digitized by Google

Can. v. 5; ond hawdd canfod nad oedd y clo ddim amgen na thrawsfar i ddiogelu y drws oddi fewn. â hespenau, pinau, neu ddyrnau, i'w ddal yn ei le, y rhai y gellid cyffwrdd â hwynt trwy dwll crwn yn mhen uchaf y drws, er nad ellid dadgloi y drws heb yr allwedd neu yr agoriad a berthynai i'r clo. Gwel AGORIAD.

CLOCH. Dan yr oruchwyliaeth dderwyddol. byddai pobl yn cael eu gwahodd i addoli Duw drwy sain corn, yr hwn a elwid yn "Gorn Golychwyd." Nis gwyddom pa cyn gynted wedi dwyn Cristionogaeth i mewn i'r wlad yr arferwyd clychau yn mhlith y Cymry. Yr oeddynt yn cael eu defnyddio, beth bynag, yn y chweched canrif, mewn cyssylltiad â gwasanaeth y cyssegr. Cyfeiria Merddin atynt yn y pennillion canlynol:—

"Dysgogan Teifi llestri lli—ar llary
A Brithwyr o'i thorri,
Llan Dydoch *cloch* Menechi.

Dysgoganaf i Llan Dydoch,
Na bydd na chledr na *chloch*,
Namyn gwareufa gwyddfoch."
Myv. Arch., cyf. i., td. 134.

Cyflwynodd patriarch Ierusalem gloch fechan i Sant Teilo, pan aeth yr esgob Cymraeg ar bererindod i'r ddinas sanctaidd. Dywedir hefyd i Gildas anfon cloch fechan o'i wneuthuriad ei hun i Sant Ffraid, fel arwydd o barch. [*Liber. Landavensis; Buchedd Teilo.*] Felly nid oes ammheuaeth na wyddai y Cymry am glychau yn y chweched canrif: ac yn wir, y mae rhai o honynt ar gael hyd y dydd heddyw.

Y mae y gair *cloch* fel yn arwyddo mai math o lech neu gareg deneu oedd yr hyn a arferid gyntaf yn yr eglwysydd Cymreig, i alw y bobl yn nghyd, cyn ffurfio offeryn o fetel.

Dywedir mai Paulinus, esgob Nola, yr hwn oedd yn byw B. A. 400, oedd y cyntaf a briodolodd glychau at ddybenion eglwysig; am hyny cawsant eu galw gan y Lladinwyr yn Nola a Campana; gan mai yn Campania yr oedd Nola. Ond yn gymmaint ag nad yw yr esgob, yn ei epistol at Severus, yn yr hwn y rhydd ddysgrifiad manwl o'i eglwys, yn son dim am glychau, haera rhai pobl mai nid efe oedd y dyfeisiwr. Yr hwn sydd yn hòni hawl nesaf i'r anrhydedd ydyw y pab Sabinian, B. A. 604; yr hwn, fel y dywed De Sueur, a barodd iddynt gael eu canu ar yr oriau canonaidd, ac ar weinyddiad yr offeren. [*Gatty.*] Dywed hanesyddiaeth i ni, ddarfod i esgob Orleans, pan oedd yn warchaued ig yn Sens, ddychrynu ymaith y fyddin warchaulo trwy ganu clychau eglwys St. Stephen; yr hyn a brawf, nid yn unig bod clychau mewn bodolaeth y pryd hyny, ond eu bod hefyd yn newydd-bethau dychrynllyd.

Y mae Beda yn son am glychau mewn cyssylltiad âg Eglwys Loegr, yn y flwyddyn 680. Dywed hefyd y byddai lleianod St. Hilda. o ddeutu yr un amser, yn cael eu galw yn nghyd wrth sŵn y gloch. Hysbysir ni yn sicr gan Ingwlph. abad Croyland, yr hwn a fu farw B. A. 1109, fod clychau mewn arferiad eyn ei amser ef. Dywed, "Rhoddodd abad cyntaf Croyland chwech o glychau i'r fynachlog hono; sef, dwy fawr, y rhai a alwodd efe yn Bartholomeus a Beladin; dwy gymmedrol, a elwid yn Turketullum a Beterin; a dwy fechan, o'r enw Pega a Bega. Parodd hefyd wneuthur y gloch fawr a elwid Gudla, yr hon a roddid mewn tôn wrth y clychau ereill, ac a seiniai beroriaeth hynod, tu hwnt i ddim yn Lloegr." Yn ystod y Seithlywiaeth (*Heptarchy*). yr oedd Croyland yn encilfa i St. Guthlac, yr hwn a adeiladodd iddo ei hun feudwyfa, yn ymyl pa un y syllaenodd Ethelbald fynachlog yn 716. Distrywiwyd hon gan y Daeniaid yn 870, ac ail adeiladwyd hi yn 948; ac wedi i Gwilym, yn 1066, ennill coron Lloegr, dyrchafwyd Ingwlph, yr hwn a fuasai yn ysgrifenydd iddo o'r blaen, i fod yn abad Croyland. Felly, yn gymmaint ag i'r fynachlog dan sylw gael ei chyfoethogi gan yr abad cyntaf â chwech o glychau, gallwn gasglu yn hawdd bod clychau yn dyfod yn gyffredin o'r adnabyddus yn Mhrydain yr amser yma.

Yn un o ddeddfau Egbert, B. A. 829, gorchymynir i bob offeiriad, ar yr oriau priodol, ganu clychau ei eglwys; ac yn 900, gorchymynai y pab Ioan IX. iddynt gael eu canu mewn ffordd o "amddiffyn yn erbyn mellt a tharanau." Darparodd Paul de Caen, abad cyntaf St. Alban, ar ol y gorchfygiad, glychau i'r dref. Litholf, yr hwn oedd yn byw mewn man coediog yn y gymmydogaeth, a werthodd ei ddefaid a'i eifr, ac a brynodd gloch; a phan glywodd ei sain yn y clochdy, dywedodd, "Ust! mor beraidd y mae fy ngeifr a'm defaid yn bretu." Ychwanegodd ei wraig un arall, a pharodd y ddwy yn nghyd gydsain tra hyfryd.—[*Buckler.*] Gosododd yr esgob Hythe bedair o glychau yn eglwys gadeiriol Rochester. Croesawyd Risiart I., yn Aiec, drwy ganu clychau. fel yr oedd yn dyfod i dir yn 1190. Anrhegodd Iorwerth III. eglwys St. Stephen yn y cyssegr â thair o glychau. Felly y mae yn ddigon amlwg fod cydrif o glychau wedi dyfod erbyn hyn yn rhan gyffredin o eglwys blwyfol.

Yr oedd Abraham Rudall, o Gaerloew, yn 1684, wedi dwyn y gelfyddyd o wneuthur clychau i berffeithrwydd mawr; ac mewn llai na chan mlynedd, yr oedd ei sefydliad wedi bwrw gymmaint a 3,594 o glychau.

Tybid yn gyffredin gynt bod rhinwedd mawr mewn clychau; eu bod yn creu duwiolfrydedd yn nghalonau y sawl a'u clywent; eu bod yn puro yr awyr oddi wrth ystormydd a thymmestloedd; ac yn tarfu ysbrydion drwg. Darlunir y casineb sydd gan ysbrydion drwg at sŵn clychau gan Wynkin de Worde, yn y *Lleng Aur*, fel hyn:—"Y mae yr ysbrydion drwg, sydd yn mharthau yr awyr, yn fawr eu petrusder pan glywont y clychau yn canu; a dyma yr achos pa ham—cenir y clychau pan fyddo yn taranu, a phan ddygwyddo tymmestl fawr a chynddeiriogrwydd dryghin, i'r dyben i beri i'r gwylliaid a'r ysbrydion anwir gywilyddio, a ffoi, a pheidio a chodi yr ystorm." Gyda golwg ar hyn y cyfansoddwyd y pennill canlynol:—

"Funera plango, Fulgura frango, Sabbata pango;
Excito lentos, Dissipo ventos, Paco cruentos."

Y mae Baronius yn olrhain yr arferiad o fedyddio clychau at y pab Ioan XIII. (B. A. 968), yr hwn ei hun a gyssegrodd gloch fawr eglwys y Lateran, ac a'i galwodd yn Ioan. Y mae prawf henach i'w gael yn neddfau Siarl Fawr (B. A. 789), y rhai a gynnwysant waharddiad—"ut clocas non baptizent"—na fedyddiont glychau; a dywedir bod rhyw ddefodlyfrau yn ei amser ef, yn gosod allan y dull o fendigo ac eneinio clychau dan y rhuddell—"ad signum ecclesiæ benedicendum." Y mae Le Sœur, hen ysgrifenydd Ffrancaeg, yn dadgan bod y ddefod o fedyddio clychau yn rhagori mewn rhwysg a

Digitized by Google

manylrwydd ar fedydd Cristionogion. "Y mae y gwasanaeth," medd efe, "yn hir, y seremoniau yn lluosog, y mechniafon yn bobl fawr, a'r offeiriad mwyaf cyfrifol yn y lle, neu hyd yn oed esgob neu archesgob, yn gweinyddu." [Dyfynedig o *Gatty.*] Fel y sylwyd, gweinyddodd hyd yn oed y pab ei hun ar un achlysur; ac yn ddiweddar bedyddiodd esgob Chalons gydrif cyfan, gan eu galw "yn deulu dedwydd a sanctaidd;" a thraddododd ar yr achlysur bregeth o barth dyledswyddau a rhinweddau pob cloch!

Y mae mewn amryw leoedd argraffiadau wedi eu gwneuthur ar glychau. Dywed "Tom Fawr," o Gaerlwytcoed (Lincoln), 1610, ei bod yno "i seinio yn beraidd o barth iachawdwriaeth yr Ysbryd Glân, yn deilliaw o'r Tad a'r Mab." Ac ar un o'r clychau yn eglwys gadeiriol Caerliwelydd (Carlisle), 1667, y mae yn gerfiedig, "Yr wyf yn eich rhybuddio pa fodd y mae eich amser yn myned heibio; gwasanaethwch Dduw, gan hyny, tra y pery bywyd, a dywedwch, 'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.'" Yn Cherry Burton, ger llaw Beverley, y mae wedi ei gerfio ar gloch,—"Iesu o Nazareth, Brenin yr Iuddewon, trugarhâ wrthym." Yn Penistone, swydd Gaerefrog, y mae ar y gloch gyntaf, "Ti Dduw a folwn, 1714;" ar yr ail, "Deuwch, canwn i'r Arglwydd;" ar y drydedd, dim; ar y bedwaredd, "O sanctaidd Fair! dduwiol wyryf, amddiffyn y sawl yr wyf yn eu galw yn nghyd;" ar y bummed a'r chweched, "Iesu, dyro i ni rwydd hynt." Ar y gloch gyntaf yn nhŵr eglwys blwyfol Dewsbury, dyddiedig 1828, y mae yn gerfiedig, "Dyrchafaf di, O Arglwydd, canys cynneliaist fi, ac ni adewaist i'm gelynion orfoleddu arnaf;" ar y bedwaredd, dyddiedig 1725, "Parhäed brawdgarwch;" ar y chweched, dyddiedig 1742, "Ymadawed anghydsain o leoedd sanctaidd;" ac ar y seithfed, "Yr wyf gyda 'm sain yn galw cynnulleidfa 'r duwiolion yn nghyd," wedi ei dyddio 1725. Yn nghlochdŷ Aylesbury y mae wyth o glychau, ac ar bob un o honynt, oddi gerth y chweched, y mae darn o farddoniaeth wedi ei argraffu:—

Y gyntaf,—

"Gwrandewch yn dda, cewch wel'd cyn hir
Fod genyf lais tra mwyn a chlir."

Yr ail,—

"Gwybydded pawb, os wyf yn llai
Na 'r lleill, fy mod yn gloch ddifai."

Y drydedd,—

"Mae gan beroriaeth rinwedd gref,
I godi enaid dyn i'r nef."

Y bedwaredd,—

"Mae alaw yn gyffer i'r meddwl."

Y bummed,—

"Canu wnawn, o barch i Dduw
A'r brenin teilwng, gydsain gwiw."

Y seithfed,—

'Os mynwch chwi, gantorion, fod iach a gwyn eich byd,'
Parhewch yn ddoeth a llawen, a sobor ar bob pryd."

Yr wythfed,—

"Os unwch mewn priodas lon
Eich calon gyda 'ch dwylaw,
Gwnawn ninnau seinio heb wahân,
Neithiorol gân o groesaw."

A dadgana pob un o'r clychau hyn y ffaith ganlynol—"Pack a Chapman, o Lundain, a'm gwnaethant, 1773."

O herwydd i hen glychau gael eu hail fwrw, collwyd llawer o'r argraffiadau cyntefig. Beth bynag, y mae rhai o'r cyfryw wedi cael eu hadferu yn annysgwyliadwy, fel y cawn ddangos.

Gŵyr nifer lluosog o'r Cymry, am Elen, ferch Coel Godebog, a mam Cystenyn Fawr, — yr hynod sel a ddangosodd hi o blaid y grefydd Gristionogol, fel ag y mae ei chlod yn yr holl eglwysi. Lle ei genedigaeth ydoedd Caercolun (*Colchester*), a thros amser bu yn trigo yn ninas ymherodrol Caerefrog. Mor ddiweddar a 1844, syrthiodd tafod cloch Llan Elen, Auckland; ac wedi ei lanhau oddi wrth y rhŵd oesol oedd o'i amgylch, cafwyd hyd i'r ysgrif ganlynol arno,—"Elen sanctaidd, gweddïa drosom."

Y mae rhai clychau mawr ryfeddol yn y byd, yn haeddu ein sylw a'n hystyriaeth. Gallwn yn naturiol ddysgwyl cyfarfod â'r rhai mwyaf yn Rwssia. "Y gwrthddrych mwyaf amlwg yn y Kremlin (yn Moscow)," medd Scott, yn 1854, "ydyw tŵr Ivan Valiki, clochdŷ uchel, yn codi ddau cant o droedfeddi oddi wrth y llawr, wedi ei goroni âg aur, ac yn ymddangos fel rhyw gawr cuchiog yn gwylio dros y fan gyssegredig. Fe ystyrid y clychau o'i fewn yn anferthol, pe na chymmylid hwynt yn hollol gan y 'Czar Kolhoi' (=brenin y clychau) sydd yn gorphwys ar ddarn o ithfaen gerllaw." Y mae un o'r clychau yn eglwys St. Ivan yn 40 troedfedd a 9 modfedd o gwmpas, yn 16½ modfedd o dew, ac yn pwyso 127,836 lbs. Un arall, a roddwyd i'r eglwys gadeiriol gan Boris Godunof, a bwysa 288,000 pwys; ac yn olaf daw cloch fawr Moscow, y gloch fwyaf yn y byd, yr hon a bwysa 443,772 pwys, neu fwy o 419,692 pwys na "Phedr Fawr," Caerefrog. [*Illustrated Saturday Magazine*, am Gorphenaf 6, 1833; a *Gatty on Church Bells*, td. 47.]

Y mae Dr. E. D. Clarke, yn ei deithiau, yn rhoi i ni hanes am ei waith yn ymweled â'r gloch anferth hon. Medd efe,—"Y mae cloch fawr Moscow, yr hon, fe ŵyr pawb, yw y fwyaf a gafwyd erioed, mewn pwll dwfn yn nghanol y Kremlin. Chwedl yw hanes ei chwymp; a chan fod haneswyr wedi copïo y naill y llall, y mae yr ystori yn parhau i gael ei lledaenu. Ond y ffaith yw, erys y gloch yn yr un fan ag y bwriwyd hi gyntaf. Torodd tân allan yn y Kremlin, a chan i'r fflamau gael gafael yn yr adeilad oedd uwch ben y pwll lle safai y gloch, daeth yn boeth, taflwyd rhywfaint o ddwfr i ddiffodd y tân, a disgynodd hwnw ar y metel poeth, a pharodd y cree a welir yn ei phen isaf. Y mae y gloch yn fynydd o fetel. Dywedir ei bod yn gynnwysedig o lawer iawn o aur ac arian. Tra yr oedd mewn cyflwr toddedig taflodd y boneddigion a'r bobl i mewn eu llestri a'u harian, fel offrymau adduned. Treiasom, ond yn ofer, brofi ryw ychydig bach; eithr edrychai y brodorion ar y gloch gyda math o fri ofergoelus, ac ni oddefent i ronyn gael ei grafu o honi. Ar yr un pryd gellir sylwi fod ei defnydd yn ymddangos yn lled wyn a dysglaer, annhebyg i fetel cloch yn gyffredin; ac hwyrach i'w hagwedd arianaidd gryfhau, os nad achosi, y dyb yn nghylch natur a gwerth ei helfenau defnyddiol. Ni a aethom, beth bynag, yno yn aml, er mwyn cael allan yn gywir fesuriad y gloch. Ni a roisom linyn cryf ar y metel, cyn agosed ag oedd modd o amgylch y gwaelod, lle y cyffyrdda â'r llawr, gan gymmeryd gofal ar yr un pryd rhag tynhau y llinyn. Yr oedd y cwmpas a gafwyd fel hyn yn saith troedfedd a thrigain a phedair modfedd. Yna mesurasom yr uchder o'r top, a chawsom ef yn un droedfedd ar

Digitized by Google

ugain a phedair modfedd a hanner. Yn y lle tewaf, sef y fan lle y buasai y tafod yn taraw, yr oedd ei ffyrfder yn dair modfedd ar ugain. Pe buasai pob pwys yn werth tri swllt, buasai yr holl fetel anferth hwn yn costio 66,565*p.* 16*s.* 0*c.*; ac er hyny dyma fe yn gorwedd yn segur, ac heb fod o ddim budd i neb."—[*Teithiau Dr. G. D. Clarke;* cyf. i., td. 149, 153.]

Mr. Scott, drachefn, yn ei ddarluniad o ffair Nijnii Novgorod, a sylwa, mai "y rhan hynotaf o honi oedd yn ddios y fan lle y gwerthent fetelau, o herwydd y rhifedi anferth o glychau oedd yno, ond yn fwyaf enwedig y rhai a fwriedid i eglwysydd. Yr oedd clwyd gref wedi ei chodi, ar ba un y crogai nifer o honynt, o un i bum tynell o bwysau." Crogir hwynt, yn enwedig yn Moscow, mewn clochdai ar wahân oddi wrth eglwysi, dan gromanau neu groesau goreurog neu arianaidd; ac ni siglant fel ein clychau ni, ond cyssylltir hwynt yn ddiysgog wrth y trawst, a chenir hwynt â rhaff yn rhwym wrth y tafod, ac yn cael ei thynu gerfydd yr ochr. [*Jones' Art of Ringing.*]

Y mae y Chineaid hefyd yn nodedig am faintioli eu clychau; y mae un yn Pekin yn ddeuddeg troedfedd a hanner o uchder, a dwy droedfedd a deugain o gwmpas, ac yn pwyso 120,000 pwys; yn Nankin pwysa un fwy na 49,000 pwys. Ond o ran tôn, y mae clychau y Chineaid islaw yr eiddom ni, gan eu bod agos cyn lleted yn y top ag yn y gwaelod, ac yn cael eu taraw o'r tu allan â morthwyl pren.

Y mae cloch Amboisaidd Rouen yn pwyso oddeutu 40,000 pwys; un yn Olmutz a bwysa ddwy dynell ar bymtheg a deunaw cant; un yn Vienna, dyddiedig 1711, dwy dynell ar bymtheg a phedwar cant ar ddeg; un yn Paris, dyddiedig 1680, yr hon sydd bum troedfedd ar ugain o gwmpas, a bwysa ddwy dynell ar bymtheg; un yn Ergurt, tair tynell ar ddeg a phymtheg cant. Y mae cloch fawr St. Pedr, Rhufain, yr hon a ail fwriwyd yn 1785, yn pwyso 18,607 pwys; ac un yn nhŵr Palazzo Vecchio, Florence, 17,000 pwys, yr hon sydd wedi ei chodi 275 troedfedd uwch law y llawr.

Ond i ddyfod yn nes at ein hamser ein hun. Ar yr 20fed o Chwefror, 1847, gorphenodd y Meistriaid Mears gloch fawr i eglwys gadeiriol y Pabyddion yn Montreal. Cymmerodd ddeuddeng munud pan yn dawdd i lenwi y fold, a phwysa dair tynell ar ddeg a phymtheg cant. Ar y wyneb allanol y mae llun Ioan y Bedyddiwr, yn cyfeirio at yr Oen cysgodol, ac o'r Forwyn Fair yn dal y baban Iesu yn ei braich ddeheu; a rhwng y ddau y mae croes, ac yn ysgrifenedig oddi tanodd, "Marchnatewch oni ddelwyf; pob perchen anadl molianned yr Arglwydd;" gyda y flwyddyn ac enw y gwneuthurwyr. Ar y tu arall i'r gloch y mae llun llong mewn llawn hwyl ar y môr; ac ar y lan offerynau hwsmonaeth, megys y bladur, y fwyell, y cryman, a'r rhaw. Mesura geneu y gloch ar ei thraws wyth troedfedd a saith modfedd; ei huchder i'r coryn ydyw wyth troedfedd a modfedd; a thewder lle'r swn ydyw wyth modfedd.

Cyn hyn gosodasid Pedr Fawr ar ei sedd yn Mangor Caerefrog. Cymmerodd y gloch yma bedwar diwrnod ar ddeg i oeri. Mesura ar draws ei genau wyth troedfedd a phedair modfedd; ei huchder yw saith troedfedd a deg modfedd; a phwysa ddeg tynell a phymtheg cant. Y tu mewn y mae arfau y ddinas; ac o ddeutu y coryn, dadgenir ei bod wedi ei gosod yn eglwys archesgobawl St. Pedr, Caerefrog, "er anrhydedd y sanctaidd a'r tragwyddol Drindod." Gwnaethpwyd hon hefyd gan y Meistriaid Mears, Llundain. Ni chenir hi ond er dadgan awr canol dydd, yr hyn a wneir efo morthwyl.

Ail fwriwyd cloch fawr St. Paul, Llundain, yr hon a ddygasid yma gan William III. yn 1699, a phwysa yn awr bum tynell, dau cant, un chwarter, a dau bwys ar ugain. Ei thryfesur yw deg troedfedd, a'i thewder yn ddeg modfedd. Pwysa y tafod 189 pwys. Cenir hi ar farwolaeth aelod o'r teulu breninol, archesgob Caergaint, esgob Llundain, deon St. Paul, a'r arglwydd faer.

Bu "Tom Fawr," Rhydychain, ar y cyntaf yn grogedig yn mynachlog Osney, ac anrhegwyd hi gan yr abad, Robert King, i eglwys Crist, yn y flwyddyn 1545; ond ail fwriwyd hi yn 1630, ar gost John Fell, esgob Rhydychain. Ei thryfesur yw saith troedfedd ac un fodfedd; uchder, chwe throedfedd a naw modfedd; ffyrfder y metel 6½ modfedd; a phwysa saith tynell, un cant ar ddeg, tri chwarter, a phedwar pwys. Y mae ganddi ddyledswydd i'w chyflawnu bob hwyr, sef rhoddi cant ac un o dinciadau, er anrhydedd y rhai a sylfaenasant gynnifer o ysgoloriaethau yn y coleg; ac hefyd er rhoddi rhybudd i ysgoleigion y lle i fyned i mewn i'w gwahanol golegau.

Dadganodd "Tom Fawr," Caerlwytcoed, yn 1610, mai ei dyben oedd "swnio yn beraidd er iachawdwriaeth trwy yr Ysbryd Glân, yn deilliaw oddi wrth y Tad a'r Mab." Ail fwriwyd y gloch yma yn 1835, a phwysa yn awr bum tynell ac wyth cant. Ail fwriwyd St. Dunstan, Caergaint, gan y Meistriaid Mears; ac er na phwysa ond tair tynell a deg cant, y mae yn haeddu lle yn mhlith y clychau mawr.

Ond brenin clychau y wlad hon ydyw "Ben Fawr," yr hon a berthyn i gloc y senedd. Pwysa bymtheg tynell, deunaw cant, un chwarter, a dau bwys ar ugain. Pwys y tafod yw 1484½ pwys, a'i hyd yn ddeg troedfedd a saith modfedd a thri chwarter. Gwnaethpwyd y gloch gan Mr. Warren a'i feibion, a chafodd ei henw oddi wrth Syr Benjamin Hall, llywydd Bwrdd y Gwaith, pan y cafodd ei bwrw. Fel hyn, gelwir y gloch fwyaf yn Mhrydain ar enw Cymro o sir Fynwy.

Rhanau cloch ydynt y corff, neu y baril, y tafod, a'r glust—gerfydd pa un y crogir hi wrth drawst mawr o bren. Y mae metel cloch yn gyfansoddedig o gopr ac alcan, a'i gyfartaleddyn dri o gopr yn ngwyneb un o alcan. Tewder ei hymylon yn gyffredin ydyw 1-15fed o'i thryfesur, a'i huchder yn ddeuddeg gwaith mwy na'i thewder. Nid oes sail i'r dyb mai sŵn sylltau a chwe cheiniogau, wedi eu bwrw yn nghyd, ydyw sŵn arianaidd cloch; o blegid yr ydym yn deall mai effaith arian yn nghyfansoddiad cloch eglwys fyddai trymhau y sŵn, fel plwm, ac andwyo y gydgân. Gwneir y tafod yn gyffredin o haiarn, â lwmp mawr ar ei ben, a chrogir ef yn rhydd yn nghanol y gloch. Yn China, arferir morthwyl pren; ac er mwyn chwanegu y sŵn, gadawant dwll o dan y glust—yr hyn a olygai pobl Ewrop fel diffyg.

Haera M. Perrault, am sŵn unrhyw gloch, mai cyfansawdd yw o sŵn ei gwahanol ranau; felly, lle y byddo y rhanau yn gydrywiol, a maintioli y gloch yn unffurf, y mae yno y fath gymmysgedd perffaith o'r holl seiniau hyn fel ag i beri un sŵn unffurf a gwastad: ond lle y byddo pethau yn amgen, bydd y sŵn yn arw. Y mae yn profi

Digitized by Google

hyn drwy fod y clychau yn amrywio mewn tôn yn ol y lle a darawoch; ac er hyny tarawer y fan a fyner, bydd yr holl ranau yn ysgogi. Y mae efe, gan hyny, yn ystyried clychau fel yn gyfansoddedig o nifer anfeidrol o gylchau, y rhai, yn ol eu gwahanol faintioli, sydd ganddynt wahanol dônau, fel ag sydd gan dannau o wahanol hyd. Felly, pan darewir hwynt, y mae cryniad y manau a darewir yn penu y dôn, gan gael eu cynnorthwyo gan nifer digonol o dônau cydseiniol mewn manau ereill. Tybia rhai fod cloch a darewir dan ddwfr yn is ei sŵn o bedair gwaith nag ydyw yn yr awyr; ond haera ereill mai yr un fath y mae yn y ddwy elfen. [*Art of Ringing, gan Jones, Reeves, a Blakemore*].

Gwerth metel cloch, pan y bwrir ef o newydd, ydyw o ddeutu chwe gini y cant; am hen fetel a dderbynir yn gyfnewid, rhoddir oddeutu pedwar gini gan y toddydd, trwy 'r arian.

Sylwn, weithian, ar rai o'r dybenion i ba rai yr arferir clychau yr Eglwys, heb law yr un cyffredin o alw pobl i'r addoliad.

1. *Y gloch sant.* "Gwelsom yn gyffredin yr offeiriad," medd M. Harding, "wedi myned i ddywedyd y gwasanaeth, yn canu y gloch sant, ac yn adrodd y pader, drwy ba arwydd y gorchymynai y bobl i fod yn ddystaw, parchus, a defosiynol." Ereill a ddywedant y cenid hi pryd bynag y deuai yr offeiriad yn y gwasanaeth dwyfol at y "Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw y lluoedd," er mwyn i bawb, tu fewn ac allan i'r eglwys, wrth ei chlywed, syrthio ar eu gliniau, o barch i'r aberth dyrchafedig. Yn Darrington, swydd Gaerefrog, gwelir eto gaban y gloch sant, tu allan i'r adeilad, yr hwn yn ddiau a alluogai y plwyfolion i glywed o bell y gloch yn cyhoeddi y fan arbenig yn y gwasanaeth yr oedd yr offeiriad wedi ei gyrhaedd, pryd, fel y dywed Forbooke, "y plygent eu penau, y lledent neu y dyrchafent eu dwylaw, ac y dywedent, '*Salve, Lux Mundi*,'=' Henffych, Oleuni y byd.' "

2. *Y gloch gnul*, a genid ar y cyntaf er mwyn y dyn claf ar ei wely angeu, fel y gellid gweddïo drosto, ac y gallai yr offeiriad brysuro i weinyddu iddo y sacrament olaf. Yn y 67ain canon, gorchymynir, "Pa bryd bynag y byddo rhywun yn ymadael â'r bywyd hwn, caner cloch, ac yna nac oeded y gweinidog gyflawnu ei ddyledswydd." Hyd amser Siarl II., ie hyd 1714, arferid y gloch gnul yn yr ystyr ac i'r dyben yna, ac nid fel y gwneir yn awr er rhoddi rhybudd o farwolaeth dyn. Drwy ganu y cnul ar ol, yn lle cyn marwolaeth, collir golwg ar un bwriad a berthynai i'r cnul. Ychwanega y canon, "Wedi marw y dyn, os cymmer hyny le, ni chenir ond un cnul byr, ac un arall o flaen y claddedigaeth."

3. *Y gloch wyth* a gafodd ei dechreuad yn Lloegr yn amser Gwilym y Goresgynydd, yr hwn a orchymynodd, lle bynag y byddai eglwys, ar fod i'r holl dân a chanwyllau yn y fan hyny gael eu rhoi allan ar ganiad y *Couvre-feu*. Cenid hi wyth o'r gloch yn yr hwyr; ac mewn rhai manau mae yn arfer i ganu y gloch wyth eto, ond nid gyda'r bwriad cyntefig. Yr oedd y gloch yma yn hysbys mewn gwledydd tramor cyn ei dwyn drosodd i Loegr; a gwasanaethai fel rhybudd i drigolion dinasoedd gorchfygedig, yn amser rhyfel, i fyned i orphwyso yn gynnar, fel y gallent fod yn fwy diogel rhag sarhad y milwyr buddugoliaethus. Yn Marseilles ni oddefid i neb fyned allan o'r drws heb gario goleu yn ei law; a thrwy ddeddf 1291 ni oddefid i neb ollwng defnyn o win wedi canu o'r gloch wyth. Mae haneswyr o'r farn bod *Couvre-feu* Gwilym yn adgas gan y Seison, y rhai a'i golygent fel arwydd neu nôd o gaethwasanaeth; ond er hyny, pan ystyriom fod y tai yn yr amser hwnw wedi eu gwneyd gan mwyaf o goed a defnyddiau ysgeifn, ymddengys y gorchymyn yn un digon call a buddiol. Mae rhyw swyn tra melus a buddiol yn y pennill hwnw o eiddo Gray:—

"Dacw ddolef y ddyhuddgloch,
Yn oer ganu cnul y dydd,
Dacw'r ychain gwâr lluddedig
Yn dod adre' i fyn'd yn rhydd,
A'r llesg arddwr yn ymlusgo
Ar eu hol o glun i glun;
Pawb, gan ado'r byd a'i ffwdan,
A änt i orphwys ond fy hun:"—

yr hwn, wrth ddwyn dan ein hystyriaeth arferiad a defodau yr amser gynt, a'n tuedda i fyfyrio gyda diolchgarwch ar dawelwch siriol aelwyd Gymreig.

4. *Y gloch grempog.* Cenir hon bob amser ar Ddydd Mawrth Ynyd; sef, y diwrnod o flaen Mercher y Lludw. Ar y dechreu, cloch y gyffes ydoedd, gogyfer a thymmor y Garawys. Tybia rhai fod bwyta crempogau ar y diwrnod hwn yn deilliaw oddi wrth arferiad y Pabyddion gynt yn cyfaddasu eu defodau eu hunain at deimladau y tröedigion paganaidd. Byddai y *Fomacalia Rhufeinig*—gŵyl a gedwid er anrhydedd Fomax, yr hwn a arolygai wneuthuriad bara cyn dyfeisio pobtai—yn cael ei chynnal ar y 18fed o Chwefror.

5. *Y gloch dân.* Mewn rhai manau rhôir y gyfres i gyd ar waith, sef i hysbysu bod tân wedi tori allan yn y gymmydogaeth, ac i alw am help. Ar y cyfryw achlysuron cenir hwynt yn y gwrthwyneb, neu mewn unrhyw fodd ond y modd iawn.

6. *Cloch meddiant y person.* Wedi i'r hwn a awdurdodir i roi y person mewn meddiant osod ei law ar agoriad drws yr eglwys, a dadgan y ffurf sydd berthynol i hyny, "efe a egyr y drws ac a rydd y gweinidog newydd mewn meddiant o'r eglwys; a hwnw, wedi canu y gloch, a ddaw yn mlaen, a'r glwysfuddiwr a gefnysgrifa, ac a arwydda dysteb y cyfryw feddianniad ar y bapyrlen a ardystiwyd gan y sawl a welsant yr amgylchiad."—*Cripp's Laws of Church*; td. 499.

7. *Y gloch bangu*, ydoedd gloch llaw, a gedwid yn holl eglwysydd Cymru a'r Iwerddon, yr hon a ganai y clochydd yn barhaus rhwng pob salm a genid gan yr orymdaith angladdol. Y mae amryw o'r clychau hyn ar gael eto. Hyd yn ddiweddar cenid cloch yn heolydd Caerlleon ar Wysg pan fyddai corff ar gael ei gladdu.

8. *Cnul y cythraul*, ydyw y gloch a genir mewn llawer o fanau ar nos Nadolig, fel arwydd o ddattodiad gweithredoedd y diafol, a dymchweliad ei deyrnas, ar enedigaeth Crist.

9. *Y gloch briodas*, a chanu yr hen flwyddyn allan, a'r flwyddyn newydd i mewn, ydynt anghreifftiau pellach o'r dyben arbenig i ba un yr arferir clychau. Cenir hwynt hefyd o ran difyrwch a chywreinrwydd.

Trown ein golwg bellach ar y ddeddf eglwysig o barth cloch y llan. Y mae y wardeiniaid yn rhwym i ddarparu, ar gost y plwyf, gloch a rhaff i wysio y bobl i'r eglwys, ac i ganu ar gynhebrwng; ond nid ymddengys eu bod yn rhwym yn yr un modd i geisio cydgor o glychau. Syr W. Wynne, wrth roddi barn ar fater "wardeiniaid Clapham yn erbyn y periglor," a ddywed, "Nid ellir darparu gogyfer a chydgor o glychau heb gostio arian, megys am raffau, cyweirio, &c.

Digitized by Google

Tybiwn fod y plwyfolion un tro yn barod i gymmeryd y cyfryw gost arnynt eu hunain, a thro arall yn gwrthod, ni fedr yr *ordinari* orfodi y plwyfolion i gadw y clychau mewn trefn am eu bod yn y clochdy. Rhaid fod yno gloch i alw i'r eglwys, ac i ganu ar gynhebrwng: ond dyna y cwbl." [*Prideaux; Cripps.*]

Y mae pwnc arall o bwys yn perthyn i glychau yn cael ei benderfynu yn y gyfraith eglwysig; sef bod yr holl awdurdod ar y clochdy yn nwylaw yr offeiriad. "Er y gall y wardeiniaid gydsynio yn y gwaith o gyfarwyddo canu neu gnulio clychau ar achlysuron cyhoeddus a neillduol, eto y mae gan y periglor gymmaint o awdurdod ar glychau yr eglwys fel y gall rwystro y wardeiniaid rhag eu canu neu eu cnulio ar oriau anmhriodol, ac heb achos cyfiawn. Yn wir, gan fod rhyddfeddiant yr eglwys yn perthyn i'r periglor, diammheu fod ganddo ef hawl i gadw agoriadau yr eglwys, ond iddo adael i'r wardeiniaid fyned i mewn i gyflawnu eu swydd eu hunain. Gellir myned i gyfraith yn y llys eglwysig yn erbyn wardeiniaid a fynent, mewn modd gorthrechol ac anghyfreithlawn, ganu y clychau heb gydsyniad y periglor. Gall y gwys gael ei eirio fel hyn:—'Am dori mewn modd gorthrechol ac ysgeler, i glochdy eglwys plwyf ——, ac heb genad y periglor, ac yn erbyn gwaethaf ei awdurdod, ganu y clychau amryw weithiau yn yr eglwys ddywededig.'" [Argraffiad Dr. Phillemore o *Ecclesiastical Law Burns.*] Y mae hawl neillduol y gweinidog i allwedd yr eglwys wedi cael ei roi i lawr yn eglur gan Syr John Nicholl yn "Lee yn erbyn Matthews."

CLOCH BABAIDD. Arferid clychau o wahanol ddefnyddiau, a gwahanol faintioli, ac i wahanol amcanion, er yn foreu iawn. Y mae yn debyg mai y rhai cyntaf y mae genym hanes am danynt, ydyw y rhai bychain a wnaed o aur, i'w gosod wrth odrau gwisg yr archoffeiriaid Iuddewig, bob yn ail a phomgranad, pan y byddent yn myned i'r cyssegr sanctaidd sanctaiddiolaf i sefyll ger bron yr Arglwydd: *Exod.* xxviii. 33, 34. Amcan y rhai hyn oedd rhoddi hysbysrwydd fod yr archoffeiriad yn fyw, ac heb ei ladd, pan yn sefyll dros genedl wrthryfelgar, ar y pryd yr oedd y bobl oddi allan yn gweddio. Ceir hanes fod rhyw fath o glychau mewn ymarferiad yn y gwledydd paganaidd—yn addoliad eu heilunod, a'u rhyfeloedd—ac yn mhob gwlad wareiddiedig, oddi eithr y Rhufeiniaid, er yn fore iawn. Dywedir fod y Chineaid yn enwog am eu clychau, o wahanol faintioli ac o wahanol ddefnyddiau. Ond pa bryd y dechreuwyd eu dwyn i gyssylltiad âg addoldai, ac â gwasanaeth crefyddol y Cristionogion, sydd anhysbys i raddau. [Gwel CLOCH.] Nid oedd yr arferiad o honynt yn gymmeradwy yn y dwyrain, yn enwedig yn mhlith yr Arabiaid; eithr llwyddodd yr arferiad yn gyflym iawn yn mhlith eglwys y Groegiaid, yn y gorllewin. Yn nechreu y nawfed canrif, y crogwyd un lled fawr yn St. Sophia, yn Caer Cystenyn. Yn amser yr ymherawdwr Charles, a elwir y Mawr, dechreuwyd adeiladu clochdai mawrion ac uchel, yn mhlrai y crogid amryw glychau mewn llawer o fanau ar gyfandir Ewrop, yn nechreu y nawfed canrif. Nid yw yn amlwg pa bryd y dechreuwyd yr arferiad llygredig ac ynfyd o fedyddio neu gyssegru clychau, mewn rhith grefyddol. Y pab Ioan XIII. oedd y cyntaf y mae genym hanes am dano, yn cyflawnu y ddefod gyda rhwysgfawredd, yn y flwyddyn 968 B. A., yn Rhufain, ac a'i galwodd hi John. Os nad oedd hyny cyn hyn yn bod, daeth wedi hyny yn arferiad cyffredin trwy yr holl wledydd Pabaidd. Cyflawnir y ddefod trwy fod yr esgobion yn darllen lluaws o weddïau dros y gloch a fyddo yn cael ei chyssegru, ar ei bod yn alluog i wneuthur llawer o bethau: taenellir arni ddwfr sanctaidd, croesir hi â chroesau, ac enneinir hi âg olew. Gwel yn y *Roman Pontificate* ar hyn. Y mae yn lled debyg fod yr arferiad cyntaf o glychau yn lled syml a dirodres, o ran eu hamcan—dim mwy nag i alw y bobl yn nghyd i'w gwasanaeth crefyddol. Ond yn fuan, o dan lywodraeth ysbryd y byd a choelgrefydd, daethant i wasanaethu pob gloddest, pob difyrwch cnawdol ac anianol, a dychymmygion coelgrefyddol. Arferir, yn y gwledydd Pabyddol, eu canu i ymlid ymaith ysbryd drwg pan y byddo tymmestloedd yn codi, gan feddwl mai hwy fyddai yr achos o hyny. Cenir hwy pan y bydd rhywun yn glaf iawn, er ymlid yr ysbrydion drwg rhag iddynt ruthro ar feddwl y claf. Defnyddid hwy gynt, pan y byddai un yn ymyl marw, er galw y bobl o fewn cylch swn y gloch i weddio, gyda pherthynasau yr hwn cedd ar fyned o'r byd yma i'r byd arall, ar iddo gael derbyniad dedwydd i'r byd hwnw. Oddi wrth yr arferiad hwn, daeth y cnul a genir yn bresennol ar farwolaeth un i gael ei alw yn *passing bell*—fel y mae yn arferiad mewn llawer rhan o'r wlad, i ddyweyd am un yn marw, ei fod ar *bassio.* Eithr yn bresennol cenir y cnul pan y bydd dyn wedi marw, i alw y bobl, yn y gwledydd Pabaidd, i weddio am i enaid y marw gael ei waredu o'r purdan.

CLOE, [Χλόη]: gwraig Gristionogol, aelod o'r eglwys yn Corinth. Y mae yn ymddangos mai rhai o aelodau ei theulu hi a roddasant hysbysrwydd i'r apostol am y cynhenau oeddynt yn ffynu yn yr eglwys yn Corinth; tra yr oedd efe, efallai, yn aros yn Ephesus: 1 *Cor.* i. 11. Pwy oedd y rhai hyn, nis gwyddys. Tybia Grotius, mai Stephanas, Ffortunatus, ac Achaicus oeddynt, y rhai y crybwyllir am danynt yn 1 *Cor.* xvi. 17.

CLUDER, CLUDEIRIAU. "A ni a gymynwn goed o Libanus, yn ol dy holl raid; ac a'u dygwn hwynt i ti yn *gludeiriau* ar hyd y môr i Ioppa: dwg dithau hwynt i fyny i Ierusalem;" 2 *Cron.* ii. 16. Gwel hefyd i *Bren.* v. 9. Wrth *gludeiriau*, yr ydym i ddeall, darnau o goed wedi eu rhwymo yn nghyd yn drefnus, fel y gellid eu nofio gyda'r llif o'r naill fan i'r llall; neu a lusgid gyda'r glenydd. Y mae gwlad yr Aipht yn dra digoed; ac am hyny ceidw y llywodraeth gannoedd o ddynion ar waith yn barhaus, i gymynu coed yn mynyddoedd Syria, a'u llusgo i lawr i gulfoi Scanderoon, lle eu llwythir mewn llongau yn yr oes yma, i'w dwyn i waered i'r Aipht. Gan fod y coed yn bresennol yn cael eu cymynu gan mwyaf yn y mynyddoedd sydd ar y tu gogleddol i Libanus, a bod y rhan fwyaf o honynt yn cael eu hanfon yn mhell i'r deheu i Ioppa, sef i Alexandria yn yr Aipht, parai pellder y ffordd, cystal a'r manteision rhagorach i gludo coed mewn llongau hwylio, i'r hen arfer o'u dwyn yn gludeiriau gael ei roddi i fyny yn y parth crybwylledig; ond y mae yr arfer hon, cyn gystal ag amryw ddefodau Beiblaidd ereill, i'w canfod hyd heddyw tua glanau Môr yr India. Torir y coed

Digitized by Google

i lawr cyn y tymmor gwlawog, cymynir yr holl gangenau oddi arnynt, ac ysgwarir y cyffion; yna fe'u rhwymir yn nghyd â gwdenau îr, wedi eu casglu yn y wigfa. Ond, oni bydd i'r dyfroedd yn y tymmor gwlawog gyrhaedd y llanerch lle eu cymynir, fe'u llusgir bob yn un i le lle y gwyddir eu nofir yn y tymmor gwlyb. Fel hyn y mae y teithydd anmhrofiadol—pan yn croesi gwigfeydd anghysbell ar y tymmor sych, wrth weled niferi mawr o goed wedi eu cymynu yn mhob cyfeiriad, ac mewn manau ereill luaws o honynt wedi eu rhwymo yn nghyd megys cluder, y rhai hefyd a rwymer wrth goed a fyddont eto yn sefyll, fel na choller hwy gyda'r llifogydd dyfodol—yn methu deall pa fodd eu dygir i'r afon neu y môr: gan nas gwel unrhyw lwybr yn arwain i'r llanerch, ond a wneir gan fwystfilod gwylltion, gŵyr nas gall un cerbyd ddyfod i'r lle; ac y mae yn argyhoeddedig nas gall dynion eu cludo. Ond, aed yno pan fyddo y gwlawogydd wedi disgyn, ac efe a wel ddynion mewn cwch bychan yn gweithio eu ffordd drwy y goedwig; ac mewn cyfeiriad arall, gluder, ac amryw ddynion arni, yn ymsymmud yn arafaidd; ac ar yr afon, efe a wel gludeiriau mawrion, yn cyflymu gyda'r llif, dan gyfeiriad llywyddion celfydd, y rhai a'u dygant i ryw dref gymmydogol, neu yn mhellach, i'r cefnfor; ac yna gellir gweled ystorfeydd anferth o'r coed tecaf yn y porthladdoedd, y rhai a ddygwyd yno yn gludeiriau felly ar hyd y môr.

CLUDYDD ARFAU: yswain; ceidwad; a dygiedydd arfau rhyfel: 1 *Sam.* xiv. 17; a xvi. 21. Byddai gan freninoedd a maeslywyddion yn y gwledydd dwyreiniol swyddogion o'r fath yn eu dilyn, y rhai a ddetholid yn gyffredin o fysg y milwyr glewaf. Barna yr Iuddewon mai Doeg yr Edomiad oedd cludydd arfau Saul; ac iddo gael ei benodi i'r swydd hono, yr hon a lanwasid unwaith gan Dafydd, ar gyfrif y parodrwydd a amlygasai efe i ufuddhau i orchymyn y brenin, trwy ladd offeiriaid Nob.

CLUN—IAU. Y rhan hono o'r corff ar yr hon y croga cleddyf y rhyfelwr. Yn *Ezec.* ix. 2, sonir am wr "â chorn du ysgrifenydd wrth ei glun." Y mae y ddefod o ddwyn y corn du ysgrifenydd yn y gwregys yn parhau mewn arferiad yn y dwyrain eto. Fe'u dygir yn eu gwregysau gan ysgrifenyddion yn wastad; ac y mae gweinidogion y llywodraeth yn eu gwisgo yr un ffunud, fel un o arwyddion eu swydd. Gwregysu y cleddyf ar y glun, oedd arwydd o ymbarotoad i ryfel: *Exod.* xxxii. 27; 1 *Sam.* xxv. 13; *Can.* iii. 8. Gwel FFOLENAU; MORDDWYD, &c.

CLUST: peiriant y clyw, yr hwn sydd yn gynnwysedig o dair rhan gwahanol, neu dair set o offerynau gwahanol—y cwbl yn cydweithredu i'r un amcan. Mae y glust *oddi allan* yn casglu ac yn crynoi y swn; a'r rhan *ganol* yn ei dderbyn ac yn ei drosglwyddo i'r glust *fewnol* sydd yn ddwfn yn y pen, lle yr effeithia ar giau y clywed.

Cyfansoddir y *glust allanol*, yr hon a elwir *concha*, oddi wrth ei thebygolrwydd i gragen, o fadruddyn (*cartilage*) bron yn hollol, wedi ei orchuddio â'r croen teneu cyffredin. Mae y codiad a'r darostyngiad sydd ynddi wedi ei chyfaddasu, trwy eu plygiadau, i dderbyn y tonau o swn a drosglwyddir yn yr awyr, ac i'w cyfeirio at geg y bibell sydd yn arwain i mewn i'r pen. Ni pherthyn y tipyn isaf o'r glust, yr hwn sydd yn crogi, ond i ddyn yn unig. Nid yw y gallu a feddianna dyn ar ysgogiadau y glust ond bach iawn, os dim; ond y mae eithriad i'w gael weithiau, pryd y dichon i un godi ei glust hanner neu dri chwarter modfedd o'i gorweddfa naturiol. Dywedir fod llwyth o Indiaid yn gallu taflu eu clustiau yn mlaen pan yn gwrandaw yn astud: ac i lawer o anifeiliaid, fel i'r ysgyfarnog, er anghraifft, y mae y gallu hwn yn dra gwasanaethgar.

Y mae y bibell sydd yn arwain i mewn, ac a elwir yn iaith celfyddyd, y *meatus auditorius*, yn wneuthuredig, mewn rhan, o asgwrn, ac mewn rhan o fadruddyn. Y mae o ddeutu modfedd o hyd; wedi ei lleinio drwyddi â chroen mor bell a *thabwrdd* neu *dympanum* y glust—ac o hwn y mae yn ffurfio yr arwyneb allanol. Trwy ei hir fwydo â dwfr, gellir rhyddhau y croen a'i dynu allan fel bys maneg. Yn union o dan y croen y mae lluaws o fân chwarenau (*glands*) yn tywallt allan hylif tew sur, yr hwn sydd yn cadw mân bryfed allan. I'r un dyben, tybygir, y mae y mân flew sydd yn wasgaredig o gwmpas genau y bibell. Ond y mae y fynedfa i'r rhanau mewnol yn cael ei hattal gan bilionen, a elwir pilionen y tabwrdd (*membrane of the tympanum*); yr hon sydd yn ymestyn ar draws y bibell, ac yn ei chau i fyny, fel y gwna y memrwn ben y tabwrdd cyffredin. Cyfansoddir y bilionen hon o dair haen: yr un allanol a enwyd o'r blaen, yr hwn a ffurfir o'r croen sydd yn gwisgo pibell y glust; cyfansoddir yr un canol o fân edafedd cyhyrol, yn rhedeg allan oddi wrth ganolbwynt yn mhob cyfeiriad; parhad ydyw yr un tufewnol o'r bilionen sydd yn lleinio yr ystafell a elwir y *tympanum* neu *dabwrdd.*

Dar. 182.

Rhydd y darlun hwn ryw ddychymyg am ran allanol y glust, yn nghyd â'i rhanau tufewnol, yn eu perthynas â'u gilydd: —*m, meatus auditorius: e, Eustachian tube: f, membrana tympani: g, y vestibule*, heb ei hagor.

O'r braidd y mae yr ystafell hon, y *glust ganol*, yn hanner modfedd mewn lled: y mae hi a'r glust fewnol wedi eu gweithio allan o'r rhan galeta. o'r asgwrn. Y mae y rhan hon o'r asgwrn dan sylw (*temporal bone*) yn fwy caled a soniarus nag un asgwrn arall trwy yr holl gorff, ac wedi ei gyfaddasu yn eglur at wasanaeth y peiriant sydd o'i fewn. I'r *tympanum*, yr hwn sydd o ffurf afreolaidd, ac yn wastad yn llawn o awyr, yr egyr—yn laf, bibell o lun tebyg i udgorn, yn dechreu mewn agoriad teneu, ond yn cynnyddu mewn maintioli wrth ymestyn i lawr, hyd oni chyrhaedda y tu cefn i'r ffroenau a'r llwnc, lle y terfyna mewn agoriad eang. Yr enw celfyddydol ar y bibell hon yw, yr *Eustachian tube.* Yn 2il, agoriad at nifer o gelloedd i gynnwys awyr, sydd

Digitized by Google

wedi eu tyllu mewn asgwrn a elwir *mastoid*, yr hwn a ellir ei deimlo yn hawdd â bys, y tu ol i dipyn (*lobe*) y glust. Yn 3ydd, Ar ochr y *tympanum* sydd ar gyfer y bilionen, yn union oddi ar wrym esgyrnog, y mae agoriad bychan a elwir *fenestra ovalis* (ffenestr hirgron), yr hwn a gauir yn ofalus â llen. Yn 4ydd, Islaw y gwrym y mae agoriad bychan arall, ar draws yr hwn yr ymestyn plyg o bilionen, ac felly cauir yntau i fyny.

Yn ystafell y tympanau neu y tabwrdd, ac yn cyrhaedd ar ei thraws, oddi wrth bilionen y tabwrdd hyd at y *fenestra ovalis*, y mae pedwar o esgyrn bychain wedi eu cymhwyso i'w gilydd. Rhoddir yr enwau canlynol arnynt yn ol eu llun:—y *malleus*, neu forthwyl; yr *incus*, neu einion; yr asgwrn crwn (*orbicular*); a'r *stapes*, neu y gwrthafl. Er fod yr esgyrn hyn mor fân, eto y maent wedi eu cymmalu yn berffaith, fel ag i weithio y naill yn y llall, a phob un o honynt yn cael ei ysgogi gan gyhyrau priodol. Y mae coes hir y morthwyl wedi ei gydio wrth bilionen y tympanum; y mae pen y morthwyl ar yr einion; wrth gorn hir yr einion y mae yr asgwrn crwn wedi ei gymhwyso; a chydir hwn drachefn wrth y gwrthafl; troed yr hwn sydd yn gwthio i, ac yn gwasgu ar, ffenestr hirgron (*oval*) y glust fewnol.



Dar. 183.

Yn y darlun hwn, gwelir yr esgyrn hyn wedi eu mwyhau:—M, *malleus*; I, *incus*; s, *stapes*; o, llun y *fenestra ovalis*; *a*, agoriad neu geudeb yn yr *incus* i dderbyn y *malleus*; *d*, coes hwyaf yr incus wedi ei gydio wrth yr *os orbiculare* yn *b*; *c*, y goes feraf; *e*, pen y *malleus*.



Dar. 184.

Yr un esgyrn o'u maintioli cyffredin.



Dar. 185.

Dengys hwn y modd y cydir y cyhyrau wrth yr esgyrn er mwyn eu gweithio ol a blaen:—*a*, *tensor tympani*; *b*, *laxator major*; *c*, *laxator minor*; *d*, *stapideus*.

Gelwir y glust fewnol (*inner ear*) gan ddifynwyr yn *labyrinth*=dyryslwyn, oddi wrth y mynedfeydd troellog a dyryslyd sydd ynddi. Y mae y rhai hyn i gyd yn geuol, a dosberthir hwynt er mwyn eu gwahaniaethu a'u dysgriflo, i'r *vestibule*, y *cochlea*, a'r pibellau hanner crwn (*semicircular canals*). Gwisg dufewnol y mynedfeydd hyn ydyw croen neu bilionen deneu, a elwir y *membranous labyrinth*; a llenwir hwynt â hylif tryloew gludiog, adnabyddus wrth yr enw *perilymph*. Ar bilionen y dyryslwyn (*membranous labyrinth*) y mae mân edafedd giau y clyw yn terfynu, a thrwyddynt hwy y mae sŵn yn cael ei drosglwyddo i'r meddwl.

Dar. 186.

Rhydd y darlun hwn olwg ar bibellau troellog y *labyrinth* a'r *vestibule*, yn nghyd â'r esgyrn blaenorol yn eu lle priodol:—*h*, *fenestra ovalis*, yn orchuddiedig gan y *stapes*; *k*, *fenestra rotunda*; *l*, *malleus*; *m*, *incus*; *n*, *vestibule*.

Er fod y peiriant yn ei holl ranau yn wybyddus, yn nghyd â'u perthynas a'u cyssylltiadau â'u gilydd; eto cydnabyddir ei bod yn anhawdd manylu ar wasanaethgarwch pob rhan i'r dyben cyffredin, a pha fodd y cyflawnir y gorchwyl a berthyn i bob rhan. Ond dan arweiniad gwybodaeth am gyfansoddiad y glust, a pherthynas y gwahanol ranau â'u gilydd, ac yn unol â deddfau adnabyddus sŵn, a natur y sylweddau sydd yn ei drosglwyddo, cymmerir yn ganiataol fod y cynhyrfiadau yn yr awyr, a elwir sŵn, sydd yn cyrhaedd y glust allanol, yn cael eu trosglwyddo trwy bibell y clyw; ac yna, wrth daro yn erbyn y bilionen sydd yn cau hon i fyny yn ei phen draw, cynnyrchant yr un cynhyrfiadau yn y bilionen hon. Y mae yr awyr sydd yn y tympanum yn trosglwyddo y cynhyrfiadau yn mlaen at y bilionen sydd yn cau ar y ffenestr gron (*fenestra rotunda*); tra y mae y ffenestr hirgron yn eu derbyn oddi wrth droed y gwrthafl—un o'r dolenau o'r mân esgyrn sydd yn gwthio iddo. Fel hyn y mae yr hylif sydd yn y dyryslwyn yn cael ei roddi mewn cynhyrfiad tonog trwy gyfrwng yr awyr, ac hefyd trwy gyfrwng cadwen o esgyrn. Y mae y tonau hyn, drachefn, mewn cyffyrddiad â blaen yr edafedd giawl sydd yn daenedig dros bilionen y dyryslwyn, a dilynir y cynhyrfiadau hyn wedi iddynt ddyfod i gyffyrddiad â'r edafedd giawl, *â'r teimlad o sŵn*.

Gwasanaetha y synwyr hwn i eangu yn fawr gylch ein gwybodaeth o wrthddrychau allanol. Nid yw trawsfesur y cylch hwn, o'i derfynau eithaf, yn nemawr llai na phedwar cant o filltiroedd. Clywyd sŵn cyflegrau y Seison a'r Dutch, pan yn ymladd â'u gilydd yn 1672, yn yr Amwythig, ac yn Nghymru hefyd, o leiaf 200 o filltiroedd. Clywyd magnelau o Carlscrona, ar draws terfyn deheuol Sweden i Denmark, 120 o filltiroedd. Dywed y Dr. Young, fod llais dyn wedi cael ei glywed lawn deng milltir, yn Gibraltar. Ymddyddanai Lieut. Foster—yr hwn oedd gyda Cadben Parry, yn ei drydedd hynt gogleddol—â dyn ar draws harbwr Port Town, milltir a hanner o'r man y safai. Dywed y Dr. Hutton, iddo glywed dyn yn darllen yn eglur dros ddwfr 140 o droedfeddi, pan nad allai ei glywed ond dros 76 o droedfeddi ar dir.

Digitized by Google

CLUSTDLWS, [*clust—tlws*]: addurn y glust. Y clustdlysau, a modrwyau y trwyn, oeddynt brif addurniadau y menywod dwyreiniol. Y mae dau air yn yr Ysgrythyrau am y clustdlysau;—עגיל=*agil*, a נזם=*nesem*. Barna Harmer, yr arferir hwy yn benodol i ddynodi clustdlysau; ond gellid meddwl fod yr ysgrifenwyr sanctaidd yn eu defnyddio am y clustdlws ac addurn y trwyn fel eu gilydd. Ceir yr enw *agil* yn *Num.* xxxi. 50; *Ezec.* xvi. 12; a dynoda *grynder*=rhywbeth crwn; ac y mae yn ffaith, fod bron yr holl glustdlysau a arddangosir yn nghrefluniau yr Aipht a Persepolis o'r ffurf yma. Tybir fod y *nesem*, o ran ei ffurf, yn fwy tebyg i addurn y trwyn. Yn *Gen.* xxxv. 4, dynoda y clustdlws; ond yn *Gen.* xxiv. 47, a *Diar.* xi. 22, ac *Esa.* iii. 21, dynoda addurn y trwyn: ac y mae yn ammheus pa un o'r ddau a feddylir yn *Barn.* viii. 24, 25; *Iob* xlii. 11. Nis gellir ffurfio barn am ffurf clustdlysau yr Hebreaid, ond oddi wrth ystyr y geiriau a arferir am danynt ac oddi wrth addurniadau cyffelyb a arddangosir mewn hen gerfiadaeth. Yr oedd y rhai a wisgai y pendefigesau Aiphtaidd yn lled fawrion—o ddeutu dwy fodfedd, ac weithiau yn fwy, eu tryfesur; ac weithiau byddai ganddynt glustdlysau yn cynnwys



Dar. 187.

chwech o fodrwyau wedi eu sodro yn nghyd; ac efallai mai tebyg i'r rhai hyn oedd *agil* crwn yr Hebreaid. Yn gyffredin yr oedd y clustdlysau o aur. Rhydd Chardin y dysgrifiad canlynol o honynt:—"Y mae rhai o'r clustdlysau dwyreiniol yn fychain, ac yn dynion am y glust; ereill mor fawrion, fel y gellid rhoddi bys rhyngddynt a'r glust, ac yn addurnedig â pherlau, y rhai a gydir â'r fodrwy. Yr oedd ffugrau yn argraffedig ar rai o honynt, a darluniau hynod, y rhai ydynt swynion, yn ol rhai; neu yn enwau eu duwiau, yn ol barn ereill. Dichon mai rhai fel hyn oedd clustdlysau Iacob, y rhai a gladdodd gyda'r eilunod yn Bethel: *Gen.* xxxv. 4. Gellid meddwl oddi wrth *Esa.* xxxii. 2, fod gwrywaid, yn gystal a benywod, yn gwisgo yr addurniadau hyn yn y gwledydd dwyreiniol; a dywed Pliny, *In orrente guiden et viris aurum es loci*="Yn y dwyrain, cyfrifir yn addurn ar ddynion wisgo aur yn y lle hwnw,"—gan gyfeirio at eu clustiau. Dywed Kitto, fodd bynag—nis gwyddom ar ba seiliau—y cyfyngid yr arferiad o honynt i ferched yn unig yn mysg yr Hebreaid. Barna oddi wrth y ffaith fod clustdlysau aur yn cael son am danynt (*Barn.* viii. 24) fel yn perthyn i'r Ismaeliaid—"Canys clustdlysau aur oedd ganddynt, o herwydd mai Ismaeliaid oeddynt"—nad oeddynt yn cael eu gwisgo gan wrywaid Hebreaidd. Ond oddi wrth *Exod.* xxxii. 2, y mae yn amlwg fod y meibion, neu o leiaf y bechgyn, yn yr anialwch, yn eu gwisgo; o blegid gorchymynodd Moses am i'r Israeliaid dynu y clustdlysau oddi wrth glustiau eu gwragedd, eu meibion, a'u merched. Gall eu bod yn cael eu gwisgo fel addurniadau gan wrywaid pan yn blant, ac yn cael eu rhoddi heibio ar ol cyrhaedd rhyw oedran penodol. Y mae hefyd yn ansicr pa un ai y clustdlws ynte addurn y trwyn a feddylir yn *Barn.* viii. 24.

CLUSTOG—AU, [*clust*]: gobenydd; lle i ogwyddo y glust neu y pen i orphwys a chysgu. "A chlustog o flew geifr a osododd hi yn obenydd iddi;" 1 *Sam.* xix. 13. Math o rwyd o flew geifr wedi ei gosod o flaen y teraphim a feddylir yma. Y cyfryw rwyd, medd Dr. Shaw, sydd len o lian main, a arferir yn ngwledydd y dwyrain gan bobl o sefyllfa uchel i gadw ymaith y gwybed. Bod ganddynt gynt y cyfryw rwydau, nis gellir ammheu. Fel prawf o hyn, pan dorodd Iudith ben Holofernes yn ei wely, "hi a dynodd ymaith y canopi [=Seis., *mosquito net*] oddi ar y colofnau;" *Iudith* xiii. 9, 15. "Gwae y gwniadyddesau clustogau dan holl benelinoedd fy mhobl;" *Ezec.* xiii. 18. Y mae dysgrifiad yr Arglwyddes M. W. Montague o ystafell boneddiges Dyrcaidd yn rhoddi cryn oleuni ar yr ymadrodd hwn:—"Y mae yr holl ystafelloedd wedi eu gorchuddio â charpedau Persiaidd, ac wedi eu codi yn un pen yn nghylch dwy droedfedd. Dyma yr esmwythfa, yr hon a orchuddir â charped mwy drudfawr; ac o'i chwmpas y mae math o lwth, o ddeutu chwe modfedd o uchder, wedi ei orchuddio â sidan gwerthfawr, yn ol sefyllfa uchel y meddiannydd. O amgylch hwn, y mae dwy res o glustogau wedi eu gosod yn erbyn y pared; y rhai cyntaf yn fawrion, a'r lleill yn fychain. Mae yr eisteddfäau hyn mor hwylus ac esmwyth, fel nas gwn pa fodd i ddyoddef eistedd mewn cadeiriau eto."

CLWYF Y MARCHOGION: lledwigwst:=Seis., *emerods*: 1 *Sam.* v. 6, 12. Nid yw esbonwyr yn gallu cytuno am ystyr y gair Hebraeg, nac am natur y clefyd. Ystyr priodol y gair gwreiddiol *ophelim*, ydyw, yr hyn sydd aneglur a chuddiedig—a thybia y nifer mwyaf o'r esbonwyr mai y chwyddiadau poenus yn y cyfeistedd, sydd weithiau yn tori yn grawnllyd, a feddylir (*Salm* lxxviii. 66). Mae y Deg a Thrigain a'r Vulgate wedi chwanegu at *adn.* 9, fod y Philistiaid wedi gwneyd eisteddfäau o grwyn, fel y gallasent gael mwy o esmwythyd wrth orphwys. Ymddengys fod gan Herodotus ryw wybodaeth am y dygwyddiad hwn, ond y mae yn ei briodoli i achos arall. Dywed fod y Scythiaid wedi dinystrio teml Ascalon, un o ddinasoedd y Philistiaid, a bod y dduwies a addolid ynddi wedi eu taro â chlefyd dyeithrol. Mae yn debygol mai y Philistiaid eu hunain a adroddasant yr hanes yn y modd yma. Y mae cynnifer o wahanol farnau am natur y clwyf hwn, fel y mae pob dychymyg am dano yn gwbl ansicr.

CLYD—WR, [*clyd*]: cynhes, cysurus; noddfa, amddiffynfa.

Mai oer a wna ysgubor glyd.—*Diar. Cym.*
Ifor—Hardd enaid beirdd a'u clydwr.—*D. ab Gwilym.*
Colles ei glydwr a gyrchodd ty iangwr.—*Diar. Cym.*

"Ymwisgasoch, ac nid hyd glydwr i neb;" *Hag.* i. 6.

Digitized by Google

CLYNIN, CELYNIN, ab Helig, ab Glanog, o Dyno Helig, ydoedd un o Saint Ynys Prydain yn y seithfed canrif. Dywed y Parch. D. Peter, fod "Aelgyfarch, Boda, Brothen, Celynin, Peris, a Rhychwyn, meibion Helig ab Glanog, yn weinidogion defnyddiol tua diwedd y cànrif hwn." Yr oedd Celynin yn aelod o gôr Bangor ac Enlli, yn Arfon. Efe a sylfaenodd Llangelynin ger Aberconwy, yn agos i Draeth Lavan: lle y cynnelir ei gofwyl Tachwedd 22. Ar ei enw ef hefyd y gelwir Llangelynin yn Meirion: a chynnelir ei gofwyl yn y lle hwn, medd Willis, Tachwedd 2. —(*Iolo MSS. Hanes Cref. D. Peter; Biog. Dict.*)

CNAIF—IO—WYR, [*cna* neu *cnu*]: cneiflad; gwelleiflad; tori neu docio gwlân neu wallt. Yr oedd yn ddefod i Israel, dan gyfraith Moses, roddi "blaenffrwyth cnaif eu defaid" i'r offeiriaid. Ni ddywedir pa faint o hono; ac nid yw y dysgawdwyr Iuddewig eu hunain o'r un farn am y swm; efallai fod hyny wedi ei adael at ewyllys da a gwirfoddoldeb y bobl: *Deut.* xviii. 3, 4. Wrth yr un gyfraith, nid oeddynt i "gneiflo cyntafanedigion eu defaid;" a thybir nad oedd eu gwlad mewn un modd i'w ddefnyddio mewn achosion cyffredin. Yr oedd y gwrywaid o honynt i'w cyssegru i'r Arglwydd, ac i fod yn eiddo yr offeiriaid; a'r benywod, dybygid, i'w haberthu i'r Arglwydd, ac i'w bwyta ger bron yr Arglwydd yn Ierusalem, gan eu perchenogion, yn flyneddol, efallai, ar un o'r gwyliau arbenig. Cymharer *Deut.* xv. 19, 20; a xii. 5—7. Yn *Can.* iv. 2, cyffelybir dannedd y ddyweddi i "ddëadell o ddefaid gwastad-gnaif," wedi eu dwyn trwy yr olchfa, a'u cneiflo yn deg; felly ymddangosai ei dannedd hithau yn lân, yn wynion, a phrydferth: wrth yr hyn y meddylir gweinidogion y gair, y rhai y perthyna iddynt barotoi a thrin ymborth yr eglwys, y rhai y dylai eu hymarweddiad fod yn sanctaidd a diargyhoedd, er anrhydedd yr efengyl, ac fel y byddont yn esamplau i'r praidd. Yr oedd adeg neu ddiwrnod cneiflo yn amser pwysig yn mysg perchenogion dëadellau gynt yn y dwyrain; a chynnelid gwledd arno, pryd y gwahoddent eu ceraint a'u cyfeillion i gyfranogi o'r croesaw a'r llawenydd; megys y gwelir yn hanes Laban, Iudah, Nabal, ac Absalom: *Gen.* xxxi. 19; xxxviii. 13; 1 *Sam.* xxv. 2, 36; 2 *Sam.* xiii. 23. "Fel y tau dafad o flaen y rhai a'i cneiflai," &c.; *Esa.* liii. 7; *Act.* viii. 32. Y *cneifwyr* oeddynt erlidwyr a chyhuddwyr haerllug, barnwyr anghyflawn, a dienyddwyr gwaedlyd ein Iachawdwr bendigedig; ac yntau fel oen addfwyn yn dyoddef y cwbl yn amyneddgar a thawel, heb ddifenwi na bygwth, ond rhoddi ar yr Hwn sydd yn barnu yn gyflawn, a gweddïo dros ei ddienyddwyr.

Cneifio y pen neu y gwallt. Unwaith yn y flwyddyn y torai Absalom ei wallt; a thebyg ei fod yn ymfalchïo yn y cnwd mawr oedd ganddo: ond yn y diwedd gwnaeth hwnw raff i'w grogi yn nhewfrig y dderwen: 2 *Sam.* xiv. 26. Yr oedd cneifio y gwallt neu eillio y pen yn arwydd o alar yn mysg y dwyreinwyr (*Ier.* vii. 29; *Iob* i. 20); ond yn waharddedig i'r Israeliaid dros y marw (*Deut.* xiv. 1); ac i rai o dan adduned (*Num.* vi. 5; *Barn.* xiii. 5; 1 *Sam.* i. 11; *Act.* xviii. 18; xxi. 24)—pan gyflawnent eu hamser, torent eu gwallt.

CNAP—IAU, [*cna*; "Heb. בנמ, *canaph=gibbus, tuber, umbo;*" Dr. Davies]: boglwm, boglyn; clopa; cwgn; oddfyn. Yr oedd cnapiau yn rhan o addurnwaith y canwyllbren aur yn y babell a'r môr tawdd yn y deml (*Exod.* xxv. 31—36; xxxvii. 17—22; 1 *Bren.* vii. 23, 24); ac o'r cerfiadau ar barwydydd y deml: 1 *Bren.* vi. 18. Yr oedd cnapiau [Seis. *chapiters*] wedi eu rhoddi ar benau y ddwy golofn bres a gyfododd Solomon yn mhorth y deml. Yr oedd y pen-golofnau hyn yn fawrion i gyfateb i faint y colofnau, i'r rhai yr oeddynt yn addurn; ac yr oeddynt o wneuthuriad cywrain, o rwydwaith, a phlethiadau o gadwynwaith, pomgranadau, a gwaith lili: 1 *Bren.* vii. 16—22.

CNAU, [*cna*], un. *cneuen.* "Pob aeron caledflisg;" Dr. Davies. Y mae amryw fath o gnau; megys, cnau ffreinig, cnau barfog, &c. Yr oedd cnau yn mysg y ffrwythydd, o gynnyrch Gwlad Canaan, a ddanfonodd Iacob gyda'i feibion yn anrheg i Ioseph yn yr Aipht, lle yr oedd y cyfryw



Dar. 188.

ffrwythau yn brinion, ac o herwydd hyny yn dra derbyniol: *Gen.* xliii. 11. "Gardd gnau" (*Can.* vi. 11): lle y meithrinid coed ffrwythau, yn dwyn cnau, ac amrywiol fathau o aeron peraidd. Y mae cnau yn cynnwys dogn helaeth o olew; a diau eu bod yn faethlawn os dygnöir hwynt yn dda; ond y maent yn fynych yn dra niweidiol, drwy fwyta llawer o honynt.

CNAWD—OL—RWYDD, [*nawd*]: Heb. בשר; Gr. *sarcs.* Mae i'r gair amrywiol ystyron yn y Beibl. Cymhwysir ef yn gyffredinol at yr holl greadigaeth anifeilaidd, neu at bob creadur ag y mae ei sylwedd yn gig neu gnawd (*Gen.* vi. 13, 17, 19; vii. 15); ond yn fwyaf neilduol, cymhwysir ef at ddynolryw; a dyma yr unig air Hebraeg sydd yn cyfateb i'r gair "dynolryw" (*Gen.* vi. 12; *Salm* lxv. 3; cxlv. 21; *Esa.* xl. 5, 6). Arferir y gair hefyd mewn cyferbyniad i enaid neu ysbryd, fel y gwneir genym ni gyda chorff ac enaid (*Iob* xiv. 22; *Diar.* xiv. 30; *Esa.* x. 18). Ac arferir ef hefyd yn ystyr cyffredin y gair, sef cnawd dynion ac anifeiliaid (*Gen.* xli. 2, 19; *Iob.* xxxiii. 21, 25); hefyd am gigfwyd (*Exod.* xvi. 12; *Lef.* vii. 19); ac weithiau defnyddir ef fel enw cyffredinol gwylaidd am y rhanau dirgelaidd (*Gen.* xvii. 11; *Exod.* xxviii. 42)

Gan fod "cnawd" yn air o gryn bwys yn yr

Digitized by Google

Ysgrythyrau, rhoddwn ddosbarthiad arall o hono o eiddo beirniaid enwog:—1. Dynoda yr holl gorff bywydol, megys yn *Mat.* xxvi. 41; "Yr ysbryd yn ddiau sydd barod, ond y cnawd sydd wan." 2. Weithiau, meddylir wrtho yr holl ddyn, megys yn *Luc* iii. 6; "Pob cnawd a wel iachawdwriaeth Duw." 3. Perthynasau a chenedl un yn cael eu hystyried yn gynnulledig, fel yn *Rhuf.* xi. 14, yn Gymraeg=cig; Seis., *flesh*; Gr. *sarcs.* 4. Rhywbeth o natur allanol a seremonïol, fel yn gyferbyniol i'r hyn sydd fewnol a moesol, fel yn *Gal.* iii. 3; "Wedi i chwi ddechreu yn yr ysbryd, a berffeithir chwi yr awrhon yn y cnawd." 5. Y rhan deimladol, nwydol o'n natur—eisteddle y gwyniau a'r blysiau anianol, fel yn 2 *Cor.* vii. 1; "Pob halogrwydd cnawd ac ysbryd." 6. Yr egwyddor dufewnol bechadurus, oddi ar ba un y cyfyd pob llygredigaeth. "Gweithredoedd y cnawd" (*Gal.* v. 19—21) y dynodir nid yn unig. doriadau allan afreolaidd y chwantau anifeilaidd, ond hefyd y llygredigaethau a darddant oddi ar y gwyniau ysbrydol a dieflig mewn dyn: felly arferir yr ymadroddion "bod yn y cnawd," a "rhodio yn ol y cnawd," "byw yn ol y cnawd," am sefyllfa pawb nad ydynt wedi eu "hadnewyddu gan Ysbryd Duw."

Am ystyr y gair *sarcs* ysgrifena Neander:—"Yr egwyddor hono yn y natur ddynol sydd yn ymryson yn erbyn cyflawniad y gyfraith, a elwir yn gyffredin gan Paul 'y cnawd;' a'r dyn y mae yr egwyddor hon yn gryfach na dim arall ynddo, 'y cnawdol,' neu yr hwn sydd yn 'synied am bethau y cnawd.' Dysgrifia yr egwyddor hon yn gwrthwynebu y ddeddf fel deddf yn yr aelodau, yr hon sydd yn gwrthryfela yn erbyn deddf rheswm; llefara am 'wyniau pechod yn yr aelodau,' y rhai a attaliant gyflawniad y ddeddf yr addefid ei huniondeb gan y meddwl: *Rhuf.* vii. 5. Y corff, fel eisteddle blysiau pechadurus a eilw yn 'gorff pechod' (*Rhuf.* vi. 6), ac yn 'gorff pechodau y cnawd' (*Col.* ii. 11). Felly, gallem gasglu fod yr apostol yn cael allan hanfodiad pechod yn y gwrthwynebiad rhwng y teimladau anianol a'r ysbryd yn y natur ddynol, a'i fod yn ystyried drwg yn rhywbeth angenrheidiol yn nadblygiad y natur ddynol, hyd oni chyrhaeddai yr ysbryd berffaith oruchafiaeth. Ond nis gall hyn fod yn feddwl yr apostol, o blegid ystyria yr ymladdfa hon rhwng rheswm a'r gwyniau anianol fel yn seiliedig, nid ar natur dyn fel yr oedd yn wreiddiol ar y cyntaf, ond fel canlyniad ei ymadawiad gwirfoddol oddi wrth ei gyflwr cynhenid—fel peth beius ynddo, ac nid peth a gyfodai oddi ar ryw angenrheidrwydd yn ei natur. Ac yn ngoleu y syniad yma y gwelwn o ba bwysigrwydd ymarferol yn athrawiaeth Paul y gellir ystyried y syniadau am berffeithrwydd gwreiddiol dyn ac ymadawiad oddi wrtho. Felly, rhaid ystyried goruchafiaeth y tueddiad anianol ar reswm, yn ol syniadau yr apostol, yn unig fel canlyniad angenrheidiol y gwyriad moesol cyntaf. Y mae llawer o bethau i'w dwyn yn mlaen yn erbyn y dybiaeth nad yw yr apostol, pan yn dynodi y "cnawd" fel ffynnonell pechod, yn meddwl am ddim ond am y nwydau anianol mewn gwrthwynebiad i'r egwyddor ysbrydol mewn dyn. Yn *Gal.* v. 20, yn mhlith "gweithredoedd y cnawd," y mae yn enwi "ymbleidiau," y rhai nid yw yn bosibl eu priodoli i gynhyrfiadau anifeilaidd. Gellir, mae yn wir, ddadleu o blaid y cyfryw eglurhâd, trwy ddyweyd fod gan Paul yn ei feddwl yr ymbleidiau hyny ag y priodolai eu hachos i gynhyrfiadau anianol, i ffordd anianol o feddwl, i luddewaeth a ymlynai wrth wrthddrychau cnawdol, ac a wrthwynebai syniadau mwyaf ysbrydol Cristionogaeth. Ond ymddengys yn fwy hynod fyth ei fod yn olrhain pob peth, yn y gogwydd cyfeiliornus hwnw a wrthwynebai yn eglwys Colossa, at y "cnawd" fel ei ffynnonell: ac yma byddai yn anhawdd priodoli pob peth i wyniau a chwantau anianol; o blegid, i'r gwrthwyneb, cyfarfyddwn yn mhlith y Colossiaid ryw ymgais am ryddhâd oddi wrth ddylanwad y synwyrau—rhyw duedd asceticaidd neu feudwyaidd, yr hwn a geisiai amddifadu y blysiau corfforol o'u hiawnderau cyfreithlawn.....Mae y geiriau "cnawd," "byd," "ysbryd y byd," yn cyfateb i'w gilydd. A dynoda *sarcs* y natur ddynol yn gyffredinol yn ei chyflwr o ymddyeithrad oddi wrth fuchedd Dduw. Pa ham ynte y defnyddir y gair "cnawd" i ddynodi yr *holl* natur fel y mae yn llygredig? Am fod nerth yr egwyddor bechadurus yn sefyllfa bresennol y natur ddynol yn amlygu ei hun yn benaf yn yr ymryson rhwng y tueddiadau anianol a'r ddeddf y cydsynia rheswm â hi:—am fod Cristionogaeth, yn ei chychwyniad cyntaf, wedi ymledaenu yn mhlith y dosbeirth hyny a noddweddid yn fwyaf gan anianoldeb a chan y chwantau anifeilaidd:—am fod y corff yn gwasanaethu fel offeryn y duedd bechadurus sydd yn yr enaid, a bod nerth ymarferiad pechadurus yn parhau ynddo gyda math o hunanfodiad, hyd yn oed ar ol i'r enaid gael ei wneyd yn gyfranog o egwyddor uwch. Dichon mai y rhai hyn yw y rhesymau pa ham y mae Paul yn defnyddio yn fynych y gair "cnawd" i osod allan holl fod pechod.

Rhoddwn eto ddyfyniad o Olshausen ar *Rhuf.* vii. 14. "Pa syniad yr ydym i'w ffurfio am y geiriau *sarcs* a *sarcicos?* Cyfrifa Schleusner nad oes lai nag un ar bymtheg o ystyron i'r *sarcs*; y rhai, fodd bynag, a ddygwyd i lawr gan Bretschneider a Wahl hyd saith. Gall y sylwadau canlynol roddi golwg ar ffurfiad y gwahanol ystyron a gymmera y gair. Y mae *sarcs*, yn yr ystyr cyntaf, yn arwyddo cnawd creadur byw; pan y mae y creadur wedi marw, gelwir ei gnawd κρεας. Yn yr ystyr yma, fel yn arwyddo sylwedd y corff, y mae y cnawd a'r esgyrn yn fynych yn gyssylltiedig: *Luc* xxiv. 39; *Eph.* v. 30. Yna, cymhwysir y gair at bethau ysbrydol, mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, ystyrir y cnawd fel llen weledig yr ysbryd; ac felly, y mae cnawd yn ymddangos yn gyfystyr â *llythyren*, gorchudd yr ysbryd yn yr Ysgrythyrau, neu â 'yr hyn sydd yn amlwg,' mewn gwrthgyferbyniad i 'yr hyn sydd yn ddirgel' (*Rhuf.* ii. 28, 29; *Col.* ii. 1, 5; *Heb.* ix. 10); a dynoda yr allanol, y ffurf mewn gwrthgyferbyniad i'r hanfod mewnol. Yn nesaf, dynoda *sarcs* y rhan ddarfyddol, wywol, o ddyn, mewn gwrthgyferbyniad i'r ysbryd tragwyddol, annistrywiadwy, sydd yn trigo ynddo. Dyma yr ystyr yn y geiriau σαρξ και αιμα (cyf. Cym., "cig a gwaed;" *Mat.* xvi. 17; 1 *Cor.* xv. 50: *Eph.* vi. 12; "gwaed a chnawd"); a πασα σαρξ =*pob cnawd* (*Luc* iii. 6; *Ioan* iii 6; 1 *Pedr* i. 24), fel yn dynodi dynolryw yn eu gwywdra a'u darfyddiad. Y mae y syniad o bechadurusrwydd, felly, yn cael ei roddi yn angenrheidiol gyda'r syniad am wywder, gan mai y cyntaf ydyw achos y diweddaf. Llithrodd marwolaeth i'r ddynoliaeth gyda phechod; ac nid yw darfodedigaeth a gwywdra ond marwolaeth yn ennill tir yn raddol. Yn ol hyn, y mae pechadurusrwydd ei hunan yn cael ei alw, yn enwedig yn yr Epistolau at y Rhufeiniaid a'r Galatiaid, yn 'gnawd,' a 'gwyniau y cnawd.' Eto, ni ddylid deall wrth

Digitized by Google

hyn fod yr ysgrifenwyr sanctaidd yn ystyried mai yn unig ar y cynhyrfiadau corfforol y mae pechod yn sciliedig. Y mae *sarcs*, yn hytrach, yn cynnwys yr holl fywyd anianol, gyda'i holl feddwl a'i ewyllys; o blegid heb yr enaid bywiocaol (*animating* ψυχη), yr hwn sydd i'w wahaniaethu oddi wrth yr ysbryd (πνευμα), nis gall y cnawd (σαρξ) ei hunan gymmaint a chyflawnu pechod. Y mae, pa fodd bynag, yn wir, nas gellir arfer y gair *cnawd* ond yn unig am bechod *dynol:* y mae gan bechod byd yr ysbrydion drygionus nodwedd gwahanol."

CNIDUS, [Gr. Κνιδος]: a elwir hefyd Gnidus: pentref a gorynys yn Doris, yn Caria, yn taflu allan o ran ddehen-orllewinol Asia Leiaf, rhwng ynysoedd Rhodes a Cos. Yr oedd yn enwog am addoliad Venus, fel y gwelir yn ysgrifeniadau Strabo, Pliny, ac ereill. Ysgrifenodd y Rhufeiniaid i'r ddinas hon yn ffafr yr Iuddewon (1 *Mac.* xv. 3), ac aeth Paul heibio iddi ar ei fordaith i Rufain: *Act.* xxvii. 7.

CNIPPERDOLINGIAID: plaid yn yr unfed ganrif ar bymtheg, wedi ei sefydlu gan Betrand Cnipperdoling, yr hwn a ddysgai filflwyddiant llythyrenol; ac a wadai gyfiawnhâd trwy ffydd, y pechod gwreiddiol, a bedydd babanod. Daliai fod gan bob Cristion awdurdod i bregethu a gweinyddu y sacramentau; ac y dylai pob peth fod yn gyffredin, &c. Ymddengys ei fod yn un o'r Ail Fedyddwyr afreolus oedd yn Germany.

CNOI, [*cno*]: malu, brathu.

"A glyweis ti a gânt Ellerw,
Marchawg serchawg syberw?
'Hir y cnoir tamaid chwerw.'" *E. y Clywed.*

Y creaduriaid glân dan y gyfraith oeddynt y rhai a fforchogent yr ewin ac a gnöent eu cil: *Lef.* xi. 14; *Deut.* xiv. 7, 8. "Cnoi a thraflyncu eich gilydd;" *Gal.* v. 15. Mae y gair gwreiddiol δακνω, yn arwyddo, yn ei ystyr cyntaf, brathu, colynu; ac yna, crocsi, poeni, blino arall. "Rhydd yr apostol bwys ar y geiriau *cnoi* a *thraflyncu;* o blegid nid yw yn unig yn dyweyd *cnoi*, ond hefyd *traflyncu.* Dynodir yn y gair *cnoi*, ddyn diglawn; ond y mae *traflyncu* yn arwyddo ei fod yn parhau mewn drygioni. Y mae yr hwn sydd yn *cnoi*, wedi dyhysbyddu ei nwydau digofus, ond y mae yr hwn sydd yn *traflyncu* wedi rhoddi prawf o greulondeb eithaf."—*Chrysostom.* Arwydda, medd Macknight, eu bod mewn perygl, oddi ar eu sel o blaid neu yn erbyn cyfraith Moses, o glwyfo a dinystrio cymmeriad a theimladau eu gilydd.

CNU, [*cna*]: cnaif; y swm o wlan a gneifir oddi ar un ddafad ar unwaith: *Iob* xxxi. 20; *Barn.* vi. 37, 38, 39. [Gwel GEDEON.] Dywed Burder ei fod yn beth cyffredin yn Iudea, ac efallai mewn gwledydd dwyreiniol ereill, i wisgo y defaid i gadw eu gwlan yn lân. Ymddengys fod Horace yn cyfeirio at yr arferiad hwn, pan, wrth lefaru am ddefaid Tarentium, y dywed,

"Dulce pellitis ovibus Galesi
Flumen." *Llyfr.* 11., *Od.* 6.

Bwriedid yr arferiad yma i fwyhau gwerth y cnu, a gwneyd y gwlan yn fwy rhagorol.

CNWD—YDAU, [*cnu*]: toraeth, cynnyrch, cyllid. "Cnwd o yd;" "cnwd o eira;" *Gen.* xix. 25; *Lef.* xix. 25; *Deut.* xxxii. 13; *Iob* xxxi. 39; *Esa.* xxi. 10; *Ioel* ii. 22.

COCH—ION—I [*co—och*]: gwridog.

"Erfid a drychid rhag ei drachwres,
Arfau pendrychion cochion coches."
Cynddelw.

Cyssylltir yr ansoddair â llawer o bethau yn yr Ysgrythyrau, megys anner, gwisg, gwin, y ddraig, ysgarlad. Am ystyr y lliw mewn cyssylltiad â'r gwrthddrychau hyn, gwel dan y gwahanol eiriau.

COCHL ['Ιμάτιον]: y wisg uchaf yn mhlith yr Iuddewon; y fantell neu y paladium. Yr oedd dillad yr Iuddewon, yn gyffredin, yn gynnwysedig o ddwy wisg, sef y *bais* (χιτών)=y wisg isaf, a'r *gochl.* Sonir am y ddwy wisg hyn yn *Mat.* v. 40, ac *Act.* ix. 39—"y peisiau a'r gwisgoedd=cochlau (ἱμάτια) Gwnelid y gochl yn gyffredin o wlan, weithiau o flew, ac weithiau o wlan a blew yn gymmysgedig. Nid oedd y wisg hon wedi ei ffurflo yn debyg i'n gwisgoedd ni; ond gwneid hi yn bedeironglog, o wahanol faintioli—weithiau tua thair llath bob ffordd. Plygid hi o amgylch y corff, neu gadewid hi i grogi oddi ar yr ysgwyddau, fel y byddai yr hin yn gofyn. Weithiau, plygid hi o amgylch y pen, i'w ddiogelu rhag y gwynt a'r gwlaw; a gwisgai y prophwydi ac ereill hi yn y dull hwn i ddynodi parchedigaeth neu ofid: 1 *Bren.* xix. 13; 2 *Sam.* xv. 30. Pan gesglid y gochl o amgylch y canol, gelwid hi *y wisg* [Seis., *lap*]: 2 *Bren.* iv. 39. Pan y cesglid hi o gylch yr ysgwyddau, gelwid hi *y fynwes: Luc* vi. 38. Gwasanaethai y gochl weithiau i gysgu ynddi yn lle gwely; ac ymddengys yr arferid hi yn aml i'r diben hwn gan y tlodion. Am hyny, cynnwysai deddf Moses ddarpariaeth, os cymmerid y wisg hon yn wystl, y byddai raid ei dychwelyd ar fachlud haul: *Exod.* xxii. 26, 27; *Deut.* xxiv. 13. Yn y wisg hon, y mae yn debyg, y rhoddodd plant Israel eu toes, pan yn ffoi ar ffrwst o'r Aipht: *Exod.* xii. 34. Anaml y gwisgid y gochl yn y tŷ, neu gyda gwaith yn gofyn llawer o ryddid i'r dwylaw; ond gwisgid hi yn gyffredin allan ac wrth deithio. Pan y tynid y gochl, dywedid fod personau yn noeth—"Yna Simon Pedr, pan glybu mai yr Arglwydd oedd, a wregysodd ei amwisg, canys noeth oedd efe;" *Ioan* xxi. 7. Gwel hefyd *Esa.* xx. 2, 4; *Ioan* xiii. 4.

Yn 2 *Tim.* iv. 13, cyfarfyddir â'r gair φαιλόνης yn cael ei gyfieithu yn *gochl.* Amrywiol ydynt y golygiadau a goleddir am y gair hwn. Dywed rhai mai mantell ddilewys ydoedd, âg iddi benguwch *(hood)* i attal oerni a gwlaw, yr hon a wisgid wrth deithio, ac yn y fyddin. Ereill a farnant mai llyfr-god a arferid wrth deithio ydoedd. Barna ereill mai cochl neu fantell a wisgid gan ddinaswyr Rhufeinig ydoedd, fel arwydd eu bod wedi eu breinio. Os cywir hyn, yr oedd o bwys i Paul gael y gochl a adawodd efe yn Troas, a'r llyfrau, yn enwedig y memrwn, i'w ddiogelu rhag ymosodiadau ei elynion; o blegid tra y gwisgai efe y gochl, canfyddent ar unwaith arwyddion rhydd-ddinaswr ynddo; a dichon fod y llyfrau, yn enwedig y memrwn, yn cynnwys profion pellach o'i ddinasfraint. Yn 1 *Pedr* ii. 16, cyfieithir y gair ἐπικάλυμμα yn gochl. Golyga y gair yma unrhyw wisg, gorchudd, neu amwisg; ond yn yr adnod gyfeiriedig ati, defnyddir y gair mewn ystyr drofaegol am esgusawd, ffug-esgus, rhith-hawl.

COD: cwdyn, ffetan, pwrs, llogell. Defnyddid codau gynt i gadw pwysau, pa rai yn

Digitized by Google

gyffredin a wneid o geryg: *Deut.* xxv. 13; *Micah* vi. 11. Atebai côd yr un dyben a llogell gyda ni; am hyny dywedir i Dafydd osod y ceryg llyfnion a ddewisasai o'r afon yn nghôd y bugeiliaid, yr hon oedd ganddo: 1 *Sam.* xvii. 40. Yr oedd y gôd hon yn gyffredin yn y gwregys, neu yn gydiedig wrtho; ac am hyny, defnyddid y gair *gwregys* (ζώνη) am y gôd: *Mat.* x. 9. Defnyddid y gôd i gario arian ynddi wrth deithio. Swydd Iudas Iscariot oedd cario y gôd, lle y cedwid arian er cynnaliaeth Crist a'i ddysgyblion: *Ioan* xii. 6; xiii. 29. Cymherir cyfoeth heb fendith Duw arno i "gasglu cyflog i gôd dyllog;" *Hag.* i. 6. Nid yw o un lles i'r derbynydd; ni chwanega at ei gysuron; nid erys gydag ef yn hir, ond cymmer ei adenydd ymaith yn fuan, er mawr somedigaeth ei feddiannydd. Ar y llaw arall, cymherir y trysorau o ddaioni ysbrydol, a'r bendithion a sicrheir trwy wneuthur daioni gyda chyfoeth, trwy roddi a chyfranu i "godau neu byrsau ni heneiddiant, golud gwell yn y nefoedd, ac un parhäus;" *Luc* xii. 33. Eto, mor ychydig y sydd fel hyn yn "trysori iddynt eu hunain drysor yn y nef, lle nad oes na gwyfyn na rhwd yn llygru, a lle nis cloddia lladron trwodd ac nis lladratäant"



Dar. 189.

Yr arian a dderbynid yn nhrysorfeydd tywysogion y dwyrain, a renid yn symiau cyfartal, a dodid hwy mewn codau seliedig. Mewn cyfeiriad amlwg at hyn, dywedir fod Duw yn *selio camwedd dynion mewn côd: Iob* xiv. 17. Cymmer efe sylw manwl o'u holl bechodau; y maent oll yn cael eu rhifo ganddo, a'u cadw yn ddiogel i gael eu dwyn yn mlaen yn eu herbyn ddydd y farn.

COED—YDD, [*caw*]: prenau, manwydd:—boncyffion, ac ysterniau mwyaf prenau, y rhai sydd wedi tyfu i'r fath faintioli fel ag i fod yn gymhwys i'w defnyddio mewn adeiladaeth. Yn gyffredin, y mae gan bob gwlad ei choed ei hunan, y rhai a gynnyrchir gan y prenau a dyfant ynddi; ond y mae rhai mathau o goed, megys coed y dderwen a'r ffawydden, ar gyfrif eu parhâd a thrafnidiaeth masnachol, yn cael eu harfer yn mhob gwlad. Y coed mwyaf defnyddiol yn Ewrop, ydynt y dderwen, yr onen, y ffawydden Ysgotaidd, a'r larwydden—math o ffawydden a elwir y *spruce fir*. Y rhai a arferir fwyaf yn Ngogledd America, ydynt yr *hickory*, y gwahanol fathau o ffawydd, a rhai mathau o dderw. Yn y gwledydd trofanol, y *teak*, y *bamboo*, a'r balmwydden a arferir fynychaf. Y dderwen, y *teak*, a'r larwydden, a gyfrifir yn mhob gwlad y rhai mwyaf cyfaddas i adeiladu llongau.

Y mae gan wahanol genedloedd eu dulliau eu hunain i dori coed. Cyn dyfeisio yr arfau priodol i gymynu, arferai cenedloedd anniwylliedig gwympo y coed trwy eu llosgi. Fel hyn y dywed Niebuhr,—"Nis gallwn lai na chondemnio y ddyfais anfedrus a arferai preswylwyr yr Ucheldiroedd i gwympo coed. Rhoddent dân wrth y gwraidd, a chadwent ef i losgi hyd oni syrthiai y goeden o honi ei hun." Crybwylla Bruce am goedwigoedd cyfain, manwydd, a choed ieuainc, y rhai a ddifeir yn y modd yma. A dichon y cyfeirir at yr arferiad hwn yn *Zech.* xii. 6;—"Aelwyd o dân yn y coed." Dywed Turner, yn ei *Embassy to Thibet*, mai yr unig ffordd a arferid yno i gwympo coed, oedd trwy eu llosgi. Gyda'r coedydd a nodir allan i gael eu tori, y mae tyflant yn cael ei ddinystrio trwy hanner eu llosgi trwyddynt; ac wedi eu gadael yn y sefyllfa hono i sychu, yn y flwyddyn ganlynol rhoddir tân yr ail waith atynt, a llosgir hwy hyd oni syrthiant ar y ddaiar. "Y plant a syrthiasant dan y coed;" *Galar.* v. 13. Gwneid i blant ddwyn beichiau ag y diffygient o danynt. —*Lowth.* "Llwythid y plant â choed, fel y gwneid â chaethweision: a gwasanaeth isel ydoedd."—*Calvin.* [Gwel LLYSIAU.]

COEDWIG, [*coed—gwig*]: planigfa o goed. Crybwyllir am ffrithoedd, neu goettiroedd, gan deithwyr yn Palestina; ond prin am yr hyn a alwn ni yn goedwigoedd neu fforestydd. Y gair a gyfleithir *coedwig*, ydyw יער, yr hwn nid yw yn arwyddo mwy na ffrithoedd neu dir coediog. Y mae, pa fodd bynag, amryw awgrymiadau yn y Beibl fod y wlad yn y cyn-amseroedd yn llawer mwy coediog nag yn bresennol. Y prif leoedd coediog y sonir am danynt ydynt y rhai canlynol:—

1. *Coedwig cedrwydd Libanus* (1 *Bren.* vii. 2; 2 *Bren.* xix. 23; *Hos.* xiv. 5, 6), yr hon oedd yn llawer mwy helaeth gynt nag ydyw yn bresennol. [Gwel CEDRWYDD.] Gelwir y palas a adeiladodd Solomon yn "dŷ coedwig Libanus;" 1 *Bren.* vii. 2; x. 27. Safai yn, neu yn agos i, Ierusalem; a gelwid ef felly, naill ai am ei fod wedi cael ei adeiladu o gedrwydd Libanus; neu, yn ol barn Boothroyd, am fod planigfa yn agos i Ierusalem, yn dwyn rhyw gyffelybrwydd i goedwig Libanus; neu am fod y colofnau lluosog o goed cedrwydd oedd yn yr adeilwaith yn peri i un feddwl am goedwig o honynt, fel yr eiddo Libanus.

2. *Coedwig o dderw yn Basan.* "Gweithiasant nwyfau o dderw o Basan: *Ezec.* xxvii. 6. Am Basan, dywed Buckingham, "Y mae y dyffryn-oedd yn hynod ffrwythlawn, a'r bryniau wedi eu gorchuddio â choedwigoedd; ac wrth deithio yn mlaen, canfyddem y golygfeydd prydferthaf y gellid dychymygu am danynt. Yn mhlith y coedydd, yr oedd y dderwen i'w gweled yn am., a gwyddom fod y parth yma yn llawn o dderw yn y cynoesoedd. Wrth rifo yr adnoddau y ceid adgyflenwadau i Tyrus yn nhymmor ei chyfoeth mawr a'i gwychder morwrol, dywed y prophwyd, 'Gweithiasant nwyfau o dderw Basan.' Y mae rhai dysgedigion wedi cyfleithu y gair yn y fan hon *alders* (gwern), i attal pob ymddangosiad o anghywirdeb yn yr ysgrifenydd sanctaidd, am y tybient nad oedd y dderwen yn tyfu yn Basan; ond y mae yn amlwg eu bod yn camsynied."

3. *Coedwig Ephraim*: a elwir (2 *Sam.* xviii. 6, 8) "coed Ephraim." Yr oedd yn y wlad, i'r dwyrain o'r Iorddonen, heb fod yn mhell oddi wrth Mahanaim. Yn hon y collodd Absalom ei fywyd; a darfu i'r coed ddyfetha mwy o'r bobl nag a ddyfethodd y cleddyf ar yr un diwrnod ag y collodd Absalom ei fywyd. Dyfethwyd hwynt

Digitized by Google

gan gydgyfarfyddiad llawer o bethau; megys newyn, syched, lludded, bwystfilod gwylltion, syrthio i byllau a ffosydd, cael eu llesteirio a'u dyrysu yn eu ffoedigaeth, neu eu crogi wrth y coed fel Absalom. Pa fodd y daeth i gael ei galw wrth yr enw hwn, sydd ansicr. Barna rhai mai o herwydd dinystr yr Ephraimiaid yma yn amser Iephthah (*Barn.* xii. 4, 6): ond barna ereill, mai am yr arferai yr Ephraimiaid ddwyn eu deadelloedd i bori i'r parthau hyn; o blegid dywed yr Iuddewon, fod yr Ephraimiaid wedi derbyn caniatâd gan Iosuah, yr hwn oedd o'u llwyth, i fugeilio eu praidd o fewn tiriogaeth rhyw lwyth yn Israel; a chan fod y goedwig hon yn gorwedd yn agos i'w rhandir hwy ar un tu i'r Iorddonen, eu bod yn arfer arwain eu deadelloedd yno. Dyma farn Rimchi, Jarchi, Abarbanel, ac ereill o'r awdwyr Iuddewig.

5. *Coedwig Hareth*, yn neheudir Iudah, i'r hon y ffodd Dafydd rhag Saul: 1 *Sam.* xxii. 5. Nid yw ei sefyllfa yn sicr, yn mhellach na'i bod yn y rhan ddeheuol o randir Iudah.

Mae teyrnasoedd wedi eu dedfrydu i ddinystr yn cael llefaru am danynt fel coed a choedwigoedd, y rhai y mae yr Arglwydd yn bygwth eu llosgi neu eu tori i lawr. Gwel *Esa.* x. 17, 18, 19, 34; lle y mae y drain a'r mieri yn dynodi y bobl gyffredin; a "gogoniant y coed," y pendefigion, a'r dynion o fwyaf o bwys a dylanwad.

Yn yr hen oesoedd, yr oedd y parth mwyaf o bob gwlad, yn rhanau tymmerus Ewrop, yn cael ei orchuddio â choedwigoedd, y rhai a feithrinent fwystfilod o bob math, yn enwedig moch gwylltion, y rhai oeddynt y rhan benaf o ymborth dyn. Ond fel y cynnyddai gwareiddiad, yr oedd y coedwigoedd eang yn lleihau o flaen yr helaethiad parhäus a wneid ar dir arddadwy. Yn mhob gwlad, perthynai rhan fawr o'r coedwigoedd i'r llywodraeth, yr hyn a ffurfiai adnawdd benaf y cyllid. Fel hyn y mae yn bresennol yn Ffrainc a Germany; a hyd yn ddiweddar, felly yr oedd yn Mhrydain. Ac y mae yn bresennol ranau helaeth o dir yn dwyn yr enw *forest*, yn Mhrydain, er eu bod mewn sefyllfa ddiwylliedig, ac heb ond ychydig o goed ynddynt. Y mae llawer o hen gyfreithiau mewn coflyfrau perthynol i'r llywodraeth, o barth fforestydd y goron; ond yn bresennol, gan nad oes ond tair neu bedair o'r rhai hyn yn y deyrnas, nid yw y cyfreithiau hyn ond o ychydig bwys, oddi eithr i'r rhai sydd yn byw yn y cymmydogaethau sydd yn agos atynt. Y mae y pwys a'r gwerth sydd mewn coed i gymdeithas, a'r lleihâd cyflym ar goedwigoedd, os na chymmerir gofal arbenig am danynt, wedi arwain llywodraethau, mewn amseroedd diweddar, i ymchwilio o barth i'r modd y dylid eu cadw, a gofalu am danynt. Yr Almaeniaid, y rhai yn gyntaf a ddysgasant fwnyddiaeth fel gwyddor, oeddynt y rhai cyntaf a drinasant yn wyddorol y dull o drin a chadw coedwigoedd. Sefydlasant athrofäau i'r perwyl, yn y rhai yr addysgid pob cangen o wybodaeth berthynol iddynt. Cyfododd y sefydliadau hyn oddi ar brinder cynnyddol o goed, yr hyn a wnai amaethiad coedwigoedd yn angenrheidiol; ac oddi ar y cynllun o gyfodi cyllid ar ran y llywodraeth, trwy werthiant coed.

Cyfeiriodd Prwssia, hefyd, ei sylw yn fuan at hyn; ac yn bresennol, nid oes neb yn cael swydd yn y "*forest department*," heb yn flaenorol fyned o dan arholiad manwl yn y cangenau o wybodaeth sydd yn gyssylltiedig â'r fforestydd, ac heb wasanaethu yn bersonol yn y coedwigoedd am dalm o amser. Y mae nifer o'r athrofäau hyn mewn gwahanol ranau o Germany, yn enwedig yn nhaleithiau bychain canoldirol Germany; megys Hartz, Thuringia, &c. Y prif gangenau a addysgir ynddynt, ydynt, llysieuaeth coedwigawl, mwnyddiaeth, mildraith, a fferylliaeth. Addysgir hefyd helwriaeth, mesur, ac amaethu y coedwigoedd, fel ag i ddeall y modd i gyfodi pob mathau o goed, a chyflenwi tyflant newydd fel y mae yr hen yn cael eu cymmeryd ymaith. Addysgir hefyd yr holl drethi a chyllid y fforestydd. Y mae holl gyfreithiau coedwigoedd y deyrnas hon yn perthyn yn unig i helwriaeth.

COEG—ION, [*co—oeg*]: gwag, da i ddim, diddim, disylwedd, diles. *Buwch goeg*=buwch hesp; *cnau coegion*=cnau gweigion.

"Y gneuen goeg sy galetaf."—*Diar. Cym.*

"Nid eisteddais gyda dynion coegion" (*Salm* xxvi. 4):=Seis., "*Vain persons.*" Henstenberg, "*Men of falsehood.*" Ystyr y gair ydyw *celwydd, anwiredd*; ac nid *gwagedd*, na *drygioni*, fel y cyfleitha rhai

"Coeg ddigrifwch;" *Eph.* v. 4. Gr., *ευτραπελια.* Arwydda fwynder neu foesgarwch; ac, fel y mae ei darddiad yn dangos, deheurwydd i *droi* ymadrodd neu ymddyddan; yna arabedd neu ddigrifwch; ac yn olaf, ymadrodd twylloedrus, yn cael ei ffurfio y fath ag y gall y siaradwr yn hawdd ymryddhau oddi wrth ei ystyr a'i rwymau. Esboniad Chrysostom ar y gair ydyw, "Y dyn, a elwir *ευτραπελος*, ydyw yr hwn sydd yn fedrus i ymnewid, yn gallu gwneyd pob gwedd ac ymddangosiad, yn aflonydd ac ansefydlog; y dyn sydd yn bob peth ac yn unrhyw beth." Y mae yn amlwg y defnyddir y gair yn y fan hon mewn ystyr gwaharddedig, i ddynodi y serthedd, y mwyseb bwriadedig hwnw, sydd yn waeth ar lawer cyfrif na llygredigaeth hawdd i'w ddeall a'i adnabod yn yr ymadrodd. Y gwahaniaeth a wna Jerome rhwng "ymadrodd ffol" a "choeg ddigrifwch," ydyw yr un ag sydd rhwng y ddau air Lladin *stultiloquium* a *scurrilitas.* Nid oedd Paul yn condemnio digrifwch o bob math. Ymddengys ei fod yn cyfeirio at arabedd a digrifwch mewn cyssylltiad â thrythyllwch.

"Ni elwir mwy y coeg-ddyn yn foneddig;" *Esa.* xxxii. 5. "Perchir ac ymddygir at ddynion yn ol eu gwir gymmeriad, ac nid fel y gwneir dan deyrnasiad brenin drygionus."—*Boothroyd.* "Adferir pob peth i iawn drefn, fel na chyfrifir drygau fel cynt yn rhinweddau; o blegid pan y mae y llywodraeth yn ddrygionus, y mae dynion cybyddlyd mewn uchelswyddau, ac yn derbyn llawer o anrhydedd—o blegid y mae dynion yn barnu rhinwedd wrth olud ac awdurdod. Y mae y tlawd yn cael ei ddirmygu, er ei fod yn wirioneddol uniawn, a haelionus yn ol ei allu; ac yn y fath sefyllfa ar bethau, nis gall fod dim ond annhrefn a dyryswch. Ond y mae llywodraeth ddaionus yn dadorchuddio y cyfryw wag-hòniadau a gau-ymddangosiadau; o blegid pan fawrygir rhinwedd, y mae drygau yn ebrwydd yn cael eu dwyn i'r goleu."—*Calvin.*

COELBREN, [*coel—pren*]. Y mae cyfeiriad mynych yn yr Ysgrythyrau at y coelbren. Trwy y coelbren yr oedd yr offeiriad ar ŵyl y cymmod i benderfynu pa un o'r ddau fwch oedd i'w offrymu yn bechaberth, a pha un oedd i fod y bwch diangol: *Lef.* xvi. 8. Gwel Bwch

Digitized by Google

DIANGOL. Trwy goelbren y gorchymynodd Duw ar fod i Wlad yr Addewid gael ei rhanu rhwng llwythau Israel: *Num.* xxvi. 55, 56; xxxiii. 54; xxxiv. 13, &c. Yr un modd hefyd yr oeddid i benderfynu ar y dinasoedd oedd i fod yn eiddo yr offeiriaid a'r Lefiaid (1 *Cron.* vi. 54, 61); ac hefyd, yn amser Dafydd, pan ranwyd yr offeiriaid yn bedwar dosbarth ar ugain, defnyddid y coelbren i nodi y gwahanol gylchoedd yr oedd pob dosbarth i wasanaethu ynddynt (1 *Cron.* xxiv; xxv); a gellid casglu oddi wrth *Luc* i. 9, fod hyd yn oed y gwahanol ranau o wasanaeth y dydd yn cael eu dosbarthu i'r offeiriaid fel hyn hefyd; o herwydd dywedir mai *rhan* Zacharias oedd iddo *arogldarthu.* Dywed yr Iuddewon, hefyd, fod tri o'r offeiriaid gyda y gwasanaeth hwn drachefn, a phob un yn cyflawnu ei ran briodol ei hun, oedd wedi disgyn iddo trwy goelbren. Yr oedd un yn dwyn y lludw ymaith, oedd wedi aros er y gwasanaeth o'r blaen; a dygai un arall badellaid o farwor tanllyd oddi ar allor y poethoffrwm, ac wedi ei osod ar yr allor aur, ymadawai tra y byddai y trydydd yn myned i mewn gyda'r arogldarth, ac yn ei daenellu ar y marwor tanllyd; a thra yr esgynai y mwg, byddai yntau yn eiriol dros y bobl: ac ymddengys mai y rhan ddiweddaf oedd wedi disgyn i *ran* Zacharias. Dyma y dull a arferid hefyd i ranu yr ysbail wedi buddugoliaeth. Fel y rhagfynegwyd trwy y prophwyd, bwriodd y milwyr goelbren am wisg ein Gwaredwr; a darllenwn (*Act.* i. 26) fod yr apostolion wedi bwrw coelbren pan y dewiswyd Matthias i dderbyn rhan o'r weinidogaeth a'r apostoliaeth o'r hon y cyfeiliornodd Iudas.

Nid yw y Beibl yn son am y dull y byddid yn bwrw coelbren; ond tybir fod amryw ffyrdd yn cael eu defnyddio. Dywed Solomon (*Diar.* xvi. 33), fod y "coelbren (caregan) yn cael ei fwrw i'r *arffed*" (בחיק=i'r *chic*) neu *fynwes* cawg, neu badell, y mae yn debyg: yr hyn sydd yn arwain i syniad tra gwahanol i'r un am arffed—arffed person. Eto, pe buasai ein cyfieithwyr ni wedi arfer y gair *mynwes*, yr hyn yw ystyr mwyaf priodol yr Hebraeg, buasai y darllenydd wedi hyny yr un mor bell o ddeall y meddwl, os wrth fynwes y golygid yr eiddo person; o herwydd nid yw yn ymddangos fod y fynwes—hyny yw, y wisg a arferid am y rhan hono o'r corff—byth yn cael ei defnyddio i dderbyn y garegan a arferid i'r dyben dan sylw. Ond y mae yn dra thebygol y defnyddid amryw ffyrdd i dynu cwtws, neu fwrw coelbren. Fel prawf o hyn, dylid sylwi mai nid yr un gair a arferir bob amser yn yr Hebraeg i ddynodi yr amgylchiad o fwrw coelbren. Yn *Lef.* xvi. 8—10, dywedir i'r coelbren *esgyn* neu *ddyrchafu*=עלה. Dywed ein cyfieithiad ni,—"A dyged Aaron y bwch y *syrthiodd* coelbren yr Arglwydd arno." Ond y darlleniad priodol yw, fel ar ymyl y ddalen yn y cyfieithiad Cymraeg, "y *dyrchafodd* coelbren yr Arglwydd arno"—hollol wahanol i syrthio:—"A'r bwch y dyrchafodd y coelbren arno i fod yn fwch diangol," &c. Yr eglurhâd a rydd Parkhurst ar hyny [d.g. גרל] ydyw, mai y gareg neu y nodyn ei hunan a olygir, "yr hwn, pan fwrid ef i'r llestr neu y cawg (wedi i hwnw gael ei ysgwyd), a neidiai neu a ysbonciai allan o flaen un arall cyffelyb iddo—yr hyn a ystyrid fel yn penderfynu yr achos." Ond y mae hyn yn hollol anghysson â'r weithred a briodolir, gyda llawer o gywirdeb, i Simon y Cyflawn, o *dynu allan* y cwtws hyn: ond gall fod yn ddysgrifiad cywir o'r hyn a gymmerodd le yn amgylchiad Haman (*Esth.* iii. 7),—"Efe a barodd fwrw Pwr (hyny yw, y coelbren) ger bron Haman, o ddydd i ddydd, ac o fis i fis." *Parodd fwrw* (חפיל פיר)—yr hyn sydd yn dra gwahanol i dynu allan. Hefyd, y dull o fwrw coelbren yn achos Ionah (*Ionah* i. 7): יפולו—"Bwriasant goelbrenau, a'r coelbren a syrthiodd (a fwriwyd) ar Ionah." Y mae yn anhawdd meddwl fod gan y morwyr ar fwrdd y llong lestr, a phethau ereill, priodol i fyned trwy y ddefod gyda'r urddas priodol; ond mwy tebyg yw, fod rhywbeth o natur ein blwch disiau ni yn ddigon i ateb eu dyben hwy.

Yr ydym yn awr yn gallu ffurfio syniad cywir ach am yr ymadrodd dan sylw, lle nad oes un o'r geiriau a nodwyd yn dygwydd, ond un tra gwahanol (יגשול)—yr hwn a arwydda bwrw allan, yn hytrach na bwrw i mewn. Y mae, er hyny, yn cael ei arfer weithiau i ddynodi bwrw yn mhob cyfeiriad; ac oddi wrth hyn, y mae rhai wedi casglu mai amcan Solomon oedd dynodi gwaith y person yn ysgwyd y llestr a gynnwysai y cwtws, er mwyn eu cymmysgu yn dda, ac felly attal y personau a'u tynent allan rhag dewis y naill mwy na'r llall:—Yn llythyrenol, "Mewn coelbrendroell, ysgydwir y cwtws yn mhob cyfeiriad, er hyny oddi wrth yr Arglwydd y mae eu holl benderfyniad=neu ddedfryd."

Y mae y gwr doeth hefyd yn cydnabod rhagoroldeb yr arferiad hwn. "Y coelbren a wna i gynhenau beidio, ac a athrywyn rhwng cedyrn;" *Diar.* xviii. 18. Pa fodd bynag, y mae yn cael ei wahardd weithiau, yn enwedig pan y defnyddir hyn yn ddiangenrhaid, i ddybenion coelgrefyddol, neu gyda'r bwriad o demtio Duw. Gyda phethau ag y mae moddion naturiol, trwy ba rai y gallwn gael gafael yn y gwirionedd, y mae rheswm a chrefydd yn rhoddi i ni well arweiniad. Defnyddiodd Haman y coelbren (*Esth.* iii. 7, &c.), nid yn unig mewn dull coelgrefyddol, ond hefyd mewn achos anghyflawn a drygionus, pan ymgymmerodd â dinystrio yr Iuddewon. Coelgrefydd Nebuchodonosor oedd yr achos iddo yntau ddewinio dewiniaeth, ac ymofyn â delwau pan ar ei ffordd tua Rabbath meibion Ammon, a thua Ierusalem, ac eto yn methu penderfynu ar ba un yr ymosodai gyntaf.

Y mae y Brodyr Moraviaidd eto yn defnyddio y coelbren gyda phriodas, ac amryw bethau ereill.—(*Calmet; Penny Cycl., &c.*)

COELBREN Y BEIRDD. Athrawiaeth Barddas o barth dechreuad llythyrenau yw hyn:—Pan nad oedd neb mewn na byw na bod namyn Ef ei Hun, dadganodd Duw ei enw /|\; ac yn gyttrym â'r gair, neidiodd y gread oll i fodolaeth gyda bloedd gorfoledd, gan adlefaru Enw Duw /|\ mewn llais iselfain a pheraidd. "Ac yn gyttrym â'r llafar, goleuni; ac yn y goleuni, llun ar Enw yn dri llais dri llafar, yn gydlef gyfennyd, ac yn y gweled dri llun, a lliw a llun goleuni ydoedd; ac yn un â'r llafar a lliw, a llun y llafar hwnw oeddynt y tair llythyren gyntaf; ac o gysswllt ar tri llafar y lluniwyd pob llafarau ereill ar lythyr."—*Dwned.*

Fel hyn y dywedir yn ngwaith y greadigaeth cafwyd allan, trwy ddadguddiad dwyfol, *swn* /|\, egwyddor "pob cerdd ac arwest, ai tafod ai tant y bo;" a *llun* yr enw mawr, yr A-WEN—ffynnonell yr holl wybodau.

Clywodd Menw ap y Teirgwaedd, sef y dyn cyntaf, y llafar, a gwelodd y tair colofn goleuni. Mewn canlyniad, cymmerodd efe dair gwydden

Digitized by Google

gerddin, a thorodd arnynt lun yr enw, a dysgodd oddi wrtho y gwybodau oedd yn gynnwysedig ynddo. Ond y rhai a'u gwelsant a ddodasant gamddeall arnynt, gan olygu y gwiail fel Duw yn hytrach nag fel elfenau yn arddangos llun enw Duw. Parodd hyn alar mawr i Menw, yn gymmaint felly fel ag y bu farw o'r herwydd. Ond â'i anadl olaf, gweddïodd ar Dduw am adferiad yn mhlith dynion o'r cyfiawn wybodau, ac am iddynt gael cyfiawn ddeall er iawn ymbwyll â hwynt. Ac yn mhen un dydd a blwyddyn gwedi marw y dyn cyntaf, gwelodd Einigan dair gwialen yn tyfu o'i enau, "ac arnynt yn gyflwyr wybodau deg llythyren, a'r modd y trefnaws ynddynt bob gwybodau iaith ac ymadrodd, ac ar iaith ac ymadrodd bob gwybodau darnodedig arnynt; yna cymmerodd y gwiail a dysgodd y gwybodau oddiarnynt, y cwbl ond enw Duw; ac ar hyny dododd gyfrinach rhag dodi geubwyll ar yr Enw, ac o hynny Cyfrinach Barddas Beirdd Ynys Prydain."—*Barddas.*

"Ei anweledig bethau Ef," medd yr apostol, "er creadigaeth y byd, wrth eu hystyried yn y pethau a wnaed, a welir yn amlwg" (*Rhuf.* i. 20); felly yr oedd y beirdd yn tybied eu bod yn gweled arwydd o'r Enw dadguddiedig /|\, yn mhelyderau yr haul ar bedwar alban y flwyddyn. Wrth lunio gorsedd, y mae tair careg i gael eu gosod y tu allan i'r cylch, yn y fath fodd fel ag y rhedai llinell oddiwrth y maen gorsaf drwyddynt at godiad haul ar albanau Hefin, Elfed, Arthan, ac Eilir, fel hyn:—



Dyma y modd y cyssegrai y beirdd eu temlau —gosodent ynddynt "goffadwriaeth o enw" Duw, a hyderent y caent o'r herwydd eu "bendithio" ynddynt. Wrth athrawiaethu oddi ar gareg y cyssyllt, "yn wyneb haul ac yn llygad goleuni," ystyrient eu hunain yn llefaru "Enw yr Arglwydd."

Y mae dernyn arall o Farddas, yn yr un modd, yn dysgu i ffurfio yr enw wrth osodiad neu sefyllfa yr haul.—*MSS.*

Y mae y dull yma o wneuthur llun enw Duw yn dangos, yn ol barn rhai, beth yw iawn ongliad a gogwyddiad y ffugr /|\.

Gwelant yr haul hefyd, yn ei ddylanwad ar y ddaiar, ar wahanol dymmorau y flwyddyn, yn gysgod o Dduw yn ei amrywiol briodoliaethau a'i weithredoedd. Ac felly y mae yr hyn oll a ellir ei wybod ar y pynciau hyny, mewn gair yr holl wybodau, yn gynnwysedig yn /|\. Er anghraifft, yn mhaladr Hefin, o bwnc haul uchder haf, cynnrychiolir yr amlygiad a geir o Dduw fel Perydd neu Greydd, am mai dan ddylanwad y paladr hafy ffurfir pob twf, coed, llysiau, bywiolion, a'u cynnydd. Yn mhaladr Arthan, o bwnc dyfnder y gauaf, cynnrychiolir yr amlygiad o Dduw, fel Ion, Dofydd, Dinystrydd, neu attalydd ei dda; am mai dan ddylanwad hwn y difethir gwaith a chynnyrch haf. Y mae y paladr canol a deublyg yn cynnrychioli yr amlygiad sydd genym am Dduw fel Rhi, Ior, a Chynnalydd; ac fel Duw rhagluniaeth a Duw y cariad—yn llawn o dynerwch, gofal, a serchogrwydd y tad a'r fam, o herwydd mai dan y naill blyg i'r paladr, sef yr hwn a ddeilliaw o bwnc Elfed, yr aeddfedir ac y diogelir hâd a ffrwythau, er cadwraeth, ac er sicrhau pob twf, coed, a llysiau, rhag eu dinystrio dan ddylanwad paladr gauaf; a than y plyg arall, a dardda o bwnc Eilir, y rhoddir gwth ac yni yn yr hadau a'r planigion i egino a chynnyddu, er adnewyddiad gwyneb y ddaiar.

Weithiau gelwid /|\ yn "dair colofn goleuni, a'r tair colofn gwirionedd, gan nas gellir gwybod ar wirionedd, ond o'r goleuni a geir arno; a thair colofn gwybodau, gan nas gellir gwybodau ond o'r goleuni a'r gwirionedd."—*MSS.*

Dywedir hefyd eu bod yn "arwyddaw tair angheneddyl Duw; nid amgen, cariad, gwybodaeth, a gwirionedd: sef o'r tri hyn y tyf pob cyfiawnder, ac heb bob un o'r tri nis gellir cyfiawnder"—*MSS*

Ar y dechreu, gan hyny, /|\ ydoedd nid yn unig lun enw Duw, neu lythyren gyntaf y wyddor, eithr dyna ydoedd holl lenyddiaeth y beirdd. Yr A WEN ydoedd eu Beibl cyssegr-lân.

Ond megys ag y cynnrychiolai /|\, yn ei ddull cyntefig, yr holl wybodaeth, felly gellid ei ddadgyssylltu a'i ailosod mewn gwahanol ffurfiau, er gosod allan wirioneddau neillduol. A hyny a wnaethpwyd. Lluniodd Einigan ddeg, y rhai a ystyrir fel y prif lythyrenau. Dyma hwy:—



a p c e t i l r o s

Iolo MSS. td. 203.

Cadwyd y llythyrenau hyn, neu fel y gelwid hwy ar y cyntaf, awgrymau, coelbrai, neu ystorrynau, yn gyfrinach gan y beirdd hyd amser Beli Mawr, neu fel y dywed Llywelyn Sion, hyd ei amser ef ei hun.

Yn mhen amser chwanegwyd at y deg ddwy arall:—



m n *Iolo MSS.*

Ac yn amser Beli Mawr cynnwysai y wyddor Gymraeg un ar bymtheg o lythyrenau: y pedair newydd oeddynt,



b ff g d

Coelbren y Beirdd, td. 20.

Dywed rhai awduron, beth bynag, fod yr un ar bymtheg mewn bod yn amser Dyfnwal Moelmud [*Iolo MSS.*, td. 209]; ond tebyg mai camsyniad yw hyn, yn tarddu oddi ar y gwaith o gamgymmeryd Beli, mab ac olynwr y Deddfroddwr, am Beli ap Manogan. Yn amser hwn y galwyd hwy gyntaf yn llythyrenau. Enw arall ar yr un ar bymtheg oedd, Rhiaint—ac yn ol yr hen gyfrinach, Adar Rhiannon.

Wedi caffael y ffydd yn Nghrist, chwanegwyd dwy lythyren arall at y wyddor, nid amgen

u dd

er y dywed un awdwr [Llywelyn Sion] bod y deunaw yn adnabyddus yn amser Beli Mawr.

O dan lywodraeth y Rhufeiniaid, buwyd agos a cholli hen wyddor y Cymry: ond adferwyd hi

Digitized by Google

i raddau helaeth gan Talhaiarn, ac ar ei ol ef gan Taliesin; yr hwn, meddir, "a wnaeth drefn ar y Gymraeg o iawn ddeall ar bwyll a theilyngdod y deg llythyr gyssefin, a'r moddau a'r trafodau arnynt a'r treiglaethau teilyngion."—*Iolo MSS.*, td. 205.

Yna helaethwyd hi i ugain o lythyrenau: ac yn y dull hwnw y parhaodd hyd amser Ceraint Fardd Glas, yn y degfed canrif, pryd y chwanegwyd dwy neu dair o lythyrenau ereill.—*Iolo MSS.*, td. 204.

Erbyn hyn, yn chwanegol at y rhai a ddangosasom eisoes, yr oedd y canlynol mewn arferiad:—

v	f	ch	ll	h
w				

Daliodd i gynnyddu nes cyrhaedd deunaw ar ugain [*Iolo MSS.*, 209]; yr hwn rif a ystyrid gan Llywelyn Sion, a'i gyfoedion, fel cyflawniad y wyddor. Ni a'i cawn, beth bynag, yn myned fyth yn mlaen, ac yn amlhau nes cyrhaedd pedair a deugain o lythyrenau, er nad ymddengys fod y cwbl, os un, o'r rhai olaf hyn wedi derbyn barn gorsedd.

Yr oedd yr enw dwyfol yn cael ei ddarlunio yn wahanol, yn ol gwahanol ddadblygiadau y wyddor. Arferid ef yn ei ddull cyssefin, /|\ yn egwyddor y deg llythyren; yn egwyddor yr un ar bymtheg, dyma ydoedd, ◇IO; yn eiddo y deunaw llythyren, ysgrifenid ef fel hyn, ◇IV; ac yn ol dosbarth yr ugain llythyren, ◇IW, neu OIW yn llythyrenau yr oes hon.

Dyma restr gyfan o'r llythyrenau, neu y wyddor yn ei chyflawnder. Arddangosir yr un ar bymtheg, sef y cyssefinion, gan rifnodau:—

1	2	3	4							5		6
à	â	è	ê	i	ò	ô	ẁ	ŵ	ỳ	ŷ	ẏ	b	f	m	m

7				8	9			10			11			
f	p	ph	mh	b	ff	c	ch	ng	g	g	ng	-	t	th	nh	d

12		13		14	15	16.				
d	dd	n	n	ll	l	rh	r	s	h	wh neu chw.

Nid ydyw y llythyrenau ar y llaw ddeheu i'r rhifnod ond cyfnewidiadau o'r cyssefin. Yn hyn o beth y mae yr hen goelbren yn rhagori yn fawr ar y wyddor bresennol, o blegid yr ydym ni yn gorfod yn aml arfer yr un fath lythyren, pa un bynag ai cyssefin ai cyfnewidiad fyddo. Er anghraifft, yr ydym yn arfer *d* yn *ei dad*, yr hwn sydd gyfnewidiad o *tad*, gystal ag yn *dwr*, yr hwn sydd wreiddiol. Ond ysgrifenid y geiriau â llythyrenau y goelbren fel hyn, ◇IO, ◇◇◇, ◇◇◇, gan ddangos gwahaniaeth rhwng y ddwy *d*.

Mae Llywelyn Sion yn dywedyd nad oedd yr hen feirdd a'r dysgedigion i gyd ddim yn tori llythyrenau egwyddor y coelbren yn gyflwyrwedd, gan fod rhai o honynt yn rhoddi ambell un yn amrafaelfodd. Mae yr amrywiaeth yma, beth bynag, yn cadarnhau ei heneidd-dra, yn hytrach nag amgen; canys y mae aml anghreifftiau nad oedd awduron *cyfoesol* yn arfer unrhyw egwyddor arall yn hollol gyffelyb, a gadael heibio amrafaeliadau gwahanol oesoedd.

Y mae yr egwyddor ganlynol yn cynnwys llawer o'r amrywiaethau yr ydym wedi cyfeirio atynt.

DOSBARTH LLAWDDEN.

	a		g		r		
	â		ng		rh		
	b		h		s		
	v		i		t		
	m		l		th		
	e		ll		nh		
	ch		m		n		
	ngh		n		w		
	d		o		y		
	dd		ô		ŷ		
	e		p		y		
	ê		ph				
	f		mh				

Dywedir wrthym hefyd ddarfod i rai o'r beirdd ddodi

		yn lle			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			

		yn lle			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			
		"			

Mewn dernyn o hen ysgrif yr ydym yn darllen, "Y goreu o'r cyfan yw yr hen goelbren fal y dodwys Wilym Tew hi yn ei lyfr cerdd dafawd, a hawsaf ei thori ar goed, a lleiaf ei gwaith." Nid ydym, beth bynag, yn gwybod ei dull a'i threfn; o ganlyniad, nid allwn yma ei harddangos i'n darllenwyr.

Y mae Llywelyn Sion yn gosod o'n blaenau foddion ereill ar goelbreni a welodd efe mewn arferiad gan Meurig Dafydd, fel y canlyn:—

Digitized by Google



Amlwg yw, beth bynag, mai y lluniau symlaf yw yr hynaf. Yn mhlith y rhai hyny nid oes un linell grom neu lorweddol i'w chanfod, o herwydd nid hawdd fyddai tori y cyfryw ar wydd; ni fyddent chwaith yn ddulliadau rheolaidd o'r nod cyfrin /\.

Gallwn gael rhyw amgyffred o'r modd y lluniwyd y gwahanol lythyrenau, oddi wrth y dyb ganlynol. Golygwn y beirdd yn ystyried /\, y gair drwy ba un y daeth pob peth i fodolaeth, fel arwydd o'r greadigaeth; yna byddai y cyfryw, â'i draed i fyny, \/, fel arwydd o ddinystriad neu ddiddymiad y greadigaeth. Ac y mae yn noledig bod gan *w* y fath effaith nacaol: er anghraifft, *hwn*, yr un sydd yma; *hwnw*, yr un nid yw yma ond acw; *gwedd*, ieuawg; *gweddw*, un heb fod mwyach yn ieuawg.

Drachefn, drwy roddi y greadigaeth /\, a'r diddymiad \/—"y dechreu a'r diwedd"—at eu gilydd, gwnant ⌬, o, cylch diderfyn—arwydd o dragwyddoldeb ei hun. Y mae tuedd naturiol hefyd yn y tafod Cymraeg i roddi swn *o* i *aw*, pan ddeuant yn nghyd; megys, wyl*aw*, wyl*o*; gwrand*aw*, gwrand*o*.

Rhydd y golygiadau uchod ryw feddylddrych o'r athronyddiaeth sydd yn rhedeg trwy hen Goelbren y Beirdd. Diau nad yw y wyddoniaeth ieithegol ond eto yn ei mabandod; ond y mae trysorau mawreddog, meddir, yn aros y rhai a astudiant ieitheg gyda golwg ar yr egwyddorion dan sylw.

Gelwid hen egwyddor y Cymry yn GOELBREN o herwydd mai ar goed y cerfid neu y torid llythyrenau gan y beirdd yn yr amser gynt. Cymmerent y rhifedi angenrheidiol o goed bychain, gwnaent dair neu bedair o ochrau llyfn arnynt, ar ba rai y torent y llythyrenau; yna rhoddent benau yr ebillion hyn trwy dyllau mewn dau bost gyferbyn â'u gilydd—y cwbl yn debyg iawn o ran ei ddull a'i ymddangosiad i lidiart fechan. Byddai y penau, beth bynag, yn rhyddion yn y pyst, fel ag y gellid troi yr ebillion i ddwyn yr holl ysgrif, wrth raid, yn drefnus o flaen y llygaid. Yr enw a roddid ar y drestl dan sylw ydoedd PEITHYNEN. Rhaid oedi dysgrifiad manylach o'r dull o wneuthur y Beithynen, nes y deuwn at yr enw yn nghorff y gwaith sydd genym mewn llaw.

Ond nid yn unig awgrymau llythyr, eithr hefyd awgrymau rhif, a dorai yr hen feirdd ar goed. Yr oedd y rhai hyn, fel y llythyrenau, yn aralliadau o'r nod cyfrin, llun enw Duw, sef /\. Dyma fel y rhifent ddeg ar y tair llythyren dan sylw:—

/\ \/ /\ △

Yn lle ail ddegfed, sef cant, dodent <; yn lle trydydd degfed, sef mil, ◇; yn lle pedwerydd degfed, sef myrdd, ◈; am fyrddiwn, dodent ▷◇; am funa, ◈◈; ac o hyny yn mlaen hyd dair ◆, neu bedair neu fwy.

Modd arall o ddarlunio rhifnodau oedd fel hyn:—



1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

Dyma eto:—



1 2 3 4 5 6 7 8 9 10 11 12 13 14



15 16 17 18 19 20 21 22 23 24 25



26 27 28 29 30 40 50 60 70



80 90 100.

Modd arall ar y llythyrenau rhif,—



1 2 3 4 5 6 7 8 9 10

A'u trefnu fel uchod am fwy na deg,—



100 200 300 400 500 600 700 800 900



1,000 neu M neu 5,000 100,000 myrdd



1,000,000 eto eto.

Yr oedd yn angenrheidiol i bob bardd allu gwneuthur ei goelbren ei hun, fel y dywedir yn y *Trioedd*,—"Tri pheth y dylai Bardd eu gwneuthur â'i ddwylaw ei hun—ei GOELBREN, ei Rol, a'i Blagawd." Yn unol â'r rheol hon, dysgwylid ar i bob bardd perthynol i gadair Tir Iarll, ddangos coelbren ar bob cyfnod gorsedd. O herwydd hyny, medd Llywelyn Sion, gellid gweled coelbren yn meddiant rhai o feirdd a boneddigion Morganwg; ond y mae efe yn tystiolaethu fod yr arfer ganmoladwy o gadw y fath lyfr ar feddiant yn ei amser ef, ac yn ceryddu y beirdd yn llym am eu hesgeulusdod. Dywed yn mhellach, fod Coelbren y Beirdd yn arferedig trwy 'r dalaeth tua chan mlynedd cyn ei amser ef.

Yn amser Owain Glyndwr, yr ydym yn cael prawf o ddoethineb yr arferiad o gadw i fyny y wybodaeth am y goelbren, wedi cael gafael yn y gelfyddyd o ysgrifenu ar bapyr a phlagawd. Dywed Llywelyn Sion, i'r brenin wahardd dwyn y defnyddiau hyny i Gymru, er mwyn rhwystro "cyfeillach llythyr rhwng Cymro a Chymro, a rhwng y Cymry a chenedl gwlad ac alldir, a hyn er dial yr ochri at Owain a welid ym mhob man ym mhob dyn yng Nghymru, a gwahardd y Beirdd hefyd a'r prydyddion i gerdded eu cylchoedd, ac ymweled ar ofwy â'r teuluoedd yn eu swyddau." Y canlyniad o hyn oedd dwyn ac adfer yr hen ddull o dori ar goed; a dangosodd y Beirdd drwy y fath beth y gallent hwy droi holl goed y gelltydd yn llyfrau, ac aeth eu llenyddiaeth yn mlaen mor llyfn ag erioed gyda 'u coelbreni; a'r Seison heb wybod dim. "Wedi adgael gwybodaeth ar y coelbreni," medd Llywelyn Sion, "mynai pawb agos, gwryw a benyw, eu dysgu a'u gwneuthur, ac o hynny myned yn waith crefft gan wegryddion a basgedyddion, ac arnynt y torrid cof am bob peth a ofynai gof cadwedig llythyr a llyfr; ac fel hynny y bu hyd amser Harri y Seithfed; ac yntau yn Gymro, cymmerodd ei genedl ei hun dan nawdd ei gymmwynasgarwch, ac a'u dododd ar ei gost ei hun dan addysg myneich, a phapur a chroentrin a fynnit am ddim, a chael yn yr un a fynnit o'r ddwy iaith, nid amgen y Gymraeg a'r Seisoneg, a llawer a ddysgaint y ddwy, ac o hyny cael gwybodau llythyr yn amlach ym mhlith y werin yn Nghymru nag a'i caed yn Lloegr." —*Iolo MSS.*, td. 208.

Digitized by Google

At yr amgylchiad uchod y cyfeiria Gutto'r Glyn yn y llinellau canlynol:—

"Naddu wnai'r Awenyddion
Eu gwawd fry o goed y fron;
Heb ond ychydig, brig bron,
Yn eu hol, yn wehilion."

Y mae cyfeiriadau fwy na mwy yn nghyfansoddiadau y beirdd, o amser Taliesin i lawr, at yr arferiad o dori llythyrenau ac awgrymau ar goed. Cofnodwn rai o honynt:—

GWYDD.

"Trwy ieith ag elfydd
Rhithwch rhieddawg *wydd*." *Taliesin.*

"Talhaiarn y sydd—mwyaf y sywedydd
Pwy amgyffrawd *gwydd*—o achos ammod dydd."
Yr Un.

"Boed emendigeit i'r *gwydd*." *Gwyddno.*

"Dyn wyf heb ei ail dan *wydd*."
Ieuan Gethin.

"Hwn fydd ar *wydd* i'w hannerch."
D. ap Gwilym.

"Dyn mal gwas yn dwyn mawl *gwydd*."
Ior. Fynglwyd.

"Ti ddywedaist *wydd* odiaeth." *Edm. Prys.*

"Llawer arfer a orfydd
Llun ei gorph yn darllain *gwydd*."
Gwilym Tew.

"Ni wnai Brydydd na brawdwr
Roi *gwydd* gwell ar gywydd gwr."
Sion Tudur.

COED.

"O myn wawd orddawd arddof
Aed i'r *coed* i dori cof." *D. ap Gwilym.*

"Dug awen braff digon brau
Didlawd ar *goed* ei odlau." *Lewys Mon.*

"Ag ungair yn ogangerdd
Ni roe ar *goed* air o'i gerdd."
Rhisiart ap Rhys.

"Goreu bwnc gwr o Bencerdd
A *naddai goed* yn wydd cerdd."
Watcin Powel.

SAER

"Wyf *saer* wyf syw." *Taliesin.*

"Hawfs yw cael lle bo gwael *gwydd*
Saerni dwfn *saer* na defnydd." *D. ap Gwilym.*

"*Saer* odl am y sir ydoedd
Saer un nerth a Serion oedd."
Dafydd Benwyn.

"*Saer* yr holl fesurau *Rhol.* *Gruff. Hafren.*

"*Saer* cerdd dafawd."
Sion ap Hywel ap Lln. Frych.

"Ethryw *pensaer* yr ieithoedd,
Eithr pei byw, athraw pawb oedd."
Iolo Goch.

"*Saer* yr holl fesurau rhawg." *Lewys Daron.*

EWYALL.

"*Bwyall* arian a bioedd
Brau vlivaid ar doddaid oedd."
Llyw. M. y Pantri.

"*Bwyall* gerdd pan ballai gant
Byth *naddai* beth ni wyddant."
Lewys Mon.

"Bu *bwyall* brenn Bardd anghymmen
Yn *naddu* can i Wenllian." *Rhys Goch.*

"*Bwyall* Ruffydd Nudd a'i *naddiad*—ydoedd
Mi adwaen ei *sgythriad*." *Gruff. Llwyd.*

"Da *naddai* ef a'i *fwyall*
Dri enaid cerdd—dyrnod call." *Sion Tudur.*

PEITHYNU.

"Pan doethan deon o dineidin parth
Deetholwyd pob doeth wlat
Ynghyfryssed a Lloegr lluyd amhad
Naw ugain am un a *beithynad*." *Taliesin.*

"Dilwfr ut dilut vut veityad
Dilyw glyw glewdraws gynniuyad
Difwyr *beith* odwys *beithynyad* glud glwys
Argoedwys argleidzad." *Cynddelw.*

NADDU.

"*Naddodd* mor awenyddol,
Ni wyr neb ei ryw 'n ei ol. *L. Mon.*

"*Naddai* i ferch newydd fawl,
A'i *neddair* awenyddawl."
Ddd. Llwyd Mathew.

"Awenyddiaeth i *naddu*
Awen ber o'i enau bu." *Hywel ap Rheinallt.*

"*Naddu* am awenyddiaeth
A *choetta* 'r wyf uwch y traeth."
Sion Brwynog.

Y mae enw cyntefig prif ddoethion y Cymry, sef *Gwyddon*, *Gwyddoniaid*, yn nghyd â'u *gwyddoniaeth*, neu y wybodaeth a ddysgent, wedi eu benthyca oddi wrth yr arferiad o gerfio a darllen *gwydd*. Yn yr un modd daw *Derwydd* oddi wrth *dar* a *gwydd*; *Ofydd* oddi wrth *go* a *gwydd*; *cywydd* o *cy* a *gwydd*; *arwydd* o *ar* a *gwydd*. *Egwyddor* a *gwyddor* ydyw yr enwau a arferir hyd y dydd heddyw am lythyrenau y Gymraeg; ac felly y maent ynddynt eu hunain yn tystio am hynaflaeth y goelbren. Felly y gwna yr ymadrodd "tori ei enw," yr hwn a arferir yn gyffredin trwy Gymru am "ysgrifenu ei enw." Y mae yr enw cyssefin yn dal yn gyffredin, er i'r peth a arwyddai ar y dechreu fod wedi cael ei newid neu ei ddiwygio i raddau pell. Gall dyn yn awr *gyfarwyddo* (cyf-ar-wydd) arall drwy lyfr papyr, er na wyr ef ddim am Goelbren y Beirdd.

Ond nid ymddengys fod hen ddull y Cymry yn amrywio oddi wrth arferiad cyssefin cenedloedd ereill. Yr ydym yn darllen yn *Ezec.* xxxvii. 15—20, i air yr Arglwydd ddyfod at y prophwyd, gan ddywedyd, "Tithau fab dyn, cymmer i ti un *pren*, ac ysgrifena arno, *I Iudah*, ac *i feibion Israel ei gyfeillion*. A chymmer i ti *bren* arall, ac ysgrifena arno, *I Ioseph pren Ephraim*, ac *i holl dŷ Israel ei gyfeillion*; a *chydia* hwynt y naill wrth y llall *yn un pren* i ti; fel y byddont *yn un yn dy law di*.....Dywed wrthynt, Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Wele fi yn cymmeryd *pren Ioseph*, yr hwn sydd yn llaw Ephraim, a llwythau Israel ei gyfeillion, a mi a'u rhoddaf hwynt gydag ef, sef gyda *phren Iudah*, ac a'u gwnaf hwynt *yn un pren*, fel y byddont yn fy llaw *yn un*. A bydded *yn dy law* o flaen eu llygaid hwynt, y *prenau yr ysgrifenych arnynt*."

Yr ydym yn y fan yma yn cael dysgrifiad o ddefod tebyg iawn i'r dull Cymraeg o ffurfio Peithynen. Ac nid yn unig yn amser Ezeciel yr oedd y drefn goelbrenol yn wybyddus i'r Iuddewon, ond gallwn ei holrhain hyd at amser Moses. "Llefarodd yr Arglwydd wrth Moses, gan ddywedyd, Llefara wrth feibion Israel, a chymmer gan bob un o honynt *wialen*, yn ol tŷ eu tadau, sef gan bob un o'u penaethiaid, yn ol tŷ eu tadau, *deuddeg gwialen: ysgrifena enw* pob un ar ei wialen;" *Num.* xvii. 1, 2.

Ymddengys mai y prif ddull o ddefnyddio llythyrenau yn Groeg a'r Ital oedd eu tori ar wiail neu goed bychain, fel y gwnelai hen feirdd y Cymry.

Dywed Pliny,—"Yr oedd llyfrau coed mewn arferiad cyn amser Homer;" a chyfeiria ni am brawf o hyn at y geiriau canlynol yn nghylch Bellerophon allan o'r Iliad:—

——— Ηρεν δ' ογε ςημαια λυγρα
Γραψας εν πινακι πτυκτω θυμοφθορα πολλα.

Digitized by Google

Rhydd Plutarch a Diogenes Laertes ar ddeall i ni, fod cyfreithiau Solon wedi eu hysgrifenu ar fyrddau coed; ac A. Gellius a ddywed am danynt, — "In legibus Solonis, illis antiquissimis, quæ Athenis, axibus ligneis incisæ erant."—(*Lib.* ii., c. xii.)

Y mae Hesiod fel yn cyfeirio at y cyfryw ddefod. Yr oedd yr awenolion wedi ei ysbrydoli â llais dwyfol, fel ag yr oedd yn medru canu am a fu, neu a fyddai; a gorchymynasant iddo foli hiliogaeth y duwiau anfarwol. Ar yr un pryd, rhoddasant iddo *ffon, cangen o lawryf gwyrdd*, i *dori*, neu *naddu*, a *marcio*.—(*Theog.*, v. 30.)

Diau mai offeryn i gerfio a chofnodi testyn ei ysbrydoliaeth oedd hwn; onid e yr oedd yn rhaid bod ei ddifyrwch ef yn hynod iawn o'r dieithr.

Y mae yr awgrymau, yn y darn henaf o'r *Cofyr Amycleaidd*, yr hwn y gellir ei ystyried fel yr anghraifft henaf o ysgrifen Groeg y gwyddys am dano, yn gynnwysedig o linellau sythion ac onglau. Yr oeddynt, gan hyny, yn dra addas i gael eu tori ar wyneb neu glawr llyfn.

Gellir dywedyd yr un peth am y llythyrenau Italaidd henaf. Gwel rhif 1 a 2 o'r ysgrifeniadau a gopïwyd gan Mr. Byres, o'r ogofdai beddol yn Corneto — yr hen Tarquinii.—*Gent. Mag.*, Mehef. 1779.

Yr oedd yr unrhyw ddull mewn arferiad yn mhlith cenedloedd barbaraidd Ewrop. Cyfleai y Scythiaid eu meddylddrychau trwy farcio, neu dori rhyw ffugrau a llinellau ar ddellt neu ddarnau o goed.

Εςημαινον 'α εθελον, ειδωλα τινα και πολυειδη γραμμικα, ξεςματα εγγραφοντες, ητοι εγγλυφοντες. —(*Eustath. in Il. Z.*, td. 489.)

Y mae y Dr. Borlase [*Henaf. Cernyw*, td. 132], yn dyfynu ymadrodd, yn chwedl Gretterus, ag sydd yn dangos bod yr unrhyw ddefod mewn arferiad yn mhlith Paganiaid y gogledd. "Y ddewines, gan gymmeryd cyllell, a dorodd yr awgrymau Rhin, a elwir y *fatales Runæ*, ar *wialen*, neu *ddarn o goed*, ac a'i hirodd â pheth o'i gwaed ei hun; yna gan ganu ei gwarchanau yn y gwrthwyneb, aeth o gwmpas y ffon swynol, yn groes i fynediad yr haul, ac a ddadganodd ei holl felldithion. Yna, gan sylwi, taflodd y *wialen* yn ddefodol i'r môr, a gweddïodd ar iddi gael ei chludo i ynys *Drangoa*, a dwyn pob rhyw felldith i Gretterus."—(O *Barthol.*, llyfr iii. pen. ii. td. 661; a *Keysler*, td. 467.)

COELBREN CIL DWRN.

Hono ag sydd yn gynnwysedig o bedwar ffrist chweochrog, a llythyren wedi ei thori ar bob ochr, yr hyn a wna bedair llythyren ar ugain o gwbl, heb law a ellir yn amgen trwy wrthdrosi ffrist i ddangos llythyren amrafael; megys,



a â e ê ng c d y ŷ m

y rhai, o'u troi yn y gwrthwyneb, a wnant



w ŵ p ff ngh d dd l ll w.

Ac o'r rhai hyn, a'u dal mewn dwrn, a'u dodi yn nghyd yn ngwydd gwr o gyfrin, y gellir cynnal cyflafar mud.—[*Ysgrif.*]

COELBREN Y MENEICH.

Dywed traddodiadau y beirdd ddarfod i brif Gristionogion Prydain arfer egwyddor gymmysgedig o Goelbren y Beirdd a llythyrenau Rhufeinig, yr hon a elwir yn gyffredin "Coelbren y Meneich." Dyma hi:—



Y mae yn amlwg fod yr egwyddor hon hefyd yn hollol addas i goed, gan fod ei llythyrenau yn llymdro. Pe gwnelid eu troadau yn grynion, ni fyddai ond ychydig bach o wahaniaeth rhyngddynt a'r rhai Rhufeinig. Darfu i'r Cymry, yn hir wedi derbyn Cristionogaeth, lynu yn dyn wrth eu hen ddefodau, cyn belled ag y gallent, heb ddychwelyd i Dderwyddiaeth. Yr oedd y Meneich Cymreig yn roesawgar iawn i'r hen feirdd, ac yn eu derbyn, yn eu henaint, i ymborth eu noddfa. Y duedd hyny yn ddiammheu a achlysurodd Goelbren y Meneich. "Ac wedi caffael hon," medd Llywelyn Sion, "yr hên awduron a gymmysgynt yn eu coelbrenau beth o'r naill a pheth o'r llall o'r ddwy goelbren..... sef Coelbren y Beirdd a Choelbren y Meneich, mal y byddai yn oreu ganddynt, ac y byddai ar bwyll ac awen ganddynt."

COELFAIN.

Er mai y dull hynaf o ysgrifenu yn mhlith y Cymry ydoedd tori llythyrenau ar wydd neu goed, eto, mewn amser, a hyny yn lled gynnar, daethant i luniaw awgrymau yn yr un modd ar lechi. Dyma fel y dywedir mewn hen Ddwned, lle y cawn y cyfymbwyll canlynol rhwng Maccwy a'i athraw:—

"M. Adolwyn ar ba beth y gwnaed llythyr gyntaf, a phydoedd y modd?

"A. Ar wydd ai gwnaethpwyd gyntaf, a naddu coed yn ebillion pedrystlys, ac ar bob ystlys tori rhiniau bychain, a chynnifer rhint y bai achos lluniaw llythyr. Gwedi hyny ar garreg ysledan, a chrafu llythyr arni â chethren ddur, neu gallestren, a lle gwnaed ar wydd, Coelbren ai gelwid, ac o hynny galw rhillau y llythyrenau yn Goelbrai, a'r garreg a lythyrenid, ei galw Coelfain." Dywed Iolo Morganwg, a hyny, mae yn debyg, oddi ar awdurdodau barddonol, i Menw lunio y nod cyfrin /|\ fel hyn ar gareg a gafodd efe ar lan afon Llionwy, yr hon gareg a alwyd o'r herwydd yn Goelfaen. Y mae y golygiad yma yn rhoi yr hynafiaeth mwyaf i'r arferiad dan sylw. Y mae Coelfain yn cael ei ystyried yn y *Trioedd* fel un o'r tri dull oedd gan yr hen Gymry o gadw cof am bethau ar lythyr,—"Tri chof llith a gwyddor; Coelfain, Coelbren, a Chwrach."

COELGREFYDD. Gwel OFERGOELEDD.

COELICOLÆ. Gwel NEFADDOLWYR.

Digitized by Google

COF: un o alluoedd y meddwl, yr hwn sydd yn ein galluogi i drysori a chadw y wybodaeth yr ydym wedi ei hennill. Mae y gynneddf hon yn sail pob cynnydd meddyliol, heb yr hon ni allai un gynneddf arall weithredu i fuddioldeb. Y mae barn ac ymresymiad yn rhagdybied rhywbeth arall sydd yn adnabyddus. O drysorau y cof y mae y dychymyg yn dethol ei wrthddrychau, ac yn ffurfio ei ddelweddau newyddion. Heb y gallu hwn, ni byddem ennillwyr, er y profiad eangaf. Mae y gynneddf hon yn cynnwys dau beth: sef, gallu i gadw gwybodaeth, ac hefyd y gallu i'w galw o flaen y meddwl pan y bydd angen am dani mewn ymarferiad. Weithiau, golygir y naill neu y llall o'r rhai hyn pan ddefnyddir y gair *cof*. Ymgynnygia gwahanol wrthddrychau ein gwybodaeth o flaen y meddwl, weithiau, o honynt eu hunain; bryd arall, mewn canlyniad i ymdrech yr ewyllys. Gelwir y gweithrediad olaf hwn yn Seisoneg yn *recollection*=adgofiad, neu adgasgliad.

Un o'r cwestiynau pwysicaf mewn cyssylltiad â'r rhan hon o'n cyfansoddiad ydyw, Pa beth sydd yn peri fod y cof yn dal rhai pethau yn hytrach nag ereill? Yn mhlith y pethau aneirif sydd yn dyfod yn olynol i'n meddyliau, y mae y nifer mwyaf yn diflanu am byth, tra y mae ereill fel yn dyfod yn rhan o honom ein hunain; a thrwy y chwanegiad a wneir, y gosodir i lawr sail ein cynnydd parhaus mewn gwybodaeth. Er mwyn deall hyn, a seilio arno reolau ymarferol i gryfhau y cof, rhaid edrych ar ddibyniad y gynneddf hon ar ddwy egwyddor sydd yn perthyn i'n natur: sef, yn gyntaf, y gallu i sylwi ar, neu i ystyried peth (*attention*); ac yn ail, cyssylltiad meddyliau neu syniadau â'u gilydd (*association of ideas*). Bod perthynas agos rhwng ein gallu i gofio peth, a'r sylw a delir iddo, sydd yn amlwg i bawb. Y mae llawer o bethau yn myned trwy y meddwl heb wneyd un argraff ar y cof, o herwydd bod y sylw wedi ei sefydlu ar beth arall. Mae yn bosibl i gloc daraw yn yr ystafell lle byddom, heb i ni allu cofio, y fynyd nesaf, a glywsom ef yn taraw neu beidio. O herwydd y cyssylltiad hwn rhwng y cof a sylwadaeth, mae yn hawddach dysgu peth allan wrth wneyd ymdrech ar ol pob darlleniad i'w adrodd, nag wrth ei ddarllen laweroedd o weithiau heb wneyd ymdrech cyffelyb. Mae yr ymdrech yn deffro y sylw o'r cyflwr llwrf yn mha un nid yw yn rhoi ond derbyniad goddefol i feddyliau un arall. Y cymhorth a roddir i'r cof trwy yr arfer o sylwi a ddibyna i fesur mawr ar fedrusrwydd dyn yn troi ei sylw at wrthddrych. Mae y meddwl yn ymsefydlu heb ymdrech yn y byd bron, os troir ef at wrthddrych fydd yn cyffroi y chwilfrydedd, neu unrhyw deimlad neu nwyd arall. Mor berffaith yr ydym yn cofio gwynebau cyfeillion, ar ol blyneddoedd o absennoldeb, heb ein bod erioed wedi gwneuthur ymdrech neillduol i'w gosod yn y cof. Ar y llaw arall, os na bydd peth yn meddu rhyw ddyddordeb neillduol i ni, er i ni sylwi drachefn a thrachefn arno gyda'r dymuniad i'w gofio, ni bydd ein meddiant o hono ond tra anmherffaith wedi y cwbl. Cymmaint yw y gwahaniaeth sydd rhwng gwahanol ddynion yn eu medrusrwydd i adnabod anifeiliaid ar ol eu gweled ychydig droion! Mae y gwrthddrychau sydd yn cyffroi y teimlad yn hawddach i'w cofio—nid am fod un cyssylltiad uniongyrchol rhwng y teimlad a'r cof, ond o herwydd ei fod yn sicrhau y sylw ato.

Y mae y cyssylltiad rhwng y cof a gwahanol berthynasau ein meddyliau â'u gilydd (*association of ideas*) yn beth mor nodedig, fel y mae rhai wedi meddwl nad oes dim mewn cof ond y drefn neu y cyssylltiad sydd yn hanfodi rhwng ein meddyliau a'u gilydd. Ond y mae yn amlwg nad hyn yw y cwbl; o herwydd rhaid fod gan ddyn gynneddf i ddal y meddylddrychau, ac i'w hadnabod hefyd fel gwrthddrychau blaenorol ei sylw. Gallasai ein syniadau ddilyn eu gilydd fel yn bresennol, heb fod genym allu i'w cyfeirio bob un i'w le yn yr amser a basiodd. Ond mor wir a hyn, heb yr egwyddor neu y ddeddf sydd yn cyssylltu ein meddyliau â'u gilydd, ni buasai y gallu i ddal peth, ac i'w adnabod fel peth a fu yn bresennol i'r meddwl o'r blaen, ond o ychydig werth i ni.

Bod y fath gyssylltiadau rhwng ein meddyliau a'n teimladau ag sydd yn peri fod y naill yn dwyn y llall i'r cof, sydd amlwg hyd yn oed i'r rhai sydd wedi sylwi leiaf ar egwyddorion eu natur. Wrth deithio ar hyd ffordd y buom ar hyd-ddi o'r blaen yn nghwmni rhyw gyfaill, y mae yr hen ymddyddanion yn presennoli eu hunain eilwaith, ac yn cael eu dwyn i'n cof gan y gwrthddrychau y cyfarfyddom â hwynt. Mae y cyssylltiad sydd rhwng geiriau a'r drychfeddyliau a ddynodant, a rhwng y naill air a'r llall mewn cyfansoddiad a ddysgir allan, yn anghreifftiau o'r un ddeddf. Ar ol i amser leddfu ein tristwch ar ol marwolaeth cyfaill, mor fyw yr adgyfyd y teimlad o golled wrth ymweled â'i dŷ, myned i'r ystafell yr arferai ddarllen, ac edrych ar y gwrthddrychau a berthynent iddo. Er fod teimladau a meddyliau pawb yn ddarostyngedig i'r ddeddf hon, fod y naill yn arwain neu yn dilyn y llall yn ol rhyw gyssylltiad sydd rhyngddynt, eto y mae gwahanol ddynion yn canfod gwahanol gyssylltiadau rhwng gwrthddrychau a'u gilydd. Mae hyn yn achosi gwahaniaeth mawr yn y pethau a gofir gan wahanol ddynion. Gellir olrhain yr holl gyssylltiadau sydd yn peri fod y naill beth yn dilyn y llall yn y meddwl i ryw ychydig: megys, os bydd pethau yn agos at eu gilydd o ran amser neu le; os bydd rhyw debygolrwydd neu wrthgyferbyniad rhyngddynt a'u gilydd; os bydd y naill yn rheswm, a'r llall yn gasgliad oddi wrtho; neu os bydd un yn achos a'r llall yn effaith. Y mae y meddwl am ryw dref yn dwyn gydag ef y cof am yr eglwys, y bont, yr heol, y tai, ac yn enwedig y tŷ hwnw lle y treuliasom lawer awr ddifyr. Os awn yn ol i dymmor ieuenctyd, fe ymgyfyd o flaen ein dychymyg holl gymdeithion ein chwareuon. Mae yr esamplau yn aneirif sydd yn egluro y gwahanol gyssylltiadau a enwyd. Ond nid yr un cyssylltiad rhwng pethau a'u gilydd sydd yn tynu sylw pawb. Y mae rhai yn amlycach i'w canfod na'u gilydd; ac o ganlyniad, at y cyfryw y mae y cyffredin o ddynion yn cyfeirio eu golwg. Yn mhlith y rhai hyn y mae y perthynasau o debygolrwydd a chyfatebiaeth, ac yn enwedig y cyssylltiadau damweiniol a ffurfir trwy fod pethau yn dygwydd yr un neu yn agos i'r un amser, neu yn cydhanfodi yn yr un lle. Ond yn meddwl y dyn sydd yn sylwi yn fanylach ar bethau, y berthynas sydd rhwng achos ac effaith, neu resymau a chasgliadau, yw y cwlwm sydd fynychaf yn cydio pethau wrth eu gilydd ac yn wasanaethgar i arwain y naill y llall i'w gof. O'r gwahaniaeth hwn y cyfyd gwahaniaethau amlwg a tharawiadol yn ngweithrediad y gynneddf hon mewn gwahanol ddynion. Mae y dyn sydd yn arfer cyssylltu ei feddyliau yn ol rhyw egwyddorion sefydlog yn debycach o gadw meddiant parhaus o honynt yn ei gof, nag

Digitized by Google

wrth eu cydio yn nghyd yn unol â rhyw berthynasau damweiniol o amser neu le. Mewn ymddyddan ar faterion y dydd, dichon i ddyn sydd yn gadael ei feddwl yn agored i holl ddylanwadau y fynyd, heb amcanu cyfeirio dim a glyw nac a wel at egwyddorion cyffredinol, fod yn barotach, ac yn fwy bywiog, mewn cymdeithas gymmysg, na'r dyn sydd yn cymmeryd y drafferth i chwilio am gyssylltiadau dyfnach rhwng pethau a'u gilydd. Ond er y gall dyn meddylgar fod yn fwy hwyrdrwm ac araf yn galw gwrthddrychau ei wybodaeth eilwaith o flaen ei feddwl, eto y mae ei afael ynddynt yn fwy diogel, o gymmaint a'i fod wedi eu trefnu yn ol rhyw egwyddor benodol. Mae yn haws i ddyn sydd yn trefnu ei feddwl yn ol rhyw reol ddealladwy i roi ei law wrth raid, megys, ar yr hyn sydd arno eisieu, a dwyn allan a defnyddio ei wybodaeth yn ol ei ewyllys ei hun; tra y mae yr hwn sydd o arferion meddyliol direol dan lywodraeth damwain yn nefnyddiad ei wybodaeth yn gystal ag yn ei gasgliad Y gwahaniaeth mwyaf o bob un yn ngweithrediadau y gynneddf hon ydyw yr un a nodwyd rhwng cof damweiniol ac un dan lywodraeth rhyw reol neu egwyddor benodol. Mae pwysigrwydd y gwahaniaeth hwn i'w ganfod yn enwedig yn y goleu a rydd i ni ar y ffordd oreu o bob un i gryfhau neu i ddiwyllio y cof. Y mae gofal priodol yn gwneyd mwy tuag at gryfhad y gynneddf hon nag un gynneddf arall o'r meddwl. Mae ymarferiad yn cryfhau y cof, yr un fath ag y mae yn cryfhau pob gallu arall o eiddo y corff a'r meddwl. Ac am hyn nid oes un esboniad pellach i'w roi: felly y mae y ffaith,—ac yn ol ewyllys y Creawdwr, hon yw deddf gyffredinol ein natur. Ond heb law y cynnydd y mae y cof yn ei wneyd trwy ymarferiad, y mae hefyd yn derbyn cynnorthwy mawr trwy y dyfeisiau y mae rheswm a phrofiad yn eu cymmeradwyo i'w ddefnyddio i'r fantais oreu. Y mae pawb wedi sylwi mor anhawdd ydyw cofio elfenau cyntaf rhyw wyddorion, neu orchfygu anhawsderau dechreuol rhyw efrydiaeth; a'r rhwyddineb cynnyddol gyda pha un y mae yn gwneyd hyn fel y mae ei wybodaeth yn cynnyddu. Y mae y sylwadau a wnaed yn ein cynnorthwyo i esbonio hyn, ac hefyd i ffurfio rhyw reolau ymarferol i gynnorthwyo y cof.

1. Fel y mae rhyw efrydiaeth neu wyddor yn dyfod yn fwy cynnefin i ni, y mae ein gallu i sefydlu ein sylw ar ei gwrthddrychau yn cynnyddu; o herwydd y mae y wybodaeth a ennillasom eisoes yn rhoi dyddordeb chwanegol i ni mewn pob ffaith a phob gwirionedd newydd sydd yn dwyn perthynas â hwynt. Felly, y ffordd fwyaf effeithiol i gadw y meddwl gyda pheth, ydyw, nid trwy ymdrech uniongyrchol i orfodi y sylw ato, ond trwy ddysgu yn raddol i osod yr hyn a fynem gofio mewn goleuni sydd yn ei wneuthur yn ddyddorol i ni.

2. Ar ddechreuad rhyw efrydiaeth, yr ydym yn analluog i wneuthur y detholiad angenrheidiol rhwng y drychfeddyliau sydd o bwysigrwydd i'n hamcan; ac wrth ymgeisio at ormod, yr ydym yn methu sicrhau y cyrhaeddiadau cymmedrol hyny sydd yn fwy cyfartal i wendid ein cynneddfau. Ond fel y mae ein hadnabyddiaeth o faes ein hymchwiliad yn ymeangu, y mae ein detholiad yn myned yn fwy doeth, ac y mae ein gwybodaeth o wirioneddau buddiol yn eu cyssylltiadau priodol yn cynnyddu yn gyflym, a hyny wrth fod y sylw yn cael ei gyfeirio yn unig at bethau angenrheidiol a phwysig.

3. Mae pob gwrthddrych yn dwyn perthynas â lluaws o wrthddrychau ereill; ac yn fynych y mae pethau yn cael eu cyssylltu â'u gilydd trwy amryw o wahanol berthynasau. Yn gyfatebol, gan hyny, i luosogiad y perthynasau hyny rhwng ein drychfeddyliau a'u gilydd—yr hyn ydyw effaith naturiol gwybodaeth gynnyddol, ac yn enwedig arferion trefnus a meddylgar o efrydiaeth—y bydd yr amgylchiadau yn lluosogi yn mha rai y galwant eu gilydd i gof, ac y sicrheir hwy yn ddigoll yn y meddwl. Oddi wrth hyn, y mae yn ymddangos y bydd drychfeddwl neu ffaith yn haws i'w gofio yn ol nifer y cyssylltiadau rhyngddo a gwrthddrychau sydd yn adnabyddus i ni o'r blaen; ac y mae pob peth a ddysgir o newydd mor bell oddi wrth feichio y cof, fel y mae yn rhoi gafael sicrach i ni yn ein gwybodaeth flaenorol, os bydd rhyw berthynas rhyngddynt. Nid yn ol nifer y ffeithiau a'r drychfeddyliau newyddion yr ydym yn dysgu, a'u hystyried bob yn un ac un, y mae ein gwybodaeth yn cynnyddu—ond yn ol nifer y perthynasau sydd rhyngddynt â'u gilydd, ac â'r gwrthddrychau oedd yn adnabyddus i ni o'r blaen. Y mae gwybodaeth newydd yn gynnwysedig, nid yn unig mewn cael gwrthddrych newydd, ond yn benaf yn y gymhariaeth a wneir rhyngddo âg ereill, er mwyn canfod pa beth sydd ynddo yn gyffelyb iddynt hwy, a pha beth yn wahanol. Felly y mae ein gwybodaeth yn cynnyddu yn gyflymach na nifer y gwrthddrychau newyddion a ddaw dan ein sylw; o herwydd, po fwyaf a wyddom eisoes, mwyaf oll a ddysgwn oddi wrth bob peth a welwn.

4. Y mae nerth naturiol y cof yn cael ei gynnorthwyo yn y modd mwyaf effeithiol, trwy ddysgu trefnu ein gwybodaeth yn unol â rhyw egwyddor neu ddosbarthiad o'i wrthddrychau. Gwelir manteision trefn i gynnorthwyo y cof yn y masnachwr. Pa gynnifer o wrthddrychau sydd yn hollol dan ei lywodraeth, ac wrth ei alwad, trwy eu dosranu dan wahanol benau; y rhai nad allai byth eu cofio pe gadewid hwynt yn blithdraphlith. Gwyr pa fodd i gael pob peth sydd yn ei feddiant wrth raid: ac yn y modd yma, nid rhaid iddo chwilio ond o fewn rhyw derfynau cymmedrol iawn—mae y gwrthddrych yn sicr o fod dan ryw ddosbarthiad penodol. Yn gyffelyb, pe meddyliem am efrydydd yn rhoddi i lawr mewn llyfr bob drychfeddwl a phob ffaith y cyferfydd â hwynt wrth ddarllen, ond yn rhoi y cwbl i lawr yn ddireol fel y maent yn ymgynnyg iddo—yn mhen ychydig amser, mor anhawdd fyddai iddo wneuthur defnydd o'r trysorau anhrefnus hyn! Ond trwy ddilyn unrhyw reol yn eu dosbarthiad, mor hawdd fyddai iddo gael unrhyw ffaith neu feddwl, neu y cyfan, sydd yn dwyn perthynas â'r un mater.

5. Er mwyn sicrhau cymmaint ag a allom o'r hyn a glywom neu a ddarllenom, neu o'r hyn a syrth dan ein sylw personol, rhaid dysgu gwneyd detholiad doeth o'r pethau pwysicaf i'w cofio. Wrth ddarllen hanesiaeth, y mae o fuddioldeb mawr allu gwahaniaethu rhwng dygwyddiadau pwysig a rhai dibwys, ac nid colli y cwbl yn ein hawydd i sicrhau y cwbl. O'r diffyg o wneyd hyn, y mae dynion yn gyffredin wrth ddechreu darllen hanesiaeth yn beio ar wendid eu cof. Er mwyn dysgu cyfeirio ein sylw i'r fantais oreu, dylid, wrth ddechreu astudio unrhyw gangen o wybodaeth, ymdrechu sicrhau rhyw gydnabyddiaeth gyffredinol â phrif egwyddorion y gangen hono, yn nghyd â'r penderfyniadau mwyaf

Digitized by Google

pwysig sydd wedi eu cyrhaeddyd, a'r diffygion mwyaf sydd yn aros eu cyflawniad. Yn y modd hwn yr ymgadwn rhag colli ein hunain yn nghanol lluosogrwydd y ffeithiau unigol.

6. Y mae adolygiad mynych o'r hyn a fynem gofio yn gynnorthwy mawr. Ac y mae yr adolygiad hwn drachefn yn haws i'w wneyd ar yr egwyddor a eglurwyd; sef dosbarthu ein gwybodaeth yn unol â rheol ddealladwy. Wrth wrandaw pregeth, dysgwylir i'r pregethwr wneuthur rhyw ddosbarthiad o'i fater, pe i ddim arall ond er mwyn cynnorthwyo cof ei wrandawwyr; a pho mwyaf naturiol y byddo y dosbarthiad, hawddaf oll ydyw ei gofio. Ac os ydyw y gwrandawr wedi dysgu gwrandaw fel ag i gofio, y mae yn sicr o fod yn talu sylw neillduol i'r dosbarthiadau hyn, eu hadolygu yn ddigon mynych yn ystod yr awr, a chyfeirio pob peth y dymuna ei gofio o'r sylwadau a'r eglurhadau i'r penau cyffredinol.

7. Gan nad ydyw y meddwl mor fywiog i weithredu y gynneddf hon bob amser a'u gilydd, dylid dewis yr adegau goreu i'w hymarfer. Nid ydyw dyn yn dueddol i dalu sylw mor fanwl i beth yn union ar ol pryd bwyd; felly, nid mor hawdd ydyw trysori peth yn y cof. Dylai y corff a'r meddwl fod yn rhydd ac yn esmwyth; ac o ganlyniad, y mae unigrwydd yn fanteisiol. Cymmeradwyir yr hwyr, ychydig cyn myned i orphwys, fel adeg gymhwys i drysori yn y cof—o herwydd dystawrwydd y nos; ac hefyd fod yr argraffiadau yn cael amser i aros ychydig yn y meddwl cyn i wrthddrychau newyddion bresennoli eu hunain. Ac y mae adolygu yn y boreu, hefyd, yr hyn a ddysgwyd dros nos, yn fanteisiol iawn.

Sonia ysgrifenwyr yn fynych am *gof celfyddydol* (*artificial memory*). Yr hyn a feddylir yw, rhyw ddull i gyssylltu yn y meddwl bethau anhawdd eu cofio, gyda phethau hawdd i'w cofio. Dywedir am ferch ieuanc, iddi ddyfeisio dull o gofio y pregethau a wrandawai, trwy sefydlu ei meddwl ar wahanol ranau yr addoldai, a'u cyssylltu â gwahanol benau y bregeth yn y fath fodd ag y gellid cofio yr olaf wrth edrych ar neu feddwl am y blaenaf. Y mae hyn yn anghraifft o ddull celfyddydol o gynnorthwyo y cof, ac yn cyfateb yn hollol i'r hyn a alwai yr henafiaid yn gof celfyddydol. Ymddengys y byddai yr areithwyr henafol yn defnyddio rhyw ddyfais o'r fath i'w cynnorthwyo i draddodi eu hareithiau. Ond y cynnorthwy goreu ydyw gosod y cof a'r meddwl dan amaethiad, ac mewn ymarferiad o'r fath a ddysgrifir uchod. Gwel Brown, Dr. Thomas. —(*Stewart's Philosophy of the Human Mind*; *Reid's Essays*, argraff. Hamilton; *Encyclopædia Brittanica*; *Watts Improvement of the Mind*; *Todd's Student's Guide*; *Abercrombie*; *Chalmers*, &c., &c.)

COFIADUR—ON, [Heb. מוכיר=*mascir*; yn y Deg a Thrigain,—*αναμμησκων*, neu *υπομνηματογραφος*]: cofrestrydd, ceidwad coflyfrau. Teitl swyddog uchel yn llys breninoedd Iudah: 2 *Sam.* viii. 16; 1 *Bren.* iv. 3; 2 *Bren.* xviii. 18. Gan fod y drychfeddwl am gofio, a chofion, yn y gair Hebraeg a chyfleithiad y Deg a Thrigain, gellid meddwl fod y gair Cymraeg, *cofiadur*, yn rhagori ar y gair Seisoneg, *recorder*. Nid oes yn ein teyrnas ni un swydd sydd yn gwbl gyffelyb iddi: efallai mai swydd Arglwydd y Coflyfrau (*Master of the Rolls*) ydyw y debycaf iddi. Ymddengys, oddi wrth *Esther* vi. 1, y cadwai y tywysogion dwyreiniol greniclau dyddiol am ddygwyddiadau eu teyrnasiad.

COFLAID—EIDIO, [*cofl*=plethiad y breichiau, megys "cofl gwas diawg"]: yr hyn a gofleidir, llonaid breichiau, baich, cyfaill mynwesol. Fy nghoflaid=fy nghariad, fy anwylyd. "Da gan fam ei choflaid; *h. y.*, da gan fam ei maban. "Duw yn nghylch eich coflaid"=Duw a amddiffyno faich eich breichiau.

"'Sgrythyr Lân lydan, ni chofleidir hon,
A swynion moelion a ganmolir." *S. Tudur.*

"Ac o eisieu diddosrwydd, y cofleidiant graig;" *Iob* xxiv. 8. Cytuna hyn yn berffaith â'r hyn a ddywed Niebuhr am yr Arabiaid crwydrol, yn agos i fynydd Sinai:—"Y rhai nid oes ganddynt babell, a daflant frethyn ar bedwar neu chwech o bolion; a thaena ereill eu gorchudd yn agos i bren, neu ceisiant lechu rhag y gwres a'r gwlaw yn nhyllau y creigiau."

"Y rhai a feithrinwyd mewn ysgarlad, a gofleidiant y tommenydd" (*Galar.* iv. 5), sydd un o'r dysgrifiadau mwyaf bywiog o ddarostyngiad o gyflwr uchel a hapus i'r iselder a'r tlodi eithaf. Gorweddant ar dommenydd, yn lle ar lythau a charpedau ysgarlad fel o'r blaen. Efallai mai y cyfeiriad ydyw, eu bod yn chwilio am ryw fath o ymborth, fel y mae dynion newynog yn chwilio am dano hyd yn oed mewn tommenydd. O herwydd prinder cynnud, medd Burder, poethir ffyrnau yn gyffredin yn y Dwyrain â thom ceffylau neu wartheg. Ac y mae y bobl yn dra gofalus i gasglu llawer o hono; a rhag iddo gael ei ddyfetha yn y tymmor gwlyb, tybia Harmer ei fod yn cael ei gasglu i dai allan, yn y rhai y llochesai y crwydriaid truain y sonia y prophwyd am danynt; ac felly y gellir dywedyd am danynt, eu bod yn "cofleidio tommenydd."

COFLECH, [*cof—llech*]. Yn y cynoesoedd, cyfodid ceryg yn gofarwyddion am ryw bethau hynod a ddygwyddent. Cyfododd Iacob a Laban y cyfryw goflech ar fynydd Gilead, er coffadwriaeth am y cyfammod a wnaed rhyngddynt: *Gen.* xxxi. 46. Cyfododd Iosuah un yn Gilgal, yr hon a wnaed o geryg wedi eu cymmeryd allan o'r Iorddonen, i gadw coffadwriaeth am y mynediad gwyrthiol drwyddi (*Ios.* iv. 5, 7); a'r Israeliaid, tu hwnt i'r Iorddonen, a gyfodasant un ar lanau yr afon, fel tystiolaeth nad oeddynt ond yn ffurfio un genedl gyda'u brodyr o'r tu arall i'r afon: *Ios.* xxii. 10.

COFLYFR, [*cof—llyfr*]: nodiadyr. Ceir crybwyllion yn y Beibl am goflyfrau yn cael eu cadw gan freninoedd. Yn *Esther* vi. 1, sonir am "lyfr coffadwriaethau hanesion yr amseroedd." Dywed Bruce, am y llys Tyrcaidd,—"Y mae ger llaw y Sultan swyddog, yr hwn ydyw ysgrifenydd ei hanes; efe hefyd ydyw ceidwad y sel; ac y mae yn rhwymedig i wneyd coflyfr o weithrediadau y brenin, da neu ddrwg, heb un esboniad o'i eiddo ei hun arnynt. Y mae y coflyfr hwn, ar ol marwolaeth y brenin, yn cael ei gyflwyno i'w gynghoriaid, y rhai a'i darllenant drosodd, ac a dynant ymaith bob peth anghywir allan o hono, tra y maent yn rhoddi i mewn bob ffaith o bwys a adawyd allan, yn fwriadol neu o anghof." Y mae cyfeiriad prydferth at goflyfrau breninoedd yn *Mal.* iii. 16. Yr oedd gan Israel yn yr anialwch goflyfr, a elwid "Llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd:" *Ecsod.* xvii. 14.

Digitized by Google

COG—AU—ESAU: gwryw neu fenyw yn parotoi bwyd: 1 *Sam.* viii. 13; ix. 23; *Ezec.* xlvi. 24.

COG—AU: cethlyth y gog=gwas y gog.

"Calan Mai cain gyfrau adar,
Hir ddydd, ban cogau. *Llywarch Hen.*

Y gair Hebraeg שחף—*shachaph*, a ddygwydda yn unig yn *Lef.* xi. 16, yn enw ar un o'r adar aflan, anghyfreithlawn i'w bwyta. Gall fod yr enw Hebraeg yn efelychiad o sŵn a llais yr aderyn; o blegid y mae yr Arabiaid yn ei alw *teer-el-Yakoub*, neu aderyn Iacob, am ei fod yn ei ganiad fel pe yn adrodd enw y patriarch. Y mae Bochart a Dr. A. Clarke, yn deilliaw yr enw *shachaph* o *sachepeth=dyhoeni* neu *gwywo;* ac oddi wrth hyny yn ei gymhwyso at y forwylan—aderyn y dywedir nas gall fyned yn dew. Ond y mae hyn yn gamsyniad; o blegid y mae yr adar hyn yn gyffredin yn dew a chnawdol. Y mae Geddes yn darllen, "*the hornowl*" = y ddylluan gorniog, yn lle "*cuckowl.*" Ond y mae yn fwy tebyg mai tyb Shaw ydyw y cywiraf, yr hwn sydd yn golygu wrth y gog, y *rhaad*, neu *zaf-zaf.* Y mae yr aderyn hwn, sef y *zaf-zaf*, yn ymborthi ar rawn, ac yn myned allan yn finteioedd.

Y mae y gog gyffredin yn ymddangos yn ein gwlad ni yn gynnar yn y gwanwyn. Clywir hi gyntaf o ddeutu canol mis Ebrill, a gwna yr arosiad byraf o'r holl adar crwydrol, gan mai anfynych y gwelir hi yn ddiweddarach na diwedd Mehefin. "Y mae y math cyffredin o'r *cuculidæ*," medd Swainson, "yn dyfod atom yn gynnar yn y gwanwyn, o barth gogleddol Affrica, neu Asia Leiaf, ac yn dychwelyd yno yn y cynauaf. Gwyddom hyn oddi ar sylwadaeth bersonol; o blegid y mae nifer mawr o honynt yn cyrhaedd Sicily a Naples yn y gwanwyn, gydag adar crwydrol ereill, ac wedi aros ychydig, cyfeiriant eu mynediad tua'r gogledd." Am ei hymborth, dywed yr un naturiaethwr,—"Y mae y gog Brydeinig yn chwilio am ei bwyd yn mysg dail; ond y mae ei natur mor wylaidd, fel na buom erioed mor ffortunus a'i gweled yn bwyta." Y mae ereill, pa fodd bynag, yn tystio oddi ar ei gweled yn bwyta, mai ei hymborth ydyw y pryf cadachog, a dail-bryfaid ereill. Y mae y gog yn ddystaw am beth amser ar ol iddi gyrhaedd y wlad hon; ac amcan ei nodyn ydyw galwad i garu, yr hyn a wneir yn unig gan y gwryw, yr hwn a eistedda ar frigyn diffrwyth, gan ganu ei gân; yr hon a gyll mor fuan ag yr ä y tymmor carwriaethol heibio. Y mae caniad pob math o'r rhywogaeth mor unffurf, fel yr ymddengys fod enw yr aderyn yn mhob iaith wedi ei gymmeryd oddi wrthi. Y mae amryw o bethau hynod yn perthyn i'r gog a elwir yr *indicator*, yr hon sydd yn frodorol o Affrica. Nid oes dim yn dlws yn ei lliw; y mae yn llai na'r gog gyffredin. Y mae yn hynod o herwydd y reddf sydd ynddi yn ei chyfarwyddo i gael ymborth. Y mae yn arwain dynion a bwystfilod at gelloedd gwenyn gwylltion. Gwelir yr aderyn yn hofran am ychydig amser uwch ben rhyw fan penodol, ac yna yn cilio yn ddystaw i lwyn cyfagos. Y mae yr helwyr yn sicr o ganfod y nyth yn y llecyn hwnw, pa un bynag ai mewn coeden, hollt craig, neu yn y ddaiar. Tra y mae yr helwyr yn brysur yn cymmeryd, y mêl gwelir yr aderyn yn edrych yn ddyfal ar yr hyn sydd yn cymmeryd lle, gan ddysgwyl yn bryderus am ei ran o'r ysbail. Ac y mae yr helwyr yn ad-dalu eu caredigrwydd trwy adael rhan fechan i'w harweinydd, ond nid digon i foddloni ei awydd. Gan fod ei awydd am fwyd yn cael ei ennyn yn fwy na'i ddigoni trwy hyn, y mae yn rhwym o gyflawnu trosedd arall cyffelyb, trwy chwilio am nyth arall, mewn gobaith am gyflog gwell y tro nesaf.

COGAIL, COGEL — EILIAU, [*cog;* Gr. κογαλος—*cogalos*]: ffon, cwlbren=offeryn i ddal y llin ar y droell i'w nyddu. Gwel GWAU, a NYDDU. Yn y dysgrifiad prydferth a roddir yn y bennod ddiweddaf o'r *Diarebion*, o drefnidedd teuluaidd y wraig rinweddol, dywedir—"Hi a rydd ei llaw ar y werthyd, a'i llaw a ddeil y cogail." Ymddengys ei bod yn arferiad gynt gan ferched o fonedd uchel i drin y droell. Ceir yn *Homer* yr anghreifftiau o Penelope, Calypso, a Circe; a'r un modd mewn hen awdwyr ereill, megys Theocritus a Terence. Ac y mae yn rhyfedd fod yr arferiad hon wedi ei chadw yn Rhufain yn mysg y boneddigesau uchaf, mewn oes nwyfus a llygredig; o blegid ceir fod Augustus yn gyffredin yn gwisgo dillad wedi eu gwau gan ei wraig, ei chwaer, a'i ferch. Yn mysg yr Israeliaid, yr oedd y gwaith hwn yn nwylaw y benywod yn benaf, fel y gwelir oddi wrth yr adnod grybwylledig; ac nid ystyrid y gorchwyl yn isel gan bersonau o dras boneddigaidd: *Ecsod.* xxxv. 25; 2 *Bren.* xxiii. 7. Yn gyffredin, byddai y werthyd a'r cogail a arferai boneddigesau o ddefnydd drudfawr, a gwneuthuriad hardd. Sonia Homer, yn yr *Odyssey*, am "gogail aur," a roddodd Alcandra i Helen.

COGFRAN, [*cog—bran*]: Heb. תנשמת. *Lef.* xi. 18. Y mae yn ansicr pa aderyn a feddylir. Cyfleithir y gair yn y testyn Seisoneg, *swan;* yr un yw y gair Hebraeg yn *adn.* 30, am *mole*=wadd; yr hwn a restrir yno gyda'r ymlusgiaid, ac yma gyda'r adar dyfrol. Y mae rhai yn darllen y gair yn *adn.* 18, *ystlum.* Cyfleitha y Deg a Thrigain ef, πορφυριων=yr aderyn porphoraidd—efallai, y *flamingo;* a'r un gair yn *Deut.* xiv. 16, ιβις=yr *ibis.* Tybia Michaelis, oddi ar fod y ferf sydd yn wreiddyn yr enw



Dar. 1ᵉ 0.

Hebraeg yn arwyddo *chwythu* neu *anadlu*, mai yr ŵydd a feddylir, am fod yr aderyn hwnw, pan gynhyrfir ef, yn gwneyd chwythiad neu hysiad â'i lais.

COGWRN, [*cog—gwrn*]: unrhyw gorff crwn; afal sur; cragen gron. Cogwrn o yd = tâs fechan

Digitized by Google

o ŷd; cogwrn ŵy=plisgyn ŵy; cyw yn ei gogwrn=cyw heb dori yr ŵy.

"Yn rhostiaw——
Cygyrn ebrwydd i coeges." *T. Penllyn.*

Rhydd y Dr. Morgan, "cogwrn cynauaf," yn *Esa.* xvii. 11; lle y darllenir yn y cyfieithiad awdurdodedig, "y cynauaf yn bentwr."

COGINIAETH, [*cog*]: bwyd wedi ei barotoi. "Gwna goginiaeth;" *Ezec.* xxiv. 10: Seis., "*spice it well.*" Yma, arddangosir Ierusalem, pan warchaewyd hi gan y Caldeaid, fel crochan ar dân, a'i phreswylwyr fel yn cael eu parotoi yn ymborth i gynddaredd eu gwarchaewyr.

CONGL, [*co—ongl;* Gr. *γωνια*]: ongl, cornel, lle neilldduedig, dirgel; cwr eithaf gwlad, maes, neu adeilad: *Lef.* xix. 9; *Deut.* xxxii. 26; *Neh.* ix. 22; *Iob* i. 19. Conglau y tir, a arwydda yr holl dir: *Num.* xxiv. 17; *Ezec.* vii. 2. Dynoda y gongl, weithiau, y rhan fwyaf hynod ac amlwg; y rhan hono o adeilad sydd yn fwyaf yn y golwg: "Y gongl a ddaeth allan o hono, yr hoel o hono;" *Zech.* x. 4. Dynoda y gongl, prif swyddwyr y llywodraeth; a'r hoel, y swyddwyr israddol. Lleferir hyn am lwyth Iudah, o'r hwn hefyd y daeth Iesu Grist, "y pen conglfaen;" a chyfeirir yn y gair hefyd at amryw lywodraethwyr daionus o'r llwyth hwnw, yn amser Nehemiah a'r Maccabeaid, y rhai oeddynt, fel conglfeini, yn foddion i chwanegu nerth a diogelwch y freniniaeth. Lleferir am gongl yn mhen y tŷ fel lle anhyfryd: "Gwell yw bod mewn congl yn nen y tŷ, na bod gyda gwraig anynad mewn tŷ eang:" *Diar.* xxi. 9. Yn ystod y tymmor haf, medd Harmer, yr oedd yn beth arferol cysgu ar benau y tai, y rhai oeddynt wastad, ac yn cael eu diogelu gan ganllawiau; ac i'r dyben yma, cyflëid ynddynt ddeildai bychain, y rhai oeddynt dra dymunol yn nhymmor sych y flwyddyn; ond yr oeddynt yn dra anhyfryd pan fyddai yn gwlawio, gan y gwneid hwy yn agored i ddefni parhäus. Bod yn byw yn gwbl yn y fath le, ac heb un ystafell arall, oedd yn rhwym o fod yn hynod anghysurus. Ac at amgylchiad fel hyn, efallai, y cyfeiria Solomon yn yr ymadrodd uchod. Ac y mae y cyfeiriad yn llawer mwy perffaith a tharawiadol, trwy gyssylltu yr adnod hon â'r defni parhäus, a grybwyllir yn *Diar.* xix. 13; xxvii. 15. Mae y gair "tŷ eang," yn cael ei gyfleithu gan rai, "tŷ cyfeillach;" *h. y.*, tŷ y buasai yn rhaid bod yn sŵn a chyfeillach gwraig anynad.

Mae y gair Groeg *γωνια*, medd Robinson, yn arwyddo—1. Congl oddi allan: *Mat.* vi. 5. 2. Yr ongl fewnol: *Act.* xxvi. 26. Felly, y mae gwneyd rhywbeth mewn congl, yn arwyddo weithiau, gwneyd yn y modd mwyaf cyhoeddus; ac weithiau, cyflawnu rhywbeth mewn modd dirgel. Gweddïai y Phariseaid yn nghonglau yr heolydd; *h. y.*, yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus—lleoedd y cyfarfyddai llawer o heolydd. I'r gwrthwyneb, dywedir mai nid mewn congl—congl fewnol, dywyll—y cyfarfyddodd Iesu Grist â Phaul.

CONGLFAEN. Gelwir Iesu Grist yn "gonglfaen," a "phen conglfaen," yn y Testament Newydd (*Mat.* xxi. 42; *Act.* iv. 11; *Eph.* ii. 20; 1 *Pedr* ii. 4—6); a diammheu fod yn y lleoedd hyn gyfeiriad at eiriau cyffelyb yn yr Hen Destament: *Salm* cxviii. 22; *Ier.* li. 26; *Esa.* xxviii. 16. Y mae yn yr Hebraeg ddau air gwahanol, y rhai a gyfleithir felly gan y Deg a Thrigain: *κεφαλη γωνιας*="pen y gongl" (*Salm* cxviii. 22), a *λιθος ακρογωνιαιος* (*Esa.* xxviii. 16), a gyfleithir "conglfaen." Dynoda y gair cyntaf, nid y maen uchaf, na'r pwynt y mae y ddau fur yn cyfarfod; ond y maen mwyaf arbenig a phwysig yn y gongl. "Pen y gongl," medd Hengstenberg (ar *Salm* cxviii. 22), "bob amser yn yr Ysgrythyrau, ydyw y maen a elwir yn gyffredin genym yn 'gonglfaen' (cymh. *Iob* xxxviii. 6); yr hwn a ddefnyddir mewn lleoedd ereill yn ffugr o urddas breninol. Nid ydyw y Beibl yn gwybod dim am faen uchaf, neu faen clo. Nid oes yn y gair 'maen penaf,' yn *Zech.* x. 4, un cyfeiriad at y maen hwnw mewn adeilad: arwydda 'y prif faen,' y maen mwyaf pwysig—yn ddiammheu y gonglfaen." Yn yr ymadrodd *λιθος ακρογωνιαιος* (*Esa.* xxviii. 16), cyfeirir at faen a ddefnyddid yn nghongl neu uniad dau fur, i'w cyfrwymo yn gystal ag i ddal eu pwysau. "Yn y gair cyntaf," medd Eadie, "y mae y cyfeiriad yn fwy at sefyllfa nag at ddyben y maen." Yn *Ier.* li. 26, y mae y gonglfaen a'r sylfeini yn cael eu gwahaniaethu. Yr oedd y gonglfaen a osodid yn ongl yr adeilad yn cael ei ystyried yn fwy pwysig mewn adeiladyddiaeth ddwyreiniol na'r gareg sylfaen. Rhoddid y ceryg sylfeini i lawr yn gyntaf, y rhai a ddangosent gynllun yr adeilad; ond yr oedd yn angenrheidiol i'r gonglfaen—sef y gareg sylfaen a ddodid yn y gongl—fod yn rhagori llawer mewn maintioli a nerth ar y ceryg ereill. Y 'pen conglfaen' ydyw y brif sylfaen a osodid yn ofalus yn ongl yr adeilad, ar ba un y dibynai ac y gorphwysai y muriau a unid ganddi. Ac oddi wrth ei sefyllfa a'i swydd yn yr adeilad, gelwid hi yn 'ben y gongl.' Mor briodol ydyw y ffugr i osod allan y berthynas bwysig sydd rhwng Iesu Grist a'i eglwys! Tra y gosodai y prophwydi a'r apostolion y sylfaen, y prif faen ar ba un y gorphwysai yr adeilad—yr hwn a gynnaliai ei undeb—ydyw Iesu Grist. Heb hwn, ni byddai dim i gyfrwymo y muriau â'u gilydd. Y dyn Crist Iesu sydd yn uno ac yn cynnal yr holl eglwys. Ynddo ef y mae yr oll o grefydd yn cyfarfod. Gwybodaeth achubol ydyw gwybodaeth am dano, ac adnabyddiaeth o hono ef; ffydd gadwedigol ydyw ymorphwysiad ar y gwaith iawnol a gyflawnodd ef; gorphwysa gobaith ar ei eiriolaeth ef; ei rodd a'i ddawn ef yw yr Ysbryd Sancteiddiol; y mae yr eglwys yn un trwy gyfarfyddiad ac undeb ysbrydol ynddo ef fel canolbwnc ei holl aelodau—ei llywodraeth, oddi wrtho ef, fel ei brenin, y mae—ac ynddo ef, ei hamddiffynydd goruchel, y mae ei diogelwch. Pa un bynag, felly, a feddyliwn am farn neu ymarweddiad, addoliad neu ddysgyblaeth, ffydd neu lywodraeth, undeb neu helaethiad, efe—ei waed, ei allu, ei ddeddfwriaeth, ei wirionedd, ei bresennoldeb—ydyw y 'Pen conglfaen.'"—*Eadie on the Ephesians.*

COHATH, [קהת = *cynnulleidfa*]: mab Lefi, brawd Gerson a Merari, a thad Amram, Ishar, Hebron, ac Uzziel: *Gen.* xlvi. 11; *Exod.* vi. 18. Ffurfiai hiliogaeth Cohath un o dri dosbarth mawr llwyth Lefi. Cynnwysa y dosbarth hwn deulu yr offeiriadaeth, yr hwn a ddisgynai o Aaron, mab Amram, ac ŵyr Cohath. Penodwyd y Cohathiaid i gludo yr arch a'r llestri cyssegredig, dros ystod ymdaith Israel yn yr anialwch: *Num.* iv. 4—16; *Exod.* vi. 16. Blyneddau oes Cohath oedd dair ar ddeg ar ugain a chan mlynedd.

COL—ION: rhyw gorff yn taflu allan, pig, pentir, colyn, barf yd.

Digitized by Google

"Blina' col blaenau celyn." *Iolo Goch.*

"Beth a wna y col gyda y gwenith," ydyw cyfleithiad y Dr. Morgan o *Ier.* xxiii. 28. Yn y testyn awdurdodedig, darllenir, "Beth yw 'r us wrth y gwenith." "Yr oedd y chwanegiad hwn yn angenrheidiol; o blegid gallasai llawer wrthddadleu, a dyweyd, nad oedd ganddynt ddigon o farn i wahaniaethu rhwng y gwir brophwydi a'r rhai gau. Yma y mae Duw yn ateb, nad oedd y gwahaniaeth rhwng athrawiaeth wir ac un gau yn llai i'r hwn a wnai ymchwiliad dyfal iddynt, na'r gwahaniaeth sydd rhwng gwenith ac us."—*Calvin.* Y gwahaniaeth rhwng yr us a'r gwenith ydyw y drychfeddwl yn nghyfleithiadau y Deg a Thrigain a'r *Vulgate*, y rhai y gellir eu rhoddi yn ngeiriau y cyfleithiad Cymraeg cyffredin:—"Beth yw 'r us wrth y gwenith"= "*What is the chaff to the wheat.*" Y mae gan y Syriaeg ddrychfeddwl arall—"Pa ham y cymmysgwch yr us gyda 'r gwenith." Y cyfleithiad llythyrenol o'r Hebraeg ydyw—"Pa ham i'r us y gwenith." Y mae rhai yn barnu mai eu cymmysgiad â'u gilydd a fwriedir. Felly y dealla Blayney a Gataker, y rhai a ddarllenant, —"Beth a wna yr us gyda 'r gwenith." Y mae Venema, Henry, Scott, Lowth, a Calvin, fel y gwelir, yn cymmeryd y golygiad arall. Y drychfeddwl o wahaniaeth a gynnwysir yn y cyfleithiad Cymraeg awdurdodedig, a chymmysgiad yn nghyfleithiad y Dr. Morgan.

COLAIAH, [*llais yr Arglwydd*]: tad y gaubrophwyd Ahab: *Ier.* xxix. 21. Sonir yn *Neh.* xi. 7, am un arall o'r enw.

COLCHIS, neu COLCHOS: gwlad yn Asia, o du y deheu i Sarmatia, yn y dwyrain i'r Môr Euxine, y gogledd i Armenia, a'r gorllewin i Iberia. Hynodwyd y wlad gan ymgyrch yr Argonautiaid; ynddi hi hefyd y ganwyd Medea. Yr oedd yn ffrwythlawn o lysiau gwenwynig; a chynnyrchai lin rhagorol. Aiphtiaid oeddynt ei phreswylwyr cynteflg, y rhai a ymsefydlasant yno pan estynodd Sesostris, brenin yr Aipht, ei fuddugoliaethau i'r gogledd.

COLEG, [Seis., *College*=*Collegium;* oddi wrth y gair *colligo*=casglu neu grynoi yn nghyd]. Y meddwl llythyrenol yw, unrhyw gymdeithas neu gorff o ddynion. Arferid y gair corff (*corpus*) hefyd yn yr un ystyr; ac oddi wrth hyny, gelwid aelodau *corpus*, neu goleg, yn gorfforaeth (*corporati*). Arferid y gair *universitas* (=*university*) hefyd weithiau fel yn gyfystyr â'r gair uchod: ond yr oedd iddo hefyd ystyr mwy cyffredinol; sef, corff cynnulledig o ddinasyddion. Yn y llywodraeth Rufeinig, yr oedd coleg yn golygu unrhyw gymdeithas o ddynion o'r fath ag a ganiatäai y gyfraith, ac wedi ei chadarnhau trwy awdurdod; a gelwid hi felly yn *collegium legitimum.* Yr oedd coleg, o angenrheidrwydd, i gynnwys dim llai na thri o bersonau [*Dig.* 50, *tit.* 16, *l.* 85].

Yn gyffredin, os byddai unrhyw gymdeithas neu goleg heb feddu nawdd ac awdurdod y senedd neu yr ymherawdwr, ystyrid y cyfryw yn anghyfreithlawn. Ond wedi ei dadgorfforiad, byddai gan yr aelodau hawl i ranu eiddo y gymdeithas—i bob aelod ei ran briodol ei hun. Gelwid aelodau coleg yn *sodales.* Ni byddai o bwys beth fyddai ammodau ac amcan eu hundeb, os byddent yn anghyfreithlawn.

Yr oedd amrywiaeth mawr o golegau (a llawer o honynt yn gyffelyb i'n cymdeithasau ni) yn Rhufain, fel y mae yn hawdd gweled oddi wrth hen ysgrifeniadau a cherfiadau; megys y Collegia Fabrorum, Pistorum, Pontificum, Fratrum, Arvalium, Virorum, Epulonum, Augurum, &c. Yr oedd amryw o'r rhai hyn, megys Colegau y Pontifices a'r Augurs, o natur grefyddol. Yr oedd y colegau hyn yn meddu eiddo fel undeb corfforedig; ac yn amser yr ymherawdwr M. Antoninus, os byddent yn golegau cyfreithlawn (*collegia legitima*), gallent dderbyn cymynrodd yn eu sefyllfa gorfforedig. Wrth reswm, caniatëid i golegau feddu trysorfa gyffredinol, a chyfreithiwr, ynad, neu ddadleuwr i ymddangos ar eu rhan, ac i edrych ar ol eu hawliau a'u hiawnderau [*Dig.* 3, *tit.* 4, *l.* 1]. Y mae eu rheolau yn cynnwys, nad oedd yr hyn oedd yn ddyledus i'r coleg yn ddyledus i bob aelod unigol o hono; ac hefyd nad oedd dyledion y coleg i'w hystyried fel eiddo yr aelodau yn bersonol: y gallai hyd yn oed yr holl aelodau gael eu newid, ac eto bod y coleg yr un. Y mae hyn yn cynnwys y syniad hanfodol am gorfforaeth fel y deallir ef yn awr.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, y mae yn debyg y llanwai yr aelodau y nifer lluosocaf o'r bylchau yn eu corff eu hunain.

Yn Lloegr, corfforaeth lëygol yn cael ei chynnal trwy roddion ewyllysgar yw coleg, o'r un natur ag ysbytty—yn hanfodi fel corfforaeth, naill ai oddi ar hen ddefod, neu trwy ganiatâd y brenin. Nid ydyw o angenrheidrwydd yn lle i gyfranu addysg. Nid yw ysbytty chwaith o angenrheidrwydd yn sefydliad elusenol yn unig, ond dichon fod yn lle o ddysgeidiaeth, fel *Christ's Hospital* (ysbytty) yn Llundain. Y mae ei ffurf neillduol a'i gyfansoddiad yn dibynu ar ammodau ei sefydliad. Y mae coleg yn cynnwys prif athraw, yr hwn a elwir wrth wahanol enwau; megys cynfaer (*provost*), athraw, rheithor, penaeth, neu warden:—hefyd, corff o aelodau (*socii*), ac yn gyffredin o ysgolheigion hefyd, heb law amryw o swyddogion a gweision, yn ol natur neillduol y sefydliad. Mae coleg i fod yn gwbl ddarostyngedig i'r rheolau, y deddfau, a'r cyfreithiau y darfu i'w sylfaenydd benodi arnynt, ac hefyd i'r ymwelydd y darfu iddo ei appwyntio; ac nid i neb arall. Y mae pob etholiad, a phob peth arall o wahanol amgylchiadau y coleg, i gael eu dwyn yn maen mewn cydffurflad â'r rheolau hyny. Y mae coleg yn meddu hawl i gospi a diarddel aelod am droseddu y rheolau, yn hollol annibynol ar y llysoedd gwladol. Pan na bydd y sylfaenydd wedi nodi rhyw ymwelwr neillduol, ac heb un etifedd i ymgymmeryd â'r gorchwyl, y mae yr hawl i hyny yn dyfod i'r brenin, yr hwn sydd yn ei harfer trwy y sel fawr. Os y brenin fydd y sylfaenydd, ei olyniaid sydd i fod yn ymwelwyr.

Y mae gallu cyffredinol ymwelydd yn gynnwysedig mewn meddu hawl i farnu yn ol deddfau y coleg, i wrandaw cwynion ac appeliadau; ac os bydd rhesymau boddhaol, i ddifreintio a diarddel. Y mae ei allu penodol ef yn cael ei benderfynu gan ddeddfau y sylfaenydd: ac os bydd amgylchiadau yn dygwydd heb fod yn dyfod o fewn cylch ei awdurdod, y mae yr hawl i weithredu y pryd hwnw yn disgyn ar y brenin. Yn gyffredin, mae y deddfau yn penodi adegau yr ymweliad; ond gall yr ymwelydd ddyfod i mewn pa bryd bynag y gelwir arno, gan mai ei orchwyl ef yw gwrandaw cwynion.

Y mae achosion cyfreithiol wedi dygwydd sydd

Digitized by Google

yn profi, tra y ceidw yr ymwelydd o fewn terfynau ei awdurdod, nad yw yn gyfrifol am ei ymddygiadau, ac nad oes un appeliad i'w wneyd oddi wrtho. Nid yw yr ymwelwyr yn rhwym o weithredu yn unol â dim ffurfiau penodol; ac yn gyffredin, nid oes ond diffyg awdurdod a all eu gosod yn agored i waharddiad. Os na bydd awdurdod yr ymwelydd yn derfynol, neu wedi ei gyfyngu, y mae yn rhaid iddo wneyd fel y barno efe ei hun yn oreu ar y pryd. Os bydd y gallu i esbonio y deddfau wedi ei ymddiried i ryw berson neillduol, megys prelad yr esgobaeth, y mae hyny yn rhoddi iddo ef a'i olynwyr yr hawl o fod yn ymwelwyr. Os na bydd hyny wedi ei ymddiried yn benodol iddynt, nid oes gan etifeddion y sylfaenydd hawl i gyfnewid y deddfau; ac ymddengys, pe y brenin ei hunan fyddai y sylfaenydd, nad oes gan ei olynwyr yntau hawl i'w cyfnewid chwaith, heb ganiatâd y coleg ei hunan, os na bydd hyny yn cael ei roddi ar ddeall yn benodol yn y gweithredoedd cyntefig. Ond gyda golwg ar hyn, dylid sylwi, pan na bydd deddfau gwreiddiol y sefydliad wedi ymddiried yr hawl i gyfnewid y rheolau i etifeddion y sylfaenydd, fod y goron lawer gwaith wedi cymmeryd y gorchwyl mewn llaw, er y gellid ammheu ei hawdurdod i hyny.

Os penodir ymwelydd, nid ydyw y cangell-lys byth yn talu un sylw i drefniadau mewnol coleg; ond y mae yn arfer ei awdurdod yn mhob achos perthynol i iawn drefniad yr arian, gan ystyried eu bod, yn rhinwedd eu swydd o gyfreithwyr, yn meddu hawl i weithredu fel ymddiriedolwyr i drysorfa y coleg. Os bydd y llywodraethwyr neu yr ymwelwyr yn meddu yr hawl gyfreithiol, ac yn cael ymddiried iddynt am yr ardrethoedd, a phob ennillion, ystyria y cangell-lys hwy yn gyfrifol am y cyfryw. Mewn colegau, pan y cyssylltir sefydliad newydd âg un blaenorol, y mae i'w ystyried fel rhan o'r hen sefydliad, ac i fod yn ddarostyngedig i awdurdod yr un ymwelydd, os na bydd deddfau newyddion yn cael eu gosod i lawr yn nglŷn â'r sefydliad.

Y mae deddfau holl hen golegau Lloegr wedi eu hysgrifenu yn Lladin; ac yn wir, gyda'r eithradau o ychydig o rai mwy diweddar, y mae rheolau pob colegau yn yr iaith hono. Y mae yr eiddo Coleg Eton, Coleg y Drindod, a Choleg St. Ioan, Caergrawnt—y rhai y gellir eu hystyried fel anghreifftiau o ddeddfau sefydliadau o'r fath—wedi eu hargraffu yn *Adroddiadau Addysg Tŷ y Cyffredin*, 1818.

Y mae Meiners wedi rhoddi pennod ddyddorol iawn ar gychwyniad colegau mewn prifysgolion. Y colegau yn Mhrifysgol Paris oedd y rhai cyntaf o'r fath yn Ewrop, er mai camgymmeriad yw y dyb eu bod yn henach na'r brifysgol ei hun.

Y mae y geiriau *coleg* a *phrifysgol* wedi eu harfer yn fore yn aml fel pe baent braidd yn gyfystyr: ac y maent felly yn arferedig yn awr. Y mae rhai lleoedd anghorfforedig yn yr Unol Daleithiau, sydd yn graddio efrydwyr, yn cael eu galw yn brifysgolion, ac ereill yn golegau; er, mewn gwirionedd, nad oes un gwahaniaeth rhyngddynt. Y mae rhai o'r sefydliadau hyn, a elwir yn golegau, yn rhoddi cyfleusderau i efrydu y gyfraith, y celfyddydau, meddygaeth, a duwinyddiaeth; ac ereill, a elwir yn brifysgolion, yn cynnwys dim ond y celfyddydau, y gyfraith, a meddygaeth. Y mae rhai o'r colegau hyn, er eu bod yn graddio, eto â chylch eu haddysg yn fwy cyfyng. Os edrychwn ar gychwyniad colegau, a'u cyssylltiad â phrifysgolion, y mae yn amlwg fod arfer y geiriau hyn yn ddiwahaniaeth yn anghywir, ac yn tueddu i arwain i ddyryswch. Pan y mae coleg anghorfforedig, fel y *College of Surgeons*, Llundain, yn meddu hawl i raddio neu i roddi teitl, wedi holi yr efrydwyr mewn dim ond un gangen benodol, byddai rhyw enw arall yn llawer mwy priodol.

Y gair *athrofa* (=*academy*, *academia*)—yr hwn ydyw y mwyaf diweddar o'r holl eiriau am leoedd sydd yn cyfranu addysg o'r radd uchaf—yw y gair a arferir fynychaf am sefydliadau corfforedig a amcanant at amaethu rhyw un gelfyddyd benodol, neu un gangen neillduol o wybodaeth—pa un bynag a fyddant yn meddu gallu i raddio yn y gangen benodol hono, neu ynte hebddo. Eto, y mae y geiriau *athrofa* a *phrifysgol* wedi ac yn cael eu harfer yn ddiwahaniaeth. Y mae hanes prifysgolion Ysgotland yn dangos fod y geiriau *coleg* a *phrifysgol*, yn ac wedi amser dechreuol y sefydliadau hyn, yn cael eu harfer gydag ond ychydig iawn o wahaniaeth; ac y mae y diofalwch hwn wedi arwain i afreolaeth, ac i lawer o anhawsdra i ddeall eu hanes a'u cyfansoddiad.

Yn Ffrainc, y mae yr enw coleg yn golygu ysgol, er fod cyfansoddiad coleg Ffrengig yn dra gwahanol i'n hysgolion gramadegol ni. Y mae yn dyfod yn nes efallai i uchysgol (*gymnasium*) Germanaidd. Y mae pob tref o ddim pwys yn Ffrainc yn meddu un o'r sefydliadau hyn. Mae y dref ei hunan yn eu cynnal—a'r athrawon a'r dysgawdwyr yn derbyn eu cyflog o gyllid y cwmmwd. Y maent oll dan arolygiad Prifysgol Ffrainc. Y mae yno hefyd o ddeutu deugain o golegau breninol—a'r cyfarwyddwyr (*administrateurs*) a'r athrawon yn cael eu talu gan y llywodraeth. Y mae y *College Royal of France*, a sefydlwyd gan Francis I., yn meddu mwy nag ugain o ddarlithwyr ar y gwahanol gelfyddydau a'r ieithoedd dwyreiniol. Gwel PRIFYSGOLION, a hanes y colegau perthynol i'r gwahanol enwadau crefyddol, dan enwau yr enwadau hyny, ac o dan enwau y trefydd neu y dinasoedd y maent ynddynt. — (*Geschichte der Enstehung und Entwickelung der Hohen Schullen*, cyf. i.; *Report of the Royal Commissioners of Inquiry into the State of the Scotch Universities; Malden's Origin of Universities.*)

COLEGAU CENEDLAETHOL CYMRU. Ni a roddwn yma y manylion canlynol am y tri choleg; sef, Aberystwyth, Bangor, a Chaerdydd; gan ddechreu gyda'r cyntaf—am yr hwn y bydd raid rhoddi hanes helaethach, gan mai ynglŷn âg ef y cymmerodd y symmudiadau cyntaf le er sicrhau manteision addysg uwchraddol ar dir cenedlaethol i'r Dywysogaeth.

COLEG ABERYSTWYTH. Y mae hanes y coleg hwn yn dra dyddorol, yn gymmaint a'i fod yn hanes ymdrechion cenedlaethol o blaid addysg uwchraddol yn y Dywysogaeth. Yr oedd cyfeillion addysg, a'u harweinwyr mwyaf cenedlgarol, yn teimlo er's blynyddoedd fod arnynt angen mawr am sefydliad o'r fath, yn lle bod eu gwŷr ieuainge yn gorfod myned i golegau Lloegr ac Ysgotland i ddderbyn eu haddysg. Bu llawer o ysgrifenu ac o siarad yn gyhoeddus ar y pwnge cyn i'r symmudiad ymgorphori mewn unrhyw ffurf. Yn y fl. 1853, yr oedd amryw o weinidogion o Gymru wedi cyfarfod yn Llundain ar achos neillduol. Cymmerwyd mantais ar y cyfleusdra i ymgynnull ac ystyried y moddion goreu i ddwyn manteision addysg uwch-

Digitized by Google

raddol i gyrhaedd eu cydgenedl. Ysgrifenwyd pamphletyn hefyd ar y pwngc gan y Barnwr (Mr. y pryd hyny) B. T. Williams, yn yr un flwyddyn. Dibenodd y siarad a'r ysgrifenu yr adeg yma heb i ddim o bwys gael ei wneuthur. Yn y fl. 1862, ysgrifenodd Dr. David Thomas, Stockwell, lythyrau i newyddiadur Saesoneg a gyhoeddwyd yn y Deheubarth, ar yr angenrheidrwydd o gael prifysgol i Gymru. Tua diwedd yr un flwyddyn, ysgrifenwyd cyfres o lythyrau gan Dr. Thomas Nicholas, o Gaerfyrddin, ar yr un pwngc. Ymddangosodd y llythyrau hyn yn mhrif newyddiaduron y Dywysogaeth—Cymreig a Saesnig—a thynasant gryn lawer o sylw; a deffrowyd y wlad yn fwy nag o'r blaen at y mater. Yn ganlynol, bu gohebiaeth faith a manwl rhwng Dr. Nicholas a Mr. Hugh Owen, Llundain, ar y pwngc. A'r canlyniad fu, i'r ddau hyn wahodd Mr. George Osborne Morgan a Mr. Morgan Lloyd i ymgyfarfod â hwynt ar y 26ain o Hydref, 1863, i gael ymddiddan pellach ar y pwngc, ac i ystyried pa beth a ellid ei wneyd tuag at hyrwyddo yr achos yn ei flaen. Ysgrifenasant gylchlythyr i egluro yr amcan mewn golwg, a lledaenasant ef yn mhlith cyfeillion addysg a gwladgarwyr yn mhob man, gan eu hannog i ddyfod yn aelodau o'r pwyllgor, yr hwn oedd i gyfarfod yn Llundain ar y 1af o Ragfyr, 1863. Cafwyd cyfarfod hynod o lewyrchus y diwrnod hwnw, o dan lywyddiaeth Mr. W. Williams, yr aelod seneddol ar y pryd dros Lambeth. Addawodd y cadeirydd fil o bunnau (1,000*p.*) at yr achos. Rhoddodd hyn galondid mawr i'r cyfeillion i fyned yn mlaen yn fwy selog gyda'r gwaith; a phennodwyd Mr. Williams i fod yn drysorydd y symmudiad. Dyma y cyfarfod cyhoeddus cyntaf a gynnaliwyd o blaid y coleg. Mewn pwyllgor a gynnaliwyd ar y 9fed o'r un mis, pennodwyd ar swyddogion eraill tuag at gario y gwaith yn mlaen. Dewiswyd Dr. Nicholas yn ysgrifenydd. Ei brif waith ydoedd myned o amgylch y wlad i gynnal cyfarfodydd cyhoeddus, ymweled â phersonau unigol er mwyn cael eu rhoddion neu eu haddewidion, ac ysgrifenu llythyrau i'r newyddiaduron. Bu Dr. Nicholas yn ei swydd am bedair blynedd; ac yn yr amser hwnw, casglodd y swm o 6,913*p.* 15*s.* 9*c.*—heb law addewidion oedd i'w talu rhag llaw, yn cyrhaedd y swm o 5,453*p.* 0*s.* 5*c.*

Pryniad yr adeilad.—Am y tair blynedd cyntaf, bu y pwyllgor, o dro i dro, yn ystyried y cwestiwn, pa un ai un, ynte dau, goleg fyddai oreu mewn cyssylltiad â Phrifysgol i Gymru; a chwestiwn arall fu o dan sylw aml waith oedd, pa le yr oedd y coleg i fod? Ni ddaethant i unrhyw benderfyniad ffurfiol ar y naill gwestiwn na'r llall: ond yn hollol annisgwyliadwy i'r pwyllgor, fe benderfynwyd y cwestiwn gan Ragluniaeth drostynt; sef, mai un coleg oedd i fod, a hwnw yn Aberystwyth. Yn y fl. 1866, daeth adeilad fawr yn Aberystwyth, yr hon a fwriadesid i fod yn westty, i'r farchnad. Yr oedd yr adeilad wedi costio dros 80,000*p.*; ac er nad oedd wedi ei bwriadu at ddybenion coleg, etto ystyrid hi yn dra chyfleus at hyny, ar y cyfan. Ac ar y 6ed o fis Mawrth, 1867, prynodd y pwyllgor yr adeilad am swm a ystyrid yn bris hynod o isel; sef, 10,000*p.*

Wedi i Dr. Nicholas roddi ei swydd i fyny, ymgymmerodd Dr. David Charles, Abercarn, ar y pryd, a Threfecca cyn hyny, â'r ysgrifenyddiaeth, ar y 1af o Ionawr, 1868; a pharhaodd yn y swydd am dair blynedd. O fewn y tair blynedd hyn, casglodd y swm o 4,122*p.* 10*s.* 6*c.*, heb law addewidion heb eu talu, yn cyrhaedd y swm o 2,898*p.* 13*s.* 10*c.* Gwaith mwy anhawdd nag y mae llawer yn ei ddychymygu ydoedd casglu arian yr adeg yma, cyn i'r coleg gael ei agor; o blegid yr oedd llawer wedi myned mor anghrediniol a meddwl nad agorid mo hono byth. Ond yr oedd yn ammhossibl ei agor heb gael arian.

Ar ol i Dr. Charles ymddiswyddo, ymgymmerodd Mr. Hugh Owen—wedi hyny Syr Hugh Owen—o Lundain, â'r gwaith o gasglu arian, yn ddi-gyflog, at anghenion y coleg. Nid oes ond ychydig yn meddu y ddirnadaeth leiaf am y llafur a'r pryder dirfawr a fu hyn i'r cenedlgarwr pur a galluog am dros ddeng mlynedd. Ond llwyddodd Mr. Owen yn llawer tu hwnt i ddisgwyliadau ei gyfeillion mwyaf hyderus; fel, erbyn Mehefin 19eg, 1874, yr oedd yr holl ddyled wedi ei thalu. Efe a dreuliodd bron yr oll o'i amser, am y deng mlynedd olaf o'i oes, yn ngwasanaeth y coleg; a theithiodd amryw filoedd o filldiroedd ar ei ran yn hollol ar ei draul ei hun. Y mae Cymru yn ddyledus iawn i Mr. Owen am hyn, ac am ei holl ymdrechion eraill i ddyrchafu ei gydgenedl.

Yn nechreu haf y fl. 1872, cyhoeddodd y pwyllgor yn y newyddiaduron eu bod yn gwahodd ceisiadau am y swydd o brifathraw, gan eu bod wedi penderfynu erbyn hyn i agor y coleg yn Hydref. Daeth amryw o geisiadau i law; ond nid oedd un o honynt yn foddhaol gan y pwyllgor. Penderfynwyd cynnyg y swydd i'r Parch. Thomas Charles Edwards, A.C., o Liverpool, ar y pryd. Derbyniodd yntau hi; ac agorwyd y coleg ar y 9fed o Hydref, 1872. Ar y 15fed, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus, o dan lywyddiaeth arglwydd raglaw sir Aberteifi; sef, E. L. Pryse, Ysw., o'r Peithyll. Yn y cyfarfod hwn, addawodd Mr. D. Davies, Llandinam, y swm hardd o 3,000*p.* Crëodd yr addewid dywysogaidd hon frwdfrydedd mawr yn y cyfarfod, a chynnyrchodd awydd yn eraill tuag at gyfranu; fel, erbyn diwedd y cyfarfod, yr oedd yr holl addewidion, ynghyd â'r hyn oedd mewn llaw, yn cyrhaedd y swm anrhydeddus o 6,000*p.* Yr oedd y ffaith fod Mr. Davies, o Landinam, wedi cymmeryd at yr achos yn sicrwydd na byddai i'r coleg droi allan yn fethiant, fel y daroganwyd gan rai. Er fod amryw o gyfeillion eraill wedi rhoddi yn haelionus at y sefydliad, etto Mr. Davies oedd y penaf o honynt oll.

Nis gallwn fyned heibio heb wneyd crybwylliad am un cyfaill arall fu yn hynod o selog a gweithgar dros y coleg yn ei flynyddoedd cyntaf; sef, Mr. John Griffiths, "Gohebydd Llundain" i *Faner ac Amserau Cymru*, yr hwn a adnabyddid yn well, fe allai, wrth yr enw "Y Gohebydd." Gwnaeth fwy nag y gall llawer feddwl dros y coleg drwy y *Faner*, pan yr oedd difaterwch mawr yn mynwes rhai, a rhagfarn cryf yn mynwesau eraill, tuag at y sefydliad. Arian ac aur nid oedd ganddo ef ei hunan; ond yr oedd yn gallu dylanwadu yn rhyfedd ar y rhai oedd yn eu meddu—a gwnaeth hyny.

Ar agoriad y coleg, nid oedd ond tri athraw; sef, y prifathraw—yn dysgu yr iaith a llenyddiaeth Saesnig, iaith a llenyddiaeth Groeg, ac athroniaeth foesol; un arall, yn dysgu yr iaith Lladin a'i llenyddiaeth, ynghyd â hanesyddiaeth Rhufain; a'r llall yn dysgu y gelfyddyd o rif a mesur (*mathematics*) yn ei holl ranau. Yn raddol, chwanegwyd y canghenau canlynol at y

Digitized by Google

rhai a enwyd; sef, gwyddoniaeth naturiol yn ei hamrywiol ganghenau; a'r ieithoedd hyn—sef, y Gymraeg, yr Ellmynaeg, Ffrangcaeg, Italaeg, Hebraeg, Arabaeg, Syriaeg, a'r Sanscrit, a'u llenyddiaeth. Chwanegwyd nifer yr athrawon hefyd yn y pyngciau uchod—y prifathraw yn cymmeryd Groeg yn unig. Yn awr (1889), y mae yn y coleg bedwar-ar-ddeg o athrawon, a thri athraw cynnorthwyol.

Derbyniwyd 25 o fyfyrwyr i'r coleg o Hydref hyd Rhagfyr, 1872. Derbyniwyd 34 yn chwanegol yn nechreu Ionawr, 1873; a daeth 4 yn rhagor i mewn yn mis Ebrill: felly, bu 63 o fyfyrwyr o dan addysg y flwyddyn gyntaf. Yn y daflen ganlynol, ceir nifer yr efrydwyr fuont dan addysg bob blwyddyn hyd yn awr (1889). Dylid cofio nad ydyw y rhestr hon yn cynnwys yr efrydwyr a fu yn dysgu cerddoriaeth, na'r efrydwyr fu yn dilyn y dosbarthiadau a gynnaliwyd wedi nos, er mwyn dynion ieuaingc mewn masnach, &c., yn y dref. Yr oedd nifer yr efrydwyr fel hyn:—yn 1872—3, 63; 1873—4, 70; 1874—5, 93; 1875—6, 84; 1876—7, 85; 1877—8, 75; 1878—9, 84; 1879—80, 70; 1880—81, 73; 1881—2, 75; 1882—3, 93; 1883—4, 100; 1884—5, 135; 1885—6, 160; 1886—7, 161; 1887—8, 169; ac yn 1888—9, 200.

Ar yr 20fed o fis Ionawr, 1875, pennodwyd Arglwydd Aberdâr yn llywydd y coleg; ac y mae wedi llanw y swydd o hyny hyd yn awr.

Bu cerddoriaeth yn cael ei dysgu yn y coleg am bum mlynedd; sef, o Hydref, 1874, hyd Mehefin, 1879, gan Dr. Joseph Parry (*Pencerdd America*), yn awr o Gaerdydd.

Derbyniwyd merched yn efrydwyr am y waith gyntaf yn mis Ionawr, 1884. Yr oedd merched wedi bod yn efrydwyr cerddorol cyn hyny; ond o'r amser hwn allan, y mae holl fanteision y coleg wedi bod yn agored i'r naill ryw fel y llall, yn ddiwahaniaeth; ac er nad ydyw yr amser ond byr, y mae 5 o honynt wedi graddio yn Mhrif Athrofa Llundain.

Cymmhorth arianol gan y llywodraeth.—Gwnaed llawer cais aflwyddiannus am hyn. Y cais cyntaf a wnaed ydoedd ar yr 8fed o Ebrill, 1871. Credai rhai cyfeillion nad oedd yn ddiogel agor y coleg heb i gynnorthwy y llywodraeth gael ei sicrhau. Modd bynag, gan fod y llywodraeth wedi gwrthod y cais, penderfynwyd myned yn mlaen, a'i agor heb y cymmhorth hwn. Ffurfiwyd trysorfa, a elwid yn *guarantee fund.* Y bwriad mewn golwg ydoedd casglu y swm o 2,000*p.* yn y flwyddyn am dair blynedd tuag at dalu cyflogau yr athrawon, a threuliau eraill perthynol i'r coleg. Nid yn unig llwyddwyd i gasglu y swm angenrheidiol i gyfarfod â'r treuliau bob blwyddyn, ond casglwyd digon i orphen talu am yr adeilad. Ar ddiwedd y tair blynedd hyn (1872—1875), gwnaed ail gais at y llywodraeth. Mehefin 15fed, 1875, ymddangosodd dirprwyaeth ddylanwadol o flaen y Duc o Richmond, i osod sefyllfa ac angen y coleg ger ei fron. Bu y cais hwn etto yn aflwyddiannus. Er hyny, penderfynodd y pwyllgor fyned yn mlaen, a ffurfio trysorfa arall, a elwid yn *sustentation fund;* sef, casglu 2,000*p.* y flwyddyn tuag at ei gynnal am dair blynedd yn rhagor—o 1875 i 1878; gan obeithio, erbyn hyny, y ceid cymmhorth. Casglwyd yr arian yn ystod y tair blynedd hyn ar gynllun gwahanol i fel y gwnaed yn y tair blynedd cyntaf. Cafwyd yr arian hyny gan bersonau unigol; ond am yr ail dair blynedd, gwnaed casgliadau cynnulleidfaol ar Sabbath arbenig yn holl addoldai yr Ymneillduwyr yn y Dywysogaeth, a chapeli Cymreig trefydd Lloegr. Gwnaed y casgliad mewn ychydig o eglwysydd hefyd. Cyrhaeddodd yr holl gasgliadau, o fewn y tair blynedd hyn, y swm o 8,878*p.* 1*s.* 10*c.*; a chredai Mr. Hugh Owen, yr hwn a ofalai am y cyfrifon, fod dros gan mil (100,000) o bersonau wedi cyfranu symiau o dan hanner coron at yr amcan. Yr oedd hyn yn profi fod y rhan fwyaf o lawer o'r arian wedi eu cyfranu gan weithwyr Cymru; ac felly, y gellid galw y coleg hwn, mewn modd neillduol, yn "Goleg y Werin Gymreig." Bu chwarelwyr Ffestiniog, a chwarelwyr cymmydogaethau Deiniolen a Dinorwig, yn cyfranu eu sylltau a'u ceiniogau yn flynyddol tuag at ffurfio ysgoloriaethau i gynnal bechgyn ieuaingc o'r ardaloedd hyny yn y coleg.

Ar y 18fed o Orphenaf, 1877, gwnaed y trydydd cais am gynnorthwy; pryd yr aeth dirprwyaeth, yr ail waith, at y Duc o Richmond. Profodd hwn etto yn aneffeithiol. Gorphenaf 1af, 1879, daeth Mr. (Syr yn awr) Hussey Vivian â'r cynnygiad hwn ger bron Tŷ y Cyffredin; sef, "Ei bod yn ddyledswydd ar y llywodraeth i ystyried y moddion goreu i gynnorthwyo addysg uwchraddol yn Nghymru." Gwrthwynebwyd ef gan y llywodraeth Geidwadol, yr hon oedd mewn awdurdod ar y pryd, a chollwyd y cynnygiad trwy fwyafrif o 51; sef 105 yn erbyn 54. Pan ddaeth y Rhyddfrydwyr i awdurdod, yn y fl. 1880, pennodwyd Pwyllgor Dosbarthol (*Departmental Committee*), yn gynnwysedig o Arglwydd Aberdâr, yn gadeirydd; Is-iarll Emlyn, A.S.; y Parch. Gôr-beriglor Robinson; Mr. Henry Richard, A.S.; y Proffeswr Rhys; a Mr. Lewis Morris, A.C., i fyned drwy y wlad i chwilio i ansawdd, ac angen, addysg uwchraddol yn Nghymru. Yn eu hadroddiad, hwy a annogasant y llywodraeth i sefydlu a chynnorthwyo dau goleg—un ar gyfer anghenion y Deheubarth, a'r llall ar gyfer angen y Gogledd. Pennodwyd tri o ddirprwywyr gan y llywodraeth i dderbyn tystiolaethau oddi wrth y bobl gyda golwg ar leoliad Coleg y Gogledd, ac i benderfynu yn mha le y sefydlid ef. Ac yr oedd tri chwestiwn yn cael eu gofyn; sef, yn (1) A dderbynid Coleg Aberystwyth, fel yr oedd, gan y Gogledd? Neu, yn (2), A symmudid ef i ryw dref arall yn y Gogledd? Neu, yn (3), A sefydlid coleg arall yn hollol annibynol arno?

Ar y 23ain o Ionawr, 1883, cyfarfu nifer fawr o foneddigion o wahanol siroedd y Dywysogaeth mewn cynnadledd yn Nghaerlleon, i ystyried pa beth y gellid ei wneyd i gyfarfod cynnygion y llywodraeth, ac i ystyried pa foddion y gellid eu defnyddio i ddwyn cynghorion y pwyllgor i ymarferiad. Ar ol siarad maith a chynnhyrfus, pennodwyd pwyllgor, i ystyried yn mha drefi y dylai y ddau goleg gael eu sefydlu. Yr oedd Caerdydd ac Abertawe yn awyddus am gael Coleg y Deheu; a barnwyd mai gwell oedd cyflwyno yr achos i dri o foneddigion i'w benderfynu; sef, Arglwydd Carlingford, Arglwydd Bramwell, a Mr. Mundella. A phenderfynasant o blaid Caerdydd.

Yr oedd tair-ar-ddeg o brif drefi yn ymgystadlu am Goleg y Gogledd hefyd. Cyflwynwyd yr achos i'r un boneddigion i'w benderfynu; ac ar Awst 24ain, penderfynasant o blaid Bangor.

Yn ol y penderfyniad hwn, gadawyd yr hen goleg yn Aberystwyth i ymdaro oreu y gallai. Cynnyrchodd hyn gydymdeimlad dwfn trwy yr

Digitized by Google

holl wlad ato; a chynnaliwyd llawer o gyfarfodydd cyhoeddus o'i blaid. Anfonwyd deisebau i'r senedd ar ei ran, oddi wrth gymmanfaoedd, cyfarfodydd undebol, cynghorau trefol, byrddau ysgolion, byrddau gwarcheidwaid, &c., drwy holl Gymru. Bu y llywodraeth yn dra chyndyn i wrandaw ar eu llais; gan ddadleu eu bod hwy eisoes wedi gwneuthur yr hyn a ofynwyd ganddynt; sef, gwaddoli dau goleg—ac nad oedd angen ar Gymru am dri. Ni dderbyniai y wlad yr attebiad hwn; ond daliodd ati i godi ei llais yn uchel ac yn effeithiol. Y canlyniad fu, i Goleg Aberystwyth dderbyn cymmhorth llai, a hwnw yn ammodol, ac am dymmor; sef, 2,500*p.* y flwyddyn, yn Ebrill, 1884. Amcan y cymmhorth hwn ydoedd edrych a fyddai yr hen goleg yn alluog i ddal ei dir yn ngwyneb cystadleuaeth y ddau goleg newydd. Profodd ei hun yn ddigon cryf i sefyll, a chwanegodd ei nerth, er yr anfantais o orfod ymgystadlu, gyda dwy fil a phum cant, yn erbyn colegau Bangor a Chaerdydd, y rhai a dderbynient bedair mil o bunnau bob un. Parhaodd y cymmhorth a nodwyd uchod i Goleg Aberystwyth hyd fis Hydref, 1885; ond o hyny hyd yn awr, y mae yn derbyn 4,000*p.* y flwyddyn, fel y ddau goleg arall.

Yr oedd yn agos i drigain mil o bunnau (60,000*p.*) wedi eu cyfranu at y coleg o'r dechreuad, cyn iddo dderbyn un cymmhorth gan y llywodraeth.

Ychydig o funydau cyn hanner nos, ar Gorphenaf 8fed, 1885, torodd tân allan yn y *chemical laboratory.* Er nad ydoedd ond bychan ar y cyntaf, ymledodd yn gyflym, er gwaethaf yr ymdrechion mwyaf egnïol i'w attal; ac erbyn chwech o'r gloch boreu dranoeth, yr oedd yr oll o'r rhan ogleddol o'r adeilad fawr—sef, y rhan nesaf at y dref—wedi ei lwyr losgi. Ni welwyd erioed fwy o ymdrech ac o ewyllysgarwch nag a ddangoswyd ar yr adeg yma gan drigolion y dref. Ond yn anffodus, nid oedd y dref, y pryd hwnw, yn feddiannol ar beiriant effeithiol tuag at ddiffodd y fath dân. Llwyddwyd i achub yr holl lyfrau allan o'r llyfrgell, ynghyd â holl gynnwys yr amgueddfa. Yr oedd y digwyddiad difrifol hwn yn brofedigaeth lem anarferol i holl gyfeillion y coleg, a chynnyrchodd gydymdeimlad dwfn iawn â'r sefydliad. Penderfynodd y cynghor ar unwaith ardrethu y gwestty mwyaf oedd yn y dref i gario gwaith y coleg yn mlaen, hyd nes y ceid amser i ail adeiladu. Y cwestiwn fu o flaen y cynghor yr adeg yma oedd, pa un a wneid, ai adeiladu y coleg ar ei hen safle, ynte ei symmud i ryw fan cyfleus, y tu allan i'r dref. Gan fod y rhan fwyaf o'r muriau allanol yn sefyll, ystyrid y byddai yn rhatach i'w ail adeiladu ar ei hen safle. Cynlluniwyd yr adeilad fel y mae yn awr yn bwrpasol at ddybenion coleg; ac felly, y mae yn llawer iawn mwy cyfaddas i'r amcan nag o'r blaen. Yr oedd y draul o'i ail adeiladu yn agos i 25,000*p.*

O'r cychwyniad hyd yn awr (1889), y mae 186 o'r efrydwyr wedi myned yn llwyddiannus drwy yr arholiad cyntaf, a elwir *matriculation,* a 99 wedi myned trwy yr ail arholiad, a elwir *intermediate,* yn Mhrifysgol Llundain; ac y mae 95 wedi graddio yn y gwahanol athrofeydd. Y mae lliaws o'r hen efrydwyr yn awr yn llanw lleoedd pwysig mewn byd ac eglwys.

Ar y 10fed o fis Medi, 1889, cafwyd breinlen (*charter*) i'r coleg; a phenderfynodd y llywodraeth, er fod rhai perthynol i'r colegau eraill yn gwrthwynebu hyny, fod y sefydliad i gadw yn y dyfodol ei hen enw; sef, "Coleg y Brifysgol i Gymru, Aberystwyth."

COLEG BANGOR—yr hwn a adwaenir hefyd wrth yr enw "Coleg y Gogledd." Agorwyd y sefydliad Hydref 18fed, 1884, gan Mr. Mundella, ar ran y llywodraeth, ac Arglwydd Aberdâr fel llywydd y pwyllgor y cyfeiriwyd ato yn barod. Yn Mehefin y flwyddyn ganlynol pennodwyd y proffeswyr, a Mr. Henry R. Reichel, M. A., yn brifathraw. Cafwyd prydles gan Arglwydd Penrhyn ar yr adeilad fawr yn yr hon y mae y gweithrediadau yn cael eu cario yn mlaen yn awr, a gwnaed llawer o gyfnewidiadau ynddi i'w chymmhwyso at y gwaith.

Cyfranodd pob dosbarth o drigolion y Gogledd, yn ol eu gallu, tuag at y sefydliad ar y dechreu gyda pharodrwydd mawr. Agorwyd y rhestr o danysgrifiadau yn nechreu 1883, pan y tanysgrifiodd saith o foneddigion 1,000*p.* bob un. Mewn deuddeng mis, yr oedd y rhestr wedi cyrhaedd dros 30,000*p.*; ac erbyn diwedd 1884, yr oedd y swm dros 37,000*p.* Ffaith hynod ydyw, fod y tanysgrifiadau at golegau Bangor a Chaerdydd, erbyn diwedd 1884, yn mron yr un faint a'u gilydd.

Yn yr eisteddiad cyntaf (sef am 1884—5) yr oedd 58 o efrydwyr:—yn yr ail (1885—6) yr oedd eu nifer yn 90:—yn y trydydd (1886—7) yr oeddynt yn 127:—yn y pedwerydd (1887—8) rhifent 124:—ac yn y diweddaf (1888—9), eu nifer oedd 98. Yn 1888—9, yr oedd aelodau y dosbarthiadau a gynnelir gan y coleg mewn ardaloedd y tu allan i Fangor yn rhifo 484. Yn ystod pum mlynedd ei fodolaeth, y mae 126 o efrydwyr y coleg hwn wedi myned yn llwyddiannus drwy arholiadau Prifysgol Llundain—2 wedi cymmeryd y gradd o M.A.; 10 wedi pasio arholiadau Edinburgh; 1 arholiadau Glasgow; a 2 wedi ennill Ysgoloriaethau Whitworth.

Yn mis Tachwedd, 1888, derbyniodd y coleg hwn rodd o 200*p.* i'w gynnorthwyo i weinyddu addysg amaethyddol—allan o swm o 5,000*p.* a roddwyd gan y senedd i'r amcan hwn. Ffurfiwyd pwyllgor i ystyried pa beth y gellid ei wneyd gyda'r rhodd; a phenderfynwyd sefydlu ysgolion i ddysgu y modd goreu i drin llaeth ac ymenyn, ac i wneyd caws, &c., mewn cyssylltiad â'r coleg yn y trefi canlynol:—Trefaldwyn, Dinbych, a Bangor. Agorwyd adran amaethyddol yn y coleg ar ddechreu yr eisteddiad presennol (Tachwedd, 1889), yn yr hwn y bwriedir estyn pob manteision i efrydwyr yn y gelfyddyd amaethyddol.

Y mae ynddo yn awr, ar ddechreu 1890, naw o broffeswyr yn gweinyddu addysg yn yr ieithoedd, a'r prif ganghenau eraill; tri o ddarlithwyr; a phedwar o athrawon cynnorthwyol.

COLEG CAERDYDD. Adwaenir y sefydliad hwn wrth yr enw "Coleg Deheudir Cymru a sir Fynwy." Agorwyd y coleg yn Hydref, 1883, o dan lywyddiaeth Arglwydd Aberdâr, hwn sydd wedi bod yn llywydd arno hyd yn bresennol. Ei brifathraw, er ei sefydliad, ydyw Mr. J. Viriamu Jones, M.A., B.SC. Perthyna iddo yn awr (1889) naw o broffeswyr ar y prif ganghenau o addysg, a chwech o ddarlithwyr, &c., ar ganghenau eraill. Y mae canolrif ei efrydwyr dyddiol o'r dechreu yn 150; ac yn y flwyddyn bresennol, y mae eu nifer yn 165.

Digitized by Google

Ffaith ddymunol yn hanes y sefydliad ydyw, fod 140 o'i efrydwyr wedi myned yn llwyddiannus drwy yr arholiadau yn Mhrifysgol Llundain er ei sefydliad, allan o gyfanrif o tua 500. Y mae y coleg yn agored i ferched, yn gystal a meibion. Ymddengys fod y gwahanol ystafelloedd, a'u dodrefn, lle y rhoddir addysg ymarferol ar fferylliaeth, &c., mewn cyflwr boddhaol. Y mae yr awdurdodau yn penderfynu sefydlu Ysgol Feddygol ac Ysgol Beiriannol, a pharhau i chwanegu at fanteision y coleg yn barhaus.

Derbyniwyd cyfraniadau haelionus tuag at sefydliad y coleg, fel y gwelir oddi wrth y ffigyrau canlynol:—Cyfranodd yr Ardalydd Bute 10,000*p.*, a Chynghor Trefol Caerdydd 10,000*p.* arall. Derbyniwyd 1,000*p.* gan naw o bersonau eraill; a llawer o symiau o 500*p.* i lawr; fel y cyrhaeddodd y cyfraniadau mewn deuddeng mis, o Ionawr 23ain, 1883, pan yr agorwyd rhestr y tanysgrifiadau, dros 30,000*p.* Erbyn diwedd 1884, yr oedd yr holl gyfraniadau dros 37,000*p.*—yn cynnwys dros 2,000*p.* oddi wrth chwarelwyr, a chrefftwyr, a gweithwyr eraill.

SYLWADAU CYFFREDINOL.

Derbynia y tri choleg, fel y dywedwyd, ferched, yn gystal a meibion; a hyny pan yn 16eg oed. Cyfrenir addysg ynddynt yn yr holl ganghenau fydd yn angenrheidiol i'w parotoi ar gyfer arholiadau Prifysgol Llundain am raddau yn y celfyddydau; a'r rhan fwyaf o'r hyn a ofynir gan ferched yn arholiadau Prifysgol Rhydychain; ynghyd â'r arholiadau meddygol cyntaf yn mhrifysgolion Edinburgh a Glasgow.

O herwydd y manteision ammherffaith sydd yn Nghymru i ddynion ieuainge gyrhaedd addysg ganolraddol, y mae Coleg Bangor yn cyfyngu hanner ei ysgoloriaethau i ymgeiswyr Cymreig o'r ddau ryw. Y mae cangen Gymreig yn llyfrgell pob un o'r tri choleg; pa rai y gobeithir y gellir eu ehangu yn fawr, er eu gwneyd yn fanteisiol i efrydwyr mewn hanesiaeth a llenyddiaeth Gymreig.

Gwnaeth y colegau uchod oll gryn wasanaeth i addysg yn ei gwahanol ganghenau, trwy anfon rhai o'u proffeswyr i draddodi darlithiau ar seryddiaeth, llysieuaeth, fferylliaeth, amaethyddiaeth, daearddraith, &c., i amryw drefydd yn y gwahanol siroedd.

Nis gellir ffurfio un ddirnadaeth am werth y manteision a dderbyniodd Cymru yn barod oddi wrth y tri choleg: ac y mae yn eglur, oddi wrth y ffeithiau uchod, eu bod oll yn cael eu gwerthfawrogi yn fawr. Hyderwn y bydd eu manteision yn myned ar gynnydd parhaus, a gwerthfawrogiad y genedl o honynt yn cynnyddu hefyd.

COLEGAU ENWADOL CYMRU. Y maent yn rhifo naw o gwbl; sef, tri gan yr Annibynwyr—yn Aberhonddu, Bala, a Bangor: tri gan y Bedyddwyr — yn Hwlffordd, Llangollen, a Phont-y-pool: un gan yr Eglwys Sefydledig—yn Llanbedr Pont Stephan: a dau gan y Methodistiaid—yn Bala, a Threfecca. Nid oes gan y Wesleyaid un coleg o fewn y Dywysogaeth. Addysgir pregethwyr ieuainge eu cyfundeb hwy yn Didsbury neu Richmond.

Ni a roddwn y manylion canlynol am danynt, gan eu gosod yn ol trefn y wyddor:—

COLEG COFFADWRIAETHOL ANNIBYNOL ABERHONDDU (*Congregational Memorial College, Brecon*). Y rheswm dros yr enw hwn yw, ei fod yn olrhain ei darddiad, fel Coleg Caerfyrddin, yn ol mor bell a'r athrofa Anghyffurfiol gyntaf yn Nghymru—yr hon a agorwyd yn Brynllywarch, yn agos i Ben-y-bont-ar-Ogwy (*Bridgend*), yn fuan ar ol y flwyddyn fythgofiadwy pan y trodd y ddwy fil allan o'r Eglwys Sefydledig, yn 1662. Bu y coleg dan lywyddiaeth y Parch. Samuel Jones, M.A., am lawer o flynyddoedd, yr hwn a fuasai am ryw gymmaint o amser yn athraw yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain. Y mae y sefydliad parchus hwn, er ei fod wedi symmud o'i gartref cyntaf, ac o'r naill fan i'r llall ar ol hyny, wedi parhau, dan bob cyfnewidiad, i anfon allan ei gyfran o weinidogion galluog i wasanaethu yr eglwysi Ymneillduol.

Y mae y coleg hwn hefyd yn hawlio cyssylltiad â'r Athrofa Ymneillduol yn Tewkesbury; yr hon, yn ol Fitzgerald, golygydd "Cyfattebiaeth Butler" ("*Butler's Analogy*"), a allai rifo yn mysg ei hysgolheigion lawer o enwau a roddent anrhydedd ar unrhyw brifathrofa yn ngwledydd Cristionogol y byd. Yn eu mysg yr oedd Jeremiah Jones, yr awdwr galluog ar "Ganon y Testament Newydd;" Nathaniel Lardner, yr hwn oedd yn feddiannol ar farn ddidwyll ac ammhleidgar, ac a arddangosodd y fath amynedd yn ei ymchwiliadau, ag a wnaeth ei goffadwriaeth yn barchus yn ngolwg holl garedigion gwirionedd a llenyddiaeth; Maddox, ar ol hyny esgob Worcester; Arglwydd Bowes, Canghellydd yr Iwerddon; Samuel Chandler, amddiffynydd galluog Cristionogaeth, a dadleuydd gwrol dros Oddefiad; Secker, penadur Eglwysig Lloegr oll; a'r diweddaf, ond nid y lleiaf—Butler, esgob Durham, awdwr anfarwol "Cyfattebiaeth Crefydd Naturiol a Dadguddiedig i Gyfansoddiad a Chwrs Natur." Cafodd yr hen athrofa Ymneillduol hon, oedd mor hynod am ei chylch disglaer o efrydwyr, ei huno â Choleg Caerfyrddin yn 1719, pan yr oedd y coleg hwnw dan gyd-lywyddiaeth Bwrdd y Presbyteriaid a Bwrdd Trysorfa y Cynnulleidfaolwyr.

Yn y flwyddyn 1755, penderfynodd y bwrdd diweddaf ymneillduo oddi wrth y sefydliad hwnw, o herwydd nodwedd anefengylaidd yr addysg a gyfrenid ynddo. Symmudwyd yr efrydwyr uniawngred i Abergafenni; a gosodwyd hwynt dan ofal y Parch. David Jardine. Parhawyd yr athrofa yn y dref hono dan ofal Dr. Benjamin Davies. Ar ol hyny, symmudwyd hi i Groesoswallt, lle y bu dan ofal Mr. Edward Williams—ar ol hyny Dr. Williams, o Rotherham—gŵr genedigol o Ddyffryn Clwyd, yn sir Ddinbych. Yn 1791, rhoddodd Mr. Williams ei swydd i fyny; ac am yr ugain mlynedd dilynol, cafodd yr athrofa ei chario yn mlaen yn Ngwrecsam, dan ofal y Parch. Jenkin Lewis. Dilynwyd Mr. Lewis gan Dr. George Lewis; a chydag ef, symmudwyd yr athrofa, yn 1816, i Lanfyllin; ac yn 1821, symmudwyd hi i'r Drefnewydd, yn sir Drefaldwyn. Bu Dr. Lewis farw Mehefin 5ed, 1822, a dilynwyd ef gan y Parch. Edward Davies, M.A.

Hyd y flwyddyn 1836, derbyniai yr athrofa ei holl gynnaliaeth o drysorfa y Bwrdd Cynnulleidfaol yn Llundain. Yn y flwyddyn hono amlygodd y bwrdd ei benderfyniad i attal ei gynnorthwy, os na byddai i eglwysi Cynnulleidfaol Cymru ymuno â hwynt i gario y sefydliad yn mlaen, a'i gynnal. Ar hyn cymmerodd yr eglwysi yr achos mewn llaw; a chan fod adeiladau pwrpasol wedi cael eu pwrcasu yn nhref

Digitized by Google

Aberhonddu, fe symmudwyd y coleg yno, yn Chwefror, 1839, pryd y pennodwyd y Parch. Charles Nice Davies yn athraw duwinyddol, a Mr. Edward Davies yn athraw clasurol.

Yn yr ysbaid o amser wedi i'r cyssylltiad gael ei dori rhyngddo â Choleg Caerfyrddin, a chyn ei symmudiad i Aberhonddu, cynnwysai yn mysg ei efrydwyr lawer o enwau sydd mor adnabyddus a geiriau teuluaidd yn y Dywysogaeth; megys, Dr. Williams, o Rotherham; John Roberts, o Lanbrynmair; Michael Jones, o Lanuwchllyn; W. Williams, o'r Wern; Griffiths a Johns, o Madagascar; Edward Davies—yr hwn a fu am ysbaid maith o amser yn athraw clasurol yn y coleg; a David Rees, o Lanelli; gydag eraill sydd â'u henwau yr un mor adnabyddus.

Holl dderbyniadau y coleg ydynt tua 1,600*p.* yn y flwyddyn; o'r hyn y cyfrenir gan Fwrdd y Drysorfa Gynnulleidfaol 450*p.* Cyfrenir y gweddill gan yr eglwysi Cymreig.

Pedair neu bum mlynedd ydyw tymmhor yr efrydwyr ynddo. Addysgir hwynt mewn llenyddiaeth yn Ngholeg y Brifysgol, yn Nghaerdydd, yn yr hwn y mae yr oll yn treulio y ddwy neu y dair blynedd gyntaf o'r tymmor. Ar ol hyny dychwelant i'r coleg hwn am ddwy flynedd—yn ystod pa rai, duwinyddiaeth fydd testyn eu hefrydiaeth. Tua 30 ydyw nifer yr efrydwyr. Er y flwyddyn 1880, y mae 80 o efrydwyr y coleg hwn wedi ymsefydlu yn y weinidogaeth gartrefol a thramor.

Y proffeswyr presennol mewn duwinyddiaeth ydynt y Parch. John Morris, D.D., a'r Parch. David Rowlands, B.A.

Y mae dwy ysgoloriaeth yn gyssylltiedig â'r coleg; sef, 1af, Ysgoloriaeth Thomas, yr hon a sefydlwyd yn 1876, gan y Parch. R. Thomas, o Hanover—gwerth blynyddol yr hon ydyw 20*p.* Y mae y telerau ar ba rai y penderfynir pwy sydd i dderbyn yr ysgoloriaeth yn cael eu penderfynu gan y pwyllgor. 2il, Ysgoloriaeth Rees, yr hon a sefydlwyd gan y diweddar Barch. David Rees, o Lanelli—yr hon hefyd sydd yn werth 20*p.* yn y flwyddyn. Y mae yr ysgoloriaeth ddiweddaf yn agored i unrhyw frodor o Ddeheudir Cymru sydd yn aelod o ryw eglwys Gynnulleidfaol yn Lloegr neu Gymru, ac sydd wedi ei dderbyn fel efrydydd gyda golwg ar y weinidogaeth Gynnulleidfaol mewn unrhyw goleg perthynol i'r enwad hwn. Cynnelir yr arholiadau yn y coleg.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr am dderbyniad fyned trwy arholiadau mewn Lladin, Groeg, Saesneg, Cymraeg, Hanesyddiaeth, Daearyddiaeth, a Mesuroniaeth. Derbynir efrydwyr duwinyddol os byddant wedi myned drwy yr arholiad cyntaf yn Mhrifysgol Llundain, neu wedi myned yn llwyddiannus drwy unrhyw arholiad tebyg; ac os byddant yn feddiannol hefyd ar wybodaeth elfenol o'r Hebraeg. Neu, os na byddant, derbynir hwynt os gallant fyned trwy arholiad neillduol.

ATHROFA ANNIBYNOL Y BALA.—Yr oedd gan yr Annibynwyr, yn nechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg, athrofa yn y Gogledd i addysgu dynion ieuainge i'r weinidogaeth—yr hon a fu yn Ngwrecsam am flynyddoedd. Yno yr addysgwyd y Parch. Michael Jones, o Lanuwchlyn. Bu efe yno o dan addysg Dr. Jenkyn Lewis; ac wedi hyny o dan addysg Dr. George Lewis, gynt o Lanuwchlyn; a dewiswyd ef i gynnorthwyo Dr. George Lewis i addysgu y myfyrwyr. Cymmeradwyodd Dr. George Lewis ef i eglwys Llanuwchlyn fel ei olynydd; ac efe a fu yno yn gweinidogaethu am ryw ddeng mlynedd ar hugain. Brodor oedd efe o sir Aberteifi, ac aelod o eglwys Neuaddlwyd, lle yr oedd Dr. Phillips yn weinidog. Yr oedd wedi bod am amser yn yr ysgol gyda'r diweddar Mr. Davies, Castellhywel; a chanmolai ei hen athraw bob amser fel addysgwr rhagorol.

Symmudwyd yr Athrofa Ogleddol wedi hyny o Wrecsam i Lanfyllin—a thrachefn i'r Drefnewydd. Trwy fwyafrif o un, symmudwyd hi wedi hyny yn gyfangwbl o'r Gogledd i Aberhonddu. Ni orweddodd hyn yn esmwyth ar deimladau y Gogleddwyr; ac ni orphwyswyd nes cael athrofa eilwaith yn y Gogledd. Gan fod gan y Deheuwyr athrofa arall yn Nghaerfyrddin, teimlai y Gogleddwyr eu bod yn myned â mwy na'u rhan, trwy grafangu am y cwbl o'r addysg enwadol; a bu'r mater yn destyn ymddiddan rhwng gweinidogion mewn mwy nag un gymmanfa. Mewn cyfarfod a gynnaliwyd yn Nolgellau, Tachwedd 1af, 1841, penderfynwyd fod ysgol rammadegol i gael ei chodi yn y Gogledd, er parotoi dynion ieuainge i waith y weinidogaeth efengylaidd; a bod yr athrofa i fod yn Llanuwchlyn, o dan ofal y Parch. Michael Jones.

Yr oedd Mr. Jones, er adeg ei sefydliad yn Llanuwchlyn, wedi bod yn cadw ysgol ddyddiol lwyddiannus o dan ymddiriedolwyr Dr. Daniel Williams; ac hefyd, fe fyddai ganddo nifer fechan yn aml o ddynion ieuainge yn ymbarotoi gogyfer â'r weinidogaeth. Meddyliwyd am iddo dderbyn nifer mwy o fyfyrwyr; ac i'r eglwysi gasglu er cynnorthwyo y cyfryw i aros o dan addysg Mr. Michael Jones, ac i'r athrofa fod o dan reolaeth y tanysgrifwyr. Dechreuodd yr Athrofa Ogleddol ar ei gwaith yn 1842, yn Llanuwchlyn; ac yn mhen dwy flynedd, symmudodd yr athraw a'r athrofa i'r Bala, er mwyn cyfleusdra y myfyrwyr.

Yr oedd y *Dysgedydd* yn gyhoeddiad misol gan yr Annibynwyr, a'r Parch. Cadwaladr Jones, o Ddolgellau, oedd yn olygydd arno. Deg punt yn y flwyddyn y byddai yr hen olygydd yn ei gael am olygu y misolyn; ac ar ddechreuad yr athrofa, rhoddid yr holl elw i gynnorthwyo yr athrofa. Cynnyrch y *Dysgedydd* am 1841-42 oedd 130*p.* 10*s.* 8½*c.* Heb law chwe sir y Gogledd, cawn fod sir Aberteifi yn casglu ati o'r dechreu. Swm y casgliadau y flwyddyn gyntaf oedd — sir Feirionydd, 35*p.* 0*s.* 3*c.*; Trefaldwyn, 19*p.* 8*s.* 1½*c.*; Dinbych, 16*p.* 9*s.* 3*c.*; Fflint, 13*p.* 1*s.* 3*c.*; Caernarfon, 16*p.* 4*s.* 8*c.*; Môn, 7*p.* 12*s.* 4*c.*; Aberteifi, 1*p.* 12*s.* 0*c.*; Sarne, 1*p.*; Wern, 1*p.* 10*s.* 0*c.*; Capel y Graig, Machynlleth, 11*s.*:—cyfanswm, 112*p.* 18*s.* 10½*c.* Gyda chynnyrch y *Dysgedydd*, yr oedd y cyfanswm yn 243*p.* 9*s.* 7*c.* Yn mhen blynyddoedd, collwyd cynnorthwy y *Dysgedydd*, a dibynai yr athrofa yn unig ar gyfraniadau yr eglwysi.

Yr oedd gan Mr. Jones gyfansoddiad haiarnaidd o gryf; ond o dan bwysau ei lafur, gwanhaodd ei hun, fel y cafodd anwyd trwm wrth groesi'r Feidiog o Drawsfynydd i Lanuwchlyn; yr hwn a derfynodd ei fywyd Tachwedd, 1853, pan yn 66ain mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Capel Ebenezer, Llanuwchlyn.

Y flwyddyn ddilynol, etholwyd ei fab, Parch. Michael D. Jones, yr hwn oedd yn weinidog yn y Bwlchnewydd, sir Gaerfyrddin, i fod yn olynydd iddo. Bu ei ddewisiad o dan sylw y

Digitized by Google

cymmanfaoedd yn 1854; a rhoddwyd gwahoddiad iddo gan bwyllgor y coleg—â'r hwn y cydsyniodd. Dechreuodd ar ei lafur yn niwedd 1854. Deg punt ar hugain oedd cyflog yr athraw cyntaf, a'r un swm a addawyd i'w fab fel ei olynydd; a 12*p.* yr un a roddid at gynnal y myfyrwyr. Addysgid hwynt mewn Cymraeg, Saesneg, Groeg, a Lladin, ynghyd â Rhifyddiaeth, Daearyddiaeth, Athroniaeth foesol a meddyliol, &c. Cedwid golwg ar eu crefydd bersonol; ac ymdrechid rhoi pob cyfarwyddyd iddynt i fod yn bregethwyr da, a bugeiliaid i'r eglwysi. Dan yr ail athraw, cynnyddodd y casgliadau blynyddol, a rhif y myfyrwyr—yn enwedig o'r Deheudir; a gorfu arno gael cynnorthwy athraw arall. Yr oedd un o'r myfyrwyr bob amser yn cynnorthwyo mewn addysgu y lleill. Rhoddwyd 10*p.* i Mr. M. D. Jones i dalu i'r myfyriwr a farnai efe yn fwyaf addas i'w gynnorthwyo. Wedi hyny, codwyd cyflog Mr. M. D. Jones, yn 1858, i fod yn 100*p.*; a'i fod yntau, o hyny, i dalu cyflog yr is-athraw—Mr. John Peter, F.G.S. Nid oedd Mr. Peter wedi cael ei ethol gan y pwyllgor—ond yn unig ei nodi yn gynnorthwywr gan Mr. M. D. Jones. Yn fuan wedi hyny, gwnaeth Mr. John Peter gais am fod yn athraw dan y pwyllgor; yr hyn a ganiatawyd iddo.

Yr oedd Mr. M. D. Jones, gyda chydsyniad eglwysi Soar, Bethel, Llandderfel, Bala, a Thy'n-y-bont, wedi rhanu y weinidogaeth â'i gyd-athraw, fel yr oedd ei dâl tua'r un faint. Yr oedd yr eglwysi cryfaf o dan ofal Mr. Peter; a chymmerodd Mr. M. D. Jones ofal yr eglwysi pellaf a thlotaf, er mwyn chwanegu cyflog ei gyd-athraw. Nid hir y bu Mr. Peter mewn cyssylltiad â'i eglwysi; sef, Bala a Thy'n-y-bont. Rhoddodd eu gofal i fyny.

Penderfynwyd cael adeilad at wasanaeth yr athrofa, a methwyd cael neb i gasglu yn effeithiol, heb i'r prifathraw, M. D. Jones, droi allan i deithio Cymru; a bu Dr. E. Pan Jones gydag ef yn yr America yn casglu. Hefyd, casglodd y Parch. Samuel Roberts tua mil o bunnau yn yr hen wlad.

Cafodd y Parch. Robert Thomas (*Ap Vychan*), o Bangor, ei ethol i fod yn athraw duwinyddol i'r athrofa; yr hyn a effeithiodd yn fawr er chwanegu y casgliadau—y rhai oeddynt gryn swm dros fil o bunnau yn flynyddol. Dewiswyd ef hefyd i fod yn weinidog yn y Bala a Thy'n-y-bont; a chyflawnodd ei waith gyda chymmeradwyaeth mawr.

Hefyd, dewiswyd Mr. Thomas Lewis, B.A., Caerdydd, i fod yn athraw; am fod angen am ei wasanaeth, nes y cesglid yr arian angenrheidiol i godi colegdy.

Trowyd allan o'r coleg hwn, er ei ddechreuad, 236 o weinidogion; ac y mae 19 o fyfyrwyr ynddo yn bresennol.

Y mae rheolaeth yr athrofa yn hollol yn llaw cyfarfod cyffredinol o'r tanysgrifwyr, a chenhadau o'r eglwysi hyny sydd yn casglu.

Y mae y myfyrwyr yn cael eu derbyn i'r athrofa ar chwe mis o brawf yn mhwyllgor y Gwanwyn, a'u derbyn yn derfynol yn mhwyllgor Medi, a hyny ar dystiolaeth yr athrawon. Y maent i gael aros yn yr athrofa am bedair blynedd—yn cynnwys y chwe mis o brawf. Disgwylir i bob ymgeisydd sefyll arholiad; a dangos, drwy hyny, ei fod yn gymmhwys i'w dderbyn iddi.

Y swyddogion presennol (1890) ydynt fel y canlyn:—athrawon, y Parchn. Michael D. Jones a Thomas Rees, B.A.: trysorydd, y Parch. John Lewis, Birmingham: ysgrifenydd, y Parch. D. Rees, Capel Mawr: prawyddion, y Mri. W. W. Owen, C.M., o Drawsfynydd, a J. M. Jones, o Liverpool.

Swm y casgliadau am y flwyddyn 1888—9 ydoedd 667*p.* 19*s.* 7½*c.*; a swm y treuliau oedd 622*p.* 16*s.* 6½*c.*

Gwnaed cais y flwyddyn ddiweddaf i aduno colegau Bala a Bangor; ac y mae y gorchwyl wedi ei gwblhau; a hyny, ni hyderwn, ar ammodau boddhaol ac anrhydeddus i gefnogwyr a swyddogion y ddau goleg.

Gadawodd y masnachydd enwog o Fanceinion, Mr. John Rylands, 5,000*p.* at Goleg Annibynol. Bu perygl i'r cwestiwn hwn arwain i anghydfod, trwy fod awdurdodau y ddau goleg yn ei hawlio. Er mwyn gochel ymgyfreithio, ac felly gwario llawer o arian yn waeth na diangenrhaid, y maent wedi bod mor ddoeth a dyfod i gyttundeb—yr hwn, meddir, fydd yn gwbl foddhaol i'r holl bleidiau.

COLEG YR ANNIBYNWYR YN MANGOR—Sefydlwyd y coleg hwn yn y Bala, yn y flwyddyn 1842, at yr hwn y cyfeirir yn yr erthygl flaenorol. Yr amcan yn ei sefydliad, fel y gwelir, oedd cyfranu addysg i ddynion ieuainge oedd yn ymgeiswyr am y weinidogaeth.

Symmudwyd ef i Fangor yn 1886, gyda'r amcan o gynnorthwyo yr efrydwyr i fwynhau y manteision sydd i'w cael yno yn nosbarthiadau y Coleg Cenedlaethol.

Yn y celfyddydau a'r gwyddorion (*arts and sciences*) derbynia y gwŷr ieuainge eu haddysg yn Ngholeg y Brifysgol am y flwyddyn gyntaf a'r ail o dymmhor eu hefrydiaeth. Yn y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn, addysgir hwynt mewn duwinyddiaeth ac athroniaeth gan y prifathraw, y Parch. T. Lewis, B.A.:—mewn duwinyddiaeth fugeiliol gan y Parch. E. Herber Evans, D.D.:—ac yn yr iaith Saesnig, a'i llenyddiaeth, gan y Parch. M. O. Evans, F.L.S.

Nifer yr efrydwyr sydd wedi bod dan addysg yn y coleg hwn hyd ddiwedd 1889 ydyw 260; a'r nifer yn awr dan addysg ydyw 20.

Derbynia y coleg hwn symiau blynyddol dan ewyllys y diweddar Mr. Samuel Morley, rhodd flynyddol gan y Bwrdd Cynnulleidfaol, a chan Ymddiriedolwyr Trysorfa Reyner; pa rai sydd, gyda'u gilydd, ar yr adeg bresennol, yn cyrhaedd y swm o tua 300*p.* yn y flwyddyn. Gwneir casgliadau blynyddol hefyd gan eglwysi y cyfundeb trwy y Dywysogaeth, ac mewn rhai o'r trefi Saesnig, pa rai sydd yn cyrhaedd o ddeutu 600*p.* bob blwyddyn.

Penderfynwyd, yn 1889, uno y coleg uchod â Choleg y Bala y flwyddyn ganlynol. Bydd y colegau unedig yn feddiannol ar rodd haelionus o 5,000*p.*, yn chwanegol at y symiau uchod, yr hyn a adawyd yn ei ewyllys gan y diweddar Mr. John Rylands, o Fanchester.

Mewn cyfarfod o bwyllgor gweithiol y coleg, yr hwn a gynnaliwyd Ionawr 7fed, 1890, hysbysodd Dr. Herber Evans fod boneddiges, na wnaed ei henw yn hysbys, yr hon oedd wedi bwriadu rhoddi 1,000*p.* at drysorfa y coleg, erbyn hyny wedi penderfynu dyblu y swm, a'i wneyd felly yn 2,000*p.*

Rheolau derbyniad y myfyrwyr i'r coleg hwn.

I. Fod pob ymgeisydd am fanteision yr athrofa i anfon crynodeb o'i olygiadau a'i brofiadau crefyddol i'r ysgrifenydd mewn attebiad i ofyn-

Digitized by Google

iadau argraphedig a anfonir iddo, ond appelio am danynt; ynghyd â chymmeradwyaeth ei weinidog a'r eglwys y perthyna iddi, ac wedi ei arwyddo gan ysgrifenydd y cyfarfod sirol, neu o leiaf dri o weinidogion cymmydogaethol.

II. Na dderbynir un efrydydd i'r athrofa oni wna yr eglwys y perthyna iddi gasgliad at yr athrofa.

III. Nad oes neb i gael derbyniad i'r athrofa ond yn nghyfarfod y pwyllgor yn Gorphenaf, pan y disgwylir i'r ymgeisydd fod yn bresennol.

IV. Fod tymmhor arosiad pob myfyriwr yn yr athrofa i barhau am bedair blynedd, yn cynnwys y chwe mis prawf.

V. Fod pob ymgeisydd i sefyll arholiad mewn Mesuroniaeth, Lladin a Groeg, Cymraeg a Saesneg, a'u grammadegau; hanesyddiaeth Saesneg, a daearyddiaeth Ewrop.

COLEG Y BEDYDDWYR YN HWLFFORDD.—Sefydlwyd y coleg hwn yn y flwyddyn 1839, a chynnaliwyd iwbili ei sylfaeniad yn Awst y flwyddyn hon (1889).

Y mae tymmor efrydiaeth yn y coleg hwn yn gwahaniaethu yn ol yr amgylchiadau. Mewn rhai achosion, tair blynedd ydyw y tymmhor; mewn eraill, pedair blynedd; ac yn achlysurol, pum mlynedd. Yn nghorph yr un mlynedd ar ddeg diweddaf—sef, o 1879 hyd 1889—y mae 225 o efrydwyr wedi bod ynddo; yr hyn sydd yn gwneyd canolrif o tuag un-ar-hugain yn y flwyddyn.

Y Parch. Thomas Davies, D.D., ydyw y prifathraw yn bresennol.

Cynnelir y coleg hwn trwy gasgliadau a thanysgrifiadau, y rhai sydd yn cyrhaedd o 600*p.* i 700*p.* yn y flwyddyn. Rhoddir tua 60*p.* yn y flwyddyn yn ysgoloriaethau i efrydwyr llwyddiannus.

Derbynir oddi wrth yr efrydwyr symiau gwahanol—dyweder o 60*p.* i 100*p.* yn y flwyddyn.

COLEG Y BEDYDDWYR YN LLANGOLLEN.—Yn y flwyddyn 1861, penderfynodd cymmanfaoedd y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru yn unfrydol o blaid sefydlu coleg i'r cyfundeb. Cyfarfu nifer o gynnrychiolwyr eglwysi y Gogledd mewn cynnadledd yn Mangor yn Chwefror 1862, a phenderfynasant fod coleg duwinyddol perthynol i'w henwad i gael ei sefydlu yn y Gogledd y flwyddyn hono. Agorwyd y sefydliad yn Llangollen ar Awst 25ain, ar yr ammod ei fod i gael ei symmud i le arall pe byddai i'r eglwysi benderfynu felly. Yna cyttunwyd fod y sefydliad yn cael ei alw yn Goleg Bartholomeus, er anrhydedd y fintai wrol o Anghydffurfwyr a dröwyd allan o Eglwys Sefydledig Lloegr ar Ddydd Gŵyl Bartholomeus, yn 1662; ond bu raid i'r enw hwn roddi lle i un arall, yr hwn sydd wedi parhau hyd heddyw; sef, Coleg y Bedyddwyr yn Ngogledd Cymru (*The North Wales Baptist College*).

Mae enw yr hen Gristion anrhydeddus John Pritchard, A.D., wedi ei gyssylltu yn anwahanol â sefydliad y coleg hwn. Efe oedd ei lywydd a'i athraw cyntaf. Ymddengys fod y drychfeddwl am y fath sefydliad wedi ymgynnyg i feddyliau amryw o ddeutu yr un adeg. Nid oedd y Bedyddwyr ond ychydig mewn nifer, na'u heglwysi ond yn weiniaid, yn Ngogledd Cymru. Yr oedd Christmas Evans yn gallu toddi miloedd â'i hyawdledd rhyfeddol; ond nid efe oedd y dyn i redeg y sylwedd toddedig i fold yr eglwys. Tua'r un amser, cychwynodd ymraniad y Bedyddwyr Ysgotaidd drwy'r ychydig eglwysi perthynol i'r Bedyddwyr oedd yn siroedd y Gogledd; a bron na lwyddodd i gario Christmas Evans gydag ef. Parodd yr ymryson hwn gryn attalfa ar deimlad ac ymdrech yr eglwysi; a bron na rewodd teimladau crefyddol yr eglwysi dan ei ddylanwad—tra yr oedd enwadau eraill, ac yn enwedig y Methodistiaid Calfinaidd, yn llwyddo. I gynnorthwyo i feddyginiaethu y sefyllfa hon ar bethau y sefydlwyd y coleg hwn; a phwy, sydd wedi byw i weled y flwyddyn 1890, a all ammheu doethineb y feddyginiaeth. Yr oedd llawer yn gweled yr angenrheidrwydd am sefydliad o'r fath; ond yr oedd Dr. Pritchard yn meddu ar y gwroldeb "i weithio y syniad allan—tra yr oedd eraill heb feddu ond gwroldeb i feddwl am dano;" a chafodd achos yn fuan "i orfoleddu yn y canlyniadau."

Yn mysg enwau anrhydeddus ei sylfaenwyr, y rhai a weithiasant yn egnïol gyda sylfaenydd anrhydeddus y symmudiad, ceir y personau canlynol:—Y Parchn. Hugh Jones, A.D., athraw clasurol; R. Roberts, Plas-yn-bonwm; J. G. Owen, D.D., Rhyl; J. Robinson, Llansilin; D. Rees, Moelfre; Ellis Evans, D. D., Cefnmawr; T. Price, PH.D., Aberdâr; a W. Morgan, D.D., o Gaergybi, ynghyd â rhestr faith o lëygwyr dylanwadol. Yr oedd sêl y Gogleddwyr yn heintus; ac yn fuan derbyniodd y coleg ieuangc gynnaliaeth ar bob llaw.

O'r chwe dyn ieuangc a dderbyniwyd gyntaf i'r sefydliad, ar Awst 25ain, 1862, nid oes ond tri yn awr yn fyw; sef, y Parch. Owen Waldo James, gynt o Kingstown, Pennsylvania, yn awr o'r Rhos, yn Ngogledd Cymru; Owen Davies, o Gaernarfon; a William Pritchard Williams, o Glandŵr, ger Abertawe. Ysgrifenydd cyntaf y sefydliad oedd y Parch. A. J. Parry—y pryd hwnw o'r Cefnmawr, ond yn awr o Gaerfyrddin; ac y mae trysorydd anrhydeddus y coleg etto yn ei swydd; sef, Mr. Thomas Hughes, U.H.

Yn nghorph y pedair blynedd cyntaf ar ol ei sefydliad bu yn llwyddiannus, dan lywyddiaeth Dr. Pritchard. Fel yr oedd efe yn heneiddio, teimlodd rwymau i ymddiswyddo; a phennodwyd y diweddar Barch. Hugh Jones, D.D., yn athraw clasurol yn ei le. Am y pedair blynedd canlynol, efe a wasanaethodd y sefydliad fel ei lywydd, a'i unig athraw. Yn Awst, 1870, pennodwyd y Parch. Gethin Davies, o Goleg Bristol, yn athraw clasurol a mesuronol; a chydnabyddid y Parch. Hugh Jones yn ffurfiol fel ei lywydd a'i athraw duwinyddol. Ennillodd y sefydliad gydymdeimlad yr eglwysi; ac anfonodd allan, ar gais y wlad, lawer o weinidogion da i'r Arglwydd Iesu.

Yn Mai, 1883, pan yr oedd y coleg yn llwyddiannus, a phan yr oedd ei lywydd yn ymddangos fel yn anterth ei lwyddiant fel athraw, pregethwr, ac awdwr, torwyd ef i lawr yn mlodau ei ddyddiau. Addefir ei fod wedi aberthu ei hun ar allor gwasanaeth y coleg; a mawr oedd y galar a fu o herwydd ei farwolaeth trwy Ogledd a Deheudir Cymru.

Yn Ngorphenaf, 1884, etholwyd y Proflesw r Gethin Davies, yr hwn oedd wedi gwasanaethu y coleg am dair blynedd ar ddeg fel athraw clasurol a mesuronol, i fod yn llywydd. Yn Medi, 1886, etholwyd y Parch. Silas Morris, M.A., yn athraw clasurol a mesuronol.

Yn y flwyddyn 1888, cafodd y sefydliad ei gyssylltu â Choleg y Brifysgol yn Mangor; ac

Digitized by Google

yn y flwyddyn 1889, ymunodd â *Senatus Academicus* y colegau Anghydffurfiol yn Lloegr a Chymru.

Dengys y daflen ganlynol rifedi ei efrydwyr, &c., bob pummed flwyddyn, o'i sylfaeniad hyd y flwyddyn 1887. Yn yr ail linell, ceir nifer ei efrydwyr: yn y drydedd, yr hyn a dderbyniwyd yn flynyddol at y draul: ac yn y bedwaredd, traul y sefydliad.

1862	1867	1872	1877	1882	1887
6	15	16	16	19	16
423*p*.	608*p*.	703*p*.	956*p*.	1060*p*.	1028*p*.
128*p*.	481*p*.	649*p*.	1020*p*.	1108*p*.	1157*p*.

Y mae y derbyniadau, fel y gwelir, wedi bod yn mhob ystyr, yn foddhaol. Y mae agos i 2,500*p*. wedi eu rhoddi allan ar lôg: oddi wrth y swm hwn rhoddir ysgoloriaethau i efrydwyr llwyddiannus, y rhai y penderfynir arnynt yn yr arholiadau blynyddol.

ATHROFA Y BEDYDDWYR YN MHONT-Y-POOL.—Sefydlwyd yr athrofa hon yn y flwyddyn 1807, i'r dyben o ddarparu gwŷr ieuainge ar gyfer gweinidogaeth yr efengyl yn nghyfundeb y Bedyddwyr; ac y mae y sefydliad wedi bod yn hynod o lwyddiannus o'r dechreuad.

Y llywydd presennol ydyw y Parch. W. Edwards, B.A.; a'r athraw clasurol yw y Parch. J. M. Davies, B.A. Gwerthfawrogir eu gwasanaeth yn fawr gan y dynion ieuainge sydd dan eu gofal.

Y swm a dderbyniwyd y flwyddyn ddiweddaf (1889) mewn tanysgrifiadau yn unig, ydoedd 1,165*p*. 10*s*. 7*c*., a swm yr holl daliadau ydoedd 1,200*p*. 11*s*. 3*c*.

Nifer yr efrydwyr sydd yn y coleg ar ddechreu 1890 ydyw 19.

Y mae yr athrofa hon wedi cael ei dwyn yn ddiweddar i gyssylltiad â Choleg Cenedlaethol Caerdydd; yn yr hon y derbynia yr efrydwyr eu haddysg mewn Mesuroniaeth, a'r ieithoedd Groeg a Lladin, Cymraeg a Saesneg, a'u llenyddiaeth, a changhenau eraill o wybodaeth gyffredinol.

Addysg dduwinyddol, yn cynnwys y Beibl yn yr ieithoedd gwreiddiol, a gyfrenir yn yr athrofa hon yn mron yn hollol.

COLEG DEWI SANT, LLANBEDR. Coleg perthynol i'r Eglwys Sefydledig ydyw hwn—a sefydlwyd, yn 1822, gan yr Esgob Burgess, yn cael ei gynnorthwyo yn benaf gan glerigwyr a bonedd esgobaeth Tŷ Ddewi:—J. G. Harford, Ysw., yn rhoddi y tir tuag at adeiladu, heb law 1,000*p*. mewn arian. Yn mhlith y tanysgrifwyr cyntaf, ymddengys enw Sior IV. am 1,000*p*.

Dydd Gŵyl Dewi, 1827, agorwyd y coleg i fyfyrwyr; ac ar y 6ed o Chwefror, 1828, derbyniwyd ei freinlen gyntaf, yn enwi y prif athraw, a'r athrawon eraill, i lywodraethu y coleg; ac Esgob Tŷ Ddewi yn ymwelwr.

Dechreuwyd yn foreu sefydlu ysgoloriaethau er cynnorthwyo yr efrydwyr; ac o bryd i bryd chwanegwyd atynt, yn enwedig yn 1836, trwy gasgliad cyffredinol; yn 1837, trwy gymmunrodd o 3,000*p*. a adawyd gan yr Esgob Burgess; ac yn 1846, pan y sefydlodd Mr. Thomas Phillips chwech o ysgoloriaethau newyddion, gwerth 24*p*. yr un.

Yn 1852, cafodd y coleg ei ail freinlen, yn ei awdurdodi i roddi y gradd o B.D.; ac yn 1865, cafodd ei alluogi drachefn gan freinlen arall i roddi y gradd o B.A.

Pan agorwyd y coleg, yn 1827, ni feddai ond tri o athrawon. Yn 1852, sefydlodd Mr. Thomas Phillips athraw mewn Anianaeth (*Natural Science*): yn 1854, pennodwyd athraw mewn Cymraeg: yn 1865, mewn ufudd-dod i'r freinlen newydd, etholwyd chweched athraw: ac yn 1883—4, chwanegwyd dau eraill, gan mor fawr yr oedd nifer yr efrydwyr a gwaith y coleg wedi cynnyddu.

Y mae gan y coleg awdurdod i gyfranu tri o raddau; sef, L.D. (*Licentiate in Divinity*), B.A., a B. D.

Am yr L. D., rhaid bod yn y coleg am ddwy flynedd, a phasio arholiad bob blwyddyn. Am y B. A., rhaid bod yn y coleg am dair blynedd, a phasio un arholiad bob blwyddyn; ac er cael y gradd o B.D., y mae yn ofynol bod yn y coleg dair blynedd ac un tymmhor (deg tymmhor); ac wedi hyny, bod mewn urddau 'offeiriadol' am bum mlynedd. Yn mhob arholiad pennodir yr arholwyr gan Brifysgolion Rhydychain a Chaergrawnt; ac nid oes a wnelo awdurdodau y coleg â'u pennodiad.

Nifer myfyrwyr y coleg am y pum mlynedd diweddaf:—1885, 134; 1886, 122; 1887, 125; 1888, 114; 1889, 121. O'r rhai hyn y mae mwy na'r hanner yn byw yn y coleg—pob un â'i le ei hun, yn ol dull un o golegau Rhydychain neu Gaergrawnt; a'r draul i bob un o 45*p*. i 50*p*. yn y flwyddyn.

Gwaddol y Coleg.—Heb law a dderbynir gan y myfyrwyr, y mae holl waddol y coleg yn cyrhaedd rhwng 2,500*p*. a 3,000*p*. yn y flwyddyn.

Am rai blynyddau, yr oedd cynnydd y coleg yn gwneyd i'r awdurdodau weled fod y lle yn rhy gyfyng iddynt; ac yn 1885, penderfynwyd chwanegu adeilad newydd. Yn Hydref, 1885, gosododd Archesgob Caergaint gareg sylfaen y *Canterbury Buildings*, fel eu gelwir. Costiodd yr adeilad newydd rhwng 6,000*p*. a 7,000*p*.

Natur Addysg y Coleg.—Hyd y fl. 1865, dduwinyddiaeth oedd prif bwngc addysg y coleg, a gweinidogaeth yr Eglwys oedd amcan mawr y myfyrwyr, er fod athrawon ar ganghenau eraill gwybodaeth. Ond yn 1865, dywedai breinlen y B. A. y dylai y coleg gyfranu addysg gydradd â'r addysg a ofynir am y gradd o B. A. yn Rhydychain a Chaergrawnt—mewn Duwinyddiaeth, Hebraeg, Groeg, Lladin, Anianaeth, Athroniaeth Foesol a Meddyliol, Rhif a Mesur, a'r ieithoedd Saesneg a Chymraeg.

Yn 1880, mabwysiadwyd y coleg gan Brifysgol Rhydychain, yn *affiliated college*. Trwy y weithred hon, gall unrhyw fyfyriwr fydd wedi treulio tair blynedd yn Llanbedr gynnyg am y gradd o B. A. yn Rhydychain ar ol dwy, yn lle tair, blynedd yn y brifysgol. Yn 1883, estynodd Prifysgol Caergrawnt yr un fraint.

Er mai coleg mewn cyssylltiad agos â'r Eglwys ydyw Coleg Dewi Sant, nid oes dim yn ei reolau i attal Anghydffurfwyr i dderbyn addysg ynddo, a chael rhan a chyfran yn yr ysgoloriaethau; ac er mwyn cydwybod, ni ofynir i neb nad ydyw yn aelod o'r Eglwys Sefydledig fyned i gapel y coleg, na chymmeryd unrhyw destyn duwinyddol mewn un arholiad.

Yn 1884, sefydlwyd ysgol rammadegol mewn cyssylltiad â'r coleg; ac y mae yn hon, ar hyn o amser, bedwar o raddedigion yn feistri—o Rydychain, o Gaergrawnt, ac o Lanbedr; a thua 60 o ysgolheigion.

Digitized by Google

ATHROFA Y METHODISTIAID YN Y BALA.—Am y symmudiad cyntaf tuag at gael yr athrofa hon, nis gallwn wneyd yn well na dyfynu yr hyn a ddywedir yn "*Methodistiaeth Cymru*," gan y diweddar Barch. John Hughes, o Liverpool, am dano:—

"Wedi bod yn trafod yr angenrheidrwydd am ryw foddion sefydlog i roddi gradd helaethach o ddysgeidiaeth i'r pregethwyr, nes darostwng cryn lawer ar y rhagfarn a ffynasai gynt, fe sefydlwyd ar ŵr ieuange o alluoedd a gras, o'r enw Mr. O. Williams, i'w anfon i athrofa, er mwyn ei berffeithio yn fwy i gadw athrofa i'r cyfundeb yn y Gogledd. Erthylodd y cais hwn, pa fodd bynag, trwy farwolaeth Mr. Williams. Erthylodd cais arall o'r un natur, a wnaed yn ddiweddarach. Trwy y siomedigaethau hyn, fe roddwyd heibio y drafodaeth am flynyddau; ac o hyny hyd y flwyddyn 1837, ni wnaed dim yn effeithiol er cwblhau yr amcan. Yn y flwyddyn grybwylledig, pa fodd bynag, fe gafwyd dau athraw wedi graddio eu hunain—un yn Edinburgh, a'r llall yn Rhydychain—yn wŷr tra chymhwys i'r swydd; sef, y Parchn. Lewis Edwards, M.A., a David Charles, B.A. Yr oedd yr un achos dan drafodaeth yn y Deheubarth; a gwnaed penderfyniad unllais, bellach, yn y ddwy dalaeth i osod yr amcan mewn gweithrediad."

Yr oedd y Gogledd a'r Deheu yn methu cydweled ynghylch y lle; a thra y buont hwy, mewn trafodaeth gymmanfaol, yn ceisio dyfod i benderfyniad rhyngddynt, anturiodd y gwŷr uchod i agor ysgol yn y Bala—ar eu traul eu hunain ar y cyntaf; ac mewn canlyniad, mabwysiadwyd hwynt gan gymmanfaoedd y Deheu a'r Gogledd fel athrawon eu hathrofa; yr hon, o'r herwydd, a sefydlwyd yn y Bala, o dan arolygiaeth y gwŷr crybwylledig. Dechreuwyd yr athrofa yn mis Awst, 1837, mewn dwy ystafell fechan yn nghanol y dref. Wedi hyny, fel yr oedd yr ysgolheigion yn amlhau, aethpwyd i hen ystorfa Mr. Charles, ac oddi yno i dŷ arall gyferbyn a'r Bull Mawr; ac oddi yno drachefn, tua'r flwyddyn 1839, i'r ddau dŷ annedd ag oedd yn eiddo yr achos, ac yn gyfagos i'r capel—yn un o ba rai y preswyliai y diweddar Barch. Richard Jones. Yn fuan ar ol hyn, yr oedd hen dŷ Howell Harris, yn Nhrefecca, dan adgyweiriad, i'w barotoi yn athrofa i'r Deheubarth; ac yn hytrach na bod y ddau athraw yn arolygu un athrofa, cyttunwyd fod y Parch. D. Charles i gymmeryd arolygiaeth Athrofa Trefecca, ac i'r Parch. L. Edwards aros yn y Bala. Ymadawodd y Parch. D. Charles i fyned i Drefecca yn 1842, ar ol bod bum mlynedd yn gyd-athraw â'r Parch. L. Edwards yn y Bala.

Yn fuan ar ol ei ymadawiad ef, pennodwyd y Parch. John Parry, Manchester, yr hwn a fuasai o'r blaen yn yr athrofa, ac wedi hyny yn Edinburgh yn gorphen ei addysg, yn gynnorthwywr—yn ddiweddarach yn gyd-athraw—â Mr. Edwards:—i lafur unedig, ymdrechgar, a llwyddiannus, pa rai y mae cynnifer o'n pregethwyr yn bresennol mor rwymedig am eu haddysg.

Bu llawer o ymdrafod ar y pwngc o gael trysorfa sefydlog o bryd i bryd ar ol hyn; ac mewn cyfarfod o gyfeisteddfod yr athrofa a gynnaliwyd yn y Bala, dywedodd Dr. Edwards fod yn rhaid cael cronfa helaeth tuag at ei dwyn yn mlaen yn llwyddiannus; pan y crybwyllodd y diweddar Mr. Jacob Jones, un o hen flaenoriaid y Bala, y byddai y Parch. Edward Morgan, Dyffryn, yn debyg o allu ei ffurfio. Cymmerodd y cyfeillion oedd yn bresennol yr awgrymiad i fyny yn ebrwydd, a cheisiwyd gan Mr. Morgan ymgymmeryd â'r gorchwyl. Yna dygwyd yr achos i Gymdeithasfa y Wyddgrug, a gynnaliwyd yn mis Rhagfyr, 1856; ac yno, penderfynwyd cael cronfa o ugain mil o bunnau. Ond cyrhaeddodd—dros ddisgwyliad Mr. Morgan—i 26,000*p*. Cymmerwyd pawb i fyny gan syndod wrth feddwl am swm mor fawr; ond er cymmaint oedd, llwyddodd Mr. Morgan i'w gasglu. Tra yr oedd efe yn symmud yn mlaen mor lwyddiannus gyda'r gronfa, nid oedd pobl y Bala—ac yn wir, sir Feirionydd yn gyffredinol—yn segur o berthynas i'r athrofa fod yn arhosol yn y Bala. Wedi ystyried yr achos mewn amryw gyfarfodydd misol, penderfynodd cyfarfod misol y rhan ddwyreiniol o'r sir brynu, gan Mr. George Price Lloyd, o Blas-yn-dref—am y swm a ofynid, mil o bunnau—y cae a ardrethid er's mwy na deng mlynedd ar hugain at wasanaeth ceffylau pregethwyr y corph, a ddeuent o bryd i bryd i'r dref, i adeiladu yr athrofa arno. Adwaenid y cae wrth yr enw "Cae y Capel" Y mae y taliad hwn i'w chwanegu at y cyfraniadau at y gronfa gyffredinol, ynghyd â'r gronfa at yr adeilad. Dyma'r modd yr anrhegwyd y cyfundeb â'r tir; a throsglwyddwyd y meddiant o hono yn rheolaidd i ymddiriedolwyr a bennodasid i hyny gan y gymdeithasfa.

O ddeutu y pryd hwn, barnwyd y buasai yn tueddu at greu mwy o undeb rhwng y Deheu a'r Gogledd pe buasai modd sefydlu un athrofa rhyngddynt. Ac mewn cyfarfod a gynnaliwyd Medi 4ydd a'r 5ed, 1862, yn yr Amwythig, fe wnaed cais at hyny. Ond anfonwyd i'r gymdeithasfa a gynnaliwyd yn Nhreffynnon yn Mehefin y flwyddyn ganlynol genadwri o gyfarfod dirprwywyr siroedd y Deheudir, a ymgynnulldodd yn Nghaerfyrddin, Mehefin 5ed, 1863, yn hysbysu eu bod "wedi penderfynu ail agor eu hathrofa yn Nhrefecca; ac felly, nad oedd bellach un golwg am undeb athrofaol.

Wedi i'r cyfeillion yn y Deheu benderfynu ail agor eu hathrofa yn Nhrefecca, ac o herwydd eu bod yn methu cael athraw i gydlafurio â'r Parch. J. H. Jones, PH.D., M.A., anfonasant gais at Gymdeithasfa y Gogledd yn Nolgellau, Rhagfyr, 1863, fod i'r "brodyr cynnulledig yno ganiatau i un o athrawon parchus Athrofa y Bala ymgymmeryd â'r gorchwyl o fod yn athraw duwinyddol yn Athrofa Trefecca." Yn Nghymdeithasfa Llangefni, yn y mis Ebrill canlynol, penderfynwyd peidio cydsynio â'r cais; "a bod y ddau athraw i aros yn y cyssylltiad yr oeddynt ynddo âg Athrofa y Bala."

Gan fod y gronfa at yr athrofa yn awr wedi ei gorphen, penderfynwyd y byddai yn well i Mr. Morgan fyned allan drachefn i gasglu cronfa o 9,000*p*. i 10,000*p*. at adeiladu y coleg. Ymgymmerodd y wlad eilwaith â'r casgliad chwanegol hwn. Gan fod etto o ddeutu 4,000*p*. yn aros, nis gellid dyweyd fod adeilad y coleg wedi cael talu am dani ar ei hagoriad.

Ar ol hyny, gwnaed y parotoadau angenrheidiol at osod y gareg sylfaen; ac yn Nghymdeithasfa Llangollen, 1865, penderfynwyd fod y gareg sylfaen i gael ei gosod ddydd Iau, Mehefin 15fed—a bod Mr. Davies, Benarth, i lywyddu; Mr. Thomas, o Lundain (y pryd hyny), i ddarllen a gweddïo; Mr. Rees i osod y gareg sylfaen; Mr. Edwards a Mr. Parry i roddi hanes sefydliad a chynnydd yr athrofa; a Mr. Morgan i ddyweyd hefyd am dani; Mr. Roberts, Liverpool, a Mr. Williams, Dolgellau, i ddiolch am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati."

Digitized by Google

Agorwyd yr athrofa Medi 5ed a'r 6ed, 1867; pan gynnaliwyd amryw gyfarfodydd, a phlanwyd tri phren bychan o flaen yr adeilad, yn goffadwriaeth am weithrediadau y dydd, gan y Parchn. Edward Morgan, Dr. Edwards, a Dr. Parry. Y dydd Sadwrn canlynol, planodd Mr. Rees, a Mr. David Roberts, o Liverpool, llywydd cyfeisteddfod yr adeilad, dderwen bob un. Planodd Mr. Charles un arall; a Miss Edwards, merch Dr. Edwards; a Miss Parry, merch Dr. Parry—bob un dderwen: "rhai o hen dderw y wlad," fel y dywedai Mr. Rees.

Yr athrawon sydd wedi bod mewn cyssylltiad â'r athrofa hyd yn awr ydynt y personau canlynol:—Dr. Edwards, Dr. Charles, Dr. Parry, y Parchn. Ellis Edwards, M.A.; H. Williams, M.A.; J. O. Jones, B.A.; ac E. W. Parry, B.A. Yr oedd dau athraw cynnorthwyol yn yr athrofa am lawer o flynyddoedd. Un a bennodid bob blwyddyn, yr hwn a safai uchaf yn yr arholiad blynyddol. Am ddwy flynedd yr oedd pob un i aros yn y swydd. Pan bennodwyd y Parchn. Ellis Edwards ac H. Williams, un athraw cynnorthwyol oedd i fod. Pennodwyd y Mri. W. Edwards, B. A.; a G. Jones, B. A., yn ystod gwaeledd y Parch. H. Williams.

Y mae nifer y myfyrwyr wedi newid ar wahanol amserau. Yn adeg "diwygiad Dafydd Morgan" yr oeddynt, ni gredwn, rhwng hanner cant a thrigain. Ar ol pennodiad y ddau athraw yn olynwyr i Dr. Parry, codwyd safon yr arholiad am fynediad i mewn, gyda'r effaith o leihau nifer y rhai oeddynt lwyddiannus. Yn y flwyddyn 1889, sefydlwyd adran newydd o dan yr un tô a'r athrofa. Yr oedd y pwyllgor a'r Gymdeithasfa wedi penderfynu er's amser troi yr athrofa yn gwbl dduwinyddol, ac wedi pennodi y flwyddyn 1890 fel yr adeg i hyny gymmeryd lle. Barnwyd, er hyny, nad doeth oedd rhoddi i fyny yn gwbl, ar y pryd, y ddarpariaeth o addysg glasurol a rhifyddol. Felly, tra yn gweithio yn mlaen tuag at droi yr athrofa yn gwbl dduwinyddol, sefydlasant, ochr yn ochr â hi, a than ofal dau athraw, ac arolygiaeth athrawon yr athrofa, adran newydd, i addysgu yn y gwyddonau a'r celfau yn unig. Disgwylid i'r efrydwyr yn hon astudio duwinyddiaeth yn ddiweddarach. Yn yr athrofa a'r adran newydd gyda'u gilydd y mae yn awr (1889) dros hanner cant o fyfyrwyr. Pan ddelo cynlluniau eraill, y rhai y mae y Gymdeithasfa wedi pennodi arnynt, i weithrediad, bydd trefniadau i gynnorthwyo y myfyrwyr i efrydu yn ngholegau y llywodraeth; a chyfyngir, fel y dywedwyd, yr athrofa i dduwinyddiaeth yn unig.

Er rhoddi syniad am dderbyniadau a threuliau blynyddol yr athrofa, nis gallwn wneyd yn well na rhoddi yr enghraifft ganlynol:—Yn ol y cyfrif a gyflwynwyd i Gymdeithasfa Bangor, Awst 27ain, 1889, ymddengys fod yr holl lôgau a dderbyniwyd yn y flwyddyn cyn hyny oddi wrth y Gronfa yn cyrhaedd 1,257*p.* 3*s.* 8*c.*; derbyniadau eraill, 286*p.* 15*s.* 8*c.*; yr hyn, gyda'r swm o 266*p.* 14*s.* 8*c.* oedd mewn llaw ddechreu y flwyddyn, a wnai gyfanswm o 1,810*p.* 14*s.* 0*c.* Talwyd fel y canlyn:—cyflogau i'r athrawon, 365*p.*; i'r athraw cynnorthwyol, 40*p.*; darlithiau, 80*p.*; gwobrwyon i'r myfyrwyr, a threuliau gyda'r arholiadau a'r pwyllgorau, 246*p.* 15*s.* 2*c.*; y garddwr, 80*p.*; yswiriaeth, 5*p.* 13*s.* 0*c.*; achos Saesneg y coleg, 10*p.*; treuliau ynglŷn â'r gronfa, 1*p.* 1*s.* 11*c.*:—yr holl daliadau yn 841*p.* 10*s.* 1*c.* Yr oedd felly weddill mewn llaw o 969*p.* 3*s.* 11*c.*

ATHROFA Y METHODISTIAID YN NHREFECCA.—Y mae yr athrofa uchod wedi ei sefydlu mewn adeilad âg iddi adgofion dyddorol mewn cyssylltiad â Methodistiaeth ac â Chymru yn gyffredinol. Mangre yr athrofa ydyw hen 'fynachlog fawr' Howell Harris—un o brif ddiwygwyr Cymru, ac un o sylfaenwyr Methodistiaeth. Ar ol dwy flynedd ar bymtheg o lafur caled yn efengyleiddio Cymru, yn ngwyneb yr ymraniad fu rhyngddo a'r Parch. Daniel Rowlands, Llangeitho, yr hwn a ddaeth i benderfyniad yn Nghymmanfa Llanidloes, 1751, ymneillduodd Harris i'w gartref yn Nhrefecca. Dilynwyd ef yno gan lawer a fendithiwyd drwy ei weinidogaeth, yn neillduol felly o Ogledd Cymru, yn eu hawydd i wrando ar ei bregethau, ac i fwynhau ei gymdeithas. Sylfaenwyd adeilad helaeth, er iddynt gyd-drigo fel un teulu, yn Ebrill, 1752; a gorphenwyd hi yn y flwyddyn ganlynol. Yn 1754, yr oedd tua chant yn cydbreswylio yno, ac eraill wedi ymsefydlu yn y ffermydd o gwmpas. Bu farw Harris yn 1773; ond parhaodd y teulu i gyd-drigo am flynyddoedd lawer yn yr hen dŷ.

Yn 1768, yr oedd yr Arglwyddes Huntingdon wedi cymmeryd, ar ardreth oddi wrth Harris, ffermdy o'r enw Trefecca Isaf—tŷ bynafol tua dau led cae oddi wrth adeilad Harris—er mwyn sefydlu athrofa ynddo. Llywydd yr athrofa hon ydoedd y Parch. J. Fletcher, o Madeley, a chynnorthwyid ef gan athraw arall. Rhoddid rhyddid i'r efrydwyr, ar derfyn eu tymmor athrofaol, i ymgymmeryd â'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, neu mewn rhyw enwad Protestanaidd arall. Llafuriai y myfyrwyr fel cenhadon yn y wlad o gwmpas, a dilynwyd eu llafur gan gryn lwyddiant. Ar ol marwolaeth yr arglwyddes symmudwyd yr athrofa, yn 1792, i Cheshunt, yn swydd Hertford, ger Llundain.

Yn 1842, bernid gan Gymmanfa y Deheudir mai doeth fuasai cael dwy athrofa i'r cyfundeb; a chan fod adeilad helaeth hen deulu Trefecca wedi dyfod yn eiddo iddynt, penderfynwyd cyfaddasu y tŷ i'r pwrpas hwn. Anfonwyd cais at Gymmanfa y Gogledd i gael gwasanaeth un o'r ddau athraw oedd yn llafurio yn y Bala er agoriad y coleg yn y fl. 1837; a chaniatawyd i'r Parch. David Charles, B.A., i gydsynio â chais y Deheuwyr. Ymsefydlodd Mr. Charles yn Nhrefecca fel y llywydd cyntaf, ac agorwyd yr athrofa Hydref 7fed, 1842. Trigai yr efrydwyr yr adeg yna yn y colegdy, ac yr oeddynt yn gyfyngedig mewn nifer i 12. Dygid y gwaith yn mlaen gan un athraw; ac addysgwyd 81 o efrydwyr ganddo. Yn Mehefin, 1862, cauwyd yr athrofa, ac ymadawodd Mr. Charles â Threfecca.

Ar ol ysbaid o dair blynedd, ail agorwyd yr athrofa Medi 12fed, 1865, o dan lywyddiaeth y Parch. William Howells, Liverpool, yn cael ei gynnorthwyo gan y Parch. J. Harris Jones, M.A., PH.D., fel athraw clasurol. Llafuriasant gyda'u gilydd hyd Mehefin, 1885, pan y bu farw Dr. Harris Jones, ac yr etholwyd y Parch. Edwin Williams, M.A., yn ei le. Bu farw Mr. Howells Tachwedd, 1888; ac etholwyd y Parch. David Charles Davies, M.A., yn llywydd ac athraw duwinyddol.

Y mae yn y sefydliad yn bresennol (1889) 30 o efrydwyr; ac er yr ail agoriad a gymmerodd le yn 1865, y mae 239 wedi bod yn aelodau o hono. Disgwylir i'r efrydwyr dreulio pedair blynedd yn yr athrofa; a thrwy gymmhorth y gronfa—yr hon, yn bresennol, a gyfrifir yn werth tua

Digitized by Google

22,000*p.*—rhoddir cymmhorth iddynt; a thelir hefyd dreuliau cyffredinol y sefydliad.

Yn 1873, ar ganmlwyddiant ei farwolaeth, adeiladwyd, ar dir perthynol i'r athrofa, Gapel Coffadwriaethol i'r Parch. Howell Harris.

COLEG PRESBYTERAIDD CAERFYRDDIN.—Parhâd o'r athrofa a sefydlwyd gan y Parch. Samuel Jones, M.A., cymmrawd am dymmor yn Ngholeg yr Iesu, yn Rhydychain, ydyw y coleg hwn—yr hwn oedd yn un o'r ddwy fil o weinidogion a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig yn 1662. Cynnelir a llywodraethir y sefydliad gan y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain, a sefydlwyd yn 1689. Gwaddolwyd ef, mewn rhan, drwy ewyllys Dr. Daniel Williams (1644—1715), a chan Ymddiriedolwyr Jackson a Berman.

Amcan y sefydliad ydyw cyfranu addysg i wŷr ieuainge sydd yn ymgeiswyr am y weinidogaeth Gristionogol yn mysg yr Anghydffurfwyr Protestanaidd; ac y mae yn agored i bawb—heb un ammod duwinyddol nac enwadol arall.

Parhâ tymmor yr efrydiaeth am bedair blynedd; ac amcenir i gyssylltu o fewn y sefydliad yr holl fanteision sydd i'w derbyn mewn coleg prifysgol gyda'r neillduolion hyny a berthynant i ysgol dduwinyddol. Y mae amryw o wobrau arianol o gryn werth yn cael eu gosod gan y Bwrdd Presbyteraidd o fewn cyrhaedd pob efrydydd teilwng; a rhoddir ysgoloriaethau i gynnorthwyo y rhai fydd wedi ennill gradd dda fel efrydwyr, ac yn awyddus i barhau eu tymmor o efrydiaeth mewn rhywle arall.

Ni oddefir i efrydwyr y flwyddyn gyntaf, na'r ail, i addaw myned i bregethu o fewn tymmorau y coleg—ond o dan amgylchiadau neillduol, a chyda caniatâd y prifathraw a'r proffeswr mewn duwinyddiaeth. Ond caniateir i efrydwyr y drydedd a'r bedwaredd flwyddyn wneyd hyny, gyda'r caniatâd a nodwyd. Rhifedi cyffredin yr efrydwyr ydyw tua 32.

Cyfrana eglwysi yr Annibynwyr, a'u cyfeillion, yn flynyddol o 800*p.* i 900*p.* tuag at gynnaliaeth yr efrydwyr perthynol i'r enwad hwnw sydd yn aelodau o'r coleg hwn.

Y prifathraw a'r proffeswr yn y clasuron yn awr (1890) ydyw Mr. Walter J. Evans, M.A., diweddar o Goleg yr Iesu, yn Rhydychain. Y proffeswr mewn duwinyddiaeth ydyw y Parch. D. E. Jones, M.A.; a'r proffeswr Hebraeg ydyw y Parch. Philemon Moore, B.A.

Eiddo Bwrdd y Presbyteriaid yn Llundain ydyw yr adeilad, a'r tir y mae y coleg yn sefyll arno; a'r bwrdd hwnw sydd yn talu cyflogau blynyddol y proffeswyr.

COLEG NORMALAIDD ABERTAWE. Teimlai cyfeillion addysg anenwadol er's llawer o amser fod angenrheidrwydd am goleg i addysgu athrawesau yn y Dywysogaeth. Yr unig sefydliad o'r fath ynglŷn â Chymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a Thramor, sydd yn Stockwell, yn Llundain. Nis gallai hwnw gyfarfod â'r alwad am athrawesau oedd yn rhanau gorllewinol Lloegr—ac yn Nghymru hefyd. O herwydd hyn, yr oedd yr ysgolion Cymreig, a'r dysgybl athrawon, yn byw dan anfantais fawr. Ac ar ol i Ddeddf Addysg, 1870, ddyfod i rym, daeth y gymdeithas ragorol uchod i gynnorthwyo i wneuthur y diffyg i fyny gyda golwg ar y Dywysogaeth.

Galwyd cynnadledd o gyfeillion addysg yn Neuadd Drefol Abertawe, Tachwedd 10fed, 1871; i'r hwn yr eglurodd Mr. Bourne, ysgrifenydd y gymdeithas, fwriadau y pwyllgor yn Llundain. Dywedodd y byddent yn barod i sefydlu coleg o'r fath yn Abertawe, os byddai i gyfeillion addysg yn y dref hono roddi derbyniad croesawus a rhyddfrydig iddo. Yn y cyfarfod, dywedodd Mr. Bourne y gellid symmud pob anhawsderau oedd ar y ffordd ynglŷn â chrefydd, trwy dderbyn ymgeiswyr heb gyfeirio at wahaniaethau enwadol—trwy ganiatau i'r efrydwyr fyned i'w lleoedd eu hunain o addoliad—a thrwy wahardd yr arferiad o bob llyfr arall, ond y Beibl, fel eglurhâd awdurdodol ar y gwirionedd dwyfol.

Yn ganlynol i hyn, cymmerwyd yr adeiladau sydd yn adnabyddus yn awr fel 'Coleg Normalaidd Abertawe' ar brydles; ac wedi gwneyd y parotoadau angenrheidiol, agorwyd y sefydliad Chwefror 5ed, 1872. Darperid, y pryd hyny, gyfleusderau i dderbyn pump a deugain o ferched ieuainge; a derbyniwyd cymmaint a deunaw ar hugain ar unwaith. Cymmerodd yr agoriad cyhoeddus le yr 28ain o'r mis canlynol. Yn y flwyddyn 1875, adeiladwyd neuadd fawr i draddodi darlithiau ynddi, ac ystafell i'r pwyllgor, gydag ystafelloedd eraill uwch ben; ac yn 1882, prynwyd tŷ oedd yn terfynu ar adeiladau y coleg. Drwy hyny, galluogwyd y sefydliad i dderbyn deg a thrigain o ferched ieuainge i breswylio, a dilyn eu hefrydiau.

Yn Nelson Terrace y mae y coleg; ac y mae, erbyn hyn, yn meddu ar bob cyfleusderau angenrheidiol i gario y gwaith pwysig yn mlaen. Ymofynir gan lawer mwy o ferched ieuainge am dderbyniad nag y gellir eu derbyn. Er enghraifft, yr oedd 187 yn ymgynnyg yn yr arholiad olaf (1889); ond ni ellid cymmeryd mwy na 34 i mewn. Derbynir hwynt yn y drefn y byddant yn sefyll ar restrau yr arholiadau; ond y mae y pwyllgor yn meddu hawl i dderbyn rhai o'r dosbarth blaenaf o restrau colegau eraill o flaen y rhai fydd heb lwyddo i gyrhaedd yn uwch na'r ail ddosbarth yn y coleg hwn. Disgwylir oddi wrth y rhai diweddaf 20*p.* ar eu derbyniad i mewn; ond pymtheg gini ydyw y tâl cyffredin. Dyma yr unig daliad a ofynir am addysg, ymborth, lletty, golchi, a gwasanaeth meddyg, am y ddwy flynedd y byddant yn y coleg.

Llywydd y coleg, ac ysgrifenydd y pwyllgor, yn awr (1890) ydyw Mr. D. Williams. Y brif athrawes ydyw Miss Hendy. Yr athrawesau eraill ydynt Miss Thomas, Miss Rodwell, Miss Williams, a Miss Tennant.

Yr amser a ganiateir i'r merched ieuainge bob dydd i efrydu ydyw wyth awr, am bum niwrnod yn yr wythnos; a thair awr ar ddydd Sadwrn. Ni a roddwn yma y nifer a dderbyniwyd i'r coleg er ei agoriad, a berthynent i'r gwahanol enwadau crefyddol:—Perthynol i Eglwys Loegr, 156; i'r Annibynwyr, 118; i'r Methodistiaid Calfinaidd, 111; i'r Bedyddwyr, 99; i'r Wesleyaid, 51; i'r Undodiaid, 13; i'r Presbyteriaid, 9; i'r Cristionogion Beiblaidd, 3; i'r Methodistiaid Cyntefig, 3; i'r Crist-Adelphiaid, 2; i'r Brodyr, 1; ac i'r Cyfeillion, 1: a dywedir fod y cyfartaledd uchod yn lled debyg drwy'r blynyddoedd.

Er pan sefydlwyd y coleg, y mae 567 o efrydesau wedi eu derbyn i mewn. O'r nifer, y mae 483 wedi myned yn llwyddiannus drwy gwrs eu hefrydiaeth. Ymadawodd 14 o herwydd afiechyd; ac y mae y 70 gweddill yn awr yn y sefydliad.

Digitized by Google

Cyferfydd y merched ieuaingc yn Ionawr, ac ymadawant yn ddioed ar ol yr arholiad am dystysgrifau yn Rhagfyr. Caniateir gŵyliau byrion tua'r Pasc a Mihangel; a rhoddir gŵyliau meithach yn misoedd Gorphenaf ac Awst.

Cyfarfyddir â threuliau y coleg mewn dwy ffordd:—trwy yr arian a ganiateir gan y llywodraeth, a thrwy danysgrifiadau gan gyfeillion addysg anenwadol. Disgwylia y llywodraeth y bydd i bawb a dderbyniant eu haddysg yn y sefydliad hwn ddilyn eu gorchwylion fel athrawesau mewn ysgolion elfenol cyhoeddus mewn rhyw gylch neu gilydd; a disgwylir i ymrwymiad i'r pwrpas hwn gael ei wneyd ar eu derbyniad.

Y tanysgrifwyr i'r gymdeithas a ddisgwyliant y bydd i'r athrawesau, tuag at addysg pa rai y byddant wedi cyfranu, yn alluog ac yn barod i gario yr ysgolion yn mlaen mewn ysbryd Cristionogol ac anenwadol, ac yn alluog i wneyd y plant yn adnabyddus o wirionedd y Beibl—ond heb roddi un cyfeiriad sectaidd iddo.

Ammodau derbyniad merched ieuaingc i'r coleg ydyw y rhai canlynol:—Eu bod yn barod i aros ynddo am ddwy flynedd—eu bod yn alluog i roddi sicrwydd eu bod yn rhydd oddi wrth bob diffyg neu afiechyd o bwys — yn meddu cymmeriad da, ac yn feddiannol ar allu i gyfranu addysg.

Disgwylir i'r cyfryw ymddangos yn y coleg y Mawrth cyntaf, neu yr ail, yn mis Gorphenaf, a'r pedwar dydd canlynol, i fyned dan arholiad:—yn mherthynas i'w hiechyd gan swyddog meddygol y sefydliad, o ran eu galluoedd cerddorol gan yr athraw cerddorol, ac o ran eu hadnabyddiaeth o'r cwestiynau canlynol gan un, neu ragor, o arholwyr y llywodraeth; sef, yr iaith Saesneg, Daearyddiaeth, Hanesyddiaeth Prydain, Rhifyddiaeth, adnabyddiaeth o Drefniadau Ysgolion, Cynnildeb Cartrefol, Gwaith Nydwydd; a bydd gwybodaeth am egwyddorion cerddoriaeth—y Tonic Sol-Ffa, neu yr Hen Nodiant—yn dderbyniol. Parhâ yr arholiadau am bedwar diwrnod, neu ragor; yn ystod pa rai y bydd pob angenrheidiau i'w cael yn y coleg am 12*s.* 6*c.* Gwneir canlyniad yr arholiad yn adnabyddus mor fuan ag y gellir ar ol hyny. Ceir pob cyfarwyddiadau angenrheidiol am dderbyniad i'r sefydliad trwy gyfeirio llythyr fel y canlyn:—*The Principal, Training College, Nelson Terrace, Swansea.*

COLEG NORMALAIDD BANGOR. Sefydlwyd y coleg hwn yn y fl. 1858. Fe gododd yr angenrheidrwydd am dano ynglŷn â'r deffroad mawr a gymmerodd le yn Nghymru mewn cyssylltiad ag addysg anenwadol. Wedi gweled fod pobl Cymru wedi troi eu cefnau ar Eglwys y Wladwriaeth, fe ddarfu i nifer o Eglwyswyr, gyda'r amcan o gael plant y genedl yn ol, sefydlu Ysgolion Cenedlaethol *(National Schools)* yn y Dywysogaeth, i'r dyben, yn ol amcanion proffesedig Cymdeithas yr Ysgolion Cenhedlaethol *(National School Society)*, "o addysgu plant y tlodion yn egwyddorion Eglwys Loegr." Ni wnaeth neb fwy yn y ffordd yma na'r Deon Cotton, o Fangor; ac ni chelai efe o gwbl yr amcan oedd ganddo mewn golwg. "Prif amcan ysgolion yr Eglwys," meddai, "ydyw gwreiddio plant mewn gwybodaeth o'r Ysgrythyrau Sanctaidd, a'u trwytho yn egwyddorion yr Eglwys." Drachefn: "Y mae yr Ymneillduwyr yn dymuno cael gan y clerigwyr ganiatau i'r athrawon roddi o'r neilldu eu hegwyddorion, gan esgeuluso trwytho y plant yn egwyddorion yr Eglwys, a pheidio ceisio ganddynt fod yn bresennol yn ngwasanaeth yr Eglwys bob Sabbath. Ond yn sicr, ni bydd i'r clerigwyr ildio i'r dynion hyn—ïe, dros awr—gan fradychu felly fuddion yr eglwys i ba un y maent wedi tyngu ffyddlondeb, a dwyn y tlodion i fyny mewn sism, a gwneyd yr Eglwys yn gymdeithas er lledaenu penboethni crefyddol a pholiticaidd." Ac yr oedd Dr. Thirlwall, Esgob Tŷ Ddewi, yn cydnabod, yn un o'i *charges*, "fod y genhedlaeth hono o bobl Cymru wedi ei dyeithro yn anobeithiol oddi wrth y sefydliad," ac yn gwasgu at ystyriaeth ei glerigwyr, "y gellid, ac y dylid, adfer y genhedlaeth nesaf, trwy ofalu am addysg y plant."

Yr oedd hyn yn gwasgu nifer mawr o Gymry goleuedig a chrefyddol i gyfyngder dirfawr. Ar y naill law, yr oeddynt yn angerddol awyddus i gael ychydig o addysg i'w plant; ond ar y llaw arall, yn teimlo yr anfoddlonrwydd dyfnaf i feddwl am dderbyn hyny ar y draul o wneyd Eglwyswyr o honynt. Clywodd rhai o honynt am gynllun Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a Thramor i sefydlu ysgolion anenwadol, a theimlent ar unwaith mai dyna y drefn fyddai yn gyfaddas i Gymru.

Yn 1843, rhoddwyd ysgogiad nerthol i feddwl y genedl gyda'r achos hwn. Cyn hyny, nid oedd ond chwech o Ysgolion Brytanaidd yn Nghymru—pedair yn y De, a dwy yn y Gogledd. Ond yn Awst, 1843, anfonodd ein cydwladwr teilwng, y diweddar Syr Hugh Owen, lythyr i'r cyhoeddiadau Cymreig, yn galw sylw y Cymry at yr Ysgolion Brytanaidd, ac yn eu cyfarwyddo pa fodd i'w sefydlu. Yn fuan, dygodd achos Cymru i sylw Cymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd, a chafodd ganddi bennodi y diweddar Barch. John Phillips yn oruchwyliwr drosti yn y Gogledd; ac ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, pennodwyd y diweddar Barch. William Roberts, o'r Blaenau, yn oruchwyliwr dros y De. Mewn canlyniad i hyn, sefydlwyd llawer o Ysgolion Brytanaidd hyd ein hardaloedd, ac anfonwyd nifer o'n pobl ieuaingc i golegau athrawol y gymdeithas yn Llundain i'w hyfforddi i'r gwaith o addysgu yn yr ysgolion hyny. Cyn pen nemawr, yr oedd yr alwad am athrawon y fath fel y gwelwyd fod yn rhaid cael sefydliad i'w parotoi yn Nghymru.

Yn 1856, yr ydym yn cael Mr. Hugh Owen a Mr. Forster, fel aelodau o Gymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd, mewn cyfarfod yn Mangor, yn gosod ger bron gynnygiad i sefydlu coleg athrawol i Ogledd Cymru. Ar gynnygiad y diweddar Barch. Henry Rees, yr hwn a eiliwyd gan Mr. Griffith Jones, pasiwyd yn unfrydol:—"Fod y cyfarfod hwn yn barnu, mewn trefn i sicrhau y cyflenwad angenrheidiol o athrawon i Ysgolion Brytanaidd Gogledd Cymry, fod angen am goleg athrawol er addysgu a pharotoi athrawon; a bod sefydliad o'r natur hwnw i gael ei sefydlu yn ddioed mewn rhywle yn Ngogledd Cymru ag y bernir yn fwyaf cyfaddas; a bod pwyllgor yn cael ei ffurfio er cyrhaedd yr amcan mewn golwg."

Gweithiodd y pwyllgor hwnw, i ba un yr oedd y Parch. John Phillips a Mr. Hugh Owen yn ysgrifenyddion, yn dra egniol. Penderfynwyd sefydlu y Coleg yn Mangor; ac wedi gweled fod y De yn addfed i gydweithredu yn yr amcan, penderfynwyd ei wneuthur yn Goleg i Gymru oll. Rhoddodd Mr. Robert Davies, Bodlondeb,

Digitized by Google

1,000*p.* at ei adeiladu, a bu ymdrechion y Parch. John Phillips mewn casglu at hyny trwy Gymru, a threfi Lloegr lle yr oedd Cymry yn trigiannu, yn fawrion iawn, ac yn dra llwyddiannus. Cyrhaeddwyd y swm o 13,400*p.*, a chyfranodd y llywodraeth at hyny 2,000*p.* Prynwyd lle hynod o ddymunol i'w adeiladu gan y Milwriad Pennant. Ond dechreuwyd ar waith y coleg yn Ionawr, 1858, yn 6 a 7, Penrallt Villas—dau dŷ annedd yn Upper Bangor; i'r hyn y rhoddwyd cynnorthwy haelionus o 100*p.* gan Gymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd; a derbyniwyd rhodd *(grant)* y llywodraeth, fel at golegau athrawol eraill y deyrnas. Yn Awst, 1862, yr oedd yr adeilad hardd a godwyd, mewn rhan fawr trwy geiniogau gwerin Cymru, i fod yn gartref iddo, wedi ei chwblhau—i'r hon y symmudwyd y pryd hyny; ac yno y dygir y gwaith yn mlaen.

Ni threfnwyd lle yn y coleg ar y dechreu ond i 41; ond wedi pasio Deddf Addysg Elfenol, 1870, ad-drefnwyd yr ystafelloedd, a gwnaed lle i 60 o efrydwyr; a byth er hyny y mae y nifer hwn yn y coleg bob blwyddyn. Byddant yn y sefydliad am ddwy flynedd, a 30 yn myned allan bob Nadolig. Ac er nad oes le ond i 30 bob blwyddyn ddyfod i mewn, y mae tua thair gwaith y nifer hwn yn ymgeisio am dderbyniad. Ni dderbynir o Loegr ond a basiant yr arholiad am dderbyniad yn y dosbarth cyntaf, neu yn bur uchel yn yr ail.

Mae y coleg, o'r dechreuad, wedi bod yn hynod lwyddiannus. Y mae nifer anrhydeddus o'i efrydwyr wedi enwogi eu hunain ar ol ei adael, ac yn awr yn broffeswyr, &c.; ac y mae llawer o gannoedd o honynt, gyda dirfawr amlhâd ysgolion yn ein gwlad dan y byrddau ysgol, yn gwneyd gwasanaeth tra gwerthfawr yn addysgiaeth ein plant. Y mae ei draul flynyddol dros 3,000*p.*; yr hyn a wneir i fyny o rodd flynyddol y llywodraeth, taliadau yr efrydwyr, cyfroddion a thanysgrifiadau, a chasgliadau cynnulleidfaol.

Llywydd presennol y pwyllgor ydyw Mr. Richard Davies, Arglwydd Raglaw Môn; y trysorydd, Mr. J. Herbert Roberts. Llywydd y coleg ydyw y Parch. Daniel Rowlands, M.A.; is-lywydd, Mr. John Price; a'r athrawon eraill ydynt Meistri. John Thomas, B.A., E. Hurren Harding, E. R. Davis, B.A., a G. W. Roome.

COLEGAU Y DEYRNAS HON. Y maent wedi arfer bod ynglŷn â llawer o'r prifysgolion; ond nid ydynt wedi cyrhaedd y dylanwad a'r pwysigrwydd a berthynant iddynt yn Rhydychain a Chaergrawnt. Dechreuasant oddi ar ddymuniadau personau caredig ac elusengar, i gynnorthwyo nifer o efrydwyr tlodion, a'u codi uwch law angen pan yn y prifysgolion, a hyny er's canrifoedd—fel y gwelir oddi wrth yr hyn a ganlyn. Bwriadai y cyfryw iddynt fyw gyda'u gilydd; a gadawsant symiau mawrion o arian tuag at eu cynnaliaeth. Sefydlwyd Coleg y Brifysgol, a Choleg Balliol, yn Rhydychain, mewn ffurf lled rwydd, tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg. Ond sefydliad Coleg Merton yno, yn y fl. 1274, gan Walter-de-Merton, oedd gwir ddechreuad y drefn golegawl yn Lloegr. Yn Nghaergrawnt, sefydlwyd y coleg cyntaf, sef Peterhouse, ar bron yr un cynllun.

Ar y dechreu, ni pherthynai i goleg ond y prifathraw a'r efrydwyr, neu yr ysgolheigion; y rhai fyddent yn byw yn gwbl yn yr adeiladau, ac ar y gwaddoliadau a ddarparwyd gan ei sylfaenwyr. Rhenid yr ysgolheigion i ddau ddosbarth; sef, yr ysgolheigion hynaf, a'r ysgolheigion ieuangaf; a defnyddid yr ysgolheigion hynaf i gyfranu addysg i'r lleill. Gelwid yr ysgolheigion hynaf yn 'gymmrodorion' *(fellows)*, i osod allan y berthynas gydraddol oedd rhyngddynt â'u gilydd; ac yn raddol, daeth y gair 'cymmrodor,' i'w arfer am aelodau hynaf y coleg: tra yr oedd y gair 'ysgolhaig' (*scholar*) yn cael ei gyfyngu at yr aelodau ieuangaf.

Yn perthyn i Brifysgol Rhydychain y mae un-ar-hugain o golegau, a dwy neuadd (*hall*) i fyrddwyr, fel y gwelir isod. I Brifysgol Caergrawnt, nid oes ond dau-ar-bymtheg o golegau yn perthyn, a thri gwesty (*hostel*). Ni a roddwn yn y ddwy daflen ganlynol enwau y colegau, y flwyddyn y sefydlwyd pob un, nifer yr efrydwyr oedd yn mhob coleg yn 1889, a swm gwaddoliadau colegau Rhydychain, a derbyniadau colegau Caergrawnt:—

COLEGAU RHYDYCHAIN.

Sefydlwyd.	Colegau.	Gwaddoliadau.	Efrydwyr.
1437	All Souls	*P.*16,048	4
1262	Balliol	6,267	254
1509	Brasenose	7,691	121
1532	Christ Church	31,977	257
1516	Corpus	12,397	86
1314	Exeter	4,699	152
1874	Hertford	—	88
1571	Coleg yr Iesu	8,254	75
1869	Keble	—	177
1427	Lincoln	5,007	70
1456	Magdalen	24,323	177
1274	Merton	14,648	129
1386	New College	19,047	231
1326	Oriel	5,608	107
1624	Pembroke	3,687	67
1340	Queen's	10,921	131
1555	St. John	11,112	118
1554	Trinity	5,828	153
1249	University	6,354	104
1613	Wadham	4,201	104
1714	Worcester	2,118	129

NEUADDAU (*Halls*).

1269	St. Edmund	44
1325	St. Mary (Mair)	34
—	Charsley's	47
—	Turrell's	8
—	Efrydwyr eraill	233

Rhif yr holl aelodau sydd ar gof-lyfrau y brifysgol uchod, yn 1889, oedd 11,896
Nifer aelodau y Gymmanfa Eglwysig..... 5,799

COLEGAU CAERGRAWNT.

Sefydlwyd.	Colegau.	Derbyniadau.	Efrydwyr.
1473	Catharine Hall	5,530	51
1505	Christ's	14,510	158
1326	Clare	14,586	165
1352	Corpus Christi	8,571	91
1800	Downing	7,138	79
1584	Emmanuel	13,364	137
1348	Gonville a Caius	19,034	162
1496	Coleg yr Iesu	12,400	205
1441	King's	34,984	99
1519	Magdalen	4,646	60
1347	Pembroke	11,544	120
1257	Peterhouse	8,102	92
1448	Queen's	8,011	80
1595	Sidney-Sussex	6,944	60
1511	St. John's	42,296	257
1546	Trinity	81,674	631
1350	Trinity Hall	9,846	238

GWESTAI (*Hostels*).

1873	Cavendish College	24
1882	Selwyn College	105
1884	Ayerst's Hostel	31
—	Efrydwyr eraill	126

Rhif yr holl aelodau sydd ar gof-lyfrau y brifysgol uchod, yn 1889, oedd 12,924
Aelodau y Senedd..... 6,681

Digitized by Google

Yn mhell ar ol sefydliad colegau y daeth yn arferiad i gymmeryd i mewn fyrddwyr (*boarders*); am angenrheidiau pa rai y derbynid tâl. Gelwir hwynt yn Rhydychain yn awr yn *commoners*, ac yn Nghaergrawnt yn *pensioners*. Ond o dan reolau Dirprwyaeth 1882, diddymir y drefn hon yn fuan. Gwel PRIFYSGOLION.

Ni a roddwn yn awr restr o golegau eraill dan eu henwau Saesnig, er rhwyddhau y ffordd i'r neb a fyno ohebu â hwynt. Bydd llythyr wedi ei gyfeirio at y prifathraw (*principal*), neu yr ysgrifenydd (*secretary*), yn sicr o gael sylw.

COLEGAU AMRYWIOL.

Doctors' Commons, London, sefydlwyd yn	1670
Gresham College, etto	1581
King's College, etto	1829
Maynooth, Iwerddon—Pabyddion ...	1795
College of Physicians, London ...	1523
Etto etto Dublin ...	1667
Etto etto Edinburgh ...	1681
St. Andrews, Ysgotland	1410
Royal College of Surgeons, London ...	1745
Etto etto (wedi ei ail gorphori)	1800
Etto etto Dublin ...	1786
Etto etto Edinburgh (newydd)	1803
Trinity College, London	1591
Etto etto Dublin	1591
University College, London	1826
Winchester	1387

Owen's College, Manchester, i'r hwn y mae pedair adran yn perthyn; sef, I. Adran y celfyddydau a'r gyfraith. II. Adran feddygol. III. Adran i ferched. IV. Adran i ddosbarthiadau yn y nosweithiau.

Liverpool University College, gyda dosbarth meddygol.
The Yorkshire College, Leeds, etto
Newcastle College of Medicine.
The Queen's College, Birmingham.
Bristol University College.
Nottingham University College.
The Firth College, Sheffield.
The Hartley Institution, Southampton.
United College of St. Salvator and St. Leonard, St. Andrews.
College of St. Mary, ditto.
Dundee University College.
The Mason Science College, Birmingham.
Bradford Technical College.
Huddersfield Technical School.
Manchester Technical School.
Newcastle-on-Tyne School of Science and Art.
The Sheffield Technical School.
Glasgow and West of England Technical College.
Technical College, Finsbury, London.
Electrical Engineering and Submarine Telegraphy, Prince's Street, Hanover Square, London.
Aspatria Agricultural College, near Carlisle.
The Royal Agricultural College, Cirencester.
The College of Agriculture, Downton.
The Colonial College and Training Farm, Hollesley Bay, Woodbridge.
The Minto House Agricultural College, Edinburgh.
The College of Preceptors, Bloomsbury, London.
Royal College of Music, Kensington, London.
Guildhall School of Music, London.
The College of Organists, Bloomsbury, London.
Royal College of Veterinary Surgeons, London.
Royal Veterinary College, Camden Town.
Royal (Dick's) Veterinary College, Edinburgh.
New Veterinary College, Leith Walk, Edinburgh.
Veterinary College, Buccleuch Street, Glasgow.

COLEGAU DUWINYDDOL EGLWYS LOEGR.

St. Aidan's, Birkenhead; St. Paul's Mission House, Burgh; Ridley Hall, Cambridge; St. Augustine's Missionary College, Canterbury; Chichester; Cuddeston; Dorchester Foreign Missionary College; Gloucester; St. John's Hall, Highbury; Ely; Islington Church Missionary College, London; Leeds Clergy School; Lichfield; Lincoln; Wycliffe Hall, Oxford; St. Stephen's House, Oxford; St. Bees; Salisbury; Truro; St. Boniface's Missionary College, Warminster; a Wells.

COLEGAU YR ANNIBYNWYR.

Mansfield College, Rhydychain; New College, St. John's Wood, London; Cheshunt (Iarlles Huntingdon); Lancashire Independent College, Manchester; Hackney College, London; Yorkshire United Independent College (Airedale and Rotherham), Bradford.

Y mae colegau gan yr Annibynwyr hefyd yn Bristol, Plymouth, Nottingham, ac Edinburgh.

COLEGAU Y BEDYDDWYR.

Regent's Park, London; Pastors' College; Bristol; Manchester; Nottingham; a Rawdon, Leeds.

COLEGAU Y METHODISTIAID WESLEYAIDD.

Richmond, Didsbury, Headingley, Handsworth, Belfast; Victoria Park, Manchester (Eglwys Rydd Fethodistaidd); Alexandra Road, Manchester (y Methodistiaid Gwreiddiol); Raumoor, Sheffield (y Cyfundeb Newydd).

COLEGAU Y PRESBYTERIAID.

United Presbyterian Theological Hall, Edinburgh; Free Church New College, Edinburgh; Free Church College, Glasgow; Free Church College, Aberdeen; English Presbyterian Theological College, London; Belfast Presbyterian College; Derry (Magee College), yn yr Iwerddon.

COLEG YR UNDODWYR.—Manchester.

COLEG YR IUDDEWON.—Tavistock Square, London.

COLEGAU PRIFYSGOLION Y BONEDDIGESAU.

Girton College, Caergrawnt; Newnham College, Caergrawnt; Lady Margaret Hall, Somerville Hall, a St. Hugh's Hall, Rhydychain.

COLEGAU BONEDDIGESAU.

Queen's College, Harley street, London; Bedford College, York Place, Baker street, London; Crystal Palace; Cheltenham; Royal Holloway College; Egham; Guernsey; a King's College, Llundain.

Yn yr Iwerddon y mae tri Choleg Brenhinol; sef, yn Belfast, Cork, a Galway. Sefydlwyd hwynt yn y flwyddyn 1845—amcan pa rai yw rhoddi yr addysg uchaf i bawb o bob enwad crefyddol yn ddiwahaniaeth. Agorwyd y diweddaf Hydref 30ain, 1849. Sefydlwyd y Brifysgol Frenhinol yn Earlsford Terrace, Dublin, Awst 15fed, 1850; a'r hon y mae y tri choleg uchod mewn cyssylltiad.

COLERIDGE, SAMUEL TAYLOR: ydoedd fab ieuangaf ficer St. Mary, Ottery, yn swydd Devon: ganwyd ef yn 1772. Wedi ei adael yn amddifad pan yn naw oed, anfonwyd ef am saith mlynedd i ysgol Christ's Hospital, Llundain, lle yr oedd Charles Lamb yn gydysgolhaig âg ef. Gwnaeth gynnydd mawr mewn dysgeidiaeth, a chasglodd lawer o wybodaeth; ond nid oedd ei feddwl y pryd hwn, fwy nag mewn tymmorau diweddarach ar ei fywyd, yn ddarostyngedig i un reol na threfn yn y byd. Dywed am dano ei hun, ei fod, cyn bod yn bymtheg oed, wedi colli pob blâs ar hanesiaeth a ffeithiau—ïe, fod hyd yn oed barddoniaeth a ffugchwedlau wedi colli eu swyn iddo, ac mai ei bleser oedd ymgolli mewn athroniaeth uchanianol a dadleuon duwinyddol. Pan yn bedair ar bymtheg oed, aeth i Goleg Iesu, Caergrawnt, lle yr hynododd ei hun fel ysgolhaig Groegaidd; ond ni chymmerodd radd yno, ac ni chyfyngai ei hun at yr efrydiau hyny oedd yn arwain i ddyrchafiad yn y brifysgol.

Yr oedd cynnildeb yr hyn na ddysgodd erioed; a'r canlyniad fu, iddo syrthio i ddyled. Nid rhyfedd chwaith fod un oedd mor ddiorphwys yn ceisio ymwthio i'r dirgeledigaethau dyfnaf, ac o

Digitized by Google

farn mor anscfydlog, yn ymgymmeryd â Sosiniaeth fel y gyfundrefn a gynnwysai leiaf o dramgwyddiadau i'w reswm anaddfed. Yn nghanol ei yrfa yn y brifysgol, dan ddylanwad tuedd bruddglwyfus—yr hon sydd mor fynych, yn enwedig mewn cyssylltiad â rhyw anhwyldeb corfforol, yn pwyso fel plwm wrth odre meibion yr awen—ac wedi anobeithio cyrhaedd yr anrhydedd yn mhlith ei gydefrydwyr, nad oedd yn cymmeryd y moddion angenrheidiol i'w sicrhau, gadawodd Gaergrawnt yn annysgwyliadwy. Ar ol crwydro ychydig ddyddiau yn Llundain, ac wedi rhoddi y geiniog olaf a feddai i gardotyn, efe a ymrestrodd dan enw ffugiol i gatrawd o wŷr meirch. Daeth ei gyfeillion o hyd iddo trwy hysbysiadau un o gadbeniaid y fyddin, yr hwn oedd wedi deall yn ddamweiniol fod Comberback—enw newydd Coleridge—yn ddyn ieuanc o ddysgeidiaeth glasurol: sicrhawyd ei ryddid, a dychwelodd yn ol i'r coleg. Yn 1794, daeth yn gydnabyddus â Southey; ac yn Bristol, lle yr oedd Southey yn byw, ffurflasant, gyda bardd ieuanc arall, Lovel, y penderfyniad i ymfudo i'r America, ac yno i sefydlu gwerinlywodraeth ar lan y Susquehannah. Enw y ffurflywodraeth newydd, yr hon oedd i sicrhau rhyddid perffaith, oedd, *Pantisocracy*. Yn y flwyddyn ganlynol, er mwyn parotoi eu hunain i'r anturiaeth, priododd y tri bardd dair chwaer o'r enw y Misses Fricker; ond yn lle ei hyrwyddo, dymchwelodd y priodasau y ddyfais *bantisocrataidd*. Rhoddodd synwyr Southey, yn nghyd â diffyg moddion i sylweddoli eu dychymyg, derfyn ar yr anturiaeth fwriadedig.

Nid oedd gan Coleridge ddim ond ei alluoedd llenyddol i ymddibynu arnynt. Yn fuan sefydlodd gyhoeddiad wythnosol, o'r enw *Watchman*, mewn amddiffyniad i egwyddorion rhyddid, a chymmerodd daith trwy y trefydd llawweithfaol i ennill derbynwyr iddo. Ond o herwydd diffyg rheoleidd-dra yn ei ddygiad allan, ni pharhaodd ond hyd y nawfed rhifyn. Yn niwedd y flwyddyn 1796, symmudodd i gymmydogaeth Mr. Poole, yr hwn a fu yn noddwr caredig iddo, yn Somerset, wrth droed y Quantock Hills. Trwyddo ef daeth yn gydnabyddus â Wordsworth, y bardd, yr hwn oedd yn byw yn All-Foxden. Yr adeg hon oedd y tymmor happusaf ar ei fywyd. Cyrhaeddodd ei allu barddonol, yr hwn oedd wedi blaguro tua'i bymthegfed flwydd oed, ei lawn addfedrwydd, trwy gynhyrfiadau nawsaidd, natur, cyfeillgarwch, a serch teuluaidd. Yn 1798, ymddangosodd amryw o'i gyfansoddiadau—yr *Ancient Mariner, Love, The Nightingale*, a *The Foster-Mother's Tales*—mewn cyfrol a gyhoeddodd Wordsworth, dan yr enw *Lyrical Ballads*, yr hon a dynodd sylw mawr. Cyfansoddwyd y rhan gyntaf o *Christabel* yn 1797, a'r ail yn 1800; ac yn y gyntaf o'r ddwy flynedd hyn, cyfansoddodd *drageedy*, dan yr enw *The Remorse*. Ffaith hynod yn mhlith llawer o ffeithiau hynod yn hanes y dyn rhyfedd hwn ydyw, fod yr holl gyfansoddiadau barddonol, ar ba rai y mae ei glod fel bardd yn gorphwys, wedi ymddangos mewn cyfnod byr—nid llawer ol na blaen i bump ar ugain oed.

Yn yr ystod hwn yr oedd efrydiau athronyddol yn cael llawer o'i sylw, ac yr oedd ei feddwl yn chwareu fel y pendil rhwng y naill gyfundrefn a'r llall. Yr ydoedd hefyd yn pregethu mewn capel Sosinaidd yn Taunton. Yn 1798, derbyniodd alwad i fyned yn bregethwr i'r Sosiniaid yn yr Amwythig: ac yr ydoedd wedi pregethu ei bregeth gyntaf, pan y galluogwyd ef trwy haelioni Mr. Wedgwood, i roddi i fyny ei ymrwymiad, ac i fyned i Germany am dros flwyddyn, lle yr agorwyd o'i flaen ryw fyd newydd o feddwl, yr hyn a adawodd ddylanwad cryf arno am y gweddill o'i oes. Ar ol ei ddychweliad i Loegr, dechreuodd ysgrifenu erthyglau politicaidd a barddoniaeth i newyddiadur—y *Morning Post;* ac yn ddiweddarach, gwnaeth yn gyffelyb i'r *Courier*. Ond er ei holl allu, nid ydoedd nac yn ddigon ymarferol nac yn ddigon diwyd i fod yn ysgrifenydd defnyddiol i bapyr newydd.

Ar ol ei ddychweliad o Germany, aeth i drigiannu i gymmydogaeth y *Lakes*, yn Cumberland, lle yr oedd Southey a Wordsworth yn awr wedi ymsefydlu. Oddi wrth hyn, gelwid y tri yn *Lake Poets*. Dechreuodd gymmeryd *opium* pan yn ieuanc, i wrthweithio rhyw anhwylder a gafodd trwy fynych ymdrochi—o'r hyn yr oedd efe yn dra hoff. Parhaodd yr arferiad o fwyta *opium* i gryfhau, nes o'r diwedd iddo syrthio yn ysglyfaeth hollol iddo, ac i gyfansoddiad ei gorff a'i feddwl gael ei anmharu yn anadferadwy ganddo. Yn 1804, aeth i Malta i chwilio am iechyd, ac yno gwnaeth ei ymdrech olaf i ennill ei fywoliaeth, trwy ryw waith rheolaidd—yn y cymmeriad o ysgrifenydd i Syr Alexander Ball, llywydd yr ynys. Dychwelodd i Loegr yn 1806. O'r pryd hwn hyd 1816, nid ymsefydlai yn arosol mewn un man: weithiau arosai gyda'i deulu, ac weithiau gyda'r cyfaill hwn neu y cyfaill arall. Yn 1809 ac 1810, ysgrifenodd a chyhoeddodd yn nghymmydogaeth y *Lakes* saith ar ugain o rifynau o'r *Friend*—cyhoeddiad cyfnodol, yn cynnwys llawer o draethodau ar ei hoff bynciau ef—athroniaeth, beirniadaeth, duwinyddiaeth, &c.: ond ni bu yn llawer mwy llwyddiannus na'r *Watchman*, mewn ystyr arianol, er iddo barhau yn hwy. Yn 1816, gosododd ei hun dan ofal Mr. Gillman, meddyg, yn Highgate, Llundain; a chyda'r teulu caredig hwn yr arosodd nes y bu farw yn 1834. Y mae y cyfeillion lluosog a ennillodd Coleridge trwy ei fywyd, a'r tiriondeb mawr a pharhaus a dderbyniodd, yn dangos ansawdd garuaidd a hawddgar ei natur. Dywed Gillman, iddo, cyn ei farwolaeth, lwyddo i ymryddhau oddi wrth yr iau gaethiwus yr ydoedd dani i *opium*. Nid yw ei fywgraffwyr, Gillman na Cottle, yn olrhain ei hanes yn mhellach na'r flwyddyn 1816. Ar ol hyny, cyhoeddwyd ei *Lay Sermons*—math o bregethau; *Biographia Literaria*—traethodau, yn mha rai y mae yn egluro y syniadau athronyddol a ffurfiodd ar ol ei ddychweliad o'r Cyfandir. Yr oedd ei glod fel siaradwr wedi myned yn mhell ac yn agos. Cyrchai pawb o ddim chwilfrydedd a hynodrwydd llenyddol i dŷ Mr. Gillman, i gael gweled a chlywed "*the old man-eloquent*" (yr hen ŵr hyawdl). Yr oedd yn wrthddrych pryder a gofal mawr gan ei gyfeillion: gwrandawent ar ei ymddyddanion rhyfeddol fel ar oracl, tra yr ymarllwysai am oriau, yn ddifyfyr, ffrwd o'r meddyliau mwyaf tarawiadol, dysglaer, a gwreiddiol. "A glywsoch chwi fi yn pregethu?" meddai Coleridge unwaith wrth Lamb. "Ni chlywais chwi yn gwneuthur dim arall" oedd ateb ei gyfaill. Cyhoeddwyd adgofion ei ymddyddanion ar ol ei farwolaeth, dan yr enw *Table-Talk*. Prif destyn ei fyfyrdodau yn y blyneddoedd olaf oedd Athroniaeth Crefydd; ac er na chyfansoddodd un traethawd rheolaidd ar hyn, eto y mae bron holl ysgrifeniadau y cyfnod hwn yn dwyn cyssylltiad mwy neu lai uniongyrchol â'r testun crybwylledig. Yn 1825, ymddangosodd ei *Aids to Reflection*—cyfrol fechan, yn gynnwysedig o ddetholiadau byrion o hen

Digitized by Google

awduron, yn benaf o Leighton; yn nghyd â sylwadau byrion o'i eiddo ei hun; a thraethodau, heb fod yn faith, ar amryw bynciau duwinyddol, ac athroniaeth duwinyddiaeth. Yn 1830, cyhoeddwyd ei *Constitution of the Church and State.* Yn 1836—39, daeth allan bedair cyfrol o'i *Literary Remains*, yn gynnwysedig o ddarlithiau a draddodwyd yn 1818, yn nghyd â phigion o'i nodiadau achlysurol. Yn 1840, argraffwyd traethawd byr ar ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, wedi ei gyfenwi, *Confessions of an Enquiring Spirit.*

Yr oedd Coleridge yn gydnabyddus trwy ei oes, bron, â chyfyngdra arianol; ac nid rhyfedd—gan ei fod heb foddion annibynol, heb alwedigaeth, ac yn amddifad o bob ymroddiad rheolaidd a threfniad doeth o'i achosion bydol. Yn 1819, cafodd ddyrnod trwm oddi wrth fethdaliad cyhoeddwr ei lyfrau. Er mwyn adferu ei amgylchiadau ychydig, penderfynodd a chytunodd i ysgrifenu cyfres o erthyglau i *Blackwood's Magazine:* ymddangosodd y gyntaf, ond ni welwyd byth mo'r ail.

Yr oedd ei arferion afreolaidd, a'i ddiffyg penderfyniad, yn anfanteision i holl rym a chyfoeth ei feddwl ddyfod i'r amlwg. Ac y mae maintioli ei gynneddfau i'w mesur oddi wrth yr hyn a allasai wneuthur pe buasai wedi gwreggysu lwynau ei feddwl, a chyfeirio ei holl egnion yn ddiymarbed ac yn uniongyrchol at y cyflawniad o un gorchwyl mawr. Mae yn wir mai ymdrech caled oedd i fachgen tlawd, a daflwyd yn ddiamddiffyn ar gymdeithas, gan ymddiried i haelioni cyfeillion am gynnaliaeth, i ymladd ei ffordd yn erbyn pob plaid, gan na pherthynai i un oedd eisoes wedi ei ffurfio, nes cael ei gydnabod gan ddosbarth mawr o'r dynion mwyaf ymchwilgar, yn Mhrydain ac America, yn apostol cyfnod newydd o feddwl ar athroniaeth a duwinyddiaeth, yn nghyd â'u perthynas â'u gilydd. Y mae ei ysgrifeniadau yn debyg i fwnglawdd cyfoethog, yn yr hwn y mae cyflawnder o aur i'w gael; ond nid mewn gwythïenau rheolaidd y mae: ac y mae llafur dirfawr yn ofynol yn fynych i ddidoli y mŵn oddi wrth y rwbel. Mae llawer o'r farn fod hyn yn chwanegu at eu gwerth—o gymmaint ag y mae *llafur* a'i ddylanwad ar holl gyfansoddiad y meddwl yn llawn mor werthfawr a'r trysorau a geir trwyddo. I'r neb sydd yn dewis yn hytrach gael y meteloedd gwerthfawr o'r llun, a'r pwysau, a'r nod, angenrheidiol i redeg yn ddiddrwgdybiaeth o law i law, heb i neb eu herio i roddi cyfrif o'u hachau na'u symmudiadau—y bathdy ydyw y lle i hwnw. Ond nid llawer o arian bathedig cymhwys i'r farchnad a geir gan Coleridge:—ac yn wir, nid llafnau o aur, parod i'w toddi i lawr yn fân ddarnau cymhwys i'r pwrs, fel sydd yn nghelloedd Banc Lloegr: ond mŵn, yn ei gyflwr natur, yn gorwedd weithiau yn ddwfn yn y ddaiar, bryd arall yn nes i'r wyneb, ond yn gyffredin yn sefyll mewn angen am ei olchi â dwfr, a'i buro trwy dân, cyn y gellir bod yn sicr ei fod yn aur diledryw.

Nid rhyfedd gan hyny fod cynnifer yn cwyno ei fod yn anneâlladwy iddynt, o herwydd nid mor hawdd ydyw gwahaniaethu y metel gwerthfawr yn y mŵn ag yn y farchnad. Er fod dynion o'r deall mwyaf diwylliedig, ac o'r awdurdod llenyddol uchaf—nid neb llai na Syr J. Mackintosh a Dr. Chalmers, a'u cyffelyb—yn methu deall y bardd-athronydd; ac o ganlyniad nid oeddynt heb awgrymu weithiau nad oedd ganddo ddim i'w ddeall—mai nid cerdded ar ddaiar galed yr ydoedd, ond mai mewn *cloud-land* yr oedd yn byw, ac nad oedd dim i'r llaw gymmeryd gafael arno—eto, nid oedd ammheuaeth neb yn effeithio dim ar hyder Coleridge yn ngwirionedd a phwysigrwydd ei *speculations.* Cyhoeddai efe hwynt mewn amser ac allan o amser, gydag argyhoeddiad diysgog apostol; ac ni phetrusai ar brydiau, wisgo cymmeriad prophwydol a chyhoeddi baich yr Arglwydd yn erbyn cenedl anghrediniol. Ni oddefai ei natur dyner ef iddo ruo bygythion yn llais taranllyd Edward Irving, yr hwn oedd ddysgybl nid annheilwng o'i athraw, yn erbyn y rhai a ammheuent ei fod wedi ei awdurdodi i ddadlenu y byd ysbrydol, ac i wysio sylw dyn am unwaith eto at yr hen wirioneddau tragwyddol a ddysgasai Ioan a Paul, ac at yr un athroniaeth bur, yr hon a geir yn ei chyfanrwydd yn Plato a Bacon—ei gwyneb nefol yn y naill, a'i gwyneb daiarol yn y llall. Mewn ffordd o amddiffyniad, yr oedd yn ddigon ganddo i ymostwng o'i unigrwydd uchel, a dywedyd nad allesid dysgwyl iddo ef roddi eraidiau i ddynion—fod yn ddigon iddo roddi pethau dealladwy i'r sawl oedd yn meddu enaid i'w hamgyffred—"*intelligibilia non intellectum adfero.*"

Ond ar gynnydd yr oedd ei glod yn myned. Yr oedd swyn neilduol yn ei feddyliau i ddynion ieuainc o athrylith a chwilfrydedd, wedi blino ar ffurfiau sefydlog ac adnabyddus o feddwl—yn teimlo fod aros i ymdrochi ar y traeth gwastad, gyda phlantos a merchetos, yn ddarostyngiad i'w galluoedd nofiadol, ac o ganlyniad am fyned allan i'r môr mawr i ymladd â'r tonau. Bod Coleridge wedi rhoddi symbyliad cryf i'r oes ddiweddaf, a bod hwnw yn cael ei drosglwyddo yn mlaen, sydd amlwg. Yn yr America, yn fwy nag yn Mhrydain, y mae barddoniaeth, athroniaeth, a duwinyddiaeth wedi derbyn argraff oddi wrtho. Nid awgrymir trwy hyn fod Coleridge i'w osod yn y dosbarth uchaf o ddynion—ac i'w restru gyda Shakspeare, Milton, a Bacon. Ni byddai yn anhawdd enwi lluaws o ddynion yn llenyddiaeth Lloegr yn unig—ar ol i ni wneuthur y gwahaniaeth angenrheidiol rhwng nerth galluoedd meddyliol a chywirdeb y casgliadau a wneir trwy weithrediad y cynneddfau hyny—o feddyliau llawn cyn gryfed a'r eiddo Coleridge. Yn yr ystyr hwn y mae llawer a roddai y flaenoriaeth i Johnson, Burke, Burns, a David Hume; hyny yw, yn maintioli a nerth eu deall. Nid oedd Wordsworth yn lla. dyn na'i gyfaill. Yn wir, mae yn anhawdd cael dim o werth yn Coleridge ar athroniaeth, duwinyddaeth, beirniadaeth, na gwladyddiaeth, nad ellir cael rhyw ymgydnabyddiaeth âg ef yn Wordsworth; ond fod yr olaf yn ei drosglwyddo mewn dull barddonol, a'r blaenaf mewn dull athronyddol. Nid ydyw yn annhebygol fod Coleridge wedi derbyn llawer o'i athroniaeth oddi wrth Wordsworth.

Achlysurodd clod cynnyddol Coleridge i gyhuddiad o ladrata o awduron Ellmynaidd gael ei ddwyn yn erbyn ein hawdwr, gan De Quincey, un o feistriaid galluocaf yr iaith Seisonig, yn *Tait's Magazine*, yn y flwyddyn 1834. Cadarnhawyd ac eangwyd y cyhuddiad yn 1840, yn *Blackwood*, gan y proffeswr Ferrier; ac y mae Syr W. Hamilton yn rhoddi ei gadarnhâd yntau iddo, gan chwanegu nad oedd dim terfynau i'w ladrad, ond ei anwybodaeth o, a'i anallu i ddefnyddio, yr ysbail. [*Notes to Reid*, td. 890.] Amddiffyniad ei gyfeillion ydyw—fod ei arferion mor ddireol, ei efrydiau mor eang, a bod ei arfer o ddyfynu o'r hyn a ddarllenai, heb unrhyw ofal i nodi

Digitized by Google

o ba le, y fath, fel yr oedd yn hawdd i lawer darn o eiddo rhyw Ellmyn ddyfod i mewn i'w gyfansoddiadau yn ddiarwybod iddo; ac hefyd yr annhebygolrwydd y buasai yn fwriadol yn cymmeryd, fel ei eiddo ei hun, ddefnyddiau o'r llyfrau yr oedd yn annog ereill i'w darllen. Nid yw, ac nis gall y dynion sydd yn ei gyhuddo yn y modd yma wadu ei fod yn ddyn o dalentau ysblenydd. Nid oes ac ni bu dim ammheuaeth o barth i wirionedd a nerth ei athrylith farddonol; a'r gydnabyddiaeth o hyn ydyw, fod y meddyliau uchaf yn mhlith ei gyfoeswyr, Byron a Scott, yn ymostwng i'w efelychu. Nid oes dim ammheuaeth chwaith nad oes llawer o arweinwyr yr oes hon yn addef y rhwymedigaethau mwyaf i ysgrifeniadau athronyddol Coleridge.—[*Traethodydd*, 1846; *Athroniaeth a Duwinyddiaeth Coleridge.*]

Wrth geisio ateb y cwestiwn, Pa beth ydyw natur y rhwymedigaeth hon, a pha beth oedd gwasanaethgarwch Coleridge i athroniaeth a duwinyddiaeth? fe'n harweinir i roddi golwg byr ar brif nodweddau ei ddull o feddwl. Er nad ydyw gwrthddrych ein sylwadau i'w gymharu mewn un modd â Bacon o ran mawrfrydigrwydd tywysogaidd ei feddwl, eangder ei amgyffrediad, na'i wreiddiolder—ar yr un pryd, o ran tuedd ei ysgrifeniadau, a natur ei ddylanwad, y maent rywbeth yn gyffelyb. Y mae dylanwad y ddau i'w priodoli yn hytrach i'w *hysbryd* a'u *dull* (*method*), nag i ddim athrawiaethau penodol a ddysgwyd ganddynt. Cafodd Coleridge ei athroniaeth yn Germany, ac ni wnaeth ddim cyfnewidiadau o bwys ynddi ar ol ei chael. Yr hyn a ystyriai Coleridge fel allwedd ei holl athroniaeth ysbrydol ef, ydyw y gwahaniaeth rhwng *rheswm* a *deall*—y geilw sylw ei ddarllenwyr mor barhaus ato. O ddiffyg sicrhau yr allwedd hon, y mae lluaws o ddarllenwyr, ar ol ymboeni llawer, wedi methu myned i mewn trwy y porth i ddirgeledigaethau y deml.

RHESWM A DEALL.

Mae sylw manwl ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy gynneddf hyn yn hanfodol, yn ol Coleridge, i ddeall dim yn gywir am athroniaeth a duwinyddiaeth. Bod Coleridge wedi cymmeryd benthyg y gwahaniaeth hwn oddi wrth Kant (athronydd mwyaf y deunawfed canrif) a addefir gan bawb; a phe buasai wedi cymmeryd ychydig boen i egluro egwyddorion sylfaenol cyfundrefn Kant, buasai yn hawddach i'w ddarllenwyr ddeall ychydig o'r hyn a fynai efe iddynt ddeall. Ond yn hyn yr oedd ei anfedrusrwydd fel dysgawdwr—cymmerai ychydig oddi yma ac ychydig oddi acw, heb roddi golwg cysson ac elfenol ar yr egwyddorion oedd yn angenrheidiol i'w gwneuthur yn eglur i'r cyfryw ag oedd yn anghyfarwydd ynddynt.

Teimlai Kant fod athronwyr blaenorol wedi treulio eu nerth yn ofer yn yr ymgais am wybodaeth gywir a sefydlog, o ddiffyg chwilio i mewn, a phenderfynu natur a therfynau cynneddfau y meddwl, fel ag i benderfynu pa beth sydd yn gorwedd o fewn cyrhaedd eu hymchwiliadau, a pha beth sydd o'r tu allan iddynt. Yr oedd hyn ar y pryd o bwys mawr, o herwydd anffyddiaeth Hume. [Gwel AMMHEUAETH.] Dadleuai Hume nad oes sicrwydd mewn gwybodaeth o un math, gan fod gwybodaeth—yn unol â'r syniadau ag oeddynt yn ffynu ar y pryd—yn gynnyrch profiad (*experience*), ac nad oes dim yn fwy cyfnewidiol na phrofiad gwahanol ddynion, a phrofiad yr un dyn ar wahanol adegau. Penderfynodd Kant wneyd ymchwiliad beirniadol i gynneddfau yr enaid, er mwyn cael gweled a oes rhyw alluoedd neu egwyddorion yn y meddwl yn annibynol ar, ac o flaen profiad, fel ag i fod yn sail sicrwydd.

Y cam cyntaf a gymmerodd tuag at hyn, oedd ceisio dangos fod holl wrthddrychau ein gwybodaeth neu ein hymwybyddiaeth (*consciousness*) yn dyfod i ni oddi allan, a bod y meddwl, wedi eu derbyn, yn argraffu megys ei ffurfiau ei hun arnynt:—mai y cwbl a wyddom ydyw gwrthddrychau wedi derbyn argraff y meddwl (*phenomena*); ond nas gwyddom ddim am bethau ynddynt eu hunain, neu cyn i'r meddwl roddi ei ddelw neu ei ffurfiau arnynt (*noumena*): ond ar y llaw arall, gallwn wybod y deddfau yn ol pa rai y mae y meddwl yn gweithredu ar y gwrthddrychau—hyny yw, gallwn wybod pa rai ydyw ffurfiau neu *foldiau* sefydlog y meddwl, i ba rai y mae pethau oddi allan yn cael eu traddodi. Y mae y meddwl yn traddodi y pethau a dderbynir oddi allan i ddau *fold*, yn y canfyddiad o honynt trwy y synwyrau; sef, i *amser* a *lle*. Y mae Kant yn gwadu fod amser a lle yn ddim gwirioneddol y tu allan i ddyn, neu ynddynt eu hunain; ond y mae y meddwl, wrth ganfod pethau trwy y synwyrau, yn eu canfod fel yn sefyll megys ochr yn ochr, neu mewn lle; ac hefyd y naill yn dilyn y llall, neu mewn amser.

Y cam nesaf yn y gyfundrefn hon, ydyw—fod y *deall* eto yn meddu ffurfiau neu foldiau; ac ar ol i'r meddwl ganfod peth trwy y gynneddf flaenorol (canfyddiad synwyrol=*sensitive faculty*), gan ei wisgo âg amser a lle, y mae y deall yn argraffu ei ffurfiau (*categories*) ef arnynt; ac felly y gwybyddir pa un ai un ynte llawer, sylwedd ynte ansawdd, achos ynte effaith, fydd, &c. Felly y mae y meddwl erbyn hyn yn gwybod llawer mwy na bod y gwrthddrych yn hanfodi mewn amser a lle; y mae delw gyflawn o hono yn ymddangos i'r meddwl mewn canlyniad i ffurfiau y deall a argraffwyd arno. Y mae y deall yn myned yn mhellach na hyn eto yn ei weithrediadau,—mae yn cyssylltu gwrthddrychau â'u gilydd, yn didoli y rhai annhebyg oddi wrth eu gilydd, yn gwneuthur dosbarthiadau cyffredinol, yn ffurfio rheolau cyffredinol, yn cymharu gwrthddrychau unigol â'r rheolau hyn, ac yn tynu casgliadau mewn perthynas iddynt. Gan mai cyflawnu y pethau hyn ydyw gwaith rhesymeg (*logic*), gelwir y deall y gallu rhesymegyddol (*logical or discursive faculty*).

Ond yn ol Kant, y mae gallu uwch eto; ac y mae hyn yn ein harwain at y cam nesaf yn ei gyfundrefn. Gall rhai deimlo tuedd i ofyn, Pa ham y mae yn rhaid cael cynneddf *ddeallawl* (*intellectual*) uwch na'r un a nodwyd? O herwydd, os ydyw y deall yn gallu ein harwain at yr egwyddorion a'r deddfau uchaf ag y gall profiad eu gwirio, pa fodd y gallwn yn ddiogel fyned yn mhellach? I hyn yr atebir, fod y meddwl yn ymofyn am egwyddorion sydd yn *angenrheidiol* ac yn *gyffredinol*, y tu hwnt i derfynau profiad. Ac felly y mae cynneddf arall yn angenrheidiol er mwyn dwyn gwrthddrychau ein gwybodaeth i'r undeb perffeithiaf sydd yn ddichonadwy. Y gynneddf hon ydyw *rheswm*, ac y mae iddi hithau eto dair ffurf, ond gelwir hwynt *ideau*;[1]

[1] Gadewir y gair *idea* yn yr erthygl hon heb ei gyfieithu, o herwydd y byddai ei gyfieithu trwy y geiriau a ddefnyddir yn gyffredin am dano, megys delfryd, meddylrith, meddylddrych, syniad, &c., yn arwain y darllenydd o angenrheidrwydd i gamsynied am ei ystyr yn Coleridge. Mae y gwahaniaeth rhwng *ideas* a *conceptions* yn un mor bwysig yn ei athroniaeth ef ag ydyw y gwahaniaeth rhwng

Digitized by Google

yr *idea* gyntaf ydyw yr *enaid*, yr undeb eithaf i ba un y mae gweithrediadau y meddwl, â'u holl amrywiol alluoedd, yn cael eu casglu: yr ail ydyw y *byd*, yr undeb a gynnwysa bob peth y tu allan i'r enaid: a'r drydedd ydyw *Duw*, yr hwn sydd yn gorwedd wrth wraidd y ddwy ereill, ac yn achos o honynt. Credai Kant nad oedd yn bosibl i ddyn gyrhaedd gwybodaeth o wrthddrychau yr *ideau* hyn; tra i'r gwrthwyneb y credai Coleridge fod yr *ideau* eu hunain yn ein dwyn ni wyneb yn wyneb â'u gwrthddrychau. Y pedwerydd cam a gymmeroedd Kant, oedd dadgan nad ydyw holl gynneddfau dyn ddim wedi eu gwaghau eto, ac nas gall dyn wadu deddf foesol, sydd yn llefaru o'i fewn gydag awdurdod ddiammodol, a bod y llais awdurdodol hwn yn cynnwys o angenrheidrwydd y tri gwirionedd canlynol—anfarwoldeb, rhyddid, a hanfodiad Duw. O ganlyniad, y mae cynneddf arall yn angenrheidiol, yr hon a eilw y rheswm ymarferol, ac weithiau rheswm yn ei weithrediad ymarferol.

Gwelir oddi wrth hyn fod cyfundrefn Kant yn agor dwy ffordd o ddiangfa oddi wrth gaethiwed anwybodaeth ac ansicrwydd; un trwy y rheswm ymarferol, a'r llall trwy y ffurfiau sefydlog, trwy ba rai y mae y rheswm deallawl, y deall, a'r synwyrau yn canfod gwrthddrychau.

Mae y golygiadau a geir yn y nodiadau hyn o gyfundrefn Kant yn rhedeg trwy y cwbl o ysgrifeniadau Coleridge—yn enwedig y trydydd a'r pedwerydd cam a enwyd.

Pa mor bell y mae y gwahaniaeth a dynir yma rhwng rheswm a deall yn un cywir? ac o ganlyniad, A berthyna y fath bwysigrwydd i'r gwahaniaeth hwn ag a gyfiawnhâ Coleridge a'i ddysgyblion i'w wneuthur yn allwedd i ddirgeledigaethau athroniaeth a duwinyddiaeth? Mewn atebiad i hyn, rhoddwn yma olygiad Syr W. Hamilton—athronydd sydd wedi ennill iddo ei hun y cymmeriad uchaf fel y cyfryw yn mhlith athronwyr yr oes bresennol, ac un cymhwys yn mhob ystyr i gyfarfod cawri mwyaf y Cyfandir â'u harfau eu hunain. Nid ellir dywedyd hyn mewn un modd am Coleridge. Yr oedd unrhyw gyfundrefn a ymwisgai mewn honiadau ymffrostgar ac a broffesai ddarostwng, megys, â chyffyrddiad swynyddiaeth, holl amrywiaeth a dirgeledigaethau corff ac ysbryd, amser a thragwyddoldeb, Duw a dyn, i fesuriad ei llathen ei hun, yn cyffroi ei ddychymyg, ac yn sicrhau ei warogaeth ef am ryw dymmor, pa fodd bynag. Yn more ei oes, bu yn ddysgybl i Hartley, yr hwn a broffesai ddangos fod yr ysbryd yn ddarostyngedig i'r un deddfau a'r corff; ac yna i Berkeley, yr hwn a neidiai i'r gwrthwyneb arall, ac a ddadleuai fod y corff yn ysbryd. Bu am rai blyneddoedd dan swyn Spinoza, yr hwn a adeiladodd dŵr o resymeg, â'i nen hyd y nefoedd, i brofi fod y nefoedd yn ddaiar, a'r ddaiar yn nefoedd—mai y byd ydyw Duw, ac mai Duw ydyw y byd. Yn ddiweddarach, derbyniodd yr agoriad i deml gwirionedd o law Kant: ond wedi myned i mewn, bu yn gwrandaw ar ei horaclau yn benaf o enau Schelling. Egwyddor arweiniol ei ddysgeidiaeth ef ydyw, fod ysbryd a natur yn ddau ddadguddiad cyfochrog, megys, o'r un sylwedd eithaf—*the one absolute.* Ond nid oedd athroniaeth Schelling—oddi wrth yr hon y derbyniodd fwyaf, ac yn ol cynllun yr hon yr ydoedd yn ffurfio ei gyfundrefn ei hun—yn parhau i roddi boddlonrwydd i'w feddwl. Effaith y nodiadau a chwanegodd at y *Biographia Literaria*, ydyw dadsylfaenu yr hyn y gwastraffodd lawer o hyawdledd i'w arganmol. Daeth yn argyhoeddedig fod athroniaeth Schelling yn ei hegwyddor sylfaenol yn Bantheistaidd; sef yr un ag eiddo Spinoza, yr hon sydd yn gwneuthur Duw yn bob peth, a phob peth yn Dduw; ac o ganlyniad, nas gellir ei chyssoni â'r Dadguddiad Sanctaidd. Felly, er ei holl lafur yn casglu defnyddiau o Plato hyd Schelling, a'i holl ymdrechiadau i wneuthur un cyfundrefn o honynt hwy ac ysgrifeniadau Ioan a Paul, bu farw wedi y cwbl gan dynu i lawr yr hyn a adeiladodd.

Ond i ddychwelyd at farn Syr William Hamilton, am y dosraniad uchod gan Kant o alluoedd y meddwl, a'r hwn sydd wedi ennill y fath arbenigrwydd trwy ysgrifeniadau Coleridge.[1]

rheswm a deall, ac yn cyfateb iddo. Ond y mae y geiriau arferedig yn Gymraeg am *idea* yn difodi y gwahaniaeth hwn, ac yn priodoli ystyr cyffelyb i'r ddau. Mewn arferiad cyffredin y mae y gair *idea* yn Seisoneg yn arwyddo yr un peth a *notion, conception*; eto y mae y gwahaniaeth rhwng *ideas*, yn ystyr caethaf y gair, a *notions*, yn un o'r rhai pwysicaf yn athroniaeth y meddwl. Eto o'r braidd y gellir dywedyd fod *idea*, pan ddefnyddir ef yn wrthgyferbyniol i *notion* neu *conception*, yn arwyddo yn wastad yr un peth. Yn Plato, yr awdwr hynaf ar gael sydd yn ei ddefnyddio, defnyddir ef i ddynodi y *cynlluniau* tragwyddol yn ol pa rai y mae y Creawdwr wedi llunio y byd gweledig. Mae yn anhawdd penderfynu a olygai efe y cynlluniau hyn fel yn meddu hanfodiad annibynol, ai ynte a olygai efe hwynt yn dibynu ar ac yn hanfodi yn y meddwl dwyfol. Yn amser Descartes, yr hwn a roddodd symbyliad a chyfeiriad newydd i athroniaeth y meddwl, yn yr oesoedd diweddaraf, y daeth dau ystyr i'r gair *idea*, i fod yn ganolbwynt i ddwy gyfundrefn wrthwynebol o athroniaeth. Defnyddiai Gassendi yr egwyddor, "nad oes dim yn y deall na bu yn flaenorol yn y synwyrau;" ac oddi wrthi, dadleuai nad oes dim yn *idea* nad ellir ei ddychymygu neu ffurfio delweddau neu ymddangosiadau o hono yn y dychymyg. Dymunai Descartes arno ef a Hobbes, yr hwn a adeiladodd ei gyfundrefn ar yr un egwyddor, i sylwi, ei fod ef yn deall wrth *idea* bob peth y gallai y meddwl ei ddirnad, er nad ellid ffurfio delw o hono yn y dychymyg; megys ysbryd, rhinwedd, &c. Canfyddir yma fod gwahaniaeth yn cael ei wneuthur rhwng *ideas* y dychymyg (delfryd, meddylrith, meddylddrych) ac *ideas* y deall (*intelligence*), am y rhai nid oes genym air Cymraeg i'w gwahaniaethu oddi wrth y rhai blaenorol. Y mae y gwahaniaeth hwn yn un sefydlog ac adnabyddus yn mhlith athronwyr Germany dan yr enw *anschauungen* am yr olaf, a *begriffe* am y blaenaf. Defnyddiai Kant y gair *idea* am ganfyddiadau y rheswm, mewn gwrthgyferbyniad i syniadau neu ddelfrydau y deall. Yn gyffelyb, tybiai Coleridge fod *ideas* yn ffiachiadau o oleuni yn deillio yn uniongyrchol oddi wrth y Goleuni Dwyfol, neu ddeddfau a chynhyrfiadau sydd â'u ffynnonell yn ngweithrediadau Ysbryd Duw; tra nad yw *conceptions* ond delfrydau neu ddarnodiadau a ffurfir gan ddeall pob dyn unigol. Y cyfryw *ideas* neu ddeddfau sydd yn rhoddi i ni syniad o wirionedd, daioni, a phrydferthwch; a'r cyfryw hefyd sydd yn ysbrydoli y gwir fardd a'r gwir athronydd. Efallai y cynnorthwya hyn y darllenydd i ddeall Coleridge pan y dywed, "Fod yr un peth, o'i ystyried yn dufewnol, yn *idea;* ag sydd, o'i ystyried yn allanol, yn ddeddf." (*Quod in naturâ naturatâ lex, id in naturâ naturante idea, dicitur.*)

"While we regard as conclusive *Kant's Analysis of Time and Space* into conditions of thought, we cannot help viewing his deductions of the *Categories of the Understanding*, and the *Ideas of Speculative Reason*, as the work of a great but perverse ingenuity. The *Categories of the Understanding* are merely subordinate forms of the conditioned, why not therefore generalise the conditioned—existence conditioned as the supreme category or categories of thought? and if it were necessary to analyse this form into its subaltern applications, why not develope these immediately out of the generic principle, instead of preposterously and by a forced and partial analogy deducing the laws of the understanding from a questionable division of logical propositions? Why distinguish reason (*vernunft*) from understanding (*verstand*), simply on the ground that the former is conversant about, or rather tends towards the unconditioned; when it is sufficiently apparent that the unconditioned is conceived only as the negation of the conditioned, and also that the conception of contradictories is one? In the Kantian philosophy, both faculties perform the same functions, both seek the one in the many; the idea is only

Digitized by Google

Sylwedd beirniadaeth Syr William ydyw, fod y ddwy gynneddf, rheswm a deall, yn cyflawnu yr un gorchwyl; sef chwilio am yr un yn y llawer. Mae hyn yn amlwg oddi wrth y bras ddarluniad a roddir uchod o'r gyfundrefn. Pe buasai Kant yn dangos fod dau weithrediad hollol wahanol i'w cyflawnu, buasai yn rhesymol dysgwyl am ddwy gynneddf wahanol i'w cyflawnu. Ond yn ol y dysgrifiad uchod, gwaith y deall ydyw ffurfio dosbarthiadau cyffredinol o wrthddrychau neilldduol; hyny yw, chwilio am yr egwyddor sydd yn gyffredin i'r lluaws, a defnyddio hono fel canolbwynt eu hundeb â'u gilydd. Yr un gorchwyl yn gymhwys a briodolir i'r rheswm; sef olrhain holl weithrediadau gwahanol y meddwl i un egwyddor, sef yr *enaid*—casglu yr amrywiaeth sydd yn cyfarch synwyrau y corff i un cyfanswm, sef y *byd*—ac uno y ddau yn yr egwyddor uwch, sef *Duw*. Gan mai yr un gorchwyl a briodolir i reswm a deall, onid yw pob gwahaniaeth rhyngddynt yn diflanu ar unwaith? Ond dywedir fod y rheswm yn gynneddf sydd yn ymwneyd neu yn canfod yr anfeidrol; ac mai cynneddf y meidrol ydyw y deall. Ateb Syr William i hyn ydyw, mai gwybodaeth nacaol yn unig sydd gan ddyn o'r anfeidrol; mai y cyfan a ŵyr dyn am dano ydyw, nad yw yn ddarostyngedig i derfynau y meidrol; ac o ganlyniad, fod yr anfeidrol a'r meidrol yn wrthgyferbyniol i'w gilydd. Ond y mae dyn yn dyfod yn adnabyddus o bethau sydd yn wrthgyferbyniol i'w gilydd trwy yr un weithred o ganfyddiad: felly nid oes eisieu dwy gynneddf wahanol i ymwneyd â'r terfynol a'r annherfynol, mwy nag y mae dau synwyr gwahanol yn angenrheidiol i'n gwneyd yn adnabyddus o oleuni a thywyllwch, neu i'n hysbysu am y gwahaniaeth sydd rhwng chwerw a melus. Wrth ddosranu meddwl (*thought*) yn gadarnhaol ac yn nacaol—y cyntaf, yr hyn sydd yn dyfod o fewn cylch cynneddfau terfynol dyn; yr olaf, yr hyn sydd uwch law iddynt—y mae y gwahaniaeth a wna Kant rhwng deall a rheswm yn diflanu; o herwydd y mae y cadarnhaol a'r nacaol yn dyfod yn adnabyddus ar unwaith, a thrwy yr un weithred o eiddo y meddwl.

Y GWAHANIAETH RHWNG DYN AC ANIFAIL.

Un o'r rhesymau a ddygai Coleridge yn mlaen ar bob achlysur bron, dros wahaniaethu rhwng Rheswm a Deall ydyw—nad ydym heb hyny yn gwahaniaethu rhwng dyn ac anifail; fod gan anifail ddeall, ond ei fod yn amddifad o reswm. [*Aids*, td. 164.] Yr ateb i hyn ydyw, fod gan yr anifail ryw fesur o ddeall cyfaddas i'r cylch y mae yn byw ynddo:—ei fod yn gydnabyddus â gwrthddrychau unigol, ac â pherthynasau pethau, mor bell ag y mae yn wasanaethgar i'w ddiogelwch a'i angenrheidiau ei hunan; ond am ffurfio syniadau cyffredinol, a myned trwy wahanol weithrediadau rhesymeg, pa brawf sydd y gall efe eu cyflawnu? Onid tywyllu cynghor ydyw rhoi dan yr un gair, Deall, weithrediadau mor wahanol a'r cyfryw a gyflawnir gan ddeall dyn, a'r rhai a gyflawnir gan ddeall anifail—ac ar yr un pryd priodoli yr *un* gweithrediadau i ddau allu gwahanol, rheswm a deall; o herwydd, fel y mae Syr William Hamilton yn dangos, y mae syniadau am y terfynol ac awgrymiadau am yr annherfynol yn gynnwysedig yn yr un act feddyliol? Y mae Coleridge yn cyferbynu dyn ac anifail yn y golygiad hwn eto:—nas gall yr anifail ffurfio dybenion iddo ei hun ond y cyfryw ag sydd yn wasanaethgar i ddybenion uwch: ond y gall dyn amcanu at ddybenion sydd ynddynt eu hunain yn deilwng o fod yn ddybenion; hyny yw, at *ddybenion moesol*. Ac ar y cyfrif hwn eto y mae gwahaniaeth yn angenrheidiol rhwng rheswm a deall. Sylw cyffredin, cyn i Coleridge ei wneuthur, ydyw, fod yr anianol a'r deallawl er mwyn y moesol, ac mai cynneddf wahaniaethol y moesol ydyw y gydwybod. Onid tywyllu pethau gan hyny ydyw rhoi y rheswm yn lle y gydwybod, heb un angenrheidrwydd? Y mae Coleridge yn dilyn Kant yn y gwahaniaeth a wna rhwng y rheswm deallawl a'r rheswm ymarferol; ond wrth reswm ymarferol ni olygir dim ond egwyddorion ein natur foesol, neu y gydwybod. Y mae yn wir eu bod yn wahanol yn eu natur, ac yn y teimlad o rwymedigaeth sydd yn eu dilyn, oddi wrth argyhoeddiadau y rheswm deallawl: nis gall fod dim yn mhellach oddi wrth eu gilydd; ac eto y mae Coleridge yn eiddigeddus am iddynt oll gael eu hystyried yn gynnyrch neu yn oleuni y rheswm, gyda'r gwahaniaeth, mae yn wir, sydd rhwng y deallawl a'r ymarferol. A all fod rheswm cryfach dros eu cadw ar wahân dan wahanol eiriau, sef rheswm, neu ddeall, a chydwybod, yn ol yr hen ddull eglur a diammwys? Y mae y diffyg o hyn wedi bod yn un achos o'r tywyllwch a'r anhawsder y mae y rhan fwyaf o ddarllenwyr wedi ei deimlo yn Coleridge. Y mae yn fantais, pan y mae gwahanol bethau yn cael eu cymmysgu dan yr un gair, i'w didoli oddi wrth eu gilydd dan wahanol eiriau. Mae hyn yn tueddu at eglurder. Ond os bydd gwahanol bethau yn adnabyddus wrth wahanol eiriau, y mae eu casglu at eu gilydd dan yr un gair, a defnyddio hwnw yn ddiwahaniaeth am danynt oll, o angenrheidrwydd yn arwain i ddyryswch. Y mae yn gwestiwn ai nid felly y gwnaeth Coleridge. Yn lle gwneuthur gwahaniaeth, fel y proffesai, rhwng pethau ag yr oedd dynion ereill yn methu ei weled, mewn gwirionedd difodi gwahaniaeth amlwg adnabyddus i bawb yr ydoedd.[1]

the concept sublimated into the inconceivable—reason only the understanding which has "overleaped itself." Kant has clearly shown that the idea of the unconditioned can have no objective reality—that it conveys no knowledge—and that it involves the most absolute contradictions. But he ought to have shown that the unconditioned had no objective applications, because it had, in fact, no subjective affirmation — that it afforded no real knowledge, because it contained nothing even conceivable—and that it is selfcontradictory, because it is not a notion, either simple or positive, but only a fesiculus of negations—negations of the conditioned in its opposite extremes, and bound together merely by the aid of language and their common character of incomprehensibility. And while he appropriated reason as a specific faculty to take cognizance of these negations, hypostatized as positive, under the Platonic name of *ideas*; so also as a pendant to his deduction of the categories of understanding.

Were we to adopt from the critical philosophy the idea of analysing thought into its fundamental conditions, and were we to carry the reduction of Kant to what we think its ultimate simplicity, we would discriminate thought into *positive* and *negative*, according as it is conversant with the conditioned or unconditioned. This however would constitute a logical, not a psychological, distinction, as positive and negative in thought are known at once and by the same intellectual act. The twelve categories of the understanding would be thus included under the former; the three ideas of reason under the latter; and to this intent the contrast between understanding and reason would disappear. Finally rejecting the arbitrary limitation of time and space to the sphere of sense we would express under the formula of THE CONDITIONED IN TIME and SPACE a definition of the conceivable, and an enumeration of the three categories of thought."—*Hamilton's Philosophical Discussions.*

1 Y mae ef ei hun yn cwyno am Irving, un o'i ddysgyblion mwyaf galluog ac ymroddgar:—"It may be long before Edward Irving sees what I seem at last to see so

Digitized by Google

RHESWM YR UN A'R LOGOS.

Ond y mae Coleridge yn gwisgo rheswm â phriodoliaethau mor oruchel, fel mai nid rhyfedd ei fod yn awyddus i dori pob cyssylltiad rhyngddo a'r deall—"llawforwyn y synwyrau." Y mae athroniaeth a duwinyddiaeth Coleridge yn talu gwarogaeth i reswm fel eu brenines; ac o ganlyniad, yn ymogoneddu yn adlewyrchiad y gogoniant a briodolant iddi. Ond gadewch i ni roddi ychydig frawddegau i brofi y gosodiad hwn. Y mae rheswm nid yn unig yn "*organ* doethineb," yr offeryn trwy ba un y mae y meddwl yn canfod doethineb, ond y mae hi hefyd yn "*ffynnonell* gwirioneddau bywiol a gweithredol" [*Aids*, td. 128]. Nid yn unig hi ydyw y gynneddf sydd yn canfod, ond hi sydd yn rhoddi bod iddynt; hi ydyw "ffynnonell *ideau* a goleuni y gydwybod." Y mae y deall yn ddynol, ac y mae i bob dyn ei ddeall ei hun; ac o ganlyniad y mae yn ddarostyngedig i gyfeiliornadau, ac yn amrywio yn ol amgylchiadau a galluoedd dynion, ac felly nis gellir appelio ato fel safon gwirionedd am ddim. Ond y mae rheswm yr un a'r unrhyw yn mhawb; ac os gadewir i'w oleuni dywynu, a'i lais lefaru o'n mewn, canfyddir fod ei oleuni yn bur, a'i lais yn anffaeledig ac yn ddwyfol [*Aids*, td. 163, 164; *Friend*, cyf. iii., td. 195, 196]. Ar ol condemnio "y dybiaeth fod rheswm yn ansawdd, yn briodoledd neu gynneddf i ganfod y gwirioneddol (*the real*), chwanega, "O gymmaint ag mai rheswm ydyw y gwirioneddau sylweddol uchaf (*supreme reality*), yr unig wir fod (*being*), yn mhob peth gweledig ac anweledig; y cyflawnder (*pleroma*) yn yr hwn yn unig y mae Duw yn caru y byd." [*Church and State*, argraffiad 1839, td. 195, 196.]

Drachefn, yn yr un gyfrol ni gawn y brawddegau canlynol:—

"Yn yr ystyr uchaf, a'r ystyr sydd yn sylfaen a ffynnonell pob un arall, y mae rheswm yn fod—y Bod Goruchaf yn cael ei ystyried yn wrthddrychol (*objectively*), ac ar wahân oddi wrth ei bersonoliaeth. Mae y Gair neu Logos yn fywyd ac yn cyfranu bywyd—yn oleuni ac yn cyfranu goleuni. Yn awr, y goleuni hwn, a'i ystyried ar wahân (*contemplated in abstracto*) ydyw rheswm." "Cawn yr ail ystyr i'r gair pan lefarwn am danom ein hunain yn meddu rheswm; ac nis gallwn esbonio hyn yn amgen na thrwy ddyweyd ei fod yn gymhwysder (*capability*) a roddwyd i ni gan Dduw i ganfod neu i ddyfod yn ymwybyddus o'r goleuni dwyfol hwn. Ond y cymhwysder hwn ei hun ydyw y goleuni, nid fel y goleuni dwyfol, ond fel y bywyd, neu breswyliad ynom o'r Gair bywiol (y *Logos*), yr hwn ydyw ein goleuni." [*Church and State*, td. 265.] Yn mlaen, td. 286, fe ddywed, "Pan yr ymledaena addysg, ac y cywilyddia dynion edrych allan o honynt eu hunain am y gwirioneddau nad ydynt i'w cael ond ynddynt eu hunain, y cenfydd dynion y gwahaniaeth rhwng y *goleuni sydd yn goleuo pob dyn sydd yn dyfod i'r byd* [rheswm] a'r deall sydd yn etifeddiaeth dynion neilduol.....gellir deall geiriau Ioan (i. 7—12) yn eu holl eangder am y deall. Mae y goleuni cyffredinol hwn yn dyfod at yr eiddo ei hun: ond wedi ei wrthod, y mae yn gadael y deall i freuddwydion a thywyllwch."

Oddi wrth y dyfyniadau hyn, fe genfydd y darllenydd fod Coleridge yn cyssylltu rhyw syniadau â'r gair rheswm, sydd yn ei wneuthur, o nad yn hollol, eto i fesur mawr, yr un â Mab Duw. Defnyddia yr un geiriau wrth lefaru am dano; megys, y gair (*logos*), cyflawnder (*pleroma*); a phriodola yr un dysgrifiadau iddo, megys y geiriau cyntaf yn Efengyl Ioan.

A oedd ei syniadau am y DRINDOD yn gysson â hyn? Gallesid meddwl ei fod pan yn Undodiad yn ymwrthod âg athrawiaeth y Drindod yn llwyr. Yr ydoedd felly, a'i hystyried fel erthygl dduwinyddol; ond addefai rhyw fath o drindod athronyddol. Rhydd y dysgrifiad canlynol yn y *Biographia Literaria*, td. 321, o'i olygiadau ar yr athrawiaeth hon wedi iddo ymwrthod â Sosiniaeth. Mae y Tad i'w olygu fel Meddwl (*Mind*); y Mab fel *Idea*, mewn gwrthgyferbyniad i Feddwl; yr Ysbryd, fel Cariad. Am berthynas y Tad â'r Mab, fe ddywed, "Mae y Tad yn canfod ei hun yn yr uniganedig Fab; a'r Mab yn cydnabod y Tad ynddo ei hun."

"Mi a dderbyniwn, (ebe fe) yr egwyddorion hyn mewn dull athronyddol, hyd yn oed pan oeddwn yn Undodiad. Ystyriwn fod yr *idea* am Drindod yn gasgliad teg oddi wrth fod Duw fel creawdwr yn meddu deall, ac yr haeddai o ganlyniad gael ei ystyried yn un o athrawiaethau dirgelaidd crefydd naturiol. Ond gan na welwn yn yr unrhyw un duedd ymarferol, cyfyngwn ef i athroniaeth." [*Biographia Literaria*, td. 209.] Gellir casglu oddi wrth hyn fod ei farn am y Drindod yn parhau yr un wedi iddo beidio ystyried ei hun yn Sosiniad, ag ydoedd cyn hyny. Y mae yn wir ei fod mewn ychydig frawddegau yn condemnio Sabeliaeth, ac yn addef ei hun yn ganlynydd i Bull a Waterland ar y Drindod: ond eto bob amser pan y tynai y llen oddiar ei syniadau, ymddangosent yn y wedd uchod. Ei olygiad ef oedd, fod y berthynas rhwng y Tad a'r Mab yr un ag ydyw y berthynas rhwng Meddwl ac *Idea*, neu rhwng Bod a Gwybodaeth. Ac yn yr ystyr hwn y dywed fod y "Tad yn canfod ei hun yn ei uniganedig Fab; a'r Mab yn cydnabod y Tad ynddo ei hun. Yn gyffelyb, y mae perthynas yr Ysbryd â'r Tad a'r Mab o'r un natur a'r berthynas sydd rhwng Gweithred, a Bod a Gwybodaeth, neu rhwng Gweithred, a Meddwl a'i Feddyldrychau."

Mae yn anhawdd meddwl fod y syniadau uchod yn ddim amgen na Sabeliaeth dan ffurf athronyddol. Nid oes ynddo ddim yn debyg i grediniaeth mewn Tri Pherson byw mewn Un Duw. Yn wir, yr ydoedd am ymwrthod â'r gair *person* yn y cyssylltiad hwn. Wrth gyfeirio at *Heb.* i. 3, fe ddywed, "O! gamgyfleithiad anhapus, i roddi *person* am *hypostasis!* Y Gair, yn briodol, ydyw yr unig berson." [*Notes on English Divines*, cyf. i. td. 115, 116.][1]

Rhoddwn ychydig anghreifftiau eto o'r dull yr edrychai Coleridge ar athrawiaethau yr efengyl, y rhai a ddangosant y lle uchel sydd i reswm yn ei holl gyfundrefn. Nid ydym yn dilyn unrhyw reol na threfn yn hyn—gan nad oes dim yn ei ysgrifeniadau ef ei hun.

clearly." Drachefn,—"I cannot forbear expressing my regret that Mr. Irving has not adhered to the clear and distinct exposition of the understanding, *genere et gradu*, given in the *Aids to Reflection*."

1 Ymddengys fod Coleridge yn cytuno â Swedenborg yn ei syniadau am y Drindod. Yn y bennod gyntaf o'i *True Christian Religion*, fe ddywed yr olaf, "Mae Duw yn un mewn hanfod a pherson, ac Iesu Grist ydyw efe. Iesu Grist ydyw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân." Yn wir, mewn ystyr athronyddol, nid oedd Coleridge yn credu mewn Trindod. Ond fel rhai o'r Platoniaid Newydd, derbyniai ef undeb pedwarplyg, yr hwn a alwai yn *Tetractys*. Cynnwysai Ewyllys Achosawl, yr hyn a alwai *Prothesis;* y Tad neu Meddwl (*Thesis*); y Mab neu *Idea* (*Antithesis*); a'r Ysbryd neu Gariad (*Synthesis*).

Digitized by Google

AILENEDIGAETH.

"Pa bryd bynag, trwy hunanymostyngiad i'r goleuni cyffredinol hwn (rheswm), y mae ewyllys y dyn, yr ewyllys neillduol, yn dyfod yn ewyllys rheswm, y mae y dyn yn adgenedledig; a rheswm y pryd hwnw ydyw ysbryd y dyn adgenedledig, trwy ba un y mae y dyn yn alluog i ddal cymundeb â'r Ysbryd Dwyfol. Ac yn hyn y mae dirgelwch y prynedigaeth—fod hyn wedi ei wneuthur yn alluadwy i ni."—*Aids*, td. 163.

Mae hyn yn ymddangos yn esboniad tra gwahanol ar ailenedigaeth i'r hyn a geir yn y Beibl. Nid oes yma un awgrymiad am "air y gwirionedd," "efengyl ein iachawdwriaeth," trwy ba un fel moddion y dygir y cyfnewidiad yn mlaen. Y mae yr holl wirioneddau am Dduw, am ei ddeddf, am ei gariad, am drefn yr efengyl, a ddadguddir gan Ysbryd Duw i'r meddwl, yn ymddangos yn ol efengyl Coleridge yn etifeddiaeth wreiddiol a chynnwynol rheswm dyn. Gwelwn eto yn eglurach i natur ei athroniaeth a'i dduwinyddiaeth wrth gasglu ei syniadau am

GYMUNDEB YSBRYDOL A DUW.

Yr un peth ydyw hyn a chanfyddiad y gwirionedd gan reswm. Cyfrifai Plato wybodaeth yr un peth a rhinwedd; ac oddi wrtho ef y mae yn debyg y cafodd Coleridge y syniad sydd yn rhedeg trwy yr oll o'i athroniaeth; sef, fod gwybodaeth a rhagoriaeth moesol yn y pen draw yr un.

Esbonia hyn i ni pa ham y mae Coleridge wedi cymmeryd y gair *rheswm* i ddynodi gweithrediad y deall, ac hefyd argyhoeddiad y gydwybod—i gyssylltu y deallawl a'r moesol dan y gair ammwys hwn. Gan nad oes dim gwahaniaeth yn ol y gyfundrefn hon rhwng gwybodaeth a sancteiddrwydd, yr oedd yn angenrheidiol ceisio difodi pob ymddangosiad o wahaniaeth trwy roddi yr un enw ar y ddau. Nid peth damweiniol yn Coleridge ydyw cymmeryd undeb ysbrydol â Duw, mewn ffydd a chariad, yn yr un ystyr a chanfyddiad o'r gwirionedd gan reswm. Y mae hyn yn rhedeg trwy ei holl esboniadau o'r Ysgrythyrau. Yn y geiriau canlynol (1 *Cor.* ii. 11—16), ac yn wir trwy yr oll o epistolau Paul, y mae y "dyn anianol" yn cael ei esbonio ganddo am y deall, neu y gynneddf hono o'r enaid sydd yn alluog i ymresymu (*the logical understanding*); a'r gallu naturiol hwn hefyd ydyw "ysbryd y byd." Ac wrth "y dyn ysbrydol," yr hwn sydd ganddo "feddwl Crist," a'r hwn sydd "yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw," y meddylir y dyn sydd yn gweled y gwirionedd trwy oleuni rheswm (*the intuitive reason.*) *Aids*, td. 107.

Yr un modd hefyd, dysgrifia athrawiaethau rheswm, neu y *logos*, fel dadguddiedigaethau yr Ysbryd Glân i enaid dyn. Ac at hyn y cymhwysa y fath adnodau a'r rhai canlynol:—*Rhuf.* viii. 15, 16; 2 *Cor.* iii. 18; *Rhuf.* viii. 20—23. Yn annibynol ar y ffaith nad yw Coleridge yn son dim yn ei sylwadau ar hyn am faddeuant pechod, profiad o heddwch â Duw, a dadguddiad o gariad Duw yn Nghrist trwy oleuni yr Ysbryd Glân, nes y dygir y pechadur i gredu ynddo a'i garu; nid allasai lai na'i gamarwain ei hun a'i ddarllenwyr hefyd trwy ddefnyddio geiriau ysgrythyrol — megys, "yr Ysbryd," "pethau yr Ysbryd," "y cnawd," "ysbryd y byd," "yr ysbryd sydd yr awr hon yn gweithio yn mhlant anufudd-dod," &c.—yn yr un ystyr a geiriau athronyddol, megys rheswm a deall, fel y defnyddir hwy gan Kant. Cynneddfau *naturiol* yn perthyn i ddyn fel dyn ydyw y rhai hyn; ond wrth yr "ysbryd," a "syniad yr ysbryd," yn y Testament Newydd, y meddylir *tueddfryd moesol*, neu oleuni a gras Ysbryd Crist yn agor y galon i dderbyn y gwirionedd, a'i garu.

Dysgrifiad Coleridge o FFYDD ydyw—ei bod yn gynnwysedig yn undeb (*synthesis*) ewyllys neillduol dyn â rheswm; hyny yw, y weithred trwy ba un y mae dyn yn cydnabod ac yn cofleidio dadguddiedigaethau y rheswm, pa un bynag ai mewn athroniaeth ai mewn crefydd.

Pa beth oedd dylanwad ei syniadau am reswm ar ei olygiadau am y DADGUDDIAD DWYFOL ac YSBRYDOLIAETH? Y mae hyn yn amlwg trwy ei holl ysgrifeniadau, ac yn enwedig yn y traethawd a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, sef *The Confessions of an Inquiring Spirit.* Yn ol Coleridge, y mae y Beibl wedi ei ysbrydoli mor bell i unrhyw ddyn ag y mae yn dwyn llais Duw adref at ei galon. Y mae yn gwadu fod "dadguddiad oddi allan" yn bosibl. Mor bell ag y mae rheswm dyn yn cyfateb i, ac yn gwirio cynnwysiad y Beibl, y mae i'w ystyried fel yn meddu awdurdod gair Duw. Y mae rheswm pob dyn yn dyfod iddo ef yn fesur a safon y gwirionedd, ac y mae pob llyfr wedi ei ysbrydoli yn yr un ystyr a'r Beibl os bydd ei gynnwysiad yn derbyn cymmeradwyaeth rheswm y darllenydd. Y cydgordiad rhwng gwirioneddau Gair Duw a rheswm ydyw y prawf o'u dwyfoldeb; ac y mae hyn yn gwneuthur profion allanol, megys gwyrthiau, yn afreidiol. Nid yw yn gwadu gwirionedd gwyrthiau;—mae yn mhell oddi wrth hyny: ac nid yw chwaith yn haeru nad yw Cristionogaeth yn ddim amgen nag ail gyhoeddiad o grefydd naturiol. Mae efe, yn hytrach, yn haeru yn y modd mwyaf pendant fod Cristionogaeth yn rhywbeth amgen ac ychwanegol. Ac yn hyn y mae ei anghyssondeb. Pe addefai nad ydyw crefydd Crist yn ddim amgen na chrefydd natur, byddai o'r hyn lleiaf yn gysson âg ef ei hun wrth geisio dangos fod cydgordiad gwirioneddau y Beibl â rheswm yn gwneuthur y profion allanol o'i wirionedd yn afreidiol. [*Aids*, td. 230.] Ond nid cadarnhâd o wirioneddau rheswm yn unig ydyw Cristionogaeth; ac nid yn unig gweithrediad o allu dwyfol yn dwyn ewyllys gwrthryfelgar dyn i ymostwng i, ac i gofleidio gwirioneddau rheswm:—yr hyn ydyw canolbwynt ac enaid yr efengyl, yn ol Coleridge. Y mae Cristionogaeth yn llawer mwy na hyn; y mae ganddi wirioneddau o'i heiddo ei hun—"y pethau a rad roddwyd i ni gan Dduw"—gwirioneddau nas gall rheswm ddyweyd dim mwy na hyn am danynt; sef ei bod hi hebddynt, ac mai hyn ydyw y prawf cryfaf o dlodi a thrueni dyn, ac o'r cyflawnder sydd yn Nghrist Iesu. Ond fe arweiniwyd Coleridge i hyn trwy un amcan mawr ei holl ysgrifeniadau athronyddol a duwinyddol; sef, ei ymdrech i gyssoni rheswm a chrefydd. Neu yn hytrach, nid yn unig profi eu bod yn gysson, ond eu bod yn un, os na ddywedir bod crefydd yn gymhwysiad o reswm at foesau ac addoliad. Ei grediniaeth ef oedd, fod athroniaeth yn cynnwys duwinyddiaeth fel ei dosbarth uchaf a gogoneddusaf. Ac amcan yr ugain neu y deng mlynedd ar ugain olaf o'i oes oedd ffurfio cyfundrefn a fyddai ar unwaith yn grefydd ac athroniaeth; yn yr hon y byddai elfenau pob gwybodaeth anianyddol, uchanianol, a chrefyddol yn cael eu huno yn eu sylfeini hanfodol; ac y byddai y cyfan yn adlewyrchu goleuni ar eu gilydd, ac yn ffurfio

Digitized by Google

un cyfanwaith mawr yn llawn o oleuni a bywyd. Nid meddwl barddonol Coleridge ydyw yr unig un a swynwyd gan y dychymyg mawreddus.

Y mae pob athroniaeth o grefydd yn anghofio fod Cristionogaeth yn gyfryngiad goruchnaturiol o eiddo gras i waredu dyn oddi wrth bechod a marwolaeth; a'i bod yn dyfod i ni o'r byd anweledig, trwy y gweledig, ac yn amlygu ei hun mewn ffurf ag y gellir ei weled a'i deimlo. Ac o ganlyniad, y mae hi yn ffaith hanesyddol; ac fel pob ffaith o'r fath, rhaid iddi orphwys ar brofion allanol; o herwydd nid yw y cyfryw brofion ond dangosiad gweledig o'u bod — o'u gwirionedd. Y mae ymgnawdoliad, marwolaeth, ac adgyfodiad Crist, a disgyniad yr Ysbryd, yn ffeithiau allanol; ac ar eu gwirionedd, fel y cyfryw, y gall y gydwybod euog orphwys wrth geisio heddwch â Duw. Nis dichon y prawf tufewnol wneuthur yr un allanol yn afreidiol, fel y myntumia Coleridge. Y profion amlwg a gweledig fod y Duw mawr wedi cyfryngu er achubiaeth pechaduriaid trwy ymgnawdoliad ac angeu ei Fab, ydyw ein *hunig awdurdod* i gredu ynddynt fel sail ein gobaith. Gall ein teimlad personol ein harwain i weled ein hangen, ac i ganfod cyfaddasrwydd y ddarpariaeth i'n hangenion: ond ni buasai ein teimlad o'i dymunoldeb, ei chyfaddasrwydd, ac o'i chyssondeb âg egwyddorion llywodraeth Duw—hyd yn oed yn ngwyneb holl ddarpariadau creadigaeth a rhagluniaeth Duw ar gyfer ein hangenion tymmorol—yn ddigon, yn ngwyneb argyhoeddiad rheswm a chydwybod o'n hannheilyngdod, i ennill ymddiried pechadur mewn maddeuant a heddwch â Duw, heb fod *gair* Duw, dan ei sel ei hun, yn sail yr hyder hwnw. Arweiniwyd Coleridge i ddibrisio y profion allanol o ddwyfoldeb Cristionogaeth, trwy y duedd a ffynai yn y canrif diweddaf i edrych ar y profion allanol yn ddigonol i gynnyrchu ffydd—yr hyn nis dichon iddynt byth fod. Ond y mae efe ei hun lawn mor bell oddi wrth y gwirionedd yr ochr arall, pan y dywed, "Ni theimlwn un petrusder i gredu y gwyrthiau a adroddir yn y Testament Newydd ar ol i mi gredu y wyrth fawr o ymgnawdoliad Mab Duw, o herwydd ei chyssondeb â goleuni rheswm." Tybiem ni mai amcan y gwyrthiau ereill oedd profi yr ymgnawdoliad; ac os ydyw y wyrth fwyaf oll i'w derbyn ar sail cymmeradwyaeth ein rheswm ni, pa ham y rhaid i ni wrth y gwyrthiau ereill a llai? Pa fodd yr oedd Crist am argyhoeddi y byd o ddwyfoldeb ei anfoniad oddi wrth ei Dad?—ai trwy orchymyn i'w genadon i ofalu am appelio at y gallu nefol hwnw, sef *rheswm* dynion, ond gochelyd ar bob cyfrif rhag rhoddi ei hawliau ef o flaen y gynneddf ddaiarol hono—y *deall?* Nag e: ond trwy ddewis nifer digonol o dystion o wirionedd y ffaith o'i adgyfodiad. Nid yw rhoddi yr arbenigrwydd hwn i'r profion allanol mewn un modd yn bychanu y profion tumewnol —dim ond gosod y ddau yn eu lle priodol. Mae yr *arwyddion* a roddodd Duw ei hun yn galw sylw dynion at y feddyginiaeth, ac yn eu *hawdurdodi* i'w derbyn; ond y derbyniad o honi, a'r gwellâd canlynol, ydyw y prawf goreu i'r hwn sydd yn ei phrofi.

Ond edrychwn am fynyd eto ar ei olygiadau ar y PRYNEDIGAETH—canolbwynt Cristionogaeth. Ei amcan, meddai, yn ei ymdriniaeth â'r athrawiaeth hon, ydyw, "amddiffyn y dirgelwch ofnadwy hwn oddi wrth y camddarluniadau o'i natur a'i ystyr, sydd yn rhy gyffredin, a'r cyfryw ag sydd yn ei osod yn agored i wrthwynebiadau oddi wrth reswm a theimlad moesol dyn." [*Aids*, td. 240—261.] Pa beth y mae yn olygu fel camddarluniad o'r prynedigaeth? At ba beth y cyfeiria fel y cyfryw gamddarluniad? At ddim llai na hyn: sef, fod Crist wedi marw fel iawn neu aberth drosom, i foddloni gofynion cyflawnder Duw, ac felly i'n cymmodi â Duw. Y mae gosod allan angeu y Cyfryngwr fel hyn yn gamddarluniad o hono, medd Coleridge. Ei resymau dros ddyweyd felly ydynt, fod y fath syniad yn hollol groes i gyflawnder a thrugaredd; fod yn anmhosibl gosod dyoddefiadau y diniwed yn lle cosp yr euog; na byddai hyn ond chwanegu cam at gam; bod euogrwydd yn beth nas gellir ei drosglwyddo ar arall—ymddwyn at bersonau fel tuag at bethau fyddai hyn; a bod hyn oll yn myned dan sylfaen moesoldeb, ac yn gwneuthur crefydd yn anmhosibl; a bod rheswm yn hollol wrthwynebol i'r fath athrawiaeth. Gwelir nad yw Coleridge yn rhoddi lle i'r athrawiaeth—sef *machnïaeth* yr Arglwydd Iesu—sydd yn ymddangos i dduwinyddion uniawngred yn enaid yr efengyl; ac mai ei resymau yn ei herbyn ydynt y cyfryw ag a ddygir yn mlaen gan Sosiniaid. Y mae y parch a ddadgana i'r ysgrifenwyr mwyaf efengylaidd, megys Luther, Melancthon, Calvin, Leighton, &c., yn nghyd â'r ffaith ei fod wedi ymwrthod â Sosiniaeth yn broffesedig, yn dyrysu llawer o'i ddarllenwyr, ac yn eu hanalluogi i ffurfio unrhyw farn sefydlog am ei syniadau. Ei ddull o esbonio ymaith dystiolaethau yr Ysgrythyrau am aberth ac iawn y Cyfryngwr ydyw,—dywedyd mai ymadroddion trawsenwadol (*metaphorical*) ydynt: yr hwn yw dull arferol Rhesymolwyr i symmud ymaith unrhyw athrawiaeth annerbyniol ganddynt o'r Ysgrythyr. Mae Coleridge yn defnyddio y gair *prynedigaeth* a *gweithred brynedigol* mewn ystyr gwahanol i'r un cyffredin—y waredigaeth oddi wrth euogrwydd a chondemniad (*Eph.* i. 7; *Rhuf.* iii. 24). Ei ystyr ef i'r gair ydyw, *ailenedigaeth*, "bod wedi ein geni o newydd—fel megys y waith gyntaf yn y cnawd i'r byd, felly yn awr, yn yr ysbryd, i Grist." Ei syniad ef oedd—fod y Logos, neu y Gair personol, yn dyfod i undeb dirgeledig â rheswm dyn yn yr ailenedigaeth; ac o herwydd preswyliad bywiol y Gair ynddo, fod y pechadur yn derbyn maddeuant, ac yn dyfod yn gyfiawn. Yr oedd Coleridge yn eiddigeddus drosw ir foesoldeb, ac yn awyddus am roddi arbenigrwydd ar yr angenrheidrwydd am gyfnewidiad ysbrydol, ond yn anwybodus o drefn yr efengyl i gynnyrchu y cyfnewidiad hwn, trwy ddwyn y pechadur i gyflwr o gyflawnhâd trwy ffydd yn ngwaed Crist. Ni ddywedir braidd ddim, os dim, yn ei ysgrifeniadau, am Dduw fel llywydd a barnwr; ac ychydig am ddyn fel troseddwr euog yn sefyll mewn angen am faddeuant. Ni ddywedir dim am angeu Crist yn ei berthynas â chymmeriad Duw, gofynion cyflawnder, ac effeithioldeb ei lywodraeth; ond cyfyngir ein sylw at ei ddylanwad ar ddyn:—a bod cyflawnhâd yn ganlyniad i ailenedigaeth a sancteiddiad, a bod y cyfan yr un peth ag undeb ysbrydol â Christ. Ac er ei fod ar hyn yn hollol yr un a Phabyddion, eto y mae yn dyweyd fod ei olygiadau yn cytuno â'r athrawiaeth o gyflawnhâd trwy ffydd, ac â chredoau eglwysi y Diwygiad. [*Aids*, td. 243, *nodiad.*] Er ei fod yn hollol ac yn eiddigeddus wrthwynebol i Babyddiaeth, yn ei honiadau uchel i awdurdod offeiriadol yn y gweinyddiad o rinwedd sacramentaidd, ac hefyd i'r athrawiaeth o anffaeledigrwydd eglwysig, eto y mae ei olygiadau athrawiaethol yn nes at Babyddiaeth nag

Digitized by Google

at Brotestaniaeth. A phan y cytuna Pabyddiaeth â Phrotestaniaeth, megys ar angeu Crist fel iawn a boddlonrwydd i gyfiawnder, y mae Coleridge yn gwahaniaethu oddi wrth y ddwy. Tystia ei hun ei fod yn cytuno yn gyffredin "â defodau ac athrawiaethau Pabyddion (*Roman Catholics*), â'u *hagenda* a'u *credenda*, pe gellid eu gwahaniaethu oddi wrth y defnydd a wneir o honynt i attegu yr unbenaeth offeiriadol." [*Church and State*, td. 146.] Dywed hefyd, mewn man arall, na buasai dim angenrheidrwydd am y Diwygiad Protestanaidd, oni buasai am uchelgais yr offeiriaid. Priodola Dr. Newman ei gyfnewidiad oddi wrth Brotestaniaeth at Babyddiaeth mewn rhan i draethodau Coleridge yn ei *Aids to Reflection:* ac y mae syniadau y ddau am gyfiawnhâd ac ailenedigaeth yn hanfodol yr un.

Ond er y tebygolrwydd sydd rhwng syniadau Coleridge ac amryw o athrawiaethau yr Eglwys Babaidd, prif ysgrifenwyr y blaid hono yn Eglwys Loegr, a elwir y *Broad Church*, sydd yn adlewyrchu gywiraf ei syniadau ef, ac yn eu holrhain i'w canlyniadau. Yn mhlith y rhai hyn, perthyna y lle blaenaf am athrylith ac ymroddiad diflino i argymhell y dduwinyddiaeth hon ar yr oes bresennol i Maurice a Kingsley. Ystyriai Julius Hare ei hun yn ddysgybl i Coleridge; ac y mae ei ddylanwad arno yn amlwg, nid yn unig yn yr ansoddau llenyddol sydd yn rhoddi y fath swyn i ysgrifeniadau y ddau, ond hefyd yn y golygiadau duwinyddol sydd yn rhedeg trwyddynt. Ar yr un pryd, o ddysgyblion proffesedig Coleridge, Hare ydyw yr agosaf o ran ei syniadau i'r saïon ddwyfol, ac yndo ef y mae teimlad a naws efengylaidd yn gweithio buraf a chryfaf.

Prif bwnc athrawiaeth feddyliol Coleridge, fel y dangoswyd, ydyw, y gwahaniaeth a dderbyniodd oddi wrth Kant, rhwng y rheswm a'r deall; ac ar y gwahaniaeth hwn impiodd ei olygiadau neillduol ac ammheus am athrawiaeth y Logos. Y rheswm ydyw y gynneddf sydd yn dwyn wyneb yn wyneb a'r hyn sydd bur, yn brydferth, ac yn wir. Y mae i'r gynneddf hon gylch uwch law ac yn hollol annibynol ar y deall. Y mae hi hefyd uwch law dadguddiad, ond mor bell ag y mae hi, trwy ei goleuni a'i hawdurdod ei hun, yn cymmeradwyo yr hyn y mae dadguddiad yn ei amlygu. Y mae yn amlwg fod Hare yn cytuno â Coleridge yn y gwahaniaeth hwn; ond nid yw mor eglur ei fod yn cydfyned âg ef yn y casgliadau y mae yn dynu oddi wrtho; sef, fod rheswm yr un a'r Logos dwyfol; a'r anmhosiblrwydd o ddadguddiad allanol. Weithiau y mae Hare yn defnyddio y geiriau rheswm a deall mewn ystyr hollol wahanol i'r eiddo Coleridge; ac ymddengys mai un amcan ganddo yn ei gyfrol, *The Victory of Faith*, ydyw gwrthwynebu y rhai sydd yn dal fod ffydd a rheswm yr un, a dangos fod gwrthddrychau uchaf ffydd y cyfryw na allasai rheswm byth eu darganfod. Ond er nad yw yn ymddangos fel yn mabwysiadu yr oll o'r canlyniadau sydd yn tarddu o athroniaeth Coleridge, eto nid oes ammheuaeth nad oedd yn ei olygu fel dysgawdwr duwinyddol yr oes. Cyflwynai ei draethawd, *The Mission of the Comforter*, iddo fel "yr athronydd mawr Cristionogol, yr hwn a arweiniwyd i'r goleuni trwy lwybrau tywyll a throellog athroniaeth (*speculation*), fel y gallai ereill, trwy ei gyfarwyddyd ef, gyrhaedd y goleuni heb fyned trwy y tywyllwch." Dywed hefyd, "mai prif amcan ei fywyd ydoedd ysbrydoli nid yn unig ein hathroniaeth ond hefyd ein duwinyddiaeth."

Ni byddai mewn un modd yn deg i restru Hare gyda Maurice a Kingsley, er y cyfrifir hwythau hefyd yn ddysgyblion i Coleridge. Mae ei olygiadau ef yn llawer nes i'r rhai a gyfrifir yn efengylaidd ac uniawngred na'r eiddynt hwy. Eto ymddengys ei fod yn cydsynio â'r hyn a ddysgir gan Coleridge yn ei *Aids to Reflection*, am yr iawn a chyfiawnhâd; ac hefyd am yr hyn a ellir gasglu yn y traethawd hwnw, ac a ddysgir yn bendant yn *The Confessions of an Enquiring Spirit*, am ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau. Yma dylid sylwi fod y cyluddiad a ddug Ullman yn erbyn ysgrifenwyr y canolocsoedd yn wir i fesur mwy neu lai am yr holl ysgrifenwyr hyn; sef eu bod yn defnyddio geiriau duwinyddol a chredoau eglwysig i osod allan syniadau gwahanol i'r rhai y bwriadwyd y credoau hyny i'w gosod allan.[1] Arweinir hwynt i hyn trwy eu hymgais i uno eu syniadau athronyddol a duwinyddol mewn un gyfundrefn. Yn fynych y mae Hare yn defnyddio iaith am angeu Crist ag y mae yn anhawdd ei deall, ond fel yn gosod allan natur fachnïol ei farwolaeth; ac eto, wrth ei hesbonio yn ngoleuni syniadau Coleridge, a'r rhai a gyfrifant eu hunain yn ganlynwyr iddo, nid yw yn debygol ei fod yn edrych ar ei angeu yn amgen nag amlygiad mawr o gariad a hunanymwadiad. Y mae machnïaeth yr Arglwydd Iesu Grist yn faen tramgwydd i'r holl ysgrifenwyr sydd yn dilyn Coleridge yn fanwl yn ei syniadau. Y mae y geiriau canlynol o eiddo Hare yn ddysgrifiad o'r golygiad sydd yn gyffredin iddynt am natur aberth:—"Un ffordd a osodwyd o flaen yr Iuddewon oedd aberth, trwy yr hwn y gwnaed iawn a chymmod; a'r hyn oedd i fod yn gysgod ac arwydd o waith yr aberthwr yn lladd ac yn offrymu ei ewyllys a'i natur gnawdol i Dduw." Yma nid oes un crybwylliad am yr aberth Iuddewig fel cysgod o'r Aberth Mawr. Mae cyssylltiad agos rhwng y golygiadau a goleddir am natur ufudd-dod a dyoddefiadau y Cyfryngwr a chyfiawnhâd: os nad edrychir ar y naill yn eu cyssylltiad priodol â gofynion cyfiawnder a deddf, nid edrychir ar y llall chwaith fel sefyllfa neu gyflwr yn ngwyneb deddf. Yn unol â hyn, nid yw Hare, mwy na Choleridge, yn golygu cyfiawnhâd yn ddim amgen na chyfnewidiad moesol. Y mae ffydd yn dwyn y pechadur i deimlad priodol tuag at Dduw, ac mewn canlyniad i hyn y mae Duw yn rhoddi amlygiadau o'i ewyllys da i'r pechadur, ac yn rhoddi iddo ei Ysbryd. Mae hon yn athrawiaeth hollol wahanol i'r un a ddysgai y Diwygwyr dan yr enw Cyfiawnhâd. Pan y mae Hare yn son am Grist fel cyfiawnder y pechadur, ei feddwl ydyw, fod ffydd yn mywyd ac angeu Mab Duw yn wreiddyn i gyfiawnder egwyddorol yn nghalon pechadur; ac wrth "wisgo ei gyfiawnder," y meddylir ymdebygoli trwy ffydd a chariad i gyfiawnder personol Crist. Er fod cariad Hare at y Beibl yn fawr, ac, fel y gwelsom, nad yw yn priodoli yr ansoddau uchel i reswm ag a wna Coleridge, eto y mae ei olygiadau ar ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau yn gwahaniaethu oddi wrth yr eiddo ef mewn graddau yn hytrach nag o ran eu natur.

Fel y crybwyllwyd, y ddau ysgrifenydd sydd

[1] "Master Eckart, with great originality, constructed out of these elements a system which he did not expressly design to contradict the creed of the church, but which, nevertheless, by using its formulas as mere allegories or symbols of speculative ideas, combats it in its foundations, and is to be regarded as the most important mediæval prelude to the pantheistic speculation of modern times."—*Ullman's Reformers before the Reformation*, cyf. ii. td. 24.

Digitized by Google

wedi amlygu mwyaf o allu ac eiddigedd i gyhoeddi ac olrhain i'w canlyniadau egwyddorion sylfaenol Coleridge ydyw Maurice a Kingsley. Er fod y ddau ysgrifenydd hyn yn fyw, ac yn nawn eu hymdrechiadau a'u poblogrwydd, eto nid ystyrir hyn yn ddigon o reswm, er yn groes i'n harferiad cyffredin, dros beidio a sylwi ar eu cyssylltiad â gwrthddrych yr erthygl hon.

Pan yr ystyrir mai ychydig o efengyl y Testament Newydd sydd i'w ganfod yn ysgrifeniadau lluosog yr ysgrifenwyr hyn, o'r braidd y cydnabyddir yn gyffredinol y priodoldeb o'u rhestru yn mhlith dysgyblion Coleridge; eto, bod yr un egwyddor sylfaenol yn rhedeg trwy eu holl olygiadau athronyddol, ac yn effeithio ar eu duwinyddiaeth, sydd yn amlwg. Y mae yn wir fod Maurice a Kingsley, a gellir chwanegu Jowett hefyd, yn ddynion o ormod o allu i fod yn ganlynwyr hollol wasaidd i un dysgawdwr; eto, ar yr un pryd, y mae y dduwinyddiaeth newydd sydd wedi ffynu mor fawr yr ychydig flyneddoedd diweddaf, ac â pha un y mae eu henwau hwy yn gyssylltiedig fel ei phrif amddiffynwyr a'i lledaenwyr, i'w chael yn ei hegwyddorion cyntaf, o'r hyn lleiaf, yn ysgrifeniadau Coleridge. Y mae Maurice a Kingsley yn cario allan syniadau Coleridge am reswm fel y Logos—y goleuni sydd yn goleuo pob dyn sydd yn dyfod i'r byd—mor bell ag i osod allan y Gair, neu Fab Duw, yr *un a phob dyn*, neu a'r *natur ddynol*.

Gan fod holl dduwinyddiaeth Maurice yn dibynu ar y berthynas a dybia efe sydd rhwng Mab Duw a'r natur ddynol, a hyn drachefn ag athrawiaeth Coleridge am y Logos neu y Gair, byddai yn fanteisiol, er deall y cyfeiriadau sydd wedi eu gwneuthur eisoes yn yr erthygl hon, i chwanegu ychydig o sylwadau eglurhaol yn mhellach.

Yn y *National Review*—cyhoeddiad sydd mor gydnabyddus ag un o syniadau yr ysgrifenwyr hyn—mewn erthygl ar "Ddylanwad personol ar ein Duwinyddiaeth bresennol," dywedir mai "*Religious Realism* ydyw hanfod mewnol cyfundrefn athronyddol a duwinyddol Coleridge" (Hydref, 1856); a hyn hefyd sydd yn rhedeg trwy holl ysgrifeniadau yr ysgol hon. Y mae yn haws esbonio pa beth a feddylir wrth "*Religious Realism*," na'i gyfleithu i'r Gymraeg. Dan yr enwau "Platoniaeth" a "Platoniaeth Newydd," y mae hyn yn fwyaf adnabyddus. Y rhan fwyaf neillduol ac arbenig o olygiadau Plato, ydyw, ei grediniaeth fod cynlluniau neu *ideas* tragwyddol ac anghyfnewidiol yn mhob peth sydd yn *bod* (nid yr hyn sydd yn *ymddangos i synwyrau y corff*); a thrwy y rhai hyn y mae pob peth yn amlygu ei hun y peth *yw* (nid y peth y mae yn *ymddangos*). Nid yw pethau gweledig ond y wisg allanol a diflanedig sydd yn cuddio y ffurfiau sefydlog a thragwyddol hyn. Yr oedd y Platoniaid diweddar yn credu mewn math o Undeb Triphlyg neu Drindod—y Bod neu y Da; y Nous, neu y Logos, neu y Rheswm; a'r Psyche, neu Enaid y Byd. Gosodai Plato a'i ganlynwyr y cynlluniau neu *ideas* tragwyddol yn y Rheswm neu y Gair (y *Nous*), yr hwn a ystyria yr ail *hypostasis* yn y Drindod Blatonaidd. Hyn ydyw golygiad Coleridge a Maurice; a hyn hefyd ydyw gwreiddyn eu hathroniaeth a'u duwinyddiaeth. Y mae y brawddegau hyn yn egluro pa beth a feddylir wrth y "*Religious Realism*" sydd yn ffurfio hanfod mewnol eu golygiadau. O ddiffyg cymmeryd yr allwedd hon yn eu llaw, y mae cynnifer yn teimlo rhyw dywyllwch yn ysgrifeniadau Maurice, er addef y swyn sydd ynddynt. Gwelir y syniad hwn mewn brawddegau cyffelyb i'r rhai canlynol:—"Pan y dywed Crist, 'yn gymmaint a'i wneuthur o honoch i un o'r rhai lleiaf hyn, i mi y gwnaethoch,' y mae yn cyhoeddi yr hyn ydyw y gwirionedd am *hanfodiad dyn* ..... y mae efe mewn gwirionedd *gyda phob dyn*." "Yr oedd y Mab, mewn gwirionedd, yn Saul o Tarsus; ond pan y *dadguddiwyd* ef ynddo y daeth yn Paul yr apostol." Llefara am holl ddynolryw fel wedi "eu creu, eu prynu, a'u cyfiawnhau" yn Nghrist, a hyny hefyd er tragwyddoldeb. Yn ol y gyfundrefn hon y mae perthynas naturiol a thragwyddol rhwng Mab Duw a dynolryw, nid mewn canlyniad i drueni dyn a bwriad grasol y Mab i'w brynu, ond o herwydd fod yr *idea* berffaith am y ddynoliaeth yn y Mab erioed fel y Cyflawnder Dwyfol. Y mae Mab Duw yn cael ei olygu yn "wreiddyn y ddynoliaeth," ac nid Adda. Nid oedd ei ymgnawdoliad ond *amlygiad* o'r berthynas naturiol a hanfodai er tragwyddoldeb rhwng dynion a'r Mab. Wrth farw, dangosodd pa beth ydyw perffeithrwydd uchaf y ddynoliaeth, sef hunanaberthiad; ac mai "cydymdeimlad" ydoedd yr oll o ddyoddefiadau meddwl y Cyfryngwr; a thrwy hyny y "dyg ymaith bechodau y byd." Y mae pob dyn fel *dyn*, ac nid fel credadyn, wedi ei gyfiawnhau yn nghyfiawnhâd Crist. Gallesid yn gyffelyb fyned trwy holl gylch ei dduwinyddiaeth, a dangos mai athroniaeth baganaidd ydyw y cyfan, wedi ei gwisgo âg ymadroddion Cristionogol.

Byddai yn hawdd egluro yr un peth eto o ysgrifeniadau Kingsley. "Y mae genych hawl," meddai, "i gredu eich bod fel *dynion* wedi cyfodi gyda Christ i fywyd newydd."—[*Sermons on National Subjects.*] "Fel yr wyf yn credu fod un Logos, Gair neu Reswm, yn dadguddio ac yn dadlenu yr un gwirionedd tragwyddol i bawb sydd yn sychedu am dano—o ganlyniad, ni a allwn, fel athronwyr Cristionogol Alexandria, lawenychu yn mhob gwirionedd a gredai eu gwrthwynebwyr paganaidd; a'i briodoli, fel Clement, i'r ffynnonell uchaf, sef i ysbrydoliaeth yr un Logos cyffredinol." Yn ei ddarlithiau ar yr Ysgolion Alexandriaidd, ei brif amcan ydyw dangos y gwahaniaeth rhwng y Platoniaid Cristionogol a'r Platoniaid paganaidd; ac eto, fe ddywed fod y ffurf yn mha un yr oedd Cristionogaeth yn ymgynnyg i feddyliau yr hen Alexandriaid mor wahanol i'r syniadau cyffredin am Gristionogaeth yn Lloegr, fel y gall dyn ddyweyd y cwbl a wyr am dano *heb o'r braidd enwi un athrawiaeth sydd yn awr yn dylanwadu ar y byd crefyddol*.—(Gwel, heblaw erthyglau perthynasol yn y gwaith hwn, a gweithiau Coleridge ei hun, —*Modern Anglican Theology, by Rigg*; *British Quarterly Review*, 1854; *Cambridge Essays*, 1856.)

COLOFN—AU, [*colof*]: pilen, post, tybost. Pedair colofn y corff, ydynt y coesau a'r breichiau. "Colofnau 'r tŷ ddattodir."—*W. W., Pant y celyn.*

> "Mi wn yn y lle y llas Gwenddolau,
> Mab Ceidiaw colofn cerddau,
> Ban ryerchynt brain ar grau."
>
> *Gwyddneu Garanhir.*

Arwydda *colofnau* yn briodol attegion i gynnal adeilad: *Barn.* xvi. 26, &c. 2. Coflech am unrhyw berson neu ddygwyddiad. Cyfododd Iacob golofn yn Bethel, yn goffadwriaeth am yr

Digitized by Google

ymddyddan fu rhwng Iehofah âg ef; ac un ar fedd Rahel, yn agos i Bethlehem: *Gen.* xxxv. 14, 20. Ond yn yr Ysgrythyrau, dygwydda y gair yn fynychach mewn ystyr cyffelybol, neu o leiaf, am wrthddrychau tebyg i golofnau; megys colofn niwl, colofn o dân, colofnau mwg: *Exod.* xiii. 21; *Barn.* xx. 40; *Can.* iii. 61. Llefara Iob am golofnau y nefoedd a'r ddaiar (*Iob* ix. 6; xxvi. 11); y rhai ydynt ymadroddion allegawl cryfion—y llefarydd yn edrych ar y nefoedd a'r ddaiar fel adeilwaith wedi ei chyfodi gan allu y Creawdwr, a'u cynnal i fyny megys gan golofnau diysgog.

"Colofn a sylfaen y gwirionedd" (1 *Tim.* iii. 15); =Gr. στυλος και εδραιωμα της αληθειας. Y mae rhai esbonwyr yn cymhwyso y geiriau hyn at Timothëus ei hun, fel pe dywedasai yr apostol, "Fel y gwypech pa fodd y mae yn rhaid i ti ymddwyn yn nhŷ Dduw, &c., fel colofn a sylfaen y gwirionedd." Y mae Suicer, yn ei sylwadau ar y frawddeg, yn dyfynu llawer o'r tadau, y rhai, i raddau mwy neu lai, ydynt yn bleidgar i'r golygiad hwn. Ac y mae lluaws o'r beirniaid diweddar yn ei fabwysiadu. Y prif resymau diweddar dros fyntumio y golygiad hwn, medd Alford, ydyw, am ei fod yn milwrio yn gryfach na'r golygiad cyffredin yn erbyn yr athrawiaeth Babaidd, am anffaeledigrwydd eu heglwys; neu am fod y golygiad yn fwy unol âg iaith arwyddluniol yr Ysgrythyrau, yn gymmaint a bod *dynion* (*Gal.* ii. 9; *Dad.* iii. 12) yn cael eu cyffelybu i golofnau. Ond y mae yn fwy tebyg mai yr hen olygiad, yr hwn sydd yn rhoddi "colofn a sylfaen y gwirionedd" yn enw dysgrifiadol ar swydd "eglwys y Duw byw," ydyw y cywiraf: dyma y golygiad mwyaf naturiol oddi ar yr adnod. Ac y mae yn cael ei galw felly, am fod parhâd y gwirionedd, "ei hanfodiad hanesyddol fel gwirionedd Cristionogol," yn gorphwys ar yr eglwys. Yr eglwys sydd yn cynnal ac yn cadw gair y gwirionedd. Heb yr eglwys, ni byddai gwirionedd Cristionogol ar y ddaiar; ynddi hi y mae y gwirionedd i'w gael; oddi allan iddi nid oes ond cyfeiliornad a chelwydd; ac y mae yr hwn sydd yn ymroddedig i'r gwirionedd Cristionogol, yr hwn sydd yn ei garu, yn perthyn trwy hyny i'r eglwys; a'r hwn sydd yn ei wrthod, trwy hyny yn cau ei hunan allan o honi. Y mae rhai, medd Olshausen, wedi ymddyrysu wrth y syniad hwn, trwy ei gymharu â rhanau ereill, yn y rhai y mae yr un apostol yn gosod Crist allan fel unig sail y gwirionedd, megys yn 1 *Cor.* iii. 11, &c., y lle yr arddangosir yr eglwys, nid fel yn cynnal y gwirionedd, ond yn hytrach yn cael ei chynnal ganddo; a'r gwirionedd heb fod mewn angen am yr eglwys mewn trefn i barhau ei hanfodiad; ond i'r gwrthwyneb, yr eglwys mewn angen am y gwirionedd i'r dyben i'w chynnal hi mewn bod. Y mae y dyryswch hwn yn cyfodi, fel y sylwa Baumgarten, oddi ar gamgymmeryd y gwirionedd fel y mae ynddo ei hun, am y gwirionedd fel y mae yn cael ei addef yn y byd. Yn yr ystyr cyntaf, nid oes arno eisieu colofn, ond gall ymgynnal ei hunan; yn yr ystyr olaf, y mae yn sicr yn sefyll mewn angen am yr eglwys fel colofn i'w gynnal, fel ei gyhoeddydd a'i amddiffynydd. Y mae yr eglwys yn gynnalydd y gwirionedd i'r byd, am ei bod hi ei hun yn cael ei chynnal gan y gwirionedd sydd yn gorphwys arno ei hun, ac yn ei nerth ei hun yn berffaith sicr a diysgog. Gwel Alford ac Olshausen ar y lle. Y mae gan Macknight y sylw canlynol ar y cyfeiriad a allasai fod yn meddwl yr apostol:—"Y mae 'eglwys y Duw byw,' fel 'colofn a sylfaen y gwirionedd,' yn cael ei gwrthgyferbynu yma â themi delw difywyd Diana yn Ephesus, yr hon oedd gynnalydd a cholofn celwydd, eilunaddoliaeth, a drygioni. Yn ol barn rhai, gelwir yr eglwys yn 'golofn a sylfaen y gwirionedd,' mewn cyfeiriad at y ddwy golofn a osodai Solomon yn mhorth y deml; ar y rhai, meddir, yr hoeliai y prophwydi eu rhagfynegiadau mewn ysgrifen, fel y gallai y rhai a elent i mewn i'r deml i addoli eu darllen. Meddylia ereill fod yma yn hytrach gyfeiriad at y colofnau yn y temlau paganaidd, ar y rhai y crogid byrddau, yn cynnwys cyfreithiau, a phethau ereill o bwys, y bwriedid rhoddi cyhoeddusrwydd iddynt. Ond nid yw hyn o nemawr bwys; o blegid at ba arferiad bynag y cyfeiria yr apostol (os cyfeiria at ryw un mwy na'u gilydd) y mae yr ystyr yr un."

"A hi a aeth yn golofn halen:" *Gen.* xix. 26. Y mae gwahanol farnau yn mhlith y beirniaid o barth i arwyddocâd yr ymadrodd "colofn halen." Barna rhai mai cael ei gorddiwes a'i mygu gan dân a brwmstan a wnaeth, ac aros yn ddiysgog yn y fan, fel colofn halen; ereill, mai colofn neu gofadail o halen a gyfodwyd ar ei bedd; ereill, ei bod wedi mygu yn y fflam, a dyfod yn golofn halen, yn gofarwydd i oesoedd dyfodol. Y dyb gyffredin, ydyw, ei bod wedi ei charegeiddio, a'i throi yn ddarn o graig halen, yr hwn sydd mor galed a'r maen caletaf. Dywed rhai fod y gair gwreiddiol am "golofn"—*getzib*—wedi cael ei gymmeryd mewn ystyr rhy gyfyng gan y cyfieithwyr; a'i fod yn dynodi sefydlogrwydd, yn fwy na ffurf—yn ddisigl fel colofn, ac nid yn ei ffurf; a chan fod yr Hebreaid yn deall wrth halen, nitr a pygloyn (*bitumen*), fod halen yn y fan hon yn dynodi y defnydd diweddaf, yr hwn a'i gorchuddiodd. Y mae Cobbin yn rhestru barnau yr esbonwyr dan y penau canlynol:—1. Pentwr o graig halen. 2. Trwy gael ei gorchuddio â defnydd ufelaidd, cafodd ei charegeiddio. 3. Gwnaed hi yn gofarwydd parhäus, fel y mae cyfammod tragwyddol (*Num.* xviii. 19) yn cael ei alw yn "gyfammod halen." Darllena Boothroyd, "*fel* colofn halen." Dywed Josephus, fod y golofn yn aros yn ei amser ef, a'i fod wedi ei gweled. Y mae yn dra thebyg mai y dygwyddiad hwn a roddes fod i'r chwedl am Niobe; yr hon, medd y beirdd Groegaidd, a drowyd yn gareg o herwydd ei galar dwys am ei phlant.

"Gellir gofyn," medd Calvin, ar y lle, "Pa ham y cosbodd yr Arglwydd ffolineb y wraig annedwydd hon mor drwm, gan nad ymddengys iddi edrych drach ei chefn oddi ar ddymuniad i ddychwelyd i Sodom? Efallai, gan barhäu yn ammheus, yr ewyllysiai gael prawf mwy sicr o flaen ei llygaid; neu ei bod, oddi ar dosturi at y bobl oedd yn y dinystr, yn troi ei golwg i'r cyfeiriad hwnw. Nid yw Moses, y mae yn amlwg, yn dyweyd ei bod yn fwriadol yn ymryson yn erbyn ewyllys Duw; ond yn gymmaint a bod ei gwaredigaeth hi, a'i phriod, yn esampl anghymharol o dosturi dwyfol, yr oedd yn briodol cosbi ei hanniolchgarwch yn y modd yma. Yn awr, os pwyswn yr holl amgylchiadau, y mae yn amlwg nad oedd ei throsedd yn ysgafn. Yn gyntaf, cyfodai y dymuniad am edrych drach ei chefn oddi ar anghrediniaeth; ac nis gellir rhoddi mwy o sarhâd ar Dduw nag attal crediniaeth i'w air. Yn ail, gallwn gasglu oddi wrth eiriau Crist, ei bod yn cael ei chynhyrfu gan ryw

Digitized by Google

chwant pechadurus (*Luc* xvii. 32), ac nad oedd yn gadael Sodom yn llawen." Gorchymyna Crist ni i "gofio gwraig Lot," rhag i hudoliaethau y byd ein llithro oddi wrth fyfyrdodau nefol. Y mae, felly, yn debygol ei bod yn anfoddlawn ar y ffafr a ddangosodd Duw iddi, ac wedi llithro dan lywodraeth dymuniadau ansanctaidd, o'r hyn yr oedd ei gwaith yn cadw yn ol yn brawf. Gwel LOT.

"Mi a'i gwnaf yn golofn yn nheml fy Nuw i;" *Dad.* iii. 12. "Mai wrth y golofn yma y meddylir yn unig sefydlogrwydd digyfnewid, a ymddengys yn eglur wrth yr ymadrodd dilynol,—'Ac allan nid â efe mwyach.' Defnyddir y gymhariaeth, nid am ryw Gristionogion arbenig a hynod, ond am Gristionogion yn gyffredin."—*Henstenberg.*

COLOMEN. [יונה; Gr. *οἰνάς*, a *περιστερά*; Ll. *columba*]. Gwel *Gen.* viii. 8, 9; *Lef.* v. 7; *Num.* vi. 10; 2 *Bren.* vi. 25; *Salm* lv. 6; lxviii. 13; *Can.* ii. 14; *Esa.* xxxviii. 14, lx. 8; *Ezec.* vii. 16; *Hos.* vii. 11; *Nah.* ii. 7; *Mat.* iii. 16; x. 16; *Marc* xi. 15; *Luc* ii. 24; *Ioan* ii. 14. Canfyddir yr aderyn hwn mewn hinsoddau tymmerus, agos yn mhob parth o'r byd; ac y mae ei amrywiaethau yn dra lluosog. Dywedir fod dros gant o wahanol fathau o adar o'r rhywogaeth hwn yn awr yn adnabyddus. O ran lleolaeth, y mae rhai o honynt i'w gweled mewn llawer o wahanol wledydd, tra y mae ereill yn gyfyngedig i ryw un wlad neillduol. Ond y mae rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt a'u gilydd bron yn mhob gwlad. Cyfarfyddir âg amrywiaethau prydferth o'r adar hyn yn Ewrop, Asia, Affrica, America, Awstralia, ynysoedd Môr yr India, a Môr y De; a gwelir yr un amrywiaeth weithiau yn yr oll o honynt. Yn mhob gwlad, y mae y golomen yn ddiareb am addfwynder a diniweidrwydd; ac y mae hyn yn wir am dani, pa un ai gwyllt ai gwâr fyddo. Yn eu harferion, y mae colomenod yn byw bron yn hollol ar rawn a ffrwythau, ac anfynych y maent yn cyffwrdd â thrychfilod o un math. Dywedir nad yw eu cylla yn newid dim ar hadau rhai o'r ffrwythau yr ymborthant arnynt; a'u bod drwy hyn, yn eu hediadau, yn ateb y dyben pwysig o drosglwyddo yr hadau hyny i leoedd cwbl anhygyrch drwy unrhyw foddion arall. Y mae y cyflymder â pha un yr ehedant, yn rhwym o fod yn iswasanaethgar i'r dyben daionus hwn.



Dar. 191.

Tra y mae yr holl amrywiaethau o'r aderyn hwn yn gyffelyb o ran noawedd, y maent yn gwahaniaethu eryn lawer o ran llun a lliw. Yn holl wledydd y cylch tymmerus, y maent yn dra thebyg i'r colomenod yn y wlad hon. Mewn gwledydd cynhesach, ac yn agos i'r trofanau, y maent yn cael eu haddurno â'r lliwiau mwyaf swynol a phrydferth. Y *vinago aromatico*, fel y gelwir un math yn yr India, sydd o liw gwyrdd, goleu a dysglaer, o'r gwddf hyd y gynffon, gyda chefn tywyll, ac adenydd wedi eu brith linellu yn wineu-felyn. Y *ptilinopus purpuratus*,—math arall yn India ac Awstralia—sydd o liw gwyrdd mwy dysglaer, gydag ysmotiau eurog, a chrib coch goleu. Gwyrdd, glas, a gwyn, ydynt y prif liwiau yn yr amrywiaethau ereill. Y *turtur risorius*, neu ddurtur yr Ysgrythyrau [gwel d.g. DURTUR], sydd o liw hufen, ychydig yn dywyllach oddi arnodd, gyda llygaid cochion, a llinell o wyrdd o gylch y gwddf. Yr harddaf o'r colomenod ydyw y *turtur lophotes*, yr hon sydd gynhenid o Awstralia. Y mae pen a gwddf yr aderyn hwn o liw llwyd goleu, y cefn yn wineu, yr adenydd wedi eu britho â gwyrdd, coch, gwineu, a gwyn; y gynffon yn ddu, oddi eithr fod ymylon y pluf yn wynion. Ar y gwegil y mae tusw o bluf hirion yn codi yn raddol i fyny, yr hyn sydd yn peri i'r aderyn edrych yn debyg i'r gornchwiglen yn y wlad hon.

Tybid yn lled gyffredin gynt fod y golomen yn perthyn i ddosbarth y *rasores*, neu ysgrafedyddion. Y mae naturiaethwyr diweddar, pa fodd bynag, yn ymwrthod â'r golygiad hwn. Yn mhlith ereill, y mae Temminck, De Blainville, a'r tywysog Musiguano, yn dangos fod cymmaint o wahanaieth rhwng y golomen a phob aderyn o'r rhywogaeth hwnw, fel y rhaid ei hystyried yn ddosbarth neillduol wrthi ei hun. Y mae yr holl ednod yn nosbarth yr ysgrafedyddion yn anghymharus, a'r ieir yn dodwi llawer o wyau. Y mae y cywion yn deori mewn cyflwr lled berffaith, ac yn dyfod yn fuan i ymdaro drostynt eu hunain. Y mae y colomenod, ar y llaw arall, yn cymharu, ac anfynych y mae ysgariaeth yn cymmeryd lle rhyngddynt â'u gilydd. Ni bydd iddynt ychwaneg na dau o gywion ar y tro, ac y mae y rhai hyny mor egwan, fel y byddant am beth amser yn analluog i adael eu nyth. Yn ystod yr amser hwn y maent yn cael eu porthi gan yr hen adar; ac yma y mae y gwahaniaeth mwyaf pwysig rhwng y golomen a'r ysgrafedyddion. Os gwelodd y darllenydd y golomen yn porthi ei chywion, y mae yn sicr o fod wedi sylwi, ei bod yn rhoddi ei phig yn safn agored y cyw, a'r pryd hwn y mae yn ei ddiwallu â sudd maethlon, tebyg i laeth, o'i chrombil ei hunan. Dengys yr enwog John Hunter [*Anim. Econ.*], fod crombil y golomen, yn amser deoriad, yn myned trwy gyfnewidiad tebyg i'r hyn sydd yn dygwydd i biw y mamaethogion yn amser cyfebriad, a geilw y sylwedd a gynnyrchir ynddi y pryd hwn yn gaul (*curd*), am ei fod yn fwy tebyg i hyny na dim arall. Y mae y sylwedd hwn ar y cyntaf yn hollol bur; ond yn mhen tri diwrnod, y mae yn cynnwys rhyw faint o ymborth cyffredin; ac erbyn yr wythfed neu y nawfed dydd, y mae wedi peidio yn gwbl, pan y mae y cywion yn alluog i wneyd hebddo. Dywed y Dr. Hunter, fod yr un hynodrwydd yn perthyn i'r *parrot*, ac i'r adar o rywogaeth y golfanod (*passeres*) yn lled gyffredin. Ond y mae hyn, yn nghyd â lluaws o bethau ereill a allesid enwi, yn ddigon er dangos fod gwahaniaeth hanfodol rhwng y golomen a'r holl ysgrafedyddion. Y mae De Blainville yn gwahaniaethu y dosbarth â'r enw *sponsores* ar gyfrif eu ffyddlondeb i'w gilydd; a'r tywysog Musiguano a'r enw *gyrantes*, gan gyfeirio at eu cylchdroadau wrth chedeg. Yn y *Mus. Anim. Nat.*, arferir y gair *gyratores*, yr hwn sydd bron o'r un ystyr.

Digitized by Google

Credir yn awr gan yr holl naturiaethwyr mai y cyff o ba un y mae y gwahanol fathau o golomenod yn ein gwlad ni wedi hanu ydyw, y golomen wyllt, a elwir gan y Seison yn *wild rock pigeon*; a chan y Ffrancod yn *le biset*, a *le rocheraye*. Hon, meddir, oedd "colomen" yr hen Frythoniaid, ac nid yr ysguthan, fel y tybiodd rhai. Y mae yr aderyn hwn yn adnabyddus yn holl arfordiroedd y byd; ac yn y cyflawnder mwyaf yn nghreig-ynysoedd Affrica, Asia, a Môr y Canoldir. Perthyna hefyd i'r holl ynysoedd Prydeinig. Gwelir lluaws o honynt yn y wlad hon yn y creigiau ar lan y môr, ac weithiau mewn hen adfeilion a thyrau ychydig yn y tir. Ymddengys nad oedd hen ysgrifenwyr yn gwneyd un gwahaniaeth rhwng y golomen wyllt (*Col. Livia*) a'r ysguthan (*Col. Œnas*), a thrwy hyny fod eu dysgrifiadau o'r naill a'r llall yn dra anmherffaith. Tybir mai Brisson oedd y cyntaf i alw sylw at y pwnc. Y mae y gwahaniaeth, pa fodd bynag, erbyn hyn, wedi dyfod mor amlwg, fel y mae yn cael ei addef yn gyffredinol. Sylwa Selby, "fod y ddwy mor debyg fel y gellir yn hawdd eu camgymmeryd, oddi eithr ychydig iawn yn eu lliw, a bod y golomen wyllt rywfaint yn llai. Yn eu harferion," medd efe, "y maent yn gwahaniaethu yn benaf oddi wrth eu gilydd. Tra y cyfarfyddir â'r naill yn unig yn y coedwigoedd ac yn nghanol y wlad, ni welir y llall ond yn y lleodd mwyaf creigiog ar lanau y môr." White, hefyd, a ddywed yn ei *Nat. Hist. of Selborne*, mewn llythyr at y naturiaethwr Pennant:—"Yr wyf yn hollol gydweled â chwi fod y colomenod tai wedi hanu o'r golomen wyllt, a hyny o blegid llawer o resymau.....ond yr hyn sydd yn werth cant o resymau yw, y ffaith a adroddwch chwi am y colomenod yn meddiant Syr Roger Mostyn, yn sir Gaernarfon; y rhai nas gellir, er pob gofal a thynerwch, eu denu i aros yn y colomendy ond am ychydig amser, ac yn amser nythu a gymmeraut eu hedyn tua'r Gogarth, ac a ddiogelant eu cywion yn y lleoedd mwyaf anhygyrch yn ei greigiau."

Prin y gellir ystyried y colomenod a welir yn y colomendai yn y wlad hon wedi eu dofi, gan eu bod yn hollol at eu rhyddid, ac yn dibynu yn gwbl arnynt eu hunain am eu cynnaliaeth. Y mae dyn yn unig wedi cymmeryd mantais ar rai arferion perthynol iddynt; a thrwy ddarparu agenau celfyddydol ar eu cyfer, wedi eu dwyn i fath o gyflwr o ymddarostyngiad gwirfoddol at ei wasanaeth. Fel hyn, y mae rhifedi anghreddadwy o honynt mewn gwahanol fanau yn cael eu dwyn i'r marchnadoedd, a thrwy hyny yn foddion o elw mawr i'w perchenogion. Mewn gwledydd ereill, yn neillduol yn y dwyrain, adeiledir colomendai, ac eir i lawer o drafferth gyda'r colomenod er mwyn eu tom, yr hwn a arferir yn wrtaith i godi pompiynau a llysiau ereill lawer o'r fath. Y mae tom colomenod yn y gwledydd hyny y peth yw *guano* yn ein gwlad ni. Dywed Tavernier, "fod yn Ispahan uwch law tair mil o golomendai, ac y gall pob dyn adeiladu un ar ei dyddyn ei hun, ond mai anfynych y mae hyny yn cael ei wneyd. Yr holl golomendai ereill a berthynant i'r brenin; ac y mae mwy o gyllid yn dyfod oddi wrth y dom, nag oddi wrth y colomenod eu hunain." Morier, hefyd, wrth ddysgrifio y colomendai yn Ispahan, a ddywed eu bod "fel tyrau crynion, mawrion—yn hytrach yn lletach yn y gwaelod nag yn y pen uchaf, â phinaclau brigfeinion arnynt, drwy y rhai y disgyna y colomenod. O'r tu fewn, y maent yn gyffelyb i grwybr gwenyn, yn filoedd o gelloedd, a phob un yn dra chyfleus i wneuthur nyth ynddi. Yr heidiau anarferol a welais ar un o'r tyrau hyn, a ddygai i'm meddwl y gair hwnw yn *Esa.* lx. 5, 'Pwy yw y rhai hyn a ehedant fel cwmwl, ac fel colomenod i'w ffenestri?' Yr olwg arnynt o bell sydd fel cwmwl, ac yn ddigon i orchuddio yr haul." Nid ydynt yn awr mor luosog yn y wlad hono ag y maent wedi bod, o blegid y mae llawer o'r tyrau hyn wedi myned yn gwbl anghyfannedd. Y maent, er hyny, yn cael eu coleddu yno i raddau anghreddadwy i ni yn y rhan yma o'r byd.

O'r cyff hwn, fel y sylwyd yn barod, y mae yr holl amrywiaethau o golomenod dofion adnabyddus yn y wlad hon wedi eu cael. Y mae yr amrywiaethau sydd yn myned dan yr enw *fancy pigeons*, mewn gwahanol fanau yn Ewrop, bron yn ddirifedi. Rhoddir cymmaint o bris ar rai o honynt yn Llundain, a manau ereill, fel y mae llawer wedi ymgymmeryd â'r gelfyddyd o'u cymharu, a'u dwyn i fyny. Dywedir fod y masnachwyr colomenod hyn, trwy ymarferiad, yn gallu cael yr aderyn wedi ei liwio i'r bluen, fel y bydd arnynt eisieu; ac os methant y mymryn lleiaf, y mae hyny yn gwneyd yr aderyn hwnw yn ddiwerth iddynt. Pe na byddai ond pluen heb fod o liw penodol, byddai hyny yn ddigon i ostwng y pris o ugain gini hyd yn hanner coron. Y rhai mwyaf hynod o'r amrywiaethau hyn, a adnabyddir gan ein cymmydogion dan yr enwau *English ponter*, *Dutch cropper*, *horseman*, *unloper*, *dragoon*, *tumbler*, *Leghorn a Spanish runt*, *trumpeter*, *nun*, *fantail*, *capuchin*, &c.; ac y mae rhyw neillduolrwydd yn perthyn i bob un o honynt. Mae y *tumbler*, er anghraifft, yn cael ei werthfawrogi am ei fod wrth chedeg yn gallu ymdreiglo yn yr awyr; a'r *fantail*, am ei fod yn gallu lledu ei gynffon, a'i dwyn i gyffwrdd â'i ben; a phob un am rywbeth cyffelyb a awgrymir yn yr enwau a roddir arnynt.

Gan mai anfuddiol fyddai manylu ar yr holl amrywiaethau uchod, sylwir yma ar un o honynt yn unig, sef yr *horseman*, neu y *carrier*, yr hwn a ystyrir fwyaf hynod. Defnyddir y ddau enw, am na wyddys am un gwahaniaeth o bwys rhyngddynt a'u gilydd; a thybir fod y ddau yn cael eu harfer gan ysgrifenwyr a masnachwyr yn gyfystyr. Yr unig wahaniaeth a all fod, ydyw, y dichon fod yr *horseman*, yn y wlad hon, ryw gymmaint yn israddol i'r *carrier* perffaith mewn gwledydd tramor; yr hwn sydd yn mhlith y colomenod yr hyn yw y march rhedeg goreu yn mhlith y meirch, ac yn hynod am ei gyflymder. Tybir fod y *carrier* yn gynhenid o Persia, er ei fod yn awr yr un mor adnabyddus mewn llawer o wledydd ereill. Y mae y pluf yn hynod o gauedig; a'r lliw weithiau yn wahanol, gan fod rhai o honynt yn hollol dduon, ac ereill yn leision; ond y llwyd-wineu a ystyrir yn fwyaf gwerthfawr. Y gwddf sydd hir a main; yr ysgwyddau yn llydain; a'r ddwyfron yn dra chyhyrog. Y mae y llygaid yn fywiog iawn, gyda bwa o goch tanllyd, â chylch o groen gwyn, masw, yn ei amgylchu; y pig hefyd sydd hir a chryf, a thagellau heirdd yn crogi oddi wrth y genogl uchaf. Y mae yr aderyn ychydig yn fwy na'r golomen gyffredin—yn mesur pymtheng modedd o'r big i'r gynffon, ac yn pwyso yn agos i ugain wns. Gofynir pris uchel am adar o'r math hwn, a rhoddir ef yn fynych yn ddigon ewyllysgar.

Y perwyl i ba un yr arferir y *carrier*, ac oddi

Digitized by Google

wrth yr hyn y cymmer ei enw, ydyw, i gludo newyddion o'r naill fan i'r llall; yr hyn a wna i gryn bellder, ac mewn byr amser. Y ffeithiau a adroddir ac a gredir yn ei hanes ydynt bron yn anhygoel. Cafwyd yr hynodrwydd hwn allan, o bosibl, wrth sylwi ar y reddf o ymlyniad sydd ynddo wrth ei gynnefin, a'r serch neillduol sydd ganddo at ei gywion, drwy yr hyn, os cymmerir ef ymaith i unrhyw bellder, pan ollyngir ef at ei ryddid, efe a ddychwel i'r fan o'r hwn y cymmerwyd ef, os na bydd rhwystrau anorfod ar ei ffordd. Wedi deall hyn, nid hir y bu dyn heb wneyd defnydd o hono i lawer o ddybenion pwysig. Cedwir cwpl o'r adar hyn yn gyffredin gyda'u gilydd, a chymmerir un o honynt ymaith i le penodol; a phan y bydd y newydd yn barod i'w anfon, ysgrifenir ef ar bapyr, yr hwn a ddiogelir yn asgell yr aderyn yn y fath fodd na bydd iddo fod yn un rhwystr iddo i ehedeg, nac mewn perygl o gael ei golli ar y ffordd. Ar ol ei ollwng, y mae yr aderyn yn esgyn bron yn uniongyth i uchder mawr, ac wedi rhoddi tro neu ddau o amgylch yn yr awyr, y mae yn cyfeirio tuag adref gyda chywirdeb a chyflymder anghredadwy. Fel hyn, y mae y *carrier*, ar amserau ac mewn manau neillduol, wedi bod o'r gwasanaeth mwyaf lle nad oedd gan ddynion un cyfrwng arall i ymohebu â'u gilydd.

Mewn hen ysgrifau clasurol ac Arabaidd, y mae cyfeiriadau yn cael eu gwneyd yn fynych iawn at y math hwn o golomenod. Y mae Bochart wedi casglu lluaws o anghreifftiau o wledydd Groeg a Syria. Dywed Anacreon, iddo ef gynnal gohebiaeth â'i anwyl Bathillus trwy wasanaeth colomen. Adrodda Ælian ddarfod i Taurosthenes anfon colomen wedi ei lliwio yn goch i hysbysu ei dad, yr hwn a breswyliai yn ynys Ægina, am ei fuddugoliaeth ar fynydd Olympus. Y mae Pliny hefyd, wrth son am ohebiaeth o'r natur yma, a fu rhwng Decimus Brutus a Hirtius, yn amser y gwarchae ar Mutina, yn gofyn, "Pa fudd i Anthony oedd y ffos a'r gwarchae; pa fudd oedd y rhwydau ar draws yr afonydd, pan holltai y negesydd ei ffordd drwy yr awyr?" Yn amser y Croesgadau, gwnaed prawf o honynt gan y Tyriaid, ond yn fwy afliwyddiannus. Daliwyd un o honynt gan y gelyn, ac wedi ei llwytho â hysbysiadau gau, llwyddodd trwy hyny i gael meddiant o'r ddinas. Y mae Tasso yn son am un yr ymosodwyd arno gan hebog, a amddiffynwyd gan Godfrey, yr hwn a ddarllenodd y llythyr oedd yn rhwym wrth ei gwddf, ac a ddaeth felly i wybod am yr holl gyfrinach. Yn Twrci, sefydlwyd cyfundrefn reolaidd o gludwriaeth trwy gyfrwng colomenod yn y deuddegfed canrif, gan y Sultan Noureddin Mahmoud, yr hon a barhaodd hyd oni chymmerwyd Baghdad gan y Mongoliaid yn y flwyddyn 1258. Syr John Maundeville, yn amseroedd Iorwerth II. a'r III., a gyfeiria at yr arferiad hon yn y tiriogaethau Tyrcaidd, ac ar dueddau China, ac a ddywed ei bod mewn cryn fri yn y pedwerydd canrif ar ddeg. Dywed y Dr. Russell fod y *carriers* mewn arferiad yn Aleppo yn ystod y canrif diweddaf, ac mai trwyddynt hwy y byddai y marsiandwyr yn dyfod i wybod am ddyfodiad eu llongau i Scanderoon. Cyflawnid y siwrnai hon, o chwech ugain milltir, ganddynt mewn dwy a hanner neu dair awr o amser. Yr Is-Ellmyn a'u harferent hyd yn lled ddiweddar; ac o blegid hyny, nid oes un wlad yn Ewrop, heb law Twrci, lle y gwelir yr adar hyn yn fwy aml nag yn Holland a Belgium.

Dywedir fod y *carrier* yn ehedeg yn ol 50 neu 60 milltir yr awr, ond y gall dan rai amgylchiadau ehedeg yn llawer cyflymach. Y mae M. Antoine yn adrodd am foneddwr o Cologne a alwyd i Paris, yr hwn a wnaeth gyngwystl y gallai ef anfon hysbysrwydd i'w gyfeillion o'i fynediad llwyddiannus yn mhen tair awr ar ol iddo gyrhaedd y brif ddinas. Yr oedd y pellder yn agos i dri chan milltir. Cymmerodd ddwy o'r colomenod hyn gydag ef. Gollyngwyd hwynt gyda'r newydd yn Paris am un ar ddeg yn y bore, ac yr oedd un o honynt yn Cologne gyda'i chywion am bum mynyd wedi un y prydnawn, a'r llall yn mhen naw mynyd ar ei hol. Yr oeddynt wedi ehedeg fel hyn yn agos i gant a hanner o filltiroedd mewn awr. Ar yr 11eg o Gorphenaf, yn y flwyddyn 1819, gwnaed prawf o'r *carriers* rhwng Llundain ac Antwerp. Gollyngwyd deuddeg ar ugain o honynt yn Llundain am saith o'r gloch yn y bore, gydag enwau y dinasoedd ar eu hadenydd. Prydnawn yr un diwrnod, cyrhaeddoedd un o honynt ben ei thaith, ac ennillodd y brif wobr. Yn mhen chwarter awr ar ei hol, cyrhaeddodd un arall, ac ennillodd yr ail wobr. Y dydd canlynol, daeth deuddeg ereill i mewn, ond ni chlywyd dim o hanes y gweddill. Yn mis Gorphenaf, yn y flwyddyn 1829, gwnaed prawf arall, mewn canlyniad i gyngwystl a wnaed rhwng boneddwyr yn Maestricht, y byddai i *carriers* a gymmerid oddi yno, wedi eu gollwng yn Llundain, gyrhaedd eu cartref mewn chwe awr. Dygwyd dwy a deugain o honynt drosodd, ac wedi eu nodi yn briodol, gollyngwyd hwynt yn y brif ddinas Brydeinig am chwe mynyd ar ugain wedi wyth yn y bore. Ond mewn canlyniad i wlaw trwm, fel y tybid, bu y gyntat chwe awr a chwarter yn gwneyd ei thaith, a thrwy hyny, collwyd y cyngwystl o 10,000 o *guilders*. Dilynwyd hon gan un arall mewn saith awr, a chan un arall mewn saith awr a deng mynyd; ond yn mhen pedwar diwrnod, nid oedd mwy nag ugain o honynt wedi cyrhaedd i Maestricht. Yr oedd y gyntaf yn y prawf hwn, a golygu ei bod wedi chedeg mewn llinell uniongyth, yn teithio yn ol pump a deugain o filltiroedd yr awr. Nid yw naturiaethwyr yn cytuno pa un ai greddf ai golwg sydd yn cyfarwyddo y *carrier* yn y teithiau hyn. Dygir llawer o resymau dros y naill olygiad a'r llall.

Y mae amrywiaethau nodedig o golomenod yn nghyfandiroedd America. Dysgrifir hwynt yn fanwl gan Audubon, ac y mae un o honynt, a elwir y *passenger*, o leiaf yn deilwng o sylw yma. Y mae y golomen hon o ran ei chyflymder a'i chraffder yn rhagori bron ar bob un arall. Gwelir yr heidiau mwyaf o honynt yn eu cyflwr gwyllt yn Ohio, Kentucky, ac Indiana. Y ffeithiau pwysicaf yn eu hanes sydd yn gyssylltiedig â'u harferion cymdeithasol ac ymfudol. Y mae yr olwg arnynt yn synu y dinaswyr yn gystal a theithwyr yn y wlad hono, fel y byddant yn sylwi arnynt yn ehedeg o'r gogledd i'r deheu, neu o'r dwyrain i'r gorllewin, ac yn ol. Ehedant mor gyflym fel y maent yn myned dros lawer iawn o dir mewn ychydig amser. Profir hyn gan ffeithiau sicr a diymwad. Lleddir rhai o honynt weithiau yn Nghaerefrog Newydd, a cheir yn eu crombil ymborth na allasent ei gael yn nes na Georgia a Carolina; a chan eu bod yn treulio eu hymborth yn llwyr mewn deuddeng awr, yr oedd raid i'r rhai hyn fod wedi teithio yn agos i bedwar can milltir mewn rhywbeth fel chwe awr, yr hyn sydd o ddeutu milltir bob mynyd. Yn ol y

Digitized by Google

cyfrif hwn, gallai y *passenger*, pe yr ewyllysiai, dalu ymweliad âg Ewrop mewn cwpl o ddyddiau, fel y mae agos yn sicr fod y gwennoliaid yn gwneyd.

Dywedir fod rhifedi yr adar hyn yn nghoedwigoedd yr America yn aruthrol, ac uwch law pob amgyffred, ond yr Anfeidrol yn unig. Rhoddir yma ddyfyniad byr o'r hyn a ddywed Audubon am yr hyn a welodd ef ei hunan:—"Yn yr Hydref," medd efe, "yn y flwyddyn 1813, gadewais fy nhŷ yn Henderson, ar lan yr Ohio, i fyned i Louisville. Yn fuan, gwelwn golomenod yn ehedeg o'r gogledd-ddwyrain i'r de orllewin; ac ni welais y fath rifedi o honynt erioed o'r blaen. Meddyliais am rifo yr heidiau a welwn yn myned heibio o flaen fy llygaid mewn un awr. Disgynais oddi ar fy march, ac wedi eistedd mewn lle cyfleus, â'm pwyntyl yn fy llaw, rhoddais *ddot* i lawr am bob haid a elai heibio. Gwelais yn fuan, pa fodd bynag, fod hyn bron yn anmhosibl, gan fel yr oedd yr heidiau yn cyflym luosogi. Rhoddais y gorchwyl i fyny, ac yr oedd genyf gant a thri a thrigain o ddotiau wedi eu nodi mewn un fynyd ar ugain o amser. Fel yr elwn yn mlaen, cyfarfyddwn â mwyfwy yn barhaus. Yr oedd yr awyr yn llythyrenol wedi ei llenwi â cholomenod, a goleu y dydd wedi ei droi fel gwyll y nos. Yr oedd y dom a ddisgynai oddi wrthynt fel pluf yr eira, ac yr oedd si eu hadenydd yn ddigon i yru un i gysgu. Tra yn dysgwyl am fy mhrydnawnbryd mewn gwestty ar y ffordd, gwelwn lengoedd o honynt yn barhäus yn myned heibio, ac yn cyrhaedd hyd yr Ohio i'r gorllewin, ac hyd Fforest y Coed Ffawydd i'r dwyrain. Nid oedd gymmaint ag un o honynt yn disgyn; ac yr oeddynt yn ehedeg mor uchel, fel nad ellid eu saethu. Nid oedd swn y dryll yn peri iddynt y cyffro lleiaf. Cyn machlud haul, cyrhaeddais i Louisville, wedi teithio yn agos i bymtheng milltir a deugain, ac yno yr oedd y colomenod yn parhau i fyned heibio; a pharhasant felly am dri diwrnod yn olynol. Yma, yr oedd yr holl drigolion dan arfau, ac yn saethu atynt ar bob llaw; a chan eu bod erbyn hyn yn ehedeg yn llawer is, cafodd rhifedi anferth o honynt eu dinystrio. Am fwy nag wythnos, nid oedd dim i'w glywed gan y bobl ond rhywbeth am y colomenod. Yr oedd yr holl awyrgylch am rai dyddiau wedi ei drwytho â'r arogl mwyaf anhyfryd."

Nid anfuddiol, efallai, fyddai cynnyg y syniad a ganlyn am y nifer o golomenod yn un o'r heidiau anferth hyn, a'r swm dirfawr o ymborth sydd yn angenrheidiol i'w cynnal am un diwrnod. Ni ellir meddwl am dano heb weled doethineb a daioni anghymharol y Creawdwr yn ei holl weithredoedd, ac fel y mae y daioni hwn yn cael ei amlygu mewn modd neilduol yn y ddarpariaeth helaeth sydd yn nghyfandiroedd breision a chynnyrchiol yr America ar gyfer pob creadur byw. Dyweder fod y golofn, er anghraifft, yn filltir o led, yr hyn sydd yn sicr is law y lled cyffredin; a thybier ei bod yn cyflymu heibio yn ddiorphwys am dair awr, yn ol y cyfrif blaenorol o filltir bob mynyd. Mae hyn yn rhoddi llinell o gant a phedwar ugain milltir o hyd, wrth un o led, yn gorchuddio cant a phedwar ugain o filltiroedd ysgwâr. Rhown eto fod dau aderyn yn mhob llathen ysgwâr; rhydd hyny y cyfrif anferth o 1,115,136,000 o golomenod yn yr un haid; a chan fod pob colomen yn bwyta lawn hanner peint o rawn bob dydd, y mae 8,712,000 o fwsheli o ymborth yn ofynol i gynnal y fath haid am un diwrnod:—"Mor luosog yw dy weithredoedd, O Arglwydd! gwnaeth-ost hwynt oll mewn doethineb: llawn yw'r ddaiar o'th gyfoeth."

Yn ngwledydd y dwyrain, yr oedd colomenod yn adnabyddus yn eu hanesion boreuaf. Dywed Dr. Kitto, yn ei *History of Palestine*, fod trigolion Syria a Palestina yn dra hoff o golomenod, a bod colomendai uchel i'w gweled yn eu holl bentrefi. Yn amser cynauaf, bydd heidiau o golomenod gwylltion yn ymweled â'r wlad, ac yn aros ynddi nes bydd y tymmor wedi myned drosodd. Mae amryw fathau yn awr yn adnabyddus yn Syria; megys y *Col. Œnas*, neu yr ysguthan; y *Col. Palumbus*, neu y golomen dorchog; a'r *Col. Livia*, neu y golomen wyllt; yn nghyd âg amryw fathau ac amrywiaethau ereill. Yn y Coh-i-Suleiman, yn agos i'r Indus, er hyny, y gwelir y rhifedi mwyaf o honynt. Gelwir y lle hwn, yn y Sanscrit, Arga Varta; yr hyn o'i gyfleithu yw, "y golomen." Y mae rhifedi mawr o golomenod hefyd yn cael eu hachlesu yn yr Aipht bob amser. Nid ellir cael sicrwydd penderfynol, hwyrach, pa un a ystyrid y golomen yn aderyn cyssegredig gan yr Aiphtiaid, ai ni wneid. Y mae y cyfeiriadau mynych a wneir ati yn yr Ysgrythyrau yn dangos ei bod mewn bri mawr yn mysg yr Hebreaid. Tybir fod y gair *yoneh* yn cynnwys yr holl fathau adnabyddus yn y wlad, oddi eithr y durturod. Colomenod a durturod oedd yr unig adar a offrymid i'r Arglwydd dan y gyfraith. Yr oedd hwn yn drefniad tirion o eiddo yr Arglwydd, ar gyfer yr hwn nad allai ei law gyrhaedd aberth gwerthfawrocach (*Gen.* xv. 9; *Lef.* v. 7; xii. 6; *Luc* ii. 24); ac er cyfleusdra i'r cyfryw, yr oedd y gwerthwyr colomenod yn gosod eu byrddau i fyny yn y deml (*Math.* xxi. 12). Mewn ystyr ffugrol, saif y golomen yn yr Ysgrythyrau yn uwch nag un aderyn, neu anifail arall, gan ei bod yn arwyddlun o'r Ysbryd Glan, yn ei burdeb, yn ei addfwynder, ac yn ei gyfiawnder (*Mat.* iii. 16). Y golomen a ddaeth at Noah, gyda'r ddeilen olewydden yn ei chylfin, a ddug arwydd o heddwch rhwng Duw a'r byd (*Gen.* viii. 8—10); ac felly, y mae y golomen â deilen yn ei phig yn arwydd o dangnefedd gan holl genedloedd gwareiddiedig y byd. Dywedir fod y bedwaredd ran cab o dom colomenod yn Samaria, yn amser y newyn, yn cael ei werthu er pum siel o arian. Y mae gwahanol olygiadau ar y gair *chirionim* (2 *Bren.* vi. 25). [Gwel Tom Colomenod.] Cyffelybir dynion llwfr a diffygiol i "golomen ynfyd heb galon;" *Hos.* vii. 11. Dysgrifir yr eglwys yn nydd ei llwyddiant fel "colomen wedi ei gwisgo âg arian, a'i hadenydd âg aur melyn;" *Salm* lxviii. 13.—(*White's Nat. Hist. of Seborne*; *Nat. Lib.*; *Selby on Pigeons*; *Kitto's Bib. Cyc.*; *Pen. Cyc.*; *Gold.'s Anim. Nat.*; *Temm. Man. Ornith.*; *Martin's Domestic Birds*; *Morier's Sec. Journ.*)

COLOSSA: ydoedd ddinas yn Phrygia, ar lan yr afon Lycus (yn awr Gorduk), ychydig i'r gogledd-ddwyrain oddi wrth Laodicea—dinas a enwir yn yr ail bennod o'r Epistol at y Colossiaid. Yr oedd Laodicea rhwng Colossa ac Ephesus. Mewn amseroedd henafol, yr oedd Colossa yn ddinas o gryn enwogrwydd. Gelwir hi gan Herodotus (vii. 30) yn *ddinas fawr* (πολις μεγαλη), a chan Xenophon [*Anab.* i. 2, 6] yn *fawr a llwyddiannus* (ευδαιμων και μεγαλη). Er bod ei phwysigrwydd wedi lleihau pan gyfododd Laodicea a Hierapolis, y rhai a safent o fewn ychydig filltiroedd iddi, i fwy o sylw dan y Seleucidæ, ac ar ol hyny dan y Rhufein-

Digitized by Google

laid—eto, yn y canrif cyntaf, yr oedd yn un o brif *drefydd* Phrygia (*celeberrima oppida Phrygiæ*:—Pliny, H. N., v. 41). Yn flaenorol i hyn, geilw Strabo hi yn *polisma* (πολισμα)=*tref*, mewn cyferbyniad i Laodicea, yr hon a elwir ganddo yn un o brif ddinasoedd Phrygia. Gorweddai ar wastadedd dyfradwy a ffrwythlawn. Ymarllwysai y Lycus, yr hon a redai trwy Colossa, i'r Mæander, ar ei mynediad yn mlaen rhwng Ephesus a Melitus i'r mor. Ac ar hyd ochr y Lycus, a thros wastadedd Colossa, y rhedai y brif-ffordd a gysylltai Ephesus, a dinasoedd ereill glan y môr, â rhanau mewnol Asia Leiaf. I'r ffordd hon, yn gystal ag i ffrwythlondeb naturiol y gwastadedd, yr oedd Laodicea, Hierapolis, a Colossa, yn ddyledus am eu llwyddiant. Yn y fath ddinasoedd,

Dar. 190. Colossa.'

gallesid dysgwyl cymmysgedd o ddynion ac opiniynau. Yn y flwyddyn 62 c. c., dyoddefodd trigolion Colossa, Laodicea, a Hierapolis, yn dost oddi wrth ddaiargryn. Dywed Strabo fod holl ddyffryn y Mæander yn hylosg, ac yn ddarostyngedig i ddaiargrynfaau. Ail adeiladwyd Colossa, ac yr ydoedd yn dref lwyddiannus yn y deuddegfed canrif: yn bresennol, nid yw ond pentref, yn myned wrth yr enw Khonos. Mae adfeiliau yr hen ddinas wedi eu darganfod gan y teithwyr diweddar, Hamilton ac Arundel. —*Arundel's Seven Churches*, td. 158; *Asia Minor*, ii. td. 160; *Hamilton's Researches*, i. td. 509.

Pwy a blanodd yr eglwys yn Colossa, sydd yn ansicr. Y farn fwyaf gyffredinol ydyw, mai Epaphras ydoedd. Ac y mae hyn yn seiliedig yn benaf ar *Col.* i. 7; ii. 1; iv. 12, &c. Yn y gyntaf o'r adnodau hyn, tystia Paul mai Epaphras oedd prif ddysgawdwr y Colossiaid; a thybir hefyd fod yr ymadrodd yn rhoi ar ddeall mai efe oedd y cyntaf—"megys y dysgasoch gan Epaphras." Ymddengys yn annaturiol hefyd deall y geiriau nesaf mewn unrhyw ystyr heblaw yr hyn sydd yn ymddangos yn amlwg ar wyneb y geiriau eu hunain; sef, nad oedd trigolion Laodicea a Colossa wedi gweled Paul yn y cnawd. Y mae y tystiolaethau hyn wedi ymddangos yn hollol benderfynol i'r nifer mwyaf o esbonwyr nad Paul a sylfaenodd yr eglwys yn y dref hon.

Ond y mae ysgrifenwyr o'r farn fod rhesymau cryfion dros y dybiaeth mai Paul ydoedd ei sylfaenydd. Y mae y Dr. Lardner wedi dwyn amryw o resymau dros hyn:—

1. Yr annhebygolrwydd y buasai Paul yn tramwyo ddwywaith drwy Phrygia (*Act.* xvi. 6; xviii. 23), heb ymweled â'i phrif ddinasoedd—Colossa a Laodicea.

2. Gwybodaeth gywir yr apostol o gyflwr ac ansawdd yr eglwys yn y lle: *Col.* i. 6, 23; ii. 6, 7.

3. Anfonwyd Epaphras gan y Colossiaid i Rufain, i wneyd ymofyniad yn nghylch Paul pan ydoedd yn ngharchar; yr hyn a dybia adnabyddiaeth bersonol (*Col.* iv. 7, 8).

4. Dadleua fod Paul mewn effaith yn dyweyd ei fod ef wedi pregethu yr efengyl iddynt (*Col.* i. 21—25).

5. Y gwahaniaeth a ganfyddir rhwng dull yr apostol yn cyfarch y Colossiaid a'r Rhufeiniaid (*Rhuf.* xiv. 1, 2; *Col.* ii. 20—23); ac oddi wrth hyn, fe gesglir, gan nad oedd y Rhufeiniaid wedi eu dychwelyd drwy Paul, fod yn rhaid fod y Colossiaid yn ddychweledigion iddo.

6. Tybir fod adnodau fel *Col.* ii. 6, 7, yn awgrymiad o'i offerynoliaeth ef yn ei sylfaeniad.

7. Defnyddir y geiriau sydd yn ymddangos fel y prawf cadarnaf *nad* Paul a'i sylfaenodd, yn rheswm i'r gwrthwyneb: "Canys mi a ewyllysiwn i chwi wybod pa faint o ymdrech sydd arnaf er eich *mwyn* chwi, a'r rhai yn Laodicea, a chynnifer ag ni welsant fy wyneb i yn y cnawd; fel y sysurid *eu* calonau *hwy*," &c.; *Col.* ii. 1, 2. Y mae y cyfnewidiad yn y personau yn tybied fod y Colossiaid, at ba rai yr ysgrifenodd, *wedi gweled ei* wyneb yn y cnawd, onid e, y buasai yr ysgrifenydd yn dyweyd "*eich* calonau," ac nid "*eu* calonau."

8. Yr oedd y Colossiaid wedi eu cynnysgaethu â doniau ysprydol (*Col.* iii. 16), yr hyn ni allasai fod ond trwy apostol.

9. Meddylir fod yr ymadrodd "er fy mod i yn *absennol*" (*Col.* ii. 5), yn cynnwys presennoldeb blaenorol.

10. Bod *Col.* iv. 7—9, fel yn cynnwys prawf cyflawn o adnabyddiaeth o'u gilydd.

11. Tybir fod y cyfarchiadau (*Col.* iv. 10, 11, 14) yn dangos fod y Colossiaid yn gydnabyddus â chydweithwyr yr apostol, ac o ganlyniad âg ef ei hun.

12. Y mae cydnabyddiaeth yr apostol â Philemon, brodor o Colossa, yn dangos hyn. Ymddengys, oddi wrth *Philem.* 18, ei fod ef wedi ei ddychwelyd i'r ffydd gan Paul, ac efallai yn ei gartref. Y mae hefyd yn cyfarch Apphia, gwraig Philemon, ac Archippus gweinidog Colossa, fe ddichon. Dymuna ar Philemon i barotoi lletty iddo, &c.

13. Rheswm arall ydyw, fod yr apostol yn anfon cyfarchiad oddi wrth Timothëus at y Colossiaid (*Col.* i. 1); yr hyn a gyflawnhâ y dybiaeth fod yr efengylwr yn adnabyddus iddynt. Teithiodd Timothëus gyda Phaul trwy Phrygia (*Act.* xvi. 3), heb ei adael, mor bell ag y gallwn ni gasglu. Rhaid hefyd fod Paul yn adnabyddus i'r Colossiaid.

14. Buasai dull arall o ymadroddi yn fwy naturiol na'r un canlynol:—"yr hwn sydd wr o honoch chwi" (*Col.* iv. 9), pe buasai Epaphras yn sylfaenydd yr eglwys; megys, "trwy yr hwn y credasoch chwi," &c.

Dan y penau hyn, ceir rhesymau Lardner, yn nghyd âg amryw o'r ysgrifenwyr Ellmynaidd sydd wedi cymmeryd yr un golygiad ag ef. Ond er yr ystyriaethau hyn, y mae y nifer mwyaf o ysgrifenwyr y Cyfandir a Lloegr yn ffafriol i'r

Digitized by Google

dybiaeth arall. Fel hyn y dywed Alford [*Greek Test.*], gan grynoi yr hyn a ddywedir gan Dr. Davidson ac ereill:—"Gan nad yw y rhesymau uchod yn gorphwys ond ar debygolrwydd yn unig, nis gallant sefyll o flaen y ffaith nad yw yr apostol yn cyfeirio unwaith yn eglur ac uniongyrchol ato ei hun fel eu tad yn Nghrist, fel y mae yn gwneuthur mor benderfynol yn ei lythyrau at yr eglwysi y bu ef yn eu haddysgu yn bersonol: 1 *Cor.* iii. 6, 10; *Gal.* i. 6; *Phil.* ii. 16; iii. 17; iv. 9; 1 *Thes.* i. 5; ii. 1, &c. Yr epistolau at y Rhufeiniaid a'r Ephesiaid yn unig, heb law hwn, sydd yn amddifaid o'r cyfeiriadau dan sylw. Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, ni allasent fod, o herwydd nid Paul oedd sylfaenydd yr eglwys yno; ac am yr Epistol at yr Ephesiaid, gallasai hyny godi oddi wrth natur cyffredinol yr epistol; ac hefyd, fe ddichon, am mai nid efe oedd, yn hollol, sylfaenydd yr eglwys hono."

Y mae Dr. Davidson wedi chwilio yn fanwl i'r gyfres o resymau a roddir uchod o blaid offeryniaeth Paul yn sylfaeniad yr eglwys yn Colossa, ac yn eu gwrthod fel yn arwain o angenrheidrwydd i'r penderfyniad hwn. Yn chwanegol at yr hyn a ddywedwyd yn ffafr y dybiaeth mai *nid* Paul oedd ei sylfaenydd, mae yn amlwg, mewn atebiad i'r rheswm cyntaf, i'r gwrthwyneb, nad ydyw fod Paul wedi tramwyo ddwywaith drwy Phrygia yn brawf ei fod wedi ymweled â phob tref yn y wlad. Ac ni ddywedir ei fod wedi ymweled â'r oll o Phrygia: *Act.* xviii. 23. Am yr hyn a ddywedir oddi wrth gydnabyddiaeth Paul â'r Colossiaid, a'r gwahanol adnodau a ddyfynir i brofi hyny, nid oes dim yn hyny ond a allasai ddysgu oddi wrth Epaphras. A chan fod gofal yr holl eglwysi arno, y mae yn ddiau ei fod yn gwneuthur ymofyniadau i'w hansawdd, ac yn anfon cenadon atynt, pan nad allai ymweled â hwynt yn bersonol. Y mae rhai o r rhesymau uchod yn seiliedig ar gamesboniadau, megys *Col.* iii. 16. Nid oes yma gyfeiriad at ddoniau gwyrthiol, ond yn unig at ganu cyfansoddiadau ysbrydoledig, megys *Salmau Dafydd.* Am *Col.* ii. 1, dywed Neander: "Nis gallaf berswadio fy hun, pe buasai y Colossiaid a'r Laodiceaid wedi derbyn yr efengyl oddi wrth enau yr apostol ei hun, y buasai yn eu gosod mewn cyssylltiad mor agos â'r rhai nad oeddynt yn adnabyddus yn bersonol iddo, heb un gwahaniaeth rhyngddynt; o herwydd yr oedd y ffaith ei fod ef ei hun wedi ei sylfaenu, yn gwneuthur gwahaniaeth mawr yn ei bryder drostynt." Mae y rhagenw, "*eu* calonau," yn lle "*eich*," yn briodol ar ol y gair "cynnifer," er iddo gynnwys y Colossiaid a'r Laodiceaid yn mhlith y rhai ni welsant ei wyneb yn y cnawd, ac nid yn eu gwahaniaethu oddi wrthynt, fel yr esbonia Lardner. Nid yw yr ymadrodd "er fy mod i yn absennol" (*Col.* ii. 5) yn gyferbyniol i bresennoldeb blaenorol yn y corff, ond i bresennoldeb yn yr ysbryd—"yr wyf gyda chwi yn yr ysbryd." Nid yw yr Epistol at Philemon yn brawf chwaith fod Paul wedi bod yn Colossa. Dychwelwyd Philemon trwyddo, nid yn Colossa, ond yn Ephesus. A gallasai enwau Archippus ac Apphia fod yn adnabyddus i'r apostol, er iddo fod heb eu hadnabod yn bersonol. Ond nid yw yn annhebygol eu bod hwythau wedi bod yn gwrandaw ar yr apostol yn Ephesus.

Fel hyn, mae y cwbl a ddywedir dros fod Paul wedi sylfaenu yr eglwys yn Colossa yn gysson ac yn ddealladwy ar y dybiaeth arall. Felly, ar y cyfan, y mae mwy o debygolrwydd mai *Epaphras* oedd ei sylfaenydd.

Mae yn naturiol gofyn yma, *Pa fodd*, a thua *pha bryd* yr oedd hyn? Y mae yr ateb i'r ddau ymofyniad hyn yn eglur yn *Act.* xix; lle y ceir yr hanes am arosiad maith Paul yn Ephesus. Yr ystod yr ysbaid hwnw, dywedir (*adn.* 10), "A hyn a fu dros ysbaid dwy flynedd, hyd oni ddarfu i bawb oedd yn trigo yn Asia, yn Iuddewon a Groegiaid, glywed gair yr Arglwydd." Cadarnheir hyn gan Demetrius (*adn.* 26): "Chwi a welwch ac a glywch, nid yn unig yn Ephesus, eithr agos dros Asia oll, ddarfod i'r Paul yma berswadio a throi llawer o bobl ymaith." Gellir yn hawdd gasglu oddi wrth hyn, ddarfod i Epaphras, brodor o Colossa, a Philemon a'i deulu—hwythau hefyd yn frodorion o'r un man—gyd ag ereill hefyd, gyfarfod â'r apostol, a dyfod yn flaenffrwyth yr eglwys yn Colossa. Yn yr un modd, gallasai eglwysi gael eu planu yn Laodicea a Hierapolis, a manau ereill, tra yr oedd yr apostol yn aros o hyd yn Ephesus, fel dinas llawer mwy pwysig, o herwydd ei sefyllfa mwy canolig, a'i chyssylltiad mwy uniongyrchol âg Ewrop.

Esbonia y dybiaeth hon pa fodd, er nad oedd Paul yn sylfaenydd uniongyrchol yr eglwys yn Colossa, yr arweiniwyd ef i ddefnyddio yr holl ymadroddion yn yr epistol sydd yn arwyddo eu parch hwy tuag ato, a'i anwyldeb ef tuag atynt hwythau; a pha fodd y mae yn defnyddio am Epaphras iaith sydd o'r braidd yn gysson â sylfaenydd uniongyrchol yr eglwys; ac hefyd am y cyfarchiadau ol a blaen, ar ba rai y sylfaena Lardner ei farn fod yr apostol wedi bod yn bersonol gyda hwynt.

Y farn gyffredin am *amser* a *lle* cyfansoddiad yr epistol ydyw, iddo gael ei ysgrifenu a'i anfon yr un amser a'r Epistol at yr Ephesiaid a'r Epistol at Philemon, sef yn ystod ei garchariad yn Rhufain (*Act.* xxviii). Ac o ganlyniad, fel y ceir profion yn hanes Paul, yn y flwyddyn 61 neu 62 B. A. Mae y rhesymau canlynol dros hyn:—1. Ysgrifenwyd ef yn y carchar, yr un amser a Philemon, ac anfonwyd ef gyda'r un genad (*Col.* iv. 7—9). 2. Nid pan oedd yn Cesarea yr ysgrifenid ef; o herwydd, yn y lle cyntaf, tra yn ysgrifenu yr oedd yn mwynhau rhyw gymmaint o ryddid i lafurio yn yr efengyl (*Col.* iv. 3, 11). Mae hyn yn cytuno â'r hyn a ddywedir am dano yn Rhufain (*Act.* xxviii. 31); ond yn anghysson â'r gorchymyn a roddwyd yn ei achos yn Cesarea (*Act.* xxiv. 23). Ymddengys yn sicr nad oedd yn mwynhau yr un rhyddid yn Cesarea ag yddoedd yn Rhufain, ac o ganlyniad y mae yn fwy naturiol cyfeirio (*Col.* iv. 10, 11) at yr olaf na'r blaenaf. Yn ail, o herwydd ni allasai ddysgwyl yn fuan fyned i Phrygia pan oedd yn Cesarea (*Act.* xxiii. 11; xix. 21; *Rhuf.* i. 13; *Act.* xx. 25); ond pan ysgrifenodd yr epistol hwn, yr oedd ganddo obaith myned i Phrygia (*Philem.* 22). 3. Y mae yr holl ystyriaethau hyn yn cytuno â'r dybiaeth ei fod yn Rhufain ar y pryd. Heb law hyny, yr oedd Timothëus gydag ef, fel y gwelir oddi wrth y cyfarchiad (*Col.* i. 1), fel y gwyddom ei fod gydag ef yn Rhufain (*Philem.* i. 1).

Mae *y profion allanol*, cyffelyb i'r rhai canlynol, yn gosod *awduriaeth a dilysrwydd* yr epistol tu hwnt i ammheuaeth:—

Ysgrifena Irenæus, cyn diwedd yr ail canrif, "A thrachefn yn yr Epistol at y Colossiaid dywed (Paul) 'y mae Luc y physygwr anwyl yn eich anerch;'" *Col.* iv. 14. ("*Et iterum in epistola quæ est ad Colosseuses ait: 'Salutat vos Lucas medicus dilectus.'*")

Clement o Alexandria a ddywed, "Ac yn yr

Digitized by Google

Epistol at y Colossiaid y mae efe (Paul) yn ysgrifenu."

Ceir geiriau fel y canlyn yn Tertullian:—"Rhag y cyfryw bethau y mae yr apostol, wrth ysgrifenu at y Colossiaid, yn ein rhoddi ar ein gocheliad, 'Edrychwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi a gwag dwyll.'"

Mae dyfyniadau a chyfeiriadau o'r natur yma yn ysgrifeniadau boreuaf yr Eglwys Gristionogol yn brawf fod Cristionogion o'r dechreu wedi derbyn yr epistol hwn fel cyfansoddiad yr apostol Paul.

Ond nid yw yn angenrheidiol myned o'r epistol ei hun am yr argyhoeddiad llwyraf o'r un peth. Cyn sylwi ar ei gynnwysiad, ni a edrychwn ar *achlysur* ac *amcan* ei gyfansoddiad.

Mae y llythyr ei hun yn rhoddi i ni yr achlysur o'i ysgrifeniad. Yr oedd Epaphras yn awr yn Rhufain, ac wedi hysbysu i Paul y newydd trwm fod ffydd y Colossiaid mewn perygl o gael ei gwyrdroi gan ddysgeidiaeth gyfeiliornus, tuedd yr hon ydoedd i amddifadu yr eglwys o'i rhyddid ysbrydol, a'i dwyn yn gaeth i seremonïau Iuddewiaeth; ac argymhell parch i angelion, fel ag i amddifadu Crist o'r uchaflaeth sydd yn ddyledus iddo. Mae gwahaniaeth yn bod mewn perthynas i'r cyfeiliornadau hyn; sef, ai gwahanol gangenau o'r un cyfeiliornad mawr oeddynt, ai ynte gwahanol gyfeiliornadau oedd wedi ymgyfarfod ac ymddangos yn Colossa? Mae yn amlwg fod yr apostol yn rhoddi ei ddarllenwyr ar eu gocheliad rhag y cyfeiliornadau canlynol:—Yn gyntaf, addoliad angelion, yn gyssylltiedig â math o erwinder corfforol: "mewn gostyngeiddrwydd ac addoliad angelion;" *Col.* ii. 18. Yn ail, yr hyn a elwid yn *philosophi*, neu *gnosis* (gwybodaeth), gan ddibrisio Crist a'i efengyl: *Col.* ii. 8. Yn drydydd, cadwraeth gorfanwl o wyliau a Sabbathau Iuddewig: *Col.* ii. 16. Eto, ar y llaw arall, cyfeiria yr apostol, er yn aneglur, at un ffynnonell—a meddylia rhai at un person—fel yr achos o'r cyfeiliornadau hyn; ac yn ail, mae yn sicr fod y ddau gyntaf o'r cyfeiliornadau uchod yn cael eu huno gan rai o'r Gnosticiaid boreuol. Oddi wrth y cyfeiliornad olaf a enwir, y mae yn eglur mai Iuddewon oedd y dysgawdwyr hyn, ac Iuddewon yn proffesu Cristionogaeth, fel y gellir casglu oddi wrth *Col.* i. 23; ii. 6, 8, 19. Yr hyn a dderbynir fel y golygiad mwyaf tebygol ydyw, fod un neu chwaneg o Iuddewon o Alexandria—yn proffesu Cristionogaeth, ac wedi eu haddysgu hefyd yn "philosophi" Groeg, fel y ceir hi yn ysgrifeniadau Philo, a chyda hyn oll wedi cymmysgu traddodiadau Rabbinaidd am angelion â dadguddiad dwyfol i holl ddirgeledigaethau natur—wedi ymddangos yn Colossa, ac wedi ceisio symmud y Cristionogion oddi wrth symledd yr efengyl.

Yr oedd sefyllfa yr eglwys yn gyffredinol y pryd hyn yn gyfryw ag oedd yn ei gwneuthur yn fwy darostyngedig i'r ffurfiau hyn o gyfeiliornad, yn enwedig mewn eglwys oedd yn gyfansoddedig, gan mwyaf, o Genedloedd, fel yr eiddo Colossa (*Col.* i. 25—27; ii. 11); a hyny hefyd yn Phrygia, lle yr oedd y nodwedd cenedlaethol yn dra thueddol i goelgrefydd a phenboethni.

Yr oedd dwy elfen niweidiol a chyfeiliornus yn gweithredu yn ystod oes yr apostolion. Y gyntaf oedd, y duedd gul, ofergoelus, a rhagfarnllyd, yr hon a hynodai yr Iuddewon; yr ail, y duedd athronyddol, yr hon a geisiai ddyrchafu a thalu gwarogaeth i reswm fel prif arweinydd dyn, yr hon oedd o darddiad Groegaidd. Y gyntaf o'r rhai hyn oedd y mwyaf niweidiol yn nhymmor cyntaf yr oes apostolaidd, ac hyd garchariad yr apostol Paul yn Rhufain. Ond ar ol hyny, fel yr oedd yr eglwys yn chwanegu, a nifer y dychweledigion cenedlig yn fwy lluosog na'r rhai o blith yr Iuddewon, yr oedd pethau yn wahanol. Yr oedd derbyniad y Cenedloedd i'r eglwys yn ffaith erbyn hyn, a'r dysgawdwyr Iuddewig yn llai eu dylanwad fel plaid nag y buont—eto, yr oedd eu hofergoeledd rhagfarnllyd yn parhau, ac yn achosi llawer o niwed, er eu bod yn gorfod addef fod y Cenedloedd crediniol yn gyd-etifeddion ac yn gyd-gorff. Ar y llaw arall, yr oedd y rhai nad oeddynt yn ymofyn am ddim mewn Cristionogaeth ond philosophi newydd yn chwanegu mewn nifer, fel yr oedd yr eglwys yn ennill dychweledigion o blith y rhai dysgedig. Yr oedd y duedd hon yn ffynu yn mhlith darlithwyr Athen,—y rhai a geisient ddoethineb yn Corinth,—a Rabbiniaid Platonaidd Alexandria. Y ddinas olaf hon, Alexandria [gwel erthygl], oedd prif ddinas athroniaeth cyn ac yn ystod bywyd yr Iachawdwr. Yno yr oedd Philo, fel ei phrif ddysgawdwr a'i chynnrychiolydd, wedi ffurfio cyfundrefn o Blatoniaeth Iuddewig, yr hon oedd yn gynnwysedig mewn esbonio ymaith ran fawr o ysgrifeniadau Moses, er mwyn cyssoni duwinyddiaeth yr Hen Destament âg egwyddorion Plato. Felly y parotowyd y ffordd i'r gymmysgedd ryfedd hono o athroniaeth Roegaidd, ac esboniadaeth allegawl y dwyrain, a choelgrefydd Iuddewig, a alwyd ar ol hyny yn Gnosticiaeth [gwel erthygl]. Y mae yn sicr nad oedd y gymmysgedd afresymol sydd yn adnabyddus wrth yr enw hwn wedi cyrhaedd ei lawn dwf yn amser yr apostolion; ond eto, mae yn amlwg oddi wrth yr epistol hwn, yn gystal ag oddi wrth epistolau eraill, fod dynion a honent ryw wybodaeth ("*gnôsis*") neilluol iddynt eu hunain, ag oedd allan o gyrhaedd y cyffredin, yn peri blinder i'r eglwysi.

Gellir edrych ar yr heresiau hyn yn gyntaf mewn ystyr athrawiaethol; ac yn ail, mewn golygiad ymarferol. Y mae cyfeiriad atynt yn y ddau olygiad hyn yn ysgrifeniadau Paul, ac yn enwedig yn yr epistol dan sylw. Eu prif nodweddiad athrawiaethol oedd, y gallu a honent i dreiddio, mewn dull athronaidd, i ddirgeledigaethau crefydd. Yn yr ystyr hwn, rhydd Paul y Colossiaid ar eu gocheliad rhag y dysgawdwyr a geisient eu twyllo trwy honiadau gwag ac ymffrostgar o'u "*philosophi*," y rhai oedd wedi "ymchwyddo yn ofer" (*Col.* ii. 8, 18). Y mae yr apostol yn rhoi Timothëus ar ei wyliadwriaeth rhag y cyfryw ag oedd yn hôni "gwybodaeth a gamenwir felly." Mae yn debygol fod yr "addoliad angelion" oedd yn cael ei argymhell gan y cyfeiliornwyr yn Colossa yn gyssylltiedig â'r "achau anorphen;" sef dychymygion a chwedlau mewn perthynas i ddeilliad bodau ysbrydol, y rhoddir gocheliad rhagddynt yn 1 *Tim.* i. 4. Yr oedd coelgrefydd Iuddewig a dychymygion cenedlig wedi cyfarfod â'u gilydd yn eu syniadau o barth i'r deilliadau hyn. Yn y *Cabbala*, neu gasgliad o draddodiadau Iuddewig, y mae llawer o chwedlau am danynt.[1]

Tybir mai at yr un ofergoeledd y cyfeirir yn

[1] Y mae Paul yn cyfeirio at "draddodiadau dynion" fel ffynnonell y cyfeiliornadau hyn (*Col.* ii. 8): ac y mae y gair Cabbala (קבלה) yn arwyddo *traddodiad*. Dywed Dr. Burton "fod y Cabbala wedi tyfu yn gymmysgedd yn amser dinystr Ierusalem, a bod prawf fod y doctoriaid Iuddewig wedi talu llawer o sylw iddynt yn mhell cyn hyny."

Digitized by Google

yr "halogedig a gwrachïaidd chwedlau" (1 *Tim.* iv. 7); a'r chwedlau Iuddewaidd a gorchymynion dynion;" *Tit.* i. 14. Ond nid hyn oedd yr unig elfen yn nysgeidiaeth yr hereticiaid hyn; gwnaent gydwybod o gadw y gwyliau a'r Sabbathau Iuddewig, gan ymlynu wrth ddefodau allanol a gwahaniaeth bwydydd.

Yr oedd ffrwythau ymarferol y cyfeiliornadau hyn i'w canfod mewn dau gyfeiriad sydd yn ymddangos yn wrthwynebol i'w gilydd. Ar un llaw, yr oedd yn Colossa ryw erwinder corfforol yn cael ei ymarfer, yr hyn a ymddangosai mewn dyfeisiau newyddion yn addoliad Duw (ewyllys-grefydd), rhith gostyngeiddrwydd, a marweiddiad corfforol (ii. 23). Yn epistolau Timothëus, hefyd, y mae gwaharddiad i briodi, ac archiad i ymgadw oddi wrth fwydydd, yn nodau heresiau: 1 *Tim.* iv. 3. Gellir olrhain yr ymarferiadau corfforol hyn i ffynnonell Iuddewig. Yr oedd un blaid yn eu mysg, yr Esseniaid [gwel erthygl] yn arfer y llymder hwn. Nid yw yn annhebygol chwaith y gallasai ddeilliaw oddi wrth awydd y Platoniaid Alexandriaidd i ryddhau y meddwl oddi wrth lywodraeth y corff.

Yr oedd cyfeiriad ymarferol arall i'r cyfeiliornadau uchod, yr hwn a darddai o'r elfen Genedlig yn hytrach na'r un Iuddewig; a hyny ydoedd, ymroddiad i aflendid a thrachwantau pechadurus, gan ymdrechu eu cyfiawnhau trwy wyrdroi athrawiaethau yr efengyl. Gwelir hyn wrth gymharu y manau canlynol:—*Eph.* v; 1 *Tim.* i. 19; 2 *Tim.* ii. 19; 2 *Tim.* iii; 1 *Pedr* ii. 16; 2 *Pedr* ii. 19, &c. Fe ddichon mai y llymder corfforol oedd yn ffynu fwyaf yn Colossa; ac eto, y mae yr apostol yn rhoddi cynghorion rhag y gogwydd arall (*Col.* iii. 5, &c.): ac y mae gwleddydd Pabyddol yn awr yn brawf o gydhanfodiad y ddwy duedd ymarferol hyn.

Ar ol gosod o flaen y meddwl y peryglon rhag pa rai yr oedd yr apostol yn rhybuddio ac yn cadarnhau y Colossiaid, yr ydym mewn gwell mantais i ddeall *cynnwysiad* ac *ymresymiad* yr epistol. Rhydd Neander y crynodeb canlynol:—"Yn esampl Paul, ni a welwn mor wahanol oedd y dull apostolaidd o wrthwynebu cyfeiliornad oddi wrth y dull a ddefnyddiwyd yn fynych ar ol hyny. Mewn amseroedd diweddar, ymosodir yn erbyn cyfeiliornadau neilldunol; tra y mae Paul, i'r gwrthwyneb, yn myned yn erbyn gwraidd yr athrawiaeth gyfeiliornus yn y duedd hanfodol o ba un y mae cyfeiliornadau yn tarddu, ac yn yr hon y maent yn wrthwynebol i ysbryd yr efengyl. Fel hyn, y mae yn gwrthsefyll yr ymffrost ymhongar i ddoethineb ddyrchafedig, ac i gydnabyddiaeth ddychymygol o fyd yr ysbrydoedd, trwy arddangos y gwirionedd sydd yn ganolbwynt Cristionogaeth; sef, mai trwy gymundeb â Christ yn unig yr ydym yn derbyn bywyd ysbrydol yn ei holl gyflawnder; trwyddo ef yn unig ein dygir i deyrnas Dduw—y deyrnas hono i ba un y mae yr angelion a'r ysbrydion sanctaidd yn perthyn, ac yn yr hon y mae Iesu Grist yn ben goruwch pawb oll, yr unig Gyfryngwr rhwng Duw a dynion. Er mwyn eu harfogi yn erbyn yr ofergoeledd oedd yn tynu gwahaniaeth rhwng pethau dibwys, ac yn eu hannog i ddefnyddio swynyddiaeth yn erbyn ysbrydion drwg, y mae yn appelio at y gwaith y mae Cristionogion yn ei brofi yn eu heneidiau—eu bod yn cael eu gwaredu allan o feddiant y tywyllwch, a thrwy undeb â Christ y maent yn sicr o fuddugoliaeth ar holl nerth y gelyn, gan fod eu bywyd ysbrydol uwch law gwrthddrychau daiarol, i ba rai y maent wedi meirw gyda Christ; a chan eu bod trwyddo ef yn ddinasyddion o'r nefoedd, dylent fod uwch law y grefydd hono sydd yn gynnwysedig mewn ymlyniad cnawdol wrth ddefodau diystyr a gwag. Ac ni ddylai Cristionogion adael i'r bywyd sydd wedi ei ddyrchafu i'r nefoedd, ac wedi ei wreiddio mewn cymdeithas â Duw, gael ei lusgo i lawr i bwyso ar, neu ymhyfrydu yn elfenau y byd hwn. Gwyliwch, medd yr apostol, na bydd i neb eich amddifadu o ryddid ysbrydol, a'ch twyllo trwy ymffrost o ddoethineb uchel, yr hon sydd yn dilyn traddodiadau dynol, ac yn ymlynu wrth egwyddorion y byd hwn, ac nid yn deilliaw oddi wrth Grist. Y mae pob peth sydd beb fod yn tarddu o hono ef yn dwyll; o herwydd y mae eglwys Dduw, yr hon yw ei gorff ef, yn dibynu arno ef; a thrwyddo ef, fel pen cyffredinol, dan awdurdod yr hwn y mae holl alluoedd y byd ysbrydol, yr ydych chwi, y Cenedloedd, wedi eich dwyn i'r deyrnas hon. Y mae efe trwy ei waed wedi ennill maddeuant i chwi, ac wedi eich rhyddhau oddi wrth y ddeddf, yr hon oedd yn tystio i'ch erbyn ac yn eich cyhuddo. Trwy ei angeu y mae efe wedi buddugoliaethu ar holl deyrnas y tywyllwch. Na fydded i neb y honoch, gan hyny, syrthio yn gaeth drachefn, a chondemnio eich hunain ar gyfrif y defodau allanol hyny nad oeddynt ond cysgod o'r hyn oedd i ddyfod; o herwydd yn Nghrist yr ydym yn cael y sylwedd ei hun. Na fydded i neb eich twyllo trwy broffes o ostyngeiddrwydd, er mwyn ymddangosiad, trwy addoliad angelion, gan geisio ymwthio i'r hyn sydd yn guddiedig oddi wrth ddyn. Nis gall y cyfryw eich dyrchafu uwch law y byd, nac at Grist; o herwydd nid ydynt yn dal y pen oddi wrth yr hwn y mae yr holl gorff yn derbyn bywyd. Pa fodd, os ydych wedi meirw gyda Christ i bethau y byd hwn, y gellwch fabwysiadu y fath reolau a'r rhai hyn, Na chyffwrdd, Na archwaetha—y rhai nis gallant arwain ond i lygredigaeth a dinystr? Y mae ynddynt, mae yn wir, ymddangosiad o ddoethineb, trwy chwanegiadau dynol at addoliad Duw; ac er bod ynddynt ymddangosiad o ostyngeiddrwydd, trwy beidio arbed y corff, eto, nid oes ynddynt ddim gwir werth. Os ydych wedi adgyfodi gyda Christ, ceisiwch y pethau sydd uchod; cyfeiriwch eich meddyliau i'r fan lle mae Crist; sefydlwch eich dymuniadau ar y nefoedd. Yr oedd Paul bob amser yn cyferbynu y bywyd sydd â'i wraidd yn Nuw â'r ofergoeledd a fynai ddwyn gwybodaeth ddwyfol i lawr at wrthddrychau y synwyrau."

Gellir dosbarthu yr epistol hwn, fel bron holl epistolau Paul, i ddwy ran, yr *athrawiaethol* a'r *ymarferol.* Y mae y cyntaf yn cyrhaedd o'r dechreu hyd *pen.* ii. 23; a'r ail, o *pen.* iii. 1, hyd y diwedd. Yn y rhan gyntaf, y mae yr apostol yn ymgodi i iaith a meddyliau anghyffredin a goruchel. Mae tebygolrwydd mawr rhwng yr epistol hwn a'r epistol at yr Ephesiaid, yr hwn a anfonwyd yr un amser a'r llythyr presennol. Wrth ysgrifenu y ddau, yr oedd meddwl yr apostol yn llawn o ogoniant person Crist, ac mewn canlyniad, o ragorfreintiau gogoneddus ei eglwys sydd wedi ei hadeiladu arno, ac mewn undeb bywiol âg ef. Yr oedd y testyn mawr hwn yn ymgodi yn ei hyd a'i led o flaen ei feddwl pan yr edrychai i lawr gydag eiddigedd digofus ar y gyfundrefn dlodaidd o fwydydd a diodydd, dyddiau gŵyl, a chyfryngwriaeth angelion, a argymhellid ar y Colossiaid. Wrth ysgrifenu y llythyr hwn, y mae yn ymgadw yn fwy at un rhan o'r

Digitized by Google

testyn uchod, sef mawredd person Crist, yr hyn oedd mor hanfodol i'w amcan presennol. Yn ei gyfeiriadau at ei bobl, yr oedd eu peryglon, a'r angenrheidrwydd am eu cadw ar eu gwyliadwriaeth rhag y rhai a fynent eu twyllo, yn ei gyfyngu yn hytrach at annogaethau ymarferol. Yn yr Epistol at yr Ephesiaid y mae yn treiddio i ddyfnderoedd arfaethau Duw yn Nghrist tuag at ei eglwys, ac yn tywallt allan holl gyflawnder dadguddiedigaethau yr Ysbryd am ogoniant a rhagorfreintiau yr eglwys yn ei hundeb â'i Phen a'i Phriod. Yr Epistol at y Colossiaid a ysgrifenwyd gyntaf gyda chyfeiriad penodol yn erbyn gau-athrawon; ond nid oedd yr un peryglon i roddi gocheliad rhagddynt yn y llythyrau at yr Ephesiaid, ac o ganlyniad, y mae yr ysgrifenydd yn ymgodi yn uwch, ac yn cymmeryd golwg eangach. [Gwel EPHESIAID, EPISTOL AT.]—Gwel *Dr. Davidson's Introduction; Neander's Planting of the Christian Churches; Eadie's Colossians; Alford's Greek Test.; Kitto's Cycl.; Olshausen; Horne's Introduction.*)

COLUDD—ION, [*côl*]: perfedd, ymysgaroedd: *Num.* v. 22; 2 *Cron.* xxi. 15; *Ezec.* vii. 19. Cyfran o'r faethell (*alimentary canal or duct*), sef y bibell amdröedig sydd yn dwyn y lluniaeth drwy y corff, yn dechreu wrth yr agoriad yn ochr ddeheu y cylla, a elwir *pylorus* neu berfeddyn y cylla (yr hwn sydd yn ffyrf, ac yn gwasanaethu fel math o gauad i attal ymborth annhreuliedig rhag myned yn mlaen i'r coluddion nesaf), ac yn diweddu yn y cyfeistedd (*sphincter recti*). Y mae hyd y coluddion tua chwe gwaith cyhyd a'r corff dynol. Y maent yn ymranu yn naturiol yn ddwy ran; sef mân-goludd a bras-goludd (*the small intestines, and the large intestines*). Y mae y mân-goludd (neu, fel eu gelwir weithiau, y glas-goludd) yn dechreu wrth y cylla fel y crybwyllwyd, ac yn llenwi canol neu du blaen y bôl, yn cynnwys y coluddyn deuddeng modfedd (*duodenum*), a elwir felly oddi wrth ei hyd; y coluddyn gwag (*jejunum*); a'r coluddyn pengauad (*ileum*), a elwir felly am fod yn ei ben eithaf fath o gauad (*ileo—cæcal valve*), er attal cynnwysiad y bras-goludd rhag troi yn ol i'r mân-goludd, y rhai ydynt yn terfynu yma. Y mae y bras-goludd yn llenwi yr ystlysau, a rhanau uchaf ac isaf y ceudod, ac yn cael eu galw y cudd-goluddyn (*cæcum*); y coluddyn mawr (*colon*), yr hwn yw y mwyaf oll; a'r herwth, neu y coluddyn uniawn (*rectum*), a elwir felly oddi wrth ei ffurf.

Y mae i'r holl ranau hyn eu gorchwylion priodol er dwyn yn mlaen dreuliad yr ymborth, a neillduo a chymhwyso y rhanau maethol o hono er cynnaliaeth a magwraeth y corff. Wedi derbyn yr ymborth i'r genau, y mae yn cael ei ddygnoi, ei gymmysgu, a'i fwydo, â chyfran helaeth o boer; yna, y mae yn cael ei lyncu drwy y sefnig i'r cylla, lle y mae yn fuan, dan effaith sudd y cylla (*gastric juice*), yn cael ei droi yn sylwedd meddal a elwir *chyme*, y maethsudd. Wedi hyn, y mae yn cael ei ddwyn yn mlaen o'r cylla i'r mân-goludd; yma, wedi ei gymmysgu â'r bustl, y mae yn cael ei ysgaru yn ddwy ran; un o ba rai sydd yn wyn fel llaeth, a elwir caul (*chyle*), ac a sugnir i fewn gan y llaethlestri (*lacteals*), y rhai ydynt luosog, ac yn terfynu yn ngwythen y fron (*thoracic duct*). Ymgymmysga yma mewn graddau amrywiol â nôdd dyfrllyd a elwir *lymph*, ac yna â'r gwaed, gan droi yn rhan o hono. Y rhan arall, sydd anghyfaddas i feithriniad y corff, a ddygir yn mlaen i'r bras-goludd, a thrwy y fynedfa hon a gerthir allan fel y bydd natur yn galw. Mae hyd yr awell dufewnol hon, o'r llwnc (a chyfrif y sefnig a'r cylla gyda'r coluddion) hyd y cyfeistedd, yn agos i ddwy droedfedd a deugain. Y mae doethineb a daioni y Creawdwr, yn gystal a'i allu, i'w canfod yn rhyfeddol yn y trefniant manylaidd hwn, a'r ddarpariaeth sydd yma at dynu pob gronyn o faeth o'r ymborth, a'i droi yn gynnaliaeth i'r corff. I'r dyben hwn, y mae mynediad yr ymborth drwodd yn araf, fel y gallo yr holl fân-lestri, yn ol eu gwahanol swyddau, weithredu arno yn effeithiol. Y mae y llaethlestri yn aneirif, ac mor fân a meinion nas gellir eu gweled â'r llygad noeth ond pan fyddant yn llawn; ac y mae eu geneuau, yn enwedig, mor fychain ag i gau allan bob rhyw ronynau breision rhag iddynt rwystro cylchrediad y caul trwy y pibellau priodol. Y mae y symmdiad a elwir gwringelliad y coluddion yn gywrain nodedig, yn gyffelyb i donau mân ar ddwfr, neu ysgogiadau amwydyn, drwy yr hyn y maent yn gweithio yn mlaen eu cynnwysiad drwy y corff, er sugno y maeth, a dwyn ymaith yr anmhuredd, a'i barotoi i'w arllwys wrth gyfleusdra. Y mae byrniad neu gyflead y coluddion, hefyd, mor reolaidd a threfnus, o'r naill ystlys i'r llall, a'r darpariaethau i'w cadw yn iraidd a thymmerus, yn amlygu amcan a dyfais, a gofal am i bob rhan ateb ei dyben priodol yn y modd manylaf. Y maent wedi eu gosod wrth y cefndedyn (*mesentery*), a'u hamblygu a'u cuddio yn y brasder meddal ac ystwyth, i'w diogelu a'u cadw rhag niwed drwy orwedd ar eu gilydd, na dyrysu yn eu gilydd, na myned o'u lle, er eu holl droadau a'u plygion, yn mha ystum bynag y dichon y corff fyned neu gael ei daflu iddo. Cymmaint sydd yn ymddibynu ar iawn weithrediad cysson a pharhäus y rhanau bychain, gweiniaid, a thyner hyn! "Ofnadwy a rhyfedd y'n gwnaed!" —(*Paley's Nat. Theo.; Andrew's Cycl. of Medicine; Smith's Philosophy of Health; Gray's School Cycl.*)

COLYN—AU, [*col*]: arf a ddarparwyd i rai creaduriaid—megys gwenyn, ysgorpionau, nadroedd, &c.—i archollí a gwenwyno eu gelynion: colyn dôr, corddyn neu begor y gosodir drws i droi arno. Yn *Dad.* ix. 10, darlunir y locustiaid arwyddluniol â cholynau ganddynt yn eu cynffonau, yr hyn oedd yn eu gwneuthur yn fwy ofnadwy, o blegid nid yw y locust naturiol yn meddu colyn. "O angeu, pa le mae dy golyn? .....Colyn angeu yw pechod;" 1 *Cor.* xv. 55, 56. Y mae angeu yma yn cael ei ddynsoddi megys bwystfil gwenwynig, yn cael ei ddarostwng a'i wneyd yn ddiniwed drwy dynu ymaith ei golyn. Drwy bechod y daeth marwolaeth i'r byd; a phe na buasai pechod, ni buasai marwolaeth. Euogrwydd pechod sydd yn lladd. Gwnaeth Iesu Grist, drwy ei farwolaeth, iawn am bechod, ac agorodd lwybr gwaredigaeth i bawb a gredant ynddo, oddi wrth bechod a'i holl effeithiau gwenwynig; fel, wedi symmud yr euogrwydd, a glanhau oddi wrth yr halogrwydd, y caiff credinwyr gyfarfod âg angeu heb ei golyn, dianc rhag yr ail farwolaeth, a derbyn y fuddugoliaeth dragwyddol trwy ein Harglwydd Iesu Grist. "Fel y drws yn troi ar ei golyn, felly y try y diog yn ei wely;" *Diar.* xxvi. 14. Cymhariaeth odidog yw hon yn dangos mor ddiymadferth a difudd yw y diog, yn naturiol ac ysbrydol. Os ysgoga o gwbl yn ei unman y mae, heb fyned yn mlaen, yn

Digitized by Google

hytrach ymollynga i ddifaterwch a syrthni, yn ddiamcan at bob dim ond ei hunan-esmwythder.

COLLEN: coll, coeden gnau; *ll.* cyll. Maent yn tyfu yn wyllt yn mhob man braidd yn y wlad hon, ac ar bob math o dir, ond nid yn ffynadwy mewn tir llaith, cleiog. Defnyddir y coed i amryw ddybenion; yn bolion, clwydi, cylchau, dellt, ffyn, gwiail pysgota, &c. Amrywiaeth o'r un planigyn yw collen y gerddi (*filbert*), a feithrinir yn y wlad hon mewn gerddi, a'u ffrwyth a elwir cnau gerddi, cnau barfog, &c. Gwel CNAU. Yr oedd cyll yn mhlith y coed a ddefnyddiodd Iacob gyda'r praidd, yn ei ddyfais i siomi Laban, pan yr oedd efe yn ymddwyn yn orthrymus tuag ato: *Gen.* xxx. 37.

COLLADWY, COLLEDIGAETH. Y mae gwahanol ystyriaethau i'r geiriau hyn.

"Gwell i wr golli ei arian,
Na cholli gweddi y gwan." *W. Lleyn.*

"Yr hwn sydd werthfawrusach na'r aur colladwy;" 1 *Pedr* i. 7:=Seis., "*gold that perisheth.*" "Mae yr ymresymiad o'r lleiaf hyd y mwyaf: o blegid os ydyw aur, sydd yn ddefnydd darfodedig, yn cael ei ystyried o gymmaint gwerth fel y profir ef trwy dân, i'r dyben o'i wneyd yn wir werthfawr, pa ryfedd fod Duw yn rhoddi prawf cyffelyb ar ffydd, gan fod ffydd mor werthfawr yn ei olwg ef? Ac er fod y geiriau yn ymddangos fel pe byddai ganddynt ystyr gwahanol ('profiad eich ffydd,' ac nid 'ffydd brofedig'), eto y mae yr apostol yn cyffelybu ffydd i aur, ac yn dangos ei bod yn werthfawrocach nag aur, fel y gallai oddi wrth hyny dynu y casgliad, y dylai gael ei phrofi yn gyflawn. Ond y mae yn ansicr pa mor bell y mae yn estyn arwyddocâd y geiriau, 'profedig,' a 'phrofiad.' Y mae aur yn cael ei brofi ddwy waith trwy dân: yn gyntaf, pan y mae yn cael ei buro oddi wrth ei sothach; ac yn ganlynol, pan y ffurfir barn am ei burdeb. Gellir cymhwyso y ddau ddull o brawf at ffydd: o blegid pan y mae llawer o anmhuredd anghrediniaeth yn aros ynom, a phan y purir ni trwy amryw brofedigaethau, megys yn y ffwrn, y mae sothach ein ffydd yn cael ei symmud, ac y mae hithau yn dyfod yn bur yn ngolwg Duw; ac ar yr un pryd, gwneir prawf arni i weled pa un a ydyw yn wirioneddol, ynte yn ffuantus."—*Calvin.*

"Ac ni chollwyd o honynt ond mab y golledigaeth;" *Ioan* xvii. 12. "Y mae Iudas yn cael ei eithradu, eithr nid heb reswm; o blegid er nad oedd yn rhif yr etholedigion, ac yn perthyn i wir ddefaid Crist, eto yr oedd urddas ei swydd yn peri ei fod yn ymddangos yn un o'r cyfryw; ac nis gallasai neb ffurfio tyb wahanol am dano, cyhyd ag y daliodd y swydd urddasol. Wrth ei brofi yn ol rheolau gramadeg, y mae yr eithrad yn anghywir; ond os chwiliwn i'r pwnc yn fanwl, yr oedd yn angenrheidiol i Iesu Grist lefaru fel hyn, mewn ffordd o gyfaddasiad at syniadau cyffredin dynion. Ond, rhag i neb feddwl fod yr etholiad tragwyddol yn cael ei ddymchwelyd gan ddamnedigaeth Iudas, y mae yn ebrwydd yn chwanegu, mai 'mab y golledigaeth' ydoedd. Ac yn y geiriau hyn, dengys Crist fod ei ddinystr, yr hwn a gymmerodd le yn ddisymmwth, yn ngŵydd dynion, yn cael ei ragweled erioed gan Dduw; o blegid y mae 'mab colledigaeth' yn yr Hebraeg yn arwyddo 'un wedi ei ddiofrydu i ddinystr.'"—*Calvin.* "Nid cael ei golli gan Grist a ddarfu Iudas, ond hunan-golledig ydoedd. Cymharer *Ioan* xviii. 9, y lle nad oes un eithrad."—*Alford.* Y mae ymadroddion cyffelyb yn 2 *Sam.* xii. 5, lle y dywed Dafydd wrth Nathan, "Euog o farwolaeth yw y gŵr a wnaeth hyn;" neu yn ol yr Hebraeg, "Mab angeu yw y gŵr a wnaeth hyn." Rhoddir yr un enw ar Anghrist: 2 *Thes.* ii. 3:—nid ar gyfrif ei ddylanwad dinystriol ar ereill, ond yn hytrach am mai ei hanfod a'i etifeddiaeth ydyw colledigaeth.—*Alford.* Barna Dr. Newton, gan y rhoddir yr un enwad ar Anghrist ag ar y bradwr, fod yr ymadrodd yn cynnwys y byddai Anghrist, fel Iudas, yn gau apostol—y bradychai Iesu Grist, ac y cyfarfyddai â dinystr llwyr ac ofnadwy.

"Llestri digofaint, wedi eu cymhwyso i golledigaeth;" *Rhuf.* ix. 22. "Y mae yr ymadrodd 'llestri digofaint' wedi ei gymmeryd oddi wrth y gymhariaeth am y crochenydd yn yr adnod flaenorol. 'Llestri digofaint'—hyny yw, llestri yn haeddu digofaint, neu sydd i fod yn wrthddrychau digofaint; fel mai llestri trugaredd ydyw y rhai sydd yn wrthddrychau trugaredd. Neu, gall yr ymadroddion hyn arwyddo *llestri* wedi eu bwriadu i drugaredd, ac wedi eu diofrydu i ddigofaint; yn cyfateb i'r geiriau 'llestri i barch,' a 'llestri i anmharch.' Gellir cymmeryd y gair a gyfleithir 'wedi eu cymhwyso' yn y goddefol neu y canolig, a'i ddarllen, naill ai fel y mae yn ein cyfleithiad ni, neu, 'a gymhwysant eu hunain i golledigaeth.' Os cymmerir yr ystyr goddefol, yna y meddwl yw, 'wedi eu rhagddarparu gan Dduw i golledigaeth:' neu gellir cymmeryd y ferf fel ansoddair ferfol—'yn gymhwysedig, yn barod i golledigaeth.' Y mae dynion drygionus wedi eu darparu i golledigaeth gan Dduw; nid fel pe baent wedi eu creu i'r dyben hwnw, ond wedi eu dedfrydu iddo o herwydd eu pechodau, a chael eu goddef hyd oni fyddant yn addfed i'w tynged. Mae yr eglurhâd hwn yn cael ei dderbyn, nid yn unig gan y Calviniaid uchaf, ond hefyd gan amryw heb fod o'r golygiadau hyny. Nid ymddengys, pa fodd bynag, fod un wrthddadl gref i'r eglurhâd hwn—'yn gymhwys neu addfed i golledigaeth'—yr hwn sydd yn hytrach i'w gymmeradwyo o flaen yr un arall; o blegid, gan fod yr apostol yma yn amcanu amddiffyn y gweinyddiadau dwyfol, yr oedd yn naturiol iddo lefaru am wrthddrychau digofaint Duw fel yn gymhwys i golledigaeth, yn yr ystyr o haeddu y golledigaeth hono."—*Hodge on the Romans.* Y mae golygiad Olshausen yn gyffelyb:—"Nid yw yr apostol yn defnyddio y gair *rhagddarparu* yn y frawddeg hon fel yn y llall. Ac yn lle y ffurf weithredol, arfera y ffurf ganolig (*καταρτισμενα*), yr hyn sydd yn dangos fod cynnyrchiad drygioni yn cael ei roddi ar du y creadur ei hun."

COMPLUTENSIAN POLYGLOTT. Gwel ADGYWEIRIAD; BEIBL; &c.

CONCORDIA, neu ffurf cytundeb, oedd safon barn yr Eglwys Lutheraidd. Amcan y traethawd hwn oedd, iachäu yr ymraniadau oedd yn yr eglwys hono, ac amddiffyn ei golygiadau duwinyddol yn erbyn eiddo doctoriaid yr Eglwys Ddiwygiedig. Cynnaliwyd amryw gynnadleddau yn flaenorol i'w ffurfiad; ac yn y flwyddyn 1576, pan oedd y duwinyddion Saxonaidd wedi eu cynnull, trwy orchymyn Augustus, i Torgau, cyfansoddwyd y *Concordia* gan James Andrea. Ar ol cael ei chwilio, ei welläu, a'i adolygu gan y nifer mwyaf o'r doctoriaid Lutheraidd yn Germany, cyflwynwyd ef drachefn i sylw nifer dewisedig o

Digitized by Google

dduwinyddion cynnulledig yn Berg, mynachdy Benedictaidd yn nghymmydogaeth Magdeburg. Ac yn y gynnadledd hon, penderfynasant ei dderbyn fel eglurhâd ar bynciau eu ffydd. Y personau a gynnorthwyasant Andrea yn nghyfansoddiad y llyfr, neu o leiaf yn ei berffeithiad a'i gwblhâd yn Berg oeddynt, Martin Chemnitz, Nicolas Selneccer, Andrew Musculus, Christopher Comerus, a David Chytraeus. Cynnwysai y llyfr ddwy ran. Y gyntaf a gynnwysai gyfundrefn o athrawiaethau, wedi eu ffurfio yn ol barn y chwe duwinydd a enwyd. Yn yr ail ran, condemnir pawb a wahaniaethant oddi wrth chwe phwnc y gyfundrefn; yn enwedig oddi wrth y dybiaeth oedd ganddynt am hollbresennoldeb corff Crist, a chyfranogiad o'i wir gnawd a'i waed yn y Sacrament. Yr oedd y condemniad hwn yn gwarthnodi pawb a wahaniaethent oddi wrth yr athrawiaethau a gynnwysai y rhan gyntaf â'r enw *hereticiaid*, ac yn eu cau allan o gymundeb yr eglwys. Er mai amcan y rhai a ffurfient y *Concordia* oedd sicrhau heddwch yr eglwys Lutheraidd, ac er i'r amcan hwn gael ei gyrhaedd i fesur mewn rhai lleoedd, daeth mewn amser, pa fodd bynag, yn achlysur llawer o anghydfodiaethau a dadleuon diddiwedd. Gwrthwynebwyd ef yn danllyd gan yr Eglwys Ddiwygiedig, a chan y rhai a awyddent am undeb rhwng y ddwy eglwys, er mwyn hyrwyddo achos Protestaniaeth. Ysgrifenwyd amryw draethodau yn ei erbyn gan dduwinyddion Switzerland a gwledydd ereill; ac nid yn unig gwrthwynebwyd ef gan ganlynwyr Zuingle a Calvin, ond hefyd yn mysg y Lutheriaid eu hunain; a gwrthodwyd ef mor benderfynol gan luaws o'u heglwysi, fel nas gallasai rhesymau nac ymbiliau lwyddo gyda hwy i'w dderbyn fel rheol ffydd, nac hyd yn oed fel cyfrwng addysg. Ond ymddengys nad oedd y gwrthwynebiadau oll yn cyfodi oddi ar yr un cymhellion. Y parch a deimlid tuag at goffadwriaeth Melancthon oedd y prif gymhelliad i beri i rai ei wrthod: nis gallasent lai na ffieiddio ymgais fel yr un a wnaed yn y *Efwrf Cytundeb* i ddiraddio golygiadau dyn mor ragorol. O'r dosbarth yma yr oedd Lutheriaid Holstein. Barnai ereill fod y daliadau a gondemnid yn y *Concordia* yn fwy unol â'r gwirionedd na'r rhai a gefnogid ganddo. A gwrthwynebid ef gan ereill, oddi ar y gobaith oedd ganddynt am weled undeb yn cael ei ffurfio rhwng y ddwy eglwys. Adgyfodwyd y ddadl o barth i'r *Concordia* yn Switzerland mor ddiweddar a'r flwyddyn 1718. Maes y ddadl yn benaf oedd cantref Berne. Yn y flwyddyn hon, cyhoeddodd ynadon Berne fod yn angenrhediol i holl athrawon y colegau, a'r gweinidogion—yn enwedig y rhai a berthynent i brifysgol ac eglwys Lausanne, ac a ddrwgdybid o goledd syniadau cyfeiliornus—lawnodi eu cydsyniad â'r *Concordia* a fabwysiadwyd fel cyffes eu ffydd. Parodd y gormes hwn gryn ymrysonau; a'r canlyniad a fu, i'r *Concordia* leihau yn barhäus mewn cymmeradwyaeth ac awdurdod.

CONCWERWR—WYR. [Seis., *conqueror*]: gorchfygwr, buddugoliaethwr. Yn eu holl drallodau a'u cyfyngderau, y mae y saint "yn fwy na choncwerwyr trwy yr hwn a'u carodd;" *Rhuf.* viii. 37. Nid yw Alford yn pleidio y darlleniad, "Mwy na choncwerwyr." Ei gyfeiriad ef yw—"*But in all these things we are far the conquerors.*" Y gair a ddarllenir "mwy na choncwerwyr" ydyw, *υπερνικωμεν*; ac y mae y blaenddodiad *υπερ* yn dwyseiddio yr ystyr yn *νικαν*, ond nid yn arddangos rhagoriaeth arno. Arwydda, nid "mwy na choncwerwyr," ond concwerwyr yn y modd mwyaf rhagorol—rhai yn ennill goruchafiaeth fawr a hyglod; ac y mae buddugoliaeth pobl Dduw ar eu herlidwyr â rhywbeth arbenig yn ei natur. Cynnwysa eu gwaith yn goddef yn amyneddgar yr holl ddrygau a esyd eu herlidwyr arnynt, a hyny trwy gynnorthwy Crist, ac mewn ymdebygoliad i'w esampl. O blegid trwy ddyoddef yn y modd yma, y maent yn amddiffyn ei achos yn ngwyneb pob gwrthwynebiad, ac yn gwneyd holl ymgeisiau eu gwrthwynebwyr yn ddiddym. Mae darlleniad Beza yn gyffelyb i'r Cymraeg:—"*Amplius quam victores sumus:*" yr eiddo Macknight, "Yr ydym yn gwneyd mwy na gorchfygu." Mae Schleusner yn rhoddi yr un ystyr ag Alford—"*plenissime vincimus*"="yr ydym yn buddugoliaethu yn llawn;" yr hyn sydd yn gyfystyr a phe dywedasai yr apostol, "Y mae y nerth sydd genym yn llawer mwy nag eiddo ein gelynion."

CONDEMNIO—IAD. Gr., *κατακρινω*. Cyhoeddiad o euogrwydd yn ngwyneb cyfraith, yn cael ei ddilyn gyda dedfryd o gospedigaeth. Yn yr ystyr yma y dywedodd Iesu Grist wrth y wraig a ddaliesid mewn godineb—"Nid wyf finnau yn dy gondemnio;" *Ioan* viii. 1, 10. Ni chymmerai arno y swydd wladol o farnu; ni pherthynai hyny i amcan ei ddyfodiad i'r byd, fel y dangosai yn yr amgylchiad yma, ac mewn amgylchiadau ereill. Yr oll a ddywedodd wrth y wraig oedd, "Dos, ac na phecha mwyach." Wrth ymwrthod â gwaith y barnwr gwladol, trwy beidio ei chondemnio, nis gallesid ei gyhuddo o ddifaterwch o barth gorchymyn Duw; o blegid amddiffynai ei burdeb trwy argymhell ar y wraig fywyd rheolaidd rhagllaw.

Arferir y gair *condemnio*, hefyd, am farn fyrbwyll, angharedig, ac annheg, am ereill:—"Na chondemniwch, ac ni'ch condemnir;" *Luc* vi. 37. Hefyd, am dystiolaeth ymarferol yn erbyn pechod, anedifeirwch, ac anghrediniaeth, yn cael ei harddangos mewn dull gwahanol o ymarweddu. Condemnia gwŷr Ninefeh Iuddewon dyddiau Crist, yn y farn (*Mat.* xii. 41); ac yr oedd Noah yn condemnio y byd cyn y dylif: *Heb.* xi. 7. "Efe a farnodd y byd," medd Ebrard:—"trwy ffydd, a thrwy adeiladu yr arch, sicrhaodd ei gadwraeth ei hun, a gadawodd y byd i'r dinystr a gyfiawn haeddai." Gellid meddwl fod golygiad Stuart yn fwy cywir—"Condemniodd Noah y byd=*κοσμος*—yr hyn a arwydda ddynion drygionus, dynion yn cael eu dylanwadu yn unig gan ysbryd bydol — condemniodd hwy, trwy roddi esampl o ffydd yn y bygythion dwyfol, tra yr arosai y byd o'i amgylch mewn cyflwr anedifeiriol ac anghrediniol; neu mewn geiriau ereill, condemniai ei ymddygiad y byd." Y mae Stuart, ac ereill, yn golygu wrth "yr hon" y condemniodd y byd â hi, ei ffydd; tra y mae ereill yn golygu "yr arch."

"Ac am bechod, a gondemniodd bechod yn y cnawd;" *Rhuf.* viii. 3. Y mae cyfeiriad yn y gair *condemnio*, at *ddamnedigaeth* (*κατακριμα*) yn *adn.* 1. O herwydd hyny, deallwyd yr ymadrodd fel yn meddwl fod Duw wedi condemnio—*cospi* pechod yn y cnawd trwy farwolaeth Crist. Dyma farn Origen, Erasmus, Calvin, Melancthon, Calovius, Olshausen, ac amryw. Ysgrifena Olshausen—"Nid oes un condemniad yn disgyn arnynt hwy, am ei fod Ef wedi ei gymmeryd arno ei hun. Y mae Ef, gan hyny, yn sefyll yn

Digitized by Google

lle dynolryw, yn dwyn yr hyn a fuasai yn syrthio arnynt hwy, ac felly yn effeithio yr hyn oll oedd yn anmhosibl i'r ddeddf.....Nid oedd y ddeddf yn alluog i dynu ymaith y condemniad—gwasanaethai yn hytrach yn unig i'w chwanegu; ond y mae Crist yn ei ddileu, am ei fod wedi ei gymmeryd arno ei hun; ac effeithir hyn gan yr aberth machnïol iawnol a dalodd yn ei farwolaeth. Gellir darllen y frawddeg fel hyn—'Duw a gondemniodd bechod dynolryw yn nghnawd Crist.'"—*Olshausen on the Romans.* Y mae eglurhâd Hodge ar y lle yn debyg:—"Gellir deall yr ymadrodd fel yn arwyddo naill ai 'dinystriodd pechod,' neu 'cospodd bechod.' Ac yn y naill neu y llall, gall y geiriau 'yn y cnawd,' ddynodi 'yn y natur ddynol.' Yn ol y cyntaf, y mae y frawddeg yn arwyddo, 'Efe a ddinystriodd bechod yn ein natur lygredig;' a holl bwynt yr adnod ydyw, 'Am nas gallasai y ddeddf effeithio ein sancteiddiad, anfonodd Duw ei Fab ar gyfrif pechod, a dinystriodd ef ynom ni.' Yn ol y golygiad arall yr ystyr ydyw, 'Fod Duw wedi anfon ei Fab fel aberth am bechod, ac fel hyn wedi cospi pechod yn y cnawd;'—*h. y.*, naill ai yn ei gnawd ef, am yr hwn y crybwyllir yn nechreu yr adnod, neu yn y natur ddynol—natur fel yr eiddom ni. Mai y diweddaf ydyw y gwir feddwl, a ymddengys yn amlwg—1. Am nad yw y gair a gyfleithir 'condemnio' byth yn golygu *dinystrio*, neu *ddileu*, yn unig. 2. Y mae yr eglurhâd hwn yn cyfateb yn well i ran arall yr adnod. Cyfeiria aberth yn fwy at euogrwydd pechod nag at ei anmhuredd a'i aflendid; pwrcasa faddeuant yn uniongyrchol, ond sancteiddiad yn anuniongyrchol. Felly, trwy aberth Crist, cafodd pechod ei gondemnio yn hytrach na'i gospi a'i symmud. 3. Y mae yr adnod ganlynol yn gwneyd yr esboniad hwn yn angenrheidiol. Condemniwyd pechod yn Nghrist, mewn trefn i ni gael ein cyfiawnhau. 4. Y mae yr holl gyd-destyn yn gofyn yr eglurhâd hwn. Ymresyma yr apostol fel hyn:—'Nid oes dim damnedigaeth i gredinwyr, am nad ydynt dan y ddeddf. Y maent yn rhydd oddi wrth y gyfundrefn ddeddfol hono, am fod Duw, yn ngwyneb ei haneffeithiolrwydd, wedi anfon ei Fab fel aberth am bechod; ac felly yn condemnio pechod, fel y rhyddhëid ni oddi wrth ofynion y ddeddf, neu y gallem ni trwy hyn foddloni ei gofynion.'"

Y mae lluaws o esbonwyr hen a diweddar yn gwrthod y golygiad uchod, ac yn barnu fod yr apostol yn llefaru, nid am symmudiad yr euogrwydd, ond yr halogrwydd—am ddilead yr ymarferiad pechadurus, a chyflawniad gwirioneddol y ddeddf yn y rhai sydd yn Nghrist Iesu. Golygant sancteiddiad yn fwy na chyfiawnhâd, fel prif fater yr apostol. Dyma oedd golygiad Irenæus ("condemniodd bechod, ac fel un condemniedig, y mae eisoes wedi ei fwrw allan"), a Chrysostom ("gorchfygodd ef a dinystriodd ei allu"): ac yn yr amseroedd diweddaraf, pleidir yr un golygiad gan Beza, Vitringa, Bengel, Meyers, De Wette, Tholuck, Locke, Stuart, &c. Y mae Alford hefyd o'r farn hon, a rhydd y rhesymau canlynol drosti:—1. Hyn sydd yn fwyaf neillduol o flaen meddwl yr apostol yn yr adnod gyntaf, pan y mae yn seilio y "dim damnedigaeth" ar y gair yn yr adnod flaenorol—"Yr wyf fi fy hun â'm meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw"—ar allu sancteiddiol yr Ysbryd trwy Grist, er gwaethaf darostyngiad parhäus y cnawd i ddeddf pechod. 2. Y mae y cyd-destyn yn dangos mai gwendid y ddeddf oedd, ei bod heb feddu gallu sancteiddiol—gallai gynhyrfu pechod, ond nid ei gondemnio a'i fwrw allan. Dyma yn wir bwnc mawr y seithfed bennod. Ymdrinwyd yn nechreu yr epistol am y diffyg o allu i gyflawnhau yn y gyfraith. 3. Y mae yr adnod ganlynol yn dangos yn eglur mai nid pwnc o gyfrifiad ydyw "cyflawniad cyflawnder y ddeddf;" ond ei fod yn dibynu ar y "rhodio yn ol yr Ysbryd." Rhaid, gan hyny, edrych am ystyr y "condemnio" yn ei effeithiau a'i ganlyniadau—goruchafiaeth ar bechod, a'i fwrw allan. Yn *Ioan* xii. 31, y mae "barn y byd hwn" yn cael ei egluro â'r geiriau "bwrw allan dywysog y byd hwn." Y mae y golygiad hwn yn ymddangos yn fwy cysson, am mai y prif fater gan yr apostol ydyw sancteiddiad, ac nid cyfiawnhâd. A chadarnheir y golygiad gan yr ystyriaeth fod "condemnio pechod" yn cael ei nodi fel rheswm a sail y rhyddhâd oddi wrth "ddeddf pechod a marwolaeth."

CONONIAID: canlynwyr Conon, esgob Tarsus, yn y chweched canrif. Yr oedd efe yn Drindodiad; a hyd yn oed yn Dridduwiad, gan ei fod yn cario y syniadau am bersonoliaeth wahaniaethol yn rhy bell. Cyfododd y gwahanol bleidiau a ddalient y syniadau hyn oddi ar y dadleuon a wneid yn erbyn y Monophysiaid—y rhai a ddalient fod y ddwy natur wedi eu huno y fath yn mherson Crist, fel ag i ffurfio *un* natur yn unig, eto heb unrhyw newidiad neu gymmysgiad ar y ddwy natur. Pen plaid y Tridduwiaid oedd John Ascunage, athronydd Syriaidd. Dychymygai hwn fod yn y Duwdod dair o naturiaethau neu sylweddau, yn gwbl gyfartal â'u gilydd yn mhob ystyr, ac heb eu huno trwy un hanfod gyffredin iddynt. I'r opiniynau hyn, rhoddes eu gwrthwynebwyr yr enw Tridduwiaeth. Un o amddiffynwyr penaf yr athrawiaeth hon oedd John Philoponus, athronydd Alexandriaidd, a hefyd ieithydd o'r enwogrwydd uchaf; a chafodd ei ystyried gan amryw fel sylfaenydd y blaid, a dynodwyd ei haelodau wrth ei enw—y Philoponiaid. Ymranodd y sect yn ddwy blaid—y Philoponiaid a'r Cononiaid. Cytunent yn eu golygiadau am y natur ddwyfol, a gwahaniaethent yn unig yn eu dull o esbonio yr hyn a addysga yr Ysgrythyrau o barth i adgyfodiad y corff. Daliai Philoponus, fod *ffurf* yn gystal a *defnydd* pob corff yn cael ei genedlu a'i lygru, ac felly y rhaid adferu y naill a'r llall yn yr adgyfodiad. Daliai Conon, ar y llaw arall, nad yw y corff byth yn colli ei *ffurf* hanfodol; mai ei *ddefnydd* yn unig sydd yn ddarostyngedig i lygredigaeth a darfyddiad, ac sydd, yn ganlynol, i'w adferu pan wisga y "marwol hwn anfarwoldeb."

CONSTANTINOPLE, [Κωνσταντινουπολις= *Constantinopolis*]: Caer Cystenyn, neu ddinas Cystenyn Fawr, prif ddinas Roumeli, neu Twrci yn Ewrop, yr hon a saif ar Fôr Marmora (Propontis gynt), yn y fynedfa i mewn i'r Môr Du, drwy gulfa y Bosphorus. Gelwir hi yn gyffredin gan y Tyrciaid, Stamboul, neu Istamboul, yr hyn a arwydda *y ddinas*, mewn ffordd o ragoriaeth; ac o ran ei sefyllfa a'i hymddangosiad allanol y mae yn un o'r lleoedd harddaf yn y byd. O hirbell y mae pinaclau, cromenau, a phigyrnau ei themlau a'i phalasau—y rhai a ymgodant yn fawreddus y naill uwch ben y llall ar lechwedd "tafod o dir," brynciog, yn ymestyn allan i ddyfroedd gleision y gilfach, o ganol llwyni o gypreswydd ar un ochr,

Digitized by Google

a choedwig o hwylbrenau llongau ar y tu arall —yn harddwych a swynol dros ben, yn enwedig wrth ddynesu ati ar hyd y dwfr. Ond pan eir i mewn i'r dref, siomir yr ymwelydd yn fawr yn ei ddysgwyliad, trwy iddo gael ei hun wedi myned ar goll mewn heolydd culion, ceimion, ac anwastad, yn gyfansoddedig gan mwyaf o dai coed, yn dangos dim ond eu cefnau moelion i'r heol, a'r rhai, fel mewn trefydd dwyreiniol yn gyffredin, ni ollyngant ddim goleuni nac awyr i mewn ond o'r buarthau neu y gerddi tu cefn; fel pe baent wedi cael eu cynllunio yn fwriadol i fod yn sarhâd tragwyddol ar orwychder a balchder y palasau marmor a'r temlau euraidd a safent mewn mawrhydi ymherodrol ar ben bob congl gyfyng a throfa ddyrus.

Y prif adeiladau ydynt y Seraglio, neu y palas ymherodrol, yn y pen dwyreiniol i'r ddinas, lle y mae dyfroedd y Bosphorus a'r Golden Horn (y Corn Aur) yn trochi ei furiau o bobtu; ac eglwys St. Sophia, yr hon a adeiladwyd gan yr ymherawdwr Justinian, yn y chweched canrif, i fod yn lle addoliad Cristionogol, ond a halogir yn awr gan y Tyrciaid drwy wasanaeth Mahometaidd, fel y cawn sylwi eto.

Oddi ar dir uchaf y ddinas, a nenau y temlau, ceir golwg eang a mawreddus ar fro arforol Asia, dros y dwfr; ac nid yw ond gwaith pymtheng mynyd i gwch rwyfo o'r naill gyfandir i'r llall; yn wir, cyfrifir Scutari, ar y lan draw, yn Asia, fel maesdref i Gaer Cystenyn. Cyn i'r Bosphorus gyrhaedd allan i Fôr Marmora, y mae yn cymmeryd math o drofa neu benelin sydd yn gwneyd cilfach yn ei lan Ewropaidd, rhwng y triongl o dir ar yr hwn y saif y ddinas briodol a'i maesdrefi Ewropaidd, Pera a Galata, ac yn ffurfio porthladd rhagorol y Golden Horn. Y mae y triongl crybwylledig hwn, a chyfrif rhai lleoedd agored a gweigion tu fewn i'r muriau, wedi ei orchuddio gan y ddinas a'i maesdrefi. Y mae y porthladd ar yr ochr ogleddol, a Môr Marmora ar yr ystlys dde-ddwyreiniol. Math o wastattir uchel, gydag ychydig o fryn a phant yma ac acw, sydd yn ymestyn i'r gorllewin tu hwnt i'r caerau. O'r tu fewn, y mae amryw fryniau llariaidd—yr uchaf yn cael ei orchuddio gan bentref Eyoub. Yr oedd Rhufain wedi cael ei hadeiladu ar saith o fryniau; ac felly y galwai sylfaenwyr Rhufeinig Caer Cystenyn y copäau yma y "Saith Bryn;" er, os na chyfrifir ond y brif res, nad oes yma gymmaint; ac os cymmerir i mewn yr holl fryniau llai, y mae yno fwy na saith. Trum y bryn cyntaf, wrth adael blaen y triongl, a orchuddir gan y Seraglio, neu balas anferthol y Sultan; ac o'r tu cefn iddo, ar y llechwedd wrthwyneb, yr ymddengys cromendy eglwys St. Sophia. Yr ail uchelfa a goronir gan gromendy uchel a balch teml neu fosglog Osmanieh; ac yn uwch fyth y mae pentyrau mawreddus teml Solyman ar y trydydd bryn, tra y mae hen ddyfrbont (*aqueduct*), gyda bwäau o rychwant mawr, ac a briodolir yn gyffredin i'r ymherawdwr Valens, yn uno copäau y trydydd a'r pedwerydd bryn. Ar y pummed cribyn saif tŵr eiddil, uchel, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1828, o ben yr hwn y cedwir gwyliadwriaeth barhaus, ac y rhoddir rhybudd pan doro tân allan yn y ddinas; yr hyn sydd yn dygwydd yn fynych, o blegid fod y tai annedd wedi eu gwneyd gan mwyaf o goed. Hefyd, y mae y bryniau hyn nid yn unig yn chwanegu yn fawr at wychder ymddangosiad y ddinas, ond hefyd at ei hiachusrwydd a'i glendid cymhariaethol. Gyda hyn hefyd, y mae yn meddu digon o ffynnonau: ac y mae y gwlawogydd trymion a ddisgynant yn aml yn golchi ymaith holl fudreddi yr heolydd serth i lawr i'r môr, lle y mae llifeiriant cryf yn ei gludo ymaith; er y gellir ystyried yr heolydd isaf wrth y llongborth yn fudron a thrafferthus. Y mae ochrau y triongl heb fod yn ogyhyd: yr un yn gwynebu Môr Marmora, oddi wrth yr hen garchar, y Saith Tŵr, hyd ongl palas yr ymherawdwr, yw y mwyaf; sef, tua phum milltir o hyd. Ar yr ochr hon y mae yr hen fur, â'i dyrau yn adfeiliedig, ac agos wedi diflanu ar gyfer y porthladd. Ar ochr y wlad, y mae dwy linell o fur ceryg uchel, a adeiladwyd gan yr ymherawdwr Theodosius II., yr hwn y gellid yn hawdd ei adgyweirio. Y mae ei ranau drylliedig yn ffurfio darlun o adfeilion murddynol mwy mawreddus nag a gyfarfyddir, hwyrach, mewn un lle arall yn y byd. Y maent ar yr ochr yma tua phedair milltir o hyd. Y tyrau ydynt gan mwyaf yn bedwar onglog, ac heb fod neppell oddi wrth eu gilydd. Heb law y muriau dwbl, yr oedd y warchffos allanol wedi ei gwynebu â gwal, yn gwneyd trydydd rhagfur, ond heb ddim tyrau. Y mae Bondalmonte, mewn cynllun a dynodd o'r caerwaith, dros bedwar can mlynedd yn ol, yn gosod i lawr naw ugain o dyrau; ond nid oes fwy na chwech ugain yn sefyll yn awr; ac, mewn llawer o fanau, y mae y cyfwng rhwng y muriau wedi ei lenwi âg arloes a darnau mawrion o faenwaith, wedi syrthio ar ruthr rhyfel neu ddaiargryn; ac y mae y ffos fawr, yr hon sydd yn ddeg llath o led, mewn rhan yn cael ei thrin fel gerddi.

Ar yr ochr hon i'r ddinas, y mae chwe phorth, y mwyaf hynod o ba rai yw y Top-Kapoussi, neu Borth y Cyflegrau, drwy yr hwn y gwnaeth y gorchfygwr Mahomet II. ei ddyfodfa gyhoeddus i'r ddinas oresgynedig. Yn agos i'r porth hwn, y mae bwlch mawr yn y mur, drwy yr hwn y dylifodd y Tyrciaid gwarcheuol i mewn; a lle y syrthiodd Palæologus, y diweddaf o'r ymherawdwyr Cristionogol. Y mae coed a pherthi yn tyfu yn yr adwy hon yn awr. Nid oes dim ond gwlad anial anniwylliedig o'r tu allan i'r caerau; y rhai sydd mor uchel fel na welir drostynt, o'r ffordd sydd yn rhedeg danynt, oddi allan ond yn brin bigau pinaclau uchaf y mosglogydd. Y mae y beddrodau o farmor purwyn a orweddant o dan gysgod cypreswydd du-dywyll y claddfeydd tu allan i'r pyrth, yn chwanegu at drymder a phrudd-der y fangre ddifywyd hon. Y mae holl gylch y muriau tua thair milltir ar ddeg; ond rhaid ystyried nad ydyw yr holl lanerch oddi mewn yn orchuddiedig âg adeiladau, ond bod gerddi mawrion, petryalau, caearthau, a lleoedd agored ereill, yn cymmeryd i fyny lawer o'r tir. Ychydig o weddillion adeiladau Rhufeinaidd neu Roegaidd sydd yn aros, heb law y caerau ar ochr y wlad, ac eglwys St. Sophia. Y mae y rhan fwyaf o'r henafiaethau a welodd Gyllius, Spon, a hen deithwyr ereill, wedi diflanu. Y mae y Tyrciaid, yn lle myned i'r gloddfa, wedi tynu i lawr lawer o'r hen adeiladau Groegaidd, er mwyn cael defnyddiau i godi mosglogydd neu demlau mwy cyfaddas i gyflawnu seremoniau Mahometaidd. Y mae yno un hen adeilad tanddaiarol, nen yr hon a gynnelir gan nifer mawr o golofnau, wedi eu cynllunio yn rhyfedd o dri philer gwahanol, y naill yn sefyll ar ben y llall, yr hon a eilw y Tyrciaid, "palas y mil piler ac un"—nid am mai dyna eu gwir rifedi, ond am fod "mil ac un" yn nifer hoff gan y dwyreinwyr oll. Un o'r

Digitized by Google

dyfrgistiau neu gromfeydd dirfawr oedd, a wnaed gan yr ymherawdwyr Groegaidd gynt, y rhai a gedwid yn wastad yn llawn o ddwfr, ar gyfer sychder neu warchaedigaeth, y rhai sydd wedi cael eu dinystrio neu eu gadael i syrthio i adfeiliad gan y trigolion annarbodus. Y mae nifer o gordeddwyr sidan wedi cymmeryd meddiant o'r un a nodwyd; ac yn ei gwaelod y maent yn nyddu bron mewn tywyllwch hollol. Y mae un arall yn llawn o ddwfr, na ŵyr nemawr am dani, ond y rhai y mae o dan eu tai, a gellir ei dysgrifio fel llyn tanddaiarol, yn ymledu o dan lawer o heolydd, â'i nen yn cael ei chynnal gan waith maen bwäog, yn gorphwys ar dri chant a chwech a thrigain o golofnau marmor. Y Tyrciaid, y rhai ni wyddant ei hamcan dechreuol, a'i galwant y palas tanddaiarol. Y mae enw cyfieithedig yr hen Hippodrome, neu redegfan, ar gadw ganddynt fel yr *At-Meidan*, neu redfa y meirch, er bod ei hen gampau ysblenydd wedi darfod er ys oesoedd. Ar un ochr, y mae teml y Sultan Achmet, ac ar yr ochr arall bared moel adeilad a fu unwaith yn ysbytty, ond sydd yn awr yn ffau i ychydig o fwystfilod gwylltion a gedwir gan y Sultan.

Yn mhen uchaf y rhedegfan, y mae hen haulbiler (*obelisk*) o wenithfaen anolygus, gyda rhyw arwydd-luniau (*hieroglyphics*) Aiphtaidd gwael, yn cael ei galw ar enw Theodosius, er ei bod yn debyg na ddarfu i'r ymherawdwr hwnw wneyd mwy na'i symmud o gwr arall i'r ddinas, lle y codasid hi gan Cystenyn, a'i gosod i fyny yma, ar ol iddi gael ei thaflu i lawr gan ddaiargryn. Yn agos i'r hen haul-biler hwn, y mae darn o hen golofn elydr neu bres, sydd wedi bod yn destyn llawer o ddadleuaeth—pa un a fu hi neu beidio yn cynnal tri phen sarff, ac yn perthyn ar y cyntaf i oracl enwog Delphi, ond i Mahomet II. dori ymaith ei phen â dyrnod ei fwyell-ryfel. Pa beth bynag a fu unwaith, nid yw ond peth salw a darnedig, tua saith troedfedd o uchder, gydag un pen yn glynu yn y ddaiar, a'r pen arall yn agored; neu yn hytrach, y mae wedi ei llenwi oddi mewn â cheryg a baw a luchir iddi gan y Tyrciaid mewn ffordd o ddirmyg crefyddol. Nid yw colofn farmor Constantinus Porphyrogennetus, Colossus Structilis yr hen haneswyr lleol, yn sefyll yn union ar y redegfan, er ei bod yn agos neu yn y golwg. Y mae y dalenwaith pres goreurog oedd unwaith yn ei gorchuddio wedi ei ddiosg oddi am dani, a chynnelir y paladr yn awr â chylchau anghelfydd o haiarn, ac y mae wedi cael ei hyllu gan y tân sydd wedi bod yn llosgi o'i hamgylch. Nid yw y gof-golofn foledig hon yn awr ond rhyw bost careg gwrthun a phardduog, tua deg llath ar ugain o uchder, ac un llath ar ddeg o gylchfesur.

Y mae llawer o'r temlau a adeiladwyd gan y Tyrciaid yn hynod o harddwych ac eang. Y mae yma bedair ar ddeg o fosglogydd ymherodrol, oll yn fawrion a harddwych, a'r gwaith maen, o'r sylfaen i fyny i frigyn uchaf y cromendai, o farmor gwyn, wedi ei fritho yn brydferth âg ambell wythien las, neu donnen lwydliw. Heb law y temlau ymherodrol hyn, y mae yma drigain o fosglogydd ereill—oll yn adeiladau o faintioli a harddwch nodedig; gyda dau cant neu ragor o fân leoedd addoliad, dan yr enw *messelgids*, yn cael eu dynodi gan fath o feinyrnau (*minarets*), neu dyrau eiddil pigfain, lluniaidd, a hynod. Y mae y colegau a'r ysbyttai, yn gyffredin, yn nglŷn â'r mosglogydd, neu yn agos atynt, er nad ydynt yn adeiladau gwychion: ond y mae y beddrodau teuluaidd, lle y mae Sultanod, tywysogion, a swyddogion gwladol yn huno yn nystawrwydd angeu, yn meddu gwychder cyfatebol i ddifrifolder eu hadeiladaeth. Gellir hefyd gyfrif milwrdy eangfawr y Sultan Mahmoud diweddaf, lluestfa y Nizam-djedid, neu fyddinoedd wedi cael eu dysgyblu mewn rhyfelwriaeth Ewropaidd, fel un o brif addurniadau y ddinas a'i phentrefi. Dywedir hefyd ei bod yn cynnwys chwech ugain o fadd-dai neu ymdrochdai, a rhai o honynt yn eang, cyfleus, a hardd iawn. Y mae y ffynnonellau, y rhai a luchiant ddwfr i uchder mawr, wedi eu llunio o farmor claerwyn, gyda chelfyddwaith a chywreinwaith Chineaidd ac Arabaidd, ac yn wrthddrychau sylw neillduol a chanmoliaeth dyeithriaid. Y mae yr holl ddwfr hwn, ac y mae yr hyn a dreulir ar wasanaeth un diwrnod yn fawr iawn, yn cael ei ddwyn o lynau gwneuthuredig yn nghoedwig Belgrade, deg neu ddeuddeng milltir o bellder oddi wrth y ddinas; a dygir ef i'r dref, ac i bentrefi St. Dimitri, Pera, Galata, &c., trwy geuffosydd tanddaiarol, a eilw y Tyrciaid *souterazi*, ac i fyny o nentydd drwy fath o byramidiau bolgeuol, wedi eu llunio ar egwyddorion dyfryddol; ond oddi mewn i'r caerau, y mae hen ddyfrbont fwäog uchel Valens, yn parhau i drosglwyddo y ffrwd dros nant ddofn.

Oddigerth un heol dra hir, yr hon sydd yn tramwy drwy y ddinas, oddi wrth y palas ymherodrol hyd borth Adrianople, y mae yr heolydd yn gulion, gŵyrgeimion, a hynod o ddifywyd a didramwy. Nid oes i lawer o'r tai gymmaint ag un ffenestr yn edrych i'r heol; ond rhai a feddant *guzeboo* neu *shah-nishin*—math o wyntgloer dellt boliog crog-drom ydyw, yn gwladeiddio wrth gael ei galw yn ffenestr; tra y mae y drysau yn gulion, penisel, a thlodaidd yr olwg arnynt. Y mae holl fywyd ac enaid y ddinas wedi eu cyfyngu i'r *bezestines* neu y *bazaars*, neu farchnadfeydd, lle y ceir, yn yr arweinfa yma, a'r drofa arall, fyrddau ac ystolion gwerthwyr holl nwyddau marchnadol y byd, wedi eu dosbarthu yn wahanol genedloedd, ieithoedd, crefyddau, a masnachau; ond gan mwyaf yn Dyrciaid, Armeniaid, Groegiaid, ac Iuddewon, gyda pheth cymmysgiad o Ffrancod. Y mae yr amrywiol genedloedd hyn yn trigiannu mewn gwahanol barthau o'r ddinas, megys ar eu penau eu hunain. Yn yr hwyr, heidiant i dai coffi, y rhai sydd yn llawer lluosocach na thafarnau yn ein gwlad ni; lle y mae pawb yn myned i fygu ei bibell, ac i glywed ac adrodd newyddion y "diwrnod" uwch ben cwpaneidiau bychain o gofft, yr hwn a ŷf y rhai tlottaf heb laeth na sugr. Ond os ydyw yr heolydd yn ddwl a marwaidd, y mae golwg fywus ar y dwfr, yn cael ei achosi gan dramwyad parhäus y *caïks*—math o geubalau, neu gychod ysgeifn, buain—a redant rhwng y ddinas a'r gwahanol borthladdoedd cymmydogaethol. Ar yr ochr draw, y mae y llongau rhyfel yn gorwedd, yr arfdŷ ymherodrol, a lluestty y magnelwyr, a thrigfod cenadwriaethwyr a marsiandwyr Ffrengig. Y mae tramwyad gwastadol hefyd rhwng y ddinas a Scutari, lle y mae y minteioedd masnachol a theithiol yn dyfod yn barhäus o Ismmid neu Nicæa, Brusa, Angora (yr hen Ancyra), a phob cwr o Asia Leiaf.

Y mae y Golden Horn yn un o'r porthladdoedd diogelaf a phrydferthaf yn Ewrop; ond y mae iddo un anfantais naturiol sydd yn attalfa anorfod ar drafnidiaeth longwrol Caer Cystenyn.

Digitized by Google

Yn nghorff yr haf, y mae y gwyntoedd Etesiaidd neu ogleddol yn chwythu yn ddibaid o'r Môr Du i lawr y Bosphorus, ar hyd Môr Marmora, a thrwy y Dardanelles; ac felly yn gorfodi llongau hwylio, yn dyfod o Fôr y Canoldir a Môr Adria, i orwedd ddau fis neu driyn olynol am wynt teg yn Tenedos, ar fordir Caerdroia, wrth enau y Dardanelles, lle gwelir llyngesoedd mawrion llwythog wrth angor. O ganlyniad, nid oes un lle yn y byd ag y mae agerlongau yn fwy angenrheidiol; ac y mae llywodraeth Twrci yn dechreu gweled hyn.

Ychydig iawn o law-weithiau sydd yn cael eu dwyn yn mlaen yma, oddi gerth gwëoedd sidan a chotwm; ond y mae y fasnach dramor yn dra helaeth.

Dywedir fod y boblogaeth yn 850,000; ond rhaid bod hyn yn cynnwys trigolion holl bentrefi y gymmydogaeth, yn gystal a'r brif ddinas. Y mae y dref ei hun yn sefyll mewn rhan ar sylfeini yr hen Byzantium. Nid oedd y ddinas hono yn ymledu, fel y credir, dros nemawr fwy o dir na muriau y Seraglio. Y ddinas bresennol a sylfaenwyd yn y flwyddyn 328, gan Cystenyn Fawr; yr hwn a roddes iddi ei enw, ac a'i cyfoethogodd â chymmaint o drysorau celfyddydol y byd Rhufeinig, fel y rhagorodd yn fuan ar Rhufain ei hun. Bu yn brif ddinas y rhan ddwyreiniol o'r ymherodraeth Rufeinig tua naw can mlynedd. Yn 1204, cymmerwyd hi oddi ar y Groegiaid dirywiedig gan "yr hen Dandolo ddall," y Venetiaid, a'r Ffrancod; a bu ddwy flynedd ar bymtheg a deugain yn meddiant y Ffrancod, hyd oni ail gymmerwyd hi gan y Groegiaid, dan yr Ymherawdwr Michael Palæologus. Goresgynwyd hi gan y Saraceniaid neu y Tyrciaid yn y flwyddyn 1453.

Mewn hanesiaeth eglwysig, yr ydym yn cael fod Caer Cystenyn wedi bod yn lle hynod; o blegid yma y cynnaliwyd tri o'r chwe phrif gynghor cyffredinol (*the six œcumenical synods*). Y cyntaf a alwyd yn nghyd gan yr ymherawdwr Theodosius, yn y flwyddyn 381; yn yr hwn y collfarnwyd cyfeiliornad Macedonius yr Ariad, yr hwn a haerai nad oedd yr Ysbryd Glân amgen na chreadur wedi cael ei greu gan Dduw Fab. Yn y cynghor hwn yr oedd saith ugain a deg o esgobion, neu dduwinyddion y brif eglwys. Yr ail a wysiwyd gan yr ymherawdwr Justinian, yn y flwyddyn 553, yn gynnwysedig o wyth ugain o esgobion, pan gondemnaiwyd cyfeiliornad y Nestoriaid, y rhai a gredent fod "Duw y Gair," a'r dyn Crist Iesu, yn *ddau* berson gwahanol dan yr un ymddangosiad; a syniadau gwrthwynebol yr Eutychiaid, y rhai a ddadleuent nad oedd ond un natur yn mherson Crist. Y trydydd, dan yr ymherawdwr Constantinus Progonatus, yn y flwyddyn 680, lle y bu i wyth ugain a deg o esgobion a duwinyddion gollfarnu syniadau y Monothelitiaid, y rhai a ddysgent nad oedd Crist yn meddu *ewyllys*, fel dyn. Nid llai pwysig a hynod, chwaith, oedd y gynnadledd eglwysig a gynnaliwyd yma yn y flwyddyn 754, pan ymgynnullodd tri chant a deunaw ar ugain o esgobion y dwyrain, ac y collfarnasant yn gwbl ddefnyddiad delwau mewn eglwysydd a chapelydd, fel eilunaddoliaeth.

Yr oedd patriarchaeth Caer Cystenyn, gynt, yn cynnwys pedwar cant o esgobaethau—mwy nag a berthynent i Ierusalem, Alexandria, Antioch, a Rhufain; sef holl Asia Leiaf, oddi gerth talaeth Cilicia, yn gystal a Thracia yn Ewrop. Tua diwedd yr unfed canrif ar bymtheg, ymadawodd Eglwys Rwssia â phatriarchaeth Caer Cystenyn, a ffurfiwyd patriarchaeth newydd Moscow, yr hon a ddiddymwyd wedi hyny gan Pedr Fawr. Cyflwynodd Cyrillus Lucaris, patriarch Caer Cystenyn, ei lyfr ar *Ffydd yr Eglwys Ddwyreiniol* i'r brenin Siarl I. o Loegr; ac anrhegodd ef â'r ysgriflyfr Alexandriaidd enwog o'r Ysgrythyrau. — (*Cycl. Relig. Knowledge; Smith's Class. Dict.; Penny Cycl.; Hughes's Geog.; Palmer's Eccles. Hist.*)

CONSURIAETH—WYR [Gr. ἐζορκιστής]: crediniaeth yn y ffaith fod personau yn cael eu meddiannu gan gythreuliaid. Gellir canfod olion rhywbeth tebyg i hyn braidd yn mysg pob cenedl; ac y mae bob amser hefyd ryw bersonau yn proffesu eu bod yn alluog i ryddhau y goddefwyr truenus o'u hadfyd. Yn Groeg, ganwyd dau ddyn o enwogrwydd mawr, nid amgen Epicurus (*Diog. Laer.* x. 4) ac Æschines, o wragedd oeddynt yn byw trwy y gelfyddyd hon; ac edliwiwyd yn llym i bob un o'r ddau—i'r naill gan y Stoiciaid, ac i'r llall gan ei gydymgeisydd areithyddol, Demosthenes [*De. Cor.*]—eu bod wedi cynnorthwyo eu rhiaint yn y gorchwyl. Y mae pawb mor hysbys o'r cyfeiriadau a wneir yn y Testament Newydd, a chan eu hawdwyr hwy eu hunain, at gonsuriaeth fel yr oedd yn hanfodi yn mysg yr Iuddewon, fel nad oes angen dyfynu dim o honynt. Mewn rhai amgylchiadau, ystyrid y gallu hwn fel rhodd ddwyfol; mewn amgylchiadau ereill, edrychid arno fel peth i'w gyrhaedd trwy ymchwiliadau i natur cythreuliaid, ac i ansoddau rhyw gynnyrchion naturiol, tebyg i lysiau, ceryg, &c., a chyfferi wedi eu cymmysgu â'r cyfryw; hefyd, trwy dyngu mewn rhyw ddull neilldiol, a myned trwy ryw ffurfiau penodol o weddïau, seremonïau, a defodau ereill. Mewn gwirionedd, y mae y gwahanol ddulliau o gonsuriaeth sydd yn cael cyfeirio atynt gan awdwyr pob gwlad braidd yn ddirif, yn amrywio o'r aberth gwaedlyd o fywyd dynol, hyd y mygdarth brwmstanaidd, &c. Y mae Josephus yn ein hysbysu y gallai Solomon fwrw allan gythreuliaid; a dywed hefyd ei fod wedi gadael ar ei ol y dull hwnw o gonsuriaeth sydd yn effeithiol i hyny, am yr hyn yr hònir eu bod yn rhanau o'r llyfrau hyn. [Gwel *Fabric. Cod. Pseud. Vet. Test.*, td. 1054.] Dywed iddo weled dyn o'r enw Eleazar yn bwrw allan gythreuliaid o bersonau, yn ngŵydd yr ymherawdwr Vespasian, ei feibion, ei gadbeniaid, a'i holl filwyr. Rhydd y dysgrifiad canlynol o'r dull yr oedd yn eu iachäu: — "Rhoddai fodrwy, âg iddi wreiddyn o'r fath ag a nodir gan Solomon, yn ffroenau y cythreulig; ac wedi hyny, tynai y cythraul allan trwy ei ffroenau; a phan syrthiai y dyn i lawr, tyngedai yntau y cythraul i beidio dychwel mwy: gan enwi Solomon yn barhäus, ac adrodd y swynion y dywedid ddarfod i'r gŵr doeth eu cyfansoddi." Dywed yn mhellach, "Pan y dymunai Eleazar berswadio ac arddangos hefyd i'r bobl ei fod yn meddu ar y fath allu, y byddai yn gosod llestr yn llawn o ddwfr ychydig o bellder oddi wrtho, gan orchymyn i'r cythraul ei ddymchwelyd pan yn myned allan o'r dyn, er rhoddi prawf boddhaol i'r edrychwyr ei fod wedi ymadael." [*Hensaf.* viii. 2, adr. 5.] Dengys hefyd pa fodd i gyrhaedd y gwreiddyn Baaras, yr hwn, ebe fe, "pan na wneir ond ei ddwyn at y personau cleifion, sydd yn y fan yn bwrw allan y cythreuliad," a hyny dan amgylchiadau mor ddyeithrol, fel y gellir ei gystadlu âg un dull arall o feddyginiaethu o fewn holl gylch consuriaeth. [Gwel *Bell. Jud.*

Digitized by Google

vii. 6, adr. 3.] Yn mysg yr holl gyfeiriadau sydd i'w cael yn y Testament Newydd at gonsuriaeth fel yr arferid ef yn mysg yr Iuddewon (*Mat.* xii. 27; *Marc* ix. 38; *Luc* ix. 49, 50), nid oes ond un amgylchiad sydd yn rhoddi y fantais leiaf i ffurflo syniad am y moddion a ddefnyddid ganddynt; sef *Act.* xix. 13. Oddi wrth yr ymadrodd hwnw, ymddengys i ryw gonsurwyr proffesedig gymmeryd arnynt "enwi uwch ben y rhai oedd âg ysbrydion drwg ynddynt enw yr Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, Yr ydym yn eich tyngedu chwi trwy yr Iesu, yr hwn y mae Paul yn ei bregethu." Ymddengys eu bod yn gweithredu yn unol â'r syniad adnabyddus o eiddo yr Iuddewon y pryd hwnw—y gellid cyflawnu gwyrthiau trwy alw ar enw Duw, yr angelion, y patriarchiaid, &c.—fel ein hysbysir gan Justin Ferthyr, Irenæus, Origen, a Lucian [*Frag.*, td. 141]. Y mae y gair a arferir am y consurwyr hyn (περιερχομένων:—*Vulgate, de circumeuntibus Judæis*) yn rhoi ar ddeall mai crachfeddygon crwydrol oeddynt, y rhai, heblaw medrusrwydd mewn meddygaeth, a hònent hefyd eu bod yn deall dewiniaeth. Y mae yn amlwg fod ein golygiadau am rai wedi eu meddiannu gan gythreuliaid, yn sicr o effeithio yn fawr ar ein syniadau am gonsuriaeth. [Gwel CYTHRAUL.] Dywed Mosheim, nad oedd yr urdd neillduol o gonsurwyr ddim yn hanfodi hyd ddiwedd y trydydd canrif; ac y mae efe yn priodoli ei chychwyniad i'r tybiau Gnosticaidd oedd yn ffynu ar y pryd [*Cen.* iii. 11, pen. 4].

COPI, [Seis., *copy*]: adysgrif, cyfysgrif. Yr oedd gorchymyn i bob brenin yn Israel ysgrifenu iddo ei hun gopi o'r gyfraith: *Deut.* xvii. 18—20. Mae yn debyg mai y melldithion cynnwysedig yn *Deut.* xxvii, oedd y gyfraith yr ysgrifenodd Iosuah gopi o honi ar geryg mawrion, wedi eu gwyngalchu, yn ol y gorchymyn yno: *Ios.* viii. 32.

COPYN, Y PRYF [Heb. עכביש; Gr. ἀράχνη; Seis. *spider*], sydd fath o drychfil tra adnabyddus yn mhob gwlad, ac un y mae rhagfarn ddofn a diachos, efallai, yn meddwl dyn yn ei erbyn. Yn yr oesoedd gynt, nid oedd naturiaethwyr yn talu ond ychydig sylw i drychfilod o un math; ac er fod rhai o honynt, megys Hippocrates, Aristotle, Pliny, ac ereill, yn cyfeirio atynt yn achlysurol, y mae y rhan fwyaf wedi edrych ar y gangen hon o wybodaeth islaw eu sylw. Nid yw y beirdd chwaith, o Aristophanes i lawr, wedi bod yn rhy garedig yn eu cyfeiriadau. Y fath oedd y rhagfarn cyffredinol ar y pen hwn hyd yn lled ddiweddar, fel y ceisiwyd dirymu ewyllys un Lady Glanville, ar y tir o orphwylledd, am ei bod yn ymbleseru i sylwi ar arferion gwahanol fathau o drychfilod [*Memoir of Willughby, by Denham*, td. 132, Edin. 1838.] Ymddangosodd un o'r enw Mr. Ray i roddi tystiolaeth ar y prawf fod y foneddiges yn arferol yn ei hiawn bwyll. Erbyn hyn, pa fodd bynag, y mae y gangen hon o astudiaeth wedi cyrhaedd sefyllfa o fri arbenig, a rhai o naturiaethwyr mwyaf dysgedig yr oes yn talu y sylw manylaf iddi.

Perthyna y pryf copyn i'r dosbarth *pulmonaria arachnida*, o'r tylwyth *araneidæ;* ac y mae o honynt lawer o amrywiaethau. Y rhai mwyaf adnabyddus yn y wlad hon ydyw, copyn y tŷ, yr hwn a welir yn aml mewn ystafelloedd annhrefnus; copyn yr ardd, yr hwn sydd yn cyrchu ei raffau o un pren i'r llall, ac yn gorphwys yn y canol; copyn y maes, neu y gwawn, a gipir yn ei we yn aml gyda'r gwynt; a'r copyn crwydrol, nad oes ganddo un drigfan arosol mwy na'i gilydd. Dyma y prif rai adnabyddus i ni, ac y maent mor fychain fel nas gallant fod o un niwed. Yn Affrica, America, a manau ereill, y mae pryfed o'r rhywogaeth hon yn llawer mwy peryglus. Y mae y rhan ol o gopyn y *martinico* yn gymmaint ag ŵy iar, yn orchuddiedig drosto â blew clos, ac y mae ei frathiad yn dra gwenwynig.

Gwneir corff y pryf copyn i fyny o ddwy ran: y blaenaf yn cynnwys y pen a'r ddwyfron, yn cael ei wisgo â chroen caled, wrth yr hwn y mae y coesau yn nglŷn; a'r rhan olaf sydd fwy, o ffurf hirgrwn, yn lled flewog, a'r croen yn llyfnach. Cyssylltir y ddwy ran â'u gilydd gan fath o bibell fain, yr hon yw yr unig gyfrwng o drosglwyddiad rhwng y naill a'r llall. Y mae i bob un amryw o lygaid—wyth gan rai, a chwech gan ereill; a chan fod y llygaid yn ansymmudol, y maent wedi eu gosod o amgylch y pen—dau yn mlaen, dau yn ol, ac un neu ddau ar bob ochr. Yr oedd hyn yn angenrheidiol iddynt fel cyfleusdra i wylio eu hysglyfaeth. O'r safn y mae gefail lem yn dyfod allan, gyda blaenau geirwon danneddog, ac yn terfynu mewn ewinedd tebyg i gath. Yn agos i'r ewin y mae twll bychan, trwy yr hwn yr ymarllwysa wenwyn marwol i'r mân bryfed a ddelir ganddo. Y mae i bob un o honynt wyth o goesau hirion a chymmalog; pa rai, os dygwydd iddynt eu colli mewn ymdrech galed, a ad-dyfant iddynt mewn byr amser. Ar flaen y coesau hyn y mae tair o grafangau, ac un o honynt wedi ei chyfleu gyferbyn a'r ddwy ereill, yn gyffelyb i fawd. A'r crafangau hyn y mae yn ymaflyd yn ei raffau, ac yn ymlanhau oddi wrth lwch ac edafedd rhyddion. Gyda hyn y mae iddo ddwy o goesau ereill, ond a elwir yn fwy priodol yn freichiau, gan nad yw byth yn eu defnyddio er hyrwyddo ei symmudiadau.

Wedi ei gynnysgaethu âg arfogaeth fel hyn, sydd mor ddinystriol i'w ysglyfaeth, y mae yn ol i'r pryf copyn eto pa fodd i gael gafael ynddo. Gan ei fod yn byw yn hollol ar wybed, ac yntau heb adenydd, pa fodd y mae yn medru eu dal? Arweinia hyn at un o hynodion mwyaf ei hanes, sef gwneuth uriad ei wê, yr hon sydd yn ateb y dyben dwbl o roddi lloches rhag perygl, a rhwyd i faglu ei ysglyfaeth. Wrth wneyd ei wê, y mae y creadur bychan hwn yn gofalu ar un llaw am y lle mwyaf diogel iddo ei hunan, ac ar y llaw arall am y lle mwyaf tebyg iddo gael ei ddiwallu. Fel hyn, gwelir ei rwyd wedi ei thaenu yn y conglau ger llaw y ffenestri, a rhwng brigau y perthi lle y byddo y gwybed yn heidio amlaf; ac yma yr erys, yn dda ei amynedd, nes y gwelo un o honynt yn y ddalfa. Y mae y wê yn cael ei gwneyd o fath o sudd gludiog, sydd yn nghadw mewn cell briodol yn ei ymysgaroedd; ac yn cael ei nyddu trwy bedair neu chwech o dethau, y rhai sydd yn llawn o dyllau mor hynod o fân na chymmer mil o honynt fwy o le na blaen pin. O bob teth y mae edau gyfrodedd yn dyfod allan, ac ymgordedda yr edafedd hyn â'u gilydd i wneyd un o'r edeuon cyffredin sydd yn cyfansoddi y wê. Felly, nid edaf ungor yw eiddo y pryf copyn, er mor fain; ond rhaff âg iddi, o leiaf, bedair mil o geinciau. Y mae yn gallu cau ac agor y tethau, drwy y rhai y nydda ei wê, wrth ei ewyllys; ac felly y mae wrth ddisgyn yn gallu sefyll pan y myno. Dengys y nodiad hwn, ond odid, fod mwy o gywreinrwydd yn yr hen englyn adnabyddus a ganlyn, nag o gywirdeb hanesyddol:—

Digitized by Google

"O'i wiw wy i weu e' ä,—o'i wyau
Ei wëau a weua;
E weua ei wê aua;
A'i wëau yw ieuau ia."

Nid o'i wyau y mae y pryf copyn yn nyddu ei wê, ond o sylwedd arall cwbl wahanol.

Tra y mae y pryf copyn yn dangos y manylrwydd a'r cywreinrwydd mwyaf yn ngwneuthuriad ei wê, y mae dygwyddiad bychan, weithiau, yn dinystrio ar unwaith lafur ei oes. Pan gymmer hyn le, gwelir ef yn fuan yn dechreu ar wê newydd, neu ar adgyweirio yr hen, yr hyn, os gellir, sydd yn fwy dewisol ganddo. Nid oes ganddo ar y cyntaf ond swm penodol o'r defnydd tuag at hyny; ac unwaith y darfyddo hwnw, nid yw byth yn cael ei adnewyddu iddo. Gwelir hen bryf, weithau, o blegid hyn, wedi ei ddwyn i'r caledi mwyaf; y mae ei wê wedi ei ddinystrio, ac yntau heb y defnyddiau angenrheidiol i wneyd un newydd. Yr unig obaith sydd iddo yn y cyflwr hwn ydyw meddiannu gwê un arall gwanach nag ef ei hun; ond os metha a gwneyd hyn, nid oes iddo, yn mhen ychydig fisoedd, ond marw o newyn. Dywedir y gall y copyn, fel llawer o bryfaid ereill, oddef eisieu am hir amser. I wneyd prawf o hyn, cymmerodd M. de Vaillant gopyn gardd mawr, bol yr hwn oedd agos gymmaint a chneuen, a rhoddodd ef dan lestr gwydr bychan, gan sicrhau ei ymylon â math o gymrwd. Bu y pryf yn y sefyllfa hon am ddeng mis, ac yr oedd yn edrych yn fywiog ar hyd yr amser; ond yr oedd ei fol wedi myned mor fychan, fel nad oedd nemawr fwy na phen pin. O'r diwedd, rhoddwyd pryf arall o'r un rhywogaeth dan y llestr ato. Buont am beth amser yn hollol ddigyffro; ond cyn hir, anturiodd yr hen drigiannydd newynog i ryfel â'r newydd-ddyfodiad, a gorchfygodd yn yr ymdrech. Wedi ei ddiwallu fel hyn, yr oedd cyn pen pedair awr ar ugain yn edrych mor raenus a'r dydd y carcharwyd ef. Heb law fod y copyn o reddf wyliadwrus, y mae ar rai amgylchiadau yn amlygu cryn lawer o ddichell. Pan wel ei hunan wedi ei gau i fyny, ac heb le i ddianc, y mae yn tynu ei draed ato, ac yn ffugio ei fod wedi marw. Yn y cyflwr hwn, dywed Smellie, iddo dyllu un â nydwyddan, a'i dori bob yn ddarn, heb iddo amlygu yr arwydd lleiaf o boen. Tybiwyd fod y ffugiad hwn yn cael ei achosi gan ddirgryniad gewynol, yn cael ei effeithio gan ddychryn. Ond gall unrhyw un wneyd y prawf, a gweled nad yw ond ffugiad hollol; ac unwaith y byddo yr achos wedi ei symmud, gwelir ef yn rhedeg ymaith mor fywiog ag o'r blaen. Y mae rhai chwilod hefyd, pan yn ffugio marw, a oddefant eu crasu yn fyw, heb ddangos yr ysgogiad lleiaf. Dywedir fod y pryf copyn yn hynod deimladwy o gyfnewidiad yn ardymmer yr hin. Os bydd y tywydd yn debyg o fod yn wlawog neu wyntog, bydd y rhaff benaf, wrth yr hon y gweithia y wê, bob amser yn fer. Gall yr awyrbwysydd (*barometer*) ddangos y bydd yr hin yn deg yfory; ond os bydd y pryf copyn yn bwrw edafedd hirion, gellir dysgwyl y parhâ felly am bythefnos.

Tybiodd rhai naturiaethwyr fod y pryf copyn yn wryw ac yn fenyw ynddo ei hun; ond y mae Lister wedi dangos fod hyny yn gamgymmeriad. Y mae y gwryw gryn lawer yn llai, a'r ermyg rywiol yn ei draed blaen; ac yn hyn y mae yn wahanol i bob creadur arall, hyd y gwyddys, ond y pysgodyn a elwir *ray*. Y fenyw a ddodwa o naw cant i fil o wyau yn y tymmor, mewn math o lûd, tebyg i rifft y llyffaint. Nid yw yn gwneyd hyn nes y byddo yn ddwyflwydd oed, o leiaf; ac nid yw y nythiad cyntaf er hyny yn agos mor luosog a'r rhai dilynol. Ar ol eu dodwi, y mae yr wyau yn cael eu gadael am awr neu ddwy i sychu, pryd y mae y fam yn prysur nyddu i wneyd cwd bychan i'w dal, hyd nes y deorant. Y mae y wê a ddefnyddia i'r dyben hwn bum waith yn gryfach na'r wê gyffredin i ddal gwybed. Wedi diogelu yr wyau, gwelir y cwd yn cael ei lusgo yn ofalus wrth ei chorff, hyd nes y deorant; ac ar ol hyny, y mae am beth amser yn eu cymmeryd ar ei chefn, nes y byddant yn alluog i ymdaro drostynt eu hunain, pryd y mae yn eu gadael heb ddychwelyd mwy. Y mae y cywion yn dechreu nyddu cyn prin y gellir eu gweled; ac yn parotoi i ysglyfaetha cyn meddu digon o nerth i orchfygu. Y maent wedi eu cyfaddasu yn mhob ystyr i fywyd o ryfel, a dyfethant yn fynych greaduriaid ddeg cymmaint a hwy eu hunain. Y maent yn elynion marwol i bob math o bryfaid ereill; a'r hyn sydd waeth fyth, y maent yr un modd i'w gilydd. Meddyliodd M. Reaumur, y gallasai droi llafur y pryfaid hyn at ryw ddybenion celfyddydol, a gwnaeth un pâr o fenyg o'u gwê. Casglodd luaws mawr o honynt yn nghyd, a gofalodd am ddigon o ymborth ar eu cyfer; ond gwelodd yn fuan fod ei holl ofal yn myned yn ddifudd, gan eu bod, er pob peth, yn lladd a dinystrio eu gilydd. A phe gallesid eu cymmodi â'u gilydd, prin y buasent yn talu am y drafferth fuasai yn angenrheidiol gyda hwynt. Y mae eu hedat bum waith yn feinach nag eiddo y pryf sidan; ac ar y cyfrif lleiaf, buasai trigain mil o bryfaid yn ofynol i wneyd un pwys o wê.

O'r pryfed hyn, y mae llawer o fathau yn gwahaniaethu ychydig oddi wrth eu gilydd yn eu gwneuthuriad neu yn eu harferion. Copyn y gwawn (*gossamer*) a welir yn yr Hydref a rhan o Tachwedd mewn cyflawnder mawr yn y gerddi a'r meusydd trwy holl Ewrop. Nid yw y pryf hwn yn nyddu ei wê fel y pryfed ereill, ond y mae yn estyn ei edafedd yn rhyddion o'r naill le i'r llall. Y mae yr edafedd hyn mor feinion, fel os na bydd yr haul yn tywynu arnynt, y rhaid cael chwech o honynt o leiaf, wedi eu cyfrodeddu, cyn y gellir eu gweled. Bydd llawer o'r edafedd hyn weithiau yn uno â'u gilydd yn yr awel, ac yn nofio ymaith yn yr awyr, gan lusgo y pryf hefyd i fyny yn ei waith ei hun. Yn amser y cynauaf yn unig y gwelir y pryfed hyn yn heidiau gyda'u gilydd. Copyn yr adar (*mygale*), a elwir felly am ei fod yn ddigon cryf i ddal adar bychain a'u lladd. Mesura ei gorff fwy na thair modfedd, a gorchuddia â'i draed fwy na deng modfedd ysgwar. Y mae ei goesau preiffion wedi eu gorchuddio â blew, a'i grafangau yn debyg i eiddo aderyn ysglyfaethus. Gwelir y pryf hwn yn Neheudir America, ac yn neillduol yn Guinea, ac y mae yn ddychryn mawr i'r plufogion o bob math. Y mae iddo wyth o lygaid, a dau o honynt yn ddigon mawr i gael eu gosod a'u harfer fel chwydd-ddrychau. Pan oedd y cadben Stedman yn Surinam, gwnaed anrheg iddo o un o'r pryfed hyn, yr hwn a roddodd mewn costrel o wyth modfedd o hyd; a dywed fod yr olwg arno mor wrthun, fel yr oedd yn ddigon i beri i ias o gryndod i bob dyn wrth edrych arno. Copyn y dwfr (*argyroneta*) sydd yn hynod am ei fod yn gallu byw ar y tir a'r dwfr, a nyddu mor hwylus yn y naill elfen a'r llall. Yn y dwfr y mae yn aros dros y gauaf. Gwelir ef yn aml wrth wraidd hesg a llysiau ereill ar waelod afonydd a

Digitized by Google

llyniau. Y mae yn y dwfr, ac eto nid yw y dwfr yn ei gyffwrdd. Y mae yn cael ei ddiogelu gan gylch o awyr, ar lun cloch, a dynodd i lawr gydag ef; ac yn y cylch hwn y mae yn ystod y gauaf yn bwyta, yn nyddu, ac yn cysgu.

I'r math hwn y perthyna y *tarentula*, am yr hwn y mae chwedlau ofergoelus lawer wedi eu taenu. Yr oeddynt mewn bri, gellid meddwl, pan ysgrifenwyd rhai o'r geirlyfrau ysgrythyrol Cymreig. Y pryf hwn yw y mwyaf o'r copynod yn Ewrop, ac y mae yn gynhenid o Apula, yn Italy. Y mae yn agos i fodfedd o hyd, ac o braffder cyfartal. Yn yr haf, ac yn neillduol yn "nyddiau y cŵn," y mae y *tarentula* yn brathu y medelwyr a'r teithwyr yn y maes; ond yn y gauaf y mae yn llechu mewn tyllau, ac ni welir ef ond yn anfynych. Er fod y brathiad yn llym, y mae yn hollol ddiberygl. Ond dywed y chwedl at yr hon y cyfeiriwyd, ei fod yn cael ei ddilyn yn mhen ychydig oriau gan yr afiechyd mwyaf hynod, sydd yn gyru y dyoddefydd i chwerthin, dawnsio, neidio, &c., nes myned yn hollol ddilywodraeth arno ei hun. Dywedir yn mhellach fod yr afiechyd yn dychwelyd bob blwyddyn gyda nerth cynnyddol, ar gyfer yr amser y cymmerodd y brathiad le; ac mai yr unig feddyginiaeth rhag yr afiechyd ydyw chwareu ffidil, yr hyn sydd yn effeithio ar y clwyfedig nes ei yru i ddawnsio cymmaint fel y mae yn chwysu y gwenwyn yn llwyr o'i gyfansoddiad. Nid yw yr holl chwedl, pa fodd bynag, ond hollol ddisail; ac y mae yn rhyfedd ei bod wedi ei dderbyn mor gyffredinol. Y mae rhai dysgedigion wedi bod yn fawr eu trafferth yn ceisio esbonio hyn.

Nid oes ond dau gyfeiriad eglur at y pryf copyn yn yr ysgrythyrau. Er fod y geiriau, yn *Diar.* xxx. 28, yn dra dysgrifiadol o hono, y mae agos yn sicr fod y cyfleithiad yn anghywir. Am yr Heb. שממית, y mae καλαβώτης gan y Deg a Thrigain; a *stellio* gan y *Valgate*, yr hyn a arwydda fath o ymlusgiad tebyg i lysard. Yn *Iob* viii. 14, dywedir fod gobaith yr *aflan*—yr *annuwiol*, canys dyna ystyr y gair, ac nid *rhagrithiwr*, fel yn ein cyfleithiad ni—fel "ty pryf copyn." Y mae yn anhawdd cael gwell cymhariaeth i osod allan obaith twyllodrus. "Efe a bwysa ar ei dŷ, (fel y gwna y pryf copyn, i'w ddal pan yn cael ei ysgwyd), ond ni saif; efe a ymcifl ynddo (pan fyddo rhuthr yn dyfod arno) ond ni phery." Y mae cyfeiriad i'r un perwyl yn y Koran: *Sar.* xxviii. 40. Dywed Esaiah (lix. 5), wrth ddarlunio anwiredd yr Iuddewon, "gwëoedd y pryf copyn a wëant;" nid yn gymmaint i gyfeirio at ei gynllwyn yn darparu rhwyd i'w ysglyfaeth, ag i arwyddo gwaeledd a breuolder ei wè, canys dywedir yn yr adnod nesaf, "Eu gwëoedd hwy ni byddant yn wisgoedd, ac nid ymddilladant â'u gweithredoedd." Ofer fyddai meddwl am wisg o wê y pryf copyn; ond mor ofer a hyny ydyw i ddyn feddwl ymguddio mewn gweithredoedd drygionus, pa mor fanwl a chywrain bynag y byddont wedi eu nyddu.—(*Nat.'s Lib.; Dr. Cope's Nat. Hist.; Swamm. Hist. Insect Gener.; Lister's Hist. Anim. Aug.; Ray's Hist. Insect.; Linn. Lyst. Nat.; Smellie Phil. Nat. Hist.; Rennie's Insect. Archi.; Gold.'s Anim. Nat.; Boch. Hier.; Calm.'s Dict.; Kitto's Bib. Cyc.*)

COR—AU—AWL, [Gr. χορος; Ll. *chorus*; Seis. *choir*]: a olyga le neillduedig yn yr eglwysydd archesgobol, cadeiriol, colegawl, &c., yn yr hwn y cyflawnir yn arbenigol y rhan ganiadaethol o'r gwasanaeth dwyfol. Golyga hefyd y swyddogion eglwysig hyny a gyflawnant y gwasanaeth crybwylledig ynddynt; sef yr offeiriaid a'r canonwyr (*vicar chorals*). Ac mewn ystyr mwy cyffredinol, golyga nifer o gantorion gwahaniaethol yn moliannu yr Arglwydd yn nghynnulliadau crefyddol Cristionogion, o ba enwad bynag y byddont, yn ddiwahaniaeth, gan nad beth fydd dullwedd, maintioli, nac enw lle eu cynnulliad—bydded eglwys esgobol, neu ynte "gapel," neu "dŷ cwrdd." Ac mewn ystyr eithafol, golyga gynnulliad o gantorion yn dadganu cerddoriaeth o unrhyw fath, parth ansawdd a dyben.

Dywedir y deilliodd y gair *côr* o'r ebiaith Ladinaidd *à coronis circumstantium*, yr hon a arwydda drefniad cantorion gylch ogylch yr allor i ganu mawl. Felly y trefnir cantorion yn Eglwys Groeg, hyd yn bresennol, deallir. Dywedir hefyd y deilliodd y gair dan sylw o'r Groeg χορος. Ystyr y gair yma yw *dawnsiwr*, neu *fintai o ddawnswyr;* a haerir gan rai bod dawnsio yn un o ddefodau crefyddol yr eglwysi Cristionogol cyntefig.

Yn y pedwerydd canrif, neillduwyd y côr oddi wrth yr allor a chorff (*nave*) yr eglwys â math o reilwydd (*balustrade*); ac felly y gwneir hyd y dydd hwn yn Eglwys Loegr, Eglwys Rhufain, ac Eglwys Groeg, yn gyffredin. Yn y deuddegfed canrif, neillduid y côr felly â wal; ond yn y canrif dilynol, dychwelwyd at y rheilwydd drachefn.

COR GANTORAETH: a olyga gerddoriaeth o ansawdd gyssegredig neu foesol, &c., yn cael ei chanu gan gôr o gantorion. Mewn ystyr eglwysig, golyga ffurf arbenig a sefydledig ar gyflawniad y rhan ganiadaethol o'r gwasanaeth yn yr eglwysydd archesgobol a chadeiriol, yn Lloegr a Chymru, yr hwn a enwir yn *choral* neu *cathedral service*.

Ei ffurf gyffredin sydd fel hyn,—Wedi darllen y Cyfaddefiad cyffredinol a'r Maddeuant gan yr offeiriad mewn tôn ddifrifol a gradd-ddilynol, cyd-adroddir Gweddi yr Arglwydd ganddo ef a'r côr mewn tôn gyffelyb; a dygenir y deisyfiadau a ddilynant y weddi gan yr offeiriad a'r côr bob yn ail—y côr yn dyganu yr atebiadau.

Dechreuir y *Venite* gan un o'r côr; yna, dygenir y rhelyw gan y côr yn wrthganiadaethol; y naill ddosbarth o hono yn dyganu yr adraniad blaenaf o'r adnod, a'r llall, yr adraniad olaf o honi: arwyddir yr adraniad â'r tolnod a enwir dryllnod (:), yn gyffredin. Y mae i'r *Venite* ddygan (*chant*) wahanol ac arbenig i bob dydd o'r wythnos.

Ar ol y Salmau, chwareuir *voluntary* fer ar yr organ. Ac wedi darllen y llith gyntaf, dygenir yr hymn a enwir *Te Deum Laudamus*, gan yr offeiriad a'r côr yn wrthganiadaethol; yr offeiriad yn dechreu y dyganiad, a'r côr yn ateb mewn amryleisiant. Dygenir y *Te Deum* ar wahanol ddyganau, neu ynte ar adranau o hen dônau y Diwygiad; megys *Canterbury tune, Imperial tune*, &c. Yn gyffredin, dilynir y dyganiad â'r organ. Yn lle y *Te Deum*, dygenir y *Benediciti*, weithiau; ond y blaenaf a ddygenir fynychaf.

Wedi darllen yr ail lith, dygenir y *Benedictus*, neu y *Jubilate Deo*, gan y côr, yn wrthganiadaethol ac yn amryleisiol. Ac yna, Credo yr Apostolion, yn unseiniadol; neu Credo Athanasius, yn wrthganiadaethol ac yn unseiniadol. Weithiau, dilynir dyganiad yr olaf â'r organ yn amryleisiol. Dygenir y gweddiau a ddilynant

Digitized by Google

Gredo yr Apostolion, gan yr offeiriad a'r côr yn wrthganiadaethol; y côr yn dyganu yr atebiadau. Ond ymuna yr offeiriad â'r côr mewn dyganiad unseiniadol o Weddi yr Arglwydd.

Dygenir y *Litani* gan ddau o'r côr yn nghanol yr eglwys, ac yn agos i'r ddarllenfa; a'r côr yn eu hateb yn yr un dyganiad yn y pedwar deisyfiad blaenorol, *h. y.*, yn yr un geiriau. Eithr weithiau, dygenir y rhelyw gan yr offeiriad a'r côr yn wrthganiadaethol—yr atebiadau gan y côr, fel arferol, ac yn amryleisiol.

Ar ddiwedd pob Salm, ac ar ddiwedd y *Benedicite*, *Benedictus*, *Magnificat*, a *Nunc Dimittis*, dygenir y geiriau "Gogoniant i'r Tad," &c.; ac ar ddiwedd y colectau, &c., dygenir yr archiad "Amen." Cenir yr anthem ar ol y trydydd colect.

Bras ddarluniad o ffurf caniadaeth y gwasanaeth boreuol yw hwn. Cyffelyb iddo yw ffurf caniadaeth y gwasanaeth prydnawnol hefyd. Gwel LLYFR GWEDDI CYFFREDIN.

Mewn eglwysydd plwyfol, ac eglwysydd ereill, na bydd côr yn ffurfiedig ynddynt, darllenir y rhan ganiadaethol o'r gwasanaeth gan yr offeiriad, y clochydd, a'r gynnulleidfa.

Yn y blyneddoedd diweddaraf, y mae côr gantoraeth wedi dyfod i arferiad lled gyffredin yn yr eglwysydd plwyfol hefyd, yn Lloegr a Chymru; ac erbyn hyn, y mae wedi cyrhaedd gradd lled uchel o berffeithrwydd: ond tybir nad yw y gerddoriaeth a arferir fynychaf ynddynt yn gwisgo symledd cerddoriaeth gynnwynol y Diwygiad.

Y mae côr gantoraeth yn arferedig yn mysg yr holl enwadau ymneillduol hefyd yn y gwleddydd a grybwyllwyd; ac mewn ansawdd boddhaol a diwylliedig: ond nid oes iddo ffurf ymarferol arbenig.

Yr oedd côr gantoraeth yn arferedig dan yr hen oruchwyliaeth. Y mae felly dan y newydd hefyd; ac yn debyg o barhau dani hyd ddiwedd amser. Gwel CANTORION; CERDDORIAETH.

COR GANU. Gwel COR GANTORAETH.

CORAH, [קרח, *ia;* Deg a Thrigain, Κορέ: *Core; Iud.* 11): Lefiad, yr hynaf o feibion Ishar, brawd Amram, tad Moses ac Aaron, y rhai felly oeddynt yn gefndyr iddo: *Exod.* vi. 21. Oddi wrth y berthynas agos hon rhyngddynt, gellir tybied yn lled sicr mai gwreiddyn yr anfoddogrwydd a arweiniodd y dyn annedwydd hwn i'r llwybr a gymmerodd ar ol hyn oedd yr eiddigedd a deimlai efe tu ag at Aaron, wrth fod anrhydedd a rhagorfreintiau goruchel yr offeiriadaeth wedi eu cyfyngu yn hollol iddo ef a'i deulu; i'r hyn y buasai i Corah, oddi eithr y penodiad dwyfol, gystal hawl ag yntau. Yn chwanegol at hyn, yr oedd yr awdurdod wladol wedi ei rhoddi yn llaw Moses. Ymddangosai iddo ef, gan hyny, fod yr holl awdurdod ar y genedl wedi ei gymmeryd gan ei gefndyr, meibion Amram, yn gwbl iddynt eu hunain. Dan ddylanwad y teimladau cenfigenus hyn, lluniodd fradwriaeth, i'r dyben o unioni yr hyn a dybiai efe yn ddrwg ac anghyflawnder yn y trefniant hwn. Y gwyr penaf a ymgyssylltasant âg ef oeddynt, Dathan, Abiram, ac On, o lwyth Reuben; ond yr oedd efe yn cael ei gefnogi gan lawer mwy o lwythau ereill, ond yn benaf o lwyth Lefi—yn gwneyd y nifer o 250—gwyr o sefyllfa, cyfrifoldeb, a dylanwad; y rhai oll y gellir eu hystyried yn gynnrychiolwyr y teuluoedd yr oeddynt yn benaethiaid arnynt. Amlwg yw mai amcan dirgelaidd Corah oedd hunan-ddyrchafiad; ond ei hòniad addefedig oedd lles cyffredinol y bobl;—gwahaniaeth y dylid cadw golwg arno er mwyn deall yr ymdrafodaeth dan sylw. Ymddengys fod y cydfwriad wedi ei wneyd yn dra derbyniol i luaws mawr o'r genedl; gan fod cyntafanedigion Israel wedi cael eu difreintio o'u hawl enedigol i'r offeiriadaeth er mwyn y Lefiaid, pryd yr oedd y Lefiaid eu hunain yn rhoddi allan fod yr offeiriadaeth wedi ei chyflwyno gan Moses (fel yr ystyrient hwy) i deulu ei frawd ei hun, gan gau allan y rhai a feddent hawliau cystal a'r eiddynt hwy: a gellir meddwl fod y Reubeniaid yn ystyried y cyfleusdra yn fanteisiol i adennill eu genedigaeth fraint, yr hon a gollasant hwy, ac a roddasid i Ioseph. Dyma eglurhâd Aben-Ezra; a dichon ei fod mor resymol a dim a ellir ei gynnyg.

Wedi i flaenoriaid y gwrthryfel drefnu y cynlluniau, aethant yn nghyd at Moses ac Aaron, ac a'u cyhuddasant yn haerllug o drärglwyddiaeth, a mynent iddynt ymwrthod â'r awdurdod a gawsant felly drwy gam. Cyn gynted ag y clywodd Moses hyn, syrthiodd ar ei wyneb yn frawychus, o herwydd y fath derfysg ysgeler yn erbyn trefniant a ffurfiasid mor ofalus, o dan gyfarwyddyd dwyfol, er llesâd y genedl. Gadawodd y peth yn llaw yr Arglwydd, a gofynodd iddynt hwythau ddyfod yn mlaen dranoeth gyda thuserau i arogldarthu, pryd y byddai i'r Arglwydd ei hun, drwy ryw arwydd amlwg, hysbysu ei ewyllys ar y mater pwysig hwn. Gan fod y rhybudd hwn yn cael ei roddi i'r Lefiaid gwrthryfelgar, gadawodd y Reubeniaid y lle; a phan eu gwysiwyd wedi hyny i ddyfod yn ol drwy genadwri oddi wrth Moses, rhoddasant iddo nacâd taiogaidd, gan ei gyhuddo o'u dwyn i fyny o wlad yr Aipht, dan ffug honiadau, i'w "lladd yn yr anialwch."

Dranoeth, Corah a'i blaid a safasant wrth ddrws pabell y cyfarfod, a chynnulleidfa luosog gyda hwynt o fysg corff cyffredinol y llwythau. Yna y Shecinah, neu arwydd y presennoldeb dwyfol, oedd yn aros rhwng y cerubiaid, a ymsymmudodd tua drws y babell; a daeth llais allan o hono yn gorchymyn i Moses ac Aaron i ymneillduo, fel na ddyfethid hwy yn y dinystr oedd yn dyfod ar warthaf yr holl gynnulleidfa hono. Wedi clywed y geiriau arswydus hyn, syrthiodd y ddau frawd ar eu gwynebau, gan eiriol yn daer ar i'r Arglwydd gyfyngu ei ddialedd i flaenoriaid y gwrthryfel, ac arbed eu canlynwyr hudoledig. Yna parwyd i'r rhai olaf encilio oddi wrth eu blaenoriaid, ac oddi wrth eu pabell lle y preswylient. Cafodd y bygythiad ofnadwy, cynnwysedig yn y cyfarwyddyd hwn, ei effaith priodol, fel yr ufuddhaodd y bobl i'r gorchymyn. Ac ar ol i Moses gyfeirio at yr hyn oedd ar gymmeryd lle, fel prawf o'r awdurdod drwy yr hon yr oedd yn gweithredu, y ddaiar a ymagorodd, ac a dderbyniodd i mewn, ac a gauodd am bebyll Corah, Dathan, ac Abiram. Yr oedd y Reubeniaid bradwrus yn y pebyll, ac fe'u dinystriwyd gyda hwynt: ac ar yr un pryd yr oedd Corah a'i 250 gydag ef, yn offrymu arogl-darth wrth ddrws y babell; a difawyd hwynt gan dân "a ddaethai allan oddi wrth yr Arglwydd;" hyny yw, fel y mae yn fwyaf tebygol yn yr amgylchiad hwn, allan o'r cwmwl (*Shecinah*), yn yr hwn yr oedd ei bresennoldeb yn aros. Y thuserau a ddefnyddiasid ganddynt a weithiwyd wedi hyny yn ddalenau llydain, i fod yn gauad i'r allor, ac a wnaed felly yn arwydd coffadwriaethol parhaus o'r farn

Digitized by Google

arswydus hon: *Num.* xvi. Am On, er ei fod yn cael ei enwi ar y cyntaf gyda Dathan ac Abiram, ni sonir am dano mwyach fel yn gyfranog yn y gwrthryfel nac yn y gospedigaeth. Dichon ddarfod iddo edifarhau mewn pryd. Abendana, ac ysgrifenwyr Rabbinaidd ereill, a ddywedant ddarfod i'w wraig lwyddo i gael ganddo gilio oddi wrth y terfysgwyr.

Gellid tybied oddi wrth yr hanes Ysgrythyrol i deuluoedd y bradwyr gael eu dinystrio yn eu pebyll; ond gan fod hiliogaeth Corah wedi dyfod yn enwog wedi hyn yn y gwasanaeth Lefiaidd, mae'n amlwg ddarfod i'w feibion gael eu harbed; yr hyn a ddywedir yn benodol yn *Num.* xxvi. 11. Yr oeddynt efallai yn byw mewn pebyll gwahanol, ac heb gytuno â'u tad yn y gwrthryfel; neu yr oeddynt yn mhlith y rhai a giliasant oddi wrth y terfysgwyr wrth orchymyn Moses. Nid oes achos tybied fod meibion Corah yn blant pan y dyfethwyd eu tad. Gosododd Dafydd y Corahiaid yn borthorion ac yn gantorion yn ngwasanaeth y deml; 1 *Cron.* ix. 19; xxvi. 1. Yr oeddynt mewn gwirionedd yn llenwi lle mawr yn nghaniadaeth y cyssegr, ac y mae amryw o'r Salmau (xlii, xliv, hyd xlix, lxxxiv, lxxxv, lxxxvii, a lxxxviii, un ar ddeg o gwbl), yn gyflwynedig iddynt. Yr oedd Heman, blaenor y gân yn amser Dafydd, o'r teulu, ac y mae ei linach yn cael ei holrhain trwy Corah hyd Lefi; 1 *Cron.* vi. 31—38.

2. CORAH: mab Esau, o Aholibamah, un o dduciaid Edom; *Gen.* xxxvi. 5, 14, 18: ac efallai fod un arall o'r enw yn mhlith y duciaid hyny, yn fab neu ŵyr i Eliphaz, mab Esau; *adn.* 16.

CORAN. Gwel ALCORAN.

CORANIAID: un o lwythau boreuol Prydain. [Gwel CIWDAWD, &c.] Yn y *Trioedd*, gosodir hwy yn gyntaf o'r tair "ciwdawd ormes;" a dywedir eu bod wedi dyfod o Wlad y Pwyl. Tybia Carnhuanawc mai *Belgium* a feddylir, ac nid *Poland.* Ymddengys eu bod yn bobl yn meddu gradd fawr o wybodaeth a challineb; o blegid, dywedir yn y chwedlau Cymreig—y *Brutiau*, a'r *Mysyrian*—"Cymmaint oedd eu gwybod ag nad oedd un ymadrodd ag y cyffyrddai y gwynt âg ef nas gwypynt. A'u bâth oedd arian corr:"—yr hyn, dybygem ni, a arwydda ddarnau arian bychain, neu fyr o bwysau a gwerth: ond tybia yr awdwr dysgedig a grybwyllwyd, mai y peth a feddylir yw, eu bod yn gyffelyb i arian Bendith y Mamau, neu y "Tylwyth Teg;" y rhai a ymddangosant yn arian da pan eu derbynir, ond wrth eu cadw a droant yn dameidiau fel madarch. Dywedir eu bod "yn ormes gyhoedd ac amlwg," yn amser y brenin Lludd; ond "na chlywsai neb o'r hen oesoedd gynt eu cyfryw:" ac o herwydd hyn, i Ludd fyned i Ffrainc i ymgynghori â'i frawd Llefelys—yr hwn, drwy briodas, oedd yn llywodraethu ar y wlad hono — pa beth a wneid i gael ymwared rhagddynt; "canys gŵr doeth a chymhen oedd efe." "Ac wedi mynegu o Ludd iddo natur ei neges, hwy a gymmerasant gynghor i ymddyddan, megys nad elai y gwynt am eu hymadrodd, a deall o'r Coraniaid eu cyfrinach. Ac yna y perys Llefelys wneuthur corn hir i lefaru drwyddo; ac felly, trwy y corn, yr ymddyddanasant. Ac ni chai un o honynt glywed gan eu gilydd namyn ymddyddan chwerw dros ben. Ac adnabu Llefelys fod cythraul wedi myned i'r corn, a pheri golchi y corn â gwin a crug efe. Ac yna y cawsant eu hymadrawdd yn iawn; ac wedi hyny, Llefelys a ddywed wrth ei frawd, y rhoddai iddo ryw bryfed, ac erchi iddo, pan ddelai adref, eu briwo mewn dwfr, a dyfynu pawb yn gyffredin ato — y Brytaniaid a'r Coraniaid, a'r holl deyrnas—a bwrw o'r dwfr hwnw ar bawb o naddynt; ac efe a gadarnheir y bydd yn feirw y Coraniaid oll, ac nad argyweddai (anmharai) ar y Brytaniaid. Lludd a ddychwelws adref; ac yn ddianfed, efe a ddyfynnws yr holl ynys yn nghyd; ac wedi briwo y pryfed yn y dwfr, efe a'i bwriws ar bawb yn gyffredin, fel yr archasai ei frawd; ac yn y lle, y Coraniaid oll a fuont feirw," &c.

Ni wyddys o ba hiliogaeth yr hanodd y Coraniaid. Ystyrir hwy fel y pedwerydd llwyth a ymsefydlodd yn yr ynys hon. Sylwa Carnhuanawc, fod "gwahanol dybiau am darddiad y Coraniaid a'r Celyddin. Rhai a hônant mai Gwyddelod oeddynt, ac ereill mai Germaniaid; ond y rhan fwyaf a gytunant nad oedd y Coraniaid o genedl y Cymry."

Ymddengys eu bod yma cyn dyfodiad y Rhufeiniaid, a'u bod yn llwyth galluog, rhyfelgar, buddugoliaethus, ac anrheithiol; o blegid cyfrifir hwynt yn mysg "tair gormes gadarn Ynys Prydain:" a dywedir mai drwy y Coraniaid, y Caisariaid, a'r Seison, y collodd y Cymry eu braint, a'u coron, a'u tiroedd; a bod y Coraniaid wedi ymgystlynu â'r Caisariaid, neu Rufeiniaid, a myned yn un. Cymmerasant feddiant o ran fawr o arfordir morfaog dwyreiniol Lloegr, hyd y goedwig fawr oedd yn nghanol y wlad y pryd hwnw—siroedd Lincoln, Nottingham, Leicester, Rutland, &c, yn bresennol; neu fel y dywed y *Trioedd*,—"am afon Hymyr a glàn y Môr Tawch." Ac y mae yn debyg, os nad yn sicr, mai yr un oeddynt a'r Coritani, y rhai a grybwyllir mewn hanesion Rhufeinig megys yn preswylio y rhan hono o'r wlad. Fel yr ymunasant â'r Rhufeiniaid yn erbyn y Cymry, felly yr ymgystlynasant â'r Seison, "nes myned yn un â hwy."

CORAZIN, (Χοραζιν=*y dirgelwch*): dinas fechan yn sefyll ar du gorllewin Môr Galilea, yn gyfagos i Capernaum a Bethsaida, dwy filltir, medd Jerome, o Capernaum. Yr oedd yn un o'r lleoedd yn mha rai y gwnaethai ein Iachawdwr lawer o'i wyrthiau, ac y dannododd i'r trigolion eu hanedifeirwch; *Mat.* xi. 21; *Luc* x. 13. Dywed teithwyr nad oes dim olion wedi eu gadael i ddangos y fan lle y safai; ac nad yw ei henw chwaith yn adnabyddus i drigolion presennol y wlad—fod y cwbl wedi myned ar ddifancoll er ys oesoedd, fel na wyddys ddim yn hanesyddol am dani er dyddiau Jerome. Gwel BETHSAIDA; CAPERNAUM.

CORBAN, (קרבן; T. N. *κορβᾶν*): gair Hebraeg yn cael ei ddefnyddio yn yr un modd a'r gair Groeg cyfatebol, *δῶρον*=*rhodd*, er dynodi unrhyw fath o offrwm i Dduw. Unwaith yn unig ei ceir yn y Testament Newydd, sef yn *Marc* vii. 11, lle yr arferir y gair *δῶρον*. Y mae yn cael ei arfer yn yr un ystyr gan Josephus [*Hen. Iudd.*, l. 4. c. 4, § 4; *Contra Ap.*, l. 1, § 22]. Y mae peth anhawsder yn nghystrawiaeth ac ystyr manwl y gyfran hon, fel yn yr un gyfatebol yn *Mat.* xv. 5. Yr anhawsder gramadegol a gyfyd oddi ar fod yr ymadrodd yn ymddangos yn anghyflawn. Symmudir yr anhawsder hwn gan ein cyfieithwyr ni drwy chwanegu y geiriau "difai fydd," a chan y cyfieithwyr Seisonig drwy chwanegu y geiriau, "*he shall be free*," mewn llythyrenau Italaidd,

Digitized by Google

gan ddilyn Beza. Y nifer amlaf o feirniaid, modd bynag, a ystyriant yr adnod ganlynol (*Mat.* xv. 6; *Marc* vii. 12) fel cymhwysiad yr ymadrodd, a bod y *και* (*ac*) yn ormodedd, yn ol dullwedd yr Hebraeg, yr hyn oedd barn Grotius; neu yn hytrach ei fod yn gwasanaethu er dangos y canlyniad. Y pwynt mwyaf pwysig, er hyny, yw cael allan wir ystyr yr ymadrodd, *κορβᾶν* (*ο ἐστι δῶρον*) *ὃ ἐὰν ἐξ ἐμοῦ ὠφεληθῇς*. Mae lluaws o ddeonglwyr, ac yn mlaenaf yn eu plith y saif Beza, yn chwanegu *ἐστι* (*yw*) ar ol y gair *κορβᾶν*; gan dybied fod rhoddiad yr eiddo gan y mab at wasanaeth Duw wedi cymmeryd lle yn weithredol. Yna yr ystyr yw, "Pa beth bynag o'r eiddof fi a all fod yn lles i ti, corban yw—y mae eisoes wedi ei gyflwyno i Dduw, ac am hyny nid wyf fi yn meddu awdurdod arno." Ereill, yn fwy cywir, dybygem, a chwanegant *ἐστω* (*bydded*), yn hytrach nag *ἐστι* (*yw*), gan gyfieithu, "Bydded gorban (hyny yw, cyflwynedig, neu ddiofryd) pa beth bynag o'r eiddof fi a allai fod yn lles i ti." Y mae Lightfoot yn sylwi ar ffurf o adduned a welir yn fynych yn y Talmud, yn cyfateb yn gymhwys i eiriau ein Harglwydd, שאני נהנה לר, קר בן="[Bydded] gorban, pa beth bynag y ceit les oddi wrthyf fi." Mae efe, yn gystal a Grotius, yn dangos nad oedd y ffurf hon, mwy na rhai ffurfiau cyffelyb, ddim yn cael ei harfer i arwyddo fod y peth wedi ei ddiofrydu yn weithredol; ond yn unig yn cael ei bwriadu er gwahardd y defnydd o hono i'r neb ei gwnaed felly yn gorban; megys pe dywedasid, "Os rhoddaf rywbeth i ti, neu os gwnaf rywbeth erot ti, bydded fel pe rhoddwn yr hyn sydd gyflwynedig i Dduw, a chyfrifer fi yn anudonwr ac yn gyssegryspeilydd." Y mae y golygiad hwn ar y geiriau yn ddiau yn dangos yn llawer mwy pwysig y cyhuddiad a wnaed gan ein Harglwydd, fod y gorchymyn, "Yr hwn a felldithio dad neu fam, bydded farw y farwolaeth," yn cael ei ddirymu trwy eu traddodiad hwy. Ymddengys yn rhyfedd yn wir fod y fath adduned (mor gyffelyb i'r arferiad pechadurus diweddar, fod un yn galw melldithion arno ei hun oni chyflawnir rhyw ammodau) yn cael ei hystyried fel yn cynnwys rhwymedigaeth grefyddol, oddi wrth yr hon nis gallai dyn gael ei ryddhau, hyd yn oed pe byddai iddo ar ol hyny edifarhau am ei fyrbwylldra a'i bechod. Ymddengys, pa fodd bynag, oddi wrth dystiolaeth dysgawdwyr Iuddewig, fod unrhyw beth a ddiofrydid felly yn anadferadwy, a bod hyd yn oed adduned a draethid yn fyrbwyll yn cynnwys adduned gydbwys âg un a wneid yn bwyllog. Fel hyn yr ymddengys grymusder yr ymadrodd a ddefnyddir yn Marc, "Ac nid ydych mwyach yn gadael iddo wneuthur dim i'w dad neu i'w fam." Y mae'n anhawdd dychymygu am enghraifft mwy nodedig o orchymyn Duw yn cael ei ddymchwelyd drwy draddodiad dynion.—(*Kitto; Horne's Intro.*, &c.).

CORBYS [*cor—pys*]: *Ezec.* iv. 9. Mae y gair Hebraeg yn cael ei gyfieithu *rhyg* yn *Exod.* ix. 32; ac *Esa.* xxviii. 25; a thebygol na ddylasid ei gyfieithu *corbys*, na *vetches* chwaith, fel y mae yn y cyfieithiad Seisonig. Ar ymyl y ddalen yn y Beiblau Seisonig, cyfieithir y gair, *spelt;* sef math o wenith a geir yn awr yn yr Iseldiroedd ac Italy, ac a elwir gwenith yr Almaen. Tebygol fod y gair yn arwyddo rhyg, neu ryw ŷd coliog arall, o ba un y gwneid math o fara garw.

CORDELIERIAID, CORTYNWYR: Franciscaiaid. Mynachod o urdd St. Francis, y rhai a wisgent wregys o gortyn neu raff, gyda thri chwlwm, fel rhan o'u gwisgiad. Dywedir iddynt gael yr enw Cordelieriaid yn y rhyfel a wnaeth Louis yn erbyn yr anffyddwyr, pan fu i'r is frodorion yru y barbariaid ar ffo, ac y gofynodd y brenin eu henw. Atebasant hwythau mai pobl *cordelier*, neu wedi eu rhwymo â chyrt. oeddynt. Ac o'r dydd hwnw galwyd hwy yn gortynwyr.

CORDICOLIAID [Llad. *cor, cordis; calon*]: Cordicoles, neu Cordia-Latras: cymdeithas o Babyddion ofergoelus, yn cymmeryd arnynt addoli "calon sanctaidd yr Iesu, a chalon Mair, ei fam forwynaidd." Cyhoeddwyd llawer o lyfrau yn cynnwys "Duwiolder tuag at Galon sanctaidd yr Iesu," tua chanol y ganrif ddiweddaf, yn y Ffrancaeg a'r Italaeg: ac ymdaenodd y blaid, fel y gellid dysgwyl, i Naples, Sardinia, a'r Ysbaen, yn wyneb llawer o rwystrau oddi wrth dduwinyddion mwy syml a deallus yn yr Eglwys Babaidd.—*Williams.*

CORDDI [*cordd*, sef buddai]: troi neu gynhyrfu hufen llaeth, i'r dyben i ysgaru y rhannau olewaidd o hono, sef yr ymenyn, oddi wrth ei ranau dyfrllyd, sef yr enwyn. Mae y dull o gorddi yn Arabia a Syria yn dra gwahanol i'r eiddom ni yn y wlad hon. Rhoddir y llaeth mewn padell efydd fawr ar dân araf i'w dymheru a'i dewychu, gan roddi ychydig faidd neu laeth sur ynddo i'w dori; yna fe'i rhoddir mewn costrel ledr o groen gafr, yr hon a rwymir wrth un o bolion y babell, a gwesgir y llaeth ynddi yn ol ac yn mlaen hyd nes y corddo. Ar ol cael yr ymenyn yn nghyd, a gwasgu y llaeth o hono, a'i gyweirio yn eu dull hwy, defnyddir ef fel enllyn bara. "Yn ddiau corddi [Heb. *gwasgu*] llaeth a ddwg allan ymenyn;" *Diar.* xxx. 33. Gwel Ymenyn.

CORE. Gwel Corah.

CORESGOB. Dywedir fod y sill gyntaf o'r gair hwn yn deilliaw o'r Groeg, *χωρος*=*bro*, neu wlad fechan, a bod yr ymadrodd cyfansawdd yn arwyddo esgob gwledig. Tybia M. de la Roque mai esgobion gwlad oedd y coresgobion, a bod ganddynt yr un awdurdod mewn pentrefydd ag oedd gan esgobion ereill mewn dinasoedd. Ei feddwl yw, i'r coresgobion, yn raddol, fel ag yr oedd yr eglwys yn blodeuo, fllno ar fywyd gwledig, ac ystyried neillduedd y wlad fel yn dwyn anfri a gwaradwydd ar y swydd esgobawl. O ganlyniad, rhoddodd Cymmanfa Sardica waharddiad ar y gwaith o gyssegru esgobion yn nghanol gwlad, neu mewn trefydd bychain; er mwyn i'r nodweddiad esgobawl gael ei ddal i fyny yn wastad drwy rwysg ac edmygedd dinasoedd mawrion.

Ychwanego M. du Bois, er i'r esgobion arfer y rhan fwyaf o ddyledswyddau esgobawl mewn trefydd gwladol, &c., eto na urddwyd mo honynt fel esgobion, ac na feddent ar gyflawn awdurdod y radd hono, ond eu bod un ris yn unig uwch law offeiriaid.

Barn M. le Maitre yw, mai swydd coresgob oedd arolygu, dan yr esgobion, y plwyfydd hyny ag oedd yn mhell oddi wrth y ddinas gadeiriol: y cyfryw swydd ag sydd yn awr yn cael ei chyflawnu gan y deoniaid gwladol. Dywed iddynt gael eu dileu o herwydd iddynt dra-ormesu ar awdurdod yr esgobion.

Digitized by Google

Ereill drachefn a ddywedent mai mewn ystyr priodol yr hyn a alwn ni yn awr "esgobion yn mharthau" (*episcopi in partibus*) ydoedd y coresgobion; a bod gweinyddiad esgobaethau yn cael ei ymddiried iddynt yn absennoldeb yr esgobion.

Tybia ereill, drachefn, ddarfod i sefydliad coresgobion roddi achlysur i sefydliad neu drefniad *episcopi in partibus*. Beth bynag, y mae gan y rhai olaf hyn freintiau nad oedd gan y lleill mo honynt.

Yn olaf, ystyria ereill nad oedd ganddynt fwy o awdurdod nag offeiriaid, ond eu bod wedi eu cynnysgaethu gan yr esgobion â'r rhan fwyaf o'u hawdurdod eu hunain mewn lleoedd gwladol.

Y mae Cymmanfa Antiochia, yr hon a gynnaliwyd yn B. A. 342, yn penodi "ar fod i'r sawl mewn bwrdeisdrefydd a phentrefydd, a elwir yn goresgobion, adnabod y terfynau a drefnwyd iddynt: gallant urddo darllenwyr, is-ddiaconiaid, a thyngedwyr, ond nid offeiriaid a diaconiaid, heb yr esgob, ar yr hwn y maent yn dibynu. Y coresgob a urddir gan esgob y ddinas."

Dywed y pab Leo, yn B. A. 936, na ddylai y coresgobion urddo offeiriaid na chyssegru eglwysydd; ond dywed y pab Nicholas, mewn llythyr at Rasul, yn y nawfed canrif, y bydd i'r coresgobion gael y swydd esgobawl; a bod eu gwaith yn urddo offeiriaid a diaconiaid yn safadwy.

Y tro cyntaf y clywn am goresgobion yn y dwyrain, ydyw yn nechreuad y pedwerydd canrif; ac yn y gorllewin o ddeutu y flwyddyn 439. Darfuasant yn y dwyrain a'r gorllewin yn y degfed canrif.

Y mae coresgob hefyd yn enw a roddir ar swydd eglwysig, mewn rhai eglwysydd cadeiriol hyd heddyw, yn ewnedig yn yr Almaen, ac yn arwyddo yr un peth a *chori episcopus*, neu esgob y côr. Yn yr ystyr yma nid yw y gair yn tarddu oddi wrth χωρα (*lle*), ond oddi wrth χορος (*cor*), ac esgob.

CORFF: hanfod sylweddol, trefniant dosbarthus; cymdeithas gorfforedig; y rhan weledig, deimladwy, gydnabyddus i'n synwyrau o hanfod unrhyw greadur; y rhan gyfansawdd a pheiriannol sydd yn cyflawnu ymodiad a swyddogaethau bywyd; cynswth unrhyw hanfod cydnabyddus i'r synwyrau, a ffurf ei sylwedd cyfansoddol. Corff nefol: y cynswth o sylwedd o bau y cyfansoddir yr haul, y lloer, seren neu blaned, a'i hanfod gyfaddasedig i gynnal ysgogiadau wybrenol, ond yn amddifad o fywyd hunanymodol. Corff llysieuol: y swth peiriannol sydd yn cyflawnu swyddogaethau bywyd tyfol, o'r hedyn hyd y pren. Corff anifeilaidd, ydyw y rhan sylweddol o unrhyw greadur â bywyd ganddo. Felly gwelir bod y cyrff naturiol yn gyfansoddedig o ddau ddosbarth—peiriannol ac anmheiriannol, neu fyw a difywyd; a bod cyrff bywydol gweledig o ddau fath—cyrff tyflannol neu lysieuol, a chyrff anifeilaidd.

Y corff dynol. Y mae ymddangosiad allanol y bod dynol yn gydnabyddus a chynnefin i bawb. Er bod dyn wedi cael ei greu yn arglwydd ar y greadigaeth isod, ni chynnysgaethwyd ef â chorff o faintioli a nerth anianyddol cyfartal i lawer o'r anifeiliaid israddol; ond lluniwyd ei gyfansoddiad ar ddull mwy urddasol nag un creadur daiarol arall. O ran ei wynebpryd a'i ymrodiad unionsyth, y mae yn gwahaniaethu oddi wrth, ac yn rhagori ar bob bod byw adnabyddus arall. Yn gyffredin, y mae y corff dynol, yn ei lawn dwf, yn cyrhaedd y taldra o bump i chwe throedfedd. Y mae mebyd dyn yn parhau yn hwy nag eiddo y rhan fwyaf o'r anifeiliaid ereill; ac nid yw yn cyrhaedd ei gyflawn faintioli hyd nes y byddo dros ugain mlwydd oed. Am y deng mlynedd ar ugain canlynol, oddigerth iddo gael ei dori ymaith gan afiechyd, y mae yn ei gyflawn rym. Yr ugain mlynedd nesaf a gyfansoddant ei ddyddiau oedranus; ac os ymestyn dros ddeng mlynedd a thrigain, ystyrir ef wedi cyrhaedd dyddiau henaint.

Mae corff dyn yn drysorgell lawn o destynau meddwl a syndod. Ynddo fe gaiff y celfyddydwr anghreifftiau lluosog o'r peirianwaith cywreiniaf a phrydferthaf. Yn ei alluoedd bywydol cyferfydd y fferyllydd â rhyfeddodau uwch law ei efelychiad ef. Nis gall yr arluniedydd a'r cerfiedydd gael yn un man arall y fath anghreifftiau o brydferthwch mewn ffurf gweledig. A thra y mae y bardd yn canfod testynau cân yn ei liwiau cyfnewidiol a'i symmudiadau prydferth y mae yr athronydd yn cael ynddo rai o'r amlygiadau egluraf o ddwyfol ddoethineb.

Er mwyn deall cyfansoddiad a defnyddioldeb ei wahanol ranau, y mae yn angenrheidiol ei dynu oddi wrth ei gilydd; ond ef allai y ceir gwybodaeth fwy cywir o ddybenion ei wahanol ranau fel un cyfanwaith wrth roi y rhanau at eu gilydd. Cynnygiwn hyn yn gyntaf. Wrth geisio ffurfio pabell briodol i wasanaeth meddwl dyn, yn yr hwn y gall gartrefu, a thrwy ba un y gall gynnal cymdeithas â gwrthddrychau corfforol y tu allan iddo, y gwelwn yn eglur angenrheidrwydd a gwasanaethgarwch ei wahanol ranau. Ond y mae yn ddiammheu fod rhai o weithrediadau mwyaf dirgelaidd y corff wedi dianc hyd yma olrheiniad dyn.

1. Y mae yn angenrheidiol i'r meddwl gael ystafell i drigo ynddi yn fwy uniongyrchol; yn meddu ar gymhwysderau angenrheidiol i undeb a chymdeithas yr enaid â'r corff. Yn unol â hyn, y mae yn preswylio yn yr *ymenydd*:—peiriant teimladwy ond materaidd, lle y mae yn trigo fel llywodraethwr ac arolygwr ar yr holl gyfansoddiad corfforol.

2. Y mae cymdeithas i fod rhyngddo â bodau corfforol ereill: o ganlyniad, rhaid fod peiriannau yn cymhwyso y corff i dderbyn argraffiadau oddi wrth wrthddrychau amgylchynol. Hyn yw amcan *synwyrau* y corff: y mae y llygad wedi ei gymhwyso i'r goleuni, y glust i swn, &c.

3. Y mae yn angenrheidiol bod rhyw foddion i alluogi yr ymenydd a pheiriant y synwyrau i ddal cymdeithas â'u gilydd, trwy ba rai y gall y synwyrau anfon hysbysiad o'r argraffiadau a wneir arnynt hwy, ac y gall y meddwl anfon ei orchymynion yntau dros yr holl gorff. Mae y dyledswyddau hyn yn cael eu cyflawnu gan y *giau* (*nerves*). Y maent yn fân linynau tyner, yn codi yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol o'r ymenydd, ac yn ymwasgaru dros yr holl gorff. Y maent yn gyffelyb i weifr y *telegraph*—yn anfon hysbysiadau y synwyrau i'r meddwl, ac yn cario archiadau yr ewyllys i'r gwahanol aelodau sydd fel gweision yn barod i'w cyflawnu. Y maent yn angenrheidiol i roddi gocheliadau rhag i'r corff, neu unrhyw ran o hono, syrthio dan ddylanwad dinystriol y lluaws dygwyddiadau niweidiol sydd yn ei gyfarfod.

4. Rhaid iddo gael gallu i symmud o fan i fan, i fyned ar ol y gwrthddrychau sydd yn llesol ac yn hyfryd, ac i osgoi y cyfryw ag sydd yn niweidiol ac yn anhyfryd. Felly y mae *aelodau* yn

Digitized by Google

angenrheidiol, yn gynnwysedig o *ewynau* a *tendons*. Y rhai hyn ydynt gyfryngau ysgogiad; ac y maent i'w cael yn mhob rhan o'r corff lle y mae ysgogiad yn angenrheidiol.

5. Y mae ffurf, cadarnhâd, a chynnaliaeth yn angenrheidiol—i gadw y rhan feddalaf yn eu lleoedd penodol; i amddiffyn y rhan dyneraf oddi wrth niwed; i fod yn gynnaliaeth sefydlog, ac yn arweiniad priodol i'r gwahanol ysgogiadau, ac i attal y cyfan rhag syrthio yn dalp dilûn. Er mwyn sicrhau yr amcanion hyn y mae *esgyrn* yn perthyn i'r corff.

6. Pe na buasai y cyfansoddiad corfforol yn gynnwysedig ond o un darn, buasai ysgogiad yn anmhosibl: rhaid, o ganlyniad, fod *nifer o esgyrn*. I attal eu dadgymmaliad a'u gwahaniad oddi wrth eu gilydd, rhwymir hwynt wrth eu gilydd â rhwymyn hydwyth, a elwir y *gewyn cysswllt* (*ligament*), yr hwn sydd yn caniatäu ysgogiad rhydd, heb un attalfa. Er mwyn cadw penau yr esgyrn sydd yn rhwbio yn eu gilydd rhag treulio a llidio eu gilydd, y maent wedi eu gwisgo ar y blaen â madruddyn (*cartilage*) llyfn a llithrig, yr hwn sydd yn cael ei iro yn barhaus â llysnafedd y cymmalau (*mucus of the joints*).

7. Rhaid i'r aneirif fân agoriadau sydd rhwng y gwahanol ranau gael eu llenwi i fyny â rhyw ddefnydd meddal, ystwyth, i uno y cyfan â'u gilydd, ac eto eu cadw ar wahân. Gwneir hyn â'r *brasder*, ac â'r *cellular membrane*.

8. Rhaid i'r holl gorff gael ei orchuddio, er mwyn ei amddiffyn oddi wrth niwed, a'i rwymo yn un. Gwneyd hyn ydyw amcan y *croen*; yr hwn, heb law hyny, sydd yn gyfrwng i'r giau hyny redeg trwyddo, sydd gyda'u gilydd yn ffurfio *peiriant y teimlad*.

9. Gan fod dyn wedi ei wneuthur i gymdeithasu â chreaduriaid ereill, rhaid iddo gael ei gynnysgaethu â galluoedd i ddadgan ei feddyliau a'i ddymuniadau trwy ryw arwyddion gweledig neu deimladwy. I'r dybenion hyn, y mae wedi ei ddonio â'r *gallu i lefaru*; trwy yr hwn y gall ffurfio yr arwyddion angenrheidiol bron yn ddiderfyn, a hyny gyda'r hawsder mwyaf.

10. Gan fod y corff trwy weithrediad parhaus yn ddarostyngedig i dreuliad ac i niwed, buan y darfyddai fel corff byw oni byddai ynddo gymhwysder i gyfarfod y niweidiau y mae yn eu derbyn oddi wrtho ei hun, ac hefyd oddi wrth achosion y tu allan iddo ei hun. Ond y mae trysor cyfoethog o *waed* yn cael ei gadw yn y *galon* a'r *llestri gwaed*, yn gyflawn o ddefnyddiau maethlawn ac iachaol, ac yn ddigon hylif i redeg i bob man o'r corff. Y mae y gwaed yn cael ei yru gan y galon, a'i drosglwyddo gan y rhedwelïau (*arteries*); y mae yn golchi pob rhan, yn adeiladu eilwaith y rhanau sydd wedi eu treulio, ac yn cludo ymaith y sylweddau sydd yn awr yn ddiddefnydd. Mae y gwaed dros ben yr hyn sydd yn angenrheidiol i adgyweirio pob colled i'w gludo yn ol fel na byddo dim colled; a gwneuthur hyn ydyw gwaith y *gwythïenau* (*veins*). Yn y modd hwn y dygir yn mlaen *gylchrediad y gwaed*.

11. Y mae yr hen sylweddau oedd wedi myned yn ddiddefnydd, ac o ganlyniad wedi eu golchi ymaith gan ffrwd y gwaed, i'w carthu yn llwyr o'r cyfansoddiad: er mwyn cyflawnu yr amcan hwn, y mae y corff wedi ei gynnysgaethu â *chwarenau* (*glands*):—peiriant cyfaddas i gario ymaith yn llwyr pa beth bynag sydd yn afreidiol ac yn niweidiol.

12. Y mae y corff, o angenrheidrwydd, yn gwisgo ymaith yn gyflym, ac o ganlyniad y mae adgyweiriad parhäus yn angenrheidiol. Mae y defnyddiau angenrheidiol at ei gynnaliaeth a'i adnewyddu yn barhäus wedi eu gwasgaru yn helaeth o'n cwmpas yn y byd anifeilaidd a llysieuol; ac y mae *dwy law*—yr offerynau mwyaf cywrain—wedi eu rhoddi i ni i'w casglu a'u parotoi i'r genau.

13. Rhaid i'r defnyddiau hyn, a elwir *ymborth*, gael eu cyfnewid yn fawr i'w cyfaddasu i'r adeiladaeth gorfforol; rhaid eu cyfnewid yn waed. Y mae yr ymborth, gan hyny, yn cael ei dori a'i falurio gan y dannedd; yn cael ei doddi a'i gyfnewid yn y cylla a pheiriannau ereill, sydd yn wasanaethgar i *dreuliad* (*digestion*).

14. Gan mai y rhanau puraf yn unig o'r ymborth sydd yn ddefnyddiol yn y cyfansoddiad, y mae yn angenrheidiol wrth beiriant i'w didoli a'u tywallt i'r gwaed, tra y sicrheir moddion priodol i garthu allan yr hyn sydd yn ddiwerth i'r dyben hwn y mae yr *intestinal canal*, yn yr hwn y mae rhanau maethlawn yr ymborth—math o sylwedd llaethog a elwir *chyle*—yn cael ei ddidoli gan *fân bibellau llaethog* (*lacteals*), a'i drosglwyddo i'r gwaed. Derbynir yr ysgarthion i'w llestri priodol, a bwrir hwynt o'r cyfansoddiad.

15. Yn awr, y mae y corff yn gyfaddas i drigiannu mewn unrhyw ran o'r ddaiar; ond yn unig fod moddion addas yn angenrheidiol *i dymmeru ei wres*. Gwneir hyn trwy *anadliad*, yr hyn a gyflawnir gan yr *ysgyfaint* a rhanau perthynol iddynt; a thrwy *chwys y croen*, y mae y corff yn cael ei gynhesu yn y parthau oeraf, a'i oeri yn y rhanau cynhesaf o'r byd.

16. Er fod y corff wedi ei gynnysgaethu â phob peth angenrheidiol tuag at ei gynnaliaeth a'i barhâd; eto, gan mai corff ydyw, yn tyfu, yn cryfhau, ac yn cyrhaedd ei lawn addfedrwydd, felly rhaid iddo, fel pob peth corfforol, wywo a diflanu. O ganlyniad, y mae rhyw ddyfais yn angenrheidiol er parhâd yr hiliogaeth. Er mwyn hyn y mae y Creawdwr wedi gwneuthur dyn yn wryw a benyw.

17. Y mae un neilldluolrwydd eto yn perthyn i'r corff na ddylid ei adael heb sylw, ac sydd yn ei godi ar unwaith yn mhell uwch law pob peiriannau dynol. Mewn peiriant o wneuthuriad dyn, nid oes un egwyddor yn y peiriant ei hun sydd yn ei gyfaddasu i unrhyw niwed neu ddamwain sydd yn ei gyfarfod. Ond yn y corff, y mae gallu hunan-feddyginiaethol o'r fath. Y mae archoll yn ymiachau o *hono ei hun*, y mae asgwrn sydd wedi tori yn ymuno o *hono ei hun*, y mae rhan farw neu ddiddefnydd yn cael ei daflu ymaith yn *naturiol*, ac y mae hylifau niweidiol yr un modd yn cael eu bwrw allan. Yr un modd y mae y cylla yn rhoddi rhybudd pan y bydd y defnyddiau angenrheidiol at gynnaliaeth y corff yn darfod.

Dyma brif ranau y corff dynol, yn nghyd â'u dybenion. Gwneir yn nesaf ychydig o sylwadau yn fanylach, heb ddilyn yn hollol y drefn sydd wedi ei nodi allan eisoes; a dechreuwn gyda'r

ESGYRN.

Yr esgyrn a wnant i fyny y rhan galetaf a mwyaf tirf a sylweddol o'r cyfansoddiad corfforol. Mewn dyn, a'r dosbeirth uchaf o'r anifeiliaid, y mae yr esgyrnglog neu y gyfundrefn esgyrnol oddi mewn wedi ei orchuddio â'r rhanau cnawdol a gewynol; ond yn yr is-greaduriaid, y mae yr esgyrnglog yn ffurfio y rhan allanol o'r corff, neu y gragen, fel mewn amryw ymlusgiaid a physg. Rhan ryfedd iawn o'r cywreinwaith esgyrnol, yw y

Digitized by Google

madruddyn neu asgwrn y cefn—math o golofn gyfansoddedig o 24 o wahanol esgyrn, ar ben yr hon y saif y penglog. Y mae yr asenau yn ceincio allan o asgwrn y cefn, mewn ffurf bwäog, a chan mwyaf yn cyfarfod mewn pwynt gyferbyn" i asgwrn y cefn, a adnabyddir wrth yr enw asgwrn y fron. Esgyrn y goler a "phont yr ysgwydd," a gyrhaeddant oddi wrth y gwddf hyd gymmal yr ysgwydd, lle y mae y breichiau yn ymgydio, y rhai a wneir i fyny yn benaf o ddwy ran—asgwrn bôn y fraich, yn ymuno yn nghymmal y penelin â dau asgwrn arall a gyrhaeddant hyd y garddwrn, neu gymmaliad y llaw, yr hon sydd yn ymgeincio i'r bysedd drwy luaws o gymmalau a chyssylltiadau cywrain. Y mae asgwrn y cefn yn sefyll ar un y dirgelfanau, yr hwn a osodwyd rhwng y palfeisiau—os priodol dywedyd felly, y lwynau—oddi wrth y rhai y mae dau asgwrn byr iawn, yn gweithredu fel dwy wif rymus, yn troi yn nghymmal y glun. Esgyrn y cluniau—y rhai mwyaf yn y corff—a ymestynant hyd ben y gliniau; lle y mae asgwrn bychan gwahanadwy, a elwir yn gyffredin padell y glin, ac y dechreua esgyrn y coesau, y rhai a ffurfir o'r crimogau a'r ddau asgwrn arall, y rhai a gyfarfyddant yn y fferau, ac a gyssylltir âg esgyrn y traed—y rhai a gyfansoddir o luaws o fân esgyrn, lled debyg eu cynlluniad i'r dwylaw—ac â'r sodlau, ar ba rai y mae yr holl gorff yn sefyll. Y mae y corff dynol drwy ei holl ranau yn gyfansoddedig o ddau cant ac wyth a deugain o wahanol esgyrn; oll wedi eu cyfaddasu i'w gwasanaeth neillduol gyda doethineb a chywreinrwydd dwyfol:—rhai, yn benaf, i amddiffyn y rhanau tyneraf a mwyaf bywydol o'r cyfansoddiad; rhai i gynnal ymodiad ac ymsymmudiad; a'r cwbl wedi eu llunio i weithredu yn y dull mwyaf rhwydd, ac yn y ffurf sydd yn sicrhau mwyaf o gryfder, gydag ysgafndra, a'r draul leiaf ar y defnyddiau sylweddol.

Calch yw y brif elfen yn nghyfansoddiad y rhan esgyrnol o'r corff. Y gweddill a wneir i fyny o sylweddau anifeilaidd, gyda rhyw ychydig bach iawn o ddwfr. Drwy ferwi, ceir allan y defnydd anifeilaidd, yn y ffurf o fferlud (*gelatine*), yn enwedig o esgyrn creaduriaid mewn llawn oed. Ychydig iawn a geir os bydd yr anifail yn ieuanc. Yn yr esgyrn pibellaidd, drwy yr holl gorph, ceir math o groen teneu, wedi ei lenwi â brasder, a elwir yn gyffredin yn fêr. Tybir mai darpariaeth yw hwn i gynnal ystwythder y peirianwaith esgyrnol yn ei ysgogiadau.

Gellir gwahanu y rhanau anifeilaidd a daiarol a gyfansoddant yr esgyrn. Drwy eu mwydo mewn dwfr, wedi eu haleiddio â chymmysgiadau suraidd, cadwant eu ffurf a'u maintioli; ond collant lawer o'u pwysau, a thröir hwynt yn feddal, hyblyg, ac ystwyth. Drachefn, pan ddodir hwynt mewn tân eirias-boeth, ni newidiant eu ffurf na'u maintioli; ond troant yn wyn fel calch, a byddant yn llawer ysgafnach, ac yn hynod o frau. Wrth eu trin yn y dull cyntaf, dadansoddir y rhanau daiarol, priddlyd, neu galchaidd, tra yr erys eu sylweddau anifeilaidd; a thrwy y driniaeth olaf, ysir eu rhanau anifeilaidd, ac ni adewir dim ond y gweddillion daiarol. Ond y mae yr esgyrn yn derbyn maeth parhäus o'r gwaed, a ymsugnant drwy flloedd o fân dyllau rhy fychain i'w canfod ond drwy wydr cryf, a rhy gyfyng i ronynau *cochion* y gwaed fyned i mewn drwyddynt; eto y maent yn ddigon agored i sugno i mewn rai lliwiau, megys *madder*. Pe cymmysgid y lliw hwn âg ymborth anifeiliaid, troai eu hesgyrn yn lled gochion mewn deuddydd neu dri. Gollyngir maeth lleithiol o'r gwaed i mewn drwy benau y gwahanol esgyrn, a rhed trwy fân-lestri trydyllog, o'r naill ben i'r llall; a thrwy baladr yr asgwrn ar draws, mewn amgylchiadau ereill. Pan fyddo dyn yn ieuanc, y mae y rhan anifeilaidd o'i gyfansoddiad yn gryfach na'r rhan ddaiarol; ond mewn henaint, y mae y rhan ddaiarol yn gorbwyso fwy-fwy, hyd nes y syrth i'r bedd. Y mae y naill ddyn, hefyd, yn gwahaniaethu oddi wrth y llall yn fawr yn y golygiad hwn; a'r un corff, ar wahanol brydiau. Mewn babanod, y mae yr esgyrn yn feddal; ac felly caniatëir iddynt dyfu yn mhob cyfeiriad. Gyda chynnydd y corff, y mae mwy fwy o'r defnyddiau daiarol yn dyfod yn rhan o'r esgyrn; ac felly y maent yn ymgaledu ac yn mwyhau, ac yn cael eu cymhwyso i ddal pwysau cynnyddol y corff, a nerth cynnyddol y gewynau: ac erbyn y bydd y cyfansoddiad wedi cyrhaedd ei gyflawn faintioli, y mae ynddo y cyfartaledd priodol o wahanol ddefnyddiau. Mor wahanol i hyn oll y mae dyn yn trefnu pethau! Os bydd ystafell neu dŷ yn rhy fychan iddo ef, chwanegir at ei hyd neu ei led. Yr un modd, os bydd eisieu gwneyd llong yn fwy, rhaid ei thori, ei hwyhau, a rhoddi ystyllod newyddion at yr hen rai. Ond trwy alluoedd cynnyddol y cyfansoddiad anifeilaidd, y mae y bwthyn fel yn tyfu yn balas cymesur—y cwch yn ymchwyddo nes myned yn llong—y baban gwanaidd yn myned yn ddyn!

Offerynau gweithredol ysgogiad yn y corff ydynt

Y GEWYNAU.

Trwy y gallu a weinyddir trwyddynt hwy, yr ydym yn cerdded, yn siarad, yn bwyta, yn yfed, yn anadlu, &c. Offerynau goddefol ydyw y *tendons* a'r *ligaments*. Y gewynau sydd yn ffurflo rhan fawr o swm y corff, neu yr hyn a elwir yn gyffredin y cnawd. Ffurflir hwynt o fwndeli o linynau edafeddog, mor deneu, fel pe rhenid modfedd i 400 o ranau, trwch un o'r llinellau hyn fyddai *un* o'r pedwar cant. Y mae y rhai hyn yn ymuno i wneuthur bwndeli mwy, ac felly gewynau mwy neu lai. Croesir y bwndeli lleiaf â mân linellau teneuon cyfochrog. *Fibrin* ydyw y brif elfen yn nghyfansoddiad y gewynau, ac o'r bron yr unig un. Gellir sicrhau *fibrin* trwy ferwi darn o gnawd am amser maith mewn dwfr. Y mae hyn yn symmud ymaith y gwaed sydd yn peri iddo edrych yn goch, yn nghyd â defnyddiau dyeithrol ereill, ac yna y mae y defnydd llwydgoch, ffurf, a adewir—y *fibrin*. Y mae o 450 i 500 o ewynau yn nghorff dyn: y mae y gwahaniaeth yn y nifer yn codi o'r gwahanol ddull o'u cyfrif. Yn gyffredin, canol gewyn ydyw y rhan praffaf arno; y mae yn teneuhau y rhan fynychaf tua phob pen, lle y cyssylltir ef â'r *tendon*. Y mae gewyn bob amser yn gweithredu drwy grebychiad—trwy fyrhau ei hyd. Yn y dull syml hwn y mae yn cyflawnu ei holl ddyledswyddau. Mor fuan ag y mae yr ymegniad drosodd, y mae yn dychwelyd i'w gyflwr cyntefig—i gyflwr o orphwysiad. Y mae ysgogiad aelod—y fraich, er anghraifft—ol a blaen, yn gofyn gweithrediad dau ewyn gwrthwynebol. Nid yw y fraich yn dychwelyd i'w lle trwy fod y nerth gewynol sydd yn ei hysgogi yn peidio; ond rhaid cael nerth cyferbyniol neu wrthwynebol i'w dwyn yn ol. Yn iaith y Dr. Paley, y maent "fel dau lifiwr yn gweithio mewn

Digitized by Google

pwll, yn gweithredu trwy dynu, un un ffordd a'r llall ffordd arall." Gelwir y ddau weithrediad gwrthwynebol hyn, plygiad ac estyniad; a'r ddau ewyn gwrthwynebol, plygor (*flexor*) ac estynor (*extensor*).

Y mae y gewynau, fel yr esgyrn, yn gwahaniaethu mewn maint a llun. Penderfynir eu maint wrth faint y nerth sydd yn ofynol; a'u llun, mewn rhan, wrth y ddeddf o grebychiad gewynol a enwyd o'r blaen, ac hefyd, mewn rhan, i wasanaethu ymddangosiad. Heb law amryw bethau ereill hynod yn eu trefniad a'u defnydd, y mae y pedwar peth canlynol yn teilyngu sylw arbenig:—

1. Eu cyflead, yn gyffredinol ac yn neillduol.
2. Eu cydweithrediad.
3. Cyflymder eu hysgogiad.
4. Cywirdeb eu gweithrediad.

Y mae cyflead y gewynau yn dilyn yr un cynllun cyffredin a'r trefniant esgyrnog:—y prif ewynau, er anghraifft, yn rhedeg i lawr o'r pen ar hyd asgwrn y cefn, yn ymgeincio allan ar hyd y breichiau i'r bysedd, ac i lawr yr aelodau isaf hyd flaenau y traed. Allan o'r prif geinciau hyn y mae cannoedd o adgeinciau yn ail geincio drachefn a thrachefn, yn ysgogi ac yn ffrwyno pob cymmal a chyssylltiad.

Rhaid i gyflead cyffredinol y gewynau gyfateb i ffurf y corff. Ond wrth gymhwyso y rheol hon, y mae llawer o nerth fel yn cael ei dreulio yn ofer. O herwydd po agosaf y byddo nerth yn cael ei gyfleu at yr hyn sydd i'w symmud, lleiaf oll ydyw y nerth sydd yn angenrheidiol i gyflawnu y gwaith. Ond pe buasai y ddeddf hon mewn gallofyddiaeth yn cael ei dilyn, pa anghyfleusderau fuasai yn codi! Pe buasai y gewynau sydd yn ysgogi y bysedd yn cael eu rhoddi ar gefn neu ar gledr y llaw, mor anghelfydd a thrwstan y buasai y llaw! Y fath liniau, y fath draed, a fuasai genym pe rhoddasid y gewynau mor agos ag y gallesid at yr esgyrn sydd i'w hysgogi! Ond drwy eu rhoddi tua chanol yr esgyrn, ac mewn manau cyfleus ereill, a chyssylltu cordynau a llinynau teneuon wrthynt, cyflawnir y gwaith yn effeithiol, a chedwir prydferthwch y corff hefyd. Gwelir hyn yn amlwg yn y llaw a'r fraich. Y mae y nerth gewynol sydd yn ysgogi y llaw yn rhanau praffaf y fraich, ac yn cael ei drosglwyddo ati trwy linynau teneuon. Heb law hyn, y mae mantais arall i'r llaw trwy fod y gewynau i fyny yn y fraich,—y mae yn hawddach symmud y llaw at y pen, ac i bob rhan arall o'r corff, yr hyn sydd yn angenrheidiol yn fynych. Gwelir, gan hyny, os nad all y llaw godi pwysau mor fawr gyda'r cyflead presennol, fod prydferthwch a buander yr ysgogiad yn fanteision sydd yn gorfantoli yr anfantais.

Nid yw y gewynau byth ar ffordd eu gilydd: y maent yn fynych yn cynnorthwyo eu gilydd, ond nid byth yn rhwystr i'w gilydd. Gellid egluro y cydgordiad hwn yn eu gweithrediad trwy ddysgrifiad o'r gweithrediadau o anadlu, canu, ysgrifenu, cerdded, &c. Mor hawdd ydyw anadlu! eto y mae gweithrediad cant o ewynau yn angenrheidiol i gyflawnu un anadliad! Defnyddir oddeutu yr un nifer wrth symmud y fraich, ac oddeutu deugain wrth symmud y llaw! Cynnifer o ysgogiadau a gyflawnir wrth fwyta neu lyncu! Wrth olrhain ychydig o ymborth, ar ol i'r gwefusau gymmeryd gafael ynddo, yn gyntaf gwelir eu bod hwy yn cau yn union i'w attal rhag syrthio o'r genau. Mae gewynau yr ên isaf yn ei symmud i fyny, i lawr, ac i bob ochr, er mwyn iddo gael ei ddryllio a'i falurio gan y dannedd. Wedi iddo gael ei falu a'i wlychu gan y poer, cymmer y tafod ef ar ei gefn, a chan ddodi ei flaen wrth daflod y genau, gwthia ef tua'r llwnc: yna cymmerir ef i fath o gwd (*pharynx*) sydd yn mhen uchaf y bibell sydd yn arwain i'r cylla, a chauir i fyny bob agoriad arall trwy ba un y gallasai fyned ar gyfeiliorn. Cyflawnir yr holl weithred o lyncu trwy ysgogiadau aneirif a chelfyddgar y gewynau.

Gwelir y cyflymder gyda pha un y dichon y gewynau weithredu yn amrant y llygad. Gofynir i ganwyll y llygad gael ei gwlychu oddeutu un ar bymtheg o weithiau mewn mynyd; ac mor gyflym y gwneir hyn, fel pan bydd y llygad yn fwyaf sefydlog ar ryw wrthddrych, nad yw yn un anfantais i'r golwg. Ond dangosir hyn yn helaethach dan y gair LLYGAD.

Y GIAU.

Y *giau*, neu nerfau, ydynt ddosbarth o ewynau mwy bywydol—a ffurfir o fân linynau yn ymwasgaru dros yr holl ranau gewynol o'r corff, gan ddal cymundeb agosach â'r ymenydd a'r mêr madruddol. Dyma y cyfryngau sydd yn trosglwyddo argraffiadau y synwyrau corfforol i'r meddwl, ac yn cario gorchymynion yr ewyllys i'r gewynau. Cyfansoddir y nerfau o ddau linyn gwyn main, yn cydredeg, a phob un o'r ddau wedi ei amgau mewn gwain; a thybir eu bod yn cynnwys dwy ran, un i beri teimlad a'r llall i beri ysgogiad.

YR YMENYDD.

Yr *ymenydd* a ffurfir o sylwedd gwyn mwydionaidd, a chyflëedig o fewn ceuedd y benglog. Y mae o natur llinynog, yn llawn o lestri gwaed. Drwy sylw, deallir mai yr ymenydd ydyw peiriant y meddwl; a chyda gofal mawr y mae wedi cael ei amddiffyn. Y mae yr asgwrn sydd yn ei orchuddio yn fath o gromen neu gragen o'r gwneuthuriad cryfaf; ac ar yr un pryd, yr ysgafnaf a ellid ei dychymygu. Y mae yr ymenydd yn cael ei ranu yn ddwy ran: y prif gasgliad sydd tua'r talcen a rhanau uchaf y pen; a'r llall sydd tua'r gwegil; yr hwn a estynir yn llinyn i lawr drwy baladr asgwrn y cefn, neu y madruddyn. Y mae y niwed lleiaf i'r "llinyn arian" hwn—hyd yn oed brathiad nydwydd—yn achosi marwolaeth.

Y mae y nerfau sydd yn cymdeithasu â'r synwyrau, yr ysgyfaint, a'r cylla, yn tarddu o'r ymenydd; a'r rhai a ysgogant yr aelodau, yn cychwyn o fadruddyn y cefn. Y mae hefyd gyfundrefn o giau, a elwir y nerfau cydymdeimladol, wedi eu cyfleu yn y fron, heb un cyssylltiad canfyddadwy rhyngddynt â'r ymenydd, nac â madruddyn y cefn—y rhai y tybir eu bod yn cyfranu gallu ysgogol i'r gewynau mewnol.

Y mae yr adnabyddiaeth o bethau tu allan i'r corff yn cael ei gyflwyno i'r meddwl trwy gyfrwng y pum synwyr:—Gwel dan y geiriau.

Y GWAED.

Y mae y corff, drwy bob rhan o hono, yn cael ei dreiddio gan hylif coch a elwir yn *waed*, yr hwn sydd yn cylchredeg drwy lestri neu bibellau, y rhai a ffurfir ar gynllun cyffelyb i'r trefniant gewynol, ac a ddosberthir o dan yr enwau *rhedwelïau* a *gwythïeni*. Y mae y peiriannau angenrheidiol i yru y gwaed ar ei gylchdaith drwy yr holl gorff, ac i gyfranu iddo ymborth ac awyr i gynnal ei swyddogaeth fywydol, wedi cael eu gosod o fewn y geufa neu gist sydd yn cyfansoddi y rhan uchaf o'r corff, heb

Digitized by Google

ystyried y pen. Saith asgwrn y gwddf a safant ar ben y gist; a gwahenir y rhan isaf o honi oddi wrth y cylla a'r ymysgaroedd gan y llengig. Y mae y gist yn cynnwys y galon; yr hon sydd fath o gwd gewynaidd cryf a thew iawn, ac a weithreda fel sugnedydd nerthol i yru y gwaed drwy ei bibellau i ranau eithaf y corff, a'i sugno yn ol drachefn; ac felly cadw i fyny rhediad cysson drwy yr holl gyfansoddiad, heb na diffyg na gormodedd mewn un wythïen nac aelod. Y pibellau trwy ba rai y gyrir y gwaed o'r galon a elwir yn *rhedwelïau*, a'r rhai y rhed yn ol drwyddynt yn *wythïeni*. Yn ei rediad, y mae yn newid ei liw, o goch goleu i goch tywyll; ac wedi ei weithio drwy yr ysgyfaint, y mae yn troi i'w liw cyntaf eilwaith. Teimlir curiad neu weithiad y galon hyd ranau eithaf y corff, megys y garddyrnau. Y mae cyflymder y curiadau yn ymddibynu ar gyflwr yr iechyd. Bernir ei bod, ar gyfartaledd, yn curo bymtheng waith a thrigain mewn mynyd; ac yn yr ystod byr hwn y denfyn ddeg pwys o waed allan, neu 540 pwys bob awr, a 12,960 neu 10,782½ peint mewn diwrnod; a bod y gwaed yn cyflawnu ei gylchrediad dair gwaith bob wyth mynyd. Pwysau y gwaed mewn dyn yn ei lawn dwf, a gyfrifir o bedwar pwys ar ugain i ddeg ar ugain. Yr ysgyfaint ydynt y peiriannau anadlu; a derbyniant yr awyr i mewn drwy y "corn gwynt," neu y freuant, yr hwn sydd yn cychwyn o'r tu ol i'r genau, uwch y tafod, ac yn disgyn drwy ganol rhan wynebol y gwddf, lle y gellir ei deimlo â'r llaw. Wedi myned i lawr i'r gist, y mae yn ymranu yn wahanol gangenau; un brif gainc yn arwain i'r ysgyfaint dde, a'r llall i'r un aswy; lle eu dosrenir drachefn yn lluaws o fân bibellau, yn terfynu mewn pledrau bychain, yn ffurflo cellau neu godau gwynt. Swydd y freuant, yr hon a ffurfir drwy uniad nifer mawr o fân fodrwyau, yw dwyn awyr i mewn i'r ysgyfaint, a'i ollwng allan drachefn; ac felly y mae yn cyfansoddi awyr-sugnedydd nerthol. Gan fod yr ysgyfaint oll yn drylawn o'r cyfryw wynt-godau, y maent fel ysbwng yn chwyddo ac yn ymleihau, fel megin, gyda'r anadliad, ac yn sugno i mewn ac yn gwasgu allan y gwaed yn ddidor, ac felly yn ei buro trwy ei ddwyn dan ddylanwad yr awyr; tra y mae gweithiad y galon yn peri gwres, nerth, a bywyd drwy yr holl gorff.

Y TREFNIANT I DREULIO YMBORTH.

Cymmerir i fyny y rhan isaf o'r gist, y sylwasom arni eisoes, gan y cylla a'r ymysgaroedd. Wedi i'r ymborth ddisgyn i'r cylla drwy y ddylyngfa, y mae yn dyfod dan ddylanwad llifnodd sydd yn ei ddadansoddi (y *gastric juice*), ac yn ei droi yn fath o sylwedd gwyn. Yn y cyflwr hwn y mae yn myned allan drwy agorfa yn ngwaelod y cylla, yr hon sydd yn meddu y gallu i wrthod yr hyn na weithredwyd arno gan y llifnodd crybwylledig. Yn y rhan uchaf o'r coluddion, y mae yn derbyn y llifnodd bustlaidd, ac un o natur arall o'r cyndedyn. Wedi hyn y mae yn cael ei sugno gan nifer dirifedi o fân lestri, a elwir yn *llaethynau*, a'i wasgu i biben hir, hyd nes y tywelltir ef o'r diwedd i un o wythïeni y gwddf, ac yr ymgymmysga â'r gwaed yn yr ysgyfaint, i faethu y corff. Certhir allan y gweddill, neu y rhan wrthodedig o'r ymborth, drwy y perfedd. Ond heb law bod y gwaed yn maethu y corff, gyda golwg ar ei gylchrediad cyffredinol, y mae hefyd yn cyflawnu gwasanaeth mwy anamlwg; sef, darparu y gwahanol lifnoddau sydd yn angenrheidiol i ddwyn oddi amgylch ddadansoddiad fleryllaidd yr ymborth, ac i ireiddio holl ranau gweithiol y peiriant bywydol.

Y mae y croen, hefyd, nid yn unig yn gwasanaethu fel gwisg allanol y corff, i'w gadw rhag ei niweidio a'i lygru gan yr awyr o'i amgylch; ond hefyd yn tymmeru y gwresogrwydd tumewnol; a thrwy fyrddiynau o chwys-dyllau, yn gollwng allan y brydaniaeth gormodol yn y ffurf o ager, yr hwn sydd, ar gyfarfyddiad â'r awyr allanol, yn oeri, ac yn ymdewychu yn ddefnynau o chwys. I gadw i fyny iechyd y corff, y mae deall natur y cyfansoddiad, a'r deddfau anianyddol sydd yn ei lywodraethu, o'r gwasanaeth mwyaf i ddyn; o blegid bod afiechyd a marwolaeth ei hun yn tarddu o ryw niwed a ddygwydd i ffurfiadau y peiriannau hanfodol, neu i ryw anhwylder neu attaliad ar gyflawniad eu gwaith. Mewn henaint, y mae marwolaeth yn dangos fod y cyfansoddiad wedi ei dreulio ei hun allan, ac yn prysur adfeilio a malurio i'w lwch dechreuol.

CORIANDER, [*Coriandrum sativum*—enw y llysieuwyr]: planigyn blwyddol, yn dwyn ffrwyth neu hâd crwn, sychlyd, yn meddu gradd o effaith dwymnol ar y cylla, ac arogl cryf. Defnyddir ef rhag anhwylderau gwyntiog, cur yn y pen, clwyf y marchogion, a rhyddni. Y mae y dail isaf o ffurf cŷn, yn ymagor yn ddwy fforch ar y calefyn, ac yn rhedeg yn geinc-ddail tair-dalenog yn y brigau, i goronellau ceinciog rhodol, yn dwyn blodau gwelw-goch, ac yn hadu yn debyg i ffanigl. Tyf yn gyffredin iawn yn nehcu-barth Ewrop; a meithrinir ef yn y wlad hon, yn enwedig yn Essex, er mwyn ei hâd; yr hwn a ddefnyddir yn helaeth gan gyffeithwyr, cyffurwyr, a distyllwyr. Y mae yr olew a dynir o hono yn werthfawr. Tyfir ef hefyd mewn gerddi, er mwyn ei ddail, y rhai a ddefnyddir mewn cawl a seigiau.

Yn ein cyfleithiadau ni o'r Ysgrythyr, enwir y planigyn hwn ddwywaith—yn *Exod.* xvi. 31, a *Num.* xi. 7. Tybir mai enw Hebraeg y planigyn ydyw *gad*; a chydsynia y rhan fwyaf o awdwyr ei fod yr un a'r *coriander* sydd yn adnabyddus i ni; ond rhai a ammheuant neu a wadant hyn, o blegid nad yw had coriander yn wyn, ond llwyd. Efallai mai Celsius [*Hierobot.*, cyf. ii., td. 81], sydd yn dwyn yr unig brawf boddhaol mai coriander a feddylir; lle y dywed —"Γοιδ, *quod Africanis coriandrum est, ut docet auctor ignotus sed utilissimus, qui Dioscoridem synonymis exoticis auxit et illustravit.* Αἰγύπτιοι, *inquit*, Ὀχιον, Αφροί γοιδ: *coriandrum Ægyptii ochion appellant, Afri goid.*" Y mae Sprengel yn cydgorffori y nodiad hwn â thestyn gwreiddiol Dioscorides, fel llawer o ymadroddion cyfystyr ereill, y rhai, megys y dywed Celsius uchod, a chwanegwyd gan ryw hen awdwr neu adolygwr anadnabyddus, ond tra gwasanaethfawr; yr hwn a sylwodd, fel y gwelwyd, fod coriander yn cael ei alw gan yr Aiphtiaid yn *ochion*; a chan drigolion Affrica, neu y Carthaginiaid, *goid*. Rosenmüller, yn cyfeirio at hyn, a wna y sylw hwn,—"Yr Affricaniaid, *h. y.*, y Carthaginiaid, iaith pa rai, y Punaeg, oedd gyfathrach i'r Hebraeg, a alwent coriander yn *goid*—gair heb fod yn gwahaniaethu oddi wrth yr Hebraeg, *gad*. Sylwa Celsius fod coriander yn cael ei grybwyll yn aml yn y *Talmud*. Yr oedd yn adnabyddus, ac yn cael ei ddefnyddio yn feddyginiaethol gan Hippo-

Digitized by Google

crates; a sonir am dano gan Theophrastus, dan yr enw *κοριον=corion*, neu *κορίαννον=coriannon*; ac y mae awdwyr Arabaidd ar ddefnyddion meddygol, yn arfer *korion*, fel y gair Groeg cyfystyr â choriander, yr hwn a alwant yn eu hiaith

Dar. 193.

eu hunain, *kuzeereh*; y Persiaid, *kushneez*; a brodorion India, *dhunya*. Adnabyddir, meithrinir, a defnyddir ef yn yr holl wledydd hyny fel speis (*spice*) peraidd. Dywed Alpinus ei fod yn tyfu yn helaeth yn yr Aipht, lle y bwytëid cymmaint o ddail gleision; ac ymddengys ei ddefnyddiad mewn bwyd mor gyffredinol, o blegid medd efe,—"*Etenim ferculum non parant sine foliis coriandri.*" Pliny, hefyd, a gymmer yr Aipht fel y wlad hynotaf am goriander, pan y dywed,—"*Coriandrum in Ægypto præcipuum,*" *&c.*—(*Cycl. of Bib. Literature*; *Penny Cycl.*; *Brown's Dictionary of the Bible*, *&c.*).

CORINTH, CULDIR (*Isthmus*): morbont, neu guldir Corinth; gwddf main o dir, yn gorwedd rhwng morgilfach Corinth a'r agenfor Soronaidd, yn cyssylltu y Peloponnesus â'r cyfandir neu Hellas Briodol. Yn y lle culaf nid oedd ond deugain ystad, neu bum milltir Rhufeinig ar draws. Yma y safai teml enwog Poseidon, neu Neptune, duw paganaidd y môr, ac yma y cynnelid y campau Isthmiaidd.

CORINTH, SINUS: agenfor Corinth, culfor Lepanto, rhwng tir Groeg briodol a'r Peloponnesus, ac yn dechreu, fel y myn rhai, wrth safn yr Achelous, yn Ætolia, a Phenrhyn Araxus, yn Achaia; yn ol ereill, yn y gulfa rhwng Rhium ac Antirhium. Mewn amserau boreuol gelwid ef yr Agendor Crissæaidd, a'i ben dwyreiniol, Môr Alcyonia.

CORINTH, [Κόρινθος, Κορίνθιος; Llad. *Corinthus*]: un o hen ddinasoedd penaf Tir Groeg, yn sefyll ar wddf o dir sydd yn cyssylltu gorynys y Morea â'r Cyfandir; ond nid oes fwy o honi yn bod yn awr nag ychydig furddynau ac adfeilion—megys y gwelir yn y darlun—wedi eu chwalu dros bentref gwasgaredig, a meusydd ŷd, &c. Y mae ffurf colofnau mewn adeilyddiaeth sydd yn cymmeryd ei enw oddi wrth y ddinas hon; sef y *Corinthian order*; ond y mae y ddinas wedi ei hanrheithio mor fynych fel nad oes cymmaint ag un golofn yn aros yn Corinth ei hun. Adeiladwyd yr hen ddinas wrth odrau craig serth, foel, yn ymgodi oddi ar y gwastadedd, ar ei phen ei hun, i grib clogwyn mwy na deunaw can troedfedd uwch na gwyneb y môr. Dyma *Acrocorinthus* y clasurwyr—caer neu amddiffynfa anorchfygol Corinth; ac y mae, o herwydd ei huchder, ei serthni, ei mawredd, a'i hunigrwydd, yn ffurfio un o'r gwrthddrychau hynotaf yn mysg golygfeydd amrywiog a swynol y wlad hono. Dywed y Dr. Clarke, ei bod yn taflu ei chysgod hanner y ffordd ar draws yr *isthmus* neu y culdir, yr hwn sydd agos i chwe milltir o led. Llwybr serth, igam-ogam, yr hwn y dywed Strabo fod ei hyd yn ddeg ar ugain o ystadau, sydd i deithiwr ddringo, yn lluddedig, i'w phen, lle y mae math o le gwastad o fesur mor helaeth fel y safai tref fawr yn hawdd arno. Hwn, dan lywodraeth y Tyrciaid, a gynnwysai amryw demlau Mahometaidd; ac y mae ochrau y bryn mor annringadwy, fel yr oedd rhyw ychydig iawn o filwyr yn ddigon i gadw meddiant diogel o'r amddiffynfa. Ond dywed Plutarch, fod pedwar cant o wŷr, a deg a deugain o gŵn, yn ei gwarchod. Yn ol dysgrifiad Xenophon, yr oedd amgylchedd y ddinas yn ddeugain ystâd, heb law y gaer ar y foel; ac yn bump a phedwar ugain, a chymmeryd i mewn yr amddiffynfa. Ar ddiwrnod clir, y mae yr olygfa o ben yr Acrocorinthus yn eang iawn, ac yn fawreddus tu hwnt i ddarluniad; ac y mae y meddwl yn cael ei lyncu i adfyfyrdodau hanesol yn mysg cysgodau gogoniant diflanedig yr hen Groeg. Corinth ei hun a safai ar ryw rosdir gwastad, heb fod yn uchel, yn gorphwys ar droed gogleddol y foel grybwylledig. ac yn gogwyddo i'r gorllewin at lan Culfor Lepanto, ac i'r dwyrain at lan y culfor Ioniaidd. Er amser y rhyfel Persiaidd, yr oedd gwarchglawdd wedi ei godi ar draws y culdir ar yr hwn y safai Corinth. Yn amser rhyfel y Peloponnesus, amddiffynwyd y mur hwn o fôr bwygilydd; felly, hefyd, yn amser y bradwriaeth Thebaidd. Adgyweiriwyd ef wedi hyny gan Valerian, rhag ofn cenedloedd barbaraidd y gogledd; ac ail adeiladwyd ef gan Justinian, yr hwn a'i cadarnhaodd â chant a deg a deugain o dyrau. Ond er mor gadarn ydoedd ei chastellfa fel pwynt milwrol ac allwedd i'r Peloponnesus — y Morea yn awr — sefydlodd Corinth ei mawredd ei hun yn benaf ar ei dau borthladd,—Cenchrea ar ei hystlys ddwyreiniol, yn un môr; a Lechæum, wrth ei hochr orllewinol, ar fôr arall. Ymgyfoethogodd Corinth yn llwyddiant heddychlawn masnach, yn hytrach na thrwy fuddugoliaeth a thrais rhyfel. Aeth ei marsiandwyr yn dywysogion, ei chrefftwyr yn glodfawr yn mhob gwlad; ac y mae proffeswyr ei chelfyddydau cywrain yn anfarwol hyd heddyw; ac fel canolbwynt gwybodaeth a dysgeidiaeth, gelwid hi yn "llygad tir Groeg." Daeth i fod yn farchnadfa cenedloedd a gwledydd lawer, ac yn feistres dyfroedd Groeg; ac yr oedd ei llongau yn britho pob môr, a'i rhwyfau yn llwydo pob aber yn y byd adnabyddus. Aeth hithau yn oludog, yn foethus, yn afradlon, a drygionus. Dyna oedd ei nodweddiad moesol yn amser Paul, fel y gellir casglu oddi wrth ei Epistolau, &c.

Cyssylltid Lechæum, yn morgilfach Crissa, â'r ddinas, gan ddau fur cydredol. Tybia y Milwriad Leake, mai gwaith celfyddyd, gan mwyaf, oedd y llongborth. yr hwn sydd bron wedi cael

Digitized by Google

ei lenwi i fyny yn awr. Yr unig beth sydd yn aros yw math o forlyn yn dynodi y fan. Nid yw yn ymddangos fod Cenchrea, neu Cenchreæ, yn y gilfach arall, yn un â'r ddinas; ond yr oedd yn lle mwy na Lechæum, ac yn cynnwys amryw demlau. Ychydig i'r gogledd yr oedd cilfach fechan, a elwid Schœnus. Yma yr oedd y man culaf o'r culdir, a math o ffos, tua thair milltir o hyd, a elwir y Diholcus—rhan o'r hon sydd yn aros eto — yn cyrhaedd o angorfa Schœnus i ben dwyreiniol llongborth Lechæum; ac yn y ddau bwynt cyferbyniol hyn rhedid llongau i'r lan, a llusgid hwy ar olwynion o fôr i fôr, i arbed y fordaith hir a thra pheryglus o amgylch yr orynys, pan oedd gwynt croes meginau Sicily, a thywydd pentir Malea yn ddiareb yn mhlith y morwyr. Nid oedd hyn ond cyfleusdra i fân longau; ond yn amser y rhyfel Peloponnesiaidd, ymddengys fod ganddynt ffordd i drosglwyddo eu gweithrediadau llyngesol o'r naill fôr i'r llall, heb gludo eu llongau rhyfel yn y dull uchod. Gwyddom fod Demetrius Poliorcetes, Julius Cæsar, a Caligula, wedi son llawer am dori camlas i longau ar draws y culdir, ac i'r gwaith gael ei ddechreu gan Nero, tua'r amser yr oedd Paul yn Corinth; ond nis gorphenwyd ef. Ac yn wir, nid doethineb masnachwyr Corinth fuasai uno y moroedd Ioniaidd ac Ægeaidd yn y modd hyn; o blegid o'r anghyfleusdra yma yr oedd eu helw yn tarddu o'r dechreu; gan ei fod yn sicrhau iddynt yr holl waith cario dros y tir, yn y drafnidiaeth fawr rhwng Asia Leiaf ac Italy, a holl lanau gogleddol Môr y Canoldir, yn gystal a'u bod ar lwybr y fasnach fwy cartrefol oedd rhwng y Cyfandir a'r orynys.

Dar. 194. CORINTH.

Fel lle i adeiladu llongau, yr oedd hefyd yn hynod er dyddiau boreuaf ei hanes. Am hyny dywedir mewn chwedloniaeth Roegaidd, mai yn Corinth yr adeiladwyd y llong *Argo*, yn yr hon y ffugir i Hercules, Jason, a'u cymdeithion, hwylio i chwilio am y "cnu aur." Ôdid nad yw y chwedl yn cyfeirio at ddim mwy na dechreuad trafnidiaeth Corinth yn y Môr Du. Yma hefyd yr adeiladwyd rhwyflongau rhyfel o dri uchder bwrdd gyntaf erioed.

Mewn amser, lledodd Corinth ei threfedigaethau yn mhell ac yn agos, i'r dwyrain a'r gorllewin; a daeth i fod, fel y sylwyd, yn brif farchnadfa tir Groeg; lle, fel y dywed Aristides, yr oedd hi yn ffair bob dydd drwy 'r flwyddyn. At hyn, chwanegodd law-weithydd mewn metelyddiaeth, lliwyddiaeth, a phob gwaith crochenydd. A phob yn ail flwyddyn, ymdyrai miloedd i'w champau, a dyeithriaid beunydd o bob gwlad i weled a rhyfeddu harddwch, gorwychder, a mawredd ei themlau, ei chwareudai, ei phalasau, a'i hadeiladau o bob math, wedi eu harddu â cholofnau, cerfluniau, cofiaethau, a phob addurnwaith allanol; â holl gynnyrchion y meistriaid enwocaf yn y celfyddydau cywrain oddi mewn; yn enwedig ogofäau cerfiedig Ffynnon Pyrene —lle y credid fod Bellerophon wedi dal Pegasus, y march asgellog, tra yr oedd yn yfed dwfr. Gwelir y march hedegog yma ar arian bathol Corinth; gyda llun merch yn sefyll ar graig, lle yr eistedd dwy arall â llyw cwch yn llaw pob un, fel arwyddlun llongwriaeth. Yr holl waith oedd o farmor purwyn, a'r ffynnon yn gyssegredig i'r naw awen. Ac yn benaf teml Poseidon, Neptunus y Rhufeiniaid, "duw cerbydog y môr" —Nefydd Naf Neifion chwedloniaeth Gymreig— lle yr oedd ei gerbyd a'i feirch euraidd (gyda charnau ifori) ef, ac eiddo ei wraig, Amphitrite. Er addoliad y duwdodau oferchwedlaidd hyn, y cynnelid rhedegfeydd a champau enwog dwyflwyddol Corinth. Ond yn mhlith holl eilunddduwiaeth Corinth, y ffleiddiaf oll oedd addoliad Gwener neu Venus. "Yn nheml Venus, yn Corinth," medd Strabo, "yr oedd dros fil o buteiniaid — caethesau y deml — y rhai, o anrhydedd i'r dduwies, a orweddent am arian gyda

Digitized by Google

phob dyn a ddeuai atynt; ac felly yr aeth y ddinas yn boblog a chyfoethog."

Dywedir fod Corinth, yn ei negeswriaeth a'i pherthynas â dinasoedd a gwledydd ereill, yn hynod am ei thueddfryd heddychol, uniawn, ac anrhydeddus; eto, methodd a sicrhau iddi ei hun dangnefedd, diogelwch, a llwyddiant didor; a hi a ddaeth trwy lawer o drychineb i ddinystr prysur.

Ychydig a wyddys o'i hanes boreuol. Dywed rhai, iddi gael ei sylfaenu gan Sisyphus, taid Ulysses, tua y flwyddyn 2420 c. c. Ond "yn nyddiau Solomon," medd Brown, ei chynenw oedd Ἐφυρη=*Ephyre*, neu *Ephyra;* a pherthynai i'r hiliogaeth Æoliaidd. Ond tua deng mlynedd ar ugain wedi i'r Doriaid wneyd eu rhyfelgyrch i'r Peloponnesus (1074 c. c.), syrthiodd Ephyra i law Aletes, mab Hippotes yr Heracliad, yr hwn a giliasai gyda'i ganlynwyr o fyddin y Doriaid, o blegid iddo ladd rhyw ddewin neu frudiwr ar y ffordd o Naupactus. Wedi hyn, cymmerodd y ddinas yr enw Corinth, neu Corinth lau (*Jupiter*); a'r cyndrigolion a ddarostyngwyd, er nad amddifadwyd hwynt yn gwbl o'u hiawnderau gwladol. Bu eppil Aletes yn rheoli fel breninoedd yn Corinth dros bum cenedlaeth, hyd oni ddiddymwyd y llywodraeth freninol, ac y rhoddwyd y brif awdurdod mewn *oligarchy;* a dewiswyd yn flyneddol un o blaid a llwyth neillduol—y blaid Heraclaidd o'r Bacchiadiaid. Nid oedd cyfathrach na chymundeb rhyngddynt hwy â neb o'u cyd-ddinaswyr. Yn y flwyddyn 655 c.c., dinaswr cyfoethog o'r enw Cypselus, gyda phlaid o'r bobl gyffredin, a ddymchwelodd yr oligarchiaid heb lawer o boen, a chymmerodd arno ei hun awdurdod freninol; ac er iddo drethu yn drwm, a gorthrymu yn dost ar y bendefigaeth Doriaidd, ennillodd barch ac ymddiried y dinasyddion yn gyffredin. Ei fab, Periander, yr hwn a'i dilynodd yn y llywodraeth, a gyfrifir yn un o "saith doethion Groeg." Ar ei farwolaeth, yn y flwyddyn 585 c. c., teyrnasodd perthynas iddo, Psammetichus, mab Gordias; yr hwn, yn mhen tair blynedd, a ddiorseddwyd gan y Lacedæmoniaid. Adferwyd y ffurflywodraeth flaenorol, a pharhaodd Corinth yn llywodraeth oligarchaidd hyd ddechreu y pedwerydd canrif cyn Crist. Yn y rhyfel Beloponnesaidd, ceir y Corinthiaid yn mysg pleidwyr gwresocaf y Lacedæmoniaid, a gelynion chwerwaf Athen. Tua 394 c. c., ceisiodd plaid werinol ddymchwelyd y bendefigaeth, ac uno Corinth âg Argos; ond buant aflwyddiannus yn y diwedd. Adferodd Timophanes yr unbenaeth gyda byddin o estroniaid; ond llofruddiwyd ef yn fuan.

Fel taleithiau ereill tir Groeg, teimlodd Corinth ddylanwad y gallu Macedoniaidd, a gwarchaewyd arni gan Antigonus, gyda byddin o Facedoniaid; ond rhyddhawyd hi gan Aratus. Dywedir fod y Corinthiaid yn mlaenaf yn y cynghrair Achæaidd, yn ymwingiadau annibynol olaf Groeg. Oddi wrth hyn y tarddodd yr enw *Achaia;* yr hon, yn amser Paul, oedd dalaeth Rufeinig—agos mor ëang a theyrnas bresennol Groeg—a Chorinth yn brif ddinas ar y rhan hono o'r wlad. Tua'r flwyddyn 146 c. c., anrhethiwyd a dinystriwyd Corinth, a gwerthwyd y dinasyddion fel caethweision gan y cadfridog Rhufeinaidd Mummius, ar yr esgus eu bod wedi rhoddi sarhâd i genadon Rhufain. Yr oedd hyn tua 'r un amser ag y dystrywiodd Scipio ddinas Cathage. Cludwyd llawer o gelfyddwriaeth Corinth yn awr i Rufain; a bu hyn yn achos o droi awyddfryd y Rhufeiniaid at astudiaeth o'r celfyddydau cywrain.

Bu Corinth, ar ol hyn, yn anghyfanneddol hyd amser Julius Cæsar, yr hwn a sefydlodd yno drefedigaeth o wŷr rhyddion o Rufain; a chyfododd Corinth newydd o ludw yr hen Ephyra. Pan ymwelodd Pausanius â'r lle, yn yr ail canrif, yr oedd llawer o adeiladau harddwych yn sefyll, a choflon lawer o fawrwychder y dref gynt. Tua 268 B. A., llosgwyd Corinth drachefn yn lludw gan yr Herculiaid. Yn 1180, cymmerwyd ac anrheithiwyd hi gan Roser, brenin Sicily. O'r flwyddyn 1458, bu dan lywodraeth y Tyrciaid hyd sylfaeniad breniniaeth bresennol Groeg. Mae y faesdref wasgarog a saif ar sylfaen Corinth gynt, yn cynnwys o 1,500 i 2,000 o drigolion,—eu hanner yn Mahometiaid, a'r gweddill eto yn Gristionogion proffesedig.

Dywedir bod ardal Corinth yn ffrwythlawn, ac wedi ei dyfrhau yn dda; ond yn amser Hadrian, yr oedd y dinasyddion mor anfoddlawn ar y ffynnonau, fel y bu i'r ymherawdwr ddwyn dwfr i'r ddinas o'r Stymphalus, ar hyd "bont ddwfr" (*aqueduct*), ugain milltir o hyd.—(*Xenoph. Helen.*, iv.; *Pausau.*, ii.; *Leake's Morea*, iii.; *Müller's Dorians*, llyfr i.; *Cornelius Nepos; Sim.*, c. i.; *Livy. Epit. lii; Conybeare & Howson's Life and Epistles of St. Paul; Kitto's Cycl. of Bibl. Lit.; Edwards' Encycl. of Rel. Knowledge, Penny Cycl., &c.*)

CORINTHIAID, YR EPISTOL AT Y.—YR EPISTOL CYNTAF.

Addefir yn gyffredinol nad ydyw *awduriaeth* yr epistol hwn wedi, neu yn cael ei ammheu gan un beirniad o unrhyw deilyngdod. Gellir edrych ar yr Epistol Cyntaf a'r Ail at y Corinthiaid, yn nghyd â'r Epistol at y Rhufeiniaid, fel yr epistolau hyny ag y mae ysbryd yr apostol Paul yn ymddangos ynddynt gydag arbenigrwydd neillduol. Cytuna y drychfeddyliau a'r arddull â'r eiddo Paul; ac y mae y cyfrediad manylaf yn bod rhwng y crybwyllion hanesyddol yn yr Actau a'r rhai y cyfarfyddir yn achlysurol â hwynt yn yr epistol hwn. Heb law hyny, y mae genym dystiolaethau allanol diamwys a lluosog yn cyfrif ei awduriaeth i'r apostol Paul; yn mysg y rhai gellir nodi tystiolaethau Clement o Rufain, yn ei epistol at yr eglwys yn Corinth (*pen.* xlvii); Polycarp, yn ei lythyr at y Philippiaid (*pen.* xi); Irenæus, yn ei draethawd yn erbyn cyfeiliornwyr (iv. 27); Athenagoras, ar adgyfodiad y meirw (*pen.* lxi); Clement, o Alexandria, mewn amryw fanau; a Tertullian yn erbyn hereticiaid (*pen.* xxxiii). Y mae Lardner a Davidson yn dwyn yn mlaen dystiolaethau lluosog i'r perwyl hwn; ond ni chaniatâ natur y gwaith i ni yma wneyd dyfyniadau o honynt.

Sefydlwyd yr eglwys Gristionogol yn Corinth gan Paul, yn ei ymweliad cyntaf â'r ddinas (*Act.* xviii. 1—17). Treuliodd flwyddyn a hanner yno, a choronwyd ei ymdrechion â mesur mawr o lwyddiant. Y dosbarth lluosocaf o'r dychweledigion oeddynt o'r Cenedloedd (1 *Cor.* xii. 2); ond yr oedd lluaws o Iuddewon yn eu plith (*Act.* xviii. 8). Ymddengys fod y naill a'r llall yn perthyn i'r dosbarth iselaf a thlotaf (1 *Cor.* i. 26). Eto yr oedd amryw eithradau yn eu mysg, megys Erastus, Crispus, a Gaius; a gellir tybied (oddi wrth 1 *Cor.* xi. 22), fod yn yr eglwys nifer o gyfoethogion yn gymmysgedig â'r rhai iselradd. Y mae nodwedd gweinidogaeth yr apostol yn Corinth yn cael ei ddysgrifio ganddo ef ei

Digitized by Google

hun (1 *Cor.* ii. 1, &c.). Arferai symledd mawr, heb gymmeryd arno wybod dim yn eu plith ond Iesu Grist a'i groes. Nid ymostyngai i arfer cynnorthwy rheitheg a doethineb ddynol. Parai gwrthwynebiad yr Iuddewon i'w weinidogaeth lawer o bryder iddo; "bu gyfyng arno yn yr ysbryd" (*Act.* xviii. 5) o'r herwydd. Chwanegid ei bryder hefyd gan sefyllfa y dychweledigion o fysg y Cenedloedd; gwelai eu peryglon yn ddirfawr, gan y cylchynid hwy gan arferion o'r math mwyaf aflan ac anfoesol, ynghyd â chan falchder ac uchelfrydedd; a gosodid hwy gan y naill mewn perygl gwastadol o gael eu llygru mewn buchedd, a chan y llall o gael eu llithro i ddirmygu symledd eu dysgawdwr cyntaf. Yr oedd y perygl diweddaf yn fwy, fe allai, am fod Apolos wedi talu ymweliad â Chorinth ar ol yr apostol: a dichon y gallasai ei ddull o weinyddu addysg beri i addysg yr apostol ymddangos yn ddiaddurn a gwanaidd mewn cyferbyniad i'r eiddo ef. Gan fod Apolos yn ŵr ymadroddus, o darddiad Alexandriaidd, y mae yn rhesymol meddwl fod digon o wahaniaeth yn ffurf meddwl ac arddull areithyddol y ddau i beri i'r Corinthiaid eu cyferbynu yn fynych â'u gilydd;—cyferbyniad a droai yn anfantais i Paul, ac a barai i'r rhai a garent "odidogrwydd ymadrodd," a "geiriau denu o ddoethineb ddynol," roddi y flaenoriaeth i Apolos ar yr apostol. Mae yn hawdd canfod fod rhyw ddylanwad gwrthwyneb i'r apostol wedi bod ar waith yn eglwys Corinth. Daethai yno ddysgawdwyr o darddiad Iuddewig (2 *Cor.* xi. 22), yn dwyn gyda hwynt lythyrau o gymmeradwyaeth o eglwysi ereill (1 *Cor.* iii. 1), ac adeiladasant ar sylfaen â osodwyd gan Paul (1 *Cor.* iii. 10—18; 2 *Cor.* x. 13—18) adeilad ddiwerth. Hònai y dysgawdwyr hyn eu bod yn feddiannol ar y swydd apostolaidd (2 *Cor.* xi. 5—13), a gwadent apostolaeth Paul (1 *Cor.* ix. 2; 2 *Cor.* x. 7, 8): cefnogent anufudd-dod i'w orchymynion (2 *Cor.* x. 1, 6), a darostyngent ei gymmeriad a'i lafur yn eu golwg (2 *Cor.* iv. 1, 2; v. 11; 2 *Cor.* xi. 16; xii. 12). Mae y tir a gymmerai y dysgawdwyr i'w weled yn yr epistolau at y Corinthiaid. Nid argymhellent yr enwaediad, a chadwraeth y deddf, fel y gwnai y gau athrawon yn Galatia; o blegid ni chyfarfyddir âg un awgrym ar y pethau yn yr epistolau dau sylw. Barna rhai eu bod yn cadw y cwestiwn hwn o'r golwg mewn eglwys a wneid i fyny yn benaf o'r Cenedloedd, a'u bod yn ymfoddloni yn unig ar ddirymu awdurdod a dylanwad Paul. Gwarthruddent ef fel ymyrwr, fel un yn rhedeg heb ei anfon, ac heb fod yn llygad dyst o ddygwyddiadau yr hanes efengylaidd: nad oedd yn beiddio profi ei apostolaeth trwy hawlio cynnaliaeth gan yr eglwysi fel yr apostolion ereill. Pa beth oedd cynnwysiad eu haddysg hwy, teimlir anhawsder i benderfynu: diammheu yr addefent Fessiaeth yr Iesu; adeiladent ar yr unig sylfaen; ond yr oedd yr hyn a adeiladent arni mor salw a disylwedd nas gallai sefyll yn y prawf trwy dân (1 *Cor.* iii. 11).

Achlysurwyd yr epistol mewn rhan gan yr hanes a glywsai yr apostol "gan y rhai oedd o dŷ Chlöe," benyw grefyddol berthynol i'r eglwys (1 *Cor.* i. 11), ac fe allai hefyd gan adroddiad cyffredin (1 *Cor.* v. 1; "Mae y gair yn hollol"), ac mewn rhan gan y llythyr a anfonasai y Corinthiaid eu hunain ato ef, yn gofyn cyfarwyddyd ac addysg ar amryw gwestiynau; yr hwn lythyr a gariwyd iddo, mae yn debygol, gan Ffortunatus, Stephanus, ac Achaicus (1 *Cor.* xvi. 17). Diammheu hefyd fod Apolos, yr hwn oedd gyda'r apostol pan anfonwyd yr epistol, wedi rhoddi hysbysrwydd iddo am ansawdd pethau yn yr eglwys. Trwy y cyfryngau hyn, ffurfid yn meddwl yr apostol ddrychfeddwl cywir am adfeiliad a pherygl mawr yr eglwys. Un o elfenau ei hadfeiliad oedd yr ymbleidiaeth oedd yn eu plith (1 *Cor.* i. 12): "A hyn yr ydwyf yn ei ddywedyd, bod pob un o honoch yn dywedyd, Yr ydwyf fi yn eiddo Paul; minnau yn eiddo Apolos; minnau yn eiddo Cephas; minnau yn eiddo Crist." Mae hyn wedi arwain rhai i'r penderfyniad fod pedair o wahanol bleidiau wedi cyfodi yn yr eglwys, y rhai a ymffrostient yn Paul, Apolos, Pedr, a Christ, fel penau y pleidiau hyn, ac yn enwedig y blaid ddiweddaf. Tybia rhai, fod syniadau Iuddewaidd wedi llithro i mewn i eglwys Corinth, a bod ynddi nifer o aelodau yn awyddus am impio Iuddewaeth ar Gristionogaeth; ac oddi ar hyn yn wrthwynebus i gyfundraeth rydd ac ysbrydol yr apostol Paul, ac yn fwy tueddol i ryw gyfundraeth a dalai fwy o warogaeth i ddefodau cnawdol ac allanol yr oruchwyliaeth Foesenaidd. Nis gellir meddwl fod y blaid hon yn cael ei chefnogi nac yn derbyn dim wyneb gan Pedr: yr un pryd, ymddengys ei bod yn gwneyd defnydd o enw "apostol yr enwaediad," ac yn ei gyssylltu ef â'u golygiadau, er mwyn rhoddi math o awdurdodiad iddynt. Yr oedd yr un mor naturiol i'r dosbarth goreu o'r eglwys, yn enwedig wrth gofio mai trwy weinidogaeth Paul y dychwelwyd hwy i'r ffydd, ei ystyried yntau fel eu blaenor, a glynu wrth egwyddorion Cristionogaeth bur ac ysbrydol. Nid ymddengys fod plaid Apolos yn gwahaniaethu yn hanfodol oddi wrth yr eiddo Paul; yr oedd ei weinidogaeth ef yn eu mysg o'r un natur a thuedd ag eiddo yr apostol; yr oedd ei ysbryd ef i raddau helaeth yn gydnaws âg ysbryd Paul (1 *Cor.* iii. 5); ond am mai gan Apolos yr oedd y fantais o ran coethder a hylithredd mewn areithyddiaeth, ymrestrent dan ei enw ef yn hytrach nag enw Paul, am fod ei addysg ef ar wirioneddau yr efengyl, o ran ei dull a'i nodweddau areithyddol, yn gweinyddu mwy o foddhâd i'w chwaeth Roegaidd nag addysg fwy syml a diaddurn yr apostol. Ymddengys y tybiau uchod yn dra naturiol; ac y mae y nifer luosocaf o'r beirniaid yn lled unfryd am danynt. Ond y mae y blaid arall—"minnau sydd eiddo Crist"—yn fwy anhawdd ffurfio tybiaeth gredadwy am dani. Barna Eichhorn, Schott, ac ereill, fod y blaid hon yn cael ei gwneyd i fyny o'r dosbarth goreu yn yr eglwys, yr hon ni chydymgymmysgai â dadleuon ac anghydfyddiaethau y pleidiau ereill. Mae y dybiaeth hon yn cael ei seilio ar 1 *Cor.* iii. 22, 23, lle y meddylir fod y pedair plaid yn cael cyfeirio atynt, a phlaid Crist yn unig yn cael ei chanmawl. Ond y mae yn annhebyg y gall fod yn y lle hwn gyfeiriad felly. Y mae y geiriau, "chwithau ydych eiddo Crist," i'w deall fel yn dynodi yr *holl* Gorinthiaid, yn hytrach na rhyw ddosbarth o honynt. Nid yw y golygiad hwn yn cytuno chwaith âg iaith yr apostol o barth plaid Crist yn 1 *Cor.* i. 12; a 2 *Cor.* x. 7; lle y mae yn llefaru am danynt yn anghymmeradwyol, ac fel rhai euog o "ranu Crist." Tybiaeth arall, yr hon a amddiffynir gan Storr, Hug, ac ereill, ydyw, mai rhan o'r eglwys a ddilynai Iago ydoedd plaid Crist, a'i bod yn galw ei hun felly ar gyfrif perthynas Iago âg ef. Ond y mae Olshausen yn gwrthwynebu hyn, am nas gallesid gwahaniaethu plaid Iago oddi wrth yr eiddo Pedr, gan y buasai y ddwy

Digitized by Google

wedi eu ffurflo o Gristionogion o ddaliadau tra Iuddewaidd. Mae Kitto, yn ei *Cyclopædia*, yn adrodd tybiaeth Baur, yr hon sydd fel y canlyn:—"Nid oedd yn Corinth ond *dwy* blaid, yr eiddo Paul a'r eiddo Pedr: nid oedd plaid Apolos ond adran o eiddo Paul; ac nid oedd plaid Crist ond adran o eiddo Pedr. Cyfododd yr adraniad hwn oddi wrth y gwrthwynebiad a wnai plaid Pedr i Paul, yr hyn a arweiniodd rai o honynt i ammheu ei apostolaeth, ac i hawlio iddynt eu hunain, fel dilynwyr Pedr, berthynas agosach â'r Iachawdwr." Y mae Billroth wedi cefnogi y dybiaeth hon; a barna amryw feirniaid fod llawer i'w ddywedyd o'i thu; ond, fel y sylwa Dr. Alexander, "y mae sylw Neander, na fyddai plaid Crist i'w gwahaniaethu oddi wrth yr eiddo Pedr ond yn unig mewn enw," yn wrthddadl bwysig yn erbyn y dybiaeth. Barna Neander ac Olshausen fod y blaid hon yn gynnwysedig o bersonau a ymwrthodent âg awdurdod yr holl ddysgawdwyr hyn, ac yn annibynol ar yr holl apostolion a geisient lunio iddynt eu hunain gyfundraeth o Gristionogaeth bur, o'r hon y bwrient allan bob peth a filwriai yn erbyn eu syniadau philosophaidd. "Gallasai y gyfryw blaid yn hawdd gyfodi oddi ar y gwrthwynebiad rhwng athroniaeth Roegaidd ac Iuddewiaeth; ac i'r cyfryw ymddangosai yr apostolion o duedd rhy Iuddewaidd. Ac felly appelient at Grist yn unig; ac allan o'r defnyddiau y cynnysgaethid hwynt â hwy gan draddodiad, ceisient, trwy gyfrwng eu beirniadaeth athronyddol, gasglu cyfundraeth bur o athrawiaeth Crist." [*Neander's Planting and Training*]. Mae y dybiaeth hon yn ymddangos mor debygol a nemawr un o'r tybiaethau lluosog; ac y mae ymresymiad yr apostol mewn amryw ranau o'r epistol yn lled ffafriol iddi. Ond, wedi y cwbl, y mae cryn ammheuaeth a oedd yn Corinth sectau neu bleidiau, yn gwahaniaethu o barth pethau athrawiaethol. Mae yn wir fod *personau* yn yr eglwys yn cofleidio athrawiaethau gau, ac yn meithrin ysbryd ymbleidgar; ond y mae yn rhy anhawdd profi, dybygid, mai y gau athrawiaethau a achosent yr ymbleidiaeth: y mae y tebygolrwydd ar y nacaol; o herwydd nid yw yr apostol, pan yn condemnio eu hanghydfod, yn gwneyd un cyfeiriad at gyfeiliornadau mewn athrawiaeth; a phan y mae eu cyfeiliornadau yn cael eu gwrthbrofi a'u condemnio, gwneir hyny heb unrhyw grybwylliad ddarfod iddynt achosi eu hymbleidiau. Oddi wrth hyn, cesglir fod yr ymraniadau wedi cyfodi yn unig oddi ar ddadleuon yn mhlith y Corinthiaid o barth athrawiaethau cymhariaethol eu hathrawon: dychweledigion Paul yn hòni y flaenoriaeth iddo ef; a'r un modd am yr eiddo Pedr ac Apolos; tra yr ymwrthodai y bedwaredd blaid â'r naill fel y lleill, gan hòni eu bod hwy wedi derbyn eu gwybodaeth grefyddol trwy ddysgeidiaeth uniongyrchol yr Iesu. "Mae y geiriau, 'minnau wyf eiddo Crist,' yn cyfeirio at y rhai sydd yn ei ystyried yn rhiawedd peidio ymlynu wrth unrhyw ddysgawdwr dynol; y rhai hyn a ddiystyrent hawliau Paul. Ymddengys fod cyfeiriadau aml atynt yn y ddau epistol, yn enwedig yn 2 *Cor.* x. 7—11."—*Alford.* Am ymdriniaeth helaethach ar y cwestiwn hwn, gwel *Davidson's Introduction to the New Testament*, ac *Olshausen's Commentary.* Yr ydym wrth adael y pwnc yn ystyried fod sylwadau Alford yn werth eu dyfynu:—"Y mae yn dra thebygol yn mlaen llaw (*a priori*) fod rhai yn Corinth yn gosod eu hunain allan fel yn perthyn yn neillduol i Grist. Ni fu dim cyssylltiad rhwng Paul a'n Iachawdwr pan oedd yn byw ac yn addysgu ar y ddaiar. Dechreuodd ei fywyd crefyddol a'i alwad apostolaidd mewn adeg mor ddiweddar, fel y gallasai y rhai a welsant yr Arglwydd ar y ddaiar hòni uchafiaeth arno. A dyma y cwbl a ddeallir, mae yn debygol, wrth yr ymadrodd, 'minnau sydd eiddo Crist;' fel yr ymddengys, os cymharwn ef â 2 *Cor.* x. 7, yr unig adran arall lle y gwneir cyfeiriad at yr ymadrodd. Deallir yn y fan hono bersonau a ymffrostient fod rhyngddynt rhyw berthynas â Christ, na feddai Paul mo honi." A dyma y casgliadau a wnaethpwyd ar ol ymdrin yn fanwl â'r cwestiwn:—1af. "Nid yw y geiriau hyn yn cael eu defnyddio fel yn cyfeirio at *bleidiau* gwahanol yn eu plith; ond yn 2il. Fel yn cynnrychioli y duedd a'r ysbryd a ddylanwadent arnynt yn eu cynhenau â'u gilydd: dywediadau personau, ac nid dywediadau pleidiau ydynt. 3ydd. Tra nas gellir cymmeryd y geiriau yn sail i gredu fod yn Corinth bleidiau neillduol, eto cyfeiriant at ffeithiau; ac nid er mwyn esampl neu enghraifft y dygir hwy yn mlaen. 4ydd. Bod y golygiad hwn, yr hwn a gefnogwyd gan Chrysostom, Theodoret, Theophylact, a Calvin, yn cael ei brofi a'i ddangos yn angenrheidiol yn 1 *Cor.* iv. 6.

Yr oedd *amcan* yr apostol wrth ysgrifenu yr epistol yn ddyblyg. Anfonwyd ato gan y Corinthiaid am gyfarwyddyd pa fodd i ymddwyn mewn materion cyssylltiedig â *phriodas* (1 *Cor.* vii); a chyda golwg ar y rhyddid a ddylent arfer gyda "chig wedi ei aberthu i eilunod" (1 *Cor.* viii—x). Ymddengys hefyd eu bod wedi anfon ato i wybod pa un a ddylai y benywod wisgo gorchudd yn nghynnulliadau yr eglwys (1 *Cor.* xi); cyflwynasant i'w sylw rai anhawsderau o barth i wneuthur casgliad i gynnorthwyo y saint tlodion yn Ierusalem; a gofynasant am gyfarwyddiadau pa fodd i'w wneuthur (1 *Cor.* xvi).

Ond heb law fod y cwestiynau hyn yn achlysur o anfoniad yr epistol, yr oedd rhesymau ereill mwy pwysig yn galw am dano. Hysbyswyd ef fod ymbleidiau a chynhenau yn ffynu yn eu plith. Clywodd hefyd am waith yr eglwys yn goddef yn ddigerydd yn ei chymmundeb un yn euog o losgach (1 *Cor.* v); deallodd hefyd fod y Cristionogion yn Corinth yn arfer ymgyfreithio â'u gilydd, a dwyn eu hachosion i'w penderfynu o flaen brawdleoedd paganaidd (1 *Cor.* vi.); a hysbyswyd iddo fod afreoleidd-dra ac annhrefn mawr wedi ymlusgo i'w cariad-wleddoedd, y rhai a gam-arferent i raddau mor bell, fel nas gallesid eu galw mwyach yn "Swper yr Arglwydd." Y rhai hyn oeddynt gyfeiliornadau eu hymarweddiad: a phrin y gallesid dysgwyl purdeb yn syniadau y cyfryw Gristionogion ar athrawiaeth. A chawn fod rhai yn eu mysg yn gwadu athrawiaeth yr adgyfodiad, yn erbyn pa rai yr ymresymai yn *pen.* xv.

Mae yn eglur fod *amddiffyn ei awdurdod apostolaidd* ei hun yn ngolwg yr apostol yn yr epistol hwn. Nis gellir darllen y bedwaredd a'r nawfed bennod heb weled hyn. Oddi wrth 1 *Cor.* iv. 17—21, a ix. 1, 2, mae yn hawdd gweled fod ei awdurdod a'i apostoliaeth yn cael eu hammheu gan rai o honynt.

Y mae y *lle* yr ysgrifenwyd yr epistol yn cael ei roddi yn 1 *Cor.* xvi. 8; "Mi a arosaf yn Ephesus hyd y Sulgwyn." Mae yn wir y dywedir yn yr ol-ysgrifen mai o Philippi yr anfonwyd yr epistol; ond dygwyddodd y camgymmeriad hwn oddi ar gamddeall 1 *Cor.* xvi. 5; "Canys trwy Macedonia yr wyf yn myned." Y mae yn amlwg

Digitized by Google

i'r darllenydd ystyriol mai adrodd cynllun ei daith fwriadol y mae yr apostol: ac y mae yn llefaru yn yr amser presennol, i ddangos fod y cynllun yn benderfynol ac addfed yn ei feddwl.

Mae y crybwylliad am "aros yn Ephesus hyd y Sulgwyn" yn dangos fod yr apostol, pan yn ysgrifenu, yn bwriadu gadael Ephesus ar ol y Sulgwyn y flwyddyn hono. Ac wrth gyssylltu hyn âg *Act.* xix. a xx, ymddengys ei fod wedi cyflawnu ei fwriad o adael Ephesus oddeutu y Sulgwyn yn y flwyddyn 57: ac felly, ysgrifenwyd yr epistol yn y rhan gyntaf o'r flwyddyn hono.

Ai hwn oedd yr epistol cyntaf a anfonwyd gan yr apostol at y Corinthiaid, sydd gwestiwn ag y teimlir cryn anhawsder i'w benderfynu. Tybia rhai fod yr epistol hwn wedi cael ei flaenori gan epistol arall, sydd yn awr ar goll. "Pe gadewid ni i gasglu yn mlaen llaw," medd Alford, "byddai yn dra thebygol fod epistol wedi ei anfon at y Corinthiaid o flaen yr epistol a elwir genym ni y cyntaf. Ymddengys oddi wrth 1 *Cor.* xvi. 1, fod arnynt eisieu rhyw gyfarwyddiadau o barth i'r dull o wneyd y "casgl i'r saint" tlodion yn Ierusalem. Gallem ninnau ofyn, pa bryd a pha fodd y cawsant eu hannog i'w wneyd? Pe gan yr apostol yn bersonol, wyneb yn wyneb, gofynasid a rhoddasid y cyfarwyddiadau ar yr un pryd. Ymddengys felly fod y gorchymyn i wneuthur y casgliad wedi cael ei anfon iddynt trwy ryw genad neu mewn llythyr."—*Alford's Prolegomena.*

Y gair ag y mae y dybiaeth hon yn cael ei seilio yn benaf arno ydyw, 1 *Cor.* v. 9; ἔγραψα ὑμῖν ἐν τῇ ἐπιστολῇ, κ.τ.λ; y cyfeithiad o'r gair yn y testyn Cymraeg ydyw, "Mi a ysgrifenais atoch mewn llythyr na chydymgymmysgech â godinebwyr." Y mae Dr. Alexander [*Kitto's Cyc.*] yn dadgan ei farn mai yr epistol dan sylw ydyw y cyntaf a anfonodd yr apostol, ac nad oes yn y geiriau hyn un cyfeiriad at ryw epistol arall yn awr ar goll. "Gellir," meddai, "gyfieithu y geiriau hyn (y dyfyniad o'r testyn gwreiddiol) naill ai "yr wyf wedi ysgrifenu atoch yn y llythyr *hwnw;*" neu, "mi a ysgrifenais atoch yn y llythyr *hwnw;*" a dibyna y dewisiad rhwng y ddau ddarlleniad yma mewn rhan ar seiliau gramadegol, ac mewn rhan ar seiliau hanesyddol. Gall y ferf arwyddo naill ai "ysgrifenais," neu "yr wyf wedi ysgrifenu;" felly nis gellir tynu un casgliad oddi wrthi hi. Ammheuir, pa fodd bynag, pa un a fuasai yr apostol yn defnyddio dim ond y fannod τῃ, heb chwanegu πρότερα (cyntaf), pe bwriadasai gyfeirio at epistol blaenorol; tra y mae yn amlwg, pe buasai yr apostol yn cyfeirio at yr epistol presennol, fod yn unol â'i arferiad ddefnyddio y fannod yn yr ystyr o "hwn" [gwel *Col.* iv. 6; 1 *Thes.* v. 27]. I gefnogi y casgliad hwn, medd yr un ysgrifenydd, gellir chwanegu, 1af, Bod yr apostol wedi rhoddi yn yr epistol hwn y gwaharddiad y cyfeiria ato; sef yn yr adnodau sydd o flaen yr adnod sydd dan sylw; ac mai ei amcan yn yr adnodau sydd yn canlyn ydyw egluro y gwaharddiad yn y fath fodd ag i'w rhagflaenu hwy i feddwl ei fod yn golygu rhywbeth yn amgen wrtho nag y dylent hwy beidio cydymgymmysgu *yn yr eglwys* â dynion aflan eu bucheddau. 2il. Pe buasai y cyfryw epistol wedi bod rywbryd, gellid meddwl y buasai rhyw awgrym o barth iddo o fewn cylch cofnodau yr eglwys gyntefig; ond sicrhëir nad oes gymmaint ag un awgrym. Ac ar y cyfrifon hyn y mae Bloomfield, Billroth, Alexander, ac ereill, yn tueddu i feddwl mai yr epistol hwn ydyw y cyntaf mewn gwirionedd a anfonodd Paul at y Corinthiaid.

Y mae Olshausen ac Alford yn gwahaniaethu oddi wrth y beirniaid uchod. Dywed y diweddaf mai yr unig feddwl a all y geiriau arwyddo yn y cyssylltiad y safant ynddo, ydyw—fod y gorchymyn hwn i beidio cydymgymmysgu â godinebwyr yn cael ei gynnwys mewn llythyr arall a anfonwyd atynt, yr hwn ni chadwyd i ni. Dywed y byddai y geiriau εν τῃ επιστολῃ yn chwanegiad diangenrhaid ac anmherthynasol, pe buasai yn meddwl am y llythyr yr oedd yn bresennol yn ei ysgrifenu: defnyddia, yn 2 *Cor.* vii. 8, ymadrodd cyffelyb, yn cyfeirio at yr epistol a elwir y cyntaf. O'r un farn ag Alford y mae Ambrosius, Calvin, Beza, Estius, Grotius, Calovius, Bengel, Wetstein, Mosheim, De Wette, Meyer, ac amryw ereill. Y mae Lightfoot hefyd o'r golygiad hwn, ac yn barnu mai Timotheus a gariodd yr epistol iddynt; ond y mae yn amlwg nas gallasai hyny fod, gan mai ar ol iddynt dderbyn yr epistol a elwir y cyntaf y daeth Timotheus atynt.

"Y mae tybiau yr esbonwyr ar y cwestiwn hwn wedi cael eu dylanwadu yn dra dyeithrol gan syniad blaenorol o'r eiddynt; sef y byddai yn annheg meddwl fod unrhyw lythyr apostolaidd wedi myned ar goll. Ond y mae y rhai sydd yn sylwi, nid ar ddamcaniaethau wedi eu ffurfio yn mlaen llaw, ond ar ffeithiau a chyfatebiadau y pwnc, yn debygol, yn hytrach, o fabwysiadu y casgliad, fod cryn lawer o lythyrau apostolaidd wedi myned ar ddifancoll. Yr Epistol at Philemon, er anghraifft, ydyw yr unig un sydd genym o ddosbarth o lythyrau, y rhai, os cymmerwn dan ystyriaeth duedd serchus yr apostol, ac amledd a hwylusder y drafnidiaeth oedd rhwng y brifddinas a'r taleithiau, oeddynt yn rhwym o fod yn lluosog iawn dros dymmor ei garchariad yn Rhufain. Ni a'i cawn ef hefyd yn mynegu (1 *Cor.* xvi. 3) ei fwriad o roddi llythyrau cymmeradwyol, os byddai angen am danynt, i'r rhai a ddygent y casgliad o Corinth i Ierusalem; ac oddi wrth y bwriad hwn, gallwn gasglu ei fod ar achlysuron ereill yn arfer ysgrifenu y cyfryw lythyrau at bersonau neu at eglwysi. Y mae dychymygu y rhaid fod pob ysgrifen o eiddo apostol ysbrydoledig wedi cael ei gadw i ni yn ddychymyg mor ddisail ag a fyddai meddwl y rhaid fod ei holl ddywediadau wedi cael eu cofnodi. Y mae rhagluniaeth Duw, yr hon sydd wedi cadw a diogelu cynnifer o ranau gwerthfawr o'r naill a'r llall, wedi caniatäu hefyd i lawer o'r naill a'r llall syrthio i ddifancoll."—*Alford's Commentary.*

O barth i amcan ysgrifeniad yr epistol hwn, sydd wedi myned ar goll, bernir ddarfod ei anfon rywbryd rhwng ymadawiad Paul o Corinth (*Act.* xviii. 18), ac anfoniad yr epistol canonaidd cyntaf, sef yr epistol dan sylw. Gellir dyfalu o barth i gynnwysiad y llythyr sydd ar goll oddi wrth amryw hysbysiadau yn y ddau epistol canonaidd. Rhoddes iddynt orchymyn "na chydymgymmysgent â godinebwyr." Y mae yn debygol y cynnwysai hefyd hysbysiad o'i fwriad a'i gynllun o ymweled â hwynt ar ei ffordd i, ac wrth ddychwelyd o, Macedonia (2 *Cor.* i. 15, 16), yr hwn a newidiodd mewn canlyniad i'r hyn a glywsai gan y rhai oedd o dŷ Chloe (1 *Cor.* xvi. 5—7), am yr hwn gyfnewidiad y cyhuddwyd ef o ysgafnder (2 *Cor.* i. 17). Gallem hefyd benderfynu y cynnwysai orchymyn i wneyd casgliad i'r saint

Digitized by Google

tlodion yn Ierusalem. "Mae yn amlwg," medd Alford, "mai llythyr byr ydoedd, heb fod efallai yn cynnwys ond ychydig, os dim, yn chwaneg na'r hysbysiadau a'r gorchymynion uchod, yn cael eu rhoddi, mae yn debygol, yn yr ymadroddion byrion a chynnwysfawr sydd yn dygwydd mor fynych yn llythyrau yr apostol."

Ymddengys oddi wrth 2 *Cor.* xii. 14, a xiii, 1, yn cael eu cymharu â 2 *Cor.* xii. 1, a xiii. 2, fod yr apostol, yn flaenorol i anfoniad yr epistol hwnw (yr ail) wedi ymweled â Chorinth *ddwywaith*, a bod un o'r ymweliadau wedi cymmeryd lle pan oedd yr eglwys wedi syrthio i sefyllfa flinderus; pe amgen ni buasai yn ei ddysgrifio fel un wedi ei wneyd "mewn tristwch" (2 *Cor.* ii. 1), a bod yr "Arglwydd wedi ei ddarostwng yn eu plith" (2 *Cor.* xii. 21) ar yr ymweliad hwnw. Gallwn weled hefyd, oddi wrth 2 *Cor.* i. 15, 16, 23, na bu yr apostol yn Corinth rhwng ysgrifeniad yr epistol cyntaf a'r ail; felly y mae yn rhaid i ni osod ei ail ymweliad â'r ddinas cyn anfoniad yr epistol cyntaf. Pa bryd y cymmerodd yr ail ymweliad hwn le, nis gallwn ddyfod i nemawr o sicrwydd. Barna Billroth mai rywbryd yn ystod arosiad Paul am dair blynedd yn Ephesus y gwnaed hi; a thybir fod y farn hon yn bur debygol.

Gellir dosbarthu yr epistol cyntaf yn bedair adran: y cyntaf yn cyrhaedd o *pen.* i. 1, i iv. 21; yr ail, o *pen.* v. 1, i xi. 1; y drydedd, o *pen.* xi. 2, i xix. 40; a'r bedwaredd, o xv. 1, i xvi. 24.

Yn yr adran gyntaf, crybwylla yr apostol am yr achos iddo ysgrifenu—ymraniad yr eglwys yn amryw bleidiau; a rhybuddia yn erbyn meddwl yn rhy uchel am ddoethineb y byd hwn, am fod pob gwir ddoethineb yn cyfarfod yn nghroes Iesu Grist (1 *Cor.* i. 1—31). Mae yr apostol yn ganlynol yn myned yn mlaen gyda'r un mater, gan ddywedyd na phregethodd iddynt neb ond Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, fel ffynnonell ddihysbydd perffaith ddoethineb: ond y dyn ysbrydol yn unig, nid y dyn anianol, sydd yn alluog i ddirnad, gweled, a theimlo ei ogoniant a'i ragoriaeth (1 *Cor.* ii. 1—16). Yna dengys mai un o achosion eu cyfeiliornadau oedd fod y "dyn"—yr ansawdd "ysbrydol"—wedi cynnyddu mor lleied ynddynt; eu bod yn ymlynu nid wrth Grist ei hun, ond wrth yr offerynau dynol a ddefnyddiai efe, a'u bod o herwydd hyny mewn perygl mawr o adeiladu ar sylfaen sigledig (1 *Cor.* iii. 1—23). Teimlai yr apostol ei hun mor sicr am ei alwad apostolaidd, fel nad effeithiai barn dyn ddim arno; ac edrychai ar y dyoddefladau yr äi danynt yn dystiolaethau o'i blaid: am hyny y mae yn dymuno ar y Cristionogion yn Corinth na lithrent at un gyfundrefn wrthwyneb i'r hon a bregethasai efe, eu tad yn Nghrist, iddynt.

Yn yr *ail adran* (1 *Cor.* v. 1, hyd xi. 1), yr hon sydd yn ymdrin âg amgylchiadau neilldiol amryw bersonau, y mae yr apostol yn gyntaf yn annog y Corinthiaid i fwrw allan y dyn godinebus o'u plith; ac ar yr un pryd y mae yn deffinio yn fwy amlwg y gorchymyn hwnw a roddasai iddynt yn yr epistol sydd ar goll, i beidio "cydymgymmysgu â godinebwyr;" 1 *Cor.* v. 1—13. Y mae yn nesaf yn rhoddi cyfarwyddiadau i'r Cristionogion o barth penderfyniad eu dadleuon: ystyria ei fod yn ymddygiad anweddaidd ynddynt i ddwyn eu hachosion o flaen brawdlysoedd y paganiaid; ond yn ebrwydd dychwela at berthynas y ddau ryw â'u gilydd, a chadarnhâ mai un o amcanion uchaf y prynedigaeth a Christionogaeth ydyw sancteiddiad y corff, oddi ar lendid moesol yr enaid, i fod yn deml i'r Ysbryd Glân (1 *Cor.* vi. 1—20). Yna dygir yn mlaen amrywiol amgylchiadau perthynol i'r sefyllfa briodasol a sefyllfa sengl (1 *Cor.* vii. 1—40), a therfyna trwy roddi cyfarwyddiadau o barth rhyddid Cristionogol, gyda chyfeiriad pendant at fwydydd wedi eu haberthu i eilunod. Dyga yn mlaen ei ddull ei hun o fyw fel esampl i'r Corinthiaid o'i waith yn cyfyngu arno ei hun yn yr ymarferiad o'i ryddid; ac arddengys y canlyniadau niweidiol oddi wrth y camarferiad o'i ryddid, yn hanes yr Israeliaid yn yr anialwch (1 *Cor.* viii. 1, hyd xi. 1).

Yn y *drydedd adran* (1 *Cor.* xi. 2, hyd xiv. 40) ymdrinir o barth cyssylltiadau cyhoeddus Cristionogion,—eu hymarferiadau yn eu cydgynnulliadau: ac y mae yr apostol, yn gyntaf, yn rhoddi cyfarwyddiadau yn nghylch ymddangosiad gwrywod a benywod yn eu cyfarfodydd (1 *Cor.* xi. 1—16): ond yn bendifaddeu, yn nghylch ymarferiad teilwng â'r sacrament, yn yr hyn yr oedd y Corinthiaid yn dra diffygiol (1 *Cor.* xi. 17—34). Yn ganlynol, y mae yn ymdrin o barth "ysbrydol ddoniau," y rhai, fel yr ymddengys, a ddeuent i'r golwg yn Corinth dan y ffurflau mwyaf amrywiol, ac a arferid mewn graddau anmherthynol i'w hamcan. Rhydd yr apostol i lawr fel prif reol, y rhaid fod yr holl ddoniau sydd yn deilliaw oddi wrth "yr un a'r unrhyw Ysbryd" i gael eu defnyddio i un dyben mawr, sef adeiladaeth yr holl gorff (1 *Cor.* xii. 1—31). Yna y mae yr apostol yn argymhell meithriniad cariad Cristionogol fel yn rhagori mewn gwerth ar yr holl ddoniau; gan fod y diweddaf yn gwbl ddiwerth ac ofer heb y cyntaf. Yna dysgrifia yr apostol natur y cariad hwn yn y modd mwyaf bywiog a tharawiadol, gan ei restru gyda ffydd a gobaith—y tri gras mwyaf a phenaf (1 *Cor.* xiii. 1—13). Yn ddiweddaf, y mae yr apostol yn ymhelaethu ar y gwir ddefnyddiad o ddoniau, tafodau, a phrophwydoliaeth, gan ddangos fod y ddau gyntaf, ar gyfrif eu natur, yn gofyn gofal a gwyliadwriaeth wrth eu harfer, tra yr oedd ansawdd y ddawn ddiweddaf yn attalfa ar ffordd y camddefnyddiad o honi (1 *Cor.* xiv. 1—40).

Yn y *bedwaredd adran* (1 *Cor.* xv. 1, hyd xvi. 24), llefara yr apostol ar athrawiaeth fawr adgyfodiad y corff. Dengys wirioneddoldeb adgyfodiad y corff, yn ei gyssylltiad â hanfodiad y ffydd Gristionogol; a diwedda yr epistol trwy erfyn am gynnorthwy i'r saint tlodion yn Ierusalem, a chydag amryw annogaethau a bendithion.

Yr epistol hwn ydyw y mwyaf amrywiol yn ei gynnwysiad o holl epistolau Paul: ac y mae dyddordeb y llythyr i ninnau yn gyfatebol i amrywiaeth mawr y materion a drinir ynddo. Yr ydym drwyddo yn cael ein harwain, megys, y tu fewn i'r llen yn yr eglwys apostolaidd, ac y mae ei nodweddau mwyaf manwl yn cael eu hegluro i ni yn ngoleuni bywyd cyffredin. Yr ydym yn gweled darlun o gynnulleidfa Gristionogol, fel yr ymgynnullai i addoli mewn rhyw oruchystafell, y cyfryw ystafell ag oedd efallai yn nhŷ Acwila neu Gaius. Yr ydym yn gweled nad oedd yr adegau hyn a gyssegrid i ddefosiwn yn dianc heb gael eu hanmhuro âg oferedd a chynhyrfiadau dynol: eto, ar y llaw arall, yr ydym yn gweled y pagan fyddai yn bresennol—"y digred neu yr annysgedig"—yn cael ei drywanu yn ei galon a'i lwyr orchfygu, gan ddylanwad areithyddiaeth uchel y prophwydi ysbrydoledig; mae dirgelion ei galon yn cael eu dadguddio iddo, nes y mae yn syrthio ar ei wyneb, gan addoli Duw. Yr ydym

Digitized by Google

yn clywed y talu diolch gwresog yn cael ei adsain gan yr Amen unfrydol: yr ydym yn gweled y gariad-wledd yn cael ei therfynu gan weinyddiad y swper sanctaidd. Yr ydym hefyd yn ymgydnabyddu â phethau dyrus bywyd teuluaidd, dylanwad niweidiol llygredigaethau y paganiaid, yr ofergoelion heb lwyr farw, y duedd i wneyd damcaniaethau yn fyrbwyll, a'r llygriad ar ryddid Cristionogol. Yr ydym hefyd yn gweled aruthredd gwaith yr apostol—yn arwain, trwy gynnifer o beryglon ac anhawsderau, ei blant yn y ffydd.

O ran *arddull*, y mae yr epistol hwn yn cael ei ystyried yn rhagori ar yr epistolau oll mewn addurniant; y mae y dysgrifiad o symledd yr efengyl yn *pen.* ii. hyd ddiwedd *pen.* iii; y sylwadau ar fyrder yr amser yn *pen.* vii. 29—31; a'r holl ymresymiad yn *pen.* xv. yn cael eu hystyried yn rhanau nad oes dim yn yr Ysgrythyrau yn rhagori arnynt: tra y mae y folawd i gariad, (*pen.* xiii.) yr "emwaith aur," y casgliad arddechocaf o feddyliau prydferth mewn iaith dlos yn yr holl fyd. Y mae nodwedd o fawredd ac edmygedd dyrchafedig oddeutu yr holl epistol. Nid oes un o'r epistolau yn dwyn yr ysgrifenydd ger ein bron yn amrywiaeth rhyfeddol ei ddoniau yn gymmaint a'r epistol hwn. Y mae dyfnderoedd y byd ysbrydol, y moesol, y deallawl, a'r naturiol, yn agored o flaen ei lygaid. Galwa gyfatebion natur i'w gynnorthwyo—gesyd hwy dan deyrnged i'w ddoniau. Ymwthia i mewn ac edrycha yn fanwl i holl amrywiaethau gwendidau a rhagfarnau y natur ddynol: tyna rybuddion difrifol oddi wrth hanes pobl ddewisol Duw yn yr oesoedd o'r blaen: cymmer esampl neu anghraifft oddi wrth y rhedegfeydd Groegaidd. Y mae yn dwyn cwestiwn o ymwisgiad, a ymddangosai yn ddibwys, i'w benderfynu at weddeidd-derau a chyssylltiadau mawrion cyntaf creadigaeth a phrynedigaeth. Y mae yn canmawl, yn ceryddu, yn annog, ac yn addysgu. Pan yn taro ac yn clwyfo, y mae yn meddyginiaethu. Pan wedi tristäu rhyw un, tristâ yr un modd ei hun. Gallwn, felly, ffurfio rhyw syniad oddi wrth yr epistol hwn yn well nag oddi wrth un arall, am ei fod yn cymmeryd i mewn nifer mwy o faterion, y fath nerth rhyfeddol oedd gan y fath ddyn i berswadio, i geryddu, ac i ennill a chadwyno serchiadau dynion.

YR AIL EPISTOL.

O holl epistolau Paul, nid oes un mor bersonol yn yr achlysur o hono, ac yn ei gynnwysiad ag ydyw hwn. Ac fel canlyniad, nid oes un yn profi ei awduriaeth fel yr eiddo Paul yn fwy amlwg na hwn. Mae yn dwyn cyssylltiad anwahanol â'r epistol cyntaf, yn helaethiad ar y cyffelyb faterion, ac yn gwahaniaethu oddi wrtho yn ol fel yr oedd yr amgylchiadau a ddygwyddasant ar ol anfoniad y cyntaf yn effeithio ar feddwl yr ysgrifenydd. Fel y mae yr epistol cyntaf yn rhagdybied "sefyllfa yr eglwys yn Corinth," felly y mae yr ail yn cyfeirio at "effeithiau yr epistol cyntaf." Y mae Irenæus [*Haer.* iii. 7, 1], Athenagoras [*De Resur. Mort.*], Clement o Alexandria [*Stromata*], a Tertullian [*De Pudicitia, cap.* 13] yn dwyn tystiolaethau i ddilysrwydd yr epistol.

Ar amser ysgrifeniad yr epistol, yr oedd Paul newydd adael Asia (2 *Cor.* i. 8); daeth i Troas (2 *Cor.* ii. 12); ac oddi yno mordwyodd i Macedonia. Dysgwyliai gyfarfod â Titus yn Troas (2 *Cor.* ii. 13), a chael ganddo hysbysrwydd o barth yr effaith a gynnyrchodd ei epistol cyntaf ar feddyliau y Corinthiaid. Siomwyd ef yn hyn (2 *Cor.* ii. 13), ond cyfarfu âg ef yn Macedonia (2 *Cor.* vii. 5, 6). Yr oedd yr hysbysrwydd a gafodd gan Titus, er nad yn hollol, eto ar y cyfan, yn ddymunol. Parodd ymliwiadau a cheryddon yr apostol i'r dosbarth goreu yn yr eglwys ymostwng ac edifarhau: gweithiwyd ynddynt "dduwiol dristwch;" ond parodd y ceryddon hyny i'w wrthwynebwyr chwerwi yn fwy nag o'r blaen. Dymunai yntau fynegu iddynt y cysur a deimlai wrth glywed am eu hymostyngiad; ac ar yr un pryd, amddiffyn ei awdurdod a'i gymhwysderau fel apostol, a'i gymmeriad personol fel dyn a Christion yn ngwyneb ei wrthwynebwyr, y rhai a geisient ei ddarostwng a'i warthruddo yn y naill a'r llall. O dan yr amgylchiadau, a chyda'r amcanion hyn, yr ysgrifenodd yr ail epistol atynt; ac anfonodd ef iddynt i geisio darostwng ucheldrem ei elynion, fel y gallai arbed y "toster" angenrheidiol, os byddent yn parhau yn eu drygnaws a'u malais, hyd pan ddeuai yn bersonol atynt (2 *Cor.* xiii. 10).

Nid ydys yn gwbl benderfynol o barth i'r *lle* yr ysgrifenwyd yr epistol o hono. Dywed yr olysgrifen mai o "Philippi yn Macedonia" yr anfonwyd ef. Ond dywed Alford, ac amryw o'r esbonwyr, fod y dybiaeth hon yn annhebygol. Hysbysa i'r Corinthiaid (2 *Cor.* viii. 1) am y "gras Duw yn eglwysi Macedonia," yr hwn a ddangosai ei hun mewn cydymdeimlad â'r saint tlodion yn Ierusalem; a phrin y gellir meddwl y buasai yn gwneyd y cyfryw hysbysiad, pe buasai wedi ymsefydlu hyd yma yn Philippi, yr hon oedd y gyntaf o'r eglwysi oedd ar ei ffordd o Asia. Nis gallwn, efallai, gael mwy o sicrwydd am y lle yr anfonwyd yr epistol o hono, nag mai o ryw barth o Macedonia y gwnaed; a mwy tebyg mai o'r eglwys ddiweddaf yr ymwelodd â hi nag o'r gyntaf.

Mae yr epistol hwn yn dair rhan; y gyntaf yn cyrhaedd o *pen.* i. 1, hyd iii. 18; yr ail o *pen.* iv. 1, hyd ix. 15; a'r drydedd o x. 1, hyd xiii. 13. Yn y rhan gyntaf dechreua yr apostol trwy fynegu iddynt y cysur a deimlodd yn ei orthrymder (*pen.* i. 1—24). Yna y mae yn erchi iddynt dderbyn y dyn a esgymunasid, ar ei edifeirwch (*pen.* ii. 1—17). Yn ganlynol, llefara am ei gyssylltiad ei hun â'r Corinthiaid, a gwna gymhariaeth rhwng gweinidogaeth yr Hen Destament a gweinidogaeth y Newydd, yn yr hon y mae yn profi rhagoriaeth y ddiweddaf (*pen.* iii. 1—18).

Yn yr ail ran, dysgrifia ei fuchedd a'i lafur fel gweinidog y cymmod (*pen.* iv. 1—18), a thyna gysur yn yr holl orthrymderau a'r peryglon a gyfodent oddi wrth gyflawniad ei swydd, oddi wrth y grediniaeth yn adgyfodiad y corff, a'i "arwisgo â'r tŷ sydd o'r nef" (*pen.* v. 1—21). Oddi ar y dysgwyliad am y gogoneddiad hwn, sydd yn "dra rhagorol," ac yn gwneyd blinderau y presennol yn fychain ac ysgeifn mewn cymhariaeth iddo, annoga yr apostol y Cristionogion i wadu y byd a'i drachwantau, ac i ymgyflwyno yn gyfangwbl i'r Arglwydd (*pen.* vi. 1—vii. 1). Yna rhydd gymhelliadau helaeth i haelioni tu ag at y saint tlodion yn Ierusalem.

Yn y drydedd ran, y mae yr apostol yn cyfarfod y gau ddysgawdwyr, ac yn amddiffyn ei apostoliaeth yn ngwyneb eu hymosodiadau (*pen.* x. 1—18). Dwg yn mlaen ei ddyoddefiadau a'i ymdrechion fel prawf ei fod wedi llafurio mwy, a gwneyd mwy o ddaioni, gydag achos ei Feistr na'r athrawon maleisus hyny, a restrent eu hunain yn mhlith apostolion Crist (*pen.* xi. 1—33). Dwg ar gof yr esamplau neillduol hyny o ffafr a

Digitized by Google

roddes yr Arglwydd iddo, fel prawf ei fod yn sefyll yn ngras yr apostoliaeth; ond chwanega, yr ewyllysiai yn hytrach ymflrostio yn ei wendid, "fel y preswyliai nerth Crist ynddo." Yr oedd ganddo felly hawl i ystyried ei hun yn mhlith yr apostolion penaf; a gorchymyna i'r Corinthiaid gydnabod ei awdurdod, yr hwn a dderbyniodd oddi wrth yr Arglwydd Iesu ei hun. Diwedda yr epistol gydag annogaethau i edifeirwch, cariad, undeb, a thangnefedd, a'r fendith apostolaidd.

Y mae rhai beirniaid wedi ceisio taflu ammheuon o barth unoliaeth yr epistol. Tybir fod ynddo adroddiadau gwrthwyneb yn nghylch Titus. Yn *pen.* viii. 23, 24, gofyna yr apostol am iddynt roddi derbyniad cariadus iddo: ac yn *pen.* xii. 18, gofyna, "A elwodd Titus ddim arnoch? onid yn yr Ysbryd y rhodiasom? onid yn yr un llwybrau?" Ond y mae yr anhawsder yna yn diflanu wrth gofio y buasai Titus o'r blaen yn Corinth; ac at yr ymweliad hwn y cyfeiria y geiriau yn *pen.* xii. 18. Ac y mae yr apostol, yn *pen.* viii. 23, 24, yn erchi iddynt ei groesawu eto, pan gyrhaeddai yno gyda yr epistol hwn. Gwrthddadleuir hefyd yn erbyn unoliaeth yr epistol, am fod tôn ac ysbryd gwahanol yn ei ddechreu a'i ddiwedd. Ar y cyntaf y mae yr apostol yn arfer iaith dyner a chymmeradwyol; ond wrth fyned yn maen, y mae yn dyfod yn fwy llym a bygythiol. Ond y mae hyn drachefn yn ymddangos yn dra phlentynaidd, wrth gofio fod gan yr apostol ddosbeirth gwahanol o flaen ei feddwl wrth ysgrifenu Llefara yn y rhan gyntaf am gorff yr eglwys yn Corinth, y rhai a ddangosasant ymostyngiad i awdurdod yr apostol, ac a wnaethant yn ol ei gyfarwyddiadau; ond yn y rhan ddiweddaf, cyfeiria at y rhai a wrthsafent ei awdurdod, ac a barhaent i waradwyddo ei gymmeriad.

Mae rhai o'r beirniaid Ellmynaidd, ac yn eu plith Eichhorn ac Emmerling, wedi cymmeryd arnynt y gorchwyl o chwilio am feiau yn iaith ac arddull yr epistol dan sylw. Haerant fod y dull o ysgrifenu "yn arw, anghoeth, tywyll, ac anghyssylltiol," &c. Ond ystyrir yn gyffredin fod y feirniadaeth hon yn dra annheg. Mae yn wir nad yw yr arddull mor lefn a thyner ag eiddo yr epistol cyntaf: ond y mae yn ammhëus a ydyw, wrth edrych arno drwyddo, yn is na'r arddull yn yr epistolau ereill. Y mae, fodd bynag, yn ddrych o feddwl yr apostol pan yn ysgrifenu. Mae rhywbeth arbenig yn yr holl gyfansoddiad; ond, fel y sylwa Dr. Davidson, y mae hyny yn hawdd rhoddi cyfrif am dano, wrth feddwl am y prysurdeb mawr â'r hwn yr ysgrifenwyd yr epistol, gan fod yr apostol ar y pryd yn teithio o fan i fan yn Macedonia, ac yn enwedig wrth feddwl am y teimladau dwysion oedd yn ymgynhyrfu yn ei fynwes ar yr adeg hon. Ond efallai na ddylid priodoli ond gradd fechan o ddylanwad i amgylchiadau fel hyn. I arddangos ei deimladau ei hun, i osod allan feddwl yr Ysbryd, i gyrhaedd yr amcan mwyaf uniongyrchol oedd yn ei olwg, y mae y rhan hon o'r gair dwyfol âg argraff perffeithrwydd arni, fel yr holl ranau ereill. O barth i ddullwedd yr epistol, dywed Dr. Alford, "Nid yw y materion a'r iaith mor amrywiol, ac yn cyfnewid mor ddisymwth o un cymmeriad i'r llall, yn un epistol ag yn hwn. Y mae cysur a cherydd, tynerwch a llymdostedd, difrifwch a gwatwareg, yn dilyn y naill y llall yn gyflym a dirybudd." Sylwa Meyer hefyd, "Y mae cynhyrfiad a chyfnewidiad y teimladau, ac efallai hefyd y brys yr oedd Paul yndde wr h ysgrifenu yr epistol hwn, yn peri fod y geiriau yn fynych yn aneglur, a'r cyfansoddiad yn anhawdd i'w ddeall; ond gwasanaethant i fwyhau ein syndod at ledneisrwydd, hyfedredd, a nerth areithyddol yr apostol, yn y rhai y mae ei ysbryd yn ymarllwys, ac yn gorlifo rhagddo, nes o'r diwedd y mae tonau ei hyawdledd yn gorchuddio gwrthwynebiadau ei elynion."

Dau lythyr Clement at y Corinthiaid ydyw yr unig foddion sydd genym i ffurfio barn am ansawdd yr eglwys hon am y tri chan mlynedd canlynol i ysgrifeniad llythyrau Paul. Gwel CLEMENT O ALEXANDRIA.—(*Macknight's Translations of the Epistles; Calvin's Commentary; Alford's Greek Testament; Olshausen's Biblical Commentary; Davidson's Introduction; Kitto's Bib. Cyc.*)

CORIOLANUS, CNÆUS (neu CAIUS) MARTIUS: gwron un o chwedleuon prydferthaf Rhufain henafol. Tybiwyd, mewn oesoedd diweddar, iddo dderbyn y cyfenw *Coriolanus* fel teitl a ennillodd drwy gymmeryd y ddinas Volsciaidd, a elwid Corioli, mewn rhyfel; ond y peth tebycaf yw, iddo etifeddu y cyfryw adenw fel y tarddodd llu o gyfenwau Rhufeinig ereill, megys Sabinus, Auruncus, Viscellius, &c.; y rhai a ddangosant o ba le y dechreuodd y teulu, a dim mwy.

Tybia Niebühr, fod chwedl Coriolanus mor farddonol a rheithoraidd, fel y dylid ei chau allan o gylch hanesiaeth. Gyda golwg ar orchfygiad Corioli, dywedir bod Coriolanus yn y gwersyll Rhufeinig, pan oedd y consul Cominius yn gwarchae ar y ddinas. Y gwarchaëedig a wnaethant ymwthiad grymus allan, ac a gurasant y Rhufeiniaid yn ol i'w gwersyll; ond Coriolanus a droes fyddin y gwarchaewyr i ailymosodiad—rhuthrodd i mewn yn sydyn drwy y pyrth, a chymmerodd y dref. Yn y cyfamser, daeth yr Antiatiaid i gynnorthwyo y ddinas; a phan oeddynt yn ymosod ar fyddin Cominius, dechreuodd Coriolanus y frwydr, ac a'u llwyr orchfygodd. O hyny allan, ennillodd enw fel rhyfelwr dewrwych; ond ei ymddygiad balch a'i gwnaeth yn anghymmeradwy gyda'r cyffredin; a phan ymgeisodd am y pen-llywyddiaeth neu gonsuliaeth, gwrthodwyd ef, a bu hyny yn achos o ddigofaint anghymmodol ar ei ran ef. Wedi hyn, bu newyn tost yn Rhufain; a phan ddygwyd ŷd o'r diwedd o Sicily (peth drwy bryniad, a pheth yn rhodd oddi wrth un o dywysogion Groeg), cododd dadl yn y seuedd, pa un a werthid neu a renid yr ymborth am ddim i'r werin. Cynghorodd Coriolanus i'r cwbl gael ei werthu. Ennynodd hyn gynddaredd y bobl dlodion; a mynasent dynu y cynghorwr calon-galed yn ddarnau, oni buasai i'r brawdwyr, neu ynadon, ei wysio i sefyll ei brawf am y weithred hon. Alltudiwyd ef o'r wlad, ac ymgiliodd i Antium, pen tref y Volsciaid; lle y darfu i'r brenin, Attius Tullius, ei dderbyn yn llettygar iawn. Yna addawodd Coriolanus ei gynnorthwy i'r bobl hyn, yn y rhyfel oedd rhyngddynt â'r Rhufeiniaid; hwythau a roddasant iddo y swyddau mwyaf anrhydeddus yn y wladwriaeth, ac a'i penodasant yn gadfridog. Yntau, yn falch iawn o'r anrhydedd a gawsai, ac o'r cyfle i ddangos ei dalentau milwraidd i wneyd cydnabyddiaeth o'i ddiolchgarwch i'r Volsciaid, ac ymddiial ar y Rhufeiniaid, a ymosododd ar, ac a gymmerodd lawer o ddinasoedd; yn mhlith ereill,

Digitized by Google

Circeii, Satricum, Longula, a Lavinium. Yna ymdeithiodd tua Rhufain; a gwersyllodd yn Fossa Cluilia, neu Ftos Clawdd Clwylia, neu Cloelia, o fewn ychydig filltiroedd i'r ddinas; o'r lle y mynegodd y telerau ar ba rai yr oedd y Rhufeiniaid i brynu heddwch. Yn mhlith ammodau ereill, mynai iddynt roddi yn ol yr holl dir a ennillasent oddi ar y Volsciaid, galw yn ol y trefedigaethau a sefydlasid yn eu gwlad, a bod i'r holl bobl gael eu derbyn fel cynghreirwyr a dinasyddion gyda'r un iawnderau a'r Rhufeiniaid; a bod i bawb oedd wedi ymrestru dan ei faner ef gael eu hadferu gydag ef i'w breintiau gwladol a dinasol. Rhoddodd iddynt yr hyn a fynent—naill ai tridiau, neu ddeng niwrnod ar ugain, i wneyd i fyny eu meddyliau. Yn mhen y deng niwrnod ar ugain, daeth cenadwriaeth, gynnwysedig o bedwar o'r prif seneddwyr, o flaen ei fainc; a gyrwyd hwynt ymaith gyda bygythion na wnai ddim ei foddloni ond cwbl ymostyngiad. Yr ail ddiwrnod, daeth corff o offeiriaid a daroganwyr, yn eu gwisgoedd swyddol, i ymbil âg ef; ond yn ofer. Y trydydd, a'r diwrnod olaf a ganiataodd iddynt—cyn gorchymyn i'w fyddin gymmeryd a dinystrio y ddinas—meddyliasant am un ddyfais arall, yr hon a lwyddodd. Daeth y gwragedd mwyaf pendefigaidd yn y ddinas—yn cael eu harwain gan Veturia, mam Coriolanus, gyda Volumnia ei wraig, â'i dau blentyn bach yn ei llaw—at ei babell, ac ymostyngasant gydag wylofain. Effeithiodd eu hymbiliau ar ei galon gyndyn, a thorodd i wylo yn hidl, gan ddyweyd wrth ei fam,—"Cymmer dy wlad yn fy lle i, gan mai hyn yr wyt yn ei ddewis." Ymadawodd y genadwriaeth — dadfyddinodd yntau ei lu—ymadawodd, a bu fyw yn mysg y Volsciaid hyd henaint teg. Ond dywed ereill iddo gael ei lofruddio gan y Volsciaid, yn eu digrofaint am iddo roddi i fyny yr ymosodiad ar Rufain.

Ar ol ei farwolaeth, pa fodd bynag, aeth merched Rhufain i'w galarwisgoedd, fel yr arferent am wroniaid gynt. Dangoswyd hefyd ddiolchgarwch cyhoeddus am wasanaeth gwladgarol ei wraig, drwy godi teml i'r dduwies Fortuna. Mae Shakspeare wedi seilio ei chwareudraith, *Coriolanus*, ar y chwedl hon. — (*Dionysius Halicarnassensis*, viii; *Plutarch's Life of Coriolanus; Livius*, ii. 33 — 40; *Florus*, i. 11; *Niebuhr's Hist. of Rome*, cyf. ii. td. 234—243.

CORLAN: lle i gau defaid a diadellau o anifeiliaid doflon i mewn, er diogelwch; lloches a gorphwysdra yn y nos, ac ar amserau ereill. Fel y mae *llan*, yn yr ystyr o le cauedig, wedi myned allan o arferiad oddigerth fel terfyniad cyfansawdd y geiriau *gwinllan*, *perllan*, *ydlan*, *corlan*, &c.; felly y mae *cor*, am ddafad, wedi myned ar hollol ddifancoll, yn y Gymraeg; ond y mae ar gael yn y Wyddelaeg. Yn ngwledydd bugeiliol y dwyrain, lle y mae cynnifer o fwystflod ysglyfaethus, y mae corlanau o'r gwasanaeth mwyaf. Yn iaith brydferth, gyffelybiaethol, dra-arwyddocaol yr Ysgrythyrau, y mae plant dynion, a phobl Dduw yn neilldiol, yn myned yn barhäus dan yr enw defaid; o blegid perchenogaeth Duw ydynt, a'i ofal gwastadol am danynt; yn gystal a'u bod hwythau, fel defaid, yn greaduriaid gwirion, annarbodus, crwydrol, a diamddiffyn. Yn yr olwg yma, dysgrifir eglwys Dduw fel corlan Crist,—"Bugail ac Esgob eneidiau;" lle y mae y rhai a "fu golledig ac a gafwyd," yn cael diogelwch a chynnaliaeth ysbrydol, mewn cymdeithas a chymundeb sanctaidd â'u gilydd, ac â Duw yn Nghrist; lle y mae ei ordinhadau a'i gyfreithiau yn gylch eu rhodiad, a'i gariad yn fur o dân o'u hamgylch. "A defaid ereill sydd genyf," medd Crist, "y rhai nid ynt o'r *gorlan hon*"—sef y Cenedloedd: y rhai yr oedd "canol-fur y gwahaniaeth," yr oruchwyliaeth Fosenaidd, yn eu cau allan o'r gorlan Iuddewig—"y rhai hyny hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, fel y byddo un gorlan, ac un bugail."

CORN, CORNUCOPIA, [Llad. *cornu;* Ff. *corne*]: sylwedd anifeilaidd, gwydn, hanner tryloew; yr hwn y gellir ei dori a'i wasgu i wahanol ffurflau, ac felly yn gwahaniaethu oddi wrth asgwrn. Defnyddir ef i lawer o amcanion; ond yn benaf i wneyd blychau a chribau, carnau cyllyll a ffyrch, cwpanau yfed, botymau, &c.; ac weithiau holltir ef yn lleiniau, ac yn y ffurf hwnw defnyddir ef yn lle gwydr i lusernau, &c.

Cyrn anifeiliaid, a roddwyd iddynt er harddwch a chryfder; a defnyddiant hwy fel arfau ymosodol ac amddiffynol. Arferir corn, a chyrn, yn fynych iawn yn iaith ffugrol a barddonol yr Ysgrythyrau, i arwyddo nerth, gallu, goruchafiaeth, urddas, llywodraeth, llwyddiant, balchder, ymffrost, trais, creulondeb, &c.; *Dan.* viii. 5, 6—9; 1 *Sam.* xvi. 1, 13; 1 *Bren.* i. 39; *Ios.* vi. 5; 1 *Sam.* ii. 2; *Salm* lxxv. 4, 5; *Ier.* xlviii. 25; *Ezec.* xxix. 31; ac yn y cyfleithiad Seisonig, a'r Vulgate, &c. yn *Amos* vi. 13. "Halogi y corn yn y llwch" (*Iob* xvi. 15), a arwydda ymostyngiad, ymddiraddiad, hunan-ffieiddiad, &c.; ac i'r gwrthwyneb, "dyrchafu y corn," a arwyddocâ ymddyrchafiad, goruchafiaeth, ymfalchïad, &c. "Corn yr annuwiol,"—ei falchder, ei wagymffrost, ei draha, ei drais, a'i ryfyg. Yn Mhrophwydoliaeth Daniel, a Llyfr y Dadguddiad, defnyddir *corn* yn fynych i arwyddo llywodraethau ac awdurdodau, breniniaethau a galluoedd.

Yn y Dwyrain, gwisgir corn yn addurn ar y pen, fel arwydd o radd uchel. Yn mysg y *Druses*—pobl a breswyliant fynydd Libanus a'r dyffryndir — y mae merched yn gwisgo corn arian hir ar eu penau, fel arwydd anrhydeddus gwreigdod.

Dar. 195.

Fel hyn daeth i arwyddo llanerch o dir dyrchafedig neu fryn, megys yn *Esa.* v. 1, lle y mae "bryn tra ffrwythlawn" yn cael ei roddi fel cyfleithiad eglurhaol o "gorn mab olew," yn y gwreiddiol. Felly hefyd yn y Vulgate,—"*In cornu filio olei;*" sef corn yr eneiniog, bryn yr eneiniog, mynydd Seion, teyrngadair Dafydd,

Digitized by Google

sedd llywodraeth Iudah; yn ysbrydol, eglwys Dduw. Yn Switzerland, rhoddir yr enw corn i fynyddoedd, megys *Schreckhorn*, *Buckhorn*, &c; a Chyrn y bwch hefyd yn Nghymru.

Yr oedd, hefyd, o dan y gyfraith Lefiaidd, bedwar corn i'r allor, y rhai a arwyddent bedwar pwynt y nefoedd, a phedwar cŵr byd, ond odid; sef ei bod yn gyssegredig i wasanaeth Arglwydd Hollalluog nef a daiar; er y tybia rhai, oddi wrth *Salm* cxviii. 27, mai eu hunig ddyben oedd i rwymo yr aberth wrthynt. Ond haera Winer, nas gallasent wasanaethu y cyfryw berwyl: ac yn wir, yr oedd cyrn yr un modd i allor yr arogldarth, tra yr oedd gwaith yr offeiriad yn coluro â'i fys gyrn yr allor â gwaed yr aberth, yn arwyddo rhyw beth cyfriniol neu ysbrydol. Ac heb law hyny, nid oedd cyfraith Moses yn goddef aberthu anifeiliaid byw; yr oedd yn rhaid eu lladd yn gyntaf. Rhaid, gan hyny, fod iaith y Salmydd yn arwyddo aberth mor fawr, fel na safai ar yr allor heb ei rwymo â rhaffau wrth ei chyrn; neu, yr hyn sydd debycach, ei fod yn ein haddysgu pa mor aiddgar y dylai ein haddoliad fod, drwy gyfeiriad dealladwy at seremoniau cenedloedd paganaidd, a arferent losgi eu hebyrth yn fyw; fel y mae apostol mawr y cenedloedd yn gwneyd cyfeiriad amlycach, lle y mae yn gorchymyn i ni gyflwyno, mewn ystyr foesol, ein cyrff yn "aberth byw, sanctaidd, cymmeradwy gan Dduw; yr hyn," medd efe, "yw eich rhesymol wasanaeth (addoliad) chwi;" tra nad oedd y defosiwn creulawn paganaidd y cymmerir addysg oddi wrtho ond peth gwallgof ac annynol. Wrth gymmeryd nodded y cyssegr rhag cael ei roddi i farwolaeth, gafaelai yr hwn y diofrydid ei fywyd yn nghyrn yr allor: 1 *Bren.* i. 50; ii. 28.

Defnyddir y gair *cyrn*, hefyd, am belydrau goleuni, tywyniad, dysgleiriad, &c.; megys lle y dywedir bod croen gwyneb Moses yn dysgleirio. Darllena y *Vulgate*, "*Cornuta esset facies sua;*" o blegid hyn, syrthiodd celfyddwyr Rhufeinig i'r camsyniad trwstan o baentio a cherfio y deddfroddwr mawr Iuddewig, gyda dau gorn bwystfilaidd ar ei ben. Yn y lle hwn, y mae darlleniad y Deg a Thrigain yn odidog,—"δεδόξασται ἡ ὄψις τοῦ χρώματος=ymddangosiad ei wyneb yn gwisgo gogoniant." Gwel hefyd *Hab.* iii. 4.

Blodeuad y corn sydd yn arwydd llwyddiant a gogoniant; ac hwyrach bod y gyffelybiaeth, annaturiol ynddi ei hun, yn cael ei chymmeryd oddi wrth y *cornucopia*, neu gorn digonedd, yr hwn a ddarlunir yn wastad megys wedi ei lenwi â blodau a ffrwythau; a'r hwn, mewn chwedloniaeth baganaidd, a gymmerodd ei ddechreuad yn nyddiau mebyd y duw Iau. Dywed Ovid, yn ei *Fasti* [lib. v. 115—128], fod un o eifr Amalthea, yr hon oedd yn mammaethu Iau yn ynys Creta, wedi tori ei chorn ymaith yn erbyn pren, ac i'r nymph ei lenwi â blodau a ffrwythau, a'i gyflwyno i'r duwdodyn mabanaidd; ac iddo yntau, pan ddaeth i awdurdod, gymmeryd ei fammaeth i'r wybrenau, a gwneyd y corn yn arwydd o ffrwythlonder. Ereill a ddywedant mai gafr oedd Amalthea ei hun, ac mai Iau a dorodd ymaith ei chorn, ac a'i rhoddes i ferched Melisseus, wedi cyfranu iddo yn gyntaf y gallu o ymlenwi yn wyrthiol o ba beth bynag a ddymunai ei berchenog. Nid yw Ovid, ychwaith, yn gysson âg ef ei hun; o blegid yn y *Metamorphoses* [llyfr ix. v. 82], sonia am dano fel corn y duw afonol Achelous, a dorwyd ymaith gan Hercules, ac a gyssegrwyd i'r Naiadau. Ymddengys yn fynych ar arian bathol yr hen oesoedd.

CORNARISTIAID: dysgyblion i Theodorus Cornhert, ysgrifenydd gwladol Taleithiau Holland; yr hwn a ystyrir fel dyn cydwybodol, ond penboeth. Ysgrifenodd, ar yr un amser, yn erbyn y Pabyddion, Lutheriaid, a Chalfiniaid; a chredai fod pob enwad Cristionogol wedi llygru a gwyro, mwy neu lai, yn y naill beth neu y llall, oddi wrth burdeb ffydd a dichlynrwydd dysgyblaeth apostolaidd; ac am hyny, fod ar bob cymundeb angen am ddiwygiad: ond na ddylai neb gymmeryd arno ei hun y gorchwyl hwnw heb genadwri o'r nef, yn cael ei chadarnhau âg awdurdod a gallu i wneuthur gwyrthiau a rhyfeddodau fel yr apostolion a'r prophwydi gynt. Barnai, hefyd, y gallai dyn fod yn Gristion da, heb fod yn aelod o un eglwys weledig.

CORNCHWIGLEN, [Llad. *vanellus cristatus;* Seis., *lapwing*, *peewit*, *green plover*]: aderyn adnabyddus dros holl Ewrop, a rhan fawr o ogledd Asia; yn gynnefin mewn corsydd, rhosydd, a morfeydd; ac yn ymborthi ar bryfed genwair, a mân gylion a fegir mewn dwfr. Dodwyant ar dusw o wair neu yswellt, neu hebddo, yn ol troed march, neu ryw bantle bach cyffelyb. Gwerthir llawer iawn o'u wyau yn marchnad Llundain, lle y cyfrifir hwynt yn ddanteithfwyd. Dygir hwynt o gorsdiroedd dwyreiniol Lloegr. Tua dechreu y cynauaf, ymgynnulla y cornchwiglod yn heidiau mawrion; ac yn raddol, ymadawant â gweunydd a chorsydd canol y wlad, i ymweled â'r morfeydd a glanau aberoedd y môr, braenardir, cauau maip, a gweirgloddiau siglenog. Ymddengys eu bod yn aros yn y cyfryw leoedd, ar lan môr deheuol Lloegr, drwy y rhan arall o'r flwyddyn, oddigerth ambell auaf caled iawn, pan ymfudant i ogledd Ffrainc, ac yn mhellach i'r de. Ond dychwelant yn fuan; a thua dechreu Mawrth, ymwelant eilwaith â'r rhosdiroedd mynyddig, &c., gan ymwasgaru yn gyplau. Pan yn hofran yn heidiau yn yr awyr, y mae eu ehediad yn hynod iawn, fel pe baent yn cyflawnu rhyw gampau digrif, ac yn cymmeryd llwybr tonog a throfaog; a gwnant amryw leisiau difyrus—tra gwahanol i'w "*pi-wit*" undonog a phruddglwyfus arferol; tra y clywir curiad hynod eu hadenydd yn glau. Ystyrir eu cig yn felusfwyd yn y cynauaf, ond yn sychlyd yn yr haf. Y mae Mr. Selby o'r farn mai dyma yr aderyn a elwir *egret*—mil o ba rai a huliwyd ar fwrdd gwledd fawr yr archesgob Neville. Cedwir hwynt mewn ambell ardd i ddifa malwod, &c.; ac y maent yn myned yn ddofion iawn. Y mae y gornchwiglen yn aderyn hynod o hardd, o faint colomen; y corff yn lluniaidd, y pen a'r cefn yn wyrdd tywyll llathraidd, y gwddf yn ddu, gyda math o symmudliw porphor a glas, y fron a'r bol yn wyn. a chopa uchel neu gribyn o bluf duon yn addurno y pen, a'r gynffon yn wyn llanerchog; tra y mae ei rhodiad yn wisgi a hoew. Gyda'r beirdd y mae yn gynllun o falchder a mursendod. Y mae yn ddiareb hefyd am ei hystrywiau i siomi y neb a fyddo yn chwilio am ei nyth. Cyfrifir hi o genedledd y *plovers*, neu adar y gwlaw.

Am yr aderyn aflan, gwaharddedig i'w fwyta dan gyfraith Moses, sef y דוכיפת=*duciphath*, yr hwn a grybwyllir ddwywaith yn yr Ysgrythyr —*Lef.* xi. 19, a *Deut.* xiv. 18—ac a gyfleithir *cornchwigl*, y mae yn debygol mai y *goppog*, neu

Digitized by Google

yr *hoopoe* yn hytrach, a feddylir. Y mae y Deg a Thrigain, a'r Vulgate, yn cyfleithu yr enw Hebraeg â'r geiriau *'ἔποψ* ac *upupa;* a chan mai *cicuphah* yw yr enw Syriaidd, a *cucuphah* yr Aiphtaidd, meddylir mai yr un oedd yn wreiddiol â'r *duciphah.* Y mae camgymmeriadau mewn perthynas i rywogaethau adar i'w cael yn ddigon cyffredin yn ysgrifeniadau yr henafiaid, yn

Dar. 196.

gystal ag mewn awdwyr diweddar. Y mae Hesychius yn dyweyd mai "*epops,*" yn *Æschylus,* yw yr iar-fynydd, iar-forfa, neu geiliog mynydd, ceiliog morfa. Os arwyddocâd yr enw Hebraeg *duciphah* yw "deugrib," y mae yn fwy priodol i'r *hoopoe,* yr hwn sydd eto yn aderyn adnabyddus yn Ngwlad Canaan; ac a gyfrifid, er yr oesoedd boreuaf, yn aderyn cyfriniol; ac am hyny byddai dewiniaid yn cario pen cerfiedig coppog ar benau eu ffyn cyfaredd, fel y mae y Gosseiniaid yn India, ac hyd yn oed yr esgobion Armeniaidd yn arfer hyd heddyw. Yn Sweden, edrychir ar yr aderyn hwn fel rhagflaenydd rhyfel, a chydir daroganau ofergoelus wrth ei ymddangosiad gan hen feirdd paganaidd. Y mae ei bluad yn hardd, o liw melyn-lwyd clir, gyda bariau hynod o ddu a gwyn, a chrib prydferth o'r un lliwiau. Y mae yr adar hyn yn lluosog yn yr Aipht, yn ffurfio, y mae yn debygol, ddwy rywogaeth—y naill yn sefydlog yn nghymmydogaeth preswylfeydd dynol, a'r llall yn symmudol a chrwydrol. Y mae yr olaf yn ymweled yn flyneddol âg Ewrop, ac yn cyrhaedd yma yn fuan ar ol y gôg. Yn yr Aipht, gwelir yr olaf yn brasgamu drwy y llaid, ar lanau y Nilus, wedi i'r dyfroedd dreio, yn chwilio am bryfed, &c.; tra y mae y blaenaf, medd rhai, yn magu ei gywion mewn pentyrau o weddillion ysgerbydau chwilod a thrychfilod ereill, y rhai a roddant arogl trwm ar ei nyth, yr hwn a wneir yn wastad mewn rhyw dwll neu geubren; eto y mae yn nodedig o lywaeth a serchog pan ddofir ef, ac yn dangos cyfrwysdra a rhagddarbodaeth greddfol, a gochelgarwch mawr rhag ymosodiad adar ysglyfaethus. Y maent yn lluosog iawn ar lanau corslyd y Garonne, yn Ffrainc; lle y nythant mewn ceubrenau helyg a dyfant yn llwyni mewn ffosydd a llynau o ferddwfr; a deorant tua diwedd Mai. Y mae Brown, a'r geiriadurwyr ysgrythyrol, yn gyffredin, y rhai a ddilynant yn y pethau hyn draddodiad chwedleuol yr henafiaid, megys Pliny, yn nosbarthiad ei "*obscœna pastu avis,*" yn cyhuddo yr aderyn hwn o'r arferiadau ffieiddiaf, yn groes i sylw ednogyddion a naturiaethwyr diweddar, y rhai a brofant ei fod yn wasanaethgar iawn i ddyn, drwy ddifa heidiau o bryfed dinystriol.—(*Museum of Animated Nature; Kitto's Biblical Cyclopædia, &c.*

CORNELIUS. canwriad Rhufeinaidd, yr hwn y cawn hanes ei dröedigaeth i ffydd Crist yn *Act.* x. Tybia rhai ei fod yn disgyn o lwyth y Cornelii, neu y Corneliaid—Cornelia Gens—y mwyaf boneddol o holl dylwythau Rhufain. Yr oedd yr holl deuluoedd cynnwysedig ynddo yn perthyn i'r urdd bendefigaidd. Dywedir bod Julian y Gwrthgiliwr yn enwi Cornelius, y canwriad, fel un o'r ychydig bersonau o fonedd a gofleidiasant Gristionogaeth. Rhaid mai yn Iudea, ac ar y dechreu, yr oedd yn ei feddwl; o blegid gallasai gael digon o bendefigion crediniol, o amser yr apostolion hyd ei ddyddiau ef, ïe, yn mysg ei deulu ei hun, megys ei ewythr, Cystenyn Fawr. Ond y mae yr hyn a ysgrifenodd Julian yn erbyn y Cristionogion wedi myned ar goll, er bod ei holl weithiau ereill ar gael.

Y mae y gair Σπείρα, yr hwn a gyfleithir yn *fyddin* yn Gymraeg, a *band* yn Seisoneg, yn cael ei gyfleithu yn y Vulgate drwy *cohors, cohortis,* y ddegfed ran o leng; ac yr oedd *cohort,* neu gatrawd, yn amser Cornelius, yn cynnwys tua chwe chan ŵr, ac yn adranedig i dri *manipuli,* llawyddiaeth neu lawgad, y rhai a ddosrenid drachefn yn ddwy *centuria,* neu ganwriaeth. Y mae yn debygol fod y cyfenw Italaidd yn cael ei roddi i'r holl gatrawd, yr hon oedd un o'r chwe *cohort* a ganiatëid i raglawiaid Iudea, a'i bod yn myned dan yr enw hwn, o blegid ei bod gan mwyaf yn gynnwysedig o filwyr genedigol o Rufain ac Italy, ac nid o'r taleithiau—trefniad a ystyrid yn ddoeth o blegid tuedd wrthryfelgar yr Iuddewon yn anad un genedl oedd dan lywodraeth Rhufain: a diammheu bod y byddinoedd hyn yn cael eu cyfrif yn anrhydeddusach na'r llengau taleithiol, a bod eu swyddogion, yn aml, yn ddynion o enedigaeth bendefigaidd, fel y cydnabyddai Julian fod Cornelius. Yr oedd pump o'r catrodau hyn yn gorsafu yn Cesarea, fel gwarchlu y rhaglaw; ar ba rai yr oedd Cornelius yn un o'r cadbeniaid, ac yn swyddog o gymmeriad uchel.

Y mae llawer o ddadleuaeth wedi bod yn nghylch proffes neu sefyllfa grefyddol Cornelius cyn iddo gofleidio Cristionogaeth. Myn llawer mai un o "broselytiaid y porth" oedd; sef Cenedl-ddyn wedi ymwrthod âg eilunaddoliaeth, ac yn addoli Arglwydd Dduw Israel yn ol y goleuni oedd ynddo, yn cadw saith moeswers (dybiedig) Noah, neu ddefodau y cyndadau boreuaf, yn arfer myned i'r synagog i wrandaw y gyfraith a'r prophwydi, ac i weddïo, "gan sefyll o hirbell," fel y publican edifeiriol, yn aberthu drwy law yr offeiriad, ac yn cadw ymprydiau ac oriau gweddi fel Iuddew, ond heb enwaedu arno, neu gael ei dderbyn yn gyflawn aelod o'r Eglwys Iuddewig. Y rhai a gymmerant y golygiad hwn, a haerant fod yr ymadrodd, "gwr yn ofni Duw," yn cael ei arfer yn wastad, neu yn aml, am broselyt y porth; megys, *Act.* xiii. 16, 26, a lleoedd ereill; a'i fod yn "gwneuthur llawer o elusenau" i'r bobl, sef yr Iuddewon, meddynt hwy. Gan ei fod yn preswylio yn eu plith, y mae yn debygol mai Iuddewon tlodion oedd yn derbyn y rhan fwyaf o'i gardodau haelionus; ond nid oes un rheswm i feddwl ei fod, oddi ar dueddiad crefyddol, fel proselyt, yn cyfyngu ei elusengarwch i'r Iuddewon yn unig, neu fod y gair "pobl" yma i'w gymmeryd yn yr ystyr cyfaddasol a chyfyngedig hon; o blegid λαὸς (*laos*), y werin, y bobl iselradd, y tlodion, yw yn y gwreiddiol:=ποιῶν τε ἐλεημοσύνας πολλὰς τῷ λαῷ:—yr hyn a gyfleithir yn gywir yn y Vulgate,—*Faciens eleo-*

Digitized by Google

mosynas multas plebi, yr hyn a ellir ei droi i Gymraeg cyffredin—"yn rhoi llawer o elusenau i'r boblach druain." Ond ἔθνος (*ethnos*) a ddefnyddir yn *Act.* x. 22, yr hwn sydd enw a roddir i'r Iuddewon mewn ffordd o wahaniaethiad rhagoriaethol. Gellir hefyd wrthateb, fod yr ymadrodd, "un yn ofni Duw" (megys yn *adn.* 35; *Luc* i. 50; *Col.* iii. 22, a llawer o fanau ereill) yn cael ei arfer mewn ystyr rhy agored i'w gyfyngu i'r dosbarth neilldiol hwnw a elwir yn broselytiaid y porth. Ac os oedd yn broselyt o gwbl, y mae yn beth chwithig fod Pedr yn ei alw yn ei wyneb, ac yn nghlyw pawb oedd yno, yn ἀλλόφυλος, neu alltud, estron o genedl a chrefydd, yr hwn yr oedd yn beth anghyfreithlawn ynddo ei hun i ŵr o Iuddew ddyfod ato; o blegid gorchymynai cyfraith Moses iddynt garu fel hwynthwy eu hunain y cyfryw ddyeithriaid a ymdeithient yn mhlith plant Israel, ac na fyddent yn eilunaddolwyr (*Lef.* xix. 33, 44; a *Deut.* x. 17, 18, 19, &c). Y mae yn wir fod yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid wedi cyfyngu esboniad y gyfraith fel ag i gau teyrnas nefoedd o flaen dynion; eto y fath oedd eu sel i wneyd proselytiaid, fel y dywed ein Harglwydd eu bod yn amgylchu môr a thir i wneuthur un proselyt. Ac, yn wir, peth afreidiol a fuasai i'r apostol weled gweledigaeth i'w ddarbwyllo i fyned a gwneyd yr hyn a wnaethai eisoes ar ddydd y Pentecost, sef pregethu Crist i broselytiaid Rhufeinig (*Act.* ii. 10). Ac yr oedd proselytiaid o'r blaen wedi credu, a chael eu bedyddio, ïe eu hordeinio, drwy osodiad dwylaw yr apostolion, i weinyddu swyddau cyhoeddus yn yr eglwys, fel y credid, mewn cariad, eu bod yn llawn o'r Ysbryd Glân a doethineb (*Act.* vi. 3—6). Ond i hyn, atebir, bod y cyfryw yn broselytiaid y cyfammod, wedi derbyn enwaediad, ar yr hyn y rhoddai Iuddewon yr oes hono bwys mor fawr fel y credent fod eu hiachawdwriaeth yn crogi arno, fel y pwynt o ffydd ac ufudd-dod cadwedigol, ar yr hwn yr oedd y cyfiawnder oedd o'r ddeddf yn troi: fel y rhydd rhai Cristionogion ar ordinhadau ereill yn ein hoes ni. Nad oedd Cornelius o'r enwaediad, sydd amlwg; ac y mae mor amlwg nad oedd yr Iuddewon yn gwahardd neu yn ymgadw rhag ymgyfeillachu â phroselytiaid. Nis gallasai Cornelius, gan hyny, fod yn broselyt.

Drachefn, y mae yn beth ammhëus iawn a oedd y fath ddosbarth o ddynion gynt ag a alwn ni yn broselytiaid y porth. Y mae Maimonides, yr hwn oedd ddyn haelfrydig ei olygiadau, mewn cymhariaeth i lawer, yn gystal ag yn bleidiol i draddodiadau y tadau, yn wir, yn crybwyll am danynt; ond y mae diweddarwch yr oes yr oedd efe yn byw ynddi (B. A. 1160), a'r hollol ddiffyg o unrhyw brawf Ysgrythyrol, yn peri i ni ystyried yr hyn a ddywed fel yn cyfeirio at amser pell ar ol dyddiau yr apostolion. Yn ol barn yr Esgob Tomline, nid oedd neb yn cael eu cyfrif yn broselytiaid ond y rhai a ufuddhaent i'r holl ddeddf; ond goddefid i'r Cenedloedd addoli yn nghyntelddau allanol y deml, ac offrymu aberthau drwy ddwylaw yr offeiriaid; a dammheu bod rhai o honynt yn credu yn y gwir Dduw, ac yn ymwrthod âg eilunaddoliaeth, ond eto heb gofleidio cyfraith Moses. Ei farn ef yw, na elwir y cyfryw rai byth yn *broselytiaid* yn yr Ysgrythyrau, nac mewn unrhyw awdwr henafol yn mysg ysgrifenwyr Cristionogol. Dywed y Dr. Lardner, nad yw y dyb fod dau fath o broselytiaid, sef proselytiaid y porth a phroselytiaid y cyfammod, i'w chael mewn un awdwr Cristionogol boreuach na'r pedwerydd canrif ar ddeg. Y mae y rhesymau o'r ochr arall yn cael eu gosod i lawr yn fedrus iawn yn *Townsend's Chronological Arrangements of the New Testament*; cyf. ii. td. 115. Gwel sylwadau manylach dan y gair PROSELYT, yn y gwaith hwn.

Ceir hanes yn Ysgrythyrau yr Hen Destament am lawer o genedl-ddynion o gyffelyb dduwioldeb a rhinwedd a'r Cornelius hwn—llawer a gredent yn Nuw, ac a'i haddolent, er nad oeddynt yn broselytiaid; megys Naaman, tywysog llu brenin Syria (2 *Bren.* v. 15, 17, 18); a Nebuchodonosor, brenin Babilon (*Dan.* iv. 37). Yn wir, ni wrthodid ebyrth paganiaid, pan offrymid hwynt dan argyhoeddiad ar y pryd o allu a gogoniant y gwir Dduw, neu o ddiolchgarwch iddo am waredigaethau, trugareddau, neu lwyddiant mewn rhyfel, megys yn achos Alexander Fawr, Ptolemy Philadelphus, ac ereill y sonia Josephus am danynt. Fel llaweroedd ereill, derbyniodd Cornelius yn ddiau les mawr drwy ei breswyliad yn mysg yr Iuddewon: daeth i gredu mai eu crefydd hwy oedd y wir grefydd, o leiaf ei bod yn rhagori yn fawr ar bob un arall y gwyddai y pryd hyny am dani; ac er y gallai golygiadau cyfyng a rhagfarnllyd, traddodiadau ofer, a rhagrith yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, &c., ei gadw rhag ymostwng i'r holl ddeddf, gyda yr holl chwanegiadau mympwyol oedd y pryd hyny yn nglŷn â hi, eto yr oedd wedi ei argyhoeddi o wirionedd yr Ysgrythyrau Iuddewig — wedi eu chwilio a'u hastudio yn fanwl, y mae yn debyg—o blegid y mae Pedr yn cymmeryd yn ganiataol ei fod yn hyddysg yn y pethau hyn, yn addoli Duw yn ei deulu, ac yn cadw y cyfryw ddefodau Iuddewig ag nad oeddynt yn cynnwys proffes gyflawn o'r grefydd hono; ac o blegid ei barch i'w crefydd, ei rinweddau, a'i haelioni, yr oedd gair da iddo gan holl genedl yr Iuddewon. Yr oedd ei dduwioldeb mor hynod, a'i esampl mor ragorol, fel yr ymddengys ei fod wedi ennill ei holl dŷ, ei geraint, a'i gyfeillion, ïe, hyd yn oed rhai o'r milwyr oedd yn ei fyddin, i addoli ac ofni Duw Israel. Bu, gan hyny, yn wiw gan yr Arglwydd ei ddewis ef i fod yn flaenffrwyth y Cenedloedd, fel yr un tebycaf i symmud o'r ffordd ragfarn y Cristionogion Iuddewig, y rhai oeddynt oll, o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf, yn dal yn dyn wrth y ddeddf a'r enwaediad, ac na dderbynient neb i'w cymmundeb ond aelodau o'r hen Eglwys Iuddewig; a galwyd Pedr i gyfrif manwl pan ddaeth i fyny i Ierusalem, a bu ymryson nid bychan yn ei erbyn, am iddo fyned i mewn at, a bwyta gyda gwr dienwaededig. Ond pan adroddodd efe iddynt ei weledigaeth ryfedd, ac ymddangosiad angel ar yr un amser i Cornelius, ac yn enwedig ddisgyniad yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau gwyrthiol ar Cornelius, a'r rhai oll oedd yn ei dŷ, "dystawu a wnaethant, a gogoneddu Duw, gan ddyweyd (gyda syndod, er gorfod credu), Fe roddes Duw i'r Cenedloedd hefyd edifeirwch i fywyd." I gadarnhau y dadguddiad gwyrthiol hwn o fwriad grasol Duw gyda golwg ar dderbyniad y Cenedloedd, ac i symmud pob petrusder a allai fod yn llechu yn meddwl Iuddewaidd Pedr, pa un a ddylasai orchymyn enwaedu arnynt yn gyntaf, disgynodd yr Ysbryd, yn groes i'r drefn arferol (sef ar ol bedydd ac arddodiad dwylaw), fel y gofynodd Pedr i'r brodyr o Iuddewon oedd gydag ef, "Pwy all luddias dwfr fel na fedyddier y rhai hyn?" &c. Yna y gorchymynodd efe eu bedyddio, fel y byddai iddynt oll gydsynio yn eu derbyniad.

Digitized by Google

Y mae Paley yn sylwi ar ymddangosiad yr angel, a gweledigaeth Pedr, y gallasai y weledigaeth fod yn freuddwyd, ond ei fod yn beth annichonadwy i'r genadwri fod felly; ac er y gallesid haeru mai camsyniad y synwyrau dyrysedig oedd ymddangosiad tybiedig yr angel, nis gallasai y ddau gyd-ddygwydd heb fod achos goruchnaturiol iddynt.

Ar ymddygiad Cornelius yn syrthio wrth draed Pedr, ac yn ei addoli, y mae rhai yn sylwi, y gallasai fod yn meddwl mai y Messiah oedd yr apostol, o blegid i angel ragfynegu ei ddyfodiad: ond nid yw hyn mor debyg pan ystyriom nad oedd ond yn cyflawnu defod gyffredin yn mysg y dwyreinwyr, ar yr ystyriaeth mai un o'r cyfryw oedd yr ymwelydd, ac nad ydyw y gair *addoli* yn meddwl dim mwy yma nag ymostwng ar y gliniau, &c.; megys y dywedir yn y cyfieithiad Seisoneg i'r bobl *addoli* y brenin; 1 *Cron.* xxix. 20. Ar yr un pryd, er bod Pedr yn ddigon cynnefin â'r ddefod gyfarchiadol hon yn mysg ei genedl ei hun, petrusai dderbyn yr arwydd yma o barch oddi wrth Cornelius, am y gwyddai nad oedd y Rhufeiniaid yn arfer ymgrymu felly ond i'r duwiau; ac am hyny cododd Cornelius i fyny gyda'r sylw gostyngedig hwn—"dyn wyf finnau hefyd."

Eto, gan mai Paul oedd y llestr etholedig i ddwyn enw Crist ger bron y Cenedloedd, a'i fod yn pregethu er's rhai blyneddoedd, gellir gofyn, pa ham y gorchymynwyd anfon am Pedr, apostol yr enwaediad? Nid yw dywedyd fod Paul yn rhy bell ar y pryd yn un ateb; o blegid hawdd a fuasai i'r Arglwydd fod wedi peri i amgylchiadau blaenorol ei ddwyn yn agos, neu i Ysbryd yr Arglwydd ei gipio, fel Phylip, a'i gael, pan ei ceisid, yn Cesarea. Y mae yn ddiammheu fod gan Dduw ei ddyben doeth yn hyn; sef bod i'r Cenedloedd gael eu himpio yn gyntaf i mewn gan apostol mawr yr enwaediad, blaenor addefedig yr Eglwys Gristionogol Iuddewig, fel y dywed Pedr ei hun, yn y cynghor eglwysig a gynnaliwyd yn Ierusalem, i derfynu dadl yr enwaediad, ddeng mlynedd ar ol hyn, "Chwi a wyddoch ddarfod i Dduw er ys talm o amser, &c., fy ethol i gael o'r Cenedloedd glywed gair yr efengyl a chredu," &c.

O ran ei gymmeriad, y mae tebygolrwydd hynod iawn rhwng Cornelius a'r canwriad arall hwnw, yn Capernaum, am yr hwn y tystiolaethodd Crist ei hun na chafodd gymmaint ffydd, na ddo yn yr Israel. Y mae y ddau yn esamplau nodedig o haelfrydedd, dyngarwch, ffydd, gostyngeiddrwydd, addfwynder, a duwioldeb, dan arfogaeth filwraidd, y gellir chwilio yn ofer am eu bath dan wisgoedd llaesion a phylacterau llydain yr ysgrifenyddion a'r Pharisaid!—(*Elements of Christian Theology*, cyf. i. td. 266, 267; *Lardner's Works*; cyf. vi. td. 422—533, a chyf. xi. td. 313 — 324; *Jenning's Jewish Antiquities*, llyfr i. pen. iii.)

2. CORNELIUS: esgob Rhufain; yr unfed ar ugain ar y cofrestr, yr hwn y torwyd ymaith ei ben ar y 14eg o Fedi, B. A. 252, am wrthod aberthu i'r duwdodau paganaidd, ar orchymyn yr ymherawdwr Gallus.

CORNELU: gyru i gongl, cyfyngu, cadw mewn caethiwed. Y mae y gair hwn yn cael ei arfer unwaith yn ein cyfieithiad ni o'r Beibl, sef yn *Esa.* xxx. 20; lle y dywedir, "A'r Arglwydd a rydd i chwi fara ing, a dwfr gorthrymder; ond ni *chornelir* dy athrawon mwy, eithr dy lygaid fyddant yn gweled dy athrawon: a'th glustiau a glywant air o'th ol yn dywedyd, Dyma y ffordd," &c. Y mae yr ymadrodd yn rhan o brophwydoliaeth am bethau oedd i gymmeryd lle 125 o flyneddoedd ar ol hyny, ac a gyflawnwyd yn llythyrenol yn achos Ieremiah, pan ryddhawyd ef o'i rwymau, ac y rhoddwyd iddo ei ddewisiad i fyned lle y mynai, wedi i'r Caldeaid gymmeryd Ierusalem. Yr hwn hefyd a anfonodd "air o ol" y gaethglud yn Babilon, a'r rhai a ffoisant i'r Aipht, i'w hannog i droi oddi wrth eilunaddoliaeth, ar yr addewid o adferiad i'w gwlad a'u brenin. Ceir cyflawniad helaeth o'r addewid hon yn nghodiad Daniel, Nehemiah, Ezra, &c., i fod yn athrawon iddynt. Gallwn aralleirio y brophwydoliaeth yn debyg i hyn,—Er i'r Arglwydd, o blegid pechodau Iudah, oddef i'r Caldeaid warchae ar Ierusalem, a'i chymmeryd, a darostwng ei bobl i gyflwr carcharorion mewn daiardy (1 *Bren.* xxii. 27), ni chollant yn gwbl eu breintiau crefyddol; er i'r aberth a'r bwyd offrwm beidio, fel y bydd yr enw offeiriad wedi myned allan o arferiad, rhoddaf i ti rai "yn brophwydi ac athrawon," y rhai ni "chornelir" fel y delir defaid i'r lladdfa, megys yn nyddiau Ahab gynt, ac nid ymlidir hwy i ogofeydd anghysbell yr anialwch, fel Elias; neu fel Eseciel, hyd afon Chebur, ac eithaf terfyn Assyria; ond cânt ffafr yn ngolwg y rhai a'ch caethiwant, i aros i addysgu yn ffordd cyfiawnder y bobl druain dlodion a edy y Caldeaid yn y wlad, i ba rai yn neillduol y gwneir yr addewid. Wrth son am yr ing a'r cyfyngder a ddeuai arnynt, arferir y rhif lluosog, *chwi*, o blegid y byddai i'r holl genedl gyfranogi o hono; ond cyfyngir yr addewid i'r rhif unigol, *dy*, am na fwynhêid hi ond gan y gweddill a adewid. A phan ddelych o gaethiwed, ni chyfyngir gweinidogaeth dy athrawon i Ierusalem, neu ryw gonglau o'r wlad, ond sefydlir synagogau a dysgawdwyr trwy yr holl dir, o ddyddiau Nehemiah, Ezra, a'u cyd-ddiwygwyr, hyd oni ddel yr oruchwyliaeth oleuach hono i mewn, pan ddenfyn y Messiah athrawon allan o Ierusalem i ddysgu yr holl Genedloedd.

CORNET, [קרן, *ceren*]: corn, cornyn, udgorn; math o offeryn cerdd gwynt, arferedig gan yr Iuddewon, y Caldeaid, &c. (*Salm* xcviii. 6; *Dan.* iii. 5, 7, 10, 15). Y mae yn dygwydd yn llawer amlach yn y cyfieithiad Seisoneg: *udgorn* a arferir fynychaf yn y Beibl Cymraeg. Yn *Ios.* vi. 5, cyfieithir *ceren-iobel* yn "gorn yr hwrdd." Diammheu mai cyrn naturiol a ddefnyddid gyntaf i udleisio ynddynt; a phan ddyfeisiwyd offerynau o fettel, parhawyd i'w galw yn gyrn. Y farn gyffredin yw mai cyrn naturiol hyrddod a ddefnyddiai yr Israeliaid pan yn gwarchae ar Iericho, a gellid meddwl oddi wrth Josephus [*Henaf.* v. 6. 5] mai dyna hefyd oedd y cyrn y chwythai milwyr Gideon â hwynt i frawychu gwersyll y Midianiaid (*Barn.* vii. 16).

Ond dylid sylwi mai קרן יובל (*ceren-iobel*) yw y testyn gwreiddiol, ac addefir bod *iobel* yn arwyddocau iwbili, ac felly rhaid mai corn-iwbil, udgorn iwbili, yw y gair cyfystyr am y cornet, neu y *ceren-iobel* yma, ac mai cyrn iwbil yw y lluosair o *ceren-iobelim*, a gyfieithir yn gyrn hyrddod yn yr adnodau cylchynol. Ond i gyfiawnhau y cyfieithiad, haerir fod y iwbili ei hun yn cael yr enw oddi wrth y cyrn a genid i'w gyhoeddi; a chan mai cyrn hyrddod a ddefnyddid, fel y credir yn gyffredin, fod y cyfieithiad yn eithaf cywir. Ond yma y mae un anhawsder yn sefyll ar y ffordd, sef y ffaith hynod na elwir hwrdd byth yn *iobel*

Digitized by Google

yn yr Hebraeg; ac i fyned heibio i'r rhwystr hwn, y mae amddiffynwyr y cyfleithiad yn troi at chwedl rhyw ŵr o'r enw Akiba, yr hwn a ddywed, "Pan oeddwn yn Arabia, clywais hwynt yn galw hwrdd yn *iobel*; a gelwir yr udgorn ei hun yn *iobel*, am iddo gael ei wneyd o gorn hwrdd." Y mae y chwedl hefyd yn debyg iawn i un wedi ei gwneyd wrth anghaffael. Ond dadleuir yn mhellach fod y cyfleithiad yn seiliedig ar gred gyffredinol yr Iuddewon, ac ar gerfluniau henafol o'r cyfryw offerynau. O'r tu arall, y mae Bochart, ac ereill, yn gwrthwynebu y ddadl, ar y dyb nas gallasai cyrn naturiol hyrddod ateb y dyben; ac mai cyrn gwartheg a ddefnyddid gan yr hen Roegiaid a'r Rhufeinwyr.

Tueddir ni i feddwl yn hytrach mai arwyddocâd gwreiddiol *ceren-iobel* oedd *corn cerdd*, a bod yr enw wedi deilliaw oddi wrth Iubal (יובל= *iwbil*; Gr., Ιουβαλ=*ioubal*; hyny yw, cerdd, neu gerddoriaeth, miwsig), mab Lamech ac Adah, a thad a chynddyfeisiwr cerddoriaeth ac offer cerdd (*Gen.* iv. 21). Felly y dylesid darllen *Ios.* vi. 4, "A dyged saith o offeiriaid saith o udgyrn, o *gyrn cerdd*, neu *gyrn iwbil*;" sef cornetau perleisiol celfydd. Y mae y Vulgate yn cydsynio â'r golygiad hwn,—*tollant septem buccinas, quarum usus est in jubileo*=cymmerant saith udgorn o'r rhai a ddefnyddir ar yr iwbili. A byddai mor resymol i ni daeru, oddi wrth y cyfleithiad Lladinaidd, mai saith gorn buwch a feddylir, o blegid fod *buccina* (bugorn) wedi tarddu yn wreiddiol oddi wrth *bucula*, neu y Celltair, *bu*, *buchod*, &c. Y mae yr ieithydd enwog, Dr. A. Clarke, hefyd yn barnu yn benderfynol mai nid cyrn naturiol hyrddod a ddefnyddid gan yr offeiriaid ar yr achlysur uchod, ac yn tystio na ddarllenir ef yn "gyrn hyrddod" mewn un cyfleithiad henafol, oddi gerth y Caldeaidd.

Y mae hyn yn profi fod y dychymyg neu y farn yn hen iawn, ond nid yn cyrhaedd o fewn mil o flyneddau i amser Iosuah; a gwyddom fod y Targumau Caldeaidd yn frith o ddychymygion ofer, a chwedlau gwrachïaidd. Os bu yr Hebreaid ryw dro yn arfer cyrn hyrddod fel offer cerdd, rhaid mai mewn rhyw oes lawer boreuach ei helynt, a mwy anwar ei moesau, y bu hyny. Nid arfer yr offeiriaid Iuddewig oedd chwythu mewn cyrn myheryn, fel chwareu plant, ond canu udgyrn arian soniarus, o gelfyddwaith cywrain (*Num.* x. 2—10). Y mae y meddyldrych o gyrn hyrddod yn ymddangos yn wawdus ynddo ei hun, er mor ramantol yw, ac nid yw yn gweddu chwaith i urddas a difrifolder y swydd offeiriadol. Y mae hen gerfwyr a darlunwyr anghelfydd a dychymygol yn atebol am lawer o gamsyniadau cyffelyb. Meddylir mai udgorn sarffog neu dorchog, lled debyg i gorn hwrdd, efallai, wedi ei lunio yn wreiddiol i'w ddynwared, oedd y cornet.

Y mae dau resymiad ar y pwnc yn ymddangos hefyd yn anatebadwy; sef, 1. Gan mai udgyrn arian a orchymynid eu defnyddio i ganu alarwm rhyfel (*Num.* x. 9), pa ham y rhoddwyd y gyfraith o'r neilldu yn achos Iericho? 2. Gan mai udgyrn arian hefyd a arferid i gyhoeddi "gwyliau gosodedig, dechreu misoedd," &c. (*Num.* x. 10), pa reswm sydd i feddwl, yn groes i'r gyfraith arferol, mai corn myharen oedd udgorn yr Iwbili, yr hwn y gorchymynid ei ganu ar y seithfed mis? (*Lef.* xxv. 9).

CORNWYD, PLA. Y mae y ddau air hyn yn cael eu defnyddio gan rai ieithyddion fel yn gyfystyr â'u gilydd — nid o herwydd bod yr afiechyd a olygir yr un, ond o herwydd bod y deddfau ag y maent yn ddarostyngedig iddynt yn debyg, a'u canlyniadau mor ddinystriol a'u gilydd. Yn yr Ysgrythyrau, yn gystal ag mewn ysgrifeniadau cyffredin, defnyddir y gair *pla* hefyd fel enwad cyffredinol ar bob afiechyd sydd yn peri dinystr mawr, gan gyssylltu gair arall âg ef i ddangos natur yr afiechyd. Rhoddwn, gan hyny, yn yr erthygl hon, gyda dysgrifiad o'r cornwyd, hanes byr am ymweliadau dinystriol rhai plaau â gwahanol wledydd y byd.

Math o afiechyd heintus a marwol ydyw y cornwyd, sydd yn lladd ei filoedd a'i fyrddiynau mewn byr amser, ar ryw adegau, ac mewn ardaloedd neilldiol o'r byd, ac yn ymledu neu yn teithio dros ranau arbenig o'r ddaiar. Gelwir ef yn "haint y nodau," am ei fod yn ymddangos yn ysmotiau neu frech; ac yn "gornwyd," o herwydd ei fod yn tori allan yn blorod llinorog, pendduynod dolurus *cornaidd*, a chwarenod llidiog yn y cnawd. Gwel *Exod.* ix. 9, 10, 11; ac wrth gymharu *Lef.* xiii, gwelir fod gwahaniaeth mawr rhwng haint y nodau a'r gwahanglwyf, ond bod yr olaf weithiau yn tarddu o'r cornwyd (*Lef.* xiii. 18, 19); a bod y cornwyd yn gadael ar groen y dyoddefydd, wedi iddo ymiachau, greithiau y gellid eu camgymmeryd am y gwahanglwyf: *adn.* 23. Yr oedd y cornwyd yn un o ddeg pla yr Aipht (*Exod.* ix. 9—11), a diammheu ei fod yn haint arswydus iawn; o blegid y mae Moses yn ei grybwyll fel un o'r melldithion ofnadwy a ddisgynent ar blant Israel, os anufuddhaent i'r ddeddf a'r cyfreithiau a roddwyd iddynt, — "A'r Arglwydd a'th dery di â chornwyd yr Aipht;" *Deut.* xxviii. 27:—"cornwyd drygionus, yn y gliniau, ac yn yr esgeiriau, yr hwn ni ellir ei iachau, o wadn dy droed hyd dy goryn:" *adn.* 35. Y mae hefyd yn cael ei enwi fel un o'r "saith bla diweddaf," yn y rhai y mae digofaint Duw i gael ei gyflawnu (*Dad.* xvi. 2); a'r hwn a fydd mor flin ar ddynion, fel y cablant Dduw y nef yn ngwallgofrwydd eu cynddaredd. A phan oedd Satan yn dyfeisio pa boenedigaeth ddigon annyoddefol a roddai ar Iob, i wneyd iddo regu a melldithio wrth ei arteithio, tarawodd ef â chornwydydd blin "o wadn ei droed hyd ei goryn" (*Iob* ii. 7); ac mor annyoddefol oedd ei friwiau a'i ddoluriau, fel y taer ymbiliai am gael marw, ac y dymunai nas ganesid ef erioed. Ond y mae yn amlwg nad oedd cornwyd Iob yn heintus, oddi wrth ymweliad ac arosiad ei gyfeillion. Nid oedd gan Satan genad i daro neb arall â'r clefyd hwn.

Tybir yn gyffredin mai â haint y nodau y tarawyd meibion Israel am odinebu gyda merched Moab, pan "syrthiodd mewn un dydd dair mil ar ugain:" 1 *Cor.* x. 8; *Num.* xxv.

Haera rhai mai yr un haint a ddinystriodd fyddin fawr Senacherib, pan oedd yn gwarchae ar Ierusalem (2 *Bren.* xix. 35), ac y bu farw o honynt gant a phump a phedwar ugain o filoedd mewn noswaith! Y mae yn wir na ddywedir mai pla a laddodd y rhai hyn, ond priodolir y peth yn unig i offerynoliaeth angel; a'i fod, ynddo ei hun, yn ymddangos yn beth anhygoel i haint ddifa cynnifer mewn can lleied o oriau; ond dyna farn Josephus: ac y mae yn sicr mai â haint y lladdodd yr angel dinystriol, "o'r bore hyd amser nodedig.....ddeng mil a thrigain o wŷr," yn nyddiau Dafydd: 2 *Sam.* xxiv. 15, 16. Y mae y rhai a gredant mai y cornwyd a ddifaodd y 185,000, yn ngwersyll yr

Digitized by Google

Assyriaid, yn haeru mai o'r un haint y clafychodd y brenin Hezeciah, yn y cyfamser; o blegid y dywedir,—"A dywedodd Esaiah, Cymmerwch swp o ffigys. A hwy a gymmerasant, ac a'i gosodasant ar y cornwyd, ac efe a aeth yn iach." Ond nid oes hanes fod y fath haint wedi ymweled âg Ierusalem ar y pryd; ac y mae amseryddwyr, yn gyffredin, yn barnu fod hyn tua thair blynedd cyn i'r Assyriaid warchae ar y ddinas. Gwyddom fod heintiau cyffelyb yn dygwydd yn fynych mewn dinasoedd gorlawn o drigolion, yn enwedig yn y dwyrain, a'u bod yn aml yn dilyn newyn a gwarchaedigaeth (*Lef.* xxvi. 25); bod cleddyf, newyn, a haint, yn cael eu cyfrif yn ddrygau a ganlynant eu gilydd (*Ier.* xiv. 12; xxix. 18); a bod newyn, yn aml iawn, yn rhagflaenu haint: *Mat.* xxiv. 7. Yn yr Ysgrythyr y cyfeiriwyd ati olaf, y mae "nodau" yn y cyfieithiad Cymraeg yn arwyddo "haint y nodau." Gwel *Luc* xxi. 11.

Ond nid yw yr Ysgrythyrau yn rhoddi i ni ddysgrifiad manwl o heintiau a phläau; a gall haint y nodau arwyddo llawer o wahanol glefydau a ddygant eu harwyddion yn y croen; y rhai, yn eu ffurf mwyaf cyffredin, a phan na dditant luoedd ar unwaith, a änt dan yr enw o *luchedenau.* Dywed y Dr. Cullen, mai *typhus fever*, yn y radd uchaf o heintusrwydd, ac yn cael ei dilyn gan nychdod mawr, yw haint y nodau neu y cornwyd. "Ar ddydd anmhenodol o'r cleffyd," medd efe, "y mae plorod a chwarenod yn tori allan." Y Dr. Patrick Russell—yr hwn a fu yn ymarfer fel meddyg yn Aleppo yn amser y pla, am yn agos i dair blynedd, sef yn 1760, 1761, a 1762—a ddywed ei fod, yn ei gychwyniad, mewn llawer o fanau ar y Levant, bron yr un fath ag yn ninasoedd Ewrop. Y mae yn dechreu yn araf, yn fwy, ac yna yn llai, efallai am ddwy neu dair wythnos; ac er ei fod y pryd hwn yn gyffredin yn farwol, nid yw y "nodau" yn aml yn ei ganlyn. Yn wir, y rhai nad yw yn tori allan yn gornwydydd arnynt, y mae yn eu lladd amlaf a phrysuraf. Y mae y neb a darewir ganddo yn teimlo, ar y cyntaf, iasau oerion a chryndod, yn cael eu dilyn gan frydaniaeth, ysgafnder, neu gur yn y pen, teimlad o nychiant ac iselder ysbrydoedd, poen yn llosgi dan bwll y galon, cyfog a rhyddni yn aml. Y mae ysmotiau yn y croen, plorod, a chwarenod yn ymddangos; y llygad yn edrych yn gymmysglyd hynod—weithiau yn ddwl, ac yna yn ddysglaer annaturiol. Y mae y clefyd yn llariciddio bob bore, yn cynnyddu at ganol dydd, ac yn trymhau tua'r hwyr. Y mae y cyfog yn cynnyddu, y gweliau yn llinori ac yn ysu yn ddolurus, a'r dyoddefydd yn penfadroni, ac yn ymollwng i gysgadrwydd. Os bydd byw hyd y trydydd bore, y mae chwys weithiau yn ei esmwytho yn fawr ac yn rhoi tro gobeithiol i'r clefyd. Y pedwerydd dydd, y mae yn glaf iawn, ac yn boenedig hyd fore y pummed dydd, pan y mae chwys mawr yn ei adael yn nychlyd, ond nid o lawer mor sâl. Wedi hyn, y mae ei adglafychiad beunyddiol yn myned yn llai gerwin o hyd, ei gornwydydd yn crawni, a'r clefyd agos wedi ei adael erbyn yr ail wythnos. Ond y mae ereill yn ei gael yn drymach, gyda sychedidor, pangfeydd yn y cylla, cyfogiad mawr, rhyddni, a gwaedlif, bloesgni tafod, colliad parabl, chwys oer gludaidd, pendrondod, a thrymgwsg; pa rai ydynt ragarwyddion sicr o farwolaeth. Os bydd y cyfog, y rhyddni, a'r "dolur gwaed," wedi gwanychu llawer ar y dyoddefydd, bydd farwtua'r trydydd dydd; ond gan amlaf, bydd y clefyd yn parhau ddeuddydd neu dri yn hwy. Ar y cyfryw, yn gyffredin, ni bydd plorod yn tori allan hyd yr ail neu y trydydd dydd; a pha un bynag a grawnant neu beidio, nid yw yn ymddangos eu bod yn cael un effaith ar brysuro neu oedi terfyniad y clefyd.

Mewn rhai achosion, nid oes dim clefyd yn ei ddilyn, ond y cornwyd ei hun—yn blorod, pendduynod, &c., a bydd y rhai a darewir ganddo yn ddigon iach i fyned allan a dilyn eu galwedigaeth yn ddiattaliad, oddigerth bod casgliad pendduynod yn y lwynau yn eu gwneyd yn analluog i gerdded.

Bydd yn ymddangos yn llanerchi cochion ar ereill,—yr hyn sydd yn hanfodol i lawer o glefydau drwg heblaw y cornwyd. Y mae Sydenham yn mynegu i ni am bla Llundain, nad oedd, ar y dechreu, braidd ddiwrnod yn myned heibio heb i rai gael eu taraw ganddo, a marw yn sydyn yn yr heolydd, heb deimlo dim selni blaenorol; a bod yr ysmotiau ysgarlad, a arwyddant farwolaeth ddisyfyd, yn tori allan yn mhwll y galon, ac yna dros yr holl gorff,—a hyn pan fyddai dynion allan ar negeseuaeth, neu gyda eu gorchwylion arferol; ond wedi iddo barhau am beth amser, nad oedd yn dinystrio neb oddigerth bod twymyn neu glefyd arall yn ei ragflaenu. Y mae y Dr. Russell yn dysgrifio chwe math o bla—rhai gyda llucheden drom iawn, a'r lleill gyda thwymyn ysgafn. Yn ei ffurf fwyaf marwol yr oedd y twymyn danbeidiaf, ac anaml yr oedd llinorod a phendduynod yn ymddangos ar rai a darewid felly. Ond wedi hyn, yr oedd llinorod yn ei ddilyn agos yn wastad, tra nad oedd y pendduynod dall a llidiog yn ymddangos ond ar tuag un rhan o dair o'r dyoddefwyr; ac anfynych y sylwyd arnynt yn Aleppo, hyd yn Mai, tua thri mis ar ol i'r pla ddechreu. Cynnyddai y pendduynod chwarenaidd yn yr haf, gan leihau neu fyned yn llai cyffredin yn yr Hydref, a diflanu agos yn hollol yn y gauaf. O'r tu arall, mae rhai meddygon enwog yn ein sicrhau nad oes dim o'r arwyddion hyn yn rhagflaenu cornwyd; ac y mae y Dr. Russell yn penderfynu y gall y pla fodoli yn y ffurf waethaf, heb i'r arwyddion nodweddol ei ddilyn. Y mae llawer o'r meddygon enwocaf yn barnu yr un modd, nad ydyw y cornwyd, fel y dywedwyd, ond y ffurf waethaf o'r dwymyn fogol, neu y *typhus fever.* Dywed y Dr. Mackenzie, yr hwn a fu yn preswylio yn Caer Cystenyn dros ddeng mlynedd ar ugain,—"Y mae y clefyd heintus blyneddol yn y lle hwnw yn tebygu yn fawr i'r hwn a dyr allan yn ein carchardai a'n hysbyttai gorlawn ni; ac ni elwir ef yn bla ond pan ddilynir ef gan gornwydydd a chwarenod llidiog." Ac y mae Syr John Pringle yn sylwi,—"Er y gall llucheden yr ysbyttý a'r carchar wahaniaethu yn ei rhywogaeth oddi wrth y gwir gornwyd, gellir ei chyfrif o'r un natur, gan ei bod yn tarddu o'r un achos, ac yn cael ei dilyn gan arwyddion cyffelyb." Y mae y gweliau crawnllyd neu linorog a ddynodant y cornwyd, yn codi gan mwyaf yn yr arffed a than y ceseiliau; ond yn achlysurol ar y gwddf, ar y gwegil, a than yr ên. Y mae y gweliau naill ai yn llinori neu yn crawnu yn ystod y clefyd; ond pan fyddant yn crawnu, gellir ystyried y dwymyn yn dechreu oeri, a lleihau yn amlwg, yr hyn a gymmer le tua'r wythfed neu y nawfed dydd. Y mae y chwarenod yn gynnwysedig o bendduynod a phlorod llidiog, yn gori ac yn rhedeg i'w gilydd;

Digitized by Google

ac oni chrawnant yn fuan, y maent yn troi yn fadredd a marwolaethiad prysur drwy yr holl gyfansoddiad. Y mae y corff marw yn dadleithio yn ebrwydd, ac yn sawru yn drwm iawn; ac wrth ei agor, ceir yr ymenydd wedi ei drwytho mewn gwaed o liw du, yr ysgyfaint yn dangos effaith ennyniad neu friwiad, y galon o liw coch gwelw a hawdd ei rhwygo, ac yn llawn o waed o liw tywyll, nad ydyw, yn ol tystiolaeth M. Majendie, byth yn ceulo. Mewn amgylchiadau ereill, nid yw cyfansoddiad rhai wedi meirw o'r cornwyd yn arddangos cymmaint o anmhariad tumewnol.

Nid oes un oedran, rhyw, neu alwedigaeth, yn ddiogel lle byddo pla: ond y mae yn ffaith hynod nad yw yn taraw hen bobl, gwragedd, na phlant, mor fynych nac mor drwm a dynion mewn llawn nerth, ac yn mlodau eu dyddiau. Ymddengys hefyd fod rhai galwedigaethau yn ddiogelach rhagddo—megys gwneuthurwyr rhaffau, gwehynwyr dwfr, pobyddion, bacceriaid, olewyddion, gweithwyr tobacco, a nwyddau yn arogli yn gryf; tra, yn ystod rhyfelgyrch Aiphtaidd Napoleon, y sylwyd fod gofaint a chogyddion yn ddarostyngedig iawn i gael eu taraw gan y pla. Y mae hefyd yn beth hynod yn mhob pla, mai y tlodion ydynt y dyoddefwyr blaenaf a mwyaf. Gellir hefyd ddyweyd am Grand Cairo, Caer Cystenyn, ac Aleppo, mai yn y cyrau isaf, mwyaf poblog, cyfyng, a budr o'r dinasoedd hyny, ac yn mysg y dosbarth tlotaf, y mae y cornwyd yn wastad yn gwneyd y galanastra mwyaf. Y pla mawr a fu yn Marseilles, yn 1720, a ymddangosodd gyntaf mewn cwr o'r ddinas oedd yn ddiarebol am fudreddi, cyfyngrwydd, a thrueni ei phreswylyddion. Felly hefyd yr oedd y cornwyd yn Llundain, yr hwn a elwid yn gyffredin "Pla y Tlodion." Ni ymwelodd y cornwyd byth â Llundain wedi y Tân Mawr, yn 1666, pan losgwyd pedwar cant o heolydd, a thair mil ar ddeg a dau gant o dai annedd. Wedi hyny, adeiladwyd y ddinas ar gynllun mwy agored ac awyrog o lawer nag o'r blaen. Cyn hyn, yr oedd yn ddiareb am ei phlaau mynych.

Gellir dosbarthu plaau i ddau fath, neu ddwy ffurf;—un yn fath o gletyd cynhenid a lleol, yn gyfyngedig i drigolion gwleydd neillduol; a'r llall yn haint ffyrnig a marwol, yn ymledu dros derfynau ei gylch deehreuol. Yn y ffurf olaf, y mae wedi tynu y sylw manylaf, o'r oesoedd boreuaf hyd yn awr; ac yn yr un golygiad y bydd i ni geisio gwneyd rhai sylwadau pellach ar ddechreuad, cynnydd, a darfyddiad plaau cornwydol.

Dywedir fod pob pla o'r bron wedi cael ei ragflaenu gan arwyddion naturiol, a chan mwy o farwoldeb oddi wrth gletydau blinion ereill nag arferol. Yn enwedig, priodolir pla i gyfnewidiadau mawrion a sydyn yn yr awyrgylch. Y mae Livy yn priodoli un pla arbenig i'r achos hwn:—"Yr oedd y flwyddyn," medd efe, "yn nodedig am auaf oer ac eira, fel yr oedd y ffyrdd yn anhygyrch ac yn annhramwyadwy, a'r afon Tiber wedi rhewi drosti. Y gauaf alaethus hwn (nis gwn pa un ai oddi wrth gyflwr annhymmoraidd yr awyr, yr hwn a gyfnewidiodd yn ddisymmwth i gyflwr gwrthwyneb, neu ryw achos arall), a ddilynwyd gan wres mawr, heintus, a dinystriol, i bob math o anifeiliaid." Y mae y Dr. Russell yn ein hysbysu, fod gauaf 1756—7, yr hwn a ragflaenai dwymen frechlyd 1758 yn Aleppo, a chornwyd y pedair blynedd dilynol mewn gwahanol barthau o Syria, yn un oerllym iawn. Lladdodd olewydd, a safasant dywydd hanner can mlynedd. Yr haf canlynol bu drudaniaeth o herwydd i'r cnydau fethu, a newyn mor dost fel yr oedd rhieni yn bwyta eu plant eu hunain, a dynion tlodion a newynog o'r mynyddoedd yn cynnyg eu gwragedd ar werth yn y marchnadoedd i brynu ymborth.

Y mae y cyssylltiad rhwng newyn a haint yn beth sydd wedi tynu sylw yn mhob oes o'r byd. Sylwyd, hefyd, fod lluosogiad dirfawr pryfed yn rhagflaenu haint y nodau.

Mewn perthynas i'r cornwyd du, yn 1345—8, am yr hwn y soniwn eto, priodola ysgrifenwyr yr amser hwnw ei darddiad i lygriad cyffredinol yr awyr, yn nghyd âg ymddangosiad miliynau o seirff bychain, a thrychfilod gwenwynig ereill. Mewn rhai manau, fel y dywedid, yr oedd ymlusgiaid anferth, gyda nifer mawr o draed, ac o ymddangosiad arswydus, y rhai a lanwent yr awyr â sawyr drewllyd. Er caniatau llawer i anwybodaeth a hygoeledd yr oes, eto y mae yn amlwg bod rhyw achosion anianyddol wedi tueddu i lygru yr awyr, a'i llenwi â tharthau heintiol. Felly daeth i Loegr yn 1348, a bu yn gwlawio o'r Nadolig o'r blaen hyd ganol yr haf bron yn ddibaid. Bu llifogydd mawrion, ac ymgasgliad o ddwfr llonydd marw, yn aradlu tarth gwenwynllyd. Felly o flaen cornwyd 1575, dywedir fod, ar ol llif meiriol, y fath heidiau dirifedi o wybed duon, a hefyd o chwilod, yn cael eu cario i lawr yr afon Hafren, am bedwar diwrnod yn olynol, fel y tegid y melinau, ac y certhid Ewynt o'r ffosydd â rhawiau. Dywed Short, fod y fath heidiau afrifed o geiliogod rhedyn mawrion wedi ymweled â Caer Cystenyn yn 1612, fel y difasant bob llysieuyn glas a deilen; a'r flwyddyn ganlynol, bu dau gan mil feirw, yn yr un ddinas, o'r cornwyd. Y flwyddyn gyntaf a enwyd, llwyr anrheithiwyd teyrnas Provence gan heidiau dirfawr o locustiaid, y rhai a ddilynid gan bla, mewn amryw barthau o Ffrainc. Cyssylltir ymddangosiad locustiaid â haint yn aml yn yr Ysgrythyr. Y maent, yn gyffredin, mor nifeiriol a bwytëig, fel yr achosant newyn; ac yna y maent yn meirw yn fyrddiynau, nes gwenwyno yr awyr. Felly y pla a laddodd gyntafanedigion yr Aipht (*Salm* lxviii, 50, 51, a xci. 3—10) a ragflaenwyd gan res o ddygwyddiadau alaethus; megys, llygriad ac afiachâd dyfroedd yr afon a'r ffynnonau, heigiad llyffaint yn ddirifedi, llau, ac ednogion dirif, haint ar anifeiliaid, cornwydydd llinorog, ystormydd dinystriol o genllysg a thân mellt, heidiau myrddiynog o locustiaid, niwl tywyllwch dudew am dri diwrnod, yna "haint yn rhodio yn y tywyllwch, ac yn lladd holl flaenion eu nerth yn mhebyll Ham;" sef y rhai oeddynt yn mlodau ac ireiddra eu dyddiau. Er bod y pla yma yn cael ei ffrwyno gan oruchlywodraeth Ddwyfol uniongyrchol, y mae ei raflaenyddion *naturiol* yn amlwg yn ngwenwyniad yr awyr, y dyfroedd, a'r ymborth. Felly, hir niwlwynt, cyfnewidiadau mawrion annhymmoraidd yn nhymmerwch yr awyr, tarth a gwlybaniaeth mawr, mellni a deifiad cnydau y ddaiar a ffrwythau coed, clwyf neu afiechyd ar lysiau a gwreiddiau, haint ar anifeiliaid, absennoldeb neu farwolaeth adar cân, lluosogiad dirfawr gwybed ac ymlusgiaid difaol, tawelwch a marweidd-dra y gwynt—yr holl bethau hyn, neu rai o honynt, a ragflaenant bla a chornwyd yn wastad, o'r bron. Nid oedd dim gwynt, na phrin awel, drwy holl haf y cornwyd

Digitized by Google

mawr diweddaf yn Llundain. Yn ystod y dau can mlynedd diweddaf, y mae rhyw lucheden drom bob amser wedi bod yn rhagflaenu pla. Gwelir hyn wrth gymharu ysgrifau marwolaethau Llundain, cyn amser y tri chornwyd diweddaf—1625, 1636, a 1665:—

Blyneddoedd.	Clefydau Cyffredin.	Y Cornwyd, neu Haint y nodau.
1624	12,199	11
1625	18,848	35,417
1626	7,400	134
1635	10,651	
1636	12,959	10,400
1637	8,681	3,082
1664	18,291	6
1665	28,710	68,596
1666	10,840	1,998

Dywedid y pryd hyny, a chredir hyd heddyw, fod llawer o rai a roddid i lawr yn y cyfrifon swyddol hyn fel wedi marw o afiechyd cyffredin, mewn gwirionedd wedi syrthio yn ebyrth i'r cornwyd; nad oedd ysgrifau marwolaethau, pan oedd y pla yn ei lawn gynddaredd, ddim amgen na "chyfrifon ar amcan;" ac yn lle 70,594, fod De Foe yn debycach i'w le pan y dywed fod can mil wedi marw o hono. Y mae ereill yn dodi y nifer i lawr yn gant a deg ar ugain o filoedd.

Yn Ewrop, y mae y cornwyd yn fwy dinystriol a ffyrnig yn wastad yn ystod yr haf a'r cynauaf. Fel hyn, yr oedd y marwolaethau o'r cornwyd, yn Llundain, yn 1665, yn fwy nifeiriol yn mis Medi nag mewn un mis arall:—

Misoedd.	Marwolaethau.
Mehefin	590
Gorphenaf	4,129
Awst	20,046
Medi	26,230
Hydref	14,373
Tachwedd	3,449
Rhagfyr, ... dan	1,000

Yn nghorff yr wythnos a derfynodd gyda'r 19fed o Medi, bu farw 10,000. A phan ystyriom nad oedd poblogaeth Llundain y pryd hyny yn ddim wrth yr hyn ydyw yn awr, ymddengys y nifer yn ddychrynllyd o fawr. Yn yr Aipht, i'r gwrthwyneb, y mae y pla yn dechreu yn y cynauaf, ac yn cyrhaedd ei uchder mwyaf tuag Alban-eilir, neu gyhydedd y gwanwyn. Y mae yn hynod fod eithafrwydd gwres haf, yn gystal ag oerni mwyaf y gauaf, yn arafu rhwysg y cornwyd, ac weithiau yn rhoddi attalfa hollol arno. Yn ol tystiolaeth Alpinus, pa mor arswydus bynag y byddo y pla yn ymgynddeiriogi, cyn gynted ag y daw yr haul i drofa y cranc, y mae yn darfod ar unwaith. Felly y mae tywydd oer hinsoddau gogleddol yn arafu plaau a chlefydau; ac y mae y rhai a ddechreuant tua diwedd yr haf yn aml yn darfod tua chanol y gauaf. Bernir yn gyffredin y dyddiau hyn fod tywydd sych—pa un bynag ai brwd ai oer—yn enwedig y blaenaf, yn lliniaru pob clefydau; ac mai gorleithdra yr awyr, a gwlybaniaeth gormodol y ddaiar, sydd yn cydredeg yn fwyaf cyffredinol â phob clefyd a haint; ac mai moddion tebyg i'w llarieiddio, os nad i'w hattal, ydyw glanweithdra llwyr, a digon o awyr pur i'r anneddau a'r ystafelloedd. Barna pawb, o'r bron, fod plaau cornwydol yr Aipht, er anghraifft, yn tarddu o lygredigaeth y llynau o ddwfr marw a orweddant ar lanau corsog y Nilus, ar ol y gorlifiad blyneddol. Gellir hefyd olrhain plaau y Dwyrain, a chlefydau drwg America Ddeheuol, i gorsdiroedd a siglenydd cyffelyb. Y mae hefyd yn ffaith a addefir yn gyffredinol, fod heintiau tramwyol, nid yn unig yn cael eu cario gyda'r gwynt o'r cyfryw leoedd, ond hefyd yn galw yn wastad mewn dinasoedd cyfyng a budron, yn enwedig ar lanau corsog afonydd. Ond y mae Boyle, ac ereill, yn priodoli cynnyrchiad pla i wenwynau mwnyddol; y rhai, ar brydiau, a ddiangant allan o'r ddaiar—megys ar wres mawr haf, yn enwedig pan ddygwydd daiargryn—ac a wasgarant eu hansoddau marwol drwy yr awyr. Rhaid addef fod daiargrynfeydd wedi bod yn rhagflaenu, neu yn cydamseru, â rhai plaau hynod iawn, megys y cornwyd du; a bod dirgelwch mawr yn amgau dechreuad cyfnodiad ac adgynnyrchiad heintiau o'r fath, nid yn unig ar ddyn ac anifail, ond hefyd ar lysiau a gwreiddiau. Er anghraifft, y mae yr afiechyd llysieuol, neu haint y cloron—pla y pytatws, fel y gelwir ef yn ddigon priodol weithiau—yr hwn sydd er ys llawer o flyneddoedd yn taraw y gwreiddiau defnyddiol a gwerthfawr hyn ryw noswaith bob blwyddyn, wedi dyrysu medrusrwydd pob llysieuwr ac anianyddwr hyd yn hyn. Ond y mae ereill yn ystyried pla yn unig fel afiechyd y mae y naill ddyn yn ei gymmeryd oddi wrth y llall—yn cael ei drosglwyddo o le i le, ac o wlad i wlad. Yn ol eu barn hwy, nid ymddangosodd pla erioed yn ngorllewin Ewrop, ond pan y cludwyd ef yno o'r dwyrain, neu o ryw barth afiach arall o'r byd; a'r goel gyffredin yw, ei fod yn cael ei ddwyn mewn llongau yn dyfod o wledydd lle y mae yn tarddu. Felly credid bod pla Llundain wedi cael ei ddwyn drosodd o Holland mewn bwrn o nwyddau masnachol; yr hyn, meddid, a fu yn farwolaeth i ddau yn Westminster, tua diwedd y flwyddyn 1664. Tua'r un amser, bu farw dau Ffrancwr, y rhai y meddylid eu bod wedi dwyn yr haint gyda hwynt, mewn rhyw nwyddau masnachol, o'r Levant. Yr oedd yn rhew mawr ar y pryd, ac aeth y marwoldeb rhagddo yn araf, hyd y meiriol yn niwedd Chwefror; yna cynnyddodd y pla yn gyflym ac arswydus tua Mawrth ac Ebrill: ond, am beth amser, cadwodd oddi allan i furiau yr hen ddinas, gan ymfoddloni ar fedi y trigolion budraf, mwyaf eu hanghymmedroldeb, a gwaethaf eu moesau, yn yr heolydd culion, yr arweinfeydd cyfyng, a'r lleoedd cefn drewllyd—preswylfeydd truenus cardotwyr a'r gradd isaf o diolion, llochesau halogedig puteiniaid, a ffeuau dyhirwyr a lladron, meddiwon, ac anfoesolion o bob math. Torodd allan yn St. Giles, yn ol y cyhoeddiad swyddol, ar y 26ain o Ebrill. Yr oedd llawer yn meirw mewn awr o'r amser y cymmerid hwynt yn glaf. Ond y pryd hyn, yr oedd mwy o blant yn meirw na rhai wedi tyfu i fyny, a mwy o ferched nag o feibion yn syrthio yn ebyrth i'r haint. A chyn dechreu yr haf, gwnaeth y dinystrydd ei ffordd i ganol y ddinas, a throes ei heolydd a'i chilfachau yn bentwr o gelaneddau, gan arllwys ei ddialedd yn benaf, ac, mewn cymhariaeth, yn unig, ar y dosbarth mwyaf truenus a drygionus o'r dinasyddion: ac er holl fedr y meddygon, a gochelgarwch a gwyliadwriaeth yr awdurdodau dinasol—trwy gau i fyny bob tŷ lle y torai y pla allan, a'i nodi â chroes goch fel nad elai neb i mewn, claddu y meirw yn ebrwydd, ac arfer pob moddion tebyg i'w attal—lladd ar ddeheu ac ar aswy, ei gannoedd bob dydd, a'i filoedd bob wythnos, yr oedd yr angel dinystriol. Yr oedd pob masnach a negeswriaeth wedi dyrysu, pawb a

Digitized by Google

allai ffoi ymaith wedi gadael y dref cyn diwedd yr haf, ond meddygon ac efengylwyr hunanddiofrydol, a'r lladron a'r ysbeilwyr mwyaf haiarnaidd eu calonau, y rhai a fedent elw mawr wrth ddilyn sodlau angeu i ysbeilio tai y trancedigion, a thori i anneddau gadawedig i gymmeryd meddiant o'r hyn a adawsai y ffoedigion ar eu hol yn eu brys i ddianc. Nid oedd yn beth anghyffredin i rai gael eu taraw gan y cornwyd yn nghanol y gynnulleidfa, a chael eu cario allan yn glaf neu yn farw; o blegid hyn, cauwyd rhai eglwysydd a chapeli yn gwbl am fisoedd. Yn ystod yr haf hwnw, nid oedd neb yn dyfod i fyny i'r brifddinas. Gohiriwyd y senedd ddwy waith o achos y pla; ac o'r diwedd, cyfarfu y ddau dŷ yn Rhydychain, ar y 9fed o Hydref, pythefnos wedi i'r brenin a'i lys gyrhaedd hyd yno. Yr oedd y pendefigion a'r teuluoedd boneddol y pryd hyny yn aros yn eu palasau yn y wlad. Ciliodd y marsiandwyr tywysogaidd o'r ddinas, a chymmerasant eu trigfod yn mhell; a dilynwyd hwynt gan y masnachwyr cyfoethocaf, a'r prif grefftwyr; a lluoedd o ddynion iselradd, heb fod ganddynt gyssylltiadau nas gellid eu gadael, a ymwasgarasant yn mhell, yma ac acw, ac ni ddychwelodd llawer byth yn ol. Yn mysg y minteioedd o ffoedigion yr oedd Milton y Bardd, yr hwn a ddiangodd i Chalfont, yn swydd Berks; ac yno, yn ystod yr haf hwnw, y cyfansoddodd *Paradise Regained.* Ond er mor ofnadwy oedd y pla yn 1665, ni ddifaodd gymmaint yn Lloegr a rhai heintiau blaenorol, megys cornwyd 1594; yr hwn a gyrhaeddodd i lawer o barthau o Gymru, megys Conwy, lle claddwyd llawer mewn ffosydd a dorid yn yr heolydd, esgyrn pa rai a ganfyddwyd rai blyneddoedd yn ol. Ac yr oedd hyd yn ddiweddar gareg bedd addurnedig yn mynwent Abergele, ar yr hon yr oedd y darllenlad hwn yn Gymraeg, mewn llythyrenau penigol mawrion,—"Rhys ap Dafydd ap Howel, a gladdwyd yma, blwyddyn ein Harglwydd 1595." Ac ofnai y clochyddion gynt yn fawr rhag agor ei fedd, o blegid fod traddodiad yn dyweyd mai o'r cornwyd y bu yr hen foneddwr farw. Y flwyddyn cyn hyny, bu dinystr ar ragor na deng mil ar ugain o fywydau yn Llundain, drwy yr un pla.

Ond y mae llawer o'r meddygon enwocaf yn gwadu bod y cornwyd, haint y nodau, a phläau o'r natur yma yn heintus, yn ystyr priodol feddygol y gair; hyny yw, ei fod yn ddichonadwy i'r naill ddyn eu cael oddi ar y llall. Dyma farn llawer o feddygon enwocaf yr Aipht—dynion y daeth miloedd o anghreifftiau o gornwyd o dan eu sylw a'u triniaeth. Rhai o'u rhesymau dros y farn hon ydynt yn fyr:—ei fod yn beth afresymol ynddo ei hun, y gellir cludo y fath heintiau ofnadwy o le i le mewn cist neu gwd, llyfr neu ddilledyn, &c. Bod dilladau miloedd o ddynion, wedi meirw o'r pla, yn cael eu gwerthu yn y marchnadoedd cyhoeddus yn ninasoedd y Dwyrain, ac na wybuwyd erioed i'r rhai a'u prynent ac a'u gwisgent dderbyn y niwed lleiaf. Ei fod wedi cael ei brofi ger bron cyfeisteddiad y senedd yn Lloegr, na chafodd un o swyddogion y *quarantine*, y rhai a benodir i chwilio llongau, a phob nwyddau a ddeuant o wledydd lle bo pla, erioed eu taraw ganddo. Ac er impio gôr cornwyd ar ddynion iach ac anifeiliaid, drachefn a thrachefn, ni wybuwyd eu bod yn derbyn y niwed lleiaf! Ni lwyddodd un gocheliad na gwyliadwriaeth er attal a thori ymaith bob cyd-drafod a chymundeb, i rwystro dyfodiad pla i'r gwledydd ar ei lwybr:—ac i'r gwrthwyneb, ei fod yn myned heibio heb gyffwrdd â gwledydd mewn cymundeb a diattaliad â lleoedd läol; ei fod yn aml yn amgylchu Persia heb byth ddyfod i mewn i'r wlad hono.

Nis gallwn roddi i'r darllenydd un meddyldrych o'r galanasdra a wnaeth yr heintiau hyn ar gyfandir Ewrop, ac yn Asia. Ond y pla mwyaf dinystriol a fu yn ein teyrnas ni erioed ydoedd yr un a ddygwyddodd yn nheyrnasiad Iorwerth III; a chan fod hwnw yn un o'r rhai mwyaf dychrynllyd a chyffredinol, rhoddwn ychydig hanes am dano. Ymddangosodd gyntaf yn y Dwyrain, rhwng y blyneddoedd 1343—5; tramwyodd drwy China, India, Tartary, ac Asia Leiaf, at lan Môr y Canoldir; ac oddi yno drosodd i'r Aipht, ar hyd arfordir gogleddol Affrica, ac i fyny y Nilus i Abyssinia; ac ar yr un pryd, tros Dir Groeg ac ynysoedd Ionia, gan adael y wlad o'i ol bron yn ddibobl. Dywedir ei fod yn lladd naw o bob deg ffordd yr elai; weithiau, un o gant a arbedai. Byddai yn aros bump neu chwe mis yn yr un fan. Dysgrifir ei *arwyddion* yn fanwl gan amryw ysgrifenwyr, ac yr oeddynt yr un fath yn mhob gwlad. Cornwyd perffaith oedd; ac ymddangosai y rhai amlaf yn nghylch yr arffed, neu dan y ceseiliau, a'r chwarenod a dorent allan yn archollion dolurus, a theflid y dyoddefydd i dwymyn, a phoerai a chyfogai waed. Byddai y claf yn aml farw mewn hanner diwrnod; yn wastad bron mewn diwrnod neu ddau y fan bellaf. Os byddai fyw hyd y trydydd dydd, a'i gornwydydd yn debyg o grawnu, ystyrid fod rhyw obaith o'i adferiad; ond yr oedd llawer y pryd hyny yn syrthio i gwsg na ddeffroent byth o hono.

O Dir Groeg, aeth drosodd i Italy. Collodd Venice gan mil o'i thrigolion. Yn Florence, bu farw trigain mil mewn un flwyddyn. Yn nesaf, syrthiodd yr un dinystr ar Ffrainc, ac yr oedd nifer y marwolaethau yno yn ddychrynllyd. O'r diwedd, cyrhaeddodd Paris, lle y torodd ymaith hanner can mil o'r trigolion. O ddeutu yr un amser, ymledodd i Germany, lle y bernir i ddeuddeng miliwn a phedwar can mil farw o hono. Dywed y Dr. Hecker, na fu dim llai na phum miliwn ar ugain farw o hono yn yr ysbaid byr o dair blynedd, sef o 1347 hyd 1350! Yn mhen amser, daeth i Loegr. Tua diwedd Awst, 1348, ymddangosodd yn nhrefydd arforol Dorset, Dyfnaint, a Gwlad yr Haf, ac oddi yno cyrhaeddodd Gaerodor. Pobl sir Gaerloew, yn union, a waharddasant bob cydfasnach â Chaerodor; ond yn ofer. Ehedodd dros sir Gaerloew, gorphwysodd am ennyd ar Rydychain, ac aeth rhagddo oddi yno tua'r dwyrain; cyrhaeddodd Llundain ar Ddydd Calangauaf, yn yr un flwyddyn. Yno gwnaeth alanas mor ofnadwy, fel mai prin y gadawyd hanner y dinasyddion annedwydd yn fyw i weled diwedd y trychineb, yn y Gorphenaf canlynol. Teflid y meirw i byllau oedd wedi eu cloddio i'r perwyl, heb drefn na defod. Tröid y meusydd mawrion tu allan i'r ddinas yn gladdfeydd, gan fod y mynwentydd wedi myned yn rhy gyfyng. Torid ffosydd llydain a dyfnion, yn mha rai y dodid y cyrff, ac yna teflid pridd arnynt; yna rhes arall; ac felly drachefn rhwng pob priddiad, hyd nes y deuent mor agos i'r wyneb fel y byddai yn rhaid cau y ffos hono, ac agor un newydd. Yr unig ofal a gymmerid, oedd, rhoi y cyrff rywsut dan bridd, cyn gynted ag y gellid, a chadw cymmaint o le ag yr oedd modd i ragor o feirwon. Yn Yarmouth, lle bychan mewn cymhariaeth, claddwyd mewn un

Digitized by Google

flwyddyn, saith mil a deuddeg a deugain o'r pla hwn. Yn ninas Norwich, bu farw dwy fil ar bymtheg a thri chant a phedwar ar ddeg a thrigain mewn chwe mis. Yr oedd y marwolaethau yn llawn cymmaint yn Nghaerefrog. Ond yn mhob man, yn mhlith y graddau isaf y bu mwyaf o ddinystr. Sylwyd na bu un brenin na thywysog, yn un man, farw o hono; ac mai ychydig iawn o bendefigion ac urddasolion Lloegr a syrthiasant dan y fflangell. Yn mysg y werin, yr oedd wedi dattod holl rwymau cymdeithas, a chylymau perthynas: yr oedd y rhieni yn gadael eu plant, a phlant eu rhieni; rhai yn ceisio ffoi i leoedd unig yn mherfedd y wlad, o gyrhaedd pawb; ereill yn diane i'r môr: ond yr oedd gan yr angel dinystriol droed ar y dyfroedd yn gystal ag ar y tir. Daeth yr un pla i Gymru, ac aeth oddi yma i'r Iwerddon, gan ddibobli ei lwybr; a chyfrifir na adawodd ond y "degwm" ar ei ol. Am yr Ysgotiaid, tynasant y pla arnynt eu hunain. Gan gymmeryd mantais ar y cyflwr dinodded yr oedd Lloegr ynddo, ymosodasant arni; ond ni ddaethant yn mhell cyn i'r cornwyd eu cyfarfod. Buont feirw wrth y miloedd, a chludasant yr haint i'w gwlad eu hunain, lle y gwnaeth gymmaint o ddinystr ag a wnaethai yn Lloegr. Yn gynnar yn 1349, dechreuodd y clefyd marwol hwn ymlarieiddio; ac erbyn Awst, yr oedd wedi hollol ddarfod.

Rhoddwn yma amseriad rhai o'r prif bläau a ddygwyddasant ar y ddaiar; ac er nad yw y rhestr yn berffaith, y mae yn gyflawnach nag a geir mewn un gwaith arall y gwyddom am dano. O'r tu arall, y mae yn ddichonadwy mai nid cornwyd, neu haint y nodau, oedd pob un o'r pläau a enwir isod. Mae ambell glefyd galanasol, neu haint difaol arall, mae'n debyg, wedi ymlusgo i'w mysg, megys y *cholera*:—

C. C.

1491—Pla yr Aipht.—*Exod.* xii.
1490 „ yn yr anialwch.—*Num.* xi.
1250 „ yn Ægina.—*Ovid's Metam.*, llyfr vii. 523.
1190 „ yn ngwersyll y Groegiaid, pan yn gwarchae ar Caerdroia.—*Homer's Il.*, llyfr i.
1017 „ yn amser Dafydd. - 1 *Sam.* xxiv.
767 „ dros yr holl fyd adnabyddus.
738 „ yn Rhufain, yr un â'r olaf a enwyd, fe dybir.—*Plutarch's Life of Romulus.*
464 „ yn Rhufain.—*Livy*, iii. 6; *Dion. Hali.*, llyfr x.
454 „ yn Rhufain.—*Livy*, iii. 32.
437 „ yn Rhufain.—*Livy*, iv. 21, 25.
430 „ yn Athen.—*Thucydides*, ii. 48, &c. Nid oedd un clefyd arall yn ei ganlyn, na dim hynod yn nhywydd y blyneddoedd blaenorol; ond yr oedd y ddinas yn orlawn o drigolion, a lluoedd o bobl y wlad wedi gwneyd eu noddfa tu mewn i'r muriau rhag rhyfel cyfamserol.
404 „ yn Carthage.—*Justin.*, xix. 2; *Diod. Sic.*, xiii. xiv.
366 „ yn Rhufain.—*Livy*, vii. 1; *Short on Air.*
296 „ yn Rhufain.—*Livy*, x. 31, &c.; *Orosius*, iii, 21.
213 „ yn myddinoedd Carthage a Rhufain, pan yn gorwedd o flaen Syracusa.—*Livy*, xxv. 26.
182 } 177 } „ yn Rhufain, a holl Italy.—*Livy*, xli. 21.
126 „ yn Carthage a Numedia.—*Livy Epit.*, 60; *Orosius*, v.

B. A.

40 „ yn Babilonia.—*Josephus Ant.*, xviii. 9, 8.
66 „ yn Italy.—*Tacitus*, xvi. 13.
68—Pla yn Rhufain:—yr un, dybygir.—*Tacitus Annal.*, xv. 47; *Orosius*, llyfr vii; *Universal Hist.*, cyf. xiv. td. 139.
167 „ yn Rhufain, a thros ran fawr o'r byd adnabyddus, am rai blyneddoedd.—*Marcellinus*, llyfr xxiii.; *Echard's Roman Hist.*, cyf. ii. td. 315.
187 „ yn Rhufain, a thros Italy.—*Herodian*, llyfr i.
207 „ yn Mhrydain. Bu farw 50,000, yn nyddiau Severus, neu Sefyr.—*Hanes Cymru.*
250 „ dros yr holl ymherodraeth Rufeinig, gan ymledu, am bymtheng mlynedd, "o Ethiopia yn y de, hyd Brydain yn y gogledd." Dywed rhai mai dyma yr haint mwyaf ofnadwy a fu erioed.
552 „ dros ran fawr o'r byd.—*Zonaras*, llyfr xiv. *Gibbon*, cyf. i. td. 10. Dechreuodd yn yr Aipht, ymwelodd â Rhufain, ac ymledodd dros lawer o'r ddaiar. Adgyndeiriogodd yn 558, a pharhaodd i ddifa yma ac acw am hanner can mlynedd o leiaf.
772 „ yn Lloegr, lle bu farw 34,000.
954 „ yn yr Alban, lladdodd 40,000.
958 „ yn Lloegr, &c. Yr oedd newyn mawr yn ei ganlyn.
1193 „ yn Lloegr, &c. Ar ol pedair blynedd o newyn, yr oedd y marwolaethau mor fawr nas gallai y byw gladdu y meirw.
1247 „ yn Ffrainc, Italy, a Thir Groeg. Newyn tost. Bu farw 100,000.
1316 „ yn Lloegr, gyda newyn.
1345 „ yn Asia, Affrica, ac Ewrop. Y cornwyd, neu angeu du. Hefyd, bu myrddiynau o anifeiliaid, y rhai a adewid i grwydro lle y mynent, feirw; a bu newyn am na cheid neb bron i gasglu cnydau y ddaiar. Mewn llawer o wledydd ofergoelus, cyhuddwyd yr Iuddewon o achosi y pla drwy wenwyno y pydewau a'r ffynnonau, a rhoddwyd miloedd lawer o honynt i farwolaeth. Llofruddiwyd deng mil o honynt yn Mentz yn unig.
1362 „ yn Lloegr, gyda newyn. Bu farw 57,300. Yr oedd yn lladd yn Paris fwy nag yn Llundain.
1379 „ yn Llundain, lle bu 30,000 farw
1389 „ yn Lloegr, gyda newyn tost.
1407 „ yn Llundain. Dywedir i'r cornwyd hwn ladd mwy o ddynion nag a gollasid mewn pymtheng mlynedd o ryfel.
1477 } 1499 } „ yn Llundain, eto. Rhwng y cornwyd a'r cryd poeth, bu farw hanner poblogaeth Lloegr.
1507 „ yn Italy, am bum mlynedd.
1548 „ yn Llundain, yn dost. Symmudwyd y breninllys i Hatfield.
1562 } 1563 } „ yn Llundain, a phrif ddinasoedd Ewrop.—*Short*, cyf. i. Bu farw 20,000 yn Llundain, yn mysg pa rai yr oedd llawer o bendefigion.
1575 „ yn Italy, allawer o fanau ereill.—*Thuanus*, llyfr lxii; *Short*, cyf. i; *Mercurialis on the Plague of Venice.* Rhagflaenwyd y cornwyd hwn gan dair blynedd o brinder, drudaniaeth, a newyn.
1580 „ yn Grand Cairo, a llawer o gyrau o Ffrainc. Ambell ddiwrnod, yn ol cyfrif Tadino, byddai 3,500 yn meirw yn Milan; a threngodd lluoedd o fabanod yn yr heolydd wedi i'w mamau farw o'r cornwyd.
1593 } 1594 } „ yn Llundain, lle bu farw 30,578.
1600 „ yn Llundain, a gwahanol barthau o Ewrop, am dair blynedd. Dinystriodd lawer iawn.—*Maitland's Hist. of London; Mignot's Hist. of the Turkish Empire*, td. 256.

Digitized by Google

1611 } —Pla yn Caer Cystenyn, lle y dywedir iddo
1613 } ddinystrio dau can mil o'r dinasyddion. Ymwelodd hefyd â Ffrainc.—*Riverius*, llyfr xvii; *Short*, cyf. i; *Mignot*.
1625 „ yn Llundain, lle y trengodd 35,417. Aeth dros wahanol barthau o Ewrop.—*Short*.
1632 „ yn Lyons, lle y difaodd 60,000.
1635 } „ yn Llundain, Nimeguen, a dinasoedd
1636 } Ewropaidd ereill.—*Diemerbroeck Tractatus de Peste*.
1655 } „ dros Ewrop oll, o'r bron. Dyoddefodd
1656 } Naples yn drwm iawn, a threngodd tri o bob pedwar o'r trigolion.—*Universal History*, cyf. xxviii. td. 318. Parhaodd am ddeuddeng mlynedd.
1663 } „ yn Holland, Llundain, ac agos dros yr
1665 } holl wlad hon.—*Wade's Brit. Hist.*
1702 } „ yn ngogledd Ewrop. Dysgrifir ei ymwel-
1711 } iad â Dantzic, yn neillduol, gan y Dr. Gottwald.—*Unir. Hist.*, cyf. xxxv.
1720 „ yn Marseilles.—*Chicoyneau's Traite de la Peste; Bertrand's Relation Hist. de la Peste de Marseille.*
1743 „ yn Aleppo.—*Natural History of*, gan y Dr. Alex. Russell.
1751 „ yn Caer Cystenyn.—*Chenier's Morocco*, cyf. ii. td. 275.
1760 } „ yn Aleppo, Ierusalem, a Damascus.—
1762 } *Treatise on the Plague*, gan y Dr. Patrick Russell.
1770 } „ yn Caer Cystenyn, Poland, a Rwssia.
1771 } Dysgrifir ei ymosodiad ar Moscow, yn
1772 } neillduol, gan Mertens.—*Ann. Reg.*
1783 } „ yn yr Aipht, Dalmatia, a Chaer Cys-
1785 } tenyn.—*Volney's Travels*, cyf. i. td. 192.
1799 „ yn y fyddin Ffrengig yn yr Aipht.—*Memoire sur la Peste observée en Egypte, pendant le Sejour de l'Armée d'Orient dans cette Contrée; Baron Larry; Description d'Egypte, &c.*
1820 „ yn ynysoedd Malta, Gozo, Corfu, a Cephalonia, &c.

Ni chyffyrddwyd yn yr erthygl hon â'r cryd poeth, y clefyd melyn, y dolur gwaed, a llawer o glefydau ereill fuont mor ddinystriol a'r cornwyd gynt.

CORON—AU: math o gap addurnol, o aur a meini gwertfawr, a wisgir gan freninoedd a breninesau, fel arwydd o fawrhydi penarglwyddol. Ond yn yr oesoedd boreuol, nid oedd gwisgiad coronau yn gyfyngedig i benaduriaid a thywysogion, fel yr ymddengys oddi wrth y sylwadau dilynol.

Un o'r crybwylliadau boreuaf sydd genym am wisgo coron, a geir yn *Iob* xxxi. 36; lle y dywedir, "Rhwymwn ef (llafn o ysgrifen) yn lle coron i mi." Yma gellir yn hawdd ddeall nad oedd coron y pryd hyny yn ddim amgen na ffunen a gylymid am y pen, neu ryw fath o gap a ellid ei wneyd o rol llyfr; ac a ddechreuodd gyda merched, neu feibion â gwallt hir, y rhai a wisgent rwymyn i gadw eu gwallt rhag disgyn dros y gwyneb. O fod yn beth angenrheidiol neu wasanaethgar, daeth yn fuan i gael ei gyfrif yn addurn; a gwneid ef o amryw liwiau, ac o gydblethiad aur a gemau, a gwisgid ef gan rai nad oedd arnynt ei eisieu fel rhwymyn gwallt, ond a'i cymmerent fel harddwisg pen, weithiau fel amrwymyn ar y cap neu benwisg; ac o dipyn i beth, daeth i fod yn arwyddnod, yn ei ffurf addurnedig neu amryliw, o radd uchel ac awdurdod; ac mewn amser i gael ei wisgo yn unig gan benaduriaid.

Yn yr Ysgrythyrau, arferir y gair *coron* am lawer o addurniadau a wisgid am y pen, heb law y rhai a ddynodant radd freninol, a'r rhai a alwn ni yn goronig, penffunen, meitr, penre, penrwy, garlant, &c. Ac nid oedd y dalaith freninol, ar y cyntaf, ddim mwy na ffunen addurnol a wisgid am y pen noeth. Wedi hyny, daeth i fod yn dorch o aur [gwel dar. 197, llun 2, 5]; weithiau gydag addurnwaith arni [llun 6, 7, 8, 10], ac yn y ffurf hon gellir ei hystyried fel coron. Y mae y ffugr olaf yn hynod, nid yn unig yn ei symledd, ond o herwydd y dorch o fettel, a dynid i lawr am yr ên, i gadw y dalaith hon yn ddiogel ar y pen, wrth ymladd neu hela, ond odid. Yna cawn y dalaith yn y ffurf o amdorch,



Dar. 197.

penwisg, neu gap [llun 3, 9, 13]; a phan yn addurnedig, gellir cyfrif hon hefyd yn goron. Tybir bod y gair Hebraeg נזר (*nezer*) yn arwyddocäu talaith. Arferir ef am y dalaith euraidd a wisgai yr archoffeiriad, fel y darllenwn yn *Exod.* xxxix. 30, 31,—"Gwnaethant hefyd *dalaith* y goron sanctaidd o aur pur; ac a ysgrifenasant arni ysgrifen, fel naddiad sel: SANCTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD. A rhoddasant wrthi linyn o sidan glas, i'w dal i fyny ar y meitr;" rhywbeth yn debyg i llun 8, 11, y mae yn debygol. Yr un gair hefyd a ddefnyddir am y dalaith a wisgai Saul mewn brwydr, yr hon a ddygwyd i Dafydd (2 *Sam.* i. 10); ac hefyd am yr hon a ddefnyddid wrth goroni Ioash: 2 *Bren.* xi. 12. A chan mai gair gwahanol a arferir mewn lleoedd ereill wrth adrodd hanes am goroniadau, tybir bod y breninoedd Hebreig yn arfer gwisgo talaith weithiau, a choron bryd arall; ac nad oedd, ar yr achlysur crybwylledig, ond y dalaith yn nghyrhaedd yr archoffeiriad: bod y goron ei hun, fel y mae yn debyg, yn meddiant Athalïah. *Nezer*, hefyd, yw y gair a arferir gan Dafydd yn *Salm* lxxxix. 39. Ond y gair mwyaf cyffredin yw עטרה=*atarah*, yr hwn a arferir am goronau a gwahanol addurniadau a wisgid am y pen. Pan ddefnyddir ef am goronau breninol, ymddengys megys yn gwahaniaethu y goron wladwriaethol oddi wrth y dalaith dywysogaidd;—y flaenaf a wisgid ar achlysuron mawr iawn, a'r olaf yn gyffredin. Dywed y Rabbiniaid, fod y goron wedi ei harddu â meini gwerthfawr, fel yr hon a gymmerodd Dafydd oddi am ben brenin yr Ammoniaid, ac a'i gwisgodd ei hun—efe a'i olynwyr, y mae yn debygol. Y mae yn annichonadwy yn awr amlygu ei ffurf a'i

Digitized by Google

llun. Cymmerwyd y ffugrau blaenorol, gan mwyaf, oddi wrth hen arian bathol; ond rhaid addef nad ydynt o'r fath henafiaeth ag a ddymunem i eglurhau pethau perthynol i freninded Hebrëaidd. Yn yr Aipht a Phersia, y mae cerfnaddiadau o gyfnod boreuach, yn darlunio coronau breninol yn y cynddull o benre, cap, neu helm—o bres, o haiarn, ac o frethyn, neu o'r ddau ddefnydd yn nghyd—megys y coronau Aiphtaidd yn y darlun canlynol. Llun 1 a arddengys goron yr Aipht Isaf, a llun 2 un yr



Dar. 198.

Aipht Uchaf; a phan aeth y ddwy deyrnas dan yr un brenin, unwyd y coronau, megys llun 4. Peth digon adnabyddus mewn hanesyddiaeth yw hyn. Felly pan aeth Ptolemy Philometer i mewn i Antioch, gosododd goronau yr Aipht ac Asia ar ei ben, gan eu ffurfio yn un goron driphlyg. Yr un ffunud, efallai fod dwy neu dair ffunen yn y dalaith, fel llun 4, yn dar. 197, yn arwyddo penarglwyddiaeth ar gynnifer o wleddydd neu deyrnasoedd.

Dar. 199.

Crybwyllir yr hen goron Bersiaidd dan enw gwahanol yn Llyfr Esther, sef פתר (*ceter*), yr un yn ddiammheu â'r κίδαρις neu κίταρις (*cidaris* neu *citaris*)—cap uchel, neu benre, yr hwn y sonir am dano mor fynych gan haneswyr Groegaidd. Meddylir ei fod yn debyg i llun 12, yn darlun 197; ac felly yn dyfod yn nes at ffurf coronau dwyreiniol yr oesoedd diweddar, na'r ffugrau ereill. Fel hyn, y mae astudiwr henafiaethau ysgrythyrol yn cael arferion diweddar y dwyrain, yn aml, yn debycach i ddefodau boreuddydd y byd, na dullwedd yr oesoedd canol, neu glasurol, pan oeddynt yn ddarostyngedig i ddylanwad allanol oddi wrth arglwyddiaeth y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; felly, meddyliem y gall ffugrau y ddau ddarlun olaf fod yn debycach i goronau breninol yr Hen Destament, na rhai darlun 197, oddi eithr llun 12, a'r taleithiau syml; a'r rhelyw o ffugrau, yn darlun 197, i'r coronau arferedig tuag amser y Testament Newydd.

Dywed Mr. Lane [*Arabian Nights*, i. 424], fod merched Arabaidd cyfoethog a phendefigaidd, hyd o fewn y ddau canrif diweddaf, yn gwisgo math o goronau. Pendorch o aur gemog oedd, ar gap cromenog, gyda maen gwerthfawr neu ryw addurn arall ar bigyn ei goryn. Gwisgai boneddigesau Iuddewig, hefyd, ryw benaddurn a elwid yn goron (*Ezec.* xxiii. 42); ac felly hefyd y gwisgai meibion fath o goronau ar ddydd eu priodas (*Can.* iii. 11; *Esa.* lxi. 10); a chyffelyb goronau gorfoledd mewn gwleddoedd a llawenydd (1 *Thes.* ii. 19). Y mae yn debygol mai *garlantau* a feddylir; o blegid y mae yr Apocrypha, wrth sôn am rwysg gwleddoedd, yn dyweyd, "Gwisgwn goron o flodau rhôs cyn eu gwywo;" *Doeth.* ii. 8. Cyfeirir yn aml yn yr epistolau at y coronau o ddail plethedig, a wisgai buddugoliaethwyr yn y campau cyhoeddus: 1 *Cor.* ix. 25; 2 *Tim.* ii. 5; iv. 8; 1 *Pedr* v. 4. Coronid cadfridogion ac ymherawdwyr buddugoliaethus mewn rhyfel â choronau o lawryf plethedig; ac felly y plethodd y milwyr, mewn ffordd o wawd, goron o ddrain ac a'i gosodasant ar ben ein Iachawdwr. Gwel DRAIN.

Bryd arall, gosodid blodau ac ysbrigau o goed gleision, yn y dalaith neu y benffunen. Dywed Claudius Saturninus, nad oedd un planigyn o'r hwn ni wneid coronau.

Yn mysg y Rhufeiniaid, cyfrenid coronau o amryw fathau, fel gwobrwyon am orchestion a theilyndod; megys y goron ddinasol, y goron murol, y goron warchaeol, y goron lyngesol, y goron tuddugoliaethol, &c.: oddi wrth ba rai y mae ysgrifenwyr ysbrydoledig y Testament Newydd yn cymmeryd llawer cymhariaeth; megys pan soniant am "goron y bywyd," "coron cyfiawnder," "coron gogoniant," &c.

Ond er yr oesoedd boreuaf, yr oedd gwahaniaeth rhwng coronau breninoedd a thywysogion, a'r rhai a wisgid gan bendefigion ac arglwyddi, a phersonau anhynod. Talaith foreuaf brenin, fel y tybia rhai, oedd ffunen wen am y talcen, yn cael ei rhwymo yn gwlwm dalen yn y gwegil, ac yn disgyn yn llabedau, wedi eu goreuro a'u britho â pherlau, i lawr y cefn. Arferai breninesau wisgo taleithiau yn mysg y Persiaid. Caniataodd Ahasferus yr anrhydedd hwn i Esther: *pen.* ii. 17. Pan sonir am yr henuriaid, yn Llyfr y Dadguddiad, yn bwrw eu coronau ger bron yr orseddfainc, cymmerir y gyffelybiaeth oddi wrth freninoedd dan deyrnged yn gwneyd gwriogaeth am eu harglwyddiaethau i ymherodron Rhufain. Dywedir wrthym fod Herod wedi diosg ei dalaith freninol yn ngwyddfod Augustus, hyd nes gorchymynwyd iddo ei dodi eilwaith ar ei ben; a

Digitized by Google

Thiridates wedi dodi arwyddnodau ei frenindod i lawr wrth droed saflun Nero.

Ymddengys mai y ffurf belydrog neu bigddant [dar. 197. llun 1, 7] yw yr henaf o'r wir goron. Gwelir y ffurf hon o goron ar gerfluniau Persiaidd; ac ar arian bathol Antiochus IV., o Syria, a'i olynwyr; ar lawer a berthynant i ddinasoedd Groeg; ac ar yr eiddo Augustus, ac ymherawdwyr ereill, i lawr hyd ddinystr yr ymherodraeth Rufeinig. Yn amser Cystenyn y daeth y ffunen berlog i arferiad; yr hon a drowyd gan yr ymherawdwyr Byzantiaidd yn fath o goronig. Portrëir Manuel Palæologus, yr hwn a goronwyd yn 1363, fel yn gwisgo coron isel, wedi ei britho â pherlau. Tybir bod y tair dalen ar y goron, o ddechreuad Gothaidd. Cawn hi ar goron Clovis a'i feibion, yr hyn a barodd i henafiaethwyr ei galw yn *fleur-de-lis*; ond y gwirionedd yw, ceir y gloferen hon ar goronau Caer Cystenynaidd cyn amser y Ffrancod, ac ar ol hyny ar goronau tywysogion Germanaidd, heb fod un gyfathrach rhyngddynt â Charlemagne. Ond y mae yr henafiaethydd Aubrey o'r farn nad yw y *fleur-de-lis* ddim ond pen gwaewffon addurnedig, ac na bu erioed flodenyn tebyg iddo. Ceir coronau hefyd ar benau delwau, a safluniau duwiau paganaidd, at yr hyn y cyfeiria yr Apocrypha,—"Hwy a gymmerant aur, ac a'i gweithiant megys i lances yn hoffi gwychder, yn goronau ar benau eu delwau;" *Baruch* vi. 9. Gwisgid coronau hefyd gan yr offeiriaid; a thybia rhai henafiaethwyr, mai offeiriaid a wisgent goronau gyntaf, ac nid breninoedd; o leiaf, felly y mae rhediad yr hanesion ysgrythyrol yn ein dysgu. Ond dylem gofio fod breninoedd cynoesol, fel Melchisedec, yn offeiriaid hefyd. Felly y gwisgai yr archoffeiriaid Asmonenaidd eu coronau breninol; a gweinyddent awdurdod benarglwyddiaethol, fel y prophwydid am Iosuah fab Iosedec, megys cyn-gysgod y Messiah (*Zech.* vi. 13); ac y dywedir fod y prynedigion yn freninoedd ac offeiriaid (*Dad.* i. 6; v. 10; xx. 6); a'r eglwys yn freninol offeiriadaeth: 1 *Pedr* ii. 9.

Mewn perthynas i'r coronau a wisgwyd gan dywysogion y wlad hon, ymddengys y ffunen emmog, ac amryw o'r *sceatæ* Saxonaidd, a'r dalaith belydrog ambell waith. [Gwel *Ruding's Annals of the Coinage of Britain.*] Taleithiau cyffelyb a addurnent benau llawer o freninoedd y Saithdeyrn, ac a barhânt fel y goron gyffredin ar yr holl arian bathol drwy y cyfnod Saxonaidd. Y cylchrwy, gyda thri phigyn bychan, a ymddengys gyntaf ar fathodau Athelstan. Ar rai o amser Edred, y mae y pigau yn terfynu mewn perlau. Y cap ambigog a welir gyntaf ar fathodyn i Ethelred II., a'r addurn dair-dalen ar ychydig o fathodau Canute. Ymddengys amryw ddulliau o'r cap bwäog a'r goron ar fathodau Edward y Cyffeswr; a'r cap a'r goron glòs hefyd ar holl arian bathol Harold, a'r breninoedd Normanaidd hefyd. Ar rai Edward y Cyffeswr, a William y Conewerw, gwelir labedi wrth y clustiau; ac oddi wrth chwedl a adroddir gan William o Malmesbury, deallwn fod y goron y pryd hyny yn cael ei diogelu ar y pen â chlasp neu fotwm o dan yr ên. Ar fathodau Stephen a Henry II., gwelir y goron agored, gyda'r *fleur-de-lis.* Yr oedd Henry III. yn gwisgo coron fwy addurnedig, gyda phigau a blodau rhyngddynt, fel yr ymddengys ar ei feddfaen; ond fe ddywed Matthew de Paris, iddo gael ei goroni yn gyntaf â chylchen o aur. Yr un fath goronau a wisgai ei olynwyr—Edward I., Edward III., Richard II., Henry IV., a Henry V. Dywed Evelyn, mai breninoedd Lloegr a gymmerasant arnynt gyntaf wisgo y goron fwaog, fel yr ymddengys mewn oesoedd diweddar. A dywed Selden, iddo ddarllen mai Henry V. oedd y cyntaf o honynt a wisgodd goron o'r fath yma. Mewn hen ffenestr yn Ockholt-house, yn swydd Berks, a adeiladwyd gan un John Norreys, Ysw., yn 1465, yr oedd, hyd yn ddiweddar, llun arbeisiau Henry VI. a'i frenines, Margaret o Anjou, gyda choronau bwaog a bariau ar eu traws. Ond o amser Henry VII. hyd yn awr, gwisgir coron fwaog, gyda globyn (*globe*) a chroes ar ei choryn. Felly hefyd ar y Cyfandir, yr oedd y coronau a wisgai breninoedd gynt yn llawer symlach a mwy diaddurn. Ni wisgai Louis XII. o Ffrainc, ddim ond cap breninol cyn priodi chwaer Henry VIII; wedi hyny gwisgai goron fwaog o ddull Lloegr. Yr un peth a ellir ei sylwi am Phylip o Spaen, ar ol ei briodi â Mari Tudur; a James IV., o Scotland, ar ol priodi Margaret, merch Henry VII. [Gwel *Gough's Sepulchral Monuments.*] Yn mysg y teyrndlysau yn Nhŵr Llundain, y mae amryw goronau; megys, coron St. Edward, sef y goron ymherodrol a ddefnyddir wrth goroni penaduriaid Lloegr; yr hon sydd wedi derbyn ei henw oddi wrth goron henafol y dywedir iddi gael ei gwisgo gan Edward y Cyffeswr, a'i dinystrio yn amser y Rhyfel Gwladol. Cafodd ei hail wneyd i Charles II., a'i haddurno yn odidog â pherlau, meini, adamant, rubi, emerald, a saphir. Y mae iddi bedair croes, a chynnifer o *fleurs-de-lis* o aur, yn codi oddi ar rimyn o aur wedi ei foglynu â meini gwerthfawr. Y mae un o'r coronau hyn (un Maria d'Este) yn cynnwys y gemau canlynol,—Ugain o emau o gwmpas y cylch, 1,500*p.* yr un=30,000*p.*; dau em mawr yn y canol, 2,000*p.* yr un=4,000*p.*; pedwar ar ddeg a deugain o emau wedi eu gosod wrth gongl y rhai blaenorol; pedair croes, pob un yn cynnwys pump ar ugain o emau=12,000*p.*; pedwar gem mawr ar benau y croesau=40,000*p.*; deuddeg gem yn gynnwysedig mewn *fleur-de-lis*=10,000*p.*; deunaw o emau llai, yn gynnwysedig yn yr unrhyw=2,000*p.*; perlau, gemau, &c., ar y bwäau a'r croesau=10,000*p.*; hefyd 141 o emau bychain· chwech ar ugain o emau yn y groes uchaf; a dau gylch o berlau o gwmpas yr ymyl. Gwerth yr holl feini gwerthfawr yn y goron, a gadael allan y metel, yw 111,900*p.*

Y goron wladwriaethol, hefyd, a wnaed i Charles II., i'w gwisgo pan elai y brenin i'r senedd. Yn mysg yr holl emau sydd yn y goron hon, gallwn grybwyll un emerald mawr saith modfedd o gylchfesur, y perl tecaf yn y byd fel y dywedir; a rubi o werth mawr. Talaith y frenines, neu bendorch o aur, a wnaed i Maria d'Este, cymhriod James II., ar y draul o fwy na chan mil o bunnau. Coron y frenines, yn llawn o feini gwerthfawr, a ddefnyddir ar ddydd coroniad. Coron odidog y frenines, a wisgir ganddi ar ei dychweliad o Neuadd Westminster, ar ol ei choroniad. Ond dealler mai am freninesau cymhrïod yr ydym yn sôn—nid am freninesau pen-llywyddol, megys ei Mawrhydi Victoria, y rhai a goronir â'r goron ymherodrol. Y coronau hyn, yn nghyd â'r holl deyrndlysau gwerthfawr ereill, a gedwir yn y tŵr a elwir Tŵr y Tlysau; ac ni cheir eu gweled ond drwy fariau heiyrn cryfion, byth wedi i Blood—hen swyddog milwraidd, wedi cael ei dori o'r fyddin—geisio eu lladrata, ar nos y 6ed o Fai, 1671.

Honir henafiaeth mwy fyth i goronau yr Alban

Digitized by Google

a Chymru. Credir gan rai bod y flaenaf yn perthyn ar y cyntaf i Pharaoh, brenin yr Aipht, ac iddi gael ei dwyn i'r Alban gan Scota, ei ferch, yr hon a redodd ymaith i'w phriodi gyda Niwl, tywysog Albanaidd, o hiliogaeth Magog, yr hwn a anfonasid gan ei dad i'r Aipht i orphen ei ddysgeidiaeth: ac ar ei hol hi, meddant, y galwyd yr Albaniaid yn Ysgotiaid. A'u mab Gwyddal, neu Gaodhal, meddent, oedd dad y Gwyddelod; ac efe a etifeddodd y *liag-fail*, neu y maen tynged, ar ba un ar ol hyny y coronid breninoedd yr Iwerddon; a pha le bynag y ceid y maen hwn byddai i frenin o waedoliaeth Ysgotaidd deyrnasu yno. "Pan sefydlodd Fargus ei lwyth yn yr Alban, o gylch B. A. 503, anfonodd at ei frawd, brenin yr Iwerddon, am y maen hwn, i'w arferyd ar ei goroniaid. Cadwyd ef yn Nghastell Dunstaffnage, yn swydd Argyle, hyd B. A. 843, pan y dygodd Kenneth Mac Alpin ef i Scone, ar ol darostwng y Pictiaid. Ac oddi yno, yn y flwyddyn 1296, B. A., Edward I, ar ol darostwng yr Alban, a'i cludodd i Lundain, ac a'i gosododd dan y gadair goronol yn mynachdy Westminster, lle y mae y dydd heddyw. Dywedant mai hon oedd y gareg a osododd Iacob dan ei ben yn Bethel, pan gysgodd yno."—*Hanes Cymru.*

"Pan ddarostyngodd Edward Gymru hefyd, cafodd yn mhlith y teyrn-dlysau perthynol i'r tywysogion, Llywelyn a Dafydd ab Gruffydd, goron y brenin Arthur, yr hon oedd wedi bod dros hir amser gyda'r Cymry mewn anrhydedd mawr, a thlysau gwerthfawr ereill." A'r rhai hyn a ddyg Edward gydag "uchel rwysc a mawr drafyn" i eglwys Westminster, yn gydymdeithiol â llu anrhydeddus, sef archesgob Caergaint, a'i is-esgobion, oll yn eu gwisgoedd swyddogol, ac arglwyddi a gwŷrda y llys, gyda thyrfa ddirfawr o'r werin.—(*Hanes Cymru*, td. 743.)

CORONIG. Cylchrwy aur, gyda llun wyth o ddail mefus, rhwng wyth perl, yw coronig duc. Y mae i un iarll wyth bigyn hefyd; un ardalydd, pedair dalen a phedwar perl; barwn, chwe pherl.

CORONIAD, CORONEDIGAETH: y ddefod neu weithred o goroni neu eneinio penadur, ei urddo a'i wisgo âg awdurdod ben-arglwyddiaethol. Y mae yr arferiad wedi dyfod i lawr o ryw oes fore iawn, fel yr ymddengys oddi wrth yr Ysgrythyrau Sanctaidd, ac awdwyr henafol; ond pa fodd y dechreuodd, nis gwyddom. Gorchymynwyd i Moses eneinio a choroni Aaron i fod yn offeiriad: *Exod.* xxix. 6, 7. Y crybwylliad cyntaf am eneinio brenin yw yr hwn a gawn yn nammeg Iotham, lle y dywedir bod prenau y coed wedi eneinio y fieren i fod yn frenin arnynt (*Barn.* ix. 14, 15); hyny yw, bod "holl wŷr Sichem, a holl dŷ Milo," wedi urddo y brawdleiddiad gormesgar hwnw, Abimelech, i fod yn arglwydd arnynt, "wrth ddyffryn y golofn, yr hwn sydd yn Sichem." I roddi rhyw liw o awdurdod a difrifolrwydd i'r weithred, eneiniasant ef ar y llanerch a dybid yn fwyaf cyssegredig o fewn eu cyrhaedd; sef, 'le yr ysgrifenasai Iosuah yn llyfr cyfraith yr Arglwydd eiriau y cyfammod difrifol a wnaethai â'r bobl cyn ei farw, dau cant o flyneddoedd cyn hyn, ar y maen mawr a osododd efe i fyny dan dderwen oedd yn agos i gyssegr yr Arglwydd: *Ios.* xxiv. 25, 26. Yn mhen can mlynedd ar ol hyn, cawn Samuel, drwy orchymyn yr Arglwydd, yn eneinio Saul yn frenin ar Israel: 1 *Sam.* x. 1. Felly, hefyd, pan roddodd Duw Saul o'r neilldu, y mae yr un prophwyd yn eneinio Dafydd (1 *Sam.* xvi. 13), yr hwn nid oedd y pryd hyny ond tua phymtheng mlwydd oed; a phan oedd yn ddeg ar ugain, eneiniwyd ef eilwaith, mewn ffurf ddyladwy, drwy gyfammod, gan holl henuriaid Israel yn Hebron. Y mae yn wir na sonir am goroni y tywysogion hyn—ond eu bod yn gwisgo coronau, sydd sicr; ac y mae yn beth nodedig iawn, fod Saul wedi colli yr awdurdod freninol, am na ddarfu iddo lwyr ddinystrio yr Amaleciaid; ac i lanc o Amalec ei gael ar ddamwain yn gorwedd yn archolledig ar fynydd Gilboa, ac i hwn ei ladd, a dwyn ei goron i Dafydd (2 *Sam.* i.); ac er y tebygolrwydd mai y bwriad o ysbeilio y lladdedigion a ddygodd yr Amaleciad hwn i faes y frwydr ddiweddar, ac y dichon mai chwedl wneuthur oedd yr hyn a ddywedai am ddiweddiad Saul, nid yw cyflawniad y brophwydoliaeth yn llai amlwg. Eneiniwyd a gorseddwyd Solomon ddwy waith: 1 *Bren.* i. 32—40; a 1 *Cron.* xxxix. 22, 23. Cawn hanes i Ichoiadah, yr archoffeiriad, goroni ac eneinio Ioas, mab Ahaziah, yr hwn a deyrnasodd am ddeugain mlynedd ar Iudah: 2 *Bren.* xi. 4—12; a 2 *Cron.* xxiii. 1—11. Oddi wrth y rhanau crybwylledig o'r Ysgrythyrau, a lleoedd ereill, gwelwn fod llawer o ddefodau a seremoniau yn nglŷn â choroniadau gynt, fel y mae yn awr; megys—1. Rhoddi gwisg freninol, a mantell, a gwregys, am y person urddedig. Gwisgodd y milwyr ein Iachawdwr, mewn gwawd, â mantell borphor, fel brenin neu ymherawdwr. 2. Taenu dillad, llawrleni, neu gangau coed, iddo rodio arnynt: 2 *Bren.* ix. 13; *Marc* xi. 8. 3. Ei osod i farchogaeth ar asyn. Fel hyn y gorchymynai Dafydd iddynt wneyd wrth urddo Solomon,—"Perwch i Solomon fy mab farchogaeth ar fy mules fy hun," &c. Asenod neu fulod gwynion a ddewisid, yn hytrach na meirch; nid yn unig am mai dyna yr anifeiliaid a arferid i farchogaeth yn yr oesoedd boreuaf, ond am fod y cyfryw greaduriaid yn esamplau o amynedd a llarieidddra; ac y dylai brenin fod yn hytrach yn farnwr (*Barn.* v. 10, 11), yn llywodraethu mewn heddwch a chyfiawnder, nag yn rhyfelwr a goresgynwr; fel y dywed y prophwyd, mor odidog a phrydferth,—"Bydd lawen iawn, ti ferch Sion, a chrechwena, ha ferch Ierusalem: Wele dy frenin yn dyfod atat; cyfiawn ac achubydd yw efe; y mae efe yn llariaidd, yn marchogaeth ar asyn (asen a ddylasai fod), ac ar ebol llwdn asyn;" *Zech.* ix. 9. Asen flith, â'i llwdn sugno yn troedio i'w chanlyn, yw arwyddlun o natur yn ei diniweidrwydd gwreiddiol: *Mat.* xxi. 2. 4. "Canu mewn udgorn," a chyhoeddi ei ddyfodiad i'r orsedd, yma ac acw, ar ffordd yr ocrymdaith: 1 *Bren.* i. 34; 2 *Bren.* ix. 13; xi. 14. 5. Myned i mewn i'r brif ddinas, mewn llawenydd a gorfoledd, gyda cherddoriaeth a chaniadau. Ystyriai Dafydd y rhan hon o ddefodau y coroniad mor anhebgorol, fel yr anfonai Solomon Sadoc yr offeiriad, Nathan y prophwyd, Benaiah tywysog y llu, a'r holl osgordd, yn un pwrpas cyn belled a ffynnonau Gihon, ar yr ochr orllewinol i Ierusalem, fel y gallent ddyfod i mewn i'r ddinas mewn rhwysg a gorfoledd arferol wrth goroni brenin. 6. Gorchymyn agor pyrth y ddinas i'r brenin. 7. Henuriaid y ddinas yn gofyn pwy a pha awdurdod oedd gan yr ymhònwr. 8. Yr herodr yn mynegu teitl y tywysog oedd yn dyfod i'r orsedd. 9. Agoryd y pyrth gan y gwyliedyddion, ar orchymyn yr henuriaid a'r dinasyddion, gyda bloeddiadau,—

Digitized by Google

"Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd;" *Salm* xxiv. 7—10; cxviii. 19, 26; *Mat.* xxi. 9; *Marc* xi. 9, 10. 10. Ei arwain at golofn y goffadwriaeth: 2 *Bren.* xi. 14; 2 *Cron.* xxiii. 13. Cadwyd y ddefod hon hyd yn oed yn achos y gormesdeyrn Abimelech, fel y gwelsom. 11. Cyfleu tywysogion y llu o bob tu i'r brenin, mewn llawn arfogaeth (2 *Cron.* xxiii. 9, 10), gyda'r "udganwyr a'r cantorion âg offer cerdd, a'r rhai a fedrent foliannu." 12. Darllen y rhan olaf o'r eilfed bennod ar bymtheg o Deuteronomium, o *adn.* 14 hyd y diwedd. 13. Cyflwyno copi o'r gyfraith hon i'r brenin. 14. Tyngu y brenin a chynnrychiolwyr y bobl, o flaen yr allor, i gadw cyfammod yr Arglwydd: 2 *Bren.* xi. 4, 17. Y mae cyfeiriadau mynych iawn at y cyfammod hwn yn nghaniadau y Salmydd yn enwedig. Dyma lŵ y coroniad; ac y mae yn amlwg ei fod yn cynnwys yn benaf oll ymrwymiad difrifol i ymgadw oddi wrth gau-dduwiaeth ac eilunaddoliaeth, ac i gynnal addoliad a gwasanaeth yr Arglwydd o fewn terfynau yr awdurdod freniniaethol. 15. Arwain y brenin i'r orsedd, gyda rhyw fath o ddadganiad a gweddi ar fod i'r Arglwydd wneyd ei orsedd fel gorseddfainc Dafydd ei dad. 16. Cymmeryd corn o olew a'i dywallt ar ei ben, gan adrodd y geiriau —"Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Mi a'th eneiniais di yn frenin ar Israel," &c.; 1 *Sam.* xvi. 13; 1 *Bren.* i. 39. Meddylir mai gyda yr Iuddewon y dechreuodd y ddefod o eneinio breninoedd; ac y mae yn ddigon hysbys eu bod yn rhoddi bri a phwys mawr ar y ddefod hon. Yn yr ystyr yma, yr oedd person y brenin yn gyssegredig; ac ystyrid unrhyw sarhâd a gynnygid iddo yn deyrnfradwriaeth, ac estyn llaw yn erbyn ei fywyd yn un o'r gweithredoedd mwyaf ysgeler y gallai y drwgweithredwr duaf ei gymmeriad fod yn euog o hono. Y meddwl am yr "eneiniad" a barai i Dafydd arswydo yn fawr rhag cyffwrdd â bywyd Saul, hyd yn oed i achub ei einioes ei hun,—"Canys pwy," meddai efe, "a estynai ei law yn erbyn eneiniog yr Arglwydd, ac a fyddai ddieuog?" 1 *Sam.* xxiv. 6; xxvi. 9, 11; 2 *Sam.* i. 14, 16. 17. Cusanu y brenin, fel arwydd o ffyddlondeb: *Salm* ii. 12; 1 *Sam.* x. 1. Felly y dywedir,—"Cyflawnder a heddwch a ymgusanasant;" sef, brenin cyflawn a phobl heddychol a wnant gynghrair. 18. Gosod y goron ar ei ben. 19. Dodi y deyrnwialen yn ei ddeheulaw;—fel y rhoddai y milwyr, mewn gwawd, gorsen yn llaw yr Iesu. 20. Canu yr udgorn, a bloeddio "Byw fyddo'r brenin." 21. Ymgrymu, neu ymostwng ar eu gliniau, â'u gwynebau tua'r llawr, o'i flaen; yn arwydd o warogaeth ac ufudd-dod i'w lywodraeth: 1 *Cron.* xxix. 20; *Mat.* xxvii. 29. 22. Aberthu ebyrth tanllyd, a diod-offrymau, &c. Ar goroniad Solomon, aberthwyd "mil o fustych, mil o hyrddod, a mil o ŵyn," dros y brenin ei hun; heb law yr holl offrymau a wneid dros y bobl. 23. Gweddïo dros y brenin a'r bobl. Gwel weddi gyhoedd Dafydd ar goroniad Solomon: 1 *Cron.* xxix. 10—19. 24. Canu mawl i'r Arglwydd. 25. Bendithio y brenin a'r bobl. 26. Gwledda ar yr aberthau, gyda llawenydd a gorfoledd.

Yn Lloegr, wedi uno y Seithdeyrnaeth, ceir crybwylliad mynych yn y *Saxon Chronicle* am goroniad, cyssegriad, neu "sancteiddiad" breninoedd. Yn ystod y degfed canrif, coronid y breninoedd Saxonaidd yn Kingston-upon-Thames; ond y mae ammheuaeth, pa un ai yno, neu yn Nghaerbaddon, y coronwyd Edgar Heddychol. Coronwyd Edward y Cyffeswr yn Winchester. Cedwir yr ysgrif o'r Efengylau ar ba rai y tyngid y breninoedd Saxonaidd yn mysg yr ysgriflyfrau Cottonaidd, yn y British Museum. Coronwyd Harold, a Gwilym y Goresgynwr, yn Westminster. Darllenwn ei bod yn arferiad coroni y breninoedd Normanaidd fwy nag unwaith. Coronwyd Henry II. yn Nghaerloew; a chan fod y goron ar goll, gosodwyd darn o aur diaddurn ar ei dalcen. Fel Dafydd, coronodd Henry II. ei fab hynaf i gydlywodraethu âg ef ei hun, hir amser cyn ei farwolaeth; a choroniad y tywysog hwn (Richard I.), yw yr hanes manylaidd cyntaf sydd genym am goroniad. [*Twysden, Script.* x. *coll.* 647, 1157.] Y mae dysgrifiad o'r holl seremonïau cyssylltiedig â choroniad Richard II. i'w gael yn yr hen argraffiad o *Rymer's Fœdera*, cyf. vii. td. 157. Y mae Froissart yn rhoddi hanes difyrus iawn am goroniad Henry IV. [*Froissart's Chronicle*, dan adolygiad Lord Berners, 4plyg., Llund., 1812, cyf. ii. td. 753, 754.] Ceir cofnodau coroniad Henry V. a'r VI. yn Lloegr, a'r olaf yn Ffrainc hefyd, yn mysg yr ysgriflyfrau Cottonaidd. [cyf. v, viii; a *Nero*, cyf. ix.] Y mae Hall a Gratton yn adrodd defodau coroniad Richard III. Y mae hanes coroniad Henry III., gyda'r llŵ a gymmerodd, a'r cyfnewidiadau a'r gwelliadau, &c., rhwng y llinellau yn llawysgrifen y brenin hynod hwnw ei hun, yn nghadw yn mysg yr un ysgriflyfrau [Lib. E. viii.]. [Gwel *Ellis's Original Letters illustrative of English History*, cyf. i; ail argraffiad.] Ceir amryw fanylion ar ddefodau coroniad Charles I. yn *Fuller's Church History*, arg. cyntaf, cyf. ii. td. 210. Cyhoeddwyd, yn Aberdeen, yn y cyfamser, amryw argraffiadau o ffurf a threfn coroniad Charles II. yn Scone, yn 1651; ei groesawiad yn Llundain, wrth fyned drwodd i gael ei goroni, gyda hanes y defodau arferedig, &c., gan John Ogilby, a'r darluniau gan Hollar, a geir yn ail argraffiad Llundain, 1662. Ond hanes coroniad James II., gan Sandford, gyda llawer iawn o gerfiadau [Llundain, 1687], yw y cyflawnaf a gyhoeddwyd drwy awdurdod. Y mae hefyd, yn y British Museum, ysgriflyfr hen iawn o ffurf-wasanaeth coroniad yr ymherawdwyr gynt yn Aix-la-chapelle; yr hwn a brynwyd gan y diweddar Mrs. Banks, yn ngwerthiad llyfrgelloedd y tywysog Talleyrand. O'r holl hanesion tramor cyhoeddedig, y rhyfeddaf yw coroniad Charles V., yn Bologna, gyda lluaws o ddarluniau olynol ar un rhol o hyd mawr, 1530. Y mae y *Sacre de Louis* XV., *Roi de France et de Navarre, dans l'Eglise de Reims*, Hydref 25, 1722, yn waith o ysblander hynod, yn llawn o ddarluniau cywrain gorphenedig. Y mae y dysgrifiad o ddefodau coroniad yr ymherawdwr Napoleon I., a'i gymhriod Josephine, Tach. 2, 1804 — cyhoeddedig yn Paris yn 1807—yn waith o gyffelyb faint, ond bod y darluniau yn llawer gwaelach. Y mae ysgrif hefyd o goroniad yr ymherodres Ann, o Rwssia; St. Petersburg, 1731. Ond y mwyaf traulfawr a fu erioed yn Lloegr, oedd coroniad George IV., yr hwn a gostiodd 238,000*p.* [*Hansard's Parl. Debates*, ix. 1107.] Gwnaed coron newydd o berlau, o werth 65,000*p.*, a thalwyd y ddegfed ran o'u gwerth am eu benthyg ar gyfer yr achlysur.

Y ffurf-wasanaeth sydd wedi cael ei ddilyn fel cynllun cyffredin yr holl goroniadau yn Lloegr er amser Edward III., yw y *Liber Regalis*, yr

Digitized by Google

hwn a gedwir gyda gofal mawr iawn yn mysg archgofion deon a siapteriaid Westminster. Tybir ei fod wedi cael ei ysgrifenu er hyfforddiad i'r preladiaid oeddynt yn gweini ar goroniad Richard II., a'i frenines. Y mae adysgrifau o hono, heb yr arluniau eglurhaol, mewn un neu ddwy o'u llyfrgelloedd llawysgrifol. Ceir talfyriad o'r defodau yn *Strutt's Manners & Customs*, cyf. ii. td. 22—37.

Y ffurf o weinyddu llw y coroniad sydd fel hyn:—

Rhuddell.—"Ar ol y bregeth, ac i'r brenin gael gwneyd a llawarwyddo y Dadganiad, yr archesgob a ä at y brenin, ac a saif o'i flaen, i weinyddu iddo lw y coroniad, ar gael ateb cydsyniol ä'r gofyniadau canlynol:—

Archesgob.—"Syr: A ydyw eich Mawrhydi yn foddlawn i gymmeryd y llw?"

Brenin.—"Yr wyf yn ewyllysgar."

Archesgob.—"A wnewch chwi addaw yn ddifrifol, a thyngu, i lywodraethu pobl y deyrnas gyfunol hon—Prydain Fawr a'r Iwerddon, a'r arglwyddiaethau a berthynant i'r unrhyw—yn ol y deddfau a gytunir arnynt yn y senedd, a chyfreithiau a defodau yr unrhyw?"

Brenin.—"Yr ydwyf yn addaw yn ddifrifol y gwnaf fel hyny."

Archesgob.—"A wnewch chwi, hyd eich gallu, beri i gyfraith a chyfiawnder, mewn trugaredd, gael eu gweinyddu yn eich holl farniadau?"

Brenin.—"Gwnaf."

Archesgob.—"A wnewch chwi, hyd eithaf eich gallu, gynnal deddfau Duw, y wir broffes o'r efengyl, a'r grefydd Brotestanaidd ddiwygiedig sefydledig drwy gyfraith? Ac a wnewch chwi gynnal a chadw yn ddiesgeulus sefydliad Eglwys Unedig Lloegr a'r Iwerddon; ac athrawiaeth, addoliad, dysgyblaeth, a llywodraeth yr unrhyw, fel y mae wedi ei sefydlu trwy gyfraith yn Lloegr a'r Iwerddon, a'r tiriogaethau a berthynant iddynt? Ac a fydd i chwi gadw i esgobion a chlerigwyr Lloegr a'r Iwerddon, ac i'r Eglwys Unedig sydd dan eu gofal, yr holl gyfryw iawnderau a rhagorfreintiau ag sydd neu a fyddant yn perthyn iddynt, neu i ryw rai o honynt?"

Brenin. — "Hyn oll yr ydwyf yn addaw ei wneyd."

Rhuddell.—"Yna y cyfyd y brenin oddi ar ei deyrngadair, yn cael ei gynnal fel o'r blaen, a'i gynnorthwyo gan yr Arglwydd Benystafellydd, a chleddyf y wladwriaeth yn cael ei gario o'i flaen, ac yr ä at yr allor; ac yno, wedi dynoethi ei ben, y gwna y llw difrifol hwn yn ngwydd yr holl bobl, i gadw y pethau a ddywedwyd; gan osod ei law ddeheu ar yr Efengyl Sanctaidd yn y Beibl Mawr a gariwyd o flaen yr orymdaith; a'r hwn a godir yn awr oddi ar yr allor gan yr archesgob, ac a estynir i'r brenin; yr hwn, gan ymostwng ar ei liniau ar ris yr allor, a ddywed y geiriau hyn:—

Brenin.—"Y pethau a addewais yma a gyflawnaf, ac a gadwaf. Felly, cynnorthwya fi, O! Dduw."

Yna y cusana y brenin y llyfr, ac y llawnoda y llw.

1. CORPUS CHRISTI. Gŵyl a sefydlwyd yn yr Eglwys Rufeinig, er anrhydedd i'r elfenau cyssegredig yn Sacrament Swper yr Arglwydd, gyda golwg ar eu haddoliad. Dechreuodd yr ŵyl hon yn mreuddwyd neu weledigaeth lleianferch, yn Liege, o'r enw Juliana, yn 1230; yr hon, wrth syllu ar y llawn lleuad, a ganfu, meddai hi, fwlch yn ei chorff crwn; a thrwy ddadguddiad o'r nef, deallodd fod y lloer yn cynnrychioli yr eglwys, a'r bwlch yn arwyddocâu, yn ysbrydol, y diffyg o un ŵyl yn y calendar blyneddol—gŵyl i addoli corff Crist yn y ffurf sacramentaidd; a'i bod hi i ddechreu cynnal yr ŵyl arbenig hon, a chyhoeddi fod i'r byd oll ei chadw yn sanctaidd. Nid yw yn ymddangos, pa fodd bynag, fod y dadguddiad hwn wedi cael ei gredu yn ebrwydd a chyffredinol, hyd yn oed gan yr offeiriaid; o blegid dywedir bod rhyw offeiriad yn Bolsena, pedair blynedd ar ddeg ar ugain ar ol y weledigaeth, nad oedd yn credu bod y bara a'r gwin yn troi yn wir gorff a gwaed yr Iachawdwr; a'i fod unwaith yn cyflawnu gwasanaeth y cymun, a phryd y daeth at eiriau y cyssegriad—"hwn yw fy ngwaed i," &c.—disgynodd dafnau o wir waed ar ei wenwisg; a phan geisiodd eu cuddio dan blygion ei offerengrys, bu i'r llanerchi cochion hyny ymffurflo, yn wyrthiol, yn ddarluniau o gorff y Gwaredwr. Dangosir y wenwisg waedlyd hono, meddynt, hyd heddyw, fel crair sanctaidd, yn Civita Vecchia. Y pab Urban IV., yn yr un flwyddyn, a gyhoeddodd *bull* neu lythyr cylchol apostolaidd, yn yr hwn y penodai ddydd Iau ar ol y Sulgwyn i fod yn Wyl Corff Crist, drwy holl Gred; ac yr addawai faddeuant pechodau, dros gan niwrnod, i'r holl rai edifeiriol a gadwent yr ŵyl hon. O'r amser hwnw hyd heddyw, y mae y dydd wedi cael ei gadw fel un o ŵyliau penaf Eglwys Rhufain. Y mae gorymdeithiau rhwysgfawr yn rhan hanfodol o honi. Y mae y plant a berthynant i'r côr yn cario banerau, a'r gwŷr llên yn dwyn llosgwyrau goleuedig, gan ymsymmud o flaen yr offeiriad sydd yn cario "aberth corff Crist" mewn math o gist fechan werthfawr, yn yr hon y gellir ei weled, o dan lendô, yn cael ei gynnal gan bedwar o wŷr lleyg o radd uchel. Yna y mae torf o bobl gyffredin yn canlyn. Yn Yspaen, y mae yn beth arferol i rieni o fonedd ddanfon eu plant, wedi eu gwisgo i gynnrychioli angelion, i ymuno yn yr orymdaith; ac y mae y gwahanol frawdoliaethau yn cario delwau eu seintiau noddawl o flaen "yr aberth dwyfol;" a synedigaeth ac arswyd, cymmysgedig âg addolgarwch ofergoelus, yn cael eu cynnyrchu yn y meddwl, drwy ysplander a godidogrwydd yr orymdaith, chwyflad buddugoliaethus y banerau harddwych, perarogledd y cymylau o arogldarth, a sain uchel a difrifolder y gerddoriaeth. Ereill a'i cadwant yn ddiwrnod gŵyl cyffredin; a threulir ef mewn ymladdfeydd teirw, campau, chwareuon, dawnsfeydd, a phob difyrwch. Yn Sicily, goddefir i'r rhanau hanesol o'r Ysgrythyrau gael eu hactio yn yr heolydd; a chymmer pob math o ddigrifwch ac afiaeth anghymmedrol le yn nghysgod yr ŵyl ddifrifol hon.

2. CORPUS CHRISTI, neu Goleg Bened, Caergrawnt, yr hwn a sylfaenwyd tua'r fl. 1351. Y sylfaenwyr oeddynt frodyr o ddwy frawdoliaeth freiniol, a elwid Cymdeithasau Breintiedig Corff Crist a'r Forwyn Fair; ac adnabyddid yr athrofa, ar y dechreu, wrth yr enwau unedig hyny. Nid hir, pa fodd bynag, y bu cyn cael ei galw wrth yr enw Coleg Bened; o blegid i hawl cyflwyniad i'r fywoliaeth berthynol i'r eglwys gydiol, St. Benedictus, gael ei phrynu i'r athrofa o ddwylaw Syr John Argentine, a Syr John Maltravers. Llwyddodd Henry, duc Caerwerydd, pan oedd yn henadur i'r corfforiaethau a enwyd

Digitized by Google

uchod, i gael braint-lythyrau oddi wrth y brenin i sicrhau gwaddoliad yr athrofa. Yr oedd nifer y priodoriaethau gynt yn cyfnewid yn ol cyllidau y coleg; ond y maent yn awr yn ddeuddeg—dwy yn perthyn i ddinas a chorfforiaeth Norwich, pedair i swydd Norfolk, a'r rhelyw yn agored. Yr archesgob Parker, pan yn feistr, drwy ei ymdrechiadau i gynnal iawnderau yr athrofa, a gwelläu ei hetifeddiaethau, a'u galluogodd i chwanegu dwy briodoriaeth at y sefydliad, ac a roddes ardrethi penodol i'r dyben o sylfaenu dwy briodoriaeth chwanegol, ac un ar ddeg o ysgoloriaethau. Bu yr archesgob hefyd yn gymmwynaswr haelionus i'r coleg, drwy roddion o arian, llestri arian, llyfrau, a chasgliad gwerthfawr iawn o ysgriflyfrau. Sylfaenwyd hefyd un briodoriaeth ac ysgoloriaeth gan Elizabeth, duces Norwich, gwraig Thomas Mowbray, sef y duc cyntaf o'r teitl. Y mae dwy a thrigain o ysgoloriaethau a gwobrwyaethau yn perthyn i'r frawdoliaeth:—yr un ar ddeg a enwyd o'r blaen yn benaf i enedigion o swydd Norfolk; chwech gan Syr Nicholas Bacon—y flaenaflaeth i gael ei rhoddi i efrydwyr o ysgol Redgrave; deuddeg gan yr esgob Mawson, i'r astudwyr a ragorant yn yr holiadau blyneddol. Y mae gwerth yr ysgoloriaethau a'r gwobrwyaethau hyn yn amrywio. Y rhan fwyaf o honynt ydynt o dan ugain punt yn y flwyddyn. Y mae hefyd un ar ddeg o fuddiolaethau yn rhodd y coleg. Y prif athraw presennol yw J. Pulling, D. D.

Er mwyn cadw y llyfrgell ysgriflyfrol werthfawr rhag myned ar goll, trefnodd yr archesgob Parker, fod iddi gael ei gofwyo bob blwyddyn, ar y chweched dydd o Awst, gan feistriaid, a dalwyr lleoedd yn Neuadd y Drindod, a Choleg Caius, gyda dau ysgolor ar sylfaeniad yr archesgob; ac os, ar ymchwiliad, y ceid pump ar ugain o lyfrau yn eisieu, neu nad ellid dyfod o hyd iddynt o fewn chwe mis, bod i'r holl gasgliad ddisgyn i feddiant Coleg Caius. Yna meistr a dalwyr lleoedd yn Neuadd y Drindod, a Choleg Corpus Christi, gyda dau ysgolor ar yr un sylfaeniad, a fyddant yn ymwelwyr; ac os ceir Coleg Caius yn euog o'r un esgeulusdra, bod i'r holl lyfrau fyned i Neuadd y Drindod, a meistr a dalwyr lleoedd yn Ngholegau Caius a Chorpus Christi, gyda dau gyfryw ysgolor, i fod yn ofwywyr neu ymchwilwyr; ac os dygwydd yr un diofalwch yn Neuadd y Drindod, bod i'r holl lyfrgell gasgledig ddychwelyd i'w lle a'i threfn gyntaf. Gwnaed dau gofrestr o'r llyfrgell werthfawr hon; un a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1722, a'r llall gan y Parch. James Nasmith, pymtheng mlynedd a deugain ar ol hyny. Saif y coleg hwn yn heol Trumpington; ac nid oedd gynt fawr fwy nag un cyntedd neu gwrt, gyda hen gapel wedi cael ei adeiladu yn y flwyddyn 1578, ar gost Syr Nicholas Bacon. Gan fod y colegdy yn hen iawn, ac yn syrthio yn brysur i adfeiliad, adnewyddwyd ef yn y dull Gothig, oddi wrth gynlluniad Wm. Wilkins, Ysw., gan adael yr hen gyntedd i sefyll fyth. Gosodwyd y gareg sylfaen i lawr yn 1823. Y mae y talcen mawr sydd yn gwynebu yr heol grybwylledig yn 222 troedfedd o hyd, gyda phorth rhwng dau dŵr yn arwain i mewn i gyntedd pedeirongl agored, yn cynnwys y capel, y llyfrdy, y neuadd, a llettyfa y meistr, gyda saith dosbarthiad a deugain o ystafellau i'r priodorion a'r efrydwyr. Yn mysg yr enwogion a dderbyniasant eu dysg yn yr athrofa hon, gellir enwi Hugh Latimer, esgob Caerwrangon; yr archesgobion Parker, Tennison, a Herring; Syr Nicholas Bacon, yr arglwydd-warcheidwad yn nheyrnasiad Elizabeth; Thomas Tusser; Fletcher, y bardd; y Dr. John Spenser, awdwr y gwaith a elwir *De Legibus Hebræorum;* y Dr. William Stukely; Robert Masters, hanesydd y coleg; a Richard Gough, yr hynaflaethydd.

Yr ymwelwyr ydynt is-ganghellwr y brif athrofa, a'r ddau ddoctor hynaf mewn duwinyddiaeth; y frenines, mewn achosion anghyffredin. — (*Masters' History of Corpus Christi College, with additions, by John Lamb*, D.D., 4*to Camb.*, 1831.)

3. CORPUS CHRISTI: Coleg Rhydychain. Sylfaenwyd y sefydliad hwn yn y flwyddyn 1516, gan Richard Fox, esgob Winchester. Dwy flynedd neu dair cyn hyn, prynasid rhyw ddarnau o dir yn y gymmydogaeth, a berthynent i athrofa Merton, lleiandy Godstow, a phriordy St. Frideswid, gyda'r bwriad o sylfaenu coleg i warden, a rhyw nifer o fynachod ac ysgolorion lleygaidd, perthynol i briordy St. Swithin yn Winchester, yn ol dull colegau Caergaint a Durham. Ond, wrth gynghor Hugh Oldham, esgob Exeter, yr hwn a ddywedir iddo ragweled cwymp y mynachlogydd, newidiodd Fox ei gynllun, a gosododd ei sylfaeniad i lawr ar yr un tir a cholegau ereill y brif athrofa. Yn ganlynol, ar y 26ain o Dachwedd, 1516, cafwyd trwydded gan Henry VIII. i sylfaenu athrofa i dduwinyddiaeth, athroniaeth, a chelfyddydau—i arlywydd a deg ar ugain o ysgolorion—graddwyr ac angraddwyr—mwy neu lai, yn ol cyllid y gymdeithas; y coleg hwn i gael ei waddoli gyda thri chant a hanner o bunnau yn y flwyddyn. Y mae y gymdeithas yn cynnwys yn awr arlywydd, ugain o briodorion, yr un nifer o ysgolorion, a dau gapelwr. Etholir y priodorion o blith yr ysgolorion, a'r olaf o'r esgobaethau a'r siroedd canlynol; sef, pedwar o esgobaeth Winchester, o ba rai rhaid i ddau fod o swydd Hants, a dau o Surrey; dau o esgobaeth Bath a Wells; dau o esgobaeth Exeter; dau o swydd Lincoln; dau o sir Gaerloyw; un o swydd Bedford; un o swydd Wilts; un o swydd Rhydychain; un o swydd Lancaster; un o esgobaeth Durham; ac un ar sylfaeniad Frost. Y mae hefyd bedwar o wobrwyaethau yn perthyn iddo, heb gael eu cyfyngu i un ardal.

Yr hyn a osododd ragoriaeth ebrwydd ar y gymdeithas newydd oedd, penodiad dwy ddarlith i Roeg a Lladin; o blegid nid ystyriasid yr ieithoedd clasurol yn rhan hanfodol o efrydiaeth golegol hyd yr amser hwn. Gwahoddodd y sylfaenwr i'w athrofa newydd amryw ddynion enwog am eu dysg; megys Ludovicus Vives, Richard Pace, Thomas Lupset, Crucher y meintonydd, ac ereill. Yr oedd Erasmus, yr hwn oedd y pryd hwn yn trigiannu yn Rhydychain, yn cynnorthwyo â'i farn a'i gynghor.

Prif gymmwynaswr y coleg hwn, heb son am y sylfaenwr, oedd Hugh Oldham, esgob Exeter, y crybwyllwyd am dano eisoes; yr hwn a gyfranodd chwe mil o farciau, heb law tiroedd. Sonir am amryw ereill yn hanes Rhydychain; ac un o'r rhai mwyaf haelionus oedd y Dr. Turner, yr hwn a fu yn llywydd o 1688 hyd 1714. Meddyg o'r enw Dr. Arthur Parsons, yr hwn oedd yn byw tua diwedd yr eilfed canrif ar bymtheg, a roes hefyd dair mil o bunnau i brynu cyflwyniad bywoliaethau. Cuthbert Ellison, yr hwn a fu farw yn 1719, ac sydd wedi ei gladdu yn y capel, a adawodd bum cant o bunnau i'r

Digitized by Google

un perwyl, gyda llawer o lyfrau. Gwneir y sefydliad cyntaf i fyny o adeilad bedryfal, yn cynnwys neuadd, y capel, a'r llyfrdy. Codwyd adeilad chwanegol yn 1706, ar draul y Dr. Turner crybwylledig. Tu cefn i'r allor, yn y capel, y mae darlun gwerthfawr gan yr enwog Rubens, a wnaed yn anrheg i'r coleg, yn 1804, gan y diweddar Syr Richard Worsley; daeth o gasgliad y tywysog Conde, yn Chantilly.

Y mae dwy ar ugain o fywoliaethau yn rhodd y gymdeithas. Nifer presennol yr efrydwyr yw tua 130. Y llywydd yw James Norris, D. D. esgob Winchester yw yr ymwelwr. Cododd amryw wŷr dysgedig ac enwog o'r coleg hwn; megys Jewel, esgob Salusbury a Sarum; Nicholas Udall, Richard Hooker, Daniel Featley; y Dr. Richard Pococke, esgob Meath; y dysgedig "ddwyreinydd" Edmund Chishull; Fiddes, bywgraffydd Wolsley; ac Anstis, yr herodr. —(*Wood's Hist. of the Colleges and Halls of Oxford*, gan *Gutch; Chambers' Hist. of do.*, 8pl., *Oxford*, 1810.)

CORPUS JURIS CIVILIS. Yr enw *Corpus Juris*=corff cyfreithau, a ddefnyddiwyd er y canol oesoedd fel enw llyfr yn cynnwys amryw gasgliadau o hen gyfreithiau. Y mae dau brif gasgliad i ba rai y rhoddir yr enw,—*Corpus Juris Civilis*=corff cyfraith wladol; a'r *Corpus Juris Canonici*=corff cyfraith ganonaidd, neu eglwysig. Y mae y blaenaf, yn yr hwn y ceir gwahanol ranau deddfwriaeth yr ymherawdwr Justinian, a'i gyfrif fel un, yn cynnwys cyfangorff o'r cyfreithiau gwladol Rhufeinig, gyda'r esboniadau a'r beirniadaethau a wnaed arnynt dan gyfarwyddyd Justinian. Ond ni feddyliodd yr ymherawdwr dysgedig hwnw, yr hwn a ystyriai bob rhan o'i ddeddfwriaeth fel perffeithiad ar gasgliadau blaenorol, am roddi yr enw yma arnynt oll. Yn hytrach, ystyriai efe hwynt yn ddwy ran neu ddosbarthiad gwahanol; y naill yn llyfr yn yr hwn y ceid casgliad o ffurf-lywodraeth yr ymherawdwyr, a'r llall yn cynnwys egwyddorion a rheolau cyntaf cyfraith. Yn y canol oesoedd, pan oedd efrydiaeth y gyfraith Rufeinig yn fawr ei bri yn mhrif athrofeydd Italy, dechreuodd y "rheithyddion" ystyried gwahanol gasgliadau Justinian fel un ddeddfyddiaeth gyflawn, i'r hyn yr oedd yn gyfaddas rhoddi un enw cyffredinol. Dywed Savigny, yn ei waith hanesol ar gyfraith Rhufain yn y canol oesoedd, fod yr enw *Corpus Juris Civilis* yn cael ei arfer yn y deuddegfed canrif. Pa fodd bynag, y mae y proffeswr Russardus, o Bourges (lle oedd yn yr unfed canrif ar bymtheg yn un o'r prif athrofeydd Ffrengig enwocaf mewn brawdyddiaeth), yn adolygu casgliadau Justinian dan yr enw hwn; sef y *Jus Civilis*, neu y gyfraith wladol. Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn yn Lyons, yn 1516. Gellir ystyried Dionysius Gothofredus, rheithiwr yn Paris, fel y cyntaf a fabwysiadodd *Corpus Juris Civilis* fel enw cyffredin ar holl gasgliadau Justinian, mewn argraffiad a gyhoeddwyd yn Lyons, ddwy flynedd ar ugain yn ddiweddarach. Y mae y *Corpus Juris Civilis*, fel y mae yn awr, yn cynnwys 4 llyfr yr *Institutes*, 50 llyfr y *Pandects*, 12 llyfr y *Codex*, yn nghyd â'r *Authentica*, a 168 llyfr y *Novels*, neu newyddiadau. Yn ail, yr *Appendix* neu *Attodiad*, gan wahanol olygwyr er amser Russardus, a gynnwys ffurf-lywodraeth yr ymherawdwr Justinian ei hun, a'i ddau olynwr, Justinian II, a Tiberius II; 114 o ffurf-lywodraeth yr ymherawdwr Leo, yr athronydd, y rhai a ddododd efe i mewn er gwelläu ac adgyweirio deddfyddiaeth Justinian; ffurf-lywodraeth yr ymherawdwr Zeno, yr hwn a chwanegwyd gan Contius; yr eiddo olynwyr Justinian, o'r seithfed canrif hyd y pedwerydd ar ddeg, yn chwanegedig, er argraffiad Charondas yn 1575. At hyn dodir 84 neu 85 o ganonau eglwysig, dan yr enw *Canones Sanctorum et Reverendorum Apostolorum*=Canonau yr Apostolion Sanctaidd a Pharchedig; y rhai a chwanegwyd gan Holoander, ac am ba rai y mae gwahanol farnau. Gwel *Canonau Apostolaidd*; y *Libri Feudorum* —casgliad o'r hen gyfreithiau barwnol; ac yn ddiweddaf ffurf-lywodraeth yr ymherawdwr Frederick II. Mewn rhai argraffiadau fe geir attodion ereill.

Y mae llawer o ysgriflyfrau o'r *Corpus Juris Civilis*, gyda nodiadau dysgedig gan lawer o ddeonglwyr, er mai yn anaml iawn y ceir copi cyflawn. Y perffeithiaf, dybygir, yw yr un sydd yn Copenhagen. Y mae hefyd gopi gwerthfawr o un o'r *Pandects*, yn Florence — un gwreiddiol Justinian, fel y cred rhai; o leiaf y mae cyn hyned a'r seithfed, hwyrach y chweched canrif. Yr argraffiad hynaf y gwyddys am dano yw un Peter Schœffer, Mentz, 1468. Y cyntaf o'r holl gasgliadau yw un gan Honate, Milan, 1482—3. Argraffiadau Gothofredus ydynt y rhai goreu; a'r cywiraf o honynt yw un Frankfort-on-the-Mayne, 1663.

CORSEN—AU, CYRS: math o welltyn cawr-aidd, o bump i chwe throedfedd o daldra, gyda chalefyn pibellaidd, cylymog, dail ffunenol, a phen ffluwch, yn tyfu mewn corslynau a ffosydd o ferddwfr. Defnyddir hwynt yn ein gwlad ni i doi yn lle gwellt, ac weithiau i wneyd peithynau i wehyddion. Y mae math o gyrs celyd, a ddygir o Holland, y rhai a ddefnyddir i grafu mân ddodrefn celfydd wrth eu gloewi. Ond mew llysieuaeth, dosberthir cyrs i wahanol rywogaethau; megys,

I. *Mergyrs*, neu *gyrs dwfr*. Ymddengys oddi wrth amryw fanau yn yr Hen Destament fod y gair Hebraeg *caneh* [gwel CALAMUS] yn cael ei arfer am y gwahanol fathau o gyrs a dyfant mewn dwfr (1 *Bren.* xiv. 15; *Iob* xl. 21: *Esa.* xix. 6; xxxv. 7). Mewn un man y mae y gair *agmon* (gwel BRWYN) yn cael ei gyfleithu i'r Gymraeg yn *gyrs* (*Iob* xl. 21); a barn rhai dysgedigion yw mai felly y dylasai fod wedi cael ei gyfleithu bob amser.

Defnyddir corsen yn ffugrol am wendid, anwadalwch, a siomedigaeth. Cyffelybir y tlawd a'r gorthrymedig, a'r galon ddrylliog gystuddiedig, i gorsen ysig (*Esa.* xlii. 3; *Mat.* xi. 7; *Mat.* xii. 20); ac felly y dangosir analluogrwydd y deg llwyth i wrthsefyll barn Duw (1 *Bren.* xiv. 15). A phan ddysgrifir yr oferedd o ymgynghreirio â Pharaoh yn erbyn Assyria a Babilon, gelwir yr Aipht yn "ffon gorsen ddrylliedig" (2 *Bren.* xviii. 21; *Esa.* xxxvi. 6; *Ezec.* xxix. 6, 7). Gan fod hyn yn cael ei grybwyll nid yn unig gan Rabsaceh, mewn ffordd o ddirmyg, ond hefyd gan y prophwyd Ezeciel, chwech ugain mlynedd diweddarach, ymddengys fel peth tebygol fod "y ffon gorsen" yn fath o wawdenw cyffredin ar yr Aipht yn yr oesoedd hyny, yn awgrymu bod eu llywodraeth mor sigledig, anwadal, a siomgar, a'u gallu milwraidd mor egwan ag un o gyrs y Nilus. Y mae y gorsen yn blanigyn diarebol o sigledig a brau.

Digitized by Google

II. *Sychgyrs, neu gorswellt yr anialwch.* Tybia y Dr. Kitto, ac ereill, mai nid cyrs corsydd yw y planigion a grybwyllir yn y Testament Newydd dan yr enw *καλαμος*—Lladin, *calamus*—ond yn hytrach y rhywogaethau o farchwellt a geir yn tyfu mewn lleoedd sychion anial, gyda chawnen eiddil, a phen ysgafn siobynog, megys y corswelltyn a eilw yr Arabiaid, *hulfeh;* a llysieuwyr a'i galwant *arundo epigeios*, neu *imperata cylindrica.* A chan ei fod yn tyfu yn gyffredin yn yr anialwch, hyd yn oed wrth droed Sinai, credir mai y planigyn hwn oedd yn meddwl ein Iachawdwr pan y soniai am "gorsen yn ysgwyd gan wynt;" er, yn ein tyb ni, y gallasai fod digon o gyrs dwfr ar lanau anial yr Iorddonen, lle yr oedd Ioan yn bedyddio. "Corsen yn ysgwyd gan wynt;"—dyn gwammal, anwadal, neu sigledig ei farn, fel y gallai rhai fod yn camgymmeryd Ioan.

Ond i benderfynu pa blanigion a feddylir yn y lleoedd crybwylledig o'r Ysgrythyr, hwyrach mai y ffordd oreu yw cael gwybod, fel y sylwa Dr. Kitto, i ba rai y rhoddai y Groegwyr a'r Rhufeiniaid yr enwau uchod, yn enwedig pa rywogaethau oeddynt gynhenid yn yr Aipht a Syria. Y mae Dioscorides yn dysgrifio amryw fathau; megys, (1.) Y *κάλαμος ὁ νασσος*, o'r rhai y gwneid saethau. (2.) Y fenyw, o ba rai y gwneid pibellau cerdd (1 *Sam.* x. 5; 1 *Bren.* i. 40; *Esa.* v. 12; xxx. 29; *Ier.* xlviii. 36). (3.) Y geufol, gyda gwahanol gylymau, o'r hon y gwneid pinau ysgrifenu. (4.) Y fraisg, yn tyfu mewn afonydd, yr hon a elwir y *donax*, ac hefyd *cypria*—yr un a'r *arundo donax*, yn y darlun.



Dar. 200.

(5.) Y *phragmites*, eiddil, oleuliw, yr un, yn ol barn Celsius, a'r *agmon* Ysgrythyrol. (6.) Y *phleos.* Dysgrifir y rhai hyn ganddo yn union o flaen yr hesgen *papyrus.*

III. *Y pergyrs aroglaidd;* sef rhywogaeth y *calamos aromaticos*, yr hon a ddysgrifiwyd dan y gair CALAMUS.

IV. *Y melusgyrs*, neu *gyrs sugr*, sef *kusb-al-sukr* yr Arabiaid. Nid yw yn beth sicr a oedd yr hynafiaid yn meddu gwybodaeth o ddefnydd y gorsen felus=y *saccharum officinalis*, neu *officinarum.* Yr hanes boreuaf am sugr, wedi ei dynu o gyrs, a geir mewn cyssylltiad â Rhyfeloedd y Groes. Wedi hyny plenid cyrs sugr yn ynys Cyprus, ac yn y flwyddyn 1166, rhoddes William II, brenin Sicily, felin sugr, gyda ei holl ragorfreintiau a'i gweithwyr, i fynachdy St. Benoit. Ac yn ol tystiolaeth y mynach Albert Aquensis, rhaid bod y gorsen sugr yn tyfu yn Ngwlad Canaan yn yr oes hono; o blegid, heb law dysgrifio y dull y gwneid sugr yn Acre, dywed fod y milwyr Cristionogol, pan yn fyr o ymborth, yn cnoi y gorsen sugr yn fwyd. Yn 1420, dechreuwyd meithrin y gorsen werthfawr hon yn Madeira, a hyd ddarganfyddiad America ceid y rhan fwyaf o'r sugr a ddefnyddid yn Ewrop o ynysoedd Canary. Ac o'r ynysoedd hyny, yn ol dadl rhai, y cludwyd y gorsen hon i'r Brazils; ond haera ereill mai o Angola, yn Affrica, lle yr oedd gan y Portugiaid drefedigaeth sugr. O'r Brazils, ac ynysoedd Canary, trawsfudwyd hi i Hispaniola, Cuba, neu Hayti, fel y credir yn gyffredin. Ond, yn ol hanes Peter Martyr, yr oedd yn cael ei meithrin yn St. Domingo, yn amser ail anturiaeth Columbus, yr hyn a ddygwyddodd rhwng y blyneddoedd 1493 a 1495: ac felly y tybia Dr. Ure, mai Columbus a'i cludodd yno ar ei fordaith gyntaf, yn nghyda chynnyrchion ereill, o Yspaen ac ynysoedd Canary. Pa fodd bynag, er ei amser ef cafwyd allan ei bod yn tyfu, yn ei chyflwr gwyllt, yn America Ddeheuol, perfedd-dir ynysoedd yr India Orllewinol, ac Ynysoedd Môr y De, a'i bod yn cael ei defnyddio fel ymborth gan y brodorion, er na wyddent pa fodd i dynu sugr o honi. Tua chanol yr eilfed canrif ar bymtheg cludwyd y gorsen hon i Barbadoes o'r Brazils, ac oddi yno i'r gwahanol berchenogaethau Seisonig ereill yn yr India Orllewinol; yna i'r ynysoedd Yspaenig, ar ororau America; i Mexico, Peru, a Chili; ac yn ddiweddaf i'r trefedigaethau a berthynent i Ffrainc, i Holland, a Denmark. Planigyn o'r tylwyth ydaidd, neu rawn-ddygol yw y gecysen sugr, yn tyfu i'r taldra o wyth i ddeg troedfedd; â'i thryfesur tua modfedd a hanner, a'i chyff yn drwch, ond yn frau, ac o wawr gwyrdd, yn troi yn felyn wrth addfedu. Rhenir hi yn gymmalau, tua thair modfedd o hyd, ac yn ymuno mewn cylymogau modrwyol melynwyn, o'r rhai y tyf dail ffunenaidd, tair neu bedair troedfedd o hyd, ac o un i ddwy fodfedd o led, o liw môr-wyrdd, ac yn cau am y cymmal yn y bôn; ond yn syrthio oddi ar y calefyn wrth addfedu a chrino. Pan fo y gorsen tuag un mis ar ddeg, neu flwydd oed, y mae blaguryn saith neu wyth troedfedd o hyd, a thua hanner modfedd o dryfesur, yn tyfu ar ei phen, i'r hwn y rhoddir yr enw o *saeth.* Y mae yn terfynu mewn penffluwch mawr ceinciog o flodau gwynion. Y mae y gecysen addfed yn drom, llefn, a brau, ac o liw melynlas, neu ledwyn, yn ol ei rhywogaeth. Oddi mewn, yn y rhanau ceuol, rhwng y cylymau, y mae math o fwydion yspynglyd, edafeddog, a llwydwyn, llawn o sudd neu nodd melus, a da ei archwaethiad—o'r hwn y gwneir sugr.

Y mae amryw fathau o'r cyrs hyn. Y gorsen henaf a'r fwyaf adnabyddus yw yr hon a elwir y *creole;* yr hon a dyf yn rhwydd yn mhob man tu

Digitized by Google

fewn i'r trofanau, ar dir llaith, hyd yn oed can uched a thair mil o droedfeddi uwch law arwyneb y môr. Yn Mexico, yn mysg mynyddoedd Caudina Masca, tyfir hi yn uwch na phum mil o droedfeddi i fyny y llechweddi lleithion. Ond yn y lleoedd brytaf y mae yn cynnyrchu mwyaf o sugr, a'r goreu; oddi gerth eu bod yn tyfu mewn llanerchi rhy laith a chorsog i addfedu yn dda. Yr ail fath yw y *gorsen Otaheitaidd*, yr hon a gludwyd i'r India Orllewinol tua diwedd y deunawfed canrif. Y mae yn gryfach, yn dalach, yn hwy ei chymmalau, yn tyfu yn gyflymach, ac yn cynnyrchu mwy o sugr, ac yn llwyddo yn eithaf da ar dir rhy sal i dyfu y gorsen gyffredin, ac ar dywydd rhy oer i'r olaf gynnyddu. Nid yw yn cymmeryd mwy na blwyddyn i addfedu; weithiau bydd yn barod i'r cryman mewn naw mis. Gan fod ei chyff yn gryfach, ac yn fwy coedaidd, y mae yn sefyll dryghin hefyd yn well. Y mae yn blodeuo yn llawnach, yn pwyso un ran o dair mwy, yn cynnwys mwy o sudd, ac yn rhoddi un ran o bedair ychwaneg o sugr—yr hwn sydd wynach hefyd, a haws ei buro a'i risialu. Ond y brif fantais yw ei bod yn dwyn pedwar cnwd am dri i'r llall. Y mae math arall, a ddysgrifir gan Humboldt a Boupland, ac a elwir y *gorsen lasgoch*, oddi wrth liw ei gwlyddyn a'i dail. Trosglwyddwyd hi o Batavia yn 1782. Y mae yn blodeuo fis yn gynt na'r lleill; hyny yw, yn Awst, ac yn cynnyrchu mwy o nodd, ond llai o sugr sych, ac y mae lliw tebyg i'r gorsen ei hun arno.

Meithrinir amryw fathau o'r gorsen sugr yn India; megys y *cadjoolee*, yr hon sydd o liw porphoraidd, yn cynnyrchu nodd melusach na'r rhai melyn-oleu, ond bod llai o hono, ac yn anhaws ei wasgu allan. Y mae yn gwneyd sugr rhagorol. Y mae yn anadnabyddus i blanwyr yr India Orllewinol. Y *pooree* sydd o liw goleu neu felynwyn, yn troi yn felyngoch wrth addfedu ar dir bras, ond nid yw yn cynnyrchu llawn cymmaint o sugr. Dygir llawer i farchnad Calcutta, lle y bwyteir mwydion y gorsen addfed. Y *cullorah*, sydd o liw goleu, yn tyfu oreu mewn corsydd a siglenydd, ac yn cyrhaedd taldra mawr; ond y mae ei sudd yn fwy dyfrllyd, a'r sugr yn wanach na'r hyn a geir o'r lleill. Ond gan mai gwlad isel yw rhan fawr o Bengal, a bod cyrs y mynydd-dir yn fynych yn ffaelu ar sychder, y mae yn werth ei meithrin mewn manau.

Gellir tyfu y cyrs hyn, naill ai drwy eu hau neu eu planu, hyny yw, yn eu cyflwr cynhenid; ond er eu bod yn blodeuo yn yr India Orllewinol ac America, nid ydynt byth yn hadu; gan hyny y mae yn rhaid planu ysbrigau o honynt. Yn yr India Ddwyreiniol y mae yn dwyn had. Plenir yr ysbrigau blagurol yn rhesi mewn rhychau wedi eu hagor â battog, neu aradr. Dylai fod dros lathen rhwng y naill rych a'r llall, a'r planigion yn y rhesi fod tua dwy droedfedd oddi wrth eu gilydd. Rhenir y planfeydd yn lleiniau neu gefnau o dir, tua deg llath ar ugain, neu ragor o led, gan adael tramwyfeydd o ugain troedfedd o led rhyngddynt, er cyfleusdra i'r trinjaethwyr, ac er mwyn i'r cyrs gael digon o wynt a haul. Wedi eu tori i lawr, y maent yn ail dyfu drachefn a thrachefn, am flyneddoedd lawer.

V. *Cyrs bamboo, bambusa*, neu *bambos*: ffyngyrs: y mwyaf cawraidd o holl wellt y maes, a'r mwyaf gwasanaethgar i ddyn yn y gwledydd poethion o'r holl blanigion lleol. Pan yn ei llawn dwf, ac yn las, gwneir o'i chyff fath o rolflychau, yn mha rai y trosglwyddir blodau toredig gannoedd o filltiroedd o ffordd heb wywo; a phan fo yn addfed ac wedi caledu, gwneir bwäau saethau, cewyll saethau, pelydr gwaewffyn, hwylbrenau llongau, pyst gwelyau, llawffyn, breichiau cludeiriau esmwyth, erchwynion ac attegion pontydd gwledig, tylathau, distiau, cledrau, toiau, lloriau, eiliau tai, &c., pibenau dwfr, ysgolion dringo, llidiardau, &c., o'r *bamboo*. Holltir hi hefyd i wneyd basgedi, cysgodion ffenestri, matiau, hwyliau cychod, a llaweroedd o bethau ereill. O'r darnau ffyrfaf o'r cyff y mae y Chineaid yn cerflo llawer o lestri ac offerynau addurniadol a phrydferth iawn. Mewn llawer o fanau yn y dwyrain adeiledir anneddau cyfleus a hardd yn gwbl o'r gorsen hon.

Y mae llysieuwyr yn dosbarthu y *bamboo* i un ar ddeg ar ugain o wahanol dylwythau, megys,—

1. *B. arundinacea*—dreiniog, gyda dail meinion pigog, ac o ddeg i gant o gelyf yn tyfu ar un ystol o wreiddyn, i'r uchder o ddeunaw hyd ugain troedfedd. Weithiau, ymddengys o hirbell fel un llwyn mawr o flodau. Defnyddir ei had yn lle reis yn ymborth i ddyn ac anifail.

2. *B. stricta*—blodeuog, a lled ddreiniog, heb fod gymmaint a'r llall, ac yn tyfu mewn sefyllfaoedd sychach; ond gyda chelyf mwy tirf, union, a syth; ac yn fwy cyfaddas i lawer gwaith, yn enwedig i wneyd pelydr neu goesau gwaewffyn.

3. *B. vulgaris*—yn tyfu yn yr India Ddwyreiniol, i'r taldra o ugain hyd ddeg ar ugain o droedfeddi, a chan ffyrfed a braich plentyn.

4. *B. spinosa*—wedi ei harfogi â phigau dreiniog llymion, ac yn tyfu yn nghymmydogaeth Calcutta ac India Ddeheuol, i'r taldra o ddeg ar ugain hyd hanner can troedfedd. Gan nad oes ond ychydig o wagle yn ei chorsen, y mae yn gryfach na nemawr un o honynt; a gwaith caled yw tori i lawr lwyn o honi wedi iddi fyned yn hen.

5. *B. Tulda*—yn cynnwys amryw dylwythau; ac yn tyfu dros holl Bengal, hyd lanau yr Indus, a hyny mor ryfeddol o brysur fel y dywedir ei bod yn cyrhaedd y taldra o ddeg troedfedd a thrigain, a deuddeng modfedd o gylchfesur, yn nghorff mis o amser! Gwneir *pickles* rhagorol o'r blagur ieuainc. Cyn iddi geincio, y mae yn debyg i wialen genwair anferthol hir. Defnyddir hi yn benaf i wneyd ysgaffaldiau, ac i doi tai. Y mae yn parhau lawer yn hwy wedi ei mwydo mewn dwfr cyn ei defnyddio mewn gwaith.

Yr *Iowa bans* yw y tylwyth mwyaf cawraidd. Defnyddir y *Basini bans* yn benaf i wneyd basgedi. Y mae y *Behorr bans* yn fechan, ond yn gref iawn, ac yn gam a dreiniog. Cyfrifir hi yn gyssegredig, a gosodir ffon o'r gorsen gam ddreiniog yn llaw pob Brahmin ieuanc wrth ei arwisgo â'r fantell offeiriadol.

6. *B. Balcooa*—dau dylwyth heb fod yn ddreiniog, ac yn frodorion o Bengal, y rhai a ddefnyddir yn benaf i adeiladu tai, gan eu bod, wedi eu mwydo, yn gryfion iawn, ac yn fwy hyd yn oed na'r rhywogaeth diweddaf.

7. *B. Blumeana*—gyda dreiniau tridaint, dail bychain llyfnion, a chyff byrr, o ffyrfdra braich plentyn, yn tyfu yn Java.

8. *B. agrestis*—gyda chyff dreiniog tua'i fôn, oddeutu troedfedd o dryfesur, â dail bychain, meinion, a llyfnion. Y mae yn tyfu mewn lleoedd sychion ac anial ar fynyddoedd China a Cochin China, a chefndiroedd yr ynysfor Malayaidd.

9. *B. Thouarsii*—yn geinciog iawn, ac yn tyfu yn wyllt yn Madagascar.

Digitized by Google

10. *B. mitis*—yn gwhl ddiddrain, yn cael ei meithrin mewn caeau a gerddi yn Cochin China, ac i'w chael yn tyfu yn wyllt yn Amboyna. Y mae yn cyrhaedd deg troedfedd ar ugain o hyd, a chan ffyrfed a choes dyn. Dywed Rumphius, mai dyma y gorsen gryfaf o honynt oll.

11. *B. maxima*—yn tyfu yn bedwar ugain neu gan troedfedd o uchder, ac yn syth iawn, a chan ffyrfed a dyn yn ei wasg. Er hyny y mae hyny o bren sydd ynddi yn deneu iawn. Y mae yn tyfu yn wyllt yn Java, Cambodia, a'r gwahanol ynysoedd Malayaidd.

12. *B. aspera*—yn tyfu wrth odreu y mynyddoedd yn Amboyna, yn dri ugain neu dri ugain a deg o droedfeddi o daldra, a chan ffyrfed a chlun dyn, heb gymmaint ag un gainc, ac wedi ei gwisgo o'i bonyn i'w phen â math o fanblu gwynion.

13. *B. apus*—rhywogaeth gawraidd arall, gyda dail mawr, blaenfain, danneddog, yn tyfu cyn daled a'r olaf, ar fynydd Salak, yn Java.

14. *B. Bitung*—tylwyth arall, gyda dail rhyfeddol o fawr a llydain, ac yn tyfu yn yr un fro.

15. *B. nigra*—rhywogaeth gorachaidd, gyda dail meinion, ac heb fod yn dalach na dyn, gyda chorsen eiddil, yn chwyddo yn ei chylymogau; o liw dugoch llathraidd. Brodor yw o gymmydogaeth Canton, lle y torir ei chelyf hardd i wneyd coesau heulrodau (*parasols*) a llawffyn ysgeifn. Y mae yn sefyll oerni yn well nag un arall o honynt; gan ei fod wedi byw lawer o flyneddoedd, heb un cysgod, mewn corslyn yn ngardd Cymdeithas Arddwriaethol Llundain. Gellid dwyn y gorsen hon i ddygymmod â hinsawdd deheubarth Lloegr a gorllewin yr Iwerddon.

16. *B. aristata* — rhywogaeth fechan hardd arall; perthynas i'r olaf yn India.

17. *B. nana*—un fechan dlws, a elwir *keu fa*, ac a dyfir yn wrychoedd hardd yn China.

18. *B. pubescens*—un o'r tylwythau cawraidd eto, na wyddys o ba wlad y daeth ar y cyntaf. Cafodd y Seison hi yn mysg casgliadau planigion hynod tai brwd Ffrainc. Y mae yn cyrhaedd deg troedfedd ar ugain o daldra, a'i chyff yn fodfedd a hanner o dryfesur, heb ddim pigau; a'r blagur ieuanc, y gwisgau, a'r dail oddi tanynt, wedi eu hulio â math o fanflew pluog.

19. *B. striata*—gyda chyff eiddil, rhesog, melyn a gwyrdd, llathraidd, hardd iawn; â dail meinion, llyfnion, llwydlas, oddi tanynt. Brodor o China, ond yn cael, o blegid ei phrydferthwch, ei meithrin yn aml mewn tai brwd yn Nghymru a Lloegr, lle y tyf, os caiff le, i'r uchder o ugain troedfedd.

20. *B. glauca*—rhywogaeth goraidd hynod iawn, gyda dail bychain meinion, yn loewlas oddi danynt. Nid yw yn tyfu dros ddwy droedfedd o daldra, a'i cheinciau yn ddyryslyd. Brodor o China yw.

21. *B. verticillata*—rhywogaeth a eilw Rumphius *leleba alba*; a dywed fod ymylau ei dail mor lymion fel y maent yn archolli cnawd y rhai fyddont yn eu casglu. Y dysgrifiad cywir yw, bod gwisgau neu weiniau y dail wedi eu hulio â math o flew neu wrych colynol. Tyf y gorsen hon i'r uchder o bymtheg troedfedd, a rhagor; a phan yn ei llawn faintioli, y mae o liw gwelw, yn troi agos yn wyn wrth grino.

22. *B. atru*—un arall tebyg i'r olaf, ond bod ei choes yn ddu ac yn dysgleirio. Hon yw *leleba nigra*, neu gorsen ddu Rumphius; ac y mae, fel y ddiweddaf, yn tyfu yn Amboyna.

23. *B. prava*—gyda dail mawr a llydain iawn, anhyblyg, gwrychlyd, a cholynog. Y mae yn tyfu yn llwyni, fel coedwigoedd mawrion yn yr un wlad, yn cyrhaedd i lawr hyd lan y môr, mewn lleoedd gwlybion a sychion yn ddiwahaniaeth.

24. *B. picta*—neu y frith, gyda chymmalau hirion iawn; yn wyrdd a gwyn, a'r dail yn fychain, ac heb fod yn flewog iawn. Y mae yn tyfu yn gyffredin yn Cerania, Kelanga, Celebes, a rhai o'r ynysoedd Malayaidd ereill. Defnyddir hi yn benaf i wneyd llawffyn, ac y mae yn wydn iawn.

25. *B. Amahussana*. Y mae hon yn fyrach ei chymmalau nag un o'r pedair olaf, ac heb fod cyn sythed, gyda dail colynog ar ei brig, ond yn llyfnion tua'r llawr, a choedyn tew iawn; yn tyfu yn Manipa ac Amboyna.

26. *B. multiplex*—gyda checysen tua deuddeg troedfedd o hyd, a modfedd o dewder, cymmalau hirion, a dail meinion gwyrddgoch digòl yn blygion am y cyff yn eu bonau, fel yr arwydda ei henw.

27. *B. tabacaria*—gyda chymmalau geirwon, tair troedfedd o hyd, a chyff eiddil, agos o'r un ffyrfdra drwyddo ar ei hyd, ac yn geinciog. Y mae yn tyfu yn Java, Amboyna, a Manipa, yn y gweunydd lleithiaf a'r mawnogydd ar y mynyddoedd. Y mae yn gorsen hynod, agos yn bren drwyddi, ac mor galed ei haen o'r tu allan, fel y neidia gwreichion o honi pan darewir hi â bwyell; ond gan nad yw y gorsen hon yn ffyrfach na bys bach dyn, defnyddir hi yn benaf yn llawffyn ysgeifn.

28. *B. Guadua*—yn tyfu fel pren mawr, deg ar ugain neu ddeugain troedfedd o hyd, gyda chyff cymmalog llathraidd, un fodfedd ar bymtheg o dryfesur, â dail bychain pigog. Ceir y gorswydden hon mewn lleoedd tymmerus ar ochr gorllewinol mynyddoedd Grenada Newydd a Quito, yn America Ddeheuol.

29. *B. latifolia*—yn bum troedfedd ar ugain o hyd, ac yn pengrymu, gyda chymmalau gloewon, dwy droedfedd o hyd, a phedair modfedd o drwch, y dail yn lletach na'r olaf a nodwyd, ac yn tyfu yn y coedwigoedd lleithion cysgodol ar lanau yr afon Cassiquiaire yn America, rhwng y trofanau.

30. *B. Tagoara*—gyda chyff ugain neu ddeg ar ugain troedfedd o uchder, a phedair neu bum modfedd o drwch, a'r dail yn naw neu ddeng modfedd o hyd, a thros ddwy o led. Cafwyd y planigyn hwn gan y Dr. Von Martius, mewn coed ddeunaw can troedfedd uwch law y môr, ar y mynydd Serra do Mâr, yn agos i Guarantinqueta.

31. *B. parviflora*—rhywogaeth tra adnabyddus, yn tyfu ar fynyddoedd Peru.

Gan nad oes yn tyfu yn ein gwlad ni gyrs cyfaddas i'r gwasanaeth a briodolir iddynt yn yr Ysgrythyrau, ni a nodwn y prif rywogaethau o gyrs, yn ystyr priodol a llysieuol y gair, a dyfant yn ngwledydd y dwyrain. Wedi deall hyn, nid oes dim yn chwithig yn yr hyn a ddarllenwn am y milwyr yn dodi corsen yn llaw Crist, yn lle teyrnwialen, yn ei daraw ar ei ben â chorsen, ac yn estyn diod iddo ar gorsen, &c. (*Mat.* xxvii. 29), neu am "ffon gorsen," neu "gorsen fesur," tua phedair llath o hyd (*Ezec.* xlii. 16—20), a bod y fath "gorsen yn debyg i wialen" (*Dad.* xi. 1). A chan fod y fath wiail, ffyn, &c., yn cael eu gwneyd o wir gorswellt gan amlaf, nid rhyfedd i "gorsen," yn iaith gymhariaethol y dwyrain, fyned yn enw cyffredin ar bob math o wialen, neu roden, neu ffon.

VI. *Y corswiail*, a elwir yn gyffredin, y *rattan*

Digitized by Google

canes. Er eu bod yn cael eu galw yn gorsenau; nid oes dim perthynas rhyngddynt a'r gwir gorswelltyn; o blegid rhywogaeth o balmwydd ydynt, y rhai a dyfant i hyd tra mawr, dros benau y coed talaf yn ardaloedd poethaf y dwyrain; ac y mae llawer math o honynt, megys,

1. *Calamus verus*—neu wir gorsen neu wialen, gyda rhoden gan troedfedd o hyd.
2. *C. oblongus*—y gorsen hirbraff, yn dri neu bedwar can troedfedd o hyd.
3. *C. rudentum*—neu gorswden, dros bum can troedfedd o hyd.
4. *C. extensus*—yr un orestyngedig, chwe chan troedfedd o hyd.

Y mae Rumphius yn tystio fod un math yn tyfu i'r hyd synfâwr o ddeuddeg can troedfedd! Y maent yn amroledig mewn gwain ffurfiedig o'r bonddail; yr hon, wrth ei thori i lawr, a flingir oddi am danynt tra yn las, ac yna gadewir hwynt i sychu yn yr haul, nes bod yn barod i'r farchnad. Defnyddir llawer o honynt i wneyd pob math o gywreinwaith dellt. Y mae yr had i'w gael mewn math o fwydion a goginir yn ymborth, ac y mae y blagur, tra y maent yn dyner, yn cael eu rhostio neu eu berwi, ac wedi eu tori yn fân, a'u ffrio gyda chig, pupur, a halen, yn gwneyd dysglaid o fwyd danteithiol. Felly y mae cyrs a chorsenau i'w cyfrif yn mhlith y planigion rhyfeddaf a mwyaf gwasanaethgar.—(*Kitto's Cyc.; Penny Cyc.; Dr. Ure's Dic. of Arts, Manufactures*, &c.)

CORSYDD: tir gwlyb siglenog, "cyfle corsenau a brwyn;" *Esa.* xxxv. 7. Nid oes yn Ngwlad Canaan ond ychydig mewn cymhariaeth o gorsdir, a hwnw yn gwbl o'r bron ar lanau isaf yr Iorddonen; megys gwely dyfroedd Merom, yn ystod sychder haf. Ar ol meiriol, yn y Gwanwyn, bydd y llyn hwn yn llain o ddwfr tua saith milltir o hyd, wrth bedair o led; ond drwy y rhan arall o'r flwyddyn y mae cyrs a brwyn yn tyfu agos drosto oll. Gelwir ef yn awr, Bahr-el-Houle, ac y mae yn gorwedd yn uwch ar yr afon, neu yn nes i'r gogledd na llyn hardd Gennesaret. Oddi yno i'r Môr Marw, y mae ar finion yr afon lanerchi eang o bryseldir, lle y gwnai llewod, a bwystfllod gwylltion ereill, eu gwâl gynt, "mewn lloches o gyrs a siglenydd," a dyrys-lwyni anhydraidd; ac yr oeddynt yn hynod o ffyrnig pan yrid hwynt i ddianc o'u llochesau gan y llifogydd cynauafol; am hyny, y mae y prophwyd yn cyffelybu dinystrydd Edom i "lew yn dyfod i fyny oddi wrth ymchwydd yr Iorddonen." Y mae Ezeciel yn crybwyll y corsydd, neu forfa hallt, sydd yn gorwedd yn agos i'r Môr Marw,—"Ei lleoedd lleidiog a'i chorsydd ni iacheir; i halen y rhoddir hwynt." O herwydd bod cymmaint o darth yn codi oddi ar gorsdiroedd, y mae y trigolion yn aml yn cael eu poeni gan y cryd oriog; ond y mae sychder a helltni gwynt y môr yn iachau llawer ar forfeydd agored, tra y mae corsdiroedd coediog yn ddarostyngedig i glefydau heintus.

Y mae corsydd a llynau heli yn cymmeryd i fyny ran fawr o forlanau yr Aipht, a Delta morfaog y Nilus.

CORTYNAU, CORTENI. Nid ydyw y gair ysgrythyrol hwn i'w ddeall, fel y camgymmerir yn gyffredin iawn, yn gyfystyr â *chyrt*, lluosrif *cortyn*—megys *rheffyn*, yn gwneyd *rheffynau*; ond fel Cymreigiad lled annedwydd o'r gair Seisoneg *curtains, hangings*=cwrlen, croglen, gorchuddlen, arlen, amlendo, caeadlen, &c., — yn dyfod o'r Ffrancaeg *courtine*, neu *cortina*, yn amryw o ieithoedd deheuol Ewrop. Y peth mwyaf tebygol, yw, i'r cyfleithwyr gael eu harwain gan y Lladin; o blegid dyma y gair a ddefnyddia y Vulgate am leni y tabernacl—"*Decem* cortinas *de brysso retorta*," &c.: *Exod.* xxvi. 1. Felly y darllenwn (2 *Bren.* xxiii. 7) am wragedd eilunaddolgar yn gwau *cortynau* i'r llwyn; sef i greirfa, eilundŷ, neu allordŷ y duwiau coedol (*sylvan deities*); y rhai, ar y dechreu, a'r pryd hwn yn y wlad, a addolid dan lwyni o goed naturiol; ond yma dan gortynau mewn capelau yn nhai y Sodomiaid, y rhai oedd wrth "dŷ yr Arglwydd," yn rhai o ystafelloedd neu gynteddau y deml.

Nid yw y gair yn cael ei arfer ond mewn tri lle yn y cyfieithiad Cymraeg. "Wele fi," medd Dafydd, "yn trigo mewn tŷ o gedrwydd, ac arch cyfammod yr Arglwydd dan *gortynau*." Hefyd, y mae Esaiah yn prophwydo am lwyddiant yr eglwys,—"Helaetha le dy babell, ac estynant gortynau dy breswylfeydd." *Corteni* a arferir yn *Ier.* iv. 20. Ac yn y manau canlynol yn y Seisoneg;—*Salm* civ. 2; *Esa.* xl. 22; *Exod.* xxvi. 1; *Num.* iv. 25; *Esther* i. 6; *Can.* i. 5; *Ier.* x. 20; xlix. 25; *Hab.* iii. 7. *Cortina* oedd enw amlendo ystôl drithroed Apollo.

CORUS: mesur cynnwysol Iuddewig. "Κόρος =mesur cynnwysol mwyaf yn mysg yr Iuddewon." — *Bass's Greek Lex.* "Am ddeddf yr olew, bath o olew, degfed ran bath a roddwch o'r *corus;* yr hyn yw homer o ddeg bath; o herwydd deg bath yw homer;" *Ezec.* xlv. 14. Yn ein taflenau cyffredin, gwneir ef tua chwarter ymherodrol, wyth pwysel, neu 75 galwyn, a 5 peint. Yn hen daflenau Cymreig Risiart Morys (1752), gwneir *corus*, sychfesur, yn 88 galwyn, $6\frac{52}{100}$ peint; a'r gwlybfesur yn 103 galwyn, $2\frac{8}{10}$ peint. Weithiau gelwir ef *cor* neu *chomer*, ac ni wnaeth cyfieithwyr y Beibl Seisoneg ddim gwahaniaeth rhyngddo a'r omer, nad oedd ond pump neu chwe pheint—y dogn beunyddiol o fanna a ganiatëid i bob un o blant Israel yn yr anialwch (*Exod.* xvi. 16).

CORWYNT—OEDD. Yn ystyr gwreiddiol a syml y gair, nid ydyw yn arwyddo dim mwy na throwynt, troellwynt, neu chwylwynt; oddi wrth y gwreiddair, *côr*=cylch, neu unrhyw beth troellog, trofaog, cylchynol, crwn; megys, coron, coryn, cortyn, cordeddiad, &c. Ond yn awr y mae corwynt yn cael ei arfer fel enw cyffredin ar bob math o wynt uchel, tymhestlog, a dinystriol; er bod daiaryddwyr ac anianyddion yn dosbarthu gwyntoedd dan lawer o wahanol enwau, yn eu perthynas â lleoedd, amserau, achosion, effeithiau, ac amgylchiadau. Ond, cyn dechreu darlunio y gwahanol wyntoedd ystormus a barant ddychryn a dinystr mynych ar fôr a thir, rhaid i ni ddeall rywfaint o natur ac achosion cyffredin gwynt. Am ansoddiad yr awyr, nis gallwn wneyd yn well na chyfeirio y darllenydd at yr hyn a ddywedwyd eisoes dan y gair AWYR; ac am dreithiad manylach ar y deddfau anianyddol a reolant wyntoedd o bob natur, o dan y gair GWYNTOEDD. Digon fydd adgoffa yma fod yr awyr nid yn unig yn elfen nwyol, deneu, dryloew, ac anweledig; ond ei bod hefyd yn gorff gwasgadwy, hydwyth, chwyddadwy, pwysig, a symmudol, ac yn fwy hylif neu redadwy na dwfr, o gymmaint a'i bod yn ysgafnach,

Digitized by Google

ac felly yn agored i gynhyrfiadau mawrion, disymmwth, mynych, a rhyfedd. Yn hyn hefyd gwelwn ddoethineb y Creawdwr; o blegid pe lluniasid yr awyr yn gorff mor drwm a dwfr, buasai ei ysgogiadau aruthrol yn ddinystr i bob peth ar wyneb y ddaiar.

Y prif achos o'r cynhyrfiadau awyrol a elwir yn wyntoedd yw, gwahaniaeth tymmerusrwydd y naill gwr o'r awyrgylch wrth ei gymharu â chwr arall. Yr haul yw prif achosydd gwynt. Y mae ei wres yn peri i'r awyr ymchwyddo, ymgynhyrfu, ac ymdroi fel dwfr mewn crochan pan yn berwi. Y mae yn ymddiane yn ffrwd o'r cwr hwnw o'r nefoedd lle y mae yr haul boethaf; ac, wrth oeri ac ymdewychu, yn rhedeg yn ol i'w le eilwaith, fel dwfr yn ymlonyddu pan dynir y pair oddi ar y tân. Fel hyn y mae y gwagle cymhariaethol a achosir drwy ddiangiad yr awyr brwd o'r gororau trofanol, yn cael ei adlenwi âg awyr oer, yn rhedeg yn ol oddi wrth ddau begwn y ddaiar. Ond y mae tymmerusrwydd gwyneb y ddaiar a rhan isaf yr awyrgylch yn ymddibynu hefyd ar yr un ddeddf anianyddol ag sydd yn ymddangos yn y crochan berwedig; sef bod gwres yn ysgafnhau yr awyr, ac yn peri iddo ymchwyddo yn benaf tuag i fyny. Y mae y rhanau mwyaf poethedig yn ymddyrchafu tua'r wybren, gan adael y rhanau oeraf i ymddisgyn tua'r ddaiar. Ond gan ei fod yn beth annichonadwy i'r rhan ddisgynol o'r elfen gynhyrfedig fyned ar yr un amser drwy yr un cyfle a'r rhan ddyrchafol, rhaid i'r ysgogiad gymmeryd tro, fel y gwelwn yn merw y crochan, a pheri ffrydlif yn yr awyr, yr hyn a elwir yn wynt. A bydd yn ddigon i ni sylwi fod y cynhyrfiad yma yn yr awyr, fel berw y pair, yn cael ei achosi gan wrthymwthiad cgniol gwres, a thuedd wastadol yr elfen ei hun i gadw ei chydfantoliad cyffredinol, fel dwfr ei lyfel. Y mae troad y ffrydiau awyr, sydd yn dyfod o'r gogledd a'r de, yn ddwyreinwynt masnachol, tufewn i'r trofanau, yn cael ei achosi gan chwyrnelliad y ddaiar ar ei phegynau, yr hyn sydd yn ei dwyn i wrthgyffyrddiad â'r awyr, fel y teimlir wrth deithio ar gerbyd cyflym.

Fel y mae attyniad yr haul a'r lloer yn achosi llanw a thrai yn y môr, y mae hefyd yn effeithio yr un modd ar yr awyr; ond nid gymmaint, mae'n wir, ag i fod yn ganfyddadwy beunydd i ni ar y ddaiar, y rhai ydym yn byw ac yn ymsymmud megys yn ngwaelod yr eigion mawr o awyr sydd yn amdoi y blaned hon. Er hyny, rhaid fod y cyrff nefol yn dylanwadu ar ysgogiadau cyffredinol yr awyr.

Y mae gwahaniaeth tymmerusrwydd môr a thir hefyd yn achosi chwythiad gwyntoedd ar yr egwyddorion anianyddol a eglurhawyd eisoes. Y mae y sychdir yn boethach yn yr haf, ac yn oerach yn y gauaf na dyfroedd y môr; ac y mae y cyfnewidiadau hyn yn eu tymmerusrwydd yn effeithio ar bwynt a nerth gwyntoedd gwahanol ranau o'r ddaiar.

Ond un o achosion penaf gwyntoedd cyfnewidiol yw, llwythiad yr awyr â lleithdra a tharth dyfrllyd, yn ymddangos yn y ffurf o gymylau gwlaw, y rhai a ragflaenir ac a ganlynir gan wynt mwy neu lai bywiog neu ddryghinllyd. O flaen gwlaw, ar ol hir sychder, y mae yr awyr yn cael ei wasgu i lawr, dan bwys y gorlwyth o leithdra, ac yn troelli y llwch yn gymylau ar hyd y ffyrdd a'r heolydd; ac wrth i'r lleithdra ddisgyn yn ddafnau ar y ddaiar, y mae yn gadael gwagle o'i ol, i'r hwn y mae yr awyr yn rhedeg, yn wynt neu awel oer.

Y mae anwastadrwydd gwyneb y ddaiar—ei chadwynau o fynyddoedd uchel bylchog, a'i glynoedd dyfnion trofaol—yn achlysuro cynhyrfiadau cyffelyb yn yr awyr ag a achosir gan greigiau a thraethellau yn y môr. O ganlyniad, y mae ardaloedd mynyddig yn ddarostyngedig i ruthriadau sydyn, gerwin, ond byr eu parhâd, o wynt—mewn gwirionedd, i gorwynt. Ac o'r holl leoedd hynod am gorwyntoedd, ni wyddom am un ardal mwy nodedig na chymmydogaeth Cressfell, yn Cumberland; â'r hon y mae math o gorwynt rhyfedd iawn yn ymweled ar adegau ansicr, rhwng diwedd Medi a dechreu Mai; ac weithiau, ond yn bur anfynych, yn yr haf. Gelwir ef yn helmwynt. Pan na bydd un chwa o wynt neu awel yn crynu ar ddail y coed, na chwmwl ar yr wybren, yn ddisymmwth ffurffir llinell o gymylau, a elwir yr "helm," yn ymestyn o'r de i'r gogledd, ar hyd benau y mynyddoedd; ac agos yn gydredol â hon y mae llinell arall o gymylau yn ymffurfio, i'r hon y rhoddir yr enw, "y bar;" yna cydiant eu dau ben yn nghyd, gan amgau cyfle clir yn yr awyr, ar lun wy neu werthyd, o wyth i ddeng milltir ar ugain o hyd, o ogledd i dde, a phedair neu bum milltir o led, o ddwyrain i orllewin; a phen yr uchaf o'r rhes o fynyddoedd yn ganolbwynt. Yn mhen ychydig fynydau wedi i'r "helm" ymffurfio, y mae gwynt mawr yn dechreu chwythu o fewn y cyfle agored rhwng y cymylau, o ryw raddbwynt dwyreiniol i'r cwmpas, ond yn gyffredin o lygad y dwyrain, neu yn union o'r gorllewin. Y mae mor gryf ac ysgythrog fel y dryllia ac y dadwreiddia goed, y chwal yn duswau deisi o yd a gwair, &c., y dymchwel droliau neu fenni llwythog, ac y try feirch ar wastad eu cefnau; a pharha yn gyffredin am naw niwrnod. Y mae yn rhuo rhwng y mynyddoedd fel swn tymmestl yn y môr, ond anfynych y bydd gwlaw yn ei ganlyn.

Y mae genym anghreifftiau o gorwyntoedd sydyn a rhyfedd a ddygwyddasant yn Nghymru ar lawer pryd. Dygwyddodd amgylchiad hynod oddeutu ugain mlynedd yn ol, yn nghymmydogaeth Talysarnau, swydd Feirionydd, ar dyddyn a elwir Cefntrefor Fawr. Yr oedd yno ddwy weirglodd yn barod i'w cario, pan y darfu i gawod ddisymmwth o wynt chwyrndroi y gwair i uchder anferthol, ac yn y diwedd cariodd ef ymaith, gan adael y meusydd yn hollol lân; ac er i ymchwiliad manwl gael ei wneyd dros amryw ddyddiau, ni chafwyd yn ol ddim mwy o hono nag a allai dyn gario ar ei gefn! Rhyfeddach fyth oedd corwynt o ddeutu yr un adeg yn Nerquis, ger llaw y Wyddgrug. Aeth heibio i'r dref, o gylch dwy filltir oddi wrthi, o'r tu deheu-orllewinol iddi; ac ychydig amser cyn i'w effeithiau ddyfod yn ganfyddadwy, gwelid amryw gymylau duon yn ymgasglu yn nghyd, gan godi i fyny yn gyflym, yn gyflelyb i fwg yn dyfod allan o simnai agerbeiriant; ac yr oedd ychydig gymylau tua'r gorllewin yn crogi uwch ben: ac wrth sylwi ar eu hagoshâd at eu gilydd, yn uniongyrchol tarawyd y llawr gan wynt cryf yn ymsymmud megys piler, a'r elfenau yn rhuo uwch law unrhyw ddysgrifiad. Bu i golled fawr gael ei gwneyd ganddo mewn cae, o'r hwn y cymmerodd ymaith o gylch deugain o styciau yd i fyny i'r wybren, gan eu chwalu i bob parth; ac i edrychwyr a safent o hirbell, ymddangosent fel cynnifer o frain yn hofran yn y ffurfafen. Gwelid llawer o goed yn trafaelio trwy yr wybren yn gyflymach na cherbydau y ffordd haiarn, a gwasgerid hwynt dros bob parth o'r wlad. Y

Digitized by Google

corwynt nouedig hwn a symmudodd rhagddo i'r gorllewin.

Ar y 25ain o Orphenaf, 1857, dygwyddodd corwynt cyffelyb yn agos i Wrecsam, pryd y cipiwyd cocyn o wair i entrych awyr; ac aeth dros ben y dref, er syndod a dychryn i'r trigolion.

Yn mysg y cyfryw gorwyntoedd disymmwth, nid oes, efallai, un mor hynod a'r *samiel*, neu boethwynt Arabia. Y mae yr enw yn tarddu oddi wrth *samma*, gair Arabaidd yn arwyddo gwenwyn; o herwydd ei fod yn lladd dyn ac anifail. Gellir ei ystyried fel pyffiau o'r *samoun*, neu *simoom*—yn ymruthro yma ac acw ar hyd yr anialwch, yn gorwynt mynydol. "Y mae," medd un ysgrifenydd Cymraeg, "yn chwythu dros y diffaethwch yn misoedd Gorphenaf ac Awst, o'r gogledd-orllewin [o'r de-orllewin?], a bydd ar brydiau yn cyrhaedd yn ei angerdd difaol at byrth Bagdad; ond nid yw byth yn niweidio neb o fewn i'r caerau." Dylasai sylwi, er mai yr un gwynt yw, ei fod yn llawer llarieiddiach, ac yn chwythu yn rheolaidd dros ddeugain niwrnod, weithiau bedwar ugain, yn Bagdad—yn codi tua chanol dydd, neu foreuach, ac yn darfod o bedwar i bump o'r gloch yn y prydnawn. Y mae Bagdad mewn gwastadedd noeth, ar gyffiniau anialwch llosgedig, ond y mae yn sefyll ar lanau yr afon fawr Tigris; yr hyn sydd reswm am iachusrwydd hynod y lle. Am y pyffiau marwol o'r *samiel* a chwythant yn y diffaethwch ei hun, y mae yr ysgrifenydd yn gywir. "Mae ambell flwyddyn," medd efe, "yn dianc hebddo; ond mewn blynedd-oedd ereill y mae yn chwythu chwech, wyth, neu ddeg o weithiau. Anaml y mae yn parhau dros ddau neu dri mynyd ar y tro; ac weithiau y mae yn myned heibio mor gyflym a mellten. Y rhai hyny o'r Arabiaid a'r Persiaid ag sydd yn adnabod arwyddion yr wybr, ydynt yn cael rhybudd o'i ddyfodiad gan fath o niwl tew, ag sydd yn ymddangos fel cwmwl o lwch yn ymddyrchafu ar y terfyngylch. Ar ymddangosiad hwn, y maent yn syrthio ar eu gwynebau ar y ddaiar, nes yr el y gwynt heibio, yr hwn sydd bron bob amser yn dyfod yn ddiattreg wedi ymddangosiad y rhybudd; ond os na chymmerant y rhybudd, a bod yn gyflym i arferyd y moddion crybwylledig, yr hyn weithiau y maent yn ei esgeuluso, ac i'r gwynt gael cyflawn afael arnynt, y mae yn peri eu marwolaeth yn y fan. Syrthio ar eu gwynebau ar y ddaiar yw yr unig lwybr sydd ganddynt i ochel effeithiau marwol yr awel; a phan el heibio, neidiant i fyny, ac edrychant o'u hamgylch am eu cyfeillion; ac os byddant yn gorwedd yn llonydd, ymaflant mewn braich neu goes iddynt, a thynant yn arw ynddi. Os bydd y gwynt wedi cael effaith angeuol arnynt, fe ymedy yr aelod oddi wrth y corff yn lled rwydd; ond os na wna, y mae yn arwydd sicr fod y bywyd allan o berygl, ond iddynt weinyddu y moddion angenrheidiol i'w dadebru. Y mae yn ddirgelwch, nad yw yn hawdd ei ddeall, pa fodd y mae y gwynt hwn yn effeithio mor ofnadwy ar y lladdedigion nes y mae yn eu madru yn y fan. Nis gall yr Arabiaid eu hunain ddywedyd nemawr am natur y gwynt hwn, amgen na'i fod yn gadael sawyr brwmstanaidd ar ei ol." Rhaid addef fod yma ormodiaith chwedleuaidd, yn yr hon yr ymhyfryda y dwyreinwyr gymmaint. Dywed yr Arabiaid y pethau mwyaf anhygoel am y *samiel*, megys ei fod weithiau yn ymsaethu fel ergyd magnel, yn blychu byddinoedd, ac yn nodi allan o blith mil wrthddrychau neillduol ei ddialedd! Y mae mor adnabyddus yn y gwledydd hyny nes dychrynu pawb wrth son am dano.

Y mae yr arwydd rhybuddiol a welir ar y terfyngylch, neu yn y pellder mwyaf a genfydd y llygad, yn cael ei achosi gan y lluwchfeydd dirfawr o dywod a llwch poeth, fel lludw ffwrn, a yrir o flaen y corwynt, nes tywyllu y nefoedd, a pheri i'r haul golli ei ddysgleirdeb, a throi yn welwach na'r lleuad, yn rhy lesg ei lewyrch i daflu dim cysgod; y mae dail gwyrddion y coed yn troi eu lliw yn fath o las budr, yr adar yn ymwylltio ac yn ysgrechian, a'r anifeiliaid dychryn-edig yn rhedeg i bob parth. Y mae y croen yn myned yn grinllyd, y gwddf yn ennynedig, a'r tafod yn gorn; yr anadliad yn drwm a phoenus, a syched annyoddefol yn dilyn, y dwfr yn sychu i fyny, a'r costrelau croen yn myned yn hyspion, a dyn ac anifail yn marw. Felly, y mae llawer mintai o deithwyr wedi trengu yn y diffaethwch, fel byddin Cambyses. Y mae Volney yn rhoddi hanes cyflawn am y *simoom* a'i effeithiau. "Y mae ei boethder," medd efe, "weithiau mor ddirfawr fel y mae yn anhawdd ffurfio dychymyg am ei ffyrnigrwydd heb i un fod wedi ei deimlo; ond gellir ei gymharu i wres ffwrn fawr y foment y byddys yn tynu y bara allan. Pan ddechreua y gwyntoedd hyn chwythu, y mae yr olwg ar y ffurfafen yn ddychrynllyd. Y mae y wybren, yr hon sydd mor glir ar brydiau ereill, yn myned yn dywyll a thrymliyd; yr haul yn colli ei ysplander, ac yn ymddangos o liw glasgoch neu welw. Nid ydyw yr awyr yn gymylog, ond y mae yn llwyd a thrwch; y mae mewn gwirionedd wedi ei drylenwi â llwch annhraethol fân. Y mae yr anadliad yn myned yn fyr a phoenus, a'r corff yn cael ei ysu gan wres tumewnol. Yn ofer y cymmerir drachtiau mawrion o ddwfr. Y mae yr heolydd heb gynniweirydd, a dystawrwydd perffaith yn teyrnasu yn mhob man. Y mae trigolion y trefydd a'r llanau yn cau eu hunain i fyny yn eu tai, a'r rhai sydd yn yr anialwch yn eu pebyll, neu mewn pydewau cloddedig yn y ddaiar, lle yr arosant nes y derfydd y poethwynt dinystriol. Y mae yn gyffredin yn parhau am dridiau; ond os ä dros hyny y mae yn myned yn anmhosibl ymgynnal dano. Gwae i'r teithiwr a ddelir gan y gwynt hwn yn mhell o loches! Rhaid iddo ddyoddef yr holl ganlyniadau arswydus, y rhai ydynt weithiau yn farwol. Y mae y perygl yn fwy fyth os bydd y *simoom* yn chwythu yn byffiau; o blegid y mae chwyrnder y gwynt yn chwanegu ei boethder i'r fath radd ag i achosi marwolaeth disyfyd. Y mae yr holl waed yn cael ei yru gan y gwres i'r pen a'r fron; o herwydd hyn y mae gwaedlif o'r ffroenau a'r genau wedi i'r dyoddefydd farw. Y mae y corff yn parhau yn gynhes am hir amser, yn ymchwyddo, yn troi yn lasliw, ac yn hawdd ei dynu oddi wrth ei gilydd. Gellir gochel ei ganlyniadau drwy ddal cadach am y ffroenau a'r genau, ïe, y mae ffordd effeithiol yn cael ei harfer gan y camelod, y rhai a gladdant eu trwynau yn y tywod, ac a'u cadwant yno nes y bo y chwa drosodd."

Dysgrifir un o'r corwyntoedd hyn gan yr anrhyd. Augustus Murray, cenadwr ei mawrhydi i lys Persia, mewn llythyr at Syr Charles Lyell.—"Bagdad, Mai 23ain, 1857. * * * Ar yr 20fed cyfisol, ychydig cyn chwech o'r gloch prydnawn, yr oeddwn yn eistedd yn fy *mirza*, yn darllen rhyw lythyrau Persiaidd, pan dywyllwyd y lle yn sydyn a rhyfedd. Yr oedd tuag awr cyn machlud haul. Neidiais ar fy nhraed, ac aethym at y ffenestr, pan y gwelais gwmwl du

Digitized by Google

anferth yn dyfod o'r gogledd-orllewin, fel pe buasai frethyn elor, yn cael ei hulio dros wyneb y nefoedd. Rhaid ei fod yn teithio yn gyflym iawn; o blegid mewn llai na thri mynyd yr oeddym wedi cael ein hamgau mewn hollol dywyllwch—tywyllwch mwy dudew na chanol nos gyffredin, pan na bydd na lloer na ser i'w gweled. Trwy balfalu fy ffordd yn mysg cadeiriau a byrddau, llwyddais i daraw tân; ac yna, gan gredu yn sicr fod *simoom* o ryw fath yn dyfod, gelwais fy ngweinidogion i fyny i gau y ffenestri, y rhai oeddynt oll yn agored, gan ei bod yn hynod o fwll o'r blaen. Tra yr oeddynt yn gwneyd hyn, cynnyddodd y gwynt, a dygodd gydag ef y fath swm mawr o lwch neu dywod, fel y llanwodd yr ystafell: cyn y gallent gau y ffenestri, yr oedd yn gorchuddio yr holl ddodrefn. Cymmerodd yr holl ddinas fraw, a rhuthrodd yr Armeniaid, ac enwadau Cristionogol ereill, i'r eglwysydd i gyffesu eu pechodau ac i weddio;—ysgrechiai y merched a churent eu dwyfronau, a syrthiai y meibion ar eu gwynebau mewn gweddi, gan dybied fod diwedd y byd wedi dyfod. Yn mhen ennyd dilynwyd y tywyllwch du gan wyll rhuddgoch, na welais ei fath erioed o'r blaen mewn un parth o'r byd; yr hwn nis gallaf ei gyffelybu yn fy nychymyg i ddim, ond i'r hyn a welid pe byddai holl Lundain ar dân yn niwl tew noson o Dachwedd; ac i mi yr oedd yn fwy arswydus na'r tywyllwch blaenorol, ac yn dwyn i'm cof y 'tywyllwch gweledig,' yn mha un y mae athrylith Milton wedi dodi diafliaid a drychiolaethau erchyll y gororau uffernol. Yr oedd y niwl cochddu yn cael ei achosi yn ddiammheu gan belydrau yr haul wrth fachludo, yn tywynu ar y cruglwyth cymmylog o dywod coch a llwch a ysgubwyd o ryw anialwch pell, ac a gariwyd ar aden y corwynt. Yr wyf yn amgau peth o'r llwch yn y llythyr hwn fel y caffoch ei weled. Tybia yr Arabiaid ei fod wedi dyfod o'r Nejd. Ymddengys fod y dymmestl wedi teithio llwybr amgylchog—wedi ymddangos yn gyntaf yn y deorllewin, wedi hyny yn y gorllewin-orllewin, ac yna yn y gogledd. Yn mhen dwy awr, yr oedd wedi chwythu drosodd mor bell ag y gallem agor y ffenestri eilwaith i gael gwynt oddi allan. Nis gallasai fod yn *simoom;* o blegid yn ystod y rhai a deimlais yn Arabia a'r Aipht y mae y gwynt yn boeth a moglyd. Ar yr 20fed, yr oedd y gwynt yn uchel, ond nid yn boenus, ond o herwydd y llwch oedd gydag ef."

Ond y mae corwyntoedd oerion yn chwythu yn llawer cryfach na lluwch-wyntoedd poethion Arabia, Sahara, Nubia, Persia, a llanerchi a gororau sychion, tywodlyd, a diffaeth ereill o'r ddaear. Yn neheubarth Ewrop y mae y gogleddwynt yn chwythu gyda ffyrnigrwydd mawr, gan fod gwahaniaeth tymmerusrwydd Môr heulog y Canoldir, a mynyddoedd mawrion yr Alpau, dan eu mantelli o eira ac ia oesol, yn achosi berw dychrynllyd yn yr awyr. Gyda gwynt gogleddol cyffredin y mae hyrddiau o gorwynt aruthrol, o'r gogledd-ddwyrain, a elwir y *bara*, yn rholio dros Istria a Dalmatia, mor gryf, weithiau, nas gall ceffylau sefyll ar eu traed pan yn aredig yn y maes. Y mae corwynt cyffelyb, a elwir y *mistral*, yn ysgubo dyffryn y Rhine; ac un arall sydd yn gyfyngedig i'r Yspaen, a elwir y *gallego*, yr hwn sydd yn hynod ddinystriol a dychrynllyd.

Y mae hefyd gorwyntoedd aruthrol ac ofnadwy yn cymmeryd lle yn Môr India, a'r gwledydd ar ei ororau, ar gyfnewidiad y *monsoon*, yr hyn yn y Persiaeg a'r Falayaeg a arwydda *wynt cyfnodol*, neu briodol i dymmorau o'r flwyddyn. Y mae y *monsoons* yn chwythu o'r de-ddwyrain o Ebrill hyd Hydref, ac o'r gogledd-orllewin drwy y rhan arall o'r flwyddyn. Ar gyfnewidiad neu droad y gwyntoedd hyn, y mae y tymmestloedd mwyaf arswydus, a mwy neu lai dinystriol, yn cymmeryd lle yn wastad ar fôr a thir. Dywed Mr. Caunter, trigiannydd yn Madras, fod y tŷ lle yr oedd yn byw yn edrych dros y geulan, fel yr oedd yn gallu gweled y *monsoon* yn dyfod i mewn yn ei holl fawredd aruthrol a'i ddychrynfeydd: fod y gwynt, yr hwn nid allai dim ei wrthwynebu, yn plygu penau y coed talaf bron hyd y llawr, yn nyddu tywod y traeth yn lluwchfeydd colofnog i fyny i'r wybren, yn berwi y môr yn ewyn fel plu, yn gorchuddio dros gannoedd o latheni oddi wrth y geulan; fod pysgod byw yn disgyn ar benau y tai; fod rhuad yr elfenau yn peri i'r galon ddirgrynu, a'r nefoedd yn fflamio fel un gronfa anferthol o dân melltenog, yn ymdori yn daranau aruthrol. Ar y cyfryw brydiau, bydd y gwlaw yn ymdywallt; ac nis gellir gweled dim trwyddo ond fflachiad y mellt.

Cyffelyb yw ffyrnigrwydd y corwyntoedd a chwythant yn y rhan hon o'r byd, a elwir gan ddaiaryddwyr, Cylchrwy y Tawelon. Mae hon yn union i'r gogledd i linell y cyhydedd, tua chwe gradd o led, ambell flwyddyn naw neu ddeg, ac yn gorwedd rhwng y ddau wynt masnachol. Pan fo llong ar ei mordaith tua'r deheu, yn nesäu at linell y cyhydedd, y mae ofnau pryderus yn dechreu meddiannu meddyliau y morwyr. Y mae y gwynt teg a'u dygodd hwynt mor bell a hyn yn darfod. Y mae y môr yn ymledu o'u hamgylch fel llain diderfyn o wydr gloew, a'r llong yn gorwedd heb symmud. Y mae pelydrau yr haul trofanol yn disgyn yn unionsyth a thanbaid ar eu penau, bwrdd y llestr yn llosgi drwy wadnau yr esgidiau, a'r brydaniaeth i lawr yn y caban yn myned yn foglyd ac annyoddefol. Y mae wythnos, ie, pythefnos o dawelwch wedi eu dal yn ei garchar, fel na wyddys fod y llong wedi symmud modfedd. Ar amserau fel hyn, gwelir cwmwl du gwastad yn ymgodi oddiar y terfyngylch, a chwibianiad isel, meinllais, prudd, i'w glywed yn y pellder, a rhibyn o ewyn yn ymestyn tuag atynt ar hyd wyneb y dyfnder, a chydag un rhuad ofnadwy y mae y dymmestl yn ymdori ar eu penau.

Hurricanes ydynt gorwyntoedd a chwythant dros yr Orllewinol a Môr y Werydd, ar brydiau; ac y mae gwerth yr eiddo, a nifer y bywydau, ar dir yn gystal a dwfr, a ddinystriwyd ganddynt, o dro i dro, yn anghyfrifadwy.

Typhoons ydynt wyntoedd cyffelyb, a gymmerant eu rhwysg yn Môr China; ac y maent yn cael eu hachosi gan wres anghyffredin haf yn y gororau hyny; yr hyn yn wir yw, fel y gwelsom, yr achos penaf o bob gwynt. Rai dyddiau cyn y corwynt, yr hyn ni ddygwydd ond ambell flwyddyn, y mae cruglwythi mawrion o gymylau yn dreigio yn oleu iawn, ac yn parhau felly drwy y nos; ond tua'r boreu y mae yr ymddangosiadau bygythiol yn ymlarieiddio, ac weithiau yn cilio o'r golwg. Y mae symmudiadau yr arian byw yn yr hin-fynag yn ddiorphwys ac yn gyflym, gyda thuedd i fyned i lawr. Y mae y Cadben Hall, o'r llong Nemesis—un o lestri ei mawrhydi—yn rhoddi hanes am un o'r ystormydd hyn a ymwelodd â Hong-Kong, yn Ngorphenaf, 1841. "Rhwng saith ac wyth o'r gloch y bore, yr oedd y gwynt yn chwythu yn galed o'r gogledd, yn union ar draeth Hong-Kong, a pharha-

Digitized by Google

odd i ruthro yn hyrddiau uwch o awr bwygilydd. Yr oedd y llongau yn cychwyn llusgo eu hangorau, a gwaith dinystr wedi dechreu ar bob llaw; yr oedd *junks* a chychod Chineaidd yn cael eu chwythu ar wasgar bob ffordd, a gwelwyd un o honynt yn myned i lawr gyda'r holl ddwylaw oedd ar y bwrdd. Huliwyd yn raddol holl wyneb y gilfach eang â'r darnau a chwalwyd gan yr elfenau; yr oedd astyllod, hwylbrenau, cychod drylliedig, a dynion yn ymgydio, heb obaith am fywyd, wrth bob darn bradychus o bren, yn cael eu lluchio o gwmpas ar bob llaw; yr oedd y gwynt yn rhuo ac yn rhwygo pob peth o'i flaen, ac yn ysgubo gwyneb y dyfroedd. Yr oedd y rhyferthwy yn ei uchder mwyaf o ddeg hyd ddau o'r gloch, a disgynodd yr hin-fynag agos i 28° 50′, medd rhai, er na bu ar un adeg yn is na 28° 59′ ar fwrdd y Nemesis. Y pryd hyn yr oedd yr awyr wedi ei lwytho gymmaint â distrych a lluwch heli fel nas gellid gweled dim drwyddo oni byddai yn ymyl llaw; yr oedd y gwynt yn rhuo yn ddychrynllyd. Yr oedd y llongau yn cael eu gyru draws eu gilydd bob ffordd, yr hwylbrenau yn cael eu tori ymaith, a chwythwyd lluaws o lestri ar y traeth. Yr oedd y Chineaid brodorol wedi gwallgofi, ac yn ymbil yn ofer ar eu duwiau am help. Boddwyd cannoedd o honynt."

Yn ynysoedd y môr cyfagos, y mae y corwyntoedd hyn yn gwneyd galanasdra mawr—yn ysgubo ymaith gnydau y meusydd, yn dadwreiddio y coed mwyaf, yn taflu tai i lawr, ac yn chwythu llongau i dir sych. Mewn gwledydd trofanol, yn enwedig, y mae disgyniad hynod yr hin-fynag yn rhagfynegiad sicr o dymmestl gyfagos; ac felly y mae yr offeryn hwn o'r gwasanaeth mwyaf ar y môr.

Ond y mae corwyntoedd hynod a dinystriol wedi bod yn ymweled â'n gwlad ninnau ar adegau anfynych. Yn y flwyddyn 234 B. A. disgynodd rhuthr o gorwynt ar ddinas Caergaint, yr hwn a daflodd i lawr ddau gant o dai, ac a laddodd lawer o deuluoedd. Yn 349, chwythwyd i lawr bedwar cant ac ugain o anneddau drachefn, a lluaws yn Carlisle. Yn 416, dinystriwyd Colchester gan gorwynt, a lladdwyd llawer o'r trigolion. Yn 701, ysgubwyd cant o dai yn Lincoln gan gorwynt. Yn 919, bu corwynt yn Nghaergrawnt, yr hwn a ddinystriodd ddeugain o dai annedd. Yn 944, chwythodd corwynt ofnadwy yn Llundain, a chwalodd i lawr bymtheg cant o dai. Yn 1055, ymwelwyd â Llundain drachefn gan gorwynt, a chwythodd i lawr bedwar cant o dai. Yn 1091, rhuthrodd corwynt dinystriol dros ranau deheuol yr ynys; taflodd i lawr glochdy Winchelscombe, sir Gaerloew; y clochdy a llawer o dai yn Hen Sarum; eglwys Bow, Cheapside; a chwe chant o dai annedd yn Llundain. Yn 1120 hefyd, bu tymmestl gyffelyb, pan foddodd etifedd coron Lloegr, a dau ereill o blant Henry I, yn nghyd â phedwar ugain o bendefigion y deyrnas, wrth ddychwelyd o Normandy. Yn 1389 hefyd, bu corwynt mawr. Yn 1491, bu tymmestl ddychrynllyd ar nos Wyl Ifan—ganol haf. Yn 1558, y flwyddyn y bu farw Mari Waedlyd, bu corwynt mawr, gyda thymmestl o fellt a tharanau, yr hwn a ddinystriodd dai ac eglwysydd yn nghymmydogaeth Nottingham. Lluchiodd glychau un eglwys allan dros fur y fynwent, gyda phedwar can troedfedd o do plwm. Yn 1588, bu corwynt ac ystorm fawr, yr hon a ddrylliodd ran o'r Armada, y llynges fawr a anfonodd Philip o'r Yspaen, gyda bendith arbenig y pab, i gymmeryd Lloegr. Yn 1658, y 3ydd Fedi—y diwrnod y bu farw Cromwell — chwythodd corwynt dychrynllyd dros ran fawr o Ewrop. Yn 1662, bu tymmestl fawr o wynt yn ymweled â Llundain. Yn 1703, chwythodd ystorm ddinystriol mewn amryw fanau, gyda llifogydd mawrion. Cododd y corwynt hwn—yn ol rhai, y mwyaf dinystriol a chwythodd erioed dros Loegr—ganol nos, y 26ain o Dachwedd, o'r gorllewin-de-orllewin, gyda fflachiadau o fellt. Dymchwelodd lawer iawn o'r clochdai uchaf yn Lloegr, rhwygodd y plwm oddi ar yr eglwysydd, gan ei rolio i fyny fel cyrn o femrwn, chwalodd gannoedd o dai ac adeiladau o bob math yn bentyrau o adfeilion, dadwreiddiodd y llwyni coed mwyaf, a gwnaeth ddinystr cyn y bore ar werth mil o filoedd o bunuau yn Llundain, a dau gan mil yn Bristol. Yr oedd y golled o eiddo a bywydau ar y môr y noson ofnadwy hono yn anghyfrifadwy. Collwyd rhan fawr o lynges Lloegr, a boddwyd pymtheng mil o forwyr perthynol iddi, gyda'r is-lyngesydd Beaumont, heb law y miloedd a gollwyd ar longau masnachol. Yn 1782, bu corwyntoedd cryfion, ac aeth dwy o'r llongau rhyfel mwyaf a feddai y wlad hon i lawr, gyda'r Ville de Paris, y llong ryfel fwyaf yn y byd ar y pryd, ac amryw longau mawrion ereill, a gymmerasid mewn brwydr ar y môr. Yn 1792, gwnaeth corwynt aruthrol ddinystr mawr ar fôr a thir. Yn 1838, ar nos y 6ed, a bore y 7fed o Ionawr, dygwyddodd un o'r corwyntoedd mwyaf a ymwelsant â'r wlad hon. Gwnaeth ddinystr annhraethol yn yr Iwerddon. Cymmerodd y llongddrylliadau mwyaf alaethus le ar hyd forlanau Cymru; ond gwnaeth fwy o ddinystr yn Llynlleifiad nag un man arall.

Hyd yn ddiweddar iawn ystyrid corwyntoedd fel ystormydd o fyr barhâd, a chyfyngedig i gylch bychan, a thryfesur eu troelliad o ychydig gannoedd o latheni hyd filltir neu ddwy. Yr oeddid yn wir wedi sylwi fod ysgogiad trofaol i'r *typhoons* yn Môr China, a'r *tornados* yn Ngogledd America a goror Affrica; ond profwyd, yn ystod yr hanner canrif diweddaf, fod i'r holl wyntoedd tymmestlog a ysgubent wyneb y ddaiar, neu y rhan fwyaf o honynt, ysgogiad olwynog yn troi o fewn cylchau y rhaid iddynt fod yn gannoedd o filltiroedd o led; a bod i'r cyfryw dymmestloedd ysgogiad symmudol yn gystal a throellog, fel olwyn cerbyd ar ffordd, ond bod echel y corwynt yn sefyll yn union ar ei phen, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, neu fel *top*, ond gydag ysgogiad nyddog, fel sidrwy (*screw*). Y mae yn amlwg, gan hyny, y gall manau fod yn dawel yn nghanol troell y corwynt mwyaf aruthrol. Yn y *Philosophical Transactions*, am 1801, y mae y Col. Capper yn casglu fod i ystormydd ysgogiad sidellog, oddi wrth symmudiadau gwyntoedd mawrion 1760 a 1770: ond Mr. Redfield, o Gaerefrog Newydd, yn ei *Observations on Storms*, yn y cyhoeddiad a elwir *Transactions of the American Philosophical Society*, 1841, oedd y cyntaf a brofodd i foddlonrwydd fod iddynt ysgogiad symmudol yn gystal a throfaog, a bod i rai o gylch mawr lanerchi eang, lle y mae y gwynt yn chwythu yn gymmedrol, ac o wahanol bwyntiau i'r cwmpas. Gellir weithiau ganfod effeithiau corwynt yn yr awyr cyn iddo ddisgyn ar y ddaiar, a'i fod yn symmud rhagddo sydd amlwg. Yn yr *American Journal of Science*, cyf. xx, dangosir fod yr ystorm fawr a gymmerodd le yn Medi, 1821, wedi dechreu yn yr India Orllewinol, a chyrhaedd goror yr Unol Daleithiau, lledred 35 gog., ar glais dydd y 3ydd o Fedi, pryd yr oedd y gwynt yn chwythu o'r dwyrain-de-ddwyrain. Cyn canol

Digitized by Google

dydd, dechreuodd yn Mhenryn Henlopen, a'r gwynt o'r un pwynt; ond symmudodd wedi hyn i'r dwyrain-ogledd-ddwyrain, a chwythodd tuag awr, pryd y symmudodd drachefn i'r gorllewin-ogledd-orllewin, gan ruthro yn ffyrnig. Yn Nghaerefrog Newydd, dechreuodd y dymmestl bump o'r gloch brydnawn, o'r dwyrain a'r gogledd-ddwyain, gan chwythu gyda chynddaredd am dair awr, ac yna troes y gwynt i'r gorllewin. Dechreuodd yn Boston ddeg o'r gloch y nos; ond ni allwyd ei ddilyn yn mhellach na'r ddinas hono. Ond y peth mwyaf hynod yw, tua hanner nos yn Mhenryn Henlopen, bu yn dawel am hanner awr, ac yna troes y gwynt i'r gorllewin-ogledd-orllewin, ac ail ddechreuodd gydag egni mawr; yr hyn a ddengys fod canolfa y corwynt hwn, ar yr adeg dawel a nodwyd, yn rhywle cyfagos i'r lle a nodwyd.

Yn yr un gwaith, cofnodir fod y gwynt wedi symmud o amgylch y cwmpawd yn ystod y rhyferthwy yn ynysoedd Bahama, nos y 14eg o Awst 1830. Ymddengys i'r ystorm hon fyned heibio dros ynys St. Thomas yn agos i Porto Rico, hyd fordir de-ddwyreiniol Nova Scotia mewn chwe diwrnod, gan deithio tua dwy filltir ar bymtheg yn yr awr, a bod troell y corwynt o gant a hanner i ddau cant o filltiroedd o led.

Ond y mwyaf hynod ar gof a chadw yw y dymmestl a grwydrodd Fôr y Werydd, o'r 12fed hyd y 23ain o Awst, 1837, ac a ddysgrifir gan y milwriad Reid, yn ei waith a elwir *The Law of Storms*. Ymddengys i'r corwynt mawr hwn gael ei deimlo gyntaf tua 400 milltir i'r dwyrain o Antigua. Yr oedd y pryd hyny yn symmud tua'r gorllewin; ond yn mhen deuddydd, cymmerodd led-dro i'r gogledd-orllewin; a phan gollwyd ef, yr oedd yn dychwelyd i'r dwyrain, ar draws y cefnfor i'r de o Newfoundland. Ar y 18fed o Awst, bu y llong, Rawlins, am awr yn cael ei dal gan dawelwch perffaith yn nghanol sidell y gwynt, yn lled. 30° 30′ gog.; ac ar yr un pryd, bu agos i'r Calypso, llong arall tua thair gradd i'r gogledd o'r llecyn hwnw o'r môr, gael ei throi wyneb yn isaf gan hwrdd cynddeiriog o wynt, yn cymmeryd tro ddeg a phedwar ugain o raddau ar y cwmpawd, o'r gogledd-orllewin i'r de-orllewin. Ar yr 20fed, yr oedd y Sophia yn hwylio tua'r un pellder i'r gogledd-ddwyrain oddi wrth y Rawlins, a theimlodd yr *hurricane* yn lled-droi o'r dwyrain-de-ddwyrain i'r gogledd-ddwyrain. Hwyliodd y llong Castries, yn rhwym o St. Lucia i Loegr, yn union ar draws hannergylch olwyn y corwynt hwn. Ar y 14eg a'r 15fed, tua'r ddeunawfed gradd o ledred gogleddol, lle mae y gwynt yn gyffredin yn chwythu o'r dwyrain, daliwyd hi gan ryferthwy o gorwynt, yn chwythu ar y cyntaf o'r de-de-orllewin, ond yn troi wedi hyny i'r de-ddwyrain, fel pe buasai wedi rhedeg ar ystlys tymmestl yn chwyrndroi yn y cyfeiriad gogledd, gorllewin, de, dwyrain, ac yn teithio fel olwyn o'r dwyrain tua'r gorllewin. Wedi hyn aeth y Castries yn mlaen ar ei mordaith, gyda thywydd teg hyd y 24ain o'r mis hwnw, pryd yr ysgubodd corwynt drosti (yn lled. 35° 46′ gog., hyd 57° 40′ gor.), yr hwn y tybia y milwriad Reid, mai nid y corwynt cyntaf oedd—fod hwnw yn mhellach ar ei daith tua'r gogledd-ddwyrain ar y pryd—ond un arall yn dilyn yr un llwybr, ar ledol y blaenaf, ac i'r ddau yn y diwedd gydgordeddu â'u gilydd.

Yn Mawrth, 1809, fel yr oedd y gosgordd-longau, y Culloden a'r Terpschore, yn hebrwng mintai o lestri masnachol adref o India, gwasgarwyd yr holl lynges gan gorwynt (yn lledred 21° de), ac ni chlywyd hanes am rai o honynt byth mwy.

Canlynwyd llwybr gwynt mawr nos y 6ed, a bore y 7ed o Ionawr, 1838, hyd yr 16eg o Chwefror, a phrofwyd ei fod yn meddu holl briodoliaethau corwynt. Yr oedd yn ei uchder mwyaf tua phedwar o'r gloch y bore, ac yn chwythu o'r de-orllewin, yn symmud tua'r de-dde-orllewin, gyda fflachiadau o fellt. Cyfrifir ei fod yn rhuthro gyda'r cyflymdra arswydol o bedwar ugain i gan milltir yn yr awr, a'i nerth unionsyth ar bob troedfedd ysgwar tua hanner can pwys. Nid yw awel fywus hyfryd yn teithio mwy na phum milltir yn yr awr; gwynt, tua phymtheg i ugain milltir; gwynt uchel, o ddeg ar ugain i bymtheg ar ugain milltir; gwynt uchel iawn, o ddeugain i bump a deugain; ac ystorm fawr, o ddeg a deugain i drigain milltir yn yr awr.

Fel y sylwyd cisoes, y mae yr awyr yn ddarostyngedig i'r un cynhyrfiadau ag a welir yn cymmeryd lle yn y dyfroedd. Weithiau y mae yn ymddangos yn llonydd, fel llyn o ddwfr sefyll; bryd arall y mae yn ymsymmud fel tonau y môr. Drachefn, gwelwn ddwfr, weithiau, yn ymrithio yn llyfndeg fel llyn afon; bryd arall, yn rhedeg yn ffrwd neu genllif gwyllt dros feini, sarnau, a rhydau, neu yn disgyn yn rheiadrau cynhyrfus dros greigiau i geunentydd: felly y mae yr awyr neu y gwynt yn gwneyd ei ffordd gydag ymdrech a thrwst dros fynyddoedd a chreigiau, ac ar hyd wyneb tonog y môr. Eto, fel y gwelwn y ffrwd ddwfr, o herwydd camedd y geulan, a chyfyngiadau ei gwely, yn ffurfio llyn tro yma ac acw, a mân droelliadau, lle y mae yn croni ac yn llynio, felly yr un ffunud y mae trowyntoedd yn cymmeryd lle yn yr awyr. Y mae y cyfryw droelliadau yn dygwydd o herwydd bod y ffrwd awyr yn cael ei throi o'r neilldu gan ryw gorff gwrthsafol—gan amlaf gan ffrwd arall o awyr yn rhedeg i ryw bwynt gwahanol. Gwel y darllenydd mai dyma achos amlwg y *monsoons* yn Môr India, sef symmudiad y gwynt o'r naill bwynt i'r llall. Ond y mae un peth hynod iawn mewn corwyntoedd i sylwi eto arno; sef eu bod, hyd y gwyddom yn bresennol, i gyd yn troi yn yr un cyfeiriad a'r cysgod ar ddeial haul ar yr ochr ddeheuol i'r ddaiar—hyny yw, o ddwyrain i ddeheu, i orllewin, i ogledd, ac yn ol i ddwyrain; ac ar yr ochr ogleddol i'r ddaiar, yn troelli yn union i'r gwrthwyneb, sef o ddwyrain i ogledd, i orllewin, i ddeheu, ac i ddwyrain drachefn;—yr un ffunud a phe byddai chwyrnelliad y ddaiar ar ei hechel tua'r dwyrain, a thuedd yr awyr i esgyn oddi wrthi, neu i ehedeg ymaith, yn eu hachosi.

Y mae yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn gwneyd defnydd mynych iawn o'r gyffelybiaeth o gorwyntoedd, gan eu bod mor gynnefin iddynt, ac yn ddygwyddiadau mor ryfedd yn eu natur, ac arswydol yn eu heffeithiau, yn gystal a'u bod yn gyssylltiedig â rhai amgylchiadau hygof mewn hanesiaeth ysgrythyrol; megys y corwynt a gododd Satan i ddinystrio plant Iob yn eu cyfeddach, yr hwn a chwythodd o'r anialwch ac a darawodd wrth bedair congl y tŷ. Oddi wrth hyn, y mae yn debyg, y tarddodd dychymyg yr hen bobl fod y diafol yn wastad allan ar wynt. Mewn corwynt y dyrchafwyd Elias i'r nef;—"mewn corwynt o dân," medd yr *Apocrypha*. O'r corwynt y llefarodd yr Arglwydd wrth Iob. Gwel hefyd *Act.* ii. 2, am ddisgyniad yr Ysbryd ar yr

Digitized by Google

apostolion. At gorwynt sydyn y diffaethwch yn dal teithwyr pan yn dechreu gwersyllu y cyfeiria *Salm* lviii. 9. Er fod yr Arglwydd yn hwyrfrydig, dywedir fod ei lid fel rhyferthwy sydyn corwynt; hyny yw, y mae yn dyfod felly ar y rhai sydd yn byw mewn anghof o hono, yn eu dal drwy synedigaeth: *Nah.* i. 3; *Diar.* i. 27. Pan ddysgrifir Duw digllawn yn ymlid ei elynion fel rhyfelwr buddugol, cyffelybir yr annuwiol "fel peiswyn mynydd o flaen y gwynt," ac fel peth yn "treiglo yn mlaen corwynt," neu "megys sofl yn myned ymaith gyda gwynt y diffaethwch;" *Esa.* xvii. 13; *Ier.* xiii. 24. Cyffelybir llu brenin Babilon, pan ddeuai i ddinystrio Ierusalem (*Ier.* iv. 12) i'r *simoom*, a ddaeth o ffordd yr anialwch. Felly hefyd y cyffelybir y Persiaid a'r Mediaid, yn eu hymgyrch yn erbyn Babilon (*Esa.* xxi. 1; *Iob* xxxvii. 9. Felly y darlunir y Tyrciaid (?) yn *Dan.* xi. 40: ac yn *Ezec.* i. 4, am ddyfodiad y Caldeaid. Ac mor brydferth a barddonol yw y dysgrifiad prophwydoliaethol am gyflymdra neu ddyfodiad buan brenin Babilon; lle y dywedir, "Carnau ei feirch ef a gyfrifir fel callestr, a'i olwynion fel corwynt." Ond ni ddefnyddir y gyffelybiaeth gyda mwy o briodolder a grym yn un man nag yn *Diar.* x. 25, lle y dywedir, "Fel y mae y corwynt yn myned heibio, felly ni bydd y drygionus mwy." Y mae yr iaith hon yn dra darluniadol—nid yn unig o doriad troseddwyr ymaith yn nghanol eu dyddiau, ond o yrfa brysur, drystfawr, afiaethus, afreolus, a rhyfygus yr annuwiol, ac o'r perygl o sefyll yn ffordd pechaduriaid, y rhai a gylch-arweinir gan bob awel, ac a ddygir ymaith gan gynhyrfiadau chwantau a themtasiynau i ddinystr buan. Gwel GWYNT.

CORYNFOELEDD: diffyg gwallt ar goryn y pen; naill ai trwy ddiflaniad naturiol, neu trwy eilliad. Y mae corynfoeledd yn gyffredin yn arwyddo henciddiad, ac yn tarddu o ddarfyddiad naturiol y gwallt oddi ar goppa y pen, gyda threigliad einioes. Ond y mae llawer yn talfoeli ac yn penfoeli yn mlodau eu dyddiau, drwy fod brydaniaeth gormodol yn ymddyrchafu o'r cylla i'r pen, ac yn difrodi y lleithnoddau angenrheidiol i faethu y gwallt. Pan fyddo y gwallt yn gryf, y mae yn sefyll, er troi yn grin neu wyn; ond pan yn wan a maswaidd, y mae yn syrthio, megys pe byddai yn braenu ac yn colli ei wraidd. Ond weithiau, y mae moeledd yn tarddu oddi wrth ryw glwyf yn y croen; megys clefni neu wahanglwyf, fel y darllenwn yn nghyfraith Moses,—"A gŵr, pan syrthio gwallt ei ben, moel yw; eto glân fydd. Ac os o du ei wyneb y syrth gwallt ei ben, efe a fydd talfoel; eto glân fydd efe. Ond pan fyddo anafod gwyngoch yn y penfoeledd, neu yn y talfoeledd, gwahanglwyf yw efe yn tarddu yn ei benfoeledd, neu yn ei dalfoeledd ef. Ac edrychad yr offeiriad arno; ac wele os bydd chwydd yr anafod yn wyngoch yn ei benfoeledd, neu yn ei dalfoeledd ef, fel gwelediad gwahanglwyf yn nghroen y cnawd; gŵr gwahanglwyfus yw hwnw, aflan yw; a'r offeiriad a'i barna ef yn llwyr aflan; yn ei ben y mae ei bla."

Mae hefyd yn beth nodedig fod y gair Hebraeg קרח = *moeledd*, yn wreiddiol yn arwyddo *clafr*, fel y mae yn cael ei gyfieithu yn *Lef.* xxi. 20; ac felly, barn rhai, fel Dr. Kitto, yw, fod y gyfraith yn cau allan bob gŵr penfoel, megys yn anaddas i weinyddu y swydd offeiriadol; ac mai y rheswm am hyny oedd, bod rhagfarn gyffredin yn erbyn moeledd, yn codi o'r ammheuaeth y gallai fod rhyw achos gwahanglwyfus dechreuol iddo. Er nad ydoedd meibion yn gyffredin yn mysg yr Iuddewon yn gwisgo gwallt llaes, crychedig, neu blethedig, fel benywod, oddigerth tra byddent dan oed, ystyrid gwallt llawn yn harddwch mawr, a chymmerid llawer o ofal a thrafferth i'w feithrin a'i drefnu; ac nid ystyrid dim yn fwy gwrthun a mwy dirmygus na phenfoelni [gwel GWALLT], hyd yn oed pan fyddai yn tarddu o ball natur. Fel hyn y gwaeddai bechgyn diriaid ac ynfyd Bethel, ar ol y prophwyd Elisëus—"Dos i fyny moelyn, dos i fyny moelyn;" 2 *Bren.* ii. 23, 24. Oddi wrth yr amgylchiad hwn, credir yn gyffredin fod Elisëus yn naturiol yn benfoel; ond pe felly, nid yw mor debyg y buasai yn myned trwy y dref yn bennoeth, neu y buasai mor chwannog i ddiosg ei benwisg i ddangos ei dalfoeledd. Tebycach yw mai wedi eillio ei ben yn ei alar ar ol ei feistr yr oedd (*Iob* i. 20); a'i fod yn myned i fyny yn bennoeth, â'i wisgoedd yn rhwygedig, yn ol arfer y dwyreinwyr pan gollent geraint agos neu gyfeillion anwyl; ac fel y galarai gweision am eu meistriaid a'u harglwyddi: 2 *Sam.* xiii. 30, 31. Y cyfryw eilliad oedd yn arwyddo amddifadrwydd a cholled anadferadwy. Nid oedd dim yr ymhoffai ac yr ymfalchïai meibion, yn gystal a merched y dwyrain, gymmaint ynddo a'u gwallt; ac yr oedd ei eillio ar farwolaeth rhai a garent ac a barchent yn fawr, yn arwyddo eu bod wedi colli y peth anwylaf a feddent.

Meddylir yn gyffredin fod Moses yn gwahardd yr arferiad hon yn gwbl (*Deut.* xiv. 1); ond y mae yr ymadrodd—"Na wnewch foelni *rhwng eich llygaid*," yn lled ddyrysu rhai esbonwyr. Hwyrach mai y talcen neu flew yr eiliau a eillid yn gyffredin yn mysg y cenedloedd paganaidd, neu y plicid y gwallt a'r eilflew mewn modd gwallgofus a hunan-anafol; ac mai hyn yn unig a waharddai y gyfraith i'r bobl yn gyffredin, er y gwaherddid i'r offeiriaid ymhalogi am y marw, ond yn achos eu cyfneseifiaid; neu wneyd "moelni ar eu penau." Pa beth bynag oedd ystyr llythyrenol y gyfraith, neu yr esboniad a roddid arni, y mae yn ddigon amlwg fod hyn, mewn oesoedd diweddarach o leiaf, yn ddefod yn mysg yr Iuddewon; o blegid y mae Esaiah yn cyfeirio at hyn pan yn dysgrifio galar gweddwdod merched beilchion Ierusalem, pan syrthiai eu gwŷr mewn rhyfel: *Esa.* iii. 24. Ac y mae Ieremïah (*pen.* xvi. 6), Ezeciel (*pen.* vii. 18), Amos (*pen.* viii. 10), a Micah (*pen.* i. 16), yn son am yr arferiad.

Prophwydodd Ezeciel y byddai gorfod i Nebuchodonosor warchae cyhyd ar Tyrus, fel y byddai i benau ei wŷr fyned yn foelion wrth wisgo helmau.

COS, COOS, [Κώς = *Cea*]: ynys fechan ffrwythlawn yn Môr Ægea, ar arfordir Asia Leiaf; yr hon a elwir yn awr *Kos* neu *Stanco*. Yr oedd yn lle hynod gynt am winoedd, sidanau, gwëoedd cottwm meinrwyll (*gauze*) — yr hwn y cyhuddid boneddigesau Rhufeinig o'u gwisgo er arddangos eu personau, yn fwy nag a weddai i wylder benywaidd. Dinystriwyd prifddinas Cos gan ddaiargryn, tua phedwar can mlynedd cyn geni ein Iachawdwr. Yr oedd y Cosiaid yn bobl annibynol er yn fore iawn, a chanddynt freninoedd o'r eiddynt eu hunain yn amser Iehosaphat, brenin Iudah, os nad yn llawer cynt. Wedi hyny, syrthiasant dan lywodraeth olynol y Persiaid, y Pontiaid, a'r Rhufeiniaid. Yn yr

Digitized by Google

Apocrypha, darllenwn fod Lucius, y consul Rhufeinaidd, wedi ysgrifenu o blaid yr Iuddewon "i bob gwlad, megys i Sampsames, at y Spartiaid i Delus hefyd, ac i Myndus, ac i Sycion, ac i Caria, ac i Samos, a Pamphylia, ac i Lycia, ac i Halicarnassus, ac i Rhodus, a Pharseilis, ac i Cos, ac i Side, ac i Aradus, ac i Gortyna, a Cnidus, a Cyprus, a Cyrene;" 1 *Mac.* xv. 23. Hwyliodd yr apostol Paul heibio i'r lle hwn ar ei fordaith i Iudea; ond nid yw yn ymddangos fod un eglwys wedi cael ei sefydlu yma am rai oesoedd wedi hyn: ond yr ydym yn cael un sefydlog yma yn ystod y pedwerydd, y pummed, a'r chweched canrif—hyd nes y syrthiodd dan iau y Tyrciaid, a dylanwad gwywol ei llywodraeth.

COSP. Gwel CYFRAITH.

COSTREL: potel, llestr i ddal gwlybyron. Tybir yn gyffredin mai codau o grwyn anifeiliaid a ddefnyddid gyntaf i'r perwyl hwn. Efallai i'r meddylddrych gwreiddiol o gostrel gael ei fenthyca oddi wrth *wysigen* anifail; yn wir, yr un gair a arferai y Rhufeiniaid am gostrel groen a gwysigen — "*uter.*" Felly y mae y Vulgate yn darllen,—"*Memo mitit vinum novum in* utres *veteres*" = ni thywallt neb win newydd i hen *wysigod;* ac "Εἰς ἀσκούς παλαιούς" = i hen *bledrau*, costrelau croen, yw y gwreiddiol. Gwysigod naturiol anifeiliaid a leddid i'w bwyta neu eu haberthu oeddynt, ond odid, y costrelau boreuaf a ddefnyddid. Aeth y rhai hyn yn fuan yn annigonol i gyfarfod angenion ac ewyllys dyn, a gwnïid crwyn crai i fyny yn godau ar gynllun natur; ac felly yn mhedwerydd llyfr yr *Iliad* (ll. 247), sonir am y gweinyddion yn dwyn gwin mewn costrel wedi ei gwneyd o groen gafr, —'Ασκῶ 'εν αἰγείῳ. Ymddengys hefyd, oddi wrth yr hyn a ddywed Herodotus, bod yr hen Aiphtiaid yn defnyddio costrelau crwyn; a bod y gostrel yn cael ei ffurfio drwy wnïo y croen i fyny, gan adael y goes a'r troed i wneyd yn lle dwsel; ac am hyny rhoddid iddi yr enw ποδεών, neu beden. Weithiau, gwnïid y cwbl i fyny ond y gwddf, yr hwn a wasanaethai yn wddf i'r gostrel; y coesau hefyd oeddynt hylaw i grogi y gostrel i fyny, ac i'w rhwymo ar gefn dyn neu anifail pynoriog. Y mae hen gerfluniau yn profi fod yr Aiphtiaid yn defnyddio poteli crwyn o amryw ffurfiau. Dengys y darlun isod fab a merch, gyda chostrelau crwyn ar eu cefnau, yn perthyn i fintai o ymdeithwyr yn dyfod i'r Aipht.

Dar. 201.

Byddai y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hefyd yn defnyddio costrelau crwyn, yn benaf i ddal gwin. Darlunir anghreifftiau hynod o'r rhai oedd mewn arferiad yn mysg y Rhufeiniaid, yn Herculaneum a Phompeii, megys y dengys y cerfiad nesaf. Y mae yn ddiammheu bod costrelau crwyn yn cael eu defnyddio gan yr Hebreaid hefyd er yr oesoedd cyndadol; ond y crybwylliad cyntaf am danynt, nas gellir ei gamgymmeryd, a geir yn *Ios.* ix. 4, lle y dywedir am y Gibeoniaid,—"Hwy a wnaethant yn gyfrwys, ac a ymddangosant fel cenadon; cymmerasant hefyd hen sachlenau ar eu hasynod, a *hen gostrelau gwin, wedi eu hollti hefyd, ac wedi eu rhwymo.*" Ac hefyd yn *adn.* 13; "Y costrelau gwin a lanwasom yn newyddion, ac wele hwynt wedi *hollti* (*rent*);"= wedi *rhwygo*, yn ol y Seisoneg="*rupti sunt et soluti,*" wedi rhwygo a dattod, yn ol y Vulgate. Gan hyny, y mae yn amlwg mai costrelau crwyn oeddynt. Ac y mae yr hyn a ddywed ein Iachawdwr, fel hyn, yn ddigon hawdd ei ddeall (*Mat.* ix. 17; *Luc* v. 37, 38; *Marc* ii. 22); ond y mae peth anhawsder yn aros mewn perthynas i'r hyn a ddywed Elihu,—"Wele, fy mol sydd fel gwin nid agorid arno; y mae efe yn hollti fel costrelau newyddion;" *Iob* xxxii. 19. Gallai gwin newydd, yn ymweithio ac yn chwyddo, rwygo hyd yn oed gostrelau newyddion, heb eu profi, y rhoddid ef ynddynt; o blegid ni ddodai neb ef mewn rhai hen. Ond nid yr un gair a ddefnyddir yn y Vulgate; ond *laguncula*, yr hyn a arwydda "fflagenau," neu ceulestri a allant fod wedi eu gwneyd o ryw ddefnydd arall yn gystal a chroen. Prin y credai llawer y gallent fod o wydr yn yr oes

Dar 202.

fore hono; er bod gwydr heb ei dymmeru yn ddiarebol am dori yn yfflon pan dywelltir unrhyw wlybwr i lestr o'r fath. Camsyniad yw bod potelau yn mysg yr Israeliaid wedi cael eu gwneyd yn unig o groen.—[*Jones's Biblical Cycl.*, dan y gair hwn.] Yr oedd ceulestri addurnedig o faen, alabaster, gwydr, ifori, *porcelain*, elydr, arian, ac aur, &c., i'w cael yn mysg yr Aiphtiaid; a photeli pridd gan y bobl gyffredin. Mor fore a theyrnasiad Thothmes III.—yr hwn y tybir mai yr un oedd a'r Pharaoh a grybwyllir yn *Exodus*, c. c. 1490—gwyddys bod ceulestri lluniaidd a chywreinwych mewn arferiad, y rhai a ddangosant nad oedd y gelfyddyd ddim yn ei mabandod hyd yn oed yn yr oes hono.

Y mae llawer o'r ceulestri a'r costrelau a ddarganfyddwyd yn Thebes, a lleoedd ereill yn yr Aipht, yn wrthddrychau o syndod, ac yn profi medrusrwydd mawr yr Aiphtiaid yn ngweithiad a chymmysgiad metelau. Y mae rhai o bob ffurf a llun o honynt—rhai yn ddestlus, rhai yn ddiaddurn, a rhai yn ddigrifddull; rhai fel costrelau neu boteli gyda gyddfau hirion iawn;

Digitized by Google

rhai fel piseri, cawgiau, ystenau, a chwpanau, &c.

Dar. 203.

Wele yn canlyn ddarluniad o gryd potelau yn mysg yr hynafiaethau Aiphtaidd, yn amgueddfa Berlin; a thybir eu bod unwaith yn perthyn i feddyg, neu wisgfwrdd boneddiges Thebaidd.—[*Wilkinson*, ii. 217.]



Dar. 204.

Gan fod yfed gwin yn beth anghyfreithlawn yn mysg y Mahometiaid sydd yn awr mewn meddiant o Asia Orllewinol, ni cheir ynddi ond ychydig o olion potelau gwin o groen y cynoesoedd, oddigerth yn mysg Cristionogion Georgia, Armenia, a Libanus, lle y defnyddir hwynt hyd heddyw. Yn Georgia, ystorir gwin yn nghrwyn mawr ychain, a chludir, neu cedwir ef i'w ddefnyddio wrth law mewn crwyn bychain geifr neu fynnod. Ond defnyddir crwyn eto yn gyffredin yn Asia Orllewinol, i gario dwfr. Gwelir eu ffurf fwyaf cyffredin yn y darlun 201, yr hwn sydd hefyd yn dangos y modd y byddent yn cael eu cario gan wehynwyr dwfr.

Tybir yn gyffredin mai y ffurf symlaf o bob peth yw ei lun cyntefig, a'r mwyaf celfydd ei ffurf ddiweddaraf: ond nid fel hyn y mae yn bod bob amser, o blegid bod hyny yn ymddibynu yn fawr ar amgylchiadau a dybenion y defnyddiwr. A chan fod costrelau croen mor gyfaddas a hylaw i'w cludo ar anifeiliaid pynoriog, megys asynod, camelod, &c., defnyddiwyd hwynt am oesoedd wedi dyfeisio potelau gwydr, pridd, a defnyddiau ereill—ie, hyd heddyw, i deithio, &c., yn y dwyrain. Y mae yn wir fod natur ddarfodedig costrelau lledr neu groen, wedi gorfodi dynion i lunio rhai o ddefnyddiau mwy parhäus yn fore iawn, yn enwedig fel llestri tŷ; ac y mae yn rhesymol i ni feddwl, fod plant Israel, tra yn ymdaith yn yr Aipht, yn mysg celfyddydau ereill a welsant gan eu meistriaid, wedi dysgu gwaith crochenydd. Fel hyn, mor fore a dyddiau y Barnwyr, ymddengys eu bod yn meddu llestri (pridd y mae yn debyg) o wneuthuriad rhagorach; o blegid y mae y llestr o'r hwn y diododd Ioel y tywysog gelynol, Sisera—yr hwn (*pen.* iv. 19) a elwir yn *gynnog* yn y Beibl Cymraeg=*potel*, yn y Seisoneg=a *chostrel groen* yn y Vulgate,—yn cael ei alw, yn y bennod ganlynol (*adn.* 25), y "phiol ardderchog," yn y Cymraeg="dysgl arglwyddaidd," yn y Seisoneg=a "phiol dywysogaidd," yn y Vulgate. Yn *Esa.* xxx. 14, sonir yn bendant am gostrel crochenydd, yn ol y darlleniad ar ymyl y ddalen, yr hyn sydd gyfieithiad llythyrenol o'r Hebraeg; tra y dengys y dysgrifiad a rydd y prophwyd o'i drylliad nas gallasai fod o groen. Ac yn *Ier.* xix. 1, cyfieithir "ystên bridd y crochenydd," yn *botel bridd* yn y Seisoneg.

Mewn iaith ffugrol, gelwir cymylau gwlaw yn "gostrelau y nefoedd," yn ol y cyfieithiadau cyffredin; ond y mae i'r ysgrythyr hon ddarlleniad tra gwahanol yn y Vulgate,—"*Concentum cœli quis dormire faciet.*" Fel y cedwid meini gwerthfawr, gwddf-gadwyni, ac addurniadau ereill, mewn codau seliedig, neu olew per ac aroglon mewn costrelau bychain, felly cyfieithir *Salm* lvi. 8,—"Dod fy nagrau yn dy gostrel," &c.="o flaen dy lygaid,"="yn dy olwg," yn ol darlleniadau ereill.

Y mae pwysau y poteli gwydr a wneir yn flyneddol yn Lloegr, o bymtheg i ugain mil o dynelli.

COTWM, COTWN; Seis. *cotton;* Ffranc. *coton;* Arab. *kutn, qutn, kutun, kootn, cootoon:* math o wlan llysieuol, yn yr hwn y ceir had y gwahanol dylwythau o'r planigyn *gossypium* yn amwisgedig yn y callodyn.

Y mae y planigyn gwerthfawr a godidog hwn yn dilladu y rhan fwyaf o'r hil ddynol; ac am hyny y mae ei feithriniad a'i ddefnyddiad o bwys mawr mewn ystyr cymdeithasol, celfyddydol, a masnachol, fel yr ymdrechir i ddangos yn y sylwadau canlynol. Y mae llawer o ddadleuaeth wedi bod yn mysg dysgedigion wrth geisio penderfynu a oedd cotwm yn adnabyddus i'r Hebreaid neu yr Israeliaid gynt. Yn y lle cyntaf, saif y cwestiwn, ai cotwm a feddylir wrth y gair *shesh*, yr hwn sydd yn dygwydd ddeng waith ar ugain yn y testyn gwreiddiol, yn llyfrau Genesis ac Exodus, yn gystal ag yn y Diarebion, ac a gyfieithir yn "llian main" yn ein Beiblau ni. Drachefn, y mae *bad* yn dygwydd yn fynych o Exodus hyd Daniel, fel enw ar wisgwe a gyfieithir yn "llian." *Butz* neu *buz* hefyd a gyfieithir yn llian yn y ddau Groniel; ac yn Ezeciel, "lliain meinllin" (*Ezec.* xxvii. 16); ond yn llyfr Esther cyfieithir ef yn "sidan" yn y Beibl Cymraeg. Eto, yn y llyfr olaf cyfieithir *carpas* yn "wyrdd," neu "wyrddion."

Y mae y Deg a Thrigain yn cyfleithu *shesh*

Digitized by Google

drwy βυσσος gwreiddyn y Lladinair *byssus*, yr hwn a gyfieithir yn Gymraeg yn "llian main," fel y dywedwyd eisoes am *shesh*. Ar hyn y mae Rosenmüller yn gwneyd sylw fel hyn:—Y mae y cyfieithwyr Groegaidd Alexandriaidd yn cyfieithu y gair Hebraeg *shesh* drwy *byssus*, yr hwn sydd yn arwyddo cotwm Aiphtaidd, a'r gweoedd a wneir o hono. Yn ysgrifeniadau mwy diweddar yr Hen Destament, megys yn nau lyfr y Cronicl, *buz* a arferir yn gyffredin yn lle *shesh*, fel enw ar weoedd cotwm. Ond y mae yr un awdwr yn barnu mai gweoedd llin a feddylir wrth *bad*; tra y dywed Celsus nad ydyw y gair, yn ol barn rhai o'r gwyr mwyaf dysgedig, yn arwyddo yr hyn a elwid yn gyffredin yn lliain, ond lliain goreu a meinaf yr Aipht,—"*Non fuit igitur* בד (*bad*) *vulgare linum, ut arbitrati sunt viri quidam doctissimi; sed linum Ægypti optimum et subtilissimum.*" Yr un peth yn union ag a ddywed Abarbanel ar *Gen.* xxv, am *shesh*,—"*Ægyptacum, quod est pretiosissimum inter species lini.*" Prin y gellir meddwl mai yr hyn a wneid o gotwm oedd y gwerthfawroccaf a'r drutaf. Ond gall pris cymhariaethol cotwm a llin fod wedi cyfnewid yn nhreigl oesoedd. Hwyrach nad oedd *shesh* a *bad* ond gwahanol fathau o weoedd o'r un defnydd; ond pa un ai o lin neu o gotwm sydd eto yn bwnc o ddadl. Y mae Mr. Yates, yr ysgrifenydd diweddaf ar y cwestiwn, yn barnu, gyda Celsius, ac ereill, mai gweoedd llin a feddylir; tra y mae Forster, yn ei waith a elwir *De Bysso Antiquorum*, wedi boddloni llawer fod *shesh*, yn gystal a *byssus*, yn arwyddo cotwm. Ac o'r amser y deuwyd o hyd i gyrff eneiniedig (*mummies*) yn yr Aipht, wedi eu hamrwymo mewn gweoedd, cymmerodd llawer yn ganiataol fod yr hen Aiphtiaid yn gydnabyddus â defnyddiad cotwm. Felly, ceir Rocelle, Dr. Forster, a Dr. Solander, o'r farn mai gweoedd cotwm oedd yr amdoau hyn. Penderfynwyd y ddadl am dro gan J. Thomson, Ysw., o Clitheroe, yr hwn, wedi casglu llawer o samplau o'r cyfryw amdoau Aiphtaidd, a osododd Mr. Bauer ar y gorchwyl o'u hedrych a'u profi gyda ei chwyddwydrau rhagorol, a'i fedrusrwydd hynod yn eu defnyddio. Y canlyniad fu iddo gael allan mai lliain ac nid cotwm oedd pob sampl o honynt. Ac nis gellir ammheu cywirdeb yr ymchwil, o blegid fod gwahaniaeth hanfodol rhwng blewyn cotwm ac edefyn llin: mae y blaenaf, dan y gwydr, yn ymddangos yn biben lethedig, nyddog, dryloew, a digylymau; a'r olaf yn gorsen geugron, gymmalog, ddinyddiad, a choedaidd. Felly y mae Mr. Thompson yn dirwyn i fyny y ddadl fel hyn:—"Dywed Herodotus fod yr Aiphtiaid yn amdoi eu meirw mewn gweoedd o *byssus*. Gwelwyd, yn ddieithrad, fod pob esampl o'r cyfryw amdoau a drychwiliwyd hyd yma yn llian profedig. Yr ydym, gan hyny, yn ddyledus i ddrychwydr Mr. Bauer am sefydliad boddlonol y ffaith mai llinwe oedd *byssus* yr hynafiaid." Gallesid dysgwyl i hyn gloi y ddadl am byth; ond, wedi hyny, cafodd Rosselini hadau cotwm mewn beddrod henafol yn yr Aipht, a'r Dr. Bowring a brofodd mai gwe o gotwm oedd amdo plentyn eneiniedig. Felly, bernir yn awr fod rhai wedi tyfu i fyny yn cael eu hamdoi mewn llian; a phlant, neu rai dan oed, mewn cotwm. Ond nis gwyr neb pa ham y gwneid y gwahaniaeth hwn; er y tybia rhai ysgrifenwyr fod yn lled debyg iddo darddu oddi ar ryw syniad coelgrefyddol.

Ond y mae yn ymddangos yn bur debyg fod y gair Hebraeg, *buz*, o'r un gwreiddyn a'r βύσσος (*bussos*) Groegaidd, pa un bynag ai llin ai cotwm oedd. Nid oedd yr hynafiaid mor fanwl o lawer yn eu harferiad o eiriau ag yr ydym ni. Ac hwyrach, wedi y cwbl, fod *byssus* yn cael ei arfer am weoedd o wahanol ddefnyddiau, yn neilldiol rhai o lin a chotwm; yr un ffunud ag y mae y gair Seisoneg, *cloth*, yn cael ei arfer am weoedd o wlan, cotwm, a llin,—*woollen-cloth, cotton-cloth, linen-cloth.* Galwai y Groegiaid liain main yn ὀθόνη (*othonê*)—enw y tybia Celsus a Forster ei fod yn tarddu o hen air Aiphtaidd; ac yn amser Periplus, arferid yr enw ὀθόνιον (*othonion*) am weoedd yn dyfod o borthladdoedd India, y rhaid mai cotwm oeddynt. Drachefn, yr oedd yr enw σινδῶν (*sindôn*), yr hwn nid yw yn annhebyg i *sidan* Cymraeg o ran llythyreniad, yn cael ei ddeall gynt am liain; ond y mae yn awr, fel *othonê*, yn myned am weoedd cotwm. Gellir sylwi yma y dichon i law-weithiau o gyffelyb wneuthuriad gadw eu henwau dechreuol er newid eu defnydd. Ac y mae'n ddiau fod pawb yn credu mai llian oedd *byssus* yr hynafiaid cyn i Forster ddyweyd mai cotwm oedd. Y mae Yates o'r hen farn eto, er ei fod yn addef fod Philostratus yn arfer yr enw *byssus* am gotwm, a chais roddi rheswm am hyny drwy sylwi fel hyn,—"Heb law ei synwyr priodol a gwreiddiol, arferid y gair yn achlysurol fel λινον (*linon*=Seis., *linen*,=llian, lliain), *othonê*, *sindon*, *carbasus*, a llawer o enwau ereill, yn fwy penrhydd a chyffredin, am fathau ereill o weoedd." Ac y mae yn ystyried tystiolaeth Philostratus fel un o oesiad rhy ddiweddar (dim ond rhyw un cant ar bymtheg o flyneddoedd yn ol) i benderfynu ystyr gwreiddiol y gair. Ond y mae yn ddigon tebygol fod llawer awdwr hŷn na Philostratus yn arfer yr enwau dywededig yr un mor benrydd a diofal. Er hyny, y mae agos, os nad yn gwbl sicr, fod *carpas* yn llyfr Esther (*pen.* i. 6), yn golygu cotwm. Yn ein cyfieithiad ni, a'r Seisoneg, cyfieithir ef yn *wyrdd*; sef, "Lle yr oedd lleni gwynion, *gwyrddion*, a rhuddgochion;" hyny yw, "lleni *carpas* (=cotwm) gwynion a rhuddgochion." Dywedir bod *carpas* wedi cael ei gyfieithu yn "wyrdd" yn ein cyfieithiad ni ar awdurdod yr aralleiriad Caldeaidd, yr hwn sydd yn ei wneyd yn *las-cennin*. Y mae Rosenmüller yn olrhain *carpas* i wreiddair Arabaidd, sydd yn arwyddo "persli gerddi," fel pe byddai yn cyfeirio at liw gwyrdd y planigyn; gan haeru ar yr un pryd, gan fod *carpas* yn cael ei osod rhwng dau air sydd yn ddiammheu yn arwyddo lliwiau—gwyn a glasgoch—ei fod yn debyg fod *carpas* hefyd yn arwyddo *lliw*. Ond gan fod y ddau air ereill yn arwyddo lliw, byddai yn ddigon rhesymol i'r trydydd arwyddo y defnydd a liwid. Ac nid oes le i ammheu llawer yn nghylch yr hyn a feddylir wrth *carpas* yma, pan ystyriom mai am lys brenin Persia y sonir, pan oedd ei lywodraeth yn cyrhaedd hyd India. Y mae y gair Hebraeg *carpas* yn debyg iawn i'r Sanscrit *carpasum*, *carpasa*, *carpase*, yr hwn sydd yn arwyddocâu y planigyn cotwm. Dywed Celsus [*Hierob.* i. 159] fod yr Arabiaid a'r Persiaid yn arfer *carphas* a *cirbas* fel enwau ar gotwm. Diau fod yr enwau hyn yn deilliaw o'r Sanscrit. Defnyddir *carpas* yn awr drwy holl India am wlan cotwm, a chyfarfyddir â'r un enw yn mhrisiau y farchnad yn Lloegr. Dywed Arrian fod y goror o gylch agenfor Barygaze, yn India, yn cynnyrchu κάρπασος (*carpasos*), a *muslin* main yn cael ei wneyd o hono. Dywed Yates, yn y *Textrinum Antiquorum*, mai y crybwylliad boreuaf o'r enw dwyreiniol hwn a gyfarfu efe mewn un

Digitized by Google

awdwr clasurol ydyw yr un yn y llinell ganlynol o eiddo Cæcilius Statius:—

"*Carbasina molochina ampelina.*"

Bu y bardd hwn farw yn y flwyddyn 169 cyn genedigaeth Crist, a thybia Mr. Yates ei fod yn cyfieithu o'r Groeg, a bod hyn yn profi fod y Groegiaid yn gwisgo *muslin* neu *calico* o leiaf ddau cant o flynedd oedd cyn Crist. Rhaid ei fod yn adnabyddus i'r Persiaid yn hir cyn hyny. Yr oedd cotwm yn adnabyddus i Ctesias, yr hwn a fu fyw cyhyd yn llys Persia. Dywed ysgrifenydd yr erthygl ar *Karpas* yn *Kitto's Cyc.*, y gellir gweled lleni cotwm yr un ffunud a'r rhai a grybwyllir yn llyfr Esther yn awr yn llys Delhi.

Drachefn, y mae Arrian, yr hwn y meddylir mai Groegwr Aiphtaidd oedd, a'i fod yn byw yn y canrif cyntaf neu yr ail o'r cyfnod Cristionogol, a'r hwn oedd yn farsiandwr a mordwywr, yn "Periplus y Môr Erythræaidd," yn rhoddi hanes am lawer o'r nwyddau masnachol a geid mewn amryw borthladdoedd; ac yn eu plith y mae yn gwneyd crybwylliadau mynych am gotwm. Sonia am weoedd cotwm o amryw fathau yn mysg y mudiadau o India a Barbarike. Dywed fod Syrastrene neu Cutch yn cynnyrchu cotwm at ddefnyddiad cyffredin. Sonia am Σινδόνες Ἰνδικαι = *muslin* main o Ozene, neu Ougein: Σινδόνες Μολοχιναι=*muslin* melyn, neu o liw melonau: Ἰκανὸν χυδαῖον ὀθόνιον=llawer o gotymau cyffredin o Barygaza; hyny yw, Baroach: ac ὀθόνιον παντοῖον=pob math o gotymau [*Vincent*, ii. td. 407]. Y mae y gair *carpasos* neu *carpasus* yn dygwydd hefyd yn y *Periplus*, ac yn yr "Esboniad ar y gyfraith Rufeinig" (*Digest of the Roman Law*), ac yn cael ei gyfieithu *fine muslins* gan y Dr. Vincent. Ac nid oes ammheuaeth nad oeddynt yn cael eu gwneyd y pryd hyny yn yr India fel y maent yn awr. Y mae Pliny yn crybwyll cotwm yn aml. Mewn un lle, dywed fod trigolion Tylos yn galw coed cotwm yn *gossypini*; mewn lle arall, rhydd yr enw Indiaidd,—"*Ibi primum carbasis repertis.*" Yn y trydydd lle, dysgrifia gotwm megys yn tyfu yn gynhenid yn yr Aipht, lle y gelwid ef *gossypion*. Meddylir mai ar ol rhyfelgyrch Alexander y daeth y Groegiaid yn adnabyddus â chotwm fel planigyn. Adroddai ei forlywydd, Nearchus, fod coed yn India yn dwyn sypiau o wlan, a bod y trigolion yn gwneyd eu dilladau o hono. Dywed Quintus Curtius am yr Indiaid eu bod yn amwisgo eu cyrff hyd eu traed mewn *carbasus*=cotwm. A dywed Theophrastus, dysgybl Aristotle, "Y mae i'r coed, o ba rai y gwna yr Indiaid weoedd, ddeilen debyg i un y morwydd duon; ond y mae y planigyn cyfan yn tebygu i'r rhosyn gwyllt. Planant hwynt yn rhesi, fel yr ymddangosant o bell yn debyg i winwydd. Mewn man arall o'r un llyfr, y mae yn dysgrifio ynys Tylos, "Y mae llawer o'r coed a ddygant wlan yn tyfu," medd efe, "yn yr ynys hon, ac y mae iddynt ddeilen debyg i un y winwydden, ond ei bod yn llai: nid ydynt yn dwyn dim ffrwyth, ond y callod sydd yn cynnwys y gwlan, &c; y rhai, pan yn addfed, a ymagorant i ollwng y gwlan allan, yr hwn a weithir yn ddilladau rhad neu ddrudfawr. Ond Herodotus sydd yn gwneyd y crybwylliad boreuaf am gotwm India, a dywed fod coed gwylltion y wlad hono yn dwyn cnuau o wlan rhagorach na rhai defaid, a bod yr Indiaid yn gwneyd gweoedd o hono. Dywedir fod y llurig a anfonwyd gan Amasis, brenin yr Aipht, i Sparta, "wedi ei haddurno âg aur a chnuau goludog coed." Y mae yr Indiaid eto yn gwneyd cobau dyblyg cyffelyb, wedi eu *padio* â chotwm, fel na thrywana cleddyf drwyddynt yn aml. Dywed Servius, ar dystiolaeth Varro, am Ctesias, yr hwn oedd gydoeswr â Herodotus, ac a dreuliodd lawer o'i oes yn llys Persia, ei fod yn crybwyll am "goed yn India y rhai a ddygant wlan." Yr oedd Ctesias yn oesi tua phedwar can mlynedd cyn Crist, ac o fewn tua chan mlynedd i amser Esther; felly nid oes le i ammheu nad yw yn beth dichonadwy—yn beth tebygol, os nad yn gwbl sicr ac anwrthbrofadwy—mai cotwm oedd y *carpasus* yn *Esther* i. 6.

Dar. 205.

Mae llawer iawn o fathau o blanigion cotwm: ond y mae y rhywogaethau eto mewn cyflwr annosbarthus, am fod llysieuwyr yn gyffredin wedi esgeuluso y pwnc hwn, heb gymmaint ag enwi y rhai meithrinedig; tra y mae y planwyr wedi mabwysiadu enwau lleol, neu rai o'u dyfais eu hunain, heb dalu unrhyw sylw i'r enwau a geir arnynt mewn traethodau ar lysieuaeth. Fel hyn, y mae yn annichonadwy dywedyd at ba rywogaethau y mae sylwadau llawer o awdwyr yn cyfeirio. Y mae yr enwog De Candolle yn cydnabod tair rhywogaeth ar ddeg; dysgrifir dwy chwaneg gan y Dr. Roxburgh, un arall gan Raeusch, ac un arall yn y *Flore de Sénégambie*. Y mae y Dr. Von Rohr yn dysgrifio naw ar ugain o rywogaethau, neu fathau; Mr. Badier, ddeunaw; a Mr. Bennet yn crybwyll ei fod ef yn adnabod dros gant o fathau, a'u bod yn ymddangos iddo ef yn ddiddiwedd. Y mae Mr. Royle yn gosod i lawr y rhywogaethau yn wyth, mor bell ag y gallai efe eu gwahaniaethu. Mor gyfyng ac anmherffaith yw gwybodaeth lysieuol arolygwyr planfeydd trefedigaethol! Gallesid dysgwyl iddynt fod wedi gwneyd y genedledd (*genus*) bwysig hon o blanigion yn destyn arbenig eu hefrydiaeth, gan na wyddys pa faint o elw chwanegol a allai triniad llwyddiannus rhywogaethau neillduol ac anmhrofedig ei ddwyn iddynt.

Ceir planigion cotwm yn tyfu yn wyllt yn yr hen fyd a'r newydd. Y mae Herodotus, ac Arrian, yn son am y planigyn cotwm fel yn gynhenid yn India. Ond y mae planigion cotwm

Digitized by Google

gwyllt America yn wahanol iawn i rai yr hen fyd; a dywedir mai cotwm cynhenid y gorllewin a drinir yn awr yn Asia ac Affrica, tra y mae cotwm y dwyrain wedi cael ei hen drosglwyddo i America. Y mae yn India ddwy rywogaeth wahanol,—1. *Gossypium Herbaceum*, neu lysieuyn cotwm; o'r hwn y mae amryw fathau, —rhai o honynt wedi ymwasgaru i'r gogledd, i ddeheubarth Ewrop, ac i Affrica. 2. *Gossypium arboreum*, neu y pren cotwm; yr hwn na feithrinir ond ychydig arno, o herwydd mai ychydig a gynnyrcha; ond y mae yr hyn a ddwg o fath rhagorol. Y mae math arall a elwir *Bombyx heptaphyllum*, neu y pren cotwm sidan, cotwm yr hwn ni thâl i'w nyddu. Yn gyffredin, y mae yn dwyn blodau mawr o liw euraidd; ond blodau gwynion sydd i'r hwn a elwir *gossypium religiosum Tranquebar*; a chotwm gwyn Rhufain, yr hwn sydd i'w weled yn tyfu yn *Jardin des Plantes* (neu Ardd y Planigion), yn Paris. Planigion dringol ac ymlusgol yw rhai o honynt. Gwelsom y pren cotwm wedi tyfu i gryn faintioli, yn cynnyrchu "gwlan," yn yr awyr agored yn Nghymru. Y gororau lle y tyfir cotwm yn fwyaf manteisiol ydynt, rhwng yr Aipht a Phenryn Gobaith Da, ar yr ochr ddwyreiniol i'r ddaiar, a rhwng glanau deheuol cilfor Chesapeak a deheubarth Brazils, ar yr hannergylch gorllewinol. Nid yw yn llwyddo yn dda yn mhellach i'r de neu y gogledd. Yn America drofanol, cafodd Humboldt ef yn tyfu ar yr uchder o naw mil o droedfeddi uwch law y môr; a phum mil a hanner o droedfeddi yn Mexico; a gwelodd y proffeswr Royle ef ar yr uchder o bedair mil o droedfeddi, ar arffed mynyddoedd yr Himalaya. Ymddengys ei fod yn dygymmod oreu â glan y môr mewn gwledydd sychion, a rhanau canoldirol o fröydd lleithion; fel hyn, tra y ceir y cotwm goreu yn India o arfordir Coromandel, ac ardaloedd ereill ar lanau y môr, ac yn nhaleithiau deheuol yr Undeb Americanaidd, o ynysoedd gororol neillduol, y mae cotwm Pernambuco yn waelach na'r hwn a gynnyrchir yn nghanol y wlad hono. Fel hyn, gellir casglu, mai nid tymmerusrwydd sydd yn effeithio yn unig ar natur cotwm, ond cydgyfarfyddiad neillduol o wres, goleuni, a lleithdra; a'r lleoedd mwyaf ffafriol iddo yw goror Georgia a dwy dalaeth Carolina; a'r gwaethaf yw Java, ac arfordir Brazils. Byddai hyn yn beth tebygol, yn niffyg tystiolaeth bendant, wrth ystyried natur cotwm; o blegid mai blew ydyw, sydd yn tyfu ar groen yr hâd, ac nad oes dim yn natur planigion ag y mae y lle y byddont yn byw yn effeithio cymmaint arnynt a'u blewiad; fel hyn, nid oes gan blanigion a dyfant mewn dwfr ddim blew o'r bron; tra wedi symmud yr un rhywogaethau i le sych ac agored, ceir hwynt wedi eu gorchuddio â blew; ac i'r gwrthwyneb pan symmudir rhai i leoedd gwlybion. Y mae amgylchiadau lleol hefyd yn effeithio yn fawr ar eu blewiad. Mewn hinsoddau llaith a chymylog, y mae y planigyn yn deilio gormod, heb flodeuo ond ychydig, neu y mae yn methu cael maeth sylweddol o'r ddaiar; ac mewn lleoedd rhy sychion, y mae y ddaiar yn analluog i roddi i'r planigion ddigon o luniaeth i ffurfio mwy o gotwm nag a gynnyrchai drwy rym anian dan unrhyw amgylchiadau. Ac yn olaf, gall fod cyflwr yn yr hwn y gelwir galluoedd natur i'w gweithredjad eithaf gan gynhesrwydd a digonedd o ymborth; a lle y mae sychder a heulogrwydd yr hinsawdd yn attal y planigyn rhag gordyfu, a pheri iddo ddwyn rhagor, a math gwell o gotwm. Ond y mae amryw fathau o'r planigyn ei hun, fel y gwelsom,—rhai gyda chotwm byr, ac ereill yn dwyn peth hir—rhai peth gwyn, ac ereill peth melyn-wyn—rhai y gellir eu tyfu yn fanteisiol mewn gwledydd nad yw y gauaf yn erwin iawn, a math arall yn gofyn hinsawdd drofanol. Fel hyn y mae gyda y rhan fwyaf o blanigion triniedig ereill. Y mae yn amlwg fod swm y cotwm a gynnyrchir yn dibynu ar yr hinsawdd, ac mewn rhan ar rywogaeth y planigyn.

Meithrinir cotwm y dwyrain yn benaf yn India Ganol, o ba le y cludir ef i Broach, a chyffelyb fanau gororol, i'w fudo i wledydd ereill. Tyfir llawer hefyd mewn amryw barthau o benllywyddiaeth Bombay, ac hefyd yn Madras. Treulir yr hyn a gynnyrchir yn Bengal agos yn gwbl gartref at wasanaeth poblogaeth ddirifedi, oll yn gwisgo dim bron ond cotwm. Y cotwm a ddaw o America a geir o ddwy rywogaeth o'r planigyn hwn: — 1. *Gossypium Barbadensis*,—oddi ar wahanol fathau o'r hwn y ceir cotwm y Sea Island, Upland, Georgia, a New Orleans. 2. *Gossypium Peruvianum*, — yr hwn sydd yn dwyn cotwm Brazils, Pernambuco, a mathau ereill o gotwm America Ddeheuol. Dywed y Dr. Kitto, fod y planigion hyn yn frodorion cynhenid o America; ond yn ol barn ereill, nid ydynt ond hen sefydlyddion wedi dyfod ar y cyntaf o'r dwyrain. Mewn masnachaeth, adnabyddir y gwahanol fathau o gotwm wrth enwau y gwledydd penodol a'u cynnyrchant, oddigerth dau fath. Y *Sea Island cotton*, neu gotwm ynysoedd y môr, ydyw y meinaf a'r uchaf ei bris yn y farchnad. Rhoddir iddo yr enw hwn, o blegid iddo gael ei drin gyntaf yn yr ynysoedd isel tywodlyd, ar ororau yr Unol Daleithiau Americanaidd, o Charleston i Savannah. Nid yw yn tyfu yn dda pan symmudir ef yn mhell i'r tir, oddi wrth effaith iachusol lluwch heli; nac yn llwyddo ond yn South Carolina, Georgia, a Florida. Y mae ei wlan yn hwy ac yn fwy sidanaidd nag un math arall, ac o hono y nyddir yr edafedd meinaf. Weithiau rhoddir cymmaint a thri, pedwar, a phum swllt y pwys (bach) am samplau meinwych campus o hono, gan wehyddion, i'r gwaith goreu; pryd na roddir ond o bum ceiniog i swllt y pwys am unrhyw fath arall. Y mae ei had yn ddu; ac mewn rhai manau yn America, gelwir ef "cotwm had du." Gelwir ef yn gyffredin, "cotwm hir" (ei linon), neu "*long-staple cotton*" (oddi wrth *staple*—hen air Seisoneg, yn arwyddo *marchnad*), i'w wahaniaethu oddi wrth y byr—*short-staple*—sydd yn dyfod o ganol y wlad. Heuir cotwm ynysoedd y môr bob blwyddyn; ond tu fewn i'r trofanau, y mae y planigyn yn byw, a'i wlan yn cael ei gynauafu dros amryw flynedd-oedd. Tybia rhai mai o Persia y daeth gyntaf. Dygwyd ef i ynysoedd Bahama o Anguilla; ac wedi hyny, yn 1786, i Georgia. Dywedir nad yw y cynnyrch blyneddol dros un miliwn ar ddeg o bwysau. 2. *Upland cotton*—cotwm ucheldir—yr hwn a elwir felly i'w wahaniaethu oddi wrth yr hyn sydd yn tyfu ar lanau isel y môr. Gelwir ef weithiau *Bowed Georgia cotton*=cotwm bwa. Arferir y gair "*bowed*" oddi wrth y dull y ceir yr had yn rhydd oddi wrth y gwlan; sef trwy ddwyn y cotwm "budr," neu yn hytrach *hadog*, o dan resi o linynau cyssylltiedig â bwäau, a thynu yn, neu daraw y llinynau fel ag i beri ymgryniadau ysgydwol a ryddhant y cydynau, ac a barant i'r had syrthio ar lawr neu i'r gwaelod, fel pe byddid yn ei ddyrnu.

Digitized by Google

Ni a roddwn bellach hanes meithriniad a defnyddiad cotwm mewn amseroedd diweddar. Dywedir fod y planigyn yn cael ei feithrin fel prysgwydden addurnol mewn gerddi yn China, er ys oesoedd, ond na wneid gweoedd o'i wlan hyd y trydydd canrif ar ddeg o'r cyfnod Cristionogol. Ond pan ddechreuwyd ei law-weithio, bu i'w radlonrwydd, mewn cymhariaeth i wlan defaid a sidan, ei ddwyn yn fuan i ddefnyddiad cyffredinol, er mor hwyrfrydig yw y genedl hono i ymadael â'i hen arferion. Tri chan mlynedd cyn hyn, tyfid cotwm yn Yspaen dan yr enw *algodon*; a gwneid ei gynnyrch yn ddilladau. Y pryd hyny, yr oedd gweoedd cotwm Seville, Cordova, a Granada, wedi cyrhaedd cryn enwogrwydd. Meithrinid cotwm hefyd yn ynysoedd Sicily, y rhai oedd y pryd hyny yn meddiant y Saraceniaid. Yn Mexico, hefyd, yr oedd y brodorion yn gwisgo dilladau cotwm pan orchfygodd yr Yspaeniaid y wlad hono.

Nid oes genym grybwylliad pendant am law-weithiau cotwm yn Lloegr, hyd ganol yr eilfed canrif ar bymtheg, er fod Mr. Baines wedi dangos fod gwlan cotwm yn cael ei ddwyn o'r Levant, a'i ddefnyddio mewn gweoedd ryw faint boreuach. Lewis Roberts, yn ei waith a elwir *Treasure of Traffic*, cyhoeddedig yn 1641, sydd yn son gyntaf am nyddu a gwau cotwm yn y wlad hon; ond yn y fath fodd ag a ddengys fod y gelfyddyd wedi cyrhaedd cryn berffeithrwydd y pryd hwnw. "Y mae tref Manceinion" (*Manchester*), medd efe, "yn prynu gwlan cotwm o Lundain [nid o Lerpwl], yr hyn sydd yn dyfod o Cyprus a Smyrna, ac yn gweithio yr unrhyw yn *fustians, vermillians*, a *dimities*." Ond ni ddefnyddid cotwm, y pryd hwn, ond yn gymmysg â llin, neu yn hytrach wedi ei groes-wau gydag edafedd llin, fel y cawn ddangos isod. Gwaith llaw oedd y cwbl—cribo, nyddu, a gwau; a dygid yr holl orchwyliaeth yn mlaen gan fythynwyr gartref,—y plant yn cribo, y gwragedd yn nyddu, a'r gwŷr yn gwau; a chludent eu gweoedd o farchnad i farchnad i'w gwerthu: ond tua'r flwyddyn 1760, dechreuodd rhai o brif fasnachwyr Manchester roddi gorchwyl i deuluoedd diwyd cyffelyb na feddent arian i drin gwehyddiaeth yn llwyddiannus eu hunain. Trigent, y pryd hyny, mewn tai bychain ar gwr y wlad, ac yn y pentrefi oddi amgylch; a dyma y cyfnod dedwyddaf yn hanes gweithiad cotwm. Tua'r un amser, dyfeisiodd gwehydd anllythyrenog, o'r enw James Hargreaves, beiriant newydd i gribo cotwm:—un newydd, meddwn, o blegid profa Mr. Baines mai un Lewis Paul—dyn o wlad dramor, ond yn byw yn Birmingham—yn 1738, a ddyfeisiodd beiriant tebyg gyntaf; a'r hwn, tua'r flwyddyn 1760, a ddefnyddid gan Mr. Morris, o Wigan. Yn 1767, dyfeisiodd Hargreaves y *spinning-jenny*, neu droell gydag wyth gwerthyd; yr hon, wedi hyny, a wellhawyd, ac a wnaed i droi deugain neu bedwar ugain o werthydau. Hyn a barodd gyffro a therfysg yn yr ardaloedd hyny, a chododd y lluoedd a daflesid allan o waith trwy ddyfeisiad y peiriant uchod, ac ymdeithiasant yn finteioedd mawrion drwy y wlad, gan dori i mewn i bob gweithdŷ, a dryllio pob "*jenny*," a "chythraul," a gaent yn cribo cotwm. Ond ychydig o lwydd a ddilynodd y rhyfelgyrch hwn yn erbyn gallu peiriannau, er nad oedd eto wedi ei gyssylltu a nerth agerdd. O'r flwyddyn 1767 hyd 1769, bu Richard Arkwright yn dyfeisio peiriant i nyddu â throllynau neu rolbrenau, yr hwn a alwyd y "felin nyddu;" am yr hwn y cafodd fraint-lythyrau (*patents*) yr un flwyddyn, a breinlen arall am ddyfeisiadau a gwelliadau pellach, yn 1775. Nid oedd ei amcan gymmaint, yn y dyfeisiadau hyn, i leihau llafur dynol, ag i nyddu yn feinach, gwastatach, a chryfach nag o'r blaen. Yn wir, gellir ystyried Arkwright fel tad y gangen hon o weithyddiaeth, o blegid efe oedd y cyntaf erioed, yn y wlad hon, a wnaeth weoedd yn gwbl o gotwm. Nid oedd yntau ond dyn o ddechreuad dinôd; sef barfwr neu eilliwr tlawd, diddysg, a gwneuthurwr berwigau, yn nghychwyniad ei oes; ond trwy athrylith gelfyddydol fawr, casglodd yn y diwedd gyfoeth tywysog, gyda theitl marchog, a dringodd i'r gris uchaf yn mysg "arglwyddi cotwm" Lloegr. Nid oedd, fel y sylwyd eisoes, cyn ei ddyddiau ef ddim gweoedd yn cael eu gwneyd o gotwm yn unig, yn y wlad hon; ac i'r dygwyddiadau hynod isod y priodolir dechreuad y gangen fawr hono o law-weithyddiaeth. Yr oedd Arkwright, y pryd hyny, yn meddu, fel y dywedwyd uchod, fraint-lythyrau am ddyfais i nyddu cotwm yn weil na neb a fuasai o'i flaen. Ennynodd hyn genfigen yr holl fyd cotymaidd yn ei erbyn; ac wedi hir ymgyfreithio, llwyddodd ei elynion i gael gan y senedd ddiddymu ei freinlen! Ac i'r dyben o'i lwyr ddinystrio, ffurfiodd holl wehyddion penaf Lloegr fath o fradwriaeth neu gynghrair i beidio prynu na gwau byth gengl o'i edafedd. Ar yr un pryd, yr oedd ganddo ef, a'r rhai oeddynt gyfranogion ag ef, swm mawr ar law; a gorfodwyd hwynt i geisio ei wau yn ddigymmysg, ar anturiaeth, rhag cael eu hollol handwyo. Dyma y gweoedd o gotwm oll cyntaf erioed a wnaed yn Lloegr; ac o herwydd eu bod mor ryfeddol o rad, mewn cymhariaeth i'r hyn a wnaed o'r blaen, bu gwerthiant mor fawr a chynnyddol arnynt, fel y casglodd Arkwright a'i gyd-gyfranogion olud mawr, megys heb ei ddysgwyl. Felly troes yr hyn a darddodd oddi ar genfigen yn y diwedd yn ennill iddynt.

Gelwid yr edafedd a nyddid gan Arkwright yn *gyfrodedd dwfr* (*water-twist*), am mai dwfr oedd yn troi ei beirianwaith. Ni wneid dim o hono yn feinach na phedwar ugain cenglyn o bwys; a phob cenglyn yn mesur 840 llath. Felly nid oedd yn gyfaddas i wneyd *muslin*. Tua'r fl. 1786, dyfeisiodd Samuel Crompton droell newydd a elwir y *mul*, am ei bod yn cyssylltu pethau neilldiol y ddau beiriant blaenorol; ac y mae *mul* Crompton yn nyddu yn feinach o'r hanner na *jenny* Hargreaves, na *melin* Arkwright. Nyddir â'r peiriant hwn ddau cant o genglau o bwys o gotwm; weithian gymmaint a thri chant a hanner o genglau, neu edefyn 167 milltir o hyd; ac y mae ambell *ful* yn cynnwys o fil i ddeuddeg cant o werthydau; ac felly mae un dyn yn alluog i nyddu edefyn dros dair mil o filltiroedd o hyd mewn wythnos! Dr. Cartwright, yn 1785, oedd y cyntaf a geisiodd wau gyda pheiriant; a chafodd rodd o 10,000*p.*, gyda braint-lythyrau, am y ddyfais; yr hon a wellhawyd yn fawr o'r amser hwnw hyd heddyw. Nis gallwn, o fewn cylch yr erthygl hon, roddi i'r darllenydd un dychymyg bron o nerth a chywreinrwydd rhyfeddol y peirianwaith a gedwir ar ysgogiad yn melinau cotwm mawrion Lloegr. Gallwn ddyweyd fod holl egni ac eithaf gallu athrylith gelfyddydol y genedl wedi cael eu galw i weithrediad, ac wedi cynnyrchu y gorchestion mwyaf rhyfeddol yn nglŷn a hyn. Nid yn anfynych y bydd peiriant agerdd, o nerth ugeiniau neu

Digitized by Google

amryw gannoedd o geffylau, yn cael llawn waith i droi hanner can mil o werthydau; a gyru, efallai, bum cant o wyddion (*looms*), heb law yr holl beiriannau i gribo, chwalu, a gwyntyllu, neu i chwythu cotwm.

Yn ol adroddiad ymholwyr y llywodraeth, yn y flwyddyn 1835, yr oedd 1,262 o felinau cotwm ar waith yn y Deyrnas Gyfunol, yn rhoddi gorchwyl rheolaidd i 100,495 o feibion, ac 119,639 o ferched—y cyfanrif yn 220,134 o bersonau; a chyfrifid fod dros ddau cant a hanner o filoedd o wehyddion, &c. yn gweithio gartref yn eu tai eu hunain, gan nad ellid gwneyd y gweoedd meinaf gyda pheirianwaith. Cyfrifai M'Culloch, yn y flwyddyn 1836, fod 240,000,000 pwys o gotwm yn cael ei nyddu a'i wau yn flyneddol yn Mhrydain Fawr; yr hyn, yn ol 7*c.* y pwys, a fyddai yn werth 7,000,000*p.*; fod 800,000 o wehyddion, nyddwyr, a chànwyr ar waith, yn derbyn 18,000,000*p.* o gyflog; a 100,000 o wneuthurwyr a gyrwyr peiriannau, gofaint, seiri coed a phriddfeini, ar orchwyl, a chyfanswm eu cyflogau yn 3,000,000*p.* O wyth hyd ddeuddeng mlwydd oed, y mae genethod yn ennill mwy na'r bechgyn; er nad yw merched wedi tyfu i fyny yn cael hanner cymmaint o gyflog a meibion. Ond y mae yn sicr fod y cyfrif uchod yn llawer iawn llai nag y dylasai fod; o blegid, yn ystod y flwyddyn 1835, treuliwyd 333,043,464 pwys o gotwm yn y deyrnas, ac nis gallasai ei werth fod yn llai na 12,000,000*p.*; ac yn 1836, bernir i werth 15,031,250*p.* o wlan cotwm gael ei brynu; ac i werth 27,000,000*p.* gael ei law-weithio. Gwyddir hefyd fod gwerth y nwyddau cotwm gweithiedig, yn 1835, dros 38,000,000*p.*; ac yn 1836, tua 45,000,000*p.* Bernid fod 1,500,000 o bersonau yn cael eu cynnaliaeth oddi wrth gotwm. Nid oes un gangen o fasnach wedi cynnyddu mor brysur a rhyfeddol. Yn y fl. 1697, nid oedd cyfanswm yr holl gludiadau o gotwm i'r wlad hon ond 1,976,359 pwys; ac yn 1730, yr oedd wedi lleihau i 1,545,742. Yn wir, nid oedd dim cynnydd ar y fasnach hyd oni ddechreuwyd dyfeisio peirianwaith. Dengys y cyfrifon isod gynnydd mawr wedi hyny:—

CLUDIADAU COTWM I'R WLAD HON.

Blyneddoedd.	Cludiadau.
1730	1,545,472 pwys.
1751	2,976,610 „
1764	3,870,392 „
1771	4,764,589 „
1780	6,766,613 „
1790	31,447,605 „
1801	54,203,433 „
1815 hyd 1819 ...	118,267,611 „
1820 „ 1824	152,201,824 „
1825 „ 1829 ...	205,665,011 „
1830 „ 1834	280,918,826 „
1835	363,702,963 „
1886 ac 1887 ...	1,510,694,000 „

Yn 1886 ac 1887, dygid mwy na thair rhan o bedair o'r cyfan o'r Unol Dalaethau, fel yr ymddengys isod, mewn pynau 400 pwys yr un:—

Cludiadau o'r Aipht, a phorthladdoedd Mór y Canoldir	435,590 pwn.
Cludiadau o'r India Ddwyreiniol	601,710 „
Cludiadau o'r India Orllewinol	660 „
„ o'r Brazils	126,040 „
„ o'r Unol Dalaethau ...	3,186,790 „
„ o leoedd eraill ...	32,310 „
Cyfanswm	4,393,100 pwn.

Hyd 1800, ychydig anfonwyd o'r Talaethau; ond wedi hyny, cynnyddodd masnach y nwydd hwn bob blwyddyn, fel y canlyn:—

ALLFORION O GOTWM O'R UNOL DALAETHAU.

Y nifer o bynau yn cynnwys 400 pwys yr un:—

1800	50,000 pwn.
1820	320,000 „
1840	1,653,000 „
1860	4,419,000 „
1870	2,016,000 „
1880	4,550,000 „
1887	5,150,000 „

Yn y cyfamser, cynnyddodd treuliad cotwm yn fawr yn y deyrnas hon, fel y gwelir isod. Cyfrifir yma y pynau o 400 pwys yr un a dderbyniwyd i Brydain:—

1786—1790	63,600 pwn.
1816—1820	351,580 „
1846—1850	1,587,320 „
1876—1880	3,630,770 „
1886 ac 1887	4,383,100 „

Y mae y cynnydd mawr a fu rhwng 1785 ac 1820 i'w briodoli yn gwbl i ddyfeisiadau celfyddydol Hargreaves, Arkwright, Crompton, ac eraill. Am y cynnydd a gymmerodd le rhwng y fl. 1820 ac 1840, achoswyd ef gan y peiriant a elwir y 'mûl hunan-weithidol' (*self-acting mule*). Ond y mae y cynnydd mwy a gymmerodd le rhwng y fl. 1840 ac 1860, ac yn ddiweddarach, i'w briodoli i'r gwŷdd a weithir gan ager neu ddwfr, a elwir gan y Saeson *power-loom;* ac hefyd, i raddau pell, trwy fod porthladdoedd China wedi eu taflu yn agored i fasnach.

Yn y daflen ganlynol, fe welir yn lled gywir swm y cotwm y bernid ei fod yn cael ei dyfu trwy yr holl fyd yn y fl. 1887 yn unig, yn ol yr hanesion cywiraf. Cyfrif ydyw yr hyn a ganlyn o'r nifer o bynau o 400 pwys bob un:—

CYNNYRCH COTWM Y BYD YN 1887.

Yr Unol Dalaethau	7,425,000 pwn.
America Ddeheuol, a'r India Orllewinol, &c.	430,000 „
India Ddwyreiniol	2,500,000 „
China	1,500,000 „
Japan, &c.	150,000 „
Twrci a Phersia	120,000 „
Rwssia Asiaidd	100,000 „
Yr Aipht	713,000 „
Affrica (heb yr Aipht)	375,000 „
Itali a Groeg	10,000 „
Awstralia, Fiji, &c....	2,000 „
Cyfanswm y byd ...	13,305,000 „

Cymmerodd y cynnydd yn swm y cotwm a ddefnyddiwyd ar y Cyfandir le rhwng y fl. 1811 ac 1821, ar ol yr heddwch a wnaed yno yn 1815 ar ol brwydr Waterloo. Nid ydoedd hyny a ddefnyddid yn Ffrainge yn 1816 ond 65,000 o bynau yn pwyso 400 pwys bob un. Cadwodd Ffrainge ar y blaen hyd ryfel 1870. Ar ol hyny, cafodd Rwssia a Germany y blaen arni. Dengys y tabl canlynol y cynnydd a wnaed gan wledydd y Cyfandir er y fl. 1830 mewn pynau o 400 pwys bob un:—

	1830.	1860.	1886.
Rwssia	10,000 ...	218,000 ...	660,000
Sweden	2,000 ...	40,000 ...	70,000
Germany	40,000 ...	350,000 ...	890,000
Awstria	50,000 ...	235,000 ...	460,000
Switzerland	22,000 ...	76,000 ...	150,000
Holland	5,000 ...	16,000 ...	60,000
Belgium	20,000 ...	72,000 ...	130,000
Ffrainge	170,000 ...	565,000 ...	600,000
Yspaen	15,000 ...	150,000 ...	275,000
Itali	10,000 ...	65,000 ...	260,000
	344,000 ...	1,767,000 ...	3,535,000

Digitized by Google

Cynnyrch blynyddol China o gotwm ydyw tua 1,500,000 o bŷnau yn pwyso 400 pwys yr un. Ond defnyddir y cyfan o fewn yr ymherodraeth ei hun, gyda tua 100,000 o bŷnau a dderbynia o India. Tyfir yn Japan tua 100,000 o bŷnau, o ba rai nid oes ond ychydig yn cael eu hallforio. Y mae yn Japan tua 200,000 o werthydau (*spindles*) ar waith; o ba rai y rhoddwyd 120,000 i fyny yn y fl. 1888.

Ni a roddwn yma y swm o gotwm a ddygwyd i'r Deyrnas Gyfunol yn y blynyddoedd canlynol:—

	Pwys.		Pwys.
1697 ...	1,976,359	1866 ...	1,377,514,096
1710 ...	715,008	1868 ...	1,328,761,616
1730 ...	1,545,472	1870 ...	1,339,367,120
1765 ...	3,870,392	1872 ...	1,408,837,472
1782 ...	11,828,039	1874 ...	1,566,864,432
1790 ...	31,500,000	1875 ...	1,492,351,168
1800 ...	56,000,000	1876 ...	1,487,858,848
1810 ...	132,500 000	1877 ...	1,355,281,200
1820 ...	151,500,000	1879 ...	1,469,358,464
1830 ...	264,000,000	1881 ...	1,679,068,384
1840 ...	592,500,000	1883 ...	1,734,333,552
1860 ...	1,390,938,752	1885 ...	1,425,816,336
1861 ...	1,256,984,736	1887 ...	1,791,437,312
1862 ...	523,973,296	1888 ...	1,731,755,088
1863 ...	670,084,128	1889 ...	1,937,462,240
1864 ...	894,102,384	1890 ...	1,793,495,200
1865 ...	978,502,000		

Yn nesaf, ni a roddwn werth pob defnyddiau cotwm, edafedd, &c., a anfonwyd o'r Deyrnas Gyfunol yn y blynyddoedd canlynol:—

1697 ...	*P*.5,915	1874 ...	*P* 73,247,625
1701 ...	23,253	1876 ...	67,641,286
1751 ...	45,986	1877 ...	69,228,073
1780 ...	355,000	1879 ...	63,974,053
1790 ...	1,662,369	1881 ...	72,744,531
1800 ...	5,406,501	1883 ...	76,445,757
1820 ...	20,509,926	1885 ...	66,976,887
1847 ...	23,333,225	1887 ...	*70,959,766
1860 ...	52,012,430	1888 ...	60,329,051
1861 ...	46,872,489	1889 ...	58,793,448
1862 ...	36,750,931	1890 ...	62,089,442
1864 ...	54,882,329		
1866 ...	74,565,426		
1870 ...	71,416,345		

* Yn cynnwys cymmysgedd o gotwm a gwlan. Gwlan yn unig ydyw y lleill.

Y mae cyfartaledd y prisiau a dalwyd am gotwm o'r flwyddyn 1821 i'r flwyddyn 1887, yn debyg fel y canlyn:—O'r fl. 1821 hyd 1825, 9¼*c.* y pwys; o 1826 hyd 1830, 6½*c.*; o 1831 hyd 1835, 8*c.*; o 1836 hyd 1840, 7½*c.*; o 1841 hyd 1845, 5¼*c.*; o 1846 hyd 1850, 5½*c.*; o 1851 hyd 1855, 5½*c.*; o 1856 hyd 1860, 6¾*c.*; o 1861 hyd 1865, 19½*c.*; o 1866 hyd 1870, 11¾*c.*; o 1871 hyd 1875, 8¾*c.*; o 1876 hyd 1880, 6⅝*c.*; o 1881 hyd 1886, ychydig dros 6*c.*; ac yn y ddwy flynedd 1866 ac 1877, ychydig dros 5¼*c.* Dechreuodd prinder mawr o gotwm yn y fl. 1861, pan dorodd y rhyfel cartrefol allan yn yr America; ac yn 1862, disgynodd i bum cant a phedwar-ar-hugain o filiynau (524,000,000)—o dros ddeuddeg cant o filiynau (1,257,000,000) yn 1861. Darfu y rhyfel yn 1865; ac yn 1866, cynnyddodd y swm a anfonwyd yma i 1,377 miliwn o bwysi.

COZBI: merch Sur, un o dywysogion Moab, yr hon a ddaliwyd ar y weithred yn godinebu gyda Zimri, mab Salu, o lwyth Simeon, ac a laddwyd gan Phineas fab Eleazar yr archoffeiriad, ar un o wyliau anniwair Baalpeor: *Num.* xxv. Ei thad, yr hwn a elwir yn ben-cenedl, ac yn un o freninoedd Midian, a laddwyd gan feibion Israel (*Num.* xxxi. 8) ryw amser wedi hyn.

CRAGEN, CREGYN, CREGYNIAETH. Gwel PYSGYDDIAETH.

CRAIG, CREIGIAU. Gwel DAIAREG.

CRAIG, JOHN, D.D.: prif gynnorthwywr Knox, y diwygiwr Ysgotaidd, yn amser y Diwygiad Protestanaidd, ac un o'r cymmeriadau hynotaf yn hanesiaeth eglwysig yr Alban.

Wedi gorphen ei astudiaeth yn mhrif athrofa St. Andrews, aeth Craig drosodd i Loegr, fel athraw teuluaidd arglwydd Dacre. Dychwelodd i'w wlad enedigol pan oedd y ddwy deyrnas mewn rhyfel â'u gilydd, ac ymunodd âg urdd y Dominiciaid; ond yn fuan bwriwyd ef i garchar, ar yr ammheuaeth ei fod yn heretic. Wedi adennill ei ryddid, aeth yn ol i Loegr, a throsodd i Ffrainc, ac oddi yno i Rufain, lle y bu i'w dalentau ei ddwyn i sylw y Cardinal Pole, wrth gyfarwyddyd yr hwn yr ymunodd eilwaith â brawdoliaeth y Dominiciaid yn Bologna. Yma ymddiriedwyd iddo addysgiad aelodau newydd, a gyrwyd ef ar wahanol genadaethau eglwysig drwy y Cyfandir, ac yn wobr am ei wasanaeth pwysig penodwyd ef yn beriglor un o athrofeydd yr urdd. Ond wedi hyn cofleidiodd syniadau Calvin, cymmerwyd ef i fyny, a chariwyd ef yn garcharor i Rufain, dan y cyhuddiad o'i fod yn gyfeiliornwr. Wedi gorwedd naw mis yn y carchar, gwysiwyd ef i sefyll ei brawf o flaen y Chwil-lys. Yma gwnaeth broffes eofn o'i ffydd. Dedfrydwyd ef i'w losgi; ond drwy oruwch-drefniad rhagluniaeth, y noswaith o flaen y diwrnod penodedig i'w ddienyddio, bu y pab farw; a'r bobl gyffredin, yn eu llawenydd, wrth feddwl eu bod yn rhydd oddi wrth ei iau, a godasant mewn dull terfysglyd; torasant y carcharau yn agored, a throisant Craig a'i gyd-garcharorion allan, a diangodd yntau i Vienna, a chafodd lythyrau trwydded diogel, dan law yr ymherawdwr, i deithio drwy yr Almaen i Ffrainc, ac oddi yno i Loegr; ac yn ddiweddaf daeth i Scotland, lle y cyrhaeddodd yn fuan wedi dechreu y Diwygiad yn y wlad hono. Penodwyd ef yn weinidog capel Holyrood House, yn 1561, a daeth i fod yn brif gynnorthwywr yr anfarwol Knox. Wedi hyn bu yn fugail cynnulleidfa yn Montrose: ac yn 1574, yn weinidog yn Aberdeen; a thra yr oedd yno penodwyd ef yn gymmedrolwr Cymmanfa Gyffredinol Eglwys yr Alban, yn 1576. Y flwyddyn ganlynol, symmudodd i Edinburgh; ac yn 1579, yr ydym yn ei gael yn gydweinidog â'r dysgedig Duncanson, i'r teulu breninol.

Pan oedd Craig yn 89 mlwydd oed, tynodd allan y *National Covenant*, neu y Cyfammod Cenedlaethol hygof, yn y flwyddyn 1580. Bu farw yn Edinburgh, Rhagfyr 12fed, yr un flwyddyn. Efe oedd awdwr *Catecism Craig*, yr hwn a benododd y Gymanfa Gyffredinol i'w ddefnyddio mewn ysgolion a theuluoedd. Ysgrifenodd hefyd lyfryn arall er amddiffyn cyffes ffydd Eglwys yr Alban, ac ystyrir ef fel un o dadau Presbyteriaeth yn y wlad hono.

CRAIR, CREIRIAU: olion coffadwriaethol, yr hyn a adawyd o bethau hynod a chyssegredig, gweddillion seintiau a merthyron—eu hesgyrn a'u llwch, a'u gwisgoedd: offerynau y tybir eu bod wedi cael eu defnyddio ganddynt, neu eu cyssegru drwy eu cyffyrddiad â hwynt, &c. Creirfa (=Scis., *shrine*), ydyw y lle y cedwir creiriau; lle y dodid gweddillion seintiau canonedig, cyffeswyr, a merthyron, i orphwys dan ofal

Digitized by Google

Eglwys Rhufain. Yr hen enw am y fath le ydoedd ysgrin y creiriau—cwpbwrdd bychan dan yr allor, neu yn yr allor; twll digon o faint i roddi llaw ynddo, lle y cedwir y crair wedi ei amrwymo mewn sidan coch, mewn blwch o blwm—creirdy, creirgell, bedd-allor, &c. *Cloch grair*, yn ol barn y Dr. Owen Pughe, a arwydda cloch leiaf yr eglwys, cloch clul neu gnul y marw, &c. Gallai, dybygem, arwyddo cloch law, a genid pan fyddid yn myned i ddangos y creiriau. Sonir yn nghyfreithiau Howel Dda am "nawdd y creiriau."

Dechreuwyd talu parch i greiriau yn fuan ar ol oesoedd cyntaf y cyfnod Cristionogol. Y pryd hyny nid ystyrid, efallai, dim yn greiriau ond gweddillion naturiol merthyron hynod—yr apostolion a'u holynwyr yn llywodraeth yr eglwys, neu bersonau enwog am eu ffydd a'u "sanctaidd ymarweddiad;" beddrodau pa rai a ystyrid megys yn gyssegredig, ac a gedwid gyda gofal mawr; ac ymwelid â hwynt gan luoedd o'r ffyddloniaid, yn enwedig ar amserau penodol, pan gedwid dydd coffadwriaeth eu merthyrdod, &c., ac yr offrymid gweddïau, y cenid salmau, y pregethid, &c., uwch eu llwch, gyda'r amcan o annog y byw i efelychu eu ffydd a'u rhinwedd. Pan dderbyniodd Cristionogaeth nawdd y llywodraeth wladol, dan Cystenyn Fawr, adeiladwyd eglwysydd harddwych dros feddau y merthyron penaf. Telid y parch mwyaf i'w coffadwriaeth, a gelwid yr adeiladau ar eu henwau. Wedi hyn, dodid gweddillion seintiau dan yr allorau yn yr eglwysydd. Ystyrid hyn yn fuan yn beth anhebgorol angenrheidiol; a darllenwn i Ambrose nacäu cyssegru eglwys "am nad oedd creiriau ynddi," a gorchymynodd cynghor Caer Cystenyn-yn-Trullo "fod i'r allorau hyny gael eu dinystrio nad oedd creiriau danynt." Daeth yr arferiad o gadw creiriau mewn eglwysydd yn beth cyffredin tua diwedd y pedwerydd canrif, ac yn beth anhebgorol tua'r seithfed canrif; ac felly cynnyddo ld nifer ac amrywiaeth creiriau yn ddirfawr, fel yr ymddengys isod. Tua diwedd y chweched canrif, cododd y pab Gregory greiriau i fri ac anrhydedd uwch nag a gyrhaeddasant o'r blaen. Y mae ar gael lythyr ysgrifenedig gan Gregory at yr ymherodres Constantina, yr hon a ofynasai am ran o gorff yr apostol Paul, yn yr hwn y mae efe yn esgusodi ei hun am ommedd ei dymuniad, drwy ddyweyd nad oedd yn beth a arferai y Rhufeiniaid, a'r Cristionogion yn gyffredin yn y gorllewin, gyffwrdd, chwaethach symmud cyrff y saint; ond gosodent gadach llian, a elwid *brandeum*, yn ymyl y cyrff sanctaidd, yr hwn wedi hyny a gymmerid ymaith, ac a drysorid gyda gofal duwiol, a pharch dyledus, mewn rhyw eglwys newydd; a bod cymmaint gwyrthiau yn cael eu gwneyd drwy y cyfryw napeynau neu foledau a phe byddai y cyrff cyssegredig eu hunain yno." Ac y mae efe yn chwanegu, ei fod yn synu fod y Groegwyr yn symmud cyrff y saint o le i le; ond rhag siomi duwioldeb yr ymherodres, ei fod yn anfon iddi lwch haiarn o'r cadwynau a wisgai yr apostol am ei wddf a'i ddwylaw. Dyfynir y llythyr hwn gan Baronius, yr abad Fleury, ac ysgrifenwyr eglwysig ereill. Ond fel yr oedd nifer y lleoedd o addoliad yn lluosogi, ac ofergoeledd yn ymledu, daeth cymmaint o ofyn am greiriau fel y bu raid rhanu ac adranu cyrff y saint mor fân fel yr acth llawer o honynt ar goll. Yn wir, fel y dywed Mabillon, mynach Benedictaidd, "cyssegrid esgyrn yn aml, y rhai oeddynt mor bell o fod yn weddillion seintiau fel y mae yn debyg na buont erioed yn perthyn i gyrff Cristionogion. Cymmerwyd llawer o honynt o ogofau na wyddid pwy a gladdwyd ynddynt." Dywed hefyd fod "yr allorau wedi eu gorlwytho â chreiriau ammheus, a llawer o rai gau yn cael eu cynnyg i ddiwiolfryded.l a defosiwn y ffyddloniaid." Yr oedd rhai Pabyddion ereill, o leiaf aelodau o Eglwys Rhufain, a ffieiddient addoliad creiriau, megys yr offeiriad Vigilantius, Eunonius, ac ereill. Ond yr oedd y rhan fwyaf o'r esgobion a'r clerigwyr—tadau y pedwerydd canrif—mor ofergoelus yn hyn a'r bobl gyffredin. Dysgrifir iaith a syniadau yr enwog Jerome gan yr abad Fleury, yn ei ddyfyniad cyfieithiedig o lythyrau Jerome, mewn atebiad i Vigilantius, lle y gofyna yn wawdiol i'r olaf, "A oedd yr ymherawdwr Constantius yn gyssegr-yspeiliwr pan gladodd i Gaer Cystenyn greiriau Andreas, Luc, a Thimotheus, rhag y rhai yr udai cytheuliaid? Rhaid i chwi hefyd." medd efe, "drin yr ymherawdwr Arcadius fel cyssegr-yspeiliwr, yr hwn, wedi hir amser, a giudodd o Iudea a Thracia esgyrn y bendigedig Samuel; a rhaid i chwi gyfrif yr holl esgobion, nid yn unig yn gyssegr-yspeilwyr ond yn ynfydion, am iddynt gario mewn llestr aur a sidan lwch distadl. Ymddygoed pobl yr holl eglwysi hefyd fel ffyliaid wrth fyned i gyfarfod y creiriau sanctaidd, a thrwy dderbyn y prophwyd gyda chymmaint o lawenydd a phe gwelsent ef yn bresennol ac yn fyw, fel yr ymunai eu minteioedd o Palestina hyd Calcedon; a phan folent Iesu Grist âg un llais, a oeddynt hwy yn addoli Samuel ynte Iesu Grist, i'r hwn yr oedd Samuel yn Lefiad ac yn brophwyd. Cerddai yr ymherawdwr Arcadius, &c., o flaen Emilian, maer y ddinas, a'r holl senedd. Dodwyd y creiriau sanctaidd am beth amser yn yr eglwys fawr, a rhoddwyd hwynt wedi hyny mewn eglwys a adeiladwyd er anrhydedd i'r prophwyd." Drachefn, gofyna, "A ydyw esgob Rhufain yn gwneyd ar fai pan y mae, yn ol ein barn ni, yn ymyl esgyrn hybarch, ond yn eich cyfrif chwi 'lwch gwael' Pedr a Phaul, y rhai ydynt ddynion meirw, yn offrymu ebyrth i Dduw, ac yn defnyddio eu beddfeini fel allorau?" A dengys y gofyniad herllyd canlynol pa mor gyffredinol y telid parch i greiriau yn y pedwerydd canrif,—"Nid yn unig y mae esgob un dref, ond holl esgobion y byd yn cyfeiliorni?" Geilw Jerome hefyd y rhai nad anrhydeddent greiriau yn hereticiaid, ac Eunonius yn awdwr y cyfeiliornad; a rhydd ar ddeall mai y diafol oedd yn cynhyrfu Vigilantius i wrthwynebu Ysbryd Crist, fel nad anrhydeddai feddrodau y merthyron; o blegid dywed am dano,—"*Qui immundo spiritu pugnat contra Christi spiritum et martyrum negat sepulchra veneranda.*" Fleury hefyd a ddywed am Germain, ei fod yn wastad yn cario creiriau y seintiau mewn blwch bychan yn nghrog wrth ei wregys. Pan fu farw y gwallgofddyn crefyddol a hunan-boenydiol hwnw, Simeon y Pilerydd (*the Stylite*), yr hwn a elwid felly o blegid iddo ddewis byw wrth gadwen ar ben colofn un cufydd ar bymtheg ar ugain o uchder, heb ddisgyn am lawer o flyneddoedd, megys yr ynfydodd y byd i'w ganlyn, ac i gredu yn ei sanctaiddrwydd mawr pan yn fyw:—pan fu farw bu ymryson blin am ei esgyrn, ac o'r diwedd aeth holl drigolion Antioch i gyfarfod y creiriau dan ganu, a chario ffaglenau, ac a'u dodasant hwynt yn yr eglwys fawr. "Oddi yno drachefn mudwyd ei gorff i un arall, a elwid Eglwys Penyd, a gwnaed mwy o wyrthiau wrth ei feddrod nag a wnaethai yn ei fywyd." Gwnaeth yr ymher-

Digitized by Google

awdwr Leo erfyniad at drigolion Corinth am weddillion Simeon; ond taer ymbiliasant arno adael ei esgyrn iddynt fel diogelweh i'r ddinas rhag daiargryn: a chydsyniodd yr ymherawdwr yn raslawn. ar yr ystyriaeth fod darn o fur y dref wedi syrthio unwaith drwy ddaiargryn; a boddlonodd ei hun, fel yr ymddengys, ar gudyn neu ddau o wallt y sant, a'r gadwen haiarn a wisgai am ei wddf." [*Fleuri Hist. Eccles.*, liv. 23, 24, &c.]

Ond fel y dywedasom eisoes, bu gorfod rhanu gweddillion tybiedig seintiau i foddloni ofergoeledd yr oesoedd, a gwahanol wledydd a dinasoedd, &c., a daeth y fasnach mewn creiriau i fod yn un mor ennillfawr ag oedd addoliad Diana i Demetrius a'r crefftwyr oedd gydag ef (*Act.* xix). Hwyrach fod mwy o greiriau o gorff Ioan Fedyddiwr nag o weddillion un sant arall. Nid oes dim llai na thri phen iddo: un cyfan yn Rhufain, yr ail yn St. Salador, a'r trydydd yn ddarn yma ac acw, a'r darnau hyny wedi dyblu eu rhifedi naturiol; un gwyneb iddo yn ninas Amiens, a'r llall yn St. Jean d' Angely; ei benglog yn Malta; y gwegil yn Nemours; ei ymenydd yn St. Jean de Maurienne; ei ên a'i wallt yn Nevers, Noyon, a Lucca. Mae bys blaen ei law ddeheu, â'r hwn y pwyntiodd at Iesu, gan ddyweyd, "Wele Oen Duw," mewn chwech neu saith o fanau; sef, yn Sens, Besançon, Toulouse, Bourges, Florence, a Maçon; darn o'i groen yn Villard-sur-Boëge. Y mae cyrff yr apostolion, Pedr a Phaul, yn gyfain yn Rhufain; ond drwy ryw wyrth, nas gellir rhoddi cyfrif am dani, y mae asgwrn gên a barf i Pedr yn Poitiers, ac amryw esgyrn ereill iddo yn Treves; ac un ysgwydd i Paul yn Argenton. Y mae pump neu chwech o gyrff yr apostolion yn Toulouse, a chyrff yr unrhyw mewn amryw fanau eraill ar yr un pryd. Y mae dau gorff a thri phen i'r santes Ann, mam Mair y Forwyn.

Ein gofod ni oddef i ni roddi darluniad o'r addoliad a delid gynt yn Lloegr i greiriau St. Thomas à Becket, ac yn Nghymru i'r eiddo Dewi Sant, Gwenfrewi, ac ereill.

Y mae gwaed yr Iachawdwr yn cael ei gadw mewn ugeiniau o fynachlogydd, capelydd, ac eglwysydd; weithiau rhyw ychydig, megys y dafnau a gasglodd Nicodemus yn ei faneg, a'r rhai a gedwir yn La Rochelle. Dangosir potelaid o hono yn Mantua, a chwpaneidiau yn eglwys St. Eustachius, yn Rhufain. Mewn lleoedd ereill ceir dagrau y Gwaredwr wedi eu potelu yn ofalus, gyda pharion o'i ewinedd, a rhai o'i ddannedd. Efallai fod cymmaint o ddarnau o'r gwir groesbren ar gael hyd y canol oesoedd ag a adeiladasai long fawr. Y mae y preseb yn yr hwn y gorweddodd yn ei febyd eto yn gyfan yn Rhufain, gyda'r cadachau yn mha rai y rhwymwyd ef, a'r crys cyntaf a wnaeth ei fam iddo. Yn Ravenna, Pisa, Cluny, Angurs, a St. Salvador, cedwir y dyfrlestri meini yn y rhai y trowyd y dwfr yn win yn Cana gynt. Yn St. Joan Lateran y mae y bwrdd ar ba un yr ordeinfodd Crist y Swper diweddaf, a'r gyllell oedd ganddo yn tori oen y pasc. Y mae y ddysgl arian ar ba un y gosodwyd yr oen ger bron y Gwaredwr a'i apostolion mewn dwy neu dair o eglwysydd Pabaidd gwahanol. Mewn dau le gwahanol y mae y tywel â pha un y sychodd yr Iesu draed ei ddysgyblion, ac ar yr un sydd yn Aix-la-chapelle dywedir fod ol troed Iudas fradwr i'w weled yn eglur. Ceir y tair hoel, â pha rai y sicrhëid y Gwaredwr ar y pren mewn cynnifer a phymtheg o leoedd gwahanol, er bod Egiwys Rhufain, neu ei haneswyr, yn dyweyd fod yr ymherodres Helen wedi gwneyd genfa i'w march â dwy o'r hoelion hyn, a gosod y drydedd yn addurn yn helm ei mab Cystenyn. Mae y waewffon a drywanodd ei ystlys i'w chael mewn chwe lle gwahanol ar yr un pryd, a bernir fod cymmaint yn weddill o'r goron ddrain ag a wnai wrych o amgylch erw o dir. Yn Carcassone, yn gystal ag yn Tours, gwelir cleddyf ac astalch yr archangel Michael, â pha rai y gyrodd efe Satan allan o'r nef. Yn St. Salvador, ac yn Poitiers ar yr un pryd, ceir sandalau Pedr a Phaul, wedi eu gwneuthur o felfed, a gleiniau aur! Oni bai hyn ni wybuasem fod yr apostolion yn ymwisgo mor wych a dullweddol. Yn Rhufain cedwir y wenwisg yn yr hon y darllenodd Pedr wasanaeth yr offeren gyntaf erioed, fel prawf fod Pedr wedi bod yn esgob Rhufain, a'u bod yn dyweyd offeren (*mass*) yn amser yr apostolion. Ond y mae ei grwys esgobol yn Paris, a'i ffon law yn Cologne ac yn Treves. Mewn llawer o fanau ceir poteleidiau o laeth bron y Forwyn Fair; cudynau o'i gwallt, ei chrib, ei chrys, a gwadn un esgid iddi, yn mysg gwahanol gasgliadau o greiriau sanctaidd. Yn Treves, yn ddiweddar hefyd, yr oedd y wisg ddiwniad a weodd y Forwyn i Grist, a miloedd yn myned yno i'w gweled. Y mae corff Matthew yr efengylwr yn Treves yn gystal ag yn Rhufain. Priodolid pob gwyrthiau a rhyfeddodau gau i'r cyfryw greiriau gynt. Rhaid fod Eglwys Rhufain yn ystyried ei haelodau yn amddifad o bob ystyriaeth, cyn y beiddiai osod pethau o'r fath a grybwyllwyd ger eu bron.

Y mae aneirif greiriau ereill—miloedd o honynt yn rhai gau; megys cyllell Abraham, yr hon a dynodd allan i ladd ei fab; pastwn Balaam, â'r hwn y tarawodd ei asen; llusern Nicodemus, yr hon a gariai yn oleu pan yr ymwelodd â'r Iesu liw nos, &c.

Yn amser y Diwygiad Protestanaidd yn Lloegr yr oedd yn St. Edmonsbury, fel yr adroddai un Sion ab Rhys, rai cecys glo, o'r tân y rhostiwyd St. Lawrence wrtho, naddion o fysedd traed St. Edmond; cyllell ysgrifenydd, a botasau St. Thomas à Becket, a chreiriau ereill, i reoleiddio disgyniad gwlaw, ac attal tyfiad chwyn; ysgrin gras Bexley yn Caint—delw bren, oedd ar amserau yn fyw, ac yn meddu ei holl synwyrau, yr hon y mynodd John Hilsay, esgob Rochester, ei llwyr ddryllio, am fod y bobl yn ei harswydo ac yn ei haddoli, yn nghyd âg aneirif greiriau a delwau ereill, y rhai a ddistrywiwyd yn ngwydd yr holl bobl wrth groes St. Paul yn Llundain, a manau ereill. Dangosid phiol risial, llawn o waed Crist, yn Hales, yn sir Gaerloew; ac y mae ystyllod holit arch Gwenfrewi yn Ngwytherin. Y camddefnyddiad o greiriau a wnaeth i Eglwys Loegr eu gwrthod.

Yn nghredo y pab Pius IV., yr hwn a gadarnhawyd gan Gynghor Trent, cyffesir fod parchedigaeth yn ddyledus i greiriau y saint; ac y mae Bellarmine yn amddiffyn yr un syniad drwy appeliad at y manau canlynol o'r Ysgrythyr; *Exod.* xiii. 19; *Deut.* xxxiv. 6; 2 *Bren.* xiii. 21; xxiii. 16, 17, 18; *Act.* v. 15, 16; xix. 12. Gwaharddodd amryw synodau, neu gymanfaoedd eglwysig, i greiriau gael eu dangos heb gydsyniad yr esgob lleol; a gwaharddodd y pab Innocent III. brynu a gwerthu creiriau.—(*Abbé Honaré de Saint Marie, Dissertation sur le Reliques; Abbe de Cordemoi, Tomite des Santes Reliques; Fleuri Hist. Eccles.; Palmer's Hist. of the Church*).

Digitized by Google

CREADIGAETH, CREAD, [*cre*]: sydd weithred o ewyllys a gallu Duw, trwy yr hwn y mae pob peth, heb law ef ei hun, wedi eu dwyn i fod. Y mae perthynas agos rhwng y gwirionedd am greadigaeth a gwirioneddau ereill y Beibl; o herwydd y berthynas o Greawdwr ydyw y berthynas gyntaf a sylfaenol yn mha un y mae Duw yn sefyll tuag at ddyn, ac ar y berthynas hon y mae ei lywodraeth ar y byd yn sylfaenedig. Y mae yn amlwg fod dyn yn ddyledus am ei wybodaeth am Dduw fel *Creawdwr*, i fesur mawr, os nad yn hollol, i ddadguddiad dwyfol. Er fod gwybodaeth naturiol yn dwyn profion anwadadwy o blaid creadigaeth, ac er nad yw Duw wedi gadael ei hun yn ddidyst yn ngweithrediadau meddyliau dyn, nac ychwaith yn y byd eangach, ond nid mwy rhyfedd, o'i gwmpas, y mae yn mhell oddi wrth fod yn sicr y buasai dyn wedi cyrhaedd, trwy ymresymiad yn unig, heb ddadguddiad oddi uchod, wybodaeth am y Creawdwr, ac am y greadigaeth, mewn ystyr priodol i'r geiriau. Collwyd y wybodaeth hon yn ei phurdeb yn mhlith cenedloedd y ddaiar yn ddieithrad. Ac er fod cydwybod yn gwasgu hawliau Duw ar ddyn yn y modd mwyaf pendant, eto nis gall hi ddadguddio gyda'r un eglurder sail yr hawliau hyny.

Er mwyn cyfarfod yr eisieu hwn gallesid dysgwyl y buasai dadguddiad oddi wrth Dduw, y cyfryw ag sydd yn y Beibl, yn cynnwys hysbysiad eglur am greadigaeth y byd a phob peth sydd ynddo. Ac wrth edrych ar y gwirionedd hwn fel un sylfaenol, ymddangosai yn rhesymol iddo gael lle arbenig tua dechreuad y cyfryw ddadguddiad. Yn unol â hyn y mae y gyfrol sanctaidd yn dechreu gyda'r hysbysiad pwysig, "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar." Ar yr hanes sydd yn nglŷn â'r cyhoeddiad hwn, yn y bennod gyntaf a'r ail o lyfr Genesis, y sylfaenir athrawiaeth yr hen Destament am greadigaeth y byd, yn nghyd â'r dadganiadau goruchel o fawl ac addoliad i'r Creawdwr sydd i'w cael, yn enwedigol yn llyfrau y prophwydi, y Salmau, a llyfr Iob. Y mae yr un athrawiaeth yn y Testament Newydd, gyda'r gwahaniaeth fod y gwaith yn cael ei briodoli, yn unol â'i amcan uniongyrchol, yn fwy arbenig i'r Gair neu Fab Duw. Ni anghofir creadigaeth chwaith gan y cor nefolaidd yn ngweledigaethau Ioan, "Teilwng wyt ti, O Arglwydd, i dderbyn gogoniant, ac anrhydedd, a gallu: canys ti a greaist bob peth, ac o herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crewyd hwynt;" *Dad.* iv. 11.

Nid yw creadigaeth yn sefyll ar wahan oddi wrth, neu yn anghyssylltiol âg, athrawiaethau ereill. I'r gwrthwyneb, y mae yn sefyll mewn perthynas agos â holl wirioneddau y Beibl. Ar hyn dywed Neander yn ei *Hanesiaeth Eglwysig*:—"Yr ydym wedi llefaru yn barod am yr undeb agos sydd rhwng yr athrawiaeth am Dduw fel Creawdwr rhydd ac annibynol y greadigaeth a holl hanfod neilldiol Cristionogaeth; ac am y gwrthwynebiad cryf oedd yn rhaid fod yn yr athrawiaeth hon i ddulliau paganaidd o feddwl. Y mae yr apostol Paul yn symio i fyny Gristionogaeth yn y grediniaeth mewn un Duw; o'r hwn, a thrwy yr hwn, ac i'r hwn, y mae pob peth. Ac y mae y berthynas driphlyg sydd rhwng pob peth a Duw yn dynodi hefyd y cyssylltiad agos sydd rhwng creadigaeth, prynedigaeth, a sanctaiddiad, yn gystal a'r berthynas agos sydd rhwng y greadigaeth a moesoldeb; o herwydd y mae yr ymadrodd 'iddo ef,' yr hwn sydd yn penodi i foesoldeb Cristionogol ei gylch a'i egwyddor sylfaenol, yn rhagdybied yr 'o hono ef;' ac y mae yr ymadrodd 'trwyddo ef' yn dangos pa fodd yr unir y ddau, ac y cyfryngir rhyngddynt. Ac felly, fel y gwelsom yn hanes y Gnosticiaid, y mae llygriad yr athrawiaeth Gristionogol am y greadigaeth yn arwain hefyd i lygriadau yn athrawiaeth y prynedigaeth, ac hefyd yn y gyfundrefn o foesau." Y mae hanes y greadigaeth nid yn unig yn rhagarweiniad angenrheidiol i hanesiaeth ysgrythyrol, ond hefyd yn erthygl gyntaf a sylfaenol yn ei duwinyddiaeth. Yn y cyssylltiad hwn y mae ei bwysigrwydd i ni: o herwydd, pa mor hyfryd bynag ydyw clywed am yr hyn a ddygwyddodd ar y ddaiar cyn creadigaeth dyn, a pha fodd y parotowyd hi i fod yn breswylfa i greaduriaid rhesymol, eto pan y mae yr hanes yn dysgrifio dyn yn cael ei wneuthur ar ddelw Duw, ac yn cael ei osod yn ben ar bob peth ar y ddaiar, y mae yn cyrhaedd ei wir ystyr a'i amcan.

Fel y gwelir yn mlaen yn yr erthygl hon, yr oedd gan bron bob cenedl henafol, a wyddom ddim am ei llenyddiaeth, ryw chwedlau crefyddol i esbonio pa fodd y daeth y byd i fod. Nid oedd eu hathronwyr chwaith ddim heb eu hesboniadau hwy. Ond yr hyn sydd yn hynodi yr hanes a rydd y Beibl am ddechreuad y byd oddi wrth bob chwedlau a dyfeisiau athronyddol ydyw, y syniad syml, ond mawreddog, am greadigaeth *o ddim*, heb unrhyw ddefnydd tragwyddol. "Ni ymgoddodd," medd Havernick, "un genedl baganaidd yn ei chwedloniaeth na'i hathroniaeth i'r syniad am greadigaeth o ddim. Ac oddi wrth y ffaith fod yr Ysgrythyr, yn yr hanes a rydd am ddechreuad pob peth, yn gosod i lawr fel ei hegwyddor sylfaenol, *creadigaeth o ddim*, nid yw i'w restru yn yr un dosbarth a thraddodiadau paganaidd. Ac y mae rhai wedi ceisio gwadu fod y syniad hwn i'w gael yn y Beibl, ond yn hollol aflwyddiannus."

Nid testun o ymchwiliad athronyddol yn unig ydyw creadigaeth o ddim; ond y mae o'r pwys mwyaf mewn crefydd a duwinyddiaeth. Os nad o ddim y crewyd pob peth, y mae yn rhaid fod defnydd neu fater yn meddu hanfodiad annibynol a thragywyddol, fel y credai Plato, Aristotle, a Zeno, &c.; ac, o ganlyniad, nad yw priodoliaethau Duw yn meddu yr annibyniaeth a'r perffeithrwydd a briodolir iddynt. Y mae ei wybodaeth am fater yn cael ei *ennill* fel y mae dyn yn ennill ei wybodaeth. Mae ei allu arno yn cael ei gyfyngu gan natur y defnydd tragywyddol hwn. Y mae yn hanfodi ac yn gweithredu yn annibynol ar ganiatâd a llywodraeth Duw. Felly nid allai rhag uniaeth fod yn gyffredinol ar bob peth. Yn unol â hyn yr oedd yr athronwyr Groegaidd yn dal fod Duw yn gadael y byd iddo ei hun, fel peiriant yn gallu myned heb ei lywodraeth ef; neu os cyfryngai, ar amgylchiadau pwysig y gwnai hyny.

Dywedir nad yw y gair a gyfleithir *creu* yn arwyddo gwneyd peth o ddim; ond yn hytrach, a'i gymmeryd wrtho ei hun, ei fod yn cau allan y syniad hwn [*Kitto's Cyc.*, dan yr erthygl *Creation*; *Bush's Notes on Genesis*]. Rhesymau yr awdwyr hyn ydynt, fod y gair ברא (*boro*), creu, yn arwyddo, yn laf. Gynnyrchiad rhywbeth newydd, anghyffredin, a hynod; neu ddygiad rhywbeth i fod mewn dull hynod a rhyfeddol: megys *Num.* xvi. 30; "Os yr Arglwydd a wna (grea) newyddbeth, fel yr agoro y ddaiar ei safn:" *Ier* xxxi. 22; "Yr Arglwydd a grea beth newydd ar

Digitized by Google

y ddaiar; benyw a amgylcha wr." 2il. Y weithred o adnewyddu, ail ffurfio, adsefydlu yr hyn sydd mewn bod eisoes. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair am effeithiau y dylanwad dwyfol yn y greadigaeth newydd, yn adgenedlu ac yn sancteiddio; megys *Salm* li. 10; "*Crea* galon lân ynof, O Dduw, ac *adnewydda* ysbryd uniawn o'm mewn." Yn yr amgylchiadau hyn dywedir fod y weithred a ddynodir wrth y gair yn cael ei chyfeirio at ddefnydd neu sylwedd oedd eisoes mewn bod, ac o ganlyniad nas gall arwyddo *creu peth o ddim.*

Dywedir hefyd fod y tri gair ברא (*boro*), *creu*; עשה (*osoh*), *gwneuthur*; a יצר (*iotsar*), *ffurfio* neu *lunio*; yn cael eu defnyddio y naill am y llall, ac nad oes dim felly yn y cyntaf i'w wahaniaethu oddi wrth y ddau ereill. Rhoddir *Esa.* xliii. 7. yn anghraifft am y tri yn cael eu defnyddio am yr un weithred ddwyfol; "I'm gogoniant y creais ef, y lluniais ef, ac y gwnaethym ef." Defnyddia y Deg a Thrigain y gair cyffredin yn Groeg am wneuthur, ποιειν, yn gystal a κτιζειν, am *boro.* Yn hanes y greadigaeth hefyd (*Gen.* i.), defnyddir y geiriau yn ddiwahaniaeth yn *adn.* 11, 16, 21, 25. Ac wrth gymharu *Gen.* i. 27, â ii. 7, gwelir fod "creu dyn" yn y cyntaf yn gyfystyr a "llunio dyn" yn yr ail. Yn *Exod.* xx. 11, dywedir i'r nefoedd a'r ddaiar gael eu "gwneuthur"—nid eu creu.

Hyn ydyw y cyfan a geir am y gair yn yr awduron uchod, ac ar hyn y tynir y casgliad, "nad yw y syniad o greadigaeth fel yn arwyddo gwneuthuriad hollol peth o ddim, neu alwad peth i fod nad oedd mewn bod o'r blaen, yn athrawiaeth yr Ysgrythyr." Y mae yr athrawiaeth yn hollol amlwg yn yr Ysgrythyr, pa beth bynag a ddywedir am ystyr y gair; ac o'r braidd y mae hyn yn ddysgrifiad cyflawn o'r dull y defnyddir y gair mewn gwahanol amgylchiadau.

Yn ol yr Hebrewyr goreu (Gesenius, &c.), ystyr cyntaf y gair *boro* ydyw *cymynu, hollti,* &c; *Ezec.* xxiii. 47; "ac a'u *torant* hwy â'u cleddyfau:" *Jos* xvii. 15; "a thor goed i ti yno." Ond mewn dull neu fodd arall o ddefnyddio y gair, arwydda weithred *syml a dilafur*—effaith gweithrediad dwyfol. Y mae creadigaeth yn briodol i Dduw: "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar;" *Gen.* i. 1. "Dyrchefwch eich llygaid i fyny ac edrychwch pwy a greodd y rhai hyn;" *Esa.* xl. 26. Efe ydyw "Creawdwr cyrau y ddaiar;" *Esa.* xl. 28. Efe ydyw "Creawdwr Israel;" *Esa.* xliii. "Cofia dy Greawdwr;" *Preg.* xii. 1. Efe a orchymynodd a'r nefoedd a'u holl luoedd hwynt a grewyd: *Salm* cxlviii. 5. "Efe sydd yn creu nefoedd newydd a daiar newydd;" *Esa.* lxv. 17. Defnyddir y gair yn arbenig pan y dywedir fod Duw mewn modd gwyrthiol yn rhoddi bod i'r hyn nad oedd mewn bod yn flaenorol; *Esa.* xli. 20; *Ier.* xxxi. 22. Yn yr ystyr hwn y defnyddir ef gyda'r gair *adnewyddu*; *Salm* li. 10; civ. 30. Oddi wrth yr anghreifftiau hyn, gwelir mai hwn ydyw y gair am weithred greadigol Duw.

Y mae y ddau air arall a enwyd yn cael eu ddefnyddio gyda hwn, ac yn fynych yn ei le; ond nid yw hyn yn profi fod y tri yn gyfystyr. Y mae gwahaniaeth mawr rhyngddynt. Yr un mwyaf cyffredinol ydyw *osoh* = gwneuthur. Pa fodd y mae y gair hwn yn gwahaniaethu oddi wrth *boro*, a welir yn *Gen.* ii. 3; "Yr hwn a *greasai* Duw *i'w wneuthur.*" Gwelir yma y gwahaniaeth rhwng creadigaeth wreiddiol y byd, sef ei gynnyrchiad cyntaf, a'i ffurfiad a'i drefniad canlynol. Y mae pob creadigaeth yn effaith, ond nid yw pob effaith yn greadigaeth.

Gwahaniaeth amlwg rhwng *boro* a'r ddau air arall ydyw—nad yw un amser yn cael ei ddilyn gan enw y defnydd o ba un y ffurfir y peth; megys *Gen.* ii. 7; "Yr Arglwydd Dduw a *luniasai* (*iotsar*) *y dyn o bridd y ddaiar.*" "Gwnaeth (*osoh*) allor yr arogldarth o goed:" *Exod.* xxxvii. 25. Ond nis defnyddir *boro* felly pan y mae y defnydd i'w nodi—un o'r geiriau ereill a ddefnyddir. Gwelir y gwahaniaeth wrth gymharu *Gen.* i. 27—"Felly Duw a *greodd* y dyn ar ei ddelw ei hun, ar ddelw Duw y *creodd* efe ef, yn wryw ac yn fenyw y *creodd* efe hwynt;" lle y mae y gair creu dair gwaith heb enw y defnydd gydag ef—â *Gen.* ii. 7. Oddi wrth hyn, gellir casglu mai nid am fod y tri gair hyn yn gyfystyr y defnyddir hwynt y naill am y llall, ond o herwydd rhesymau gramadegol ac areithyddol; sef i amrywio y dysgrifiad, megys *Esa.* xliii. 7.

Gwahaniaeth arall a gyfeiriwyd ato o'r blaen ydyw, fod *boro* yn cael ei ddefnyddio yn unig am weithredoedd dwyfol, tra y mae y lleill yn cael eu defnyddio am weithredoedd dynol yn gystal a dwyfol. Y mae hyn ynddo ei hun yn dangos y gwahaniaeth pwysig sydd rhyngddynt. Ystyriaeth arall hefyd sydd o bwys yn mhenderfyniad ystyr y gair hwn ydyw, fod yn anmhosibl i'r gair gael ei ddefnyddio yn ei ystyr cyntaf a gwreiddiol am ddygiad peth i fod, nad oedd mewn bod yn flaenorol, ond wrth ddysgrifio gweithred hollalluog Dduw yn rhoddi dechreuad i'r byd: *Gen.* i. 1. Ond mewn ail ystyr gellir ei gymhwyso at weithredoedd dwyfol ereill. Y mae hyn yn ddigon i ddangos, er fod y gair yn dynodi, yn yr ail ystyr hwn, weithrediad ar ddefnyddiau oedd eisoes mewn bod, eto, nad yw yn cau allan *creadigaeth o ddim*, yn yr unig fan lle y gellir ei ddefnyddio felly.

Ond nid ar ystyr y gair ar wahan, ac yn anghyssylltiedig, y mae yr athrawiaeth o greadigaeth pob peth o ddim yn gorphwys. Defnyddir ef yn fynych mewn cyssylltiadau nas dichon iddo arwyddo dim arall; megys, "*Yn y dechreuad y creodd* Duw y nefoedd a'r ddaiar." Pa beth a all fod ystyr y gair yma? Mae yr ymadrodd "yn y dechrenad" yn cyfeirio yn amlwg at *ddechreuad* bodolaeth creadigol, mewn gwrthgyferbyniad i dragwyddol fodolaeth y Creawdwr, ac felly y mae yn ddechreuad hollol a pherffaith mewn a chydag amser. Felly dywed Havernick, nas gellir, heb y trais mwyaf, esbonio yr adnod gyntaf yn Genesis heb ddal *creadigaeth o ddim.*

Fel cadarnhad o hyn, dylid cofio fod yr Iuddewon yn dal yr athrawiaeth hon, fel y gwelir yn 2 *Mac.* vii. 28; "Edrych ar y nef a'r ddaiar, ac edrych ar bob peth ag sydd ynddynt, cydnebydd wneuthur o Dduw y pethau hyn o'r pethau nid oeddynt." Ar ol i'r athroniaeth Blatonaidd gael derbyniad yn mhlith yr Iuddewon, dechreuodd y syniad gwrthwynebol ffynu, fel y gwelir yn *Doeth. ineb Solomon* xi. 17, lle y dywedir i'r byd gael ei wneuthur o "afluniaidd ddefnydd;"—syniad a gariwyd allan gan Philo a'r ysgol Alexandriaidd.

Yn y Testament Newydd, fel yn yr Hen, ni a gawn greadigaeth o ddim bob amser y byddai yn angenrheidiol cyfeirio at hyny. "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw, yn gymmaint nad o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir;" *Heb.* xi. 3. Y meddwl ydyw, mai trwy ffydd yr ydym yn canfod mai nid o ddefnyddiau oedd yn hanfodi o'r blaen y gwnaethpwyd y byd, ond ei fod wedi ei greu o

Digitized by Google

ddim. Yn *Rhuf.* iv. 17, ni a gawn anghraifft o hollalluogrwydd creadigol yn galw *y pethau nid ydynt* fel yn bod (megys pe byddent). *Ioan* i. 3; "Pob peth a wnaethpwyd trwyddo ef, ac hebddo ef ni wnaethpwyd dim a'r a wnaethpwyd." Yn ol yr esbonwyr goreu, y mae y rhan olaf o'r adnod yn gwadu yn y modd mwyaf pendant fod defnydd yn dragwyddol a digrëedig, fel y daliai y Gnosticiaid. Y mae pob peth heb law Duw yn cael ei ddynodi fel wedi eu *gwneuthur*, ac wedi eu gwneuthur trwy y Gair; ac o ganlyniad, y mae pob egwyddor arall, ysbrydol a defnyddiol, yn cael eu cau allan.

Gosodai y tadau Cristionogol yn yr eglwys foreuol, ac ysgrifenwyr uniawngred yn mhob oes, bwys mawr ar y gwirionedd hwn.

Nid oedd odid un genedl henafol nad oedd ganddi ei dull o esbonio dechreuad y byd. Cynnwysai eu llyfrau sanctaidd yr esboniadau hyn; ac yr oeddynt yn dwyn rhyw gyssylltiad â'u crefydd. Y mae gwrthwynebwyr y Beibl wedi sylwi ar hyn, a cheisient ddarostwng yr hanes ysgrythyrol i'r un dosbarth a'r chwedlau paganaidd. Y mae yn angenrheidiol, gan hyny, edrych i mewn i'r tebygolrwydd a'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt, er mwyn dyfod i benderfyniad cywir ar y mater.

Y mae yr hanesion paganaidd am y greadigaeth yn amrywio oddi wrth eu gilydd, ac eto y mae rhyw debygolrwydd rhyngddynt: y mae hyn wedi tynu sylw pawb sydd yn gydnabyddus â hwynt. Ymddengys hyn oddi wrth grynodeb byr o'r byd-haniaeth (*cosmogony*) Aiphtaidd, Phœniciaidd, Indiaidd, &c.

I. Yr hanes a roddir am ddechreuad y bydysawd, gan Diodorus Siculus, a'r hwn a olygir yr esboniad Aiphtaidd, ydyw,—Fod y nefoedd a'r ddaiar wedi eu cymmysgu yn nghyd yn y dechreu; ond yn ganlynol, i'r elfenau ymwahanu, ac i'r awyr ddechreu ymsymmud. Ymgododd yr elfen dân, o herwydd ei hysgafnder, i'r goruchafion; disgynodd y pridd, mewn cymmysgiad â'r dwfr, o herwydd ei bwysau, i lawr. Trwy ysgydwad parhäus, ymwahanodd y dwfr, ac ymffurfiodd yn fôr; ac yna ymddangosodd y tir sych. Wedi i'r ddaiar gael ei chynhesu gan yr haul, dygwyd gwahanol greaduriaid i fod, y rhai a boblogent ddaiar, dwfr, neu awyr, yn ol fel yr oedd y gwahanol elfenau yn eu cyfansoddiad. Yn ddiweddarach, pan galedwyd y ddaiar gan yr haul a'r gwynt, nid allai gynnyrchu creaduriaid o honi ei hun, ac yna dechreuasant epilio trwy genedliad. Yr oedd tywyllwch diderfyn yn y tryblith, ac ysbryd yn hanfodi yn y *chaos*. Ond torodd y goleuni sanctaidd allan, a dygwyd yr elfenau i fod allan o'r tywod dyfrol.—*Wilkinson's Ancient Egyptians*, cyf. iv. td. 218.

II. Y byd-haniaeth Phœniciaidd, a roddir gan Eusebius, sydd fel y canlyn:—Egwyddor gyntaf creadigaeth ydyw awyr a *chaos* tywyll; trwy gariad yr ysbryd (*pneuma*) at ei egwyddorion ei hun, dechreuodd rhyw gymmysgedd a dymuniad—yr hyn oedd dechreuad pob peth. Trwy y cymmysgedd hwn cenedlwyd *môt* (μωτ)=mwd neu ddwfr. Allan o'r mwd hwn, daeth allan greaduriaid ar lun ŵy. Y mae *môt* a'r ser yn dechreu tywynu. Ar ol i'r awyr gael ei gynhesu gan y gwres, cododd gwyntoedd a chymylau; a deffrodd y taranau y creaduriaid a enwyd o'r blaen, a hwy a ddechreuasant ymsymmud—yn wryw a benyw ar y ddaiar ac yn y môr.

III. Dechreuodd y byd-haniaeth Babilonaidd, yn ol Berosus, fel y canlyn:—Yr oedd amser pan nad oedd ond tywyllwch a dwfr yn mhob man, a chreaduriaid o ffurfiau anferth yn ymsymmud ynddo. Rheolwr y cwbl oedd benyw o'r enw Homoroka—arwyddocâd yr hwn, meddir, ydyw y môr. Gwahanodd y duw goruchaf, sef Bel, y tywyllwch; a rhanwyd y wraig i ddwy ran, o ba rai y gwnaeth efe y nefoedd a'r ddaiar. Torodd Bel ymaith ei ben ei hun; ac yna, o'r pridd, wedi ei gymmysgu â gwaed, gwnaeth y duwiau ddynion, y rhai, o ganlyniad, a gyfranogent o ddealltwriaeth dwyfol.

IV. Rhoddwyd bod i luaws o fyd-haniadau gan ddychymyg yr Indiaid. Un o'r rhai hynaf ydyw yr hwn a ddysgir gan Menu. Dysgai ef fod pob peth yn dechreu yn dywyllwch; hanfodai y byd eto yn mwriad yr Anfeidrol. Crewyd dwfr yn gyntaf gan feddwl y Bod tragwyddol, âg ynddo hadau bywyd. Ymffurfiodd y dwfr yn ŵy, o'r hwn y daeth allan Brahma—y gallu creadigol—yr hwn a wahanodd ei hanfod ei hun, ac a ddaeth yn wryw ac yn fenyw. Gelwid y dwfr yn *nárá*, am ei fod yn gynnyrch Nara neu Ysbryd Duw; a gelwir ef *Nárágana*, neu *ysgogiad ar wyneb y dyfroedd*.

V. Yn ol traddodiadau yr Etruriaid, creodd Duw yn y milflwydd cyntaf y nefoedd a'r ddaiar; yn yr ail, y ffurfafen; yn y trydydd, y môr; yn y pedwerydd, yr haul, y lleuad, a'r ser; yn y pummed, y creaduriaid a breswyliant yr awyr, y ddaiar, a'r môr; yn y chweched, dyn. Yn y chwe mil canlynol o'r deuddeg—parhad tybiedig y byd—y mae cyfnod yr hil ddynol. Cyffelyb ydyw traddodiadau y Persiaid. Creodd Ormuzd, trwy ei air, y greadigaeth weledig, mewn chwe chyfnod;—yn y cyntaf, y nefoedd a'r ddaiar; ac yn y chweched, dyn. Yn niwedd pob cyfnod, cynnaliai Orinuzd ŵyl i drigolion y nefoedd. Y mae traddodiadau ereill cyffelyb. I'r un dosbarth perthyna y rhaniad o amser i wythnos, yr hwn sydd i'w gael yn mysg bron bob hen genedl, a'r cyssegredigaeth a berthyn i'r nifer *saith*.

Y mae y traddodiadau hyn yn bwysig fel yn dangos y grediniaeth a ffyna yn mysg pob cenedl bron yn oesoedd boreuaf y byd am ddechreuad pob peth. Ac er bod amrywiaeth rhyngddynt, eto y maent yn cytuno â'u gilydd ac â'r Beibl mewn pethau pwysig. Ynddynt oll canfyddir—

1. Awgrymiadau am dywyllwch dechreuol, yn unol â thystiolaeth Moses, — "A thywyllwch oedd ar wyneb y dyfnder." 2. Tryblith, gwag, heb drefn, yn unol â'r geiriau,—"Y ddaiar oedd afluniaidd a gwag." 3. Fod arbenigrwydd yn cael ei roddi ar ddwfr yn y dechreuad. 4. Y mae y crybwylliadau am yr ŵy yn cyfeirio yn amlwg at yr ymadrodd — "Ysbryd Duw yn ymsymmud [deor] ar wyneb y dyfroedd." 5. Gwelir hefyd yn y traddodiadau Etruriaidd, fod cynnydd yn cymmeryd lle o'r anmherffaith i'r perffaith. 6. Canfyddir hefyd yn y chwedlau clasurol am Prometheus, fod dyn wedi ei wneuthur o bridd y ddaiar, ac wedi ei fywhau gan dân a ladratäwyd o'r nef.

Pa fodd y mae cyssoni y cyffelybrwydd sydd yn y traddodiadau hyn â'r hanes ysgrythyrol? Nid allasai fod yn effaith damwain; ac nid ellir dangos fod unrhyw berthynas rhwng natur y meddwl dynol a dull creadigaeth byd. Yn iaith Eichhorn—"Nid allasai cyffelybrwydd mor fawr hanfodi heb ryw ffynnonell gyffredin i'r cyfan." A oedd y gwahanol genedloedd hyn wedi eu cael o'r Beibl? Y mae yn anhawdd credu hyny; o herwydd gorweddai y rhan fwyaf o honynt allan o gyrhaedd dylanwad y bobl a'r Ysgrythyrau

Digitized by Google

Sanctaidd. Y mae yn fwy tebygol fod y cyfan wedi tarddu o draddodiad boreuol a ymestynai yn ol i fabandod yr hil ddynol; ac wedi eu cyfnewid, mewn amser, wrth gael eu trosglwyddo i wahanol wledydd, ac at wahanol lwythau y ddaiar. Y mae y tebygolrwydd a nodwyd yn brawf diammheuol fod gwirionedd yn yr hanes Beiblaidd am ddechreuad y byd. Nid oes ond hanfodiad gwirionedd wrth wraidd y cwbl a all esbonio y cydgordiad hwn, pa fodd bynag y cafodd y cenedloedd hyn afael ar eu traddodiadau.

Ond y mae y *gwahaniaeth* yn llawn mor darawiadol, fel prawf o wirionedd hanes Moses, a'r *cyffelybrwydd*. Os edrychir ar—(1.) Symledd yr hanes ysgrythyrol, "nid ellir," ebe Winer, "gymharu un byd-haniad hynafol â'r un ysgrythyrol am brydferthwch ac arucheledd." A hyn y cytuna pawb. (2.) Mor bell ydyw Moses oddi wrth bob peth dychymygol ac afresymol. Y mae yr hanesion anysgrythyrol yn dangos yr afresymoldeb mwyaf, yr anwybodaeth mwyaf o natur; gan briodoli i ddefnydd y galluoedd a'r priodoliaethau annhebycaf, ac i'r egwyddor greadigol y moddion mwyaf afresymol i gyrhaedd yr amcan. Pa beth sydd mor syml ac mor fawreddus a thystiolaeth gyntaf y Beibl,—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar." Y mae sel gwirionedd ar bob tystiolaeth yn yr hanes. Er fod yr hanes yn llawn o ddefnyddiau meddwl, ac o ogoniant barddonol, eto nid yw yr ysgrifenydd yn rhoddi y ffrwyn i'w ddychymyg mewn dim, nac mewn dim ychwaith yn chwareu â'r tybiau y buasai chwilfrydedd dyn yn teimlo swyn ynddynt. Nid yw dysgeidiaeth ddwyfol i'w chanfod ddim llai yn yr hyn sydd yn cael ei gelu nag yn yr hyn a ddadguddir. Nid oes dim sydd sicrach, pe buasai yr ysgrifenydd yn rhoddi i lawr ei dybiau a'i ddychymygion ei hun, neu draddodiadau ei genedl, y buasai rhyw esboniadau o'i eiddo ei hun neu chwedlau o eiddo ereill a ddangosasai yn ddiffael o ba le y tarddasant. Ond yn yr holl hanes, nid oes un gair sydd yn gwrthwynebu rheswm, nac yn anghysson â chwaeth dda, nac yn taro yn erbyn un egwyddor o'r dadguddiad dwyfol. O ba le y gallasai ddeilliaw, ond o ysbrydoliaeth ddwyfol? (3.) Y mae yr hanes ysgrythyrol yn ymgodi yn annhraethadwy uwch law pob traddodiad cenedlig yn ei syniadau teilwng o'r Creawdwr. Y mae paganiaeth naill ai yn gwadu gallu creadigol i'r Bod Dwyfol, gan briodoli y greadigaeth, neu ei ffurf bresennol, i ansoddau defnydd; neu os caniatëir gweithrediad dwyfol, priodolir hyny i fod islaw Bod Goruchaf. Syniadau isel, cymmysglyd, ac anghysson, a goleddid gan baganiaid yn gyffredinol am y Creawdwr; cyfyngent ei allu gan gyndynrwydd mater, neu dychymygent ryw egwyddor sydd yn ei wrthwynebu; neu ystyrient creadigaeth yn weithred angenrheidiol, ac nid yn ffrwyth gweithrediad gwirfoddol ei ewyllys. Y mae y Beibl yn ymgodi uwch law pob syniadau o'r fath. Priodola greadigaeth yn hollol yn ei holl ranau i'r unig wir Dduw, gan gau allan bob egwyddorion isel a gwrthwynebol rhwng y Creawdwr a'i waith. Nid oes gan fater un ewyllys, ac nis gall gynnyg y gwrthwynebiad lleiaf iddo. Y mae efe yn annibynol, yn ddigrëedig, ac yn oruchaf. (4.) Y mae y golygiadau a geir yn yr Ysgrythyrau o barth *cread* yn wahanol oddi wrth y cwbl sydd yn ein cyfarfod mewn chwedloniaeth ac athroniaeth baganaidd. Y mae syniadau isel a diffygiol am y Creawdwr yn arwain i'r un diffyg am greadigaeth. Gellir dosbarthu byd-haniadau y paganiaid i ddau ddosbarth:—*Yn gyntaf*, y cyfryw syd i yn dwyfoli defnydd neu fater; megys eiddo y Phœniciaid, yr Aiphtiaid, a'r Babiloniaid. Ac *yn ail*, y cyfryw sydd yn golygu y greadigaeth, yn deilliaw neu yn hanu (*emanate*) oddi wrth Dduw, fel goleuni oddi wrth yr haul; ac felly nid yn ymddibynu ar ei ewyllys. Y cyfryw ydyw eiddo yr Indiaid.

Y mae cread y Beibl yn osgoi y ddau eithafoedd hyn. Y mae yn gwahaniaethu rhwng y Creawdwr a'r greadigaeth, heb y petrusder a'r aneglurder lleiaf. Yr hyn sydd mewn modd arbenig yn gwahaniaethu y greadigaeth ysgrythyrol ydyw creadigaeth *o ddim*—heb ddefnydd tragwyddol, ac heb gydweithrediad neu fod islaw i'r Creawdwr. "Ni ymgodoldd," medd Havernick, "na chwedloniaeth nac athroniaeth erioed i'r syniad o greadigaeth *o ddim*. Trwy y neillduolrwydd hwn y gwahaniaethir yr hanes ysgrythyrol oddi wrth bob ymgais arall i roddi hanes dechreuad y byd."

Oddi wrth y gymhariaeth uchod rhwng bydhaniadau cenedlig a'r Ysgrythyrau, ni a welwn fod y *cyffelybrwydd* a'r *gwahaniaeth* sydd rhyngddynt yn llefaru yn uchel o blaid yr hanes Sanctaidd. Yn nesaf, ni a gymharwn yr hanes ysgrythyrol â

THYSTIOLAETH GWYDDOREG AM Y GREADIGAETH.

1. Y mae gwyddoreg yn dysgu fod perthynas agos rhwng gwahanol ranau y greadigaeth a'u gilydd. Y mae ymchwiliad manwl wedi arwain i'r penderfyniad fod, nid yn unig y gwahanol fydoedd sydd yn cyfansoddi y gyfundrefn heulawg mewn cyssylltiad â'u gilydd ac â'r un canolbwynt sydd yn eu cylymu yn nghyd, ond fod yr haul a'r planedau a berthynant iddo yn gyssylltiedig â chyssodau ereill, ac felly yn ffurfio rhanau o'r un cyfanwaith mawr. Y mae yr ystyriaeth hon yn ei gwneuthur yn debygol fod y cyfan wedi eu galw i fod ar unwaith—o'r hyn lleiaf eu bod wedi derbyn eu ffurf a'u hysgogiadau presennol ar unwaith. Y mae y penderfyniad hwn yn fwy na thebygol am y cyssawd heulog.

2. Y mae gwyddoreg yn tystiolaethu nad yw y greadigaeth yn dragwyddol, ond bod iddi ddechreuad. Y mae sylwadau seryddol yn dangos fod yn yr eangderau, yn mha rai y mae y planedau yn troi, ryw elfen (*resisting medium*), sydd, er yn hynod raddol, eto yn attalfa a ddwg yr ysgogiadau hyny i derfyn, o angenrheidrwydd. Oddi wrth hyn fe ymresymir,—"Rhaid fod dechreuad wedi bod i'r ysgogiadau hyn. Gan fod elfen mewn bod sydd yn sicr o ddyrysu ac attal yr ysgogiadau hyn mewn rhyw gyfnod, pa mor faith bynag—eto, mewn ysbaid meidrol—amlwg yw nas gellir cario eu dechreuad yn ol yn annherfynol; ac felly, rhaid fod iddynt ddechreuad." [*Whewell's Bridgewater Treatise.*] Ond daiareg sydd yn gosod y dystiolaeth hon yn y goleuni cryfaf mewn cyssylltiad â'r ddaiar. Wrth ddarllen yr hanes sydd wedi ei gerfio ar y creigiau, y mae y wyddor hon yn cyhoeddi yn y modd mwyaf penderfynol, fod cyfnod wedi bod pan nad oedd na llysiau, nac anifeiliaid, na dyn, yn hanfodi ar y ddaiar. Ni fedd daiareg un gosodiad mwy penderfynol na hwn. "Gallwn brofi," meddai Lyell [*Elementary Geology*], "fod dechreuad wedi bod i ddyn ac i'r holl rywiau o greaduriaid sydd yn cydhanfodi âg ef, a bod dechreuad wedi bod i'r creaduriad oedd o'i flaen; ac o ganlyniad, nad yw y byd wedi myned yn mlaen yn ei ddull presennol er tragwyddoldeb, fel y myntumia rhai

Digitized by Google

athronwyr." "Y mae tu hwnt i ammheuaeth, ar sail tystiolaeth y ddaiar ei hun, fod dechreuad mewn amser wedi bod i bob flurf o fywyd corfforol."—*Sedgwick's Discourse.*

3. Y mae gwyddoreg a rhesymeg yn ein dysgu i briodoli dechreuad pob peth—defnydd ac ysgogiad, trefn a bywyd—i achosion digonol. Y mae amryw gynnygiadau wedi eu gwneyd i roddi rheswm am ddechreuad pethau ar egwyddorion a thrwy ddeddfau naturiol. Ond y mae gwir wyddoreg yn ymwrthod yn hollol â'r cyfryw. "Mae pob ymgais i ymgodi oddi wrth y presennol at yr hyn a basiodd, ar hyd cadwen achos ac effaith, yn ein harwain i edrych am ddechreuad; ond nid ydyw dynion wedi llwyddo i gyrhaedd dechreuad ar yr egwyddorion naturiol sydd yn llywodraethu cwrs adnabyddus pethau..... Pan y mynem sefydlu y meddwl ar greadigaeth pethau, rhaid i ni appelio at wirioneddau a gallu sydd uwch law y rhai sydd yn llywodraethu gwirioneddau a dygwyddiadau naturiol." [*Whewell's Inductive Sciences.*] Yma fe'n dysgir, ar dir gwyddoreg ei hun, fod yn rhaid i ni edrych uwch law iddi hi am allu digonol i roddi bod i ddim. Nis gall hi ond rhoddi goleuni ar yr hyn sydd mewn bod eisoes; nid oes ganddi un pelydryn i'w roddi ar ddechreuad dim, ond trwy ein cyfeirio at Allu uwch.

4. Ond er nad yw y byd yn dragwyddol, eto y mae wedi bod mewn bod er ys oesoedd diriedi. Y mae seryddiaeth yn agor o flaen ein golwg eangder annhraethadwy y greadigaeth, ac yn rhoddi prawf diymwad o'i henafiaeth. Y modd y mae seryddiaeth yn tystiolaethu i henafiaeth y greadigaeth ydyw, trwy ystyriaethau oddi wrth drosglwyddiad y goleuni. Yr oedd Syr William Herschel o'r farn fod y goleuni yn gofyn dwy filiwn o flyneddoedd i drafaelio oddi wrth y seren bellaf a welir trwy belldrych o ddeugain troedfedd o hyd. Os oes ymddiried i'w roddi yn y casgliadau hyn, rhaid fod seren o'r pellder hwnw wedi bod yr amser maith hwnw mewn bod i'w goleuni gyrhaedd y ddaiar. Ond y mae daiareg yn gyflawn o'r profion cryfaf o henafiaeth mawr y ddaiar; a hyny hefyd fel preswylfa bywyd llysieuol ac anifeiliaidd.

5. Y mae y ddaiar wedi myned trwy amryw gyfnewidiadau olynol, y rhai a'i cymhwysent iwy fwy i fod yn breswylfa i ddyn. Y mae effeithiau y cyfnewidiadau hyn i'w canfod yn amlwg yn y creigiau sydd yn cyfansoddi crystyn y ddaiar. Pa beth bynag oedd ansawdd cyntefig y ddaiar, y mae yn sicr nad oedd ar ei gwyneb ddim bywyd. Nid oes dim modd i benderfynu pa hyd y bu felly; ond yn ei dymmor priodol fe ymddangodd bywyd—yn gyntaf bywyd llysieuol, ac yn nesaf bywyd anifeiliaidd. Am drefn dygiad anifeiliaid i fod, y mae daiaregwyr ar y cyfan yn cytuno mai pysgod a grewyd gyntaf, yna ymlusgiaid ac ehediaid, yn nesaf creaduriaid pedwar troediog, ac yn olaf dyn. Y rhai hyn ydyw casgliadau daiareg, yn hollol annibynol ar dystiolaeth yr Ysgrythyrau; a than y gair DAIAREG y rhoddir y profion o honynt yn y gwaith hwn.

6. Y mae bywyd wedi cael ei gynnal yn ddidor mewn bod ar ol iddo unwaith gael ei ddechreu. "Ar ol i fywyd llysieuol ac anifeiliaidd ddyfod i fod, y mae y gadwen yn parhau yn ddifwlch hyd nes y cyrhaeddom y cyfnod yr ydym ni ddynion yn byw ynddo; nid oes un ysbaid daiaregol, nac un haen o graig, yn amddifad o'u profion fod bywyd wedi bod yn chwareu ynddynt."—*Phillips.*

7. Y mae gwyddoreg yn tystio yn y modd mwyaf penderfynol, mai yn ddiweddar iawn, mewn cymhariaeth, y dygwyd dyn i fod.

Yn mhlith holl ffeithiau daiareg, nid oes un wedi ei chadarnhau yn well nag ymddangosiad diweddar dyn ar y ddaiar—diweddar mewn cymhariaeth i oed creaduriaid ereill, ac yn enwedig mewn cymhariaeth i oed y byd. Fel y canlyn y dywed Lyell:—"Nid rhaid i mi aros i brofi pa mor ddiweddar y daeth dyn i fod, o herwydd nid oes un daiaregwr profiadol yn ei ammheu; yn wir, yr anhawsder ydyw olrhain yn ol ei hanfodiad mor bell a'r amser pan y dechreuodd y creaduriaid sydd yn cydfyw âg ef ymddangos mewn rhyw gyflawnder mawr." Yn y geiriau canlynol y llefara Hugh Miller am hyn:—"Nis gwyddom am un ffaith mewn daiareg—yn nghanol ei chasgliad arderchog o ffeithiau, sydd wedi eu dwyn at eu gilydd o bob cwr o'r ddaiar gan sylwedyddion mor ddiwyd ac mor fedrus, a than lywodraeth cariad mor ddidwyll at y gwirionedd ag a ymunodd erioed i wrteithio unrhyw gangen o wybodaeth ddynol—sydd yn rhoddi un rhithyn o brawf i'r dyb fod dyn wedi bod ar y ddaiar yn hwy na'r ysbaid a briodolir iddo yn gyffredin; sef chwe mil o flyneddoedd. Nis gwyddom am un enw mawr mewn gwyddoreg, nad ydyw yn cyfaddef hyn."

8. Nid yn unig y mae creadigaeth dyn yn weithred ddiweddar, ond y mae ymchwiliadau gwyddorawl yn pallu dangos prawf fod un rhywogaeth o greaduriaid wedi ymddangos yn ddiweddarach—ac felly mai dyn a grewyd olaf. Fel mai efe ydyw y creadur ardderchocaf, felly efe ydyw yr olaf o weithredoedd creadigol Duw. Y mae daiareg yn dangos nad oedd prinder bywyd anifeilaidd a llysieuol ar y ddaiar cyn ymddangosiad dyn; ond nis gwyr am gymmaint ag un rhywogaeth o'r naill na'r llall wedi ei ddwyn i fod yn ddiweddarach." "Nid ydyw y daiaregwyr wedi cael un prawf o greadigaeth un creadur o'r newydd yn ddiweddarach nag Adda." — *Miller.* "Y mae gwyddoreg yn ein dysgu fod y gallu creadigol mewn natur, wedi gorphwys ar ol creadigaeth dyn."—*Sedgwick.*

Y cyfryw ydyw yr egwyddorion cyntaf a ddysgir i ni gan wyddoreg o barth i greadigaeth y byd, yn enwedig y ddaiar a'i gwahanol drigolion; ac y maent yn gyfryw ag y mae dynion cyfarwydd â'r ymchwiliadau hyn yn rhoddi eu tystiolaeth ddieithrad, bron, i'w gwirionedd.

Fel casgliad cyffredinol oddi wrth y cwbl, dylid rhoddi arbenigrwydd neilldduol i'r gosodiad canlynol,—*Nad oes gan wyddoreg, yn un o'i changenau, ddim gwybodaeth i'w roddi ar y weithred o greadigaeth.* Y mae ei hymchwiliadau hi, yn enwedig daiareg, wedi gosod i lawr tu hwnt i bob ammheuaeth, y ffaith bwysig fod dechreuad wedi bod i drefn Natur. Ymdrechai llawer o baganiaid dysgedig brofi fod y greadigaeth fywydol a difywyd wedi bod yn ddiddechreu; ond y mae ansawdd presennol gwybodaeth anianyddol yn gwneuthur y dybiaeth rhag llaw yn anmhosibl; ond er nad oes dim ammheuaeth ar egwyddorion gwyddoreg na fu dechreuad i bob peth, eto nid yw yr egwyddorion hyny yn rhoddi dim eglurhâd pa fodd y daeth y greadigaeth i fod. Ei thystiolaeth ydyw, fod dechreuad *wedi bod;* ac mor eglur a hyny, ei thystiolaeth ydyw, fod dechreuad neu greadigaeth, *ar ei hegwyddorion hi,* yn anmhosibl. Y casgliad anocheladwy gan hyny, ydyw, mai dadguddiad yn unig a all roddi un hysbysiad sicr a chredadwy i ni ar hyn. Y

Digitized by Google

frawddeg olaf yn ngwaith Lyell [*Principles of Geology*] ydyw, "fod cymmeryd yn ganiataol fod dechreuad a diwedd cyfundrefn mor eang yn gorwedd o fewn cylch ein hymchiliadau athronyddol a'n dyfeisiau ni yn anghysson â barn gywir am y berthynas sydd rhwng y galluoedd meidrol a phriodoliaethau Bod Anfeidrol." Ac y mae hyn yn amlwg, o herwydd y mae creadigaeth o flaen dyn, ac yn gorwedd yn mhellach yn ol na'i sylwadaeth ef: *Iob* xxxviii. 4. I ddadguddiad, gan hyny, yr ydym yn ddyledus am wybodaeth sicr ar hyn: "Trwy ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw;" *Heb.* xi. 3. Y mae dadguddiad Duw o hono ei hun i ddyn yn dechreu gyda'r cyhoeddiad "*Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar.*"

Edrychwn yn nesaf ar

DYSTIOLAETH YR YSGRYTHYR AM GREADIGAETH.

1. Y mae y Beibl yn cydnabod y cyssylltiad agos sydd rhwng gwahanol ranau y byd. Nid yn unig y mae yr hanes ysgrythyrol yn cyssylltu "y nefoedd a'r ddaiar" fel effeithiau yr un achos cyffredin, ond priodola iddynt ddechreuad cydamserol—"Yn y dechreuad y creodd Duw *y nefoedd a'r ddaiar.*" Hwn ydyw y cyfenwad Hebraeg am y greadigaeth weledig oddi wrth ei dwy ran arbenicaf. Gwelir yr un cyssylltiad rhyngddynt yn y manau canlynol; *Salm* cii. 25; *Heb.* i. 10. Un o brif amcanion y Beibl ydyw amlygu y cyssylltiad sydd rhwng pob rhan o'r greadigaeth â'u gilydd—y naturiol a'r ysbrydol.

2. Y mae yr Ysgrythyr yn ein dysgu nad yw y byd yn dragwyddol, ond bod iddo ddechreuad o ran defnydd a ffurf. Y mae y gair cyntaf yn yr hanes yn gosod *dechreuad* i'r cyfan. Nid oes dim o dystiolaethau y Beibl yn fwy eglur a phendant na'r cyfryw ag sydd yn gwahaniaethu rhwng tragwyddoldeb y Creawdwr a therfynolrwydd y creadur o ran amser a lle.

3. Os ydyw gwyddoniaeth a rheswm yn ein dysgu fod y greadigaeth yn effaith rhyw achos uwch nag un achos naturiol, hysbysa y Beibl i ni mai yr unig a'r gwir Dduw ydyw yr achos o'r cwbl. Yma, ni chydnabyddir na deddfau, na gosodiadau, na threfniadau, yn lle y Creawdwr, neu fel ag i'w bellhau ef oddi wrth ei waith. Awdwr y greadigaeth ydyw Bod personol, hollbresennol, yn meddu ar bob priodoledd a pherffeithrwydd moesol.

4. Nid ydyw y Beibl mewn un man yn gosod i lawr oed y greadigaeth. Y mae yn amlwg fod yr ymadrodd gyda pha un y dechreuir yr hanes—"Yn y dechreuad"—yn gadael hyny yn hollol anmhenderfynol. Myn rhai nad yw hyn yn dysgu ond blaenoriaeth y greadigaeth weledig ar yr un anweledig, a chyfleithant ef "*Yn gyntaf* creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar" [*Harris' Man Primeval*]. Ond pa fodd bynag y cymmerir ef, nid oes ynddo ddim sydd yn sefydlu hynafiaeth y greadigaeth. Cymmerwyd cam mawr, pan yn y flwyddyn 1804 yr ysgrifenodd Dr. Chalmers—"Nid yw ysgrifeniadau Moses yn sefydlu hynafiaeth y glôb; ac os ydynt yn sefydlu dim, hynafiaeth dyn arni yn unig a wneir." Ni ddywedir pa bryd yr oedd "y dechreuad:" *Salm* cii. 25; *Diar.* viii. 22.

5. Y mae y drefn yn mha un y dygir y cyfan i fod, yn ol yr Ysgrythyr, yn cyfateb i'r drefn a ganfyddir yn argraffedig ar greigiau y ddaiar. Nid ydyw daiareg yn penderfynu dim o barth ansawdd cyntefig y ddaiar—pa un ai dwfr oedd yn ei hamgylchynu, ai ynte a oedd y defnyddiau cyntefig mewn sefyllfa doddedig, ai ynte awyrawl yn benaf ydoedd. Yn unol â hyn, nid yw yr Ysgrythyr yn dyweyd dim ar y cwestiynau hyn. Y cyfan a ddywedir am y ddaiar yn y cyfnod hwn ydyw, ei bod "yn afluniaidd a gwag"—heb un preswylydd, ac yn amddifad o bob math o fywyd; yr hyn a gadarnheir yn helaeth gan ymchwiliadau daiaregol—a'i bod yn amgylchynedig â dyfroedd tywyll, neu "y dyfnder." Ond pa un ai yn y dechreu ai ynte yn ddiweddarach, nid yw mor eglur. Yn y drefn ganlynol y dygwyd pethau i fod:—golcuni; *Gen.* i. 3:—yr awyrgylch; *adn.* 6:—ymgodiad y tir o ganol y dyfnder; *adn.* 9:—y tir hwn yn ei amser yn cael ei wisgo â llysiau; "llysiau yn hadu had, a phrenau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth;" *adn.* 11:—yn nesaf, llenwir y dyfroedd â bywyd anifeilaidd; dygir adar hefyd i fod y pryd hwn; *adn.* 20:—yn nesaf, y mae creadigaeth anifeiliaid y tir yn cymmeryd lle;" sef, yr anifail, yr ymlusgiad, a bwystfil y ddaiar; *adn.* 24:—ac yn ddiweddaf oll ddyn, yr hwn a wnaethpwyd ar ddelw ei Greawdwr; *adn.* 26. Dangosir yn mlaen mor gywir y mae hyn yn cytuno â thystiolaeth y creigiau eu hunain o barth trefn eu creadigaeth.

6. Ar ol i fywyd gael ei ddechreu ar y ddaiar, y mae wedi ei gynnal yn mlaen yn ddifwlch. Hyn ydyw tystiolaeth daiareg; ac nid oes un awgrymiad gwrthwynebol i'w gael yn yr Ysgrythyrau. Y mae rhai esbonwyr, yn eu dyryswch i gyssoni ffeithiau gwyddoniaeth â'r hanes dwyfol, wedi tybied fod y crëedigaethau a gynnwysir yn y creigiau wedi cymmeryd lle cyn yr hanes a gynnwysir yn Genesis o gwbl, a bod hanes Moses yn dechreu gyda'r dinystr cyffredinol a fu ar bob peth cyn hyny; a bod y Beibl yn dechreu gydag ail ddechreuad bywyd; ac yn rhoddi hanes o greadigaeth yr anifeiliaid a'r llysiau sydd mewn bod yn awr ac a ddechreuodd gydhanfodi â dyn. Ond nid yw y dybiaeth hon yn gysson âg ysbryd nac â llythyren yr hanes; tra ar yr un pryd y mae daiareg yn gwadu fod y fath ail ddechreuad wedi bod.

7. Nid yn unig dyn a grewyd ddiweddaf, ond creadigaeth dyn ydyw yr unig un y mae yr Ysgrythyr yn penderfynu ei hynafiaeth; gwneir hyn trwy y taflenau achyddol o'r Patriarchiaid, cyn ac ar ol y diluw, yn llinell Seth, mab Adda; a Shem, mab Noah. Ac er rhyw fân amrywiaethau [Gwel AMSERYDDIAETH], dangosir trwyddynt fod dyn wedi bod ar y ddaiar o ddeutu 6,000 o flyneddoedd; yr hyn sydd yn cytuno â chasgliadau gwyddoniaeth ac âg ymchwiliadau hanesiaeth. "Y mae y Beibl yn ein dysgu fod dyn wedi bod ar y ddaiar ond ychydig flyneddoedd mewn cymhariaeth; ac y mae cofadeiladau y greadigaeth yn profi hyny."—*Sedgwick.* Ac y mae y cofadeiladau hyn yn gyfryw nas gall dyn eu newid, i beri iddynt siarad unrhyw iaith ond iaith gwirionedd.

8. Gyda chreadigaeth dyn y gorphenwyd y greadigaeth: *Gen.* ii. 1, 2.

Y cyfryw ydyw trefn y greadigaeth, yn ol yr hanes dwyfol; ac wrth gymharu ei dystiolaethau â'r casgliadau y mae dynion galluog yn eu gwneyd oddi wrth eu cydnabyddiaeth â'r ddaiar a'i chynnyrchion, fe deimla pawb fod y fath gydgordiad rhyngddynt, nas gellir ei esbonio ond ar yr egwyddor mai Creawdwr y ddaiar, ei chreigiau, ei mynyddoedd, ei hafonydd, ei moroedd, ei llysiau, a'i hanifeiliaid, yn gladdedig yn y ddaiar, ac yn fyw ar ei hwyneb, ydyw Awdwr yr hanes rhyfedd sydd yn cofnodi trefn creadigaeth Duw.

Digitized by Google

Ond yma yr ydym yn cyfarfod âg anhawsder na wnaethom un cyfeiriad ato eto, ac yn wir yr unig anhawsder o bwys mawr sydd yn ein cyfarfod wrth geisio cyssoni y Beibl â daiareg ar y pwnc o greadigaeth y byd. Tystiolaeth daiareg yw, fod y creigiau sydd yn gorwedd ar eu gilydd haen ar haen, yn nghyd â'u cynnwysiad, yn gofyn miliynau ar filiynau o flyneddoedd i ddyfod i'r ffurf sydd arnynt yn bresennol; ond tystiolaeth yr Ysgrythyr yw—"Mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaiar, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt." Pan ddygir y bennod gyntaf o'r Llyfr Dwyfol a darganfyddiadau gwyddoreg wyneb yn wyneb, nid ellir gwadu nad oes ymddangosiad o anghyssondeb mawr rhyngddynt. Yn ol yr hanes yn Genesis, ac yn fwy penderfynol eto yn *Exod.* xx. 11, dechreuwyd a gorphenwyd y greadigaeth mewn chwe diwrnod; ac yn ol y syniad a ffynai yn gyffredin hyd yn lled ddiweddar, cymmerodd hyny le o ddeutu chwe mil o flyneddoedd yn ol: tra y mae daiareg nn hollol benderfynol, ac nid oes le i'w hammheu, fod y ddaiar wedi bod yn breswylfa creaduriaid byw, ac wedi myned trwy gyfnewidiadau mawr oesoedd dirifedi cyn i ddyn ymddangos ar ei hwyneb. Y mae llawer o ddynion duwiol wedi edrych ar ddaiareg gyda dychryn ac ofn, rhag iddi fyned dan sylfeini eu crefydd. Y mae ereill wedi ceisio boddloni eu meddyliau trwy ddyweyd fod y diluw yn ddigon o esboniad ar yr holl gyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle. Pryd arall, dywedid fod y ddaiar wedi cael ei chreu fel y mae, gan ddwyn arwyddion o hynafiaeth mawr ac o gyfnewidiadau nad aeth tir erioed trwyddynt: ac am yr anifeiliaid, y pysgod, y cregin, a'r llysiau, sydd i'w cael yn britho y creigiau, na buont ond felly erioed—ymddangosiadau o ffurfiau bywydol, a dim arall.

Ond y mae y cyfryw esboniadau, neu yn hytrach ddychymygion, yn cilio; ac y mae dynion yn ceisio symmud ymaith yr anghyssondeb tybiedig mewn ffyrdd sydd yn arwyddo mwy o hyder yn y gwirionedd, a mwy o barch i'r Beibl a gwyddoreg ar unwaith. O'r gwahanol ffyrdd hyn ni a nodwn yn laf, Ymgais y Dr. Chalmers i ddwyn y Dadguddiad a Natur i gyssondeb â'u gilydd. Hyd yn ddiweddar iawn, gallesid dyweyd mai ei esboniad ef oedd yr un oedd yn cael y derbyniad mwyaf cyffredinol. Credai ef fod yr adnod gyntaf yn Genesis—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar"—yn cynnwys gosodiad annibynol, yn hysbysu creadigaeth pob peth o ddim, ac mai hon ydyw yr unig adnod sydd yn gosod allan *creadigaeth* yn ystyr priodol y gair: a bod y greadigaeth gyntaf hon wedi cael ei gwahanu gan oesoedd dirifedi oddi wrth hanes y chwe diwrnod sydd yn canlyn. Yn ystod yr ysbaid maith hwn yr ymffurfiodd yr haenenau o greigiau sydd yn amgylchu y ddaiar, ac y bu yr anifeiliaid fyw ag y mae eu hesgyrn i'w cael yn awr ynddynt. Nid yw Moses wedi rhoddi dim manylion o'r greadigaeth gyntaf, na chwaith o'r cyfnewidiadau a'r chwyldroadau a gymmerasant le yn yr oesoedd maith hyn. Effaith y chwyldroadau hyn ydyw yr afluniedd-dra a'r gwagder a ddysgrifir yn *Gen.* i. 2; ac allan o'r afluniedd-dra hwn, yn mha un hefyd yr oedd y cyrff wybrenol wedi eu gorchuddio â thywyllwch, y dygwyd y ddaiar i'w ffurf bresennol mewn chwe diwrnod o bedair awr ar ugain yr un. Yn ol yr esboniad hwn, y mae Genesis i'w ddeall yn dysgrifio y greadigaeth bresennol, heb gymmeryd dim sylw o'r creadigaethau a basiodd, y rhai ydynt wrth-ddrychau ffrydiaeth daiareg. Tystia yn unig fod cyfnod o dywyllwch a marwolaeth wedi cyfyngu rhwng y bywyd a welir, a'r hyn a fu. Yn ol y gyfundrefn hon, yr esboniad a roddir ar waith y dydd cyntaf—"Bydded goleuni"—ydyw, fod Duw wedi peri i gymmaint o'r tawch tew, tywyll, gilio ag i ganiatau i ychydig belydrau o'r haul dreiddio yr awyrgylch; ond mai ar y pedwerydd dydd y ciliodd y niwl mor lwyr fel y daeth y bydoedd wybrenol i'r golwg.

Yn erbyn yr esboniad hwn y mae amryw o wrthddadleuon cryfion, ac yn mysg ereill y mae yn anghysson âg un o ddarganfyddiadau daiareg; sef, "Ar ol i fywyd unwaith gael bod ar y ddaiar y mae wedi cael ei gynnal yn ddifwlch mewn bod;"—tra y mae yr esboniad hwn yn rhoddi bwlch mawr rhwng y ddau gyfnod o fywyd. 2il, Ond er mwyn osgoi yr wrthddadl hon, y mae Dr. Pye Smith wedi parotoi esboniad arall, gyda gofal mawr; neu yn hytrach wedi cyfnewid yr un blaenorol, fel ag i beidio rhoi lle i'r wrthddadl uchod. Y mae esboniad Dr. Chalmers a Dr. Smith yn cytuno a'u gilydd, ond mewn un peth. Yn ol Dr. Smith, nid yw y dysgrifiad yn yr ail adnod—"a'r ddaiar oedd afluniaidd a gwag"—yn cyfeirio ond at *ran o'r ddaiar.* Y mae efe yn credu y gellir, o'r ail adnod yn mlaen, ddeall y cyfan am y "rhan hono o'r ddaiar yr oedd yr Arglwydd yn ei chyfaddasu i fod yn breswylfa i ddyn a'r anifeiliaid oedd gydag ef." Tybia efe mai y tiriogaethau rhwng y mynyddoedd Caucasaidd a Mor India a feddylir. Suddodd y rhan hono o'r wlad, yr hyn a barodd "ryw annhrefn cyffredinol ar ei hwyneb;" "y mae yn wybyddus fod tywyllwch yn dilyn y fath gyffroad;" "ac mewn canlyniad i ddarostyngiad yn arwyneb y tir, rhedai afonydd a moroedd tuag yno, ac achosent ddylif." O'r diwedd cliriodd yr awyrgylch ychydig, a threiddiodd y goleuni trwyddo. A hyn oedd y dydd cyntaf. Yna ymddyrchafodd wyneb y tir. Ymffurfiodd, efallai, y môr Caspiaidd trwy gasgliad y dyfroedd at eu gilydd—ymddangosodd y llysiau, a gorchuddiasant y tir sych. Erbyn y pedwerydd dydd, yr oedd yr awyrgylch mor glir, fel, pe buasai llygad dynol i weled, y canfyddasai y bydoedd wybrenol. Yn nesaf, gwnaethpwyd creaduriaid cymhwys i'r dwfr a'r tir: ac yna yr oedd y gwaith wedi ei orphen. Y tu allan i'r cylch hwn gallasai fod llysiau ac anifeiliaid, oddi eithr dyn, ynysoedd a chyfandiroedd, fel yn bresennol. Y cyfryw ydyw esboniad y dyn dysgedig hwn. Ac am dano y dywed Miller [*The two Records*] "Trwy adael i'r daiaregwr ei gyfres ddifwlch o greaduriaid, oddigerth fe ddichon yn nghanolbarth Asia, nid yw yn anghysson â ffeithiau daiareg." Ond wrth geisio cyfaddasu yr esboniad hwn at ffeithiau gwyddoniaeth, y mae wedi ei ddarostwng i wrthddadleuon o'r cyfeiriad arall.

Y gyntaf ydyw, ei fod yn gofyn i'r gair *daiar* gael ei ddeall mewn dau ystyr gwahanol yn y ddwy adnod agosaf at eu gilydd, heb un awgrymiad yn y byd mai nid yn yr un ystyr y mae ei ddeall. Yn yr adnod gyntaf, y mae yn arwyddo y glôb i gyd; yn yr ail, rhyw *ran* fechan o honi. Y mae hyn yn annhebygol. Yn niwedd y chweched dydd, dywedir "Felly y gorphenwyd y nefoedd a'r ddaiar a'u holl lu hwynt:" *Gen.* ii. 1. Dengys hyn nad ydyw y greadigaeth a ddysgrifir yn y bennod gyntaf yn cael ei chyfyngu at y ddaiar—llawer llai at ran o honi—ond ei bod yn cynnwys y *nefoedd a'r ddaiar a'u holl lu hwynt.* Os yn bosibl, y mae *Exod.* xx. 11, ac *Exod.* xxxi. 17, yn

Digitized by Google

gryfach fyth yn erbyn y ddau esboniad uchod, y mae yn anhawdd peidio teimlo nad yw y dysgrifiad yn y bennod gyntaf yn hollol benderfynol yn eu herbyn. Ai nid hollol amddifadrwydd o oleuni a feddylir wrth *dywyllwch?* Nag e, medd yr esboniadau hyn, ond mewn rhan. Wrth y gorchymyn mawreddog, "Bydded goleuni," ai nid galwad y goleuni gyntaf i fod a feddylir? Os derbynir yr esboniadau uchod, nag e; ond rhyw chwalu ar y niwl tew. Ac eto y mae hyn yn cael cymmeradwyaeth y Creawdwr—"Gweloodd Duw y goleuni mai da oedd." Y mae rhywbeth mwy mawreddog na hyn yn y dysgrifiad. Byddai yn hawdd dyweyd chwaneg yn erbyn y dulliau hyn o gyssoni yr hanes ysgrythyrol â ffeithiau daiareg.

Y mae trydedd ffordd wedi ei chynnyg i gyssoni tystiolaeth y creigiau a thystiolaeth yr Ysgrythyr â'u gilydd; sef, trwy edrych ar yr hanes yn Genesis yn un hanes cyssylltiol o'r dechreu i'r diwedd—yn cynnwys y gwahanol weithrediadau creadigol o'r dechreu, pan y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar, yn mlaen nes i Hollalluogrwydd orphen holl ddolenau y gadwen, ac i'r Creawdwr ddywedyd am y cyfan mai da iawn ydoedd. Y mae y golygiad hwn yn cadw symlrwydd a mawrusrwydd yr hanes, ac ar yr un pryd yn cytuno â geiriau pendant y pedwerydd gorchymyn, sydd yn dyweyd mai mewn chwe diwrnod y crewyd y cyfan. Ond er mwyn gwneuthur yr esboniad hwn yn gysson â daiareg, y mae yn angenrheidiol cymmeryd y gair *dydd* yn wahanol i'w ystyr cyntaf a naturiol am bedair awr ar ugain. Rhaid ei ddeall yn sefyll am *ysbaid maith*—digon maith i'r creigiau sydd yn ffurfio crystyn y ddaiar gael eu gosod y naill ar y llall yn eu trefn bresennol. Fel hyn, tybygir fod creadigaeth yn ymestyn trwy chwe chyfnod, neu ysbaid—y naill yn dilyn y llall yn y drefn a ddarlunir gan Moses.

Y mae yn naturiol gofyn yma, A oes rhyw sail i gredu fod *chwe chyfnod* o'r fath a enwir yn yr esboniad hwn wedi bod yn ffurfiad y ddaiar? Ai gwirionedd, ynte dychymyg, yn ngwyneb ffeithiau daiareg, ydyw fod y ddaiar wedi myned trwy chwe chyfnewidiad mawr, amlwg, gwahaniaethol? Am atebiad i'r cwestiwn hwn, rhaid i ni droi at y daiaregwr. Ond os bydd ei ateb ef yn gadarnhaol, y mae ymofyniad pellach; sef, A allwn gymmeryd y gair *dydd*, yn hanes y greadigaeth, am ysbaid maith ac anmhenodol o amser? Ystyriaeth eang o'r modd y defnyddir y gair *dydd* yn yr Ysgrythyr yn unig a'n gailuoga i roddi ateb cywir i'r cwestiwn hwn.

Ond a oes lle i feddwl, heb unrhyw ddirdyniad ar ffeithiau daiareg, fod y trwch hwnw o arwyneb y ddaiar ag sydd o fewn cyrhaedd dyn i'w chwilio, a gwneyd ei hun yn gydnabyddus â'i gynnwysiad, yn gyfryw ag y buasai yr ymchwiliwr gwyddorol yn ei ddosbarthu i chwe chyfnod gwahaniaethol, a hyny heb unrhyw olwg pellach nag i wneuthur y dosbarthiad mwyaf naturiol o hono. Gan y daw hyn eto dan y gair DAIAREG, ni wnawn yn mhellach yn y lle hwn na rhoddi crynodeb o olygiadau yr ysgrifenydd a'r daiaregwr enwog hwnw, Hugh Miller. Nid Miller oedd y cyntaf a gynnygiodd gyssoni tystiolaeth yr Ysgrythyr âg ymddangosiadau y creigiau yn y modd hwn. Yr oedd rhai athronwyr enwog, megys Descartes, Whiston, ac ereill, cyn i ddynion ddechreu ymchwilio i natur creigiau a'u cynnwysiad gydag unrhyw drefn, yn dal nad oedd dyddiau creadigaeth yn ddyddiau naturiol, ond mai ysbeidiau maith anadnabyddus oeddynt. Pan ddaeth ffeithiau daiareg yn fwy adnabyddus, ac anffyddwyr i ymffrostio fod y wyddoreg newydd hon yn dadsylfaenu gwirionedd hanes Moses, mabwysiadwyd yr esboniad hwn gan yr anianydd enwog Cuvier, a llawer ereill, fel y ffordd rwyddaf i gyfarfod yr anhawsder. Yn ddiweddarach, am fod rhyw deimlad nad oedd yr ystyr a roddid i'r gair *dydd* yn gysson â defnyddiad ysgrythyrol y gair, rhoddid yr esboniad hwn i fyny am un o'r rhai blaenorol a enwyd. Ond yn ngwaith olaf Miller [*Tystiolaeth y Creigiau—The Testimony of the Rocks*] y mae darlith brydferth (*The Two Records*), yn yr hon y dangosir fod ffeithiau daiareg yn cytuno yn berffaith â'r hanes ysgrythyrol, wrth gymmeryd y gair *dydd* mewn ystyr eang, anmhenodol. Yn gyntaf, y mae y ddarlith hon yn galw sylw at eiriau Chalmers, y rhai oedd yn taro yn dra dyeithrol y pryd y llefarwyd hwy gyntaf:—"Nid yw ysgrifeniadau Moses yn sefydlu henaflaeth y glôb." Ac nis gellir, yn awr, osod allan yn well yr egwyddor sylfaenol sydd yn rhaid ei chydnabod wrth geisio cyssoni hanes creadigaeth y byd â'r ffeithiau sydd wedi eu casglu yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf. Ar ol egluro esboniadau Dr. Chalmers, a Dr. Smith, a dangos eu hannigonoldeb i gyfarfod yr amgylchiad, gesyd allan y canlyniadau yr arweinir ef iddynt yn y modd canlynol:—"Y mae yn ffaith fawr, wedi ei hollol sefydlu trwy ymchwiliadau daiaregol, nad oes un bwlch na chyfwng rhwng yr anifeiliaid a'r llysiau sydd yn byw ac yn tyfu ar y ddaiar yn bresennol a'r rhai a fu yn byw yn y cyfnod o flaen yr un presennol; ond fod llawer o'r rhai sydd i'w cael yn bresennol yn cydoesi, yn more eu bod, â lluaws o'r rhai sydd wedi diflanu yn awr, yn mhrydnawn eu bod." Yr egwyddor hon a ddefnyddia i ddangos annigonoldeb yr esboniadau cyntaf. Wrth gynnyg ei esboniad ei hun, fe ddywed, fod daiaregwyr yn gyffredinol yn cytuno fod y raddawg ddaiaregol yn ymranu yn naturiol i *dair* rhan, a phob un yn cynnwys gweddillion anifeiliaid a llysiau. Wrth ddechreu gyda'r creigiau isaf sydd yn eu cynnwys, a dyfod i fyny tua'r arwyneb, yr ydym yn cael y rhai hynaf yn gyntaf:—Arnynt hwy y gorwedd creigiau o ffurfiad mwy diweddar, yn gwahaniaethu yn eu natur oddi wrth y blaenaf, ond—yr hyn sydd o brif bwys yn yr ymofyniad hwn—yn gwahaniaethu yn eu gweddillion anifeilaidd a llysieuol (*fossils*). Ar yr ail ddosbarth y gorwedd y trydydd, yn gwahaniaethu eto oddi wrth y ddau flaenorol yn y creaduriaid a'r llysiau sydd wedi eu *claddu* ynddynt; y rhai, gan hyny, a alwn rhag llaw yn *gloddelion* (*fossils*), er mwyn cael un gair cyfleus am gynnwys anifeilaidd a llysieuol y creigiau hyn. Yma y mae yn angenrheidiol sylwi, fod daiaregwyr yn cytuno mewn tri *dosbarth* o greigiau. Pe gofynid, Pa beth a feddylir wrth ddosbarth o greigiau? yr ateb ydyw—Fod yr holl greigiau hyny yn cael eu rhoddi gyda'u gilydd i wneyd dosbarth ag sydd yn debyg, nid o ran eu ffurflad gweledig, na chwaith o ran eu helfenau cyfansoddol, ond o ran eu tebygolrwydd yn y creaduriaid a'r llysiau fu unwaith yn byw arnynt, ac sydd yn awr wedi eu claddu ynddynt. Yr hyn ydoedd yn gwahaniaethu y dosbarth cyntaf oddi wrth y ddau ereill ydoedd, *cyflawnder a maintioli ei lysiau.* Nid nad oedd rhyw greaduriaid meddalion (*molluscs*), a physgod, ac ychydig ymlusgiaid, mewn bod y pryd hwnw; ond nodwedd gwahaniaethol

Digitized by Google

y dosbarth hwn oedd, y fforestydd eang, a'r coed tyfadwy, oedd yn gorchuddio y ddaiar. Dyma y coed sydd yn awr yn ein gwasanaethu fel glo. Yr oedd yr hen goedwigoedd plethedig a barai i'r ddaiar adlewyrchu ei gwyrddlesni hyd yn oed i'r planedau cyfagos, ond na welwyd erioed gan lygaid dyn, yn parotoi tanwydd i gynhesu ei gorff, ac i weithio ei fasnachau.

Yn awr, cymharer hyn â'r dysgrifiad yn Genesis, o waith y trydydd dydd:—"A Duw a ddywedodd, Egined y ddaiar egin, sef llysiau yn hadu had, a phrenau ffrwythlawn yn dwyn ffrwyth, wrth eu rhywogaeth, y rhai y mae eu had ynddynt ar y ddaiar: ac felly y bu. A'r ddaiar a ddug egin, sef llysiau yn hadu had wrth eu rhywogaeth, a phrenau yn dwyn ffrwyth, y rhai y mae eu had ynddynt wrth eu rhywogaeth: a Duw a welodd mai da oedd." Fe wel pawb fod dysgrifiad y daiaregwr o'r cyfnod cyntaf o fywyd llysieuaidd yn cytuno yn hollol â dysgrifiad Moses.

Yn nghyfnod canol y daiaregwr, sef yr ail ddosbarth, yr oedd llysiau fel yn y cyntaf, ond yn llawer llai o ran cyflawnder a thwf. Ni pherthynai iddynt yn awr un arbenigrwydd gwahaniaethol. Nid oedd y cyfnod hwn heb ei gwrel, crestfilod, malwod, pysgod, ac ychydig o dethfilod. Ond y creaduriaid a hynodent yr ail oes hon oedd, ei *hymlusgiaid anferth*, a'i *morfeirch mawrion*—ac, fel y gwelir oddi wrth argraffiadau eu traed ar y graig, ei hadar dirfawr. Preswylwyr y dyfnder oeddynt forfeirch anghenfilaidd tebyg i'r *whale*, ar ba rai y mae anianyddwyr wedi rhoddi enwau digon dyeithrol yr olwg; megys, *ichthyosaurs*, *plesiosaurs*, a *cetiosaurs*. Ar y tir, ymlusgai y *lizard*, y *crocodile*, o uchder cymmaint a'r elephant, ac o faintioli llawer mwy, y rhai sydd wedi eu cyfenwi—nid yn annheilwng o honynt eu hunain—yn *teliosaurus*, *megalosaurus*, ac *iguanodon*. Ac oddi wrth ol traed yr adar oedd yn cyd-hanfodi â'r anghenfilod uchod, y mae yn rhaid eu bod gymmaint arall a'r ceffyl neu y camel. Dyma breswylwyr yr ail gyfnod o fywyd, yn ol dysgrifiadau y daiaregwyr. A hyn, cymharer y dysgrifiad o waith y pummed dydd yn Genesis:—"A Duw a greodd y morfeirch mawrion, a phob ymlusgiad byw, y rhai a heigiodd y dyfroedd yn eu rhywogaeth, a phob ehediad asgellog yn ei rywogaeth: a gwelodd Duw mai da oedd. A Duw a'u bendigodd hwynt, gan ddywedyd, Ffrwythwch, ac amlhewch, a llenwch y dyfroedd yn y moroedd, a lluosoged yr ehediaid ar y ddaiar."

Nid oedd dim hynodrwydd yn llysiau nac ymlusgiaid y trydydd cyfnod: yr hyn a'u hynodai oddi wrth y ddau gyfnod blaenorol ydoedd, anifeiliaid y maes—y rhai, o ran nifer a maintioli, a ragorent ar ddim a welwyd gynt na chwedi hyny ar y ddaiar. Y mae gweddillion elephantiaid y tymmor hwn mor helaeth yn mhlith anialdiroedd rhewedig Siberia, fel y mae dynion wedi gweithio yn mysg eu hesgyrn er ys can mlynedd; ac nid yn anmhriodol y mae wedi cael ei alw yn "chwarelau ifori." Cydoesai â'r elephantiaid erfawr hyn greaduriaid ereill o faintioli cyfatebol, —y *mammoth*, y *masttodon*, y *rhinoceri*, yr *hippopotami*, y *dinotherium*, a'r *megatherium*. Onid yw hyn yn cyfateb i ddysgrifiad y rhan gyntaf o waith y chweched dydd: "A Duw a wnaeth fwystfil y ddaiar wrth ei rywogaeth, a'r anifail wrth ei rywogaeth."

Dyma waith tri diwrnod—y trydydd, y pummed, a'r chweched—yn cytuno mewn modd tarawiadol iawn â thri dosbarth y daiaregwr. Ac nid oes rwymau ar y daiaregwr i chwilio am gyssondeb rhwng y creigiau ond â thri o ddyddiau y greadigaeth; o herwydd nid ellir dysgwyl fod gan y creigiau ddim i'w ddyweyd mewn ffordd o adgofiad am greadigaeth y goleuni a'r ffurfafen, a dyfodiad yr haul, y lleuad, a'r ser i amlygrwydd. Y mae y creigiau yn cadw dyddlyfr cywir am y cyfan y dywed yr Ysgrythyr a gafodd ei greu ar ei gwyneb, ac y mae y ddau lyfr yn cyfateb yn berffaith am y drefn y dygwyd y cwbl i fod. Wrth weled y fath gydgordiad mor annysgwyliadwy, ac eto mor ryfeddol o gywir, rhwng ffeithiau daiareg a'r dystiolaeth ysgrifenedig, y mae yr ymofyniad yn codi yn y meddwl yn anocheladwy, Onid ellir cario y cydgordiad trwy yr oll o'r chwe diwrnod? Ond cyn cynnyg gwneyd hyn, y mae yn amlwg, yn y lle cyntaf, oddi wrth yr hyn a grybwyllwyd eisoes—sef nad yw yr hanes yn Genesis yn crybwyll dim am y ddaiar, yn y cyntaf, yr ail, a'r pedwerydd dydd—nad ydym ar yr un tir diogel i geisio cyssoni y tri diwrnod hyn ag ydym i gyssoni y tri diwrnod ereill. Y mae yn anmhosibl dychymygu am gydgordiad mwy perffaith nag sydd yn troi allan wrth gymharu yr hanes a ysgrifenodd Moses, tua phum mil o flyneddoedd yn ol, â'r creigiau a ffurflwyd, am a wyddom ni, filiynau ar filiynau o oesoedd yn ol—mor bell ag y mae y ddwy dystiolaeth yn llefaru am yr un peth. Ond nis gallwn eu cymharu am y tri diwrnod ereill; o herwydd y mae Moses yn ddystaw am danynt, gan lefaru yn hytrach am greadigaeth y goleuni, yr awyrgylch, a dyfodiad y bydoedd wybrenol i'r golwg. Ond er nad yw Moses yn crybwyll am yr hyn oedd yn cymmeryd lle ar y ddaiar y dyddiau neu yr ysbeidiau ereill, eto yr oedd hi yn meddu ei nodwedd briodol yr ysbeidiau yna. Yn nesaf, gan hyny, yr ymofyniad ydyw—Pe ail edrychid yn fanwl trwy yr holl drwch o greigiau sydd wedi dyfod yn hysbys i ddyn, ai nid ydynt yn ymranu yn lled naturiol i chwe dosbarth, fel ag i gyfateb i chwe diwrnod neu gyfnod Moses? Ni byddai dim anghyssondeb rhwng rhaniad i dri a rhaniad i chwech, mwy nag sydd rhwng dosbarthu yr Hen Destament i'r gyfraith, y Salmau, a'r prophwydi, a'u dosbarthiad drachefn i'r gwahanol lyfrau sydd yn eu cyfansoddi. Os cymmer y darllenydd i'w law ryw ddangoseg o drwch y creigiau fel y gorweddant yn rheolaidd ar eu gilydd—pob craig a phob haen yn eu lle, ac wedi eu dosbarthu i fwy o fanylwch na'r dosbarthiad triphlyg a nodasom o'r blaen, ond yn gysson â hwnw, ac yn ei gynnwys—fe wel fod y dosbarthiad canlynol yn un naturiol, ac yn hollol ddidrais. Nid oes genym ond ei roddi yn fyr, a bron yn hollol mewn geiriau anghyflaith, gan gyfeirio at DDAIAREG am esboniad helaethach arno:—Mae y tri diwrnod neu gyfnod y cyfeiriwyd atynt eisoes, sef y trydydd, y pummed, a'r chweched, yn cyfateb, *yn gyntaf*, i'r hyn a eilw daiaregwyr y gyfundrefn ulyfddwyn (*carboniferous system*), yn mha un y mae y llysiau tyfadwy wedi eu claddu a'u troi yn olosg neu danwydd (*carbon*); *yn ail*, y cyfnodau wyfeinig a marmaidd (*oolitic and cretaceous periods*), yn mha un y crewyd y morfilod mawrion a'r adar; ac *yn olaf*, y trydydd cyfnod (*tertiary period*), yn mha un y crewyd anifeiliaid mawr tethog y tir (*mammals*). Ond rhwng cyfnod y llysiau a chyfnod yr ymlusgiaid mawrion—neu yn hytrach yn cynnwys prydnawn y diwrnod neu gyfnod llysieuog, a gwawr cyfnod yr ymlusgiaid—y mae

Digitized by Google

cyfwng mawr, yn yr hwn y mae y llysiau yn llai nag yn y cyfnod blaenorol, a'r creaduriaid yn llai nag yn y cyfnod dilynol. Gan fod yr adeg lysieuol yn cyfateb i'r trydydd dydd, y mae y cyfwng hwn sydd yn ei ddilyn yn cyfateb i'r pedwerydd dydd. Ni chynnwysai y dosbarthiad triphlyg ond y creigiau a gynnwysant gloddelion; ond y mae lluaws o greigiau sydd yn adnabyddus na chynnwysant y gweddillion bywydol hyn, megys creigiau gleision Cymru—perthynant hwy i'r cyfnod difywyd (*azoic period*). Ar hwn y gorphwys dau adraniad mawr arall cyn cyrhaedd y tymmor carbonaidd, sef y Siluriaidd a Chymroaidd, i ba rai y perthyn creigiau Plinlimmon a'r Bala, a'r hen dywodfaen goch. Y mae y creigiau hyn gyda'u gilydd yn cynnwys yr holl raddau daiaregol, a gellir eu henwi yn eu trefn, fel y canlyn:—yn gyntaf, y dydd neu gyfnod difywyd; yn ail, y dydd neu gyfnod Cymroaidd a'r *old red sandstone;* yn drydydd, y dydd neu gyfnod carbonaidd; yn bedwerydd, y dydd neu gyfnod Permaidd a Triassaidd; yn bummed, y dydd neu gyfnod wyfeinig a marmaidd; ac yn chweched, y dydd neu gyfnod trianol (*tertiary*).

Am y dosbarthiad hwn, dywed Miller: "Yn awr, yr wyf yn camsynied yn fawr os nad yw y chwe chyfnod daiaregol hyn yn cynnwys, heb un chwanegiad na chamosodiad, hanes creadigaeth y byd, fel y gosodir hyny allan gan Moses." Fod yma gydgordiad amlwg a tharawiadol rhwng gwersi diweddaf a chywiraf daiareg a'r hanes sanctaidd am greadigaeth y byd, sydd yn anwadadwy.

Yr ymofyniad nesaf yw, A ydym heb wneyd trais â geiriadaeth y Beibl wrth gymmeryd y gair a gyfleithir *dydd* yn Genesis am gyfnod anmhenderfynol, fel y gwneir yn yr esboniad uchod. Y mae y cwestiwn hwn yn ein harwain at un arall o ddyddordeb neilldduol; sef, Pa fodd y derbyniodd Moses ei wybodaeth am greadigaeth y byd? Ei fod wedi ei dderbyn trwy ddadguddiad oddi wrth y Creawdwr ei hun, sydd amlwg. Ond pa fodd? Ai mewn ffordd o hanes, ai ynte trwy weledigaeth, neu gyfres o weledigaethau? Mae Miller yn credu mai trwy weledigaeth. Nid efe oedd y cyntaf a fabwysiadodd y golygiad hwn. Amddiffynir ef gan Dr. Kurtz (1849), o waith yr hwn [*Y Beibl a Seryddiaeth*] y mae Miller yn rhoddi ychydig frawddegau. Eu hamcan ydyw dangos fod dyn yn sefyll yn yr un berthynas, o ran gwybodaeth ac anwybodaeth, tuag at yr hyn a gymmerodd le cyn ei fod a'r hyn sydd o'i flaen yn y dyfodol. Mae yn rhaid i ddyn gael dadguddiad o'r naill a'r llall cyn y gall eu gwybod. A chan fod yr hyn a gymmerodd le cyn i Adda ddyfod i fod, ar yr un tir, mewn ystyr duwinyddol, a hanesiaeth ddyfodol y byd, y mae yn cael ei hysbysu i ddyn trwy brophwydoliaeth—gyda hyn o wahaniaeth, fod yr hanes a roddwyd i Moses yn brophwydoliaeth sydd yn rhedeg yn ol ac nid yn mlaen. A chan ei fod yn perthyn i'r dosbarth prophwydol, y dylid ei esbonio yn gyffelyb i brophwydoliaeth. Ac fel yr oedd prophwydoliaethau yn cael eu rhoddi yn fynych trwy weledigaethau, felly y mae pob tebygolrwydd fod hanes creadigaeth y byd wedi ei roddi yn y modd hwn. O flaen llygaid y gweledydd, y mae golygfa ar ol golygfa yn ymagor—nes o'r diwedd, mewn saith o honynt, y mae creadigaeth yn ei phrif ranau yn cael ei gosod allan.

Yn hollol annibynol ar ymresymiadau y Dr. Kurtz, ymddangosodd traethawd bychan galluog ar *Gyssondeb Hanes Moses â Daiareg.* Yn y traethawd hwn y mae yr awdwr yn ymofyn i "ffurf y dadguddiad" a roddwyd i Moses. Y mae dadguddiad yn bosibl i ddyn ysbrydoledig trwy iaith, trwy weledigaeth arwyddol, a thrwy weledigaeth uniongyrchol o'r peth mewn gweledigaeth. Trwy gyfrwng yr olaf, dadleuai ef, y galluogwyd Moses i ysgrifenu hanes y greadigaeth. Ei resymau dros hyn ydynt: — Caniateir yn gyffredin fod yr hanes yn Genesis y fath ag a roddasai un a fuasai yn gweled yr hyn a gymmerodd le; megys galw y lleuad yn oleuni mawr, &c. Nid allasai fod un rheswm dros hyn oni buasai fod un yn gweled. Ond nis gall fod yn weledigaeth arwyddol, megys gweledigaethau Daniel a Ioan; o herwydd y mae y cyfan yn adroddiad bywiog, eglur, fel adroddiad dyn a fuasai yn gweled. Fel y canlyn hefyd y dysgrifia yr Arglwydd ei hun y modd y byddai yn rhoddi dadguddiedigaethau i Moses: "Wyneb yn wyneb y llefaraf wrtho, mewn gweledigaeth, nid mewn dammegion;" *Num.* xii. 8.

Derbyniodd Moses gyfarwyddyd i wneuthur y tabernacl a'i ddodrefn; cyfarwyddwyd Dafydd hefyd pa fodd i adeiladu y deml. Pa fodd y lleferir am y ddau? Fel y canlyn am y cyfarwyddiadau a roddwyd i Moses:—"Yn ol y dull (yn llythyrenol—yr olygfa, y weledigaeth) a ddangosodd yr Arglwydd i Moses, felly y gwnaeth efe y canwyllbren;" *Num.* viii. 4. "Hyn oll, (ebe Dafydd) a wnaeth yr Arglwydd i mi ei ddeall *mewn ysgrifen*, trwy ei law ef arnaf fi, sef holl waith y portreiad hwn;" 1 *Cron.* xxviii. 19. Felly, rhoddwyd "ysgrifen" i Dafydd, ond "portreiad" mewn gweledigaeth neu weledigaeth i Moses. Y cyfan gan hyny y dadleuir drosto yma yw, fod portreiad cyffelyb wedi ei roddi i'r hanes ydd sanctaidd o greadigaeth y byd ag a roddwyd iddo o'r tabernacl a'i ddodrefn. "A oedd y geiriau a ysgrifenodd Moses yn cael eu hargraffu ar ei feddwl fel goddefydd yn unig? A oedd efe yn dal y pin yn unig, ac un arall yn ei gyfarwyddo i roddi geiriau i lawr nad ydoedd yn eu deall? O'r braidd y bydd neb yn barod i gymmeryd y golygiad hwn o'r ysbrydoliaeth y cynnysgaethwyd Moses âg ef. A welodd efe gan byny mewn gweledigaeth y pethau a ddysgrifia?.....Y mae yn amlwg ei fod yn ysgrifenu yr hyn a welodd. Y mae yn dysgrifio yr hyn a barodd yr Ysbryd i fyned o flaen ei lygaid. Syrthiodd i lewyg megys Pedr, ond yr oedd ei lygaid yn agored. Gallasai sylwi ar yr hyn oedd yn myned o flaen ei ddychymyg mewn goleuni dwyfol; a phan y byddai y weledigaeth yn diflanu, yr oedd y tywyllwch a orchuddiai yr olygfa yn ymddangos iddo fel effaith agosâd y nos. Mewn geiriau ereill, yr oedd pob 'dydd' yn cynnwys dysgrifiad o'r hyn a ganfyddai mewn un weledigaeth, a phan ddiflanai hono, yr ydoedd yn nosi. Nid oes dim yn annaturiol mewn tybied fod y weledigaeth, ar ol iddi fod am ychydig o flaen ei olwg, wedi diflanu, fel y mae yr olygfa naturiol yn diflanu yn ngwyll yr hwyr.....Tra yr ydoedd y weledigaeth yn para yn ddysglaer, yr ydoedd yn 'ddydd' neu yn 'oleuni;' a phan y tywyllai yr olygfa i'w feddwl, yr ydoedd yn 'hwyr.' Fel hyn, gallwn ddeall pa ham y mae y gweledydd yn llefaru am *saith* niwrnod, ac ond am *chwe* noswaith; o herwydd pasiodd saith o olygfeydd o flaen ei ddychymyg goleuedig, ond ni ddisgynodd y llen, megys, ond chwe gwaith. Y mae y seithfed golygfa yn para, ac nid yw yr hwyr wedi dyfod eto." Fod Moses wedi dysgrifio

Digitized by Google

creadigaeth yn *weledig*, sydd amlwg: pa reswm gwell, gan hyny, a ellir roddi na'i fod wedi ei ddadguddio iddo yn *weledig*. Rhaid oedd i'r hanesydd roddi dysgrifiad naill ai fel yr oedd pethau *ynddynt eu hunain*, neu fel yr ymddangosent i un yn *gweled* y cwbl. Yr olaf a wnaethpwyd. A pha ham? os nad am fod yr hanesydd wedi cael golwg ar *bortreiad* y cwbl, megys y cafodd olwg ar y berth yn llosgi, ac ar y tabernacl a'r dodrefn cyssegredig. Defnyddia Miller syniad Kurtz am yr hanes, fel prophwydoliaeth yn edrych yn ol, i sylfaenu arno y sylw—mai ffeithiau gwyddoreg yn unig a all ein cynnorthwyo i ddeall y brophwydoliaeth hon, fel mai hanesiaeth y byd yn unig sydd yn esbonio y brophwydoliaeth sydd yn edrych yn mlaen i'r dyfodol. A bod daiareg wedi gwneyd llawer tuag at esbonio hanes prophwydoliaethol Moses, sydd amlwg oddi wrth yr hyn a ddangoswyd eisoes yn y cydgordiad rhwng y darlleniad deallus o'r creigiau a'u cynnwys â'r hanes ysbrydoledig.

Gwelir oddi wrth hyn fod y "dyddiau" yn perthyn, nid i amseryddiaeth, ond i brophwydoliaeth weledigaethol; a'u bod fel dyddiau arwyddol, yn arddangos cyfnodau meithion creadigaeth, fel yr oedd golygfeydd y weledigaeth yn arddangos yr hyn a wnaethpwyd yn y cyfnodau hyny. Mae y "dyddiau" yn Genesis yn sefyll yn yr un berthynas â'r gweledigaethau portreiadol a ddysgrifir yno, ag ydyw y cyfnodau anhysbys, ond meithion, a gedwir yn annileadwy yn y graig, â chreadigaeth y creigiau eu hunain, a'r cwbl a gynnwysant.

Nis gallwn wrthsefyll y demtasiwn i roddi dysgrifiad Miller o'r weledigaeth—dernyn o hyawdledd, yn Seisoneg, y byddai yn anhawdd cael ei ragorach:—

"Fe fyddai dysgrifiad o weledigaeth greadigol Moses, fel un Milton—y weledigaeth o'r dyfodol y mae yr archangel yn ei arddangos iddo—yn orchwyl mwy perthynol i'r bardd celfyddgar, yn hytrach nag i'r daiaregwr neu y duwinydd. Gadewch i ni dybio ei fod yn cymmeryd lle yn mhell o drigfa dyn, mewn cilfach ansathredig o anialwch Midian, cyn gweledigaeth y 'berth yn llosgi;' ac, fel yn ngweledigaeth Ioan yn Patmos, fod lleisiau yn ymgymmysgu â golygfeydd—y glust yn cael ei chyfarch yn gystal a'r llygad. Y mae 'tywyllwch mawr' yn disgyn yn gyntaf ar y prophwyd, fel yr hwn a ddisgynodd gynt ar Abraham, ond heb y "dychryn;" a thra y mae yr Ysbryd Dwyfol yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd cythryblus, fel rhyw wawr weledig, yn cael ei hamdoi gan y cwmwl dudew, y mae yr athrawiaeth fawr yn cael ei thraethu, mai 'yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaiar.' Mae oesoedd dirifedi, wedi eu crynoi i weledigaeth o ychydig o amrantau, yn myned ymaith. Clywir y llais creadigol yn dywedyd, 'Bydded goleuni!' ac yn ebrwydd wele oleu gwelw gwasgaredig yn dyrchafu yn y dwyrain, a thra yn taflu goleuni llwydaidd dros y môr tawch tarthlyd, cyfyngedig gan y cymylau, y mae yn teithio tua'r gorllewin. Un diwrnod trwm, pruddaidd, di-haul, wnaed yn gynnrychiolydd o fyrddiynau. Mae y goleu gwan yn myned yn wanach—y mae yn soddi is law y terfyngylch pwl aneglur. Y Mae yr olygfa gyntaf yn ymgau ar y gweledydd; ac fe eistedd ennyd ar ben y bryn mewn tywyllwch, yn unig, ond nid yn drist, ar noswaith sydd yn ymddangos yn dawel, ond heb ei goleuo âg un seren. Y mae y goleuni eto yn dysgleirio—mae hi yn dôydd:—a thros ymlediad cefnfor heb un cylch gweledig y mae y terfyngylch wedi dyfod yn lletach ac eglurach ei amliw nag o'r blaen;—y mae bywyd yn yr eigion mawr: ond o safle y prophwyd ni wel ond treigliad araf ei donau, fel y codant ac y disgynant o flaen yr awel ddystaw; a'r hyn sydd yn rhoddi yr argraff ddwysaf ar y llygad yw, y cyfnewidiad sydd wedi cymmeryd lle yn ngolygfa yr wybren. Y mae clawr isaf y nefoedd—ag ydoedd yn y weledigaeth flaenorol yn cael ei meddiannu gan ager mwygl neu fygdarth niwlog—yn awr yn glaer a thryloew; tra mewn parthau uwch yn unig, lle gynt yr oedd tarth anweledig y môr clauar wedi tewychu gan yr oerfel, y mae y cymylau yn ymddangos. Ond yna, yn yr awyrgylch uwch, y maent yn gorwedd yn dew a lluosog, yn fôr o donau mawrion, yn cael eu gwahanu oddi wrth y rhai is law gan ffurfafen glaer, ac fel hwythau yn cael eu hyrddio yn bentwr o droadau gan y gwynt. Mae cynnydd dirfawr wedi cymmeryd lle yn y greadigaeth; ond yr arwydd mwyaf canfyddadwy yw y wybren dryloew—y ffurfafen estynedig dros y ddaiar, ac yn gwahanu y dyfroedd uwch law y ddaiar oddi wrth y rhai is law iddi. Ond y mae tywyllwch yn disgyn y trydydd tro ar y gweledydd, canys y mae yr hwyr a'r bore yn terfynu yr ail ddydd. Eto mae y goleuni yn dyrchafu dan len o gwmwl; ond y mae yr olygfa wedi newid, ac nid yw y môr mwyach yn ymledu yn ddiderfyn. Mae y swyf gwyn yn y pellder yn ymdori ar ryw graig neilldduedig, wedi ei ffurflo hwyrach yn y cyfnod Siluriaidd—oesoedd gynt, a berthynent i'r diwrnod o'r blaen; ac yn nes ato, yn curo ac yn ewynu ar draeth isel, ei derfyn tua gwlad eang. Canys wrth orchymyn dwyfol mae y ddaiar wedi codi o'r dyfnder, nid yn aneglur, ac yn ynysoedd bychain yma a thraw fel o'r blaen, ond yn gyfandiroedd mawrion corslyd ychydig yn uwch na lyfel y môr; ac y mae gorchymyn pellach wedi ei gorchuddio â blodau mawr y cyfnod *carbonaidd*. Fforestydd mawr o ffawydd a chedrwydd yw yr olygfa yn awr—palmwydd, coed rhedyn, clwpfwsoglydd anferth ar yr ochrau mwyaf agored, a chorsenau mawrion yn glystyrau ar fin y llynoedd tawel a'r afonydd tywyll. Y mae rhyw brudd-der dwfn yn nghilfachau y coedwigoedd tewion, tra y mae caddug tew yn ymdreiglo ar hyd y corsdir llaith, neu y ffrwd ddifywyd. Ond y mae yr awyr uwch ben yn edrych yn oleuach: fel y mae y dydd yn hwyrhau, mae gwawr gochaeh nag a welwyd o'r blaen yn disgyn ar y ceulenydd rhedynog a'r glasdir cysgodaidd.

"A phan y mae y pedwerydd hwyr wedi disgyn ar y prophwyd, mae yn dyfod i deimlo, fel y mae y bedwaredd wawr yn nesau, fod cynnewidiad eto wedi cymmeryd lle. Llefara y Creawdydd,—yna y ser a edrychant allan o'r wybren las, ddigwmwl; ac fel y mae y dydd yn dyrchafu, a phlaned y bore yn ymlwydo yn y dwyrain, y cymylau toredig yn newid eu rhuddgochni am liw mwy euraidd, yr awyr yn troi yn dân, yna y gwelir yr haul gogoneddus yn dyrchafu o'r môr gan fyned ar ei daith dan orfoleddu. Diwrnod ysblenydd yw hwn! y tonau â'u gwawr las, tywyllach na chynt, yn dawnsio ac yn ymddysgleirio yn y goleuni. Y ddaiar, heb fod ganddi nemawr arall i dynu sylw, sydd wedi ymwisgo yn y gwyrddlesni prydferthaf; ac fel y mae yr haul yn machludo yn nghanol gogoniant mwy godidog nag y cododd, mae y llawn lloer—yr ail oleuni mawr yn y nefoedd—i'r llygad dynol yn ymddangos yn y dwyrain, ac yn dringo i'r entrych fel y mae

Digitized by Google

y nos yn dyfod yn mlaen, gan ddyhidlo ei belydrau tirion dros dir a môr.

"Y mae y wawr yn tori eto—yr olygfa fel o'r blaen, yn gynnwysedig o dir a môr. Y mae yna binwydd, siglenydd wedi eu hamdoi â chorsenau, gwastattiroedd llydain, afonydd troellog, a llynoedd llydain, a haul dysglaer yn tywynu ar y cwbl. Ond y mae yr olygfa yn derbyn dyddordeb a newydd-der oddi wrth un wedd na welwyd o'r blaen: — Adar mawrion sydd yn cerdded y traeth, neu a ant yn mhell i'r dwfr i chwilio am eu hymborth; tra y mae y rhai llai yn nofio ar y llynoedd, neu yn ysgrechian a hofran yn heidiau mor aml a gwybed ar brydnawn haf, dros y moroedd culion, a'u hadenydd yn dysgleirio gan belydrau yr haul, sydd hefyd yn llewyrchu ar y coedwigoedd tewion.

"Y mae gan y weilgi hefyd ei anfertholion: *tanninim* mawrion a arfrochant y dyfnder wrth ymgodi eu dirfawr faint ar y wyneb i dynu i mewn yr awyr er cynnal eu bywyd, ac allan o'u ffroenau yr ä allan fwg fel o grochan berwedig. Creaduriaid anferth wedi eu harfogi â chen mawrion a thrwchus, a gynniweiriant yr afonydd, neu a wibiant ar hyd y gweirgloddiau isel mwsoglyd; daiar, awyr, a dwfr ydynt yn llawn o fywyd anifeilaidd; ac y mae yr haul yn machludo ar olygfa brysur, lle y mae greddf anffaeledig yn dilyn ei ychydig amcanion syml—cynnaliaeth a chadwraeth y creadur unigol, cenedliad y rhyw, ac amddiffyniad a chynnaliaeth yr hiliogaeth.

"Y mae y nos yn disgyn eto, canys y mae y pummed dydd wedi darfod; ac y mae y wawr yn tori ar y chweched, a dydd olaf y greadigaeth. Anifeiliaid y maes a borant ar y gwastattir; y rhinoceros croendew a ymdreigla yn y siglenydd; yr hippopotamus crwclyd a siffrwd yn mhlith y corsenau, neu a naid yn sorllyd i'r afon; gyroedd mawrion o elephantiaid a chwiliant am ymborth yn mhlith y dail; tra y mae anifeiliaid o natur mwy ffyrnig—y llew, y llewpard, a'r arth—yn llochesu mewn ogofeydd dyfnion hyd yr hwyr, neu yn cynllwyn am eu hysglyfaeth mewn llwyni dyryslyd, neu dan ryw foncyn drylliedig.

"O'r diwedd, fel y mae y dydd yn cilio, a'r cysgodau yn hwyhau, wele ddyn—arglwydd cyfrifol y greadigaeth, ffurfiedig ar ddelw Duw—yn cael ei alw i fod!—a gwaith y greadigaeth a baid am byth ar y ddaiar! Y mae y nos yn disgyn unwaith eto ar yr olygfa, ac un trannoeth eto sydd i wawrio — trannoeth gorphwysdra Duw — y Sabbath nefolaidd, yn yr hwn nid oes mwyach waith creadigol—yr hwn, wedi ei 'fendithio a'i sancteiddio' gorawch yr holl ddyddiau a aethant o'r blaen, sydd â'i nod arbenig at ddyrchafiad moesol a chwbl brynedigaeth dyn. Ac ar y dydd *hwn*, nid yw yr hanes yn arddangos un hwyr yn disgyn; o blegid fod ei waith arbenig eto heb ei gwblhau. Y cyfryw, y mae yn ymddangos, oedd yr arlunfa aruchel o'r greadigaeth a arddangoswyd mewn gweledigaeth gynt

'I'r bugail ddysgodd gyntaf i'r dduwiol had,
Yn y dechreu mal y nef a'r ddaiar,
Cyfodasant o'r annhrefn.'"

Wrth gymmeryd yr esboniad uchod i gyd gyda'i gilydd, ni gawn y cyfnodau meithion y mae daiareg yn eu gofyn o ran nifer a threfn yn cyfateb i "chwe diwrnod" hanes Moses; ac hefyd yn y dadguddiad gweledigaethol a roddwyd i'r ysgrifenydd ysbrydoledig o waith y "chwe diwrnod," ni gawn y gair "dydd" yn cael ei ddefnyddio yn ei ystyr llythyrenol; ond i ni gymmeryd yn ganiataol—yr hyn sydd yn dybiaeth ddigon naturiol—fod pob gweledigaeth wedi parhau yr ysbaid o ddiwrnod llythyrenol.

Yr hyn sydd yn ymddangos yr wrthddadl gryfaf yn erbyn yr esboniad gweledigaethol hwn ydyw, nad oes un awgrymiad o wahaniaeth rhwng y bennod gyntaf a'r hanesion dilynol. Ymddengys y naill fel y llall yn hanes, heb ddim yn y pennodau eu hunain i arwyddo fod y naill yn weledigaeth a'r llall heb fod. Ond pe gwrthodid y dybiaeth mai trwy weledigaeth y derbyniodd Moses ei wybodaeth am greadigaeth y byd, ni byddai hyny yn un rheswm dros wrthod yr esboniad daiaregol. Y mae y naill yn annibynol ar y llall, a phob un yn sefyll ar ei resymau ei hun. Ond trwy eu huno yr ydys yn rhoddi i'r gair *dydd* ei ystyr naturiol, ac hefyd yn ei ddefnyddio am ysbaid maith mewn ystyr brophwydoliaethol. Y mae rhai yn hòni nas gellir cymmeryd *dydd* am gyfnod maith, heb ei ddefnyddio yn anghysson â'r dull ysgrythyrol o wneuthur felly. Edrychwn am fynyd am y prawf o hyny.

1. Addefir yn gyffredinol fod יום — *iom*, a ἡμερα—*hemera*="dydd," yn yr Hen Destament a'r Newydd, yn arwyddo yn fynych *gyfnod* o amser. Ond, fel y dywed Dr. Pye Smith, mewn barddoniaeth neu areithyddiaeth y rhoddir yr ystyr ffugrol hwn i'r gair [*Scripture & Geol.*, td. 201], ac nid mewn hanesiaeth. Ond y mae hyn yn dangos nad oes dim yn y gair ei hun yn erbyn ei roddi am ysbaid maith o amser.

2. Y mae rhai wedi meddwl fod yr ymadrodd "yr hwyr a fu a'r bore a fu," yn rhwymo y gair *dydd* yn gaeth i'w ystyr naturiol. Ond nid oes grym yn hyn; o herwydd os defnyddir *dydd* yn ffugrol, y mae yn rhaid cymmeryd yr ymadroddion uchod felly hefyd am ddechreuad a diwedd y tymmor y mae y gair *dydd* yn ei ddynodi. Pa beth sydd yn fwy cyffredin na dywedyd "bore a phrydnawn bywyd?"

3. Ond tybir fod amgylchladau yn hanes y greadigaeth, yn enwedig creadigaeth dyn, sydd yn gofyn i'r gair gael ei ddefnyddio mewn ystyr eangach na'i ystyr naturiol. Crewyd yr anifeiliaid ar y chweched dydd; ac hefyd, ar ol hyny, ar yr un dydd crewyd dyn, yn wryw ac yn fenyw: *Gen.* i. 27. Ond oddi wrth yr hanes meithach yn yr ail bennod, gwelir mai nid ar unwaith y crewyd y gwr a'r wraig, er ar yr un dydd. Ond rhwng creadigaeth y ddau, dygwyd anifeiliaid y maes, ac chediaid yr awyr, at Adda i dderbyn eu henwau ganddo. Pa fodd bynag y deallir hyn, a pha faint bynag y cyfyngir nifer yr anifeiliaid a ddygwyd ato, rhaid ei fod yn waith amser. Ar y dybiaeth nad oedd y chweched dydd yn cynnwys ond pedair awr ar ugain, nid allasai yr ysbaid a gafodd Adda i adolygu ac enwi y creaduriaid fod ond byr iawn—ychydig oriau ar yr hwyaf; yr hyn ydyw yr anhawsder crybwylledig. Ond os caniatëir fod y chweched dydd yn cynnwys amryw ddyddiau naturiol, neu yn cael ei ddefnyddio am ysbaid anmhenderfynol, y mae yr anhawsder ar unwaith yn diflanu. Nid oes un awgrymiad yn yr hanes hwn pa faint o amser sydd rhwng pob dygwyddiad, er fod trefn y dygwyddiadau yn cael ei nodi yn fanwl. Er anghraifft, nid oes dim i'n cynnorthwyo i benderfynu, gydag un sicrwydd, amser y cwymp—ffaith o'r pwysigrwydd mwyaf yn hanes moesol ac ysbrydol dyn.

4. Tybir yn gyffredin fod hanes Sabbath y greadigaeth yn benderfynol o blaid dyddiau naturiol. Ac ymresymir fel y canlyn:—Fod y seithfed dydd, neu y Sabbath—yr hwn sydd yn

Digitized by Google

cwblhau wythnos y greadigaeth — yn ddydd naturiol; ac o ganlyniad, y mae yn anghysson â holl reolau iaith i ddeall y chwe diwrnod blaenorol, sydd yn ffurfio rhan o'r un hanes, mewn ystyr gwahanol. Ymddengys yr wrthddadl hon i lawer fel yn meddu grym neilldduol; o herwydd tybiant nas gellir, mewn un modd, ddeall y seithfed dydd ond mewn ystyr naturiol: ac o ganlyniad, fod y casgliad yn anocheladwy — fod y lleill felly hefyd. Ond pe gellid dangos nad oes seiliau digonol i ddeall parhâd y Sabbath yn y modd terfynol hwn, ond i'r gwrthwyneb, fod yn rhaid ei estyn i ddynodi amser maith, fe dry yr ymresymiad uchod yn hollol i'r ochr arall. Yr hysbysiad ysgrythyrol am y seithfed dydd ydyw: "Ar y seithfed dydd y gorphenodd Duw ei waith, yr hwn a wnaethai efe, ac a orphwysodd y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith, yr hwn a wnaethai efe;" *Gen.* ii. 2. Er mwyn deall hyn, y mae yn angenrheidiol gofyn, Pa beth ydyw natur Sabbath neu orphwysdra Duw? Gellir deall yr ymadrodd "Duw a orphwysodd," yn yr ystyr o *beidio* chwanegu at wrthddrychau y greadigaeth; ac er fod y gair *shofath* (שבת) yn arwyddo peidio oddi wrth lafur, y mae yn angenrheidiol, yn unol â'r holl Ysgrythyr, ei ddeall am y Duw Mawr, nid fel pe buasai wedi diffygio, ond i osod allan ei gymmeradwyaeth o'i waith, a'i foddhâd ynddo. Ac nid gorphwysdra oddi wrth bob math o waith ydyw, ond gorphwysdra mewn gweithgarwch. Y mae geiriau Crist—"Y mae fy Nhad yn gweithio hyd yn hyn"—nid yn unig yn dangos ei fod yn cynnal ac yn llywodraethu yr hyn a greodd; ond hefyd, fel y dywed Olshausen, "Ei weithgarwch creadigol yn y byd ysbrydol." Yn y gwaith o ddyrchafu a sancteiddio dyn, y mae y *greadigaeth newydd* (=καινη κτισις; 2 *Cor.* v. 17) yn myned yn mlaen yn barhäus. Ar ol gorpheniad y greadigaeth gyntaf y dechreuwyd yr ail. Y gwaith ysbrydol hwn ydyw gwaith dydd Sabbath Duw, fel yr oedd dygiad pob peth gweledig i fod yn orchwyl, mewn ystyr, ei ddydd gwaith. Ac er mwyn dwyn yn mlaen y gwaith hwn, y mae wedi penodi i ddyn orphwysdra sanctaidd y Sabbath—"fel," yn ngeiriau Luther, "y gallai dyn orphwys oddi wrth ei weithredoedd, er mwyn i Dduw gael dwyn yn mlaen ei waith ei hun ynddo." Os ydyw hyn yn syniad cywir am natur Sabbath Duw, y mae yn amlwg nad yw ei barhâd i'w fesur wrth barhâd Sabbath dyn. Dechreuodd Sabbath Duw ar orpheniad y greadigaeth gyntaf, ac nid yw eto wedi gorphen. Felly, y mae yn cynnwys holl amser dyn—ei Sabbathau a'i ddyddiau gwaith. Y mae yn yr hanes ei hun fath o awgrymiad o gywirdeb y golygiad hwn. Ni ddywedir yn niwedd y seithfed dydd, fel yn niwedd y dyddiau ereill—"*Yr hwyr a fu, a'r bore a fu*, y seithfed dydd." Pa beth ydyw yr ystyr o hyn, os na fwriadwyd ef i'n dysgu, nad yw Sabbath Duw eto wedi dyfod i ben; a bod yr un dydd hwn yn cynnwys holl hanes dyfodol dyn ar y ddaiar. O'r braidd y gellir dyweyd fod y Sabbath hwn eto wedi cyrhaedd ei nawn. Os ydyw y golygiad hwn yn gywir am Sabbath Duw, y mae yn canlyn fod y dyddiau ereill i'w deall, nid yn eu hystyr llythyrenol, ond mewn ystyr cyfatebol i'r seithfed—sef cyfnod mawr gras ac iachawdwriaeth. — (*Kitto's Bib. Cycl.*, erth. *Creation; Macdonald's Creation & the Fall; The Footprints of the Creator*, gan H. Miller; *The Testimony of the Rocks*, gan H. Miller; *Harmony of the Mosaic and Geological Records*, gan Sime; *Buckland's Bridgewater Treatise; Scripture and Geology*, gan Dr. Pye Smith; *Geology & Religion*, gan Dr. King; *Student's Cabinet Library*, rhif xix, gan y Professor Hitchcock).

CREDO YR APOSTOLION, y gelwir y blaenaf mewn trefn o'r tri chredo arferedig yn ngwasanaeth Eglwys Loegr. Y ddau arall yw Credo Sant Athanasius, a Chredo Nicaia. Y tri chredo hyn, medd yr wythfed o'r namyn un deugain erthyglau crefydd, "a ddylid yn gwbl eu derbyn a'u credu: o blegid fe elkr eu profi trwy ddiddadl warantrwydd yr Ysgrythyr Lân."

Tybiai rhai o'r hen dadau—ac yn eu plith Ambrose, Ruffin, ac Awstin (o leiaf, hônir hyny mewn gwaith a briodolir iddo) — gael o'r credo hwn ei gyfansoddi gan yr apostolion eu hunain, ychydig cyn eu hymwasgariad o Ierusalem; ac y mae y dysgedig Baronius, yn mhlith y diweddariaid, yn pleidio yr un golygiad: ond prin y mae eisieu crybwyll nad oes nemawr, od oes neb, yn enwedig yn mhlith Protestaniaid, o'r farn hono y dydd heddyw; ac felly afraid gwastraffu rhesymau, fel y gwna rhai, i geisio profi na chyfansoddwyd mo hono ganddynt hwy. Ni ddywed yr Eglwys Sefydledig mewn un wedd mai eu gwaith hwy ydyw, ond yn unig y gelwir ef yn gyffredin ar eu henw hwynt, heb gynnyg penderfynu dim pellach yn nghylch ei dadogaeth.

Bernir yn gyffredin id lo gael ei alw yn "Gredo yr Apostolion," am ei fod yn cynnwys, ar fyr eiriau, grynodeb o'r athrawiaethau a ddysgid ganddynt hwy: ond rhaid cyfaddef nad yw hyn yn eglurhâd cwbl foddhaol; canys y mae pob credo, yn nhyb y sawl a'i ffurfiasant, yn dysgu athrawiaeth ac addysg yr apostolion. Tebycach iddo dderbyn yr enw oldi ar y dyb mai eu cyfansoddiad hwy mewn gwirionedd ydoedd; er nas gallwn ni, y dydd heddyw, ganiatäu fod nemawr o sail i adeiladu y gyfryw dybiaeth arni. Pobl dda, ond pobl led hygoel, oedd llawer o dadau y brif eglwys; ac nid oedd beirniadaeth o fath yn y byd yn beth a goleddid yn gyffredin yn eu plith.

Ond er nad oes un prawf, nac yn wir, nemawr o debygolrwydd, mai gwaith yr apostolion yw y credo hwn, eto y mae profion ddigon o'i hynafiaeth, ac o'i arferiad er yn dra bore yn ngwasanaeth cyhoeddus yr Eglwys Gristionogol. Bod y rhan fwyaf o hono yn lled agos mor hen ag amser yr apostolion, os nid yn llawn cyn hyned, sydd eithaf amlwg wrth dystiolaeth rhai o ysgrifenwyr boreuaf yr eglwys gyntefig; yn enwedig Ignatius, dysgybl yr apostol Ioan, ac esgob cyntaf Antiochia; canys y mae y rhan fwyaf o erthyglau y credo i'w cael yn ei lythyrau ef. Eto, y mae rheswm i farnu ddarfod i ryw ychydig bethau gael eu chwanegu ato wedi ei amser ef, megys y "disgyniad i uffern," "cymun y saint," a'r "bywyd tragywyddol," er mwyn gwrthwynebu rhyw gyfeiliornadau dybryd a ymgodent yn yr eglwys. Ond y mae yr holl ffurf, megys y mae yn sefyll y dydd heddyw yn nhrefn gwasanaeth Eglwys Loegr, i'w chael yn ngwaith Ambrose, esgob Milan, a'i gyfoeswr Ruffin, offeiriad Acwileia, y rhai a flodeuent yn y pedwerydd canrif. Maent hwy, fel yr awgrymwyd eisoes, yn priodoli y gwaith i'r apostolion eu hunain, megys hefyd y gwna Isidorus Hispalensis, Venantius Honorius Clementianus, Leo Magnus, ac ereill o'r tadau gynt.

Eithr er bod y credo fel hyn yn ddiammheu o gyfansoddiad tra boreuol, nid arferid ei adrodd yn y gwasanaeth cyhoeddus, ond yn unig o flaen

Digitized by Google

bedydd, pryd y gwnelai yr egwyddorigion broffes o fanau eu ffydd; ac ni fedyddid yr amser hyny ond ar y Pasc a'r Sulgwyn yn unig, oni ddygwyddai fod rhyw achos neilldiol yn galw am weinyddiad mynychach. Y cyntaf y mae genym hanes am dano a'i harferodd yn ngwasanaeth beunyddiol yr eglwys ydoedd Petrus Gnapheus, esgob Antiochia, o gylch y flwyddyn 471; a mabwysiadwyd ef gan Eglwys Caer Cystenyn o ddeutu 511. O wledydd y dwyrain daeth yr arferiad o hono yn lled fuan i rai o eglwysi y gorllewin; a derbyniwyd Credo yr Apostolion yn yr Yspaen tua diwedd y chweched canrif; yn Ffrainc, yn y nawfed canrif; a chan Eglwys Rhufain yn y flwyddyn 1014.

Credo yr Apostolion a olygir bob amser pan y sonir am *y credo* yn unig, a dim ond hyny. Arferir ef yn ffurfwasanaeth Eglwys Loegr bob dydd drwy y flwyddyn, ar foreuol ac ar brydnawnol weddi (oddi gerth yn unig ar y cyfryw foreuau ag y mae Credo St. Athanasius wedi cael ei drefnu i'w ddarllen yn ei le), yn union ar ol yr emyn sydd yn canlyn yr ail lith, gan y gweinidog a'r bobl, yn eu sefyll. Adroddir ef ar ol y llithiau o'r Ysgrythyr, medd Wheatly, yn ei *Esboniad Rhesymol ar y Llyfr Gweddi Gyffredin*, i ddangos mai trwy glywed y mae ffydd yn dyfod, a chlywed trwy air Duw (*Rhuf.* x. 17), a bod yr addolwyr, wedi clywed o honynt air Duw, megys yn gosod eu sel wrth y gwirionedd dwyfol—yn enwedig y cyfryw bynciau o hono ag a gynnwysir neu a gadarnheir yn y rhanau sydd newydd gael eu darllen i'w clywedigaeth. Yn uniongyrchol ar ol y Credo, y canlyn y gweddiau, y rhai sydd wedi eu sylfaenu arno; canys ni ellir galw ar yr hwn ni chredwyd ynddo, na chredu yn yr hwn ni chlybuwyd am dano (*Rhuf.* x. 14). Y cyfryw yw y rheswm a roddir yn gyffredin mewn perthynas i'r lle y mae y credo hwn wedi ei gyfleu ynddo yn y gwasanaeth eglwysig. Adroddir ef gan y gweinidog a'r bobl yn eu sefyll, i arwyddo, medd yr un gwr dysgedig, fod y rhai sydd yn credu y gwirioneddau a gynnwysir ynddo, yn barod i sefyll i fyny o'u plaid, ac i'w hamddiffyn gyda gwroldeb.

Am hanes pellach yn nghylch Credo yr Apostolion, cyfeirir y darllenydd at *Lord Chancellor King's History of the Apostles' Creed*; ac am eglurhâd arno, at waith helaeth a manwl yr esgob Pearson, a elwir *Exposition of the Creed.*

CREDO SANT ATHANASIUS: a elwir felly oddi wrth Athanasius, esgob enwog Alexandria, yn y pedwerydd canrif. Ond er bod y credo hwn yn cael ei alw ar enw Athanasius, ac er y tybid am hir amser mai ei waith ef ydoedd, addefir weithian yn lled gyffredin nad ei gyfansoddiad ef ydyw, ac nad ysgrifenwyd y credo hwn dros fwy na chan mlynedd ar ol ei farwolaeth. Ni cheir mo hono yn ei waith, ac ni ddyfynir ef gan neb o'i gyfoeswyr. Er hyny, y mae rhai gwŷr dysgedig, megys y Cardinal Bona, Petavius, Bellarmine, Rivet, a Baronius, a rhai ereill o aelodau Eglwys Rhufain, yn dal mai gwir gynnyrch esgob Alexandria ydyw y credo hwn sydd yn myned ar ei enw; ond y mae y nifer luosocaf, hyd yn oed o'r cyfundeb hwnw, yn barnu fel arall. Y mae y gwaith yn dwyn gweddnod Lladinaidd; a thybir gan lawer ei fod yn swnio yn y Groeg yn debyg fel pe bai yn gyfieithiad o ryw gyfansoddiad Lladin anadnabyddus. Meddylir hefyd ei fod yn cynnwys rhai ymadroddion wedi eu benthyca o waith Awstin o Hippo; ac os felly, nis gallasai gael ei ysgrifenu cyn o ddeutu canol y pummed canrif. Gan nad oes digon o sail i'w briodoli i Athanasius, rhaid ei ystyried yn gyfansoddiad rhyw ysgrifenwr lled foreuol arall: ond pwy yw ei wir awdwr, sy bwnc nas gellir mewn un modd ei ateb yn foddhaol. Mwy nag am Gredo yr Apostolion, nid yw yr eglwys yn penderfynu dim yn nghylch ei awduriaeth. Cymmaint a ddywed y rhuddell yn y *Llyfr Gweddi Gyffredin* am dano yw hyn:—"Y gyffes hon o'n ffydd Gristionogol, a elwir yn gyffredin, Credo St. Athanasius." Barn y Dr. Daniel Waterland, yr hwn sydd wedi ymchwilio i'r mater gyda mawr lafur a manyldeb, yw, mai Hilarius, esgob Arles, yn Ffrainc, yn y pummed canrif, yw ei awdwr. Priodola rhai ef i Vicentius Lerinensis; ereill, i Venantius Fortunatus; ac ereill drachefn i Eusebius, Vercellensis; ac y mae rhai yn dychymygu mai Vigilius, esgob Tapsus, tua'r flwyddyn 484, a'i hysgrifenodd.

Swm a sylwedd y gwahanol dybiau hyn ydyw, nas gwyddys, gydag un math o ddilysrwydd, pwy a'i cyfansoddodd; a chymmaint ag a ellir ei ddadgan gyda gradd o sicrwydd mewn perthynas iddo ydyw, iddo gael ei ysgrifenu rywbryd rhwng o ddeutu canol y pummed a hanner cyntaf y chweched canrif. Ac od oes mwy o debygolrwydd o blaid y naill ddamcaniaeth na'r llall, gellid meddwl bod y fantol braidd yn troi o du esgob Arles; ond am sicrwydd, nid oes dim sicrwydd yn y peth.

Digon tebyg i'r credo hwn, fel credoau yn gyffredin, gael ei gyfansoddi er mwyn gwrthwynebu rhyw gau athrawiaeth a ffynai ar y pryd yn yr eglwys; a'r geulith y pryd hwn yn ddiau ydoedd yn nghylch athrawiaeth y Drindod: ond gan nas gwyddys amser ei gyfansoddiad, nis gellir gwybod chwaith yn erbyn pa ryw gyfeiliornad neilldiol o'r fath y cafodd ar y cyntaf ei gyfeirio.

Mor gynnar a'r flwyddyn 570, yr oedd y credo hwn wedi dyfod i gymmaint cymmeriad ac enwogrwydd, fel yr arferid ysgrifenu esboniadau i'w egluro; ond y pryd hyny, nid adwaenid ef wrth yr enw Credo Sant Athanasius, ond gelwid ef y *Ffydd Gatholig;* a barna rhai i'r enw presennol gael ei roddi arno gan y cyfeiliornwyr y gwrthwynebir eu daliadau ynddo; eithr tebycach mai o herwydd ei dadogi ar Athanasius y cafodd yr enw yr adnabyddir ef wrtho y dydd heddyw drwy holl wledydd cred.

Er y seithfed canrif, mae y credo hwn wedi cael ei ystyried yn eglwysi y gorllewin megys y puraf a'r pwysicaf o ysgrifeniadau y tadau eglwysig ar athrawiaeth y Drindod. Ac y mae yn deilwng o sylw, na chafodd Credo Sant Athanasius ei ddwyn i arferiad drwy awdurdod cynghorau, na thrwy un cymhelliad allanol arall; ond derbyniwyd ef gan yr eglwysi ar sail ei deilyngdod ei hun, gan yr ystyrid ei fod yn cynnwys yr esboniad cywiraf o'r athrawiaeth y mae yn ei hamddiffyn, a'i bod yn angenrheidiol rhoi rhyw ddosbeniad penodol ar yr hyn a ddysgir yn y Testament Newydd ar y pen hwn.

Cafodd y credo yma dderbyniad croesawus iawn yn yr Eglwys Gristionogol, yn enwedig yn y dosbarth gorllewinol o honi; a diau i ddylanwad enw Athanasius, yn gystal a rhagoroldeb y ffurf ei hun, fod yn foddion i chwanegu y gymmeradwyaeth iddo. Derbyniwyd ef gan yr eglwysi yn Ffrainc o ddeutu y flwyddyn 670. Yr oedd yn adnabyddus yn yr Yspaen cyn pen can mlynedd ar ol hyny; a derbyniwyd ef yn yr

Digitized by Google

Almaen yn nghylch yr un amser. Yn neheudir Prydain, dechreuwyd ei arfer tua'r flwyddyn 800; ac yr oedd yn cael ei ganu a'i adrodd yn gyffredinol drwy hyd a lled yr ynys yn y degfed canrif; a chyn diwedd yr un canrif, derbyniwyd ef gan Eglwys Rhufain. Cafodd hefyd dderbyniad lled gynnar yn ngwasanaeth yr Eglwys Ddwyreiniol mewn amryw fanau; yn enwedig yn Rwssia, Servia, Bulgaria, a Chaer Cystenyn; a dywedir fod hyd yn oed Luther, Calvin, a Beza, yn amser y Diwygiad, yn dra ffafriol iddo, ac yn ei ddefnyddio fel eu cyffes ffydd.

Darllenir y Credo Athanasiaidd, ar y foreuol weddi, yn ffurfwasanaeth yr Eglwys Sefydledig, yn lle Credo yr Apostolion, ar y gwyliau hyn; sef, Dydd Nadolig Crist, dydd gŵyl Ystwyll, dydd gŵyl St. Matthias, dydd Pasc, y Dyrchafael, y Sulgwyn, dydd gŵyl Sant Ioan Fedyddiwr, Sant Iago, Sant Bartholomeus, Sant Matthew, Sant Simon, a Sant Iudas, Sant Andreas, a Sul y Drindod. Ac felly darllenir ef ar gyfartaledd rywbeth yn amlach nag unwaith bob mis, mewn manau lle byddo gwasanaeth beunyddiol yn cael ei gynnal; ond lle na byddo gwasanaeth ond ar y Sabbathau a'r prif wyliau, ni ddarllenir mo hono yn gyffredin uwch law o ddeutu hanner dwsin o weithiau yn nghorffy flwyddyn.

Y prif wrthwynebiad a godir gan lawer yn erbyn y gyffes ffydd hon, yw yr ymadroddion canlynol sydd i'w cael ynddi:—"Pwy bynag a fyno fod yn gadwedig, o flaen dim rhaid iddo gynnal y ffydd Gatholig. Yr hon ffydd, onis ceidw pob dyn yn gyfan ac yn ddihalog, diamheu y collir ef yn dragywydd." A thrachefn, ar y diwedd:—"Hon yw'r ffydd Gatholig, yr hon pwy bynag a'r nis creto yn ffyddlawn, ni all efe fod yn gadwedig."

Gwynir gan lawer yn erbyn y brawddegau collfarnol hyn; ac y mae llawer o gyfeilion gwresocaf yr Eglwys yn eu hanghymmeradwyo megys ymadroddion rhy gelyd, ac anghytunol âg ysbryd rhyddfrydig yr efengyl. Nid yr amcan drwy hyn yw eu hamddiffyn, ar y naill law, na'u collfarnu ar y llaw arall; nid yw hyny yn gydweddol âg ansawdd yr erthygl. Ond hwyrach nad anfuddiol fyddai awgrymu y dichon fod mewn rhai meddyliau ryw gymmaint o gamsyniad gyda golwg ar helaethrwydd y gollfarn a gyhoeddir yma. Ni ddywedir ac ni olygir fod yn rhaid credu y cwbl o'r credo hwn mewn trefn i fod yn gadwedig. Y cyfan a ofynir genym yma, megys yn angenrheidiol i iachawdwriaeth, yw, o flaen dim cynnal o honom y *ffydd Gatholig;* ac yn yr ymadroddion nesaf eglurir yn mha beth y mae y ffydd Gatholig hon yn gynnwysedig; sef, "Bod i ni addoli un Duw yn Drindod, a'r Drindod yn Undod. Nid cymmysgu o honom y Personau, na gwahanu y Sylwedd." Hyn yw y cwbl a ddywedir ei bod yn anhebgorol ei gredu; ac nid yw yr adranau sydd yn canlyn, o hyn hyd y chweched adran ar ugain, ddim amgen na phrawf ac eglurhâd o'r hyn sydd yma yn cael ei draethu. Dywed yr esgob Burnet, yr esgob Tomline, ac amryw gyda hwynt, y byddai yn ddymunol gwneuthur rhyw gyfnewidiad yn yr ymadroddion collfarnol hyn; ac yr oedd yr archesgob Tillotson am eu difodi yn gyfangwbl o'r *Llyfr Gweddi,* os nid yr holl Gredo hefyd. Nid yw yr Eglwys Esgobyddol yn America yn arfer y credo hwn yn ei gwasanaeth.—(*Waterland's Critical History of the Athanasian Creed; T. W. Chevalier's Defence of the Athanasian Creed; Hartwell Horne's Concise History and Analysis of the Athanasian Creed.*)

CREDO NICAIA; a adnabyddir hefyd wrth yr enw CREDO CAER CYSTENYN. O'r tri chredo, hwn yw yr unig un y gwyddys am ei darddiad, a hanes ei ddechreuad. Cytunwyd ar y rhan fwyaf, ond nid y cyfan o hono, gan gynghor cyffredinol cyntaf Nicaia, yn Bithynia, yn y flwyddyn 325; a'r prif amcan mewn golwg oedd, gwrthsefyll cyfeiliornad Arius, yr hwn y blyneddoedd hyny a ymdaenai yn yr eglwysi. Hwn oedd y cynghor cyntaf a phwysicaf a gynnaliwydd yn yr Eglwys Gristionogol; a dywedir fod yn bresennol ynddo ddim llai na thri chant o esgobion, heb law offeiriaid, a gwŷr eglwysig ereill. Cynnullwyd ef gan ein cydwladwr, Cystenyn Fawr; ac yr oedd yr ymherawdwr ei hun yn wyddfodol yn ei eisteddiadau.

Y credo, megys y cytunwyd arno yn y cynghor hwn, a derfynai gyda'r geiriau "Ysbryd Glân." Chwanegwyd y gweddill ato gan gynghor cyffredinol cyntaf Caer Cystenyn, yn y flwyddyn 381 neu 382, i'r dyben o wrthladd cyfeiliornadau Macedonius, gyda golwg ar Dduwdod yr Ysbryd Glân; a chafodd y chwanegiad dderbyniad cyffredinol. Yr ymadrodd, "a'r Mab," lle y dywedir fod yr Ysbryd Glân yn deilliaw o'r Mab, yn gystal ag o'r Tad, a osodwyd i mewn ynddo yn yr Yspaen, yn y flwyddyn 447; a mabwysiadwyd yr unrhyw gydag amser; ond ni dderbyniwyd y ddau air chwanegol hyn gan Eglwys Rhufain hyd 883, na chan Eglwys Groeg hyd y dydd heddyw. Cyn gwneuthur yr ynsodiad hwn, dywedid am yr Ysbryd Glân, "Yr hwn sydd yn deilliaw o'r Tad" yn unig; ond weithian dywedir, "Yr hwn sydd yn deilliaw o'r Tad a'r Mab" hefyd.

Y mae cymmaint o'r credo hwn ag a gyhoeddwyd gan Gynghorfa Nicaia yn cytuno o ran ystyr yn lled agos â Chredo yr Apostolion; a gellir ei ystyried megys math o aralleiriad o hono; ond y mae y chwanegiadau a wnaed ynddo yn Nghaer Cystenyn ac yn yr Yspaen yn cynnwys pynciau na chyffyrddir dim â hwynt yn y credo hynafol hwnw.

Megys ag y trefnwyd dywedyd Credo yr Apostolion yn uniongyrchol ar ol y llithiau, felly hefyd y trefnwyd adrodd Credo Nicaia yn ddigyfrwng ar ol yr epistol a'r efengyl, yn ngwasanaeth y cymun; gan arwyddocâu wrth hyny ei fod wedi ei sylfaenu ar athrawiaeth Crist a'r apostolion. Ac megys yr ydys yn y rhanau rhagflaenol o'r Ysgrythyr, "â'r galon yn credu i gyfiawnder," felly hefyd, yn y credo sydd yn canlyn, yr ydys "â'r genau yn cyffesu i iachawdwriaeth."—(*Beveridge's Discourse upon the Thirty nine Articles; Hook's Church Dict.; Wheatly's Rat. Illustr. of Book of Common Prayer.*)

CREFYDD: oddi wrth y gair *cref, crefu;* ac felly, yn ol tarddiad y gair, yn gosod allan *weddi* fel prif elfen crefydd. Mae y gair Seisoneg, *religion,* o darddiad Ladin, ac yn arwyddo *rhwymedigaeth,* yn ol Lactantius [*Instit. Div.,* i. 24], oddi wrth *religare*=i rwymo; ond yn ol Cicero [*De Nat. Deor.,* ii. 28], oddi wrth *religere,* yn arwyddo casglu drachefn, ac felly yn gosod crefydd mewn sylwi ar, a chadw gorchymynion Duw. Mae rhai yn deall y gair *religere* yn yr ystyr o feddwl, adfyfyrio; ac yn unol â hyn, yn gosod crefydd mewn dwysder meddwl, ofn, parchedigaeth, a chydwybodolrwydd. Er mai yn y Beibl yr ydym yn cael synnad cywir am natur crefydd, eto nid oes un gair eang a chynnwysfawr yn yr Hen Destament am hyn; ond defnyddir yn fynychaf yr ymadrodd "ofn Duw" i

Digitized by Google

ddynodi yr hyn a feddylir yn awr wrth grefydd. Mae θρησκεια (*thresceia*) a gyfieithir crefydd yn *Act.* xxvi. 5, a *Iago* i. 26, 27, yn arwyddo *addoliad*, neu gyflawniadau allanol, ac a gyfieithir felly (*Col.* ii. 18); ac y mae y gair ευσεβεια (*eusebeia*) (*Act.* iii. 12; 1 *Tim.* iv. 8) yn arwyddo *duwiolfrydedd*, neu y teimladau o ba rai y mae addoliad crefyddol yn tarddu. Wrth roddi y ddau air yma yn nghyd, ni gawn syniad cyffredinol am yr hyn a ddynodir wrth grefydd. Mae yr ystyr cyflawn yn llawer eangach na'r hyn a geir yn *Iago* i. 27; lle nad yw yn arwyddo ond gweithredoedd o drugaredd neu gymmwynasgarwch, ac ymddidoliad oddi wrth y byd. Duw ydyw gwrthddrych cyntaf crefydd; a chan nad oes ond un Duw, nis gall fod ond un wir grefydd.

Y mae cyffredinolrwydd crefydd yn mhob oes a phob gwlad, yn brawf fod angen am grefydd, a chymhwysder naturiol iddi yn natur dyn. Y mae dylanwadau allanol—megys esampl, addysg, traddodiad, a dadguddiad—yn dwyn dyn i ymsynied ac i ymdeimlo am Dduw; eto, pe na byddai teimlad neu allu gwreiddiol, fel rhagbarotoad naturiol yn ei natur, ni byddai dim i addysg a dylanwadau naturiol i weithredu arno. Pa mor amrywiol bynag ydyw syniadau dynion am grefydd, y mae pawb sydd yn ysgrifenu ar athroniaeth crefydd yn addef yn awr ei bod yn gwreiddio o angenrheidrwydd yn ysbryd dyn. Mewn geiriau ereill, y mae dyn yn dyfod o angenrheidrwydd i deimlo fod rhyw Fod uwch law iddo, ac mai arno ef y mae pob peth gweledig yn dibynu. Yn mhlith elfenau hanfodol pob math a gradd o grefydd, rhaid fod teimlad o ryddid, cyfrifoldeb, ac anfarwoldeb; ond ni chytansoddai y rhai hyn grefydd heb deimlad neu adnabyddiaeth o Dduw, a'u perthynas iddo. Ni ddylid casglu oddi wrth hyn fod dynion yn codi drwy eu nerth naturiol eu hunain i'r syniad mai un Duw sydd: y mae holl hanesiaeth y byd yn profi i'r gwrthwyneb. Ond y mae cenedloedd, yn eu cyflwr isaf, yn teimlo eu perthynas â'r hyn sydd yn oruchnaturiol. Yn y cyflwr hwn, poblogent bob peth — goleuadau y nefoedd ac ymlusgiaid y ddaiar—â'u duwiau. Tybient fod gwrthddrychau eu haddoliad yn edrych arnynt allan o bob peth a welent. Yn raddol, y mae dynion yn cyssylltu ystyr arwyddol wrth rai o'r gwrthddrychau hyn—megys yr haul i ddynodi gwybobaeth, a chreaduriaid penodol i sefyll am wahanol briodoliaethau, megys doethineb, nerth, prydferthwch, dial—a thrwy yr anifeiliaid hyn, y mae dynion yn addoli y priodoliaethau a dybiant sydd yn perthyn i alluoedd goruchnaturiol. Yn y sefyllfa isaf hon, y mae pob addolwr yn dewis ei dduw ei hun, ac yn gweithredu fel ei offeiriad ei hun; ond pan y mae rhyw dduw dychymygol yn dyfod yn dduw i deulu neu lwyth, y mae offeiriadaeth, a seremoniau, ac addoliad cymdeithasol, yn dechreu. Y mae dynion yn y sefyllfa hon, er cydnabod yn fynych ryw ysbryd anweledig goruwch pawb, eto yn addoli y mân dduwiau. Felly yr ydoedd yn mysg holl genedloedd mawrion hynafiaeth.

Ar ol i'r byd symmud rhyw gamrau yn mlaen mewn gwareiddiad, yn lle defnyddio anifeiliaid a ffurfiau meirwon yn arddangosiadau o'r gwrthddrychau a addolent, cymmerent y llun dynol i'w gosod allan. Yn gyssylltiedig â hyn, y mae celfyddyd neu fedrusrwydd mewn cerfiadaeth ac arluniaeth yn ennill sylw. Y mae y dynion sydd yn gwneyd enw iddynt eu hunain, mewn rhyfel, mewn amaethyddiaeth, neu am drin yr olewydd neu y gwinwydd, neu am weithio mewn metteloedd, yn ymgodi uwch law eu cydoeswyr, ac yn raddol yn cael eu derbyn ganddynt fel duwiau.

Y mae hanes crefyddau y byd yn dangos nas gall dyn wneyd heb grefydd; ac ar yr un pryd, nad yw y cymhelliad gwreiddiol sydd ynddo i ryw fath o grefydd ddim yn ddigon i'w arwain at y wir grefydd. Y mae ymsyniad naturiol ynddo am Dduw—eto, heb DDADGUDDIAD allanol oddi wrtho, y Duw nid adwaenir ydyw iddo.

Mae duwinyddion wedi rhoddi gwahanol ddeffiniadau o grefydd; ac amrywiant i fesur oddi wrth eu gilydd am yr hyn a olygant yn hanfod neu brif elfen neu elfenau crefydd. Cyn sylwi ar y gwahaniaeth hwn, ni a edrychwn ar y cwestiwn yn helaethach—Pa beth ydyw crefydd?

Ac er mwyn ateb hyn, y mae yn rhaid i ni gofio fod dyn yn sefyll mewn perthynasau gwahanol at fodau ereill, sef tuag at Dduw a'i gyddynion, a bod y perthynasau hyn yn cynnwys eu dyledswyddau priodol. Ei ddyledswydd tuag at y rhai y mae yn sefyll mewn perthynas â hwynt ydyw, meithrin teimladau priodol, y cyfryw ag a arweiniant i'r cyflawniad o weithredoedd cyfatebol. Gelwir yr agwedd meddwl hwn sydd yn deilliaw o deimladau penodol tuag at ein cyd ddynion, ac sydd yn arwain i ymddygiadau dyledus tuag atynt, yn foesoldeb; tra y gelwir yr agwedd meddwl sydd yn gynnwysedig mewn teimladau priodol, ac sydd yn arwain i gyflawniad o weithredoedd dyledus tuag at Dduw, yn grefydd. O ganlyniad, os mynwn wybod pa beth ydyw crefydd, y mae yn rhaid i ni ymofyn yn mha berthynas yr ydym yn sefyll tuag at Dduw, a pha deimladau y dylem eu meithrin tuag ato mewn canlyniad i'r berthynas hon.

Duw ydyw ein Creawdwr, Cynnaliwr, Cymmwynaswr, a'n Llywydd moesol; ac y mae teimladau a gweithredoedd yn ddyledus oddi wrth ddyn tuag at Dduw fel y cyfryw. Y mae dynion wedi eu galluogi i ddeall y perthynasau hyn, ac i deimlo yn gyfatebol iddynt. Gan ein bod yn ddibynol ar Dduw fel ein Creawdwr a'n Cynnaliwr am ein bod a pharhâd ein bod, dylem deimlo ein dibyniad hollol arno; gan ein bod yn ddyledus iddo fel ein Cymmwynaswr am bob bendith yr ydym yn mwynhau, ein dyledswydd ydyw teimlo a dadgan y diolchgarwch gwresocaf; a chan fod ganddo hawl, fel ein Llywodraethwr, i'n llywodraethu yn mhob peth, ein dyledswydd ydyw ymostwng iddo. Yn mhellach, gan ei fod yn yr holl berthynasau hyn wedi amlygu ei hun yn Fod o anfeidrol berffeithrwydd, dylem ymhyfrydu ynddo, ei garu, ac ymddiried ynddo. Y mae crefydd, gan hyny, a'i hystyried yn du mewnol, yn cynnwys dibyniad, diolchgarwch, ymddiried, ymostyngiad gwirfoddol, ymhyfrydiad, a mawrygiad, yn nghyd â'r holl amlygiadau priodol o'r cyfryw deimladau.

Gwelir nad yw crefydd, yn ei chyflawn ddadblygiad a gweithrediad, yn cael ei chyfyngu at un rhan neu allu neilduol o ddyn. Y mae hi yn cynnwys y *deall;* o herwydd ni chyfansoddai y teimladau hyn grefydd, pe cyfeirid hwynt at wrthddrychau ereill heb law Duw: o ganlyniad, rhaid i bob un o honynt gynnwys y syniad am Dduw fel elfen hanfodol—yr hyn ydyw gwaith y deall. Y mae hi yn cynnwys yr *ewyllys;* o herwydd gweithred arbenig y gynneddf hon ydyw ymostyngiad. Y mae hi yn cynnwys hefyd y *teimladau;* o herwydd gwahanol deimladau ydyw parch, ymddiried, cariad—heb y rhai nis gall fod

Digitized by Google

crefydd o gwbl. Crefydd, gan hyny, ydyw, nid unrhyw ffurf neilduol o ddangos parch i Dduw—ond pob meddwl, teimlad, a gweithred sydd, â Duw yn sylfaen, yn wrthddrych, ac yn amcan iddynt. Y mae holl gylch bywyd yn ei holl alluoedd a'i weithrediadau i'w lywodraethu ganddi.

Ond y mae y cwestiwn wedi cael ei ofyn a'i ateb mewn gwahanol ffyrdd: Pa un ai *teimlad, gweithrediad*, ai *gwybodaeth*, sydd yn cyfansoddi *hanfod* crefydd. Y mae gwahanol ddosbarthiadau crefyddol yn ymffurfio yn ol fel y rhoddir y naill neu y llall o'r atebion uchod i'r ymofyniad. Cyfyngu y bywyd crefyddol at deimlad ydyw cyfriniaeth (*mysticism*); edrych ar wybodaeth fel y rhan bwysicaf a hanfodol o grefydd a roddes fod i *Gnosticiaeth* (gwybodyddiaeth); ar y llaw arall, wrth roddi arbenigrwydd i weithred neu ymarferiad ar bob elfen arall, ni gawn Phariseaeth.

Yr hwn sydd, yn ddiweddar, wedi dadleu mwyaf dros y golygiad cyntaf, sef mai mewn teimlad y mae hanfod crefydd yn gynnwysedig, yw Schleiermacher. Nid yw yn dyweyd fod teimlad i'w wahanu oddi wrth wybodaeth a gweithred, ond mai teimlad ydyw y cyntaf mewn trefn, a bod gwybodaeth a gweithred yn gynnwysedig yn, neu yn dilyn y teimlad:—yn mhellach hefyd, fod teimlad yn cyfryngu rhwng gwybodaeth a gweithred; ac ar y teimlad y dibyna pa fath weithred a gynnyrcha y wybodaeth. Ei resymau ydynt—1. Nas gall crefydd hanfodi mewn gwybodaeth, onid e y byddai duwioldeb i'w fesur bob amser wrth y wybodaeth o athrawiaethau yr efengyl. Os dywedir fod grym yr argyhoeddiad o wirioneedd yr efengyl yn gynnwysedig yn y wybodaeth, nid yw hyn, eb efe, yn gwneuthur dim gwahaniaeth; o herwydd fod grym yr argyhoeddiad yn dibynu ar eglurder yr adnabyddiaeth o honi, ac felly yr ydym yn dyfod i'r un man ag o'r blaen, sef fod duwioldeb dyn i'w fesur wrth gyssondeb ac eglurder ei syniadau am wirioneddau y gair—yr hyn nis gall fod. Ar y llaw arall, os dywedir fod grym argyhoeddiad o wirionedd mewn crefydd yn wahanol i argyhoeddiad o wirionedd naturiol, ac felly nad yw yn ymddibynu ar eglurder y syniad a feddiennir, nid yw gan hyny fod duwioldeb yn gyssylltiedig âg argyhoeddiad dwfn yn brawf ei fod hefyd yn gyssylltiedig â gwybodaeth noeth o athrawiaethau Cristionogaeth. 2. Nid yw duwioldeb yn gynnwysedig chwaith mewn gweithred; o herwydd nis gall fod gwerth gweithred yn tarddu o'r hyn ydyw ynddi ei hun: mae yn rhaid, gan hyny, ei fod yn tarddu naill ai o'r cymhelliad sydd yn ei hysgogi neu ynte o'i heffeithiau. Ond gan na feddylia neb am farnu gweithred wrth ei heffeithiau, mae yn rhaid mai y cymhelliad a roes fod iddi sydd hefyd yn rhoi gwerth arni. Yn ein teimlad y mae cymhelliadau ein holl weithredoedd; ac felly, er i'r weithred fod yn perthyn i grefydd, yn y teimlad crefyddol y mae hanfod daioni y weithred. 3. Y mae Schleiermacher hefyd yn dadleu, tra nad yw gwybodaeth na gweithred ynddynt eu hunain yn dduwiol, fod rhai teimladau felly ynddynt eu hunain, ac yn hollol annibynol ar y wybodaeth a'r weithred sydd yn nglŷn â hwy—megys tristwch duwiol. Yn mhellach, er mwyn profi mai teimlad ydyw y rhan hanfodol mewn crefydd, fe ddywed—os nad mewn teimlad y mae, ei fod naill ai mewn sefyllfa yn mha un y mae gwybodaeth, teimlad, a gweithred yn nglŷn â'u gilydd, neu nad ydyw. Os cauir allan deimlad, a dywedyd mai mewn undeb gwybodaeth a gweithred y mae crefydd, yna y mae yn angenrheidiol dyweyd i ba un ai y wybodaeth sydd yn cynnyrchu y weithred, ai ynte i'r weithred sydd yn deilliaw o'r wybodaeth, y mae priodoli hanfod y daioni sydd ynddynt; ac hefyd, cyn y gellir deibyn hyn, mae yn rhaid dangos pa fodd y mae yn bosibl i wybodaeth gynnyrchu gweithred heb deimlad i ddyfod i mewn rhyngddynt. Os, ar y llaw arall, y dywedir mai y tri yn nghyd sydd yn gwneuthur i fyny grefydd neu dduwioldeb, y mae yn canlyn, fel y dangoswyd eisoes, nad ydyw y daioni yn y wybodaeth, na chwaith yn y weithred—mai teimlad ydyw yr hyn sydd yn cyfansoddi hanfod duwioldeb, ac yn rhoddi ei ansawdd ei hun i'r ddwy elfen ereill.

Y cyfryw ydyw sylwedd ymresymiad Schleiermacher: y mae yn dal, er y gall y tair elfen crybwylledig fod mewn crefydd, eto mai teimlad sydd yn cyfansoddi ei gwerth ysbrydol a moesol.

Ar ol penderfynu mai yn y teimlad y mae hanfod crefydd, y mae Schleiermacher yn ymofyn a oes rhyw un teimlad yn fwy arbenig na'i gilydd yn eisteddle crefydd? I hyn y mae yn ateb fod—ac mai y "teimlad o ddibyniad" ydyw hwn. Ei reswm dros gredu fod y teimlad hwn ynddo ac o hono ei hun yn dduwiol, ydyw, nas gallwn deimlo dibyniad hollol ar neb ond ar Dduw.

Yn erbyn y ddwy ran o gyfundrefn Schleiermacher—sef mai yn y teimlad, ac yn y teimlad o ddibyniad yn arbenig, y mae duwioldeb yn gynnwysedig—y mae rhesymau cryfion. Gellir hysbysu yma mai syniadau Schleiermacher a gymmerir i fyny ac a amddiffynir gan Morell [*Philosophy of Religion*], heb ddim chwanegiad o werth mewn ffordd o eglurhâd nac o gadarnhâd.

Y mae Alliott wedi gwneuthur ymchwiliad iddynt, ac yn eu gwrthwynebu gyda medrusrwydd: crynodeb o'i resymau ef sydd fel y canlyn:—Nis gellir edrych ar deimlad ynddo ei hun, ac yn annibynol ar wybodaeth, yn rhinwedd ysbrydol, mwy nag y gellir edrych ar wybodaeth yn annibynol ar deimlad felly. Pe cymmerem, er anghraifft, y teimlad o ddibyniad—ei gyfeiriad at Dduw sydd yn rhoddi iddo ei werth. Nid yw y teimlad o ddibyniad, os na bydd yn deimlad o ddibyniad ar Dduw, yn meddu dim mwy o werth nag ydyw unrhyw weithred a gyflawna dyn duwiol, os na bydd cariad at Dduw yn wreiddyn iddi. Gan nad yw y teimlad yn dduwiol, ond yn ei gyfeiriad at ei wrthddrych, sef Duw, mae yn rhaid fod y cyfeiriad sydd iddo yn cynnwys gwybodaeth o'r gwrthddrych. Os dywedir mai teimlad sydd yn rhoddi bod i wybodaeth, gellir dyweyd, heb aros i benderfynu y mater hwn, fod y teimladau yn grefyddol neu yn dduwiol pan yn tarddu o'r gwahanol berthynasau yn mha rai yr ydym yn sefyll tuag at Dduw; ac o ganlyniad, rhaid fod rhyw wybodaeth o'r perthynasau hyn. O ganlyniad, nid yw teimlad ynddo ei hun yn dda, mwy nag ydyw y wybodaeth sydd yn penderfynu ei nodwedd crefyddol, neu y weithred a gynnyrchir ganddo.

Am y rheswm dros ddyweyd mai mewn teimlad o ddibyniad y mae crefydd yn gynnwysedig—sef, am nas gall dyn deimlo hollol ddibyniad ar neb ond Duw—mae dau honiad disail ynddo. Yn gyntaf, nis gall y syniad o Dduw fod yn y meddwl heb fod yno deimlad o ddibyniad llwyr arno; ac yn ail, nis gall y teimlad hwn gael ei feithrin tuag at un gwrthddrych arall. Y mae profiad yn gwrthddywedyd y ddau honiad hyn, ac yn

Digitized by Google

dangos esamplau rhy fynych o ddynion ag y mae Duw mewn rhyw ffurf o flaen eu meddwl, heb fod y teimlad hwn yn cael ei gynnyrchu; ac hefyd o ddynion yn rhoddi eu hymddiried yn llwyr ar bethau crëedig. Y mae dibyniad gan hyny yn dduwiolfrydedd pan dan gyfeiriad gwybodaeth gywir. Gellir dyweyd yr un peth am bob teimlad arall. Os ymofynwn pa beth ydyw duwiol dristwch, yr ateb yw, ei fod yn gynnwysedig mewn adnabyddiaeth o ddrwg pechod; adnabyddiaeth o'n pechadurusrwydd ein hunain; ac hefyd y gofid meddwl a gynnyrchir gan y wybodaeth hon. Os edrychir ar y gofid yn annibynol ar yr hyn sydd yn ei gynnyrchu, nid ymddengys yn dristwch *am bechod*, ac felly ni bydd yn *dduwiol* dristwch. Nid yw y teimlad ynddo ei hun, ac er ei fwyn ei hun, yn dduwiol, ond mor bell ag y mae ei *gyfeiriad dan arweiniad gwybodaeth at wrthddrych penodol.*

Ni ddywedir nad yw teimlad yn perthyn i hanfod crefydd—yn hytrach, dangoswyd i'r gwrthwyneb; ond mai nid yr oll o grefydd ydyw. Nid teimlad ynddo ei hun, ond teimlad yn tarddu o wrthddrych a pherthynasau penodol—ac felly mewn undeb â gwybodaeth o'r gwrthddrych, ac o'r perthynasau penodol hyny—ydyw crefydd, ac felly y mae gwybodaeth yn rhan hanfodol o honi. Yr un modd y mae gweithred—hyny yw, gweithrediad yr ewyllys—yn hanfodol i grefydd; o herwydd nid yw teimlad sydd heb ddylanwadu ar yr ewyllys o un gwerth ysbrydol. Y mae crefydd gan hyny yn cynnwys *gwybodaeth, teimlad*, ac *ewyllysiad*; hyny yw, yr oll o ddyn.

Ond, ac addef mai teimlad ydyw y brif elfen mewn crefydd, y mae yn amlwg mai nid y teimlad o ddibyniad ydyw yr unig un sydd yn ei chyfansoddi; y mae y teimlad cyferbyniol o *rwymedigaeth* yn llawn mor hanfodol. Nis gall creadur rhesymol, yn meddu ar gydwybod ac ewyllys, fod yn ddibynol ar Dduw heb fod hefyd yn rhwymedig iddo. Teimlad cyffredin dyn am grefydd ydyw, ei bod yn rhywbeth sydd yn *rhwymo* natur foesol dyn, ac y mae ynddo gymhwysder i deimlo y rhwymedigaeth. Y mae y gair *crefydd* (*crefu*) yn gosod allan yr elfen o ddibyniaeth, tra y mae y gair *religion*, yn ol un tarddiad o'r gair, yn dangos allan yr elfen o rwymedigaeth. Y teimlad hwn hefyd yn unig a all esbonio pa fodd y mae dynion dan ddylanwad teimlad crefyddol bob amser yn gosod i fyny addoliad neu wasanaeth crefyddol. Nid arweiniai teimlad o ddibyniad, heb deimlad o rwymedigaeth yn nglŷn âg ef, neb i osod i fyny addoliad cyhoeddus. Mae yn bosibl i ddyn ymddibynu ar ddeddf ddall o eiddo natur, neu ar Dduw fel y gwna creaduriaid is law dyn, eto heb addoli. Ond os addefir fod rhwymedigaeth mewn crefydd, yn gystal, a dibyniad, y mae hyn yn arwain yn naturiol i addoliad. Nid yw addoliad ond arddangosiad allanol o'n teimlad o rwymau sydd arnom i garu a gwasanaethu Duw, ac i roddi amlygiad o'n dibyniad arno. Y mae gosod crefydd mewn dibyniad yn unig yn gadael y ffaith amlycaf yn holl hanes crefyddau y byd o'r golwg; sef, y cyfaddefiad ymarferol sydd yn rhedeg trwyddynt oll o *bechod*, ac o bechadurusrwydd yr addolwyr, trwy y gwahanol aberthau a offrymir i ddyhuddo digofaint y duwiau. Ond y mae teimlad o euogrwydd yn brawf o deimlad o rwymedigaeth. Y mae o bwys i gadw yr elfen hon mor amlwg yn y syniad am grefydd a'r llall. Nis gall fod *gweddi* heb ddibyniad, ac nis gall fod *maddeuant* heb rwymedigaeth, a throsedd o rwymedigaeth, a threfn trwy aberth i sicrhau iawnderau y llywodraeth a gafodd gam oddi wrth y troseddwyr. Y mae syniad diffygiol am hanfod crefydd yn newid ei holl natur. Yn unol â hyn, y mae y rhai sydd yn gosod ei hanfod mewn teimlad o ddibyniad yn unig yn gyffredin yn esbonio ymaith fachniaeth y Cyfryngwr mewn unrhyw ystyr priodol, ac fel canlyniad, y cyfrifiad o haeddiant ei ufudd-dod a'i angeu ef i'r rhai a gredant ynddo.

Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd, y mae yn amlwg nad yw crefydd yn yr enaid i'w phriodoli i unrhyw gynneddf neu allu penodol. Ni buasai yn angenrheidiol ail ddyweyd hyn oni buasai fod rhai, megys Morell, wedi gwneyd eu goreu i geisio dangos yn wahanol. Y mae Cristionogion yn gyffredin yn dal fod crefydd yn cynnwys holl gynneddfau a theimladau dynion; ond y mae rhai na fynant fod ei llywodroeth mor eang, ond ei bod i'w chyfyngu at un gallu penodol a neillduedig, megys y mae y rhai sydd yn dosbarthu yr ymenydd yn gyfatebol i holl weithrediadau y meddwl, gan gyfyngu pob gweithrediad i'w fodfedd priodol o'r pen. Nid yw Duw wrth gyfranu crefydd yn rhoddi cynneddf newydd yn yr enaid, ond yn rhoddi cyfeiriad newydd i'r cynneddfau a'r teimladau oedd o'r blaen yn hanfodi ac mewn gweithrediad ar wrthddrychau ereill. Gall gyfeirio y gallu i wybod, i ewyllysio, ac i deimlo, ato ei hun, heb roddi i ni unrhyw allu newydd i wybod, i ewyllysio, nac i deimlo.

Y mae lluaws o ddynion uchel eu cymmeriad mewn llenyddiaeth yn rhy dueddol i edrych ar grefydd yn annibynol ar y *gwirionedd*; ac o ganlyniad i gasglu mai north y teimlad a amlygir mewn gwahanol grefyddau ydyw unig fesur eu gwerth a'u cymmeradwyaeth yn ngolwg Duw. O'r braidd, yn ngolwg y dynion hyn, y mae gwahaniaeth rhwng paganiaeth a Christionogaeth, os bydd paganiaid mor lawn o deimlad a Christionogion. Rhoddir yma ychydig sylwadau eto, mewn trefn i arwain y darllenydd i weled y cyssylltiad rhwng y teimlad mewnol a'r gwirionedd allanol; neu mewn geiriau ereill, rhwng crefydd a duwinyddiaeth. Y mae hyn wedi ei wneuthur eisoes mewn rhan, a'r unig amcan yn mhellach ydyw dangos fod yr oll o wirioneddau y Beibl, fel cyfundrefn ddwyfol, yn cael eu lle priodol ac angenrheidiol mewn ystyriaeth cyflawn o natur crefydd.

Y mae syniad cywir am natur crefydd yn gyrhaeddadwy yn unig trwy syniadau cywir am natur Duw a dyn. Duw yn unig ydyw gwrthddrych ac awdwr crefydd, a dyn sydd yn ei theimlo ac yn ei gweithredu, ac mewn crefydd y mae y ddau yn ymgyfarfod yn y modd agosaf. Y mae yn anmhosibl, gan hyny, rhoddi unrhyw wybodaeth fanwl, neu fel y dywedir yn fynych, roddi athroniaeth crefydd, heb ymofyniad i hanfod a phriodoliaethau Duw, ac i alluoedd ac amgylchiadau dyn, yn nghyd â'r modd y mae Duw yn dadgoddio ei hun i ddyn, ac yn preswylio gydag ef. Os dywedir fod crefydd yn gynnwysedig yn undeb a chymundeb dyn, fel person crëedigol, â Duw fel Bod personol anfeidrol, y mae hyn yn ein harwain i'r ymofyniad, Pa fodd y dylem synio am berson crëedigol, ac am Fod personol anfeidrol—pa beth ydyw natur y berthynas a'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt? Y mae ystyriaeth o natur crefydd yn arwain o angenrheidrwydd at dduwinyddiaeth, yn ei holl gangenau—yr athrawiaeth am Dduw, am ddyn, am Grist, a'r iachawdwriaeth sydd ynddo.

Digitized by Google

Y mae syniad cywir am Dduw yn cynnwys ei fod yn Fod personol; ac fel y cyfryw y mae dyn i ymwneyd âg ef mewn crefydd. Y mae yn ymddangos hefyd fod y dynion sydd yn gwadu fod yr hanfod ddwyfol yn cynnwys Trindod mewn Undod, yn methu boddloni eu hunain fod Duw yn hollddigonol iddo ei hun; ac o ganlyniad, arweinir hwynt gan y cyfeiliornad hwn i un arall, sef fod y byd yn angenrheidiol i berffeithrwydd Duw, ac mai nid gweithred ei ewyllys ydyw creu, ond angenrheidrwydd ei natur. Ond os angenrheidrwydd natur a ddygodd dyn a phob peth arall i fod, y mae y posiblrwydd a'r rhwymedigaeth i garu, addoli, ac ufuddhau i Dduw yn diflanu ar unwaith. Fel hyn, y mae y naill wirionedd yn cynnwys y llall, a'r naill gyfeiliornad yn arwain i'r llall. Y mae yn ymddangos fod yr athrawiaeth ysgrythyrol o dri pherson mewn un Duw mor angenrheidiol i grefydd, fel nas gellir amddiffyn y posiblrwydd o honi yn ngwyneb ymosodiadau athroniaeth anffyddol ond trwy y gwirionedd hwn. Dadleua yr athroniaeth hon—a hyny yn gywir hefyd—fod yn rhaid i briodoliaethau Duw wrth wrthddrychau tragwyddol, gan eu bod hwy yn dragwyddol; ond fe ddengys yr Ysgrythyr fod Duw yn wrthddrych i'w wybodaeth a'i gariad ei hun, gan ei fod yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân. I'r gwrthwyneb, i'r cyfryw ag sydd yn gwadu hyn, nid oes ganddynt ond hôni fod Duw o angenrheidrwydd yn creu er mwyn cael gwrthddrychau i'w wybodaeth a'i gariad, ac felly yn dangos perthynas dyn â Duw y fath fel y mae teimlo a gweithredu crefydd yn anmhosibl. Ond y mae Duw yn ddigonol iddo ei hun; ac o'i gariad, ac yn ol cynghor ei ewyllys y creodd Duw y byd, er mwyn cyfranu o'i fywyd sanctaidd a dedwydd i greaduriaid wedi eu gwneuthur ar ei ddelw. Amcan uchaf y greadigaeth ydyw undeb creaduriaid personol â'r Bod anfeidrol, sydd yn Dri Pherson mewn un Duw—a'r undeb hwn ydyw crefydd. Gwelir gan hyny mai nid yn unig Bod Duw, fel y dywedir yn gyffredin, ydyw sail crefydd, ond hefyd bod Duw mewn Trindod o Bersonau, ydyw sail a diogelwch yn gystal a gwrthddrych crefydd.

Y mae golygiadau anghywir neu ddiffygiol am briodoliaethau Duw yn arwain i olygiadau anghywir a diffygiol am natur crefydd. Y mae cyfyngu ein gwybodaeth at briodoliaethau naturiol Duw yn arwain i osod crefydd mewn dibyniad neu ofn yn unig; ond megys nad ydyw y syniad am Dduw yn gywir, heb gyssylltu ei briodoliaethau moesol at y rhai naturiol, felly nid yw crefydd yn gyflawn heb feddu y teimladau sydd yn tarddu o adnabyddiaeth o'r hyn sydd yn foesol yn Nuw. Pe na byddai Duw yn meddu ond ar allu neu briodoliaethau naturiol yn unig, ni byddai dynion a phob peth arall ond gwahanol ffurfiau neu benderfyniadau o'r gallu anfeidrol—ac o ganlyniad, lle byddai teimlad, nid allai fod yn amgen na theimlad o hollol ddibyniad. Ond megys nad ydyw hyn yn olwg cyflawn ar Dduw, ond yn hytrach yr olwg isaf a allwn gael arno, sef yr un naturiol, felly y mae teimlad o ddibyniad ac ofn yn perthyn i grefydd, ond yr elfenau isaf a dechreuol ynddi ydynt. Gwelir hyn yn nghrefyddau cyffredin y byd paganaidd. Y mae rhyw syniadau tywyll cymmysglyd am allu Duw yn fwy cyffredinol yn mysg paganiaid nag ydyw unrhyw ymsyniad am ei briodoliaethau moesol; ac y mae eu crefyddau yn dangos hyny, trwy osod Duw allan yn wrthddrych i'w arswydo, yn hytrach nag i'w garu. Yn gyffelyb, os cyfyngir y sylw at Dduw yn ei wybodaeth yn unig, megys y gwna Hegel, ni addefir fod dim yn grefydd ond athroniaeth. Yr un modd, crefydd lluaws o ddynion y byd, yn gystal a rhai athronwyr, megys Kant, ydyw rhyw foesoldeb Pelagiaidd, yn codi oddi ar edrych ar Dduw fel deddfroddwr yn unig. Yn fyr, wrth gymmeryd i mewn yr holl elfenau sydd yn gwneuthur i fyny syniad cywir am Dduw, ei allu, ei wybodaeth, a'i gariad, yn nghyd â'r priodoliaethau ereill sydd yn gynnwysedig yn y rhai hyn, yr ymgodwn i wybodaeth gyflawn o hono, felly hefyd y cyrhaeddwn syniad cyflawn am grefydd yn ei holl elfenau hanfodol ac fe'n dysgir i wahaniaethu hwn oddi wrth bob syniadau anghywir a diffygiol.

Fel y mae syniad cywir am Dduw, felly hefyd y mae gwybodaeth am *ddyn* yn angenrheidiol tuag at gael meddylddrych clir am natur crefydd. Ac yn gyntaf oll, y mae o bwys i wybod pa beth ydyw y cymhwysder naturiol sydd mewn dyn i nesäu at Dduw, neu i ddyfod i undeb a chymundeb âg ef. Ar hyn y mae yr athrawiaeth am ddyn yn troi. Yma y daw ystyriaeth o ddelw Duw, ar ba un y crewyd ef; ei wahanol alluoedd, a'u dibyniad ar eu gilydd; y gwahanol berthynasau moesol yn mha rai y mae dyn wedi ac yn sefyll tuag at Dduw; o herwydd y mae crefydd yn wahanol, yn ol gwahaniaeth cyflwr dyn—fel yr oedd yn wreiddiol, fel y mae dan y ddeddf ac yn droseddwr, ac fel y mae dan ras. Yn gyssylltiedig â hyn y mae yr athrawiaethau am bechod fel cwymp dyn oddi wrth Dduw; am y ddeddf; am bechod gwreiddiol; am allu ac anallu dyn, yn nghyd â rhyddid yr ewyllys. Fel y mae y dadguddiad cyflawn am Dduw, felly hefyd y mae gwybodaeth gyflawn am ddyn yn angenrheidiol tuag at gael syniad cywir a chyflawn am natur crefydd.

Y mae *Crist a'r iachawdwriaeth* sydd ynddo i gael lle hanfodol mewn gwir grefydd. Yn Nghrist fel Duw-ddyn y mae amlygiad perffaith o holl elfenau hanfodol crefydd. Efe, yn ei berthynas â'r Tad ac â'r Ysbryd Glân, yn dri pherson mewn un hanfod tragwyddol, ydyw sail ddyfnaf ac anghyfnewidiol crefydd, a'r posiblrwydd o honi. Trwy y Mab y crewyd pob peth, ac erddo ef. Creodd Duw greaduriaid cymhwys i'w adnabod a'i fwynhau, ac i ddyfod i berthynas greadigol â Duw, fel y mae y Mab mewn perthynas tragwyddol â'r Tad. Ar ol dyfodiad pechod i mewn, daeth y Mab yn ddyn—yn Dduw-ddyn—er mwyn prynu dyn; ac felly, yn ei Berson fel Duw-ddyn, ac yn ei berthynas â'i Dad, yn ystod ei fywyd o ufudd-dod ac o ddyoddefiadau ar y ddaiar, efe a osododd i lawr *sylfaen* crefydd i bechadur, ac ar yr un pryd a roddodd amlygiad perffaith o'i phrif elfenau. Er mwyn dangos y modd y mae pechadur yn dyfod yn *feddiannol* ar grefydd, y mae yr athrawiaethau mawr am gyflawnhâd, dychweliad, ailenedigaeth, ac undeb â Christ trwy nerth yr Ysbryd Glân, yn dyfod dan ystyriaeth.

Oddi wrth y braslun hwn, y mae yn amlwg fod crefydd a gwirioneddau yr efengyl mor bell oddi wrth fod yn ddidoledig oddi wrth eu gilydd fel nad oes un o'i hathrawiaethau heb fod yn dwyn y berthynas agosaf â'r cyflwr ac â'r agwedd meddwl hwnw sydd yn gynnwysedig yn y gair *crefydd*. Y mae yr un peth i'w ganfod yn y dull y defnyddir y gair crefydd i ddynodi y swm o wybodaeth a feddiennir am Dduw a'i ewyllys. Ond gan fod syniadau dynion am Dduw yn amrywio, ac o ganlyniad eu hymddygiadau tuag

Digitized by Google

ato yn gwahaniaethu, yn gystal a'r addoliadau allanol a delir iddo, yr ydym yn siarad am wahanol grefyddau. Ac yn gyffredin, dosberthir crefyddau y byd i bedwar dosbarth:—y Gristionogol, yr Iuddewig, y Mahometaidd, a'r Paganaidd. Am y rhai hyn, gwel dan y geiriau priodol.

Mae y gwahaniaeth rhwng crefydd *naturiol* a *dadguddiedig* yn cyfateb i'r ddwy ffordd trwy ba rai y mae dyn yn cael ei wybodaeth am Dduw; sef yn gyntaf, trwy natur, yr hon sydd gan baganiaid (*Rhuf.* i. 20); ac yn ail, trwy ddadguddiad uniongyrchol oddi wrth Dduw. Gwelir yn mhellach ar hyn dan y geiriau DUW; DADGUDDIAD; a DUWINYDDIAETH.

COELGREFYDD: crefydd heb fod yn sylfaenedig ar y Beibl, ond ar syniadau neu ddyehymygion dynol. Y mae y gair yn cael ei arfer yn *Act.* xvii. 22, lle y dywed Paul, yn nghanol Areopagus, "Ha wŷr Atheniaid, mi a'ch gwelaf chwi yn mhob peth yn dra choelgrefyddol." Hefyd yn *Act.* xxv. 19, lle y mae Ffestus yn mynegu i Agrippa hanes Paul, a bod gan yr Iuddewon "yn ei erbyn ef ryw ymofynion yn nghylch eu coelgrefydd eu hunain." Y gair Groeg a arferir yma yw Δεισιδαίμων=*ofni cythraul.* Arferir y gair *coelgrefydd* am ymlyniad gormodol a gorfanwl wrth ddefodau crefydd, yn enwedig mewn pethau dibwys; neu am ymlyniad selog wrth seremoniau neu gyflawniadau heb sail iddynt: ac arferir ef weithiau hefyd am ofni a pharchu y duwiau a chythreuliaid; ond nid yn yr ystyr diweddaf hwn y mae i'w ddeall yn yr adnodau o'r blaen. Y mae yn cael ei arfer gan yr awdurion clasurol weithiau i ddynodi parch a pharodrwydd i wasanaethu y duwiau; a phryd arall, ofn slafaidd o honynt ac o'u digter. Nis gellir tybied fod Paul yn ei arfer yn yr ystyr diweddaf, ond ei fod, yn ol barn Schleusner a Parkhurst, &c., fel yn dywedyd, "Yr wyf yn gweled eich bod chwi yn benodol, a hyny yn fwy nag ereill, yn talu sylw mawr i bethau crefyddol." Y mae yn anhawdd meddwl fod Ffestus hefyd, gan ei fod yn siarad âg Agrippa, yr hwn oedd yn Iuddew, ac yn ymweled âg ef ar y pryd, yn arfer y gair ond mewn ystyr tebyg i'r hyn oedd yn meddwl Paul wrth ei ddefnyddio. Y mae y gair yn cael ei arfer felly hefyd gan Josephus.

CREFYDDAU Y BYD. Gwel dan eu gwahanol enwau.

CREFYDD-DY. Gwel MYNACHDY.

CRESCENS, [Κρήσκης]: cynnorthwywr neu gydymaith i'r apostol Paul. Credir yn gyffredin ei fod yn un o'r deg dysgybl a thrigain a anfonwyd gan ein Iachawdwr allan i bregethu; ond nid ymddengys fod un prawf o hyny. Yr unig grybwylliad sydd am dano yn y Testament Newydd a geir yn 2 *Tim.* iv. 10, lle y dywedir ei fod wedi myned i Galatia o Rufain, tra yr oedd Paul yno yn ngharchar. Ni fynegir ar ba neges neu fwriad yr aeth yno, nac, yn wir, ei fod yn bregethwr; ond y mae yn rhesymol casglu hyny oddi wrth gyssylltiad ei enw â'r eiddo Demas a Titus, y rhai y gwyddys eu bod yn gydweithwyr â Paul yn yr efengyl, ac fel un mor adnabyddus i Timotheus ag oeddynt hwythau. Dywedir hefyd yn yr *Apostolical Constitutions*, a chan dadau yr eglwys, iddo bregethu yr efengyl yn Galatia. Meddylia Eusebius, ac ereill, ei fod wedi bod yn pregethu yn nhir Gâl, neu Ffrainc bresennol a'i chyffiniau, ac iddo sylfaenu eglwys Vienne yn Dauphiny. Y mae hefyd hen draddodiad, crybwylledig gan Sophronius, ddarfod iddo bregethu yn yr un wlad. Eithr tybia y Dr. Kitto, "nad ydyw hyn yn deilwng o un sylw; gan nad oes iddo, mae'n debygol, un sail amgen na thebygrwydd yr enwau Galatia a Gallia." Ond nid yw ein cydoeswr manylgraff yn gallu rhoddi un cyfrif am yr haeriad ddarfod i Crescens blanu eglwys yn Vienne, na rheswm digonol i fwrw o'r neilldu farn mor fore a chyfrifol a'r eiddo Eusebius, yr hwn a aned yn y flwyddyn 270. Pan ystyriom bellder teithiau a symmudiadau efengylwyr yr oes apostolaidd, nid oes dim annichonadwy yn y dybiaeth ddarfod i Crescens, yn ystod ei oes, bregethu Crist yn nhir Gâl, yn gystal ag yn Galatia. Pobl o'r un gwaedoliaeth ac iaith oedd y Galatiaid a'r Galwys neu y Galiaid—Celltiaid, fel y Cymry; a dichon iddo, wedi gorphen ei waith yn Galatia, a dyfod yn gydnabyddus âg iaith a defodau y llwyth hwnw o'r hen Gymry, gael ei dueddu i fyned i bregethu hefyd i'r un genedl, ar faes eangach Gaul, neu hyd yn Mhrydain.

CRETA, [Κρήτη]: Candia bresennol; un o ynysoedd mwyaf Môr y Canoldir, yn gorwedd rhwng ynysfor Groeg—Môr Ægea gynt—a goror Libya neu Barca, yn Affrica, a rhwng y 35 a'r 36 gradd o ledred gogleddol, a'r 23½ a'r 26½ o hydred dwyreiniol; ac agos yr un faint o ffordd o gyfandir Ewrop, Asia, ac Affrica. Ffurfia yr ynys ddarn hirfain o dir, yn rhedeg o ddwyrain i orllewin, dros wyth ugain milltir o hyd, ac heb fod yn y man lletaf dros bymtheng milltir ar ugain o fôr i fôr, ac yn un man ddim ond chwe milltir. Fel hyn, nid yw yn agos gymmaint ag y dysgrifir hi gan Pliny, sef 270 o filltiroedd Rhufeinig o hyd, a 50 milltir o led. Ei morlanau deheuol a ymgodant yn geulenydd serth, creigiog, a pheryglus; ond ar ystlys ogleddol yr ynys, y mae amryw gilforoedd ac angorfeydd dyfnion, cysgodol, a diogel, megys agendorau Kisamos, Khanea, Sudha, Mirabel, ac Armyros. Y mae iddi amryw bentiroedd, megys penrhyn Samonium, Salome (Sidero yn awr), yn mhen dwyreiniol yr ynys. yn pwyntio tua Rhodes ac Asia Leiaf; penrhyn Crio, yn y de-orllewin, yn gwynebu goror Cyrene yn Affrica; a phentiroedd Corycum, Spadia, a Buso, yn edrych at dir Groeg. Tra anwastad yw arwyneb y wlad; ac y mae rhes o fryniau yn rhedeg drwyddi, ar ei hyd, yn ymgodi yn glogwyni cribog tua'r gorllewin, ar benau pa rai y saif eira hyd mis Mehefin; ac o herwydd hyn, gelwir hwynt gan Strabo yn *Leuca Oré*, neu fynyddoedd gwynion. Y mae copa mynydd Ida yn 7,800 troedfedd yn uwch na gwyneb y môr; ond y mae y wlad wrth natur yn ffrwythlawn, a'r mân ddyffrynoedd yn dwyn cnydau toreithiog; ond fod y Tyrciaid yn rhy ddiog i drin nemawr ar y tir. Y mae y coedydd yn tyfu i fyny hyd aeliau y clogwyni uchaf. Cyfrifir dyffryn Messara, a'r afon o'r un enw, fel Eden Creta. Y mae y dyffryn prydferth hwn yn gorwedd wrth droed mynydd Ida, a thyf pob math o ffrwythau gwledydd brydion yn yr ardal hon. Meithrinir y gorsen sugr a'r planigyn cotwm yma, a thyf y balmwydden yma gystal a'r winwydden. Yn y fro hon y safai Gortys, neu Gortyna gynt: 1 *Macc.* xv. 23. Coir aml lain o wastadedd teg heb law hwn, yma ac acw, rhwng y mynyddoedd ac ar lanau y môr,

Digitized by Google

a glynau ffrwythlawn a nentydd coediog, yn nghanol y wlad. Er fod Creta wedi ei dyfrhau yn dda, nid yw ei hafonydd ond math o gornentydd dyfnion, byr eu rhediad, yn disgyn i'r morgeinciau a enwyd, ac yn sychion yn yr haf. Y mae yn wlad dda am ŷd o bob math, grawnion, gwin, olewydd, gwirod, mel, cŵyr, gwm, gwlan, sidan, &c. Ar lethrau y mynyddoedd y tyf olewydd ac eurafalau, neu goed *oranges* a *lemons*. Gwneir yma hefyd rai mathau o ledrau, a sebon gwyn, a gyfrifir yn rhagorol ar ororau y Levant, ac a sierhâ bris uchel yn marchnadoedd Trieste. Dywedir fod y porfeydd yn rhagorol i fagu a phesgi gwartheg, ond gwaherddir eu mudo o'r ynys; ac y mae ffyrdd y wlad mor ddrwg, fel mai prin y medr neb eu tramwy hyd yn oed ar fulod.

Candia—tref yn cynnwys tua chwe mil o drigolion—yw y brifddinas. Heb law hon, y mae dwy neu dair o fân drefydd ar lan y môr, megys Khanea a Retimo. Nid ydyw Sphakia — y Phenice y sonir am dani yn mordaith helbulus Paul o Cesarea i Rufain (*Act.* xxvii. 12)—ond rhyw dreflan borthladdol ddisylw.

Tybia rhai fod yr enw diweddar, *Candia* (Ll. *Candida*; C. *Candud*), yn tarddu oddi wrth liw gwyn (=*cân*, neu *gânaidd*) y mynyddoedd, fel yr ymddangosant oddi ar y môr; ond dywed Scylitzes, y croniclwr Byzantiaidd—"Yr enw *Chandea* a roddwyd gan y Saraceniaid i'r dref, yr hon a adeiladasant, ac sydd eto yn dwyn yr enw hwnw, ac yn arwyddocäu *gwarchglawdd* yn eu hiaith hwy." Yn y de-orllewin, y mae y bryniau yn dyfod i ymyl glan y môr. Dyma ardal y Sphakiotes, y rhai ydynt lwyth o fynyddwyr — ysbeilwyr a lladron, ar droion — na lwyr oresgynwyd mo honynt erioed gan y Tyrciaid. Gortyna neu Gortys oedd prif ddinas Creta yn amser y Maccabeaid: *Mac.* xv. 23. Safai y ddinas hon wrth droed mynydd Ida. Heb law y rhai hyn, yr oedd yn Creta amryw ddinasoedd ereill, megys Cisamus, Cydonia (yn awr Canea), Amphimalla, Rithymna (yn awr Retimo), Heraeleum (porthladd Cnossus), Miletus, Phalasarna, Lyctus, Lacæa, Phenice (*Act.* xxvii), Phœnixportus, Hierapetra, ac Ampelos

Goresgynwyd Creta gan y Rhufeiniaid, yn y flwyddyn 67 c. c., dan y rhaglaw Quintus Metellus, ar ol gwrthsafiad cyndyn, a thair blynedd o ryfel gwaedlyd; am yr hwn y cafodd Metellus y cyfenw Creticus. Aeth Creta yn dalaeth Rufeinig, fel rhan o deyrnas Cyrene, ac anfonwyd trefedigaeth i Cnossus; a bu y wlad dan lywodraeth ymherawdwyr Rhufain, ac ymherawdwyr Caer Cystenyn wedi hyny, hyd y flwyddyn 823, pan y cymmerwyd hi oddi ar Michael II. gan y Saraceniaid; y rhai a adeiladasant dref Candia, yr hon sydd wedi cael ei hystyried byth wedi hyny fel prif ddinas yr ynys. Ail gymmerwyd hi gan Nicephorus Phocas, yn y flwyddyn 961. Wedi cymmeryd Caer Cystenyn gan y Ffrancod, Baldwyn I. a roddes ynys Candia i Boniface, arglwydd Montserrat, yr hwn a'i gwerthodd i'r Venetiaid (1194—1204). Cadwodd y Venetiaid feddiant o Candia am fwy na phedwar cant o flyneddoedd; yr oedd yn un o'u prif feddiannau yn y dwyrain, a'r gyntaf a'r fwyaf blodeuog o'r tair teyrnas ddarostyngedig—banerau pa rai a gyhwfanent uwch ben petryal St. Mark. Y ddwy ereill oeddynt Cyprus a Morea. Rheolid yr ynys gan raglaw cyffredinol, anfonedig o Venice; a thano yr oedd pedwar is-raglaw—Canea, Candia, Retimo, a Sittia. Anfonwyd y *rettori*—rheithwyr, neu farnwyr—hefyd o Venice, y rhai a gynnorthwyid gan ddau gynghorwr yn y gyfraith, dewisedig o blith y brodorion. Yr oedd y frawdwriaeth ddinasol yn nwylaw y Candiaid, a'r trethi yn gymmedrol. Y pendefigion brodorol a fwynhaent eu hen ragorfreintiau; ond yr oeddynt yn rhwymedig i gadw nifer penodol o wŷr a fedrent drin arfau, o blith eu gweision a'u tenantiaid. Cyfrifid nerth milwraidd yr ynys yn 60,000 o wŷr wrth alwad. Y rhan fwyaf o'r brodorion a berthynant i Eglwys Groeg, ac a feddant eu gweinidogion eu hunain; ond yr oedd yno archesgob o Eglwys Rhufain, anfonedig o Venice. Yn 1645, glaniodd y Tyrciaid 50,000 o wŷr, yn annysgwyliadwy, pan nad oedd rhyfel rhwng y cenedloedd hyn; gwarchaeasant ar Canea, a chymmerasant hi. Y flwyddyn ganlynol, cymmerasant Retimo; ac yn 1648, gwarchaeasant ar Candia, prif ddinas yr ynys. Y gwarchae hwn — yr hwyaf mewn hanesiaeth ddiweddar — a barhaodd am ugain mlynedd. Amddiffynai y Venetiaid y dref gyda'r gwroldeb a'r cyndynrwydd mwyaf dewr a gwiwglod. Anfonwyd cynnorthwyon iddynt oddi wrth urdd milwraidd Malta, y pab, y Duc o Savoy, a Louis XIV. Ond y vizier Achmet Coprougli a anfonwyd yno yn y diwedd gan y Sultan, gydag adgyfnerthion mawrion, i gymmeryd y ddinas drwy ruthr, oddi ar Franceso Morosini, yr hwn oedd yr arlywydd yn ei hamddiffyniad. Yn mis Medi, 1669, y Venetiaid, pan oedd pob moddion a feddent wedi darfod, a roddasant Candia i fyny i'r vizier, ar yr ammod fod iddynt gael dal meddiant o amddiffynfeydd Suda, Carabusa, a Spinalonga, ar lan y môr. Costiodd rhyfel Candia i senedd Venice dros ddeuddeng miliwn o bunnau; ac yn ystod y tair blynedd olaf o'r rhyfel hon, syrthiodd naw mil ar ugain o Gristionogion, a deng mil a thrigain o Dyrciaid, dan furiau Candia; ac fe laddwyd 200,000 o'r Mahometiaid, cyn cymmeryd yr ynys. Gwnaeth y Tyrciaid naw ymosodiad a thrigain ar y ddinas, a'r Venetiaid bedwar ugain ymruthriad ar wersyll y gwarchaewyr; a chwythwyd i fyny 1364 o gloddiadau tanddaiarol, o bob tu.

Y Tyrciaid a ranasant yr ynys—yr hon a alwant hwy *Kirid*—yn dair talaeth, sef Candia, Canea, a Retimo. Ond rhoddodd y Sultan i fyny ynys Candia i Mehemet Ali, rhaglywydd yr Aipht, tua'r flwyddyn 1826—7, fel iawn am ei dreuliadau yn y rhyfel yn erbyn y Moreaid.

Y mae Candia, y brif ddinas, eto yn lle cadarn, ond nid yn debyg i'r peth oedd dan reolaeth y Venetiaid; ac y mae y porthladd agos wedi ei lenwi i fyny â thywod. Yma y mae trigfan penaeth yr ynys. Y mae mwy o longau yn ymweled â phorthladd Canea, neu Khanea. Y mae Retimo hefyd yn fath o longborth.

Yn *Walpole's Collection of Travels in various Countries of the East*, y mae hanes am fynedfeydd trofäog rhyfedd wedi cael eu tori mewn craig o dywodfaen, yn y mynydd, o fewn tair milltir i bentref Agio Deka, yn ymyl Gortyna, a thuag ugain militir i'r tir o Candia, y rhai a eilw y trigolion y *labyrinth*. Y mae y trofeydd tanddaiarol hyn, y rhai a arweiniant i luaws o "siamberydd" pedeironglog, tua thri chwarter milltir o hyd; ond y mae yn amlwg nad ydyw hyn ond rhan o'r "naddiadau" gynt, gan fod cryn lawer o'r arweinfeydd wedi eu cau i fyny drwy faluriad a syrthiad y graig, yn ystod oesoedd. Dywedir i Minos, ar ei ddyfodiad adref o'r Aipht, osod Dædalus, celfyddydwr Athen-

Digitized by Google

aidd, ar waith i adeiladu *labyrinth*, neu drofeydd dyrys rhyfedd, fel a welsai yn Moeris. Yma, wedi hyny, y dywedir ei fod wedi caethiwo Dædalus ei hun, am ei ddrygioni; ond wedi hyn diangodd y celfyddydwr i Sicily. Ond yn ol yr hen hanesion, *adeilad* oedd *labyrinth* Dædalus; ac yr oedd yn agos i Cnossus. Dywed Tournefort, fod ardal yr hen Gortyna, yn ei amser ef, wedi cael ei hulio â murddynau cofiaethol; ond nid yw Mr. Cockerell yn son ond am furddyn hen chwareudy, heb law rhyw olion o adfeilion disylw.

Hyd yn oed yn ein hoes ni, yr oedd ynysoedd Môr Candia, megys Carabusa, yn nythod i fôrladron.—(*Daru, Histoire de Venise; Botta, Storia d'Italia; Strabo*, x; *Sieber, Reise nach Kreta; Hoeck's Kreta.*)

CRETIAID: brodorion ynys Creta. Yn ol barn rhai, cawsant eu henw oddi wrth y Curetes, neu Guretiaid—pobl a hanfodant mewn chwedloniaeth, fel cyndrigolion Acarnania ac Ætolia, yn nhir Groeg; oddi wrth ba rai y galwyd y dalaeth olaf yn *Curetis*. Yn ynys Creta, ymddangosant yn unig megys urdd o offeiriaid, i ba rai yr ymddiriedwyd dygiad i fyny y duwdodyn Zeus, neu Jupiter, gan ei fam Rhea. Ereill a dybiant iddynt gael eu galw yn Gretiaid oddi wrth y nymph Crete, merch Hesperus; neu oddi wrth Cres, mab i Jupiter o'r nymph Idæa. Ond dywed hen awdwyr, yn gyffredin, i Creta gael ei phoblogi ar y cyntaf o Palestina. Yn ol tystiolaeth Bochart [llyfr v. pen. 15], gelwid y rhan o Wlad Canaan sydd yn gorwedd ar lan Môr y Canoldir, gan yr Arabiaid, yn *Keritha;* ac yn iaith y Syriaid, *Creth;* a'r Hebreaid a alwant y trigolion yn *Crethi*, neu *Crethim;* yr hwn enw a gyfieitha y Deg a Thrigain yn Κρῆτες=*Cretiaid;* megys, "Wele fi yn estyn fy llaw ar y Philistiaid, a thoraf ymaith y *Cretiaid*, a dyfethaf weddill porthladd y môr;" *Ezec.* xxv. 16. Eto, "Gwae preswylwyr glan y môr, cenedl y *Cretiaid;*" *Sephaniah* ii. 5. *Cerethiaid* yw yr enw a ddefnyddir yn y ddau le hyn yn ein cyfieithiad ni a'r Seisoneg. Y mae yn amlwg mai yr un bobl oedd y Cerethiaid a'r Philistiaid; ond nid yw mor sicr mai yr un genedl oeddynt a'r Cretiaid, er fod y ddau enw yn debyg. Tybia Brown, ei fod yn beth tebygol, ddarfod i rai o'r Philistiaid ffoi o Wlad Canaan i ynys Creta, yn nyddiau Ioshua. Cais Calmet a Lackemacker ddangos mai Creta yw ynys Caphtor, y sonia Ieremiah am dani (*pen.* xlvii. 4), cyn-wlad y Philistiaid, o'r hon y daethant i Ganaan. Barnai Syr Isaac Newton i Creta gael ei phoblogi o Palestina; "o blegid i lawer o'r Phœniciaid a'r Syriaid, yn y flwyddyn 1045 c. c., ffoi o Sidon, a rhag y brenin Dafydd i Asia Leiaf, Creta, Groeg, a Lybia; a dygasant gyda hwynt y wybodaeth o ly hyrenau, cerddoriaeth, barddoniaeth, gweithiad metteloedd ac amryw gelfyddydau, gwyddoniaeth, a defodau Phœniciaidd. Gyda'r Phœniciaid hyn y daeth urdd o ddynion cyfarwydd yn nirgelion crefydd, celfyddydau, a gwybodaethau, ac a sefydlasant mewn amryw fanau dan yr enw *Curetis*," &c. Hònai y Cretiaid hynafiaeth mawr. Sonia Homer am "gan *porth* Creta," yr hyn a gymmer Virgil am gan *dinas* (*Æneid*, iii—yn cyfeirio at *Iliad* ii. 649); ond nid yw Homer, yn yr *Odyssey*, yn priodoli i'r Cretiaid fwy na deg a phedwar ar ugain o drefydd. Ond nid yw hyny a ddywedir am Creta, yn yr odlau Homeraidd, yn profi dim mwy na bod yr ynys wedi cael ei phreswylio er cyn oes hanesiaeth, gan bobl luosog, a gwareiddiedig i raddau. Mae Strabo—rhieni yr hwn o du ei fam oeddynt Gretiaid o Cnossus, er ei fod ef ei hun wedi cael ei eni yn Pontus—yn rhoddi hanes manwl am y genedl, eu cyfreithiau, eu dinasoedd, a'u rhyfeloedd. Ac y mae Aristotle [*Polit.* llyfr ii], yn dysgrifio sefydliadau a defodau y Cretiaid, y rhai a dderbyniasant oddi wrth eu deddfroddwr enwog Minos; yr hwn, fel y dywed beirdd a haneswyr, oedd frenin yn oesi cyn rhyfel Caerdroia, yn cadw ei lys yn Cnossus—dinas a safai gynt yn agos i sefyllfa tref bresennol Candia—ac oedd yn rheoli y rhan fwyaf o'r ynys. Aeth ei gyfreithiau yn enwog hefyd yn mysg y Groegiaid, y rhai a'u benthycasant [*Strabo*, x. td. 328] Yn ol traddodiad, efe oedd y tywysog cyntaf a fu yn meddu ar lynges, ac a ddifaodd y morladron a anrheithient ororau tir Groeg; a gyrodd y Cariaid o ynysoedd y Cyclades, gan sefydlu ei feibion ei hun ynddynt [*Theucyd.* i. 4]. Aeth yn feistr Môr Ægea, a rhanodd Creta yn dair talaeth. Yn ol rhai awdwyr, bu dau frenin o'r enw hwn, ac olyniaeth ddidor o ddeunaw o freninoedd yn Creta, cyn gosod i fyny y gwerinlywodraethau dinasol, y rhai a barhasant hyd oresgyniad y wlad gan y Rhufeiniaid. Ond "pobl gymmysg" oedd yr ynyswyr hyn. Y rhan ddwyreiniol o'r ynys a boblogwyd, o fewn y cyfnod hanesol, gan drefedigion Doraidd; y gorllewin a gyfanneddid gan yr *Eteocretes*, neu y "gwir Gretiaid"—y cynfrodorion—a'r Cydoniaid a drigent yn y de. Y mae hanes y gwir Gretiaid agos yn gwbl chwedlonaidd. Ymffrostient eu bod wedi disgyn oddi wrth Jupiter; a bod y duw hwnw wedi cael ei eni, ei fagu, a'i gladdu yn Creta; a meddylia yr esgob Warburton, mai o herwydd hyn y cawsant yr enw o fod yn "gelwyddog." Dyma y chwedl:—Mab oedd Zeus y Groegiaid, Jupiter y Rhufeiniaid, a Iau y Cymry, i Sadwrn a Rhea. Yr oedd gan ei dad Sadwrn—neu Cronos, fel y galwai y Groegiaid ef—gast creulawn o lyncu ei blant cyn gynted ag y genid hwy; am hyny, pan oedd Rhea yn feichiog ar Zeus, appeliodd at Uranus a Ge—tad a mam ei gwr a hithau—i arbed bywyd y plentyn oedd dan ei gwregys; hwythau a'i cynghorasant i gilio i ynys Creta, ac esgor yno ar fynydd Ida. A phan anwyd y plentyn, cuddiodd ei fam ef mewn ogof; ac yno y maethwyd ef gan y nymphiaid, Adrasta ac Idæa, ar laeth yr afr Amalthea, a mêl; ac y siglwyd ef mewn cryd o aur, dan ofal y Curetis, y rhai a gadwent ddawnsfeydd, a phob bloddest a sŵn, rhag i Cronos glywed y plentyn yn crio, a gwybod yn mha le yr oedd yn guddiedig. A phan y daeth Sadwrn ar ei hol i Creta, rhoddes ei wraig iddo lafn o faen mewn rhwymyn o wlanen, yr hwn a lyncodd yntau gan gredu mai ei fab oedd. Pan dyfodd Zeus i fyny, daeth i fod yn rhyfelwr,—gorchfygodd y duwdodau Titanaidd; cafodd gan y Cyclopiaid feddiant ar fellt a tharanau; a phenarglwyddiaeth, drwy oresgyniad, ar y byd; ac aeth yn brif dduw y ddaiar a'r nef, a thrigodd yn benaf ar ynys Creta, lle yr oedd yn frenin, ac yr addolid ef ar fynydd Ida. Bu iddo amryw wragedd a gordderchadon, o ba rai y ganwyd iddo lawer o hanner-duwiau a gwroniaid; ac esgorodd yntau ei hun ar un ferch, sef y dduwies Athena! Unwaith, syrthiodd mewn cariad âg Europa, merch i frenin Phœnicia; ac i'r dyben o'i dwyn ymaith, cymmerodd arno rith tarw, yn pori yn mysg gwartheg ei thad, pan oedd Europa yn rhodiana ac yn campio gyda ei morwynion, ar

Digitized by Google

hyd lan y traeth. Denwyd hi, gan ddofder y tarw tybiedig, i ddringo ar ei gefn, ac yntau a gymmerodd naid gyda hi dros y geulan i'r môr, ac a noflodd adref i ynys Creta; ac yno ganwyd iddo dri o blant o honi,—1. Minos, deddfroddwr y Cretiaid; yr hwn, megys cyfreithiwr enwog, a wnaed, wedi iddo farw, yn farnwr yn nghysgodau Hades. 2. Rhadamanthus; yr hwn, hefyd, o herwydd ei uniondeb, a wnaed, ar ol ei farwolaeth, yn farnwr yn uffern. 3. Sarpedon, i'r hwn y caniataodd ei dad y fraint o gael byw am dair oes. Europa, wedi hyn, a briododd Asterion, brenin Creta, yr hwn a ddygodd i fyny y plant yma; ac o blegid hyn, a gafodd yr enw o fod yn dadmaeth i blant Jupiter. Dengys y chwedl ddechreu neu o leiaf gyfathrach Phœniciaidd y Cretiaid. Ac y mae chwedl arall, sydd yn taflu goleu ar haniad ac ar grefydd gynoesol y genedl: —"Wedi marw Asterion, ymgeisiodd Minos am yr orsedd, drwy nawdd y duwiau; ac fel yr oedd yn addoli Neptunus, gweddïodd am i darw godi o'r môr yn arwydd mai efe a fyddai yn frenin, ac addunedodd aberthu y tarw hwnw i'r duw a enwyd: ond pan ddaeth y bwystfil i'r lan, Minos a resynodd rhag cymmeryd bywyd anifail mor hardd, ac aberthodd un arall yn ei le; a'r canlyniad fu, i'r frenines Pasiphaë gystlynu â'r anifail, a rhoddi genedigaeth i'r anghenfil Minotauros, yr hwn oedd yn meddu corff dyn a phen tarw (corff tarw a phen dyn, medd ereill), ac a gedwid yn y *labyrinth*; ac yr oedd yn difa saith o lanciau a saith o herlodesau o wyryfon bob blwyddyn, y rhai a anfonid fel teyrnged o Athen." Mae yn amlwg fod hyn yn cyfeirio at yr eilundduwiaeth Aiphtaidd—addoliad "teirw a lloi"—pechod y syrthiodd plant Israel iddo yn yr anialwch; a'r Deg Llwyth, wedi hyny, dan deyrnasiad Ieroboam a'i olynwyr. Awgryma hefyd fod yr hen Gretiaid yn euog o arfer y defodau creulonaf a berthynent i eilunaddoliaeth—eu bod yn offrymu ebyrth dynol. Dalient hefyd yr athrawiaeth o farwoldeb cyffredinol, i'r hwn yr haerent fod y duwiau hefyd yn ddarostyngedig; a bod Jupiter, "tad y duwiau," wedi cael ei gladdu yn Creta. Y cyfryw oferchwedlau halogedig a weddent i bobl oeddynt "bob amser yn gelwyddog"—yn gelwyddwyr o'r dechreuad; holl hanes eu dechreuad cenedlaethol, eu crefydd, eu cyfreithiau, &c., yn amgauedig mewn chwedlau ofer a direswm; a'u defodau crefyddol yn dangos mai "drwg fwystflod"—pobl greulawn ac anwar—oeddynt o'r dechreuad. Ac nid rhyfedd i ddynion o'r cyfryw syniadau gau ymroddi i bob gormodedd cnawdol, ac i'w cymmeriad moesol syrthio yn isel. Ond dywed ereill fod yr hen wir Gretiaid mor hynod am eu geirwiredd a'u gonestrwydd, ag oedd eu holynwyr am eu celwydd a'u twyll. Ond y mae yn anhawdd iawn credu hyn; o blegid y mae Paul yn dyfynu y dysgrifiad a roddwyd o'u cymmeriad tua saith gan mlynedd cyn ei ddyddiau ef:—"Y Cretiaid sydd bob amser yn gelwyddog, drwg fwystflod, boliau gorddiog." Y mae yn wir y meddylir yn gyffredin fod yr apostol yn adrodd darn o emyn Callimachus i Jove (viii). Nid oes yn ngwaith Callimachus ond geiriau cyntaf y penniil; a dywed Jerome, iddo eu benthyca gan Epimenides, yr hwn oedd Gretiad. Ond am Callimachus (bardd a meistr ysgol ramadegol Alexandria), ganwyd ef yn Cyrene, yn Affrica; a bu farw yn y flwyddyn 240 c. c. Epimenides oedd offeiriad a bardd Cretaidd—un o'r *Curetiaid*—o enwogrwydd mawr, yr hwn y gwyddys iddo ymweled âg Athen, yn y flwyddyn 596 c. c.; a dywedir ei fod wedi ysgrifenu amryw lyfrau, mewn barddoniaeth a rhyddiaith, ond nid oes dim o'i waith yn awr ar gael, ond y mymryn cynnwysfawr hwn o wawd i'r Cretiaid. Amdoisant hwythau ei goffadwriaeth yntau mewn pob math o chwedlau gau; megys iddo gysgu unwaith am ddwy flynedd ar bymtheg a deugain mewn ogof; ei fod o du ei fam, wedi disgyn oddi wrth y duwiau, &c. Yr un peth yn sylweddol a ddywed Polybius, hefyd, am danynt; ac yr oedd yntau yn ysgrifenu dros ddau can mlynedd cyn geni ein Iachawdwr. Yn wir, yr oedd Cretiad a chelwyddwr yn eiriau cyfystyr, fel y dywed yr hen wers ysgol,—"Chwareu y Cretiad" yw y ddiareb am gelwydd: yr un ffunud y dywedid, "*Cretisare cum Cretensibus*"=Creteiddio y Cretiaid, am dwyllo twyllwyr. Gan eu bod yn saethyddion a thafliyddion medrus, gwasanaethent yn aml fel hurfilwyr mewn rhyfeloedd tramor—cyflogent i ymladd brwydrau estroniaid er mwyn tâl ac ysbail; yr hyn a ddarostyngodd eu cymmeriad yn mysg cenedloedd gwladgarol, ac a dueddodd i lygru eu moesau.

Creta, neu Kreta, oedd un o'r tair K (*Kappa*, y lythyren Roeg), y bwriadwyd i'r ddiareb ganlynol fod yn rhybudd i ochelyd eu hanffyddlondeb—"Τρία κάππα κάκιονα, Καππαδοκία, καὶ Κρητη, καὶ Κιλικία"=Cappadocia, Creta, a Cilicia. Nid oeddynt bobl i ymddiried ynddynt.

Fel pobl a breswylient yr eigion, yr oedd y Cretiaid yn rhwyfwyr a morwyr rhagorol, er cyn cof; ac ymwelai eu llongau â'r holl borthladdoedd cymmydogaethol, a daethant i ddal perthynasau trafnidiol ar holl ororau Môr y Canoldir. Nid oedd glanau deheuol Creta ond mordaith deuddydd o Cyrenaica, a phedwar diwrnod o'r Aipht. Dywedir fod gan Idomeneus—ŵyr Minos, un o'r tywysogion Cretaidd a aethant i ryfel Caerdroia—bedwar ugain o longau—agos gymmaint ag oedd gan Agamemnon ei hun; ond iddo, ar ei ddychweliad adref, gael ei yru ymaith o'r wlad gan ei ddeiliaid, a myned i sylfaenu trefedigaeth Salentum, ar oror Iapygia. Yn nyddiau Polybius, yr oedd anair cyffredin i'r Cretiaid; megys ysbeilwyr a morladron. Bu aml ryfel yn mysg y Cretiaid eu hunain, yn gystal a rhyngddynt â'u cymmydogion y Siliciaid, a breninoedd Syria a'r Aipht. Cynnorthwyasant Demetrius II. i adfeddiannu coron Syria, trwy ddiorseddu y gormeswr Alexander Balas, yn y flwyddyn 148 c. c. [*Justin.* xxxv. 2.]

Y Doriaid a ymsefydlasant yn Creta tua thrigain mlynedd wedi goresgyn y Peloponnesus; darostyngasant yr hen drigolion danynt, a gosodasant i fyny eu defodau cymdeithasol eu hunain. Prif ynadon y dinasoedd a elwid yn *Cosmi*; y rhai oeddynt ddeg o nifer, wedi eu dewis o deuluoedd pendefigaidd. Yr oedd ganddynt hefyd *gerusia* neu senedd, ac *ecclesia* (gwreiddair *eglwys*), math o gymmanfa boblogaidd, neu dŷ cyffredin. Mewn amser, dymchwelwyd y bendefigaeth, a sefydlwyd ffurflywodraeth mwy gwerinol ar ei hadfeilion. Yr hen ddefodau Doraidd a ddiflanasant o dipyn i beth, a dirywiodd moesau y bobl.

Rhaid fod y Cretiaid yn bobl gymmysg iawn yn amser Paul. Y mae yn debygol i lawer o Iuddewon ymsefydlu yn Creta, cyn i'r Rhufeiniaid oresgyn yr ynys. Enwir y Cretiaid yn mysg yr Iuddewon a'r proselytiaid a ddaethant i fyny i Ierusalem ar ŵyl y Pentecost, y rhai a wrandawent gyda syndod ar Pedr â'i gydapostolion yn pregethu Crist. Y mae yn debyg mai rhai

Digitized by Google

o'r tröedigion hyn a gariasant yr efengyl gyntaf i Creta, cyn i Paul blanu eglwys yn y lle, a gadael Titus ar ei ol yno "i iawn drefnu y pethau oedd yn ol." Cymharer *Act.* ii. 11, 37, 41; *Titus* i. 5. Ac ymddengys fod yr Iuddewon Cretaidd mor ymroddedig i chwedlau ac mor lygredig eu bucheddau ag oedd yr hen Gretiaid paganaidd; o blegid y mae yr apostol yn cymhwyso y dysgrifiad, "Y Cretiaid sydd bob amser yn gelwyddog, drwg fwystfilod, boliau gorddiog," fel "tystiolaeth wir" am holl drigolion yr ynys—y rhai oeddynt yn cael eu gwneyd i fyny o Iuddewon yn gystal a Chenedloedd.

Y mae y Cretiaid wedi bod yn Gristionogion proffesedig er dyddiau yr apostolion, ac yn aelodau o Eglwys Groeg. Yn amser yr ymherawdwr Leo, yr oedd y wlad yn cael ei rhanu, fel y mae yn awr, i ddeuddeg o esgobaethau, dan batriarch Caer Cystenyn. Archesgob Gortys yw y prif-lywydd eglwysig trigiannol. Cyfrifir poblogaeth yr ynys tua 158,000—dwy ran o dair o ba rai ydynt Roegiaid neu Gristionogion, a'r rhelyw yn Dyrciaid, ac fel y cyfryw yn ganlynwyr Mahomet. Y mae yn yr ynys amryw fynachlogydd yn perthyn i urdd y Caloyaid, y rhai y dywedir eu bod yn feddiannol ar gryn lawer o dir. Cyfrifir "Tyrciaid" Creta—meibion i Roegiaid gwrthgiliedig yn aml—fel y Mahometiaid mwyaf penboeth, coelgrefyddol, cwerylus, a therfysglyd, yn mysg preswylwyr gororau y Levant.

CREULAWN, [*crau-llawn* = *gwaedlawn*]: gwaedlyd, ffyrnig, annynol, didrugaredd, calongaled, dideimlad. "Rhag i ti roddi dy....flyneddoedd i'r creulawn;" sef y butain aflan a bradychus: *Diar.* v. 9. "Creulawn yw llid," a pheryglus ei ganlyniadau: *Diar.* xxvii. 4. "Eiddigedd sy greulawn fel y bedd"—yn ddinystriol fel y bedd. Mae cariad siomedig yn cyffroi dialedd, a hwnw yn terfynu yn fynych yn angeuol. Dylai dynion gadw llywodraeth fanwl ar eu nwydau anianol, gan nas gwyddant i ba ganlyniadau dinystriol y dichon iddynt eu harwain. Ond y mae cariad Crist yn mynwes y credadyn yn creu y fath eiddigedd duwiol a fynai ddifa pob hudoliaeth sydd am ei lithio oddi wrth Anwylyd ei enaid: *Can.* viii. 6. Mae barnedigaethau trymion, megys rhyfel, newyn, a haint, yn effeithio i bylu y tueddiadau tyneraf, nes gwneuthur hyd yn oed mamau yn greulawn at eu rhai bach: *Galar.* iv. 3. "Cospedigaeth y creulawn;" hyny yw, brenin Babilon—y gormesdeyrn gwaedlyd hwnw, a ddefnyddiodd Duw i gospi y genedl am ei phechodau: *Ier.* xxx. 14. Mae y duwiol weithiau yn camsynied am ymddygiadau Duw tuag ato, fel Iob, pan y dywedodd, "yr wyt yn troi yn greulawn yn fy erbyn;" *Iob* xxx. 21: cymh. xlii. 3. "Cenad creulawn;" hyny yw, cenadwri greulawn: *Diar.* xvii. 11.

CREULONDEB, [*creulawn*]: ffyrnigrwydd; trais; gweithred greulawn. Mae creulondeb yn bechadurus, ac am hyny i'w ochelyd, ac i alaru o'i herwydd: *Gen.* xlix. 5—7; *Deut.* xxv. 3; *Diar.* xi. 17; *Ezec.* xviii. 18. Anghreifftiau o greulonderau nodedig:—Simeon a Lefi; *Gen.* xxxiv. 25—31: Pharaoh; *Exod.* i. 14: Adonibezec; *Barn.* i. 7: Menahem; 2 *Bren.* xv. 16: Iehoram; 2 *Cron.* xxi. 4: Antiochus Epiphanes, y "brenin wynebgreulawn;" *Dan.* viii. 23; Herod Fawr; *Mat.* ii. 16. Y mae yn arswydus meddwl yr eithafion o greulonedd y dichon i natur lygredig fyned, os gadewir y nwydau heb eu ffrwyno a'u darostwng. Mae creulondeb at y creadur direswm yn brawf o dueddfryd ddrygionus: *Diar.* xii. 10.

CREYR: crŷr, cregyr, crechyr, crëyr glas, crëyr gwyn, &c.; gwddw-gryg, gyddf-gryg, &c. Y mae amryw deuluoedd o'r un genedl. Gwel ADERYN Y BWN, CICONIA, GARAN. Cyfleithir yr enw Hebraeg *anaphah*, yn *grŷr* yn y Beibl Cymraeg, yn *Lef.* xi. 19, a *Deut.* xiv. 18; ac yn *heron* yn Seisoneg—er mai *garan* neu yr *aran* yw yr enw cyfystyr â'r enw Italaidd *airone*, a *heron* yn y Ffrancaeg a'r Seisoneg. Ond arferir *crëyrod* fel enw cyffredin ar yr holl deuluoedd a berthynant i'r genedl hon o adar dwfr troedfforchog, hir-heglog, gwyddfog, a physgfwytaol. Y mae Willoughby yn rhoddi y dysgrifiad henafol a ganlyn o genedl y crëyrod:—"Y mae gan y rhai hyn yddfau hirion iawn; y mae eu gylfinau hefyd yn hirion, yn gryflon, ac yn terfynu mewn blaen meinlym, i daraw pysgod a'u tynu oddi dan geryg a thorlenydd; coesau hirion, i frasgamu trwy lynoedd a ffrydiau dyfroedd; bysedd traed hirion, yn enwedig yr un ol, i sefyll yn fwy diysgog mewn afonydd; cwinedd crafangol ceimion, i ddal llyswod a physg llithrig ereill yn fwy diogel, neu am eu bod yn arfer eistedd ar goed; a chyrff teneuon llurgunaidd, o blegid eu hofn mawr a'u gwyliadwriaeth." Ond y mae llawer



Dar. 206.

o ddadleuaeth wedi bod wrth geisio penderfynu pa aderyn a feddylir wrth *anaphah*. Y mae wedi cael ei gyfleithu yn farcut, cyffylog, garan, *parrot*, &c. Am y cyntaf gwel BARCUT. Nid yw y cyffylog byth, bron, yn ymweled â Gwlad Canaan; ac nid yw yr aran ond ymwelydd amserol, ar ambell dymmor, a hyny yn Syria. Y mae yn debygol na ddygwyd y *parrot* i Wlad Israel hyd ddyddiau Solomon. Os ydyw yr enw Hebraeg yn tarddu oddi wrth *anaph*=anadlu yn fyr, "ysniffian," neu chwythu drwy y ffroenau, byddai yn fwy priodol i'r ŵydd—aderyn nad oes, y mae yn debyg, un cyfeiriad arall ato yn yr Ysgrythyrau, er ei fod yn cael ei fwyta yn gyffredin yn yr Aipht, ac nad ystyrid mo hono yn aflan gan yr Iuddewon; a rhaid ei fod, ar rai tymmorau, yn ymweled â llynoedd Canaan. Ond er nad yw y crëyr yn *hisian* yn barhäus, gall wneyd swn cyffelyb i ddangos anfoddlonrwydd, a hyny gyda mwy o lawer o arwyddocâd; ac y maent yn lluosog yn yr Hauran o Balestina, ar lanau llynoedd corsiog a brwynogydd, a difäant swm dirfawr o bysgod.

Y mae y crëyr glas yn aderyn cyffredin a brodorol yn Nghymru, ac i'w gael agos yn mhob parth o'r byd. Er ei fod yn drigiannydd arosol yn y wlad hon, ac mewn hinsoddau tymmerus yn gyffredin, y mae yn aderyn symmudol mewn gwledydd oerion. Yn nhymmor ei nythiad, neu

Digitized by Google

pan yn deor, y mae yr aderyn hardd hwn yn aros mewn unigrwydd, yn ymyl corslynoedd neu ar fin afonydd. Gwelir ef yn eistedd drwy gydol y dydd ar ei gainc arferol o bren yn nghanol coed, neu yn gorphwys ar un troed mor ddiysgog a delw yn nghanol cors. Ond pan aflonyddir ei orphwysdra, egyr ei adenydd, ac esgyna i'r awyr, ac ehed i ryw encilfa fwy diogel. Y mae yn anhawdd iawn dyfod arno yn ddiarwybod iddo, o herwydd ei ddyfal wyliadwriaeth. Ar fore glas, neu blygeinwawr lwyd, yn ngwyll yr hwyr, neu wrth oleu lleuad, y deil y crëyr ei ysglyfaeth; oddigerth pan fyddo ei rai bach yn gofyn am ymborth parhäus. Y pryd hyny, gwelir ef mewn manau llochesol neilduedig, yn sefyll at hanner ei goesau yn y dwfr, â'i ben wedi ei dynu ato, a'i lygaid yn serenu, yn barod i roddi y pigiad angeuol. Dengys yr amynedd mwyaf; a phan ddel pysgodyn heibio, tery ei ysglyfaeth mor ddisymmwth a mellten, ac yn ddifeth, ac ehed ymaith gydag ef i'w nyth. Adeiladant eu nythod yn finteioedd, gan ddewis y coed uchaf i wneyd hyny. Ni wyddir yn gyffredin y gall y crëyr nofio; ond tystia Mr. Neill, Canon mills, yn agos i Edinburgh, fod ganddo gwpl o grëyrod dofion, a bod y ceiliog yn aml yn nofio pan y daw i ddwfr rhy ddwfn iddo rydio drwyddo.

Dodwya yr iar bum ŵy, yn gyffredin; ac erys y cywion bum wythnos neu ragor yn y nyth. Nid yw y crëyr yn dyfod i'w lawn bluf hyd nes y byddo tua thair blwydd oed; a'r pryd hyny, nid oes nemawr aderyn harddach ei bluad—yn llwydlas du, a gwyn claer; mesura lathen o hyd, a mwy.

Y *crëyr gwyn*, a elwir yn gyffredin y *llydan-big*. Adar symmudol ydynt, yn ehedeg yn heidiau mawrion dros y wlad hon, ar eu taith flyneddol o Holland i Affrica, ac yn ol. Y mae yn nythu ac yn deor wrth eneu afonydd mwyaf yr Iseldiroedd, ac yn teithio weithiau cyn belled a Phenryn Gobaith Da, i auafu. Anaml y disgyna ar ei ffordd yn y wlad hon. Y mae yntau, fel y crëyr glas, yn byw ar bysgod, pryfed dwfr, llyffaint, ac i fesur ar hadau a mân-lysiau dyfrol. Y mae ei bluf oll yn wyn, ond ar ei fron, yr hon sydd felyngoch. Nid yw lawn gymmaint a'r glas.

Y mae math arall, ond anghyffredin iawn yn Nghymru, a elwir *crëyr nos*, yr hwn a ystyrir mewn rhai gwledydd megys "aderyn y corff;" ac a ehed yn y nos, gan wneyd math o ysgrech fel "*cwâ*," yr hyn a ddeonglir gan yr ofergoelus megys daroganiad o farwolaeth, ac a achosa arswyd yn aml i fforddolion cefn nos yn America, Asia, Affrica, a rhanau deheuol Ewrop.—(*Museum of Natural Hist.; Penny Cyc.; Bib. Cyc.*)

CRIBDDEILIWR, [*crib-ddal*]: gorthrymwr, treisiwr, traws-gipiwr, edwicwr; un yn mynu mwy nag a ddylai; yn ennill neu yn meddiannu rhywbeth trwy drais; *Mica* ii. 2; *Esa.* v. 8; *Hab.* ii. 9—11. Ni ddylai Cristionogion wneyd cyfeillion o gribddeilwyr, na'u cydnabod yn frodyr crefyddol (1 *Cor.* v. 9—11), gan eu bod yn rhestr ddu y rhai a gauir allan o deyrnas Dduw: 1 *Cor.* vi. 9, 10.

CRIMEA, neu CRIM TARTARY; yr hen TAURICA CHERSONESUS: gorynys yn y rhan ddeheuol o Rwssia Ewropaidd, yn gorwedd rhwng 44° 20′ a 46° 10′ lledred gogleddol, a 32° 40′ a 36° 30′ hydred dwyreiniol. Y mae y Crimea ar ffurf bedairochrog, ac ochrau yr orynys yn gyfeiriedig i'r gogledd-ddwyrain, y gogledd-orllewin, y de-orllewin, a'r de-ddwyrain; a'r onglau hefyd yn cyfeirio yn uniongyrchol i'r gogledd, deheu, dwyrain, a'r gorllewin. Ar yr ongl ogleddol, cyssylltir hi â'r Cyfandir gan guldir Perekop, yr hwn sydd o ddeutu ugain milltir o hyd. Y Môr Du yw terfyn y Crimea ar dair ochr; ac ar y gogledd-ddwyrain golchir ei glanau gan Fôr Asof. Y mae ei harwynebedd o ddeutu 8,600 o filltiroedd ysgwâr, neu efallai oddeutu mil o filltiroedd ysgwâr mwy na Chymru. Yn y gogledd, o ddeutu culdir Perekop, nid yw tair rhan o bedair o'r wlad ond gwastattir cras a diffaeth, lle y torir ar yr unffurfiaeth gan ambell i gwm yn awr a phryd arall. Ceir cryn amrywiaeth yn ansawdd y tir; ond yn benaf y mae yn gynnwysedig o dywod yn unig, neu dywod yn gymmysgedig â chlai. Wrth nesäu at bob un o'r ddau fôr, cyfarfyddir â llynoedd o ddwfr hallt—rai o honynt yn bymtheg neu ugain milltir o amgylchedd; a thua'r llynoedd hyn y mae y gwastadedd yn graddol ogwyddo ar i waered, ac yn hollol amddifad o ddwfr a choed, ond mewn rhai manau yn orchuddiedig gan dywarchen werdd. Nid oes yno chwaith ond nifer bychan o drigolion.

Ar hyd y glenydd de-ddwyreiniol, ymestyna darn mynyddig o dir o Benrhyn Khersonese i Kaffa, ac y mae yn fryniog drachefn oddi yno hyd at gulfor Yenikale. Lled cyffredin y llain hwn ydyw o ddeutu ugain milltir, ac y mae yn debyg fod ei hyd o ddeutu dwy fil o filltiroedd ysgwâr. Y mae y rhan hon o'r parth hwn, sydd i'r gorllewin o borthladdoedd Sevastopol a Balaclava, yn ffurfio gorynys a elwid gan y Groegiaid yn Heracleotic Cheronesus, am ei boblogi gan ymfudwyr o Heracleia, yn Asia Leiaf. Ceir golygfa ddyddorol ar y glanau, lle y mae llechweddau y bryniau wedi eu britho â phentrefydd y Tartariaid, ac anneddau gwledig y boneddigion. Yn y pellder o filltir neu ddwy oddi wrth y glenydd, cyrhaedda y mynyddoedd yr uchder o 2,000 ac uchod o droedfeddi. Ar ben y mynyddoedd hyn, y mae gwastattiroedd eang, yn ymestyn weithiau am lawer o filltiroedd, y rhai a elwir gan y Tartariaid yn "Yailas." Nid yw y brodorion byth yn ymweled â'r ucheldiroedd hyn ond yn ystod tymmor poethaf yr haf, a hyny ar gyfrif y porfeydd breision a gynnyrchir arnynt i'r anifeiliaid: bydd rhai wedi eu gorchuddio âg eira hyd ddiwedd mis Mai. Y mynyddoedd uchaf yn y Crimea yw y gadwen ddwyreiniol, yn ymestyn i Kaffa a'r Temirdshi Yaila. Y mae copa uchaf y Chatyr-Dag yn 5,040 o droedfeddi uwch law gwyneb y mor.

O'r mynyddoedd, yn y parth gogleddol, disgyna llawer o aberoedd, a ffurfiant amryw afonydd, megys yr Alma, y Katshka, a'r Salghyr—yr oll o ba rai a feddant welyau llydain, er nad ydynt yn cynnwys ond ychydig o ddwfr, ac yn llifo yn araf yn yr haf; ond pan y todda yr eira ar yr Yailas, deuant yn afonydd dwfn, llydain, a chwyrn.

Y mae haf y Crimea yn boeth, a'r gauaf yn oer iawn. Mor ansefydlog yw yr hinsawdd, fel mai nid anfynych y bydd yn cyfnewid chwech neu wyth o weithiau mewn pedair awr ar ugain. Pan y bydd y gauaf yn llym iawn, bydd yr arian byw yn suddo 9° is law pwynt isaf y gwres-fesurydd, a gorchuddir y llynoedd gan rew digon cadarn i gynnal gwŷr ar feirch. Yn yr haf wedi hyny, cwyd y gwres-fesurydd i 100°, neu hyd yn oed i 102°, ac ar yr un diwrnod efallai yn gostwng 20 neu 30 o raddau. Anfynych y ceir yno ystorm o daranau; ond pan y dygwydda, bydd

Digitized by Google

yn ofnadwy, ac yn cael ei dilyn ar brydiau gan genllysg a dwfr-bistylloedd dinystriol.

Y cynnyrchion a dyfir yn y meusydd agored ydynt wenith, rhyg, haidd, ceirch, grawn India, milet, llin, tybacco, &c. Yn y gerddi hefyd, cynnyrchir pob math o lysiau tyfadwy braidd, a cheir ffrwythau amrywiol a rhagorol yn y perllanoedd eang a lluosog ar hyd y dyffrynoedd. Tyfa y coed ffrwythau hefyd, rai o honynt, ar lechweddau y mynyddoedd. Hefyd, gorchuddir rhan fawr o lechweddau y bryniau, yn enwedig ar yr ochr ogleddol, gan fforestydd, lle y tyf y derw, y ffawydd, y llwyfanen, y poplys, yr onen, a'r dinwydd, &c. Dygir oddi yno hefyd fêl o'r fath ragoraf. Telir sylw mawr i amaethiad y winwydden yno, er nad yw y gwin yn gystal a'r hwn a gynnyrchir yn Hungary a Ffrainc. Y mae yn y wlad filoedd o'r camelod â dau grwmp; a thelir sylw mawr gan foneddigion Tartaraidd i fagwraeth ceffylau. Ar y gwastattiroedd, y mae yr anifeiliaid corniog o faintioli canolig, ond yn fychain yn y mynydd-dir. Gwelir yno dri math o ddefaid, gan bob un o ba rai y mae cynffon hir, ac un hanner wedi ei gorchuddio â gwlân garw. Oddi ar un o'r rhywogaethau hyn, sydd yn porfäu ar y gwastadedd, gyda glenydd y Mòr Du, rhwng Koslow a Perekop, y ceir oengrwyn enwog y Crimea, o ba rai yr anfonir, ar rai adegau, fwy na 30,000 yn flyneddol i Poland a Germany. Anfonir hefyd fwy na 50,000 neu 60,000 o oengrwyn duon bob blwyddyn allan o'r wlad. Y mae defaid y mynyddoedd yn llai o faintioli, ond yn hynod ar gyfrif eu gwlan rhywiog ac esmwyth. Daw symiau mawrion o halen i ddeheudir Rwssia oddi yma, a chludir llawer i Anatolia a Thwrci o borthladdoedd Kertsh, Kaffa, a Koslow.

Yn nghanol y wlad, tua therfyn eithaf y mynydd-dir, y mae Simferopol—y brif ddinas, gyda phoblogaeth o 8,000. Cynnwysa hefyd amryw ddinasoedd a phorthladdoedd ereill ydynt wedi dyfod yn hysbys a chynnyrchu dyddordeb trwy ddygwyddiadau y blyneddoedd diweddaf.

Yn ol y Dr. Pughe, yn ei nodiadau i'w *Gywydd i Hu Gadarn*, enw Cymraeg henafol y Crimea oedd Goynys Tywyr, a dyma orsaf gyntaf y Cimmerioi, neu hiliogaeth Gomer, a hynafiaid Cymry Prydain, ar y Cyfandir. Oddi yma, yn achos y terfysgoedd a chynnydd y boblogaeth, yr ymledanasant tua gogledd Ewrop. Adnabyddid hwy ar hyd glenydd y Mòr Du a Mòr Asof wrth yr enw Cimri, neu Cimmerioi; ac y mae yr orynys hon, a ffurfiai fel hyn ran o'u tiriogaethau, yn parhau i gadw ei henw Cimria—wedi ei lygru yn Crimea. Dywed haneswyr Cymreig hefyd fod yr hyn a geir yn yr hen draddodiadau Prydeinig am natur a hinsawdd y wlad yn cyfateb yn hollol i'r hyn a wyddys yn bresennol am dani.

Ar ochr ddwyreiniol culfor Kaffa, a elwid gan yr hynafiaid y Cimmerian Bosporus (*Bosporus*—enw unrhyw gulfor yn mysg y Groegiaid), sylfaenwyd dinas Panticapaeum, gan y Milesiaid; ac wedi hyny sylfaenodd trigolion Panticapaeum ddinas Phanagoria, ar ochr Asia i'r culfor. Gan fod y dinasoedd hyn mewn safle ffafriol i fasnach, daethant yn fuan yn lleoedd o bwys; a chododd teyrnas—i ba un yr oedd Panticapaeum yn brif ddinas—yr hon, cyn hir, a ddaeth i gynnwys yr oll o'r Crimea. Y breninoedd cyntaf y darllenwn am danynt oedd yr Archaenactidae, y rhai a deyrnasasant 42 o flyneddoedd—o 480 i 438 c. c. Dilynwyd y rhai hyn gan Spartacus I. a'i olynwyr. Yr oedd amryw o'r breninoedd hyn mewn cynghrair agos â'r Atheniaid; a chan fod tiroedd y cyntaf yn gynnyrchiol a bras, ac yn dra chyfaddas i ddwyn cnydau torcithiog o yd—yn gymmaint felly fel y dywed Strabo y byddent yn ffrwytho ar eu degfed ar ugain — dygid cyflenwadau mawrion o yd yn flyneddol i Athen o'r Crimea; ac unwaith ystyrid hi fel ystorfa yd gwlad Groeg. Yn ei araeth yn erbyn Leptines, dywed Demosthenes fod yr Atheniaid yn derbyn rhwng 300,000 a 400,000 *medimni* o rawn yn flyneddol o'r Crimea; a dywed Strabo iddynt mewn un flwyddyn dderbyn 2,100,000 *medimni* o Theodosia; ond dywedir am yr olaf mai amlwg yw fod y testyn yn llygredig. Y diweddaf o'r breninoedd hyn ydoedd Paerisades; yr hwn, am ei bod yn gyfyng arno o herwydd y Scythiaid, a roddodd i fyny ei diriogaethau i Mithridates Fawr. Wedi marwolaeth Mithridates, caniataodd Pompey i fab y blaenaf etifeddu coron ei dad; ac wedi hyny cawn restr o freninoedd ar y Bosporus a deyrnasent hyd gyfnod diweddar dan nawdd yr ymherawdwyr Rhufeinig, hyd amser rhuthrgyrchoedd y Gothiaid a'r Hunwyr, &c.

O ddeutu y flwyddyn 1237, syrthiodd i ddwylaw y Mongoliaid, dan Genghis Khan; yn fuan wedi hyny, sefydlwyd gorsafoedd trafnidiol gan y Venetiaid, gyda masnach ennillfawr: ond disodlwyd y rhai hyny gan y Genoaid. Ymlidiwyd y rhai hyny ymaith drachefn yn 1475 gan Mahomet II., a dygodd y wlad yn ddarostyngedig i'r iau Fahometaidd. Trwy gyfryngiad yr ymherodres Catherine II., adfeddiannodd y Crimea ei hannibyniaeth yn 1774; ond yn 1783, cymmerodd y Rwssiaid feddiant o'r wlad, yr hon, wedi rhyfel gyda Thwrci, a sicrhawyd iddynt trwy gytundeb heddwch yn 1791. Rhanwyd y Crimea yn wyth o wahanol lywodraethau yn 1802. Pan gyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Rwssia gan Ffrainc a Lloegr, Mawrth 28ain, 1854, anfonwyd llu mawr o filwyr i'r dwyrain—y rhai, wedi aros ychydig amser yn Gallipoli, &c., a hwyliasant tua Varna, lle y glaniwyd ar y 29ain o Fai. Penderfynwyd ar ryfelgyrch yn erbyn y Crimea; a hwyliodd y byddinoedd cynghreiriol, yn 58 o filoedd o rifedi (25,000 yn Brydeiniaid), o Varna, Medi 3ydd, a glaniasant yn ddiwrthwynebiad, yn yr Old Fort, yn agos i Eupatoria, o ddeutu 30 milltir o Sevastopol, y 14eg, 15eg, a'r 16eg, o'r un mis. Yr 20fed, ymosodasant ar o 40,000 i 50,000 o Rwssiaid oedd wedi ymgadarnhau ar uchelderau Alma; ac wedi brwydr boeth, ond ber, llwyr orchfygwyd y gelyn. Dyma lle y bu prif eisteddle y rhyfel hyd nes y cyhoeddwyd heddwch, yn Ebrill, 1856; ac yn mis Gorphenaf canlynol, ymadawodd y Cynghreiriaid o'r Crimea wedi cymmeryd Sevastopol.—(*Penny Cycl.*; *Smith's Class. Dict.*, &c.)

CRIN—O, [*cri*]: brau, bregus, hyfriw; dinôdd, sych, neu wywedig: hefyd llaw-gauad, crintach. "Sychais y pren îr, ireiddiais y pren crin;" *Ezec.* xvii. 22—24. Y pren ir uchel oedd teulu breninol Babilon, oedd y pryd hyny mewn rhwysg a mawredd; ond yn fuan, drwy raglunaeth farnol Duw, i gael ei ddarostwng a'i ddiwreiddio; a thŷ Dafydd, y pren isel crin, i gael ei adferyd, mewn rhan, efallai, yr Zorobabel, ar ol y caethiwed, ond yn gyflawn yn unig yn Iesu Grist, Messiah Duw, y Blaguryn tyner o'r gedrwydden uchel—y deyrnas yr hon nid yw o'r byd hwn. "Na ddyweded y dyspaddedig, Wele fi yn bren crin;" *Esa.* lvi. 3. Na ddyweded yr eunuch felly. Gosodid yr eunuchiaid yn ystafellyddion ac yn geidwaid tai y gwragedd, ac yn uchelswyddogion yn llysoedd breninoedd y dwyrain

Digitized by Google

(*Esth.* i. 10; ii. 3, 14, 15; iv. 5; *Dan.* i. 3; *Act.* viii. 27). Y mae y pren crin yn arwyddlun o'r hyn sydd ddiffaeth, diwerth, ac anffrwythlawn. Dan gyfraith Moses, nid oedd dynion felly i gael dyfod i gynnulleidfa yr Arglwydd (*Deut.* xxiii. 1, 2); ond dan yr efengyl, y mae y gwaharddiadau a'r rhwystrau hyn wedi eu symmud, a rhyddid i bob dosbarth o ddynion i gyflawn fwynhâd o freintiau crefyddol. "Os gwnant hyn yn y pren îr, pa beth a wnant yn y crin?" *Luc* xxiii. 31. Y mae ein Iachawdwr yn yr ymadrodd diarebol hwn yn rhag-gyfeirio at ddinystr Ierusalem, a'r farn a ddeuai ar y genedl am eu gwrthodiad o hono ef. Os oedd y Rhufeiniaid yn ei drin ef, oedd yn ddiniwed a difeius, gyda'r fath greulondeb, pa beth a wnaent, i gyflawnu digofaint Duw, i genedl ddrwg ac euog, oedd wedi sychu a chrino yn barod i ddialedd yr Hollalluog? Ac os oedd eu pechod mor ysgeler ac ofnadwy, pa beth a fyddai eu cosp? Hyn, yn ddiau, yw priodol feddwl y geiriau; ond gellir eu cyfaddasu yn gyffredinol at bob amlygiadau o ddigofaint Duw yn erbyn pechod a phechaduriaid. Os yw Duw yn fy rhoddi i i'r fath ddyoddefiadau a hyn, o blegid fy mod wedi fy ngwneuthur yn aberth dros bechod, pa beth a wna efe i bechaduriaid anedifeiriol eu hunain, pan y delo efe i gyfrif â hwynt? Mae dyoddefiadau y Ceidwad yn ddefnydd dychryn i bechaduriaid celyd a gwrthnysig.

"Ac yn ebrwydd y crinodd y ffigysbren;" *Mat.* xxi. 19, 20. Mae y wyrth o felldithio y ffigysbren diffrwyth yn dangos y modd y mae rhagrithwyr yn yr eglwys—Cristionogion mewn enw, rhai diffrwyth a diogoniant i Dduw—yn gwywo i golledigaeth, fel yr oedd y genedl Iuddewig y pryd hyny, trwy eu rhagrith a'u diffrwythder o bob daioni, ac er cymmaint eu proffes a'u manteision, yn addfedu yn gyflym i'r dinystr a ddaeth arnynt, ac ar eu dinas a'u teml.

CRISIAL—U. Fel hyn yr ysgrifenir y gair yn ein geiriaduron; ond y mae cyfeithwyr y Beibl Cymraeg wedi dilyn y sain a roddir iddo yn wastad "ar lafar gwlad"—*grisial.* Y mae y Dr. W. O. Pughe yn ei olrhain i'r gwreiddyn *cris—ion*=sylwedd caled, brau, crimp, cenog. Hwyrach y gallem ei gael o *gris—hâl*, neu unrhyw sylwedd o gyffelyb ffurf ac ymddangosiad i *halen craig;* yn hytrach nag fel Cymreigiad o'r gair Groeg κρύσταλλος; Lladin, *crustallus*—yr hwn yn wreiddiol a phriodol a arwydda *ia* neu *ddwfr rhewedig.* A gall hyn fod yn rheswm da dros seinio a threiglo yr *c* fel *g—grisial.* "Nid aur a *grisial* a'i cystadla hi;" *Iob* xxviii. 17. "Fel lliw *grisial* ofnadwy;" *Ezec.* i. 22. "Yn loew fel *grisial;*" *Dad.* xxi. 11. "Dysglaer fel *grisial;*" *Dad.* xxii. 1. Ond pan ddefnyddir y Cymreigiad o'r gair Groeg, treiglir ef yn wahanol: "Yn debyg i *grystal;*" *Dad.* iv. 6. Ac yn y cyfryw bethau y mae arfer cenedl yn uwch awdurdod na beirniadaeth ieithyddion.

Y mae y Deg a Thrigain yn cyfeithu dau air Hebraeg—קרח (*cerach*), a פבוש (*gabish*), drwy κρύσταλλος (*crustallos*). Y mae yn amlwg, neu yn foddhaol i bawb, fod y gair Groeg, yn *Dad.* xxi. 11, a xxii. 1, yn arwyddo *grisial;* ond nid yw yn beth sicr fod y gair Hebraeg *gabish* neu *gabis* (*Iob* xxviii. 18) o'r un ystyr. Yn wir, ymddengys hyn yn annhebygol. os nad yn annichonadwy, oddi wrth yr adnod flaenorol, lle mae y Vulgate yn darllen "*vitrum*" (=*gwydr*), yn lle *grisial;* ac yn *adn.* 19, y mae y Seisoneg yn cyfeithu *gabish* drwy y gair *pearls*=*perlau.* Y mae yn debygol mai yr un dyryswch ac ammheuaeth gyda golwg ar wir arwyddocâd y gair hwn, yn gystal ag ystyr y geiriau *ramoth* a *peninim* yn yr iaith wreiddiol, a barodd i gyfieithwyr y Vulgate roddi i *adn.* 18 y darlleniad rhyfedd a ganlyn:—"*Excelsa et eminentra non memorabuntur comparatione ejus*"=Ni chofir uchafiaeth ac enwogrwydd mewn cymhariaeth â hi. Addefir fod y gair cyntaf yn dynodi *ia*, yr hwn sydd yn debyg iawn i *risial* o ran ei ymddangosiad—mor debyg, fel y credid yn yr hen oesoedd nad oedd grisial ond dwfr pur wedi rhewi dros ystod hirfaith o amser, ac felly yn galetach na chyffredin. [*Diod. Sic.*, ii. 52; *Pliny Hist. Nat.*, xxxvii. 2.] Oddi wrth hyn, canlynai o angenrheidrwydd y byddai i risial gael ei ffurfio yn ngororau rhew parhâus; a dyma y farn gyffredin gynt: ond gwyddys yn awr ei fod i'w gael yn yr ardaloedd poethaf. Theophrastus a gyfrifai risial yn mysg y meini tryloew, ar y rhai y gwneid "naddiadau sel;" ac yn gyffredin yr ydym ninnau yn arfer yr enw am fath o gareg dryloew, wydraidd, chwegwynebog, gan amlaf. O herwydd fod y sylwedd hwn i'w gael gan mwyaf yn wythenau mewn creigiau, gelwir ef gan fwnwyr yn *graig-risial*, neu *risial craig.* Crisial ydyw ffurf arwynebol llawer o sylweddau mwnol a halenaidd, yn enwedig cellt neu *quartz.* Dyma y gronynau amlochrog, gwynion, a gloewon, a geir mewn gwenithfaen a thywodfaen. Crisial, hefyd, yn ei ffurf puraf, yw "meini gwerthfawr," neu emau.

Credir fod i ronynau cyfansoddol pob corff mwnawl ffurf neu lun pendant; ond eu bod yn aml mor hynod fân, fel nas gall y llygad, hyd yn oed pan gynnorthwyir ef â'r drychwydr cryfaf a chliriaf, adnabod neu ganfod eu ffurf. Y mae y cyfryw ronynau yn cydymdyru ac yn cydymgydio drwy greiddiad neu attyniad cytunol â deddfau penodol eu natur, a chymmerant y ffurf crisialaidd. Ond y mae ymchwiliad i ffurfiadau arluniadol crisial yn perthyn yn briodol i GRISIALDRAITH, yr hwn nid yw yn dyfod i mewn yn y dosbarth hwn o'r gwaith.

CRISIALU. Y mae llawer o sylweddau, pan ddygir hwy dan driniaeth ffeiryllaidd, yn cymmeryd y ffurf o risial; a'r cyfnewidiad hwn a elwir yn *risialiad* neu *crisialedigaeth;* ac felly y mae yn ffurfio cangen o ffeiryllaeth ymarferol. Gellir crisialu sylweddau mewn amryw ffyrdd:—

1. Trwy doddi sylweddau durfing, neu eu troi yn ager-darth drwy weithrediad gwres, a gadael iddynt oeri neu ddychwelyd yn raddol i'w ffurf caled.

2. Trwy adgyssodi yn araf o'r gwlybyrau yn mha rai y toddwyd hwynt yn flaenorol.

Cyn y gall crisialiad gymmeryd lle, y mae yn angenrheidiol i ronynau cyfansoddol y corff a fyddo i gael ei risialu gael llawn ryddid i ymysgogi; yna, y mae yr attyniad naturiol oedd yn eu cadw gynt mewn cyflwr cydgorfforedig yn dechreu dyfod drachefn i rym; ac y mae y naill ronyn yn raddol yn ymgydio wrth y llall, wrth ochrau, conglau, a blaenau eu gilydd. Ac i ryddhau y cyfryw ronynau oddi wrth eu gilydd, fel y caffont gyfle i ddangos eu tuedd attynol, y mae gwres, neu ryw ddadleithydd ffeiryllaidd, yn angenrheidiol. Pan symmudir ymaith neu yr attelir dylanwad y gweithredydd dadansoddol yn araf, y mae y gronynau yn cael amser i gymmeryd eu sefyllfaoedd priodol i ffurfio crisial; ond os cymmerir y gwres neu y daddleithydd ymaith yn sydyn, y mae y gronynau yn

Digitized by Google

cydymdyru yn glamp sylweddol plith-draphlith, heb gymmeryd y ffurf gubaidd neu amlwynebog —*h. y.*, heb droi yn risial. Y mae y gyfran sydd gyntaf yn ymgyssodi, yn fferu, ceulo, neu waelodi, yn tynu y gronynau ereill ato o un i un. Nid yw y rhai hyn yn disgyn ar eu gilydd blith-draphlith, ond yn ymgydio wrth onglau neillduol o'r rhan gyssodedig o'r blaen, yn ol deddf arbenig eu natur a'u hanfod. Fel nodwydd y cwmpas, yr hon ni thry ond i'r gogledd a'r de, felly try gronynau sylweddau dadgyssodedig, wrth risialu, at bwyntiau neillduol.

Yn ddiweddar, sylwyd fod amryw sylweddau yn cyfnewid eu ffurf heb eu toddi neu eu dadleithio. Er eglurhâd—os cyffyrdda unrhyw sylwedd caled âg egrid (*binoxide*) melyn a geir o arian byw, canfyddir ysgogiad ymlusgol yn mhlith y gronynau; cymmerant sefyllfaoedd newydd rheolaidd, a thry y lliw yn fflamgoch. Fe ganfyddwyd cyfnewidiadau cyffelyb mewn brwmstan, ac amryw halenau; ac hyd yn oed mewn haiarn, a sylweddau durfing ereill, dan wres mawr. Weithiau, pan gynhyrfo dyn ronynau rhai sylweddau, gan roi tro iddynt â'i law, neu âg offeryn, cymmerant ffurf crisialaidd. Yn y fath amgylchiadau, gellir priodoli crisialiad i dymmerusrwydd penodol yr awyr; yr hwn a rydd i'r gronynau gyfleusdra, mwy neu lai, i weithredu yn unol â'u hanian. Gall lleithder neu drydaniaeth yr awyr, hefyd, feddu dylanwad cyffelyb ar rai sylweddau. Y mae yn amlwg y gellir cael crisial o'r un sylwedd mewn aneirif ffurfiau neu ddelwadau cyssodedig, yn ol y dull y byddo y naill ronyn neu ran yn ymgydio yn y llall, fel y mae yr adeiladydd yn llunio amrywiaethau mewn gwaith o briddfeini o'r un ffurf a maintioli. Ceir cannoedd o wahanol ffurfiau o risial o ulw calch; ond pan dorid hwynt â dyrnod arafaidd, fel ag i'w hollti yn ysgyrion naturiol, ceir y darnau oll yn chweochrog, ac nid mewn un ffurf arall. Gwelir yr un ddeddf yn ffurfluniad haenau y graig galch, er anghraifft, ag a ganfyddir yn y telpyn o gellt neu risial, neu yn y gronyn o halen craig. Gwelir crisialedigaeth yn holl gynnyrchion mwnol y ddaiar, pan na byddont wedi cael eu malurio, neu eu gwahanu ar y dechreu yn ddarnau rhy fân i'w ffurflun fod yn ganfyddadwy.

I wneyd prawf, todder, gyda gofal, swm bychan o *sulphur* neu frwmstan; cymmerer ef oddi ar y tân, a thywallter ei hanner o'r llestr wedi i'r rhan olaf fferu, a gwelir crisial brwmstan yn yr olaf. Tywallter dwfr berwedig i lestr gwydr neu bridd, a gollynger alwm i'r dwfr cyhyd ag y toddo; gadawer i'r cymmysgiad oeri, a bydd wedi crisialu.

Y mae cyflwr yr awyr yn cael effaith mawr ar risialiad halenau, o wlybyrau dyfrllyd; ac yn y gweithdai halen, telir cymmaint o sylw i gyflwr yr awyr a'r tywydd ag a wneir yn mhlith trinwyr tir. Defnyddir crisial a chelltfaen mewn llawer o law-weithfäau moldluniol, yn enwedig yn ngwneuthuriad llestri China. Y craig-risial puraf a ddefnyddir yn lle gwydr i wneyd *ysgpectolau* a llygad-wydrau; o herwydd ei fod gymmaint caletach na gwydr, nid yw mor dueddol i ysgraffinio, ac y mae yn llawer oerach ac yn esmwythach i'r llygad.

CRISPUS, [Κρίσπος]: penaeth y synagog Iuddewig yn Corinth, yr hwn a drowyd i'r ffydd drwy bregethiad yr apostol Paul, tua'r flwyddyn B. A. 52, am yr hwn y dywedir, yn *Act.* xviii. 8, "A Chrispus yr archsynagogydd a gredodd yn yr Arglwydd, a'i holl dŷ." Yn 1 *Cor.* i. 14, crybwyllir am dano drachefn fel un o'r ychydig bersonau a fedyddiwyd gan Paul ei hun. Dywed traddodiad ei fod wedi hyny yn esgob Ægina, ynys gyfagos i Athen [*Constitut. Apost.*, vii. 46]. Y Groegiaid a gadwant ei gofwyl ar y 4ydd o Hydref.—(*Calmet.*)

CRIST: y ffurf Cymraeg ar y Groeg Χριστός —y gair a arferir yn gyffredin yn nghyfieithiad y Deg a Thrigain, yn gystal ag yn y Testament Newydd, am yr Hebraeg משיח (*Mashiach*= *Messiah*). Y mae yn llythyrenol yn arwyddo *eneiniog*, neu *eneiniedig*. Y mae yn ymddangos fod tywallt olew ar yr hyn a fwriedid i wasanaeth cyssegredig yn arferiad bore iawn. Y mae amryw, ac yn eu mysg y diweddar Dr. Kitto, yn tueddu i olygu fod yr Hebreaid wedi cael yr arferiad oddi wrth yr Aiphtiaid. Ond yr ydym yn cael Iacob, amser maith cyn ymdaith y genedl yn yr Aipht, pan yn ffoi rhag Esau ei frawd o dŷ ei dad tua Mesopotamia, yn eneinio y golofn yn Bethel (*Gen.* xxviii. 18). Y mae yn ymddangos iddo, ar ei ddychweliad o Mesopotamia, gael cymundeb â Duw yn yr un lle, ac iddo osod colofn drachefn i fyny yno, gan dywallt arni ddiod-offrwm a'i heneinio hi (*Gen.* xxxv. 14). Cyfarwyddwyd Moses gan yr Arglwydd i eneinio y tabernacl, a'i holl ddodrefn, a'i holl lestri. Eneiniwyd Aaron hefyd a'i feibion i offeiriadu i'r Arglwydd, fel rhan o'r neillduad arnynt i'r gwasanaeth cyssegredig. Y mae yn ymddangos fod Aaron wedi ei eneinio ddwywaith. Yr oedd y naill yn gyffredin iddo ef a'i feibion, trwy daenellu arnynt o waed yr hwrdd a aberthasid ar eu cyssegriad, wedi ei gymmysgu âg olew yr eneiniad: *Exod.* xxix. 21, 31. Yr oedd y llall yn neillduol i Aaron ei hunan, fel archoffeiriad. Wedi dodi y gwisgoedd sanctaidd am dano, y meitr ar ei ben, a'r goron gyssegredig ar y meitr, cymmerwyd o olew yr eneiniad, a thywalltwyd ef ar ei ben ef, fel yr oedd yn disgyn ar hyd ei farf, ac i lawr hyd ymyl ei wisgoedd ef: *Exod.* xxix. 5, 6, 7; *Lef.* viii. 7, 12; *Salm* cxxxiii. 2. Hyn oedd yn briodol ac yn arbenig yn gwahaniaethu ei gyssegriad ef oddi wrth yr eiddo ei feibion. Felly, dybygid, y mae i ni ddeall y cyfeiriad a gawn ato, ac at y rhai hyny o'i feibion a'i dilynent yn ei swydd, fel "yr offeiriad eneiniog;" *Lef.* iv. 3, 5. Felly y dysgrifir ef, "yr offeiriad penaf o'i frodyr, yr hwn y tywalltwyd olew yr eneiniad ar ei ben" (*Lef.* xxi. 10); ac, mewn man arall, "yr archoffeiriad, yr hwn a eneiniwyd â'r olew cyssegredig;" *Num.* xxxv. 25. Yr oedd yr archoffeiriaid, am oesoedd, yn cael eu hurddo yn ol yr un ddefod ag a arferasid yn urddiad Aaron; ond y mae yn ammhëus a oedd yr offeiriaid cyffredin yn cael eu heneinio wedi meibion Aaron eu hunain. Rhyw fath o neillduad neu gyssegriad, dybygid, oedd arnynt hwy, heb ddim eneiniad. Fe roddes yr Arglwydd gyfarwyddyd manwl i Moses pa fodd i barotoi a chymmysgu olew sanctaidd yr oedd eneiniad; ac yr oedd yn drosedd marwol i neb barotoi y fath, na'i ddefnyddio at achosion cyffredin: *Exod.* xxx. 22—33. Yn ol yr ysgrifenwyr Iuddewig, fe gollwyd yr olew sanctaidd yn y deml tua marwolaeth y brenin Iosiah, fel ag y peidiodd y gwahaniaeth hwn rhwng yr archoffeiriad a'i frodyr, ac mai y prif wahaniaeth dan yr ail deml oedd, lluosogrwydd ei wisgoedd.—*Buxtorfii Lexicon Chaldaicum, Talmudicum et Rabbinicam*, &c.

Digitized by Google

Yr oedd eneinio hefyd, ar achlysuron o leiaf, yn ddefod ar neillduad prophwyd i'w swydd. Felly yr ydym yn cael ddarfod i'r Arglwydd gyfarwyddo Elias i eneinio Eliseus yn brophwyd yn ei le ei hun: 1 *Bren.* xix. 16.

Ond yn neillduol, yr oedd hyn yn ddefod yn eu plith ar urddiad breninoedd—yn arwyddo eu darostyngiad yn eu swydd i'r Goruchaf fel llywodraethwr gwreiddiol a chyfreithlawn y genedl, a'u cyssegriad hwythau i gyflawnu eu gwasanaeth yn ol ei ewyllys ef. Yr un pryd, nid yw yn ymddangos fod eneinio llythyrenol yn cymmeryd lle gyda breninoedd, oddi eithr y rhai oeddent benau teuluoedd breninol, neu rai ag y gallasai fod rhyw ammheuaeth yn nghylch eu hawl i'r orsedd, neu blaid gref yn eu herbyn. Felly yr ydym yn cael Samuel yn eneinio Saul (1 *Sam.* x. 1); a thrachefn yn eneinio Dafydd, am ei fod o deulu arall (1 *Sam.* xvi. 13); a chan ei gydnabod yn frenin arnynt, wedi marwolaeth Saul, y mae gwŷr Iudah yn ei eneinio yn Hebron (2 *Sam.* ii. 4); a thrachefn, y mae holl lwythau Israel yn ei eneinio, pan ennillodd yr holl genedl dan ei lywodraeth: 2 *Sam.* v. 3. I'r un amcan, ac am yr un rheswm, yr eneiniodd y gwrthryfelwyr Absalom: 2 *Sam.* xix. 10. Felly hefyd yr ydym yn cael i Sadoc yr offeiriad, a Nathan y prophwyd, eneinio Solomon, am fod meibion ereill, hŷn nag ef, a allasent ddadleu eu hawl i'r orsedd: 1 *Bren.* i. 34, 45. Nid ydym yn darllen am eneiniad drachefn ar frenin yn Iudah hyd Ioas, yr hwn a eneiniwyd gan Iehoiadah yr offeiriad a'i feibion (2 *Cron.* xxiii. 11), am fod Athaliah, trwy ormes, wedi cymmeryd y llywodraeth i'w llaw. Yr oedd y fath berthynas rhwng eneiniad a gwasanaeth i Dduw yn meddwl y genedl, fel y daeth y gair i'w ddefnyddio ganddynt am rai cyssegredig o ran eu meddyliau iddo, neu rai yn cael eu galw, yn ei ragluniaeth, i wneyd rhyw orchwylion nodedig drosto, pryd nad oedd i'w ddeall yn llythyrenol felly. Dyna yr ystyr sydd iddo yn ei gyssylltiad âg Abraham, ac Isaac, a Iacob, pan y dywedir iddo geryddu breninoedd o'u plegid, gan ddywedyd, "Na chyffyrddwch â'm heneiniog, ac na ddrygwch fy mhrophwydi;" 1 *Cron.* xvi. 21, 22; *Salm* cv. 14, 15. Felly hefyd, efallai, y mae i'w ddeall yn ei gyssylltiad â Cyrus: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth ei eneiniog, wrth Cyrus;" *Esa.* xlv. 1:—eneiniog yr Arglwydd—un dewisedig ganddo, ac a ddefnyddia yn ei law i weini gwaredigaeth i'w bobl o'u caethiwed, i adeiladu Ierusalem, ac i sylfaenu y deml i'w addoliad a'i wasanaeth. Yn y golygiad hwn, dybygid, y daeth y gair yn fore iawn yn arferedig mewn modd neillduol ganddynt am y Gwaredwr a addawsid iddynt; ac yr oedd dysgwyliad mwy neu lai pryderus yn eu meddyliau trwy yr holl oesoedd am dano. Y cyfeiriad cyntaf ato yn y cymmeriad hwn yw, yr hyn a gawn gan Hannah, yn ei chân o ddiolchgarwch i'r Arglwydd, ar gyflwyniad y bachgen Samuel i wasanaeth yr Arglwydd yn Siloh: "Yr Arglwydd a farn derfynau y ddaiar; ac a ddyry nerth i'w frenin, ac a ddyrchafa gorn ei eneiniog;" 1 *Sam.* ii. 10. Y mae y geiriau hyn yn hynod. Nid oes ammheuaeth nad yr un gwrthddrych oedd ger bron ei meddwl yn y ddau ddynodiad—brenin ac eneiniog. Nid oedd un brenin yn Israel eto. Y bachgen hwn, sydd yn awr newydd ei ddyddyfnu, ac y mae hi yn diolch am dano, a eneiniodd y brenin cyntaf arni. Ymddengys felly yn amlwg fod y geiriau yn cyfeirio at y Gwaredwr mawr, a ddaeth wedi hyny yn brif obaith y genedl dan yr enw hwn. Yn yr ail Salm, y mae yn bendant yn cael cyfeirio ato yr un modd; "Y mae breninoedd y ddaiar yn ymosod, a'r penaethiaid yn ymgynghori yn nghyd, yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef:"—lle y mae ein cyfleithwyr ni, yn lle gadael y gair yn gwbl anghyfiaith, na'i ddodi mewn Cymraeg hollol, gan ddilyn y Seisoneg, a chyfleithiadau ereill, wedi dewis y ffurf Cymraeg ar y gair Groeg cyfystyr âg ef. Yn y prophwyd Daniel, y mae cyfeiriadau mor bendant ato dan y cyfenwad hwn, ag sydd ar unwaith yn ddigon i gau allan unrhyw ammheuaeth o feddwl pawb a gydnabyddo awdurdod y llyfr yn nghylch y gwrthddrych y bwriadwyd ei ddynodi trwyddo. Mae Gesenius, er cydnabod fod yr enw cyffredin—yn mhlith yr Iuddewon diweddarach nag amser yr Hen Destament, yn gystal ag yn y Testament Newydd—ar y Gwaredwr a ragfynegid gan y prophwydi, yn cael ei godi oddi wrth ranau fel *Salm* ii. 2, a *Dan* ix. 26, eto yn gwadu fod cyfeiriad ato dan yr enwad hwn yn yr Hen Destament. Ond yr ydym yn cael cyfeiriad pendant at yr ail Salm yn *Act.* iv. 25, 26, lle y mae y gair yn amlwg yn cael ei ddeall yn dynodi yn uniongyrchol ein Gwaredwr mawr; ac nid oes un ammheuaeth nad ydoedd yn meddwl yr eglwys, er ys oesoedd lawer, yn cael edrych ato, a dysgwyl am dano, fel yr Eneiniog, y Messiah, y Crist.

Y mae y gair yn llythyrenol yn golygu cymmeriad neu swydd. Y mae y Dr. Campbell yn dadleu mai felly y mae yn cael ei ddefnyddio bob amser yn yr Efengylau, pan y cyfeirir ynddynt at ein Harglwydd, yn ei gymdeithas â'i ddysgyblion tra yma yn y byd. [*The Four Gospels; Dissertation* v. rhan 4.] Ond y mae yr esgob Middleton [*The Doctrine of the Greek Article*], oddi wrth *Marc* ix. 41, *Ioan* xvii. 3, a *Luc* xxiii. 2, yn tynu casgliad gwahanol. Y mae yr esgob, hefyd, yn cymharu yr ymadrodd ὁ λεγόμενος Χριστός gyda'r ymadrodd Σίμων ὁ λεγόμενος Πέτρος, ac yn barnu mai ei duedd ydyw, profi fod Crist, hyd yn oed cyn ei esgyniad, yn enw cynnefin ar ein Gwaredwr. Pa fodd bynag, nid oes un ddadl nad dynodi swydd yr ydoedd ar y cyntaf—yn gymmaint felly a'r gair "y Bedyddiwr" yn ei gyssylltiad âg Ioan, neu "yr apostol" yn ei gyssylltiad â Pedr neu Paul. Yn y golygiad yna, y mae bron bob amser yn cael ei flaenori gan y fannod, ac i'w ddarllen "*y* Crist." Y mae rhai adnodau yn y Beibl Cymraeg, yn gystal ag yn y Seisoneg, o ddiffyg sylw gan ein cyfleithwyr ar hyn, wedi eu gadael yn gwbl annealladwy i'r darllenydd anghydnabyddus â'r testyn gwreiddiol. Felly y mae *Mat.* xxii. 42; "Beth dybygwch chwi am Grist?" "Beth dybygwch chwi am *y* Crist?" Felly hefyd *Luc* xxiv. 26; "Onid oedd raid i Grist ddyoddef y pethau hyn?" "Onid oedd raid *i'r* Crist" (y Messiah yr ydych chwi wedi bod yn dysgwyl cymmaint am dano) "ddyoddef y pethau hyn?" Mae diffyg hyn i'w ganfod yn fawr yn y cyfleithiad cyffredin o *Act.* xvii. 3, lle y rhoddir hanes Paul yn ymresymu â'r Iuddewon allan o'r Ysgrythyrau, "gan egluro a dodi ger eu bronau mai rhaid oedd i Grist ddyoddef, a chyfodi oddi wrth y meirw: ac mai hwn yw y Crist Iesu, yr hwn yr wyf fi yn ei bregethu i chwi." Y darllenmad yma ddylasai, y mae yn eglur, fod, "Gan egluro a dodi ger eu bronau, mai rhaid oedd *i'r* Crist" (yr un a ddysgwylid gan y genedl fel Gwaredwr dan y cymmeriad hwnw) "ddyoddef" (dyna un wrth-

Digitized by Google

ddadl fawr oedd gan yr Iuddewon yn erbyn derbyn Iesu o Nazareth fel y Messiah=y Crist—ei fod wedi dyoddef a marw); "ac mai yr Iesu, yr hwn yr wyf fi yn ei bregethu i chwi, yw y Crist hwnw" (y Crist oedd i'w ddysgwyl, a'r Crist yr oedd yn rhaid iddo ddyoddef).

Ond er fod y gair, ar y cyntaf ac yn llythyrenol, yn dynodi cymmeriad neu swydd ein Gwaredwr, eto, fe ddaeth yn raddol i gael ei ddefnyddio fel enw priodol arno; naill ai arno ei hunan, neu ynte yn gyssylltiedig â'r enw Iesu: weithiau fel cyfenw—Iesu *Grist;* weithiau fel prif enw—*Crist* Iesu. Y mae yn cael ei arfer felly yn fynych yn Llyfr yr Actau, ac yn yr Epistolau, yn gystal ag yn y rhanau o'r Efengylau lle y mae yr ysgrifenwyr yn cymmeryd y ffurf *hanesol* oddi ar safle amseriad eu cyfansoddiad, ar wahân oddi wrth y ffurf *gofnodiadol*, oddi ar safle amseriad y dygwyddiadau eu hunain. Mae yn ymddangos yn un o ddeddfau iaith, fod i air, fyddo yn wreiddiol ac yn llythyrenol yn ddynodiadol neu swyddol, ac felly yn gwbl gyffredin pan y delo i gyssylltiad â gwrthddrych fyddo yn tra rhagori ar bob un arall o'i fath, ddyfod yn raddol yn enw priodol ar hwnw. Felly y mae y *Beibl*—sydd arno ei hunan yn arwyddo y llyfr, unrhyw lyfr, pob llyfr—o blegid rhagoriaeth arbenig un llyfr ar bob un arall, yn awr, yn gyffredin, yn enw priodol ar hwnw. Yr un modd y mae *yr Ysgrythyrau*—gair yn arwyddo yn wreiddiol, ysgrifeniadau, unrhyw ysgrifeniadau, pob math o ysgrifeniadau—o blegid rhagoriaeth annhraethol rhyw ysgrifeniadau ar bob rhai ereill, yn awr yn enw priodol arnynt hwy. Felly y mae y gair *Crist*, sydd yn llythyrenol yn arwyddo unrhyw eneiniog—ac a gymhwysid yn gyffredin at y rhai y tywalltesid olew arnynt—o blegid rhagoriaeth annhraethol un y perthyna iddo ar bawb ereill y cymhwyswyd ef atynt erioed, wedi dyfod yn enw priodol ar hwnw. Y mae *Iesu* o Nazareth, mab Ioseph, wedi llyncu yr enw *Crist* iddo ei hun.

Yn ei berthynas â'n Gwaredwr, y mae y gair yn arwyddo—I. Mai efe yw yr hwn a ddysgwylid yn y cymmeriad hwn i ymddangos yn ein byd ni. Y mae yn hawdd gweled, wrth ddarllen yr Hen Destament, fod y ffyddloniaid, drwy yr holl oesoedd, yn dysgwyl ymddangosiad un yn y byd yn Waredwr iddo. Yn fuan iawn wedi cwymp ein rhieni cyntaf, fe gyfryngodd yr Arglwydd yn ei ras, ac a addawodd iddynt, pan yn cyhoeddi y ddedfryd ar y sarff, Hâd y wraig, yr hwn a fyddai yn Waredwr iddynt: *Gen.* iii. 15. Y mae yn dra thebyg i ystyr yr addewid hono gael ei wneyd yn amlycach i Adda nag y mae yn yr hanes sydd genym ni; ac iddo, ar yr un pryd, gael ei gyfarwyddo gan yr Arglwydd yn ffurf y gwasanaeth crefyddol a dderbynid oddi ar ei law, a'r hwn oedd gyfaddas, i ryw fesur, i arwain ei feddwl i ddirnadaeth o drefn y waredigaeth a addawsid iddo. Pa fodd bynag, y mae y Gwaredwr wedi ei addaw, ac y mae yn amlwg mai dyn fyddai: ac nid yw yn anmhosibl nas gallai fod yn yr addewid hefyd rywbeth o anelwig ddefnydd, yr hyn y cafwyd wedi hyny ddadguddiad helaethach o hono—ei annibyniaeth, yn ffurfiad y ddynoliaeth hono, ar ordeiniadau cyffredin natur. Pa ddadguddiedigaethau a roddwyd am dano, nad oes hanes am danynt genym ni, yn ystod yr oesoedd lawer a aethent heibio er yr addewid i Adda, sydd gwbl ansicr; ond i Abraham, fe roddwyd addewid drachefn, adnabyddus i ni, oedd yn taflu goleu newydd ar y Gwaredwr mawr: "Yn dy hâd di y bendithir holl genedloedd y ddaiar;" *Gen.* xxii. 18. Y mae i ddisgyn oddi wrth Abraham, ac y mae i ddisgyn oddi wrth Abraham drwy Isaac: *Gen.* xxi. 12. I Rebecca rhoddwyd dadguddiad ei fod i ddisgyn oddi wrth Isaac, drwy Iacob, y byddai i'r hynaf o'i phlant wasanaethu yr ieuengaf: *Gen.* xxv. 23. Y mae Iacob, wrth farw, dan ddylanwad ysbryd prophwydoliaeth, yn canfod y disgynai oddi wrtho yntau drwy Iudah, ac yn rhagddyweyd am dano fel y Shiloh, at yr hwn y byddai cynnulliad pobloedd: *Gen.* xlix. 10. Y mae y llwyth y codai o hono yn awr wedi ei nodi allan. I Dafydd, fe roddwyd sierhâd mai o ffrwyth ei lwynau ef y cyfodai: 2 *Sam.* vii. 11, 12, 13, 16; *Salm* cxxxii. 11. Dyma y teulu yn awr wedi ei benodi y perthyna iddo. Y mae yr un sierhâd yn ein cyfarfod drwy holl ysgrifeniadau yr hen brophwydi. Mae yn cael ei osod allan fel "gwialen o gyff Iesse, a blaguryn o'i wraidd ef" (*Esa.* xi. 1); fel "Blaguryn cyfiawn i Dafydd" (*Ier.* xxiii. 5): "Fy ngwas Dafydd fydd frenin arnynt;" *Ezec.* xxxvii. 25. Y mae hyn mor amlwg, fel y mae Dafydd yn enw cyffredin arno ganddynt. Y mae Esaiah yn cael golwg arno yn nirgelwch ei ymgnawdoliad, ac ar yr un pryd yn nwyfoldeb ei berson: "Wele morwyn a fydd feichiog, ac a esgor ar fab, ac a eilw ei enw ef Immanuel" (*Esa.* vii. 4); fel "Blaguryn yr Arglwydd, ac fel ffrwyth y ddaiar" (*Esa.* iv. 2); fel y "Bachgen a aned i ni, y Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragwyddoldeb, Tywysog tangnefedd;" *Esa.* ix. 6. Hefyd y mae Micah yn cael golwg ar le ei enedigaeth, ac yn ei weled, fel llywydd Israel, yn dyfod allan o Bethlehem Ephratah: *Micah* v. 2. Ac y mae Daniel, a Haggai, a Malachi, yn penderfynu amser ei ddyfodiad. Y mae Daniel yn ei weled wedi deng wythnos a thrigain (seithiau seithdeg) yn dybenu camwedd, yn selio pechodau, yn gwneyd cymmod dros anwiredd, ac yn dwyn cyfiawnder tragwyddol: *Dan.* ix. 24. Y mae Haggai yn ei weled, fel dymuniant yr holl genedloedd, yn dyfod i'r ail deml; a chan ei bresennoldeb, yn peri i'r tŷ hwnw ragori mewn gogoniant ar y cyntaf, er yr holl waelder ymddangosiadol oedd arno mewn cymhariaeth i'r llall: *Hag.* ii. 7, 9. Ac y mae y diweddaf o'r prophwydi yn cael golwg arno, fel Arglwydd y deml, yn dyfod yn ddisymmwth iddi: *Mal.* iii. 2. Yn nrych prophwydoliaeth, yr ydym yn ei ganfod, yn meddyliau yr hen dduwiolion gynt, fel prophwyd mawr ar yr hwn yr oeddynt i wrandaw yn mhob peth (*Deut.* xviii. 15); fel offeiriad, o urdd ardderchocach nag urdd Aaron ei hun, ac âg offeiriadaeth ganddo na ddiflanai byth (*Salm* cx. 4); ac, fel brenin, heb derfynau ar ei lywodraeth, ac i deyrnasu yn dragywydd: *Esa.* ix. 4. Yr un pryd, y mae yn ymddangos yn yr un drych â gwedd tra gwahanol arno:—yn hanu o deulu isel a diolwg; yn ddirmygedig a diystyraf o'r gwŷr, yn wr gofidus a chynnefin â dolur; y byd yn cywilyddio ei arddel, ac heb wneyd un cyfrif o hono; dan wendid, ac yn dwyn doluriau dynion, a hwythau, yn camesbonio achos ei ofid, yn tybied mai Duw, am rywbeth ynddo ei hunan, oedd yn ei daro, yn ei gystuddio, ac yn ei faeddu. Dangosir, pa fodd bynag, y gwir achos; y mae yn sefyll yn lle ereill—yn ein lle ni: yr oeddym ni wedi cyfeiliorni o'r ffordd, ac fe roddwyd ein hanwiredd ni arno ef; ac y mae

Digitized by Google

yntau dano yn cael ei archolli, ei ddryllio, ei gleisio, ei orthrymu, ei gystuddio, a'i ladd, yn gospedigaeth ein heddwch. Y mae hyn oll yn ol cynllun gosodedig, ac yn cael ei ddyoddef ganddo yntau o'i fodd: y mae yn dawel a dirwgnach, heb agoryd ei enau mewn anfoddlonrwydd, er y dyoddefiadau i gyd; y mae yn gosod ei enaid yn aberth, yn tywallt ei enaid i farwolaeth, ac y mae taledigaeth iddo am ei waith. Er i'w elynion fwriadu ei fedd gyda'r anwiriaid, claddedigaeth anrhydeddus fydd iddo, ac fe estynir ei ddyddiau eto — fe'i hadgyfodir drachefn, ac fe gaiff wobr fawr; fe'i diwellir am lafur ei enaid, fe lwydda, fe'i codir yn uchel iawn, taenella genedloedd lawer, bydd breninoedd yn ymostwng iddo, caiff luosogrwydd a goreuon byd yn rhan ac ysbail iddo ei hun: *Esa.* liii.

Y cyfryw oedd y Gwaredwr a addawsid i'r tadau, ac a ddysgwylid ganddynt drwy yr holl oesoedd. I ba raddau yr oeddynt yn gallu sylweddoli ystyr y darluniadau o hono a dynid gan ddwylaw ysbrydoliaeth, y mae yn rhy anhawdd i ni benderfynu. Ond pa dywyllwch bynag a allai orchuddio eu meddyliau yn nghylch natur ei berson, a'r gwaith a wneid ganddo, a dull ei ymddangosiad, yr oedd eu dysgwyliad yn gryf am dano fel yr un yr oedd eu holl obaith hwy a gobaith y byd yn dibynu arno. Tua'r amser y ganwyd Iesu, yr oedd y dysgwyliad hwnw yn gryf iawn. Yr oedd cyfyngder allanol y genedl dan y darostyngiad Rhufeinaidd, yn gyssylltiedig â'r eglurhâd a roddid ganddynt ar brophwydoliaethau yr Hen Destament, yn peri fod yno gryn nifer, fel Simeon ac Anna, yn hyderu y caent weled Crist yr Arglwydd, ac yn dysgwyl ymwared yn Ierusalem. Yn wir, y mae genym brofion digonol fod y dysgwyliad hwnw, ar y pryd, yn gyffredin drwy wledydd y dwyrain, a rhai parthau o'r gorllewin, yn mhlith y Cenedloedd yn gystal a'r Iuddewon.

Yn awr, pan yr honir mai yr Iesu yw y Crist, yr ydys yn hòni mai efe yw y person rhyfedd hwnw a addawsid o'r dechreuad, a ddysgwyliwyd yr holl oesoedd—gwrthddrych mawr yr holl brophwydoliaethau, sylwedd yr holl gysgodau, canolbwynt yr holl ddadguddiad ysgrythyrol, ac unig obaith byd euog. "Cawsom yr hwn yr ysgrifenodd Moses yn y gyfraith, a'r prophwydi, am dano, Iesu o Nazareth, mab Ioseph;" *Ioan* i. 45. Y mae yn anmhosibl, ni a dybygem, i neb a addefo ddilysedd ac awdurdod y ddau Destament, beidio canfod nad at yr un gwrthddrych y mae y ddau yn cyfeirio. Y mae holl briodoliaethau *Messïah* yr Hen, yn perthynu i *Grist* y Newydd. Yr un Eneiniog sydd yn y ddau. Po manylaf a thecaf y gymhariaeth a wneler rhwng hanes Iesu gan yr Efengylwyr a rhagfynegiadau y prophwydi am y Crist, mwyaf oll y sicrwydd a feddianna y meddwl o uniondeb a grym ei hawl ef i'r cymmeriad hwnw.

Y mae y cyferbyniad mor fanwl, a'r tebygolrwydd y fath, fel mai un ddadl fawr a arferir gan wrthwynebwyr diweddar gwirionedd hanesol yr Efengylau am Iesu ydyw, na wnaeth yr ysgrifenwyr ynddynt ond crynöi y syniadau Iuddewig am y Messïah, fel yr oeddynt i'w canfod yn ysgrythyrau a thraddodiadau y genedl, ac amcanu rhoddi corfforiad personol iddynt oddi amgylch i ryw ychydig nifer o ffeithiau a allasent fod wedi dygwydd yn ei hanes ef. Nid oes angenrheidrwydd dangos, ni a dybygem, mor anghydweddol yw y dychymyg hwn â'r gwirionedd; a bod syniad Messïanaidd y Testament Newydd, yn lle bod yn gynnyrch meddwl Iuddewaidd yr oes, a'r deongliadau cyffredin ar y pryd o'r prophwydoliaethau, mor gwbl wahanol i ddim o'r fath, fel mai yn raddol iawn, er y profion mwyaf grymus, ac er holl ddysgeidiaeth eu Harglwydd, yr esgynodd y dysgyblion eu hunain iddo; ac mai ei wrthod a gafodd gan y genedl yn gyffredin y pryd hwnw, a'i fod ef yn parhau i gael ei wrthod ganddi hyd y pryd hwn. Ond y mae yr wrthddadl yn caniatäu y fath debygolrwydd yn hanes, a gweithredoedd, a chymmeriad y Gwaredwr mawr a ddysgwylid gan y tadau âg Iesu o Nazareth, fel y gallwn, oddi ar ymosodiadau gwrthwynebwyr ei hawliau, ymgadarnhau yn y gwirionedd mai *Efe yw y Crist.*

II. Y mae y gair yn ei gyssylltiad â'n Gwaredwr yn arwyddo ei fod yn cyflawnu mewn rhyw ystyr, ar ran pechaduriaid, yr holl wasanaeth a olygid yn perthynu i'r rhai eneiniedig gynt.

Yr oedd yr eneiniad bob amser, fel y gwelsom, yn didol pa beth bynag neu pa berson bynag a fyddai tano o gylch a defnydd cyffredin, ac yn ei neillduo i wasanaeth arbenig, neu i swydd o ymddiried ac anrhydedd. Felly yr oedd y prophwydi, yr offeiriaid, a'r breninoedd, ar wahân oddi wrth bawb ereill—yn eneiniedig. Ac yn nynodiad ein Harglwydd fel y *Crist*, arwyddir fod yr holl orchwylion a gyflawnid ganddynt hwy yn cael eu cyflawnu mewn ystyr uwch a pherffeithiach ganddo ef. Efe, yn arbenig, yw y Crist.

Efe ydyw y prophwyd mawr (*Act.* iii. 22); goleuni y byd (*Ioan* viii. 12). "Y mae yn dysgu ffordd Duw mewn gwirionedd" (*Mat.* xxii. 16)—"y gwirionedd" ei hunan ydyw (*Ioan* xiv. 6): "y mae yn pregethu blwyddyn gymmeradwy yr Arglwydd" (*Esa.* lxi. 1); "y mae Duw yn llefaru wrthym yn ddo" (*Heb.* i. 1); ei "ysbryd" ef oedd yn y "prophwydi" gynt (1 *Pedr* i. 11); ac fel ei Ysbryd ef, y mae y Dyddanydd yn cymmeryd o'i eiddo i'w fynegu i'w bobl eto: *Ioan* xvi. 14, 15. Y mae fel hyn yn ei swydd "yn athraw i'r bobloedd" (*Esa.* lv. 4); "yn hysbysu y Tad" (*Ioan* i. 18); yn ei "egluro ei hunan i'r rhai a'i carant ef" (*Ioan* xiv. 21); "a chanddo ef y mae geiriau y bywyd tragwyddol;" ac felly, gallwn ninnau, fel Simon Pedr, "gredu a gwybod mai efe yw y Crist, Mab y Duw byw;" *Ioan* vi. 68, 69.

Megys y Crist hefyd, y mae yn "Offeiriad mawr ar dŷ Dduw" (*Heb.* x. 21); "gosododd ei enaid yn aberth dros bechod" (*Esa.* liii. 10); "offrymodd ei hun yn ddifai i Dduw" (*Heb.* ix. 14); "ymddangosodd i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun" (*Heb.* ix. 26); "efe yw yr iawn dros ein pechodau ni" (1 *Ioan* ii. 2); "efe a fawrhaodd y gyfraith, ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus," fel y mae "yr Arglwydd yn foddlawn er mwyn ei gyfiawnder" (*Esa.* xlii. 21); "y mae prynedigaeth trwy ei waed ef yn ol cyfoeth gras" (*Eph.* i. 7), ac eto heb gymylu uniondeb, heb dreisio deddf, na diystyru llywodraeth; "offeiriad ar ei freninfainc ydyw" (*Zech.* vi. 13); "y mae trugaredd a gwirionedd yn ymgyfarfod, cyfiawnder a heddwch yn ymgusanu" (*Salm* lxxxv. 10); y mae Duw "yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu;" *Rhuf.* iii. 25.

Megys y Crist, y mae, yn yr un swydd, "trwy ei waed ei hun wedi myned i mewn i'r cyssegr" (*Heb.* ix. 12); y mae "yn y nefoedd, yn weinidog y gyssegrfa a'r gwir dabernacl" (*Heb.* viii. 13); "yn y nef ei hun, yn ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni" (*Heb.* ix. 24); "y mae i ni Eiriolwr gyda'r Tad" (1 *Ioan* ii. 1); y mae "yn eiriol dros y troseddwyr;" *Esa.* liii. 12.

Digitized by Google

Y mae yn cyd-ddyoddef â'i bobl yn eu holl wendidau (*Heb.* iv. 15), ac yn "gweddio drostynt fel na ddiffygio eu ffydd;" *Luc* xxii. 32.

Megys y Crist, yn arbenig, y mae wedi ei "osod yn Frenin ar Sion;" *Salm* ii. 6. "Efe a deyrnasa ar dŷ Iacob yn dragywydd, ac ar ei freniniaeth ni bydd diwedd" (*Luc* i. 33); "rhoddwyd iddo awdurdod ar bob cnawd" (*Ioan* xvii. 2); "pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaiar" (*Mat.* xxviii. 18); y mae "ar ddeheulaw Duw, wedi myned i'r nefoedd, a'r angelion, a'r awdurdodau, a'r galluoedd, wedi eu darostwng iddo" (1 *Pedr* iii. 22); "goruwch pob tywysogaeth, ac awdurdod, a gallu, ac arglwyddiaeth, a phob enw a enwir, nid yn unig yn y byd hwn, ond hefyd yn yr hwn a ddaw:...pob peth dan ei draed ef;...yn ben uwch law pob peth i'r eglwys" (*Eph.* i. 21, 22); "yn arglwyddiaethu ar y meirw a'r byw hefyd" (*Rhuf.* xiv. 9); "agoriadau uffern a marwolaeth" ganddo (*Dad.* i. 18); pob barn wedi ei roddi iddo (*Ioan* v. 22); "a ordeiniwyd gan Dduw yn Farnwr byw a meirw" (*Act.* x. 42); "cydgesglir ger ei fron ef yr holl genedloedd," ac efe a fydd yn trefnu lle pob un (*Mat.* xxv. 32); "gosodir ni oll ger bron gorseddfainc Crist" (*Rhuf.* xiv. 10); "rhaid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist" (2 *Cor.* v. 10); "dydd Crist" fydd dydd y farn: *Phil.* i. 6, 10; ii. 16.

Megys y Crist y mae hefyd fel brenin yn yr efengyl wedi ymwregysu â chleddyf—ymwisgo â gogoniant ac â harddwch, yn marchog yn llwyddiannus i gyfarfod y lluoedd gwrthryfelgar, a'i ddeheulaw yn dysgu grymusder iddo, pobl yn syrthio tano, a'i saethau yn glynu yn nghalonau ei elynion (*Salm* xlv. 3, 4, 5)—y mae yn llywodraethu yn nghanol ei elynion, ac yn ei nerth yn ennill deiliaid ewyllysgar iddo ei hun (*Salm* cx. 2, 3); y mae y rhai a anfonir ganddo "yn myned allan yn gorchfygu ac i orchfygu" (*Dad.* vi. 2); y maent ynddo a thrwyddo yn cael goruchafiaeth yn mhob lle (2 *Cor.* ii. 14); y mae trwyddynt yn "bwrw dychymygion i lawr, ac yn caethiwo pob meddwl i ufudd-dod" iddo ei hun (2 *Cor.* x. 5); ac wedi eu hennill i'w gydnabod yn frenin, y mae yn teyrnasu yn rasol trwy gyfiawnder ynddynt, nes darostwng pob peth croes o'u mewn i'w hawliau ei hun, a'u dwyn hwythau i fywyd tragywyddol: *Rhuf.* v. 21.

Fel hyn, y mae pa beth bynag a olygid yn briodol i'r rhai a eneiniasid gynt yn cyfarfod ynddo ef yn y perffeithrwydd uchaf. Nid oedd Moses a'r holl brophwydi ond gweision iddo; gogoniant uchaf Aaron a'i wasanaeth oedd bod yn gysgod o hono: ac wele Arglwydd Dafydd, un mwy na Solomon, Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi: *Heb.* iii. 5; ix. 11, 23; *Mat.* xxii. 43; xii. 42; *Dad.* xix. 16.

III. Mae y gair, drachefn, yn dynodi meddiant o'r holl gymhwysderau angenrheidiol i'r gwasanaeth sydd i'w gyflawnu ganddo fel Gwaredwr. Mae yn ymddangos fod y ddefod o eneinio wedi ei bwriadu o'r dechreuad yn rhyw arwydd, yn y sawl a ddygid tani, o'r doniau gofynol i'r swydd y gosodid ef ynddi. Pa fodd y daeth felly—beth a allai natur y cyssylltiad fod, rhwng y fath arferiad a'r hyn, dybygid, a olygid trwyddi—sydd ansicr. Yr oedd defnydd mawr, fel y mae eto, yn cael ei wneyd o olew yn ngwledydd y dwyrain; a chredid fod ganddo ddylanwad neilldiol ar iechyd, yni, a grym, a bywiogrwydd y cyfansoddiad corfforol, fel yr oedd trwyddo yn gymhwys i lawer o orchwylion fuasent heddo yn anmhosibl iddo. Efallai fod hinsawdd boeth y gwledydd hyny yn ei wneuthur felly mewn gwirionedd. Yr ydym yn gwybod yr arferai yr ymdrechwyr yn nhir Groeg, lle y mae yr hin yn llawer oerach, yn eu gwahanol gampau, ymiro yn helaeth âg olew, er mwyn gwneyd eu hunain yn fwy ystwyth a heinif i gyflawnu eu gorchestion. Efallai mai o blegid daioni naturiol felly, gwirioneddol neu dybiedig, y daeth tywallt neu daenellu ychydig o hono ar ben un a neilldiasid i swydd i arwyddo rhyw fesur o gymhwysderau i'r swydd hono. Pa fodd bynag, y mae yn hollol amlwg fod ystyr felly yn cael ei roddi i'r ddefod. Golygid fod Ysbryd yr Arglwydd yn disgyn ar y dyn, naill ai yn gydfynedol â, neu yn ganlynol i, weinyddiad yr arwydd, yn ysbryd cyfatebol i'r gwaith oedd iddo i'w wneyd. Dyma iaith yr Ysgrythyrau eu hunain. Wedi tywallt o Samuel y ffiolaid olew am ben Saul, efe a ddywedodd wrtho, "ac Ysbryd yr Arglwydd a ddaw arnat ti;" ac yn y fan, efe a gafodd galon arall, sef calon brenin—calon gymhwys i'r swydd oedd ganddo i'w gweini: 1 *Sam.* x. 1, 6, 9. Yn yr hanes a gawn am eneiniad Dafydd, y mae y cyssylltiad yn amlycach fyth rhwng yr arwydd a'r hyn a arwyddoceid trwyddo:—"Yna y cymmerth Samuel gorn yr olew, ac a'i heneiniodd ef yn nghanol ei frodyr. A daeth Ysbryd yr Arglwydd ar Dafydd o'r dydd hwnw allan. Ond Ysbryd yr Arglwydd a giliodd oddi wrth Saul;" 1 *Sam.* xvi. 13, 14. Wedi cyflwyno y cymhwysder a olygid yn yr arwydd ar y naill, y mae yn cael ei ddwyn ymaith oddi ar y llall.

Yr un syniad sydd yn yr Ysgrythyrau yn cael ei gyssylltu âg eneiniad y tabernacl a'i holl ddodrefn; arch y dystiolaeth, y bwrdd a'i holl lestri, y canwyllbren a'i holl lestri, allor yr arogldarth, allor y poethoffrwm a'i holl lestri, a'r noe a'i thraed—yr oeddynt oll drwy hyny yn cael eu "cyssegru yn sancteiddiolaf" (*Exod.* xxx. 26—29)—yn derbyn cymhwysder i'w defnyddio yn ngwasanaeth ac addoliad yr Arglwydd fel yr oedd wedi ei sefydlu yn mhlith y genedl.

Yn awr, y mae hyn mewn modd neilldiol yn gyssylltiedig â'r dynodiad hwn ar ein Gwaredwr. Y mae fel y Crist yn gymhwys i'w waith. Felly y gosodir ef allan yn ngeiriau prophwydoliaeth, a gymhwyswyd ganddo ei hunan ato ei hun: "Ysbryd yr Arglwydd Dduw sydd arnaf; o herwydd yr Arglwydd a'm heneiniodd i efengylu i'r rhai llariaidd," &c.; *Esa.* lxi. 1; *Luc* iv. 21. Yr oedd Ysbryd yr Arglwydd arno yn effaith, yn ganlyniad, *o herwydd* ei eneinio. Y mae wedi derbyn y cymhwysderau uchaf: "Eneiniwyd ef â'r Ysbryd Glân, ac â nerth;" *Act.* x. 38. Y mae wedi eu derbyn yn yr helaethrwydd mwyaf; fe'i "heneiniwyd âg olew gorfoledd tu hwnt i'w gyfeillion" (*Heb.* i. 9): "nid wrth fesur y mae Duw yn rhoddi iddo ef yr Ysbryd" (*Ioan* iii. 34): y mae iddo "dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol" (*Esa.* l. 4): y mae "Ysbryd yr Arglwydd yn gorphwys arno, yn ysbryd doethineb a deall, ysbryd cynghor a chadernid, ysbryd gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd" (*Esa.* xi. 2)—ysbryd y cymhwysderau uchaf i'r gorchwyl a ymddiriedwyd iddo.

Fel offeiriad, "cymhwyswyd corff iddo" (*Heb.* x. 5): "y mae yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr" (*Heb.* ii. 17): "yr oedd ganddo yr hyn a offrymai" (*Heb.* viii. 3): "y mae yn sanctaidd, diddrwg, dihalog, didoledig oddi wrth bechaduriaid, yn uwch na'r nefoedd, yn weddus i ni;" *Heb.* vii. 26. Medr "gyd-ddyoddef gyda'n gwendid; y mae wedi ei demtio fel ninnau"

Digitized by Google

(*Heb.* iv. 15): a gallwn fod yn gwbl hyderus na fetha ein hachos yn ei law—"y mae yn byw bob amser i eiriol drosom;" *Heb.* vii. 25. Y mae wedi ei wneuthur o wraig, ei wneuthur dan y ddeddf (*Gal.* iv. 4) — ei wneuthur yn bechod (2 *Cor.* v. 21), ei wneyd yn felldith (*Gal.* iii. 13), ei wneuthur yn ddoethineb, yn gyflawnder, yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth (1 *Cor.* i. 30); ac, fel y cyfryw, y mae i bechadur "yn bob peth, ac yn mhob peth" (*Col.* iii. 11).

Os edrychir arno fel Brenin mawr, y mae "holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig ynddo" (*Col.* ii. 3): y mae yn teyrnasu mewn cyflawnder, yn llywodraethu mewn barn" (*Esa.* xxxii. 1). "Efe a farn drueiniaid y bobl, efe a achub feibion yr angenus, ac a ddryllia y gorthrymydd" (*Salm* lxxii. 4): "cyfiawn, ac achubydd, a llariaidd yw efe; yn llefaru heddwch i'r cenedloedd" (*Zech.* ix. 9, 10): ac y mae ei holl ddeiliaid "beunydd yn ei glodfori" (*Salm* lxxii. 15). Fel hyn y mae, megys *y Crist*, yn mhob modd, wedi ei berffeithio yn dywysog iachawdwriaeth (*Heb.* ii. 10).

IV. Y mae y gair, dybygid, mewn modd arbenig yn golygu ei awdurdodiad dwyfol i'r gwasanaeth goruchel a gyflawnir ganddo. Yr oedd hyny, yn neilldiuol, yn cael ei osod allan drwy y ddefod o eneinio. Ystyrid fod rhyw gyssegredigaeth yn perthynu i'r rhai hyny a eneiniasid ag oedd, arno ei hunan, yn trosglwyddo hawl iddynt ag yr oedd yn beryglus ymosod yn ei herbyn. Nis gallasai Dafydd, er yr holl brawf a gawsai o elyniaeth Saul tuag ato, ac er y sicrwydd oedd ganddo fod Ysbryd yr Arglwydd wedi ymadael ag ef, eto mewn un modd ymryddhau oddi wrth y teimlad o'r cyssegredigaeth oedd yn gyssylltiedig ag ef, fel eneiniog yr Arglwydd. Gyda'r meddwl hwnw, y mae yn arswydo rhag gwneuthur unrhyw niwed iddo; y mae ei galon yn ei daro am gymmaint a thori cwr ei fantell; a phan y mynasai ei wŷr gyfodi yn ei erbyn a'i ladd, "Na ato yr Arglwydd," meddai, "i mi wneuthur y peth hyn i'm meistr, eneiniog yr Arglwydd, i estyn fy llaw yn ei erbyn ef; o blegid eneiniog yr Arglwydd yw efe;" 1 *Sam.* xxiv. 5, 6. Ac ar adeg arall, pan aeth gydag Abisai liw nos i wersyll Saul, a'i gael ef yn cysgu, a'i wŷr hefyd yn cysgu, ac Abisai yn gweled cyfleusdra i'w ladd, ac am gymmeryd mantais arno, dywed, "Na ddyfetha ef: canys pwy a estynai ei law yn erbyn eneiniog yr Arglwydd, ac a fyddai ddieuog? Yr Arglwydd a'm cadwo i rhag estyn fy llaw yn erbyn eneiniog yr Arglwydd;" ac yna y mae yn cyfarch Abner a'r milwyr, gan eu ceryddu am eu hesgeulusdra i'w brenin:—"Fel y mae yr Arglwydd yn fyw, meibion euog o farwolaeth ydych chwi, am na chadwasoch eich meistr, eneiniog yr Arglwydd;" 1 *Sam.* xxvi. 9, 11, 16. Ac wedi marwolaeth Saul, pan y daeth llanc o Amaleciad ato, gan ddyweyd wrtho, iddo, ar gais Saul ei hunan, pan oedd wedi ei archolli gan y Philistiaid, sefyll arno a'i ladd—"Pa ham," meddai Dafydd, "nad ofnaist di estyn dy law i ddyfetha eneiniog yr Arglwydd?" Ac yn y fan, efe a barodd i un o'r gweision ruthro arno a'i ladd: 1 *Sam.* i. 14, 15. Yr oedd yr eneiniad yn gosod rhyw gyssegredigaeth dwyfol yn y meddwl cyffredin ar y sawl oedd wedi bod tano, ag oedd, mewn amgylchiadau cyffredin, yn fath o gyfnerth goruchnaturiol i'w hawl i'r swydd ag y gallai fod ynddi. Yn ganlynol, fel y gwelsom, nid yw yn ymddangos y byddai breninoedd yn cael eu heneinio, ond pan fyddai yr hawl hono, rywfodd, mewn perygl o gael ei dadleu. Arwydd cyhoeddus awdurdodiad ydoedd. Yn awr, y mae hyn yn arbenig yn gyssylltedig â'n Gwaredwr ni megys *y Crist.* Yr Arglwydd a'i heneiniodd (*Esa.* lxi. 1); "Crist yr Arglwydd," "Crist Duw," "Crist etholedig Duw" ydyw (*Luc* ii. 11; ix. 20; xxiii. 35): y mae wedi ei "wneuthur gan Dduw yn Arglwydd ac yn Grist;" *Act.* ii. 36. Edrycher arno yn ei holl swyddau, y mae awdurdodiad dwyfol ganddo. "Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi brophwyd o'ch brodyr" (*Act.* iii. 22); "wele rhoddais ef yn dyst i'r bobl, yn flaenor ac yn athraw i'r bobloedd" (*Esa.* lv. 4); "yr Arglwydd Dduw â roddes i mi dafod y dysgedig" (*Esa.* l. 4); "y gair yr ydych yn ei glywed, nid eiddof fi ydyw, ond eiddo y Tad a'm hanfonodd i" (*Ioan* xiv. 24); "y geiriau a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy" (*Ioan* xvii. 8).

Drachefn. "Crist nis gogoneddodd ei hun i fod yn Archoffeiriad" (*Heb.* v. 5); "tyngodd yr Arglwydd, ac nid edifarha, Ti wyt offeiriad yn dragwyddol, yn ol urdd Melchisedec" (*Salm* cx. 4); "yr hwn a osododd Duw yn iawn" (*Rhuf.* iii. 25); "yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw" (1 *Cor.* i. 30); "yr hwn a sancteiddiodd y Tad, ac a'i hanfonodd i'r byd" (*Ioan* x. 36); "wele fi yn sylfaenu maen yn Sion" (*Esa.* xxviii. 16); y mae "Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd ag ef ei hun" (2 *Cor.* v. 19).

Eto. "Minnau a osodais fy Mrenin" (*Salm* ii. 6); "y mae gan Fab y dyn awdurdod i faddeu" (*Mat.* ix. 6); "megys y rhoddaist iddo awdurdod ar bob cnawd" (*Ioan* xvii. 2); "rhoddwyd i mi bob awdurdod" (*Mat.* xxviii. 18); "efe a roddes bob barn i'r Mab" (*Ioan* v. 22); "yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyflawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe;" *Act.* xvii. 31. Pa beth bynag gan hyny ydyw Iesu, y mae felly yn holl awdurdodiad y Duwdod ei hun. Nid gwr cymmwynasgar, dihawl i gyfryngu yn mhlaid trueiniaid ydyw. Y mae yn ei urddau i achub: "Hwn a seliodd Duw Dad;" *Ioan* vi. 27. "Yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw;" 1 *Cor.* i. 30. Y mae pob pechadur a gredo ynddo, gyda chael ei fywyd trwyddo, yn cael yr anrhydedd o selio gwirionedd y Duw digelwyddog; a phob pechadur a'i gwrthodo, yn peryglu yn ei erbyn ei hunan holl ganlyniadau gwneuthur Duw yn gelwyddog: *Ioan* iii. 33; 1 *Ioan* v. 10.

CRIST:—YR ATHRAWIAETH AM EI BERSON A'I WAITH (*Christologia*). Y mae y ddau yn annattodol â'u gilydd—y blaenaf yn rhoi urddas ar yr olaf, a'r olaf yn ddealladwy yn unig yn ngoleu y blaenaf. Yn yr erthygl hon, rhoddir bras olwg ar athrawiaeth y Testament Newydd am berson yr Arglwydd Iesu Grist, fel DUWDDYN, yn nghyd â'r gwahanol olygiadau sydd wedi cael eu dal, o bryd i bryd, ar yr athrawiaeth sylfaenol hon.

Er mwyn ein galluogi i osod gwerth priodol ar gyflawnder a gwreiddiolder dysgeidiaeth y Testament Newydd ar hyn, gall fod yn fuddiol i edrych ar y rhagbarotoad a ganfyddir mewn crefyddau ercill tuag at hyn, yn nghyd â'u hanallu i'w gyrhaedd.

Y mae y syniad am undeb rhwng Duw a dyn yn perthyn, mewn rhyw ffurf neu gilydd, i bob crefydd. Nis gellir cyrhaedd syniad am ddynoliaeth berffaith ond yn undeb y bywyd dynol a dwyfol. Y mae ystyriaeth o'r dadguddiad y mae Duw yn ei wneuthur o hono ei hun yn y greadigaeth yn arwain yn anocheladwy i'r meddwl ei

Digitized by Google

fod yn dadguddio ei hun, nid yn unig *i* ddyn—arglwydd y greadigaeth weledig—ond hefyd *ynddo*. Felly, nid yw yn rhyfedd fod crefyddau ereill heb law Cristionogaeth, yn gydnabyddus â rhyw fath o undeb rhwng Duw a dyn. Mae hyn yn perthyn i hanfod crefydd fel y cyfryw; a'r gwadiad o hyn ydyw atheistiaeth. Ond y mae y Testament Newydd yn gosod allan undeb rhwng Duw a dynoliaeth mewn dull hollol briodol a neilldiol iddo ei hun, a hyny nid mewn athrawiaeth yn unig, ond mewn ffaith. Yn Iesu o Nazareth, y mae Duw a dyn mewn undeb personol â'u gilydd—Duw yn ddyn, a dyn yn Dduw. Nid ydoedd un grefydd arall yn meddu hyd yn oed y syniad am y fath undeb rhwng Duw a dyn a hyn. Peth newydd ar y ddaiar ydoedd; ac o ganlyniad yr oedd yn angenrheidiol i'r ffaith ragflaenu yr athrawiaeth. Ni allasai Iuddewaeth, y fath ag ydoedd yn nyddiau Crist, roddi bod i'r fath ddrychfeddwl. Yr oedd ei holl ysbryd yn ei erbyn. Ac y mae hanes boreuaf yr eglwys yn dangos mai oddi wrth Iuddewon y deuai y prif wrthwynebiad i'r gwirionedd am berson y Cyfryngwr fel Duw-ddyn. Gwel ENIONIAID.

Er nad oedd y syniad am ddyrchafiad dyn i blith y duwiau, na chwaith am dyfodiad y duwiau i blith dynion, yn anadnabyddus i baganiaeth, trwy ei gwahanol ffurflau, ni chanfyddir un dychymyg, y cyfryw ag a arweiniai at Ddirgelwch mawr duwioldeb—Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Y mae gwahaniaeth hanfodol yn hyn, rhwng paganiaeth *orllewinol* a phaganiaeth *ddwyreiniol*. Fel anghraifft o'r blaenaf, gellir enwi crefyddau Groeg; ac o'r olaf, crefyddau yr India. Y mae y ddwy yn gyffelyb yn hyn—nad ydynt yn gwahaniaethu rhwng Duw a'r byd; ac o ganlyniad, crefyddau natur ydyw y ddwy. Ond mewn rhyw ystyr, y maent yn eithafoedd i'w gilydd:—y mae y dwyrain yn dechreu gyda'r anfeidrol, a'r gorllewin gyda'r meidrol. Yn nghrefyddau yr India—darllenir am ymgorfforiadau o eiddo y duwiau, mewn trefn i ddysgu y gwirionedd i ddynion, ac i'w dyrchafu i'r nefoedd. I'r gwrthwyneb, yn nghrefyddau tir Groeg, Rhufain, a'r gogledd—y mae dynion, trwy eu gwroldeb a'u rhinwedd, yn ymgodi i blith y duwiau. Y mae yn eglur ar yr olwg gyntaf nad oes un tebygolrwydd rhwng y dychymygion gorllewinol ac ymgnawdoliad Mab Duw:—yn y naill, y mae dyn yn dwyfoli ei hun; yn y llall, y mae Duw o'i ras yn cymmeryd dynoliaeth i undeb personol â'i natur ei hun.

Y mae mwy o debygolrwydd yn ymgorfforiadau Vishnu i'r athrawiaeth dan sylw nag sydd mewn dim yn nghrefyddau y gorllewin. Nis gellir llai nag edrych ar y syniadau oedd yn gyffredin, am ddyfodiad y duwiau at ddynion yn mysg crefyddau India, a gwahanol barthau ereill o Asia, yn rhagbarotoad ar gyfer dyfodiad Duw mewn cnawd. Ac mewn canlyniad i hyn, yr oedd y fath ddysgwyliad yn y byd tuag amser ymddangosiad y Cyfryngwr. Ond y mae yn hawdd canfod y gwahaniaeth rhwng y syniad paganaidd a'r gwirionedd Cristionogol. Nad oedd ymgorfforiad Vishnu yn beth gwirioneddol yn nhyb y rhai a'i credent, sydd amlwg oddi wrth luosogrwydd yr ymgorfforiadau hyn. Ni ddychymygent hwy am unrhyw undeb hanfodol a phersonol rhwng y Duwdod a'r ddynoliaeth; o herwydd dychwelai Vishnu i'r nefoedd gan adael y ddynoliaeth ar ei ol.

Pa mor bell yr oedd prophwydoliaethau yr Hen Destament yn arwain i syniadau clir am natur person y Cyfryngwr, edrychedd y darllenydd dan y gair MESSIAH, yn chwanegol at yr hyn a geir yn yr erthygl ddiweddaf—CRIST. Pa mor bell yr oedd Philo, ac Iuddewon ereill, ychydig cyn amser ymddangosiad Crist, yn dirnad am Fab Duw, yn y defnydd cyffredin a wnant o'r gair *Logos*, gwel yr erthyglau GAIR a LOGOS.

Ein hamcan cyntaf yn y lle hwn fydd casglu lluaws o gyfeiriadau ac ymadroddion a geir yn y Testament Newydd, mewn trefn i ddangos pa beth ydyw ei dystiolaeth am Berson y Cyfryngwr. Yr unig ddosbarthiad a wneir o honynt fydd, yn ol ysgrifenwyr y gwahanol lyfrau, er mwyn gweled pa mor bell y maent yn gosod person Crist yn ganolbwynt trefn yr efengyl. Ni wneir ond cyfeiriadau yn unig at y manau mwyaf arbenig a geir yn ysgrifeniadau Ioan a Paul, o herwydd eu bod mor luosog ac mor amlwg. Ond am y llyfrau ereill a ysgrifenwyd i ddysgriflo bywyd yr Arglwydd Iesu ar y ddaiar, neu i wasanaethu amcau ymarferol yn hytrach nag un athrawiaethol, rhoddant fantais i ni weled pa fath le a lanwai Crist yn eu crefydd, pan nad ysgrifenant yn fwriadol ar hyny. Gwelir fod ei fawredd dwyfol yn tori allan yn ei hanes fel dyn, yn gystal a'i fod yn ddyn yn y dysgrifiadau cryfaf o'i Dduwdod.

I'r dyben hwn, gellir eu dosbarthu, yn ol eu tebygolrwydd i'w gilydd, i dri dosbarth:—1. Y tair efengyl gyntaf, epistolau Iago, Iudas, a Pedr. 2. Epistolau Paul. 3. Ysgrifeniadau Ioan.

Y mae y cyfeiriadau mor luosog yn Ioan a Paul—a hyny yn eu dysgrifiadau boreuaf a diweddaraf—at athrawiaeth yr erthygl hon, fel nas gellir ond eu nodi. Gwelir ynddynt fod Crist nid yn unig yn sefyll mewn undeb moesol neu gyfamodol, ond mewn undeb natur a hanfod â'r Tad, a'i fod mewn undeb â'r Tad a'r Ysbryd Glân, yn Drindod sanctaidd, gogyfuwch a thragwyddol.

Allan o ysgrifeniadau Paul y mae y rhai canlynol:—2 *Cor.* v. 17—21; *Gal.* ii. 20; *Rhuf.* viii. 11, 31; vi. 1—10; 2 *Cor.* i. 19—21; 1 *Cor.* xvi. 22; *Gal.* iii. 17, 22, 26, 27; iv. 6, 26; 2 *Cor.* v. 10; xiii. 13; *Col.* i. 13—21; *Phil.* ii. 6—10; 1 *Cor.* x. 4, 9; xv. 22—28, 45, 47; 1 *Tim.* iii. 16.

Allan o Ioan:—1 *Ioan* i. 1—3; *Ioan* i. 1—4, 14, 17, 18; 1 *Ioan* iv. 2, 15; 1 *Ioan* ii. 23; v. 5—9, 12, 20 (Duw yn Nghrist ydyw y gwir Dduw); 1 *Ioan* i. 7; ii. 2; iv. 10; iii. 5, 16, 20, 21; *Ioan* i. 29; iii. 14—16; xi. 51, 52; x. 15, 17; vi. 51. Nid yw ei undeb â Duw yn undeb moesol yn unig:—*Ioan* v. 17; xiv. 9; x. 30; xvii. 5; 1 *Ioan* ii. 23, 24; iv. 9, 10, 15, 16. Bod Trindod dwyfol:—1 *Ioan* iii. 23, 24; ii. 24, 27; iv. 13, 14; v. 7, 10; *Ioan* xiv. 16, 17, 23—26; i. 23; xv. 26; xvi. 7, 9, 13; *Dad.* xix. 11—16; v. 6—8, 12, 13; i. 5, 8, 17, 18; iii. 14, 21; vi. 16, 17; vii. 15, 17; xi. 8, 15; xii. 11; xiii. 8; xvii. 14; xix. 7, 8; xx. 6; xxii. 13.

Y mae Paul ac Ioan yn dwyn tystiolaeth mor gyflawn i ddynoliaeth wirioneddol y Cyfryngwr. Gellir rhoddi ychydig o lawer:—*Ioan* i. 14; xvii. 2; i. 32, 33; ii. 13; iv. 6; v. 27; vi. 27, 53; vii. 39; viii. 16, 28, 48; x. 11, 15; xi. 15; xii. 23; xx. 11, 17; *Dad.* xiv. 14; i. 17, 18; xi. 8; i. 5; *Rhuf.* i. 3; ix. 5; iii. 25; vi. 6—10; vi. 3—10; vii. 4—8; 1 *Cor.* i. 23; x. 15; xv. 3, 8. &c.

Ond pa beth ydyw tystiolaeth ysgrifenwyr y dosbarth cyntaf, y rhai a dybir yn gyffredin sydd yn dyweyd leiaf am berson y Ceidwad? Y mae y TAIR EFENGYL cyntaf yn cynnwys ei hanes

Digitized by Google

dynol yn benaf, gan ddechreu gyda'i achau fel dyn; ac o ganlyniad, y mae eu tystiolaeth i'w Berson yn cael ei rhoddi mewn ffordd o hanes, yn hytrach nag mewn dull athrawiaethol. Yr enw cyffredin arno ydyw *Mab Duw* a *Mab y dyn.* Rhoddir y cyntaf gan yr apostolion yn benaf: yr olaf ydyw ei enw dewisedig ef ei hun. Nid yw yr enw Mab Duw yn cael ei ddefnyddio ganddynt yn yr un ystyr ag y defnyddir ef am Dafydd, neu rai o freninoedd neu brophwydi Israel, fel un mab yn mhlith ereill, ond fel *y* Mab —yr unig, yr anwyl, yr uniganedig Fab; ei Fab ei hun: *Mat.* iii. 17; xvii. 5; xxi. 33—37; xxii. 42—45; *Marc* xii. 6. Cyferbynir y rhai mwyaf yn mhlith y prophwydi dan yr enw "gweision" âg ef fel "Mab." Y mae Mab Dafydd yn Arglwydd Dafydd. "Gelwir ei enw ef Emmanuel=Duw gyda ni;" *Mat.* i. 23. Gelwir ef yn Fab Duw o herwydd fod y Tad, trwy yr Ysbryd, wedi rhoddi bod i'w ddynoliaeth yn uniongyrchol, heb gyfryngiad deddfau natur: *Luc* i. 35. Y mae yn Fab Duw fel person dwyfol; y mae hefyd mewn modd neillduol o ran ei ddynoliaeth. Felly y mae yn hanfodol Fab Duw: fel y cyfryw y mae ganddo ei bobl (*Luc* ii. 11); y mae wedi ymweled â dynolryw yn gyffredinol (*Luc* ii. 14, 31); y mae yn haul y ddynoliaeth; ac yn ei enedigaeth, cododd gwawr newydd ar y byd: *Luc* i. 78. Gelwir ef yn Fab Duw yn rhinwedd ei swydd (*Luc* ii. 49; iv. 3, 9); cyhoeddwyd o'r nefoedd gymmeradwyaeth ei Dad o hono (*Mat.* iii. 17); crediniaeth ei ddysgyblion o hono ydoedd, ei fod yn Fab y Duw byw: *Mat.* xvi. 16, 17. A phan yn angenrheidiol, arddelwai ei hun yn Fab Duw: *Mat.* xxvi. 63. Ond yr enw a roddai fynychaf arno ei hun ydyw, Mab y dyn. Ni wnaethai hyn oni buasai yn ddyn perffaith; ond eto, nid yw hyn yn rheswm digonol pa ham y defnyddia y cyfenwad hwn arno ei hun. Pa ham y galwai ei hun wrth enw sydd yn gyffredin i bob dyn, ac am hyny heb gael ei ddefnyddio gan neb? Yr unig reswm priodol a digonol ydyw, mai nid dyn ydoedd yn gyntaf, ond yn ail—nid person dynol, ond person dwyfol, sydd yn llefaru fel am dano ei hun. Y natur wreiddiol ynddo ef ydyw, nid y ddynoliaeth, yr hon a *gymmerodd,* ond ei Dduwdod, yr hyn *ydoedd* erioed. Defnyddiai yr enw isel "Mab y dyn" am dano ei hun, am, ac o'r pryd, y gwawriodd ei fawredd dwyfol i'w feddwl.

Ond pa ham y cyfenwa ei hun yn Fab *y* dyn? O herwydd fod yn anmhosibl i'r hwn y mae y Duwdod yn wreiddiol ac yn bersonol ynddo fod yn ddyn fel ereill—yn bechadurus, ac yn anmherffaith fel hwynt. Y mae y ddynoliaeth ynddo ef yn bur; a thrwy nerth uniongyrchol yr Ysbryd Glân y mae wedi dyfod i fod. Y mae efe yn cyfateb yn berffaith i ddrychfeddwl gwreiddiol Duw am y ddynoliaeth; ac o ganlyniad, yn ddyn sydd yn cynnrychioli y ddynoliaeth fel y myn ei Chreawdwr iddi fod. Yn ol iaith Paul, yr ail ddyn ydyw, yr hwn sydd yn perffeithio creadigaeth y cyntaf. Gan ei fod ef ynddo ei hun yn Fab Duw ac yn Fab y dyn, y mae maboliaeth ynddo mewn modd hollol; a gelwir ef yn Fab heb un chwanegiad (*Mat.* xi. 27; xxviii. 19; *Marc* xiii. 32; *Luc* x. 22). Yn gyfatebol i hyn, er mwyn dangos ei fod yn sefyll mewn perthynas neillduol â'r Tad, nid yw yn cyfarch ei Dad fel y mae yn cyfarwyddo ei ddysgyblion, gan ddyweyd, "Ein Tad," ond yn gyffredin, "Fy Nhad:" *Mat.* xviii. 10, 19, 35; xx. 23; xxvi. 53; xxv. 34; *Luc* xxiii. 46. Derbyniodd brawf o'r nef ei fod yn Fab Duw, mewn modd arbenig, yn ei fedydd, ei weddnewidiad, a'i adgyfodiad.

Edrychwn yn mhellach ar ychydig o'r tystiolaethau a geir am dano fel Duw-ddyn yn yr Efengylau cyntaf, gan adael allan ei wyrthiau; o herwydd fod ereill, megys Moses ac Elias, wedi cyflawnu gwyrthiau. Ac hefyd, o herwydd yn eu cyssylltiad â'i hanes, yn gyffredinol, y mae neillduolrwydd ei wyrthiau yn dyfod i'r amlwg. Ni roddir pwys, chwaith, ar ei waith yn cyfranu y ddawn wyrthiol; o herwydd cyfarfyddir â graddau o hyn yn ereill, sef Moses ac Elias. Ond nid allai neb arall faddeu pechod; ac nid yn unig dywedir fod gan Fab y dyn awdurdod ar y ddaiar i faddeu pechod, ond hefyd i ddefnyddio ei allu gwyrthiol yn ngwasanaeth maddeuant: *Mat.* ix. 2—6; *Luc* v. 20—24. Gorchymyna fedyddio, hefyd, yn ei enw ei hun yn gystal ag yn enw y Tad a'r Ysbryd; ac felly yn gosod ei hun yn ogyfuwch â hwy. Ond dywedir wrthym pa ham y mae yn gosod arwyddocâd crefyddol ar ei enw, gan ei gyssylltu â'r Tad ac â'r Ysbryd (*Mat.* x. 32, 33, 40; *Luc* xii. 8, 9; *Mat.* xviii. 19. 20): canys, "Ni wyr neb pwy yw y Mab, ond y Tad; na phwy yw y Tad, ond y Mab, a'r neb y myno y Mab ei ddadguddio iddo;" *Luc* x. 22; *Mat.* xi. 27. Y mae gan y Mab awdurdod i anfon yr Ysbryd Glân, ac i fedyddio â'r Ysbryd Glân ac â thân: *Act.* i. 5; *Luc.* iii. 16; *Mat.* iii. 11; *Marc* i. 8. Nid yn unig y mae yn cyfranu maddeuant, ond hefyd efe yw cyfrwng maddeuant: *Mat.* xx. 28; xxvi. 28. Priodola iddo ei hun ddoethineb Duw: *Luc* vii. 35; xi. 49. Cymharer *Mat.* xxiii. 34; xi. 19. Y mae yn priodoli iddo ei hun sancteiddrwydd uwch na'r deml (*Mat.* xii. 6: cymh. *adn.* 4, 5), a mawredd uwch nag a feddai y prophwydi mwyaf dan yr Hen Destament: *Mat.* xxi. 33—37; xii. 41, 42; xi. 11; *Luc* vii. 28. Hònai ei fod, nid yn unig wedi dyfod i gyflawnu y gyfraith; ond yn niwedd ei yrfa, tystiai ei fod wedi gwneuthur hyny. Y mae yn hòni awdurdod a gallu iddo ei hun sydd uwch law mesurau neillduol, ac yn ei osod cyfuwch â Duw: *Mat.* xi. 27; xxviii. 18, 19:—"Rhoddwyd i mi bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaiar. Ewch gan hyny a dysgwch yr holl genedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân." Y mae yn gosod pwysigrwydd ar ei ymddangosiad ar y ddaiar, sydd yn cymmeryd i mewn ol a blaen, o ddechreu hyd ddiwedd y byd: *Mat.* xi. 11—14; xxi. 25—37; xvii. 11—12; *Luc* xvi. 16, 29—31; *Mat.* v. 17. Y mae ei waith yn cymmeryd i mewn yr oll o amser a lle. Dangosir hyn mewn modd nacaol, drwy hysbysu mai nid dyfod i wrthsefyll amlygiadau neillduol o ddrygioni a wnaeth; ond i orchfygu tywysog y byd hwn—i ddadsylfaenu teyrnas y tywyllwch: *Luc* x. 18. Y mae hyn yn cynnwys fod hanfod pob daioni yn Nghrist, gan ei fod yn gorchfygu pob drwg yn ei egwyddor neu hanfod. Derbyniad dyn o Grist, neu ei wrthodiad o hono, sydd yn gosod gwerth yn ngolwg Duw ar ddyn, ac yn penderfynu ei dynged dragwyddol. Y mae hyn yn cynnwys, fod, nid yn unig ryw amlygiad o ddaioni yn cael ei dderbyn neu ei wrthod, ond hefyd y Da ei hun. Am hyny y dywedir na bydd y diwedd, neu y farn, cyn y cyhoeddir yr efengyl drwy yr holl fyd: *Mat.* xxiv. 14; *Marc* xiii. 10. Y mae ei deyrnas wedi ei sylfaenu ganddo ef ei hun, ac i lenwi yr holl ddaiar: *Marc* xvi. 15. Nid yw y maes i'r hâd da yn ddim llai na'r holl fyd, ac y mae y cyfan i gael ei feddiannu ganddo: *Mat.* xiii. 37, 32, 41; *Marc*

Digitized by Google

iv. 32; *Mat.* xxiv. 14; xxviii. 19; *Marc* xi. 17; xvi. 15, 16; *Mat.* xxvi. 13; xxiv. 43; viii. 11; *Luc* xiii. 29. Nid yn unig edrychai Crist ar bwysigrwydd ei Berson a'i waith yn ei gyssylltiad â *lle*, ond hefyd yn ei gyssylltiad âg *amser*. Efe yw dadguddiad olaf a pherffeithiaf Duw o hono ei hun. Nid oes un uwch i'w ddysgwyl. Y mae ei ddyrchafiad (*Luc* xxiv. 51; *Act.* i. 10) i ddeheulaw y Tad (*Act.* ii. 33; *Marc* xvi. 19) yn cynnwys, ynddo ei hun, y gallu i anfon yr Ysbryd Glân (*Act.* i. 5, 8; ii. 33), yr hwn sydd mewn addewid i'r holl genedloedd: *Act.* ii. Tywalltiad yr Ysbryd Glân, mewn canlyniad i esgyniad Crist, a ddaw â'r holl fyd i'w feddiant. Gan mai efe ydyw yr hwn a eglurodd ac a gyflawnodd y gyfraith (*Mat.* v. 17), felly hefyd efe, yn ei ail ddyfodiad—am yr hyn y llefara mor fynych—a farna y byd: *Mat.* xiii. 41; xxiv. 31; x. 32; *Marc* viii. 38; *Mat.* xxv; *Luc* xvii. 30; xii. 35, &c. Y pryd hwnw nis gellir camsynied am ei Berson: *Luc* xxii. 68, 69. Y mae mawredd ei Berson, a'i waith, a pherffeithrwydd ei grefydd, yr hon sydd yn seiliedig arnynt, i'w canfod yn ei ymadroddion am ei ogoniant, yr ennill, a'r deyrnas dragwyddol a fydd i'w ganlynwyr: *Mat.* xx. 20—28; x. 38; xxvi. 63, 64; xix. 28; xvi. 27; *Luc* ix. 26; *Marc* x. 29, 30. Y mae y cyfryw wobr wedi cael ei gysgodi neu ei ragddangos yn y cyssylltiad annattodol sydd rhwng ei adgyfodiad, ei ddyrchafiad, a'i angeu ef: *Mat.* x. 24, 38; xvi. 24. Y mae efe yn trefnu teyrnas ei ddysgyblion fel yr ordeiniodd ei Dad deyrnas iddo ef (*Luc* xxii. 28—30), yr hon a barotowyd cyn sylfaenu y byd: *Mat.* xxvi. 34. Yna y bydd iddo gadw Swper yr Arglwydd yn newydd ac yn berffaith gyda'i ddysgyblion: *Luc* xxii. 16—18; *Mat.* xxvi. 29.

Wrth grynoi ymadroddion y tri efengylwr cyntaf at eu gilydd, gwelir mai Person Crist—Mab Duw a Mab y dyn—ydyw canolbwynt ei grefydd i gredinwyr unigol ac i'w eglwys, ac mai efe hefyd ydyw eu bywyd tragwyddol yn y nefoedd. Fel Deddfroddwr perffaith, y mae nid yn unig yn dadguddio, ond hefyd yn cyflawnu ewyllys sanctaidd a chyflawn, ac hefyd ewyllys rasol Duw; ac am hyny, efe hefyd ydyw Barnwr y byd. Y mae efe yn gweinyddu yr awdurdod hon, nid yn unig ar ei eglwys, ond ar yr holl fyd. Y mae efe yn cyfranu maddeuant pechod, a'r Ysbryd Glân, ac felly ddedwyddwch tragwyddol—prif elfen yr hwn fydd cymdeithas berffaith â'i Berson. Nid yw ei ymadawiad oddi wrth ei bobl ar y ddaiar ond mewn ymddangosiad yn unig; o herwydd lle bynag y byddo ond dau neu dri wedi ymgynnull yn ei enw, yno y mae efe yn y canol, a hyny hyd ddiwedd y byd: *Mat.* xviii. 20; xxviii. 20. Adnabod Crist, gan hyny, a chredu ynddo, a'i wasanaethu, ydyw yr unig addoliad Cristionogol a ellir ei roddi i Dduw.

Gwelir oddi wrth hyn, fod y tri hanes am y Cyfryngwr, a ysgrifenwyd yn benaf i osod allan wedd ddynol ei Berson, ac ar sail pa rai yr honai yr Ebioniaid nad ydoedd ond dyn, yn priodoli iddo yr un mawredd a gogoniant ag a geir yn Ioan a Paul pan yn traethu yn broffesedig ar ei ogoniant dwyfol. Y mae ymadroddion cyffelyb i'w cael ynddynt i'r rhai cryfaf a ddefnyddia Ioan yn nechreu ei Efengyl, pan yn ei osod allan fel y Gair. Cymharer *Luc* vii. 35; *Mat.* xi. 19—lle y mae Crist yn galw ei hun yn Ddoethineb; a *Diar.* viii; *Mat.* xi. 27: ac yn enwedig *Luc* xi. 49; *Mat.* xxiii. 34; *Mat.* xiii. 17; *Luc* x. 23, 24; gyda *Ioan* viii. 56. Y mae rhai o'r nodweddau cryfaf yn y tri efengylwr cyntaf, nad oes yn union eu cyffelyb yn Ioan, er eu bod yn berffaith gysson âg ef. Cymharer *Mat.* ix. 2—6, â *Ioan* v. 8, 11, 14; a *Mat.* xxviii. 18—20, â *Ioan* iii. 5.

Gellid myned yn gyffelyb drwy holl lyfrau y Testament Newydd, i ddangos pa beth yw y dystiolaeth a ddygant i Berson y Cyfryngwr; ond cyfeiriwn eto at ychydig o anghreifftiau o Epistolau Iago a Pedr, fel y cyfansoddiadau tebycaf i'r tair Efengyl cyntaf; ac wedi eu hamlwg gyfansoddi, nid i ddybenion athrawiaethol, ond ymarferol.

Amcan Iago ydyw, gosod allan elfen foesol crefydd, yn wrthwynebol i'r rhai a ymddiriedant mewn ffydd heb weithredoedd. Ond y mae ei foesddysg yn hollol Gristionogol; a hyny nid yn unig o herwydd ei fod yn edrych ar y ddeddf fel cyfraith rhyddid (*pen.* i. 25), ac o herwydd fod cariad yn egwyddor freninol moesoldeb (*pen.* ii. 5, 8)—ond hefyd am fod cariad wedi ei wreiddio mewn ffydd (*pen.* ii. 22), ac yn tarddu o honi fel ei ffrwyth; am ei fod yn tarddu o'r ail-enedigaeth: *Iago* i. 17, 18, 21. Nid pob un sydd wedi ei eni o Dduw (*pen.* i. 18); ond Cristionogion, y rhai sydd wedi derbyn yr impiedig air (*pen.* i. 21); a thrwy hyny y maent yn dyfod yn flaenffrwyth neu goron y greadigaeth: *pen.* i. 18. Y mae y gair yn perffeithio yr holl ddyn, ac yn ei godi uwch law pob gwahaniaethau daiarol: *Iago* i. 4, 21. Y mae crefydd Crist gan hyny yn berffaith, ac yn uwch ei gwerth na phob gwrthddrychau daiarol. Y mae Iago, ar sail hyn, yn anneg y tlodion yn y byd hwn i edrych ar eu cyfoeth yn Nghrist: *pen.* ii. 1—9.

Ond nid mewn modd anuniongyrchol yn unig y mae Iago yn dangos uchafiaeth Crist. Geilw ei hun yn "wasanaethwr yr Arglwydd Iesu Grist" (*Iago* i. 1)—yr hyn sydd yn fwy hynod fyth, os ydoedd, fel y tybir, yn frawd i Grist. Enwir ef hefyd "ein Harglwydd ni Iesu Grist" (*Iago* ii. 1; v. 7, 8); "Arglwydd y gogoniant;" *Iago* iii. 1). Gan fod "gair y gwirionedd" yn cyfranu gwirionedd a doethineb (*Iago* i. 18, 25—cymharer i. 5; iii. 17), ac o ganlyniad yn ddadguddiad oddi uchod, ac hefyd yn nerthol weithio i gyfnewid dynion (*Iago* i. 18), y mae Crist, gair yr hwn ydyw, nid yn unig yn Ddysgawdwr neu Brophwyd, ond hefyd yn Frenin:—dau gymmeriad a berthynant i'r Messiah. Fod Iago yn cydnabod swydd freninol yr Arglwydd Iesu, sydd amlwg oddi wrth yr enw "Crist," ac "Arglwydd y gogoniant." Priodolir swydd freninol iddo yn ei ail ddyfodiad: *Iago* v. 7—9. Nid yn unig efe ydyw rhoddwr y gyfraith wrth ba un y'n bernir (*Iago* ii. 12), ond efe hefyd sydd yn cyhoeddi gwynfyd y naill (*Iago* v. 8) a chollfarnedigaeth y llall: *Iago* v. 9. Gan fod tynged dynion i'w benderfynu ganddo, ei grefydd ef yw y dadguddiad uchaf a roddir i ddynion. Geilw Dduw a Christ yn "Arglwydd;" a chan y priodola gosodiad y gyfraith i Dduw, a'r awdurdod i gadw a cholli i Grist (*Iago* v. 7—9), y mae Iago am i ni ddeall fod awdurdod dwyfol a breninol yn ymgyfarfod yn yr Arglwydd Iesu.

Y mae Iago yn cadw ei olwg yn fwy ar y *gyfraith*:—nid y gyfraith seremoniol, ond y gyfraith foesol dragwyddol, yr hon a gafodd ei chyflawnu gan Grist, ac a gyflawnir mewn cariad gan y rhai sydd yn credu ynddo. Edrych y mae Pedr ar Gristionogaeth, yn ei epistolau, a'i bregethau yn yr Actau, fel cyflawniad *prophwydoliaeth* yr Hen Destament.

Digitized by Google

Yn mhregethau Pedr, cedwir golwg yn benaf ar ffeithiau ei fywyd; a lleferir am dano fynychaf mewn ymadroddion a fenthycir o'r Hen Destament (*Act.* iii. 14; iv. 27), ac fel un wedi ei eneinio: *pen.* x. 38; iv. 27. Edrychir ar ffeithiau ei fywyd fel cyflawniad y prophwydoliaethau: *Act.* i. 16; ii. 16, 34; iii. 18, 22—26; x. 34; 1 *Pedr* ii. 7, 22—25; i. 10. Gwaethpwyd ef gan Dduw yn Arglwydd ac yn Grist: *Act.* ii. 36. Gogoneddwyd ef gan Dduw (*pen.* iii. 13), trwy ei ddyrchafu yn Dywysog ac yn Iachawdwr, a'i osod yn Farnwr byw a meirw. Gosodir ei ddyrchafiad allan fel gwobr am ei ddarostyngiad, ac fel gweithred Duw Dad. Yr amcan mewn golwg ydoedd ei wneuthur yn Dywysog bywyd (*pen.* iii. 15); o herwydd pa ham, nid allasai rhwymau angeu ei ddal, a dyrchafodd ar ddeheulaw Duw (*pen.* ii. 33, 24, 31): yno y mae goruwch pawb oll. Y mae rhinwedd yn ei enw i gyflawnu gwyrthiau: *Act.* iii. 6. Amlygir ei ogoniant yn ei ailddyfodiad i'r byd: *Act.* iii. 10, 21; x. 42. Oddi ar ddeheulaw Duw y tywalltodd yr Ysbryd ddydd y Pentecost. Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall: *Act.* iv. 12. Y mae Cristionogaeth yn berffeithiad y dadguddiad blaenorol a roddes Duw, a gogoniant y dadguddiad hwnw ydoedd ei fod yn wasanaethgar i ddwyn i mewn Grist a'i waith: 1 *Pedr* i. 10, 11. Yr oedd "Ysbryd Crist" yn ysbrydoli y prophwydi i "ragdystiolaethu dyoddefaint Crist a'r gogoniant ar ol hyny." Yr oedd ei waith ef yn destyn arfaeth dragwyddol, ac yn wrthddrych rhagluniadau dwyfol cyn sylfaenu y byd: 1 *Pedr* i. 2, 20. Er mai yn yr amseroedd diweddaf yr amlygwyd Crist yn ei angeu, eto hanfodai o'r dechreuad; a hyny, nid yn unig mewn bwriad dwyfol, ond yn weithredol—"Yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt, yn eu hysbysu;" 1 *Pedr* i. 11. Priodolir iddo wir ddynoliaeth mewn corff (1 *Pedr* iii. 18; iv. 1; i. 24) ac enaid: 1 *Pedr* iii. 19. Y mae Duw yn Dad ein Harglwydd Iesu Grist (1 *Pedr* i. 3); o ganlyniad, y mae Crist yn Fab Duw. Efe ydyw cyfrwng yr adenedigaeth (*pen.* i. 3), yr hyn a gyflawnir trwy air Duw, yr hâd anllygredig: *pen.* i. 23. Trwy ffydd yn Nghrist y mae caffael iachawdwriaeth—yr hon sydd mewn rhan yn bresennol, ac mewn rhan yn ddyfodol: *pen.* i. 5, 9. *O'r* hâd anllygredig, ond *trwy* y gair, yr hwn sydd yn *byw* ac yn *parhau* yn dragwyddol, y mae yr ailenedigaeth yn cymmeryd lle. Wrth y gair y meddylir, nid y cyhoeddiad o'r efengyl, ond ei chynnwysiad, sef Crist, yn yr hwn y mae y gwirionedd, a'r hwn ei hun ydyw y gwirionedd. Nid y gair hebddo ef; ond efe yn gynnwysiad y gair, a'i Ysbryd yr hwn sydd yn bywhau. Nis gellir deongli yr ymadrodd hwn mewn unrhyw ffordd nad yw yn dangos fod Crist "yn byw ac yn parhau yn dragywydd." Yr oedd Crist, nid yn unig yn genad i gyhoeddi y gair, fel y prophwydi a'r apostolion, ond efe ydyw ei sylwedd. Nid yn unig y mae gair Duw *ganddo*, ond efe *ydyw*: *pen.* i. 18—20; ii. 8. Y mae efe yn Oen difeius a difrycheulyd, yr hwn a aberthwyd trosom ni, a'r hwn a ddug ein pechodau yn ei gorff ar y pren (1 *Pedr* ii. 24; iii. 18; cymh. *Esa.* liii. 5); a hyny mewn trefn i'n dwyn at Dduw: *pen.* iii. 18. Ei angeu ydyw canolbwynt ei holl waith cyfryngol—"Crist unwaith (ἀπαξ = *am byth*) a ddyoddefodd." Y mae ei adgyfodiad trwy y cyssylltiad agosaf yn dilyn ei angeu: *pen.* iii. 18—21. Y mae Crist, nid yn unig wedi ymddangos dros, fel meichniydd, ond y mae hefyd yn byw yn y rhai sydd yn credu ynddo. Y maent, nid yn unig yn un âg ef yn ei angeu, ond hefyd yn ei adgyfodiad. Y mae Crist wedi esgyn ar ddeheulaw Duw yn y nefoedd, ac iddo ef y mae pob awdurdod wedi ei ddarostwng: 1 *Pedr* iii. 22.

Yn yr Ail Epistol, yn gyffelyb, y mae cyflawnder defnyddiau am Berson a gwaith Crist. Trwy adnabyddiaeth o hono ef y mae y gallu dwyfol yn rhoddi pob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb (2 *Pedr* i. 2, 3); trwyddo ef y rhoddwyd i ni addewidion gwerthfawr, ac y'n gwneir yn gyfranogion o'r anian dduwiol: 2 *Pedr* i. 4. Gweloodd Pedr ei fawredd a'i ogoniant â'i lygaid: *pen.* i. 16. Efe ydyw anwyl Fab Duw, yn yr hwn y cafodd ei foddloni. Efe ydyw ein Iachawdwr: *pen.* i. 11; iii. 2:—ein Harglwydd: *pen.* i. 2, 8, 11. Iddo Ef y perthyn y deyrnas dragwyddol: *pen.* i. 11. Nid oedd raid iddo wrth chwedlau i osod allan ei fawredd; yr oedd ei hanes, a ragdystiolaethwyd am dano gan brophwydi, ac a dystiolaethwyd iddo gan apostolion, yn ddigonol: *pen.* i. 16—18; iii. 2. Y mae yr adnabyddiaeth o hono, fel ymddangosiad y seren ddydd, yn y galon: *pen.* i. 19. Yr achos o'i hir oediad i farn ydyw ei hirymaros (*pen.* iii. 9—15); ond y mae ei ddydd yn dyfod yn annysgwyliadwy, fel lleidr y nos, pryd y bydd y nefoedd weledig yn ymollwng, a'r defnyddiau yn toddi; ac yn eu lle y bydd nefoedd newydd a daiar newydd, yn y rhai y cartrefa cyflawnder.

Yn Epistol Iudas, cyssylltir Crist â Duw y Tad: *adn.* 1, 24, 25. Y ffordd i aros yn nghariad Duw ydyw dysgwyl am drugaredd ein Harglwydd Iesu Grist: *adn.* 21. Yr oedd gelynion Cristionogaeth yn gwadu yr "unig Arglwydd Dduw a'n Harglwydd Iesu Grist;" *adn.* 4. "Wele, y mae yr Arglwydd yn dyfod gyda myrddiwn o'i saint," i farnu y byd (*adn.* 14)—yr hyn fydd yn destyn dychryn i'w holl elynion (*adn.* 15), ond yn fywyd tragwyddol i'w bobl: *adn.* 21.

Y mae yn anmhosibl teimlo y cyflawnder anhyspyddadwy sydd yn rhedeg drwy holl hanesion yr Ysgrythyrau—yn ymblethu â, ac yn dyrchafu eu holl athrawiaethau; yn rhedeg fel elfen fywydol trwy holl gyfundrefn eu gwirioneddau, gan roddi bywyd i'w dyledswyddau, a sail i'w gobeithion, a'r cwbl yn tarddu o ogoniant Person Dwyfol y Cyfryngwr—heb edrych arnynt yn y modd uchod. Gellir cynnwys mewn ychydig osodiadau yr hyn a dderbynir gan Gristionogion uniongred yn wirionedd am y Person hwn.

I. Fod ymgnawdoliad Mab Duw yn Iesu Grist yn weithred rydd, yn tarddu o ras ac ymostyngiad dwyfol, ac nid yn seiliedig ar angenrheidrwydd natur. Hyn sydd yn ei gwneuthur yn deilwng o Dduw. ac yn gosod gwiwdeb arni fel cyfrwng iachawdwriaeth. Byddai tybied mai gweithred yn tarddu o angenrheidrwydd natur ydyw, yn gwneuthur Duw yn ddibynol ar ddyn—yr Anfeidrol ar y meidrol. Ie, ni byddai yn amgen na gwadu perffeithrwydd ac anfeidroldeb Duw. Ond y mae yr hyn a fuasai yn annheilwng o Dduw, a'i ystyried yn effaith angenrheidrwydd, yn deilwng o'i fawredd yn y gradd uchaf, mor fuan ag yr ystyrir ef yn weithred o ymostyngiad grasol. Y mae hyn i'w weled yn mhlith dynion. Darostyngiad ar ddyn mewn oed a synwyr fyddai iddo ymddwyn fel plentyn, am fod hyny yn ei natur, ac nad allai ymddwyn yn wahanol. Ond mewn tad, neu fam, neu ddysgawdwr, sydd yn ymostwng i iaith a dullwedd plant, o gariad, ac er mwyn eu gwneuthur yn

Digitized by Google

ddedwydd, neu i gyfranu addysg iddynt, a'u hennill atynt eu hunain, y mae yn briodol, ac yn amlygiad dymunol o'u cymmeriad. Felly, o gariad at ddyn, ac mewn trefn i'w ennill ato ei hun, daeth Mab Duw yn wir ddyn. "Gan fod y plant yn gyfranogion o gig a gwaed, yntau hefyd yr un modd a fu gyfranog o'r un pethau;" *Heb.* ii. 14.

II. Nid yw ymgnawdoliad Mab Duw i'w ystyried fel yn effeithio unrhyw gyfnewidiad yn ei Dduwdod. Ni pheidiodd a bod yn llai na Duw wrth ddyfod yn ddyn. Dywedodd yr angel wrth Zacharias y byddai i Ioan "ddarparu pobl barod i'r Arglwydd" (*Luc* i. 17), am ddyfodiad yr hwn y prophwydodd Malachi: iv. 5, 6. Hysbysid i Mair ei fam y gelwid ef yn "Fab y Goruchaf" (*Luc* i. 32); ac mai iddo ef y rhoddid gorseddfa ei dad Dafydd, yn unol â 2 *Sam.* vii. 19; *Salm* cx; *Esa.* ix. 6, 7. Gelwir ef gan Zacharias, y "Goruchaf;" a "chodiad haul o'r uchelder:" "Y Gair" —nid gair Duw at ddyn, ond "yr hwn oedd yn y dechreuad gyda Duw"—"a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr Unig-anedig oddi wrth y Tad), yn llawn gras a gwirionedd;" *Ioan* i. 14. Tystiodd Ioan Fedyddiwr mai "yr hwn a ddaeth oddi uchod, sydd goruwch pawb oll," ydyw; *Ioan* iii. 31. Er fod Crist fynychaf yn galw ei hun yn "Fab y dyn," y mae hefyd yn hôni ei fod yn Fab Duw. Yn Efengyl Ioan (v. 19, 20), y mae yn llefaru am ei berthyn ei hun â'r Tad; ac yn *adn.* 21, 22, am berthynas y Tad âg ef, sef ei fod ef yn cynnrychioli y ddynoliaeth o flaen y Tad, ac yn cynnrychioli y Tad o flaen y byd: ac yn *adn.* 26, y mae mewn dull dirgelaidd yn awgrymu ei dragwyddol Faboliaeth. Ar ŵyl y pebyll, cyhoeddodd yn eglur ei dragwyddol Dduwdod: *Ioan* vii, viii. Trachefn, ar y gyssegr-ŵyl: *Ioan* x. 30. Oddi wrth yr ymadroddion hyn a ddefnyddiodd yr Iesu am dano ei hun, y mae yn eglur yn mha ystyr y mae i ni ddeall y cyfenwad *Mab Duw.* Yr oedd yr Iuddewon yn deall yr ymadrodd yn ei ystyr naturiol a chaethaf am undeb natur; o herwydd hyny cyhuddent ef o gabledd: *Ioan* v. 18; x. 35; vi. 41; *Mat.* xxvi. 63—65. Pe buasai yr Iesu yn ewyllysio i'r ymadrodd gael ei ddeall yn wahanol, nid allasai, yn unol â didwylledd ei gymmeriad, lai na'i egluro mewn ystyr arall. Ond gadawodd yr Iuddewon i'r ystyr yn mha un y deallent hwy y gair, a chadarnhaodd yr unrhyw â'i lw: *Mat.* xxvi. 63, &c. Tystia Ioan, yn niwedd ei Efengyl, "Y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef;" *Ioan* xx. 31. Dywed Paul am dano, "o'r rhai yr hanodd Crist yn ol y cnawd, yr hwn sydd uwch law pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd;" *Rhuf.* ix. 5. Yn niwedd ei Epistol Cyntaf (v. 20), dywed Ioan, "Hwn yw y gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol."

III. Gosodiad arall sydd yn gynnwysedig yn athrawiaeth yr Ysgrythyr am Berson y Cyfryngwr ydyw—ei fod yn wir ac yn gyflawn ddyn. Er iddo gael ei eni mewn modd goruchnaturiol, yr oedd yn mhob peth yn gyffelyb i'w frodyr. Efe a gynnyddodd mewn doethineb a chorffolaeth: *Luc* ii. 52. Yr oedd ganddo gorff gwirioneddol, yn cael ei oddiweddyd gan newyn a blinder, &c., ac yn ddarostyngedig i ddeddfau cyffredin y corff dynol. Yr oedd ganddo enaid dynol perffaith a chyflawn, yn teimlo tristwch, llawenydd, digofaint, a chydymdeimlad; efe a wylodd wrth fedd ei gyfaill:—"Yr hwn yn nyddiau ei gnawd, gwedi iddo, trwy lefain cryf a dagrau, offrwm gweddiau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub ef oddi wrth farwolaeth, a chael ei wrandaw yn yr hyn a ofnodd; er ei fod yn Fab, a ddysgodd ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd;" *Heb.* v. 7, 8.

IV. Er ei fod yn wir Dduw ac yn wir ddyn, *un person* ydyw, ac nid dau. Yr un un sydd yn llefaru am dano ei hun pan yn dywedyd, "Trist iawn yw fy enaid hyd angeu," ac, "I mi y rhoddwyd pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaiar." Yr un person sydd yn dywedyd, "A chan Fab y dyn nid oes le i roddi ei ben i lawr," ac, "Fel yr anrhydeddont y Mab megys y maent yn anrhydeddu y Tad." Yr un person ag a ddywedodd ar y groes, "Y mae syched arnaf," sydd yn gweddio, "O Dad, gogonedda di fyfi gyda thi dy hun, â'r gogoniant oedd i mi gyda thi cyn bod y byd."

Y mae yr Ysgrythyr yn dysgu fod Iesu Grist yn Dduw ac yn ddyn—neu, mewn dull mwy cynnwysfawr, yn Dduw-ddyn. Nid ei fod yn Dduw, ac yn chwanegol at hyny ei fod yn ddyn hefyd; ac nid chwaith ei fod yn ddyn, a chyda hyny ei fod yn Dduw hefyd:—ond athrawiaeth y Beibl ydyw, fod Mab Duw wedi dyfod yn ddyn. Nid ei fod yn Dduw-ddyn mewn unrhyw ystyr anmhenderfynol—ond yn yr ystyr penderfynol o fod y Gair wedi dyfod yn gnawd, heb, ar yr un pryd, golli y meddiant o'i briodoliaethau fel Mab Duw.

Y mae yr ymofyniad wedi cael ei wneyd o ddechreuad Cristionogaeth, ac yn para i gael ei ofyn, Pa fodd y mae i ni ddirnad am gydhanfodiad y natur ddwyfol a dynol mewn un person? Ar yr olwg gyntaf, gellid meddwl fod priodoliaethau Duwdod a dynoliaeth mor wrthgyferbyniol i'w gilydd fel nas gallasent mewn un modd ymgyfarfod yn yr un person. Y mae Duw yn dragwyddol, yn hollwybodol, ac yn hollalluog:—y mae dyn yn derfynol o ran bod a gwybodaeth. Mae Duw yn ddedwydd ynddo ei hun, ac yn dragwyddol ffynnonell hapusrwydd:—y mae dyn yn ddarostyngedig i ddyoddef, ac yn dyoddef. Pa fodd gan hyny y gall yr un person fod yn dragwyddol, ac eto â dechreuad iddo—yn hollbresennol, ac yn derfynol—yn hollalluog, ac wedi ei amgylchu â gwendid—yn dragwyddol ddedwydd, eto yn ufudd hyd angeu?

Cyn cyfeirio at y golygiadau gwahanol a gwrthwynebol sydd wedi cael eu dal mewn perthynas i'r ateb priodol i'w roddi i'r ymofyniad hwn, dylid cofio fod ysgrifenwyr uniongred o'r dechreu o'r farn fod yr Ysgrythyr yn amlwg ddysgu nad yw y natur ddwyfol a dynol yn Iesu Grist wedi eu cymmysgu, na chwaith wedi eu gwahanu; ac felly nad yw yr undeb sydd rhyngddynt yn fwy nac yn llai nac undeb personol. Y mae amryw fathau o undeb, mewn rhan, yn cyrhaedd yn mhellach, ac, mewn rhan, yn syrthio yn fyr o'r cyfryw undeb. Mewn undeb fferyllaidd, y mae dau sylwedd yn colli eu priodoliaethau eu hunain, ac yn ffurfio sylwedd arall sydd yn meddu ar ansoddau hollol newydd, a gwahanol oddi wrth ansoddau y ddau sylwedd unedig. Y mae undeb moesol trwy gariad a chyfeillgarwch rhwng dau berson, sydd er hyny yn para yn ddau. Ond am y ddwy natur yn Mherson Crist, y mae y ddwy yn cadw eu priodoliaethau eu hunain, heb ymgymmysgu, ac eto y mae y ddwy yn ymgyfarfod mewn un person. Mae cysgod o hyn i'w weled yn yr undeb sydd rhwng yr enaid a'r corff. Nid yw y naill yn ymgolli yn y llall, eto y mae yr un ymwybydd-

Digitized by Google

iaeth yn cynnwys y ddau. Y mae y corff yn farwol, er ei undeb â'r enaid; y mae yr enaid yn anfarwol, er ei undeb â'r corff; ond y mae dyn yn farwol ac yn anfarwol. Gellir priodoli i'r dyn yr hyn a berthyn i'r ddwy ran sydd ynddo, er nad ydynt yn cyfranu eu priodoliaethau i'w gilydd.

Felly, nid yw y berthynas sydd rhwng y ddwy natur yn Mherson y Cyfryngwr yn symmud ymaith y gwahaniaeth sydd rhyngddynt. Yr oedd y cwbl a wnaeth Crist yn tarddu o'i ddyndod neu ei Dduwdod. Gwnaeth rai pethau fel Duw, o herwydd o'i Dduwdod y tarddent; gwnaeth bethau ereill fel dyn, o herwydd perthynent yn uniongyrchol i'w ddyndod; mewn rhai pethau, cydweithredai ei Dduwdod â'i ddyndod. Oddi wrth hyn, ni allwn gael rheol neu egwyddor i'n harwain mewn ymofyniadau o barth i undeb y ddwy natur yn Mherson Crist; sef, nad yw priodoliaethau y naill byth yn cyfranogi o briodoliaethau y llall, fel ag i ymgymmysgu â hwynt; ond bod cydweithrediad rhwng y ddwy natur yn fynych, ac undeb personol rhyngddynt yn barhaus. Yr undeb parhaus sydd rhyngddynt ydyw yr achos fod yr hyn a berthyn i'r naill natur yn fynych yn cael ei briodoli i'r llall. Trwy rinwedd y berthynas hon, y mae enw Duw a dyn, wrth lefaru am Grist, fel yn newid lle â'u gilydd, ac y mae yn ysgrythyrol dyweyd fod Mab Duw wedi creu y byd, a Mab y dyn wedi marw i'w achub; neu ynte i ddyweyd fod Mab y dyn wedi ei greu, ac yn Arglwydd arno, a bod Mab Duw wedi marw i'w achub. Ond pan briodolir i Dduwdod Crist yr hyn yn briodol a berthyn i'w ddyndod, neu i'w ddyndod yr hyn a berthyn i'w Dduwdod, deallir wrth yr enw Duw a'r enw dyn, nid y natur ddwyfol na'r ddynol, ond holl Berson Crist, yn yr hwn yr ymgyferfydd y ddwy natur. Dywed yr apostol Paul am yr Iuddewon, iddynt groeshoelio Arglwydd y gogoniant; a thystia Mab y dyn, pan ar y ddaiar, ei fod yr un pryd yn y nefoedd. Yn y naill, priodolir marwolaeth i Arglwydd y gogoniant, neu i Dduw; yr hyn nis dichon fod: ac yn y llall, hollbresennoldeb i ddyn, yr hyn sydd mor anmhosibl. O ganlyniad, wrth Arglwydd y gogoniant y mae i ni ddeall yr oll o Berson Crist—yr hwn, er ei fod yn Arglwydd y gogoniant, a groeshoeliwyd, ond nid yn y natur o herwydd pa un y gelwir ef yn Arglwydd y gogoniant. Yr un modd, wrth Fab y dyn y deallir yr oll o Berson Crist—yr hwn, er iddo ddyfod yn ddyn ar y ddaiar, a lanwodd y nefoedd â'i ogoniant, ond nid yn y natur a roddodd iddo y cyfenwad Mab y dyn.

Y goleuni a rydd yr Ysgrythyr ar y dirgelwch mawr hwn, ydyw: "*Y Gair a wnaethpwyd* (a ddaeth = ἐγένετο) *yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni.*" "*Ni chymmerodd efe naturiaeth angelion, eithr had Abraham a gymmerodd efe.*" Nid cymmeryd un person o blith dynion i undeb âg ef ei hun a wnaeth Mab Duw; ond y natur sydd yn gyffredin i bob dyn, sef hâd Abraham:—elfen gyntaf ein natur cyn iddi ddyfod i feddu hanfodiad personol o'i heiddo ei hun. Dechreuodd y cnawd, a'i undeb â'r Gair, ar unwaith; yr un weithred oedd iddo ef gymmeryd cnawd i undeb âg ef ei hun, a'i ddwyn i fod. Felly yn Nghrist, nid oes ond un hanfodiad personol, a hwnw er tragwyddoldeb. Gan na chymmerodd ond *natur* dyn, nid yw ond un person—un hanfodiad personol—ar gyfrif yr hwn y mae yn dragwyddol Fab Duw. O angenrheidrwydd, gan hyny, rhaid i ni briodoli i Berson Mab Duw yr hyn a leferir am Grist yn ol y cnawd. Er esampl, ganwyd ef yn ol y cnawd o Fair Forwyn, bedyddiwyd ef gan Ioan, condemniwyd ef gan Pilat, a chroeshoeliwyd ef gan yr Iuddewon. Ond nis gellir yn briodol dyweyd fod natur dyn wedi ei eni o Mair, ac wedi ei groeshoelio gan yr Iuddewon — rhaid eu priodoli i ryw berson. Person Crist, gan hyny, ydyw eu gwrthddrych; ond ei natur ddynol a'i cymhwysodd i fyned trwyddynt. Y mae yn canlyn, gan hyny, mai Mab Duw ydyw yr unig *berson* a aned o Mair, a fedyddiwyd, a gondemniwyd, ac a groeshoeliwyd. A hyn y cytuna yr hysbysiad a wnaethpwyd i fam yr Iesu: "Y peth Sanctaidd a enir o honot ti a elwir yn Fab Duw." Ac yn ol y brophwydoliaeth, mor fuan ag y gallesid dyweyd, "Bachgen a aned i ni," yr ydoedd yn wir hefyd y gelwid ei enw ef "Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn." Y mae y gwirionedd mawr a gwerthfawr hwn yn dangos i ni pa fodd y mae anfeidrol deilyngdod Mab Duw yn gosod gwerth anfeidrol ar ei ufudd-dod a'i ddyoddefiadau, fel Meichniydd yn ein lle ni.

HANES YR ATHRAWIAETH.

Y mae yr athrawiaeth am Berson y Cyfryngwr wedi cael sylw neillduol yn mhob oes, ac yn enwedig felly am y pum can mlynedd cyntaf yn hanes Cristionogaeth. Ymfoddlonai y Tadau Apostolaidd—canlynwyr uniongyrchol yr apostolion—i ddefnyddio ymadroddion Ysgrythyrol yn unig, gan ddal gafael cadarn yn y gwirionedd fod yr Iachawdwr yn Dduw ac yn ddyn. Daeth y gwrthwynebiad cyntaf yn erbyn y gwirionedd am Berson yr Arglwydd Iesu, oddi wrth yr Ebioniaid [gwel yr erthygl], y rhai a wadent ei Dduwdod, gan hôni fod Crist yn brophwyd mawr yn unig, wedi dyfod—yn ol rhai o honynt, trwy enedigaeth goruchnaturiol; yn ol ereill, trwy enedigaeth naturiol — fel y gris uchaf, a pherffeithiad cyfres prophwydi yr Hen Destament. Ar y llaw arall, gwadai y Docetiaid [gwel y gair] ei wir ddynoliaeth, gan hôni mai rhyw alhu goruchddaiarol neu oruchddynol ydoedd, wedi gwisgo ffurf dyn mewn ymddangosiad yn unig. Ymgais y cyntaf oedd darostwng Cristionogaeth i ffurf o luddewaeth; ond yr olaf a geisient ei gwneuthur yn fath o athroniaeth baganaidd. Dechreuodd y gwrthwynebiad hwn yn yr ail canrif, a pharhaodd i redeg trwy ei gylch am y trydydd a'r pedwerydd canrif.

Tua diwedd y pedwerydd canrif, daeth yr ymofyniad am berthynas y "ddwy natur mewn un person," yn fwy i gyffroi sylw. Yr oedd yr eglwys o'r dechreu yn credu, ar sail y Testament Newydd, fod Iesu Grist yn un person, gan wahaniaethu rhwng ei natur ddwyfol a'i natur ddynol, heb geisio ymwthio i ddirgelwch yr undeb sydd rhyngddynt. Ar ymddangosiad Monophysiaeth—yr hon a ddadleuai dros undeb y dwyfol a'r dynol yn y Duw-ddyn, ond heb ddeall pwysigrwydd y gwahaniaeth rhyngddynt, er mwyn gallu credu yn ngwirionedd ymddangosiad y Cyfryngwr ar y ddaiar, ac o ganlyniad gwirionedd gwaith y prynedigaeth trwyddo—gwnaethant yr undeb yn undeb natur (μια φυσις = *un natur*); ac oddi wrth hyn y deillia yr enw. Arweiniodd hyn i ymchwiliadau i natur y berthynas sydd rhwng y ddwy natur, fel na pheryglid y naill na'r llall; ac o ganlyniad, y gwirionedd am Berson a gwaith Crist.

Ymddangosodd dau brif gyfeiliornad yn ystod y dadleuon a ganlynodd, y rhai sydd wedi ymddangos mewn gwahanol ffurfiau, o bryd i bryd,

Digitized by Google

yn ddiweddarach. Ystyriai y cyntaf fod Duw a dyn yn ddau berson gwahanol, mewn undeb â'u gilydd; eto, fod i'r dyndod fel y Duwdod hanfodiad personol. Honai rhai fod y Gair tragwyddol ac Iesu o Nazareth yn ddau, fel yr oedd yr Ysbryd Glân a'r prophwyd a ysbrydolwyd ganddo yn ddau; a bod y Gair yn defnyddio yr Iesu i weithio trwyddo, fel yr oedd yr Ysbryd yn defnyddio y prophwydi. Enw Nestorius a gyssylltir yn benaf â'r cyfeiliornad hwn. Yr ochr arall, Cyril ac Eutyches, yn eu gwrthwynebiad i ddau hanfodiad personol yn erbyn Nestorius, ac wrth ymwrthod â phersonoliaeth ddynol, a ddadleuent nad oedd ond *un sylwedd*—y dwyfol—yn Mherson Crist; ac nad oedd y natur ddynol ond *ansawdd* yn unig o'r Person Dwyfol. Ni chydnabyddai y cyntaf ond undeb moesol yn unig rhwng y dwyfol a'r dynol yn Nghrist: ni chydnabyddai yr olaf ond undeb anianyddol yn unig. Dyrchafai y naill y dynol ar draul y dwyfol; dyrchafai y llall y dwyfol ar draul y dynol. Dygwyd y ddadl hon yn mlaen yn benaf rhwng duwinyddion Antioch ac Alexandria. Yn erbyn y ddau, penderfynwyd yn Nghynghorfa Chalcedon (451) *fod y ddwy natur yn ddigymmysg, yn ddigyfnewid, ac yn anwahanadwy*, yn yr un a'r unrhyw berson, fel nad yw yr undeb yn difodi y gwahaniaeth natur, ond fod neillduolrwydd y ddwy yn parhau yn undeb y person.

Ond ar ol y penderfyniad hwn, yr oedd dynion yn llawn mor awyddus am wybod *pa fodd* yr oedd y ddwy natur yn ymgyfarfod yn yr un person. Y cwbl a wnaed yn Nghynghorfa Chalcedon oedd, penderfynu *eu bod* felly, heb geisio egluro y modd y gallasai hyny fod. Teimlai llawer nad oedd yn ddigon dywedyd fod Hollalluogrwydd yn ddigon o rwymyn i gadw y ddwy natur mewn undeb, heb i'r meidrol gael ei lyncu yn yr anfeidrol; o herwydd nis gall Hollalluogrwydd wneyd yr hyn sydd ynddo ei hun yn anmhosibl. Ac ystyrient hwy yn anmhosibl i'r un person fod yn feidrol ac yn anfeidrol hefyd. Fel y gallesid dysgwyl, ymddangosodd yr hen ddadl rhwng Nestoriaeth ac Eutychiaeth mewn ffurf newydd. Dan yr enwau hyn, honid, yn y lle cyntaf, fod y ddwy natur yn Nghrist yn ddau berson: ac yn wrthgyferbyniol i hyn, er mwyn cadw ond un person, rhoddwyd i fyny y natur ddynol fel sylwedd gwirioneddol, gyda 'r honiad nad ydoedd ond ansawdd o'r natur ddwyfol. Y ffurf nesaf yn mha un yr ymddangosodd y ddadl am Berson y Cyfryngwr ydoedd—*Pa un ai un ai dwy ewyllys sydd ganddo?* Ofnai rhai roddi atebiad cadarnhaol i'r naill a'r llall, am y gwelent duedd y cyntaf i arwain i Eutychiaeth, neu wadiad o wir ddynoliaeth, a'r llall i Nestoriaeth, neu honiad o ddau berson. Ymfoddlonent ar ddywedyd mai yr un Crist sydd yn gweithio yr hyn sydd yn ddwyfol ac yn ddynol yn ei ddwy natur. Ond yr oedd yn rhaid i'r lluaws gael atebiad mwy penderfynol. Gelwid y rhai a gredai mewn un ewyllys (oddi wrth y gair Groeg am un ewyllys) Monotheliaid [gwel y gair]. Yn wrthwynebol i hyn, dywedai y rhai a gredent mewn dwy ewyllys er cyflawn brynedigaeth dyn, fod yn rhaid i Fab Duw gymmeryd dynoliaeth gyflawn; ac yn enwedigol fod yn rhaid iddo gymmeryd ewyllys ddynol—y gynneddf trwy ba un yn benaf y daeth pechod i'r byd—a thrwy hyny ei sancteiddio; nas gellir dyweyd yn briodol fod y ddynoliaeth ganddo, heb fod ei galluoedd i weithredu ac ewyllysio ganddo; ac o ganlyniad, nad oes y fath beth a gwir ymgnawdoliad wedi cymmeryd lle, yr hyn sydd yn arwain i Docetiaeth. Yn olaf, cyfeirid at yr hanes sanctaidd, yn mha un y priodolir gweithredoedd dynol iddo, megys cerdded, bwyta, &c., y rhai nis gellir eu priodoli i'r ewyllys hollbresennol. Mewn cynghorfa yn Caer Cystenyn (680), yn unol â phenderfyniad Cynghorfa Chalcedon, daethpwyd i'r penderfyniad mai dwy ewyllys—ddwyfol a dynol—sydd yn Mherson y Duw-ddyn, a bod yr ewyllys ddynol yn berffaith ddarostyngedig i'r ewyllys ddwyfol a hollalluog

Felly y parhaodd yr athrawiaeth am Berson y Cyfryngwr i gael ei derbyn a'i chredu trwy y canoloesoedd. Nid oedd dim wedi ei wneuthur, na'i gynnyg fawr, i ddangos pa fodd y gallasai y fath undeb gymmeryd lle yn unol â rhyddid ewyllys ddynol yr Arglwydd Iesu. Y mae yn wir y pery hyn byth yn ddirgelwch i ddyn. Nis gellir dangos pa fodd y mae ewyllys dyn yn cadw ei ryddid, er cael ei lywodraethu trwy ragluniaeth gyffredin Duw, a'i gyfnewid trwy ras achubol; ond eto, y mae felly: ac eithaf naturiol ydyw i ddyn geisio ymofyn am y syniadau mwyaf cysson ac agosaf i'r gwir ag a allo ar hyny. Y mae yn wir fod yr anhawsder yn annhraethadwy fwy i geisio ffurfio barn am undeb dwy ewyllys, meidrol ac anfeidrol, mewn *un* person: ac yn enwedig, pan y tybir yn gyffredin mai ewyllys sydd yn cyfansoddi personoliaeth. Eto, nid oes un cwestiwn y mae duwinyddion goreu yr Almaen yn meddwl ac yn ysgrifenu cymmaint arno y dyddiau hyn, ag ar Berson y Cyfryngwr, ac yn arbenig mewn trefn i geisio ffurfio y syniadau mwyaf cysson â'r holl wirionedd am y dirgelwch mawr hwn.

Nis gellir galw undeb sydd yn seiliedig ar hollalluogrwydd yn undeb moesol—neu, mewn geiriau ereill, yn undeb sydd yn caniatau rhyddid a gwirfoddolrwydd, ac o ganlyniad yn rhoddi mantais i deilyngdod moesol. Ac os na wedir hyn am ddynoliaeth berffaith yr Arglwydd Iesu, nid yw yn ymofyniad dibwys—pe na byddai ond yn agor ein llygaid i'r dirgelwch sydd ynddo, a'n dwyn i ryfeddu y ddoethineb a'i cyflawnodd—*pa fodd* y gall ewyllys rydd gydhanfodi âg ewyllys hollalluog yn yr *un person*:—yn enwedig, wrth gofio mai y dirgelwch mwyaf y gŵyr dyn am dano, y tu yma i Berson yr Immanuel, ydyw cydhanfodiad ewyllys rydd âg ewyllys hollalluog yn yr *un greadigaeth.*

Y mae y gwirionedd am Berson Crist wedi cael ei gadw buraf oddi wrth ddychymygion cywrain dynion yn yr eglwysi a chan yr ysgrifenwyr sydd wedi ei gadw fel canolbwynt trefn y prynedigaeth. Yn y dwyrain, nid oedd yr athrawiaeth am euogrwydd dyn, a'i angen am Fachnïydd i roi iawn i Dduw drosto, yn cael nemawr sylw; ond yn eu holl ddadleuon am y Drindod a Pherson Crist, edrychent ar y gwirioneddau olaf hyn yn rhy anghyssylltiol â threfn yr efengyl, ac o ganlyniad, gwyrent yn fynych ar y naill law neu y llall. Yn y gorllewin, i'r gwrthwyneb, cyflwr dyn trwy bechod, yr angenrheidrwydd am adferiad i heddwch Duw, a'r anmhosiblrwydd i gael hyn ond trwy iawn, ydynt y gwirioneddau yr ymofynent iddynt yn gyntaf ac yn benaf Cadwai hyn hwynt yn fwy sefydlog am yr angenrheidrwydd am Gyfryngwr yn Dduw ac yn ddyn, i gymmeryd arno ei hun euogrwydd dyn, ac i farw yn ei le, ac hefyd i roddi haeddiant anfeidrol yn ei ddyoddefiadau i fod yn gyfiawnder i bechadur ger bron Duw. Awstin a'i ganlynwyr a chwiliasant ddyfnaf i'r gwirioneddau hyn; ennill-

Digitized by Google

asant arbenigrwydd hefyd yn ysgrifeniadau Anselm o Gaergrawnt; ac yn y sefyllfa y gadawyd hwynt ganddynt hwy y trosglwyddwyd hwynt i fesur mawr hyd amser y Diwygiad. Y mae yn wir iddynt gael eu gorchuddio i raddau pell gan yr Eglwys Babaidd, trwy chwanegiadau dynol, a rhinwedd sacramentaidd, nes i ffydd—ac o ganlyniad rhinwedd yr efengyl—gael ei chyfnewid am ddull anianyddol o ddwyn pechadur i afael â'i bendithion. Dylid cyfeirio hefyd at Athanasius, er mai yn y dwyrain yr oedd efe fel amddiffynydd y gwirionedd am Berson Crist, yn ei gyssylltiad priodol â'i waith cyfryngol.

Pan dorodd y Diwygiad allan, Person Crist a'i waith a gafodd y lle blaenaf. Canolbwynt yr ysgogiad mawr hwn ydoedd adferu ffydd yn ol i'r lle yr oedd y sacramentau wedi ei drawsfeddiannu; gosod yr ysbrydol a'r moesol yn lle yr anianyddol. Pan osodwyd yr eglwys a'i holl beirianwaith swynyddol yn lle Crist, nid rhyfedd ei fod ef, yn ei bresennoldeb fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, wedi cilio, ac i ddynion redeg yr un egwyddor anianyddol neu gelfyddydol yn ol trwy yr oll o'r iachawdwriaeth i fyny at undeb y Duwdod â'r dyndod yn ei Berson sanctaidd ef. Pe buasai ffydd yn ei Berson, fel "Duw gyda ni," yn fyw, ni allasai yr eglwys byth wthio ei hun i le Crist, a sefydlu addoliad Mair a'r seintiau yn lle ei addoliad ef. Dygodd y Diwygiad ddynion yn ol at berthynas uniongyrchol pechadur â Christ trwy ffydd. Nid ymfoddlonai cydwybod ddeffröedig ar lai na gwir ddyn a gwir Dduw mewn un person yn Geidwad. Arweiniodd y teimlad o wirionedd a dyfnder colledigaeth dyn oddi wrth y credoau boreuol fel pynciau anghyssylltiol at y Cyfryngwr mawr ei hun, yn y Testament Newydd, fel un wedi ei eni a marw, wedi teimlo angen a phoen, wedi profi llawenydd ac ofn, wedi ei demtio, yn gwybod am ymdrech meddwl, ac wedi dysgu ufudd-dod trwy y pethau a ddyoddefodd. Eto, er edrych ar ei ddynoliaeth yn berffaith rydd, yn gweithredu oddi ar gymhelliadau moesol, cariad at Dduw a dynion, nid ydoedd yn neb llai ei hunan na'r "gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol." Ymranai y Diwygwyr i ddau ddosbarth yn eu hesboniad ar y modd y mae y ddwy natur yn ymgyfarfod yn Mherson Crist. Dadleuai Luther a'i ganlynwyr *fod y naill natur yn cyfranogi yn sylweddol o briodoliaethau y llall.* Yn unol â hyn, dywedai "fod Iesu Grist, o ran ei ddynoliaeth, wedi ei osod goruwch pob peth, a'i fod yn *hollbresennol*, ac yn llenwi pob man;"—fod holl gyfiawnder y Duwdod yn preswylio yn Nghrist yn *gorfforol;* ac o ganlyniad, fod yr ansoddau a berthynant yn gyntaf a phriodol i'r ddynoliaeth, yn dyfod, trwy rinwedd yr undeb personol, nid yn unig yn eiddo i'w Berson, ond hefyd i'r *natur ddwyfol* yn ei Berson. Yr oedd y syniadau hyn o eiddo y Lutheriaid yn gyssylltiedig â'u syniadau am gydsylweddiad yn y sacrament. Zwinglius oedd y cyntaf o ddiwygwyr Switzerland a ddaeth allan yn erbyn y syniadau hyn, gan ddysgu fod Crist o ran ei Dduwdod yn nghalon pob Cristion, ond o ran ei ddynoliaeth mai mewn man penodol yn y nefoedd y mae. Daliai Zwinglius fod y ddwy natur yn cadw eu priodoliaethau eu hunain yn ddigymmysg, ac mai i'r Duw-ddyn yn unig y perthyn priodoliaethau y ddwy, ac nad yw y natur ddynol yn cyfranogi o'r hyn sydd yn briodol i'r ddwyfol.

Cymmerwn y mater hwn i fyny, o amser y Diwygiad yn mlaen hyd yr amser presennol mewn erthygl arall dan Iesu Grist. Gweler hefyd y gwahanol enwau o bwys y cyfeirir atynt yn yr erthygl hon.

Y prif waith ar lenyddiaeth yr athrawiaeth hon ydyw, *Entwicklungsgeschichte Der Lehre von der Person Christi von Dorner. Neander Dogmengeschichte*, a'i *Church History; Hagenbach's History of Doctrines.* Y mae gwaith bychan gan Sartorius hefyd, *Die Lehre von Christi Person und Werk; Enc. Herzog; Christologie; Communicatio idiomatum; Jesus Christus.* Y gweithiau Seisonig:—*Hooker's Ecclesiastical Polity; Wardlaw a Pye Smith ar y ddadl Sosinaidd.*

CRISTIONOGAETH. Crefydd Iesu Grist.

I. *Y mae y grefydd hon wedi ei sylfaenu ar ffeithiau.* Ar y tir yma y mae hi yn rhwymo y gydwybod, ac yn effeithio ar y teimladau; ac nid yw yn gwneuthur un ymhoniad i dderbyniad ac ymostyngiad dynion, ond yn unig ar sail yr hyn sydd wedi cymmeryd lle, yr hyn sydd yn cymmeryd lle, neu yr hyn y mae pob sicrwydd i gredu a gymmer le. Mewn Cristionogaeth, y mae genym gyfres o ffeithiau, a chanlyniadau y ffeithiau hyny. Y mae hi yn gorchymyn ein hufudd-dod ar sail ei gwirionedd hanesyddol. Y mae sylw wedi ei alw eisoes at hyn [Beirniadaeth], fel na raid yn bresennol roddi crynodeb o'r profion sydd yn gosod gwirionedd Cristionogaeth ar dir hanesiaeth y tu hwnt i'r posiblrwydd o'i ammheu ond yn unig trwy ymwrthod â gwirionedd hanesiaeth yn hollol ac yn gwbl. Pa beth bynag arall ydyw Cristionogaeth, nid oes un gosodiad o un natur o fewn cylch gwybodaeth dyn yn fwy sicr na'i bod yn hanesiaeth gredadwy, a hyny i fyny hyd at ei ffynnonell, yn mywyd a marwolaeth Crist ei hun.

Nid yw yn afreidiol sylwi fod sicrwydd perffaith yn gyrhaeddadwy ar dir hanesiaeth. Llefara dynion weithiau fel pe bai sicrwydd yn gyrhaeddadwy yn unig yn y gwyddorion a'r celfyddydau; ond mai tiriogaeth *opiniynau* yw hanesiaeth. Mae y dybiaeth hon yn hollol ddisail. Y mae yn wir fod hanesiaeth pob gwlad yn rhedeg yn ol i'r tywyllwch, fel y mae yn anhawdd gwahaniaethu rhwng gwirionedd a dychymyg yn y cyfnod boreuol hwnw. Ond hollol gyfeiliornus fyddai y dybiaeth fod y goleuni yn dechreu gwanhau fel yr elom yn ol, gan ddechreu gyda'r oes bresennol. Nid pellder amser oddi wrth ein hoes ni sydd yn peri fod y fath dywyllwch; ond absennoldeb goleuni cyffredinol ar y pryd, yn nghyd â'r diffyg o ddynion meddylgar i sylwi ar ddygwyddiadau yr oes, a'u trosglwyddo mewn rhyw ffurf o lenyddiaeth i'r oesoedd dilynol. Y mae hanesiaeth unrhyw oes neu wlad yn adnabyddus i oesoedd dilynol i'r graddau y byddo bywiogrwydd a gweithgarwch meddyliol yn amlygu eu hunain trwy holl gylch llenyddiaeth a'r celfyddydau. Pa genedloedd henafol mor adnabyddus a'r Iuddewon, y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, a hyny o herwydd eu meddiant o'r rhagorfreintiau uchod? Ac am brif ffeithiau, dygwyddiadau, a dynion cyhoeddus yr ymherodraeth Rufeinig, yn oesoedd cyntaf Cristionogaeth, y mae sicrwydd mor gyrhaeddadwy ag ydyw am yr helyntion sydd yn cymmeryd lle yn y byd o flaen ein llygaid. Yr un modd, nid oes dim ffeithiau yn holl hanes y byd, hen a diweddar, yn meddu mwy o sicrwydd hollol yn eu cylch nag sydd am ffeithiau mawr Cristionogaeth.

Y mae yr haeriad hwn yn wir, yn hollol annibynol ar dystiolaeth y Testament Newydd. Pe tybiem fod holl lyfrau y Testament Newydd wedi

Digitized by Google

myned ar goll, heb ddim genym i'n hysbysu am Gristionogaeth yn ei chyfnod cyntaf ond ysgrifeniadau Cristionogion a phaganiaid yr ail canrif, nid allai fod dim ammheuaeth yn ein meddyliau am wirionedd prif ffeithiau ymddangosiad a marwolaeth Crist. Ymddengys hyn fel y canlyn:—Yn y cyfnod crybwylledig—dyweder o'r flwyddyn 98 hyd y flwyddyn 222; neu, mewn geiriau ereill, o esgyniad Trajan i'r orsedd ymherodrol hyd at farwolaeth Alexander Severus;—cymmerodd y chwyldroad mwyaf le a ddygwyddodd mewn unrhyw oes neu wlad; sef, fod miliynau o drigolion o bob oedran, sefyllfa, a rhyw, wedi ymwrthod âg eilun-addoliaeth—crefydd eu gwlad, eu llywodraeth, a'u tadau, a'r grefydd y cawsant hwy eu magu ynddi—ac wedi cofleidio crefydd newydd, er gwybod fod oes o ddyoddefiadau chwerw, neu angeu yn ei ffurfiau mwyaf arswydlawn, yn eu haros. Pa beth oedd y moddion neu yr achos o'r cyfnewidiad digyffelyb hwn? Yr unig achos oedd, eu hargyhoeddiad perffaith o sicrwydd CORFF O FFEITHIAU. Eu crediniaeth mewn gwirionedd ffeithiau, ac nid mewn gwirionedd egwyddorion, oedd gwraidd y cyfan. Eu hargyhoeddiad trwyadl o awdurdod PERSON—o wirionedd DYGWYDDIADAU a gynnmerasant le mewn oes flaenorol, ac am ddilysrwydd LLYFRAU—oedd esboniad y Cristionogion eu hunain a'u gelynion o'r chwyldroad mawr hwn. Nid eu derbyniad o unrhyw opiniwn, neu athrawiaeth, neu egwyddor, a nerthodd y Cristionogion cyntaf hyn i wrthsefyll holl awdurdod yr ymherodraeth, i ddal eu ffordd er dyoddef carchar ac angeu, ac o'r diwedd i ddymchwelyd y duwiau a'r duwiesau paganaidd—ond eu crediniaeth am ac mewn PERSON. Gorchymyn y barnwyr paganaidd i'r Cristionogion crynedig oedd yn sefyll ger eu bron oedd, "Tyngwch! melldithiwch Grist! ac yna ni a'ch rhyddhawn chwi." Yr ateb oedd, "Cristionogion ydym ni; a pha fodd y gallwn gablu ein BRENIN a'n GWAREDWR."

Os addefir fod crediniaeth y Cristionogion hyn yn gorphwys ar wirionedd—yr hyn nis gellir ei ammheu wrth ystyried diysgogrwydd eu hymlyniad, yn enwedig mewn cyssylltiad â phurdeb moesol eu hymddygiad—ni gawn esboniad boddhaol ar y chwyldroad hwn.

Mae dau gasgliad yn tarddu yn naturiol oddi wrth y ffaith mai crediniaeth mewn person oedd y gallu mawr a gyfnewidiodd wyneb yr ymherodraeth Rufeinig. Yn gyntaf, yr oedd Cristionogion y cyfnod y cyfeiriwn ato mor agos at oes Crist a'i apostolion fel yr oedd yn anmhosibl iddynt gael eu twyllo am dano gyda'r manteision oedd wrth law i chwilio i mewn i'r gwirionedd; ac yr oedd eu diysgogrwydd yn ngwyneb dyoddefiadau yn brawf o ddidwylledd eu ffydd yndd o. Y casgliad arall ydyw—fod hanfodiad Crist, a'i fod y cyfryw ag y credai y Cristionogion hyn ei fod, yn esboniad cyflawn ar hanes boreuol Cristionogaeth; hyny yw, os ydyw Cristionogaeth yn wir, ac o ganlyniad yn ddwyfol, y mae ei lleduaeniad yn derbyn ei esboniad yn hyn: ar y llaw arall, os nad yw yn wir ac yn ddwyfol, pa fodd y mae esbonio ei dylanwad i ryddhau y byd gwareiddiedig oddi wrth ofergoeledd ac eilun-addoliaeth? Pa fodd y daeth egwyddorion a theimladau newyddion—y cyfryw na wybu y byd paganaidd gwareiddiedig ddim am danynt o'r blaen—i ddyrchafu a phuro dynion, pa beth bynag oedd eu sefyllfa flaenorol, yn feddyliol, yn foesol, neu yn gymdeithasol? A pha fodd, yn mhellach, nad oes un gyfundrefn arall yn y byd eto yn gallu agor gyrfa o lwyddiant yn holl elfenau hapusrwydd tymmorol o flaen y ddynoliaeth—yn chwanegol at ei hamcan mawr o ddwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni, a dadguddio trefn i'w sicrhau.

Buasai hyn oll i'w ddywedyd dros wirionedd Cristionogaeth, yn ei ffeithiau sylfaenol, pe na buasai llyfrau y Testament Newydd wedi cyrhaedd ein hoes ni. Ond y maent yn ein dwylaw. A pha faint sydd i'w ddweyd dros eu dilysrwydd, ar ol yr ymchwiliadau beirniadol manylaf y bu unrhyw lyfr trwyddynt! [BEIRNIADAETH.] Mae pob adran, llythyr, brawddeg, gair, sillaf, a llythyren, wedi eu holrhain gyda'r sicrwydd mwyaf i fyny i'r oes apostolaidd, ac wedi eu cyssylltu â'r apostolion eu hunain. Y mae y llyfrau hyn yn ein harwain i fyny at Awdwr Cristionogaeth ei hun, ac yn dangos i ni pa fath Berson ydoedd, pa beth a ddysgodd, a pha beth a wnaeth. Yn holl hanesion y byd, nid oes dim a fedd hawl gwell i gael ei ystyried yn HANESIAETH BUR nag ydyw hanes yr efengylwyr. Yma y mae ein traed ar graig. Ar dir hanesiaeth, y mae y *cwbl* o blaid Cristionogaeth, a'r *cwbl* yn erbyn anffyddiaeth. Nid ydyw yn angenrheidiol i ni, er mwyn cyrhaedd y penderfyniad hwn, i gymmeryd yn ganiataol na phrofi fod y Testament Newydd yn llyfr ysbrydoledig. Y mae ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau yn athrawiaeth bwysig, ond nid yw yn angenrheidiol er mwyn profi dwyfoldeb Cristionogaeth. I benderfynu hyn, nid rhaid i ni ond wrth y profion sydd yn gosod synwyr, gonestrwydd, a geirwiredd yr apostolion tu hwnt i ammheuaeth. Felly, nid ydym mewn un modd yn gosod ein hunain yn agored i'r cyhuddiad o gymmeryd ysbrydoliaeth y Beibl yn ganiataol, ac ar y tir hwnw yn profi ei ddwyfoldeb. Nid ydym yn dyweyd fod Cristionogaeth yn wir am fod yr efengylau a'r epistolau yn ysbrydoledig:—fe fyddai hyn yn gymmeryd y cwbl yn ganiataol. Ond yr ydym yn dywedyd fod ffeithiau Cristionogaeth yn wir ar dir egwyddorion hanesiaeth cyffredin; ac o ganlyniad y mae ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau a gwyrthiau felly; ac adgyfodiad Crist—y benaf a'r olaf o honynt. Yna, y mae yr ysgrifeniadau sydd yn cynnwys hyn oll yn cymmeryd lle o awdurdod yn y meddwl a'r gydwybod, ac felly yn rheol i'n ffydd a'n hymarweddiad, a hyny i fesur mawr yr un fath dan amrywiaeth golygiadau am ysbrydoliaeth y Beibl.

II. *Mae Cristionogaeth wedi ei sylfaenu ar ffeithiau goruchnaturiol neu wyrthiol.* Nis gellir gwahanu rhwng y naturiol a'r goruchnaturiol yn hanes Iesu Grist, yn y fath fodd ag i gymmeryd y blaenaf a gwrthod yr olaf. Ymdrech olaf anffyddiaeth ydyw ceisio gwneyd hyn. Wedi methu ymwrthod â'r Testament Newydd ar dir hanesol—hyny yw, wedi gweled fod yr egwyddorion cyffredin sydd yn llywodraethu gwirionedd hanesol ar feusydd cyffredin yn arwain yn anocheladwy i wirionedd y Testament Newydd—ceisiant wahanu rhwng pob peth naturiol sydd ynddynt a phob peth gwyrthiol, gan dderbyn y blaenaf, ond esbonio ymaith yr olaf. Gan mai yn y Testament Newydd y mae Cristionogaeth i'w chael yn ei phurdeb, yno y mae i ni edrych am ei ffeithiau sylfaenol. Os cymmerwn hanes ei Sylfaenydd yn yr efengylau, neu epistolau ei apostolion, y rhai a anfonwyd ganddo i ledaenu ei grefydd trwy y byd, ni a welwn fod y gwyrthiol a'r naturiol wedi eu cydblethu â'u gilydd yn y fath fodd fel nas gellir didoli y naill oddi wrth y llall ond trwy ddinystrio y cwbl. Wrth edrych

Digitized by Google

ar wyrthiau Iesu Grist, y maent mewn un ystyr yn *naturiol*—y maent yn codi yn naturiol o'r amgylchiadau yr ydoedd ynddynt. Nid yw ymddygiadau dyn cyffredin yn fwy naturiol yn yr ystyr hwn. Pa beth a wnai dyn teimladwy, pe gallai, wrth fyned i glafdy, ond iachau y "deillion, y clofflon, a'r gwywedigion?" Pan ddygwyd y cyfryw at Iesu o Nazareth, "efe a'u hiachaodd hwynt oll." Dyn ydoedd â'i serchiadau dynol mewn undeb â hollalluogrwydd. Gyda pha fath *fywiogrwydd* y mae ENEINIOG DUW yn cael ei gyflwyno i'n sylw yn yr Efengylau! Hynodrwydd a swyn eu cyfansoddiad ydyw ffyddlondeb i'r gwirionedd. Y mae iachawdwr y byd fel yn sefyll allan o'n blaen, ac yn dyweyd wrthym, "Myfi yw; gwel fy nwylaw a'm traed." Y fath *unoliaeth* a ganfyddir yn yr hanes! Nid oes ond un amcan o ddechreu hyd ddiwedd ei fywyd; undeb yr un egwyddorion a ganfyddir yn yr oll o'i weithredoedd, yr un tymmerau sanctaidd sydd yn ei lywodraethu yn ei holl ymddyddanion. Mae yr eithafoedd pellaf mewn cydgordiad yn ei nodweddiad personol. Ar yr olwg gyntaf, gwelwn mai un addfwyn a gostyngedig o galon ydyw; ac eto, y mae hyn mewn undeb â chyhoeddiad pwyllog o'i hawl i ufudd-dod yr holl fyd. Yn yr ymostyngiad mwyaf, amgylchynir ef âg arwyddion o fawredd; ac yn yr arddangosiadau cryfaf o'i allu gwyrthiol, canfyddir y tynerwch a'r cydymdeimlad oedd yn ei hynodi fel dyn. Onid yr un un sydd yn traddodi y gwynfydau ar ael y mynydd, ac yn porthi y pum mil â gair ei nerth? Onid yw pawb yn teimlo mor naturiol ydyw ei waith yn ceryddu y Phariseaid o ffolineb a chenfigen; ond ai llai naturiol ydyw pan yn troi at y claf o'r parlys, ac yn dyweyd, "Cymmer i fyny dy wely a rhodia?" Y mae natur ei hun o'n blaen yn y cyferbyniad sydd rhwng y wraig edifeiriol a olchodd ei draed â'i dagrau ac a'u sychodd â gwallt ei phen, a'r Phariseaid balch anfoesgar. Y mae yr un arwyddion dysglaer o wirionedd pan y mae Iesu, wedi ei lenwi â chydymdeimlad yn yr olwg ar dristwch mam, yn peri i'r rhai oedd yn dwyn yr elor sefyll, ac yn adferu ei mab i'w mynwes. Eled y darllenydd trwy holl hanes Sylfaenydd mawr Cristionogaeth gyda'r bwriad o sylwi ar y nodau o fywiogrwydd a sobrwydd—y tynerwch dynol a'r mawrhydi Dwyfol—y teimlad naturiol toddedig, a'r doethineb goruchnaturiol sydd yn ymddysgleirio ar bob tu dalen o'i hanes. Yn enwedig, mor arbenig yr ymddengys yr ansoddau hyn yn hanes ei ddyddiau a'i oriau olaf;—y swper diweddaf a'r ymddyddanion goruchel, yr ing yn yr ardd, ymddygiadau y bradwr, yr olygfa yn llys yr archoffeiriad, ac o flaen brawdle y rhaglaw Rhufeinaidd, yr hyn gymmerodd le yn mhalas Herod, ar y ffordd o'r ddinas, a'r olygfa ar Galfaria. Drachefn, mor fawreddus, ac eto mor naturiol ac mor brydferth ydyw yr ymgyfarfyddiad â Mair yn yr ardd; â'i ddysgyblion yn yr ystafell, ac eilwaith ar lan môr Tiberias; mor syml ac mor gyfeillgar yr ymddyddan â'r ddau ddysgybl ar y ffordd tuag Emmaus. Mae yr hanesion hyn heb eu cyffelyb yn holl gylch ffug a gwir hanesion y byd. Ond os ydyw hyn oll yn wir—os ydyw Crist wedi cyfodi oddi wrth y meirw—yna, y mae Cristionogaeth yn grefydd wedi ei sylfaenu ar ffeithiau, ac ar ffeithiau goruchnaturiol:—Crist "a draddodwyd dros ein pechodau ni, ac a gyfodwyd i'n cyfiawnhau ni."

Ond nid yn unig y mae y naturiol a'r goruchnaturiol wedi eu cydblethu yn anattodadwy yn hanes Crist gan yr efengylwyr, ond y mae yr apostolion yn eu holl lythyrau yn gosod Cristionogaeth i orphwys ar BERSON, YMGNAWDOLIAD, MARWOLAETH, ADGYFODIAD, AC ESGYNIAD CRIST; *ac o ganlyniad, ar sail oruchnaturiol.*

Y mae Isaac Taylor [*The Restoration of Belief*] wedi dosbarthu ysgrifeniadau yr apostolion—yn ol y graddau, mwy neu lai, o gyfeiriadau sydd ynddynt at wyrthiau—i, Yn gyntaf, Y llyfrau yn mha rai y mae genym hanes manwl ac amgylchiadol o gyflawniad gwyrthiau. O'r rhai hyn, y mae y pedair efengyl ac Actau yr Apostolion. Yn ail, Y llyfrau hyny yn mha rai y mae crybwylliad eglur a diamwys am wyrthiau, heb gynnwys un hanes manwl am eu cyflawniad. O'r cyfryw y mae saith o epistolau. Yn drydydd, Y rhai hyny nad ydynt yn cynnwys un crybwylliad o'r fath, ac nad oes ynddynt un cyfeiriad at y goruwchnaturiol, ond yr hyn sydd yn gynnwysedig yn erthygl gyntaf y broffes Cristionogol, sef adgyfodiad Crist. Mae cynnifer a phedwar ar ddeg o'r epistolau yn dyfod o dan y pen hwn. Pa beth ydyw y casgliad oddi wrth hyn? Gwelwn yn amlwg oddi wrth y pedwar epistol ar ddeg nad oes ynddynt un cyfeiriad at wyrthiau, ond yr hon sydd yn gorwedd wrth wraidd y cyfan—mor bell oedd eu hysgrifenwyr oddi wrth fod yn ddynion hawdd eu dallu a'u cario ymaith gan ryw ddygwyddiadau dyeithriol; ac hefyd mor gadarn a diysgog oedd eu crediniaeth yn eu crefydd, fel nad ydynt ar bob achlysur yn ceisio cryfhau eu meddyliau eu hunain a'u canlynwyr trwy appelio at wyrthiau. Mae yr amgylchiadau yn mha rai y gwnant eu crybwylliadau am danynt yn gosod hyn mewn goleuni cryfach fyth. Nid cyfeirio at wyrthiau pan y byddant yn ysgrifenu at eu gilydd, a bod yn hollol ddystaw am danynt yn ngwyneb eu gelynion, rhag iddynt gael eu dynoethi a'u profi yn dwyllwyr, oedd eu harfer; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Pan y mae apostol yn ysgrifenu at ei gydlafurwr, ac at y rhai sydd yn meddu hyder tawel yn ngwirionedd eu ffydd a'u gobaith, nid oes un gair am arwyddion a rhyfeddodau yn cyfarfod y llygad; ond pan yn herio ei elynion, neu yn ceryddu dychweledigion afreolus, y mae ar unwaith yn gwneuthur ei appeliad at ei allu i gyflawnu gwyrthiau. Ysgrifenwyr yr epistolau sydd yn ddystaw am wyrthiau, ydynt Paul, Ioan, Iudas, ac Iago. Pan ystyrir nad ydyw yr apostolion hyn yn debyg i'w gilydd mewn tymmer naturiol nac yn eu dull o ysgrifenu; nis gellir priodoli eu dystawrwydd am eu gallu gwyrthiol i dueddfryd neilduol yr ysgrifenwr; rhaid, gan hyny, ei fod yn perthyn i ddylanwad eu crefydd, yr hon a effeithiai arnynt yn gyffelyb mewn cyffelyb amgylchiadau.

Y mae cyfeiriad at wyrthiau mewn pump o epistolau Paul:—yr Epistol at y Rhufeiniaid, y ddau at y Corinthiaid, at y Galatiaid, ac at yr Hebreaid, yr hwn a gymmerir yn ganiataol yma a ysgrifenwyd gan Paul: a dau epistol Pedr. Ond am y rhai hyn, nid oes ond *un* dystiolaeth bendant fod gwyrthiau wedi eu cyflawnu yn yr Epistol at yr Hebreaid—"A Duw yn dwyn tystiolaeth trwy arwyddion," &c. Un sydd hefyd yn yr Epistol at y Rhufeiniaid: "Canys ni feiddiaf fi ddywedyd dim o'r pethau ni weithredodd Crist trwof fi, i wneuthur y Cenedloedd yn ufudd ar air a gweithred, trwy nerth arwyddion a rhyfeddodau, gan nerth Ysbryd Duw; hyd pan o Ierusalem, ac o amgylch hyd Ilyricum, y llenwais efengyl Crist;" *Rhuf.* xv. 18, 19.

Nid oes ond *un* yn yr Epistol at y Galatiaid:

Digitized by Google

"Yr hwn gan hyny sydd yn trefnu i chwi yr Ysbryd, ac yn gwneuthur gwyrthiau yn eich plith." Yr un modd, *un* a geir yn yr Ail Epistol at y Corinthiaid: "Arwyddion apostol yn wir a weithredwyd yn eich plith chwi, mewn pob amynedd, mewn arwyddion, a rhyfeddodau, a gweithredoedd nerthol;" 2 *Cor.* xii. 12. Y mae yn wir fod Paul gyda hyn yn cyfeirio at y dadguddiedigaethau a dderbyniodd; ond gan nad allai appelio at *wybodaeth* ei ddarllenwyr am wirionedd y cyfryw, ni enwir hwynt. Yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid, y mae y cyfeiriadau at ddoniau gwyrthiol yn lluosog: "Fel nad ydych yn ol mewn un dawn;" *pen.* i. 7. Enwir y doniau hyn, (*pen.* xii. 8—10) gan uno y naturiol gyda'r goruchnaturiol: "Canys i un, trwy yr Ysbryd, y rhoddir ymadrodd doethineb; ac i arall, ymadrodd gwybodaeth; ac i arall, ffydd; ac i arall, ddawn i iachau; ac i arall, wneuthur gwyrthiau; ac i arall, brophwydoliaeth; ac i arall, wahaniaeth ysbrydoedd; ac i arall, amryw dafodau; ac i arall, gyfleithiad tafodau," &c.

Yn yr Epistol at yr Hebreaid, y mae yr apostol yn dwyn ar gof i'w ddarllenwyr eu bod *hwy eu hunain* wedi bod yn dystion o wyrthiau a gyflawnwyd gan y rhai a bregethasant yr efengyl iddynt. Yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, y mae yn hòni am dano ei *hun*, ei fod wedi cyflawnu gwyrthiau yn ei deithiau cenadol. Yn yr Epistol at eglwysi Galatia, appelia at y gwyrthiau a gyflawnwyd yn fynych yn eu plith eu *hunain.* Yn yr Ail Epistol at y Corinthiaid, llefara am y gwyrthiau a gyflawnwyd yn eu mysg ganddo ef ei hun. Yn yr Epistol Cyntaf, llefara am y doniau gwyrthiol oedd yn cael eu gweithredu ganddynt hwy *eu hunain.* Gellid gwneyd sylwadau cyffelyb am ddau lythyr yr apostol Pedr.

Gellid sylwi hefyd fod yr apostolion yn defnyddio y geiriau mwyaf diamwys a phendant am wyrthiau; y cyfryw nad allasai fod dim camgymmeriad yn eu cylch: mewn gair, yr ymadroddion cyffredin ac adnabyddus am danynt.

Nid wrth ysgrifenu at gydapostolion, neu gydweithwyr, neu at eglwysi nad oedd dim ammheuaeth am eu hymlyniad, y gwneir y dadguddiadau hyn am eu gweithredoedd gwyrthiol; ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Y mae yr apostolion mor bell oddi wrth ddefnyddio iaith chwyddedig, ymffrostgar, wrth son am eu gwyrthiau, fel y maent yn ymfoddloni ar y crybwylliadau byraf; ac ni wnant grybwylliad am danynt o gwbl ond dan fath o orfod, a hyny hefyd yn ngwynebau eu gelynion, y rhai a feddent y gallu a'r duedd i'w gwrthddywedyd, pe gallasent.

Er eu bod yn dwyn eu tystiolaeth benderfynol o blaid y doniau a'r gweithredoedd goruchnaturiol, eto nid oes ynddynt un duedd i ddyrchafu gwyrthiau uwch law moesoldeb, fel yr oedd rhai o ddychweledigion Corinth.

Y mae y crybwylliadau hyn am wyrthiau i'w cael yn nghanol yr adroddiadau mwyaf naturiol, a'r annogaethau moesol puraf, megys y gwelir yn 1 *Cor.* xiii:—"Pe llefarwn â thafodau dynion ac angelion, ac heb fod genyf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbal yn tincian," &c.

Gwelir oddi wrth yr ymchwiliad mwyaf brysiog i hanes bywyd ei Sylfaenydd, ac i ysgrifeniadau ei chenadon cyntaf, fod CRISTIONOGAETH YN GREFYDD ORUCHNATURIOL, ac nad oes un tir canol rhwng ei derbyn fel y cyfryw neu ei gwrthod o gwbl. Y mae yn angenrheidiol tynu sylw at hyn, o herwydd y mae ei gwrthwynebwyr wedi newid eu tir yn ein dyddiau ni; ac yn lle ceisio gwadu ei ffeithiau hanfodol, nid oes neb wedi gwneyd mwy, ar y cyfandir, i osod ei gwirionedd hanesol tu hwnt i bob dadl: ond pe gallent, hwy a esbonient y ffeithiau hyn ar egwyddorion naturiol.

III. *Y mae gan Gristionogaeth nid yn unig ei ffeithiau neillduol a gwahaniaethol, ond hefyd ei* GWIRIONEDDAU GWAHANIAETHOL A HANFODOL. Nid yw holl wirioneddau Cristionogaeth yn dyfod dan y cyfenwad hwn. Y mae hi yn cymmeryd yn ganiataol wirioneddau crefydd naturiol; megys y Bod o Dduw, y greadigaeth, parhad tragwyddol dyn, grym anghyfnewidiol y ddeddf foesol, &c. Y mae Crist a'i apostolion yn dwyn tystiolaeth i wirionedd yr athrawiaethau hyn, ond ni pherthynant i'w chynnwysiad neillduol hi; yr oeddynt yn wir cyn i Gristionogaeth ymddangos.

Er fod y gosodiad yn ddigon amlwg ynddo ei hun, eto nid yw yn afreidiol galw sylw ato—sef, nad yw crefydd Crist yn gyfrifol am y cyflwr truenus yn mha un y mae hi yn cael dynion. Nid yw yn trymhau y beichiau sydd eisoes yn gwasgu ar y ddynoliaeth, nac yn chwanegu un atynt. Y mae Crist a'i apostolion yn appelio at yr argyhoeddiad sydd yn mynwes pob dyn ei fod yn ddarostyngedig i ddigofaint dwyfol; a'i fod, wedi ei adael iddo ei hun, yn ddigymhorth ac yn ddiobaith, ac yn prysuro at ddiwedd gwaeth. Ceir tystiolaethau pendant o'r gwirionedd hwn yn y Testament Newydd; ond yr ydoedd yn *bod* o'r blaen. Nid Cristionogaeth sydd yn gwneyd dyn yn golledig; ond y hi sydd yn amlygu ei golledigaeth egluraf, ac ynddi hi yn unig y mae darpariaeth ar gyfer ei gadwedigaeth. Felly, nid yw yr athrawiaeth am euogrwydd a thrueni dyn yn perthyn i sylwedd Cristionogaeth, er ei bod, o angenrheidrwydd, fel trefn gras, yn seiliedig arni.

Yn gyffelyb, y mae y Testament Newydd yn dwyn tystiolaeth i wirionedd cospedigaeth ddyfodol; ond y mae crediniaeth reddfol y natur ddynol yn dysgu yr un peth. Nis gellir gwadu y gwirioneddau a grybwyllwyd, a chredu fod Cristionogaeth yn wir; ond ar yr un pryd, pa anhawsderau bynag y dichon i ddynion deimlo sydd ynddynt, ni pherthynai yr anhawsderau hyn yn neillduol i grefydd y Beibl; y maent yn wirionedd yn annibynol ar y dadguddiad dwyfol.

Gellir enwi athrawiaethau ereill a ddysgir yn ngair Duw, ac sydd yn angenrheidiol i iawngrededd, nad ydynt yn perthyn i hanfod Cristionogaeth, ac y gellir eu dal pan y mae bywyd Cristionogaeth wedi cilio.

Wrth y gwirioneddau sydd yn hanfodol i Gristionogaeth y meddylir, y cyfryw na buasai meddwl dyn byth yn dychymygu am danynt oni buasai i'r efengyl a'r cysgodau am dani eu dadguddio. Gwirioneddau ydyw y rhai hyn sydd yn seiliedig ar, ac yn gynnwysedig yn, ei ffeithiau neillduol. Y mae ei ffeithiau neillduol, a'i gwirioneddau neillduol, yn annattodol gyssylltiedig â'u gilydd. Nid cyfundrefn o syniadau athrawiaethol, pa mor gywir bynag, ydyw hanfod Cristionogaeth. Y mae ganddi athrawiaethau — athrawiaethau hanfodol; heb hyn, nis gallai egluro ei hun: ond wrth sylwi ar gynnwysiad ei hathrawiaethau, gwelir eu bod yn cyfeirio yn mhellach—yn ymgodi yn uwch nag athrawiaeth yn ystyr cyffredin y gair. Nid yr athrawiaeth am Grist, ond EFE ei hun—nid athrawiaeth yr iawn, nac athrawiaeth y prynedigaeth, ond yr IAWN a'r PRYNEDIGAETH trwyddo—yw hanfod

Digitized by Google

Cristionogaeth. Gan fod yn bosibl i ddynion feddwl fod yr athrawiaethau yn ddigon heb y *sylweddau* sydd yn rhoddi bywyd ynddynt, y mae yn angenrheidiol sylwi fod gwirioneddau Cristionogaeth yn cynnwys ei hathrawiaethau a'i ffeithiau mewn undeb bywiol ac anwahanol â'u gilydd. Yn yr undeb hwn y mae ei bywyd yn gynnwysedig. Ac, ond gofalu am hyn, nid yw o nemawr bwys pe gelwid ei ffeithiau yn athrawiaethau, neu ei hathrawiaethau yn ffeithiau. Y mae hanes Cristionogaeth yn cynnwys lluaws o anghreifftiau am ddynion yn aberthu y naill i'r llall. Pa gynnifer o eglwysi a phersonau unigol a fu yn dal "ffurf yr athrawiaeth iachus," ond ffurf wedi ei hollol waghau o'i nerth dwyfol ac achubol. Ar y llaw arall, y mae hanes yr eglwys yn cynnwys esamplau o ddynion yn diystyru "athrawiaeth iachus," dan rith talu parch i'r *gwirionedd*. Mae Cristionogaeth wedi dyoddef oddi wrth y ddau eithafion, fel y gwnai nerth bywiogrwydd a chyflawnder bywyd dyn, wrth ofalu yn foethus am y corff nes anghofio yr enaid, neu ynte orweithio y meddwl er mawr niwed i'r corff.

Y mae geiriau Crist am dano ei hun—"Myfi yw y Ffordd, y Gwirionedd, a'r Bywyd"—yn dangos i ni mai nid cyfundrefn o syniadau yn unig ydyw Cristionogaeth. Y mae perthynas Crist â Christionogaeth yn wahanol i berthynas dysgawdwr a'i ddysgeidiaeth. Nid efe a ddysgodd neu a sylfaenodd Gristionogaeth, ond efe *ydyw* Cristionogaeth. Person Crist a'i waith, a'r gwirionedd fel y mae *yn* yr Iesu, ydyw enaid a bywyd ei grefydd. Nis gellir rhoddi y dysgrifiad byraf o honi heb ganfod hyn. Yn ei Berson, y mae natur Duw a dyn wedi cyfarfod—y mae yn Fab Duw ac yn Fab y dyn. Yn ei Berson fel Duw-ddyn, rhoddodd ufudd-dod i Dduw dros ddyn—traddodwyd ef, yn ei angeu, dros ein pechodau ni, ac adgyfododd i'n cyfiawnhau. Trwy undeb ffydd âg ef, y mae pechadur yn dyfod yn gyfranog o'r iachawdwriaeth sydd ynddo. Y mae y ffydd hon yn derbyn Crist fel Meichiau, ac yn ymddiried yn haeddiant ei ufudd-dod hyd angeu am faddeuant pechod a derbyniad gyda Duw. Mae yr un ffydd hefyd yn wreiddyn bywyd newydd—bywyd sanctaidd o gariad ac ufudd-dod. Mae y pechadur, yn y drefn hon, yn dyfod yn gyfiawn ger bron Duw, yn blentyn i Dduw, yn greadur newydd. A thrwy undeb â Christ, y mae yn dyfod i undeb cariad â phob un sydd yn cyflwyno ei hun trwy ffydd i Grist. Oddi wrth yr amlin cyffredinol hwn o wirioneddau sylfaenol Cristionogaeth, gwelir mai nid cyfundrefn o athrawiaethau yn unig ydyw, yn yr ystyr y defnyddir y gair yn fynych, ond mai *ffordd iachawdwriaeth* ydyw—*trefn* i bechadur gael *bywyd*. Y mae y drefn hon yn gorphwys ar ffeithiau allanol, ar un llaw; sef, ymgnawdoliad, ufudd-dod, angeu, ac adgyfodiad Mab Duw dros bechaduriaid:—ac ar y llaw arall, y mae pechadur yn cael ei wneuthur yn gyfranog o Grist trwy ffeithiau tu mewnol; sef, trwy waith Ysbryd Duw yn ennill y pechadur i dderbyn bywyd yn y drefn. Felly, y mae Cristionogaeth yn gynnwysedig, nid yn unig mewn ffordd newydd o feddwl, neu athrawiaethau newyddion, ond mewn bywyd newydd. Nid yn yr un llwybr, chwaith, ag y dygir dyn i dderbyn rhyw athrawiaeth—sef trwy eangu ei ddeall—y dygir pechadur i gofleidio Cristionogaeth; ond trwy ei ddwyn i roddi ei hun i fyny i Grist fel ei Geidwad. A'r prawf o wirionedd a dwyfoldeb y grefydd hon i'r hwn sydd wedi ei derbyn ydyw—nid nerth ymresymiad, ond profiad o nerth yr Ysbryd Glân.

Y mae dwyfoldeb Cristionogaeth yn anwadadwy ar dir hanesiaeth; sef, ar dir ei ffeithiau allanol. Y mae hefyd mor anwadadwy ar dir profiad—sef ei ffeithiau tu mewnol—i'r neb sydd yn ei feddu. Yn gyffredin, gelwir y blaenaf y profion allanol; a'r olaf, y profion tu mewnol. Gorphwys y cyntaf ar *dystiolaeth*, yr olaf ar *brofiad*. [Gwel Profion.]

Yn unol â'r dysgrifiad uchod am hanfod Cristionogaeth, gelwir hi yn "Efengyl," "Newydd da o lawenydd mawr," "Tystiolaeth Duw am ei Fab," a "Phregethu Crist." Nid fel y lledaenai dysgawdwyr dynol eu hathrawiaethau y lledaenid crefydd Mab Duw; ond trwy anfon allan apostolion ac efengylwyr i alw dynion i edifarhau ac i gredu yr efengyl. Gorchymyn olaf Crist i'w ddysgyblion oedd, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur. Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig: eithr y neb ni chredo a gondemnir;" *Marc* xvi. 15, 16. Felly yr oeddynt i gasglu dysgyblion, ac i syfaenu eglwysi. Gwaith cyntaf yr eglwys yn mhob oes ydyw, tystiolaethu dros Grist, cynnal gair y bywyd, a bod yn golofn a sylfaen y gwirionedd. Yr oedd gan Gristionogaeth yr oes apostolaidd ei hathrawiaethau, mewn ffordd o eglurhâd ar ei ffeithiau, ac mewn trefn i ddangos eu hystyr a'u cynnwysiad. Yr oedd Crist ei hun yn hysbysu y Tad mewn gair a gweithred. Yr oedd yr apostolion yn mynegu holl gynghor Duw. Dygent dystiolaeth i Berson Crist fel y gwir Dduw a'r bywyd tragwyddol; i'w swydd fel Cyfryngwr rhwng Duw a dynion; i'w angeu a'i adgyfodiad, fel Ffordd i'n dwyn at *y* Tad; ac i'w esgyniad i'r nefoedd i eiriol dros y troseddwyr. Y mae gan Gristionogaeth ei hathrawiaethau, a hwynthwy sydd yn ein cyfarfod megys gyntaf; ond nid syniadau athrawiaethol, ar wahân oddi wrth ei sylweddau, ydyw ei hanfod. Camsynied gwrthddrychau am y modd o'u canfod fyddai hyn. Crist a'i waith ydyw bywyd Cristionogaeth; a'r athrawiaeth am dano ydyw y moddion i'n harwain ato.

Er cymmaint o amrywiaeth barn sydd wedi bod yn mysg Cristionogion, o ddechreuad eu hanes hyd yn bresennol, y mae yr amrywiaeth hwn wedi bod yn llai am y *gwirioneddau hanfodol* nag am ei ffurfiau a'i threfniadau allanol. Y mae llawer o gyfeiliornadau wedi codi, a ffynu am ysbaid, ac wedi diflanu, i ail redeg drwy yr un cylch eilwaith. Ond er hyn oll, y mae yn ffaith bwysig fod y gwahanol genedloedd a phobloedd yn mysg pa rai y mae Cristionogaeth wedi ffynu, er gwahaniaethu oddi wrth eu gilydd yn mhob peth arall, wedi cytuno â'u gilydd am sylwedd *prif wirioneddau* Cristionogaeth. Y mae derbyniad cyffredinol wedi cael ei roddi gan Gristionogion i athrawiaeth y Drindod, ymgnawdoliad Mab Duw, yr iawn, a chyflawnhâd pechadur ar sail yr iawn, a dylanwadau achubol Ysbryd Duw. Y mae yr athrawiaethau hyn am Dduw—yr hyn *ydyw* a'r hyn a *wnaeth*—yn cynnwys gwirioneddau ereill am ddyn—ei sefyllfa gwympedig, ei euogrwydd, a'i halogrwydd. Y mae y gwirioneddau hyn wedi cael eu derbyn, mewn ystyr mwy neu llai cyflawn, yn gyffredinol yn mhlith Cristionogion. Y mae dynion wedi gwneyd ymosodiad arnynt yn fynych; eto, y maent yn parhau i gael derbyniad: yr hyn sydd yn dangos eu bod yn gwneyd i fyny ran

Digitized by Google

mor hanfodol o'r Testament Newydd, fel nas gellir derbyn yr olaf a gwrthod y blaenaf.

IV. *Egwyddorion moesol Cristionogaeth.* Dan y pen hwn yr ydym i edrych ar Gristionogaeth fel gallu wedi ei gyfaddasu i adferu dyn i gyflwr o uniondeb, purdeb, a chariad, a thrwy hyny i sefyllfa o ddedwyddwch. Y mae y Testament Newydd yn cynnwys erthyglau pendant i wneyd i fyny cyfundrefn berffaith o foesau, ac y mae y gorchymynion hyn yn dyfod i gyffyrddiad â dyn yn holl gylch ei fod a'i weithrediad fel creadur moesol: ond y mae ynddo hefyd egwyddorion bywiol, yr hyn ydyw dirgelwch ei nerth; ac y mae yr egwyddorion hyn yn preswylio fel bywyd newydd yn mynwes y Cristion, ac yn ei arwain i weithredu yn unol â'r gorchymyn ysgrifenedig. Wrth edrych ar y Testament Newydd fel yn cynnwys cyfundrefn o foesau i'r byd, dylem goflo mai nid trwy wahardd gwahanol ddrygau mewn cynnifer a hyny o eiriau y mae yn cyflawnu ei amcan o ddwyn dynion i ffyrdd purdeb a sanctteiddrwydd, ond trwy roddi cynhyrfiadau dirgel mewn gweithrediad, fel nas gall dim, fel yr elo yn mlaen, ei wrthsefyll. Fel anghreifftiau o hyn, gellir cyfeirio at y modd y mae yr efengyl wedi dwyn oddi amgylch gyfnewidiad yn sefyllfa gymdeithasol gwraig. Ar ol i'r byd gael ei ddysgu nad oes dim gwahaniaeth yn Nghrist rhwng gwryw a benyw—fod y ddau yn gydgyfranogion fel eu gilydd o ras y bywyd—y mae y rhyw fenywaidd wedi cael lle yn mhlith dynion na chaniatawyd iddi erioed o'r blaen. Ni cheir un gwaharddiad pendant yn yr Ysgrythyrau i ddal dynion mewn caethiwed, a'u prynu a'u gwerthu fel anifeiliaid; eto y maent wedi rhyddhau y caethwas mewn rhai gwledydd, ac y maent yn peri ymweithiad mor gryf mewn gwledydd ereill o'i blaid, nes y mae yn amlwg fod caethwasanaeth a Christionogaeth yn hollol wrthwynebol i'w gilydd; ac y mae y cyfan yn cael ei ddwyn oddi amgylch trwy y gwirionedd fod pob dyn yn gyfrifol i Dduw, wedi ei brynu gan Grist, ac yn frawd i'w gyd-ddyn.

Fel y mae i Gristionogaeth ei ffeithiau a'i gwirioneddau neilldual—felly, ei rhagoriaeth ar bob cyfundrefn arall i gynnyrchu purdeb a chariad ydyw, ei bod yn gosod y pwys mwyaf ar WIRIONEDD fel sail a chynnaliaeth ei chymhelliadau i sanctteiddrwydd. Y mae neilldualrwydd ei hegwyddoriou moesol yn gorphwys ar neilldualrwydd ei ffeithiau a'i hathrawiaethau. Y mae rhinwedd Cristionogol bob amser yn gynnyrch uniongyrchol gwirioneddau Cristionogol. Ac fel y mae ei gwirioneddau hanfodol yn ymgyfarfod mewn un canolbwynt,. sef PERSON ei Sylfaenydd, felly y mae ei chymhelliadau i fuchedd newydd yn ymgyfarfod mewn un egwyddor, sef *cariad* ato ef. Y mae undeb egwyddor yn angenrheidiol i nerth. Os ydyw crefydd Crist i feddu gallu mawr, rhaid iddi feddu y nodweddiad hwn. Rhaid i'w nerth darddu o un canolbwynt, a'r canolbwynt hwnw yr un ag sydd yn cyfranu goleuni a gwres i holl gyfundrefn ei hathrawiaethau. Gan fod ffeithiau neilldual a gwirioneddau neilldual Cristionogaeth yn cyfarfod yn Nghrist, nis gellir eu credu heb fod y grediniaeth hono yn cynnyrchu cariad tuag ato, y fath ag a'n dwg i gyssegru ein holl galon i'w wasanaeth. Hanfod rhinwedd Cristionogol ydyw ymgyssegriad hollol i'r hwn a'n prynodd. Mae y cymhelliad cryfaf yn hyn i'r moesoldeb puraf ac eangaf. Yn esampl Crist, y mae pob peth sydd yn brydferth mewn hinwedd; yn ngorchymynion yr Ysgrythyrau, y mae rheolau pendant moesoldeb, y cyfryw ag sydd yn gofyn purdeb difrycheulyd; ac y mae gwarogaeth cariad at yr hwn sydd ar unwaith yn Ddysgawdwr ac yn Achubwr yn cynnwys pob cymhelliad sydd yn angenrheidiol i ddwyn tymmerau ac ymddygiadau ei ddysgyblion a'i ddeiliaid i gydymffurfiad â'r cynllun a'r rheol sydd ger eu bron.

Yr hyn sydd yn angenrheidiol i ddwyn dynion i ymdrechu am gydymffurfiad â rheol Cristionogaeth ydyw—derbyn i'r enaid, yn ei holl nerth, y ffydd hono sydd yn cyssylltu yr enaid â'r Ceidwad, trwy weithrediad bywiol Ysbryd Duw. Gwaith yr Ysbryd Glân ydyw "cymmeryd o eiddo Crist a'i fynegu i ni;" a thrwy ddadlenu yn raddol o flaen y meddwl y perffeithrwydd sydd ynddo ef, y dygir yr enaid trwy ymdebygoliad parhäus yn greadur newydd yn Nghrist Iesu. Yn y modd ymarferol hwn y mae dirgelwch y Drindod yn dyfod i mewn yn yr Ysgrythyrau Cristionogol. Y mae rhinwedd y Cristion yn tarddu o'r arferiad cysson o fyfyrio ar "gariad Duw," a "gras yr Arglwydd Iesu Grist," a thrwy fwynhâd o "gymundeb yr Ysbryd Glân."

V. *Cristionogaeth yn egwyddor a chymhelliad i gymdeithas.* Y mae cariad tuag at ddynolryw yn gyffredinol, mewn trefn i fod yn gymmwynasgarwch Cristionogol, i fod yn gariad at ddyn er mwyn Crist. Yn arbenig, felly y mae cariad y naill Gristion at y llall i fod. Er fod Cristionogaeth yn grefydd egwyddorion, yn hytrach na chrefydd gorchymynion, eto y mae ganddi ei gorchymynion; un ddeddf yn arbenig—deddf sydd yn cynnwys pob un arall—sef deddf freninol cariad, a chariad at Gristionogion *fel y cyfryw.* Y ddeddf sydd yn gorchymyn i Gristionogion garu eu gilydd o galon bur yn helaeth, ac i gydnabod eu gilydd fel *Cristionogion,* ac i aros mewn cymundeb â'u gilydd, ydyw y gorchymyn a gyhoeddir fynychaf o bob gorchymyn—gorchymyn a roddwyd gan Grist cyn ei ddyoddefaint, ac a gyhoeddwyd drachefn oddi ar ei orsedd yn y nefoedd. Mae y gorchymyn hwn yn cynnwys nid yn unig gariad at eu gilydd, ond *cymundeb gweledig* â'u gilydd:—a hyn sydd yn ffurfio *nodweddiad gwahaniaethol* Cristionogaeth fel sefydliad allanol; ac y mae ymostyngiad iddo yn ammod angenrheidiol tuag at gael presennoldeb addawedig Crist gyda'i eglwys, ac o ganlyniad mewn trefn i fod yn foddion dychweliad y byd. Y mae Cristionogaeth yn ol ei natur fel bywyd ysbrydol, ac yn ol gorchymyn ei Sylfaenydd, i fod yn gyfundeb neu EGLWYS. Nid cyfundeb wedi ei sylfaenu ar egwyddorion y byd hwn—nid teyrnas o'r byd hwn ydyw. Ei sylfaen ydyw Crist, "a sylfaen arall nis gall neb ei osod." Ei deddfroddwr ydyw Crist: "Canys un yw eich Athraw chwi, sef Crist."

Y mae yn fanteisiol cyferbynu CRISTIONOGAETH âg IUDDEWAETH, er mwyn deall holl ragoriaethau y blaenaf. Y mae crefydd Crist, er wedi tarddu o grefydd yr Hen Destament, fel y mae y ffrwyth yn tarddu o'r blodeuyn, eto, mor wahaniaethol ac annhebyg, mewn llawer ystyriaeth, i'r grefydd a roddodd Moses i'r Iuddewon, ag ydyw y ffrwyth i'r blodeuyn sydd yn ei ragflaenu ac yn ei barotoi. Yr hyn sydd yn gwahaniaethu yr oruchwyliaeth Gristionogol yn benaf oddi wrth yr un Iuddewig ydyw y tri pheth canlynol:—1. *Ysbrydolrwydd.* 2. *Cyffredinolrwydd.* 3. *Unoliaeth,* neu *gydraddoldeb.* Y mae teyrnas Dduw dan yr efengyl, "nid o'r byd

Digitized by Google

hwn," ond yn *ysbrydol;* y mae â'i gwyneb ar holl ddynolryw, ac nid ar *un* genedl yn unig; y mae yn cynnyg rhagorfreintiau cyfartal i bawb.

Gwelir hyn yn amlwg dan yr erthygl CYFRAITH MOSES, fel na raid rhoddi yma ond ychydig o anghreifftiau.

Tystiai Crist nad yw "ei deyrnas ef o'r byd hwn;" ac yn unol â hyn, ymwrthodai ymyraeth âg achosion tymmorol, gan ddywedyd, "Pwy a'm gosododd i yn farnwr arnoch chwi." Gorchymynai i'w ddysgyblion ymostwng i'r awdurdodau gwladol, gan ddywedyd, "Rhoddwch yr eiddo Cesar i Cesar, a'r eiddo Duw i Dduw." Cospedigaethau a gwobrwyon tragwyddol yn unig sydd yn perthyn i'w deyrnas ef.

Y mae ei addoliad ef yn fwy ysbrydol na'r addoliad dan y gyfraith. Gorchymynid i'r Iuddewon garu Duw â'r holl galon; ond yr oedd defodau eu gwasanaeth yn gynnwysedig yn benaf mewn bwydydd a diodydd a gosodiadau cnawdol. "Os yw gwaed teirw a geifr.....yn sancteiddio i bureiddiad y *cnawd*, pa faint mwy y bydd i waed Crist buro eich cydwybodau chwi oddi wrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw." Dan yr efengyl, ni chyfyngir yr addoliad i fynydd Gerizim nac i Ierusalem; ond y mae gwir addolwyr y Tad yn ei addoli "mewn ysbryd a gwirionedd."

Yr oedd rhan fawr o grefydd Moses yn cael ei gwneyd i fyny o'r hyn y gellir yn ddigon priodol eu galw yn "sacramentau;" hyny yw, arwyddion gweledig o osodiad dwyfol, ac yn meddu ystyr crefyddol. Yr oedd y gwasanaeth Iuddewig wedi ei wneyd i fyny bron yn hollol o'r cyfryw sacramentau. Ond er eu bod wedi eu dysgu fod bendith ddwyfol yn gyssylltiedig â chydymffurfiad â'r defodau hyny, eto ychydig oedd yn deall eu hystyr ysbrydol.

Dan yr efengyl, nid oes ond dwy sacrament; sef Bedydd a Swper yr Arglwydd—un i arwyddo derbyniad yr aelodau i'r eglwys, a'r llall yn goffa am angeu Iesu Grist, ac yn arwyddo cyfranogiad o'i fendithion.

Dan y gyfraith, yr oedd yr addoliad yn gynnwysedig o luaws o *weithrediadau allanol* amlwg i'r synwyrau, tra yr oedd eu hystyr i fesur mawr yn guddiedig. I'r gwrthwyneb, dan yr efengyl, ychydig yw y defodau allanol, tra y mae eu hystyr tufewnol yn amlwg.

Y mae y gorchymynion o berthynas i *ymddygiadau moesol* yn llawer lluosocach yn yr Hen Destament na'r Newydd. Nid am fod Cristionogion i fod yn llai gofalus am ddilyn buchedd sanctaidd na'r Iuddewon; ond am eu bod yn cael eu gadael yn fwy i *egwyddorion* yr efengyl. Rheolau allanol oedd prif nodwedd y cyfammod cyntaf; ond egwyddorion ysbrydol a thueddiadau grasol ydyw rhagoriaeth y cyfammod newydd; "Nid ydych chwi dan y ddeddf, eithr dan ras."

Nodwedd arbenig arall a berthynai i'r efengyl mewn gwrthgyferbyniad i'r ddeddf ydyw, *cyffredinolrwydd.* Y mae hi i fod yn ddiderfynau o ran *amser* a *lle.* Gan nad oedd y ddeddf ond rhagbarotoad i'r efengyl, nid ydoedd i barhau ond hyd at gyflawnder yr amser, pryd y sefydlwyd teyrnas nefoedd, yr hon sydd i barhau hyd ddiwedd y byd. I un genedl y bwriadwyd y cyfammod cyntaf—ond y cyfammod newydd i'r holl genedloedd. Iaith Moses, a'r rhai a ddeuent ar ei ol dan y ddeddf ydoedd, "Pa genedl mor fawr a'r hon y mae iddi Dduw i nesäu ato bob amser." Ond iaith Iesu Grist ydyw, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur." Yn ei gwyneb hi, "Nid oes nac Iuddew na Groegwr, barbariad na Scythiad, caeth na rhydd." Y mae ei chymhwysder, ynddi ei hunan, i fod yn grefydd y byd, yn amlwg oddi wrth yr hyn a ddywedwyd eisoes am ei natur.

Yr oedd Crist ei hun yn proffesu ei fod wedi dyfod i agor drws o obaith i holl ddynolryw, ac y mae ei ganlynwyr yn proffesu fod, yn ffeithiau, gwirioneddau, a chymhelliadau ei grefydd ef, gyfaddasrwydd i fod yn GREFYDD YR HOLL FYD. Y mae y cymhwysder hwn i'w ganfod—1. Yn natur ei gwirioneddau a'i darpariadau, y rhai a gyfeirir at ddyn fel y cyfryw, yn hollol annibynol ar bob gwahaniaeth amgylchiadol. Y mae pwysigrwydd ac anrhydedd wedi eu gosod ar natur dyn, trwy fod Sylfaenydd Cristionogaeth "yr hwn sydd goruwch pawb, yn Dduw bendigedig yn oes oesoedd," wedi dyfod yn ddyn, ac wedi marw i brynu dyn. Mae y gwirionedd fod Crist wedi "rhoddi ei hunan yn bridwerth dros bawb, i'w dystiolaethu yn yr amseroedd priod," yn gymhelliad parhaus ar Gristionogion i wneuthur y cyhoeddiad o hono yn hysbys i bob creadur. Ni osodwyd erioed y fath obaith o flaen dyn ag sydd yn yr efengyl—nid yn unig am wynfydedigrwydd tragwyddol, ond hefyd am ddyrchafiad tymmorol. Yr athrawiaeth sydd yn gosod y fath bwysigrwydd anfeidrol ar bob dyn unigol, ac sydd hefyd yn cyhoeddi sefyllfa pob un yn obeithiol, yn unig a all fod yn gymhelliad effeithiol i ymdrechiadau dros lesâd dyn yn gyffredinol. Os oes gobaith i genedloedd sydd wedi eu suddo i drueni, mewn athrawiaeth fel hon yn unig y mae. Mae edrychiad athroniaeth tuag at dylwythau iselaf y ddynoliaeth bob amser wedi bod yn ddirmygus. Ac am orchfygwyr a sylfaenwyr ymherodraethau, ni phrisient hwy ddynoliaeth ond mor bell ag y gwasanaethai i'w dyrchafiad eu hunain. Ond nid felly yr efengyl:—y mae Crist yn edrych ar gymmwynas i'w frodyr lleiaf yn gymmwynas iddo ei hun. Y mae fod Gristionogaeth yn gosod y fath werth annhraethadwy ar bob dyn, ac yn hòni hawl Duw ynddo, ar unwaith ya brawf fod yr efengyl wedi disgyn o'r nefoedd. Onid oes yn hyn ddadguddiad o ddaioni anfeidrol!

2. Ond heb law fod llesâd pob dyn yn wrthddrych y gofal mwyaf dan ddylanwad Cristionogaeth, y mae hi hefyd yn cenedlu y teimladau mwyaf angerddol—yn ol y graddau y credir yn ei gwirionedd—i sicrhau y llesâd hwnw. Ni byddai yn ddigon i gynnyrchu argyhoeddiad yn y meddwl o briodoldeb hyn. Y mae chwaneg yn angenrheidiol i gyffroi dynion i gyfarfod â pheryglon, ac i aberthu bywyd er mwyn ei gyrhaedd. Nid oes ond y teimlad cryfaf a dyfnaf—y cyfryw ag a feithrinir trwy grediniaeth galonog o'r efengyl—yn ddigonol i hyn. Nid rhaid ond cyfeirio at yr ymdrechiadau sydd yn cael eu gwneuthur i ddychwelyd y byd paganaidd oddi wrth eu hofergoelion a'u creulonderau, ac hefyd at y gwahanol gymdeithasau haelionus sydd â'u hamcan i godi dynion mewn cysuron tymmorol, ac ystyried mai mewn gwledydd Cristionogol yn unig y mae y cyfryw, i weled gwirionedd y gosodiad hwn.

3. Ond heb law fod Cristionogaeth yn gosod y fath bwysigrwydd ar bob aelod o'r teulu dynol, fel creadur cyfrifol ac anfarwol, ac fel yn meddu hawl i fendithion y prynedigaeth—ac o ganlyniad nas gall y naill ddyn wneyd y llall yn wrthddrych ei ddirmyg a'i orthrwm, heb fod yn euog o fradwriaeth yn erbyn y nefoedd—ac heb law fod yr efengyl yn cenedlu teimladau o ddyngar-

Digitized by Google

wch a thosturi tuag at y rhai sydd wedi eu suddo mewn tywyllwch ysbrydol, neu yn ngafael dyoddefiadau corfforol — y mae Crist wedi rhoi gorchymyn pendant i'w ddysgyblion i ledaenu ei grefydd trwy y byd. *Rhaid* i Gristionogaeth lenwi y byd; o herwydd y mae ei Hawdwr wedi gorchymyn hyn: a hi *a* leinw y byd hefyd, o herwydd fod y rhai sydd yn brofiadol o'i grym yn teimlo cynhyrfiad i'w gwneuthur yn adnabyddus i ereill. Nid yw ymledaeniad araf Cristionogaeth hyd yma yn anghysson â hyn, ond yn hytrach yn derbyn goleuni oddi wrtho. Yn yr oes apostolaidd, ac o fewn can mlynedd ar ol esgyniad y Gwaredwr, yr oedd athrawiaeth y grocs wedi ei chyhoeddi drwy yr holl ymherodraeth Rufeinig, ac yn mhob man wedi ennill dysgyblion. Ond o'r pryd y gwnaed ymegniadau i ddwyn poblogaeth oedd eto yn baganiaid o fewn breichiau yr eglwys, trwy ddwyn Cristionogaeth mor debyg i baganiaeth ag oedd yn bosibl—o'r pryd hwnw yn mlaen, er fod cenedloedd yn cael eu haddysgu yn yr ymarferiad o ddefodau yr eglwys, nid oeddynt yn cael eu hefengyleiddio. Fe fu y Diwygiad Protestanaidd yn foddion i ddwyn rhai o egwyddorion Cristionogaeth i arbenigrwydd; ond yr oedd hon i aros ei hawr. Ond yn yr oes bresennol, y mae y gosodiad hwn yn cymmeryd meddiant o gydwybodau, ac yn effeithio ar galonau crefyddwyr. Ac heb law ymdrechiadau cenadol Cristionogion y byd, ymddengys fod ymfudiaeth a threfedigaethau Prydeinig yn foddion arbenig dan Raglunaeth i hyrwyddo yr ymledaeniad cyffredinol hwn.

4. Neilluolrwydd arall sydd yn cyfansoddi Cristionogaeth i fod yr unig foddion effeithiol i fendithio holl ddynolryw ydyw, ei bod, fel crefydd ysbrydol, uwch law pob sefydliadau gweledig. Y mae yn wir ei bod yn rhoddi bodolaeth i'r cyfryw sefydliadau; ond nid ydyw yn gaeth iddynt. Y mae y cyfryw sefydliadau dan reolaeth dynion, ac o ganlyniad yn ddarostyngedig i lygriad a dymchweliad; ond gan nad yw yr efengyl yn *ddibynol* arnynt, nac yn anwahanol gyssylltiedig â hwy, y mae hi yn rhydd i redeg ei gyrfa fendithfawr pa beth bynag fydd eu tynged hwy. Nid yw llesâd ysbrydol dynolryw wedi ei ymddiried i un eglwys weledig gyffredinol. Trawsfeddiannodd Eglwys Rhufain yr ymddiried hwn; ac y mae hanesiaeth yn hysbysu i ni pa fodd y cyflawnodd hi ef. Y mae Cristionogaeth, nid yn unig wedi goroesi pob ymherodraeth, a phob sefydliadau dynol, a phob ffurf o feddwl, ond hi *a* oroesa y cwbl a ddaw eto, ac a ymgyfyd uwch law iddynt oll, pa un bynag a ymsymmudant hwy gyda hi, ynte a adewir hwynt yn ddrylliau ar ol.

Y nodwedd gwahaniaethol olaf a enwir fel yn perthyn i deyrnas Crist, mewn cyferbyniad i lywodraeth neillduol Duw ar y genedl Iuddewig ydyw, *cydraddoldeb* neu *undeb perffaith* ei holl ddeiliaid yn eu Brenin. Nid yr unig y mae derbyniad i holl ddynolryw i'w rhagorfreintiau, ond hefyd i ragorfreintiau *cyffelyb* neu gydraddol. Y mae "Un Arglwydd, un ffydd, un bedydd."

Nid yw yr undeb hwn yn gynnwysedig mewn bod Cristionogion yn perthyn i'r un gymdeithas weledig ar y ddaiar. Nid oedd yr apostolion yn ymdrechu at hyn; ac ni bu Cristionogion yn ffurfio un gymdeithas yn yr ystyr hwn, ar ol i Gristionogaeth ymledu y tu allan i furiau Ierusalem. Nid yw yr undeb hwn chwaith yn cynnwys cydweledlaad hollol mewn athrawiaeth, na chydgordiad perffaith mewn cariad ac ewyllys da, er fod yr apostolion yn cymhell hyn yn wresog.

Ond athrawiaeth yr Ysgrythyr ar hyn ydyw, fod credinwyr ar y ddaiar yn rhan o gymdeithas fawr, yr hon sydd â'i Phen yn y nefoedd; ac o ddeiliaid yr hon y mae lluaws heb eu geni, a lluaws ereill wedi myned i'r nefoedd. Nis gall fod *canolbwynt* y gymdeithas hon ar y ddaiar; ac yn unol â hyn, y mae Eglwys Crist yn cael ei chyferbynu â gwladwriaeth Israel: "Ni ddaethoch chwi at y mynydd teimladwy (fel yr oedd yr Israeliaid—cynnifer o honynt ag oedd yn fyw y diwrnod hwnw—o amgylch Sinai, fel lle sanctaidd ar y ddaiar).....Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y *Ierusalem nefol*, ac at fyrddiwn o angelion, i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai ysgrifenwyd yn y nefoedd, ac at Dduw, Barnwr pawb, ac at ysbrydoedd y cyflawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu, Cyfryngwr y Testament Newydd;" *Heb.* xii. 18, 22—24; *Gal.* iv. 25, 26. Mae eglwys gyffredinol Crist yn *un ynddo Ef*, ei Phen, yr hwn sydd yn y *nefoedd;* ond nid yw yn un cyfundeb ar y ddaiar. [Gwel EGLWYS]. Sefydlodd yr apostolion eglwysi neu gynnulleidfaoedd Cristionogol, ar *yr un egwyddorion*, ac i'r un *dyben;* ond yn annibynol ar eu gilydd, ac heb feddu un pen cyffredinol arnynt ar y ddaiar.

Y mae cydraddoldeb Cristionogion yn rhagorfreintiau eu crefydd yn tarddu o'r undeb hwn. Dan Iuddewaeth, perthynai gwahanol *raddau* o ragorfreintiau i wahanol ddosbarthiadau Caniatawyd i'r "Groegiaid crefyddol" (y rhai a elwid weithiau yn "Broselytiaid y Porth") addoli yn y cyntedd allanol. Cyfrifid y rhai a gofleidient holl ddeddf Moses (y rhai a elwid "Proselytiaid Cyflawnder") yn uwch mewn sancteiddrwydd, ac yn nesaf at yr Israeliaid genedigol. O'r Israeliaid eu hunain, yr oedd y Lefiaid yn fwy cyssegredig i wasanaeth y deml na'r llwythau ereill. Ac o'r Lefiaid, i deulu Aaron yn unig y perthynai yr offeiriadaeth; ac ni chaniatëid i neb ond yr archoffeiriaid fyned i'r sanctaidd sancteiddiolaf. Yr oedd yn mysg yr Israeliaid wahaniaeth a graddau mewn gwybodaeth a duwioldeb; ond yr oedd hyn yn annibynol ar y grefydd yr oeddynt yn byw dani. Y mae hefyd wahanol swyddogion yn perthyn i eglwysi Cristionogol, o herwydd nis gall unrhyw gymdeithas hanfodi hebddynt; ond dan yr efengyl, ni ddangosir unrhyw ragorfraint i lwyth na theulu fel y cyfryw. Y mae Cristionogion yn gyffredinol, trwy rinwedd eu hundeb â Christ, yn "rywogaeth sanctaidd, breninol offeiriadaeth, cenedl sanctaidd, pobl briodol i Dduw."

Gellir edrych ar HANES Cristionogaeth yn ei chyssylltiad â dwy iaith y byd gwareiddiedig yn amser ei hymddangosiad cyntaf, sef â'r *Groeg* a'r *Lladin*. Mae y dosbarthiad hwn hefyd yn cyfateb i'r gwahaniaeth a nodir yn fynych rhwng Cristionogaeth y *dwyrain* a Christionogaeth y *gorllewin*.

Er fod crefydd Crist wedi cael ei dechreuad yn mhlith yr Iuddewon, a bod ei Hawdwr Dwyfol yn siarad cangen o'r Syriaeg neu Aramaeg, eto yr oedd Cristionogaeth o'r dechreu bron wedi mabwysiadu yr iaith Roeg. Yn yr iaith hon yr ysgrifenwyd ei chyfansoddiadau gwreiddiol; yn mhlith cenedloedd o achau Groegaidd—neu genedloedd a gydymffurfiasant â'r Groegiaid o ran iaith ac arferion, mewn canlyniad i fuddugoliaethau Alexander Fawr — yr ymledaenodd

Digitized by Google

gyntaf; ac mewn dinasoedd Groegaidd yr oedd ei heglwysi mwyaf blodeuog. Groeg oedd iaith fasnachol yr Iuddewon; trwy ba rai y cyhoeddwyd hi gyntaf i'r byd, a'r rhai a deithient i holl daleithiau yr ymherodraeth Rufeinig. Llwyddodd yr efengyl, y mae yn wir, yn y dwyrain, yn Babilonia, a thu hwnt i'r Euphrates, lle nad oedd y Groeg yn iaith arferedig. Yr oedd dylanwadau dwyreiniol o'r India a'r Aipht, a gwledydd ereill, wedi ymweithio i iaith a llenyddiaeth Groeg. Ac yr oedd llawer o ddychweledigion cyntaf Cristionogaeth wedi eu magu mewn ysgolion Groegaidd-ddwyreiniol; y cyfryw ag oedd i'w cael yn Antioch, Alexandria, ac Ephesus.

Ni allasai Cristionogaeth yn ei chynnydd yn mhlith trigolion y gwledydd hyn lai na derbyn dylanwad, yn ei syniadau athrawiaethol a'i llywod-ddysg eglwysig, oddi wrth ei tharddiad Groegaidd. Yn mhlith y Groegiaid yr oedd y cwestiynau hyny wedi eu dadleu er ys canrifoedd ag sydd yn gorwedd wrth wraidd pob crefydd—creadigaeth y byd, hanfodiad a natur y Duwdod, tarddiad ac achos pob drwg. Amlygai y Groegiaid yr un ysbryd chwilfrydig ac athronaidd mewn cyssylltiad â Christionogaeth. Yr oedd y fath gyfaddasder cywrain yn eu hiaith i osod allan wahaniaethau annirnadwy yn mron, fel o'r braidd y gallesid gosod terfyn i'w hymchwiliadau. Mor fuan ag y penderfynid un cwestiwn, yr oedd un arall yn ymgynnyg iddynt. Yr athrawiaethau yr ymhyfrydent fwyaf ynddynt ydoedd, dirgeledigaethau person y Cyfryngwr, a'r Drindod.

Dilynai y Groegiaid, yn eu ffurf-lywodraeth eglwysig, y gwerin-lywodraethau a hanfodent yn nhir Groeg. Yn y canrifoedd cyntaf, nid oedd un eglwys yn y dwyrain yn meddu uchafiaeth ar eglwysi ereill. Yr oedd yn anhawdd i un ddinas gyrhaedd yr uchafiaeth hwnw, o gymmaint ag nad oedd un brif ddinas yn perthyn i'r ymherodraeth Rufeinig yn y dwyrain. Er fod parch mawr yn cael ei dalu i'r eglwysi y gwybyddid neu y tybid eu bod wedi eu sylfaenu gan yr apostolion, neu a hanfodent mewn dinasoedd cyfoethog a phoblog—megys Antioch yn Syria, Alexandria yn yr Aipht, ac Ephesus yn Asia Leiaf—eto, nid oedd dim uchafiaeth nac isafiaeth yn cael eu cydnabod yn eu mysg; ond cydnabyddent eu gilydd fel chwaer-eglwysi, yn yr un undeb gwirfoddol. Yr oedd Ierusalem, yr hon a allasai yn naturiol wneyd ymhoniad i fod yn brif ddinas Cristionogaeth—yn y dwyrain, o leiaf—wedi ei dinystrio, a pharhaodd am flyneddoedd lawer yn garneddau. Yr oedd yr urddas penddinesig a phatriarchaidd (*metropolitan and patriarchal*) o darddiad mwy diweddar. [Gwel EGLWYS GROEG.]

Darfyddodd grym cenadol yr eglwysi dwyreiniol yn fuan. Ychydig o fuddugoliaethau, hyd yn oed mewn enw, a ennillasant. Heb law y Bulgariaid, yr hyn sydd yn ammheus, ac yn ddiweddarach y Rwssiaid, ni ennillwyd ond ychydig o lwythau anwaraidd. Lledaenodd y Nestoriaid, pan dan erlidigaeth, eu ffurf hwy o Gristionogaeth i Persia ac i India, ac efallai i wledydd mwy pellenig.

Yr oedd rhan fawr o dri chanrif wedi myned heibio cyn i Gristionogaeth ymddangos yn ei gwedd *Ladinaidd*. O herwydd, ar y cyntaf, yr oedd Eglwys Rhufain, yn nghyd â rhan fawr os nad yr oll o'r eglwysi dwyreiniol, yn detnyddio yr iaith Roeg yn eu gwasanaeth crefyddol. Darllenid yr Ysgrythyrau ynddi; yr oedd eu hysgrifenwyr yn ysgrifenu mewn Groeg; ac y mae yr holl ysgrifeniadau sydd ar gael yn awr, a ymddangosodd yn Rhufain ac yn y dwyrain, yn yr iaith hono, neu wedi eu cyfansoddi ynddi yn wreiddiol. Yr un modd am Gâl (Ffrainc): ymsefydlodd y Cristionogion yn gyntaf yn y dinasoedd Groeg, y rhai a arddelwent Marseilles fel eu mam, ac a gadwent y Roeg fel eu hiaith gyffredin. Yn yr iaith hon yr. ysgrifenodd Irenæus; ynddi hi hefyd yr ysgrifenwyd hanes merthyron Lyons a Vienne. Mae hyn yn esboniad ar ffaith hynod a adroddir gan yr hanesydd Zozomen—nad oedd dim pregethu cyhoeddus yn Rhufain yn y canrifoedd cyntaf. Y pab Leo I. oedd y pregethwr Lladinaidd cyntaf o ddim enwogrwydd (440—461). Ac nid rhaid ond cymharu ei bregethau byrion ef â'r eiddo Chrysostom—pregethwr mawr Eglwys Groeg—i ganfod mai ymgeisiadau dechreuol ydynt.

Affrica, ac nid Rhufain, a roddes fod i lenyddiaeth Gristionogol yn y Lladin. Tertullian oedd yr ysgrifenwr Lladinaidd cyntaf a ennillodd sylw. Dilynwyd ef gan Cyprian ac Arnobius; y rhai hefyd oeddynt o Affrica. Am gyssylltiad Affrica â chyffeithiad yr Ysgrythyrau i'r Lladin, gwel BEIBL, CYFIEITHIAD.

Ar ol i'r llwythau gogleddol wneyd eu rhuthr difaol ar yr ymherodraeth Rufeinig, a chymmeryd meddiant o wledydd brasaf deheudir Ewrop, ymostyngasant i grefydd y gorchfygedig. Ond nid yn unig cafodd Cristionogaeth warogaeth—y fath ag ydoedd—y buddugoliaethwyr hyn, ond gwthiai ei chyffiniau yn mlaen yn barhaus i gymmeryd i mewn fwy o'r gwledydd paganaidd tua'r gogledd. Yn raddol, ymffurfiodd yn unbenaeth nerthol. Trawsfeddiannodd yr offeiriaid lywodraeth hollol ar feddwl dyn: nid ydoedd yn ddigon ganddynt lywodraethu ar dywysogion a breninoedd, ond daethant yn dywysogion a breninoedd eu hunain.

Sefydlwyd mynachaeth yn y dwyrain a'r gorllewin. Ond yr oedd y gwahaniaeth rhyngddynt yn ddirfawr. Yn y dwyrain, ymneillduai dynion oddi wrth y byd, i dreulio eu bywyd mewn llonyddwch; a chan deimlo yn sicr o'u diogelwch tragwyddol eu hunain, gadawent y gweddill o ddynolryw i ddinystr anocheladwy. Yn y gorllewin, planent drefedigaethau, adeiladent eglwysydd a phalasau, diwyllient y celfyddydau a llenyddiaeth, a dygent yr anialwch i gyflwr o ffrwythlondeb.

Am o ddeutu deg canrif, y ffurf yma o Gristionogaeth oedd crefydd holl wledydd gorllewin Ewrop. Lladin oedd yr iaith grefyddol; a'r cyfieithiad Lladinaidd o'r Ysgrythyrau yn unig oedd gan y rhai y caniatëid iddynt y fraint o feddu copi o'r Beibl o gwbl. Yr oedd y duwinyddion Lladinaidd yn fwy ymarferol yn eu hysgrifeniadau, gan adael dirgeledigaethau Natur a Phersonau y Duwdod i'r Groegiaid, neu yn boddloni i dderbyn ffrwyth eu llafur hwy. Yr unig ddadl a gynhyrfodd yr Eglwys Orllewinol drwyddi oedd, yr un ymarferol, ar yr hon yr edrychai y Dwyreinwyr gyda hollol ddifaterwch; sef, Pa un ai gras ai ewyllys rydd ydyw ffynnonell a chymhelliad gweithrediadau dynion gyda chrefydd? Hyn oedd y cwestiwn a ymgodai yn ddiddiwedd o amser Awstin hyd ddyddiau Luther a Jansenius.

Fel nad oedd dim canlynwyr teilwng o Athanasius, Basil, a'r Gregoriaid—ysgrifenwyr mawr y gangen Roegaidd o'r Eglwys—na dim pregethwyr i'w henwi ar ol Chrysostom; felly

Digitized by Google

prif oleuadau y gangen Ladinaidd oedd Tertullian, Cyprian, Ambrose—ac yn mhell uwch law iddynt oll yr oedd Awstin. Prif dduwinyddion y canoloesoedd ydoedd Anselm ac Aquinas. Nid oedd ond ychydig o farddoniaeth Gristionogol cyn i ieithoedd newyddion ymddangos; y rhai ydynt ffrwyth y briodas a gymmerodd le rhwng y Lladin a'r cangenieithoedd gogleddol. Ond ar ol hyny, cyfododd beirdd o'r athrylith uchaf, y rhai a ysgrifenasant, nid yn unig ar destynau crefyddol, ond hefyd yn ngrym y bywyd crefyddol a ddeilliai o Gristionogaeth—Dante, Ariosto, Tasso, Shakspeare, Milton, Calderon, Schiller. Gan mai Lladin oedd iaith yr eglwys a'r clerigwyr, a chan fod holl ddysgeidiaeth Ewrop yn eu dwylaw hwy, yr oedd hefyd yn iaith y gyfraith, athroniaeth, gwyddoreg, hanesiaeth, llenyddiaeth: —mewn gair, hon oedd iaith y byd gwareiddiedig. Yn ystod y canrifoedd hyn, yr oedd holl wledydd cred dan lywodraeth Eglwys Rhufain: prif nodweddiad yr hon ydoedd—yn gyffelyb i ymherodraeth baganaidd Rhufain—ymlyniad ystyfnig wrth ffurfiau allanol, ac arddelwad o awdurdod anhyblyg ar bawb a phob peth. Yr ymherodraeth Rufeinig, wedi ail-feddiannu gwledydd Ewrop, ac yn eu llywodraethu trwy offeiriaid o wahanol raddau, y naill yn ddarostyngedig i'r llall—oddi wrth y pab, yr hwn a hònai awdurdod ac anrhydedd Crist iddo ei hun, i lawr hyd at y mynachod cardotaidd a grwydrent yn heidiau trwy bob gwlad, gan fyw ar elusen—hyn ydoedd Eglwys Rhufain.

Fel hyn y parhaodd Cristionogaeth Ladinaidd, wedi ymgaledu i ffurfiau difywyd, hyd nes y torodd y Diwygiad Protestanaidd allan yn yr unfed canrif ar bymtheg. Gwasanaethodd y darganfyddiad o bapyr, ac argraffu, i ddwyn y Beibl i ddwylaw y cyffredin; ac ar unwaith, yn mhlith cenedloedd o darddiad Ellmynaidd neu Deutonaidd (*Teutonic*) yn benaf, ymwrthodwyd â'r grefydd draddodiadol, a chydnabyddwyd awdurdod gair Duw yn unig fel rheol ffydd ac ymarweddiad, ac undeb personol trwy ffydd â Christ fel unig gyfrwng bywyd.

Gall fod yn gynnorthwy i gyfeirio at erthyglau yn y gwaith hwn yn dwyn cyssylltiad âg unrhyw gyfnod neilldiol yn hanes Cristionogaeth, i roddi enwau prif awduron neu weithredwyr, yn nghyd â phrif nodweddiad neu ddygwyddiad pob canrif.

CANRIF I.

Er mwyn dangos y bywiogrwydd meddyliol oedd yn y byd y canrif y ganed Crist ac y sefydlwyd ei grefydd, rhoddir yma restr o awduron paganaidd y canrif:—Livy, Ovid, Tibullus, Strabo, Columella, Quintus Curtius, Seneca, Lucan, Petronius, Silius Italicus, Pliny yr Hynaf, Martial, Quinctilian, Tacitus. Ysgrifenwyr eglwysig:—Clement, Barnabas, Hermas. Ysgrifenwyr Iuddewig:—Philo, Josephus. [Gwel Apostolaidd, Oes.]

CANRIF II.

Awduron paganaidd:—Pliny yr Ieuaf, Plutarch, Suetonius, Juvenal, Arrian, Ælian, Ptolemy (y daiaryddwr), Appian, Epictetus, Pausanius, Galen (y meddyg). Yr ysgrifenwyr Cristionogol:—Ignatius, Polycarp, Justin Ferthyr, Theophilus, Clemens, Tertullian, Irenæus, Polycrates.

Y mae y canrif cyntaf wedi cael ei gyfenwi yn ganrif yr *ymherawdwyr drwg*, yr ail yn ganrif yr *ymherawdwyr da*.

CANRIF III.

Awduron paganaidd:—Dion Cassius, Longinus, a Plotinus. Cristionogol:—Clement o Alexandria, Origen, a Cyprian. Diffyg llywodraeth ac annhrefn yn yr ymherodraeth Rufeinig, a chynnydd parhäus yr eglwys.

CANRIF IV.

Awduron paganaidd:—Eutropius, Ansonius. Cristionogol:—Lactantius, Eusebius, Donatus, Athanasius, Basil, Gregory Nazianzen, Ambrose. Symmudiad yr ymherodraeth i Gaer Cystenyn. Sefydliad Cristionogaeth yn grefydd yr ymherodraeth. Cystenyn Fawr. Enciliad Julian. Sefydliad y Gothiad.

CANRIF V.

Awduron Cristionogol:—Chrysostom, Jerome, Awstin, Pelagius, Cyril, Theodoret, Apollinaris, Nestorius. Diwedd yr ymherodraeth Rufeinig. Ffurfiad teyrnasoedd diweddar. Cynnydd awdurdod eglwysig. Cofleidiodd amryw o'r cenedloedd Ellmynaidd Gristionogaeth mewn enw—y Ffrancod, a'r Iwerddon hefyd.

CANRIF VI.

Yr awdwyr Rhufeinig olaf—Böethius, Gregory Fawr, Isidorus. Mewn cyssylltiad â Phrydain, mae enw Gildas, Columban (cenadwr Gwyddelig). Awduron, &c.—Justinian (yr ymherawdwr), Procopius, Gregory (o Tours), Marius (yr hanesydd). Awstin Fynach yn dyfod i Brydain. Genedigaeth Mahometiaeth.

CANRIF VII.

Awduron eglwysig:—Theophylact, yr ymherawdwr Heraclius, Martin (o Rufain). Cenadon Pabaidd o Loegr, yr Alban, a'r Iwerddon, i'r Almaen. Cenadon Nestoriaidd yn cludo yr efengyl i gyrau pellaf Asia. Buddugoliaethau Mahometiaeth. Sylfaeniad Paul yn Llundain.

CANRIF VIII.

Awdurdod tymmorol y pabau. Ymherodraeth Charlemagne, neu Siarl Fawr.—Bede, Alcuin, Egbert (archesgob York), Boniface.

CANRIF IX.

Alfred, Asser o Fynwy, John Scotus Erigena.

CANRIF X.

Tywyllwch ac anobaith.

CANRIF XI.

Dechreuad gwellâd. Gregory y Seithfed. Y croesawd (*crusade*) cyntaf. Anselm (archesgob Caergrawnt, a duwinydd mwyaf y canoloesoedd), Lanfranc, Beranger (yn enwog am ei wrthwynebiad i'r athrawiaeth o drawssylweddiad), Gui Aretine (darganfyddwr nodau cerddorol), Pedr Feudwy.

CANRIF XII.

Awdurdod yr eglwys. Thomas à Beckett. Bernard Abelard, Sieffre o Fynwy, Saladin.

CANRIF XIII.

Aquinas, Roger Bacon, Dante, Dun Scotus. Yr Albigensiaid. Y Freinlen Fawr (*Magna Charta*). Buddugoliaeth y Seison ar y Cymry.

CANRIF XIV.

Gwawr llenyddiaeth ddiweddar. Wicliffe, Occam. Y Lollardiaid.

CANRIF XV.

Yr argraffwasg. Darganfyddiad America. John Huss, Jerome (o Prague), Owain Glyndwr, Thomas à Kempis.

CANRIF XVI.

Y Diwygiad Protestanaidd. Jesuitiaeth. Heb law yr enwau sydd yn gyssylltiedig â'r Diwygiad—megys Luther, Melancthon, Zwinglius, Calvin, Knox, Cranmer, Erasmus, &c.—dyma gyfnod yr arlunwyr mwyaf—Leonardo Da Vinci, Michael Angelo, Raffaelle, Correggio, Titian. Yn y canrif hwn yr ymddangosodd y beirdd a'r

Digitized by Google

awduron canlynol:—Sir Philip Sidney, Raleigh, Spenser, Shakspeare, Ariosto, Tasso, Calderon, Cervantes.

CANRIF XVII.

Puritaniaeth. Y Rhyfel Cartrefol. Y Chwyldroad. Ychydig o'r prif enwau:—Siarl I., Cromwell, Bacon, Milton, Locke, Baxter, Owen, Howe, Usher, Lightfoot, Jeremy Taylor, Barrow, Bunyan, Arminius, Newton.

CANRIF XVIII.

Sylfaeniad yr ymherodraeth Brydeinig yn India. Yr Unol Dalaethau yn cyhoeddi eu hannibyniaeth. Chwyldroad mawr Ffrainc. Dechreuad Methodistiaeth yn Lloegr a Chymru. Wesley, Whitfield, Howell Harris, Williams, Pant y celyn, &c., &c.

POBLOGAETH A CHREFYDDAU Y BYD.

Yn ol y cyfrifon diweddaf, ymddengys fod poblogaeth y byd yn rhifo rhywle rhwng tua phedwar ar-ddeg a hanner o gannoedd o filiynau (1,450,000,000) a phymtheg can miliwn (1,500,000,000).

Dosberthir hwynt yn debyg fel y canlyn:—

Protestaniaid	120,000,000
Pabyddion	195,000,000
Cristionogion Dwyreiniol ...	90,000,000
Iuddewon	8,000,000
Mahometaniaid	200,000,000
Buddhistiaid	450,000,000
Paganiaid	400,000,000
Cyfanrif	1,463,000,000

(*Spiritual Christianity, by Isaac Taylor; Ullman's das Wesen des Christenthums; Milman's Latin Christianity.*

CRIMEA, RHYFEL Y. Cyhoeddwyd y rhyfel hwn Mawrth 28ain, 1854, a pharhaodd am ddwy flynedd. Yr oedd Rwssia er's llawer o amser â'i llygaid ar feddiannu Caer Cystenyn a thiriogaethau y Sultan; a llwyddodd mewn amryw o gyttundebau i osod i lawr gydnabyddiaeth fod ganddi ryw fath o hawl i amddiffyn y Cristionogion Dwyreiniol, neu Gristionogion Eglwys Groeg, yn Twrci. Yr oedd rhif aelodau yr eglwys hon yn Twrci tua dwy ran o dair o'r holl boblogaeth—ac, fe allai, y gellir dyweyd eu bod yn dair rhan o bedair. Mor fuan a'r flwyddyn 1844, cynnygiodd yr Ymherawdwr Nicholas ranu etifeddiaeth y 'gŵr claf,' fel y galwai efe Twrci, gyda Phrydain Fawr; ac yn 1853, gwasgodd ei hawliau mewn ffordd nas gallai Twrci eu derbyn, a pharhau yn deyrnas annibynol. Daeth galluoedd eraill Ewrop i'r maes i gyfryngu rhyngddynt—ond yn aneffeithiol. Yn fuan, cymmerodd byddin Rwssia feddiant o Moldavia a Wallachia. Yna cynnorthwywyd Twrci yn y rhyfel gan Loegr a Ffrainge—pa rai, yn fuan, a ddilynwyd gan Sardinia.

Cadfridog y Tyrciaid ydoedd Omar Pasha. Arglwydd Raglan oedd cadfridog byddin Prydain: a chadfridog o'r enw St. Arnaud oedd ar fyddin Ffrainge. Ar yr 20fed o Fedi, 1854, ymosododd 25,000 o Brydeiniaid, 25,000 o Ffrangcod, ac 8,000 o Dyrciaid, ar fyddin Rwssia, oedd wedi ymsefydlu yn gadarn ar y bryniau uwch law yr afon Alma; a gorchfygwyd hwynt mor lwyr fel y dywedir y gallasai y byddinoedd uchod fyned i mewn, heb lawer o berygl, a chymmeryd Sebastopol. Ond yn lle hyny, cymmerasant safle yn agos i Balaclava, ar y dde iddi; a dechreuasant ymosod arni yn y drefn arferol—a buont flwyddyn yn ei darostwng. Ar yr 8fed o Fedi, 1855, ar ol ei thânbelenu yn galed am dri diwrnod, cymmerodd y Ffrangcod gaerfa y Malakoff, yr hon a ystyrid fel agoriad y ddinas. A'r nos hono, ymadawodd y Rwssiaid o honi; ac yr oedd, erbyn hyn, ar dân mewn llawer man. Yn Mawrth, 1856, llawnodwyd cyttundeb heddwch yn Paris; ac yn ol telerau y cyttundeb, collodd Rwssia bob peth a ennillodd—a dyryswyd ei chynlluniau.

CRISTIONOGOL, Y CYMMUNDEB, a elwir weithiau y '*Christiaid*' a'r '*Cristionogion*'= Bedyddwyr y Cymundeb Americanaidd; neu, y "Bedyddwyr Sosinaidd." Enwad a gododd yn New England, neu Loegr Newydd, yn America, tua'r fl. 1800. Amcan proffesedig sylfaenwyr y blaid hon oedd, uno Cristionogion o wahanol gredöau mewn un cymundeb. 'Rhyddid barn' oedd eu harwyddair cyffredin. Ar y cyntaf, ni safent dros un pwnc arbenig o athrawiaeth oedd yn destyn dadl. Pregethent mai y Beibl yw unig safon ffydd ac ymarferiad, a bod gan bob dyn hawl i'w chwilio, a barnu drosto ei hun; ac na ddylai gwahaniaeth cydwybodol mewn barn ar bynciau dadleuol gau neb allan o gymundeb eglwys Crist, &c.

Tynodd y golygiadau hyn lu mawr o grefyddwyr atynt; yn benaf oddi wrth y Bedyddwyr Calvinaidd, neu yr Hen Gymundeb. Yn y talaethau deheuol, ffurfid eu cynnulleidfaoedd yn benaf o wrthgilwyr oddi wrth y Trefnyddion Wesleyaidd; ac yn y talaethau gorllewinol, o rai wedi ymadael â'r Presbyteriaid. Yn y fl. 1833, yr oedd ganddynt o 250,000 i 300,000 o wrandawyr. Y maent yn awr yn agos i 500,000.

Ar y cyntaf, er fod cymmaint o wahaniaeth barn yn eu plith ar bynciau llai hanfodol, yr oeddynt oll o'r bron yn Drindodiaid; ond trwy gymmysgiad â'r Presbyteriaid — a gamenwir felly, sef y rhai a ŵyrasant at olygiadau y Sosiniaid—y maent, er ys amryw o flynyddoedd bellach, agos yn unfryd yn ymwrthod âg athrawiaeth y Drindod. Etto, daliant athrawiaeth y prynedigaeth trwy gyfryngdod a dioddefaint Crist, fel pen-gynnrychiolydd yr hil ddynol; a bedyddiant trwy drochiad ar gyffes o ffydd. Yn Lloegr, parhâ rhai etto yn Drindodiaid.

CRISTIONOGION ST. IOAN: math o Gristionogion lledryw, y rhai a broffesant eu bod wedi derbyn eu traddodiadau oddi wrth Ioan Fedyddiwr, ac a arferent olchiadau mynych. Y maent, mewn gwirionedd, yn wrthwynebol i Gristionogaeth efengylaidd, er eu bod yn myned dan yr enw o Gristionogion. Gelwir hwynt yn fwy priodol, y Mendæaid. Canolfan y sect hon yn benaf ydyw cymmydogaeth Bassora—dinas yn gorwedd rhwng Arabia a Persia, yn nghŵr eithaf anialwch Irac.

CRISTIONOGION ST. THOMAS: enwad Cristionogol ar oror Malabar, yn India, lle y dywedir i'r apostol Thomas bregethu yr efengyl. Hanant o un o'r llwythau hyny o Gristionogion, a ymunasant, yn y fl. 449, i ffurfio eglwys Syriaidd a Chaldeaidd, yn India Ganol a Dwyreiniol; a Nestoriaid ydynt fel hwythau. Ond tybir eu bod o ddechreuad boreuach; a hwy oedd y Cristionogion Indiaidd oddi wrth ba rai y daeth esgob dirprwyol i Gynghor Nicea, yn y fl. 325. Y maent yn dal i gadw—yn fwy nag y mae Nestoriaid y gorllewin—brydweddiad y cymundebau Cristionogol boreuaf. Y mae yr *agapæ*,

Digitized by Google

neu gariad-wleddoedd, yn cael eu cynnal ganddynt eto; rhoddant gynnysgaeth, neu rodd briodas, i wyryfon, o drysorfa yr eglwys, a darbodant dros y tlodion. Yn eu syniadau ar Swper yr Arglwydd, y maent yn tueddu at olygiadau Protestaniaid; ond yn ngweinyddiad y sacrament, cymmerant olew a halen yn nghyd â'r bara; ac wrth fedyddio, eneiniant gorff y baban âg olew. Y ddwy seremoni yma, yn nghyd âg urddiad offeiriaid, ydynt yr unig sacramentau a gydnabyddant. Fel y clerigwyr Pabaidd, y mae eu hoffeiriaid yn arfer eillio eu corynau. Caniateir iddynt briodi. Yr oeddynt hyd yr eilfed canrif ar bymtheg dan batriarch Nestoraidd Babilon; ac yn awr cydnabyddant awdurdod patriarch Mosul, yr hwn sydd yn penodi eu hesgob; a gellir meddwl oddi wrth adroddiad Kerr [*Dr. Kerr's Report to Lord Bentinck on the state of the Christians inhabiting the kingdom of Cochin and Travancore*, 1804], mai efe sydd yn ordeinio eu gweinidogion. Oddigerth y groes, nid oes dim arluniau neu ddelwau yn eu heglwysydd. Y mae eu llithwriaeth (*liturgy*) neu ffurf-wasanaeth yn debyg i'r un Syriaidd, ac yn cael ei weinyddu yn y Syriaeg. Pan gymmerodd y Portugiaid feddiant o'r India Ddwyreiniol, gwnaeth Eglwys Rhufain ymgais i ddwyn Cristionogion St. Thomas dan ei haden; a llwyddodd archesgob Goa, yn 1599, i'w darbwyllo i ymostwng i'w awdurdod, ac i ffurflo rhan o'i esgobaeth. Mewn canlyniad i hyn, bu raid iddynt ymwrthod â'r ffydd Nestoraidd, a mabwysiadu rhyw ychydig o seremoniau Pabaidd, yn gystal a chymmeryd Jesuit i fod yn esgob arnynt. Ond pan ddisodlwyd y Portugiaid ar oror Malabar gan yr Isellmyn, darfu y cyssylltiad crybwylledig, a dychwelasant at eu hen drefniadau. Dywedir fod eu rhifedi yn 1853 tuag wyth mil. Y maent yn awr dan lywodraeth Prydain, ond yn rhydd oddi wrth rwymedigaethau eglwysig, ac yn ffurflo yn eu mysg eu hunain fath o werin-lywodraeth ysbrydol, dan esgob o'u heiddo eu hunain, gyda chymmeradwyaeth patriarch Mosul, tra y mae eu hoffeiriaid a'u henuriaid yn gweinyddu barn, ac yn arfer esgymundod fel cospedigaeth.

Gwnaeth y Milwriad Munro, yn ystod ei drigiad diweddar yn Travancore, lawer iawn er mwyn y bobl hyn, ac adeiladodd athrofa i'w hoffeiriaid, ac ereill, a gwaddolodd hi i gynnal rhyw nifer o athrawon ac efrydwyr.

Yn eu perthynas wladol â'r trigolion, y maent yn perthyn i'r *caste* neu radd a elwir y *nairs*, neu y *beise*—yr hwn a ystyriem ni megys y dosbarth canol—y rhai sydd yn masnachu ac yn trin tir, ac nid yn canlyn crefft, neu yn gwasanaethu fel y radd isaf. Dywedir eu bod yn bobl o foesau da, er mai ychydig o wybodaeth a feddant.—(*Williams' Rel. Encyc.*)

CROCODIL, [κροκόδειλος]: afanc. Y mae yr enw Groeg yn tarddu oddi wrth κρόκος=*saffrwn*—y planigyn gyda blodeuyn melyn a elwir *cra*—a δειλος=*arswydus, erchyll*; yr hyn y gellir ei Gymreigio, *melyn-hyll*. Y mae yn amlwg fod yr enw crocodil yn cael ei briodoli, ar y cyntaf, i'r *lizard* neu y geneugoeg, o blegid gwyrdd tywyll ydyw lliw y crocodil, oddi gerth ei fol, yr hwn sydd felynwyrdd.

1. *Dosbarthiad milyddol a chartrefiad y crocodil.* Y mae y crocodil yn cael ei gyfleu gan naturiaethwyr yn mhlith y tylwyth mwyaf cawraidd o'r genedl hono o greaduriaid a feddant ffurfiad corfforol seirff, gyda'r chwanegiad o draed; a'r rhai, o ddiffyg enw gwell, a elwir yn ymlusgiaid, neu gropiedyddion (*reptiles*), ac o ddosbarth y geneugoegion neu *sauriaid*. Gellir dywedyd mai yn ei faintioli yn unig y mae y crocodil yn gwahaniaethu oddi wrth geneugoeg werdd y wlad hon i'r sylwedydd cyffredin. Fel y dywedwyd eisoes, y crocodiliaid neu efync ydynt y rhywogaeth fwyaf o'r geneugoegion sydd yn awr yn fyw, ond cloddir gweddillion neu olion maenedig (*petrified*) rhywogaethau cynoesol mwy o lawer o grombil y ddaiar, yn enwedig o glai Llundain, creigiau marmaidd (*chalk*), a'r maen wyog (*oolite*), yn y wlad hon. A dengys y cyfeiriadau at yr efync chwedlonaidd yn y *Trioedd*, a'r hen feirdd Cymreig, fod rhywogaeth o honynt yn hanfodi yma mewn rhyw gyfnod diweddarach o oes y greadigaeth.

Mae tair cenedl fawr o efync yn wasgaredig dros y ddaiar:—1. Y *cimwn*, *caiman*, neu *alligator*—cyfyngedig i'r America. 2. Y *gafial*, yr hwn a geir yn y Ganges, a phrif afonydd Asia. 3. Y *crocodil*, neu yr afanc cyffredin, yr hwn a geir gan amlaf yn Affrica. Dosberthir hwynt drachefn i bump-ar-hugain o deuluoedd.

Ond y mae yn Asia dair rhywogaeth, o leiaf, heb law y *gafial;* un o'r un teulu a'r afanc cyffredin (*crocodilus vulgaris*), y gwir grocodil—a dau fath arall, y rhai ydynt frodorion yr afonydd a ymarllwysant i Fôr India. Cyfrifir Affrica yn gyffredin fel gwlad gynhenid y gwir grocodil, a'r Nilus Uchaf fel ei brif gartrefle.

2. *Nodweddau ac arferion y crocodil.* Y mae y crocodil, fel y sylwyd, mor debyg o ran lluniad ei gorff i'r geneugoeg cyffredin, fel na raid i ni wneyd mwy na nodi rhyw ychydig o'r pethau mwyaf hynod a berthynant yn neillduol iddo, a diwygio y camgymmeriadau cyffredin a hen iawn sydd wedi ffynu gyda golwg arno. Y mae tri theulu o honynt yn perthyn i afon yr Aipht, y rhai a wahaniaethir wrth rifedi rhesi y torau a'r caenau esgyrnaidd a ffurfiant lurig naturiol, ac a orchuddiant holl gefn y creadur rhyfedd hwn; a'r wisg amddiffynol hon a'i gwna bron yn anghlwyfadwy, ac a estynir allan yn gragenau cornaidd, gan galeted a haiarn, i'r gynffon, yr hon sydd yn hwy na'i gorff, ac a arfogir â dwy res o bigau, fel dannedd llif fawr. Y mae y talcen, y bochgernau, a'r pen, oll yn ddurfing ac esgyrnaidd iawn. Nid yw yr ên uchaf yn ymysgogi, fel y credid gynt, ac y dywedid mai y crocodil oedd yr unig greadur a feddai y gallu hwn; ond gan fod ei safn yn agor mor lydan, yn mhellach yn ol na'i wegil, a'i eneu o hyd mawr, tra y mae ei goesau mor fyrion, y mae yn angenrheidiol i'r bwystfil dynu ei wddf yn ol i'r dyben o agor ei geg yn ddigon llydan, yr hon a bair i'r ên uchaf ymddangos megys yn ymysgogi ar gymmal. Ac er nad oes ganddo lais, y mae yn gwneyd math o chwyrnad cryf pan ddigier ef; ac weithiau egyr ei safn anferth ar led megys i lyncu gwynt, gan ei chadw yn agored am ennyd i wyneb yr awel, ac yna y mae yn ei chau yn sydyn gyda chlep, fel trap-ddôr yn disgyn yn drwm. Clywir y swn arswydol hwn yn aml gefn nos lonydd yn Neheubarth America, ar lanau y Ganges yn India, a gororau Affrica. Y mae ei gorn gwddf hefyd yn ddigon rhwth i draflyncu ei ysglyfaeth yn aml heb ei ddarnio. Credai Cuvier nas gallent fyw ond mewn dwfr croew, neu lyncu dim tra byddent mewn dwfr, a'u bod yn boddi eu hysglyfaeth, yn ei dynu dan y dwfr, ac yn ei lochesu mewn agenau, dan greigiau neu geryg, ac yn ei adael yno hyd nes braeno, fel y gallont ei fwyta,

Digitized by Google

o blegid nad yw dannedd y crocodil wedi eu gwneyd i gnoi ei ymborth. Ond y mae y rhai sydd wedi bod yn pysgota yn afonydd a môrgeinciau Affrica yn dyweyd peth amgenach—eu bod yn llyncu pysg, ac yn anturio allan yn mhell i'r môr. Y mae ganddynt o ddeg ar ugain i ddeugain o ddannedd yn mhob gên, wedi eu gosod yn rhesi sengl, fel yspigau arswydus o wahanol faint. Y mae y gwir grocodil hefyd yn meddu un neu ddau ysgythr-ddant, yn cydgau oddi allan i'w ddannedd ereill. Y mae bòn ei ddant yn geuol, yn cynnwys bywullyn dant newydd; ac o blegid hyn y maent yn magu dannedd dros eu holl oes. Mae pum bys i'w bawenau, a dim ond pedwar i'w draed ol. Y mae ei lygad, yr hwn sydd wyrdd, wedi ei amddiffyn âg amrant triphlyg, a'r ganwyll yn ymledu ac yn ymgulhau wrth ei ewyllys, ac yn ol grym y goleuni a syrth arno, yn gyffelyb i lygad cath.

Yn nesaf at y *gafial*, y crocodil yw y mwyaf gwisgi o'r genedl ar dir, a'r amlaf yn y môr agored, gan ei fod wrth natur wedi ei gynnysgaethu â mwy o allu i nofio.

3. *Cenedliad crocodiliaid.* Dodwya y fenyw yn Ebrill a Mai, o ugain i bump ar ugain o wyau, mwy neu lai, ar gynnifer o weithiau: yna, y mae yn eu claddu yn nhywod y dorlan, ac yn eu gadael yno nes eu deor yn ngwres yr haul, yr hyn a gymmer le yn mhen tua deugain niwrnod. Yn y cyfamser, y mae y fam yn aros o gwmpas y lle, yn barod i grafu yr wyau o'r tywod y diwrnod y tyr ei rhai bach yr wy, yr hwn nid yw fawr fwy nag wy gwydd. Y mae y crocodil pan enir ef tua maint geneugoeg llawn oed ein gwlad ni; ac am gryn amser wedi eu deor, y maent yn byw heb fwyd, ac nid ymddengys fod ar y fam frys i ddwyn peth iddynt. Yna, y mae yn eu harwain i'r dwfr, ac yno yn eu porthi â bwyd hanner treuliedig, a gyfogir o'i chylla ei hun. Nid ydyw y gwryw yn gwneyd un cyfrif o honynt. Y mae tyfiad y crocodil yn un o'r pethau rhyfeddaf yn y greadigaeth filyddol. O'r hyd o bedair neu bum modfedd, pan ddeuant o'r wy, cynnyddant, weithiau, i'r maintioli anferthol o ddeg troedfedd ar hugain o hyd, pan y deuant i'w llawn oed; a dywedir eu bod yn byw i henaint mawr.

4. *Galluoedd dinystriol y crocodil*, &c. Weithiau, y mae ysgogiadau y crocodil yn gyflym a chwimmwth iawn; bryd arall, y mae yn ymsymmud yn ddioglyd; ac o blegid anhyblygrwydd ei arfogaeth gorfforol, ac anystwythder cymmalau ei gefn, nis gall droi oddi amgylch ond gydag anhawsder. Rhydd hyn gyfleusdra i ddiane rhagddo, trwy redeg yma ac acw, yn gim-gam, nes myned o'i gyrhaedd. Ond gall droi ei ben mor rwydd fel nad ydyw yn ddiogel i un gelyn gymmeryd ei sefyllfa wrth ei ystlys. Ac er ei fod yn greadur ofnadwy yn ei gyflwr gwyllt, nid yw yn annichonadwy ei ddofi. Dywed y teithiwr enwog Bruce, fod plant yn Abyssinia yn difyru eu hunain, heb berygl, wrth farchogaeth ar gefnau crocodiliaid dofion. Er bod ei allu i wneyd niwed i ddyn ac anifail yn fawr iawn, y mae yn greadur ofnus yn naturiol; ac y mae ei synwyr a'i gyfrwysdra mor fach, fel mai ychydig, mewn cymhariaeth, o ddinystr a wna trwy ei fawr nerth. Dywedir nas gellir cadw moch yn agos i'w gynniweirfa, ond nad ydyw yn ymosod ar ddefaid.

Delir crocodiliaid â bachau, a lled anaml y llwyddant i dori y rhaff. Er y treiddia bwled ar ergyd union-annelog rhwng y cen cornaidd sydd yn amwisgo y corff, dengys yr hanesyn a ganlyn pa mor anghlwyfadwy yw y *sauriaid* cawraidd hyn. Dygwyd un wedi ei rwymo yn ddiogel i'r farchnadfa yn Cawnpore, ar lanau y Ganges, a phrynwyd ef gan swyddogion y tyddin Brydeinig, a chariwyd ef yn mhellach i'r wlad i'w *faitio*. Rhyddhawyd yr holl rwymau ond y rhai a ddiogelent ei safn; a'r anghenfil, er ei fod wedi bod am oriau lawer allan yn y gwres, a bron wedi tagu ar lwch, a ymladdodd ei ffordd drwy dorf fawr o ymosodwyr, milwyr a brodorion, wedi ymarfogi â phastynau, gwaewffyn, cleddyfau, a cheryg, a byddin o fytheuaid, corgwn, a mangwn yn ei gnoi, ac a ddymchwelodd bob rhwystr oedd ar ei ffordd at y dwfr a aroglai o bell—tua dwy filltir o ffordd—i'r hwn y diangodd er gwaethaf y gwrthwynebiad mwyaf penderfynol!

Sonir mewn hen awdwyr am glustfodrwyau crocodiliaid. Nid oes gan y crocodil un glust allanol, heb law plygiad yn y croen, drwy yr hwn y sicrheid y cyfryw addurniadau. Ystyrir un math o grocodiliaid yn gyssegredig yn mhlith y Malayaid, ond nid yw o'r un rhywogaeth a'r crocodil Affricanaidd. Dywed Strabo fod crocodiliaid yn adnabyddus i'r Aiphtiaid wrth yr enw Groeg *suchos*; Ladin, *suchus*:—oddi wrth air Aiphtaidd y tybir mai *souch* neu *soucha* ydoedd—enw a gyfyngid, y mae yn debygol, i'r crocodil cyssegredig. Dywed Mr. Champolion mai enw ar dduwdodyn gyda chorff dyn a phen crocodil oedd *souk*. Y mae Spanheim, yn ei feirniadaeth ar fywgraffiad Isidorus gan Damascius, yn meddwl mai yr un oedd *suchos* a'r geneugoeg a adnabyddir wrth yr enw *waran*. Dywed Herodotus fod yr Aiphtiaid yn galw crocodiliaid yn *champsai*; yr hyn, yn ol barn Syr J. G. Wilkinson, sydd lygriad o *msah* neu *emsooh*. Yr oedd y crocodil yn wrthddrych addoliad yn mhlith yr hen Aiphtiaid, a cheir rhai eneiniedig mewn beddrodau yn y wlad hono. Y mae Syr J. G. Wilkinson yn rhoddi dysgrifiad dyddorol o'r duwdodau crocodilaidd. Byddai yr offeiriaid yn nheml Memphis, wrth gyflawnu defodau y gwasanaeth paganaidd, yn dangos crocodiliaid dofion fel gwrthddrychau i'r cynnulleidfaoedd ofergoelus i'w haddoli. Porthid hwynt â theisenau melusion, cig rhost, a gwin melaidd.



Dar. 207.

Yn mysg yr holl genedloedd o darddiad Mongolaidd, ceir y crocodil corniog—*makaira* chwedloniaeth Budha—yn mhlith deuddeg arwydd y sidydd (*zodiac*), megys *draco* neu y draig. Pan y llywodraethai y Rhufeiniaid ar wlad yr Aipht, nid oedd crocodiliaid eto wedi diflanu o'r

Digitized by Google

Nilus Isaf; o blegid y mae Seneca, ac ereill, yn son am frwydr fawr a gymmerodd le rhyngddynt a haid o ddolphiniaid, yn y gainc Heracleotaidd o'r Delta. Yn amser adfeiliad yr ymherodraeth, ail ymddangosodd hyd yn oed yr afonfarch (*hippopotamus*) o gwmpas Pelusium. Dywed Pliny mai yn amser Ædiliaeth Scaurus y gwelodd y Rhufeiniaid grocodil gyntaf erioed. Dygodd yr ymherawdwr Augustus un ar bymtheg arugain o honynt i'r chwareufa, y rhai a laddwyd oll gan y cleddyfwyr. Yn amser Rhyfeloedd y Groes, yr oedd crocodiliaid yn afon Crocodilon yr ysgrifenwyr boreuol, ac yn y *crocodilorum lacus*= llyn y crocodiliaid; yr hwn a elwir hyd y dydd hwn, Moiat-al-Temsah, ag sydd yr un, fel yr ymddengys, ag afon a chors Kerseos, tua thair milltir i'r deheu o Cesarea. *Temsah* ydyw yr enw Arabaidd ac Aiphtaidd am grocodil.

Rhaid i ni gyfrif gorchest Dieudonné de Bozon, un o farchogion St. Ioan, yr hwn a laddodd ddraig Rhodes, fel ymdrechfa gyda chrocodil; o blegid felly y darlunir yr anghenfil mewn hen baentiad sydd eto ar gael yn ngwreiglys un o'r Tyrciaid penaf yno. Bu De Bozon farw yn uchel feistr yr urdd yn Rhodes yn 1353. Am holl ddreigiau yr hen Roegiaid, rhaid mai crocodiliaid oeddynt, y rhai a gerid ar ddamwain i'r gogledd gan ffrydlif Môr y Canoldir, yr hwn a red tua'r pwynt hwnw. Y mae y crocodil a'r alligator yn ddigon cyffredin ar ynysoedd yn nghanol yr eigion, ddegau o filltiroedd oddi wrth unrhyw dir arall.

Ceir y crocodil, neu yr afanc, hefyd mewn chwedloniaeth Gymreig, a phriodolir iddo achosiad y dylif! Dywed y *Trioedd:* "Llong Nefydd Naf Neifion a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw pan dores Llyn Llion, ac ychen bannog Ilu Gadarn a lusgasant yr afanc i dir, ac ni thores y llyn mwyach."

Er bod yr enw *crocodeilos* yn dygwydd yn y cyfieithiad Groeg o'r Ysgrythyrau, nid oes un gair Hebraeg, a geir yn y testyn gwreiddiol, y cytunir yn mysg ieithwyr ei fod yn gyfystyr. Ar yr un pryd, meddylir y gall fod cyfeiriad at y crocodil yn Llyfr Iob, ac amryw fanau ereill o'r Hen Destament. Gwel DRAIG; LEFIATHAN; MORFIL, &c.

CROCHAN—AU, [*croch*]: efyddyn, berwedydd, llestr berwi. Gwneid crochanau o amryw ddefnyddiau, megys pridd, haiarn, pres, aur, &c.: 2 *Bren.* iv. 38—41; *Barn.* vi. 19. "Gorwedd yn mysg y crochanau" (*Salm* lxviii. 13), a arwydda gyflwr isel, adfydus, a dirmygedig yr Israeliaid yn yr Aipht, mewn caethiwed caled, a than orthrymder mawr, yn gweithio mewn clai a phriddfaen, &c.: *Exod.* i. 14. "Ei ddwylaw a ymadawsant â'r crochanau," sydd yn cyfeirio at waredigaeth y genedl o'r caethiwed gorthrymus hwnw: *Salm* lxxxi. 6. Ond er maint a wnaethai Duw trostynt, buan yr anghofiasant y cwbl; ac yn eu gwrthryfel, cwynent am yr amser pan oeddynt "yn eistedd wrth y crochanau cig, ac yn bwyta bara eu gwala;" *Exod.* xvi. 3. Rhyfedd fel y mae calon wrthnysig dyn yn rhoddi lliw gwahanol ar bethau i'r hyn ydynt mewn gwirionedd—yn dywedyd "am y drwg, da yw; ac am y da, drwg yw; gan osod tywyllwch am oleuni, a goleuni am dywyllwch; chwerw am felus, a melus am chwerw;" *Esa.* v. 20. Felly hwythau—"eistedd," meddent, "wrth y crochanau cig," ac nid "gorwedd yn mysg y crochanau," yn druenus eu cyflwr, yn y caethiwed tost. Yn *Ier.* i. 13, 14, mae "crochan berwedig" yn arwyddlun o Ierusalem oedd yn ymgynhyrfu mewn annuwioldeb, trawsedd, a drygioni; "â'i wyneb tua'r gogledd," yn dangos mai o'r parth hwnw yr oedd y farn i ddyfod ar y ddinas a'r genedl, drwy luoedd y Caldeaid. Mae y prophwyd Ezeciel (xi 3—11) yn cymmeryd i fynŷ yr un gyffelybiaeth; ac ymddengys fod y dywediad, erbyn hyn, wedi myned yn ddiareb yn mysg penaethiaid y bobl, ac yn cael ei gymhwyso ganddynt i arwyddo diogelwch y ddinas a'i phreswylwyr; ond y mae y prophwyd yn ei hegluro yn dra gwahanol, ac yn eu rhybuddio yn ffyddlawn o'u perygl. Ac yn *Ezec.* xxiv. 3—14, mae y prophwyd drachefn, "trwy ddammeg o grochan berwedig," "yn dangos y trueni a'r trallodau trwy ba rai y blinid ac y dyfethid trigolion Ierusalem." "Moab yw fy nghrochan golchi" (*Salm* lx. 8); hyny yw, er balched oedd Moab, ac er maint ei draha, darostyngid ef i'r gwasanaeth iselaf, i fod yn gaeth a than deyrnged. "Y crochan aur â'r manna ynddo;" *Heb.* ix. 4. Cymharer *Exod.* xvi. 32—34; 1 *Bren.* viii. 9. Gwel MANNA.

CROCHENYDD, [*crochan*]: gwneuthurwr crochanau, potiau, neu lestri priddion. Mae y crochenydd, a chynnyrch ei lafur, yn cael cyfeirio atynt yn fynych yn yr Ysgrythyrau. Mae breuolder ei nwyddau, a'u bod mor hawdd i'w dryllio, yn gwneuthur arwyddluniau cyfaddas i ddangos hawdded y gellir dryllio a distrywio bywyd a gallu dynol. Yn yr ystyr ffugrol hwn, y mae llestri y crochenydd yn cael eu dwyn i sylw fynychaf yn yr Ysgrythyr: *Salm* ii. 9; *Esa.* xxx. 14; *Ier.* xix. 11; *Dad.* ii. 27. Mewn un lle, y mae awdurdod y crochenydd ar y clai [pridd-gist] i lunio o hono, yn ol ei ewyllys, rai llestri i barch, ereill i anmharch, yn cael ei ddefnyddio yn dra grymus gan yr apostol i egluro awdurdod annibynol Duw i ffurfio tynged-fenau dynion yn ol ei foddlonrwydd ei hun: *Rhuf.* ix. 21. Gwel hefyd *Esa.* xxix. 16; xlv. 9; lxiv. 8; *Ier.* xviii. 6.

Dar. 208.—Crochenydd Aiphtaidd diweddar.

Y crybwylliad penodol cyntaf am lestri priddion yw hwnw am y piserau, yn y rhai y cuddiai gwŷr Gedeon eu lampau, a'r rhai a dorasant yn chwilfriw pan y tynasant eu lampau o honynt: *Barn.* vii. 16, 19. Mae costrelau ac ystenau yn cael son am danynt cyn hyny; ond y gostrel ddwfr a roddwyd i Agar (*Gen.* xxi. 14) yn ddiammheu ydoedd o groen; ac er y gallai mai pridd oedd ystên Rebecca (*Gen.* xxiv. 14, 15), nis gallwn fod yn benderfynol mai felly yr oedd.

Digitized by Google

Unwaith yn unig y sonir yn y Beibl am droell y crochenydd (*Ier.* xviii. 3); ond rhaid ei bod mewn arferiad yn mysg yr Hebreaid yn mhell cyn amser y cyfeiriad hwnw; canys gwyddom ei bod yn hanfodi yn yr Aipht cyn i'r Israeliaid fyned i breswylio yno. Nid oedd dull yr Hebreaid o ddwyn y gorchwyl yn mlaen mewn un modd, efallai, yn gwahaniaethu oddi wrth eiddo yr Aiphtiaid—oddi wrth y rhai, dybygid, y cymmerwyd yr arferiad o'r droell. Mae hyn hefyd yn debycach, gan fod defnyddiau, ffurf, a gwaith priddlestri eto yn dra chyffelyb drwy Asia orllewinol, i'r hyn oedd mewn arferiad yno gynt. Yr ydym yn gwybod hyn drwy gymharu hen ddarluniau a cherfiadau â gwaith diweddar, yn gystal ag oddi wrth bentyrau mawrion o briddfeini toredig a geir o amgylch sefyllfaoedd hen ddinasoedd. Y crochenyddion gynt yn fynych a dylinent y clai â'u traed; ac wedi ei barotoi felly, cymmerent delpyn o faint cyfleus â'r llaw, ac a'i dodent ar y droell—yr hon, a barnu wrth yr hyn a arddangosir mewn darluniau, oedd o wneuthuriad tra syml, ac a dröid â llaw. Gwahanol ffurfiau y llestri a weithid â'r bys tra y byddent yn troelli. Y dyrnddolau, os byddent, a ddodid wrthynt wedi hyny; a'r lluniau ac addurniadau ereill a dynid arnynt âg offeryn o bren neu fettel, cyn eu crasu. Yna gadewid iddynt sychu, ac i'r dyben hwnw gosodid hwy ar fyrddau coed; wedi hyny, trefnid hwynt yn dra gofalus ar esdyll, i'w dwyn gyda'r iau arferedig ar ysgwyddau dynion i'r ffwrn.—(*Wilkinson's Ancient Egyptians*, cyf. iii., td. 163—167; *Kitto.*)

CROEN: gwisg naturiol dyn ac anifail, yr hwn a ffurfir o dri haen gwahanol:—

1. Y *cuticula*, neu y croen allanol, yr hwn a wasanaetha fel amlen diffynol rhwng rhanau bywydol y corff a gwrthddrychau oddi allan iddo. Y mae ei dewder yn amrywio yn fawr mewn gwahanol ranau—mewn un man yn deneu iawn, ac mewn man arall yn dew fel lledr. Nid ymddengys ei fod yn cynnwys unrhyw lestri gwaed, neu iau; ond ei fod yn cael ei gynnyrchu gan leithion gludaidd o'r llestri cyfagos, y rhai a geulant yn llen dan ddylanwad yr awyr, fel y ceula gwyn wy. Y rhanau hyny o'r corff ag ydynt fwyaf agored i rygniad a gwasgiad sylweddau allanol a orchuddir â darnau tewach o lawer o groen, a hyny drwy fod mwy o'r lleithrwydd gludaidd yn cael ei wasgu o'r llestri crybwylledig, ac yn ymwasgaru dros y rhanau cyfagos o'r groenen deneuach o'r blaen, yn enwedig cledrau y dwylaw a gwadnau y traed—y sodlau yn arbenig:—darpariaeth ddoeth yn nhrefn natur i arbed treuliad y corff, ac i fod yn fath o lurig i'r rhanau mwyaf bywydol a thyner. Ond os bydd y gwrthwasgiad yn ormodol—megys pan fyddo un anghynnefin â hyny yn gwneyd gwaith caled â'i ddwylaw, neu yn cerdded taith bell, bydd y croen allanol yn ymryddhau oddi wrth yr is-groen yn godenau dyfrllyd neu wysigod. Ac ar ol rhai clefydau, bydd y croenyn allanol hwn yn pilio ymaith, ac yn cael ei adnewyddu i gyd. Yn wir, y mae yn gwisgo ymaith yn wastadol yn y ffurf o gen blodiog. Er nad yw y croenyn allanol yn gwbl dryloew, gwelir lliw y rhanau sydd oddi tano drwyddo; ac y mae wedi ei drywanu â myrddiynau o fân chwys-dyllau, y rhai a ollyngant allan wres tu mewnol gormodol y corff, yn y ffurf o ager—yr hwn, wrth gyffwrdd â'r awyr allanol, sydd yn oeri ac yn ymdewychu yn chwys. Y mae amwisg o gyffelyb wasanaeth, ond nid o'r un defnydd, yn dilladu pob peth byw—llysiau yn gystal ag anifeiliaid. Y mae amryw ymlusgiaid, megys seirff, yn bwrw y wisg allanol hon ar amserau penodol, a cheir hi yn fold berffaith o ffurflun eu cyrff.

2. Y *wê fwsoglyd* (*muscus web*): math o rwydwaith mwydionog, yr hwn sydd yn dra theneu yn yr Ewropiad glandeg, ond yn dew iawn yn yr hil tywylldd, yn enwedig y Negroaid. Ymddengys ei fod yn gynnwysedig o derfyniadau eddïog aneirif lestri gwaed, wedi eu cydweu â llinon main gewynaidd. Yn hwn y mae y lliw, yn ddeigrynos bychain iawn, o wahanol eil-liw. Yn wir, gellir gwahaniaethu amryw gwendloedd Ewrop wrth eil-liw eu crwyn. Meddylir bod lliw y croen yn ymddibynu ar rym goleuni a gwres. Yn y gwledydd trofanol, y mae lliw anifeiliaid a llysiau yn "gryfach" nag mewn ardaloedd oerion. Y mae diffyg goleuni yn cynnyrchu lliw gwelw ar lysiau a phryd dyn; ac y mae i oleuni cryf, neu heulogrwydd, effaith i'r gwrthwyneb. Ond nid yw y cyfnewidiadau hyn yn rhai sefydlog, neu yn disgyn i'r hiliogaeth. Y mae yn beth rhyfedd iawn fod anghreifftiau wedi eu cael yn mysg pob cenedl o'r hil ddynol, ac o anifeiliaid, heb fod dim lliw yn y tan-groen mwsoglyd; a gelwir y cyfryw rai yn *albinos*, neu wynion. Y mae i'w croen ymddangosiad gwelwaidd – nid annhebyg i gorff marw; eu llygaid yn gochion fel gwaed, a'u gwallt hefyd yn ddi-liw neu wyn. Y mae hyn yn dueddol i redeg mewn teuluoedd; a phe telid sylw i gyd-epiliad y cyfryw bersonau dros ddwy neu dair cenedlaeth, gellid cael tylwyth neu fath o genedl sefydlog o *albinos*. Mewn teulu o saith o blant, a anwyd rai blyneddoedd yn ol yn Lasswade—pentref tua phum milltir o Edinburgh—yr oedd dau yn *albinos*, mab a merch. Yr oedd y rhieni, yn enwedig y tad, yn ddyn hynod o felyn ei groen; a'r pum plentyn arall o brydwedd pur dywyll. Yr oedd y ddau *albinos* yn mwynhau iechyd a nerth cyffredin; ond nis gallent oddef goleuni cryf, er nad oeddynt yn gweled yn well nag ereill mewn gwyll. Tua'r un amser, ceid yn Edinburgh anghraifft hynod iawn o gyfnewidiad lliw croen Hindw oedranus, yr hwn a ddaethai drosodd i'r wlad hon pan yn fachgen. Pan dyfodd i fyny, ymddangosodd llaenerchi gwynion yn ei groen, y rhai a ymledasant yn raddol dros y rhan fwyaf o'i gorff, gan adael, mewn amser, ddim ond ychydig ysmotiau duon ar ei wyneb, ei goesau, &c. Yr oedd y rhanau gwynion o'i groen mor deg a phryd yr Ysgotiaid yn gyffredin; a'r ysmotiau tywyll cyn ddued a chroen Negro o'r bron. Priododd Ysgotwraig, a ganwyd iddynt blant mor wyn eu croen a'u mam; ond gyda phryd mor Hindwaidd nas gellid ei gamgymmeryd. Ac er pob ymchwil feddygol a wnaed tra yr oedd yn fyw, ac wedi ei farw, nis gallodd neb gael allan yr achos o gyfnewidiad lliw y tad.

3. *Y dermis*, neu wir groen. Hwn yw y tewaf o lawer, yn ffurfiedig o luaws o leiniau, ac yn cynnwys gwaedlestri lawer, a giau. Y mae ei dewder yn amrywio mewn gwahanol ranau, ac yn ol rhyw ac oedran. Y mae yn dewach o lawer ar y cefn nag ar yr ochr wynebol o'r corff; ac ar yr ochr allanol o'r aelodau na'r mewnol. Cyfansoddir ef yn benaf o fath o lud anifeilaidd, yn gymmysg â pheth sylwedd llysieuol a elwir *tannin;* ac y mae yn troi yn lledr, drwy yr hwn y mae man-dyllau dirif i leithion

Digitized by Google

ion olewaidd dreiddio, y rhai a'i cadwant yn ystwyth ac esmwyth. Gorchuddir y tu allanol â mân dethau aneirif. neu *papillæ;* y rhai, mewn llawer o fanau, megys cledrau y dwylaw, y bysedd, &c., a redant yn rhesi rheolaidd, gan ffurfio llinellau tònog, yn caei eu gwahanu gan fân rychau a gynnorthwyant blygiad y croen. Y mae y tethenau hyn yn llawn o waedlestri, ac wedi eu creu yn y fath fodd ag i fod yn abl i ddal cydwasgiad neu gydgasgliad y gwaed, ac ymchwyddant i fyny fel myrddiynau o fân-godau dros y corff, yr hyn a alluoga y gïau i dderbyn argraffiadau yn gyflymach. Gallu y croen i dderbyn cyflenwad chwanegol o waed a welir yn amlwg yn y gwyneb pan fyddo un yn gwrido. Am anhwylderau croenol, gwel CORNWYD, GWAHANGLWYF, &c.

Crwyn anifeiliaid a ffurfient wisgiad cyntaf dyn (*Gen.* iii. 21), ac â'r cyfryw yr ymddillada yr holl dylwythau anwaraidd o'r hiliogaeth. Ond gwisgai amryw gymmeriadau hynod yn yr Ysgrythyrau ddillad o groen: *Heb.* xi. 37; *Marc* i. 6; 2 *Bren.* i. 8. Crwyn hefyd oedd gorchudd allanol y tabernacl (*Exod.* xxxv. 23); ac am yr un rheswm y galwai y Rhufeiniaid bebyll milwyr *pelles.* Llosgid croen y poethoffrwm, oddigerth un yr aberth dros gamwedd, yr hwn oedd eiddo yr offeiriad: *Lef.* vii. 8.

CROES, [*cro*=tröad; Ll. *crux;* Gr. σταυρος]: crog, croesbren, offeryn cosp ddienyddol gynt; adfyd, blinder, trallod, rhwystr: *ll. croesydd,* yn yr ystyr blaenaf; *croesau,* yn yr ystyr olaf; hefyd *crwys.* "Y mae efe yn gwneuthyd ei grwys," sydd hen air am un a fyddo dawedog neu ddisylw mewn cyfeillach.

"Po fwyaf gawn o wres y dydd,
Mwy yno fydd ein moliant;
Cawn yn lle 'n cystudd byr a'n *crwys,*
Dragwyddol bwys gogoniant."
W. W., Hymn lxxxiii. 2.

Rhai ieithwyr a dybiant fod *croes* yn gyfystyr a *crwys;* ond ymddengys wrth gyfatebiaeth mai lluosog afreolaidd yw yr olaf o'r blaenaf, yn treiglo fel oen, wyn; croen, crwyn. Dr. W. O. Pughe, yn gytunol â hyn, a'i cyfleitha i'r Seisoneg yn lluosog, *crosses.* Yn ei gymmeriad cyffredinol, y mae y gair *croes* yn arwyddo offeryn cospedigaeth; ac, yn draws-symmudol, y gospedigaeth ei hun, yn gystal a'r boen arteithiol dani; yna, unrhyw ddyoddefaint llym, neu brofedigaeth drom. "Os myn neb ddyfod ar fy ol i," medd ein Iachawdwr, "ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes, a dilyned fi" (*Mat.* xvi. 24); wrth yr hyn y meddylir, y rhaid i'w ddysgyblion ef fod yn ewyllysgar i ddyoddef erddo, yn y modd y byddo Duw, yn llwybr ei ragluniaeth, yn eu galw i ddyoddef—ïe, hyd ferthyrdod, os gelwir hwynt i hyny. Y mae y *groes* yn cael ei rhoddi hefyd yn fynych am yr oll o ddyoddefiadau Crist (*Eph.* ii. 16; *Heb.* xii. 2); ac athrawiaeth yr iawn perffaith a digonol a roddodd drwy ei ddyoddefaint, yr hyn a orphenodd ar y groes: *Gal.* vi. 14.

Fel offeryn gospedigaeth greulawn, ymddengys fod y groes mewn arferiad yn oesoedd boreuaf hanesiaeth. Fe ddichon mai dyfais rhyw lwyth barbaraidd ydoedd, i gadw caethion rhag dianc drwy eu rhwymo wrth brenau; neu i roddi gelyn i farwolaeth drwy ei adael i drengu o eisieu, neu yn ysglyfaeth i adar a bwystfilod. Dichon mai oddi wrth y ffurf naturiol y tyf cangau coed yn fynych, y cafwyd y dychymyg am yr offeryn arteithiol hwn gyntaf. Amlwg yw ei bod yn arferiad crogi troseddwyr ar brenau; ac oddi wrth hyn y daeth fod crogi a chroeshoelio yn fynych yn arwyddo yr un peth, a bod y groes yn cael ei galw *infelix lignum,* yr hyn y gellid ei gyfleithu "y pren melldigaid." Gellir olrhain yr arferiad o'r groes fel pren dienyddiad yn mhlith y Scythiaid, Persiaid, Carthaginiaid, Groegiaid, Rhufeiniaid, a'r hen Germaniaid. Yn mhlith y Carthaginiaid, yr oedd pob gradd o ddynion, hyd yn oed pen-llywyddion eu byddinoedd, yn agored i'r gospedigaeth hon; ond yn mysg y Rhufeiniaid, y caethion a gyflawnent droseddau anferth yn unig a gospid felly: eto, fe ymddengys y collfernid ysbeilwyr, bradlofruddion, a gwrthryfelwyr, dan ryw amgylchiadau, i'r gospedigaeth waradwyddus, er rhybudd i ereill. Fel teyrnfradwr y cyfrifwyd ein Iachawdwr, ar y sail ei fod yn gwneuthur ei hun yn frenin, neu yn hòni mai efe oedd y Messïah; ac am hyny, traddodwyd ef i'r farwolaeth fwyaf erchyll a gwaradwyddus, sef yr eiddo caethwas. Gwel *Luc* xxiii. 1—5, 13—25. Nid ymddengys fod y gospedigaeth hon yn arferedig yn mysg yr Hebreaid, er y ceisia rhai ddwyn dienyddiad meibion Saul gan y Gibeoniaid yn brawf o hyn (2 *Sam.* xxi); ond nid oes sail ddigonol i dybied hyny. Ac er fod yr ymadrodd "yn nghrog ar bren" yn cynnwys y gosp o groeshoeliad, nid yw yn gyfyngedig i'r dull hwnw yn unig o ddienyddio ar bren. Gwel *Gal.* iii. 13. Cymharer *Deut.* xxi. 23; *Act.* x. 39.

Ar y cyntaf, dybygid, yr oedd y pren dyoddef o ddau fath:—1. *Crux simplex*=y groes semi. 2. *Crux composita* = y groes gyfansoddedig. Math o ystanc oedd y flaenaf, wrth ba un y rhwymid y troseddwr, neu ar ba un y gwanid ef. Yn y math cyntaf o gospedigaeth, defnyddid pren neu bawl darparedig, a rhwymid y troseddwr wrtho, lle y gadewid ef i drengu, neu y dienyddid ef ar unwaith. Yn yr ail, defnyddid polyn hir blaenllym, a gosodid y troseddwr arno fel y trinir cig i'w rostio ar y bêr. Am y dull hwn o farwolaethu, dywed Seneca:—"Gwelais y croesydd hyn, nad oeddynt wedi eu gwneyd yr un fath; ond yn wahanol, gan wahanol bobl. Yr oedd rhai yn crogi y troseddwr â'i ben i waered, ereill a redent bawl drwy ei gorff." Yr oedd y modd creulawn hwn o ddienyddio yn dra arferedig gynt yn Rwssia, China, Twrci, a gwledydd ereill; ac nid yw eto wedi ei ddileu yn gyffredinol drwy y gyfraith.

Yr oedd tri math o'r groes gyfansoddedig:—1. *Crux decussata.* 2. *Crux commissa.* 3. *Crux immissa. Crux decussata,* neu groes-ymgroes, a elwir hefyd croes Sant Andreas; am y dywed traddodiad mai ar groes o'r fath yma y dyoddefodd yr apostol Andreas ferthyrdod. Y mae Jerome yn dysgrifio y groes hon, trwy ddyweyd fod ei henw yn arwyddo dwy linell yn croesi eu gilydd ar ddull y llythyren X. Isidorus, hefyd, a ddywed fod y llythyren X yn dynodi croes, a'r rhif deg (wrth y rhifnodau Rhufeinaidd).

Crux commissa (=croes gyssylltiadol), a ffurfid drwy osod trawslath ar ben pawl unionsyth, heb fod dim o'r olaf yn sefyll yn uwch na'r blaenaf. Gelwir hon yn groes Sant Antwn, a chroes tân, am ei bod ar lun y llythyren T.

Am y *crux immissa* (=croes ymseidiog, neu gywir-groes), y mae yn gwahaniaethu oddi wrth y lleill drwy fod rhan o'r pawl yn cyrhaedd yn uwch na'r trawslath sydd yn ei groesi, fel hyn †. Y ffurf yma a ganfyddir fynachaf

Digitized by Google

mewn lluniau; ac yr ydym yn tybied mai ar groes o'r fath yma y dyoddefodd Iachawdwr y byd.

Am natur y groes ar yr hon y croeshoeliwyd yr Iesu, a phob manylion cyssylltiedig â hi, dylai fod hysbysiaeth gywir yn gyrhaeddadwy, gan y dywedir fod pedwar o haneswyr eglwysig, nid amgen Socrates, Sozomen, Rufinus, a Theodoret, yn cyd-ddyweyd am ei chaffaeliad gan yr ymherodres Helena [Elen], mam Cystenyn Fawr, yr hyn a fu o ddeutu B. A. 326. Eusebius yn unig sydd yn ddystaw am y darganfyddiad. Y mae yr ysgrifenwyr ereill yn dyweyd, i Helena gael ei thueddu, yn ngwres ei duwioldeb, i ymweled â'r lleoedd hyny ag oeddynt wedi eu gwneuthur yn gyssegredig gan bresennoldeb a dyoddefaint y Gwaredwr. Yr oedd gelyniaeth y paganiaid wedi peri iddynt ddileu, hyd y gallent, bob coffadwriaeth o'r dygwyddiadau pwysig a sancteiddiesid yn mywyd a marwolaeth ein Harglwydd, ac i orchuddio Mynydd Calfaria â cheryg a phridd, a chyfodi teml arno i'r dduwies Gwener. Yr oedd rhyw Iuddew, er hyny, wedi trysori yn nghyd hyny o draddodiadau y gellid eu casglu, fel y medrodd nodi allan i Helena y llanerch yn mha un y claddesid ein Harglwydd. Wedi cloddio yn y lle, cafwyd tair croes; a'r arysgrifen a berthynai i groes yr Iesu a gafwyd wrthi ei hun o'r neilldu. Yna, cyfododd ymofyniad pwysig, Pa fodd y gwahaniaethid ei groes Ef oddi wrth y ddwy ereill? Cynghorodd Marcarius, esgob Ierusalem, ar fod eu rhin priodol i gael ei brofi drwy wneuthur gwyrthiau. Dygwyd cleifion yn mlaen, a chyffyrddwyd â hwynt gyda phob un o honynt ar wahân; ac un yn unig oedd yn gweithio y cyfnewidiadau a ddymunid: ac felly, cydnabyddwyd hono, mai hi ydoedd y wir groes. Yn gytûn â hyn y canai un o'r hen feirdd Cymreig:—

"Diboen ferch[1] Goel Codêboc,
I Gred y peraist' y grôc."

Gwedi adeiladu eglwys ar y llanerch gyssegredig, rhoddes Helena i gadw ynddi y darn mwyaf o'r wir groes, a chymmerodd y gweddill i Gaer Cystenyn; a gosodwyd cyfran o honi gan Cystenyn yn mhen cerf-ddelw iddo ei hun; a'r gyfran arall a anfonwyd i Rufain, ac a gyflewyd yn Eglwys Sta. Croce, yn Gerusalemme, yr hon a adeiladesid yn benodol i dderbyn y crair gwerthfawr. Yn ganlynol i hyny, sefydlwyd gŵyl i gofio y darganfyddiad; a byddai esgob Ierusalem, ar Sul y Pasc, yn arddangos y gwrthddrych i lygaid diolchus y pererinion aiddgar, i weled pa un y teithiasent mor bell, ac y dyoddefasent gymmaint. Boddhëid y rhai goludog yn mhellach, drwy gael, am eu llawn bris, ddarnau bychain o'r groes wedi eu gosod mewn aur a gemau; a rhag i syndod droi yn anghrediniaeth, yr awdurdodau priodol a roddent allan i'r byd eu sicrwydd dilys fod y pren cyssegredig yn meddu y gallu o ymluosogiad; ac er fod darnau aneirif wedi eu cymmeryd o hono, er boddhâd a gwasanaeth y ffyddloniaid, ei fod yn parhau yn gyflawn a chyfan fel ar y cyntaf:—*Ut detrimenta non sentiret, et quasi intacta permaneret.*—Paulinus, *Ep.* xi., *ad Sev.*

Pan gymmerwyd Ierusalem gan y Persiaid, B. A. 614, daeth gweddillion y groes i ddwylaw Chosroes II., yr hwn yn watwarus a'u dug i'w ddinas ei hun. Ar ol pedair blynedd ar ddeg, Heraclius a'u hadennillodd hwynt, ac a'u dug yn gyntaf i Gaer Cystenyn, ac yna i Ierusalem, gyda'r fath rwysg, fel pan y cyrhaeddodd o flaen y ddinas, cafodd y porth wedi ei gau a'i fario, a gwaharddiad i fyned i mewn. Wedi ei addysgu am achos y rhwystr hwn, dywedir i'r ymherawdwr ddiosg addurniadau ei fawredd, a chan gerdded yn droednoeth, dyg ar ei ysgwyddau ei hun y crair cyssegredig i fyny at y porth, yr hwn y pryd hyny a ymagorodd o hono ei hun, ac a oddefodd iddo fyned i mewn; ac felly efe a gyfleodd ei gadwraeth o dan gromen y beddrod.

O'r pryd hwn, nis clywid am "y wir groes," yr hon, efallai a ddistrywiwyd gan y Saraceniaid pan y goresgynasant Ierusalem, B. A. 637. Dywedir, pa fodd bynag, fod yr arysgrifen eto yn nghadw arni yn Rhufain—nid yn gyfan, mae yn wir, gan nad oes yn aros o'r llythyrenau Hebreig ond rhyw dipynau bychain, fel mewn gwirionedd nas dichon neb ddyweyd pa beth oeddynt. Y mae y Groeg a'r Lladin, oddi eithr y llythyren Z, wedi eu hysgrifenu yn y dull dwyreiniol, o'r dde i'r aswy. Dywedir i hyn ddygwydd, naill ai am eu hysgrifenu gan Iuddew, yn ol arfer y genedl, neu oddi ar ddymuniad yr ysgrifenydd, os Rhufeiniad oedd, i gydymffurfio â'r hyn oedd arferedig yn mysg yr Iuddewon. Y mae Nicetus yn dal nad yw oll yn waith yr un llaw; gan fod y llythyrenau Rhufeinig wedi eu tori yn groew ac eglur, ond y llythyrenau Groeg yn ddrwg iawn. Y mae efe yn tybied mai Iuddew a dorodd yr Hebraeg (neu Aramaeg) a'r Groeg, a Rhufeiniad y Lladin. Y cwbl sydd yn ngweddill o'r Groeg yw Ναζαρενους β; o'r Lladin, *Nazarenus.* Y mae braidd yn rhyfedd fod yn yr unig air Groeg yr hyn, yn ol tyb rhai, sydd yn ddau gamgymmeriad; sef, ε am η (un fer am un hir), a'r terfyniad ους yn lle ος. Y mae hanes darganfyddiad yr arysgrifen hon yn haeddu sylw byr. Pan ei danfonwyd gan Cystenyn i Rufain, fe'i dodwyd i gadw mewn cist blwm, uwch crom-nen Eglwys Sta. Croce, mewn ffenestr fechan; ac wedi hyny fe'i gweithid hi i'r mur â phriddfeini, âg ysgrifen mewn addurnwaith oddi allan i gofio ei sefyllfa. Gwnaeth amser yr ysgrifen yn mron yn annarllenadwy; a'r ffenestr, drwy ddiofalwch gweithwyr a roddasid ar waith i adgyweirio yr eglwys, a agorwyd yn ddamweiniol, pryd y darganfyddwyd y crair sanctaidd. Gwarantwyd y darganfyddiad hwn, a gwiredd yr arysgrifen, drwy lythyr dan insel y pab Alexander III. Y mae y llythyrenau a gafwyd ar yr arysgrifen, o'u cymmeryd wrth eu safon rhifyddol, yn gwneuthur 1532,—amgylchiad a arweiniodd Stifelius i benodi ar hono fel blwyddyn diwedd y byd.

Y mae Jortin, yn ei ddull ei hun, wedi chwilio y dystiolaeth berthynol i gaffaeliad a dilysrwydd y grôg, at yr hwn ymchwiliad y gall y sawl a chwennychant foddhâd yn mhellach gyfeirio. Un sylw neu ddau, dybygid, sydd ofynol yn y lle hwn. Nid oes un o'r awduron yn rhoddi dysgrifiad manwl o'r tair croes y dywedir eu cael yn y malurion o dan deml Gwener—yr hyn sydd yn llai nodedig, gan nad oedd un o honynt yn llygad-dyst. Ymddengys fod y tair yn dra thebyg i'w gilydd, gan nas gallasai dim yn fyr o wyrthiau wahaniaethu a nodi allan groes ein Iachawdwr (σωτήριον ξύλον). Maent oll yn hysbysu mai croesydd o goed oeddynt, ond nid oes un yn dyweyd coed o ba fath; ac nid oes un o'r pedwar hanesydd yn son dim am y traddodiad, y gellir ei olrhain cyn belled yn ol a dyddiau Chrysostom; sef, bod y wir groes yn gynnwys-

[1] Sef Elen, yr hon a gyfenwid felly. Tywysoges Brydeinig ydoedd.

Digitized by Google

edig o dri math o goed—cypreswydd, pinwydd, a chedrwydd; neu o bedwar math—cedrwydd, cypreswydd, palmwydd, ac olewydd:—

Quatuor ex lignis Domini crux dicitur esse;—
Pes crusis est cedrus; corpus tenet alta cupressus;
Palma manus retinet; titulo lætatur oliva.

Tybia Lipsius fod y groes wedi ei gwneuthur o bren derw, gan ei bod yn debygol y defnyddid y coed oedd fwyaf cyffredin, ac felly yn agosaf at law; ac yr oedd cyflawnder o dderw yn Iudea. Dywedir hefyd fod y creiriau yn tebygu i dderw.

Yn ol Ambrosius, yr oedd yr asdell a gynnwysai yr arysgrifen wedi ei gosod uwch ben croes ein Harglwydd: *Ioan* xix. 19, 20—*επὶ τοῦ σταυροῦ*. Cymharer *Mat.* xxvii. 37; *Marc* xv. 26; *Luc* xxiii. 38. Os felly, yr oedd y ffurf rywbeth yn debyg i hyn ☩. Oddi wrth y ffaith hon, gallesid dysgwyl hanes manylach gan y sawl y dywedir iddynt gaffael y groes. Gellid casglu oddi wrth iaith yr ysgrifenwyr ysgrythyrol mai ar groes yr Iesu yn unig y gosodwyd arysgrifen; ac am hyny, na fuasai raid i synwyr dynol fod mewn cymmaint o ammheuaeth yn nghylch y wir groes ag y dengys yr hanes ei fod. Etallai y tybid fod achos am dystiolaeth ddwyfol oddi ar ystyriaethau ereill heb law amwysedd yr amgylchiad. Ond gwaith Helena yn rhanu y groes fel y crybwyllwyd, a'r adraniadau o honi ar ol hyny, a'i gwnaeth yn annichonadwy i benderfynu yn foddhaol, nid yn unig ai hono oedd y wir groes, ond hefyd o ba fath goed ac o ba ddull yr oedd ei gwneuthuriad. Hyn yn unig gan hyny a ellir ei benderfynu am groes ein Iachawdwr, mai y ffurf mwyaf cyffredin oedd y gywir-groes (*crux immissa*, neu *crux capitata*); a dyna y ffurf a geir fynychaf ar fathau, ac yn yr hyn a elwir *monogram* (=llythyr-gwlwm; *h.y.*, amryw lythyrenau wedi eu cymhlethu yn yr un nod).

Llawer o amser a thrafferth a dreuliwyd i ddadleu pa un ai tair ai pedair o hoelion a ddefnyddiwyd yn nghroeshoeliad ein Harglwydd. Haera Nonnus mai tair yn unig a ddefnyddiwyd, yn yr hyn y dilynir ef gan Gregory Nazianzen. Y gred fwyaf cyffredin yw, mai pedair oeddynt; ac attegir y dyb hon yn faith iawn, a thrwy resymau cywrain, gan Curtius, mynach o urdd St. Awstin, yr hwn a ysgrifenodd draethawd *De Clavis Dominicis*, yn nechreu yr ail canrif ar bymtheg. Y mae ereill wedi gwneyd nifer yr hoelion mor uchel a phedair ar ddeg. O'r pedair hoelion hyny, dywedir i'r ymherodres Helena daflu un i Fôr Adria, pan oedd yn ymderfysgu yn ffrochwyllt—a bu tawelwch mawr yn y fan. Dywedir i Cystenyn roddi yr ail, naill ai yn ei helm neu yn ei goron. Cafwyd yr hoel hon, pa fodd bynag, ar ol hyny, mewn cyflwr drylliedig yn Eglwys Sta. Croce. Y mae trydedd hoel yn y Duomo, yn Milan; yr hon, fel yr haera Eutropius, a yrwyd trwy un o ddwylaw yr Iesu, ac a ddefnyddiodd Cystenyn fel genfa, gan fwriadu drwy hyny, wirio prophwydoliaeth Zechariah (*pen.* xiv. 20): "Y dydd hwnw y bydd ar ffrwynau y meirch, Sancteiddrwydd i'r Arglwydd." Yn Treves y mae y bedwaredd hoel, yr hon y dywedir a yrwyd trwy droed deheu y dyoddefydd. Y rhai a fyntumiant fod nifer yr hoelion yn fwy na phedair, nid ydynt yn cyfarfod â dim anhawsdra i gael cynnifer o hoelion ag y byddo eu tybiau yn eu gofyn, a chynnifer o leoedd cyssegredig i'w cadw yn ddiogel.

Bu dadl gynhyrfus arall yn mherthynas i'r *hypopodium*, neu asdell i gynnal y traed—A oedd, ai nad oedd yn arferedig? Y mae Gregory o Tours, yr hwn a welodd y wir groes dybiedig, yn cadarnhau fod troedlath o'r fath yn perthynu iddi; ond y mae ei haeriad wedi cael ei ammheu. Y mae petrusder, pa fodd bynag, a allai dwylaw yn unig, heb ryw gynnaliaeth oddi tanodd, ddal pwys y corff; a thybia rhai y gosodid math o fainc, ar ba un, mewn rhyw fodd, yr eisteddai y dyoddefydd.

Y ddedfryd ar y troseddwr a gyhoeddid yn y geiriau—"Ti a gei fyned i'r groes." Diosgid ef o'i ddillad, oddi eithr ychydig yn nghylch ei lwynau; ac yn y cyflwr noeth hwn, curid ef, weithiau â gwiail, ond yn fynychaf â fflangellau. Yr oedd y fflangelliad hwn mor greulawn, fel y byddai lluaws yn trengu o dano. Cafodd yr Iachawdwr ei goroni â drain, a'i wneyd yn wrthddrych gwawd; ond ni byddai sarhâd o'r fath yma yn gyffredin yn dilyn croeshoeliad. Yn yr amgylchiad hwn, cyfodai oddi ar ysbryd trahäus y milwyr Rhufeinig: *Mat.* xxvii. 29; *Marc* xv. 17—19; *Ioan* xix. 2—5. I chwanegu ei ofid, gorfodid y troseddwr ei hun i ddwyn ei groes i'r dienyddle; ond poenydwyr y Gwaredwr, rhag iddo gael ei lethu dani o herwydd gwendid, a ddaliasant ddyn dyeithr, Simon o Cyrene, adnabyddus wedi hyny yn mhlith dysgyblion ein Harglwydd fel tad Alexander a Rufus, yr hwn a gymhellasant i ddwyn ei groes ar ei ol ef, gan nas gwnai neb o'i fodd gyffwrdd â chroesbren, gan mor arswydus ac adgas y cyfrifid hi: *Marc* xv. 21; *Luc* xxiii. 26. Y dienyddiad a gymmerai le ar fryn yn gyffredin, neu le amlwg ger llaw y brif-ffordd, ac allan o'r ddinas. Yn Ierusalem, bryn ydoedd, i'r gogledd-orllewin i'r ddinas. Weithiau, cyfodid y groes yn gyntaf, gan ei sadio mewn twll yn y ddaiar; yna, dyrchefid y dyoddefydd arni, gan ei hoelio wrthi gerfydd ei ddwylaw a'i draed. Brydiau ereill, hoelid y troseddwr wrth y groes cyn ei chyfodi, fel y byddai i'r ysgydwad wrth ei chodi beri y dirdyniadau mwyaf angerddol. Gadewid y croeshoeliedig felly yn nghrog hyd oni threngai, a'i gelain hefyd hyd nes y pydrai. Tra y byddai ynddo ddim arwydd bywyd, cedwid gwyliadwriaeth arno; ond gynted y gwelid ei fod wedi marw, gadewid ef; ac ni chleddid y corff heb ganiatâd penodol, a roddid weithiau gan yr ymherawdwr i ychydig iawn. Pa fodd bynag, fe wnaed eithriad i'r arferiad cyffredin gan y Rhufeinwyr ar ran yr Iuddewon, ar gyfrif *Deut.* xxi. 22, 23; ac felly, yn Iudea, byddai y rhai croeshoeliedig yn cael ei gladdu yr un dydd. Gan hyny, os na byddent yn debyg o farw cyn yr hwyr, byddai y dienyddwyr yn prysuro eu marwolaeth drwy gynneu tân dan y groes i'r dyben o'u mygu, neu ollwng arnynt fwystflod gwylltion, neu trwy dori eu hesgyrn ar y groes â gordd, megys ar eingion. Byddai yr Iuddewon, yn yr amser yr ydym yn son am dano—sef pan oeddynt dan lywodraeth y Rhufeiniaid—yn arfer rhoddi i'r troseddwr, cyn myned dan ei ddyoddefladau, fath o ddiod feddygol o win a myrr (*Diar.* xxxi. 6), i'r dyben o beri madrondod, er pylu y teimladau, a lliniaru arteithiau y dyoddefydd. Ond gwrthododd ein Iachawdwr y ddiod hon, am y rheswm amlwg ei fod ef yn dewis marw â galluoedd ei feddwl ganddo, yn dawel a digwmwl: *Mat.* xxvii. 34; *Marc* xv. 23. Dylid sylwi fod y ddiod yma, a gynnygiwyd fel y tybir o dosturi, yn wahanol i'r gwinegr a gynnygiwyd wedi hyny i'r Iachawdwr gan y milwyr Rhufeinig. Gwinegr a dwfr yn gymmysg ydoedd hono, a diod gyffredin y milwyr

Digitized by Google

yn y fyddin Rufeinig y pryd hyny; *Luc* xxiii. 36; *Ioan* xix. 29.

Croeshoeliad oedd, nid yn unig y gospedigaeth fwyaf gwaradwyddus, ond hefyd y fwyaf creulawn a phoenus. Y mae meddyg o'r Almaen, George Gottlieb Ritche, yn dangos echryslonrwydd y dyoddefiadau yn ei *Draethawd ar Groeshoeliad y Gwaredwr*. Yr oedd ystum y corff yn annaturiol—y breichiau wedi eu hestyn yn ol, ac yn mron yn anysgogadwy. Os gwneid y symmudiad lleiaf, byddai y teimladau arteithiol yn y dwylaw, y traed, a'r cefn, yn annysgrifiadwy, gan fod yr hoelion wedi eu trywanu trwy y dwylaw a'r traed, sydd yn llawn giau a gewynau, a chynnifer o archollion yn agored i'r awyr yn peri ennynfa ag oedd bob mynyd yn chwanegu llymder y dyoddefiadau. Yn y rhanau hyny o'r corff a fyddent ddirdynedig neu wasgedig, rhedai mwy o waed drwy y rhedweliau nag y gellid ei ddwyn yn ol trwy y gwythenau; ac felly, byddai cylchrediad naturiol y gwaed yn cael ei ddyrysu. Byddai llestri y gwaed yn y pen yn gorlenwi ac yn chwyddo, a hyny yn peri poen a chochni yn y gwyneb. A chan y byddai mwy o waed nag arferol yn cael ei daflu i'r cylla, yr oedd hyn hefyd yn tueddu i fwyhau y boen; gan mai dyna yr unig ran o'r corff y gallai y gwaed aros yn llonydd ynddo, ac y mae yn neilldiol agored i lygru. Y mae y dyrysweh yn gyffredinol yn holl ranau y corff, yn enwedig yn amgylchoedd y galon; a'r canlyniad yw, cyffro, ymdrech, ac ing mewnol, mwy annyoddefol nag angeu ei hun. Y mae yr ing yn cynnyddu yn raddol, a'r croeshoeliedig yn gyffredin yn alluog i fyw hyd y trydydd, ac weithiau hyd y seithfed dydd. Pan glywodd Pilat fod ein Iachawdwr wedi marw mor fuan, efe a ryfeddodd, ac a ymofynodd â'r canwriad am y gwirionedd o hyny: *Marc* xv. 44. Gwanwyd ei ystlys hefyd gan un o'r milwyr, i weled a oedd efe yn wir wedi marw, ai ynte wedi syrthio i lewyg; ond nid oedd dim arwydd bywyd yn ymddangos: *Ioan* xix. 31—37. Ein Prynwr, yn gwybod fod pob peth wedi ei orphen, a roddes i fyny yr ysbryd—nid o wendid, ond yn wirfoddol, a phryd y gallasai o ran nerth fyw yn hwy: *Ioan* x. 18; xix. 28, 30.

Nid oedd y groes mor fawr ac mor uchel ag ei dangosir mewn lluniau: yr oedd hyny, er ateb ei dyben, yn afreidiol. Anfynych y byddai yn uwch na deg troedfedd: felly, yr oedd yn hawdd i'r milwr gyrhaedd genau y Gwaredwr â chorsen isop: *Mat.* xxvii. 48.

ARWYDD AC ADDOLIAD Y GROES.

Defnyddid y groes fel arwyddlun cyssegredig yn mysg amryw hen genedloedd, cyn y cyfrif Cristionogol. Y mae croesydd i'w cael ar luaws o fathodau a chofgolofnau henafol, wedi eu gosod yn nwylaw delwau buddugoliaeth, a lluniau ymherawdwyr. Gosodid hi hefyd ar belen, yr hon, er dyddiau Augustus, oedd arwydd ymherodraeth y byd, a delw buddugoliaeth. Yr oedd y tarianau, y llurigau, yr helmau, a'r cap ymherodrol, wedi eu haddurno oll felly. Y mae y groes yn awr yn arwyddlun Cristionogol cyffredinol, yn cael ei ddefnyddio ar arfogaeth a banerau y milwyr, gwisgoedd yr offeiriaid, ac yn herodraeth y pendefigion. Y mae ffurf yr eglwysydd cadeiriol, a chynllun eu palmantau, yn fynych, yn arddangos y groes; yr hon hefyd a gerfir ac a ddyrchefir ar feddau a beddrodau. Mewn trefn i ddeall arwydd y groes yn mhlith y Cristionogion cyntaf, dylid cofio fod y groes yn eu dyddiau hwy yn offeryn cospedigaeth waradwyddus, yn gyffelyb i'r crogbren yn bresennol; a'u bod yn cymmeryd yr arwydd hwn i ddangos fel yr oeddynt yn ymogoneddu mewn bod yn ddilynwyr i Grist, er maint y gwarth a geisid ei fwrw arno yn null ei ddienyddiad. Wedi i wir ysbryd Cristionogaeth ddirywio, ymdaenodd yr ofergoeledd hwn yn gyflym. Gellir olrhain yr arfer o wneyd arwydd y groes, er cof am yr Iesu, hyd y trydydd canrif. Mynodd Cystenyn Fawr gyfodi croesydd mewn lleoedd cyhoeddus, mewn palasau ac eglwysydd. Yr oedd yn arferiad, yn ei amser ef, i baentio llun y groes wrth gynteddfa tŷ, i ddangos ei fod yn perthynu i Gristion. Wedi hyny, byddai yr eglwysydd, gan mwyaf, yn cael eu hadeiladu ar ffurf croes. Ond ni ddaeth yn wrthddrych addoliad hyd nes y darganfyddwyd y groes gan Helena, fel yr adroddwyd uchod, yr hyn oedd dechreuad Gŵyl Caffael y Groes, a ddathlir gan yr Eglwys Babaidd ar y 3ydd o fis Mai. A phan adennillodd yr ymherawdwr Heraclius y darn o'r groes hono a syrthiasai i ddwylaw y Persiaid, sefydlwyd Gŵyl Dyrchafael y Groes, neu, fel ei gelwir yn gyffredin, Gŵyl y Grög, yn goffadwriaeth o adferiad y groes i Ierusalem, a'i chyfodiad ar Galfaria. Cedwir yr ŵyl hon ar y 14eg o fis Medi. Cynnyddodd y goelgrefydd hon yn ddirfawr, gan fod lluaws aneirif o eglwysydd yn meddu rhyw ranau o'r wir groes, fel y nodwyd o'r blaen, a bod gwyrthiau rhyfeddol yn cael eu gwneuthur drwy y creiriau hyn. Yn ofer yr ymdrechai yr Iconoclastiaid, a safent yn erbyn addoli delwau, yn eu cais i ddymchwelyd addoliad y groes, yr hon a gyfrifid yn brif wrthddrych addoliad; a rhoddid y flaenoriaeth iddi ar ddelwau y seintiau. Yn y seithfed canrif, yr oedd yn cael ei haddoli yn holl eglwysydd y dwyrain. Yn y gorllewin, hefyd, priodolid i'r arwydd hwn allu cyfriniol, fel y gwelir yn amlwg oddi wrth y defnydd a wneid o hono pan roddid rhai i'w prawf "wrth farn Duw" yn y canoloesoedd. Nid rhyfedd, gan hyny, fod ysgrifenwyr Cristionogol, hen a diweddar, wedi ymollwng i raddau pell i lefaru yn gyfriniol a dychymygol ar y testyn hwn. Dywed Justin Ferthyr: "Y mae arwydd y groes wedi ei argraffu ar holl anian. Nid oes braidd grefftwr nad yw yn defnyddio ei llun yn mysg offer llafur. Y mae yn gwneyd rhan o ddyn ei hun, fel y gwelir pan godo ei ddwylaw mewn gweddi." Yr un ffunud y dywed Minutius Felix: "Y mae anian ei hun wedi ffurfio y llun hwn erddom ni. Y mae genym groes naturiol ar bob llong pan y lledo ei hwyliau, ar bob iau a wna dyn, a phan yr estyno ei freichiau mewn gweddi. Fel hyn y mae y groes i'w chael yn nhreftniadau natur, ac yn mysg y cenedloedd." Ac awdwr *Y Flwyddyn Eglwysig* [td. 118], yn ein dyddiau ni, a ganodd fel hyn:—

"Ymffrostia f'enaid drwy fy oes,
Yn Sanctaidd Groes fy Arglwydd;
Wrth gofio am y Groes ei hun,
'Rwy 'n hoff o'i llun a'i harwydd.

Er mwyn i'm ffydd gael cysur mawr
O'i gwel'd bob awr o'm bywyd,
Argraffodd Duw ei delw hur
Ar natur a chelfyddyd."

Gwna y Puseyaid oll sylw mawr o honi.

Yn y gwledydd Pabaidd, tybia llawer o bobl fod gwneyd arwydd y groes yn amddiffyniad rhag ysbrydion a dylanwadau drwg. Yn gyffelyb y gwnai ein hynafiaid yn Nghymru, pan yr arferid y gair "ymgroesi." "Croes Duw rhagddo!" a ddywedent am ryw anfad ysgelerder.

Digitized by Google

"Arfer rhai wrth godi 'r boreu
Yw troi bys o gylch eu trwynau,
I geisio croes Duw 'r Mab i'w cadw
Rhag pob drwg y dwthwn hwnw.

Nid yw Duw yn erchi gwneuthur
Unrhyw groes yn yr Ysgrythyr;
Nid yw 'n addaw y caiff hyny
Wared undyn rhag drygioni."
Carolau a Dyriau Duwiol.—1686.

Y mae y Groegiaid yn gwneyd yr arwydd hwn yn wastadol; braidd y cymmerant wydraid o *raky* heb wneyd arwydd y groes uwch ei ben. Yn Rwssia, nid yw y bobl gyffredin yn cyflawnu un weithred ddrygionus, heb ymgroesi yn gyntaf. Y mae yr esgobion Pabaidd, archesgobion, abadau, ac abadesau, yn gwisgo croes fechan o aur; a'r ddefod o fendithio yn gyffredin a gyflawnir drwy wneyd arwydd y groes uwch ben y gwrthddrych. Ar y Cyfandir, y mae creiriau yn cael eu harddangos eto i "ffyddloniaid ufudd," fel y gwelir wrth yr hysbysiad canlynol:—"Y mae periglor St. Roch wedi cael darn bychan o'r groes sanctaidd, a rhoddir cyflawn faddeuant i'r holl blwyfolion; ac yfory, fe ei dangosir ar gyhoedd i barchedigaeth ac addoliad yr holl wir gredinwyr."

Pan y bradychwyd y Tywysog Dafydd ap Gruffydd i ddwylaw Edward I, ac y traddodwyd ef a'i deulu yn garcharorion i gastell Rhuddlan, tafwyd yn ei feddiant grair a elwid *croes naid* (*h. y.*, croes nawdd, medd y Dr. Davies); a thybid ei fod yn rhan o'r wir groes, a ddygid o Palestina i Gymru, gan St. Neots. Perchid y crair hwn yn fawr gan dywysogion Cymru, ac arferid ei ddwyn o'u blaen mewn gorymdeithiau arbenig. Cafodd ei gyflwyno i'r brenin, yn nghyd â chreiriau ereill—coron y brenin Arthur, a llawer o dlysau gwerthfawr—gan ysgrifenydd y tywysog—un o'r penaethiaid a'i bradychasai. Oddi wrth y crair hwn y daeth y gair *croes naid* i gael ei arfer gan y beirdd am rywbeth tra gwerthfawr. Felly Lewis Môn, yn anerch Gwilym Fychan, a ddywed—

"Mal croes naid rhaid dy fawrhau,
Mae 'n gwŷr ereill, mân greiriau."

Arferent hefyd dyngu iddi; megys—"Mŷn croes naid."

Yn ngweinyddiad yr ordinhâd o fedydd, dechreuwyd yr arferiad o wneuthur arwydd y grog ar dalcen y bedyddiedig mewn oes foreuol, er nad yw yn cael ei gosod drwy un gorchymyn, nac yn cael ei awdurdodi drwy un esampl yn yr Ysgrythyr. Yr ysgrifenydd Cristionogol cyntaf sydd yn son am dani mewn cyssylltiad â bedydd, yw Tertullian, yr hwn a ysgrifenodd yn y rhan olaf o'r ail canrif. Mor athrist yw effeithiau ofergoeledd dynol!—(*Kitto's Cycl. of Bib. Lit.; Rel. Encycl.; Penny Cycl.; Hend. Buck; Warington's Hist. of Wales; Gwaith Lewis Glyn Cothi, &c.*)

CROESGAD, CRWYSGAWD, &c. Anturiaeth filwraidd, yn dal perthynas â Rhyfeloedd y Groes. Parhaodd yr ymrysonau hyn rhwng y Cristionogion a'r Mahometiaid dros yr ysbaid maith o ddau can mlynedd, ac aberthwyd miloedd o fywydau o'r ddwy ochr; ac er bod ymgais y croesgadwyr yn un cyfiawn ar y cyntaf, yr anffyddwyr, neu ganlynwyr Mahomet, a orfuant yn y diwedd. Gan fod y croesgadau i'w cyfrif yn mysg y dygwyddiadau hynotaf yn hanes y byd Cristionogol, rhoddwn ddysgrifiad o'r saith prif croesgad.

Cyhyd ag y parhaodd caliphiaid Bagdad, a Fatemides yr Aipht ar eu hol hwynt, i berchenogi Gwlad Canaan, ni roddwyd un attalfa ar y Cristionogion yn nghyflawniad eu defod o ymweled, ar amserau penodol, â beddrod Crist, a'r lleoedd cyssylltiedig â hanesiaeth gyssegredig, mewn cydffurfiad â syniad crefyddol yr oes. Yn wir, anfonodd y caliph Harun-al-Rashid agoriadau y beddrod sanctaidd, fel anrheg i'r ymherawdwr Charlemagne. Tua'r amser hwn yr oedd nifer y pererinion yn fwy nag erioed, o herwydd y dyb gyffredin fod y mil blyneddoedd, a grybwyllir yn *Dad.* xxi, ar ddechreu, a bod Grist ei hun yn dyfod i farnu yr holl genedloedd yn nyffryn Iehosaphat. Ac yr oedd y pererinion hyn, o bob cwr o Ewrop, yn myned i Ierusalem gyda'r gobaith ei fod yn beth dichonadwy y cyfarfyddent â'r Arglwydd ei hun yno.

Ond wedi i'r Tyrciaid oresgyn y wlad, rhoddodd llettygarwch a charedigrwydd yr Arabiaid le i daiogrwydd a chreulondeb y sefydlwyr newydd; ac ymddygwyd yn y dull mwyaf sarhäus ac anghyfiawn tuag at y pererinion Cristiônogol. Ac yn lle dychwelyd i'w cartrefi, wedi eu llwytho â chreiriau sanctaidd, ni ddygent ddim yn ol ond chwedlau galarus a thorcalonus am y sarhâd a'r trais a ddyoddefasant oddi ar ddwylaw yr anffyddwyr; a'u cwynion a ddadseinient trwy holl Ewrop. Mewn canlyniad i hyn, dechreuodd y pab Sylvester II, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1003, bregethu croesgad yn erbyn Tyrciaid Seljuk, er cael meddiant o'r beddrod sanctaidd. Tua thrigain mlynedd wedi hyn, pan na ddychwelodd ond dwy fil i'r Almaen allan o saith mil a anfonasid gan eu hesgobion ar bererindod i Wlad Canaan, tra yr oedd Ierusalem yn nwylaw y penaeth Tyrcaidd, Ortok, bu hyn yn fraw i holl Gred. Yr oedd goresgyniadau y Mahometiaid yn y dwyrain a'r gorllewin, a'u hymgais i sefydlu gau grefydd drwy rym y cleddyf, yn peri i lawer ofni y byddai iddynt lwyr ddiddymu Cristionogaeth, oni wrthsefid hwynt gyda'r penderfyniad mwyaf diysgog a'r ymdrechiadau mwyaf egniol a gwrolfrydig.

Ond yr hwn a fu yn fodôion i restru y miliynau dan "faner y groes" oedd Pedr y Meudwy (*Peter the Hermit*), yr hwn a anwyd yn Amiens tua chanol yr unfed canrif ar ddeg. Rhoddodd i fyny y broffes filwraidd, a throes yn feudwy: ac yn y cymmeriad hwn aeth ar bererindod i'r Tir Sanctaidd, neu Wlad Canaan, tua'r flwyddyn 1093. Y sarhâd a gynnygid iddo ef ei hun a'i gydbererinion Cristionogol a ennynodd ei ddigofaint, ac a ddeffroes ei ysbryd milwraidd i gynllunio dinystr yr anffyddwyr; ac aeth at Simeon, patriarch Ierusalem, i ofyn a oedd dim modd cael gwaredigaeth oddi wrth y fath ddrygau tost. Atebodd y patriarch, "Y mae ein pechodau mor fawr fel na wrendy Duw ein gweddiau. Nid ydym eto wedi cael ein cospi ddigon; ond byddai genym ryw obaith pe byddai i'ch pobl chwi, y rhai sydd yn addoli Duw mewn gwirionedd, ac y mae eu nerth yn para yn ei rym, ac yn arswyd i'n gelynion, ddyfod i'n cynnorthwy, neu o leiaf ddyfod i weddio ar Iesu Grist drosom ni; o blegid nid ydym yn dysgwyl dim yn rhagor oddi wrth y Groegiaid, er eu bod yn agos wrth law, ac yn gyssylltiedig â ni, ac yn meddu digon o olud. Prin y gallant amddiffyn eu hunain: ac o fewn ychydig flyneddoedd, y maent wedi colli hanner eu hymherodraeth." Erfyniai Pedr ar i'r patriarch anfon llythyrau yn ebrwydd at y pab, a holl freninoedd y gorllewin, yn dysgrifio yr erlidigaethau yr oedd y Cristionogion yn eu

Digitized by Google

dyoddef, a chynnygiodd eu cario i bob cwr o Ewrop. Cydsyniwyd yn ddigon parod â'i gais, a chychwynodd yntau ar ei genadwriaeth. Daeth i Bari, yn Apulia, ac aeth rhagddo i Rufain, a chyflwynodd lythyr y patriarch Simeon i'r pab Urban II., yr hwn a'i derbyniodd yn groesawus, ac a addawodd gefnogi ei amcan pan ddelai yr amser cyfaddas. Aeth y Meudwy yn mlaen; tramwyodd trwy holl Italy, croesodd yr Alps, a theithiodd trwy amrywiol wledydd Ewrop, gan gyfarch yr holl benau coronog, a chynghori y bobl yn mhob man i ymuno i ryddhau y Tir Sanctaidd, ac i achub beddrod yr Iachawdwr o ddwylaw anffyddwyr halogedig.

Y CROESGAD CYNTAF.

Yn 1095, galwodd y pab yn nghyd gymmanfa fawr o esgobion, yr hon a gyfarfu yn Piacenza yn Mawrth—ac wedi hyny, drwy ohiriad, yn Clarmont, yn Tachwedd—pan oedd cenadwr ymherawdwr Caer Cystenyn, a llawer o arglwyddi a phendefigion galluog, yn wyddfodol. Gan na cheid un adeilad digon eang i gynnal y gymmanfa, cyfarfu ar wastadedd. Ac wedi penderfynu ar lawer o ddiwygiadau yn nysgyblaeth yr eglwys—yn mhlith pethau ereill, fod i'r bobl oll gael dwy elfen y sacrament, sef y gwin yn gystal a'r bara—cyfarchodd y pab y gymmanfa yn y geiriau canlynol:—"Chwychwi a wyddoch, frodyr, fod Gwaredwr y byd wedi anrhydeddu â'i bresennoldeb y tir hwnw a addawsai efe i'r tadau gynt; ei fod yn galw y tir hwnw megys ei etifeddiaeth, ac yn ei hoffi mewn modd arbenig; ac er ei fod wedi ei draddodi dros dro i ddwylaw y rhai digred, o herwydd pechodau ei drigolion, ni ddylem feddwl ei fod wedi ei lwyr wrthod. Er ys llawer o flyneddoedd, y mae cenedl annuwiol y Saraceniaid wedi bod yn gorthrymu yn dost yn y lleoedd sanctaidd. Y maent wedi darostwng y credinwyr i gyflwr caethweision, ac wedi eu gorlethu â threthi a chamwri. Y maent yn cipio eu plant oddi arnynt, ac yn eu gorfodi i wrthgilio oddi wrth y ffydd; ac os gommeddant, y maent yn eu rhoddi i farwolaeth. Y mae teml Dduw wedi myned yn lloches cythreuliaid; y mae eglwys y beddrod sanctaidd wedi ei halogi drwy eu haflendid; a lleoedd cyssegredig ereill wedi eu troi yn ystablau ceffylau. Nid oes neb yn ddiogel yno; yr offeiriaid a'r diaconiaid a leddir, a'r gwragedd a anmherchir yn gywilyddus o fewn y cyssegr. Ymarfogwch, gan hyny, fy mhlant anwyl, gyda sel Duw; ewch allan i gynnorthwyo eich brodyr, a bydded yr Arglwydd gyda chwi. Trowch yn erbyn gelynion Cristionogaeth yr arfau yr ydych yn awr yn eu codi yn anghyflawn yn erbyn eich gilydd. Gwnewch gymmod drwy y gwasanaeth hwn, sydd gymmeradwy gan Dduw, am yr ysbeiliadau, a'r llosgiadau, y dynladdiadau, a'r ysgelerderau hyny sydd yn cau allan o'i deyrnas ef, fel y gellwch gael maddeuant ebrwydd. Yr ydym yn eich cynghori ac yn eich tynghedu, er maddeuant eich pechodau, i chwi gymmeryd tosturi ar ein brodyr yn ac o amgylch Ierusalem, a darostwng traha yr anghredinwyr, y rhai a ddymunant oresgyn yr holl deyrnasoedd a'r ymherodraethau, ac a fwriadant ddileu enw Cristionogaeth o'r byd; onid e y mae lle i ofni y difodir y ffydd yn fuan o'r gwledydd hyny. Y mae llawer o honoch wedi bod yn dystion personol o'r erlidigaeth sydd yn ffynu yno; ac ni a wybuasom hyn hefyd trwy y llythyr hwn, yr hwn a ddygodd yr hybarch Pedr y Meudwy, yr hwn sydd yma yn wyddfodol, i ni. O'n rhan ein hun, yr ydym, gan ymddiried yn nhrugaredd Duw ac awdurdod St. Pedr yr apostol, yn maddeu i'r rhai a gymmerant arfau yn erbyn anffyddwyr yr holl benydiau dirfawr hyny sydd ddyledus am eu pechodau. Ac ni ddylai y rhai a f'ont feirw yn wir edifeiriol ammheu na dderbyniant faddeuant o'u pechodau, a gwobr dragwyddol. Yr ydym yn cymmeryd o dan nawdd yr eglwys, a'r apostolion St. Pedr a St. Paul, y cyfryw rai ag a gymmerant ran yn yr anturiaeth hon, ac yn gorchymyn fod i'w personau a'u heiddo fod mewn perffaith ddiogelwch." Yr araeth gynhyrfiol hon, yn mha un y gwelwn wirionedd a chyfeiliornad, brawdgarwch a chamsyniad, wedi eu cymmysgu yn rhyfedd, a daniodd galonau yr holl dorf gynnulledig, a gwaeddent âg un llef, "Ewyllys yr Arglwydd yw hyn." A phenderfynwyd ar unwaith wneyd croesgad, neu ymgyrch milwraidd, dan faner y groes. Cyhoeddwyd y rhyfel sanctaidd, a phenodwyd y 15fed dydd o Awst, y flwyddyn ganlynol, i'r groesgad gychwyn allan; a pha le bynag y gwelid y faner wen a'r groes goch arni, yno yr ymrestrai y lluoedd: gwisgent hefyd lun croes goch ar eu dwyfron neu eu hysgwyddau, gan gredu, yn gamsyniol ond yn gadarn, fod Crist ei hun yn eu galw i gymmeryd arfau yn ebrwydd, a myned ar ymdaith filwraidd, i achub y lleoedd sanctaidd o feddiant y gau brophwyd a'i ganlynwyr, ac i waredu eu brodyr yn y dwyrain o gadwynau caethiwed. Credent hefyd y byddai gwobr y ffyddloniaid a'r duwiolion a ymladdent dan faner y groes yn fawr yn y nef, ac y cai pob un a syrthiai yn y rhyfel hwn, er cymmaint pechadur a fuasai o'r blaen, ei dderbyn ar unwaith i wynfyd tragwyddol, heb y boen o fyned yn gyntaf drwy wres y purdan. Penodwyd Adhemar, esgob Puy, a Raymond, iarll Toulouse, yn arweinwyr y groesgad. Ymledodd fflam y penboethder rhyfedd hwn dros holl Ewrop: a'r flwyddyn ganlynol, nid oedd dim llai nag wyth gant o filoedd wedi ymrestru dan faner y groes, ac ar eu hymdaith trwy Gaer Cystenyn i Wlad Canaan. Arweiniodd Pedr y Meudwy, Walter Habenichts, y Count Emiko o Leiningen, a'r offeiriad Gottschalk, y rhai nid oedd ganddynt amynedd i aros hyd yr amser penodedig, hefyd dorf fawr ddiddysgyblaeth—tua chan mil o wŷr, heb law gwragedd a phlant heb rif—drwy Hungaria a Thracia: ond o blegid eu hafreolaeth, cododd trigolion y gwledydd hyny arfau yn eu herbyn; torwyd tua dwy ran o dair o honynt ymaith yn Hungary, a llwyr ddifrodwyd y gweddill yn Nicaia, yn Asia Leiaf.

Ond ar led-ol y fyddin anffodus hon, daeth y prif lu, yn gannoedd o filoedd, a sel pob un o honynt yn fwy awchlym na min ei gleddyf. Tywysid hwynt gan farchogion a rhyfelwyr dewraf yr oes; megys, Godefroy, o Bouillon; duc Lorraine Isaf, a Baldwin ei frawd; Hugo Fawr, brawd brenin Ffrainc; Robert, duc Normandy, mab William y Concwerwr; Raymond, o St. Giles; duc Toulouse; a Bohemond, tywysog Tarentum. Y cyhoeddiad o faddeuant cyffredinol, a rhyddhâd oddi wrth bob penydiau eglwysig yn y byd hwn a'r nesaf—a'r ffurflywodraeth farwnaidd oedd yn bod y pryd hyny, ac yn rhwymo y gweision a'r tir-ddeiliaid i ddilyn tueddiad eu harglwyddi, ac ymladd eu brwydrau—ond yn benaf, sel grefyddol, a gasglodd y fyddin fawr hon yn nghyd, er fod rhai dynion o ddyben gwaelach yn eu mysg, y rhai na phetrusent ymladd am ysbail, neu ddyrchafiad milwraidd, hyd yn oed dan faner y groes. Ond ychydig oedd nifer

Digitized by Google

y rhai hyn mewn cymhariaeth i'r lluoedd a dybient eu bod yn gwneyd gwasanaeth i Dduw. Llaweroedd o fenywod a gelent eu rhyw dan arfogaeth filwraidd, ac a ymrestrent gyda'r croesgad. Yr oedd holl offeiriaid Cred, o'r pab coronog hyd at y mynach troednoeth cardotol, yn pregethu y groesgad gyda'r holl hyawdledd a'r sel a feddent; a mawr oedd penboethni eu gwrandawyr. Ymdeithiai minteioedd mawrion yn arfog tua Chaer Cystenyn fel eu cyfarfyddle cyffredinol.

Bu y pab yn ddigon gofalus i gael gan holl arweinwyr y croesgad, cyn cychwyn, ei gydnabod ef yn ben ar yr holl diroedd y bwriadent eu goresgyn.

Bu canlyniadau pwysig, dros amser, i'r rhyfelgyrch hwn. Wedi croesi y môr, cymmerodd y croesgadwyr feddiant o Nicaia yn Asia Leiaf, Laodicea, ac Antiochia yn Syria; gwnaed Bohemond yn dywysog Antiochia, a Baldwyn yn benaeth Edessa. Cyfododd tywysogaethau Cristionogol newyddion hefyd yn Tyrus a Sidon, Tripolis, a manau ereill ar gyffiniau Palestina. Yn y cyfamser, collodd y Tyrciaid feddiant o Ierusalem, o blegid cymmerodd y caliph Mostaali hi oddi ar olynwr Ortok, yn y flwyddyn 1086, gan ei hail uno â chaliphaeth yr Aipht. Ni bu i'r cyfnewidiad hwn ar bethau, modd bynag, attal y croesgadwyr yn eu hymdaith fuddugoliaethus; ond aethant rhagddynt gydâ'u byddin ddetholedig o driugain mil o wŷr, a gwarchaeasant ar Ierusalem. Gwersyllasant o flaen y ddinas sanctaidd ar y 7fed dydd o Fedi, 1099, ac a'i cymmerasant ar y 15fed o'r un mis; ac hwyrach na ddangosodd ofergoeledd crefyddol erioed ei hun mewn lliwiau cryfach nag yn helyntion y croesgadau. Nid yn unig rhoddwyd gwarchodlu Ierusalem i fin y cleddyf, ond cigyddiwyd y trigolion yn y dull mwyaf barbaraidd ac annynol, heb dalu sylw i ryw, oedran, na sefyllfa. Yr oedd llawer o wragedd wedi ymguddio gyda'u plant mewn ogofäau:—cafwyd hyd i'r rhai hyn trwy fradwriaeth, ac ni adawyd enaid o honynt yn fyw. Yna, y gorchfygwyr, gan wneyd eu ffordd dros bentyrau cyrff y lladdedigion, gyda defosiwn mawr, a nesasant at feddrod y Gwaredwr, lle y toddodd eu cynddaredd yn foddfa o ddagrau. Yr oedd eu drygioni a'u hynfydrwydd yn erchyll a gresynus. Fel hyn, cymmerasant Ierusalem, ac a'i cadwasant, yn nghyd â'u holl oresgyniadau blaenorol yn mrwydr fawr Ascalon, yn yr hon y trechasant allu unedig yr Aiphtiaid a'r Saraceniaid dwyreiniol. Dywedir i ddeng mil a thrigain gael eu lladd o fewn y dref oresgynedig, ac i'r Iuddewon gael eu llosgi yn fyw yn eu synagogau.

Ffrwyth y croesgad cyntaf oedd sylfaenu breniniaeth Ierusalem. Etholwyd Godefroy o Bouillon yn frenin Ierusalem, gyda thiriogaeth helaeth i'w chanlyn. Sefydlwyd ffurflywodraeth y deyrnas newydd drwy ddeddf a elwid "*Les Assises de Jerusalem.*" Ond bu Godefroy farw yn mhen blwyddyn wedi ei orseddu; a'i olynwr oedd Baldwin ei frawd. Dyma restr breninllin Cristionogol Ierusalem:—

	B. A.
Godefroy	1099
Baldwin I.	1100
Baldwin II.	1118
Fulk	1131
Baldwin III.	1148
Almeric	1162
Baldwin IV.	1173
Baldwin V.	1186

Ni theyrnasodd Guido ond hyd y flwyddyn 1187, pan roddodd Saladin derfyn ar y deyrnas Gristionogol, yr hon ni pharhaodd ond saith mlynedd a phedwar ugain; ac yn ystod yr amser hwnw, yr oedd y penaduriaid Cristionogol, gyda dim mwy na 12,000 o filwyr rheolaidd, yn gorfod ymdrechu yn erbyn dau elyn cadarn—galluoedd y Tyrciaid a chaliphiaid yr Aipht.

Y croesgad cyntaf a ddygodd i fodoliaeth ddwy urdd filwraidd crefyddol: urdd Marchogion Ierusalem, neu Farchogion Caersalem, yr hon a sylfaenwyd gan Baldwin I.; ac urdd y Marchogion Temlaidd (*y Knights Templars*), yr hon a sefydlwyd drwy ymdrech unedig Hugo de Payens, Godfrey o St. Adhemar, a saith o farchogion ereill.

Gwelir mai effaith y croesgad hwn oedd, sefydlu awdurdod y Ffrancod yn Ngwlad Canaan; ac mor sigledig oedd gorseddfainc breninoedd Cristionogol Ierusalem, ac yr eisteddai eu coronau croesog ar eu penau, er eu holl ddewrder a'u medrusrwydd milwraidd. Hyn a'n harwain at

YR AIL CROESGAD.

Er i'r Ffrancod, fel y dangoswyd, estyn eu goresgyniadau oddi wrth odre mynyddoedd Armenia hyd gyffiniau yr Aipht, yr oedd eu nerth yn rhy egwan, dan lywodraeth Baldwin III., i rwystro Atabec Mosul i gymmeryd Edessa, yn 1114. Yr Atabeciaid oeddynt lywyddion breninllin y Seljukiaid. Un o'r Atabeciaid, o'r enw Emad-eddin Zenghi, wedi gwneyd ei hun yn annibynol, a adawodd ei deyrnas i'w fab Nureddin Fawr, yr hwn a sefydlodd ei breswylfod yn Aleppo, ac a ddaeth i fod yn arswyd i'r Cristionogion ac i galiph yr Aipht. Yn y cyfamser, syrthiodd breniniaeth yr Aipht i ddwylaw Selaheddin, neu Saladin Fawr, drwy yr amgylchiadau canlynol. I'r dyben o derfynu yr ymrafael mewn perthynas i'r olyniaeth i'r orsedd, anfonodd Nureddin genadwr o'r enw Shirkuh i'r Aipht. Y cymmodwr, neu athrywynwr, a gymmerodd, drwy ormes y llywodraeth arno ei hun, ac a'i gadawodd yn ei ewyllys i fab ei frawd Ayub, yr hwn ar farwolaeth yr olaf o'r Fatemidiaid, a eisteddodd ar orsedd y caliphiaid, ac a oresgynodd yr Aipht, dan yr esgus o'i darostwng i galiph Bagdad. Y mab hwn i Ayub oedd yr enwog Saladin, sylfaenwr breninllin yr Ayubidiaid. Wedi marw Nureddin, goresgynodd Saladin Asia Leiaf agos i gyd, heblaw Tripolis a Tunis, ac a ddinystriodd deyrnas Cristionogol Ierusalem.

Wedi i'r Mahometiaid oresgyn Edessa, cymmerodd Bernard o Clairvaux arno ei hun hen swydd Pedr y Meudwy, ac a aeth drwy y gwleddydd i bregethu ail groesgad; a'r canlyniad a fu, i ddau o'r tywysogion Cristionogol penaf, Conrad III., ymherawdwr yr Almaen, a Louis VII., brenin Ffrainc, gymmeryd y groes, yn y flwyddyn 1147. Y tro hwn, ymrestrodd mwy nag erioed o'r blaen dan faner y groes—dim llai na chant a deugain mil o farchogion, ac agos i fil o filoedd o wŷr traed; ond er mor ddirfawr oedd y llu hwn, methodd yr anturiaeth yn hollol. Yr oedd y cyfnewidiadau gwladyddol oeddynt wedi cymmeryd lle yn y dwyrain wedi codi gwrthwynebwyr newydd i'r croesgadwyr yn ymherawdwyr Caer Cystenyn, i ba rai yr oedd llywyddiaeth dangnefeddus y Tyrciaid yn Asia Leiaf a'r Aipht yn llai o arswyd na'r difrod a wneid gan fyddinoedd afreolus o groesgadwyr ar eu hymdeithion trwy eu tiriogaeth. Fel hyn y bu i frad a dichell yr ymherawdwr Groegaidd, Manuel Comnenus, agor llifddorau dinystr i ysgubo ymaith y byddinoedd

Digitized by Google

Cristionogol. Conrad, ymherawdwr yr Almaen, wedi cael ei dwyllo trwy fradwriaeth ei ysbiwyr, a gollodd flodau ei fyddin, blaenion ei nerth, yn mylchau a glynau cyfyngedig mynyddoedd Taurus: a bu agos i'r gweddill gael eu tori yn ddrylliau yn ngwarchaead amddiffynfa Iconium. Gorchfygwyd y byddinoedd Ffrengig gan Sultan Room, a difrodwyd hwynt o flaen Damascus, pan wnaeth y Cristionogion ymgais ofer i gymmeryd y ddinas hono drwy ruthr neu "ystormiad." Rywfodd neu gilydd, ymunodd gweddillion dinerth y ddwy fyddin fawr hon yn y flwyddyn 1149, ond hollol fethodd y croesgad hwn. Yr unig beth y gallwyd ei effeithio oedd, adgymmeriad Lisbon oddi ar y Mooriaid Mahometaidd, gan lynges y Cristionogion. Er hyny, ni roddodd Baldwin III. ei orsedd i fyny mewn anobaith; adgyfnerthid ei fyddin ar brydiau, drwy ymuniad mân finteioedd o groesgadwyr o Ewrop, a theimlodd Nureddin Fawr fwy nag unwaith rym y gwroniaid Cristionogol hyn. Ond y manteision hyn a droisant allan yn ddifudd, o herwydd anghyttundeb yn mysg y croesgadwyr eu hunain, a'r ymrysonau oedd rhwng y Temlyddion a Marchogion Ierusalem. Bu Baldwyn farw ar orseddfainge anesmwyth a chrynedig, a dilynwyd ef gan Almeric neu Amauri, yr hwn a ddilynwyd gan Baldwin IV.; yr hwn a fu farw pan oedd y freniniaeth Gristionogol hefyd ar drancedigaeth, yn fuan ar ol brwydr Ramla. Yn ofer y ceisiodd Guido o Lusignano osod ei ben dan y goron er attal ei chwymp, o blegid llwyr orthrechwyd ef gan Saladin Fawr yn mrwydr Tiberias. Cymmerwyd ef yn garcharor, gydag uchel-feistr y Temlyddion, yn nghyd â chryn nifer o farchogion dewr a phendefigaidd. Cymmerodd Saladin feddiant o'r lleoedd ennilledig yn Ngwlad Canaan, gyda Ierusalem ei hun a'i phentrefydd, a rhoddodd derfyn ar y freniniaeth Gristionogol; a gwelid y lloer gorniog Fahometaidd yn crogi lle y cyhwfanasai baner y groes am yn agos i gan mlynedd. Dygodd William, esgob Tyrus, y newydd drwg hwn i Rufain; a bu hyn yn gymmaint gofid i'r pab Urban IV, fel y bu farw yn anamserol.

Y TRYDYDD CROESGAD.

Yn ganlynol i hyn, gwysiwyd holl Ewrop i ymrestru y drydedd waith dan faner y groes, ond nid er cael rhyddid i ymweled â'r beddrod sanctaidd a'r lleoedd cyssegredig, o blegid yr oedd Saladin, fel goresgynwyr anrhydeddus a haelfrydig, wedi caniatau hyn eisoes, a gadael i'r carcharorion rhyfel ddychwelyd adref; a'r patriarch Heraclius, y gwŷr eglwysig, a llawer o'r marchogion, a ddychwelasant eilwaith i'w cartrefi, neu a ymgiliasant i'r ychydig drefydd a feddiannid eto gan y Cristionogion ar ororau Palestina. Ond dyben y croesgad hwn oedd adferu teyrnas syrthiedig Ierusalem; ac i hyn dechreuwyd pregethu y groes trwy holl Gred, hyd yn oed yn Nghymru. Canys yn y flwyddyn 1188, daeth Baldwin, archesgob Caergrawnt, gyda'r hen hanesydd Cymreig, a Giraldus Cambrensis, archddiacon Aberhonddu, yma i bregethu y croesgad, a bu cryn lwyddiant ar ei lafur; a darbwyllwyd nifer mawr o'r Cymry, a'r sefydlwyr Normanaidd a Flemynaidd a breswylient gyffiniau y Dywysogaeth, i gymmeryd arfau, fel yr ymddengys oddi wrth hanes eu taith drwy Gymru, gan Giraldus, dan yr enw *Itinerarium Cambriæ*. Yr archesgob a'i gydymaith Ranulph de Glanville, prif ustus Lloegr, a ddaethant i Henffordd, ac oddi yno i Faesyfed, lle y cyfarfuwyd hwynt gan yr enwog arglwydd Rhys o'r Deheubarth; ac yno traethwyd pregeth gan yr archesgob, yr hon a eglurhawyd yn Gymraeg gan gyfieithydd. Ar ol y bregeth, llawer a ddaethant yn mlaen i ymrestru dan faner y groes, ac yn eu mysg Einion Clud, tywysog Elfael, mab yn nghyfraith i'r arglwydd Rhys. Ac yr oedd Rhys ei hun wedi penderfynu myned gyda'r croesgad; ond perswadiodd ei wraig ef i aros gartref, wedi iddo fod bymtheg niwrnod yn parotoi ar gyfer ei bererindod; ac am ei anwadalwch, derbyniodd beth cerydd oddi wrth yr archesgob. Wedi hyn, aethant ddwy filltir yn y blaen, ac yno ymunodd Maelgwyn ab Cadwallon, tywysog Maelienydd, â'r rhestredigion *(recruits)*. Oddi yno aethant i'r Gelli, neu Hay, a rhagddynt i lys Llanddewi, ger llaw Aberhonddu, lle yr oedd trigfa Giraldus; oddi yno heibio Llanddewi Gronw, Nant Hinddu, drwy goed Goronwy, i Abergafenni, i Brynbya, lle yr ymddengys i'r archesgob bregethu yn hynod o effeithiol; a'i gyfieithydd Cymraeg, Alexander, archddiacon Bangor, efallai yn well; o blegid cymmerodd llawer iawn y groes yno. Oddi yno, aethant i Gaerlleon ar Wysg, a Chaerdydd; a'r bore dranoeth, pregethasant yn Llandaf—y Seison yn sefyll ar un ochr i'r pregethwr, a'r Cymry ar yr ochr arall; a llawer a gymmerasant "arwydd y groes." Darllenodd yr archesgob hefyd yr offeren yn eglwys gadeirol Llandaf. Teithiasant oddi yno ar hyd glanau y môr, drwy Abertawe a Chaerfyrddin i Hwlffordd, lle y bu llwyddiant mawr ar eu pregethiad. Oddi yno aethant rhag eu blaen i Dŷ Ddewi, lle y gweinyddodd yr archesgob wasanaeth yr offeren yn yr eglwys gadeiriol. Bellach, troisant eu gwynebau tua'r gogledd, gan gadw yn agos at oror y môr, a daethant i Aberteifi, lle y derbyniwyd hwy yn groesawus a pharchus i'r castell, gan yr arglwydd Rhys, yr hwn a'u hebryngodd trwy Geredigion hyd gyffiniau Gwynedd, at lan yr afon Dyfi. Yn Nhowyn Meirionydd, daeth Gruffydd ab Cynan, tywysog coronog Cymru, i'w cyfarfod. Yna aethant tua'r gogledd, dros y Traeth Mawr i Nefyn, lle y bu llwyddiant rhyfeddol ar bregethiad y "groes." Oddi yno aethant i Gaernarfon, ac i Fangor, lle y gweinyddodd yr archesgob yr offeren yn yr eglwys gadeiriol. Aethant dros y Borth i sir Fôn, a'r tywysog Rhodri ab Owen Gwynedd a ddaeth i'w cyfarfod, gydag agos holl drigolion Môn, a llawer o fanau ereill. Ond yr oedd rhai gwŷr ieuange dewisol o deulu Rhodri yn eistedd ar graig gyferbyn a'r pregethwr, ac ni ellid mewn modd yn y byd eu hargyhoeddi i ymuno â'r croesgad. Wrth fyned yn ol drwy Fangor, bu yr archesgob, er mwyn dial ei lid ar y Cymry hyn, yn euog o un o'r gweithredoedd mwyaf anghristionogol ac annynol; o blegid gorchymynodd dallu corff yr hen dywysog gwladgarol a gwrolwych, Owen Gwynedd, allan o'i fedd:—anghraifft nodedig o drااarglwyddiaeth a gormes eglwys Rhufain, o blegid nid oedd gan Baldwin un awdurdod gyfreithlawn yn Nghymru, mewn pethau gwladol nac eglwysig; ac yn wir, Eglwys Rhufain, trwy ei dichellion, a ddiddymodd annibyniaeth cenedl y Cymry, drwy eu hesgymuno, ac annog Edward I. a'i flaenoriaid i'w darostwng a'u difodi. O Fangor daeth cenadon y groes i Ruddlan, ac oddi yno i Lanelwy, lle y gweinyddodd yr archesgob wasanaeth yr offeren yn yr eglwys gadeiriol. Aethant ymaith yn ol i Loegr, gan gymmeryd Caerlleon a'r Amwythig yn eu taith. Yr unig un o dywysogion Cymry, yr hwn ni ddaeth i gyfarfod yr archesgob, oedd Owain Gyfeiliog; "am

Digitized by Google

hyny," medd Giraldus, "nyni a'i hesgymunasom ef." Yr oedd Owain yn ddyn gwybodus a chall iawn—yn rhy gyfrwys i annog ei denantiaid a'i wŷr i adael eu gwlad am fro estronol, i ymladd na wyddent am ba beth, a than flaenoriaid na wyddent pwy fyddent: ac am hyny yr esgymunodd yr archesgob ef.

Yr oedd brenin Lloegr yn gwneyd y darpariadau mwyaf ar gyfer y croesgad. Y mae yn amlwg ei fod yn cael ei dueddu yn fwy gan awydd am enwogrwydd milwraidd na chan ofergoeledd. Pa fodd bynag, er pan eisteddasai gyntaf ar yr orsedd, yr oedd wedi bod yn gweithredu fel pe buasai adferiad y Tir Sanctaidd, ac adgaffaeliad Ierusalem oddi ar y Saraceniaid, yn unig amcan ei lywodraeth. Y son am ei sel yn erbyn anghredinwyr a wrolodd y werin ragfarnllyd erlidgar i lunio y gyflafan a gymmerodd le ar ddydd ei goroniad, pryd yr ysbeiliwyd, y llofruddiwyd, neu y llosgwyd, gyda'u tai, gannoedd lawer o'r Iuddewon yn Llundain, Caerefrog, a manau ereill. Gwyddai Richard Galon Llew nad oedd gan Loegr ddim modd y pryd hyny i gynnal rhyfel o hir barhâd, hyd yn oed yn erbyn y Cymry neu yr Ysgotiaid ar y cyffiniau, llawer llai i anfon cynnorthwy i wledydd pell; ac am hyny y byddai raid iddo gludo ei drysorgell gydag ef. Gadawsai ei dad iddo tua chan mil o farciau:—swm cwbl annigonol i anturiaeth mor fawr. Arferodd Richard bob moddion teg ac annheg—gorthrymus ar ei ddeiliaid, a niweidiol i anrhydedd a pheryglus i awdurdod y goron—i chwanegu at ei drysorgell. Nis gellid cael digon trwy drethi trymion; ac am hyny, rhoddwyd cyllidau a thiroedd y goron ar werth: ie, gwerthid y swyddau a'r teitlau mwyaf pwysig i'r cynnygiwr uchaf. Y swydd bwysfawr o brif ustus Lloegr a werthwyd i Hugh, esgob Durham, am fil o farciau: ac felly cafodd y prelad arglwyddiaethgar hwnw holl weinyddiad y gyfraith i'w law ei hun. Prynodd yr un gŵr hefyd iarllaeth Northumberland am ei oes. Dygwyddodd yn ffodus hefyd i Richard, yr hwn oedd mewn mwy o angen am arian nag am wŷr, fod llawer o wroniaid y groes, wedi adystyried cyflwr pethau yn y dwyrain, a'r annoethineb o aberthu eu hunain, heb un tebygolrwydd y byddai hyny yn wir ennill i Gristionogaeth, yn edifarhau am wneyd y fath adduned, ac yn barod i brynu ymryddhâd oddi wrth ei chyflawniad, am unrhyw swm o fewn eu gallu, oddi ar law y brenin, i'r hwn yr oedd gobeithion am ogoniant milwraidd mor ddysglaer, fel yr oedd wedi myned yn ddall ar bob ystyriaeth; ac, yn ol ei addefiad ei hun, pe cawsai gynnyg da, buasai yn gwerthu Llundain ei hun i brynu Ierusalem â min ei gleddyf. Yn wir, gwerthodd yn ol i William, brenin Scotland, am y swm bychan o ddeng mil o farciau, warogaeth yr Alban, gydag amddiffynfeydd Roxborough a Berwick-on-Tweed, a'r holl fanteision a ennillasai ei dad oddi ar y wlad hono yn ystod ei deyrnasiad buddugoliaethus. Benthycodd hefyd, er y gwyddai nas gallai byth dalu yn ol, arian gan bob dyn y gwyddai ei fod yn eu perchen, naill ai trwy addewidion neu fygythion. Ond er bod ei sel yn erbyn anffyddwyr mor danllyd, yr oedd ei holl grefydd mewn *profiles* yn unig, ac nid mewn *ymarferiad*. Ac yn y dyddiau hyny, yr oedd un Foulk, curad Neuilly, pregethwr selog y croesgad; yr hwn, o herwydd ei fawr boblogrwydd, oedd wedi ennill hyfdra mawr i lefaru llawer caswir nas beiddiai un dyn arall eu hadrodd, i geryddu pechodau pendefigion a phenau coronog, Y gŵr hyf hwn a ddywedai wrth y brenin fod ganddo un cynghor i'w roddi iddo cyn ei gychwyn, sef bod iddo adael ei dair merch hoff ar ei ol—balchder, trachwant, a meluswedd. "Y mae dy gynghor yn un da," meddai y brenin ffraeth; "yr wyf yn eu rhoddi yn briod — y gyntaf, i'r Temlyddion; yr ail, i'r Benedictiaid; a'r drydedd i'm hesgobion."

Yr oedd amryw fyddinoedd o Italiaid, Groegiaid, a Germaniaid, wedi myned o flaen y prif lu, dan arweiniad Conrad, arglwydd Tyrus, a Guido, o Lusignano, ac wedi gwneyd ymosodiad aflwyddiannus ar Ptolemais, neu St. Jean d'Acre, fel y cawn sylwi eto.

Yr oedd yr ymherawdwr Frederic—tywysog o ysbryd a medr mawr, yn gystal a phrofiad—eisoes ar ei ffordd i Wlad Canaan, yn blaenori cant a deg a deugain o filoedd o wŷr, y rhai a gasglesid o'r Almaen a'r Iseldiroedd; ac wedi goresgyn pob rhwystr a gyfodasai ystryw y Groegiaid a nerth yr anffyddwyr ar ei lwybr, treiddiasai hyd gyffiniau Syria. Ond wrth ymdrochi ar wres mawr yr haf yn nyfroedd oerion yr afon Cydnus, tarawyd ef gan gryd marwol, yr hwn a roddodd derfyn ar obeithion ei ganlynwyr; ac erbyn i'r croesgad hwn gyrhaedd cyffiniau Palestina, dan arweiniad ei fab Conrad, nid oedd lludded, newyn, afiechyd, a'r cleddyf, wedi gadael ond prin wyth mil o wŷr yn ngweddill:—nifer cwbl annigonol i drechu mawr allu, gwroldeb, a medr milwraidd Saladin. Fel hyn, syrthiodd 142,000 o wŷr, heblaw gwragedd a phlant heb rif, ar y pererindod mawr milwraidd hwn. Ond nid oedd hon oud un aden o'r croesgad. Yr oedd yr Italiaid ar eu hymdaith o'r gorllewin, dan flaenoriaeth esgobion Pisa a Ravenna. Yn y "rhyfeloedd sanctaidd" hyn, yr oedd dynion yn rhoddi cymmaint o ymddiried camsyniol yn amddiffyniad y nef, fel yr ystyrid esgobion ac offeiriaid, na ddysgasant erioed ryfela, fel y cadlywyddion cymhwysaf i arwain byddinoedd y groes.

Yr oedd y Marchogion Temlaidd, a'r rhai o urdd Ierusalem, y rhai oeddynt wasgaredig dros holl Ewrop, wedi ymgasglu yn lluoedd mawr iawn, wedi hwylio o wahanol borthladdoedd y cyfandir, yn rhwym i Ganaan. Gadawodd deg a deugain o longau borthladdoedd Denmark a Friesland, a dwy ar bymtheg ar ugain longbyrth Flanders.

Heb law y trethiad cartrefol a wnai y gwahanol dywysogion Cristionogol, yr oedd un dreth fawr gyffredinol, a elwid "Degwm Saladin;" sef y ddegfed ran o eiddo bydol pob dyn; yr hon y gorchymynodd y pab i bob Cristion byw—gwŷr eglwysig, yn gystal ag ereill—ei thalu tuag at draul y croesgad hwn.

Yr oedd y trychineb mynych a ddygwyddasai i'r croesgadau ar eu hymdaith, wedi dysgu i freninoedd Ffrainc a Lloegr yr angenrheidrwydd o geisio myned rhyw ffordd arall i Wlad Canaan; a phenderfynasant fudo eu byddinoedd dros y môr; a thrwy gyfrwng eu llyngesoedd, i gadw cymundeb â'u teyrnasoedd gartref yn agored tra y byddent absennol. Cyfarfu y ddau benadur hyn ar wastadedd Vezelay, yr hwn sydd ar gyffiniau Burgundy; ac wedi cyfarch eu gilydd yn y modd mwyaf caredig a brawdol, ac addunedu trwy lw na byddai i'r naill ymosod ar diriogaeth y llall tra y parhâai y croesgad, rhifasant eu byddinoedd unedig yn gan mil o wŷr grymus; ac yn anorchfygol, dybygid, o ran eu gwroldeb milwraidd a'u sel grefyddol, dan arweiniad dau frenin medrus mewn rhyfel, ac wedi eu cyf-

Digitized by Google

nerthu â phob peth y gallai teyrnasoedd Ffrainc a Lloegr eu darparu ar gyfer yr anturiaeth. Ymadawodd y ddau frenin â'u gilydd: Philip a gymmerodd ei ffordd tua Genoa, a Richard tua Marseilles, i gyfarfod eu gwahanol lyngesoedd. Acthant allan i'r môr; ond cyfarfuasant â thywydd mor dost, fel y gorfodwyd hwynt i auafu yn Messina, lle yr hauwyd hadau yr ymrafael a dyfodd rhyngddynt wedi hyn, ac a aflwyddodd eu hanturiaeth.

Hwyliodd Philip oddi yma o flaen Richard, yr hwn oedd yn aros am ei fam a'i ddyweddi, y dywysoges Berengaria o Navarre: yr olaf, gyda brenines waddolog Sicily, ei chwaer, a'i canlynasant ef i'r rhyfel. Ond cododd tymmestl fawr yn y môr; drylliwyd rhan o'i lynges ar oror Cyprus; cymmerwyd y morwyr a'r milwyr yn garcharorion, ac ysbeiliwyd y llestri a yrasid ar y traeth; a nacëid rhyddid i'r tywysogesau, yn eu sefyllfa enbyd, i gymmeryd lloches yn angorfa Limipo, gan Isaac, penaeth yr ynys, yr hwn a gymmerai arno ei hun yr enw seinfawr o ymherawdwr. Richard, pa fodd bynag, a ddialodd arno yn fuan, ac a daflodd y brenin Cypriaidd i gadwynau heiyrn; ond ar ei achwyniad yn erbyn gosod ymherawdwr dan y fath driniaeth gaethwasaidd, gorchymynodd Richard roddi llyffetheiriau arian am ei goesau; yr hyn a foddhaodd gymmaint ar falchder ei fawrhydi ymherodrol, fel y diolchodd i Richard am iddo, fel gorchfygwr haelfrydig, ddangos parch dyledus i radd uchel ei garcharor.

Er cymmaint o amser a gollwyd fel hyn ar y ffordd, cyrhaeddodd y fyddin Seisonig Palestina yn ddigon buan i gymmeryd rhan bwysig, ac ennill gogoniant milwraidd yn ngwarchaead Acre, ar yr hon yr oedd galluoedd unedig y cynghreirwyr Cristionogol wedi bod yn ymosod er ys dros ddwy flynedd, a'r hon a amddiffynid gan Saladin a'r Saraceniaid, gyda'u holl nerth. Cyfrifid fod yr holl luoedd a gychwynasant o Ewrop yn chwe chan mil o wŷr arfog; a phe nad ymranasent yn amryw wahanol fyddinoedd, y gallasent yn hawdd sicrhau amcan yr anturiaeth. Yr oedd gweddill y llu Germanaidd, dan flaenoriaeth Frederic o Swabia — mab yr ymherawdwr a fu farw ar yr ymdaith—a'r gwahanol finteioedd o anturiaethwyr oedd yn dyfod i mewn o'r gorllewin, y naill ar ol y llall, wedi galluogi brenin diorseddedig Ierusalem i ymosod ar Acre; ond yr oedd Saladin wedi rhagflaenu y bwriad drwy orsafu gwarchodlu cryf yno, dan flaenoriaeth Caracos—ei athraw ei hun yn y gelfyddyd filwraidd — ac yn molestu y gwarchaewyr yn barhaus drwy ymosodiadau a rhuthriadau o bob ochr, fel ag i oedi llwydd yr anturiaeth, ac oferdreulio nerth y Cristionogion. Ond dyfodiad Philip a Richard a gynneuodd fywyd ac ysbryd newydd yn mysg y gwarchaewyr; a gorfu ar y Mahometiaid, wedi dal allan hyd nes y darostyngwyd hwynt i'r cyfyngder mwyaf, o'r diwedd roddi eu hunain i fyny; ac achubwyd eu bywydau ar yr ammod fod iddynt roddi i fyny bren y wir groes, a rhyddhau y carcharorion a ddaliasant. Fel hyn y terfynodd gwarchaead Acre, ar yr hyn y cedwid llygaid pryderus Ewrop ac Asia oll dros rai blyneddoedd, ac y syrthiodd tri chan mil o Gristionogion, heb law llu mawr o'r anffyddwyr.

Ond Philip, yn lle myned rhagddo i adennill Ierusalem, a ddychwelodd adref, dan yr esgus fod ei aflechyd yn gwaethygu; ond gadawodd ddeng mil o'i fyddin, Richard, a'r duc o Burgundy. Y gwirionedd oedd, ei fod yn glaf o genfigen o herwydd yr enw oedd Richard yn ei ennill yn fwyfwy beunydd, am ei ddewrder a'i fedr fel cadlywydd.

Aeth Richard rhagddo, gyda glan y môr, gan fwriadu gwarchae ar Ascalon; ond ar y ffordd, cyfarfyddodd Saladin ef, gyda byddin o dri chan mil o ryfelwyr, ac yno y cymmerodd un o'r brwydrau mwyaf mewn hanesiaeth le. Torwyd ymaith, yn gynnar ar y diwrnod, ddwy aden y fyddin Gristionogol—yr un dde dan lywyddiaeth De Avesnes, a'r aswy yn cael ei blaenori gan y duc o Burgundy; ond Richard, yr hwn oedd yn arwain prif gorff y llu, a ymosododd ar y gelyn gyda gwroldeb a phresennoldeb meddwl mawr, gan gyflawnu ar unwaith swydd y cadfridog medrusaf a'r milwr mwyaf dewr; a thrwy hyn, rhoddodd hamdden i'r ddwy asgell ysgaredig o'i fyddin ymffurfio, ac ymosod eilwaith ar y Saraceniaid, y rhai a orthrechwyd yn llwyr; a gadawyd deugain mil o honynt yn feirwon ar y maes.

Yr oedd Richard, erbyn hyn, wedi dyfod i olwg Ierusalem, gwrthddrych mawr ei anturiaeth —adennilliad yr hon oedd i goroni ei holl fuddugoliaethau, ac i drosglwyddo ei enw i oesoedd dyfodol fel achubwr y ddinas sanctaidd, ac adferwr ymherodraeth y groes. Ond mor siomedig yw gogoniant daiarol! Ni symmudai ei ganlynwyr gam pellach, er eu bod o fewn dim i ennill y gamp goronol; ac nid oedd nac annogaeth, na dannodiad, nac ymresymiad yn ffynu dim. Dadganai y Germaniaid a'r Italiaid eu penderfyniad o roddi yr anturiaeth bellach i fyny. Yr oedd y Ffrancod yn fwy diamynedd fyth am ddychwelyd adref. Yr oedd tair blynedd o absennoldeb oddi cartref, blinder ymdeithiau a brwydrau, aflechyd, a diffyg cysuron ac angenrheidiau bywyd yn aml, wedi oeri sel, a lleihau gwroldeb pawb, hyd yn oed Richard Galon Llew ei hun. A gorfu arno, ryw fodd, roddi i fyny ei anturiaeth; a gwnaed cytundeb â Saladin i roddi heibio y rhyfel am dair blynedd, tri mis, tair wythnos, tri diwrnod, a thair awr—nifer cyfriniol o gynnygiad y Cristionogion—yn cynnwys, y mae yn debyg, ryw gyfeiriad tywyll at athrawiaeth y Drindod, yr hon a wedid gan yr anffyddwyr. Hyn a wnaed ar yr ammod fod i'r Cristionogion gael cadw eu meddiant o Acre, Ioppa, a'r trefydd ereill a ennillasant ar arfordir Palestina, gyda llawn ryddid i wneyd eu pererindodau at fedd Crist. Bu Saladin farw yn fuan wedi hyn:—yn 1195.

Achos arall o'r penderfyniad i beidio cario yr anturiaeth yn mhellach oedd, yr ymrafael oedd yn mysg y Cristionogion yn nghylch pwy a gai fod yn frenin Ierusalem, pe cymmerent hi. Hônai Conrad, o Tyrus, hawl i'r goron ddychymygol, ar ran ei wraig, yr hon oedd yr etifeddes olaf yn fyw. Ond yr oedd Guido, o Lusignano, wedi cymmeryd y teitl o frenin Ierusalem eisoes, gan ei ddal fel gweddw chwaer henach. Syrthiodd Conrad drwy ddwylaw dirgel-lofruddion. Priododd ei weddw frawd Guido; a chymmerodd y ddau frawd y teitl gwag o frenin Ierusalem. Wedi marw y rhai hyn, yr oedd coron ddychymygol Ierusalem yn disgyn i John o Brienne—gŵr i ferch Conrad, brenin Tyrus yn 1210.

Y PEDWERYDD CROESGAD.

Y croesgad hwn, yr un modd, a ddaeth i ddim, gyda golwg ar adferu teyrnas Ierusalem; ond y mae yn gyssylltiedig â dygwyddiadau hygof yn hanes Ewrop, ac ymherodraeth Gristionogol Groeg. Yr ymherawdwr Isaac Angelos a ysbeiliwyd o'i goron a'i ddau lygad, gan ei frawd ei hun, yn y flwyddyn 1194. Diangodd ei fab

Digitized by Google

Alexius i Venice, i erfyn am gynnorthwy, yn 1203. Yn y cyfamser, yr oedd y pab Innocent III., a'r penboethyn Foulk o Neuilly, yn pregethu croesgad arall, yr hwn a flaenorid gan amryw bendefigion Italaidd a Ffrengig; megys, Thiebauld, o Champagne; y Count Boniface, o Montferrat; y Count Baldwin, o Flanders; a Simon, o Montfort. Ond Arrigo Dandolo, *doge* neu faer Venice, a dueddodd y croesgad yn gyntaf peth i gymmeryd tref Zara, yn Dalmatia, i weriniaeth Venice. Yna, yn lle myned rhagddynt i Wlad Canaan, ymdroisant i ymyraeth â helyntion ymherodraeth Groeg, goresgynasant Caer Cystenyn; ac wedi gorseddu a diorseddu amryw ymherawdwyr, rhoddasant o'r diwedd y goron ymherodrol ar ben Baldwin o Flanders, gan roddi iddo ef y bedwaredd ran o'r ymherodraeth, a rhanu y gweddill yn eu plith eu hunain. Tynodd yr ymddygiad hwn wg y pab arnynt, yr hwn a'u difuddiodd o freintiau eglwysig dros amser. Fel hyn y bu y penaethiaid Ffrengig yn rheoli ymherodraeth y dwyrain, am ddeng mlynedd a deugain; ac yn y cyfamser y cododd tywysogaethau Groegaidd newydd Nicaia, Trebizond, ac Ætolia. Felly y troes y croesgad hwn allan, fel dyfais ystrywgar Dandolo o Venice.

Y PUMMED CROESGAD.

Y croesgad hwn oedd y symmudiad milwraidd cyntaf a wnaed gan Andreas, brenin Hungaria, yn 1217; ac er mai bychan oedd, y mae yn deilyngach o'r enw croesgad na'r diweddaf. Yna, arweiniodd Ioan, brenin Ierusalem, fyddin o groesgadwyr i'r Aipht, ac a gymmerodd Damietta; a'r Sultan Melek Kamel, gan ofni canlyniadau rhyfel, a gynnygiodd ammodau heddwch, a rhoddi Ierusalem i Ioan yn gyfnewid am Damietta. Ond y gorchfygwr balch a wrthododd y cynnygiad, ac a aeth rhagddo yn ddiocheliad ar hyd glanau y Nilus, i ymosod ar Cairo. Gorchymynodd y Sultan fod i ddyfrgloddiau y Nilus gael eu hagor; a'r llifeiriant a ysgubodd ymaith ran fawr o'r fyddin Gristionogol. Rhyddhawyd Damietta, gwnaeth gytundeb i roddi attalfa ar y rhyfel am wyth mlynedd, ac enciliodd gweddillion y croesgadwyr yn 1221. Fel hyn, bu cais Ioan i droi ei goron ddychymygol yn un wirioneddol. drwy gymmeryd trefydd yr Aipht, yn gwbl ofer.

Ar yr un pryd, yr oedd Frederic II., o Hohenstauffen — y mwyaf o holl ymherawdwyr Germany, ar gyfrif ei ddoethineb a'i haelfrydedd—wedi priodi Yolanta, merch Ioan brenin Ierusalem, ac ar ddydd ei goroniad, wedi addunedu gwneyd croesgad: ond yr oedd trafferthion cartrefol wedi oedi cyflawniad ei addewid dros ddeuddeng mlynedd. O'r diwedd, gan gydsynio yn haelfrydig â thaer erfyniad y pab Gregory IX., hwyliodd o Brindisi tua Phalestina. Ar ol mordaith o rai dyddiau, gorfodwyd ef, gan selni, i droi yn ol i Otranto. Tynodd hyn arno ddigofaint a melldith apostolaidd y pab. Yn wir, yr oedd hyn yn eithaf esgus i'w sancteiddrwydd gael darostwng tŷ cas Hohenstauffen. Y flwyddyn nesaf, er ei fod dan esgymuniad y pab, ymddangosodd Frederic mewn arfau yn Ngwlad Canaan, yr hyn a roddodd gyfleusdra i'r pab ganiatäu i'w elynion ymosod ar feddiannau Italaidd yr ymherawdwr; ac yr oedd hyd yn oed Ioan o Ierusalem yn ddigon anffyddlawn a digywilydd i gymmeryd gafael ar deyrnas Naples. Nid oedd y Sultan Melek Kamel yn rhoddi fawr o werth ar Ierusalem, ac yr oedd yn foddlawn i'w rhoddi am gynnorthwy Frederic, fel cynghreiriwr, yn erbyn ei elyn peryglus Sultan Damascus. Ar yr un pryd, yr oedd cyflwr enbydus pethau yn Italy yn galw Frederic adref; ac felly, cymmerodd ar unwaith fantais o ewyllysgarwch y Sultan Aiphtaidd, ac a ymfoddlonodd ar feddiant trwy gytundeb o brif ddinas Palestina. Wedi gosod coron Ierusalem ar ei ben, cychwynodd tuag adref gyda'i lu, a bu ei nesâd at Rufain yn ddigon i dueddu y pab i alw yn ol ei felldith esgymunol. Ond wedi hyn, bu i'r Tyrciaid, yn cael eu gwasgu gan y Mongoliaid—y rhai yn fuan a roisant ben ar y galiphiaeth—ruthro i mewn i'r Tir Sanctaidd, a gorchfygu, yn agos i Gaza, yr holl alluoedd Cristionogol a gadwent feddiant o'r wlad, yn 1244; a syrthiodd Ierusalem drachefn i ddwylaw Sultan yr Aipht, fel aelod o'r cynghrair Saracenaidd.

Y CHWECHED CROESGAD.

Yn 1249, cododd Louis IX, yr hwn a elwid Louis Sant, groesgad newydd. Cymmerodd yntau gynllun Ioan o Ierusalem, o arwain ei fyddin trwy dir yr Aipht. Cymmerodd Damietta yn bur ddiboen, ac ymdeithiodd rhagddo i fyny y Nilus i Cairo; ond trwy anghallineb ei frawd, D'Artois, collodd frwydr Mansura, a'r rhan fwyaf o'i fyddin. Syrthiodd D'Artois, a llawer o'r marchogion dewraf a feddai, a gorfododd newyn ac afiechyd y rhai a adawsid yn fyw i encilio gan gynted ag y gallent; ond cyn iddynt gyrhaedd Damietta, amgylchwyd hwy gan lu y Sultan, a chymmerwyd Louis a'i wŷr yn garcharorion. Gorfodwyd y Cristionogion oeddynt yn gwarchod Damietta i roddi y ddinas i fyny, a thalu iawn o wyth gan mil o *guilders*. Yn y cyfamser, y Mamelukiaid—gosgorddlu o wŷr ieuainc Turcomanaidd, y rhai oeddynt o fesur ychydig wedi trawsfeddiannu gallu mawr—a lofruddiasant y Sultan, yn eu heiddigedd o herwydd ei haelfrydedd tuag at Gristionogion, a gosodasant Ibek, eu pencadben eu hunain, ar orsedd caliphiaid yr Aipht. Buasai dyn o lai gwroldeb, synwyr, a doniau na Louis yn marw yn y caethiwed hwn; ond, trwy ei gallineb, a'i ymddygiad gwrol, ennillodd ffafr y barbariaid hyn, a gollyngasant ef yn rhydd. A dywed rhai haneswyr, pe buasai yn dipyn cyfrwysach, y gallasai yn hawdd gael meddiant o Ierusalem ganddynt. Dychwelodd Louis adref i Ffrainc, lle yr oedd mwy o alw am dano i ddarostwng terfysgoedd ac attal difrodiad y wlad gan bleidiau gwladyddol arfog; ond yn mhen rhai blyneddoedd darparodd croesgad arall. Ymdeithiodd trwy Yspaen, a chroesodd gulfor Gibraltar; ond ni chyrhaeddodd y croesgad hwn ddim pellach na Tunis, lle y gobeithiai Louis droi y tywysogion Affricanaidd yno yr un ffordd ag ef ei hun. Cymmerodd dref a chastell Carthagena. Methodd y croesgad hwn hefyd; a chafodd Louis ei fedd ar forlanau Affrica, yn 1279.

Y SEITHFED CROESGAD.

Y croesgad olaf hwn a godwyd yn Lloegr, tra yr oedd Louis eto yn Tunis [gwel y ddiweddaf], gan Edward, ŵyr Richard Galon Llew—Edward I. wedi hyny—yr hwn a ymddangosodd o flaen Tunis wedi marw Louis; ond ymadawodd yn fuan, ac aeth i Wlad Canaan i ymladd â'r anffyddwyr, lle yr ennillodd rai brwydrau, ac y dangosodd lawer o wroldeb a medr milwraidd; ond methodd ei amcan, a dychwelodd i Loegr. Efe oedd yr olaf o'r tywysogion Cristionogol a freuddwydiodd am goron Ierusalem. Eto, yr oedd ychydig o drefydd ar lan y môr, megys Antioch, Tripolis, ac Acre, yn aros yn nwylaw y Cristionogion, ac yn cael eu cadw a'u hamddiffyn

Digitized by Google

yn benaf gan y Temlyddion, ac urddau milwraidd ereill. O'r diwedd, syrthiodd Acre, y lle cadarnaf a feddent, yn y flwyddyn 1291; a chymmerwyd oddi arnynt, neu rhoisant i fyny, yr holl leoedd ereill. Y marchogion a ffoisant i Ewrop, a syrthiodd Gwlad Canaan a holl Syria i ddwylaw Sultaniaid yr Aipht; a gosodwyd Mahometiaeth i fyny yn lle crefydd y groes, ac aeth milwriaeth dau can mlynedd yn gwbl ofer, i ddangos i oesoedd i ddyfod pa mor anelfeithiol yw y cleddyf i sefydlu neu i gynnal teyrnas weledig Tywysog Tangnefedd. Y saith rhyfelgyrch hyn oeddynt y prif groesgadau, ond nid yn erbyn anffyddwyr yn unig y diweiniodd Eglwys Rhufain y cleddyf. Gwnaed mân groesgadau ereill lawer yn erbyn yr Iuddewon, i'w difrodi o'r byd; yn erbyn gweddillion tylwythau paganaidd yn Rwssia a Lithuania, i efengyleiddio Ewrop; yn erbyn y Waldensiaid a'r Albigensiaid yn Ffrainc a Switzerland—Protestaniaid boreuol yr Alpau [gwel ALBIGENSIAID; WALDENSIAID]; ac hefyd yn erbyn gwahanol genedloedd a phleidiau o "hereticiaid" a aflonyddent yr Eglwys Babaidd drwy bregethu yn erbyn traddodiadau llygredig a thrïawdurdod y pab, a thrïarglwyddiaeth offeiriadol. Ie, gwneid croesgadau yn erbyn penau coronog enwocaf Ewrop, pan fyddent dan esgymundod am eu hanufudd-dod i ddysgyblaeth yr eglwys hono, a gorchymynion pendant y pabau.

Y croesgadau hyn a roddasant allu mawr, arswydol, a pheryglus, yn nwylaw y pabau. Agorasant ddrws i'r erlidigaethau a fuont yn blino Ewrop gyhyd o oesoedd, ac a nychasant nerth yr ymherawdwyr Cristionogol perthynol i Eglwys Groeg, gan eu darostwng yn gaethweision i Eglwys Rhufain. Ac yn Rhyfeloedd y Groes, aberthwyd myrddiynau ar fyrddiynau o fywydau. Er hyny, rhaid addef bod effeithiau daionus wedi tarddu o honynt, mewn amser, trwy oruchlywodraeth y nefoedd. Agorasant ffordd i gyweithas a thrafnidiaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin, i ledaeniad gwybodaeth gyffredinol, ac i wareiddiad a diwylliad y celfyddydau. Torasant i fyny, mewn rhan fawr, y trïarglwyddiaeth farwnaidd oedd cyn hyn yn ffynu dros holl Ewrop, ac yn cadw y werin yn fath o gaethweision milwraidd i farchogion pendefigaidd, y rhai a orfuwyd i werthu eu hetifeddiaethau i farsiandwyr, er mwyn cael arian i gynnal y croesgadau. Dygasant hefyd ddynion o wahanol wledydd, ieithoedd, golygiadau, a chredoau i gydgyfarfyddiad ac ymddibyniad ar eu gilydd; yr hyn a dueddodd yn fawr i leihau rhagfarnau, ac i roddi iddynt olygiadau a syniadau goleuach ac eangach. Dechreuodd dynion feirniadu ar, ac ammheu, awdurdod ysbrydol a gwladyddol y pabau; ac a oedd yn ddoeth a buddiol i'r byd, ac i'r eglwys ei hun, dalu ufudd-dod plentynaidd iddynt? A phan oedd Ewrop yn llawn o'r fath "ammheuwyr," cyfododd Huss, Wickliff, a Luther o'r diwedd; a diflanodd trïawdurdod y pabau fel cwmwl y boreu o flaen gwawr y Diwygiad Protestanaidd. — (*Penny Cyclo.; Hend. Buck; Neander's Church Hist.; &c.*)

CROESIAID, CRWYSIAID [*croisers*]: urdd grefyddol a sefydlwyd er anrhydedd i'r dychymyg am y groes, neu ei darganfyddiad gan yr ymherodres Helena; sef, "Elen ferch Coel Godhebog, a gafas y Grog fendigaid lle ydd oedd wedi ei chuddiaw dan garnedd, gan yr Iuddewon digred." Er anrhydedd i'r un peth y canwyd yr hen bennill Cymraeg yma hefyd:

"Diboen ferch Goel Godéboc,
I gréd y peraist' y Grôc:
Vgain trychant a'i wrantu,
Oed doed Iesu Dduw dwyssoc."
Gram. I. D. Rhys.

Yr oedd y Croesiaid yn wasgaredig, hyd yn ddiweddar, mewn gwahanol ranau o Ewrop, yn enwedig yn yr Iseldiroedd, Ffrainc, a Bohemia. Yr oedd y Croesiaid wedi eu darostwng yn Italy hyd yn oed cyn y chwyldroadau diweddar. Y mae y crefyddwyr hyn yn dilyn rheol St. Awstin. Yr enw a roddid yn Lloegr i'r Croesiaid oedd, Brodyr y Groes.

CROG, GWYL, GWYL Y GROG, DYRCHAFAEL Y GROG: yr hwn sydd yn disgyn ar y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Medi, ac a gedwir gan Eglwys Rhufain gyda gorymdeithiau offeiriadol, offerenau, arogl-darthiadau, &c. Dywedir yn gyffredin i'r ŵyl hon gael ei sefydlu yn y flwyddyn 615; ond nis gallai ei dechreuad, y mae yn debygol, fod yn foreuach na B. A. 629—30, pan adennillodd yr ymherawdwr Heraclius y "wir groes," fel ei gelwir, oddi ar y Persiaid, ac yr aeth â hi yn ol i Galfaria. Yn ol y chwedlau mynachaidd, gwisgodd yr ymherawdwr ei freninol wisgoedd, a gwysiodd ei holl bendefigion, a thywysogion ei lu, i'w ganlyn ar ei bererindod i Ierusalem; ond yn gwbl ofer—canys ni ellid symmud y groes, ac nid agorai pyrth y ddinas iddo. Am hyny, efe a ofynodd yr achos; a llais o'r nef a'i hatebodd, gan ddywedyd i Grist fyned i Ierusalem, yn eistedd ar asyn, yn ostyngedig ac yn addfwyn. Yna, disgynodd yr ymherawdwr, ac a aeth yn droednoeth i mewn i'r ddinas, â'r groes ar ei ysgwyddau; canys nid oedd rhwystr mwy, fel yr hysbyswyd yn yr erthygl flaenorol. Ereill a haerent i'r ŵyl hon gael ei chadw gyntaf yn Ierusalem, yn y flwyddyn 326, pan ddaeth Elen Lueddog, mam Cystenyn Fawr, hyd i'r "wir groes" yn gladdedig yn arloes Calfaria, fel y tybiwyd y pryd hyny.

CRONGLWYD, [*crwn—clwyd*; Gr. *στίγη*= *gorchudd*, neu *wastad*]: dygwydd y gair Groeg yn *Mat.* viii. 8; *Marc* ii. 4; a *Luc* vii. 6. Cyfieithir ef yn Matthew a Luc yn *cronglwyd*, ac yn Marc yn *to*. Yn yr Hen Destament, bron bob amser, *nen* a ddefnyddir; megys, *Deut.* xxii. 8; *Ios.* ii. 6; *Barn.* xvi. 27; 2 *Sam.* xi. 2; xviii. 24; *Neh.* viii. 16; *Ezec.* xl. 13. Ond yn *Gen.* xix. 8, *cronglwyd* a ddefnyddir, lle y meddylir *tŷ*:—"O herwydd er mwyn hyny y daethant dan gysgod fy *nghronglwyd* i;" sef, i'm tŷ. Felly hefyd yn Matthew a Luc.

CROMBIL, CROMIL, [*crwm, crom*; Saes., *a craw, a crop*]: cropa aderyn. Coden grom o gnawd mewn aderyn, yn cynnwys graian, er cynnorthwyo yr edn i dreulio ei ymborth. Tynid hon, yn nghyd â'r cylla a'r perfeddion, allan o'r aderyn a offrymid dan gyfraith Moses: *Lef.* i. 16. Gwel CYLLA.

CROMLECH: mae yr enw yma yn gyfansoddedig o *crom*, y ffurf fenywaidd o *crwm* (*bending*) a *llech*; hyny yw, maen neu gareg; "sef maen yn crymmu neu yn gogwyddaw," meddai Carnhuanawc. *Tolmen*, neu *Toalmen* (oddi wrth y gair *toal*=bwrdd) y geilw y Llydawiaid Cromlech, am ei bod yn tebygu i fwrdd. Hefyd, gelwir cromlechau weithiau yn *feini gŵyr* (= *bending-stones*); sef, enw o'r un ystyr a'r gair *cromlech*.

Digitized by Google

Ffurfir cromlechau yn gyffredin o bedwar o feini; sef tri maen colofn, wedi eu planu yn ddwfn yn y ddaiar, yn lled agos i'w gilydd; ac un maen arall fel bwrdd ar ben uchaf y meini colofn, ac yn ymestyn yn gyffredin fel cantel

Dar. 209.

mawr yn mhell drostynt. Yr achos nad yw y colofnau braidd un amser yn fwy na thair, yn ol barn Borlase, ydyw, am fod yn llawer haws gosod pwysau mawr gogwyddol ar dair colofn nag ar bedair neu chwaneg; o blegid yn yr amgylchiad olaf, byddai raid i benau y colofnau fod yn gwbl gyfwastad neu lyfal, heb law y byddai raid i'r maen clawr, neu y gareg orchudd, fod yn gwbl wastad oddi tani, er mwyn i'r pwysau fod yn gyfartal ar bob colofn; tra nad yw tair colofn yn gofyn y fath fanylwch, gan yr ymorphwys dibyn-bwysau yn esmwyth ar unrhyw dair colofn er na bônt yr un hyd. O blegid hyn, canfyddir nad yw y maen clawr, neu 'r bwrdd, un amser yn llorweddol (*horizontal*), ond ar ogwydd, a hyny, o angenrheidrwydd, tua 'r pwynt y bo'r golofn feraf; a'r pwynt hwnw braidd yn ddieithrad yw y gorllewin, y gogledd-orllewin, neu y de-orllewin, tra y cyfeiria pen uchaf y maen clawr tua 'r dwyrain—"pwynt y goleuni."



Dar. 210.

O barth yr enw *cromlech*, nid ydys wedi ei ganfod yn un o'r hen ysgrifeniadau Cymreig, prydyddol na rhyddieithol, er ei fod yn britho gwaith Rowlands, Toland, Borlase, E. Llwyd, a phawb ar eu hol, hyd y cofir, a ysgrifenasant ar y pwnc. Yr enw a roddir i'r hen weddillion Cymreig (neu Geltig) hyn yn Nghernyw, ebai Borlase, yw *Quoit*=Coeten; "ac yn Meirionydd" eb efe, "y mae un a elwir Coeten Arthur, ac un arall yn Arfon a elwir Bryn y Goeten." Y mae lluaws o enwau trwy Gymru oll, o ran hyny, ac yn enwedig yn Mon, yn dangos yn bur amlwg fod y lleoedd wedi bod yn gyssegrfanau yr hen Gymru; megys, Arffedog y Gawres. Llechau Trefignedd, Cae'r Llechau, a Choeten Arthur—oll ger llaw Caergybi; Bryn Celi, yn Llanddeiniol Fab; Bwrdd Arthur, yn Llanddona; Meini Gŵyr, yn Llandyfrydog; Bryn yr Hen Bobl, yn Llanedwen; Maen Addwyn, yn Llanflhangel Tre 'r Beirdd; Meini Gŵyr, yn Llangeinwen. Ond nid yw y rhai hyn oll, a'u gyffelyb, sy'n dra lluosog yn mhob parth o Gymru, yn ddim amgen nag enwau achlysurol, a hyny ar hen leoedd cyssegredig, fynychaf, oedd mewn cyssylltiad â'r hen weddillion Celtig, o ba natur bynag y bydd-ent, a'r cromlechau, carneddau, meini hirion, maengylchoedd; neu dan ba enwau bynag ereill yr elont.

Y mae rhai yn meddwl mai at ffurfiad cromlechau y mae y ban cyntaf o'r Triad canlynol yn cyfeirio:—

"Tair gorchwyl cadarn Ynys Prydain: codi Maen Cetti, adeiliaw Gwaith Emrys, a thyru Cludair Gyfrangon."

Meddylir fod y Maen Cetti yma yn cyfeirio yn benodol at faen clawr y cromlechau yn gyffredinol: ereill a dybiant mai at y maen mawr oedd ar y "Gludair Gyfrangon" yn "Ngorsedd Bryn Gwyddon," yn Maesydd Caer Caradog (*Abury*), y cyfeiria yn benodol: tra y tybia ereill mai at y maen sydd yn Ngwyr yn Morganwg, dan yr enw Maen Cetti, y cyfeiria. Y mae yn anhawdd iawn, os nad anmhosibl, penderfynu pynciau fel hyn bellach; ond y dyb gywiraf efallai ydyw, mai y maen a alwai y beirdd yn Faen Gorsedd, Maen y Gymmanfa, Maen Llog (maen y cyfammod), a Chrair Gorsedd, yw yr un a elwir yn y Triad dan sylw yn Faen Cetti =Maen y Gafell, a elwir yn awr yn *gromlech*. Dywed y Dr. Pughe na elwid yr hen adail yma fyth yn gromlech, yn yr hen amseroedd, ac nad yw yr enw i'w ganfod mewn unrhyw hen lawysgrifau; am hyny, fod yn annheg cymhell y fath enw i sylw y cyffredin. Pa fodd bynag, y mae weithian wedi dyfod i arfer, a dyna yw yr unig enw braidd trwy yr hwn yr adnabyddir y gweddillion Celtig hyn yn mysg estroniaid: gan hyny, ni waeth i ninnau, y Cymry, heb wingo bellach yn erbyn y ddefod; canys y mae yn dra sicr mai *cromlechau* fydd eu henw mwy, bodd neu anfodd beirdd a hynafiaethwyr Cymreig.

Gyda golwg ar le y cromlechau, neu *feini gorsedd* a *meini llog* y beirdd, "Lle y mae cromlech," meddai Mr. Llwyd, "y mae carnedd, a lle y mae carnedd, y mae colofnau a chistfeini; ac nid yw y gweddill o'u cymdeithion a'u gosgordd nepell oddi wrthynt; megys, colofnau cyfeirio, meini crair, &c., y rhai sydd yn wastad a rheolaidd mewn pellder penodol oddi wrth eu gilydd, cystal ag oddi wrth y brif wyddfa y perthynant iddi, yn enwedig y llech isel fwaog, yr hon sydd bob amser o fewn tri neu bedwar cufydd i'r gromlech." Gan fod y gweddillion Celtig hyn mor hen, prin y gellir dysgwyl eu cael oll yn yr un man erbyn hyn. Y maen-gylchoedd yn unig a geir mewn rhai manau; bryd arall, dim ond y

Digitized by Google

maenresi, y meini hirion, y cistfeini, y meini chwyf neu sigl, y carneddau, ac weithiau y cromlechau. Y mae llawer o resymau i'w rhoi dros hyn. Credir yn gyffredin fod yr adeiliau barddol—neu os dewisir yn well, Celtig—hyn cyn hyned a dyfodiad cyntaf y trigolion i'r gwledydd lle y ceir hwynt. Er anghraifft, pa un bynag ai yn mhen un oes, ai dwy, ai tair, ai ugain, ai cant, ar ol y dylif y daeth y Cymry gyntaf i Ynys Prydain, credir fod rhai o'r maen-gylchoedd, y cromlechau, a'u gosgordd, wedi eu codi y pryd hyny; am hyny, y maent mor hen fel y mae braidd yn rhyfedd fod dim o honynt bellach ar gael. Heb law hyny, y mae barbariaid anwladgar ac anwybodus pob oes wedi gwneyd eu rhan yn dda at berffeithio y difrod. Ac y mae yn gywilyddus i'w adrodd, fod rhai meini hirion a charneddau wedi cael eu distrywio gan farbariaid yr oes hon hyd yn oed at adgyweirio adwyon! O blegid yr holl ddifrodau hyn, nid rhyfedd fod mor anhawdd cael gymmaint ag un anghraifft o adail Geltig gyfan mewn un man. Pa fodd bynag, bernir oddi wrth y rhai mwyaf cyfain, mai yn nghanol y maen-gylch yr oedd y *maen gorsedd*, neu y *maen llog*, a elwir yn awr *cromlech*.

Am ddyben y gromlech neu y maen gorsedd, haera rhai yn bendant mai bod yn allor i aberthu arni oedd ei hunig ddyben; ac ereill a farnant mor benderfynol mai beddadail ydoedd. Dyma farn Borlase a Pennant; ond y mae yn dra nodedig, ebai Angharad Llwyd am Pennant, pan yn darlunio cromlech sydd ar dir Llwyn y Moel, a elwir yn awr Plas Newydd, annedd Ardalydd Môn, ei fod (megys pe buasai yn fwriadol i wrthbrofi ei gasgliad ei hun a Borlase) yn myned yn mlaen ar unwaith i ddarlunio carnedd orfawr (yr hon yn ddiau ydoedd fedd neu gladdfa) yn ymyl y gromlech, yr hon garnedd a ystyria efe, yn y modd mwyaf anegluradwy, yn garchar i gadw y rhai a ddedfrydid i gael eu haberthu; gan farnu am feddrod dwfn ac amlwg y meirw, mai carchar ydoedd i gadw y byw condemniedig. Dywed Rowlands am y garnedd hon, sydd gerllaw cromlech Llwyn y Moel, mai un o'r rhai mwyaf yn holl dir Môn ydyw; er mai prin y gellid ei gwahaniaethu yn ei amser ef oddi wrth y crug daiar, gan fod y ceryg wedi eu gorchuddio â phridd a mwsogl, a choed mawrion yn tyfu arni, a'i bod yn sefyll ar dir sych, heb unrhyw golofnau yn awr yn agos ati. Pan agorwyd y garnedd hon, ar ol amser Rowlands, cafwyd cell oddi tani, yn mesur tua saith troedfedd o hyd, a thair o led, yn cael ei gorchuddio gan ddwy lech wastad, a'i lleinio oddi mewn â rhai ereill, ac yn tebygu llawer mwy i gistfaen nag y gallai y ceuedd dan y gromlech wneyd, ac yn llawer cymhwysach yn mhob modd i fod yn feddrod nag yn garchar. Hefyd, agorwyd carnedd arall yn Môn, yn agos i'r un fan, lle y cafwyd mynedfa o dair troedfedd o led, pedair troedfedd a hanner o uchder, ac yn nghylch pedair ar bymtheg a hanner o hyd, yn arwain i ystafell o ffurf chweochrog afreolaidd, â'i hochrau wedi eu ffurfio o chwech yslab anghelfydd, un o'r rhai a fesurai wyth troedfedd a naw modfedd ar ei draws o gongl i gongl. Yr oedd yr ystafell fechan yma wedi ei henhuddo âg un maen deg troedfedd o dryfesur, yr hwn hefyd a gynnelid yn y canol gan golofn o gareg arw, yn mesur pedair troedfedd ac wyth modfedd o amgylchedd; ac yr oedd mainc gareg o amgylch ogylch holl ochrau yr ystafell, ar yr hon y cafwyd esgyrn dynion, y rhai a aethant yn llwch wrth eu cyffwrdd. Pe buasai y cromlechau wedi eu bwriadu i fod yn feddrodau, fel yr haera Borlase, ac y tybia Pennant, y mae yn dra sicr na buasai carneddau o'r fath hyn, oedd yn feddrodau amlwg, o'n hamgylch yn mhob man lle y maent.

Ereill eto a farnant mai prif ddyben y gromlech, yr hon a safai yn wastad yn nghanol y maen-gylch, neu yr orsedd, oedd bod yn lle cyfleus neu bulpud addas i'r prif-fardd i draddodi ei ddedfryd yn nghlyw y gwyddfodolion, o ba fath bynag y byddai y ddedfryd hono, ai ar bynciau gwladol ai crefyddol, fel ag y dywed Cesar am Dderwyddon Gâl [Gwel BARDD.] Tybir fod yr enwau a roddai y beirdd ar y cromlechau yn tueddu i gadarnhau hyn yn fawr; megys Maen Gorsedd (*the stone of assembly*); Maen Llog (*the stone of covenant*); a Maen Cetti (*the stone of the choir*). Ymddengys ar y cyfan mai dyben penaf y gromlech oedd, bod yn bulpud ac yn allor; ond ni ddywedir yma "allor i aberthu dynion," gan fod hyny heb ei brofi gan neb eto.

Am faint y cromlechau, yr oeddynt yn amrywio yn ddirfawr; a hyny, y mae yn dra thebyg, yn ol rhif ac amgylchiadau yr ardaloedd y codid hwynt ar eu cyfer.

Y mae un gromlech led gyfan, ar dyddyn a elwir Tŷ Newydd, yn mhlwyf Llanfaelog, Môn, mesur yr hwn sydd yn gywir fel y canlyn:—mae y maen clawr yn ddeuddeg troedfedd o hyd, pedair troedfedd o drwch yn y pen dwyreiniol, ac o gylch tair troedfedd yn y pen gorllewinol, ac yn nghylch pedair troedfedd o led. Mae y maen mawr hwn yn gorphwys ar dair colofn gareg gadarn, o gylch tair troedfedd o uchder, y rhai sydd fel pe baent wedi eu planu yn nghanol carnedd o geryg.

Mae cromlech arall, lawer mwy, un o'r mwyaf yn Nghymru, ar dir Llwyn y Moel, sef y Plas Newydd, yn Môn; ac mor ardderchog ydyw, fel nad anghofia yr edrychydd yr olygfa yn fuan. Gelwir hon yn "gromlech ddyblyg;" yr hyn oedd yr achos, y mae yn debyg, fod cynnifer o golofnau yn ei chynnal. Y mae y maen clawr, neu y bwrdd (sef y gareg orchudd), yn ddeuddeg troedfedd a naw modfedd o hyd, tair troedfedd ar ddeg a dwy fodfedd o led, yn y parth lletaf, a phum troedfedd o drwch yn y man tewaf. Nis gall ei maint, gan hyny, fod yn llai o droedfeddi tryfaint a rhanau degranol na 392—878—125. Gan y bernir fod priodbwys un wns dryfaint o'r gareg hon, megys 1—6 mewn wnsau cywirbwys, rhaid nad yw pwysau y talp careg yma yn llai na 30 tynell a 704 pwys. Mesur y colofnau gogleddol sydd fel y canlyn:—Hyd y gyntaf yw pum troedfedd; ei lled, pedair troedfedd ac wyth modfedd; a'i thrwch, yn droedfedd ac wyth modfedd. Hyd yr ail, pum troedfedd a hanner; ei lled, pum troedfedd a hanner; a'i thrwch, yn droedfedd a hanner. Hyd y drydedd, pedair troedfedd a phum modfedd; ei lled, pum troedfedd; a'i thrwch, yn droedfedd a hanner. Hyd y bedwaredd, pum troedfedd a hanner; ei lled, dwy droedfedd; a'i thrwch yn ddwy droedfedd.

Mesur y ddwy golofn ddeheuol, o'r sawl y mae un yn awr, sef y chweched, wedi syrthio. Hyd y bummed, pedair troedfedd a deng modfedd; ei lled, tair troedfedd a naw modfedd; a'i thrwch, yw dwy droedfedd. Hyd y chweched, pum troedfedd; ei lled, dwy droedfedd a hanner; a'i thrwch, yn ddwy droedfedd.

Ac y mae yn dra nodedig y rhaid fod yr holl geryg arathrol hyn, y rhai ydynt oll o'r un natur, wedi cael eu cario neu eu treiglo o dros filltir o ffordd; gan nad oes geryg o gyffelyb natur i'w cael yn agos i'r lle.

Digitized by Google

Maint y gromlech leiaf, neu y rhan isaf o'r gromlech, sef yr hyn sydd yn ei gwneyd yn gromlech ddyblyg, yw chwe throedfedd o hyd, a phum troedfedd a saith modfedd o led. Tair colofn sydd i hon yn bresennol; ond y mae tair careg fawr arall, o'r un natur, yn gorwedd ychydig is law, sydd yn ymddangos fel pe buasent wedi bod yn golofnau, neu o leiaf wedi eu bwriadu i fod felly. Mesur y tair colofn sydd yn sefyll yw pedair troedfedd a phedair modfedd o hyd, ac o gylch tair troedfedd o led.

Y mae cromlech ddyblyg arall, bron mor nodedig a'r un uchod, yn agos i dy a elwir Trefor, o gylch dwy filltir o Bwmares, ar y ffordd i'r Plas Gwyn, yn Môn. Yr unig wahaniaeth pwysig rhwng hon a chromlech Llwyn y Moel, a ddarluniwyd eisoes, ydyw, fod yr ail gromlech yma, neu yr allor israddol, wedi ei gosod ychydig yn mhellach oddi wrth ei phen isaf; a bod yr arwyneb, sef y top, yn argrwm neu grythog. Y mae yr argrymedd yma yn perthyn i lawer o'r cromlechau; ond gellir tybied nad yw ond peth a gymmerodd le mewn amser diweddar, a dichon iddo gael ei achosi i raddau mawr gan y tywydd a phethau ereill, am gynnifer o oesoedd. Y mae yr argrymedd mor nodedig mewn un a elwir "Coeten y Cawr" (*Giant's Coit*), yn Nghernyw, fel y mae yn bur anhawdd sefyll arni mewn un modd; yr hyn a barodd i Mr. Maton, yr hwn a'i darlunia, feddwl fel y Dr. Borlase, mai beddrodau oedd yr holl gromlechau.

Y mae cromlech ddyblyg arall dra nodedig, yn mhlwyf Bodedeyrn, Môn, yr hon ni sylwa Rowlands arni. Y mae y maen clawr o gylch deg troedfedd wrth wyth, a dwy droedfedd a hanner o drwch, ac yn ymorphwys ar bedair colofn—yr hwyaf o'r rhai sydd yn bum troedfedd o hyd. Y maen sydd yn ffurfio yr ail ran o'r gromlech, sef y rhan isaf, sydd naw troedfedd ysgwâr, a safai gynt ar dair colofn; ond y mae weithian wedi ei fwrw i lawr.

Dywed Borlase fod dwy gromlech yn mhlwyf Madern, Cernyw—un yn Môlfra, a'r llall yn Lanion; bod y flaenaf ar ben bryn crwn moel, fel y mae yr enw yn y Gernywaeg yn arwyddocäu. Y mae y maen clawr (*cover-stone*) yn bedair troedfedd ar ddeg a thair modfedd o hyd, a naw troedfedd ac wyth modfedd o led. Y mae y tair colofn sydd yn cynnal hwn yn bum troedfedd o uchder.

Am gromlech Lanion, y mae y maen clawr yn bedair troedfedd ar bymtheg o hyd. Ei drwch yn y canol, ar yr ochr ddwyreiniol, yw un modfedd ar bymtheg; ond ar yr ochr orllewinol, y mae yn ddwy droedfedd o dew. Y mae ei gylchfesur dros saith droedfedd a deugain. Nid yw y ddwy brif golofn gywirongl â llinell yr arwyneb, fel mewn cromlechau ereill, ond yn wyrdraws, fel pe baent wedi eu gwthio o'u sefyllfa gyntefig gan ddirfawr bwys y goeten, yr hon sydd mor uchel fel y gall dyn eistedd ar geffyl dani.

Dywed Carnhuanawc fod cromlech "yn Nghernyw, â'r maen uchaf iddi yn pwyso yn agos i 800 tynell; ond nid yw yn pwyso ar geryg dodi, eithr ar gopa craig." Fe ddichon mai hwn yw y maen y sonia Borlase am dano, sydd yn mhlwyf St. Levin, yn Nghernyw, yn y lle a elwir Castell Treryn. Dywed efe fod y penrhyn yma yn cynnwys tri thwr o greigiau, a bod maen anferthol ei faint, ar y tu dwyrain i'r twr canol, yn agos i'r top, wedi ei dafoli mor gywir, fel y gellir ei ysgwyd â llaw; ond y mae eithafoedd ei waelod yn y fath bellder oddi wrth eu gilydd, ac wedi eu sicrhau mor dda trwy eu hagosrwydd i'r gareg ar yr hon yr ymestyn, fel y gellid meddwl fod yn annichonadwy ei symmud, nac â gwif nac unrhyw allu celfyddydol arall, o'i sefyllfa bresennol. Gelwir ef yn Nghernyw, ebai Borlase, yn "Faen Logan" (ond yn Nghymru, eb efe, "Maen sigl"); ac y mae mor uchel, fel nas gall neb a'i gwelo gredu iddo gael ei godi yno erioed trwy allu dyn. Os at y maen hwn y cyfeiria Carnhuanawc, o'r sawl y mae lluaws cyffelyb yn Nghernyw, ymddengys iddo dybied fod "Maen Chwyf" yr un peth a chromlech; yr hyn yn ddiau nid ydyw yn syniad cywir.

"Ond," meddai Carnhuanawc, "y gromlech fwyaf nodedig yn yr ynys ydyw yr un ger llaw pentref Ifan, yn swydd Benfro, y maen uchaf o ba un sydd 18 troedfedd o hyd, 9 o led, a 3 o drwch; ac y mae yn pwyso ar dri o feini sythion, ac mor uchel oddi wrth y ddaiar, fel y gall dyn ar geffyl farchogaeth dano heb ymgrymu, gan fod y golofn hwyaf yn wyth troedfedd o hyd." Darlunia George Owen y gromlech yma fel hyn:—"Peth arall teilwng o sylw ydyw, y gareg a elwir Maen y Cromlech, yn Mhentre Ifan. Clamp o gareg o faint anferth ydyw, wedi ei chodi yn uchel, a'i gosod ar benau tair careg uchel ereill, sydd yn sefyll yn sythion yn y ddaiar; ac y mae yn tra rhagori, o ran maint ac uchder, ar Lech Arthur, sydd ar y ffordd o Henffordd i'r Gelli, ac ar Lech yr Ast, yn agos i Flaen y Porth, yn Ngheredigion, ac ar bob un arall a'r a welais i erioed, oddi gerth rhai yn Ngwaith Emrys (*Stonehenge*) ar Faesydd Caer Caradog (*Salisbury Plain*), a elwir Cŏr Gawr (*Chorea Gigantum*), se un o ryfeddodau penaf Lloegr. Y mae y ceryg ar y rhai y gosodir hon mor uchel, fel y gall dyn ar geffyl farchogaeth dani heb ymgrymu; ac y mae y gareg sydd wedi ei chodi fel hyn yn ddeunaw troedfedd o hyd, naw troedfedd o led, a thair troedfedd o drwch mewn un pen, ond ychydig yn deneuach yn y llall; ac y mae yn amlwg fod darn wedi ei dori o honi, er pan y gosodwyd hi yno, sydd yn ddeg troedfedd o hyd, a phumpo led, yr hwn sydd yn gorwedd fyth yn y lle. Y mae'r cwbl yn fwy nag y gall ugain o ychain ei dynu. Y mae saith o geryg yn sefyll fel cromell, ar lun y lleuad newydd, o'r tu deheu i'r gareg fawr, a dwy gareg syth yn gwynebu ar eu gilydd o'r tu arall iddi.....Y mae lluaws o geryg ereill o'i hamgylch, wedi eu gosod mewn dull tra thebyg i'r hyn a ysgrifenwyd yn 1 *Mac.* xiii, opd yn unig fod ein cadgofnod ni yn fwy garw."

Y mae un gromlech yn Poitiers, yn Ffrainc, meddai Toland, yn cael ei chynnal gan bump o geryg llai, yn rhagori yn mhell ar holl rai Ynys Prydain a'i gorynysoedd, gan ei bod yn drigain troedfedd o arwynebiad.

Ceir darlun lled fanwl o Orsedd Bryn Gwyddon (*Abury*), a gwaith Emrys (*Stonehenge*), mewn lle arall. Gwel Bardd.

Hyderir fod yr hyn a ddywedwyd yn ddigon i roddi golygiad cryno a lled bendant ar ffurf, enw, lleoedd, a maint cyffredinol cromlechau; ond am eu *dybenion penodol*, dichon y bydd hyny heb ei benderfynu yn foddhaol yn ngolwg rhai hyd derfyn amser.

Y mae y gweddillion Cymreig, neu Farddol, neu Geltig, hyn i'w canfod, nid yn unig yn Nghymru a Lloegr, a Llydaw, ond hefyd yn yr Iwerddon, yn yr Alban a'i holl orynysoedd, yn ynys yr Ia, yn Jersey, ac hyd yn oed yn Ngogledd a Deheudir America;—ar fyr, y maent i'w

Digitized by Google

cael yn mhob gwlad ac yn mhob man y bu rhai o lwythau y Celtiaid yn preswylio. Gwel BARDD, CARN, GORSEDD, MAEN-GYLCHOEDD, &c.—(*Myv. Arch.; Llwyd's Arch. Brit.; Cambro-Brit.; Rowl. Mon. Ant.; Toland's Druids; Angh. Llwyd's Mona; Dav. Celt. Res.; Cæs. Comm.; Borlase's Ant. Corn., &c.*)

CROMWELL, THOMAS: a anwyd yn Putney, yn agos i Lundain, lle yr oedd ei dad yn ôf, ac wedi hyny yn fragwr. Yr oedd wedi dysgu darllen, ysgrifenu, ac ychydig o Ladin; a chyn gynted ag y tyfodd i fyny, aeth i'r cyfandir, lle y dysgodd amryw ieithoedd estronol. Yna, cafodd le yn ysgrifenydd mewn gweithfa eang yn Antwerp, o'r lle y cymmerwyd ef i Rufain (1501), gan ryw rai o Boston, yn sir Lincoln, y rhai a dybient y gallai fod o gynnorthwy iddynt mewn rhyw negeswriaeth oedd ganddynt gyda'r pab. Yn ystod y daith yma, dysgodd gyfleithiad Erasmus o'r Testament Newydd ar dafod leferydd; a pharhaodd i ddiwyllio ei hun trwy ystod yr holl amser y bu yn Italy. Pan ddychwelodd, derbyniwyd ef i dŷ y Cardinal Wolsey; gwnaed ef yn attyrnai iddo, ac yn brif ddirprwy yn sefydliad ei goleg yn Rhydychain ac Ipswich. Dychwelwyd ef hefyd yn aelod o Dŷ y Cyffredin, lle y cynnyddodd ei glod trwy ei amddiffyniad i Wolsey, yr hwn a gyhuddwyd yno o fradwriaeth. Wedi diraddiad y cardinal, cymmerwyd Cromwell i wasanaeth y brenin: yn 1531, urddwyd ef yn farchog, a gwnaed ef yn deyrngynghorwr ac yn arolygwr tŷ y gemau. Yr oedd weithian yn prysur ymddyrchafu i'r swyddau mwyaf pwysig yn y deyrnas. Yn 1532, gwnaed ef yn Ysgrifenydd y Balleglys yn y Canghellorlys, ac wedi hyny yn Ganghellydd y Trysorlys: yn 1534, yr oedd efe yn Brifysgrifenydd y Llywodraeth, yn Feistr y Coflyfrau, ac yn Ganghellydd Prifysgol Caergrawnt; yn 1535, yn Ymwelydd Cyffredinol (*Visitor-general*) y mynachlogydd Seisonig; ac yn 1536, yn Arglwydd y Gyfrinsel. Yn awr, efe a roddes ysgrifenyddiaeth y Balleglys i fyny, a gwnaed ef yn Farwn Cromwell, o Okeham, yn sir Rutland; ac appwyntiwyd ef yn Ficer Cyffredinol a Rhaglaw—y nesaf mewn awdurdod yn mhob peth crefyddol i'r brenin, yr hwn weithian oedd prif ben yr eglwys Seisonig. Yr oedd yn gyfaill mynwesol i Cranmer; ac yr oedd golygiadau y ddau ar y Diwygiad yn gyffelyb. Gan mai amcan Cromwell oedd distrywio awdurdod y pab, efe a daenodd erthyglau newydd o ffydd, a archodd i'r clerigwyr bregethu uchafiaeth y brenin, i fwrw ymaith ddelwau oddi ar eu hallorau, ac i gefnogi addysg grefyddol pob ieuenctyd, gan ddysgu iddynt y Credo, Gweddi yr Arglwydd, a'r Deg Gorchymyn. Gorchymynodd i Feiblau Seisonig gael eu rhoddi yn yr eglwysydd, a defnyddiodd foddion effeithiol i ddadgorffori y mynachlogydd. Yr oedd y cyfnewidiadau hyn, yn nghyd â chynnydd mawr ei gyfoeth—peth o'r hwn a gafwyd, fel y tybid, trwy anonestrwydd—yn ei wneyd yn hynod anmhoblogaidd, fel nad oedd diffyg o elynion lawer iddo, y rhai a wnaent eu hegni i droi y brenin yn ei erbyn. Pa fodd bynag, nis gellid siglo parch y brenin ato: yn 1537, appwyntiwyd ef yn Brif Ynad yr holl Goedwigoedd tu hwnt i'r Trent; ac yn Awst, yn yr un flwyddyn, gwnaed ef yn Farchog y Gardas, ac enwyd ef yn ddeon Wells. Y mae y gyfres hir o deitlau ac appwyntiadau swyddogol Cromwell heb fod yn agos i gyflawn eto. Yn 1538, gwnaed ef yn Benciwdod Castell Carisbrook, a chafodd anrheg o gastell ac arglwyddiaeth Okeham. O gylch yr amser yma, efe a roddes amryw archiadau i'r clerigwyr, trwy un o'r rhai y sefydlwyd coflyfrau plwyfol; ac yn 1539, ar ol derbyn gan y brenin amryw faenorau mynachlogol ac etifeddiaethau gwerthfawr, efe a wnaed yn iarll Essex, ac yn Arglwydd Ystafellydd Lloegr: ar yr un pryd, cafodd ei fab Gregory farwniaeth Okeham.

Hyd yn hyn, ni bu ond ychydig rwystr i redfa llwyddiant Cromwell. Yr oedd ei ffafr yn y llys wedi bod yn ddigonol bob amser i ddiffodd pob cwyn poblogaidd yn ei erbyn; ond daeth i ddeall weithian fod parch Cranmer ac yntau ei hun yn lleihau yn nghyfrif y brenin. Yr oedd Gardiner (esgob Winchester), a'i blaid, wedi ennill rhyw uchafiaeth ar y brenin; ac yn ol fel yr oedd gallu y pleidwyr hyn i'r grefydd Babaidd yn cynnyddu, yr oedd dylanwad y diwygwyr yn lleihau yn gyfatebol; ac yr oeddynt hwy a'u hathrawiaethau yn dyfod yn annerbyniol yn y llys. Er mwyn adennill ei dir blaenorol, neu o leiaf er mwyn gwarchgloddio ei hun yn ddiogel yn y sefyllfa rymus yr oedd ynddi hyd yn hyn, ni chollodd Cromwell ddim cyfleusdra i rwyddhau priodas Henry âg Anne o Cleves; gan gymmeryd gofal am ddangos i'r brenin, cyn amled ag y caniatäai amgylchiadau, yr amryw fanteision a gynnyrchai y fath undeb. Yr achos o sel fawr Cromwell oedd hyn: yr oedd Anne a'i holl gyfeillion yn Lutheriaid, ac ystyriai Cromwell y ceid cynnorthwy mawr oddi wrth frenines o'i ddewisiad ei hun—golygiadau crefyddol yr hon oeddynt gwbl groes i'r Catholiciaid Rhufeinig. Bu cwbl fethiant y cynllun yma yn ddinystr i'w gynlluniwr. Prysur ddilynwyd casineb y brenin at ei briod hagr, a'i siomedigaeth ynddi, â gwrthnaws at gymhellwr y briodas, a rhoddai Henry glust ewyllysgar yn awr i'r dylif cwynion a dywelltid iddo o bob parth. Yr oedd Cromwell yn gas gan y gwŷr llëyg, o blegid yr arian cymhorth gorthrwm a gyfodasai efe, heb law y symiau mawrion a ddeillient oddi wrth ddiddymiad y mynachlogydd: yr oedd efe yn gasach fyth gan y bendefigaeth, o blegid y teitlau a'r gallu a gawsai, er iselder ei enedigaeth: ac yr oedd yn wrthddrych ffleiddiad ac eiddigedd gan y Catholiciaid Rhufeinig, o blegid yr athrawiaethau Protestanaidd a gredai ac a noddai. Cyn gynted, gan hyny, ag y daeth yn amlwg nad oedd y brenin mympwyol—yr hwn a'i dyrchafasai o fod yn ddynyn isel i fod y deiliad mwyaf galluog yn y deyrnas—yn barod i'w amddiffyn mwyach, yr oedd ei gwymp yn sicr ac anocheladwy. Yr oedd amryw weithredoedd a chyfreithiau pwysig ei weinyddiaeth yn cynnysgaethu ei elynion â phrofion digonol o gamymddygiadau a throseddau. Ar y 10fed o Fehefin, 1540, cymmerwyd ef i fyny, a throsglwyddwyd ef i garchar. Ni chymmerid sylw o'r llythyrau a ysgrifenai at y brenin yn erfyn maddeuant, er iddynt effeithio i gael gan y brenin deimlo, ac iddo eu darllen dair gwaith drosodd. Ar yr 17fed o Fehefin, cyhuddwyd ef yn nhŷ yr arglwyddi; yr hwn, ar y 19eg, a anfonodd ysgrif anurddiad i lawr i dŷ y cyffredin. Yma, cyfodwyd rhyw wrthwynebiadau i'r ysgrif; ond ar ol oedi deng niwrnod, ffurfiodd tŷ y cyffredin ysgrif newydd, yr hon a basiodd dŷ yr arglwyddi wedi hyny. Yr oedd yr ysgrif yma yn cynnwys deuddeg erthygl o achwyniad, yn ei gyhuddo, yn mysg troseddau ereill, o fod "y bradwr a'r twyllwr mwyaf ffals a llygredig ag oedd yn adnabyddus yn y teyrnasiad hwnw," "o

Digitized by Google

fod yn heretic adgas," ac "o gael afrifed symiau o arian a thrysor trwy orthrwm, hudobrwy, a chribddail." Nis goddefid iddo ateb y cyhuddiadau hyn yn y llys, rhag ofn, fel y tybir, iddo brofi ddarfod i lawer o'r pethau y cyhuddid ef o'u plegid gael eu gwneuthur trwy orchymynion, cyfarwyddiadau, a chydsyniad y brenin. Cadwyd ef mewn carchar caeth am chwech wythnos, pan y darfu am bob gobaith a'r a allai goleddu am ddienyddoed; a llwyddodd hudoliaethau Catherine Howard, ac ymdrechiadau y duc o Norfolk ac esgob Winchester, i gael gan y brenin lawnodi gwarant dienyddiad, yr hyn a gymmerodd le ar y Tower hill, yr 28ain o Orphenaf, 1540.

Am alluoedd Cromwell, a'i ddylanwad ar y Diwygiad, fe ddywed Froude, yn yr hanes olaf a ddaeth allan am y Diwygiad, a'r galluocaf o ddigon, a'r hwn sydd eto ar ei hanner:—"Hyd yn hyn, nid oedd ond dau ddyn o'r radd uchaf o alluoedd ar ochr Protestaniaeth — Latimer a Cromwell.....Gwelodd y ddau hyn y cyfleusdra, fel yr ydoedd yn prysuro ymaith; ond cyn iddo basio, cyflawnwyd gwaith yn Lloegr, yr hwn, wedi unwaith ei gyflawnu, a gyflawnwyd am byth.....Y mae yn resyn fod defnyddiau bywgraffiad dau ddyn y mae Lloegr dan y fath ddyled ddofn iddynt mor brin." Am Cromwell, fe ddywed drachefn:—"Iddo ef y perthynai y rhagorfraint orbrin hono o weled yr hyn na allai dynion ereill ei weled; ac o ganlyniad, ei ran ydoedd llywodraethu cenedlaeth oedd yn ei gasäu i wneuthur ewyllys Duw, ac i golli ei fywyd yn ei lwyddiant. Nid oedd ganddo un blaid. Edrychai mawrion y deyrnas arno gyda'r un teimlad o ddirmyg ac ofn ag yr edrychent ar Wolsey. Gwyddai y Protestaniaid, fe ddichon, pa beth ydoedd; ond ni allasai bwrcasu eu goddefiad ond trwy lywodraethu eu hafreoleidd-dra. Latimer oedd yr unig un o wir allu, yn nghyfeillgarwch yr hwn y gallai ymddiried." Drachefn, wrth ddysgrifio yr anhawsderau oedd gan senedd Prydain i ymgymmeryd â hwynt yn nadgyssylltiad y deyrnas hon oddi wrth Rufain, fe ddywed:—"Yr oedd senedd 1528, am saith mlynedd ei pharhâd, yn ddyledus am lywodraethiad ei holl weithrediadau i un pwynt i'r unig ddyn oedd yn gweled ei ffordd yn glir, sef Thomas Cromwell." Oddi wrth hyn fe genfydd y darllenydd mai y gwladweinydd pwysicaf yn un o adegau mwyaf pwysig, os nad y cyfnod pwysicaf oll, ydoedd. Gwel DIWYGIAD.—(*Froude's Hist. of Engl.*, cyf. ii.; *Fox's Acts & Mon.*; *Stow's Annals*; *Herbert's Hist. of England*; *Burnet's Reform.*; *Collier's Eccl. Hist.*; *Biog. Brit.*; *Penny Cycl.*, &c.)

CROMWELL, OLIVER. Cyn dechreu sylwi ar yrfa y dyn nodedig hwn, rhoddir ei achau ger bron, fel y casglwyd hwynt gan ddirprwyaeth a appwyntiwyd ganddo ef ei hun yn yr ail flwyddyn o'i amddiffyniaeth. Tacnwyd y camddarluniadau mwyaf am ei enedigaeth a'i linach, tra, mewn gwirionedd, nad oedd ond ychydig deuluoedd yn y deyrnas a allent olrhain eu disgyniad o gyff ardderchocach. Yr oedd Oliver o'du ei fam yn Stiwart (*Stuart*), o'r un gwaed a Stiwartiaid breninol Scotland a Lloegr: o du ei dad, yr oedd yn disgyn yn unionllin o Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys. Yma y canlyn ei achau o du ei dad:—

"Llinach ei uchelder, yr anrhydeddusaf a'r ardderchocaf Oliver Cromwell, penaeth goruchel, neu arglwydd amddiffynydd gweriniaeth Lloegr, Alban, Iwerddon, a'r tiriogaethau perthynol iddynt:—

"Oliver Cromwell, neu Williams, fab Robert Cromwell, neu Williams, fab Syr Henry Cromwell, neu Williams, fab Syr Risiart Williams[1] (yr hwn a gymmerodd yr enw Cromwell gyntaf, trwy drwydded freiniol, ar ol ei ewythr Thomas, yr arglwydd Cromwell, iarll Essex), fab William ab Morgan, o Gwm Castell, Eglwys newydd, sir Gaerfyrddin, fab Morgan ab Ioan, fab Ioan ab Morgan, fab Morgan ab Howel, fab Howel ab Madog, fab Madog ab Alan, fab Alan ab Owain, fab Owain ab Cadwgan, fab Cadwgan ab Gruffydd, fab Gruffydd Maelor, fab Meredydd ab Madog, fab Madog ab Bleddyn, fab Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Powys a Gwynedd, B. A. 1064—1073."

Yma y canlyn ei linach o du ei fam, yn cael ei holrhain i waered:—

Yr oedd Gruffydd ab Llywelyn, o'r hwn y tarddai y llinach hon, yn un o'r tywysogion ardderchocaf a fagodd Cymru yn ei chyfnodau rhyfelgar. Efe a esgynodd orsedd Cymru ar ol buddugoliaeth ysblenydd a ennillodd ar lanau afon Conwy, lle y syrthiodd ei gydymgeisydd, Iago ab Idwal. Yn ystod ei deyrnasiad, nid ymladdodd yn bersonol lai na chant a deg o frwydrau yn erbyn y Saxoniaid a'r Daniaid. Yn 1040, efe a yrodd fyddinoedd cynghreiriol y ddwy genedl hono ar ffo dan Lewfryg (*Leofric*) ac Edwyn, iarllod Mers a Northumberland, yn Rhyd y Grog, (*Crosford*) ar Hafren, a thrachefn ar Wy, B. A. 1050. Yn B. A. 1050, efe a ennillodd frwydr fawr arall ar iarll Ranwlff, yn Henffordd; a phedwerydd yn yr un lle yn B. A. 1053. O'r diwedd, efe a syrthiodd ar y Penmaen Mawr yn aberth i frad a thwyll, a luniwyd rhwng Harallt ab Godwyn, a fu wedi hyny yn frenin Lloegr, a thri o'i bendefigion anfoddog. Gadawodd Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt un ferch, Nest, yr hon a briododd Trahaiarn ab Caradog, yr hwn, yn ei hawl hi, yn ganlynol, a esgynodd i orsedd Cymru. Cynnyrch y briodas hon oedd Gwallter Ddu; yr hwn, ar farwolaeth ei dad, yn mrwydr waedlyd Carnau, yr hon a barhaodd ddiwrnod a noswaith, a ffodd (B. A. 1080), gyda thri chant o ymlynwyr ei dad, i'r Alban, lle y daeth yn sylfaenydd teyrnach y Stiwartiaid.[2] O hono ef rhed llinachau y Stiwartiaid breninol a Cromwell mewn colofnau cyfochr, fel hyn:—

[1] Sylwadau Carlyle ar y rhestr achyddol uchod, ydyw—"Y mae yn ddiammheuol fod y Risiart hwn yn llawnodi ei hun yn 'Risart Cromwell neu Williams.' Hefyd, fod ei feibion a'i wyrion yn gwneyd yr un modd, a bod yn wybyddus fod Oliver wedi llawnodi ei hun felly pan yn ieuanc." Cyfeiria hefyd at dystiolaeth Leland—dyn cywir, ac o ymddiried—yr hwn a benodwyd i wneuthur ymchwiliadau mewn cyssylltiad â'r Eglwys Wladol, a'r hwn yn ei *Itinerary*—ffrwyth yr ymchwiliad hwn—a ddywed, fod "Risiart Williams, *alias* (neu) Cromwell, wedi ei eni yn mhlwyf Llanilden, sir Forganwg." Y mae y ffeithiau hyn, medd Carlyle, yn anwadadwy. Ond am darddiad y chwanegiad "Williams"—gan eu bod mor luosog—y mae yn dadgan ei anallu i benderfynu. Ond nid yw mor barod i ganiatâu ddlysrwydd achau Cymreig Oliver ag a fuasai, hwyrach, i hôni ei haniad Ysgotaidd, pe buasai yr un tebygolrwydd drosto.

[2] Dywed Carnhuanawc fod amryw hanesyddion yn dywedyd mai bastardd oedd y Gwallter hwn i alltud ymliediedig o'r Alban, a elwid Ffliangc (*Fleance*), o ferch Gruffydd ab Llywelyn, a ordderchodd efe tra yn cael ei greesawu yn lletygar yn mhalas y tywysog. "Pan wybu Gruffydd hyn, efe a osododd Ffliangc i farwolaeth; ond Gwallter a ddygwyd i fyny yn y llys. A phan ddaeth i oedran gŵr, aeth i'r Alban, lle yr ymddygodd mor wych, fel ei gwnaed yn brif oruchwyliwr (*lord steward*) y deyrnas. Ac oddi wrtho ef y mae y teulu breninol, y Stiwartiaid, yn deilliaw. Ond y mae rhai yn ammheu yr hanesiad hwn, ac yn dywedyd fod y Stiwartiaid yn hanedig oddi wrth deulu Normanaidd, yn swydd Amwythig, o'r enw Fitzalan."—*Hanes Cym.*, td. 442.

Digitized by Google

Gwallter Ddu ab Trahaiarn ab Caradog (B. A. 1070—1110).

Alecsander Stiwart, y 5ed o Gwallter, B. A. 1286.

1298. Ioan Stiwart	Andres Stiwart
1320. Gwallter Stiwart	Alecsander Stiwart
1390. Robert II., brenin yr Alban	Ioan Stiwart
1406. Robert III.	Thomas Stiwart
1437. Iago I.	Thomas Stiwart
1460. Iago II.	Rhisiart Stiwart
1488. Iago III.	Niclas Stiwart
1513. Iago IV	Niclas Stiwart
1542. Iago V.	William Stiwart
1567. Mari, brenines yr Ysgodogion	Elsbeth Stiwart
1626. Iago VI., brenin Lloegr	Elsbeth Stiwart, a briododd [Robert Cromwell
1646. Carl I., brenin Lloegr	Oliver Cromwell

Yr oedd gorhendaid yr amddiffynydd—Morgan ab Ioan neu Ieuan—yn cyfranogi o holl newidiadau bywyd Iasper Tudur, iarll Penfro, a'i nai Harri Tudur. Wedi i'r olaf orchfygu Lloegr ar faes Bosworth, gwobrwyodd Morgan ab Ieuan â thiroedd yn siroedd Essex a Huntingdon. Pa fodd bynag, parhaodd ei fab William ab Ioan, i breswylio yn anneddfa y teulu yn Cwm Castell, yn mhlwyf yr Eglwys Newydd, sir Gaerfyrddin, hyd oni phriododd â chwaer Thomas Cromwell, iarll Essex. O barch i'w ewythr, cymmerodd ei fab henaf—Syr Rhisiart Williams ab Morgan—yr enw Cromwell. Ysgrifenai amryw ganghenau o'r teulu eu henwau yn Cromwell neu Williams mor ddiweddar a B. A. 1740. Yr oedd Syr Rhisiart yn dra enwog mewn campau milwraidd; ac ar un achlysur, heriodd y campwyr penaf yn Ewrop i'w gyfarfod ef mewn ymdrechfa agored ar ei breswylfod ei hun yn sir Gaergrawnt. Y brenin Harri VIII., yr hwn ydoedd dra hoff o ddifyrwch rhith-ymladdau, ac i'r hwn yr oedd Syr Rhisiart yn hoffddyn neillduol, a lywyddai fel beirniad yr ymdrechfa. Cafodd pawb o'r dyfodiaid eu trechu yn fuan oddigerth un: gan hyny, cyfyngwyd yr ymornest yn ebrwydd rhwng Syr Rhisiart a hwnw, yr hwn ydoedd farchog Ffrengig tra godidog; ac nis llwyddodd y blaenaf hyd y trydydd cyrch i fwrw ei wrthwynebydd gwrolwych oddi ar ei farch. Yr oedd y brenin mor lawen o'r canlyniad, fel y darfu, wrth ddyfarnu gwobr y fuddugoliaeth i'r pencampwr Prydeinig, gymmeryd modrwy ddiemwnt dra gwerthfawr oddi am ei fys, a'i gosod ar fys Syr Rhisiart, gan ddywedyd, "Hyd yn hyn, ti a fuost i mi yn Ddic; o hyn allan, byddi i mi yn Ddiemwnt." Oddi wrth y dygwyddiad yma, daeth helm Cromwell i fod yn llew cyrchneidiol, yn gwasgu modrwy ddiemwnt yn ei grafangau.

Preswyliai Syr Harri Cromwell, mab ac etifedd Syr Rhisiart, ar ei etifeddiaeth eang yn sir Gaergrawnt; ac yr oedd yn dad i ddau fab; sef Syr Oliver Cromwell, a wnaed yn Farchog y Baddon, B. A. 1603, a'r hwn a fu farw yn ddiblant; a Robert Cromwell, yr hwn, er mwyn gwneyd ei gyfran fechan fel mab ieuangaf yn helaethach, a gymmerodd y gorchwyl o ddarllawydd mewn llaw yn Huntingdon. Priododd Robert Cromwell gweddw William Lynn, o Basingbourne, sir Gaergrawnt, merch Syr Robert Stiwart, marchog o ddinas Ely; ar y 25fed o Ebrill, B. A. 1599, daethant yn rhieni i Oliver, a alwyd felly er cof am ei ewythr. Y mae yn amlwg, fel hyn, fod y teulu Cromwellaidd, er y gellid ystyried fod tad Oliver mewn amgylchiadau lled ganolig, nid yn unig mewn sefyllfa uchel yn y wlad, ond bod Oliver ei hun, trwy hynafiaid ei fam, wedi hanu o'r un cyff cenedl a'r penadur anffodus y bu efe mewn blyneddoedd dyfodol yn offeryn i ddwyn ei ben ar y plocyn. Ond, mewn gwirionedd, nid yw achau teuluaidd ond peth pur ddibwys gyda golwg ar ddynion o fath Oliver: nid trwy rinwedd eu hynafiaid y mae y cyfryw ddynion yn cyfodi, ond drwy rym eu natur eu hunain, a nerth yr egwyddorion a goleddant. Fel pwnc o wladoldeb yn unig y tybiodd Oliver yn werth amser i ateb haeriadau disail ei wrthwynebwyr gwladol yn hyn o beth, y rhai a borthent eu digofaint trwy arllwysion goganus a thuchanol ar fab y darllawydd.

Treuliai Cromwell ei faboed rhwng ei gartref ei hun, trigfod ei ewythr, Syr Oliver, a phalas ei daid o du ei fam, Syr Robert Stiwart. Y ffeithiau nad oes ammheuaeth am danynt yn ei hanes boreuol, ydynt y rhai canlynol:—Ganwyd ef yn Huntingdon, Ebrill 25, 1599. Derbyniodd ei addysg foreuol yn ysgol ramadegol Huntingdon, dan athraw gofalus a chrefyddol—y Dr. Thomas Beard. Ar yr 22ain o Ebrill, 1616, aeth i Gaergrawnt i'r brifysgol; ond yn 1617, ar farwolaeth ei dad, ymadawodd oddi yno heb ddychwelyd mwy; ond cymmerodd gydag ef, meddir, gymmaint o Ladin ag a'i galluogodd i'w siarad yn rhwydd mewn blyneddoedd dyfodol. Ar ol hyny efe a aeth i Lundain, i astudio y gyfraith, er nad oes brawf iddo ymuno â theml y cyfreithwyr. Dychwelodd i'r wlad; daeth yn gyfranog yn ngorchwyl ei dad, yn amaethwr bywiog; yn bregethwr achlysurol pur danbaid,

Digitized by Google

ymgymmerodd âg amryw swyddau; a daeth yn adnabyddus i ryddfrydwyr crefyddol a gwrthwynebwyr y llys, fel un o'u harweinwyr mwyaf penderfynol a chysson. Gwnaed ei amgylchiadau yn esmwythach trwy ei briodas, yr hon a gymerodd le ar yr 22ain o Awst, 1620, âg Elizabeth, merch Syr James Bourchier, o Pelsted; ac y mae genym ddigon o dystiolaethau i ddangos fod ei gylch teuluaidd yn un dedwydd, a'i fod yn ymddwyn yn ol egwyddorion manylaf doethineb a moesoldeb Cristionogol yn mhell cyn iddo ymddyrchafu i enwogrwydd.

Ar farwolaeth y frenines Elizabeth, Mawrth 24, 1603, dilynwyd hi i orsedd Prydain gan Iago y chweched o'r Alban, a'r cyntaf o Loegr. Ar ei ffordd o Edinburgh i Lundain, yn Ebrill y flwyddyn ganlynol, B. A. 1604, croesawyd ef ar ei daith gan ei gydberthynas, Syr Robert Stiwart, o Ely, yn nhŷ yr hwn y dygwyddodd fod ei ŵyr bychan, Oliver Cromwell, oedd y pryd hyny yn bump oed, yn cael ei fagu. Yr oedd y tywysog Siarl, wedi hyny Siarl I., yn flwyddyn iau nag Oliver. Dywed chwedl, na chawsom un sail iddi ond traddodiad, yr arferai y ddau blentyn gydymddifyru yn yr ardd; ond un bore, cyfododd cweryl rhwng y ddau. Pa un a achoswyd ef gan ormod awdurdod tywysogaidd ar ran un o'r plant, neu gan dymmer danbaid y llall, nid yw hysbys; ond fe ddarfu i ymladdfa o'r fath ag a ddygwydd yn fynych rhwng plant gymmeryd lle, ac i Dywysog Cymru gael ei ddwyn i'r tŷ â thrwyn gwaedlyd ganddo, wedi ei achosi gan ddwrn aflywodraethus Oliver ieuanc. Dywed traddodiad, nas gellid llwyddo, trwy na bygythion nac addewidion, i gael gan yr olaf ymesgusodi wrth y brenin dyfodol; ond y mae yn deg hysbysu, ar ran y tywysog ieuanc, mai trwy ei erfyniadau plentynaidd ef yn unig y diangodd Oliver rhag cael ei chwipio yn dost. Mewn blyneddoedd dyfodol, cymmerodd y dygwyddiad ffurf ac arwyddocâd argoel tyngedfenol, yn rhagarwyddo cynnyrch y cyffroad gwladwriaethol y byddai y ddau blentyn yn brif weithredwyr ynddo.

Er mwyn gwneyd y cyfnewidiadau mawr a gymmerodd le yn ystod bywyd Cromwell, ac yn mha rai yr oedd efe yn brif weithredydd yn fwy dealladwy, ni a edrychwn yn ol ychydig, er mwyn gweled yr ystorm yn ymgasglu cyn iddi ymarllwys yn gawod ddinystriol ar y brenin, y freniniaeth, y bendefigaeth, a'r eglwys.

Terfynodd y Diwygiad mewn cyfnewidiadau eglwysig mawrion yn yr Alban. Penderfynodd y gymmanfa gyffredinol, yn B. A. 1574, nad oedd awdurdod esgobion i fod yn fwy nag arolygiad—fod y teitl yn perthyn yn briodol i bob gweinidog a ofalai dros gynnulleidfa—y dylid galw yr holl esgobion wrth eu henwau eu hunain, ac nid wrth enwau eu hesgobaethau: ac, yn 1580, penderfynodd fod esgobyddiaeth yn anysgrythyrol ac anghyfreithlawn. Sefydlwyd y ffurf henadurol o lywodraeth, yn ei llawn rym, gan y senedd Albanaidd, yn 1592. Ar y cynllun yma y cafodd Iago I. ei addysgu; ac hyd oni esgynodd i orsedd Prydain, efe a gymmerai arno ymlynu yn selog wrth yr egwyddorion hyn. Efe a dynodd ei benwisg oddi am ei ben, yn ngwydd y gymmanfa gyffredinol yn Edinburgh, gan godi ei ddwylaw tua'r nef, a dywedyd, ei fod yn moliannu Duw ei fod wedi ei eni yn amser goleuni yr efengyl, ac yn y fath le ag i fod yn frenin i'r fath eglwys—yr eglwys buraf yn y byd. "Am Eglwys ein cymmydogion yn Lloegr," eb efe yn mhellach, "Offeren Babyddol yn Seisoneg, yn lle yn Lladin, ydyw ei gwasanaeth:—nid oes dim yn ol o honi a'r y sydd yn yr offeren ond y dyrchafiadau yn unig. Yr wyf yn erchi i chwi, fy ngweinidogion, doctoriaid, henaduriaid, pendefigion, boneddigion, a'm barwniaid daionus, ar sefyll o honoch yn gadarn at eich purdeb, a chynghori y bobl i wneuthur yr un modd; ac am danaf finnau, yr wyf yn ymrwymo, yn wir ddiau, i fyntumio yr unrhyw tra byddwyf byw." Yn y flwyddyn 1598, ail adroddodd Iago ei sicrhâd yn senedd yr Ysgotiaid, y byddai iddo ef wrthwynebu dwyn i mewn esgobion Seisonig na Phabyddol. Aeth y syniadau hyn—pe buasent gywir ryw bryd, yr hyn sydd i'w ammheu yn fawr—trwy gyfnewidiad trwyadl, pan y dygwyd dylanwad esgobyddol i bwyso ar ei nodweddiad anwadal a choegfalch ef yn Lloegr.

Yr oedd gwraig Iago, Ann o Ddenmarc, yn Babyddes ddallbleidiol, ac yn dal gohebiaeth gyfrinachol â'r pab, yr hwn a ddiolchodd iddi am beidio cymuno â hereticiaid ar amser ei choroniad. Y weithred gyntaf a wnaeth y brenin newydd oedd darostwng yr anrhydedd cyhoeddus. Yn mhen chwech wythnos, efe a roddodd urdd marchog i ddau cant ac un ar bymtheg ar ugain o farwniaid, ac a wnaeth yn ystod un flwyddyn chwech ar ugain o bendefigion—mwy nag a wnaeth hyd yn oed y frenines Elizabeth yn ystod y pedair blynedd a deugain y bu yn teyrnasu. Tra yr oedd ar ei daith i Lundain cyflwynodd y clerigwyr Puritanaidd ddeiseb iddo ar "buro" Llyfr Gweddi Eglwys Loegr oddi wrth ryw ranau o seremonïau, a ystyrid ganddynt hwy yn weddillion o lygredigaeth Pabyddol. Adnabyddid hon oddi wrth nifer yr enwau oedd wrthi, fel y "ddeiseb filyddol," a dilynwyd hi gan ereill, wedi eu geirio mewn iaith fwy penderfynol fyth. Cymhellodd Whitgift, archesgob Caergaint, mewn cyssylltiad â'r cyffredinolrwydd o'r fainc esgobol, a phrifysgol Rhydychain, ar fod i fesurau cosbawl gael eu gwneyd yn erbyn y Puritaniaid. Oedodd y brenin y cyfryw fesur fel un rhy gynnar, ac appwyntiodd ddiwrnod i ymgynghori arno yn llys Hampton. Fel dirprwywyr y lwysbendodaeth wladol, daeth yn nghyd yr archesgob, wyth o esgobion, chwe diacon, deon y capel breninol, dau ddoctor duwinyddiaeth, ac un archddiacon, yn erbyn pedwar o ddirprwywyr Puritanaidd—y Dr. Reynolds, y Dr. Sparke, Mr. Knewstubs, a Mr. Chadderton. Cymmerodd y brenin arno weithredu fel llywydd a chymmedrolwr. Caniatäwyd i'r cyfrin-gynghor a'r llys cyffredinol fod yn bresennol fel gwrandawyr. Trodd y cynnadleddau allan, fel y gallesid dysgwyl, yn dwyll a gwatwaredd. Cyfyngodd y preladiaid eu hunain at weniaith i'r brenin, yr hwn a'i canfyddai ei hun yn fwy cynnefin mewn ystafell ddadleu nag mewn teyrnllys; ac yn gyfartal i'r weniaith a dderbyniai gan yr esgobion, rhoddai yntau y ffrwyn i'w nwydau, i sarhau y doctoriaid Puritanaidd. Ymddengys fod dymuniadau y rhai hyn, gan mwyaf, nid yn unig yn rhesymol, ond fod sefyllfa crefydd ac addysg yn mysg y bobl ar y pryd yn galw yn anorfod am danynt. Yr oeddynt yn deisyf am gyfleithiad newydd o'r Beibl; ar fod i sel gynnyddol yn mysg y clerigwyr i ddysgu a phregethu gael ei chefnogi; ar i'r seithfed ran o'r trethi lleol a meddiannau eglwysig oedd yn nwylaw gwyr lleyg gael eu neilluo i waddoli gweinidogion mewn ardaloedd tywyll; ar i'r clerigwyr mewn gwahanol barthau gael caniatâd i gydymgyfarfod er cynnorthwyo a hyfforddi

Digitized by Google

eu gilydd; ar i ychydig chwaneg o ryddid Cristionogol gael ei ganiatäu i rai o gydwybodau tyner yn y weinidogaeth yn nghylch seremonïau allanol a dibwys. O'r holl erfyniadau hyn, y cyntaf yn unig a ganiatäwyd: hwtiwyd y lleill gan ei fawrhydi gyda dirmyg, ac mewn ymadroddion breision. "Y mae arnoch eisieu i'r clerigwyr gydymgyfarfod," eb efe wrth y Dr. Reynolds, "megys yn yr Alban. Wel, fe gytuna Henaduriaeth Ysgotaidd a brenin â'u gilydd bron yr un fath ag y cytuna Duw â diawl! Yna cai Sionyn, a Twm, a Wil a Dic ymgyfarfod, a'n dirmygu ni, a'n cynghor, a'n gweithrediadau, wrth eu pleser. Gadewch hyn yna yn llonydd, y Dr. Reynolds: na siaredwch wrthyf fi am fy uchafiaeth. Pe byddai yr esgobion allan unwaith, a chwithau i mewn, mi wn i yn dda ddigon beth a ddeuai o'm huchafiaeth i wedi hyny. Megys yr wyf fi wedi arfer dywedyd, 'Dim esgobion, dim brenin!' Os ä y naill, bydd i'r llall eu dilyn. Os hyn yw y cwbl sydd genych i'w ddywedyd, mi a wnaf i chwi gydymffurfio, neu mi a'ch hyrddiaf chwi allan o'r tir, os na wnaf rywbeth a fo gwaeth." Mor falch orfoleddus ydoedd Bancroft, esgob Llundain, oblegid y picellau hyn, fel y syrthiodd ar ei liniau, gan lefain, "Yr wyf yn tystio fod fy nghalon yn toddi gan lawenydd fod yr Hollalluog Dduw, o'i drugaredd arbenig, wedi rhoddi y fath frenin na bu ei gyffelyb er amser Crist." Cynnyrch y gynnadledd oedd dangos Iago heb ei fwgwd. Diddymwyd ei gyffesiadau yn yr Alban yn y modd hyfaf, a safodd yn noddwr diammodol i lwysbendodaeth wladol yn ei dull mwyaf trawsarglwyddol. Y flwyddyn ganlynol rhoddodd fwy o rwysg i'w olygiad ar unbendodaeth. Haerai yn bendant mai unbendodaeth yw gwir gynllun y Duwdod—mai ufudd-dod diammodol ac anwrthwynebol yw dyledswydd pendant deiliaid—fod gan y brenin hawl gynnwynol, neu uchelfreiniog, i ffurfio cyfreithiau ac ordinhadau bob dydd, ac i gyssylltu wrthynt y fath gospau ag a farna efe oreu, heb ymofyn â na senedd na phobl; y gall efe attal neu oedi y cyfreithiau wrth ei ewyllys. Argraffwyd yr holl athrawiaethau hyn yn ofalus ar Siarl, a'r plant ereill, y rhai, trwy ddylanwad eu mam, oeddynt wedi eu llenwi yn drwyadl, er yn gyfrwys, âg egwyddorion Pabyddol, a chydymdeimlad âg Eglwys Rhufain. O'r hâd llygredig a hauwyd fel hyn, y rhyfel cartrefol rhwng brenin a phobl oedd y cynauaf a ddyfrhawyd ac a fedwyd mewn gwaed. Yr oedd dynion craffus yn rhagweled nesâd yr ymryson. Ysgrifena Bacon, wrth feirniadu ar ormes uchel lys dirprwyad, a drwg arferion y llysoedd eglwysig, fel y canlyn:—"Mi a hoffwn ofyn, pa ham na phurid, ac nas adferid y llywodraeth trwy wneuthur cyfreithiau da ac iachus, bob tair neu bedair blynedd yn y senedd, gan ddarparu meddyginiaeth mor gyflym ag y mae amser yn magu afiechyd; ac, yn y gwrthwyneb, pa ham y parheir i gynnal y llywodraeth eglwysig fyth a hefyd, heb dderbyn dim cyfnewidiad yn ystod y pum mlynedd a deugain hyn, neu chwaneg? Os dywedir wrthyf fod gwahaniaeth rhwng achosion gwladol ac eglwysig, cystal fyddai iddynt ddywedyd wrthyf nad oes ar eglwysydd a chapelydd eisieu adgyweiriad, er fod ar gestyll a thai ei eisieu; pan, yn gyffredin, a dywedyd y gwir, y mae adfeiliadau mewnol ac ysbrydol eglwys Dduw yn gymmaint bob amser ag ydyw ei hadfeiliadau allanol a defnyddiol. Am ei fawrhydi (Iago I.), un a ofyn gynghor yn nghylch yr hen amseroedd ydyw, ac nid yr amseroedd presennol."

Dilynodd Bancroft Whitgift fel archesgob; ac fel Pen yr Uchel Ddirprwyaeth, efe a gychwynodd fesurau o erwindeb adnewyddol yn erbyn y clerigwyr Puritanaidd. Fe nodai y llys bob un a'r nas cydymffurfiai â phob gosodiad o eiddo yr Eglwys Wladol, fel yr oedd yn sefydledig ar y pryd, fel gwrthddrych o attafaeliad neu garchariad. Attaliwyd neu amddifadwyd yn agos i dri chant o'r clerigwyr drwgdybiedig. Bwriwyd yr ynadon a feiddiasant ddeisebu ar eu rhan allan o ddirprwyaeth yr heddwch. Yn nghanol yr anfoddlonrwydd cyffredinol oedd yn ymdaenu dros y genedl, bu darganfyddiad "Brad y Powdr Gwn" yn foddion i droi ei ddigofaint, am ysbaid, oddi wrth y llys at yr wrthblaid Babyddol.

Yn y cyfamser, yr oedd y brenin ei hun, yn ol yr esgob Burnet, naill ai yn tueddu i droi yn Babydd neu i fod heb grefydd yn y byd; ac ymddengys fod ei weithred nodedig nesaf yn cadarnhau yr hysbysiad yma. Trwy gael ei gefnogi gan ei breladiaid, cyhoeddodd y brenin, ar ei ddychweliad i Loegr, ei *Lyfr Chwareuon* gwarthus. Gwnaed y llyfr i fyny gan yr esgob Morton; ac ar ol y gwasanaeth boreuol y Sabbath, annogid yr holl ddeiliaid i gyflawnu y fath chwareuon a dawnsio, saethu, neidio, ymgodymu, chware cyff cler, cwrw Sulgwyn, dawn y Mwriaid, &c., &c. Gorchymynwyd i'r holl weinidogion ddarllen y llyfr yn gyhoeddus i'w cynnulleidfaoedd, ac erlynid y rhai a esgeulusent wneuthur hyny gan lys yr uchel ddirprwyaeth; ïe, lleddid a charcherid hwynt. Bwriadid ef fel mesur i hyrwyddo achos, cyfoeth, a mawreddigrwydd yr esgobion; ond, yn ngeiriau yr esgob Kennet,—"Gwnaethant i'r ceryg o furiau eu palasau i lefain, 'Treuliwch ymaith a diflenwch.'"

Dilynwyd Iago gan Siarl I., yr hwn a briodoedd Henrietta Maria, trydydd merch Harri IV., o Ffrainc, a chwaer Louis XIII. Yr oedd cytundeb dirgel, o'r fath ddifrifolaf, wedi ei wneyd rhwng y pab a Louis, fod plant Henrietta i gael eu haddysgu yn Babyddion; ac nid oedd neb ond Pabyddion detholedig yn unig i wylio drostynt.

Ni bu penaeth erioed farw â llai o barch iddo, neu alar am dano, na Iago I.; ac ychydig a wnaeth fwy i lethu iawnderau y deiliaid. Etifeddodd Siarl ei fab well dealldwriaeth nag ef, tymmer gyndynach, ymddygiad mawreddusach, yr un gwrthnaws at Buritaniaeth, a'r un gogwyddiad at Babyddiaeth. Y mae yn dra ammheus a oedd y tad na'r mab yn gofalu dim am Eglwys Loegr, yn mhellach nag fel gwladyddiaeth—peiriant i gynnal yr unbenaeth, a'u honiadau eu hun i drïarglwyddiaeth gwladol; a phe gallasai y Pabyddion drosglwyddo yr uchafiaeth i'r pab, y mae yn debyg iawn y dychwelasai y ddau i fynwes yr Eglwys Babaidd.

Yn oedd plaid Siarl yn gynnwysedig o bendefigion y deyrnas, gydag ychydig eithradau, heblaw corff o foneddigion cyfoethog a ymffrostient yn eu disgyniad henafol; a'r lluaws mawr hefyd oedd yn ddibynol ar y rhai hyn. Ymrestrai ar un ochr y ddwy brifysgol, a chorff y clerigwyr, yn nghyd â'r gwyr lleyg a ymlynent gydag eiddigedd at y drefn Esgobaethol a gwasanaeth Eglwys Loegr. Cyfnerthid y rhai hyn gan y Pabyddion yn ddieithriad. Yr un ochr hefyd yr oedd pawb oedd yn gwneyd bywoliaeth trwy weini i foethau ac i ddifyrwch y genedl, megys y chwareuwyr a'r cyffelyb. Er fod y brenin yn bersonol yn gyfrifol am yr holl fesurau caethion a gorthrymus a basiwyd yn ei enw, am

Digitized by Google

mai efe a weithredai fel ei Brif weinidog ei hun. Ar yr un pryd yr oedd amryw yn gwasanaethu dano fel prif offerynau ei ormes. Wentworth (iarll Stafford)—dyn o alluoedd mawr—a ymddiriedid yn benaf mewn achosion gwladyddol a milwraidd. Ond o honynt oll fe ddichon mai drwg ysbryd Siarl ydoedd Laud, esgob Llundain, ac wedi hyny archesgob Caergaint:—dyn o hunanoldeb tanbaid, o ysbryd basddialgar a barbaraidd, ofergoelus mewn ffrilion a daroganau i bob eithafion, o ddysgeidiaeth isel, ac yn fwy rhagfarnllyd yn nghylch gwag seremoniau nag y mae yn hawdd i ddynion o feddyliau eang goleuedig gredu. Mewn undeb â Wentworth, efe a gynnaliodd drethwyr uchel ddirprwyaeth y Chwil-lys a'r Ser-ystafell yn mhob gwlad drwy y deyrnas. Fe ddarfu iddynt hwythau ddirwyo, carcharu, rhigodi, a llurgunio yn ddiarbed. Daeth rhyddid y deiliaid yn llythyren farw. Ysgrifenodd Alexander Leighton, proffeswr athroniaeth foesol yn Edinburgh, draethawd a elwid "Dadl Sion yn erbyn Esgobyddiaeth" (*Sion's Plea against Prelacy*). Gwysiwyd ef gan Laud i ymddangos o flaen y Ser-ystafell, condemniwyd ef i dalu dirwy o 10,000*p.*, fflangellwyd ef yn dost, yna rhoddwyd ef yn y rhigod (*pillory*); wedi hyny, torwyd ymaith un o'i glustiau, holltwyd un ochr ei drwyn, a seriwyd y llythyrenau S. S. (*sower of sedition*=hauwr gwrthryfel), ar ei rudd. Yn mhen yr wythnos i'r diwrnod, tra yr oedd y briwiau creulawn a wnaed arno eto heb wellhau, chwipiwyd ef yr ail waith yn y rhigod; a rhoddwyd y gweddill o'r ddedfryd farbaraidd mewn grym, trwy dori ymaith ei glust arall, hollti yr ochr arall o'i drwyn, a serio ei rudd arall. Darostyngwyd y Parch. Mr. Burton i'r un merthyrdod parhaol, gyda dirwy o 5,000*p.* am bregethu yn ei eglwys ei hun yn erbyn tueddiadau Pabyddol yr esgobion. Condemniwyd Prynne, y bar-gyfreithiwr, am ysgrifenu yn erbyn Preladiaeth, i 5,000*p.* o ddirwy, i golli ei ddwy glust, i oddef carchariad yn Nghastell Caernarfon yn gyntaf, ac yna yn Jersey am ei oes. Arferwyd creulonderau cyffelyb ar Bastwick a John Lilburne. Darfu i gyfres o'r fath weithrediadau o eiddo Laud gynneu yn wenfflam yr hyn oedd eisoes yn mudlosgi trwy yr holl wlad. Ffurfiwyd y cyfammod cenedlaethol yn yr Alban. Galwyd am gymmanfa annibynol a senedd rydd. Appwyntiodd y senedd Seisonig—senedd fythgofiadwy 1640—appwyntiodd hon bwyllgor, drwy gyfres o benderfyniadau, i chwilio pa mor bell yr oedd yr archesgob Laud wedi bod yn euog o ŵyrdroi cyfreithiau a chrefydd ei wlad. Cyhuddwyd ef, ar adroddiad y pwyllgor, o uchel-fradwriaeth; trosglwyddwyd ef i'r Tŵr, a'r diwedd fu tori ei ben ef am fradwriaeth. Yr un dygwydd a gyfarfu Wentworth (Stafford). Dechreuodd yr ymryson, yn awr, rhwng y goron a'r bobl yn ddigudd; ac o hyny allan, yr oedd nodwedd sefydlog a phenderfynol Cromwell yn dysgleirio yn fwyfwy gwahanredol oddi wrth y lluaws oedd yn ei amgylchynu, nes o'r diwedd y cymmerodd yr holl chwareufa iddo ei hun.

Yn yr ymrafaelion a'r terfysgoedd oedd yn awr ar ddechreu, yr oedd prif nerth gwrthwynebwyr Siarl yn mysg y tirfeddiannwyr yn y wlad, a'r siopwyr a'r masnachwyr yn y trefydd. Yr oedd rhyw ychydig o aelodau galluog y bendefigaeth yn eu blaenori; megys iarlliaid Northumberland, Bedford, Warwick, Stamford, ac Essex—yr hwn a ddewisodd y senedd yn gadlywydd ei byddinoedd i ddechreu y rhyfel. I'r wrthblaid hefyd y perthynai holl gorff anghydffurfwyr y deyrnas, a'r rhan luosocaf o aelodau Eglwys Loegr a broffesent yr athrawiaethau Calvinaidd, y rhai a arddelwyd yn gyffredinol, ddeugain mlynedd cynt, gan y preladiaid a'r clerigwyr. I'r un ochr y perthynai y corfforiaethau dinesig, gydag ychydig eithriadau. Yn Nhŷ y Cyffredin, yr wrthblaid Brotestanaidd oedd y gryfaf, er nad o lawer.

Yn 1628, Mawrth 17eg, cymmerodd Cromwell le yn Nhŷ y Cyffredin, yn aelod dros Huntingdon. Hon oedd y drydedd senedd yn nheyrnasiad Siarl, a'r hynotaf o honynt, oddigerth y senedd hir, yr hon a derfynodd ei yrfa. Yr oedd blaenoriaid y Puritaniaid yn y senedd hon (1628), sef Hampden, Pym, Holles, a Cromwell hefyd, am y waith gyntaf. Ni bu erioed senedd mor Buritanaidd. Rhoddodd Syr Edward Coke, oedd hyd yn hyn yn uchel Eglwyswr, ei hun yn arweinydd iddynt; ac ymunwyd âg ef gan ddynion o bob plaid, oddi gerth ymganlynwyr y llys, yn yr ymdrech cyntaf i gael diwygio gormesiadau Ar Coke y disgyn yr erchylldra hwn o ffurfio yr enwog Ddeiseb y Breintiau (*Petition of Rights*), yr hon a gyfenwid yr "Ail Freintlen Fawr." Pan ddadleuwyd y pwnc yn Nhŷ yr Arglwyddi, llwyddodd y llys i chwanegu yr ammod hwn—"Nad ydys i ddeongli dim sydd yma yn y fath fodd ag i gyfyngu 'gallu [teyrnol' y goron." Pan ddychwelwyd yr ysgrif i Dŷ y Cyffredin gyda yr ammod yma, dywedodd Coke,—"Bydd i'r gwelliant hwn, os goddefir iddo basio, ddymchwelyd yr holl ddeiseb. Nid yw 'gallu teyrnol' yn air seneddol. Rhaid i ni ddal ein breintiau yn ol y gyfraith, ac nid yn ol pleser brenin."

Angenion Siarl yn unig oedd yn ei orfodi i alw y senedd yn nghyd. Nid allai gael arian heb hyny; a chan na chydymffurfiai â chyfansoddiad y deyrnas i esmwythau beichiau ei ddeiliaid ar gais y Tŷ, ni chaniatäent ddim iddo er hyny. Yn ol cyfansoddiad Prydain, y mae diogelwch am ryddid ac iawn lywodraethiad yn gynnwysedig yn yr awdurdod sydd gan y wlad trwy ei chynnrychiolwyr ar y pwrs gwladol. Yr oedd Siarl am roddi ei law yn y pwrs—ni allai wneyd heb hyny: eto nid oedd na chyfreithiau nac addewidion, ystyriaeth o'i anrhydedd na'i berygl, a allai ei rwymo i gydymffurfio â'r telerau gotynol. Yr oedd gan y brenin hawl i alw senedd yn nghyd, ac i'w dadgorffori. Gwnaeth hyny yn mhen ychydig wythnosau gyda'r ddwy senedd flaenorol. Pan yr oedd y cymylau yn ymgasglu o'i gwmpas, ac yntau yn aflwyddiannus gartref ac oddi cartref, gofynodd i Syr Robert Cotton pa beth a wnai? Atebodd yntau, "gwysiwch y senedd yn nghyd eto." Ac felly y gwysiwyd y senedd gyntaf yr eisteddodd Cromwell ynddi, yr hon a barhaodd am flwyddyn. Ar yr 11eg o Chwefror, 1629, ychydig o wythnosau cyn terfyn ei hail eisteddiad, y gwnaeth Cromwell yr araeth gyntaf a gofnodir iddo. Dywedodd iddo "glywed gan y Dr. Beard, o Huntingdon, fod y Dr. Alabaster yn pregethu Pabyddiaeth noeth yn Paul's Cross; a bod esgob Caerwynt wedi erchi iddo beidio pregethu dim croes i Babyddiaeth. Dewisodd yr un esgob Mainwaring i fywoliaeth eglwysig gyfoethog:—pregethau Pabyddol yr hwn a geryddwyd gan y Tŷ hwn. Os dyma y ffyrdd i ddyrchafiadau eglwysig, pa beth ydym i ddysgwyl?" Gwnaed archiad ar y llyfrau i'r perwyl canlynol:—"Archwyd bod y Dr. Beard, o Huntingdon, i gael ysgrifenu ato gan Mr. Llefarydd,

Digitized by Google

ar iddo ddyfod i fyny i ddwyn tystiolaeth yn erbyn yr esgob. Fod yr archiad am y Dr. Beard i gael ei chyflwyno i Mr. Cromwell."

Oddeutu dwy flynedd ar ol hyn, gwerthodd ei diroedd yn Huntingdon, a symmudodd i St. Ives, lle y bu yn dal fferm am bum mlynedd. Yn 1636, symmudodd i Ely, lle y daeth eiddo ei ewythr, Syr Thomas Stiwart, i'w ran. Yr oedd dygwyddiadau yn prysur addfedu i rwyg. Ar yr 11eg o Ionawr y flwyddyn hon, gwrthododd ei gefnder, John Hampden, dalu treth ormesol ac anghyfreithlawn, adnabyddus wrth yr enw *Ship money*. Yn heolydd Llundain yr oedd dynion da yn dyoddef y creulonderau mwyaf—eu serio â haiarn poeth, eu hanafu, a'u rhoddi yn y rhigod (*pillory*): yr oedd Scotland wedi tori allan yn fflam yn erbyn gwthio esgobyddiaeth arnynt: ac yr oedd amynedd Lloegr o'r bron wedi dyhysbyddu. Yn Ebrill, 1638, cyhoeddwyd dedfryd ar Hampden. Ond cryfhau yr oedd y gwrthwynebiad gyda phob amlygiad o ormes y brenin. Yn 1640, Ebrill 13eg, cyfarfyddodd senedd newydd, ac eisteddai Cromwell ynddi dros sir Caergrawnt; ond gohiriwyd hi yn mhen ychydig wythnosau. Ar y 3ydd o Dachwedd, gwysiwyd un arall, yr hon a adnabyddir yn well nag un senedd arall mewn hanesiaeth, wrth yr enw *y senedd hir*. Eisteddai Cromwell eilwaith dros sir Caergrawnt. Nid oes ammheuaeth nad oedd yn aelod gweithgar, er nad oes dim wedi ei gofnodi am dano am ysbaid dwy flynedd. Un drem yn unig a geir arno, mewn adroddiad bywiog gan Syr Philip Warwick, yr hwn a aeth i mewn i'r Tŷ un boreu Llun, yn Tachwedd, 1640, pan yr oedd un o'r aelodau ar ei draed yn siarad—"un nas adwaenwn, wedi ei wisgo yn bur gyffredin; ei llein-wisg yn hynod blaen, ac heb fod yn lân iawn; yr ydoedd o faintioli da; ei gleddyf wrth ei ochr, gyda gwyneb coch chwyddedig, llais treiddgar, aflafar, ac yn siarad gyda brwdfrydedd mawr." Yr oedd y person hynod hwn yn amddiffyn un Lilburn am ysgrifenu yn erbyn y frenines am ddawnsio. "Lleihaodd," medd yr ysgrifenydd, "fy mharch i brif gynnadledd y deyrnas wrth weled y siaradwr hwn yn cael y fath wrandawiad." Nid rhyfedd fod Syr Philip, yr hwn a ymfalchïai yn unig yn ei ddiwyg trwsiadus, a'i foesgarwch dillynaidd, yn methu cymmodi ei feddwl âg ymddangosiad allanol mor hollol groes yn Cromwell.

O'r braidd na allesid meddwl, hyd yn oed yn yr awr ddiweddaf, y buasai y cymylau, er mor fygythiol yr ymddangosent, yn chwythu ymaith. Rhoddodd y brenin ei air y cydweithredai â'r senedd, ac na dderbyniai i'w gyfrinach neb nad oedd gan y Tŷ ymddiried ynddo. Ond yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn gwnaeth y penderfyniad pwysicaf a wnaeth yn ei oes, ac un a drodd yr holl olygfa yn benderfynol yn ei erbyn. Anfonodd y cyfreithiwr cyffredinol i ddwyn prif arweinwyr yr wrthblaid yn y Tŷ o flaen bar Tŷ yr Arglwyddi, a'u cyhuddo o deyrnfradwriaeth. Er ei fod drwy hyn yn sathru y Freintlen Fawr dan ei draed; aeth yn mhellach—cymmerodd ei filwyr gydag ef, ac aeth yn bersonol i ddal blaenoriaid y Cyffredin o fewn muriau y senedd. Ond methodd; yr oedd yr aelodau cyhuddedig wedi ymadael ychydig cyn i Siarl gyrhaedd. Y diwrnod canlynol, Ionawr 12fed, 1642, gadawodd y brenin Lundain:—nid i ddychwelyd hyd ddydd ei ddienyddiad. Yn awr y dechreuodd parotoadau milwraidd o bob ochr. Ac yn awr, pan yn 43 mlwydd oed, gwisgodd Oliver Cromwell ei arfau, a chyda'i fab hynaf, Oliver, wrth ei ochr, efe a adawodd ei gartref tawel, ei fferm a'i anlfeiliaid, i ymladd dros ryddid Lloegr. Ei eiriau wrth gychwyn wrth ei fachgen ydoedd, "Tyred, fy machgen, Oliver, yr wyt ti yn ddigon o faint i ymaflyd mewn cleddyf; os bu brwydr erioed yn werth ei hymladd, a'i galw yn rhyfel yr Arglwydd, hon yw hi." Heb wybod dim am drefniadau milwraidd, penderfynodd yr yswain gwledig hwn i dynu ei gleddyf yn erbyn ei frenin, ac i beryglu ei fywyd mewn achos y credai yn ei galon am dano mai achos "rhyddid i'r gwirioneedd yn Nghrist ydoedd." Cyfranodd 500*p.* allan o gyllid oedd heb fod yn fawr tuag at wasanaeth y senedd. Gwariodd 100*p.* ychwaneg am arfau; a gwnaeth y defnydd goreu o dymmor yr haf i godi *volunteers*. Ei orchest gyntaf oedd cymmeryd meddiant o drysorfa Caergrawnt, fel na allai y brenin gael llestri arian y brifysgol at ei wasanaeth. Yn Medi, derbyniodd ei awdurdodiad fel cadben catrawd o feirch. Yn y rhyfelawd gyntaf, yr oedd y fantais yn troi o ochr y milwyr breninol. Gwyddai Cromwell, yn ei broflad ei hun, yn mha le y gorweddai nerth Puritaniaeth, a pha beth oedd dirgelw chei llwyddiant. "Mewn trefn i lwyddo," meddai wrth ei gefnder, Hampden, "rhaid i ni gael dynion sydd yn ofni Duw." Drachefn, dywedai—"y mae ychydig o ddynion gonest yn werth mwy na nifeiri." Meddyliodd Hampden fod ei gefnder yn dywedyd syniad da, ond yn un nas gellid ei roddi mewn ymarferiad." Ond troi "syniadau da" yn ffeithiau oedd y gwaith mawr oedd o flaen Cromwell. Ar yr egwyddor hono, casglodd o'i gwmpas gatrawd o fil o wyr, y rhai, dan yr enw "ochrau dur" (*ironsides*), sydd wedi ennill enwogrwydd mewn hanesiaeth. "Ni orchfygwyd hwynt erioed." "Pe buasai hanes Cromwell," medd Mr. Forster, "yn dybenu gyda'r gwaith o godi a dysgyblu y dynion hyn, gadawsid prawf digonol o'i fawredd i oesoedd dilynol."

Yn 1643, efe a gododd y rhif i 2,000, ac a ddarostyngodd Essex, Hertford, Norfolk, Suffolk, Caergrawnt, Huntingdon, a sir Lincoln, i'r senedd.

Ysgubodd Cromwell yn gyflym ar draws y deyrnas, ac a ymunodd â'r fyddin Albanaidd, yr hon oedd wedi dyfod i Loegr o flaen Caerefrog (*York*). Ar y 3ydd o Orphenaf, 1644, efe a lwyr orchfygodd y byddinoedd breninol yn mrwydr Marston Moor. Ennillwyd ail fuddugoliaeth ganddo yn Newbury, ar Medi 17eg, yn yr hon, trwy iddo ymosod ar yr osgordd freninol (*royal guards*), y bu agos iddo ddal y brenin yn bersonol. Yn ystod y gauaf, bu Tŷ y Cyffredin mor hunanymwadol a phasio cyfraith yn cau allan aelodau y ddau dŷ o senedd o bob awdurdod yn y fyddin; ond oddi wrth yr hon gyfraith y rhyddhawyd Cromwell mewn modd penodol. Yn y gwanwyn canlynol, appwyntiwyd Syr Thomas Fairfax yn benciwdod, a Chromwell yn gadweinydd y gwŷr meirch. Yn Islip, ger Rhydychain, gorchfygodd Oliver iarll Northampton, gan gymmeryd pedwar cant yn garcharorion; a thrachefn, gorchfygodd Syr William Vaughan yn Islip Bridge. Rhoddwyd Blechington House, trwy ddichell, i'w "ochrau dur," Ebrill 24, 1645. Enwyd ef yn awr gan y senedd yn llywodraethwr Ynys Ely. Tra yr oedd Siarl yn bwriadu myned tua'r gogledd, er ymgyssylltu â'i fyddinoedd yn sir Gaerefrog, rhwystrwyd ef gan Fairfax a Chromwell yn Naseby, Mehefin 14, 1645, a llwyr orchfygwyd ef. Efe a orchfygodd hefyd y cadfridog Goring.

Digitized by Google

ac a ddarostyngodd Hampshire, a Wilts, a Dorset. Am y gwasanaeth yma efe a dderbyniodd ddiolch y senedd. Y flwyddyn nesaf, ymostyngodd Exeter a gorllewin Lloegr iddo; a chafodd dal-wobr o 2,500*p.* y flwyddyn am ei oes. Gorchymynodd y Tŷ i Fairfax warchae ar Rydychain, lle yr oedd y brenin, a'i gymmeryd ef yn bersonol, er mwyn terfynu y rhyfel. Pan glywodd y brenin hyn, efe a ymadawodd o Rydychain, ac a'i rhoddodd ei hun i law y fyddin Albanaidd. Nis gallasai dim ddygwydd yn fwy cysson â llwyddiant gwladyddiaeth Cromwell. Ar ol llawer o ymdrafod, gwerthodd y senedd a'r fyddin Albanaidd eu brenin i'r negeseuwyr Seisonig am 400,000*p.*—y gwarthnod duaf, efallai, ar holl gofnodau y wlad hono. Derbyniwyd Siarl gyda pharch a moesgarwch gan y Cyffredinwyr, y rhai a orchymynasant i ran o'u byddin gael eu gollwng ymaith ar unwaith. Trefnodd Cromwell ar fod y rhan ollyngedig i fod y rhai mwyaf diymroad i achos rhyddid; ac yn hyn ymddygodd yn ol ei graffder arferol, canys gwyddai fod y cynnyg am ddiarfogiad yn cyfeirio i raddau mawr yn ei erbyn ef ei hun. Claddwyd iarll Essex, yr hwn a fu farw Medi 14, mewn rhwysg mawr, ar draul y Cyffredin, a Chromwell yn dilyn fel prif alarwr, tra yr oedd negeswriaethau yn cael eu dwyn yn mlaen yn y cyfamser gyda'r brenin, heb fawr o obaith dyfod i gytundeb. Yr oedd y rhan fwyaf o'r senedd yn Henaduriaid, ac yn gwasgu am i Henaduriaeth gael ei sefydlu, tra yr oedd Siarl yr un mor ystyfnig o blaid cadw esgobyddiaeth. Tra yr oedd y dirprwywyr yn trafod y pethau hyn, yr oedd Cromwell yn gweithredu. Cymmerodd y marchlumanwr Joyce, afael yn mherson y brenin yn ninas Rhydychain,[1] tra yr oedd ei farchogion, ar yr un pryd, yn cymmeryd meddiant o ystorfäau y ddinas (Mehefin 4, 1647). Fe arweiniwyd Siarl o Holmby i Childersly, lle y cyflwynwyd ef i Cromwell a'i fab yn nghyfraith; y rhai a ymddygasant ato yn llawer mwy caredig na swyddogion y senedd. Ymddengys i Cromwell, yn ystod y chwe mis nesaf o'r flwyddyn nodedig hon, ddefnyddio ei holl ddylanwad gyda Siarl a'r senedd, er mwyn iddynt ddyfod i delerau ag a osodent y cyfansoddiad a'r goron ar sylfaen safadwy i'r naill a'r llall. Yn wir, efe a aeth mor bell ag i berswadio y fyddin i anfon llythyr at Dŷ y Cyffredin i hysbysu, os na sicrheid ei hawliau i'r goron, nad oedd obaith am sefydliad parhaus. Y brenin ei hun a newidiodd yr olygfa obeithiol hon ar bethau trwy ffoi o Hampton Court i Ynys Wyth; a'r fath ydoedd ei arfer reddfol o ragrith, fel y dechreuodd gydfwriadu hyd yn oed yn erbyn y blaid oedd yn amddiffyn ei hawliau ffurflywodraethol. Yn wyneb hyn, tystiolaethodd Cromwell yn ei le yn y senedd, fod Siarl yn llysgenadwr galluog; ond nas gellid ymddibynu hyd yn oed ar ei addewidion mwyaf difrifol. Yn yr amgylchiad yma dechreuodd ail olygfa y rhyfel gartrefol, a adnewyddwyd yn mhob rhan o'r deyrnas. Dechreuodd y blaid Henadurol yn y senedd, a'r Ysgotiaid, negeseua ar eu rhan eu hunain â'r brenin. Cyhuddwyd Cromwell gan yr un blaid o uchelfradwriaeth; ond, ac efe yn dirmygu amddiffyn ei hun, gadawodd Lundain o flaen ei fyddin, i fyned yn erbyn y cadfridog Langhorn, a'r milwriaid Poyer a Powell dros Gymru. Ar ol heddychu y rhan yma o'r deyrnas, efe a gymmerodd ei filwyr tua'r gogledd; ac yn Awst, 1648, gorchfygodd Syr Marmaduke Langdale a'r Duc Hamilton. Wedi dychwel i Lundain cyflwynodd y fyddin ei gwrthdystiad hygof i'r senedd. Symmudwyd y brenin o Gastell Carisbrook i Gastell Hurst, Hampshire. Yn mhen ychydig ddyddiau ar ol hyn, gwarchaeodd y milwriad Pride, â dwy fyddin, ar Dŷ y Cyffredin; daliodd ddeugain o aelodau y blaid Henadurol yn y dramwyfa, a charcharwyd hwynt mewn ystafell isel, a adnabyddid wrth yr enw "Uffern." Trowyd cant a thrigain o'r aelodau allan; ac ni oddefid i neb fyned i mewn ond yr Annibynwyr:—y cwbl heb fod dros drigain o nifer. Adnabyddid yr ymddygiad gerwin yma wrth yr enw "ysgarthai Pride" (*Pride's purge*); a chafodd y trigain aelod a dderbyniwyd i mewn eu galw yn gloren (*rump*).

Ffurfiwyd pwyllgor yn ddioed i barotoi cyhuddiad yn erbyn y brenin. Er mwyn ffurf, dymunasant gael cydsyniad Tŷ yr Arglwyddi ar hyn. Pan wrthododd y Tŷ, pleidleisiwyd nad oedd eu cydsyniad yn angenrheidiol, gan mai y bobl oedd ffynnonell pob gallu dedfrydol yn gystal a deddfwrol. Arweiniodd y milwriad Harrison y brenin o Gastell Hurst i Lundain. Treuliwyd o'r 6ed hyd yr 20fed o Ionawr, i barotoi ar gyfer y prawf. Yr oedd y llys yn cynnwys 133 o bersonau, o'r sawl yr oedd 60 yn bresennol. Eisteddodd yn Neuadd Westminster. Ymddygodd y brenin, yn ystod y dyddiau hyn o brawf, yn wrol, penderfynol, a mawreddig. Cafwyd ef yn "Euog o godi rhyfel yn erbyn pobl Lloegr;" a dienyddiwyd ef o flaen Whitehall, yn y 49ain flwyddyn o'i oedran, Ionawr 30, 1649. Terfynodd y freniniaeth, fel canlyniad naturiol i ddienyddiad y brenin. Cyhoeddwyd gweriniaeth. Diddymwyd Tŷ yr Arglwyddi fel peth afreidiol a pheryglus: appwyntiwyd Cynghor Gwladol o 41 o aelodau, a chadarnhawyd Cromwell yn llywydd y fyddin. Condemniwyd a dienyddiwyd y Duc o Hamilton, Arglwydd Capel, ac

[1] "Cafodd y weithred yma ei phriodoli i gyfarwyddyd ac awgrymiad Cromwell:—ar ba awdurdod, y mae yn anhawdd gwybod. Nis gallwn ni ganfod dim ond yr haeriad mwyaf noeth. Chwiliasom yn ddyfal am brawf, ond ni chawsom gymmaint a chysgod o brawf. Ni ddywedwn fod Cromwell yn gwbl anhysbys o'r symmudiad; — nad oedd y mesur yn ol ei ewyllys, na'i fod wedi gwrthod ei gymmeradwyad o hono pan y daeth i'r amlwg. Ond byddai dywedyd fod ganddo ef law bendant yn symmudiad y brenin yn ei amddifadu ar unwaith o'r holl gymmedroldeb ymddygiad a'i hynododd gymmaint yn y rhan a aeth heibio o'i oes; tra y buasai cymmeryd y fath ryddid ar berson y penadur yn orchwyl y buasai yn anhawdd cael unrhyw ddyn doeth i'w gyflawnu. Tybir fod cyn amlyced a'r dydd mai gweithred gyffredinol y fyddin ydoedd, yn cael ei dwyn yn mlaen gan ei dirprwywyr—y rhagweinyddion (*adjutators*)—o'r rhai yr oedd Joyce yn un; a bod Cromwell mor bell o gael ymgynghori âg ef ganddynt, fel yr edrychid arno yn rhwystr, yn hytrach na chynnorthwy, i gario eu golygiadau yn mlaen; ac nid yw annhebyg, mewn un modd, fod cynhyrfwyr digyfrwng y weithred yn fwy tueddol i gelu eu bwriadau na'u cyhoeddi. * * * Yr oedd y prif weithredwyr yn perthyn i blaid nad oedd dan lywyddiaeth benodol neb, y rhai oedd ynddigon eofn i wneuthur yr hyn a wyddent oedd ddymunol gan yr holl fyddin. Sicr ydyw nad oedd gan Oliver law yn arweiniad gweithredol na'r blaid na'r cydfrad; ond iddo adael y peth i gael ei gyflawnu yn null ac amser y cynllunwyr eu hunain. Nid oedd ond ychydig, os neb, yn rhyteddu at hyder Joyce; nac yn barnu yn angenrhaid ymofyn pwy oedd awdwyr cynllun yr oedd corff mawr y fyddin yn barod i amddiffyn y cyflawnwyr o hono â'u bywyd. Mor bell oedd Joyce oddi with gelu mai efe oedd y gweithredydd dros y filwriaeth yn hyn, fel yr oedd efe yn hytrach yn ymffrostio yn y peth. Os gotynid iddo pwy a'i rhoddes ar waith, ei ateb yn wastad oedd—Y Fyddin. Pan yn cyfarch Siarl ei hun, dywedodd,—'Casgler y fyddin i ymgynnullfan, a gofyner iddynt, a byddaf yn foddlawn i gymmeryd fy nghrogi, os na ddiolch tair rhan o bedair o honynt i mi am yr hyn a wnaethum.' Eto nid ydoedd Siarl yn credu: a phan y gwaddodd Fairfax a Cromwell ddarfod iddynt hwy roddi Joyce ar waith, atebodd yntau,—'Ni chredaf chwi, os na chrogwch ef.'"—*Ferguson's Hist. of Engl*; cyf. iii. td. 64.

Digitized by Google

Iarll Holland. Wedi i Montrose, y pleidarweinydd galluocaf o du y brenin, dirio yr ail waith yn yr Alban, efe a fradychwyd gan Macleod, o Assynt, am fil o falau blawd (*bolls of meal*), a dienyddiwyd ef dan amgylchiadau o ysgelerder nid bychan yn Edinburgh. Pa fodd bynag, cyfrenin, wedi iddo yn gyntaf addaw ymlynu yn ddiymmod wrth eu cynghrair a'u cyfammod difrifol hwy. Galwyd Cromwell, oedd yn awr yn yr Iwerddon, yn ol gan y newydd yma; ac aeth i'r Alban yn arwain 16,000 o filwyr profedig. Yma, dygwyd ef i sefyllfa beryglus iawn trwy gattrefniad amddiffynol Argyll a Leslie; ond pan y gadawodd yr Ysgotiaid eu sefyllfa fanteisiol, gan ddisgyn i'r dyffryn, llefodd Cromwell—"Yr Arglwydd a'u rhoddodd hwynt yn fy llaw i." Cyflawnwyd y rhagolygiad yma yn ebrwydd; ac yn fuan llwyr wasgarwyd yr holl fyddin Albanaidd (Medi 3, 1650). Y fath ydoedd buddugoliaeth Dunbar, yr hon a ddarostyngodd yr Alban at draed y Concwerwr. Pan welodd Siarl ieuanc, y flwyddyn ganlynol, nad oedd modd iddo aros yn hwy yn yr Alban, efe a ddychwelodd i Loegr. Dilynodd Cromwell ef, gan orchfygu iarll Derby ar y ffordd; ac ar y 3ydd o Fedi, 1652, cafodd fuddugoliaeth derfynol ar fyddin freninol olaf. Ar ol un niwrnod a deugain o ymguddiad, ac aml i ddiangfa ledbrin, diangodd Siarl Stiwart yn ddiogel i Fescamp, yn Normandy.

Yn Mawrth, cynnygiodd y senedd ddyrchafu y gallu llyngesol yn erbyn y gallu milwrol. Yn ffodus, wrth ganfod eu hamcan, ymddangosodd Cromwell yn bersonol yn y senedd (Ebrill 20, 1653); a chan orchymyn symmud berllysg (*mace*) y llefarydd—yr hyn a alwai, "y tegan yna"—efe a'u troes hwynt allan ar ei gyfrifoldeb ei hun. Fel hyn y terfynodd y senedd hir—y fwyaf pwysig a nodedig yn holl hanes Lloegr, yr hon am ddeuddeng mlynedd a amddiffynai ryddid y genedl, neu a ymosodai arno. Yn Cromwell bellach yr oedd yr holl allu gwladol a milwrol yn cydgyfarfod; a rhaid cyfaddef y llywodraethai efe, dan ryw esgusion cyfansoddiadol, mor archdeyrnol ag un tywysog yn Ewrop. Megys ag yr ofnid ef gartref, efe a wnaeth ei hun yn barchus oddi cartref. Yr Isellmyn (*Dutch*), wedi cael eu darostwng trwy aml orchfygiad, a orfodwyd i geisio heddwch ar delerau pur anfanteisiol iddynt. Talodd Ffrainc warogaeth i'r Amddiffynydd. Chwanegodd Penn a Venables, dau o'i lyngeswyr, Jamaica at y tiriogaethau Prydeinig, a chariodd Blake ddychryn ei arfau trwy holl Fôr y Canoldir, ac ar hyd arfordiroedd yr Yspaen. Wedi i Cromwell wrthod y teitl o frenin (Mehefin 20, 1657), a chynnal ei ddyrchafiad digyffelyb am naw mlynedd, efe a fu farw o'r cryd tridiau, Medi 3, 1658.

Yr oedd yr Henaduriaethwyr, yr Esgobaethwyr cymmedrol, y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr, dan ei lywodraeth ef, yn cael rhyddid cyfartal i draddodi eu syniadau. Cyhoeddodd y gweinidogion Henaduriaethol yn Edinburgh ef o'u pulpudau, yn ei wydd, fel bradwr a mab Belial; ond ni ddarfu iddo erioed gymmaint a'u ceryddu am hyny. Cyn belled ag yr oedd yn ei allu ef, darparai weinidogion egniol, dysgedig, a duwiol. "Yr wyf yn credu," eb efe, yn ei araeth, Ebrill 21ain, 1657, "fod y mesurau a gymmerais gyda golwg ar sefydliad priodol gweinidogion, wedi cynnyrchu effeithiau da; ac yr wyf yn bendithio Duw am hyny. Yr ydym yn cofio pa fath drwyddedau truenus a oddefid yn amser Esgobyddiaeth. Yn fy amser i yr oedd Cymraeg yn pasio gyda'r arholwyr yn Rhydychain cystal a Hebraeg; a phasiodd felly gydag amryw. Yr ydym ni wedi diwygio hyn oll; a gogoneddwyd Duw trwy hyny yn ddeugeinplyg." Efe a ddileodd Esgobyddiaeth, ac a wnaeth Annibyniaeth yn sefydliad gwladol, gan weithredu yn hyn yn groes i gynghor a barn ei gâr a'i ysgrifenydd, John Milton; yr hwn a farnai y dylai pob enwad crefyddol fod yn gwbl gyfartal yn ngolwg y llywodraeth.[1] Yr oedd Cromwell mor egniol o blaid achos Protestaniaeth mewn gwledydd tramor ag ydoedd drosto gartref. Yn 1655, cymmerodd llofruddiad y Vaudois le gan y milwyr Pabaidd:—y creulonderau mwyaf erchyll a sarhaus a gyflawnwyd erioed. Distrywiodd y milwyr Pabaidd, fel ellyllon ar wedd ddynol, bob tŷ ac eglwys â thân, gan roddi y preswylwyr naill ai i'r cleddyf, neu eu hymlid i farwolaeth wrth y miloedd ar yr Alpau. Darfu i'r ysgelerderau dychrynllyd hyn, sydd yn dangos ysbryd digyfnewid Rhufain, gynhyrfu tywalltiad godidog o ddigofaint o enaid Milton. Y mae y ganig (*sonnet*) a gyfansoddodd ar y dygwyddiad galarus yma yn mysg y teleidiaf o ffrwyth ei awen:—

"Avenge, O! Lord, thy slaughtered saints, whose bones
Lie scattered on the Alpine mountains cold;
E'en them who kept thy truth so pure of old,
When all our fathers worshipped stocks and stones
Forget not: in thy book record their groans
Who were thy sheep, and in their ancient fold
Slain by the bloody Piedmontese that rolled
Mother with infant down the rocks. Their moans
The vales redoubled to the hills, and they
To heaven. Their martyred blood and ashes sow
O'er all the Italian fields where still doth sway
The triple tyrant, that from them may grow
A hundredfold, who, having learned thy way
Early may fly the Babylonian woe."

[RHYDDGYFIEITHIAD.]

Dial, O! Arglwydd, dy ferthyredig saint, esgyrn y rhai
Sy'n oer wasgaredig ar y mynyddoedd Alpaidd;
Sef y rhai a gadwent dy wirionedd di mor bur gynt,—
Pan oedd ein holl dadau ni yn addoli pren a maen,
Nac anghofia hwynt: yn dy lyfr cofnoda eu hocheneidiau
Y rhai oeddynt dy ddefaid di, a laddwyd yn eu corlan henafol
Gan y Piedmonsiaid gwaedlyd, a fwriasant
Y fam yn nghyd â'i baban bendramwnwgl dros y creigiau.
Eu gruddfanau a adseinid o'r dyffrynau i'r mynyddoedd.
Ac oddi yno i'r nef. Hauwyd eu gwaed a'u lludw merthyredig
Dros yr holl feusydd Italaidd, lle y mae y gorthrymwr triphlyg
Fyth yn ymrwysgo; o'r rhai hyn tyfed
Ar ei ganfed, y rhai, wedi iddynt ddysgu dy ffyrdd di,
A ddiangant yn foreu rhag y wae Fabilonaidd.

Appeliodd y Vaudois at Cromwell, yr hwn, wrth ddarllen yr appeliad, a dorodd allan i wylo yn hidl,—"Y mae dyoddefiadau y Cristionogion truain hyn," llefai allan, "mor agos at fy nghalon

[1] "Pe gadawech yr eglwys i'r eglwys," ebai Milton wrth yr Amddiffynydd, "a thrwy hyny ddoeth ddadlwytho eich hun, cystal a'r ynadon gwladol yn gyffredinol, oddi wrth ofal sydd yn ffurfio hanner eu llwyth, ac sydd hefyd yn gwbl anghytûn â'u swyddau hwynt, heb adael i'r ddau awdurdod gwahanryw—eiddo yr eglwys a'r llywodraeth—barhau eu dichellion (yn nghyd â'u cydgynnorthwy ymddangosiadol, ond twyllodrus, yr hyn sydd yn gwir wanhau y naill a'r llall, ac a fydd yn ddinystr iddynt yn y diwedd)—heb ganiatäu unrhyw gyfyngiad ar gydwybod, yr hyn, pa fodd bynag, a bery o angenrheidrwydd cyhyd ag y pery aur, gwenwyn yr eglwys, ac ysbinog (*quinsy*) gwirionedd, i gael ei ddirwasgu o'r gwŷr lleyg i dalu cyflogau gwŷr llên neu weinidogion; chwi a ddymchwelwch fyrddau y newidwyr arian, a'r gwerthwyr—nid colomenod, ond y Golomen ei hun—Sanctaidd Ysbryd Duw wyf yn ei feddwl." "Iaith nerthol ydoedd hon o eiddo Milton," ebai Ferguson, "ond y mae y gwirionedd a ddywedodd wedi bod yn ennill tir fyth yn y meddwl cyhoeddus o hyny hyd yn awr; ac ordeiniwyd iddo ymorfoleddu yn rhyddfreiniad yr eglwys gyffred nol—ei hannibyniaeth ysbrydol, ei rhyddid dilyffethair, a'i gogoniant heulog." —*Ferguson's Hist. of England;* cyf iii. td. 126.

Digitized by Google

a phe buasent yn frodyr a chwiorydd i mi." Cyfarwyddodd Milton i ysgrifenu ar eu rhan at holl wladwriaethau Ewrop. Efe a ysgrifenodd â'i law ei hun at frenin Ffrainc, y cardinal Mazarin, a'r duc o Savoy. Ysgrifenodd yr ysgrifenydd Thurlow o'i enau ef fel hyn at y gweinidog Seisoneg yn Switzerland:—"Y mae gwir angen am undeb diffuant rhwng yr holl Brotestaniaid. Y mae y creulonderau a gyflawnwyd ar y Piedmonsiaid truain yn cael eu bwriadu ar gyfer yr holl Brotestaniaid, pe cai Rhufain ddim ond y moddion a'r cyfleusdra. Os na ddeffry hi ni, yr ydym dan gysgadrwydd barnol." Gorchymynodd, ar yr un pryd, ar fod i gasgliad cyffredinol gael ei wneyd er cymhorth iddynt trwy Loegr benbaladr, yr hwn a gyrhaeddodd y swm o 37,097*p.* 7*s.* 3*c.*—swm dirfawr yr amser hyny. Anfonodd yntau 2,000*p.* o'i bwrs ei hunan. Ac yn olaf, archodd i hysbysiad gael ei anfon at y pab, "os na adferid eu rhyddid crefyddol i'r Vaudois, y gyrai efe lynges Brydeinig i guro muriau Babilon o gwmpas ei glustiau ef;" gan dystiolaethu hefyd yn y senedd na oddefai efe i'r ffydd Brotestanaidd gael ei sarhau a'i gorthrymu yn un rhan o'r byd.

Ni wnaeth dyn erioed gymmaint mewn amddiffyniad i gymmeriad neb ag y mae Carlyle wedi ei wneyd i Cromwell, trwy gyhoeddi ei *Lythyrau a'i Areithiau.* Ni allasai fod gwell amddiffyniad iddo, yn ngwyneb y camddarluniadau a'r cabldraethau a ffugiwyd ac a ledaenwyd am y gwron mawr hwn, am ddau cant o flyneddoedd, na rhoddi mantais iddo siarad drosto ei hun a'i achos.

Er mwyn i'n darllenwyr ddeall cymmeriad, egwyddorion, a theimladau crefyddol Cromwell, ni a gymmerwn ychydig bigion o'r cyfrolau hyn. Ac er mwyn, hefyd, galluogi y darllenydd i sylweddoli i'w ddychymyg yr amseroedd enbyd hyn, ni a roddwn ychydig fanylion o'i brif frwydrau, y rhai a gofnodwyd yn frysiog eisoes. Mewn llythyr at ei gyfnither, yn 1638, ni gawn y dysgrifiad canlynol o'i brofiad crefyddol:—

"Nid ydyw rhwymau un creadur tlawd i roddi ei hun yn hollol i achos ei Dduw yn fwy na fy rhwymau i. Mi a gefais gyflog helaeth yn mlaen llaw; ac mi wn nad ennillaf byth yr hatling leiaf. Derbynied yr Arglwydd fi yn ei Fab, a rhodded i mi rodio yn y goleuni, megys y mae efe yn y goleuni. Efe sydd yn goleuo ein tywyllwch. Nis beiddiaf ddyweyd ei fod yn ouddio ei wyneb oddi wrthyf. Y mae efe yn rhoddi i mi weled goleuni yn ei oleuni ef. Rhydd un pelydr mewn lle tywyll yn adfywiad mawr. Bendigedig fyddo ei enw am lewyrchu ar galon mor dywyll a fy nghalon i! Gwyddoch pa fath fywyd a fu fy mywyd i. Yr oeddwn yn byw yn, ac yn caru y tywyllwch, ac yn casäu y goleuni; yr oeddwn y penaf o bechaduriaid. Y mae hyn yn wir! Yr oeddwn yn casäu duwioldeb, ac eto fe drugarhaodd Duw wrthyf! O! gyfoeth ei drugaredd! Diolchwch iddo drosof; gweddiwch drosof, fel y byddo i'r hwn a ddechreuodd ynof waith da ei orphen hyd ddydd Crist."

Y frwydr fwyaf gwaedlyd o'r holl ryfel oedd brwydr Marston Moor. Yn Mehefin, 1644, wele y Tywysog Rupert (prif gadlywydd y brenin), gydag 20,000 o wŷr ffyrnig, yn ysgubo dros fryniau sir Lancaster tua York i waredu ardalydd Newcastle; yr hwn, gyda 6,000 o wŷr, oedd yn warchaedig yn y ddinas hone gan gadlywyddion y senedd. Wrth glywed am ei ddynesiad, cododd maeslywyddion y senedd y gwarchae, ac ymfyddinasant ar Marston Moor—tua phedair milltir oddi wrth y ddinas—i wrthsefyll ei ddyfodiad. Llwyddodd Rupert i'w hysgoi, trwy groesi yr Ouse, a gwaredodd Newcastle. Prydnawn y diwrnod canlynol, o saith i ddeg o'r gloch, y bu y frwydr ddinystriol hon. Y noswaith hono, yr oedd pedair mil a chant a hanner o gyrff i'w claddu. Yn mhen tridiau, ysgrifenodd Cromwell fel y canlyn:—

"Ein dyledswydd ydyw teimlo yn ddwys wrth dderbyn ein trugareddau, a moliannu yr Arglwydd yn ein ceryddon a'n treialon. Yn wir, y mae Lloegr ac eglwys Dduw wedi cael ffafr fawr oddi wrth yr Arglwydd yn y fuddugoliaeth fawr y mae efe wedi ei rhoddi i ni, y cyfryw na chawsom er pan ddechreuodd y rhyfel: yr oedd ynddi bob arwyddion buddugoliaeth wedi ei rhoddi trwy fendith Duw i'r rhai hyny sydd yn ei ofni. Ymlidiasom y gelyn ar unwaith: gorchfygodd yr aden aswy, yr hon oedd dan fy llywyddiaeth i, gydag ychydig o'r Ysgotiaid, holl feirch y tywysog. Gwnaeth Duw hwynt fel sofl o flaen ein cleddyfau. Y manylion, nis gallaf eu hadrodd yn bresennol; ond yr wyf yn credu, o'r ugain mil oedd gan y tywysog, nad oes ganddo bedair mil wedi eu gadael. Rhoddwch y gogoniant—yr holl ogoniant—i Dduw."

Tybir fod Cromwell wedi colli ei fab Oliver yn y rhyfeloedd hyn; ac fel y canlyn y mae yn cysuro tad gŵr ieuanc a syrthiodd y noswaith ofnadwy hono:—

"Syr, chwi wyddoch am y treialon cyffelyb yr wyf fi fy hun wedi myned trwyddynt; ond fy nghynnaliaeth oedd, fod yr Arglwydd wedi ei gymmeryd i'r dedwyddwch yr ydym oll yn dyheu am dano. Yno y mae eich plentyn gwerthfawr chwi yn llawn o ogoniant, heb fod byth i brofi pechod na thristwch mwyach.....Dyn ieuanc gwerthfawr ydoedd, yn gymhwys i fyned at Dduw. Y mae genych achos i fendithio yr Arglwydd; y mae yn sant gogoneddus yn y nefoedd, yn yr hyn y dylech fawr lawenhau. Nid geiriau ffugiol i'ch dyddanu ydyw y rhai hyn; ond y mae yn wirionedd mor ddiammheuol a sylweddol!"

Yr oedd y gŵr ieuanc hwn yn nai fab chwaer i Cromwell.

Ar rosdir uchel yn sir Northampton, lle y safai—ac y mae yn sefyll eto—pentref bychan hynafol o'r enw Naseby, yr ymladdodd y brenin Siarl, ar y 14eg o Mehefin, 1645, ei frwydr olaf. Edrychai hyd yn hyn gyda dirmyg ar fyddin newydd y "Penau Cryniaid:" a hyn fu yr achos o'i hollol ddinystr. Fel y canlyn y mae llythyr Cromwell ar ol y frwydr boeth, a'r ymlidiad poeth a'i dilynodd hyd Harborough, lle yr ysgrifenodd yr un noswaith at lefarydd y senedd, yr anrhydeddus W. Lenthall:—

"SYR, *Mehefin* 14*eg*, 1645.

"Wedi fy ngorchymyn genych chwi i'r gwasanaeth hwn, yr ydwyf yn rhwymedig i'ch hysbysu am law ddaionus Duw tuag atoch chwi a ninnau..... Heddyw, aethom i gyfarfod y brenin; ar ol tair awr o ymladd ammheus, ymlidiasom ei fyddin ef; lladdasom a chymmerasom 5,000; a llawer o swyddogion, ond o ba radd nis gwyddom eto. Cymmerasom hefyd 200 o gerbydau—y cyfan oedd ganddo—a'i holl fagnelau, 12 mewn rhifedi. Erlyniasom y gelyn o dair milltir o un tu i Harborough am naw milltir y tu hwnt, hyd i olwg Leicester, lle y ffodd y brenin. Syr, nid yw hyn yn amgen na llaw Duw; ac iddo ef yn unig y perthyn y gogoniant," &c.

Dygodd hyn y rhyfel cartrefol cyntaf i derfyn; o'r hyn lleiaf, ar ol i Cromwell ddarostwng Bristol, a Basing House—preswylfod ardalydd Winchester, yr hwn a wrthsafodd bob ymosodiad am bedair blynedd, ac a ystyrid gan ganlynwyr y brenin yn anorchfygadwy. "Ond ar ol treulio," medd Hugh Peters, "lawer o amser gyda Duw y nos o'r blaen, efe a'i darostyngodd y 14eg o Hydref."

Digitized by Google

Am ddwy flynedd ar ol hyn, bu yn aros bron yn gwbl yn Llundain, yn cymmeryd rhan yn yr ymrafael pwysig oedd yn cymmeryd lle rhwng y Presbyteriaid a'r Annibynwyr. Yr oedd y ddinas o blaid y cyntaf, a'r fyddin o blaid yr olaf. Terfynodd y ddadl o blaid yr Annibynwyr. Ar y 3ydd o Ionawr, penderfynwyd na byddai dim chwaneg o gynnygion yn cael eu gwneyd i'r brenin. Yn Mawrth, daeth y newydd fod yr Ysgotiaid yn dyfod dan y duc o Hamilton i wneyd ymosodiad ar Loegr. Rhoddodd hyn galon yn nghanlynwyr y brenin, a thorodd ffiam angerddol allan eto. Cymru—"lle yr oedd y boneddigion i gyd dros y brenin; a'r werin heb ddeall dim, yn canlyn y boneddigion"—a gymmerodd y blaen. Cododd y wlad i gyd i fyny. Bu raid anfon Cromwell atynt; cymmerodd gastell Pembroke, ar ol gwarchae maith, a llonyddodd y wlad: ac wedi hyny, prysurodd i'r gogledd, ac ymunodd â Lambeth—un arall o gadlywyddion y senedd—a chyfarfyddodd Hamilton gyda 17,000 o Ysgotiaid, a Syr Marmaduke Longdale, gyda 4,000, yn agos i Preston, yn sir Lancaster. Nifer milwyr Cromwell oeddynt 8,600. Awst 17eg, ymgyfarfuant; parhaodd yr ymosodiad a'r erlyniad am dri diwrnod, pryd yr aeth byddin Hamilton yn ddrylliau. Yr oedd 2,000 o laddedigion, a 10,000 o garcharorion, yn mhlith pa rai yr oedd y duc ei hun. Maith ydyw llythyr Cromwell, yn cynnwys hanes y frwydr hon, at Lefarydd Tŷ y Cyffredin, dyddiedig o "Warrington." Fel y canlyn y terfyna:—

"Yn wir, syr, nid yw hyn amgen na llaw Duw; a pha le bynag yn y byd hwn y mae unrhyw beth yn ymddyrchafu, Duw a'i tyn ef i lawr. Nid yw yn briodol i mi roddi cynghor i chwi, na dywedyd gair pa ddefnydd y dylech ei wneuthur o hyn, yn mhellach nag erfyn arnoch chwi, a phawb sydd yn cydnabod Duw, i'w ddyrchafu ef, ac nid casäu ei bobl, y rhai sydd megys canwyll ei lygaid ef, ac er mwyn pa rai y cerydda freninoedd; ac hefyd, ar i chwi geisio heddwch a daioni y tir, fel y caffo pawb a ewyllysia fyw yn heddychol dan eich nodded chwi; ac am y rhai nas gallant fod yn llonydd, y byddo iddynt yn fuan gael eu dinystrio o'r tir. Os ymwrolwch yn y gwaith hwn, Duw a'ch bendithio; fe saif dynion da wrth eich ochr, ac fe gaiff Duw ei ogoneddu, a'r tir hapusrwydd, er gwaethaf ei holl elynion."

Edrychwn am fynyd ar Cromwell yn yr Iwerddon, os mynwn wybod pa mor ofnadwy oedd gweithrediadau y dyddiau hyny. Yr oedd yr holl wlad, oddigerth Dublin a Derry, wedi codi mewn arfau yn erbyn y senedd. Penodwyd Cromwell i fyned yno;—efe a fordwyodd o Milford Haven. Derbyniwyd ef gyda'r llawenydd mwyaf yn Dublin. Y 3ydd o Fedi, ymddangosodd o flaen Tredah (Drogheda), lle yr oedd Ormonde, blaenor y gwrthryfelwyr, wedi rhoddi 3,000 o'i filwyr goreu. Ar y ddegfed, dechreuodd ei fagnelau arllwys dinystr ar y muriau: gwysiwyd y llywydd i ymostwng; ond gwrthododd. Parhaodd y magnelau i chwareu. Y diwrnod canlynol, gwnaed adwy yn y mur; er y gwrthwynebiad mwyaf egniol, aeth milwyr Cromwell i mewn, a rhoddasant yr holl warchodlu yn ddidrugaredd i farwolaeth. "Yr wyf yn credu," meddai yn ei frys-lythyr canlynol, "mai barn gyfiawn Duw oedd hyn ar farbariaid oedd wedi trochi eu dwylaw mewn cymmaint o waed diniwed; ac fe arbeda golli llawer o waed rhag llaw. Y mae hyn yn sail ddigonol o'r cyfryw ddialedd." Parodd hyn ddychryn trwy yr holl wlad, a rhoddwyd y naill amddiffynfa ar ol y llall iddo gyda'r parodrwydd mwyaf. Unwaith heb law hyn y gorchymynodd y fath alanasdra; sef yn Wexford. Yn fuan, darostyngwyd yr holl wlad; ac o fewn naw mis, yr oedd y cwbl mewn ufudd-dod iddo. Dychwelodd i Lundain ar yr 31ain o Fai, 1650, gan adael Ireton, ei fab yn nghyfraith, yn rhaglaw. Ar yr ymddygiadau gerwin hyn, dywed Carlyle:—

"Daeth y dyn hwn i'r Iwerddon gythryblus, a gwirionedd Duw yn ei galon.....Y dyn cyntaf o'r fath a welsant er ys llawer dydd. Mewn un llaw y mae yn dal actau seneddol, deddfau daiar a nefoedd, a chleddyf noeth yn y llall. Cyfarcha hwynt fel y canlyn:—'Chwychwi, ddynion brochus, gwaedlyd, nad yw eich gair o fwy o werth na chyfarthiad cwn; y mae hyd yn oed eich meddwl yn dwyllodrus, heb gyfateb i ddim ffaith, ond yn hollol groes i ffaith—wele fi wedi dyfod atoch i ddywedyd ac i wneyd y gwirionedd. Y mae yma actau seneddol—yr agosaf a allwn ni, Buritaniaid tlodion, wneyd i ddeddf llyfr Duw, a'n hymdrech fydd eu dwyn yn nes nes yn barhaus. Ufuddhewch iddynt; cynnorthwywch ni i'w perffeithio; byddwch fyw yn heddychol ac yn ffyddlawn danynt, a bydd yn dda i chwi. Gwrthodwch roi ufudd dod, ac ni adawaf i chwi fyw! Dewiswch!' Dewisasant eu anghredu; ni allent ddeall ei fod ef, mwy nag ereill, yn meddwl y gwir. Gwrthodasant ei delerau; ymosododd ar y lle, bu cystal a'i air, a rhoddodd bob un o'r gwarchodlu i farwolaeth. Gwaharddodd i'w filwyr gymmeryd dim anrhaith, a chrogodd bob un a wnai. Dyma ddyn ag y mae ei *air* yn cynnrychioli rhywbeth."

Golwg fygythiol ar bethau yn Scotland a brysurodd ei ddychweliad. Yr oedd Siarl wedi ennill yr Ysgotiaid i godi yn erbyn Cromwell trwy lawnodi y Cyfammod. Cynnygiwyd llywyddiad yr ymgyrch gogleddol i Fairfax; ond efe a wrthododd weithredu yn erbyn y Presbyteriaid: ac ar y 26ain o Mehefin, penodwyd Cromwell yn gadlywydd cyffredinol holl fyddin y Werinlywodraeth (*Commonwealth*). Trefnodd ei barotoadau gyda'i gyflymdra arferol; yr islywyddion oeddynt Lambert, Fleetwood, Whalley, Monk, ac Overton, &c. Croesodd y terfyn wrth Berwick. Ffoai y trigolion yn mhob man o'i flaen, fel, yn ol dysgrifiad y clerigwyr, "sectariaid a chablwyr," "anghenfilod y ddaiar," y rhai a "roddent y dynion i gyd i farwolaeth, ac a wthient haiarn poeth trwy fronau y gwragedd." Gorweddai y fyddin Ysgotaidd rhwng Edinburgh a Leith. Ar yr ail ddydd ar ol iddynt gyrhaedd, gwnaeth yr Ysgotiaid, dan David Lesley, ruthrgyrch penderfynol, ond cilgwthiwyd hwy yn ol. Yn ei lythyr ar ol hyn, dywed Cromwell: "Mae hyn yn ddechreuad melus o'n gwaith, neu yn hytrach, waith yr Arglwydd." Am fis cyfan, gwnai Cromwell bob ymdrech i dynu y gelyn i'w gyfarfod mewn brwydr benderfynol; ond yr oedd Lesley yn rhy gyfrwys i hyn. Gwelai Oliver fod ei adnoddau yn darfod, y tymmor yn myned heibio, ac afiechyd yn lleihau ei filwyr "tu hwnt i ddychymyg." Ar yr 31ain o Awst, gadawai Masselburgh, ei wersyllfa hyd yn hyn, a syrthiodd yn ol ar Dunbar lle y gorweddai ei longau. Gwelodd Lesley ei fantais, amgylchynodd fyddin y senedd, a chymmerodd feddiant o'r bryniau uwch law Dunbar. Pa beth a ddaw o Oliver? Y mae y môr o'i ol; o'i flaen y mae Lesley ar yr ucheldir (*Doon Hill*); ar ei chwith, y mae y ceunentydd yn meddiant yr Ysgotiaid! Y mae nerth byddin Lesley yn ugain mil: nid yw gwŷr Cromwell ond hanner hyny. Ymddangosai ar yr 2il o Fedi, 1650, fel pe buasai llwyddiant y gwron Oliver o'r diwedd wedi ei adael. "Cyn y frwydr," ysgrifenai wed'yn at Ireton, "yr oedd y gelyn yn ein dir mygu ac yn ein bygwth; yr oedd ein cyflwr yn

Digitized by Google

beryglus." Ond ni chollodd ei ymddiried yn Nuw ac ynddo ei hunan am fynyd y pryd hwnw. "Yr ydoedd yn ŵr cadarn," meddai un a'i hadwaenai yn dda: "yn mheryglon tywyll rhyfel ac ar uchelfanau y maes, dysgleiriai gobaith ynddo ef fel colofn o dân, pan wedi diffodd yn mhawb arall; 'yn mynydd yr Arglwydd y gwelir;' efe a edrych iddo ei hun am waredigaeth ac iachawdwriaeth." Ar brydnawn y diwrnod tywyll hwnw, edrychai Cromwell o gwmpas sefyllfa y gelyn, a chanfyddai fod Lesley yn dwyn ei adran ddeheuol ychydig i lawr, i dir mwy agored. Deallodd fod hyn yn rhoddi mantais iddo; ac ar ol ymgynghori â'i swyddogion, efe a benderfynodd wneyd ymosodiad bore dranoeth cyn dydd. Ni ddechreuodd y frwydr cyn chwech. Yr oedd yr ymladd yn boeth am awr ar y deheu, pan y daeth "ei gatrawd ef ei hun" i wneyd ymosodiad, a rhoisant filwyr goreu y gelyn ar ffo yn ddiymattreg. Y fynyd hono, dacw belydrau yr haul yn tori trwy y niwl boreuol dros y bryniau, y mór, a'r llinellau melltenawl o ddwfr. Yna, clywid Oliver yn dywedyd yn ngeiriau y Salmydd: "Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion." Gyda hyn, y mae y gwŷr meirch a thraed yn dechreu gwasgu yn mlaen yn ddiwrthwynebiad ar bob ochr; y rhengau Ysgotaidd yn syrthio yn ol mewn annhrefn, ac yn ffoi gyda brychwyllt syfrdanllyd. Safai yr arglwydd-lywydd tra yr ymbarotoai y meirch i'r erlyniad, "a chanai yr eilfed Salm ar bymtheg ar ol y cant:"—

"O! cenwch fawl i'r Arglwydd nef,
Moliennwch ef, genedloedd;
Molwch ei enw ef trwy 'r byd,
Chwithau i gyd, y bobloedd.

Am ei fod i ni yn dda iawn—
Yr Arglwydd llawn trugaredd;
A'i air ef sydd yn parhau byth,
Sef ei ddilyth wirionedd."

Ac yna i'r erlyniad eilwaith. Cyn naw o'r gloch, yr oedd 3,000 o laddedigion a 10,000 o garcharorion. O'r Saeson, ni chollwyd 30 o ddynion:—"trugaredd," medd Cromwell, "uwch law pob diolch." Yn niwedd ei lythyr at yr Anrhydeddus W. Lenthall, Llefarydd Tŷ y Cyffredin, yn rhoddi hanes y frwydr, fe ddywed:

"Dyma i chwi olwg ar un o'r trugareddau mwyaf y mae yr Arglwydd wedi eu rhoddi i Loegr yn y rhyfel hwn: ac yn awr, caniatewch i mi ychydig eiriau. Y mae yn hawdd dywedyd, 'yr Arglwydd a wnaeth hyn.' Gwnai les i chwi weled a chlywed ein milwyr cyffredin yn cerdded yn ol ac yn mlaen gan ymffrostio yn Nuw....Yr ydym ni, y rhai sydd yn eich gwasanaethu, yn gofyn i chwi beidio ein cydnabod ni yn hyn, ond yr Arglwydd yn unig....Estynwch ymwared i'r gorthrymedig; gwrandewch riddfanau carcharorion truain Lloegr. Diwygiwch bob annhrefn; ac os oes rhai yn tlodi *llawer* er mwyn cyfoethogi *ychydig*, nid yw hyn yn cydweddu â gwerin-lywodraeth."

Y frwydr olaf a ymladdodd Cromwell oedd wrth Worcester. Wedi colli pob gobaith yn Scotland, penderfynodd Siarl ar wneyd un ymosodiad eofn eto yn Lloegr. Parodd hyn ddychryn mawr yn Llundain. Ymgyrchai y milisia at faner Cromwell ar hyd ei daith; ac erbyn iddo gyrhaedd Worcester, eu nifer oedd 30,000 o wŷr. Yna, yn mhen blwyddyn union ar ol brwydr Dunbar, llwyr ddinystriwyd y fyddin Ysgotaidd, a chanlynwyr y brenin yn Lloegr, a chladdwyd eu gobeithion olaf. "Y mae maint y drugaredd hon," medd Cromwell, "uwch law fy meddyliau i; ac am ddim a wn i, y mae hi yn drugaredd sydd yn coroni y cwbl." Ac felly fu.

Ar y 12fed o Fedi, aeth y cadlywydd buddugoliaethus i mewn i Lundain yn nghanol yr arddangosiadau uchaf o lawenydd pob gradd.

Ar ol yr holl ymladdfeydd a'r buddugoliaethau hyn, os myn y darllenydd wybod pa beth oedd ei brofiad crefyddol erbyn hyn, dyma ran o lythyr oddi wrtho at ei fab yn nghyfraith, *The Right Honourable Lieutenant-general Fleetwood, Commander in Chief of the Forces in Ireland:*—

"Anerchwch eich anwyl wraig drosof. Dywedwch wrthi am wylio rhag ysbryd caethiwed. Ofn ydyw canlyniad naturiol y fath ysbryd; a'r feddyginiaeth ydyw cariad. Llais ofn ydyw, pe gwnaethwn hyn, fe ochelaswn y llall:—mor dda y buasai arnaf. Mi wn mai felly y byddai hi yn ymresymu. Biddy, druan (enw ei ferch), y mae cariad yn ymresymu fel hyn: Pa fath Grist sydd genyf? A pha fath Dad ynddo a thrwyddo ef? Y fath enw sydd gan fy Nhad! Trugarog, graslawn, hirymarhous, helaeth o drugaredd a gwirionedd; yn maddeu anwiredd, a chamwedd, a phechod. Pa fath natur sydd gan fy Nhad? CARIAD ydyw — anghyfnewidiol, rhad, a thragwyddol. Pa fath gyfammod sydd rhyngddo ef a Christ, yn enw yr had oll, yn mha un y mae efe yn cymmeryd pob rhwymau arno ei hun, heb adael un i'r enaid tlawd? Y cyfammod newydd ydyw GRAS i ac ar yr enaid:—'*Mi a ddileaf eu hanwireddau: Mi a ysgrifenaf fy nghyfraith; Ni chofiant byth oddi wrthyf.*' Hyn sydd yn canmawl cariad Duw. Crist yn marw trosom, pan oeddym ni yn weiniaid, yn bechaduriaid, yn elynion. Ac a chwiliwn ni i ni ein hunain am wraidd ein cysuron. Pa beth a wnaeth Duw? Pa beth ydyw efe i ni yn Nghrist? Hyn ydyw gwraidd ein cysuron; hyn ydyw ein diogelwch. Nid yw gweithredoedd o ufudd-dod yn berffaith; ac, o ganlyniad, nis gallant gynnyrchu perffaith gysur. Nid yw ffydd, fel gweithred, yn ei gynnyrchu; ond yn unig fel y mae yn ein dwyn ni ato Ef, yr hwn yw ein gorphwysfa a'n tangnefedd perffaith: yn yr hwn y'n cyfrifir ac y'n derbynir gan y Tad, fel Crist ei hun. Hyn yw ein galwedigaeth uchel: gorphwyswn yma, ac yma yn unig."

Rhoddir eto ychydig frawddegau o araeth neu ddwy iddo yn y senedd. Ar ddydd Mercher, yr 17eg o Fedi, 1656, ymgyfarfyddodd y senedd a'r Arglwydd Amddiffynydd, yn eglwys yr Abbey, i wrandaw Dr. Owen yn pregethu. Ei destyn ydoedd, "A pha beth a atebir i genadon y genedl? Seilio o'r Arglwydd Sion, ac y go beithia trueiniaid ei bobl ef ynddi."[1] Ar ol y bregeth, y maent yn ymneillduo i gymmeryd achosion y deyrnas dan sylw i'r neuadd seneddol. Agorir yr eisteddiad gan yr Amddiffynydd, yr hwn a wnaeth araeth faith. Dechreuodd trwy ddyweyd: "Mae a wnelom ni â phethau, ac nid â

[1] Y mae Owen, yn niwedd y bregeth yma, yn rhoddi dysgrifiad bywiog o agwedd crefydd yn Nghymru. Yr oedd, yn ei bregeth flaenorol o flaen y senedd, wedi dirgymhell yr angenrheidrwydd o gael rhyw fesurau er hyrwyddo addysg a chrefydd yn y wlad hon. Efallai mai am ei fod o deulu Cymraeg y cymmerodd y fath ddyddordeb yn achos crefyddol Cymru. Nid oedd gan y Cymry, y pryd hwn, na Beiblau na Chatecism; a phrin yr oeddynt yn cael pedair pregeth yn y flwyddyn. Yn 1649, pasiwyd deddf er gwell lledaenlad yr efengyl, a diswyddiad clerigwyr anfoesol yn Nghymru. Oddi wrth adroddiad y dirprwywyr yn 1652, gwelwyd fod cant a phymtheg a thrigain wedi eu symmud er 1645. Trwy ymdrechiadau y senedd, penodwyd cant a hanner o bregethwyr i weinidogaethu yn nhair sir ar ddeg Cymru; a gallwn farnu am eu hymroddiad oddi wrth y ffaith eu bod yn pregethu tri neu bedwar diwrnod o bob wythnos. Penodwyd ysgolfeistr i bob tref marchnad; a dau o gymhwysderau uwch, wedi eu haddysgu mewn prif athrofa, i drefydd mwy. Yn chwanegol at hyn, appwyntiwyd chwech o bregethwyr teithiol i bob sir, gyda chyflog o 100p. yr un. Yr oedd y rhai hyn yn cael eu cynnorthwyo â gwasanaeth deuddeg ar ugain o weinidogion, a chan fod yr holl drefniadau hyn yn annigonol i gyfarfod yr amgylchiadau, anfonwyd lleygwyr crefyddol oddi amgylch i gadw gwasanaeth cyhoeddus i'r bobl.

Digitized by Google

geiriau; y mae goruchwyliaethau Duw tuag atom yn gofyn hyn, ac y mae yr hyn sydd genym dan sylw o bwys mawr, gyda golwg ar ogoniant Duw a lles ei achos yn y byd. Wrth ei achos yr wyf yn deall, ei achos neilldiol yn y byd—ei eglwys—cymundeb canlynwyr ffyddlawn Crist." Yna, ar ol cyfeirio at wledydd tramor, a'r angenrheidrwydd o wrthsefyll cyfeiliornad, ac amddiffyn y gwirionedd ynddynt oll, dywed: "Y mae achos Protestaniaeth trwy Ewrop i gyd yr un; ac ond i chwi fod o ochr Duw, a gweithredu yn effeithiol yn ei blaid, byddwch yn amddiffyn i'r bobl yn mhob man. Am hyny, dywedaf i chwi—oddi wrth y gelyn cyffredin—oddi wrth Babyddiaeth—oddi wrth Anghrist, y mae ein perygl. Ac os na wadwch wirionedd yr Ysgrythyr, chwi a welwch mai Pabyddiaeth ydyw Anghrist." Cyfeiriai yn nesaf at y gwahanol bleidiau oedd yn cweryla ac yn barod i dori allan, pe cawsent, gan wadu y peryglon oedd wedi bod yn eu bygwth, ac yn bychanu gwaith Cromwell yn eu hamddiffyn rhagddynt:—"O'r braidd y credant fod gwrthryfel wedi bod yn Ngogledd Cymru, yn yr Amwythig, Marston Moor, a llawer o fanau ereill." Rhag yr holl beryglon cartrefol a thramor oddi wrth y gelyn cyffredinol, Pabyddiaeth, y mae yn nesaf yn eu hannog i ystyriaeth bwysig o'r hyn sydd yn angenrheidiol er diogelwch:—

"Un peth yn unig fydd yn gymmeradwy gan Dduw, yn ddiogelwch i ni rhag peryglon, ac yn amlygiad o'n diolchgarwch am y trugareddau yr ydym wedi eu derbyn; a hyny ydyw diwygiad gwirioneddol, ac nid peth annheilwng o'r enw, fel a gymmerodd le ar ol amser Mary. Pe gofynech i mi yn awr i ddyweyd pa beth fydd ein diogelwch rhagllaw; fel yn mhresennoldeb yr Hollalluog Dduw, dywedaf eto:—Nid yn eich milwyr, eich arfau, eich nerth, a'ch gwyliadwriaeth; ond mewn diwygiad gonest, trwyadl, a chyfiawn. Gwnewch yn gywilydd i ddynion ymhyfhau mewn pechod a chabledd, a bendithia Duw chwi. Felly y byddwch yn fendith i'r genedl. Mae yn wir mai pethau yn dwyn perthynas âg eneidiau dynion ydyw y rhai hyn: ond y meddwl ydyw y dyn. Os bydd hwnw yn bur, y mae dyn yn rhywbeth; os na bydd, dymunwn wybod pa wahaniaeth sydd rhwng dyn ac anifail? Am hyny, yr ydwyf yn eich tyngedu yn enw Crist, 'byddwch yn wŷr;' yn ddynion *Cristionogol*—yr hyn yn unig a'ch galluoga chwi i ymddwyn fel dynion. Yr gwaith hwn rhaid i chwi gael, nid ysbryd Laodiceaidd; chwi a wyddoch pa beth a ddywedodd Duw wrth yr eglwys hono—'Am dy fod yn glauar, mi a'th chwydaf di allan o'm genau.' Caniatewch i mi ddyweyd wrthych mai nid ar ffurfiau, areithiau, a syniadau, y mae y gwaith hwn yn dibynu. Nid wyf yn dysgwyl i'r rhai hyn ei gyflawnu. Na: ond gan ddynion o galonau cywir yn ngwasanaeth Duw, wedi eu nerthu gan Raglunaieth, ac wedi eu goleuo yn ei eiriau i adnabod ei Air, yr hwn sydd wedi ei selio â gwaed ei Fab, ac â gwaed ei weision: hwn ydyw yr ysbryd a ddwg y gwaith yma yn mlaen. Nid oes genyf ond un peth arall i'w ddyweyd wrthych. Yr oeddwn yn darllen Salm ddoe nad yw yn anfuddiol nac yn annheilwng o'ch sylw chwi a minnau. Y mae yn dechreu: 'Graslawn fuost, O Arglwydd! i'th dir, dychwelaist gaethiwed Iacob.'" * * *

Y mae Oliver yn myned rhagddo i adrodd *Salm* lxxxv. wrthynt, yr hon sydd yn terfynu:—

"'Trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfuant; cyfiawnder a heddwch a ymgusanasant. Gwirionedd a dardda o'r ddaiar; a chyfiawnder a edrych i lawr o'r nefoedd. Yr Arglwydd hefyd a rydd ddaioni; a'n daiar a rydd ei chnwd. Cyfiawnder a ä o'i flaen ef; ac a esyd ei draed ef ar y ffordd.' Yn wir, mi a ddymunwn fod y salm hon yn ysgrifenedig yn ein calonau, fel y mae yn y llyfr, fel y gallem ddywedyd, 'Tydi a wnaethost hyn yma, a thydi a wnaethost hyn acw, a thydi a faddeuaist ein hanwireddau.' Y mae llawer o rwgnach gan rai na chânt redeg ceffylau, ymladd ceiliogod, a phethau cyffelyb! [yr oeddynt wedi eu diddymu]; ond nid wyf yn meddwl eu bod yn angenrheidiol. Os rhydd Duw ysbryd diwygiad, chwi a gedwch y deyrnas hon rhag troi at y fath wagedd; a pha beth fydd y diwedd? Bendith a chysur. Yna 'trugaredd a gwirionedd a ymgyfarfyddant.' Y mae llawer o 'wirionedd' yn mhlith proffeswyr, ond nid 'trugaredd.' Torent yddfau y naill y llall. Ond pan ddygir ni i'r iawn, byddwn yn drugarog yn gystal ag yn uniawngred. Yr wyf yn terfynu. Gweddiwch ar Dduw ar iddo ef eich bendithio â'i bresennoldeb, fel y byddo iddo ef, sydd â'ch calonau chwi a minnau ganddo, fod yn ein mysg."

Dyma benau araeth a draddodwyd yn Senedd Prydain gan amddiffynydd y deyrnas, wrth ei gynghorwyr. Dywed Carlyle am dani: "Ni thraddodwyd araeth freninol gyffelyb yn un man arall o'r byd erioed! Y mae y dyn Oliver, a'r Lloegr a lywodraethai, i'w canfod yn amlycach ynddi nag yn yr holl hanesion o'r bron a ysgrifenwyd am dano."

Ychydig cyn marw, siaradai lawer am y "cyfammodau." "Yr oedd dau," meddai; "ond gwnaethpwyd hwynt yn un cyn sylfaenu y byd!" Drachefn: "Y mae yn sanctaidd a gwir, yn sanctaidd a gwir, yn sanctaidd a gwir! Pwy a'i gwnaeth yn sanctaidd a gwir? Cyfryngwr y cyfammod." ——"Ffydd yn y cyfammod ydyw fy unig gynnaliaeth. Os nad wyf fi yn credu, y mae efe yn aros yn ffyddlawn."——Pan oedd ei wraig a'i blant yn wylo o'i amgylch, dywedai: "Na cherwch y byd, byddwch byw fel Cristionogion; yr ydwyf yn gadael i chwi y cyfammod i ymborthi arno."——Teirgwaith drosodd, dywedodd, "'Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw;' ond drachefn, y mae holl addewidion Duw *ynddo ef* yn Amen; ïe, ynddo ef yn Amen; er gogoniant Duw trwom ni—trwom *ni* yn Iesu Grist."——"Y mae yr Arglwydd wedi ty llenwi â chymmaint o hyder am faddeuant, ac am ei gariad, ag a ddeil fy enaid."——"Yr wyf y creadur tlotaf sydd yn fyw; ond yr wyf yn caru Duw, neu yn hytrach yn cael fy ngharu ganddo."——Ychydig ddyddiau cyn iddo farw, clywyd ef yn cyflwyno y weddi ganlynol at ei Dad yr hwn sydd yn y nefoedd:—

GWEDDI.

"Arglwydd, er fy mod yn greadur euog a thruenus, yr ydwyf mewn cyfammod â thi trwy ras. Yr wyt ti yn caniatau, ac yr ydwyf finnau am ddyfod atat ti ar ran dy bobl. Ti a'm gwnaethost, er fy mod yn dra annheilwng, yn offeryn gwael i wneuthur iddynt ryw les, ac i dy wasanaethu di. Y mae llawer o honynt wedi gosod gormod o fri arnaf; er fod ereill yn dymuno, a byddai yn dda ganddynt, fy marwolaeth. Arglwydd, pa beth bynag a wnei o honof fi, dos rhagot, a gwna lesâd iddynt hwy. Dyro iddynt uniondeb barn, un galon, a chariad at eu gilydd. Dos rhagot i'w gwaredu; llwydda waith y diwygiad; a gwna enw Crist yn glodfawr trwy y byd. Dysg y cyfryw ag sydd yn edrych yn ormodol at dy offerynau i ymddibynu yn fwy arnat dy hun. Maddeu i'r cyfryw ag sydd yn ewyllysio sathru ar lwch dy bryfyn; o herwydd dy bobl di ydynt hwythau hefyd. A maddeu ffolineb y weddi fer hon, er mwyn enw Iesu Grist. A dyro i ni noswaith dda, os dy ewyllys di ydyw. Amen."

Y fath ydyw crynodeb byr o fuchedd Oliver Cromwell, neu Williams, yr hwn a gyfododd o sefyllfa ddinôd i fod yn arglwydd tair teyrnas, ac yn ddiddadl y penadur mwyaf galluog yn Ewrop.

Digitized by Google

Anrhydeddid ef hyd y diwedd gan ei filwyr, ufuddhëid iddo gan holl boblogaeth yr ynysoedd Prydeinig, ac ofnid ef gan yr holl alluoedd tramor; rhestrwyd ef yn mysg penaduriaid hynafol Lloegr gyda y fath rwysg angladdol nas gwelodd Llundain erioed y cyffelyb; a dilynwyd ef gan ei fab Risiart mor dawel ag y dilynwyd un brenin gan unrhyw dywysog Cymru.—(*Memoirs of the Cromwell Family*, gan Thomas Cromwell; *State Papers, Record Office; Lingard; Hume; Macaulay; Clarendon; Bishop Burnet; Bishop Kennett; Life of Laud; Carlyle; Forster; Somer's Tracts; Disraeli's Curiosities of Literature; Calderwood; Royal and Noble Authors; Chalmers; Winwood; Memoires de Sully; History of the Puritans; Royal Genealogies; Memorials of the Stuart Dynasty; Harleian MSS.*, &c., &c.)

CRONICL, LLYFRAU Y, [Gr. *chronos*=*amser*]. Cyfrifid y ddau yn un llyfr gynt. Geilw yr Iuddewon hwynt, דברי הימים; hyny yw, *Dyddlyfrau*. Yn nghyfleithiad y Deg a Thrigain, gelwir hwynt *Parallipomena*; hyny yw, *Pethau wedi eu gadael allan*; canys golygent lyfrau y Cronicl fel *attodiad* i lyfrau hanesol ereill yr Hen Destament. Y mae yn ymddangos mai Jerome a roddes i'r llyfrau hyn yr enwau wrth ba rai yr adwaenir hwynt genym ni. Canys fe ddywed, wrth son am yr enw Hebraeg "dyddlyfrau," y rhai y gallwn yn fwy priodol eu galw, "cronicl yr holl hanes sanctaidd."

CYNNWYSIAD Y LLYFRAU.

Cynnwysa 1 *Cron.* i.—ix. dafleni achyddol o dylwythau a theuluoedd enwog, o Adda hyd Abraham (*pen.* i. 1—28); hiliogaeth Abraham ac Esau (*pen.* i. 28—54); Iacob a'i fab Iudah (*pen.* ii.); y brenin Dafydd (*pen.* iii.); Iudah drachefn (*pen.* iv. 1—23; Simeon (*pen.* iv. 24—43); Reuben, Gad, a Manasseh, yn nghyd â nodiadau hanesyddol am eu trigle (*pen.* v.); dwy restr o deulu Lefi (*pen.* vi. 1—30); achau Heman ac Asaph (*pen.* vi. 31—43); achau Merari (*pen.* vi. 44—48); teulu Aaron, yn nghyd â thrigleoedd y Lefiaid (*pen.* vi. 49—81); rhestr o feibion Issachar (*pen.* vii. 1—5); Beniamin a Naphthali (*pen.* vii. 6—13); Manasseh (*pen.* vii. 20—29); meibion Aser (*pen.* vii. 30—40); ail restr o feibion Beniamin, yn nghyd âg achau Saul (*pen.* viii); y teuluoedd a breswylient yn Ierusalem, a'r llwythau y perthynent iddynt.

Ar ol y taflenau achyddol hyn, rhoddir hanes cyssylltiol, gan ddechreu gyda'r olaf o ryfeloedd aflwyddiannus Saul yn erbyn y Philistiaid, yn mha un y lladdwyd ei feibion, ac y cwympodd ef ei hun ar ei gleddyf. Gyda y sylw fod y trychineb hwn wedi ei gyfarfod yn gosp am ei anufudd-dod i awdurdod Duw, ac am iddo ymgynghori â dewines, y mae yr ysgrifenydd yn pasio at hanes Dafydd, yr hyn sydd yn llenwi y gweddill o'r llyfr: *pen.* x.—xxix.

Cynnwysa y naw pennod cyntaf (i.—ix.) o'r ail lyfr hanes Solomon. Yn nesaf, ceir hanes cryno am freniniaeth Iudah, o amser Rehoboam hyd ddymchweliad y freniniaeth gan y Caldeaid, gan hysbysu yn y ddwy adnod olaf am gyhoeddiad Cyrus, yr hwn a ganiatäai i'r llwythau ddychwelyd i'w gwlad.

AMSERIAD AC AWDWR Y LLYFRAU.

Ymddengys yn ddiammheuol, oddi wrth brofion mewnol, i lyfrau y Cronicl gael eu hysgrifenu ar ol y caethiwed; o blegid y mae yr hanes yn cyrhaedd hyd ddiwedd y caethgludiad, ac yn crybwyll am ddychweliad y genedl i'w gwlad drwy orchymyn Cyrus (2 *Cron.* xxxvi. 21, 22). Mae yn sicr mai ar ol amser Ieremiah yr ysgrifenwyd y llyfrau hyn (2 *Cron.* xxv. 25), yr hwn a fu byw i weled dinystr Ierusalem gan y Caldeaid. Dyma un pwynt sefydlog ynte, o flaen pa un ni allasai gael ei gyfansoddi; sef, cyhoeddiad Cyrus i'r gaethglud ddychwelyd, yr hwn a roddir gan Winer yn y flwyddyn 536 c. c. Ond pa faint ar ol hyny, nid yw yn sicr. Gellid meddwl mai nid yn uniongyrchol ar ol y dychweliad, am y byddai yr holl genedl yn nghanol trafferthion ac anhawsderau eu sefydliad a'u hanfodiad cenedlaethol. Eto, gan mai ail ymsefydlu yn eu gwlad yr oeddynt, ar ol trigain mlynedd, neu ddwy oes, o alltudiaeth, yr hyn a effeithiodd lawer i dywyllu y gwahaniaethau a hanfodent yn flaenorol, ni allasent adferu sefydliadau Moses fel cynt heb gymmeryd hanesiaeth y genedl i'w harwain. Yr oedd yn angenrheidiol iddynt fyned yn ol i'w cofnodion cenedlaethol. Ac nid yw yn annhebyg i lyfrau y Cronicl ddyfod i fod yn yr amser yr oedd yr ymchwiliadau hyn yn cael eu gwneuthur. Ac os felly, nid oedd yn hir ar ol y dychweliad. Y mae y casgliad hwn yn ein harwain at ddyddiau Ezra.

Dywed y traddodiad Iuddewaidd hynaf mai gan Ezra yr ysgrifenwyd llyfrau y Cronicl; ac o'r farn hon y mae Carpzor, Eichhorn, Keil, a Havernick. Crybwyllir yn gyffredin y rhesymau canlynol o blaid y golygiad:—Yn gyntaf: Mae llyfrau y Cronicl a llyfr Ezra yn cyfateb o ran ieithwedd. Yn ail: Mae llyfr Ezra yn dechreu agos yn yr un geiriau ag y mae llyfrau y Cronicl yn diweddu. Yr oedd yn naturiol i'r un awdwr wneyd hyny, fel y gallai yr hanes ymddangos yn gyfan. Mae rhai wedi ceisio cyfrif am y ffaith olaf a grybwyllwyd, drwy dybio i ddiwedd y Cronicl gael ei osod drachefn yn nechreu Ezra, gan ryw adysgrifenydd. Ond, y mae y fath dybiaeth yn anhygoel iawn, o blegid mai ychydig o wahaniaeth sydd rhwng yr adnodau olaf yn y Cronicl a'r adnodau olaf yn Ezra. Bernir na fuasai neb yn gwneyd y fath gyfnewidiad ond yr awdwr ei hun. Y mae y beirniaid wedi cynnyg llawer tybiaeth, mewn trefn i esbonio dyben yr ailadroddiad, ond hwyrach mai y dybiaeth fwyaf rhesymol ydyw, i Ezra barhau ei hanes agos yn ei eiriau ei hun. Yn drydydd: Bernir fod y llyfrau yn cynnwys geiriau ac ymadroddion, crybwylliadau a chyfeiriadau, y rhai a berthynent yn neillduol i oes y diwygiad, a bod y llyfrau yn mhob ystyr y fath ag a ellid ddysgwyl oddi wrth Ezra, fel offeiriad a diwygiwr.

Y cyntaf a briodolodd ddyddiad diweddarach iddynt oedd Spinosa; a'i farn ef oedd, iddynt gael eu cyfansoddi yn amser y Maccabeaid (166 c. c.): dilynwyd ef yn hyn gan rai ereill; ac yn eu plith, gan De Wette. A dywedir fod arwyddion o ddyddiad diweddarach yn y llyfrau eu hunain; o herwydd, yn 1 *Cron.* iii. 19—24, y mae taflen achyddol o Zorobabel, cydoeswr Ezra, sydd yn ymddangos 'el yn dyfod i lawr hyd amser Darius Ochus (o ddeutu 350 c. c.); ond y mae yn ddigon i ddyweyd nad yw y daflen hon yn eglur ynddi ei hun. Mae yn wir fod ŵyrion Zorobabel yn cael eu crybwyll; ond yn *adn.* 21, gyda'r geiriau "meibion Rephaiah," cyssylltir mater arall, fel nas gellir profi fod Sechaniah (*adn.* 21) yn ddisgynydd Zorobabel. Ac heb law hyny, oni allesid chwanegu achau Zorobabel ar ol marwolaeth Ezra, megys y chwanegwyd hanes marwolaeth Moses at lyfr Deuteronomium.

Barna rhai, yn ddisail, fod defnyddiau y Cron-

Digitized by Google

iclau wedi eu cael yn unig o'r llyfrau ysbrydoledig blaenorol. Y mae yn wir fod llawer o'r un hanesion ynddynt; ac y mae yn sylw o bwys, lle y mae y Croniclau yn dyfynu o'r hanesion blaenorol, y maent trwy hyny yn eu gwirio, ac y mae y dystiolaeth hon i'r llyfrau blaenorol yn fwy pwysig, o gymmaint ag iddi gael ei dwyn ar adeg ailenedigaeth y genedl; megys, pan yr oedd eilunaddoliaeth a llygredigaethau wedi eu carthu ymaith, a chrefydd a gwirionedd wedi ennill dylanwad mawr arnynt, a phan yr oeddynt hwythau hefyd yn rhydd i aros yn Persia, ac ymwrthod o gwbl, pe dewisasent, â chrefydd Moses. Y mae gweithred ddifrifol yr holl genedl yn derbyn eilwaith sefydliadau Moses fel oddi wrth Dduw—yn enwedig wrth eu bod trwy hyny yn condemnio eu hunain fel meibion y rhai oedd wedi troi yn anffyddlawn i'w Duw, ac wedi lladd ei brophwydi—yn ffaith bwysig i ddangos gwerth y sefydliadau hyny, eu cyfaddasrwydd i'r genedl, a gwirionedd yr addewidion a'r bygythion oedd yn nglŷn â hwynt.

Ond yr oedd awdwr neu awduron y Croniclau yn defnyddio cyfansoddiadau heb law y rhai sydd yn bresennol yn y canon. Enwir y rhai canlynol yn bendant:—

1. Geiriau (neu hanesion) Samuel, y gweledydd; Nathan, y prophwyd; a Gad, y gweledydd: 1 *Cron.* xxix. 29.

2. Geiriau Nathan, y prophwyd; prophwydololiaeth Abïah; ac Ido, y gweledydd: 2 *Cron.* ix. 29.

3. Llyfr breninoedd Iudah ac Israel: 2 *Cron.* xxv. 26; xxviii. 26.

4. Llyfr neu eiriau Iehu, mab Hanani: 2 *Cron.* xx. 34.

5. Llyfr breninoedd Israel: 2 *Cron.* xx. 34; xxxiii. 18.

6. Histori llyfr y breninoedd: 2 *Cron.* xxiv. 27.

7. Llyfr Semaiah y prophwyd, ac Ido y gweledydd, yn, neu am yr achau: 2 *Cron.* xii. 15.

8. Gweithredoedd Uzziah, a ysgrifenwyd gan Esaiah y prophwyd, mab Amos: 2 *Cron.* xxvi. 22.

9. Gweledigaeth neu hanes Esaiah: 2 *Cron.* xxxii. 32.

Gwelir, oddi wrth hyn, mai pobl lenyddol a hanesyddol oedd yr Israeliaid; ac oddi wrth 1 *Cron.* xxvii. 24, y mae lle i gasglu eu bod yn cadw hanesion blyneddoedd fel y gwnai y Ladinwyr, ond yn mhell yn flaenorol iddynt. Ysgrifenwyd y Croniclau ddeugain mlynedd cyn i Herodotus, tad hanesiaeth anghyssegredig, ddechreu ar ei waith. Y mae rhai, megys De Wette a Norton, wedi codi gwrthddadleuon yn erbyn llyfrau y Croniclau, ar y tir eu bod yn cynnwys chwanegiadau nad ydynt i'w cael yn llyfrau Samuel a'r Breninoedd; ac mai hwynt-hwy oedd prif, os nad unig, ffynnonell gwybodaeth awdwr llyfrau y Cronicl. Ymddengys oddi wrth y rhestr uchod mor ddisail ydyw hyn. Er mwyn symmud ymaith grym y rhestr hwn o gofnodion a hanesion awdurdodedig, haera y dynion uchod mai cyfeiriadau yn unig ydynt, dan enwau ereill, at lyfrau Samuel a'r Breninoedd. O hyn, nid oes rhithyn o brawf; ac heb law hyny, llenyddiaeth gyfoethog oedd gan yr Hebreaid, fel y gwelir oddi wrth Lyfr y Pregethwr (*pen.* xii. 12): "*Nid oes dyben* (neu ddiwedd) *ar wneuthur llyfrau lawer*, a darllen llawer sydd flinder i'r cnawd." Pwy a all gredu yn ngwyneb hyn, ac yn ngwyneb yr ystyriaeth mai crefydd hanesyddol oedd y grefydd Hebreaidd, nad oedd ganddynt lawer o lyfrau heb law y cyfryw ag sydd yn ein canon presennol? Ond y mae yr adnodau y cyfeiriwyd atynt uchod yn dangos fod ysgrifenwyr hanesol yn lluosog. Nid all "fod geiriau Samuel, Nathan, a Gad," yn amgen na thri chyfansoddiad gwahanol. Pe buasai awdwr y Croniclau yn cyfeirio at y llyfrau sydd genym yn bresennol yn ein Beiblau, ni chawsid ynddynt wiriad o'i dystiolaethau; o herwydd cynnwysant bethau nad ydynt yn y llyfrau Beiblaidd; ond yr oeddynt yn y llyfrau y cyfeirir atynt. Ac y mae fod y cyfeiriad yn cael ei wneyd yn brawf fod y llyfrau hyny mewn bod, a'u bod yn cynnwys yr hysbysiadau hyny a ddefnyddir yn y Croniclau. Teilynga y ffaith o luosogrwydd llyfrau yn mysg yr Israeliaid sylw er dangos mai nid â chenedl anwybodus a hygoelus yr oedd a wnelo y prophwydi yn eu hysgrifeniadau; ond â dynion yr oedd yn rhaid iddynt wrth brawf, ac a wyddent pa fodd i bwyso prawf, ac â'r manteision yn eu dwylaw i wneyd ymchwiliadau i unrhyw gwestiwn hanesol perthynol i'w cenedl. Y mae yn sicr, gan hyny, fod gan awdwr neu awdwyr y Croniclau lyfrau o'u blaen heb law llyfrau Samuel a'r Breninoedd, am fod eu cyfeiriadau at hanes teyrnasiad Asa (2 *Cron.* xvi. 11); Amasïah (2 *Cron.* xxv. 26); Iotham (2 *Cron.* xxvii. 7); Ahaz (2 *Cron.* xxviii. 26); Hezeciah (2 *Cron.* xxxii. 32); Iosiah (2 *Cron.* xxxv. 27); a Iehoiacim: 2 *Cron.* xxxvi. 8. Yn y manau hyny y mae cyfeiriadau at "lyfr breninoedd Israel a Iudah." Yn awr, nid ein Llyfr Breninoedd presennol ydyw hwn, am y rheswm eglur fod y Croniclau yn cynnwys hysbysiadau chwanegol, nad ydynt i'w cael yn Llyfr y Breninoedd.

Y mae De Wette—un o brif feirniaid yr Almaen—yn dyweyd fod yr awdwr wedi gwneyd y cyfeiriadau hyn er mwyn ymddangosiad, fel pe buasai rhywbeth heb law ffoledd y neb a'u gwnaeth yn cael ei ddangos, pe nad oedd y llyfrau y cyfeirir atynt mewn bod. Ond yn y pedwerydd argraffiad o'i waith, y mae y cyhuddiad ynfyd a disail hwn yn cael ei ddystaw adael allan, heb un gair o esboniad pa ham y rhoddwyd ef i mewn ar y cyntaf, nac y gadawyd ef allan drachefn. Teifl hyn oleu ar ysbryd gelynol yr ymosodiadau sydd wedi cael eu gwneyd yn erbyn y llyfrau hyn.

AMCAN Y LLYFRAU.

Ymddengys mai prif amcan yr awdwr ydoedd cadw y gwahaniaeth priodol rhwng y llwythau a'r teuluoedd ar ddychweliad yr Hebreaid o'r caethiwed, fel y gellid profi yn yr amser priodol fod y Messïah wedi deilliaw o dŷ a thylwyth Dafydd, yn ol y brophwydoliaeth. O herwydd pa ham, y mae achyddiaeth Dafydd yn cael ei olrhain yn fanwl a gofalus. Dengys yr awdwr hefyd, drefn rhaniad y tiroedd cyn y caethiwed, fel y byddai i'r bobl ar ol eu dychweliad feddiannu hen etifeddiaethau eu tadau. Ac heb law hyn, rhydd yr awdwr gyfarwyddiadau pa fodd i adsefydlu addoliad cyhoeddus y gwir Dduw. Ac mewn trefn i gyrhaedd yr un amcan, efe a rydd achyddiaeth yr offeiriaid a'r Lefiaid yn llawnach nag un ysgrifenydd arall, ac a ddarlunia eu graddau, eu swyddogaethau, a'u trefn, fel y byddai yn hawdd iddynt adnabod eu cylchoedd, a chyflawnu eu gweinidogaeth ar ol eu dychweliad o'r caethiwed. Ond i'r darllenydd yn unig ystyried hyn, efe a wel ar unwaith fod cydrediad perffaith yn mhob peth a'r sydd yn perthyn yn neilldiol i lyfrau y Cronicl. Y mae yr ystyriaethau o hyn yn esbonio y taflenau achyddol, penodiad y llwythau, a'u cyflead; y cyfeiriadau amrywiol at yr offeiriaid a'r Lefiaid, llwyddiant

Digitized by Google

y breninoedd a ofnent yr Arglwydd, yn nghyd â'r aflwydd a ddilynai eilunaddoliaeth Israel. Y mae yn anhawdd llai na chymharu llyfrau y Cronicl â llyfrau Samuel a'r Breninoedd; ac ond gwneyd hyny yn fanwl a gofalus, ceir gweled fod yr elfen *hanesol* yn amlycach yn Samuel a'r Breninoedd, a'r elfen *addysgiadol* yn amlycach yn llyfrau y Cronicl. Traethir yn benaf am bethau gwladol yn Samuel a'r Breninoedd. Ond traethir yn benaf yn y llyfrau hyn am sefydliadau eglwysig.

Canfyddir yr elfen addysgiadol a chrefyddol trwy yr oll o'r llyfrau hyn. Ond heb law yr esamplau canlynol (1 *Cron.* xiii; xiv. 2, 10, 14; xv. 2; xix. 13; xxii. 13; xxviii. 7; 2 *Cron.* xii. 1, &c; xiii. 9; xvi. 9, 12; xx. 37), gellir cyfeirio at hanes Uzziah (2 *Cron.* xxvi.), yr hwn, er ei fod dan oed pan esgynodd yr orsedd, a fwynhaodd y llwyddiant mwyaf tra y parhaodd yn ufudd i Dduw; ond, pan yn malchder ei galon y cymmerodd drawsfeddiant o'r swydd offeiriadol, efe a darawyd â'r gwahanglwyf. Yn fwy nodedig fyth ydoedd y llwyddiant a ddilynodd sel grefyddol Hezeciah; eto, pan ymfalchïodd ei galon, disgynodd anfoddlonrwydd y nefoedd arno ef ac ar Iudah a Ierusalem: 2 *Cron.* xxix; xxx; xxxi; xxxii. 25. Cymh. 26. Ceir amcan a thuedd y llyfrau mewn crynodeb yn agos i'w ddiwedd: "Holl dywysogion yr offeiriaid hefyd, a'r bobl, a chwanegasant gamfucheddu, yn ol holl ffieidd-dra y cenedloedd; a hwy a halogasant dŷ yr Arglwydd, yr hwn a sancteiddiasai efe yn Ierusalem. Am hyny Arglwydd Dduw eu tadau a anfonodd atynt hwy trwy law ei genadon, gan fore godi, ac anfon: am ei fod ef yn tosturio wrth ei bobl, ac wrth ei breswylfod. Ond yr oeddynt hwy yn gwatwar cenadon Duw, ac yn tremygu ei eiriau ef, ac yn gwawdio ei brophwydi ef; nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd iachâd. Am hyny efe a ddygodd arnynt hwy frenin y Caldeaid," &c. (2 *Cron.* xxxvi. 14—21). Y mae yr adran nodedig hon yn dangos i'r gwaith gael ei gyfansoddi i ddangos fod yr Arglwydd yn anrhydeddu ei anrhydeddwyr: 1 *Sam.* ii. 30. Ni bu un adeg yn eu hanes yn fwy angenrheidiol iddynt deimlo y gwirionedd hwn, ac ni bu y genedl erioed yn fwy byw i'w bwysigrwydd. Yr oedd deng mlynedd a thrigain o gaethiwed wedi eu darostwng a'u meddyginiaethu o'u heilunaddoliaeth. Yn awr, ynte, oedd yr adeg i ddangos, trwy esamplau lluosog, fod eu llwyddiant cenedlaethol yn dibynu yn hollol ar ffafr Duw, a hyny eilwaith ar eu hufudd-dod hwy.

ANHAWSDERAU Y LLYFRAU.

Y prif anhawsder yn ei berthynas â'r llyfrau hyn ydyw, yr anghytundeb sydd rhyngddynt a hanesion blaenorol. Crybwyllwyd o'r blaen, fod gwahaniaeth rhwng ieithwedd llyfrau y Cronicl a ieithwedd llyfrau blaenorol yr Hen Destament. Y mae gwahaniaeth yn y llythyraeth, gwahaniaeth yn y gystrawen, a gwahaniaeth priod-ddull. Caiff y neb a ddarlleno yr Hen Destament yn y gwreiddiol, ac a ymgynghora â gramadegau a geirlyfrau yr Hebraeg, weled digon o anghreifftiau yn egluro y pethau hyn. Effeithiwyd y cyfnewidiad hwn yn iaith yr Hebreaid yn ystod eu caethiwed, a chymmysgwyd yr Hebraeg â'r Aramaeg. Adroddir yr un pethau yn y llyfrau hyn, ac yn Samuel a'r Breninoedd, ond mewn *trefn* wahanol. Eithr nid yw hyn yn rheswm dros ammheu dilysrwydd y llyfrau; o blegid nid yw yr ysgrifenwyr ysbrydoledig yn cymmeryd arnynt gofnodi amgylchiadau yn olynol o ran trefn amser.

Y mae gwahaniaeth rhwng Samuel a'r Breninoedd â'r llyfrau hyn yn eu hadroddiad o ffeithiau a rhifedi; megys y gwelir yn y lleoedd canlynol:—

2 *Cron.* ix. 25.....1 *Bren.* iv. 26.
— xxii. 2.....2 *Bren.* viii. 26.
1 *Cron.* xxi. 1.....2 *Sam.* xxiv. 1.
— xxi. 5..... — xxiv. 9.
— xxi. 11, 12..... — xxiv. 13.
— xxi. 25..... — xxiv. 24.
2 *Cron.* xiii. 2.....1 *Bren.* xv. 10.

Nid oes wrthddywediadau yn y rhanau y cyfeirir atynt; ond y mae gwahaniaeth yn yr adroddiadau. [Gwel *Dr. Davidson's Sacred Hermeneutics.*] Ond y mae *gwrthddywediadau* yn y lleoedd canlynol:—

2 *Cron.* viii. 18.....1 *Bren.* ix. 28.
1 *Cron.* xi. 11.....2 *Sam.* xxiii. 8.
— xxi. 5..... — xxiv. 9.
— xviii. 4.....2 *Sam.* viii. 4.
— xix. 18..... — x. 18.

Y ffordd sydd gan y beirniaid i esbonio yr anhawsderau hyn ydyw, drwy hòni fod y testyn yn llygredig. [Gwel BEIBL, BEIRNIADAETH Y.] Addefir yn gyffredinol fod testyn Samuel, y Breninoedd, a'r Cronicl, yn fwy llygredig na thestyn y llyfrau ysbrydoledig ereill. Gwnaethpwyd mwy o gamsyniadau wrth adysgrifenu y llyfrau hyn nag mewn unrhyw ranau o'r Ysgrythyrau. Ysgrifenwyd enwau a geiriau yn wahanol, gadawyd rhai pethau allan, a chwanegwyd pethau ereill. Ond y mae y prif wrthddywediadau yn perthyn i *rifedi.* Ac y mae y ffaith hon yn cadarnhau y golygiad mai y testyn sydd yn llygredig; o blegid yr oedd mwy o le i gamsynied wrth adysgrifenu rhifedi nag unrhyw bethau ereill, am fod ganddynt amrywiol ddulliadau o'u dynodi. Byddent yn dynodi rhifedi weithiau drwy lythyrenau, ac weithiau drwy nodau, a phrydiau ereill drwy eiriau. Myn rhai fod y testyn yn gywir, a bod yr awdwyr yn gyfeiliornus. Y mae ymlyniad Rhesymolwyr yr Almaen wrth y testyn Masoraidd yn wrthun. Yr oedd Iudas yn dadleu dros elusengarwch; nid o herwydd ei ofal am y tlodion, ond o herwydd ei fod yn dwyn y gòd. Y mae Rhesymolwyr yr Almaen yn dwyn sel dros gywirdeb y testyn Masoraidd; nid o herwydd eu gwir barch i'r testyn, ond er mwyn cael y cyfleusdra i gyhuddo yr ysgrifenwyr ysbrydoledig o anghyssonderau a gwrthddywediadau. Yn ol golygiad yr athrawon hyn, y mae awdwr llyfrau y Cronicl wedi cyfansoddi yn wallus a chyfeiliornus, er ei fod dan arweiniad yr Ysbryd Glân; pan y mae yr adysgrifenwyr wedi gwneyd eu gwaith yn anffaeledig, er nad oeddynt yn hòni ysbrydoliaeth!

Nid oes le i ammheu dilysrwydd y llyfrau hyn. Mae nodau gwireddolrwydd a gonestrwydd ar bob tudalen. Cyfeiria yr awdwr yn gysson a digel at y llyfrau o ba rai y cafodd ddefnyddiau ei hanes. Ar ol ysgrifenu y llyfrau hyn, goddefwyd i'r llyfrau hyny syrthio i dir anghof, am y gwyddai cydoeswyr ac olynwyr yr awdwr fod y pethau hanfodol wedi eu trosglwyddo yn ddilys i lyfrau y Cronicl, a bod llyfrau y Cronicl yn rhan o'r Ysgrythyrau sanctaidd. Y mae y llyfrau yn deilwng o Ezra, yr offeiriad duwiol, a'r diwygiwr selog; ac y mae taflenau achyddol, ffeithiau hanesyddol, addysgiadau moesol, ac egwyddorion crefyddol y ddau lyfr, yn eu gwneyd yn rhan anhebgorol o'r Ysgrythyrau sanctaidd.

Digitized by Google

CROTH, [Seis. *womb*]: bru; crynedd; ceudod; y bol: croth y goes=*the calf of the leg.* Y rhan o gorff y fenyw lle y ffurfir ac y meithrinir y plentyn hyd ei enedigaeth.

Tybir fod y gair *croth* yn yr un ystyr yn gwbl a'r gair *bru.* Y mae y gair Groeg *μήτρα*, sydd yn arwyddo croth yn wreiddiol—sef y gair y mae croth yn ystyr cyntaf iddo—yn deilliaw o *μήτηρ*=mam. Dwy waith y dygwydd y gair *μήτρα* yn y Testament Newydd; sef, yn *Luc* ii. 23, ac yn *Rhuf.* iv. 19. Nid yw y gair *croth* yn y cyfieithiad Cymraeg o'r lle blaenaf (*Luc*), ond cyfieithir *διανοῖγον μήτραν* yn *gyntafanedig;* yn ol pa reol, nis gwyddys. Dyma y cyfieithiad:—"Fel yr ysgrifenwyd yn neddf yr Arglwydd, Pob gwryw cyntafanedig a elwir yn sanctaidd i'r Arglwydd." Yn ol y Groeg: "Pob gwryw a'r a *agoro y groth,* a elwir yn sanctaidd i'r Arglwydd." Y mae y gair *croth* i mewn gan ein cyfieithwyr ni yn eu cyfleithiad o "ddeddf yr Arglwydd," a ddyfynir yma; sef, *Exod.* xiii. 2; "Cyssegra i mi bob cyntafanedig, sef beth bynag *a agoro y groth* yn mysg meibion Israel, yn ddyn ac anifail."

Yn yr unig fan arall lle y dygwydd y gair *μήτρα*, sef *Rhuf.* iv. 19, cyfieithir ef yn *bru:* "Ac efe yn ddiegwan o ffydd, nid ystyriodd ei gorff ei hun, yr hwn oedd yr awr hon wedi marweiddio, ac efe yn nghylch can mlwydd oed, na marweiddra *bru* Sarah."

Dywed Charles fod yr hen Roegiaid yn galw croth yn *μήτηρ=y fam;* ac yn gyffelyb, fod amryw o anhwylderau y groth yn cael eu dynodi gan y Cymry â'r gair *mam;* megys, y fam eni, gwaith y fam, clwyf y fam, gwynt y fam.

Y mae dau air Groeg arall a gyfieithir weithiau yn groth; sef, *γαστήρ=y bol,* a *κοιλία=ceudod.* Cyfieithir y blaenaf yn *croth* yn *Luc* i. 31: "Ac wele, ti a gei feichiogi yn dy *groth,* ac a esgori ar fab, ac a elwi ei enw ef Iesu." Yn yr holl fanau ereill, braidd, lle y mae y gair yn y Testament Newydd, gadewir ei gyfystyr allan o'r cyfieithiad, gan ddefnyddio dim ond *beichiog,* mewn gwahanol gyssylltiadau; megys, "Hi a gafwyd yn feichiog;" *Mat.* i. 18: "Morwyn a fydd feichiog;" *adn.* 23: "Gwae y rhai beichiogion;" *Mat.* xxiv. 19; *Marc* xiii. 17; *Luc* xxi. 23: "Un a fo beichiog;" 1 *Thes.* v. 3: "A hi yn feichiog;" *Dad.* xii. 2. Ond yn *Titus* i. 12, cyfieithir y gair, yn ol ei ystyr priodol, yn *boliau*—"boliau gorddiog" (yn llythyrenol, *boliau anweithgar=γαστέρες ἀργαί*).

Cyfieithir y gair arall, *κοιλία*—yr hwn sydd ddwy waith ar ugain yn y Testament Newydd—weithiau yn *bol,* ac weithiau yn *groth;* ond nid unwaith yn *geudod,* yn ol ei ystyr priodol; megys, er anghraifft, "Canys fel y bu Ionas dridiau a thair nos yn *mol* y morfil;" *Mat.* xii. 40: "A bu, pan glybu Elizabeth gyfarchiad Mair, i'r plentyn yn ei *chroth* hi lamu;" *Luc* i. 41.

Wrth "ffrwyth y groth" y golygir plant; megys, "Ai myfi sydd yn lle Duw, yr hwn a attaliodd *ffrwyth y groth* oddi wrthyt ti?" *Gen.* xxx. 2: "Wele, plant ydynt etifeddiaeth yr Arglwydd; ei wobr ef yw *ffrwyth y groth;*" *Salm* cxxvii. 3. Hefyd, *Gen.* xlix. 25.

Y mae "beth bynag a agoro y groth" yn amlwg arwyddo y cyntafanedig; megys, "Cyssegra i mi bob cyntafanedig, sef beth bynag a agoro y groth yn mysg meibion Israel, o ddyn ac anifail;" *Exod.* xiii. 2. "Yr oedd y cyntafanedig i gael ei gyflwyno yn ddifrifol i Dduw, er cof am ddinystr y cyntafanedig yn yr Aipht; ac yr oedd pris appwyntiedig i'w dalu er ei ryddhâd."—*Scott.* Hefyd, *Num.* viii. 16; *Ezec.* xx. 26.

Mae croth, weithiau, yn arwyddo *mam;* megys, "Y groth a'i gollwng ef dros gof" (*Iob* xxiv. 20); hyny yw, "Ni sonia ei *fam,* yr hon a'i hymddug ef, am dano ond anfynych, os un amser."—*Poole.*

Wrth "groth y wawr," yn *Salm* cx. 3, y golygir *toriad y wawr,* pan y mae y gwlith luosocaf ar y ddaiar. [Gwel Gwlith.] Meddylia yr hen Sutcliffe fod "croth y wawr" yn arwyddo tragwyddoldeb Crist.

Y mae Charles yn meddwl fod croth yn arwyddo "y dyn oddi mewn, y galon, y meddwl, yr enaid," yn y geiriau hyn:—"Yr hwn sydd yn credu ynof fi.....afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i *groth* ef;"=yn ol W. S., "allan o'i *fru* ef."

CRUDEN, ALEXANDER: casglwr enwog y *Mynegair* cyflawnaf a gwerthfawrocaf sydd yn bod i'r Beibl Seisoneg. Ganwyd ef yn Aberdeen, Mai 31, 1701; a chafodd ysgol ramadegol dda, pan yn ieuanc iawn, yn ei ddinas enedigol. Yr oedd ei dad, William Cruden—masnachwr enwog yn Aberdeen—yn ddyn o fuchedd hynod ddichlynaidd a diargyhoedd; ac ymddengys i'w ymddygiad duwiol adael argraff annileadwy ar feddwl Cruden ieuanc.

Penderfynodd Alexander yn fore wneyd y weinidogaeth Gristionogol yn brif orchwyl ei fywyd dyfodol; ac fel arweiniad i'r broffes glerigol, ac er mwyn cael pob manteision angenrheidiol at y fath alwad, aeth yn efrydydd i Goleg Mareschal, yn Aberdeen, lle y bu yn ddiwyd yn gwrandaw darlithiau y gwahanol brofflesiwyr. Yma cynnyddodd yn gyflym yn yr ieithoedd dysgedig, ac mewn llenoriaeth gyffredinol; rhoddwyd y radd o athraw yn y celfyddydau iddo; ac yr oedd ar fin cael ei gynnyg yn drwyddedog, pan y cafwyd arwyddion o'r fath ddyryswch meddwl ynddo, ag a achosodd gwbl newidiad yn ei dynged. Gan nad oedd yr anhwylder y dyoddefodd gymmaint oddi wrtho mewn amser dyfodol yn etifeddol iddo oddi wrth ei deulu, tybiai rhai mai brathiad ci cynddeiriog a'i hachosodd; tra y priodola ereill ef, ar seiliau cadarnach, fel yr ymddengys ar y cyfan, i siomedigaeth yn ngwrthddrych ei serchiadau.

O gylch yr amser yma, torodd ei anhwyldeb allan i'r fath raddau, yn enwedig mewn cyssylltiad â'r foneddiges a garai efe mor ffyddlawn (yr hon a ddangosodd wedi hyny ei bod yn gwbl annheilwng o hono), fel ag y bu raid i'w gyfeillion ei roi dan warcheuad. Pan ryddhawyd ef, penderfynodd adael mangre ei ofidiau chwerwon boreuol. Ac yn y flwyddyn 1722, efe a aeth i Lundain; a chafodd le yn Wane, sir Hertford, fel athraw clasurol i ryw wŷr ieuainc yno. Treuliodd lawer o'i flyneddoedd canlynol yn Manaw, mewn gorchwyl cyffelyb. Yn 1732, efe a ymsefydlodd yn Llundain, ac a ymroddes i'r gwaith o ddiwygio yr argraffwasg, gan gymmeryd arno y gorchwyl o werthu llyfrau gyda hyny, yr hyn a gariodd yn mlaen mewn maelierfa dan y Gyfnewidfa Freninol (*Royal Exchange*). Yma, ennillodd ei ddysgeidiaeth goeth, ei ddiwydrwydd diflin, a'i onestrwydd manwl, iddo barch ac edmygedd, nid yn unig y rhai a fwynhaent ei lafur proffesedig, ond hefyd amryw bersonau ardderchog o ran cyfoeth a dylanwad; trwy offerynoliaeth y rhai y cafodd ei appwyntio yn llyfrwerthwr i'r frenines, yr hyn a aeth yn wag drwy farwolaeth Mr. Matthews.

O gylch blwyddyn neu ddwy cyn iddo gael y

Digitized by Google

dyrchafiad yma, yr oedd wedi penderfynu dechreu y gwaith mawr y bu yn ei gynllunio cyhyd; sef, *Mynegair Cyflawn o Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd.* Yr oedd y llafur gofynol i wneyd llyfr fel hwn, yn enwedig yn amser Cruden, pe na buasai dim teilyngdod arall yn perthyn iddo, bron tu hwnt i amgyffred. Yr oedd efe wedi ei gymhwyso yn dda at y fath orchwyl, canys yr oedd diwydrwydd yn ymarferiad cynnefin iddo ef; ac yr oedd ei argyhoeddiad o wir ddefnyddioldeb y fath waith wedi ei arwain i ffurfio y cynllun, a'i ddwyn i ben, cyn iddo dderbyn unrhyw gefnogaeth gan y cyhoedd. Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf o'r *Mynegair* yn 1737; a chyflwynwyd ef, ychydig amser cyn ei gyhoeddi, i'w Mawrhydi y frenines Caroline, cydwedd George II.; yr hon a wenodd ar yr awdwr, gan dystiolaethu wrtho ei bod hi yn bur ddiolchgar iddo; a hysbysodd ei bod yn penderfynu cofio am dano. Ond, ysywaeth, bu farw yn mhen un niwrnod ar bymtheg ar ol y cyflwyniad; ac ni chymmerodd ei bwriad dadganedig o gofio am yr awdwr byth le.

Gan i Mr. Cruden gymmeryd y cyfrifoldeb o ddwyn y gwaith allan arno ei hun, darfu i'r costau oedd yn cydfyned o angenrheidrwydd â'i gyhoeddi ddyhysbyddu yr ychydig eiddo oedd ganddo; a dichon fod yr amser a dreuliodd i'w ysgrifenu, gyda hyny, wedi tynu ei sylw yn ormodol oddi wrth ei fasnachdy. Gorfododd ei ddyled iddo werthu ei holl nwyddau, ac ymadael o'i fasnachdy hefyd. Darfu i'w holl siomedigaethau, a gormod llafur gyda hyny, fe ddichon, ddwyn ei hen anhwyldeb meddyliol arno eilwaith yn waeth nag erioed, fel y bu raid ei gyfyngu drachefn i wallgofdy yn Bethnal Green—o ba le, pa fodd bynag, y gallodd ddianc, er ei fod wedi ei gadwyno wrth erchwyn y gwely y gorweddai arno.

Yn Mawrth, 1738, cyhoeddodd Mr. Cruden gofnodlyfr o'i ddyoddefiadau tra yn gyfyngedig yn Bethnal Green, dan yr enw, "Dinesydd Llundain wedi ei sarhau yn ddirfawr, yn rhoddi hanes am ei dost a'i faith ryfelawd yn Bethnal Green, am naw wythnos a chwe diwrnod; lle y danfonwyd y dinesydd yn Mawrth, 1738, gan Robert Wightman, dyn nodedig o hunandybus a mympwyol—lle y cadwynwyd, yr hualwyd, y gwasgrwymwyd, ac y carcharwyd ef (y dinesydd)—gyda hanes Mainc Ddall Wightman, sef math o lys a ymgyfarfyddai yn ystafell Wightman, ac a elai yn mlaen yn anghyfrifol i basio dedfrydau yn erbyn y dinesydd," &c.

Ni foddlonodd Mr. Cruden ar ddwyn y pleidiau y tybiai efe—yn briodol hefyd, efallai—a'i sarhaodd, ger bron y cyhoedd; am hyny, rhoddodd gŵyn cyfraith yn erbyn Wightman, perchenog y gwallgofdy, ac yn erbyn y Dr. Monro, y physygwr. Safodd Mr. Cruden yn ddadleuwr iddo ei hun, a dywedir iddo roddi profion digonol fod ei feddwl yn anmhwyllog. Collodd y ddedfryd, wrth gwrs, yr hon a roddwyd o blaid y diffynwyr. Pan ddychwelwyd y ddedfryd, ni ddangosodd Mr. Cruden ddim cyffro; ond dywedodd, "Yr wyf fi yn ymddiried yn Nuw." Atebodd y barnwr, "Hoffaswn i chwi ymddiried mwy yn Nuw, a pheidio a dyfod yma." Os rhoddodd Mr. Cruden brofion fod ei feddwl yn ddyryslyd, fel yr oedd yn ddiau, buasai yn llawer mwy o anrhydedd iddynt attal yr erlyniad nag ymddwyn fel y gwnaethant. Cyhoeddwyd y prawf, gyda sylwadau arno, wedi hyny gan Mr. Cruden, yr hwn hefyd a'i cyflwynodd i George II.

Ni farnodd hen weithroddwyr Mr. Cruden ef eto yn anghymhwys i ail gymmeryd ei swydd fel diwygiwr y wasg. Ar ol ei ryddhâd, bu am flyneddoedd yn y gorchwyl y mae mor angenrheidiol i argraffwyr a chyhoeddwyr wrth wŷr o dalent a dysg i'w gyflawnu: a chyhoeddwyd amryw argraffiadau tra chywir o'r clasuron Groeg a Lladin dan ei olygiad.

Yr oedd ei foesau bob amser yn syml a didramgwydd; yr oedd yn deilwng o gwbl ymddiried, a chyflawnai ei orchwylion gyda'r ffyddlondeb manylaf. Treuliodd bymtheng mlynedd yn y gorchwyl llafurus a defnyddiol o ddiwygio yr argraffwasg, heb ddim arwyddion pwysig o anhwyldeb meddwl, pan y tueddwyd ei berthynasau i'w gaethiwo y drydedd waith; a dichon y gall cariad obeithio eu bod yn defnyddio y fath fesurau eithafol ato oddi ar ddybenion cywir. Pa fodd bynag, ni bu ei gaethiwed y waith hon ond o fyr barhâd; sef, o'r 12fed hyd y 29fed o Fedi, 1753. Yr oedd afiechyd Mr. Cruden yn hollol ar ei ben ei hun, gan nad oes genym hanes am un anghraifft gyffelyb yn holl gofnodion y gelfyddyd feddygol.

Y mae genym amryw esamplau pur ddigrif o'r golygiad a gymmerai Mr. Cruden ar y rhai a barasant ei gaethiwed y tro diweddaf: ni roddir yma ond un yn unig. O blegid i'w chwaer, Mrs. Wild—ei berthynas agosaf—gymmeradwyo ac awdurdodi ei roddi dan gaethiwed, efe a fynai gael iawn ganddi am y sarhâd. Yr iawn a geisiai, oedd, "iddi ymostwng yn wirfoddol i gaethiwed yn ngharchar Newgate am wyth awr a deugain, a thalu deg punt i Mr. Cruden." Pan ddywedwyd wrtho y gallai ei chaethiwo yn Newgate fod yn niweidiol i'w hiechyd, o blegid yr anhwyldeb oedd yno ar y pryd, cynnygiodd Mr. Cruden newid y carchariad yn Newgate am ddau wyth awr a deugain yn y Twr, a'r swm o bymtheg punt. Pan wrthodwyd yr holl delerau hyn at heddwch, dywedodd Mr. Cruden:—"Y mae braidd yn ddigrif fod yn rhaid wrth gymmaint o drafferth er cael y ddynes hon i gaethiwed am wyth awr a deugain, yr hon, âg un gair o'i genau, a gaethiwodd y diwygiwr am ddau ddiwrnod ar bymtheg." Wedi iddo lwyr anobeithio cael terfyn heddychol ar y mater, dyguodd gŵyn cyfraith yn erbyn ei chwaer a thri o bersonau ereill, a brofwyd yn llys Westminster, Chwefror 20fed, 1754. Gosododd y niwed i lawr yn ol deng mil o bunnau, ond dychwelwyd y ddedfryd o blaid y diffynwyr. Wedi methu fel hyn, cyhoeddodd Mr. Cruden y prawf dan yr enw—"Anturiaethau Alexander y Diwygiwr."

Yn fuan ar ol hyn, dangosodd gwallgofrwydd Mr. Cruden ei hun mewn amryw wahanol ffyrdd; ond oll, ar y cyfan, yn ddiniwed, er fod rhai o honynt yn hynod ddigrifol. Yr oedd yn llwyr gredu ei fod wedi ei ddanfon gan Ragluniaeth, nid yn unig yn "ddiwygiwr y wasg," ond yn ddiwygiwr gwladol a chrefyddol hefyd; am hyny, cymmerodd y teitl o "Alexander y Diwygiwr." Tybiodd nas gallai gyflawnu ei genadwriaeth fawr yn y byd, a bod yn "ail Ioseph," heb gael lle fel aelod o'r ddeddfwriaeth yn y senedd. Tra yr ydoedd dan yr iasau hyn, syrthiodd eilwaith yn aberth i gariad. Gwrthddrych ei serch y waith hon oedd Mrs. Elizabeth Abney, merch Syr Thomas Abney, oedd yn faer Llundain o gylch diwedd teyrnasiad William III. Credai, heb law bod yn fraint i'r foneddiges hon ei gael ef, fod undeb priodasol â hi yn angenrheidiol er dwyn amcanion mawrion ei fywyd i

Digitized by Google

ben; sef bod yn ddiwygiwr cyffredinol, mewn gwlad ac eglwys. Wedi defnyddio pob moddion heddychol a'r a allai efe feddwl am danynt i gael ganddi dderbyn yr anrhydedd o'i gymmeryd ef yn gymhar bywyd—yn gwbl ofer, fel y gellid dysgwyl—efe a ddanfonodd bapyr hirfaith ati, wedi ei lawnodi a'i selio yn ffurfiol, a alwai efe yn "*Declaration of War*"=cyhoeddiad rhyfel. Dywedodd wrthi yn y "cyhoeddiad" hwn, yn dra difrifol hefyd, gan ei fod ef yn ddyn rhyfeddol, y byddai iddo ddwyn y rhyfel a gyrhoeddodd yn ei herbyn hi yn mlaen mewn modd rhyfeddol iawn; sef, "trwy saethu nifer afrifed o fwledi o'i wersyll; nid amgen gweddïau taerion i'r nefoedd, ddydd a nos, ar i'w meddwl gael ei oleuo, a'i chalon ei thyneru." Nid oedd yr holl fwledi yma yn cael nemawr o effaith ar Mrs. Abney; ond, os oedd Mr. Cruden dipyn yn wallgof, nid oedd mewn un modd yn ddifeddwl: am hyny, dyfeisiodd ddull arall o saethu ati—yr hwn, er na bu yn fwy llwyddiannus i "oleuo ei meddwl a thyneru ei chalon" na'r llall, eto a barodd gryn ofid i'r foneddiges. Y cynllun oedd, argraffu nifer mawr o bethau a alwai efe yn "ysgrifau gweddïol" (*praying bills*), a'u hanfon i'r tai addoliad yn mhob man lle yr äi y foneddiges, pan elai i'r wlad i rodio, i ddymuno ar i'r gweinidogion eu darllen yn gyhoeddus yn ei gŵydd, fel gweddïau drosti hi a'i gweinidogion. Pan ddychwelodd i'r ddinas, anfonodd "ysgrifau" cyffelyb i ddymuno ar i "ddiolchgarwch cyhoeddus gael ei gyflwyno i'r Hollalluog Dduw am ei dychweliad diogel."

Ar ddiwedd 1754, cymmerodd Mr. Woodfall (hynaf) Mr. Cruden fel diwygiwr y wasg i'r *Public Advertiser*:—cofnodiadur dyddiol poblogaidd, yn yr hwn yr ymddangosai llythyrau tra adnabyddus Junius. Yn fuan ar ol hyn, daeth parotoi argraffiad newydd o'r *Mynegair* yn angenrheidiol; a rhoddodd y gwelliadau a'r chwanegiadau ato waith dirfawr i'r awdwr. Ni byddai gwaith yr argraffdy drosodd ond anfynych cyn un o'r gloch y bore; ac anaml y caniatäai Mr. Cruden iddo ei hun fwy na phedair awr neu bump i orphwys: a chyn chwech o'r gloch y bore, gellid ei ganfod ef yn prysur droi dalenau ei Feibl, gan chwanegu, gwelläu, a diwygio ei *Fynegair* gyda'r diwydrwydd mwyaf dichlyn a phryderus. Byddai yn llafurio fel hyn hyd y prydnawn, pan yr elai i'r argraffdy. Yr oedd yr arferion hyn yn tueddu i wrthweithio yr anhwyl meddyliol oedd yn ei flino; a bydd yn foddhâd dymunol gan y darllenydd wybod, yn ddiau, i'w feddwl gael ei adferu yn raddol i reoleiddrwydd tawel, yr hwn oedd yn bur ddyeithr iddo ef, druan, yn nechreu ei oes; ac iddo barhau yn yr agwedd ddymunol yma, i raddau helaeth, hyd ei farwolaeth.

Yn 1762, dygwyddodd amgylchiad nodedig yn hanes Mr. Cruden, sydd yn eglurhâd ardderchog o garedigrwydd a duwiolfrydedd ei dueddfryd. Profwyd un Richard Potter, a barnwyd ef yn euog o farwolaeth yn Old Bailey, am ffugio ewyllys morwr; neu yn hytrach, am adrodd yr hyn y gwyddai ei fod yn ffug—trosedd nas maddeuid ond yn anfynych iawn. Yr oedd Mr. Cruden yn y llys yn ystod y prawf; a chafodd ei lawn argyhoeddi mai creadur tlawd anllythyrenog oedd Potter, ac offeryn yn llaw un arall, tra yn anadnabyddus ei hun o ysgelerder y trosedd a gyflawnodd; am hyny, penderfynodd Mr. Cruden ymdrechu yn egniol i gael yr arbediad breninol iddo. Ymwelodd âg ef ar ol y prawf, gweddïodd gydag ef, cynghorodd ef, dysgodd egwyddorion crefydd iddo; ac, o dan fendith ddwyfol, cynnyrchodd ynddo ystyriaeth briodol o ddrygioni ei fuchedd flaenorol, a chyfarwyddodd ei feddwl ymofyngar at ei "waed Ef, sydd yn glanhau oddi wrth bob pechod." Ar fyr, llwyddodd ei appeliadau diflino, o'r diwedd, gydag ysgrifenydd y llywodraeth, Iarll Halifax, i newid ei ddedfryd wreiddiol am alltudiad.

Parodd ei lwyddiant gyda Potter i Mr. Cruden barhau ei ymweliadau â Newgate, lle y dosbarthai y Testament Newydd, catecismau, &c., i'r carcharorion; a holwyddorai hwynt ei hunan, gan roddi ychydig wobrau i'r rhai mwyaf astud. Pa fodd bynag, ni bu ei lafur mawr yno ond o ychydig les, mewn cymhariaeth, gan mor afreolaidd oedd dosbarthiad y carcharorion y pryd hyny—lle y goddefid i'r rhai mwyaf ysgeler, o bob oes a gwlad, gydymgymmysgu, gan halogi a chaledu y naill y llall.

Ond er i Mr. Cruden gael ei siomi yn dost gyda golwg ar garcharorion Newgate—gan y gwerthid y llyfrau a ddosbarthai iddynt, ac y gwerid yr arian am ddiodydd meddwol—eto, ni phallodd ei sel ef dros les presennol a dyfodol ei gydgreaduriaid. Pan lwyddai i wared creadur truenus o anwybodaeth a drygioni, byddai ei orfoledd yn myned dros ben pob terfynau. Yr oedd Mr. Cruden yn dychwelyd adref o le addoliad un nos Sabbath, pan y sylwai fod gwyneb dyn a'i cyfarfu ar y ffordd yn dangos y prudd-der dyfnaf, os nad cwbl anobaith. Yr oedd cynnyg symmud neu leihau trueni yn ei wahanol ffurfiau, pa le bynag y gwelai ef, yn anwahanol gyssylltiedig â meddwl dyngar Mr. Cruden. Cyfarchodd y dyn yma ar unwaith; yr hwn a gyfaddefodd wrtho yn lled fuan, fod yr eisieu dirfawr a ddyoddefai ef a'i deulu oddi wrth ei ddwfn dlodi wedi gwneyd iddo benderfynu cyflawnu y weithred ddiriaid o hunanladdiad. Ymresymodd Mr. Cruden âg ef; dangosodd iddo ddrygioni ei fwriad; a gweinyddodd iddo gysur a hyfforddiad amserol, gyda chymhorth arianol ar y tro, cystal ag addewid o gynnorthwy rhag llaw; a'r cwbl yn y fath fodd tyner a charedigol, fel y daeth y dyn truan yn siriol, ymroddgar, a gobeithiol.

Nodir un anghraifft eto dra nodedig o fedr Mr. Cruden, cystal a'i barodrwydd, i achub plant trueni. Cyfarchwyd ef un noswaith gan un o ferched gwarth sydd yn crwydro yn nosawl drwy heolydd y brif ddinas; yr hon, yn ol digywilyddra ei phroffes, a ymaflodd yn gyfeillgar yn ei fraich. Nid atebodd efe air; ond goddefodd iddi gerdded gydag ef nes y cyrhaeddodd ei ddrws ei hun, pan y dywedodd yn hynaws fod yn rhaid iddo ei gadael, ond nas gallai wneyd hyny heb amlygu ei ofid dwys wrth ei chanfod yn dilyn llwybr mor bechadurus a dinystriol; a chynghorodd hi yn ddifrif a dwys i'w adael. Dywedodd yr eneth druan, dan wylo, nad oedd ganddi ddim arall i'w wneuthur: y byddai iddi adael ei dull presennol o fyw yn llawen, pe gwybuasai pa le i fyned. Sylwodd Mr. Cruden ei bod yn rhy hwyr y noswaith hono i ymdrin â manylion ei sefyllfa; ond, os parhäai hi yn yr un syniad hyd dranoeth, y gallai alw yn ei dŷ ef, ac y byddai efe yn gyfaill iddi. Hi a ddaeth yn ol y cytundeb; a dywedodd ei bod yn foddlawn i gymmeryd unrhyw sefyllfa, pa mor isel a llafurus bynag fyddai, yn hytrach na pharhau yn llwybrau gwarth. Dywedodd Mr. Cruden nad oedd efe yn gwybod am sefyllfa addas iddi ar y pryd; ond cynnygiodd nodded yn ei dŷ ei hun, fel i gyn-

Digitized by Google

northwyo ei forwyn ef, nes y gellid cael sefyllfa gymhwys iddi. Derbyniodd y cynnygiad yn wir ddiolchgar; a dechreuodd ar ei dyledswyddau yn ei swydd newydd ar unwaith. Parhaodd yn ngwasanaeth Mr. Cruden hyd ei farwolaeth ef; ac ymddygodd mor wylaidd a phriodol, fel y profodd fod ei diwygiad yn gyflawn, a'i hedifeirwch yn wirioneddol. Y mae y fath weithredoedd yn taenu gogoniant mwy pur a pharhäus ar goffadwriaeth Mr. Cruden nag a ennillwyd gan Alexander, Cæsar, a Napoleon. Y mae ei goffadwriaeth ef uchod; ac er bod ei hynodion (*eccentricities*) yn tueddu i gymylu y dybenion caredig a ddylanwadent arno, bydd i Chwiliwr y calonau, ddydd a ddaw, eu gwneyd yn amlwg.

Yr oedd teyrngarwch yn agwedd bur amlwg yn nodwedd Mr. Cruden. Ei farn ef oedd, nas gallai dyn drwg wneyd dinesydd da.

Pan allodd Mr. Cruden ymryddhau oddi wrth y gorchwylion llafurus a gymmerent i fyny gymmaint o'i amser, ar ol gweled y trydydd argraffiad o'i *Fynegair* anmhrisiadwy, yn 1769, efe a ymwelodd âg Aberdeen, ei ddinas enedigol, ac a arosodd yno flwyddyn. Tra yr ydoedd yno, cafodd ganiatäd i draddodi darlith yn un o neuaddau cyhoeddus y ddinas, ar ei hoff bwnc—*Yr angenrheidrwydd o ddiwygio mewn moesau.* Yr oedd Mr. Cruden, fel y mae yr Ysgotiaid crefyddol yn gyffredin, yn Sabbathwr hynod o selog. Argraffodd y pedwerydd gorchymyn yn hysbyslen, a dosbarthodd filoedd yn mysg ei gyddinaswyr, yn enwedig ar ddydd yr Arglwydd. Byddai ei logellau yn llawnion bob amser o gatecismau, a thraethodau crefyddol ereill, y rhai a ddosbarthai yn haelionus i bawb a addawent eu darllen. Yr oedd gan y trigolion yn gyffredin barch rhyfeddol iddo; a rhwydd esgusodid ei hynodion gan bawb, dan yr ystyriaeth o ardderchogrwydd cyffredinol ei nodweddiad.

Mesurai Mr. Cruden gymhwysderau ac ymddygiadau gweinidogion yr efengyl wrth safon bur uchel; a pha bryd bynag y dygwyddai iddo ganfod unrhyw anghyssondeb rhwng y swydd a'r dyn, byddai yn sicr o amlygu ei anghymmeradwyaeth trwy air neu weithred rhy amlwg i'w gamddeall. Ar un achlysur, yn ystod ei ymweliad âg Aberdeen, dygwyddodd gyfarfod â chlerigwr ieuanc, hoywedd a choegymddygiad yr hwn a gynhyrfodd ei ddygasedd. Yna, yn dra difrifol, anrhegodd ef â chatecism plentyn, tra adnabyddus yn Scotland wrth yr enw *Holwyddoreg Mam: cyflwynedig i'r Ieuanc a'r Anwybodus.*

Wedi i Mr. Cruden aros yn Aberdeen am o gylch deuddeng mis, dychwelodd i Lundain; ac ar y dydd cyntaf o Dachwedd, 1770, bu farw yn ei letty, yn Heol Camden, Islington. Yr oedd ei farwolaeth bron mor hynod a'i fywyd. Nid oedd dim cyfnewidiad gweledig o bwys yn ei iechyd: cwynai er ys ychydig ddyddiau, o blegid diffyg anadl ysgafn; ond aeth i orphwys nos y cyntaf o'r Tachwedd crybwylledig fel arferol. Yn y bore, canodd y forwyn y gloch arno at ei foreubryd: gan nad oedd yn derbyn ateb, aeth i'w ystafell wely, ond nid oedd efe yno. Yna, aeth i'w lyfrgell, lle y canfyddai ef ar ei liniau wrth gadair—cefn yr hon a gynnaliai ei ddwylaw—ond yr oedd efe yn hollol farw! Gan na ddarfu iddo erioed briodi, gadawodd ei ennillion i'w berthynasau, oddigerth swm penodol i'w ddinas enedigol, er prynu llyfrau at wasanaeth y tlodion. Hefyd, sefydlodd arddangosfa o bum punt y flwyddyn, er cynnorthwyo i addysgu efrydydd yn Ngholeg Mareschal.

Y mae yn ddigon amlwg oddi wrth ddarnodiadau Mr. Cruden ar luaws o eiriau yn y *Mynegair* mai Calviniaeth bendant oedd ei farn grefyddol ef: ond nid oedd efe yn ddallbleidiwr; a myn ych feiai yn llym egwyddorion ac ymarferiadau dynion pleidgar culfeddwl. Yr oedd yn aelod eglwysig yn yr eglwys Annibynol a ymgynnullai yn Sant Helen Fawr, dan ofal y Dr. Guyse, yr hwn a alwai efe, "fy mugail ffyddlawn ac anwyl."

Er y dichon na chaiff Mr. Cruden eilun-fedd yn nheml athrylith; eto, saif ei enw yn uchel ar goflyfrau defnyddioldeb: a diau ei fod ef, trwy ddiwydrwydd a medr, wedi gwneyd mwy o wir les i'w gydwladwyr nag a wnaeth llawer cant o'r gwŷr a elwir yn feibion athrylith. Heb law yr amryw lyfrau a nodwyd eisoes, efe a ysgrifenodd y *Mynegiad o Hanes ac Ardderchogrwydd yr Ysgrythyrau Sanctaidd*, sydd o flaen y *Crynodeb o'r Beibl Sanctaidd.* Cyhoeddodd hefyd *Hanes Richard Potter*—y dyn truan yr achubwyd ei fywyd rhag marwolaeth waradwyddus trwy ei ymdrechiadau. Casglodd *Eiriadur Ysgrythyrol* hefyd; a gyhoeddwyd yn ddwy gyfrol wythplyg yn Aberdeen, yn fuan ar ol ei farwolaeth. Hefyd, casglodd *Ddangoseg Eiriol* dra eang, a berthyn i argraffiad yr esgob Newton o waith Milton—gorchwyl heb fod yn llawer llai na'i *Fynegair*, a'r hwn a gymmerwyd mewn llaw ganddo ar ddymuniad Auditor Benson. Ond y *Mynegair* oedd gwaith mawr ei fywyd, i welläu yr argraffiadau olaf o'r hwn y rhoddodd holl amser hamddenol blyneddoedd diweddar ei oes. Bydd yn dda gan bob dyn gwladgar a chrefyddol wybod fod hwn wedi codi ei awdwr diwyd a lafurus i sefyllfa annibynol. Cafodd dum cant o bunnau am yr ail-argraffiad hono, a gyhoeddwyd yn 1761, pryd yr ymddengys iddo werthu ei hawl o'r copi; ond pan ddaeth galwad am drydydd argraffiad—yr hwn a gyhoeddwyd yn 1769, gyda gwelliadau olaf yr awdwr llafurus—gwnaeth y llyfrwerthwyr, er eu clod, anrheg iddo o dri chant o bunnau yn chwanegol. Cynnorthwyodd y symiau hyn, ac ennillion ereill ei lafur llenyddol, ef i fyw yn gysurus, ac, yr hyn oedd lawn mor agos at ei galon garedig ef, i gynnorthwyo ereill yn eu hangenoctyd.

Y fath ydyw cofiant Alexander Cruden, i'r hwn y mae holl Feiblgarwyr y byd, sydd yn deall Seisoneg, dan gymmaint o rwymedigaethau:—"Nodwedd yr hwn," meddai Mr. Chalmers, "er ei wendidau, nis gellir llai na'i fawrygu, gan nas gallai na gwendid nac esgeulusdod ei iselhau; yr hwn a chwiliodd am gysur yn yr unig fan yr oedd i'w gael; gofidiau yr hwn a'i hyfforddiodd yn nghyfyngderau rhai ereill; a'r hwn a ddefnyddiodd ei lwyddiant i esmwythäu y rhai oedd, yn mhob ystyr, ar ddarfod am danynt."

CRWYBR. Gwel DIL MEL.

CRWYSYDD, CROESIEDYDD (*porte-coix, crusiyer*): swyddog yn Eglwys Rhufain; caplan archesgob, yr hwn sydd yn cario croes o flaen yr olaf ar uchel-wyliau ac amseroedd o ddifrifolrwydd arbenig. Dygir y groes yn wastad o flaen y pab yn ei holl symmudiadau swyddogol; ac y mae y pab yn dwyn ar ei fraich ei hun groes driphlyg; patriarch, un ddwbl; a phrelad, un sengl. Cerir croes o flaen patriarch yn mhob man allan o Rufain, lle y mae y pab ei hun yn batriarch dewisedig. Goddefir hefyd ddwyn croes o flaen pen esgob teyrnas neu dalaeth, ac esgob prif ddinas, o fewn eu brawdwriaeth fugeiliol neu

Digitized by Google

briodol eu hunain; ond nid mewn un lle arall. Gwaharddai Gregory XI. i'r holl batrieirch a'r preladau gael dwyn y groes o'u blaen yn ngwyddfod cardinaliaid.

CRYCHNEIDIO, [*crychnaid*]: crychlamu, cyrneidio, neidio; llawenhau. Yr unig fan lle y defnyddir y gair yn y Beibl Cymraeg ydyw yn *Diar.* xxiii. 16; "Fy arenau a *grychneidiant* pan draetho dy wefusau di gyflawnder." Yr un meddwl sydd i'r gair *canu* yn *Salm* xcvi. 12; ac i'r gair *chwerthin* yn *Diar.* xxxi. 25. Yn *Salm* xxviii. 7, cyfleithir yr un gair Hebraeg yn "llawenychodd fy nghalon:" *rejoice* (=llawenu, llawenhau, gorfoleddu) ydyw y gair Seisoneg yn y naill fan a'r llall.

CRYCHNI, [*crych*]: crychedd, crebachiad, swbachiad, rhychiad; modrwyad. "Yn eglwys heb arni na brycheuyn na *chrychni*;" *Eph.* v. 27: hyny yw, yn ogoneddus, heb ddim gwrthuni nac anmherffeithrwydd; mewn harddwch a bywiogrwydd ieuenctid; fel priodasferch brydferth, heb un arwydd o henaint arni.

CRYNWYR, CYFEILLION, [*Quakers*, neu *Friends*]. Galwyd y Cyfeillion yn Grynwyr o wawd, ar y dechreu, gan un a elwid y Barnwr Bennet, yr hwn, yn 1650, a draddododd George Fox, un o sylfaenwyr y gymdeithas, i garchar, o blegid iddo annog y barnwr, a'r rhai oedd o'i amgylch, i "*grynu* wrth air yr Arglwydd;" a byth ar ol hyn y mae yr enw wedi glynu wrthynt yn anwahanadwy. Tybia rhai mai yr enw y galwai aelodau y gymdeithas eu hunain arno gyntaf oedd, Ymofynwyr (*Seekers*); ond wedi i'r gymdeithas gael ei ffurfio, cymmerasant yr enw *Cyfeillion.*

Dechreuodd yr enwad crefyddol yma yn Lloegr o gylch canol yr eilfed canrif ar bymtheg; ond gwnaeth ei ffordd yn gyflym i wledydd ereill Ewrop, ac i'r sefydliadau Seisonig yn Ngogledd America; ac y mae yn awr wedi ymledaenu dros holl wledydd cred. Yr oedd George Fox, os nad yn sylfaenydd y gymdeithas, yn un o'i haelodau cyntaf; yr hwn, ar ol hir grwydriadau o amgylch y wlad, a dirfawr ymgyrch ysbrydol, a dwys ymchwiliad i deilyngdod y gwahanol sectau oedd y pryd hyny yn ymgreuloni yn erbyn eu gilydd yn Lloegr, a ymneilluodd oddi wrthynt oll. Yn raddol, cymmerodd ei olygiadau crefyddol ffurf benodol: ac yn y flwyddyn 1637, pan yr oedd efe yn dair ar ugain oed, efe a ddechreuodd bregethu yn Dukinfield, ger Manchester, o blegid yr hyn y carcharwyd ef yn Nottingham yn y flwyddyn 1649, ac yn y flwyddyn ganlynol yn Derby. [Gwel Fox, George.] Cynnyddodd rhif credinwyr ei athrawiaethau yn brysur. Yn 1648, ymgasglai torfeydd mawrion i wrandaw arno yn sir Nottingham; ac er maint yr erlidigaeth greulawn, ymledodd y gymdeithas yn y fath fodd fel y cynnwysai, nid y tlawd a'r annysgedig yn unig, ond llawer o'r dosbarth cyfoethog a dysgedig hefyd.

Am egwyddorion y Crynwyr, nid oes ganddynt hwy erthyglau credo, neu gyffes ffydd, y gofynir i'r aelodau ysgrifenu eu cymmeradwyaeth o honynt; er hyny, gellir casglu beth ydyw eu prif ddaliadau, o ysgrifeniadau George Fox, William Penn, a Robert Barclay, ac ereill o'u hawdwyr cymmeradwy, ac o'r cofnodau a'r epistolau a gyhoeddir gan eu cyfarfod blyneddol yn Llundain at y cyfarfodydd israddol. Y mae y crynodeb canlynol, a ddynodir â dyfynnodau, wedi cael ei ysgrifenu, meddai golygydd y *Religious Encyclopædia*, gan un o aelodau mwyaf cyfrifol y Cyfeillion eu hunain, ac y mae y rhanau ereill yn dalfyriad o waith Mr. J. Bevans, aelod parchus arall o'r Cyfeillion.

"Yr ydym ni yn cytuno â phroffeswyr ereill o'r enw Cristionogol i gredu fod un Duw tragwyddol, Creawdwr a Chynnaliwr y greadigaeth; ac i gredu yn Iesu Grist ei Fab ef, Messiah a Chyfryngwr y cyfammod newydd: *Heb.* xii. 24.

Dywed Bevans, eu bod yn credu fod Duw yn Dad, Mab, ac Ysbryd Glân: *Mat.* xxviii. 19. I'r haeriad eu bod yn gwadu y Drindod, atebai William Penn, gan ddywedyd, "Cwbl wahanol: y maent yn credu yn y Drindod o Dad, Gair, ac Ysbryd, yn ol yr Ysgrythyrau; ond y maent yn hwyrfrydig iawn i ymadael â geiriau ac ymadroddion ysgrythyrol, er mwyn mabwysiadu geiriau rhai dysgedigion—megys gwahanol bersonau, tragwyddol genedliad, a'r cyffelyb; a chredant nad yw ymchwiliad cywrain i'r perthynasau uchel a dwyfol hyny, pa mor fawr bynag ydynt fel gwirioneddau ynddynt eu hunain, yn tueddu nemawr at dduwioldeb, a llai at heddwch."

"Pan lefarwn am yr amlygiad grasol o gariad Duw at ddynolryw, yn nghenedliad gwyrthiol, a genedigaeth, a bywyd, a gwyrthiau, a marwolaeth, ac adgyfodiad, ac esgyniad ein Gwaredwr, yr ydym yn dewis defnyddio y geiriau a ganfyddwn yn yr Ysgrythyrau; a chan ymfoddloni ar y wybodaeth y gwelodd doethineb ddwyfol yn dda ei dadguddio, nid ydym ni byth yn cynnyg egluro y dirgeledigaethau sydd yn aros dan y llen; er hyny, yr ydym yn cydnabod ac yn amddiffyn Duwdod Crist, yr hwn sydd yn allu Duw, a doethineb Duw, er iachawdwriaeth: 1 *Cor.* i. 24."

Y maent yn credu, meddai Bevans, fod Crist yn Dduw ac yn ddyn mewn undeb rhyfeddol; ei fod wedi dyoddef er ein iachawdwriaeth, wedi adgyfodi i'n cyfiawnhau, a'i fod yn byw bob amser i eiriol drosom ni. Yn ateb i'r cyhuddiad fod y Crynwyr yn gwadu fod Crist yn Dduw, dywed William Penn:—"Y cyhuddiad mwya anwireddus ac angharedig; canys eu hegwyddor fawr a dynodol ydyw, fod Crist, fel y Gair dwyfol, yn goleuo eneidiau pawb a'r sydd yn dyfod i'r byd â goleuni ysbrydol ac achubol (*Ioan* i. 9—12); yr hyn nis gallai neb ond Creawdwr eneidiau ei wneuthur."

"I Grist yn unig yr ydym ni yn rhoddi y teitl o Air Duw (*Ioan* i. 1), ac nid i'r Ysgrythyrau, er ein bod ni yn gwneuthur cyfrif mawr o'r ysgrifeniadau cyssegredig hyn, yn ddarostyngedig i'r Ysbryd (2 *Pedr* i. 21), oddi wrth yr hwn y maent wedi hanu; ac yr ydym yn dal allan, gyda'r apostol Paul, eu bod yn abl i wneuthur dyn yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu: 2 *Tim.* iii. 15."

Y maent yn credu, medd Bevans, fod yr Ysgrythyrau o awdurdod dwyfol, wedi eu rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, trwy ddynion sanctaidd; eu bod yn ddadganiad o'r pethau a gredid yn ddiammheu gan y Cristionogion cyntaf; eu bod yn cynnwys meddwl ac ewyllys Duw; ac mai hwynt-hwy yw ei orchymynion ef i ni: yn yr ystyr hyny, mai hwy yw ei air *dadganedig* ef; ac am hyny, ein bod ni yn rhwymedig wrthynt, gan eu bod "yn ffuddiol i athrawiaethu, i geryddu," &c. Y maent yn eu caru ac yn eu dewis o flaen pob llyfr arall yn y byd, gan wrthod pob egwyddorion ac athrawiaethau sydd yn wrthwynebol iddynt. "Er hyn oll," meddai Barclay, "gan mai

Digitized by Google

dadganiad yn unig ydynt o'r ffynnonell, ac nid y ffynnonell ei hunan, nid ydynt i'w hystyried yn sail benaf pob gwirionedd a gwybodaeth, nac yn brif reol ffydd ac ymarweddiad; ond rheol ailraddol, ddarostyngedig i'r Ysbryd, o'r hwn y maent oll yn cael eu rhinwedd a'u sicrwydd." Dywedai Fox, "nad wrth yr Ysgrythyrau, ond wrth yr Ysbryd Glân, y mae opiniynau a chrefyddau i gael eu profi." [*Journal*, 1649, td. 29.] Yn ol y dyb yma, gallai pob Cristion gredu ei fod ef ei hun yn meddu arweinydd mewnol, penodol, ac anffaeledig. Gwel CYFRINIAETH.

"Yr ydym yn parchu y rheolau tra ardderchog a gofnodir yn yr Ysgrythyrau, ddarfod iddynt gael eu traddodi gan ein Harglwydd mawr; a chwbl gredwn eu bod yn ymarferol, ac yn gofyn ufudd-dod pob Cristion, ac y caiff pob dyn ei wobrwyo yn y byd a ddaw yn ol ei weithredoedd: *Mat.* xvi. 27. Ac yn mhellach, credir genym, tuag at alluogi dynolryw i roddi y rheolau cyssegredig hyn mewn ymarferiad, llawer o'r rhai sydd groes i ewyllys dyn diailanedig (*Ioan* i. 9), fod pob dyn a'r sydd yn dyfod i'r byd yn cael ei gynnysgaethu â mesur o oleuni, gras, neu Ysbryd Crist, trwy yr hwn, yn ol y defnydd a wneir o hono, y galluogir ef i wahaniaethu rhwng da a drwg, ac i reoleiddio nwydau afreolus a thuedd-iadau llygredig ei natur, y rhai y mae rheswm yn unig yn gwbl analluog i'w darostwng. Canys y mae pob peth a berthyn i ddyn yn ffaeledig, ac o fewn cyrhaedd temtasiwn; ond y mae y gras dwyfol sydd yn dyfod drwy yr hwn a orchfygodd y byd (*Ioan* xvi. 33) yn holddigonol ac yn gymhorth cyfamserol i'r rhai sydd yn ei geisio yn ostyngedig a difrifol. Trwy hwn yr adnabyddir dichellion y gelyn, y gochelir ei hudoliaethau, a phrofir gwaredigaeth trwy ffydd yn ei weithrediad effeithiol; trwy yr hwn y symmudir yr enaid o deyrnas y tywyllwch, ac oddi tan allu Satan, i ryfeddol oleuni a theyrnas Mab Duw."

Am y pynciau y cyffyrddir â hwynt yn y wahanran yma, dywed W. Penn, gyda golwg ar sefyllfa gyntefig a phresennol dyn:—"Dechreuodd y byd mewn diniweidrwydd: yr oedd pob peth a wnaeth Duw y pryd hyny yn dda; ond ni pharhaodd y sefyllfa ddedwydd yma yn hir; canys collodd dyn y ddelw ddwyfol, y ddoethineb, y gallu, a'r purdeb y gwnaed ef ynddynt; o blegid hyn, heb fod yn addas mwy i baradwys, trowyd ef allan o'r ardd hono fel gwibiad tlawd, i grwydro ar hyd y ddaiar." Am gyflwr dyn dan y cwymp, sylwa Barclay:—"Heb ymsuddo i'r syniadau cywrain sydd gan lawer am sefyllfa Adda cyn y cwymp, y mae pawb yn cytuno ei fod wedi cael colled ddirfawr trwyddo, nid yn unig yn y pethau a berthynant i'r dyn oddi allan, ond hefyd gyda golwg ar wir gymdeithas a chymundeb â Duw. Felly, er nad ydym ni yn priodoli un mymryn o euogrwydd Adda i ddynion, hyd oni wnelont ef yn eiddo iddynt eu hunain trwy weithredoedd cyffelyb o anufudd-dod, eto, ni fedrwn ni feddwl am y rhai sydd yn dyfod o Adda yn naturiol, y gall fod dim da yn trigo yn eu natur, gan nad oedd ganddo ef, oddi wrth yr hwn y cawsant eu natur, ddim ei hunan i'w gyfranu iddynt. A pha wir ddaioni bynag a wnaiff unrhyw ddyn, deillia, nid o'i natur ef fel mab Adda, ond o had Duw ynddo ef, megys ymweliad newydd o fywyd, er ei ddwyn allan o'i gyflwr naturiol." Credant am bwy bynag a'r nas tagant yr had da yma, medd Bevans, ac nas diffoddant "y gwir oleuni, yr hwn sydd yn goleuo pob dyn a'r y sydd yn dyfod i'r byd," y deuant yn sanctaidd ac ysbrydol, ac y dygant yr holl ffrwythau daionus sydd gymmeradwy gan Dduw; a thrwy yr enedigaeth sanctaidd hon, sef Iesu Grist wedi ei ffurfio ynom ni, ac yn gweithio o'n mewn, y croeshoelir corff y farwolaeth a phechod, ac y rhyddheir ni rhag gweithredol droseddu cyfraith Duw: *Mat.* v. 28; 1 *Ioan* ii. 14; iii. 3. Eto, fe oddef y perffeithrwydd yma gynnydd parhäus; a bydd yn bosibl pechu yn wastad, pan na bydd y meddwl yn gwylio yn y modd mwyaf dyfal ac ymroddgar: *Heb.* vi. 4—6.

Am brynedigaeth trwy Grist, meddai Bevans, credant fod Duw, yr hwn a wnaeth ddyn, wedi tosturio wrtho; ac yn ei anfeidrol ddaioni a'i ddoethineb wedi darparu moddion i'w adferu trwy Adda mwy ardderchog a gogoneddus, yr addawyd iddo gael ei eni o wraig; yr hyn, trwy oruchwyliaeth Duw yn y cnawd, a gyflawnwyd yn bersonol a chyflawn ynddo ef, fel Gwaredwr a Phrynwr dyn. "Am yr iawn a chyflawnhâd," medd Penn, "mi a ddangosaf yn gyntaf yn nacaol beth nad ydym yn ei addef. Nis gallwn gredu mai Crist ydyw yr *achos* o gariad Duw, ond yr *effaith* o hono, yn ol tystiolaeth y dysgybl anwyl: 'Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol.' Nis gallwn ddywedyd fod marwolaeth a dyoddefiadau Crist, mewn ystyr manwl a chaeth, yn iawn yn lle y farwolaeth dragwyddol a'r trueni y mae dyn yn agored iddynt trwy bechu a throseddu; canys gwnai y fath syniad drugaredd Duw o ychydig bwys yn iachawdwriaeth dyn—credwn mai Iesu Grist oedd ein haberth sanctaidd ni, ein iawn, a'n cymmod; fod Duw yn gyflawn wrth faddeu i'r gwir edifeiriol ar gyfrif yr offrymiad sanctaidd hwnw; fod yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe wedi boddloni Duw, a hyny er mwyn dyn colledig, yr hwn a'i hanfoddlonodd ef."

Y maent yn credu yr *adgyfodiad*, meddai Bevans, yn ol yr Ysgrythyrau, nid yn unig o bechod, ond hefyd o farwolaeth a'r bedd. Yn gymmaint ag i'r Arglwydd Iesu gael ei gyfodi o feirw trwy allu y Tad, a'i fod yn flaenffrwyth o'r adgyfodiad, felly credant y bydd i bob dyn yn ei drefn ei hun gael ei gyfodi—y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd tragwyddol, a'r rhai a wnaethant ddrwg i gondemniad tragwyddol.

"Gan y credwn nas gall dyn, heb ddadguddiad Ysbryd Crist oddi mewn, wneyd dim yn effeithiol er gogoniant i Dduw, nac er ei iachawdwriaeth ei hun, yr ydym yn meddwl fod angenrhaid neillduol am y dylanwad yma i gyflawnu y weithred benaf oll sydd yn nghyrhaedd y meddwl dynol, sef addoli Tad y goleuni a'r ysbrydoedd mewn ysbryd a gwirionedd; am hyny, yr ydym ni yn ystyried mai rhwystrau i addoliad pur ydyw pob ffurflau a ddenant sylw y meddwl oddi wrth ddylanwad dirgelaidd yr eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw: 1 *Ioan* ii. 20, 27. Eto, er na chyfyngir gwir addoliad i amser a lle, barnwn fod yn ddyledswydd ar Gristionogion ymgynnull yn nghyd yn fynych (*Heb.* x. 25), er tystiolaeth o'u hymddibyniad ar eu Tad nefol, ac er adnewyddu eu nerth ysbrydol; er hyny, wrth addoli, ni feiddiwn ymddibynu ar ailadroddiad ffurfiol o eiriau a phrofiadau rhai ereill am dderbyniad gydag ef; ond credwn mai ein dyledswydd ydyw rhoddi o'r neilldu fywiogrwydd y dychymyg, a dysgwyl yn ddystaw am gael ein cynnysgaethu â gwir olwg o'n cyflwr;

Digitized by Google

gan gredu fod un ochenaid yn unig (*Rhuf.* vii. 24), yn cyfodi oddi ar deimlad o'n gwendidau, ac o'n hangen am help dwyfol, yn fwy cymmeradwy gan Dduw nag unrhyw gyflawniadau, pa mor olygus bynag fyddont, a darddant o ewyllys dyn.

"Oddi wrth yr hyn a ddywedwyd am addoliad, fe ganlyn y rhaid i'r weinidogaeth a gymmeradwywn ni ddeilliaw o'r un ffynnonell; canys rhaid i'r hyn sy'n angenrhaid i ddyn er ei arweiniad ei hun, ac er ei gymmeradwyaeth gyda Duw (*Ier.* xxiii. 30—32), fod yn nodedig felly, er ei alluogi i fod yn gynnorthwyol i ereill. Felly, credwn fod cymhorth adnewyddol goleuni a gallu Crist yn anhebgorol angenrheidiol i bob gwir weinidogaeth; ac nad yw y dylanwad dwyfol yma at ein galwad ni, nac i'w gael trwy fyfyrdod, ond mai rhydd ddawn Duw ydyw i weision dewisedig ac ymroddgar. Dyma yr achos o'n gwrthdystiad yn erbyn pregethu am gyflog, gan ei fod yn groes i orchymym pendant Crist—'Derbyniasoch yn rhad, rhoddwch yn rhad' (*Mat.* x. 8); ac o herwydd hyn y gwrthodwn yn gydwybodol gynnal y cyfryw weinidogaeth, na thrwy ddegwm na moddion ereill.

"Gan nas beiddiwn gefnogi unrhyw weinidogaeth ond yr hon y credwn iddi darddu o ddylanwad yr Ysbryd Glân, felly nis beiddiwn chwaith gynnyg cyfyngu y dylanwad hwn i bersonau o unrhyw sefyllfa mewn bywyd, nac i'r rhyw wrywol yn unig; ond, gan mai cyffelyb yw gwryw a benyw yn Nghrist, yr ydym yn caniatäu i'r cyfryw o'r benywod ag a fyddont wedi eu cynnysgaethu, yn ol ein barn ni, â gwir gymhwysder i'r weinidogaeth, i arfer eu dawn er adeiladaeth gyffredinol yr eglwys; ac ystyriwn y rhyddid yma yn nod arbenig o'r oruchwyliaeth efengylaidd, fel y rhagfynegwyd trwy y prophwyd Ioel (*pen.* ii. 28, 29) ac y sylwyd gan yr apostol Pedr: *Act.* ii. 16, 17.

"Y mae dwy seremoni yn cael eu harfer gan broffeswyr yr enw Cristionogol—bedydd dwfr, a'r hyn a elwir Swper yr Arglwydd. Ystyrir y gyntaf o'r rhai hyn yn gyffredin y moddion hanfodol i aelodaeth o eglwys Crist; a'r llall, er cadw cymundeb âg ef. Ond gan ein bod ni yn argyhoeddedig nad oes dim llai na'i allu prynedigol ef, yn ddadguddiedig o fewn, a all ryddhau enaid o gaethiwed pechod, trwy y gallu hwn yn unig y credwn y ceir iachawdwriaeth. Yr ydym ni yn dal allan, yn gymmaint ag mai un Arglwydd ac un ffydd y sydd (*Eph.* iv. 5), felly mai un yw ei fedydd ef, o ran natur a gweithrediad; nad oes dim llai a all ein gwneyd ni yn aelodau bywiol o'i gorff ysbrydol ef; a bod y bedyddio â dwfr, a weinyddid gan ei ragflaenydd, Ioan, fel y cyfaddefai efe, yn perthyn i oruchwyliaeth israddol: *Ioan* iii. 30.

"O barth y ddefod arall, credwn nad drwy hono, nac un cyflawniad allanol arall, y daliwn gymundeb â Christ, ond yn unig trwy gyfranogiad o'i natur ddwyfol ef (1 *Pedr* ii. 4) trwy ffydd; mai hwn ydyw y swper y cyfeirir ato yn y Dadguddiad (iii. 20): 'Wele yr wyf yn sefyll wrth y drws ac yn curo. Os clyw neb fy llais i, ac agoryd y drws, mi a ddeuaf i mewn ato ef, ac a swperaf gydag ef, ac yntau gyda minnau:'—a lle y mae y sylwedd wedi ei gael, fod yn afreidiol dilyn y cysgod, yr hwn nid yw yn cyfranu gras, ac yn nghylch yr hwn y mae opiniynau mor wahanol, a dadleuon mor chwerw wedi bod.

"Yn awr, gan ein bod ni yn credu fel hyn, mai gras Duw yr hwn sydd yn dyfod trwy Iesu Grist yn unig, sydd er iachawdwriaeth, nis gallwn ni ganiatäu mai i ychydig yn unig y mae yn cael ei roddi, tra y gadewir ereill hebddo; a chan amddiffyn ei gyffredinolrwydd fel hyn, nis gallwn gyfyngu ei weithrediad at lanhâd yr enaid mewn rhan oddi wrth bechod, hyd yn oed yn y bywyd hwn. Yr ydym ni yn coledd syniadau teilyngach am allu a daioni ein Tad nefol, ac yn credu ei fod ef yn cynnorthwyo yr ufudd yn deilwng i brofi cwbl ymwadiad â'i ewyllys anianol, gan lwyr ymroddi i arweiniad yr Ysbryd pur digyfeiliorn; trwy gymhorth adnewyddol yr hwn y galluogir hwynt i ddwyn ffrwyth i sancteiddrwydd, ac i sefyll yn berffaith yn yr oll o ewyllys Duw: *Mat.* v. 48; *Eph.* iv. 13; *Col.* iv. 12.

"Nid oes lawer o'n daliadau yn fwy adnabyddus na'n tystiolaeth yn erbyn llwon ac yn erbyn rhyfel. Gyda golwg ar y cyntaf o'r rhai hyn, yr ydym yn sefyll yn llythyrenol at orchymyn pendant Crist, a draddodwyd yn ei bregeth ar y mynydd, 'Na thwng ddim;' *Mat.* v. 34. Oddi wrth yr un crynoad cyssegredig o'r rheolau ardderchocaf perthynol i ddyledswydd foesol a chrefyddol, oddi wrth esampl ein Harglwydd ei hun (*Mat.* v. 39, 44, &c; xxvi. 52, 53; *Luc* xxii. 51; *Ioan* xviii. 11), ac oddi wrth argyhoeddiad cyfatebol yr Ysbryd yn ein calonau, cadarnheir ni yn y gred fod rhyfeloedd ac ymladdau, yn eu hachosion a'u heffeithiau, yn gwbl wrthwyneb i'r efengyl, yr hon fyth sydd yn anadlu tangnefedd ar y ddaiar, ac i ddynion ewyllys da. Yr ydym hefyd yn llwyr o'r farn, pe bai cariad yr efengyl yn ffynu yn fwy cyffredinol yn meddyliau dynion, y byddai iddo yn effeithiol rwystro iddynt orthrymu, llawer mwy i gaethiwo eu brodyr (o ba liw neu gyfansoddiad bynag y byddant), dros y rhai, yn gystal a throstynt hwythau, y bu Crist farw; ie, a dylanwadai ar eu hymddygiad hyd yn oed at greaduriaid direswm y greadigaeth, y rhai nis griddfanent mwyach, gan fod yn aberthau i'w trachwant ac i'w pleserau camsyniadol."

"Darostyngodd rhai o'n syniadau ein cyfeillion, yn yr amser gynt, i lawer o ddyoddefaint oddi wrth y llywodraeth, er fod ein hegwyddorion yn ddiogelwch i ddybenion iachusol llywodraeth. Y maent yn cymhell ymostyniad i'r cyfreithiau yn mhob amgylchiad pan nas croesir cydwybod. Ond yr ydym ni yn dal, gan nad yw teyrnas Crist o'r byd hwn, nad gorchwyl yr ynad gwladol yw ymyryd â materion crefyddol; namyn cynnal yr heddwch allanol ac iawn drefn cymdeithas. Yr ydym ni gan hyny yn cyfrif fod erlidigaeth, hyd yn oed yn y graddau lleiaf, yn anniffynadwy. Yr ydym yn ofalus i edrych na bo a fyno ein haelodau â masnach anghyfreithlawn, ac na byddo iddynt mewn un modd drosseddu gyda golwg ar y cyllid.

"Y mae yn hysbys fod y gymdeithas o'i dechreuad wedi ymwrthod â'r enwau hyny ar ddyddiau a misoedd, a roddwyd iddynt er anrhydedd i wroniaid a gau-dduwiau y cenedloedd, a darddasant o weniaith neu ofergoeledd; a'r arferiad o lefaru wrth berson unigol yn y rhif luosog, o blegid fod hyn hefyd yn codi oddi ar druth a gweniaith. Yr ydym yn cyfrif fod moesgyfarchiadau, gormod rhysedd mewn gwisgoedd a dodrefn, dangosiadau allanol o orfoledd a galar, a sylw ar ddyddiau ac amserau, yn anghydweddol â symledd a chywirdeb bywyd Cristionogol; ac nis gallwn lai na chondemnio digrifwch cyhoeddus, chwareuaeth, a gwag ddifyrwch arall y byd. Y maent yn wastraff ar yr amser a roddwyd i ni at amcanion ardderchocach, ac yn tynu

Digitized by Google

sylw y meddwl oddi wrth ddyledswyddau difrifol bywyd, ac oddi wrth argyhoeddiadau yr athrawiaeth sydd yn ein harwain i etifeddiaeth dragwyddol."

Y maent yn sicrhau, meddai Bevans, nad cyfreithlawn i Gristionogion na rhoddi na derbyn teitlau gwenieithus o anrhydedd; megys, "Eich Sancteiddrwydd," "Eich Mawrhydi," "Eich Anrhydedd," "Syr," "Meistr," "Parchedig," &c., o blegid nad yw y teitlau hyn na rhan na chyfran o'r ufudd-dod sydd ddyledus i ynadon neu uchafiaid; ac nid yw eu rhoddi yn chwanegu at, na pheidio eu rhoddi yn tynu oddi wrth, yr ymostyngiad cymmesur iddynt. Ond nid yw y Cyfeillion yn gwrthwynebu defnyddio teitlau sydd yn ddysgrifiad o sefyllfa neu swydd; megys, brenin, tywysog, duc, iarll, esgob, &c. Y maent yn tystio nad yw gyfreithlawn i Gristionogion benlinio na syrthio i lawr o flaen un dyn, na phlygu y pen na'r corff, na dynoethi y pen (tynu yr het) i neb, gan mai y pethau hyn yw yr arwyddion o'u hymostyngiad a'u haddoliad i Dduw.

Gyda golwg ar *ryddid crefyddol*, ebe Bevans, credant fod hawliau cydwybod yn gyssegredig, heb fod yn ddarostyngedig i reolaeth neb ond Duw yn unig; yr hwn ni roddodd awdurdod i un dyn, nac i gorff o ddynion, i orfodi ereill i dderbyn crefydd.

"I derfynu: er i ni ddangos yr amryw ddaliadau sydd yn hynodi ein cymdeithas grefyddol ni fel gwrthddrychau ein cred; eto, yr ydym yn cydnabod nas cenedlir gwir a bywiol ffydd yn meddwl dyn trwy ei ymdrechiadau ei hun, ond mai rhodd Duw ydyw yn Nghrist Iesu (*Eph.* ii. 8), yn cael ei feithrin a'i gynnyddu gan weithrediad graddol ei Ysbryd ef yn ein calonau ni, a'n hufudd-dod cyfatebol ninnau: *Ioan* vii. 17. Am hyny, er yr ystyriwn fod yn angenrheidiol i ni, tuag at ddwyn y dystiolaeth a roddwyd i ni, ac er mwyn tangnefedd ac iawn drefn y gymdeithas, ar fod y rhai a dderbyn i aelodaeth gyda ni wedi eu hargyhoeddi eisoes o wirionedd yr athrawiaethau a ystyriwn yn hanfodol; eto, fel y crybwyllwyd o'r blaen, nid ydym yn gofyn i neb roddi eu henwau yn ffurfiol wrth unrhyw erthyglau, nac fel ammod o aelodaeth, na chymhwysder at wasanaeth [gweinidogaeth] yn yr eglwys. Gwell genym ni farnu dynion wrth eu ffrwythau; ac ymddibynu arno ef, yr hwn, trwy y prophwyd, a addawodd fod yn 'ysbryd barn i'r hwn a eisteddo ar farn;' *Esa.* xxviii. 6. Heb hyn y mae perygl derbyn nifer i gymundeb allanol, heb chwanegu at y gorlan ysbrydol, am yr hon y tystiodd ein Harglwydd bendigedig mai efe yw ei drws a'i bugail (*Ioan* x. 7, 11); hyny yw, i gynnifer ag a wrandawant ar ei lais ef, ac a'i canlynant yn llwybrau ufudd-dod."

"Mewn ymarferiad o *ddysgyblaeth*, ystyriwn fod yn anhebgorol angenrheidiol dilyn y drefn a gymhell Crist ei hun, a hyny yn ddieithriad: *Mat.* xviii. 15—17.

"Er mwyn cyrhaedd amcanion iachusol dysgyblaeth, appwyntiwyd ar ddechreuad y gymdeithas ar fod cyfarfodydd i'w cynnal, y rhai, o blegid yr amserau y cedwid hwynt, a alwyd yn gyfarfodydd chwarterol. Canfyddwyd wedi hyny y byddai yn gyfleus rhanu dosbarthiadau y cyfarfodydd hyny, ac ymgyfarfod yn fynychach: yna, cyfododd cyfarfodydd misol, yn ddarostyngedig i'r cyfarfodydd a gynnelir yn chwarterol. O'r diwedd, yn 1669, sefydlwyd cyfarfod blyneddol, i arolygu, cynnorthwyo, a darparu rheolau i'r cyfan; a chynnelid cyfarfodydd cyffredinol cyn hyny yn achlysurol.

"Cyfansoddir cyfarfod misol yn gyffredin o amryw gynnulleidfaoedd neilldiol, yn bod o fewn pellder cyfleus i'w gilydd. Ei orchwyl yw darparu ar gyfer y tlodion [nid yw eu tlodion hwy byth yn pwyso ar blwyf], ac addysgu eu hiliogaeth; barnu cywirdeb ac addasrwydd y rhai a ymddangosant yn argyhoeddedig o egwyddorion crefyddol y gymdeithas, ac a ddymunant gael eu derbyn i aelodaeth; cynhyrfu sylw priodol at gyflawniad o ddyledswyddau crefyddol a moesol, ac ymdrin âg aelodau afreolus. Y mae cyfarfodydd misol hefyd yn caniatäu tystebau am aelodaeth ac ymddygiad y rhai o'u haelodau a fyddont yn ymsymmud i gyfarfodydd misol ereill, heb yr hyn nis gallent gael aelodaeth yn y cyfryw gyfarfodydd. Gofynir i bob cyfarfod misol appwyntio rhyw bersonau, dan yr enw arolygwyr, y rhai sydd i gymmeryd gofal ar fod rheolau ein dysgyblaeth yn cael eu rhoi mewn ymarferiad; a phan y delo rhyw achos o gŵyn neu o gamymddygiad i'w gwybodaeth, y maent yn edrych ar fod i gynghor cyfrinachol, yn ol y rheol efengylaidd a grybwyllwyd eisoes, gael ei roddi, cyn ei osod o flaen y cyfarfod misol.

"Pan y dygir cŵyn ger bron, arferir appwyntio pwyllgor bychan i ymweled â'r troseddwr, i ymdrechu ei argyhoeddi o'i gyfeiliornad, ac i'w gymhell i'w adael a'i gondemnio. Os llwyddir, dadgenir trwy gofnodiad fod y person wedi rhoddi boddlonrwydd am ei fai: os amgen, diarddelir ef o'r gymdeithas.

"Mewn ymrafaelion rhwng personau unigol, y mae y gymdeithas wedi barnu yn benderfynol, er ys talm, nad yw ei haelodau i erlyn eu gilydd â chyfraith. Y mae gan hyny yn rhwymo pawb i derfynu eu hymrysonau trwy gylafaredd ebrwydd a diduedd, yn ol rheolau gosodedig. Os gwrthodir y drefn yma—neu, wedi ei mabwysiadu, y peidir ymostwng i'w dedfryd—cyfarwyddyd y cyfarfod blyneddol ydyw, i'r cyfryw un gael ei ddiarddel.

"I gyfarfodydd misol hefyd y perthyn caniatäu priodasau; canys y mae ein cymdeithas bob amser yn gwrthod cydnabod awdurdod arbenigol yr offeiriaid (*priests*) yn ngweinyddiad priodas. Y mae y rhai a fwriadant briodi i ymddangos gyda'u gilydd, ac i gynnyg eu penderfyniad i'r cyfarfod misol; ac os na bydd eu rhieni a'u gwarcheidwaid yno, rhaid iddynt gael tysteb ysgrifenedig o'u cydsyniad, wedi ei lawnodi ganddynt yn ngwydd tystion. Yna, appwyntia y cyfarfod bwyllgor i chwilio a fyddant lân oddi wrth ymrwymiadau ereill perthynol i briodas; ac os na bydd hysbysiad o wrthwynebiadau wedi ei wneyd mewn cyfarfod dilynol, yn yr hwn hefyd y bydd y pleidiau yn hysbysu parhâd eu bwriadau, hwy gânt ganiatâd y cyfarfod i weinyddiad eu priodas amcanedig. Gwneir hyn mewn cyfarfod cyhoeddus o addoliad, tua diwedd yr hwn y saif y pleidiau i fyny, ac y difrifol gymmerant eu gilydd yn ŵr ac yn wraig. Yna, darllenir tysteb o'r gweithrediadau yn gyhoeddus, a llawnodir ef gan y pleidiau, ac wedi hyny gan y perthynasau ac ereill fel tystion. Cedwir cofnod am y briodas gan y cyfarfod misol, cystal ag am enedigaethau a chladdedigaethau eu haelodau. Pwnc un o'r cofnodion hyn a grybwyllwyd olaf, ydyw tysteb o ddyddiad ac enw y baban, ac o'i rieni, wedi ei lawnodi gan y rhai oedd bresennol ar ei enedigaeth; ac amcan y llall yw, gorchymyn am gladdedigaeth, wedi ei

Digitized by Google

wrthlawnodi gan y bedd-dorwr. Enwir plant heb ddim seremoni. Dygir claddedigaethau hefyd yn mlaen mewn dull syml. Cerir y corff weithiau i gyfarfod, yn cael ei ddilyn gan y perthynasau a'r cyfeillion; ac wrth y bedd, arosir ychydig, yn gyffredin; ar y naill amgylchiad a'r llall, bydd gan un o'r cyfeillion presennol rywbeth i'w adrodd er adeiladaeth y gwyddfodolion; ond nid ystyrir fod un ddefod grefyddol yn hanfodol i gladdedigaeth.

"Y mae amryw gyfarfodydd misol yn cyfansoddi cyfarfod chwarterol. Yn y cyfarfod chwarterol, dygir atebion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd misol i ofyniadau penodol o barth ymddygiad eu haelodau, a gofal y cyfarfod am danynt. Trefnir y cofnodau a ddefnyddir fel hyn yn un, yr hwn hefyd a ddanfonir—mewn ffurf o atebion i ofyniadau fyth—gan y cynnrychiolwyr i'r cyfarfod blyneddol. Dygir appeliadau am ddedfryd o'r cyfarfodydd misol i'r cyfarfodydd chwarterol; gorchwyl y rhai, hefyd, yw cynnorthwyo mewn rhyw amgylchiad dyrys; neu, lle yr ymddengys esgeulusdra yn ngofal y cyfarfodydd misol am eu haelodau unigol. Y mae saith o gyfarfodydd blyneddol; sef—1. Llundain: i'r hwn y daw cynnrychiolwyr o'r Iwerddon. 2. Lloegr Newydd. 3. Efrog Newydd. 4. Pennsylvania a Jersey Newydd. 5. Maryland. 6. Virginia. 7. Y ddwy Garolina a Georgia.

"I'r cyfarfod blyneddol y perthyn arolygiaeth y gymdeithas yn y wlad y byddo yn sefydledig: am hyny, gan fod yr hanesion a dderbyn yn amlygu sefyllfa yr is-gyfarfodydd, fel y byddo angenrheidiau neilluol yn gofyn, neu fel y byddo y cyfarfod yn ymdeimlo â'i ddyledswydd, rhydd ei gynghor, gwna y cyfryw reolau ag a ymddengys yn angenrheidiol, neu cynhyrfa sylw at y rhai a fyddont wedi eu gwneuthur eisoes; ac weithiau, appwyntia bwyllgorau i ymweled â'r cyfarfodydd chwarterol a ddichon fod mewn angen am ei gyfarwyddyd digyfrwng. Penderfynir appeliadau oddi wrth gyfarfodydd chwarterol yn derfynol yn hwn; a chedwir gohebiaeth frawdol, trwy lythyrau, â chyfarfodydd blyneddol ereill.

"Y mae yn briodol chwanegu yma, gan y credwn fod yn iawn galw merched i waith y weinidogaeth, meddyliwn hefyd fod cyfran yn y gynnaliaeth o'n dysgyblaeth Gristionogol yn perthyn iddynt; a bod rhai rhanau o honi, sydd yn dwyn perthynas â'u rhyw hwynt eu hunain, yn disgyn arnynt hwy yn y modd mwyaf priodol. O blegid hyn, y mae ganddynt hwythau gyfarfodydd misol, chwarterol, a blyneddol o'u rhyw eu hunain, yn cael eu cynnal yr un amser ac yn yr un lle a chyfarfodydd y dynion; ond ar wahân, ac heb fodd i wneyd rheolau: a gellir sylwi, yn ystod yr erlidigaethau a barasant garcharu cynnifer o'r dynion yn y canrif olaf, y byddai gofalu am y tlawd yn disgyn yn fynych ar y gwragedd, ac iddynt wasanaethu arnynt yn foddhaol.

"Fel y gallo y rhai sydd yn weinidogion gael cydymdeimlad tyner a chynghor y rhai, o'r naill ryw neu y llall, a fyddont, o blegid eu profiad yn y gwaith crefyddol, yn addas i'r gwasanaeth hwnw, annogir y cyfarfod misol i ddethol y cyfryw rai, dan yr enw henuriaid. Y mae gan y rhai hyn, a gweinidogion cymmeradwy gan eu cyfarfodydd misol, gyfarfodydd penodol iddynt eu hunain, a elwir Cyfarfodydd y Gweinidogion a'r Henuriaid; yn y rhai y mae ganddynt gyfleusdra i annog eu gilydd i gyflawnu eu hamryw ddyledswyddau, ac i estyn eu cynghor i'r rhai a ymddangosant yn weiniaid, heb un dynoethiad afreidiol. Cynnelir y fath gyfarfodydd yn gyffredin o fewn cylch pob cyfarfod misol, chwarterol, a blyneddol. Dygir hwy yn mlaen wrth reolau a roddir iddynt gan y cyfarfod blyneddol; ac nid oes ganddynt awdurdod i gyfnewid na chwanegu dim atynt. Y mae eu haelodau yn ymuno â'u brodyr mewn cyfarfodydd dysgyblaeth, ac y maent yn gyfartal gyfrifol iddynt am eu hymddygiad.

"I gyfarfod o'r natur yma yn Llundain, a elwir Cyfarfod Boreuol yr ail Ddydd, yr ymddiriedir adolygiad llawysgrifau perthynol i'n hegwyddorion, cyn eu cyhoeddi, gan y cyfarfod blyneddol a gynnelir yn Llundain, cystal a chaniatäu tystebau o gymmeradwyaeth, rhwng ysbeidiau y cyfarfod blyneddol, i'r gweinidogion y perthyno iddynt deithio yn ngwaith y weinidogaeth mewn gwledydd tramor, yn chwanegol at y rhai a ganiateir gan eu cyfarfodydd misol neu chwarterol. Pan na chyrhaeddo ymweliad o'r natur yma yn mhellach na Phrydain Fawr, y mae tysteb o'r cyfarfod misol y byddo y gweinidog yn aelod yn ddigon; os i'r Iwerddon, bydd yn ofynol cael cydsyniad y cyfarfod chwarterol hefyd. Y mae trefniadau o duedd gyffelyb yn ffynu mewn cyfarfodydd blyneddol ereill.

"Appwyntiodd cyfarfod blyneddol Llundain, yn y flwyddyn 1675, ar fod i gyfarfod gael ei gynnal yn y ddinas hono, i'r dyben o gynghori a chynnorthwye mewn amgylchiadau o ddyoddefaint er mwyn cydwybod, yr hwn sydd wedi parhau i fod o ddefnydd mawr i'r gymdeithas hyd heddyw. Cyfansoddir ef o gyfeillion dan yr enw Gohebwyr, wedi eu dewis gan yr amryw gyfarfodydd chwarterol, ac yn preswylio yn y gymdeithas, neu yn agos ati. Y mae yr un cyfarfodydd, hefyd, yn appwyntio aelodau o'r eiddynt eu hunain, fel gohebwyr, y rhai sydd i ymuno â'u brodyr yn Llundain pan fyddo achos yn galw. Cyflwynir enwau yr holl ohebwyr hyn, cyn iddynt gael eu cofnodi fel y cyfryw, er cael eu cymmeradwyo gan y cyfarfod blyneddol. Y mae y dynion a gymmeradwyir hefyd fel gweinidogion yn aelodau o'r cyfarfod hwn, yr hwn a elwir Cyfarfod y Dyoddefiadau—enw wedi cyfodi oddi ar ei amcan gwreiddiol, yr hwn nid yw byth wedi myned yn gwbl allan o arfer (*obsolete*).

"Y mae y cyfarfod blyneddol wedi ymddiried cyfarfod y dyoddefiadau i ofalu am argraffu a dosbarthu llyfrau, ac i drefnu ei *stock*; ac, o'i ystyried fel pwyllgor sefydlog y cyfarfod blyneddol, ganddo ef y mae gofal cyffredinol beth bynag a ddygwyddo, yn ystod ysbeidiau y cyfarfod hwnw, perthynol i'r gymdeithas, ac yn gofyn sylw dioed, yn enwedig yr amgylchiadau a ddichon achlysuro ceisiadau at y llywodraeth.

"Nid oes un llywydd mewn un o'r cyfarfodydd a grybwyllwyd, am y credwn ni mai doethineb ddwyfol yn unig a ddylai lywyddu; ac nid oes gan un aelod hawl i hòni rhagoriaeth ar y lleill. Cymmerir swydd ysgrifenydd yn wirfoddol, oddigerth ambell dro, gan ryw aelod; megys hefyd y cymmerir cadwraeth cofnodion. Pan fyddo y rhai hyn yn dra lluosog, ac yn gofyn tŷ i'w cadw (megys yn Llundain, lle y cedwir cofnodion cyffredinol y gymdeithas yn Mhrydain Fawr), cyflogir ysgrifenydd i gymmeryd eu gofal; ond, oddigerth ychydig ysgrifenwyr o'r natur yma, a phersonau yn cymmeryd gofal tai cwrdd, nid oes neb yn derbyn gwobr neu dâl am eu gwasanaeth yn ein cymdeithas grefyddol ni."

Digitized by Google

Ni ddylid terfynu yr erthygl yma ar gymdeithas y Cyfeillion, meddai y *Penny Cyclopædia*, heb grybwyll yn barchus am eu hymdrechiadau parhaus o blaid dynoliaeth. Annogodd George Fox ar i ddwy ysgol gael eu sefydlu—un i fechgyn yn Waltham, ac un i enethod yn Shaklewell, "i'w hyfforddi yn mha beth bynag sydd foesol a buddiol yn y greadigaeth;" a pharhawyd i ofalu am hyn, ac eangwyd y cynllun mewn amseroedd diweddar, fel y mae ysgolion mawrion yn bresennol yn cael eu cynnal gan y gymdeithas i blant Cyfeillion, ac ereill cyssylltiedig â'r corff, yn ngwahanol barthau o Loegr a'r Iwerddon. Bwriedir rhai o honynt at addysg elfenol yn unig, a hyfforddiad crefyddol, tra y mae ereill yn cofleidio cangenau uchaf dysgeidiaeth; ac y mae rhai yn gyssylltiedig âg ymchwiliadau amaethyddol. Y mae y drefn Lancasteraidd wedi cael rhai o'i chefnogwyr mwyaf selog yn mysg y Cyfeillion. Y mae cofnodau y cyfarfodydd blyneddol, o 1727 hyd yn bresennol, yn llawn annogaethau yn erbyn caethfasnach a chaethiwed. Yn 1761, diarddelwyd aelodau oedd mewn cyssylltiad â chaethfasnach; ac y mae y gymdeithas, fel corff ac aelodau unigol, wedi bod yn ddiflino yn ei llafur i symmud y gwarth yma oddi ar y genedl. Y maent hefyd wedi parhau i fod yn gefnogwyr egnïol i'r Feibl Gymdeithas Frutanaidd a Thramor; a gwnaethant ymdrechiadau mawrion a godidog i wareiddio Indiaid America. Ar air, y mae y Crynwyr, neu y Cyfeillion, o'u dechreuad hyd yn awr, wedi bod bob amser yn mysg y rhai blaenaf oll i gefnogi pob amcanion o garedigrwydd, ac elusen, a gwareiddiad, a dysg, a gwladgarwch, a rhyddid, a'r y sydd yn ffynu yn mysg Cristionogion.

Wedi rhoi golwg lled gryno a chyflawn fel hyn i'r darllenydd ar ddechreuad, ac egwyddorion, a dysgyblaeth y bobl dda dangnefeddus yma, byddai yn fuddiol iddo gael cipolwg eto ar y croesaw a gawsant gan y byd; ïe, yn wir, a chan yr eglwys hefyd, os ydyw erlidwyr yn deilwng o'r enw eglwys.

Nid oes un sect a gyfarfu â mwy o erlidigaeth a sarhâd nag a gyfarfu y Crynwyr ar eu cychwyniad; ond camsyniad dwys, meddai bywgraffydd R. Barclay, yn y *Penny Cyclopædia*, ydyw meddwl i hyny gael ei achosi gan eu gwaith yn mabwysiadu dull penodol o wisg, moesau, ac ymddyddan. Nid oedd dim hynodion neillduol yn perthyn i'r Cyfeillion ar eu cychwyniad; ymwisgent yn unig fel yr ymwisgai pob pobl grefyddol sobr yn eu hamser, gan ymwrthod â phob gormodedd. Cadwasant yn fanwl at y symledd yma, pan yr oedd pobl ereill yn cymmeryd eu dychrynu o hono, ar ol adferiad Charles II., dan y gwarthnod o Buritaniaeth. Ni chadwodd hyd yn oed barch teuluaidd uchel Penn a Barclay mo honynt rhag erlidigaeth a charchar, mwy na'u harweinydd tlotach, George Fox.

Gallasai y Crynwyr ddywedyd fel Paul, i raddau helaeth iawn, fod blinderau a charcharau yn eu haros yn mhob man. Yn Lloegr Newydd, trinwyd hwynt yn y modd tostaf, gan eu carcharu a'u fflangellu, yn wragedd cystal a gwŷr; ac yn Boston, crogwyd pedwar o honynt—ac yn eu plith yr oedd un wraig; ac yr oedd hyn yn fwy rhyfedd ac anesgusodol, gan mai newydd ffoi rhag erlidigaeth yn y fam wlad yr oedd yr ymsefydlwyr eu hunain!

Yn ystod y dyoddefiadau hyn, appeliasant at y brenin Charles II. am ymwared; yr hwn, yn 1661, a ganiataodd archysgrif (*mandamus*) i roddi attalfa ar eu cospau. Nid i'r trefedigaethau yn unig y cyfyngwyd cymmwynasau y tywysog hwn iddynt; canys, yn 1672, efe a ryddhaodd dan y sel fawr 400 o'r bobl erlidiedig hyn, oedd wedi eu carcharu yn Mhrydain Fawr.

Yn 1681, caniataodd Charles II. drefedigaeth Pennsylvania i W. Penn, yn lle arian oedd ar y llywodraeth i'w dad. Y mae cylafariad a negeswriaeth Penn â'r Indiaid, a'r rhyddid cydwybod a ganiataodd i bob enwad, ïe, hyd yn oed i'r rhai a erlidiasant ei enwad ef, yn anrhydedd i'w goffadwriaeth.

Yn nheyrnasiad Iago II., rhoddwyd peth esmwythder i'r Cyfeillion, yn mysg Ymneillduwyr Seisonig ereill, trwy attal y cyfreithiau cospawl; ond ni chawsant ddim tebyg i amddiffyn cyfreithiol teg, hyd amser William a Mary.

Gwnaed cyfraith yn 1696, yr hon, gydag ychydig eithradau, a ganiatäai i'w sicrhâd hwy rym cyfreithiol llw; a darparai yr un gyfraith ddull tynerach i godi degwm dan swm penodol, y rhai, dan George I., a wnaed yn barhaol. Pa fodd bynag, y maent yn agored i ddyoddef fyth yn y cyllidlys a'r llys eglwysig, am ommedd talu degymau, &c., yn Mhrydain Fawr a'r Iwerddon.

Y mae amryw hen lyfrau yn Gymraeg yn dangos na ddiangodd y Crynwyr ddim, hyd yn oed yn Nghymru, mwy nag Ymneillduwyr ereill, heb gael eu rhan yn helaeth, yn ol eu rhifedi, o erlidigaeth. Un o'r llyfrau sydd yn dangos hyn a ysgrifenwyd gan Rondl Davies, person Meifod, fel y tybir, yn y flwyddyn 1660, dan yr enw,—"Cowir a ffyddlawn ateb i Lyfr, a enwir Ychydig Gyfarwyddiad i'r Cymru yn erbyn y Cyfeiliorni sydd yn mysg y bobl a elwir Cwacers, yn yr hon y mae yr awdwr di henw yn dangos i ysbryd maleusus a chenfigenus yn erbyn pobl Dduw. Gida gwahoddiad i'r Cymru truain fel y byddo ydynt uno goleini Crist oddimewn uddynt, a rhodio yntho. Oddiwrthym ni, y rhai y mae y byd drygionus mewn gwawd yn i galw Cwacer."

Mewn llyfr arall, a elwir *Profiad yr Ysbrydion*, y mae person Meifod fyth yn rhestru, "athrawiaethau y Cwaceriaid" gydag eiddo y "Pabistiaid, y Presbeteriaid, a'r Independiaid," fel rhai "anghyson â'r Ysgrythyr Lân, ac o herwydd hynny i'w Gochelyd yn ofalus gan bob dyn sydd yn caru Iechydwriaeth ei Enaid."

Ymddengys nad oedd y wlad, yn enwedig Eglwyswyr, yn edrych ar y Cyfeillion yn Gristionogion; am hyny, ceir Theophilus Evans, ficer Llangammarch, ac awdwr hyawdl *Drych y Prif Oesoedd*, yn 1715, yn ysgrifenu "Galwedigaeth ddifrifol i'r Crynwyr, i'w gwahawdd hwy i ddychwelyd i Gristionogaeth."

Yn ngwyneb yr holl ymosodiadau hyn, ceir iddynt hwythau amddiffyn eu hunain mewn amryw fân lyfrau. Ysgrifenwyd un amddiffyniad ganddynt yn 1703, dan yr enw—"Agoriad yn agor y ffordd i bob dealltwriaeth cyffredin i wneuthur dosparthiad rhwng y Grefydd y mae y bobl a elwir Quakers yn ei chyfaddeu, a'r Gwyrdroeadau, Camosodiadau, a drwg enllib eu hamryw wrthwynebwyr, yn gystal ar eu Gwyddorion a'u Harferion."

Hefyd, yn y flwyddyn ganlynol, 1704, ceir "Amddiffyniad byrr dros y bobl (mewn gwawd) a elwir Quakers. Gan W. Chandler," &c.; a "Gwyddorion y Gwirionedd, neu y pethau hynny ynghylch athrawiaeth ac addoliad y sicr Gredir ac a dderbynir gan y bobl a elwir Quakers, &c. Gan Jo. Crook."

Digitized by Google

Y mae yn hawdd canfod, oddi wrth yr holl yfrau hyn, nad rhyw dywydd teg iawn a gafodd y Cyfeillion yn Nghymru, ar eu cychwyniad, mwy nag mewn parthau ereill o'r byd.

O fewn ychydig flyneddoedd yn ol, cymmerodd ymraniad mawr le yn mysg y cymundeb tangnefeddus yma. Y mae y Crynwyr yn awr yn ddau gorff gwahanol; sef, y Cyfeillion Uniongred; a'r Hicsiaid, sef dilynwyr David Hicks, yr hwn sydd o gred Sosinaidd.

Nid yw y Cyfeillion yn lluosog iawn yn Ewrop. Cyfrifid eu bod tua 50,000 yn Lloegr a Chymru, o gylch 300 yn yr Alban, a mwy yn yr Iwerddon, meddai Mr. T. Williams, awdwr y *Dictionary of all Religions*, yn 1823; ond dywed y *Religious Encyclopædia*, yn 1853, mai o gylch 40,000 oeddynt yn Lloegr a'r Iwerddon, a heb fod dros 300 yn yr Alban. Yn ol y cyfrifon hyn, y mae eu nifer yn lleihau yn Ewrop. Y maent yn lluosog mewn rhai parthau o'r America—yn enwedig Pennsylvania; a dywedir eu bod yn gwneyd i fyny y bedwaredd ran o boblogaeth Philadelphia. Yn ol coflyfr chwarterol Americaidd, am Chwefror, 1854, yr oedd ganddynt 450 o gynnulleidfaoedd, a 20,200 o aelodau.—(*Penny Cycl.; Rel. Encycl.; Bevans' Defence; Fox's Works; Barclay's Works; Penn's Works; Sewell's and Rutty's Hist.; Claridge's Works; Williams' all Religions*, &c.)

CRYSOLITHUS, CHRYSOLITHUS, [χρυσόλιθος; ο χρυσός=*aur*, a λίθος=*maen*]: eurfaen, pridfaen, maen gwerthfawr. Dyma yr enw cyffredinol a roddid gynt i bob meini gwerthfawr y byddai lliw aur, neu felyn, yn brif liw ynddynt. Dynoda yn benaf faen yn tebygu yn ei liw i'r topas diweddar. Y gair Hebraeg a gyfleithir gan y Deg a Thrigain yn *Exod.* xxviii. 20 yn *crysolithus* (χρυσόλιθος) ydyw תרשיש (*tarshish*), yr hwn a gyfleithir weithiau ganddynt hwy (y Deg a Thrigain), a chan Jerome, yn *carbuncl;* ond gan y Rabbiniaid yn *beryl. Beryl* hefyd ydyw yn ein cyfleithiad ninnau bob amser; sef yn *Exod.* xxviii. 20; xxxix. 13; *Can.* v. 14; *Ezec.* i. 16; x. 9; xxviii. 13; *Dan.* x. 6. Tybia rhai mai yr un ydoedd *tarshish* a gwefr (*amber*); ond ni chytuna hyn â'r ymadroddion yn Exodus, sydd yn gwneyd y *tarshish* yn un o feini cerfiedig dwyfroneg yr archoffeiriad. Y mae yn debyg i'r gair *crysolithus*, yn *Dad.* xxi. 20, sydd yn arwyddo y seithfed maen yn sylfaen yr Ierusalem newydd, gael ei gymmeryd oddi wrth gyfleithiad y Deg a Thrigain o *tarshish* yn *Exod.* xxviii. 20.

Ceir y maen a elwir yn awr *crysolithus*, yn dalp ac yn grisialaidd. Ei ffurf gyntefig yw rheiddell gywir bedryleddf (*right rhombic prism*). Ei liw yw gwyrdd; weithiau, gwrm neu felynaidd; ei resi, gwyn; ei ddysgleirdeb, gwydraidd, tryoleu, tryloew, dwbl wrthdroawl. Dygir y *crysolithus* a ddefnyddir mewn gemwaith o'r Dwyrain (Levant); a cheir ef, fel y tybir, yn yr Aipht Uchaf. Y mae yr amrywiaeth a elwir yr olewfaen (*olivine*), i'w gael mewn colofgraig (*basalt*) yn Bohemia, Hungary, ac ar lanau y Rhine.

CRYSOPRASUS, CHRYSOPRASUS, [χρυσόπρασος; ο χρυσέος=*euraid*, neu *hardd*, a πράσον =*ceninen*]: eurlas, eurgeninen. Gesyd Pliny y crysoprasus yn mysg y berylau; y goreu o'r sawl, eb efe, yw rhai o wyrddliw y môr. Yn nesaf at y rhai hyn, crybwylla am eurberyłau (*chrysoberyls*), y rhai sydd ychydig yn fwy gwelw, ac yn tueddu at liw aur: ac y mae y nesaf yn welwach fyth, ac a gyfrifir gan rai yn fath gwahanol, ac a elwir *crysoprasus;* lliw yr hwn, fel y sylwa mewn lle arall, sydd yn tebygu i sudd y geninen, ond yn tueddu at liw yr aur. Y mae y Deg a Thrigain yn cyfleithu y gair Hebraeg שהם (*shoam*), yn *Gen.* ii. 12, yn λίθος ὁ πράσινος, neu y *crysoprasus*, ebai Kitto—yn ol ei darddiad, y *maen ceninwyrdd.* Pa fodd bynag, y mae y *crysoprasus* yn faen Ysgrythyrol, gan yr enwir ef yn bendant, yn *Dad.* xxi. 20, megys y degfed o'r meini gwerthfawr oedd yn addurno mur yr Ierusalem sanctaidd. Y mae y proffeswr Owen yn ei ystyried fel amrywiaeth o'r maen agat.

CUCUMER [קשאים]. Y mae y gair gwreiddiol yn ei ffurf unigol (*cisha*), ebai Kitto, mor debyg i'r gair Arabaeg *cissa*, fel y mae yn dra thebyg eu bod yn arwyddo yr un peth. Rhydd Celsius *ccta, cati*, a *cusaia*, fel gwahanol gynaniadau o'r un gair yn yr ieithoedd dwyreiniol. Nid yw hyn yn profi fod y geiriau bob amser yn arwyddo yr un rhywiau, gan y dichon y cymhwysid hwynt yn y gwahanol wledydd at y rhywiau mwyaf cyffredin, neu, efallai, y rhai a fyddent fwyaf cymmeradwy mewn manau penodol. Yn yr Aipht, ymddengys y cymhwysir y gair *cati* at y rhyw a elwir gan y llysieuwyr *cucumis chate*, ac a elwir gan Hasselquist, "brenines y cucumerau;" yr hwn a'i darlunia fel y mwyaf cymmeradwy o'r cwbl a'r a amaethir yn yr Aipht. Yn yr India, yr



Dar. 211.

enw *cissa* a gymhwysir gan y Mahometiaid at y *cucumis utilissimus*, neu *kukree* cyffredin y brodorion; pan y mae yn bur debyg mai at y cucumer cyffredin (*cucumis sativus*) yn unig y cymhwysid yr un enw yn Persia a Syria, gan nad yw y ddau fath arall yn adnabyddus iawn yn y gwledydd hyny.

Y gair a ddefnyddir bob amser yn y cyfleithiad cyffredin yw cucumer; yr un a'r Lladin, *cucumer*

Digitized by Google

(Seis., *cucumber*); a'r lle y cyfarfyddir âg ef yn y Beibl gyntaf yw *Num.* xi. 5. Ymddengys, oddi wrth yr adnod hon, fod cucumerau, pompionau, cenin, winwyn a garlleg, yn helaeth iawn yn yr Aipht pan oedd yr Israeliaid yno; a dywedir fod cucumerau, pompionau, a winwyn, yn bresennol yn mysg ei phrif gynnyrchion; a bod y cucumerau yno yn llawer mwy, blasusach, ac iachach nag y mae yr un ffrwyth yn y wlad hon, ac yn cael eu defnyddio yn llawer helaethach.

Y mae y planigion yn tyfu yn y dwyrain yn y wlad agored; ac er mwyn cadw y ffrwyth rhag lladron ac anifeiliaid, cyfodir math ar ddiffyn-âg lluest bychan arno yn gysgod i'r gwyliwr. Rhaid i'r gwyliwr truan gyflawnu ei orchwyl poenus am dri neu bedwar mis, er maint yr ystormydd a'r corwyntoedd. Y mae cyfeiriad nodedig at yr arfer yma yn *Esa.* i. 8. Y mae y prophwyd yn cymharu dinas Ierusalem—a elwir yn ffugrol "merch Sion," yn sefyll yn unigol yn nghanol diffaethwch, ac ar ymroddi i'w gelynion—i luestty neu benty amserol, lle yr ymgysgodai gwyliwr y winllan nes yr addfedai y grawn—neu adail gyffelyb wedi ei chodi i'r un dyben mewn gardd gucumerau. Cyn gynted ag y cesglid y ffrwyth, byddai y lluesttai neu y bythynod hyny yn cael eu gadael. Yn gyffelyb i'r rhai hyn y safai y ddinas fawr, i ateb dyben amserol; ond yn fuan, fel hwythau, byddai iddi gael ei distrywio a'i gadael. Cyflawnwyd y brophwydoliaeth yma yn ngwahanol ac amryw orthrymderau Ierusalem, yn enwedig pan y cymmerwyd yr Iuddewon yn gaeth i Babilon: 2 *Cron.* xxxvi. 19. Defnyddir cyffelybiaeth gyffelyb yn *Iob* xxvii. 18.

CUDDLOFRUDDION. Gwel ASSASSINIAID.

CUDD-GALFINIAID, [*Crypto-Calvinists*]: enw a roddwyd, ryw amser ar ol y Diwygiad Protestanaidd, ar bleidwyr Calviniaeth yn Saxony, Denmark, Sweden, &c., ar gyfrif eu hymlyniad cuddiedig, neu ddirgelaidd, wrth athrawiaeth a dysgyblaeth Geneva, yn enwedig fel yr oedd yn gwahaniaethu oddi wrth yr Eglwys Lutheraidd ar Sacrament Swper yr Arglwydd, ac ar Berson Crist, mewn cyssylltiad â'r athrawiaeth am ei bresennoldeb sylweddol yn y sacrament. Dyoddefasant erlidiau trymion, a chollodd rhai eu bywydau o herwydd y gwirionedd.—(*Mosheim*).

CUFYDD [Ll., *cubitus*; Seis., *cubit*]: cyfelin, elinad, iselin. Yr Hebreaid a'i geilw אמה (*amma*), megys mam y mesurau ereill; a'r Groegiaid, πῆχυς=*yr iselin*, y rhan isaf o'r fraich. Amrywia y cufydd yn mysg gwahanol genedloedd, ac ar wahanol amserau. Gan fod y mesur yn tarddu oddi wrth ran o'r corff dynol, a bod maint y corff yn amrywio cymmaint o ran hyd, yr oedd y cufydd o angenrhaid yn amrywio hefyd. Heblaw hyny, gellir cymmeryd yr iselin ar ei hyd o'r penelin i flaen y trydydd bys; neu, gellir ei ystyried yn cyrhaedd yn unig o'r penelin i fon y llaw yn yr arddwrn, gan adael hyd y llaw yn gyflawn allan. Pe cymmerid deffiniad Celsius (viii. 1), gan ystyried y cufydd yn cyfateb i'r *ulna*, sef yr isaf a'r hwyaf o ddau asgwrn y fraich, er hyny ni cheid mesur sefydlog a phriodol. Y mae yn amlwg, oddi wrth *Deut.* iii. 11 —"wrth gufydd gŵr"—mai y corff dynol oedd safon mesur cufydd yr Hebreaid. Ond y mae yn anhawdd penderfynu pa un a oeddys i ddeall fod y cufydd hwn yn cyrhaedd i'r arddwrn, ai ynte i ben y bys canol. Pa fodd bynag, yn gymmaint ag yr ymddengys yr olaf fel y mwyaf naturiol, gan fod dynion, tra yn anwybyddus o ddifyniaeth, ac yn ymofyn safonau mesur yn eu cyrff eu hunain, yn debyg o gymmeryd yr holl droed a'r holl flaenfraich, y tebygrwydd ydyw, mai yr hwyaf oedd y cufydd cyntefig, sef yr hyd o'r penelin hyd flaen y bys hwyaf. I'r farn yma y mae Winer yn tueddu, gan ddywedyd fod y rhai a wnant y cufydd yn bedwar dyrnfedd yn unig yn anghywir. Y mae efe yn crybwyll, er cadarnhau hyn, fod cufydd yr Aiphtiaid, yr hwn y mae yn debyg a fabwysiadodd yr Hebreaid, yn chwe dyrnfedd, fel y gwelir ar adfeilion Memphis. Yr oedd y Rabbiniaid hefyd yn priodoli chwe dyrnfedd i gufydd Moses. Trwy gymharu Josephus [*Hynaf.* iii. 6. 5] âg *Exod.* xxv. 10, canfyddir, yn mhellach, fod pwys ei awdurdod yntau yn yr un pen i'r glorian. Y mae cufydd, yn ol ei farn ef, yn gyfartal i ddau rychwant. Yn awr, y mae rhychwant yn gyfartal i dair dyrnfedd [Schmidt, *Bibl. Mathemat.*, td. 117]; am hyny, y mae cufydd yn gyfartal i chwe dyrnfedd.

Canfyddir y dyrnfedd fel mesur yn 1 *Bren.* vii. 26. Cymharer *Ier.* lii. 21. Yn yr ymadrodd olaf, y mae modfedd (אצבע=*lled bys*) yn fesur arall. Ceir y rhychwant hefyd yn *Exod.* xxviii. 16. Felly, gwelir fod hydfesur, gan mwyaf, yn cael ei fenthyca gan yr Hebreaid oddi wrth y corff dynol. Er hyn, nid oes un safon arbenig diamryw yn cael ei rhoddi. Os gofynir yr holiad, Pa faint ydyw dyrnfedd neu fodfedd (lled bawd; yn y gwreiddiol, lled bys), nis gall yr ateb fod yn bendant; dim ond rhywbeth o ddeutu y gwir. Pa fodd bynag, os caniateir mai 3½ modfedd ydyw dyrnfedd neu led llaw, yna y mae cufydd yn 21 modfedd.

Heb law y cufydd cyffredin, yr oedd gan yr Aiphtiaid un; sef chwe dyrnfedd a phedair modfedd. Meddyliwyd fod gan yr Hebreaid hefyd gufydd hwy; canys yn *Ezec.* xl. 5, darllenir am gufydd oedd yn "gufydd (cyffredin) a dyrnfedd;" ac yn *pen.* xliii. 13, dywedir yn bendant, "y cufydd sydd gufydd a dyrnfedd." Tybia rhai fod y prophwyd yn cyfeirio yma at gufydd cyffredin y Babiloniaid ar y pryd—mesur y meddylir i'r Iuddewon ei fenthyca yn ystod eu caethiwed. Cyffelyb ydyw barn Calmet, yr hwn a dybia mai un cufydd oedd yn mysg yr Hebreaid o'r dyfodiad o'r Aipht hyd y caethiwed Babilonaidd, ac mai hwn oedd y cufydd Aiphtaidd, mesur yr hwn a gafwyd ychydig amser yn ol oddi wrth hen safonau sydd yn Grand Cairo. Barna hefyd mai ar ol y caethiwed yn unig y sylwa yr Ysgrythyr ar ddau fath o fesur, er mwyn gwahaniaethu yr hen gufydd Hebraeg oddi wrth yr un Babiloniaidd, a arferai y caethion tra yn preswylio yn y ddinas hono. Ar hyn, yn ol barn Calmet, y seilid rhagocheliad Ezeciel wrth sylwi mai y cufydd y llefarai efe am dano oedd yr hen wir gufydd—mwy na'r cufydd cyffredin o ddyrnfedd.

Y mae y Rabbiniaid yn gwahaniaethu rhwng y cufydd cyffredin o bum dyrnfedd, a'r cufydd cyssegredig o chwe dyrnfedd—gwahaniaeth y barna Winer a De Wette nad oes digon o awdurdod iddo. Defnyddia ein Harglwydd y gair "cufydd" (πῆχυς) yn y Testament Newydd (*Mat.* vi. 27; *Luc* xii. 25) mewn modd arbenig, er mwyn grymuso gwers foesol ac ysbrydol. Y mae y gair yn dygwydd hefyd yn *Ioan* xxi. 8, a *Dad.* xxi. 17. Yn *Lef.* xix. 35, gorchymynir cyfiawnder mewn mesurau gystal ag mewn pwysau.

Digitized by Google

CULDWYS, CULDEAID: aelodau o frawdoliaeth hen iawn, prif sefydle yr hon oedd, ynys Iona, neu Icohemcil—un o ynysoedd gorllewinol yr Alban; ond arferent lafurio fel cenadon dros lawer o Loegr, Cymru, a'r Iwerddon; ac yn eu syniadau a'u harferion, canfyddir y fath symledd ag a bair i ni eu cyfrif fel olynwyr Cristionogion yr oesoedd boreuaf. Ceir y sylw canlynol arnynt gan Carnhuanawc:—"Yn y flwyddyn 565, daeth Eglwyswr (gwr llên) o'r enw Columba, o'r Iwerddon i'r Alban, ac a lwyddodd i droi y Pictiaid gogleddol at Gristionogaeth. Y gŵr hwn a sefydlodd gôr o fynachod yn ynys Iona, ar oror orllewinol yr Alban, yr hon a elwir weithiau *Hy*, ac *I*—yr hwn air, yn y Wyddelaeg, a arwydda *ynys;* ac oddi wrth y sefydliad hwn, galwyd yr ynys hono Ikolmkill, sef ynys Cell Columba. Y mynachod hyn a elwid Culdeaid; a dywedir eu bod yn bobl dra rhinweddol am eu duwioldeb, eu dysgeidiaeth, a'u llafur; a buont yn dra gwasanaethgar yn mhlith llwythau barbaraidd y gogledd, gan daenu llewyrch Cristionogaeth yn eu plith, a'u dwyn i gyflwr o wareidd-dra. Yn y canoloesoedd, cyfodwyd mynachlog hardd yn Iona, adfeilion pa un sydd eto i'w gweled."—*Hanes Cymru*, td. 202.

Ni ddaliai y Culdwys un cymundeb âg Eglwys Rhufain; a thros oesoedd, gwrthsafasant ormes yr esgobaeth arglwyddiaethus hono. Gwrthodent glustgyffes, penyd, a gollyngdod offeiriadol o rwymau pechod. Ni eneinient, ac ni arddodent ddwylaw ar y bedyddiedig. Gwadent yr athrawiaeth o wir bresennoldeb yn sacrament Swper yr Arglwydd; a gwrthodent addoliad seintiau ac angelion, a'r gred y gellir cyflawnu gweithredoedd o rinwedd a theilyngdod dros ben yr hyn a orchymynwyd.

Ni aflonyddwyd sefydliad crefyddol y Culdeaid dros ddau can mlynedd; ond tua bore y nawfed canrif, disgynodd y Daniaid ar yr ynys, a rhoisant y rhan fwyaf o'r mynachod i farwolaeth, a'r gweddill a ffoisant ymaith. Tua'r deuddegfed canrif, cwtogwyd eu dylanwad trwy ledaeniad cynnyddol ofergoeledd Pabaidd; ond gwrthsafasant hyd y diwedd bob ymgais a wnaed i gydgorffori eu sefydliad neillduedig hwy â'r gyssegrlywodraeth Babaidd.

Ar ddiddymiad y mynachlogydd, cyssylltwyd meddiannau y Culdwys âg esgobaeth gyfamserol Argyle; a phan ddifodwyd Esgobyddiaeth yn yr Alban, aeth yr un eiddo i ddwylaw y duc Argyle, teulu yr hwn a'u meddiannant hyd heddyw.

Y mae yr ynys tua thair milltir o hyd, ac un o led; yn fryniog, noethlwm, a diffaeth: neu yn fawnogydd corsog, gyda rhai gweunydd gleision, ac yn cynnwys pentref o fwthynod truenus, a thua phum cant o drigolion. Ond y mae yma lawer o adfeilion hynod—gweddillion Cristionogol a Derwyddol; yn benaf, murddyn mawreddus esgobdy neu fynachlog y Culdwys, gyda chlochdy uchel, yn ffurfio anghraifft odidog o'r dull Gothig o adeilyddiaeth. Dywed Boethius i'r adeilad hon gael ei sylfaenu yn y seithfed canrif, gan Malduinus, neu Maldwyn; ond meddyliai y Dr. Macculoch fod hyny yn saith gan mlynedd, o leiaf, yn rhy fore. Meddylir yn gyffredin fod abad y mynachdy hwn yn arfer awdurdod archesgobol, fel olynwr Columba, os bu Columba ei hun ryw dro yn archesgob neu esgob arlywyddol. Ond dywed ereill, fod eu ffurflywodraeth eglwysig yn hanfodol Henaduriaethol, neu Bresbyteraidd, ac y rhoddent yr enw *seniores*, neu henuriaid, i aelodau eu synod, neu gymmanfa athrofaol; yr hon a ordeiniai weinidogion, y rhai, ar eu sefydliad mewn unrhyw le, a elwid yn esgobion; a pha mor bell bynag o Iona y trigent, yr oeddynt yn ddarostyngedig i ddysgyblaeth yr athrofa, ac yn dal gohebiaeth gysson â'r hen sefydliad.

Ni wyddys yn bendant yn mha flwyddyn y darfu y Culdwys; ond y mae yn bur debyg eu bod wedi parhau, ar ororau gorllewinol yr Alban, i ddal tystiolaeth o blaid gwirionedd apostolaidd, yn wrthwyneb i lygredigaethau Rhufain, yn bur agos nes y tywynodd goleuni y Diwygiad Protestanaidd ar barthau gogleddol ein hynys.—(*Encyc. of Rel. Knowledge.*)

CULNI, [*cul*]: culedd, cyfyngedd, teneudra, truanedd; cyflwr un mewn darfodedigaeth, â'i gwnawd yn curio ymaith, a'i nerth yn pallu: *Salm* cix. 24; cii. 5; *Iob* xvi. 8; xix. 20; *Galar.* iii. 4. Y mae yn arwyddo trychineb neu adfyd: "O fy *nghulni;*" *Esa.* xxiv. 16. Y mae culni hefyd yn dynodi anfoddlonrwydd Duw: *Salm* cvi. 15; *Esa.* x. 16.

CURAD. Yr ydys yn canfod yr enwad yma yn aml yn y *Llyfr Gweddi Gyffredin*, megys yn y cyfarwyddiadau canlynol:—"O bydd un o'r rhai hyny yn ddrwg-fucheddol cyhoedd, neu a wnaeth gam i'w gymmydog ar air, neu ar weithred, fel y byddo efe wrthwynebus gan y gynnulleidfa; y *curad*, wrth gael gwybodaeth o hyny, a'i geilw ef, ac a'i cynghora."—*Rubric o flaen Trefn y Cymmun.* "Y drefn hon a arfer y *curad* am y sawl y gwypo efe fod malais a chasineb yn teyrnasu rhynggdynt."—*Yr un.* "Yna y *curad* a fynega i'r bobl pa wyliau neu ymprydiau a fydd i'w cadw yn yr wythnos yn canlyn."—*Rubric o flaen y Bregeth.* "Y bara a'r gwin i'r cymmun a barotöir gan y *curad* a wardeiniaid yr eglwys ar gôst y plwyf."—*Rubric ar ddiwedd Trefn y Cymmun.* Y mae yn amlwg oddi wrth y manau hyn, yn nghyd â llawer ereill lle dygwydd y gair, mai nid y gweinidog a feddylir yn gyffredin wrth gurad sydd i'w ddeall yma. Ei ystyr cyntefig, ynte, yw, un âg sydd ganddo gur eneidiau (*cure of souls*), neu warchodedigaeth trigolion y plwyf dan ei ofal. Darlunir ef weithiau fel periglor, megys yn y rhagymadrodd "Am Wasanaeth yr Eglwys:"—"A'r *curad*, sef y *periglor*, a fo yn gwasanaethu yn mhob eglwys blwyf neu gapel, ac efe gartref, heb luddias rhesymol arno, a ddywed y gwasanaeth hwnw yn yr eglwys blwyf neu 'r capel lle y bo efe yn gwasanaethu."

Tardda y gair *curad* oddi wrth y perwyddiad Lladin *curo*=gofalu; ac yn ei ystyr priodol, fel y sylwasom, cymhwysir ef at unrhyw offeiriad y bydd ganddo blwyf dan ei ofal. Ond ar arfer gwlad yn bresennol, cyfyngir y gair at weinidog a fyddo yn gwasanaethu plwyf yn lle neu dan rywun arall—un, megys y ficer gynt, yn gweini am dro yn lle y periglor cyfreithlawn. Enwir y cyfryw gurad gan weinidog y plwyf, a gwarentir ei benodiad gan yr esgob; ac er y gellir ei symmud wrth ewyllys y periglor ar ol rhoddi iddo rybudd cymmesur, eto y mae y gyfraith yn diogelu iddo gyflog priodol, yn ol nifer y bobl a ymddiriedir i'w ofal.

CURAD PARHAUS. Gellir dangos dechreuad y swyddog eglwysig hwn fel y canlyn:—Ar y cyntaf, yr oedd pob plwyf dan ofal un gweinidog, yr hwn a elwid yn *rector* neu reolwr, a'r hwn a dderbyniai yr holl ddegwm i'w ddwylaw ei hun. Pan ddeuai y plwyf yn boblog, adeiledid

Digitized by Google

capelydd at wasanaeth y rhai na fedrent gyrchu i'r hen eglwys; a phan welai y periglor nad allai efe yn gyfleus gynnal addoliad yn y cyfryw gapelydd ei hun, efe a benodai guradiaid iddynt, gan roddi iddynt gyflog penodol allan o'i ardreth ei hun; o blegid yr oedd efe fyth yn dal hawl i'r holl ddegwm fel o'r blaen. Mewn amser, rhenid y plwyf, a rhoddid darn o hono at bob un o'r curadiaethau, y rhai a ddeuent yn y modd hyny yn gapelyddiaethau plwyfol, neu yn guradiaethau parhaus. Ond er hyn oll, daliai periglor y fam eglwys yr hawl o benodi y curadiaid i'r cyfryw leoedd fyth; a hònai hawl—er, fe allai, mewn manau, na byddai hyny fawr fwy nag mewn enw—i ddegwm y rhanau hyny o'r plwyf a gyssylltid wrth y capelydd.

Dyma anghraifft o'r drefn y soniwn am dani:—Y mae ardal Nantmel, yn sir Faesyfed, yn cynnwys y gwahanol blwyfydd—Nantmel, Llanfihangel-Helygen, Llanyre, a Rhaiadr. Ficeriaeth yw Nantmel, yn nawdd esgob Tŷ Ddewi; y mae Llanfihangel a Rhaiadr yn guradiaethau parhaus o dan ficer Nantmel, ac y mae curadiaeth neu gapelyddiaeth Llanyre hefyd yn perthyn i'r ficer ei hun; yr hwn, yn y modd yma, naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, a ddarpara gogyfer âg addysg grefyddol yr holl ardal. Y mae yn wir nad yw y ficer yn meddiannu un rhan o ddegwm yr holl bedwar plwyf; ond hònir yr hawl yma fyth gan y priodolwr (*impropriator*); yr hwn, gyda golwg ar y sefydlwr cyntefig, y dylid ei ystyried fel yr un un a'r ficer; o blegid barn haneswyr eglwysig yw, bod rhanu y degwm yn ddegwm rectoraidd ac yn ddegwm ficeraidd yn drefn a benodwyd ar ol y sefydliad cyntefig, ac wedi ei gwneuthur ar y dechreu er mwyn cyfleusdra y gweinidog. Ar y cyntaf, yr oedd gweinidog pob plwyf yn rector, a daliai y ficer dano sefyllfa debyg i eiddo y curad cynnorthwyol yn yr amser presennol. Pan welwyd y gallai y ficer gyflawnu yr holl wasanaeth am ran o'r cyflog, rhoddwyd y cyfryw iddo fel cynnysgaeth, ac elai y gweddill at gynnal mynachlog, neu yr eglwys gadeiriol. Cydsyniai y ficer yn rhwydd â'r drefn hon; o blegid drwy hyny, yn lle cael cyflog anwadal, a bod yn agored i gael ei symmud yn ol ewyllys y periglor, yr oedd ei le a'i gyflog yn cael eu sefydlu yn barhaus. Yr un peth a ddigwyddodd i'r offeiriaid oedd yn gweini yn y capelydd pellenig: fe briodolwyd rhanau penodol o'r plwyf i'w gweinidogaethau neillduol hwy, allan o ba rai y derbynient ryw ardreth fechan fel cyflog sefydlog; ond i wneyd y peth yn gyfartal, gwnaethpwyd eu curiadaethau hwy yn barhaus, tra yr elai y rhan fwyaf o ddegwm yr holl ardal at gynnal rhyw sefydliad crefyddol; yr hwn, fe allai, a fyddai yn mhell allan o'r plwyf oedd yn parhau fel hyn i gynnrychioli y rector cyntefig. Nid oedd y drefn hon heb ei drygau. Torodd cenfigenau allan rhwng yr offeiriaid mynachaidd a'r offeiriaid plwyfol; ac yn amser y Diwygiad, aeth y degwm oddi wrth y mynachlogydd i ddwylaw priodolwyr lleyg. Ond gadawyd y degwm a drosglwyddasid at gynnal eglwysydd cadeiriol, a chabidylau colegol, i aros fel yr oedd; ac y mae fyth yn eglurhâd o'r drefn dan sylw.

Y mae genym anghreifftiau o blwyfydd yn cael eu priodoli at sefydliad mynachaidd, lle y gadewid y dyledswyddau plwyfol i gael eu cyflawnu gan gurad parhaus, heb gyfryngiad y ficer: ond y mae y cyfryw yn llai na'r cyffredin.

Ymddengys i'r curiadaethau parhaus yn Nghymru gael eu dechreuad pan oedd yr eglwys yn ymledu dan nawdd y tywysogion priodor, sef yn yr wythfed ganrif.

1. CUS, [כוש=*du, budreddi;* Χοῦς=*llwch*]: mab hynaf Cam (*Gen.* x. 6; 1 *Cron.* i. 8); oddi wrth yr hwn yr ymddengys i *dir* Cus gael ei enw, a gyfleithir yn y Deg a Thrigain yn Αἰθιοπία, a chan y Vulgate, *Æthiopia*—Ethiopia=*du;* a dilynwyd hwy gan bob cyfleithiad arall braidd, hen a diweddar. *Mohrenland* sydd yn nghyfleithiad Almaenaeg Luther, yr hwn sydd gyfystyr i dir y Negroaid, neu wlad y Duantwys. Gelwid brodor yn כושי (*Cushi*), Αἰθιοψ, Ethiopiad=*dyn du* (*Ier.* xiii. 23); y benywaidd o'r hwn yw כושית (*Cushith*), Αἰθιόπισσα, Ethiopes=*dynes ddu, mwyares* (*Num.* xii. 1); a'r lluosog yw כושיים (*Cushiim*) Αἰθιοπες Ethiopiaid=*Duantwys: Amos* ix. 7. "A meibion Cus; Seba, a Hafilah, a Sabtah, a Raamah, a Sabteca.....Nimrod;" *Gen.* x. 7, 8.

2. CUS: y tir neu y gwledydd a boblogwyd gan hiliogaeth Cus, a gyfleithir yn y Beibl yn gyffredin, os nad bob amser, yn Ethiopia, megys pe nas golygid ond un lle; ond y mae yn dra sicr nad felly yr oedd, fel y dangosir eto. Y mae sefyllfa tir Cus yn bwnc o ddadl yn mysg yr awdurdodau penaf; canys tra y myntumiai Bochart mai yn Arabia yn unig yr ydoedd, dywed Gesenius mor gadarn nad ydys i edrych am dano mewn un man ond yn Affrica. Cefnogir y farn yma gan Schulthess o Zurich, yn ei *Paradies.* Y mae ereill drachefn, megys Michaelis a Rosenmüller, yn tybied fod yr enw Cus wedi ei gymhwyso at ddarnau o diroedd yn Arabia ac Affrica—amgylchiad y byddai yn hawdd rhoi cyfrif am dano, ar y dyb debygol fod hiliogaeth y llwythau Cusaidd cyntefig, y rhai a sefydlasant yn y wlad flaenaf, wedi ymfudo dros y Môr Coch i'r wlad arall, gan ddwyn yr enw Cus, eu cyff cenedl hynafol, gyda hwynt.

Nis gellir yn rhesymol ammheu bod Cus *Affricanaidd*—er bod yr enw yn cael ei ddefnyddio yn yr Ysgrythyrau yn bur anmhenderfynol—weithiau yn dynodi gwlad eang, ond anmhenodol (sef Ethiopia), a phryd arall un deyrnas neillduol (Moroë). Dysgrifir hi yn bendant gan Ezeciel fel yn gorwedd i'r deheu o'r Aipht, tu hwnt i Syeneh: *Ezec.* xxix. 10. Cymharer xxx. 4—6. [*Strab.* xvii; *Plin. Nat. Hist.*, vi. 35; *Joseph. De Bell. Jud.*, iv. 10, 5.] Am hyny, canfyddir Misraim a Cus (sef yr Aipht ac Ethiopia) yn cael eu cyssylltu yn nghyd mor fynych gan y prophwydi; megys *Salm* lxviii. 31; *Esa.* xi. 11; xx. 4; xliii. 3; *Nah.* iii. 9. Lleferir am y trigolion mewn lle arall yn gyssylltiol â'r Lubiaid a'r Succiaid (2 *Cron.* xii. 3; xvi. 8; *Ier.* xlvi. 9; *Dan.* xi. 43), sef y Lubiaid a'r Troglodytiaid Ethiopaidd, fel y tybir; ac y mae yn sicr mai cenedloedd Affrica oeddynt; canys perthynent i'r fyddin fawr a ddaeth o'r wlad hono gyda Sisac, brenin yr Aipht, yn erbyn Rehoboam, brenin Iudah. Yn yr ymadroddion hyn, dywed Kitto, ac yn wir yn y rhan fwyaf lle y digwydd Cus, nid ydys i feddwl am Arabia; canys y mae yn sicr mai Ethiopia yn Affrica a feddylir. [Gwel ETHIOPIA.] Yr Ethiopia yma, meddai Calmet, ydyw Ethiopia briodol, a elwir weithiau yn gyffredin, Abyssinia—enw a ddeillia yr Arabiaid oddi wrth Habasch (*Habesh?*), mab Cus. [Gwel ABYSSINIA.] Nid yw y Beibl yn crybwyll am yr Habasch yma, nac am y Cus, o'r hwn y tybia y Mahometiaid iddo ddisgyn; canys brawd Canaan oedd y Cus Ysgrythyrol, a

Digitized by Google

thad Nimrod a'i frodyr:—pan y gwna yr Arabiaid Cus tad Habasch yn fab, ac nid brawd Canaan; ac yn ddiau y mae yn debyg fod Cus, tad Nimrod, &c., yr hwn a breswyliai yn Asia, ger llaw yr afon Gihon, yn wahanol i Cus mab Canaan, a boblogodd Arabia Felix, neu Ethiopia briodol. O'r wlad yma yr oedd eunuch y frenines Candace. Yn yr holl ymadroddion a nodwyd, ebai Calmet, ymddengys fod Cus yn cynnwys, nid Ethiopia uwch law Syeneh (Heb., *Sefene*) a'r Rhaiadrau yn unig, ond rhan o Thebais hefyd, neu yr Aipht Uchaf. Yr oedd Ahasferus yn teyrnasu o India hyd Ethiopia; hyny yw, hyd Abyssinia; canys dywed Herodotus fod y wlad hon yn talu teyrnged i Darius, mab Hystaspes. Dywed Esaiah (*pen.* xlv. 14): "Llafur yr Aipht, a marsiandïaeth Ethiopia, a'r Sabeaid hirion, a ddeuant atat ti, ac eiddot ti fyddant." Yma, meddai Mr. Bruce, crybwyllir am y gwahanol genedloedd yn wahanredol yn eu hamryw leoedd; ond collasid holl ystyr yr ymadrodd, pe na buasai sefyllfaoedd y cenedloedd hyn yn berffaith adnabyddus, neu pe nas crybwyllasid am y Sabeaid ar wahân; canys Ethiopiaid yn ddiau oedd y Sabeaid a'r Cusiaid. Ystyr yr adnod ydyw, y byddai i ffrwyth amaethyddiaeth yr Aipht, sef gwenith, a nwyddau y negro—aur, arian, ifori, a pheraroglau—gael eu dwyn gan y bugeiliaid Sabeaidd, eu cludwyr, a chenedl fawr nerthol, y rhai oedd i ymuno â'r Israeliaid. Dywed Ezeciel drachefn (*pen.* xxx. 8, 9); "A chânt wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan roddwyf dân yn yr Aipht, ac y torer ei holl gynnorthwywyr hi. Y dydd hwnw cenadon a ânt allan oddi wrthyf fi mewn llongau, i ddychrynu Ethiopia ddiofal." Yn awr, yr oedd Nebuchodonosor i ddistrywio yr Aipht (*Ezec.* xxix. 10), o gyffiniau Palestina hyd y mynyddoedd uwch law Atbara, lle y preswyliai y Cusiaid. Y mae diffaethwch mawr rhwng y rhai hyn a'r Aipht: meddiennir y wlad tu hwnt i hwn, ac ar bob ochr iddo, gan hanner miliwn o drigolion. Yr oedd y Cusiaid, neu y masnachwyr negroaidd, yn ddiogel, dan yr amgylchiadau hyn, rhag unrhyw ymosodiad ar hyd y tir; ond gan eu bod yn agored i'r môr, ac heb ddim amddiffyniad, yr oedd yn hawdd i genadwyr mewn llongau, neu lynges, fyned atynt i'w dychrynu a'u cadw gartref, fel na byddai iddynt syrthio i berygl trwy fyned i'r Aipht yn erbyn Nebuchodonosor, neu rwystro y gwasanaeth a osodasai Duw iddo ef i'w gyflawnu. Ond nid ymddengys hyn trwy gyficithu Cus yn Ethiopia; gan mai yr Ethiopiaid agosaf at Nebuchodonosor, a'r rhai mwyaf nerthol a galluog i'w wrthwynebu, oedd bugeiliaid Ethiopaidd y Thebeiaid; ac nid oedd y rhai hyn yn gyrhaeddadwy i longau. Yr oedd y bugeiliaid oedd yn agos felly i olygfa y dinystr oedd i gael ei gyflawnu gan Nebuchodonosor yn elynion i'r Cusiaid oedd yn byw mewn trefydd, a gwnaethant ddinystr eu hunain arnynt lawer gwaith; am hyny, nid oedd yn brofedigaeth iddynt hwy fod yn ddim ond edrychwyr.

Er hyn oll, gellir caniatau yn rhwydd fod rhai o olafiaid Cus wedi ymsefydlu yn Arabia; ond nid yw mor amlwg, mewn un modd, ddarfod iddo roi enw parhäus i'r wlad nac i'r bobl: o leiaf, mae yn fwy o bwnc o ddyfaliad casgliadol nag o sicrwydd hanesyddol. Y mae agos yr holl ymadroddion a ddyfynir o blaid yr haeriad yn agored i eglurhâd gwahanol. Er anghraifft, dywedir yn *Num.* xii. 1, ddarfod i Miriam ac Aaron ffromi wrth Moses am briodi Cusiades (כושית, *Cushith*), a gyficithir genym ni "Ethiopes;" ac ar y dyb fod hon yr un a Sephorah, merch offeiriad Midian (*Exod.* ii. 16, 21), cesglir fod Midian yn Cus. "Y profion yw y rhai hyn," meddai Calmet: "gelwir Sephorah, gwraig Moses, brodor o Midian, yn Cusiades yn Numeri, fel y nodwyd uchod. Yn awr, cytuna Josephus, Ptolemy, a Jerome, fod Midian ar du y dwyrain i'r Môr Coch, yn Arabia." Heb ddywedyd dim am radd uchel Sephorah, nac am wasanaeth ei theulu i Israel, buasai rhywbeth mor nodedig o anghymmesur a ffol ag i frawd a chwaer Moses fyned i rwgnach am y tro cyntaf o blegid ei ddewisiad o wraig, ar ol i'r briodas fod mewn grym am fwy na deugain mlynedd, fel y mae yn amlwg fod Sephorah weithian wedi marw; a bod yr ail wraig hon, er yn broselyt yn ddiau at Iuddewaeth, yn un o hiliogaeth Cus, pa un bynag ai yn Asia ai Affrica y ganwyd hi, ac am hyny yn ferch i Cam; ac nid un o'r Midianiaid, y rhai oedd o hiliogaeth Sem, gan eu bod yn blant i Abraham o Ceturah. Y mae ereill yn canfod cyssylltiad tybiedig rhwng Cus a Midian, o blegid yr ymadrodd yn *Hab.* iii. 7; "Dan gystudd y gwelais wersyllau Cuwsan:" ac yn canfod cyfatebiad yn "crynodd lleni tir Midian," gan ddal allan mai y ffurf brydyddol a soniarus o Cus ydyw Cuwsan. Dyma olygiad Calmet, yr hwn a ddywed fod Habacuc yn crybwyll am dir Cus neu Cuwsan, megys yn gyfystyr â thir Midian. Ond dychymygol yn unig ydyw y syniad yma; a thra y cydnabyddir fod rhan o'r darluniad yslenydd yn y bennod hono yn cyfeirio at Exodus a'r gweithrediadau yn Sinai, y mae i ranau ereill, megys mynedfa yr Iorddonen (*Hab.* iii. 8), a safiad yr haul (*adn.* 11), gyfeiriad amlwg at ddygwyddiadau yn llyfr Iosuah a llyfr y Barnwyr. Yn y llyfr olaf (*pen.* iii. 8; viii. 12), gwelir cof am fuddugoliaethau pendant ac olynol a gafwyd gan Othniel ar Cusan-risathaim, brenin Mesopotamia; a chan Gedeon ar dywysogion Midian. Eto, fe benderfynwyd yn fyrbwyll nas gallasai Zerah y Cusiad (Ethiopiad), yr hwn a ymosododd ar Asa, brenin Iudah, â'r fath lu afrifed (2 *Cron.* xiv. 9), fod yn Ethiopiad o Affrica; ac eto, ymddengys y ffaith fod ei fyddin yn cynnwys Lubiaid (xvi. 8) cystal ag Ethiopiaid, yn penderfynu mai o Affrica yr oedd tarddiad y rhai olaf hefyd. Gallasai ei hynafiaid fod yn perthyn i'r "bobl nad oedd nifer arnynt" a arweiniodd Sisac yn erbyn taid Asa, Rehoboam (xii. 3), a dichon fod eu holafiaid hyn wedi cadw meddiant o ogledd Arabia Garegog, rhwng Palestina a'r Aipht. Eto, er bod diffyg mawr o brawf i ddangos fod yr enw Cus wedi ei gymhwyso erioed at un rhan o Arabia, nid oes le i ammheu fod yr hil Gusaidd wedi ymsefydlu yno yn fore. Yn ol y daflen genedlyddol yn y ddegfed bennod o Genesis, Cus oedd tad Seba, Hafilah, &c, hyd Nimrod, fel y sylwyd eisoes. Ymddengys i'r olaf (Nimrod) ymsymmud tua'r gogledd—yn gyntaf i Babilon, ac yna i Assyria; ond ymddengys i'r lleill ymfudo tua'r deheu, er nas gellir olrhain eu sefydliadau yn fanwl. Ond, pe rhoddid Seba i Affrica, a myned heibio i enwau Hafilah, ac enwau meibion Raamah, Seba, a Dedan (canys yr oedd y rhai hyn hefyd yn enwau llwythau Semaidd: *Gen.* x. 28, 29; xxv. 3); eto, yn *Ezec.* xxvii. 22, y mae yn amlwg y gosodir Raamah gyda llwythau Arabia; ac ni cheir dim olion o Sabtah a Sabteca mewn un man ond yn y wlad hono. Pa fodd bynag, os cyfeirir at sefyllfaoedd daiaryddol perthynasol goror de-orllewin Arabia, a goror dwyrain Affrica, gwelir nad oes dim yn eu gwahanu ond y Môr Coch; ac nid annhebyg ydyw, tra yr ymfudodd rhan o'r boblogaeth Gusaidd i

Digitized by Google

Affrica, ddarfod i ereill aros ar ol, ac iddynt gael eu galw yn achlysurol wrth yr un enw. Fel hyn, yn 2 *Cron.* xxi. 16, yn mysg y rhai a gyffrowyd yn erbyn yr Hebreaid, crybwyllir am y Philistiaid "a'r Arabiaid, y rhai oedd ger llaw y Cusiaid" (Ethiopiaid); a phrin y gellir cymhwyso y geiriau a gyfleithir yn y cyssylltiad â "ger llaw" at neb ond preswylwyr yr orynys Arabaidd. Yn y pummed canrif o'r cyfnod Cristionogol, gelwid yr Himariaid, yn neheudir Arabia, gan yr ysgrifenwyr Syriaidd, yn Cusiaid ac Ethiopiaid. Y mae Jonathan, yr alleirydd Caldaeg, yn *Gen.* x. 6, ac alleirydd arall yn 1 *Cron.* i. 8, yn egluro Cus âg Arabia. Canfu Niebühr lwyth yn Yemen, a elwid Beni Cusi. Y mae llyfr Iob (xxviii. 19) yn son am y topas (פטדה) o Cus; ac yr oedd ynys Topas yn y Môr Coch. Eto, nid yw y rhan fwyaf o'r amgylchiadau hyn i bwyso arnynt; a'r ymadrodd yn 2 *Cron.* xxi. 16 ydyw yr unig amlygiad uniongyrchol sydd fod yr enw Cus yn cael ei gymhwyso at un rhan o Arabia, ac nid yw yr ymadrodd hwnw yn eglurhâd pendant.

Bu rhai yn chwilio am Gus arall, mewn parthau mwy gogleddol o Asia; megys yn y dalaeth Bersiaidd o Chusistan neu Susiana, yn Cutha, dosbarth o Babilon, &c.; a chan fod Nimrod, mab ieuangaf Cus, wedi estyn ei fuddugoliaethau yn y cyfeiriad hwnw, fe ddichon, yn ddiau, ddarfod i enw ei dad gael ei gadw yn nynodiad rhyw ran o'r diriogaeth neu y bobl. Dywed y Samariaid, yn *Josephus:*—"Salmanessar, brenin yr Assyriaid, a'n dygodd ni yma o wledydd Cutha a Media;" a dywed Josephus mai "ardal yn Persia yw talaeth Cutha." Ond y mae y seiliau hyn oll yn anfoddhaol iawn; ac, yn wir, y prif beth a barodd y dybiaeth o gwbl ydyw, y crybwylliad sydd yn y dysgrifiad o safle paradwys (*Gen.* ii. 13) am wlad Cus (Ethiopia) yn cael ei hamgylchu gan yr afon Gihon. [Gwel EDEN.] Ond pe cymhwysid yr enw Cus yn yr Ysgrythyrau yn fwy amrywiol nag y gwneir, ni buasai yn fwy felly na'r gair cyferbyniol Ethiopia yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yr hwn a gynnwysai lawer o genedloedd tra phell oddi wrth eu gilydd, a chwbl wahanol i'w gilydd, heb feddu un nodweddiad cyffredinol cyffelyb, ond eu gwynebpryd cibddu, haul-losgedig. Llefara Homer am danynt [*Odyss.* i. 22], megys "hiliogaeth wasgaredig—yr olaf o ddynion; rhai yn eithafoedd y gorllewin, a'r lleill yn eithafoedd y dwyrain;" a Strabo a'u dysgrifia [i. 60] megys "pobl ddyblyg, yn ymestyn ar hyd tiriogaeth yn cyrhaedd o godiad haul hyd ei fachludiad." Y mae Herodotus [vii. 69, 70] yn gwahaniaethu yr Ethiopiaid dwyreiniol yn Asia oddi wrth yr Ethiopiaid gorllewinol yn Affrica, wrth wallt syth y blaenaf, a gwallt crych yr olaf. Ar fyr, yr oedd yr hynafiaid, gyda'u darluniau daiaryddol anmhenodol, yn ol eu harfer, yn deall wrth Ethiopia *eithafoedd y deheu* yn holl hydred y ddaiar; yn gorwedd, yn ol eu barn hwy, ar derfyn y gwregys poeth, a wnai y trigolion yn agored i belydr tanllyd yr haul, y rhai a'u llosgent hwy yn dduon. Y mae camsyniad o'r gair Ysgrythyrol Cus, sydd yn cael ei ddefnyddio yn yr un dull anmhenodol, wedi arwain i lawer o ddvryswch ar y mater; ac y mae un ysgrifenydd [Buttmann, *Allt. Erdk. d. Morgenl.*, td. 40, nodiad], yn ei awydd i gario allan y cyfrediad rhwng Ethiopia a Cus, yn tarddu y gair olaf o'r gwreiddyn כוה (*cafu, cau, cu*)=*llosgi;* ond dywed N. Morren fod hyny yn groes i holl reolau cyfaledd eirdarddol yn ffurfiad enwau priodol yr Hebraeg.

Y mae y gwahaniaeth a nodwyd o fwy o bwys nag y gellid meddwl ar y golwg cyntaf; canys trwy briodoli i un wlad a elwir Cus yr hyn a berthyna i Gus arall, a fyddo yn mhell oddi wrth y flaenaf, perir llawer o ddyryswch, a hwnw o'r fath natur fel nad hawdd yw ei gywiro.

Tybir nad priodol terfynu yr erthygl yma heb ddyweyd gair am afonydd Cus (Ethiopia), y crybwyllir am danynt yn *Esa.* xviii. 1; er nas caniatâ natur y gwaith i olrhain y brophwydoliaeth yn fanwl. Ymddengys i Mr. Taylor, golygydd geiriadur Calmet, dalu sylw manwl i'r pwnc yma; a'i gasgliadau ef ydynt, mai cangenau o'r afon Nilus yw afonydd Cus:—mai *amcan y brophwydoliaeth* yw, cynhyrfu y Nubiaid a'r Ethiopiaid i anfon anrhegion i fynydd Sion, er anrhydedd Iehofah; yr hyn y gallasent ei wneyd mor hawdd ag ymgynghreirio â Hosea, brenin Iudah. *Y bobl y cyfeirir y brophwydoliaeth atynt* ydynt, y Nubiaid a'r Ethiopiaid, yn eu gwlad eu hun, er bod eu brenin yn awr yn cyrchu at feddianau yr Aipht. *Yr hanes y perthyn iddi* yw, helaethiad gallu Ethiopaidd dros yr Aipht, a'i therfyniad dystaw. *Y person sydd yn danfon y genadwri*—y prophwyd ei hun sydd yn danfon at yr Aiphtiaid deheuol, a'r Aiphtiaid deheuol yn anfon at Nubia, yr hon Nubia yw gwrthddrych eithaf cyfeiriad y genadwri ati. Os ydyw yr eglurhâd yma yn gywir, meddai Calmet, nid yw dychweliad yr Iuddewon i'w tir eu hunain, trwy unrhyw allu gorllewinol, yn gymhwysiad o honi.

CUSAN—AU—U, [*cus*]: arwydd o barch a chariad; dull o gyfarch, arferedig yn mysg gwahanol genedloedd y byd. Ar y cyntaf, yr oedd y weithred o gusanu yn meddu ar nodwedd arwyddocaol; ac er y dichon fod yr ystyr yma yn awr wedi colli o'r golwg, eto rhaid ei gydnabod y mynyd y ceisiwn ddeall neu egluro ei arwyddocâd. Y mae gweithredoedd yn llefaru nid llai, ac weithiau yn llawer mwy grymus na geiriau. Yn nechreuad cymdeithas, pan y gosodwyd sail y rhan fwyaf hyd yn oed o'n harferion gorllewinol, yr oedd ymddygiadau yn gwneyd i fyny gyfran helaeth o'r hyn a elwir genym ni yn iaith ddynol, neu foddion cydymddyddan rhwng dyn a dyn; o blegid yna yr oedd geiriau yn llai eu nifer, llyfrau yn anadnabyddus, a holl beiriant ymddyddan mewn cyflwr elfenol a gwyddorol yn llai amlygedig, ac heb ei aiw i weithrediad; heb son am y neilluoliwydd hwnw yn y nodweddiad dwyreiniol (os nad oedd, yn wir, yn nodwedd pob cenedl yn yr oesoedd cyntefig) oedd yn tueddu dynion at dawedogrwydd cyffredinol, ond yn achlysurol yn tori allan mewn hyawdledd gwresog, sydyn, a chyflawn. Felly, yn iaith ymddygiad, yr oedd y cusan, gan ei fod yn dwyn i gyfartyddiad ranau o gorff dau berson, yn fynegiad naturiol ac yn arwydd o serch, parch, ac anrhydedd; a phe ceisid ffynnonell ddyfnach yn darddell iddo, fe'i ceid yn ddiammheu yn ymddygiad y fam yn amlygu ei thynerwch at ei baban trwy ei gofleidio a'i anwylo. Y mae yr arferiad wedi dechreu yn fore, fel yr ymddengys oddi wrth *Gen.* xxix. 13, lle y darllenwn: "A phan glybu Laban hanes Iacob mab ei chwaer, yna efe a redodd i'w gyfarfod ef, ac a'i cofleidiodd ef, ac a'i cusanodd," &c. Yr oedd y ddefod y pryd hyny yn sefydledig, ac fel peth ar arfer cyffredin. Yn *Gen.* xxvii. 26, 27, y mae cusan yn arwydd o serch rhwng tad a mab. Yr ydoedd hefyd, fel y mae yn mysg rhai cenedloedd diweddar, yn nôd o gyfeillgarwch a pharch a ddangosid pan

Digitized by Google

fyddai cyfeillion neu geraint yn cyfarfod neu yn ymadael (*Tob.* vii. 6 ;x. 12; *Luc* vii. 45; xv. 20); a gwneid hyny weithiau yn fradwrus: *Mat.* xxvi. 48; 2 *Sam.* xx. 9. Henuriaid eglwys Ephesus, wedi dyfod i gyfarfod Paul i Miletus, a wylasant yn dost o herwydd ei fod yn ymadael am y tro diweddaf, a hwy a syrthiasant ar ei wddf, ac a'i cusanasant: *Act.* xx. 37. Pan adawodd Orpah Naomi a Ruth, wedi iddynt ill tair ddyrchafu eu llef ac wylo, hi "a gusanodd ei chwegr, ond Ruth a lynodd wrthi;" *Ruth* i. 14. Arferid rhoddi y cusan ar y min (*Gen.* xxxiii. 4; *Exod.* iv. 27; xviii. 7; *Diar.* xxiv. 26; *Can.* i. 2); neu ar y farf, gan ymaflyd ynddi â'r llaw: 2 *Sam.* xx. 9. Yr oedd cusanu y traed yn arwydd o barch gostyngedig a thyner: *Luc* vii. 38. Ymddengys mai arferiad diweddar yw cusanu llaw un arall. Nid yw yr ymadrodd yn *Iob* xxxi. 27—"Os fy ngenau a gusanodd fy llaw"—yn cyfeirio at hyn, ond at arferion eilun-addolgar; sef, addoliad y cyrff wybrenol. Yr oedd yn ddefod i fwrw cusanau tuag at ddelwau y duwiau, a thuag at yr haul a'r lloer: 1 *Bren.* xix. 18; *Hos.* xiii. 2. [*Minuc. Felix*, ii. 5; *Tac. Hist.* iii. 24, 3; *Lucian, De Salt.*, pen. 17; *Plin. Hist. Nat.* xxviii. 5.] Cusanu tywysogion ydoedd arwydd o warogaeth: *Salm* ii. 12; 1 *Sam.* x. 1. [*Xenoph. Cyrop.* vii. 5, 32.] Dywed Xenophon [*Agesil.* v. 4] ei bod yn ddefod genedlaethol yn mhlith y Persiaid i gusanu pwy bynag a anrhydeddent; a gellir gweled ymadrodd nodedig i'r perwyl hwn yn y *Cyropedia*, i. 4. 27. Yr oedd cusanu traed tywysogion yn arwydd o ymddarostyngiad ac ufudd-dod; a byddid weithiau yn myned mor bell yn hyn ag i gusanu ol y troed, fel pe buasai hyd yn oed y llwch wedi ei gyssegru trwy gyffyrddiad y traed breninol; neu ynte, nad oedd y deiliad ddim yn deilwng i gael cusanu hyd yn oed droed y tywysog, a'i fod yn foddlawn i gusanu y ddaiar ei hun ar yr hon y cerddai: *Esa.* xlix. 23; *Micah* vii. 17; *Salm* lxxii. 9. [*Dion. Cass.* lix. 27; *Seneca, De Benef.* ii. 12.] Ni chaniatäai y Rabbiniaid, oddi ar yr ysbryd ymyrus, petrusgar, a ffugfanylaidd oedd yn cynhyrfu llawer o'r rhai a ysgrifenent, namyn tri math o gusanu; sef, cusan o barch, o groesaw, ac o ymadawiad.—*Breschitt Rabba* ar *Gen.* xxix. 11.

Y mae Paul yn fynych yn son am "gusan sanctaidd," neu "sancteiddiol," yr hwn oedd mewn arferiad yn mysg y credinwyr cyntefig, fel arwydd o gariad ac undeb (*Rhuf.* xvi. 16; 1 *Cor.* xvi. 20; 2 *Cor.* xiii. 12; 1 *Thes.* v. 26); ac yn 1 *Pedr* v. 14, y mae yn cael ei alw "cusan cariad." Un o ansoddau arbenig y grefydd Gristionogol ydyw, dysgu dynion i barchu eu gilydd fel dynion, a meithrin a dwyn allan dueddiadau tyneraf ein natur; ac yn sefyllfa brofedigaethus y brif eglwys, dylanwadai er dwyn yr aelodau i gydnabyddiaeth gyfeillgar â'u gilydd, a'u huno yn yr undeb agosaf. Oddi wrth hyn y tarddodd yr arferiad. Parhaodd y ddefod hyd amserau diweddarach; ac nid yw eto wedi llwyr ddiflanu, er fod yr amgylchiadau neillduol a roddent briodoldeb a phwys i'r cyfryw fynegiad o frawdgarwch a chyfeillach Cristionogol wedi darfod.

Pabyddion a gusanant law yr esgob, neu yn hytrach y fodrwy a wisg efe yn rhinwedd ei swydd. Y mae cusanu y troed, neu fawd y troed, wedi cael ei ofyn gan y pabau fel arwydd o barch oddi wrth y gallu gwladol er yr wythfed canrif. Y cyntaf a dderbyniodd yr anrhydedd hwn oedd, y pab Cvstenyn I., yr hyn a dalwyd iddo gan yr ymherawdwr Justinian II., ar ei fynediad i mewn i Gaer Cystenyn, yn 710. Yn nghylch 827, mynai Valentine I. i bawb gusanu ei droed; ac o hyny allan, dysgwylid yr arwydd hwn o barchedigaeth gan y pabau oll. Pan gyflawnir y ddefod, y mae y pab yn gwisgo yslopan â chroes arni, yr hon a gusenir. Mewn amseroedd diweddarach, ni orfodwyd Protestaniaid i gusanu troed y pab, ond yn unig lled-blygu glin ger ei fron. Yn yr Eglwys Babaidd, bydd yr offeiriad weithiau yn cusanu y wraig yn union wedi y briodas; ac yn mysg Protestaniaid, bydd ambell weinidog yn cusanu y plentyn wedi ei fedyddio.

Y mae *cusan tangnefedd* yn gyfran o un o'r defodau Pabaidd. Y clerigwr a fydd yn gweinyddu yr offeren a gusana yr allor, a chan gofleidio y diacon, a ddywed, "*Pax tibi, frater, et ecclesiæ sanctæ Dei*" (=tangnefedd i ti, frawd, ac i eglwys sanctaidd Duw): y diacon, yr un ffunud, a gyfarch yr is-ddiacon, ac a ddywed, "*Pax tecum*" (=heddwch fyddo gyda thi): ac yntau y clerigwyr ereill.

Y *cusan cariad* sydd eto yn cael ei ddal yn mysg rhai pleidiau fel ordinhâd i'w gweinyddu yn gyhoeddus: yr un ddefod yn hollol ydyw, dan ffurf wahanol. Nis gellir gwadu nad oedd arferiad o'r fath yn ffynu yn yr eglwys mewn amseroedd tra bore, gan y crybwyllir am dani gan Justin, Tertullian, ac ereill o'r tadau, pan yn son am yr *agapæ* (cariad-wleddoedd); ond nid oes iddi un gwarantiad o'r Ysgrythyr, gan nad oedd y cyfarchiad a elwir "cusan sanctaidd," a "chusan cariad," yn cael ei orchymyn fel defod gyhoeddus neu wasanaeth eglwysig, ond yn unig fel anerchiad achlysurol, fel y byddai amgylchiadau cyfarfod yn rhoddi cyfleusdra. Dylid cofio, hefyd, y byddai y ddau ryw yn eistedd ar wahân yn y cynnulliadau Iuddewig a Christionogol; a thybia rhai mai ar wahân felly y cyflawnid y ddefod hon yn eu plith.

Nid yw y cyfarwyddiadau i fod yn dirion a charedig i'w gilydd, lle mae arferion y gwledydd dwyreiniol yn cael eu crybwyll, i'w cymmeryd a'u cyflawnu yn llythyrenol gan rai y mae arferion gwahanol yn ffynu yn eu mysg. Digon yw, os yw ysbryd y ddyledswydd yn cael ei gadw; megys drwy ysgwyd dwylaw, neu ryw ddull arferedig arall o groesaw ac ymanerch.—(Gwel *Kitto; Rel. Cycl.; Hend. Buck.; T. H. Horne*, &c.)

CUSAN-RISATHAIM, [כושן רשעתים=*Ethiopaidd; duedd anwireddau.* Y Deg a Thrigain, Χουσαρσαθαιμ]; brenin Mesopotamia, yr hwn a orthrymodd Israel wythmlynedd; sef o c. c. 1402, i c. c. 1394; pan y gwaredwyd hwynt o'i law ef, gan Othniel, mab Cenaz, brawd Caleb. Brenin y wlad hon, yn ddiammheu, medd Sutcliffe, oedd brenin Ninifeh: *Barn.* iii. 8—10.

1. CUSI, [כושי=*Ethiopia, duedd; poethder*]: y cenadwr a ddanfonodd Ioab i hysbysu cwymp Absalom i'r brenin Dafydd: 2 *Sam.* xviii. 21, 31, 32.

2. CUSI: hendaid Iehudi, yr hwn a anfonodd tywysogion Iudah at Baruch, i erchi iddo gyrchu atynt hwy y llyfr a ysgrifenodd efe o enau Ieremiah: *Ier.* xxxvi. 14.

3. CUSI: mab Gedaliah, a thad y prophwyd Zephaniah: *Zeph.* i. 1.

CUWSAN. Gwel Cus Ethiopia.

Digitized by Google

CUDWORTH, RALPH. Llywydd Coleg Crist, Caergrawnt; ac athronydd a duwinydd o gryn enwogrwydd, ac o ddysgeidiaeth anghyffredin. Ganwyd ef yn sir Somerset, yn 1617; a bu farw yn 1688. Perthynai i'r duwinyddion Arminaidd a enwogasant eu hunain trwy eu hefrydiaeth mewn athroniaeth henafol, ac a ysgrifenent lawer o blaid crefydd naturiol a deddfau tragwyddol moesoldeb, heb osod cymmaint o bwys ar gyfundraethau uniongred o dduwinyddiaeth; ac o herwydd hyn, a adnabyddid wrth yr enw *Latitude-men*. Yn amser Cudworth, corff duwinyddiaeth Episcopius, y prif ysgrifenydd Arminaidd, oedd yn llaw yr efrydwyr yn gyffredin yn Nghaergrawnt: ystyrid ef y goreu a gyhoeddwyd erioed; tra yr oedd *Institutes* Calvin, gan mlynedd yn flaenorol, yn meddu y flaenoriaeth hon yn mhrif feithrinfa dysgeidiaeth y deyrnas. Ar ol adferiad Charles II.—ac felly, ar ol dyddiau llwyddiant y Puritaniaid—y cododd y blaid newydd hon. Yr ydoedd yn newydd, o herwydd y gwahaniaethent oddi wrth yr uchel-eglwyswyr yn eu cariad at ryddid—yr hyn a ddysgasant oddi wrth eu dysgawdwyr Calvinaidd, er iddynt wrthod eu syniadau duwinyddol—ac yn eu teimlad dros oddefiad crefyddol. Prif arweinwyr y blaid—yn ol esgob Burnet, yr hwn ei hun oedd un o honynt — ydoedd More, Cudworth, Tillotson, a Stillingfleet. Nid ymddangosodd un ysgrifenwr o fewn yr oes hono a barodd y fath gynhwrf cyffredinol trwy Ewrop, ac a ddylanwadodd mor nerthol ar yr oes ganlynol, a Thomas Hobbes [Gwel HOBBES.] Nid ymddangosodd un gwaith pwysig ar athroniaeth, neu ar dduwinyddiaeth athronyddol, yn niwedd yr unfed canrif ar bymtheg, nad oedd i fesur yn dwyn delw Hobbes, neu yn wrthdystiad yn ei erbyn. Yr oedd bywyd Cudworth yn wrthdystiad parhäus yn ei erbyn. Dim cynt yr ymddangosodd y braslun cyntaf o athroniaeth Hobbes yn Paris, a hyny mewn dull dirgelaidd, nag y dechreuodd Cudworth ryfel yn ei erbyn, yr hwn a barhaodd am y deugain mlynedd y bu fyw. Ei waith mawr a elwir yr *Intellectual System of the Universe*, yr hwn a gyfansoddwyd yn erbyn atheistiaeth Hobbes, gyda'r amcan uniongyrchol o brofi rhyddid a chyfrifoldeb dyn. Dosbartha elynion rhyddid i dri dosbarth, y rhai sydd y naill mor beryglus a'r llall yn eu gwrthwynebiad i gyfrifoldeb a gwir foesoldeb: — Yn gyntaf, Y rhai sydd yn priodoli pob peth i gydgyfarfyddiad damweiniol rhyw fân ronynau o ddefnydd; ac o ganlyniad, a edrychant ar y byd a phob peth sydd ynddo yn gweithredu fel peiriant—o angenrheidrwydd. Ac heb law gwadu rhyddid dyn, gwadant hefyd fod Duw, a phob math o fodau ysbrydol. Y mae y rhai hyn yn atheistiaid pur. Yn ail, Y rhai sydd yn addef fod Duw, ond a haerant nad oes iddo ddim priodoliaethau moesol; ac hefyd, ei fod yn ddarostyngedig i dynged neu angenrheidrwydd haiarnaidd. Yn drydydd, Y rhai sydd yn addef fod Duw, a bod iddo briodoliaethau moesol, ond a honant fod dyn, yn ei holl weithrediadau, dan ddeddf angenrheidrwydd. Ni bu Cudworth byw i orphen ei waith. Y mae ei *Intellectual System* yn unig yn erbyn y dosbarth cyntaf. Yn ei waith a elwir *Immutable Morality* (=moesoldeb anghyfnewidiol), mae yn profi fod cyfiawnder ac anghyfiawnder—da a drwg—yn dragwyddol ac anghyfnewidiol wrthwynebol i'w gilydd, yn erbyn yr ail ddosbarth, y rhai a honent fod y cwbl yn seiliedig ar ewyllys y Creawdwr. Nid ysgrifenodd yn erbyn yr olaf, y Stoiciaid, y rhai ydynt yn gwadu fod dim gwahaniaeth rhwng rhagluniaeth a deddfau angenrheidrwydd. Y mae y "Gyfundrefn Ddeallawl" yn drysordy o wybodaeth am syniadau a dadleuon yr athronwyr henafol, heb fod yn ddiffygiol chwaith mewn arwyddion o rymusder ac annibyniaeth meddwl. Y bai a roddir yn ei erbyn ydyw, ei fod yn rhy ddysgedig. Gellir crynhoi ei gyfundrefn foesol i ychydig frawddegau. Gwadai Hobbes fod y gwahaniaeth rhwng drwg a da yn wirioneddol, am nad allem ganfod y gwahaniaeth â synwyrau y corff, ac am fod pob gwybodaeth ddynol yn gynnwysedig yn y cyfryw ganfyddiad. Cyfarfyddir ef gan Cudworth yn ei haeriad olaf; ac fe ddengys fod yn meddwl dyn syniadau nas gellir eu canfod â'r synwyrau. Yn mhlith y cyfryw y mae y syniad neu y teimlad o gyfiawnder a dyledswydd. Canfyddir y gwahaniaeth rhwng cam ac uniawn, mewn ystyr moesol, â rheswm. Ac mor fuan ag y mae dyn yn deall y geiriau, teimla y byddai yn anmhosibl i unrhyw allu wneyd yr un weithred yn gyfiawn ac yn anghyfiawn ar unwaith. Hanfodent yn dragwyddol yn yr unig fodd ag y mae yn bosibl i wirioneddau fod yn dragwyddol, sef yn y Meddwl Tragwyddol; ac y maent mor anghyfnewidiol a meddwl Duw.

Beirniadaeth Syr J. Mackintosh ar gyfundrefn Cudworth, ydyw, ei bod yn gosod gwahaniaethau moesol ar yr un tir a gwahaniaethau meintoniaeth a rhesymeg—yn bethau i'r *deall* yn unig—heb egluro eu perthynas â'r *ewyllys*. O'r braidd y mae Syr James yn gywir yn ei sylw arni; o herwydd llefaru y mae Cudworth am wahaniaethau moesol—am gyfiawnder a dyledswydd—ac o ganlyniad, am yr hyn sydd yn meddu awdurdod ar y gydwybod, a dylanwad ar yr ewyllys. Nid yw yn eglur fod Cudworth yn gwahaniaethu dim yn hyn oddi wrth Culverwel. Gwel CULVERWEL.

CULVERWEL, NATHANIEL. Awdwr sydd, ar gyfrif ei athrylith, ei ddysgeidiaeth, a'i hyawdledd, yn teilyngu adnabyddiaeth a chydnabyddiaeth llawer mwy cyffredinol nag y mae wedi gael hyd yma. Nid yw blwyddyn ei enedigaeth yn hysbys; ond bu farw yn 1650 neu 1651, a hyny pan yn lled ieuanc. Cafodd ei ddwyn i fyny yn Ngholeg Emanuel, Caergrawnt, ac yr oedd yn gydoeswr yno â'r dynion enwog a addurnasant y brifysgol hono yn niwedd yr eilfed canrif ar bymtheg, sef More, Spencer, Smith, Cudworth, &c., ac yn mhob ystyr yn deilwng o honynt. [Gwel CUDWORTH.] Mewn un peth, yr oedd Culverwel yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth y dynion hyn, sef yn ei ymlyniad wrth Galviniaeth a Phuritaniaeth. Efallai mai i'w safle neillduol yn mysg ei gydoeswyr y mae priodoli y ffaith o'i fod hyd yn hyn wedi bod mor anadnabyddus. Yr oedd ei dueddiadau llenyddol ac athronyddol yn ei gyssylltu â'r ysgrifenwyr uchod, er yn gwahaniaethu oddi wrthynt o ran ei syniadau duwinyddol; tra yr oedd ei feithriniad o grefydd ddofn ysbrydol yn ei ddwyn i gymdeithas â'r Puritaniaid, y rhai oedd yn amddifad o hoffder neillduol mewn ymchwiliadau athronyddol. Aeth John Howe i Brifysgol Caergrawnt dair blynedd neu bedair cyn marwolaeth Culverwel; ac y mae yn ddiau i'r duwinydd ieuanc deimlo oddi wrth ei ddylanwad ef yn llawn cymmaint ag oddi wrth neb oedd yno. Howe ydoedd bron yr unig un yn mhlith y Puritaniaid o

Digitized by Google

gyffelyb chwaeth a thuedd athronyddol, ac y mae argraff Culverwel i'w ganfod ar ysgrifeniadau y tywysog hwn yn mhlith duwinyddion Puritanaidd. Y mae Dr. John Brown, Edinburgh, wedi gwneyd gwasanaeth da trwy alw sylw at Culverwel, mewn argraffiad hardd o'i brif draethawd [*Goleuni Natur*], gyda rhagymadrodd gan y doethawr ei hun, a chyda thraethawd beirniadol gan John Cairns—un a adnabyddir cyn bo hir fel un o brif dduwinyddion yr oes bresennol, ac un a hynododd ei hun yn fawr yn nghyfarfod diweddar y Cynghrair Efengylaidd yn Berlin. Cyflwynir yma ychydig o syniadau Culverwel, yn ol y dosbarthiad a wneir o honynt yn y traethawd beirniadol. Sylwedd cyfres o bregethau o flaen y brifysgol, yn seiliedig ar air yn y Diarebion—"Canwyll yr Arglwydd"—yw y traethawd hwn; a cheir ynddo osodiadau neu syniadau pwysig ar holl brif gwestiynau athroniaeth a duwinyddiaeth. Dosberthir y rhai hyn i'w syniadau am *natur gwybodaeth—natur cydwybod*—a *natur ffydd* (*the theory of knowledge, the theory of conscience, and the theory of faith*). 1. Y mae ei olygiad am natur gwybodaeth yn cytuno â'r syniadau a dderbynir gan yr oes hon bron yn gyffredinol fel yn gywir, ond y cyfryw ag sydd wedi cael eu hennill trwy frwydrau celyd ar ol dyddiau Culverwel. Dau eithafoedd sydd ar y mater hwn: *yn gyntaf*, y rhai a ddywedant fod pob peth a deilynga yr enw gwybodaeth yn annibynol ar y synwyrau corfforol; *yn ail*, y rhai a ddywedant, o'r ochr arall, nad oes gan ddyn ddim gwybodaeth ond yr hyn sydd yn ffrwyth y cynneddfau hyn. Y mae traethawd Culverwel yn osgoi y ddau, gan roddi ei le priodol i ddodrefn gwreiddiol y meddwl, yn gystal ag i wasanaeth y synwyrau. Gwelir yn y dyfyniadau canlynol mor eglur y gesyd allan yr egwyddorion meddyliol ac ymarferol sydd yn rhan o gyfansoddiad ei feddwl:—"Y mae egwyddorion wedi eu hargraffu ar enaid dyn yn annileadwy, y rhai ydynt yn fath o syniadau gwyddorol, trwy uno pa rai y gall sillebu deddf natur." —"Y mae y dyfroedd bywiol o syniadau cyffredinol sydd yn tarddu o ffynnonell ei natur wedi eu bwriadu i ddyfrhau ei hanfod—i adfywio y planigyn nefol hwn. Ac er y gall drygioni dyn attal rhediad hyfryd a grisialaidd y ffrydiau hyn, ni ddichon iddo attal eu byrlymiad a'u tarddiad dechreuol. Dichon iddynt amddifadu natur o'i dail, tynu ymaith ei ffrwyth, a thori ymaith ei changenau; eto, y mae ei gwreiddyn yn dragwyddol, a'i sail y tu hwnt i bosiblrwydd niwed." —"Na feddyliwch fod deddf natur wedi ei chyfyngu o fewn cylch ychydig o syniadau; ond fel y mae yn gosod un troed i lawr yn y canolbwynt, y mae troelliad y llall yn ffurfio yr amgylchedd; y mae yn tynu amryw gasgliadau, y rhai sydd oll yn cyfarfod yn y canolbwynt, neu y syniadau cyntaf." Tra y mae y dyfyniadau hyn a'u cyffelyb yn dangos fod Culverwel yn edrych ar ein gwybodaeth yn tyfu allan o'r hyn sydd yn anweledig yn ein natur, yr hyn sydd yn ddyfnach na'n profiad; eto, y mae brawddegau ereill sydd yn gosod allan, gyda'r un eglurder, nad oedd ein hawdwr yn gwthio hyn mor bell a'r dynion yr ysgrifenai Locke yn eu herbyn, y rhai a ddywedent fod meddwl dyn yn dyfod allan o law ei Greawdwr fel llyfr o law yr argraffydd, â'i gynnwysiad yn ddarllenadwy ar wyneb ei dudalenau. I'r gwrthwyneb, dadleua ef fod yr egwyddorion a blanodd ein Creawdwr yn ein natur yn debyg i had wedi ei guddio yn y ddaiar, y rhai sydd yn gofyn dylanwadau profiad i'w dwyn i'r goleu. Gwawdia syniad Plato—ein bod wedi hanfodi mewn byd o flaen hwn, a'n bod yn dyfod â gwybodaeth gyda ni yn barod wrth law; ac mewn geiriau hapus, dengys y gwir a'r gau sydd yn yr athrawiaeth hon. "Yr oedd y Platoniaid yn hyn i'w cymmeradwyo—eu bod yn edrych ar ysbryd dyn fel canwyll yr Arglwydd, er eu bod mewn camgymmeriad am yr amser y cafodd ei goleuo." Gesyd allan hanfod athrawiaeth Locke am adfyfyriad (*reflection*) fel ffynnonell wahaniaethol syniadau neu ddrychfeddyliau:—"Nid oes un goleuni cynnwynol arall yn ganwyll yr Arglwydd heb law *gallu ac egwyddor gwybodaeth ac ymresymiad*." Yn y geiriau canlynol, ceir sylwedd ymosodiad Locke yn erbyn drychfeddyliau cynnwynol (*innate ideas*), heb y duedd unochrog sydd ynddo ef:—"A oedd y fath syniadau yn eich meddiant pan yr ysbiasoch gyntaf i fod, ar agoriad cyntaf llygaid yr enaid, yn rhagdraeth cyntaf mabandod? A oeddynt yn eich meddiant yn y cryd? ac a siglwyd hwynt i gysgu gyda chwi? neu a fuoch y pryd hwnw yn myfyrio ar yr egwyddorion hyn —'Y mae yr oll yn fwy na'r rhan;' ac, 'Nis gall peth fod a pheidio bod ar unwaith?' Na ddywedwch wrthym nad oedd genych beiriannau corfforol cymhwys; byddai hyny yn addefiad mai trwy y ffenestri hyn y mae pob gwybodaeth yn dyfod i mewn. Pa ham na buasai eich canwyll yn eich goleuo yn flaenorol? Pwy a gadwynodd ac a garcharodd eich meddylddrychau cynnwynol?" —"Y mae amser yn angenrheidiol i ddeddf natur gael ei chyhoeddi gan lais rheswm. Rhaid cael amser i sillebu y ddeddf a ysgrifenwyd gan reswm ar ein natur. A chan fod y meddwl yn ymgodi i feddiant teimladwy o'i gyfoeth mor raddol, rhaid fod gwir darddiad gwybodaeth yn dechreu gyda sylwadaeth ar, a chymhariaeth o, wrthddrychau, a thrwy gasgliad yr egwyddorion ag sydd yn deilwng o bob derbyniad—y cyfryw ag sydd yn meddu y fath sicrwydd ynddynt eu hunain ag a bar i chwi feddwl fod yn afreidiol eu gwisgo mewn geiriau." Yn yr holl ddyfyniadau hyn gyda'u gilydd, ymddengys fod Culverwel yn gweled yn eglur y gwahaniaeth rhwng yr hyn a eilw Cousin (athronydd enwog sydd yn awr yn fyw) yn darddiad *rhesymegyddol* ein gwybodaeth, a'i tharddiad *amseryddol* (*logical and chronological*).

Gosodir allan sail *sicrwydd* ein gwybodaeth yn yr anmhosiblrwydd o feddwl o gwbl heb ganiatäu yr egwyddorion cyntaf hyn:—"Nid yw y synwyrau ond porth sicrwydd—y deall yw ei orseddfainc. Tybiodd Descartes, yr athronydd Ffrengig, nad oedd genym ddim sicrwydd ond hyn—ein bod yn meddwl ein bod yn meddwl (*thinking that he thinks*): pa ham na ddywedasai mai meddwl ein bod yn gweled yr ydym, ac nid bod yn sicr? A pha ham na allasai gael ei dwyllo yn hyn fel mewn gweithrediadau ereill? Ac os ydyw meddwl ein bod yn meddwl yn arwain i sicrwydd, oni fyddai rhedeg yn ol gam yn mhellach, a dyweyd, fod meddwl ei fod yn meddwl ei fod yn meddwl yn chwanegu at y sicrwydd; ac wrth redeg yn ol yn ddiddiwedd yn y mold hwn, dylai fod ganddo fwy o sicrwydd, er na byddai ganddo ddim, ond fe erys mewn ammheuaeth anobeithiol am bob peth. Ond wedi i ni chwalu y noddfeydd celwydd hyn, nid oes dim yn aros ond yr egwyddorion cyntaf — y syniadau cyffredinol (*common notions*), gyda'r canlyniadau angenrheidiol sydd yn ffrydio o honynt—fel giau a bywyd sicrwydd; a'r hwn ni fyn angori ar y rhai hyn, sydd yn ei gondemnio ei hun i ammheugarwch bythol." Y mae y dyfyniad hwn, er nad yn deg

Digitized by Google

tuag at Descartes, eto yn cynnwys mewn modd eglur egwyddor sylfaenol yr athroniaeth Ysgotaidd.

II. Rhoddwn ychydig frawddegau i ddangos ei syniadau am gydwybod, yn ei hystyr eangaf, neu foesoldeb. Y mae Culverwel mor gywir ar hyn ag ydyw am darddiad gwybodaeth, a sail sicrwydd, er nad yw mewn modd mor hynod yn rhagflaenu ymchwiliadau athronyddol oesoedd dilynol.

Y mae yn gosod sylfaen moesoldeb yn y natur ddwyfol. "Hanfod Duw ydyw gwaelod a sylfaen sicr pob deddf."—"Nid yw y ddeddf dragwyddol hon yn wahaniaethol oddi wrth Dduw, o herwydd nis gall dim fod yn dragwyddol ond Duw ei hun. Felly, y mae yn gyffelyb i'w fwriadau a'i ragluniaeth, yr hon sydd wedi deffro er tragwyddoldeb."—"Fel yr ydym yn esgyn at y Bod cyntaf a goruchel, ar hyd grisiau ail achosion, felly gallwn ddringo i olwg y ddeddf dragwyddol hon ar hyd cangen ffrwythlawn ail ddeddfau, y rhai y mae eu gwraidd yn y nefoedd, er eu bod yn ymddangos yn y ddaiar, ac i amrywio ychydig ar ymadroddion yr apostol, 'Y mae deddf anweledig Duw, yr hon oedd yn mhell cyn creadigaeth y byd, yn awr i'w gweled yn eglur, wrth ei hystyried yn y deddfau a welir.'"—"Doethineb a gallu ydynt brif elfenau deddf; yn awr, yn mha le y mae doethineb a gallu yn trigo ond yn y Duwdod? O'r ddeddf dragwyddol hon y mae pob rhyw ddeddf ddynol yn tynu ei rhinwedd yn wreiddiol ac yn y pen draw."—Etyb yr wrthddadl nas gall moesoldeb hanfodi yn natur Duw, o herwydd nas gall hanfodi yn dragwyddol yno fel deddf, trwy wahaniaethu rhwng y rheswm dwyfol a'r ewyllys ddwyfol:—"Ordeiniad tragwyddol ydyw, wedi ei llunio, yn nyfnderoedd anfeidrol ddoethineb a chynghor Duw, i lywodraethu yr holl fyd—yr hwn nid oedd yn rhwymo Duw ei hun, am fod ganddo ef ryddid llawn a diattalfa ar ei hanfod ei hun; yr hwn sydd mor anfeidrol fel nas gall ei rwymo ei hun; ac nid yw yn sefyll mewn angen am ddeddf, gan fod pob daioni a pherffeithrwydd mor hanfodol ynddo. Ond am y creadur, y mae y ddeddf hon yn ei rwymo ef:—y creadur direswm, trwy ei nerthol ogwyddo (*fortiter inclinare*); y creadur rhesymol, trwy roddi rhwymedigaeth ffurfiol arno (*formaliter obligare*)."

Y mae rhwymedigaeth foesol yn dibynu ar ewyllys Duw. Yn fynych, ceir dynion yn dangos allan resymoldeb a chyssondeb deddfau, heb olrhain eu rhinwedd i rwymo dyn i ewyllys Hollalluog. Dywed Culverwel am Plato, "Nid yw yn gosod pwys digonol ar yr hyn sydd yn rhwymo mewn deddf, yr hyn yn wir ydyw ei bywyd a'i henaid."—"Nid deall, ond ewyllys y deddfroddwr sydd yn gwneyd deddf."—"Eisteddle cynlluniau (*ideas*) tragwyddol Duw ydyw ei ddeall; ond y mae deddf yn cael ei rhinwedd a'i nerth o ewyllys Duw."—Y mae ei holl athrawiaeth ar hyn yn gynnwysedig yn y geiriau canlynol: — "Yn llywodraeth y natur ddynol, y mae cydgordiad gweithredoedd â rheswm yn sail ddigonol i adeiladu deddf arni; ond nid y ddeddf ei hun ydyw, ac nid yw yn cyfansoddi rhwymedigaeth ffurfiol."

III. Cynnwysa ei draethawd syniadau clir *ar berthynas ffydd â rheswm.*

Bwriadodd ysgrifenu gwaith eangach ar hyn. Nid ydyw ei draethawd ar *Oleuni Natur* ond rhagymadrodd maith i'r gwaith bwriadedig; yn yr hwn yr amcanai ddangos—yn gyntaf, "Fod yr holl ddeddf foesol yn seiliedig ar oleuni natur a rheswm;" ac yn ail, "Nad oes dim yn nirgeledigaethau yr efengyl yn wrthwynebol i oleuni rheswm." Ni ysgrifenwyd y gwaith hwn: ond yn y traethawd presennol, y mae y fath wreiddiolder a doethineb, fel na raid ofni ei gymharu, mor bell ag y mae yn myned, â dim a gyhoeddwyd ar y mater hwn yn ddiweddarach.

Fel y canlyn y mae rhai o'i brif osodiadau ar hyn:—*Y mae gwirioneddau priodol ffydd yn anghanfyddadwy gan reswm.* "Pe gallasai meibion dynion dynu allan a chrynhoi holl reswm y greadigaeth ddynol ac angelaidd, a pheri iddo ymgyfarfod a gweithredu mewn un pen, eto nid allai ysbïo allan y fath ragoriaethau dirgelaidd a dwfn ag sydd yn ymddangos i ffydd, ar un agoriad o'i hamrant." Nis gall rheswm, chwaith, gyrhaedd trwy ffordd o'i heiddo ei hun at wirioneddau ffydd, hyd yn oed ar ol iddynt gael eu dadguddio:—"Mi a wn fod rhai awduron, o deilyngdod a dysgeidiaeth mawr, yn ymdrechu profi, er nad all rheswm ddarganfod gwirioneddau dadguddiedig, eto, wedi iddynt gael eu dadguddio, y dichon i reswm eu profi yn ei lwybr ei hun. Ond gwell genyf fi ogwyddo i farn Aquinas, a lluaws sydd o'r un farn ag ef—nad yw rheswm, wedi ymestyn i eithaf ei allu, mewn un modd yn gymmesur â hwynt, ac nas gall roddi ond rhyw eglurhadau neu gysgodau gwanaidd o honynt. Ni buont erioed yn erbyn rheswm, ond bob amser uwch law rheswm."

Derbyniad tystiolaeth Duw ydyw ffydd; a hyn, yn fwy anuniongyrchol, ar sail prawf allanol; ond yn uniongyrchol, trwy ei goleuni ei hun, fel y canfyddir ef trwy ras. Derbyn tystiolaeth Duw ydyw ffydd:—"Llais natur ei hun ydyw, fod yn rhaid i bob peth a ddadguddia Duw fod yn wir; a'r egwyddor gyffredinol hon ydyw gwaelod a sail ffydd i adeiladu arno. Nid yw yr enaid yn dymuno boddhâd uwch nag 'felly y dywedodd Duw;' ac os dywedodd efe, pwy a all ammheu? pwy a faidd wrthddywedyd? Gan fod Duw yn wirionedd ei hun—gwirionedd tragwyddol ac anghyfnewidiol, a'i air ef yn gludydd gwirionedd (*vehiculum veritatis*), a phob dadguddiad sydd yn dylifo oddi wrtho ef yn dysgleirio gan arwyddion a llygadenau sicrwydd—y mae ei air noeth yn brawf." Yn mhlith yr arwyddion hyn o sicrwydd, y mae prawf allanol yn cael yr ail le:—"Nid yw Rhagluniaeth wedi cadw rhagom foddion allanol, y rhai a chwanegwyd, trwy ddaioni a gallu Duw, yn seliau wrth ei air (*sigilla verbi*)—sef gwyrthiau; y rhai ydynt yn wasanaethgar i ffydd ar y cyfrif hwn—eu bod hwy uwch law gallu naturiol, fel y mae gwirioneddau dadguddiedig uwch law deall naturiol."

Eto, nis gellir dywedyd fod tystiolaeth Duw yn cael ei derbyn trwy ffydd ar sail prawf allanol, neu wyrthiau; hyny yw, nid yw ffydd yn bod, hyd nes y byddo i oleuni mewnol yr athrawiaeth dywynu i'r enaid:—"Er fod gwyrthiau yn nerthol, nid ydynt bob amser yn effeithiol.....sel yr Ysbryd yn unig sydd yn gwneuthur argraff arosol ar y galon; yr hwn sydd yn ysgrifenu ei air ar lech y galon gyda phelydr o oleuni anorchfygol, yr hwn sydd yn treiddio trwy cysgod a chwmwl."

Y mae ffydd yn gysson â rheswm, ac mor bell oddi wrth ei gwneuthur yn afreidiol fel y mae yn gofyn ei gweithrediad parhäus:—a hyny i ddangos yr angenrheidrwydd am ddadguddiad; i bwyso y prawf dros ddadguddiad; i gynnorthwyo yn neongliad dadguddiad; ac i gyssoni ac amddiffyn athrawiaethau dadguddiad. Mae y dyfyniadau

Digitized by Google

hyn eisoes mor faith, fel nas gellir eu chwanegu yma. Ond y maent mor bwysig ac mor gywir, fel y teilyngant yr ystyriaethau dwysaf. Y mae y traethawd beirniadol yn chwanegu yn fawr at werth y traethawd, trwy y dosbarthiad uchod o'i gynnwysiad. Y mae amryw bregethau o waith yr awdwr, nad ydynt yn gynnwysedig yn yr argrafflad hwn.—(*Culverwel's Light of Nature;* edited by Dr. John Brown. Edinburgh, 1857.)

CWARTUS, [Ll., *Quartus=y pedwerydd;* Gr., Κούαρτος]: Cristion trigiannol yn Corinth; ac, wrth ei enw, ymddengys mai Rhufeiniad oedd—cyfarchiadau yr hwn at eglwys Rhufain a ddanfonodd Paul yn ei epistol at yr eglwys hono: *Rhuf.* xvi. 23. Dywedir mewn hen lyfrau eglwysig ei fod yn un o'r deg dysgybl a thrigain; yr hyn sydd yn gwbl annhebyg. Yr un awdurdod sydd yn haeru iddo fod yn esgob eglwys yn Berytus.

CWCWLL, CYCYLLAU, [Ll., *cucullus*]: math o benwisg oedd y cwcwll, meddai Charles; a rhydd ef *cwl, cwff, penguwch,* a *penwisg,* fel geiriau cyfystyr iddo. Ceir y gair yn *Dan.* iii. 21; "Yna y rhwymwyd y gwŷr hyny (Sadrach, Mesach, ac Abednego) yn eu peisiau, eu llodrau, a'u *cycyllau.*" "Yn eu mentyll, eu *penwisgoedd* (*turbans*), eu huganau, a'u tanhuganau."—*Parkhurst.* "Yn eu mentyll, eu *penwisgoedd,* eu huganau, a'u dillad ereill."—*Boothroyd.* "Efallai fod y geiriau a gyfleithir yma yn *beisiau, llodrau,* a *chycyllau,* yn golygu rhyw arwyddion o anrhydedd, ac nid un rhan o wisgoedd cyffredin."—*Harmer.*

CWHWFAN, CYHWFAN, [כפה]· ysgwyd, gogrynu, chwyfanu: *Exod.* xxix. 24, 27; *Lef.* vii. 30; viii. 27; ix. 21; x. 15; xxiii. 11, 20; *Num.* v. 25; vi. 20. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig, meddai Fawkes, yr ysgydwid offrwm y cyhwfan i fyny ac i lawr, a thua'r dwyrain, y gorllewin, y gogledd, a'r de, i arwyddo fod gan yr Hwn sydd yn llenwi pob gwagle, hawl i bob peth; tra nas gwneid ond cyfodi yr offrwm dyrchafael tua'r nef yn unig, er dangos ei fod yn cael ei gyflwyno i Dduw. Gan fod yr offrwm cyhwfan yn cael ei symmud yma a thraw, ebe Clarke, a'r offrwm dyrchafael i fyny ac i lawr, dychymygodd Houbigant fod y symmudiad dyblyg yma yn arddangosiad o "lun y groes," ar yr hon y cafodd yr heddaberth mawr rhwng Duw a dyn ei offrymu, yn aberthiad personol ein Gwaredwr bendigedig.

"Cyhwfaned yntau yr ysgub:" yn hytrach, yr *omer,* ebe Scott, megys ar ymyl y ddalen. Tybir mai haidd wedi ei fedi a'i grasu wrth y tân, a'i wneyd yn beilliaid coeth ydoedd, digon i lenwi omer, yr hwn a offrymid bob blwyddyn yn enw yr holl genedl, ar ol iddi gael meddiant o Wlad Canaan, gydag aberth, a bwyd-offrwm, a diod-offrwm. Yr un gair Hebraeg ag a gyfleithir yn y manau a nodwyd yn *gyhwfan,* a gyfleithir yn *Esa.* xiii. 2, yn *ysgwyd llaw:*—"Dyrchefwch faner ar y mynydd uchel, dyrchefwch lef atynt, ysgydwch (cyhwfenwch) law, fel yr elont i fewn pyrth y pendeflgion." Yn *Esa.* xxx. 28, cyfleithir yr un gair fyth yn *nithio:*—"Ei anadl hefyd, megys afon lifeiriol, a gyrhaedd hyd hanner y gwddf, i nithio (cyhwfan) y cenedloedd â gogr oferedd." Ystyr y gair, ebe Charles, yw estyniad allan—estyniad megys y gwneir wrth gynnyg neu roddi rhywbeth. Yn *Num.* viii. 11, ymddengys fod i'r gair ystyr eto cwbl wahanol:—"Ac offrymed (ymyl y ddalen, cyhwfaned) Aaron y Leflaid ger bron yr Arglwydd, yn offrwm (Heb., offrwm cyhwfan) gan feibion Israel, fel y byddont hwy i wasanaethu gwasanaeth yr Arglwydd." Y cyhwfan yn yr adnod hon, medd Ainsworth, a ddeonglir trwy y cyfleithiad Groeg, *neilldno:*—yr un gair Groeg ag a ddefnyddir yn *Act.* xiii. 2 am neilldno Barnabas a Saul i'r gwaith y galwyd hwynt iddo, ac a ddefnyddir hefyd yn *Rhuf.* i. 1: ac â hyn hefyd y cytuna ein cyfleithiad ni o *Num.* viii. 14; "A neilldua y Leflaid o blith meibion Israel."

CWMIN, [כמון; Gr., κύμινον; Ll., *cumminum;* Seis., *cumminu*]: math o blanigyn ffedonawg (*umbelliferous*), y crybwyllir am dano yn yr Hen Destament a'r Newydd; ac, fel yr anis a'r coriander, a amaethir yn ngwledydd y dwyrain yn awr fel yn yr amser gynt. Y mae y rhai hyn yn debyg i'r anis a'r carwas; a defnyddir hwy yn y dwyrain i'r un dybenion ag y defnyddir y lleill yn Ewrop. Y mae yr holl blanigion hyn yn dwyn ffrwyth, a elwir yn gyffredin hâd, y rhai sydd yn llawn olew myreddol (*essential oil*), o flas mwy neu lai dymunol, ac o natur dwymol gynhyrfiadol; am hyny, defnyddid hwy yn yr hen amseroedd, megys yn awr, mewn cyffeithiau ac yn feddyginiaeth. Yna, ceir fod Hippocrates a Dioscorides yn crybwyll am danynt dan yr enw κύμινον (*cyminon*). Y mae yr ysgrifenydd olaf yn eu dosbarthu yn wahanol rywiau, y penaf o'r sawl a eilw efe ἥμερον (*hemeron*), neu *sativum;* y rhai a ddysgrifia yr Arabiaid, gan ddilyn Dioscorides, dan yr enw *kumoon baghee* = gardd yn cynnyrchu cwmin. Y mae yr enw Arabaeg, *kumon,* yn rhy debyg i'r Hebraeg *cammon,* i beri i ni ammheu eu hunrhywiaeth, yn enwedig gan y canfyddir y gair Groeg κύμινον yn cael ei ddefnyddio mor fore ag amser Hippocrates.

Dar. 212.

Crybwyllir am y cwmin gyntaf yn *Esa.* xxviii. 25; "Ond wedi iddo (yr arddwr) lyfnhau ei wyneb, y taena efe y ffacbys, ac y gwasgar y *cwmin:*"—yr hyn sydd yn dangos yr amaethid hwy yn helaeth y pryd hyny yn y dwyrain, megys ag yn y dyddiau hyn hefyd, ac hyd yn oed cyn belled a'r India. Amaethir hwy hefyd i ryw raddau yn neheudir Ewrop. O Malta a Sicily, gan mwyaf, yr anfonir adgyflenwad o honynt i Loegr. Crybwyllir eilwaith am y cwmin yn *Eso.* xxviii. 27; "Canys nid âg ôg y

Digitized by Google

dyrnir ffacbys, ac ni thröir olwyn men ar *gwmin;* eithr dyrnir ffacbys â ffon, a *chwmin* â gwialen." Mae hyn yn dra phriodol, gyda golwg ar ffrwyth y cwmin cyffredin, yr hwn y gellir ei wahanu oddi wrth y callod, pan y bydd yn addfed, â'r cyffyrddiad lleiaf braidd, ac a lwyr ddyfethid pe tröid olwyn men arno—yr hon a yssigai yr hâd, ac a wasgai allan yr olew sydd yn cynnwys prif rinwedd y llysieuyn.

Yn y Testament Newydd, y crybwylliad a geir am gwmin sydd yn *Mat.* xxiii. 23, lle y mae ein Iachawdwr yn bygwth yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid, y rhai a ddegyment "y mintys, a'r anis, a'r *cwmin,*" ond a esgeulusent bethau trymach y gyfraith. Dywedir yn y *Talmud* fod y cwmin yn un o'r pethau a ddegymid yn rheoleidd.—(*Kitto's Cyc. of Bib. Lit.; Eadie's Bib. Cyc.; Calm. Dict.,* &c.)

CWMWL, CYMYLAU, [כּוּף; Gr., νέφος], yw lleithder yn tarthu o'r ddaiar, ac yn cyttewychu mewn rhan drachefn yn mharthau uchaf yr awyr. Gwahaniaetha cymylau oddi wrth niwl, trwy yr ymgyfyd y blaenaf uwch ein penau, tra y mae yr olaf mewn cyssylltiad â gwyneb y ddaiar. Yr achos yr ymnofia cymylau mor rwydd yn yr awyr ydyw, y gwneir hwynt i fyny o ddefnynau pur fychain, a elwir chwysiglenau (*vesicles*), y rhai, gan eu bod yn ysgafnach na'r awyr, a ymnofiant ynddo yn uchel.

Amrywia cymylau o ran dwysder, uchder, a lliw. Y prif achos o amrywiaeth yn y cymylau a'r niwl ydyw, cyfnewidiadau y gwynt; ac y mae gan amgylchiadau lleol hefyd gryn effaith ar ffurf cymylau. Pan chwytho cerhynt o wynt oer, tewycha tarth anweledig yr awyr, nes yr ymffurfia yn gwmwl neu wlaw; ond pan chwytho cerhynt o wynt cynhes, gwasgar y cymylau trwy sugno eu tarth: am hyny, y gwledydd mwyaf cymylog ydyw y rhai y mae y gwynt yn fwyaf cyfnewidiol ynddynt, megys Prydain; a'r rhai mwyaf digwmwl, wrth gwrs, yw y rhai y mae y gwynt yn fwyaf sefydlog ynddynt, megys yr Aipht. Y mae pellder cymylau oddi wrth y ddaiar yn dra amrywiol. Y mae rhai cymylau teneuon goleu yn uwch na phenau y mynyddoedd uchaf, tra y mae rhai trymion yn cyffwrdd â brigau y coed, penau y tai, ac hyd yn oed â'r ddaiar; ond eu huchder cyffredin yw milltir neu ddwy. Y mae cymylau rhesenog crychlyd, tebyg i flew, yn bump neu chwe milltir o uchder yn fynych. Y cymylau isaf ydynt y rhai mwyaf trydanol (*electrified*): anfynych y mae cymylau melltenog yn uwch nag o gylch 700 llath; a bydd eu hymylau yn fynych yn cyffwrdd â'r ddaiar. Y mae maint cymylau yn dra amrywiol: y mae rhai yn ugain milltir ysgwâr o arwynebedd, a thros filltir o drwch; tra y mae ereill heb fod ond ychydig latheni neu fodfeddi. Y mae tri pheth yn peri bod amrywiaeth yn ffurf cymylau:—achos a dull eu ffurfiad, eu sefyllfa drydanol, a'u perthynas â cherhyntoedd y gwynt. Effeithia trydaniaeth ar ffurf cymylau, trwy yr attyna rhai trydanog a didrydan y naill at y llall, gan gydymuno, lleihau yn eu maint, neu lwyr ddiflanu. Y cymylau a gymmerant y ffurfiau mwyaf afreolaidd a digrif yw y rhai mwyaf trydanol. Effeithia gwyntoedd ar y cymylau naill ai trwy eu dyhysbyddu yn llwyr, chwanegu eu maint a'u dwysder, neu newid sefyllfa rhanau o honynt. Try gwyntoedd cynhes, sych, sylwedd y cymylau yn darth anweledig, yr hwn a gariant ymaith yn eu cerhynt eu hun. Tewycha cerhyntoedd oerion o wynt darth anweledig yr awyr, a chyssylltant ef â'r cymylau y delont i gydgyffyrddiad â hwynt; ac felly, chwanegant at swm a dwysder y cymylau. Y mae y cymylau mor hydreigl ac ysgeifn, fel y newid pob chwa o wynt eu chwysiglenau neu ddyfrglochau; yr hyn a bair newidiad yn ffurf y cymylau, trwy newid rhanau o honynt yn y dull yma.

Lliw mwyaf cyffredin y cymylau, tra byddo yr haul uwch law y terfyngylch, yw gwyn neu lwyd; ond ar godiad a machludiad haul, byddant yn goch, melyn-goch, a melyn. Yr achos fod cymylau olaf yr hwyr a chyntaf y bore o liw coch yw, am fod pelydr cochion—gan eu bod yn llai attoradwy na'r rhai melyn neu las—yn aros yn hwy yn y golwg, fel y try wyneb y ddaiar oddi wrth yr haul; ac, am y deuant yn gynt i'r amlwg, o blegid yr un peth, na'r rhai melyn neu las, fel y try wyneb y ddaiar at oleuni y dydd. Yr achos na byddai lliw y cymylau yr un fath bob amser ydyw, o blegid fod sefyllfa yr awyrgylch yn newid yn barhäus—megys hefyd y mae maint, dwysder, a sefyllfa berthynol y cymylau gyda golwg ar yr haul—fel mai y lliw yma a adlewyrcha weithiau, ac un arall bryd arall.

Rheoleiddir symmudiad y cymylau yn benaf gan y gwynt; ond weithiau, dylanwadir ar eu symmudiad gan drydaniaeth; o blegid hyn, ceir gweled cymylau bychain, ar dywydd tawel, yn cyfarfod eu gilydd yn fynych o ddau bwynt gwrthwynebol; ac wedi iddynt arllwys eu gwrthdrydanau i'w gilydd, diflanant yn llwyr.

Trefnir cymylau yn gyffredin yn dri dosbarth; sef, y *syml,* y *cyfryngol,* a'r *cyfansawdd.* Ail ddosberthir cymylau syml, yn *grych-gymylau,* yn *grym gymylau,* ac yn *gymylau taen.* Y rhai a elwir yn grych-gymylau (*cirrus*) yw y rhai sydd debyg i lin, blew rhyddion, neu resenau teneuon; a'r rhai hyn, fel y crybwyllwyd eisoes, sydd yn ymddyrchafu uchaf o'r cwbl yn yr awyr. Pan ymddengys crych-gymylau, ni bydd ond ychydig leithder yn yr awyr, a thewycha hwnw yn arafaidd yn mharthau uchaf yr awyrgylch; yr hyn a arwydda dywydd hyfryd. Crym-gymylau (*cumulus*) ydynt dalpiau, tebyg i dorthau sugr mawrion, colofnau o fwg, neu fynyddoedd yn ymgodi ar fynyddoedd. Pan yr ymddengys y cludeiriau cymylau hyn yn wlanog, ac yn nofio yn erbyn y gwynt, arwyddant wlaw; ond pan ymddengys eu hamlinell yn galed, ac yr chedant gyda'r gwynt, arwyddant dywydd hyfryd. Y cymylau taen (*stratus*) ydynt fath o niwl ymlusgiadol, sydd yn dra chyffredin ar fin nos yn yr haf. Cyfyd y cymylau hyn yn wastad ar fachlud haul mewn lleoedd isel, gwlyb; ac y maent yn nes i'r ddaiar bob amser nag un math arall o gymylau. Yr hyn a gynnyrcha grych-gymylau ydyw, lleithder mewn ffurf weledig yn ymwaddodi yn mharthau uchaf yr awyrgylch, oddi wrth gerhyntoedd disgynedig o awyr twym. Yr hyn a bair grym-gymylau yw, pentyrau o niwl gweledig yn myned o'r lleoedd yr ymffurfiasant ynddynt i leoedd ereill, lle y byddant naill ai ar ymchwalu neu ar ymwaddodi fel gwlaw disgynedig. A'r cymylau taen a gynnyrchir gan 'welyau o leithder gweledig, wedi eu ffurfio gan ryw effeithiau oerion, yn gweithredu ar hyd uniawn arwynebedd y ddaiar.

Adrenir y cymylau cyfryngol yn ddau fath—*crychgrymol* a *chrychdaenol.* Cymylau crychgrymol (*cirro-cumulus*) ydynt rai yn tarddu o'r canolbwynt braisg; neu glampiau trymion, yn cael eu hymylu gan resenau hirion, a elwir yn

Digitized by Google

gyffredin "clorenau cesyg." Y mae y rhai hyn yn gyffredin yn arwyddo sychder parhäus, neu dywydd poeth sych. Y cymylau crychdaenol (*cirro-stratus*) a gyfansoddir o'r hyn a elwir yn gyffredin "macrell-wybr." Y mae y dosbarth yma o gymylau bob amser yn arwyddo gwlaw a gwynt. Yr hyn a gynnyrcha gymylau crych-grymol yw crym-gymylau yn ymddattod ac yn ymnewid i'r dull crych; a'r hyn a bair y cymylau crychdaenol yw crych-gymylau yn ymdyru yn dalpiau dwysach.

Adrenir cymylau cyfansawdd hefyd yn ddau fath; sef *crymdaenol* a *gwlaw-gymylau*. Cymylau crymdaenol yw y rhai a gymmerant bob math o ffurfiau anferth ac amrosgo; megys, tyrau a chreigiau mawrion, morflod a dreigiau, tremfrwydrau, a'r cyffelyb. Dyma y dosbarth mwyaf aruthrol ac anghyffredin o'r cwbl. Y mae y rhai hyn yn wastad yn rhagflaenu newidiad tywydd, naill ai o dywydd hyfryd i un gwlawog, neu o wlawog i un hyfryd. Gwlaw-gymylau (*nimbus clouds*) yw yr holl rai dyfrllyd y ceir gwlaw o honynt. Prif nodwedd y cymylau hyn yw eu diffyg o amlinell bendant a therfynol. Ymlithra eu hymyl yn raddol o fod yn dalp dyfnllwyd i dryloewder. Y mae i'r cymylau dri o ddybenion arbenig:—gwasanaethant fel cysgodleni i attal pelydriad poethder oddi wrth y ddaiar, tymmerant boethder pelydr yr haul, a hwynt-hwy ydyw ystordai mawrion y gwlaw.

Rhaid deall y cyfeiriadau at gymylau sydd yn yr Ysgrythyr, cystal a'u defnydd, mewn iaith ffugrol, yn eu perthynas â natur hinsawdd lle nad yw y wybr yn dangos cymmaint ag ol cwmwl braidd o ddechreu Mai hyd ddiwedd Medi; yn ystod pa amser y mae cymylau yn ymddangos mor anaml, a'r gwlaw yn disgyn mor anfynych, fel yr ystyrid hwy yn argoelion; megys ag y bu gyda golwg ar wlaw y cynauaf y gweddiodd Samuel am dano (1 *Sam.* xii. 17, 18); ac megys y cwmwl bychan, heb fod yn fwy na chledr llaw gŵr, ymddangosiad yr hwn yn y gorllewin y sylwyd arno yn ebrwydd fel rhywbeth nodedig, nid yn unig ynddo ei hun, ond fel rhagflaenydd sicr gwlaw: 1 *Bren.* xviii. 44.

O blegid bod cymylau yn y fath hinsoddau yn adfywhaol, yn gorchuddio ysblander llethol yr haul, fe'u defnyddir yn fynych i arwyddo y presennoldeb dwyfol, megys yn dynodi dysgleirdeb y gogoniant hwnw, sydd annyoddefol i ddyn, a guddir ganddynt mewn rhan neu yn hollol: *Exod.* xvi. 10; xxxiii. 9; xxxiv. 5; xl. 34, 35; *Num.* xi. 25; *Iob* xxii. 14; *Salm* xviii. 11, 12; xcvii. 2; civ. 3; *Esa.* xix. 1; *Mat.* xvii. 5; xxiv. 30, &c.; *Act.* i. 9; *Dad.* i. 7; xiv. 14, 16. Cyffelyb, hefyd, ydyw y troellymadrodd a wna y cymylau yn arwyddion o'r gallu dwyfol: 2 *Sam.* xxii. 12; *Salm* lxviii. 34; lxxxix. 6; civ. 3; *Nahum* i. 3.

Y mae cymylau, hefyd, yn arwydd o fyddinoedd a llu o bobl: *Ier.* iv. 13; *Esa.* lx. 8; *Heb.* xii. 1. Eglurir hyn yn fynych yn bur gelfyddydol trwy ddyweyd fod cymylau wedi eu cyfansoddi o ddefnynau afrifed o wlaw neu darth. Er fod hyn yn ddigon gwir, eto y mae yn sicr nad y gwir oedd yn ngolwg y prydyddion Hebreaidd mo hono. Cenfydd pwy bynag a sylwodd ar effaith corff mawr cryno o bobl ar wyneb dyffryn eang, yn ymsymmud fel cwmwl yn y wybr oleu, neu a welodd gorff cyffelyb ar ochr bryn pellenig, fod gwreiddyn mwy amlwg i'r gymhariaeth.

Y mae llawer o gyfeiriadau arwyddluniol ereill at gymylau yn yr Ysgrythyrau, heb ddyfod dan y dysgrifiadau uchod (gwel yn neillduol *Diar.* xvi. 15; *Preg.* xii. 2; *Esa.* iv. 5; xliv. 22; 2 *Pedr* ii. 17; *Iudas* 12); ond y mae eu hystyr bob amser mor amlwg, fel nad yw yn angenrheidiol rhoddi eglurhâd arnynt yn y *Gwyddoniadur.*—(*Encyc. Brit.*; *Penny Cyc.*; *Kitto's Cyc. of Bib. Lit.*, &c.)

CWNINGEN, CWNINGOD, [שפן; Gr., δασύπους; Ll., *cuniculus*; Al., *koniglein*; Seis., *coney, rabbit*]: ffiogen. Rhywogaeth ydyw ein cwningod ni o'r tylwyth a elwir cnofilod (*rodents*), cynnelw yr hwn dylwyth ydyw yr ysgyfarnog gyffredin. [Gwel YSGYFARNOG.] Enw yr anianydd Linnæus ar ein cwningod ni, yw *lepus cuniculus*; am y rhai y dywed Pennant,—"Epilia y cwninged saith waith yn y flwyddyn, a dygant wyth o rai bychain ar y tro. Pe dygwyddai hyn yn rheolaidd am bedair blynedd, cyrhaeddai epil un gwningen y nifer mawr o 1,274,840." Dywedir y dechreuant epilio mor ieuanc a chwe mis oed; yr hyn, yn nghyd â sylw Pennant, a ddengys ddirfawr ffrwythlondeb y creaduriaid bychain hyn.

Pa fodd bynag, y mae yn dra sicr, medd Kitto, nad oes ond ychydig o debygolrwydd rhwng ein cwningod ni a'r rhai y crybwyllir am danynt yn y Beibl. Cyfarfyddir â'r gair Hebraeg שפן (*shaphan*), a gyfleithir yn ein Beibl ni *cwningen* neu *gwningod*, yn *Lef.* xi. 5; *Deut.* xiv. 7; *Salm* civ. 18; *Diar.* xxx. 26. Y mae yr esbonwyr weithian yn penderfynu yn gyffredin, a hyny ar y seiliau mwyaf boddhaol, fod y cyfleithiadau sydd yn rhoddi gair cyfystyr i gwnigen, megys y gair Seisoneg *coney* am y gair Hebraeg *shaphan*, yn anghywir; ond y mae amryw yn myntumio fyth fod y rhywogaeth y perthyn y *shaphan* iddi yn cnoi y cil, yr hyn sydd yr un mor gyfeiliornus. Yr un ydyw *shaphan*, fel yr awgryma Bruce, a'r *ashcoco*, *ganam* (nid *daman*) Israel, a *wabber* yr Arabiaid; ac mewn milodiaeth wyddoregol, y mae yn un o'r llwyth bychan a elwir *hyrax*, a wahaniaethir gan yr enw rhywogaethol Syrian (*Syriacus*). Nid oes iddi ddannedd blaen yn yr ên uchaf, namyn dau ysgythrddant lled flaenfain yn cyfeirio i lawr, â lle agored rhyngddynt: yn yr ên isaf, y mae pedwar rhagddant byr, gwahanedig, a chrwn, yn pwyntio allan ar ledosgo; ac y mae iddi chwe childdant bob ochr, i fyny ac i lawr. Y mae y rhai uchaf yn grynion ar y wyneb, heb fod yn annhebyg i gilddannedd dyn; ac y mae y rhai isaf yn gulach: ond nid yw y naill na'r llall wedi eu cyfansoddi o sylwedd crestenol asgwrn ac owmal (*enamel*) bob yn ail, fel yr eiddo creaduriaid yn cnoi eu cil; ac nid yw asgwrn yr ên uchaf yn gymmalog, fel ag i rydd-oddef gweithrediad cyffelyb; ac, yn olaf, y mae y cyfansoddiad mewnol, cystal a'r holl esgyrnyddiaeth, yn arddangos rhyncorn (*rhinoceros*) bychan, heb ddim tebyg i gylla cymhleth pedwarplyg adgnofilod (*ruminantia*); am hyny, nid yw yr *hyrax* na chnofil—fel ein hysgyfarnog a'n cwningen ni — nac adgnofil chwaith; eithr creadur anghyfredol ydyw, a'i gyfathrach nesaf yw tewgrwyn (*pachyderms*) mawrion milodiaeth wyddoregol. Yn allanol, y mae yr *hyrax* yn lled debyg o ran maint, ffurf, a lliw, i'r gwningen; ac er bod ei glustiau ef yn fyrion a chrynion, y mae mor debyg fel y gallai rhai anghraff gymmeryd y naill yn lle y llall. Y mae mordeithwyr a threfedigion yn fynych yn dwyn enwau lleol eu gwlad eu hunain i wledydd ereill, ac yn eu rhoddi ar

Digitized by Google

wrthddrychau newyddion yn ddigon anmhriodol. Ymddengys mai fel hyn y bu gyda golwg ar y creaduriaid yma. Y mae lle i gredu mai y Pheniciaid, ar eu hymweliad â glanau gorllewinol ochr Ewropaidd Môr y Canoldir, wrth ganfod y wlad, fel y tystia amryw awdurdodau ei bod, yn llawn cwningod neu fflogod, ac heb sylwi ar y gwahaniaeth, a roddasant yr enw Hebraeg neu Pheniciaidd *shaphan* ar y creaduriaid, gan ei gymhwyso at y wlad ei hun hefyd, trwy ffurfio שפן (*sphan*) yn שפניה (*sphani*), yr hwn a fwriadent hwy i arwyddo "gwlad y cwningod;" ac oddi wrth y camenw yma, y tybir fod "Hispania," a'n "Spaen" nirnau yn tarddu.

Dar. 213.

Y mae yr *hyrax* o gyfansoddiad mwy trwsgl na'r cwningen, a heb gynffon; ac y mae blew hirion gwrychog yn wasgaredig trwy yr holl bân. Y mae y traed yn noeth o danynt, ac y mae yr holl ewinedd yn wastad a chrynion, ond rhai bys mewnol y traed ol, y rhai sydd yn hirion a thebyg i fynawyd: am hyny, nis gall y rhywogaeth gloddio; ond y mae natur wedi ei dysgu i breswylio, nid, fel y cwningod, mewn tyllau o'u cloddiad eu hunain, ond mewn holltau yn y creigiau. Cymhwysir y briodoledd yma yn briodol iawn i'r *shaphan* gan Dafydd: *Salm* civ. 18.

Y mae eu harferion llwfr deadellog, a thynerwch eu pawenau, yn eu gwneyd yn wir "bobl nad ydynt rymus," y sonia mab Iaceh am danynt (*Diar.* xxx. 26); canys y mae y tylwyth yn byw yn drefodau yn agenau creigleoedd Syria, Palestina, Arabia, dwyrain yr Aipht, Abyssinia, ac hyd yn oed yn Mhenrhyn Gobaith Da, lle y mae un neu ddau o rywogaethau creill i'w cael. Yn mhob man, y maent yn greaduriaid llonydd a mwynaidd, yn hoffi ymdordaen yn yr haul, heb fyned byth yn mhell oddi wrth eu llochesau, gan ymsymmud yn wyliadwrus, ac ymgrebychu pan welont gysgod aderyn yn pasio; canys y maent yn ysglyfaeth mynych i'r eryrod a'r hebogau. Y mae eu harferion yn gwbl ddyddiol, ac ymborthant ar lysiau a hadau. Dichon fod cyfansoddiad nodedig eu dannedd blaen yn gyfleus i ddiosg hâd porfäau a gwenithwellt; a bod y rhai hyn mewn rhan yn cael eu cadw yn y genau yn peri yr arfer o weithio esgyrn yr ên—yr hyn, i rai anghraff, a allai ymddangos yn gnoi cil. Y mae ymddangosiad cyffelyb mewn ysgyfarnogod a llygod ffreinig, a achosir gan rwbiad neilldduol o'r dannedd blaen, y rhai, gan eu bod yn tyfu yn bur gyflym, a elent yn rhy hirion i fod yn wasanaethgar, pe nas cedwid hwynt yn eu maint priodol trwy amgnoad parhäus, a thrwy rygnu eu hymylau yn erbyn eu gilydd. Y mae y gweithrediad yma, a ganfyddir yn symmudiad gwefusau y rhan fwyaf o'r cnofilod (*rodents*) pan yn gorphwyso, wedi achosi y grediniaeth fod yr ysgyfarnog yn cnoi ei chil; er, fel yr *hyrax*, fod yr holl gnofilod yn amddifad o'r amryw gylla a'r peiriant cyhyrog sydd yn angenrheidiol i yru yr ymborth yn ol i'r genau i'w adgnoi fel y dymuner, yr hyn sydd yn gwneyd i fyny brif neilldduolion cyfansoddiad difyniadol yr adgnofilod. Ond gallant hwy, cystal a'r tewgrwyn, megys y ceffyl a'r mochyn, feddu y cymmaliad penodol a'r ffurf o esgyrn gèn a'u cynnorthwyant i falu eu hymborth, a dannedd llafnog, cymhwys i'r cyfryw ddyben.—(*Penny Cyc.; Kitto's Cyc. of Bib. Lit.*)

CWREL, GWYLAR, [Gr., κοράλλιον; Ll., *coralium*; Seis., *coral*]: cynnyrch morawl caled, marmog, yn cael ei achosi gan gasgliad o ddefnydd calchog gan filyn bychan amldrodiog, er ffurfio y gell neu y lluestfaen; i geuleoedd y rhai yr ymgilia y deiliad yn hollol neu mewn rhan. Y mae y cwrelau a gynnyrchir fel hyn o wahanol ffurf; ond yn fwyaf cyffredin, ymgangenant fel pren. Y mae y talpiau yn aruthrol yn fynych yn y moroedd trofanol, lle y coronant y basgreigiau, ac y capanant y mynyddoedd dan y môr, gan gyfodi yn fynych i'r wyneb, neu yn agos i'r wyneb, fel ag i ffurfio yr hyn a elwir ynysoedd cwrel a chreigresau gwylar. Y mae y rhai hyn yn lluosog yn y Môr Coch; o'r lle, y mae yn dra thebygol, y tarddodd y cwrel yr oedd yr Hebreaid yn adnabyddus o hono. Ac y mae cwrel i'w gael yn aml yn Môr y Canoldir hefyd.

Y mae i'r cwrel amryw liwiau; megys gwyn, du, a choch. Y coch oedd y gwerthfawrocaf yn yr hen amseroedd, megys yn awr; a gweithid ef yn amryw addurniadau. Deallir yn gyffredin mai cwrel a ddynodir gan y gair ראמות (*ramoth*), yn *Iob* xxviii. 18, ac *Ezec.* xxvii. 16; ac nid ydyw y cyfieithiad hwn yn anmhriodol, er nad yw y geirdarddiad yn cael ei weithio allan yn dda, ac nad yw y llafarweddion yn rhoddi ond ychydig gymhorth. Y mae yn amlwg fod yr hen gyfieithwyr yn cael dirfawr anhawsder i benderfynu pà un a arwydda y gair פנינים, *peninim* (*Iob* xxviii. 18; *Diar.* iii. 15; viii. 11; xx. 15; xxxi. 10; *Galar.* iv. 7), ai cwrelau ai perlau. Bydd hyn yn wastad yn ammheus; ond gan fod y testyn yn y Galarnad yn dysgrifio y nwydd fel un *coch*, ymddengys y rhydd y flaenoriaeth i'r blaenaf. Sylwa Wener, yn wir, fod braidd yn anghredadwy fod yr un cynnyrch yn cael ei daenu dan ddau enw gwahanol (os ydyw *ramoth* hefyd yn arwyddo cwrel); ond yn ddiau, nid oes dim anhawsder deall y gallai un gair ddynodi *cwrel* yn gyffredinol, tra y gwahaniaethai y llall y *cwrel coch*, yr hwn a ystyrid werthfawrocaf ac a ddefnyddid yn benaf fel addurn.—(*Kitto.*)

CWPAN, [נביע; Cal., כב (*cab*), a כובא (*cuba*); Gr., κύπελλον; Ll., *cupa*; Seis., *cup*]: cib, mail, diodlestr, ffiol. Yr unig air a gyfleithir yn y Testament Newydd yn *gwpan*, ydyw ποτήριον (*potérion*). Yr oedd rhai cenedloedd, gynt, yn arfer cyrn anifeiliaid i wneyd cwpanau i yfed o honynt. Yr oedd cyrn o'r fath, wedi eu haddurno âg aur neu arian, neu heb y cyfryw addurniadau, yn arferedig gan y Cymry er yn dra bore. Gwyddys am un gwpan gorn o'r fath, nad aiff dros gof tra pery yr iaith Gymreig, nid amgen "Hirlas" Owain Cyfeiliog, yr hon gwpan gorn, meddai y bardd, oedd wedi ei haddurno âg arian tew:—

"Diwallaw di venestr na fyn angau
Korn can anrydet ynghyvetau
Hirlas buelin breint uchel hen ariant
Ai gortho nid gortheneu."—*Myv. Arch.*, i. 266.

Yn llythyraeth y *Gwyddoniadur*, fel hyn:—

Digitized by Google

Diwalla[1] di, fenestr,[2] na fyn angeu,
Gorn gan anrhydedd yn nghyfeddau;[3]
Hirlas fuelin,[4] braint uchel: hen arian
A'i gortho[5] nid gordeneu.

Yr oedd cwpanau cyrn yn arferedig gan yr Israeliaid hefyd. Mewn cwpan o'r fath yr oedd yr olew â'r hwn yr eneiniodd Samuel Dafydd yn frenin ar Israel:—"Yna y cymmerth Samuel *gorn yr olew*, ac a'i heneiniodd ef yn nghanol ei frodyr;" 1 *Sam.* xvi. 13. Yr oedd cwpanau a chawgiau yn arferedig yn mysg yr Israeliaid er yn fore iawn; ac yr oedd y rhai hyny o aur, arian, pres, &c., yn ol sefyllfa a chyfoeth y perchenog. Arian oedd cwpan Ioseph a roddwyd yn ngenau sach Beniamin: *Gen.* xliv. 2. Yr oedd cwpanau o wahanol ddefnydd, fel y rhai a nodwyd, ar arfer gan y Persiaid a'r Aiphtiaid hefyd er yn fore iawn: cwpan Aiphtaidd, mae yn debyg, oedd yr un a roddwyd yn sach Beniamin.

Ymddengys fod yn arferiad addurno cwpanau, weithiau, yn mysg yr Israeliaid â defnydd gwerthfawrocach na'r cwpan ei hun, megys y sylwyd gyda golwg ar "Hirlas" Owain Cyfeiliog. Bernir mai at addurniad o'r fath y cyfeiria yr ymadrodd yma:—"A'i ymyl fel gwaith ymyl cwpan, a blodau lili;" 1 *Bren.* vii. 26.

Gwneir defnydd ffugrol o'r gair *cwpan* yn fynych yn yr Ysgrythyrau. Cyfeiria, yn gyffredin, at fendithion neu felldithion y nef, neu ddarpariadau Duw yn ei ragluniaeth. Arwydd neu ffugr o fendithion Duw ydyw mewn ymadroddion fel hyn:—"Fy ffiol (Seis., *cup*) sydd lawn;" *Salm* xxiii. 5. "Ffiol (*cup*) iachawdwriaeth a gymmeraf, ac ar enw yr Arglwydd y galwaf;" *Salm* cxvi. 13. Mewn ymadroddion o fath y rhai canlynol, arwydda farn yr Hollalluog:—"O blegid y mae ffiol (*cup*) yn llaw yr Arglwydd, a'r gwin sydd goch; yn llawn cymmysg, ac efe a dywalltodd o hono: eto holl annuwiolion y tir a wasgant, ac a yfant ei waelodion;" *Salm* lxxv. 8. "Hwnw hefyd a yf o win digofaint Duw, yr hwn yn ddigymmysg a dywalltwyd yn ffiol (*cup*) ei lid ef;" *Dad.* xiv. 10.

Arwyddir dyoddefiadau ein Iachawdwr, hefyd, trwy ffugr cyffelyb; megys, "A ellwch chwi yfed o'r cwpan yr ydwyf fi ar yfed o hono?" *Mat.* xx. 22. "Fy Nhad, os yw bosibl, aed y cwpan hwn heibio oddi wrthyf;" *Mat.* xxvi. 39.

Llefarir yn fynych am gosp marwolaeth fel *cwpan*; o blegid bod gweinyddiad y gospedigaeth, fel y tybia rhai, yn cael ei rhagflaenu yn gyffredin yn mysg paganiaid yr hen amseroedd gan gwpanaid gymmysgedig o wenwyn, a roddid i'r troseddwr er mwyn ei syfrdanu. Gwel BENDITH, FFIOL, IOSEPH, TRULLIAD.

CWSG, yw gorphwysiad cylchynol peiriannau y synwyrau, a'r rhan fwyaf o gynneddfau y meddwl, a'r symmudiadau gwirfoddol. Nid yw y darnodiad neu y deffiniad yna yn un boddhaol mewn modd yn y byd, meddai y proffeswr Owen; ond y mae yn llawer haws dysgrifio ymddangosiadau cwsg, megys yr eiddo bywyd, na deffinio ei natur. Peth priodol i'r tethogion (*mammalia*), a'r adar, ydyw gwir gwsg. Y mae yn wir fod y creaduriaid israddol yn gorphwyso o bryd i bryd, ac yn ymdynu oddi wrth y byd allanol; ond gan nad oes iddynt amrantau allanol, nis gallant luddias pob dylanwad o'r tu allan. Ymguddia pysgod tu ol i gareg, neu wrth dorlan yr afon; ymlecha y crocodeil yn y llaid; ac ymgripia y crwban (*tortoise*) i dyllau. Ymofyna yr anifeiliaid uchraddol, hefyd, am ryw le o ymneillduad i gysgu ynddo; a threfnant eu hunain mewn agwedd ag a duedda naill ai i esmwythäu y cyhyrau neu i gadw cynhesrwydd.

Arwyddion dynesiad cwsg yw, diffyg bywiogrwydd meddwl a gallu i dalu sylw. Bydd y synwyrau yn bwl i argraffiadau allanol, a theimlir awydd anorchfygol am dawelwch a gorphwysfa. A y meddyldrychau (*ideas*) yn fwy dyrys, y syniadau yn fwy tywyll, y golwg yn fwy pwl, a'r clustiau i glywed seiniau yn fwy anwahanredol, ac megys pe yn mhell. Yr amrantau a gauant, y cymmalau a laciant, cymmerir agwedd esmwyth bron yn ddiarwybod, a syrthir i gwsg—yr hwn, ar y dechreu, a fydd yn drwm; yna yn esmwyth a thyner; ac ymlacia yn raddol fel y nesâ amser deffro.

Y mae anianyddion yn gwahaniaethu rhwng priodoliaethau peiriannol neu lysieuol, a phriodoliaethau anifeilaidd bodau bywiol. Wrth y rhai blaenaf y deallir dadblygiad, twf, cynhyrfioldeb, &c.—yn fyr, y priodoliaethau sydd yn perthyn i lysiau ac anifeiliaid; wrth y lleill yr ydys i ddeall y priodoliaethau perthynol i anifeiliaid, megys syniad a symmudiad gwirfoddol. Y mae peiriannau bywyd llysieuol yn parhau i gyflawnu eu swyddau mor fywiog bron yn ystod cwsg a phan yn effro. Y mae gorphwys yn annibynol ar gwsg, ac yn dygwydd ar amserau tra gwahanol. Gorphwys y galon rhwng pob gwaedguriad; y mae cyhyrau yr anadliadau allanol a mewnol (*expiration and inspiration*) mewn sefyllfa o weithrediad a gorphwysiad bob yn ail; ac y mae i ysgogiad gwringellog y coluddion eu cylch pendant o ddysbeidiad. Pa fodd bynag, y mae y gwaedguriad a'r anadliad yn arafach yn amser cwsg; ac ymddengys nad yw traul y cylla mor bertfaith a phan yn effro. Y mae tymmeredd y corff yn iselhau yn ystod cwsg, o blegid lleihâd yr yni gewynol; a'r un achos sydd yn peri fod dynion yn fwy agored i'r cryd cymmalau, ac effeithiau ereill anwyd, pan yn cysgu nag yn effro. Nid yn unig ychydig a effeithir ar swyddau bywyd peiriannol gan gwsg, ond nid yw hyd yn oed swyddau bywyd anifeilaidd chwaith mewn sefyllfa o orphwysiad cwbl. Ni byddai yn bosibl gwneyd i gorff marw aros yn yr agweddau ag a gymmerai dyn mewn cwsg; ac ni cheuir yr emrynt ond trwy weithrediad cyhyrol. Y mae rhai anifeiliaid yn cysgu o'u sefyll, megys y ceffyl; a chwsg adar, yn aml, gan sefyll ar un troed. Cysgir, pan fyddys yn bur flinedig, yn yr agweddau mwyaf cyfyng a gorfodol. Cafwyd allan fod milwyr yn cysgu wrth gatteithio, rhagfarchogwyr ar gefn meirch, a chrythwyr mewn ffeiriau yn parhau i chwareu, hyd yn oed pan wedi syrthio i gwsg o lwyr flinder. Y mae yr amryw esamplau sydd o gwsg-rodiad yn dangos i ba raddau o fywiogrwydd y mae y gweithrediadau anifeilaidd yn gydweddol â chwsg.

Y mae anifeiliaid, yn gyffredin, yn gofyn llai o gwsg na dyn: y mae pedair awr, er anghraifft, yn ddigon i farch. Y mae yr anifeiliaid y cylchred eu gwaed yn bur gyflym, y rhai y mae eu symmudiadau yn nodedig o egniol, yn cysgu yn ysgafnach yn gyffredin, ac am lai o amser nag ereill. Mae y milod ofnus sydd yn byw ar lysiau yn cysgu llai ac yn ysgafnach na'r rhai hyf ysglyfaethus. Mae cwsg yn amrywio mewn dyn

[1] Llanw = *fill.*
[2] "Gweiniwr y llyn *minister*" [*Carnhuanawc*]; trulliad = *cupbearer.*
[3] Gwleddoedd = *banquets.*
[4] Corn hirlas bual = *the long blue horn of a buffalo.*
[5] Toi, gorchuddio = *to cover.*

Digitized by Google

ar wahanol adegau o'i oes: y mae y baban newydd eni yn cysgu bron yn barhäus; ond gall dynion canol oed fyw ar lai o gwsg na phlant ac na hen bobl; ac y mae merched yn gofyn llai o gwsg na dynion. Treulir o chwech i wyth awr o'r pedair awr ar ugain yn gyffredin mewn cwsg; ond y mae gan ymarferiad ddylanwad mawr i benderfynu maint y gorphwys sydd yn angenrheidiol. Ni chysgai John Hunter, a Frederic Fawr, fwy na phedair awr o'r pedair ar ugain; a dywedir yn gyffelyb am y Dr. John Owen, cystal ag amryw ereill; tra y mae personau swrth a diog yn treulio cryn hanner eu hamser mewn cwsg. Y mae llawer o gwsg yn dyfod yn angenrheidiol weithiau, mewn oedran pur fawr. Nid oedd De Moive, pan yn 83 mlwydd, yn effro ond pedair awr o'r pedair ar ugain; ac yr oedd Thomas Parr yn cysgu bron yn barhäus tua diwedd ei oes. Y mae plant yn cysgu yn bur drwm, tra y mae hen bobl yn hawdd eu deffro: y mae dynion yn cysgu yn drymach na merched: ac y mae pob rhyw, wrth gwrs, yn cysgu yn drymach bob amser ar ol blinder mawr.

Y mae rhai, ar dymmorau, yn fwy tueddol i gwsg na'u gilydd. Y mae personau tewion llawnwaed, a rhai o natur gyffrous ond hawdd i'w dyhysbyddu, yn gofyn mwy o gwsg na rhai teneuon, neu rai, er eu bod mor gyffroadwy, eto a fyddant yn fwy egnïol, ac yn anhaws eu blino. Y mae ymborth trwm, bras, a gwirodydd, yn cynnyrchu cwsg. Adnabyddir dosbarth o gyfferi wrth yr enw cwsgbarolion (*narcotics*), prif ansawdd y rhai yw peri cwsg. Y mae esmwythder a llonyddwch meddwl yn cynnyrchu cwsg, ac felly y mae blinder a gofid anobeithiol; ac â hyn y cytuna y ddiareb Gymreig: "Fe gwsg y galarus, ond ni chwsg y gofalus." Y mae rhai achosion allanol yn cefnogi cwsg; megys baddon cynhes, neu rwbiad arwynebedd y corff. Mae oerfel trwm yn gysgbair grymus, ac o'r math mwyaf peryglus: tuedda i gwsg anneffroadwy. Bu agos i'r fath gwsg fod yn farwol i'r Dr. Solander, pan oedd gyda Syr J. Banks yn Terra del Fuego.

Y mae y segur cystal a'r diwyd yn gofyn cwsg; ac er mai amser cyffredin cwsg ydyw y nos, eto gall y dydd ddyfod yn amser cysgu, a'r nos i wylio, trwy arferiad. Y mae amryw filod yn cysgu y dydd, ac yn gwylio neu yn dilyn ar ol eu hysglyfaeth y nos. Nis gellir golygu fod dychweliad cyfnodol cwsg yn dibynu ar gyfnewidiad dydd a nos yn unig, nac fel cynnyrch blinder corfforol yn hollol, gan y gwyddys fod gorflinder yn rhwystr i gwsg. Y mae cylchnewidiad cwsg a deffroedd yn hanfodol gyssylltiedig â natur anifeiliaid, i'r hyn y mae llawer o gyfatebion. Y mae dilyniad y tymmorau, a dydd a nos, trai a llanw y môr, amrywiadau dyddiol yn nhrydaniaeth yr awyr, yn nghyfodiad a disgyniad yr hinfynag, a gogwyddiad rheolaidd y nydwydd dynfeinig tua'r dwyrain a'r gorllewin ar wahanol oriau, yn egluro yr un ddeddf o weithrediad cyfnodol ag a amlygir yn nghylchnewidiad digyfeiliorn cwsg a deffröedd. "Gellir golygu cwsg a sefyllfa ddeffroawl," ebai Müller, "fel cynnyrch math o wrthymdrech rhwng bywyd peiriannol ac anifeiliaidd, yn yr hwn y mae y galluoedd anifeiliaidd, dan lywodraeth y meddwl, yn dyfod yn rhydd i weithredu; tra y maent, bryd arall, yn cael eu darostwng gan y grym peiriannol a weithreda mewn ufudd-dod i ddeddf natur greadigol. Mewn cwsg, pan yr ymorphwys y gweithrediadau anifeiliaidd yn hollol neu gan mwyaf, y gweithrediadau peiriannol bron ydyw yr unig rai sydd yn parhau; ac yn ystod y set yllfa hono gwneir hyd yn oed peiriannau y bywyd anifeiliaidd yn alluog i weithredu yn adnewyddol, yr hwn a ddeillia yn ddiarwybod i'r anifail, er yn gysson â chynllun cywreindda ac â rheswm."

Nid oes achos dywedyd ond ychydig am ddefnyddioldeb cwsg. Y mae yn bywiocäu ac yn grymuso y corff a'r meddwl, ar ol eu llwyr flino gan lafur; ac y mae dygwyddiad cwsg yn ystod clefyd yn un o'r arwyddion mwyaf ffafriol o adferiad iechyd. Yr ydys yn dalach o yn agos i fodfedd yn y bore, ar ol cwsg y nos, nag oeddys yn myned i orphwys, gan y bydd y madrudd rhyngdumonol (*intervertebral cartilages*), a gyd-grynowyd wrth ddal pwys y corff yn ystod y dydd, wedi adfeddiannu eu ffurf a'u cyfartalwch priodol. Y mae y galluoedd a fyddant wedi blino, neu eu dyhysbyddu trwy ymdrafodaeth â'r byd allanol, yn ymadnewyddu yn ystod cwsg; ac y mae y synwyrau, yn y bore, yn fwy bywiog i dderbyn pob argraffiadau. Pa fodd bynag, i'r ymenydd y mae cwsg yn orphwysiad arbenigol, yr hwn, pan wedi blino trwy weithrediad parhäus y meddwl, a aiff yn analluog i barhau y cyfryw weithrediad; bron yr un fath a'r llygad, yr hwn, os hir sefydlir ef ar yr un peth, metha ganfod unrhyw wrthddrychau o'r diwedd yn wahanredol.

Yna, gan nad marweidd-dra y cyfansoddiad yn unig ydyw cwsg, yn cael ei achosi gan flinder, hir wylio, neu unrhyw achos allanol arall, ond sefyllfa naturiol attychwel ysbeidiol, pa un sydd hanfodol i gyflawniad cysson ein galluoedd, nid yw yn achos o syndod ein bod yn canfod y sefyllfa yma yn parhau mewn rhai anifeiliaid am hir amser—hyd yn oed am fisoedd; a bod gweithrediad peiriannau y bywyd anifeiladd yn cael eu gohirio yn fwy llwyr yn y cyfryw anifeiliaid nag yn y rhai sydd yn gofyn dim ond cwsg dyddiol. Yr enw a gymhwysir at y sefyllfa yma yw, gauaf-gwsg (*hybernation*). Y mae gauaf-gwsg yn perthyn i rai tethogion, ac i'r holl ddwyelfeniaid, ac i rai o'r llwythau meddalogaidd a thrychfilaidd. Nid yw adar yn gauaf-gysgu; ac y mae y syniad gwerinaidd am gwsg y wennol yn y gauaf yn gyfeiliornus. Y mae gauaf-gwsg yn berffaith neu yn anmherffaith. Yn y blaenaf, o'r hwn y mae y trwlla (*marmot*) yn esampl, y mae y syrthni mor drwm ac anghyffroedig, fel nad yw na syched na newyn yn ei gythryblu; ac nid yw y milod yn deffro nes y byddo cyfnod eu cwsg wedi llwyr fyned heibio. Yn y sefyllfa olaf, y mae ysbeidiau o ddeffroedd yn dygwydd, pan yr ymysgwyd y creaduriaid i ymofyn ymborth, megys y gwna trychfilod a chopynau; hefyd, y draenog, yr ystlum, a'r pathew. Y mae ysbaid y gauaf-gwsg yn amrywio yn fawr: mewn rhai milod, pery am bedwar mis yn unig; mewn ereill, am bum mis neu chwech; ond y maent bron oll yn deffro yn Mawrth neu Ebrill. Mae y sefyllfaoedd a ddethol milod i dreulio eu gauaf-gwsg, a'r agweddau yn y rhai y dysgwyliant ef, yn gwahaniaethu, fel y gellid dysgwyl, yn ol eu hamryw arferion; ond ymddengys fod ganddynt oll un dyben mawr, sef cyfartaledd ardymmer gymmedrol a chyfunwedd. Y mae y rhan fwyaf o filod yn treulio eu gauaf-gwsg mewn unigedd; ond rhai, megys y trwlla, a dreuliant y gauaf yn gymdeithas.

Nid yw dyfodiad y gauaf-gwsg yn ddisymmwth; ond daw yn mlaen yn raddol: lleihä bywiogrwydd y milod fel y deuant yn fwy diawch am ymborth. Mewn rhai milod, megys y draenog, rhagflaenir y gauaf-gwsg gan amryw

Digitized by Google

wythnosau o leihâd neu gwbl ddiffyg archwaeth at ymborth. Pan bydd y gauaf-gwsg yn berffaith, bydd y teimladau mor hollol bwl fel na bydd clwyfau tost nac ergydion trydaniaeth yn ddigonol i ddihuno y creadur.

Y mae gweithrediadau peiriannau y bywyd yn myned yn mlaen yn llawer mwy swrth yn ystod gauaf-gwsg nag mewn cwsg dyddiol. Y mae gwaedguriadau y galon yn disgyn i bedwaredd, neu hyd yn oed i ddegfed eu mynychder naturiol. Bydd yr anadliad yn araf, gan ddysbeidio yn fynych ac am hir amser; ïe, ä yn gwbl anghanfyddadwy. Os gosodir milyn yn y sefyllfa yma mewn awyrfeidr (*pneumatometer*), ni phâr un newidiad yn yr awyr a gynnwysa; neu gellir ei gadw am hir amser mewn nwyon (*gases*) cryflon, heb iddo oddef dim anghyfleusdra. Ymddibyna tymmeredd y corff ar fywiogrwydd anadliad a chylchlifiant; yna, lleihâ yn fawr yn ystod gauaf-gwsg, ac mewn rhai milod, ni bydd yn uwch na'r awyrgylch amgylchynedig.

Nid syrthni yn unig gan anwyd ydyw gauaf-gwsg. Gellir peri cwsg ar bob milod trwy oerfel; ond ychydig, mewn cymhariaeth, sydd yn agored i auaf-gwsg. Y mae yn wir fod ardymmer lled isel yn ffafriol i auaf-gwsg; ond y mae greddf yn dysgu milod ac anifeiliaid i amddiffyn eu hunain rhag oerfel; a byddent feirw pe yn agored i'w dostedd. Sefyllfa glefychlyd yw gohiriad bywyd oddi wrth oerfel: rhagflaenir gauaf-gwsg a chwsg gan ymddangosiadau cyffelyb, a therfyna y naill a'r llall, yn mhen ysbaid penodol, mewn bywiocâd adnewyddol.

Y mae y gauaf-gwsg yn ateb y dyben o gynnal bywyd yn y milod y perthyn iddynt, yn ystod y tymmor nas gallant gael eu hymborth naturiol. Gwasanaetha hefyd i'w hamddiffyn rhag graddau o oerfel nas gallant eu goddef. Ac nid amddiffyn rhag gormod oerder yn unig ydyw y cwsg blyneddol a'r darpariadau greddfol a wna milod gogyfer a'r sefyllfa; ond y mae dirboethder hefyd yn peri i rai milod syrthio i farweidd-dra cyffelyb i auaf-gwsg. Y mae y Tanrec, neu lygoden ffreinig Madagascar, yn cysgu trwy gydol dirboethder yr haf. Y mae cyfnewidiadau yn y cyfansoddiad, yn gyffredin, a bywiocâd adnewyddol yr amryw alluoedd, yn dilyn gauaf-gwsg, megys ag y dilynant gwsg dyddiol.

Y mae cylchdroad y tymmorau yn cynnyrchu cyfnewidiadau mewn planigion, nad ydynt yn annhebyg iawn i'r hyn a nodwyd mewn milod gauaf-gysgol. Pa fodd bynag, y mae cyfatebiaeth agosach fyth rhwng cwsg dyddiol a'r hyn a elwir "cwsg planigion"—sefyllfa y canfuwyd gyntaf gan Linnæus ei bod yn gyffredinol; er y sylwyd er ys hir amser ar rai o'r ymddangosiadau yn y tamardinwydd (*tamarin-tree*), ac mewn rhai o'r peisglysiau dail-adeiniog—tyfolion o'r Aipht.

Fel y nesâ y nos, fe gau y blodau; daw dail y planigion yn fwy syth, ac ymblygant yn nghyd, tra yr ymddengys bywyd fel yn ymgilio o'r amgant (*periphery*). Fel hyn, cyll dail y planigyn teimladol (*sensitive plant*) eu teimladolrwydd neillduol yn ystod cwsg—yr hwn deimladolrwydd a ymgilia i'r deilgoes (*petiole*). Hefyd, cymmer cyfnewidiad pwysig le yn ngweithrediadau planigion ar ddynesiad y nos; canys yn lle bwrw allan ufelai (*oxygen*), a sugno i mewn ulyf (*carbon*) o'r awyrgylch, megys yn ystod y dydd, y mae eu gweithrediad yn gwbl wahanol yn y nos.

Y mae cwsg planigion yn dygwydd yn gyffredin yn y nos, o blegid attaliad swmwl goleuni, i'r hwn y maent yn ddarostyngedig yn ystod y dydd. Pa fodd bynag, rhaid fod rhyw achos o'u cwsg, sydd yn fwy uniongyrchol gyssylltiedig â'u peiriannaeth nag attaliad goleuni yn unig; canys nid yn unig y mae planigion, fel rhai anifeiliaid sydd yn cysgu trwy y dydd ac yn effro yn y nos, ond cafwyd sicrwydd fod dail planigion a gedwir yn barhäus mewn tywyllwch yn cau ac yn agor yn rheolaidd, megys yn ystod cwsg.

I. Defnyddir y gair fynychaf yn y Beibl i ddynodi gorphwysiad naturiol: *Gen.* xxviii. 16; xxxi. 40; *Salm* cxxxii. 4; *Diar.* iv. 16; vi. 4; *Mat.* i. 24; *Luc* ix. 32; *Ioan* xi. 13; *Act.* xx. 9.

II. Priodolir cwsg i Dduw: *Salm* xliv. 23; lxxviii. 65; cxxi. 34. Pan y mae yr Arglwydd yn oedi estyn ymwared, y mae yr enaid cythryblus yn meddwl ei fod yn cael ei adael a'i anghofio gan ei Dduw; ond, yn aml, dyna y pryd y mae cymhorth agosaf ato: *Gal.* iii. 31, 32.

III. Yn fynych, defnyddir y gair i osod allan sefyllfa ysbrydol dynion: *Eph.* v. 14; 1 *Thes.* v. 6; *Rhuf.* xiii. 11; *Diar.* xxiii. 34. Dynoda ddiogelwch enawdol, a hollol ddideimladrwydd am Dduw a phethau ysbrydol. Yn y sefyllfa hon, y mae pechadur yn ddidaro ac yn ddideimlad: y mae llygaid ei feddwl wedi eu cau, fel nad yw yn canfod dim o'i berygl yn ngwyneb deddf Duw, a'i glustiau wedi eu selio, fel nad yw yn gwrandaw ar lais rhybudd. Ac fel y mae cwsg yn felus i'r cysgadur (*Preg.* v. 11), gan fel yr ymddifyra yn fynych yn ei freuddwydion, felly y mae dychymyg dyn cnawdol yn portreiadu paradwys o fwynhâd iddo yn ei bechod, fel pe byddai yn berffaith ddedwydd, heb un ammheuaeth nad ydyw yn blentyn Duw: *Esa.* xxix. 8; "Ïe, bydd megys newynog a freuddwydio, ac wele ef yn bwyta," &c. Y mae cyflwr o hanner cwsg yn cael ei alw yn *huno* (*slumber*), pryd y mae hawddaf i ddyn freuddwydio, ac hefyd gael ei ddeffro: *Diar.* vi. 4, 10; xxiv. 33; *Esa.* v. 27; *Mat.* xiii. 15. Am ofal yr Arglwydd am ei bobl, dywedir, "Wele, ni huna ac ni chwsg Ceidwad Israel;" *Salm* cxxi. 4; cxxxii. 4.

Cyssylltir y gair *cwsg*, fel ansoddair, â'r gair *phiol*, mewn dull hynod yn *Zech.* xii. 2; "Wele fi yn gwneuthur Ierusalem yn *phiol gwsg* i'r bobloedd oll o amgylch." Ar ymyl y ddalen, "*phiol grynfa*," neu "*phiol gwenwyn.*" Y meddwl yw, y byddai mor beryglus i'r bobloedd ymryd yn anghyfreithlawn â Ierusalem, neu ymosod arni, ag a fyddai i ddyn yfed cwpanaid o "ddiod gwsg" wenwynllyd, effaith yr hon yw syfrdandod, cryndod, a marwolaeth. Cyfleithir y gair Hebraeg רעל, a droir yma yn *gwsg*, yn *Nahum* ii. 3, yn "ysgwyd yn aruthrol."

CWYMP, Y. Nid oes un dirgelwch wedi dyrysu cymmaint ar feddwl dyn a'i sefyllfa bresennol ef ei hun. Y mae profiad a sylwadaeth yn cyd-dystio mai sefyllfa bechadurus a thruenus ydyw. Ac argyhoeddiad naturiol a diysgog ei feddwl ydyw, na allasai ddyfod o law ei Greawdwr, ar y cyntaf, yn y cyflwr y mae ynddo yn bresennol, ac mai nid hon ydyw ei sefyllfa wreiddiol. Nis gall dyn chwaith fabwysiadu y dyb mai anffawd, neu ddygwyddiad, nad oes un rheswm i'w roddi drosti yn mhellach na'i bod, ydyw y dyoddefiadau a'r poenau sydd yn syrthio yn ddieithrad i'w ran yn y fuchedd hon. Y mae y teimlad sydd yn ei natur, yr hwn sydd yn dwyn tystiolaeth i'r cyssylltiad annattodadwy sydd rhwng pechod a chosp, rhwng trosedd a thrueni, yn attalfa effeithiol ar ei ffordd rhag gallu ymorphwys yn y fath benderfyniad. Nid

Digitized by Google

dadguddiad allanol, y cyfryw ag a gynnwysir yn y Beibl, sydd wedi rhoddi bod i'r teimlad o bechadurusrwydd yn mhrofiad dyn, a'r gosp sydd yn ei gyflawn ddilyn. Nid wedi ei gyfyngu i'r rhai sydd yn meddu deddf ysgrifenedig yn unig y mae y fath deimlad; ond y mae mor gyffredinol a'r ddynoliaeth, ac yn rhan hanfodol o honi. Yn ngwyneb y fath brofiad, a'r cyfryw egwyddorion ag sydd yn wreiddiol yn ei natur, y mae cyflwr presennol dyn wedi bod erioed, ac yn para hyd yn awr, yn gwlwm nas gall rheswm ei ddattod. Nid nad ydyw wedi dyhysbyddu ei holl ddyfeisiau i geisio ei ryddhau. I'r gwrthwyneb, hyn sydd wedi bod yn faen tramgwydd ac yn graig rhwystr yn mhob cyfundrefn o athroniaeth a ymgynnygiodd erioed i ddeongli dirgelwch bywyd dyn. Gorphwysa pob deongliad athronyddol o'r dirgelwch hvn yn yr eithaf ar un o ddau gyfeiliornad mawr—naill ai fod pechod yn *dragwyddol*, neu ynte nad ydyw yn *ddrwg moesol*. Ymddangosodd y ddau eithaflon cyfeiliornus hyn, mewn gwahanol ffurflau, yn nadleuon yr Eglwys Gristionogol, yn enwedig yn nghyfundraethau y Manicheaid a'r Pelagiaid. Ond er i'r ymdrechiadau hyn lwyddo weithiau i dwyllo y deall, nid allent symmud ymaith y teimlad o euogrwydd o'r gydwybod. Nid oes un esboniad ar y dirgelwch mawr hwn, y tu allan i'r Beibl, sydd heb ein harwain, nid i ddirgelwch pellach—o herwydd y mae pob esboniad, hyd yn oed o weithrediadau cyffredin natur, ond ei olrhain, yn gorphwys ar ddirgelwch—ond i anghyssonderau a gwadiad o ffeithiau ac egwyddorion nas gallwn ollwng ein gafael o honynt ond trwy ymwrthod â'r grediniaeth ein bod yn ddynion.

Gan mai amcan y dadguddiad dwyfol ydyw amlygu trefn o adferiad i ddyn, gallesid dysgwyl y buasai yn taflu goleu ar ei berthynas wreiddiol â'r Creawdwr, fel na allasai fod dim tywyllwch ar ansawdd bresennol ei gyflwr, ac, o ganlyniad, ar yr angenrheidrwydd am y ddarpariaeth sydd wedi ei threfnu ar ei gyfer. Gallesid dysgwyl hefyd na adawsid y *modd* y ciliodd dyn oddi wrth ei Greawdwr heb ei ddadguddio, mor bell ag i ddangos fod ei ddinystr i'w briodoli yn hollol *iddo ei hun*; ac o ganlyniad, mai o ewyllys da ei Greawdwr yn unig y tarddodd llwybr ei adferiad. Dyma y ddwy ffaith fawr yn hanes y ddynoliaeth sydd yn ymgynnyg am ateb, mewn trefn i osod allan tu hwnt i ammheuaeth gymmeriad Duw a dyn; sef, gwir natur sefyllfa bresennol dyn, ac o ganlyniad ffynnonell a natur yr iachawdwriaeth a barotodd cariad a doethineb dwyfol erddo.

Wrth agor y Beibl, yr hyn sydd yn ein cyfarfod gyntaf oll yn hanes dyn ydyw, hanes ei greadigaeth, a hanes ei gwymp. Gellir crynhoi y cwbl i ychydig eiriau. Dywedodd Duw am ddyn yn ei greadigaeth ei fod "yn dda iawn," a dangosir i ni yn mha beth yr oedd y daioni hwnw yn gynnwysedig; sef, yn nghydffurfiad moesol ei natur â natur ei Greawdwr. Gwnaethpwyd ef ar "lun a delw Duw." Parhaodd yn y cyflwr hwn am dymmor—nis gwyddom am ba hyd; ac yna, trwy gyfrwysdra maleisus y temtiwr, yr hwn a ddysgrifir gan Moses fel "y sarff," hudwyd y dyn i goleddu meddyliau caled am Dduw, i ymfalchïo, a thrwy ymchwydd hunanol, i deimlo y gorchymyn a roddodd ei Greawdwr iddo, i ddybenion doeth a da, yn iau drom. Ac yn ddiweddaf, rhoddodd y dyn y teimladau pechadurus hyn mewn gweithred allanol o anufudd-dod. Trwy y weithred hon y newidiwyd ei berthynas flaenorol â'i Greawdwr. Daeth yn ddarostyngedig i'r holl drueni a gynnwysai y bygythiad a gyhoeddwyd am anufudd-dod; sef, "Yn y dydd y bwytei di o hono, gan farw ti fyddi farw." Effeithiodd y cyfnewidiad hwn ar ei gymmeriad moesol, ac ar ei gyflwr yn ngwyneb cyfraith. Aeth yn llygredig ei feddwl a'i galon, ac yn euog a chondemniedig o ran ei gyflwr.

Defnyddir y gair CWYMP mewn iaith dduwinyddol i osod allan y trosedd cyntaf hwn, a'i holl ganlyniadau, yn foesol ac yn naturiol, yn nghyfansoddiad ac amgylchiadau dynion. Gan fod Adda yn ddiblant pan gymmerodd hyn le, yr oedd ei holl hiliogaeth yn cyfranogi o'r canlyniadau a ddeillient o'r trosedd cyntaf hwn, trwy rinwedd eu perthynas naturiol âg ef, neu trwy rinwedd unrhyw berthynas arall a allasai hanfodi rhyngddynt. Un o'r canlyniadau hyn oedd, eu bod yn dechreu eu gyrfa gyda thuedd foesol wahanol i'r hon y dechreuasai Adda ei yrfa yntau. Dywedir i Adda genedlu mab ar ei "lun a'i ddelw ei hun," mewn cyferbyniad i lun a delw Duw ar yr hwn y creasid ef (*Gen.* v. 1, 3). Felly y daeth ein tad cyntaf yn dad hiliogaeth annuwiol, yn cael eu geni dan lywodraeth tuedd i ymadael oddi wrth Dduw, a phob un o honynt yn rhoddi amlygiad o hyn trwy fywyd o anufudd-dod i'w gyfraith sanctaidd.

Hyn ydyw cynnwysiad yr hanes ysgrythyrol, fel y ceir ef yn *Gen.* iii., am y modd y syrthiodd dyn o'r sefyllfa sanctaidd a dedwydd yn mha un y crewyd ef i'r sefyllfa bechadurus a thruenus y mae ynddi yn bresennol. Hyn ydyw yr esboniad, a'r unig esboniad ysgrythyrol, ar sefyllfa bresennol dyn. Ni cheir ond un adroddiad cyflawn o'r ffeithiau trwy yr holl gyfrol ddwyfol; ond y mae yr holl gyfeiriadau at wahanol amgylchiadau yr hanes yn gysson â'r adroddiad yn Genesis, ac yn amlwg yn cymmeryd yr hanes hwnw fel adroddiad o ffeithiau gwirioneddol. Gwelir hyn yn y geiriau canlynol:—"Megys y twyllodd y sarff Efa;" 2 *Cor.* xi. 3. Sylw Olshausen ar y geiriau hyn ydyw, "fod y crybwylliad hwn am y cwymp yn ein cyflawnhau i gasglu fod Paul yn llefaru am dano fel un hanes dygwyddiad gweithredol." "Cymmerir yn ganiataol," medd Alford, "fod y Corinthiaid yn addef dylanwad Satan yn y sarff, yn ol yr hanes yn Genesis." Cymharwn hefyd 1 *Tim.* ii. 14, â *Gen.* ii. 12; *Esa.* lxv. 25, â *Gen.* iii. 4; 1 *Tim.* ii. 11—15; 1 *Cor.* xiv. 34, â *Gen.* iii. 16; *Rhuf.* viii. 20, 21, â *Gen.* iii. 17, 18. "Mae yr ymadrodd, 'wedi ei ddarostwng i oferedd,' yn cyfeirio yn ddiammheuol at ddygwyddiad hanesyddol; sef cwymp dyn, a'r felldith a'i dilynodd."—*Olshausen.* Mae yr hanes yn Genesis yn cael ei wneuthur yn sylfaen ymresymiad amryw weithiau yn y Testament Newydd: *Rhuf.* v. 12—19; 1 *Cor.* xi. 8, 9; 2 *Cor.* xi. 2; 1 *Tim.* ii. 11, 12, &c.

Er nad ydyw y cyfeiriadau amgylchiadol at hanes y cwymp yn lluosog iawn, eto y maent yn hollol benderfynol a manwl; gan gyd-dystiolaethu â'r hanes am offeryn y cwymp—am y wraig fel y cyntaf yn y trosedd—am y felldith a gyhoeddwyd ar y sarff—y gosp ar y wraig—a'r ddaiar yn cael ei melldithio o achos dyn. Am yr *athrawiaeth* sydd yn seiliedig ar y ffaith, y mae hon yn rhedeg trwy yr holl Ysgrythyr. Gellir dyfynu ymadroddion cyffelyb i'r rhai canlynol o bron bob llyfr o'r Hen Destament:—"Pa beth yw dyn, i fod yn lân? a'r hwn a aned o wraig, i fod yn gyflawn?" *Iob* xv. 14: "Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam

Digitized by Google

arnaf;" *Salm* li. 5: "Wele hyn yn unig a gefais; wneuthur o Dduw ddyn yn uniawn: ond hwy a chwiliasant allan lawer o ddychymygion;" *Preg.* vii. 28, 29. Yn y Testament Newydd, olrheinir pechod a marwolaeth yr hiliogaeth yn uniongyrchol at Adda, y dyn cyntaf:—"Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb." "Eithr teyrnasodd marwolaeth o Adda hyd Moses, ïe, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda;" *Rhuf.* v. 12, 14. Gan gyfeirio at erthyglau ereill [CYFRIFIAD; PECHOD GWREIDDIOL] am ymchwiliad manwl i'r geiriau hyn, y mae yn amlwg eu bod yn olrhain pechod a marwolaeth y byd i fyny at Adda, fel mewn rhyw ystyr yn ffynnonell iddynt. Tra nad oes neb sydd yn cydnabod awdurdod y Beibl yn ammheu fod y canlyniadau hyn yn deilliaw i ddynolryw o leiaf trwy rinwedd eu cyssylltiad naturiol âg ef, y mae y cyffredin o'r ysgrifenwyr a'r eglwysi a elwir yn uniongred yn myned yn mhellach, ac yn dal fod cyssylltiad cyfammodol rhwng Adda a'i hiliogaeth; a bod ein tad cyntaf, yn ystod ei brawf yn ngardd Eden, yn cynnrychioli ei hiliogaeth yn y fath fodd, fel yr oedd, nid yn unig yn gweithredu drosto ei hun, ond dros ei hiliogaeth hefyd. Sylfaenir y farn hon ar y ddau le canlynol: yn gyntaf, ar ymresymiad yr apostol Paul yn *Rhuf.* v. 12—21. Yn yr adran hon, tynir cymhariaeth rhwng Adda a Christ, a chyferbynir y canlyniadau sydd yn dyfod i ddynolryw trwy anufudd-dod y naill, â'r canlyniadau sydd yn dyfod trwy ufudd-dod y llall. Dybena yr apostol ei ymresymiad trwy ddywedyd, "O blegid megys trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn." Ymddengys fod y geiriau hyn yn gosod allan yn ddiammheuol fod "y llawer" yn cael eu gwneuthur yn bechaduriaid ar y naill law, ac yn gyfiawn ar y llall, *yn yr un fath fodd.* Pa ffordd, gan hyny, y'n dysgir fod pechaduriaid yn cael eu gwneuthur yn gyfiawn trwy Grist? Onid trwy gael ei gyfiawnder ef yn gyfrifedig iddynt—fel, ar sail yr hyn a wnaeth efe, yr ymddyga Duw tuag atynt fel pe na phechasant erioed? Os, gan hyny, trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist y gwneir pechaduriaid yn gyfiawn, y mae yn canlyn oddi wrth ymresymiad yr apostol mai trwy gyfrifiad i ni o bechod Adda y'n gwnaethpwyd ni yn bechaduriaid. Neu, mewn geiriau ereill—fel y mae pechaduriaid yn cael eu dyrchafu i ogoniant trwy rinwedd ufudd-dod Crist yn eu lle, heb ddim teilyngdod o'u heiddo eu hunain; felly, mewn canlyniad i bechod Adda, heb ddim bai personol, y mae dynion wedi dyfod yn ddarostyngedig i farwolaeth. Y mae dynion yn dyfod i'r ddau gyflwr cyferbyniol hyn trwy weithred un arall a ymddangosodd ac a weithredodd fel cynnrychiolwr ar eu rhan. Y geiriau nesaf a ddefnyddir i gadarnhau y golygiad hwn ydyw 1 *Cor.* xv. 45—47. Lleferir am Adda a Christ yn y lle hwn yn gyferbyniol i'w gilydd, fel y "dyn cyntaf" a'r "ail ddyn." Yn mha ystyr y dichon eu bod yn sefyll i'w gilydd yn y berthynas o gyntaf ac ail? Nid o ran trefn amser. Nid chwaith o ran urddas personol; o herwydd, "o'r ddaiar yn ddaiarol" yr oedd y cyntaf; ond yr "ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef" ydyw. Mae yn rhaid gan hyny fod y ddau yn llenwi swydd neu sefyllfa neilluol, trwy rinwedd yr hon y gellir dyweyd am danynt eu bod yn "gyntaf" ac yn "ail." Ond trwy holl ysgrifeniadau yr apostol, y mae Crist yn cael ei osod allan fel pen cyhoeddus neu gynnrychiolwr ei bobl. Y mae yn canlyn, gan hyny, fod Adda yn sefyll mewn perthynas gyfatebol, a'i fod yntau i'w ystyried yn ben cyhoeddus neu gynnrychiolwr, yn gystal ag yn wreiddyn naturiol holl ddynolryw.

Mewn cyssylltiad â'r hanes am gwymp dyn, y mae ychydig o egwyddorion amlwg sydd yn angenrheidiol i'w cofio er mwyn gweled yn eglur gymmeriad Duw a dyn yn yr amgylchiadau hyny:—

I. Yr hyn sydd yn ymddangos gyntaf oll ydyw athrawiaeth euogrwydd a llygredigaeth dyn Gwyddai ein rhieni cyntaf, o'r fynyd y trosseddasant orchymyn Duw, fod eu perthynas âg ef wedi newid. Ar unwaith, llanwyd eu meddyliau â chywilydd ac ofn. Nid oedd eu hofnau yn ddisail—rhagredegwyr y felldith a gyhoeddwyd yn eu clustiau â llais Duw oeddynt, ac a gyflawnwyd mewn rhan yn ei alltudiad o Eden. Ymaflodd yr argyhoeddiad ynddynt nad oedd pob peth yn dda iawn mwyach yn ngolwg y Creawdwr. Ni bu raid iddynt aros yn hir cyn gweled fod pechod ynddynt hwy yn ddrwg yn y gwreiddyn. Yn eu cyntafanedig, ymddangosodd y llygredigaeth gyda'r fath nerth ag i argoeli fod dyfodol du o flaen eu hiliogaeth. Ac fel yr oedd amser yn treiglo, yr oedd ffrwd llygredigaeth dyn yn ymledu ac yn dyfnhau, er holl diriondeb a goduetgarwch Duw tuag atynt; fel, o'r diwedd, y bu raid hyd yn oed i ddaioni, yn gystal a chyfiawnder, gyfyngu a rhoddi terfyn ar y llygredigaeth oedd wedi ymdaenu dros y byd.

II. Athrawiaeth arall a ddadguddir gydag eglurder neillduol yn hanes y ffeithiau boreuol hyn ydyw, *cyfiawnder cymmeriad a llywodraeth Duw.* Yr oedd bod dynolryw wedi eu halltudio o baradwys, ac wedi dwyn arnynt eu hunain felldith a marwolaeth am anufuddhau un gorchymyn o eiddo Duw, yn rhoddi prawf amlwg i bawb, ac yn sefyll allan gydag arbenigrwydd yn hanes y byd, fod pob peth yn llywodraeth Duw yn ddarostyngedig i egwyddorion uniondeb a chyfiawnder. Yr ydoedd yn weithred ofnadwy o eiddo sancteiddrwydd fod creadur oedd wedi ei greu ar ddelw Duw yn cael ei ddedfrydu i lygredigaeth a marwolaeth wedi iddo bechu. Dangosai hyn fod un pechod yn ngolwg Duw yn fwy peth na byd llawn o brydferthwch a hapusrwydd, ac nad yw prydferthwch naturiol ond ail beth—adlewyrchiad, neu gysgod yn unig, o uniondeb moesol.

III. Gwirionedd arall a ddadguddir yn amgylchiadau y cwymp ydyw, *gras Duw tuag at ddyn.* Yr oedd yr arbediad a estynwyd i ddyn ynddo ei hun yn brawf fod trugaredd ac ewyllys da i gael lle yn llywodraeth Duw tuag at ddyn. Yr oedd ein rhieni cyntaf wedi colli hawl i ddysgwyl am ddim ar sail haeddiant personol ond amlygiadau o anfoddlonrwydd eu Creawdwr. Syrthiodd y ddynoliaeth yn ein tad cyntaf dan bob manteision naturiol, o flaen twyll y gelyn, a fforffetiodd etifeddiaeth oedd eisoes wedi ei chyfranu iddi. Gymmaint yn fwy analluog a fuasai raid iddi deimlo i ymgodi, trwy ei nerth ei hun, a dinystrio y dinystriwr! Yn y cyfwng hwn, yr oedd y cyhoeddiad eglur "y byddai i Hâd y wraig ysigo pen y sarff," pa mor dywyll bynag yr ymddangosai ar y cyntaf, yn sicr o ddwyn gwawr gobaith i galon frawychus dyn. Y sarff oedd offeryn gweledig ei ddinystr; ac yr oedd clywed fod gelyn dynolryw nid yn unig i gael ei wrth-

Digitized by Google

sefyll, ond i gael yssigo ei ben gan Hâd yr hwn a'i twyllasai, yn amlwg ddangos bwriad Duw i orchfygu y temtiwr, ac i adferu dyn i'w ffafr.

IV. Ni allasai Adda fod yn hir heb gael ei ddwyn i deimlo—hyd yn oed wrth sylwi ar duedd lygredig ei hiliogaeth, heb unrhyw ddadguddiad goruchnaturiol—fod egwyddor arall eto mewn gweithrediad yn llywodraeth Duw ar ddyn, sef yr *egwyddor o gynnrychiolaeth.* Gwelai yn eglur fod ei gwymp ef yn cynnwys cwymp y ddynoliaeth, a bod y natur oedd ynddo ef, wedi myned yn llygredig ac yn ddarostyngedig i farwolaeth, yn cael ei throsglwyddo felly i'w hiliogaeth. Y mae hyn yn brawf ac yn amlygiad fod cyfansoddiad gwreiddiol pethau yn seiliedig ar yr egwyddor o fod sefyllfa yr hiliogaeth yn dibynu ar sefyllfa y rhieni; hyny yw, ar yr egwyddor o gynnrychiolaeth. Pa un bynag a dderbynir y gwahaniaeth a nodwyd ychydig yn ol rhwng perthynas naturiol a chyfammodol Adda a'i hiliogaeth ai peidio, os addefir fod dynolryw *ar eu colled* trwy ymddygiadau y dyn cyntaf, y mae *hanfod* cynnrychiolaeth yn cael ei ganiatäu. Fel yr oedd canlyniadau gweithredol trosedd Adda, yn ei hiliogaeth, yn meddu cymhwysder i weithio argyhoeddiad yn ei feddwl o wirionedd yr egwyddor dan sylw, felly, erbyn ei chanfod, gallasai yr egwyddor fod yn wasanaethgar i ddangos i'n rhieni cyntaf, trwy gyfrwng yr addewid a wnaed iddynt, *pa fodd* y gallesid dyfod â'r adferiad addawedig oddi amgylch. Ymddengys yn anmhosibl iddynt goleddu gobaith am iachawdwriaeth ond trwy gyfrwng yr egwyddor hon. Trwy un weithred o anufudd-dod, wele Adda a'i hiliogaeth wedi eu halltudio o baradwys, a'u darostwng i ddeddf pechod a marwolaeth. O ba le, gan hyny, y gallasai gwaredigaeth godi? Pa fodd y gallesid agor ffordd y bywyd eilwaith, ac adferu i ddyn drachefn yr etifeddiaeth a gollasai, ond trwy ail ben, neu gynnrychiolydd arall y ddynoliaeth, wedi ei gynnysgaethu yn oruchnaturiol i'w swydd? Nid allasai pen cwympiedig roddi bod ond i hiliogaeth gwympiedig, yn ol gosodiad cyfiawnder tragwyddol; ac yr oedd y posiblrwydd o ail ymgodi i fwynhâd o hapusrwydd a bywyd tragwyddol yn gwneyd yn angenrheidiol fod pen arall yn cael ei osod—yn ddyn, ac eto un heb gyfranogi yn ei berson ei hun yn nghanlyniadau y cwymp. Felly, er bod dyn wedi newid, yr oedd egwyddor llywodraeth Duw yn parhau yr un.

V. Arbenigrwydd neilldual arall a ganfyddir yn yr hanes ysgrythyrol am y cwymp ydyw, y goleu cryf a deflir ar yr *holl* wirionedd, heb fod y naill ran yn cael ei haberthu i'r llall, fel y gwneir mewn cyfundraethau dynol. Nid yw yr hanes hwn byth yn camddarlunio cymmeriadau y Creawdwr a'r creadur, fel y gwna yr esboniadau dynol sydd wedi eu dyfeisio i egluro y dirgelwch sydd yn gynnwysedig yn nyfodiad pechod a'i ganlyniadau i'r byd. Nid ydyw byth yn cymmysgu natur pethau, trwy alw y drwg yn dda na'r da yn ddrwg. Cedwir dan bob amgylchiad y gwahaniaeth mawr sydd rhyngddynt yn wastad mewn golwg. Mae Duw yn gyfiawn, yn sanctaidd, ac yn dda; ac y mae pob peth a ddygwyd i fod ganddo ef yn dda. Yn unol â hyn, nid yw y demtasiwn i ymadael â Duw yn gwreiddio yn y dyn ei hun; ond presennolir hi o'i flaen gan elyn, y tu allan iddo. Y mae yr hanes yn gosod allan gymmeriad a phriodoliaethau yr unig wir a bywiol Dduw yn eu holl ogoniant; ac ar y llaw arall, yn dangos pechod yn ei holl wirionedd a'i erchylldra ofnadwy. Yr hanes ysgrythyrol yn unig sydd yn cadw y ddau wirionedd hyn, heb aberthu y naill i'r llall.

Wele grynodeb byr o hanes y cwymp, yn nghyd â'r egwyddorion cyffredinol a amlygir ynddo.

Nid yw yr hanes yn proffesu rhoddi dim goleu ar ddyfodiad cyntaf pechod i'r byd. Cymmerir yn ganiataol fod drwg eisoes yn y byd, heb ddyweyd wrthym *pa fodd*, nac yn *mha le* y daeth i fod gyntaf. Amcan yr hanes ydyw, dangos pa fodd yr ymledodd yr afiechyd, a pha fodd yr aeth dyn dan ei awdurdod. Gwelir, yn absennoldeb pob tuedd at ymresymiadau cywrain ar y mater, fod yr hanes o natur hollol ymarferol. Nid oes dim y mae dynion yn fwy tueddol iddo nag ymwthio i ddirgeledigaethau creadigaeth a'r cwymp, a ffurfio cyfundraethau athronyddol i roddi cyfrif am danynt. Pa bryd, a pha fodd, ac yn mha ffurf y dangosodd pechod ei hun gyntaf oll? Pa bethau oedd achosion uniongyrchol ac anuniongyrchol drwg mewn byd oedd yn dda iawn? Pa beth oedd llwybr y dinystrydd trwy ymherodraeth Duw? Pa alanasdra a wnaeth mewn bydoedd ereill heb law hwn? Ac yn olaf, i ba nerth y cyrhaeddodd cyn iddo wneyd ymosodiad ar ddynolryw? Y mae y gofyniadau hyn, a lluaws ereill o gyffelyb natur, yn ymgynnyg i chwilfrydedd dyn; a phan gymherir yr hanes yn Genesis â'r aneirif gynnygion a wnaed gan ddynion doeth a da i esbonio tarddiad drygioni, ac i blymio ei ddirgeledigaethau, y mae yn anmhosibl gwrthsefyll y casgliad fod rhyw arweiniad uwch law doethineb a gwyliadwriaeth ddynol wedi bod uwch ben cyfansoddiad y drydedd bennod o Genesis. Ond er bod yr hanes ysbrydoledig yn ddystaw ar luaws o bethau y buasai yn dda gan ddynion eu gwybod, y mae ar yr un pryd yn taflu goleu clir a phenderfynol ar yr hyn sydd yn dwyn perthynas ymarferol â phrif amcan y gyfrol sanctaidd. Y mae yn cyssylltu sefyllfa bresennol dyn â'i sefyllfa gyntefig, trwy ddangos fod yr hyn a grewyd yn *dda iawn* wedi dyfod yn *ddrwg*, a bod y cyfnewidiad wedi cymmeryd lle trwy weithred o anufudd-dod o eiddo y dyn cyntaf i ddeddf ddaionus y Creawdwr. Nid llai eglur chwaith yn yr hanes ydyw, fod trueni a dyoddefiadau yn canlyn trosedd—mai gwreiddyn drwg naturiol ydyw drwg moesol.

Y mae byrdra yr hanes hefyd i'w ystyried mewn cyssylltiad â'r anhawsderau sydd ynddo. Er fod hanes y cwymp yn uniongyrchol yn dilyn hanes y creadigaeth, eto nid oes dim i lawr sydd yn ein galluogi i'w cyssylltu â'u gilydd, na phenderfynu pa faint o amser oedd rhyngddynt. Y cwbl a geir yn yr Ysgrythyr am barhâd prawf Adda, a'i arosiad yn mharadwys, a gyfyngir i un awgrymiad—ond un hollol penderfynol; sef ei fod wedi dyfod i ben cyn i blentyn gael ei eni iddo, os nad hefyd cyn bod un wedi ei ymddwyn: *Gen.* vi. 1.

Neilldu olrwydd arall sydd yn nodweddu yr hanes hwn, fel yr Ysgrythyrau yn gyffredinol, ydyw, absennoldeb pob ymdrech i ragfaenu gwrthddadleuon—i ba rai ni allasai lai na bod yn ddarostyngedig, oddi wrth natur ei gynnwysiad goruchnaturiol, yn nghyd â hynafiaeth ei hanesiaeth. Nid oes bryder nac ymdrech yn cael ei amlygu i ennill ffafr a hynawsedd ei ddarllenwyr, trwy geisio cuddio anhawsderau, a diarfogi rhagfarn, a symmud ymaith achosion tramgwydd.

Digitized by Google

Gellir dosbarthu yr anhawsderau sydd yn perthyn i destyn yr erthygl hon, a'r gwrthddadleuon sydd wedi cael eu codi yn ei erbyn, i ddau fath:—

1. Gwrthddadleuon yn erbyn athrawiaeth y cwymp; neu, yr anhawsderau sydd yn perthyn i bob ymdrech i ddangos pa fodd y daeth pechod i fod, a pha fodd y ciliodd creadur sanctaidd oddi wrth ei Greawdwr.

2. Gwrthddadleuon yn erbyn yr *hanes* ysgrythyrol am gwymp dyn, mewn gwrthgyferbyniad i *athrawiaeth* y cwymp.

Yn y lle cyntaf, Pa anhawsderau bynag sydd ar y ffordd i ddangos pa fodd y cymmerodd gwrthgiliad oddi wrth Dduw le yn y greadigaeth resymol a sanctaidd, y mae hanfodiad pechod yn amlwg—y mae drwg moesol mor amlwg ag ydyw drwg naturiol. Yn ail, Nid oes un anhawsder yn cael ei symmud wrth wadu athrawiaeth y cwymp. Yn hytrach, y mae yr anhawsderau yn fwy, tra y credir yn mod a phriodoliaethau Duw. Os ydyw yn anhawdd dangos pa fodd y dechreuodd drwg mewn creadur sanctaidd, pa faint fyddai yr anhawsder i olrhain ei darddiad i Greawdwr anfeidrol sanctaidd. Ac nid oes genym ond dewis rhwng y ddau. Pe ymwrthodem â'r Beibl, ni chymmerem un cam felly tuag at daflu goleu ar sefyllfa dyn. Byddai dyn, yn holl ddirgelwch ei natur a'i drueni, yr un—a'r un hefyd heb obaith o'i flaen. Heb law bod yn nos, ni byddai byth obaith gwawr. Yn drydydd, Athrawiaeth ysgrythyrol y cwymp ydyw yr unig eglurhâd, hyd yn oed yn ngwyneb rheswm, ar sefyllfa bresennol dyn. Yn wir, nid yw yr anhawsderau i ddangos tarddiad drwg yn llywodraeth Creawdwr sanctaidd yn effeithio dim ar athrawiaeth y Beibl. Os profant unrhyw beth, profi y maent fod rheswm dyn heb orchfygu y dirgeledigaethau sydd yn gynnwysedig yn y berthynas sydd rhwng Creawdwr a chreadur. Nid ydynt mewn un modd yn cyflawnhau y casgliad nad oes bosiblrwydd i greadur o eiddo Duw wyro oddi wrth ei uniondeb gwreiddiol heb i hyny fod yn ddianrhydedd ar Dduw neu ar ei waith; ac yn enwedig felly pan gofiwn nas gellir gwadu hyn heb gyfarfod âg anhawsderau lluosocach ac annhraethadwy fwy. Yn bedwerydd, Y mae ysgrifenwyr yn fynych wedi gwneuthur sylwadau, sydd, er nad yn egluro y dirgelwch, eto yn foddhaol i'w meddyliau, fod Duw yn eirwir er i bob dyn fod yn gelwyddog. Rhoddir yma, yn fyr,

HANES ATHRAWIAETH Y CWYMP:

sef, y wedd y mae gwrthddadleuon wedi ei chymmeryd; ac atebion prif ysgrifenwyr yr Eglwys Gristionogol o'r amseroedd boreuaf.

Y Gnosticiaid oedd y cyntaf ar ol dechreuad Cristionogaeth i osod yr wrthddadl yn y wedd ganlynol:—Os creodd Duw ddyn yn dda, o ba le y daeth pechod? Os crewyd ef yn anmherffaith, y Creawdwr raid fod yr achos cyntaf o bechod. I hyn, atebai Irenæus, nad oedd dyn yn ei greadigaeth yn berffaith nac yn ddiffygiol, ond ei fod mewn cyflwr o ddiniweidrwydd plentynaidd. Pe buasai yn parhau yn ei ufudd-dod, cawsai fywyd tragwyddol mewn cymdeithas â Duw: ond syrthiodd trwy bechod, ac aeth yn ddarostyngedig i farwoldeb a llygredigaeth. Trosglwyddwyd y ddau i'w hiliogaeth—fel y mae carcharor, os genir iddo blant tra yn ngharchar, trwy ei weithred ei hun, yn eu difeddiannu o'u hetifeddiaeth.

Yn y modd canlynol y gosodai Tertullian y syniadau a ffynent yn y gorllewin ar y mater hwn. Nid daioni, medd efe, oedd hanfod dyn, fel y mae yn hanfod Duw; o ganlyniad, yr oedd yn rhaid iddo ei wneuthur yn etifeddiaeth iddo ei hun, trwy weithred rydd o'i ewyllys ei hun. Pe yr arosasai trwy y gyfryw weithred yn ffyddlawn i ewyllys Duw, dyrchafesid ef uwch law yr holl angelion. Rhoddodd yr Arglwydd ddeddf i Adda, fel y gallai ymarfer ei hun i ymostwng i ewyllys ei Greawdwr. Daeth pechod i fod trwy fod dyn yn gosod ei ewyllys ei hun i fyny, yn lle ewyllys Duw. Ei ragorfraint a'i ddiogelwch oedd, cael llywodraethu ar y greadigaeth weledig mewn ymostyngiad i ewyllys Duw. Ond trwy ei anffyddlondeb, efe a syrthiodd dan gaethiwed y byd.

Golygai Clemens, o Alexandria, fod dyn yn mharadwys mewn sefyllfa o blentynrwydd, ac mai arno ei hun y dibynai pa un a roddai ufuddod i Dduw ai peidio; ond twyllwyd ef trwy chwant y cnawd a chwant y llygad i anufuddhau.

Y mae syniadau Origen yn ddyeithrol i ni yn yr oesoedd hyn, ac yn gorphwys ar y dybiaeth fod yr enaid yn hanfodi cyn iddo ddyfod i undeb â'r corff, ac mai ei ddyfodiad o'r byd blaenorol hwnw i'r byd hwn yn ei undeb â chnawd yw ei gwymp. Dywed fod cwymp Adda i'w ystyried yn arddangosiad cysgodol o gwymp eneidiau ar eu dyfodiad i'r byd hwn. Y mae paradwys, o ba le yr alltudiwyd y dyn cyntaf, i'w ddeall mewn ystyr ysbrydol am y byd nefol o ba un y mae eneidiau yn disgyn. Wrth y peisiau crwyn, y mae i ni ddeall y corff yn yr hwn y carcherir yr enaid. Cyfeiria at *Iob* xiv. 4, 5; ac fe ddywed:—"Y mae y lle hwn yn cyfeirio at ddirgelwch genedigaeth dyn, mewn canlyniad i ba un nis gall neb fod yn rhydd oddi wrth bechod."

Y ddau enw mwyaf adnabyddus yn nghanrifoedd cyntaf Cristionogaeth, os nad yn holl ystod ei hanesiaeth, ydyw Awstin a Pelagius, y rhai a gymmerasant olygiadau hollol gyferbyniol ar y mater hwn, yn nghyd â'r athrawiaethau perthynasol. Priodolai Awstin bwysigrwydd arbenig i'r pechod cyntaf, trwy yr hwn y cyfnewidiwyd perthynas ac ansawdd foesol yr holl hiliogaeth. Pelagius, i'r gwrthwyneb, a wadai fod un weithred yn gallu effeithio cymmaint ar holl ddynolryw. Honai Pelagius i Dduw roddi gorchymyn i ddyn yn brawf o'i ufudd-dod, fel y gallai ennill buddugoliaeth ar chwant naturiol; yr hwn nid oedd yn bechadurus, am ei fod wedi ei wreiddio yn ei natur. Ond trwy ddiffyg ymarferiad ac esamplau blaenorol i'w roddi ar ei wyliadwriaeth, cafodd dyn ei dwyllo, a throseddodd orchymyn Duw. Dadleuai Awstin nad oedd y chwant i ffrwyth y pren yn beth naturiol a dibechod. Nid oedd Adda yn ddarostyngedig i demtasiwn yn ystod y cydgordiad perffaith oedd rhwng Duw ac yntau; ac mai trwy ei euogrwydd y daeth temtasiwn yn bosibl iddo. Gwreiddiodd anufudd-dod yn ewyllys dyn cyn i deimladau naturiol a chorfforol gael dylanwad arno. Yr oedd y ddau yn derbyn yr hanes yn Genesis, mewn ystyr llythyrenol; eto, yr oedd y gwahaniaeth rhyngddynt yn hanfodol. Yn ol Pelagius, y mae pob plentyn yn yr un cyflwr ag Adda cyn y cwymp—ond yn unig fod galluoedd Adda yn eu cyflawn nerth. Cynnysgaethwyd ef â rheswm ac â chwantau naturiol; ond yr oedd yn amddifad o brofiad, ymarferiad, ac esampl; ac o ganlyniad, ennillodd y chwantau naturiol y feistrolaeth ar reswm. Dysgrifiad Awstin o gyflwr gwreiddiol dyn ydyw, ei fod yn byw

Digitized by Google

mewn cymdeithas bur â Duw—mai daioni oedd elfen briodol ei natur: yr oedd hyn yn cadw temtasiwn i bechod draw; ac mewn canlyniad i'w gymdeithas â Duw, yr oedd holl ranau ei natur mewn cydgordiad perffaith â'i Greawdwr. Yr oedd y corff yn offeryn ewyllysgar i'r enaid: nid oedd y dyn eto yn anfarwol o ran ei natur, ond nid oedd chwaith yn ddarostyngedig i farwolaeth; ac heb ei phrofi, buasai yn ehedeg i ystâd uwch o fod.

Yn ol Chrysostom, yr oedd sefyllfa gyntefig dyn yn gyflwr o burdeb a dedwyddwch; ond o gymmaint a hyny, yr ydoedd ei berygl yn fwy i anghofio ei ddibyniad ar ei Greawdwr. Er mwyn ei gadw yn y teimlad o hyn, ac i'w ddwyn i ymarfer ufudd-dod, rhoddodd Duw iddo orchymyn. Troseddodd dyn y gorchymyn trwy esgeulusdra pechadurus, a thrwy beidio gweithredu ei allu naturiol o ewyllysio.

Yr oedd llawer o dduwinyddion y canoloesoedd, yn gyffelyb i Awstin, yn dal fod dyn yn ei sefyllfa gyntefig yn ddyledus i ras am gyflawniad o bob da:—nad allai cyn y cwymp, mwy nag ar ol y cwymp, gyflawnu dim a fyddai yn wir gymmeradwy gan Dduw trwy ei nerth naturiol. Dosbarthai Pedr Lombard ragorfreintiau dyn cyn y cwymp i ddoniau naturiol (*dona naturalia*); hyny yw, y rhai a berthynent iddo fel dyn; a doniau grasol (*dona gratiæ*), y rhai oedd yn seiliedig ar ei gymdeithas â Duw, ac yn chwanegol at ei gynneddfau naturiol. Yr oedd y doniau naturiol yn gynnwysedig yn nerth a bywiogrwydd ei alluoedd naturiol. Yr oedd ewyllys dyn yn ogwyddedig at ddaioni, heb ynddo ddim tuedd wrthwynebol; ond eto, nid oedd hyn yn ddigon i atluogi dyn i sicrhau prif amcan ei fywyd. Pe gadawsid ef felly iddo ei hun, syrthio i ddrwg a wnaethai—fel y gwnaeth. Safai gan hyny mewn angen am ras i ewyllysio daioni yn weithredol; ac nid yn unig am ras i gydweithio âg ef (*co-operans*), ond i'w ysgogi yn effeithiol at hyny (*operans*).

Gwahaniaethai y Lutheriaid a'r Calviniaid i raddau yn eu syniadau o barth i'r cwymp; ond mae y gwahaniaeth sydd rhyngddynt yn codi o wahaniaeth blaenorol am yr hyn yw delw Duw, yn mha un y crewyd dyn. Ond y mae y ddwyblaid yn eiddigeddus i olrhain y cwymp a'i ganlyniadau yn hollol i ewyllys dyn, er yn analluog i ddangos pa fodd y gallasai ewyllys sanctaidd ddyfod yn ansanctaidd.

Rhoddir y crybwylliadau hyn er mwyn dangos pa fodd yr arferai dynion edrych ar y pwnc yn mhob oes o Gristionogaeth; ac er mwyn dangos hefyd cyn lleied y gall rheswm ei wneyd tuag at ei egluro. Nid yw ymchwiliadau diweddar wedi gallu treiddio dim pellach nag olrhain posiblrwydd y cwymp i ewyllys dyn.[1]

[1] Er mwyn dangos pa fodd y mae rhai o'r meddylwyr galluocaf—rhai sydd heb ddilyn ol traed meddylwyr ereill gymmaint, na chwaith wedi ei ystyried yn ei wedd dduwinyddol—yn edrych ar y pwnc hwn, rhoddir yma ddyfyniad neu ddau. Yn ol addefiad pawb, un o'r ysgrifenwyr gwerthfawrocaf a gwreiddiolaf yn yr iaith Seisonig, ydyw Butler. Ac y mae ganddo adran yn ei *Analogy*, i ddangos pa fodd y dichon i greadur perffaith sanctaidd, trwy ddifyg gwyliadwriaeth, syrthiodan ddylanwad pechod: —"Gallwn ddychymygu pa fodd y cymmerodd hyn le, wrth ystyried natur serchiadau a thueddiadau neilldiol (megys awyddfryd am wybodaeth, awdurdod, cyfeillach, ymborth, &c.): o herwydd, tybiwch fod creaduriaid wedi eu bwriadu i sefyllfa yn mha un y mae y cyfryw serchiadau yn angenrheidiol; tybiwch, hefyd, iddynt gael eu cynnysgaethu a'r serchiadau hyn, yn nghyd a dealltwriaeth moesol, i'w galluogi i deimlo rhinwedd yn ymarferol, ac i'w chanfod yn ymresymiadol (neu ddamcanol); a bod yr holl egwyddorion hyn, yn naturiol ac yn foesol, yn meddu y cydgordiad a'r cymmesuredd perffeithiaf â'u gilydd—hyny yw, yn meddu y cydgordiad cyfaddasaf i'r sefyllfa y bwriadwyd eu perchenog—byddai y cyfryw greadur yn uniawn, neu yn feidrol berffaith. Yn awr, os bydd gwrthddrychau y serchiadau neilldiol hyn yn bresennol, nis gellir lai na theimlo y serchiadau cyferbyniol; a hyny pan na chaniatâ y gydwybod, neu yr egwyddor foesol, iddynt gael eu mwynhau. Ond os ydyw mwynhad o honynt yn bosibl, heb ganiatad y gydwybod, neu trwy el gwrthwynebu, yna rhaid caniatau iddynt ryw duedd, pa mor fach bynag, i hudo dynion i fwynhad gwaharddedig. Gall y duedd hon fod yn gryfach mewn un teimlad nag mewn teimlad arall, os bydd y gwrthddrychau sydd yn ei chyffroi yn bresennol yn fynychach. Byddai y mwynhâd gwirfoddol, hyd yn oed mewn meddwl, yn ddigon i gryfhau y duedd gyfeiliornus hon; ac elai rhagddi i ymgryfhau, hyd nes o'r diwedd, mewn amgylchiad ffafriol, y dybenai mewn gweithred o anufuddod; ac fe ddybenai y perygl o wyro oddi wrth yr iawn mewn ymadawiad gweithredol—perygl sydd yn codi, o angenrheidrwydd, o natur serchiadau neilldiol; a pherygl hefyd na allesid ei osgoi, er y gallesid myned trwyddo yn ddiogel gyda'r gwyliadwriaeth angenrheidiol. Y mae fel pe tybiech am linell unionsyth, ar hyd pa un y byddai yn angenrheidiol i ddyn rodio, ac y byddai rhyw radd penodol o wyliadwriaeth yn ddigonol i'w gadw; ond y byddai, hefyd, wrthddrychau yn ddigonol i dynu ei sylw, ac i'w lithro oddi arni. Y mae yn anmhosibl dyweyd pa faint y gallai y weithred allanol gyntaf—o ddiffyg cydymffurfiad perffaith â'r rheol—anmhuro cyfansoddiad dyn, a thaflu y cymmesuredd a hanfodai rhwng ei wahanol elfenau i ddyryswch. Mynychiad o anufudd-dod a gynnyrchai ymarferion pechadurus, ac a hollol ddinystriai gyfansoddiad dyn; ac felly, syrthiai dynion, a grewyd yn berffaith ac uniawn, i gyflwr llygredig."

Fel y canlyn y mae barn y Dr. Chalmers ar yr ymresymiad uchod; ac yn hollol gywir, dybygem ni:—

"Nid wyf yn meddwl fod barn Butler am y cwymp yn cytuno â'r hanes ysgrythyrol. Y mae efe yn rhoddi yr argraff fod dyn, trwy un trosedd, yn gwyro rhyw gymmaint oddi wrth y llwybr, ond nid yn mheli; ac ond i ddyn wrthsefyll yr all waith, y gall ennill tir yn ol—pan, mewn gwirionedd, taflodd y trosedd cyntaf ddyn i gyflwr hollol wahanol, a hyny ar unwaith. Codwyd attalfa ar ffordd ei ddychweliad, na allasai ond Duw ei symmud. Y mae Butler yn edrych dros un ystyriaeth bwysig; sef, fod y trosedd cyntaf, nid yn ddechreuad yn unig i lawr goriwaered esmwyth, ond yn fynedfa i gyflwr arall hollol. Aeth y dyn yn wrthryfelwr: cymmerodd euogrwydd afael yn ei gydwybod; a chyda'r euogrwydd, yr *ofnau* a'r *ymbelldâd* sydd yn cydfyned âg ef. Y mae yr hanes yn Genesis yn fwy cyssan âg egwyddorion natur dyn. Ar unwaith, syrthiodd dyn o gyflwr o ufudd-dod dan gondemniad: yr hyn, iddo ef, sydd yn anfeddyginiaethol."

Y brawddegau canlynol ydyw y rhai diweddaf a welsom ar y posiblrwydd neu y modd y dichon i greadur sanctaidd syrthio. Nid ydynt mewn gwaith duwinyddol; ond mewn traethawd beirniadol gan ysgrifenydd galluog:—

"Y mae rhywbeth mewn gweithredu nerth—yn y teimlad o fod, mewn estyn allan aelod, mewn gwrthsefyll anhawsder, mewn gweithgarwch o unrhyw natur—sydd yn magu yr argyhoeddiad o nerth annibynol ein galluoedd, ac yn wrthwynebol i'r teimlad o isafiaeth a chyfrifoldeb. Y mae cenad a ddefnyddir mewn negeswriaeth, yn y cyflawniad o'i swydd, yn anghofio ei feistr trwy rinwedd ei weithgarwch. Fel y mae y teimlad o fwynhâd mewn gweithred yn cynnyddu, y mae y teimlad o ddibyniaeth yn gwanhau. Y mae gorphwysdra a gwendid corfforol yn ffafriol i'r teimlad o ddibyniaeth, o hyny, tardd prydferthwch gwendid henaint yn rhagflaenu angeu. Gwanheir y teimlad hunan-ddigonol, trwy wendid corfforol, a thueddir dyn i dduwiolfrydedd. Anhawdd ydyw i'r dyn ieuanc, sydd yn ymlawenychu yn ei gryfder, deimlo fod ei anadl yn ei ffroenau. Mewn rhyw fath fodd a hyn y syrthiodd yr archangel:—gan ymlawenychu yn ei nerth, yn ddiflino yn ei orchestwaith, ac yn sychedu yn barhaus am rywbeth mwy i'w wneyd. Ac wele ei ddoethineb yn troi yn ffolineb. Yr oedd ei syniadau am Dduw yn fwy mawreddus nag ydoedd eiddo un angel arall; . . . . ond fel yr oedd y teimlad o fwynhâd mewn gweithred yn cryfhau, yr oedd y teimlad ei fod yn angel yn gwanhau. Yr oedd hyd yn oed parhad ei fod yn myned dan sail ei nerth. Er ei fod yr angel uchaf yn y nefoedd; le, am ei fod felly, efe o bawb oedd y parotaf i syrthio."

"O'r diwedd, wele achlysur yn ei brofi. Pan roddwyd yr hysbysiad gan yr Hollalluog yn nghynnulleidfa yr angelion, ei fod wedi eneinio ei uniganedig Fab i fod yn Frenin ar ei fynydd sanctaidd Sion, gwgodd yr archangel, a throdd yn wrthryfelwr."—*Essays, by D. Masson.*

Y mae un brawddeg yn ddigon i ddangos nad yw y dyfyniad hwn yn cynnwys yr agoriad i ddirgelwch cyflwr presennol dyn: o herwydd dengys bechod fel canlyniad angenrheidiol o ddeddf naturiol; ac o ganlyniad, rhaid, yn ol yr ymresymiad hwn, mai Duw ydyw ei awdwr.

Digitized by Google

Heb law yr anhawsderau sydd yn perthyn i athrawiaeth y cwymp, nid yw yr hanes ysgrythyrol am y cwymp yn rhydd oddi wrth anhawsderau; sef, y cyfryw ag sydd wedi cael eu gwneuthur yn fynych yn wrthddadleuon yn ei erbyn.

1. Nid oes un rhan o'r hanes wedi ymddangos yn fwy darostyngedig iddynt na'r rhan a briodolir i'r sarff fel y temtiwr. Y mae tri golygiad wedi cael eu dal ar hyn. Priodola y cyntaf y temtiad i'r sarff yn unig; yn ol yr ail, nid oedd un sarff wirioneddol yn offeryn ar yr achlysur, ac mai yr un drwg yn unig a feddylir, yn allegawl, wrth y gair; ac yn ol y trydydd golygiad, yr oedd y sarff yn offeryn yn llaw Satan, neu efe ei hun ydoedd megys sarff. Heb edrych pa beth a ellir ei ddywedyd dros neu yn erbyn y naill neu y llall o'r golygiadau hyn, y mae yr hanes yn ein cyfiawnhau i gasglu:—1. Fod y temtiwr yn sarff o ran ffurf ac ymddangosiad, ac nid felly mewn enw yn unig. Heb hyn, ni allesid cymharu y sarff â "holl fwystfilod y maes" (*Gen.* iii. 1), ac, yn ol y gymhariaeth hon, gyhoeddi y ddedfryd arni—"melldigedicach wyt ti na'r holl anifeiliaid" (*adn.* 14). Mae y Testament Newydd yn cadarnhau hyn: 2 *Cor.* xi. 3. Nid ydyw Satan chwaith yn yr Hen Destament yn myned dan yr enw sarff. Mabwysiadwyd yr esboniad hwn oddi ar y dyb y gallesid gochelyd rhai o'r anhawsderau sydd yn nglŷn â chymmeryd y gair yn ei ystyr llythyrenol. Yr anhawsderau hyn ydynt—(1.) Ei bod yn anghysson â'n syniadau am Dduw, i ganiatäu gallu gwyrthiol i'r diafol, trwy gymmeryd ffurf sarff arno ei hun, neu trwy alluogi sarff naturiol i siarad—i ddinystrio y diniwed. Ond y mae yr wrthddadl hon yn milwrio yn erbyn temtasiwn yn mhob ffurf; ac eto, nid oes dim yn fwy sicr na bod y Llywydd mawr wedi caniatäu i ddyn, nid yn unig i gael ei demtio, ond hefyd i syrthio. A chan fod y diafol yn cael caniatâd i ymddangos fel angel y goleuni, pa ham hefyd nad i ymddangos yn ffurf sarff, gan mai ei amcan yn y ddau ydyw hudo a thwyllo. (2.) Gwrthddadl arall ydyw, na buasai y diafol yn dewis ymddangosiad mor anolygus. I hyn, gellir ateb, nas gwyddom a oedd gan y diafol ei ddewis o ffurf sarff neu seraph; nis gwyddom chwaith ai nid y sarff oedd yr offeryn goreu yn yr amgylchiadau; ond gwyddom fod y diafol wedi llwyddo yn y dull a gymmerodd. 3. Dywedir y buasai y wraig yn dychrynu, yn hytrach na gwrandaw, pe clywsai hi sarff yn siarad; ond yn yr hanes, nid oes un arwydd o syndod o du y wraig. Y mae yn amlwg, dybygem, oddi wrth hyn, yn gystal ag oddi wrth yr holl hanes, mai y prif ffeithiau yn unig a roddir i ni o'r temtiad a'r cwymp yn Genesis, ac nid y manylion. Nid yw Moses yn rhoddi hanes agosâd cyfrwysgar cyntaf y sarff at Efa, ond yn dechreu yn nghanol yr ymddyddan. Hyn ydyw y casgliad teg oddi wrth absennoldeb syndod a dychryn o du y wraig, ac nid mai yn ffugrol y defnyddir y gair sarff, gan fod yr holl hanes yn benderfynol yn erbyn hyny. Yr wrthddadl olaf ydyw, nad oedd y sarff erioed wedi ei chyfaddasu i gerdded yn uniongyth, na chwaith yn meddiannu peiriannau llafar. Gwir iawn: ond a allasai hyn fod yn rhwystr i'r sarff lefaru, mwy nag ydoedd i'r asyn a geryddodd ynfydrwydd y prophwyd, pe buasai hyny yn ol ewyllys Duw. Yr Arglwydd, y mae yn wir, a archodd i'r asyn lefaru, ond offeryn yn llaw y diafol oedd y sarff. Ac y mae hyn yn arwain at y ddadl o barth i allu ysbrydion drwg i wneuthur gwyrthiau. Fod y Creawdwr yn caniatäu iddynt allu o'r fath sydd amlwg oddi wrth yr Ysgrythyrau. Gwel GWYRTHIAU.

Er fod yr ystyriaethau hyn yn ddigon i ddangos fod offeryn y temtiad yn sarff, mae yn amlwg hefyd mai nid sarff gyffredin ydoedd. O'r braidd y gellir priodoli cyfrwysdra i unrhyw rywogaeth o seirff y tu hwnt i holl fwystfilod y maes. Dywed Calvin a Holden fod hyn yn wir am y sarff naturiol cyn y cwymp, ond ei bod yn awr wedi dirywio. Dywed ercill, gyda Hengstenberg, fod y dysgrifiad yn gywir am y sarff naturiol, ond addefant ei fod yn gymhwysiadwy mewn ystyr mwy priodol at y diafol. Ereill, megys Awstin, a briodolant y cyfrwysdra i'r gwir weithredydd yn y temtiad, gan hôni na pherthyna i'r sarff, ond yn unig fel offeryn yn ei law ef. Mai nid y sarff naturiol oedd y gwir weithredydd, sydd amlwg; o herwydd y mae yn ymresymu ar bethau a berthyn i Dduw a dyn—ar dda a drwg—mewn ffordd sydd yn dangos ei fod yn gydnabyddus â deddfau natur a rhagluniaeth; a dengys y fath gyfrwysdra yn ei ymresymiadau yn erbyn y gwaharddiad fel ag i sicrhau y fuddugoliaeth ar y wraig. Dengys y ddedfryd a gyhoeddwyd arno hefyd ei fod yn greadur moesol a chyfrifol. "Am wneuthur o honot hyn, melldigedicach wyt:"—geiriau na allesid eu llefaru ond wrth greadur cyfrifol ac euog. Mae ffurf y felldith yn cyfateb i'r ffurf a ddefnyddiodd y diafol i demtio; ond nid ydym i ddeall ei fod wedi disgyn ar y sarff naturiol, os defnyddiwyd y cyfryw, na chwaith ar y rhywogaeth yn gyffredinol. Y mae llawer o'r anhawsderau wedi cyfodi o ddiffyg gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd yn hanfodol yn y bygythiad a'r ffurf allanol yn mha un y gwisgwyd ef. Cadarnheir y golygiad mai y diafol oedd y temtiwr yn y Testament Newydd: *Dad.* xii. 9; xx. 2; 2 *Cor.* xi. 3, 14; *Ioan* viii. 14. Yn yr adnodau hyn, ceir hanes cyflawn bron o'r cwymp—y temtiwr, ei ystrywiau cyfrwysgar, ei gelwydd, ei weithgarwch diorphwys, ei greulondeb, a'i lwyddiant boreuol yn ei ymdrechiadau i dwyllo a dinystrio.

2. Yr anhawsder arall y cyfeiriwn ato yn y lle hwn ydyw, yr hyn sydd yn codi o natur y bygythiad ar ddyn am anufudd-dod—"gan farw y byddi farw." Y casgliad cyffredinol bron oddi wrth y bygythiad hwn, yn nghyd â chyhoeddiad y ddedfryd ar ol y cwymp ydyw, mai ar ol cwymp dyn y daeth hyd yn oed y greadigaeth ddireswm ac anifeilaidd yn ddarostyngedig i farwolaeth. Nad ydyw yr Ysgrythyrau yn cyflawnhau y casgliad hwn, ac hefyd ei fod yn anghysson â ffeithiau daiareg, sydd amlwg. Pa beth ydyw tystiolaeth daiareg ar hyn? Fod yr holl greadigaeth anifeilaidd yn ddarostyngedig i farwolaeth, naill ai trwy henaint a gwywdra naturiol, neu ynte trwy syrthio yn ysglyfaeth i wanc eu gilydd, neu ynte trwy gael eu gorddiwes â galanasdra a chwyldroad cyffredinol, a hyny cyn i ddyn erioed ymddangos ar y ddaiar. Nid oes un ffaith mewn gwyddoreg yn fwy sicr na bod marwolaeth creaduriaid direswm wedi rhagflaenu pechod dyn; ac o ganlyniad, nad ydyw i'w briodoli iddo.

Nid yw hyn chwaith yn anghysson â'r Ysgrythyr. Y mae y Beibl yn cyssylltu marwolaeth â phechod fel ei gyflog; ond os edrychir yn fanwl i'r cyd-destynau, ceir gweled mai marwolaeth dyn yn unig a ddywedir sydd yn gyflog pechod dyn. Ystyrier y cyfeiriadau canlynol, y

Digitized by Google

rhai sydd yn cynnwys swm yr hyn a ddywed yr Ysgrythyr ar y cwestiwn: *Gen.* xxx. 19; *Rhuf.* v. 12; 1 *Cor.* xv. 21; *Rhuf.* viii. 20, 22. Tybir yn gyffredin fod yr adnodau olaf yn priodoli holl boenau y greadigaeth afresymol i gwymp dyn: "Canys y creadur sydd wedi ei ddarostwng i oferedd," &c. "Canys ni a wyddom fod pob creadur yn cydocheneidio, ac yn cydofidio hyd y pryd hwn." Dylid cofio, fodd bynag—1. Nad yw esbonwyr yn cytuno pa un ai y rhan resymol ai yr afresymol o'r greadigaeth a feddylir wrth y geiriau "y creadur," a "phob creadur." 2. Priodolir y darostyngiad hwn i oferedd, nid i bechod dyn, ond i ordeiniad Duw. 3. Os at y felldith a gyhoeddwyd ar y ddaiar y mae y cyfeiriad, sef y byddai iddi ddwyn drain ac ysgall, nid yw hyn yn profi nad oedd poen a marwolaeth yn y byd yn flaenorol.

Gwelir oddi wrth hyn, er fod yr esboniadau a roddir ar yr Ysgrythyrau yn anghysson yn fynych â ffeithiau gwyddoreg, nad yw yr Ysgrythyr ei hun ddim.

Ond er cyfyngu y bygythiad at ddyn unig, nid ydys er hyny yn hollol rydd oddi wrth yr hyn sydd wedi cael ei deimlo yn anhawsder, a'i ddefnyddio yn wrthddadl yn erbyn yr hanes; sef, fod y bygythiad o farwolaeth am anufudd dod yn tybied y buasai dyn yn ddiangol rhag pob peth a gynnwysir yn y gair marwolaeth, ac, o ganlyniad, oddi wrth farwolaeth y corff, pe rhoisai ufudd-dod i orchymyn ei Greawdwr. Yn erbyn hyn, dywedir yn fynych fod rhesymau cryfion dros feddwl ei bod yn eithaf annhebygol, os nad yn anmhosibl, y gallasai dyn fod yn rhydd oddi wrth ymddattodiad naturiol corff ac enaid, hyd yn oed pe na phechasai. Y rhesymau hyn ydynt:—1. Natur peirianwaith corfforol, yr hyn sydd yn cynnwys cynnydd, cyfnewidiad, dirywiad, a marwolaeth. 2. Cynnydd dynolryw, yn unol â'r gorchymyn, "Ffrwythwch ac amlhewch"—yr hyn ni allasai fod pe na symmudasid y naill genedlaeth, i wneyd lle i'r llall. Y mae yn wir fod dirywiad a marwolaeth, yn ol cyfansoddiad presennol y corff, yn ddeddf gyffredinol, ac angenrheidiol hefyd yn yr amgylchiadau; a gellir addef fod cyrff anifeilaidd yn ddarostyngedig i'r un ddeddf cyn y cwymp, ac yn wir cyn creadigaeth dyn. Ond yn wyneb hyn, pa ham na allasai y Creawdwr, pe yr ewyllysiasai, beri i gorff dyn bara ei weithrediadau heb ddyfod i derfyn naturiol yn angeu? Neu, a oedd y Creawdwr hollalluog a doeth yn rhwym i un ddeddf yn nghyfansoddiad naturiol dyn? Mewn atebiad i'r sylw arall, gellir dywedyd fod grym ynddo pe buasai dyn i fod yn drigiannydd y byd isod hwn yn unig. Ond pa reswm sydd yn erbyn credu, fel y mae llawer, y symmudasid y naill genedlaeth ar ol y llall i drigfanau ereill yn ymherodraeth y Creawdwr? Er mwyn dangos y posiblrwydd o hyn, symmudwyd dau fel nas gwelsant farwolaeth; ac yn niwedd y byd, newidir holl drigolion y ddaiar mewn moment, "ar dar awiad llygad, wrth yr udgorn diweddaf."

Y mae hyn yn ddigon i gyfarfod y gwrthddadleuon yn erbyn y farn fod y bygythiad a gyhoeddwyd ar anufudd-dod yn cynnwys marwolaeth naturiol y corff. Os yw dattodiad y corff yn rhan o gynnwysiad y bygythiad, nid yw y naill neu y llall o'r rhesymau uchod yn ddigon i brofi y gwrthwyneb. Ond yr ochr arall, y mae yn gwestiwn a ydyw marwolaeth y corff yn rhan o'r bygythiad oll. Nid yw rhai yn gweled dim ond hyn ynddo; ond y mae y rhesymau nad yw y dattodiad corfforol yn gynnwysedig o gwbl yn y bygythiad yn meddu llawer mwy o rym. Y rhesymau hyn ydynt—1. Fod y geiriau *marwolaeth* a *bywyd*, pan y defnyddir hwynt yn eu hystyr cyffredinol, heb ddim yn y cyd-destynau i ddangos yn wahanol, yn arwyddo bywyd neu farwolaeth ysbrydol. "Wrth farwolaeth," meddai y President Edwards, "y meddylir yr un farwolaeth ag a farnodd Duw i fod yn gosp briodol am bechod; a'r hyn y llefara yr Ysgrythyr am dano fel cyflog priodol pechod." Ac yn y bygythiad dan sylw, lle y defnyddir y gair y tro cyntaf, nis gall nad yn yr ystyr hwn y defnyddir ef. Y mae y farwolaeth hon yn cydhanfodi â bywyd naturiol. 2. Er mwyn deall natur y bygythiad, rhaid cofio fod Adda, pan y cyhoeddwyd ef gyntaf, yn meddu ar fywyd ysbrydol a sanctaidd; yr hyn, y mae yn ddiau, a ymddangosai yr unig beth o werth yn ei olwg. I'r cyfryw un, ni buasai y perygl o dynu arno ei hun a'i hiliogaeth ddyoddefiadau tymmorol yn ddim mewn cymhariaeth i golli ffafr Duw. At hyn, y mae yn ddiau, y trodd meddwl Adda pan glywodd y bygythiad gyntaf. 3. Os oedd marwolaeth naturiol yn gynnwysedig yn y bygythiad, gallesid dysgwyl oddi wrth y geiriad—yr hwn sydd yn dangos yn y modd cryfaf mai marwolaeth uniongyrchol a dioedi fyddai y canlyniad o droseddu y gorchymyn, "*Yn y dydd y bwytei o hono, gan farw ti fyddi farw*"—iddo farw yn y fan, ac nid cael ei arbed am gannoedd o flyneddoedd. Y mae yr anghyssondeb hwn yn diflanu wrth gymmeryd y gair yn ei ystyr eangaf a phriodol am farwolaeth ysbrydol. Mae rhai wedi cymmeryd y geiriau i arwyddo, "Yn y dydd y bwytei o hono y byddi ddarostyngedig i farwolaeth;" ond digon yw dyweyd, mai "y byddi farw" ydyw geiriau y bygythiad.

Gall rhai feddwl fod y cyhoeddiad a wnaed gan Dduw ar ddyn, ar ol iddo bechu — sef, "Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli"—yn ddigon o brawf fod y bygythiad yn cynnwys marwolaeth naturiol. Nid oes ammheuaeth nad yw y geiriau hyn yn cyfeirio at farwolaeth y corff. Ond—1. Y maent hefyd yn brawf nad yn hyn yn unig yr oedd y bygythiad yn gynnwysedig; o herwydd ni buasai yn angenrheidiol gwneyd y fath gyhoeddiad, os oedd dyn eisoes wedi myned yn ddarostyngedig iddo trwy rinwedd y bygythiad. 2. Gellir edrych ar yr holl ddyoddefiadau a gyhoeddir ar ein rhieni cyntaf, ar ol y cwymp, fel arwyddion gweledig a theimladwy o'u sefyllfa gwympiedig; ac nid fel, yn y lle cyntaf, y rhan bwysicaf, os rhan o gwbl, o'r bygythiad gwreiddiol. Am y gosp a gyhoeddwyd ar y sarff, ni allasai fod yn gosp o gwbl ar yr ymlusgiad hwnw. Y mae y meddwl yn ymwrthod â'r dybiaeth fod creadur direswm yn wrthddrych digofaint Duw; ond yr oedd y felldith a gyhoeddwyd ar y sarff yn arwydd allanol o'r fuddugoliaeth a ennillai Hâd y wraig ar y diafol. Os oedd y cyfnewidiad a gymmerodd le yn y sarff yn angenrheidiol, fel arwydd o ddinystr y diafol—ac y mae yn anhawdd priodoli iddo un dyben arall — onid yr un mor angenrheidiol oedd i'n rhieni cyntaf gael eu hamgylchynu âg arwyddion gweledig o'u sefyllfa gwympiedig eu hunain? Pe na buasai eu sefyllfa allanol wedi ei newid, gallasent anghofio yn fuan eu bod mewn gelyniaeth â Duw, ac yn sefyll mewn angen am gyflawniad yr addewid o Hâd y wraig. Ond o drugaredd atynt, ni adawyd hwynt felly. Ond yr oedd holl amgylchiadau eu sefyllfa

Digitized by Google

ddaiarol—yr angenrheidrwydd am lafur mewn trefn i fyw, y poenau yr oeddynt yn agored iddynt, a'r sicrwydd y byddai iddynt yn fuan ymgymmysgu o ran eu cyrff â llwch y ddaiar—yn foddion i gadw eu sefyllfa fel pechaduriaid yn wastadol o flaen eu golwg, ac i raddau yn eu teimlad. Gwel DELW DUW.—(*Creation and the Fall, by Macdonald; M'c Cosh on Divine Government; Müller on Sin; Ketford's Congregational Lectures; Holden's Dissertation on the Fall.*)

CWYR, [קוא: Gr., κηρος: Gw., *ceir*]. Y mae amryw fath o'r sylwedd hydawdd hwn; ond anfynych y defnyddir y gair *cwyr* yn Gymraeg heb ryw air arall yn gyssylltiedig âg ef, i ddangos ei natur neu ei ddyben; megys, cwyr gwenyn, cwyr melyn, cwyr can, cwyr crydd, cwyr clust, cwyr selio, &c. Tybid unwaith mai paill llysiau a phlanigion yn unig oedd cwyr gwenyn, wedi ei goethi gan y wenynen; ond addefir yn awr mai rhidiad ydyw o'i chrestenau rhumenol (*ventral scales*). O'r sylwedd yma y cyfansoddir y melgodau, cellau pa rai ydynt chwechochrog. O'r melgodau yn benaf y tynir y cwyr allan, trwy ei wasgu; yna ei doddi mewn dwfr poeth er ei buro; wedi hyny, tywellitir y cwyr i foldiau i oeri; a hwn, wedi ei drin fel hyn, a elwir cwyr melyn. Amrywia ei ddwysder o 0·960 i 0·965. Tawdd yn o gylch 143° i 150° Fahrenheit.

Cwyr can (*bleached wax*) a geir trwy doddi cwyr melyn gydag ager, gan ei redeg allan, tra mewn sefyllfa doddedig, i gafn a elwir cryd, wedi ei drydyllu yn ei waelod, a'i osod uwch ben dyfrlestr mawr, yn un pen i'r hwn y byddo rholyn yn troi (*revolving cylinder*), bron dros ei ben mewn dwfr. Dwysheir y cwyr trwy y driniaeth yma, a throir ef yn rhibanau, y rhai a drosglwyddir ar wyneb y dwfr i'r pen arall o'r dyfrlestr. Cyfodir y rhibanau cwyr hyn o'r dwfr, a chludir hwy i'r meusydd cànu, lle y taenir hwy yn yr awyr, am wythnos neu chwaneg, yn ol ansawdd y tywydd, gan eu troi hwynt bob dydd. Yna, ail doddir, ail ribanir, ac ail gànir y cwyr; wedi hyny, coethir ef, trwy ei doddi mewn dwfr suredig gan sur ufelig (*sulphuric acid*). Y mae cwyr pur a geir fel hyn bron yn hollol ddiarogl—yn wyn, â gwawr felyn arno, o ran lliw; yn frau hefyd, a di-flas.

Gwahaniaetha fferyllwyr yn fawr o ran eu barn am gwyr. Tybia rhai mai corff unrhywiog ydyw, tra y barna ereill ei fod yn cynnwys dau wahanol sylwedd. Gelwir un o'r sylweddau hyn yn grisgwyr (*cerine*); a dywedir ei fod yn cynnwys o gylch 70 y cant o gwyr. Aiff yn llyn mewn o gylch 144° Fahrenheit, a thawdd mewn 16 rhan o wirf (*alcohol*) berwedig. Y sylwedd arall a elwir madywyddgwyr (*myricene*), yr hwn a aiff yn llyn mewn 149° Fahr.; a thawdd mewn 200 rhan o wirf o'r priodbwys 0·833.

Gwneir y cwyr selio coch goreu o grestlud (*shell-lac*), tyrpant Gwanys (*Venice turpentine*), a sinobl (*cinnabar*). Y cyfartaledd yw o gylch pedair rhan o'r crestlud, un rhan o'r tyrpant, a thair rhan o'r sinobl, wrth bwys. Wedi toddi y crestlud a'r tyrpant, chwanegir y sinobl yn llwch, a chymmysgir y cwbl yn dda trwy ea hysgwyd yn drwyadl. Y cwyr ystwyth a ddefnyddid gynt yn gyffredinol i selio llythyrau a gweithredoedd cyfreithiol, ac a ddefnyddir fyth yn achlysurol i'r dyben olaf, a wneir i fyny o gylch pedair rhan o gwyr gwenyn, un rhan o dyrpant Gwanys, a chymmaint o sinobl, neu ryw sylwedd lliwiog arall, ag a fo angenrhaid i roddi y gorliw a ddymuner. Ymddengys mai o'r India y dygwyd cwyr selio gyntaf, yn cynnwys crestlud a defnyddiau lliwiog. Y seliau cyntaf o'r defnydd yma a ganfuwyd yn Ewrop oedd o gylch 1560. Darganfuwyd ỳ cyfansoddiad yn fuan gan yr Iseldirwyr, y Ffrancod, a'r Ellmyn; ac o blegid ei ragoriaeth i selio ar gwyr gwenyn, dygwyd ef yn ebrwydd i arferiad cyffredinol. Galwodd yr Iseldirwyr ef yn *zegel-lak*, a'r Ellmyn yn *siegel-lack*—pob un yn briodol. Yr enw a rydd y Ffrancod iddo yw, *cire-à cacheter*: y defnydd ystwyth y cyfeiriwyd ato eisoes, yr hwn ydoedd wir gwyr, a alwant yn briodol *cire-à-sceller*. Y mae yn debyg i gwyr selio gael ei enwi gan y Ffrancod, y Seison, a'r Cymry, cyn i'w gyfansoddiad ddyfod yn adnabyddus.

Ymddengys mai math o bridd, yn cynnwys llosbyg (*bitumen*), y mae yn debyg, a ddefnyddid gan yr Aiphtiaid i selio, yr hwn a eilw Herodotus yn bridd selio, ar yr hwn y gwneid argraff â sel-fodrwy. Bu y Groegiaid a'r Rhufeiniaid hefyd yn defnyddio sylwedd cyffelyb; ond mewn amseroedd diweddarach, daethant i ddefnyddio cwyr.

Ffurfiodd y prydyddion Hebreaidd, yn enwedig y "peraidd ganiedydd," rai trofegau bywiog a tharawiadol dros ben oddi wrth y cwyr: megys, "Fy nghalon sydd fel cwyr; hi a doddodd yn nghanol fy mherfedd;" *Salm* xxii. 14. "Fel y tawdd cwyr wrth y tân, dyfether y rhai annuwiol o flaen Duw;" *Salm* lxviii. 2. "Y mynyddoedd a doddasant fel cwyr o flaen yr Arglwydd;" *Salm* xcvii. 5. "Y mynyddoedd a doddant dano ef, a'r glynoedd a ymholltant fel cwyr o flaen y tân;" *Micah* i. 4. Gwelir fod y gyffelybiaeth yn cael ei thynu yn wastad oddi wrth hydoddiant y cwyr, pan osoder ef dan effaith tân.—(*Penny Cyc.; Eadie's Bib. Cyc.*)

CWYS, [שוהה: pe trawsddodid ש a ה, fel y sylwa y Dr. Dafis, byddai y gair yma bron yr un swn yn gwbl a'r gair Cymraeg; ac y mae גוש (*gwsh*)=*tywarchen*, yn bur agos ei sain a'i ystyr hefyd: Gr., ὅλκος]. "Carai o dir, a dorir âg aradr." Mae yr ysgrifenwyr sanctaidd weithiau yn benthyca cyffelybiaethau oddi wrth gwysau y maes:—"Os ydyw fy nhir i yn llefain yn fy erbyn, ac os ydyw ei gwysau ef yn cydwylo" (*Iob* xxxi. 38)=Os rhoddais y tlawd ar waith i drin fy maes, heb dalu iddo am ei lafur. "A gostwng ei rhychau" (*Salm* lxv. 10):—Seis., "Yr wyt yn trefnu ei chwysau:"—Heb., "Yr wyt yn tori ei phriddellau." "Tarddodd barn megys wermod yn rhychau y meusydd" (*Hos.* x. 4):—Seis., "Fel hyn, tardd barn megys cegid yn nghwysau y meusydd."—"Y mae barn a digofaint yn dwyn chwerwedd yn dy feusydd."—*Vulgate.* Eglurir yr ymadrodd, "Pan ymrwymont yn eu dwy gwys" (*Hos.* x. 10), gan y cyd-destyn, yn enwedig *adn.* 4. 11—13.

CYBYDD—DOD, [cwb; o'r un gwreiddair a'r gair *cwbl*]: cyrrith, aurgarwr, ariangarwr.

> Awydd cybydd annuwiawl,
> Dig o ddyn, a'i dwg i ddiawl.
> *D. ab Dafydd Llwyd.*

Y geiriau cyffredin am *gybydd* a *chybydd-dod*, yn y Testament Newydd, ydyw πλεονέκτης a πλεονεξία; a'r gair am *ariangarwch*, ydyw φιλαργυρία. Y cyntaf, medd Trench, ydyw y pechod mwyaf gweithredol; a'r diweddaf, y mwyaf goddefol. Y mae y cyntaf yn ceisio ymgyrhaedd at yr hyn nid yw ganddo, ac yn y ffordd hon gael chwaneg; y mae y llall am gadw, ac felly chwanegu yr hyn

Digitized by Google

sydd ganddo eisoes. Bydd y naill, yn ei ddulliau o feddiannu, yn hyf ac ymosodol yn fynych; a gall fod mor rydd mewn gwasgaru a chyfranu ag oedd o awyddus ac anghyflawn i feddiannu. Nid yw y cybydd yn rhwym o gadw mewn meddiant yr hyn sydd ganddo. Dysgrifla Cicero Catiline yn y modd yma:—"Pwy mor grintachlyd mewn trawsfeddiant? Pwy mor rydd a llaw-agored mewn haelfrydedd?" Yn unol â hyn, yr ydym (1 *Cor.* v. 10) yn cael *cybyddion* yn gyssylltiedig â *chribddeilwyr*; a *chybydd-dod* (*Marc* vii. 22) yn gyssylltiedig â *lladradau*. Ond tra y mae cybydd-dod (πλεονεξία) yn gyssylltiedig yn fynych âg anwiredd, twyll, lladrad, a thrais, y mae ariangarwch (φιλαργυρία) yn fynych yn ofnus a gofalus, a gall lechu o dan yr ymddangosiad o gyflawnder ac uniondeb. Fel hyn, yr oedd y Phariseaid yn ariangar (*Luc* xvi. 14): nid oedd y cymmeriad hwn yn anhawdd ei gymmodi â phroffes allanol o sancteiddrwydd; ond buasai y pechod arall—cybydd-dod (πλεονεξία)—yn gwbl anghymmodol â phroffes felly. Gallai cymmeriad ariangar orwedd dan ymddangosiad Phariseaidd; ond buasai yn anmhosibl cynnal proffes grefyddol gyda'r cymmeriad a ddynodir gan y gair *cybydd*. Y mae Cowley yn dangos y gwahaniaeth rhyngddynt gyda medrusrwydd mawr:—"Y mae dau fath o gybydd-dod neu ariangarwch: y mae y naill o rywogaeth fastarddaidd, a hwnw ydyw yr awyddfryd breisglyd am elw—nid er ei fwyn ei hun, ond er mwyn y pleser o'i roddi i redeg yn ol trwy ffosydd balchder ac afradlonedd; y llall ydyw y rhywogaeth gwirioneddol o ariangarwch, sef awyddfryd diorphwys ac anniwalladwy am gyfoeth—nid i gyrhaedd un amcan pellach, ond yn unig i'w cadw, a'u diogelu, a'u chwanegu yn barhäus. Y mae y cybydd o'r math cyntaf fel estrys wancus, yr hon sydd yn llyncu unrhyw fettelau, ond yn eu llyncu gyda'r bwriad o ymborthi arnynt; a cheisia ei goreu dreulio sylweddau celyd felly. Y mae yr ail fel y gogfran ffol, yr hon sydd yn ymhoffi mewn lladrata arian, yn unig i'w cuddio."

Gellir nodi gwahaniaeth arall rhyngddynt:—Y mae cybydd-dod (πλεονεξία) yn ymadrodd o arwyddocâd eangach nag ariangarwch (φιλαργυρία). Cariad at arian ydyw y diweddaf, tra y mae y cyntaf yn awyddfryd yn nghalon pechadur i dreisio iddo ei hun y creadur yn mhob ffurf. A hyn, medd Bengel, ydyw yr achos pa ham y mae *cybydd-dod* yn cael ei gyssylltu mor fynych â phechodau y cnawd. A bernir fod πλεονεξία yn arwyddo weithiau (*Eph.* v. 3, er esampl) y pechodau hyn eu hunain; a dynoda, y mae yn ddiammheu, awydd angerddol y creadur sydd wedi ymadaw â Duw i ymlenwi â gwrthddrychau isel y synwyrau corfforol. Felly, o ran eu ffynnonell a'u dechreuad, y mae y chwantau anmhur ac aflan yn cyfarfod â chybydd-dod ac ariangarwch. A dywedir am yr ymherawdwyr Rhufeinig, oeddynt yn warthrudd o herwydd eu blysiau cnawdol ac aflan, eu bod hefyd yr un mor hynod am eu cybydd-dod.

Pa beth yw cybydd-dod? pwy sydd, a phwy sydd heb fod yn gybydd? ydynt gwestiynau anhawdd eu hateb. Mae gweithrediadau y llygredigaeth hwn yn fwy gwylaidd a dirgelaidd nag eiddo un chwant arall. Gŵyr y meddwyn a'r godinebwr eu bod felly; ond y mae yn bosibl i un fod yn gybydd dros ei oes, ac eto heb ei lwyr argyhoeddi ei fod dan lywodraeth y chwant. Gall esgusodi ei awydd anghymmedrol am y byd, trwy wneyd yr awydd hwnw hyd yn oed yn rhinwedd—yn ofal am ei deulu, yn ddiwydrwydd, cynnildeb, a darbodaeth, neu rywbeth heb law y peth ei hun. "Cybydd-dod," medd un, "ydyw dymuniad anghymmedrol am yr hyn nid oes genym, yn nghyd âg anfoddlonrwydd gyda'r hyn sydd genym. Gellir ystyried yn mhellach, ei fod yn gynnwysedig yn y pethau canlynol:—1. Gofal anesmwyth a phryderus o barth i bethau y byd hwn. 2. Rheibusrwydd i feddu. 3. Y mae yn rhy fynych yn cynnwys ffyrdd chwithig ac anghyfreithlawn i gyrhaedd cyfoeth. 4. Gafaelgarwch i gadw. Mae yn bechod sydd yn ffynu yn fawr, ac yn gweithio ei ffordd yn lladradaidd i galon dyn; ac y mae yn llwyddo felly o herwydd amryw resymau. Y mae yn fynych yn dwyn cyffelybrwydd mawr i rinwedd: y mae yn dwyn drosto ei hun lawer o resymau teg; a chyfyd ddyn i sefyllfa o barchedigaeth ar gyfrif ei gyfoeth."

Y mae y chwant hwn, medd y Dr. Harris yn ei *Mammon*, yn ymrithio mewn amrywiol ffurfiau; megys, daiaroldeb, trachwant, crintachrwydd, ariangarwch, ac afradlonedd hefyd. Daiaroldeb ydyw cybydd-dod yn ei ffurf foreuaf, mwyaf diniwed, ac anhawdd ei adnabod. Nid ydyw, pan yn y ffurf hon, wedi ymddadblygu yn ddigon amlwg i'r meddwl anoleuedig i'w adnabod yn ei echryslonedd. Llecha yn guddiedig yn mynwes y dyn; ac y mae yn gyfoethog o esgusodion drosto. Y mae llaweroedd dan ei lywodraeth, heb erioed dybied hyny; y mae moesoldeb y byd yn ei ganiatäu, a hyd yn oed ei ganmawl. Gall fyw am oes heb un cerydd gan y gydwybod: nid yw y gydwybod yn ddigon manwl, na'r archwaeth yn ddigon pur, i'w ganfod a'i gondemnio. Ymddengys yn fynych yn ngwisgoedd gweddaidd cynnildeb a diwydrwydd anrhydeddus; ac yn y wisg hon, derbynia gymmeradwyaeth cymdeithas yn gyffredinol. Ond y mae yn dinystrio dynion yn araf a diarwybod iddynt eu hunain—yn eu dinystrio yn ddystaw fel gwenwyn, heb erioed eu dychrynu. Y mae trachwant yn ffurf fwy eithafol arno. Dengys ei hun mewn awydd diamynedd i ymgyfoethogi: y mae fel y blaidd, yr hwn, er bwyta yn wastadol, ni ddigonir ei wanc. Mor fawr yw ei attafaeliad, nad oes dim yn gyffelyb iddo ond marwolaeth a'r bedd! Darostynga bob teimlad arall i'w wasanaeth. Edrycha yn mlaen ar lwyddiant fel ei wobr a'i gymhellydd, ac ar aflwyddiant fel cosp am ddarfod iddo ar ryw adeg laesu ac ymddiofalhau. Y mae yn ystyried fod cyfoeth ereill yn ei waradwyddo, a thlodi ereill yn ei rybuddio. Yn benderfynol i'w foddhau ei hun—ni sylwa nemawr ar foesoldeb y moddion—diystyra arafwch diwydrwydd, a phetrusder uniondeb, a sefydla ei fryd yn unig ar y ffordd rwyddaf i lwyddiant. Y mae yn ddiamynedd i oediad, ac yn diystyru y drychfeddwl o ddysgwyl wrth awgrymiadau rhagluniaeth ddwyfol; a'r unig attalfeydd a gydnabyddir ganddo—er y dymunai allu llamu dros y rhai hyn—ydynt y cyfryw ag y mae ofn y naill y llall wedi eu ffurfio yn gyfreithiau, i'r dyben o'i gyfyngu o fewn terfynau. Ffurf arall ar gybydd-dod ydyw crintachrwydd—cynnildeb hunangar. Nid ymedy â dim ond yn berffaith anewyllysgar, a thrwy fath o orfodaeth. Ariangarwch, fel y sylwyd, ydyw cybydd-dod yn trysori—cariad at arian er eu mwyn eu hunain: a dyma y ffurf fwyaf anghyffredin arno, a'r ffurf fwyaf gwrthun a dirmygus. Gan nad yw aur ac arian ond moddion mwynhâd, y mae eu caru er eu mwyn eu hunain yn afresymoldeb o'r mwyaf.

Digitized by Google

Y mae cybydd-dod yn cael son am dano mewn lluaws o fanau yn yr Ysgrythyr. Dysgrifir ef fel pechod cyffredin iawn, ac fel yn dinystrio y dyn sydd yn ei lochi. Gellid sylwi nad ydyw prisio a gwerthfawrogi cyfoeth yn un rhan o gybydd-dod: gan mai "bendith yr Arglwydd a gyfoeth-oga" (*Diar.* x. 22), byddai diystyru cyfoeth a llwyddiant bydol yn ddiystyrwch ar ffafrau sydd yn deilliaw o ewyllys da y Llywodraethwr mawr. Y mae meddiannau daiarol yn rhoddion Duw, ac, fel rhoddion ereill o'i eiddo, yn dda ynddynt eu hunain, ac yn alluog i gael eu defnyddio i amcanion daionus. Y maent yn mysg y talentau ereill a roddwyd gan y Creawdwr i'r creadur, am y rhai y rhaid iddo roddi cyfrif. Prisio y pethau sydd ar y ddaiar yn ormodol; rhoddi safle iddynt yn y gaion nad ydynt deilwng o hono; rhoddi bryd y meddwl arnynt hwy, yr hwn nid oes neb yn ei ryglyddu ond y Creawdwr ei hun—ac felly anrhydeddu y creadur â'r parch hwnw sydd yn ddyledus i'r Creawdwr yn unig—ydyw cybydd-dod; a hyn sydd yn ei wneyd yn "ffiaidd eilun-addoliaeth." Hanfod eilun-addoliaeth ydyw dewisiad o'r creadur o flaen y Creawdwr, yn mha wedd a dull bynag yr amlygir y dewisiad hwnw. Y mae y neb sydd yn euog o eilun-addoliaeth yn gadael Duw, ac yn cymmeryd rhyw wrthddrych arall yn ei le; a gall hyn gael ei gyflawnu naill ai yn gyhoeddus, ynte yn y galon yn unig: a dyna ydyw y cybydd-dod a'r ariangarwch a gondemnir yn yr Ysgrythyrau—y cyfryw hoffder at feddiannau bydol, a'r cyfryw ofal am danynt, ag sydd yn cymmeryd ymddiried dyn ymaith oddi ar Dduw, ac yn ei roddi ar y creadur. Y mae henaint yn rhybuddio y cybydd-lyd, gan ddywedyd, "Nac ymffrostied y cyfoeth-og yn ei gyfoeth; eithr y neb a ymffrostio, ymffrostied yn hyn, ei fod yn deall, ac yn fy adnabod i;" *Ier.* ix. 23, 24. Dysgrifia Dafydd y cymmeriad yma fel yr hwn "ni osododd Dduw yn gadernid iddo; eithr ymddiriedodd yn lluosogrwydd ei olud;" *Salm* lii. 7. A'r un modd, y mae Iesu Grist yn eu dysgrifio fel "rhai sydd â'u hymddiried yn eu golud;" *Marc* x. 24. "Ond pa fodd," medd un awdwr, "y gellir adnabod yr ymlyniad hwn wrth gyfoeth, a'r ymddiried hwn ynddo? Ni wyddom am un safon mwy cywir na hon:—A ydym yn foddlawn i ymadael â'r swm hwnw o'n meddiannau ag y mae yr Arglwydd yn ei ofyn oddi ar ein llaw? Os ydym yn ewyllysgar i wneuthur hyny—nid oddi ar ysbryd hunangyflawn, fel pe y ceisiem drwy hyny wneuthur yr Arglwydd yn ddyledwr i ni, ond fel 'plant ufudd-dod,' yn ymollwng i'w ewyllys ef, gan ei gymmeryd ef fel ein rhan a'n hetifeddiaeth—yna, ni a allwn obeithio yn rhesymol nad ydyw golud yn eilun i ni. Ond os gwrthodwn wneuthur felly, y mae yn amlwg ein bod yn gosod cyfoeth yn lle Duw, a'n bod yn addoli mammon." Fel hyn, yr oedd y gŵr ieuanc a ddaeth at yr Iesu yn ymddiried yn ei gyfoeth. Yr oedd ei dai a'i diroedd yn meddu mwy o ddylanwad ar ei galon nag ewyllys Mab Duw; ymddiriedai fwy yn ei olud nag yn y ddarpariaeth a gynnwysid yn y geiriau, "Tyred, canlyn fi;" *Luc* xviii. 22. Yr oedd yr Israeliad a ballai dalu y degwm i Dduw yn rhwym o fod o'r cymmeriad hwn; dewisai ei gyfoeth bydol i ddibynu arno o flaen gofal ac addewid Duw: *Mal.* iii. 14. "Nid oes," medd un awdwr, "un pechod mwy afresymol na'r pechod hwn. Y mae yn anghyflawn:—y mae ymgais anghymmedrol am feddiannau yr un peth a cheisio bod yn anghyflawn. Y mae yn greulawn:—y mae y cybydd yn rhwym o galedu ei galon yn erbyn cwynfanau trueiniaid. Y mae yn anniolchgar:—mae y rhai sydd yn euog o hono yn anghofio eu rhwymedigaethau blaenorol. Y mae yn ffol: o herwydd llwyr ddinystria barch y dyn; lluddia ei esmwythyd; ac anghymhwysa i gyflawniad o ddyledswyddau. Ni cheir anghraifft o hono mewn personau o rinwedd, y rhai y coffeir am danynt yn yr Ysgrythyrau. Bydded i'r rhai sydd yn byw yn y pechod hwn gofio am y barnau a ddisgynasant ar y cyfryw gymmeriadau (*Ioa.* vii. 21; *Act.* v); y trueni tymmorol sydd yn ei ddilyn; y felldith ydyw cybyddion i gymdeithas; y rhybuddion sydd yn ei erbyn yn yr Ysgrythyrau; ac mor effeithiol y mae yn dyeithro dynion oddi wrth Dduw, ac oddi wrth bob dedwyddwch yn y byd hwn a'r hwn a ddaw." Y mae y chwant hwn yn fammaeth i luaws o chwantau ereill: dinystria bob teimlad o uniondeb ac anrhydedd yn y fynwes, ac arweinia i bob twyll ac anghyflawnder, trais a gormes. Nid oes boddloni arno:—ar ol cael, y mae am chwaneg. "Moes, moes," ydyw ei lef barhäus: a thra y mae chwantau ereill yn marweiddio gyda marweiddiad y natur, y mae y chwant hwn yn ei flagur yn nyddiau henaint a phenllwydni; a phan y mae y dyn sydd dan ei lywodraeth yn ymylei ymadawiad â'r byd—efe a'i drysorau hefyd ar fin cael eu gwahanu oddi wrth eu gilydd byth bythoedd—dyna yr adeg ag y mae gafaelgarwch y cybydd yn ei eiddo yn dynaf ac yn fwyaf diildio.

CYD-DORIAD, [*cyd—tori*]. "Gochelwch y cyd-doriad;" *Phil.* iii. 2. Mae y gair *κατατομή* yn cael ei ffurfio gan yr apostol mewn ffordd o ddirmyg ar yr Iuddewon anghrediniol a'r gauathrawon, y rhai a ymlynent wrth yr enwaediad, ac a gymhellent yr enwaediad ar y Cristionogion o'r Cenedloedd. Nid yw yr apostol yn eu galw wrth yr enw *enwaediad* (*περιτομή*), ond *cyd-doriad* (*κατατομή*). Y mae y gair cyntaf yn arwyddo tori yr hyn sydd ddiangenrhaid yn drefnus o amgylch, a gwneyd peth yn fwy hardd a pherffaith; y mae y llall yn arwyddo rhwygo y cnawd—cigyddio; ac felly, dinystrio. Y mae y gair hwn yn cael ei gymhwyso felly at y gauathrawon, i arddangos dylanwad niweidiol eu hathrawiaeth; ac efallai, medd Macknight, i arwyddo y dinystr—y toriad buan oedd i fod arnynt fel cenedl. Mae y dysgrifiadau a roddir o'r athrawon drygionus hyn (*Rhuf.* xvi. 17—18; *Gal.* vi. 12; *Titus* i. 11) yn dangos eu bod yn haeddu yr enwau celyd a geirwon a roddir arnynt yn *Phil.* iii. 2.

CYD-DDINASYDDION, [*cyd—dinas*]. *Eph.* ii. 19; "Ac yn gyd-ddinasyddion â'r saint." Gr. *συμπολίται*.=yn cyd-drigo yn yr un ddinas, ac yn cyfranogi o'r un breintiau a hawliau a'r saint: dan yr un llywodraeth ag y mae y saint dani. "Y saint" (*οἱ ἅγιοι*) yma a arwydda, nid angelion, nid Iuddewon, ac nid Cristionogion oeddynt yn byw y pryd hyny yn unig; ond saint Duw yn yr ystyr eangaf—saint pob oes a gwlad—holl aelodau corff dirgeledig Crist.

CYDFWYTA, (Gr., *συνεσθίω*): bwyta yn nghyd; rhydd-ymgyfeillachu âg arall. Gwel BWYD.

"Cydfwyta â mab arglwydd, ac na chydchwa:eu."
Diar. Gym.

Digitized by Google

Ni fwytäai yr hen Hebreaid gyda phawb yn ddiwahaniaeth: tybient y buasai cydfwyta â phersonau o grefydd arall, neu gelfyddyd ddirmygedig, yn eu halogi. Yn amser Ioseph, ni fwytaent gyda'r Aiphtiaid, na'r Aiphtiaid gyda hwythau: *Gen.* xliii. 32. Yn amser ein Iachawdwr, ni fwytaent gyda'r Samariaid: *Ioan* iv. 9. Tramgwyddid yr Iuddewon gan waith Iesu Grist yn cydfwyta â phublicanod a phechaduriaid: *Mat.* xix. 11. Gan fod cymmaint amrywiaeth o fwydydd a waherddid gynt, nis gallasent yn hawdd gydeistedd i fwyta â'r rhai a gyfranogent o honynt, am yr ofnent gael eu halogi trwy gyffwrdd â'r cyfryw fwydydd. Yr oedd gan yr hen Hebreaid, yn eu gwleddoedd, bob un ei fwrdd ei hun. Pan groesawai Ioseph ei frodyr yn yr Aipht, gwnaeth iddynt eistedd ar wahân, bawb wrth eu byrddau eu hunain. Eisteddodd Ioseph ei hun hefyd ar wahân oddi wrth yr Aiphtiaid a gyfranogent o'r wledd: *Gen.* xliii. 3. Dywedir y gosodid y Persiaid yn un rhes ar un ochr i'r ystafell wledd, heb neb yn eistedd o'u blaen: a rhoddid dysglaid, gyda mathau amrywiol o fwydydd, ger bron pob un o'r gwahoddedigion.

Yr oedd mawrion a phendefigion y gwledydd dwyreiniol yn eistedd bob amser mewn gwleddoedd ar eu penau eu hunain; a rhoddid cyflawnder helaethach o seigiau ger eu bronau: byddai eu dogn o bob math o fwyd yn ddau neu dri chymmaint a dogn y cyffredin. Yn nhir Groeg, cynnysgaethid y parchusaf o'r gwahoddedigion â'r rhanau goreu a mwyaf danteithiol, yn gystal a'r saig fwyaf. Felly yn yr *Odyssey*, y mae Eumæus yn rhoddi y glain cefn, yr hon a ystyrid y rhan oreu, i Ulysses; ac y mae Agamemnon, yn yr *Iliad*, yn rhoddi yr un darn i Ajax, fel gwobr ei wasanaeth yn y rhyfel. Y mae yr un arferion yn ffynu i fesur mawr hyd y dydd hwn yn ngwledydd y dwyrain. Dywed Paxton ei fod yn ffieidd-dra yn ngolwg y Persiaid, a'r Arabiaid yn bresennol, i gydfwyta â dyeithriaid; ac felly y mae gyda'r Indiaid. Cyfyd hyn, yn benaf, oddi ar wahaniaethau crefyddol: y mae rhyw fwydydd yn aflan yn ngolwg y naill, tra y maent yn lân a chyfreithlawn yn ngolwg y llall. Ni oddefir i'r gwragedd gydfwyta â'r ystlen arall mewn gwleddoedd dwyreiniol, ond bwytânt mewn ystafelloedd gwahanol. Yn ngwledd fawr Ahasferus, "gwnaeth y frenines Fasti wledd i'r gwragedd yn y brenindy;" *Esth.* i. 9. A hyn, medd Chardin, ydyw yr arferiad yn holl wleddydd y dwyrain. Y gwragedd a gynnalient eu gwleddoedd ar yr un adeg, ond ar wahân oddi wrth y gwrywiaid.

Y mae cydfwyta yn cael ei osod allan yn y Beibl fel arddangosiad o undeb a chyfeillgarwch. Pan ymgyfammododd Laban a Iacob, ar eu hymadawiad â'u gilydd, "hwy a gymmerasant geryg, ac a wnaethant garnedd, ac a fwytasant yno ar y garnedd;" *Gen.* xxxi. 46. Pan ymestynai Adoniah at yr orsedd, gwahoddodd y rhai a gyfranogent o'r gyfrinach, a'i holl ewyllyswyr da, i gydfwyta âg ef; ac arwyddai hyny eu cydsyniad âg ef yn ei fwriad bradwrus: 1 *Bren.* i. 9, 41. Felly hefyd y bu gyda Iob: *Iob* xlii. 11.

"Gyda'r cyfryw ddyn na chydfwyta chwaith" (1 *Cor.* v. 11); hyny yw, ymwrthodwch â phob cymdeithas rydd a chyfeillgar â'r cyfryw ddyn; na fydded fod genych a wneloch â'r fath gymmeriad mewn ffordd gyweithas; pe gwnaech hyny, ymddangosech i ereill fel yn cyfranogi o'u pechodau, fel yn rhoddi wyneb i'w buchedd annuwiol. Nid cymdeithasu yn eglwysig, efallai, a feddylir, ond yn bersonol. Mae arfer rhyddid cymdeithasoi â'r cyfryw gymmeriadau yn debyg o'u cadarnhau mewn bywyd anedifeiriol; ac nis gall eu buchedd a'u meddwl aflan lai na pheryglu purdeb y neb a ymgyfeillacho â hwynt. "Pe y sylwem yn fanwl ar y rheol hon," medd Macknight, "pan y mae yr holl fyd o'n cwmpas yn Gristionogion mewn enw, byddai raid i ni fyned allan o'r byd." Eto, fel y sylwa Wall, y mae ystyr ac ysbryd yr annogaeth yn rheol dragwyddol. Dylai y Cristion cydwybodol ddewis, mor bell ag y gall, gyfeillach dynion da, a rhai yn ofni Duw; ac osgoi, mor bell ag y caniatâ ei orchwylion angenrheidiol, ymddyddanion a chymdeithas y cyfryw ag a ddysgrifia yr apostol yn y fan hon. Y mae hyn yn beth, pa mor adfeiliedig bynag ydyw dysgyblaeth eglwysig, sydd yn gorwedd o fewn terfynau gallu pob Cristion.

CYDGYNNULLIAD, [*cynnull*]: cydgasgliad. "Er dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, a'n cydgynnulliad ninnau ato ef;" 2 *Thes.* ii. 1. Y cydgynnulliad hwn a arwydda gynnulliad y saint at Grist yn nydd y farn, am yr hyn yr ysgrifenasai yr apostol yn yr epistol blaenorol:—"Yna ninnau y rhai byw.....a gipir i fyny gyda hwynt, yn y cymylau, i gyfarfod â'r Arglwydd yn yr awyr;" 1 *Thes.* iv. 17. "Heb esgeuluso ein cydgynnulliad ein hunain;" *Heb.* x. 25. Yr oedd hyn yn cael ei wneuthur yn yr oes apostolaidd, naill ai oddi ar ofn anwrol, seguryd ysbrydol, ac ymroddiad gwirioneddol i ofalon y bywyd hwn, neu oddi ar anghrediniaeth yn gweithio yn raddol i wrthgiliad hollol, ac ymadawiad llwyr â phroffes Gristionogol.

CYDORWEDD, [*cyd* a *gorwedd*]: gorwedd yn nghyd. "Nid mewn cydorwedd ac anlladrwydd;" *Rhuf.* xiii. 13. Y gair Groeg ydyw κοίτη, yr hwn a arwydda gorweddiad, ac a arferir am orphwysiad neu gwsg. Yn y Testament Newydd, dynoda lle i orphwys, gwely: *Luc* xi. 7. Dynoda y gwely priodasol; ac yn drawsenwol, priodas ei hun: *Heb.* xiii. 4. Ac mewn mwyseidd-dra ymadrodd, arwydda orweddiad gyda benyw; cydorwedd, pa un bynag ai cyfreithlawn neu bechadurus. Yn y frawddeg uchod, dynoda y diweddaf. Arferir y gair yn yr un ystyr gan y Deg a Thrigain yn *Lef.* xviii. 20, 23. Y mae yr apostol yn crybwyll yn yr adnod hon am y pechodau a gyflawnid yn gyffredin yn oriau y nos. Noda dri dosbarth o bechodau—anghymmedroldeb, aflendid, ac anghydfod. Perthyna "cyfeddach a meddwdod" i'r cyntaf. Y mae y gair a gyfleithir "cyfeddach" (yn fwy priodol yn y testyn Seisoneg—*rioting*) yn cael ei arfer gyda chyfeiriad at y gwyliau crefyddol afreolaidd a gedwid o barch i Bacchus, ac at ddadwrdd ynfyd ieuenctyd anghymmedrol. Y mae y geiriau "cydorwedd ac anlladrwydd" yn cynnwys pob math o aflendid. Y diweddaf (ἀσέλγεια) a arwydda bob math o drythyllwch, mewn meddwl, ymddygiad, ymddangosiad, edrychiad, a geiriau: a "chynhen a chenfigen," bob math o ymgais ac ymryson ansanctaidd.

CYDWYBOD. Dywedodd Leighton, ddau cant o flyneddoedd yn ol, "fod llawer o ddadleuon ofer a gwag wedi cymmeryd lle ar destyn yr erthygl hon.....a bod meddu cydwybod dda yn llawer gwell na dadleu am ei natur." Ac y mae un o brif ysgrifenwyr yr oes bresennol ar foeseg yn dadgan ei farn, "mai yn ofer yr

Digitized by Google

ymgais neb am eglurhâd ar natur cydwybod mewn un gair."—*Rothe.* Eto, y mae o bwys meddu syniadau cywir ar y mater hwn. Os na wyddom pa beth a feddylir wrth gydwybod, pa fodd y gallwn ddeall pa beth ydyw cydwybod dda? Ac felly, pa fodd y gallwn ddefnyddio y moddion i'w sicrhau? Y rhan bwysicaf o natur dyn ydyw ei gydwybod; yr hyn ydyw ei brif wahaniaeth oddi wrth, a'i ragoriaeth ar, yr anifail. Nid, A oes cydwybod gan ddyn? neu, A ydyw yr elfen hon yn ei gyfansoddiad yn meddu uchafiaeth ac awdurdod ar holl elfenau ereill y ddynoliaeth? — nid dyma y cwestiynau yn nghylch pa rai y mae dadleuon. Ond cwestiynau cyffelyb i'r rhai hyn:—Pa un ai un gynneddf ai chwaneg ydyw cydwybod? Pa un ai cynneddf benodol o gwbl, ai ynte yr holl gynneddfau yn gweithredu i un amcan penodol? Pa un ai deall neu farn, ai teimlad ydyw—ai ynte undeb y ddau? Pa un ai syml ai cyfansoddedig?—yn wreiddiol yn natur dyn, yn y ffurf o gydwybod; ai ynte wedi ymffurfio a thyfu i'r ffurf hon o elfenau ereill, megys cariad a chas, llawenydd a thristwch? Pa beth ydyw natur y berthynas sydd rhwng y gydwybod a'r cynneddfau ereill, ac ar ba beth y mae ei *hawdurdod* ar holl weithrediadau ereill yr enaid yn seiliedig? Pa beth ydyw gwrthddrych cyntaf y gydwybod—moesoldeb, ai crefydd? ai ynte undeb y ddau? Pa un ai cymhwysder yn unig i deimlo awdurdod y ddeddf foesol, ai ynte a ydyw gorchymynion y ddeddf hono yn ysgrifenedig arni? Ac felly, a ydyw ewyllys Duw i'w chanfod yn naturiol, yn nghynnwys y gydwybod, yn gystal ag yn ei hawdurdod? A oes teimlad uniongyrchol o bresennoldeb Duw yn y gydwybod, ai ynte cymhwysder naturiol yn unig sydd i'r cyfryw deimlad neu ymwybyddiaeth? Ymofyniadau cyffelyb i'r rhai hyn ydyw testynau y dadleuon y cyfeirir atynt. Yr hyn sydd yn chwanegu at yr anghytundeb ydyw, fod y gair yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ystyron —weithiau yn eangach, ac weithiau yn gulach— 1. Am allu neu weithred yr enaid trwy ba un y mae dyn yn ei farnu ei hun yn ol rheol deddf Duw —yn cyhuddo, yn amddiffyn, neu yn condemnio ei hun. 2. Argyhoeddiad y meddwl o'r hyn sydd yn ddrwg, yn rhagflaenu neu yn cydfyned âg unrhyw weithred. 3. Ymwybyddiaeth o weithredoedd da neu ddrwg, mor bell ag y cynnyrchant foddhâd a gobaith ar un llaw, a thristwch ac ofn ar y llall. 4. Barn ar fater, perthynol i ni ein hunain neu ereill. 5. Meddwl dirgelaidd yr enaid. Ac efallai ragor. Chwanegir at yr anhawsder o ffurfio darnodiad neu eglurhâd mewn ychydig eiriau, trwy y gwahanol ddysgrifiadau cymhariaethol neu ffugrol a ddefnyddir am gydwybod; megys barnwr, tyst, llys, llais Duw yn yr enaid, canwyll yr Arglwydd, eisteddle y gwirionedd mewn dyn, adlais yr hyn a ofynwyd yn Mharadwys—"Adda, pa le yr wyt ti?" synwyr moesol (*moral sense*), drych i adlewyrchu gwirionedd a daioni anghyfnewidiol; ac ereill cyffelyb.

Y mae y gair yn gyfansoddedig o *cyd* a *gwybod*, ac yn cyfateb yn hollol i'r Groeg *suneideesis* (συνείδησις); Llad., *conscientia;* Seis., *conscience:* ac arwydda gwybod *gydag un arall:* o herwydd nis gellir meddwl fod y blaenddodair *cyd* yn ddiystyr, neu yn arwyddo yr hyn yr wyf yn ei wybod *i mi* neu *gyda mi* fy hun. "Yr un arall nwnw," medd Trench, "ydyw Duw; gan fod ei cyfraith ef yn gwneyd ei hun yn deimladwy yn y galon; a gwaith y gydwybod ydyw dwyn ein meddyliau a'n gweithredoedd at y gyfraith hon i'w barnu. Y mae y gair, gan hyny, yn tyfu allan o, ac yn dadgan, presennoldeb Duw yn yr enaid." Arwydda y gair Ellmynaeg *gewissen*, fod y wybodaeth a geir trwy y gydwybod yn sicr, uwch pob ammheuaeth, yn uniongyrchol, ac nid yn gorphwys ar ymresymiadau y deall. Yn yr ystyr hwn y dealla rhai y gair *cydwybod*; ond nid yw hyn yn cyfateb cystal âg ystyr y gair, na chwaith yn treiddio mor ddwfn i natur gweithrediadau y gydwybod. Cyn edrych ar dystiolaethau yr Ysgrythyr am hanfod a gweithrediadau y gydwybod, ni a edrychwn pa fodd y llefarai rhai o'r prif awduron hen a diweddar ar hyn. Nid oes gan Homer un gair ag sydd yn cyfateb yn hollol i'r rhan hon o gyfansoddiad dyn; eto, dywed fod yn ei natur barch cynnwynol i Dduw (θεουδὴς); ac heb law hyn, ei fod yn gyfiawn (δίκαιος). Yn hyn, cydnabyddir fod crefydd a moesoldeb mewn undeb gwreiddiol â'u gilydd. Tra amddifad ydyw athronwyr Groeg o ymchwiliadau i'r mater hwn; fel y mae eu crefydd yn amddifad o ddim sydd yn deffro ac yn meithrin y gydwybod. Cyfarfyddir â'r gair yn fynychach mewn awduron Lladinaidd. Llefara Cicero am "bwys trwm y gydwybod" (*grave conscientiæ pondus*), am "gydwybod pechod" (*conscientiæ peccati*), "ing cydwybod" (*angor conscientiæ*); a'i farn oedd, ei bod yn gynneddf gynnwynol mewn dyn. Y mae iaith Seneca yn fwy dysgrifiadol. Priodola efe y daioni sydd mewn dyn i ffynnonell ddwyfol (*Eph.* xli.); dywed fod ynom dyst sydd yn gydnabyddus â'r pethau dirgelaf a allwn eu cyflawnu (*Eph.* xliii); a bod ymwybyddiaeth o'r hyn sydd dda yn aros yn y gwaethaf, yn barnu ac yn condemnio y drwg sydd ynddynt: *Eph.* xcvii. Cymhara Horace gydwybod dda i "fur o bres." Er nad allesid dysgwyl i'r paganiaid hyn gyrhaedd syniadau hollol gywir am natur cydwybod, yn eu hanwybodaeth am Dduw, ac am effeithiau y cwymp ar ddyn, eto y maent yn cynnwys hedyn y ddau wirionedd hyn:—1. Fod y gydwybod yn gorphwys ar deimlad o awdurdod Duw; ac o ganlyniad, yn meddu ansawdd grefyddol. 2. Ei bod, ar sail hyn, yn cyhoeddi barn foesol am yr hyn sydd yn dda ac yn ddrwg.

Yn yr Hen Destament, ni chyfarfyddir â'r gair cydwybod o gwbl, ond priodolir ei gweithrediadau yn fynych i'r "galon." Tarawodd "calon" Dafydd ef am dori cwr mantell Saul (1 *Sam.* xxiv. 5); hefyd am rifo y bobl (2 *Sam.* xxiv. 10). Yr oedd calon Simei yn ymwybyddus o'r drygioni a wnaeth efe yn erbyn Dafydd: 1 *Bren.* ii. 44. Yn y Testament Newydd hefyd, priodolir gweithrediadau y gydwybod weithiau i'r galon, sef condemnio a rhyddhau: 1 *Ioan* iii. 19—21. Oddi wrth y cyfeiriadau hyn, gellid meddwl fod y galon a'r gydwybod yr un; ac eto, y mae adnodau ereill sydd yn dangos gwahaniaeth pwysig rhyngddynt: mae gwaith y ddeddf yn ysgrifenedig ar y galon (*Rhuf.* ii. 15), ac y mae holl weithrediadau ac ansawdd y galon i'w barnu gan y gydwybod: 2 *Cor.* xiii. 5; 1 *Cor.* xi. 31. Mae y gydwybod, gan hyny, yn y galon:—ei chanolbwynt ydyw. Er nad ydyw y gair yn yr Hen Destament, y mae hanesion addysgiadol sydd yn dangos ei gweithrediad. Ar ol i'n rhieni cyntaf fwyta o'r ffrwyth gwaharddedig, agorwyd eu llygaid, a llanwyd hwy â theimlad o euogrwydd ac o gywilydd: felly y dysgrifir *dechreuad* gweithredi ad y gydwybod. Pan glywsant lais yr Arglwydd,

Digitized by Google

meddiannwyd hwynt gan ofn, ac ymguddiasant: —dangosai hyn *gynnydd* y gweithrediad hwnw. Dywedodd Duw, "Y mae y dyn megys un o honom ni, i wybod da a drwg:"—yr hyn a brawf na chollodd dyn yn llwyr trwy y cwymp y gallu i wahaniaethu rhwng y drwg a'r da a ysgrifenwyd ar ei natur. Nis gellir cael hanes mwy addysgiadol am natur a gweithrediadau y gydwybod na'r adran hon: *Gen.* iii. 7—24. Ymddengys fod dyn dan ei dylanwad yn dyfod, yn y lle cyntaf, yn deimladwy o hono ei hun—nid oedd felly mewn cyflwr o ddiniweidrwydd—ac o hono ei hun yn ei *berthynas â Duw.* Cyn y cwymp, yr oedd ewyllys dyn, a holl deimladau ei galon, yn cydredeg âg ewyllys Duw, heb unrhyw bryder nac ofn, na theimlad am dano ei hun. Yr ydoedd y pryd hyn fel dyn heb gydwybod. Ond pan ddaeth pechod i mewn, i dori y gymdeithas ddigyfrwng hon, ac i osod dyn yn erbyn Duw, collodd y teimlad plentynaidd o undeb â Duw fel ei Dad—a theimlodd ei bellder oddi wrtho, a chywilydd ac ofn yn y canlyniad; ac fe barhaodd o'i fewn fel y gallu i edrych arno ei hun yn ei berthynas â Duw, ac i glywed ei lais: *Gen.* iii. 8—10. Felly, yn yr hanes hynaf sydd genym am weithrediadau y gydwybod, ymddengys fel y gallu sydd yn dwyn dyn i bresennoldeb Duw, ac yn peri iddo deimlo ei noethni a'i berygl ger ei fron. Amlygiadau o gydwybod mewn dyn ar ol y cwymp ydyw y rhai hyn. Pa fodd yr amlygai ei hun cyn y cwymp? Dywed dynion weithiau mai mewn pechadur yn unig y mae y gydwybod yn amlygu ei hun—fel deddf, a deddfroddwr, a thyst, a barnwr. Ac y mae yn hollol wir mai nid i'r cyfiawn y rhoddwyd y gyfraith, a bod cariad, yr hyn sydd yn gyflawnder y gyfraith, yn ei lywodraethu: *Rhuf.* xiii. 10. Gellir sylwi hefyd ar y ffaith, er fod y Beibl yn priodoli calon i Dduw nid yw byth yn priodoli cydwybod iddo; ni leferir chwaith am gydwybod yr Arglwydd Iesu. Eto, cafodd dyn ddeddf cyn y cwymp, i'w gadw i ystyried ei berthynas â Duw. Ac ar natur y dyn cyntaf, fel ar ei holl hiliogaeth, yr ysgrifenwyd y gorchymyn, "Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon." Cofiodd Efa, hefyd, wrth ymddyddan â'r sarff, yr hyn a waharddodd a'r hyn a ganiataodd Duw; gwyddai hefyd fod gorchymyn Duw yn rhwymedig dan bob amgylchiadau: *Gen.* iii. 2, 3. Y mae y cywilydd a'r ofn a lanwodd galonau ein rhieni cyntaf yn union ar ol y cwymp yn ddigon o brawf eu bod wedi gosod eu hunain mewn gwrthwynebiad i'w natur, a'r ddeddf oedd yn ysgrifenedig arni. Gwyddent pa beth a ddylasent fod, a'r hyn a fuont. Y mae cydwybod, gan hyny, yn rhan hanfodol o ddyn, er fod yr amlygiadau o honi cyn ac wedi y cwymp yn wahanol. Ei phrif orchwyl mewn dyn pechadurus ydyw, dadguddio cyfiawn farn Duw yn ei erbyn, a chondemnio am bechod yn y galon ac yn y fuchedd. Cyn y cwymp, yr oedd yn gynnwysedig yn ngwaith dyn yn mwynhau yr hapusrwydd o fod yn un â Duw, ac o ymddigrifo ynddo. Yn wreiddiol, yr ydoedd yn ei adnabod ei hun yn Nuw, mewn undeb perffaith âg ef o ran teimlad, ewyllys, a bywyd; ond pan ddaeth pechod i mewn, teimlodd ei hun ar wahân oddi wrtho, ac mewn gwrthwynebiad iddo; a dilynwyd hyn, fel bob amser, âg amlygiadau cydwybod euog. Ceir drych clir i weled nerth cydwybod yn nghyffes brodyr Ioseph, yn eu hofn a'u trallod: *Gen.* xlii. 21; xliv. 16. Amlygai crefydd yr Hen Destament ei hun yn arbenig trwy y gydwybod, fel yr ydoedd yn oruchwyliaeth deddf, a deddf heb ei boddloni. Ac o herwydd hyn, edrychir ar grefydd yn benaf dan y cymmeriad o ofn Duw. *Dechreuad* doethineb neu grefydd ydyw ofn, ond nid ei pherffeithiad: y mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn. Yn unol â hyn, amlyga yr Arglwydd ei hun i brofiad yr Hen Destament yn benaf fel un *sanctaidd.*

Ond yn y Testament Newydd, y mae y goleuni cryfaf yn disgyn ar yr athrawiaeth ysgrythyrol am hanfod y gydwybod, yn nghyd â'i gwahanol ymddangosiadau a'i gweithrediadau. Ceir y gair o ddeutu deg ar ugain o weithiau, yn benaf yn ysgrifeniadau Paul; ac y mae yn deilwng o sylw, na cheir ef ond unwaith yn yr Efengylau, a hyny mewn darlleniad ammheus (*Ioan* viii. 9); ond nid unwaith yn ngenau yr Arglwydd Iesu. Yr adnod sydd yn dangos ei natur egluraf ydyw *Rhuf.* ii. 15. Gwahaniaetha yr apostol "weithred y ddeddf" sydd yn "ysgrifenedig yn y galon"—*h. y.*, y gwaith a orchymynir gan y ddeddf—oddi wrth y "gydwybod," yr hon a ddysgrifir fel yn "cyd-dystiolaethu;" ac hefyd oddi wrth eu "meddyliau," y rhai y dywedir eu bod "yn cyhuddo eu gilydd, neu yn esgusodi." Nid yw y gydwybod, gan hyny, yn ddeddf i ddyn, neu yn rheol iddo, yn annibynol ar bob dadguddiad arall; ond rhoddi grym y mae hi, trwy ei thystiolaeth, i ewyllys Duw—dadguddiedig yn gyntaf ar y galon. Yn y lle dan sylw, y mae yr apostol yn casglu cyfrifoldeb crefyddol a moesol y paganiaid ger bron Duw; ac yn dangos fod yn nghydwybod pob dyn gyfeiriad at Dduw; a bod pob dyn yn sefyll mewn perthynas â Duw nas gall ymryddhau oddi wrthi. Yn 1 *Cor.* viii. 7, 10, 12, ceir goleu chwanegol ar hyn. Y mae yr apostol yn ymresymu oddi ar y dybiaeth nad oes dim gwahaniaeth rhwng pethau allanol, fel y cyfryw, yn eu cyssylltiad â bwyta yr hyn a aberthwyd i eilunod, i'r Cristion sydd wedi ei arfogi â'r wybodaeth nad yw eilun ddim yn y byd. Gall ef fwyta cig yr aberthau hyn fel peth dibwys; ond dichon hyn fod yn niweidiol i gydwybod brawd gwan, "yr hwn sydd ganddo gydwybod o'r eilun." Gallasai y Cristion gwan briodoli rhyw fath o wirionedd i'r eilun—nid fel Duw, ond yn ei gyssylltiad â theyrnas y Dæmoniaid, neu gythreuliaid; ac oddi ar y dybiaeth fod perthynas ddirgelaidd rhwng yr eilunod a'r hyn a aberthwyd iddynt, ni allasent edrych ar fwyta cig y cyfryw aberthau yn ddibwys. Mae dyn yn meddu gwybodaeth yn annibynol ar y gydwybod; ond y mae y gydwybod yn gofyn ac yn gorchymyn iddo ymddwyn yn gyfatebol i'w wybodaeth, pa un bynag ai unol ai gwrthwyneb i'r gwirionedd y bydd. Priodolir y gair *gwan*, yn y lle cyntaf, i'r wybodaeth sydd yn sail gweithrediadau y gydwybod, ac nid i'r nerth gyda pha un y llefara y gydwybod. Oddi wrth yr adnodau hyn, gwelir nad yw y gydwybod i'w hystyried yn rheol foesol ynddi ei hun, gan fod ei gweithrediadau hi yr un pa un bynag ai cywir ai cyfeiliornus fydd y syniad am ddrwg a da y gweithredir oddi arno. Y mae peidio cydymffurflo â'r gydwybod, hyd yn oed pan yn gyfeiliornus, yn ei halogi, yn ei chaledu, ac yn peryglu diogelwch y perchenog.

Ar yr un mater y mae 1 *Cor.* x. 25, 27—29. Gall y Cristion fwyta pa beth bynag a werthir yn y gigfa, heb ofyn dim er mwyn cydwybod; ond dylai fod gan y cyfryw ystyriaeth, nid yn unig o'i gydwybod ei hun, ond hefyd o gydwybod un arall. Ac y mae yn bosibl tramgwyddo cyd-

Digitized by Google

wybod brawd gwan trwy weithred sydd ynddi ei hun yn ddifeins. Nid yw y gydwybod yn rhwymo dynion i gyflawniad o weithredoedd o gyffelyb ansawdd. Amrywiai yr Iuddewon, y Cristionogion—a hyny yn ol natur eu goleuni am natur yr efengyl—a'r paganiaid, yn eu syniadau am fwydydd; ond yr un oedd gweithrediad cydwybod y naill a'r llall. Oddi wrth y geiriau hyn, y mae yn amlwg mai *awdurdod* y ddeddf yn unig a berthyn i'r gydwybod, ac nid ei heglurder a'i huniondeb.

Y mae y dull yr ymresyma Paul yn yr holl ddyfyniadau hyn yn ein cyfiawnhau i gasglu—

1. Nad yw y gydwybod ynddi ei hun yn rheol gwirionedd nac uniondeb, yn annibynol ar ddadguddiad dwyfol yn y deall a'r rheswm; neu ynte, yn annibynol ar ddadguddiad y tu allan i ddyn. Y mae yn wir y defnyddir cydwybod yn fynych yn gyfystyr â natur foesol dyn, ac felly yn cymmeryd i mewn weithrediadau ei ddeall a'i reswm. Yn yr ystyr hwn, gellir dyweyd fod y gydwybod yn ffynnonell gwirioneddau tragwyddol. Ond yn y dyfyniadau uchod, defnyddir y gair mewn ystyr culach na hwn, ac am yr awdurdod gorchymynol hwnw gyda pha un yr argymhellir ar ddyn y ddyledswydd o osod ei hun mewn perthynas briodol â'i wybodaeth—boed cam, boed cymhwys. Y mae y casgliad hwn yn hollol unol â phrofiad. Pa fodd y gallem yn wahanol esbonio y ffeithiau pwysig fod dynion o gyffelyb alluoedd a gonestrwydd yn amrywio cymmaint yn eu syniadau, a'r naill fel y llall yn appelio at eu cydwybod am ddidwylledd eu crediniaeth.

2. Casgliad arall cysson â'r un blaenorol ydyw, nad un gynneddf neilduol, wahaniaethol oddi wrth y cynneddfau ereill ydyw, megys y cof neu y deall. Ni pherthyna yn neilduol i'r cynneddfau sydd yn casglu gwybodaeth: nid gwybodaeth yn unig ydyw, ac eto nid yw heb wybodaeth; ond gweithreda ar wybodaeth o natur grefyddol a moesol. Nid gweithrediad y deall ydyw, yn ffurfio ac yn cyhoeddi barn, er ei bod yn ymddangos yn y ffurf o farn. A dysgrifiad cyffredin o'r gydwybod yn mhlith yr ysgolorwyr (*scholastics*), gyda pha rai y cytuna Melancthon a lluaws o'r diwygwyr, ydyw, ei bod yn gyfreswm ymarferol (*practical syllogism*). Nid cof chwaith ydyw, er bod cof yn rhan dra phwysig ynddi, ac o herwydd hyny y cymherir hi i lyfr. Nid yr ewyllys ydyw; eto, llefara wrth yr ewyllys, a hyny yn y modd mwyaf awdurdodol. Ond gan fod y gydwybod yn penderfynu yr ewyllys yn anfynych, mewn cymhariaeth i'w hymgeisiadau at hyny, ystyria llawer hi yn fath o reddf neu gymhelliad, wedi ei gwreiddio yn natur dyn, i gyffroi yr ewyllys; tybia rhai ei bod yn reddf foesol; ereill, ei bod yn reddf o natur grefyddol [Rothe, ac ereill]: ond os felly, pa fodd y mae esbonio yr elfen ddeallawl sydd ynddi? Yr un rheswm hefyd a roddir yn erbyn dyweyd ei bod yn perthyn yn neilduol i ddosbarth y teimladau [Dr. Payne, De Wette, a lluaws ereill], er ei bod yn cyfranogi yn helaeth o deimlad—megys cymmeradwyaeth ac anghymmeradwyaeth, hunanfoddhâd, a phoen hunan-gondemniad; ac yn fynych yn benthyca enwau oddi wrth y teimladau, neu y dull o'u cynnyrchu, megys taro, clwyfo, a halogi.

3. Pa beth a all y casgliad nesaf fod, ond mai gweithgarwch, neu weithred yr holl enaid, ydyw, yn ei wahanol gynneddfau o farnu, ewyllysio, a theimlo—neu ynte, cymhwysder neilduol i'r cydweithrediad hwn? Mae hyn eto yn gadael yr amlygiadau mwyaf arbenig a hanfodol o'r gydwybod heb eu hegluro; sef, pa fodd y mae argyhoeddiad y deall neu y farn yn cymmeryd cyfeiriad *ymarferol* bob amser, ac yn appelio at yr ewyllys? Ie, pa fodd y mae hi yn gwneuthur hawl ar ddyn, i fod yn ddeddf ei fywyd, a hyny gydag awdurdod na faidd y dyn ei gwrthod, ond dan boen cosp? Ac hefyd, pa fodd y mae yr hyn a orchymynir gan y gydwybod i'r ewyllys bob amser yn gwisgo ansawdd *grefyddol a moesol*, ac nid un ffurf arall? I'r ymofyniadau pwysig hyn, nid oes ond un atebiad; nid oes ond un eglurhâd yn ddichonadwy: a hyny yw, fod gweithrediadau ysbryd dyn mewn hunan-ymwybyddiaeth, a hunan-benderfyniad, yn cynnwys ymwybyddiaeth o Dduw, teimlad o ymddibyniad arno, a chyfrifoldeb iddo. "Ynddo yr ydym yn byw, yn symmud, ac yn bod;" ac yn y gydwybod yr ydym yn gyntaf oll yn deimladwy o hyn. Nis gall dyn ymgodi i deimlad o'i bersonoliaeth ei hun, heb ar unwaith ymgodi i deimlad a syniad o Fod uwch law iddo ei hun. Y mae teimlad o'i ddibyniaeth fel creadur yn cynnwys nad yw o hono ei hun, na chwaith iddo ei hun. Y mae gweithrediadau ei natur yn ei gyfeirio yn ol at ffynnonell ei fod, ac yn mlaen at ei ddyben. Mae yn y gydwybod, gan hyny, deimlad o ddeddf a llywodraeth; a thrwy hyny, o ddeddfroddwr a llywodraethwr. Esbonia hyn ei thuedd ymarferol, gan nas gall dyn lai na theimlo ei fod dan rwymedigaeth i gydymffurfio â'i gorchymynion: y mae hi yn ddeddf, ac yn ddeddf sydd yn meddu awdurdod i gospi a gwobrwyo. Mae pawb yn cydnabod uchafiaeth ac awdurdod y gydwybod, trwy appelio ati: a thrwy appelio ati mewn dadleuon crefyddol, a thystio, yn yr eithaf, fod yn rhaid ymostwng i Dduw—hyny yw, i'w cydwybodau eu hunain—yn hytrach nag i ddynion, addefant ei bod hi yn gynnrychiolydd Duw o'u mewn. Sail yr appeliad y mae dyn yn ei wneyd at ei gydwybod ydyw, *ei fod yn sefyll mewn perthynas gyfrifol i Dduw, a bod yn ei gydwybod deimlad sicr o'r berthynas hono.* Rhydd hyn derfyn ar bob ymryson:—nis gallwn fyned yn uwch. Mae Duw yn cyfarfod â dyn yn ei gydwybod, yn gorchymyn ei ymostyngiad, ac yn gweinyddu ei lywodraeth.

Mae crefydd a moesoldeb yn un yn eu gwreiddyn. Crefydd ydyw cyfeiriad y meddwl at Dduw; yn y gydwybod y mae y cyfryw gyfeiriad yn cael ei deimlo; a moesoldeb ydyw llywodraethiad ein bywyd gan y teimlad hwn. Felly y mae y gydwybod yn gyfrwng undeb rhwng crefydd a moesoldeb. Nid cynneddf foesol yn unig ydyw, yn hanfodol wahanol oddi wrth grefydd, yn ol llawer o'r dysgrifiadau sydd ar gael o barth iddi; ond yn ol gweithrediad y gydwybod y mae moesoldeb yn ddeilliedig o grefydd, ac yn derbyn ei hiachusrwydd oddi wrthi. Y mae ynddi gymhwysder i lywodraethu dyn, yn grefyddol ac yn foesol, o herwydd y mae ei dylanwad yn cyrhaedd trwy holl weithrediadau ei ysbryd—ei feddwl, ei deimlad, a'i ewyllys. Nid un o'r galluoedd hyn yw y gydwybod, ond y maent oll yn ei gwasanaeth; a than ei dylanwad, y mae y farn yn farn gydwybodol, y teimlad yn deimlad crefyddol, a holl ysgogiadau a phenderfyniadau yr ewyllys yn cydnabod y deyrnged sydd ddyledus arnynt i ewyllys uwch.

Yn ei sefyllfa gyntefig, yr oedd dyn yn gweithredu yn unol â hi; ond nid hyn ydyw ei sefyllfa mwyach. Y mae ei gyfansoddiad yr un, a'r cwbl o'i fewn yn dangos mai ei gydwybod a fwriadwyd i'w lywodraethu eto; ac,

Digitized by Google

fel y dywed Butler, pe byddai ganddi allu fel y mae ganddi awdurdod (=*if she had might as she has right*), ymostyngai pob peth iddi o fewn cylch dewisiad yr ewyllys. Yn y cylch hwn, y mae ei hawdurdod yn oruchaf. Y mae yn ddirprwyol, y mae yn wir, ac y mae hi yn ei deimlo felly. Wrth gadw ei llygad ar awdurdod uwch, y mae hi yn gallu hòni yn effeithiol ei hawdurdod ei hun. Cyhoeddi ac amddiffyn awdurdod deddf ydyw ei phrif orchwyl. Y mae o bwys mawr i gadw y gwahaniaeth yn eglur rhwng y ddeddf a arddelir yn y gydwybod a'r hyn a elwir yn ddeddfau natur:—1. Y maent yn wahanol yn y dull o'u canfod. Mae y gydwybod yn gweithredu yn uniongyrchol, ac y mae y ddeddf foesol trwyddi hi yn cael ei hargymhell yn ddigyfrwng ar ddyn. Nis gall neb ddianc rhag teimlo ei gweithrediad, mwy nag y gall rhag dyfod i'r penderfyniad fod dau a dau yn gwneyd pedwar. Ond ffrwyth sylwadaeth manwl ac ymresymiad gofalus ydyw cydnabyddiaeth dyn â deddfau natur. Y mae y gyntaf yn gwthio ei hun yn awdurdodol ar ei sylw, fel nas gall ddianc rhagddi; ond mae amynedd, a phrofiad, ac ymresymiad, yn angenrheidiol i gyrhaedd cydnabyddiaeth â'r olaf. 2. Y mae y ddeddf foesol yn y gydwybod, yn gyffredinol, yn angenrheidiol, ac yn dragwyddol. Nid yn unig nis gall dyn lai na dyfod i gydnabyddiaeth â hi, ond nis gall lai na theimlo ei bod o angenrheidrwydd yr hyn ydyw, ac o ganlyniad yn dragwyddol ei pharhâd. Ond am ddeddfau natur, o ran dim sydd yn ein teimlad na'n rheswm i'r gwrthwyneb, gallasent fod yn wahanol; a gallant beidio a bod, fel y bu amser pan nad oeddynt. Gallasai y Creawdwr beri i ddwfr redeg, ac i blwm bwyso, yn ol deddfau gwahanol i'r hyn sydd yn eu llywodraethu yn bresennol, ond nis gallwn ddychymygu felly am y rhwymedigaeth i ddyweyd y gwir ac i wneuthur cyfiawnder. Y mae deddf foesol Duw, fel efe ei hun, yn dragwyddol ac yn anghyfnewidiol; ac y mae cydwybod dyn yn ei theimlo ac yn ei dangos hi felly. 3. Gwahaniaeth arall, ac un o'r rhai pwysicaf, ydyw, nad oes yn perthyn i ddeddfau natur, nac yn wir i ddeddfau rhifyddiaeth a meintoniaeth, yr elfen o ddyledswydd ac awdurdod. Y mae y gydwybod yn gorchymyn, ond nid felly deddfau natur. Y mae deddf gwres yn hysbysu ffaith, sef fod tân yn llosgi; oddi wrth ba un y gallaf gasglu, os rhyfygaf i'r ffwrn boeth nad oes ond dinystr i'w ddysgwyl; ond nid yw hi yn gorchymyn nac yn gwahardd i mi fyned iddo. Ond y mae deddf sydd yn gorchymyn i mi ddewis y ffwrn danllyd boeth, yn hytrach na syrthio i lawr ac addoli delw aur. 4. Y mae troseddu yn erbyn y gydwybod yn hanfodol wahanol oddi wrth droseddu yn erbyn y deddfau ereill. Cyfyd y gwahaniaeth hwn yn naturiol o'r un blaenorol. Wrth geisio llywodraethu ei hun yn groes i ddeddfau pwysau a gwres, y dwfr a'r gwynt, darostyngai dyn ei hun i'r cyhuddiad o anwybodaeth neu annoethineb, ac yn yr eithaf i wallgofrwydd. Ac fe all dyn ymddwyn felly, heb osod ei hun yn agored hyd yn oed i'r cyhuddiadau hyn, ond yn hytrach ennill parch, ac amlygu uniondeb egwyddor, os bydd amgylchiadau yn galw am y cyfryw ymddygiad. Ond nis gall dyn droseddu deddf ei gydwybod heb deimlo ei hun yn euog —ie, er iddo, fel Saul o Tarsus, wneuthur hyny mewn anwybodaeth, gan feddwl ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw. Y mae trosedd yn erbyn y ddeddf hon, pa esgusodion bynag o anwybodaeth, neu ddiffyg ystyriaeth, a ddadleuir, yn *bechod*, yr hyn nis gellir ei ddywedyd am un o ddeddfau natur. 5. Nid yw yn ddiogel i ymresymu oddi wrth y dull yr ymddygir at droseddau o ddeddfau natur at y llwybr priodol i gyfarfod trosedd o ddeddf foesol. Egwyddor y llywodraeth ddwyfol, hyd yn oed yn y cylchoedd isaf o'r greadigaeth—yn nghylchoedd deddfau naturiol a dify wyd—yw cospi trosedd, a gweithio drwg allan o'r gyfundrefn. Yn hyn y mae tebygolrwydd rhwng ymddygiadau y Creawdwr at droseddwyr o'r ddeddf foesol yn y gydwybod, a'r troseddwyr o ddeddfau natur. Pan y mae dyn yn syrthio ac yn tori aelod, troseddir deddf naturiol, a gweinyddir cosp naturiol yn ddioed; ond y mae nerth hunan-iachaol mewn natur, sydd yn dechreu yn ebrwydd i ail uno yr esgyrn, ac i adferu ei nerth cyntefig i'r fraich neu y goes. Mae yr ymgais at iachâd mor naturiol ag ydyw y gosp. Ond nid yn y modd yma y mae cydwybod dyn yn ymiachau o'r euogrwydd a'r hunan-gondemniad a deimlir mewn canlyniad i drosedd o'r deddf foesol. Y mae a wnelo y gydwybod â syniadau hollol ddyeithr i'r byd naturiol a gweledig. Y mae ei llywodraeth hi yn foesol, a'r syniadau sydd yn briodol iddi ydynt, awdurdod, hawl, dyledswydd, rhwymedigaeth, cyfrifoldeb, bai, euogrwydd, pechod—syniadau sydd i'w cael yn mhob iaith, ac o ganlyniad, a deimlir yn eu gweithrediad gan holl ddynolryw. Y casgliad ydyw, nad oes un drefn a gyferfydd y gydwybod yn ei heuogrwydd, ond y cyfryw ag sydd yn unol â'r syniadau priodol iddi; sef trefn i gynnal awdurdod, i gyfarfod â rhwymedigaeth, i wneyd iawn am bechod, ac i adferu y gydwybod i weithredu yn unol âg ewyllys bur Duw.

Nid oes dim yn hyn yn anghysson â'r ffaith fod syniadau gwahanol wledydd a gwahanol oesoedd yn amrywio yn fynych yn eu natur ac yn eu heglurder. Y mae gan addolwr eilun, ac addolwr y gwir Dduw, yr Iuddew a'r pagan, y Pabydd a'r Protestant, eu cydwybod. Y mae yr hyn sydd yn rhinwedd gan y naill yn bechod gan y llall, a hyny ar dir cydwybod. Y mae cydwybod y naill yn llefaru mor uchel ac awdurdodol a'r llall. Nid yw ei bod yn llefaru dros wirionedd yn chwanegu dim at, na'i bod yn argymhell celwydd a thwyll yn lleihau dim ar, awdurdod ei lleferydd. Y mae yr elfen bwysig hon—*awdurdod i orchymyn*—yn parhau yr un; ac yn hyn y mae hanfod deddf neu gyfraith yn gynnwysedig. Faint bynag o wahaniaeth sydd rhwng syniadau ac ymddygiadau moesol gwahanol ddosbarthiadau o ddynion, nid yw hyn yn lleihau dim ar y prawf sydd yn eu natur mai deiliaid llywodraeth ydynt, gan fod llywodraeth wedi ei gosod i fyny, ac yn cael ei gweinyddu yn eu natur hwy eu hunain. Y mae bod deddf ar ddyn, oddi wrth awdurdod yr hon nas gall ymysgwyd, yn brawf fod deddfroddwr uwch law iddo. Pa fodd y gallai dyn siarad mor awdurdodol wrtho ei hun, oni bai mai cyfrwng ydyw i leferydd uwch? A phe gallai, pa beth a'i cymhellai i wneyd, pan y mae holl ffrwd ei fywyd yn cael ei gondemnio yn fynych trwy hyny? Ac, nid yn unig, nid yw gwahaniaeth syniadau dynion—dros wirionedd pa rai yr appeliant at eu cydwybodau—yn effeithio dim i wrthbrofi yr elfen o awdurdod sydd yn perthyn iddi, ond yn hytrach, y mae y gwahaniaethau hyn yn profi mor annileadwy yn nghyfansoddiad dyn ydyw ei gydwybod. Fel y mae Bacon yn sylwi—fod yr heidiau o fân dduwiau y mae dynion yn

Digitized by Google

ymostwng iddynt yn cadarnhau y prawf fod dyn wedi ei wneuthur i addoli Duw, o gymmaint ag, wedi iddo golli yr adnabyddiaeth o'r gwir Dduw, yr addola yr ymlusgiaid ffleiddiaf cyn y bydd heb un. Yn gyffelyb gyda'r gydwybod:—pan na bydd hi yn cael ei goleuo â chyfarwyddyd anffaeledig, y mae hi mor uchel yn ei honiadau i awdurdod ag erioed: yr hyn a brawf mai llywodraethu ydyw ei swydd briodol. Y mae yn amlwg fod holl diriogaeth crefydd a moesoldeb yn syrthio dan ei hawdurdod. Ond y mae mor amlwg nad oes ond ychydig o egwyddorion moesol, na gwirioneddau crefyddol, nas gall hi fod yn ansicr ac yn gamsyniol yn eu cylch; ond nid ei bai hi ydyw hyny, o herwydd nid ei gorchwyl hi ydyw casglu gwybodaeth, ond gorchymyn ar sail penderfyniadau y meddwl a'r deall. Y mae y gydwybod wedi ei gwahanu oddi wrth bob gwybodaeth gywir am Dduw—ac o ganlyniad, am yr hyn sydd wir ac yn gelwydd, yn dda ac yn ddrwg—yn mwyafrif poblogaeth y byd yn mhob oes. Duw ydyw ffynnonell awdurdod y gydwybod, a chynllun ei huniondeb. Pa beth raid fod ei gweithrediadau, pan y mae gwybodaeth am y gwir Dduw wedi colli, a duwiau gau yn cael eu haddoli yn ei le? Parhau i orchymyn y mae y gydwybod; ond mor gyfeiliornus a chamsyniol yn ei gorchymynion! Dan lywodraeth anwybodaeth, cyfeiliornad, chwant at bechod, y mae ei barnau yn afresymol, yn anghysson, yn ansicr; cymmeradwya yr hyn a ddylai gondemnio, a chondemnia yr hyn a ddylai gymmeradwyo. Gweinydda yn fynych y cospedigaethau llymaf am yr esgeulusiad o ryw seremoniau dibwys; a chaniata, neu yn wir gorchymyna, y cyflawniad o'r troseddau erchyllaf. Weithiau, y mae ei thynerwch yn afresymol ac yn afiachus; bryd arall, y mae "wedi ei serio megys â haiarn poeth." Hyn ydyw canolbwynt llygredigaeth a thrueni dyn. Pan y mae y meddwl a'r gydwybod yn aflan, nid pur dim. Pan y mae y goleuni sydd mewn dyn yn dywyll, pa faint ydyw y tywyllwch? Y mae yn bosibl tynu camgasgliad oddi wrth hyn, a dyweyd, Os ydyw y gydwybod yn gosod dyn dan *rwymedigaeth*, pa mor gyfeiliornus bynag y dichon iddi fod, onid yw yn hollol ddibwys pa beth fyddo dyn o ran ei syniadau a'i ymddygiadau, ond iddo fod yn *gydwybodol?* Onid yw y rhwymedigaeth y mae dyn dani i ymostwng i'w gydwybod yn ei ryddhau oddi wrth y cyfrifoldeb o'r cyfryw ymostyngiad? I hyn, yr ateb ydyw—fod dyn dan rwymau i ddilyn ei gydwybod, *wedi y ffurfier hi:* ond yr ymofyniad ydyw, pa faint o law oedd ganddo ef ei hun yn y *ffurfiad o honi?* Nid yw yn canlyn fod dyn yn ddieuog am ei fod yn dilyn ei gydwybod. I'w wneyd ef felly, rhaid ei fod yn ddieuog yn y modd y daeth i feddu y fath gydwybod; rhaid ei fod yn hollol rydd oddi wrth ragfarn, oddi wrth ddiffaterwch ac anonestrwydd yn ei ymchwiliadau i'r gwirionedd, oddi wrth gydymffurfiad â'r dylanwadau llygredig; megys, hunan, balchder, &c., trwy weithrediad pa rai y daeth ei gydwybod i'w hansawdd bresennol. Gall dyn mewn mil o ffyrdd ddwyn ei hun i gredu fod y drwg yn dda, a chelwydd yn wirionedd; ac i'r graddau y mae yn gwneuthur hyn y mae yn darostwng ei hun i gyflwr y dall, yr hwn sydd yn cael ei dywys gan y dall, nes y mae y ddau yn syrthio i'r ffos. Ond yn hyn oll, y mae llygredigaeth ein natur wedi effeithio llai ar y gydwybod nag ar un gynneddf arall. Y mae ei gweithrediadau hi yn parhau yn fwy unol â'i hamcan gwreiddiol; ac er ei bod yn cyfeiliorni yn fynych trwy dywyllwch y deall, ac yn cael ei chymmeryd yn gaeth gan yr ewyllys—yr unig gynneddf a all ei difeddiannu o'i hawdurdod—eto, ynddi hi y mae yn aros y teimlad neu y gallu naturiol y mae trefn adferiad dyn yn appelio ato. Trwy y gydwybod yn unig y dichon i ras gymmeryd gafael ar ddyn cwympiedig. Y gydwybod sydd yn cydnabod ei heuogrwydd, yn derbyn barn angeu iddi ei hun, ac yn croesawu maddeuant mewn iawn.

Y mae gweithrediadau y gydwybod yn taflu goleu ar dystiolaethau yr Ysgrythyr o barth i'r farn a chosp dragwyddol—y sicrwydd a'r posiblrwydd o honynt. Y mae hyn yn ymddangos yn ei chydnabyddiaeth o'r gwahaniaeth tragwyddol rhwng drwg a da, cam ac uniawn. Er i ddynion amrywio yn eu barn am yr hyn sydd yn dda ac yn ddrwg mewn rhai amgylchiadau; eto, y maent yn cytuno *fod* y fath ansoddau, a'u bod hefyd yn anghyfnewidiol yn eu natur. Y mae y naill yn dda ynddo ei hun, a'r llall yn ddrwg ynddo ei hun; ac nid yn dda yn unig i gyrhaedd rhyw amcan, ac yn ddrwg i lesteirio yr amcan hwnw. Y maent yn dda neu yn ddrwg am eu bod yn unol â, neu yn wrthwynebol i, natur Duw. Gan fod y gydwybod yn cydnabod ac yn gweithredu yn unol â'r gwahaniaethau hyn yn y byd hwn, pa faint mwy bywiog y rhaid y bydd ei gweithrediad mewn byd lle y tynir ymaith bob hug a thwyll, a gorchudd, ac ammheuaeth oddi ar bob peth sydd yn unol â, neu yn wrthwynebol i, natur Duw. Y pleser neu y poen sydd yn tarddu o'r gydwybod sydd yn cyfansoddi prif hapusrwydd neu drueni dyn yn y fuchedd hon; pa faint mwy mewn byd lle y bydd Duw yn amlygu ei briodoliaethau moesol yn ddilen, a phob peth yn ymddangos ar unwaith y peth ydyw yn nhanbeidrwydd y goleuni hwnw. Y mae y gydwybod, nid yn unig yn ddangoseg i fynegu pa beth ydyw teilyngdod dyn, fel y mae yr hinfesurydd yn ddangoseg o'r hinsawdd; ond y mae hi yn beiriant ynddi ei hun i gospi neu i wobrwyo, fel pe meddyliem fod yn ngallu yr hinfesurydd i *greu* ystorm neu degwch.

Ystyriaeth arall, hefyd, a ddengys yr un peth:—y mae gweithrediad y gydwybod yn ddibaid. Mae ein holl gynneddfau, trwy ymarferiad, yn ennill cyflymdra anamgyffredadwy yn eu gweithrediad. Nis gall dyn sylwi ond ar un o luaws afrifed o weithrediadau ei ewyllys—y maent yn rhy gyflym i'w sylw. Ni chymmerir un ysgogiad, ni siaredir un gair, heb weithrediad yr ewyllys; ond nis gall ond hollwybodaeth eu nodi oll. Y mae gweithrediad y gydwybod yn gyffelyb mewn cyflymdra: y mae hi yn ffurfio barn ar bob meddwl, gair, a gweithred, mor gyflym a'r fellten; ac y mae pob un o'r gweithrediadau dystaw hyn, er eu bod yn pasio yn ddisylw trwy eu buandra, yn nghyd âg anystyriaeth y meddwl—eto, y maent yn dystion o euogrwydd dyn, ac o gyfiawnder manwl Duw. Trysorir hwynt i gyd yn y cof; ac yn y byd arall, ceir hamdden i fyned drostynt bob yn un ac un yn ngoleuni cyfiawnder Duw. Y mae hyn oll yn gynnwysedig yn nhystiolaeth y Gwaredwr—"Am bob gair segur a ddywedo dyn y rhydd efe gyfrif." Y mae cyfansoddiad y meddwl a'r gydwybod y fath, fel nad oes un gair na gweithred—yn eu holl amgylchiadau o amser a lle, cymhelliad a dyben, manteision gwybodaeth, ac ymryson-iadau Ysbryd Duw—yn myned ar goll. Y maent oll yn cael eu trysori yn ddystaw ac yn ddiogel, fel ag i ffurfio defnyddiau hapusrwydd neu

Digitized by Google

drueni, pan y goleuir y cyfan i fyny gan felltenaid cyfiawnder Duw.

Ystyriaeth eto a ddengys y cyfaddasrwydd sydd yn y rhan hon o enaid dyn i Farn ydyw: fod y gydwybod, nid yn unig yn llygad agored, pan nad yw yn llais i'w chlywed, i sylwi ar holl ysgogiadau mewnol dyn; ond y mae hi hefyd yn edrych yn *ol*, ac nid yw byth yn anghofio. Ceidw hi y "coffa" byth yn fyw:—"Coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd."

Y mae y gydwybod, hefyd, yn dragwyddol yn ei gweithrediad. A fydd i'r gydwybod ymattal, wedi myned i wyddfod Duw sanctaidd, lle y mae pob tyst o bob pechod dirgel a chyhoeddus yn bresennol? A fydd i'r gydwybod ymattal yn ei gweithrediad, wedi i'r farn gadarnhau ei llais, a thynged y pechadur wedi ei sicrhau am byth? Onid yn ei llais cryfaf y bydd hi yn siarad wedi i'r Barnwr—ffynnonell ei hawdurdod—ymddangos?

Nid yw y gydwybod wedi derbyn ond ychydig o sylw, mewn cymhariaeth i'r hyn a deilynga, fel y rhan hono o enaid dyn at ba un y mae appelio mewn dadleuon moesol a chrefyddol. Dygir gwirioneddau moeseg a duwinyddiaeth i'w penderfynu yn rhy fynych o flaen mainc rheswm ac ymresymiad y deall yn unig, fel pe na byddai gan y gydwybod un llais yn y mater. Nid oes un ffynnonell mwy ffrwythlawn o gamsyniadau a chyfeiliornadau na hyn. Heb geisio egluro hyn mewn erthygl, sydd eisoes yn rhy faith, ymfoddlonwn yn unig ar ddyweyd, fod i bob dosbarth o wirioneddau ei chynneddf briodol. Y glust sydd i benderfynu ar seiniau; y llygad ar luniau a lliwiau; y rheswm a'r deall ar y moddion cyfaddasaf i gyrhaedd dyben, yn nghyd â holl wirioneddau meintoniaeth, a'r gwahanol wyddorau a chelfyddydau; ac yn gyffelyb, natur foesol a chrefyddol dyn, neu ei gydwybod, sydd i fod y brif gynneddfyn mhenderfyniad gwirioneddau moesol a chrefyddol. Fel un anghraifft o hyn, gellir cyfeirio at y ddadl o barth rhyddid yr ewyllys. Yn ngolwg rheswm, y mae pob peth yn syrthio dan y ddeddf o achos ac effaith, ac felly yr ewyllys. Wrth ymresymu ar y mater dan arweiniad yr egwyddor hon yn unig, fe'n tywysir i'r penderfyniad fod i bob ewyllysiad ei achos priodol; ac o ganlyniad, fod holl ewyllysiadau bywyd yn rhwym mewn cadwen o achosion ac effeithiau, fel gweithrediad yr elfenau naturiol—yr hyn, yn marn llawer, sydd yn myned dan sylfeini cyfrifoldeb dyn. Ond yn ngolwg y gydwybod, nid fel effeithiau ac achosion yr ymddengys pethau. Nid yw hi yn edrych ar ddim ond yn ei gyssylltiad â'r ewyllys, ac felly cauir allan o'i hystyriaeth yr achos yn mha un y gwreiddiodd yr ewyllys. I'r gydwybod, gan hyny, tueddiadau gwirfoddol ydynt y dolenau cyntaf yn y gadwen; ac i'w llygad hi, y mae yr ewyllys yn achos annibynol ein hymddygiad. Y mae yr ystyriaeth yma yn gadael cyfrifoldeb i syrthio ar ddyn yn ei holl rym.

Pan y mae y gydwybod yn cyflawnu ei swydd briodol yn y dyn diailanedig — sef *condemnio*—y mae hi yn *ddrwg* (*Heb.* x. 22); y mae hi yn cyffroi, yn lle yn gwanhau llygredigaeth. A chan fod y gydwybod mewn undeb â'r deall, y rheswm, y cof, a'r galon, ac nad yw hi yn meddu syniadau cywir yn annibynol arnynt hwy, y mae hi yn halogedig, yn wan, yn gyfeiliornus (*Titus* i. 15; 1 *Cor.* viii. 7, 12); fel y tybiodd Paul, wrth erlid, ei fod yn gwneuthur gwasanaeth i Dduw: *Act.* xxii. 3. Pa fodd y mae y gydwybod sydd yn aflan, yn ddrwg, ac yn condemnio, i gael ei gwneuthur yn dda ac yn bur? Rhaid iddi brofi rhinwedd achubol y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu, cael ei goleuo â gair Duw, a'i dwyn dan ddylanwad Ysbryd Duw. Y mae y gydwybod, pan yn condemnio, yn llenwi y galon â chasineb at Dduw, ac arswyd rhagddo; felly, pan yn rhyddhau, ac yn bwrw ymaith yr ofnau sydd yn codi o deimlad o euogrwydd heb ei faddeu, y mae hi yn llenwi y galon â hyder yn Nuw a chariad ato, ac yn arwain y dyn i roddi ei hun yn ei wasanaeth. Ond pa fodd y mae y gydwybod oedd yn condemnio yn dyfod i ryddhau? Llefaru yn enw Duw, ac amddiffyn awdurdod a deddf Duw, yw ei swydd briodol hi yn barhäus. A phan y mae pechadur, trwy ffydd i'r gwirionedd, yn gweled Duw yn gosod ei Fab yn iawn—yr hwn nid adnabu bechod yn cael ei wneuthur yn bechod trosom ni; y ddeddf yn cael ei mawrhau a'i gwneuthur yn anrhydeddus; a bod y Barnwr, yn Nghrist, yn gyflawn, ac yn cyflawnhau yr hwn sydd o ffydd Iesu—y mae y gydwybod yn gweled ac yn clywed hyn oll; ac fel cynt, yn llefaru yn enw Duw—yn dadgan, gan fod Duw yn foddlawn, felly y mae hithau; gan ei fod ef yn cyflawnhau, ei bod hithau yn rhyddhau. Dysgrifiad o'r gydwybod wedi ei rhyddhau trwy daenelliad o waed Crist a geir yn y geiriau canlynol gan Cowper:—

"'Tis Heaven, all Heaven, descending on the wings
Of the glad regions of the King of kings;
'Tis more—'tis God, diffused in every part,—
'Tis God himself, triumphant in the heart."

Rhag llaw, y mae y gydwybod yn ymostwng i ewyllys Crist. Nid greddf neu weithrediad dall ydyw. Y mae Cristion dan lywodraeth ei gydwybod; ac y mae y gydwybod yn cael ei rheoli gan "berffaith gyfraith rhyddid." Wedi cael ei thaenellu gan waed aberth Crist, a'i goleuo gan ei wirionedd a'i ddeddf, y mae hi yn cael ei harwain yn ei gweithrediad gan ddylanwad Ysbryd Crist. Y mae efe yn ei chynnorthwyo i gymhwyso, gyda doethineb, gymhelliadau a gorchymynion deddf Duw at wahanol amgylchiadau bywyd y Cristion—yn fewnol ac yn allanol, yn ei ymwneyd â Duw ac yn ei ymwneyd â dynion. Cydwybod na adawa lonydd i'w pherchenog, tra y mae dyledswydd adnabyddus yn cael ei hesgeuluso, neu bechod adnabyddus yn cael ei goleddu; ac yn peri iddo deimlo yn feunyddiol yr angenrheidrwydd o ddefnyddio y ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid; ac sydd hefyd yn ei ogwyddo ac yn ei alluogi i rodio mewn eangder, tra y mae ar yr un pryd yn "gwasanaethu Duw yn ddiofn mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau ei fywyd"—ydyw y gydwybod dda, sydd yn un o ragorfreintiau penaf y Cristion i'w mwynhau, ac yn un o'i brif ddyledswyddau i'w chadw. Defnyddir yr ymadrodd "cydwybod dda," weithiau, mewn ystyr culach, am gydwybod yn dwyn tystiolaeth i ddyn, "yn yr Ysbryd Glân," fod ei ymddygiad mewn unrhyw amgylchiad mewn cydymffurfiad â'r hyn y gŵyr ac y cred efe sydd yn unol âg ewyllys Duw: 2 *Cor.* i. 12; *Act.* xxiv. 16; *Heb.* xiii. 18.

Y mae cydwybod dda yn meddu pwysigrwydd arbenig yn ei chyssylltiad:—1. A ffydd yr efengyl. "Gan fod genyt ffydd, a chydwybod dda:" "Yn dala dirgelwch y ffydd mewn cydwybod bur;" 1 *Tim.* i. 19; iii. 9; vi. 5; *Titus* i. 15. Y mae ffydd dyn yn y gwirionedd yn ymddibynu ar duedd ddirgelaf yr enaid; y mae ymwybyddiaath o bechod yn lladd hedyn ffydd. Nid yn fynych y gwelir dyn yn colli cydwybod

Digitized by Google

dda heb wneuthur llongddrylliad am y ffydd. Golygir cydwybod dda fel angor; yr hon, wedi ei thaflu ymaith neu ei gwrthod, sydd yn peryglu y llestr. Pan wrthodir dylanwad ymarferol ffydd, gollyngir y gafael yn ei gwirionedd. Y mae cydwybod a ffydd y naill yn amddiffyn i'r llall. Ni chydsaif ffydd â diffyg cydwybodolrwydd; ac y mae gofal am burdeb y gydwybod yn foddion i ddiogelu ymlyniad wrth y ffydd. 2. Ag ymarweddiad sanctaidd: 1 *Tim.* i. 5; 1 *Pedr* iii. 16; "Diwedd y gorchymyn yw cariad o galon bur, a chydwybod dda, a ffydd ddiragrith." Y mae cariad—sail a hanfod pob sancteiddrwydd—yn rhagdybied ansawdd briodol y galon, y gydwybod, a ffydd. Trwy gael y gydwybod yn dda, y dygir yr ymarweddiad yn dda; a thrwy gadw yr ymarweddiad yn dda, y cedwir y gydwybod yn dda.—(*Butler's Three Sermons on Human Nature; Mackintosh on Ethical Philosophy; Chalmers' Moral Philosophy; Christian Ethics*, by Wardlaw; *Payne's Moral Philosophy; Conscience and the Bible*, by Candlish; *Arrangements in the Constitution of the Mind for a Future Judgment*, by Cheever; *M'c Cosh on Divine Government; Studien und Kriteken*, part ii. 1857; "*Gewissen*," *Hertzog's R. E.; Biblisches Worterbuch.*)

1. CYFADDASIAD, [Seis., *accommodation*], megys ag y defnyddir y gair gan ysgrifenwyr duwinyddol, a eglurwyd fel cymhwysiad o'r naill beth i'r llall trwy gyfatebiad neu gyfaledd. Ond y mae y deffiniad neu yr eglurhâd yma yn mhell o fod yn gyflawn, gan y defnyddiwyd y gair—yn ddiweddar, o leiaf—mewn amryw ystyron.

Y mae y gair wedi cael ei gymhwyso at y ffurf o addysg y gwelodd yr Hollalluog yn dda drosglwyddo ei ewyllys drwyddi i ddynolryw. Fel hyn, y mae y delweddau teimladwy, a'r ymadroddion dynweddiadol a ddefnyddiwyd i gyfranu gwirioneddau dwyfol, yn enwedig yn mabandod dynoliaeth, yn cael eu galw yn fynych yn *gyfaddasiad.* Defnyddiwyd y gair *ymostyngiad dwyfol* hefyd i ddynodi y syniad yma. Y peth a olygir wrth hyn ydyw, fod Duw, er mwyn arwain dynolryw i wybodaeth o grefydd a moesoldeb, wedi ymddarostwng at wendid, anwybodaeth yr amseroedd, a dulliau o feddwl, ac angenion ysbrydol dynion, ac wedi mynegu gwirioneddau mewn amryw ffurflau a delweddau. [Gwel ANTHROPOMORPHIAETH.] Pan ystyrir mai oraclau cyntaf ein crefydd ydyw yr amlygiadau boreuaf sydd yn bod o'r meddwl dynol, a'u bod yn cadw coffadwriaeth o fabandod cymdeithas; ac, er mwyn cyrhaedd eu hamcan—cyfranu addysg—y rhaid cyfaddasu eu ffurf at y dulliau cyfamserol o feddwl ac iaith, bydd yn hawdd deall y rhesymau dros ddefnyddio ymadroddion ffugrol ac arwyddion cysgodol. Gelwir hyn yn ymddarostyngiad *dwyfol*, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth ymddarostyngiad *dynol;* yr hyn sydd yn cynnwys ymgyfaddasiad athraw at anmherffeithrwydd a dulliau dynion o feddwl, i'r dyben o'u harwain i wybodaeth newydd, a rhoddi iddynt well golygiadau. Ystyrir yr ymddarostyngiad yma at wendid yr anwybodus a'r anniwylliedig yn wir angenrheidiol. Honir mai ychydig a fuasent wedi derbyn gwirioneddau iachus, pe na buasai i'r athraw ymgyfaddasu yn ol y cynllun yma—o leiaf, mewn pynciau o bwys israddol, cyn belled ag y gellid gwneuthur hyny heb niweidio y gwirionedd. Dywedir am yr hwn a ddefnyddia y dull yma, ei fod yn llefaru *κατα' οἰκονομίαν*, neu yn drefniadol. Y mae y ffurf yma o weinyddu addysg yn cynnwys arwyddluniau, cysgodau, dammegion, ac arallegau; ac ystyrir fod yr athrawon ysbrydol wedi defnyddio y dull yma yn eu holl ffurflau. dan yr hen oruchwyliaeth cystal a'r newydd, wrth hysbysu yr ewyllys ddwyfol. Yr oeddynt yn ymgymhwyso at alluoedd eu gwrandawyr, ac nid ystyrient yn angenrheidiol iddynt wrthwynebu y cyfryw o'u cyfeiliornadau ag na ddalient gyssylltiad â gwirioneddau crefyddol. Ond mewn amseroedd diweddar, ac yn enwedig yn nghorff yr hanner canrif olaf, y mae yr egwyddor o gyfaddasiad mewn duwinyddiaeth dybiadol, wrth ddeongli yr Ysgrythyrau, wedi myned yn mhell dros y terfynau yma. Tra y caniatâ deonglwyr difrifol fod yn ddyledswydd ar athraw crefyddol ymattal rhag traethu rhai gwirioneddau crefyddol y byddo ei wrandawyr yn anghymhwys i'w dirnad; neu, tra yr addefant fod yr athrawon ysbrydol eu hunain yn dilyn y farn gyffredin mewn anianyddiaeth, neu hyd yn oed mewn cofresau achyddol, neu bynciau mewn amseryddiaeth, a materion ereill anghyssylltiedig âg iachawdwriaeth dynolryw—megys, y syniadau poblogaidd am ysbrydion drwg—neu, o leiaf, na chynhyrfent feddyliau eu gwrandawyr trwy eu hargyhoeddi ar y fath bynciau:—tra y teimla amddiffynwyr yr amcandyb yma yn anhawdd penderfynu terfynau manwl y cynllun, neu yr ystyriant mai yr unig wirioneddau sylweddol yw gwirioneddau crefydd natur, änt cyn belled ag i ddal allan fod pob peth tu hwnt i hyn, yn cynnwys holl bynciau neillduol Cristionogaeth, yn ddim amgen na chyfaddasiad yn unig gogyfer â rhagfarnau a dysgwyliadau eu cydoeswyr. Y maent, fel hyn, yn cymmysgu yr hyn sydd wir, sef cyfaddasiad yn *ffurf* â chyfaddasiad yn *mhwnc* eu haddysg—yr hyn a fyddai yn anghydweddol, nid yn unig â nodwedd y dadguddiad dwyfol, ond hyd yn oed â nodwedd deddfroddwr dynol uniawn. Dywedir fod pob peth aneglur a dyrys—ie, hyd yn oed y syniad fod Cristionogaeth yn ddadguddiad o'r nef—yn ddim ond ymostyngiad at wendid oesoedd blaenorol; a dyma y gyfundrefn sydd yn yr Almaen er ys hir o amser bellach. Y mae ereill yn dal allan nad oedd yr ysgrifenwyr sanctaidd eu hunain yn rhydd oddi wrth gyfeiliornadau a rhagfarnau eu cydwladwyr; a'u bod, yn lle cydymagweddu â'r pethau hyn, yn dysgu y pethau a gredent oedd wirionedd. Y mae y pwnc wedi cymmeryd gwedd newydd er pan gododd ac yr ymdaenodd y golygiad olaf hwn, yn ol yr hwn y dywedir fod yr apostolion wedi eu gosod ar yr un tir a'r gweddill o'u cydwladwyr, a'u deongliadau i'w holrhain i'r ysgolion Rabbinaidd. Gogwyddiad a thuedd gyffredinol y gyfundrefn yma ydyw,—mai opiniynau Crist a'r apostolion yn unig a ganfyddwn yn y Testament Newydd, ac nid gwirioneddau crefyddol a thragwyddol. Y mae i'r egwyddor o gyfaddasiad honiadol ddylanwad, i ryw raddau, ac mewn gwahanol foddau, ar ddeongliad yr Ysgrythyr er yn fore; ond ni chymmerodd ei ffurf bresennol cyn amser Semler, yn ysgrifeniadau yr hwn y canfyddir cnewullyn, o leiaf, y gyfundrefn a ystyriwyd fel yr arf mwyaf ofnadwy a ddyfeisiwyd erioed i ddinystrio Cristionogaeth.

Y mae y cyfaddasiad honiadol wedi cael ei alw hefyd, mewn amseroedd diweddar, yn ddeongliad hanesol, yn gyferbyniol i'r deongliad gramadegol, neu athrawiaethol, yn gymmaint ag y cyfeiria at opiniynau dadleugar diflanedig oes benodol, y dywedir i'r athrawon ysbrydol eu

Digitized by Google

defnyddio yn eu hyfforddiadau. Y mae y rhai sydd yn pleidio y dyb yma yn wrthwynebwyr egnïol i feirniadaeth eiriol—neu, yr hyn a alwant hwy, beirniadaeth *lythyrenol:* yr hon a ddirmygant megys un ddiffrwyth, eiddil, a diwerth, fel pe nas cyfeiriai at ddim ond geiriau a sillau yn unig. Ond y mae profiad wedi dangos fod llenyddiaeth yn anadnabyddus neu yn anniwylliedig pan yr esgeulusir beirniadaeth eiriol.—(*Kitto's Cyc. Bib. Lit.; Whateley's Bamp. Lect.; Conybeare's Lect. on Theology; Seiler's Bib. Hermeneutics, by Wright; Rose's Prot. in Germany,* &c.)

2. CYFADDASIAD (ESBONIADOL neu NEILLDUOL), a ddefnyddir yn benaf yn nghymhwysiad ymadroddion penodol o'r Hen Destament at ddygwyddiadau yn y Newydd, at y rhai na byddant yn cyfeirio yn weithredol, hanesol, na chysgodol. Gelwir cyfaddasiad yn yr ystyr yma hefyd yn *eglurhâd.* Y mae dyfyniadau o'r dysgrifiad yma yn bur fynych, mewn cymhariaeth, trwy yr holl Destament Newydd, yn enwedig yn yr Epistol at yr Hebreaid. Gan fod y gyfundrefn o gyfaddasiad esboniadol wedi bod yn achlysur o ddadl bur eiddigus yn yr amseroedd diweddar hyn, mae yn weddus sylwi yn lled fanwl ar ei nodwedd a'i hanes.

Nis gellir gwadu fod llawer o'r fath ymadroddion, er yn cael eu dwyn i mewn fel yn cyfeirio, yn ymddangosiadol, at ryw ddygwyddiadau a gofnodir yn y Testament Newydd, neu yn arddangosol o honynt, eto yn cyfeirio, fel yr ymddengys, yn eu cyssylltiad gwreiddiol at bethau cwbl wahanol. Y mae pob oes wedi teimlo yr anhawsder i gyssoni y fath gamgymhwysiadau ymddangosiadol, neu osgoadau oddi wrth yr amcan gwreiddiol, er i agoriad yr anhawsder, sef yr egwyddor o gyfaddasiad, gael ei gadw yn benaf hyd amseroedd diweddar. Wrth hyn y meddylir nad oedd y prophwydoliaethau neu y dyfyniadau o'r Hen Destament wedi eu bwriadu yn llythyrenol i'w cymhwyso at yr amgylchiad neu y pwnc mewn llaw, ond bod yr ysgrifenydd yn y Testament Newydd wedi eu defnyddio yn unig er mwyn addurn, neu er peri argraff ddofn, trwy ddangos cyfatebiad nodedig rhwng dau amgylchiad cyffelyb—y rhai, ynddynt eu hunain, nad oeddynt yn dal un gydberthynas. Y mae gan y Parch. T. H. Horne restr o fwy na deg a thrigain o'r ymadroddion cyfaddasiadol hyn, wedi eu casglu er amddiffyn yr egwyddor yma, yn ei *Introduction to the Critical Study of the Holy Scriptures;* ond digon i ateb y dyben mewn golwg yma yw dethol yr anghreifftiau canlynol:—

Mat. xiii. 35,	dyfynedig o	*Salm* lxxviii. 2.
viii. 17,	—	*Esa.* liii. 4.
ii. 15,	—	*Hos.* xi. 1.
ii. 17, 18,	—	*Ier.* xxxi. 15.
iii. 3	—	*Esa.* xl. 3.

Bydd yn angenrheidiol, er mwyn eglurhâd cyflawn ar y mater, i ni gadw mewn cof y gwahaniaeth, nid yn unig rhwng ymadroddion cyfaddasedig a'r cyfryw ag y rhaid eu hegluro yn briodol (megys y rhai a ddygir fel profion pendant), ond hefyd, rhwng y cyfryw ymadroddion a'r rhai a fenthycir yn unig, ac a gymhwysir gan yr ysgrifenwyr sanctaidd, weithiau, mewn ystyr uwch nac y defnyddid hwy gan yr awdwyr gwreiddiol. Yr unig ymadroddion y gellir eu dynodi fel hyn yw y rhai nad ydynt yn rhagfynegu dygwyddiadau dyfodol yn fanwl a llythyrenol, ond a gymhwysir at ddygwyddiad yn y Testament Newydd trwy gymhariaeth achlysurol o amgylchiadau. Nis gellir ystyried y fath ymadroddion, gan hyny, os ydynt yn bod, ond fel rhai dysgrifiadol yn unig, ac nid rhai rhagfynegiadol.

Mae yn angenrheidiol ystyried yma yr amryw ffyrdd y tybir fod prophwydoliaethau yr Hen Destament yn cael eu cyflawnu yn y Newydd. Er anghraifft, y mae amryw dduwinyddion wedi bod yn barnu—a dyma y farn a fabwysiedir yn *Introduction* Mr. Horne—fod y cyflawniad, weithiau, yn llythyrenol; bryd arall, yn gyfryngol, cysgodol, neu ysbrydol yn unig. Dyfynir prophwydoliaeth weithiau mewn ffordd o anghraifft (cyfaddasiad) yn unig; pan, bryd arall, nad oes dim mwy yn bod na chyfeiriad yn unig. Tybir fod i rai prophwydoliaethau gyflawniad llythyrenol amlwg ac uniongyrchol, ac yn cael eu cyflawnu wedi hyny mewn ystyr helaethach a mwy eang; ond gan y perthyn agoriad llawn o'r rhan yma o'r mater yn fwy priodol i'r pwnc tra dadleuol o ystyr sengl a deublyg prophwydoliaethau, ni sefir arno yn mhellach yma na sylwi fod yr esbonwyr sydd yn amddiffyn yr ystyr deublyg, nid yn unig yn ymranedig ar y pwnc tra phwysig, beth sydd yn brophwydoliaethau llythyrenol, a pheth sydd brophwydoliaethau mewn ystyr israddol yn unig, ond y mae y rhai sydd yn cytuno ar y pwnc yma yn gwahaniaethu yn nghylch pa enw i'w roddi i'r ymadroddion a gymhwysir gan ysgrifenwyr yn y Testament Newydd at weinidogaeth ein Iachawdwr, ag sydd yn perthyn yn hanesol i amser blaenorol. Er mwyn lleihau yr anhawsder, cynnygiodd Dathe, ac ereill, dynu llinell rhyngddynt, i'w gwahaniaethu oddi wrth y ffurf y dygir y dyfyniad i mewn. Ystyrir yr ymadroddion, er anghraifft, a ddygir i mewn â'r geiriau o *ἵνα πληρωθῇ=fel y cyflawnid,* o blegid hyn, megys rhagfynegiadau uniongyrchol gan rai: ac y maent yn dewis ystyried y dyfyniadau a ddygir i mewn â'r arweiniad *τότε ἐπληρώθη=yna y cyflawnwyd,* yn ddim mwy na chyfaddasiadau. Y maent yn myntumio nad yw defnyddio y dull blaenaf, fel yn gymhwysedig at gyfaddasiad yn unig, yn awdurdodedig gan yr ysgrifenwyr Iuddewig. Y maent yn dal allan, gan hyny, fod y cyfryw ymadroddion yn brophwydoliaethau—o leiaf, mewn ystyr israddol. Sylwa yr Esgob Kidder, yn briodol, gyda golwg ar y mater yma, y "gellir dywedyd y cyflawnir geiriau o'r Ysgrythyr mewn amryw ffyrdd; sef, yn briodol ac i'r llythyren, megys pan ddelo yr hyn a ragfynegwyd i ben; neu, eto, pan gyflawnwyd yn y cysgod yr hyn a gyflawnir drachefn yn y gwrthgysgod; neu ynte, gall Ysgrythyr gael ei chyflawnu yn fwy uniongyrchol, sef mewn ffordd o gyfaddasiad, megys pan ddygwydd amgylchiad i ryw le neu bobl a ddygwyddodd ryw amser o'r blaen." Y mae efe yn nodi y dyfyniad yn *Mat.* ii. 18; "Llef a glybuwyd yn Rama," &c. "Defnyddir y geiriau hyn," eb efe, "mewn ffordd o gyfeiriad i amlygu y galar yma trwyddo. Nid yw yr efengylwr yn dywedyd, 'fel y cyflawnid,' ond 'yna y cyflawnwyd;' hyny yw, cymmerodd y fath olygfa le drachefn."

Ond rhaid addef, ar yr un pryd, nad yw y gwahaniaeth yma gyda golwg ar ffurf dyfyniad yn cael ei gydnabod gan y rhan fwyaf o esbonwyr, na chan y rhai sydd yn addef na'r rhai sydd yn gwadu yr egwyddor o gyfaddasiad. Yn mysg y rhai blaenaf, digon yw enwi Calmet, Doddridge, Rosenmüller, a Jahn; y rhai a edrychant ar yr ymadroddion a ddygir i mewn â'r geiriau "fel y cyflawnid," yn gyfaddasiadau, cystal a'r rhai a ragymadroddir â'r geiriau "yna y cyflawnwyd;"

Digitized by Google

tra yr ystyria y rhai a gwbl wadant yr egwyddor gyfaddasiadol y naill a'r llall fel ffurflau prophwydoliaethau uniongyrchol—o leiaf, mewn ystyr ailraddol neu gysgodol. Dyma fel y mae, er anghraifft, yn enwedig gyda golwg ar y ddau ddyfyniad blaenaf a ddygwyddant yn y Testament Newydd; sef, *Mat.* ii. 15, a *Mat.* ii. 18: y cyntaf o'r rhai a ddygir i mewn trwy y ffurf gyntaf, a'r olaf trwy yr ail o'r ffurflau hyn. Ond yn gymmaint ag nas gall yr esbonwyr y cyfeiriwyd atynt uchod ddirnad pa fodd y gellir troi y dyfyniad o *Hos.* xi. 1—"O'r Aipht y gelwais fy mab"—er iddo gael ei ragymadroddi â'r ffurf, "fel y cyflawnid," a'r hwn a berthyn yn llythyrenol i alwad plant Israel o'r Aipht—gan nas gallant ddirnad pa fodd y gellir troi y dyfyniad yma o'i ystyr hanesyddol, edrychant arno fel cyfaddasiad syml, neu ddyfyniad cymhwysadwy, ac ystyriant yr ἵνα πληρωθῇ fel ffurf Iuddewig o gyfaddasiad. Y mae Mr. Horne, er amddiffyn yr eglurhâd yma—wedi cyfeirio at rai esamplau ammheus o *Surenhusius's* Βίβλος καταλλαγῆς, a *Rosenmüller's Commentary on the New Testament*—yn sylwi, mai "priodwedd gyffredin yr Iuddewon, pan yn dywedyd, 'fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd gan y prophwyd yma neu y prophwyd arall,' heb fwriadu i neb ddeall fod y cyfryw ymadrodd penodol yn un o'r llyfrau sanctaidd wedi ei amcanu erioed i fod yn wir ragfynegiad o'r peth y perthynai yr ymadrodd iddo y pryd hyny; ond yn arwyddo yn unig y gellid cymhwyso geiriau yr Hen Destament yn briodol i amlygu eu meddwl ac i egluro eu syniadau." "Y mae yr apostolion," eb efe, yn mhellach, "y rhai oeddynt Iuddewon o enedigaeth, ac yn ysgrifenu a llefaru yn mhriodwedd yr Iuddewon, yn dyfynu yr Hen Destament fel hyn yn fynych, heb fwriadu dim mwy trwy y dull yma o lefaru nag y gellid defnyddio geiriau y cyfryw hen ysgrifenydd mor briodol i ddarlunio unrhyw amgylchiad cyffelyb a ddygwyddodd yn eu hamser hwy. Gan hyny, nid yw y ffurf 'fel y cyflawnid' yn gwahaniaethu dim o ran arwyddocâd oddi wrth y dull 'yna y cyflawnwyd,' a gymhwysir yn y dyfyniad canlynol, yn *Mat.* ii. 17, 18, o *Ier.* xxxi. 16—17, at lofruddiad plant Bethlehem. Dyfyniad prydferth ydyw y geiriau, ac nid rhagfynegiad o'r hyn a ddygwyddodd; a chymhwysir hwynt gan hyny at lofruddiad y babanod, nid yn ol eu hystyr wreiddiol a hanesyddol, ond yn ol llafarddull Iuddewig." Y mae y Dr. Adam Clarke hefyd, yn ei esboniad ar *Ier.* xxxi. 15—17, yn cymmeryd yr un golygiad:—"Y mae Matthew, yr hwn sydd hoff bob amser o gyfaddasiad, wedi cymhwyso y geiriau hyn at lofruddiad plant Bethlehem; hyny yw, yr oeddynt yn gyfaddas at yr amgylchiad hwnw, ac am hyny, efe a'u cymhwysodd hwynt; ond nid ydynt yn rhagfynegiad o'r dygwyddiad hwnw. Mor wrthwynebus, pa fodd bynag, ydoedd y diweddar Barch. Hugh James Rose i'r egwyddor hon o gyfaddasiad, fel y cyfrifai fod ei chymhwysiad at yr ymadrodd yma yn mysg y pethau a ddylent gau Kuinoel, fel esboniwr, allan o lyfrgell yr efrydydd duwinyddol; ac y mae y Parch. Charles Forster, yn ei *Critical Essays*, lle y mae yn cwbl wrthwynebu yr egwyddor, yn dynodi y gwahaniaeth y cynnyg Dathe a'r esgob Marsh ei dynu rhwng y dulliau o ddyfyniad, megys 'yn ddychymygol a phenrhydd.' Golygiad Mr. Forster ydyw, mai yn nychweliad y Messiah o'r Aipht, ac yn ei ddychweliad ef yn unig, y cyflawnwyd addewid yr Arglwydd i Rahel (*Ier.* xxxi. 16)—'a hwy a ddychwelant o dir y gelyn'—yn gymhwys a llythyrenol; yr hon a gyflawnwyd yn ffugrol yn nychweliad Iuddewon y tair cenedlaeth o'r caethiwed yn Babilon: a bod ei ddyfodiad ef drachefn o'r Aipht yn ddygwyddiad a ragfynegwyd yn bendant am y Messiah, dan y ffugr o fod Israel mewn caethiwed Aiphtaidd: *Hos.* xi. 1."

Yn yr un modd y casgla efe fod y brophwydoliaeth yn *Ier.* xxxi. mor bell o fod yn gyfaddasiad yr efengylwr, fel mai y prophwyd ei hun a drodd y cysgod prophwydol (*Gen.* xxxv. 16—19) mewn ffordd o gyfaddasiad yn unig, at ei bwnc uniongyrchol ei hun (y caethiwed Babilonaidd), oddi wrth ei amcan priodol; sef genedigaeth y Messiah yn Bethlehem, yn yr hyn y cafodd y cysgod hanesol ei gyflawnu yn llythyrenol.

Y mae Rosenmüller yn nodi yr ymadroddion yn *Mat.* i. 22, 23; ii. 15, 17, 23; xv. 7; *Luc* iv. 21; *Iago* ii. 23, fel esamplau amlwg o'r ddau ddull a nodwyd, gan ddadleu iddynt gael eu bwriadu yn unig i ddynodi fod rhywbeth wedi cymmeryd lle a ymdebygai i'r ystyr llythyrenol a hanesyddol. Cyffelyb ydoedd syniadau Nicholl hefyd, duwinydd Seisoneg enwog:—"Nid wyf yn ammheu i'r adfrawdd (*phrase*) yma, 'fel y cyflawnid,' a'i chyffelyb, gael eu defnyddio ar y cyntaf i ddyfynu gwir brophwydoliaethau; ond i hyn, trwy hir arferiad, ddirywio, ac iddo gael ei gymhwyso o'r diwedd fel ag i roddi i'r Ysgrythyr wedd gyfaddasedig yn unig." Ac eto: "Os gallai prophwydoliaeth ddyfod o'r diwedd i arwyddo canu (*Tit.* i. 12; 1 *Sam.* x. 10; 1 *Cor.* xiv. 1), pa ham nas gallai yr ymadrodd *cyflawnu yr Ysgrythyr* a *phrophwydoliaeth* arwyddo dyfyniad yn unig?"

Terfynir yr erthygl hon trwy roddi talfyriad o hanes y dull yma o eglurhâd. Dadleua Mr. Stuart, o Andover, yn ei *Attodiad* i'w *Esboniad ar yr Hebreaid*, na phetrusai tadau yr eglwys gymhwyso y gyfundrefn hon at eglurhau yr Ysgrythyrau. Ond nid ydyw efe yn dwyn un anghraifft i brofi hyn; a gellid casglu oddi wrth ddychymygion allegol y tadau fod y dull yma braidd yn anghydweddol â'u syniadau. Yn wir, y mae y gwahaniaeth rhwng ystyr hanesol dyfyniadau, a'r hyn y cymhwysir hwynt ato yn y Testament Newydd, wedi cael ei gydnabod yn wastad, o amser Origen hyd yn hyn; ac y mae esbonwyr wedi ymranu yn ddau ddosbarth—un yn gwneuthur deongliad y Testament Newydd yn rheol i eglurhau ymadroddion yr Hen Destament, a'r llall, mewn amryw ffyrdd, yn cynnyg cyssoni yr anghydgordiad. Ond y cyntaf i arwain y ffordd i'r dull yma o eglurhâd oedd Theodore, yn y pummed canrif; yr hwn, cyn belled ag y gellir barnu oddi wrth yr ychydig o'i waith a'n cyrhaeddodd ni, ydoedd yn bleidiol yn ddiau i ddeongliad llythyrenol a hanesol. Tybia efe mai ychydig iawn o brophwydoliaethau uniongyrchol sydd yn yr Hen Destament am y Messiah; ac am ddyfyniadau ereill, megys yn *Ioan* xix. 24, a *Rhuf.* x. 16, sylwa fod yr apostol "yn newid yr ymadrodd er mwyn ei gyfaddasu at ei reswm." Eto, gyda golwg ar *Salm* xxii. 18, sylwa Theodore nas gall yr ail adnod, ac o ganlyniad yr holl Salm, ddim cyfeirio at "yr hwn na wnaeth bechod, ac na chaed twyll yn ei enau;" ond gan i'r Arglwydd ar y groes ddyfynu o'r Salm y geiriau "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist," darfu i'r apostol yntau gyfaddasu y geiriau hyn at Grist:—"Rhanasant fy nillad yn eu mysg, ac am fy mhais y bwriasant goelbrenau." Ymddengys ei fod ef ar yr un pryd yn cydnabod

Digitized by Google

ystyr uwch ac is; canys sylwa fod rhai ymadroddion sy'n cael eu cyfeirio at y Messiah yn cael eu "cymhwyso hefyd yn ormodieithol at bersonau hanesyddol yn yr Hen Destament;" ac fe ddywed am *Salm* lxix. 21, y gall fod y geiriau, mewn ystyr arall, yn cyfeirio at ein Harglwydd, er nad yw y Salm yn cyfeirio yn hanesyddol ato ef. Y mae Rosenmüller yn tybied, oddi wrth eiriau Nicholas Lyranus, ei fod ef (Nicholas) wedi cael cipolwg, o leiaf, ar y gyfundrefn. Ond y person, i arfer geiriau Conybeare, yr hwn, "gyda golwg ar dduwinyddiaeth ddiweddar, oedd noddwr a dadleuydd cyntaf ac enwocaf y gyfundrefn," oedd Calvin; yr hwn a "fabwysiadodd egwyddorion esboniadol nas clywyd braidd am danynt o'r blaen, er pan gondemniwyd Theodore, yn y pummed canrif, ac nas goddefwyd erioed, mae yn ddiau, yn yr Eglwys Gristionogol. Dangosodd Erasmus a Luther y ffordd yn ddiau trwy eu hamddiffyniad i esboniad llythyrenol; ond, hyd yn oed mewn ymadroddion y tybir eu bod yn dwyn perthynas â'r eglwysi Iuddewig a Christionogol, ymddengys y seilia Calvin y fath gymhwysiad yn hytrach ar natur a thebygrwydd y materion a'u sefyllfa, nag ar unrhyw nodwedd cysgodol a phrophwydol pendant. Ni thueddir ef, gan hyny, i edrych cymmaint am amcan gwreiddiol i ddynodi pethau uwch yn ysbrydol a phrophwydol, ag am gymhwysiad awdurdodol o ystyr newydd mwy eang gan yr ysgrifenwyr ysbrydol eu hunain. Sylwa ar *Heb.* ii. 6, "nad bwriad yr apostol oedd rhoi eglurhâd naturiol ar y geiriau, ac nas dichon fod yn niweidiol i ni dybied mai er mwyn addurn yr oedd yr apostol yn cyfeirio at ymadrodd yr Hen Destament." Gyda golwg ar yr ymadroddion yn *Mat.* ii. 15—17, a ddyfynwyd eisoes, y mae efe yn sylwi "y rhaid yn ddiddadl cyfyngu yr ymadrodd yn *Hos.* xi. 1 at Grist;" ac o barth yr ail ddyfyniad (*Ier.* xxxi. 15), dywed fod "yn sicr mai cyfeirio y mae y prophwyd at laddfa llwyth Beniamin, a gymmerodd le yn ei amser ef; ac nad yw Matthew, wrth ddyfynu geiriau y prophwyd, yn golygu eu bod yn brophwydoliaeth o'r hyn ydoedd ar gael ei wneuthur gan Herod, ond fod galar cyffelyb i alar y Beniaminiaid i gymmeryd lle eto."

Ond tra y priodolir y ddyfais hon i Calvin—"ysgrifenydd nas cyhudda neb ef, ar un llaw, o duedd Neologiaidd, tra ar y llaw arall, nas cenfydd y beirniad mwyaf sobr a doeth ddim yn ei eglurhâd sydd groes i reolau manylaf gwir ddeongliadaeth"—ac i'r athrawiaeth o gyfaddasiad gael ei defnyddio unwaith er mwyn diarddel pob dull ysbrydol ac allegol o ddeongliadaeth, estynwyd hi yn ddiweddarach at bob peth a ystyrid o'r blaen yn gysgodol. Rhoddodd y Dr. Sykes, yn Lloegr, yn ei ateb i Collins, ac yn y rhagymadrodd i'w *Esboniad ar yr Hebreaid*, i fyny yr holl gyfundrefn o ragddarluniad cysgodol a phrophwydoliaeth eilraddol, fel yn amddifad o brawf, ac yn gyfaddasedig at genadwri ein Harglwydd mewn ymostyngiad i'r rhagfarnau a ffynent yn mysg y bobl. Cariodd Le Clerc ei syniadau am gyfaddasiad i'r fath bellafoedd, fel braidd ag i ddirymu nodwedd prophwydol yr Hen Destament yn hollol, ac i leihau yn fawr awdurdod ddwyfol y Newydd; a chyhoedda Semler i'r holl gyfeiriadau a wnaed yn yr Ysgrythyr gan ein Harglwydd a'i ddysgyblion gael eu gwneyd mewn cydymffurfiad â syniadau gau a Rabbinaidd eu cydwladwyr anoleuedig. Un o'r rhai a wnaeth yr amddiffyniad mwyaf galluog, mewn amser diweddar, i'r gyfundrefn o ddeongliad cysgodol ar y prophwydoliaethau, yn gyferbyniol i'r dull cyfaddasol, ydyw y proffeswr Tholuck, o Berlin, yn ei draethawd attodiadol i'w *Esboniad ar yr Hebreaid.* Nid ydyw efe, y mae'n wir, yn gwadu pob anghraifft o gyfaddasiad; ond efe a drefna luaws o ymadroddion a ddeonglwyd felly yn y dosbarth o brophwydoliaethau cysgodol; megys, *Mat.* ii. 15, 18; xxvii. 9, 35; *Ioan* iii. 14; xix. 24, 36; *Act.* i. 20; ii. 25—31.

Yr unig reol a rydd y proffeswr Tholuck i wahaniaethu rhwng cysgodau a chyfaddasiad ydyw, yr ystyriaeth o bwysigrwydd y pwnc y cymhwysir hwynt ato:—rheol y rhaid edrych arni bob amser yn benrhydd ac anfoddhaol. Barna y Parch. J. J. Conybeare "nad ydys i edrych am unrhyw ystyr ailraddol na byddo yn y cysgodol, neu yn ymddibynol arno—yr hwn ystyr cysgodol a benderfynir gan wir bynciau hanfodol cyfatebiad rhwng y gwrthddrychau cyssylltiedig." Cafodd y proffeswr Tholuck ei ragflaenu gan Bilroth, yn ei *Esboniad ar y Corinthiaid*; yr hwn a sylwasai, gyda golwg ar y dyfyniad yn 1 *Cor.* i. 19, "nad ydys i edrych am gydweddiad hanesol manwl rhwng yr ystyr a rydd yr apostol Paul i'r ymadroddion a'r un a goleddai yr awdwr gwreiddiol"—dim ond am gyssylltiad o natur gyfatebol yn unig. Yna, fe ä Bilroth yn mlaen i amddiffyn yr ysgrifenwyr sanctaidd yn erbyn y cyhuddiad o anwybodaeth, os nad o annhegwch, trwy ystyried mai cysgod ydyw yr Hen Destament, a'i gymmeryd yn gyfan, o'r Newydd. Dyma y meddylddrych y mae Tholuck wedi helaethu arno—yr hwn, yn ol ei farn ef, sy'n symmud pob camsyniad ar y mater. Ond sylwa cyfleithydd Bilroth, os meddylir fod "dadganiadau y prophwydi, yn lle bod yn wir ddysgrifiadau o ddyfodiad y Messiah, wedi eu llefaru trwy gynhyrfiadau dwyfol yn ddigyfrwng, yn ddim amgen na darluniadau prydyddol yn unig o bersonau neu amgylchiadau cyssylltiedig â'r hanes Iuddewig, ac os nad oeddynt wedi eu bwriadu gan yr Ysbryd dwyfol i fod yn gysgodol o'r hyn a ddygwyddai mewn amseroedd dyfodol, yna, a siarad yn briodol, nid oeddynt brophwydoliaethau o gwbl, ac ofer a ffol yn ein Harglwydd a'i apostolion oedd appelio at y cyflawniad o honynt ynddo ef ac yn ei eglwys fel prawf mai efe oedd y Messiah at yr hwn y cyfeirient." Credai yr ysgrifenydd mai mwy athronyddol oedd ystyried fod ymadroddion yr Hen Destament yn meddu yr ystyr a briodolai yr apostolion iddynt, na thybied fod ein deongliad ni ein hunain o honynt yn gywir, neu gynnyg eu hegluro yn yr ystyr cyfaddasol, nac hyd yn oed y cysgodol chwaith.

Heb helaethu chwaneg ar y pwnc dyddorol yma, terfynir yr erthygl yn ngeiriau yr ysgrifenydd cymmedrol a doeth y dyfynwyd cryn lawer o'i waith yn barod:—"Er bod hyd yn oed yr esbonwyr mwyaf gofalus a duwiol o'r Ysgrythyrau wedi addef y rhaid i ni, tra yn y sefyllfa bresennol o wybodaeth, olygu fod rhyw ychydig o ymadroddion o'r Hen Destament, a ddyfynir yn y Newydd, fel wedi cael eu cymhwyso neu eu cyfaddasu at ddysgrifiad ac eglurhâd o bynciau anmherthynasol i'w rhediad a'u hamcan gwreiddiol; eto, yn sicr, y mae yn afresymol ac anfeirniadol rhesymu oddi wrth yr ychydig hyn at y cyfan, nac hyd yn oed at y rhan fwyaf o'r dywediadau hyny, y rhai y gwyddys ddarfod i ddynion sanctaidd Duw eu llefaru megys ag y cyfarwyddwyd ac y cyu-

Digitized by Google

hyrfwyd hwynt."—(Gwel *Horne's Introduction; Kidder's Dem. of the Messias; Forster's Crit. Essays; Rosenmüller's Hist. Interpret; Stuart's Com. on Hebrews; Tholuck's Com. on Hebrews; Calvin's Com. on Hebrews; Kitto's Cyc. Bib. Lit.; Conybeare's Com. on Corinthians*, a'i *Bampton Lec.*)

CYFAILL — EILLION — GARWCH, [*aill*]: cydymaith, un a gerir, ac sydd yn caru.

Cyfaill blaidd bugail diawg. *Diar.*

Y mae dau air Groeg yn cael eu cyfleithu *cyfaill* yn y Testament Newydd—*φίλος* ac *ἑταῖρος*. Y cyntaf yw y gair mwyaf arferedig; a thardda o'r ferf *φιλέω*=*caru*. Dynoda *φίλος*, felly, gyfaill cariadus; cynnwysa yr hoffder, yr ymlyniad, a'r parch sydd rhwng gwir gyfeillion a'u gilydd:—*φίλος τον Καισαρος*="yn garedig i Cesar;" *h. y.*, yn ufudd ddeiliad, yn ffyddlawn iddo. Dyna y gair yn *Iago* ii. 23; "A chyfaill Duw y galwyd ef;" ac yn *pen.* iv. 4, am "gyfaill i'r byd;" yr hyn a arwydda yr elfenau o hoffder, agosrwydd, ac ymlyniad. Arwydda *ἑταῖρος* cydymaith—un mewn rhyw drafodaeth âg arall; un yn masnachu, neu yn cydymdeithio âg arall; ac nid yw, o angenrheidrwydd, yn cymmeryd i mewn yr ymlyniad, yr hoffder, a'r parch sydd yn gynnwysedig yn nghyfeillgarwch y *φίλος*. Y mae yr ystyr yn eglur yn *Mat.* xi. 16; "Cyffelyb yw i blant yn eistedd yn y marchnadoedd, ac yn llefain wrth eu cyfeillion:" *h. y.*, wrth eu cymdeithion, eu cyd-chwareuwyr. Arferir y gair, hefyd, mewn cyfarchiadau, fel y gwneir genym ninnau—"fy nghyfaill"—pan nad yw yn arwyddo dim pellach na chynnefindra a chydnabyddiaeth cyffredin â'r person, yn nghyd â mynegiad o ewyllys da ato: *Mat.* xx. 13; xxii. 12. Defnyddia y Deg a Thrigain y gair hwn am רע: 2 *Sam.* xiii. 3; xvi. 17. Y geiriau Hebreig sydd yn cyfateb fwyaf i *φίλος* ydyw רע a אהב; y rhai a gynnwysant y drychfeddwl o gariad ac ymlyniad. Dywed Leigh, fod *ἑταῖρος*, yn arwyddo un yn bwyta ar yr un bwrdd, yn cael ymgeledd dan yr un gronglwyd, neu yn dilyn yr un alwedigaeth.

Y mae sefyllfa o gyfeillgarwch yn rhagdybio cyffelybrwydd tueddiad a chwaeth rhwng y rhai fyddont yn gyfeillion. "Byw mewn cyfeillgarwch," medd un awdwr paganaidd, "ydyw bod yn feddiannol ar yr un dymuniadau, a'r un gwrthwynebiadau." Y mae dau gyfaill yn caru ac yn casäu yn yr un cyfeiriad i raddau helaeth. Nid yw yn angenrheidiol, chwaith, fod eu chwaeth a'u tueddiad yn cydredeg yn hollol: nid yw ychydig wahaniaeth yn llesteirio dim ar eu cyfeillgarwch, a'u hymlyniad y naill wrth y llall; yn hytrach, y mae yn tynhau rhwymau eu hundeb. Ond, ar yr un pryd, y mae yn rhaid fod eu cariad a'u cas, a'u rhagfarnau o blaid a'u rhagfarnau yn erbyn, yn cydredeg yn mhell yn nghyd, cyn y gall gwir gyfeillgarwch barhau. Os gwahaniaethant mewn lluaws o bethau pwysig oddi wrth eu gilydd, y mae hyny yn debyg o wanhau eu hymlyniad a'u cyd-ymserchiad. Y mae cynnifer o ansoddau yn ofynol er ffurfio cyfeillgarwch yn mysg dynion, a chynnifer o amgylchiadau manteisiol yn angenrheidiol i gydgyfarfod er ei feithriniad, fel y mae y nifer mwyaf o ddynion yn ymfoddloni hebddo. Y mae y cyffredin o ddynolryw yn anghyfaddas i gyfeillgarwch parhäus a gwresog, fel y maent yn anghymhwys i ymarfer a meithrin unrhyw ragoriaeth moesol arall, ar gyfrif eu hymroddiad parhäus i'w llesion eu hunain; ac nid oes dim yn fwy o attalfa ar ffordd meithriniad cyfeillgarwch nag ydyw bod dan lywodraeth hunangais yn mhob peth: y galon haelfrydig bob amser ydyw y galon ag y mae cyfeillgarwch yn cael ei goledd ynddi. Y mae amryw o dueddiadau a diffygion ereill yn rhwystr i hyn. Y mae rhai dynion yn feddiannol ar ewyllys da, a haelfrydedd calon; ond y maent yn gyfansoddiadol anwastad a chyfnewidiol, fel nas gellir rhoddi un dibyniad arnynt. Denir hwy yn fuan gan wrthddrychau newyddion, tramgwyddir hwy yn ddiachos, a dyeithrir hwy heb ddim digofaint. Dylanwadir arnynt gan hustyngau ac amneidiau, a gwrandawant ar bob drwgdybiaeth a awgrymir gan genfigen a rhagfarn. Y mae rhai yn rhydd a chyfeillgar gyda phawb; eu dirgelion yn agored i bawb lygadrythu arnynt; y maent yr un mor barod i fynegu eu hanes eu hunain a hanes ereill; cyhuddant heb ddim malais, a dynoethant arall heb ddim bradwriaeth.

Y mae Llyfr y Diarebion yn llawn o ganmoliaethau i gyfeillgarwch. Y mae y gwir gyfaill "yn caru bob amser;" *Diar.* xvii. 17. Y rhai y mae eu cyfeillgarwch heb fod yn bur, ond yn cyfodi oddi ar hunangariad, ni ddylid dysgwyl iddo fod yn hirhoedlog. Ni phery yn hwy nag y boddlonir eu mympwy, ac y gwasanaetha eu llesion personol: try eu serchiadau gyda'r gwynt, a chyfnewidia gyda'r hin. Y mae y cyfeillion hyn yn cael eu cymharu gan un o'r ysgrifenwyr clasurol, i'r wennoliaid—y rhai a ddeuant allan yr haf, ond a ehedant ymaith ar ddynesiad y gauaf. Fe garodd Iesu Grist hyd y diwedd (*Ioan* xiii. 1), a dylem ninnau ymdebygoli iddo yn niysgogrwydd ein cyfeillgarwch. "Y mae cyfaill a lŷn yn well na brawd;" *Diar.* xviii. 24. Dywedir yn *Diar.* xvii. 17, fod "brawd wedi ei eni erbyn caledi;" ac yr ydym, pan mewn cyfyngder ac angenoctyd, yn dysgwyl cynnorthwy ac ymwared oddi wrth ein perthynasau naturiol; ond weithiau, y mae un, nad yw o fewn y berthynas naturiol, ond sydd yn gyfaill, ag y mae ei gariad a'i gymmwynasgarwch yn troi allan yn gryfach nag eiddo perthynasau naturiol. Y mae yn gwneuthur cymmwynas gyda chalon mwy haelfrydig hyd yn oed na brawd; ac y mae cyfaill o'r fath yma yn well i'r hwn a'i caffo na pherthynas agos. "Olew ac arogldarth a lawenycha y galon; felly y gwna mwynder cyfaill trwy gynghor ffyddlawn;" *Diar.* xxvii. 9. "Haiarn a hoga haiarn; felly gŵr a hoga wyneb ei gyfaill;" *Diar.* xxvii. 17. "Y mae yr ymadrodd hwn," medd M. Henry, "yn arddangos y pleser a'r fantais sydd yn deilliaw trwy gyd-ymddyddaniad. Nid yw un dyn yn nemawr o werth. Ac ni wna efrydu llyfr mewn congl brydferthu a chymhwyso dyn gymmaint a darllen ac astudio dynion. Y mae cyfeillach ddoeth a buddiol yn rhoddi min ar alluoedd dynion; a gall y rhai sydd yn gwybod fwyaf ennill rhywbeth mewn cyfeillach felly. Y mae yn bywiogi gwedd dyn; a thrwy adloni yr ysbrydoedd, argraffa sirioldeb a bywyd ar y wynebpryd; gwna y dyn yn hapus iddo ei hun, ac yn hapus i ereill. Y mae grasau duwiolion yn cael awch newydd trwy gyfeillachu â rhai cyffelyb iddynt eu hunain; ac y mae chwantau a nwydau dynion drygionus yn cael eu cryfhau trwy ymwneyd â dynion drygionus. Y mae dynion yn cael eu hogi, eu llyfnhau, eu coethi, a'u cymhwyso i waith, trwy gyfeillach—y rhai oeddynt o'r blaen yn anghoeth ac anwybodus."

Y mae ysbryd a rhwymedigaethau yr efengyl yn annog i feithrin cyfeillgarwch; o blegid y mae yn argymhell, nid yn unig ewyllys da a

Digitized by Google

haelfrydedd at ddyaion yn gyffredinol, ond yn cefnogi y cariad cryfaf a'r gymdeithas anwylaf rhwng y rhai y mae eu meddyliau wedi eu goleuo gan yr Ysbryd Glân, y rhai sydd yn canfod delw eu Harglwydd yn eu gilydd.

Yn mysg y ffafrau goruchel a ddangosodd yr Arglwydd i Abraham, nid oedd un o honynt gyfuwch a hono—"A chyfaill Duw y galwyd ef;" *Iago* ii. 23; 2 *Cron.* xx. 7; *Esa.* xli. 8. Pa mor ryfeddol oedd ymddarostyngiad yr Anfeidrol yn hyn! Yr ydym weithiau yn rhyfeddu, pan y gwelom ryw ddyn a ddygwyddo fod mewn sefyllfa uwch na'r cyffredin yn ymostwng o'i safle uchel i ymgyfathrach âg un sydd is law iddo; ac yn enwedigol, os dewisa y cyfryw un yn gyfaill mynwesol iddo. Ond pa mor ddirmygus a disylw ydyw holl ymostyngiadau dynion, pan feddyliom am y Duw "sydd yn preswylio yn uchel," yn ymostwng at ddyn marwol a phechadurus, gan ei anrhydeddu â'r teitl, "*Cyfaill Duw!*" Dywed Maimonides am y teitl hwn ar Abraham [*Jeshub.*, pen. 10]:—"Yr hwn sydd yn addoli Duw oddi ar gariad, sydd yn myfyrio yn ei gyfraith a'i orchymynion, ac yn rhodio yn ol ei ewyllys: nid oddi ar un ystyriaeth fydol, nac oddi ar ofn niwed, nac oddi ar obaith am ddaioni iddo ei hun; ond yn gwneuthur gwirionedd am mai gwirionedd ydyw, ac fel y cyrhaeddo yn y diwedd y dedwyddwch uchaf. Hyn ydyw y radd uchaf o ragoriaeth, yr hon nid yw pob dyn da yn gallu ymgyrhaedd ati. Ond cyrhaeddodd ein tad Abraham y radd hon; a galwodd y Duw bendigedig ef yn gyfaill iddo, am ei fod yn ei wasanaethu oddi ar gariad yn unig." Y mae gan Manton y sylwadau canlynol ar yr enwad hwn:—"Y mae hwn yn deitl, nid ar Abraham yn unig, ond ar yr holl gyfiawnion. Felly y dywed yr Iesu: 'Y mae ein cyfaill Lazarus yn huno' (*Ioan* xi. 11); ac yn fwy neillduol, 'Mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion;' *Ioan* xv. 15. Maent yn gyfeillion i Dduw, am eu bod wedi eu llwyr heddychu âg ef yn Nghrist; ac nid yn unig y mae Duw wedi ein cymmodi âg ef, ond ein derbyn i gyfeillgarwch. Maddeuwyd i Absalom; ond ni chai weled wyneb y brenin. Pan y mae y clwyf wedi ei iachäu, y mae y graith yn aros. Ond y mae yn wahanol gyda'r saint: nid yn unig y mae y cweryl wedi ei symmud, ond adferir hwy i gyfeillgarwch. Y mae yr oll sydd yn pasio rhyngddynt a Duw yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn modd cyfeillgar. Y mae yma gyfraniad daioni. Iawn y dywed Plutarch, er mai pagan oedd: 'Y mae pob peth yn gyffredin rhwng cyfeillion a'u gilydd. Y mae Duw yn gyfaill i ni; ac am hyny, ni bydd eisieu arnom.' Yn y cyfammod, y mae Duw yn eiddo i ni, a ninnau yn eiddo yntau: *Ier.* xxxi. 33; xxxii. 38, 39; *Zech.* ix. 9. Y mae eu dirgelion yn hysbys i'w gilydd. 'Mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion; o blegid pob peth a'r a glywais gan fy Nhad a hysbysais i chwi;' *Ioan* xv. 15. Nid yw gweision yn hysbys o ddim ond a berthyn i'w gwaith a'u dyledswydd; y mae y meistr yn rhoddi y gorchymyn, ond nid yw yn hysbysu y rheswm am y gorchymyn. Ond y mae Crist yn awr yn ymwneyd yn fwy cyfeillgar â'r apostolion:—mae yn agor dirgelion y Tad ger eu bron am ei adgyfgyfodiad ei hun, anfoniad a gwaith yr Ysbryd, galwad y Cenedloedd, y farn ddiweddaf, a bywyd tragwyddol, &c.: 'A gelaf fi rhag Abraham yr hyn a wnaf?' *Gen.* xviii. 17. Ac ar y llaw arall, y mae y credinwyr yn agor eu holl galon ger bron Duw; yn dyfod 'yn hyderus at orsedd-fainc y gras:'—Y gair yn y fan hon ydyw *μετα παρρησιας*='gyda rhyddid ymadrodd.' Y mae y cyfeillgarwch hwn yn cynnwys cydffurfiad ewyllys a serchiadau. Y mae gwir gyfeillgarwch yn gorphwys ar debygolrwydd a chydweddiad ewyllysiau. Y mae Duw a'r credadyn yn ewyllysio yr un peth—sancteiddrwydd fel y moddion, a gogoniant Duw fel y dyben:—'Chwychwi yw fy nghyfeillion, os gwnewch pa bethau bynag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi;'" *Ioan* xv. 14.

CYFAINT, [Ll. *conventus* = cymmanfa, neu gydgyfarfyddiad]. Defnyddir y gair mewn dau ystyr:—1. Am gydfrawdoliaeth, neu gyfundeb crefyddol o fynachod neu leianod (*nuns*). 2. Am abatty, mynachdy, neu leiandy, lle y preswylia y cyfryw fynachod neu leianod.

Dywed Furetiere, yr hwn a ysgrifenai ei eiriadur yn amser Louis xiv., nad oedd dim llai na 14,000 o gyfeintiau gynt yn Ffrainc.

Cyfaint, megys ag y perthyn i'r urddau milwraidd tramor, a arwydda brif orsaf neu ben yr urdd.

Yr enw a roddid i breswylwyr cyntaf cyfeintiau oedd Cyfundebiaid (*Cænobites*), am eu bod yn byw yn gydfrawdoliaeth. Eu prif drigfan ydoedd yr Aipht. Y mae Fleury yn cyfrif eu sefydliad mor fore a dyddiau yr apostolion; tra y mae ereill, gyda mwy o gywirdeb, yn cyfrif eu dechreuad yn ddiweddarach. Credir mai Pachomius Sant, abad Tabenna, ar lan yr afon Nilus, a anwyd yn y trydydd canrif, oedd y cyntaf a ffurfiodd reolau i'r Cyfundebiaid. Gwel MYNACH; MYNACHLOG; LLEIAN; LLEIANDY.

CYFAMMOD, [ברית—*berith*; διαθήκη—*diathêcê*; *covenant*]. Mae *berith*—y gair a ddefnydir yn yr Hen Destament, ac hefyd *diathêcê*—y gair cyfatebol yn y Newydd—o ystyr eangach na'r gair cyfammod, ac hefyd na'r Seisoneg, *covenant*. Ystyr y gair Cymraeg ydyw cytundeb neu "fargen rhwng y pleidiau, yn mha un y mae y ddwy blaid yn *cydwneuthur ammod* am rywbeth i gael ei gyflawnu."—*Charles.* Y mae y gair συνθήκη (*sunthêcê*) yn y Groeg yn hollol gyfystyr; ond ni ddefnyddir ef o gwbl yn y Testament Newydd, ac ond yn anfynych yn y Deg a Thrigain. Ystyr cyffredin y geiriau Hebreig a Groeg a gyfleithir cyfammod ydyw, *trefniad, sefydliad, cyfansoddiad, goruchwyliaeth, cynllun o weithredu.* Dywed Schleusner ei fod yn arwyddo, *unrhyw drefniad pa fath bynag a fo* (*notat dispositionem, qualis cumque ea sit*); a thrachefn, unrhyw beth a gyfansoddir, a sicrheir, neu a sefydlir (*omne quod cum summa certitudene et fide factum est*). Dysgrifia ystyr y gair yn y Deg a Thrigain yn gyffelyb:—*pa beth bynag a osodir neu a wneir yn sicr; cynllun neu sefydliad gosodedig* (*omne, quod certum et constitutum est*). "Ystyr διαθήκη ydyw, unrhyw sefydliad neu drefniad."—*Olshausen.* O'r ystyr cyffredinol hwn y mae ystyron neillduol yn tarddu; megys, *ewyllys* neu *destament*; weithiau, *addewid*; bryd arall, *gorchymyn, cytundeb, goruchwyliaeth,* neu *gynllun o weithredu.* Arwydda y gair y naill neu y llall o'r pethau hyn, yn ol amgylchiadau; a defnyddir ef fynychaf yn yr Ysgrythyrau pan nad oes un cytundeb rhwng pleidiau yn cael ei ddynodi. Arwydda weithiau y cyfryw gytundeb, megys pan y gwnaeth Abraham *gynghrair* â Mamre a'i frodyr (*Gen.* xiv. 13); âg Abimelech (*Gen.* xxi. 27); adnewyddiad yr unrhyw âg Isaac (*Gen.* xxvi. 28); y cyfammod rhwng Laban a Iacob; (*Gen.* xxxi. 44); rhwng cenedl Israel a'r Gibeon-

Digitized by Google

iaid (*Ios.* ix. 6); y cyfammod a wnaeth Benhadad, brenin Syria, â Baasah, brenin Israel, yn gyntaf, ac yna âg Asah, brenin Iudah (1 *Bren.* xv. 19, &c); cytundeb Hoseah, brenin Israel, â So, brenin yr Aipht (2 *Bren.* xvii. 4). Gwnaeth Dafydd a Ionathan gyfammod o gyfeillgarwch â'u gilydd (1 *Sam.* xviii 3; xx. 16; xxii. 8; xxiii. 18); Solomon â Hiram: 1 *Bren.* v. 12.

Lleddid aberth ar wneuthuriad cyfammod; holltid yr anifail yn ddau, a cherddai y pleidiau rhyngddynt, i arwyddocau eu parodrwydd i ddyoddef y cyffelyb driniaeth, os torent y cyfammod: *Gen.* xv. 9—18; *Ier.* xxxiv. 18. Yr oedd hyn yn arferiad perthynol i'r Caldeaid a'r Groegiaid hefyd. Arferiad yr Arabiaid, yr Armeniaid, y Mediaid, &c. ydoedd, i'r pleidiau ollwng ac yfed gwaed y naill a'r llall, i'r unrhyw ddyben. Yr ydoedd ystyr hollol wahanol i'r gwaed a daenellwyd i gadarnhau y cyfammod rhwng Duw ag Israel: *Exod.* xxiv. 4, &c. Cymmerid llw hefyd gan y pleidiau ymgyfammodol: *Gen.* xxvi. 28, xxxi. 53; *Ios.* ix. 15; 1 *Sam.* xx. 17; 2 *Bren.* xi. 4. Ar brydiau, cyfranogent o wledd: *Gen.* xxvi. 30; xxxi. 54; 2 *Sam.* iii. 20. Codent hefyd fath o golofn yn arwydd o'r cyfammod: *Gen.* xxxi. 44, 45; *Ios.* iv. 9. Ni chaniateid i'r Israeliaid wneyd cyfammod â'r cenedloedd eilunaddolgar: *Exod.* xxiii. 32; xxxiv. 12, 15; *Deut.* vii. 2; *Barn.* ii. 2.

Ystyr cyffredin y gair cyfammod yn yr Ysgrythyrau, pan leferir am Dduw yn gwneuthur cyfammod â dyn, ydyw, addewid, trefniad, neu osodiad. Cyfieithir *diathêcê* yn *destament* yn *Mat.* xxvi. 28; *Gal.* iv. 24; a *Heb.* ix. 16, 17; a dywedir nad oes nerth ynddo tra fyddo y testamentwr yn fyw: yr ystyr, gan hyny, ydyw, y trefniad neu y dosbarthiad y mae dyn yn ewyllysio i gael ei wneuthur ar ei eiddo ar ol ei farwolaeth. Yn *Luc* i. 72, arwydda, trefn neu gynllun Duw mewn perthynas i ddynion, yr hwn a amlygwyd i Abraham mewn addewid. Yn *Gen.* ix. 9—18, dywedir fod Duw yn gwneuthur cyfammod â dyn, ac â'r holl greadigaeth anifeilaidd, ac â'r ddaiar hefyd; a dysgrifir ef yn gyfammod *rhyngddo ef a hwy.* Ac eto, ni allasai fod yn gytundeb, gan nad oedd y greadigaeth ddireswm yn alluog i ffurfio nac i gydsynio â chytundeb. Yr addewid a roddodd Duw ydoedd, na byddai dylif mwy i ddyfetha y ddaiar—hyn ydoedd ei gyfammod; a dywedir ei fod rhyngddo ef a holl drigolion y ddaiar, rhesymol ac afresymol, am fod yr hyn a benderfynodd ac a addawodd Duw yn dwyn perthynas â hwy. Felly, ei gyfammod ydoedd ei benderfyniad a'i addewid mewn perthynas i'r modd yr ymddygai at ddyn, ac anifail, a'r ddaiar. Nid oedd y ddaiar na'i thrigolion mewn un modd yn blaid yn y cyfammod hwn, ond mor bell ag yr oeddynt yn derbyn ei fendithion; gosodwyd y bwa yn y cwmwl yn sel neu arwydd y cyflawnid y bwriad addawedig. Gwelir yn y cyfeiriadau canlynol mai y prif ddrychfeddwl mewn cyfammod o eiddo Duw â dyn ydyw, ei addewid rasol iddynt, yn nghyd â'r sierwydd o'i chyflawniad: *Exod.* xxxiv. 10; *Salm* lxxxix. 34, 35; 2 *Cron.* xiii. 5; 2 *Sam.* xxiii. 5; *Esa.* lix. 21; lv. 3; liv. 10; *Act.* ii. 30; *Heb.* viii. 10—12. Defnyddir y gair hefyd am sefydliad, neu gyfundrefn o sefydliadau, wedi eu sylfaenu ar, a'u bwriadu i egluro yr addewidion. Gelwir y Sabbath yn gyfammod, am ei fod yn arwydd o'r orphwysfa addawedig (*Exod.* xxxi. 16); yr enwaediad, yr hwn ydoedd yn arwydd o'r cyfammod a wnaeth Duw âg Abraham, yn gynnwysedig o addewidion, rhagorfreintiau, a gorchymynion: *Gen.* xvii. 9, 10; *Act.* vii. 8. Gelwir hefyd yr holl sefydliadau a roddodd Duw trwy Moses, neu yr oruchwyliaeth Foesenaidd, yn gyfammod: *Lef.* xxiv. 15. Gelwir unrhyw orchymyn a roddir mewn cyssylltiad âg addewid yn gyfammod: *Ier.* xxxiv. 13, 14. Yn gyffelyb, gelwir y deng air felly: *Deut.* iv. 13.

Canolbwynt trefn Duw er iachawdwriaeth dyn ydyw ymgnawdoliad Mab Duw. Yn nghyflawnder yr amser yr oedd hyn i gymmeryd lle (*Gal.* iv. 4); ac yr oedd holl oesoedd y byd hyd hyny i fod yn rhagbarotoad iddo. Bwriad tragwyddol Duw i brynu dyn cwympedig ydyw sylfaen pob hanesiaeth dynol, fel y dadguddir ef yn y Beibl. Y mae yr hanesiaeth hwn yn ddeublyg:—hanesiaeth y ddynoliaeth wedi ei gadael i'w nerth a'i doethineb ei hun, fel yr ymddengys mewn paganiaeth; yr hyn a wasanaetha i amlygu yr angenrheidrwydd am gyfryngiad oddi uchod: a hanesiaeth un genedl neillduol, o'r hon yr oedd y Gwaredwr addawedig i hanu, ac i'r hon y perthynai y mabwysiad, y gogoniant, y *cyfammodau,* dodiad y ddeddf, y gwasanaeth, a'r addewidion; a'r cyfan i fod yn rhagbarotoad ar gyfer ei ymgnawdoliad: *Rhuf.* ix. 4, 5. Cymmerwyd y genedl hon i berthynas neillduol â Duw, a gwnaed cyfammod â hi, yr hwn oedd sail ei hanesiaeth neillduol. Gelwir y cyfammod hwn y "cyntaf," mewn cyferbyniad i'r "ail," neu y cyfammod newydd, neu y cyfammod a wneir â'r holl genedloedd ar sail ymddangosiad a gwaith Mab Duw yn nghyflawnder yr amser. Mewn gwirionedd, un cyfammod ydyw y ddau hyn o ran eu *ffynnonell,* sef gras penarglwyddiaethol Duw; o ran *natur* eu bendithion, sef ysbrydol a thragwyddol; ac o ran eu *sail,* sef haeddiant Crist. Ond er bod yn un o ran hanfod, y maent yn ddau o ran dull neu oruchwyliaeth eu gweinyddiad. Cyferbynir hwynt fel y cyfryw er mwyn dangos rhagoriaeth yr elaf ar y blaenaf: 2 *Cor.* iii. 6—18; *Gal.* iv. 22, 31; *Heb.* viii. 6—13. Gwahaniaethant yn —1. Yn y dull o osod allan yr etifeddiaeth nefol. Dan y cyntaf, defnyddiwyd bendithion tymmorol i hyny. Felly pan alwyd Abraham, &c., addawyd Canaan iddo yn etifeddiaeth, er mwyn ei gadarnhau yn y gobaith am y wir etifeddiaeth, yr hon a gynnwysir yn yr addewid—"Myfi ydyw dy darian, dy wobr mawr iawn;" *Gen.* xv. 1. Yn yr ystyr hwn y mae deall yr adnodau yn yr Hen Destament am y saint yn etifeddu y ddaiar. Yn gysson â'r dull cysgodol hwn o osod allan fendithion ysbrydol, cyhoeddwyd a chyflawnwyd bygythion trymion am anffyddlondeb. 2. Gosodwyd allan Grist trwy gysgodau dan yr hen gyfammod; ac yn hyn y dangosir gwendid y cyfammod hwnw: *Heb.* vii.—x. Nid allasai seremoniau cnawdol berffeithio yr addolwr, am nad allent gymmeryd ymaith bechod. Cymharu y mae yr apostol weinidogaeth Crist â gweinidogaeth Moses; ac o ganlyniad, rhaid deall y geiriau sydd yn ymddangos yn groes i hyn yn unol âg amcan a rhediad ymresymiad yr apostol. Nid yw enwogrwydd llawer o seintiau yr Hen Destament yn anghysson â hyn; o herwydd y cwestiwn ydyw, nid pa faint o ras a gyfranodd yr Arglwydd i ychydig, ond pa beth oedd ei lwybr cyffredin y pryd hwnw. 3. Athrawiaeth y llythyren oedd un, ond athrawiaeth yr ysbryd oedd y llall; ysgrifenwyd y cyntaf ar geryg, ond yr ail ar y galon; gweinidogaeth angeu ydyw un, ond gweinidogaeth bywyd ydyw y llall: *Heb.* viii. Gall hyn ymddangos yn anghysson â'r hyn a ddywedwyd;

Digitized by Google

sef, nad yw eu haddewidion yn wahanol o ran sylwedd. "Cyferbynia yr apostol y ddau gyfammod yn y modd hyn, nid o herwydd eu bod yn hollol wrthwynebol yn eu natur, ond gyda golwg ar y camddefnydd yr oedd yr Iuddewon yn ei wneuthur o'r ddeddf. Hefyd, wrth eu cymharu, y mae yr apostol yn cadw ei olwg ar yr hyn oedd yn briodol i'r ddeddf fel y cyfryw—yr olwg a gymmerai yr Iuddewon arni; sef, ei gorchymynion, a'i haddewidion. Yr oedd yr amcan oedd ganddo mewn golwg wrth ysgrifenu yn galw arno i edrych ar y gwahaniaeth ac nid ar y tebygolrwydd oedd rhyngddynt."—*Calvin.* O hyn hefyd y cyfyd y 4ydd gwahaniaeth; sef, fod y naill yn cenedlu i gaethiwed, a'r llall i ryddid: *Rhuf.* viii. 15; *Heb.* xii. 18—22; *Gal.* iv. 25, 26. Ond fel y mae llawer dan yr efengyl yn perthyn o ran eu hysbryd i'r hen gyfammod, felly yr oedd llawer dan y cyfammod cyntaf yn mwynhau rhyddid yr efengyl. Ond cyferbynu tuedd a natur y ddwy oruchwyliaeth y mae Paul, ac nid personau neilluol.

Sonia yr Hen Destament am amryw gyfammodau, y rhai ydynt yn wahanol amlygiadau neu gyfnodau o'r un cyfammod; ac yn unol âg iaith y Testament Newydd, gellir eu cynnwys oll dan y cyfenwad hwn—y cyfammod cyntaf. Yr oedd ymddygiadau yr Arglwydd tuag at y patriarchiaid, a thuag at genedl Israel, yn cymmeryd ffurf cyfammod neu gyfammodau, i ba rai yr oedd dybenion neilluol yn eu cyssylltiad â'r tadau; ac, hefyd, ddybenion cyffredinol i ragbarotoi ar gyfer dyfodiad y Messiah. Er mwyn cyrhaedd dybenion y cyfammod hwn, rhoddodd yr Arglwydd amlygiadau o'i ewyllys mewn deddfau; o'i wybodaeth mewn athrawiaeth a phrophwydoliaeth; ac o'i allu, mewn gwyrthiau. Y mae hanes y cyfammodau hyn yn yr Hen Destament yn cytuno âg ymresymiadau y Newydd o barth i'w natur a'u hamcan. Edrychwn—

I. AR GYFNOD TEULUAIDD Y CYFAMMOD CYNTAF.

Ond dylid sylwi mai y cyfammod â Noah ydyw y cyntaf y crybwyllir am dano dan ei enw, yr hwn a sicrhaodd iddo ef, fel ail ben naturiol y ddynoliaeth, ddiogelwch rhag dinystr trwy ddylif byth mwyach, yn nghyd â llywodraeth ar y ddaiar, a'r fendith o ffrwythlondeb. Cadarnhawyd y cyfammod hwn trwy arwydd yn y nefedd: *Gen.* ix. 8—15. Er fod hwn yn angenrheidiol mewn trefn i Dduw ddadguddio ei fwriadau grasol tuag at ddyn, ac wedi ei roddi am fod ganddo y cyfryw fwriadau; ac er fod y bwa yn y cwmwl—sel y cyfammod—yn cael ei ddefnyddio mewn iaith brophwydol (*Ezec.* i. 28; *Dad.* iv. 3), i arddangos diogelwch oddi wrth ddigofaint Duw; eto, nid ydoedd yn cynnwys ond dadguddiad tywyll o'r bendithion oedd yn angenrheidiol er dedwyddwch y byd.

Yr oedd tri mab Noah i feddiannu ac i boblogi y ddaiar; ac o'r tri, dewiswyd Sem (*Gen.* ix. 25—27) i fod yn gyfrwng trosglwyddiad bendithion ysbrydol i'r byd. Ond yn ngalwad Abraham, daeth y cynllun dwyfol yn eglurach i'r amlwg. Ni wnaeth y dadguddiadau boreuaf o Dduw unrhyw wahaniaeth rhwng y naill ddyn a'r llall, na rhwng y naill genedl a'r llall. Yr oedd y Sabbath, yr addewid am Hâd y wraig, yr aberthau, ac addewidion a sel cyfammod Noah, yn hollol gyffredinol; ond yr oedd eu dylanwad sancteiddiol yn hynod gul a neilluol. Yn ngalwad Abraham, amlygwyd mai yr egwyddor wrthwynebol oedd o hyny allan i hynodi dadguddiad grasol Duw tuag at ddyn; sef, *o'r neilluol i'r cyffredinol.* Dewiswyd *un*, sef Abraham, i fod yn wreiddyn a chanolbwynt hanes dyfodol y byd. Y rheswm dros ei ddewisiad ef oedd, i fod yn amlygiad o ras a phenarglwyddiaeth Duw: *Ios.* xxiv. 2; *Neh.* ix. 7. Er mwyn amlygu, yn mhellach, natur y cyfammod yr oedd yr Arglwydd am ei wneuthur âg ef, addawyd iddo y bendithid holl dylwythau y ddaiar ynddo—y byddai yn genedlaeth fawr—y rhoddid gwlad iddo yn etifeddiaeth, yr hon ni enwyd ar y pryd—y deilliai cenedlaeth fawr o hono ef a Sarai, pan na allesid dysgwyl am y fath beth ond trwy wyrth—fod y wlad oedd i fod yn etifeddiaeth iddo wedi ei phoblogi eisoes—ac na allesid dysgwyl iddi ddyfod yn feddiant iddo ef na'i hiliogaeth trwy unrhyw gyfarfyddiad naturiol o amgylchiadau. Yr oedd cyflawniad yr addewidion hyn yn gofyn cyfryngiad o Hollalluogrwydd. Ond er mor anghredadwy yr ymddangosai yr addewid yn ei dwy ran—am hiliogaeth, ac am wlad yn etifeddiaeth—credodd Abraham y dystiolaeth, a gweithredodd yn ol y grediniaeth, trwy ymneilluo oddi wrth ei genedl a'i gartref naturiol. Gan ei fod wedi ei ddewis o holl drigolion y byd i fod yn ddechreuad trefn newydd, yr hon oedd i ddwyn argraff gras a gallu dwyfol, yr oedd yn briodol iddo yntau ymneilluo oddi wrth hen drefn natur, a chynnrychioli sancteiddrwydd Duw yn ei fywyd. Yr oedd ei fywyd rhag llaw i fod yn fywyd o ymwrthodiad â theimladau naturiol, ac o ymddiried mewn ymddangosiadau naturiol, a threfn gyffredin natur—ac i fod yn fywyd o ffydd mewn trefn oruchnaturiol. Yn *Gen.* xv., ceir y crybwylliad cyntaf am yr Arglwydd yn gwneuthur cyfammod âg ef. Hyd yn hyn, yr oedd galwad, addewidion, ac arweiniad o ochr Duw, a ffydd ac ufudd-dod o ochr Abraham, yn rhagbarotoad i'r cyfammod. Ar ol buddugoliaeth Abraham ar Cedorlaomer, a'i gyfarfyddiad â Melchisedec, ymddengys iddo syrthio i ofn ac iselder meddwl. Ymddangosodd yr Arglwydd iddo mewn gweledigaeth, gan ddywedyd, "Nac ofna; myfi yw dy darian, dy wobr mawr iawn." Yr oedd hir oediad yr addewid am fab hefyd yn gwasgu ar ei feddwl—"gan fy mod yn myned yn ddiblant." Adnewyddwyd yr addewid am had; ac i wneyd y peth yn amlycach, cyfeiriwyd ei feddwl at y ffurfafen:—"Golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ser, o gelli eu cyfrif hwynt.....felly y bydd dy had di." Yna y "credodd Abraham i Dduw, ac efe a'i cyfrifodd iddo yn gyfiawnder." Yn ngrym ei ffydd, gofynodd am arwydd o gyflawniad yr addewid am y wlad addawedig, er mwyn bod yn adgyfnerthiad iddo yn yr ammheuon a'r ystormydd oedd o'i flaen. Gwnaeth yr Arglwydd gyfammod âg ef trwy aberth; o herwydd, yn ei sefydliad, rhaid bod cyfeiriad at euogrwydd dyn, a'r ffordd i'w symmud ymaith. Yr oedd holl amgylchiadau cadarnhâd y cyfammod yn arwyddocaol:—yr anifeiliaid a ddewiswyd yn cyfateb i'r anifeiliaid a benodwyd yn aberthau dan y gyfraith; eu hollti, a gosod rhanau ar gyfer eu gilydd, yn ddangosiad o ddwy blaid yn y weithred; dysgwyliad Abraham am ymddangosiad yr Arglwydd, gan ymfoddloni ei hun ar darfu yr adar oedd yn ymgasglu o ddeutu yr aberth; pan fachludodd yr haul, ymddangosodd ffwrn yn mygu, a lamp danllyd yn tramwyo rhwng y darnau, yn cyfateb i'r golofn gwmwl a'r golofn dân yr ymddangosai yr Arglwydd mor fynych ynddynt ar ol hyny. Yr oedd ei fynediad rhwng y darnau yn arwydd fod y cyfammod yn cael ei gadarn-

Digitized by Google

hau: *Ier.* xxxiv. 18, 19. Syrthiodd trwmgwsg ar Abraham, gyda dychryn, a thywyllni mawr—yn arwyddocaol o'r darostyngiad a'r dyoddefiadau trwy ba rai y cyrhaeddai y cyfammod ei gyflawniad; yr hyn a eglurwyd yn yr hysbysiad y byddai ei had mewn cystudd am bedwar can mlynedd. Nid oedd y cadarnhâd hwn o'r cyfammod, er ei fod yn cyfarfod âg iselder meddwl Abraham ar y pryd, ond yn anmherffaith. Rhoddwyd arwydd iddo fod Duw yn myned i gyfammod âg ef, ond nid oedd hyn yn arwydd parhäus. Yr oedd Abraham a'i had yn sefyll mewn angen am arwydd sefydlog o'i ffyddlondeb i'w gyfammod. Hefyd, nid oedd y cadarnhâd cyntaf ond un ochrog—o du Duw yn unig. Efe yn unig a gadarnhaodd y cyfammod, ac a aeth dan rwymau cyfammodol. Am dair blynedd ar ddeg ar ol hyn, ni dderbyniodd Abraham un dadguddiad pellach gan Dduw; yr oedd hyn yn ysbaid i brofi ei ffydd, ac i ddangos, yn ddiamnheuol, nad oedd un gobaith iddo am fab trwy nerth *natur*. Ond yn awr y mae yr amser yn nesäu pan y mae i dderbyn trwy *ras* yr hyn oedd yn anmhosibl iddo trwy natur. Hyd yn hyn, yr oedd yr addewid yn unig ganddo; ond yr ydoedd bellach i ddechreu cael ei chyflawnu. Galwyd ar Abraham i gredu yn unig ar sail ymrwymiad Duw i'w gyfammod; ond pan y mae cyflawniad yr addewid bron yn ymyl, gelwir arno yntau hefyd i fyned dan rwymau cyfammodol. Pan oedd Abraham onid un mlwydd cant, ymddangosodd yr Arglwydd iddo, gan ddywedyd, "Myfi yw Duw hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith. A mi a wnaf fy nghyfammod rhyngof a thi.....cadarnhâf hefyd fy nghyfammod rhyngof a thi, ac â'th had ar dy ol di, trwy eu hoesoedd, yn gyfammod tragwyddol, i fod yn Dduw i ti, ac i'th had ar dy ol di. A mi a roddaf i ti, ac i'th had ar dy ol di, wlad dy ymdaith, sef holl wlad Canaan, yn etifeddiaeth dragwyddol; a mi a fyddaf yn Dduw iddynt." Newidiwyd ei enw o Abram i Abraham, i arwyddo y byddai yn dad llawer o genedloedd. Ochr Duw yn y cyfammod oedd hon; ac mewn ffordd o eglurhâd, chwanegir mai mab o Sarai fyddai iddo—yr hyn a dybiodd hi oedd yn anmhosibl, a chyfnewidiwyd ei henw hithau i Sarah. Yna y mae yn canlyn yr arwydd trwy ba un y gallai Abraham fyned dan rwymau cyfammodol:—"Cadw dithau fy nghyfammod. .....Dyma fy nghyfammod a gedwch rhyngof fi a chwi, a'th had ar dy ol di: enwaedir pob gwryw o honoch chwi.....A bydd fy nghyfammod yn eich cnawd chwi, yn gyfammod tragwyddol. A'r gwryw dienwaededig, yr hwn ni enwaeder cnawd ei ddienwaediad, torir ymaith yr enaid hwnw o fysg ei bobl: o blegid efe a dorodd fy nghyfammod i;" *Gen.* xvii. Yr oedd, nid yn unig Abraham, a mab yr addewid, ond Ismael hefyd, a'r gweision a enid yn ei dŷ, neu a brynwyd âg arian, i dderbyn arwydd y cyfammod, a thrwy hyny, ran yn ei ragorfreintiau. Ciliodd Ismael o dŷ ei dad, ymddyeithrodd yn llwyr oddi wrth ddybenion a rhwymedigaethau y cyfammod, ac felly collodd hawl ynddo. Ond pwy bynag o'r gweision a barhäai mewn undeb â'r teulu dewisedig, yr ydoedd yn para dan nawdd y cyfammod. Mor bell, hyd yn oed yn ei ddechreuad, yr ydoedd oddi wrth y culni caeth y cyhuddwyd ef weithiau o hono! Yn ddiweddarach hefyd, yr ydoedd rhyddid i ddyeithrlaid gyfranogi o fendithion y cyfammod, trwy gymmeryd arnynt ei rwymedigaethau yn yr arwydd o enwaediad:—er fod gwahaniaeth hanfodol rhwng y cyfryw ddyeithriaid a hiliogaeth naturiol Abraham; o herwydd trwyddynt hwy yr oedd y cyfammod i gyrhaedd ei amcan a'i gyflawniad yn y Messiah. Ni fwriadwyd yr enwaediad, gan hyny, yn nôd cenedlaethol, gan fod Ismael wedi ei gymmeryd i mewn yn y dechreu, er ei fod wedi ei osod yn ben cenedl luosog; a hefyd, o herwydd ar ol i Israel gynnyddu yn genedl gref, a byw o honynt dan weinyddiad rheolaidd eu cyfreithiau, eto yr oedd rhyddid i bobl o wledydd a llwythau ereill gyfranogi o'r cyfammod trwy gymmeryd eu henwaedu. Yr ydoedd ystyr, gan hyny, i'r arwydd hwn ynddynt hwy yn gystal ag i had Iacob. A'r ystyr hwnw oedd, nad oedd dim yn y cyfammod i ba un y perthynai o ysbryd cul; fod ei fendithion yn rhydd i bwy bynag a'u ceisient yn y ffordd benodedig; ac er fod personau unigol yn y dechreu, ac wedi hyny genedl o bobl, mewn undeb neillduol â'r cyfammod, eto y dyben oedd, eu gwneyd yn gynnrychiolwyr ei natur a'i wrthddrychau, a'u gosod yn oleuadau er addysg a llesâd ereill. Holiol anghysson â ffeithiau amlwg yr hanes ydyw edrych ar sel y cyfammod yn nôd cenedlaethol yn unig.

Yr oedd dyben neillduol i'r cyfammod yn ei gyssylltiad â'r patriarchiaid a'u hiliogaeth. Yr oedd hefyd ddyben cyffredinol. Y dyben cyffredinol oedd, fod i had gyfodi o Abraham, trwy yr hwn y bendithid holl dylwythau y ddaiar. Ni allasai fod arwydd mwy priodol o hyn nag enwaediad—yn gyssylltiedig â chenedliad hiliogaeth—yn arwydd o buredigaeth natur, fel y byddai yr had yn gyfryw ag i fod yn fendith. Yn ol tystiolaeth Paul, yr oedd yr enwaediad yn insel cyflawnder y ffydd (*Rhuf.* iv. 11); yn arwydd sicr i Abraham ei hun ei fod, trwy ffydd yn Nuw, yn gyflawn ger ei fron; ac yn arwydd i bob plentyn a'i derbyniai, nid ei fod yn meddu y cyfiawnder, ond y dylai ymestyn ato. Dyben y cyfammod oedd, sicrhau had yn meddu ar nodwedd ysbrydol a grasol; ac yr oedd yr arwydd allanol yn ddiwerth heb y cymhwysderau ysbrydol hyny: *Rhuf.* ii. 28, 29; *Phil.* iii. 3. Yr oedd Isaac, plentyn cyntaf yr addewid, yn gysgod priodol o'r fath gyfammod. Yn amser a dull ei enedigaeth, yr ydoedd yn ddangosiad o'r drefn a'r amcan, sef i godi had ysbrydol i Dduw uwch law gallu natur.

Er fod genedigaeth Isaac yn oruchnaturiol, eto dilyn natur oedd ei duedd ef; ac felly, bwriadai roddi bendith neillduol y cyfammod i Esau yn hytrach nag i Iacob, yn groes i'r hysbysiad dwyfol (*Gen.* xxv. 23) ac i nodweddau ei ddau fab; ond siomwyd ef yn ei fwriad gan raglunaeth—nid heb bechod yn yr offerynau; ac felly, yr ieuangaf, plentyn ffydd, sydd yn sefyll gyntaf yn mwriad Duw; ac efe sydd yn dangos yn ei yrfa bersonol yr hyn y mae y cyfammod yn ei ofyn, a'r hyn ydyw. Nid oedd dim yn amgylchiadau Iacob i ennill y fath ffafr iddo; ac i ras ac ewyllys da Duw yn unig yr oedd yn ddyledus am bob rhagoriaeth. Sail ei ddyrchafiad ef oedd addewid Duw mewn cyfammod, ar yr hon y pwysodd Iacob, ac yr ymdrechodd mewn ffydd. Mewn cyfeiriad at amgylchiadau amddifad Iacob, ac i'w cadw yn deimladwy o'r addysg sydd yn ei hanes, yr ydoedd yn ddeddf, wedi i'r genedl gyrhaedd Canaan, i fyned at yr offeiriad â chawell o flaenffrwyth yn eu llaw, a chyffesu, "Syriad ar ddarfod am dano oedd fy nhad;" *Deut.* xxvi. 5. Fel pen y bobl gyfammodol, yr oedd Iacob mor amlwg ddyledus i ras a gallu Duw ag ydoedd Isaac, er nad yn yr un llwybr. Iacob oedd y

Digitized by Google

cynnrychiolydd personol olaf o'r cyfammod. Rhag llaw, yr oedd ei deulu, fel y cyfryw, i sefyll yn y berthynas hon. Ond yr oeddynt i ddysgu yn gyntaf na byddai eu perthynas *naturiol* â'r cyfammod o un fantais iddynt, ond mor bell ag y byddai yn foddion i'w dwyn i feddu ei nodweddau ysbrydol, ac felly eu cymhwyso i gyflawnu ei amcanion priodol. I'r dyben o ddysgu hyn iddynt, collodd Reuben ei ragorfraint fel y cyntafanedig, trwy ryfygu, fel Esau, ar y flaenoriaeth naturiol a berthynai iddo. Meddiannodd Iudah, o herwydd ei ffyddlondeb plentynaidd, un o'r rhagorfreintiau a gollodd Reuben. O'r braidd nad yw Simeon a Lefi yn cael eu cau allan oddi wrth fendithion y cyfammod, o herwydd eu hanghyfiawnder a'u creulondeb; cyhoeddir melldith ar eu pechod, a dedfrydir hwynt i sefyllfa o isafiaeth. Yn ddiweddarach, er mwyn mynychu y wers, mai yr ysbrydol sydd yn cymmeryd y blaen, ac nid y naturiol, trowyd y felldith yn fendith i lwyth Lefi. Er iddynt gael eu chwalu trwy Israel, yn ol gair Iacob, eto, o herwydd eu heiddigedd a'u hymroddiad yn yr anialwch, rhoddwyd arnynt anrhydedd neillduol. Ymddengys hyn yn neillduol yn ei gyssylltiad â Ioseph; yr hwn, trwy ei dduwioldeb, a ennillodd yr anrhydedd uchaf yn llysoedd y byd, ac i'r hwn yr ymostyngodd ei frodyr, patriarchiaid cyfammodol y genedl, er mai efe oedd yr ieuangaf ond un o honynt. Fel hyn, y mae hanes y cyfammod a wnaeth Duw âg Abraham, Isaac, Iacob, a'i feibion, er mewn ffurfiau gwahanol, eto yn parhäus ddysgu mai bendithion a nodweddiad ysbrydol ydyw ei brif ragoriaeth a'i ddyben, ac na pherthynai dim pwys i'r elfen naturiol, ond mor bell ag y mae yn gyfrwng gweinyddiad yr ysbrydol. Nid nôd cenedlaethol yn unig oedd y cyfammod i fod, ond trefn Duw i gyfarfod drygioni ysbrydol y byd; ac nid oedd neb yn dyfod i fwynhau ei bendithion ond trwy ddyfod i feddiant o gymmeriad sanctaidd—yr hyn, ynddo ei hun, oedd un o'i phrif fendithion.

Nid yn unig y mae hanes boreuol sefydliad y cyfammod yn brawf mai i ddybenion ysbrydol a moesol yr ydoedd, ond y mae tystiolaethau y prophwydi yn cadarnhau yr un peth. Y mae Malachi, yr olaf o honynt, wrth dystio yn erbyn llygredigaeth yr oes, fel yn ymddangos yn gyntaf yn yr offeiriaid, ac yna yn y bobl, yn eu cyhuddo o dori y cyfammod, a dattroi y dyben er mwyn pa un y sefydlwyd ef. Wrth yr offeiriaid y dywed, gan gyfeirio at sancteiddrwydd y llwyth yn eu hynafiaid: "Fy nghyfammod âg ef oedd am fywyd a heddwch; a mi a'u rhoddais hwynt iddo am yr ofn â'r hwn y'm hofnodd, ac yr arswydodd o flaen fy enw.....Ond chwi a giliasoch allan o'r ffordd, ac a barasoch i laweroedd dramgwyddo wrth y gyfraith; llygrasoch gyfammod Lefi, medd Arglwydd y lluoedd;" *Mal.* ii. 5, 8. Er cyflawnu defodau eu swydd, yr oeddynt wedi anghofio dybenion moesol y cyfammod; ac yn lle bendith, cosp a ddaeth arnynt. Gyda marwolaeth Iacob y terfyna cyfnod teuluaidd y cyfammod.

Y mae y Testament Newydd yn symmud ymaith bob ammheuaeth oddi ar natur a dybenion y cyfammod a wnaeth Duw âg Abraham, Isaac, a Iacob. Gan gyfeirio at *Gen.* xvii. 7, y dywed Paul mai wrth "yr had" y meddylir Crist; a rhydd bwys ar y rhif unigol:—"Nid yw yn dywedyd, ac i'w hadau, megys am lawer; ond megys am un, ac i'th had di, yr hwn yw Crist;" *Gal.* iii. 16. Gwnaethpwyd y cyfammod, nid gyda llawer, ond gydag un, sef Crist; a chynnwysir ereill ynddo wrth eu dwyn i undeb â Christ. Ar y tir yma y derbyniwyd Abraham, ac ar yr un tir y derbynir pawb a gredant fel Abraham. I Grist, gan hyny, fel had Abraham, y gwnaethpwyd addewidion y cyfammod hwn, ac i Grist yn unig.

Yn ail, Am y sicrwydd a roddwyd i Abraham y byddai yn "dad llawer o genedloedd" (*Gen.* xvii), esbonia Paul yr addewid am holl had ysbrydol Abraham, sef am y rhai oll sydd o ffydd Abraham, ac felly yn blant iddo: *Rhuf.* iv. 11—18. Trachefn a thrachefn y llefara am yr addewid a seliwyd âg arwydd yr enwaediad, fel addewid a wnaed i Abraham, fel tad y rhai oll a gredent. A hyn oedd gwrthddrych ffydd Abraham, ar sail gair Duw, yr hwn sydd yn bywhau y meirw, ac yn galw y pethau nid ydynt megys pe byddent.

Yn drydydd, Y mae yr addewid am wlad ei etifeddiaeth yn cael ei hesbonio gan Paul, y byddai Abraham yn etifedd y byd (*Rhuf.* iv. 13); a hyny, nid trwy y ddeddf, ond trwy gyfiawnder y ffydd.

Yn bedwerydd, Yr oedd arwydd y cyfammod yn "insel cyfiawnder y ffydd." Y cyfiawnder a barotodd Duw fel sail cymmeradwyaeth pechadur ger ei fron ydyw yr hyn sydd yn dyfod yn eiddo i Abraham, ac yn cael ei selio iddo trwy sel y cyfammod.

II. Y CYFNOD CENEDLAETHOL O'R CYFAMMOD CYNTAF.

Yr un cyfammod ag a wnaed â'r patriarchiaid oedd y cyfammod âg Israel fel cenedl, o ran ei natur a'i ddybenion. Yr oedd yr olaf yn sylfaenedig ar y blaenaf. Nid oedd y cyfammod â'r hiliogaeth yn erbyn y cyfammod a wnaethpwyd â'u tadau; ond adnewyddiad o'r unrhyw ydoedd, mewn cylch eangach. Fel yr ydoedd y cyfammod âg Abraham yn sylfaenedig ar ras mewn cyferbyniad i natur, a hyny yn cael ei amlygu yn natur yr addewidion a roddwyd iddo, a'r gallu goruchnaturiol oedd yn angenrheidiol i'w cyflawnu, felly y mae yr hyn a wnaeth Duw tuag at Israel fel cenedl, yn y gweithredoedd nerthol a wnaeth iddynt ac erddynt, a'r arweiniad dwyfol a fu drostynt hyd nes y dygwyd hwynt i odre Sinai, lle y gwnaeth yr Arglwydd ei gyfammod â hwynt, yn arwain i'r unrhyw benderfyniad o barth i natur y cyfammod hwnw.

Yr oedd yn nghyfammod Abraham sicrhâd y byddai i'w had feddiannu Canaan, ac y byddai iddynt, tra yn ei meddiannu, fod dan gyfammod Sinai, yn gystal ag y byddai i Abraham fod yn "etifedd y byd" dan yr efengyl. Dan nawdd cyfammod Abraham y diogelwyd ei genedl cyn ac yn ei harosiad yn yr Aipht, lle hefyd y gormesodd eilunaddoliaeth i radd bell iawn ar wir grefydd, fel yr ymddangosai megys wedi ei llethu yn llwyr pan dan orthrwm Pharaoh, lle y gallwn dybied fod yr Israeliaid wedi eu llygaddynu gan eilunaddoliaeth: *Exod.* xxvii; *Ezec.* xx. 7. Felly, fe ymddangosai angenrheidrwydd i'r ddeddf ddyfod i mewn (nid i fywhau, ond) fel yr amlhäai y camwedd; hyny yw, fel y cyhoeddid gorchymynion yn erbyn *achlysuron* i eilunaddoliaeth; ac fe gaed hyny yn nghyfammod Sinai: canys o herwydd troseddau, sef eilunaddoliaeth, y rhoddwyd y ddeddf yn chwaneg ar Sinai, hyd oni ddelai yr Had, i'r hwn y gwnaethid yr addewidion am weinidogaeth yr efengyl, yr hon, rywbryd, a wna ben am eilunod y ddaiar, ac a'u gwna fel mân us llawr dyrnu haf.

Fel hyn, yr oedd rhyw bethau yn amgylchiadau eglwys Dduw yn galw am yr holl gyfnew-

Digitized by Google

idiadau a fu yn ngoruchwyliaethau Duw tuag ati. Yr oedd sefyllfa ei eglwys tra dan orthrymder yr Aipht yn galw am ryw gymhorth mwy na chynt er gwrthsefyll teyrnas Satan mewn gau dduwiaeth, &c.; yr hyn oedd ei brif foddion i lygru y byd; sef, trwy ddyeithro meddyliau dynion i'r gwir Dduw.

Cyn y gallasai Israel gael ei chodi i fwynhau rhagorfreintiau ac i gyflawnu dyledswyddau cyfammodol, yr ydoedd yn angenrheidiol iddi yn gyntaf gynnyddu *yn genedl*. Yn yr Aipht, hi a gyrhaeddodd i'r cyflwr a'r cryfder angenrheidiol i gymmeryd ei lle fel cenedl annibynol. Y wlad orthrymus hon oedd y groth yn mha un y daeth yn barod i'r enedigaeth. Ei gwaredigaeth o'r Aipht oedd ei genedigaeth fel cenedl; yr hyn a gymmerodd le, er holl ofidiau a pheryglon yr esgoreddfa, trwy nerth dwyfol. Yr oedd ei bodolaeth annibynol fel cenedl i'w briodoli, nid i achosion naturiol, ond i oruchlywodraethiad y Duw oedd yn ei pharotoi i'w chymmeryd i gyfammod âg ef ei hun. Ond yr oedd Israel i fod, nid yn genedl fel cenedloedd ereill, ond yr oedd i fod yn genedl *neillduedig* i *Dduw*, yn bobl sanctaidd, yn rhywogaeth etholedig, i fod yn gyfrwng iachawdwriaeth i'r holl genedloedd. I'r dyben hwn, arweiniwyd hi gan Moses trwy gyfryngiad dwyfol i le priodol i gael ei chyssegru i Dduw a'i amcanion grasol. Ac fel yr ydoedd ei gwaredigaeth o'r Aipht yn enedigaeth naturiol iddi fel cenedl, felly yr ydoedd ei chyssegriad wrth Sinai, a'r cyfammod yr aeth iddo â Duw, megys yn ailenedigaeth iddi. Ond fel nad yw yr Arglwydd yn gorchymyn heb roddi, felly nid yw yn rhoddi heb orchymyn. Gan fod Israel wedi ei chymmeryd a'i gwneuthur yn gyfranog o ragorfreintiau a bendithion, addewidion a gobeithion y cyfammod, y mae hefyd i ymgymmeryd â'i ddyledswyddau. Yr ydoedd *rhoddiad y ddeddf*, gan hyny, yn angenrheidiol, fel na byddai y bobl gyfammodol yn amddifaid o reol briodol i fyw wrthi, er mwyn rhyngu bodd yr Hwn a osododd y fath anrhydedd arni. Trwy roddiad y ddeddf, derbyniodd y genedl hefyd *gyfansoddiad*, yr hon oedd i lywodraethu ac i drefnu eu holl gyssylltiadau a'u perthynasau â'u gilydd yn fewnol, ac i'w cadw yn genedl wahaniaethol oddi wrth genedloedd ereill yn allanol. Trwy wneuthuriad y cyfammod a rhoddiad y ddeddf, yn nghyd â'r holl amgylchiadau oedd yn gydfynedol â hwynt, gosodwyd Israel dan ffurflywodraeth neillduol yn ei chyssylltiad â Duw, yr hon a elwir y Ddwyflywiaeth (*Theocracy*). Cyfryngwr y cyfammod hwn, a chyfrwng sefydliad y Ddwyflywiaeth, ydoedd Moses, gŵr Duw. Yr oedd amlygiadau pellach yn angenrheidiol o ddaioni a gallu Duw tuag at y genedl, er mwyn ei gallwogi i fwynhau ei rhyddid cenedlaethol, ac i ateb ei dyben fel pobl gyfammodol; sef, cael y *wlad* a addawyd i'w tadau yn etifeddiaeth. Yn y cwblhâd o'r addewid hon, amlygodd yr Arglwydd ei weithredoedd nerthol trwy Iosuah, yr hwn a ddygodd yn mlaen ac a orphenodd y gwaith a ddechreuwyd trwy Moses.

Yn awr, y mae Israel wedi ei chynnysgaethu â'r rhagorfreintiau angenrheidiol er mwyn cyflawnu y dybenion mewn golwg wrth ei dwyn o'r fath undeb neillduol ac arbenig; yn awr y gellir cymhwyso geiriau yr apostol, a dyweyd am danynt, "eiddo y rhai yw y mabwysiad, a'r gogoniant, *a'r cyfammodau*, a dodiad y ddeddf, a'r gwasanaeth, a'r addewidion;" ac yn chwanegol at hyn, yr oeddynt wedi cyrhaedd tir yr addewid, lle y gallent fwynhau eu rhagorfreintiau, ac addoli eu Duw mewn taweiwch. Hyd yn hyn, yr oedd gweithredoedd nerthol a gwyrthiau grasol Duw wedi achub eu blaen yn y gwaredigaethau a gyflawnwyd erddynt, a'r doniau a gyfranwyd iddynt. Ond o hyn allan, yr oedd Israel wedi dyfod i amgylchiadau i ddangos pa ddefnydd a wnai o'r arweiniad dwyfol a gafodd. Ond y mae hanes y genedl gyfammodol rhag llaw yn frith o esamplau o'i hanffyddlondeb i'r cyfammod, ac o waith Duw yn cospi, ac yn maddeu. Fel cyfryngau ei geryddon, defnyddiai y cenedloedd amgylchynol; ac fel cyfryngau y gwaredigaethau a gyflawnai erddynt, galwai ac anfonai y Barnwyr hyd yr amser y gosodwyd i fyny freniniaeth Israel.

Ar ol y braslun hwn, edrycher yn mhellach i natur

CYFAMMOD SINAI.

Yn *Exod.* xix. 3—15, cawn hanes y parotoadau a wnaed ar gyfer rhoddiad y ddeddf a gwneuthuriad y cyfammod rhwng yr Arglwydd a'r bobl; ac oddi wrth y geiriau a lefarodd yr Arglwydd, y mae yn amlwg na fwriadwyd y ddeddf i fod yn erbyn addewidion y cyfammod:—"Chwi a welsoch yr hyn a wnaethym i'r Aiphtiaid; y modd y cedwais chwi ar adenydd eryrod, ac y'ch dygais ataf fy hun. Yn awr, gan hyny, os gan wrandaw y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod; chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddo fi yr holl ddaiar. A chwi a fyddwch i mi yn freniniaeth o offeiriaid, ac yn genedlaeth sanctaidd." Y mae y geiriau hyn yn cynnwys sail, hanfod, a dyben y cyfammod. Lleferir wrth y bobl fel rhai yn sefyll mewn perthynas neillduol â'r Arglwydd; honir hawl yn eu hufudd-dod ar sail y gwaredigaethau a wnaethpwyd erddynt; a rhoddir ar ddeall iddynt mai trwy gydymffurfio âg amcan eu neillduad i fod yn "bobl briodol" yn unig, y parhaent i fwynhau ffafr eu Duw, ac i fod yn offerynau cymhwys yn ei law i gyflawnu amcanion doeth a sanctaidd ei lywodraeth.

Y mae yn annghysson â hyn i ddysgrifio cyfammod Sinai fel cyfammod gweithredoedd, ac ufudd-dod y bobl i'r ddeddf yn sail eu meddiant o'r wlad addawedig. Pe felly, pa beth a ddywedid am y cyfammod âg Abraham, ac am yr etifeddiaeth a rad roddwyd mewn addewid i'w had, os oedd yn rhaid iddynt eu hennill trwy weithredoedd y ddeddf. Nis gellir, yn gysson â geiriau Paul (*Gal.* iii. 21) am amcan y ddeddf, edrych arni yn oruchwyliaeth o weithredoedd, yn gosod i lawr gydymffurfiad â'r ddeddf yn ffynnonell bywyd, ac yn sail bendith. Fe ddichon fod camsyniadau ar hyn wedi codi o ddiffyg dealltwriaeth cywir o'r gwrthgyferbyniad a wna Paul rhwng y ddau gyfammod: *Gal.* iv. 21—31. Defnyddir Sarah a'i llawforwyn Hagar i osod allan y ddau gyfammod, a phlant y ddwy fam i osod allan yr addolwyr y mae y cyfammodau yn eu cynnyrchu. Y mae Sarah, gwraig Abraham, yn sefyll am y Ierusalem nefol, sef gwir eglwys Dduw yn mhob oes. Ac fel y byddai Isaac yn gynnrhychiolwr priodol i'r rhai sydd yn cael eu geni oddi uchod, oedwyd ei enedigaeth nes yr ydoedd yn anmhosibl ond trwy nerth goruchnaturiol. Y mae duwiolion yn mhob oes yn perthyn i'r wir eglwys, ac yn mwynhau rhagorfreintiau a bendithion y cyfammod gras. Wrth y cyfammod arall, sydd yn cyfateb i Hagar, y meddylir y cyfammod a gadarnhawyd wrth Sinai; ond nid ydym i ddeall

Digitized by Google

hyn am eglwys neu oruchwyliaeth yr Hen Destament mewn un modd. Y mae y ddau gyfammod, o'u golygu fel mamau, yn hollol wrthwynebol i'w gilydd yn eu natur, eu tuedd, a'u heffeithiau; ond nid ydyw goruchwyliaeth yr Hen Destament a'r Newydd felly. Gwahaniaethant, nid fel y gwahaniaethai Ismael oddi wrth Isaac, ond fel y gwahaniaetha etifedd dan oed oddi wrth etifedd mewn oed. Y mae y rhai oll sydd yn credu dan bob goruchwyliaeth yn blant i Abraham ffyddlawn, yn sefyll yn yr un berthynas gyfammodol â Duw, ac yn etifeddion yr un addewidion: *Rhuf.* iv. 11—13; *Gal.* iii. 27. Am y rhai a enir o Hagar, nid ydynt yn un rhan o'r wir eglwys mewn un oes. Israeliaid cnawdol a hunangyfiawn ydynt, a ymfoddlonent gynt ar olrhain eu perthynas naturiol âg Abraham; a Christionogion mewn enw, y rhai a ymorphwysant mewn ffurfiau allanol. Ond pa fodd y daeth cyfammod Sinai i fod yn fam i'r cyfryw? Fel y mae ordinhadau Cristionogol yn dyfod felly, sef trwy gael eu defnyddio i ddyben nas bwriadwyd hwynt. Ni fwriadodd Duw i gyfammod Sinai fod yn fam, a thrwy ei ddefnyddio yn groes i'w amcan y daeth felly. Nid lle priodol Hagar oedd bod yn fam i blant Abraham, ond bod yn llawforwyn i Sarah. Felly, lle cyfammod Sinai yn nhrefn Duw oedd, nid i fod yn ffynnonell bywyd a bendith, ond i fod yn llawforwyn i'r efengyl. Nid yw yn gwneuthur un gwahaniaeth yn hyn fod y ddeddf wedi cael ei rhoddi mewn ffurf o gyfammod. Nid fel cyfammod annibynol y cyhoeddwyd hi, ond i fod yn wasanaethgar i gyfammod yr addewid.

I. Dyben cyntaf rhoddiad y ddeddf oedd, i fod yn ddadguddiad o'r cyfiawnder a ddysgwyliai yr Arglwydd oddi wrth Israel fel ei bobl gyfammodol. Dewiswyd hwynt i ddybenion neillduol; ac fel y gallent wybod y dybenion hyny, a byw yn unol â hwynt, y rhoddwyd iddynt ddadguddiad o gyfiawnder Duw. Ni allasai eu gwaredu gydag un dyben is nag iddynt fyw er ei ogoniant. Felly, cyn eu dwyn i Wlad yr Addewid, y mae yn rhaid iddynt gael dadguddiad o'r modd y mynai yr Arglwydd iddynt ei addoli, a byw iddo, er mwyn arddangos y nodwedd hwnw sydd yn rhyngu ei fodd yn mhob oes, ac yn amlygu dyben ei gyfammod â dyn. Gan fod Israel yn bobl gysgodol, a Chanaan, gwlad eu hetifeddiaeth, yn wlad gysgodol, yr oedd yn angenrheidiol i garictor y bobl fod yn gyfryw ag i arddangos pa fath gymhwysder sydd yn angenrheidiol mewn trefn i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. I'r graddau y cydymffurfient hwy â deddf Duw, y byddai Canaan yn cyfateb iddynt i'r dysgrifiad o fod yn wlad yn llifeirio o laeth a mêl. Ac mor bell ag y byddent yn anffyddlawn i gyfammod eu Duw, yr oeddynt i deimlo ei anfoddlonrwydd. Yr oedd hyn yn angenrheidiol er mwyn dangos fod hapusrwydd a sancteiddrwydd yn cydfyned â'u gilydd yn nhrefn Duw ac yn mhrofiad ei bobl. Nid yw hyn mewn un modd yn brawf mai dan gyfammod gweithredoedd yr oedd yr Israeliaid yn byw. Y mae yr egwyddor *fod sancteiddrwydd a dedwyddwch yn annattodol â'u gilydd, yn sylfaenedig ar natur Duw;* ac o ganlyniad, y mae yn anmhosibl i Dduw wneuthur cyfammod gras â dyn, mwy na chyfammod gweithredoedd, heb olygu ac arddelwi yr egwyddor hon. Ac er mwyn ei diogelu yn ngweinyddiad trugaredd i bechadur yr amlygir mawr amryw ddoethineb Duw yn yr efengyl.

Y mae y dyben hwn hefyd yn gysson â'r hyn a ddywed yr apostol oedd amcan cyntaf y ddeddf:—*Gal.* iii. 19; "Er mwyn troseddau y rhoddwyd hi yn chwaneg, hyd oni ddelai yr had." Y meddwl ydyw, ei bod hi wedi ei chwanegu at yr addewidion a'r bendithion a sicrheir yn y cyfammod blaenorol, o herwydd tuedd y bobl i anghofio y rhwymedigaethau yr oeddynt danynt, ac i gydymffurfio â llygredigaethau y byd. Pe buasai y genedl yn byw dan ddylanwad ysbryd y cyfammod a wnaethpwyd â'u tadau, buasent yn barod o honynt eu hunain i wneuthur y pethau sydd yn y ddeddf. Ond nid oeddynt felly; ac o ganlyniad, y mae y ddeddf yn dyfod ac yn rhagdybied dybenion moesol y cyfammod âg Abraham; ac er mwyn eu cyrhaedd yn fwy effeithiol, y mae hi yn gosod attalfeydd ar ffordd eu llygredigaethau, ac yn gwasgu ar eu cydwybodau reol dragwyddol cyfiawnder.

II. Gan mai y prif bechod ag yr oedd y genedl mewn perygl o syrthio iddo ydoedd eilunaddoliaeth, amcan arbenig cyfammod Sinai oedd ergydio marwhâd ar eilunaddoliaeth. Ni chafodd eilunaddoliaeth gymmaint gwrthsafiad mewn dim (ond yn ymddangosiad Mab Duw) ag a gafodd yn y waredigaeth o'r Aipht, a gosodiad y cyfammod ar Sinai. Dywedir ddarfod i Dduw, trwy waredigaeth ei bobl oddi tan iau y caethiwed, farnu duwiau yr Aipht:—nid yn unig ei thywysogion, ond ei duwiau (*Exod.* xij. 12; *Num.* xxxiii. 4; *Esa.* xix. 1); ac fel hyn yr oedd trin buddugoliaeth y ddraig goch fawr, sef Satan ei hun: *Salm* lxxiv. 13; *Dad.* xii. 9. Yr oedd pob un o'r deg pla a dywalltodd Duw ar yr Aipht yn ergyd ar un o'u duwiau; canys addolent—1. Yr *afon.* Gwaeth Duw hono yn waed ac yn llyffaint. 2. Y *goleuni.* Gwnaeth yr Arglwydd hwnw yn dywyllwch. 3. Y *gwartheg.* Lladdodd Duw y rhai hyny. 4. Aberthid llwch celaneddau llosgedig i'w duwiau; ond hauodd Moses lwch arnynt nes eu gwneyd yn gornwydydd trostynt oll, yn lle bod yn fendith iddynt. 5. Gofalai ei hoffeiriaid am ymwisgo mewn llian glân, a chneifient eu gwallt a'u barfau, fel na byddai i bryf fod arnynt, pan yn gwasanaethu eu duwiau rhith sanctaidd; ond gwnaeth Duw hwy yn orchuddiedig gan lau, &c. Diweddwyd y pläau trwy y dinystr a ddaeth ar eu cyntafanedigion, yn mha rai yr oedd ganddynt ormod o ymddiried. Hefyd, yr oedd holl amcan y cyfammod yn Horeb yn ergydio at eilunaddoliaeth. Yr oedd hyd yn oed y deng air deddf, yn eu perthynas â'r cyfammod hwn, mewn ffurf felly:—"Na fydded i ti dduwiau ereill." "Nac ymostwng i lun dim," &c. Yn y ddeddf farnol, gwnaed eilunaddoliaeth yn drosedd marwol; ac ynddi gwnaed deddfau uniongyrchol yn erbyn arferion eilunaddolwyr, er cadw tramgwydd oesol rhwng yr Israeliaid ac eilunaddolwyr; ac nid oedd y gorchymynion hyn yn dda i ddim arall; megys, "Na thor gyrau dy farf;" "Na wisg ddilledyn cymmysg o lin a gwlan;" "Nac ardd âg ych ac asyn yn nghyd;" "Na haua dy faes âg amryw had." Gwawdia llawer anffyddiwr y Beibl o herwydd y gorchymynion hyn; a gofyna, "Ai dyma y fath rai yw gorchymynion dwyfol?" Atebwn ninnau: Ïe, heb fodd bod eu gwell i'w dybenion eu hunain—"Na chydymffurfiwch â'r byd hwn." Anghydffurfiad â'r deddfau hyn, a'u cyffelyb, a barodd aberth y deg llwyth i dragwyddol wasgariad, ac a barodd i Iudah a Beniamin fod ddeng mlynedd a thrigain yn mhair cystudd yn Babilon.

Hefyd, yr oedd y ddeddf seremoniol â'i holl osgo yn erbyn eilunaddoliaeth, trwy nad oedd

Digitized by Google

ganddi nac offrwm nac aberth drosto mewn un modd. Felly, dyma bob deddf yn nghyfammod Sinai yn gollwng ei hergydion yn erbyn teyrnas Satan mewn eilunaddoliaeth.

III. Yn nghyfammod Duw âg Israel, gosodwyd crefydd y Iehofah mewn diogelwch na buasai ynddo cyn hyny. Er nad ymddangosai, ar ymddangosiad cyntaf y Iehofah ar fynydd Sinai, fod yn ei fwriad gyhoeddi ond y ddeddf foesol a'r ddeddf farnol, hyd gwymp y genedl trwy addoliad y llo aur; ond wedi hyny, yn ngalwad Duw am aberth cymmod, &c., wrth droed y mynydd, fe ymagorodd galwad am osodiad y seremonïau; ac, yn wahanol i bob peth a fuasai o'r blaen, fe sefydlwyd addoliad dyddiol i'r Iehofah, a chyssylltwyd cosp â'r esgeulusiad lleiaf: felly, yn hyn, dyma genedl gyfan dan rwymau gwerth eu bywyd, nid yn unig i ochel eilunaddoliaeth, ond hefyd i dalu addoliad beunyddiol i'r gwir Dduw, trwy fod aberthau fore a hwyr i gael eu hoffrymu ar allor y poethoffrwm. Ac heb law hyny, yr oedd eu misoedd a'u blyneddoedd mwyach i ddwyn perthynas â choffadwriaeth enw Duw Israel, mewn newydd-loerau a blyneddoedd. Yr oedd hefyd eu gwyliau gosodedig oll yn bachu coffâd am y Iehofah yn eu plith:—Y Pasc, er cofio eu gwaredigaeth â braich estynedig; gŵyl y pebyll, er coffau eu porthi ddeugain mlynedd yn wyrthiol yn yr anialwch, &c.; a gŵyl y cymmod, er cofio tiriondeb Duw yn maddeu eilunaddoliaeth y llo aur dan Sinai.

Pan y byddai i rai o honynt ymaflanhau a cholli cymhwysder i fod yn mysg cynnulleidfa yr Arglwydd, er mor ddymunol iddynt oedd y rhyddid hwn, nid oedd i'w gyrhaedd ond trwy aberth a glanhâd. Ni chaent chwaith dderbyn a mwynhau enwd y meusydd ond yn gyssylltiedig â rhyw seremonïau i gofio y gwir Dduw. Yr oeddynt yn y cyfammod hwn hefyd, er diorwymo i gymmeryd Duw yn frenin arnynt; a phan ddechreuodd yr hen gyfammod fyned mor odd breninoedd byth hawl i newid y cyfreithiau. Yr oedd raid i gyfraith Sinai barhau hyd oni ddelai yr Had. Felly, pan oedd Ysbryd yr Arglwydd yn diweddu ac yn selio prophwydoliaeth yr Hen Destament, dyna a ddywed ef wrth gyflwyno ei eglwys i 400 mlynedd o orymdaith heb brophwydi:—"Cofiwch gyfraith Moses fy ngwas, yr hon a orchymynais iddo ef yn Horeb, y deddfau a'r barnedigaethau." Fel pe dywedasai, felly chwi a fyddwch ddiogel. Yr oedd y Iehofah trwy y deddfau hyn fel mur o dân o amgylch ei bobl a choffadwriaeth ei enw. Goddefwyd o'r blaen yn nhy Laban, &c., yr hyn a gospasid â marwolaeth yn nyddiau Moses a'r prophwydi.

IV. Yr oedd yr holl sefydliad o'r addoliad seremonïol yn rhag-gyfeirio at yr hyn a fyddai y Messiah, fel y dywed ein Iachawdwr—"Am danaf fi yr ysgrifenodd efe."

Yr oedd y cyfeiriadau hyny yn y ddeddf seremonïol y fath, fel nas gallesid cael, er addurno yr efengyl, ffugrau mwy sanctaidd a goruchel nag o'i chysgodau hi, byth; megys, "Wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." "Crist ein Pasc ni a aberthwyd drosom ni." "Fe aeth unwaith i'r cyssegr yn ei waed ei hun, gan gael i ni dragwyddol ryddhâd." "Awn ato o'r tu allan i'r gwersyll," &c. "Efe yw yr Iawn," neu y drugareddfa. "A wnaeth efe yn bechod drosom ni," &c. Fe *fu* yr offeiriadaeth yn nheulu Aaron, fel y byddai iddi fod yn gyfleus i'w difodi am byth pan ddelai yr Offeiriad Mawr yn ol urdd Melchisedec. Yn awr, wedi dyrysu âch Aaron, nid oes fodd cael offeiriad byth mwy ond Crist; pe na buasai waeth o ba linach, gallasai offeiriad eto godi i weini allor y poethoffrwm, ond ni cheir ef byth mwy.

Pan sefydlwyd y chwe dinas noddfa, er eu bod yn garcharau er diogelu llofruddion, a'u cadw o fysg y werin, &c.—eto, yr oeddynt i ddysgu rhywbeth am Grist a'r iachawdwriaeth; canys yr oeddynt yn ddiogelwch yn gystal ag yn garcharau.

Buasai yn anhawdd deongli marwolaeth Crist fel *aberth*, oni buasai i ni gael mantais i hyny oddi wrth seremonïau yr oruchwyliaeth flaenorol; canys Efe yn unig a gyflawnodd y ddeddf seremonïol, yn gystal a'r foesol; ac nis gall neb arall byth wneyd yr hyn a wnaeth efe. Pe byddai i ryw Fessïah gau geisio cerdded yr un llwybr a'r Iesu, trwy dreulio ei oes yn ddiniwed, &c., pwy a geid i'w gondemnio i farw fel y gwnaed â'r Iesu? Neb. Fel hyn y gwelwn fod yn lles mawr i eglwys Dduw fod dan oruchwyliaeth flaenorol, er rhagddarlunio y Messïah cyn ei ymddangosiad.

Oddi wrth hyn, gwelwn fod tymmor yr efengyl yn *gyflawnder yr amser;* canys nis gallasai fod yr hyn ydyw, oni buasai fod "goruchwyliaeth mynydd Sinai" wedi ei rhagflaenu; ac nid oedd yn bosibl fod un well na hono yn ei hadeg ei hun. Eto, gall dynion gymmeryd rhyddid na chaniatâ Duw mo hono i'w drwgliwio, trwy ei galw yn hen Agar, yr hon sydd yn gaeth, hi a'i phlant—Mynydd yn llosgi gan dân—Gwyddorion y byd—a dywedyd, fod i Moses rai a'i pregethent, &c.: eto, buasai galw deddfau cyfammod Sinai fel hyny yn dra phechadurus cyn sefydlu yr efengyl; canys yr hwn a ddirmygai gyfraith Moses a fyddai farw heb drugaredd: *Heb.* x. 28. Ond wedi ei myned yn hen ac oedranus, ac agos i ddiflanu, ac i'w thymmor ddyfod i fyny, yr oedd wedi hyny yn gymhwys ei galw "gweinidogaeth damnedigaeth," a "gweinidogaeth angeu," &c., pan yr oedd dynion yn glynu wrthi wedi iddi farw; a gweinidogaeth cyfiawnder a'r Ysbryd, a gweinidogaeth bywyd, wedi ei sefydlu yn ei lle hi. Felly, glynu wrthi, yn lle yr efengyl, wedi iddi ddarfod ei gwaith, oedd yn bechadurus, ac yn ei dwyn hithau dan y nodiadau dirmygus, &c. Ond yn ei thymmor, yr oedd yn fuddiol a gogoneddus iawn; canys dani y caed pob gair o feddwl Duw sydd ysgrifenedig yn yr Hen Destament. O dan oruchwyliaeth Sinai y cyfansoddodd Dafydd y Salmau. Dan hon y sefydlwyd addoliad cynnulleidfaol gyntaf erioed. Oddi wrth oruchwyliaeth Moses y cododd yr Iesu rai o'i deitlau sydd arno yn awr yn y nefoedd, megys, "Oen Duw," "Archoffeiriad," &c. Y gosodiad hwn a'i hynododd Ef: er y byddai iddo fyned trwy ei *waed* i'r cyssegr, eto na *thoriad asgwrn* o hono. Felly, ei holl waith ef ar y ddaiar oedd, "myned yn ddiwedd i'r ddeddf;" a thrwy hyn y caed cyflawnder i'r neb a gredai ynddo.

CYFAMMODAU, HANES ATHRAWIAETH Y. Y gwaith cyntaf a gyhoeddwyd i'r dyben o ddangos fod holl ymwneyd Duw âdyn, cyn ac wedi y cwymp, yn cymmeryd y ffurf o gyfammod, a bod holl wirioneddau y Beibl yn ymddosbarthu yn naturiol i gyfundrefn o dduwinyddiaeth dan ddau ben—yn 1. Y Cyfammod Gweithredoedd; 2. Y Cyfammod Gras—a gyhoeddwyd yn 1648, gan Cocceius—duwinydd enwog, a anwyd yn

Digitized by Google

Bremen, yn y fl. 1603; ac, wedi cyrhaedd gwybodaeth eang o ieithoedd gwreiddiol y Beibl a duwinyddiaeth, yn Hambury a Westfreisland, a ymsefydlodd yn gyntaf yn Bremen — ei dref enedigol—fel athraw ieithyddiaeth ysgrythyrol; ac yn ddiweddaf, yn Leyden, fel athraw duwinyddol: ac yn Leyden y bu farw, yn 1669. Cyn ei amser ef, nid oes un anghraifft o gorff o dduwinyddiaeth yn cael ei gyfansoddi yn y ffurf o "Gyfammodau," yr hyn a ddaeth mor gyffredin ar ol hyny; na chwaith, fod y gwahaniaeth wedi ei wneyd a'i gofnodi yn sefydlog yn yr ymadroddion "Cyfammod Gweithredoedd" a "Chyfammod Gras," rhwng ymddygiadau Duw tuag at ddyn yn ei sefyllfa o ddiniweidrwydd, a'i ymddygiad tuag ato trwy ras yn yr efengyl. Ni wnaeth Cocceius ddim gwahaniaeth o ran *sylwedd* yn y golygiadau a dderbyniodd oddi wrth Awstin, Anselm, Luther, Melancthon, Calvin, ac ereill; ond dysgodd eu golygiadau hwy mewn *ffurf* wahanol. Gellir rhoddi y brasolwg canlynol ar gynnwysiad y gwaith dan sylw:—Y mae yr Ysgrythyrau wedi eu rhoddi ar wedd hanesiaeth; sef, hanes gweithrediadau grasol Duw tuag at ddyn: a sylfaen yr hanes hwn ydyw *cyfammod Duw â dyn.* Y mae yr ymadroddion, "yr Hen Gyfammod," a'r "Cyfammod Newydd," yn ymadroddion ysgrythyrol am ddadguddiad grasol Duw *ar ol y cwymp.* Ond y mae Cocceius yn edrych ar ymddygiadau Duw tuag at ddyn cyn y cwymp, ar wedd "cyfammod." Er mwyn rhagflaenu camgymmeriad, y mae yn dangos nad yw y gair Hebraeg *berith* (ברית) yn arwyddo cyfammod mewn ffordd o gytundeb rhwng pleidiau annibynol, fel yn mysg dynion; ond fod cyfammod Duw gyda dyn yn hytrach yn arwyddo trefn sefydlog Duw i gyfranu, a'r drefn yn mha un y mae dyn i dderbyn: gwaith Duw ydyw rhoddi, a gwaith dyn yw derbyn yn y drefn ordeiniedig. Sefyllfa wreiddiol dyn a osodir allan fel "cyfammod gweithredoedd," neu "gyfammod natur" (*fœdus operum*, neu *naturæ*), yn yr hwn y mae Duw yn addaw hapusrwydd i ddyn ar yr ammod y byddai iddo barhau yn sanctaidd; ac felly, y mae yn llaw y dyn ei hun i sicrhau ei ddedwyddwch. Y mae i ddyn ei ddewis—i sicrhau ei ryddid mewn ymddibyniad gwirfoddol ar ddaioni Duw, neu ynte trwy geisio ymryddhau oddi wrtho i deimlo ei ddibyniad gorfodol arno. Torwyd y cyfammod hwnw trwy bechod gwirfoddol dyn, a thynodd ei felldith arno ei hun. Yr oedd rhwymedigaethau y cyfammod yn parhau, o gymmaint ag mai Duw yn unig a allasai eu difodi. Y mae dyn, gan hyny, ar ol y cwymp, yn ddarostyngedig—1. I'r hyn sydd yn rhwymedig arno yn ol y ddeddf. 2. I'r hyn y mae Duw yn ei orchymyn iddo, ac yn ei osod arno: sef, yn *gyntaf*, i roddi ufudd-dod i'r ddeddf; yn *ail*, i ddyoddef am anufudd-dod; yn *drydydd*, i gredu, os bydd i Dduw estyn ymwared iddo—o herwydd dyledswydd sylfaenol dyn ydyw *derbyn* yr hyn a roddir iddo gan Dduw. Yn mhlith y pethau sydd yn rhwymedig ar Adda a'i hiliogaeth ar ol y cwymp, y mae ffydd yn Nuw fel ei Iachawdwr, os bydd iddo gynnyg trefn o waredigaeth mewn iawn iddynt. Y mae Duw o'i ras wedi gosod cyfammod gras (*fœdus gratiæ*) yn lle y cyfammod a ddiddymwyd. Diddymwyd ef o ochr dyn, mor bell ag yr oedd bywyd yn bosibl trwyddo (*quoad possibilitatem vivificandi*), ac o ochr Duw mor bell ag yr ydoedd damnedigaeth yn anocheladwy trwyddo (*quoad damnationem*). Yn y cyfammod gras, fel yn y cyfammod gweithredoedd, y mae Duw yn rhoddi o'i ewyllys da ei hun, a dyn yn dderbynydd gwirfoddol. Y mae y cyfammod hwn yn gorphwys ar anfoniad Iesu Grist i'r byd, a'r iawn a wnaeth.

Y mae rhan fawr o'r traethawd ar athrawiaethau yr efengyl, neu y drefn y mae i bechadur gael iachawdwriaeth; ei graslonrwydd; cyfrwng ei gweinyddiad; y modd i'w derbyn, sef trwy ffydd; ei ffynnonell — ewyllys da Duw; moddion y cyhoeddiad o honi, sef yr Ysgrythyrau; dull ei chymhwysiad, sef trwy weithrediad yr Ysbryd Glân; a'r dyben o honi sef gogoniant Duw. Dosbartha cyhoeddiad y cyfammod gras i dri chyfnod hanesyddol (yn ol *Heb.* iii. 3, 4) neu oruchwyliaeth (*œconomiæ*):—yr oruchwyliaeth cyn y ddeddf (*œconomia ante legem*), dan ba un yr amlygwyd y gyfraith trwy y gydwybod yn unig, yr efengyl trwy yr addewidion a roddwyd i'r patriarchiaid, a theyrnas Duw yn y teulu; yr oruchwyliaeth dan y ddeddf (*œconomia sub lege*), dan ba un yr hanfodai y gyfraith mewn cyhoeddiad llythyrenol—yr efengyl neu ras mewn cysgodau a phrophwydoliaethau, a theyrnas Dduw mewn cenedl neillduedig; a'r oruchwyliaeth ar ol y ddeddf (*œconomia post legem*), dan yr hon yr ymddangosodd Crist, yr hwn ydoedd yn amlygiad personol o'r gyfraith, o ras, ac o'r gair, a than yr hon hefyd y mae teyrnas Dduw yn hanfodi mewn dull hollol gyffredinol. Y cyfryw ydyw y dosbarthiad a geir yn ngwaith Cocceius [*Summa doctrinal de fœdere et Testamento Dei*].

Dilynwyd ef gan amryw o dduwinyddion enwog ereill, y rhai a gyhoeddasant gyfundrefn o dduwinyddiaeth yn y ffurf o draethawd ar y cyfammodau, o ba rai yr enwocaf a'r mwyaf adnabyddus yn y wlad hon ydyw Herman Witsius. Traethawd Witsius ar y Cyfammodau [*The Economy of the Covenants; a Complete Body of Divinity*], yr hwn a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1685, ac yn fuan a gyfleithwyd i'r Seisoneg, a wnaeth fwy na gwaith Cocceius i wneuthur y dull hwn o ddosbarthu gwirioneddau yr efengyl yn gyffredin yn Mhrydain. Ar ol ymddangosiad gwaith Witsius, daeth allan yn Seisoneg luaws o draethodau ar yr un cynllun; megys, *Boston on the Covenants*, yr hwn oedd un o'r rhai cyntaf; ac yna, *Bell on the Covenants;* ac yn gyffelyb, Strong, Roberts, Russell, &c. Y mae y dull o edrych ar dduwinyddiaeth dan y ffurf o gyfammodau wedi bod yn fwy cyffredin yn mhlith eglwysi Calvinaidd nag yn mhlith eglwysi ereill, er nad ydyw y ffurf gyfammodol yn hanfodol i amddiffyniad Calviniaeth, fel y gwelir yn Awstin, Calvin ei hun, a lluaws o dduwinyddion yn mysg y Puritaniaid. Anfynych y mae duwinyddion yr oes bresennol, neu yn wir yr oes a aeth heibio, yn defnyddio y dosbarthiad hwn. Gwelir hyn wrth edrych dros ysgrifeniadau Chalmers, Pye Smith, Leonard Woods, Wardlaw, &c., er eu bod oll yn Galviniaid. Y mae yn angenrheidiol coflo mai gwahaniaeth mewn *dosbarthiad* yn unig ydyw hyn, ac nid yn sylwedd y gwirioneddau a ddosberthir. Yr un gwirioneddau sydd yn dyfod dan sylw gan y naill dan y pen "Cyfammod Gweithredoedd," ag sydd yn y llall dan y gwahanol benau—CWYMP, CYFRIFIAD, PECHOD GWREIDDIOL, &c. Gwel yr erthyglau.

CYFAMMODWYR: enw tra hysbys ar Bresbyteriaid Scotland yn amser y rhyfeloedd cartrefol. Dyma yr enw a elwid arnynt pan yn

Digitized by Google

dyoddef llawer oddi wrth yr awdurdodau gwladol am eu hymlyniad diysgog wrth eu hegwyddorion eu hunain o ffurflywodraeth eglwysig. Cymmerodd yr hyn yn briodol a elwir y Diwygiad yn Lloegr, ac hefyd y Diwygiad yn Scotland, le heb fod yn neppell o ran amser oddi wrth eu gilydd; ac un dyn yn neilluol yn mhob un o'r ddwy wlad ydoedd y prif ysgogydd yn nygiad y gwaith o ymwrthod â Phabyddiaeth oddi amgylch—Harri VIII. yn Lloegr, a John Knox yn Scotland. Yr oedd gwahaniaeth nid bychan yn nghymmeriad y ddau wŷr hyn, ac yn y peth a'u cymhellai i'r gweithredoedd hyny a ddiweddasant mewn ymadawiad â'r Babaeth. Ceisiai Knox ddinystrio awdurdod a dylanwad Pabyddiaeth, am mai dirgelwch yr anwiredd ydoedd; taflodd Harri iau Rhufain ymaith, am y safai y pab ar ei ffordd ef i gyflawnu ei amcanion ei hun. Nid yn yr un ansawdd, gan hyny, y gadawyd eglwysi y ddwy wlad gan y Diwygiad. Yn Lloegr yr ydoedd yn aros lawer o weddillion Pabaidd; ond cafodd yr Alban ei phuro yn fwy llwyr, er fod yr eglwys yn ac wedi amser marwolaeth John Knox mewn ansawdd dra ansefydlog ac anwadal. Ond yr ydoedd y gwahaniaeth yn y ffurflywodraeth eglwysig yn gymmaint, fel mai Esgobyddiaeth a sefydllwyd yn y rhan ddeheuol o'r ynys, tra mai y diwedd fu mabwysiadu Presbyteriaeth yn yr Alban: ac hyd heddyw, y mae corff y genedl yno wedi bod yn hynod am eu hoffder at Bresbyteriaeth.

Brenin diweddaf yr Alban, cyn ei huno dan yr un penadur a Lloegr, ydoedd Iago VI.—y cyntaf o'r enw a deyrnasodd ar yr holl ynys. Nid ydoedd efe yn ffafriol i Bresbyteriaeth; a bu yn ymryson mynych rhyngddo ef a gweinidogion crefydd yn ei wlad, o herwydd ei ymdrechion parhäus i gymmeryd y rhan fwyaf o'r gallu eglwysig o'u dwylaw hwy, a'i gynnwys yn ei berson ei hun. Yn yr agwedd anfoddhaol yma yr ydoedd pethau yn y flwyddyn 1603, pan bu farw y frenines Elizabeth.

Yn y flwyddyn grybwylledig, cyhoeddwyd Iago yn frenin Lloegr; ac mor fuan ag y coronwyd ef, dechreuodd arfer pob ymdrech i ddifodi Presbyteriaeth yn yr Alban, a sefydlu Esgobyddiaeth yn ei lle. Mynai mai ei ragorfraint a'i hawl ef yn unig oedd galw yn nghyd a gollwng ymaith gymmanfaoedd cyffredinol yr eglwys wrth ei ewyllys ei hun, a phan y gwelai yn oreu. Buasai yn annaturiol dysgwyl cydsyniad y gweinidogion â hyn. Er gwaethaf gorchymyn gwrthwynebol y brenin, ymgynnullodd nifer o honynt yn ninas Aberdeen, ymffurfiasant yn gymmanfa, cyflawnasant eu gorchwylion, a phenodasant eu man cyfarfod nesaf, gan ymwasgaru wedi hyny i'w cartrefleoedd. Am y weithred yma, fe gafodd chwech o honynt eu condemnio yn euog o uchelfradwriaeth, a'u halltudio i Ffrainc.

Diddymwyd yr urdd o esgobion yn yr Alban yn y flwyddyn 1560. Ond trwy ddylanwad y brenin, darfu i'r senedd ei hadferu drachefn. Y cyfan a gynnwysid yn yr adsefydliad hwn o'r urdd esgobol ydoedd, dodi yn meddiant y rhai a osodid yn y swydd y tiroedd, y teitlau, a'r awdurdod gwladol a berthynai gynt i'r hen esgobion cyn y Diwygiad, heb eu cynnysgaethu â'r hyn a elwir yn allu neu awdurdod ysbrydol ar yr eglwysi. Ond er i'r brenin lwyddo i ddwyn hyn oddi amgylch, bu hyny er gwaethaf gwrthwynebiad mwyaf penderfynol y clerigwyr yn y cyffredin. Chwanegwyd at eu hawdurdod yn fuan. Yn y flwyddyn 1610, galwodd Iago gymmanfa gyffredinol yn nghyd yn Glasgow, a thrwy wir orfodaeth, a chyda llwgr-wobrwyaeth, mynodd osod yr esgobion yn gymmedrolwyr neu lywyddion parhäus ar bob henadurfa, cymmanfa, neu gynghorfa. I sicrhau hyn, anfonwyd tri o honynt i Lundain; ordeiniwyd y rhai hyn gan bum esgob Seisoneg; ac wedi dychwelyd, hwythau a ordeiniasant eu brodyr Albanaidd. Ond yr oeddynt fel dosbarth yn hollol ddirmygedig yn ngolwg y wlad: mor ddiystyr oedd y preswylwyr o honynt, fel y gorfu i'r brenin sefydlu uchel lys o farchogion, pendefigion, ac ereill, i gynnal i fyny awdurdod y fainc esgobol. Cam nesaf y brenin ydoedd, gorfodi y senedd i basio deddf, yn dodi yn ei ddwylaw ef a'r esgobion awdurdod llwyr a diammodol ar holl achosion allanol yr eglwys. Gwrthsefid mesurau träawdurdodol o'r fath yma gan y clerigwyr gydag egni ac ymdrech; ac am hyny, parodd y brenin alw yn nghyd gymmanfa gyffredinol yn Glasgow, ac yn ninas Perth. Trwy fwyafrif, yn y lle olaf, gwnaed yn ddeddf bump o erthyglau, adnabyddus yn gyffredin wrth yr enw Pum Erthygl Perth; ac wrth y rhai hyn hefyd cafwyd cadarnhäd y senedd. Cynnwysent:—1. Penlinio pan yn cyfranogi o Swper yr Arglwydd. 2. Cadwraeth amryw wyliau; megys, y Nadolig, dydd Gwener y Croglith, y Pasc, &c. 3. Bedydd esgob. 4. Bedydd neilluol neu anghyhoedd. 5. Dirgel gymundeb. Achlysurodd cyhoeddiad yr erthyglau hyn y teimladau mwyaf gofidus yn mysg Presbyteriaid yr Alban—mor wrthwyneb oeddynt i'w hysbryd. Ffleiddient y dull trwy ba un yr arddodid hwy yn fwy na'r erthyglau eu hunain; ac am yr anghydffurfiaeth a darddai yn naturiol oddi ar hyn, cafodd lluaws o foneddigion a gwyr llên eu dwyn ger bron y llysoedd eglwysig, ac amryw eu cospi, eu carcharu, a'u halltudio.

Nid llawer o bethau pwysig a gymmerodd le wedi hyn yn ystod bywyd y penadur hwn. Bu Iago farw Mawrth 27ain, 1625; a'i olynydd ydoedd ei fab, Siarl I. Hwn hefyd oedd elyn penderfynol i Bresbyteriaeth, a gosododd ei fryd ar ei ymlid o'r tir, a chwblhau y gwaith a ddechreuasid gan ei dad. Yn barod, yr oedd y baich yn rhy drwm ar ysgwyddau yr Alban; ond yn awr, daethai yr amser i'w ddwyshau i bob eithafion, nes peri i'r rhai oedd dano lwyr flino yn ei ddwyn. Ymwelodd y brenin newydd, Siarl, â'r Alban yn y flwyddyn 1633; ac yn ystod yr ymweliad hwn, cafodd y Presbyteriaid lawn achos i'w gasäu a'i ddirmygu, o herwydd ei ddibrisdod annuwiol o ddydd yr Arglwydd, a'i egnïon parhäus i osod arnynt hwy a'u haddoliad ffurfiau a seremoniau gwasanaeth yr eglwys yn Lloegr. Ond yr oedd mwy i ddyfod ar ol hyn. Er dyddiau John Knox, goddefid i'r gweinidogion â'r galluoedd mwyaf gweiniaid ddefnyddio llyfr gweddi bychan, er eu cynnorthwyo yn nygiad yn mlaen y gwasanaeth crefyddol. Penderfynodd yr archesgob Laud i dynu allan ffurfwasanaeth o'i eiddo ei hun, ar ddelw Byriadur (*Breviary*) Eglwys Rhufain, a gorfodi yr Ysgotiaid i wneyd derbyniad o hono. Heb ond rhybudd byr, daeth y llyfryn hwn i lawr, gyda gorchymyn caeth oddi wrth y brenin a'i gynghorwyr fod iddo gael ei ddefnyddio yn yr holl eglwysi. Penderfynai y gweinidogion na oddefent hyn; a chlywid eu haddoldai yn diaspedain gan lais eu tystiolaeth ddifrifol yn erbyn y llyfr hwn a'i awduron. Sabbath, y 23ain o Orphenaf, 1637, oedd y dydd appwyntiedig i roddi lle iddo ar yr areithfa yn yr eglwysi. Dygid y

Digitized by Google

gwasanaeth yn mlaen yn eglwys St. Giles, Edinburgh, gan ddeon y ddinas. Pan y daeth hyd at y man penodol i enwi y colect am y dydd, cododd hen wreigan o fysg y gynnulleidfa, a gwaeddodd yn ei wyneb—"Yr ysgeler-ddyn! a feiddi di ddarllen yr offeren yn fy nghlywedigaeth i?"—a thaflodd at ei ben yr ystôl fechan yr eisteddai arni. Bu y weithred yma yn rhagarweiniad i derfysg cyffredinol: gorfu i'r deon ddisgyn o'r areithfa; ac er i Lindsay, esgob Edinburgh, geisio tawelu y cythrwfl, ni lwyddodd; a da fu iddo ef a'r deon ffoi am eu heinioes, gan fel yr oeddynt yn nôd i fygythion a rhyw bethau mwy peryglus a niweidiol oddi wrth yr holl dorf fawr o'u hamgylch.

Ymledodd y teimlad gwresog yma trwy yr holl wlad. Ymgodai y preswylwyr yn lluoedd o bob cyfeiriad, gan ddyrchafu eu llef yn erbyn y ffurfwasanaeth newydd. Gwelid yn eu mysg luaws o fonedd y tir: ac er cael gwared o'r tramgwydd hwn, llawnodwyd deiseb gan bawb oll, braidd, yn erfyn diddymiad y ffurfwasanaeth. Effaith hyn ydoedd, nid cydsyniad â chais yr ymbilwyr, ond cyhoeddiad o'r llys yn condemnio eu gweithrediadau, gyda gorchymyn mwy caeth drachefn ar fod i'r canonau dderbyn ufudd-dod manwl, ac yn gwahardd y cyfarfodydd cyhoeddus a gynnelid ganddynt, dan boen y gosp ddyledus am fradwriaeth. Gan na thyciai dim, a bod y brenin yn parhau i wrthod gwrandaw ar lais ei ddeiliaid Ysgotaidd, parodd hyny anghydfod agored rhyngddo ef a hwynt. Arweiniodd y symmudiadau hyn i helaethiad ac adnewyddiad ar yr ysgrif hygof hono, mewn cyssylltiad â'r Alban—y Cyfammod Cenedlaethol. Trwy lawnodi hwn, ymrwymai pawb i amddiffyn a chynnal i fyny Bresbyteriaeth â'u gwaed. Y dydd cyntaf o Fawrth, 1638, wedi y bregeth yn eglwys Grey Friars, Edinburgh, dygwyd allan rol fawr o femrwn, yn cynnwys y Cyfammod yn ysgrifenedig arno. Lledaenwyd hi ar gareg fedd; ac mor luosog ydoedd y rhai a'i llawnodasant ef yno, fel nad oedd lle i nifer mawr i roddi ond cynlythyrenau eu henwau, a llawer o'r rhai hyny a'u hysgrifenasant â phinau wedi eu trochi yn eu gwaed eu hunain. Mawr oedd llawenydd y ddinas a'r wlad oll ar yr amgylchiad hwn: mor helaeth y cyfranogodd yr Alban drwyddi o'r teimlad a ffynai yn y brif ddinas, fel, pan wasgarwyd copïau o'r ysgrif hon trwy y wlad, fe'u llawnodwyd gan gannoedd o filoedd, a dagrau eu gorfoledd yn llifo ar hyd eu gruddiau. Wele hwy bellach yn Gyfammodwyr, ac fel y cyfryw yr adnabyddid hwy; a dyma yr enw a elwid arnynt o hyn allan. Gan ymwroli yn yr ymrwymiad hwn o ffyddlondeb i'w gilydd, rhoddasant ar ddeall i'r brenin mai rhaid oedd iddynt gael cymmanfa gyffredinol i benderfynu achosion yr eglwys. O'r diwedd, galwyd un yn nghyd. Ymgynnullodd yn ninas Glasgow, yn Tachwedd y flwyddyn 1638. Cynnrychiolydd y brenin ydoedd Ardalydd Hamilton. Yn anfoddlawn i weithrediadau y gymmanfa, ymdrechodd y gŵr hwn ei dadgorffori: ond yn ddiystyr o hyny, parhaodd y cynnadleddau i eistedd; a bwriasant farn o gondemniad ar y ffurfwasanaeth; gosodasant o'r neilldu bum erthygl Perth; ymwrthodasant âg Esgobyddiaeth; ac adferasant Bresbyteriaeth drachefn: ac yn ol llaw, derbyniodd eu gweithrediadau gadarnhâd y senedd Ysgotaidd. Yn awr, torodd allan yn rhyfel rhwng Saiel a'i ddeiliaid yn yr Alban. Llywyddai y brenin yn bersonol un adran o'r fyddin a anfonodd i ymosod arnynt. Wedi amryw frwydrau yn ngogleddbarth Lloegr, pa fodd bynag, cafwyd buddugoliaeth lwyr ar Siarl yn Newburn; ac arweiniodd hyn y pleidiau i gyflafareddu. Heb law hyny, gorfu ar y brenin droi ei sylw i gyfeiriad gwahanol, a chafodd lawn waith mewn ymdrechfa bwysicach na'r ymgais i lethu Henaduriaeth yn yr Alban. Tuag amser gwrthryfel yr Iwerddon, yn y flwyddyn 1641, ymwelodd Siarl â'r Alban, gyda'r bwriad o geisio ymheddychu â'r Cyfammodwyr, a sicrhau eu cynnorthwy rhag ymosodiadau y senedd yn Lloegr. Amlygodd ei barodrwydd i dafiu Esgobyddiaeth o'r neilldu, ac hyd yn oed i gadarnhau gweithrediadau cymmanfa Glasgow. Ond yr ydoedd yr Ysgotiaid eisoes ar delerau cyfeillgar â'r Senedd Hir (*Long Parliament*), a chanddynt mewn bwriad helaethu terfynau y Cyfammod, nes peri ei fod yn cael ei gydnabod tu hwnt i gyffiniau deheuol y wlad. Yn y cyfamser, cyhuddid Laud o uchelfradwriaeth. Ymgodai teimlad y cyhoedd fwyfwy bob dydd yn erbyn yr esgobion; ac o'r diwedd, gwysiodd y senedd yn nghyd gymmanfa o dduwinyddion o Loegr a'r Alban, er ystyried y pwnc o ddiwygiad yn yr eglwysi. Cyfarfuasant yn Westminster, Gorphenaf 1af, 1643.

Gan fod y rhyfel cartrefol yn awr wedi dechreu, gommeddodd Siarl ganiatäu senedd i'r Ysgotiaid; ond yn lle hyn, galwyd yn nghyd gynnullfa o uchelwyr; ac wedi anfon o Loegr gynnrychiolwyr i gydymgynghori â hwy yno, penderfynwyd ffurfio "Cynghrair a chyfammod difrifol rhwng y tair teyrnas, fel yr unig foddion—wedi rhoddi prawf ar bob un arall—i waredu Lloegr a'r Iwerddon o ddyfnderoedd adfyd, a chadw eglwys a theyrnas yr Alban o eithafion trueni, a diogelu ein brenin cynnwynol a'i freiniaeth rhag dinystr ac anghyfannedd-dra." Eginyn y weithred bwysig hon ydoedd Cyfammod Cenedlaethol yr Alban.

Gwel Cynghrair a Chyfammod Difrifol.

Yn ystod y rhyfel cartrefol, cymmerodd y brenin unwaith fantais ar eiddigedd a ffynai rhwng Cromwell a'r Cyfammodwyr, a thaflodd ei hun am nodded i freichiau y diweddaf. Ond er eu bod wedi rhoddi derbyniad iddo, bu yn dda ganddynt drachefn yn fuan gael ymwared o hono, a throsglwyddasant ef i ddwylaw y senedd—er, y mae yn ddiau, nad oedd ganddynt un syniad am y dynged oedd yn ei aros. Y mae hyny yn eglur oddi wrth eu hymddygiad yn ol llaw: o herwydd derbyniasant y newydd am ei ddienyddiad gydag arswyd a chasineb; a'r dydd canlynol, wedi derbyn o honynt yr hysbysiad am farwolaeth Siarl I.—Chwefror 5ed, 1649—cyhoeddasant ei fab yn frenin, Siarl II. Pa mor anghysson bynag â'i gymmeriad cyffredinol yr ystyrir gwaith y dyn hwn yn llawnodi Cyfammodau yr Alban, gan dyngu i amddiffyn hawlfreintiau y Presbyteriaid, gwnaeth hyny, er mwyn cael ei dderbyn gan y genedl fel brenin, a glaniodd yn ngenau yr afon Spey, Mehefin 16eg, 1650. Ionawr 1af, 1651, coronwyd Siarl gan y Cyfammodwyr yn Scone, pan yr adnewyddodd ei lw o ffyddlondeb i'r Cyfammodau, ac y tyngodd drachefn i amddiffyn eglwys yr Alban. O herwydd y coroniad hwn, tynodd yr Ysgotiaid arnynt eu hunain wg Cromwell, a bu gorfod i Siarl ffoi i Ffrainc. O'i hanfodd, ymostyngodd yr Alban i awdurdod Cromwell, yr 2il o Ebrill, 1652; ac am yr wyth mlynedd dilynol, efe a'i llywodraethai, i raddau pell, mewn heddwch ac uniondeb. Ni erlidid neb ar gyfrif ei opiniynau crefyddol; mwynhäai y trigolion eu rhagorfreint-

Digitized by Google

iau, a gofalai y gweinidogion am eu praidd, heb neb yn gormesu ar eu hawliau. O'r diwedd, machludodd haul Cromwell, a dyma ddechreuad y niwl a'r tywyllwch oedd wedi hyny i ordoi y Cyfammodwyr. Cyfranogai yr Alban, yn gystal a Lloegr, yn ngorfoledd y 29ain o Fai, ar adferiad Siarl II. i'r orsedd. Ond trodd yr amgylchiad allan yn chwerw iawn i blant y Cyfammodau. Hanes gorthrwm a chreulondeb swyddogion gwladol y dyn hwn tuag at y rhai, er pob peth, a ymlynent wrth eu Henaduriaeth, ydyw hanes yr Alban am flyneddoedd maith wedi yr Adferiad. Yr amser hwnw, gan faint eu gofal am eu ffurflywodraeth eglwysig, anfonodd nifer mawr o'r rhai mwyaf dylanwadol o honynt ŵr ffyddlawn ac ymddiriedus, yn eu tyb hwy, i Lundain, er mwyn gofalu na esgeulusid buddiannau Presbyteriaeth. Cafodd y gŵr hwn—James Sharpe, wrth ei enw, a gweinidog St. Crail—mai dymunol yn ngolwg Siarl, fel ei dad, fuasai difodi Presbyteriaeth yr Alban, a sefydlu Esgobyddiaeth yn ei lle. Yn anffyddlawn i'w ymddiried, gosododd ei hun yn nwylaw y penadur fel offeryn i gyflawnu ei amcanion drwg; ac addawodd y brenin iddo archesgobaeth St. Andrews, a phenaduriaeth yr eglwys, fel gwobr am ei wasanaeth. Bu Sharpe yn fflangell dost i'r Cyfammodwyr. O herwydd ei fradychiad o'i egwyddorion, er boddio y brenin, a'i greulondeb tuag atynt pan wedi ei osod yn archesgob, gwreiddiodd yn eu mynwesau y casineb dyfnaf tuag ato. Bu iddo ddiwedd echrydus. Pan yn dychwelyd yn ei gerbyd o Edinburgh, y 3ydd o Fai, 1679—wedi bod yn llunio mesurau newyddion i ormesu y Presbyteriaid—syrthiodd i ddwylaw deuddeg o'r dosbarth mwyaf poethwyllt o'r Cyfammodwyr; ac yn ngrym y teimlad oedd wedi dyfod i ffaglu yn eu mynwesau yn ngwyneb fod cannoedd o'u brodyr yn cael eu llofruddio yn ddidrugaredd gan y rhai a roddent mewn gweithrediad ewyllys yr archesgob, hwy a'i traddodasant ef i farwolaeth a'u dwylaw eu hunain; er fod lluaws mawr o honynt, pan wnaed y weithred yn hysbys, yn ei chondemnio.

Yn ystod y werin-lywodraeth, ni buasai gan yr Ysgotiaid senedd na gweinyddiaeth ar wahân iddynt hwy eu hunain; ond yn awr, adferwyd y ddau, a gosododd Siarl ei ddewis ddynion mewn swyddau, y rhai â'u holl egni, gyda senedd o gyffelyb anian iddynt eu hunain, a ymdrechasant i ddwyn oddi amgylch amcan y brenin; sef, adsefydlu Esgobyddiaeth. Heb nemawr o oediad, yn uniongyrchol, dechreuodd y senedd basio y naill fesur caethiwus ar ol y llall. Un ydoedd deddf o uchafiaeth, yn gwneyd y brenin yn farnydd goruchel ar bob achos—gwladol ac eglwysig: hefyd, fel sêl a sicrhâd ar hyn o orthrwm, pasiwyd mai rhaid oedd cymmeryd llw o ffyddlondeb i'r llywodraeth. Hefyd, gwnaed Deddf Diddymiad, fel ei gelwid, effaith yr hon oedd, difodi pa gyfraith bynag a wnaethid yn yr Alban y dwy flynedd ar ugain a aethent heibio—yn mysg pa rai yr oedd y Cyfammodau eu hunain.

Yn fuan wedi hyn, diddymwyd Presbyteriaeth trwy weithred seneddol, a gwnaed Esgobyddiaeth yn grefydd y wlad trwy yr un ddeddf. O herwydd ymraniadau yn eglwys yr Alban ei hun, ac ymddygiadau bradwrus cyffelyb i'r un a nodwyd yn amgylchiad James Sharpe, syrthiodd y wlad yn ysglyfaeth digymhorth i ddwylaw yr esgobion. Aeth pedwar o honynt i Lundain: ac yno, yn Westminster Abbey, derbyniasant urddau esgobol. Dychwelasant mewn rhwysg buddugoliaethus i Edinburgh; a thranoeth, pasiodd y senedd ddeddf, yn rhoddi i'r rhai hyn lawn awdurdod a nawddogaeth esgobol; a chyda hyny, gwnaethant gyfraith i'r perwyl hwn:—fod i bwy bynag a wnelent ddim â swyddau cyhoeddus lawnodi ysgrif yn ymwrthod â'r Cyfammodau fel pethau anghyfreithlawn a bradfwriadol. Y 29ain o Fai, 1662, pan y telid diolchgarwch cyhoeddus am adferiad y brenin, drylliwyd y Cyfammodau yn ddarnau trwy ddwylaw y dienyddwr cyffredin, a chawsant hefyd eu llosgi yn Linlithgow, yn nghanol twrf a gwatwar meddwon. Yn nesaf, gorchymynwyd i'r clerigwyr roddi eu presennoldeb mewn cyfarfodydd esgobyddol; ac er gorfodogi i hyn yma, ymwelodd cynnrychiolwr y brenin yn y senedd, ac ercill gydag ef, â'r parthau hyny o'r wlad lle yr ydoedd yr ysbryd cyfammodol gryfaf. Anfonodd y cynghor gyhoeddiad allan, yn alltudio o'i blwyf pa weinidog bynag na dderbyniai gyflwyniad o'i fywoliaeth o law yr esgob, os ydoedd wedi ymsefydlu yn y lle hwnw wedi y flwyddyn 1649. Os beiddid pregethu heb ufuddhau i'r wys hon, gorchymyn yr awdurdodau i filwyr y llywodraeth ydoedd, fod iddynt trwy drais dynu y gweinidogion i lawr o'u pulpudau. Yn hytrach nag ymostwng i'r iau esgobol, gwell fu gan yn agos i bedwar cant o weinidogion roddi i fyny eu bywoliaethau. Yn nhrymder y gauaf, gadawsant eu preswylfeydd, eu heglwysi, a'u praidd, oedd mor hoff o honynt; ac heb wybod i ba le yr oeddynt yn myned, ymdaflasant i ofal yr hwn sydd yn porthi y llewod ieuainc, a chywion y gigfran. Gosodwyd yn eu lle guradiaid hollol anghymhwys i'w swydd—sorod ac ysgubion y gogledd; y rhai, o herwydd eu dygn anwybodaeth, a'u träawdurdod, mewn cymhariaeth i'w rhagflaenoriaid, a lwyr gaëid gan y boblogaeth: ac wrth reswm, ni wnaent ymfoddloni i'r fath driniaeth. Hyn a barodd i'r llywodraeth ymosod ar gyfres o erlidigaethau a chreulonderau na chyfarfyddir â nemawr o'u cyffelyb yn holl gylch hanesiaeth. Heb ymfoddloni ar ysbeilio, dirwyo, a charcharu y Cyfammodwyr, gweinyddid arnynt y ffurfiau mwyaf arteithiol o boenydiau. Dienyddiwyd lluaws mawr, a llofruddiwyd mwy gan filwyr y llywodraeth ar hyd a lled y wlad, heb gymmaint a ffurf o brawf. Y deoliad crybwylledig ar y gweinidogion a achlysurodd y celgynnulliadau, a'r cyfarfodydd crefyddol yn yr awyr agored, oeddynt yn rhan mor arbenig o nodwedd oes y Cyfammodwyr. Am flyneddoedd lawer wedi hyn, bu goreuon y boblogaeth yn addoli Duw yn y wedd yma; yn priodi eu gwŷr ieuainc a'u gwyryfon heb amgen allorau na chlogwyni y creigiau; yn bedyddio eu rhai bach ar lanau yr aberoedd a lifent ger llaw eu cynnullfanau; ac ar brydiau, byddai miloedd yn cydgymuno ac yn cydganu eu salmau a'u hodlau o fawl yn nghanol yr anialwch. Nid oedd ymddygiadadau fel hyn ar un cyfrif yn foddhaol yn ngolwg y llywodraeth; edrychai gyda llygad eiddigeddus arnynt, a gorfodid y neb a'u mynychent i dalu dirwyon trymion. Er hyny, cynnyddu a wnaent; ac fel y mwyhäai sel a brwdfrydedd y Cyfammodwyr—yr hyn ydoedd i raddau anhygoel braidd—felly hefyd yr ymhelaethai yr awdurdodau mewn carcharu, poenydio, dienyddio, a llofruddio. Ac y mae hanesion lawer ar gael o greulonderau ofnadwy a gyflawnasant hwy, a'r dynion dideimlad a'u gwasanaethent, mewn ffordd o gosp ar y Cyfammodwyr, o herwydd ymlynu o honynt wrth yr hyn y tystiai eu cydwybodau oedd wirionedd.

Digitized by Google

Yn y cyfarfodydd hyn ar wyneb y maes, er eu diogelwch, rhaid oedd i'r Cyfammodwyr yn fynych ddwyn arfau gyda hwy; ac am yr aflonyddid ar eu haddoliad gan filwyr y llywodraeth, arweiniodd hyny i amryw frwydrau rhwng y gorthrymwyr a'r gorthrymedigion, a chollwyd llawer o waed yn y modd hwnw. Weithiau, ceisid eu dwyn i ymostwng trwy broffesu tynerwch tuag atynt, a llunio mesurau yn cyfarfod âg ychydig o'u dymuniadau; ond am y byddai y cyfryw fesurau oll yn cydnabod awdurdod oruchaf y brenin a'r esgobion, ni fynai y mwyafrif a'r goreuon o'r Cyfammodwyr gytuno â hwy; ac am hyn—a elwid eu hystyfnigrwydd—llwythai y llywodraeth hwy yn drymach drachefn â beichiau gorthrymus. Bu yr erlidigaeth yn y modd yma yn anrheithio y wlad am fwy nag ugain mlynedd yn amser teyrnasiad Siarl II. Yn ystod y tymmor hwnw, gwnaethid drygioni aruthr yn y tir; trwyddo, cafodd miloedd eu carcharu, miloedd eu halltudio, a miloedd eu lladd. Yr oedd holl randir deheu-orllewin yr Alban wedi ei droi yn un helfaes, lle y byddai y swyddogion gwladol yn parhau i ymlid y Cyfammodwyr; ac fel wedi eu tyngedu y difodent hwy oddi ar y ddaiar, megys pe hyny fuasai yr unig foddion i gadarnha Esgobyddiaeth yn y wlad. Yn marwolaeth y brenin yr ymddangosodd y pelydr cyntaf o'r goleuni oedd eto yn eu haros. Yr oedd y carcharau yn Edinburgh yn orlawn y pryd hwn; a gallesid meddwl y buasai hyd yn oed y gorthrymwyr eu hunain yn laru ar eu gwaith. Dilynwyd Siarl gan ei frawd, Iago VII.; ac am y waith gyntaf er dyddiau Mari, wele Babydd proffesedig ar orsedd Prydain. Nid oedd i wŷr o gyffelyb ysbryd a'r Cyfammodwyr lawer o dynerwch i'w ddysgwyl oddi wrth frenin o'r fath yma; ac fe wnaed pethau erchyll yn yr Alban yn nechreuad ei deyrnasiad. Yr 11eg o Fai, 1685, yn Wigton, dienyddiwyd hen wraig, tair a thrigain oed, a merch ieuanc, ddeunaw oed, am yr unig drosedd o'u bod yn arfer cyrchu i leoedd o addoliad yn yr awyr agored. Cariwyd eu dedfryd allan i'r lythyren—yr hyn ydoedd, eu boddi, trwy eu rhwymo wrth bolion yn y môr pan y deuai y llanw i mewn. Dyna anghraifft o'r hyn ydoedd wedi cael ei wneuthur yn barhäus mewn rhyw ffurf neu gilydd er dechreuad teyrnasiad Siarl. Ond byr fu tymmor Iago ar yr orsedd. Ceisiodd efe, fel y mae yn hysbys, adsefydlu y Babaeth yn y deyrnas; a therfynodd yr ymryson fa yn Chwyldroad 1688, a dodiad yr orsedd a'r goron i William a Mari; a thrwy y Chwyldroad, adferwyd tangnefedd i orthrymedigion yr Alban. Yr olaf o ferthyron y Cyfammodau oedd James Renwick, gŵr ieuanc, chwech ar ugain oed; yr hwn, Chwefror 17eg, 1688, a ddienyddiwyd yn Edinburgh, gan ddyweyd, fel y trengai, "I'th law y gorchymynaf fy ysbryd: gwared fi, O Arglwydd Dduw y gwirionedd." Erbyn hyn, yr oedd wyth mlynedd ar ugain o ddienyddio a llofruddio wedi myned heibio; ac o ddeunaw i ugain mil o bersonau â'u heinioes wedi eu cymmeryd oddi arnynt, trwy ddŵr, tân, neu gleddyf, neu yr ysgaffald; neu wedi eu halltudio i wledydd pellenig, neu ynysoedd y gogledd. Os gadewir y Waldensiaid yn eithrad, ni bu gwledydd Ewrop erioed yn dystion o'r fath erlidigaeth.—(*Sketches of Scottish Church History; Gilfillan's Martyrs, Heroes, and Bards of the Scottish Covenant.*)

CYFARCH—IAD—AU, [*cyf—arch*]: 2 *Bren.* iv. 29; *Marc* ix. 15; *Act.* xviii. 22; xxi. 7; xxv. 13; *Heb.* xi. 13. Cyfarch gwell: *Exod.* xviii. 7; 1 *Sam.* x. 4; *Mat.* v. 47; x. 12; *Luc* i. 40; x. 4; *Act.* xxi. 19. Anerch: *Rhuf.* xvi. 3—23; 1 *Cor.* xvi. 19, 20; 2 *Cor.* xiii. 12; *Phil.* iv. 21, 22; *Col.* iv. 10, 12, 14, 15; 1 *Thes.* v. 26; 2 *Tim.* iv. 19, 21; *Tit.* iii. 15; *Philem.* 23; *Heb.* xiii. 24; 1 *Pedr* v. 13, 14; 2 *Ioan* 13; 3 *Ioan* 15. Ymgyfarch: *Act.* xxi. 6. Cofleidio: *Act.* xx. 16.

Y gair Groeg a ddefnyddir yn yr holl fanau hyn o'r Testament Newydd ydyw, *ασπάσομαι* (*aspasomai*), yr hwn a dardd o *σπάω*=*tynu;* ac a arwydda, yn ol Wright, cofleidio, arfoli, croesawu, anerch, cyfarch. Ystyr priodol *ασπάσασθαι*, meddai Rose, ydyw cofleidio rhyw un; o blegid pan gynhyrfer un gan garedigrwydd at arall, y mae yn dueddol i daflu ei freichiau am dano, gan ei dynu yn rymus ato ei hun. Yn unol â hyn, cyfleithir y gair unwaith yn y Testament Cymraeg yn *gofleidio: Act.* xx. 1. Ond wedi y cyfan, ebe Rose, dichon mai y gair Hebraeg אסף (*aseph*) =*cynnull, cydgasglu,* ydyw gwreiddyn mwyaf priodol y gair Groeg *aspasomai.* Y mae Kypke yn dyfynu yr ysgrifenwyr Groeg i brofi fod y ferf hon yn cael ei chymhwyso at bethau cystal ag at bersonau. Dywed Pareus, ar ol Chrysostom a Theophylact, y defnyddir y gair yma mewn ffordd o droellymadrodd a gymmerwyd oddi wrth bersonau yn morio; y rhai, pan welont o bell y porthladd a ddymunant, a'i cyfarchant ef â bloeddiadau llawen. Yn yr ystyr yma y dyfyna Wetstein Virgil: *Æn.* iii. 522—4.

Y gair *cyfarchiad* a ddygwydd yn *Luc* i. 41, 44; a'r gair *cyfarchiadau* yn *Luc* xx. 46. Cyfleithiad o'r gair Groeg *ασπάσμος* ydyw y naill a'r llall; a chyfleithir yr un gair yn *gyfarch* yn *Mat.* xxiii. 7; *Marc* xii. 38; *Luc* i. 29; xi. 43; ac yn *anerch* yn 1 *Cor.* xvi. 21; *Col.* iv. 18; 2 *Thes.* iii. 17.

Yr oedd y rhan fwyaf o'r ymadroddion a arferid gynt mewn cyfarchiadau, cystal a'r rhai a ddefnyddid mewn ymadawiadau, yn arwyddo fod y person a'i defnyddiai yn eiriol dros y lleill. Yna, y mae y gair ברך (*barac*), a arwyddai yn wreiddiol *bendithio*, yn arwyddo hefyd cyfarch, croesawu, a chanu yn iach: *Gen.* xlvii. 8—11; 2 *Bren.* iv. 29; x. 13; 1 *Cron.* xviii. 10.

Y ffurfiau mynachaf o gyfarchiad yn mysg yr Hebreaid, cyn belled ag y gellir casglu o'r Ysgrythyrau, yw y rhai canlynol:—

1. "Bendigedig a fyddech di gan yr Arglwydd," neu ymadroddion cyfystyr.
2. "Yr Arglwydd a fyddo gyda thi."
3. "Tangnefedd i ti," neu arnat ti, neu gyda thi. Mewn gwledydd oedd yn cael eu mynych anrheithio, ac yn mysg pobl a ddistrywid mor aml gan ryfeloedd, yr oedd heddwch yn arwyddo holl fendithion bywyd; am hyny, yr oedd yr ymadrodd yma yn gyfystyr a dywedyd, "Bydd lwyddiannus." Cyfarchiadau o'r natur yma oedd y rhai mwyaf arferedig oll: *Barn.* xix. 20; *Ruth* ii. 4; 1 *Sam.* xxv. 5; 2 *Sam.* xx. 9; *Salm* cxxix. 8.
4. "Bydd fyw, fy arglwydd!" ydoedd gyfarchiad cyffredin yn mysg y Phœniciaid, ac a arferid gan yr Hebreaid, ond a gyflwynid ganddynt i'w breninoedd yn unig yn y geiriau hyn—"Bydded y brenin fyw byth" (1 *Bren.* i. 31); yr hyn a ddefnyddid hefyd yn llysoedd Babilonaidd a Phersiaidd: *Dan.* ii. 4; iii. 9; v. 10; vi. 6, 21; *Neh.* ii. 3. Y mae i hyn, er nad ydyw mewn gwirionedd yn dim ond dymuniad am hir ddyddiau a bywyd llwyddiannus, arferiad cyferbyniol yn mysg y rhan fwyaf o genedloedd y byd; ac nid yw yn gwahaniaethu oddi wrth *Vivat!* y Ladin; *Vive le Roi!* y Ffrancaeg; neu ein "oes oesoedd" ni ein hunain.

Digitized by Google

5. Χαῖρε, χαίρετε="bydd lawen!" "byddwch lawen!" a gyfleithir yn "Henffych well!" cyfystyr i'r Lladin *Ave! Salve! Mat.* xxvii. 29; xxviii. 9; *Marc* xv. 18; *Luc* i. 28; *Ioan* xix. 3.

Ymddengys fod yr arferion sydd gynnwysedig yn y cyfarchiadau llafar hyn, nid yn unig yn gyffelyb i, ond yn gyfystyr â'r cyfryw sydd fyth yn mysg yr Arabiaid. Yn wir, ystyrid y pethau hyn, fel y sylwyd, bron o'r un awdurdod ag egwyddorion crefyddol. Ond gwyddys am y cyfryw o ddeddfiadau y Coran a'i esbonwyr, na chynnwysant ond cymmaint o arferion blaenorol a hynafol yn unig ag a ewyllysiai y ddeddfwriaeth eu cadw. Eu cyfarchiad mwyaf cyffredin hwy, megys yn mysg yr Iuddewon, yw, "Tangnefedd i chwi!" I hyn yr atebir, "Arnoch chwithau y bo tangnefedd!" at yr hyn yn gyffredin y chwanegir, "A thrugaredd Duw a'i fendith!" Nid anercha Moslemiad neb byth y gŵyr ei fod o grefydd wahanol â'r cyfarchiad hwn; ac os cenfydd ddarfod iddo trwy gamsyniad gyfarch person fel hyn heb fod o'r un grefydd, efe a eilw ei gyfarchiad yn ol yn gyffredin: felly hefyd y gwna weithiau pan wrthodo Moslemiad ei adgyfarch. a dyweyd, "Tangnefedd arnom *ni*, ac ar bawb o wir addolwyr Duw!" Ymddengys fod hyn yn eglurhâd nodedig ar *Luc* x. 5, 6; 2 *Ioan* 11. Dilynir y *salam* (=cyfarchiad) yma yn gyffredin âg amryw foeseiriau gosodedig, y rhai a estynir yn burhirion, pan fwriado pobl fod yn foesgar; a chymmerant gryn amser i fyned trwyddynt. Am hyny, osgoir y cyfryw mewn heolydd llawnion, gan bersonau a fyddont ar frys, megys ag y gwnai yr Iuddewon, yn ddiammheu, o blegid yr un rheswm: 2 *Bren.* iv. 29; *Luc* x. 4. Y mae atebion gosodedig, neu ddewisiad o ddau neu dri o atebion i bob cyfarchiad; ac ystyrir y byddai rhoddi rhyw atebion heb law y rhai a benoda arfer yn werinaidd a difoes. Dichon mai y rhai hyny ydynt, trwy y rhai yr hwyhâ yr Israeliaid eu hymgyfeillach. Os gofynir i un, "Pa sut yr ydych?" etyb yntau, "Diolch i Dduw!" ac wrth dôn ei lais yn unig y gall yr ymofynydd ddywedyd pa un ai iach ai claf ydyw. Pan anercha dyn un arall â'r ymofyniad cyffredin, "A wyt ti yn iach?" (2 *Bren.* iv. 26) yr ateb yw, "Bendith Duw i ti!" neu, "Duw a'th gato!" [Mae y rhai hyn yr un yn gwbl ag atebion yr hen Gymry gynt. Gwel *Epistol Esgob Mynwy*, ar ol *Diffyniad y ffydd;* neu yn *Nhestament W. Salusbury.*] Pan gyferfydd un o gydnabod arall nas gwelodd ef er ys hir amser, efe a ddywed yn gyffredin, ar ol y *salam*, "Ti a'n gwnaethost ni yn amddifad trwy dy absennoldeb oddi wrthym:" i'r hyn yr etyb y llall yn gyffredin, "Duw a baro nas amddifader ni trwy dy absennoldeb di!"

Yr oedd yr agwedd a'r ymgrymiad arferedig wrth gyfarch yn amrywio yn ol urddas a sefyllfa y person a gyferchid; megys ag y mae gyda y Dwyreinwyr hyd y dydd hwn. Mae yn ddefod i'r person a roddo neu a atebo gyfarchiad roddi ei law ddeheu yr un amser ar ei fynwes, neu gyffwrdd ei wefusau, ac yna ei dalcen neu ei dwrban (penwisg) â'r un llaw. Cyflawnir y dull olaf yn fynych, yr hwn yw y mwyaf parchus, yn ngwydd person o sefyllfa uchraddol, nid yn unig ar y cyntaf, gyda'r cyfarchiad, ond hefyd yn fynych yn ystod yr ymddyddan. Plygir y corff weithiau yn llednais, tra y gosodir y llaw ddeheu ar ochr chwith y ddwyfron. Nid yw person o radd isel, wrth gyfarch ei uchafiaid, yn arfer y *salam* bob amser; ond dengys ei barch i radd uchèl trwy ostwng ei law hyd lawr, ac yna ei rhoddi ar ei wefusau a'i dalcen. Mae yn arfer gyffredin i ddyn gusanu llaw ei uchradd, yn lle ei law ei hun (ar gefn y llaw yn gyffredin, ond weithiau ar y cefn a'r cledr), ac yna ei rhoddi ar ei dalcen, er mwyn dangos mwy o barch penodol. Fel hyn y dengys gwasanaethwyr eu parch i'w meistriaid. Gwneir yn gyffelyb yn y dwyrain hyd y dydd hwn: gwneir hyn yn wastad gan wasanaethwyr ar achlysuron dibwys, na byddont yn perthyn i'w gwasanaeth cyffredin; megys ar

Dar. 214.

dderbyniad anrheg, neu yn ebrwydd ar ddychweliad eu meistriaid o'r baddonau. Hefyd, cusana y mab law ei dad fel hyn, a'r wraig law ei gŵr.

Dar. 215.

Pa fodd bynag, anfynych y goddef yr uchafiad hyn, ond yn unig cyffwrdd y llaw a estynir iddo; yna, rhydd y llall y llaw a gyffyrddwyd ar ei wefusau a'i dalcen ei hun. Mae y ddefod o gusanu y farf fyth yn arferedig, ac yn dilyn yr ystum gyntaf ac arweiniol; dygwydda yn gyffredin ar ol i un fod oddi cartref am ennyd, ac nid fel cyfarchiad dyddiol. Yn yr amgylchiad yma, gesyd y person a rydd y cusan ei law ddeheu dan y farf, a chyfyd hi yn foneddigaidd at ei wefusau; neu yn hytrach cynnal hi tra y derbynio ei gusan. Mae yr arfer yn eglurhâd nodedig ar 2 *Sam.* xx. 9. Yn Arabia Garegog, a rhai parthau ereill, yr arfer fwyaf cyffredin ydyw, i bersonau oesod ochrau deheu eu gruddiau yn nghyd.

Yn mysg y Persiaid, y mae personau, wrth gyfarch dan yr un amgylchiadau, yn cusanu eu gilydd yn fynych ar y gwefusau; ond os bydd un o'r personau o radd uchel, rhoddir y cusan ar y rudd. Ymddengys yr eglura hyn 2 *Sam.* xx. 9;

Digitized by Google

Gen. xxix. 11, 13; xxxiii. 4; xlviii. 10—12; *Exod.* v. 27; xviii. 7.

Dar. 216.

Dull arall o gyfarchiad sydd arferedig yn mysg cyfeillion, ar eu cyfarfyddiad ar ol taith:—Cyssylltant eu dwy law ddeheu yn nghyd, ac anercha pob un y naill y llall o blegid eu diogelwch; ac amlygant eu dymuniadau am lwyddiant eu gilydd, trwy adrodd, bob yn ail, amryw weithiau, y geiriau *salamat* (="hawddammor i ti ar dy ddychweliad diogel"), a *teiyibeen* (="hyderaf dy fod yn iach"). Wrth ddechreu y seremoni yma, yr hon yn gyffredin a bery am gryn fynyd cyn y dechreuant un ymofyniad penodol, cyssylltant eu dwylaw yn y dull arferedig genym ninnau, ac ar bob ail adroddiad o'r ymadroddion, newidiant sefyllfa eu dwylaw. Eglurhâ yr amgylchiadau hyn yn mhellach y fath ymadroddion ag a geir yn 2 *Bren.* iv. 19; *Luc* x. 4. Gellir gweled chwaneg ar y mater yma dan AGWEDD; CUSAN.

CYFATEBIAETH IEITHOEDD. Gwel IEITHOEDD.

CYFATTAL, [*cyf—attal*]: cyd-ddal gafael. "Cyfattal y Pen;" *Col.* ii. 19. Y mae y rhangymmeriad κρατῶν yn arwyddo gafaeliad sicr a di-ildio. Cyfleithir yr un gair *glynu*, yn *Heb.* iv. 14: *dal*, yn *Mat.* xxvi. 48, 50; *Marc* xiv. 44, 46; 2 *Thes.* ii. 15: *attal*, yn *Ioan* xx. 23; *Act.* ii. 24; iii. 11: *ymaflyd*, yn *Mat.* ix. 25; xii. 11; *Marc* i. 31: *cadw*, yn *Marc* ix. 10. Yr oedd y cyfeiliornwyr y cyfeiria yr apostol atynt "heb gyfattal y Pen;" a thueddai y nifer mwyaf o'u cyfeiliornadau at hyn. Y mae yr ymadrodd yma yn dangos fod "addoliad angelion" yn wrthodiad o Grist fel Pen a Chyfryngwr; a'r un modd y gellir dyweyd am addoliad y seintiau. Os addolir angelion neu seintiau, yna attelir addoliad oddi wrth ei Berson ef. Yr oedd y cyfeiliornwyr hyn yn argymhell yr enwaediad a hunan-gospedigaethau Asceticaidd ar y Colossiaid, fel yn angenrheidiol er iachawdwriaeth; a thrwy hyny, yr oeddynt "heb gyfattal y Pen:"—darostyngent ryglyddiant ei gyfryngdod Ef. Wrth bregethu parhâd y seremoniau Moesenaidd, camsynient am ysbryd, a chollent fudd a lles y gyfundrefn a sefydlodd Ef. Ni ddalient y gwirionedd am ei Berson, ei waith, ei lywodraeth, nac am yr oruchwyliaeth a sefydlasai. Cyfeiliornent am y gwirioneddau mwyaf pwysig; ac felly, nid oedd dim undeb rhyngddynt a'r Pen.

CYFATHRACH—U—WR—WRAIG, [*mathrach*]: perthynas, carenydd trwy briodas, cyfnesafiaeth; dyweddio mewn priodas; cyfnesaf, câr, câr trwy gyfraith, câr waredwr. Y cyfathrachwr oedd y perthynas hwnw a feddai hawl i briodi gwraig un a fyddai wedi marw. Mae y gair yn gyfleithiad o ddau air Hebraeg:—יבם=perthynas agos, yr hwn, yn ol cyfraith Moses, a feddai hawl i brynu etifeddiaeth, ac a oddefid i ddial gwaed ei berthynas, trwy ladd y llofrudd, os daliai efe ef y tu allan i'r dinasoedd noddfa. Dyma y gair yn *Ruth* ii. 20. [Gwel DIALYDD Y GWAED.] Y gair arall ydyw גאל, yr hwn, yn y ferf, a arwydda cymmeryd un yn wraig, a chydfyw â benyw: *Gen.* xxxviii. 8; *Deut.* xxv. 5, 7. Fel sylweddair gwrywaidd, arwydda brawd gŵr (*Deut.* xxv. 5, 7); ac yn y fenywaidd, dynoda brawd gwraig: *Deut.* xxv. 7, 9; *Ruth* i. 15. Ymddengys, oddi wrth Lyfr Ruth, fod y gyfraith (*Deut.* xxv. 5, &c.) o barth i ddyn gymmeryd gweddw ei frawd ymadawedig, a chyfodi had i'w frawd, yn cyrhaedd yn mhellach na brawd y gŵr, sef hyd at y perthynas hwnw a feddai hawl gollyngdod neu bryniad: *Ruth* iii. 12, 13; iv. 5, 10. Y mae yn amlwg hefyd, oddi wrth *Gen.* xxxviii. 8, fod yr arferiad o briodi gweddw y brawd a fuasai farw yn llawer henach na chyfraith Moses; ac oddi wrth yr hen arferiad hon, neu y sefydliad Iuddewig, yr ymddengys fod yr Atheniaid wedi cael y gyfraith hynod hono—"Na chaffai yr un etifeddes briodi neb allan o'i theulu a'i pherthynasau ei hun, ond fod iddi roddi ei hunan a'i heiddo i'w chyfnesaf; ac yn ol yr un gyfraith, yr oedd ei chyfnesaf yn rhwym o'i phriodi hithau." Cyfarfyddwn â'r gyfraith neu yr arferiad o briodi gweddw brawd, yn mysg cenedloedd diweddar. Y mae Olearius, yn *The Ambassador's Travels into Persia*, yn hysbysu am y Circassiaid:—"Pan bydd marw gŵr heb blant iddo, y mae ei frawd yn rhwym o briodi y weddw i gyfodi hâd iddo." Crybwyllir hefyd yn yr *Annual Register* am 1779, fod "priodi gweddw brawd, os yn ddiblant, yn arferiad yn bresennol mewn rhai rhanau o Tartary, yn enwedig Circassia." A dywed Volney [*Voyage en Syrie, tom.* ii., td. 74], "Fod y *Druzez* yn cadw arferiad yr Hebreaid, i ryw raddau, yn ol pa un y priodai un wraig ei frawd; ond nid yr arferiad Hebreig hon yn unig sydd ganddynt, ond dilynant amryw o'u harferion ereill, fel y gwna trigolion Syria a'r Arabiaid yn gyffredin." Ond sicrha Niebühr, "tra y dygwydda yn mysg y Mahometiaid fod dyn yn priodi gweddw ei frawd, eto, nid oes ganddi hi un awdurdod i'w gymhell i hyny."—(*Parkhurst's Lexicon*).

CYFDDYDD, [*dydd*]: y bore-ddydd, llug y dydd, y glasddydd, clais y dydd, y wawr-ddydd, gwawriad neu doriad y dydd, plygain; rhwng tywyll a goleu yn y bore:—awel y bore; *Heb.* "Caf ddigon o ymdroi hyd y cyfddydd;" *Iob* vii. 4. "Achubais flaen y cyfddydd;" *Salm* cxix. 147.

CYFEDDACH, [*cyfedd*]: cydyfed, medd; gwledd, yn yr hon y cydyfid gwin; cydyfed gyda hoffder yn yr arferiad â'r gyfeillach. "Cy feddach y gwin" (Seis., *banquet of wine*): *Esth* v. 6; vii. 1, 2. Nid arferai y Persiaid ddwyn gwin i'r bwrdd, hyd nes y cymmerid y bwydydd a'r ffrwythydd ymaith. Yfent ddwfr yn unig gyda'u bwyd. "Nid mewn cyfeddach a meddwdod;" *Rhuf.* xiii. 13. Y gair Groeg a arferir am gyfeddach ydyw κῶμος; yr hwn a dardda o, neu o leiaf sydd yn dwyn cyssylltiad â, κῶμος (*comus*)—duw y gwledda a'r gloddest. Tybia Parkhurst fod *comus* yr un a *chemos*—ffleidd-dra y

Digitized by Google

Moabiaid a'r Amoriaid—yr hwn, medd Jerome, ar *Esa.* xv. 4, oedd yr un a Baalphegor. Felly yr oedd y duw hwn yn un o'r math aflanaf, ac yn noddydd i bob rhysedd ac afreoleidd-dra. Ac oddi wrth enw y duw, daeth y gyfeddach a'r pethau perthynol iddi, megys y caniadau llygredig a'r dawnsiau, i gael eu galw wrth yr enw hwn. "Y comus," medd Suidas, "sydd ddawns feddwol; yr hon, fel y mae yr ymyfed yn parhau, sydd yn ennyn pob anlladrwydd, ac yn gwneyd y wledd yn olygfa lle y cyflawnir y gweithredoedd mwyaf anweddaidd." Gwneid y κωμος er anrhydedd i Bacchus, yr hwn a elwid ar y cyfrif hwnw *comastes.* Arferai ieuenctyd y dinasoedd paganaidd, pan mewn cariad â rhyw rai, ar ol syrthio i feddwdod, wylio ar hyd yr heolydd yn y nos, gan wisgo ar eu penau goronau o ddail, gyda thorchau fflamiawg yn eu dwylaw. Cariai rhai o honynt offerynau cerddorol, y rhai a ddilynid gan ereill gyda chwareuon ac ystumiau anllad ac anweddaidd. Ymddangosent gyda'r anweddeidd-derau yma o flaen drws y ferch a garent; ac weithiau, curent y drws, a mynent gael derbyniad. O herwydd yr afreoleidd-dra cyhoeddus yma, y mae Doethineb Solomon yn eu galw "y cyfeddachau gwallgofus." A gwelir oddi wrth hyn, pa mor briodol ydyw gwaith yr apostol yn cyssylltu cyfeddach, meddwdod, cydorwedd, ac anlladrwydd, â'u gilydd; ac yn dwyn "gwisgoedd ac arfau y dydd a'r goleuni" i gyferbyniad â'r cyfeddachau nosawl hyn, a'r arferion perthynol iddynt: *Gal.* v. 21; 1 *Pedr* iv. 3.

CYFEILIORN — I — US — AD, [*meiliorn*]: gwyrog, traws, diarffordd; gwyriad, trawsedd, amryfusedd. *Num.* xxii. 32; *Salm* xcv. 10; *Diar.* v. 23; *Esa.* xxix. 24. "Gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus;" 1 *Tim.* iv. 1. Y mae y gair πλανος yn arwyddo, yn y lle cyntaf, un yn gwylio, ac yn crwydro oddi amgylch: dynoda y sylweddair πλανήτης, crwydryn; ac oddi ar hyn y cyfieithwyd y frawddeg gan W. Salusbury, "ysbrydion crwydrog." Arferir y gair yn y Testament Newydd am gyfeiliornad oddi wrth, neu ymadawiad â'r gwirionedd. Arwydda "ysbrydion cyfeiliornus," yn y fan hon, gau honiadau i ysbrydoliaeth, yr hyn a barai i ddynion gyfeiliorni oddi wrth y gwirionedd. Meddyliai yr apostol, yn ol barn Macknight, am y dichellion a'r twyll trwy ba rai yr argymhellai athrawon llygredig y canoloesoedd eu hathrawiaethau gau a'u hymarferiadau ofergoelus ar y werin anwybodus, y rhai a gofleidid gan y dosbarth diweddaf fel dadguddiadau oddi wrth Dduw, neu oddi wrth angelion, neu ysbrydion ymadawedig. Yn yr ystyr yma yr arferir y gair *ysbrydion* yn 1 *Ioan* iv. 1; "Na chredwch bob ysbryd"—pob ymhonwr i ysbrydoliaeth — "eithr profwch yr ysbrydion ai o Dduw y maent."

"Wrth hyn yr adwaenom ysbryd y gwirionedd ac ysbryd y cyfeiliorni;" 1 *Ioan* iv. 6. Dyma y safon cywir i farnu y rhai a roddent eu hunain allan fel dysgawdwyr crefyddol wrthi: os oeddynt yn derbyn athrawiaeth yr apostolion gyda'r ymostyngiad dibetrus hwnw oedd yn ddyledus tuag at bersonau wedi eu hysbrydoli gan Dduw; a chan eu bod wedi meirw, yn llefaru eto "yn eu hysgrifeniadau, y mae eu lleferydd hwy, a chydweddiad y farn â'u lleferydd, yn safon wrth ba un y gall dysgyblion Crist, yn mhob oes, wahaniaethu ysbryd y gwirionedd oddi wrth ysbryd y cyfeiliorni.

CYFEILLION. Gwel CRYNWYR.

CYFIAWN, [*cyf—iawn*]: iawn, cywir; yr hyn sydd ddyledus, cyfreithlawn. Y gair Groeg a gyfieithir cyflawn, ydyw δικαιος; yr hwn a arwydda, mewn ystyr anianyddol, tebyg, gwastad, cyfartal, cymmesur, neu briodol. Cymhwysa Herodotus y gair at rif, yn dynodi gwastadrif. Ni ddefnyddir y gair yn y Testament Newydd ond mewn ystyr foesol yn unig, yn arwyddo yr hyn sydd uniawn. Arferir ef i ddynodi cymmeriad personau, ac ansawdd ymddygiadau. Dynoda—1. Un sydd yn gweithredu yn gyffelyb neu yn anmhleidgar at bawb; yn gweinyddu uniondeb perffaith annhueddol: ac felly y mae yn cael ei gyssylltu fel ansoddair â "barnwr" (2 *Tim.* iv. 8; *Dad.* xvi. 5), ac à barnau neu benderfyniadau: *Ioan* v. 30; vii. 24; *Luc* xii. 57; 2 *Thes.* i. 5, 6. A'r un modd arferir ef yn y Deg a Thrigain am אמת: *Ier.* xlii. 5; *Ezec.* xviii. 8. 2. Cymmeriad neu ymddygiad uniawn a rhinweddol. Y mae dyweyd, yn iaith yr Ysgrythyrau, fod un yn δικαιος, yn gyfystyr a phe y dywedem ei fod yn ddyn *da*—da yn yr ystyr cyffredinol i'r gair; o blegid yr ydym yn cael y ddau air, δικαιος (*cyfiawn*) ac ἀγαθός (*da*) rai prydiau yn gyferbyniol i'w gilydd, ac felly yn meddu ystyr gwahanol. Cymhwysir y gair at bethau, megys gweithredoedd (1 *Ioan* iii. 12): y gorchymyn (*Rhuf.* vii. 12): cyflog (*Mat.* xx. 4, 7; *Col.* iv. 1). Pan gyssylltir y gair â phersonau, arwydda yn fynych un o ymarweddiad a rhodiad dichlynaidd; un yn llanw cyssylltiadau, ac yn cysson gyflawnu dyledswyddau bywyd: *Mat.* v. 45; *Marc* ii. 17; *Luc* v. 32; *Act.* x. 22; *Rhuf.* v. 7; 1 *Tim.* i. 9. Weithiau, y mae yn cynnwys yr elfen o *ddiniweidrwydd* yn fwyaf arbenig: *Mat.* xxvii. 19, 24; y Deg a Thrigain yn *Iob* ix. 23. Weithiau, cynnwysa y drychfeddwl o *dynerwch a thiriondeb* (*Mat.* 19; a 1 *Ioan* i. 9), yn ol barn Tittmann a Robinson. Arwydda δικαιος y cymmeriad hwnw sydd yn uniawn gyda Duw; duwiol, sanctaidd: *Mat.* xiii. 43; xxv. 46; *Marc* vi. 20; *Luc* xiv. 14. Yn y nifer mwyaf o esamplau, efallai, arwydda "cyflawn" yr agwedd ysbryd, a'r ansawdd cymmeriad tufewnol, sydd yn iawn a chymmeradwy yn ngolwg Duw: ond weithiau, dynoda yn benaf gyflwr cyfiawn y pechadur mewn undeb â Christ—"Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd;" *Rhuf.* i. 17. Cymhwysir y gair yn yr ystyr uchaf a pherffeithiaf at Dduw (*Ioan* xvii. 25; *Rhuf.* iii. 26; 1 *Ioan* ii. 29), a Christ (*Act.* iii. 14; vii. 32; xxii. 14; 1 *Ioan* ii. 1; iii. 7).

Pa beth ydyw ystyr y gair *cyfiawn*, pan gymhwysir ef at Ioseph, gŵr Mair (*Mat.* i. 18), ac y dygir hyny yn mlaen fel rheswm pa ham yr ewyllysiai ei rhoddi ymaith yn ddirgel? Y mae Bengel yn sefyll dros yr ystyr mwyaf cyffredin—uniawn, teg:—"Y mae y meddwl yn eglur. Ewyllysiai Ioseph roddi Mair ymaith, ac ewyllysiai hefyd wneuthur hyny yn ddirgel. Mynega yr efengylwr yr achos o'r ddau ddymuniad. Pa ham yr ewyllysiai wneuthur hyny yn *ddirgel?* Am ei fod yn anfoddlawn i gyhoeddi y peth, a thrwy hyny ddwyn oddi amgylch y gospeidgaeth a weinyddai y gyfraith ar fenywod a brofid neu a dybid yn euog o odineb; ac felly gwneyd esampl o un ag y parchai ei phurdeb mewn pethau ereill i raddau mor fawrion. Ond pa ham yr ewyllysiai ei rhoddi ymaith o gwbl? Yr ydym yn cael hyny allan yn y cyd-destyn—am ei fod yn *gyfiawn*, ac nad ystyriai yn beth anrhydeddus cymmeryd hono yn wraig, a yn-

Digitized by Google

ddangosai yn anffyddlawn i'w hadduned briodasol. Yr oedd ei feddyliau yn amrywiol a therfysglyd; yr oedd mewn petrusder ac ammheuaeth dwfn. Ac y mae Matthew yn gosod hyn allan gyda phrydferthwch mawr, mewn geirweddiad sydd i fesur yn amwys ar gyfrif ei fyrdra." Y mae yr ystyr arall a roddir i'r gair —yr ystyr a roddir gan Robinson, Olshausen, Alford, ac ereill—yn ymddangos i ni yn fwy cysson â'r cyd-destyn. Dygir y ffaith fod Ioseph yn "ŵr cyfiawn" ger bron fel rheswm, nid am ei fod yn ei rhoddi ymaith—pe rheswm am hyny fuasai, buasai eglurhâd Bengel yn gywir—ond am ei fod yn cwyllysio peidio ei gwneuthur yn esampl, a'i rhoddi ymaith yn ddirgel. Ac yn hyn, dangosodd Ioseph ei fod yn δίκαιος—yr hwn air a esbonir gan Chrysostom ἄχρηστος=*tyner, tirion.* "Nis gall yr ymadrodd hwn," medd Olshausen, "olygu, fel yn *Luc* i. 6, un a fanwl gyflawnai orchymynion y gyfraith; o blegid, yn unol â hwynt, dylasai ddwyn cyhuddiad yn erbyn ei ddyweddi:" *Deut.* xxii. 23. Y mae Tittmann a Robinson, fel y crybwyllwyd uchod, yn ystyried mai y prif ddrychfeddwl yn 1 *Ioan* i. 9 ("Ffyddlawn yw efe a chyfiawn, fel y maddeuo") ydyw trugarog, tosturiol. Ond mae y dyb hon yn ysbeilio yr adnod o'i gogoniant. Y mae yn wir mai o ras a thosturi Ichofah y deillia maddeuant i bechadur; ac â thynerwch y mae maddeugarwch yn fwyaf cyffredin yn gyssylltiedig: —cospi y drygionus ydyw gweithred fwyaf uniongyrchol cyfiawnder, ac nid gweinyddu maddeuant iddo. Ond yn nhrefn yr efengyl, y mae maddeuant mor gydweddol â chyfiawnder ag ydyw â thrugaredd; ie, pan y mae pechadur yn syrthio i mewn â thelerau y drefn hon, y mae cyfiawnder natur Duw nid yn unig yn foddlawn i faddeu, ond yn gofyn am faddeuant iddo—yn ei sierhau. Ac ar y dybiaeth fod y pechadur wedi cymmeradwyo a chyddfurfio â threfn Duw yn yr efengyl, y mae cyfiawnder yn sierhau maddeuant iddo:—"os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe a chyfiawn." Y mae y geiriau "ffyddlawn a chyfiawn" yn cynnwys yr un meddwl yn mron. Cyfeiriant ill dau at addewidion a threfn Duw; ond y mae y diweddaf yn rhoddi sail gryfach o hyder, yn gymmaint a bod maddeu i'r edifeiriol yn cael ei osod allan fel act o eiddo cyfiawnder. "Gallasai Duw fod yn gyfiawn wrth ymddwyn tuag atom yn ol llymdostedd ei gyfiawnder; ond gan ei fod wedi rhwymo ei hun i ni trwy ei air, ni byddai yn gyfiawn heb faddeu i'r edifeiriol."—*Calvin.*

Yn *Rhuf.* v. 7, y mae y gair *cyfiawn* mewn gwrthgyferbyniad i'r gair *da.* Y mae y ddau yn fynych yn y Testament Newydd, fel y dangoswyd, ac mewn ysgrifeniadau clasurol, yn cael eu harfer yn gyfystyr; ond yn aml iawn, ceir hwy hefyd yn wahaniaethol eu harwyddocâd. Er esampl, dywed Cicero [*De Offic.*, iii. 15]:—"Ni a ddeuwn o hyd yn rhwydd i ddyn cyfiawn (*justum virum*); ond nid yn hawdd y cawn ddyn da (*bonum*)." "*Jupiter optimus dictus est, id est beneficentissimus*"="Y mae Iau yn cael ei alw y goreu; hyny yw, y mwyaf haelfrydig neu gymmwynasgar." Dywedir hefyd yn y *Talmud*:—"Y mae pedwar math o ddynion:—1. Y rhai a ddywedant, 'Yr eiddof fi sydd eiddof fi, a'r eiddo ti sydd eiddo ti:'—dyma y rhai canolig. 2. Y rhai a ddywedant, 'Yr hyn sydd eiddo fi sydd eiddo ti, a'r hyn sydd eiddo ti sydd eiddo fi:'—dyma y cyffredin bobl. 3. Y rhai a ddywedant, 'Yr hyn sydd eiddo fi sydd eiddo ti, a'r hyn sydd eiddo ti sydd eiddot:'—dyma y rhai da (αγαθοι). 4. Y rhai a ddywedant, 'Yr hyn sydd eiddof fi sydd eiddof, a'r hyn sydd eiddo ti sydd eiddof:'—dyma y dosbarth gwaethaf." Y mae "cyfiawn," yn y fan hon, yn golygu y cyfiawn yn ystyr arferol y gair—un sydd yn rhydd oddi wrth droseddau adnabyddus, fel y cyfryw, yn ngolwg y gyfraith; un heb dwyllo na gwneyd cam âg arall. A thros y cyfryw gymmeriad, byddai yn anhawdd cael neb i roddi ei fywyd yn aberth. Y mae y cyfiawn yn ennill parch ereill; ond ni wna neb aberth mawr oddi ar hyny. Ond y mae y da yn cadwyno y galon; y mae y cymmwynasgar yn cael ei garu yn gystal a'i barchu; a thros hwnw, ysgatfydd, fe feiddiai un farw.

CYFIAWNDER, [*cyf — iawnder*]. Y mae llawer wedi ei ysgrifenu, er oesoedd boreuaf y cyfnod Cristionogol, ar gyfiawnder yn gyffredinol, ac yn enwedig fel un o berffeithiau yr Anfeidrol. Ni oddef terfynau y gwaith hwn i ni ond taflu trem frysiog ac anmherffaith ar y gwahanol syniadau a amddiffynwyd mewn gwahanol oesoedd. Ymddengys fod golygiadau yr ysgrifenwyr boreuaf yn dra amrywiol a chymmysglyd ar y perffeithiau dwyfol. Dylanwadai eu tuedd at Anthropomorphiaeth [gwel d. g.], i'w harwain i ddyryswch yn eu hymchwiliadau i'w berffeithiau naturiol; parai hyn iddynt roddi terfyn ar y priodoliaethau sydd, fel efe ei hun, heb derfyn arnynt. Nis gallasent, yn unol â'r duedd y cyfeiriwyd ati, eu cyssoni âg anfeidroldeb: a'r un modd, nis gallasent gymmodi y priodoliaethau moesol â'u gilydd. Ond fel y daethant i feddiannu golygiadau mwy ysbrydol, a syniadau mwy dyrchafedig, am natur y Duwdod, daeth eu syniadau am ei briodoliaethau yn fwy eglur a phriodol. Y rhai a goleddent y tybiau Anthropomorphaidd am natur a pherffeithiau Duw yn yr oesoedd boreuaf oeddynt y Cristionogion Gnosticaidd. "Methent hwy a chyssoni cyfiawnder Duw yn gweinyddu cosp gyda'i berffeithrwydd arall, sydd yn maddeu ac yn arbed; ac ar y cyfrif hwn teimlent dan angenrheidrwydd i wahanu Duw cyfiawn yr Hen Destament oddi wrth Dad tyner y Cristionogion." Safodd Irenæus, Tertullian, Clement, Origen, ac ereill, i fyny i amddiffyn cyfiawnder cospawl Duw, gan ddangos ei fod yn berffaith gydweddol â chariad a haelfrydedd ei natur, mewn gwrthwynebiad i'r gwahaniaeth a nodwyd. Honai y cyntaf nad ydyw cosp yn gynnwysedig mewn dim pendant neu gadarnhaol yn deilliaw oddi wrth Dduw, ond yn ysgariad yr enaid oddi wrtho ef. Y mae Tertullian, gyda mwy o fedrusrwydd, a dyfnach golygiant i'r mater, yn ystyried fod cyfiawnder cospawl Duw yn sylfaenedig ar anghyfnewidioldeb tragwyddol ei ddeddf; a gwna y gwahaniaethiad a eglurwyd yn rymus gan dduwinyddion diweddarach, rhwng cariad gwirioneddol a goruchel a thynerwch yn tarddu oddi ar wendid. Y mae golygiadau Clement yn cydfyned i fesur mawr âg eiddo Tertullian; ond tra y mae Tertullian yn dwyn amddiffyniad cyssegredigaeth y ddeddf fel y prif achos o gospi pechod, y mae efe yn llefaru am hyny yn mysg y diweddaf o'r achosion. Prif amcan cosp, yn ol ei feddwl ef, ydyw diwygio a gwellhau dynion, yn nghyd â rhybuddio ac attal ereill rhag pechod. Nis gellir, mae yn ddiammheu, edrych ar hyn ond amcan israddol. Nis gellir rhoddi rheswm am gosp tragwyddol ar y tir yma; ac oni buasai hanfodiad *cymdeithas* o ddynion, ni buasai

Digitized by Google

angenrheidrwydd am weinyddu cosp o gwbl. Y mae yn rhaid fod y rhai a ddyoddefent y gosp yn wastadol a thragwyddol mewn ystad o brawf a dysgyblaeth, ac felly mewn sefyllfa o obaith, cyn y mae yn bosibl ystyried yr amcan hwn fel y cymhelliad cryfaf i gospi pechod. Y mae Origen hefyd wedi syrthio i'r un amryfusedd. Wrth brofi fod gwahaniaethiad y Gwybedyddion rhwng cyfiawnder a thiriondeb neu haelfrydedd, yn ddisail, ceisiai ddangos mai yn y cymmeriad o Dad y mae Duw yn gweinyddu pob cospedigaeth: llefara am danynt fel gweinyddiadau "meddyginiaethol:" ac er ei fod mewn rhai manau yn rhoddi rhai awgrymiadau a ddangosant ei fod yn cydnabod fod achosion ereill i'r barnedigaethau dwyfol, eto y mae yn ymddangos mai dyma y drychfeddwl penaf a feddent am danynt.

Y drychfeddwl am gyfiawnder yw un o'r rhai pwysicaf ac eangaf yn holl gylch moesddysg a duwinyddiaeth. Yn ei ystyr eangaf, priodolir ef i unrhyw beth a gyfateb i natur a deddf ei fod. Cyfiawn yw pob peth sydd *iawn*, yn ol amcan cyntaf ei Greawdwr. Ond yn neillduol, rhinwedd ydyw sydd yn perthyn i weithredwyr rhydd; ac y mae yn gynnwysedig mewn cydymffurflad â deddf sydd yn sylfaenedig ar wir berthynasau pethau. Pa beth bynag a ellir ei ofyn oddi wrth weithredydd rhydd, yn unol â'i natur a'i berthynasau, ei ddyledswydd ydyw hyny. Y mae y cyfryw yn gwneuthur yn iawn wrth weithredu yn unol â hyny. Dyn cyfiawn, gan hyny, mewn ystyr foesol, yw yr hwn sydd fel y dylai fod, yn ol ei wahanol berthynasau, a'r ddeddf sydd yn sylfaenedig arnynt. Y mae dyn yn gyfiawn mewn ystyr gwladol a dinesig sydd yn ymddwyn yn unol â deddf ei wlad, ac â'r lle y perthyn iddo ynddi:—un sydd yn cyflawnu y cylch o ddyledswyddau sydd yn perthyn iddo, heb syrthio yn fyr na myned dros y cylch hwnw, ond yn rhoddi bawb yr hyn sydd eiddo (*suum cuique*).

Cyfiawnder Duw ydyw y dadguddiad hwnw o'i sancteiddrwydd, trwy ba un y mae, fel barnwr, yn rhoddi i bawb yr hyn a haedda—yn rhoddi i bawb, heb dderbyn wyneb, yr hyn a berthyn iddo, ac yn gosod pawb yn ei le priodol. Y briodoledd hon a gyfiawnhâ y cyfiawn, ac a gondemnia ac a gospa yr anwir. Cymmedrolir y gosp yn ol graddau cyfrifoldeb a graddau euogrwydd: *Luc* xii. 47. 48; *Rhuf.* ii. 5, 6. Lleferir am gyfiawnder yn gwobrwyo (2 *Tim.* iv. 8) y saint, ar sail addewidion Duw, o herwydd fod yr hwn sydd yn derbyn yn cael lle i ddysgwyl eu cyflawniad fel math o hawl a ganiateir iddynt trwy ras: *Luc* xii. 47, 48; *Mat.* xix. 28. Ac felly y mae gras a gwobr yn cyfarfod yn yr efengyl. Er fod yr Hen Destament yn cynnwys dysgrifiadau o Dduw fel bugail, arweinydd, tad, a phriod ei bobl, eto, y mae amlygiadau arbenig o'i gyfiawnder yn cospi: y mae yn Dduw eiddigus, yr hwn ni chaniatâ i'w greadur ei ysbeilio o'i ogoniant (*Esa.* xlviii. 11); yn dân ysol (*Deut.* iv. 24; *Esa.* xxx. 27, 28; *Ier.* xxi. 12; *Nah.* i. 6): y mae ei ddigofaint yn llosgi hyd yn uffern isod: *Deut.* xxxii. 22. Lleferir am ei ddigofaint cospawl weithiau fel pe bai yn galw am hollol ddinystr ei bobl gyfammodol, yr hyn a gymmerasai le oni buasai eu bod wedi eu cymmeryd i gyfammod â Duw: *Exod.* xxxii. 9, 10; xxxiii. 3; *Num.* xiv. 12; *Rhuf.* xi. 29. Gosodir yr Arglwydd allan hefyd yn y Testament Newydd fel tân ysol yn erbyn pechod: *Heb.* xii. 29; x. 27. Ië, y mae ei eiddigedd yn gryfach yn erbyn dirmygwyr ei ras nag yn erbyn troseddwyr ei gyfraith: *Heb.* ii. 2; *Dad.* xiv. 11; xix. 3. Amlygir cyfiawnder Duw — 1. Yn y gydwybod: *Rhuf.* i. 42; *Gen.* xlii. 21; xliv. 16. 2. Yn y barnedigaethau sydd wedi ymweled â theyrnasoedd, ac â phersonau neillduol. 3. Yn ngwaith y prynedigaeth trwy Grist: *Rhuf.* iii. 25; 2 *Cor.* v. 21. 4. Amlygir ef mewn perffeithrwydd digymmysg yn nydd y farn: *Rhuf.* ii. 5; *Esa.* v. 16.

Y mae dynion wedi llefaru am gyfiawnder dan wahanol benau; megys, *cyffredinol* a *neillduol*. Y cyntaf a wnaeth y dosbarthiad hwn oedd Aristotle, yr hwn a ddywedodd am y cyntaf fod "pob rhinwedd yn gynnwysedig mewn cyflawnder," ac nad yw cyfiawnder yn gwahaniaethu oddi wrth rinwedd yn gyffredinol, oddi eithr fel y mae yn dwyn perthynas â bod arall. Maent yn mhellach yn dosranu cyfiawnder yn neillduol i *daledigaethol* (*distributive*), a *chydnewidiol* (*commutative*). Dilynwyd ef yn y dosbarthiad cyntaf gan yr Ysgolorwyr, a dilynwyd hwythau drachefn gan dduwinyddion diweddarach; fel y dywed y Dr. Owen, am y rhai a ysgrifenasant ar y perffeithiau dwyfol o'u dyddiau hwy hyd ei amser ef, eu bod oll yn cymmeradwyo y dosbarthiad hwn. Llefara John Howe [*The Principles of the Oracles of God*] am gyfiawnder yn y dull hwn:—"Arferir dosbarthu cyfiawnder i gyffredinol a neillduol. Y mae y neillduol yn ddyblyg—cydnewidiol a thaledigaethol. O barth i'r cyntaf, nid oes iddo le gyda Duw, o blegid nid oes neb yn gydradd âg ef; nid oes neb o gyffelyb urddas iddo, ac a ddichon wneyd cyfnewid âg ef, neu a all drosglwyddo iawnderau neu hawliau iddo am ryw iawnderau wedi eu trosglwyddo ganddo. Nis gall efe fod yn ddyledwr i neb o'i greaduriaid. 'Pwy a roddes iddo ef yn gyntaf, ac fe a delir iddo drachefn?' *Rhuf.* xi. 35. Y mae y gair yma yn feiddiad i'r holl fyd. Ond y rhan hono o gyfiawnder neillduol a elwir yn daledigaethol sydd yn cydweddu yn briodol âg ef—cyflawnder llywodraethol, yr eiddo llywydd—y cyfiawnder a weinyddir gan yr uchradd at yr isradd. Y mae hefyd yn arferol gwahaniaethu hwn i ddwy ran —y cyfiawnder sydd yn gwobrwyo, a'r cyfiawnder sydd yn cospi. O barth i'r cyntaf, y mae yn rhaid fod pob gwobrwyon y mae Duw yn eu gweinyddu yn deilliaw o ras, ac nid o ddyled. Nis gall fod yn wreiddiol ddyledus i'w greaduriaid, ond yn unig ar gyfrif ei addewidion. Yn hyn y mae ei gyflawnder yn rhedeg i mewn i'w ffyddlondeb. Ar ol iddo rwymo ei hun trwy addewid, y mae cyflawnu yr addewid yn rhan o gyflawnder; ac y mae cyflawnder yn dyfod yn gyssylltiedig â chyfranu ffafrau. 'Canys nid yw Duw yn anghyfiawn, fel yr anghofio eich gwaith, a'ch llafurus gariad;' *Heb.* vi. 10. A 'chyflawn yw ger bron Duw,' nid yn unig dalu cystudd i'r rhai sydd yn cystuddio ei bobl, ond hefyd i'r rhai a gystuddir esmwythdra gydag ef: 2 *Thes.* i. 6, 7. Ac, "os cyfaddefwn ein pechodau, ffyddlawn yw efe a chyflawn, fel y maddeuo i ni ein pechodau." Mewn un ystyr, y weithred uchaf y mae yn bosibl dychymygu am dani o eiddo trugaredd, wrth ystyried penarglwyddiaeth y drefn, ydyw maddeu pechodau; ond y mae yn weithred o eiddo cyflawnder hefyd, yn gymmaint a bod Duw yn hyny yn dilyn y drefn ag y rhwymodd ei hun wrthi, oddi wrth yr hon nas gall bellach ymadael. O barth i gyfiawnder cospawl, y mae hyn yn gwahaniaethu cyflawnder oddi wrth sancteiddrwydd, wrth ei ystyried fel ar wahân. Trwy ei sancteiddrwydd y mae Duw yn casäu pechod, a thrwy gyflawnder y mae yn ei gospi; cyflawnder sydd yn ei

Digitized by Google

dueddu i'w gospi. Ac y mae yn gwneuthur hyn fel dyledwr iddo ei hun. Y mae a wnelo cyfiawnder yn mysg creaduriaid âg iawnderau dyniou ereill; ond yn Nuw, nis gall fod a fyno â'i hawliau ei hun, o blegid efe ydyw ffynnonell pob hawl. Ac nis gallasai y fath beth a hawl fod trwy yr holl greadigaeth, oni buasai fod ei ffynnonell yn Nuw; ac felly, ei gyfiawnder ydyw amddiffynydd ffyddlawn hawliau ei benarglwyddiaeth a'i lywodraeth. Ac ar y cyfrif hwn, y mae cyfiawnder, nid yn unig yn caniatäu iddo, ond yn ei osod dan rwymau i ymweled â phob trosedd â chyfiawn daledigaeth."

Y mae yr Ysgrythyrau yn cymmeryd golwg eang ar y perffeithrwydd hwn yn Nuw, ac yn edrych arno, fel y gwna ar sanctеiddrwydd ei natur, fel swm ei berffeithiau moesol. "Cyfiawnder," medd y Dr. Owen, "ydyw uniondeb a pherffeithrwydd cyffredinol ei natur ddwyfol." Cynnwysa y gallu a'r parodrwydd hwnw yn y Bod Mawr i wneuthur pob peth yn iawn a gweddus, yn ol rheol ei ddoethineb, ei ddaioni, ei wirionedd, a'i dosturi. Nid oes un ewyllysiad o eiddo Duw—yr un weithred o eiddo ei ragluniaeth, pa un bynag ai doethineb, tosturi, ynte toster neu ddialedd fydd yr elfen amlycaf ynddi—na ddywedir fod cyfiawnder Duw yn ymddysgleirio ynddi. Y mae yn "Dduw cyfiawn" pan yn achub (*Esa.* xlv. 21); yn gyfiawn wrth faddeu pechodau, a chyfiawnhau yr annuwiol (*Rhuf.* iii. 25, 26); yn gyfiawn wrth gospi pechod: y mae ei "farnau Ef yn gywir a chyfiawn" (*Dad.* xvi. 5, 6); y mae yn gyfiawn yn holl weinyddiadau ei arglwyddiaeth (*Rhuf.* iii. 5, 6); yn gyfiawn wrth arbed yn ol ei aml drugareddau, ac wrth gospi yn ol ei lid a'i ddigofaint (*Iob* xxxiv. 12—14; *Rhuf.* ix. 14, 15, 16). Y mae felly yn amlwg fod cyfiawnder, yn ei ystyr cyffredinol, yn dynodi uniondeb a pherffeithrwydd uchaf y natur ddwyfol, a gallu a pharodrwydd i wneuthur pob peth mewn modd cydweddol â'i ddoethineb, ei ddaioni, a'i sancteiddrwydd.

Y mae wedi bod yn gwestiwn o gryn bwys yn mysg duwinyddion trwy yr oesoedd, A ydyw cyfiawnder natur Duw, yn flaenorol i, ac ar wahân oddi wrth, lywodraeth foesol, yn gofyn am gospi pechod? Pa un ai oddi ar ddoethineb llywodraethol a rhydd-ewyllysiad, ynte oddi ar fath o angenrheidrwydd yn natur Iehofah, y mae hyn wedi cyfodi? Wrth edrych ar gyfiawnder dan y dosbarthiad o *nacaol* a *chadarnhaol*—y nacaol yn arwyddo yr hyn sydd unol â chyfiawnder, ond yn gyfryw, er hyny, na byddai y gwrthwyneb yn anghyfiawn; a'r cadarnhaol yn dynodi yr hyn y mae cyfiawnder yn ei *hawlio*, fel y byddai y gwrthwyneb yn anghyfiawn:—wrth edrych ar y perffeithrwydd dan sylw dan y dosbarthiad yma, nid ydym yn gwybod am neb o'r ysgrifenwyr duwinyddol a wadai fod cospi pechod yn gyfiawn yn yr ystyr cyntaf; *h. y.*, yn gydweddol â chyfiawnder gwreiddiol natur Duw: ond yn yr ystyr olaf, y mae lluaws mawr o honynt yn gwadu fod cyfiawnder hanfodol y Duwdod yn gofyn, oddi ar angenrheidrwydd, am gospi pechod. Barna rhai mai oddi ar lid a dialedd y mae Duw yn cospi; a bod y geiriau hyn, y rhai a arferir yn yr Ysgrythyrau mewn cyssylltiad â'r mater, yn dynodi cyfiawn ryddid yr ewyllys ddwyfol mewn gweinyddu cospedigaethau. Y mae y syniad hwn yn cael ei amddiffyn yn benaf gan Socinus. Y mae yr un dosbarth, hefyd, yn gwadu fod yn Nuw, yn wreiddiol a thragwyddol, un briodoledd yn gofyn am ddyhuddiant iawnol am bechod; ei fod yn foddlawn i faddeu heb bridwerth, o ran dim sydd ynddo ef yn gofyn am hyny; ei fod yn rhydd i "roddi ei hawl i fyny;" ac felly, na ddylid edrych ar gyfiawnder dwyfol yn mhlith yr achosion o farwolaeth Crist. Y mae geiriau yr Ysgrythyr yn ymddangos i ni yn gwbl benderfynol ar y mater hwn:—dangosant fod cospi, nid yn unig yn gyd-fynedol neu unol â chyfiawnder, ond yn effaith a chanlyniad naturiol o hono: 2 *Thes.* i. 6—9; *Rhuf.* ii. 6; iii. 19; xii. 19. Y mae y gosp yn cael ei gosod allan fel taledigaeth ddyledus (δικαιον) o'r hyn sydd, nid yn unig yn ganiataol gan gyfiawnder, ond yn ofynol ganddo. Ond efallai y gofynir, A fuasai Duw yn anghyfiawn trwy beidio cyssylltu cosp â throsedd? Ni buasai yn anghyfiawn at ereill, gan na buasai mewn dim yn ddyledus iddynt. Ac o herwydd yr edrychir yn gyffredin ar gyfiawnder fel y mae yn cyfeirio at ddaioni a hawliau ereill, y mae wedi arwain rhai i ddyryswch, pa fodd y gallasai cyfiawnder, yn ol y syniad hwn am dano, osod Duw dan rwymau i gospi troseddwr, pe na buasai wedi sefydlu llywodraeth i'r perwyl hwnw, a chyhoeddi hyny fel ei rheol. Ond y mae ystyriaeth briodol o'r gwahaniaeth sydd rhwng hawliau y Creawdwr ac eiddo y creadur yn symmud yr anhawsder yma. Y mae hawliau Duw yn anaralladwy, ac yn perthyn yn hanfodol iddo. Ffynnonell pob bod ydyw ffynnonell pob hawl; ac, fel y cyfryw, y mae pob hawl yn trigo yn angenrheidiol yn ei natur; ac nis gall ymadael â hwy, fel ag i wneyd y creadur yn annibynol, mwy nag y gall wneyd y creadur yn Dduw—y bod meidrol yn anfeidrol. Felly, er nas gall y fath beth fod gyda dyn a chyfiawnder yn ei analluogi i roddi i fyny ei hawliau ei hun, y mae yn rhaid iddi fod yn wahanol gyda Duw. Benthyciol ac aralladwy ydyw hawliau dyn; gall ef ymadael â hwynt—a dyma ydyw sail masnach rhwng dynion a'u gilydd. Ond y mae hawliau Duw yn hanfodol i'w fod; ynddo Ef y maent yn wreiddiol a thragwyddol. Ac o herwydd hyn, y mae Duw yn ddyledus iddo ei hun, yn gyntaf ac yn benaf; y mae ei natur yn ei osod dan angenrheidrwydd i gospi pob anmharch a sarhâd a deflir arno. Ac oddi ar yr angenrheidrwydd yma y mae cyssylltiad cosp â throsedd yn ei lywodraeth wedi tarddu. Y mae cyfansoddiad y llywodraeth yr hyn ydyw, am fod Duw, yn flaenorol i bob llywodraeth weithredol, yr hyn ydyw.

Os edrychir hefyd ar gyfiawnder mewn golygiad mwy cyffredinol, fel yn cynnwys purdeb a doethineb Duw, y mae fod natur Duw, ar wahân oddi wrth ystyriaethau llywodraethol, yn ei dueddu i gospi pechod, yn ymddangos yn eglur. Y mae yn cynnwys ei sancteiddrwydd, ei adgasedd perffaith at bob anmhuredd moesol; yr hyn sydd yn wastadol yn ei dueddu i ddangos toster at bechod. Am fod pechod yn gwbl wrthwyneb i w natur sanctaidd, ac felly y sarhâd mwyaf arno, ni a allwn ddysgwyl fod yr Anfeidrol yn ystyried yn angenrheidiol iddo sefydlu rheol i'w gospi, a'i gospi yn ol y rheol hono. Os edrychwn hefyd ar ei gyfiawnder yn cynnwys ei ddoethineb, fe'n harweinir i'r un casgliad. Gwaith y briodoledd hon ydyw penderfynu ar, a chyfarwyddo y gweithrediad o'r hyn sydd weddus a phriodol. Doethineb sydd yn barnu pa bethau sydd weddaidd a theilwng i Lywydd y byd eu gwneuthur. "Y mae lluaws o gyfreithiau uniawn yn cael eu gwneuthur gan ddeddfwneuthurwyr dynol; ac er nad yw cyfiawnder, yn yr ystyr cyfyngaf, yn eu

Digitized by Google

gorfodi i'w llunio yn y fath fodd ag y buasent yn anghyfiawn heb eu gwneuthur, eto, y mae yr egwyddor yma (doethineb), yr hon sydd o gymmaint pwysigrwydd i lywodraeth, yn gofyn, efallai, am eu gwneuthur." Fel yn dra phriodol ar y mater hwn, ni a roddwn y dyfyniad canlynol o waith yr enwog John Howe: — "Os gofynir, A oedd yn beth difater gan Dduw, yn flaenorol i ffurfiad y cyfansoddiad moesol, pa un a benderfynai efe i beckod gael ei gospi ai peidio? yr wyf yn ateb, hyd yn oed ar y tir hwn, *Nac oedd.* Nid oedd yn beth dibwys ganddo, ond yr oedd yn hanfodol angenrheidiol. Fel y mae efe yn Llywydd goruchaf, y mae pob peth, sydd oddi ar gyfrifon doeth yn fwyaf priodol a gwasanaethgar i amcanion y llywodraeth, yn angenrheidiol gydag ef. Felly, gan gadarnhau fod angenrheidrwydd blaenorol, nid yn unig y cyfryw ag sydd yn cyfodi oddi ar ei gyfiawnder, yn yr ystyr cyfyngaf, ond sydd yn cyfodi hefyd o'i ddoethineb—gwaith pa un ydyw barnu ar weddeidd-deraa, fel mai gorchwyl cyfiawnder ydyw penderfynu yn nghylch hawliau. Ac nid yw yn anmhriodol dyweyd, mai doethineb ydyw yr egwyddor benaf a roddir mewn ymarferiad yn ffurfiad cyfreithiau, a chyfiawnder mewn trefnu yn ol cyfreithiau wedi eu gwneyd yn barod. Yr wyf yn dyweyd *penaf* gan fod cyfiawnder yn meddu ei ran mewn deddfwneuthuriad, fel y mae gan ddoethineb yn y gweinyddiad canlynol. A pha beth a all fod yn fwy angenrheidiol i'r Duw mawr na gwneuthur bob amser yr hyn sydd fwyaf priodol a gweddus iddo ei hun? A pha beth a allasai gydweddu yn well âg ef na rhoddi ar ddeall i'r byd pa mor gyssegredig yw iawnderau ei lywodraeth ef arno? Pa mor arswydlawn ydyw enciliad creadur rhesymol oddi wrth Awdwr ac Arglwydd mawr ei fywyd a'i fod? Pa bridwerth mor ddrud a ofynai? Pa iawnderau mawrion oedd i gael eu cyflawnu? Pa orchwylion mor aruthrol, fel y deuai pechod yn ddileadwy? Mewn llywodraeth ddoeth, y mae *reasons of state* yn beth mawr. Hyd yn oed pan y mae y duedd gryfaf at weithredu pob peth yn berffaith gyfiawn, eto, ai hyn yw yr unig ofal sydd gan lywodraethwyr doeth?

"Y mae lluaws o bethau, y rhai, heb droseddu rheolau neilldiol o gyfiawnder, y gallesid eu gadael heibio; ond eto, ar gyfrifon gwladwriaethol, y mae mor anhawdd peri iddynt osgoi oddi wrthynt y radd leiaf ag a fyddai symmud y ddaiar o'i lle, neu newid ordeiniadau dydd a nos: a thra y mae gan y pethau hyny eu lleoedd, mewn llywodraeth sydd yn tueddu i gynnal a diogelu ei hurddas a'i mawredd, pa le y dylent fod yn gymmaint ag yn y llywodraeth hon? Oddi ar hyn, gallwn hôni gyda'r sicrwydd mwyaf, gyda golwg ar bethau o'r natur yma, ei fod yr un mor anmhosibl, ar gyfrif perffeithrwydd y natur ddwyfol, i Dduw wneuthur yr hyn sydd yn anmhriodol a gwneuthur yr hyn sydd anghyfiawn. Ac fel mai ei gyfiawnder ydyw yr egwyddor gyfarwyddiadol gyda golwg ar yr hyn sydd uniawn neu ddrygionus, felly y mae ei ddoethineb gyda golwg ar yr hyn sydd weddaidd a phriodol, neu y gwrthwyneb."

Y mae y cwestiwn, A ydyw cyfiawnder dialeddol yn briodoliaeth hanfodol yn Nuw? wedi bod yn destyn dadleuon pwysig rhwng duwinyddion. Ar y ddadl hon yr ysgrifenodd Dr. Owen ei draethawd rhagorol ar *Divine Justice*, yn yr hwn yr amcana ateb y cwestiwn yn gadarnhaol. Gwelai y doethawr, pe buasai y syniad gwrthwynebol yn ffynu, y collasid y prawf o'r angenrheidrwydd am iawn, ac y rhoddasai hyny fantais fawr yn nwylaw yr Undodiaid. Yr oedd y syniad hwn—y gallasai yr Arglwydd faddeu heb unrhyw ddyhuddiant i gyfiawnder, pe buasai yn ewyllysio gwneuthur hyny—yn cael ei goledd a'i gefnogi gan rai duwinyddion o gryn enwogrwydd. Dygid enw Calvin yn mlaen fel cefnogydd y syniad hwn; ond nid oedd hyny yn deg. Y mae Dr. Owen yn dyfynu yr unig adran sydd yn ei holl ysgrifeniadau yn cynnwys y golygiad cyfeiliornus. Gwelir y rhan grybwylledig yn ei esboniad ar *Ioan* xv. 13:—"Gallasai Duw ein hachub trwy un gair, neu âg act unigol o ewyllysiad, pe na feddyliasai fod yn well gwneuthur hyny mewn ffordd arall er ein llesâd ni—fel, trwy beidio arbed ei unig a'i anwyl Fab, y gallai dystiolaethu yn ei Berson ef pa faint yw ei ofal am ein hiachawdwriaeth." Ond wrth ystyried nad oedd y ddadl hon o flaen meddwl Calvin pan yn ysgrifenu y llinellau hyn, ac y gellir dyfynu rhanau ereill o'i weithiau, yn y rhai y llefara am angeu Crist fel dyhuddiant i gyfiawnder dwyfol, y mae rhoddi pwys ar y dyfyniad uchod, i geisio profi fod y diwygiwr yn myntumio y golygiad, yn dra unochrog. Yn y flwyddyn 1632, cyhoeddodd Dr. William Twisse, cymmedrolwr Cymmanfa Westminster, waith helaeth—*Vindiciæ Gratiæ Potestatio, ac Providentiæ Divinæ*,"—yn yr hwn yr amcana ddangos fod yr Arglwydd yn cospi pechod, nid oddi ar unrhyw angenrheidrwydd yn ei natur, neu o dan gynhyrfiad a chymhelliad cyfiawnder, fel yn hanfodol i berffeithrwydd ei gymmeriad, ond yn unig yn rhinwedd ei ragarfaethiad, yr hyn a wreiddiai yn rhyddweithrediad ei ewyllys. Dilynwyd ef gan Rutherford, yn ei *Disputatio Scholastica de Divina Providentia.* Rhydd y frawddeg ganlynol olwg gryno i ni ar yr ochr a gymmerai ar y mater:—"Os llefarwn am allu ac awdurdod hollol Duw, heb olygiad ar ei rydd fwriad, gallasai faddeu pechod heb iawn, a chynnysgaethu holl ddynolryw a'r angelion syrthiedig â dedwyddwch y nef, heb un dyhuddiant gan y pechadur ei hun, na chan fachniydd yn ei le; o blegid nid yw efe yn cospi pechod, nac yn rhoddi y nefoedd i ddynion ac angelion, oddi ar angenrheidrwydd natur, fel y mae y tân yn bwrw allan wres, a'r haul oleuni; ond gwna hyny yn rhydd." Yn erbyn y syniadau hyn yr ysgrifenodd Dr. Owen y traethawd crybwylledig, yn yr hwn yr ymdrinia â'r cwestiwn gyda medrusrwydd a dysgeidiaeth anarferol. Profa fod cyfiawnder dialeddol yn naturiol, a'i weithrediadau yn hanfodol i Dduw. Dug yn mlaen fynegiadau yr Ysgrythyrau, cydsyniad dynolryw, cwrs rhagluniaeth, a phriodoliaethau Duw, fel y maent yn cael eu hegluro yn nghroes Crist, i gadarnhau hyn. Cyferfydd hefyd â gwrthddadleuon Socinus, Twisse, a Rutherford, gyda rhesymau anatebadwy. Ni chaniatâ natur y gwaith hwn i ni edrych yn mhellach i'r cwestiwn. Gwel IAWN; DIGOFAINT; LLYWODRAETH FOESOL; PENARGLWYDDIAETH.

Y mae y saint yn gyfiawn mewn mwy nag un ystyr. Y maent yn gyfiawn mewn ystyr cyfreithiol. Oddi ar fod ufudd-dod y Cyfryngwr yn ei fywyd a'i angeu yn cael ei gyfrif iddynt, y maent "yn gyfiawnder Duw yndddo ef:" 2 *Cor.* v. 21. Yn y cyfiawnder hwn y maent yn ymddyrchafu ac yn ymffrostio: *Esa.* xlv. 24. Y maent yn gyfiawn o ran egwyddor. Y mae y cyfiawnder hwn, nid yn gyfreithiol, ond yn bersonol a thumewnol; nid yn gyfrifedig, ond yn

Digitized by Google

gyfranedig. Cyflawnder y cyflawnhâd ydyw y naill; a chyflawnder yr adenedigaeth a'r sanctteiddhâd ydyw y llall. Y mae yr egwyddor gyfiawn hefyd yn gweithio allan mewn uniondeb ymarferol. "Yr hwn sydd yn gwneuthur cyfiawnder sydd gyfiawn;" 1 *Ioan* iii. 17. Hyn yw y prawf o egwyddor uniawn—gweithredoedd uniawn; ac nid oes dim yn ddigon o brawf fod y pechadur yn gyfiawn yn Nghrist ar wahân oddi wrth ymarweddiad cyfiawn. "Yn hyn y mae yn amlwg plant Duw, a phlant diafol: pob un sydd heb wneuthur cyfiawnder, nid yw o Dduw;" 1 *Ioan* iii. 10. Y mae athrawiaeth yr efengyl yn cael ei galw "gair cyfiawnder" (*Heb.* v. 13), o herwydd, medd Barnes, ei bod yn dadguddio y drefn i wneyd pechaduriaid yn gyfiawn. Y mae λογου δικαιοσυνης, medd Stuart, yn gyfystyr ag "athrawiaeth iachawdwriaeth;" yn arwyddo yr efengyl, neu y grefydd Gristionogol. Y mae Calvin, Grotius, ac ereill, yn cymmeryd cyfiawnder fel yn dynodi ansawdd neu natur y gair, ac yn gyfystyr â "pherffeithrwydd;" felly y mae "gair cyflawnder" yr un peth ag "athrawiaeth berffaith." Ond y mae "cyfiawnder," y mae yn ddiammheu, i'w ddeall yn wrthddrychol, nid yn ansoddol. Dynoda, nid y "gair cyfiawn," ond y "gair am, neu o barth cyfiawnder." Y mae rhai o'r tadau—Theophylact, Chrysostom, &c.—yn barnu fod "cyfiawnder" yn y fan hon yn dynodi moesoldeb perffaith, ac mai y ddeddf foesol a olygir yma. Ond ystyr amlaf δικαιοσυνη yn y Testament Newydd ydyw, cyfiawnder y Cyfryngwr; ac felly, "gair cyfiawnder" yw athrawiaeth cyfiawnhâd pechadur ger bron Duw.

CYFIAWN, CYFIAWNDER, CYFIAWNHAD, CYFIAWNHAU. Arwydda y gair *cyfiawnder*, yn yr Hen Destament, cydymffurfiad â deddf Duw, o ochr dyn:—"A chyfiawnder fydd i ni, os ymgadwn i wneuthur y gorchymynion hyn oll;" *Deut.* vi. 25. Yn gyssylltiedig â hyn, yr oedd yr Iuddew yn edrych ar gymmeradwyaeth Duw, a mwynhâd o'i ffafr, a bendithion y cyfammod a wnaeth â'r genedl, yn anwahanol gyssylltiedig. Cyflawnu yr hyn a orchymynwyd yn y ddeddf oedd cyfiawnder (*righteousness*) yn neiliaid y Ddwyflywodraeth; ac ymddwyn yn gyfatebol tuag atynt oedd cyfiawnder (*justice*) yn Nuw. Yr oedd, gan hyny, i'r gair ddau ystyr; sef, ufudd-dod ar ran y bobl i Dduw fel eu Brenin a'u Deddfwr, a gwaith Duw yn eu cydnabod ac yn ymddwyn tuag atynt fel y cyfryw. Daioni Duw oedd yn gwobrwyo y genedl am ufudd-dod, ac nid oedd y daioni yn ddim llai o herwydd ei fod yn gwneyd felly ar lwybr ufudd-dod. Yn unol â hyn, defnyddir *cyfiawnder* yn fynych yn gyfystyr â thrugaredd, ac âg iachawdwriaeth: hyny yw, y mae ffyddlondeb Duw i'w gyfammod, pa un bynag ai wrth gospi yr anufudd ai wrth roi ei ffafr i'r ufudd—ac yn fynych pan yn estyn ymwared iddynt yn eu cyfyngderau, yn unol â'i addewidion i'r tadau—yn myned dan yr enw *cyfiawnder*. Ceir anghreiffiau mynych:—"Efe a ddychwel fy enaid: efe a'm harwain ar hyd *llwybrau cyfiawnder* er mwyn ei enw;" *Salm* xxiii. 3:—"Llwybrau iachawdwriaeth."—*De Wette.* "Clirio y cymmeriad, yr hyn a gynnwysir yn yr iachawdwriaeth."—*Hengstenberg.* "O Dduw! Duw fy iachawdwriaeth: a'm tafod a gân yn llafar am dy *gyfiawnder*;" *Salm* li. 14. "Gwisged dy offeiriaid *gyfiawnder*." "Ei hoffeiriaid hefyd a wisgaf âg *iachawdwriaeth*;" *Salm* cxxxii. 9, 16. Gwel hefyd *Salm* lxxi. 15, 16, 19, 24; lxxxv. 10, 13; cxix. 142; cxlv. 7. "Yn ei ddyddiau ef yr *achubir* Iudah:" a'i enw wrth achub fydd, "Yr Arglwydd ein *Cyfiawnder*;" *Ier.* xxiii. 6. Yn Esaiah, yn enwedig o *pen.* xl. hyd ddiwedd y llyfr—megys, "Yn yr Arglwydd y *cyfiawnheir* ac yr ymogonedda holl hâd Israel" (*pen.* xlv. 25; xlii. 6). "Nescais fy nghyfiawnder, a'm hiachawdwriaeth nid erys" (*pen.* xlvi. 13; lvi. 1, &c)—y mae yr Arglwydd, wrth ddwyn iachawdwriaeth i'w bobl, yn gwneuthur hyny mewn ffyddlondeb i'w addewidion, ac yn amlygu ei gyfiawnder trwy hyny. Ar yr un pryd, y mae cyfiawnhâd ei bobl, neu eu dychweliad i gymmeradwyaeth, yn gorphwys ar eu gwaredigaeth ac ar drugaredd. Cymharer yn enwedig *Esa.* xlv. 21—25. Mae yr Arglwydd yn "Dduw cyfiawn ac yn Achubydd." "Aeth y gair o'i enau mewn cyfiawnder." "Yn yr Arglwydd y mae cyfiawnder a nerth." "Yn yr Arglwydd Dduw y cyfiawnheir holl hâd Israel." "Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnha lawer trwy ei wybodaeth, canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt;" *Esa.* liii. 11. Y mae y Messiah i ddwyn i mewn "*gyfiawnder* tragwyddol:" *Dan.* ix. 24. "Haul *cyfiawnder* a gyfyd i chwi...â meddyginiaeth yn ei esgyll;" *Mal.* iv. 2.

Bod ysgrifenwyr y Testament Newydd â'u golwg ar athrawiaeth yr Hen Destament wrth draethu am "gyfiawnder Duw" a chyfiawnhâd, byddai yn anmhosibl peidio meddwl, hyd yn oed pe na buasai Paul wedi cyfeirio dair gwaith at eiriau Habacuc (*pen.* ii. 4)—"Y cyfiawn a fydd byw trwy ei ffydd."

Er fod trefn Duw i dderbyn pechaduriaid edifeiriol yn eglur yn yr Hen Destament, yn yr addewidion am faddeuant a'r gwynfydedigrwydd a gyhoeddir ar y sawl y maddeuir ei bechod, yn y cyhoeddiad o enw Duw, ac yn aberthau y gyfraith (gwel *Salm* xxxii, li, a cxxx, &c.; *Exod.* xxxvi. 6); eto, ni amlygwyd hi gyda'r eglurder a'r cyflawnder gyda pha un y ceir hi yn y Testament Newydd, yn enwedig yn ysgrifeniadau Paul.

Bod yr apostol Paul yn galw at yr un geiriau, ac yn eu defnyddio yn gysson â hwy eu hunain ac â'u gilydd, sydd amlwg wrth gasglu ychydig o honynt at eu gilydd. Un o'r ymadroddion pwysicaf yn y Testament Newydd ydyw, "cyfiawnder Duw:" *Rhuf.* i. 17; iii. 21, 22; x. 3. Trwy feddu hwn y mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau, neu y mae ei "ffydd yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder:" *Rhuf.* iv. 3, 5, 6, 22; *Gal.* iii. 6; *Iago* ii. 23. Y mae "Crist yn gyfiawnder i bob un sydd yn credu:" *Rhuf.* x. 4. "Gwnaethpwyd ef i ni gan Dduw yn gyfiawnder:" 1 *Cor.* i. 30. Y mae yr hwn sydd yn cael ei gyfiawnhau yn cael ei alw yn "gyfiawn:" *Rhuf.* i. 17; *Gal.* iii. 11; *Heb.* x. 38. Y mae y "cyfiawnder sydd o ffydd" yn boddloni y "cyfiawnder" dwyfol (*Rhuf.* iii. 25, 26), ac yn cael ei gyferbynu â'n "cyfiawnder ein hunain," ac â'r "cyfiawnder sydd o'r ddeddf," fel sail gobaith: *Rhuf.* ix. 30, 31; x. 3; *Gal.* ii. 21; iii. 21, 22; v. 3—5; *Phil.* iii. 9. Arwydda y gair *cyfiawnder* (δικαιοσυνη: *Rhuf.* i. 17) gydymffurfiad â'r ddeddf, a hyny wrth roddi ufudd-dod i'w gorchymynion (*righteousness*), neu wrth weinyddu ei dedfryd (*justice*). Defnyddir yr ymadrodd "cyfiawnder Duw," mewn gwahanol ranau o'r Ysgrythyrau, am briodoledd yn Nuw, neu uniondeb ei gymmeriad; ond pan y defnyddir ef mewn cyssylltiad âg iachawdwriaeth pechadur, fel yn y manau dan sylw, nis gall arwyddo hyny. Gan fod y dyfyniad o Habacuc—"y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd"—yn brawf fod cyfiawnder Duw

Digitized by Google

wedi ei ddadguddio "o ffydd," nis gellir deall wrth "gyflawnder Duw" ddim arall ond y cyfiander a barotodd Duw trwy ufudd-dod ac angeu ei Fab, a'r hwn a gynnygir yn rhad yn yr efengyl i bechadur, ac ar sail pa un y dygir ef i gyflwr cyfiawn ger bron Duw. Esboniad Stuart o'r gair ydyw, "y cyfiawnhâd sydd o Dduw," neu, "y cyfiawnhâd y mae Duw yn ei gyfranu." Ond nid *dicaiôsis* (δικαιωσις=cyfiawnhâd) yw y gair a ddefnyddia Paul, ond *dicaiosunê* (δικαιοσυνη=cyflawnder); a hyn ydyw y cyfleithiad cyffredin o'r gair yn y Testament Newydd, lle y defnyddir ef ddeuddeg a phedwar ugain o weithiau. Addefa Stuart nas gellir ei gyfleithu *cyfiawnhâd* yn *pen.* iv. 3, 6, a manau ereill; o herwydd ni wnai ystyr goddefol i ddyweyd "a chyfrifwyd iddo yn gyflawnhâd." Ond nid rhyfedd ei fod ef yn ceisio newid y gair *cyfiawnder* i *gyfiawnhâd*, er mwyn bod yn gysson yn ei wadiad o gyfriflad o gyflawnder Crist, yn gystal a phechod Adda. Cyfleithir "cyfiawnder Duw," gan rai, "trefn Duw i gyflawnhau." Hyn ydyw cyfleithiad y Sosiniaid. Ond heb law fod dau air gwahanol am danynt (δικαιοσυνη a δικαιωσις), y mae cyfiawnder a chyflawnhâd yn ddau beth hollol wahanol. Cyferbynir "cyflawnder Duw" â'n "cyfiawnder ein hunain;" a chan mai nid trefn dyn i gyflawnhau ei hun a feddylir wrth gyflawnder dyn, ond "y cyflawnder yr hwn sydd o'r gyfraith" (*Phil.* iii. 9); felly, wrth "gyflawnder Duw" y meddylir, y cyflawnder y mae Duw yn ei roddi, a'r hyn a gymmeradwyir ganddo. Yn unol â defnyddiad y gair yn yr Hen Destament, y mae cyflawnder yn arwyddo, *yn gyntaf*, cydymffurfiad â'r ddeddf, neu ansawdd foesol yn cael ei hamlygu mewn ufudd-dod i'r ddeddf; ac *yn ail*, cyflwr neu sefyllfa gyfiawn yn seiliedig ar hyny. Ond gan nas gall dyn pechadurus ennill cyfiawnder iddo ei hun, yr hwn fydd yn gymmeradwy gyda Duw, y mae yr efengyl yn dadguddio cyflawnder iddo—cyfiawnder wedi ei barotoi gan Dduw, yn cyfateb i holl ofynion ei ddeddf, ac o ganlyniad, yn gymmeradwy ganddo. Wrth dderbyn y cyflawnder hwn, y mae pechadur yn dyfod i gyflwr cyflawn, neu yn cael ei gyfiawnhau. Ond y mae cyflawnder yn eangach ei ystyr na chyfiawnhâd, ac yn arwyddo cydymffurfiad perffaith â'r ddeddf. Trwy dderbyniad i gyflwr o gymmeradwyaeth ar sail cyfiawnder un arall, y mae awdurdod pechod ar ewyllys pechadur, a'i lywodraeth ar ei galon, yn cael eu dinystrio; fel y mae yn dyfod yn raddol i ennill yr elfen arall sydd mewn cyflawnder, sef cydymffurfiad personol â'r ddeddf.

Ar ol y sylwadau arweiniol hyn, edrychir yn fanylach ar athrawiaeth y Beibl am gyfiawnhâd.

CYFIAWNHAD

Ydyw y weithred o GYFIAWNHAU. Gair yw hwn a ddefnyddir mewn llysoedd barn, yn arwyddo profi neu ddangos yn gyflawn, yn unol â deddf, uniondeb, dyledswydd, neu briodoldeb; amddiffyniad. Yn gyflelyb, defnyddir ef mewn arferiad cyffredin. Er eglurhâd, tybier fod dyn yn cael ei gyhuddo o droseddu yn erbyn ei gymmydog: y mae dwy ffordd trwy ba rai y dichon iddo *gyfiawnhau* ei hun, neu gyfarfod y cyhuddiad fel ag i gael ei ystyried yn ddiniwed, neu yn ddieuog. Dichon iddo yn gyntaf *wadu* iddo gyflawnu y weithred a roddir yn ei erbyn; neu yn ail, addef y weithred, a dangos mewn amddiffyniad fod ganddo hawl i'w chyflawnu. Yn un o'r ddwy ffordd hyn, ond iddo wirio ei honiadau, ystyrir ef yn gyfiawn neu yn ddiniwed yn ngwyneb y gyfraith. Ni bydd gan y gyfraith ddim yn ei erbyn, ac ymddygir ato fel un cyfiawn.[1]

Y mae Protestaniaid a Phabyddion yn gwahaniaethu yn yr ystyr a briodolant i'r gair *cyfiawnhau* (δικαιοω—*dicaioô*) yn y Testament Newydd, ac y mae y gwahaniaeth hwn yn arwain i syniadau hollol wahanol am natur cyflawnhâd. Am hyny, nis gall fod yn afreidiol i edrych yn lled fanwl i ystyr y gair yn yr Hen Destament a'r Newydd. Yr ystyr a briodolir i'r gair gan Brotestaniaid ydyw, "cyhoeddi un yn gyflawn" yn ngwyneb cyfraith: ond "gwneuthur un yn gyflawn," trwy roddi egwyddor neu duedd gyfiawn o'i fewn, ydyw yr ystyr yn mha un ei defnyddir gan Babyddion.[2]

Gweithred farnol (*actus forensis*) Duw ydyw cyflawnhâd, yn ol yr athrawiaeth Brotestanaidd, yn cyhoeddi neu yn dadgan pechadur yn gyfiawn: ond yn ol y golygiad arall, arwydda *cyfnewidiad ansawdd* yr enaid (*habitus infusus*), yn unol â pha un y mae graddau i gyflawnhâd. Nid yw Protestaniaid yn gwadu fod "cyfnewidiad ansawdd" yn rhan o iachawdwriaeth pechadur; ond gosodant hwy hyn dan yr athrawiaeth o "sancteiddhâd," a dysgant fod sancteiddhâd yn effaith angenrheidiol cyflawnhâd. Ond y mae yr Eglwys Babaidd yn gwadu cyflawnhâd o gwbl, ond mor bell ag y mae yn seiliedig ar sancteiddiad y galon. Mewn cyferbyniad i hyn, y mae Protestaniaeth yn dysgu mai *gweithred gyfreithiol*—nid yn seiliedig ar ddim *yn* y pechadur, ond ar ufudd-dod dyoddefol a gweithredol Crist fel Meichiau yn ei le—ydyw cyflawnhâd. Gan fod gwahaniaeth mor bwysig mewn athrawiaeth yn dechreu gyda gwahaniaeth am ystyr y gair, dylid gwybod yn fanwl pa fodd y defnyddir ef trwy yr Ysgrythyrau.

Defnyddir y gair *tsodac* (צדק) yn yr Hen Destament am *gyfiawnhau*; a chyfleithir ef gan y Deg a Thrigain â'r gair Groeg a ddefnyddir yn y Testament Newydd, sef, δικαιοω. Defnyddir ef yn gyffredin gyda pherson—nid am wneud un anghyfiawn yn gyfiawn trwy gyfnewidiad moesol yn ansawdd ei feddwl, ond bob amser mewn ystyr cyfreithiol—am wneuthur un yn gyfiawn trwy gyhoeddiad barnol; neu, mewn geiriau ereill, "cyhoeddi yn gyfiawn." "Canys ni chyfiawnhâf yr annuwiol" (*Exod.* xxiii. 7); *h. y.*, ni

[1] "In English Law, 'Justification is a special plea in bar, maintaining or showing good reason why one did such a thing which he is called to answer.'"—*Broke ap Jacob; quoted by Pye Smith.* "In law, the showing of a sufficient reason in court why a defendant did what he is called to answer. Pleas in *justification* must set forth some special matter."—*Imperial Dictionary.*

[2] Y mae rhai a gyfrifant eu hunain yn Brotestaniaid yn deall y gair yn yr ystyr hwn; ac fel y canlyn yr esbonir ef: —"Y mae cyflawnhâd yn gyfnewidiad trwy ba un y symmudir dyn o gyflwr o bechod i gyflwr o ras—yn gyffelyb fel y symmudir dyn afiach i gyflwr o iechyd, ac yn gyffelyb i'r cyfnewidiad trwy ba un y gwneir sylwedd oer yn gynhes." —*Vecanus;* ac yn gyffelyb *Bellermin.* Dywed Osiander, wrth gyfeirio at y Lutheriaid, "Y maent oll yn cyfeiliorni yn ddychrynllyd; o herwydd eu bod yn deall ac yn esbonio y gair *cyfiawnhau* yn unig am ystyried neu gyhoeddi un yn gyfiawn, ac nid am yr hyn ydyw; sef gwneuthur un yn gyfiawn mewn ffaith ac mewn gwirionedd."—*Confessio Andreæ Osiandri.* "Ystyr gwreiddiol, priodol, y gair *cyfiawnhâd* ydyw, rhoddi tueddiadau cyflawn mewn un (*infusionem habituum justorum*). Y mae y gair *cyfiawnhau* (δικαιοω), a ddefnyddir gan Iago a Paul, yn cyfateb i'r gair Hebraeg, ac yn arwyddo gwneuthur un yn gyfiawn, fel y daw i weithredu yn gyfiawn."—*Grotius, Epist. ad Romanos.* Dywed Olshausen, hefyd "Er ei fod ef yn ddigon pell oddi wrth goleddu syniadau Pabyddol ar gyflawnhâd, mai ystyr gramadegol y gair δικαιοω ydyw 'gwneuthur yn gyflawn' (*justum efficere*), yn hytrach nag, yn unol â'r Eglwys Brotestanaidd, 'cyhoeddi yn gyflawn' (*pro juste declarare*)."—*Esboniad ar y Rhufeiniaid.*

Digitized by Google

chyhoeddaf ef yn gyfiawn—nis gollyngaf ef yn rhydd, fel nas dianc o gosp. "Pan fyddo ymrafael rhwng dynion, a dyfod i farn i'w barnu; yna cyfiawnhânt y cyfiawn, a chondemniant y beius" (*Deut.* xxv. 1); *h. y.*, cyhoeddant y cyfiawn yn gyfiawn, a'r beius yn feius. Yn gyffelyb, 1 *Bren.* viii. 32; "Yna clyw di yn dy nefoedd... a barna dy weision," gan gyhoeddi y drygionus yn ddrygionus, a'r cyfiawn yn gyfiawn. Cymharer 2 *Cron.* vi. 23. Yn gyffelyb, yn *Diar.* xvii. 15; "Y neb a gyfiawnhao y drygionus, ac a gondemnio y gwirion; ffiaidd gan yr Arglwydd ydynt ill dau." Yn yr holl adnodau hyn, ystyr y gair *cyfiawnhau* ydyw, "rhyddhau, cyhoeddi yn rhydd, neu yn gyfiawn." Yn y cyssylltiad hwn, y mae *Salm* cxliii. 2 yn bwysig; "Ac na ddos i farn â'th was; o herwydd ni chyfiawnheir neb byw yn dy olwg di." Yma cyfeirir, nid at gyfiawnhâd dyn yn ngwyneb un neu ychydig weithredoedd, ond cyfiawnhâd o ran ei gyflwr rhyngddo a Duw: a'r ystyr ydyw, "Ni chyhoeddir neb byw yn gyfiawn yn dy olwg di." Ceir yr un ystyr yn *Ezec.* xvi. 51; "Samaria hefyd ni phechodd fel hanner dy bechod di; ond tydi a amlheaist dy ffieidd-dra yn fwy na hwynt, ac a gyfiawnheaist dy chwiorydd yn dy holl ffieidd-dra a wnaethost." Yr ystyr yw: "Wrth fesur anwiredd dy chwiorydd yn ol mesur dy anwiredd di, rhaid eu cyhoeddi yn gyfiawn." Cymharer *adn.* 52, lle y ceir yr ymadrodd ddwywaith yn yr un ystyr. Y mae brodyr Ioseph yn gofyn, "Pa beth a lefarwn? pa fodd yr ymgyfiawnhäwn?" (*Gen.* xliv. 16); *h. y.*, pa fodd yr amddiffynwn ein hunain, ac y dangoswn ein bod yn ddieuog, fel ag i gael ein cyfrif a'n cyhoeddi yn gyfiawn? "Fy ngwas cyfiawn a gyfiawnhâ lawer trwy ei wybodaeth" (*Esa.* liii. 11) —trwy wybodaeth am dano ei hun, am ei aberth yn lle yr euog, yr hyn sydd amlwg oddi wrth y geiriau nesaf; "canys efe a ddwg eu hanwireddau hwynt." Angeu y Messiah ydyw yr achos haeddiannol o gyfiawnhâd; *h. y.*, o ryddhâd oddi wrth y gosp ddyledus. Dywedai Absalom hefyd, "O! na'm gosodid i yn farnwr yn y wlad.....myfi a wnawn gyfiawnder iddo;" 2 *Sam.* xv. 4. Er fod y dull o ymadroddi yma ychydig yn wahanol, eto y mae yn amlwg mai yr ystyr ydyw, "myfi a'i cyhoeddwn ef yn gyfiawn yn yr ymrafael, yn y cynghaws, neu yn yr achos." Yn gyffelyb y mae deall *Salm* lxxxii. 3; "Cyfiawnhewch y cystuddiedig a'r rheidus;" *h. y.*, gwnewch gyfiawnder iddynt. "Yn yr Arglwydd y cyfiawnheir, ac yr ymogonedda holl hâd Israel;" *Esa.* xlv. 25. Trwy neu gan yr Arglwydd y cyfiawnheir (y Deg a Thrigain, *ἀπὸ Κυρίου δικαιωφήσονται*); *h. y.*, y gwneir cyfiawnder iddynt. "Agos yw yr hwn a'm cyfiawnhâ;" *Esa.* l. 8: yr hwn a gyhoedda fy achos yn gyfiawn, neu a sierhâ iawnder i mi. "Na ato Duw i mi eich cyfiawnhau chwi" (*Iob* xxvii. 5)—eich cyhoeddi yn gyfiawn yn eich ymadroddion. "Fel y'th gyfiawnhaer pan leferych" (*Salm* li. 4)—fel y'th gyhoedder yn gyfiawn yn dy eiriau: *Esa.* xlii. 21; xliii. 9. Yn yr holl anghreiffiau hyn, lle y mae person yn wrthddrych y weithred a ddynodir wrth y gair *cyfiawnhau*, defnyddir ef mewn ystyr cyfreithiol, yn arwyddo, cyhoeddi un yn gyfiawn; gwneyd amddiffyniad neu gyfiawnhâd; gwneyd cyfiawnder, neu roddi cyfiawnder i un. Nid yw y gair yn arwyddo, bob amser, fod y cyhoeddiad barnol hwn yn cael ei gyhoeddi yn weithredol ac yn rheolaidd mewn llys barn; ond ei fod yn cael ei gyhoeddi weithiau gan y person ei hun, weithiau gan un arall. Weithiau, y mae geiriau dyn yn gyfrwng y cyhoeddiad; bryd arall, ei weithredoedd. Ond nid yw y gair un amser yn arwyddo "gwneuthur un yn gyfiawn trwy gyfnewidiad mewnol, neu trwy gyfranu ansawdd neu egwyddor gyfiawn."

Oddi wrth ystyr cyffredinol y gair yn yr Hen Destament, gallesid dysgwyl y buasai yr un ystyr iddo yn y Testament Newydd. Y mae y dysgwyliad hwn yn cael ei gadarnhau. Trwy yr oll o'r Testament Newydd, yr ystyr cyfreithiol sydd i'r gair; sef, rhyddhau, cyhoeddi, neu ddadgan yn gyfiawn (*absolvere, justum declarare, pronunciare*). 1. Defnyddir y gair am ddynion yn cyhoeddi barn ar Dduw. "A'r holl bobl..... a gyfiawnhasant Dduw" (*Luc* vii. 29)—trwy ei ddadgan yn un cyfiawn a sanctaidd yn ei orchymynion, trwy ymostwng i fedydd Ioan. "Fel y'th gyfiawnhaer yn dy eiriau;" *Rhuf.* iii. 4. Er fod dynion yn fynych yn condemnio ffyrdd Duw trwy eu grwgnachrwydd, rhaid iddynt yn y diwedd gyfaddef ei fod yn gyfiawn yn ei holl ffyrdd. Nis gellir deall y gair yn y manau hyn am ddynion yn *gwneuthur* Duw yn gyfiawn. "Duw a ymddangosodd yn y cnawd, a gyfiawnhawyd yn yr Ysbryd;" 1 *Tim.* iii. 16. Trwy ei adgyfodiad, cyfiawnhawyd Iesu Grist yn Fab Duw; *h. y.*, cyhoeddwyd neu amlygwyd mewn gweithred ei fod yn Fab Duw. "Doethineb a gyfiawnhawyd gan ei phlant ei hun;" *Mat.* xi. 19; *Luc* vii. 35. 2. Am ddynion yn barnu eu gilydd. "Canys os Abraham a gyfiawnhawyd trwy weithredoedd, y mae iddo orfoledd; eithr nid ger bron Duw;" *Rhuf.* iv. 2; *Iago* ii. 21. Yn yr adnodau hyn, y meddwl ydyw, fod Abraham yn cael ei gyhoeddi yn gyfiawn ger bron dynion. 3. Dynion yn cyflawnhau eu hunain: *Luc* x. 29. 4. Am Dduw yn cyflawnhau dynion; ac yn y cyssylltiad hwn y mae ei bwysigrwydd yn gynnwysedig. Gan fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn y cyssylltiadau ereill am "gyhoeddi yn gyfiawn," y mae yn hollol annhebygol, cyn unrhyw ymchwiliad, y defnyddir ef yn y cyssylltiad hwn mewn ystyr arall; sef, am gyfnewidiad yn ansawdd yr enaid; o gymmaint ag mai geiriau ereill a ddefnyddir yn gyffredin am hyny, sef *puro, sancteiddio* (*αγιαζειν—agiazein*), &c. Ond wrth edrych i mewn i arferiad y Testament Newydd o'r gair, ceir ei fod yn cytuno yn hollol â'r Hen Destament, yn yr ystyr cyfreithiol a briodolir i'r gair. Y mae holl berthynas dyn â Duw, a chyfiawnhâd dyn ger bron Duw, yn cael eu dysgrifio trwy eiriau cyfreithiol. Y mae Duw yn farnwr (*Ioan* v. 27; 1 *Cor.* iv. 4; 2 *Tim.* iv. 8); y mae gorseddfainc (*Rhuf.* xiv. 10; 2 *Cor.* v. 10); yr euog (*Rhuf.* iii. 10); cyhuddwr (*Ioan* v. 45; *Dad.* xii. 10); tyst (*Rhuf.* ii. 15); ysgrifenlaw (*Col.* ii. 14); dyled (*Mat.* vi. 12; xviii. 24); ac Eiriolwr (1 *Ioan* ii. 1; *Rhuf.* viii. 26).

Y mae y gwrthgyferbyniad sydd rhwng cyfiawnhau a chondemnio yn brawf mai mewn ystyr cyfreithiol y defnyddir y gair. "Canys wrth dy eiriau y'th gyfiawnheir, ac wrth dy eiriau y'th gondemnir;" *Mat.* xii. 37. Cyferbynir "condemniad," â "chyfiawnhâd bywyd," yn *Rhuf.* v. 18; "rhoi yn erbyn," fel cyhuddwr (*εγκαλειν*), â "chyfiawnhau:" *Rhuf.* viii. 3. "Canys ni wn i ddim arnaf fy hun; ond yn hyn ni'm cyfiawnhawyd: eithr yr Arglwydd yw yr hwn sydd yn fy marnu;" 1 *Cor.* iv. 4. Y mae cyfiawnhâd, gan hyny, yn weithred farnol. Y mae y dull o ymadroddi yn y manau canlynol, yn arwain i'r un penderfyniad:—"Ni chyfiawnheir

Digitized by Google

un cnawd yn ei *olwg ef;*" *Rhuf.* iii. 20. "Ac na chyfiawnheir neb trwy y ddeddf *ger bron Duw*, eglur yw;" *Gal.* iii. 11. Y mae y geiriau "yn ngolwg" a "cher bron Duw" (ἐνωπιον, παρα), yn dangos mai nid am *wneyd* yn gyfiawn trwy gyfnewidiad mewnol, ond am gyhoeddi yn gyfiawn mewn llys barnol, y traethir. Yn yr adnodau lle y cyfeirir at gyfiawnhâd y cyfiawn, neu wneuthurwr y ddeddf, y meddwl ydyw, fod Duw yn barnu dynion yn ol y ddeddf, ac yn cyhoeddi yr hwn sydd wedi cyflawnu y ddeddf yn gyfiawn, a'r hwn sydd wedi ei throseddu yn anghyfiawn, ac yn cyhoeddi melldith arno fel y cyfryw: *Mat.* xii. 37; *Rhuf.* ii. 13; iii. 20; *Gal.* iii. 11. Yr un ystyr barnol sydd yn perthyn i'r gair *cyfiawnhau* (δικαιόω) trwy yr oll o'r Testament Newydd, lle y dadguddir y drefn, nid i gyfiawnhau y cyfiawn, yn ol llythyren fanwl y ddeddf, ond i gyfiawnhau yr anghyfiawn, neu y troseddwr, trwy ras.

Er mwyn profi y gosodiad hwn, ni raid ond dilyn ymresymiad yr Epistol at y Rhufeiniaid—Breintlen Fawr (*Magna Charta*) athrawiaeth cyfiawnhâd. Yn yr adran o *pen.* i. 18, hyd iii. 20, dangosir sefyllfa Cenedloedd ac Iuddewon dan bechod fel rhai amddifaid o gyfiawnder; ac, o ganlyniad, wedi syrthio dan farn Duw. Galw sylw y mae yr apostol yn arbenig at euogrwydd pechod a'r farn gondemniol y mae dyn wedi syrthio dani mewn canlyniad, yn hytrach nag at nerth ac arglwyddiaeth pechod, ac anallu dyn i'w wrthsefyll. Y mae y dysgrifiad o sefyllfa y Cenedloedd yn dechreu gyda'r dadguddiad o ddigofaint Duw yn eu herbyn; rhoddwyd hwynt i tyny i aflendid a meddwl anghymeradwy fel canlyniad eu heuogrwydd; a dybenir trwy ddyweyd fod y rhai sydd yn byw mewn pechod, er gwybod barn (cyfiawnder) Duw ar bechod, yn haeddu marwolaeth: *pen.* i. 18—32. Yn gyffelyb, y mae y dysgrifiad o sefyllfa yr Iuddewon yn dechreu gyda chrybwylliad am farn a digofaint Duw (*pen.* ii. 1, &c.); yna, y mae yn dangos nad oes gan yr Iuddew ddim gwell i'w ddysgwyl na'r Cenedlddyn; fod llid a digofaint, trallod ac ing, yn aros pob un sydd yn gwneuthur drwg—yr Iuddew yn gyntaf, a'r Groegwr hefyd: *pen.* ii. 6, &c. Yr un amcan sydd mewn golwg yn y gyfres o gyhuddiadau a ddygir yn erbyn yr Iuddew: *pen.* ii. 27. Cymharer *adn.* 27. "Ac oni bydd i'r dienwaediad, yr hwn sydd o naturiaeth.....dy *farnu* (dy gondemnio=κρίνω; yr un ystyr a κατακρινω; *Mat.* xii. 41) di." Y casgliad a wneir am Iuddewon a Chenedloedd ydyw, nid yn unig eu bod dan bechod (*pen.* iii. 9), ond bod yr holl fyd dan farn Duw (*pen.* iii. 19). Yn yr adran hon, y mae y gair *cyfiawnhau* i'w gael ddwy waith; ac nid oes un ystyr yn ddichonadwy yn un o'r ddau le ond ystyr barnol. Nis gellir deall fod gwneuthurwyr y ddeddf yn cael eu cyfiawnhau (*pen.* ii. 13), yn yr ystyr o dderbyn ansawdd foesol unol â deddf Duw, gan fod hyn yn cael ei ragdybied, ond eu bod yn cael eu cydnabod a'u cyhoeddi yn gyfiawn. Drachefn (*pen.* iii. 4), lleferir am Dduw yn cael ei gydnabod yn gyfiawn. Hefyd, ar y ffaith fod yr holl fyd dan farn Duw y sylfaenir y gosodiad na chyfiawnheir un cnawd trwy weithredoedd y ddeddf (*pen.* iii. 20); yr hyn nis gellir ei ddeall ond yn yr un ystyr a *pen.* ii. 13, am gyhoeddi yn gyfiawn ger bron Duw.

Mewn cyferbyniad i'r sefyllfa o fod dan farn Duw, dadguddir trefn rhyddhâd a chymmeradwyaeth trwy neu yn "nghyfiawnder Duw," yr hwn sydd i bawb a gredant: *Rhuf.* iii. 21, 22 Mae pechadur yn dyfod i'r cyflwr newydd hwn trwy gael ei gyfiawnhau trwy ffydd: *adn.* 24. Gan fod cyflwr dyn yn gyflwr o gondemniad, yn ol y dysgrifiad blaenorol, mae yn rhaid i'r weithred o gyflawnhâd, sydd yn ei ryddhau o'r cyflwr hwn, fod yn weithred farnol hefyd. Gan fod cyflwr dyn yn gyflwr o euogrwydd, nid oes modd i Dduw ei dderbyn a'i gyhoeddi fel un cyfiawn, ond trwy faddeu ei bechod. Y mae cyfiawnhâd yn seiliedig ar iawn am bechod (*Rhuf.* iii. 25); ac yn unol â hyn, wrth y "prynedigaeth" (*adn.* 24) y mae i ni ddeall prynedigaeth oddi wrth euogrwydd a chosp pechod, yn ol ystyr y gair yn *Col.* i. 13, ac *Eph.* i. 7 (defnyddir ef mewn cyssylltiad arall yn 1 *Cor.* i. 30). Y mae y modd y llefara Paul am gyfiawnhâd Abraham, ac am ddadganiad Dafydd o ddedwyddwch y rhai a gyfiawnheir, yn bwysig, mewn trefn i ddangos natur y weithred sydd yn cymmeryd lle mewn cyfiawnhâd. Cyfiawnhawyd Abraham trwy fod ei ffydd ef yn yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol yn cael ei chyfrif yn gyfiawnder iddo: *Rhuf.* iv. 1—5. Y mae cyfiawnhau, gan hyny, yn gynnwysedig mewn cyfrif; a chan fod yr olaf yn weithred farnol, neu gyhoeddiad o ewyllys Duw, y mae y blaenaf hefyd. Am Dafydd y dywedir ei fod yn dadgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder iddo; ond yn ol geiriau Dafydd, i'r gŵr nad yw yr Arglwydd yn cyfrif pechod iddo, ond yn eu maddeu ac yn eu cuddio, y mae y dedwyddwch hwn: *adn.* 6—8. Y mae cyfiawnhâd, gan hyny, yn cynnwys maddeuant. Gellir edrych ar y ddau (*adn.* 25) yn ddwy ochr yr un fendith fawr—mor anmhosibl i'w gwahanu oddi wrth eu gilydd ag ydyw gwahanu marwolaeth ac adgyfodiad Crist, yn eu cyssylltiad â maddeuant ar un llaw, ac â chyfiawnhâd ar y llaw arall. Gyda diwedd y bedwaredd bennod, y mae yr apostol wedi gorphen traethu am y modd y mae i bechadur ddyfod yn gyfiawn. Yn nechreu y bummed bennod, y mae yn dangos pa beth sydd yn dyfod i'r rhai a gyfiawnheir. Y mae ganddynt heddwch tuag at Dduw, a gorfoleddant dan obaith gogoniant Duw. Gelwir y cyflwr i ba un y symmudir y rhai a gyfiawnheir yn gyflwr o ras (*Rhuf.* v. 2); trwy gyfiawnhâd y symmudir hwynt i'r "gras hwn;" a hyn sydd yn diogelu eu hachubiaeth rhag digofaint dwyfol: *adn.* 9. Dylid sylwi yn neilluol nad yw yr apostol eto wedi crybwyll dim am y *cyfnewidiad ysbrydol sydd yn newid ansawdd calon pechadur.* Mewn cyferbyniad i gyflwr naturiol y byd, yr hwn sydd dan farn condemniad, a'r hwn sydd ar gyfrif ei euogrwydd yn ddarostyngedig i "lid a digofaint" (*Rhuf.* ii. 8, 9), gosodir allan gyfiawnhâd fel yr hyn sydd yn sicrhau "heddwch *tuag at* Dduw"—yr hyn sydd yn gynnwysedig niewn sefyllfa neu *berthynas* â Duw, fel yn gyferbyniol â *digofaint* (οργη) Duw, ac nid â *gelyniaeth* (εχθρα) dyn. Yn y cyflwr hwn, y mae ein diogelwch yn sicr, a'n parhâd yn dibynu, nid ar ein rhinwedd a'n diwydrwydd ein hunain, ond ar Grist; ac yn yr hwn hefyd y mae gobaith gogoniant Duw wedi cymmeryd lle y dysgwyl ofnadwy am farnedigaeth. Nid gras yn *sancteiddio* oddi wrth halogrwydd pechod, ond gras yn *diogelu* rhag euogrwydd a chosp a ddysgrifir: *Rhuf.* v. 1—11. Nid yw y bummed adnod yn anghysson â hyn; o herwydd y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi i ddadguddio cariad Duw tuag atom ni, ac nid ein cariad ni tuag at Dduw, fel y gwelir yn yr adnodau canlynol (6, 7, 8); ac, ar sail y cariad hwn, i greu

Digitized by Google

sicrwydd yn y galon o ddiangfa rhag digofaint, a mwynhâd o ogoniant Duw. Arweinir ni i'r un penderfyniad wrth gymharu y "bywyd" sydd yn dyfod trwy Grist, â'r "farwolaeth" sydd yn dyfod trwy Adda: *adn.* 12—21. Mae y gair "bywyd," yn yr Ysgrythyrau, yn arwyddo sancteiddrwydd a hapusrwydd, neu gydymffurfiad â'r ddeddf mewn gweithgarwch ysbrydol, a mwynhâd o'r bendithion sydd yn ffrwyth hyny. Yn gyferbyniol i hyn, y mae y gair "marwolaeth" yn sefyll am ddiffyg cydymffurfiad â deddf Duw, ac hefyd am y canlyniad o hyny. Yn yr Hen Destament, defnyddir y geiriau "bywyd" a "marwolaeth" fynychaf am ganlyniadau ufudd-dod ac anufudd-dod (*Lef.* xviii. 5; *Deut.* xxx. 15, 16; *Ezec.* xxxiii. 7—30); ac yn enwedig, ymadroddion fel y rhai canlynol:—"Fel yr arwain cyfiawnder i fywyd; felly dilyn drygioni a dywys i angeu." "Ffrwyth y cyfiawn sydd megys pren y bywyd;" *Diar.* xi. 19, 20. "Yn ffordd cyfiawnder y mae bywyd; ac yn ei llwybrau hi nid oes marwolaeth;" *Diar.* xii. 28. Yr un hefyd ydyw ystyr cyntaf y geiriau—o leiaf yn y Testament Newydd. Mai hyn ydyw yr ystyr yn y gymhariaeth rhwng Adda a Christ, sydd amlwg oddi wrth y cyfeiriad sydd at yr hanes yn Genesis, lle mae y ddedfryd farnol yn cael ei chyhoeddi ar Adda am anufudd-dod. Yn *adn.* 12, cyfeirir at ddyfodiad cyffredinol pechod i'r byd; ond yn yr adnodau canlynol, condemniad a marwolaeth, fel cosp pechod, a gedwir mewn golwg. Felly, wrth y geiriau "trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn" (*adn.* 19) y meddylir, y gosodir llawer mewn cyflwr cyfiawn—y dygir hwynt i sefyllfa o gymmeradwyaeth gyda Duw. Y mae yn amlwg, oddi wrth *adn.* 16, fod "barn condemniad" yn gyferbyniol i gyfiawnhâd (δικαίωμα = *cyhoeddiad o ryddhâd*). Ac hefyd (*adn.* 18); "Megys trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad; felly hefyd trwy gyfiawnder un y daeth y dawn ar bob dyn i gyfiawnhâd bywyd." Er mwyn dangos yn fanylach ei natur, gelwir ef "cyfiawnhâd bywyd;" gan ei fod yn symmud ymaith dedfryd marwolaeth, ac yn arwain i fywyd. Yn niwedd yr adran hon, wedi traethu am ras cyfiawnhaol, y mae yr apostol yn dybenu trwy ddweyd, "Lle yr amlhaodd pechod, y rhagoramlhaodd gras;" *adn.* 20. 21. Wrth hyn y mae yn cyssylltu yr adran nesaf, yn mha un y mae yn dechreu ymchwiliad i effeithiau sancteiddiol cyfiawnhâd, trwy ofyn, "A drigwn ni yn wastad mewn pechod, fel yr amlhao gras?" *Rhuf.* vi. 1. Y mae y gofyniad hwn yn brawf newydd mai wrth gyfiawnhâd y meddyliai yr apostol faddeuant pechod, a derbyniad gyda Duw, ac nid sancteiddiad a chyfnewidiad y meddwl—er fod hyn mewn undeb annattodol â chyfiawnhâd; o herwydd pe buasai sancteiddhâd yn rhan hanfodol o gyfiawnhâd, ni buasai y fath gwestiwn yn bosibl. Y mae yn anmhosibl codi gwrthddadl yn erbyn sancteiddhâd, ei fod yn arwain i hyfdra mewn pechod; ond yn erbyn cyfiawnhâd trwy gyfiawnder un arall, y mae hyny yn bosibl. Ac y mae yr wrthddadl y cyfeirir ati yn y gofyniad dechreuol yn dangos mai am gyfiawnhâd—yn yr ystyr o ryddhau dyn oddi wrth euogrwydd, a rhoddi hawl bywyd iddo yn ngwyneb deddf—y mae yr ymdriniaeth hyd ddechreu y chweched bennod.

Defnyddir y gair "cyfiawnhau" (*Rhuf.* vi. 7) fel pe byddai yn arwyddo rhyddhâd oddi wrth affendid pechod; "Canys y mae yr hwn a fu farw, wedici ryddhau (cyfiawnhau) oddi wrth bechod." Y mae Scott yn cyfleithu y gair yn llythyrenol—"wedi ei gyfiawnhau"—ac yn ei ddeall am ryddhâd oddi wrth euogrwydd a chosp pechod. Felly y mae Calvin, Bengel, a Tholuck, yn ei ddeall; sef, am "ryddhâd oddi wrth gyhuddiad—oddi wrth ddedfryd barnwr." Y mae gan bechod hawl ar y dyn sydd dan euogrwydd, i'w gyhuddo ac i arglwyddiaethu arno; a'r unig lwybr i gael rhyddhâd oddi wrth ei affendid a'i arglwyddiaeth ydyw cael rhyddhâd oddi wrth ei euogrwydd. Edrychir ar ddyn yn sefyll mewn cyflwr ag y mae gan bechod hawl arno; daeth Crist fel meichiau i'r un berthynas âg ef; ond trwy farw, collodd pechod hawl arno (*Rhuf.* vi. 10); a thrwy undeb â Christ yn ei farwolaeth, y mae y pechadur yn cael ei ryddhau oddi wrth awdurdod pechod arno yntau. Gwelir, gan hyny, fod y gair "cyfiawnhâd" yn cadw yr ystyr barnol a berthyn iddo yn mhob man arall, yn y lle hwn hefyd.

Fel casgliad oddi wrth yr ymchwiliad hwn, gallwn ddywedyd, nad yw y geiriau Hebreig a Groeg am gyfiawnhau mewn un man trwy yr Ysgrythyrau yn arwyddo gwneuthur yn gyfiawn trwy gyfnewidiad y galon; ond, bob amser, arwyddant, ystyried, dal, dadgan, cyhoeddi, ymddwyn tuag at fel un cyfiawn, neu *wneuthur* yn gyfiawn trwy *gyhoeddi* yn gyfiawn.

Nid annaturiol ydyw gofyn yma, pa bwys sydd mewn penderfynu mor fanwl pa beth ydyw gwir ystyr y gair "cyfiawnhau?" Ac yn enwedig, gan fod cyfnewidiad cyflwr a chyfnewidiad anian yn angenrheidiol er cyflawn iachawdwriaeth pechadur, pa bwys sydd mewn gwahaniaethu mor fanwl rhyngddynt? I hyn, gellir ateb, ei fod yn ddigon o reswm fod yr apostol Paul, mewn traethawd manwl ar y mater, yn gwneyd hyny. Fel y gwelir uchod, yn nechreu y chweched bennod—a hyny mewn atebiad i wrthddadl yn erbyn cyfiawnhâd trwy ufudd-dod un arall—y mae yr apostol yn dechreu gyntaf ar sancteiddhâd, ac olrheinia ei ymresymiad ar y mater hwn hyd *pen.* viii. 13; ac yna, dychwel at ei bwnc dechreuol, sef cyflwr pechadur mewn undeb â Christ. Ac oni all hyn fod yn rheswm pa ham na enwir *sancteiddhâd* yn y gyfres o fendithion a gynnwysir yn *adn.* 30:—rhagluniad, galwedigaeth, cyfiawnhâd, a gogoneddiad. Ond y mae yr apostol yn gwneyd hyn er mwyn cadw *sail gobaith* pechadur yn eithaf clir. Y mae hyn o'r pwys mwyaf; ac er mwyn ei sicrhau, rhaid symmud ymaith bob perygl i gamgymmeryd dim yn sail cymmeradwyaeth gyda Duw am y "prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw? Duw yw yr hwn sydd yn cyfiawnhau. Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw." Unig sail ymffrost pechadur ydyw, cael ei gyfiawnhau gan yr *awdurdod uchaf*, ac am y *rheswm cryfaf.* Ond fel na byddo i hyn gael ei gymylu, y mae yn rhaid gwahaniaethu rhwng cyfiawnhâd a sancteiddhâd. Ac ar y llaw arall, y mae mor angenrheidiol peidio eu gwahanu, neu eu hysgaru. Lle na wahaniaethir rhyngddynt, y mae deddf ac efengyl, ewyllys rydd a rhad ras, haeddiant dyn a chyfiawnder Crist, yn un gymmysgfa dywyll. A lle y gwahenir hwynt, y mae balchder Phariseaidd a rhyfyg Antinomaidd yn sicr o ddilyn. Y mae cyfiawnhâd yn golygu yr hyn a wneir *erddom*—sancteiddhâd yr hyn a wneir *ynom.* Y mae y naill yn gyfnewidiad cyflwr—y llall yn gyfnewidiad natur. Y mae y naill yn berffaith ar unwaith—y mae y llall yn raddol. Y mae y naill yn rhoddi hawl i'r nefoedd—y llall yn rhoddi

Digitized by Google

cymhwysder iddi. Cyfrifiad o gyfiawnder Crist ydyw y naill—gwaith Ysbryd Crist ydyw y llall. Y mae peidio eu gwahaniaethu yn gadael y cwbl yn dywyll—y mae eu hysgaru yn peryglu y cwbl.

Gall fod yn fuddiol, er mwyn cadw y gwahaniaeth yn glir o flaen y meddwl, i daflu golwg ar ymadroddion anochelgar rhai Protestaniaid, a syniadau anghywir neu gymmysglyd ereill. Yr hwn a hynododd ei hun gyntaf yn mhlith y Protestaniaid yn erbyn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd, fel y dysgid hi gan y Diwygwyr, ydoedd Osiander,[1] golygiadau yr hwn a wrthwynebir mor eiddigeddus gan Calvin, yn y bennod ar gyfiawnhâd yn yr *Institutes*. Amean Osiander ydyw amddiffyn sancteiddhâd fel rhan o iachawdwriaeth pechadur, yr hyn yr ofnai efe oedd yn cael ei beryglu gan athrawiaeth y Diwygwyr am gyfiawnhâd. Nid oedd yn rhyfedd fod dynion y pryd hwnw, ac yn awr, yn camddeall y gwirioneedd mawr am gyfiawnhâd trwy ufudd-dod a haeddiant un arall, ac yn priodoli yr effeithiau mwyaf peryglus iddo, fel y gwnaent yn amser Paul.[2]

Y mae syniadau Osiander am gyfiawnhâd yn gynnwysedig yn y ddau beth hyn:—Yn 1af. Bod cyfranogiad ysbrydol o Grist a'i gyfiawnder hanfodol yn angenrheidiol i gyfiawnhâd, yn gystal a maddeuant pechod a chyhoeddiad barnol fod y pechadur yn gyfiawn. Ac, yn 2il. Y mae yn ysgaru maddeuant pechod oddi wrth gyfrifiad o gyfiawnder Crist, ac yn rhoddi y cyfranogiad o gyfiawnder hanfodol Crist rhyngddynt; ac ar sail hyn y cyhoeddir y pechadur yn gyfiawn. Gwelir fod y syniadau hyn yn gwahanu maddeuant a chyfiawnhâd, yr hyn sydd yn hollol groes i'r ymresymiad uchod o eiddo yr apostol, lle y mae maddeuant, cyhoeddi yn gyfiawn, a chyfrif ffydd yn gyfiawnder, yn cael eu cymmeryd y naill am y llall. Ar un llaw, y mae pechadur yn euog hyd nes y credo, ac y daw haeddiant, ufudd-dod, a dyoddefaint Crist yn eiddo iddo trwy ffydd: ar y llaw arall, pan y rhyddheir ef oddi wrth ei euogrwydd, derbynir ef gan Dduw fel un cyfiawn.

Defnyddiai rhai o'r Diwygwyr, yn achlysurol, y gair *cyfiawnhau*, nid yn unig am dderbyn i gyfflwr o gyfiawnhâd, ond hefyd am gyfnewidiad y galon. Defnyddir ef gan Luther ei hun felly ychydig droion; ond eto nid fel y gwna y Pabyddion, a'r rhai sydd yn eu dilyn yn hyn, gan wneuthur cyfiawnhâd i ddibynu ar gyfnewidiad y meddwl. Y mae rhai duwinyddion diweddar, megys Neander, yn rhoddi y fath ddarnodiad o gyfiawnhâd, fel ag i gynnwys cyfnewidiad cyflwr a natur—"ein gosod mewn perthynas ag sydd yn cyfateb i holl gynnwysiad y gair cyfiawn." Ei feddwl wrth hyn ydyw, ein dwyn i gydymffurfiad gweithredol â'r ddeddf trwy gyfranogiad o rinwedd bywiol Crist, trwy undeb ffydd âg ef, ac yna hefyd ein cydnabod yn gyfiawn yn ei gwyneb. Yn ol y golygiad hwn, y mae ffydd yn cael ei weithio yn yr enaid trwy ras Duw; a chan fod ffydd yn egwyddor bywyd ysbrydol, ac o ganlyniad yn cynnwys—fel yr hedyn y goeden—pob cyfiawnder ynddi ei hun, y mae y dyn sydd yn ei meddu yn cael ei gyfrif a'i gyhoeddi yn gyfiawn ger bron Duw. Yn ol y golygiad hwn, gwneuthur yn gyfiawn (*justum facere*) ydyw y peth cyntaf, trwy roddi egwyddor o fywyd newydd; a chyhoeddi, neu gyfrif, neu ymddwyn at fel un cyfiawn (*justum nabere*), ydyw y peth nesaf; a hyny am fod gan y pechadur egwyddor sydd yn wreiddyn pob cyfiawnder yn ei galon. Mewn atebiad i hyn, addefir fod yr hwn sydd wedi ei gyfiawnhau mewn perthynas neu sefyllfa sydd yn cyfateb i holl a chyflawn ystyr y gair *cyfiawn*, yn foesol a chyfreithiol; ond ar yr un pryd, fod cyfiawnhâd ei hun yn arwyddo—yn ol y crynodeb a roddwyd o dystiolaethau yr Ysgrythyrau—derbyniad i gyflwr o gymmeradwyaeth gyda Duw, ar sail iawn y Cyfryngwr. Fel prawf o'r un peth, gwasanaetha y tystiolaethau ysgrythyrol sydd yn dangos mai yr "annuwiol" ydyw gwrthddrych cyfiawnhâd.

Tra yr ydym yn ymofyn i natur cyfiawnhâd, a'r drychfeddwl ysgrythyrol am dano, dylid sylwi fod gwahaniaeth barn yn bod rhwng amddiffynwyr yr athrawiaeth Brotestanaidd o barth i'r cwestiwn canlynol:—A ydyw yr ymadroddion ysgrythyrol am "buro y gydwybod," a heddychu y gydwybod, i'w hystyried fel dysgrifiad o'r hyn sydd yn perthyn i hanfod cyfiawnhâd, ai ynte i'w effeithiau? Cyfeiria rhai, megys Nitzsch a Tholuck, y gair "glanhau" (1 *Ioan* i. 7—9), "puro eich cydwybod" (*Heb.* ix. 14), ac "o ran cydwybod berffeithio yr addolydd" (*Heb.* ix. 9), at gyfiawnhâd. Efallai fod yr ysgrifenwyr sydd yn cymmeryd y golygiad hwn yn cael eu hysgogi i hyny gan awydd i sicrhau undeb annattodol rhwng cyfiawnhâd a sancteiddhâd—y cyfreithiol a'r moesol—yn iachawdwriaeth dyn. Gallent deimlo fod y perygl o ddadgyssylltu cyfiawnhâd a sancteiddrwydd calon a buchedd yn llai wrth eangu cyfiawnhâd nes cymmeryd i mewn amlygiadau cyfiawnhâd mewn heddychu y gydwybod, a'i phuro oddi wrth weithredoedd meirwon. Yn ngwyneb hyn, dylid cofio fod euogrwydd a barn condemniad yn bod, pa un a fydd dyn yn teimlo hyny ai na fydd. Nid yw diffyg teimlad o euogrwydd yn ei ddifodi. Onid ellid meddwl, gan hyny, fod cyfiawnhâd, yr hwn sydd yn gynnwysedig mewn symmud ymaith y gollfarnedigaeth, a rhoddi hawl i fywyd, o ran ei hanfod, yn annibynol ar deimlad y gydwybod? Y mae yn wir fod y rhai sydd yn cael eu cyfiawnhau yn cael heddwch tuag at Dduw (*Rhuf.* v. 1, &c.), yn cael Ysbryd Duw i gyd-dystiolaethu â'u hysbryd hwy eu bod yn blant i Dduw: *Rhuf.* viii. 15, 16. Eto, nid ydyw bod dau beth yn annattodol â'u gilydd yn peri fod y naill o angenrheidrwydd yn ymddangos yn uniongyrchol gyda'r llall. Ac heb law hyny, onid yr effaith o wneyd teimlad o faddeuant yn hanfodol i'w natur, fyddai ein harwain i fesur maddeuant Duw wrth ein teimlad ein hunain, ac i edrych ar gyfiawnhâd yn anmherffaith tra y bydd ein teimlad ni o'i rinwedd felly?

Gan fod cyfiawnhâd pechadur ger bron Duw yn cyfateb i gyfiawnhâd dyn gan ei gyd-ddynion yn hyn—sef, fod y ddau yn cyfeirio at berthynas dyn â deddf—y mae yn angenrheidiol gofyn yn mhellach, Yn mha beth y maent yn gwahaniaethu? Fe gynnorthwya hyn ni i ddeall yn mhellach natur y fendith a olygir wrth gyfiawnhâd. Y mae yr hwn a gyfiawnheir mewn llys daiarol, os na bydd hyny yn codi o ddiffyg tyst-

[1] *De unico Mediatore Iesu Christo et Justificatione Confessio Andreæ Osiandri* 1551.

[2] Gwelir, oddi wrth y dyfyniad canlynol, fod yn bosibl i ysgrifenydd a beirniad o alluoedd a thegwch cyffredinol Hallam fethu a deall athrawiaeth y Diwygwyr:—

"In maintaining salvation to depend on faith as a single condition, he (Luther) not only denied the importance, in a religious sense, of a virtuous life, but asserted that every one who felt within himself a full assurance that his sins were remitted (which, according to Luther, is the proper meaning of Christian faith), became incapable of sinning at all, or, at least, of forfeiting the favour of God, so long—but so long only—as that assurance should last."—*Literature of Europe*, cyf. i.

Digitized by Google

iolaeth, yn wirioneddol ddieuog; ac y mae ei gyfiawnhâd yn weithred o gyfiawnder tuag ato. Rhyddheir ef am ei fod yn haeddu ei ryddhau. Ond nid yn yr ystyr yma y cyfiawnheir pechadur gyda Duw—o ras y mae hyn, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu. Mewn cyfiawnhâd gwladol, i'r graddau y mae yr hwn a gyfiawnheir yn ymgodi uwch law y gwarth a geisid daflu arno, y mae ei gyhuddwyr yn syrthio dan warth; ond yn nghyfiawnhâd pechadur, addefir gwirioneddpob cyhuddiad, ac nid oes cywilydd yn perthyn i neb ond iddo ef ei hun. Y mae cyfiawnhâd yn mhlith dynion nid yn unig yn cael ei gyferbynu i gondemniad, ond hefyd i faddeuant. Ond y mae cyfiawnhâd yr efengyl, er yn cangach na maddeuant, eto, mor bell oddi wrth fod yn wrthwynebol iddo, fel y mae yn ei gynnwys. Y mae maddeuant yn symmud ymaith y felldith sydd yn perthyn i bechod, tra y mae cyfiawnhâd yn rhoddi hawl i fywyd tragwyddol; ond heb y blaenaf, nis gellir cael yr olaf. Rhaid i'r hwn sydd yn cael ei gyfiawnhau gael maddeuant; ac y mae yr hwn sydd yn derbyn maddeuant yn cael ei gyfiawnhau. Y mae cyfiawnhâd mewn llys gwladol yn attal y ddedfryd gondemniol rhag syrthio ar y cyhuddedig; ond y mae cyfiawnhâd yr efengyl yn ei gael ef dan gondemniad, ac yn ei ryddhau oddi dano. Y mae cyhuddiadau trymion yn cael eu dwyn yn erbyn pechadur gan ei Greawdwr. Y mae y cyhuddiadau hyn yn gynnwysedig yn ngair Duw. Gwel yn arbenig *Rhuf.* i, ii, a iii. Y mae hanes y byd, a chydwybod a bywyd pob dyn, yn brofion o wirioneddy cyhuddiadau hyn; ac ar y profion hyn, yn nghyd â'i wybodaeth drwyadl o'r hyn sydd mewn dyn, y mae Barnwr yr holl ddaiar yn gadael i'r cyhuddiad orphwys. Nis gall dyn amddiffyn ei hun oddi wrth y cyhuddiad. Nis gall ddangos na chyflawnodd yr hyn a roddir yn ei erbyn, ac nis gall chwaith brofi fod ganddo hawl i'w cyflawnu—yr unig ddwy ffordd ag y gall dyn mewn llys gwladol ei gyfiawnhau ei hun. Nis dichon i bechadur gael ei gyfiawnhau trwy y ddeddf, o herwydd nis gall brofi nad yw Duw yn gyfiawn a geirwir yn ei holl gyhuddiadau yn ei erbyn; ac nis gall brofi chwaith fod yn gyfreithlawn iddo ef ei hun wneuthur yr hyn a wnaeth. A chan nas gall wneuthur un o'r ddau beth hyn, nis gellir ei gyflawnhau trwy y ddeddf. Y mae y ddeddf yn ei ddal yn euog, ac yn ei gondemnio. Y mae gwadu y ffeithiau yn ofer—y mae eu cyfiawnhau yn ofer. Y mae pob genau wedi ei gau, a'r holl fyd dan farn Duw. Y mae cyfiawnhâd ar egwyddorion y ddeddf yn hollol anmhosibl i'r fath rai. Nid yw deddf yn rhagddarbod ar gyfer maddeuant y neb sydd yn ei throseddu.

Dadguddir trefn arall i gyfiawnhau yn yr efengyl, yn yr hon y mae cyfiawnder a gras yn ymddysgleirio:—nid trefn yn *ol* (*κατα νομον*) y ddeddf; o herwydd, yn ol ei llythyren hi, y mae dyn i ddwyn ei euogrwydd ei hun; ac nid yn *erbyn* (*κατα νομου*) y ddeddf, gan fod boddlonrwydd wedi ei roddi i'w gofynion hi trwy fywyd ac angeu Crist; ond *uwch law* (*υπερ νομον*) y ddeddf, am nad yw gras dan rwymau i faddeu; ac er *mwyn* (*υπερ νομου*) y ddeddf, am ei bod hi yn cael ei chadarnhau trwy hyny. Nid yw y drefn hon yn gynnwysedig yn y pethau canlynol:—1. Nid trefn ydyw yn mha un y mae yr Arglwydd Iesu Grist yn cymmeryd plaid pechadur yn *erbyn* y ddeddf, nac yn *erbyn* Duw. Nid dyfod i ddangos fod y cyhuddiadau yn erbyn pechadur yn ddisail a wnaeth; ond yn hytrach, dangosai ar bob achlysur fod y ddeddf yn gyfiawn yn ei holl orchymynion, a dyn yn droseddwr yn eu gwyneb oll. 2. Nid trefn ydyw i gyhoeddi dyn yn ddieuog; ond cyfiawnhau yr annuwiol y mae Duw: *Rhuf.* iv. 5. Nid ydym yn ddieuog, ac ni byddwn byth, yn yr ystyr o fod heb gyflawnu yr hyn a roddir i'n herbyn. Bydd yn wirionedd byth na bydd gan y pechadur a gyfiawnheir un hawl personol i ffafr Duw. 3. Ni theimla y pechadur byth ei fod yn haeddu dianc rhag uffern, a chael hawl i'r nefoedd; ond cydnebydd i dragwyddoldeb ei fod yn ddyledus i ras penarglwyddiaethol am yr oll a fwynhâ. 4. Nid cyhoeddiad yw o du Duw ein bod wedi gweithio allan iachawdwriaeth i ni ein hunain, na chwaith ein bod yn meddu un hawl i'r hyn a wnaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Ni byddai y cyfryw gyhoeddiad yn wirionedd. 5. Nid *trosglwyddiad* o burdeb moesol cymmeriad yr Arglwydd Iesu Grist ydyw cyfiawnhâd. Y mae trosglwyddiad cymmeriad moesol yn anmhosibl. [Gwel CYFRIFIAD.] Os nad y pethau hyn ydyw cyfiawnhâd, pa beth ydyw? Rhoddir ateb i'r cwestiwn pwysig hwn yn ngeiriau amryw o eglwysi a duwinyddion uniawngred:—"Fe'n cyfrifir yn gyfiawn ger bron Duw yn unig er mwyn haeddedigaethau ein Harglwydd a'n Iachawdwr Iesu Grist, trwy ffydd, ac nid o herwydd ein gweithredoedd neu ein haeddiant ein hunain."—*Erthygl. Eg. Loegr.* "Cyfiawnhâd ydyw gweithred o rad ras Duw, yn yr hon y mae yn maddeu eu (sef credinwyr) holl bechodau, yn derbyn ac yn cyfrif eu personau yn gyfiawn yn ei olwg."—*Catecism y Gymmanfa.* "Gweithred rasol Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist trwy ffydd i bechadur."—*Charles.* "Cyfiawnhâd ydyw y derbyniad y mae Duw yn ei roddi i ni i'w ffafr, fel pe byddem yn gyfiawn; ac y mae y cyfiawnhâd hwn yn gynnwysedig mewn maddeuant pechod, a chyfrifiad o gyfiawnder Crist."—*Calvin.* "Y mae Duw yn edrych ar y dyn sydd yn derbyn Crist trwy ffydd, ac yn edifarhau am ei bechod, gyda llygad grasol, gan beidio cyfrif ei bechod, symmud ymaith y gosp trwy faddeuant, ac yn ei dderbyn yn yr Arglwydd Iesu fel un perffaith gyfiawn, fel pe buasai wedi cyflawnu yr hyn oll a orchymynwyd iddo yn y gyfraith."—*Hooker.* "Bwriad dadguddiedig Duw i edrych ar, ac i ymddwyn tuag at y pechaduriaid hyny a gredant yn yr Arglwydd Iesu Grist, fel pe na phechasent o gwbl, yn unig ar sail haeddiant y Gwaredwr."—*Barnes*:—darnodiad yr hwn hefyd a dderbynir gan Dr. John Brown fel yr eiddo ei hun.[1]

[1] Gall fod yn fuddiol rhoddi amryw ddarnodiadau ereill ar erthygl mor bwysig:—

"A person is said to be justified when he is approved of God as free from the guilt of sin, &c.—its deserved punishment, and as having that righteousness belonging to him which entitles to the reward of life."—*Pres. Edwards.*

"The justification of a sinner in the sight of God consists of the bestowment of a full pardon of all his sins, and a legal title to the happiness of the world to come, as the meritorious result of the atoning sufferings and perfect obedience of the Lord Jesus Christ, conferred and received in the way which God has appointed, namely, by faith in the gospel."—*Pye Smith.*

"Bendith y cyfammod gras, trwy yr hwn y mae Duw yn cyfrif cyfiawnder Crist, yr hwn a dderbynir trwy ffydd, yn maddeu i'w bobl etholedig, y rhai sydd wedi eu galw ganddo, eu holl bechodau, ac yn rhoddi iddynt gyfiawn hawl i fywyd tragwyddol; rhoddir amlygiadau o hyn mewn gwahanol raddau i'w cydwybodau; er mawl i'w ogoniant."—*Marckius*, yn Lladin

"Yr wyf yn credu fod pechaduriaid yn cael eu cyfrif yn gyfiawn yn unig trwy ufudd-dod Crist, ac mai cyfiawnder Crist ydyw yr unig achos haeddiannol ar gyfrif pa un y mae Duw yn maddeu pechodau credinwyr, ac yn eu cyfrif yn gyfiawn, fel pe buasent wedi rhoddi ufudd-dod perffaith i'r ddeddf."—*Arminius.*

Digitized by Google

Yn unol âg ystyr y gair, âg athrawiaeth yr efengyl am dderbyniad pechadur i ffafr Duw, credoau eglwysi, a golygiadau duwinyddion uniawngred, y mae cyfiawnhâd yn gynnwysedig mewn cyfnewidiad yn sefyllfa neu gyflwr dyn yn ngwyneb deddf Duw. Defnyddir ymadroddion oddi wrth lys barn i ddysgrifio y cyfnewidiad hwn yn mhob rhan o hono. Y Duw cyfiawn ydyw Barnwr pawb, ac iddo ef y mae pawb yn gyfrifol. Y mae pob dyn yn euog ger ei fron. Y mae gan ddeddf Duw a chydwybod dyn gyhuddiadau yn ei erbyn. Y mae i bechadur Eiriolwr, yr hwn sydd wedi cymmeryd ei achos, a'r hwn sydd yn dadleu drosto haeddiant ei ufudd-dod a'i angeu. Y mae gan bechod, nid yn unig allu i lywodraethu, i aflanhau, ac i wenwyno holl natur dyn; ond hefyd y mae ganddo allu condemniol, trwy yr hwn y mae dyn wedi syrthio dan farn Duw. Angen cyntaf pechadur yw, rhyddhâd oddi wrth euogrwydd—barn rasol ond cyfiawn Duw i newid cyflwr ei berson, a thrwy hyny i roddi dyfodfa iddo at y Duw sanctaidd, a rhyddid i'w gymdeithas. Pan ddaw pechadur edifeiriol a chrediniol at orsedd gras, gan ddadleu haeddiant y Cyfryngwr, maddeuir ei bechod, symmudir ymaith y rhwymedigaeth i ddyoddef cosp, a chyfrifir iddo gyfiawnder Crist, trwy yr hwn y sicrheir iddo bob gras:—1af. Y mae pechadur yn cael ei ryddhau oddi wrth gyhuddiadau cydwybod, ac arglwyddiaeth pechod: *Rhuf.* viii. 1; *Salm* cxxx. 4; *Heb.* x. 22. 2il. Y mae ganddo heddwch tuag at Dduw, a thangnefedd yn Nuw: *Rhuf.* v. 1; xiv. 17. 3ydd. Y mae yr Ysbryd Glân yn cael ei roddi iddo yn ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn y mae yn perffeithio sanctaiddrwydd yn ofn Duw: *Rhuf.* v. 5; vi. 22; *Gal.* iv. 6. 4ydd. Mae ganddo obaith bywyd tragwyddol (*Rhuf.* v. 1), gan fod ei gyfiawnhâd yn gyfiawnhâd bywyd. Pan faddeuer i droseddwr gwladol, ni chaniateir iddo ond i fyw fel y gall, ac yn yr amgylchiadau y gall:—nid oes un ddarpariaeth yn cael ei gwneuthur ar ei gyfer gan y llywodraeth; ac o'i rhan hi, nid oes dim o'i flaen ond tlodi a gwarth. Ond pan y mae Duw yn cyfiawnhau, y mae efe, nid yn unig yn caniatau i'r pechadur fyw fel y gallo, ond yn ei fabwysiadu yn blentyn iddo ei hun, yn rhoddi iddo ei gymdeithas, yn ei wneuthur yn etifedd i Dduw a chydetifedd â Christ.

Y mae y cwestiwn wedi ei ofyn yn fynych:—Os *gweithred* ydyw cyfiawnhâd, Pa bryd y mae y weithred hono yn cymmeryd lle—mewn amser, ynte yn nhragwyddoldeb? Ac hefyd, Yn mha le y mae hi yn cymmeryd lle—ai yn y nefoedd ai ar y ddaiar? Y mae amrywiaeth yn bod yn yr atebion sydd wedi eu rhoddi i'r gofynion hyn. Mae rhai wedi hòni fod cyfiawnhâd yn weithred arosol (*immanent*) yn y meddwl dwyfol, ac wedi cymmeryd lle er tragwyddoldeb. Barn ereill ydyw, mai gweithred sydd yn cymmeryd lle mewn amser, yn y fuchedd hon, ac yn terfynu yn nghydwybod pechadur ydyw. Myn ereill fod y cyhoeddiad o ryddhâd yn cael ei oedi hyd ddydd y farn, pryd y gwneir tynged pawb yn hysbys mewn dedfryd o gondemniad a rhyddhâd.

Y rheswm a honir gan y rhai sydd yn dal "cyfiawnhâd tragwyddol" ydyw—nas gall dim newydd ddygwydd i Dduw mewn amser, ac nad yw ffydd yn angenrheidiol mewn trefn i *gael* maddeuant a chyfiawnhâd, ond yn unig mewn trefn i'n dwyn ni i sicrwydd o honynt. Mae y golygiad hwn wedi cael ei fabwysiadu gan ddynion sydd yn proffesu eiddigedd mawr dros benarglwyddiaeth gras Duw, a pherffeithrwydd gwaith y Cyfryngwr.[1]

Mewn atebiad i hyn, gellir dyweyd y pethau canlynol, yn mysg ereill:—

1. Mai dau beth gwahanol ydyw y bwriad tragwyddol i gyfiawnhau, a chyflawniad y bwriad hwnw yn y weithred o gyfiawnhâd. Bwriadodd Duw greu y byd a gogoneddu y saint er tragwyddoldeb, ond ni ddywedir fod y bwriadau hyn wedi eu cyflawnu er tragwyddoldeb.

2. Y mae hyn yn cynnwys y gwrthddywediad fod pechod wedi ei faddeu cyn iddo gael ei gyflawnu.

3. Y mae hyn yn anghysson â'r drefn yn mha un y gosodir cyfiawnhâd; sef, rhaglunio, galw, cyfiawnhau, a gogoneddu: *Rhuf.* viii. 30. Yr oedd y bwriad cyn amser (*rhag*wybu, *rhag*lunio=προ); ond y mae cyflawniad y bwriad mewn amser, ac yn y drefn a nodir gan yr apostol.

4. Nis gall cyfiawnhâd fod o flaen credu, gan mai "trwy ffydd y cyfiawnheir dyn,"—ac mewn amser y credir.

Nid yw cyfiawnhâd pechadur i gael ei ystyried, chwaith, fel yn cymmeryd lle ddydd y farn, na chwaith yn cael ei berffeithio ddydd y farn, pan bydd y saint yn berffaith mewn sancteiddrwydd. Mae y golygiad fod cyfiawnhâd yn hanfodol yr un â sancteiddhâd yn arwain i hyn. Y mae rhai wedi dychymygu fod hyn yn cael ei awgrymu yn yr adnodau canlynol, lle y defnyddir y ferf yn yr amser dyfodol. "Ni *chyfiawnheir* (δικαιωθήσεται) un cnawd yn ei olwg ef." "Gan mai un Duw sydd, yr hwn a *gyfiawnhâ*" (δικαιώσει); *Rhuf.* iii. 20, 30. "Felly trwy ufudd-dod un y *gwneir* llawer *yn gyfiawn*" (καταστασθήσονται); *Rhuf.* v. 19. Yn yr adnod gyntaf o'r tair, gellid defnyddio y dyfodol, er mwyn dangos posiblrwydd—"Ni chyfiawnheir, *mewn unrhyw amgylchiad;*" neu ynte, dynoda yr holl ysbaid y parhâ y gwaith o gyfiawnhâd i fyned yn mlaen yn y byd. Y mae yr ystyr hwn yn briodol i'r tair adnod. Nid oes un cyfeiriad at y farn gyffredinol. Dengys yr holl Ysgrythyr, yn enwedig *Rhuf.* iii—v, fod maddeuant a derbyniad i gyflwr o ras a chymmeradwyaeth yn cymmeryd lle ar unwaith, ac nid yn raddol, ac yn cymmeryd lle

"Y mae cyfiawnhâd, maddeuant pechod, peidio cyfrif pechod, a chyfrif cyfiawnder, yn eiriau ac ymadroddion cyfystyr."—*Richard Watson.*

"In the justification of a man through the mediation of Christ, man individually, as guilty, and his Divine Sponsor, *personally competent to take upon himself such a part,* stand forward in the court of heaven—there to be severally dealt with, as the honour of law shall demand; and if the representative of the guilty be indeed thus qualified in the eye of the law, and if the guilty on his part freely accept this mode of satisfaction, then, when the one recedes from the position of danger, and the other steps into it, justice, having admitted both the competency of the substitute and the sufficiency of the substitution, is itself silent."—*Isaac Taylor.*

[1] Gwelir oddi wrth frawddeg neu ddwy o waith Erskine [*The Unconditional Freeness of the Gospel*], pa beth ydyw natur eu rhesymau. Dywed fod y rhai sydd yn gosod allan ffydd fel yn angenrheidiol i faddeuant, yn gwneuthur ffydd yn *ammod*, ac o ganyniad yn rhoddi llyffetnair ar ras yr efengyl:—

"According to the common method of religious instructions, pardon is represented as so dependent on faith that it is apt to be mistaken for its reward; and then, as these teachers fear that they may offer heaven on too easy terms, they attach to their definition of faith the whole Christian character, in order, as it would seem, to make it worthy of such a reward. What is the freeness of the Gospel, upon their system, but substituting faith as the ground of a sinner's hope, in the place of obedience, which is called the legal system."

Digitized by Google

yn y byd hwn, fel canlyniad uniongyrchol ffydd yn Nghrist. Y mae yr un peth yn amlwg oddi wrth esamplau Abraham (*Gen.* xv. 6); Dafydd (*Salm* xxxii. 1, 2, 4; *Rhuf.* iv. 5, 6); y wraig yr hon oedd bechadures (*Luc* vii. 48); y publican (*Luc* xviii. 14); a'r holl gredinwyr: *Rhuf.* v. 1. Pa fodd ond fel hyn y gallai y saint fwynhau tangnefedd, a gorfoleddu mewn gorthrymderau? Peth gwahanol ydyw yr *amlygiad cyhoeddus* o gyfiawnhâd yn y farn, a chyfiawnhâd ei hun.

Yr ateb a roddir yn gyffredin i'r gofyniad uchod sydd fel y canlyn:—"Y mae cyfiawnhâd yn cymmeryd lle y fynyd y mae pechadur yn cael ei alw yn effeithiol, a thrwy hyny yn cael ei symmud o gyflwr o bechod i gyflwr o ras, ac yn cael ei uno â Christ trwy ffydd. Dyna y pryd y cyfrifir cyfiawnder Crist iddo; ac ar sail ei haeddiant ef, yr hwn a dderbynir ganddo trwy ffydd, maddeuir iddo ei bechodau, a rhoddir iddo hawl i fywyd; ac y mae yr Ysbryd yn cyhoeddi hyn yn nghalon y pechadur, pan yn dywedyd wrtho, 'Ha fab! cymmer gysur, maddeuwyd i ti dy bechodau.'" — *Turretin.* Gwahaniaethir hefyd rhwng gwaith Duw yn cyhoeddi pechadur yn gyfiawn, fel barnwr oddi ar orseddfainc ei ras (*Heb.* iv. 16), ac yn amlygu hyny trwy ei Ysbryd yn y galon, a gwaith y pechadur yn derbyn maddeuant trwy ffydd gyda llawenydd a diolchgarwch.

Nid oes neb a ddychymyga fod Duw, pan yn cyfiawnhau pechadur, yn myned trwy ddefod fel mewn llys gwladol, ac yn gwneyd ei benderfyniad yn gyhoeddus i saint ac angelion yn y nefoedd, na chwaith i saint ar y ddaiar. Y mae y cwestiwn, gan hyny, yn cael ei ofyn—Yn mha le y cyhoeddir y ddedfryd o ryddhâd ar y troseddwr? Os dywedir mai yn meddwl Duw, gofynir eilwaith—A ydyw yn briodol galw penderfyniad neu fwriad dirgelaidd Duw yn gyhoeddiad barnol? Ac os dywedir mai i gydwybod y troseddwr y gwneir ef, y mae y cwestiwn yn codi—A oes cyhoeddiad neu ddadguddiad yn cael ei wneuthur i gydwybod pechadur, heb law yr hyn a ddadguddir iddo gan yr Ysbryd *trwy y gair?* Y mae amryw yn cyfarfod y gofynion hyn trwy ddyweyd mai yn ngwyneb *gair Duw* yn unig y mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau a'i gondemnio yn y fuchedd hon; *h. y.*, mai yn y gair yn unig y mae Duw yn *cyhoeddi* rhyddhâd a maddeuant i'r hwn a gredo. "Cyfiawnhâd ydyw cael ein rhyddhau yn ngwyneb ewyllys ddadguddiedig Duw yn yr efengyl. Fel y mae digofaint Duw yn cael ei ddadguddio yn melldithion y ddeddf, felly y mae cyfiawnder Duw yn cael ei ddadguddio yn nhystiolaethau yr efengyl. Yn y dadguddiad hwn o feddwl Duw yn ei air y mae y cyhoeddiad yn gynnwysedig sydd yn condemnio ac yn cyfiawnhau. Yr hwn a fendithia yr Ysgrythyrau sydd fendigedig, a'r hwn a felldithiant hwy sydd felldigedig."—*And. Fuller.* "Yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd y mae yr unig ddedfryd a gyhoeddir gan Dduw ar gyflwr a chymmeriad dyn cyn dydd y farn. Yma y mae yn cyhoeddi fod pwy bynag a gredo yn cael ei gyfiawnhau. Ynddynt hwy y cynnwysir y ddedfryd farnol, fod pob un a gredo yn y Mab yn cael ei gyfiawnhau, a phob un ni chredo yn cael ei gondemnio. Hon yw y ddedfryd farnol."—*Dr. Payne.* "Cyfiawnhâd ydyw bwriad dadguddiedig Duw i gyfrif ac i ymddwyn tuag at bawb a gred yn yr Arglwydd Iesu Grist fel pe buasent heb bechu, yn unig ar sail teilyngdod y Cyfryngwr." —*Barnes*, a *Dr. Brown.* Nid yw yr ysgrifenwyr hyn, mewn un modd, i'w deall fel yn dal nad oes un weithred rasol o eiddo Duw yn angenrheidiol i ddwyn pechadur i'r cyflwr o gyfiawnhâd bywyd; ond y meddwl yw, mai yn y gair y mae yr unig *gyhoeddiad* o hyn yn y byd hwn. Y mae y Dr. Woods, o Andover, yn tynu y gwahaniaeth hwn: —"Y mae cyfiawnhâd yn *ffaith* a wneir yn hysbys i ni trwy y *dadguddiad.* Dadguddir i ni y gwirionedd fod y rhai sydd yn credu yn cael maddeuant, ac yn cael eu cymmeradwyo yn yr Anwylyd. Yn unol â hyn, pan y mae pechaduriaid yn credu, y maent yn derbyn maddeuant a hawl i fywyd tragwyddol: ond y mae efe nid yn unig yn *cyhoeddi* yn y gair fod y pechaduriaid a gredant yn y cyflwr hwn, ond efe hefyd sydd yn eu dwyn iddo; ac yna, y mae yn *gweithredu* yn rasol tuag atynt, gan gyfranu iddynt fendithion y cyfiawnhâd ac amlygiadau o'i gariad Tadol. Y mae, gan hyny, gyhoeddiad o eiddo Duw yn ei air fod credinwyr wedi eu cyfiawnhau, a gweithred gyfatebol o'i ras tuag atynt."

Cwestiwn arall sydd yn ymgynnyg oddi wrth y dysgrifiad uchod o gyfiawnhâd ydyw—A ydyw cyfiawnhâd i'w gyfyngu at dderbyniad cyntaf pechadur i ffafr Duw? neu ynte, A ydyw yr hwn a gredo yn derbyn cyfiawnhâd ag sydd yn estyn megys tros ei holl oes, yn sicrhau maddeuant o'i holl bechodau, a derbyniad gyda Duw yn y diwedd? Y mae dau ddosbarth o adnodau i'w hystyried mewn perthynas i hyn. Un ydyw, y cyfryw ag sydd yn tystiolaethu nad oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, a'u bod yn etifeddion bywyd tragwyddol: —y mae y rhai hyn yn eglur ac yn lluosog. Y dosbarth arall ydyw, y rhai sydd yn dangos fod iachawdwriaeth dragwyddol yn dibynu ar barhâd mewn ffydd ac ufudd-dod hyd ddiwedd yr oes: "Yr hwn a barhao hyd y diwedd, hwnw a fydd cadwedig." Addewir bywyd tragwyddol i'r "rhai, trwy barhau yn gwneuthur da, a geisiant ogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth." "O thyn neb yn ol, nid yw fy enaid yn ymfoddloni ynddo." Deallir y dosbarth olaf hwn, weithiau, fel pe byddent yn anghysson â'r cyfryw sydd yn tystiolaethu fod cyfiawnhâd yn sicrhau bywyd tragwyddol. Ond pa ham y rhaid i ras Duw a chyfrifoldeb dyn fod yn anghysson â'u gilydd yn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd, mwy nag mewn athrawiaethau ereill; o herwydd nis gall dyn eu cyssoni yn ei farn o gwbl, ond trwy *deimlo* eu cyssondeb. Y mae y ddau ddosbarth hyn o dystiolaethau yn wir, ac y mae profiad y Cristion yn tystio i'w gwirionedd. Mor bell ydyw y sicrwydd o ras sydd yn y cyntaf o fod yn gwanhau gewynau y Cristion, fel y maent yn rhoddi *nerth* iddo i barhau, yn gyffelyb fel ag y mae yr angenrheidrwydd am barhâd yn *gymhelliad* i barhau.

Os ydyw *cyfiawnhâd yn berffaith*, ac yn cynnwys ynddo ei hun faddeuant llawn a thragwyddol o'n holl bechodau, pa ham y mae yn angenrheidiol i'r pechadur sydd wedi ei gyfiawnhau weddio yn barhâus am faddeuant? "Pan ddygir ni i undeb â Christ, cyfrifir ei gyfiawnder ef i ni gan Dduw, a derbynir ef trwy ffydd. Yna, wrth ein symmud o gyflwr o bechod i gyflwr o ras, maddeuir ein holl bechodau blaenorol yn y weithred, a rhoddir i ni feddyginiaeth yn nghyfiawnder Crist rhag pechodau dyfodol. Cyfiawnhâd, mewn ystyr *cyffredinol*, gyda golwg ar ein *cyflwr* (*universaliter quoad statum*) ydyw hyn. Ond yr ydym yn sefyll mewn angen am faddeuant am bob pechod a gyflawnom drachefn, ac yr ydym yn ei brofi mor fynych ag y dychwelom at

Digitized by Google

Dduw trwy edifeirwch, ac y dadleuom haeddiant Crist trwy ffydd. Yn yr ystyr hwn, fe'n gorchymynir i weddïo am faddeuant bob dydd—a hyny, nid i'r teimlad yn unig, ond mewn gwirionedd; o herwydd nis gellir maddeu pechodau nes y cyflawnir hwynt."—*Turretin.* "Er nas gellir maddeu pechodau yn weithredol cyn iddynt gael eu cyflawnu yn weithredol; eto, gellir symmud ymaith y rhwymedigaeth i ddyoddef melldith y ddeddf o'u herwydd cyn iddynt gael eu cyflawnu, trwy symmud y pechadur i gyflwr o ras. Eto, nid ydyw pechodau credinwyr cyn iddynt gael eu cyflawnu yn newid eu natur, fel ag i beidio bod yn bechodau. Ni allai hyny fod heb i awdurdod y ddeddf gael ei ddifodi. Trwy ffydd yn unig y mae cael dyfodfa i gyflwr o gyfiawnhâd, felly trwy ffydd yn unig y mae *parhau* yn y cyflwr hwn."—*Dr. Owen.* "Y mae teimlad y gwir Gristion yn ei arwain i gyffesu ei bechodau, i erfyn am faddeuant, ac i edifarhau o'u herwydd, pa beth bynag a all fod ei obaith a'i sicrwydd ei fod mewn cyflwr diogel. Drachefn, y mae y maddeuant llawn a thragwyddol a sicrheir i bechadur pan gredo yn cael ei sicrhau iddo yn ei *gyssylltiad â'r drefn briodol*; hyny yw, mewn cyssylltiad â pharhâd mewn ffydd a gweddi. Ac er ei fod wedi ei sicrhau yn ddiogel, eto nid allan o'r cyssylltiad hwn. Y mae *parhâd* mewn ffydd mor angenrheidiol ag oedd ffydd yn y dechreu."—*Dr. Leonard Woods.*

Mewn atebiad i'r ymofyniad, *Pa fodd y cyfiawnheir pechadur?* yr ateb ydyw, *O ras, trwy ffydd,* trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu—a hyny yn y fath fodd fel y mae yn hollol gyferbyniol i'r hyn a fyddai cyflawnhâd trwy *weithredoedd y ddeddf* (*Rhuf.* iii. 20—28):—yn *nacaol,* nid trwy weithredoedd; yn *gadarnhaol,* trwy ffydd.

Y mae y *cyferbyniad* rhwng ffydd a gweithredoedd y ddeddf yn ddigon o brawf nad yw Paul yn gwahaniaethu rhwng y ddeddf foesol a'r ddeddf seremonïol; ond ei fod, yn hytrach, wrth ddeddf, yn deall holl orchymynion Duw, i ba rai y dylai dyn roddi ufudd-dod. Wrth *weithredoedd y ddeddf* y meddylir, yn gyffredinol, yr holl weithredoedd sydd yn perthyn i'r ddeddf; *h. y.*, y rhai a orchymynir gan y ddeddf, ac a gyflawnir dan ei dylanwad. Nid oes gyfeiriad at y gweithredoedd sydd yn *cyfateb* i'r ddeddf, na chwaith at y cyfryw ag sydd yn tarddu oddi ar egwyddor arall heb law egwyddor deddf; o herwydd cyn i bechadur ddyfod i gyflwr o ras trwy Grist, ni allasai gyflawnu gweithredoedd y ddeddf ond yn yr ystyr cyntaf; ac o ganlyniad, gan fod cyflawnhâd trwyddynt hwy yn cael ei gau allan, y mae cyflawnhâd trwy weithredoedd o gwbl yn anmhosibl. Nid oes un cyfeiriad yn y geiriau hyn at natur a gwerth gweithredoedd *da* (ni elwir y rhai a gyflawnir dan ddylanwad cariad Crist yn weithredoedd *y ddeddf*).

Y mae yr apostol yn cau allan y posiblrwydd o gyfiawnhâd i'r Iuddew trwy ddeddf Moses, ac hefyd i'r Cenedl-ddyn trwy y ddeddf sydd yn ysgrifenedig ar ei galon: *Rhuf.* iii. 10, 20, 23; *Gal.* ii. 15, 16.

Nid trwy ymresymiad cywrain y mae yr apostol yn dyfod i'r penderfyniad hwn. Y mae yn ddigon fod yr holl fyd yn euog a phechadurus, a'r prawf o hyn ydyw y ffeithiau sydd yn dyfod dan sylw pawb, ac yn cael eu teimlo gan gydwybodau pawb. Nid yw, chwaith, yn y cyssylltiad hwn, yn olrhain y pechadurusrwydd hwn i'w ffynnonell. Ond yn unol â rhediad yr Hen Destament, y mae yn dangos fod yr hwn sydd wedi syrthio dan farn a melldith o herwydd ei droseddau mewn cyflwr nas gellir ei waredu o hono ond trwy iawn, ac nas dichon iddo gyflawnu gweithredoedd da cyn iddo dderbyn y cymmod a'r cyfiawnder y mae Duw yn ei roddi yn yr efengyl.

Yn nesaf, y mae yn dyfod at y gosodiad cadarnhaol—Fod cyfiawnhâd yn dyfod trwy *ffydd.*

Cyfeitha Luther *Rhuf.* iii. 28, "trwy ffydd yn *unig*;" ond nid yw "unig" yn ein cyfeithiad ni, na chwaith yn y testyn Groeg. Eto, y mae y casgliad yn anocheladwy oddi wrth y cyferbyniad blaenorol, lle nad oes ond *dwy* ffordd yn cael eu tybied yn bosibl; a chan fod gweithredoedd yn cael eu hollol gau allan, y mae yn rhaid fod cyflawnhâd trwy ffydd yn *unig.* Amddiffynai Paul y gwirionedd hwn yn egnïol yn ei epistolau at y Rhufeiniaid, y Galatiaid, y Philippiaid, a'r Colossiaid, yn erbyn y rhai a geisient gymmysgu y ddeddf â'r efengyl—uno ffydd a gweithredoedd, Moses a Christ. Gosodir allan y gwirionedd ar hyn yn fynych yn y geiriau, "Nid *ffydd unig* sydd yn cyfiawnhau, ond *ffydd yn unig.*" Ffydd *unig* ydyw ffydd wedi ei didoli oddi wrth bob rhinwedd arall; ac o ganlyniad, marw yw. Ffydd *yn unig* sydd yn cyfiawnhau, fel y mae y llygad yn unig yn gweled, ond nid ar wahân oddi wrth y corff.

Pa beth yw ffydd, a pha fodd y mae hi yn cyfiawnhau?

Y mae y sylw wedi cael ei wneyd yn fynych, nad yw yr apostol Paul, mewn un man yn ei lythyrau, yn egluro hanfod ffydd; ac yn y manau y crybwylla am ffydd, nad yw yn rhoddi cyfres rheolaidd o nodau trwy ba rai y gellir ei gwahaniaethu. Rhagdybiai yr apostolion, yn eu pregethau, y gwyddai eu gwrandawyr pa beth oedd ffydd; ac yn eu hysgrifeniadau, ei hanfodiad bywiol yn yr eglwysi, fel nad oedd raid ei holrhain i'w helfenau symlaf, a'u gwahaniaethu oddi wrth bob ffug. Defnyddia yr apostol y gair *ffydd,* hyd yn oed yn yr Epistol at y Rhufeiniaid, heb fod mewn cyssylltiad â chyfiawnhâd: *Rhuf.* iii. 3; xiv. 1, 2, 22, 23. Gan gyfeirio at yr erthygl FFYDD am chwaneg ar y mater hwn, gellir dyweyd yma fod dwy elfen arbenig yn perthyn i ffydd y Cristion:—Yn *gyntaf,* ei bod yn cynnwys chwaneg na choel cyffredinol fod peth yn wir: nid yw un amser yn llai nag argyhoeddiad didwyll y meddwl; ac yn hyn, y mae yn cyfateb i darddiad y gair Groeg am ffydd (πίστις; ο πείθω), ac hefyd i'r geiriau a ddefnyddir yn yr Hen Destament. Yn *ail,* neillneillduolrwydd arbenig ffydd y Cristion ydyw mai Crist, a'i Berson, a'i waith, ydyw ei gwrthddrych; a chan fod Crist yn cael ei gynnyg yn yr efengyl fel Ceidwad, mai ei gwaith arbenig ydyw ymddiried ynddo.

At y sicrwydd mewnol, a'r argyhoeddiad gwirioneddol sydd yn perthyn i ffydd, y mae cyfeiriad *Rhuf.* iv. 20; "Ac nid ammheuodd efe... eithr," &c. At Grist fel gwrthddrych ffydd, y mae y cyfeiriadau i'w cael yn barhäus, ac yn y dull mwyaf eang, trwy ei galw yn "ffydd Crist," "ffydd Iesu:" *Rhuf.* iii. 22, 26; *Phil.* iii. 9. Dangosir yr elfen o ymddiried sydd yn perthyn i ffydd, trwy ba un y mae y credadyn yn adeiladu ar wrthddrych ei ffydd, ac yn myned i gymdeithas ddirgelaidd âg ef, trwy wahanol arddodiadau yn y Groeg, y rhai a gyfeithir yn Gymraeg yn lled gyffelyb; megys "credu *ynddo*" (εἰς); *Rhuf.* x. 14: "credu yn yr hwn" (ἐπὶ τινα); *pen.* iv. 5, 24: "credu ynddo" (ἐπὶ τινι); *pen.* ix. 33; x. 11. Crist, wedi marw ac adgyfodi, yw gwrth-

Digitized by Google

ddrych ffydd (*pen.* iv. 25); y mae yn iawn o osodiad Duw (*pen.* iii. 25); yn un wedi ei adgyfodi gan Dduw (*pen* x. 9); Duw ei hun, fel yr hwn a gyfododd Iesu o feirw (*pen.* iv. 24); "yr hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol" (*pen.* iv. 5); gwaed Crist: *pen.* iii. 25; v. 9, &c. Cyssylltir cyfiawnhâd pechadur, nid yn unig â'i ddyoddefiadau, ond hefyd â'i ufudd-dod: *Rhuf.* v. 18, 19. Ymddengys anhawsder yma, gan fod ffydd yr efengyl yn cael ei chyssylltu â ffydd Abraham (*pen.* iv), os na dderbyniwn yr hen esboniad—yr hwn a fabwysiadir gan Philippi a Meyer, yn mhlith esbonwyr diweddar—sef, fod ffydd Abraham yn cyfeirio at Berson a gwaith Crist fel un i ddyfod, er nad yw Paul yn dyweyd hyny mewn cynnifer o eiriau. Ond pa un bynag ai hwn ydyw yr esboniad cywir ai peidio, nid ydym dan orfod i ddeall y geiriau, "ei ffydd a gyfrifir yn gyfiawnder," am ffydd fel ansawdd foesol y meddwl. Addewid rasol Duw, fodd bynag, oedd gwrthddrych ffydd Abraham, pa un bynag a oedd cynnwysiad yr addewid hono—sef Crist, yn ol yr Epistol at y Galatiaid—wedi ei ddadguddio i'w feddwl gydag eglurdeb ai peidio. Gofyna Tholuck, yn bur briodol, pe buasai Abraham wedi credu ond bygythiad o eiddo Duw yn unig, a allasai Paul ei ddefnyddio i'w amcan? Amlwg yw na allasai; o ganlyniad, yr oedd ffydd Abraham yn cyfeirio at Dduw fel Duw grasol—fel un yn cyfiawnhau: *adn.* 5. Rhoddir arbenigrwydd ar ffydd Abraham yn ngallu creadigol Duw (*adn.* 17, 21), o herwydd y buasai ammheuaeth am allu Duw yn ei attal rhag derbyn yr addewid. Gwrthddrych ffydd gyfiawnhaol, gan hyny, ydyw gras Duw yn Nghrist; ac y mae yn rhaid i ffydd y Cristion fod yn ymddiried personol yn Nghrist ei hun, fel gwrthddrych adnabyddus i'r meddwl.

Y mae yn eglur oddi wrth hyn mai nid ar gyfrif ei rhinwedd moesol y priodolir cyfiawnhâd i ffydd, ond fel y mae hi yn ymddiried yn, ac yn derbyn addewid Duw yn Nghrist. Ar yr un pryd, nid egwydddor amddifad o nerth moesol ac ysbrydol ydyw ffydd; ond y mae hi yn cymmeryd meddiant o'r galon a'r ewyllys—canolbwynt ei holl weithgarwch personol a chyfrifol. Dangosir hyn trwy fod yr un gair (απειθειν) yn cael ei ddefnyddio am anghredu ac anufuddhau (*Rhuf.* x. 21; xi. 30, 31; xv. 31): ymddengys hefyd yn yr ymadrodd "ufudd-dod ffydd;" *Rhuf.* i. 5; xvi. 26. Y mae dyfodfa i'r cyflwr yn mha un y mae cyfiawnder Duw yn eiddo i bechadur yn weithred o ymostyngiad o ochr dyn: *Rhuf.* x. 3. Yn ol natur yr hyn sydd yn cymmeryd lle pan gredo dyn, y mae yn perthyn i ffydd ymwrthodiad â phob hunan-gyfiawnder, ac ymlyniad hunanol yn mhob ffurf, yn yr hyn y mae holl ewyllys a chalon dyn cyn iddo droi at Grist am gyfiawnder. Ac eto, dylid gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd yn neilluolrwydd ffydd fel y mae hi yn cyfiawnhau—sef, derbyn addewid Duw yn Nghrist, ac ymddiried yn haeddiant Crist am dderbyniad gyda Duw—a'r hyn sydd ynddi fel egwyddor o fywyd newydd, gan ymestyn at gyflawniad o holl orchymynion Duw, er nad yn gwneuthur haeddiant o hyny.

Gyda golwg ar *nerth cyfiawnhaol ffydd*, y mae yn amlwg nad ydyw i'w hystyried fel rhinwedd neu ansawdd meddwl sydd yn gallu gosod i fyny hawl i gyfiawnhâd, neu i gael ei chyfrif gan Dduw yn gyfiawnder perffaith, o herwydd ei bod hi yn egwyddor y cyfryw, ac yn ymestyn ato. Yn yr ystyr hwn, ac ar gyfrif yr hyn ydyw ynddi ei hun, nid yw yn ddim. Y mae ei gwerth mewn cyfiawnhâd yn codi yn hollol o'i gwrthddrych, ac, fel y sylwyd am ffydd Abraham, yn yr olwg ar ei gwrthddrych y mae hi yn cyfiawnhau. Ei gwrthddrych, yn ei ufudd-dod a'i farwolaeth, sydd wedi gosod i lawr sail cyfiawnhâd; a thrwy dderbyniad ffyddiog o hono ef y dygir pechadur i gyflwr o gymmeradwyaeth gyda Duw. Y mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau trwy dderbyn Crist a'i haeddiant yn wrthddrych ei ymddiried.

Mae y cwestiwn yn cael ei ofyn, Ai nid derbyniad o Grist a'i rinwedd *ynom* ydyw gweithredu ffydd ynddo, ac ai nid o herwydd fod Crist yn *preswylio ynom* y'n cyfiawnheir? Tuedd y traethu diweddar ar gyfiawnhâd ydyw rhoddi atebiad cadarnhaol i'r ymofyniad hwn. Nid yw hyn yn wahanol i'r syniadau a nodwyd yn flaenorol fel yr eiddo Osiander, ac ereill, ond ei fod yn ein cyfarfod yma mewn atebiad i'r cwestiwn, Pa fodd y mae ffydd yn cyfiawnhau—ai trwy ein dwyn ni *i* Grist, ai ynte trwy ddwyn Crist i breswylio *ynom ni?* Yn ol y geiriad presennol, nid yw yn ymddangos yn union mai yr hen ymofyniad mewn ffurf newydd ydyw—Pa un ai cyfiawnhâd ai sancteiddhâd sydd gyntaf? Ac er fod Melancthon ar unwaith yn ymwrthod â'r farn o fod preswyliad Crist yn y pechadur yn flaenorol i gyfiawnhâd fel yn anghysson a'r eglwysi uniawngred, ac yn niweidiol i gydwybodau dynion, eto y mae Luther weithiau yn defnyddio ymadroddion a all ein harwain i feddwl mai am fod "Crist, sanctaidd Fab Duw, yn preswylio yn y pechadur, y mae yn gymmeradwy gan Dduw."

Nid oes un ammheuaeth nad yw y Testament Newydd yn dysgrifio Crist yn preswylio *yn* ei bobl, ac nid yn sefyll mewn rhyw fath o undeb allanol â hwynt (*Rhuf.* viii. 3, &c.; viii. 10, 13, 14; *Gal.* ii. 20; ac yn yr epistolau at yr Ephesiaid, y Colossiaid, a'r Philippiaid, &c.); ac hefyd ei fod yn priodoli preswyliad Crist i ffydd—"Crist yn trigo trwy ffydd;" *Eph.* iii. 17: "Crist yn byw ynof fi:" "Ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw;" *Gal.* ii. 20. Ond nid yw hyn oll yn dangos fod cyfiawnhâd yn dilyn preswyliad Crist. Defnyddir *Rhuf.* vi. yn benaf i geisio profi hyn, heb ystyried mai nid trin am y cymmod, maddeuant, a chyfiawnhâd, y mae y bennod hon. Nid y cwestiwn yma ydyw, Pa un—pan y cyfiawnheir pechadur, ac y dygir ef i sefyllfa o gymmeradwyaeth gyda Duw—a wneir hyny ar sail y bywyd newydd y mae yn ei gael trwy undeb â Christ? ond, Pa un, wedi y dygir y pechadur *dan ras* (υπο χαριν), a all efe mwyach wasanaethu pechod? *adn.* 14, 15. Yn *adn.* 7, yr hon sydd yn edrych y fwyaf ffafriol i'r golygiad hwn, y meddwl yw, nid fod marwolaeth i bechod o flaen rhyddhâd (Groeg, *cyfiawnhâd*) oddi wrtho; o herwydd nid ateb y cwestiwn, pa fodd y mae pechadur yn cael maddeuant, y mae yr apostol: ni roddasai farwolaeth ysbrydol i bechod mewn un modd i ragflaenu maddeuant, ond marwolaeth Crist. Dangos y mae yr adnod fod marwolaeth i arglwyddiaeth pechod yn effaith rhyddhâd oddi wrth euogrwydd, neu gyfiawnhâd. Yn *Rhuf.* vii. 14, &c., llefarir am "farw," a marw i'r ddeddf; ond nid i felldith y ddeddf, ond i'w harglwyddiaeth. Yn *pen.* viii. yr ydym, gyntaf oll, yn cael y gosodiad, fod y gollfarnedigaeth wedi ei symmud oddi ar y rhai sydd yn Nghrist; ond yn gyssylltiedig â hyn, chwanegir, mai dyben condemniad pechod yn marwolaeth Crist ydoedd, eu dwyn i gydymffurfio â'r ddeddf yn bersonol, trwy "rodio nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd." ()

Digitized by Google

ddechreu y chwechedd bennod, traetha yr apostol, nid am dderbyniad i gyflwr o gymmeradwyaeth, ond am ddinystr llywodraeth pechod, a llywodraeth y ddeddf (felly hefyd *pen.* viii. 2), ac am barhâd cyflwr o ddiogelwch a bywyd yn Nghrist (*pen.* viii. 1), a gobaith am ogoneddiad tragwyddol. Lle yr ymdrinir â chyssylltiad marwolaeth Crist â chyfiawnhâd (*pen.* iii.—v), nid oes un cyfeiriad at ddinystr llywodraeth pechod. Yr oedd trefn yr efengyl yn un cyfanwaith yn ngolwg yr apostol; a phan na elwid arno gan amgylchiadau i wahaniaethu rhwng ei gwahanol ranau, traethai am dani fel y cyfryw, yn enwedig yn ei epistolau at yr Ephesiaid a'r Colossiaid; ond pan oedd raid, gwelir mor fanwl y mae. Felly, mae eisieu i ninnau gofio yn yr amgylchiadau priodol, na ddylai pob peth sydd yn rhagflaenu ffydd, nac yn ei dilyn, gael eu cymmysgu yn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd, fel pe perthynent iddi; ac nad yw pob peth sydd yn angenrheidiol i wir ddychweliad at Dduw yn perthyn i gyfiawnhâd.

Cadarnheir yr un gwirionedd yn yr holl fanau lle y dangosir mai Crist ydyw sail a defnydd y cyfiawnhâd (megys, "cyfiawnder Duw ynddo ef:" "ac y'm ceir ynddo ef:" *Phil.* iii. 8, &c.), ac nad sail y cyfiawnhâd ydyw adnabyddiaeth o Grist, a theimlad o rym ei adgyfodiad, a chymdeithas â'i ddyoddefiadau; ond yr hyn y mae yr hwn a gyfiawnheir, ac a geir yn Nghrist, yn ymestyn ato; ac, am gyflawn fwynhâd o hono, yn dysgwyl cael ei barotoi erbyn adgyfodiad y meirw.

Nid am fod ffydd gan hyny yn wreiddyn bywyd ysbrydol yn yr enaid y priodolir cyfiawnhâd iddi—neu, mewn geiriau ereill, am fod "Crist yn trigo trwy ffydd yn y galon." Pa ham, ynte? Nid am fod gwahaniaeth *moesol* rhyngddi a grasau ereill. Pa beth a all fod yn fwy rhagorol na chariad—yr hyn yw cyflawnder y gyfraith? A phe *sancteiddrwydd* ffydd a roddai iddi y fath ddylanwad mewn cyfiawnhâd, pa ham na roddai sancteiddrwydd cariad, a grasau ereill, y cyfryw le iddynt hwythau? Nid chwaith am ei bod yn meddu llai o sancteiddrwydd; o herwydd, yn ol Ioan, y mae yr hwn sydd yn credu wedi ei *eni o Dduw.* Dengys Iago hefyd, nad yw y ffydd sydd ar wahân oddi wrth ufudd-dod yn ffydd gyfiawnhaol. Mae ffydd yn gweithio trwy gariad, ac y mae cariad yn cynnwys ufudd-dod. Ateb Paul i'r cwestiwn, pa ham ein cyfiawnheir trwy *ffydd*, ydyw, nad oes un ffordd i bechadur gael ei gyfiawnhau ond trwy *ras;* ac y mae cyfiawnhâd trwy ffydd yn angenrheidiol mewn trefn iddo fod trwy ras:—"Am hyny o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras;" *Rhuf.* iv. 16. Mor bell, gan hyny, ydyw cyfiawnhâd trwy ffydd o fod yn erbyn gras yr efengyl, fel y mae yn angenrheidiol i'w sicrhau. Y mae cael maddeuant a bywyd yn anmhosibl heb eu *derbyn fel rhad rodd;* ac y mae hyn yn anmhosibl ond trwy ffydd. Y mae y pechadur heb ddim haeddiant ei hun; ac nid oes ganddo ond, fel y cardotyn, ymddiried yn ewyllys da un arall. Y modd y mae Jonathan Edwards yn ateb y cwestiwn ydyw—na byddai yn briodol neu yn weddus i bechadur gyfranogi o haeddiant Crist heb fod UNDEB rhyngddo a Christ, ac mai ffydd ar ran y pechadur sydd yn ffurfio yr undeb hwn. Nid fel un yn *gweithio,* ond yn *credu,* y mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau. Ac felly, nid am fod ffydd yn egwyddor gwaith, ond yn ymddiried, y mae iddi y lle hwn.

Os nad sancteiddhâd ydyw sail cyfiawnhâd, *pa beth ydyw y cyssylltiad sydd rhyngddynt?* Wrth gyfarfod y cyhuddiad a ddygir yn erbyn ei athrawiaeth o gyfiawnhâd, dengys yr apostol ei bod mor bell oddi wrth fod yn rhoddi achles a meithriniad i bechod, fel nad oes un ffordd arall i ladd llywodraeth pechod ond yn unig trwy symmud ymaith ei euogrwydd. Er fod cyfiawnhâd a dechreuad sancteiddhâd yn cymmeryd lle ar unwaith, o ran amser, trwy undeb y pechadur â Christ, eto, mae cyfiawnhâd o flaen sancteiddhâd, o ran rhinwedd achosawl, fel y mae achos o flaen effaith. Rhyddheir pechadur oddi wrth euogrwydd trwy farwolaeth Crist, a rhoddir iddo Ysbryd Crist, trwy nerth yr hwn y gwaredir ef oddi wrth lywodraeth pechod—fel, wedi marw i bechod, nad yw mwyach yn byw iddo, ond i'r hwn a'i gwaredodd. Y mae dyn sydd â'i gydwybod yn ngafael dychryn ac arglwyddiaeth y ddeddf yn casäu y barnwr; ac nid oes a'i dwg i'w garu ond cael ei ryddhau oddi wrth y felldith fygythiedig trwy weithred o ras. Y mae y casineb hwnw yn ei gadwyno wrth ei bechod; y mae y cariad a gyffroir yn yr enaid at y Gwaredwr yn ei ryddhau oddi wrtho. Y mae arglwyddiaeth y ddeddf yn cyfateb i arglwyddiaeth pechod (*Rhuf.* iii. 20; iv. 15; v. 20); a rhyddhâd oddi wrth felldith y naill ac euogrwydd y llall yn unig sydd yn gwaredu oddi wrth wasanaeth pechod. Yn ol cyfansoddiad natur dyn, y mae euogrwydd, melldith, ac ofn, yn cenedlu casineb; a maddeuant rhad a gobaith yn cenedlu cariad. Ar yr egwyddorion hyn y mae ymresymiad yr apostol yn cael ei ddwyn yn mlaen yn *Rhuf.* vi. a vii. Trwy euogrwydd y pechadur, y mae y ddeddf yn arglwyddiaethu arno ac yn cadwyno ei gydwybod, ac o ganlyniad yn rhoddi bywiogrwydd chwanegol i bechod. Wrth ei symmud oddi tan felldith y ddeddf, trwy faddeuant, a'i roddi dan ras, y mae yn dyfod i sefyllfa plant Duw, ac yna yn cael ei feddiannu gan eu hysbryd. Y mae cyflwr yn llywodraethu ac yn ffurfio ysbryd cyfatebol iddo ei hun. Y ffordd i fagu ysbryd rhydd mewn caethwas ydyw ei ryddhau o'i gaethiwed, ei osod mewn cyflwr rhydd.

Nad ydyw cyfiawnhâd trwy ras yn dattod rhwymau cyfrifoldeb, yn dadsylfaenu cymhelliadau i ufudd-dod, nac yn ysgaru y ddwy elfen a nodwyd yn y dechreu—sydd yn cyfansoddi cyflawn ystyr y gair pwysig, cyfiawnder, gyda'r hwn y mae yn rhaid i ni gychwyn yn yr athrawiaeth o gyfiawnhâd—sydd amlwg oddi wrth y dull y mae yr apostol yn dwyn i mewn ganlyniadau cyfiawnhâd, mewn "ufudd-dod i gyfiawnder" (*Rhuf.* vi. 16), a bod yn "weision i gyfiawnder." Pa un a ddeallir y gair "cyfiawnder" yma am reol cyfiawnder, fel Calvin, ai ynte am y cyflwr y maent wedi eu dwyn iddo trwy gyfiawnhâd. Yn mhellach hefyd, gosodir allan "fywyd" a "marwolaeth" fel canlyniadau gwasanaeth cyfiawnder a gwasanaeth pechod: *pen.* vi. 21, 22. Yn *pen.* v, gosodir allan fywyd fel canlyniad derbyniad i stât o ras trwy Grist; ond yn *pen.* vi. 22, fel canlyniad bywyd o wasanaeth i Dduw. Y mae y gymhariaeth o ddiwedd y ddwy bennod yn darawiadol ar hyn. Yn *pen.* v. 1, &c., dangosir heddwch yn ffrwyth cyfiawnhâd; ond yn *pen.* viii. "syniad yr ysbryd, bywyd a thangnefedd yw;" ac mai y cyfryw hefyd sydd yn "ddarostyngedig i ddeddf Duw," ac yn "rhyngu bodd Duw:" *adn.* 7, 8. Ond rhag i neb feddwl fod yma sail yn cael ei gosod i lawr i hunan-gyfiawnder, y mae bywyd tragwyddol yn *ddawn* Duw trwy Iesu Grist, mewn cyferbyniad cryf i farwolaeth fel cyflog haeddiannol pechod, yn *pen.* vi. 23, yn

Digitized by Google

gystal ag yn *pen.* v. 21. Nid yw Duw yn coroni ond yr hyn a grewyd ganddo ef ei hun yn Nghrist.

HANES YR ATHRAWIAETH.

Er mai yn amser y Diwygiad Protestanaidd y dygwyd athrawiaeth cyfiawnhâd trwy ffydd ger bron y byd, yn yr arbenigrwydd sydd yn perthyn iddi fel athrawiaeth sylfaenol Cristionogaeth, eto ni bu un cyfnod pan nad oedd y gwirionedd hwn yn cael ei ddal a'i ddadgan yn ei burdeb. Gellid dwyn yn mlaen dystiolaethau i ddangos fod y ffyddloniaid yn mhob oes—er yn nghymundeb Eglwys Rhufain, ac ar y cyfrif hwnw dan anfantais fawr i ffurflo syniadau cywir am y drefn i adferu pechadur i ffafr Duw—eto "yn rhodio yn ol y rheol hon," gan ddysgwyl bywyd tragwyddol trwy ffydd yn Nghrist yn unig. Yr oedd y gwirionedd, sydd fel gwythïen fawr yn rhedeg trwy athrawiaeth cyfiawnhâd—y gwirionedd sydd yn sylfaen i'r athrawiaeth, yr hwn y mae iawn ddealltwriaeth o hono yn penderfynu ein golygiadau am dani—yn cael ei gredu yn ddiammheuol gan dadau yr eglwys.—sef *athrawiaeth y cyfrifiad.* Mae Clement, cydweithiwr yr apostol Paul (*Phil.* iv. 3) yn llefaru gydag eglurder am y gwahaniaeth sydd rhwng cyfiawnhâd a sancteiddhâd. Edrycha ar y naill fel cyfiawnder cyfreithiol, cyfrifedig i'r pechadur; a'r llall fel cyfiawnder mewnol—fel ansawdd gyfiawn ar y galon:—"A ninnau hefyd, wedi ein galw trwy yr un ewyllys yn Nghrist Iesu, ydym wedi ein cyfiawnhau, nid trwom ein hunain, na thrwy ein doethineb, ein gwybodaeth, neu ein duwioldeb, neu y gweithredoedd a gyflawnasom yn sancteiddrwydd ein calon; ond trwy y ffydd hono ag y cyfiawnhawyd pawb o'r dechreuad trwyddi." [*Clem. Romanus Epist. ad Corinth.*, i. adran 32.] Y mae geiriau Chrysostom hefyd [2 *Cor.* v., *Hom.* 2.] yn dra phenderfynol ar y mater:—"Y fath ymadrodd yw hwn! Pa feddwl a all ei gynnwys? O blegid dywed ei fod wedi ei wneuthur ef oedd yn gyfiawn yn lle yr anghyfiawn, fel y gallai wneyd y pechadur yn gyfiawn. Ïe, dywed beth llawer mwy goruchel a rhagorol; o blegid llefara, nid am duedd, ond am yr ansawdd ei hun. Nid, Efe a'i gwnaeth ef yn bechadur, a ddywedir, ond '*yn bechod,*' fel y'n gwnelid ni, nid yn unig yn gyfiawn, ond yn gyfiawnder, a hwnw yn gyfiawnder Duw, pan yr ydym yn cael ein cyfiawnhau, nid trwy weithredoedd (pe felly, byddai raid iddynt fod heb un brycheuyn arnynt), ond trwy ras, trwy yr hwn y mae pob pechod yn cael ei ddileu ymaith." Dywed Justin Ferthyr hefyd yn ei epistol at Diognetus:—"Efe a roddes ei Fab yn bridwerth drosom; y sanctaidd dros droseddwyr; y gwirion dros yr euog; y cyfiawn dros yr anghyfiawn; yr anllygredig dros y llygredig; yr antarwol dros farwolion. O blegid pa beth arall a allasai guddio ein pechodau ond ei gyfiawnder ef? Yn mhwy y gallasai rhai drygionus ac annuwiol fel ni gael eu cyfiawnder, neu eu cyfrif yn gymmeradwy, ond yn Mab Duw yn unig? O gyfnewidiad melus! O weithred anchwiliadwy! O haelfrydedd bendigedig, tu hwnt i bob dysgwyliad! Anwireddau llaweroedd wedi eu rhoddi ar un cyflawn, a chyfiawnder un yn gwneyd llawer yn gyfiawn!"

Llefara Gregory Nyssen i'r un perwyl:—"Cymmerodd arno ei hunan afiendid fy mhechodau, a rhoddes i minnau ei burdeb ei hun, a gwnaeth fi yn gyfranog o'i brydferthwch." Dywed Awstin, hefyd [*Enchirid. ad Laurent*, pen. 41]:—"Yr oedd efe yn bechod fel y byddem ni yn gyfiawnder; nid yr eiddom ein hunain, ond cyfiawnder Duw; nid ynom ein hunain, ond ynddo Ef." Os deuwn i lawr hyd y canoloesoedd, ni a gawn olygiadau yr un mor eglur a phenderfynol yn cael eu dadgan. Yn yr unfed canrif ar ddeg, dysgid machniaeth y Cyfryngwr, a chyfiawnhâd cyfrifol, gan Bernard, abad enwog Clairvaux. Dywed ef [*Epist. ad Innocent*]:—"O blegid os dywed yr apostol, 'os bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb,' felly y mae dyhuddiant yr un hwn, neu ei deilyngdod, yn cael ei gyfrif (*imputare*) i bawb, yr un modd ag y dygodd yr un hwnw ein pechodau ni arno.....Y pen a'r corff ydyw yr un Crist." Dywed Tauler, hefyd, yr hwn oedd yn byw yn flaenorol i'r Diwygiad:—"Cymmerodd Crist holl bechodau y byd arno ei hunan; ac yn ewyllysgar, aeth dan ofid ac ing calon o'u plegid, fel pe buasai ef ei hun wedi eu cyflawnu." Dywed hefyd, gan lefaru yn mherson y Mab:—"Gan fod pechod anfad Adda yn sefyll ar y ffordd, yr wyf yn erfyn arnat, fy Nhad nefol, ei gospi ynof fi: o blegid yr wyf yn cymmeryd ei holl bechodau arnaf fy hun. Os o'm herwydd i, gan hyny, y mae tymmestl digofaint yn cyfodi, tafl fi i fôr y dyoddefladau mwyaf." Dygodd Albertus Pighius hefyd dystiolaeth ddiamwys i'r athrawiaeth yma:—"Yr ydym yn cael ein gwneyd yn gyfiawn yn Nghrist, nid â'r eiddom ein hunain, ond â chyfiawnder Duw. Trwy ba hawl? Trwy hawl cyfeillgarwch, yr hwn sydd yn gwneyd pob peth yn gyffredin rhwng cyfeillion. Wedi ein huno â Christ, y mae yn gwneyd ei bethau ei hun yn eiddo i ni: cyfrana ei olud i ni, gesyd ei gyflawnder rhwng barn Duw a'n hanghyfiawnder; ac o dan hwnw, fel yn nghysgod tarian, y mae yn ein cuddio rhag y llid dwyfol a haeddasom.....Ac fel Iacob gynt, yr hwn, heb fod yn gyntafanedig, wedi ymwisgo yn nillad ei frawd, y rhai a aroglent yn hyfryd, a ddaeth ger bron ei dad, fel yn mherson arall y derbyniai fendith y cyntafanedig; felly y mae yn angenrheidiol i ni ymwisgo yn mhurdeb gwerthfawr y Cyntafanedig, ein Brawd hynaf, a chyfranogi o'i arogl peraidd ef, a chladdu a gorchuddio ein pechodau â'i berffeithrwydd, modd y gallom gyflwyno ein hunain ger bron ein Tad Sancteiddiaf, i gael ganddo ef fendith cyflawnder."

Y mae Pabyddion a Phrotestaniaid yn cyduno i briodoli cyflawnhâd i Dduw: dywedant fel eu gilydd mai "Duw yw yr hwn sydd yn cyflawnhau;" ond gwahaniaethant yn hyn:—y mae y cyntaf yn camsynied y gwaith neu y weithred o gyflawnhâd am y gwaith o sancteiddhâd, fel ag i osod y ddau allan yn *wneuthur pechadur yn gyfiawn.* "Y mae cyfiawnhâd, nid yn unig yn faddeuant pechodau, ond hefyd yn sancteiddiad ac adferiad ar y dyn oddi mewn, trwy ei fod yn ewyllysgar yn derbyn grasau a doniau, yr hyn a bâr ei fod yn dyfod yn gyfiawn yn lle yn anghyfiawn, yn gyfaill yn lle yn elyn, ac o ganlyniad, yn etifedd gobaith a bywyd tragwyddol."—*Conc. Trid. Sess.* "Fel y mae yr awyr, pan yn cael ei oleuo gan yr haul, yn peidio a bod yn dywyll, ac yn dyfod yn ddysglaer—felly hefyd y mae pechadur, pan y mae cyfiawnder yn cael ei roddi a'i gyfranu (*infusam*) iddo, yn peidio a bod yn anghyfiawn; y mae tywyllwch ei bechodau yn cael ei ymlid ymaith gan oleuni gras."—*Bellarmin.* Y mae y Protestaniaid, ar y llaw arall, yn gwahanu y ddau oddi wrth eu gilydd, ac yn barnu fod cyfiawnhâd y pechadur yn rhagflaenu ei sancteiddiad, a bod y cyntaf yn drafodaeth gyfreithiol, a'r olaf yn waith meddyginiaethol a mewnol. "Cyfiawnhâd," medd y *Formula Con-*

Digitized by Google

cordiæ, "a arwydda, yn ymdriniaeth yr apostol Paul ar y pwnc, faddeuant o'r holl bechodau, a rhyddhâd oddi wrth y gosp." Yn ol athrawiaeth y Pabyddion, y mae Crist, trwy y cyflawnhâd, yn cymmeryd ei drigfan o fewn y credadyn, fel y mae y diweddaf yn dyfod yn arlun byw o'r cynddelw:—yn ol yr athrawiaeth Brotestanaidd, y mae Crist megys yn taflu ei gysgod ar y pechadur, yr hwn sydd yn ei orchuddio yn y fath fodd nad yw Duw yn gweled ei bechadurusrwydd." Addefa y Protestaniaid fod cyssylltiad agos ac anhebgorol rhwng cyflawnhâd a sancteiddhâd; ond gwadant mai yr un peth ydynt. Y mae y naill a'r llall hefyd yn addef mai trwy ffydd y cyflawnheir pechadur, gyda y gwahaniaeth hwn:—dadleua yr Eglwys Babaidd fod gweithredoedd da, yn chwanegol at ffydd, yn ammod angenrheidiol er cyrhaedd iachawdwriaeth, a phriodola iddynt ryw raddau o ryglyddiant neu deilyngdod; ond y mae y Protestaniaid yn ymwrthod yn hollol â haeddiant gweithredoedd da yn y cyflawnhâd. Y mae yn rhaid cael y pechadur i gyflwr o gyflawnhâd, cyn y gall gyflawnu un weithred dda: credu yn Mab Duw sydd yn dwyn dyn i sefyllfa y derbynia Duw ei rinweddau; edrychant ar weithredoedd da yn angenrheidiol, y mae yn wir, i'r bywyd crefyddol, ond gwadant fod iddynt un lle yn nghymmeradwyaeth person y pechadur ger bron Duw; ac ymlynant yn ddiysgog wrth yr ymadrodd "cyflawnhau trwy ffydd un unig." Dyma rai o eiriau prif ysgrifenwyr Eglwys Rhufain:—"Dywedir ein bod yn cael ein cyflawnhau trwy ffydd, am mai ffydd ydyw sail ddechreuol iachawdwriaeth dyn, a gwreiddyn pob cyflawnhâd." Y mae y dyfyniad hwn yn profi y gosodiad cyntaf a roddasom i lawr, sef fod yr eglwysi Protestanaidd a Phabaidd yn ymuno i briodoli rhyw gyfryngaeth i ffydd yn y cyflawnhâd. Ond y mae Eglwys Rhufain yn llwyr ymwrthod â'r ymadrodd "trwy ffydd yn unig." "Os dywed neb fod yr annuwiol yn cael ei gyflawnhau trwy ffydd yn unig. fel ag i ddeall nad oes dim arall yn angenrheidiol, ac nad yw y gras sydd yn dilyn yn cydweithredu er y cyflawnhâd, bydded anathema." "Y mae y cyflawnder yn cynnyddu trwy ymarfer gweithredoedd da." Er y cwbl, y mae y dynion mwyaf a fuant yn yr eglwys hon yn mhell o feddwl awgrymu fod rhyw ddiffyg yn haeddiant Crist, pan y maent yn cyssylltu gweithredoedd da â chyflawnhâd. "Ni wna haeddiannau dynion daflu haeddiant Crist i'r cysgod: yn hytrach, y maent hwy eu hunain yn effeithiau haeddiant Crist, ac yn fuddiol i amlygu ei ogoniant yn mhlith dynion."—*Bellarmin.* Ond y mae yr eglwysi diwygiedig yn gwahaniaethu oddi wrth Eglwys Rhufain. Cytuna y Protestaniaid âg erthygl Cyffes Basle am "ffydd a gweithredoedd." "Yr ydym yn credu fod maddeuant pechodau yn dyfod trwy ffydd yn Iesu Grist, y croeshoeliedig." Er fod y ffydd hon yn ymarfer ac yn dangos ei hun yn wastadol trwy weithredoedd o gariad, eto nid ydym yn priodoli cyflawnder a dyhuddiant am ein pechodau i weithredoedd fel ffrwythau ffydd, ond yn unig i wir ymddiried a ffydd yn ngwaed Oen Duw, yr hwn a dywalltwyd er maddeuant ein pechodau; o blegid yr ydym yn cyffesu yn rhydd fod pob peth yn cael eu rhoddi i ni yn Nghrist. Am hyny nid yw credinwyr yn cael eu hannog i weithio gweithredoedd da i'r dyben o wneuthur iawn am bechod, ond yn unig mewn trefn i fynegu eu diolchgarwch am y fawr drugaredd a ddangosodd Duw iddynt yn Nghrist. "Yr ydym ni a'r Pabyddion yn anghytuno," medd Hooker [*Pregeth* ii], "o barth i natur y feddyginiaeth neu y cyfferiau â'r rhai y mae Crist yn iachau ein haflechyd, o barth i'r modd i'w chymhwyso, ac o barth nifer ac effeithiolrwydd y moddion i gymhwyso y feddyginiaeth yn effeithiol at ein heneidiau. Pan ofynir iddynt hwy ddangos pa beth yw y cyflawnder sydd yn cyflawnhau pechadur, atebant mai rhyw ansawdd (*quality*) dwyfol, ysbrydol, ydyw; yr hwn ansawdd neu elfen, wedi ei dderbyn i'r enaid, sydd yn ei wneyd yn un o'r rhai a aned o Dduw, ac yn ei gynnysgaethu â nerth i ddwyn allan y cyfryw weithredoedd ag a wna y rhai a aned o hono ef; yr un modd ag y mae enaid dyn, wedi ei uno â'i gorff, yn gyntaf yn ei wneyd o nifer y creaduriaid rhesymol; ac yn ail, yn ei alluogi i gyflawnu y swyddau naturiol sydd yn perthyn i'r rhywogaeth. Y mae hyn yn dyfod yn eiddo pechadur trwy gyfraniad—nid trwy gyfrifiad: ac fel y mae y corff yn gynhes gan y gwres sydd ynddo, felly hefyd y mae yr enaid yn gyflawn trwy ras tumewnol: ac y mae yn bosibl i'r gras hwn gynnyddu yn barhaus; fel y gall y corff fod yn fwy cynhes, felly y gall yr enaid ddyfod yn fwy cyfiawn o ddydd i ddydd, fel y mae gras yn cynnyddu. Y mae y cynnydd a'r chwanegiad hwn yn cael ei haeddu trwy weithredoedd da, fel y mae gweithredoedd da yn cael eu gwneyd yn haeddiannol ganddo. Y derbyniad cyntaf o ras, yn ol duwinyddiaeth Eglwys Rhufain, ydyw y cyflawnhâd cyntaf; a'r chwanegiad o, neu y cynnydd ar, ras, ydyw yr ail gyflawnhâd. Ac fel y gellir cynnyddu gras trwy haeddiant gweithredoedd da, felly hefyd gellir ei leihau gan ddrwg haeddiant pechodau maddeuadwy, a'i golli yn llwyr trwy bechod marwol."

Er mai y syniadau a briodolasom uchod i'r Protestaniaid ydyw barnau y corff o honynt, eto dylid crybwyll fod rhai eithriadau yn mhlith yr enwadau Protestanaidd. Cytuna yr Arminiaid, a'r Sociniaid, a Phrotestaniaid ereill, mewn cyfyngu cyflawnhâd at y weithred o faddeu,—gweithred tuag at y pechadur, ac nid gwaith ynddo; ond y mae eu syniadau am ffydd a gweithredoedd da yn dwyn mwy o ddelw syniadau yr Eglwys Babaidd; oddi eithr eu bod yn gwadu teilyngdod a haeddiant gweithredoedd da. Am chwaneg ar yr athrawiaeth hon, yn nghyd â hanes am dani, gwel CYFRIFIAD.

CYFIEITHIAD—AU, [*cyf—iaith*]: allieithiad, troad o'r naill iaith i'r llall. Y mae cyfieithiad da yn gynnwysedig, nid yn unig o droi geiriau un iaith i eiriau iaith arall, ond hefyd o roddi geirweddau (*idioms*) y naill iaith yn ngeirweddau y llall; ac yn hyn y mae prif, os nad unig, gamp cyfieithiad. Gall pob newyddian droi *geiriau* un iaith i'r llall, os bydd yn meddu geiriadur o'r cyfryw ieithoedd; ond y celfydd yn unig—un yn deall dirgelion dwy iaith—a fedr gyfieithu *geirweddau* y naill â geirweddau y llall. Yn hyn y mae y gwahaniaeth dirfawr rhwng mân gyfieithwyr diddysg, "llythyrenol," yr oes hon, o'r Seisoneg i'r Gymraeg, a chyfieithwyr mawrion, dyfnddysg, a geirweddiadol yr oesoedd diweddaf; megys y Dr. Morgan, y Dr. Parri, y Dr. Dafis, Morys Cyffin, Carl Edwards, Edward James, Elis Wyn, Edward Samwel, Iago ab Dewi, Ieuan Brydydd Hir, Thomas Jones o Ddinbych, a rhyw ychydig ereill, efallai, o'r un cyfnod. Dyma brif awduron y Gymraeg ddiw-

Digitized by Google

eddar Brotestanaidd; ac, fel y dywed y Dr. Beard am Shakspeare, Milton, Gibbon, a Johnson, gyda golwg ar y Seisoneg, gallwn ninnau ddywedyd gyda golwg ar y Gymraeg—at waith y gwŷr hyn y rhaid i ni edrych fel safon yr iaith. Nid oedd ein prif awduron ni, mwy na phrif awduron y Seison, mor fanwl gyda phethau dibwys yr iaith—llythyraeth, gwahannodiad, a phurdeb geiriau; ond am y pethau trymach—geirweddau, ystwythder, nerth, ac eglurdeb, yr oeddynt yn rhagori yn mhell ar bawb a gyfodasant ar eu hol; ac atynt hwy, wrth gwrs, y mae i ni edrych am ein cynlluniau.

Buasai yn dra dymunol genym ymdrin yn fanwl â chyfieithiadau ein prif awduron, gan osod lluaws o esamplau o honynt ger bron, er addysg a chynllun i gyfieithwyr "llythyrenol," anystwyth, a chwith Seisonig yr oes bresennol; ond rhaid i ni gyfyngu ein hunain yma at gyfieithiadau o'r Beibl yn unig.

Y mae cryn lawer wedi ei ysgrifenu eisoes ar y pwnc yma, dan y geiriau Beibl Cymraeg; Beibl, Cyfieithiadau y; a Chyfieithiadau Newyddion y Feibl Gymdeithas. Dyma rai o'r prif gyfieithiadau.

I. Cyfieithiad y Deg a thrigain (*Septuagint*); a ddynodir hefyd â'r llythyrenau LXX. Yr ysgrifenydd hynaf a grybwyll am y Deg a Thrigain ydyw Aristobulus—awdwr y cyfeirir ato gan Eusebius, a Clement o Alexandria. Yn ol Eusebius, Iuddew ydoedd Aristobulus, a gyfunai yr athroniaeth Aristotelaidd ac Iuddewig; a chyfansoddodd esboniad ar ddeddf Moses, yr hwn a gyflwynodd efe i Ptolomëus Philometor. Crybwyllir am dano hefyd yn 2 *Mac.* i. 10. Y mae Clement ac Eusebius yn ei gyfrif yn gydoeswr i Philometor; canys rhaid fod yr ymadroddion sydd yn eu hysgrifeniadau, lle y crybwyllant am dano dan Philadelphus, naill ai wedi cael eu llygru gan adysgrifwyr anwybodus, neu wedi eu hysgrifenu felly trwy gamsyniad. Y mae yr hyn a ddywed Aristobulus ar y pwnc yma wedi achlysuro llawer o ddyfalu a dadleu. Ymddengys nad yw efe yn llefaru am un *cyfieithiad Groeg blaenorol*, fel y tybia Hody, nac yn wir am unrhyw gyfieithiad arall. Cyfeirio y mae efe yn hytrach at ryw ddyfyniadau byrion perthynol i hanesiaeth Iuddewig, a wnaed o Bum Llyfr Moses i'r iaith gyffredin a ddeallid gan yr Iuddewon yn yr Aipht, cyn amser Demetrius. Trowyd *yr holl gyfraith* i'r Groeg yn gyntaf dan Philadelphus. Y mae Hody, ac Eichhorn ar ei ol ef, yn tybied i'r darnau o Aristobulus, a gadwyd gan Eusebius a Clement, gael eu hysgrifenu gan Aristobulus arall, yr hwn ydoedd Gristion o'r ail canrif; ac mai ethnig oedd Aristobulus, yr Aristotelydd (*Peripatetic*) proffesedig. Ond y mae dyfyniad Cyril o Alexandria, at yr hwn yr appeliant, wedi cael ei wneyd yn gyfeiliornus gan y tad hwnw, fel y gellir gweled trwy ei gymharu â Clement. Gwadodd Richard Simon hefyd awdurdod gweddillion Aristobulus; ond sefydlodd Valckenaer eu hawdurdod yn ddigonol. Cadarnheir tystiolaeth Aristobulus gan eglurnod Lladin a gafwyd yn ddiweddar mewn llawysgrif o'r eiddo Plautus o Rufain, a ddarluniwyd ac a eglurwyd gan Ritschl, mewn llyfryn bychan a gyhoeddwyd yn Berlin yn 1838. Ymddengys oddi wrth yr hyn a ddywed Aristobulus, yr ystyrid yn ei amser ef, sef yn nechreu yr eilfed canrif c. c., i'r cyfieithiad yma gael ei wneyd yn amser Demetrius Phalereus, neu yn nheyrnasiad Ptolomëus Soter. Ymdrechodd Hody, mae yn wir, ddangos fod yr hysbysiad yma yn gwrthwynebu rhyw hanes penodol, am y gesyd Demetrius yn nheyrnasiad Philadelphus. Ond gallasai y cyfieithiad gael ei ddechreu dan Soter. a'i orphen dan Philadelphus ei olynydd. Fel hyn y gellir cyssoni y sylwadau anghytunol am yr amser pan y dechreuodd; canys y mae yn eithaf hysbys fod yr hanes Palestinaidd, a ddilynir gan amryw dadau yr eglwys, yn sicrhau mai Ptolomëus Soter a ddygodd y gwaith i derfyniad; tra, yn ol Aristeas, Philo, Josephus, &c., mai ei fab Philadelphus oedd y person. Y mae Hody yn cyssoni yr anghydgordiad trwy roddi cyfieithiad y Pum Llyfr yn ystod y ddwy flynedd y bu y tad a'r mab yn cyd-deyrnasu—286 a 285 c. c. Nid yw Aristobulus yn mynegu amcan Demetrius, wrth annog Soter i gael copi o'r cyfreithiau Iuddewig yn y Groeg; ond hysbysa Aristeas ddarfod i'r llyfrgellydd ddangos i'r brenin mai peth dymunol fyddai fod y fath lyfr yn y llyfrgell Alexandriaidd. Tybia rhai mai dyben *llenyddol*, yn hytrach na *chrefyddol*, a barodd gael y cyfieithiad. Felly y barna Hävernick. Y mae rhesymau cryfion, pa fodd bynag, i ammheu hyny. Tybia Hody, Sturz, Frankel, ac ereill, mai *crefyddol* neu *eglwysig* oedd yr amcan. Priodola Eichhorn ef i *awydd personol*; tra y cymmer Hug yr amcan fel un *gwladyddol*. Pa fodd bynag, nid yw yn debygol i'r cyfieithiad gael ei fwriadu at wasanaeth y brenin, na'i fod ef yn chwennych cael cyfarwyddyd o hono am y dull goreu i lywodraethu cenedl, ac i ddeddfu er ei hiawn drefniad. Y mae nodwedd ac iaith y cyfieithiad yn cyd-ddangos nas gallai brenin Aiphtaidd—anwybodus efallai o'r Groeg—ddim deall y gwaith. Efallai mai dyben *eglwysig* a gymhelliodd yr Iuddewon, y rhai a feddent ddyddordeb gwreiddiol ynddo; tra y gweithredai Demetrius Phalereus a'r brenin oddi ar ryw amcan arall.

Y mae yn anhawdd, os nad anmhosibl penderfynu, pa un a ydyw geiriau Aristobulus yn golygu fod *holl* lyfrau yr Hen Destament wedi eu cyfieithu i'r Groeg pan Philadelphus, ai ynte dim ond y Pum Llyfr. Dadleua Hody mai llyfrau Moses yn unig a arwyddai νόμος y pryd hyny, sef y gair a ddefnyddiodd Aristobulus; er iddo gael ei gymmeryd wedi hyny mewn ystyr helaethach, i olygu yr holl Hen Destament. Meddylia Valckenaer fod yr *holl* lyfrau yn gynnwysedig ynddo. Y mae yn fwy naturiol, yn ddiau, ei gyfyngu at y Pum Llyfr. Gan hyny y Pum Llyfr a orphenwyd dan Philadelphus.

Y dystiolaeth hanesyddol nesaf am y Deg a Thrigain, ydyw *Prolog Doethineb Iesus fab Sirach*—ysgrifdyst yn cynnwys barn Iuddew Palestinaidd am y cyfieithiad dan sylw. Dyma ei eiriau:—"Ac nid hyn yn unig, eithr pethau ereill, sef y gyfraith a'r prophwydi, a'r llyfrau ereill, sydd iddynt ragoriaeth nid bychan, pan draether hwynt yn eu hiaith eu hun." Ymdrechodd Frankel dafiu ammheuaeth ar yr ymadrodd yma, megys pe buasai anawdurdodol; ond y mae ei resymau yn hynod weiniaid. Fe ymddengys, oddi wrth yr ymadrodd, ddarfod i'r gyfraith a'r prophwydi, a'r llyfrau ereill, gael eu cyfieithu i'r Groeg yn amser mab Sirach, sef amser Ptolomëus Physcon, 130 c. c.

Yr hanes nesaf am y Deg a Thrigain a geir gan Aristeas. [Gwel Beibl, Cyfieithiadau y.] Y mae Josephus, fel y gwelir yn yr erthygl y cyfeiriwyd ati, yn cytuno ar y cyfan âg Aristeas; ond y mae hanes Philo yn gwahaniaethu mewn rhai amgylchiadau. Ymdrechodd Justin Ferthyr

Digitized by Google

gyssoni y gwahanol draddodiadau oedd ar droed yn ei oes ef, ond yn aflwyddiannus. Rhoddwyd llawer o chwanegiadau ac anwireddau chwithig at chwedl Aristeas, yn nyddiau Justin ac Epiphanius, y rhai a dderbyniodd y gwŷr hygoelus hyn yn ddibetrus; ac at y rhai, y mae yn ddigon tebyg, y cyfranasant eu hunain. Dywedir i'r cyfieithwyr, sef y Deg neu y Deuddeg a Thrigain, gael eu cau mewn celloedd gwahanol, lle y gwnaeth pob un gyfieithiad cyflawn o'r Hen Destament; y rhai, erbyn eu cymharu â'u gilydd, a gytunent yn fanwl yn mhob peth. Yna, fe edrychwyd arnynt fel dynion wedi eu hysbrydoli, ac ar eu cyfieithiad fel un anffaeledig. Yr oedd y rhan fwyaf o'r tadau yn derbyn y traddodiad yma, a chredid ef yr un modd gan y Rabbiniaid Iuddewig boreuol. Yr oedd hyd yn oed Philo yn edrych ar y cyfieithwyr fel rhai wedi eu hysbrydoli; ond amlwg yw ei fod ef yn anwybodus yn yr Hebraeg. Ymddengys mai Jerome oedd y cyntaf a wnaeth wrthodiad pendant o'r chwedl am ysbrydoliaeth y cyfieithwyr, er nad oedd yntau yn ammheu gwirionedd Aristeas—yn chwedl syml yr hwn nid oes dim son am ysbrydoliaeth. Credid hanes Aristeas am darddiad y Deg a Thrigain yn ddiysgog hyd ganol yr eilfed canrif ar bymtheg; a derbyniwyd y chwanegiadau lluosog at y chwedl gyntefig, yn ystod canrifoedd, fel yn gyfartal awdurdodol. Y cyntaf i gyfrif y chwedl yn annhebyg ydoedd L. Vives; yna, sicrhaodd Scaliger iddi gael ei dychymygu gan Iuddew; ac yr oedd Richard Simon yn feirniad rhy graff i beidio canfod gwirionedd haeriad Scaliger. Hody oedd y cyntaf a brofodd—a hyny trwy ddysgeidiaeth, medr, a manylwch nid bychan—nas gallai yr hanes fod yn awdurdodol. Cyhoeddir hi erbyn hyn yn gyffredinol fel peth chwedleuol.

Y pwnc anhawdd i'w benderfynu ydyw, i ba raddau y mae gwirionedd wedi ei gymmysgu â chwedl yn yr hen ystori yma. Pa mor ffol bynag y gall y traddodiadau ymddangos yn ngolwg beirniaid diweddar, rhaid fod peth gwirionedd yn sylfaen iddynt. Ymddengys na bu Hody yn llwyddiannus wrth ddidol y gwir oddi wrth y gau. O blegid eithafoedd yr hygoledd a ddangoswyd wrth dderbyn y chwedl, aeth yntau i eithafoedd ammheuaeth. Er hyny, cafodd ei ddilyn yn gyffredinol. Nid ydyw yr haeriad fod y Pum Llyfr wedi eu cyfieithu hir o amser cyn y prophwydi yn cael ei awdurdodi gan iaith Justin, Clement o Alexandria, Tertullian, Epiphanius, na Hilary o Poitiers; er y gwyddys mai *y gyfraith yn unig* a grybwyllir gan Aristeas, Josephus, Philo, y Talmudiaid, a Jerome, megys wedi ei chyfieithu gan y deuddeg a thrigain. Y mae Hody yn meddwl mai yr amser cyntaf y dechreuodd yr Iuddewon ddarllen y prophwydi yn eu synagogau oedd, pan wahardd-odd Antiochus Epiphanes iddynt ddefnyddio y gyfraith; ac am hyny na chyfieithwyd y rhan brophwydol hyd ar ol dechreuad teyrnasiad Philometor. Cymharer 1 *Mac.* i. 41, &c.; â *Hynaf. Josephus*, xii. 5; *Frankel*, td. 48, 49. Y tebygolrwydd yw, nad oedd ond ychydig o amser rhwng cyfieithiad y gyfraith a'r prophwydi. Mae prawf Hody, na chyfieithwyd Llyfr Iosuah hyd yn mhen ugain mlynedd ar ol marwolaeth Ptolomëus Lagi, a seiliwyd ar y gair γαισός, yn gwbl ddiawdurdod; er hyny, nis gall yr amser a nodwyd fod yn mhell oddi wrth y gwir amser. Nid yw yr olddawd (*epilogue*) i Lyfr Esther yn mynegu fod y rhan hon o'r Hen Destament wedi ei chyfieithu dan Ptolomëus Philometor, na'i bod wedi ei chyflwyno iddo chwaith. Yn y gwrthwyneb, sonid am ryw lythyr yn cynnwys chwanegiadau apocryphaol at lyfr canonaidd Esther. [*Y rhan arall o Lyfr Esther* xi. 1; *Valckenaer*, td. 33, 63.] Ofer fyddai cynnyg manwl benodi yr amseroedd y gwnaed gwahanol ranau y cyfieithiad hwn: y cwbl y gellir ei wybod gyda dim sicrwydd ydyw, ddarfod iddo gael ei ddechreu dan Lagi, a'i orphen cyn y ddeunawfed flwyddyn ar ugain i Ptolomëus Physcon.

Am wir nifer y cyfieithwyr, teilyngdod y gwahanol gyfieithwyr, a'u preswylfod, gwel yr erthygl y cyfeiriwyd ati eisoes.

Gyda golwg ar ffurf allanol y llawysgrifau neu yr ysgriflyfrau o'r rhai y gwnaed y cyfieithiad yma, nid anhawdd canfod fod y llythyrenau ar y cyfan yr un a'r llythyrenau ysgwâr presennol, nad oedd iddynt nodau llefarog, ac nad oedd y brawddegau wedi eu rhanu yn eiriau: dim llythyrenau terfynol; ond fod y llythyren *w* heb y *nod gwahaniadol*, a bod geiriau yn fynych yn cael eu talfyru. Yr oedd y rhaniad yn adnodau a phennodau yn llawer diweddarach nag oes y cyfieithwyr. Argraffwyd ein hargraffiadau presennol yn ol y rhaniad yn bennodau a wnaed yn y 12fed canrif; er nad ydynt unffurf chwaith yn hyn o beth. Eto, er hyn, y mae i amryw o'r llawysgrifau raniadau yn y testyn. Dywed Grabe fod Llyfr Numeri yn unig yn gant a deugain o ddosbarthiadau neu bennodau, fel y gellir eu galw, yn yr ysgriflyfr (*codex*) Alexandriaidd.

Prin y gallasai fod enwau y llyfrau, megys Γένεσις, &c., wedi eu rhoddi gan y cyfieithwyr, gan eu bod yn aml heb gydgordio â'r llyfrau y perthynant iddynt.

Gwnaed ymofyniad, pa un a ddilynodd cyfieithydd Pum Llyfr Moses, ai ysgriflyfr Hebraeg ai Samariaeg. Y mae y Deg a Thrigain a'r Samariaidd yn cydgordio mewn mwy na mil o fanau, lle y gwahaniaethant oddi wrth yr Hebraeg. Yna, barnwyd mai yr ysgriflyfr Samariaidd oedd sylfaen y cyfieithiad. Dygwyd amryw ystyriaethau o blaid yr opiniwn yma; ac y mae enwau De Dieu, Selden, Whiston, Hottinger, Hassencamp, ac Eichhorn, ar y rhestr sydd yn pleidio y farn. Ond y mae yr elyniaeth anghymmodol sydd rhwng yr Iuddewon a'r Samariaid, yn yr Aipht cystal a Palestina, yn milwrio yn effeithiol yn erbyn y syniad. Heb law hyny, y mae rhif yr amrywiadau oddi wrth y testyn Masoraidd yn y prophwydi a'r ysgrifeniadau sanctaidd (*hagiographa*), yn lluosocach ac yn fwy nodedig na'r rhai sydd yn y Pum Llyfr; tra nad yw y Samariaidd yn cyrhaedd yn mhellach na llyfrau Moses. Nis gall un amlygiad, gan hyny, fod yn foddhaol, a'r nas eglura ar unwaith yr achos neu yr achosion o'r gwahaniaeth rhwng y Deg a Thrigain a'r Hebraeg yn y Pum Llyfr, a'r gwahaniaeth a ganfyddir yn y llyfrau ereill hefyd. Yr unig beth a eglurai y pwnc yma ydyw, yr hyn a daflai oleuni ar ffurf nodedig y Deg a Thrigain yn Ieremiah ac Esther, lle y mae yn gwahaniaethu fwyaf oddi wrth y llawysgrif Fasoraidd, gan fod yno y fath drawsddodiadau a ffug-ddodiadau ag a bâr ryfeddod i'r darllenydd mwyaf arwynebol. Pa fodd, gan hyny, y mae y cydweddiad rhwng y Samariaidd a'r Deg a Thrigain i'w egluro?

Meddylia rhai i'r naill gael ei *lygru* o'r llall—barn nad ydyw mewn un modd yn debygol. Dychymyga Jahn a Bauer fod y llawysgrif Hebraeg a ddefnyddid gan yr Iuddewon Aipht-

Digitized by Google

aidd yn cytuno yn nes â'r Samariaidd, o ran testyn a ffurf ei lythyrenau, na'r copïau Masoraidd presennol. Ni roddai y dybiaeth hon, pa fodd bynag, hyd yn oed pe byddai gywir mewn ystyriaethau ereill, ddim cyfrif am y cydgordiad mawr sydd rhwng y Samariaidd a'r Deg a Thrigain.

Tyb arall, a ddygwyd yn mlaen gan Gesenius, ydyw, fod y Samariaidd a'r Deg a Thrigain wedi deilliaw o adgyweiriad (ἔκδοσις) cyffredin o'r Ysgrythyrau Hebreig — un hynach na'r naill na'r llall, ac yn gwahaniaethu mewn llawer o fanau oddi wrth yr adgyweiriad o'r Masoraidd sydd yn awr mewn arferiad. Rhydd y dybiaeth yma, ebai y proffeswr Stuart, gyfrif am y gwahaniaethau a'r cydgordiadau sydd rhwng y Deg a Thrigain a'r Samariaidd.

I'r dybiaeth gywrain a golygus yma, gwnaed y gwrthddadleuon canlynol:—

1. Cymmer yn ganiataol fod adgyweiriad neu adolygiad wedi bod ar amryw o'r llyfrau, a hyny cyn i'r holl Hen Destament gael ei ysgrifenu. Ond nid oes na hanes na thraddodiad yn cefnogi y meddyldrych, ddarfod i'r dynion *sanctaidd* ymroddi i wellhau fel hyn cyn terfynu y canon. Ni byddai dywedyd fod *ereill* wedi gwneyd hyny yn gysson â syniadau cywir am ysbrydoliaeth yr Ysgrythyr, os na sicrheir hefyd eu bod wedi *llygru* y llyfrau sanctaidd, gan feddwl eu bod yn eu *gwellhau.*

2. Arwydda y dybiaeth yma fod adgyweiriad wedi cymmeryd lle yn fore mewn cymhariaeth, cyn i unrhyw lyfrau gael eu hysgrifenu oddigerth Pum Llyfr Moses, Iosuah, y Barnwyr, ac ysgrifeniadau Dafydd a Solomon. Os ydyw yn annhebyg ddarfod i ysgriflyfr diwygiedig gael ei wneuthur cyn gorphen y canon, y mae yn llawer annhebycach i'r gwaith gael ei gymmeryd mewn llaw pan nad oedd ond ychydig lyfrau wedi eu hysgrifenu.

3. Y mae yn tybied fod adgyweiriad hynach mewn bod na'r casgliad cyfan a adolygwyd gan Ezra, pan y terfynwyd y canon. Wrth wneyd cyfleithiad y Deg a Thrigain, y mae yn dra annhebyg y buasai yr Iuddewon, sef y cyfleithwyr, yn dilyn adgyweiriad llawer gwaelach yn eu golwg na'r copi o'r llyfrau sanctaidd a adolygwyd gan Ezra. Y mae yr wrthddadl yma yn ymddibynu ar y dybiaeth mai Ezra a gwblhaodd ganon yr Hen Destament, wedi iddo gael ei gynhyrfu, cystal a'i ysbrydoli, i drefnu ac adolygu llyfrau yr Ysgrythyr. Y fath ydyw y traddodiad Iuddewig; ac er nad yw y mwyafrif o feirniaid yr Almaen yn cyfaddef ei wirionedd, eto amddiffynir ef gan wŷr enwog a dysgedig.

Y mae y proffeswr Lee yn rhoddi cyfrif am y cydweddiad sydd rhwng y Deg a Thrigain a'r Samariaidd mewn ffordd arall. Dyfala efe fod y Cristionogion boreuol wedi britho eu copïau âg arnodiadau Samariaidd, y rhai a roddodd adysgrifenwyr anwybodus yn y testyn. Ond ni ddangosodd efe fod y Cristionogion yn gyffredin yn adnabyddus o'r Pum Llyfr Samariaidd, a'i chwanegiadau at y copi Hebraeg; ac nid ystyriodd chwaith y parch a goleddai y Cristionogion boreuol at y llyfrau sanctaidd. Bernir, gan hyny, nad oes y tebygolrwydd lleiaf o blaid y dybiaeth dan sylw.

Crybwyllwyd am dyb arall gan Frankel; sef, fod y Deg a Thrigain wedi tarddu o gyfleithiad Caldeaidd, a ddefnyddid o flaen ac ar ol amser Ezra—cyfleithiad anghywir ac alleiriog, yr hwn a oddefodd lawer o gyfnewidiadau a llygriadau. Cynnygiwyd hyn yn gyntaf gan R. Asaria di Rossi, yn nghanol dyfaliadau ereill.

Y mae Frankel yn addef fod cydnabod y fath gyfleithiad yn afreidiol, oddigerth yn ei berthynas â'r Pum Llyfr Samariaidd, pan y gall fod o wasanaeth mawr. Taenwyd y cyfleithiad Caldeaidd hwn yn wahanol adysgrifau yma ac acw; ac am na chymmerwyd yr un gofal i'w gadw yn ddilwgr ag a gymmerwyd gyda golwg ar yr Hebraeg gwreiddiol, ceir fod y copïau o hono yn mawr amrywio oddi wrth eu gilydd. O hwn y cymmerwyd y cyfleithiad Groeg a'r Pum Llyfr Samariaidd hefyd. Y mae Frankel yn caniatäu nad ydyw y dyb yma yn foddhaol gyda golwg ar y Deg a Thrigain, am y rhaid i'r camgymmeriadau a ganfyddir yn y cyfleithiad hwnw darddu yn fynych o gamddeall y testyn *Hebraeg.*

Nid oes un prawf, pa fodd bynag, i un Targum neu gyfleithiad Caldeaidd gael ei wneuthur cyn dyddiau Ezra, nac yn fuan ar ol hyny. Rhoddid *yr eglurhadau ar y gwersi a ddarllenid yn gyffredin gan yr Iuddewon* yn y Galdaeg—nid yn rheolaidd, neu bob amser, efallai; ond prin y gellir hòni ddarfod i gyfleithiad Caldaeg gael ei ysgrifenu a'i ledaenu yn wahanol gopïau. Gwneid arnodiadau, neu sylwadau byrion o eiriau a brawddegau gan y darllenwyr cyhoeddus, er budd i'r bobl; ac nid ydyw yn annhebyg, mewn un modd, i amryw o'r esboniadau traddodiadol hyn gael eu corffori â'r cyfleithiad gan y cyfleithwyr Iuddewig, i'r rhai yr oeddynt gydnabyddus.

Ar fyr, nid oes un dyb a'r a gynnygiwyd hyd yn hyn yn deilwng o dderbyniad cyffredinol, er bod Frankel, efallai, wedi agor y ffordd i ddeongliad cywir. Ymddengys mai y ffynnonell fawr o'r hon y tarddodd neillduolion nodedig y Deg a Thrigain a'r Samariaidd, oedd, y *deonyliadau traddodiadol boreuol* oedd yn mysg yr Iuddewon—y Targumiau, neu yr alleiriau—heb fod yn ysgrifenedig efallai, ond ar ledaeniad o ben i ben. Y mae y fath gyfleithiadau egluriadol, y rhai, o angenrheidrwydd, a daonid yn benaf yn Palestina, yn gofyn cael eu holrhain i gyfnod boremor fore a'r ail deml. Yr oeddynt mewn bod, o ran sylwedd o leiaf, yn yr hen amseroedd, gan arwyddo a llunweddu y dull Iuddewaidd o ddeongli. Yr oedd y dull Alexandriaidd o ddeongli yn dal cyssylltiad agos â'r Palestinaidd; canys edrychai Iuddewon yr Aipht ar Ierusalem fel eu dinas benaf; ac ar Sanhedrim [cynghor yn 2 *Mac.* i. 10; senedd yn 2 *Mac.* iv. 44] Ierusalem fel eu penaethiaid eglwysig. Os gellir cael allan, gan hyny, beth oedd alleiriadau un, rhaid bod eiddo y llall yn gyffelyb o ran sylwedd.

Tybiodd Tychsen fod y Deg a Thrigain wedi ei gymmeryd o'r Hebraeg a adysgrifenwyd mewn llythyrenau Groeg Hebreig. Prin y mae y syniad yma yn werth ei grybwyll. Ni chafodd byth dderbyniad cyffredin ar ol iddo gael ei chwilio a'i wrthbrofi gan Dathe, Michaelis, a Hassencamp.

Nid ymddengys i'r Deg a Thrigain gyrhaeddyd *awdurdod cyffredinol* tra y deallid Hebraeg yn Alexandria. Y mae yn nodedig fod Aristobulus yn dyfynu y gwreiddiol, hyd yn oed lle y gwahaniaetha oddi wrth destyn y Deg a Thrigain. Y mae yn wir i'r cyfleithiad gael ei ledaenu yn yr Aipht, yn Affrica Ogleddol, ac yn Asia Leiaf; ond gellir ammheu a gafodd erioed ei gymmeradwyo i'r fath raddau gan yr Iuddewon ag i'w ddarllen yn eu synagogau, *yn lle y gwreiddiol.* Nid yw yr ymadroddion a ddyfynir gan Hody o'r tadau yn profi dim mwy na darfod iddo gael

Digitized by Google

ei gantod yn y synagogau. Ymddengys, oddi wrth 146 *Novella* Justinian, y byddai rhai Iuddewon yn dymuno ar esbonwyr cyhoeddus a fyddai yn darllen y llithoedd o'r gyfraith a'r prophwydi yn Hebraeg, eu heglurhau yn Groeg, tra y dymunai ereill eu cael yn y Galdaeg. Byddai y darllenydd, gan hyny, yn defnyddio y cyfleithiad yma fel eglurhâd ar y rhanau a adroddid o'r gwreiddiol. Nis gellir dangos ddarfod i'r Iuddewon yn gyffredinol, ar ol i'r Deg a Thrigain gael ei wneuthur, droi heibio y gwreiddiol, a defnyddio y Groeg yn ei le yn ngwasanaeth y synagog. Er eu bod yn mawr hoffi y Groeg, eto nid oeddynt yn ei ystyried yn gyfartal i'r Hebraeg. Defnyddiai Philo a Josephus ef; a derbynid ef yn gyffredinol gan y Cristionogion boreuol. Y mae hyd yn oed y Talmudiaid yn gwneuthur crybwylliad anrhydeddus am ei wreiddyn. Mae yn wir y sieryd y *Talmud* am dano, hefyd, fel esgymunbeth gan yr Iuddewon yn Palestina; ond cyfeiria hyn at yr ail canrif a'r *amser dilynol*, ond nid yn ebrwydd ar ol ymddangosiad Crist.

Am y dadleuon rhwng y Cristionogion a'r Iuddewon yn nghylch y Deg a Thrigain, a gwaith Origen yn casglu ac yn cymharu cyfleithiadau Groeg o'r Hen Destament, gwel Beibl, Cyfleithiadau y.

Yn nechreu y pedwerydd canrif, cymmerodd Lucian, henuriad o Antiochia, mewn llaw i ddiwygio testyn y Deg a Thrigain, yn ol yr Hebraeg gwreiddiol. Galwyd yr adgyweiriad yma yn *editio vulgata* (κοινή, ac hefyd Λουκιανός), a daeth i arferiad mewn amryw eglwysi. Cymmerwyd adgyweiriad arall mewn llaw o gylch yr un amser gan Hesychius, esgob Aiphtaidd; yr hwn, yn ol Jerome, a ddefnyddid yn gyffredinol yn eglwysi yr Aipht. Y mae yn debyg mai cyfleithiadau Aquila, Symmachus, a Theodotion, a ddefnyddid gan Hesychius a Lucian, ac nid y testyn Hebraeg, er y tybia Hody yn wahanol. O'r tri adgyweiriad yma y mae ein holl gopïau argraffedig wedi tarddu. Yn y ddau ysgriflyfr mawr o'r Deg a Thrigain, y Vaticanaidd a'r Alexandriaidd, y testyn *cyffredin* neu foreuaf yw sail y blaenaf; tra y gwelir mwy yn yr olaf o ddarlleniadau a ffugddodiadau o destyn yr Hexaplariaidd. Ni chadwyd y ddau bob amser ar wahân. Y mae y testyn Vaticanaidd yn llawer purach na'r un Alexandriaidd. Y mae heb y seruodau, y bidogau, a marciau ereill a ddefnyddid gan Origen, cystal a'r trawsddodiadau a wnaed ganddo. Heb law hyny, y mae yr Alexandriaidd yn cydymffurfio yn bur fynych â'r testyn Masoraidd, a rhaid ystyried hyny yn llygriad.

Gellir cyfrif yr holl gopïau argraffedig o'r Deg a Thrigain yn bedwar; sef, yr Aldinaidd, y Complutensiaidd, y Rhufeinaidd, a'r Grabiaidd.

Ymddangosodd yr Aldinaidd, neu y Venetiaidd, yn Venice, yn 1518: unplyg. Ni ddangosodd y cyhoeddwr o ba ysgriflyfr y cymmerodd y testyn. Hona yn unig ddarfod iddo gymharu llawer o gopïau tra henafol, a'i ffafrio â chynghor gan rai gwŷr dysgedig. Y mae testyn y copi yma, yn ol Walton, yn burach na'r Complutensiaidd, ac yn tebygu i'r rhan fwyaf o'r testyn Rhufeinaidd. Pa fodd bynag, y mae wedi ei lygru mewn amryw fanau â chwanegiadau o Theodotion, Aquila, a'r Testament Newydd.

Cyhoeddwyd y Complutensiaidd yn 1522, fel colofn o'r *Complutensian Polyglott*. Efallai i'r testyn gael ei gyfaddasu, *yn achlysurol*, at destyn y copïau Hebrëig Masoraidd; ond nid i'r un graddau yn sicr ag yr hônir gan Usher, Walton, a Hody. Y mae yn debyg y cymmerwyd y rhan fwyaf o'r newidiadau, fel y gelwid hwynt yn eu perthynas â thestyn copïau ereill, o ysgriflyfrau Groeg, yn cynnwys testyn diwygiedig Hexaplariaidd Origen, yn ol barn Simon.

Ymddangosodd yr argraffiad neu y copi Rhufeinaidd dan nawdd Sixtus v, yn 1587: unplyg, wedi ei arolygu gan Cardinal Carafa. Y mae y testyn yn manwl ddilyn yr ysgriflyfr Vaticanaidd (*codex Vaticanus*) ardderchog. Eto, gwnaeth y cyhoeddwr gyfnewidiadau yn y llythyraeth, ac mewn pethau ereill yr edrychent hwy arnynt fel gwallau yr adysgrifenwyr. Defnyddiwyd ysgriflyfrau ereill, o angenrhaid, gan fod agos holl lyfr Genesis yn eisieu yn *Cod. B.*, heb law Salmau cv—cxxxviii, a llyfrau y Maccabeaid.

Ymddangosodd yr argraffiad Grabiaidd yn Rhydychain, yn 1707, a'r blyneddoedd canlynol, yn 4 cyf. unplyg, ac 8 gyf. wythplyg, wedi ei barotoi i'r wasg gan y Dr. Grabe — Prwssiad dysgedig; a chyhoeddwyd ef mewn rhan ganddo ef ei hun. Testyn yr argraffiad hwn oedd yr ysgriflyfr Alexandriaidd; ond nid yn berffaith, gan fod Grabe wedi cyfnewid a diwygio amryw fanau.

Yr argraffiad beirniadol diweddaf a mwyaf ysblenydd ydyw yr un a ddechreuwyd yn 1798 gan y Dr. Holmes, ac a orphenwyd gan Parsons, Rhydychain, 1798—1827, yn bum cyf. unplyg, gyda darpariaeth feirniadol helaeth. Ymddengys i'r parhäwr flino ar ei dasg, canys y darlleniadau mwyaf pwysig yn ei farn ei hun a ddetholodd efe yn unig. Yr un ydyw y testyn a'r argraffiad Rhufeinaidd. Ni foddhaodd y gwaith ddysgwyliadau rhesymol y dysgedig; ac y mae argraffiad *da* yn beth sydd eto i'w ddymuno. Y Rhufeinaidd ydyw y goreu sydd mewn bod hyd yn hyn; ond ni ddylid dilyn *un argraffiad yn rhy gaeth*.

Y geiriadur goreu i'r Deg a Thrigain ydyw yr eiddo Schleusner, a gyhoeddwyd yn Leipzig, yn 1820, yn bum rhan, ac a ail argraffwyd yn Glasgow. Y mynegair goreu ydyw yr eiddo Trommius, a gyhoeddwyd yn Amsterdam, yn 2 gyf. unplyg, yn 1718.

Seiliwyd lluaws o gyfleithiadau ereill ar y Deg a Thrigain: — 1. Amryw gyfleithiadau Lladin boreuol, y penaf o'r sawl ydyw y *Vetus Itala*. 2. Y Coptic a'r Sahidic, perthynol i'r canrif cyntaf a'r ail. 3. Yr Ethiopaidd, yn perthyn i'r pedwerydd canrif. 4. Yr Armeniaidd, o'r pummed canrif. 5. Y Georgiaidd, o'r chweched canrif. 6. Amryw gyfleithiadau Syriaidd, o'r chweched a'r wythfed canrif. 7. Rhai cyfleithiadau Arabaidd [gwel yn mlaen yn yr erthygl hon]. 8. Yr Ysglafonig, perthynol i'r nawfed canrif.

Dylid ystyried y cyfleithiad yma (y Deg a Thrigain) o werth mawr yn ddiammheuol. Y mae iddo le nodedig mewn beirniadaeth ac eglurhâd ar yr Hen Destament. Eto, yr oedd y rhan fwyaf o'r cyfleithwyr yn annigonol i'r gwaith. Yr oeddynt yn mynych gamsynied ystyr y gwreiddiol. Cymmerasant lawer o ryddid gyda golwg ar y testyn. Rhoddasant arnodiadau i mewn, a chymmerasant ryddid i aralleirio yn ddiangenrhaid. Nid ychydig, na bychain chwaith, ydyw eu gwallau. Rhaid cofio, er hyny, fod y testyn mewn sefyllfa o afreoledd nas gellir ei wellhau. Dygodd llafur Origen, pa mor ganmoladwy bynag ydoedd,

Digitized by Google

lawer o ddyryswch i mewn. Ar y cyfan, *rhydd* ydyw y cyfieithiad, yn hytrach na *llythyrenol*. Mynych gyfnewidir ffugrau, trofegau, ac ymadroddion dynweddiadol. Er hyn i gyd, y mae y gwaith yn bwysig, nid yn unig yn ei gyssylltiad â beirniadaeth, ond hefyd âg eglurhâd yr Hen Destament.

II. Y Cyfieithiad Syriaeg. Gwelir ychydig ar y cyfieithiad hwn hefyd yn yr erthygl ar y Beibl, Cyfieithiadau y. Gwel yno. Mewn perthynas i'r hynaf a'r penaf o'r cyfieithiadau Syriaidd, a elwir y *Peshito* (=syml), dywedir fod yr amser y gwnaed ef weithian yn anmhosibl i'w benderfynu. Y mae yr amryw draddodiadau yn nghylch ei darddiad, sydd wedi bod yn mysg y Syriaid, braidd o natur chwedleuol. Llefara Jacob o Edessa, mewn ymadrodd a drosglwyddwyd gan Gregory Bar Hebræus, am y "cyfieithwyr hyny, y rhai a ddanfonwyd i Palestina gan yr apostol Thadeus, a chan Abgarus brenin Edessa." Nid yw yr hysbysiad yma yn annhebygol. Nid oes sail dda i'w lwyr wrthod. Y mae yn wir fod adroddion ereill gan Bar Hebræus, y rhaid eu hystyried yn chwedleuol; ond y mae i'r hysbysiad yma agwedd wahanol. Dichon i'r cyfieithiad gael ei wneuthur yn yr ail canrif, fel y dywedir yn yr erthygl y cyfeiriwyd ati eisoes, os nad yn y canrif cyntaf, yn ol y traddodiad sydd yn Jacob o Edessa.

Y mae ei nodwedd fewnol o blaid barn y rhai sydd yn tybied fod y rhan o'r Hen Destament wedi cael ei wneuthur gan Gristionogion. Pe daethai oddi wrth Iuddewon, neu un Iuddew, fel y tybiodd Simon, ni buasai yn rhydd oddi wrth yr arnodiadau, o'r sawl y mae y bobl hyny mor hoff. Y mae yn debyg hefyd y newidiasid y dynweddiadau, ac ymadroddion ffugrol ereill, megys ag y gwnaed yn y Deg a Thrigain; ac y dangosid llai o esgeulusdra ac anfedrusrwydd yn nghyfieithiad gosodiadau Lefiticaidd. Heb law hyny, y mae yr ymadroddion perthynol i'r Messiah yn dangos nad Iuddew a'u cyfieithodd hwynt. Dyfalai Dathe mai Cristion Iuddewig oedd yr awdwr, yr hyn nid yw annhebyg; canys y *mae* y cyfieithiad yn dangos fod dylanwadau Iuddewig arno—dylanwadau yn cael eu darostwng a'u hattal gan opiniynau Cristionogol, eto nid yn gwbl anghanfyddadwy. O blegid hyny, barnodd rhai ddarfod i'r cyfieithydd neu y cyfieithwyr wneyd defnydd o'r Targumau. Prin y gellir profi hyn. Yr oedd yr Iuddewon yn lluosog drwy holl Syria a Mesopotamia, fel y gwelwn yn *Josephus;* ac am hyny, yr oedd eu dulliau o gyfieithu yn arferedig. Y mae yma ddynesâd, gan hyny, at lafarwedd y Galdaeg—tebygolrwydd i eglurhadaeth Iuddewig. Os Iuddewon cynnwynol oedd yr awdwyr, a droisiant i gofleidio Cristionogaeth wedi hyny, y mae yn hawdd rhoddi cyfrif am yr amlygiad yma o ddylanwad Iuddewaidd, heb orfod tybied iddynt wneuthur defnydd pendant o'r Targumau pan yn cyfieithu y gwreiddiol. Y mae yn anmhosibl dywedyd yn awr pa un a ymgynghorodd awdwyr y *Peshito* â'r Deg a Thrigain ai peidio. Y mae tebygolrwydd mawr rhyngddo yn wir a'n cyfieithiad ni—nid yn gymmaint mewn ymadroddion unigol ag yn y rhediad cyffredinol; ond nid oes angenrhaid dywedyd nad y Groeg a ddefnyddiwyd. Efallai iddo gael ei arfer wedi hyny wrth adolygu a chywiro y *Peshito*. Llygrwyd y diweddaf weithiau o hono mewn amseroedd dyfodol.

Y mae yn sicr iddo gael ei gymmeryd o'r Hebraeg gwreiddiol. Y mae profion allanol a mewnol yn cytuno i gadarnhau y gosodiad yma. Ymdrechodd Eichhorn ddangos, oddi wrth ranau y gwaith ei hun, ei fod wedi deilliaw oddi wrth amryw bersonau. Heb gydsynio â'i holl resymau ef, na rhoddi pwys ar lawer o'i brofion tybiadol, yr ydym yn cytuno â'i olygiad. Y mae traddodiad, hefyd, yn cadarnhau yr un peth; ac y mae geiriau Ephrem yn cefnogi y syniad pan y dywed, ar *Ios.* xv. 28, "gan nad oedd y *rhai* a gyfieithasant i'r Syriaeg yn deall arwyddocâd y gair Hebraeg, &c.."

Cynnwysa y *Peshito* holl lyfrau canonaidd yr Hen Destament. Nid oedd llyfrau yr Apocrypha i mewn ar y dechreu. Rhaid eu bod, pa fodd bynag, wedi cael eu cyfieithu yn fore i'r Syriaeg o'r Deg a Thrigain, gan fod Ephrem yn eu dyfynu hwynt. Nid oedd llyfrau y Maccabeaid i'w cael yn y Syriaeg yn ei amser ef, mwy na'r chwanegiadau apocryphaol at Lyfr Daniel. Ar ol i'r eglwys Syriaidd ymranu yn wahanol bleidiau, gwnaed amryw adgyweiriadau o'r cyfieithiad. Dyfynir adgyweiriad y Nestoriaid yn fynych yn esboniad Gregory Bar Hebræus. Nid oedd yr adgyweiriad yma, yn ol Wiseman, yn cyrhaedd yn mhellach na'r nodau attodedig at y llythyrenau Syriaeg. Dyfynir yr adgyweiriad Karkaphensaidd, hefyd, gan Bar Hebræus. Tybid am hir amser fod hwn yn adgyweiriad gwahanol, hyd oni thaflodd ymchwiliadau y Dr. Wiseman, yn Rhufain, oleuni ar ei wir nodwedd. Trwy chwilio dau ysgriflyfr yn y llyfrfa Vaticanaidd, cafodd ef sicrwydd mai adgyweiriad yn unig o'r *Peshito* ydoedd, yn cael ei wahaniaethu gan ddull penodol o nodi, a threfniad arbenig o'r llyfrau, ond heb wahaniaethu yn hanfodol oddi wrth y testyn cyffredin. Yn yr adgyweiriad yma, y mae Iob yn cael ei roddi o flaen Samuel; ac yn nesaf ar ol Esaiah, cawn y prophwydi lleiaf. Y mae y Diarebion yn dilyn Daniel. Y mae trefniad y Testament Newydd yn llawn mor nodedig. Dechreua gydag Actau yr Apostolion, a diwedda gyda'r Pedair Efengyl; tra y rhoddir epistolau Iago, Pedr, ac Ioan, o flaen pedwar llythyr ar ddeg Paul. Deilliodd yr adgyweiriad yma oddi wrth y Monophysiaid. Y mae yr enw, yn ol Assemani a Wiseman, yn arwyddo *mynyddig;* o blegid iddo ddechreu gyda'r rhai a breswylient fynydd Sagara, lle yr oedd mynachlog o Syriaid Iacobinaidd, neu yn unig o blegid y defnyddid ef ganddynt hwy.

Yr un cyfieithiad ydyw y *Peshito* yn yr Hen Destament a'r Newydd, a wnaed yn y canrif cyntaf o'r cyfnod Cristionogol. Y mae yr esgob Marsh, yn ei nodau i *Arweiniad Michaelis i'r Testament Newydd*, yn hòni na wnaed cyfieithiad y Testament Newydd hyd onid oedd y canon wedi cael ei ffurflo, sef yn nghylch canol yr ail canrif. Pa fodd bynag, gan nad oedd yn cynnwys y llyfrau a dderbynid ar unwaith gan y Cristionogion boreuol, sef Ail Epistol Pedr, Ail a Thrydydd Epistol Ioan, Iudas, a'r Dadguddiad, y mae yn hòni hynafiaeth uwch nag a rydd y prelad dysgedig iddo. Pe yn y trydydd canrif y buasai y cyfieithiad wedi ei wneuthur, nid yw debygol y buasai yr epistolau hyn heb fod ynddo. Ymddengys, gan hyny, fod Michaelis yn gywir wrth ei roddi yn y canrif cyntaf. Ymdrechodd Hug ddangos fod y *Peshito*, ar y dechreu, yn cynnwys y Dadguddiad a'r pedwar epistol catholig sydd yn awr heb fod ynddo, ac mai yn raddol y gadawyd hwynt allan o'r cyfieithiad yn y pedwerydd canrif; ond nid ydyw ei farn

Digitized by Google

yn debygol, megys y dangoswyd gan Bertholdt a Guerike.

Megys ag y cyfleithwyd yr Hen Destament o'r Hebraeg gwreiddiol, felly hefyd y cyfleithwyd y Newydd o'r Groeg.

Mewn canlyniad i'r amrywiaeth canfyddadwy yn y dull o gyfleithu gwahanol lyfrau, tybia Hug i'r Testament Newydd gael ei wneyd gan wahanol bersonau. Pa fodd bynag, prin y mae hyn yn debygol. Y mae traddodiad y Syriaid eu hunain yn ei briodoli i un person; a dyma farn Eichhorn. Y mae ei destyn braidd yn neillduol. Priodola Hug ef i'r *κοινὴ ἔκδοσις*, neu y testyn *anniwygiedig*; tra y barna Griesbach y daw yn nes i'r *Gorllewinol* nag i un o'r adgyweiriadau ereill. Cyfrifa Scholz ef yn Gonstantinopolitaidd, er yr addef y cynnwysa ddarlleniadau Alexandriaidd, a nodedig.

Argraffwyd yr Hen Destament Peshitoaidd gyntaf yn y *Paris Polyglott*, gyda chyfieithiad gan Gabriel Sionita. Nid yw y testyn yn gywir mewn un modd; canys cyflenwodd y cyhoeddwr y diffygion yn ei ysgriflyfr allan o'r Vulgate. Argraffwyd ef wedi hyny yn y *London Polyglott* o amryw ysgriflyfrau; ond dywed y proffeswr Roediger, fod argraffiad Llundain wedi cael ei wneyd yn fwy diofal nag un Paris. Yr argraffiad pedwar-plyg a gyhoeddwyd gan y proffeswr Lee, yn 1823, at wasanaeth y Feibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor, ydyw y goreu. Adolygwyd ef yn alluog gan Roediger, yn yr *Hallische Lit. Zeit.*, am 1832, rhif 4. Y geiriadur goreu ydyw adargraffiad a helaethiad Michaelis o'r eiddo Castell, a gyhoeddwyd yn ddwy ran, yn Göttingen, 1788: 4plyg.

Y Testament Newydd Peshitoaidd a wnaed yn hysbys gyntaf yn Ewrop gan Moses o Merdin, offeiriad Syriaidd; yr hwn a ddanfonwyd gan Ignatius, patriarch o Antiochia, yn 1552, at y pab Julius III. i gydnabod goruchaflaeth pab Rhufain yn enw yr Eglwys Syriaidd, ac hefyd i arolygu argraffiad o'r Testament Syriaidd. Cyhoeddwyd ef gyntaf yn Vienna, yn 1555, gan Albert Widmanstadt, canghellydd Awstria dan Ferdinand I. Defnyddid dau ysgriflyfr i hyn. Wedi hyny, cyhoeddodd L. de Dieu y Dadguddiad o hen ysgriflyfr oedd yn llyfrgell Scaliger yr ieuaf, ac ar ol hyny yn llyfrgell y brifysgol yn Leyden, yn cynnwys rhan o'r cyfleithiad Philoxenaidd neu Syriaeg ieuaf, neu yn hytrach o gyfleithiad Thomas o Harclea. Cyhoeddodd Pococke y pedwar epistol, sef Ail Pedr, Ail a Thrydydd Ioan, a Iudas, o ysgriflyfrau yn y llyfrgell Fodleiaidd. Dyma yr *unig* ysgriflyfr o'r *Peshito*, cyn belled ag y gwyddys hyd yn hyn, sydd yn cynnwys y pedwar epistol yma, yn nghyd â'r Actau, a'r tri epistol catholig a gydnabyddir yn gyffredin. Nid yw y *cyfleithiad hwn* o'r pedwar epistol yn cytuno yn gyffredinol â chyfleithiad y *Peshito*; yn y gwrthwyneb, ymddengys yr arwydda oes ddiweddarach, a pherthyn, efallai, i'r Philoxenaidd neu yr Harcleaidd, o'r sawl yr ymddengys yn ffurfio rhan. Casglwyd yr holl ranau, ac argraffwyd hwynt yn y *Paris Polyglott*, yn nghyd â'r Hen Destament; a throsglwyddwyd hwynt, gyda y gwelliadau, i'r *London Polyglott*. Yr argraffiadau goreu o'r Testament Newydd Peshitoaidd ydyw ail argraffiad Schaaf, Ludg. Bat., 4plyg, 1717; a'r un a barotowyd gan y proffeswr Lee i Feibl Gymdeithas Llundain, 1816: 4plyg. Geiriadur Schaaf yw y goreu, yr hwn a wasanaetha hefyd fel mynegair: cyhoeddwyd yn 1709, 4 plyg.

Y mae arddull y cyfleithiad yma yn gyffredin yn bur, y gwreiddiol wedi ei gyfleithu yn dda, a'r geirweddau wedi eu trosglwyddo i'r Syriaeg yn esmwyth, grymus, a phriodol. Nid oes achos rhyfeddu o blegid y gwahaniaetha yn fawr oddi wrth yr ysgriflyfrau Hebreig a Groeg o'r Hen Destament a'r Newydd, gan ei fod yn llawer hynach na'r ysgriflyfrau hynaf sydd yn bod. Mae y cynnorthwy a rydd i eglurhau y Testament Newydd yn werthfawr ac yn bwysig. Nid ydyw yn gwbl ddiwerth chwaith gyda golwg ar feirniadaeth yr unrhyw.

Gwnaed amryw gyfieithiadau Arabaidd o'r Hen Destament Peshitoaidd. [Gwel y *Cyfieithiadau Arabaidd.*] O'r Peshito hefyd y gwnaed y cyfieithiadau Persiaidd o'r Efengylau sydd yn y *London Polyglott*. Tybia Hug mai yn Edessa y gwnaed ef.

Heb law y Peshito, crybwylla Gregory Bar Hebræus, yn ei ragymadrodd i'w *Horreum Mysteriorum*, am ddau gyfieithiad arall o'r Testament Newydd, y *Philoxenaidd* a'r *Harcleaidd*.

Gwnaed y Philoxenaidd o'r Groeg wreiddiol i'r Syriaeg, yn ninas Mabug. Caiff ei enw oddi wrth Philoxenus, neu Xenayas, esgob Mabug, neu Hierapolis, yn Syria. Y mae peth ansicrwydd yn nghylch y rhan a gymmerodd yr esgob hwn yn y cyfleithiad. Nid ydyw tystiolaeth Bar Hebræus yn gysson. Mewn un ymadrodd, sicrhâ iddo gael ei wneuthur yn amser Philoxenus; yn ei *Chronicon*, ei fod wedi ei wneyd ar ddymuniad yr esgob hwn; ac mewn lle arall o'r un llyfr, mai ei waith ef ei hun oedd. Hysbysa Aghelæus mai yr awdwr o hono oedd Polycarp, esgob gwladol Philoxenus. Drachefn, mewn ysgriflyfr Arabaidd, a ddyfynir gan Assemani, dywedir ddarfod i Philoxenus gyfeithu y Pedair Efengyl i'r Syriaeg. Fel hyn, y mae y cwbl yn ansicr gyda golwg ar awduriaeth y cyfieithiad hwn. Nis gellir bod yn sicr pa un ai y cyfan ynte rhan o hono yn unig a ddaeth oddi wrth Philoxenus ei hun; ai ynte Polycarp, yn gweithredu dan ei olygiad a'i gynghor ef, sydd yn deilwng o anrhydedd y gwaith. Y mae un peth yn sicr, sef darfod iddo gael ei wneuthur rhwng y blynedd-oedd 485 a 518 o'r cyfnod Cristionogol:—yn 508 fel y mae yn fwyaf tebyg.

Ni chanfyddwyd unrhyw ysgriflyfr o'r cyfieithiad hwn hyd yn hyn, na chyflawn nac heb fod felly: gan hyny, y mae yn anmhosibl penderfynu ei deilyngdod mewnol. Nid ydyw Bar Hebræus yn dyfynu o hono. Ymddengys, gan hyny, ei fod agos wedi ei weithio allan yn ei ddyddiau ef. Mae yn adnabyddus i'r cyhoedd yn unig wrth yr ychydig ddarnau sydd yn cyfansoddi arnodiadau minddadleuni ysgriflyfrau Vaticanaidd pur hen a chwiliwyd gan Wiseman, ac a rifir yn 153. Argraffwyd yr ymadroddion gyntaf gan Wiseman, yn ei *Horæ Syriacæ*. Yr oedd y cyfieithiad, cyn belled ag y gellir barnu wrth yr esamplau hyn, yn llawer rhagorach na'r Peshito—casgliad a gytuna â'r traddodiad Syriaidd am dano.

Yr *Harcleaidd* a gaiff ei enw oddi wrth Thomas o Harkel, neu Heraclea, yn Syria. Casglwyd amryw nodiadau am fuchedd Thomas gan Bernstein, allan o hen awduron. Esgob Mabug oedd efe, tua diwedd y chweched a dechreu y seithfed canrif. Oddi yno, efe a ffodd i'r Aipht, ac a wnaeth ei breswylfa mewn mynachlog yn Alexandria, lle y llafuriodd i wella y cyfieithiad Syriaeg Philoxenaidd o'r Testament Newydd. Oddi wrth olysgrif a chwanegwyd ganddo ef ei

Digitized by Google

hun, ymddengys iddo ddiwygio Efengylau y Philoxenaidd yn ol dau (y mae i rai ysgriflyfrau dri) ysgriflyfr Groeg; yr Actau a'r Epistolau Catholig yn ol un. Wedi iddo adolygu a gwellhau yr holl waith gyda gofal mawr, gan ei wneyd mor gydffurf â'r copïau Groeg oedd o'i flaen ag yr oedd yn bosibl, gorphenwyd y gwaith, a chyhoeddwyd ef B. A. 616. Ei sylfaen oedd y Philoxenaidd; ond ymddengys iddo ymgynghori â'r Peshito hefyd. Eto, nid ydoedd gymmaint o adgyweiriad newydd o'r Philoxenaidd, ag o gyfieithiad chwanegol o'r Testament Newydd; ac yn unol â hyny, dysgrifir ef fel trydydd cyfieithiad gan Bar Hebræus. Yr ysgriflyfr mwyaf cyflawn o'r cyfieithiad yma a'r a ddarluniwyd hyd yn hyn yw yr un a berthynai gynt i Ridley, sydd yn awr yn llyfrgell Coleg Newydd Rhydychain. Rhaid i'r rhai a ewyllysiant wybod mwy am y copi yma ymgynghori â *Thraethawd Ridley am Deithi a Defnydd y Cyfieithiadau Syriaeg o'r Testament Newydd*, a rhagymadrodd White i'r argraffiad printiedig o hono. Cynnwysa holl lyfrau y Testament Newydd, oddigerth y Dadguddiad, ac o'r 27ain adnod o'r unfed bennod ar ddeg o'r Hebreaid hyd ddiwedd yr epistol hwnw. Argraffiad y proffeswr White ydyw yr unig un a gyhoeddwyd o'r cyfieithiad Harcleaidd. Cytuna y testyn yn gyffredinol â'r tylwyth Alexandriaidd, fel y gellid casglu yn mlaen llaw oddi wrth y lle yr ysgrifenwyd ef. Mae yn anmhosibl penderfynu yn awr pa un a oedd y cyfieithiad Harcleaidd ar y dechreu yn cynnwys holl lyfrau y Testament Newydd ai peidio. Ni chafwyd un ysgriflyfr eto yn cynnwys y Dadguddiad. Nid oes gan Gregory Bar Hebræus, sydd yn dyfynu ac yn beirniadu y cyfieithiad, un dyfyniad o'r llyfr hwn—amgylchiad sydd yn cefnogi y dybiaeth na bu efe erioed yn perthyn i'r cyfieithiad dan sylw. Nis gellir gwybod chwaith a fu y cyfieithiad hwn erioed yn cynnwys yr Hen Destament ai peidio.

Mae y cyfieithiad yn hynod lythyrenol. Ymddengys nas mynasai y cyfieithydd golli na gair na sill o'r gwreiddiol. Am hyny, mynych aberthodd y geirweddiad Syriaeg, er mwyn cadw yn gaeth at y testyn Groeg. Mae yr arddull is law eiddo y Peshito. Dengys Bernstein mai Harcleaidd y dylid enwi y cyfieithiad a elwir yn gyffredin yn Philoxenaidd. Y mae y ddau yn gwbl wahanol. Ychydig iawn a wyddys am un; argraffwyd y llall dan arolygiad White, yr hwn a'i camenwodd yn Philoxenaidd.

Y mae un cyfieithiad Syriaeg arall hefyd o'r Testament Newydd, a elwir yr *Ierusalem* neu y *Syriaeg-Palestinaidd*, yr hwn a ganfyddwyd gan Adler, mewn ysgriflyfr Vaticanaidd (rhif. 19). Ymddengys oddi wrth y tanysgrifeniad i'r ysgriflyfr gael ei ysgrifenu mewn mynachdy yn Antiochia, B. A. 1030. Cymmysg ydyw yr iaith o Galdaeg a Syriaeg, tebyg i Dalmud Ierusalem; ac y mae y lythyren a ddefnyddir yn un neillduol. Darlleniadur, neu lyfr llithiau, yn unig ydyw yr ysgriflyfr, heb gynnwys mwy na gwersi o'r Pedair Efengyl, gogyfer pob Sul a gŵyl yn y flwyddyn. Cefnoga prawf mewnol y farn ddarfod i'r cyfieithiad hwn gael ei wneyd mewn rhyw ran o Syria, oedd ddarostyngedig ar y pryd i'r Rhufeiniaid; efallai mai yn y pummed canrif. Cytuna y testyn â'r tylwyth gorllewinol. Mae hanes y wraig odinebus, er nad ydyw yn y Peshito a'r Harcleaidd, wedi ei roddi yn y cyfieithiad hwn bron yn yr un ffurf ag yr ymddengys yn ysgriflyfr Beza.

III. Y Cyfieithiad Ethiopaidd. Mae llyfrgelloedd Ewrop yn cynnwys rhai copïau llawysgrifol o gyfieithiad y Beibl i'r llafarwedd Geez; ond anfynych iawn y ceir copi cyflawn. Gwnaed y cyfieithiad yma o'r Hen Destament o Roeg y Deg a Thrigain, yn ol yr adgyweiriad Alexandriaidd, fel y gwelir, yn mysg pethau ereill, oddi wrth drefniad y llyfrau Beiblaidd, a thrwy dderbyniad yr Apocrypha i mewn heb un gwahaniaeth. Cyfrenir y gwaith yn bedair rhan:—1. *Y gyfraith*, neu yr Wythlyfr, yn cynnwys Pum Llyfr Moses, llyfrau Iosuah, Barnwyr, a Ruth. 2. *Y Breninoedd*, yn dri llyfr ar ddeg, yn cynnwys dau lyfr Samuel, a'r Breninoedd, y ddau Groniel, dau o Ezra (Ezra a Nehemiah), Tobit, Iudith, Esther, Iob, a'r Salmau. 3. *Solomon*, yn bum llyfr, yn cynnwys y Diarebion, Ecclesiastes (Pregethwr), Caniad Solomon, a Sirach. 4. *Y Prophwydi*, yn ddeunaw llyfr, yn cynnwys Esaiah, prophwydoliaeth a Galarnad Ieremiah, Baruch, Ezeciel, Daniel, a'r deuddeg prophwydi lleiaf. Yn olaf, dau lyfr y Maccabeaid. Heb law hyn, y mae ganddynt lyfr apocryphaol i Enoch, a gyfleant yn nesaf i Lyfr Iob. Yr unig ddefnydd beirniadol, braidd, sydd i'r cyfieithiad yma ydyw, yr amlygiad a rydd gyda golwg ar destyn y Deg a Thrigain. Gwnaed cyfieithiad y Testament Newydd yn ddigyfrwng o'r Groeg gwreiddiol. Dilyn drefniad geiriol y Groeg yn bur fanwl; ac y mae iddo wallau nas gellir rhoi cyfrif am danynt, ond yn unig trwy ystyried i gymmysgiad geiriau cyffelyb i'w gilydd yn yr iaith hono gymmeryd lle. Anhawdd gwybod pa adgyweiriad a ddilyn; ond cytuna yn fynych â'r Peshito a'r Itala. Y mae yn anmhosibl penderfynu amser gwneuthuriad un o'r cyfieithiadau hyn; ond dichon y gellir eu priodoli gyda llawer o debygrwydd i ddechreu y pedwerydd canrif. Rhanau bychain yn unig o'r blaenaf a argraffwyd; ond y mae y Testament Newydd oll beth bynag wedi ymddangos.

IV. Y Cyfieithiad Arabaidd. Ni chafodd Cristionogaeth erioed dderbyniad helaeth gan yr Arabiaid, na dylanwad parhäus yn eu plith fel cenedl, felly ni chanfyddwyd un cyfieithiad Arabaidd cyflawn addefedig o'r Beibl mewn un man. Ond yn gymmaint ag i ddygwyddiadau gwladol wneyd yr iaith Arabaeg yn gyfrwng cyffredinol addysg yn y dwyrain, a hyny i'r Iuddewon, y Samariaid, a'r Cristionogion, gwnaed amryw gyfieithiadau annibynol o lyfrau unigol, yn ol sel personau neillduol, neu er budd cymundebau bychain. Mae a ganlyn yn gyfres ddosbarthiadol o'r rhai mwyaf pwysig yn eu plith:—

Iaf. Cyfieithiadau Arabaidd wedi eu ffurfio yn uniongyrchol ar y testynau gwreiddiol, sef yr Hebraeg.

A. Y mae Rabbi Saadjah Haggaôn, periglor coleg yn Sora, yr hwn a fu farw B. A. 942, yn awdwr cyfieithiad o ryw ranau o'r Hen Destament. Haera Erpenius a Pococke, yn wir, ddarfod iddo gyfieithu y cyfan; ond nid yw ymchwiliadau dilynol wedi llwyddo, gyda dim sicrwydd, i brofi y gellir priodoli mwy iddo ef na chyfieithiad o'r Pum Llyfr, Esaiah, Iob, a rhan o Hosea.

Ymddangosodd cyfieithiad o'r pum llyfr cyntaf mewn llythyrenau Hebreig, yn *Tetraglott Pentateuch* unplyg Constantinople, yn y flwyddyn 1546. Ni roddir teitl neu enwad manwl y llyfr tra phrin yma gan Wolf, gan Masch, na chan De Rossi (dywedir ei fod yn *Biblisch-kritische Reise* gan Adler, td. 221); ond, yn ol yr enwad a ddyfyna Tychsen, o Rabbi Shabtai (yn *Repertorium*

Digitized by Google

Eichhorn, x. 96) crybwyllir enw Saadjah yn bendant fel awdwr y cyfieithiad Arabaeg hwnw. Yn mhen yn agos i ganrif ar ol hyn, argraffwyd cyfieithiad Arabaeg o'r pum llyfr yn y *Paris Polyglott*, o lawysgrif yn perthyn i F. Savary de Breves; a'r testyn a gafwyd fel hyn a ail argraffwyd yn y *London Polyglott*, gyda chasgliad o amryw ddarlleniadau y testyn Constantinopolitaidd, ac ysgriflyfr arall yn yr attodiad. Canys addefir mai Saadjah oedd awdwr y cyfieithiad Constantinopolitaidd; a myntumiwyd unrhywdeb y testyn hwnw a thestyn y *Paris Polyglott* gan Pococke (yr hwn, er hyny, a gydnebydd aml lygriadau yn yr olaf), ac a gadarnhawyd hyd yn oed gan y cydgymhariad a sefydlasai J. H. Hottinger i benderfynu eu hamrywiaeth. Ystyriwyd fod unrhywdeb yr holl destynau hyn yn bwnc sefydledig; a bu felly am amser maith, nes y cyhoeddodd J. D. Michaelis gopi o nodyn Lladin a ragddodasai Jos. Ascari at ysgriflyfr De Breves, o'r hwn y cawsai y *Paris Polyglott* ei gyfieithiad Arabaeg. Priodolai y nodyn hwnw y cyfieithiad i "Saidus Fajumenis, Monachus Coptites;" ac fel hyn daeth hawl Saadjah drachefn i gael ei ystyried yn awdwr y cyfieithiad oedd yn y *Polyglott* yn agored i ammheuaeth. O'r diwedd, pa fodd bynag, argraffodd Schnurrer ragymadrodd Arabaeg yr ysgriflyfr hwnw, gan brofi nad oedd sail i'r "Monachus Coptites," ac ymdrechodd ddangos mai cyfystyr-air Arabaeg oedd *Sa'id* i'r Hebraeg *Sa'adjah*, ac adsefydlu yr hen opiniwn am unrhywdeb y ddau destyn. Ymddengys iddo ef lwyddo (oddigerth y cynnyg gwanaidd a wnaeth O. G. Tychsen i briodoli y cyfieithiad i Abu Sa'id, yn y *Repertorium*) i argyhoeddi y beirniaid diweddaraf; ac, yn wir, cawsant lawer o gadarnhâd trwy ymddangosiad cyfieithiad o Esaiah. Mae y cyfieithiad yma o'r Pum Llyfr, yr hwn sydd gofgolofn anrhydeddus o ieithyddiaeth Feiblaidd Rabbiniaid y degfed canrif, yn dwyn nodau, yn annibyniaeth ei dôn, ac mewn rhai neillduolion cyfieithiadol, ddarfod iddo gael ei seilio ar y testyn gwreiddiol. Mae yn gogwyddo, bid sicr, at yr awdurdodau esboniadol Iuddewig yn gyffredinol; ond mynycha ddilyn y Deg a Thrigain, ac mor fynych ymddengys yn amlygu syniadau neillduol ei awdwr. Dynodir ef hefyd gan ryw arddull lac aralleiriol o gyfieithu, yr hyn a'i gwna yn fwy defnyddiol mewn ystyr esboniadol nag mewn ystyr beirniadol. Pa fodd bynag, mae yn anhawdd gwybod pa faint o'r gwasgaredd yma a berthyn i Saadjah ei hunan. Canys, nid yn unig y mae testyn argraffedig ei gyfieithiad ef yn fwy gwallus, yn yr ystyr yma, nag ysgriflyfr Florentine, ond goddefodd lygriad trefniadol. Dengys cymhariaeth o'r testyn Constantinopolitaidd â thestyn y *Polyglotts*, lle y ceidw y blaenaf y geiriau hyny o'r Hebraeg sy'n priodoli gweithrediad neu oddeflad i Dduw—yr hyn a elwir *ἀνθρωποπάθειαι*—rhydd y llall "Angel Duw," neu ryw ddull arall o osgoi ymadroddion uniongyrchol. Priodolir y ffugddodiadau hyn gan Eichhorn i ffynnonell Samariaidd; canys sicrhâ Morinus a Hottinger fod yr arfer o adael allan neu osgoi dynweddiadau (*anthropomorphisms*) y testyn Hebraeg yn nodwedd arbenig y cyfieithiadau Samariaeg.

Ymddangosodd cyfieithiad o Esaiah—yr hwn a briodolir yn y llawysgrif wreiddiol i Saadjah, gyda llawer o debygrwydd allanol o wirionedd—ac heb wrthwynebiad un beirniad, dan yr enw *R. Saadiæ Phijumensis Versio Jesaiæ Arabica e MS. Bodley. edidit atque Glossar. instruxit*, H. E. G. Paulus, fasc. ii., Jena, 1791: 8plyg. Copiwyd y testyn o ysgriflyfr a ysgrifenwyd mewn llythyrenau Hebreig, ac y mae yr anhawsder sydd bob amser i ganfod llythyrenau Arabaeg cyfartal, y dylid trawsnewid iddynt, wedi bod yn wraidd yr anghywirdeb sydd yn y gwaith. Rhoddodd Gesenius grynodeb o nodweddau y cyfieithiad yma, a dangosodd y cytundeb mawr cyffredinol sydd rhyngddynt a nodweddau cyfieithiad y Pum llyfr, mewn modd ag a lwyr gadarnhâ y gred mai yr un oedd awduron y ddau.

Y mae ei gyfieithiad o Iob mewn llawysgrif yn Rhydychain, lle y cymmerodd Gesenius gopi o honi.

Y cyfieithiad o Hosea a adnabyddir yn unig oddi wrth y dyfyniad o'r bennod iv. 9, gan Kimchi. —*Pococke's Theolog. Works*, ii. 280.

B. Y cyfieithiad o Iosuah a argraffwyd yn y *Paris* a'r *London Polyglotts*:—yr awdwr a'r amser yn anhysbys.

C. Y cyfieithiad o'r holl ymadroddion o 1 *Bren.* xii. i, a 2 *Bren.* xii. 16, y rhai a ganfyddir hefyd yn yr un *Polyglotts*. Casglodd y proffeswr Rödiger yr amlygiadau beirniadol sydd yn profi fod yr holl gyfwng wedi ei gyfleithu o'r Hebraeg; a phriodola y cyfieithiad i Iuddew anhysbys, o Damascus, yn yr unfed canrif ar ddeg. Hefyd, haera ef, am yr adran yn Nehemïah, o *pen.* i. hyd *pen.* ix. 27, megys y mae yn y ddau *Polyglott*, mai cyfieithiad Iuddew ydyw (cyffelyb o ran arddull i Iosuah), ond gyda ffugddodiadau dilynol gan Gristion Syriaidd.

D. Y cyfieithiad pur gaeth, ac agos i wasaidd, o'r Pum Llyfr, gan ryw Iuddew Mauritaniaidd o'r trydydd canrif ar ddeg, yr hwn a gyhoeddodd Erpenius yn Leyden, yn 1622—yr *Arabs Erpenii*, fel ei gelwir.

E. Cyfleithiad Arabaeg Samariaidd Abu Sa'id. Yn ol rhagymadrodd yr awdwr sydd o flaen ysgriflyfr Paris o'r cyfieithiad hwn (rhif 4)—y gwreiddiol o ba un sydd yn *Bibl. Biblioth. Eichhorn*, iii. 6—cymhellwyd Abu Sa'id i'w gymmeryd mewn llaw, mewn rhan, wrth weled y sefyllfa lygredig i'r hon y darostyngodd adysgrifenwyr anwybodus y cyfieithiad oedd y pryd hyn ar arfer gan y Samariaid, ac mewn rhan trwy ganfod nad oedd y cyfieithiad a ddefnyddient hwy, dan yr argraff mai cyfieithiad Abu'l Hasan o Tyrus ydoedd, ddim amgen, mewn gwirionedd, na'r eiddo Saadjah Haggaôn. Wedi cael cynhyrfu ei ragfarn cenedlaethol fel hyn yn erbyn yr Iuddew halogedig, ac "annuwioldeb amlwg" rhai o'i sylwadau esboniadol, ymroddodd at y cyfieithiad hwn, a rhoddodd nodau i'w ddilyn er mwyn cyfiawnhau ei gyfieithion, egluro yr anhawsderau, a gwrthwynebu yr Iuddewon. Dynodir ei gyfieithiad gan ddirfawr ffyddlondeb i'r testyn Samariaeg (*h. y.*, mewn geiriau ereill, i'r testyn Hebraeg, gyda'r amrywiadau sydd yn hynodi yr adgyweiriad Samariaeg o hono), gan sefyll at hyd yn oed drefn y geiriau, a mynych aberthu priodoliaethau y geirweddiad Arabaeg, er mwyn cadw at wir eiriau y gwreiddiol. Ni ffurfiwyd ef yn ddiau ar y *cyfieithiad* Samariaeg, er ei fod weithiau yn cytuno âg ef; ac y mae mor debyg i gyfieithiad Saadjah fel yr arwydda gydnabyddiaeth âg ef, neu ddefnyddiad amcanedig o'i gynnorthwy; ac y mae yn myned tu hwnt i'r rhai hyn yn ei ocheliad parhäus o bob ymadroddion dynweddiadol. Y mae ei amseriad yn anhysbys; ond rhaid y gwnaed ef rywbryd rhwng y degfed a'r trydydd canrif ar ddeg, o blegid yr oedd o angenrhaid ar ol cyfieithiad

Digitized by Google

Saadjah, ac o blegid i gopi Barberini o hono gael ei ysgrifenu yn B. A. 1227. Y mae yn resyn fod y cyfleithiad yma byth heb ei argraffu, er mai ei brif ddefnydd fyddai er penderfynu darlleniadau y Pum Llyfr Samariaeg. Mae mewn ysgriflyfrau yn Rhydychain (un o'r copiau yno ydyw yr un a ddyfynir gan Castell yn yr *Attodiad* i'r *London Polyglott*), yn Paris, Leyden, ac yn Rhufain, yn yr enwog *Barberini Triglott*. Rhanau yn unig o hono sydd wedi eu hargraffu.

F. Cyfleithiad o'r Efengylau, a gyhoeddwyd gyntaf yn Rhufain, yn 1590; yna, yn Nhestament Newydd Arabaeg Erpenius, yn 1616; ac wedi hyny, yn y *Paris Polyglott* (testyn yr hwn sydd yn y *London Polyglott*). Cafwyd y ddau gyntaf o'r argraffiadau hyn o ysgriflyfrau; a thybir i'r amrywiadau hefyd sydd yn hynodi testyn Paris oddi wrth destyn Rhufain gael eu cymmeryd o ysgriflyfr. Y mae cytundeb a gwahaniaeth yr holl destynau hyn yr un mor nodedig. Y mae eu cytundeb mor fawr, fel y prawf eu bod oll yn cynnrychioli yr un a'r unrhyw gyfleithiad; a bod yr un cyfleithiad *hwnw* wedi ei seilio yn ddigyfrwng ar y Groeg. Y mae yr amrywiadau (heb gynnwys gwallau yr adysgrifenwyr) yn gynnwysedig yn y cyfnewidiadau afreolaidd a wnaed yn mhob un o'r ysgriflyfrau, ar wahân, er mwyn ei gyfaddasu yn arbenig at y cyfleithiad Peshitoaidd neu Goptaidd. Rhoddir cyfrif am y cymmysgiad nodedig yma gan Hug fel hyn. Pan y gwnaeth cynnydd yr iaith Arabaeg i'r Syriaeg a'r Goptaeg fyned allan o arfer, bu raid i'r Syriaid a'r Coptiaid ddefnyddio cyfleithiad Arabaeg. Gan hyny, cymmerasant ryw gyfleithiad yn yr iaith hono, a chymhwysasant ef yn gyntaf oll at y cyfleithiad Peshitoaidd a Memphitig. Gan fod y cyfleithiadau Peshitoaidd a Coptaidd fyth yn parhau i gael eu darllen yn eu heglwysydd a'r cyfleithiad Arabaidd yn ebrwydd ar ol hyny, fel math o Dargum, daeth yn arfer ganddynt ysgrifenu eu cyfleithiadau cenedlaethol, a'r cyfleithiad Arabaidd diwygiedig hwn, yn golofnau cyfochr. Arweiniodd y cydgyflead yma i lygriad chwanegol yn y naill a'r llall. Wedi hyny, drwy ryw foddion, dygwyd dau o'r ysgriflyfrau hyn yn nghyd, y rhai a oddefasant wahanol gyfaddasiadau, a chydlygrasant eu gilydd; trwy yr hyn y cynnyrchwyd trydydd testyn—un cymmysgryw, sef y cyfleithiad Arabaeg presennol. Mae oedran y testyn Arabaeg gwreiddiol yn anhysbys; ond y mae yr amgylchiad ddarfod iddo gael ei fabwyso gan y Syriaid a'r Coptiaid yn ei osod yn agos i'r seithfed canrif.

G. Y cyfleithiad o'r Actau, o epistolau Paul, o'r epistolau Catholic (cyffredinol), ac o'r Dadguddiad, sydd yn y ddau *Polyglott*. Y mae yr awdwr yn anhysbys; ond tybir mai brodor o Cyrene ydoedd, ac mai ei amser oedd yr wythfed neu y nawfed canrif.

2il. Cyfleithiadau Arabaeg, seiliedig ar y Deg a Thrigain.

A. Y cyfleithiad *Polyglott* (amlieithog) o'r prophwydi, yr hwn y dywedir yn bendant, yn y cyflwyniad yn ysgriflyfrau Paris, ddarfod iddo gael ei wneuthur o'r Groeg gan offeiriad Alexandriaidd. Y mae yn debyg ei fod yn ddiweddarach na'r degfed canrif.

B Cyfleithiad o'r Salmau (yn ol yr adgyweiriad Syriaidd), a argraffwyd yn *Psalt. Octaplum* Justinian, Genoa, 1516; ac yn *Liber. Psalmor. a Gabr. Sionita et Vict. Scialac*, Rhufain, 1614.

C. Y cyfleithiad o'r Salmau, a ddefnyddid gan y Malcitiaid (*Malkites*), neu y Cristionogion dwyreiniol uniongred, a wnaed gan 'Abdallah ben al Fadhl, cyn y deuddegfed canrif. Argraffwyd ef yn Aleppo yn 1706, yn Llundain yn 1725, ac mewn manau ereill.

D. Y cyfleithiad o'r Salmau (yn ol yr adgyweiriad Aiphtaidd) a geir yn y ddau *Polyglott*.

3ydd. Cyfleithiadau Arabaeg wedi eu seilio ar y *Peshito*.

A. Y cyfleithiad *Polyglott* o Iob, y Croniclau, ac (yn ol Rödiger, yr hwn a'u priodola i gyfleithwyr Cristionogol o'r trydydd a'r pedwerydd canrif ar ddeg) o'r Barnwyr, Ruth, Samuel, 1 *Bren.* i, hyd xi, a 2 *Bren.* xii. 17, hyd xxv.

B. Y cyfleithiad o'r Salmau a argraffwyd yn Qashaia, ger llaw mynydd Libanus, yn 1610.

Y mae amryw gyfleithiadau henafol ereill, megys y Caldeaidd, y Samariaidd, yr Aiphtaidd, yr Ethiopaidd, y Persiaidd, heb law y cyfleithiadau diweddar; y rhai y ceir eglurhâd boddhaol arnynt yn yr erthygl y cyfeiriwyd iddi yn fynych o'r blaen; sef, BEIBL, CYFIEITHIADAU Y.—(*Kitto*, a'i awdurdodau.)

CYFLAWNDER, [*cyf — llawnder*]: cyfanrwydd, digonolrwydd; yr hyn sydd yn llanw; yr ystâd neu y sefyllfa o fod yn llawn; y fath ddigonolrwydd fel nad oes dim yn eisieu nac i'w ddymuno.

"Tri chyflawnder cerdd: cyflawn iaith, cyflawn ddychymyg, a chyflawn gelfyddyd." *Barddas.*

Y mae y gair *cyflawnder* (πλήρωμα) yn dygwydd yn fynych yn y Testament Newydd, ac y mae ei arwyddocâd yn y cyffredin yn dra phwysig. Y mae yn un o brif eiriau yr apostol Paul. Llefara am "gyflawnder yr amser;" "goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd;" "cyflawnu â holl gyflawnder Duw;" "cyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol" yn Nghrist; ac am yr eglwys yn "nghyflawnder yr hwn sydd yn cyflawnu oll yn oll." Ac nid yw yn anmhriodol i ni yn yr erthygl hon i gymmeryd golwg ar y gair yn y cyssylltiadau a grybwyllwyd.

Ni a allem feddwl fod y geiriau "cyflawnder yr amser" (πληρωμα του χρονου: *Gal.* iv. 4), a "goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd" (οικονομια τού πληρωματού: *Eph.* i. 10), yn cynnwys yr un drychfeddwl. Y mae Olshausen, Harless, Calvin, ac ereill o'r farn yma. Y mae Alford, pa fodd bynag, yn synied yn wahanol. Os oes rhyw wahaniaethiad i'w wneuthur rhyngddynt, nid yw ond bychan a dibwys iawn. Ni a adawn yr ymchwiliad i ystyr y gair πληρωμα hyd ein sylwadau ar *Eph.* i. 23. Y mae lluaws o wahanol farnau o barth i arwyddocâd yr ymadrodd "cyflawnder yr amseroedd." "Y mae yr 'amseroedd' hyn yn gyfredol â'r 'oruchwyliaeth,' ac o'r un parhâd a hi."—*Stier.* "Y mae yn yr ymadrodd gyfeiriad at y dydd diweddaf."—*Koppe.* Yr amser a ddynodir, medd Baumgarten Crusius, ydyw yr ysbaid y parhâ pethau yn y wedd bresennol; y cyfnod o ymddangosiad y Messiah hyd ddiwedd amser. Gan y cymmerir πληρωμα yn yr ystyr goddefol (*passive sense*), arweinir ni i farnu gydag Eadie ac ereill—yn wir, y nifer mwyaf o esbonwyr hen a diweddar—mai y meddwl yw, fod yr amseroedd blaenorol i'r oruchwyliaeth weithian wedi eu llanw i fyny. Edrychir ar πληρωμα, "fel llestr eang, i'r hwn y syrthiai canrifoedd y milflwyddiant; ond yn awr, yr oedd y llestr wedi

Digitized by Google

ei lanw hyd at yr ymylon:" *Marc* i. 15; *Ioan* vii. 3; *Luc* xxi. 24; *Gal.* iv. 4. Dechreuodd yr "oruchwyliaeth" yn yr adeg ag y cyflawnwyd yr amseroedd a fwriadwyd i'w rhagflaenu. Ymddengys fod dau ddrychfeddwl yn gorwedd yn y frawddeg. Dynoda amser Duw—yr amser a ordeiniwyd ac a neillduwyd ganddo Ef. Dynoda hefyd, yr amser mwyaf priodol yn hanes y byd i'r dygwyddiad gymmeryd lle. "Gan ei fod yn amser Duw, y mae yn rhaid ei fod yr amser mwyaf cyfaddas." Y mae rhai esbonwyr yn tueddu i roddi yr arbenigrwydd mwyaf yn eglurhadaeth y frawddeg i'r golygiad cyntaf; tra y mae ereill yn golygu mai y prif ddrychfeddwl gan yr apostol ydyw yr olaf; sef, fod y byd wedi addfedu i'r dygwyddiad. Y mae y ddau olygiad yn ymddangos i ni yn un. Fe neillduodd Duw yr adeg i'w Fab ymddangos yn y byd, ac i'w deyrnas gael ei sefydlu; ac am y miloedd o flyneddoedd a ragflaenent yr adeg hono, yr oedd Duw yn cyfaddasu ac yn addfedu y byd gogyfer a'r oruchwyliaeth. Yr oedd yr amser ac ammodau yr amser yn gyssylltiedig â'u gilydd yn mwriad Duw; ni buasai y pryd yr ymddangosodd y Messiah yr adeg fwyaf priodol, oni buasai fod bwriad Duw wedi gorphwys ar y pryd hwnw: ac, er hyny, ni buasai chwaith y mwyaf cyfaddas, oni buasai fod agwedd foesol pethau fel yr oeddynt pan gymmerodd le. Yr oedd dadblygiad blaenorol hanes pob cenedl yn arwain at y cyfnod hwn. Dyddiau y Messiah oedd y nod y cyrchent oll ato. Y mae yn wir ei fod yn dwyn perthynas mwy neillduol â chrefydd yr Hebreaid nag â dim arall, yn gymmaint a bod y sefydliad Moesenaidd yn parotoi y ffordd tuag ato mewn modd arbenig. Cyssylltir teyrnas nefoedd a goruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd â'r grefydd hon gan yr elfen o ddadguddiad dwyfol sydd yn perthyn i'r naill a'r llall. Y mae pob goruchwyliaeth a roddwyd trwy ddadguddiad, gan ei bod o'r un ffynnonell, yn rhedeg tua'r un nod, ac yn sicr o fod yn gyssylltiedig â'u gilydd. O herwydd yr unoliaeth yma, llefarai yr Iachawdwr am ei gyssylltiad â'r grefydd Iuddewig—yr hyn nis gallasai, yn yr un ystyr, ei ddywedyd gyda golwg ar un grefydd arall—na ddaeth i ddinystrio a thori y gyfraith a'r prophwydi, ond i gyflawnu. Ond heb law fod "cyflawnder yr amser," yn dwyn cyssylltiad arbenig â'r grefydd Iuddewig, yr oedd y Gwaredwr, pan ymddangosodd, yn "ddymuniad yr holl genedloedd." Chwilient hwy, gan ymbalfalu yn y caddug tywyll, am bethau nas gallasai neb eu rhoddi iddynt ond y Messiah. Yr oedd yn eu mysg hwynt "brophwydoliaethau anymwybodol" am dano ef. Yr oedd yr awyddfryd, yr ymestyniad, yr ymdeimlad o angen, yr ymchwiliad oedd yn eu plith am y gwir a'r da, eu hafiwyddiant yn eu hymgeisiau am danynt pan heb ddim i'w harwain ond eu deall eu hunain, y goleuni a fflachiai yn achlysurol i'w meddyliau am y tebygolrwydd y caffent ddadguddiad rywbryd—yr oedd y cyfan yn cyfeirio at "gyflawnder yr amser," a'r holl agweddau hyn yn parotoi y byd cenedlig gogyfer a nesâd "teyrnas nefoedd." "Yr oedd y llewyrchiadau sydyn a byrbarhaol ar feddyliau y paganiaid am Dduw, y wybodaeth a feddent am dano ef, yn yr hwn yr ydym yn byw, symmud, a bod, a'r hwn ni adawodd ei hun yn ddidyst yn mysg un genedl—oll yn cyfeirio yn amlwg at Gristionogaeth. A thra yr oedd yn angenrheidiol i ddylanwad Iuddewaeth ymledu trwy y byd paganaidd, i barotoi ac agor ffordd rydd i Gristionogaeth, felly hefyd yr oedd yn angenrheidiol i lymder annymunol Iuddewaeth gael ei dyneru a'i eangu gan elfenau coethder y Groegiaid, mewn trefn i'w chymhwyso i dderbyn y gwirioneddau newyddion yr oedd yr efengyl i'w mynegu. Yr oedd y tair cenedl, pob un yn ei ffordd ei hun, yn cydweithredu i barotoi y tir i blanu pren Cristionogaeth ynddo,—yr Iuddewon gyda golwg ar grefydd, y Groegiaid mewn gwyddiant a chelfyddyd, y Rhufeiniaid fel meistriaid y byd, mewn darpariadau gwladyddol." Yr oedd arfau y Groegiaid wedi gwasgaru eu hiaith, a darparu y cenedloedd i dderbyn oraclau y Testament Newydd, mewn iaith mor gyfoethog, manwl, a grymus. Yr oedd uchelgais y Rhufeiniaid hefyd wedi gwneyd amrywiol daleithiau y byd gwareiddiedig yn un ymherodraeth alluog, fel y gallai yr efengylwyr cyntaf fyned o'r naill fan i'r llall heb gael eu llesteirio gan eiddigedd taleithiau gelynol i'w gilydd. Yr oedd hiraeth am rywun mawr i adferu y byd wedi ymddeffroi yn ngwledydd y dwyrain; ac yn y gorllewin, yr oedd yr hen ofergoelion wedi colli eu gafael ar ddynion ystyriol a meddylgar. Y mae y drychfeddwl hwn yn cael ei awgrymu yn 1 *Cor.* i. 21. Cafodd doethineb y byd hwn ddigon o amser i ddadguddio ei annigonolrwydd i addysgu ac achub dynion.

Y mae y modd i egluro *Eph.* i. 23—"Ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawnu oll yn ll"—yn dibynu ar yr ystyr a roddir i πληρωμα=*cyflawnder:*—pa un ai yn yr ystyr gweithredol, ynte y goddefol, y mae i'w gymmeryd. Wrth yr ystyron gweithredol a goddefol, pan gyssylltir hwy â sylweddeiriau, fel y gair dan sylw, y meddylir yr hyn a ganlyn:—Y mae y rhai sydd yn dadleu dros y cyntaf mewn cyssylltiad â πληρωμα yn ei esbonio—*yr hyn sydd yn llanw:* y rhai sydd yn sefyll dros yr ystyr olaf, yn ei esbonio—*yr hyn sydd yn cael ei lanw, neu yr ystâd o fod yn gyflawn.* Arferir y gair yn y ddau olygiad. Yn Matthew ix. 16, y mae πληρωμα yn gyfystyr âg επιβλημα (=*llain o frethyn newydd*) yn *Marc.* ii. 21. Ond defnyddir y gair yn amlach yn y goddefol, yn dynodi yr ystâd o fod yn llawn: *Marc* viii. 20; *Salm* xxiv. 1; 1 *Cor.* x. 26. Y mae yn cael ei arfer, medd Robinson a Passow, i ddynodi preswylwyr dinas, dwylaw a llwyth llong, a'r anifeiliaid yn arch Noah. Yn y cyfryw anghreifftiau, y drychfeddwl ydyw, nid yr hyn sydd yn llanw ond, y mae y ddinas, y llong, a'r arch, yn cael eu gosod allan mewn ystâd o lawnder. Nid edrychir ar yr hyn a gynnwysant fel yn eu llanw, a'u gwneyd yn gyflawn, ond edrychir arnynt hwy yn unig fel wedi eu llanw eisoes.

Y mae Chrysostom, ac amryw o'r tadau, Calvin, Beza, Musculus, a Zanchius, Barnes, Macknight, ac ereill, yn pleidio yr ystyr gweithredol i'r gair. Dyma eiriau Chrysostom:—"Y mae y pen mewn rhyw ystyr yn cael ei lanw i fyny gan y corff, o blegid y mae y corff yn cael ei ffurfio o'r oll o'i ranau, ac yn gofyn am bob un o honynt. A'r pryd hyny y cyflawnir y pen, ac y bydd y corff yn berffaith, pan fyddwn oll wedi ein cyssylltu a'n huno â'n gilydd." Y mae geiriau Calvin i'r un perwyl:—"Dyma ydyw anrhydedd uchaf yr eglwys, sef fod Mab Duw yn ystyried ei hun yn anghyflawn, mewn un ystyr, hyd oni byddom ni wedi ein huno âg ef. Pa gysur mor fawr i ni ydyw meddwl nad ydyw ef yn meddu ei holl ranau hyd oni byddom gydag ef! Felly, yn unol â hyn, pan y mae yr apostol yn yr Epistol Cyntaf at y Corinthiaid yn ymdrin yn helaeth am yr

Digitized by Google

eglwys o dan y ffugr o gorff dynol, y mae yn cymmeryd i mewn, o dan yr un enw *Crist*, yr holl eglwys mewn undeb âg ef."

Y mae yr esbonwyr diweddaf, pa fodd bynag, yn dilyn Theodoret, gan gymmeryd y gair yn yr ystyr goddefol. "Yr ystyr yw," medd Alford, "fod yr eglwys, fel y mae yn gorff Crist, yn cael ei phreswylio a'i llanw gan Dduw: hi ydyw ei gyflawnder mewn modd arbenig; y mae ei gyflawnder yn trigo ynddi, ac yn cael ei arddangos ganddi. Y gair goreu yn Seisoneg i ddynodi meddwl y gwreiddiol ydyw *fulness*, er bod y ddau yn gofyn am gael eu hegluro, fel yn cynnwys, nid cyflawnder cynhenid Duw ei hun, ond y cyflawnder cyfranedig hwnw o ddoniau a grasau trwy y rhai y mae yn dyfod i undeb â'i eglwys." Dywed Eadie hefyd:—"Os ydyw efe yn cyflawnu oll yn oll eisoes, pa chwanegiad a ellir beri at ei anfesuroldeb." Nid yw yn briodol i ni arfer iaith gyda chyfeiriad at Berson Crist, fel pe bai anmherffeithrwydd cynhenid neu berthynasol ynddo. Heb law hyny, pan y mae y gair, mewn rhanau ereill o'r Testament Newydd, yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr crefyddol, nid yw yn dynodi unrhyw gyflawnder sydd yn cael ei weinyddu i Grist genym ni, ond y cyflawnder hwnw sydd yn dyfod i ni oddi wrtho ef. Ymwrthoda Olshausen hefyd yn hollol â'r golygiad cyntaf: —"Y mae pob peth yn gymmaint yn erbyn eglurhâd Chrysostom, Theophylact, Anselm, Aquinas, Beza, a Calvin, fel nad yw yn deilwng o ymchwiliad difrifol. Mae yn wir y gall πληρωμα olygu "yr hyn sydd yn cwblhau," ond *yn unig* yn y manau hyny lle y gwneir crybwylliad am ryw ddiffyg a wneir i fyny, fel yn *Rhuf.* xi. 12. Heb law hyny, y mae yn sicr nad yw Crist byth yn cael ei alw yn Ben yn y fath ystyr fel y mae yr eglwys yn cael edrych arni fel yn ei gwbleiddio a'i wneyd yn fwy perffaith—ac felly, y byddai efe, heb yr eglwys, yn ben heb gorff. Ond gelwir ef yn ben, gan ei olygu yn anwahanol gyssylltiedig â chorff yr eglwys, yn ei lanw â'i Ysbryd, ac felly, yn un â hi, ac heb eisieu dim i'w gwbleiddio."

"Fel y'ch cyflawner â holl gyflawnder Duw;" *Eph.* iii. 19. Y mae "holl gyflawnder y Duwdod" yn trigo yn Nghrist (*Col.* ii. 9); a chan fod Crist yn preswylio trwy ffydd yn nghalonau y saint, y maent yn cael eu dyrchafu i feddu dirnadaeth am gariad Duw yn Nghrist, a threfn iachawdwriaeth; ac yn cael eu llanw, fel y mae Duw yn llawn, â doethineb a chariad dwyfol. Nid ydyw yn bosibl i holl gyflawnder y natur ddwyfol lettya mewn un meddwl crëedig; ond gellir llanw y saint yn gyfatebol i'r cyflawnder hwnw, â phob elfen o hono. Y mae ei gyflawnder ef yn anfeidrol; ond yr eiddynt hwy yn feidrol, oddi ar angenrheidrwydd eu natur.

"O blegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol;" *Col.* ii. 9. Y mae drychfeddwl yr ymadrodd hwn yn dwyn cyssylltiad agos â'r annogaeth yn yr adnod flaenorol: "Edrychwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi a gwag dwyll," yr hon nid yw "yn ol Crist;" "o blegid ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol." felly, dylai pob philosophi fod "yn ol Crist," a hono yn unig sydd wirionedd. Y mae y gair a gyfieithir *Duwdod* (θειοτητος) yn dynodi hanfod, yn hytrach na phersonoliaeth Iehofah. Y mae ei ystyr yn gwahaniaethu oddi wrth ystyr θειοτης (*Rhuf.* i. 20), yr hwn sydd yn golygu ansawdd (*quality*), yn hytrach na bod. Y mae "Duwdod" a "dwyfoldeb" yn cynnwys y gwahaniaeth sydd rhyngddynt, efallai, i ryw fesur. "Cyflawnder y Duwdod," medd Eadie, "ydyw y Duwdod yn ei holl briodoliaethau a'i ragorfreintiau angenrheidiol." A pha berffeithrwydd bynag sydd yn yr hanfod ddwyfol, y maent un ac oll yn trigo yn Nghrist. Y mae eglurhâd y Sosiniaid ar yr adnod hon yn sicr o ymddangos i bob meddwl gonest yn berffaith annheg. Dynoda "cyflawnder y Duwdod," yn ol eu beirniaid hwy, holl ewyllys Duw, fel y cafodd ei hamlygu yn a thrwy Iesu Grist. Nid yw golygiad Schleusner, ac ereill, yn fwy teilwng o grediniaeth; sef, fod "cyflawnder" yn arwyddo yr "holl eglwys wedi ei chasglu o fysg pob cenedl;" "fod yr eglwys yn cael ei hanfodiad, ei llwyddiant, a'i haddysgiaeth yn Nghrist." Y dull y preswylia cyflawnder y Duwdod yn Nghrist ydyw, "yn gorfforol." Y mae y golygiadau ar feddwl y gair hwn yn dra amrywiol. Y mae Capellus, ac ereill, yn golygu fod σωματικως yn gyfystyr âg ὅλως=*yn gyfan*, neu *yn hollol*. Ond nid ydyw y dyb yma yn cael ei dilyn yn bresennol gan neb yn mron o'r esbonwyr. Tybia ereill, oddi ar fod yr apostol yn y rhanau blaenorol yn gwneyd cyferbyniad rhwng y ddeddf a'r efengyl, fod "corfforol" hefyd yn sefyll mewn cyferbyniad i τυπικως=*cysgodol*. Yr oedd Duw yn preswylio mewn dull arwyddluniol yn y deml; ond y mae yn trigo yn weithredol a gwirioneddol yn Nghrist. Yr oedd Awstin yn mabwysiadu y golygiad hwn; a dilynwyd ef gan Grotius, Vitringa, Michaelis, Bengel, ac ereill. Ond y mae yn amlwg nad awgrymir yma at un cyferbyniad o'r fath, fel ag y gwneir yn *adn.* 17 o'r bennod hon. Y mae nifer mawr o'r beirniaid goreu yn barnu fod y gair yn gyfystyr âg *essentialiter*=*yn hanfodol*. Dyma olygiad Theophylact ac Oecumenius, Calvin, Beza, Melancthon, Steigen, ac Olshausen. Dywed Melancthon, fod yma gyferbyniad rhwng preswyliad Duw yn Iesu Grist a'i breswyliad yn y saint; y mae yn trigo yn bersonol ynddo ef, ond yn ei ddylanwadau ynddynt hwy. Dywed Luther hefyd: "Nid yw y Duwdod yn preswylio yn Nghrist fel y preswyliai yn y prophwydi gynt." "Y mae Paul," medd Olshausen, "yn gwrthwynebu y golygiadau hyny o eiddo y Gnosticiaid, y rhai a farnent mai rhyw ddylanwad *amserol* a *diflanedig* oddi wrth ryw ysbryd uwch a ganlynai yr Iesu o'i fedydd hyd ei farwolaeth. Y mae Crist yn Shecinah dwyfol *parhaus*; hyd yn oed ar ddeheulaw y Tad, y mae y natur ddynol ogoneddedig mewn undeb â'i natur ddwyfol. Ond yn y gair *corfforol*, y mae y gwahaniaeth rhwng preswyliad Duw mewn dyn a'i breswyliad yn Nghrist yn cael ei osod allan:—Ynddo ef, y mae hanfod Duw yn bresennol, ac nid ei weithrediadau—fel mai nid dyn wedi ei ddwyfoleiddio ydyw yr Iesu, ond Duw-ddyn. Ond y mae preswyliad Duw mewn dyn i'w olygu yn unig fel gweithrediad—y mae Duw ynddo ef, ond nid yw ef yn Dduw." Yr eglurhâd goreu, efallai, ydyw yr un mwyaf cyffredin, yr hwn y dadleuir drosto gan Calonius, Stour, De Wette, Meyer, ac Eadie. Preswyliai cyflawnder y Duwdod ynddo ef, nid mewn ffurf anweledig, ond un weledig—yn gorfforol. Trigai yn ei ddyn oliaeth:—"A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd..... ac ni a welsom ei ogoniant ef."

CYFLWR—YRAU. [*llwr*]: sefyllfa, ystâd, helynt, ansawdd, gradd, tueddiad, tymmer: *Preg.* iii. 18; *Ezec.* xvi. 55; *Phil* iv. 11; *Heb.* xi. 37.

Digitized by Google

CYFNESAF—IAD, [*nesaf:* llu., CYFNESEIFIAID]: câr, perthynas agos, cyfathrachwr, un o'r un tylwyth: *Lef.* xxv. 25; *Iob* xix. 14; *Salm* xxxviii. 11.

CYFNEWID—IAD—WYR, [*newid*]: newidiaeth, trafnidiaeth, masnach; bargen; cyfwerth; aralliad, amrywiad. "Ni chyfnewidiant ddim o hono;" hyny yw, drwy roddi neu dderbyn y naill nwydd am y llall: *Exec.* xlviii. 14. "Hyn oedd y ddefod gynt.....am ryddhâd, ac am gyfnewid;" sef pryniad trwy roddi gwerth am werth: *Ruth* iv. 7. "Pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?" hyny yw, yn gyfwerth, neu yn iawn drosto, er ei brynu a'i waredu: *Mat.* xvi. 26; *Marc* viii. 37. "Bydded ei gyfnewid yn sanctaidd;" hyny yw, yr hyn a roddid am dano neu yn ei le: *Lef.* xxvii. 10, 33. "Hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad" (*Iob* xiv. 14): sydd yn arwyddo ei waredigaeth o'i gystudd a'i drallod, naill ai trwy adferiad i iechyd a llwyddiant, neu ei symmudiad trwy angeu o gyrhaedd pob gofid a blinfyd mwy, i fwynhau tragwyddol hapusrwydd. Cyfnewidiadau bywyd, o hawddfyd i adfyd, o gyfoeth i dlodi, o anrhydedd i ddirmyg, &c.: *Salm* iv. 19. Gyda Duw, Tad y goleuni, "nid oes gyfnewidiad na chysgod tröedigaeth;" *Iago* i. 17. Mae efe yn parhau byth yr un, heb ddim diffyg nac anmherfeithrwydd ynddo—yr un fath bob amser: yn yr hwn yn unig y tâl i ddyn roddi ei obaith a'i ymddiried. *Cyfnewidwyr*, sef newidwyr arian—arianwyr: *Mat.* xxv. 27; *Ioan* ii. 14. "Bwrdd cyfnewid" (*Luc* xix. 23); banc, ariandy; lle i drin arian, neu i'w rhoddi ar lôg.

CYFNOS, [*nos*]: hwyr, ucher, echwydd, diwedydd, dechreunos, gwyll y nos, gyda'r nos, &c.: *Diar.* vii. 9. Nos, yn arwyddocau trallod a chyfyngder; *Esa.* xxi. 4; lix. 10. Lleddid oen y pasc ar y 14eg o fis Abib, yn "y cyfnos," neu, yn ol yr Hebraeg, a'r darlleniad ar ymyl y ddalen, "rhwng y ddau hwyr"=כין ערבים; *Exod.* xii. 6; *Num.* ix. 3: neu, yn yr hwyr, ar fachludiad haul, yn ol *Deut.* xvi. 6; sef rhwng gogwydd yr haul a'i fachludiad: neu, yn hytrach, yn ol ein dull ni o gyfrif, rhwng tri o'r gloch yn y prydnawn a chwech yn yr hwyr, ar gyhydedd dydd a nos. Yr oedd y dydd Iuddewig yn cynnwys deuddeg awr (*Ioan* xi. 9), a chyfrif o godiad haul, sef o ddeutu chwech o'r gloch wrth ein hamser ni. Y nawfed awr, neu dri yn y prydnawn, ydoedd yr awr weddi, pryd yr elid i'r deml, ar amser yr offrwm prydnawnol beunyddiol: *Act.* iii. 1. Hwn ydoedd amser cyffredin y Pasc, fel yr ymddengys oddi wrth y Talmud Babilonaidd:—"Yr aberth prydnawnol beunyddiol a leddid ar yr wythfed awr a hanner, ac a offrymid ar y nawfed awr a hanner. Yn nghyfnos y Pasc, fe'i lleddid ar y seithfed awr a hanner, ac fe'i hoffrymid ar yr wythfed awr a hanner."—*Pesachim*, pen. 5. Mae y rheswm am hyn yn amlwg, o blegid yr oedd yr offeiriaid yn gyntaf i ladd yr aberth beunyddiol, ac yna i ladd a bwyta y Pasc, a gorphwys hefyd yn yr hwyr cyn y Sabbath. Felly, yn y dyddiau neu yr amseroedd diweddaf, yn hwyr y byd (*Heb.* i. 1; 1 *Pedr* i. 19, 20), o ddeutu yr un awr o'r dydd ag yr offrymid oen y Pasc yn y deml y bu farw Crist ar Galfaria, fel y byddai y sylwedd a'r cysgod yn cyfateb i'w gilydd: *Marc* xv. 25—45. Mae Calmet, mewn traethawd tra gorchestol, yn dadleu, fel y gwna llawer o'r hynafiaid, na ddarfu i'n Iachawdwr gadw y Pasc y flwyddyn olaf o'i oes; neu, o leiaf, i'r Iuddewon ei gadw ar ddydd Gwener—pryd y bu Crist farw.—*Kitto's Bib. Cyc.* Mae yr anhawsderau, efallai, wedi cyfodi oddi wrth rai ymadroddion yn efengyl Ioan (*pen.* xiii. 1; xviii. 28; xix. 14, 31), y rhai y tybid eu bod yn anhawdd eu cyssoni â'r hyn a ddywed yr efengylwyr ereill. Dylid sylwi fod gwahaniaeth rhwng y "Pasc" a "gŵyl y Pasc," yr hon oedd yr un a "gŵyl y bara croew." Dydd y Pasc yn briodol ydoedd y 14eg o Abib, a chedwid yr ŵyl am y saith niwrnod dilynol—o hwyr cyntaf y 15fed hyd ddiwedd yr 21ain. Mae "bwyta y Pasc" yn arwyddo bwyta yr aberthau hedd, neu y pasc-aberthau (*Deut.* xvi. 2; 2 *Cron.* xxxv. 8), y rhai a aberthid ar ddyddiau yr ŵyl, ac nid bwyta oen y Pasc, yr hyn a wnaethid ar y 14eg; a "darpar-wyl y Pasc" ydoedd y 15fed, y dydd o flaen Sabbath y Pasc. Dylid cofio fod yr Iuddewon yn cyfrif eu dyddiau o hwyr i hwyr, sef o chwech o'r gloch yn yr hwyr, fel y mae yr hwyr yn cael ei enwi o flaen y bore gan Moses yn hanes y cread. Y mae'n debyg, gan hyny, fod y ddau hwyr yn cyrhaedd o dri yn y prydnawn hyd naw ar gloch y nos; y cyntaf, ar yr hwn y lleddid oen y Pasc, yn perthyn i'r 14eg o'r mis, dydd Iau, ac yn diweddu y dydd hwnw yn gymhwys am chwech, pan y dechreuai yr ail, yn dwyn i mewn y 15fed, pryd y bwytaent y pasc, ar ol machludiad haul, "yn y cyfnos." Mae yn amlwg, wrth hyn, y rhaid fod marwolaeth ein Ceidwad—er wedi cymmeryd lle o ddeutu yr un awr ar y dydd ag y lleddid oen y Pasc—tua 24 o oriau yn ddiweddarach, sef tua thri ar gloch prydnawn ddydd Gwener, y 15fed. Mae achos arall o ddyryswch yn yr ansicrwydd yr oedd yr Iuddewon yn llafurio dano am ddechreu eu misoedd, gan y dibynent ar daflenau diffygiol, ac ar ymddangosiad y lloer newydd, yr hyn a barai ddadl weithiau yn eu mysg am yr amser priodol i gadw y Pasc; o ganlyniad, byddai rhai yn ei gadw ddiwrnod o flaen y lleill, a thybia rhai mai felly yr oedd y Pasc hwnw y bu Crist farw arno. Hefyd, y mae anhawsder arall yn ymddangos oddi wrth nifer yr ŵyn a leddid ar y Pasc; yr hyn, medd Josephus, oedd tua 256,500. Mae yn anhawdd gwybod pa fodd y gellid lladd cynnifer o fewn ysbaid dwy awr, sef o'r nawfed awr i'r unfed ar ddeg, fel y dywed efe; a hyny, yn ol *Deut.* xvi. 5—8, o fewn cynteddau y deml, ger bron yr allor. Efallai y goddefid mwy o amser i gyflawnu y ddefod nag yr oedd llythyren y gyfraith yn ei benodi; ac os gwneid hyny o fewn pedair awr ar ugain, ystyrid ei fod yn cael ei gyflawnu yn gyfreithlawn. Fel hyn, gallai fod rhai yn lladd y pasc ar yr oriau yr oedd y Sylwedd Mawr yn dyoddef ac yn marw. Ond pa fodd bynag, nid oes un pwnc o athrawiaeth yn ymddibynu ar hyny:—yn amcan pwysig a goruchel marwolaeth y Cyfryngwr yr oedd y cysgod yn cael ei sylweddoli; yr hyn a gyflawnwyd yn berffaith ynddo ef, "Canys Crist ein Pasc ni a aberthwyd drosom ni."—(*Rel. Tr. Soc.'s Commentary*, cyf. v., sylwadau ar *Gen.; Amseryddiaeth Ysg. y Parch. S. Lloyd; Cyssondeb y Pedair Efengyl*, &c.)

CYFOEDION, [*cyfoed*]: rhai o'r un oed, cydoeswyr, cyfoesolion: *Gal.* i. 14.

CYFOETH, [*oeth*]: gallu, llywodraeth, golud, eiddo, meddiannau, da y byd, pethau y bywyd hwn:—"Y Rhufeinawl gyfoeth"=y gallu Rhufeinig. "Cyfoethau nef a daiar"=galluoedd neu awdurdodau nefol a daiarol. "A govyn o ba

Digitized by Google

gyvoeth ydd hanoedd," sef o ba wlad, ardal, neu dalaeth: *Act.* xxiii. 34.—*W. S.* Eiddo Duw yw cyfoeth, i'w roddi i'r neb y gwelo yn dda: 1 *Cron.* xxix. 12; 2 *Cron.* i. 11, 12; 1 *Sam.* ii. 7. Benlith ydyw oddi wrth Dduw ar lafur a diwydrwydd gonest: *Preg.* v. 19; *Deut.* viii. 18; *Diar.* x. 4, 22; xxviii. 19. Dylai y rhai sydd yn ei feddu ofalu am wneuthur iawn ddefnydd a hono, i wasanaeth a gogoniant Duw, er eu cysur eu hunain a llesâd ereill—trwy gyfranu yn haelionus at achosion da ac elusenau, a chofio yn wastadol fod dyledswyddau arbenig yn gorphwys arnynt fel goruchwylwyr dros Dduw ar y pethau a dderbyniasant: *Preg.* vii. 11, 12; *Luc* xvi. 9; 1 *Tim.* vi. 17—19; *Marc* xii. 44; 1 *Cron.* xxix. 3; *Diar.* iii. 9; *Deut.* xv. 7—11; 1 *Ioan* iii. 17. Dylent gofio nad yw cyfoeth yn un prawf fod dyn mewn cyflwr da, ond ei fod yn fynych yn dynodi y rhai sydd â'u rhan yn y bywyd yma: *Iob* xii. 6; xxi. 7; *Salm* xvii. 14; lxxiii. 7, 13; *Luc* xvi. 19, &c. Mae cyfoeth yn troi yn ddinystr i'w berchenog pan fyddo wedi ei gasglu yn annheilwng, trwy drais ac anghyfiawnder, ac yn cael ei gamddefnyddio mewn anghof o Dduw a gwrthryfel yn ei erbyn: *Iob* xx. 15; *Ier.* xvii. 11; *Diar.* xxx. 8, 9; *Preg.* v. 13, 14; 1 *Tim.* vi. 9, 10; *Iago* v. 1—6. Dylem gofio gwagedd ac anwadalwch cyfoeth, fel na byddo i ni roddi ein calon arno, nac ymddiried ynddo (*Diar.* xxiii. 5; xxvii. 24; *Preg.* vi. 1, 2; *Salm* lxii. 10; *Ier.* ix. 23, 24; *Mat.* vi. 19, 20; xiii. 22), ond llafurio am y gwir gyfoeth: *Heb.* x. 34; *Luc* xii. 33; *Dad.* ii. 9; iii. 18. Mae *cyfoeth* a gogoniant yn cael eu dadguddio yn nhrefn Duw i achub pechaduriaid: *Eph.* i. 7; iii. 16.

CYFOETHOG ION, [*cyfoeth*]: galluog, goludog; rhai goludog:—1. Un yn meddu ardrethion, neu helaethrwydd o dda y byd hwn: *Diar.* xviii. 11; *Gen.* xiii. 2; *Luc* xviii. 23. 2. Rhai a gynnysgaethwyd yn helaeth â doniau a grasau ysbrydol: *Iago* ii. 5; *Dad.* ii. 9. 3. Rhai ydynt felly yn eu tyb eu hunain: *Dad.* iii. 17. 4. Rhai yn rhoddi eu holl hapusrwydd a'u hymddiried yn eu llwyddiant allanol: *Luc* vi. 24; xii. 21. 5. Y doeth, y da, a'r defnyddiol: *Preg.* x. 6. Mae Duw yn *gyfoethog* o drugaredd a gras: (*Eph.* ii. 4, 7); a "chwi a adwaenoch ras ein Harglwydd Iesu Grist, iddo ef, ac yntau yn gyfoethog, fyned er eich mwyn chwi yn dlawd, fel y cyfoethogid chwi trwy ei dlodi ef;" 2 *Cor.* viii. 9. *Holl-gyfoethog*=Hollalluog, a meddiannydd pob peth.—*Credo.*

CYFRAID—EIDIAU, [*rhaid*]: yr hyn sydd weddus neu gymmesur; yr hyn sydd angenrheidiol er cynnaliaeth; angenrheidiau: *Act.* xx. 34; *Rhuf.* xii. 13. "A gweinidog i'm cyfreidiau innau" (*Phil.* ii. 25): hyny yw, "yr hwn a fu yn fy ngwasanaethu innau o gyfryw bethau ag oedd arnaf eisiau."—*W. S.*

CYNGHRAIR A CHYFAMMOD DIFRIFOL, [*Solemn League and Covenant*]. Tua'r amser y dechreuai Cymmanfa Duwinyddion Westminster gydeistedd i ymgynghori yn nghylch y pethau yr oedd ganddynt i ymgynghori â hwy [gwel CYMMANFA Y DUWINYDDION], anfonwyd dirprwywyr oddi wrth y corff hwnw, yn gystal ag oddi wrth y ddau dŷ seneddol, at uchelwyr yr Alban, ac at Gymmanfa Gyffredinol Eglwys yr un wlad, yn erfyn ar iddynt oeii ymuno yn y gweithrediadau yr oedd eu hamgylchiadau wedi eu gosod hwy dan angenrheidrwydd i amcanu eu cwblhau. Cyflafareddiad yr awdurdodau goruchel hyny, yn eglwysig a gwladol, a arweiniodd i'r cynghrair a elwir wrth yr enw uchod. Diau hefyd fod yr hedyn o hono i'w ganfod yn Nghyfammod Cenedlaethol yr Alban, a gyfansoddwyd trwy orchymyn y brenin, yn y fl. 1581, ac a adnewyddwyd rai gweithiau o hyny hyd 1638. [Gwel CYFAMMODWYR.] Dyben hwnw oedd, ymwrthodiad trwyadl â Phabyddiaeth. Amcan y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol, ydoedd cael eglwysi Lloegr, yr Alban, a'r Iwerddon, oll, i fod yn unffurf mewn addoliad, dysgyblaeth, ac athrawiaeth—yr unffurfiaeth wedi ei sylfaenu ar reolau gair Duw, ac esampl y goreuon o eglwysi y Diwygiad. Mewn cynnadledd o bendefigion yr Alban, a chynnrychiolwyr o Loegr yn bresennol ar y pryd, y penderfynwyd ar yr angen am dano, ac y tynwyd allan fraslinelliad o hono. Ond Awst 17, 1643, ymgynnullodd Cymmanfa Gyffredinol Eglwys yr Alban yn Edinburgh. Cynnrychiolid Lloegr yn y gynnadledd hon hefyd, fel yn nghydgynnulliad yr uchelwyr; ac yn y Gymmanfa Gyffredinol hono, a gyfarfyddai yn eglwys St. Giles, y cafodd y Cynghrair a Chyfammod Difrifol ei ffurfio yn deg a rheolaidd. Nid amcenid iddo unwaith fod yn amgen na chynghrair gwladol, a da yn ddiau fuasai pe na ddaethai y cyfammod i ddim chwaneg. Ond yr oedd cymmedrolwr y gymmanfa yn Edinburgh y pryd hwnw yn meddwl yn wahanol. Parotodd a darllenodd y gŵr hwnw fraslun o undeb crefyddol. Cymmeradwywyd hyny gan y gweinidogion i'r fath raddau, fel y wylodd lluaws gan lawenydd, a rhoddodd foddhâd cyfatebol i'r pendefigion. Anfonwyd ef drachefn i gael ei ystyried gan dduwinyddion Westminster, i ba le, mewn ufudd-dod i'r gwahoddiad o Loegr, yr oedd yr Alban yn anfon dau gyfeisteddwr (*assessor*) o wŷr llëyg, a phedwar o weinidogion, yn gynnrychiolwyr; sef, Alexander Henderson (yr hwn oedd gyntaf wedi tynu bras-gynllun o'r cynghrair fel undeb crefyddol); George Gillespie, o Edinburgh; a Samuel Rutherfurd, o St. Andrews; a Robert Baillie, o Glasgow. Yn mis Medi, 1643, ymgynnullodd cynnadledd nodedig yn eglwys St. Margaret, Westminster, yn gynnwysedig o ddau dŷ y senedd, cymmanfa y duwinyddion, a chynnrychiolwyr yr Alban. Wedi y gwasanaeth crefyddol, darllenwyd y Cyfammod o'r pulpud, â'r gymmanfa yn y cyfamser yn sefyll yn bennoeth; ac wedi ei ddarllen, gyda dwylaw dyrchafedig i'r nefoedd, tyngasant eu ffyddlondeb iddo. Wedi hyny, anfonwyd ef yn ol i'r Alban; a thrwy orchymyn oddi wrth awdurdodau yr eglwys a chynnadledd yr uchelwyr, ordeiniwyd fod iddo gael ei gymmeradwyo a'i lofnodi trwy y deyrnas—y cyntaf yn bygwth dirwyon eglwysig am anghydsyniad, a'r diweddaf yn cymhell ufuddod dan boen cosp fel gelynion i'r brenin a'r wladwriaeth.

Wedi pedair blynedd o gydeistedd parhäus a llafur dygn yn Nghymmanfa Westminster, dychwelodd y cynnrychiolwyr Ysgotaidd gartref gan adrodd y gweithrediadau i Gymmanfa Eglwysig yr Alban, yn mis Awst, 1647. Derbyniasant hwythau *Gyffes Ffydd Westminster*, y ddau *Gatecism*, y *Cynygion am Lywodraeth Eglwysig*, a'r *Hyfforddiadur i Addoliad Cyhoeddus*, fel rhanau o unffurfiaeth cyfammodol y tair teyrnas; ac yn fuan drachefn, rhoddodd yr uchelwyr hwythau eu sel wrth eu gweithrediadau.

Digitized by Google

Wedi brwydr hynod Naseby, lle y gorchfygodd Cromwell a byddin y senedd filwyr y brenin, ffodd Siarl I. am nodded at Gyfammodwyr yr Alban, gan gymmeryd mantais ar yr eiddigedd a ffynai rhwng y bobl dda hyny a'r Annibynwyr yn Lloegr. Yno, ceisiwyd gan y penadur lawnodi y Cyfammod, ond nis mynai. Gwnaeth ei fab hyny, rai blyneddoedd ar ol hyn, er mwyn mantais bersonol: ond yr oedd y naill a'r llall yn elynion trwyadl i'r Cyfammod, a phawb a'i hoffent. Trawslywodraeth y cyntaf, i raddau pell, a barodd yr amgylchiadau hyny a arweiniasant i'w ffurfiad; a phan esgynodd y diweddaf i awdurdod cyffredinol, heb fod ganddo ddim i'w ofni na'i obeithio oddi wrth y Cyfammodwyr, gwnaeth ei oreu i'w ddifodi ef, a phob olion o hono, trwy gospi, gyda llymder, bersonau yn proffesu ei gydnabod ac ymlynu wrtho.

Gan mai Presbyteriaeth oedd y ffurflywodraeth eglwysig a gydnabyddid yn yr undeb cyfammodol hwn, y drefn hono ar reolaeth a dysgyblaeth yr eglwys oedd yr oruchaf drwy y tair teyrnas, wedi i'r Cynghrair gael ei ffurfio a'i gymmeradwyo. Cafodd ei sefydlu mewn rhan yn Lloegr, trwy orchymyn oddi wrth Dŷ y Cyffredin, yn appwyntio cyfarfodydd taleithiol a chymmanfa genedlaethol—trefniad na chafodd ei roddi mewn gweithrediad, ond yn unig yn Llundain a sir Lancaster. Oni bai am wrthwynebiad yr Erastiaid, ar y naill law, a'r Annibynwyr ar y llall, diau y buasai yn ymledu dros yr holl wlad. Dymuniad y Presbyteriaid oedd, fod i hawl ddwyfol eu ffurflywodreth hwy dderbyn cadarnhâd gwladol. Gosodai yr Erastiaid eu wyneb yn erbyn hyn [gwel ERASTIAID] am ei bod yn egwyddor ganddynt fod yr eglwys i ymddibynu ar, ac i fod yn ddarostyngedig i awdurdod y wladwriaeth; ac yr oedd ymgais ac amcan y Presbyteriaid yn cynnyrchu gwrthwynebiad yr Annibynwyr, am y mynent hwythau roddi llwyr oddefiad i bob rhyw gredo. Nid ymddengys yr egwyddor hon o eiddo yr Annibynwyr mewn un modd yn anghysson â rhai ymadroddion yn *Nghuffes Fyfydd* Cymmanfa y Duwinyddion—oedd wedi cymmeradwyo y Cynghrair—megys, "Duw yn unig sydd Arglwydd ar y gydwybod;" eto, pan yr haerid gan rai personau, "mai ewyllys a gorchymyn Duw wedi dyfodiad ei Fab ydyw, fod i bob dyn, o bob cenedl, pa mor baganaidd, Iuddewaidd, Tyrcaidd, neu anghristionogol bynag y byddo, feddu llawn ryddid cydwybod, gyda'i addoliad a'i grefydd," ystyriai y Presbyteriaid y fath ymadroddion yn gabledd hollol. Arweiniodd hyn i ddadleuon brwd a diogfus. Po fwyaf y cymhellai y Cyfammodwyr eu hegwyddor hwy o unffurfiaeth, mwyaf oll y cynnyddai ac yr amlhâai sectau a phleidiau; ac yn ol graddau cynnydd y rhai hyny drachefn, ymhelaethai y Cyfammodwyr, hwythau, yn eu hanoddefgarwch. Pe heb y rhwystrau hyn o bob tu, diau y buasai Presbyteriaeth yn ymledu nes myned mor eang ei therfynau ag Esgobyddiaeth o'r blaen, a'i phleidwyr, fel y mae lle cryf i ofni, yn rhy debyg i awdurdodau y lwysbenogaeth esgobyddol mewn rhagfarn ac anoddefgarwch tuag at bawb tu allan i gylch eu brawdoliaeth eu hunain. Hyn sydd yn peri nas gall y neb a edrych ar y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol, gan farnu am dano yn ngoleuni oesoedd mwy diweddar, lai na'i anghymmeradwyo. Nid ydyw yr egwyddor a orweddai yn sylfaen oddi tano heb fod yn agored i wrthwynebiad. Ymgyrhaeddai at yr hyn oedd yn anmhosibl, a hyny trwy foddion anghristionogol. Amcanai at beri unffurfiaeth mewn credo, a dysgyblaeth trwy y cleddyf. A chaniatau fod yr athrawiaeth a'r rheolau llywodraethol a gydnabyddid ganddo yn un â'r Testament Newydd, yr oedd y dull o'u lledaenu yn gnawdol, ac nid yn ysbrydol. Yn y dechreuad, nid oedd yn amgen nag ysgrif wladyddol, yn gwbl felly. Gwladweinwyr oedd y dynion a wysiodd yn nghyd gyfarfod y cynnrychiolwyr, a chynnadledd wladyddol oedd y gynnullfa o uchelwyr a nodwyd o'r blaen, lle y cynnygiwyd y cyfammod y waith gyntaf. Y gwirionedd ydyw, fod crefydd a gwladyddiaeth wedi eu cyflawn gydgymmysgu y cyfnod hwnw; ac yr oedd y cyfammod hwn yn gymhwys yn briodol effaith a ffrwyth y cymmysgedd hwnw yn sylfeini y ddwy, yr hyn y methodd y Diwygiad ei symmud ymaith. Eto, ar y safle yr ydym arno yn awr, gallwn ganfod, nid yn unig amgylchiadau sydd yn esgusodi llawer o'r hyn oedd feius yn y Cyfammod, ond hefyd gasgliad o elfenau ardderchog a thra rhagorol yn y drychfeddwl y tarddodd y Cynghrair oddi arno. Mewn rhan, deilliodd y meddwl am unffurfiaeth o'r awydd a'r dymuniad am undeb Cristionogol. Gwyddys am yr oes yr oedd y rhai a ffurfiasant yr ysgrif hygof hon yn byw ynddi, ei bod yn oes ag yr oedd gormes a thraarglwyddiaeth wedi ymwisgo mewn agweddau oedd yn galw am fyned tu allan i'r llwybr cyffredin, os mynid attal eu cerddediad. Yr oedd mewn awdurdod yn y swyddau uchaf ddynion y mae y byd erbyn heddyw braidd o'r un meddwl yn eu cylch—eu bod wedi gosod eu bryd ar fynu bod eu hewyllys eu hunain, a hyny yn unig, yn ddeddf yn yr eglwys, ac allan o honi hefyd; ac nid ydym i synu os darfu i luaws o rai rhagorol yr oes hono, pan yn gorfod crynu, fel yr oeddynt yn ddiau, am eu rhyddid a'u hiawnderau, gymmeryd rhai camrau y mae yn ormod genym ni yn awr eu cymmeradwyo. Rhaid oedd bod eu mesurau yn llym, ac yn myned raddau i eithafion, er cyfarfod â'r gyfundrefn reolaidd a chryno o orthrwm llawer llymach a ffyrnicach oedd yn bygwth ymgau o'u hamgylch, a'u hamddifadu o bob gobaith. Yr oedd rhyddid gwladol a chrefyddol ar gael eu llethu byth. Nis gellid oedi dim ar yr ymdrechiadau i attal hyny: a'r ffurf a gymmerodd un o'r pwysicaf o'r ymdrechiadau hyny ydoedd y Cynghrair a'r Cyfammod Difrifol.—(*Gilfillan's Martyrs, Heroes, and Bards of the Scottish Covenant.*

CYNGHIRAIR EFENGYLAIDD. Ffurfiwyd y cynghrair hwn yn y brif ddinas, yn y flwyddyn 1846, i'r dyben, yn benaf oll, o gefnogi a meithrin undeb Cristionogol. Yn mysg ei aelodau, y mae personau yn perthynu i'r rhan fwyaf o'r enwadau a ystyrir fel yn gwneyd i fyny Brotestaniaid efengylaidd Gwledydd Cred. Pan y penderfynwyd arno yn Llundain yn y flwyddyn uchod, yr oedd wedi ymgynnull yn nghyd yn yr un lle, ac yn cymmeryd rhan yn y gweithrediadau, oddeutu mil o bersonau—o Brydain Fawr, Iwerddon, Ffrainc, Germany, Switzerland, Unol Daleithiau yr America, a rhai gwledydd ereill; a pherthynai y rhai hyn i hanner cant o wahanol bleidiau Cristionogol. Nid cynghrair rhwng pleidiau er hyny yw, ond rhwng gwahanol Gristionogion yn bersonol, heb eu hystyried mewn un cymmeriad ond fel personau unigol. Yn y wedd yma, amcana arddangos, mor bell ag y mae hyny yn ddichonadwy, unolrwydd eglwys Crist, ac

Digitized by Google

amlygu a cholddysbryd brawdgarwch, gan wrthwynebu ac anghefnogi pa beth bynag a all fod yn niweidiol i hyny—pob ymrysonau, ymbleidiau, ac ymraniadau yn mhob cangen o'r eglwys.

Yn meddyliau lluaws o Gristionogion yn y wlad hon, ar y Cyfandir, ac yn Unol Daleithiau America, yr oedd teimlad dwys o'r angenrheidrwydd am y cyfryw symmudiad a hwn flyneddoedd lawer cyn iddo gael yn weithredol ei sefydlu. Teimlai caredigion y gwirionedd yn barhaus fwy o angen am rywbeth o'r natur yma o du yr eglwys, fel y byddai yn fwy nerthol i wrthsefyll ei gelynion, y rhai, y pryd hwnw, a fygythient ymosod arni gyda mwy o lid a malais nag arferol. Yr oedd ganddi i ddyoddef oddi wrth ac i fyned yn erhyn ofergoeledd y Pabydd ar y naill law, ac anffyddiaeth yr ammheuwr ar y llall. Dychrynid rhag yr hyfdra cynnyddol a nodweddai annuwiaeth a gau grefydd, ac ymdeimlai Protestaniaid defengylaidd y byddent yn fwy grymus i amddiffyn y wir ffydd pe mewn undeb â'u gilydd. Amlygid y teimlad hwn ar lawer achlysur, ac mewn aml fan; a thrwy hyny, parotöid y ffordd i'r cam oedd i'w gymmeryd yn ol llaw. Bu rhai Cristionogion efengylaidd yn cyflwyno i sylw eu brodyr eu hunain, ac i'r eglwys yn gyffredinol, gynlluniau er dwyn hyn oddi amgylch; a chynnaliwyd cyfarfodydd yma a thraw i weddio a thraethu ar y mater—y rhai, er y cynnyrchent effeithiau daionus, ni phenderfynent ddim sicr a safadwy. Hefyd, heb law y teimlad hwn yn mynwesau lluaws mawr o Gristionogion, yr ydoedd y llymder a'r sarigrwydd oedd unwaith i'w weled yn amlwg wedi colli i raddau pell o ddadleuon yr eglwys ei hunan; ac i fesur helaethach nag o'r blaen, cyfarfyddai swyddogion ac aelodau y gwahanol gangenau o honi i gydgyfeillachu ac i gydweithredu yn nygiad yn mlaen weithrediadau pob cymdeithas ddaionus oedd â'i hamcan i ledaenu egwyddorion Cristionogaeth.

Yn Ngorphenaf y flwyddyn 1843, yn ninas Edinburgh, cynnaliwyd cyfarfod coffadwriaethol am Gymmanfa Duwinyddion Westminster oedd wedi ymgynnull ar y cyntaf o'r un mis ddau can mlynedd cyn hyny. Yr oedd rhywbeth sectaraidd yn nodwedd y gynnadledd hono yn mhrif ddinas yr Alban, fel yr ydoedd yn cael ei chynnal er cof am gymmanfa Bresbyteraidd, ond bu iddi ran arbenig mewn arwain yn uniongyrchol i ffurfiad y Cynghrair Efengylaidd. Mewn canlyniad i ryw sylwadau a wnaethpwyd yno ar y priodoldeb o ffyniant undeb, brawdgarwch, a chydweithrediad yn mysg pawb sydd yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, daeth i feddwl rhai o'r gwyddfodolion awgrymu mai buddiol fyddai cael traethawd byr yn egluro ac yn cymhwyso yr egwyddorion hyny. Ffrwyth yr awgrymiad yna oedd, cyfrol o draethodau ar undeb Cristionogol, wedi eu cyfansoddi gan aelodau o wahanol bleidiau crefyddol. Bu darlleniad y gyfrol hon yn foddion i rymuso a rhoddi cyfeiriad priodol i ddymuniad oedd eisoes yn hanfodi, ac a ddadgenid yn fynych, am gael cynnadledd fawr Brotestanaidd yn mhrif ddinas y deyrnas hon, ac i fod yn agored i bersonau o bob parth o'r byd Cristionogol. Ond codai anbawsderau dirfawr ar ffordd ysgogiad ar gynllunmor eang a hyny—anhawsderau a ymddangosent ar y pryd yn anorfod; a thybiwyd mai mwy priodol fyddai cael cydgynnulliad rhagarweiniol mewn man arall. Ac os cytunai aelodau hwnw yn eu mysg eu hunain, gallent alw yn nghyd drachefn y cyfarfod mwy. Hyn a gymmeradwywyd; ac am mai o'r Alban y deilliodd y peth, i ran yr Alban y syrthiodd y gorchwyl gymmeryd y camrau dechreuol tuag at ddwyn oddi amgylch yr hyn oedd wedi ei gynnyg. Ymgymmerodd hithau â'r gwaith. Anfonodd nifer o weinidogion ac aelodau, yn dwyn cyssylltiad â saith o bleidiau crefyddol cryfaf a lluosocaf y wlad hono, gylchlythyr cyffredinol at eglwysi Cymru, Lloegr, a'r Iwerddon, yn eu gwahodd i'w cyfarfod hwy, yn Liverpool, trwy anfon cynrychiolwyr yno. Mewn cydsyniad â'r gwahoddiad, daeth yn nghyd i Liverpool, yn mis Hydref, 1845, genadon oddi wrth bedwar ar bymtheg o wahanol enwadau crefyddol; ac yn y lle ac ar yr amser hwnw y cynnaliwyd cynnadledd gychwynol y Cynghrair Efengylaidd. Ni phenwyd dim sefydlog yn Liverpool. Yr oedd pa beth bynag a basiwyd yn hytrach i'w ystyried fel awgrymiadau neu gynnygion a fwriedid i'w cyflwyno i sylw ereill drachefn er eu penderfynu ganddynt hwy. Pa fodd bynag, yr hyn a drafodwyd ac y cytunwyd arno mewn ysbryd cariad brawdol yn Hydref 1845, yn Liverpool, hyny a fu sylfaen gweithrediadau a phenderfyniadau cynnadledd Llundain, pan ffurfiwyd y Cynghrair yn rheolaidd yn Awst y flwyddyn ganlynol.

Y mae i'r Cynghrair luaws o gangenau neu undebau tramor, wedi eu trefnu a'u ffurfio felly, er mwyn cyfarfod yn well âg amgylchiadau ac angenion neilldiol Cristionogaeth gwahanol rannau gwledydd cred. Y gangen hono a ystyrir fel yn gofalu am ac yn perthynu i'r deyrnas hon yw yr Undeb Prydeinig: y mae hefyd Undeb Ffrengig; a chan y gangen hono yn neilldiol y mae edrych at lwyddiant amcanion neilldiol y Cynghrair yn Ffrainc, Belgium, a'r parth hwnw o Switzerland lle y lleferir yr iaith Ffrengig. Gogyfer â gogledd Ewrop, yn cymmeryd i mewn Sweden, Norway, a Denmark, y mae Undeb Scandinavia, ac o hwnw y tardd y gangen Swedaidd. Y mae gan Germany hefyd ei hundeb hithau; a'r un modd gorllewinbarth Hindwstan.

Heb law arddangos unolrwydd y wir eglwys ger bron y byd, y mae y Cynghrair wedi ei amcanu i fod yn undeb i weithio. Ac un gyfran o'r gwaith y mae y penderfyniadau a orphwysant dan ei sylfeini wedi ei dori allan iddo ydyw, gobebu â brodyr Cristionogol yn mhob parth o'r byd, gyda golwg ar gynnydd crefydd ysbrydol—yn enwedig y brodyr hyny a allant fod yn llafurio gydag achos yr efengyl yn ngwyneb anhawsderau a gwrthwynebiadau—fel y cyfraner iddynt, yn y ffordd hon, bob cefnogaeth a chydymdeimlad. Trwy weithredu yn y modd yma, dygir i olwg a sylw y byd lawer amgylchiad o erlidigaeth lem a ddyoddefir o achos crefydd mewn gwledydd Pabaidd, a manau ereill; ac egyr hyny y ffordd i ymdrechiadau ar ran y Cynghrair tuag at liniaru tostder cyflwr y gorthrymedigion, a'u rhyddhau o'u caethiwed, os wedi eu carcharu. Fel hyn, y mae lluaws a ddyoddefent erlidigaeth a charchariad oddi ar law y Babaeth yn ddyledus am eu rhyddhâd i'r gyfran yma o waith y Cynghrair Efengylaidd.

Wedi dyfod yn y ffordd hon i weithredu ar ran y rhai a gaent eu gorthrymu yn achos crefydd, arweinid y Cynghrair i ymofyn beth ellid wneyd tuag at ledaenu a chefnogi egwyddorion rhyddid crefyddol, fel y mae hyny yn awr wedi dyfod yn un o'r pethau yr ystyrir eu bod, mewn modd neilldiol, yn perthynu iddo ef ofalu am danynt, a'u cadw bob amser mewn golwg; gan chwanegu at hyny ofal a llafur am gynnydd adfywiadau crefyddol. Fel peth a fydd yn rhwym o wasan-

Digitized by Google

aethu y dybenion uchod, ac, i raddau pell, eu cynnyrchu a'u dwyn oddi amgylch, cymmer y Cynghrair o fewn cylch ei lafurwaith pa beth bynag a ledaena ddylanwadau Protestaniaeth efengylaidd, a wrthweithia anffyddiaeth, ac a esyd attalfa ar ffordd pob halogiad o ddydd yr Arglwydd. Y mae i'w ddeall yn neillduol fod y Cynghrair Efengylaidd yn cael ei wneyd i fyny o aelodau a ymunant *fel personau unigol*, ac nid yn y cymmeriad o gynnrychiolwyr eglwys neu enwad. Y rheolau sylfaenol hefyd a ofalant na bydd yn ofynol i neb o'r aelodau a ymunant yn y modd hwn ymwrthod yn y radd leiaf â dim golygiadau neillduol y dichon iddynt yn gydwybodol fod yn eu coleddu, na chymmeradwyo daliadau gwahanol o eiddo neb arall: ond caniateir i bawb yr un rhyddid ag o'r blaen i fyntumio ac amddiffyn eu syniadau crefyddol eu hunain, gan oddef eu gilydd mewn cariad. Hefyd, yn gymmaint ag yr ameana y Cynghrair fod yn undeb mewn gwirionedd, yn gystal ag yn undeb mewn cariad, rhaid i'r personau a'i gwnaut i fyny fod yn gyfryw ag sydd yn coledd y daliadau hyny a elwir yn gyffredin yn efengylaidd mewn perthynas i bynciau o athrawiaeth; crynodeb o'r cyfryw a ystyrir fel y sylfaen y mae y Cynghrair wedi ei oruchadeiladu arni: sef,

1. Dwyfol ysbrydoliaeth, awdurdod, a digonolrwydd yr Ysgrythyrau Sanctaidd.
2. Hawl a dyledswydd barn bersonol yn neongliad yr Ysgrythyrau Sanctaidd.
3. Undod y Duwdod, a Thrindod o Bersonau.
4. Hollol lygredigaeth y natur ddynol mewn canlyniad i'r cwymp.
5. Ymgnawdoliad Mab Duw, yr iawn a wnaeth dros bechaduriaid o ddynolryw, ei eiriolaeth fel Cyfryngwr, a'i lywodraeth fel brenin.
6. Cyfiawnhâd y pechadur trwy ffydd yn unig.
7. Gwaith yr Ysbryd Glân yn nhroedigaeth a sancteiddiad y pechadur.
8. Anfarwoldeb yr enaid, adgyfodiad y corff, dyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist i farnu y byd, yn nghyd â gwynfyd y cyfiawnion, a thragwyddol gospedigaeth y rhai drygionus.
9. Dwyfol osodiad y weinidogaeth Gristionogol, a rhwymedigaeth a pharhâd yr ordinhadau o Fedydd a Swper yr Arglwydd.

CYNGHRAIR SANCTAIDD, [*Holy Alliance*]: Yr enw a roddir yn gyffredin ar gytundeb y penderfynwyd arno yn Paris, Medi 26ain, 1815, rhwng Alexander, ymherawdwr Rwssia, Francis, ymherawdwr Awstria, a Frederick William, brenin Prwssia. Dangosodd ymherawdwr Rwssia gynllun o'r cyfammod hwn i Arglwydd Castlereagh, cyn i ymherawdwr Awstria na brenin Prwssia ei weled. Ysgrifenodd y tri thywysog eu henwau wrtho â'u dwylaw eu hunain, heb ei fod yn cael ei wrthlawnodi gan un gweinidog. Oddi wrth y dyddiad uchod, gwelir mai ar ol gorchfygiad Napoleon y bu hyn. Cyhoeddwyd yr ysgrif y waith gyntaf ar y dydd Nadolig canlynol. Yn ngeiriau cyntaf y cytundeb, amlygai y rhai a'i llawnodent eu bod o hyny allan yn bwriadu gweithredu yn unol â rheolau yr efengyl—sef, yn ngeiriau yr ammodiad—cyfiawnder, heddwch, a chariad Cristionogol. Y mae yn canlyn dair o erthyglau, y rhai a ddygant ar gof y rheol Ysgrythyrol sydd yn gorchymyn i bawb gydystyried eu gilydd megys brodyr, ac oddi wrth hyny, a dynant y casgliad y parhâ y tri phenadur ymgyfammodol yn rhwymau y frawdoliaeth yr ymunent ynddi, na thorent yr undeb mwy, ac o hyny allan, y byddai eu hymddygiad tuag at eu deiliaid a'u byddinoedd yn gyfryw ag a weddai mewn tadau tuag at eu teuluoedd. Er mai hyn yna ydoedd amcan proffesedig y Cynghrair, bu yn mhell o ddwyn oddi amgylch ddim o'r fath bethau: yn hytrach, nid ydys heb le i gasglu fod geiriad y cyfammod yn fynegai tra anghywir o'i wir ddyben—mai yr hyn y cyrchai ato ydoedd, cadarnhau träarglwyddiaeth a chaethiwed. Y drydedd erthygl sydd wahoddiad i ereill gydymuno yn y Cynghrair. Anfonwyd ef i lys Lloegr; ac wedi iddo gael sylw yr awdurdodau yma, cafodd ei ateb i'r perwyl hwn—nad oedd cyfansoddiad Prydain yn caniatau i'r brenin yn ffurfiol gytuno âg ef; ond nas gallai un llywodraeth fod yn fwy awyddus am weithredu yn unol â'r egwyddorion yr ymddangosai fel yn eu cymmeryd i mewn iddo. Y pryd hwnw, dysgwyliai lluaws o wladweinwyr rhyddfrydig Ewrop, yn enwedig yn Germany, lawer o ddaioni oddi wrth y Cynghrair Sanctaidd; ac o'r diwedd, daeth y rhan fwyaf o dywysogion Ewrop yn aelodau o hono. Yn nghynnadledd Aix-la-chapelle, yn y flwyddyn 1818, porotowyd cyhoeddiad, yr hwn, yn ol llaw, a argraffwyd ac a ledaenwyd, i'r dyben o fynegu mai meithrin heddwch ydoedd amcan y Cynghrair. Hon oedd y gyntaf o luaws o gynnadleddau a gynnaliwyd yn olynol er trefnu amgylchiadau gwladwriaethol y cyfandir, ac yn enwedig darostwng a chadw yn y llwch ryddfrydwyr Germany, Italy, ac Yspaen. Yn y flwyddyn 1821, ymneillduodd y deyrnas hon oddi wrth y gyfundrefn wladwriaethol yr amcanai y Cynghrair Sanctaidd ei sefydlu. Yr 8fed o Ragfyr, 1820, anfonodd y galluoedd cynghreiriol gylchlythyr o Troppau, lle yr oeddynt ar y pryd wedi cydymgynnull mewn cynnadledd, i ystyried pa foddion tyddai y goreu i'w defnyddio er darostwng y chwyldroad oedd newydd gymmeryd lle yn Naples. Cyfarwyddwyd y nodyn hwn i'r gweinidogion ac ereill a ofalent am amgylchiadau y wladwriaeth yn y llysoedd Germanaidd a gogleddol. Arglwydd Castlereagh oedd swyddog yr achosion tramor yn Mhrydain y pryd hwnw, a pharodd y llythyr uchod iddo anfon cenadwri. dyddiedig Ionawr 19eg, 1821, at gynnrychiolwyr ei fawrhydi y brenin, mewn llysoedd tramor, yn mynegu nas gallai llywodraeth y wlad hon gymmeradwyo yr egwyddorion cyhoeddedig yn nghylchlythyr y tywysogion cynghreiriol, na chwaith y cymhwysiad y bwriedid ei wneyd o honynt. Wedi marwolaeth yr ymherawdwr Alexander, anhawdd yw dywedyd a hanfodai y cyfammod hwn mewn gwirionedd ai peidio.

Rhoddir yr enw hwn hefyd (ond yn anmhriodol) ar gynghrair a ffurfiwyd gan Heldo, isganghellydd ymherawdwr Germany, yn y flwyddyn 1538, er gwrthweithio y rhagorfreintiau a ddaethant i ran y Protestaniaid trwy gynghrair Smalcald, ac yn y modd hwnw gynnal i fyny a chefnogi y ffydd Babaidd. Yr ydoedd archesgobion Metz a Salzburg, William a Lewis, duciaid Bavaria; George, duc Saxony; ac Eric a Henry, duciaid Brunswick, yn bleidiau yn y cynghrair hwn. Bwriedid ei gadw yn ddirgelwch hollol; ond y son am dano a aeth ar led yn ebrwydd, a dychryn a ddaliodd y Protestaniaid. Ofnent y difodid eu hawliau; ac y darfyddai am eu rhyddid, a chydymgynghorent pa fodd y codent allu digonol i'w hamddiffyn eu hunain. Ond yn nghynnadledd Frankfort, yn 1539, rhoddwyd attalfa ar y drwg yr arswydid rhagddo, a darfu am eu hofn hwythau yn y canlyniad.

Digitized by Google

CYNGHRAIR SMALCALD. Yn ngwyneb rheitharch a anfonwyd allan o lwyrwys (*diet*) Augsburgh, yn y flwyddyn 1530, yn yr hon yr amcenid cyfyngu ar ryddid a breintiau y rhai a ddaethant wedi hyny yn Brotestaniaid, ffurfiwyd y cynghrair a elwir wrth yr enwad hwn. Y pleidiau ynddo oeddynt etholwyr Brandenberg a Saxony, yn nghyd â thywysogion Germanaidd, ac ereill oedd yn ffafriol i Brotestaniaeth. Cyfarfuasant yn Smalcald, ac wedi hyny yn Frankfort, yn y flwyddyn 1530, er penderfynu beth a wnaent, mewn undeb â'u gilydd, er amddiffyn eu hegwyddorion crefyddol yn ngwyneb y perygl oedd yn eu bygwth ar y pryd oddi wrth y Babaeth. Gwahoddwyd breninoedd Lloegr, Ffrainc, a Denmark, yn nghyd âg amryw dalcithiau a gweriniaethau ereill, i ddyfod yn mlaen, fel y byddent hwythau o'r cytundeb. Wrth eu gweled yn defnyddio pob moddion o fewn eu cyrhaedd er sicrhau eu hamcanion, a chan ofni y byddai i benaduriaid y wlad hon a Ffrainc gymmeryd rhan ynddo, tueddwyd yr ymherawdwr Siarl v. i lawnodi cytundeb Nuremberg, trwy yr hwn y caniateid rhyddid cydwybod i'r Lutheriaid. Gwel LLWYRWYS AUGSBURG.

CYFRAITH, [*cyd—rhaith*]: gosodiad, rheol awdurdodedig, deddf. Gellir darnodi cyfraith, mewn ystyr eang, fel "rheol ddadguddiedig ymddygiad, wedi ei hordeinio gan awdurdod digonol, ac yn cael ei chadarnhau â gwobrwyon am ufuddod, ac â chospau am anufudd-dod." Y mae y syniad o gyfraith yn rhagolygu y syniad o lywodraeth; a llywodraeth, drachefn, yn cynnwys hawliau o un tu, a rhwymedigaethau o'r tu arall, y rhai ydynt yn cyfodi oddi ar berthynasau neillduol rhwng pleidiau a'u gilydd. Cyfraith, gan hyny, yn y wedd fwyaf cyffredinol (*generalized*), ydyw, yr hawl o awdurdod o un tu, wedi ymffurfio yn *rheol* i'r rhwymedigaeth o ufudd-dod o'r tu arall. Y berthynas gyntaf, eangaf, a phwysicaf o bob un, ydyw y berthynas rhwng y Creawdwr a'i greaduriaid. Dyma wreiddyn a sylfaen pob perthynas arall. Y mae hon yn cynnwys pob perthynas arall, ac wedi rhoddi bod i bob un arall. Y llywodraeth sylfaenedig ar y berthynas hon, gan hyny, ydyw y gyntaf, yr uchaf, a'r eangaf. Duw, fel Creawdwr a Chynnalydd Hollalluog pawb a phob peth, ydyw ei Brenin; ac y mae pob creadur yn mhob byd, y sydd ac a ddaw, yn ddeiliad o honi. Y mae y llywodraeth hon yn gorphwys ar hawliau o du y Creawdwr, a rhwymedigaethau o du y creadur. Y mae ei berffeithrwydd anfeidrol Ef ynddo ei hunan, yn nghyd â'r berthynas yn yr hon y mae pawb yn sefyll tuag ato, fel ei greaduriaid a rhai hollol ymddibynol arno am bob peth, yn cyfansoddi hawl a chymhwysder o'i du Ef i lywodraethu, neu i dderbyn gwasanaeth ac ufudd-dod ei greadur; ac y mae yr un pethau yn cyfansoddi rhwymedigaeth gyfatebol o du y creadur i'w wasanaethu ac ufuddhau iddo. Yma, gan hyny, yr ydym yn cael y syniad gwreiddiol am lywodraeth; yma y mae cynllun neu gynddelw tragwyddol pob llywodraeth arall. Yn hwn y mae ffynnonell wreiddiol pob awdurdod; y mae pob awdurdod arall wedi ei chyfranu ganddo Ef, ac i fod bob amser yn ddarostyngedig i'w awdurdod oruchaf Ef; y mae pob llywodraeth ar raddeg lai i gael ei gweinyddu yn is-wasanaethgar i, ac mewn cydweddiad âg amcanion goruchel ei llywodraeth gyffredinol Ef. "Yr Arglwydd sydd Frenin," medd Trench—"nid yn benthyca y teitl hwn oddi wrth freninoedd y ddaiar, ond wedi rhoddi benthyg ei deitl ei hun iddynt hwy; ac nid yr enw yn unig, ond wedi trefnu yn y fath fodd, ar fod i bob gwir reol a llywodraeth ar y ddaiar, gyda'i chyfreithiau cyflawn, ei sefydliadau cedyrn, ei chosp a'i ffafr, ei mawrhydi a'i harswyd, ddywedyd am dano ef a'i freniniaeth, yr hon sydd yn llywodraethu ar bob peth;—fel nad yw teyrnas Dduw, mewn gwirionedd, yn ymadrodd ffugrol, ond un hollol lythyrenol; y teyrnasoedd daiarol, a'r breninoedd daiarol ydynt yn hytrach yn gysgodau o'r wir deyrnas a'r gwir Frenin." Ni a welwn, gan hyny, oddi wrth hyn, megys, mai yn mherthynas y Creawdwr â'i greaduriaid, a'i lywodraeth gyffredinol ef ar bob peth seiliedig ar y cyfryw berthynas, yr ydym yn cael cynllun neu gynddelw pob llywodraeth; felly hefyd yn yr un man yr ydym yn cael y syniad gwreiddiol am gyfraith. O blegid y mae y syniadau o gyfraith a llywodraeth yn angenrheidiol gyssylltiedig â'u gilydd; nis gall y naill hanfodi heb y llall. Nis gall cyfraith fod ond mewn cyssylltiad â llywodraeth; ac nis gall llywodraeth hanfodi ond trwy weinyddiad cyfraith. Llywodraeth ydyw awdurdod y naill blaid yn chael ei chydnabod trwy ufudd-dod y blaid arall; ac nid yw cyfraith yn ddim amgen na'r rheolau arbenig hyny wrth ba rai y mae yr ufudd-dod hwnw i'w amlygu ei hunan—yn cael eu cadarnhau, ar yr un pryd, â gwobrwyon a chospau. Y mae dwy wedd ar lywodraeth y Goruchaf, sydd yn rhoddi dau ystyr cyfatebol i'w gyfraith ef. Y gyntaf ydyw ei lywodraeth naturiol ef, yr hon sydd yn cynnwys pob creadur a phob gwrthddrych sydd mewn bod—rhesymol a direswm, bywydol a difywyd. Y mae y llywodraeth naturiol hon yn cael ei gweinyddu trwy ddeddfau naturiol. Y mae y deddfau hyn yn amlygiad o ewyllys y Creawdwr o berthynas i'r hyn oll sydd yn ddarostyngedig iddynt, ac yn cymmeryd i mewn yr holl osodiadau sefydlog hyny, yn unol â pha rai y dygir yn mlaen gyfundrefn gyffredinol natur a chymdeithas. Y maent yn cymmeryd i mewn briodoleddau hanfodol mater, yr achosion cysson ac unffurf sydd yn cynnyrchu pob ysgogiad a chyfnewidiad mewn natur, greddfau y creaduriaid direswm, tueddiadau gwreiddiol dyn fel creadur, yn nghyd â'r egwyddorion cyffredinol hyny sydd yn cyssylltu amgylchiadau â'u gilydd fel achosion ac effeithiau yn nghwrs rhagluniaeth. Am ymdriniaeth helaethach â deddfau natur, gwel dan y gair DEDDF.

Gelwir llywodraeth y Goruchaf, yn yr ystyr arall y cyfeiriem ato uchod, yn llywodraeth foesol. Elfen arbenig a gwahaniaethol y llywodraeth hon ydyw ei moesoldeb. Tiriogaeth y flaenaf ydyw bod (*quid est*); tiriogaeth yr olaf ydyw dyleddswydd (*quid oportet*). Yn hon, golygir Duw fel llywodraethwr moesol; *h. y.*, sanctaidd a chyfiawn, yn "caru cyflawnder ac yn casau anwiredd," yn meddu gallu diderfyn i wobrwyo y naill a chospi y llall, ac yn cael ei rwymo gan angenrheidrwydd a pherffeithrwydd ei natur ei hunan i wneyd hyny. Nid oes neb cyfaddas i fod yn ddeiliaid o honi ond creaduriaid yn perchen natur foesol. Ei hunig ddeiliad (ar y ddaiar) gan hyny, ydyw dyn—fel perchen rheswm, i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg; fel perchen cydwybod, yr hwn sydd yn cymmeradwyo ac yn gorchymyn y da, yn condemnio ac yn gwahardd y drwg; ac fel perchen ewyllys, i ddewis y da, a gwrthod y drwg. Dyma elfenau ei gyfrifoldeb,

Digitized by Google

mor bell ag y mae a wnelo galluoedd ei natur â hyny. Yr ydym wedi cael, ynte, lywydd moesol, a deiliaid cyfaddas, yn perchen natur foesol; ond y mae llywodraeth foesol yn anmhosibl eto heb gyfraith foesol. Y mae yn rhaid i'r awdurdod, o du y llywodraethwr, gael ei agweddu gan, ac ymffurfio mewn, cyfraith—ac i'r gyfraith hono, wrth gwrs, gael ei dadguddio—mewn trefn i ateb dyben llywodraeth foesol; sef, i ddwyn yr ufudd-dod i brawf, i roddi cyfeiriad i'r ufudd-dod, ac hyd yn oed i wneuthur yr ufudd-dod ei hunan yn bosibl o du y deiliaid. Dyma, gan hyny, y lle pwysig y mae y gyfraith yn ei ddal yn llywodraeth foesol y Goruchaf. Y mae fel y maen clo yn y bwa, yn perffeithio yr adeilad. Y mae yn ddolen sydd yn cyssylltu yr awdurdod wrth y rhwymedigaeth, fel ag i ddwyn y naill a'r llall i weithrediad; y mae yn gyfrwng trwy ba un y mae yr awdurdod neu yr hawl, ar y naill law, yn gweithredu ar y rhwymedigaeth ar y llaw arall—fel ag i gynnyrchu trwy hyny ufudd-dod neu ynte anufudd-dod, ac felly i ateb dybenion uchaf llywodraeth foesol a sefyllfa prawf. Y mae yn amlwg, ynte, oddi wrth hyn, mai nid gweithred benarglwyddiaethol o eiddo y Goruchaf oedd rhoddi cyfraith i ddyn. Gweithrediad penarglwyddiaethol y Iehofah ydoedd sefydlu llywodraeth foesol yn ei ymherodraeth, a chreu dyn i fod yn addas ddeiliad o honi; ond *wedi* gwneuthur hyny, yr oedd ei gyfiawnder a'i ddoethineb ef, yn nghyd â natur a dybenion y llywodraeth hono, yn ei gwneuthur yn angenrheidiol i roddi cyfraith iddo, fel rheol ei ymddygiadau. Ac yn unol â'r egwyddorion hyn, rhoddwyd y gyfraith hono i ddyn. Rhoddwyd hi iddo ar y cyntaf yn ddadguddiad oddi fewn, yn egwyddor wreiddiol yn ei natur, yn oleuni ar ewyllys Duw, ac yn dueddfryd sanctaidd i wneuthur yr ewyllys hono—y ddwy elfen yn ymuno mewn un bywyd ysbrydol o gariad. Ond wedi ei cholli o'r "ysbryd," corfforwyd hi yn y "llythyren;" wedi i bechod ddileu yr argraff ddwyfol oddi ar "lechau cnawdol y galon," bu raid ei hadysgrifio ar "lechau ceryg;" wedi i ddyn syrthio, rhoddwyd hi eilwaith iddo yn ddadguddiad oddi allan, mewn gorchymynion penodol. Yn y gyfraith hon, y mae y Llywydd Goruchaf yn "dangos i ddyn beth sydd dda, a pha beth a gais yr Arglwydd" ganddo. Dadguddiad ydyw o ewyllys, ac felly o natur berffaith yr Iehofah ei hun, wedi ei ffurfio yn rheol ymddygiad i ddyn. Gan nas gall efe ewyllysio na gorchymyn i'w greadur ond yr hyn sydd mewn cyssondeb âg egwyddorion tragwyddol sanctaidd, y rhai ydynt yn gwreiddio yn ei natur ef ei hunan—gan mai yr hyn ydyw efe yn ei gymmeriad personol, fel Duw sanctaidd, a raid iddo fod hefyd yn ei gymmeriad cyhoeddus fel llywodraethwr—y mae yn canlyn fod ei gyfraith ef, o angenrheidrwydd, yn gyfysgrif berffaith o'i natur ef: fel y mae ei hawdwr, felly "yn wir, y mae y *ddeddf*—yn sanctaidd." Y mae dyweyd ei bod yn ddadguddiad o *ewyllys* Duw, yr un peth a dyweyd ei bod yn *sanctaidd*; fel y sylwa y Dr. Clarke yn dra phrydferth:—"Y mae llywodraethu yn ol *deddf a rheswm*, a llywodraethu yn ol *ewyllys a theimlad*, ar y ddaiar, y ddwy ffurf fwyaf wrthwyneb o lywodraeth; tra, yn y nefoedd, nad ydynt ond dau enw gwahanol ar yr un peth." Y mae y "gorchymyn," hefyd, nid yn unig "yn sanctaidd ac yn gyfiawn," ond yn "dda." Y mae ei Awdwr yn "dda," yn gystal ag yn "sanctaidd;" yn "gariad," yn gystal ag yn "oleuni." Pechod, sef "anghyfraith," yw yr achos o bob trueni; sancteiddrwydd, neu gydymffurfiad â chyfraith Duw, yn unig a all gynnyrchu dedwyddwch; ac o blegid hyny, cyfraith Duw ydyw amddiffyniad mawr dedwyddwch yr ymherodraeth ddwyfol. Dyma y gyfraith yn wrthddrychol (*objectively*), fel y mae yn tarddu o natur Duw, ac yn attegu trefn a dedwyddwch ei lywodraeth. Y mae y gyfraith yn dufewnol (*subjectively*) yn y dyn, drachefn, yn GARIAD o ran ei hegwyddor. Megys nas gall fod yr un weithred, pa mor dda bynag ynddi ei hunan, yn gymmeradwy, heb ei bod yn tarddu oddi ar egwyddor uniawn yn y galon, sef cariad at Dduw, felly, "cyflawnder y gyfraith yw cariad." Dyna ydyw y gyfraith foesol, yn ei pherthynas â dyn ar y ddaiar—yr egwyddor fawr o gariad at Dduw wedi ei thorf i fyny yn ddeg o orchymynion, i gyfateb i amgylchiadau bywyd, ac i berthynasau dyn â Duw ac â'i gyd-ddynion; ac y mae yr holl orchymynion unigol hyn yn rhedeg i'w gilydd yn ol drachefn, ac yn ymuno yn yr egwyddor o gariad, fel eu hysbryd a'u bywyd. Cariad fel canolbwynt o oleuni a gwres, â'i belydrau yn ymwahanu (*diverge*) ar hyd llinellau uniawn y gorchymynion i holl gylch dyledswyddau tuag at Dduw a dynion; a'r holl gylch o ddyledswyddau drachefn yn ymgrynhoi (*converge*) yn ol, i un *focus* tanllyd o gariad. Dyma, gan hyny, ydyw crefydd neu sancteiddrwydd—cariad, fel *bywyd*, ac ufudd dod fel *ffurf* y bywyd hwnw. O blegid hyn, "pwy bynag a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl:" nid fod yr hwn sydd yn euog o ladrad, drwy hyny yn euog o lofruddiaeth hefyd; ond y mae tori rhyw un o'r gorchymynion, pa un bynag fyddo, yn tori y llinyn neu y wythen euraidd sydd yn rhedeg drwy y cwbl, ac yn cylymu y cwbl wrth eu gilydd. Megys y gellir dinystrio bywyd y corff trwy ymosod ar un rhan, ac unrhyw ran o hono, felly y mae troseddu yn erbyn un o'r gorchymynion yn dinystrio yr egwyddor hono sydd fel ysbryd a bywyd yn treiddio trwy y cyfan, ac yn uno y cyfan yn nghyd. Am ymdriniaeth helaethach â'r gyfraith foesol, egwyddorion llywodraeth foesol, sylfeini rhwymedigaeth foesol, &c., gwel dan y geiriau CYFRAITH MOSES; DEDDF FOESOL; LLYWODRAETH FOESOL; MOESEG.

CYFRAITH WLADOL—EI NATUR A'I HEGWYDDORION.

Wrth *gyfraith wladol*, y meddylir, rheol ymddygiad dyn, fel aelod o gymdeithas, a deiliad llywodraeth wladol. Yr ydym yn gweled, oddi wrth y sylwadau blaenorol, am mai yn Nuw o angenrheidrwydd y mae ffynnonell pob awdurdod—am mai ei lywodraeth ef ydyw gwreiddyn a chynddelw pob llywodraeth arall—felly, ei gyfraith ef ydyw y flaenaf a'r oruchaf yn ei hawliau; ac y mae pob cyfraith, ar raddeg is, i fod mewn cydweddiad â hi, ac yn ddarostyngedig iddi. Y mae llywodraeth Duw ar ei greaduriaid yn wreiddiol, yn ddigyfnewid, ac yn oruchaf; felly, y mae yn rhaid edrych ar ddynion fel deiliaid i Dduw cyn y gellir eu hystyried yn aelodau o unrhyw gorfforiad gwladwriaethol. Y mae ffurfiad cyfundebau gwladol, a chyfansoddiad eu deddfau, yn golygu dyn yn unig yn ei berthynasau lleol ac amserol, fel deiliad amser a phreswylydd y byd hwn. Ond y mae cyfraith Duw yn ei olygu yn ei berthynas gyntaf ac uchaf â'i Greawdwr ac â byd tragwyddol; ac felly yn wreiddiol, sylfaenol, a goruchaf yn ei hawliau ar ei ufudd-dod. Y mae hyn i'w weled wrth ystyried ei bod yn cymmeryd i mewn y brenin yn

Digitized by Google

gystal a'r deiliaid—yn ymwneyd â dyn yn yr egwyddorion cyffredinol a hanfodol hyny, yn y rhai y mae holl ddynolryw yn cydgyfarfod; ac yn gyfryw nas gall unrhyw wahaniaethau o amser, lle, neu amgylchiadau, byth ei newid. Gan fod holl ddynolryw fel hyn yn greaduriaid Duw, ac o hyd yn ymddibynol arno ac yn gyfrifol iddo, y mae yn canlyn nad yw pob cyfreithiau a ffurfir gan ddynion i lywodraethu cyfundeban gwladol, yn eu perthynas â'u dyledswyddau uwch i'w Creawdwr, yn ddim amgen na'r hyn ydyw mân-ddeddfau (*bye-laws*) yn eu perthynas â'r deddfau cyffredinol sydd yn perthyn i lywodraeth wladol. Felly y mae Robert Hall yn sylwi:—"Pa bryd bynag y mae llywodraethwyr gwladol yn ffurfio cyfreithiau sydd yn gwrthdaro y gyfraith oruchaf hon, y maent yn euog o'r un gwrthuni a phe buasai corfforaeth neilldiol mewn dinas yn llunio rheolau i'r fwrdeisdref mewn gwrthdarawiad i gyfraith y tir. Nid oes gan un gymdeithas neilldiol hawl i sefydlu rheolau sydd yn ymyryd â chyfreithiau cyffredinol y deyrnas, o'r hon y maent yn ffurfio rhan; canys ni byddai hyny ond dwyn i mewn *imperium in imperio*, neu ddeddfwriaethau amrywiol a gwahanol; ac felly, attal a dyrysu gweinyddiad cyfiawnder."

Cyfraith Duw, gan hyny, fel y mae yn cael ei hamlygu yn neddf natur a deddf dadguddiad, ydyw y sylfaen ar ba un y gorphwys pob cyfreithiau dynol; hyny ydyw, nid oes un cyfraith ddynol i fyned yn groes i'r deddfau hyn. Y mae rhyw weithredoedd, megys llofruddiaeth, lladrad, &c., ag ydynt yn droseddau o'r gyfraith wladol, ac hefyd yn annibynol ar, a chyn hyny, yn droseddau o gyfraith Duw, neu yn ddrwg ynddynt eu hunain. Yn yr achos yma, nid yw y gyfraith wladol ond adsain neu fynegiad o'r un ddwyfol; y mae y brenin daiarol megys rhaglaw o dan Frenin y breninoedd, i ddwyn ei gyfraith ef i weithrediad presennol, ac i'w chymhwyso at ddyn fel aelod o gymdeithas. Megys ag y mae y drygau naturiol a chymdeithasol sydd yn deilliaw o gyflawniad pechodau cyhoeddus yn rhyw esboniad egwan ar ddrwg hanfodol pob pechod, a'i duedd i gynnyrchu trueni, felly y mae yr awdurdod weledig sydd wedi ei chorffori yn y brenin neu y llywodraeth ddaiarol, yr hon sydd yn cospi pechod fel y mae yn drosedd yn erbyn cymdeithas—y mae yr awdurdod weledig hono yn rhyw gysgod neu ddelw o'r awdurdod anweledig; a'r brenin daiarol fel rhyw gynnrychiolydd gweledig ar y ddaiar o'r "Brenin tragwyddol, anfarwol, ac anweledig, yr hwn sydd yn trigo yn y goleuni nas gellir dyfod ato," yr hwn a gospa bechod fel y mae yn wrthwyneb i'w natur sanctaidd Ef ei hunan, ac o duedd i ddinystrio trefn a dedwyddwch ei ymherodraeth. Y mae materion ereill ag ydynt yn cyfodi yn unig o gyfansoddiad ac angenion cymdeithas, megys trosglwyddiad nwyddau o'r naill wlad i'r llall, y rhai ydynt ynddynt eu hunain yn ddiwahaniaeth, ac heb feddu unrhyw sylfaen gyntefig mewn moesoldeb; yn y rhai hyn, y mae gan y gyfraith wladol awdurdod i sefydlu rheolau i'w llywodraethu, ac i wneuthur yn anghyfreithlawn yr hyn ni buasai felly o'r blaen. Yr ydym i ddeall, wrth gwrs, ar yr un pryd, fod yr holl osodiadau hyn hyd yn oed o barth i'r pethau hyny ag ydynt yn ddiwahaniaeth ynddynt eu hunain, mewn ystyr moesol, i gael eu trefnu yn unol âg egwyddorion cyffredinol cyfiawnder ac uniondeb, ac i gydwasanaethu er lles y wladwriaeth.

Y mae hyn yn ein harwain i sylwi fod cyfraith wladol yn golygu dyn yn unig fel aelod o gymdeithas. Y mae y Creawdwr wedi cyfansoddi dyn y fath ag y mae cymdeithas yn un o angenrheidiau ei natur, ac yn un o ammodau ei fywyd ar y ddaiar. Nid oes ganddo duedd na gallu i fyw mewn unigrwydd. Y mae yn anmhosibl, o herwydd rhwystrau naturiol, i holl ddynolryw ymffurfio yn un gymdeithas; o ganlyniad, y mae plant dynion, yn rhanedig fel y maent gan wahanol wledydd, ieithoedd, arferion, a graddau amrywiol o wareiddiad, yn ymffurfio yn wahanol gymdeithasau neu gorfforiaethau gwladol, o fewn y gwahan-linellau hyn a sefydlodd y Creawdwr yn eu plith. Yn awr, oddi yma y tardd yr angenrheidrwydd am gyfraith. Nis gall unrhyw gymdeithas hanfodi heb lywodraeth; hyny yw, y mae yn rhaid i'r mwyafrif gytuno i gydnabod rhyw berson neu bersonau yn awdurdod oruchaf y wladwriaeth, ac i ufuddhau i'r awdurdod hono. Gall yr awdurdod hon gael ei hennill ar y cyntaf trwy orchfygiad y wlad mewn rhyfel, ac yna ddisgyn yn y teulu o'r naill genedlaeth i'r llall; neu ynte gael ei rhoddi yn wirfoddol trwy ddewisiad y deiliaid o'r rhai y tybir eu bod yn meddu y cymhwysderau mwyaf i'w meddiannu a'i hymarfer. Ond pa ffurf bynag fyddo arni, y mae yn rhaid fod llywodraeth: heb hyn, elai pob cymdeithas yn chwilfriw; ni byddai diogelwch ar fywyd, rhyddid, meddiannau, nac unrhyw iawnderau—byddai y cyfan at drugaredd y rhai mwyaf eu nerth. Megys nas gallai cymdeithas hanfodi heb lywodraeth, nis gall llywodraeth chwaith hanfodi heb gyfraith; o blegid cyfraith, fel y dangoswyd o'r blaen, ydyw y rheol wrth ba un y mae awdurdod y llywodraeth i gael ei chydnabod gan ufudd-dod y deiliaid; ac heb y cyfryw reol, nis gallai y gydnabyddiaeth hono gael ei dwyn i weithrediad.

Unig wir a naturiol sylfeini cymdeithas ydynt angenion ac ofnau personau unigol. Y mae yr hanes ysgrythyrol am ddechreuad dynolryw yn dangos i ni fod cymdeithas wedi dechreu mewn teuluoedd. Y teulu ydoedd hedyn neu gynllun cyntefig cymdeithas; yma y gwelir cymdeithas ar raddeg fechan. Y teuluoedd unigol hyn a ffurfiasant y gymdeithas naturiol gyntaf yn mysg eu gilydd; yr oedd hon yn eangu ei therfynau yn feunyddiol, ac yn gosod i lawr fel hyn elfenau cyntaf ac anmherffaith cymdeithas wladwriaethol: a phan yr aeth yn rhy luosog i fyw yn gyfleus yn y cyflwr bugeilaidd, yn mha un y mae yn ymddangos fod y patriarchiaid yn byw, dosranwyd hi, trwy amrywiol fudiadau, i chwaneg o nifer. Wedi hyny, fel yr oedd amaethyddiaeth yn cynnyddu, ac felly nifer lluosocach o bersonau yn gallu cydfyw, a chael eu cynnal gyda'u gilydd, daeth y mudiadau yn fwy anfynych; ac yr oedd amryw lwythau, y rhai o'r blaen oeddynt wedi ymwahanu, yn ail ymuno; weithiau, trwy orfoddaeth a gorchfygiad; bryd arall, trwy ddamwain; ac weithiau, trwy gytundeb. Ond er na chafodd cymdeithas ei dechreuad yn ffurfiol trwy unrhyw ymgynnulliad o bersonau yn cael eu dwyn at eu gilydd gan eu hangenion a'u hofnau, eto, y *teimlad* o'u gwendid a'u hanmherffeithrwydd sydd yn *cadw* dynolryw yn nghyd. Y mae hyn yn profi yr angenrheidrwydd am y cyfryw undeb; a dyma, gan hyny, ydyw sylfaen gadarn a naturiol, yn gystal a rhwymyn, cymdeithas wladol. Y mae yr eglurhâd hwn ar ddechreuad a ffurfiad cymdeithas yn ein cynnorthwyo i ddyfod o hyd i wreiddyn a dyben cyfraith. Er nad ydyw y dyben hwnw yn cael ei ddadgan yn ffurfiol yn

Digitized by Google

sefydliad unrhyw wladwriaeth, eto, y mae mewn natur a rheswm yn cael ei dybied yn ngwaith dynion yn ymgyssylltu yn gymdeithas: y dyben hwnw ydyw, cael yr oll o'r cyfryw gyfundeb i amddiffyn pob rhan o hono, a chael pob rhan i ufuddhau i ewyllys yr oll; neu, mewn geiriau ereill, fod i'r cyfundeb sicrhau i bob aelod unigol o hono y mwynhâd o ryddid, manteision, neu iawnderau neilldiol; ac, fel ad-dalad am yr amddiffyniad hwn, y mae pob person unigol i ymostwng i ddeddfau y cyfundeb—heb yr hyn, mewn gwirionedd, nis gellid sicrhau yr amddiffyniad hwnw i un aelod o hono.

Cyfraith, gan hyny, ydyw, "rheol ymddygiad gwladol, yn cael ei hordeinio a'i chyhoeddi gan y gallu uchaf yn y wladwriaeth."

Y mae yn cael ei galw yn *rheol*. Nid gorchymyn sydyn a byrbarhaol oddi wrth uchafiaid i neu yn nghylch rhyw berson neilldiol; ond rhywbeth parhaus, unffurf, a chyffredinol. Nid yw gweithred benodol o eiddo y ddeddfwriaeth i attafaelu meddiannau unrhyw berson — Titius, dywedwn—neu i'w ddal ar y cyhuddiad o deyrnfradwriaeth, yn cyfansoddi cyfraith; o blegid y mae y weithred hon yn gyfyngedig i Titius yn neilldiol, ac nid yn perthyn i'r wladwriaeth yn gyffredinol; dedfryd ydyw, ac nid cyfraith. Ond byddai gweithred yn dadgan fod y trosedd o ba un y cyhuddir Titius i gael ei gyfrif yn deyrnfradwriaeth, yn meddu parhâd, unffurfiaeth, a chyffredinolrwydd; ac felly yn gyfraith neu reol. Gelwir hi hefyd yn *rheol*, i'w gwahaniaethu oddi wrth *gynghor* neu *gyfarwyddyd*. Yr ydym at ein rhyddid i ystyried rhesymoldeb cynghor, ac i'w ddilyn neu beidio, fel y tybiom yn oreu; ond y mae ein hufudd-dod i gyfraith yn ymddibynu, nid ar ein cymmeradwyaeth ni, ond ar ewyllys y deddfroddwr. Nid yw cynghor ond pwnc o ddarbwylliad; y mae cyfraith yn bwnc o awdurdod: nid yw cynghor yn gweithredu ond ar yr ewyllysgar; ond y mae cyfraith ar yr anewyllysgar hefyd. Gelwir hi yn *rheol* hefyd, i'w gwahaniaethu oddi wrth *gyfammod* neu *gytundeb*: o blegid, cytundeb sydd addewid yn myned oddi wrthym; cyfraith sydd orchymyn cyfeiriedig atom. Iaith cytundeb ydyw, "Mi a wnaf, neu Ni wnaf hyn," iaith cyfraith ydyw, "Gwna, neu Na wna hyn." Y mae yn wir fod cytundeb yn cynnwys rhwymedigaeth cyfartal i'r eiddo cyfraith; ond y mae gwreiddyn y rhwymedigaeth yn wahanol Mewn cytundeb, yr ydym yn gosod y rhwymau yn wirfoddol arnom ein hunain; mewn cyfraith, yr ydym yn rhwym i weithredu mewn dull penodol, heb unrhyw addewid neu ymgyfammodiad o'r eiddom ein hunain.

Y mae cyfraith hefyd yn rheol ymddygiad gwladol (*civil conduct*). Yma y gwahaniaethir cyfraith wladol oddi wrth gyfraith natur a dadguddiad. Y mae y rhai hyn yn rheolau i'n dyledswydd tuag at Dduw a'n cymmydog fel person unigol. Ond y mae cyfraith wladol yn nodi allan ein dyledswyddau tuag at ein cymmydog, nid fel dyn neu berson unigol, ond fel dinesydd neu wladwr — fel aelod o gymdeithas:—nid dyledswyddau natur a chrefydd, ond yr eiddo cymdeithas; sef, y dyledswyddau hyny yr ydym yn rhwym i'w cyflawnu tuag at ein gilydd fel aelodau o gymdeithas wladol, yn ad-dalad am fwynhau manteision y cyfryw gymdeithas, a'r rhai y mae eu cyflawnu yn anhebgorol er diogelu trefn a sefydlogrwydd y gymdeithas hono.

Y mae cyfraith hefyd yn "rheol wedi ei *chyhoeddi*," neu ei gwneuthur yn hysbys. Nid yw penderfyniad noeth yn meddwl y deddfwneuthurwr yn gyfraith, hyd nes yr amlyger ef trwy ryw arwydd allanol; y mae yn rhaid ei wneuthur yn hysbys i'r rhai sydd i ufuddhau iddo. Gall hyn gael ei wneuthur trwy draddodiad cyffredinol, neu hen arferiad, yr hyn sydd yn rhagdybied cyhoeddiad blaenorol; dyma sail yr hyn a elwir y "gyfraith gyffredin" (*common law*) yn Mhrydain. Neu, gellir gwneuthur y cyhoeddiad hwn mewn geiriau (*viva voce*) gan swyddogion penodedig i hyny, megys y gwneir â chyhoeddebau (*proclamations*), a'r cyfryw weithredoedd seneddol ag ydynt i'w darllen yn yr eglwysydd neu gyfryw gynnulliadau cyhoeddus. Neu ynte, gellir ei wneuthur trwy ysgrifen neu argraff, megys ag y gwneir yn gyffredin â deddfau seneddol. Ond pa ffurf bynag a ddefnyddir, y mae yn angenrheidiol i'r cyfreithiau gael eu hysbysu yn y modd mwyaf cyhoeddus, fel y gallo yr holl ddeiliaid fod mewn mantais i wybod pa bethau y mae y gyfraith yn eu gofyn oddi wrthynt. Nid yw y gyfraith i fod mewn grym chwaith ond ar ol y cyfryw hysbysiad cyhoeddus. Yn groes i hyn y mae y dull anghyfiawn o wneuthur deddf *ex post facto:* sef, pan y mae gweithred yn cael ei chyflawni, ddiniwed ynddi ei hunan, ond ar ol hyny yn cael ei chyhoeddi gan yr awdurdod wladol yn drosedd, a'r cyflawnydd o honi yn cael ei gospi. Y mae pob cyfraith i ddyfod i weithrediad, o ganlyniad, ar ol ei chyhoeddiad—o hyny allan (=*in futuro*), ac i'w hysbysu yn mlaen llaw. Ond wedi gwneuthur yr hysbysiad hwn, neu pan y mae y deiliaid mewn mantais i wybod beth yw y gyfraith, nid yw anwybodaeth o honi wedi hyny yn un esgus dros ei throseddu.

Y mae y gyfraith wladol eto yn rheol wedi ei hordeinio a'i chyhoeddi gan yr awdurdod uchaf yn y wladwriaeth. Y mae hyn yn perthyn i hanfod cyfraith; o blegid, heb hyn, y mae yn ddirym, ac nid yw yn rhwymo neb i ufuddhau. Mae yn rhaid fod rhyw awdurdod yn oruchaf yn mhob cymdeithas wladol, i gadw trefn, undeb, a chadernid y cyfryw gymdeithas. Gall yr awdurdod i lywodraethu, fel y dangoswyd o'r blaen, gael ei ennill trwy ryfel, gwaedoliaeth, neu ynte ddewisiad y mwyafrif o'r deiliaid. Ond yn mha wedd bynag y mae y llywodraeth yn cael ei chyfansoddi, dylai fod ynddi, i ryw fesurau, y tair priodoledd fawr sydd i berffeithrwydd yn y Brenin tragwyddol—doethineb, daioni, a gallu: doethineb i wybod pa beth a duedda i wir lesâd y deiliaid; daioni i amcanu yn gywir bob amser am gyrhaedd y llesâd hwnw; a gallu i gario y wybodaeth a'r amcan yna i weithrediad. Dyma sylfeini naturiol awdurdod wladol, ac nis gall unrhyw lywodraeth wasanaethu i lesâd y deiliaid hebddynt.

Gellir ystyried y gyfraith wladol o dan bedwar dosbarth cyffredinol:—y rhan fynegiadol, y rhan orchymynol, y rhan adferiadol, a'r rhan gospediaethol.

Nid yw y rhan *fynegiadol* yn ymddibynu cymmaint ar ddeddfau natur a dadguddiad, ag y dynt ar ddoethineb ac ewyllys y deddf-wneuthurwyr. Y mae yr hawliau hyny ag y mae Duw a natur wedi eu sefydlu, y rhai y gellir eu galw yn hawliau naturiol, megys bywyd, rhyddid, &c., yn eiddo pob dyn; nid oes gan y gyfraith wladol hawl i'w cwtogi na'u cymmeryd ymaith, os na bydd i'r meddiannydd gyflawnu rhyw weithred trwy ba un y bydd yn eu ffortfetio. Y mae pob dyledswydd hefyd a ddysgir gan ddeddf natur neu ddadguddiad, megys cynnaliaeth ein plant.

Digitized by Google

addoliad cyhoeddus y Goruchaf, mewn grym yn flaenorol i, ac yn annibynol ar, ordeiniad y gyfraith wladol. Yr un fath gyda golwg ar droseddau o'r gyfraith wladol, y rhai ydynt hefyd yn cael eu gwahardd gan gyfraith Duw, neu ydynt ynddynt eu hunain yn bechadurus, y rhai a elwir yn droseddau *mala in se;* megys, llofruddiaeth, lladrad, anudoniaeth, &c.: y mae cyfraith y tir yn eu gwahardd, nid am eu bod yn bechodau yn erbyn Duw, ond am eu bod yn bechodau yn erbyn cymdeithas. Adsain ydyw y gyfraith wladol, yn yr amgylchiadau hyn, o gyfraith y Goruchaf, a'i chymhwysiad at ddyn yn ei gymmeriad cymdeithasol, gyda golwg ar ddiogelwch a llesion y gymdeithas hono. Ond gyda golwg ar bethau ag ydynt ynddynt eu hunain heb fod yn ddrwg na da, y mae yr achos yn newid. Y gyfraith wladol sydd yn cyfansoddi, ac nid yn unig yn dadgan, y pethau hyn yn ddrwg neu dda, cyfreithlawn neu anghyfreithlawn, yn ol eu heffaith ar gymdeithas, a llesâd y wladwriaeth. Y mae lluaws mawr o'r cyfryw bethau yn cyfodi yn naturiol yn ffurfiad cymdeithas, ag y mae yn rhaid i'r gyfraith wladol benderfynu arnynt. Nis gall dyn fyw ond trwy lafur; o ganlyniad, y mae yn angenrheidiol am reolau o berthynas i gynnyrch llafur neu feddiannau. Y mae dynion drachefn dan angenrheidrwydd i gyfnewid gwahanol gynnyrchion â'u gilydd, trwy gytundebau a ffurfiau, o amrywiaeth diderfyn bron mewn ffurf a sylwedd. Y mae yn rhaid wrth reolau sefydlog o barth i'r cyfryw gytundebau a chyfnewidiadau, y rhai y gellir appelio atynt i benderfynu pob ymrafael. Y mae yr ordeiniad priodasol eto yn rhoddi bod eto i luaws o gwestiynau a allant gyfodi o barth i hawliau y naill blaid a'r llall ar feddiannau eu gilydd, a throsglwyddiad y meddiannau hyny i'w hiliogaeth, &c. Y mae y rheolau a'r gwahaniaethau hyn yn cael eu sefydlu gan yr awdurdod wladol, i ddybenion cymdeithasol. Ac hyd yn oed pan y mae y weithred yn cael ei chymhell gan ddeddf natur, y mae dull ac amgylchiadau ei chyflwyniad yn cael eu rheoleiddio gan gyfarwyddyd cyfreithiau y tir. Er esampl, y mae ufudd-dod i'r llywodraethwyr yn ddyledswydd a ddysgir gan ddadguddiad yn gystal a chrefydd natur; ond cyfraith y tir sydd i benderfynu pwy fydd y llywodraethwyr, ac i ba raddau, ac yn mha amgylchiadau, y maent i gael ufudd-dod.

Y mae y rhan *orchymynol*, neu *waharddiadol*, yn sefyll i fesur ar yr un tir a'r un fynegiadol; y mae pob un o'r ddwy mewn gwirionedd yn cynnwys ac yn tybied eu gilydd. Y mae y gyfraith sydd yn gwahardd unrhyw weithred, megys lladrata, yn cynnwys mynegiad fod y cyfryw weithred yn drosedd. Y mae y mynegiad, ar y llaw arall, fod unrhyw weithred yn groes i gyfraith y tir, yn cynnwys gwaharddiad i'w chyflawnu.

Y mae y rhan *adferiadol* o'r gyfraith yn canlyn mor naturiol oddi wrth y ddwy flaenorol, fel na byddai unrhyw gyfraith o nemawr werth hebddi. Ofer fuasai dadgan hawliau penodol, yn nghyd â gorchymyn ar iddynt gael eu cadw, pe na buasai rhyw ffordd i amddiffyn ac adferu yr hawliau hyny yn wyneb ymosodiad arnynt, neu ysbeiliad anghyfiawn o honynt. Er esampl, y mae y rhan fynegiadol o'r gyfraith yn hysbysu fod y tir a berthynai i dad Titius, trwy farwolaeth y tad, yn dyfod yn eiddo i Titius; y mae y rhan orchymynol drachefn yn gwahardd i neb gymmeryd neu fyned i feddiant un arall, heb ganiatâd y perchenog." Os bydd i Gaius ar ol hyn gymmeryd arno feddiannu y tir, y mae y rhan adferiadol o'r gyfraith yn cyfryngu; gwna i Gaius adferu y meddiant i Titius, ac hefyd dalu costau yn iawn am y camwri.

Y rhan olaf ydyw yr un *gospedigaethol*. Gan nad yw teimlad o rwymedigaeth a dyledswydd bob amser yn gymhelliad digonol i ddynion i ufuddhau, y mae yn rhaid arfogi y gyfraith â'r cymhelliad chwanegol hwn, o gospi am anufuddod. Y mae cyfreithiau dynol yn cael eu cefnogi a'u hargymhell yn hytrach trwy gospedigaethau na thrwy wobrwyon. Y mae dynolryw yn cael eu cymhell yn gryfach, fel y sylwa Locke, gan ofn drwg, na chan obaith am ddaioni. Y mae yn anmhosibl i gyfraith neu lywodraeth ddynol roddi gwobr benodol am bob gweithred o ufuddod, neu am yr ymarferiad o bob rhinwedd cymdeithasol. Ac nid yw hyny yn angenrheidiol o blegid, yn un peth, y mae y pethau hyn yn *ddyledswyddau*; ac heb law hyny, y mae ufuddod i'r cyfreithiau yn cael ei wobrwyo â diogelwch ac amddiffyniad y gyfraith ar ein personau, ein rhyddid, a'n meddiannau, yn nghyd â'r holl iawnderau cymdeithasol — yr hyn yw y wobr fwyaf dymunol y gall cyfraith ei rhoddi. Ond y mae cyssylltu cospedigaeth â throsedd o'r gyfraith yn hollol angenrheidiol er diogelwch cymdeithas; am fod yn mhob cymdeithas luaws mawr, os nad y mwyafrif, nad oes un ystyriaeth arall yn ddigon grymus i'w hattal rhag cyflawnu troseddau; a lluaws, fel y gwelir, nad ydynt yn cael eu hattal hyd yn oed gan yr ystyriaeth hono.

Y mae ysgrifenwyr ar foeseg, yn gyffredin, er amser Socrates a Cicero, yn dal allan fod cyfreithiau dynol yn rhwymo y gydwybod — fod ufudd-dod i'r llywodraeth yn ddyledswydd foesol. Mae rhai ysgrifenwyr ar lywod-ddysg, a Locke yn benaf yn eu plith, yn profi hyn trwy ddangos fod math o gytundeb cymdeithasol (*social compact*) yn sylfaen y berthynas rhwng y llywodraethwyr a'r deiliaid; a chan fod y cytundeb hwn yn rhwymo y pleidiau mor wirioneddol ag y mae cytundeb rhwng personau unigol yn gwneyd hyny, felly, fod y ddyledswydd o ufudd-dod i lywodraeth wladol yn dyfod o dan y rwymedigaeth gyffredinol o ffyddlondeb i addewidion. Gosodir allan y cytundeb hwn fel yn ddyblyg. Yn gyntaf, cytundeb pendant rhwng sylfaenwyr cyntaf y wladwriaeth a'u gilydd, gyda golwg ar iawnderau a pherthynasau y naill a'r llall; ystyrir y cytundeb hwn wedi ymgorffori yn y "cyfansoddiad" a deddfau y llywodraeth. Y cytundeb arall a olygir fel un tybiedig, neu yn cael ei gynnwys yn ngwaith y deiliaid yn derbyn amddiffyniad y llywodraeth. Y mae eu gwaith yn derbyn ac yn mwynhau amddiffyniad y llywodraeth yn cynnwys eu bod yn cydsynio i ufuddhau i ddeddfau y llywodraeth, heb yr hyn ni byddai yr amddiffyniad hwnw yn bosibl. Y mae Paley yn gwrthod y golygiad hwn, ac yn seilio rhwymedigaeth y deiliaid ar "ewyllys Duw fel y gellir ei chasglu oddi wrth fuddiolrwydd" (*the will of God as collected from expediency*). Dyma ei osodiadau:—1. Ewyllys Duw ydyw, ar fod i ddedwyddwch dyn gael ei ddwyn yn mlaen. 2. Y mae cymdeithas wladol yn tueddu at gyrhaedd yr amcan hwn. 3. Nis gall cymdeithas wladol barhau, os na bydd lles cyffredinol yr holl gyfundeb yn rhwymo pob rhan ac aelod unigol o hono; ac oddi wrth y pethau hyn y casgliad ydyw:—"Cyhyd ag y mae lles yr holl gymdeithas yn gofyn hyny, ewyllys

Digitized by Google

Duw (yr hon ewyllys sydd bob amser i benderfynu ein dyledswydd) ydyw, fod ufudd-dod i gael ei roddi i'r llywodraeth a sefydlwyd yn y wladwriaeth."

Nid oes angen am ymresymiad mor gwmpasog, o ran hyny, i brofi ewyllys Duw ar hyn, sef fod ufudd-dod i'r llywodraeth wladol yn rhwymedigaeth foesol, o blegid y mae yr Arglwydd wedi dadguddio ei ewyllys ar hyn yn eglur yn y Beibl. Dangosir i ni fod llywodraeth wladol yn ordinhâd ddwyfol, ac y mae ufudd-dod iddi yn cael ei orchymyn yn benodol ar y tir hwn:—

"Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel: canys nid oes awdurdod ond oddi wrth Dduw; a'r awdurdod y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio. Am hyny pwy bynag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw: a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iddynt eu hunain. Canys tywysogion nid ydynt ofn i weithredoedd da, eithr i'r rhai drwg. A fyni di nad ofnech yr awdurdod? gwna yr hyn sydd dda, a thi a gai glod ganddo. Canys gweinidog Duw ydyw efe i ti er daioni. Eithr os gwnei ddrwg, ofna; canys ni i yw efe yn dwyn y cleddyf yn ofer: o blegid gweinidog Duw yw efe dialydd llid i'r hwn sydd yn gwneuthur drwg. Herwydd pa ham angenrhaid yw ymddarostwng, nid yn unig o herwydd llid, eithr o herwydd cydwybod hefyd. Canys am hyn yr ydych yn talu teyrnged hefyd: o blegid gwasanaethwyr Duw ydynt hwy, yn gwylied ar hyn yma. Telwch gan hyny i bawb eu dyledion: teyrnged, i'r hwn y mae teyrnged yn ddyledus; toll, i'r hwn y mae toll; ofn, i'r hwn y mae ofn; parch, i'r hwn y mae parch yn ddyledus;" *Rhuf.* xiii. 1—7.

Y mae yn amlwg, oddi wrth hyn, mai dyledswydd pob aelod o gymdeithas, yn gystal a Christionogion yn neilldiol, ydyw ufuddhau i'r llywodraeth y maent dani; ond yn unig, fel y dangoswyd o'r blaen, pan y mae deddfau dynol wedi eu llunio yn wrthwyneb i ddeddfau y Goruchaf mewn natur a dadguddiad. Gan nad oes gan unrhyw allu dynol awdurdod o gwbl, ond fel y mae wedi ei osod ganddo ef, felly y mae ei awdurdod ef yn oruchaf yn ei hawl ar y gydwybod, a'i ddeddfau ef i gael ufudd-dod hyd yn oed pe byddai raid anufuddhau i bob deddf ddynol wrth wneyd hyny. Ond pan y mae deddfau gwladol yn orthrymus neu yn anghyfiawn mewn pethau heb fod yn cyfranogi o natur foesol, dyledswydd y deiliaid ydyw ufuddhau iddynt tra y parhaont mewn grym; ond yn y cyfamser, defnyddio pob moddion heddychol, rheolaidd, a chyfreithlawn, i'w cyfnewid a'u diwygio.

Dywed Alford, ar y gyntaf o'r adnodau a ddyfynwyd genym uchod (*Rhuf.* xiii. 1), fel y canlyn:—"Gallwn sylwi nad yw yr apostol yma yn cymmeryd i ystyriaeth o gwbl y cwestiwn o ddyledswydd Cristionogion mewn ysgogiadau chwyldroadol. Y mae ei gyfarwyddiadau ef yn golygu *gallu sefydledig*, pa beth bynag fyddo. Yn mhob peth cyfreithlawn, *yr ydym yn rhwym i ufuddhau i'r gallu hwn.* Ond nid yw hyd yn oed awdurdod rhieni yn ymestyn i bethau anghyfreithlawn. Os gorchymyna yr awdurdod wladol i ni droseddu cyfraith Duw, y mae yn rhaid i ni ufuddhau i Dduw o flaen dyn. Os gorchymyna i ni anufuddhau i ddeddau cyffredin dynoliaeth, neu sefydliadau cyssegredig ein gwlad, y mae ein hufudd-dod yn ddyledus i'r ddeddf uchaf a chyffredinol, yn hytrach nag i'r ddeddf isaf a neilldiol. Y mae yn rhaid i'r gwahaniaethau hyn gael eu gwneuthur yn ol y ddoethineb a roddwyd i Gristionogion yn amgylchiadau amrywiol helyntion dynol: nid ydynt oll ond rhanau israddol o'r ddyledswydd fawr o *ufuddhau i cyfraith.* Y mae cael symmudiad neu gyfnewidiad ar gyfraith anghyfiawn neu afresymol yn rhan arall o'r ddyledswydd hon; canys y mae yn rhaid i'r holl alluoedd sydd yn mysg dynion fod yn unol â'r gallu uchaf—y synwyr moesol. Ond hyd yn oed pan y mae cyfraith yn galed ac afresymol, nid *anufudd-dod*, ond *gwrth-dystiad cyfreithlawn*, ydyw dyledswydd y Cristion."

Y mae Cristionogion i gydymffurfio â chyfreithiau y tir, ac i weddio dros y rhai sydd yn eu llunio, er mwyn cael mantais a llonyddwch i gyrchu at ddybenion mawr bywyd: y maent i dalu diolch, &c., "dros freninoedd, a phawb sydd mewn goruchafiaeth," fel y gallont hwy "fyw yn llonydd ac yn heddychol mewn pob duwioldeb a gonestrwydd;" 1 *Tim.* ii. 1, 2.

Y maent i gydymffurfio fel hyn, o herwydd syniad Cristionogaeth am lywodraethwyr gwladol yw, eu bod wedi eu gosod gan Dduw. Gan fod Cristionogion i fod yn ddarostyngedig i Dduw, y maent i anrhydeddu Duw trwy ymostwng i'r swyddogion gwladol yr ystyrir eu bod yn sefyll mewn swyddau o appwyntiad Duw; hyny yw, dyma yr egwyddor gyffredinol: yr ydym i edrych ar lywodraeth wladol fel peth o osodiad Duw ac unol â'i ewyllys; ac, fel y sylwyd uchod, os na bydd y cyfreithiau yn gorchymyn troseddau amlwg o ddeddfau Duw, yr ydym i ymostwng iddynt.

Y mae y gair *cyfraith*, yn y Beibl, yn golygu, weithiau, gosodiad penodol yn y deddfau seremoniol; megys, "cyfraith y gwahanglwyf;" *Lef.* xiv. 57. Bryd arall, defnyddir y gair i osod allan orchymynion y ddeddf foesol: *Exod.* xxiv. 12. Defnyddir y gair hefyd am holl orchymynion Duw i Israel, fel yn ffurfio un corff o gyfreithiau priodol i'r Ddwyflywiaeth (*Theocracy*) Iuddewig: *Deut.* iv. 44, 45. Weithiau, golyga y gair Bum Llyfr Moses. Rhanai yr Iuddewon Ysgrythyrau yr Hen Destament i dri dosbarth—y gyfraith, yr ysgrifeniadau sanctaidd, a'r prophwydi: at y rhaniad hwn y cyfeiria ein Iachawdwr yn *Luc* xxiv. 44. Adnabyddid llyfrau Moses wrth yr enwad hwn, am mai ynddynt y cynnwysir hanes ac egwyddorion goruchwyliaeth y ddeddf; dan yr hon yr oedd crefydd yn cael ei harddangos yn barhäus ar wedd cyfraith; megys ag y mae y Testament Newydd yn grynodeb o hanes ac egwyddorion goruchwyliaeth yr efengyl, dan yr hon y mae crefydd yn ymwisgo ar wedd cariad: *Ioan* x. 34. Bryd arall, defnyddir y gair yn fynych am yr holl ddadguddiad dwyfol, i ddynodi ei awdurdod fel rheol anffaeledig ffydd ac ymarweddiad: *Salm* i. 2; xix. 7—9; cxix. 1, 18, 29, 24, &c. Gelwir yr efengyl yn "berffaith gyfraith rhyddid;" *Iago* i. 25. Mae yn "gyfraith" am ei bod yn ordeiniad arbenig gan Dduw yn nheyrnas ei ras, y rheol wrth ba un y mae Ete yn gweinyddu goruchwyliaeth ei drugaredd at fyd euog, a'r un awdurdod ddwyfol y tu cefn i'w holl osodiadau hi ag sydd y tu cefn i'r eiddo y ddeddf. Ond y mae yn "gyfraith rhyddid," fel y mae yn rhyddhau oddi wrth ofn a chaethiwed y ddeddf, a beichiau trymion y defodau Iuddewig. Rhyddid mewn rhwymau ydyw, heb yr hyn nis gall un rhyddid gwirioneddol hanfodi. Ei rhwymau ydyw gwirionedd, cariad, a sancteiddrwydd; yn yr hyn bethau y mae unig ryddid gwirioneddol dyn yn gynnwysedig.—(*Stephens' and Black-*

Digitized by Google

Bone's Commentaries on the Laws of England; National Cyclopædia; Robert Hall's Works; Paley's Political Philosophy, &c., &c.)

CYFRAITH MOSES.

AMGYLCHIADAU RHODDIAD Y DDEDDF.

Ar y dydd cyntaf o'r trydydd mis ar ol dyfodiad Israel o'r Aipht, y gwersyllasant wrth droed mynydd Sinai: *Exod.* xix. 1. Fe ddichon fod y golofn gwmwl wedi ymgodi ac ymsefydlu ar y mynydd, er mwyn dangos y byddai eu harosiad yno yn hwy. Gwyddai Moses cyn eu cychwyniad o'r Aipht y byddai i'r genedl wasanaethu Duw ar y mynydd hwn: *Exod.* iii. 12. Esgynodd, gan hyny, i'r mynydd, er mwyn derbyn cyfarwyddiadau pellach pa fodd y byddai i hyny gymmeryd lle. Gorchymynwyd iddo i "fynegu wrth feibion Israel: Chwi a welsoch yr hyn a wnaethym i'r Aiphtiaid, &c.; a chwi a fyddwch i mi yn freniniaeth o offeiriaid, ac yn genedlaeth sanctaidd." Disgynodd Moses gyda'r genadwri hon o'r mynydd, ac a'i gosododd ger bron yr henuriaid, cynnrychiolwyr y bobl, y rhai a dystiasant eu parodrwydd i wneuthur cyfammod â Duw. Yn y cyfammod hwn yr oedd yr Arglwydd yn cymmeryd y genedl i fod yn bobl briodol iddo ei nun o holl genedloedd y ddaiar, ac yn rhoddi ei hun iddynt yn frenin; gan sefydlu yn eu plith ei lywodraeth neilluol ei hun, fel sail a rhagbarotoad i gyhoeddiad y ddeddf yn eu mysg, yr hon, gan hyny, sydd yn dechreu gyda'r geiriau "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw." Ar ol i'r holl bobl gynnulledig ddadgan trwy eu henuriaid eu parodrwydd i gyflawnu ammodau y cyfammod, ac i wrandaw ar lais yr Arglwydd, addawodd yr Arglwydd wrth Moses i ymddangos mewn cwmwl tew, o'r hwn y gallai y bobl glywed ei lais, ac fel y caffont brawf fod Moses wedi ei wisgo âg awdurdod ddwyfol. Yr oedd y bobl i dreulio dau ddiwrnod i barotoi eu hunain i wrandaw ar lais yr Arglwydd. A chan fod y mynydd i fod yn eisteddle amlygiad Duw o hono ei hun, yr oedd yn rhaid ei sancteiddio ef; hyny yw, gwahanu rhyngddo a mynyddoedd ereill y fro. Gwnaethpwyd hyn trwy osod terfyn o'i amgylch, fel na chyffyrddai llaw na throed âg ef; a pha un bynag ai dyn ai anifail a gyffyrddai â'r mynydd, ni chaffai fyw; o herwydd, trwy ymddangosiad Duw arno, yr oedd yn lle sanctaidd. Ar y trydydd dydd (deng niwrnod a deugain, y mae yn debygol, ar ol eu dyfodiad o'r Aipht) "yr oedd taranau a mellt, a chwmwl tew, ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf iawn:" *Exod.* xix. 16—23; *Deut.* v. 22. Arweiniodd Moses y bobl ddychrynedig allan i gyfarfod Duw, a hwy a safasant yn ngodre y mynydd. Yr oedd mynydd Sinai i gyd yn mygu, ac yn crynu yn ddirfawr, a disgynodd yr Arglwydd arno mewn tân. Esgynedd Moses i'r mynydd, ond derbyniodd orchymyn i ddisgyn eilwaith, i roddi y bobl ar eu gwyliadwriaeth rhag rhuthro trwy y terfynau gosodedig. Ar ol y gocheliadau hyn, y rhai a roddwyd i'r offeiriaid hefyd (sef yr henuriaid neu gyntafanedigion y bobl, o herwydd nid oedd offeiriadaeth Aaron wedi ei gosod), llefarodd yr Arglwydd allan o dân a mwg y mynydd, mewn llais uchel, y DENG AIR. Clywodd yr holl bobl lais Duw, a daliwyd hwynt â dychryn, fel y dywedodd penaethiaid y llwythau a'r henuriaid wrth Moses, "Llefara di wrthym ni, a nyni a wrandawn: ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw." Cymmeradwyodd yr Arglwydd eu cais (*Deut.* v. 28); ac o hyn allan, y mae Moses yn gyfryngwr y cyfammod hwnw trwy ddewisiad y ddwy blaid. Ac fel y cyfryw, esgynodd yr ail waith i'r mynydd gydag Aaron, i'r dyben o dderbyn gorchymynion a threfniadau pellach oddi wrth Iehofah. Y deg gorchymyn, y rhai a glywodd y bobl eu hunain o enau Duw, ydoedd sylfaen yr holl gyfundrefn o ddeddfau a roddwyd trwy Moses i'r bobl.

Mae y deg gorchymyn yn cynnwys egwyddorion i lywodraethu holl berthynasau dyn yn eu cyssylltiad deublyg:—yn 1 Tuag at Dduw, fel eu Brenin a'u Tad; ac, yn 2. Tuag at ddynion, fel eu brodyr, wedi eu creu ar ddelw Duw. Y mae cariad at Dduw ac at ein cymmydog yn eu cynnwys oll: *Deut.* vi. 5, &c.; *Lef.* xix. 18; *Mat.* xxii. 37, &c. Cariad yw cyflawnder y gyfraith: 1 *Tim.* i. 5; *Rhuf.* xiii. 10; *Col.* iii. 14. Gan fod ysbryd y deg gorchymyn yn cynnwys cymdeithas sanctaidd â Duw fel Tad, a thrwy hyny â dynion fel brodyr, y mae eu hegwyddorion i lywodraethu pob cymdeithas fyddo yn unol âg ewyllys Duw, yn eglwysig ac yn wladol, nid yn unig yn mhlith cenedl Israel, ond yn mhlith pob cenedl, a phob amser. Gwel DEG GORCHYMYN.

Moses, fel cyfryngwr cyfammod Sinai, a dderbyniodd gan Dduw, ac a roddodd i'r bobl, yr holl ddeddfau a'r gorchymynion pellach a fwriadwyd i egluro y deg gorchymyn, yn nghyd â'r trefniadau a'r gosodiadau gwladol ac eglwysig: *Deut.* v. 5. 24—31. (Yn hyn yr ydoedd Moses yn gysgod o Grist: 1 *Tim.* ii. 5; *Heb.* iii. 5; ix. 15; xii. 24.) Yr oedd cyhoeddiad y deg gorchymyn yn uniongyrchol gan Dduw, eu hysgrifeniad gan fys Duw ar ddwy lech faen, a'u cadwraeth yn arch y cyfammod, yn ddangosiad o'u pwysigrwydd arbenig a'u parhâd anghyfnewidiol.

Yn raddol y rhoddwyd y cyfreithiau neilluol a sylfaenesid ar y deg gorchymyn: mewn rhan, yn ysbaid eu harosiad am flwyddyn wrth droed Sinai (*Exod.* xxi—xxiii; xxv—xxxi; xxxiv—xl: y gosodiadau seremoniol a geir yn Llyfr Leviticus, a hefyd yn *Num.* i—vi, viii, ix); mewn rhan ar eu taith trwy yr anialwch (*Num.* v. 17—19); ac mewn rhan, yn niwedd eu taith, cyn eu mynediad i Ganaan: *Num.* xxvii—xxx; xxxiv—xxxvi; *Deut.* iv, xxvi. Yr oedd y chwanegiadau hyn yn cael eu gwneuthur at y gyfraith fel yr oedd proflad ac ymchwiliad i amgylchiadau dyrys a godai yn galw am danynt, mewn trefn i gyflawnu, i cangu, ac i egluro y rhai oedd eisoes wedi eu rhoddi. Yn y manau canlynol, ceir anghreifftiau fod y gyfraith yn derbyn chwanegiadau, er mwyn cyfarfod gwahanol droseddau a gymmerent le: *Lef.* xxiv. 10, &c.; *Num.* xv. 37; *Deut.* xxii. 12.

Ar ol cyhoeddiad y deg gorchymyn, derbyniodd Moses ar y mynydd gyfres o farnedigaethau eglurhaol, i gyfarfod yr amgylchiadau a ddygid ger ei fron yn feunyddiol i'w pendertynu. Gellid eu dosbarthu hwythau hefyd yn ddegau (*Exod.* xxi—xxiii. 19); a chwanegir addewidion am eu cyflawniad: *Exod.* xxiii. 20—33. Wedi i'r bobl adnewyddu eu haddewid i gadw yr holl bethau a orchymynodd yr Arglwydd iddynt, ysgrifenodd Moses hwynt yn llyfr y cyfammod. Ar ol adeiladu allor islaw y mynydd gyda deuddeg colofn (goffadwriaethol), offrymasant boeth-offrymau, a thaenellwyd hanner y gwaed ar yr allor, a'r hanner arall ar y bobl, gan ddywedyd, "Wele waed y cyfammod, yr hwn a wnaeth yr Arglwydd â chwi, yn ol yr holl eiriau hyn. Yna yr esgynodd Moses gydag Aaron, Nadab, ac Abihu, a deg a

Digitized by Google

thrigain o henuriaid Israel, i'r mynydd sanctaidd. Yno y gwelsant Dduw, a bwytasant ac yfasant, fel arwydd o gymdeithas trwy gyfammod âg ef. Arosodd Moses, ar orchymyn Duw, am ddeugain niwrnod a deugain nos ar y mynydd, i dderbyn y gorchymynion o law Duw, y rhai a ysgrifenasid ar ddwy lech faen er arddangos eu parhâd a'u hanghyfnewidioldeb; ac hefyd i dderbyn cyfarwyddiadau mewn perthynas i osodiadau cysgodol gwasanaeth Duw (*Exod.* xxv, xxxi). yr hyn a gymmerodd le mewn rhan trwy roddi iddo bortreiadau gweledig o'r hyn oedd i'w wneuthur: *Exod.* xxv. 9, 40; xxvi. 30; *Act.* vii. 44. Ar ol i Moses, mewn eiddigedd, o herwydd addoliad y llo aur, dori llechau y gyfraith, rhoddwyd iddynt ddwy lech newydd, mewn canlyniad i edifeirwch y bobl a gweddi Moses, y rhai a naddwyd gan Moses, ond a ysgrifenwyd arnynt, yr holl eiriau oedd ar y llechau cyntaf, gan fys Duw ei hun: *Exod.* xxxii; *Deut.* ix. 8, &c. Felly, adnewyddwyd y cyfammod, yr hwn a dorwyd mor fuan trwy eilunaddoliaeth, yn ei addewidion a'i ddyledswyddau: *Exod.* xxxiv.

Gellir dosbarthu yr holl gyfansoddiad eglwysig a gwladol, yn nghyd â gwahanol gyfreithiau y cyfammod cyntaf, dan y penau canlynol:—

I.—Y DDWYFLYWIAETH (*Theocracy*), NEU LYWODRAETH NEILLDUOL DUW AR GENEDL ISRAEL.

Y mae eu holl gyfansoddiad gwladol ac eglwysig yn sylfaenedig ar y ffaith fod y Duw anweledig a sanctaidd, Creawdwr nefoedd a daiar (*Exod.* xix. 5). wedi dyfod i berthynas neilldduol â hwy, trwy gyfammod â'u tadau (*Gen.* xii. 1; xiii. 15, &c.; xv. 18; xvii. 2; xxvi. 3; xxviii. 13; *Exod.* iii. 6; vj. 2), yn gystal a thrwy gyfammod â hwy eu hunain; a thrwy rinwedd y berthynas hon, ei fod ef mewn modd arbenig yn frenin arnynt, a hwythau yn bobl briodol iddo ef (*Deut.* iv. 20); fod Israel yn fab iddo, ei gyntafanedig (*Exod.* iv. 22)—ei drysor priodol, ei briodoriaeth (*Exod.* xix. 5; *Lef.* xxvi. 12; *Deut.* vii. 6; xiv. 2; *Salm* cxxxv. 4); ac y bydd iddo lywodraethu yn uniongyrchol yn eu mysg, trwy amlygiad arbenig o'i bresennoldeb, fel y mae brenin daiarol yn llywodraethu yn mysg ei ddeiliaid: *Barn.* viii. 23; 1 *Sam.* viii. 7; *Esa.* xxx. 12; *Exod.* xv. 18. Y mae yn tarddu o hyn mai—

1. Efe yw eu hunig *Ddeddfwr.* Llefarai barnwyr yn ei enw ef, a gosodid achosion ger ei fron: *Deut.* xix. 17. Rhagwelwyd yr amgylchiad pan y byddai y bobl yn gwaeddi am frenin gweledig, sef dyn, fel y cenedloedd ereill: yr oedd hwn i fod yr hwn a ddewisai yr Arglwydd, ac yr oedd i gymmeryd cyfraith yr Arglwydd yn rheol ei fywyd a'i lywodraeth: *Deut.* xvii. 14—20. Fel canlyniad o hyn, yr oedd y cyfansoddiad gwladol ac eglwysig, y trefniadau crefyddol, a'r cyfreithiau gwladwriaethol, yn yr undeb agosaf, ac yn gymhlethedig â'u gilydd. Ymddengys hyn yn y modd yr ymgyferfydd gwasanaeth crefyddol a chospedigaethau barnol yn y pechaberth a'r aberth dros gamwedd, ac hefyd yn y modd y cyssylltir yr holl gyfarwyddiadau i sicrhau glendid yn y gwersyll a'r meddwl am bresennoldeb sanctaidd Duw: *Deut.* xxiii. 10, &c. Y trosedd duaf yn erbyn y cyfansoddiad eglwysig, sef *eilunaddoliaeth*, ydoedd hefyd y trosedd trymaf yn ngwyneb y gyfraith wladol. Yr ydoedd nid yn unig yn bechod yn erbyn Duw fel Creawdwr nefoedd a daiar, ond hefyd yn wrthryfel ac yn deyrnfradwriaeth yn ei erbyn fel brenin Israel; ac yr ydoedd i'w gospi â marwolaeth: *Deut.* xiii. 9; xvii. 2. Cyfarfyddir â deddfau yn barhaus trwy holl lyfrau y gyfraith yn erbyn eilunaddoliaeth fel trosedd yn erbyn mawrhydi Duw, ac hefyd yn erbyn y troseddau sydd yn gyssylltiedig âg ef; megys swynyddiaeth, brudiaeth, hudoliaeth, bwyta gwaed, aberthau dynol, ac ymgymmysgu âg eilunaddolwyr: *Exod.* xxii. 18, 20; xxiii. 13, 32, &c.; xxxiv. 11, &c.; *Lef.* iii. 17; xvii. 11; xix. 26; xx. 6, 27; *Deut.* vi. 7, 12, 13; xviii. 9; xxiii. 18.

2. Yr Arglwydd ydyw *Gwaredwr* ei bobl. Y mae hyn yn cynnwys, 1af. Eu rhwymedigaeth i ufudd-dod tuag ato, oddi ar gariad diolchgar, yn gorphwys ar argyhoeddiad y galon: *Exod.* xix. 8; *Deut.* iv. 35, &c.; xxx. 11—16. Fel y mae y ddeddf yn rhagdybied rhyddid, ac yn gorchymyn ufudd-dod rhydd, yn enwedig gan ei bod yn seiliedig ar gyfammod neu gytundeb rhwng yr Arglwydd a'r bobl (*Exod.* xix—xxiv), y mae hi yn gosod i lawr sail rhyddid *gwladol.* Gan fod yr Arglwydd wedi rhyddhau ei bobl o gaethiwed, ac wedi eu dewis i fod yn genedl rydd, a hyny pan yr oedd holl genedloedd y dwyrain yn ngafael y caethiwed dyfnaf, gorphwysai arnynt—2il. Y *ddyledswydd* o gadw eu rhyddid fel rhodd oddi wrth Dduw, a gofalu i beidio syrthio yn ol dan gaethiwed i ddynion. 3ydd. Eu dyled i *gydnabod yr Arglwydd* fel unig berchenog y wlad a roddwyd iddynt i fod yn breswylfa. Yr oedd eu rhwymedigaeth i hyn yn tarddu oddi ar fod yr Arglwydd wedi eu huno â'u gilydd trwy gyfreithiau doeth a chyflawn yn un deyrnas, ac wedi eu ffurfio yn wladwriaeth sefydlog mewn gwlad ffrwythlawn, yn lle bod yn genedl grwydraidd heb un lle arosol: *Deut.* iv. 5—9; viii. 7, &c. Yn chwanegol at hyn, yr oedd pob Israeliad i ddal ei dir yn uniongyrchol oddi wrth yr Arglwydd, ac nid allent golli y meddiant o hono mor bell fel na ddeuai yn ol iddynt drachefn yn mlwyddyn y Jubili. [Gwel JUBILI.] Fel yr amddiffyniad mwyaf effeithiol i'w rhyddid personol a dinesig, yr oedd yn rhaid i bob gwas fyned yn rhydd yr un amser: *Lef.* xxv. 23—55.

3. Yr oedd yr Arglwydd yn wastadol yn eu plith, fel eu *Barnwr a'u Llywydd.* Nid yn unig yr oedd yn eu mysg mewn ystyr cyffredinol, yn bendithio ac yn cospi yn unol â'i addewidion a'i fygythion (*Lef.* xxvi. 3, &c.; *Deut.* xxviii. 1, &c.); ond cyfryngai mewn amgylchiadau neilldduol i weinyddu cosp ar yr euog, megys mewn llosgach a thor priodas. [Gwel yr erthygl.] Amlygiadau o lywodraeth uniongyrchol Duw yn eu mysg oedd yr arferiad o ddefnyddio y *coelbren* i benderfynu achosion tywyll; ac hefyd, y cyfarwyddyd i ymofyn â'r *Urim* a'r *Thumim.* [Gwel yr erthygl.] Prawf o'r un peth oedd gwaith y *prophwydi* yn llefaru yn uniongyrchol yn enw Duw wrth dywysogion a breninoedd. Ond sail a natur neilldduol y llywodraeth hon, o eiddo yr Arglwydd, ydoedd y gyfraith:—trwyddi hi yr ydoedd yn llywodraethu ar ac yn y bobl; ac nid oedd gan na'r offeiriaid na'r prophwydi hawl i osod i fyny ddim, ond yn unig i arwain y bobl yn ol at y gyfraith: *Deut.* xiii. 1, &c.

4. Yr oedd y cwbl a delid mewn ffordd o *dreth,*—megys y degymau, y blaenffrwyth, a'r siel santaidd [gwel yr erthygl], yn perthyn i wasanaeth Duw. Yr oedd y cwbl yn cael ei godi yn y dull esmwythaf a mwyaf naturiol i genedl o berchenogion tiroedd, a defnyddid y cwbl er lles y genedl: *Deut.* xiv. 22; xvi. 11, &c.

5. Nid yn unig yr oedd yr Israeliaid i gydnabod mewn dull cyffredinol eu dibyniad ar Dduw, gan

Digitized by Google

ymostwng ger bron ei Fawrhydi ofnadwy (*Deut.* iv. 24; v. 24; *Esa.* viii. 13); ond eu dyledswydd hefyd oedd cydnabod mai o'i law ef yr oeddynt yn derbyn pob peth — eu bywyd, eu tir, a'u meddiannau. Yr oedd yr aberth diolch yn arwydd sacramentaidd fod yr aberthwr yn derbyn gan Dduw, ac nid yn ymddangos ger ei fron fel rhoddwr, gan ei fod yn cael cyfranogi o wledd yn nhŷ Dduw ac wrth ei fwrdd. Yr oedd holl fwynhâd dyn, yn gystal a'i weithredoedd, i gael eu sancteiddio trwy gael ea cyfeirio ato ef. Yr oedd y parch mwyaf yn ngwyneb sancteiddrwydd a chyflawnder Duw, a'r diolchgarwch gwresocaf yn ngwyneb ei ddaioni a'i drugaredd, yn ymuno â'u gilydd i rwymo y bobl mewn ufudd-dod parod iddo fel eu Harglwydd a'u Brenin.

II.—Y CYFANSODDIAD EGLWYSIG MEWN MODD NEILLDUOL.

1. Preswyliai yr Arglwydd yn mhlith ei bobl mewn man penodol, ac yr ydoedd y lle hwnw yn *lle sanctaidd*. Er fod yr ail orchymyn yn gwahardd gwneuthur llun o Dduw; eto, yr ydoedd efe yn preswylio mewn modd arbenig yn eu plith, ond nid fel ag i'w weled megys wyneb yn wyneb (*Exod.* xxxiii. 23); ond dadguddiai ei hun iddynt mewn colofn o niwl ac mewn colofn o dân: *Exod.* iii. 2; xiii. 21; xiv. 19; xvi. 10; xix. 9; xx. 21; xxiv. 16—18; xxv. 22; xxx 6, 36; xxxiii. 7—10; xxxiv. 5; xl. 34—38; *Lef.* ix. 23; *Num.* ix. 15—23; *Deut.* iv. 11—19; v. 22; 1 *Bren.* viii. 10. Ymostyngodd i gyfarfod dymuniadau naturiol ei bobl, trwy roddi amlygiad gweledig o hono ei hun iddynt, yn y Shecinah, mewn man penodol; ac o ganlyniad, efe a ddewisodd le i drigo yn nghanol ei bobl, ac yno i ddadguddio ei hun iddynt. Ac er iddo orchymyn iddynt adeiladu iddo gyssegr, fel y preswyliai yn eu mysg (*Exod.* xxv. 8; xxviii. 43), ac fel y llefarai wrthynt oddi ar y drugareddfa (*Exod.* xxv. 22), eto, nid ydoedd yn cyfyngu ei breswyliad i'r ddaiar, nac i un man penodol o honi. Yr oedd credinwyr yr oruchwyliaeth hono yn deall hyn (1 *Bren.* viii. 27; *Esa.* lxvi. 1); ond yn y cyssegr yr oedd yr Arglwydd yn dwyn tystiolaeth iddo ei hun mewn modd ag y gallesid ei weled a'i glywed; ac o herwydd hyny y gelwid y babell yn "babell y dystiolaeth:" *Num.* ix. 15. Ei breswylfa gyntaf oedd pabell yn cynnwys dwy ystafell arbenig, ac yn amgylchu y cwbl yr oedd cyntedd. Deallir hyn yn gyffredin fel yn arwyddo y gwahaniaeth graddau sydd yn mhreswyliad Duw gyda'i eglwys; ond yn ol Luther, arwydda breswyliad Duw gyda dyn mewn ysbryd, enaid, a chorff. O amser Solomon, y deml oedd preswylfa Duw, yr hon oedd wedi ei hadeiladu yn y modd ardderchocaf o gedrwydd, marmor, ac o feini gwerthfawr, ond yn cynnwys yr un prif raniadau ag oedd yn y babell. Gelwid y gyntaf o'r ddwy ystafell, y lle neu y cyssegr sanctaidd; ac ynddi yr oedd yr *allor aur*, y *canwyllbren*, a *bwrdd y bara gosod*—yn arddangos addoliad, goleuni, a chymundeb yr eglwys: yn yr ail ystafell, yr hon a elwid y cyssegr sancteiddiolaf, yr oedd *arch* y cyfammod, a'r *drugareddfa* wedi ei gorchuddio â cherubiaid, a rhwng y cerubiaid yr oedd yr arwydd neillduol o bresennoldeb Iehofah; ac o herwydd hyn y dywedir fod yr Arglwydd yn eistedd rhwng y cerubiaid. Yn y cyntedd allan, yr oedd *allor y poeth-offrwm* a'r *noe bres*. Yr oedd dodrefn y deml yn gyffelyb i ddodrefn y tabernacl, ond eu bod yn fwy, ac yn fwy costus; ond ni wnaethpwyd yr arch a'r drugareddfa yn newydd: *Exod.* xxv—xxvii; *Lef.* xxiv. 1, &c.; 1 *Bren.* vi, vii. Y lle hwn *yn unig* oedd canolbwynt holl wasanaeth Duw; felly yr oedd yr aberthau, y gwasanaeth crefyddol, yr amseroedd sanctaidd, y gwyliau blyneddol, y personau sanctaidd, yr archoffeiriaid a'r offeiriaid, oll yn gyssylltiedig annattodol â'r lle hwn: *Lef.* xvii. 1—9; *Deut.* xii. 11. Pan ymddangosai yr Arglwydd mewn man arall, yr ydoedd yn angenrheidiol offrymu iddo yn y lle hwnw; ond nid oedd yr angenrheidrwydd hwnw yn parhau ond am ychydig, sef tra y parhäai y presennoldeb dwyfol: *Barn.* xiii. 19. Yr oedd yr holl dir yn mha un y preswyliai yr Arglwydd gyda'i bobl yn sanctaidd; ond yn enwedig y ddinas sanctaidd, y mynydd sanctaidd, a'r cyssegr sanctaidd.

2. Yr oedd y bobl yn *genedl sanctaidd*. Gellir dosbarthu y pen hwn i *bersonau* a *gweithredoedd sanctaidd*. Trwy breswyliad y Duw Sanctaidd yn eu mysg, eu perthynas gyfammodol âg ef, yn nghyd â'r manteision a ddeillhai iddynt o hyny, yr oeddynt hwythau yn bobl sanctaidd (*Exod.* xix. 6; *Lef.* xi. 44; xix. 2; xx. 7; *Deut.* vii. 6; xiv. 2; *Salm.* xv. 1—5), yn cael eu didoli oddi wrth y cenedloedd paganaidd, ac oddi wrth ffleidd-dra eilunaddoliaeth, i wasanaethu y Duw byw. O herwydd hyn y gelwid hwynt yn *frenindd offeiriaduaeth*, yn gystal ag mai iddynt hwy yr ymddiriedwyd yr oraclau dwyfol, ac felly mai hwynt-hwy oedd i fod yn gyfrwng bendith i'r byd: *Rhuf.* iii. 2; *Salm* cxlvii. 19; *Ioan* iv. 22; *Esa.* iii. 2. Yr oedd yr *holl* genedl i fod yn sanctaidd, ac nid rhyw un dosbarth; a *holl* fywyd y genedl i fod yn *un* gwasanaeth sanctaidd i Dduw. Nid oeddynt i halogi eu cyrff trwy fwyta creaduriaid *aflan* (*Lef.* xi; xx. 25; *Deut.* xiv. 2—21); ac yn hyn yr oedd arddangosiad cysgodol yn cael ei gadw yn barhäus o flaen y llygad o burdeb moesol. Fel yr oedd yr Arglwydd yn mynu didoli Israel oddi wrth ffleidd-dra y paganiaid, felly yr oedd y bobl i wahaniaethu rhwng y creaduriaid glân ac aflan: *Lef.* xx. 24—26; *Act.* x. 10—16. Yr oedd pawb oedd wedi eu haflanhau gan y gwahanglwyf, y dyferlif, neu trwy gyffwrdd â'r marw, &c., i gael eu hanfon o'r gwersyll: *Num.* v. 1—4; *Deut.* xxiii. 9—14. Nid oedd yr un dispaddedig, na basterdyn, nac Ammoniad, na Moabiad, i ddyfod i gynnulleidfa yr Arglwydd: *Deut.* xxiii. 2, &c. Yr oedd pob gwryw o Israel, o ddechreu ei fywyd, i gael ei *enwaedu*, fel arwydd o sancteiddiad: *Deut.* x. 16; xxx. 6; *Ier.* iv. 4; *Rhuf.* ii. 29. Gorchymynwyd hyn yn gyntaf i Abraham (*Gen.* xvii. 6), ac adnewyddwyd ef trwy Moses: *Lef.* xii. 3.

Fel yr oedd rhai personau o'r bobl gyfammodol yn meddu cyssegredigaeth neillduol, felly yr oedd rhai gweithredoedd o'u bywyd cyffredin hwy yn meddu sancteiddrwydd arbenig.

1af. *Personau sanctaidd* oedd—[1.] yn wreiddiol, tra y parhäai y cyfansoddiad patriarchaidd, y *cyntafanedigion*: *Exod.* xiii. 2; *Num.* xviii. 16. Yn eu lle hwy daeth—[2.] *Llwyth Lefi* (*Num.* iii. 12; viii. 5; xvi. 10), wedi eu dosbarthu i dair gradd, yn cyfateb i dair rhan y cyssegr:—(1.) Y *Lefiaid*, etifeddiaeth y rhai yw yr Arglwydd; a'r rhai, o herwydd eu ffyddlondeb, a droisant felldith eu tad yn fendith: *Exod.* xxxii. 26—29; *Deut.* xxxiii. 9, &c. (2.) *Yr offeiriaid*, sef teulu Aaron, i'r rhai y perthynai aberthu ac arolygu holl wasanaeth y cyssegr, dysgu y deddfau i'r bobl (*Deut.* xxxiii. 10; *Lef.* x. 11; *Mal.* ii. 7), enwaedu, a'r puredigaethau. Perthynai iddynt hwy hefyd gyhoeddi barn yn ol cyfraith yr

Digitized by Google

Arglwydd: *Deut.* xvii. 8, &c. (3.) Yr *archoffeiriad*, i'r hwn y perthynai y cyssegredigaeth mwyaf. Gwahaniaethid ef oddi wrth yr holl bobl trwy ei eneiniad, ei wisgoedd, gwahanol drefniadau ei fywyd, a dyledswyddau ei swydd: *Lef.* viii—x; *Num.* xviii. Yr oedd y gweddill o lwyth Lefi yn cynnorthwyo yr offeiriaid yn eu gwasanaeth. (4.) Y *Nazareaid* (*Num.* vi. 1—21), sef y cyfryw rai o'r llwythau ereill ag a ddewisent gymmeryd adduned am eu hoes, neu am dymmor byr, i ymneilldua i'r Arglwydd a'i wasanaeth, yr hyn a roddai arnynt radd o gyssegredigaeth offeiriadol. (5.) Heb law yr offeiriaid, fel cyfryngau cyffredin ewyllys Duw, codid, o bryd i bryd, rai anghyffredin, wedi eu gwisgo âg awdurdod anghyffredin, sef y *prophwydi.*

2il. *Gweithredoedd sanctaidd* ydoedd y rhai a gyflawnid yn unol âg ewyllys Duw, naill ai—[1.] I wneuthur cymmod dros y pechodau a gyflawnid, yn wybyddus neu mewn anwybod, ac i orchuddio yr affendid naturiol a moesol oedd yn aflanhau y bobl, ac yn eu cau allan oddi wrth gymdeithas Duw a rhagorfreintiau y cyssegr. Neu, [2.] Y cyfryw ag a gyflawnid i dystio eu bod mewn heddwch â Duw, ac yn cyflwyno eu hunain yn wirioddol ac yn ddiolchgar i'w wasanaeth ef, a'r cyfryw ag a ordeiniwyd i dystio eu hundeb a'u cymdeithas â'i bobl. Yr oedd rhan fawr o wasanaeth y cyssegr wedi ei osod i gyrhaedd yr amcan cyntaf, a rhan i gyflawnu yr ail; yr oedd gweithredoedd ereill drachefn yn gwneuthur y ddau ar unwaith. I'r cyntaf y perthynai y *poethoffrwm*, yr *aberth dros bechod*, a'r *aberth dros gamwedd* (*Lef.* i. 6, iv. a v); a chyda'r aberthau hetyd, y gwahanol seremoniau trwy ba rai yr oedd yn rhaid glanhau y gwahanglwyfus (*Lef.* xiii—xv), y neb a gyffyrddai â chorff marw (*Num.* xix), yr hon a esgorai, &c. I'r un dosbarth y perthynai yr hanner siel, a roddid yn iawn dros einiioes pob un i'r Arglwydd: *Exod.* xxx. 12, &c. Dyben yr *aberth hedd* a'r *offrwm diolch* oedd, dangos cyflwr o heddwch â Duw, a chyflwyniad i'w wasanaeth: *Lef.* iii; vii. 29, &c.; xix. 5, &c. I'r un dyben yr oedd offrwm yr *arogldarth, gweddi*—o'r hyn yr oedd yr arogldarth yn gysgod—*bendith* yr offeiriad, *addunedau*: *Lef.* xxvii; *Num.* xxx; *Deut.* xxiii. 21. Mewn adduned yr oedd rhywbeth yn cael ei gyssegru i Dduw; yr hyn, os attelid ef, a dorai ar y gymdeithas â Duw. Defnyddid y *blaenffrwyth* (*Exod.* xxii. 29; xxiii. 19; xxxiv. 19; *Deut.* xv. 19, &c.; xvii. 1), a'r *degwm* (*Deut.* xiv. 22), heb law i gynnal y Lefiaid, i barotoi gwleddoedd i'r bobl, ac felly i fod yn arddangosiad o'u hundeb ac o'u cymdeithas, ac hefyd yn foddion i'w meithrin. Yn y gweithredoedd sanctaidd hyn y mae yn angenrheidiol gwahaniaethu rhwng y cyfryw a berthynai i'r holl bobl, a'r cyfryw a adewid i ddewisiad personau unigol.

3ydd. *Amseroedd sanctaidd.* Fel yr oedd yr holl bobl, a phob un yn unigol, a hyny yn eu holl weithredoedd, i fod yn sanctaidd i'r Arglwydd, felly hefyd yr oedd eu holl *amser* i fod yn gyssegredig. Ond yr oedd y *seithfed dydd*, y seithfed *mis*, y seithfed *flwyddyn*, a *saith mlynedd seithwaith*, i gael eu cyssegru mewn modd arbenig at wasanaeth yr Arglwydd:—[1.] Yr oedd y Sabbath wythnosol, misol, a blyneddol (*Exod.* xxiii. 10, &c.; xxxi. 12, &c.; xxxiv. 21; *Lef.* xxiii. 1, &c.; xxv. 1—34; *Deut.* xv), wedi eu cerfio megys ar ddeial amser, i fod yn arwyddion o gyfammod Duw â'i bobl trwy eu holl genedlaethau, ac i arwain y bobl yn ol i gymdeithas â Duw, ac i deimlad o'u rhyddid a'u dyrchafiad uwch law gofalon ac angearheidiau daiarol. [2.] Y *lleuadau newyddion*: *Num.* x. 10; xxviii. 11, &c.; 1 *Sam.* xx. 5; 2 *Bren.* iv. 23; *Esa.* i. 14; *Col.* ii. 16. [3.] Gwyl fawr y *cymmod* ar y seithfed mis: *Lef.* xvi; xxiii. 27. [4.] Yr uchelwyliau blyneddol—sef, y *Pasc*, y *Pentecost*, *Gwyl y Pebyll*—ar ba rai y byddai y bobl yn ymddangos ger bron Duw, yr hwn a'u gwaredodd; yn cydnabod ei berchenogaeth ef ynddynt, yr hwn a'u gwnaeth yn bobl, ac a'u cyfoethogodd mor fawr â'i fendith. Nid oedd neb i ymddangos ger bron Duw yn waglaw: *Exod.* xxiii. 15, &c.; xxxiv. 20, 23, &c., *Lef.* xxiii. 4, &c.; *Num.* ix. 1—14; *Deut.* xvi. 16

III.—Y CYFANSODDIAD GWLADOL MEWN MODD NEILLDUOL, A'R CYFREITHIAU A BERTHYNENT I IAWNDERAU PERSONOL.

1. Yr oedd y cyfansoddiad gwladol yn gorphwys ar lywodraeth neillduol Duw, ac yn cyfranogi o natur *batriarchaidd*, yn hytrach nag o un ffurflywodraeth arall. Tywysogion y llwythau, sef cyntafanedigion y llwythau a'r teuluoedd, neu yr *henuriaid*, oedd y swyddogion a'r barnwyr, y rhai a weinyddent gyflawnder yn enw Duw. Mewn achosion dyrys, dygid y mater ger bron yr offeiriaid, ac hefyd ger bron yr archoffeiriaid, i'w benderfynu gan Dduw fel eu brenin: *Deut.* xvii. 8—13; *Exod.* xxviii. 30; 1 *Sam.* xxviii. 6. Yn mhob teulu, yr oedd awdurdod y pen yn fawr, ac eto yn ddarostyngedig i'r swyddogion. [Gwel PLANT; RHIENI.] Cospid anufudd-dod y plant â marwolaeth: *Deut.* xxi. 18—21. Yr un modd yr oedd yr hwn a darawai ac a felldithiai ei dad neu ei fam, i'w gospi â marwolaeth: *Exod.* xxi. 15, 17; *Lef.* xx. 9; *Deut.* xxvii. 16. Pe dygwyddai i'r bobl ofyn am frenin daiarol, fel cenedloedd y ddaiar, rhoddwyd deddf gyda golwg ar hyny, fel na chai lywodraethu ond yn unol â chyfraith yr Arglwydd: *Deut.* xvii. 14, &c. Nid ydoedd i wneuthur deddfau ei hun, ond yn hytrach i weinyddu deddfau yr Arglwydd. Yr oedd y bobl i gyfranogi yn helyntion cyhoeddus y deyrnas trwy dywysogion y llwythau a'r henuriaid [gwel HENURIAID], y rhai a ymgasglent at eu gilydd i ymgynghori er llesâd y wladwriaeth. Ar y llaw arall, yr oedd y brenin, fel "eneiniog yr Arglwydd," i'w ystyried yn gyssegredig: 1 *Sam.* xxiv. 6; xxvi. 9, &c.; *Salm* xviii. 50; cxxxii. 10. Er fod penau y llwythau a'r henuriaid yn flaenoriaid yn eu mysg, eto nid oes brawf eu bod yn ffurfio dosbarth neillduedig, fel math o bendefigaeth, trwy rinwedd eu genedigaeth, fel sydd yn Mhrydain, a gwledydd ereill Ewrop. Llwyth Lefi oedd yr unig ddosbarth felly.

2. Y *deddfau oedd yn llywodraethu eu bywyd dinesig a gwladwriaethol.* Yr oedd y rhai hyn i gyd yn gwreiddio yn mherthynas y bobl â Duw, ac yn eu cyssegredigaeth hwy mewn canlyniad i'w sanctaiddrwydd ef: — 1af. Y cyfryw ag a berthynai i gyssegredigaeth neu ddiogelwch eu personau. Dan y pen hwn y daw y cyfreithiau o berthynas i lofruddiaeth, niweidiau corfforol trwy ddyn neu anifail, lladrata dynion, gorthrymu yr amddifad a'r weddw, dialydd y gwaed, &c. Yma hefyd y daw y cyfreithiau mewn perthynas i *weision* a *dyeithriaid* (*Exod.* xxi. 1, 22, 28; xxii. 21; xxiii. 9; *Num.* xxxv; *Deut.* xxi. 1), a chyfreithiau yn dwyn perthynas â holl gorff y genedl, megys y cyfreithiau yn nghylch rhyfel: *Deut.* xx. 2il. Y deddfau sydd yn dwyn perthynas â chyssegredigaeth priodas [gwel PRIODAS; TOR PRIODAS; YSGAR; GODINEB]: *Exod.* xxii. 16, 19; *Lef.* xviii. 19, 20; xx. 10—21;

Digitized by Google

Num. v. 11. &c.; *Deut.* xxi. 10—14; xxii. 20; xxiii. 1, 17; xxiv. 1, &c.; xxv. 5, &c. 3ydd. Y rhai sydd yn dwyn perthynas âg eiddo a meddiannau, etifeddiaethau, ladrata, twyll, usuriaeth, a ffyrdd ereill i droseddu yn erbyn meddiannau: *Exod.* xxi. 33 &c.; xxii. 1—15, 25, &c.; xxiii. 4; *Lef.* xix. 9, &c.; xxv. 25, 35; *Num.* xxvii. 11; *Deut.* xv. 1—18; xix. 14; xxi. 15; xxii. 1, &c.; xxiii. 19; xxiv. 6, 10; xxv. 13. 4ydd. Cyfreithiau yn dwyn perthynas âg enw da, geirwiredd (*Deut.* xxii. 13, &c.; *Lef.* xix. 11—16), a chamdystiolaeth *Exod.* xxiii. 1, 7; *Num.* xxxv. 30; *Deut.* xvii. 6; xix. 15, &c. 5. Y cyfryw ag sydd yn dwyn perthynas âg ymddygiad trugarog tuag at y creaduriaid sydd yn ddarostyngedig i ddyn, ac i ddefnyddiad priodol o honynt: *Exod.* xxiii. 19; *Lef.* xix. 19; *Deut.* xx. 19, &c.; xxii. 5, 6, 7, &c.

Y mae ystyriaeth ddiragfarn o'r gyfraith a roddodd yr Arglwydd i'w bobl ddewisedig, yn ei chyfanrwydd, yn gystal ag yn ei gwahanol ranau, yn arwain yn naturiol i ymofyniad Moses, "Pa genedl mor fawr, yr hon y mae iddi ddeddfau a barnedigaethau cyfiawn, megys yr holl gyfraith hon yr ydwyf fi yn ei rhoddi heddyw ger eich bron chwi?" *Deut.* iv. 6—8. Mae ei rhagoriaethau i'w chanfod yn amlwg wrth ei chymharu â deddfau Groeg a Rhufain:—teyrnasoedd sydd wedi cael eu canmawl gymmaint am eu rhyddid a'u cyfreithiau. Mae hyn i'w ganfod yn enwedig yn y cyfreithiau sydd yn dwyn perthynas â'r tlodion, caethweision, dyeithriaid, merched, y cydnabyddiaeth o barch a delir i'r ddyrchafiaeth, a'r gofal a ddangosir am greaduriaid direswm, heb gyfeirio oll at y rhagoriaeth annhraethadwy yn moesoldeb cyffredinol a chrefydd yr Israeliaid. Yr oedd cosp am drosedd, yn ol deddf Moses, yn llym, ond nid yn greulawn. Y nifer mwyaf o wialennodiau a ellid roddi ar y troseddwr oedd deugain; tra yr ydoedd yn arferiad gyffredin i ddyblu neu dreblu y nifer hwnw ar filwyr Prydain hyd yn ddiweddar. Nid oedd yr arteithglwyd, na dirdyniadau corfforol, yn adnabyddus o gwbl yn nghyfreithiau Moses; yr hyn oedd yn arferiad gyffredin yn ngwledydd Ewrop am ganrifoedd lawer, ac nid yw eto wedi ei diddymu mewn rhai gwledydd a elwir yn Gristionogol.

Y mae yr *amrywiaeth* a'r *luosogrwydd* mawr o ddeddfau sydd yn nghyfraith Moses, y rhai sydd mor fanwl ag i gynnwys holl amgylchiadau a pherthynasau bywyd, yn galw am sylw. Nid yn unig yr oedd hi yn dysgu i ofni, i garu, ac i ymddiried yn Nuw, ac yn rheoli holl seremoniau ei addoliad cyhoeddus, megys yr aberthau, &c.; ond hefyd dysgai y bobl pa fodd i blanu ac adeiladu, i fwyta ac yfed, i brynu a gwerthu, i gymmeryd echwyn ac i dalu echwyn; pa fodd i fyned i ryfel, a pha fodd i briodi, pa fodd i lywodraethu tŷ, a phlant, a gwasanaethyddion. Pa ham y rhoddwyd cyfreithiau mor fanwl? Ateb Luther i'r cwestiwn ydyw: — 1. Gan mai ei bobl ef oeddynt, yr oedd am eu cadw i deimlo ei berchenogaeth ef ynddynt yn holl amgylchiadau bywyd, ei hawl i'w llywodraethu, a'u dibyniad hwythau yn mhob dim arno. 2. Gan mai er mwyn troseddau y rhoddwyd y ddeddf yn chwaneg, hyd oni ddelai yr hâd, yr oedd pentyru y fath luosogrwydd o reolau a gosodiadau yn gwasanaethu y dyben hwnw. Nid yn unig yr oedd yr hyn oedd yn bechod ynddo ei hun yn cael ei wahardd, fel y gwelir yn y deg gorchymyn, ond yr oedd lluaws o bethau yn cael eu gwahardd nad oeddynt yn bechodau ynddynt eu hunain; megys bwyta bara lefeinllyd y Pasc, a hyny nid yn unig er mwyn dangos nad oedd gan y bobl hawl i gymmeryd eu hewyllysiau eu hunain yn rheol, ond hefyd er mwyn llwytho eu cydwybodau â theimlad o'u mynych droseddau, a dwyn cywilydd ar eu hymffrost yn eu gallu eu hunain, fel y dygid hwynt i werthfawrogi yr addewid am Grist, ac y cydganid hwynt i'r ffydd.

Gelwir y gyfraith yn fynych yn yr Ysgrythyrau yn *gyfraith Moses* (*Ios.* i. 7; 1 *Bren.* ii. 3; 2 *Bren.* xiv. 6; xxiii. 25; *Ezra* iii. 2; *Mal.* iv. 4; *Luc* ii 22; *Ioan* v. 45; vii. 19, &c.): ac hefyd yn *gyfraith Duw*, a *chyfraith yr Arglwydd* (*Exod.* xiii. 9; *Ios.* xxiv. 26; *Ezra* vii. 21; *Salm* i. 2; xix. 8; xxxvii. 31; cvii. 11; cxix. 1; *Esa.* v. 24; xxx. 9, &c.): ac hefyd, heb un chwanegiad, *y gyfraith* (*Deut.* i. 5; iv. 8. 44; xvii. 18; xxvii. 38; xxxiii. 4; *Esa.* viii. 16; xxiv. 5; *Mal.* ii. 7; *Diar.* xxviii. 4; *Luc* x. 26; *Ioan* i. 17, &c.) Y gair *cyfraith* a arferir amlaf am osodiadau neilldduol a seremoniol, megys cyfraith yr aberthau (*Lef.* vi. 9, 14, 25; vii. 1, 7, 11); y creaduriaid glân ac aflan (*Lef.* xi. 46); y gwahanglwyf (*Lef.* xiii. 59; xiv. 2); y dwfr neilduaeth (*Num.* xix. 2); a'r Nazaread (*Num.* vi. 13); ond mewn ystyr moesol, *gorchymyn* a ddefnyddir fynychaf: *Exod.* xx. 6; *Num.* xv. 40; *Deut.* iv. 2; v. 10; vii. 9; ac yn enwedig yn y Salmau. Defnyddir *deddfau* a *barnedigaethau*, mewn dull hollol anmhenderfynol, am y modd y mynai yr Arglwydd i'w bobl weithredu (*Lef.* xviii. 5, 26; xix. 37; xx. 22; xxv. 18). Mewn cyssylltiad â'r ddwy lech y defnyddir *tystiolaeth*, ac am ei bod yn eu cadw y gelwir yr arch yn arch y dystiolaeth (*Exod.* xxv. 21; xxxi. 18; *Deut.* vi. 17; iv. 45); ac yn y Salmau, o herwydd fod yr Arglwydd yn ei gyfraith yn tystiolaethu ei ewyllys wrth y bobl, ac yn tystiolaethu yn erbyn eu pechodau hwythau.

Nid oedd Moses ond y *cyfrwng* trwy yr hwn yr oedd yr Arglwydd yn amlygu ei ewyllys:—Duw ei hun oedd y *deddfroddwr*: *Iago* iv. 12.

Y mae dynion wedi ceisio ymofyn, a oes rhai chwanegiadau, a pha faint, wedi eu gwneuthur at y gyfraith trwy yr archoffeiriaid, y breninoedd, a'r prophwydi, ar ol amser Moses; ond y mae hyn yn anghysson â'r hyn a ddywedir yn llyfrau Moses—fod y gyfraith yn un cyfanwaith, ac nad oedd neb i chwanegu ati: *Deut.* iv. 2. Ac y mae yr awgrymiadau sydd yn ddi at amseroedd diweddarach yn brofion o hollwybodaeth y Deddfroddwr, yn rhagwele i amgylchiau dyfodol, ac yn gwneuthur parotoadau ar eu cyfer: *Deut.* xvii. 14. Y mae hyn yn gysson hefyd â holl oruchwyliaeth Moses, fel cytundrefn gysgodol yn edrych yn mlaen i'r dyfodol, ac yn athraw at Grist. [Gwel CYSGOD.] Ysgrifenwyd llyfr y gyfraith, gyda'r ail adroddiad o honi yn Deuteronomium, gan Moses, "hyd eu diwedd;" a gosodwyd ef ar ystlys arch y cyfammod (mewn cist wrth ei hystlys? 1 *Sam.* vi. 8), tra nad oedd ond y ddwy lech yn yr arch: *Deut.* x. 1, &c.; 1 *Bren.* viii. 9. Yn mhellach, yr oedd y gyfraith (y deg gorchymyn, y mae yn ddiau) i gael ei hysgrifenu ar geryg mawrion, a'i gosod i fyny yn nghanol y tir ar Ebal, sef mynydd y felldith, i fod yn dystiolaeth yn erbyn anufudd-dod i y bobl: *Deut.* xxvii. 1, &c.; *Ios.* viii. 30, &c. Ysgrifenodd Iosuah yn llyfr y gyfraith yr adnewyddiad o'r cyfammod a wnaethpwyd yn ei amser ef: *Ios.* xxiv. Yr oedd pob brenin i ysgrifenu iddo ei hun gopi o'r gyfraith ofdn wrth y copi gwreiddiol, yr hwn oedd o dan ofal yr offeiriaid: *Deut.*

Digitized by Google

xvii. 18. Fod y copïau hyn yn anaml, sydd amlwg oddi wrth 2 *Cron.* xvii. 9. Yn ddiweddarach, gellir casglu nad oedd copi ar gael hyd yn oed yn llaw y brenin, oddi wrth yr effaith a gynnyrchodd y darlleniad o honi ar Iosiah y brenin (2 *Bren.* xxii. 8), ac ar y bobl: *pen.* xx. 1, &c. Nid oedd y ddeddf i'r gyfraith gael ei darllen yn nglyw yr holl bobl bob saith mlynedd, ar ŵyl y pebyll, yn cael ei dilyn y pryd hwn. [Gwel Gwyl.] Ar ol y dychweliad o Babilon, dangoswyd awyddfryd mawr i ddarllen a gwrandaw y gyfraith (*Neh.* viii. 1, &c.; ix. 3); a chan nad oedd Hebraeg y copi gwreiddiol yn ddealladwy i lawer o'r bobl, rhoddwyd allan y synwyr trwy esboniad, neu trwy gyfieithiad rhydd: *Neh.* viii. 8. Ymddengys fod lluaws o gopïau mewn arferiad yn amser y Maccabeaid: 1 *Mac.* i. 56, 57. Ond nid oedd cydnabyddiaeth y bobl yn fawr un amser â'r gyfraith; fel y codid prophwydi i alw eu sylw ati, ac i wrthweithio yr ymddiried rhagrithiol a roddent yn eu seremoniau, gan ollwng dros gof bethau trymaf y gyfraith: *Esa.* i. 11, &c.; lviii. 3, &c. Tra yr oedd doctoriaid y gyfraith [gwel Ysgrifenyddion; Phariseaid] yn ei gorlwytho â'u dychymygion eu hunain a thraddodiadau y tadau, yr oedd barn, a thrugaredd, a ffydd, yn anadnabyddus iddynt: *Mat.* xxiii. Felly, dosbarthwyd y gyfraith gyda'r traddodiadau dynol, gan yr Iuddewon diweddar, i 613 o osodiadau (yn cyfateb i nifer y llythyrenau yn y deg gorchymyn), yn nacaol a chadarnhaol. Y mae y gorchymynion cadarnhaol yn 248 o nifer—yn cyfateb, yn ol syniad y Rabbiniaid, i nifer y rhanau sydd yn nghorff dyn; a'r rhai nacaol yn 365 o nifer—yn cyfateb, meddent hwy, i nifer y gwythienau sydd yn y corff, ac hefyd i nifer y diwrnodau yn y flwyddyn heulog. Pwy bynag, gan hyny, yn ol eu hymresymiad hwy, sydd yn cadw un gwaharddiad ac un gorchymyn bob dydd, y mae mewn blwyddyn yn cadw yr holl ddeddf. Dywedant nad rhaid i wragedd gadw ond y gorchymyn nacaol, neu y gwaharddiadau; a'u rheswm dros hyn ydyw, o herwydd fod merched yn wanach, ac hefyd o herwydd eu bod yn ddarostyngedig i awdurdod eu gwŷr. Y mae y chwanegiadau a'r esboniadau Rabbinaidd ar y gyfraith yn gynnwysedig yn y *Talmud.* Gwel Cyfammod; Deddf; Gorchymyn; yn nghyd â'r gwahanol erthyglau y cyfeirir atynt yn hon.

CYFRAN—AU, [*rhan*]: dogn, argyfran, egweddi, rhan: *Preg.* ix. 6; *Ier.* xiii. 25; *Ioan* xiii. 8; *Act.* v. 2; viii. 21; xxvi. 18; *Rhuf.* xv. 27.

CYFRANU—IAD [*cyfran*]: rhanu, dyranu, parthu; dogni; rhoddi; rhaniad, cefnogaeth: *Iob* xxvii. 17; xxxix. 17. Y mae gweinidogion yr efengyl i "iawn *gyfranu* gair y gwirionedd" (2 *Tim.* ii. 15); ac wrth wneuthur hyny yn ddyladwy, y maent yn *cyfranu* nid yn unig efengyl Duw, a doniau ysbrydol, ond eu heneidiau eu hunain, o gariad at eu gwrandawyr, mewn diwydrwydd a llafur, er eu hennill at y Gwaredwr, eu hadeiladu yn y ffydd, eu cadarnhau, a'u cysuro: 1 *Thes.* ii. 8; *Rhuf.* i. 11. Y mae yr eglwysi, o'u tu hwythau, i gydnabod yn barchus lafur eu gweinidogion, drwy ofalu am danynt, a *chyfranu* yn deilwng "o'u tymmorolion bethau," er eu cynnaliaeth, eu cysur, a'u defnyddioldeb [*Gal.* vi. 6; *Phil.* iv. 15; 1 *Cor.* ix. 11—13]:—hyny yw, eu cynnal yn eu llafur, ac yn ngwaith priodol y weinidogaeth, uwch law pryder am eu bywoliaeth hwy a'u teulu; nid er moethau a rhwysgfawredd, nid er eu cyfoethogi, na'u gwneuthur yn bendefigion ac arglwyddi, a thrwy hyny eu hanghymhwyso i gyflawnu gorchwylion eu swydd. Y mae yn ddyled ar yr eglwysi, hefyd, ofalu am eu tlodion, a *chyfranu* i gyfreidiau y saint, fel y byddo amgylchiadau yn gofyn: *Rhuf.* xii. 13; xv. 26, 27. Annogir a dysgir hwynt i gyfranu yn siriol a pharod at bob achos da, yn ol fel y byddo Duw yn eu llwyddo, ac fel y byddo yn hawdd ganddynt roddi a chyfranu: *Heb.* xiii. 16; *Eph.* iv. 28; 1 *Cor.* xvi. 1, 2; 1 *Tim.* vi. 18. Gelwir y dyledswyddau hyn yn "weithredoedd da i angenrheidiau," ac "o gymhwysdra;" nid er moethau, nac i borthi seguryd—y mae hyny yn groes i ysbryd ac amcan yr efengyl; ond er cyflawnu dyled resymol, a dangos eu parch a'u cariad tuag at y rhai sydd yn llafurio yn y gair a'r athrawiaeth, eu cydymdeimlad tuag at y rhai a fyddo mewn angen a chyfyngder, a'u parodrwydd i ddwyn beichiau eu gilydd: *Tit.* iii. 14; 2 *Cor.* viii. 10—15; ix. 5—15; 1 *Tim.* v. 17; *Gal.* vi. 2. Y maent i'w cyflawnu yn wirfoddol, ac nid trwy gymhell. Yn wirfoddol y cyfranodd Abraham i Melchizedec "ddegwm o bob peth," heb fod un gyfraith yn ei orfodi. Ac er y gorchymynwyd wedi hyny dalu degwm at yr offeiriadaeth, a gwasanaeth Duw yn Israel, eto yr oedd cyflawnu hyny yn cael ei adael i egwyddor a theimlad o rwymedigaeth; canys ni ymddengys fod un ddarpariaeth yn y gyfraith hono i attafaelu eiddo na charcharu personau y rhai a esgeulusent y ddyledswydd: *Heb.* vii. 2; *Mal.* iii. 8—12. A than yr efengyl, y mae yn amlwg wrth y Testament Newydd fod achos crefydd i gael ei ddwyn yn mlaen drwy haelioni gwirfoddol Cristionogion; ac nid trwy drethi, a gosodiadau cyfreithiol, o drefniad llywodraethwyr gwladol. Y mae effeithiau niweidiol y cyfryw drefniadau gwladol i'w weled yn amlwg yn yr eglwysi hyny sydd yn seiliedig arno.

CYFRANOG — ION, [*cyfran*]: cyfranol, meddu rhan; cyfranorion, rhai yn cydfeddiannu. "Gan fod y plant yn *gyfranogion* o gig a gwaed, yntau hefyd [sef Crist] yr un modd a fu *gyfranog* o'r un pethau;" *Heb.* ii. 14. Hyny yw, gan eu bod hwy yn ddynion, daeth yntau hefyd yn ddyn, yn *gyfranog* o'r un naturiaeth a hwynt, fel y byddai yn Iachawdwr cymhwys i ddynion, ac y rhoddai iawn dros bechod yn y natur a bechasai.

CYFREITHIWR — WYR, [*cyfraith*]: Gr., νομικὸς. Mae y gair hwn, yn ei ystyr cyffredin, yn dynodi un cyfarwydd yn y gyfraith, megys yn *Tit.* iii. 13, lle y sonir am "Zenas, y cyfreithiwr." Gan hyny, pan elwir un yn gyfreithiwr, deallir hyn gyda chyfeiriad at gyfreithiau y wlad y byddo yn byw ynddi, neu yn perthynu iddi. Felly, yn mysg yr Iuddewon, cyfreithiwr y gelwid un cyfarwydd yn nghyfreithiau Moses, a ddysgid yn yr ysgolion a'r synagogau: *Mat.* xxii. 35; *Luc* x. 25. Yn *Marc* xii, mae yr un a elwir gan Matthew a Luc yn "gyfreithiwr," yn cael ei alw yn "un o'r ysgrifenyddion." Oddi wrth hyn yr ydys yn casglu mai yr un ydoedd galwedigaeth y cyfreithwyr a'r ysgrifenyddion. Yr oeddynt wrth eu swydd i fytyrio yn y gyfraith, ac i'w hegluro i'r bobl, yn enwedig y ddeddf draddodiadol. Perthynent i blaid y Phariseaid; a cherydd hwy yn llym gan ein Iachawdwr am lwytho dynion â beichiau anhawdd eu dwyn; adeiladu beddau y prophwydi, tra yn gyd-foddlawn i weithredoedd eu tadau, a'u lladdasant

Digitized by Google

hwy; dwyn oddi ar y bobl agoriad gwybodaeth (*Luc* xi. 45—52); ac am ddiystyru cynghor Duw: *Luc* vii. 30. Deillion yn arwain deillion oeddynt, a gelynion dichellgar i Grist a'i ddysgyblion. Gwel YSGRIFENYDDION.

CYFATEBIAD, [*analogy*]: a ddynoda, mewn athroniaeth, y tebygolrwydd sydd rhwng dau neu chwaneg o bethau. a wahaniaethant yn hollol mewn pethau ereill; megys y tebygolrwydd sydd rhwng anifeiliaid a llysiau, a'r tebygolrwydd cryfach sydd rhwng gwahanol rywiau o anifeiliaid a'u gilydd. Defnyddir y gair *analogy* hefyd gan yr archesgob Whately, ac ereill, mewn ystyr ychydig yn fwy caeth na hyn; sef, am *debygolrwydd perthynasau* gwahanol bethau: megys pan ddywedir am gymdeithas sydd wedi sefydlu is-gymdeithasau, ei bod yn fam-gymdeithas, y mae yr ymadrodd yn gyfatebiadol yn arwyddo fod y gyntaf yn sefyll i'r ail yn yr un *berthynas* ag y mae rhieni yn sefyll i blant. Y mae cyfatebiad yn ddull arbenig o ymresymu, ac yn cael ei ddefnyddio bob amser pan y dywedir fod unrhyw beth fel ar fel, am fod peth arall fel ar fel, ar sail rhyw debygolrwydd sydd rhyngddynt. Po tebycaf y byddo y ddau beth i'w gilydd yn eu prif amgylchiadau, neu ansoddau hanfodol, cryfaf oll ydyw yr ymresymiad oddi wrth y naill at y llall ar sail y tebygolrwydd hwnw. Fel y canlyn y dywed Dr. Reid:—"Gallwn weled tebygolrwydd mawr rhwng y ddaiar a'r planedau ereill, Sadwrn, Iau, Mawrth, Gwener, a Mercher. Maent oll yn troi o gwmpas yr haul fel y gwna y ddaiar, er nad yn yr un pellder oddi wrtho, nac yn yr un amser. Oddi wrth yr haul y derbyniant oll eu goleuni, fel y gwna y ddaiar. Try amryw o honynt ar eu hechelau, fel y gwna y ddaiar; ac o ganlyniad, rhaid fod iddynt olyniad nos a dydd. Mae i amryw o honynt leuadau, sydd yn gwasanaethu i'w goleuo yn absennoldeb yr haul, fel y gwna y lleuad i ni. Y maent oll yn ddarostyngedig i'r un ddeddf fawr o attyniad yn eu hysgogiadau a'r ddaiar. Oddi wrth y tebygolrwydd mawr hwn, nid yw yn afresymol i feddwl fod y planedau hyn wedi eu poblogi â chreaduriaid byw, fel y ddaiar. Y mae y casgliad yn debygol oddi wrth gyfatebiad.

"Llywodraethir meddygon yn eu cyfarwyddiadau meddygol yn benaf gan gyfatebiad. Y mae cyfansoddiad y naill gorff mor debyg i'r llall fel y mae yn rhesymol casglu fod yr hyn sydd yn achos iechyd neu afiechyd i un dyn, yn effeithio yn gyffelyb ar ddyn arall. Ac y mae hyn yn gyffredin yn wir, er nad heb eithradau.

"Mewn gwladlywiaeth hefyd, ymddibynir i fesur mawr ar y dull hwn o ymresymu. Y mae cyfansoddiad y natur ddynol mor gyffelyb mewn gwahanol wledydd a theyrnasoedd fel y mae achosion heddwch a rhyfel, tawelwch a gwrthryfel, cyfoeth a thlodi, dyrchafiad a darostyngiad, yn gyffelyb ynddynt oll.

"Ond dylid sylwi, gan nad yw y dull hwn o ymresymu yn rhoddi i ni ond prawf tebygol ar y goreu, ein bod yn ddarostyngedig i gael ein camarwain, heb wyliadwriaeth neilduol:"—megys pe casglem oddi wrth y tebygolrwydd sydd rhwng y lleuad a'r ddaiar, fod y lleuad wedi ei phoblogi. Y mae llawer o debygolrwydd rhyngddynt: y mae y ddwy yn gyrff tywyll, caled; bron yn grwn; yn derbyn goleuni a gwres oddi wrth yr haul mewn cyfartaledd lled debyg i'w gilydd; y mae y ddwy yn troi ar eu hechelau, ac yn ufuddhau i'r un ddeddf o attyniad; y mae olion mynyddoedd llosgadwy yn y ddwy. Pe na byddai ein gwybodaeth am y lleuad yn cyrhaedd dim pellach, ymddangosai gradd o debygolrwydd yn y casgliad ei bod yn gartrefle bywyd llysieuol ac anifeilaidd fel y ddaiar; ond pan feddyliom fod y lleuad nid yn unig yn meddu tebygolrwydd, i'r graddau a enwyd, ond hefyd ei bod mewn amryw bethau yn annhebyg i'r ddaiar, y mae hyn yn gwanhau y prawf ei bod yn cael ei phreswylio, a hyny i'r graddau y mae yr annhebygrwydd yn cyrhaedd. Un gwahaniaeth pwysig rhyngddynt ydyw, nad oes yn y lleuad ddim awyrgylch, na chymylau; ac o ganlyniad (fel y casglir), ddim dwfr. Gallasai yr annhebygrwydd hwn, a'i ystyried fel y cyfryw, fod yn ddigon i wrthbwyso y tebygolrwydd blaenorol. Ond pan ystyriom fod hanfodiad bywyd ar y ddaiar yn dibynu ar yr hyn y mae y lleuad yn amddifad o hono, sef dwfr, nis gallwn gasglu fod trigolion yn y lleuad, oddi eithr eu bod yn byw mewn dull hollol wahanol i drigolion y ddaiar. Ond am y planedau, y maent hwy yn meddu awyrgylch a chymylau; ac o ganlyniad, ryw hylif, o leiaf, tebyg i ddwfr.

"Nid oes un awdwr wedi gwneyd defnydd mor gywir a hapus o'r dull hwn o ymresymu a'r Esgob Butler yn ei draethawd — *Cyfatebiad Crefydd Naturiol a Dadguddiedig, i Gyfansoddiad a Threfn Natur.* Yn y gwaith rhagorol hwn, nid yw yr awdwr yn sylfaenu gwirioneddau crefydd ar gyfatebiad, fel eu prawf priodol; ond defnyddia gyfatebiad i ateb gwrthddadleuon. Pan wneir gwrthddadleuon yn erbyn crefydd y gellir eu gwneyd mor briodol yn erbyn cwrs natur, nis gall fod ynddynt ddim grym. Swydd briodol ymresymiad cyfatebiadol ydyw, ateb gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn gwirioneddau sydd yn gorphwys ar brofion ereill yn benaf. Pan nad oes dim profion ereill, gall roddi tebygolrwydd i ni, o radd fwy neu lai, yn ol graddau y tebygolrwydd a gymherir â'u gilydd. Nid yw y dull hwn o ymresymu yn wanach mewn un amgylchiad na phan yr ymresymir oddi wrth y corff at y meddwl; o herwydd nid oes dim dau beth mewn natur yn fwy annhebyg i'w gilydd. Eto, nid yw dyn yn fwy tueddol mewn dim i gael ei gamarwain, nag wrth gymharu ac ymresymu oddi wrth y corff at y meddwl; o herwydd hyn, y mae dynion wedi bod mor dueddol i ddychymygu am yr enaid ei fod yn fath o ddefnydd teneu, ac i briodoli ffurf ac aelodau dynol i angelion, ac hyd yn oed i Dduw."—(*Reid's Intellectual Powers; Mills' System of Logic.*)

CYFRIF, CYFRIFIAD: defnyddir y gair hwn mewn iaith gyffredin, ac hefyd yn yr Ysgrythyrau, am rifo, barnu, ystyried, casglu. Ond o herwydd ei bwysigrwydd a neilduolrwydd ei ystyr mewn duwinyddiaeth y rhoddir lle iddo yma. Y gair Hebraeg am dano yw חשב (*choshaf*), a gellir casglu ei ystyr oddi wrth y manau canlynol:—*Lef.* xxv. 50; xxvii. 23; *Num.* xviii. 27; xxiii. 9; 2 *Sam.* iv. 2, &c. "A chyfrifwyd hyn iddo yn gyfiawnder;" *Salm* cvi. 31. Cyfieithir y gair yn y Deg a Thrigain trwy y Groeg λογιζομαι (*logizomai*), a hwn yw y gair a ddefnyddir yn y Testament Newydd am ymresymu (*Marc* xi. 31): hefyd, gyda yr ystyr o feddwl, ystyried, barnu, bwrw, casglu: *Phil.* iii. 8; *Heb.* xi. 19; *Phil.* iii. 13; *Rhuf.* iii. 28; 1 *Cor.* xiii. 11; 1 *Cor.* iv. 1; *Rhuf.* viii. 36; *Act.* xix. 27; *Rhuf.* ii. 26; ix. 8. Rhoddi yn nghyfrif un:—"Eithr i'r neb sydd yn gweithio (y neb sydd yn meddwl haeddu dim gan Dduw trwy ei weithredoedd), ni *chyfrifir* y wobr o ras, ond o ddyled:"

Digitized by Google

Rhuf. iv. 3. "Megys y mae Dafydd yn dadgan dedwyddwch y dyn y mae Duw yn *cytrif cyfiawnder* iddo heb weithredoedd;" *Rhuf.* iv. 6. Y mae Duw yn gosod "cyflawnder" yn nghyfrif neu o blaid y dyn sydd yn credu—er ei fod heb gyflawnder ei hun—ar sail haeddiant neu gyfiawnder Crist. yr hwn a dderbynir trwy ffydd. Gosod trosedd neu bechod yn nghyfrif un, neu yn ei erbyn, yw, fel y gwnaeth Nathan â Dafydd, "Ti yw y gŵr" (2 *Sam.* xii. 7); ac megys y dymunodd Paul ar i Philemon roddi trosedd Onesimus yn ei erbyn ef: "Os gwnaeth efe ddim cam â thi, neu os yw yn dy ddyled, cyfrif hyny arnaf fi;" *Phil.* 17, 18. Edrych ataf fi am i'r cam gael ei unioni, a'r ddyled ei thalu. Felly, *peidio cyfrif* ydyw edrych dros, maddeu, peidio gosod yn erbyn: *Salm* xxxii. 2; *Ionah* i. 14; *Rhuf.* iv. 18, 23, 24; 2 *Cor.* v. 19.

Gan fod yr athrawiaeth o gyfrifiad yn un mor bwysig, fel y mae *yn cysylltu hanfod yr efengyl*, yn ol barn y rhan fwyaf o eglwysi ac ysgrifenwyr Cristionogol, o ddechreuad Cristionogaeth hyd yn awr—ond, ar y llaw arall, *yn anghysson â synwyr a theimlad naturiol dyn, ac â phriodoliaethau moesol Duw*, yn ol barn ereill—y mae yn angenrheidiol ymofyn pa fodd y mae y rhai sydd yn ei dal ac yn ei hamddiffyn yn ei gosod allan. Y mae yn fwy angenrheidiol, o gymmaint ag y mae ei hamddiffynwyr yn cyhuddo eu gwrthwynebwyr yn fynych o seilio eu gwrthddadleuon yn ei herbyn ar eu camsyniadau eu hunain am dani. Y mae pwysigrwydd yr athrawiaeth hon i'w ganfod hefyd yn eangder ei chynnwysiad: yn *gyntaf*, fel yn cynnwys yr unig esboniad cysson ac ysgrythyrol ar gyflwr dynolryw trwy bechod; yn *ail*, fel yn rhoddi yr unig eglurhâd ar ddyoddefiadau Mab Duw; ac yn *drydydd*, fel yn dadguddio y modd y mae pechadur yn cael ei dderbyn i ffafr Duw.

Defnyddir y gair *cyfrifiad*, mewn ystyr cyfreithiol neu farnol, am roddi yn erbyn neu o blaid dyn—laf. Yr hyn a wnaeth efe ei hun; ac o ganlyniad, yr hyn sydd yn perthyn yn *briodol* ac yn *bersonol* iddo ei hun. Yn yr ystyr hwn, nid yw cyfrif yn amgen na ffurfio barn am un yn ol yr hyn *ydyw ynddo ei hun*, neu *yn ymddangos ei fod*. Cyfrif euogrwydd ydyw gosod cyhuddiad yn erbyn un gyda'r bwriad o ddwyn y cyhuddedig i gosp. Yn yr ystyr hwn y gweddïo id Simei ar Dafydd, "Na ddannoded (cyfrifed=*impute*) fy Arglwydd i mi anwiredd;" 2 *Sam.* xix. 19. Ei ddymuniad oedd i'r brenin beidio gosod ei draha yn ei gyfrif, a'i gospi o'i herwydd. Peidio cyfrif, gan hyny, yw maddeu:—"Gwyn ei fyd y dyn ni chyfrif yr Arglwydd iddo anwiredd" (*Salm* xxxii. 2); hyny yw, Dedwydd yw y dyn y maddeuwyd ei drosedd. Gweddi Paul oedd, ar i bechod y rhai a'i gadawsant beidio cael ei roddi yn eu herbyn mewn ffordd o gosp: "Mi a archaf ar Dduw na's cyfrifer iddynt;" 2 *Tim.* iv. 16. Ond yn 2 l. Rhoddi at gyfrif, o blaid, neu yn erbyn, *yr hyn na wnaeth y dyn ei hun, yn bersonol na gweithredol*, fel pe buasai wedi ei gyflawnu. Yn yr ystyr hwn y defnyddir y gair yn y manau canlynol:—"A *chyfrifir* i chwi eich offrwm dyrchafael *fel* yr yd o'r ysgubor, ac *fel* cyflawnder o'r gwinwryf;" *Num.* xviii. 27, 30. "Pa ham y cuddi dy wyneb, ac y cymmeri fi yn elyn i ti;" *Iob* xiii. 24:—Pa ham yr ymddygi tu ag ataf fel pe bawn elyn i ti? "Os y dienwaediad gan hyny a geidw gyflawnderau y ddeddf, oni *chyfrifir* ei ddienwaediad ef yn enwaediad;" *Rhuf.* ii. 26. "Os gwnaeth efe ddim cam â thi, neu os yw yn dy ddyled, cyfrif hyny arnaf fi;" *Philem.* 18. Dymunai Paul ar i Philemon ei ystyried ef fel y troseddwr neu y dyledwr—er nad oedd felly—a gofyn iawn am y trosedd ganddo ef. Yn yr ystyr hwn y cymmerir y gair pan ddywedir fod trosedd cyntaf Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth; hyny yw, rhoddir ei weithred ef yn eu herbyn hwy, a chospir hwynt am ei bechod ef, fel pe buasent hwy wedi ei gyflawnu yn eu personau eu hunain. Yn gyffelyb, pan ddywedir fod ein pechodau ni yn cael eu cyfrif i Grist, y meddwl yw, ei fod ef wedi cael ymddwyn tuag ato fel pechadur am ein pechodau ni. A chan iddo ef gael ei *wneuthur yn bechod*, o herwydd cyfrif pechod arno, gwneir pechaduriaid yn *gyfiawnder* yr un modd; set, trwy gyfrif ei gyflawnder ef iddynt hwy. Ymddygwyd tuag ato ef gan Dduw *fel pe buasai* yn euog o gyflawniad gweithredol o'r hyn a roddwyd yn ei erbyn; a hyny, fel y gallai gael trefn i gyflawnhau yr annuwiol. Yn y tri cyfrifiad a enwyd, y mae trosglwyddiad *cyfreithiol* o euogrwydd neu gyflawnder yn gynnwysedig mewn rhoddi at gyfrif (yn erbyn, neu o blaid) un yr hyn a wnaeth un arall, ac ymddwyn ato yn gyfatebol. Defnyddir yr ymadrodd trosglwyddiad *cyfreithiol*, er mwyn ei wahaniaethu oddi wrth drosglwyddiad *moesol*, yr hyn sydd yn gynnwysedig mewn trosglwyddo cymmeriad moesol. Y mae gwahaniaethu rhwng y ddau hyn o bwys hanfodol er mwyn deall athrawiaeth cyfrifiad fel y gosodir hi allan gan ysgrifenwyr ac yn nghredoau eglwysi Protestanaidd yn gyffredin. Gan fod y gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn yr athrawiaeth hon yn codi gan mwyaf o edrych ar gyfrifiad fel yn cynnwys trosglwyddiad o ansoddau personol, mewn trefn i fod yn sail i gospi neu i wobrwyo am danynt, y mae yn angenrheidiol sylwi nad yw trosglwyddiad ansoddau moesol mewn un modd yn rhan o'r athrawiaeth fel y dysgir hi gan ysgrifenwyr uniongred. Mae yn wir fod dosbarth o ysgrifenwyr, o ba rai y gellir cymmeryd Dr. Crisp fel anghraifft, y rhai na phetrusant ddyweyd "fod holl droseddau y neb sydd yn credu yn Nghrist yn peidio a bod yn droseddau iddynt hwy mwyach, ond eu bod yn dyfod yn weithredol (*actually*) yn eiddo i Grist." Yn ol y farn hon am gyfrifiad, y mae hiliogaeth Adda yn cyfranogi yn weithredol fel efe ei hun yn ei drosedd cyntaf; y mae pechodau y rhai y bu Crist farw drostynt wedi dyfod yn eiddo personol a phriodol eiddo iddo ef; a'i burdeb personol ef yn dyfod yn eiddo i'w bobl fel y perthynant iddo ef. Heb law y cabledd sydd yn y syniad hwn, pan y dywedir fod Crist yn bechadur yn yr un ystyr a'r rhai y rhoddwyd cospedigaethau eu heddwch arno; ac heb law yr anghyssondeb sydd ynddo â phrofiadau duwiolion, y rhai, er derbyn maddeuant, sydd yn cyffesu ger bron Duw eu hanwireddau i'r Arglwydd, y mae ynddo ei hun hefyd yn anmhosibl ac yn afresymol. Er mwyn dangos mai nid yn yr ystyr hwn y mae Calviniaid yn gyffredin i'w deall yn eu hesboniadau a'u hamddiffyniadau o'r athrawiaeth o gyfrifiad, rhoddir ychydig ddyfyniadau yma o rai o'u prif ysgrifenwyr. Fel y canlyn y dywed Dr. Owen: ar ol gwahaniaethu amryw ffyrdd o gyfrif i ni yr hyn na wnaethom ni ein hunain, fe ddywed, "Fod yn rhaid sylwi nad yw un cyfrifiad o'r natur hwn yn cynnwys fod *y rhai y cyfrifir unrhyw beth iddynt wedi cyflawnu y peth hwnw eu hunain.* Cyfeiliornad mewn barn fyddai hyny, ac nid cyfrifiad; yn wir, ni byddai hyny yn amgen na myned dan sylfeini cyfrifiad o gwbl. Cyfrifiad ydyw gwneuthur peth yn eiddo i ni nad oedd yn eiddo

Digitized by Google

i ni yn flaenorol, i'r holl ddybenion a atebasai pe buasai yn eiddo i ni heb y cyfryw gyfrifiad. Ac o ganlyniad, camsyniad o'r eiddynt eu hunain ydyw yr hyn a wnaeth rhai yn wrthddadl yn erbyn yr athrawiaeth hon. Dywedant, Os ydyw ein pechodau ni wedi eu cyfrif iddo ef, yna, rhaid ei ystyried ef yn weithredol euog o honynt; ac ar y llaw arall, os ydyw ei gyflawnder ef wedi ei gyfrif i ni, yna, rhaid ein bod wedi cyflawnu yr hyn a wnaeth efe, ac felly nis gallwn sefyll mewn angen am faddeuant. *Ond y mae hyn yn anghysson â natur cyfrifiad;* yr hyn sydd yn tybied ein bod ni heb gyflawnu yr hyn a gyfrifir i ni, a bod Crist heb gyflawnu yr hyn a gyfrifir iddo ef." Drachefn, fel y canlyn yr eglura Turrettin ei olygiadau ar y mater hwn: — "Gellir cyfrif i ni yr hyn sydd heb fod yn perthyn i ni, neu yr hyn sydd yn eiddo i ni mewn modd priodol. Weithiau, cyfrifir i ni yr hyn sydd yn perthyn yn bersonol i ni:—yn yr ystyr hwn y mae Duw yn cyfrif eu troseddau i bechaduriaid pan yn eu cospi am danynt. Cyfrifwyd sel Phineas i ddo yn gyflawnder. Weithiau, y mae yr hyn sydd y tu allan i ni, ac heb ei gyflawnu genym ein hunain, yn cael ei gyfrif i ni:—felly y cyfrifir cyflawnder Crist i ni, a'n pechodau ninnau iddo ef, er nad oes bechod ynddo ef na chyflawnder ynom ni. Yma yr ydym yn ymdrin â'r math olaf o gyfrifiad; o herwydd ein bod yn ymdrin â phechod a gyflawnwyd gan Adda, ac nid genym ni." ..... "Nis gall ei bechod ef fod yn eiddo personol a phriodol i ni, o herwydd nid oeddym eto mewn bod. O ganlyniad, pechod Adda ydyw, wedi ei gyfrif i ni." Gellid llenwi cyfrolau o ddyfyniadau i ddangos mai yr hyn a ddeallir wrth gyfrifiad yn gyffredin, ydyw, gosod yn erbyn neu o blaid un mewn ffordd o farn er mwyn cospi neu wobrwyo; ac nid y trosglwyddiad o ddrygioni neu ddaioni mewn ystyr moesol. Er fod hyn, gellid meddwl, yn eithaf amlwg ynddo ei hun, ac yn cael ei osod allan yn ddigon clir gan y cyffredin o ysgrifenwyr sydd yn dal cyfrifiad, eto, y mae ysgrifenwyr o duedd Antinomaidd ar un llaw, ac o duedd Pelagiaidd ar y llaw arall, yn methu neu yn gwrthod gweled y gwahaniaeth. Y mae cyfundrefn y cyntaf yn sylfaenellig ar gyfrifiad, yn yr ystyr o drosglwyddiad gwirioneddol o gymmeriad a gweithred foesol:—gwrthwyneba lluaws o'r olaf gyfrifiad o gwbl, am nad ydynt yn deall y gair ond yn yr ystyr hwn. Y mae rhai ysgrifenwyr, er mwyn symmud ymaith bob achlysur i neb ddychymygu fod cymmeriad neu weithred foesol yn cael ei throsglwyddo mewn cyfrifiad, yn dewis ymwrthod â'r syniad fod "rhwymedigaeth gyfreithiol" yn cael ei throsglwyddo. Yn ol y dull mwyaf cyffredin o osod allan gyfrifiad, y mae yn cynnwys dau beth; sef, priodoli peth i un, neu ei roddi at ei gyfrif mewn barn; ac yn ail, ymddwyn tuag ato yn unol â hyny; neu, mewn geiriau iau ereill, y trosglwyddiad o rwymedigaeth gyfreithiol—yn gyntaf; ac yn ail, y gweinyddiad o wobr a chosp yn ganlynol i hyny. Y mae y Dr. Payne, ac ereill, yn dewis dyweyd nad oes dim gosod yn erbyn neu o blaid fel peth *blaenorol i ymddwyn tuag at;* ond mai un weithred ydyw cyfrifiad, ac nid dwy—sef ymddwyn tuag at un fel un cyflawn neu fel un euog ar sail gyflawn a digonol. Yn unol â hyn, cyfrif pechod Adda i'w hiliogaeth ydyw, ymddwyn tuag atom ni fel pe buasem wedi ei gyflawnu. Cyfrif pechod ar Grist ydyw rhoddi cospedigaeth pechod arno; a chyfrif cyflawnder i bechadur ydyw rhoddi bendithion yr efengyl iddo ar sail cyflawnder Crist. Eu rhesymau dros y syniad unplyg hwn ydyw, ei fod yn myned dan wraidd Antinomiaeth yn fwy llwyr nag ydyw y golygiad arall; ei fod hefyd yn cytuno âg ystyr y gair *cy rif* yn y Beibl; megys, "ei ddienwaediad ef a gyfrifir yn enwaediad;" hyny yw, rhoddir iddo holl fendithion pobl etholedig Duw, o ba rai yr oedd enwaediad yn arwydd, neu ymddygir tuag ato fel un enwaededig. Ac fel rheswm olaf, dywedant nad ydyw dysgrifio cyfrifiad fel yn gynnwysedig o ddwy weithred wahanol, y naill yn flaenorol ac fel rheswm am y llall, yn symmud ymaith ddim o'r anhawsder a deimlir sydd mewn cospi un am bechod un arall. Pan ofynir, Ar ba sail y mae Duw yn cospi dynolryw am bechod eu tad cyntaf? os dywedir, am fod y pechod hwnw yn cael ei roddi yn eu herbyn, neu yn cael ei wneuthur yn eiddo iddynt trwy gyfrifiad, nid yw hyn yn cael ei deimlo yn rheswm oll; o herwydd gofynir drachefn, Ar ba sail y mae pechod na chyflawnodd dyn ei hun yn cael ei roddi yn ei erbyn? Os atebir eilwaith, ar sail undeb o ryw fath rhyngddo ef a'r hwn a gyflawnodd y pechod, fe deimlir fod hyn yn ddigon o reswm dros gospi y naill am bechod y llall, tra nad yw yr ateb cyntaf yn foddhaol—sef, o herwydd ei fod yn cael ei roddi yn ei erbyn. Y mae bod undeb cyfammodol rhwng Adda a'i hiliogaeth yn ddigon o reswm pa ham y maent hwy yn dyoddef o herwydd ei drosedd ef; tra nad yw yn ddigon o reswm dyweyd mai o herwydd fod ei bechod ef yn cael ei roddi yn eu herbyn. Felly, tybia y Dr. Payne, fod yr holl wirionedd ar hyn yn cael ei osod allan trwy ddyweyd fod hiliogaeth Adda yn dyoddef ar sail yr undeb cyfammodol a hanfodai rhyngddo ef a hwy; ac mai tywyllu, yn hytrach nag egluro, y mater ydyw dangos cyfrifiad fel yn rhywbeth gwahanol a blaenorol i'r gweinyddiad gweithredol o gosp. Nid yw efe am gael ei ystyried mewn un modd yn un sydd yn gwadu cyfrifiad; ac y mae yn anhawdd gweled weithiau unrhyw wahaniaeth hyd yn oed yn ei ddull o eirio ei syniadau. Fel y canlyn y mae yn eu geirio mewn un man:—"Y cwbl sydd yn cael ei drosglwyddo oddi wrth Grist i greduinwyr ydyw gwobr ei gyflawnder. Y mae yn wir fod trosglwyddiad cyfreithiol (*legal transfer*) o'r cyflawnder hwnw iddynt; ond nid yw hyn, ar y mwyaf, yn chwaneg na'i fod yn cael *ei osod o'u plaid neu yn cael ei gyfrif iddynt;* a pho mwyaf yr ystyrir yr ymadroddion olaf hyn, eglurai y canfyddir, fel nas gallaf lai na meddwl eu bod yn hollol gyfystyr â dywedyd fod Duw yn *ymddwyn tuag atynt fel rhai cyflawn* fel gwobr i'r Cyfryngwr am ei waith." Y mae y gwahaniaeth mewn ychydig eiriau yn dyfod i hyn: sef, nad yw cyflawnder Crist yn *eiddo* i'r credaduyn cyn i Duw *ymddwyn tuag ato* fel un cyflawn, yn ol Payne; ond yn ol y golygiad cyffredin, y mae Duw yn ymddwyn tuag ato fel un cyflawn am fod cyflawnder Crist yn cael ei osod i o'i blaid, ac yn dyfod yn *eiddo* iddo trwy undeb â Christ. Y mae sail ddigonol a chyflawn yn angenrheidiol mewn trefn i allu ymddwyn tuag at yr anghyflawn fel un cyflawn; a'r sail hono yw cyflawnder Crist, yn ol y ddau olygiad. Y gwahaniaeth rhyngddynt ydyw, fod y naill yn dal nad yw cyflawnder Crist yn dyfod yn eiddo i ni ond trwy gyfrifiad o hono gan Duw; a'r llall yn cychwyn gyda'r egwyddor nad oes dim yn cael ei gyfrif i neb ond yr hyn sydd mewn rhyw ffordd neu gilydd yn

Digitized by Google

eiddo iddynt yn flaenorol i gyfrifiad. Yn ol y gwahaniaeth hwn, dywedai un, fod pechod Adda yn cael ei gyfrif i'w hiliogaeth, am ei fod yn eiddo iddynt trwy undeb cyfammodol: dywedai y llall fod Duw yn ymweled âg anwiredd Adda ar ei hiliogaeth, nid am fod y trosedd hwn mewn un modd yn eiddo iddynt hwy yn flaenorol i'r fath gyfrifiad, na chwaith o herwydd fod cyfrifiad yn ei wneuthur yn eiddo iddynt hwy o gwbl, ond am eu bod "yn perthyn i deulu Adda." Fel y mae plant pendefig yn colli eu hurddas, a'r holl ragorfreintiau sydd yn nglŷn â hi, mewn canlyniad i wrthryfel eu tad, er iddynt fod yn ddieuog eu hunain—nid o herwydd fod yr euogrwydd yn weithredol, na thrwy gyfrifiad, yn perthyn iddynt hwy, ond o herwydd eu bod yn blant iddo—felly y mae teulu Adda yn dyoddef canlyniadau ei anufudd-dod ef, fel eu cynnrychiolwr a'u pen. Drachefn, dywed pleidwyr un golygiad fod pechod yn cael ei gyfrif ar Grist, am ei fod Ef wedi ei dderbyn arno ei hun trwy ymrwymiad gwirfoddol. Dywed amddiffynwyr y syniad arall, fod yr Arglwydd Iesu wedi ymrwymo yn wirfoddol i ddyoddef dros bechod; ond nad yw hyny mewn un modd yn ei wneyd yn bechod iddo ei hun. Yn gyffelyb, yn ol syniadau y naill, y "mae cyflawnder Crist yn cael ei wneuthur yn *eiddo* i bechadur trwy gyfrifiad gan Dduw, ac undeb â Christ;" ond yn ol syniadau y llall, y "mae cyflawnder y Meichiau yn aros ynddo ei hun, ac nis dichon iddo gael ei drosglwyddo i ni ond fel y derbynir ac y mwynheir ef yn ei effeithiau." Y mae y ddau fath yma o ysgrifenwyr yn cytuno yn ngwirionedd hanfodol cyfrifiad; sef, fod hiliogaeth Adda yn dyoddef canlyniadau ei drosedd cyntaf ef, fod yr Arglwydd Iesu Grist wedi dyoddef yn aberth dros bechod, a bod pawb a gredant ynddo yn cael derbyniad gyda Duw fel pe byddent yn gyflawn, ar sail ei gyflawnder ef.

Y mae y gwahaniaeth uchod i'w ganfod yn ysgrifeniadau y Diwygwyr a'u canlynwyr wrth ymdrin â chyflawnhâd. Yn ol dull cyffredin y Calviniaid o osod allan gyfrifiad o gyflawnder Crist, y mae yn seiliedig ar *undeb* â Christ. Y mae Duw yn cyfrif cyflawnder Crist i bechadur o herwydd ei fod yn *eiddo iddo* trwy ei undeb â'r hwn a'i cyflawnodd. Y mae undeb â Christ yn gyntaf, a chyfrifiad o'i gyflawnder gan Dduw yn ail. "Ni a wyddom (ebe Calvin) nad yw Crist yn llesäu neb ond y cyfryw ag y mae yn ben arnynt. .....y cyfryw, mewn gair, ag sydd wedi ei wisgo ef am danynt. Yr undeb hwn yn unig ydyw yr achos nad yw Crist wedi dyfod yn ofer o'n rhan ni."—*Instit.* iii. 1, 3. Ceir llawer o ymadroddion cyffelyb yn ei ysgrifeniadau. "Mor bell ag y mae Crist y tu allan i ni, ac ar wahân oddi wrthym, y mae pob peth a wnaeth ac a ddyoddefodd er ein iachawdwriaeth yn ofer i ni." "Nid oes dim o'r cwbl a fedd yn dyfod yn eiddo i ni hyd nes y delom i undeb âg ef." Yn gyffelyb y mae yn ddigon hawdd casglu brawddegau o ysgrifenwyr Calvinaidd i ddangos mai eu syniad cyffredin hwy ydyw, fod cyfrifiad o gyflawnder Crist yn ganlyniad neu effaith undeb â Christ. "Trwy undeb â Christ yr ydym yn dyfod i hawl o holl fendithion yr iachawdwriaeth."—*Mastricht*, vi. 5. Y mae yn edrych ar yr undeb hwn yn sail cymhwysiad y prynedigaeth (*fundamentum applicationis redemptionis*), o'r hwn y tardd pob bendith, ac yn eu mysg, cyflawnhâd. "Pwy a all ammheu fod y rhai sydd mewn undeb â Christ, yn aelodau iddo, yn dwyn ei enw—yn cael eu cyfrif yn gyflawn ynddo?" "Mae Duw yn galw pechadur i gymundeb â'i Fab; a thrwy y cymundeb hwnw y mae yn cael ei wneuthur yn gyfranog o'i gyflawnder."—*Heidegger*, ii. 150. Y mae Beveridge yn cario y syniad hwn mor bell, fel ag i ddyweyd y dichon y rhai sydd mewn undeb â Christ, nid yn unig waeddi *gras, gras*, ond *cyflawnder*; o herwydd y mae yn rhaid i Dduw cyflawn roddi i'r cyfryw yr hyn a berthyn i Grist. Y mae cyflawnhâd gan hyny yn ganlyniad angenrheidiol yr undeb hwn. Am fod y pechadur yn Nghrist trwy ei Ysbryd, y mae cyflawnder Crist yn cael ei gyfrif i'r pechadur. Trwy ddangos cyfrifiad fel yn seiliedig ar undeb, y cyfarfyddai Calviniaid yn gyffredin wrthddadl Pabyddion a Sosiniaid yn erbyn yr hyn a alwent hwy, mewn gwawd, yn gyflawnder cyfrifedig neu dybiedig (*putative*), mewn gwrthgyferbyniad i gyflawnder gwirioneddol. Dadleuai y Pabyddion yn erbyn y Protestaniaid nad oedd ganddynt hwy ond cyflawnder mewn enw, mewn ffug (*a fiction of law*)—cyflawnder *un arall*, ac nid cyflawnder *iddynt eu hunain*. Mewn atebiad i hyn, dywedai y Calviniaid fod cyflawnder Crist yn dyfod yn eiddo iddynt eu hunain trwy *undeb âg ef*. Er mai cyflawnder Crist ydyw, eto y mae y rhai a gredant ynddo yn *un* âg ef; ac o ganlyniad, y mae yn dyfod yn *eiddo iddynt* hwythau hefyd. Felly, y mae y rhai sydd mewn undeb â Christ yn wirioneddol gyflawn, er eu bod yn deimladwy o'u pechodau, ac yn eu cyfaddef; ac o ganlyniad, y mae gweithred farnol Duw yn cyfrif cyflawnder Crist iddynt, ac yn eu cyhoeddi yn gyflawn, yn ol gwirionedd (*secundum veritatem*), ac nid yn gyfrifiad disail (*mera putatio*). Yn fynych, cyfarfyddir â'r ymadrodd, fod cyfrifiad o gyflawnder neu haeddiant Crist i bechadur, ac o bechod dyn i Grist, *yn ol gwirionedd* (*secundum veritatem*); ac o ganlyniad, fod yn rhaid fod undeb gwirioneddol rhwng Crist a phechadur mewn trefn i Dduw allu cyhoeddi dedfryd gyflawnhaol arno. "Nid ffug neu fympwy ydyw cyfrifiad; ond barn wirioneddol a chyflawn, trwy yr hon y mae Duw yn barnu fod pawb sydd yn credu yn ei Fab, felly yn gyfranog o'i gyflawnder ef." Drachefn, dywed yr un awdwr, Rodolph, mai sail cyfrifiad ydyw undeb yr etholedigion a Christ trwy yr Ysbryd, fel y maent yn un corff. Fel y canlyn y mae Turretin—awdwr nad oes un yn mysg yr ysgrifenwyr Calvinaidd yn sefyll yn uwch nag ef am gywirdeb ei farn, ac iachusrwydd ei olygiadau—yn gwahaniaethu rhwng yr hyn a gyfrifir (*imputatum*), a'r hyn y tybir ei fod, ond yn hollol ddisail (*putatum vel fictio mentis circa rem non existentem*). "Y mae yn amlwg fod y weithred farnol hono o eiddo Duw yn ol gwirionedd; o herwydd nid yw yn ein cyhoeddi yn gyflawn ynom ein hunain, yr hyn fyddai yn anghywir, ond yn Nghrist, yr hyn sydd yn hollol wir. Y mae hefyd yn weithred gyflawn, o herwydd y mae cymundeb yn cael ei roddi i ni â Christ, yr hyn ydyw sail gadarn y cyfryw gyfrifiad." Drachefn: "O herwydd, tra y mae Crist allan o honom ni, a ninnau allan o Grist, nis gallwn dderbyn dim bendith oddi wrth gyflawnder nad yw yn eiddo i ni (*justitia aliena*); y mae Duw yn ein huno â Christ trwy undeb deublyg; sef, trwy undeb naturiol ac undeb ysbrydol, trwy rinwedd yr hwn y mae ein holl bechodau ni yn cael eu rhoddi yn erbyn Crist, a'i haeddiant ef yn cael ei roddi o'n plaid ni, ac yn dyfod yn eiddo i ni." Oddi wrth yr ateb yn *Hyfforddwr* Mr. Charles i'r cwestiwn, "Pa fodd y mae cyflawnder Crist yn dyfod yn eiddo i ni?"

Digitized by Google

—sef, "Trwy gyfrifiad o hono gan Dduw, ac undeb â Christ"—nid yw mor amlwg ei fod ef yn golygu fod cyfrifiad yn seiliedig ar undeb â Christ; neu, fod undeb â Christ yn *gyntaf* o ran trefn natur, a chyfrifiad yn *ail*. Ac eto, oddi wrth ei ateb i'r cwestiwn, "Pa fanteision a rhagorfreintiau sydd yn dyfod oddi wrth undeb â Christ?" y mae yn lled eglur mai hyn oedd ei farn. Yn adran 23, yn *Nyhyffes Fjydd* y Methodistiaid Calvinaidd, "Am Undeb â Christ," dywedir: "Yna (sef wedi eu dwyn i undeb â Christ) y mae efe, a'r iachawdwriaeth sydd ynddo, yn eiddo iddynt; y mae yr Ysbryd Glân yn preswylio ynddynt; ac y maent yn derbyn pob gras o gyflawnder" Crist. Yr adran nesaf ydyw, "Am Gyfiawnhâd." Y mae John Elias yn ei *Draethawd ar Gyfiawnhâd* yn gofyn, "Beth yw sylfaen y cyfrifiad hwn?" ac yn ateb, "Prif sylfaen y cyfrifiad ydyw y berthynas sydd rhwng Crist a'i eglwys, trwy osodiad dwyfol, yn nghyfammod y prynedigaeth." Yn ol yr ateb hwn, y mae, nid yn unig undeb â Christ yn sail y cyfrifiad, ond yr undeb sydd rhwng Crist a'i bobl *er tragwyddoldeb*. Onid yw hyn yn arwain i *gyfiawnhâd tragwyddol?*

Yn gysson â'r farn, fod cyfrifiad o gyfiawnder Crist yn rhagdybied undeb âg ef—ac, o ganlyniad, mai y rhai sydd wedi eu haileni, a'u galw yn effeithiol, ydyw gwrthddrychau cyfiawnhâd, o herwydd nas gall fod undeb â Christ heb ailenedigaeth—y mae ailenedigaeth yn cael ei osod o flaen cyfiawnhâd gan ysgrifenwyr Calvinaidd, yn gyffredin, yn nhrefn bendithion yr efengyl. Credir gan luaws o honynt fod Paul wedi sefydlu trefn y bendithion hyn yn y geiriau—"a'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd efe;" a bod galwedigaeth yn cynnwys ailenedigaeth. "Y mae galwedigaeth yn ein dwyn at Dduw, ac i gymundeb âg ef. Nis gall fod cymundeb â Duw ond trwy fod yn Nghrist; ac nis gall neb fod yn Nghrist ond trwy ffydd—trwy yr hon yr ydym yn ei dderbyn, ac yntau yn preswylio ynom." Y mae cyfiawnhâd, gan hyny, yn ganlyniad galwedigaeth. "Y mae Duw yn ein galw i gymdeithas â'i Fab, a thrwy gymdeithas (*communio*) âg ef y'n gwneir yn gyfranogion o'i gyfiawnder."—*Heidegger*. Y mae Lampe yn cymharu bendithion yr efengyl i ddyddiau y greadigaeth:—"Ar y trydydd dydd (ailenedigaeth), y mae yr ysbryd a'r cnawd yn cael eu gwahanu oddi wrth eu gilydd; ar y pedwerydd (cyfiawnhâd), y mae haul cyfiawnder yn cyfodi." Wrth edrych dros yr awduron sydd wedi ysgrifenu yn rheolaidd ar dduwinyddiaeth, o Calvin hyd Dr. Pye Smith, gwelir eu bod yn gyffredin yn gosod ailenedigaeth yn nghynnwysiad eu llyfrau o flaen cyfiawnhâd. Nid o ddamwain yn ddiau y mae hyn wedi dygwydd; ond o'r egwyddor a nodwyd, y sydd yn rhedeg trwy y gyfundrefn Galvinaidd—nid yn ddieithrad, ond eto yn lled gyffredinol. Fel un anghraifft o amrywiaeth, hyd yn oed mewn ysgrifenwyr Calvinaidd, gellir nodi Dr. Payne; yr hwn sydd yn gosod cyfiawnhâd o flaen ailenedigaeth, a hyny yn unol â'r synjiadau a briodolwyd iddo uchod; sef, nad o herwydd fod cyfiawnder Crist yn *eiddo* i bechadur trwy undeb â Christ y mae Duw yn ei gyfrif iddo.

Y mae y gwahaniaeth hwn i'w ganfod rhwng Calviniaid a Lutheriaid ar gyfiawnhâd. Yn ol golygiadau y Lutheriaid, nid am fod cyfiawnder Crist yn eiddo i bechadur trwy ei undeb â Christ y mae Duw yn ei gyfrif iddo; ac o ganlyniad, nid yw cyfrifiad yn seiliedig ar undeb, fel y dywed y Calviniaid. Trwy gyfrif cyfiawnder Crist i bechadur y dygir ef i undeb â Christ. "Y mae Crist, wrth gyfrif ei haeddiant ei hun i ni, yn dyfod yn gyfiawnder i ni" (*Christus nobis imputans omnia sua merita, est nostra justitia*). Nid ailenedigaeth sydd yn gyntaf, hyd yn oed mewn trefn natur, yn ol y Lutheriaid, ond cyfiawnhâd. Trwy gyfiawnhau y mae Duw yn aileni. Y weithred farnol trwy ba un y rhyddheir dyn oddi wrth euogrwydd sydd hefyd yn ei greu o newydd; ac nis gall gras weithio yn effeithiol ar bechadur ond trwy yn gyntaf faddeu ei bechod. Trwy gyfrifiad o gyfiawnder yn unig y dygir pechadur i undeb a chymdeithas â Christ. Dywed y Lutheriaid mai fel un *annuwiol*, yn ystyr priodol y gair, y mae pechadur yn cael ei gyfiawnhau; ac mewn atebiad i wrthddadl y Pabydd—fod yn afresymol meddwl fod Duw yn cyfrif cyfiawnder i un sydd heb gyfiawnder; *h. y.*, ei fod yn cyfrif peth yr hyn nad yw—dywedant: "Gan fod genym brofion cedyrn a sicr yn yr Ysgrythyrau, nid ydym yn gofalu pe ymddangosai i athroniaeth yn afresymol."—*Chemniz*. Ond heb law hyn, cyfarfyddant yr wrthddadl trwy ddyweyd fod cyfiawnhâd yn cynnwys dwy weithred o eiddo Duw:—*yn gyntaf*, cyfrif neu roddi cyfiawnder Crist iddo; ac *yn ail*, ei gyhoeddi yn gyfiawn ar sail y cyfrifiad hwn. Am sail cyfrifiad ei hun, nid oes achos gofyn, gan fod Duw o'i ras yn barod i roddi cyfiawnder Crist iddo, a'r cyfiawnder hwnw yn gyfaddas iddo.

Y gwahaniaeth rhwng y ddau olygiad dan sylw ydyw, fod cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i bechadur *am ei fod* yn eiddo iddo trwy undeb â Christ, yn ol y naill; ond, yn ol y llall, y mae cyfrifiad *yn ei wneuthur* yn eiddo iddo. Y mae ysgrifenwyr Calvinaidd yn fynych yn defnyddio y dull olaf o eirio; ac eto, wrth gyfarfod gwrthddadl y Pabyddion, yn syrthio yn ol ar y blaenaf.

Er mwyn dangos fod ysgrifenwyr uniawngred o bob plaid yn cytuno yn hanfod yr athrawiaeth o gyfrifiad, nis gallwn wneyd yn well na rhoddi ychydig o ddyfyniadau o Dr. Watts, y rhai a gymmeradwyir gan Richard Watson—un o dduwinyddion galluocaf yr Arminiaid—ar un llaw; ac, o ran eu sylwedd, gan Dr. Payne, ar y llaw arall, er ei fod ef, yn unol â'r sylwadau uchod o'i eiddo, yn gwrthwynebu gwneyd cyfrifiad o bechod, a chosp am bechod, yn ddau beth gwahanol:—"Pan y mae dyn wedi troseddu cyfreithiau ei wlad, ac yn cael ei gospi am hyny, y mae yn eglur fod pechod yn cael ei gyfrif iddo; y mae ei anwiredd arno; y mae yn dwyn ei anwiredd; hyny yw, cyfrifir ac ystyrir ef yn euog; condemnir ef, ac ymddygir tuag ato fel troseddwr." "Ond, os bydd dyn wedi cyflawnu bradwriaeth, cymmerir ei etifeddiaeth oddi arno ef a'i blant: yna, y mae y plant yn dwyn anwiredd y tad, ac y mae ei bechod ef yn cael ei gyfrif iddynt hwythau hefyd." "Os bydd i ddyn golli ei fywyd a'i etifeddiaeth o herwydd llofruddiaeth, ac i'w blant fyned yn grwydriaid, yna, dywedir fod gwaed y llofruddiedig ar y llofrudd a'i blant hefyd. Felly yr luddewon;—'bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant hefyd.' Cosper ni a'n plant hefyd o'i herwydd." "Ond gellir gofyn, Pa fodd y mae gweithredoedd bradwrol y rhiant ar ei blant bach, gan fod y cyfryw weithredoedd yn hollol o gyrhaedd babanau, ac nid allasai efe eu cyflawnu? Yr wyf yn ateb:—Dywedir fod gweithredoedd drwg neu dda tad yn cael eu cyfrif i'w blant, *pan y maent*

Digitized by Google

yn mwynhau neu yn dyoddef canlyniadau ei weithredoedd rhinweddol neu fradwrus, er fod y gweithredoedd a gyflawnodd y tad allan o gyrhaedd y plant. Nid oes un anhawsder i ddeall hyn, pan y mae yn dygwydd mewn hanesiaeth ddynol—a pha ham, hefyd, pan y mae i'w gael yn yr Ysgrythyrau? Y mae pechod i'w ddeall, naill ai am weithred o anufudd-dod i ddeddf, neu ynte am ganlyniad cyfreithiol y fath weithred; hyny yw, yr euogrwydd neu y rhwymedigaeth i gosp. Pan ddywedir fod bradwriaeth dyn yn cael ei chyfrif i'w blant, ni feddylir fod gweithred y tad yn cael ei chyfrif i'w blentyn; ond bod euogrwydd neu rwymedigaeth i gosp yn cael eu trosglwyddo arno, a bod y plentyn yn dyoddef alltudiaeth a thlodi ar gyfrif hyny." "Felly, cyfrifwyd pechod Achan ar ei blant; llabyddiwyd hwynt oll i farwolaeth am dano: *Ios.* vii. 24. Yr un modd, cybydd-dod Gehazi a roddwyd yn erbyn ei blant yntau (2 *Bren.* v. 27), pan y cyhoeddodd Duw trwy ei brophwyd nad ymadawai y gwahanglwyf oddi wrtho ef na'i had byth."

"Y mae yr Hen Destament a'r Newydd, yn Hebraeg a Groeg, yn defnyddio y geiriau *pechod* ac *anwiredd* i arwyddo, nid yn unig y gweithredoedd eu hunain, ond hefyd ganlyniadau y gweithredoedd; hyny yw, yr euogrwydd neu y rhwymedigaeth i gosp; ac weithiau y gosp ei hun, pa un a syrth ar y troseddwr gwreiddiol, neu ynte ar ereill o'i herwydd." "Pan y dywedir fod pechod neu gyfiawnder yn cael ei gyfrif i ddyn ar gyfrif yr hyn a wnaeth efe ei hun, yr ystyr yw, fod y gweithredoedd eu hunain, yn nghyd â'r canlyniadau cyfreithiol o honynt. Ond pan y dywedir fod pechod neu gyfiawnder un yn cael ei gyfrif i un arall, y meddwl yw, fod y canlyniadau yn unig yn cael eu cyfrif; hyny yw, y rhwymedigaeth i gosp ar un llaw, ac i wobr ar y llaw arall." "Ond dywedwn a fynom i gyfyngu cyfrif pechod a chyfiawnder i ganlyniadau cyfreithiol, gwobr neu gosp, gweithredoedd da a drwg; gwadwn mor bendant ag y gallom fod gweithredoedd eu hunain yn cael eu cyfrif; eto, fe gyfeiria Dr. Taylor (yr hwn a wadai gyfrifiad) ei holl resymau yn erbyn cyfrif gweithredoedd eu hunain; ac yna, ymffrostia ei fod wedi dinystrio yr hyn nid adeiladasom erioed, ac wedi gwrthbrofi yr hyn ni ddywedasom erioed."

Ar ol dangos yn mha ystyr y mae athrawiaeth y cyfrifiad yn cael ei deall gan wahanol ysgrifenwyr, a pha beth y maent oll yn cytuno arno, fel yr hyn nas gellir ei wadu heb wadu yr athrawiaeth o gwbl, ymofynwn am seiliau ysgrythyrol ar ba rai y mae hi yn gorphwys. Cyfyngwn yr ymofyniad at gyfrifiad pechod cyntaf Adda i'w hiliogaeth fel yr anghraifft y gwrthddadleuir fynychaf yn ei herbyn. Mae yr egwyddor fod y naill ddyn yn cael ei gospi, neu, os dewisir y gair, yn *dyoddef* o herwydd pechod un arall, yn ein cyfarfod yn fynych yn yr Ysgrythyrau. Dywed Duw am dano ei hun, "ei fod yn Dduw eiddigus, yn ymweled âg anwiredd y tadau ar y plant;" *Exod.* xx. 25; xxxiv. 37; *Num.* xiv. 18. Ffrwyth sylwadaeth Iob ar ragluniaeth ydyw, "Pa sawl gwaith y diffydd canwyll yr annuwiolion?.....Duw a guddia ei anwiredd ef i'w feibion;" *Iob* xxi. 17, 19. Dywed Ieremiah: "Yr wyt yn talu anwireddau y tadau i fynwes eu meibion ar eu hol;" *Ier.* xxxii. 18. "Ein tadau a bechasant, ac nid ydynt; minnau sydd yn dwyn eu cosp hwynt;" *Galar.* v. 7. Y mae cyfeiriad eisoes wedi cael ei wneuthur at deulu Achan a Gehazi, fel anghreffiau o'r un egwyddor. Cawn esamplau ereill yn yr Ysgrythyrau, megys cospedigaeth Canaan o herwydd erchylldra Ham; meibion Saul am ymddygiad eu tad (2 *Sam.* xxi. 8, 14); plant Israel o herwydd pechod Dafydd: 2 *Sam.* xxiv. 15, 17. Nid oes dim yn anghysson â'r tystiolaethau a'r esamplau hyn yn ngeiriau Ezeciel: "Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw. Y mab ni ddwg anwiredd y tad, a'r tad ni ddwg anwiredd y mab;" *Ezec.* xviii. 20. Mae cyssylltiad y geiriau hyn yn dangos eu hystyr ac eangder eu cynnwysiad. Cwynai yr Iuddewon eu bod wedi eu hanfon i gaethiwed, nid am eu pechodau eu hunain, ond am bechodau eu tadau. Dywed y prophwyd wrthynt, nad rhaid iddynt edrych yn mhellach na hwy eu hunain, a sicrhâ wrthynt na chânt achlysur i ddefnyddio y ddiareb hono byth mwyach—"y tadau a fwytasant y grawnwin, ac ar ddannedd y plant y mae y dincod"—ond yr ymddygai Duw tuag atynt ar yr egwyddor y byddai i bob un ddwyn ei faich ei hun. Dadganiad yw y geiriau o fwriad cyffredinol yr Arglwydd am y modd yr ymddygai tuag at ei bobl; ac nid oes ynddynt ddim yn anghysson â'r tystiolaethau lluosog yn mha rai y dywedir fod y naill ddyn, mewn amgylchiadau neillduol, yn cwyn anwiredd y llall. Egwyddor gyffredinol yn llywodraeth Duw ydyw, i bob un ddwyn ei anwiredd ei hun; ond nid oes dim yn hyn yn anghysson â'r ffaith fod y fath gyssylltiad rhwng y naill ddyn a'r llall, fel y mae canlyniadau ymddygiad y naill yn disgyn ar y llall. Yn yr olwg ar y ffeithiau a grybwyllwyd, dywed Grotius, "nad yw ynddo ei hun yn anghyfiawn, nac *yn groes i natur cosp*, fod y naill yn cael ei gospi am drosedd y llall. Y mae profiad pob gwlad ac oes yn dwyn tystiolaeth i'r hyn sydd yn ffaith, nad oes neb yn dychymygu ei gwadu yn rhagluniaeth gyffredinol Duw ar y byd, sef fod teyrnasoedd yn dyoddef o herwydd eu brenineodd, plant o herwydd drygioni a gwastraff eu rhieni, a'r naill genedlaeth yn trosglwyddo beichiau i genedlaeth arall. Nis dichon i neb wadu, o herwydd y mae yn ein cyfarfod yn holl gylchoedd bywyd, fod dynion yn mwynhau manteision, ac yn dyoddef anfanteision, mewn canlyniad i ymddygiadau y naill y llall. Y mae rhagluniaeth gyffredinol Duw yn hyn, fel mewn lluaws o bethau ereill, yn dyfod yn mlaen â'i *ffeithiau* fel ateb boddhaol yn erbyn unrhyw wrthddadl a ddygir yn erbyn athrawiaeth yr Ysgrythyr am gyfrifiad."

Ond heblaw fod y gwirionedd hwn yn cael ei ddysgu yn yr Ysgrythyrau fel egwyddor, ac yn cael ei egluro â lluaws o esamplau, cymhwysir ef mewn modd arbenig gan yr apostol Paul at sefyllfa naturiol dynolryw trwy bechod yn *Rhuf.* v. 12—21. Yma, y mae yr apostol, nid yn unig yn gosod i lawr, ond yn ymresymu ar yr egwyddor y dichon y naill ddyn ddwyn anwiredd un arall. Ei amcan ydyw egluro trefn cyfiawnhâd pechadur. Fel yr ydym dan gondemniad o herwydd pechod un arall, felly y mae trefn i'n cyfiawnhau trwy gyfiawnder un arall. Y mae yn profi ein bod dan gondemniad, oddi wrth gyffredinolrwydd marwolaeth, yr hwn yw cyflog pechod. Nid cosp o herwydd anufudd-dod i gyfraith Moses ydyw y farn yr ydym wedi syrthio dani, o herwydd yr oedd marwolaeth yn y byd cyn rhoddiad y gyfraith hono; ac heb law hyny, y mae llawer na throseddiasant unrhyw ddeddf yn weithredol yn marw. Gan fod marwolaeth yn cyfarfod â phawb, rhaid fod rhyw ddeddf sydd wedi ei troseddu yn cynnwys pawb. Y mae marwolaeth

Digitized by Google

gyffredinol yn profi pechod cyffredinol: "Felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb." Pa ddeddf, gan hyny, a droseddwyd? Cyfraith Moses? Ond yr oedd dynion yn meirw yn ddieithrad "o Adda hyd Moses." Ai y ddeddf sydd yn ysgrifenedig ar galon pob dyn? Ond y mae miliynau yn meirw na phechasant yn wirfoddol o gwbl. "Teyrnasodd marwolaeth, ïe, arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda." Nid oes un ddeddf yn cynnwys pawb ond y ddeddf a droseddwyd gan y dyn cyntaf. "Trwy gamwedd un," gan hyny, "y daeth barn ar bob dyn i gondemniad." Nid anufudd-dod un dyn yw yr achlysur trwy ba un y daeth pawb yn bechaduriaid, mwy nag y mae cyflawnder un yn achlysur i bawb ddyfod yn gyflawn. Ond anufudd-dod un ydyw y sail ar ba un yr ymddygir tuag atom fel pechaduriaid, ac ufudd-dod y llall ydyw y sail ar ba un yr ymddygir at y rhai sydd yn credu fel rhai cyflawn. Y mae esbonwyr o bob math yn cytuno yn sylwedd yr esboniad hwn ar y geiriau. Hyny yw, y mae pawb yn addef—nis gallant wadu, heb wadu geiriau pendant yr apostol—fod *barn condemniad arnom* - ein bod wedi ein *gwneyd yn bechaduriaid*, o herwydd ac ar gyfrif pechod un arall; ein bod wedi ein cyflawnhau a'n gwneuthur yn gyflawn o herwydd ac ar gyfrif cyflawnder un arall. Addefir hyn fel ffaith hyd yn oed gan rai sydd yn gwadu cyfrifiad. Addefant ein bod wedi ein gwneuthur yn bechaduriaid, ein bod yn gondemniedig ar gyfrif, trwy, ac o herwydd, troseddd cyntaf Adda. Ar y llaw arall, addefant fod credinwyr yn cael eu gwneuthur yn gyflawn, eu cyflawnhau ar gyfrif, trwy, ac o herwydd, cyfiawnder neu ufudd-dod Crist. Ond er addef hyn fel *ffaith*, y mae rhai, megys Moses Stuart a Barnes, er hyny yn gwadu cyfrifiad. Gellid meddwl fod gwadu cyfrifiad yn anmhosibl i ddynion sydd yn gwneyd yr addefiad uchod. Ond nid yw hyn mor ryfedd wrth gofio fod y syniad am gyfrifiad yr ymresyment hwy yn ei erbyn yn gwahaniaethu ond ychydig, os dim, oddi wrth y trosglwyddiad moesol y cyfeiriwyd ato o'r blaen. Y mae syniadau eithafol ar y mater hwn, fel ar bob un arall, yn gyru ereill yn fynych i'w wadu o gwbl; ac, nid yn anfynych, hyd yn oed pan nad ydynt wedi colli hanfod y gwirionedd, ymwrthodant â'r geiriau i'w osod allan sydd wedi derbyn cymmeradwyaeth eglwysi ac ysgrifenwyr uniawngred yn lled gyffredinol. Mae meddyliau yn agos gyssylltiedig â geiriau, ac nid yw yr olaf mor ddiogel, gyda'r ymdrech goreu i'w cadw yn eu purdeb, ond mewn cyssylltiad â'r geiriau a ddefnyddir yn lled gyffredinol i hyny. Mae ymresymiad Paul yn y geiriau dan sylw wedi cael ei ddeall fel yn cynnwys yr egwyddor o gyfrifiad, o ran ei hanfod, gan Arminiaid a Chalviniaid yn ddiwahaniaeth, er y gall ambell un o honynt fod yn ammheus o'r gair o herwydd y syniadau eithafol a gyssyllta ereill âg ef.

Rhoddwn yma ychydig o dystiolaethau dynion nad ydynt mewn un modd yn uchel eu syniadau: yn wir, y mae rhai o honynt yn brif amddiffynwyr Arminiaeth. Fel y canlyn y dywed Arminius ei hun:—"Ni pherthynai y pechod cyntaf i'n rhieni cyntaf yn unig, ond yr oedd yn gyffredin i'r holl hiliogaeth.....o herwydd yn Adda y pechodd pawb: *Rhuf.* v. 12. Pa gosp bynag, gan hyny, a roddwyd ar ein rhieni cyntaf, disgynodd ar eu hiliogaeth, fel y mae pawb wrth natur yn, blant digofaint (*Eph.* ii. 3); yn agored i gondemniad ac i farwolaeth dymmorol a thragwyddol; ac yn olaf, yn amddifad o gyflawnder a sancteiddrwydd gwreiddiol: ac yn y cyflwr hwn y buasent byth, oddi eithr eu gwaredu gan Iesu Grist, i'r hwn y byddo gogoniant yn oes oesoedd: *Rhuf.* v. 18, 19."—Allan o *Theological Institutes R. Watson.* Golygiad Whitby ar y geiriau, "yn gymmaint (ἐφ ὡ) a phechu o bawb," yw, y dylid eu cyfleithu. "*yn yr hwn* y pechodd pawb." "O herwydd," eb efe, "nid yw yn gywir dyweyd, *yn gymmaint*, neu *o herwydd*, y pechodd pawb, gan fod yr apostol yn dyweyd yn hollol wrthwyneb, sef fod y farwolaeth a'r condemniad sydd wedi disgyn arnom wedi dyfod arnom o herwydd pechod Adda yn unig. O ganlyniad, y mae yr apostol yn ein dysgu fod y farwolaeth a'r condemniad, nid am bechod pawb, ond am bechod yr un hwnw—Adda—*yn yr hwn y bu pawb farw.*" Fel y canlyn yr ysgrifena R. Watson:—"Y mae tystiolaeth yr Ysgrythyr ar y pen hwn mor bendant, fel y mae pob ymdrech i'w osgoi yn ofer. Yn *Rhuf.* v, cyferbynir Adda a Christ fel dau ben cyfammodol, cyferbynir hefyd y niwed a ddaeth i ddynolryw trwy y naill, a'r feddyginiaeth a ddaeth trwy y llall; a dangosir fod y naill yn effaith trosedd Adda, a'r llall yn effaith ufudd-dod Crist. Gelwir Adda, mewn cyfeiriad at ei gymmeriad fel pen cyfammodwr, yn 'ffurf (τυπος=*cysgod*, neu *gynllun*) yr hwn oedd ar ddyfod.' Defnyddia Paul hefyd yr ymadroddion, 'yr Adda cyntaf,' a'r 'ail Adda;' yr hyn nis gellir ei esbonio ond trwy ddyweyd, gan fod pechod a marwolaeth wedi dyfod trwy y cyntaf, felly y mae cyflawnder a bywyd trwy yr ail; a'r hyn ydyw Crist i'w had ysbrydol ef, hyny ydyw Adda i'w had ysbrydol yntau. Ar hyn y mae y gymhariaeth wedi ei sylfaenu: 'O blegid megys yn Adda y mae pawb yn meirw, felly hefyd yn Nghrist y bywheir pawb' (1 *Cor.* xv. 22)—geiriau nas gellir rhoddi ystyr naturiol iddynt mewn un ffordd arall. Nid oes un grym chwaith yn y sylw nad yw y berthynas hon rhwng Adda a'i hiliogaeth yn cael ei gosod allan yn eglur yn hanes y cwymp; o herwydd, a chaniatau nad yw yn cael ei gosod allan yno, y mae esboniad apostol ysbrydoledig yn llawn ddigon o awdurdod. Ond y gwirionedd ydyw, fod yr holl fygythion a gyhoeddwyd ar ein rhieni cyntaf yn dwyn perthynas â'u hiliogaeth yn gystal ag â hwy eu hunain. Mae y farwolaeth a fygythiwyd yn cyrhaedd at bawb—'yn Adda y mae pawb yn meirw.' Y mae y bygythiad neilldiol a gyhoeddwyd ar Efa wedi cyrhaedd at ei merched. Melldithiwyd y ddaiar—ac y mae hyn yn cyrhaedd hiliogaeth Adda hyd yn awr, y rhai, trwy chwys eu gwyneb sydd yn bwyta bara. Yr oedd hyd yn oed y fendith gyntaf, 'ffrwythwch ac amlhewch,' &c., yn cael ei rhoddi iddynt fel cynnrychiolwyr eu hiliogaeth; o herwydd ni allasent eu hunain 'lenwi y ddaiar a'i darostwng hi.' Y mae yr holl amgylchiadau yn dangos eu bod yn sefyll o flaen eu Creawdwr fel cynnrychiolwyr eu hiliogaeth yn ngwyneb cyfraith, er nad ydynt mewn cynnifer a hyny o eiriau yn cael eu galw felly."—*Theol. Instit.*, cyf. x. tudal. 446.

Nid oes nemawr esboniwr, o ba enwad bynag, wedi gallu myned trwy eiriau yr apostol heb addef eu bod yn dysgu fod pawb wedi syrthio yn ddarostyngedig i farwolaeth ar gyfrif pechod Adda, a hyny yn flaenorol i unrhyw drosedd o'r eiddynt eu hunain. A hyn ydyw athrawiaeth y cyfrifiad yn ei phurdeb diledryw. Y mae yn bosibl i athrawiaeth y cyfrifiad gael ei dal mewn

Digitized by Google

gwirionedd. er cael ei gwadu mewn enw; ac i'r gwrthwynebb, y mae yn bosibl iddi gael ei dal mewn enw, ac eto ei gwadu mewn gwirionedd, hyny yw, yn yr ystyr y dysgir hi yn gyffredin. Yn mhlith y rhai sydd wedi gwadu cyfrifiad yn ystyr cyffredin y gair, y mae Euaws o dduwinyddion America — canlynwyr Jonathan Edwards. Er mwyn cyfarfod gwrthwynebiadau dynion yn erbyn yr athrawiaeth fod y naill ddyn yn dyoddef o herwydd trosedd dyn arall, neu fod holl ddynolryw yn dyoddef o herwydd pechod cyntaf Adda, y mae y dyn enwog hwn yn dysgu fod holl ddynolryw yn myned yn llygredig o herwydd eu bod yn *un* âg Adda, fel y mae y cangenau yn un â'r pren; ac ar sail eu cyfranogiad o lygredd Adda, a'u *cydsymiad* mewn effaith â'i drosedd ef, y cyfrifwyd y trosedd hwnw yn eu herbyn. Yn ol Edwards, y mae dyn yn llygredig yn gyntaf; ac *yna*, ac ar *sail* y llygredigaeth hwn, y mae enogrwydd y trosedd cyntaf yn cael ei roddi yn ei erbyn. Ei amcan oedd, symmud yr wrthddadl fod dyn yn dyoddef o herwydd camwedd un *arall*, trwy ddangos mai nid camwedd un arall ydyw, ond ei gamwedd ei *hun*—fod pawb yn derbyn llygredigaeth oddi wrth Adda, fel y mae y cangenau yn derbyn nodd oddi wrth y pren; ac o ganlyniad, fod condemniad wedi disgyn arnynt o herwydd yr hyn ydynt hwy eu hunain. Yn yr ystyr hwn, y mae cyfrifiad yn cael ei ddysgu gan Hopkins, Dwight, ac ereill. Ond gan fod hon yn athrawiaeth hollol wahanol oddi wrth yr hon sydd yn myned dan yr enw cyfrifiad yn gyffredin, galwyd hi yn gyfrifiad anuniongyrchol (*mediate*), i'w gwahaniaethu oddi wrth gyfrifiad uniongyrchol (*immediate*). Y cyntaf a wnaeth y gwahaniaeth oedd un Placaeus, yn Ffrainc; yr hwn a gondemniwyd gan synod Ffrainc, yn 1644, am ddysgu nad oes dim mewn pechod gwreiddiol ond llygredigaeth yn unig. Er mwyn osgoi y ddedfryd, gwahaniaethai rhwng cyfrifiad anuniongyrchol ac uniongyrchol. Wrth y cyntaf y deallai gyfrifiad o bechod Adda, yn seiliedig ar lygredigaeth ein natur, trwy yr hyn yr ydym yn cydsynio ac yn cymmeradwyo y pechod hwnw. Proffesai Placaeus gredu mewn cyfrifiad yn yr ystyr hwn, tra y gwadai gyfrifiad uniongyrchol, yn seiliedig ar y berthynas yn mha un y safai Adda tuag at ei hiliogaeth.

Rhai o'r rhesymau yn erbyn y golygiad hwn ydynt: — *Yn gyntaf:* Nad ydyw yn rhoddi un rheswm dros drueni a llygredigaeth dynolryw. Y mae y *ffeithiau* yn aros yr un; nis gall un gyfundrefn eu hesbonio ymaith; y mae dynolryw yn dyfod i'r byd yn ngafael poenau corfforol, marwolaeth, sicrwydd anocheladwy o syrthio dan lywodraeth chwantau llygredig, os byddys byw. Hyn ydyw y gosp. Ond cosp am ba drosedd? Trosedd Adda ydyw yr ateb cyffredin. Nag ê, medd amddiffynwyr y golygiad arall; ac nid oes ganddynt un trosedd arall i roddi yn ei le; o herwydd y mae hyn oll yn cyfarfod dyn cyn y dichon iddo droseddu yn ei berson ei hun. *Yn ail:* Gellir olrhain trueni dyn i *gyfiawnder* Duw, yn ol yr esboniad cyffredin; ond nid oes un rheswm i'w roddi drosto ond *penarglwyddiaeth* yn ol y llall, yr hyn sydd yn groes i syniadau naturiol ac ysgrythyrol am Dduw. *Yn drydydd:* Er mai dyoddef y mae dynolryw mewn canlyniad i'w perthynas gyfammodol âg Adda, eto, ar ran Duw, nid oedd dim ond daioni pur yn y cyfammod hwnw. Gosododd Duw ddedwyddwch perffaith Adda, a'i hiliogaeth, ar yr ammod hawddaf y gellir ei ddychymygu. Yr ydoedd efe hefyd wedi ei amgylchynu â'r cymhelliadau cryfaf i gyflawnu yr ammod hwnw; o herwydd, ni allai amgylchiad cyffelyb godi eilwaith. Mor bell oddi wrth fod y cyfammod a wnaethpwyd âg Adda yn "gyfammod gweithredoedd" yn cynnwys ei holl fywyd ac yn cymmeryd i mewn holl gylch ei gyfrifoldeb, fel yr ydoedd yn amlygiad annhraethol o ddaioni. Nid gosod dedwyddwch dyn ar gyflawniad o gylch cyflawn o ddyledswyddau a wnaed, a hyny yn nghanol temtasiynau nerthol; ond rhoddwyd hapusrwydd i'r dyn cyntaf heb un ammod, ac yr oedd ei barhâd iddo ei hun ac i'w hiliogaeth yn seiliedig ar ond un yn unig, a hwnw yr hawddaf a allasai fod. Heb law hyny, yr oedd ei amgylchiadau y fath ag i ddwyn y cymhelliadau cryfaf i weithredu ar ei feddwl. *Yn bedwerydd:* Y mae yn gysson â phriodoliaethau y Llywydd Mawr i roddi bendithion grasol i holl ddynolryw i ymddibynu ar un weithred o ufudd-dod o eiddo un dyn. Mae yn afreidiol dwyn esamplau o'r egwyddor hon. Mewn gwirionedd, deddf gyffredinol rhagluniaeth ydyw. Y mae wedi ei chydblethu â llygredigaethau dynol. Y mae pawb yn mwynhau manteision yr egwyddor hon wrth etifeddu meddiannau bydol, parch, gwybodaeth, diogelwch, rhyddid, manteision teuluaidd a gwladol, a sefydliadau crefyddol. *Yn bummed:* Y mae prawf Adda er llesâd ei hiliogaeth yn gyffelyb i brawf yr AIL DDYN, er llesâd ei holl frodyr ef. Y mae yr egwyddor hon yn rhedeg trwy y Testament Newydd. Nid yn unig y mae y gymhariaeth rhwng y "dyn cyntaf" a'r "ail" yn cael ei nodi yn *nghanlyniadau* eu prawf, ond hefyd yn y prawf ei hun a fu ar y ddau. Nis gallwn ddeall y naill heb ddeall y llall.

CYFRIFOLDEB. Gwel ENAID, CYDWYBOD, ac YMWYBYDDIAETH. A

CYFRYNGIAD AUGSBURG, [*Augsburg Interim*]: ymgais Siarl v. i beri cydwelediad heddychol rhwng y Pabyddion a'r Protestaniaid. Pan fu farw Luther yn y fl. 1546, ymledodd Protestaniaeth dros Germany, Awstria, Ffrainc, ac Italy, a daeth yn allu crefyddol, a gwladol, o ddylanwad ac awdurdod mawr. Mewn rhan, o herwydd na ffynai perthynasau cyfeillgar rhyngddo a'r pab, ac mewn rhan, o herwydd yr agwedd fygythiol a nodweddai amgylchiadau pethau yn Twrci, yr oedd Siarl v., yr ymherawdwr, wedi osgoi ymyryd â'r Protestaniaid mewn ffordd o gynnyg gwrthwynebiad iddynt: ac, yn Llwyrwys Spire, darfu iddo hyd yn oed ganiatäu trosglwyddiad meddiannau eglwysig er cynnaliaeth eglwysydd ac ysgolion yn y taleithiau Protestaniaidd. Pan gyfarfyddid mewn llwyrwys neu gymmanfa y tro nesaf, bwriedid fod i bob plaid gynnyg cynlluniau o ddiwygiad eglwysig, i fod yn ddarostyngedig i benderfyniadau terfynol o eiddo cynghorfa rydd a chyffredinol. Nid oedd gan y Protestaniaid ddim yn erbyn trefniad o'r fath yma; ond gwrthwynebid ef gyda'r egni mwyaf tanbaid gan Paul III., yr hwn a daerai mai i'r dyben hwn yr oedd Cymmanfa Trent yn benodol wedi ei galw, a'i hagor yn Rhagfyr, 1645. Gan fod ganddynt le teg i, a rheswm da dros, ddrwgdybio cynghorfa ydoedd yn gwbl ddibynol ar y pab, ac heb fod nac yn gyffredinol nac yn rhydd, nac hyd yn oed yn Gristionogol, gwrthodai y Protestaniaid ei chydnabod; a mwy dymunol oedd ganddynt edrych at yr ymherawdwr, a dysgwyl wrtho ef am ganiatâd o rai o'r hawlfreintiau

Digitized by Google

oedd yn ddyledus iddynt. Yn y cyfamser, wedi caffael ymwared oddi wrth bob ofnau oddi allan, ac yn cael dylanwadu arno gan ei gyffeswr, Granvella, ymheddychodd Siarl â'r pab, a dechreuodd ymbarotoi i weithredu yn unol â hyny. Cafodd fod y Protestaniaid wedi cydymgynghreirio er eu hamddiffyn eu hunain. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1546, trwy addewidion teg a rhagorol, llwyddodd i ddenu a daduno yr etholwr, Maurice o Saxony, oddi wrth gynghrair a chydammod Smalcald. O herwydd trofniadau diffygiol ac anmherffaith, ac hefyd o blegid y rhyfel—er yn llwyddiannus ar y cyntaf—methu, a cholli, a wnaeth y Protestaniaid yn y diwedd. Disoddodd Maurice ei gâr John Frederick, a chymmerodd swydd etholwr oddi arno, a dybenodd y rhyfelgyrch ar yr Elbe yn ngharchariad y tywysog Protestanaidd. Perswadiwyd yr ymherawdwr yn awr fod yr amser wedi dyfod pan y gallai goroni ei fuddugoliaeth trwy beri fod yr undeb mewn ffydd bellach yn cael ei adferu. Nid yn rhesymol y gallai obeithio bod yn alluog i lethu a llwyr ddarostwng Protestaniaeth tra y parhâai cymmaint o'r uchelwyr mewn agwedd anymostyngar. Yr oedd gweithrediadau Cymmanfa Trent (yr hon, yn 1547, a drosglwyddwyd i Bologna) yn mhell o fod yn un cynnorthwy iddo yn ei ymdrechion i ddwyn cytundeb i mewn rhwng y ddwyblaid. Gan hyny, yn Llwyrwys Augsburg (yn Medi, 1547), ymgymmerodd â'r cymmeriad o gyflafareddwr neu gyfryngwr mewn pethau crefyddol. Y pendefigion Protestanaidd yn unfrydol a amlygasant eu dymuniad ar fod i'r ymherawdwr anfon allan reitharch, yn hyfforddi pa fodd y dygid yn mlaen faterion crefyddol mewn dull Cristionogol, nes y ceid penderfyniad cynghorfa gyffredinol, ar yr hon na chaniateid i'r pab lywyddu. Fel personau cymhwys i dynu allan a chyfansoddi yr ysgrif hon, cyflwynodd y brenin Ferdinand i sylw ei frawd Julius Pflug, esgob Naumburg, a Michael Helding, esgob cynnorthwyol Mayence.

Chwanegwyd gan Etholwr Brandenburg John Agricola, ei lysbregethwr ef, at y ddirprwyaeth, modd y cynnrychiolid y Prostestaniaid, ac y gofelid am eu buddiannau hwythau; tra yr oedd Helding, yn benaf, yn cynnrychioli yr hen blaid Babaidd, a Pflug (yr hwn, cyn hyn, a gyfansoddasai amryw ffurfreolau o undeb) y blaid Erasmeaidd. Parotoisant yr *Interim Augustanum*—fel y gelwid y cyfryngiad hwn—âg arno yr enw yma: "Barn a gorchymyn ei fawrhydi Pabaidd pa fodd y mae materion crefyddol i gael eu harwedd o fewn yr Ymherodraeth Sanctaidd, i aros penderfyniad cynghorfa gyffredinol; wedi ei gyhoeddi a'i fynegu yn Llwyrwys Augsburg, Mai 15fed, 1548, a'i gymmeradwyo gan yr uchelwyr yn gyffredinol." Cynnwysai y chwe erthygl ar ugain a ganlyn:—1. Am ddyn cyn y cwymp. 2. Am ddyn ar ol y cwymp. 3. Am iachawdwriaeth trwy Grist. 4. Am gyfiawnhâd. 5. Am ffrwythau a bendithion cyfiawnhâd. 6. Pa fodd y cyflawnheir dyn. 7. Am gariad a gweithredoedd da. 8. Am sicrwydd o faddeuant pechodau. 9. Am gelwysi. 10. Nodau ac arwyddion y wir eglwys. 11. Gallu ac awdurdod yr eglwys. 12. Am swyddogion yr eglwys. 13. Am y prif esgob a'r esgobion creill. 14. Am y sacramentau yn gyffredinol. 15. Am fedydd. 16. Am gonffirmasiwn. 17. Am yr ordinhâd o gyffesiad. 18. Sacrament yr allor. 19. Eneiniad Sanctaidd. 20. Y sacrament o ordeiniad. 21. Y sacrament o briodas. 22. Sacrament yr offeren. 23. Am goffadwriaeth seintiau yn aberth yr offeren; ac am eiriolaeth y seintiau fel y mae yn cael ei erfyn yn y gwasanaeth hwnw; ac, yn fyr, am weddïau ar y seintiau. 24. Coffadwriaeth am y meirw yn Nghrist. 25. Pa fodd y mae cynnal y cymundeb yn aberth yr offeren. 26. Am seremonïau a defodau yr offeren. Ni allasai y tair cyntaf o'r erthyglau hyn roddi un tramgwydd penodol i neb. Yn y bedwaredd, gyda golwg ar gyfiawnhâd, sicrheidiol, fod dyn, trwy waed Crist, nid yn unig yn derbyn maddeuant o'i bechodau, ond yn cael ei adnewyddu, ac yn dyfod yn rhagorach cymmeriad mewn gwirionedd; purir ei galon trwy yr Ysbryd Glân, fel y mae yn ymestyn at, ac yn awyddu am, yr hyn sydd dda; a bod cyfiawnder yn cael ei blanu a'i ddodi o'i fewn. Erthygl 6ed a sicrhâ, fod gras yn cyffroi y galon, ac yn ei dwyn at Grist, ac i ffydd yn ei haeddiant ef; y ffydd yma sydd yn derbyn dawn yr Ysbryd Glân, trwy yr hwn y mae cariad yn cael ei dywallt ar led yn ei galon. Fel hyn, trwy gyfiawnder planedig neu impiedig, y mae dyn yn dyfod yn wirioneddol gyfiawn. Yn y 7fed erthygl, cadarnheir: mor fuan ag y mae cariad—cyflawnder y gyfraith—yn myned i mewn trwy y cyfiawnhâd, y mae yn dyfod yn ffrwythlawn, ac yn cynnwys ynddo ei hun hâd pob gweithred dda. Er fod Duw yn hawlio hyn oddi wrth bawb, eto, efe a'i gwobrwya mewn amser ac i dragwyddoldeb. Heb law y gweithredoedd a orchymynir gan Dduw, ac ydynt angenrheidiol er iachawdwriaeth, y mae y gweithredoedd hyny sydd yn myned tu hwnt i'r gorchymynion hefyd a haeddiant yn perthynu iddynt. Erthygl 11eg a hôna, mai gan yr eglwys y mae yr hawl i ddeongli yr Ysgrythyrau, o herwydd bod yr Ysbryd Glân yn preswylio ynddi; heb law yr Ysgrythyrau hefyd, yr oedd hi, trwy ddwylaw yr esgobion, wedi trosglwyddo i ni osodiadau neilluol ereill, oddi wrth Grist a'i apostolion. Y mae ganddi, trwy gynghorfaau, yr awdurdod i benderfynu pynciau y dadleuir yn eu cylch, ac i weinyddu cospedigaethau, &c. Yn y 13eg erthygl, cadarnheir fod gan y prif esgob, yr hwn a dderbynia ei awdurdod oddi wrth Grist a Phedr, arglwyddiaeth a gallu goruwch ereill. Sicrhâ erthygl 14eg, fod saith o sacramentau. Y mae erthygl 15eg yn gwirio, fod dyn, trwy y conffirmasiwn—yr hwn nas dichon ond yr esgob yn unig ei weinyddu—yn derbyn yr Ysbryd Glân, nes bod yn alluog i wrthsefyll y byd, y cnawd, a'r diafol. Yn ol erthygl 17eg, rhaid cyffesu pob pechod i'r offeiriad; yn amgen, bydd yn anneallus pa fodd i ddefnyddio yr awdurdod sydd ganddo i rwymo ac i ollwng yn rhydd. Erthygl 18fed. Trwy gyssegriad, tröir sylwedd y bara a'r gwin yn gorff a gwaed Crist. Erthygl 19fed: y mae y corff a'r enaid yn derbyn lles oddi wrth yr eneiniad sanctaidd, yr hwn sydd cyn hyned ag amser yr apostolion. Erthygl 22ain: y Swper Sanctaidd ydyw yr aberth diwaed y mae yn rhaid i Gristionogion ei offrymu er cof am Iesu. Erthygl 23ain: "ni a gadwn gofwyliau y saint, fel y byddo iddynt hwythau eiriol gyda Duw ar ein rhan ninnau." Erthygl 24ain: yr un modd, hefyd, yn aberth yr allor, ceidw yr eglwys goffadwriaeth am Gristionogion ereill a fuont feirw yn y ffydd—y rhai nas gŵyr i sicrwydd a lân burwyd hwynt yn ddigonol cyn eu marw; a thros y rhai, gan hyny, y mae yn gweddïo Duw. Erthygl 26ain: yn y seremonïau, nid oes dim i'w gyfnewid—pob peth i aros megys cynt yn llyfr yr

Digitized by Google

offeren. mewn gwisgoedd. addurniadau, canwyllau, darluniau, ac ymprydiau. Mewn perthynas i briodas yr offeiriaid—er mai dymunol yw i'r offeiriaid aros heb briodi, fel megys y mae yr apostol yn dyweyd y gwasanaethant yn y pethau a berthyn i'r Arglwydd. eto, arosir nes cael barn y gynghorfa. Yn y cyfamser, ni attelid y rhai hyny a fuont gyfranog o'r ddwy elfen yn y Swper.

Naturiol oedd i'r ymherawdwr, trwy y cyfryngiad hwn, fethu boddloni un blaid. Yr uchelwyr Pabaidd a dramgwyddent o herwydd y caniatâd i offeiriaid briodi, ac am y goddefiad i gymmeryd o'r ddwy elfen yn y cymun. Anfoddlonent o blegid yr esgeulusdra i adferu yn ol i'r Babaeth yr holl feddiannau eglwysig. Haerir gan rai, fod Charles, yn ei ymwneyd â'r cyfryngiad yma, dan ddylanwad teimlad digofus at y pab, tra nad oedd felly tuag at y Protestaniaid; ond annilys, os nad cwbl ddisail, yw y cyfryw haeriad. Gwir y byddai i'r pab. yn gystal a'i gynghorfa yn Bologna, edrych ar ymyriad yr awdurdodau gwladol â materion crefyddol yn waith hyf a rhyfygus; ond anmhosibl yw priodoli i'r ymherawdwr ofal mawr am y Protestaniaid, canys yr unig beth ffafriol o ddim pwys iddynt hwy a geir yn y cyfryngiad, yw, ei ddystawrwydd o barth dwyn oddi arnynt drachefn eiddo yr eglwys. Yr oedd y gweddill, pob cyfran o hono, mor dramgwyddus ac atgas yn eu golwg hwy ag y gallasai fod. Rhoddwyd gorchymyn pendant i'r uchelwyr, ar fod iddynt naill ai ymuno drachefn i ddilyn rheolau yr eglwys, neu ynte lynu wrth y cyfryngiad. Nid rhyfedd, gan hyny, er i luaws o'r rhai meddalaf yn mysg y tywysogion Protestanaidd — megys Joachim, etholwr Brandenburg, Frederic II., a'r Freiniarllaeth (*Palatinate*), ac hyd yn oed y tudiaril (*landgrave*) carcharedig, Phylip o Hesse (mewn gobaith, trwy hyny, y cai ei ryddhau) yn fuan a pharod dderbyn y ffurfgyffes, eto, ddarfod nid yn unig i'r etholwr John Frederick, ac efe ar y pryd yn y carchar, ond llawer o dywysogion ereill, mor fuan ag y cyhoeddwyd ef, ardystio eu gwrthwynebiad iddo; ac, fel corff, gwrthododd yr uchelwyr ef. Hollol anmhosibl, gyda'r cyfryw fesurau hannerog a hyn—yn cynnwys fel yr oeddynt eginyn attychweliad i'r holl gamdrefniadau yr oedd cymmaint o awydd am gael ymwared oddi wrthynt—oedd boddhau yr awyddfryd cyffredinol am ddiwygiad mewn pethau crefyddol a chymdeithasol a gynhyrfai ysbryd Germany ar y pryd. Ar fyr amser, defnyddiwyd gorfodaeth a gorthrech gyda'r rhai hyny a amlygent gyndynrwydd—na fynent ymostwng. Yn Germany Uchaf, daeth y milwyr ymherodrol, a gorfodasant Dduc Wurtemburg, a dinasoedd Augsburg, Ulm, Nuremberg, a Halle, i ddwyn i mewn y cyfryngiad. Am ei gwrthwynebiad hi, cospwyd Constance trwy ei hamddifadu o'i rhagorfreintiau fel dinas ymherodrol. Unig ymwared y clerigwyr Protestanaidd a nacaent ei lawnodi — megys Bunz, Frecht, ac Osiander—ydoedd ffoi; a ffoi a wnaethant. Alltudiwyd mwy na phedwar cant o Germany Uchaf. Dangosai y werin a'r holl bobl eu gwawd a'u diystyrwch trwy dynu darluniau, a dadgan diarebion a gogangerddi, &c. Yn ngogledd-barthau Germany, achwynid yn ei erbyn yn eithaf digel, a chyda'r cyhoeddusrwydd mwyaf. Dadganai preswylwyr Magdeburg, na ddysgwylient hwy am iachawdwriaeth trwy y cyfryngiad, nac un "iod" o'r cyffelyb darddiad, ond trwy air Duw yn unig. Cafodd luaws o'r pregethwyr alltudiedig noddfa yn y ddinas hon. Nid ar unwaith y galloodd yr etholwr Maurice weithredu yn groes i'w addewidion mynych gynt, sef y sicrheid i'r bobl gadwraeth ddiogel a defnyddiad parhaus y gyffes o egwyddorion efengylaidd. Pan y cymhellid yr etholwr yn ei garchar i gydsynio â'r cyfryngiad, efe a ddywedodd, pe gwnai hyny y byddai yn cyflawnu y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân. Cynnyddai y gwrthwynebiad yn fwy wrth weled diysgogrwydd yr etholwr, yr hwn a berchid hyd yn oed gan ei elynion. Gwelai y Protestaniaid yn awr fod y cyfryngiad yn sangu yn ddibris ar, ac yn troseddu eu hegwyddor sylfaenol, ac nad oedd yr achos bellach yn amgen na phwnc o fywyd ac angeu. Er nad cedd egwyddor y cyfryngiad, na'r trefniad a'r cwblhâd o hono chwaith wrth fodd y Pabyddion, eto, ystyrient mai nid call fyddai myned i ymrysonfa uniongyrchol â'r ymherawdwr, ac felly (yn y llwyrwys ar y 15fed o Fai), derbyniasant yr ysgrif yn ddiwrthwynebiad, megys deddf yr ymherodraeth, a hyny cyn i'r negesydd Pabaidd gael hyd yn oed ddigon o amser i draethu gwrthresymau y pab. Er y gorthrech a arferwyd yn yr ymgais i'w roddi mewn grym gyda rhai cynnulleidfaoedd, yn enwedig yn neheubarth Germany, ni chafodd y cyfryngiad byth ei gwbl gario allan. Yn Saxony, ceisiodd Melancthon foddio y ddwyblaid trwy ffurf-gyffes dynerach a mwy cymmedrol, ond heb beri dim daioni iddo ef ei hun na'r achos. O'r diwedd, ar y 18fed o Awst, 1549, cadarnhawyd y cyfryngiad gan y pab; a phan y trosglwyddwyd y gynghorfa drachefn i Trent (yn Mai, 1551), ymddangosai cynllun yr ymherawdwr, er cael heddwch, fel ar lwyddo. Daeth cenadon i'r gynghorfa, wedi eu hanfon gan luaws o dywysogion efengylaidd, megys y Duc Christopher, o Wurtemberg, a'r etholwr Maurice. Ond ei ddiddymu, a'i symmud ymaith yn mhen amser a gafodd y cyfryngiad; ac y mae crybwyll hyn yn arwain i sylw byr ar yr hyn a elwir yn Heddwch Crefyddol Augsburg. Trwy gynghrair a chytundeb Passau [gwel PASSAU, CYTUNDEB], Awst 2il, 1552, cafwyd eu rhyddid i'r tywysogion, John Frederick o Saxony, a Phillip o Hesse, a heddwch a arweiniodd i ryddid crefyddol y Protestaniaid. O'r diwedd, mewn llwyrwys a wysiwyd i Augsburg, yn enw Charles V., ac a agorwyd gan Ferdinand, y 5ed o Chwefror, 1555, cwbl benderfynwyd y dadleuon crefyddol oedd wedi cyffroi Germany drwyddi, er y flwyddyn 1546. Yr oedd cyflwr y Protestaniaid yn mhell o fod yn anffafriol, a hyny o herwydd y toster gyda pha un y cytyngid ar Ferdinand gan y Tyrciaid, ac ar Charles V. gan y Ffrancod. Gofynent am heddwch diammodol, parhaus, a sefydlog, heb appeliad at un gynghorfa drachefn. Yr oedd eu hymdrechiadau am eu hawliau yn barod wedi effeithio cymmaint a hyn—nad oeddynt yn cydnabod neb yn farnwyr goruchel mewn materion crefyddol, ac yr oeddynt wedi peri fod y wlad yn dibrisio y rhith o undeb crefyddol a ddeilliodd o'r orsedd ymherodrol. Y prif bwynt mewn dadl rhyngddynt hwy a'r Pabyddion bellach oedd:—Pa fodd yr ymddygid o hyn allan tuag at y clerigwyr yn y parthau hyny oedd wedi cofleidio y Diwygiad? a fyddai raid iddynt fod yr un farn a'r penaethiaid gwladol, neu ynte golli eu lleoedd? O'r diwedd, Medi 6fed, cydsyniodd Ferdinand â chytundeb o heddwch; ac ar y 25ain o'r un mis pasiwyd dedfryd benderfynol yn y llwyrwys, neu y gymmanfa, yr hon, yn benaf, oedd mewn cydffurfiad âg ewyllys a dymuniad y Protestaniaid.

Digitized by Google

Yr oedd dau bwnc, pa fodd bynag, ar ba rai nas gallai y pleidiau gydweled:—1. Mewn perthynas i'r cwestiwn, pa un a oddefid i benaethiaid gwladol, a'r rhai a flaenorent yn yr eglwys hefyd, ddewis a fynent o'r ddau gredo, heb fod yn agored i golledion yn eu hamgylchiadau tymmorol:—yr hyn a wrthwynebid gan y blaid Babaidd. 2. Pa un a fyddai y bobl yn ddarostyngedig i'w llywodraethwyr mewn pethau crefyddol:—yr hyn na fynai y Protestaniaid ei fod yn cael ei gadarnhau. Er penderfynu y materion uchod, daeth allan gyhoeddiad ymherodrol, yn dadgan:—1af. Os ymadawai archesgob, esgob, prelad, neu unrhyw glerigwr arall o gymundeb Eglwys Rhufain, ei fod i gadw ei urddas swyddogol, ond i golli ei le a'i flwydd-dalion, a chlerigwr Pabaidd o'r glwysgor i gymmeryd ei le, &c. 2il. Bod i ba ddinasoedd neu gymmydau bynag a berthynent i'r cyfryw wŷr eglwysig, ac a fabwysiadent Gyffes Ffydd Augsburg, gael eu gadael yn llonydd heb aflonyddu na gormesu arnynt mewn modd yn y byd.

Er bod y ddeddf gaethiwus a gynnwysir yn y gyntaf, yn enwedig, o'r penderfyniadau uchod, wedi peri attalfa nid bychan ar gynnydd Protestaniaeth, ac er fod Protestaniaid a breswylient o fewn cylch awdurdod preladiaid Pabaidd yn dyoddef mawr ac aml flinderau; eto, bu telerau yr heddwch o les mawr, yn enwedig i'r Eglwys Lutheraidd, o herwydd cauid allan yr holl gangenau Protestanaidd ereill. "Sicrhawyd yn awr feddiant o'r hyn a ofynid gan Luther yn nghynnadledd Leipsic—*annibyniaeth ar y pab a'r cynghorfäau.*"—*Ranke*, v. 390. Trefnwyd y cynnullgell ymherodrol hefyd o'r newydd gan y llwyrwys, a chaniatawyd rhydd gyfraniad o'u breintiau i'r Protestaniaid. Yn y modd yma yr adferwyd i ymherodraeth Germany yr undeb a'r heddwch, yr hwn y methodd Siarl, er pob ymgais, ei ddwyn oddi amgylch.—(*Herzog's Real Encycl.*)

CYFRINIAETH, [*cyd—rhin*]: cyfundraeth o athroniaeth a chrefydd yn unedig, yr hon sydd yn amcanu at ddyrchafu yr enaid i gyflwr uwchlaw ymddibynu ar weithrediadau naturiol synwyrau y corff a galluoedd y rheswm, a'i ddwyn, trwy ffydd a myfyrdod, i feddiant o'r wybodaeth a'r dedwyddwch uchaf, mewn undeb uniongyrchol â Duw, neu ymgolliant yn y natur ddwyfol. Y mae y gair Seisoneg am gyfriniaeth, *mysticism*, wedi tarddu o'r gwreiddyn *μυ* (*mu*), a'r ferf *μυειν* (*muein*), yr hon sydd yn arwyddo *cau i fyny*: felly *μύστης* (*mustês*) yw un yn cau i fyny. Cymhwysid y gair yn ei ystyr cyntaf at ddefodau a gwersi cyssylltiedig â'r dirgelion crefyddol Groegaidd, am y rhai yr oedd y genau i fod yn gauedig. Oddi wrth hyn, defnyddiwyd y gair i osod allan unrhyw iaith neu ddefod ddirgelaidd, hysbys yn unig i'r cyfarwydd. Benthyciwyd y gair hefyd mewn ystyr ffugrol gan yr athronwyr oddi wrth yr offeiriaid paganaidd, a chymhwyswyd ef ganddynt at eu hathrawiaethau dirgelaidd a mewnol (*esoteric*): gelwid y dysgybl a dderbynid i'r rhai hyn yn *myst* neu *mystic*. Y mae delw yr ystyron cyntefig hyn i'r gair yn dyfod i'r golwg yn amlwg ac yn fynych yn ysgrifeniadau rhai o dadau boreuaf yr eglwys. Y mae Theodoret, Ambrose, ac Ioan Aurenau, yn fynych yn fwriadol yn defnyddio iaith ffugrol a thywyll wrth ymdrin â rhyw ddefodau a gyfrifid ganddynt yn meddu dylanwad cyfriniol; gan awgrymu nad oeddynt i'w hegluro, ac nas gellid eu deall ond yn unig gan y cyfarwydd. Yr oedd crefydd yn cael ei llygru oddi wrth yr athroniaeth genedlig, ac ysbryd cyfyng a balchaidd y ddysgeidiaeth Roegaidd yn dyfod i'r golwg eilwaith yn ysgrifeniadau y Cristionogion.

Eangiad ar yr ystyr cyntaf i'r gair ydyw yr ail; a'r un sydd yn briodol yn gosod allan neilluoolrwydd y gyfundraeth gymmysgedig o athroniaeth a chrefydd sydd dan sylw. Yr ystyr hwnw ydyw, yr ymarferiad o gau i fyny, mor llwyr ag y mae yn ddichonadwy, bob agorfa i'r enaid trwy gyfrwng y synwyrau, ac hyd yn oed hefyd trwy weithrediadau cyffredin y deall a'r rheswm, i'r dyben o dynu y meddwl oddi wrth bob peth y tu allan iddo ei hunan, fel ag i'w ddyrchafu uwch law pob arddangosiad synwyriaethol, a daiarol, a'i gymhwyso i dderbyn goleuni dwyfol yn uniongyrchol oddi uchod—fel y dywed un o gymmeriadau yr hen fardd Seisoneg, George Chapman:—

> "I'll build all inward—not a light shall ope
> The common out-way.—
> I'll therefore live in dark; and all my light,
> Like ancient temples, let in at my top."

Y mae cyfriniaeth, o ran ei hanfod, yn seiliedig ar yr elfen grefyddol sydd yn natur dyn; sef, yr ymestyniad at y dwyfol a'r ysbrydol: ond er hyny, amlygodd ei hunan o ran ffurf mewn cyssylltiad âg athroniaeth yn gyntaf; ac wedi hyny trawsnewidiwyd hi i ffurf mwy cydnaws, dybygid, â'i hansawdd gynhenid, trwy i'r un ysbryd ymgorffoli mewn crefydd. Ar yr un pryd, er mai ffurf o grefydd, yn hytrach nag athroniaeth ydyw cyfriniaeth, yn fwyaf priodol, eto, y mae yn hawdd gweled wrth ddilyn gwahanol yrfaoedd naturiol y meddwl yn ei ymchwil am wybodaeth, pa fodd y mae athroniaeth yn hôni cyfathrach â chyfriniaeth, ac yn arwain iddi:—rheswm, wedi ei ddarbwyllo o'i wendid a'i annigonolrwydd i dreiddio i ddirgelwch bodolaeth, yn rhedeg am loches i ffydd; rheswm, yn cael ei hunan yn analluog i oleuo y tywyllwch sydd ar bob llaw yn ei amgylchynu, o'r diwedd yn rhoddi i fyny yr ymdrech, ac mewn anobaith yn rhoddi naid i ganol y tywyllwch—wedi methu plymio y môr o ddirgelwch sydd yn ei amgylchynu, o'r diwedd yn chwilio am orphwysdra trwy neidio iddo, ac ymsuddo ynddo. Y ffurf cyntaf ag y mae ysbryd athroniaeth yn naturiol yn ei gymmeryd, ydyw synwyroliaeth (*sensationalism*). Ffeithiau mwyaf bywiog a tharawiadol ein hymwybyddiaeth ydynt yn ddiau yr eiddo y synwyrau; ac at y rhai hyn y mae y meddwl yn sicr o droi ei sylw yn mlaenaf. Y mae yr holl wyddoregau naturiol, a phob gwybodaeth y mae a wnelo â gwrthddrychau y byd allanol, yn cyfodi yn uniongyrchol oddi wrth elfeniad, dosbarthiad, ac ymchwiliad cyffredinol i'r aneirif ddefnyddiau hyny y rhai sydd yn dyfod i ni trwy gyfrwng y synwyrau. A chyn belled a hyn, y mae gweithrediad yr athroniaeth synwyriaethol yn gyfreithlawn a chywir, ac wedi rhoddi bod i ddarganfyddiadau ardderchog. Ond y mae lluaws o athronwyr wedi eu cymmeryd i fyny mor llwyr gan amledd, amrywiaeth, a gwychder ffrwythau gwyddoriaeth naturiol, nes anghofio pob peth arall, a gwneyd y synwyrau yn unig ffynnonellau gwybodaeth. Fel hyn y gwnaeth y *French Encyclopædists*; a dyma oedd *tuedd* athroniaeth Locke. Darfu i'r camgymmeriadau echrydus yr arweiniodd yr athroniaeth hon iddynt fod yn foddion i yru y meddwl mewn cyfeiriad gwrthwyneb; sef, o fyd allanol natur i fyd tufewnol y meddwl;

Digitized by Google

aeth y meddwl i ymsefydlu arno ei hunan. Ond wrth i'r sylw gael ei gyfyngu yn ormodol eto at ddeddfau gwreiddiol y rheswm, aed yn rhy bell yn y cyfeiriad yma; gwnaed i'r byd allanol gael ei seilio ar, a'i gyfansoddi o, egwyddorion tufewnol y meddwl; a dyma darddiad y gyfundraeth o *idealism*—yr eiddo Berkeley yn Lloegr, a Fichte yn yr Almaen. Dyma ddwy ysgol o athroniaeth mewn dau eithaf gwrthwynebol—y naill i fesur wedi achlysuro y llall; y naill a'r llall yn cynnwys rhyw gymmaint o wirionedd; ond y naill a'r llall yn terfynu mewn penderfyniadau hollol groes i'w gilydd. Ond nis gall yr ysbryd athronyddol, pa fodd bynag, ymfoddloni fel hyn ar ymdrechfeydd dwy gyfundraeth wrthwynebol—y ddwy yn gwrthddyweyd eu gilydd, a'r naill a'r llall yn rhedeg i eithafion anghymmedrol. Yr oedd yr anghyssonderau a'r gwrthddywediadau hyn yn naturiol yn rhoddi achlysur i gyfodiad athroniaeth newydd feirniadol, dyben yr hon a fyddai ymchwilio i sylfeini a hawliau pob cyfundraeth arall, a cheisio dyfod yn nes at y gwir trwy ddynoethi a dadymchwelyd y gau. Yr athroniaeth sydd fel hyn yn amcanu at ddistrywio cyfeiliornad, heb geisio adeiladu unrhyw gyfundraeth o wirionedd, ydyw ammheugarwch (*scepticism*). Ond y mae yn anmhosibl tybied eto y gall y meddwl dynol orphwys mewn cyfundraeth sydd yn dyfod i'r penderfyniad mai y ddoethineb uchaf ydyw ammheu. Nis gall y meddwl orphwys yn y pen draw ar ddim nacaol: y mae yn rhaid iddo gael gwirionedd cadarnhaol yn sylfaen. "Pa beth ynte," i ddefnyddio geiriau Morell [*Hist. of Philosophy*, cyf. i, td. 69], "ydyw y cam nesaf y mae y meddwl dynol yn ei gymmeryd, wedi i synwyroliaeth, meddyliaeth, ac ammheuaeth, wario eu hadnoddau, a'i adael mewn ansicrwydd? Yr ydym yn ateb, mai y lloches i ba un y mae y meddwl yn ddiweddaf oll yn dianc, ydyw *cyfriniaeth*. Y mae rheswm ac adfyfyrdod yn ymddangos fel wedi rhoddi allan eu holl nerth, ac wedi diweddu mewn ansicrwydd. Yna y mae y cyfriniwr yn cyfodi i'r golwg, ac yn cyfarch y gweddill o'r athronwyr o'i ddeutu: —Yr ydych oll yn gyffelyb wedi camgymmeryd y llwybr; yr ydych yn chwilio am wirionedd o ffynnonell hollol anghywir, ac wedi esgeuluso yn hollol yr un elfen ddwyfol o'ch mewn, oddi wrth yr hon yn unig y gellir ei gael. Y mae rheswm yn anmherffaith; y mae yn maglu ac yn sefyll yn mhob cam, pan y ceisia dreiddio i gelloedd dyfnaf gwirionedd pur a pherffaith (*absolute*). Ond edrychwch i mewn i chwi eich hunain: onid oes yna natur ysbrydol, yr hon sydd yn eich cyssylltu â'r byd ysbrydol; onid oes yna frwdfrydedd sydd yn ymgyfodi yn ei holl yni, pan y mae rheswm yn dyfod yn llonydd a dystaw; onid oes yna oleuni sydd yn amgau yr holl gynneddfau, ond yn unig i chwi roddi eich hunain i fynu i'ch teimladau goreu, a gwrandaw ar lais y Duw sydd yn llefaru ac yn ymgynhyrfu oddi mewn? I'r ffynnonell yma, gan hyny, y mae y cyfriniwr yn edrych am wybodaeth sydd yn tra rhagori ar ffrwythau egwan ein gallu adfyfyriadol, ac yn yr hon y gosodai efe sylfaen yr athroniaeth uchaf a chywiraf."

Fel hyn y mae cyfriniaeth yn anobeithio yn llwyddiant holl ddulliau rheolaidd gwyddoriaeth, trwy ba rai y mae hi yn amcanu boddhau yr ymestyniad sydd yn y meddwl dynol am wirionedd; y mae cyfriniaeth yn hòni y gellir cyrhaedd yn uniongyrchol, trwy deimlad digyfrwng (*intuition*), heb gymhorth y synwyrau na'r rheswm, egwyddor sylweddol a pherffaith pob gwybodaeth yn Nuw. Y mae yn dyfod o hyd i Dduw naill ai mewn natur—ac oddi yma y tardd cyfriniaeth naturiaethol; neu ynte yn yr enaid—ac oddi yma y tardd cyfriniaeth foesol ac arddansoddol. Mewn hanesiaeth hefyd y mae yn chwilio am yr hyn sydd yn cynnrychioli cyfriniaeth yn mhob oes yn ei ffurf mwyaf priodol; sef, fel y ma. yn ymffurflo yn ngwahanol grefyddau y byd: y mae yn ymlynu, nid wrth lythyren y crefyddau hyn, ond wrth eu hysbryd; ac oddi yma y tardd cyfriniaeth allegawl neu arwyddluniol.

Pa un bynag ai mewn athroniaeth, ai ynte mewn crefydd, y mae yr ysbryd cyfriniol yn ymgorffoli, yr un ydyw y ffynonnell wreiddiol yn yr enaid o ba un y mae yn tarddu. Y mae yn tarddu o'r syniad a'r ymestyniad dwfn sydd yn enaid dyn am yr anfeidrol. Fel y dywed Cousin—"Cyfriniaeth mewn athroniaeth ydyw y gred y gellir adnabod Duw wyneb yn wyneb—heb un cyfrwng. Gwaith yr enaid ydyw, yn ei roddi ei hunan i fyny i'r teimlad sydd yn cael ei ddeffro gan y syniad am yr anfeidrol ac yn gwneuthur i bob gwybodaeth a phob dyledswydd redeg i'w gilydd, ac ymuno mewn myfyrdod ar Dduw a chariad ato." Y mae yn hawdd gweled fod cyfriniaeth, yn ei hegwyddorion cyntaf, yn hòni cyfathrach agos â'r athroniaeth Blatonaidd. Cymmer i fyny yr athrawiaeth hono o eiddo Plato, fod enaid dyn yn rhan o'r natur ddwyfol, a deil allan fod gan bob dyn oleuni dwyfol o'i fewn sydd yn ddigonol i'w arwain i ddedwyddwch presennol a dyfodol; ond fod y goleuni hwn yn cael ei dywyllu gan ddaiaroldeb a chnawdolrwydd y corff, a chan ddylanwad gwrthddrychau allanol. O ganlyniad, y mae y cyfriniwr Neo-Platonaidd yn hòni mai y dirgelwch uchaf, a'r unig ffordd i berffeithrwydd ydyw, i ddyn droi ei sylw i mewn iddo ei hunan, a chau ei lygaid ar bob peth allanol: ac, yn gysson âg egwyddorion gwrth-fateraidd ysgol Plato, iddo ymddiosg oddi wrth holl blygion materol ac anianol ei fod, a thynu ei hunan i lawr i elfen ysbrydol bur. Ac wrth gau ei lygaid fel hyn ar ffoleddau a drychiolaethau Ymddangosiad—fel y maent yn galw y byd elfenol—y mae addolwr Bodolaeth pur yn credu ei fod, am dymmor o leiaf, yn mwynhau, nid undeb yn unig, ond unoliaeth â gwrthddrych ei addoliad.

Cafodd y syniad a'r ymadrodd o gyfriniaeth ei drosglwyddo oddi wrth athroniaeth i'r Eglwys Gristionogol tua'r bummed ganrif, gan ysgrifenydd a adnabyddid wrth yr enw Dionysius yr Areopagiad. Yr oedd y gyfundraeth o gyfriniaeth dduwinyddol a ddygwyd i mewn ganddo ef, yn un dra chyfaddas i dueddiadau mynachaidd ac offeiriadaidd yr amserau hyny. Y mae ei "gyfriniwr" ef, nid yn unig yn berson cyssegredig, cydnabyddus âg athrawiaethau, a chyfranog yn y defodau a elwid yn ddirgelion, ond hefyd yn un ag sydd (yn hollol ar gynllun y *Neo-Platonist*) yn cospi y corff, yn cau y synwyrau i bob peth allanol, yn dirmygu pob "dirnadaeth ddeallawl," ac mewn ystâd o oddefiad (*passivity*) yn cyrhaedd undeb â'r natur ddwyfol, ac mewn anwybodaeth yn cyrhaedd doethineb, yr hon sydd uwchlaw pob gwybodaeth. Nid yw y cyfriniwr i *wybod* dim am yr Anfeidrol, ond i "syllu â llygaid cauedig;"—dim ond derbyn argraffiadau yn oddefol, a chael ei golli yn "nhywyllwch" dystaw diderfyn yr hanfod ddwyfol.

Fel hyn gwelir fod y syniad athronyddol a'r un crefyddol yn dra chyffelyb. Yr oedd athron-

Digitized by Google

wyr a mynachod yn golygu wrth gyfriniaeth, nid yn unig addysgiad o ryw beth dirgeledig, ond hefyd dadguddiad tufewnol o'r dwyfol i gyngreddf (*intuition*) neu ymdeimladaeth mwyaf mewnol yr enaid—pan wedi ei gau oddi wrth pob cymundeb â'r byd allanol. Ond er fod y syniad gwreiddiol fel hyn mor syml, y mae yn rhyfedd meddwl fod y syniad hwn wedi amlygu ei hun mewn ffurflau mor wahanol o feddwl, a dulliau mor wahanol o weithredu, yn mhlith gwahanol genedloedd, ac mewn gwahanol oesoedd. "Mae yr ysbryd hwn," medd Vaughan, "wedi ymwisgo mewn duwfyddiaeth (*theism*), anffyddiaeth, ac oll-dduwiaeth. Weithiau, y mae yn lluosogi duwiau yn mhob cam; bryd arall y mae yn gwadu pob duw ond hunan. Weithiau, y mae yn ymddangos yn y dyfaliad myfyriol uchaf; bryd arall yn yr eilunaddoliaeth isaf. Cafodd ei gysylltu â'r rhysedd mwyaf afreolus, ac hefyd â'r hunan-gosbedigaethau corfforol mwyaf gresynus. Y mae yn gyru dynion allan i waith, yn eu toddi mewn pèr-lewygfeydd, yn eu rhewi mewn dideimladrwydd." Yr achos o hyn mae yn debyg ydyw, fel y sylwa yr awdwr a ddyfynwyd yn awr, fod cyfriniaeth yn preswylio mewn tiriogaeth mor ganolog (*central*) o'r enaid, sef y teimlad. Y mae hyn yn peri y gall yr amrywiaethau mwyaf gydgyfarfod yn yr ysbryd, neu yr egwyddor wreiddiol; ac yn peri hefyd yr un modd y gall yr ysbryd hwn amlygu ei hunan mewn amrywiaethau diderfyn.

Y mae yr un peth yn rheswm am yr anhawsder o wneuthur darnodiad boddhaol a chyflawn, ac ar yr un pryd manwl a chywir, o gyfriniaeth. Ymddengys fod gan yr Almaeniaid ddau air am dano—*mystik* a *mysticismus*. Hwy ddefnyddiant y blaenaf mewn ystyr da neu ffafriol, a'r olaf mewn ystyr drwg; fel y geiriau Seisonig *piety* a *pietism*, neu *rationality* a *rationalism*;—y blaenaf yn mhob pâr yn dynodi y gwir beth, a'r olaf y peth wedi ei ffugio neu ei lygru. Y mae yr hyn a alwant hwy, yn yr ystyr da, yn *mystik*, yn golygu yr hyn a adnabyddir genym ni wrth yr enwau cynnefin—gwir grefydd, grym duwioldeb, crefydd ysbrydol, neu ysbrydolrwydd crefydd. Ond defnyddir y gair genym ni, bron yn unig, os nad felly yn hollol, mewn ystyr anffafriol. Golyga ysbrydolrwydd wedi ymlygru i ystâd afiach, ddychymygol, annaturiol. Gellid yn hawdd nodi lluaws o esamplau cynnefin, yn mha rai y mae syniadau a phrofiadau crefyddol, hyd yn oed yn mhlith proffeswyr crefydd yn Nghymru, yn ymlygru i fath o gyfriniaeth. Y maent felly pan y mae dyn wrth ddysgwyl am oleuni dwyfol Ysbryd Duw ar y gwirionedd, yn wirfoddol yn esgeuluso cynnorthwyon cyfreithlawn i ddeall y Beibl; neu yn hòni fod y golygiad a gawsai ar ryw adnod neillduol, mewn canlyniad i weddi daer, yn anffaeledig, yn olygiad cywir, er ei fod heb gymmeryd trafferth i chwilio y gwirionedd, cymharu y naill ran â'r llall, a defnyddio pob cynnorthwy yn ei gyrhaedd tuag at agor ei ddeall yn y Beibl. Neu ynte, pan y mae dyn yn cymmeryd rhyw feddyliau penodol, teimladau neillduol, neu rhyw gynhyrfiadau mewnol cryfion, yn ddadguddiedigaethau uniongyrchol o'r nefoedd, wedi eu hanfon iddo ef yn bersonol; ac yn cymmeryd y cyfryw brofiadau yn rheol iddo ei hunan, yn lle ewyllys dadguddiedig Duw yn y gwirionedd. Y mae rhywbeth o anian cyfriniaeth yn yr holl agweddau hyn ar y meddwl. Ond y mae y cyfriniwr gwir a phriodol yn myned yn llawer pellach na hyn. Y mae yn amcanu at undeb â Duw—cyfranogiad o'r natur ddwyfol; nid yn yr ystyr efengylaidd a chywir, ond mewn ystyr anmhosibl. Ei amcan ydyw, cael ei wneuthur yn un â Duw mewn undeb sylweddol a hanfodol—colli ei bersonoliaeth ei hun yn yr hanfod ddwyfol. Y mae yn ymgeisio at hyn trwy amrywiol ffyrdd: weithiau trwy bob math o hunan-gosbedigaethau corfforol; bryd arall, trwy ddwfn fyfyrdod, neu trwy ruthr o deimladau, neu trwy weledigaeth o ogoniant; a phryd arall y mae yn tybied ei fod wedi cyrhaedd ei amcan trwy deimlo fel pe buasai yr hyn oll a wnelai neu a lefarai yn cael ei wneuthur yn llythyrenol gan Dduw ynddo ef. Mỳn ei fod, ar rai prydiau, yn gwybod pa beth yw colli pob gallu o eiddo ei ewyllys, colli pob gwybodaeth, a chael ei hun megys yn suddo i wagder anfeidrol:—a'r Dim hwn yw ei enw ef am yr Oll, neu Dduw.

Ffurf o gyfriniaeth, ac un o'i ffurflau diweddaraf, ydyw y syniadau sydd wedi eu lledaenu yn Lloegr, y blyneddoedd diweddaf hyn, trwy ysgrifeniadau Carlyle, Newman, ac ereill o'r un ysgol. Cyhoeddodd y Proffeswr Newman ei syniadau yn benaf yn ei *Phases of Faith*:—llyfr a dynodd gryn sylw ar y pryd, ond a ddadymchwelwyd yn fuddugoliaethus a diymarbed gan awdwr galluog yr *Eclipse of Faith* (fel y dywed Vaughan), "yn nghanol chwerthiniad cyffredinol." Myn y doethion hyn i ni gredu mai dynion yr "ysbryd" ydynt hwy, ac nid dynion y "llythyren." Dirmygant bob rheolau allanol, cyfundraethau duwinyddol, credoau, a'r cyffelyb; ni fynant ddim i'w wneyd âg athrawiaeth na chyffes; ystyriant ymlyniad wrth y fath bethau yn gaethiwed slafaidd i'r llythyren; ni fynant unrhyw ddadguddiad allanol pa bynag; nid yw crefydd i'w dysgu oddi wrth "lyfr," nac oddi wrth ddim arall oddi allan, ond oddi wrth oleuni a dadguddiad tufewnol yn yr enaid. Y mae eu crefydd yn cael ei hadeiladu ar deimladau yn unig, ac felly ar sylfaen dywodlyd: ymwrthodant â gwybodaeth, egwyddorion, a rheswm; hònant mai po fwyaf anmhenodol ydyw syniad crefyddol, mai mwyaf dwyfol ydyw; ni fynant ymddarostwng i unrhyw ddeddf oddi allan—maent yn oleuni, yn ddadguddiad, ac yn ddeddf iddynt eu hunain; ymogoneddant mewn personoliaeth (*subjectivity*) oll-ddigonol. Fel hyn, wrth geisio dyrchafu yr "ysbryd," ar draul darostwng y "llythyren," y maent yn dinystrio y naill a'r llall: wrth ladd y corff er mwyn myned at yr enaid, y maent yn colli y ddau; "y maent yn ceisio cael arogl y rhosyn heb y blodeuyn, yr effaith heb yr achos."

Oddi wrth yr holl anghreifftiau neillduol a nodwyd o'r ysbryd cyfriniol, gallem roddi, fel darnodiad cyffredinol, mai cyfriniaeth, pa un bynag ai mewn athroniaeth ai crefydd, ydyw y ffurf hono o gyfeiliornad sydd yn camgymmeryd gweithrediad unrhyw gynneddf ddynol yn lle dadguddiad dwyfol a goruchnaturiol. Gellid darnodi *cyfriniaeth Gristionogol* yn gyffredinol, fel gwyrdroad a chamddefnyddiad o un wedd benodol ar Gristionogaeth; sef y wedd *deimladol* neu *brofiadol*—y wedd hono ar yr efengyl sydd yn cael ei dwyn allan gyda'r fath arbenigrwydd gan Ioan yn ei efengyl a'i epistolau. Y mae yn amlwg fod Ioan yn meddu llawer o'r tueddfryd myfyrgar, ac hefyd o'r un gwresog. Yn ei epistolau, yn enwedig, y mae yn ymddangos yn dra gwrthwynebol i unrhyw grefydd yn cael ei gwneyd i fyny o farnau neu gredo ddiffrwyth, neu unrhyw ddefodau allanol: nid yw yn talu nemawr o sylw

Digitized by Google

i'r ffurf neu y corff, ond i'r *bywyd;* ac y mae yn crynhoi Cristionogaeth a chrefydd yn gyfangwbl i'r bywyd tufewnol hwnw y mae y credadyn yn ei feddu oddi ar undeb â Christ. Nid yw yn appelio at reswm ei ddarllenwyr, ond at eu teimlad, eu profiad—eu *intuitions* crefyddol. Nid yw yn talu nemawr o sylw i unrhyw broflon allanol o Gristionogaeth, ond i'r prawf dwfn mewnol hwnw sydd yn cyfodi oddi ar brofiad y credadyn o'i gallu a'i rhinwedd;—yr "eneiniad oddi wrth y Sanctaidd hwnw," yn rhinwedd yr hwn y mae efe yn "gwybod pob peth;" y "meddwl" hwnw, yn rhinwedd yr hwn y mae credinwyr yn gallu "adnabod y Cywir" neu y dwyfol yn mhob man, megys yn ngrym greddf sanctaidd. Dyma y diriogaeth benodol o wirionedd Cristionogol yr hoffai y "dysgybl anwyl" breswylio ynddi; a dyma y diriogaeth ag y mae cyfriniaeth yn mhob oes, ac mewn cynnifer o wahanol ffyrdd, wedi ei thrawsfeddiannu. Megys ag y mae tarddiad y gair *mysticism* yn dynodi gwybodaeth, gallu, neu fywyd *cuddiedig*—braint gyfyngedig i'r doethwr, y cyfarwydd, neu y meudwy—felly y mae cyfriniaeth—y peth ei hun, yn ei holl ffurflau, i raddau mwy neu lai—yn ymddangos fel crefydd dadguddiad tufewnol, mewn cyferbyniad i un allanol: crefydd yn cael ei gwneyd i fyny o deimlad penboeth, profiad gwagrodresgar, neu ddychymyg dilywodraeth, yn wrthwyneb i'r grediniaeth resymol hono, yn yr hon y mae y meddwl a'r galon, y tyst oddi mewn a'r un oddi allan, yn cydgyfarfod.

Y mae yn deilwng o sylw nad oes gan gyfriniaeth unrhyw achyddiaeth. Nid egwyddor, traddodiad, neu gyfundraeth ydyw, yn cael ei ffurfio mewn un oes, a'i throsglwyddo i lawr trwy gyfres o genedlaethau i oesoedd dyfodol. Pe felly, gallesid ei holrhain trwy ei hamrywiol gyfnewidiadau o'r naill oes i'r llall, nodi pob chwanegiad a dderbyniodd yn y treigliad, a'i holrhain yn y diwedd i'w ffurf mwyaf syml a chyntefig. Ond nis gellir gwneyd hyny; o blegid nid dyna ydyw. Nid cyfundraeth drosglwyddedig, ond ystâd o feddwl a theimlad, i ba un y mae meddyliau o dymmerfryd benodol yn agored mewn unrhyw le ac adeg, dwyrain neu orllewin—Pabydd neu Brotestant, Iuddew neu anffyddiwr. Y mae yn cael ei hagweddu, i raddau mwy neu lai, gan nodwedd y grefydd benodol â pha un y mae yn gyssylltiedig. Ond er hyny, y mae ei hymddangosiad yn gynnyrch uniongyrchol cyfnod penodol yn hanes person neu genedl. Ac oblegid hyn, y mae bron holl egwyddorion cyfriniaeth, y rhai a gyfarfyddir mewn gwahanol ffurflau trwy ei hanes, yn ymddangos yn y *Bagvat-Gita*, lle y ceir cyfriniaeth India, sef yr un foreuaf. Y mae yr un cylch o syniadau yn ymgynnyg i feddyliau o gyffelyb wneuthuriad, ac mewn cyffelyb amgylchiadau, yn mhob oes a gwlad. Y mae yn ldiau fod a wnelo cyfriniaeth â rhai o deimladau dyfnaf y meddwl dynol: er cymmaint o gyfnewidiadau ac erlidigaethau a gyfarfyddodd yn ei gyrfa, y mae yr egwyddor yn fyw o hyd, ac yn anfarwol. Y mae rhyw feddyliau yn mhob oes, os byddant yn grefyddol o gwbl, nas gall eu crefydd beidio ag ymffurfio yn y wedd yma. Ac y mae rhyw agweddau neillduol ar gymdeithas sydd yn ffafriol i gynnydd ac ymddangosiad yr ysbryd cyfriniol. Y mae amserau wedi bod pan yr ymddengys fod yr holl wir grefydd oedd mewn gwlad yn gyfyngedig i'w chyfrinwyr.

Efallai y gellir rhestru prif ACHOSION cyfriniaeth o dan dri dosbarth. Yn 1af. Gwrthweithiad yn erbyn ffurfioldeb diffrwyth dideimladrwydd crefyddol. Pan y mae crefydd mewn oes neu wlad neillduol wedi ymlygru i fod yn nemawr amgen na ffurf, defod, neu gredo, heb arddangos unrhyw arwyddion o fywyd tufewnol, y mae yn naturiol—fel y mae y naill eithaf mor fynych yn cynnyrchu eithaf arall gwrthwynebol iddo—y mae yn naturiol i feddwl gwresog, brwdfrydig, a myfyrgar, gael ei demtio i ymwrthod â'r holl ffurflau a'r defodau hyn, y rhai nad ydynt yn ymddangos yn nemawr amgen nag addurniadau o amgylch y marw; ac ymneillduo iddo ei hunan, i ymofyn trwy gymundeb â'i galon ei hun ac â'r byd ysbrydol, am y bywyd a'r ysbrydolrwydd hwnw nas gall ei gael mewn dim oddi allan iddo. Ond y mae cyfriniaeth, wrth gyhoeddi dadganiad yn erbyn y ffurf a'r llythyren, defodau meirw, a llygredigaethau yr offeiriadaeth, yn eu hosgoi trwy redeg i'r eithafnod cyferbyniol. Y mae ffydd, dychymyg, a theimlad, wrth gael eu gwahanu oddi wrth holl alluoedd ereill yr enaid, yn myned i ystâd afiach, ac yn ymlygru i wahanol ffurflau o wallgofrwydd crefyddol. Clywir y cyfriniwr yn sibrwd am bethau annhraethadwy; y mae yn siarad, fel un mewn gweledigaeth, am y drydedd nef, am brofiadau nefol, a dadguddiedigaethau mwy cymhwys i angelion na dynion. Trwy hyn, y mae o'r diwedd yn myned yn berffaith annealladwy, yn cael ei gamddarlunio, ac y mae yntau yn ei dro yn syrthio yn aberth i wrthweithiad ac erlidigaeth. 2il. Achos arall ydyw, blinder ar y byd, a dyheuad y galon ddynol am orphwysdra. Nid oes gan y ddynoliaeth un teimlad mwy cyffredinol na'r anfoddlonrwydd hwn gyda'r presennol—anesmwythyd yr ysbryd lluddedig yn ei ymchwil llafurus am ddedwyddwch: y mae y fynwes ddynol yn ymlenwi ac yn ymchwyddo gan ddymuniadau nas gall amser eu cyflawnu. Y mae y reddf ddofn hon o eiddo ein natur wedi ei hymgorffoli yn nhraddodiadau a barddoniaeth pob cenedl; y mae holl gyfoeth awen a dychymyg wedi ei roddi ar waith i dynu darlun o ryw Baradwys dawel, neillduedig, i'r ysbryd—yn mhell oddi wrth ofidiau a thrafferthion amser, lle y mae haul anfachludol yn tywynu bob amser mewn ffurfafen ddigymylau, uwch law awyrgylch gyfnewidiol a thymmestlog amser. Onid yw holl natur yn cyfranogi yn y teimlad cyffredinol hwn? Y mae "pob creadur yn cydocheneidio ac yn cydofidio hyd y pryd hwn—*das obaith.*" Yr un teimlad a ddarlunir mor brydferth gan y bardd Shelley:—

> "The desire of the moth for the star,
> Of the night for the morrow,
> The devotion to something afar
> From the sphere of our sorrow."

Y mae yn hawdd gweled mor naturiol y gall y teimlad hwn, mewn rhyw fath o dymmerau, ymffurfio yn gyfriniaeth. Y mae y cyfriniwr yn cael, neu yn tybied ei fod yn cael, yn y perlewygfeydd, a'r gweledigaethau, a'r profiadau uwchddaiarol y mae yn eu mwynhau, yr orphwysfa hono am yr hon y mae ei ysbryd yn ymestyn. 3ydd. Un arall o'r achosion hyn yw, yr attyniad nerthol sydd mewn rhai meddyliau at y dirgeledig. Yr oedd yr ail achos a nodasom yn dadguddio swyn cyfriniaeth i'r meddwl gwan a moethus: y mae yr achos hwn yn dynodi swyn cyfriniaeth i'r dosbarth gwrthwyneb o feddyliau—i'r ysbryd cryf ac anturiaethus. Y mae rhai dynion, fel John Foster (er nad oedd y duedd wedi ei hamlygu ei hunan mewn cyfriniaeth, yn ei achos ef), oddi ar gyfansoddiad eu meddyliau,

Digitized by Google

yn cael eu swyno yn ddirfawr gan yr hyn sydd dywyll a dirgeledig; y maent yn ennyn gan awydd i dreiddio trwy y llen—i dori dros y terfyn sydd rhwng y gweledig a'r anweledig. Ac onid yw pob meddwl myfyrgar yn gwybod am ryw fynydau, pan y mae yr ysbryd yn cael ei ffafrio megys â rhyw dremiad sydyn ar "y pethau ni welir"—rhyw gipolwg, megys am foment, mwy clir a bywiog na chyffredin, ar sylweddau ysbrydol a thragwyddol?

"——As angels, in some brighter dreams,
Call to the soul, when man doth sleep;
So some strange thoughts transcend our wonted themes,
And into glory peep."

Gwelir ar unwaith y fath swyn sydd mewn cyfriniaeth i feddyliau o'r tueddfryd hwn. Dwg cyfriniaeth hwy i anadlu mewn awyr ysbrydol, i fyw mewn byd ysbrydol, ac i gymdeithasu â gwrthddrychau ysbrydol: dwg hwy, trwy undeb â ffynnon gwybodaeth ac ymgolliant yn y natur ddwyfol, i "wybod y dirgelion oll, a phob gwybodaeth"—i fwynhâd, fel y tybiant hwy, o'r wybodaeth yn gystal a'r dedwyddwch uchaf—posibl i ddyn.

Y mae Vaughan yn dosbarthu cyfriniaeth i dri math:—

1. Cyfriniaeth deimladol (*theopathetic*).
2. Cyfriniaeth ddeallol (*theosophic*).
3. Cyfriniaeth wyrthiol (*theurgic*).

1. Wrth y blaenaf y golygir, y ffurf hono o gyfriniaeth yn yr hon y mae yr enaid yn rhoddi ei hunan i fyny, mewn cyflwr o oddefiad mwy neu lai perffaith, i ddadguddiad neu ddylanwad dychymygol oddi wrth Dduw. Ond gall y dylanwad hwn amrywio. Gall un dyn ddychymygu fod y dylanwad yn gorphwyso arno; a'r llall dybied fod y dylanwad yn ei yru yn mlaen—yn ei gynhyrfu i ryw waith. Ac felly, dosrenir y dosbarth hwn i ddau fath; sef y *transitive* a'r *intransitive*. Nid ydyw yr olaf yn gwneuthur dim: y mae y blaenaf drachefn yn arddangos gweithgarwch didor. Y mae y naill yn ystyried ei hun fel drych, nad oes ganddo ddim i'w wneyd ond agor ei ysbryd megys i dderbyn adlewyrchiad tawel o'r Duwdod. Y mae y llall yn ei ystyried ei hun fel deilen, yn cael ei gyru gan wynt nerthol yr Ysbryd yn rhuthro—yn dafod trwy yr hwn y mae yr Ysbryd yn llefaru—yn offeryn, trwy yr hwn y mae yr Ysbryd yn gweithredu. Ond y mae yr egwyddor o deimladaeth neu o oddefiad yr un yn y naill a'r llall. Yr oedd cyfriniaeth St. Bernard o'r nodwedd dawel, fyfyrgar, er ei holl weithgarwch ef yn bersonol—cyfriniaeth neillduedig y mynachdy ydoedd. Yr un modd yr eiddo Suso, Ruysbroek, Molinos, a'r holl *Quietists*—pa un bynag ai yn India ai yn Ffrainc. O'r nodwedd weithgar (*transitive*) drachefn, yr mae eiddo yr holl brophwydi cynhyrfus a gwallgofiaid crefyddol. Y mae y rhyw hwn o gyfriniaeth yn trawsfeddiannu yr ewyllys yn hytrach na'r teimladau.

2. Yr ail ffurf ydyw yr un a alwn (o ddiffyg enw gwell)—yr un ddeallol (*theosophic*). Y mae y cyfriniwr o'r dosbarth hwn, nid yn unig yn ymestyn am deimlad, ond hefyd am wybodaeth; ac y mae yn credu yn mhellach fod pob gwirionedd am bob gwrthddrych yn gorwedd yn guddiedig yn nirgeloedd ei feddwl ef ei hunan. Ac felly, pa gyfundrefn bynag a gynnygia i egluro Duw, neu weithredoedd Duw, seilia hi, nid ar reswm, ond ar ysbrydoliaeth o'i eiddo ei hun. Efe a gred, naill ai gyda Swedenborg a Behmen, fod dadguddiad neillduol wedi dadlenu iddo ddirgelwch y goruchwyliaethau dwyfol, presennol a dyfodol—dynoethi gweithrediadau cuddiedig natur, neu ddirgelion y byd arall; neu ynte cred, gyda Plotinus a Schelling, fod ei gredniaethau ef o'r pethau hyn yn anffaeledig, am eu bod yn ddwyfol—y *subject* a'r *object* yr un—pob gwirionedd ynddo ef ei hunan. Fel hyn, tra y mae y cyfriniwr o'r dosbarth blaenaf yn ymfoddloni ar fyfyrio, teimlo, neu weithredu, mewn ystâd o oddefiad ardderchog dan ddylanwad y Duwdod, y mae y cyfriniwr o'r dosbarth hwn yn ymestyn am *wybod*, ac yn credu fod ganddo allu dwyfol a goruchnaturiol i'r dyben hwnw.

3. Y drydedd ffurf ydyw yr un wyrthiol (*theurgic*). Dyma y ffurf o gyfriniaeth sydd yn hôni y meddiant o alluoedd goruchnaturiol i wneuthur rhyfeddodau: nid fel y gelfyddyd ddu, trwy gymhorth oddi isod, ond trwy allu oddi uchod—trwy rinwedd croes, angel, neu sant. Fel hyn, nid yw y gyfriniaeth wyrthiol yn ymfoddloni, fel yr un deimladol, ar deimlo na phroselytio; nac fel yr un ddeallol, ar wybod; ond y mae yn rhaid iddi gael agor iddi ei hunan gymundeb â byd yr ysbrydoedd, ac ennill fel hawlfraint y gallu i wneuthur gwyrthiau. Ceir fod yr egwyddor gyffredin o swyn defosiynol yn gorwedd wrth wraidd holl ymhoniadau gwneuthurwyr gwyrthiau, paganaidd a Christionogol. Y mae cyssegr-lywiaeth nefol Dionysius, a duwiau cymmwynasgar Proclus, y galluoedd y gweddiir arnynt gan gyfriniaeth wyrthiol baganaidd neu Gristionogol, gan ddysgybl Plato, gan Gabalist, neu sant—y maent oll yr un modd yn gwobrwyo yr ymgeisydd llwyddiannus â chyrhaeddiadau goruchnaturiol: a chyn belled a hyn, y mae yn rhaid i Apollonius o Tyana, a Peter o Alcantara, Asclepigenia a St. Theresa, fel swynyddion crefyddol, gydbreswylio yn yr un dalaeth. Y mae y camsyniad yr un yn mhob amgylchiad—priodoli rhinwedd dwyfol i ddefodau a ffurflau, taenelliadau neu fwg-darthiadau, gweddillion neu ffurfganau, o wneuthuriad dynol.[1]

Fel yr awgrymwyd yn barod, nid oes gan gyfriniaeth achyddiaeth neu hanes, ond mewn ystyr anmherffaith ac anghyssylltiol; a hyny am nad yw yn gyfundraeth benodol, yn cael ei throsglwyddo o'r naill oes i'r llall, ond yn ystad neillduol o feddwl a theimlad, i'r hon y mae rhyw feddyliau o gyfansoddiad penodol yn tueddu yn mhob oes a gwlad, ac mewn cyssylltiad â phob crefydd; tra ar yr un pryd y mae yr ystâd hono yn cael ei ffurfio a'i nodweddu gan grefydd neillduol, a'r amgylchiadau ereill â pha rai y mae yn dwyn cyssylltiad. Yn y dwyrain y cawn y ffurf foreuaf o gyfriniaeth sydd yn wybyddus; sef yr un Indiaidd, mewn cyssylltiad â'r Hindwaidd—egwyddorion yr hon a gynnwysir mewn hen gyfansoddiad o farddoniaeth Indiaidd, a elwir y *Bugvat-Gita*. Yna, yr ydym yn dyfod at gyfundraeth y Neo-Platoniaid; y prif enwau mewn cyssylltiad â'r hon oeddynt Philo, Plotinus, Porphory, Iamblichus, a Proclus. Dullweddiad newydd oedd y gyfundraeth hon o athroniaeth

[1] "The doctrine of passivity becomes impossible to some temperaments beyond a certain pass. The enjoyment of the vision or the rapture are too few and far between—could they but be produced at will! Whether the mystic seeks the triumph of superhuman knowledge, or that intoxication of the feeling which is to translate him to the upper world, after a while he craves a sign. Theurgy is the art which brings it. Its appearance is the symptom of failing faith, whether in philosophy or religion. Its glory is the phosphorescence of decay."—*Vaughan.*

Digitized by Google

Plato (fel y mae yr enw yn arwyddo), a'i hamcan, yn nwylaw Philo—ei sylfaenydd, yr hwn oedd Iuddew yn Alexandria—ydoedd cyfuno Iuddewiaeth yr Hen Destament âg athrawiaethau Groegaidd Plato. Yr oedd Plotinus yn fwy o arddansoddydd: math o arddansoddiaeth grefyddol ydoedd yr eiddo ef—athroniaeth yn addoliad, yn ymchwiliad am Dduw. Tra yr ydoedd cyfriniaeth yn nwylaw Philo a Plotinus yn cymmeryd y ffurf ddeallol (*theosophic*) yn benaf, ymffurfiai yn nwylaw Porphyry, Iamblichus, a Proclus, drachefn yn y wedd wyrthiol (*theurgic*).

Yr ydym yn awr yn croesi drosodd oddi wrth gyfriniaeth yn y byd paganaidd at gyfriniaeth yn yr Eglwys Roegaidd. Yr un a ddygodd syniadau ac ymadroddion cyfriniaeth fel hyn drosodd i'r eglwys oedd mynach neu offeiriad anhysbys, a gyfansoddodd draethodau a llythyrau yn enw Dionysius yr Areopagiad; fel y tybir, tua chanol y bummed ganrif. Duwinyddiaeth Blatonaidd ydoedd hon hefyd, a'i hamcan i gyfaddasu cyfriniaeth Proclus at Gristionogaeth. Wrth symmud yn mlaen i'r Eglwys Ladinaidd, neu Rufeinig, yn y canoloesoedd, yr ydym yn canfod yr ysbryd cyfriniol yn fwy hyf ac anturiaethus. Yr oedd cyfriniaeth yr Eglwys Roegaidd yn cyfranogi i raddau helaeth o nodwedd wrthddrychol neu allanol (*objective*), yn ymddibynu ar gyfres faith o ddefodau a chyfryngau sacramentaidd; tra yr ydoedd yr eiddo yr Eglwys Orllewinol yn fwy mewnol a phersonol (*subjective*)—yn tori dros bob defodau a ffurfiau, yn ymneilluo i awyr fwy ysbrydol—yn anturio addoli heb offeiriad. Y prif enwau boreuol yn mhlith cyfrinwyr yr Eglwys Orllewinol ydynt Bernard [gwel yr erthygl arno yn tudal. 714, cyf. i., o'r llyfr hwn], Hugo of St. Victor, a Richard of St. Victor. Yn nghyfriniaeth yr Almaen, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, yr ydym yn cyfarfod âg Eckart, Tauler, Suso yn Switzerland, a Ruysbroek yn yr Iseldiroedd. Yr oedd cyfriniaeth y pryd hwn yn cartrefu yn benaf yn mysg mynachod a mynachesau: ymffurfient yn wahanol sectau; megys, y *Friends of God*, y *Flagellants*, &c. O'r ddeuddegfed i ddiwedd y bymthegfed ganrif, yr ydym yn canfod cyfriniaeth yn ymlygru yn ngwahanol wledydd Ewrop i rai o'i ffurfiau gwylltaf o wallgofrwydd crefyddol. Cynnyrchid cyfres hir o ddiwygwyr penboeth—prophwydi a phrophwydesau, yn tybied eu bod wedi eu breintio â phob math o ddadguddiedigaethau nefol, yn "gweled gweledigaethau," ac yn "breuddwydio breuddwydion"—megys Hildegard, Joachim, Brigitta, Savonarolla, Angela de Foligni, Catherine o Sienna, &c. Y mae hanes cyfriniaeth yn y ganrif hon yn terfynu gyda y Ffrancwr, Chancellor Gerson, a Thomas à Kempis; y mwyaf adnabyddus yn gyffredinol, efallai, o'r holl gyfrinwyr—awdwr yr *Imitation of Christ*, yr hwn a gyfieithwyd i amryw ieithoedd, ac yn eu plith i'r Gymraeg, dan yr enw *Dilyniad Iesu Grist*. Ymffurfiai cyfriniaeth yn Persia yn y canrifoedd hyn yn y gyfundraeth a elwir *Sufism*:—barddoniaeth gyfriniol gyssylltiedig â'r ffydd Fahometaidd.

Y mae y Diwygiad Protestanaidd, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yn ffurfio cyfnod neillduol yn hanes cyfriniaeth. Yr oedd y chwyldroad mawr hwnw yn effeithio i raddau helaeth fel maenprawf—fel dydd barn cyfriniaeth, i ddidoli yr elfenau gwir a gau oddi wrth eu gilydd ynddo. Yr oedd y cyfrinwyr, cyn ac ar ol y Diwygiad, yn gwahaniaethu yn fawr oddi wrth eu gilydd. Cyn y Diwygiad, yr oedd llawer mwy o'r gwirionedd gan y cyfrinwyr na chan unrhyw blaid arall yn Eglwys Rhufain. Yr oeddynt mewn gwirionedd yn ddynion yn mhell ar y blaen yn eu cenedlaeth, yn sefyll yn wrol yn erbyn llygredigaethau yr offeiriadaeth—yn dyheu ac yn ymdrechu yn egnïol am ddiwygiad. Ond pan ymddangosodd Luther ar y maes gyda'r athrawiaeth fawr o gyflawnhâd trwy ffydd, a'r dadganiad hyf o'r Ysgrythyrau fel unig a digonol reol ffydd, cymmerodd cyfnewidiad mawr le. Yr oedd y cyfrinwyr o nodwedd meddylgar, difrifol, a chywir, yn mhlith y rhai blaenaf i gofleidio yr athrawiaethau newyddion—yr oeddynt yma yn dyfod o hyd i'r arweinydd yr oeddynt wedi hir-aethu cymmaint am dano—yn cael yr hyn ag yr oeddynt wedi profi nas gallasai cyfriniaeth ei roddi iddynt. Dynion oedd y rhai hyn—fel Justin Ferthyr—wedi dysgwyl yn hir yn ysgolion y Platoniaid am y wybodaeth uniongyrchol o'r Duwdod a addawent; ond wedi eu siomi gan bob dysgwyliadau fel hyn, yn cael allan mewn Cristionogaeth "ffordd fwy ragorol" i adnabod Duw, sef trwy ei air ysgrifenedig, a dysgeidiaeth ei Ysbryd Sanctaidd. Ond yr oedd dosbarth arall yn gwrthod y goleuni dysglaer wedi iddo ymddangos, yn ymlynu wrth oleu llwydaidd ac ansefydlog eu hen gyfundraethau, o amgylch yr hwn yr oedd dynion wedi ymgasglu yn y tywyllwch o eisieu goleuni gwell. Rhoddwyd y dosbarth hwn, gan hyny, i fyny i bob amryfuseddau, ac i gredu pob celwyddau. Fel hyn, tra yr oedd cyfrinwyr y bedwaredd ganrif ar ddeg yn hyrwyddo y Diwygiad, yr oedd cyfrinwyr yr unfed ganrif ar bymtheg yn ei attal ac yn ei lesteirio. Y cyfrinwyr hynotaf yn yr oes Lutheraidd, oeddynt, "prophwydi Zwickau," Sebastian Frank, Schwenkfeld, Valentine Weigel, ac yn arbenig Jacob Behmen neu Boehme [gwel yr erthygl ar BEHMENIAID, tudal. 631], Agrippa, Paracelsus, y *Rosicrucians*, Jane Leade, &c. Yn yr Yspaen, ymddangosodd merch yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a hynododd ei hun yn fawr mewn cyfriniaeth, sef St. Theresa; yn nesaf ati hi yn y wlad hono, y mwyaf hynod oedd *St. John of the Cross*. Yn Ffrainc drachefn, yr ydym yn cael cyfriniaeth mewn ffurf newydd eto, yr hon a elwid *Quietism*; prif syniad yr hon ydoedd—y dylid caru Duw yn hollol er ei fwyn ei hun, heb ofni y gosp, na gobeithio am y wobr. Amddiffynydd enwocaf y gyfundraeth hon oedd ferch; Madame Guyon, a anwyd yn Montargis tua chanol yr eilfed ganrif ar bymtheg. Mabwysiadwyd y syniadau hyn, hefyd, ond i raddau mwy cymmedrol, gan yr enwog Fenelon. Fe fu y gyfundraeth hon yn achlysur o erlidigaethau a dadleuon meithion a phoenus. Yn y blaid hon hefyd y mae Poiret, a Madame de Rüdener, i'w rhestru.

Yr ydym yn awr yn dyfod at gyfriniaeth yn Lloegr. O herwydd nodweddiad sobr, rhesymiadol, ac ymarferol y meddwl Seisoneg, nid yw cyfriniaeth wedi cael yn Mhrydain ond tir diffrwyth, ac anghydweddol â'i hanian. Felly, ni fagodd y deyrnas hon ond ychydig o gyfrinwyr. Ffurf o gyfriniaeth ydyw crefydd y Crynwyr (*Quakers*). Yn eu plith hwy y mae George Fox i'w restru: un o'r rhai blaenaf fel cyfriniwr a gyfododd yn Lloegr. Dywed Vaughan, fod "holl elfenau crefydd y Crynwyr yn gorwedd yn gyflawn yn hanes personol Fox; ac nad yw y blaid grefyddol hono ond parhâd o'i gymmeriad personol ef." Dosbarth dan lywodraeth syniadau cyfriniol y golygir y blaid a elwir yn *Rantera*,

Digitized by Google

Rhestrir More a Norris, Gale a Cudworth, ac amryw ysgrifenwyr ereill, o'r un ddelw, nid yn hollol fel cyfrinwyr, ond fel Platoniaid Seisonig, â gwythïen o gyfriniaeth yn dyfod i'r wyneb yn awr ac eilwaith yn eu hysgrifeniadau. Y mae yn Lloegr blaid grefyddol a adnabyddir wrth yr enw *New Jerusalemites*:—dilynwyr y cyfriniwr hynod o Sweden, Emanuel Swedenborg. O'r un nodwedd y mae yr *Irvingites*:—plaid o grefyddwyr yn coleddu yr un syniadau a'r enwog Edward Irving; yr hwn, yn y rhan ddiweddaf o'i oes, oedd wedi ymddyrysu mewn math o wallgofrwydd crefyddol. I arddangos tueddiadau cyfriniol diweddar, gellid nodi ysgrifeniadau Schleiermacher, Schelling, a Schlegel, yn yr Almaen; yn nghyd â syniadau Carlyle, Newman, Dawson, ac ereill, yn Lloegr; a'r eiddo Emerson yn America. Nid oes ond ychydig o ysgrifeniadau cyfriniol yn yr iaith Gymreig:—y rhai penaf ydynt ysgrifeniadau Morgan Llwyd; sef, *Dirgelwch y Tri Aderyn*, &c.; a'r *Bardd Cwsg*, gan Elis Wyn.

Y mae hanes cyfriniaeth, yn ei holl ffurflau lluosog ac amrywiol, yn eglur ddangos fod rhyw elfenau mawrion ac ardderchog yn perthyn iddi. Y mae yn tarddu o rai o alluoedd ac ymestyniadau uchaf natur dyn, ac yn tueddu i'w ddyrchafu uwch law y gweledig a'r daiarol, i gymundeb â'r ysbrydol, yr anweledig, a'r tragwyddol. Ar yr un pryd, y mae yr ochr arall i'w hanes yn profi yn eglur wirionedd y dywediad,—"*From the sublime to the ridiculous is but a step.*" Nid oes un gyfundrefn, o bosibl, mor agored i gael ei chamddefnyddio: a phan y gwneir hyny, nid oes, yn ddiau, derfyn i'r ffoleddau, y cyfeiliornadau, a'r ymarferiadau ynfyd a niweidiol, sydd yn ymgangenu o honi yn mhob cyfeiriad. Y mae y ddwy wedd yma ar gyfriniaeth yn cael eu gosod allan yn dra chywir yn y dyfyniad canlynol o sylwadau Morell, y rhai ydynt yr un mor gymhwysadwy ati yn mha ffurf bynag yr ymddengys, pa un ai fel athroniaeth, ai ynte fel crefydd:—

"Pa fodd bynag, y mae mewn cyfriniaeth, yn ddiau, fel yn y cyfundraethau ereill a nodais, gymmysgedd o wirionedd a chyfeiliornad. Y mae yn hollol bosibl, yn nghanol dansoddiadau oer y rheswm, i golli golwg ar y cynhyrfiad tufewnol hwnw, sydd yn ei ddangos ei hunan yn fflachiadau athrylith, yn ymdrechiadau uniongyrchol y dychymyg, ac yn ymestyniadau gwresog y gynneddf grefyddol mewn dyn. Y mae yn rhaid i ni gofio fod pob rhan o'n bywyd deallawl yn dadblygu ei hunan yn ei ysgogiadau rhydd ac uniongyrchol (*spontaneous*), yn gystal ag yn y rhai ymwybodol ac adfyfyriadol; ac yn fynych, y mae mwy o newydd-deb ac yni yn ngweithrediadau ein bod uniongyrchol, nag sydd yn eiddo ein galluoedd mwy tawel ac adfyfyriadol. Y llesâd, gan hyny, yr ydym yn ddyledus i gyfriniaeth am dano ydyw, ei bod yn galw ein sylw yn ol, eilwaith ac eilwaith, at weithrediad *uniongyrchol* ein galluoedd uchaf; ei bod yn nodi allan i ni y teimladau dyrchafedig a gynnyrchir gan y gweithrediad hwn; ei bod yn ein tynu rhag i'n holl sylw gael ei lyncu mewn ffurflau a dulliau rhesymegyddol; ac yn dangos i ni hanfodiad gwir a sylweddol byd ysbrydol, â'r hwn yr ydym oll yn dal perthynas agos, i ddeddfau yr hwn yr ydym oll yn ddarostyngedig, ac heb yr hwn ni byddai ein rheswm uchaf, ein ffydd reddfol, a'n dymuniadau anwylaf, ond gwatwariad a thwyll. Ar y llaw arall, cyfriniaeth, efallai, ydyw y barotaf o bob athroniaeth i syrthio i gamddefnydd, ac i redeg i eithafion diddiwedd. Unwaith y gadawn i'r elfen frwdfrydig lyncu yr un adfyfyriadol, neu i ffydd ddisigl gael ei rhoi yn ein teimlad mewnol, yna, nis gellir cael unrhyw derfynau i nodi allan y cyfeiliornadau i ba rai y deuwn yn ddarostyngedig, a'r eithafion gwyllt i ba rai y rhydd y meddwl ei hun i fyny. Unwaith y sefydler yr egwyddor, fod yn rhaid rhoddi crediniaeth ddisigl mewn *teimlad* yn ei gynhyrfiadau amrywiog, yna, gall pob cymhelliad tufewnol cryf ddyfod yn sibrwd rhyw ysbryd o'r nefoedd—pob syniad bywiog yn ymddangosiad gweledigaeth o fyd arall—a chynhyrfiadau naturiol enaid llawn o yni, gael eu trawsffurfio yn fuan i wyllt-leferydd ynfyd gwallgofrwydd crefyddol. Y cyfryw ydyw cyfriniaeth yn ei natur a'i tharddiad, a'r cyfryw hefyd yn ei chanlyniadau iachusol a niweidiol."—(*Hist. of Philosophy*, cyf. i, td. 69—71; *Vaughan's Hours with the Mystics*; *Morell's History of Philosophy*; *Cousin's Hist. of Philosophy*, &c., &c.)

CYFRYNGWR, [μεσιτης]. Ystyr gwreiddiol y gair yw *canolwr*—un *rhwng* pleidiau. Ond ymchwiliad i'r adnodau, yn y rhai y defnyddir y gair, a ddengys y meddwl dwyfol sydd yn gynnwysedig ynddo.

1. *Gal.* iii. 19, 20; "Beth gan hyny yw y ddeddf? O blegid troseddau y rhoddwyd hi yn chwaneg," yn chwanegol i'r addewid, "hyd oni ddelai yr had," sef Crist, "i'r hwn y gwnaethid yr addewid; a hi a drefnwyd trwy angelion yn llaw cyfryngwr. A chyfryngwr nid yw i un," &c. Fe gyferbynir yn yr adnodau hyn yr addewid, yr hon a roddwyd i'r had yn ddigyfrwng, â'r ddeddf, yr hon a gyhoeddwyd i genedl Israel trwy gyfryngwr. Y mae yr adnodau yn *Act.* vii. 37, 38—"Hwn yw y Moses a ddywedodd i feibion Israel, Prophwyd a gyfyd yr Arglwydd eich Duw i chwi o'ch brodyr fel myfi: arno ef y gwrandewch. Hwn yw efe a fu yn yr eglwys yn y diffaethwch, gyda'r angel a ymddyddanodd âg ef yn mynydd Sinai, ac â'n tadau ni, yr hwn a dderbyniodd ymadroddion bywiol i'w rhoddi i ni"—yn ein harwain i gredu mai Moses oedd y cyfryngwr y sonir am dano; tra y mae yr ymadrodd, "Prophwyd a gyfyd Duw o'ch brodyr megys myfi," yn dangos ei fod fel cyfryngwr, yn rhoddiad y ddeddf, yn gysgod o Iesu, cyfryngwr yr efengyl. Ar ba gyfrif yr oedd Moses yn gyfryngwr ar amgylchiad rhoddiad y ddeddf? Fe atebir hyn yn *Deut.* v. 5; "Myfi oeddwn yr amser hwnw yn sefyll rhwng yr Arglwydd a chwi, i fynegu i chwi air yr Arglwydd." Yn *adn.* 4; "Wyneb yn wyneb yr ymddyddanodd yr Arglwydd â chwi yn y mynydd, o ganol y tân." Ac am yr un bobl fe ddywedir yn yn yr adnod nesaf, "Ofni a wnaethoch rhag y tân, ac nid esgynech i'r mynydd." Yr unig ffordd i gyssoni y ddwy adnod yw, trwy ystyried nad oedd y bobl yn *bersonol* ar fynydd Sinai, ond eu bod yno yn Moses, eu *cynnrychiolwr*. Ac am hyny yr oedd yr Arglwydd yn ymddyddan wyneb yn wyneb â hwynt, pan yn ymddyddan wyneb yn wyneb â Moses, yr hwn oedd yr amser hwnw yn sefyll rhwng yr Arglwydd â hwynt. Gan hyny, nid ei fod yn trosglwyddo meddwl Duw i'r bobl oedd yn cyfansoddi cyfryngdod Moses; ond ei sefyllfa fel cynnrychiolwr y bobl ger bron Duw, a chynnrychiolwr Duw ger bron y bobl. A gwaith yn codi oddi ar y sefyllfa yr oedd ynddi oedd mynegu i'r bobl air Duw, a lledu ger bron Duw angenion y bobl.

Digitized by Google

Fe ddywedir hefyd mai "trwy angelion" y trefnwyd y ddeddf: *Act.* vii. 53; "Y rhai a dderbyniasoch y gyfraith trwy drefniad angelion." Y mae yn amlwg fod gan yr angelion ryw waith yn nhrefniad y ddeddf ar Sinai. Ond hyn sydd deilwng o sylw—pa beth bynag oedd eu gwaith yno, nas gelwir hwynt yn *gyfryngwyr:* fe addefir eu bod yn *offerynau* a ddefnyddiwyd gan Dduw mewn rhyw ddull nas amlygwyd; ond y mae yr adnod, "hi a drefnwyd trwy angelion, yn llaw cyfryngwr," yn dangos fod gwahaniaeth yn bod rhwng *offerynoliaeth* a *chyfryngdod.* Ac y mae y gwahaniaeth mor bwysig fel y galwn sylw ato eto cyn gorphen yr erthygl hon. Y ddau wirionedd pwysig perthynol i gyfryngdod a amlygir yn yr adnod dan sylw ydynt,

1af. Bod cyfryngdod yn sefyllfa o gynnrychioliaeth, a bod trosglwyddo meddwl Duw yn rhan o waith cyfryngwr.

2il. Bod cyfryngdod i'w wahaniaethu oddi wrth offerynoliaeth.

2. 1 *Tim.* ii. 5; "Canys un Duw sydd, ac un cyfryngwr hefyd rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu; yr hwn a'i rhoddes ei hunan yn bridwerth dros bawb." Fe enwir hyn fel annogaeth i ufuddhau i'r cynghor yn adnod gyntaf y bennod—i weddïo dros bob dyn. Y mae y berthynas rhwng dynion a'u gilydd, ag sydd yn codi oddiar eu bod wedi eu creu, ac yn cael eu cynnal gan un Duw, ac yn meddu ar un cyfryngwr, a hwnw yn eu natur, yn cael ei ddwyn ger bron er mwyn cynnyrchu ynddynt deimladau teilwng i'r berthynas — teimladau i'w harllwys ger bron Duw mewn gweddïau. Y mae cyssylltiad yr adnod hon â'r gyntaf yn dangos amryw wirioneddau pwysig o barth cyfryngdod yr Iesu. Fe welir nad yw fod dynion yn gweddïo dros eu gilydd yn eu gwneuthur yn gyfryngwyr; o herwydd y mae ar yr hwn sydd yn gweddïo dros ereill gymmaint o angen i ereill weddïo drosto yntau. Y mae y ddyledswydd i weddïo dros bob dyn yn un gyffredinol, yn cael ei chyfeirio at bawb, ac yn cael ei hannog ar bawb; ac y mae yn ddyledswydd y mae duwiolion yn mhob oes wedi ei chyflawnu i fesur mwy neu lai. Ac er fod llawer o weddiwyr, "un cyfryngwr sydd;" a phe buasai pawb yn weddïwyr, "un cyfryngwr" fuasai er hyny. Y mae yr un rhesymiad yn ein harwain i weled mai nid fod yr Iesu yn ymbil, yn gweddïo, ac yn eiriol dros ddynion, sydd yn ei wneuthur ef yn gyfryngwr, nac yn peri ei fod yn cael ei alw felly. Y mae yn wirionedd eglur yn yr Ysgrythyr fod yr Iesu yn "eiriol dros y troseddwyr," "yn byw bob amser i eiriol," "yr eiriolwr gyda'r Tad." Ond y mae ei waith ef fel eiriolwr yn y nef yn hollol wahanol oddi wrth yr hyn a wneir gan ddynion pan y maent yn gweddïo dros eu gilydd. Canys eiriolaeth cyfryngwr yw ei eiriolaeth. Nid ei eiriolaeth sydd yn cyfansoddi ei gyfryngdod; ond ei gyfryngdod sydd yn gosod neilldu olrwydd ar ei eiriolaeth, ac yn ei chodi i bellder anfeidrol o ran natur, mawredd, a phwys, tu hwnt i bob math o weddi y gall y naill ddyn ei gweddïo dros y llall. Crefiad cardotyn heb haeddu dim daioni, ond yn haeddu pob drwg, yw gweddi dynion; tra mai deisyfiad un yn meddu hawl gyflawn i'r hyn y mae yn ei ofyn yw eiriolaeth cyfryngwr. O herwydd hyn y gelwir yr Eiriolwr gyda'r Tad yn "Iesu Grist, y *cyfiawn*" —sef cyflawn yn ei hawl i'r cwbl y mae yn ei ofyn. Am hyny, pe b'ai llon'd byd o weddiwyr, ni byddai mwy nag "un cyfryngwr." Ac o'r ochr arall, nid yw y gwirionedd mai "un cyfryngwr sydd," yn diddymu, neu yn gwneuthur yn ddiangenrhaid, y ddyledswydd sydd ar ddynion i weddïo dros eu gilydd; ond yn hytrach y gwirionedd hwn yw y sail gadarnaf i'r ddyledswydd, a'r annogaeth gryfaf i'w chyflawnu. Y mae yr apostol yn enwi *dynoliaeth* y Cyfryngwr fel cymhelliad chwanegol i deimladau brawdol. Fe welir yn hyn, os oedd angen am gyfryngwr rhwng Duw a dynion, nad oes angen am un rhyngddo ef a dynion, am mai Crist Iesu yn y natur ddynol ydyw. Nid ydyw yr annogaeth a roddir i ddynion i weddïo dros eu gilydd yn codi oddi ar unrhyw angenrhaid i'r naill ddyn sefyll i gyfryngu rhwng ei gymmydog a'r Iesu. Am hyny, pa beth bynag yw gwaith swyddogion eglwysig, y mae unrhyw honiad o'r eiddynt mai trwyddynt hwy y mae cymundeb rhwng yr Iesu â phechadur i'w ddwyn yn mlaen, yn wadiad ar ddigonolrwydd yr un Cyfryngwr i gyflawnu ei waith, ac ar ei agosrwydd o ran ei natur a'i deimlad at y pechadur. Ar y goreu, nid ydynt yn uwch nag offerynau cymhwys i ddangos yr unig Gyfryngwr i galon y pechadur. O ran ei natur, nid yw yn bosibl iddo fod yn nes, gan mai "y dyn Crist Iesu" ydyw; ac o ran ei deimlad, ni all fod yn gryfach, o herwydd efe "a'i rhoddes ei hunan yn bridwerth dros bawb." Hyn oedd gwaith mawr ei gyfryngdod; canys yn hyn y gosododd unig a digonol sail heddychiad pechadur â Duw.

3. *Heb.* viii. 6; "Ond yn awr efe a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymmaint ag y mae yn gyfryngwr cyfammod gwell, yr hwn (gyfammod) sydd wedi ei osod ar addewidion gwell." Y mae yr adnod hon yn taflu syniad am gyfryngdod yr Iesu, nad oedd i'w weled, o leiaf yn yr un eglurder, yn yr adnodau y cyfeiriwyd atynt o'r blaen. Y mae y syniad hwn yn cael ei gynnwys yn yr ymadrodd "*Cyfryngwr cyfammod.*" Ystyr y gair cyfammod yw, trefniant: a phan ddefnyddir y gair am Dduw a dynion, y meddwl yw, fod Duw, o'i ddoethineb anfeidrol, wedi llunio *trefn*, yn ol yr hon y mae yn cyfranu bendithion i ddynion. Y fendith fawr, yr hon sydd yn cynnwys pob bendith arall ynddi ei hun—tuag at gyfranu yr hon y lluniodd yn ei feddwl, ac y gosododd yn ddeddf anghyfnewidiol yn ei lywodraeth, y trefniant, yr hwn a elwir "y cyfammod gwell"—yw, bod yn Dduw i bechadur. Ac fel deddf, y mae holl alluoedd y llywodraeth dan rwymau i ddal y cyfammod i fyny, yn ei urddas a'i ogoniant. Y mae y trefniant hwn yn gyfanwaith dwyfol. Fe'i sicrhawyd felly gan Dduw, trwy iddo osod person, sef yr Arglwydd Iesu, yn y fath sefyllfa ag y mae yr holl drefniant yn dibynu arno ef am ei effeithiolrwydd a'i barhâd. Ac am mai efe sydd yn cadw y cyfan rhag cael ei chwilfriwio gan gyfnewidiadau amser, drygioni dynion, a chynllwynion diafol, fel ei ganolbwynt gogoneddus, fe'i gelwir yn "gyfryngwr y cyfammod." Geilw yr Ysgrythyr trefn Duw i oleuo y ddaiar yn gyfammod y dydd, a chyfammod y nos. Cyfryngwr y cyfammod hwn yw yr haul, canolbwynt y dosbarth heulog, yr hwn sydd yn taflu goleu a gwres a bywyd i'r bydoedd sydd mewn cyssylltiad âg ef, ac yn eu cadw i symud mewn trefn, rhag myned yn gandryll. Felly, y mae yr Arglwydd Iesu, fel Haul cyflawnder, yn Gyfryngwr y drefn a luniwyd i heddychu dyn â Duw, yn ffynnonell goleu a gwres i bawb a phob peth sydd mewn undeb âg ef; y fath Gyfryngwr, fel y mae y drefn yn dibynu am y cwbl ag ydyw arno ef, ac hebddo

Digitized by Google

ef y mae y cyfan oll yn gandryll, ïe, heb fod iddi mwyach. Fel y mae y gareg clo (*keystone*) yn gyfrwng bwa pont, yn ei chadw yn un; felly y mae yr Iesu yn cadw y cyfammod—sydd â'r naill ben yn gorwedd yn ewyllys Duw, a'r llall yn ei ogoniant tragwyddol, a'i amcan i sicrhau bywyd i bechadur—yn gyfanwaith sicr a thragwyddol. A bod yr Iesu yn ganolbwynt yr holl gyfundraeth sydd yn cyssylltu gogoniant Duw âg iachawdwriaeth pechadur, yw yr hyn a feddylir wrth ei alw yn "gyfryngwr cyfammod."

4. *Heb* ix. 15; "Ac am hyny y mae efe yn gyfryngwr y cyfammod newydd; megys trwy fod marwolaeth yn ymwared oddi wrth y troseddau oedd dan y cyfammod cyntaf, y cai y rhai a alwyd dderbyn addewid yr etifeddiaeth dragwyddol." Y mae y geiriau hyn yn amlygu gwirionedd o barth cyfryngdod yr Iesu, nad oedd i'w weled yn yr adnod flaenorol y buom yn sylwi arni. Gwirionedd hono oedd, fod yr Iesu yn "gyfryngwr cyfammod." Y mae hon yn dangos, yn chwanegol, *pa ham* y mae yn gyfryngwr cyfammod: *adn.* 14; "Pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn.....a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod..... i wasanaethu y Duw byw? Ac *am hyny* y mae efe yn gyfryngwr y cyfammod newydd," &c. Yn hyn y gwelir ei fod ef yn gyfryngwr cyfammod; am fod ei berson yn iawn digonol i Dduw, ac am fod ei waed yn effeithiol i buro cydwybod pechadur. Y mae y cyssylltiad hwn yn dangos yn mhellach, mai amcan mawr ei gyfryngdod oedd adferu pechadur i wasanaethu y Duw yr oedd efe yn rhyfela yn ei erbyn.

5. *Heb.* xii. 24; "Ac at Iesu, cyfryngwr y Testament Newydd," mewn cyferbyniad i Moses, yr hwn a ddywedodd, "Yr wyf yn ofni ac yn crynu," ac at "waed y taenelliad," &c. Fe enwir yma eto aberth Crist mewn cyssylltiad â'i gyfryngdod. Felly, mewn tair o'r pedair adnod, yn y rhai y gelwir yr Iesu yn y Testament Newydd yn gyfryngwr, fe enwir ei aberth mewn cyssylltiad â'i gyfryngdod: sef, yn 1 *Tim.* ii. 5, 6; *Heb.* ix. 14, 15; xii. 24. Am hyny, nis gellir son yn briodol am Iesu fel cyfryngwr yn ei swyddau, ond mewn cyssylltiad â r iawn a roddodd i Dduw.

6. *Heb.* vi. 17. Fe ddywedir i Dduw "gyfryngu trwy lw," er mwyn dangos i'w blant "ddianwadalwch ei gynghor." Fe appeliodd Duw at ei gymmeriad a'i fodolaeth ei hun, am gadernid yr iachawdwriaeth. Fe ddywed, *Heb.* vii. 28, i "air y llw" wneuthur y Mab yn offeiriad. Am hyny, fe ddangosir Duw yn myned ar ei lw am gadernid yr iachawdwriaeth yn ngosodiad ei Fab yn offeiriad.

Y mae yn amlwg, fel yr awgrymwyd o'r blaen, fod gwahaniaeth rhwng offerynoliaeth a chyfryngdod; ac o ganlyniad, mai nid fod yr Iesu yn *offeryn* yn llaw Duw i wneuthur gwaith mawr ar y ddaiar sydd yn ei wneuthur yn gyfryngwr.

Y mae y gwahaniaeth sydd rhwng offeryn a chyfryngwr i'w weled mewn amgylchiadau cyffredin. Bwriwn fod dau berson wedi ymrafaelio â'u gilydd, a bod un o'r ddau yn defnyddio trydydd person, fel *offeryn* yn unig, i derfynu yr ymrafael. Ni byddai raid i'r offeryn hwn feddu ar farn na gwybodaeth am y pwnc mewn dadl; ond gweithredu yn unig yn ol cyfarwyddyd neu orchymyn y sawl sydd yn ei ddefnyddio. Gallai fod yn amddifad o synwyr cyffredin, neu yn blentyn bach, a bod, er hyny, yn offeryn cymhwys i gario cenadwri, trwy lythyr neu mewn geiriau, oddi wrth y naill blaid at y llall. Y cymhwysder angenrheidiol iddo fel offeryn fyddai meddu ar ystwythdra i wneuthur pa beth bynag a orchymynid iddo. Ond pe defnyddid trydydd person fel cyfryngwr, ni byddai y fath ystwythdra i wneuthur ewyllys un o'r pleidiau yn gymhwysder; yn hytrach, fe fyddai yn anghymhwysder mawr. Cymhwysderau o natur arall fyddai yn angenrheidiol mewn cyfryngwr; sef, bod yn feddiannol ar wybodaeth drwyadl o'r pwnc mewn dadl, a dirnadaeth gywir o'r anhawsderau sydd i'w symmud tuag at ei derfynu, ar allu i weled y tir ar yr hwn y gellid heddychu y pleidiau, ac ar fedr i'w dwyn i heddwch ar y tir hwnw. Nid plentyn neu ddyn anwybodus a difedr fyddai yn gyfryngwr cymhwys rhwng pleidiau pan y mae pwnc yr ymrafael yn cynnwys egwyddorion pwysig, a chanlyniadau mawr yn gorphwys ar y modd y terfynir ef. Y mae Duw yn defnyddio lluaws o offerynau i wneuthur ei ewyllys. Mae yn eu cymmeryd o blith "ffol-bethau y byd," gwan bethau, pethau distadl, dirmygus, a phethau nid ydynt. Nid oes ar y ddaiar berson neu beth mor ddistadl na fedr Duw, ac, ar a wyddom ni, nad ydyw yn ei ddefnyddio i hwyluso mewn rhyw fodd amcanion mawr yr iachawdwriaeth. Ond nid yw y ffol, a'r gwan, a'r distadl, a'r peth nid ydyw—pa mor gymhwys bynag fel offeryn—yn meddu ar gymhwysder i fod yn gyfryngwr. I'r sefyllfa hon, rhaid cael un a chanddo fywyd ynddo ei hunan—un yn ddigon mawr i wybod natur yr ymrafael, i ddeall ei anhawsderau, a digon medrus i roi terfyn tragwyddol iddo. Y mae hawliau cyflawnder mor uchel, a'r perffeithrwydd y mae y ddeddf yn ei ofyn gan ddyn mor ddysglaer, cymmaint uwchlaw dirnadaeth creadur, ar un llaw—a gelyniaeth at Dduw mor ddwfn yn y galon, wedi cydblethu â holl alluoedd ei enaid, mor amrywiol yn ei ddull o weithredu mewn amrywiol bersonau, ïe, yn yr un person mewn amrywiol amgylchiadau, ar yr ochr arall—fel mai ofer fyddai dysgwyl cael neb yn meddu y cymhwysderau angenrheidiol i gyfryngu rhyngddynt, oddi eithr i Dduw lunio rhyw ddull ag y medr ef ei hun fod yn gyfryngwr rhyngddo a'i greadur. Ac uno Duwdod â dynoliaeth yn mherson yr Iesu, yw y dull a gymmerodd. Y mae y gwahaniaeth rhwng offerynoliaeth a chyfryngdod yn angenrheidiol i'w gofio, wrth sylwi ar y dulliau y mae dynion wedi eu ffurfio i ddyfod i heddwch â Duw.

Angen mawr ysbrydol y ddynoliaeth yw pellder teimlad oddi wrth Dduw. Yr oedd y pellder hwn yn ymddangos yn syniadau y philosophyddion paganaidd am ei fawredd. Yn lle ystyried ei fawredd fel perffeithrwydd ac anfeidroldeb pob rhinwedd moesol, ac felly yn fawredd a fedr agosau at ddyn, yr oedd Epicurus a'i ddilynwyr yn ystyried mai amddifadrwydd o ragoriaethau moesol, ac mai rhyw ddiogi ac esmwythyd gogoneddus mewn pellder teimlad oddi wrth bob peth perthynol i ddynion oedd mawredd dwyfol. Yr oedd y golygiad hwn o'i fawredd yn arwain yn naturiol i wadiad o'i fodolaeth yn y pen draw. Yr oeddynt yn coleddu syniadau anghywir am ei fawredd—syniadau cnawdol am ei natur ysbrydol—yn casau ei burdeb, ac yn ofni ei wg; ac yr oedd eu natur yr un pryd yn dyheu am ryw lwybr i agosau ato. Ac fe ddarfu i'w dychymyg ffurfio trefn tuag at gyflenwi yr angen. Yr oeddynt yn gweled fod Duw yn gweithio yn barhäus, yn mhob man, ac i gyrhaedd ei holl amcanion trwy *offerynau.* Trwy syllu ar yr offerynau, y rhai oeddynt yn weledig, hwy ddaethant

Digitized by Google

yn raddol i anghoflo mai gallu Duw anweledig oedd yn eu gosod ar waith, ac i feddwl fod ynddynt hwy eu hunain ryw allu annibynol ar Dduw, a hwnw yn allu a fedrai ddylanwadu ar Dduw ei hun. Ac felly, fe draws-sylweddodd dychymyg llygredig y ddynoliaeth yr offerynau yn gyfryngau i gyflwyno gweddïau dynion i Dduw, ac i ddwyn bendithion Duw i ddynion. Offerynau, a dim uwch nag offerynau, oeddynt er hyny—heb feddu ar un math o allu, ond yn unig eu bod yn llaw Duw galluog. Dychymygu yr offeryn yn gyfryngwr yw dyfais uchaf y natur ddynol i groesi y gwagle rhwng pechadur a'i Dduw—heb ganddi allu i'w wneuthur yn ddim amgen nag offeryn er y cwbl.

Dyfais y pagan i ddyfod i heddwch â Duw, heb ddadguddiad, oedd dyfais yr Iuddewon hefyd, mewn ffurf arall. Yr oedd yr Arglwydd wedi gwneuthur angelion yn genadon i drosglwyddo ei feddwl i'r Iuddewon—yn offerynau yn ei law, fel y gwnaeth y gwynt i chwythu, a'r "fflam dân" i losgi, yn ol ei ewyllys. Gyda "myrddiwn o'i saint," y rhai, dybygid, oedd yr angelion, yr "ymlewyrchodd Duw o fynydd Paran, pan y daeth y gyfraith danllyd o'i ddeheulaw ef." Hi a drefnwyd trwy angelion. Fe dderbyniodd yr Iuddewon hi trwy drefniad angelion. Yr oeddynt yn ei law i'r fath raddau, fel y dywedir yn Llyfr Exodus, mai efe ei hun oedd yn gwneuthur y cyfan—mor hollol a phe buasai wedi gwneuthur y cwbl heb offeryn. Trwy syllu ar yr angelion fel offerynau, fe feddyliodd yr Iuddew fod ganddynt ryw allu ynddynt eu hunain i ddylanwadu ar Dduw. Heb ddeall fod gosodiadau seremoniol eu goruchwyliaeth yn cysgodi y gwir Gyfryngwr, fe ddarfu iddynt hwythau, fel y paganiaid, ddychymmygu yr offerynau yn gyfryngwyr, a dysgwyl daioni oddi wrth Dduw trwy eu parchu hwy. Am hyny y mae ysgrifenydd y Llythyr at yr Hebreaid, yn y bennod gyntaf, yn gosod pwys ar y ffaith mai offerynau fel y gwynt a'r fflam oeddynt, mai ysbrydion gwasanaethgar oeddynt, wedi eu danfon a'u defnyddio gan allu uwch, tra y dywedwyd wrth y Mab—y gwir Gyfryngwr—"Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd." Yn *Heb.* xii. 22, 24, fe addefir fod gan Dduw "fyrddiwn o angelion;" tra yn yr un frawddeg fe elwir yr Iesu yn Gyfryngwr y Testament Newydd: ac fe ddangosir yn hyn, er fod gan Dduw fyrdd o offerynau, nad oes ganddo ond un Cyfryngwr; a bod offeryniaeth i'w wahaniaethu oddi wrth gyfryngdod. Colli golwg ar y gwahaniaeth hwn sydd wedi arwain y Pabyddion i chwanegu cyfryngwyr at yr un a osododd Duw. Yn y *Douay Version*—y cyfleithiad o'r Beibl a ddefnyddir gan y Pabyddion—mewn nodiad ar 1 *Tim.* ii. 5, fe ddywedir, "Efe yw yr *unig* Gyfryngwr, yr hwn nid yw yn sefyll mewn angen am neb arall i gyflwyno ei ddeisyfiadau i'r Tad. Ond nid yw hyn yn groes i ni geisio gweddïau ac eiriolaeth ffyddloniaid y ddaiar, yn gystal a saint ac angelion y nef, tuag at gael trugaredd, gras, ac iachawdwriaeth, trwy Iesu Grist. Fel yr oedd Paul ei hun yn deisyf cynnorthwy gweddïau y ffyddloniaid, heb niweidio cyfryngdod yr Arglwydd Iesu." Ond y maent hwy yn talu cymmaint o sylw ac o barch i'r seintiau, ac yn enwedig i Mair—yn teimlo cymmaint angen am gynnorthwy yr offerynau—nes bod yn euog o'r diwedd o drawssylweddiad mwy dinystriol na thrawssylweddiad y bara a'r gwin i fod yn gorff a gwaed Crist; sef trawssylweddiad yr offerynau i fod yn gyfryngwyr, neu ynte trawssylweddiad yr unig Gyfryngwr i fod yn ddim uwch nag offeryn.

A'r un golygiad hefyd yw eiddo yr Undodiaid am gyfryngdod Iesu. Mewn sylwadau ar 1 *Tim.* ii. 5, fe ddywed Dr. Ware, un o weinidogion yr enwad hwnw yn yr America:—"Fe welodd Duw yn dda ddal cymdeithas â'i greaduriaid—wneuthur cyfammod â hwynt—a rhoi addewidion iddynt. Efe, trwy *offeryniaeth* yr hwn y gwneir hyn, a elwir, *o herwydd hyny*, 'Yn Gyfryngwr rhwng Duw a dynion.'" Ac y mae yr esgob Butler, yn yr *Analogy*, yr ail ran, *pennod* 5, yn symmud un gwrthwynebiad i gyfryndgod yr Iesu, trwy ddyweyd,—"Nid oes wrthwynebiad, oddi wrth oleuni natur, i'r syniad cyffredin o gyfryngwr rhwng Duw a dynion, fel athrawiaeth Cristionogaeth, neu fel gosodiad yn yr oruchwyliaeth hon; gan ein bod yn cael trwy brofiad, fod Duw yn gosod cyfryngau i fod yn offerynau da a drwg i ni—yn offerynau ei gyfiawnder a'i drugaredd." Ond yn y frawddeg ganlynol, rhag i neb gamgymmeryd, fe ddywed fod yr Iesu yn Gyfryngwr, "mewn ystyr uchel, rhagorol, a *neilldual*." A *neilldualrwydd* ei gyfryngdod yw ei fod ef yn anfeidrol uwch nag offeryn. Y gwall cyffredin sydd yn rhedeg drwy synladau y philosophyddion paganaidd, yr Iuddewon, y Pabyddion, a'r Undodiaid—ond mewn gwahanol ffurfiau—yw, anghoflo fod cyfryngwr rhwng Duw a dynion i feddu, neu yn meddu ar gymhwysderau gwahanol oddi wrth, ac uwch na'r hyn sydd angenrheidiol mewn offeryn. Y mae yr ymadrodd "Un cyfryngwr sydd," tra y mae myrdd o offerynau, yn dangos fod y fath wahaniaeth. Yn gydweddol â'r syniad hwn, fe gyfleithir yn y Deg a Thrigain, y gair sydd yn ein Beiblau Cymreig yn "ddyddiwr," yn *Iob* ix. 33, yn *gyfryngwr*. Fe ddangosir Duw a Iob fel dau wedi ymrafaelio â'u gilydd, yn sefyll o flaen brawdle, ond brawdle yn wag o farnwr, am nad oedd un teilwng i fod yn gyfryngwr i osod ei law—arwydd o awdurdod—arnynt ill dau. Y syniad ysgrythyrol o gyfryngwr yw, nid *offeryn*, ond heddychwr cymhwys rhwng dwy blaid; i'r hwn y mae y ddwy yn ymddiried eu hachos, a'r hwn sydd yn abl i wneuthur heddwch rhyngddynt, nas gellir ei ddadwneyd byth.

Heb law y dychymyg a drodd yr offeryn yn gyfrwng, yr oedd barn gyffredinol yn mhlith y werin baganaidd fod y gagendor rhwng Duw a dyn yn cael ei lenwi i fyny gan nifer mawr o offerynau—y naill yn ychydig uwch na'r llall—trwy y rhai yr oedd holl ddeisyfiadau y creadur o'r diwedd yn cyrhaedd clustiau y Creawdwr. Yr oedd y philosophyddion Platonaidd yn cadarnhau y golygiad, trwy ddychymygu, er mai un Duw Goruchaf ydoedd, fod duwiau is yn gyssylltiedig â gwahanol ranau y greadigaeth—cynnrychiolwyr y Goruchaf, a chyfryngwyr rhyngddo a dynion: dychymyg hefyd a ddefnyddid i esbonio pa fodd y mae diffygion a galanasdra yn dygwydd yn llywodraeth Duw anfeidrol dda. Y mae y cynllun hwn, a fwriadwyd i ddileu y pellder rhwng Duw a dynion, yn myned ar y dybiaeth mai pellder *lle* yw y pellder rhyngddynt—tybiaeth a wywir gan y dadguddiad o'i hollbresennoldeb: ond nid yw yn cyffwrdd â'r gwir anhawsder, sef pa fodd i ddileu y pellder teimlad sydd rhwng Duw cyflawn a sanctaidd a dyn euog a llygredig. Ac heb law hyny, yr oedd y cynllun mewn gwirionedd yn iselu Duw. Ofer son am gynllun i gyfryngu rhwng Duw a dynion

Digitized by Google

ag sydd yn myned ar y dybiaeth nad ydyw Duw yr hyn ydyw. Pe meidrol fuasai Duw, fe allesid ei gyrhaedd, ond cael nifer digon mawr o offerynau, fel y gellid ffurfio cadwen o ddynion, o'r cardotyn i'r frenines—y naill ychydig yn uwch na'r llall, pe buasai hyny yn angenrheidiol, tu ag at gyflwyno deisyfiad y cardotyn o un pen i'r gadwen i sylw y frenines yn mhen arall y gadwen. Ond os yw Duw yn anfeidrol, y mae y creadur uchaf yn anfeidrol is nag ef. A pha fodd i groesi y gagendor hwnw yw yr anhawsder sydd eto yn aros i'w symmud. Os yw dyn ychydig yn is na'r angel, y mae yr angel uchaf yn anfeidrol is na Duw. Y mae yn bosibl ffurfio rhes o ddolenau i'r angel uchaf heb ei iselu ddim; ond nis gellir at Dduw anfeidrol, heb fod yn euog o'i ddiraddio o fod yn Dduw i fod yn greadur, er yn wir yr uchaf o greaduriaid. Nid cyfryngau rhwng y gwir Dduw a dynion a fyddent; ond rhwng bod wedi ei ddiosg gan ddychymyg dynol o urddas a gogoniant ei dduwdod—ac eto yn cael ei alw yn dduw—a dynion. Y mae y drefn hon o gyfryngdod, a luniwyd er mwyn agosäu Duw a dynion, dan orfod i iselu y Duwdod, er mwyn cyrhaedd ei hamcan. Ond y mae yr Ysgrythyr yn dadguddio y fath Gyfryngwr—nad yw ei gyfryngdod yn cael ei chario yn mlaen ar draul ysbeilio y Duwdod o'i ogoniant. Nid un uwch na dyn, ac is na Duw, yw Cyfryngwr y Testament Newydd; ond fel ysgol Iacob, yn cyffwrdd y ddau;—yn yr agosrwydd mwyaf at Dduw, am mai Duw ydyw; ac ar yr un pryd yn yr agosrwydd mwyaf at dyn, am mai "y dyn Crist Iesu, yr hwn a'i rhoddes ei hun yn bridwerth dros bawb," ydyw. Y mae Person yr Iesu yn llenwi yr holl gagendor, yn dileu pellder anfeidrol y teimlad oedd rhwng pechadur a Duw, trwy farw yn natur ac yn lle pechadur, a thrwy hyny yn gosod sail heddychiad tragwyddol rhwng y ddwyblaid. Y mae yr Iesu yn Gyfryngwr Duw, yn ei ogoniant anfeidrol, a dynion.

Y mae hefyd yn deilwng o sylw, os dileu y pellder rhwng Duw a dyn oedd amcan y philosophyddion paganaidd, nad oedd cynllun eu dychymyg yn ei gyrhaedd i'r graddau lleiaf, ond yn hytrach yn pellhau dyn oddi wrth Dduw. Yr oedd dynion, fe ellir tybied, ar y cyntaf, tra yn casäu, yn methu llai nag arswydo wrth feddwl am Dduw; yn enwedig pan y byddent yn gweled neu yn clywed am bethau dychrynllyd ei ragluniaeth, ac yn edrych ar bethau gweledig fel offerynau ei ewyllys. Wrth graffu ar yr offerynau, fe'u dychymygwyd yn raddol i fod yn gyfryngau. Fel cyfryngau yr oeddynt yn derbyn parch ac addoliad; gweddiau yn cael eu cyflwyno iddynt, ymddiried yn cael ei osod arnynt, a bendithion yn cael eu dysgwyl trwyddynt. Yna fe anghofiwyd Duw yn llwyr; ac yn ei le fe dderbyniodd yr offerynau yr oedd yn eu defnyddio addoliad gan ddynion fel pe buasent dduwiau: a'r canlyniad olaf fu yr eilunaddoliaeth mwyaf ynfyd.

Yr ydym wedi sylwi pa fodd y trowyd yr offeryn yn gyfryngwr: ni a sylwn yn awr ar y modd y magodd y drefn gyfryngol hon o eiddo dyn eilunaddoliaeth. Hwn yw y dull y mae Paul yn ei ddarlunio fel eilunaddoliaeth y Cenedloedd yn *Rhuf.* i. 21—25. Y mae *adn.* 19, 20, yn dangos y byd paganaidd yn cydnabod un Duw, fel y gwelir ef yn y pethau a wnaed ganddo:—*adn.* 21, yn rhesymu, yn gosod ei reswm ar waith pa fodd i agosau ato:—*adn.* 22, wrth resymu, yn troi yn ffyliaid:—*adn.* 23, eu ffolineb yn ymddangos yn hyn—fod eu cynllun hwy i agosäu at Dduw yn dwyn canlyniadau hollol groes i'r hyn oeddynt yn ddysgwyl, sef "newid gogoniant yr anllygredig Dduw i gyffelybiaeth llun dyn llygredig." Ond yr hyn a'u dygodd i'r ystad olaf hon oedd (*adn.* 25) "addoli a gwasanaethu y creadur yn fwy na'r Creawdwr;" sef, edrych ar y creadur fel cyfryngwr; meddwl am dano nes anghofio y Creawdwr, ac yna troi gogoniant y Creawdwr i lun y creadur. Dywed Maimonides, ysgrifenydd Iuddewaidd, fod amlddduwiaeth y paganiaid yn ddim amgen na hyn, sef addoli, heb law yr unig Oruchaf, creaduriaid fel gweinidogion ei ragluniaeth, ac fel cyfryngwyr rhyngddo a dynion. "Na fydded i ti dduwiau ereill ger fy mron i," medd y gorchymyn cyntaf o'r ddeddf; hyny yw, "na osod i fyny unrhyw beth arall, gan ei alw yn dduw, rhyngof a thydi; nac addola unrhyw greadur fel cyfryngwr, gan feddwl dy fod yn fy mharchu i trwy hyny"—gan y byddai y fath gyfryngwr yn sicr yn y pen draw o guddio Duw o sylw yr addolwr, ac o dderbyn yr holl addoliad yn ei le. Offeryn ar y cyntaf oedd y sarff bres yn nhrefn Duw i iachau y bobl. Fe deimlodd yr Israeliaid barch i'r sarff—parch a gadwodd y sarff heb ei dinystrio ar ol iddi ateb dyben ei gwneuthuriad; parch a gododd y sarff o fod yn offeryn i fod yn gyfrwng yn eu tyb. A'r cam naturiol nesaf oedd iddynt ei haddoli fel cyfrwng; a thrwy hyny cafodd y gwir Dduw ei ysbeilio o'r addoliad ag yr oedd ef, ac ef yn unig, yn ei deilyngu. Y mae yr un peth i'w weled yn hanes y genedl Iuddewig. Offeryn oedd yr angel yn llaw Duw ar y cyntaf; fe'i dychymygwyd yn gyfrwng bendithion yn ail; yna fe addolwyd yr angelion, ar y dybiaeth fod Duw yn cael ei barchu yn addoliad y rhai a dybid eu bod yn gyfryngau.

Felly, y mae yn ymddangos fod y natur ddynol wedi ei chyfansoddi y fath fel nad all lai nag addoli yr hyn y mae yn dybied sydd yn cyfryngu rhwng Duw a dynion; ac o angenrheidrwydd, gan nad oedd gan ddyn, heb ddadguddiad, ddychymyg am y gwir Gyfryngwr, fe ddarfu i ddychymyg tywyll y meddwl, llygredigaeth y galon, yn nghyd â chyfansoddiad y natur ddynol, gydweithio i lusgo dyn i'r eilunaddoliaeth isaf. Os cyfryngdod dychymygol a arweiniodd dyn i'r pellder mwyaf oddi wrth Dduw, y mae yn rhesymol dysgwyl mai dadguddiad o'r gwir Gyfryngwr a ddylai ddwyn dyn o'r pellder i agosrwydd heddwch a chymundeb âg ef.

Y mae y cyfansoddiad dynol y fath, fel, pe na buasai un awgrymiad yn yr Ysgrythyrau fod Iesu yn Dduw, y buasai y dadguddiad o hono fel Cyfryngwr yn sicr o arwain dynion i dalu iddo bob parch ac addoliad dwyfol. A bwrw nad yw yn Dduw—yr ydym dan yr angenrheidrwydd o gredu fod Duw, yr hwn a gyfansoddodd natur dyn, fel y mae yn greadur, wedi darparu trefn gyfryngol, er mwyn dwyn dynion yn ol o'u pellder gelynol i'w heddwch ac i'w ddelw, a bod y drefn hono y fath, fel y mae y lluaws o'r sawl sydd yn talu rhyw barch iddi yn cael eu harwain gan ryw allu mor gryf a phe buasai yn reddf yn eu natur—os nad greddf ydyw—i eilunaddoliaeth mor drwyadl ag eilunaddoliaeth y paganiaid, y rhai ni chawsant ddadguddiad erioed! A thybied nad Duw ydyw—y mae y ffaith yn aros eto mai nifer bychan iawn mewn cymhariaeth sydd wedi gallu son am dano, fel Cyfryngwr, heb ei addoli fel Duw: a bod y nifer hwnw wedi gallu peidio ei addoli trwy ei ddarostwng o fod yn Gyfryngwr i fod yn *offeryn* yn unig yn eu dychymyg,

Digitized by Google

Ei ddarostwng o fod yn Gyfryngwr, a'i iselu i fod yn offeryn, yw yr unig ddull gwybyddus i ni i ochel talu addoliad dwyfol iddo. Y mae yn rhaid dadwneyd cyfansoddiad dyn fel creadur, neu y mae yn rhaid i'r Cyfryngwr fod yn Dduw, gan fod y cyfansoddiad sydd gan ddyn yn bresennol yn sicr o'i arwain i addoli y Cyfryngwr fel pe b'ai yn Dduw. Pe gwneid y cyntaf, nid Cyfryngwr Duw a *dynion* fyddai yn mhellach, gan y byddai greddf a chyfansoddiad natur dynion wedi eu llwyr newid. Ond y mae trefn Duw i achub dynion yn cydweddu yn berffaith â'r natur a roddodd ar y cyntaf iddynt; ac am hyny fe all holl deimladau greddfol y ddynoliaeth weithredu heb drais na gormes—yn gwbl naturiol ar y Cyfryngwr a osododd Duw, heb byth berygl i ddyn gael ei arwain i eilunaddoliaeth trwy hyny, ond yn hytrach, gyda'r sicrwydd mwyaf y bydd addoliad ei galon i'r Cyfryngwr yn addoliad i Dduw ei hun. Ac y mae y sicrwydd yn y dystiolaeth hono, am ei Fab ef Iesu Grist, "Hwn yw y gwir Dduw," neu "Hwn yw Duw ei hun, a'r bywyd tragwyddol."

Hefyd, gan mai aml-gyfryngwriaeth—dyfais dychymyg dynol—a arweiniodd dynion i amlddduwiaeth, tuag at eu hadferu i addoli y Duw byw, a dyfetha eu heilunaddoliaeth, y mae yn llawn mor angenrheidiol pregethu iddynt mai "un cyfryngwr sydd, y dyn Crist Iesu," ag i bregethu mai "un Duw sydd." Yr oedd y paganiaid yn personoli priodoliaethau Duw, a gweithrediad pob priodoledd; a thrwy hyny yn gwasgaru Duw dros wyneb y ddaiar, ac yn ei golli ef ei hun yn amrywiaeth ei weithredoedd a'i briodoliaethau. Yr oedd hyn yn seiliedig ar olygiadau cnawdol am Dduw; sef, ei fod wedi ei wneuthur i fyny o briodoliaethau, fel y gwneir corff i fyny o wahanol aelodau, ac nid ei fod ef ei hun yn ei anfeidroldeb yn mhob priodoledd. Ond y mae y dadguddiad o fod holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorfforol ynddo ef, sef mewn *un* Cyfryngwr, yn dwyn y byd yn ol i addoli un Duw.

Y mae yr holl gymhwysderau angenrheidiol i Gyfryngwr rhwng Duw a dynion—sef agosrwydd natur i'r ddwy blaid, agosrwydd teimlad tu ag at y ddwy, perffaith wirfoddolrwydd i'r gorchwyl, meddiant ar fywyd ynddo ei hun, a'r gallu i weinyddu swyddau cyfryngol—yn cydgyfarfod yn yr Arglwydd Iesu. Fel offeiriad, yr oedd yn cynnrychioli dynion ger bron Duw, yn eu natur, ac yn eu deddfle, yn rhoddi ei hunan yn bridwerth drostynt, ac yn eiriol drostynt ar sail ei aberth. Fel brenin a phrophwyd, y mae yn cynnrychioli Duw ger bron dynion. "O herwydd iddo ddyoddef marwolaeth, y mae wedi ei goroni â gogoniant ac anrhydedd" yn nghalon pechadur; ac fe ddywedodd Duw wrtho, am y galon, yr hyn a ddywedodd am y greadigaeth yn gyffredinol, "Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn Ysbryd, yn gogoneddu ei aberth yn meddwl y pechadur. Yn ngweinyddiad y tair swydd y mae yn atteb dybenion mawrion ei gyfryngdod; sef adferu dyn i heddwch Duw, ac adferu delw Duw i galon dyn.

CYFFES, CYFFESIAD, [*confession*]. Wrth edrych arno yn ei berthynas â'r eglwys, dynoda y gair gyfaddefiad o bechodau, a hyny mewn ystyr deublyg. Yn yr ystyr eangaf, defnyddir ef am edifeirwch, neu am benyd fel sacrament; ac yn yr ystyr cyfyngaf, am addefiad o'r edifeirwch hwnw, fel rhan o'r sacrament Pabaidd o benyd. Fel peth a gyfatebai i alwad yr efengyl i edifeirwch, cododd yn yr eglwys wasanaeth neilldduol er dwyn penyd, lle, gyda hyny y gwneid cyffes gyhoeddus o bechod (ἐξομολόγησις:—gwel *Act.* xix. 18). Yn ol Irenæus, Tertullian, Cyprian, &c., yr ydoedd hyn yn gynnwysedig o gyffesu pechod ger bron y gynnulleidfa, neu yr henadurfa esgobol, gyda deisyfiad am eu gweddïau, yn erfyn ar fod i'r edifeiriol gael drachefn ei gymmodi â Duw ac â'r eglwys. Ond cymmerai hyn le, gan amlaf, mewn achos o athrod neu dramgwydd agored a chyhoeddus:—anfynych y dygwyddai yn nglŷn â phechod dirgelaidd. Yn y drydedd ganrif y dechreuodd yr arferiad o gyffesu pechodau dirgel i swyddogion penodedig i hyny. Er hyny, yn y flwyddyn 390, diddymwyd y swydd yn yr Eglwys Orllewinol, gan Nectarius, patriarch Caer Cystenyn; a chaniatawyd i bawb ddewis ei gyffeswr ei hun. Eto, parhäai yr arferiad o ddirgel gyffesu i offeiriaid neilldduol wedi hyny; ac o'r diwedd, aeth â lle cyffesu cyhoedd. Dygwyd hyn oddi amgylch i fesur mawr mewn canlyniad i lythyr a ysgrifenwyd gan Leo I., yn 459. Yn y cyfansoddiad hwnw, ymwrthyd efe â chyffesu cyhoeddus, fel peth anapostolaidd; a chanmola gyffes ddirgel fel peth yn tra rhagori yn mhob modd. Pa fodd bynag, arosodd drachefn i fod yn bwnc o rydd-ddewisiad yn yr Eglwys Ddwyreiniol. Ffynodd lluaws o wahanol olygiadau mewn perthynas i hyn yn yr amserodd dilynol; ond cymmerodd Innocent III. arno benderfynu pob ansicrwydd yn nghylch y mater, pan, yn mhedwaredd gynghorfa Lateran, yn y flwyddyn 1215, y gorchymynodd fod i bob Cristion catholig, o hyny allan, dan boen esgymuddod, gyffesu ei holl bechodau, o leiaf unwaith yn y flwyddyn, tuag adeg y Pasc. Cafodd hyn, hefyd, ei gadarnhau gan Gymmanfa Trent. Yn yr eglwys gyntefig, i Dduw yn unig, neu ynte i gyd-Gristionogion (*Iago* i. 16), y cyffesid pechodau; ac ni byddai yn rhaid i'r rhai hyny fod yn offeiriaid ordeiniedig. Ond pan y dechreuwyd dosbarthu pechodau yn *farwol*, a *maddeuadwy* neu *esgusodol* (*venial*), tybiwyd mai angenrheidiol ydoedd cyffesu y blaenaf i offeiriaid. Am y cyssylltid y drychfeddwl o ofid a phoen âg edifeirwch a drylliad calon o herwydd pechod, aeth yr eglwys i sefydlu amrywiol benydiau fel *boddlonrwydd* iddi hi, ac fel ammod gollyngdod a maddeuant i'r edifeiriol, gan yr hwn y cyffesid iddo. Cyfatebai y penydiau bob amser i nodwedd y pechod.

Fel rheol, rhaid i'r cyffesu fod naill ai mewn geiriau eglur (*oral*); neu ynte o'r neilldu, yn ddirgel yn y glust (*auricular*):—fel eithrad yn unig y goddefir cyffesu trwy ysgrifen. Rhaid iddo gynnwys pob rhyw bechod. Er hyny, mewn amgylchiadau pan y mae hyny yn anocheladwy, derbynir cyffes gyffredinol. Ni chaniateid i'r offeiriad dderbyn un taliad am ei waith ar y dechreu, er iddo ddyfod yn arferiad ar yr achlysur o gyffesu i ddwyn offrymau gwirfoddol, fel elusenau, neu tuag at gynnal yr eglwys a defodau ei gwasanaeth. Yr unig wahaniaeth rhwng Eglwys Groeg ac Eglwys Rhufain o barth i hyn ydyw, nad yw y gyntaf mor gaeth ei gorchymyn i gyffesu yn ddirgel.

Cytuna yr eglwysi diwygiedig oll nad yw cyffesiad, yn yr ystyr yr arferir ef gan Eglwys Rhufain, yn ordinhad appwyntiedig gan Dduw. Y mae Luther wedi nodi tri o wahanol fathau o gyffesu:—1. Yr un ger bron Duw (*Salm* xxxii.

Digitized by Google

5); sef y cyffesiad a wna ffydd. 2. Cyffesu i'n cymmydog; sef, cyffes cariad. 3. Cyffesiad y pab, gyda'r fath amrywiaeth o bechodau, fel nas gall neb eu dirnad na'u cofio, ac yn orfodol gyda hyny. Ond nid yw Duw yn gorfodi dyn i gyflawnu y gwir gyffesiad o bechodau—llawer llai y mae yn cymhell i hwn; gan hyny, yn erthyglau y ffydd efengylaidd, condemnir cyffesiad gorfodol. Eto cedwid i fyny yr arferiad o ddirgel gyffesiad, gan roddi caniatâd i bawb wneuthur hyny y pryd ac yn y man y gwelai yn oreu. Gwahaniaethai yr eglwysi diwygiedig a'r Eglwys Lutheraidd o ran eu hymarferiad o gyffesu. Yn y cyntaf gwneid cyffes *gyffredinol*, ac yn y ddiweddaf cyffes *neilldual*, yn rhagbarotoad i gyfranogiad o Swper yr Arglwydd. Er hyny, ffynai cyffesiad cyffredinol yn yr Eglwys Lutheraidd ar hyd y ganrif ddiweddaf, tra y dadleuai rhai duwinyddion perthynol i'r eglwysi diwygiedig dros ddirgel gyffesu.

Gofyna yr Eglwys Babaidd ar i'r hwn y cyffesir iddo—y *tad-gyffeswr*—fod yn offeiriad ordeiniedig. Oddi wrth 1 *Cor.* iv. 15, a *Gal.* iv. 19, gosodwyd i lawr fod perthynas *dadol* yn hanfodi rhwng y dychweledig a'r offeryn personol yn ei ddychweliad; ac wedi hyny, trosglwyddwyd y drychfeddwl yma i'r berthynas rhwng y cyffeswr a'r ymgyffesydd; sef, yr hwn a gyffesa. Hònid yn dra bore mai i esgobion yn unig y perthynai yr hawl o dderbyn cyffesiadau:—er, mewn achosion o bwys, ac amgylchiadau cyfyng, a'r esgob yn bresennol, gellid eu gwneyd i'r henuriad neu y diacon. Ar ol y flwyddyn 800, awdurdodwyd yr henuriaid i'w derbyn. Yn gymmaint a bod y gollyngdod maddeuol sydd yn nglŷn â chyffesiad yr Eglwys Babaidd yn cynnwys ynddo fod gan y tad-gyffesydd awdurdod gyfreithiol, dodwyd i bob un o'r dynion yma randir penodol o wlad. Felly, y mae pob plwyfwr yn ymgyffesydd i offeiriad rheolaidd ei blwyf; ac heb ei ganiatâd ef, nid oes ganddo hawl i gyffesu i neb arall, oddi eithr pan y mae, ond odid, yn ymyl angeu.

Mewn eglwysydd cadeiriol, gwnaed lleoedd pwrpasol i gyffesu a dwyn penyd; a darparwyd personau neilldual i wrandaw cyffesion lleianod. Ond gorchymynid yn bendant na byddai i wŷr lleyg, dan unrhyw amgylchiadau, dderbyn y cyffesion. Yn yr eglwysi a ymneilluasant oddi wrth Rufain, ond eto yn dal gafael mewn cyffesiad, caniateir i bersonau na byddont swyddogion eglwysig dderbyn cyffesion, a chyhoeddi gollyngdod; ac y mae hyn yn gysson â'u gwaith yn gwadu natur sacramentol cyffesiad; ond y rheol yw, fod i glerigwyr ordeiniedig gynnal cyfarfod i ymgyffeswyr, fel rhagbarotoad cyn cyfranogi o Swper yr Arglwydd. Ordeiniai hen gyfreithiau mai rhaid oedd cyffesu mewn rhyw le cyhoeddus yn yr eglwys: un o ddeddfau synod Paris, yn y flwyddyn 829, oedd, fod i leianod gyffesu wrth yr allor yn ngwydd tystion. Hyd yn oed yn nechreuad yr unfed ganrif ar bymtheg, erchid cyffesu mewn man amlwg a hywel (*locus conspicuus*). Nis gellir olrhain cyffesgelloedd gyda sicrwydd yn mhellach yn ol na chynghorfäau Consenza, yn 1579, a Malfi, yn 1591, pan y perderfynwyd fod i bob eglwys gynnwys cyffesgell ar gyfer pob cyffeswr a berthynai iddi, ond fod iddynt gael eu trefnu yn y fath fodd fel ag y byddai yn hawdd eu gweled hwy, a chlywed yr ymgyffesydd; ond nid oedd y diweddaf i fod yn ngolwg y cyffeswr [gwel CYFFESGELL]. Yn fuan wedi hyny, ceir cyffesgelloedd yn yr Almaen a'r Iseldiroedd, &c. Derbyniai yr ymgyffeswr gyffes-docyn, yn sicrhau ddarfod iddo gyflawnu y ddyledswydd; ac ysgrifenid enw pawb a gyffesai mewn coflyfr priodol a phwrpasol i hyny. Yn ol defodau ac arferion henafol iawn, pa rai na buont yn hir cyn cael eu corffori o fewn y canonau eglwysig, ystyrid y cyffeswr yn rhwym o beidio hysbysu unrhyw beth a ddadguddid iddo yn ei gymmeriad swyddol.—(*Herzog's Real. Encyc.*)

CYFFES AUGSBURG. Y mae i'r gyffes hon, yr amddiffyniad a gyfansoddwyd iddi, yn nghyd â'r llwyrwys (*diet*) yn Augsburg y darllenwyd hi yn gyhoeddus ynddi ger bron yr ymherawdwr, Siarl v.—oll le pwysig yn hanes y Diwygiad a'r Diwygwyr yn Germany, yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Augsburg sydd ddinas henafol yn Bavaria, ger llaw cydlifiad y Lech a'r Wertach. Wedi i dywysogion a phendefigion efengylaidd Germany, yn mis Ebrill, 1529, gyda'u gilydd "wrthdystio" (*protest*), a "gwneuthur *appeliad*" yn erbyn penderfyniadau a gosodiadau Llwyrwys Spires [gwel SPIRES, LLWYRWYS], cawsant eu hunain wedi eu cyfyngu i ddewis un o ddau ddull o weithredu. Un oedd, cynghreirio â Diwygwyr Switzerland, ac felly cydgorffori mewn gwrthwynebiad cadarn i'r ymherawdwr a'r tywysogion a'r preladiaid Pabaidd. Y llwybr arall oedd, ymuno â'r blaid ddiwygiadol gatholig yn Germany, i sefydlu Eglwys Germanaidd Genedlaethol—ail-ddadgan y cais a'r deisyfiad am gynghorfa eglwysig genedlaethol; ac, mewn trefn i gyrhaedd hyn, ymosod yn gyhoeddus ar y gwaith trwy ffurfio cyffes gynnwysfawr o'r ffydd efengylaidd, fel y byddai hono yn sail eu cydymdeithas a'u hundeb â phawb oll a ddeuent yn fwy neu yn llai agos at egwyddorion sylfaenol Luther. Nis gellid mabwysiadu y dull cyntaf; a hyny, mewn rhan, o herwydd dyryswch ac anhrefn materion gwladwriaethol; ac mewn rhan, o blegid fod y rhwyg rhwng y ddwyblaid wedi myned yn waeth ar ol yr ymdrechiadau aflwyddiannus tuag at undeb a wnaed yn Marburg a Swabach, yn mis Hydref, 1529. Gan hyny, ar y diweddaf y gosodent eu gobaith. Yr oedd hwn yn gysson â golygiadau y blaid efengylaidd, er darfod i Luther o'r dechreu sicrhau (a phrofodd amser gywirdeb ei ragfynegiad) y byddai i'r gyffes a gynnygid yn y diwedd ddyfod i feddu safle cyffes ffydd annibynol. Ond heb law yr ymraniad annedwydd rhwng y Lutheriaid a'r Zwingliaid, yr oedd y blaid efengylaidd y pryd hyny mewn sefyllfa dra anghysurus. Nid oedd Siarl v. ond newydd gwblhau ammodau heddwch â Ffrainc, a ffurflo cynghrair â Clement VII. o Rufain, gyda'r amcan o roddi attalfa ar a llethu y Diwygiad yn Germany. O herwydd hyn, pan yr ymwelodd dirprwywyr âg ef yn Placenza, yn Medi a Hydref, 1529, er cyflwyno i'w sylw y Gwrthdystiad a'r Appeliad, ni chawsant ond derbyniad oeraidd ac anghroesawgar. Wrth weled y ffyddlondeb hwn i'r pab o du yr ymherawdwr, a chlywed y son oedd ar led mewn perthynas i'w gynlluniau gyda golwg ar Germany, yn nghyd â'r adroddiad am y driniaeth a dderbyniasai y cenadon anfonedig at ei fawrhydi yn Placenza, teimlai y tywysogion efengylaidd eu hunain dan orfod i gydymgynghori ar ryw ddull o hunan amddiffyniad, er nad oeddynt eto wedi myned yn ffurfiol i gynghrair. Pa fodd bynag, darfu i Luther, a rhai duwinyddion ereill, gyfansoddi a chytuno ar bymtheg o erthyglau yn Marburg, Hydref 3ydd, 1529. Cawsant cu cyflwyno i'r etholwr Saxonaidd, John, yn Torgau,

Digitized by Google

yn cael eu rhagflaenu gan ddwy erthygl ar bymtheg a barotoisid ar gyfer y gynnadledd yn Swabach; ac am hyny, fe'u gelwid yn Erthyglau Swabach a Torgau. Gwrthododd y cenadon o Ulm a Strasburg gydsynio â'r sylfaen yma i undeb ffydd, o herwydd fod y ddegfed erthygl, mewn ymadroddion cryfion, yn gosod allan yr athrawiaeth Lutheraidd am Swper yr Arglwydd. Eu rheswm dros eu hanghytundeb hwn ydoedd, fod penderfyniad wedi ei wneyd yn Marburg i oedi ystyried yr athrawiaeth uchod hyd ryw adeg ddyfodol. Yn y cyfamser, ar ddydd cofwyl ei enedigaeth, Chwefror 24, 1530, coronwyd Siarl v. yn ymherawdwr ac yn frenin Lombardy, gan y pab, yn Bologna. Fel amlygiad o'u cyfeillgarwch y naill tu ag at y llall, bu y ddau yn anneddu o fewn yr un palas, o Chwefror, 1529, hyd Mawrth y flwyddyn ganlynol. Y dydd cyntaf o Ionawr, 1530, gwysiodd yr ymherawdwr dywysogion ac uchelwyr Germany i ymgynnull mewn cynnadledd yn Augsburg, yr 8fed o Ebrill. Wedi ei gwisgo mewn geiriau teg a heddychol, ni chrybwyllai y wŷs hon am reitharch (*edict*) Worms, na chwaith am yr anghydfod yn Spire, ond galwai am gynnorthwy yn erbyn y Tyrciaid, y rhai oeddynt wedi dyfod mor beryglus fel ag i fygwth hyd yn oed ymosod ar Vienna. Addawai hefyd y gwneid ymchwiliad i bob anhawsder a dyryswch crefyddol, fel y gellid eu trefnu a'u hunioni; ac nid yn unig ddiwygio pob camwri a hanfodai yn yr eglwys, ond hefyd ddiogelu hawliau ac awdurdod y pab. Yn y gydgyfeillach a fu rhwng y pab a'r ymherawdwr yn Bologna, gwnaethai y cyntaf ei orcu er cymhell y penadur i lwyr roddi heibio ei fwriad o alw yn nghyd gymmanfa eglwysig gyffredinol yn Germany. Cofiai "ei sancteiddrwydd," gyda chas perffaith, fel yr oedd ysbryd rhyddid wedi ymosod ar allu y Babaeth yn Costnitz a Basle. Cynnyddai yr awyddfryd am ddiwygiad trwyadl trwy holl Germany yn feunyddiol. Yr oedd hyd yn oed yn bygwth y Vatican, fel yr ofnai Clement VII., mab anghyfreithlawn Julian de Medici, os gwrthodai ganiatäu mwy o ryddid, ac ymhelaethu mewn goddefgarwch, y diorseddid ef megys bastardd.

Yn y cyfamser, derbyniasai etholwr Saxony y wŷs ymherodrol, yn ei alw i'r llwyrwys, Mawrth 11eg; a'r 14eg o'r mis hwnw, gwahoddodd Luther, Jonas, Bugenhagen, a Melancthon, i Torgau, fel y cyfansoddent y cyfryw erthyglau ffydd ag y gallai y tywysogion a'r uchelwyr ymgymmeryd â'u hamddiffyn. Gyda'r eithrad o Jonas, yr hwn oedd ar y pryd ar daith ymweliadol, ymgynnullodd y duwinyddion hyn heb oedi yn Torgau, a chymmerasant ddwy erthygl ar bymtheg Swabach, a phymtheg erthygl Torgau, yn sail eu llafurwaith yn y gorchwyl oedd ganddynt i'w gwblhau. Gelwir y cyntaf:— "Cyffes Martin Luther, i'w osod ger bron y llwyrwys, sydd yn awr dan wŷs yn Augsburg, cynnwysedig mewn dwy ar bymtheg o erthyglau, 1530." Mewn atebiad i'r rhai hyn, ymddangosodd "Hyfforddiant byr a Christionogol, mewn gwrthwynebiad i Gyffes Martin Luther; a gasglwyd gan Conrad Wimpina, John Mensing, Wolfgang Redoerfer, a Dr. Rupert Elgersma, 1530." Wedi hyn, anfonodd Martin Luther allan ei "Atebiad i Alarnadau rhai Pabyddion uwch ben y ddwy erthygl ar bymtheg," Wittemberg, 1530. Yn y modd yma, daeth pwnc y ddadleuaeth yn gyffredinol hysbys. Gwahoddwyd Luther, Melancthon, Jonas, a Spalatin, gan etholwr Saxony, i ddyfod gydag ef i Augsburg. Y 3ydd o Ebrill, cychwynodd yr etholwr ei hunan o Torgau. Yn mhlith ei osgordd yr oedd John Frederick, y tywysog etholyddol; Francis, duc Luneberg; Wolfgang, tywysog Anhalt; ac Albert, iarll Mannsfeld, a deg a thrigain o bendefigion ereill; y rhai, yn nghyd â'u nawddlu (*escort*), oeddynt yn gant a thrigain mewn rhifedi. Yn cael ei hebrwng yn y modd yma, ymdeithiodd yr etholwr trwy Grimma, Altenberg, Eisenberg, Weimar, a Saalfeld; ac Ebrill 16eg, ar nos gŵyl y Pasc, cyrhaeddodd i Coburg. Yma, penderfynodd y gadawai Luther yn nghastell Ehrenberg. O herwydd amryw resymau, tybid fod hyn yn angenrheidiol. Yr oedd Luther eto dan felldith y Babaeth, ac esgymundod yr ymherawdwr. Yr oedd ei enw, nwch law pawb arall, yn ennyn casineb y blaid wrthwynebol, a byddai ei fywyd mewn mwy o enbydrwydd nag y buasai gynt yn Worms: byddai ei dymmer frysiog, danbaid, mewn dadleuaeth, yn beryglus i'r eithaf; ac heb law hyny, os ceid fod ei gynghor yn angenrheidiol, byddai Ehrenberg ger llaw, fel y gellid yn hawdd anfon am dano. Yr ail dydd o Fai, cyrhaeddodd yr etholwr a'i ganlynwyr i Augsburg. Yn mhen deng niwrnod, daeth Philip o Hesse yno gyda gosgordd o chwech ugain o wyr meirch. Gorchymynodd y ddau dywysog, heb oedi, fod i'r duwinyddion bregethu yn y gwahanol eglwysydd—gweithred, tra yn foddhaol gan y rhai a ogwyddent at Brotestaniaeth, a gynhyrfai ddigofaint y blaid Babaidd. Yn awr, yr ydoedd yr ymherawdwr yn prysur nesäu at gyffiniau Germany, yn cael ei amgylchynu gan negeswyr a chenadon y pab; y rhai, trwy gwynion adnewyddol, a ymdrechent chwerwi ei ragfarnau tuag at y Protestaniaid. Cynnorthwyid hwy yn hyn gan dri o elynion ffyrnicaf y Diwygiad, Joachim, etholwr Brandenburg; George, duc Saxony; a William, duc Bavaria; y rhai a ddaethant i gyfarfod yr ymherawdwr yn Innspruck. Mor gynnar a mis Ebrill, darfu i etholwr Saxony anfon Dolzig, blaenor y llys, at yr ymherawdwr, i geisio ganddo yr hawlestyn (*investiture*) etholyddol, yr oedd wedi ei oedi er ys cymmaint o amser. Wedi dilyn yr ymherawdwr am dymmor maith trwy Italy a Germany, daeth Dolzig o'r diwedd i'w gyfarfod yn Innspruck; ac o ran ymddangosiad, derbyniodd atebiad tra chyweithas a chyfeillgar. Nid hir, pa fodd bynag, yr arosodd Siarl heb ddadgan ei wir syniadau. Anfonwyd dau o'i weinidogion mwyaf dylanwadol at John o Saxony, gyda llythyrau yn cynnwys cyhuddiadau pwysig yn ei erbyn; a gorchymynid iddo ef ei hun, neu ei fab, ddyfod a chyfarfod Siarl yn Munich, fel y penderfynid pob materion trwy gydymddyddian digel ac uniongyrchol. Yr 31ain o Fai, daeth oddi tan law yr etholwr ysgrif mewn amddiffyniad iddo ei hun yn ngwyneb y cyhuddiadau hyn; ac yn yr hon hefyd y dadganai ei ddymuniad mwyaf didwyll am lwyddiant holl wledydd Cred, yn nghyd â'r ymherawdwr a'r tywysogion. Yn y cyfamser, tra yn canlyn yr ymherawdwr i Augsburg, parotodd Melancthon Gyffes Ffydd, dan yr enw *Amddiffyniad* (*Apology*). Pan gyda'r gorchwyl, rhoddodd y sylw dyfalaf, a'r gofal mwyaf i bob gair a brawddeg; ac nid anfynych y gofynai gynghor gan ereill. Yr 11eg o Fai, trosglwyddodd ef i Luther, yn Coburg; ac ar y 15fed, dychwelodd yntau atebiad ffafriol iddo. Ond fe ddarfu iddo ei adolygu eilwaith, gan fynych ymgynghori â Justus Jonas, y canghellydd Saxonaidd, Gregory Brüch, ac ereill; a phender-

Digitized by Google

fynwyd ar y priodoldeb o wneuthur amryw gyfnewidiadau ynddo. Hefyd, dylanwadid nid ychydig arno gan gydymddyddan personol âg esgob cymmodol Augsburg, Christopher Stadion, a'r ysgrifenydd ymherodrol, Alphonso Valdes. Ymddiriedwyd dwy ar bymtheg o erthyglau Melancthon i'r diweddaf, ar ei ddymuniad ef ei hun, trwy ganiatâd yr etholwr. Yn yr erthyglau hyn, gosodid allan athrawiaethau y Protestaniaid yn y ffurf o osodiadau a gwrthosodiadau (*theses and anti-theses*); ac amcan Alphonso Valdes yn eu ceisio oedd, fel y gallai ymgynghori mewn perthynas iddynt â'r negesydd (*legate*) Pabaidd, Campeggio Vincent Pimpinelli. O'r diwedd, prydnawn y 15fed o Fehefin, daeth yr ymherawdwr i Augsburg mewn rhwysg goruchel, gan gymmeryd ei letty yn y palas esgobol. Ymddengys ddarfod i'r Pabyddion a ffurfient osgordd yr ymherawdwr oedi ei ddyfodiad hyd yr amser hwnw, fel y gellid gorfodi y blaid efengylaidd i gymmeryd rhan bersonol bore dranoeth, Mehefin 16eg, yn ngorymdaith arbenig a sanctaidd gwyl Corpus Christi. [Gwel CORPUS CHRISTI.] Fel yr arferid gwneyd bob amser gynt, rhoddodd yr ymherawdwr yn ddioed orchymyn i hyny y waith hon hefyd. Pa fodd bynag, gwrthodwyd ufuddhau i'w archiad yn y modd mwyaf penderfynol; a hynododd George, ardalydd Brandenburg, ei hun yn y modd mwyaf nodedig, trwy ei wrthwynebiad gwrolfrydig, ac ennillodd John, etholwr Saxony, iddo ei hun yr enw *Diysgog*. Y gorchymyn nesaf oedd, fod i'r duwinyddion Protestanaidd—y rhai oeddynt mewn ffafr mawr gyda'r holl bobl—lwyrymattal oddi wrth bregethu; ond er y cydsyniwyd â'r gorchymyn caethiwus, gwnaed felly ar yr ammod o fod y cyffelyb attalfa yn cael ei roddi ar yr offeiriaid Pabaidd hefyd. Mehefin 20fed, agorwyd y llwyrwys yn ffurflol yn y neuadd etholyddol, oddi mewn i'r palas esgobol, trwy wasanaeth yr offeren; yn ystod pa un ni phenliniodd yr uchelwyr efengylaidd. Traddodwyd pregeth gwbl wrthwynebus i'r Diwygiad gan y negesydd Pabaidd, C. Vincent Pimpinelli. Er mor anghymmeradwy ydoedd y bregeth hon i luaws o'r tywysogion Pabaidd, ac er mor dramgwyddus i'r uchelwyr Protestanaidd, eto, haeddai sylw ei bod yn gynnwysedig, gan mwyaf, o bethau yn perthyn i'r dadleuon crefyddol, er y crybwyllid enw y rhyfel Dyrcaidd rai troion. Wedi yr offeren i'r Ysbryd Glân, aeth yr ymherawdwr a'r gynnulleidfa i neuadd y ddinas, lle yr oeddid i gynnal y llwyrwys. Yno, mewn araeth faith, cyflwynodd Frederick, yr iarll Palatinaidd, y cynnygiad ymherodrol i sylw, yr hwn oedd yn galw ar yr uchelwyr i roddi o'u cymhorth yn erbyn ymosodiadau y Tyrciaid. Mewn ymadroddion garw ac awdurdodol, adnewyddai y cwynion mewn perthynas i'r ymraniadau crefyddol; ac yn ddiweddaf, gorchymynai fod i'r tywysogion Protestanaidd adrodd eu cyffes ffydd, fel y gellid adferu ymherodraeth Germany drachefn i'w hundeb cyntefig. Yn nghanol y cyfryw fygythion a hyn, yn nghyd â'r dychryn a gynnyrchai ymadroddion ac agweddau yr ymherawdwr a'r Pabyddion, safai etholwr Saxony yn mlaenaf yn y gorchwyl o gymhell ei gydgrefyddwyr i fod yn sicr a diysgog yn eu hamddiffyniad i'r ffydd. Arall, a'i elwir y duwinyddion Protestanaidd, yfansoddwyd gan Melancthon, Justus Jonas, Jeran dinasoedd Strasburg, Erhard Schnepf, gen, a Lindau, am nad allir *Amddiffyniad*, neu y iaethau Luther a Melan arno gan Luther yn Swper yr Arglwydd. O bod yr ymherawdwr wedi dymuno i'r pynciau crefyddol gael eu trafod yn gyntaf yn y llwyrwys, ac yna y rhai gwladwriaethol, a'i fod hefyd wedi gorchymyn i'r etholwr a'i gyfeillion ddwyn i mewn eu Herthyglau Ffydd ar y 24ain o Fehefin, galwodd y diweddaf ar bob tywysog ac uchelwr Protestanaidd ag oedd yn bresennol, i ddyfod, y 23ain o'r mis, a dodi eu henwau wrth gopïau o'r Cyffes yn yr ieithoedd Germanaidd a Lladinaidd. Llawnodwyd y rhai hyn gan John, etholwr Saxony; George, ardalydd Brandenburgh; Ernest, duc Luneberg; Philip, tudiarll (*landgrave*) Hesse; John Frederick, tywysog Saxony; Francis, tywysog Luneberg; Wolfgang, tywysog Anhalt; a'r dirprwywyr o Nuremberg a Reutlingen. Y dydd canlynol, Mehefin 24ain, agorwyd y llwyrwys trwy araeth oddi wrth y negesydd Pabaidd, Cardinal Campeggio; a'r waith hon hefyd edrychid ar y dadleuon crefyddol oddi ar safle ffafriol i'r Babaeth, ac adnewyddwyd yr alwad am gymhorth yn erbyn y Tyrciaid. Wedi i'r cardinal fyned o'r neilldu, yr oedd y tywysogion Protestanaidd yn awyddus am gyflwyno eu Cyffes, fel y gorchymynasid iddynt; ond gommeddodd yr ymherawdwr ganiatau hyny, fel y gellid yn gyntaf wrandaw cenadwri y negeswyr o Awstria, Carinthia a Carniola, mewn perthynas i'r rhyfel Dyrcaidd. Wedi treulio llawer o amser gyda hyny, cyfododd y tywysogion Protestanaidd i fyny, a chan gymmeryd eu safle gyferbyn a'r orsedd ymherodrol, trwy gyfrwng y Canghellydd Brück, deisyfasant ganiatâd i ddarllen eu cyffes—nid heb obaith y byddai i'r tywysogion a'r uchelwyr o'r ochr wrthwynebus hefyd osod ger bron bynciau eu ffydd hwythau. Cawsant eu gwrthod y tro hwn drachefn. Ymddengys y gwneid pob ymdrech i feddiannu y traethawd mewn llawysgrifen, ac i attal *darlleniad cyhoeddus* o'r Gyffes Efengylaidd, trwy dreulio holl oriau y dydd i wrandaw ar y cenadon o Awstria. Heb law hyny, hònai y tywysogion a'r pendefigion Pabaidd nad oedd angenrheidrwydd am iddynt hwy wneuthur Cyffes, o blegid eu bod wedi ufuddhau i Reitharch Worms, ac aros yn ffyddlawn i grefydd eu tadau. Pa fodd bynag, y gwir reswm ydoedd, eu bod yn ofni, os gwrandewid y ddwy ochr, ac y dadleuid eu gwahanol syniadau, y rhoddent, trwy hyny, fantais bwysig i'r blaid efengylaidd. Gwell oedd ganddynt geisio eu gosod mewn sefyllfa yr ymddangosent ynddi *megys personau cyhuddedig* ar brawf, a hwythau, eu gelynion, yn farnwyr arnynt. O'r diwedd, daeth y dydd mawr, dydd Sadwrn, Mehefin 25ain; ac am dri o'r gloch yn y prydnawn, ymgynnullodd y tywysogion Protestanaidd yn nghapel y palas neuaddol. Yr oedd hyn trwy orchymyn yr ymherawdwr; gan yr ofnid, os aent i neuadd y ddinas, y byddai personau awyddus am fod yn bresennol yn llawer rhy luosog. Nis gallai y capel gynnwys ond oddeutu dau cant; ac o herwydd hyny, gwaherddid i bawb ond y tywysogion roddi eu presennoldeb yno. Ond amgylchynid yr adeilad a llenwid y cynteddau gan dorf ddirfawr o bobl. Aeth dau ganghellydd yr etholwr, George Brück a'r Dr. Christian Bayer, yn mlaen hyd ganol y capel—y cyntaf yn dwyn y copi Lladinaidd, a'r diweddaf y copi Germanaidd o'r Gyffes yn eu dwylaw. Yr un pryd, codai y tywysogion Protestanaidd ar eu traed; ond archodd yr ymherawdwr iddynt eistedd i lawr drachefn. Dymunai efe ar i'r copi Lladinaidd gael ei ddarllen yn gyntaf; ond atebai yr etholwr mai preswylwyr Germany oeddynt hwy, ac mai ar

Digitized by Google

ddaiar y wlad hono y safent; ac felly, caniataodd yr ymherawdwr ei ddarlleniad yn iaith Germany. Yna, gan ddechreu am bedwar, a dybenu am chwech o'r gloch, darllenodd Dr. Bayer y Gyffes Efengylaidd, yn arafaidd ac eglur, a chyda llais mor groew a soniarus, fel y gellid ei ddeall nid yn unig trwy bob congl o'r capel, ond yn y cynteddau, ac, yn wir, trwy yr holl balas. Cynnyrchodd y darlleniad hwn yr effeithiau rhyfeddaf ar bawb—ïe, tu hwnt i bob dysgwyliad. Mewn iaith eglur a grymus, cyhoeddai a dadganai y gyffes athrawiaethau efengylaidd yr Ysgrythyrau Sanctaidd; dadlenai gyfeiliornadau a llygredigaethau yr Eglwys Babaidd ar y pryd; profai nad oedd y Protestaniaid yn ymestyn at ddim ond dirnadaeth gywir am athrawiaethau dilwgr yr eglwys apostolaidd, yn ol meddwl ac ysbryd tadau hynaf yr eglwys; ac am hyny, eu bod hwy yn wir aelodau o'r eglwys gatholig—nad oeddynt wedi ymwahanu ond yn unig oddi wrth syniadau a daliadau anysgrythyrol, traha llywodraethwyr eglwysig, a chyfeiliornadau ofergoelus a ddysgwyd gan ddynion. Trwy bob ymadrodd o honi, anadlid yr ysbryd mwyaf tangnefeddus, gydag awydd am undeb a heddwch dan nawdd a thrwy gynnorthwy yr ymherawdwr. Traddodwyd hi mewn dull difrifol, yn enw y tywysogion a'r uchelwyr, ac nid yn enw y duwinyddion a'r clerigwyr yn unig; ac yn y modd yma, yr oedd yn gorchymyn parch a gadarnhäai y Protestaniaid yn eu ffyddlondeb, ac a arweiniai luaws o'r gwrthwynebwyr i synio yn fwy cywir am y cwestiynau mewn dadl, a natur y Diwygiad yn gyffredinol. Canys, yn gyntaf oll, mewn ufudd-dod i'r dymuniad ymherodrol, darfu iddynt ddadgan eu bod yn gwbl a hollol ewyllysgar i osod ger bron, "yn yr ieithoedd Germanaidd a Lladinaidd, eu cyffes ffydd, fel y cymmerwyd hi o'r Ysgrythyrau Sanctaidd a phur air Duw" (*ex Scripturis sanctis et puro verbo Dei*), modd y gallent ymgynghori ar y moddion mwyaf priodol er adfer yr unig wir a bywiol ffydd. Ond os na chyrhaeddid y peth hwn, ag yr oedd dymuniad mor gyffredinol am dano, yn y llwyrwys presennol, yr oeddynt yn adnewyddu y cais a wnaed mewn lluaws o gynnadleddau cyffelyb o'r blaen, am gynghorfa Gristionogol rydd a chyffredinol (*generale liberum et Christianum concilium*); yr hyn beth a addawsid dro ar ol tro gan yr ymherawdwr a'r pab hefyd. Yn nesaf, yr oedd yn canlyn, mewn un ar ugain o erthyglau, esboniad neu amlygiadau ffydd, fel yr oedd yn cael ei dal yn gyffredin gan Gristionogion Protestanaidd efengylaidd: ond nid oedd y rhai hyn, fel y dygwyddodd drachefn yn y ffurf o gytundeb (*form of concord*), wedi eu gwisgo mewn arddull anystwyth a chaeth, na'u cyflëu yn mrawddegau celfyddydol yr ysgolion. Treiddiai yr athrawiaeth sylfaenol yr oedd y Diwygiad yn ddyledus am ei hanfod a'i fywyd iddi yn ei dylanwad trwy yr holl erthyglau—mai anmhosibl i ddyn yw derbyn maddeuant pechodau, na chael iachawdwriaeth i'w enaid yn ei nerth ei hun, trwy deilyngdod ei weithredoedd ei hunan, nac mewn un llwybr arall; ond yn unig a hollol o ras Duw, er mwyn Crist, trwy ffydd. Yn fwy dwys, eglur, a phenderfynol, pa fodd bynag, y darfu iddynt, mewn saith o erthyglau, ddadgan eu gwrthwynebiadau i'r "llygredigaethau" a'r "camdrefniadau" a hanfodent yn yr eglwys—"fel y gwypai ei fawrhydi ymherodrol nad oeddynt hwy, yn yr achos hwn, wedi gweithredu mewn modd anghristionogol na niweidiol; ond fod gair Duw, y cydnabyddid ei fod yn teilyngu mwy o barch na dim arferion na defodau, yn gofyn am gyfnewidiad yn y pethau hyn; ac felly, mai dyledswydd oedd eu cyfnewid." Gan hyny, hwy a ymwrthodent â'r fath bethau a rhoddi y cymun mewn un elfen yn unig, aberth yr offeren, cyffes ddirgel, y traddodiadau, addunedau mynachaidd, ac awdurdod lywodraethol yr eglwys. Er i'r dadganiadau hyn danio o'r newydd ddygasedd a gelyniaeth calon yr uchel Babyddion, eto, yr adran nacaol yma o'r gyffes a fu y mwyaf ffrwythlawn yn y canlyniadau; o herwydd, fel hyn, gosodid allan mewn goleu eglur wir nodwedd y Diwygiad, ac ennillodd iddo luaws mawr o gyfeillion a dysgyblion. O herwydd yn awr, yr oedd yn amlwg i bawb nad ewyllysiai y Diwygwyr ddim ond myned yn ol hyd at addysgiadau cyntaf a gwreiddiol Crist a'i apostolion; a chan gael eu harwain ganddynt hwy, dori ymaith bob chwanegiadau dynol at athrawiaethau, a symmud i ffordd bob träawdurdod oedd wedi ymlusgo i'r eglwys. Heb law hyny, trwy y deonghiad eglur a phoblogaidd hwn, gwrthbrofid a gwneid yn ddirym y lluaws o chwedlau enllibus yr oedd cenfigen a malais Pabaidd wedi eu taenu yn Germany, ac allan o honi. Pa fodd bynag, unig effaith hyn hefyd a fu chwanegu dygasedd a gelyniaeth chwerw rhai tywysogion a phreladiaid Pabaidd.

Pan orphenwyd darllen y gyffes, gafaelodd yr ymherawdwr ei hun â'i ddwy law yn y copïau o'r ddwy iaith. Estynodd y Germanaidd i Albert, etholwr Mayence; a chymmerodd y Lladin gydag ef i Brussels. [Y mae pob un o'r ddau gopi, hyd yma, heb erioed ddyfod i'r amlwg.] Yn mhellach, hysbysodd y byddai iddo ystyried y pwnc pwysig hwn, ac wedi hyny gyflwyno iddynt ei benderfyniad arno. Yn y cyfamser, archodd nad argreffid y gyffes heb ganiatâd o'r orsedd ymherodrol. Er i'r tywysogion efengylaidd gydsynio â'r gorchymyn hwn, eto, yn gymmaint ag i gopi anmherffaith yn fuan ymddangos yn argraffedig, cyn terfynu y llwyrwys, cawsant eu hunain dan orfod i barotoi i'r wasg yn Wittenburg gopïau cywir yn y ddwy iaith, y rhai hefyd a ddilynwyd âg amrywiol argraffiadau drachefn o fewn yr un flwyddyn. Yn yr ymgynghori a fu ar y mesurau a ddefnyddid gyda golwg ar y gyffes hon, cymhellid i sylw dri o wahanol gynnygion:—Rhoddi rheitharch Worms mewn grym, a gorfodi y Protestaniaid i ymostwng trwy nerth arfau;—cyflwyno y gyffes i feirniaid anmhleidgar, ac ymddiried eu dedfryd benderfynol hwy i'r ymherawdwr; neu appwyntio dirprwyaeth i gyfansoddi gwrthbrawf, ac wedi darllen hwnw, gadael y ddedfryd benderfynol i'w phenderfynu gan gynghorfa gyffredinol. Cymmeradwywyd y cynllun diweddaf; yr hyn, fel y mae yn naturiol meddwl, a barodd bryder mawr i etholwr Saxony, a'i gyfeillion crefyddol o'r un syniadau ag ef; gan fod yr ymherawdwr yn parhau yn ei awydd am fynu penderfynu dadleuon crefyddol ei hunan, ac yn parhau hefyd i gymhell ufuddod i benderfyniadau llwyrwys Spires oddi wrth y blaid efengylaidd. Heb law hyny, yr ydoedd wedi rhoddi i'r etholwr y cwestiwn cyfrwys—pa un a gytunai efe a'i blaid i gael eu barnu wrth y gyffes, fel y safai ar y pryd, neu vnte, a ddymunent chwanegu mwy [illegible] Yr lleg [illegible]ac yn sarig parhäai i wrthod [illegible]er, yn Coburg; ac a'i etholwr, am y rheswm [illegible]u atebiad ffafriol iddo, [illegible]nghrair crefyddol, ac, [illegible]olygu eilwaith, gan fynwedi dadgan ei anewyus Jonas, y canghellydd un gorchymyn dynol [illegible]ûch, ac ereill; a phender-

Digitized by Google

fynent â chydwybod. Ceisiai yr ymherawdwr hefyd i ysgaru dirprwywyr y gwahanol ddinasoedd oddi wrth y Protestaniaid, a thrwy hyny wanychu yr achos o'u tu hwy; ond, mewn atebiad ysgrifenedig ar y 7fed o Orphenaf, gommeddodd y diweddaf yn benderfynol wneuthur hyny. Ar yr un pryd, lledaenwyd llusws o gyhoeddiadau dadleuol a llawn difriaeth yn Augsburg a'r amgylchoedd; ond ni bu iddynt un effaith mewn modd yn y byd. Ar y 27ain o Fehefin, ger bron yr holl lwyrwys, derbyniwyd y gyffes gan y duwinyddion Pabaidd er ei wrthbrofi. Y rhai mwyaf nodedig yn eu mysg oedd John Eck, John Faber, Conrad Wimpina, John Cochleus, a John Dietenberger. Llafuriodd yr holl bersonau hyn yn egniol gyda pharotoad y "Gwrthbrawf," fel ei gelwid. Ond cyn eu bod wedi cwblhau y gwaith, ar ddymuniad Cardinal Campeggio, anfonodd Erasmus i mewn ei farn ef, yn eu hannog i fod yn gall a phwyllog, a phenderfynu yn ffafr y Protestaniaid gyda golwg ar weddwdod yr offeiriadaeth, addunedau mynachaidd, a'r sacrament yn y ddwy elfen. Y 12fed o Orphenaf, cyflwynodd y duwinyddion Pabaidd eu hatebiad er gwrthbrofi y gyffes i ddwylaw yr ymherawdwr, yr hwn ydoedd ysgrif amleiriog, annhrefnus, danbaid, a thrahaus. Ymaflodd yr ymherawdwr ynddi mewn digllonedd, "gan ei rholio, ei baeddu, a'i niweidio yn y fath fodd, fel nad oedd ond deuddeg dalen yn aros yn gyfa allan o gant a phedwar ugain." Trwy orchymyn yr ymherawdwr, cyfansoddwyd Gwrthbrawf o'r newydd yn yr iaith Germanaidd ac yn y Lladin hefyd. Awst 3ydd, darllenwyd hwn ger bron y llwyrwys gan yr ysgrifenydd ymherodrol; ond gwrthodid yn bendant gydsynio â chais y blaid efengylaidd am gael yr ysgrif i'w dwylaw ei hun. Yn 1573 y cyhoeddwyd y Gwrthbrawf hwn gyntaf, gan Fabricus, yn Lladin. Dywedir i'r argraffiad Germanaidd cyntaf ymddangos mor gynnar a'r flwyddyn 1572. Sicrheid fod yn gywilydd gan y duwinyddion a'r uchelwyr Pabaidd eu hunain wneyd y fath ateb gwael yn adnabyddus trwy y wasg. Yn y fan, wedi gorphen y darlleniad o hono, galwai yr ymherawdwr ar yr uchelwyr efengylaidd i gymmeryd eu harwain a'u llywodraethu ganddo, ac ymostwng i'r blaid wrthwynebol o Rufain; yn erbyn yr hyn, wrth reswm, y gwrthdystiasant. Cymmerodd dygwyddiad annysgwyliadwy le, a barodd ddwyn i mewn fesurau mwy cymmedrol. Wedi diflasu gan feithder ac arafwch y gweithrediadau, yn ddigofus o herwydd eirchion traws ac awdurdodol yr ymherawdwr, ac yn bryderus am ei ddiogelwch personol ei hunan, ar y 6ed o Awst, heb yn wybod i gyfaill na gelyn, aeth Philip o Hesse ymaith o Augsburg. Yn awr, gwneid ymdrechiadau o bob tu i gymmodi y ddwyblaid, ond yn ofer; er cymmaint y buasai Melancthon yn foddlawn ei roddi i fyny i'w wrthwynebwyr; ac am yr hyn y tynodd arno ei hun wg llawer-oedd. Ymgymmerodd Philip o Hesse hefyd yn ymroddgar a'r gwaith o geisio cymmodi y Lutheriaid a'r Zwingliaid, ond yr un mor aflwyddiannus. Anfonodd Zwingle ysgrif i'r ymherawdwr yn ei enw ei hun, dyddiedig Gorphenaf 4ydd. Yr 11eg o'r un mis, cyflwynwyd i'w fawrhydi ysgrif arall, a elwir y *Tetrapolitana Confessio*, a gyfansoddwyd gan Bucer, Capito, a Hedio, ar ran dinasoedd Strasburg, Constance, Memmingen, a Lindau, am nad allent gydsynio âg athrawiaethau Luther a Melancthon wneuthyn a'i Swper yr Arglwydd. Ond ni chaniateid darllen un o'r ddwy gyffes, ac ni dderbyniodd y naill na'r llall atebiad ffafriol.

Pan ddarllenid Gwrthbrawf y duwinyddion Pabaidd yn y llwyrwys, ysgrifenwyd rhan fawr o hono gan y duwinyddion efengylaidd; ac wedi hyny, wrth orchymyn yr uchelwyr, cyfansoddodd Melancthon amddiffyniad i'r gyffes [*Apologia Confessionis*]; y bras gynllun cyntaf o'r hwn a roddwyd yn llaw yr ymherawdwr yr 22ain o Fedi, gan y canghellydd Bruck. Gwrthodwyd ef. Wedi hyny, ar dderbyniad copi o'r Gwrthbrawf, ymosododd Melancthon ar y gorchwyl o ddiwygio a helaethu ei *Amddiffyniad*. Cyhoeddwyd ef ar unwaith yn yr iaith Lladin, ac ymddangosodd cyfieithiad Germanaidd gan Justus Jonas, yn Wittemberg, yn 1531. Gan arddangos dysgeidiaeth a medrusrwydd nid bychan, ac ar yr un pryd gyda phob annibyniaeth meddwl a barn, y mae Melancthon o'r newydd yn eglurhau athrawiaethau y gyffes, yn nghyd â'r rhai gwrthwynebol iddynt, gan ddangos y posiblrwydd o undeb rhwng y rhai awyddus am ddiwygiad yn Eglwys Rhufain a'r uchelwyr efengylaidd. O'r diwedd trosglwyddwyd dedfryd benderfynol yr ymherawdwr i'r tywysogion a'r uchelwyr efengylaidd yn mhalas etholyddol Augsburg, yr ail dydd ar ugain o Fedi. Yn hono, caniateid iddynt chwe mis o amser—hyd y 15fed o Ebrill; yn ystod yr hyn yr oeddynt i ddyfod i gyd-ddealltwriaeth â'r blaid Babaidd. Ar hyd y misoedd hyny, nid oedd iddynt gyhoeddi na phrynu un ysgrif fyddai yn amcanu at ddwyn i mewn newydd-bethau a defodau i blith y trefniadau crefyddol; yr oeddynt i aros yn llonydd, heb geisio denu deiliaid ereill at eu plaid hwy, nac aflonyddu ar neb o'u deiliaid eu hunain a fyddent yn ewyllysio dilyn yr hen grefydd; ac, yn ddiweddaf, mai rhaid oedd iddynt ymuno â'r ymherawdwr mewn ymdrechiadau i ddarostwng y Zwingliaid a'r Ail-fedyddwyr. Yn ofer yr anfonwyd gwrthdystiolaethau wedi hyny i'r ddedfryd hon, ac y ceisiwyd drachefn am ammodau o gytundeb, er y parhäai y blaid efengylaidd yn ddiysgog i alw am gynghorfa gyffredinol, o herwydd ymrwymodd yr ymherawdwr y gwysiai y pab un yn mhen chwe mis. Ar hyn, ymadawodd etholwr Saxony o Augsburg. Y 19eg o Dachwedd, darllenwyd gohiriad y llwyrwys. Hwn, mewn cydffurfiad â'r ddedfryd a'r farn gyntaf, a gyhoeddai athrawiaethau a defodau diwygiadol y sectau newyddion yn anghyfreithlawn, a bygythiai ymddwyn gyda llymder tuag at bob gwrthwynebwr wedi darfod tymmor y prawf; ond er hyn, mynegai fod gobaith am ddiwygiad yn Eglwys Rhufain trwy alw yn nghyd gynghorfa gyffredinol. Pa mor anffafriol bynag i'r blaid efengylaidd y gall fod penderfyniadau y llwyrwys hon, eto sicrhaodd iddynt ddwy fantais neilldduol. . Dygodd i oleuni lawer dymuniad am ddiwygiad, a llawer gogwydd ato yn mysg uchelwyr a chlerigwyr Eglwys Rhufain, er na ddarfu i'r rhai hyn ar unwaith eu harwain i ymneilldduo yn ffurfiol oddi wrth y Babaeth. Yr un pryd, gosodwyd mewn goleuni mwy eglur wrthwynebiad penderfynol a chynhenid y blaid efengylaidd i bob peth a arweiniai y bobl i edrych tua Rhufain am iachawdwriaeth. Hefyd, trwyddi hi y daeth y Diwygiad yn Germany, a'r gwledydd o amgylch, i feddiant o ddau esboniad o'i athrawiaethau a'i ysbryd [y *Gyffes* a'r *Amddiffyniad*], yn mha rai y gallai pawb o syniadau efengylaidd o hyn allan fod yn un, ac mewn amdiffyniad i ba rai y gallai pawb adfyddino. Mor fuan a'r unfed ganrif ar bym-

theg, cyfleithwyd Cyffes Augsburg i ieithoedd Ffrainc, Lloegr, Bohemia, yr Iseldiroedd, Italy, Poland, Sweden, a Sclavonia, a lledaenwyd hi yn helaeth yn mhlith cenedloedd gorllewinol Ewrop. Yn y flwyddyn 1540, dygodd Melancthon luaws o gyfnewidiadau i mewn i Gyffes Augsburg; megys, er anghraifft, y ddegfed erthygl (am Swper yr Arglwydd), fel y byddai yn fwy ffafriol i syniadau y Diwygwyr, ac er cymmedroli y golygiadau am ewyllys rydd a chyfiawnhâd. Rhybuddiai Luther ef i ymattal, gan ei fod yn cyffwrdd â pheth yr oedd a wnelo nid yn unig â'i ddaliadau ef ei hun yn bersonol, ond hefyd â chyffes gyhoeddus a gydnabyddid yn gyffredinol. Arweiniodd hyn i ddadleuaeth frwd; ac, o'r diwedd, syrthiodd Melancthon, oedd yn naturiol o dymmer hynaws ac addfwyn, ac yn awyddus am ddyfod i ammodau o gytundeb tangnefeddus â'r Diwygwyr, i'r beddrod, dan bwys diglionedd y duwinyddion.—(*Herzog's Real Encyc.*)

CYFFES BRANDENBURG, sydd enw ar ffurflyfr neu gyffes ffydd, a gyfansoddwyd yn ninas Brandenburg, trwy orchymyn yr etholwr, er mwyn ceisio cymmodi barnau Luther â'r eiddo Calvin, a gosod terfyn ar y dadleuon a achlysurwyd gan Gyffes Ffydd Augsburg. Gwel CYFFES AUGSBURG.

CYFFES DDIRGEL, [*Auricular Confession*]. Yn eglwysi Groeg a Rhufain, dadguddia yr aelod ei bechodau i'r offeiriad yn y gyffesgell, fel y derbynio ollyngdod oddi wrthynt: yr hyn a elwir dirgel gyffesiad. Ymhola y tad-gyffeswr yn nghylch amgylchiadau y camweddau a gyffesir; ac yn ol graddau y trosedd y bydd ei rybudd yntau i ochel rhagliaw, neu lymder y penyd a orchymyn efe. Ni oddefir i'r cyffeswr gelu un pechod o bwys y gŵyr ddarfod iddo ei gyflawnu; ac y mae y tad-gyffeswr yn rhwym o gadw yr hyn a hysbysir iddo yn ddirgelwch bythol. Yn ol athrawiaethau yr Eglwys Babaidd ac Eglwys Groeg, perthyna rhinwedd sacramentaidd i'r rhyddhâd neu y gollyngdod a ganiateir. Yn nghanrifoedd cyntaf Cristionogaeth, pan y dymunai un gaei ei dderbyn drachefn i gymundeb yr eglwys, wedi cael o hono ei ddiarddel ar gyfrif rhyw gamwedd gwarthus y bu yn euog o hono, rhaid fyddai i'r cyfryw yn gyhoeddus gyfaddef ei editeirwch, ac ymostwng i'r penyd a orchymynai yr henuriad. Y pab Leo I., a elwir Leo Fawr, yn y flwyddyn 450, a gyfnewidiodd y broffes neu y gyffes gyhoeddus, gan y neb a fuasai yn euog o bechodau gwaradwyddus, i gyffes ddirgel ger bron yr offeiriad. Ordeinir gan y bedwaredd o gynghorfäau Lateran, "Fod i bawb o'r flyddloniaid, o'r ddau ryw, pan y deuant i oedran a phwyll, gyfaddef yn ffyddlawn eu holl bechodau, unwaith yn y flwyddyn o leiaf, i'w bugail hwy eu hunain; ac hyd eithaf eu gallu, gyflawnu y penyd a osodir arnynt; gan barchus dderbyn y cymun bendigaid, ar y Pasc, o leiaf, os na bydd y bugail, o herwydd rhyw achos rhesymol, yn tybied mai buddiol fyddai iddynt am dymmor ymattal; os amgen, fe'u ceuir allan o'r eglwys tra yn fyw, ac wedi eu marw, ni dderbyniant gladdedigaeth Gristionogol."

Arferir cyffesu, hefyd, yn yr Eglwys Lutheraidd, gyda'r gwahaniaeth hwn: fod Eglwys Rhufain yn gofyn i'r edifeiriol gyfaddef ei drosseddau neilduol a phenodol, tra nad yw yr Eglwys Lutheraidd yn ceisio dim ond cydnabyddiaeth gyffredinol, gan ei gadael at ewyllys a dewisiad ei haelodau pa un a fydd iddynt ddadguddio eu hanwireddau neillduol i'r cyffeswr, ac esmwythäu eu cydwybodau trwy y cyfryw gyfaddefiad; o herwydd pa ham, y mae y clerigwyr Lutheraidd, yn gystal a'r offeiriaid Pabaidd, yn rhwym o gwbl ddirgelu yr hyn a ymddiriedir iddynt yn y gyffesgell. Gwel CYFFES.—(*Buck; Penny Cycl.*)

CYFFES FFYDD. Gwel FFYDD.

CYFFESGELL: eisteddle y cyffeswr neu yr offeiriad pan yn gwrandaw cyffesion, ac hefyd y lle y penlinia yr edifeiriol tra yn adrodd ei gyffes. Adeiledir y rhai hyn mewn eglwys neu gapel; gwneir hwy o gelfwaith coed, gyda mur, colofn, neu biler byrddiedig yn gefn iddynt, ac wedi eu gwahanu yn dair cloer neu gelloedd bychain. Y mae y ganol o'r rhai hyn wedi ei chau i fyny hyd yr hanner gan orddrws, gydag eisteddle o'i mewn, a dyma fan yr offeiriad. Yn y palis neu y pared, a wahana rhwng cell yr offeiriad a'r celloedd o bob tu iddo, y mae agoriad neu fwlch rhathellog, megys rhesel, er cyfleusdra y rhai a ddeuant i gyffesu; ond nid oes dôr iddynt.

Yn Eglwys St. Pedr, yn Rhufain, y mae lluaws mawr o'r cyffesgelloedd hyn, âg ysgrifen uwch ben pob un yn gosod allan yn mha ymadroddion y gall y rhai edifeiriol gyffesu o'u mewn; a dengys hyn fod y fasnach yma mewn eneidiau yn cael ei dwyn yn mlaen i raddau dychrynllyd iawn.—(*Buck.*)

CYFFION, [lluosog o *cyff:* Seis., *stocks*]: offeryn a ddefnyddid i gospi troseddwyr, trwy sicrhau eu coesau a'u breichiau wrtho neu ynddo. Ymddengys fod gan yr hynafiaid, o leiaf, ddwy ffurf o gospedigaeth yn dwyn yr enw *cyffion.* Weithiau, rhoddid pwysau trymiom o geryg neu goed wrth un troed, neu y ddau, fel ag i beri ei bod yn dra anhawdd a phoenus, er nad yn anmhosibl, cerdded oddi amgylch. Hyn a wneid yn fynych â chaethweision a fuont unwaith yn ffoaduriaid, ond a ddaliwyd, rhag ffoi o honynt eilwaith; a derbyniai carcharorion hefyd y driniaeth yma er eu hattal hwythau rhag dianc. Ond yr hyn yn briodol a feddylir wrth gyffion, ydyw, offeryn o ffurf bwrpasol tuag at sicrhau ynddo, weithiau goesau, a phryd arall goesau a breichiau, y beius a'r euog, fel na syflont o'r un lle. Ei ddefnydd cyffredin fydd coed, ac yn cael ei wneyd o ddwy wahanran. Wedi symmud ymaith y darn uchaf, gosodir yn rhigol y rhan isaf goes y troseddwr, ychydig uwch law y ffêr, ac yna sicrheir y darn uchaf drachefn ar yr isaf, nes caethiwo yr aelod yn y fath fodd ag y bydd yn anmhosibl ymryddhau. Pan y cyffir y dwylaw, gwneir hyny hefyd yn gymhwys ar yr un dull. Bydd y breichiau wedi eu hestyn i fyny tu hwnt i ranau uchaf y corff, ac yn cael eu sicrhau yn y cyffion wrth yr arddyrnau. Fel y darllenwn yn y Beiblau Seisonig, ac ar ymyl y ddalen yn yr Ysgrythyrau Cymreig, cael ei daraw a'i roddi yn y cyffion oedd yn y porth uchaf i Beniamin ydoedd cospedigaeth y prophwyd Ieremiah, a weinyddwyd arno gan Pasur, mab Immer, yr hwn oedd benllywodraethwr tŷ yr Arglwydd, am ddarfod iddo brophwydo y geiriau hyny—mai yn rhith tori llestri crochenydd y distrywid yr Iuddewon am eu pechodau: *Ier.* xx. 2. Rhan o ymddygiad creulawn ceidwad carchar Philippi tuag at Paul a Silas oedd gwneyd eu traed hwy yn sicr yn y cyffion—neu,

Digitized by Google

yn ol y Groeg, "yn sicr wrth goed"—yn yr hon sefyllfa y canasant fawl i Dduw, nes yn ddisymmwth y siglwyd seiliau y carchar: *Act.* xvi. 24—26. Pan y crybwylla Iob am y wyliadwriaeth a'r gadwraeth fawl a gadwai Duw ar ei holl ymddygiadau a'i ffyrdd ef, dywed:—"Y mae yn gosod fy nhraed yn y cyffion: y mae yn gwylied fy holl lwybrau;" *Iob* xxxiii. 11. A darluniad Solomon o'r dyn ieuanc heb ddeall ganddo, a' drowyd âg aml eiriau teg y fenyw ddichellgar ydyw, ei fod "yn ei chanlyn ar frys .....fel ynfyd yn myned i'r cyffion i'w gospi;" *Diar.* vii.—(*Barnes ar Iob; Eadie*, &c.)

CYFFREDIN, POB PETH YN. I'r efrydydd Beiblaidd, y mae y drychfeddwl a drosglwyddir trwy y frawddeg uchod yn hysbys a chynnefin. Y mae yn ymadrodd tra chymhwys fel darnodiad o syniadau rhyw ddosbarth o ddynion am yr hyn y dylai gwir a phriodol drefn cymdeithas fod, pe byddai mewn cyflwr dyladwy. Dadleuant dros fod eiddo a meddiannau gwladwriaeth yn gydfeddiant cyffredin rhwng holl ddeiliaid y wladwriaeth hono. Oddi wrth y crynodeb a ganlyn, gellir ffurfio drychfeddwl am eu golygiadau a'u cyfundrefn. Fel y cynnyddai ac yr ymledai rhyddid gwladol, a dynion yn cael eu dysgu fod ganddynt hawl gyfartal yn ffrwyth y ddaiar, ac, ar yr un pryd y rhyddheid llafur a diwydrwydd oddi wrth yr hualau a'u llyffetheiriai, ac i hyny—trwy y cynnydd a achosai yn y gwyddorion naturiol—ddwyn oddi amgylch leshad pawb, deuai cyfoeth y byd yn eiddo i'r ychydig, ac, ar y llaw arall, teflid y lluaws o aelodau cymdeithas i'r sefyllfa fwyaf anobeithiol o angenus. Yn ngwyneb yr amgylchiadau hyn, daeth yn rymus i feddwl lluaws, yn enwedig yn Ffrainc a Lloegr, naill ai, trwy chwyldroad cymdeithasol, i wneyd cyfraniad neu ddosbarthiad teg o bob eiddo, a dwyn oddi amgylch gydfeddiant cyffredin [Cydfeddiannaeth=*Communism*] ynddynt, neu ynte, i drefnu cylchoedd llafur yn gymdeithasau rhyddion i fasnach a chynnaliaeth gyffredinol, ac felly cynnorthwyo y dosbarthiadau hyny o gymdeithas sydd wedi bod yn cael eu gorthrymu i ddyfod i afael â chyfran briodol o'r mwynderau a'r gwelliadau sydd yn awr yn gwbl yn nwylaw yr ychydig:—hyn yw Cymrodoliaeth=*Socialism.* Cafodd y rhai oedd o'r ysbryd hwn allan hefyd fod Cristionogaeth yn cytuno âg ymdrechiadau o'r math uchod, ac hyd yn oed yn eu hamddiffyn a'u cefnogi; trwy ganfod ffeithiau yn ei hanes boreuol am dosturi yr Iesu at y tlawd, ei ddigofaint yn erbyn y cyfoethog, un ymgais gweithredol at gydfeddiant cyffredin gan ei ganlynwyr, ac hefyd am fod yn hanes ei sectau grybwylliad am gydfeddiannaeth mewn amryw ffurfiau, ac am bersonau yn gwirfoddol ymwrthod â'u cyfoeth a'u da. Ond gan fod Cristionogaeth wedi ei chydwau eisoes â holl berthynasau presennol cymdeithas, ac oldduwiaeth, trwy ddinystrio pob gobaith am fyd arall, wedi peri mai annyoddefol y drychfeddwl o ymwrthod â phleserau y bywyd presennol, y mae Cydfeddiannaeth, yn mhersonau ei blaenoriaid cyntefig, y rhai a ddienyddiwyd mewn chwyldroad gwladol yn Ffrainc, gan mwyaf, wedi cwbl ymwadu â phob cyssylltiad â Christionogaeth. Eto, am y canfyddid fod angenrheidrwydd nas gellid ei osgoi am ryw fath o grefydd, mabwysiadwyd y drychfeddwl o wneuthur y math hwnw yn sylfaen ar ba un y goruchadeiladid y drefn newydd ar bethau. Felly, rhoddodd larll St. Simon, yn Ffrainc, yr enw o grefydd ar ei gynllun ef i wellhau cyflwr gweithwyr, yr hwn gynllun oedd, dyrchafu llafur a diwydrwydd i feddiant o'r hawlfreintiau uchaf:—galwodd hyn yn Gristionogaeth newydd. Pan y bu farw, Mai 19eg, 1825, mewn canlyniad i ymgais a wnaethai i'w ladd ei hun, safai wrth ei wely un dysgybl, a dim ond *un*—Olinde Rodrigues. Trwy bregethu, cenadwriaethau, a thraethodau dadleuol a anfonid allan o Paris, cyhoeddwyd ar led yr efengyl ddaiarol newydd hon, yn nghanol y rhyddid a'r cyffroadau a ddilynent chwyldroad mis Gorphenaf. Taerid fod Pabyddiaeth mewn malldod o orphwylldra; mai negyddiaeth trwyadl oedd Protestaniaeth; nad oedd Crist wedi darparu ond ar gyfer y rhan ysbrydol o'n natur; a bod St. Simon ar ddyrchafu y cnawd drachefn i'w le ac i feddiant o'i iawnderau. Ar un llaw, gwnai Simonyddiaeth dduw o'r byd; ac o'r tu arall, cyssegrai a sancteiddiai lafur fel cyfres o weithredoedd i ddylanwadu ar y duwdod. Ei deddf gyffredinol oedd, wedi y diddymer cyfraith treftadaeth, fod i bawb ddderbyn o'r ystorfa gyffredinol yn ol mesur ei ddawn a'i alluoedd, a bod pob cynneddf a gallu i dderbyn yn ol eu gwaith. Yr oedd yr egwyddor ynia i'w chario allan dan gyfarwyddyd y lwysbenaeth (*hierarchy*); a thrwy lu o ymadroddion gwallgof, ac areithiau penboeth yn nghylch cariad a hunan-aberthiad, ceisid cuddio yr awdurdod a'r gallu träarglwyddaidd a ddeuai i ran hono. Swynid hyd yn oed rai meddyliau galluog ac ardderchog gan y dull diarbed trwy ba un y dynoethid camwri a drygau sefyllfa bresennol cymdeithas. Sonient am roddi i deilyngdod yr hyn a berthynai o'r blaen i enedigaeth, nad oedd ond damweiniol; a siaradent yn nghylch dyrchafu i feddiant o iawnderau dyn blentyn dietifeddog cymdeithas yn Ewrop. Nid anturiodd yr ysbryd hwn i fyned mor hyf mewn dim a phan yr anrhydeddai gofal syml a hollol am bethau a buddiannau daiarol yn unig â'r enw *crefydd.* Ond pan y darfu i un o arweinwyr y blaid hon, Enfantin wrth ei enw—dyn galluog, eang ac uchel ei gyrhaeddiadau, ond cul ei feddwl er hyny—yn ei ddysgrifiad o'r dadguddiad uchaf o'r Duwdod—pan y darfu i hwn droi ei sylw yn benaf at wragedd, ac, fel eu Messiah, ymdrechu eu rhyddhau trwy ddryllio rhwymau priodas, ac ymestyn at ryddid a hawliau cyffelyb i'r rhai a fwynhair gan ddeiliaid Mahomed, cymmerodd ymraniad le (Tachwedd, 1831), a chyhoeddodd Rodrigues fod St. Simonyddiaeth wedi gwrthgilio oddi wrth St. Simon. Trwy orchymyn y llywodraeth, cauwyd neuadd y St. Simoniaid, a gosodwyd hwythau eu hunain ger bron y llysoedd barn ar y cyhuddiad o ledaenu egwyddorion a beryglent foesoldeb. Pan y condemniwyd hwynt yn Awst, 1832, mynent gael eu hystyried fel rhai darostyngedig i fath o ferthyrdod. Parhäai eu tad goruchel, Enfantin, i fod yn wrthddrych parchedigaeth ac ymddiried pawb o'u gwir gredinwyr. Ond pan y daeth eu glwysbenogaeth a'u moesoldeb i amlygrwydd cyhoeddus, dinystriodd hyny ymddiried y cyhoedd ynddynt, a gwnaed eu neilldduaeth mynachaidd, a'u dulliau o wisgo ac o siarad, yn watwargerdd gyffredinol.

Trwy sylwi ar dlodi a thrueni y rhai o'i amgylch, argyhoeddwyd Robert Owen, perchen llaw-weithfa yn Lloegr, fod y gyfundrefn bresennol o wareiddio a moesoli y byd, wedi dwyn dyn i ymylon llynclyn distryw. Wedi iddo, er y flwyddyn 1800, aflwyddo yn ei ymdrech i ail-ffurfio y gymdeithas ddynol ar ei

Digitized by Google

feddiannau ef ei hun, ac hefyd yn Ngogledd America, yn y flwyddyn 1828, trwy ddarlithiau, traethodau, a chenadon, trodd ei sylw at y dosbarthiadau a esgeulusid fwyaf yn mysg y Seison. Haerai a dadleuai efe mai dyledswydd dynion, yn lle sefyll y naill yn ffordd y llall, ydoedd cydweithio a chydfwynhau ffrwyth eu llafur cyffredin; yn lle y gyfundrefn bresennol o briodasau annaturiol, y dylai fod cwbl rydd-ddewisiad rhwng ysbrydoedd o gyffelyb naws a thymmer; ac yn lle teuluoedd, mai cynnulleidfaoedd ddylai fod. Mor bell ag y mae ein gwybodaeth yn awr yn myned, ni feddwn un sicrwydd fod hanfodiad dyn yn ymestyn tu draw i'r bywyd hwn; ac felly, ffug a chyfeiliornad yw pob crefydd a arwain y meddwl hwnt i'r byd presennol. Nid yw dynion yn gyfrifol i un Bod goruchel; ond, pe gosodid hwy o'u mebyd mewn priodol sefyllfaoedd ac amgylchiadau, heb fod yn agored i ddylanwad niweidiol tlodi ac anwybodaeth, cynhyrfid a llywodraethid hwy gan ysbryd o anwyldeb a thynerwch tuag at bob peth byw; a pharai hyn mai cwbl ddiangenrhaid fyddai pob rhaniad neu ddosbarthiad ar feddiannau." Daeth y cynllun hwn o Gymrodoliaeth i gryn gymmeradwyaeth yn mhlith rhai o weithwyr y llaw-weithfaoedd. Ond yr oedd Simonyddiaeth wedi ei hollol ddistrywio trwy wawd a chwerthin y Ffrancod; a diogel iawn i lywodraeth Prydain oedd gadael ar synwyr da ei deiliaid i brofi a chywiro cynlluniau dychymygol yr Oweniaid. Ond y mae ysbryd peryglus Cydfeddiannaeth eto yn gweithio dan sylfeini gwareiddiad yn Ewrop; ac nid ydyw wedi ei ddarostwng trwy awdurdod uwch y llywodraeth wladol, na chan ddylanwad rhyddfrydig, cymmwynasgar, a dyngarol Cristionogaeth. Gwel CYMRODOLIAETH.

CYFFREDINIAETH, CATHOLICIAETH, [*Catholicism*]. Y gair hwn a arferir i ddynodi tuedd lywodraethol at y cyffredinol, a'r oll, yn wahaniaethol oddi wrth neillduolrwydd, unigedd, ymddydolaeth, neu wahanfodaeth. Y mae yn golygu iawngrededd cyffredinol: priodolir ef hefyd i Gristionogaeth, o ran cylch ei dylanwad a'i gweithrediadau; ac i'r Eglwys Gristionogol mewn modd arbenig y mae yn perthynu. Y mae y wir elfen Gatholig yn rhedeg trwy holl rawd hanes yr eglwys. Y llygriad o honi, a chamddefnyddiad a chamgymhwysiad cyfeiliornus o'r egwyddor, i raddau pell iawn, a esgorodd ar y Babaeth; a chwbl wrthwynebus mewn gwirionedd i'r gwir syniad am Gatholiciaeth neu am Gyffrediniaeth — yr hwn nas gellir mewn un modd ei ysgar oddi wrth Gristionogaeth—ydyw gwaith yr eglwys hono yn mabwysiadu yr enw Catholig fel yn briodol iddi ei hun. Geilw yr Eglwys Gristionogol ei hun er y cyfnod boreuaf yn Gyffredinol, neu yn Eglwys Gatholig: a hyny—1. Fel y mae wedi ei bwriadu i gynnwys ynddi gredinwyr o fysg pob cenedl; ac nid cau allan o gymundeb a breintiau crefyddol bawb na pherthynant i un wladwriaeth neillduol, yn ol esampl Iuddewaeth. 2. Fel y mae yn Eglwys Gyffredinol hefyd, am ei bod yn dal ac yn coledd yr *holl wirionedd* a gyflwynwyd gan yr apostolion i'r eglwysi, ac a drosglwyddwyd trwy offeryniaeth swyddogion a gydnabyddid gan yr apostolion, neu ereill wedi eu hawdurdodi ganddynt, ac hefyd a gredid ac a amddiffynid gydag unfrydedd trwyadl a didwyll yn yr holl wir eglwysi. Ymlyniad wrth y cyfansawm hwn o wirionedd, yr ystyrid ei fod yn unigongred, a ffyddlondeb i'r gwirionedd uchod, oedd Cyffrediniaeth neu Gatholiciaeth; a galwai y rhai a ymlynent felly eu hunain—a gelwid hwy hefyd gan ereill—yn Gatholiciaid (*Catholics*). Yn y modd yma, fe'u gwahaniaethid oddi wrth y rhai a dröent oddi wrth ystyr cyffredinol y gwirionedd—y rhai na reoleiddient eu syniadau a'u gweithredoedd wrth yr hyn sydd yn safon ffydd; a ymgymmerent â golygiadau neillduol o'u dewisiad hwy eu hunain; ac a wyrent oddi wrth farn yr eglwys yn gyffredinol. Dichon i'r personau hyn fod yn hereticiaid, yn briodol felly—dynion yn cymhell cyfeiliornadau neu gyfundrefnau rheolaidd o gyfeiliornad sydd yn dadymchwel seiliau Cristionogaeth: neu yr oeddynt yn gyfryw ag a elwir yn au-gredol (*heterodox*)—rhai yn coledd golygiadau sylfaenol y gwirionedd Cristionogol, o ran yr hanfod o honynt, ond yn camddeall rhai pynciau neillduol perthynol i Gristionogaeth: neu ynte, yr oeddynt o'r dosbarth hwnw, y rhai, yn ngrym gau dueddfryd a gamgymmerid ganddynt am deimlad efengylaidd, neu ofal am anrhydedd y ddeddf, a ymdrechent i adferu Cristionogaeth bur yr oes gyntefig, neu sylweddoli Cristionogaeth yn ei pherffeithrwydd; a chan ddibrisio neu wadu y gwirionedd apostolaidd, neu y ffurf hwnw ar wirionedd dadguddiedig a geid yn yr eglwysi apostolaidd, a ddadleuent dros, ac a honent feddiant o'r fath burdeb mewn moesau, dysgyblaeth, neu athrawiaeth, fel nad ymddangosai y corff Catholig, mewn cymhariaeth, ond yn llygredig ei wedd ac annheilwng o'r enw gwir eglwys.

O herwydd hyn, yr ydym yn gweled fod y gwrthwynebiadau i Gyffrediniaeth neu Gatholiciaeth yn yr eglwys yn driphlyg: — 1. Yr Hereticaidd; megys yr Ebioniaid, y Gnosticiaid, a'r Manicheaid, y rhai a osodent i fyny Iuddewaeth neu baganiaeth wedi eu trwsio â gwisgoedd Cristionogaeth; neu, o'r hyn lleiaf, a anurddent ac a lygrent hen egwyddorion y ddiweddaf trwy gydgymmysgedd o amryw o neillduolion paganiaeth neu Iuddewaeth. 2. Y Gaugredol (*Heterodox*); sef personau, ar y cyfan, yn dal egwyddorion Cristionogaeth, ond mewn rhai pethau yn gwyro oddi wrth y ffordd Ysgrythyrol o synied am athrawiaethau neillduol; megys yr amrywiol fathau neu raddau o'r Monarchiaid; wedi hyny yr Ariaid, y Nestoriaid, yr Eutychiaid, a'r Pelagiaid. Y mae yn ddiau fod y rhai hyn, yn eu dulliau o feddwl, i raddau mwy neu lai, yn dyfod yn agos i'r hereticiaid; ac, ond cario eu golygiadau allan i fanylrwydd, ymddangosant fel heresi; eto, mewn gwirionedd, nid oeddynt yn cyrhaedd hyny yn holiol chwaith. 3. Y Sismaticiaid (*Schismatics*); y rhai a edrychent ar yr Eglwys Gatholig fel sefydliad henafol a dirywiedig, gan ymffrostio yn eu tra rhagoriaeth eu hunain o ran purdeb ffydd ac ymarferiad. Y cyfryw ydoedd y Montaniaid, y Novatiaid, y Donatiaid, ac ereill.

Yn y symmudiadau hyn, a wrthwynebent Gatholiciaeth, canfyddir tueddfryd i ymdroi ac aros gyda golygiadau tywyll, aneglur, ac anmhenodol, y rhai y dylesid eu gadael yn llonydd o gwbl; ac weithiau, fyrbwylldra annoeth, er wedi ei achlysuro efallai gan awydd i roddi attalfa ar ryw ddrygau a ymgodent. A gwaith priodol yr Eglwys Gyffredinol neu Gatholig ydoedd dethol iddi ei hun pa beth bynag o'r gwir a'r da oedd yn y symmudiadau hyn, gan ymwrthod â'r drwg. Buasai fel hyn yn ei phrofi ei hunan yn

Digitized by Google

Gatholig mewn gwirionedd, fel eglwys oedd yn cynnwys ynddi ei hun wirionedd y gyfundrefn Gristionogol yn ei unolrwydd a'i gyflawnder, ac hefyd fel eglwys yn meddu ar foddion o ddwyfol osodiad, a bwriad ac amcan o ddwyfol darddiad, i ddyfod ei hunan yn fwy llwyr dan ddylanwad grym sancteiddrwydd a nerth y gwirionedd. Pa le bynag y ceir y duedd at wir Gatholiciaeth, yno bydd yr eglwys yn ymdrechu eangu ei therfynau i bob parth, ac yn gorfoleddu yn y gobaith o gyrhaeddyd hyd at hyny. Ni a'i cawn yn egnïo i ymddyrchafu goruwch pob gwahaniaeth barn ac amrywiaeth mewn ffurflywodraeth, er dyfod yn drwyadl a chyflawn dan ddylanwad gwirionedd a sancteiddrwydd. Gellir galw y naill duedd yn Gatholiciaeth ymledaenol (*extensive*), a'r llall yn *gryfhaol* neu *fewnburol* (*intensive*). Ond gan nad yw egwyddorion Cristionogaeth yn y fuchedd hon byth yn cael eu derbyn a'u gweithredu yn eu holl gyflawnder, a bod gan yr eglwys bob amser le i ragori ac ymhelacthu gyda golwg ar gyffredinolrwydd ei hymdaeniad oddi allan, ac o ran ei pherffeithiad oddi mewn—am hyny, y mae yn canlyn nad yw y gwir ysbryd Catholig byth yn foddlawn ar y cyrhaeddiadau presennol, ond bob amser yn ymestyn yn mlaen mewn ymgais i gynnyddu a dadblygu ei adnoddau. Gellir galw y nodwedd yma o eiddo Catholiciaeth, yr *ymestynol* (*protensive*).

Y mae tu hwnt i bob dadl fod y cyfryw Gatholiciaeth ag a ddarluniwyd uchod yn hanfodi *yn oesoedd cyntaf* yr Eglwys Gristionogol. A gwelir ef yn eithaf eglur a chanfyddadwy hyd yn oed yn yr *ail hanner o'r cyfnod cyntaf*, sef o'r bedwaredd ganrif i waered. Wedi cydgorfforiad yr ymherodraeth Rufeinig â'r eglwys—a hi ar y pryd wedi ei darostwng fel nad oedd ond bechan a dibwys wrth yr hyn unwaith a fu—yr adeg hono, yn wir, fe ymddengys ddarfod i'r awyddfryd am eangu terfynau yr eglwys, mewn cymhariaeth, lonyddu a marwhau; eto, aeth yr ysbryd Catholig pur a diledryw, trwy y rhai enwocaf o'i gynnrychiolwyr, tu hwnt i'r terfynau hyny, gan wneyd ei ffordd at y cenedloedd lluosog na pherthynent i'r ymherodraeth, ond oeddynt yn fwy neu lai gelyniaethus iddi. Cynhyrfid hwy i hyn, mewn rhan, gan y gobaith y ceid, yn y llwythau hyny nad oeddynt eto wedi bod yn agored i gymmaint o ddylanwadau llygredig—y ceid ynddynt hwy dir mwy rhagorol i hau egwyddorion Cristionogaeth nag yn mysg y lluaws pobloedd dirywiedig yr oedd eu meddyliau wedi dyfod yn gyfryw fel na fenai gwirioneddau gwir grefydd arnynt er eu cyfnewid. Nid oedd y cyfnod hwn chwaith yn ddiffygiol o arwyddion fod yr eglwys yn cyrchu at *sancteiddrwydd*, er fod esgeulusdra amlwg o ddysgyblaeth bur ac iachus i'w weled mewn cyssylltiad â derbyniad y lluaws i mewn i'r hyn yn awr a elwid yr Eglwys Sefydledig. Gyda golwg ar drefnu a chyfaddasu yn briodol iddi ei hun y *gwirionedd Cristionogol yn ei gyflawnder*, y mae yn wir ddarfod i'r eglwys gasglu prif bynciau athrawiaeth yr efengyl at eu gilydd, yn y ffurf o ffydd-gyffesion cyffredinol a sefydlog; eto, ni pheidiodd un amser ag ymdrechu yn egniol i ddethol y darnodiadau cywiraf o sylwedd a mer y dadguddiad, ac felly ymgryfhau mewn deall a dyfod i feddu gwybodaeth fwy eglur o hono. Y mae hyn i'w weled yn ei llafur gydag athrawiaeth y Drindod, yr athrawiaeth am Berson Crist a'i waith, a Dynofyddiaeth. Gwel DYNOFYDDIAETH.

Gellir hefyd ddywedyd yr un peth am gyfnod y *canoloesoedd*. Yn mysg holl genedloedd Sclavonaidd Germany, ceir fod gweithgarwch bywiog a diflin yn deilliaw o'r ysbryd a amcanai at eangu yr eglwys; a llafurio yn ddiorphwys a wnaed nes dwyn y cyfan i fynwes Cristionogaeth. Wedi cyrhaedd hyn, ymestynid yn mlaen—er mai bychan mewn cymhariaeth fu y llwyddiant—i ardaloedd pellach a mwy dyeithr, hwnt i derfyngylch hanes yr oes hono. Llafuriwyd a chymmerwyd poen nid ychydig, mewn ymgais i adferu a dyrchafu sancteiddrwydd yr eglwys, ac i ymestyn hefyd yn ddibaid at arddangosiad llawnach a mwy cyffredinol o'r sancteiddrwydd hwnw yn mysg ei holl aelodau yn mhob man. Yr oedd yn yr eglwys, ac o fewn i gyfundebau neillduol, symmudiadau nerthol gyda'r amcan o wrthwynebu yr hyn oedd ddrygionus; ac er gosod attalfeydd effeithiol ar ffordd arferion llygredig a thueddiadau anfoesol—dygent dystiolaeth rymus a mynych, trwy air a gweithred, yn eu herbyn. Ond mewn perthynas i'r meddiant o'r gwirionedd, a'r defnyddiad o hono, yr oedd gyda hwy sel a phryder neillduol, nid yn unig i arddangos a diogelu, er lles y genedlaeth bresennol a'r rhai a ddeuent ar ol, pa beth bynag a ennillwyd trwy ymdrechiadau blaenorol, ond hefyd i ymgymmeryd â gweithgarwch meddyliol mwy diflin ac effeithiol, er deall yn fwy trwyadl y gyfundrefn Gristionogol, a chynnyrchu argyhoeddiâd cadarnach o'r gwirionedd, yr hwn y byddai iddo orchfygu ammheuon a allent gyfodi, a chwalu ymaith bob ymddangosiad o anghyssondeb mewnol. Y mae yn hyn oll allu cryf yn ymgyrhaedd at ddadblygiad a gwelliant—ymgais nerthol at gyrhaedd tir rhagorach. Ac nid dyma yr unig gynnygiad a wnaed. Nid oedd Catholiciaeth yn ymdroi ac yn aros yn y cyflwr o fod yn ddim amgen na greddf ddall, ond ymddyrchafai nes ei bod yn wybodaeth ddeallus a chlir. Daeth yn gyfundrefn o egwyddorion—yn *theory* o Gatholiciaeth—a fynai ei harddangos ei hun yn eglur mewn ymarferiad. Angenrhaid oedd gosod i lawr sylfaen gadarn er gwahaniaethu gwirionedd y ffydd gyffredinol oddi wrth gyfeiliornadau heresi. Dywed Vincentius fod y ddau beth hyn yn angenrheidiol tuag at sefydlu a chadarnhau dilysrwydd y ffydd: awdurdod y canon cyssegredig, a thraddodiad yr Eglwys Gyffredinol neu Gatholig. Yn gymmaint a bod yr Ysgrythyr Sanctaidd—yr hwn, ynddo ei hun, sydd yn berffaith a holldigonol, ond o herwydd ei ddyfnder yn cael ei ddeall mor gwahanol, rhaid cyssylltu âg ef ddirnadaeth a meddwl yr eglwys am dano—y modd y deallir ef ganddi hi. Rhaid ei ddeongli—yn enwedig cwestiynau sylfaenol yr athrawiaeth gyffredinol—mewn cyssondeb â meddwl yr eglwys gyffredinol. Ond y mae hyn yr un peth a derbyn pa beth bynag a gredir gan bawb, bob amser, yn mhob man. O herwydd nid oes dim yn wir a phriodol Gatholig, ond yr hyn a gynnwys bob peth—yr oll—mewn modd cyffredinol. Cymmer hyn i mewn iddo hynafiaeth, cyffredinolrwydd, ac unfrydedd. Yr ydym yn cydsynio â hyn pan yn cydnabod yr hyn a gyffesir gan yr holl eglwys ar y ddaiar fel y gwirionedd; pan nad ydym yn gwyro oddi wrth yr ystyr a eglur roddwyd iddo gan y tadau; a phan, o fysg yr addysgiadau boreuol hyn, yr ydym yn derbyn yr hyn a draddodwyd gan yr oll, neu y rhan fwyaf o'r athrawon cyhoeddus. Yn wrthwyneb i ddosbarth o'r Eglwys a ymwahana o gymundeb y ffydd gyffredinol, y mae Cristion gwir Gatholig yn cadw at ac yn sefyll dros

Digitized by Google

gywirdeb barn a chyfanrwydd y cyfangorff cyffredinol. Yn groes i unrhyw newyddbeth a ymdrecha lygru yr holl eglwys, saif efe ar y cynamseroedd; ac os cenfydd fod ychydig yn yr hen oesoedd hyny wedi eu difwyno gan gyfeiliornad, efe a ymlyna wrth hen benderfyniadau cyffredinol yr eglwys. Pan nad yw y cyfryw i'w cael, y mae yn cymharu pethau, gan ddethol a chymmeradwyo yr hyn a genfydd efe fel y golygiadau y cytunid gyda golwg arnynt ac a gawsant eu coledd a'u dadgan ar gyhoedd gyda chyssondeb parhaus gan athrawon gwahanol oesoedd a gwledydd—athrawon heb droi oddi wrth ffydd a chymundeb yr un Eglwys Gatholig.

Fel hyn, tra y mae Vincentius yn gosod cyssylltiad âg eglwys yr hen oesoedd gynt i lawr fel nod o Gatholigrwydd—mewn cydffurfiad â'r hyn a elwir yn "ordeiniad dwyfol" Cynghorfa Ephesus, yr hwn ydoedd gydgytundeb o eiddo y nifer luosocaf o holl esgobion y dwyrain na phenderfynent ar ddim i'w drosglwyddo i lawr i'r oesoedd dyfodol fel erthyglau sefydlog eu ffydd, ond yn unig yr hyn a ddelid gyda chyssondeb diysgog gan y tadau sanctaidd;—eto, tra yn haeru hyn, nid yw yn bwriadu amddiffyn musgrellni a fydd am aros yn llonydd, na thraddodiad marw, a fydd yn aros yn yr un man. Dylai ffydd *gynnyddu* a *myned rhagddi*, ond nid *cyfnewid*. Hunan-ymddablygiad ydyw cynnydd; troi yn rhywbeth arall ydyw cyfnewidiad. Mewn cyfnodau olynol o amser, gall doethineb, gwybodaeth, a deall personau unigol, yn gystal a'r eglwys oll, chwanegu; ond yn eu ffurf yn unig y gallant wneyd hyny. Mewn synwyr, athrawiaeth, neu opiniwn, rhaid iddynt aros yr un, fel y mae cyrff organaidd, er dadblygu a thyfu am luaws o flyneddoedd, eto yn parhau yr un. Rhaid i'r athrawiaeth Gristionogol ufuddhau i'r ddeddf hon sydd yn llywodraethu iawn ddadblygiad a chynnydd. Dylai ymgadarnhau, ymeangu, ac ymddyrchafu, gydag amser, ond dylai aros yn ddilwgr a dihalog—bod yn berffaith a chyflawn o ran cymmesuredd a chyfartaledd yn ei rhanau, ac yn ei holl aelodau a'i hystyron penodol, heb oddef i ddim niweidio ei phriodol gymmeriad, na pheri cyfnewidiad yn ei darnodiad:—"Yr hyn a hauwyd yn Eglwys Dduw gan ffydd y tadau, y mae yn cael ei amaethu a gwylio drosto gan ddyfalwch y plant. Y mae yn blaguro, yn tyfu, ac yn addfedu, &c. Os rhoddir un pwnc o athrawiaeth i fyny, y mae un arall, ac un arall drachefn yn cael ei wrthwynebu, nes mae y cwbl yn cael eu bwrw heibio a'u gwrthod. Cymmysger yr hen â'r newydd, y cynnwynol â'r estronol a'r dyeithr, y sanctaidd â'r halogedig, a chyn hir ni bydd dim o'r hyn sydd bur wedi ei adael."

Y mae hyn yn hanfodol gywir. Trwy gynnydd diball, ac ymddadblygiad llwyrach o hono ei hun, yn mhob ystyr, ymddengys cyflawnder gwreiddiol y gwirionedd, gan ei arddangos ei hun fwyfwy yn barhäus. Graddol ymweithiad allan o hono ei hun ydyw. Y mae yr hyn a aeth o'r blaen yn rhag-gysgodi yr hyn sydd i ddyfod ar ol. Nid oes yma gynnydd ar ddim nad oedd yn hanfodi mewn egwyddor o'r blaen. Ni chymmerir ymaith ddim ychwaith a berthyna yn hanfodol i'r gyfundrefn. Ond nis gellir llai na chanfod nad yw y ddamcaniaeth hon yn cyflwyno i sylw ond un ochr i'r mater yn unig, yr hwn, os edrychir yn fwy manwl, y mae iddo ganlyniadau a gyrhaeddant yn mhell. Oddi wrth y golygiad uchod, y mae yn canlyn mai syniadau athrawiaethol yr eglwys, fel y ceir hwy yn nadganiad cyffredinol gweinidogion ac athrawon duwinyddol uniongred—mai dyma yw rheol gwbl ddiammodol ffydd; ac ni chaniateir i'r ysbryd sydd yn ymestyn am gynnydd a gwelliant weithredu ond yn unig gyda golwg ar benderfynu pynciau sydd eto heb eu sefydlu, y rhai na osodwyd hwynt allan yn ffurfiol gan yr eglwys. Yr hyn sydd eisoes, fel y tybir, wedi ei benderfynu, a darnodiad o hono ar gael, nid oes i'w wneyd ond gofalu am ei ddiogelwch fel y mae. Yn y ddau ddosbarth uchod o bersonau, ymddengys yr eglwys fel yn hôni mai hi ydyw unig ddeonglydd ysbrydoledig ac anffaeledig yr Ysgrythyrau; ac felly, pan y mae golygiad wedi dyfod i gael ei ystyried yn awdurdodedig, wedi derbyn cymmeradwyaeth cymmanfa o gynnrychiolwyr swyddogol yr eglwys, a chryn unfrydedd yn ei gylch yn mysg athrawon yr edrychir arnynt fel yn uniongred, nas gall y golygiad hwn sefyll mewn angen am welliant pellach. Oddi wrth hyn, y casgliad yw, fod dirnadaeth burach a mwy cyflawn, yn deilliaw o wybodaeth ddyfnach o'r gair ysgrifenedig, yn beth nad yw y syniadau hyn yn ei ganiatau.

Y mae y cyfryw ddamcaniaeth a hon yn ddiffygiol mewn adnabyddiaeth a chydnabyddiaeth o'r llygredd hwnw yn y ddynoliaeth, sydd yr un mor wrthwynebus i fywyd cyffredinol yr eglwys, ag ydyw i ddadblygiad bywyd crefydd mewn personau unigol yn y fuchedd hon, a'r hwn sydd yn gwahardd y syniad fod ein rhyddid oddi wrth gyfeiliornad yn helaethach ac yn llwyrach na'n rhyddid oddi wrth bechod. Y mae hefyd yn ddiffygiol o'r rhyddid efengylaidd hwnw, yn rhinwedd pa un—tra mewn gwir ymostyngiad i'r hwn ei hunan yw y Gwirionedd a'r Dibechod, a chan gwbl a dianwadal gydsynio â'r dystiolaeth bur am dano Ef—yr ydym yn derbyn y cymhwysder yn gystal a'r hawl i sefyll mewn barn uwch ben yr hyn a dderbyniasom fel deongliadau eglurhaol o athrawiaethau crefydd, ac ymgynghori yn nghylch y posiblrwydd o'u gwellhau. Nid ysbryd yn syml amcanu myned rhagddo tua chyflawn arddangosiad o wirionedd gwreiddiol, a hyny yn unig, ydyw Catholigrwydd o ran y dadblygiad cynnyddol o hono. Er yn ddwyfol yn ei darddiad, a than lywodraeth Ysbryd Duw, ar yr un pryd, y mae yn ddynol. Gwir nad yr anthropaidd neu y dynolyddol ydyw, fel dadblygiad a chynnydd personol y Gwaredwr, na'r hyn a ddeillia oddi ar undeb y natur ddwyfol â'r natur ddynol mewn purdeb dihalog, yr hwn, mewn ymddygiadau dibechod, a ymffurfia yn fywyd o wirionedd a sanctaiddrwydd pur. Gweithrediad dwyf-ddynol (*divine-human*) ydyw, yn tarddu oddi ar undeb yr Ysbryd Glân â natur ddynol lygredig—natur sydd yn gyntaf i gael ei hail-eni gan yr Ysbryd hwnw, a thrachefn i'w graddol adnewyddu a'i sanctaiddio; a thra y mae y gwaith yma—yr hwn na wel berffeithrwydd byth yn y fuchedd ddaiarol hon—yn myned rhagddo, ymgyfyd o'r natur ddynol dueddiadau pechadurus sydd yn aflonyddu ar, ac yn gwrthwynebu, gweithrediadau yr Ysbryd Glân. Trwy yr holl attalfeydd hyn, y mae y gwaith yma o eiddo yr Ysbryd yn myned yn mlaen hyd ei gyflawn orpheniad, ac hyd yn oed yr anhawsderau a'r gwrthwynebiadau a gyferfydd, eu hunain yn cael eu gorfodi i wasanaethu yr amcan mewn golwg.

Ar y cyntaf, pa fodd bynag, ac mor bell a hyn, mae y gwaith hwn yn rhwyni o weithio ei ffordd

Digitized by Google

trwy anhawsderau, a thrwy draddodiadau llygredig hefyd, fel y mae gweithrediad pwysig, puredigol, a diwygiadol yn eglur a chanfyddadwy. Ond yr aelodau hyny a syniant i raddau yn rhyddfrydig ac annibynol am draddodiad a allant beri i'r diwygiad hwn fyned yn mlaen—y rhai, tra yn cael eu cludo i lawr gyda'r ffrwd, ydynt yn ddigon galluog i ddylanwadu yn iachusol a phuredigol arni. Y mae yn cwbl ddibynu ar gyfansoddiad ysbrydol yr eglwys—a fydd o'i mewn aelodau yn meddu ar y cymmeriad o *bersonoliaeth*, â chanddynt y gwir a'r bywiol syniad am y cyffredinol; pob un, mewn rhydd-weithrediad ymwybodol yn cymmeryd y cyffredinol iddo ef ei hun yn bersonol, gan sefyll yn y cyfryw gyssylltiad tuag at y bywyd cyffredin fel ag i sugno o hono yr hyn fydd yn faeth iddo ef, ac ar yr un pryd gyfranu tuag at benderfynu nodwedd ei ysgogiadau. Gall dylanwad o'r fath yma buro a diwygio, a hyny am mai nid peth neilduol wrtho ei hun, neu drefniant heb fod yn ddim ond yr hyn y mae oddi allan yn ymddangos ei fod, ydyw y cyfangorff, ond yn dal *cymundeb bywiol, cysson*, ac *anwahanol â'r Duw-ddyn*, Crist, megys pen; a thrwy y gair a'r ordinhadau, y mae y person byth-bresennol hwn yn dylanwadu er goleuo a bywhau y cyfan oll, a phob person unigol hefyd. Yn y modd yma, y mae pob un yn dyfod yn berson o fewn i'r hwn y mae Crist yn preswylio, a thrwy yr hwn y mae yn gwasgar goleuni a bywyd i'r corff; megys y mae hefyd yn meithrin y person unigol â chynnaliaeth o'r holl gorff. Fel hyn, hefyd, y mae yr aelodau unigol, fel cyfranogion personol o'r bywyd dirgel hwn, âg iddynt o fewn i'r cyfangorff eu rhagorfreintiau, a thuag at y cyfan drachefn eu dyledswyddau. Y mae y gallu a'r hawl yma o bersonoliaeth yn mywyd cyffredin Cristionogaeth yn gorphwys ar y sail hanfodol hon: fod y Drindod ddwyfol yn gwbl bersonol yn yr ystyr manylaf, ac yn gweithredu mewn cydweddiad â'i natur. Amcan a dyben ei holl waith, mewn creadigaeth, prynedigaeth, a sancteiddiad, yw ymwneyd â phersonau, fel ag i gynnyrchu bywyd personol a dwyfol yn enaid dyn. Efe hefyd sydd yn creu, yn cynnal, ac yn cynnyddu y bywyd cyffredinol. Ymddygir ar hwnw megys yn y groth, gan ei gynnysgaethu âg enaid trwy y gair a'r Ysbryd. Y mae efe hefyd yn gwneyd y bywyd hwn, fel y cyfryw, yn fagwrfa o'r hon y deillia y bywyd personol, ac y derbynia ei gynnaliaeth; ac wedi hyny, y mae efe yn peri fod i'r bywyd personol gyfranu tuag at buro, cryfhau, a dyrchafu y cyffredinol.

O sylwi yn y wedd yma ar gyssylltiadau dyn â Christionogaeth fel person ar ei ben ei hun, ac yn ei berthynas â'r cyfangorff cyffredinol, arweinir ni at yr hyn a ystyrir fel y gwrthwyneb i Gatholiciaeth, sef *Protestaniaeth*. Y mae yn wir mai Diwygiad yr unfed canrif ar bymtheg a roddodd i Brotestaniaeth ei enw, ac oddi wrth y Diwygiad y derbyniodd ei hanfod a'i ystyr fel ffaith hanesyddol; ond yn mhob ystyriaeth arall, y mae eyn hyned a Chatholiciaeth. Yr oedd ei egwyddorion ar wasgar, ac yn gymmysgedig â'r diweddaf; ac yn raddol, fel y dirywiai Catholiciaeth, ac y llygrai yr eglwys, cydgrynöai egwyddorion Protestaniaeth, fel ag i ddyfod i'w teimlo a'u gweled ar eu pen eu hun.

Pa fodd bynag, y mae y dirywiad hwn i'w ddeall ac i gael syniad am dano oddi wrth y drychfeddwl am *Gatholiciaeth yn y deffiniad mwy cyfyng a manwl o hono*, yr hwn, trwy ddirywio, sydd yn y diwedd yn myned yn anferthlun o hono ei hun. Mewn Catholiciaeth, yn gyffredin, cymmerir y cyfangorff oll i mewn fel cylch gweithgarwch yr ysbryd crefyddol, yr hwn, fel derbynydd, sydd yn brofiadol o'r gweithgarwch hwnw, ac fel offeryn yn ei gynnyrchu. Dirywia mewn tair ffordd:—1. Trwy daflu yr egwyddor i'r tu cefn mewn cymhariaeth i'w deiliad; rhoddi lle mwy arbenig i'r eglwys nag i'r Pen, sef Crist. 2. Trwy synio am y cyfan mor ddansoddol fel ag i golli golwg, i raddau mwy neu lai, ar y gwahanol aelodau yn bersonol. 3. Trwy ymorphwysiad mewn tawelwch gau gyda golwg ar gynnydd a gwelliant—ymfoddioni yn y cyflwr presennol. Er hyn oll, nid yw y tair ffordd yma o ddirywiad byth yn gwbl ar wahân:—

1. Nid yw y gyntaf o angenrheidrwydd, o'r hyn lleiaf, yn gynnwysedig mewn ystyried yr eglwys fel y cyfrwng neu y moddion i godiad, cynnydd, a pharhâd y bywyd ysbrydol mewn personau unigol, megys mammaeth yn magu ei phlant. Y mae yn ddiau fod yn hyn wirionedd; a dechreu y camsyniad ydyw, edrych ar waith Crist fel yn tarddu yn gwbl a hollol o waith yr eglwys. O synied felly, nid oes gwahaniaeth i'w wneyd rhwng hereticiaid neu wrthgilwyr drygionus, a'r rhai hyny a ymawyddant am fyned heibio i safon gyffredin yr eglwys gyda golwg ar drefn ac athrawiaeth, gan ymddyrchafu at yr hyn sydd berffeithiach; y rhai a fynent chwilio i mewn i, a beirniadu y safon bresennol (efallai gyda sel fyrbwyll ac anghymmedrol, yn tarddu oddi ar annibyniaeth eu meddwl)—ond nid ymosod ar ddim o bynciau sylfaenol yr eglwys o ran ei chyfansoddiad neu ei hathrawiaeth, eithr, os yn canfod ffaeleddau penodol, yn ymdrechu eu symmud ymaith. Neu, dichon na byddai hyn ond gwaith Cristionogion wedi cyrhaedd gradd o aeddfedrwydd yn amcanu hôni math o annibyniaeth, a chyda golwg ar y naill beth neu y llall, yn cynnyg ymwrthod i raddau â defod sefydlog yr eglwys—encilio oddi wrth ffurf gyffredin Eglwys Crist, fel yn anmherffaith, at Grist ei hun, yr hwn ydyw y perffaith; ac er mwyn sancteiddrwydd, yn dadleu dros yni ac ymdrech adnewyddol tuag at wellhâd pellach. Po fwyaf y bydd yr eglwys yn lluddias hyn fel peth cwbl gamsyniol ac anaddas, a pho fwyaf ei hymdrech i glirio ei hun oddi wrth yr ysbryd hwn, trwy esgymuno y cyfryw ag a'i coledda, mwyaf oll yr ymddengys fel wedi myned i ollwng dros gof a gwadu *ei Phen*. Ffyna yr anmhriodoldeb hwn i raddau helaethach ac yn fwy diattal bob amser pan y mae yr eglwys yn ymffurfio yn un trefniant cyfyng, a phryd y bydd yr awdurdodau eglwysig yn dra awyddus am fynu eu hewyllys eu hunain, a thrwy gyfrwng mwyafrif o rai yn y llywodraeth, neu drïawdurdod unbenaethol, yn llwyddo i gyrhaedd hyny. Pan y daw yr eglwys i fod yn unbenol, lle nad oes ond un yn unig wedi ei wisgo âg awdurdod, y mae y perygl yn fwy nag un amser. Y pryd hwnw, daw yr unig lywydd i sefyll yn y cymmeriad o gynnrychiolydd Crist; ac er mai yn enw Crist o ran y ffurf y cyflawnir pob peth, moddion i ddwyn oddi amgylch yr hyn a fyn y penaeth sydd yn llywodraethu wrth ei ewyllys ei hun yw ei enw Ef. Y mae yn hysbys i bawb fod Catholiciaeth y canolocsoedd wedi dyfod i hyn yma.

Y mae y dirywiad yma ar Gatholiciaeth yn gyfryw ag nas gall fod â'i wreiddyn mewn dim ond yn ngwaith yr eglwys yn anghofio ac yn gwadu ei thuedd wastadol ei hunan at bechod a chyfeiliornad—ei bod yn ei gwneuthur ei hunan

Digitized by Google

yn ogyfuwch â Christ o ran sancteiddrwydd a rhyddid oddi wrth bob camsyniad; ac fel hyn, yn gwneuthur yr hyn sydd naturiol yn sanctaidd a phur. Dyma yr elfen Belagiaidd a gartrefa yn wastadol mewn Catholiciaeth gau, ac a arweinia yn uniongyrchol i wneuthur dynion megys duwiau. Oddi wrth hyn y tardd dynaddoliaeth, a gweddiau ar Mair a seintiau, yr hyn sydd yn dileu addoliad Crist, a phaganiaeth mewn ffurf Gristionogol yn dychwel i'r eglwys. O'r diwedd, y mae Mair yn cymmeryd lle yr Arglwydd Iesu fel y gyfryngwraig briodol, gan symmud y Duw-ddyn yn Nghrist o'i le ei hun fel y gallu cyfryngol parhäus; ie, i ryw radd, yn cael ei gosod *uwch law* iddo, âg awdurdod ganddi arno, yn rhoddi gorchymynion a rheolau iddo, megys mam gyda'i phlentyn; ac yn y pen draw, fel mam Duw, dyrchefir hi nes cael ei hystyried ar yr un tir a Duw ei hun, ac uwch law bod mewn angen am iachawdwriaeth. Ni ystyrir ei bod hi yn cael ei sancteiddio trwy y nerth a'r gallu adnewyddol mewn iawn sydd yn cyrhaedd yn ddieithrad at, ac yn cymmeryd i mewn, y ddynoliaeth yn mhob man ac ar bob amser—ie a'r amseroedd a aethant heibio—ac mewn modd neilldiol yn cael ei chymhwyso i ymddwyn yn ddihalog ar Fab Duw. Ond edrychir arni fel wedi dyfod i'r byd yn eddiannol ar bob purdeb, yn gwbl rydd oddi wrth lygredd a ffaeledd cyffredin y natur ddynol; ac am hyny, yn yr ystyr yma, yn ogyfuwch a'r Duw-ddyn; ie, yn rhagori arno, yn gymmaint ag y gwneir i'w beichiogiad pur a sanctaidd arno ef ddibynu ar ei chyfansoddiad a'i chyflwr hi. Eithafnod llygredigaeth Catholiciaeth ydyw dyrchafu yr haeriad am feichogiad (goddefol) *dihalog* Mair i fod yn athrawiaeth neu egwyddor sylfaenol yn yr eglwys. Gallwn ddywedyd am hon, ei bod yn wir yn deilwng o Jesuitiaeth—yr hon, er yn arfer yr enw Iesu, sydd er hyny mewn gwirioned yn ei wadu, ac yn ceisio dadymchwel ei awdurdod. Y mae yn arwyddlun tra effeithiol o'r cyfeiliornad hwnw sydd yn priodoli i'r offeiriadaeth allu "i wneuthur yr Arglwydd," ac yn y modd hwn yn gosod yr offeiriadaeth hono yn mhell uwch law yr Arglwydd. Gwir eu bod yn enwi enw Crist, ac yn defnyddio ei air yn y gwaith hwn; ond gwnant hyny fel pe bai ryw "swyngyfaredd sanctaidd." Felly, y Crist hwn a gynnyrchir gan yr eglwys trwy ei gweinidogion—yr Arglwydd gwneuthuredig hwn—efe yw y pen uwch law pob peth; y mae nerth a grym cadwedigol perffaith yn yr offrymiad o hono ef ynddo ei hun, a gwledd benaf yr eglwys yw gwyl y Crist yma.

2. Yr ydoedd y Catholiciaeth gau hwn, a'i amlygai ei hun yn y modd yma trwy roddi Crist o'r tu cefn i'r eglwys, neu ei osod allan fel yn gwneuthur iawn er achubiaeth dyn *yn awr*, yn hytrach nag fel *wedi ei roddi* pan yn y cnawd, yn dylanwadu gyda hyny yn yr *ail ddull* a nodwyd uchod; sef, trwy *syniad am y cyfan mor ddansoddol* (*abstractly*) fel ag i golli golwg ar yr aelodau yn bersonol, neu eu gwthio hwy a'u rhagorfreintiau i'r tu cefn. Y cyfan, y corff cyffredinol oedd i fod yn bob peth, a gwneyd pob peth. Yr eglwys, fel sefydliad, neu yr eglwys yn ei sefydliadau a'i threfniadau allanol, yn enwedig y sacramentau, yn nghyd â'i deiliaid, sef yr offeiriaid, ydyw y cyfangorff hwn. Yma, yr eglwys yn briodol—sylwedd a hanfod yr eglwys—ydyw yr offeiriadaeth. I'r offeiriadaeth y perthyn gweithredu. Y mae i'r sacramentau, fel gweithredoedd allanol, rinwedd achubol; a chyda'r gweithredoedd hyn a elwir yn sacramentaidd, fel moddion, yr offeiriadaeth yw unig gyfrwng iachawdwriaeth. Y maent yn gweithredu yn effeithiol yn ngrym dylanwad eu gweinyddiad. Y mae person yn nghymundeb yr eglwys yn profi o'r dylanwad effeithiol hwn arno, pa fath bynag fydd ansawdd fewnol ei feddwl a'i deimlad. Nid yw cyfraniad o ras i ddyn yn dibynu o gwbl ar fod ei feddwl ef mewn iawn deimlad o'i angen am dano. Perthyna i weithredoedd yr offeiriaid bob amser ddylanwad achubol goruchnaturiol, os na bydd pechod marwol heb edifarhau am dano, a'i gyffesu, a gollyngdod offeiriadol heb ei gyhoeddi am y trosedd, yn attal hyny.

Ond tra y mae personoliaeth yr aelodau y mae iddynt ran o freintiau yr eglwys yn ymgolli mewn goddefoldeb llwyr yn eu cyssylltiad uchod â chyfryngdod yr offeiriadaeth, y mae er hyny yn hollol i'r gwrthwyneb o ran eu perthynas â gras Duw ei hunan: yn y berthynas hon, nodweddir hwy gan weithgarwch bywiog, ond y cyfryw weithgarwch ag sydd yn ddinystr hollol i burdeb rhadlawn y gras. Y mae wedi ei gyssylltu â'r drychfeddwl o deilyngdod. Yn lle rhodio yn deilwng o'r efengyl, fel y mae hyny yn briodol ffrwyth y dylanwadau dwyfol a grasol ar y galon, ac yn amcan rhad-roddiad y gras, cyfyd y syniad o wobr, mewn ystyr deilfol ac allanol. Yn lle plentyn, yn ewyllysgar gyflwyno ei fywyd yn ngrym cymhelliad y cariad dwyfol—plentyn, trwy breswyliad Crist ynddo, sydd yn fwyfwy ymwybodol ei fod yn rhyngu bodd Duw, ac yn y diwedd yn dyfod yn gwbl gymhwys i lawn fwynhâd o gariad Duw—yn lle hyn, yr ydym yn cael gwas, yn ennill ei ddedwyddwch yn ol fel y cyflawna ei ddyledswydd; a'r cwbl yn rhinwedd yr hyn a roddwyd ac a roddir eto iddo gan yr eglwys trwy ei sacramentau, o fedydd yn y blaen, trwy gonffirmasiwn, rhydd-ollyngdod maddeuol, a chymundeb, hyd yr eneiniad diweddaf. Ac eto, y mae y person a wneir yn haeddiannol gan yr eglwys bob amser *o fewn cylch ei hawdurdod hi*, ac mewn cwbl ymddibyniad arni. Rhaid iddi hi wneuthur cymmod dros a maddeu ei fynych a'i aml ffaeleddau. Ac er y symmudir ymaith yr euogrwydd damniol sydd yn fforffedu y nefoedd, ac yr agorir drachefn o'i flaen ffordd iachawdwriaeth—er hyny, dysgwylir iddo ef, trwy fyned dan gospedigaethau tymmorol, i roddi boddlonrwydd i'r eglwys, fel y blaid y troseddwyd yn ei herbyn. Nid yw wedi cyflawnu y cyfan chwaith y pryd hyny. Y mae yn cael ei erlyn hyd yn oed i'r bywyd ar ol hwn, ac yno ei ddarostwng i boenau y purdan. Yn nwylaw yr eglwys, ac yn ei dwylaw hi yn unig, y mae moddion ei ryddhâd y pryd hwnw hefyd. Y mae ganddi aberth yr offeren, sydd yn ei gyrhaedd gydag effeithiolrwydd hyd yn oed i'r byd hwnw. Ac y mae ganddi *ystôr o haeddiant*, sydd yn gwrthbwyso, ac hyd yn oed yn gorbwyso, yr holl gospau hyn, pa mor luosog bynag y byddont. O herwydd, heb law haeddiant Crist, y mae ganddi haeddiant a theilyngdod "mam Duw," a'r holl saint. Dyoddefodd rhai o'r diweddaf, megys y merthyron, fwy nag yr oedd eu pechodau yn ei ofyn; cyflawnodd ereill ragor o weithredoedd da nag oedd yn ddyledus oddi wrthynt: nid yn unig fe ddarfu iddynt gwblhau yr hyn a orchymynid gan Dduw, ond cymmerasant arnynt eu hunain wneuthur yr hyn nad oedd efe ond yn unig yn annog iddo, gan adael at eu rhydd-ewyllys eu hunain a gyflawnent y dyledswyddau hyny, ai ni wnaent. O'r math

Digitized by Google

diweddaf hwn y mae y gweithredoedd hyny a wisgwyd gan yr eglwys â'r nodwedd y tybir yn awr eu bod yn ei feddu: rai o honynt, yn ngwyneb perthynasau ac o dan amgylchiadau neillduol, yn ymddangos fel yn ofynedig gan Dduw, ac felly yn rhwymedig arnom; megys ymattal oddi wrth briodas, neu ynte, os yn briod, ymgadw rhag arfer hawlfreintiau y sefyllfa hono; ymwrthod yn gwbl â meddiannau, a da, a'r cyffelyb: ond ereill, fodd bynag, pan y mae yr ymddarostyngiad a roddir i'r awdurdodau eglwysig, trwy eu cyflawnu, yn gyfryw ag nad ydyw yn ddyledus ond i ddwyfol awdurdod yn unig—gweithredoedd, o ufudd-dod diammodol gyda golwg ar sefydliadau heb fod o osodiad dwyfol, ond a sefydlwyd gan ddynion wrth eu hewyllys eu hunain. Fel hyn, gyda golwg ar y gyfundrefn fynachaidd, yr hon a ymdrech am fyned tu hwnt i'r hyn a ofynir gan Dduw, a theilyngu mwy na'r hyn sydd ofynol er iachawdwriaeth dyn ei hunan. Yn y wedd hon, gellir casglu yn nghyd haeddiannau, nes bod gweddill y gellir ei droi drosodd at gyfrif y neb a fyddo yn syrthio yn fyr, fel ag i wneyd i fyny yr hyn sydd yn eisieu ganddynt, a'u rhyddhau oddi wrth gosp yn y byd hwn a'r nesaf. Rhoddir pob awdurdod a chyflawn reolaeth ar y drysorfa hon o haeddiannau i ben gweledig yr eglwys. O ganlyniad, y pab, nid yn unig yn rhinwedd ei sefyllfa fel pen yr offeiriadaeth—ïe, yn hytrach, fel ffynnonell pob cymhwysder i'r swydd offeiriadol, a chyflawnder pob gras a berthyn i'r eglwys—ond hefyd yn rhinwedd y llawn awdurdod a'r rheolaeth yma ar y drysorfa ddihysbydd hon, ydyw y person mewn cymundeb â'r hwn a thrwy ewyllys yr hwn yn unig y gall dynion gyrhaedd iachawdwriaeth, neu dderbyn ymwared oddi wrth y rhwystrau hyny sydd ar eu ffordd i'w chyrhaedd.

Fel hyn, tra y mae aelodaeth eglwysig bersonol wedi ei diraddio gan Gatholiciaeth lygredig, fel nad yw yr holl aelodau ond un corff cyffredinol, anmhersonol, wedi ei chwanegu at a'i osod i ddibynu ar, yr offeiriadaeth, a phob aelod, o ran ei gymmeriad fel person unigol, yn cael ei golli yn nghorff y cyfanswm cyffredinol—er hyn i gyd, ymwthia *personoliaeth* drachefn i'r golwg. Yma, fe gydgyferfydd holl ogoniant, gwirionedd, a sancteiddrwydd yr eglwys mewn un person wedi ei wisgo âg awdurdod a gallu unbenaethol. Yr hyn a gadarnheir fel gwirionedd ganddo ef, rhaid ei fod yn wir. Pa beth bynag a orchymyna efe, rhaid ei wneuthur. Yr hyn a gyfrenir ganddo ef, y mae yn hwnw rinwedd i achub. Gyda'i ganiatâd ef, rhed ffrydiau gras yn groew a helaeth; a'i ewyllys da ef sydd yn penodi amser, mesur, a thelerau cyfranogiad o ffrydiau yr iachawdwriaeth.

Y mae y gwrthodiad a'r gwadiad yma o wir werth personoliaeth yn ngwir aelodau yr Eglwys Gristionogol—fel yr aelod sydd yn dylanwadu ar ac yn derbyn dylanwad oddi wrth, yr eglwys oll, gan gadw ei hunan-benderfyniad yn nghanol nerth bywyd cyffredin yr eglwys;—y mae cadw o'r golwg yn y modd yma Grist fel yr unig, yr hollbresennol, a'r bywiol Ben, yr hwn, bob amser, trwy ei Ysbryd yn ordinhadau yr eglwys, sydd yn ei ddadguddio ei hun i'r personau unigol, yr un modd ag i'r oll;—y mae hyn yn arwain i dyb gyfeiliornus ac afresymol am bersonoliaeth: sef—1. I wneuthur math o dduw o'r *pab;* yr hwn, yn ddiau, megys o angenrheidrwydd hanesyddol, sydd wedi dyfod yn ben y lwysbenogaeth (*hierarchy*), ond yr hwn nad yw ei honiad o bob awdurdod a gallu tymmorol ac ysbrydol ond y trawsfeddianniad gwrthunaf a mwyaf anferth; a phenderfyna fel y mae yn gweled yn oreu mewn perthynas i wirionedd, sancteiddrwydd, ac iachawdwriaeth. 2. Arweinia hefyd i ddyrchafiad anghristionogol ar yr offeiriaid yn bersonol, fel y cyfryw—ar *ogwydd meddwl a difrifoldeb* pa rai y tybir fod moddion gras yn dibynu am eu heffeithiolrwydd a'u rhinwedd; y rhai, â gair, a allant beri fod corff Crist yr Arglwydd yn bresennol yn y sacrament; a thrwy yr aberth a gyflwynant, ddwyn cyflawnder diball o ras; a thrwy y gollyngdod maddeuol a ganiateir neu a ttelir ganddynt, agor neu gau y nefoedd. Ac yn gymmaint a bod y dylanwad a'r awdurdod crefyddol uchaf fel hyn yn cael ei briodoli i bersonau sydd eu hunain yn fynych yn drwyadl amddifaid o'r hyn sydd yn gwneyd i fyny wir ragoriaethau crefydd, y mae y cyfan yn y diwedd yn myned yn ddim amgen na gweithred bersonol. Y mae dyledswyddau uchaf yr offeiriadaeth, y gwasanaeth ar ran eneidiau, yn dyfod yn ffynnonell elw i'r offeiriaid; a gallu ac awdurdod goruchel y pab—ei olygiaeth ar drysorfa yr eglwys, yr hon y dylesid ei defnyddio yn well, yn dyfod yn ffynnonell cyllid a golud daiarol iddo ef a'i isafiaid. 3. Ond fel y mae yr ymadawiad cyntaf yn arwain i'r ail—megys nas gellir darostwng a difodi y personoliaeth hwnw, o'r hwn, fel elfen bersonol, y deillia pob bywyd yn yr eglwys, heb drwy hyny ysbeilio y gwahanol aelodau unigol o'u rhyddid—felly hefyd, y mae yr ail gyfeiliornad hwn yn achlysuro adfeiliad pellach. Ac yma, yr ydym yn dyfod at y trydydd ffurf o gamymddygiad yr eglwys sydd yn peri i Gatholiciaeth ddirywio yn barhäus: sef, *goddef iddi ei hunan ymfoddloni yn ei sefyllfa bresennol.* Yma, gweddus yw sylwi ar wahanol briodoleddau Catholiciaeth: cymmerer yr *ymledaenol*, yn gyntaf a phenaf. Erys y sel dros ymledaenu hyd yn oed yn nghanol y dirywiad. Ond am fod esgeulusdra a dibrisdod o'r aelodau yn eu cymmeriad personol bob amser yn nglŷn â'i thueddfryd at fod yn gyffredinol, deuai yr holl achos i fod yn ddim amgen na mater o faint neu swm. Nid oedd yr ymgais i helaethu teyrnas Mab Duw ar y ddaiar, mewn gwirionedd, yn y modd yma, ond trachwant rheibus am chwanegu at allu ac awdurdod y pab a'r offeiriadaeth. Yr unig amcan oedd, cynnull tyrfaoedd i'r eglwys, pa fath bynag a fyddai eu cymhwysder. Dyma fel yr oedd gydag efengyleiddiad yr ymherodraeth Rufeinig yn amser Cystenyn Fawr. Fel hyn yr ydoedd hefyd yn nychweliad y cenedloedd Germanaidd a Sclavonaidd, er nad oedd yno ddiffyg o ysbryd cenadol diledryw. Ond wedi i'r gallu hwnw ddyfod i feddiant o diriogaethau helaethach, decnreuwyd cyfeirio y sylw at sefydlogrwydd mewnol, ac ymgadarnhâd mewn awdurdod unbenaethol. Dros amser maith, ymdawelodd a pheidiodd yr awyddfryd am ymledaenu. Yn mhlith y mwyaf selog o'r urddau mynachaidd yn unig yr ymestynai y duedd hon hyd at froydd pellenig. Ond gyda golwg ar y gweddill, cyfyngent hwy eu hymdrechion yn fwy at y gwaith o geisio ennill drachefn y tir a gollasid, megys dychwelyd y Mahometiaid. Ond pan y cafwyd drws agored i ardaloedd newyddion—megys ar ddarganfyddiad y byd newydd—adnewyddwyd drachefn yr ymdrechiadau i gymhell y llwythau a'r cenedloedd, a'u cydgasglu trwy orfodaeth i mewn i gorlan yr eglwys. Pa fodd

Digitized by Google

bynag, pan y bu rhwygiad mawr yn yr eglwys —a barhäai i'w galw ei hun yn gatholig, ond, yn fwy priodol, yr ymherodraeth Babaidd—trwy y Diwygiad, ymgynghorid a llafurid yn selog i gadw meddiant yn yr ymddangosiad o gatholigrwydd, ac adnewyddid gyda brwdfrydedd mawr yr ymdrech i ennill y lluaws o'r werin bobl. Goddefid a chyfreithlonid unrhyw foddion, os gellid i ryw fesur gyrhaedd y dyben; megys bedyddio plant paganiaid, pa fodd bynag yr ennillwyd hwy i hyny; a lledgyffurfiaeth a chymmodiad â defodau paganaidd—arfer tra adnabyddus y cenadon Jesuitaidd yn China a manau ereill. Y mae yn wir ddarfod i'r ymddygiadau hyn achosi gwrthweithiad yn ardaloedd y pab; ond tarddai oddi ar awydd am drefnusrwydd yn fwy nag oddi ar sel bur dros anrhydedd teyrnas Dduw. Nid sel bur a gwirioneddol dros sanctteiddrwydd yn yr eglwys sydd i'w ystyried fel yn rhoddi cyfrif am ei gwaith yn condemnio y llwybr uchod o weithredu; ond yn hytrach, ei hymgais i gadw i fyny ymddangosiadau, a'i hawydd i helaethu ei therfynau.

Os gwyrdroir yn y ffordd hon yr elfen *ymledaenol* mewn Catholigrwydd, rhaid i'r elfen arall, sef y *fewnburol*, ddyoddef mewn canlyniad i hyny. Y mae yn wir fod gallu a nerth Cristionogaeth i oleuo a sancteiddio yn ei amlygu ei hun hyd yn oed yn yr amseroedd dirywiedig y soniwyd am danynt. Ffynai dysgyblaeth fywiog a manwl, addysgiaeth yn egwyddorion moesol Cristionogaeth a gwareiddiad, parch i gyfreithiau, a gofal am y gwyddorion a'r celfyddydau, yn enwedig yn yr hanner cyntaf o'r cyfnod canoloesol. Ond aeth y ddysgyblaeth ddeddfol yn faich a gorthrwm; ac hyd yn oed yn y cyfnod hwn, yn enwedig tua'r diwedd, cynnyddai y dirywiad gyda brys. Collodd egwyddorion Cristionogaeth lawer o ran eu dylanwad puraf ar y bywyd, a daeth y fuchedd mewn rhan yn fwy o ffug sancteiddrwydd oddi allan, ac mewn rhan yn fwy o ymattaliad nacaol. Deuai y diweddaf i'r amlwg mewn ymwrthod â, a dattod cyssylltiadau a pherthynasau bywyd, yr hyn a agorai y ffordd i'r holl lygredigaethau mwy coethedig, neu mwy aflan ac anweddaidd, megys cybyddod, uchelgais, penrhyddid, a thrachwant, yn lle sancteiddio trefniadau a pherthynasau bywyd dyn i ddwyn oddi amgylch yr amcanion goruchel a berthyn iddynt. Yn unol â hyn, er anghraifft, y mae bywyd dibriod yn myned yn lle diweirdeb a sancteiddrwydd; ac yn hytrach nag ymdrechu i ddylanwadu ar creill er eu troi a'u cyfnewid, y mae y rhai a elwir yn sanctaidd yn edrych i lawr ar bawb arall o'r safle uchel mewn rhinwedd y tybiant hwy eu bod yn sefyll arno. Y ffordd yr amlygai y nodwedd cyntaf ei hun ydoedd trwy beri fod yr holl fywyd yn gynnwysedig o ddefnyddio yn allanol foddion gras, megys y sacrament er esampl, a hyny heb ystyried, cydnabod, na gofalu am y nerth adnewyddol ar y dyn oddi mewn y rhaid iddo weithredu trwyddynt. Fel hyn, y mae priodas yn sacrament, ond i'r gwŷr llëyg yn unig, fel y coder aelodau o'r newydd i'r eglwys. Tybir fod yr aelodau eglwysig perffaith, yr offeiriaid a'r mynachod, wedi eu dyrchafu goruwch hyny. Yn y bedydd, cyssegrir a sancteiddir plant Cristionogion. Ond yn hytrach na'i ystyried fel arwyddlun o beth arall, neu yn ddyfodiad i mewn i gymdeithas yr eglwys a chymundeb â Duw—yr hwn gymundeb sydd i'w fagu a'i feithrin trwy addysgiaeth Gristionogol—ystyrir bedydd fel ammod o iachawdwriaeth, a chymhwysder i dderbyn y sacramentau ereill. Trwy ryw gyfaredd yn y bedydd, cyssegrir holl drefniadau y bywyd dynol i wasanaeth a gogoniant yr eglwys Nid yr amcan o gwbl ydyw cyssegru y bywyd mewnol i wasanaethu teyrnas Dduw. Cymmerir yr awdurdodau gwladol a chyfundrefnau o addysg i wasanaethu yr eglwys; ac, mor bell ag yr ymgadwant yn gwbl ddibynol arni, gan ymostwng gyda phob ufudd-dod i wasanaethu ei hamcanion hi, ystyrir hwy fel yn gyssegredig ac mewn cyflwr o ras. Ond, er anghraifft, pan y bydd i'r tywysog ddwyn yn mlaen weinyddiadau ei lywodraeth yn annibynol ar yr offeiriadaeth, bwrir ymaith y tywysog fel un sydd yn cael ei awdurdod yn a thrwy ewyllys y bobl; ac yn y modd yma, dadymchwelir sylfaen y gymdeithas wladol. Ond gyda golwg ar foddion addysg a diwylliant meddyliol, arddangosir a gweinyddir y fath ormes a thrawslywodraeth yn narostyngiad y rhai hyn i fod yn wasanaethgar i'r lwysbenogaeth, nes peri gwrthweithiad—rhan arbenig o effeithiau yr hwn yw, gwneyd yr addysg o'r braidd yn drwyadl fydol; a thrwy hòni a dadgan ar gyhoedd ddau fath o wirionedd (y r athronyddol a'r duwinyddol), a thrwy ysgafnder gwagsaw yn myned dan sail pob peth, y mae yn syrthio yn fyr o gyrhaedd yr hyn ydyw amcan uchaf addysg. Canfyddir hyn tua diwedd y canoloesoedd. Yn holl hanes Catholiciaeth ddirywiedig, canfyddir, er y llygredd, beth duwiolfryddedd, difrifwch moesol, a sel, gyda lluaws o weithredoedd a darddant oddi ar gariad. Ond y mae hyn i'w briodoli i dri o achosion:—Yn gyntaf, Yr hyn sydd yn aros ac eto yn gweithredu o elfenau ac ysbryd gwir Catholiciaeth, gair Duw, a gweddillion traddodiadau iachus ac uniongred. Yn ail, Yr hyn a gyflawnir mewn ysbryd i raddau yn ddeddfol (y mynachaidd), a nacaol, wedi ei lygru â'r dybiaeth yn nghylch ei deilyngdod. Yn drydydd, ac yn benaf oll, Dylanwad Protestaniaeth efengylaidd yn cyffroi ac yn cynnal cydymgais am y flaenoriaeth mewn daioni; o herwydd pa le bynag y mae Catholiciaeth yn rhydd oddi wrth ddylanwad y cymhelliad hwn, yno y mae yn sefyll yn is mewn moesau, ac yn ei defodau crefyddol yn llawer tebycach i baganiaeth.

Lle y mae egwyddorion ymledaenol a mewnburol Catholiciaeth yn myned yn ddarostyngedig i'r dadfeiliad hwn, nis gall fod yno wir ddadblygiad — gwir a bywiol ymestyniad at berffeithrwydd. Y mae y tyb gwag o fod eisoes yn berffaith—o fod y pryd hwn yn gynllun difai o deyrnas Dduw—y mae hyn yn llethu pob cyffro ac awyddfryd am gyrchu at wir ragoriaeth. Unig waith a dyledswydd y cyfundeb a synia fel hyn yw cadw yn ddiogel, cynnal i fyny, a chadarnhau yr athrawiaethau, y trefniadau, a'r defodau sydd yn awr mewn bri—yn gyntaf oll, y gyfundrefn lwysbenaethol, ac wedi hyny, pob peth arall fel yn iswasanaethgar iddi hi. Nis gall fod dan yr amgylchiadau hyn ddim gwir ymdrech i symmud ymaith pa beth bynag sydd yn attal cyfranogiad pellach o'r gwirionedd gwreiddiol. O herwydd y camsyniad Pelagiaidd am y ddynoliaeth bechadurus hono a ymgymmysga â dadblygiad cynnyddol Cristionogaeth, fel mai y ffurf gyntefig ar fywyd a gwirionedd yw yr unig un cwbl gywir a phur ar y cyfrif hwn, y mae beirniadaeth wir fanwl er gwahanu a symmud i ffordd y cyfeiliornadau a allant fod wedi ymlusgo i mewn, ac adgynnyrchu

Digitized by Google

Cristionogaeth yn ei ffurf buraf, a'i chyfuno yn un corff cyflawn mewn meddwl a gweithred, yn beth anmhosibl. Pa le bynag y cyffroid y cyfryw feirniadaeth, yr oedd yr ysbryd yn cael ei lethu yn dra buan; a'i gadw a gafodd i raddau pell mewn dystawrwydd, nes o'r diwedd, yn amser y Diwygiad, iddo weithredu i bwrpas. Y pryd hyny, daliwyd o flaen Catholiciaeth, yn ei diryw-iad adfeiliedig, y fath ddrych o Gristionogaeth bur, gyntefig, fel nas gallai ond y gwargaled a'r hwn a lygad-dynwyd gan bechod beidio ei chan-fod. Bu hyn yn foddion i alw allan rai ymdrechion am ddiwygiad, trwy symmud ymaith, neu yn hytrach guddio o'r golwg, y beiau mwyaf anes-gusodol; ac yn y modd yma wneuthur y cyfan fel y tŷ wedi ei ysgubo a'i drefnu, drachefn i fod yn achlos i ysbrydion seithwaeth. Nis gallai fod yn wahanol. Trwy ei drochi yn ngwaed y tyst-ion, yr oedd yr offeiriadaeth neu y Babaeth wedi lladd y teimlad o wirionedd, a'r pryd hwn yn fwy nag un amser; ac am ganrifoedd i dwyll a hoced yn unig yr ydoedd yn ddyledus am ei hanfodiad. Trwy gynllwyn dichellgar i dwyllo, trwy gam-ddeongli hen goflyfrau a'u gorfodi i dystiolaethu celwydd, yr oeddynt hyd yn oed wedi ymdrechu peri i ddynion gredu eu bod yn canfod Crist-ionogaeth yr oesoedd cyntefig yn y Babaeth, gyda'i holl awdurdod traws a'i gallu anghyflawn. Yn y modd yma, yn groes hollol i reol Vincentius, daeth i mewn luaws o gyfnewidiadau, megys trwy chwanegu yr hyn oedd ddyeithr ac o natur wahanol—heb fod mewn un modd yn gwneyd i fyny gyfran o'r hedyn gwreiddiol a fwriadwyd i egino a thyfu—a hefyd trwy dynu oddi wrth a chwanegu at. Yr oedd cyfnewidiad parhaus fel hyn yn cymmeryd lle, ond nid oedd cynnydd na gwelliant. A chan fod y newyddbethau at-todedig, a'r cyfnewidiadau hyn er gwaeth, yn angenrheidiol i'r lwysbenogaeth er ei gynnaliaeth, ymlynir wrthynt gyda'r cyndynrwydd mwyaf yn erbyn pob diwygiad. Yma, gan hyny, y mae yr hyn sydd yn cyfansoddi gwir Catholiciaeth yn gwahaniaethu mewn dau beth:—1. Nid yw gwir-ionedd a grym y gyfundrefn Gristionogol fel cyf-angorff o'r dechreu i waered yn cael eu deall a'u hiawn amgyffred, ac felly, yn awr, nid oes gan-ddynt afael priodol yn y gwreiddiol. 2. Y mae pob ymgais at ragori ar y cyrhaeddiadau pres-cunol yn cael ei rwystro.

Yn wrthwyneb i hyn, fe saif Cristionogion *efengylaidd*:—1af. Trwy eu cenadaethau cartrefol a thramor y maent yn dwyn i weithrediad y duedd a amcana gyrhaedd hyd at gyffredinol-rwydd, gan ymdrechu cael holl ddynolryw o fewn cyrhaedd argyhoeddiad bywiol, a gwybod-aeth achubol o Gristionogaeth. 2il. Mynant beri fod pob meddwl yn cyflawnu y swyddogaethau priodol iddo a dyledus arno yn ngoleuni gwir-ionedd Cristionogaeth, a holl gyssylltiadau a gorchwylion bywyd wedi eu sancteiddio â'i hysbryd. 3ydd. Gan ymgynghori gyda phob difrifwch â'r cynllun gwreiddiol, ac yn cael eu harwain gan ysbryd Crist fel y mae yn preswylio yn y gair pur ysbrydoledig, ac yn hwnw yn eglur amlygu ei ailu rhinweddol, y maent yn cydredeg â holl ffrwd traddodiad; a chan wahaniaethu yr hyn sydd ddadblygiad gwirioneddol oddi wrth y llygredig, y gau, a'r ammheus, ac yn chwan-egol trwy drwytho pob meddwl a gweithred yn egwyddorion Cristionogaeth, ymdrechant ddyfod i afael â'r hyn sydd wir ynddo ei hun. Yn y presennol, y maent yn canfod pob peth yn ffafr-iol i'r cynnydd hwn, a chyda bywiogrwydd mwy gweithgar, ymestynant at y perffeithrwydd uwch sydd yn y dyfodol. Y Gristionogaeth efengylaidd sydd yn gweithredu yn y wedd yma, *y mae hi, yn mhob ystyr, yn dangos pa beth ydyw gwir Catholic-iaeth*, a hyny yn y ffaith eglur a diammheuol ei bod yn esgor ar Brotestaniaeth. O blegid y mae Protestaniaeth yn dwyn i'r golwg y person-oliaeth hwnw sydd yn cael ei wneuthur yn rhydd yn Nghrist—yn dyfod yn rhydd trwy gwbl ym-ostyngiad i Grist, ac yn cael ei amlygu hefyd fel y dibyna yn gwbl arno ei hun, ac y cyd-weithia mewn rhyddid â'r corff oll. Ystyria mai hwn ydyw gwir ddeiliad y bywyd Cristionogol o'r dechreu i'r diwedd, gan gadw yn gyflawn ei ddibyniaeth ar yr Eglwys fel y sefydliad sydd yn estyn allan ac yn cyflwyno iddo foddion o ras. Yma, ac yma yn unig, yr ymddengys yn eu cymmeriad priodol eu hunain wir ansoddau a phriodoleddau Catholiciaeth; nodau pa rai ydyw, cynnydd a pherffeithiad mewn gwybodaeth o'r gwirionedd a sancteiddrwydd, a lledaeniad Crist-ionogaeth gan bob person unigol pa le bynag y bydd.

Gyda Chatholiciaeth yn ei *dirywiad* y mae yn wahanol, a dyma fel y saif:—1. Ysgrythyrau Sanctaidd yr apostolion a'r prophwydi,—nid, yn wir, heb chwanegu atynt anmhuredd Apocrypha yr Hen Destament; ac yn lle y testyn gwreidd-iol, dygir i mewn gyfleithiad yr Eglwys, y *Vulgate*, a hyd yn oed hwnw mewn ffurf anniwyg-iedig. 2. Y ffydd gyffesion cyffredinol; gyda deongliadau a sylwadau cyfeiriadol tadau yr eg-lwys fel profion. Nid yw y ddau hyn chwaith mewn perthynas briodol â'u gilydd. Nid ystyrir traddodiadau yn ddarostyngedig i'r Ysgrythyrau Sanctaidd, ac yn agored i gael eu diwygio yn bar-haus mewn canlyniad i waith ysbryd Crist trwy y gair yn goleuo yr ymofynydd cywir am y gwir-ionedd, ac yn ei gymhwyso i brofi pa beth bynag a lefarwyd neu a lefarir. Edrychir arnynt fel yn ogyfuwch â'r Ysgrythyr, a meddwl ac ystyr yr Ysgrythyr i'w benderfynu yn gwbl ganddynt. Yn awr, nis gallwn gyda phriodoldeb gymhwyso y geiriau Cyffredinaeth a Chatholiciaeth, ond yn unig lle y gwelwn ymegniad difrifol a diledryw at iawn gyffredinolrwydd yn mhob ystyr. Ond yn ngwyneb yr hyn oll a ddywedwyd o'r blaen, anmhosibl, pa fodd bynag, yw ystyried Eglwys Rhufain â hawl ganddi i gael ei hystyried fel yr unig un gatholig. Nid ydyw hi amgen na'r Eg-lwys Babaidd, neu, o blegid rhai elfenau Catholig sydd eto heb golli o honi, Eglwys Gatholig Rhufain. Y mae yr un peth yn wirionedd am Eglwys Groeg, neu y Ddwyreiniol, yn ei ham-rywiol ddosbarthiadau. Dechreuodd hon lesgäu yn nhymmor cyntaf ei dadblygiad, megys y darfu i Eglwys Rhufain yn yr ail.

Tra fel hyn yn bwrw golwg ar Gatholiciaeth ddiledryw, er ei iawn ddeall, gan ei gwahaniaethu oddi wrth y gau a'r llygredig, yr ydym yn gwel-ed fod yr un egwyddor yma yn treiddio trwy holl hanes yr eglwys. Yr hyn sydd yn gyfer-byniol ac yn cyfateb iddi yw Protestaniaeth; ac y mae yn ei dilyn. Y mae y naill yn cyflenwi ac yn perffeithio yr hyn sydd yn ddiffygiol yn y llall. A llefaru gyda manylrwydd, y mae yn anmhos-ibl i un eglwys neilldduol fod yn un Gatholig. Y mae yr Eglwys Gristionogol, yn y cyfanswm o honi, yn Gatholig. A chymmeryd i ystyriaeth y ddau brif ddosbarth i ba rai y mae yr Eglwys Gristionogol er yr unfed ganrif ar bymtheg wedi ei rhanu, gellir dyweyd fod y naill gan mwyaf yn dwyn nodau Catholiciaeth, a'r llall yn fwy neill-

Digitized by Google

duol o nodwedd Brotestanaidd. Ond, i'r graddau y mae y duedd Gatholig yn cael ei chwennych a chyrchu ati mewn neillduolrwydd, i'r graddau hyny y mae yn eglur fod yno ddirywiad mewn gwir Gatholiciaeth. Yr un modd, ar y llaw arall, am Brotestaniaeth; mae hithau yn myned yn fwy neu lai llygredig pan yn arddangos ac yn amlygu gormod o neillduolrwydd. Peth diweddar, mewn cymhariaeth, ydyw synied a llefaru am Gatholiciaeth fel egwyddor wrthgyferbyniol i Brotestaniaeth. Gwir i'r gair "Protestaniaeth" ddyfod i arferiad yn brysur yn amser y Diwygiad; ond at ddygwyddiad neillduol yn hanes y cyfnod hwnw y cafodd yn gyntaf oll ei gymhwyso; sef gwrthdystiad (*protest*) y blaid efengylaidd, yn Spire, yn y flwyddyn 1529. Gwel PABYDDIAETH; PROTEST; PROTESTANIAETH. — (*Herzog's Real Encyclopædia.*)

CYFFREDINOLWYR, [*Universalists*]: y bobl hyny ag sydd yn wrthwynebol i'r athrawiaeth o gospedigaeth dragwyddol yr annuwiolion, ac yn barnu y dygir pob dyn yn y diwedd i sancteiddrwydd a dedwyddwch, trwy eu gwneyd yn gyfranogion o'r bendithion a'r llesâd a ddeilliant trwy farwolaeth Crist. Coleddid y syniad neillduol a berthyna i'r Cyffredinolwyr, ac sydd hefyd wedi achlysuro yr enw y gelwir hwynt wrtho, gan Origen, yn y drydedd ganrif; ac mewn amseroedd diweddarach, gan y Chevalier Ramsay, Dr. Cheyne, Dr. Hartley, Lavater, a llawer ereill. Un o brif amddiffynwyr yr athrawiaeth ydoedd y Dr. Chauncy; ac yn debyg fel y canlyn y mae ei ddarnodiad ef o'r gyfundrefn:—

Dyben mawr ac eithaf trefn yr iachawdwriaeth ydyw, dedwyddwch holl ddynolryw: y mae hi yn graddol dueddu at, ac yn arwain i hyny; ac wedi y cwblheir y gyfundrefn, ni bydd yn ol o gyrhaedd yr amcan hwn. Trwy ei gweithrediad hi, fel ei dygir yn nlaen ac ei llywodraethir gan Fab Duw, tueddir a galluogir rhai, yn y fuchedd hon, i gynnyddu mewn rhinwedd—yr unig barotoad rhesymol i ddedwyddwch—i'r fath raddau, fel y cânt fyned i mewn i fwynhâd o hono yn y sefyllfa nesaf. Gyda golwg ar ereill, a brofasant yn anfeddyginiaethol yn ngwyneb y moddion a ddefnyddiwyd tuag atynt yn y sefyllfa bresennol, yn lle bod yn ddedwydd yn y nesaf, hwy a fyddant yn ofnadwy o druenus—nid i barhau felly yn wastadol, ond, fel y byddo iddynt gael eu hargyhoeddi o'u hynfydrwydd, a'u hadferu o ran eu meddwl i ansawdd ddaionus a rhinweddol. A hyn fydd effaith cosp ddyfodol ar lawer, pen draw pa un fydd eu hiachawdwriaeth yn y diwedd, wedi iddynt fel hyn gael eu cymhwyso iddi. A gall fod eto sefyllfaoedd ereill, cyn y perffeithir bwriad a chynllun Duw, ac y caiff dynolryw yn gyffredinol eu hadferu o'u anhwylderau moesol; ac felly eu cymhwyso ac yn y diwedd eu perffeithio mewn dedwyddwch tragwyddol. Ond pa mor luosog bynag ydyw y gwahanol sefyllfaoedd neu gyflyrau y gall rhai personau o'r hil ddynol fyned trwyddynt, bwriedir y cyfan i is-wasanaethu a bod yn foddion i ddwyn oddi amgylch y bwriad o ddedwyddwch cyffredinol: ac yn y diwedd, terfynant yn hyny; yn gymmaint ag na bydd i Fab Duw a Gwaredwr dynion roddi i fyny ei ymddiriedaeth i ddwylaw ei Dad—yr hwn a'i traddodes iddo—nes o'r diwedd sicrhau pob dyn yn y nefoedd, pan y bydd "Duw *oll yn oll*;" 1 *Cor.* xv. 28.

Mabwysiadwyd y tair erthygl a ganlyn, fel "Cyffes o'u Credo," gan gynnadledd gyffredinol o Gyffredinolwyr yn yr Unol Daleithiau, yn y flwyddyn 1803:—

"1. Credwn fod Ysgrythyrau Sanctaidd yr Hen Destament a'r Newydd yn cynnwys dadguddiad o gymmeriad Duw, ac o ddyledswyddau, achosion, angenion, a thynged olaf dynolryw.

"2. Credwn fod un Duw, natur yr hwn ydyw cariad, wedi ei ddadguddio mewn un Arglwydd Iesu Grist, trwy un Glân Ysbryd y Gras; yr hwn, yn y diwedd, a adfera holl deulu dyn i sancteiddrwydd a dedwyddwch.

"3. Credwn fod sancteiddrwydd a gwir ddedwyddwch yn anwahanol gyssylltiedig, ac y dylai credinwyr fod yn ofalus am gadw trefn, ac ymarfer gweithredoedd da; o herwydd y mae y pethau hyn yn dda a buddiol i ddynion."

Hòna y Cyffredinolwyr fod yr athrawiaeth o achubiaeth pawb oll wedi ei dysgu gan Grist a'i apostolion; a dyma ychydig o'u rhesymau dros y gyfundrefn hon:—

1. Bu Crist farw, nid dros nifer etholedig o'r hil ddynol yn unig, ond dros ddynolryw yn *gyffredinol*—pawb, pob dyn—dros y byd—yr *holl* fyd: *Rhuf.* v. 6—8; 1 *Pedr* iii. 18—20; *Ioan* iii. 16, 17; 1 *Ioan* ii. 2; *Heb.* ii. 9, &c. Os bu Crist farw dros bawb, onid llawer mwy rhesymol ydyw credu yr achubir pob dyn yn y diwedd na thybied y bydd y rhan fwyaf yn y diwedd yn golledig?

2. Bwriad Duw, mewn canlyniad, ac o herwydd marwolaeth ei Fab, ydyw, fod i ddynolryw yn gyffredinol, pob dyn, gael yn y diwedd eu hachub: *Rhuf.* v. 12—21. Yno, ystyrir Adda fel ffynnonell y dinystr a ddaeth ar ddynolryw yn gyffredinol; ac Iesu Grist, o'r ochr arall, fel ffynnonell iachawdwriaeth eglur hwn—fod yr ennill o du Crist yn rhagor-amlhau ac yn tra rhagori ar y golled o ochr Adda—a hyny i holl blant dynion: *Rhuf.* viii. 19—24. Sicrheir yma, ar un llaw, fod y creadur (*h. y.*, holl ddynolryw) wedi ei ddarostwng i oferedd; sef, i anmherffeithderau a thrallodion y bywyd marwol ac ofer yma ar y ddaiar. Ar y llaw arall, sicrheir yr un mor benderfynol am y creadur, neu ddynolryw yn gyffredinol, nad oeddynt yn ddarostyngedig i'r oferedd yma yn barhäus a hyd byth; ond o dan obaith, nid yn unig o gael eu gwared o'r darostyngiad anffodus hwn, ond hefyd o gael eu gosod mewn gogoniant yn y diwedd.

3. Dywedir fod Iesu Grist â phob cyflawnder wedi ei drysori ynddo gan y Tad, i'r dyben penodol hwn—fel y "cymmodai bob peth âg ef ei hun:" *Col.* i. 19, 20; ii. 9; *Eph.* i. 9, 10; iv. 10; 1 *Tim.* ii. 4.

4. Fel moddion i wneyd dynion yn addas i iachawdwriaeth, bydd i Dduw, yn gynt neu yn hwyrach, yn y sefyllfa bresennol neu mewn un ddyfodol, eu darostwng oll i fod yn ufudd ac ymostyngar i'w lywodraeth foesol. Ymddangosodd Crist fel y *dattodai* weithredoedd diafol (*Ioan* iii. 8); ac fel y "darostyngai bob peth (heb eithrad) iddo ei hun;" a hyny hefyd mewn ffordd o'u gwneyd *yn gyfiawn*:—"Megys trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer *yn gyfiawn*;" *Rhuf.* v. 19. Mae'n sicr fod y ddau gyfnod pan y bydd y freniniaeth gyfryngol yn nwylaw Iesu Grist, a hefyd pan y bydd Duw fel Brenin yn ddigyfrwng yn *oll yn oll*, a'r naill yn wahanol i'r llall; a gellir dosbarthu teyrnasiad Crist, yn ei freniniaeth gyfryngol, i ddau gyfnod cyffredinol. Cymmer un i mewn ein

Digitized by Google

sefyllfa bresennol o hanfodi, pan y teyrnasa Crist fel pen ar deyrnas rasol Duw; y cyfnod arall o deyrnasiad Crist yw hwnw a gyfrynga rhwng yr adgyfodiad a'r farn gyffredinol, a'r amser pan y bydd Duw "oll yn oll." Gall y sefyllfa yma barhau am dymmor *maith iawn*, yn cyfateb i'r ymadrodd cyffredin, *yn oes oesoedd.*

5. Y mae ymadroddion yr Ysgrythyrau gyda golwg ar y rhai a adferir, mewn canlyniad i waith cyfryngol Iesu Grist, yn gyfryw ag sydd yn ein harwain i gredu eu bod yn cymmeryd i mewn y ddynoliaeth yn gyffredinol. Gwel *Dad.* v. 13; "A phob creadur a'r sydd yn y nef, ac ar y ddaiar," &c.

Yn gymmaint ag i'r darllenydd gael mantais i weled ychydig o'r rhesymau o blaid iachawdwriaeth gyffredinol, rhoddwn fras olwg ar y profion a ddygir yn mlaen o blaid y syniadau cyferbyniol:—

1. Dadgana yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yn y modd mwyaf pendant, y bydd cospedigaeth dragwyddol i'r rhai a barhânt yn anedifeiriol: *Mat.* xxvi. 41—46; *Marc* ix. 43, 44; 2 *Thes.* i. 9; *Iudas* 13; *Dad.* xiv. 11; xix. 3; xx. 10. Y mae rhyw amrywiaeth ofnadwy yn perthyn i'r ymadroddion hyn; a pha beth bynag a ddywedir ydyw ystyr ac arwyddocâd beirniadol y geiriau *eis tous aiônos ton aiônos* ("yn oes oesoedd"), cymhwysir yr un ymadroddion at drueni yn gystal a dedwyddwch mewn sefyllfa i ddyfod; ac ni fedd yr Ysgrythyrau unrhyw eiriau cryfach i ddynodi trwyddynt barhâd tragwyddol mewn amser dyfodol.

2. Y mae yr adnodau a soniant am y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glân, mewn modd neilluol yn brofion eglur o gospedigaeth ddiddiwedd:—"Nis maddeuir iddo, nac yn y byd hwn, nac yn yr hwn a ddaw;" *Mat.* xii. 31, 32; *Marc* iii. 29; *Luc* xii. 10. Hefyd, dywed yr apostol:—"Os gwel neb ei frawd yn pechu pechod nid yw i farwolaeth, efe a ddeisyf, ac efe a rydd iddo fywyd, i'r rhai sydd yn pechu nid i farwolaeth. Y mae pechod i farwolaeth: nid am hwnw yr wyf yn dywedyd ar ddeisyf o hono;" 1 *Ioan* v. 16. Ymddengys yn eglur mai y rheswm pa ham nad ydym i weddio dros y rhai a bechant i farwolaeth yw, fod eu iachawdwriaeth yn anmhosibl. Felly y dywedir yn *Heb.* vi. 4—6; "Anmhosibl yw i'r rhai a oleuwyd unwaith, ac a brofasant y rhodd nefol.....ac a syrthiant ymaith, ymadnewyddu drachefn i edifeirwch." Yn awr, o gymmaint a'i bod yn anmhosibl eu hadnewyddu drachefn i edifeirwch, y mae hefyd yn anmhosibl eu hachub. I'r un perwyl y mae *Heb.* x. 26, 27.

3. Os yw yn anmhosibl bod iachawdwriaeth heb faddeuant, fel y rhoddir ar ddeall yn yr adnodau hyn, ac, yn wir, fel yr addefir yn gyffredinol—yna, pa fodd y gall y rhai hyny fod yn wrthddrychau maddeuant, sydd, o herwydd eu pechodau, yn dyoddef dialedd tân *tragwyddol;* hyd yn oed pe gellid cymmeryd y gair yna am gyfnod hirfaith iawn ("oesoedd o oesoedd"). Sierhâai y Dr. Jonathan Edwards, mab y President Edwards—yn gywir hefyd, y mae yn ddiau—fod rhagosodiad cyntaf y Cyffredinolwyr yn cau allan y posiblrwydd o faddeuant i'r damnedigion, hyd yn oed ar y dybiaeth eu bod yn y diwedd yn cael eu derbyn i ddedwyddwch y nefoedd. Golyga maddeuant nad ydyw y pechadur y maddeuir iddo yn cael ei gospi yn ei berson ei hunan, yn unol â deddf ac uniondeb. Yn ol cyfundrefn y Cyffredinolwyr, cospir y damnedigion, pan yn goddef y boenedigaeth angenrheidiol i'w tywys i edifeirwch. Yn y Testament Newydd, dangosir mai maddeuant rhad a dderbynia pawb o'r gwaredigion. Yn ol athrawiaeth y Cyffredinolwyr hefyd, ymwrthodir â haeddiant dyoddefaint y Cyfryngwr; o herwydd pa fodd y gall ei deilyngdod ef fod o fuddioldeb iddynt hwy, sydd, yn eu personau eu hunain, yn dyoddef yn llawn yr hyn sydd ddyledus ar gyfrif drwghaeddiant eu troseddau.

4. Ymddengys fod y wae a gyhoeddwyd gan Fab Duw uwch ben Iudas yn brawf diymwad o gospedigaeth na bydd diwedd iddi:—"Gwae y dyn hwnw trwy yr hwn y bradychir Mab y dyn: da fuasai i'r dyn hwnw pe nas ganesid ef;" *Mat.* xxvi. 24; *Marc* xiv. 21. Ond os oedd Iudas yn y diwedd i fwynhau gwynfyd tragwyddol, buasai hanfodiad yn ennill annhraethol iddo ef—bydded parhâd ei drueni cyn hyny mor faith ag y byddo. Gan hyny, ar y dybiaeth fod iddo yn y diwedd fwynhau bendithion yr iachawdwriaeth, nid yn unig yr oedd yn dda, ond hefyd yn anfeidrol dda, ddarfod iddo gael ei eni; ond y mae hyn yn gwbl groes i eiriau Iesu Grist. Gellir cymhwyso yr un ymresymiad at bob pechadur a fydd marw yn anedifeiriol.

5. Gwrthbrofir syniadau y neb a amddiffynant iachawdwriaeth gyffredinol gan yr holl adnodau hyny a geir yn dadgan y *cyfrgollir*, y *bwrw ymaith*, ac y *gwrthodir* yr holl rai hyny nad edifarhânt. Gyda pha briodoldeb y gellir dyweyd am y rhai hyny a achubir yn y diwedd, y byddant *feirw*, y *cyfrgollir hwy*, y cânt eu *bwrw ymaith*, eu *gwrthod*, a'u *dinystrio?* Felly y dywedir yn *Heb.* vi. 8; "Yr hon sydd yn dwyn drain a mieri, sydd anghymmeradwy, ac agos i felldith; *diwedd* yr hon yw ei llosgi." Os diwedd dyn fydd ei losgi, pa fodd y mae yn bosibl y caiff ei achub yn y pen draw? Y mae y dysgrifiadau ffugrol o gospedigaeth y drygionus yn gryfion, nerthol, ac yn benderfynol—heb ddal allan un gobaith am adferiad, ond yn golygu parhâd bythol. Gosodir hyn allan trwy yr ymadroddion *tân ysol*, *tân tragwyddol*, a *llosgfeydd tragwyddol;* ac yn fwy grymus, os yw bosibl, gan y geiriau, *pryf nad yw yn marw*, a *thân na ddiffydd.* Rhaid i hyn olygu cospedigaeth nad oes ac na bydd iddi ddiwedd byth.

6. Dengys yr Ysgrythyrau y dygir pob peth i derfyn yn niwedd y byd hwn:—"Diwedd pob peth a nesaodd;" 1 *Pedr* iv. 7. Sefyllfa na bydd un cyfnewidiad i fod arni a fydd y pryd hwnw—bydd yr anghyfiawn yn aros felly; y cyfiawn hefyd yr un modd; a sefydlir pethau fel na bydd tramwy rhwng nefoedd a daiar: *Luc* xvi. 26; *Dad.* xxii. 10—12. Prawf y geiriau diweddaf mai cyfeirio y mae yr adnodau hyn at y farn gyffredinol; o herwydd pe golygid ynddynt gyfnod maith o amser ["oes o oesoedd"] wedi y farn hono, nis gellid dyweyd am hwnw ei fod yn agos, ac yn dyfod ar frys. Yn nammegion ein Harglwydd, dangosir na bydd yr us a'r efrau mwy i'w cael yn mysg y gwenith, wedi y gorphenir gorchwylion y farn gyffredinol, ond y bydd y da a'r drwg wedi hyny ar wahân. Heb law hyny, dywedir y bydd y farn yn dragwyddol—a hyny, yn ddiau, gyda golwg ar ei chanlyniadau diddiwedd ac anghyfnewidiol. Ond os bydd y farn yn dragwyddol yn ei chanlyniadau, ni bydd diwedd ar gospedigaeth yr annuwiol. Y mae yr enwau neilluol a grymus a roddir ar y farn yn arwyddo y bydd pob peth a wneir ynddi yn aros felly. Gelwir hi yn fynych y *dydd diweddaf;* a'r gweithredoedd mawrion a

Digitized by Google

briodolir iddi ydynt yr adgyfodiad cyffredinol a dedfryd benderfynol a chyffredinol pob sefyllfa yn y byd moesol.

7. Fel moddion i wellhau a diwygio y pechadur yr edrychir ar gosp ddyfodol gan amddiffynwyr adferiad cyffredinol; ond i'r gwrthwyneb, sonia yr Ysgrythyrau am dano fel effaith *digofaint*, *dialedd*, a *llid* dwyfol, &c. "Ai anghyfiawn yw Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint? Na atto Duw;" *Rhuf.* iii. 5, 6; xii. 19; 2 *Thes.* i. 8, 9. Y mae y rhai hyny a fyddant feirw yn anedifeiriol yn haeddu cosp dragwyddol; o herwydd os nad y cyfryw gospedigaeth a hyny a fygythir yn y ddeddf, nis gellir rhoddi cyfrif am gospedigaeth y ddeddf o gwbl. Y mae yn anmhosibl mai y gosp amserol a oddefir yn wirioneddol gan y damnedigion ydyw; o herwydd, pe felly, fe'u gwaredid yn y diwedd heb faddeuant. Nis gall fod mai cospedigaeth amserol fyrach ei pharhâd na'r un a oddef y damnedigion ydyw; o herwydd ar y dybiaeth hono, cospir hwy yn fwy na'u haeddiant. Nid cospedigaeth amserol, hwy ei pharhâd na'r hyn y rhoddir ar ddeall yn yr Ysgrythyrau a ddaw i ran y damnedigion, ydyw: y mae hyny yn anmhosibl, yn gymmaint ag na fygythir y fath gospedigaeth a hyny yn y gyfraith, nac mewn un man arall yn yr ysgrifeniadau sanctaidd. Rhaid, gan hyny, mai cospedigaeth annherfynol ydyw.

8. Cadarnhëir tragwyddoldeb cospedigaeth yr annuwiol mewn sefyllfa ar ol hyn gan gyfansoddiad natur ei hunan—yr hwn, heb eithrad, sydd yn cyssylltu yn nghyd bechod a chosp—megys yn yr amgylchiadau hyny, pan yr ydym yn boddhau ein nwydau pechadurus, neu yn porthi ein chwantau moethus. Fel hyn, pan y cospir ei bechod, hyd yn oed yn y bywyd hwn, nid yw y pechadur yn ddeiliad trefniant trïawdurdodol a gormesol; ond y mae y gosp yn beth sydd yn cyfodi o wir natur pechod ei hun. Gan ei bod yn natur pethau yn anmhosibl i bechadur, tra yn gyfryw, fod byth yn ddedwydd—Duw ei hun ar y cyntaf wedi sefydlu y cyssylltiad hwn rhwng pechod a chosp—nid a ydyw yn gyflawn i Dduw weinyddu y fath gospedigaeth ydyw y cwestiwn, ond, A ydyw *cyflawnder yn gofyn* i'r Bod Dwyfol gyfnewid cyfansoddiad pethau, a chyflawnu gwyrth, er mwyn achub, mewn sefyllfa eto i ddyfod, bersonau a wrthodasant ei iachawdwriaeth ef yn y bywyd presennol? Y mae Duw yn cospi pechod yn y byd hwn a'r nesaf, trwy ganiatäu i ddynion fedi ffrwyth eu hanwiredd. Gan hyny, "A oes anghyfiawnder gyda Duw? Na atto Duw."

Dadleuir yn mhellach, fod *drwg anfeidrol* mewn pechod, fel y mae yn drosedd yn erbyn Bod anfeidrol mewn urddas a chymmwynasgarwch; a chan fod maint y trosedd yn gyfartal i fawredd ac uchafiaeth y person y troseddir yn ei erbyn, a'n rhwymedigaeth ninnau iddo—y ddau yn yr amgylchiad dan sylw yn anfeidrol—y mae ein drwg haeddiant ni felly yn anfeidrol; a rhaid yw i'n cosp fod yn anfeidrol hefyd: ond yr unig ffordd yn mha un y gall cospedigaeth creadur fod yn anfeidrol ydyw mewn parhâd—*h. y.*, trwy fod yn dragwyddol.

Yn ol syniadau y Cyffredinolwyr, difodir un gwahaniaeth arbenig yr ystyrir yn gyffredin ei fod yn hanfodi rhwng y sefyllfa hon a'r nesaf, trwy fod pob un o honynt yn cael eu gwneyd yn sefyllfa o brawf, ac yn oruchwyliaethau i ddwyn oddi amgylch iachawdwriaeth dynion, er oddi ar wahanol seiliau—y bresennol ar sail trugaredd, y ddyfodol ar sail uniondeb. Ond yr unig iachawdwriaeth a ddadguddir yn yr Ysgrythyrau, ydyw iachawdwriaeth o ras.

Dygodd y diweddar Dr. Joseph Huntington, o America, i sylw gyfundrefn o iachawdwriaeth gyffredinol ryw faint yn wahanol, mewn gwaith a gyhoeddwyd wedi marwolaeth ei awdwr, yn dwyn yr enw *Calvinism Improved; or, the Gospel illustrated in a System of Real Grace issuing in the Salvation of all Men.* Dywed awdwr y gwaith hwn am yr iawn, mai "cyfrifiad uniongyrchol, gwirioneddol, a phriodol o'n holl euogrwydd ni ar Grist, fel ein meichiau a'n pen cyfammodol, ydyw; a chyfrifiad yn yr un wedd o'i ufudd-dod yntau hyd angeu arnom ni." "Mab y Dyn," meddai, "ydyw unig wrthddrych Duw, fel Pen etholedig, gyda golwg ar ein iachawdwriaeth dragwyddol; ac y mae yr holl natur ddynol yn un gwrthddrych etholedig cyfangwbl, mewn undeb â Christ, megys corff mewn undeb â'r pen." Yn unol â'r syniad hwn, myntumia y Dr. Huntington, fod ein pechodau ni yn cael eu trosglwyddo i Grist, a'i gyfiawnder ef i ninnau:—*ei fod ef yn wirioneddol a phriodol yn lle yr holl hil ddynol*, ac wedi pwrcasu *iachawdwriaeth dragwyddol a diammodol i bob dyn:* mai *newyddion*, a *newyddion da*, a hyny yn unig, ydyw yr efengyl—heb ddim bygythion ynddi: fod y ddeddf a'r efengyl yn gwbl groes i'w gilydd: fod y ddwy oruchwyliaeth hyn o eiddo Duw a'r naill yn gwrthwynebu y llall, o'r dechreu i'r diwedd. "Llefara y ddeddf foesol," meddai, "yn mhob man wrth ddyn yn ei gymmeriad personol ei hunan—llefara yr efengyl wrtho yn nghymmeriad y Messïah. Dywed y ddeddf wrthym beth y mae dyn yn ei gyflawn haeddu—dywed yr efengyl beth yw haeddiant Mab Duw." Yn unol â hyn, dealliir holl fygythion gair Duw gan Huntington fel lleferydd pur deddf a chyflawnder. Dyma yr eglurhâd a rydd efe ar *Mat.* xxv. 46:—"Yn yr adnod hon, edrychir ar ddynolryw mewn dau gymmeriad: yr eiddynt eu hunain yn bersonol, ac yna llais y ddeddf uniawn ydyw—'A'r rhai hyn a ënt i gospedigaeth dragwyddol: ond y rhai cyfiawn [yn Nghrist, trwy undeb ffydd] i fywyd tragwyddol.' Erys y cymmeriad drygionus yn wrthddrych gwarth, dirmyg, a chondemniad tragwyddol yn ngolwg Duw ac ysbrydoedd sanctaidd: y nodweddiad cyflawn a erys byth yn wrthddrych cymmeradwyaeth, teilwng o fywyd tragwyddol." Hòna yr awdwr hwn fod holl rediad y dadguddiad dwyfol yn sicrhau yr achubir pob dyn. Dwg yn mlaen luaws o ymadroddion Ysgrythyrol i gadarnhau y golygiad. Yn hytrach nag ystyried cyfundrefn Huntington fel un newydd, ymddengys yn fwy priodol ei galw yn adnewyddiad ar yr eiddo Mr. Relly. Gwel RELLYANIAID.

Cyhoeddodd gŵr o'r enw Nathan Strong—gweinidog yn Hartford, Connecticut—atebiad i *Calvinism Improved* Dr. Huntington. Yn y gwaith hwn, ymdrecha gyssoni yr athrawiaeth o drueni tragwyddol â chymmwynasgarwch a haelfrydedd anfeidrol Duw. Sylwai Mr. Strong fod y rhai hyny a gredant mewn cosp dragwyddol yn sylfaenu eu crediniaeth ar dir sydd yn gysson â haelfrydedd anfeidrol y Duwdod. Tybiant hwy mai ewyllys da ydyw swm ei holl berffeithiau gogoneddus; mai enw cynnwysfawr yw hyn am ei holl uniondeb moesol; nad oes gwahanu i fod rhwng cyflawnder cospawl ac ewyllys da neu haelfrydedd; mai ewyllys da sydd yn cymhell Duw i gospi yn awr a byth; a phe peidiai a

Digitized by Google

chospi, nid Duw anfeidrol mewn cymmwynasgarwch fyddai. Caredigrwydd a haelfrydedd (*benevolence*), medd efe, yw—1. Cariad at y dedwyddwch helaethaf. 2. Ei fod yn gysson â hanfodiad trueni. 3. Mai ei ofal mawr yw, sicrhau y dedwyddwch helaethaf i gymdeithas, yn fwy na hapusrwydd *pob person unigol*:—"Yn ol y deffiniad hwn," eb efe, "haelfrydedd yw y daioni hwnw a gyfeiria ac a reola y Duw Goruchaf pan yn creu, yn llywodraethu, ac yn gwobrwyo. Amcan haelfrydedd yw, llesâd y cyfan, neu ddedwyddwch mwyaf a helaethaf bodau deallus. Gallwn ymdeimlo yn eithaf sicr y bydd i'r Duw sydd yn anfeidrol mewn daioni a chymmwynasgarwch, yn meddu ar bob doethineb, ac yn holfalluog—y bydd iddo weinyddu y fath lywodraeth ag a gynnyrcha y dedwyddwch helaethaf trwy y greadigaeth oll."

Er mwyn dymchwel cyfundrefn y Dr. Huntington o iachawdwriaeth gyffredinol, ymdrechai Mr. Strong brofi:—1. Fod yr efengyl yn cynnwys bygythion o farwolaeth; a chondemnir pechaduriaid anedifeiriol gan yr efengyl yn gymmaint a chan y ddeddf. 2. Nad oes, mewn un ystyr, na chroesfynegiad na gwrthwynebiad, y naill i'r llall rhwng y ddeddf a'r efengyl. "Nid oes na bywyd nac angeu yn deilliaw o'r ddeddf na'r efengyl, yn annibynol ar ansawdd foesol meddyliau a gweithredoedd dynion. Gan y ddeddf ei hunan y mae yr un gallu i roddi bywyd ag i beri marwolaeth. Y mae y ddeddf yn rhoddi bywyd i'r ufudd a'r sanctaidd. Rhoddodd fywyd i Adda cyhyd ag y parhaodd efe yn sanctaidd; ac y mae yn awr yn rhoddi bywyd i'r holl fodau hyny na phechasant erioed. O herwydd eu pechodau hwy, y mae yn dwyn angeu i'r anufuddion; ac yn gymmaint ag mai anufuddion yw pawb, y maent oll dan ddedfryd condemniad. Felly gyda'r efengyl: ceir yno delerau ar ba rai y cynnygir bywyd—edifeirwch tuag at Dduw, a ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist: ac os na chwympir i mewn â'r telerau hyn, daw yr efengyl yn oruchwyliaeth angeu i bechaduriaid yr un modd a'r ddeddf; ïe, bydd yn farwolaeth fwy ofnadwy na'r un a fygythid yn y ddeddf: 2 *Cor.* ii. 16."

Wedi hyny, ymdrecha Mr. Strong brofi fod syniadau y Dr. Huntington am yr iawn yn afresymol ac anysgrythyrol. Ei ddaliadau ef ar y pwnc pwysig hwn ydyw—yn gymmaint a bod y ddeddf yn gofyn cosp dragwyddol er mwyn amddiffyn a chyflawnhau cymmeriad moesol Duw, fel Llywydd a Barnwr y greadigaeth, felly hefyd, yr oedd iawn anfeidrol Mab Duw yr un mor angenrheidiol i amddiffyn a dangos uniondeb y cymmeriad dwyfol dan oruchwyliaeth yr efengyl. Yn y naill ffordd a'r llall—hyny yw, pa un bynag ai trwy gosp dragwyddol y pechadur, neu ynte trwy iawn anfeidrol Mab Duw—fe anrhydeddir y cymmeriad a'r perffeithiau dwyfol; ac ewyllys da yn unig a gymhellodd y Duwdod i fabwysiadu y diweddaf.

Yr ymresymiad mwyaf poblogaidd, pa fodd bynag, yn ddiau, dros adferiad cyffredinol, ydyw yr un a gymmerir oddi wrth yr haelfrydedd dwyfol. Ond ar yr un pryd, rhaid addef ei fod y mwyaf agored o bob un arall i gael ei gamddefnyddio; a'r un hefyd sydd wedi ei ŵyrdroi yn fwy nag un arall. Nid yw yn amgen na gwaith y plentyn, ar gyfrif tynerwch ei dad, yn rhyfygu parhau yn ei anufudd-dod; neu ddeiliad yn cyndyn ymlynu mewn gwrthryfel, o herwydd llarieidd-dra ac ewyllys da ei frenin a'i lywydd. Yr oedd Lavater—yr hwn oedd Gyffredinolwr—yn hoffi ymresymu oddi ar hyn; a gallai wneuthur hyny yn hyawdl. Ond os ydyw tuedd foesol unrhyw athrawiaeth yn faen prawf o'i gwirionedd, fel y caniatëir mewn amgylchiadau ereill, yn sicr, nis gellir dwyn yn mlaen duedd foesol yr athrawiaeth hon fel amddiffyniad iddi. Y mae y dyfyniad canlynol wedi ei gymmeryd o waith Germanaidd, a gyhoeddwyd yn 1786. Ei enw yw *Letters from certain Jews on the present state of the Christian Religion.* Ceir ynddo anghraifft o ymresymiad Lavater, a dengys y camddefnydd y mae yn agored iddo.

Israel C. at Joseph de L.—Wedi i'r cyntaf amlygu ei ammheuon gyda golwg ar grefydd, ac o barth sefyllfa ddyfodol, y mae yn adrodd rhai rhagarwyddion o fyd ar ol y presennol a deimlasai mewn afiechyd peryglus yn ddiweddar, ond oeddynt wedi diflanu pan y gwellhaodd. Yna, noda hanesyn hynod, yr hwn, pa un bynag ai gwir ai gau, sydd yn cadarnhau y sylwadau blaenorol:—

"Y flwyddyn ddiweddaf," medd yr Iuddew tybiedig, "ymwelais âg ystafell boneddwr ieuanc, y gwyddwn ei fod yn ymroddedig i bleser, ac yn hoff iawn o oferedd, a phob rhysedd a thrythyllwch.....Uwch ben ei ysgrifengist, yr oedd darluniau o rai o lys-buteiniaid enwog Ffrainc; ac uwch ben y rhai hyn, Mahomet a Lavater. 'Pa fodd y mae fel hyn,' meddwn, 'Mahomet a Lavater yn nawddseintiau i gwmni o ferched anllad y llys?' 'Ië, ŵr ieuanc,' ebe yntau, 'yr wyf yn rhoddi mawr bris ar wragedd; ac heb betruso, yn boddhau fy nhueddiadau. Yn y cyfamser, gan y rhaid i mi farw rywbryd—ac efallai yn ddisyfyd—derbyniaf lawer o gysur a chefnogaeth oddi wrth y rhai hyn. Os Mahomet sydd ar yr iawn, y mae genyf obaith da am adfeddiannu y pleserau a gollaf ar y ddaiar, a mwynhau preswylwyr llygadlas prydferth paradwys a addewir ganddo ef i'w ffyddloniaid. Ond os wyf yn camgymmeryd yn hyn, ac os cospir fi am fy mhenrhyddid—fel yr wyf yn ofni y gwneir—y mae Lavater wedi dilëu o honof yr arswyd o drueni *tragwyddol*, ac yn fy sicrhau y bydd pawb yn ddedwydd yn y diwedd."

Mewn trefn i gyssoni ei osodiadau a'i syniadau âg ymadroddion yr Ysgrythyrau, darfu i un ysgrifenydd mwy diweddar awgrymu y gallai Ysbryd Duw fod "wedi dewis gair amwys (*aiônios*), a gyfleithir yn gyffredin *tragwyddol*, gyda'r amcan doeth o beri i ddynion fyw mewn ofn cospedigaeth *dragwyddol*, am ei bod yn *bosibl* y *gallai* fod yn *dragwyddol*;" er y tybia efe ei bod hefyd yn bosibl y byddai i'w pharhâd tragwyddol gael ei attal a'i leihau. Rhaid addef cymmaint a hyny, fod yr ysgrifenwyr sanctaidd, pan yn son am ddrwg pechod, yn arfer ymadroddion llymion a grymus er cadw dynion draw oddi wrtho. Ond a ydym i feddwl fod un o wirioneddau Duw, gyda golwg ar ei ymddygiad presennol neu ddyfodol tuag at bechaduriaid, yn gyfryw ag y mae ysbrydoliaeth dan orfod i'w guddio o'r golwg, neu ei wisgo mewn ymadroddion amwys, am y byddai ei osod allan *fel y mae* â thuedd ynddo i beri i ddynion hepian yn eu drygioni, a'u cadarnhau yn eu hanfoesoldeb. Ond, ar y dybiaeth wrthwynebol, os ydyw yn ddoeth a da yn Nuw osod yr attalfa hon ar ffordd drwg moesol, beth am waith y rhai hyny a ymdrechant mor ogniol i'w symmud ymaith? A phe na byddai y posiblrwydd lleiaf mai y syniad gwrthwyneb i eiddo y Cyffredinolwyr ydyw y gwirionedd, onid yw

Digitized by Google

hyny yn ddigon i beri ymwrthod â phob cellwair gyda mater mor bwysig, pan y mae yr autur mor fawr, ag y gallai y canlyniadau fod mor ofnadwy.—(*Dict. of All Rel.; Cyc. of Rel. Know.; Chauncy's Salvation of all Men; Winchester's Dialogues; Edwards' Reply to Chauncy; Fuller's Letter to Vidler; Huntington's Calvinism Improved; Strong's Benevolence and Mercy; Broughton's Dissertation on Futurity.*)

CYNGHOR—ION—WR—WYR, [*cyd-gor*]: cynghorfa, cymmanfa o gynghoriaid; barn, amcan; cyfarwyddyd, annogaeth; arfaeth; cyfarwyddwyr, arweinwyr. Y mae y gair *cynghor* yn cael ei arfer yn yr Ysgrythyrau:—1. Am y gynghorfa neu y senedd Iuddewig, yr hon a elwid Sanhedrim [gwel SANHEDRIM]: *Mat.* xxvii. 1; *Luc* xxii. 26; *Ioan* xi. 47; xviii. 31. 2. Yn gyfystyr ag addysg neu gyfarwyddyd: "Bydded foddlawn genyt fy nghynghor;" *Dan.* iv. 27. "Ni chymmerent ddim o'm cynghor i;" *Diar.* i. 30. "Er adeiladaeth a chynghor;" 1 *Cor.* xiv. 3. "Goddefwch air y cynghor;" *Heb.* xiii. 22. 3. Bwriad, amcan, neu feddwl cuddiedig: "I ddiddymu eu cynghor hwynt;" *Ezec.* iv. 5. "Y llewyrchit gynghor yr annuwiol;" *Iob* x. 3. Y mae y gair *cynghor* yn y Testament Newydd yn gyfleithiad o'r geiriau hyn:—1af. Συνέδριον= *cydeisteddiad* (*Mat.* x. 17; *Marc* xiii. 9, &c.) 2il. Βουλή. Y mae y gair hwn yn cael ei arfer gan yr ysgrifenwyr clasurol yn yr un ystyr a σύνεδριον yn y Testament Newydd am gynghorfa, neu gymmanfa o gynghoriaid. Yn y Testament Newydd, arwydda penderfyniad, arfaethiad, peth wedi ei ragderfynu (*Luc* vii. 30; *Act.* ii. 23; *Eph.* i. 11); cynllun, bwriad (*Act.* iv. 28; v. 38); meddyliau dirgel y galon (1 *Cor.* iv. 5: y Deg a Thrigain; *Iob* v. 12). Yn *Eph.* i. 11, y mae βουλή a θέλημα yn gyssylltiedig â'u gilydd: "cynghor ei ewyllys ei hun." Y mae y berfau cyfatebol, βούλομαι ac εθέλω, yn cael eu gwahaniaethu gan Buttmann fel hyn:—y diweddaf ydyw y gair mwyaf cyffredinol, yn cynnwys y drychfeddwl fod y bwriad sydd wedi ei ffurfio yn gorwedd o fewn terfynau gallu y person a'i ffurfiodd. Gwahaniaetha Tittmann fel y canlyn rhyngddynt:—y mae θέλημα yn fynegiad o ewyllys, ond y mae yn perthyn i βουλὴν ddrychfeddwl pellach o ogwydd neu duedd y dymuniad. Y mae Eadie, fodd bynag, yn gwrthod y gwahaniaethiad hwn; ac yn haeru mai y gwrthwyneb ydyw y syniad cywir am eu perthynas â'u gilydd. Y mae y gwahaniaeth yn hawdd ei ganfod yn 1 *Sam.* xviii. Yn *adn.* 22, y mae θέλει ἐν yn dynodi "ymhoffi yn;" yn *adn.* 25, y mae βούλεται ἐν yn golygu dymuniad oddi ar benderfyniad blaenorol. Θέλημα, felly, ydyw ewyllys neu ewyllysiad, yn ganlyniad dymuniad: βουλή ydyw cynghor, canlyniad neu gynnyrch penderfyniad ffurfiol. 3ydd. Παράκλησις, yn yr ystyr o annogaeth, cyfarwyddyd, addysg: *Rhuf.* xii. 8; 1 *Cor.* xiv. 3; *Heb.* xii. 5; xiii. 22. Arwydda y gair y ffurf gymhelliadol neu annogaethol o addysg yr efengyl. 4ydd. Πεισμονή. Yn *Gal.* v. 8, y mae y gair yma yn unig yn dygwydd: "Y cynghor hwn nid yw oddi wrth yr hwn sydd yn eich galw;" ac y mae yn arwyddo "darbwylliad." Dynoda, medd Ellicot, naill ai y sefyllfa o fod wedi ei berswadio—bod yn ddarbwylledig—neu y weithred o ddarbwyllo; a thuedda ef i feddwl mai gwedd weithredol y gair ydyw y mwyaf unol â'r cyd-destyn yn y fan hon. Lleferir am *gynghor* mewn cyssylltiad â Duw yn y tri ystyr uchod; weithiau yn y drychfeddwl o ymgynghoriad, neu gydeisteddiad, i farnu am beth. "Cynghor hedd a fydd rhyngddynt ill dau;" *Zech* vi. 13:—"Rhwng Iehofah a'r gŵr â'i enw Blaguryn, rhwng y Tad a'r Mab. Ymddengys y bwriadau o barth yr heddwch rhwng Duw a dyn fel wedi eu cydlunio a'u cyd-drefnu gan ddoethineb anfeidrol. Neu, meddylia, cynghor hedd rhwng yr offeiriad a'r freninfainc—rhwng y swydd offeiriadol a'r swydd freninol yn Nghrist. Y mae yn rhaid i'r Blaguryn ddwyn oddi amgylch gynghor o heddwch â'r ddaiar; ac mewn trefn i hyny, heddwch â'r nefoedd. Meddyliau o heddwch oedd meddyliau Duw tuag atom ni; ac i weithio allan y meddyliau hyn, efe a ddyrchafodd ei Fab i fod yn Dywysog ac yn Iachawdwr: efe a roddes iddo orseddfainc, ond gyda'r ammod hwn, fod iddo eistedd yn offeiriad arni, a thrwy weithredu yn y ddwy swydd o offeiriad a brenin, ddwyn oddi amgylch y gwaith o heddychu dyn â Duw. Meddylia rhai fod y geiriau yn cyfeirio at lywodraeth flaenorol y wladwriaeth Iuddewig, yn yr hon yr arferai yr offeiriad a'r brenin gydymgynghori â'u gilydd, er mwyn sicrhau heddwch a hyrwyddo llwyddiant yr eglwys a'r wladwriaeth, fel y gwnai Zorobabel ac Iosuah yn awr: felly hefyd y dygir oddi amgylch heddwch a llwyddiant yr eglwys dan yr efengyl, er mai nid trwy bersonau gwahanol, eto yn rhinwedd ymgyfarfyddiad dwy swydd wahanol yn yr un person—Iesu Grist—yr hwn a bwrcasodd pob heddwch trwy ei offeiriadaeth, ac sydd yn ei amddiffyn a'i ddiogelu trwy ei freniniaeth."—*Henry ar y lle.* Gwna Calvin y sylwadau hyn ar yr ymadrodd:—"Nid wyf yn barnu mai amcan yr ymadrodd yma ydyw ceryddu yr anghytundeb a fuasai rhwng breninoedd ac offeiriaid. Addefaf yn wir fod y cyfryw anghytundeb wedi bod droion yn nghenedl Israel; ond yr oedd drychfeddwl y prophwyd yn rhywbeth tra gwahanol, nid amgen yr unid yr offeiriadaeth a'r freniniaeth â'u gilydd. Felly ni chyfeiria at wahanol bersonau a fyddent mewn heddwch â'u gilydd, ond at bethau neu swyddau. 'Bydd cynghor hedd rhyngddynt ill dau,' sef rhwng y swydd freninol a'r swydd offeiriadol." Felly, gwelir fod dau eglurhâd yn cael eu rhoddi ar yr un frawddeg. Yr esboniad a amddiffynir gan Calvin, sef mai y ddwy swydd a olygir, ydyw golygiad Jerome, Drusius, Scott, Henderson, ac ereill. A'r esboniad arall, sef mai rhwng personau, Iehofah a'r Blaguryn, y gwneid y cynghor, a gofleidir gan Vitringa, Cocceius, Adam Clarke, &c. Y diweddaf ydyw barn Mr. Charles yn y *Geiriadur*:—"Rhwng Iehofah a'r Blaguryn, adeiladydd y deml, y brenin a'r offeiriad hwn, y bydd y cynghor hedd; y mae y ddau yn heddychol, ac yn ymhyfrydu yn eu gilydd yn anfeidrol, yn y cynghor, yr arfaeth, a'r gwaith sydd yn cael ei wneuthur gan y Blaguryn." [Gwel d.g. CYNGHOR]. Dyma farn Dr. Owen hefyd [*Works*, cyf. i. td. 56, argrafflad Goold]. Wrth gynghor Duw y mae i ni ddeall cyfammod tragwyddol y Drindod yn nghylch iachawdwriaeth dynolryw. Gelwir y cyfammod hwn yn gynghor ar gyfrif yr amlygiadau dysglaer o "fawr amryw ddoethineb Duw" ynddo. Gyda dynion, y mae y drychfeddwl o gynghor yn awgrymu fod diffygion yn bod; arwydda fod y rhai sydd yn cydymgynghori â'u gilydd, pan yn gwneuthur hyny, yn anmhenderfynol pa gwrs i'w gymmeryd i gyrhaedd yr amcan mewn

Digitized by Google

goiwg. Arwydda fod goleuni yn dyfod ar faterion dyrus wrth sefyll am amser uwch eu pen. Y mae cynghor hefyd yn tybied amrywiaeth gwybodaeth yn y cynghoriaid: y mae un yn fwy cyfarwydd âg un peth, a barn arall yn fwy teilwng o ddibyniad am beth arall; a chydgyfarfyddiad nifer o bersonau, y rhai gyda'u gilydd ydynt yn alluog i edrych ar y mater yr ymdrinir âg ef yn mhob goleuni, sydd yn peri fod "diogelwch lle y byddo amlder cynghorwyr." Ond y mae y diffygion a'r anmherfffeithiau a ragdybir gan, ac sydd yn perthyn i, gynghorau dynion, yn annhraethol bell oddi wrth gynghor ewyllys yr unig ddoeth Dduw. Pa syniadau bynag a ffurfir am ei gynghor Ef, y mae yn rhaid iddynt gydsefyll â'r dadguddiad sydd genym am anfeidrol berffeithrwydd ei natur; am ei wybodaeth ddiwyro, ei ddeall aneirif, ei anghyfnewidioldeb, a'i dragwyddoldeb. Ei feddwl yw ei gynghor Ef; ac ni bu yn hanfodi erioed heb ei feddwl. "Arfaeth dragwyddol" ydyw ei arfaeth Ef: y mae fel Efe ei hun, yn bod o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb. Ond y mae yr enw *cynghor* ar ei arfaeth yn dynodi y pethau canlynol:—1. Bod mater y cynghor yn fater anhawdd—nas gallasai neb llai na'r Anfeidrol ddoeth ei ddwyn i benderfyniad. 2. Bod y Drindod Fendigedig yn cydfeddwl ac yn cydymhyfrydu yn y gwaith o gadw pechaduriaid. 3. Bod trefn iachawdwriaeth yn drefn o bwys a gogoniant digymhar: y mae cynghorau dynion yn rhagdybied fod pwysigrwydd yn y mater yr ymgynghorir o barth iddynt. "Cynghor, yn mhlith dynion," medd y Dr. Owen, "ydyw cydystyriaeth pwyllog o achosion, moddion, effeithiau, ac amcanion, yn ol natur y pethau y gwneir ystyriaeth arnynt, a buddiannau y cynghoriaid eu hunain. Nid yw cynghor yn y golygiad hwn i'w briodoli i Dduw; o blegid fel y mae anfeidrol ddoethineb ei natur yn ei luddias i ymgynghori â neb arall, felly y mae perffeithrwydd anfeidrol ei ddeall, yr hwn sydd yn cymmeryd i fewn bob peth mewn un gweithrediad syml o eiddo ei feddwl, yn cau allan bob peth tebyg i ymgynghoriad neu gydystyriaeth ffurfiol." Y mae yr Ysgrythyrau yn dangos fod y syniad cyntaf yn anghydweddol â syniad am berffeithrwydd Duw: "Pwy a gyfarwyddodd ysbryd yr Arglwydd, ac yn ŵr o'i gynghor a'i cyfarwyddodd ef? A phwy yr ymgynghorodd efe? ïe, pwy a'i cyfarwyddodd ac a'i dysgodd yn llwybrau barn, ac a ddysgodd iddo wybodaeth, ac a ddangosodd iddo ffordd dealltwriaeth?" *Esa.* xl. 13, 14. "Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd, neu pwy a fu gynghorwr iddo ef?" *Rhuf.* xi. 35. Y mae yn wir fod yr Ysgrythyrau yn llefaru am Dduw fel pe bai yn ystyried, ac yn ymgynghori âg ef ei hun o barth pethau mawr eu pwys a'u canlyniadau; ond y syniad y bwriedir ei osod allan mewn geiriau felly ydyw, nid y *dull* o wneuthur, ond yr *effaith* neu y *canlyniad;* nid fod Duw yn ymbwyllo fel dynion, ond fod ei benderfyniad yn gadarn, cywir, a therfynol, fel y mae penderfyniadau dynol pan y maent yn ffrwyth ymgynghoriad maith a phwyllog. Pan ddarlunir gwybodaeth gyffredinol Duw, dywedir ei fod yn gweled ac yn clywed, a hyny am mai y golwg a'r clyw ydyw y cyfryngau trwy ba rai y mae dynion yn cyrhaedd eu gwybodaeth am wrthddrychau. Yn *Heb.* vi. 17, y mae dianwadalwch yn cael ei briodoli i gynghor Duw. Y mae y cynghor ynddo ei hun yn ddianwadal: *Esa.* xlvi. 10; *Salm* xxxiii. 11; *Diar.* xix. 21; xxi. 30. Y mae ei ddianwadalwch yn cyfodi oddi ar anghyfnewidioldeb Duw: "Cadernid Israel ni ddywed gelwydd, ac nid edifarhâ;" 1 *Sam.* xv. 29. Am mai "cadernid Israel" ("tragwyddoldeb Israel," yn ol rhai; "buddugoliaeth Israel," medd creill; "y Sanctaidd," medd yr Arabaeg; "yr ardderchocaf Fod," medd y Syriaeg) yw, mae yn anmhosibl iddo edifarhau a newid ei feddwl. Gwendidau a diffygion anwahanol gyssylltiedig â naturiaethau terfynol ydyw yr achos o gyfnewidiad ac edifeirwch; ond y mae Duw uwch law y cyfryw ddiffygion; ac y mae anghyfnewidioldeb yn cyfodi oddi ar berffeithrwydd ei natur, cyflawnder ei wybodaeth, a'i ragwelediad perffaith o bob peth posibl i gymmeryd lle. Addefir yn gyffredin fod yr ymadroddion am Dduw yn "gofidio," yn "edifarhau," yn gwbl ffugrol, ac heb olygu yr un teimladau a phan yn cael eu harfer am deimladau naturiaethau crëedig. "*Vult Deus mutationem, non mutat voluntatem*"= Y mae Duw yn ewyllysio cyfnewidiad, ond nid ydyw yn cyfnewid ei ewyllys. O barth i'r ymadroddion hyn, gellir sylwi, fod gwahaniaeth rhwng cynghorion Duw ynddynt eu hunain, ac yn yr hysbysiad a wneir am eu gweinyddiad. Y maent ynddynt eu hunain yn ddianwadal fel Duw ei hun; nid ydynt yn fwy darostyngedig i gyfnewidiad nag ydyw ei natur Ef, "gyda'r hwn nid oes gyfnewidiad na chysgod trëedigaeth." Y mae yr hysbysiadau a wneir am weinyddiad ei fwriadau o ddau fath. Y mae rhai o honynt yn cael eu rheoli a phenderfynu eu gweithrediadau gan *reol foesol oedd yn bod yn flaenorol*, yr hon sydd yn cyssylltu ammod ddealledig neu grybwylledig â'r hysbysiadau. Rhoddodd yr Arglwydd orchymyn i Ionah i gyhoeddi cwymp Ninifeh yn mhen deugain niwrnod. Yr oedd y cyhoeddiad hwn yn ymddangos, ar y golwg cyntaf, fel cyhoeddiad diammodol, neu fynegiad pendant o'r hyn a fyddai yn sicr o gymmeryd lle. Ond gan fod y dinystr hwn ar Ninifeh yn cael ei fygwth fel cosp am bechod, ac am barhau yn anedifeiriol, yr oedd rheol foesol flaenorol yn bod, yr hon a gynnwysa yr ammod, "oddi eithr i'r Ninifeaid edifarhau," mor wirioneddol a phe y buasai yn cael ei chrybwyll yn ngeiriau y bygythiad. Dywed yr Arglwydd fod y rheol hon yn gosod rhyw fath o ammod felly yn gyssylltiedig â'i fygythion yn gyffredinol: *Ier.* xviii. 7, 8. "Nid ydyw Duw," medd un duwinydd, "yn gwneyd penderfyniadau ammodol, neu yn gadael i ymddygiadau dynion reoli ei fwriadau. Nid yw yn bwriadu un peth, ac yn newid ei fwriad pan y mae amgylchiadau yn cyfnewid. Nid yw yn penderfynu, os gwna dynion fel hyn, yr ymddyga yntau fel hyn; os gwnant hwy yn wahanol, yr ymddyga yntau yn wahanol. Er anghraifft, nid oedd gan Dduw fwriad felly am Ninifeh, os edifarhäai, yr arbedid hi; os parhäal yn anedifeiriol, y caffai ei dinystrio; o blegid nis gallasai ragfwriadu felly, oddi eithr ei fod heb ragweled ymddygiadau Ninifeh; a byddai haeru hyny yn wadiad o fod ac o berffeithiau Duw. Ond mewn trefn i gyflawnu ei amcan o beidio dinystrio Ninifeh yn yr amser hwnw, y mae yn ei bygwth â dinystr mewn ffordd o ragfynegiad, yr hyn a fu yn foddion i droi meddyliau y trigolion at y rheol foesol flaenorol."

Ond yn y cyhoeddiad o rai o fwriadau Duw, nid oes un berthynas rhwng eu cyhoeddiad ag un reol foesol flaenorol. Y mae Duw yn cymmeryd yr holl achos iddo ei hun; y mae yn bwriadu ac yn trefnu y cyfan i ateb yr amcan

Digitized by Google

mewn golwg. Y cyfryw ydyw bwriadau grasol Duw yn yr iachawdwriaeth. Nid oedd a fyno ammodau dynol â'u cyflawniad; ond yr oedd y cynghor ynddo ei hun yn ddianwadal.

CYNGHORWR—WYR—IAID, [*cynghor*]: ymchwilydd i achosion, er mwyn eu penderfynu; y personau y mae breninoedd yn ymgynghori â hwynt: 2 *Cron.* xxii. 4; *Ezra* vii. 14; *Esa.* i. 26; *Dan.* iii. 24. "Ofer fydd bwriadau lle ni byddo cynghor: ac mewn amlder cynghorwyr y sicrhëir hwynt;" *Diar.* xv. 22. Ni a welwn yma pa mor ddifudd ydyw bod yn brysur a byrbwyll, a gweithredu heb ymgynghoriad. Y mae bwriadau dynion yn cael eu siomi, eu mesurau eu lluddias, a hwythau yn methu cyrhaedd eu hamcan, am na fynent ofyn cyfarwyddyd am y llwybr. Os na chymmer dynion amser a phoen i ystyried ynddynt eu hunain, neu os ydynt yn rhy hunan-byderus i ymgynghori âg ereill, y maent yn dra annhebyg i ddwyn dim o werth i weithrediad: y mae pethau yn dygwydd sydd yn eu rhwystro, y rhai, trwy ystyriaeth neu ymgynghoriad blaenorol, y gallesid eu rhagweled a'u gochel. Y mae yn rheol dda mewn amgylchiadau cyhoeddus a theuluaidd i beidio gwneuthur dim yn fyrbwyll, ac oddi ar fympwy personol. "*Plus vident oculi quam oculus*"=y mae llawer o lygaid yn gweled yn well nag un. Yn fynych iawn, y goreu o'n hanturiaethau yw yr hyn oedd y lleiaf perthynol i'n dyfais ein hunain. "Mewn amlder cynghorwyr"—a chaniatäu y byddant yn ddoeth a gonest—y "sicrhëir" bwriadau. Ni ddarfu i fab Solomon wneuthur defnydd o'r ddiareb hon pan anfoddlonodd ar gynghor yr hen bobl. Gofalai ef am nifer mawr o gynghorwyr, ac nid am bwysigrwydd ynddynt.

Un o deitlau goruchel yr Arglwydd Iesu yw Cynghorwr. "Gelwir ei enw Ef, Rhyfeddol, *Cynghorwr*, y Duw Cadarn;" *Esa.* ix. 6. Efe ydyw y Cynghorwr, medd Henry, o blegid yr oedd yn adnabod ac yn deall cynghorion Duw er tragwyddoldeb yn berffaith, ac y mae yn rhoddi cyfarwyddiadau i feibion dynion o barth eu hapusrwydd a'u llwyddiant. Trwyddo ef y mae Duw yn rhoddi cynghorion i ni: *Salm* xvi. 7; *Dad.* iii. 18. Efe ydyw doethineb Duw, ac y mae wedi ei wneuthur i ni gan Dduw yn ddoethineb. Y mae rhai yn cyssylltu y ddau air hyn: "Efe ydyw y Cynghorwr Rhyfeddol:" y mae yn rhyfeddod neu yn wyrth o gynghorwr. Yn hyn, fel mewn pethau ereill, y mae Efe yn blaenori. Y mae yr esbonwyr Iuddewig, ar ol methu, gydag un gradd o debygolrwydd i wirionedd, gymhwyso y teitlau hyn at Hesecïah, yn haeru eu bod, oddi eithr yr olaf, yn golygu Duw, yr hwn sydd yn galw. Eu darlleniad hwy ydyw: "Efe a eilw ei enw (ei enw ei hun), Rhyfeddol, Cynghorwr, Duw Cadarn," &c. "Y mae yr ymgais hwn yn tarddu," medd Calvin, "oddi ar awydd, neu yn hytrach, oddi ar ysfa annuwiol, i dywyllu gogoniant Crist. Ond ar wahân oddi wrth resymau ieithyddol i'r gwrthwyneb, y mae y crybwylliad am gynnifer o enwau lehofah, yn y fan yma, yn gwbl ddiangenrhaid ac anmhriodol." Y mae esboniadaeth ddiweddar yn Germany wedi defnyddio pob dyfais i geisio amddiffadu yr enwau o'u hystyr mwyaf dwfn, i'r dyben o'u cyfaddasu at y drychfeddwl o Fessïah yn yr ystyr Iuddewaidd. Ond wrth wneuthur felly, y maent wedi cymmeryd golwg ar yr enwau yn ormodol ar eu penau eu hunain, gan edrych dros yr amgylchiad fod ystyr llawnach a dyfnach y priodoliaethau hyn yn ymddangos yn fwy eglur wrth edrych arnynt yn eu cyssylltiad â'u gilydd, ac â'r cyd-destyn. Y mae y teitlau yn bedwar mewn nifer, a phob un o'r pedwar yn cael ei wneyd i fyny o ddau air. Darlleniad Hengstenberg ydyw: "*And his name shall be called Wonder, Counsellor, God-Hero, Even-Father, Prince of Peace.*" "Y mae y gair 'Cynghorwr' yn dynodi y briodoliaeth, tra y mae 'Rhyfeddol' yn gosod allan y graddau goruchnaturiol a goruch-ddynol ac y meddiennir y briodoliaeth hon gan y Brenin, a'r trysorau anfeidrol o ddyddanwch a chynnorthwy sydd i'w cael ynddo. Fel Cynghorwr, y mae yn Rhyfeddod; mae wedi ei ddyrchafu yn annhraethol uwch law pob peth sydd gan y ddaiar, yn rhagorol mewn ymgynghoriad. Y mae y gair פלא yn dynodi *rhyfeddod* yn yr ystyr mwyaf cyfyng. Cymharer *pen.* xxv. 1; *Exod.* xv. 2. Y mae ŷ dull y cyfieithwyd y gair hwn gan rai—sef, 'Cynghorwr anghyffredinol'—yn cael ei ystyried is law meddwl y gwreiddiol. Y mae *Barn.* xiii. 18 yn meddu ystyr cyfredol: 'Pa ham yr ymofynir am fy enw, gan ei fod yn rhyfeddol?' hyny yw, mae fy holl natur yn rhyfeddol, a dwfn tu hwnt i ddychymyg; ac felly nis gellir rhoddi dysgrifiad o honi â geiriau dynol. Y mae yr hyn a ddywedir yma am un briodoliaeth o eiddo y Person mawr pur yr un mor wir am ei holl natur: y mae y Brenin yn rhyfeddol fel cynghorwr, am fod ei holl berson yn rhyfeddol. Y mae yn radd o brawf fod y geiriau 'rhyfeddol' a 'chynghorwr' yn gyssylltiedig yma â'u gilydd, eu bod felly yn *pen.* xxviii, xxix, lle y dywedir am y Goruchaf ei fod yn 'rhyfeddol yn ei gynghor.'"

Ni a roddwn y dyfyniad canlynol yn mhellach o Calvin:—"Dylid sylwi nad yw y teitlau hyn yn anmherthynol i'r pwnc; ond, yn hytrach, eu bod wedi eu cymhwyso at yr amgylchiad dan ystyriaeth; o blegid y mae y prophwyd yn dysgrifio yr hyn a ddengys Crist ei hun i'r credinwyr. Nid yw yn llefaru am hanfod ddirgelaidd Crist, ond am ei ragoriaethau; y rhai a ganfyddwn ac a brofwn trwy ffydd. Trwy y teitl cyntaf, y mae yn deffro meddyliau y duwiol i astudrwydd dyfal, fel y dysgwylient oddi wrth Grist rywbeth mwy rhagorol na'r pethau y maent yn weled yn nghwrs naturiol gweithredoedd Duw, fel pe y dywedasai fod 'trysorau anchwiliadwy pob peth rhyfeddol wedi eu cuddio a'u cadw yn Nghrist.' Rheswm ac ystyr yr ail deitl, 'Cynghorwr,' ydyw, fod y Gwaredwr wedi ei gynnysgaethu â doethineb perffaith. Yn awr, os ystyriwn yr hyn a ddywedwyd yn awr—fod y prophwyd yn llefaru, nid am hanfod ddirgeledig Crist, ond am ei allu fel yr adnabyddir ef genym ni, gwelwn mai nid am fod y Mab yn gwybod holl ddirgelion a bwriadau ei Dad y mae y prophwyd yn ei alw yn 'Gynghorwr,' ond yn hytrach am ei fod ar y cyfrif ei fod wedi dyfod o fynwes y Tad, yn mhob modd y dysgawdwr uchaf a pherffeithiaf."

Y mae Bacon, yn ei *Essays*, yn gwneyd y sylwadau canlynol am gynghoriaid, ac am fanteision ac anfanteision ymgynghoriad:—"Yr ymddiried uchaf rhwng dyn a dyn ydyw yr ymddiried sydd yn gynnwysedig mewn ymgynghoriad; o blegid yn mhob ymddiriedaeth arall, y mae dynion yn rhoddi rhyw bethau neillduol yn ngofal ereill, megys eu tir, eu meddiannau, eu plant, neu ryw achos neillduol; ond y maent yn rhoddi y cwbl i'r rhai a wnant yn gynghorwyr: o gymmaint a hyny y mae cynghorwyr yn fwy rhwymedig na neb i ffyddlondeb a diffuantrwydd. Ni raid i'n

Digitized by Google

tywysogion doethaf feddwl ei fod yn un lleihâd ar eu mawredd, neu sarhâd ar eu digonolrwydd, i roddi pwys ar gynghor. Nid yw Duw ei hun heb gynghorwr, ond rhoddir ef yn enw ar ei Fab bendigedig. Y mae Solomon wedi sicrhau mai mewn cynghor y mae diogelwch. Y mae i bob peth ei gynhyrfiad, yn fuan neu yn hwyr: os na ysgydwir hwynt gan resymau a dadleuon ymgynghoriad, teflir hwynt i fyny ac i lawr gan donau ffawd (*fortune*), a byddant yn llawn ansefydlogrwydd fel dyn meddw. Gwelodd mab Solomon nerth cynghor, fel y gwelodd ei dad yr angenrheidrwydd am dano; o blegid rhwygwyd breniniaeth Israel gan gynghor gwael: ac yn yr amgylchiad hwn, ni a gawn ddau nôd wrth ba rai y gallwn adnabod cynghor drwg—fod y cynghoriaid yn ieuainc, a'r cynghor yn fyrbwyll.

"Yr anghyfleusderau a berthynant i gynghor ydynt y rhai canlynol:—Yn gyntaf, y mae amgylchiadau yn cael eu gwneyd yn hysbys, trwy yr hyn y mae y dirgelwch oedd yn perthyn iddynt yn flaenorol yn colli. Yn ail, y mae awdurdod tywysogion yn cael ei wanhau, fel pe y byddent yn llai ynddynt eu hunain. Yn drydydd, y mae yn beryglus i un gael ei gynghori yn anffyddlawn, a bod y cynghorwr yn ceisio at ei lesâd ei hun yn fwy nag eiddo yr hwn a gynghorir. Gyda golwg ar gadw pethau yn ddirgel, nid yw tywysogion yn rhwym o adrodd eu holl amgylchiadau wrth eu holl gynghoriaid; ond gallant ddethol: nid yw chwaith yn angenrheidiol i'r hwn sydd yn ymgynghori pa beth i'w wneyd, fynegu pa beth a wna; ond gofaled y tywysogion na ddaw y dadleniad o'u cyfrin-bethau trwyddynt hwy eu hunain. Y mae rhai amgylchiadau yn gofyn diogelu y pethau yn hollol; ni ddylid eu hysbysu ond i un neu ddau; ac nid yw yr ymgynghoriadau hyn yn afluyddiannus; o blegid, heb law mater ymddiogeliad, y mae y cynghoriaid yn gyffredin yn myned rhagddynt yn yr un ysbryd a'r un cyfeiriad: ond yn yr amgylchiadau hyn, y mae yn ofynol fod y brenin yn ddyn doeth, fel ag i allu malu â llawfelin (llywodraethu heb lywodraeth drefnus orphenedig); a dylai y cynghoriaid hyny hefyd fod yn ddynion doeth, ac yn neillduol yn gywir a ffyddlawn i amcanion y brenin. Fel hyn yr oedd gyda Harri VII. brenin Lloegr: yn ei amgylchiadau pwysicaf, ni ddadguddiai ei feddwl i neb oddigerth Fox a Morton.

"Gyda golwg ar yr anfantais arall, y rhydd dynion gynghorion gyda chyfeiriad at eu lles eu hunain, gellir sylwi fod rhai dynion yn naturiol yn ffyddlawn, cywir, dihoced, ac yn hawdd eu hadnabod: bydded i dywysogion, uwch law pob peth, dynu dynion fel hyn atynt. Heb law hyny, nid ydyw cynghoriaid yn gyffredin mor unedig, fel nad oes yn eu myag un yn gwylio symmudiadau y llall, fel, os rhydd rhyw un gynghor oddi ar ysbryd ymbleidgar, neu oddi ar gymhelliadau personol, y mae hyny yn gyffredin yn dyfod i glustiau y brenin; ond y feddyginiaeth oreu ydyw, fod i dywysogion adnabod eu cynghoriaid yn gystal ag y mae eu cynghoriaid yn eu hadnabod hwy: *Principis est virtus maxima nosse suos*=rhinwedd neillduol mewn tywysog ydyw adnabod ei ddynion ei hun. Ac ar y llaw arall, ni ddylai cynghoriaid fod yn rhy chwilfrydig o barth i berson eu Mawrhydi; o blegid gwir gymhwysder cynghorwr ydyw bod yn fedrus yn ngwaith ei feistr, yn hytrach na bod yn wybodus am ei dymmer a'i natur; o blegid felly y mae yn debyg o'i gynghori, ac nid o borthi ei fympwy. Y mae o ddefnydd neillduol i freninoedd ymgynghori â'u cynghorwyr ar wahân a chyda eu gilydd; o blegid y mae barn bersonol yn fwy rhydd, tra y mae barn yn mhresennoldeb ereill yn debyg o gael ei dylanwadu ganddynt. Mewn neillduaeth, y mae dynion yn fwy hyf yn eu tybiau eu hunain; ac mewn cymdeithas, y maent yn fwy agored i wrthwynebiad oddi wrth opiniynau ereill: felly, y mae yn beth buddiol cymmeryd y ddwy ffordd. Y mae yn beth ofer i freninoedd ymgynghori o barth materion, os nad ymgynghorant hefyd o barth personau; o blegid y mae pob materion fel delwau meirwon; ac y mae effeithiolrwydd gweinyddiad mesurau yn gorphwys ar ddewisiad da o bersonau."

CYNGHOR, CYNGHORFA—AU: [*councils, synods*]. Wrth ddarllen yr erthyglau a geir yn nglŷn âg enwau y gwahanol ddinasoedd (megys Nicaia, Caer Cystenyn, &c.), lle y cynnullid ac y cedwid y cynnadleddau eglwysig a elwir wrth yr enw uchod, ac yno gael golwg ar yr hyn a gymmerai le ynddynt, canfyddir yn eglur beth oedd eu natur, eu cyfansoddiad, a'u hamcan. Gwelir mai cymmanfaoedd oeddynt o wŷr eglwysig—preladiaid, a rhai yn blaenori, yn benaf—wedi dyfod yn nghyd i gydystyried a threfnu materion perthynol i athrawiaeth a dysgyblaeth yr eglwys. Gwir nad cynghorfäau *talvithiol*—sef y sawl y traethir arnynt yn yr adran gyntaf o'r erthygl hon, ydoedd y rhai penaf hyny a gynnaliwyd yn y dinasoedd uchod, ond rhai *cyffredinol;* eto, diau y gellir yn briodol ar y cyfan gymhwyso y darnodiad hwn at y naill a'r llall o ran eu hegwyddor gyfansoddiadol; o herwydd, fel y nodir yn ol llaw, ffurfiwyd y gyffredinol ar ddelw ac yn ol cynllun y daleithiol; gwahaniaethent yn benaf o ran cylch eu dylanwad a'u hawdurdod—cynnrychiolai y ddiweddaf dalaeth unigol, a dim ond hyny, tra yr edrychid ar y gyntaf fel yn cynnrychioli yr holl eglwys.

Yn nechreuad ei gyrfa, yr ydym yn cael fod Cristionogaeth—mor bell ag y teimlai fod yn rhaid iddi i ryw fesur wrth drefniadau allanol—yn mabwysiadu rhai o'r ffurfiau ag oeddynt eisoes mewn arferiad gyda'r grefydd hono ag y daethai hi, mewn rhan fawr, gyda'r amcan o'i diddymu. Yn y synagog Iuddewig, a chyda phob sect a ddeilliodd o Iuddewaeth, llywyddid ar, a gofelid am, achosion ac amgylchiadau y frawdoliaeth gyffredin gan gyngnor o henuriaid—πρεσβύτεροι. Ymgymmerodd Cristionogaeth gan hyny â'r dull yma. Yn mlyneddoedd cyntaf yr oes apostolaidd, ymddiriedwyd arweiniad a blaenoriaeth y cymdeithasau crefyddol i gynghor o henuriaid—nid hynatgwyr yn gymmaint, ond y cyfryw ag a ragorent mewn pob rhyw ddawn a theilyngdod. Heb law yr enwad cyffredin πρεσβύτεροι, a roddid i'r blaenoriaid hyn yn y cyfundebau, arferid hefyd enwau ereill, oeddynt yn ddynodiad o'r cylch y llafuriai y swyddogion hyn ynddo, a natur y gorchwyl a gwblheid ganddynt, megys ποιμένες=bugeiliaid, &c.

Drachefn, fel yr ymledai Cristionogaeth tu hwnt i derfynau y parthau hyny o'r byd lle y ffynai Iuddewaeth, ac yr ymwasgarai i blith y paganiaid, ni bu eglwys Crist, o ran ei hagweddau allanol, yn rhydd oddi wrth ddylanwad yr egwyddorion a'r trefniadau hyny a lywodraethent fywyd cymdeithasol y bobl yn nhriogaethau yr ymherodraeth Rufeinig yr amser hwnw. Rhufain, fel y mae yn hysbys, oedd

Digitized by Google

unbenaeth fawr y byd pan y dechreuwyd cyhoeddi a sefydlu crefydd yr Arglwydd Iesu yn mhlith ei drigolion, ac y mae rhywbeth o ddullwedd trefniadau gwladwriaethol yr ymherodraeth, fel y dygid y rhai hyny yn mlaen yn ei gwahanol randiroedd, i'w ganfod yn nodweddu sefydliadau dechreuol yr eglwys: yr ydym yn gweled ei bod yn mabwysiadu iddi ei hun, ac yn cyfaddasu at ei hangenion, rai o briodoleddau neillduol arferion a defodau cymdeithasol y bröydd hyny y deuai i mewn iddynt. Daw y dylanwad hwn o eiddo y gwladol ar y crefyddol i olwg y meddwl a fyfyria hanes dyddorol yr eglwysi cyntefig yn eu perthynasau y naill â'r llall. O fod yn gymdeithasau unigol o frodyr yn yr Arglwydd, wedi eu planu a'u sefydlu o un i un, yn ngwahanol ddinasoedd, trefydd, a phentrefydd y taleithiau —cwbl neillduedig ac annibynol ar eu gilydd yn y dechreu — daethant yn dra buan i ymestyn at, nes cyrhaedd, undeb a chydgyssylltiad mewn amrywiol ffyrdd rhwng y naill a'r llall. O ran hanfod a gwreiddyn yr awyddfryd hwn yn Nghristionogion y cynoesoedd am undeb a chyfathrach rhwng y naill gymdeithas grefyddol yn un ddinas â'u brodyr mewn tref arall, cyfodai yn ddiau o natur y grefydd oedd yn fywyd yn eu hysbrydoedd; ond pan ymddadblygai yr awydd hwnw, ac y llwyddai i gyrhaedd ei amcan, byddai yr ymdrafodaeth rhwng y gwahanol gymdeithasau crefyddol a'u gilydd—a ddaeth i fod mewn canlyniad iddo—yn dwyn llawer o ddelw dull y cynghorau gwladol yn y dinasoedd a'r taleithiau o ymdrin â'r materion dinesig a gwladol a ofynent am hyny. Ac am nad oedd y sefydliadau gwladwriaethol hyny wedi eu trwytho yn ddigonol âg ysbryd rhyddfrydol Cristionogaeth, bu mabwysiad rhai o'u helfenau i'w gwasanaeth hi, wedi hyny, yn achlysur i attal cynnydd crefydd ysbrydol.

Fel rheol gyffredinol, ymledaenai Cristionogaeth o'r dinasoedd i'r wlad, a llwyddodd yn dra bore mewn llawer o'r parthau gwledig. Yn y dechreu, deuai y Cristionogion o'r wlad i'r ddinas i addoli; ond wedi lluosogi o honynt, ymffurfient yn gymdeithasau ar eu penau eu hunain, ac ymofynent âg esgob yr eglwys yn y ddinas y buont unwaith mewn cyssylltiad â hi ar fod iddo osod arnynt henuriad, yr hwn, o ganlyniad, byth wedi hyny, a arosai yn ddarostyngedig i esgob y ddinas. O hyn y deilliodd yr undeb eglwysig cyntaf rhwng cymdeithasau crefyddol y dref a'r wlad; y rhai, gyda'u gilydd, a ffurfient un cyfangorff.

Cyssylltiad eglwysig pwysicach drachefn ydoedd yr un a darddodd o'r berthynas oedd rhwng prif ddinas talaeth a'r dinasoedd ereill o'i mewn. Megys y lledaenwyd Cristionogaeth gan mwyaf o'r dinasoedd i'r wlad, felly, yn gyffredin, ymledai o'r dinasoedd penaf (μετροπόλεις) i'r trefydd taleithiol ereill ar hyd a lled y wlad. Yn awr, gan fod y rhai diweddaf, mewn ystyr gwladwriaethol, yn ddarostyngedig i'r blaenaf, yn raddol ffurfiwyd undeb agos a pherthynas israddol rhwng y cymdeithasau crefyddol yn y trefydd gwledig a'r rhai hyny a ymgynnullent at eu gilydd yn y brif neu y fam-ddinas. O herwydd y blaenoriaeth gwladyddol a berthynai i'r brif ddinas yn ei chyssylltiad â'r dinasoedd ereill, yn fuan daeth eglwys y lle cyntaf i gael ei hystyried fel y brif eglwys o fewn y dalaeth, a i hesgob i gael edrych arno fel prif esgob y rhandir. Er hyny, o herwydd rhyw achosion lleol, yn ystod y cyfnod cyntaf o hanes yr eglwys, cyfyngid hyn yn benaf i'r dwyrain. Hefyd, ar yr un egwyddor eto, mwy hyd yn oed na dylanwad dinasoedd penaf y taleithiau oedd dylanwad y dinasoedd hyny oedd bob un yn ganolbwynt y dosbarthiadau mwyaf o'r ymherodraeth; yn mha rai y buasai yr apostolion eu hunain, neu ddysgyblion wedi eu dwyn i fyny wrth eu traed, yn pregethu yr efengyl; o ba rai y cludasid efengyl Crist drwy a thros barthau eangaf ymherodraeth Rhufain, ac at eglwysi pa rai yr ysgrifenasid llythyrau ysbrydoledig yr apostolion: am hyny, perthynai i'r, a derbyniai, yr eglwysi yma, fel eglwysi apostolaidd, barchedigaeth arbenigol. Y cyfryw ddinasoedd ydoedd Rhufain, Antiochia, Ephesus, Alexandria, a Corinth; a thrachefn, goruwch pob un arall o'r eglwysi apostolaidd yr ystyrid eglwys prif ddinas fawr yr ymherodraeth ei hunan—Rhufain. Pan y cyfodai dadl o barth i unrhyw un o drefniadau neu athrawiaethau yr eglwys, yr ymofyniad cyntaf oedd, pa fodd yr edrychid ar y peth yn y manau hyny lle yr oedd yr egwyddorion a ddysgwyd yno gan yr apostolion eu hunain wedi eu cadw yn ffyddlawn a diogel o genedlaeth i genedlaeth.

Sylwyd o'r blaen fod undeb llawer agosach yn yr amseroedd boreuaf rhwng y cymdeithasau crefyddol a berthynent i'r un dalaeth. Yn mhob amgylchiad o bwys, pan y cyfodai dadleuon o barth pynciau athrawiaethol, buchedd yr eglwys, neu ddysgyblaeth eglwysig, deuai yn nghyd bersonau wedi eu hanfon i gynnrychioli y gwahanol eglwysi; ac yn y modd yma, wedi dyfod o honynt i'r un lle, cydymgynghorent ar ba beth bynag yr oedd eisieu ei drafod ganddynt. Yn yr ymgais hwn o eiddo y Cristionogion cyntefig i efelychu y gynnadledd o apostolion a henuriaid yn Ierusalem [gwel CYNGHORFA APOSTOLAIDD] yr ydym yn cael y symmudiadau cyntaf at y cynghorfäau eglwysig. Mewn cyssylltiad â'r dadleuon o barth amser y Pasc, a'r prophwydoliaethau Montanaidd tua chanol yr ail ganrif, y cawn y cyfryw gymmanfaoedd gyntaf oll; ond fel sefydliad rheolaidd a pharhäus, âg amseroedd penodedig a therfynol wedi eu gosod iddi, yr adeg gyntaf y mae y gynghorfa daleithiol yn gwneyd ei hymddangosiad ydyw, diwedd yr ail, neu ddechreu y drydedd ganrif; a hyny fel defod ac arfer neillduol o eiddo rhandir penodol, lle yr oedd achosion lleol a *gwladol* yn tueddu i arwain i drefniad o'r fath yma yn gynt nag mewn gwledydd ereill. Byth er amser y cynghrair rhwng y deuddeg talaeth Achaiaidd, cadwesid yn fyw i raddau helaeth yn ngwlad Groeg, a elwir yn briodol felly, ysbryd hoff o gyfathrachu, a chydymwneyd â'u gilydd o barth i achosion cyhoeddus, a dyma y rhandir a roddodd fod gyntaf i'r cynghorfäau. Gan fod yn ngallu Cristionogaeth ymgymmeryd âg, ac ymglymu am, bob rhyw neillduolion cenedlaethol, mor bell ag y maent rydd oddi wrth yr hyn sydd anfoesol ynddo ei hun—ïe, ymsuddo i mewn iddynt, cyfranu o'i hysbryd ei hun iddynt, ac hyd yn oed ei hamlygu ei hun dan eu ffurf neillduol hwy—gan mai un o nodweddau crefydd Iesu Grist yw hyn, hawdd y gallasai yr ysbryd *gwladol* a *dinesig* o gydgynghreiriad a chyfflywodraeth (*federation*), a ffynai eisoes yn ngwlad Groeg, fyned i mewn i'r *eglwys*, a rhoddi iddi sefydliad oedd mewn gwirionedd yn dra chyfaddas er dwyn yn mlaen ymgynghoriadau cyffredin ei haelodau hithau. Felly, yr ydym i olrhain y cymmanfaoedd a gynnrychiolent y gwahanol gymdeithasau eglwysig, neu y cynghorfäau taleithiol,

Digitized by Google

i'r cynnulliadau gwladol hyny a gynnrychiolent ddinasoedd Groeg—y cynghorau Amphictyonaidd. Yn eu hymwybodolrwydd o'u hanallu i ddim heb yr Ysbryd o'r uchelder, nid ymafaelai y Cristionogion cyntaf mewn un gorchwyl o bwys heb yn gyntaf benlinio mewn gweddi: felly hefyd ar agoriad y cymmanfaoedd hyn, parotoent eu hunain ar gyfer yr ymgynghoriadau cyhoeddus trwy ymuno mewn gweddi arno Ef a addawsai oleuo ac arwain ei ddysgyblion ffyddlawn pan yr ymddibynent arno, a bod yn eu canol pa bryd bynag yr ymgynnullent yn ei enw.

Ymddengys ddarfod i'r sefydliad rheolaidd yma ar y cyntaf gael ei wrthwynebu fel newyddbeth a fynai symmud hen ddefodau; a theimlodd Tertullian mai rhaid oedd dyfod allan i'w amddiffyn. Pa fodd bynag, yr oedd ffrwd teimlad cyffredin yr eglwys yn ffafriol i'r trefniad, ac yn fuan iawn dilynwyd esampl gwlad Groeg trwy y dwyrain oll; fel, erbyn canol y drydedd ganrif, yr ymddengys fod cynghorfäau taleithiol wedi dyfod yn gyffredinol—yn gymmaint felly, fel y cawn eu bod yn cael eu cynnal ar yr un amser mewn rhanau o'r eglwys oeddynt mor bell oddi wrth eu gilydd a gogledd Affrica a Cappadocia. Ymgynnullent at eu gilydd yn flyneddol neu bob hanner blwyddyn, ac yr oedd gan bob esgob o fewn y dalaeth eisteddle a phleidlais ynddynt; ac, fel eithradau i'r rheol, hyd yn oed henuriaid a chyffeswyr. Yr oedd y cyfarfodydd, meddir, yn gyhoeddus; ac er mai yr esgobion, wrth reswm, oeddynt y personau pwysicaf yn y cynnadleddau, eto, parai y bobl a ddeuent yno fod eu dylanwad hwythau yn cael ei deimlo. Ni feddyliai neb fod anffaeledigrwydd yn perthyn iddynt; nid oedd iddynt un awdurdod tu hwnt i derfynau eu talaeth briodol eu hunain; ac, fel y nodwyd mewn rhan, yn y cyffredin yr oedd y taleithiau eglwysig yma yn cyfateb i daleithiau yr ymherodraeth.

Diau y *gallasai* y cynghorfäau hyn effeithio er daioni arbenig, trwy fod yn foddion i ddwyn allan a phuro bywyd yr eglwys; a gwir yw ddarfod iddynt ddwyn oddi amgylch lesäd mewn llawer ystyr. Yn yr ymgynghoriadau cyffredinol hyny, gallasai golygiadau y naill symmud ymaith gamsyniadau y llall, a rhoddid mantais iddynt gyflawnu diffygion eu gilydd: hawddach fel hyn fyddai dadleu ar, ac ymdrin â'r, hyn oedd gamweddus, diffygiol, ac mewn angen am ddiwygiad; a thrwy gydgymundeb mewn ysbryd brawdol, deuai profiad y cyfan yn eiddo i un. A diammheu nad oedd yn sawru o benboethni nac o ryfyg tra-arglwyddaidd chwaith, os oedd y dirprwywyr a'r swyddogion llywyddol, yn yr ymwybodolrwydd mai yn enw Crist yr oeddynt wedi ymgynnull, yn hyderus yn ymddibynu ar arweiniad ei Ysbryd ef, gan mai offerynau yn ei law yn unig y dymunent fod.

Ond er mor dda ynddo ei hun, a daionus yn ei effeithiau, oedd yr ymddiried hyderus hwn, rhoddwyd iddo gyfeiriad tra niweidiol pan y dechreuwyd peidio ei gyssylltu âg ysbryd gostyngedig, a hunanymwadol, ac y gollyngid dros gof ar ba ammod yr addawsai Crist i gwblhau yr addewid hono; sef, eu bod wedi dyfod yn yn nghyd *yn ei enw ef*. Pan, mewn anystyriaeth o hyn, y credai yr esgobion fod ganddynt, fel y cyfryw, hawl i'r goleuni a'r arweiniad oddi uchod, aeth yr hyder disail hwn yn ffynnonell i'r holl hunandwyll a'r balchder ysbrydol a'i amlygai ei hun yn y geiriau a arferid gyssylltu â barnau a phenderfyniadau y cyfryw gynghorfäau pan eu gwneid yn hysbys—sef eu bod "dan arweiniad a thrwy ddylanwad yr Ysbryd Glân."

Drachefn, rhaid ddarfod i'r cynghorfäau effeithio er attal cynnydd yr eglwys, pan, yn lle darparu ar gyfer y cymdeithasau eglwysig yn ol fel y byddai cyfnewidiadau amser yn amrywio eu hangenion, yr ymdrechasant hwy rwymo â deddfau anghyfnewidiol bethau ansefydlog ac anwadal. Niwed a drwg ydoedd cau allan o bob cyfranogiad yn ngweithrediadau y cymmanfaoedd hyn bawb ond esgobion; o herwydd, o'r diwedd, daeth y rhai diweddaf hyn i feddu pob awdurdod o'u mewn, a thrwy y fantais i ymuno â'u gilydd a roddai y cynghorfäau hyn iddynt, cynnyddai eu hawdurdod yn feunyddiol.

Y mae y cynghorfäau taleithiol, neu *achlysurol*, wedi bod yn lluosog. Yn Aix la Chapelle, yn y flwyddyn 816, ymgynnullodd cynghorfa er trefnu canonau eglwysydd cadeiriol. Cynghorfa Savonnieries, yn 859, a roddodd gyntaf i frenin Ffrainc y teitl o Frenin Mwyaf Cristionogol; ond ni ddaeth hwn yn gyfenwad neillduol y penadur hwnw hyd y flwyddyn 1469. Galwyd cynghorfa i Troyes, yn 887, er penderfynu yr ymrafaelion yn nghylch awdurdod yr ymherawdwyr. Ail gynghorfa Troyes, yn 1107, a attaliodd yr offeiriaid rhag priodi. Bu cynghorfa yn Clermont, yn 1095. Hon a benderfynodd ar y crwysgad cyntaf. Hyd y pryd hwnw, yr esgobion oedd biau y flaenoriaeth ar y cardinaliaid. Yn y gynghorfa yma y rhoddwyd yr enw "pab" gyntaf i ben yr eglwys, gan amddifadu yr esgobion—y rhai gynt a arferent gymmeryd iddynt en hunain y teitl hwnw—oddi wrth bob hawl iddo. Yma hetyd y cafodd Hugh, archesgob Lyons, gan y pab gadarnhau a gwirio mai uwch oedd ei esgobaeth ef na'r eiddo Sens. Cynghorfa Rheims, gwysiedig gan Eugenius III. yn 1148, a alwodd gymmanfa o wŷr Cisastria yn Gâl, ac yno y gwahardd wyd i noddwyr bywoliaethau eglwysig godi mwy am danynt nag yn yr hen amseroedd, dan boen difeddianniad, a chael eu hamddifadu o gladdedigaeth eglwysig. Ni chaniateid i esgobion, diaconiaid, isddiaconiaid, mynachod, na lleianod, briodi. Yn y gynghorfa hon, penderfynwyd athrawiaeth y Drindod: ond ar eu gwaith yn ymadael, galwodd y pab at eu gilydd gynnulleidfa drachefn; ac yno cymmerai y cardinaliaid arnynt nad oedd ganddynt hwy un hawl i farnu am bynciau athrawiaethol—mai hawlfraint neillduol y pab ydoedd hyny. Yn nghynghorfa Sutrium, yn 1046, diswyddwyd tri o babau oedd wedi esgyn i'r gadair yn anghyfreithlawn. Cynnaliwyd cynghorfa Clarendon, yn erbyn Becket, yn Lloegr, yn 1164. Yn 1200, o herwydd rhyw gynhwrf yn achos yr Albigensiaid, gwysiwyd cynghorfa Lombez, yn ngwlad yr Albegois; ffurfiwyd croesgad yn nglŷn â'r achos hwn, ac anfonwyd byddin i ddifodi yr Albigensiaid. Innocent III. a gynhyrfodd y rhyfel barbaraidd hwn. Dominic ydoedd apostol y rhyfel; Iarll Montfert, yr arweinydd neu y blaenor; ac Iarll Toulouse oedd yr un a syrthiodd yn aberth iddo. Cynghorfa Paris, yn 1210, a draddododd ysgrifeniadau uchanianol Aristotle i'r tân, rhag y byddai i goethder yr athronydd hwnw effeithio yn ddrwg ar feddyliau dynion trwy gymhwyso ei bynciau at grefydd. Agorodd cynghorfa Piza ar yr ail o Fawrth, 1409, yn mha un y diswyddwyd Benedict XIII. a Gregory XII. Cynnaliwyd cynghorfa arall yn Piza, yn 1505, yr hon, weithiau, a elwir yn gyffredinol. Wedi

Digitized by Google

ei ddigio yn fawr gan y pab, ac yn flin a no o herwydd ymddygiad pen yr eglwys, galwodd Lewis XII. o Ffrainc, gynghorfa genedlaethol i Tours, yn 1510; yn bresennol, fel cynnrychiolydd y pab, yr oedd y cardinal De Gurce; ac yno penderfynwyd gwysio cynghorfa gyffredinol i Piza.

CYNGHORFAAU CYFFREDINOL.

Cyfodasai dadleuon amrywiol a lluosog o barth athrawiaethau a threfniadau crefydd trwy y byd Cristionogol oll braidd tua dechreu y bedwaredd ganrif. I raddau pell iawn, nis gallasai fod yn amgen. Mewn cyssylltiad â'r gwirioneddau a gydnabyddid fel erthyglau ffydd Cristionogaeth, ymagorai maes eang o flaen ymchwil y meddwl ymofyngar, a rhoddai lluaws o'r rhai a broffesent ymlyniad wrth grefydd Mab Duw y ffrwyn i'w hawydd am fyned i mewn i'r maes yma. Llywodraethid rhai dosbarthiadau o honynt yn fwy na'u cyfoedion gan y tueddfryd hwn. Yr oedd hoffder Cristionogion gwlad Groeg yn fawr at ymresymu a myfyrdod ymofyngar: ac yn yr amser y cyfeiriwyd ato uchod, wedi cael seibiant oddi wrth erlidigaeth, gan fwynhau tangnefedd oddi allan, a'r eglwys dan nawdd amddiffynol yr awdurdodau gwladol, galluogid hwy yn fwy dirwystr i gerdded yn ffordd eu chwilfrydedd; yr hyn sydd yn gyfreithlawn, pan yn cael ei reoli gan feddwl pwyllog, ac o duedd sicr i ddwyn yn fwy i'r golwg degwch a gogoniant y gwirionedd, pan yr arweinir ef gan reswm doeth a fydd yn adnabod ei le. Pa fodd bynag, gan y ffynai yr ysbryd uchod yn dra chyffredinol y pryd hwnw, nid oedd gwahanol olygiadau duwinyddol, yn arwain i ddadleuon, ond yr hyn y gellid yn naturiol ei ddysgwyl, fel effaith gwahanol ddulliau o feddwl ar wirioneddau oeddynt yn agored i amrywiol ffyrdd o'u deongli. O ganlyniad, yr oedd y pleidiau a'r "ysgolion" yn tra amlhau. Gwahaniaethai y dadleuon y pryd hwn hefyd oddi wrth yr hyn y buont unwaith. *Gynt*, cyfyngid hwy i daleithiau neilduol; *yn awr*, yr oedd y byd Cristionogol (yr hwn nad ydoedd, er hyny, yn fawr amgen na'r hyn a orweddai o fewn terfynau ymherodraeth Rhufain), trwy anghytundebau gyda golwg ar athrawiaethau duwinyddol, oll wedi ymranu yn wahanol bleidiau—eu hanghytundeb, gan mwyaf, ac yn y gwreiddyn o hono, yn deilliaw o'u gwaith yn gwyro oddi wrth y gwahaniaeth cyntefig a chywir rhwng πίστις (ffydd), a γνῶσις (gwybodaeth). Arweiniodd y cyfnewidiad a nodwyd, oedd wedi cymmeryd lle yn nodwedd y dadleuon, sef eu hymeangiad o ran eu cyffredinolrwydd, i gyfnewidiad cyfatebol yn ngwaith yr eglwys o ymddwyn tuag atynt. Gwelai y rhai a ymawyddent am undeb cyffredinol yn yr eglwys—yn mysg pa rai, a hyny oddi ar ddybenion politicaidd, i raddau pell, yr oedd yr ymherawdwr Cystenyn—fod yn anmhosibl sylweddoli eu drychfeddwl hwy, tra y parhäai pethau yn yr agwedd yma: a'r ymgais i symmud ymaith yr anghysur hwn o anghydfod, ac i ddwyn yr eglwys oll i'r un ffydd, dan lywodraeth yr un penadur, a arweiniodd i ffurfiad cynghorfäau cyffredinol yr eglwys—*Ecumenical councils, concilia universalia*, συνόδοι οἰκουμενικαι (wrth οἰκουμενη, y deallid, ar y cyntaf, ymherodraeth Rhufain).

Gan fod dynion eisoes wedi arfer ystyried y cynghorfäau taleithiol fel y brawdleoedd uchaf, a'r llysoedd deddfwriaethol penaf y gellid appelio atynt wrth raid yn y gwahanol daleithiau, yr oedd y drychfeddwl o ffurfio, yn ol rhyw ddull cyfatebol, frawdfainc gyffelyb i'r holl eglwys, er penderfynu dadleuon a gynhyrfent Gristionogion trwy yr ymherodraeth oll, yn feddwl eithaf naturiol. Gwel CYNGHORFA NICAIA.

Megys yr oeddid ar y pryd yn golygu y cynghorfäau taleithiol fel offerynau yr Ysbryd Glân i arwain a chyfarwyddo eglwysi rhandir neu ddosbarth penodol o wlad, felly hefyd, cymhwysid yr un egwyddor at berthynas cynghorfäau cyffredinol â'r holl eglwys. Y mae yn amlwg fod yr hyn sydd yn cyfansoddi cynghorfa gyffredinol, yn yr ystyr eglwysig o'r gair, yn fater sydd yn rhoddi llawer o le i goleddu gwahanol olygiadau yn ei gylch; ac y mae yr un mor eglur, na chynnaliwyd erioed y cyfryw gynghorfa yn ystyr manwl a chyfyng yr ymadrodd. Am y cymmanfaoedd cyntefig hyn a elwir felly, fe'u gwneid i fyny, mewn gwirionedd, yn unig o esgobion a drigent o fewn terfynau ymherodraeth Rhufain yn unig, a dylanwadid yn fawr ar eu trefn a'u gweithrediadau gan fympwy yr ymherawdwr a'r patriarchiaid; ond yn gymmaint ag mai o fewn cylch yr ymherodraeth y ceid corff cyfan yr eglwys, ac y caniateid i esgobion o wledydd a elwid yn farbaraidd eistedd ynddynt, edrychid arnynt fel yn priodol gynnrychioli yr holl Eglwys Gatholig (Gyffredinol). Derbyniasant yr enw sydd arnynt tua diwedd y bedwaredd ganrif. Yr oedd iddynt amcan deublyg: gwastatau ymrafaelion yn nghylch athrawiaethau, a phenderfynu ar gyfansoddiad yr eglwys, ei ffurfiau o addoli, a'i dysgyblaeth.

Yr oedd yn anmhosibl dyfod i gyd-ddealltwriaeth heddychlawn ynddynt mewn perthynas i bynciau o athrawiaeth y dadleuid yn eu cylch. Cloffid pob plaid gan gyfundrefn a ffurfiasid yn flaenorol ganddynt hwy eu hunain; barnent bob peth wrth hono, heb geisio chwilio i syniadau a goleddid gan ereill. Ymrysonau cynhenus rhwng nwydau pleidgarwch a welid ynddynt; a byddai eu barn yn y diwedd ar bob mater wedi ei ragbenderfynu gan berthynas y pleidiau mewn dadl â'r gallu uchaf a threchaf yn y gynghorfa. Dengys ymadroddion Gregory o Nazianzen y llwyr anobeithiai efe am ddim da oddi wrthynt. Fel ffrwyth profiad helaeth, y mae yr esgob enwog hwnw yn rhoddi yr adroddiad hynod hwn am y dull o weithredu yn y cyfryw gymmanfaoedd:—"A dyweyd y gwir," meddai, "yr wyf yn arswydo rhag pob cymmanfa o esgobion, o herwydd, hyd yma, ni welais ddiwedd da yn dyfod o un o honynt. Ni bum erioed mewn cynghorfa a wnaeth fwy er darostwng nag a wnaeth er chwanegu drygau; o herwydd ffyna ynddynt gynhenau, ymrysonau, yn nghyd â'r syched tanbeidiaf am feddiannu y llaw uchaf yn rheoleiddiad pethau. Bydd dyn yn llawer tebycach o ddwyn arno ei hun y gwaradwydd o geisio gosod ei hun yn farnwr drygioni dynion ereill, nag o lwyddo, trwy unrhyw ymdrech o'i eiddo ef, i symmud dim o'r drygau hyny i ffordd."

Eto, er yr holl ddybenion anmhur ac annheilwng o eiddo dynion a ymwthient i'r cynghorfäau hyn, ystyrid hwy gan ddynion fel offerynau trwy ba rai yr arweiniai yr Ysbryd Glân ysgogiadau cynnyddol yr eglwys—fel llais penderfynol yr Ysbryd ar yr hyn oedd o'r blaen yn ammheus ac ansicr; ac i'r hwn benderfyniad, gan hyny, yr oedd pob dyn yn rhwym o ddarostwng ei farn anmherffaith ef ei hun. Barn a golygiad Awstin ar y mater hwn ydoedd, "nad yw penderfyniad pynciau dadleuedig yn deilliaw yn unig ac yn uniongyrchol o weithrediadau y cynghorfäau

Digitized by Google

yma; ond yn hytrach, fod y gweithredhadau hyn wedi eu parotoi a dylanwadu arnynt gan yr ymchwiliadau duwinyddol a aethant o'u blaen hwy. Nid ydyw penderfyniad a dedfryd cymmanfa yn amgen na dadganiad syml o sel a chymmeradwyaeth gyhoeddus a chyffredinol, wrth yr hyn y mae yr eglwys wedi dyfod i'w ddeall fel ffrwyth ac effaith ei hymofyngarwch hyd yn awr. Y mae yn canlyn, y dichon i bwnc y dadleuir yn ei gylch, ar lawer pryd, fod yn gyfryw ag y mae yn anmhosibl hyd yn oed i gynghorfa gyffredinol benderfynu arno; a hyny o herwydd nad yw yr ymchwiliadau blaenorol wedi parotoi y ffordd yn ddigonol iddi i wneuthur hyny yn gadarn a safadwy." Yn ol y ddamcaniaeth hon, gwaith a dyledswydd cynghorfäau cyffredinol oedd, amlygu yn benderfynol, a selio yn safadwy, bob gwirionedd yr oedd ymsyniad mewnol a chyffredinol yr Eglwys Gristionogol, dan arweiniad yr Ysbryd Glân, i fyny hyd ryw bwynt penodol, mewn cyfnod neillduol o amser, wedi dyfod i gydweled arno Y cyfan a wneir ganddynt, gan hyny, yw gosod mewn ffurf benodol a safadwy yr hyn y mae yr eglwys wedi dyfod i ymdeimlo â'i wirionedd — swm a sylwedd gwirioneddau Cristionogaeth, fel y daethant i'w canfod yn fwy eglur pan yn gwrthymdrech â'r cyfeiliornadau diweddaraf. Oddi wrth y dyb yma, y mae yn canlyn y dichon i ddysgawdwr goleuedig yn yr eglwys, ar ryw gyfnod neillduol, fod yn coledd camsyniad o barth rhyw un pwnc pwysig, heb, trwy hyny, syrthio i'r cymmeriad o au-gredwr; o herwydd, gyda golwg ar yr un pwnc hwnw, dichon nad yw ymsyniad yr eglwys wedi cyrhaedd yr addfedrwydd gofynol i benderfynu arno. Ond, pan, ar ol treigliad amser, ac ymchwil diflino, y mae yr ymsyniad Cristionogol wedi cyrhaedd y pwynt dan sylw, a'i amlygu ei hun ar y pwnc yr anghytunir arno trwy gyfrwng cynghorfa gyffredinol, y mae gostyngeiddrwydd priodol yn galw ar y person unigol i adystyried ei farn ef yn ngwyneb y farn gyffredinol sydd wedi ei rhoddi ar y gwirionedd hwnw mewn cynghorfa. Amlwg yw, pa fodd bynag, fod damcaniaeth Awstin yn caniatau y dichon i'r hyn a wnaed mewn cynghorfäau boreuol gael ei ddiwygio a'i wella gan rai diweddarach; yn gymmaint ag nad yw pob cynghorfa yn ei phenderfyniadau ond yn cyfateb i syniad yr eglwys am y gwirionedd yn y cyfnod penodol hwnw arni. Eto, dichon ei fod yn ammhëus a dybiai efe mewn gwirionedd y gallasai cynghorfa ddadgan cyfeiliornad pendant; neu ynte, ai ei farn yn syml ydoedd, yr hyn a draethwyd cyn hir wedi hyny gan Vincentius o Sirinum, yn ei *Commonitorium*—gwaith a ysgrifenwyd o ddeutu y flwyddyn 434; sef, mai yr unig ffordd trwy ba un y gallasai cynghorfa wella neu ddiwygio penderfyniadau un o'i rhagflaenoriaid ydoedd, fod iddi ddefflnio a dwyn i fwy o eglurdeb yr hyn a adawsid yn anmhenderfynol gan yr hon a aethai o'r blaen, yn ol fel y byddai yr eglwys yn gofyn am hyny, er gwrthsefyll ffurfiau newyddion ar gyfeiliornadau.

Dygwyd i gyssylltiad â'r cymmanfaoedd hyn elfen hollol groes i ysbryd a naws efengyl y gwirionedd, ac elfen a agorodd y ffordd i ddrygau lawer, pan y gosododd yr ymherawdwyr eu penderfyniadau ar yr un tir a'r deddfau gwladol, gan ddefnyddio holl ddylanwad ac awdurdod y wladwriaeth er dirgymhell ymostyngiad i'r penderfyniadau hyn oddi wrth bawb yn ddiwahân. Yn y cynamseroedd, ymfoddlonai y cynghorfäau a wysid o herwydd hereticiaid ar geisio osgoi dylanwad y gau athrawiaethau trwy eu gwadu a chyhoeddi eu twyll; ond y cynghorfäau cyffredinol, gan deimlo eu grym a'u dylanwad eglwysig, ac yn cael eu cynnal a'u cefnogi gan awdurdod yr orsedd ymherodrol, a ddechreuasant osod eu penderfyniadau pendant a'u barnau hwy i fyny fel erthyglau ffydd yr eglwys. Gan yr ystyrient bob dedfryd o'r eiddynt yn gyfryw ag nas gellid ei chyfnewid er gwell, hawdd gweled fel y cyfyngid, o radd i radd, ar rydd ymchwiliad i, a barn bersonol ar, athrawiaethau crefydd. O herwydd y caethiwed hwn hefyd, ymgyndynai y gwrthwynebwyr o hyny yn fwy, a diystyrent y penderfyniadau oedd yn treisio eu cydwybodau hwy. Rhwygiad ar rwygiad a fu y canlyniad. Cafodd yr ymdrechfa y dylanwad pwysicaf ar berthynasau a hanes mewnol yr eglwys; ac, o herwydd y rhan a gymmerai yr ymherawdwyr ynddi, bu yn ymdrech o bwysigrwydd gwladol nid bychan hefyd. O'r amser hwn (tua dechreu y bedwaredd ganrif) yn mlaen, y mae hanes dadleuon ac ymrysonau duwinyddol yn ffurfio, nid yn unig gyfnod pwysig yn hanes yr eglwys ond yn hanes ymherodraeth Rhufain hefyd. Yn y gallu a'r awdurdod hwn i gyhoeddi barn benderfynol ar bob mater a roddid i'r cynghorfäau cyffredinol, a'r syniad o ddyled pob person unigol i ymostwng i'w dedfryd hwy, yr oedd rhyddledaeniad a chynnydd ysbrydolrwydd Cristionogaeth yn mysg dynion i gyfarfod â rhwystr ac attalfa o'r math mwyaf ansymmudol ac anorchfygol. Yma, yn ei wir nodwedd, canfyddwn flaendarddiad y gyfundrefn orgyfyng a chaethiwus hono a fu dros oesoedd lawer yn uchaf, ac â llaw drom yn llywio ac yn rheoli megys pen ar y rhan fwyaf o wledydd Cred, nes yr ysbeiliwyd hi o'i nerth trwy y Diwygiad, ac y dygwyd i'r eglwys raddau o'r bywyd ysbrydol rhydd hwnw y mae ei wreiddiau yn hanfod yr efengyl, a'r hwn sydd yn ei dilyn pa le bynag y pregethir hi yn ei phurdeb. Nis gall Cristionogaeth, yn ei phurdeb hanfodol ei hun, lai nag ymdrechu yn erbyn pob peth a fynai ddwyn ei deiliaid yn gaeth i awdurdod ddynol; nid yw hi yn gofyn un ufudd-dod anghydweddol â gwir natur ac urddas ysbryd dyn; ac y mae mor bell o sefyll yn erbyn ac ar ffordd gwir ryddid—fel, yn hytrach, mai hi yn unig a ddichon ei gynnyrchu. Yr hyn oll y mae Cristionogaeth yn ei ofyn ydyw, fod i ysbryd dyn, wedi dyfod o hono yn deimladwy o'i wir angenion, ymostwng i addysgiadau tragwyddol Ysbryd Duw, yr hwn yn unig a all gyfranu iddo yr hyn y mae yn dyhëu am dano, a chyflawnu ei holl raid. Llefara yr Ysbryd, trwy y gair, wrth bob dyn fel person unigol; mynega y gwirionedd iddo yn nirgelaf leoedd ei galon; gwna hyny i'r graddau y mae meddwl ac ysbryd y dyn mewn cyflwr parod i dderbyn a phriodol i iawn ddefnyddio yr hyn sydd yn cael ei gyfranu. Yr hyn y mae dyn yn ei wybod o'r ffynnonell yma —yr hyn y mae yn ei dderbyn ac yn ei deimlo yn nirgeloedd ei galon trwy y dadguddiad hwn —hyny yn unig y mae yn bosibl iddo ei fywiol gredu, ac o ddyfnder tu fewnol ei enaid gydnabod mai gwirionedd ydyw. Dywed Facundus o Hermiane—"Ni bydd Crist byth yn ol o roddi ei bresennoldeb i'w offeiriaid, ymgynnulledig yn ei enw; o herwydd, ac efe yn wirionedd hollalluog ei hun, nis gall fod yn anffyddlawn i'w addewid." Ond yr ammod a ragdybir yma, ar feddu yr hon y dibynai cyflawniad o'r addewid—dyna yn gymhwys, mewn gwirionedd, oedd y peth diffygiol

Digitized by Google

yn fynych yn y cymmanfaoedd hyn. Mewn llawer amgylchiad, gallesid yn briodol ddyweyd unrhyw beth am danynt heb law eu bod wedi ymgynnull yn enw Crist: ac ni ddylid eu hystyried fel cyfryngau ei feddwl i'r eglwys?

Gan fod a fynai penderfyniadau cynghorfäau cyffredinol, nid yn unig â phynciau athrawiaethol, ond hefyd â materion cyssylltiedig â helynt a buchedd allanol yr eglwys, a'i chyfansoddiad, ac â defodau eglwysig, deilliodd o hyn hefyd niwed arall: sef, trwy eu hymyriad hwy, fe ddarfu i ffurfiau o addysg—y rhai, yn eu natur eu hunain, sydd yn amryddull a chyfnewidiol—gael eu darostwng i ddeddf ddigyfnewid o unffurfiaeth farw; o herwydd, mewn cyssylltiad â'r pethau hyn, rhoddasant lawer o ganonau a rheolau i'r eglwys gerdded wrthynt yn ei threfniadau a'i chyfansoddiad allanol.

Drachefn, yr oedd cynghorfa gyffredinol yn llys oedd yn hawlio awdurdod i weithredu a rhoddi cyfreithiau i'r holl eglwys. Ac yn nechreuad y chweched ganrif, cyflwynodd abad Rhufeinig, o'r enw Dionysius Exiguus, i'r eglwys orllewinol lyfr o ddeddfau eglwysig. Cynnwysai gasgliad a wnaethai efe o benderfyniadau (*decretales*) ysgrifenedig esgobion Rhufain, mewn attebiad i gwestiynau eglwysig a anfonasid atynt, o'r flwyddyn 385 yn mlaen, ac o reolau neu ddeddfau (*canones*) y cynghorfäau cyffredinol, a'r pwysicaf o'r rhai talaethol hefyd. Daeth y llyfr yn fuan i gael ei gydnabod o awdurdod oruchel; a bu gwaith ei awdwr yn rhoddi lle mor arbenig ynddo i'r penderfyniadau a'r barnau Pabaidd yn foddion a ddylanwadodd lawer er dwyn oddi amgylch yr unbenaeth Babaidd yn eglwys y gorllewin.

Y mae nifer y cynghorfäau yr ydym i'w hystyried fel o wir nodwedd ac awdurdod cyffredinol yn fater y mae anghytundeb o berthynas iddo. Rhydd Bullinger chwech fel y nifer cywir; Dr. Prideaux, saith; yr esgob Beveridge, wyth; a'r hanesydd eglwysig, Dr. Charles Hase, saith, gan chwanegu atynt Gynghorfa Sardica yn y gorllewin, ac ail Gynghorfa Trullo yn Eglwys Groeg.

Y Pabyddion a gyfrifant bedwar-ar-bymtheg o honynt—wyth yn y dwyrain, ac un-ar-ddeg yn y gorllewin.

Rhoddwn yma restr o'r cynghorfäau a elwir yn 'Gynghorfäau Cyffredinol' (*the Œcumenical Councils*) gan yr awdurdodau goreu; y blynyddoedd y cynnaliwyd hwynt; a'r hyn a wnaed ynddynt:—

Y Cynghorfeydd Dwyreiniol.

1. Y gyntaf a gynnaliwyd yn Nicaia (*Nice*)—yn y fl. 325 B.A. Llywyddid hi gan Cystenyn Fawr. Dadganwyd o blaid cyd-hanfodiad y Mab a'r Tad yn yr hanfod ddwyfol, a chondemniwyd Ariaeth, a chyfansoddwyd Credo Nicaia.
2. Cynghorfa Caer Cystenyn—yn 381. Dadganwyd fod esgob Caer Cystenyn yn nesaf mewn urddas i esgob Rhufain. Chwanegwyd at Credo Nicaia.
3. Cynghorfa Ephesus—yn 431. Cyhoeddwyd anathema uwch ben Nestorius, a gwrthwynebwyd chwanegu at Credo Nicaia.
4. Cynghorfa Chalcedon—yn 451. Dadganwyd fod dwy natur Crist, y ddwyfol a'r ddynol, fel y cyhoeddwyd gan Leo o Rufain. Cymmeradwywyd chwanegiad Caer Cystenyn at Credo Nicaia.
5. Cynghorfa Caer Cystenyn—yn 553. Condemniwyd y tair pennod a ysgrifenwyd gan Theodore o Mopsuestia, Theodoret, ac eraill.
6. Cynghorfa Caer Cystenyn etto—o 680 i 681. Yn erbyn y Monotheliiad.
7. Ail Gynghorfa Nicaia—yn 787. Yn erbyn yr Iconoclastiaid—y rhai a wrthwynebent yr arferiad o ddelwau mewn addoliad crefyddol.
8. Cynghorfa Caer Cystenyn—yn 869 a 870. Yn erbyn yr Iconoclastiaid, a heresiau.

Y Cynghorfeydd Gorllewinol.

9. Cynghorfa gyntaf Lateran—enw un o eglwysydd Rhufain—yn 1123. Yr hawl i swyddau a'u manteision yn cael ei benderfynu rhwng y Pab Calixtus II. a'r ymherawdwr Harri V.
10. Ail Gynghorfa Lateran—yn 1139. Y prif destyn oedd amddiffyniad eiddo neu feddiannau y clerigwyr.
11. Trydydd Gynghorfa Lateran, yn 1179. Yn erbyn sismaticiaid.
12. Pedwaredd Gynghorfa Lateran—yn 1215. Yn erbyn Albigensiaid, &c.
13. Cynghorfa Lyons, yn 1245. Yr ymherawdwr Frederick yn cael ei ddiorseddu.
14. Cynghorfa Lyons etto—yn 1274. Undeb am dymmhor rhwng eglwysi Groeg a Rhufain.
15. Cynghorfa Vienne yn Dauphiné—yn 1311 a 1312. Diddymu urdd Marchogion y Deml (*Knights Templars*).
16. Cynghorfa Pisa—yn 1409. Yr ymhònwyr (pabau) Gregory XII. a Benedict XIII. yn cael eu hanghymmeradwyo; ac ethol Alexander yn Bab.
17. Cynghorfa Constance—o 1414 hyd 1418. Ethol Martin V. yn Bab; a chondemnio John Huss, a Jerome o Prague, i gael eu llosgi.
18. Cynghorfa Basel—o 1431 hyd 1443.
19. Pummed Cynghorfa Lateran—o 1512 hyd 1517. Cynnaliwyd hi gyda'r amcan o ddiddymu yr hyn a elwir '*the pragmatic sanction of France*;' sef, un o ordeiniadau brenhinoedd Ffrainge, yr hon a wnaed yn y fl. 1438 gan Siarl VII., yn amddiffyn hawliau yr Eglwys Bab: idd yn y wlad hono i ddewis ei hesgobion; ac yn erbyn gwaith y Pab yn ceisio cymmeryd yr awdurdod hwnw i'w ddwylaw ei hun.
20. Cymmanfa Trent—o 1545 hyd 1563. Cynnaliwyd hi i gondemnio athrawiaethau y diwygwyr, Luther, Zuinglius, a Calvin.
21. Cynghorfa Rhufain, o Rhagfyr 8fed, 1869, hyd Gorphenaf 18fed, 1870. Danganwyd a chyhoeddwyd yr athrawiaeth Babaidd afresymol ac anysgrythyrol—fel llawer o'r rhai y cyfeiriwyd atynt uchod—fod y Pab yn anffaeledig. Yr oedd yr hòniad mor wrthun fel yr ymadawodd llawer o'r esgobion o'r ymdrafodaeth.

Gwaith y Babaeth yw dyrchafu y rhai diweddaf i urddas 'cynghorfäau cyffredinol.' Gwysiwyd hwynt gan y pabau. Ond wrth orchymyn yr ymheradwyr y daeth yr wyth cyntaf ynghyd.

Heb law a geir yn yr erthygl hon, ymofyner am hanes cynghorfäau eraill dan eu gwahanol enwau, y rhai ni elwir yn 'gynghorfäau cyffredinol.'—(*Neander's Gen. History of the Christian Religion, and the Church; Giesseler's Eccles. Hist.; Hase's Hist. of the Christian Church, &c.*)

CYNGHORFA ARLES: a gynnaliwyd yn —1. Yn 314, trwy orchymyn Cystenyn, wedi appeliad y Donatiaid, y rhai a gondemniwyd yn Rhufain, yn 313. Daeth lliaws yn nghyd i'r synod hon. Cadarnhaodd benderfyniad y gynghorfa Rufeinig, a gosododd i fyny ddwy ar hugain o ganonau eglwysig yn erbyn camddefnyddio dysgyblaeth yr eglwys. 2. Yn 353, trwy orchymyn yr ymherawdwr Constantius, yr hwn a geisiai (a thrwy y synod hon a lwyddodd i gael) ryddid i'r Ariaid ddyfod i mewn i'r eglwys, a chondemniad ar Athanasius. 3. Yn 452. Rhydd rhai y flwyddyn 380 fel adeg ymgynnulliad hon. Nid oedd ei gweithrediadau ne awr yn amgen nag ail fyned dros yr hyn a benderfynwyd yn nghynghorfa Nicaia. 4. Yn 475. Cynghorfa er cefnogi Hanner-Pelagiaeth.

DINBYCH, ARGRAPHWYD GAN T. GEE A'I FAB.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google